Owen Williams
Hirdir
Llanfair

4 4 i

"Amser i erni, ac amser i farw."

COF-RESTR TEULUAIDD.

Owen Williams Llwynyne
by farw Ebrill 16 1848 ei oed 63
by farw Grace Williams Hydref 26
1850 ei hoed 66
Grace Williams by farw Medi 30
1868 ei Hoed 54
Mary Price by farw Ionawr 25
1870 ei Hoed 57
Ellen Williams by farw Mawrth 12
1881 ei Hoed 57
Edward Williams Hirclir
by farw Awst 31ain - 97 oed. 70
Richard Williams, Bryn Chwarew
by farw Hydref 27ain 1887 ei oed 67.
Grace Williams Hirclir
by farw Ionawr 31ain - 90 - oed 67.

PARCH. JAMES HUGHES,
Jewin Crescent, Llundain.

yr eiboch yu Siffuant,
James Hughes

Argraffwyd gan P. M. Evans,
Treffynnon, 1845.

Y

TESTAMENT NEWYDD;

GYDA

NODAU EGLURHAOL AR BOB ADNOD,

WEDI EU DETHOLI, A'U CYFIEITHU I'R GYMRAEG, ALLAN O'R ESBONIADAU ENWOCAF; OND YN BENAF O WAITH

POOL, SCOTT, GUYSE, A DODDRIDGE,

GAN Y PARCH. JAMES HUGHES,

LLUNDAIN:

YN NGHYDA HOLL

NODAU CYFEIRIOL Y DYWEDEDIG BARCH. T. SCOTT.

AIL ARGRAFFIAD,

GYDA DIWYGIADAU AC YCHWANEGIADAU.

TREFFYNNON:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN P. M. EVANS.

MDCCCXLVI.

RHAGYMADRODD Y DETHOLYDD

I'R

ARGRAFFIAD CYNTAF.

ANWYL GYDWLADWYR,

Pan ddaeth y doethion o'r dwyrain i ymofyn am Grist, Brenin yr Iuddewon, hwy a aethant i Jerusalem, at benaethiaid a blaenoriaid y bobl; ond, pan ddaeth yr angelion i fynegi ei enedigaeth ef, hwy a aethant at y bugeiliaid tlodion yn maesydd Bethlehem: ac yn debyg iddynt hwy, y bu ac y mae dyfodiad y gwaith bychan a dïymhonawl hwn. I blant tlodion ac athrawon unaith, ysgolion sabbathawl ein gwlad y bwriadwyd ef ar y cyntaf; ac nid i uchel raddau mewn dysgeidiaeth ac ieithoedd, y rhai a ddarllenant ac a ddeallant awduron dysgedig yn y Saesoneg ac ieithoedd eraill.

Ar y cyntaf, yr oeddid yn bwriadu cynnwys y cwbl ar y Testament Newydd mewn *un ar bymthag* o rifynau chwe' cheiniog; ond gwelwyd braidd cyn dechreu, nad oedd dichon gwneuthur dim a fuasai yn fuddiol, mewn càn lleied cylch â hyny; a phenderfynwyd, ar annogaeth rhai brodyr parchus ac enwog, ei estyn i *ugain* o rifynau. Gyda golwg ar y terfynau hyny, aeth y Detholydd yn fras a bŷr iawn dros y tri Efengylwr cyntaf; gan adael aneirif bethau yn sylwadau ei Awdwyr heb eu cyfieithu, rhag ofn myned dros y terfyn: ond erbyn dyfod at Efengyl Ioan, ac o hyny yn mlaen hyd y diwedd, gwelai fod yn anmhosibl iddo gadw at y byrdra a ddechreuasai, heb wneyd dirfawr gam â'r Awdwyr y detholai o honynt, a'r gwaith fel eglurâd ar y gair sanctaidd; ac heb golledu a siomi y rhai a brynent ac a ddarllenent y gwaith, gan ddysgwyl cael rhyw lesâd a hyfrydwch ynddo.

Erbyn hyn hefyd, yr oeddid yn cael aml annogaeth o wahanol fànau, i beidio a bŷrâu, eithr yn hytrach helaethu y sylwadau; a rhwng yr annogaethau hyny, â'r helaethrwydd o ddefnyddiau gwerthfawr oedd wrth law, ymollyngwyd i helaethu y sylwadau mwy na pheidio; a chwyddodd y gwaith i'w faintioli presenol, agos y dau cymmaint â'r ugain rhifyn a fwriadesid ar y cyntaf. Os bai ydoedd hyny, bai y Detholydd yn hollawl ydoedd, ar annogaeth amryw o dderbynwyr y gwaith; ac nid bai y Cyhoeddwr mewn un modd, yr hwn nid oedd ganddo ddim i'w wneyd ond argraffu y sylwadau fel y danfonid hwy iddo, neu attal a rhoddi i fynu y gwaith yn annorphen ac ar ei hanner. Dylid sylwi yma, nad oedd un elw na mantais neillduol i'r Detholydd o chwyddo y llyfr; gwnaeth ei orau i gadw at fyrdra; aeth y sylwadau yn llawer llai buddiol drwy hyny; a'i ofid mwyaf ef drwy ystod yr holl waith oedd, *gorfod* gadael allan gynnifer o bethau rhagorol a gwerthfawr, ag oedd yn sylwadau ei Awdwyr er egluro yr ysgrythyrau.

Pan ystyrier ei fod yn dethol allan o *bedwar* Awdwr lled feithion, cenfydd pob dyn rhesymol mai nid gorchwŷl hawdd oedd tàlfŷru: nid hawdd ychwaith oedd barnu pa beth i'w ddewis o honynt, a pha beth i'w adael: ac nid hawdd iawn hefyd oedd cyssylltu darnau o'r naill ac o'r llall, a'u gosod ger bron y Cymro fel un ymadrodd cyfan, trefnus, a llithrig. Pan ystyrier hefyd gyda hyn, bod y Detholydd yn llafurio dàn lawer o anfantais, o herwydd trafferthion teuluaidd yn aml, diffyg cymhwysder a mwy dysgeidiaeth, a mynych alwad oddi wrth ei waith at orchwylion eraill perthynol i'r weinidogaeth; mae yn beth go ryfedd fod y gwaith hwn wedi troi allan yn gystal ag ydyw. Buwyd ychydig mwy na phedair blynedd yn ei gyflawni; cafwyd llawer o boen a llawer o bleser wrtho; a'r peth cyntaf a wnaed wedi ysgrifenu y llinell olaf o hòno oedd, myned ar y ddeu-lin ger bron gorsedd y nefol rad, i ddïolch i Dduw holl-drugarog am nerth, iechyd, ac arbediad bywyd i'w orphen; ac am i'r gwaith fod yn fendithiol i'r neb a'i darlleno; yn enwedig i ieuenctid a thlodion uniaith ein gwlad, y rhai nid oes ganddynt agoriadau gwell a helaethach ar yr Ysgrythyrau Sanctaidd.

Hydera y Detholydd fod athrawiaeth y gwaith bychan hwn yn iach; o leiaf mae yn unol â meddyliau yr Awdwyr clodfawr a ddefnyddiwyd: ac hyd yn nôd eu *geiriau* gan mwyaf wedi eu cadw yn gydwybodol, heb eu gŵyro na chyfnewid dim arnynt. Hydera hefyd, bod yr iaith yn gyffredin yn ddifeïus ac yn ddealladwy i bawb; heb fod yn rhŷ uchel a choegaidd ar y

naill law, nac yn rhŷ wael a difoes ar y llaw arall: gwnaed y gorau a ellid yn hyn fel yn mhob peth arall; ond o herwydd yr anfanteision a'r anhawsderau a grybwyllwyd uchod, nis gallwyd gofalu bob amser am eiriadu a sillebu yn fanol gywir; ac ni wiw i'r beirniad manyl-graff ar eiriau a llythyrenau, osod ei fanylwch cywrein-ddoeth ar waith yma: yr oedd gan yr ysgrifenydd beth mwy, ac anhawsach, dàn ei ystyriaeth, nag iawn osodiad geiriau a llythyrenau. Am y gwallau argraffyddol, nid ydynt yn perthyn iddo ef, eithr i Ddiwygiwr y Wasg; a rhyfedd na buasent yn amlach mewn argraff mòr fân.

Mae yn dra hoff gan y Detholydd feddwl, er pelled ydyw o'i wlad enedigol er ys mwy na 35 o flynyddoedd, bod y fath liaws o ieuenctyd Cymru y dyddiau hyn, mòr llafurus am wybodaeth ysgrythyrol, am ddeall pethau mawrion Duw, a thrwy hyny adnabod Iesu Grist, yr hwn yw y gwir Dduw a'r bywyd tragywyddol. I'r dyben o'u cynnorthwyo mewn rhyw fesur bychan yn hyny, y llafuriodd efe yn wyneb llawer o waeledd corph, anhawsderau allanol, a mynych iselder meddwl, i orphen y gwaith bychan a diaddurn hwn: gobeithio y bydd yn fuddiol; a thuag at iddo fod felly yn fwy, deisyfir ar ei ddarllenwyr mewn modd arbenig, i wneyd mawr ddefnydd o'r cyfeiriadau ysgrythyrol sydd dàn bob adnod: trwy lafur mawr y casglodd yr hen *Scott* dduwiol hwynt; trwy lafur a manylwch mawr yr argraffwyd hwy yn y gwaith hwn; nid oes mo eu gwell i'w cael yn yr holl fyd; a phrofodd llaweroedd hwynt yn gynnorthwy rhagorol i ddeall yr Ysgrythyr Sanctaidd. Os na bydd y *sylwadau* yn werth gan ddynion dysgedig a gweinidogion eu darllen, mae yn sicr y gall y rhai hyny gael lles mawr o ddefnyddio y *cyfeiriadau;* ac y mae y rhai hyny yn unig, yn werth pris yr holl lyfr.

Gan obeithio a gweddio, y bydd i'r llafur anmherffaith hwn fod yn fuddiol ac yn fendithiol i laweroedd, yn yr oes hon ac mewn oesoedd eto i ddyfod, y gorphwysa,

Anwyl Gydwladwyr,

Yr eiddoch yn mhob gwasanaeth a allaf,

JAMES HUGHES.

Rotherhithe, ger Llundain
Mai 1af, 1835

RHAGYMADRODD Y CYHOEDDWR

I'R

AIL ARGRAFFIAD.

WRTH gyflwyno yr argraffiad hwn o Esboniad y diweddar Barchedig JAMES HUGHES ar y Testament Newydd i sylw ei gydwladwyr, gall y Cyhoeddwr yn hawdd ddywedyd na arbedodd unrhyw ymdrech na thraul i'w ddwyn allan yn deilwng o'u cefnogiad; a dyledus arno addef ei fod yn teimlo yn llawen a diolchgar am ei alluogi fel hyn i'w gwbleiddio

Cafodd yr oll o'r Esboniad ei adolygu a'i ddiwygio gan Mr. Hughes ei hun, er ys dros flwyddyn cyn ei farwolaeth, a gwelir iddo roddi llawer o sylwadau ychwanegol yn ei ddeongliad ar y Pedwar Efengylwr, y rhai nad oeddynt yn yr argraffiad cyntaf. Y gwallau argraffyddol yn yr argraffiad hwnw a ddiwygiwyd yn hwn. Ac y mae bod yr holl Esboniad yn awr mewn un Cyflyfr hylaw, ac wedi ei gysodi â llythyrenau brasach ac eglurach nag ar y cyntaf, yn chwanegu yn fawr, hyderir, at ragoriaeth yr argraffiad. Gellir cyfeirio hefyd at y portrëad o Mr. Hughes, y mapiau daearyddol, y sylwadau arweiniol ar yr holl lyfrau, a'r amrywiol daflenau, &c., a osodwyd yn y diwedd, y rhai oll a ddarparwyd gyferbyn â'r argraffiad hwn.

Afreidiol yw dywedyd dim am yr Esboniad ei hun, gan ei fod wedi ennill cymmeradwyaeth gyffredinol oddi wrth genedl y Cymry. Prydferthwch y cyfansoddiad, purdeb yr iaith, eglurdeb a chynnwysedd y sylwadau, ysbryd rhagorol yr Esboniwr, a'r pryder a arddangosa am roddi allan wir feddwl Duw yn ei air, a gydunant i wneuthur yr Esboniad hwn yn wir ganmoladwy.

> "Fe erys yn anfarwol—drwy oesau
> Ei drysor esboniol;
> Golud yw ga'i wlad o'i ol,
> Mawrwerth waith anghydmarol."

Er nad yw Mr. Hughes, yn ei ddull gostyngedig a diymhongar, yn ei gyfrif ei hun ond yn Ddetholydd yn unig, cyfiawn ydyw ei alw yn Awdwr yr Esboniad, canys er ei fod yn defnyddio yr Awduron Seisonig oedd o'i flaen, yr oedd yn rhoddi ei enaid ei hun yn ei ysgrifen, gan ddodi i mewn lawer o nodiadau gwreiddiol, a chynhenid; a dilys yw nad oes un Esboniwr yn mysg y Saeson heb fyned i mewn i lafur ei rag-flaenoriaid.

Da fuasai gan y Cyhoeddwr allu anrhegu y darllenydd â Chofiant helaeth am gyfansoddwr yr Esboniad hwn; ond gan iddo fod yn aflwyddiannus yn ei gais am ddefnyddiau tuag at hyny, nid oes ganddo ond boddloni ar yr ychydig a ganlyn.

Ganwyd y diweddar James Hughes yn y Neuadd-ddu, Ciliau ger Trichrug, Aeron, Swydd Ceredigion, yn y flwyddyn 1779. Yr oedd yn ei flynyddoedd borëol, debygid, yn ymarfer llawer â gorchwylion amaethyddol a bugeiliol. Cofus gan yr ysgrifenydd ddarllen yn un o'i ganiadau, ei fod pan

> "——————— yn iraidd lanc,
> Yn arail praidd ei dad ar ben y banc."

Er nad oedd ei deulu o duedd grefyddol, ymddengys fod argraffiadau crefydd ar feddyliau Mr. Hughes, er pan yn dra ieuanc, pa rai nas gadawsant ef byth yn llwyr. Rhoes ei hun i'r Arglwydd yn nyddiau ei ieuenctyd, gan fwrw ei goelbren yn mysg y Methodistiaid Calfinaidd. Daeth i Lundain pan yn 21 oed, a bu yn gweithio yn galed â'i ddwylaw yn *dock yard* y Llywodraeth yn Deptford nes cyrhaedd ei bummed flwydd a deugain. Dechreuodd bregethu yr efengyl yn ei unfed flwydd-ar-ddeg-ar-hugain, sef yn y fl. 1810, ac ordeiniwyd ef i holl waith y weinidogaeth yn Nghymdeithasfa Llangeithio yn y fl. 1816.

Dechreuodd ar yr Esboniad ar y Testament Newydd yn y fl. 1829, a gorphenodd y gwaith yn 1835. Yna cychwynodd ar yr Hen Destament, ac aeth ymlaen nes dechreu ar y xxxv bennod o Lyfr Jeremiah. Wedi cyrhaedd hyd y 7ed adnod, a dechreu ysgrifenu ar hòno, rhoddodd ei bin o'r neilldu cyn ei gorphen, gan feddwl adymaflyd yn fuan yn ei orchwyl; ond llesgedd ei natur a orfuodd; yr oedd ei lafur ar ben, ac efe a fu farw yn ei dŷ, yn mhlwyf

Rotherhithe, Tachwedd 2, 1844, yn 65 mlwydd oed. Ei eiriau olaf oeddynt, "Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd." Dyoddefasai gystudd trwm am amryw fisoedd gydag amynedd a thawelwch mawr. Claddwyd ef yn hen fonwent Bunhill-fields, yn ninas Llundain, a dilynwyd ef hyd "dŷ ei hir gartref" gan dorf fawr o'i gydwladwyr galarus. Pan gwympodd ef i'r bedd, gallesid dywedyd yn briodol, "Oni wyddoch chwi i dywysog ac i ŵr mawr syrthio heddyw yn Israel!"

Yr oedd Mr. Hughes yn ŵr o feddwl treiddgar, a'r meddwl hwnw wedi ei goethi gan wybodaeth ëang. Yr oedd yn enwog am ei hyddysgrwydd yn ngramadeg yr iaith Gymraeg, ac yn ei rhëolau barddonol; ac nid gormod dywedyd iddo ddyfod yn un o'r ysgoleigion Cymreig goreu yn ei oes. Yr oedd yr ieithydd campus, y Dr. William Owen Pughe, ac yntau, yn gyfeillion mawrion. Cyd-gyfieithient yn fynych ddarnau o weithiau enwogion barddonol y Saeson, gan feirniadu yn fanwl y naill ar waith y llall. Yn yr hen *Seren Gomer* gellir gweled amryw o'r cysdadlaethau cyfeillgar a basiodd rhyngddynt mewn prydyddiaeth. Cyrhaeddodd Mr. Hughes i gydnabyddiaeth helaeth a chywir â'r iaith Saesoneg, a chyfrifid ef yn gyffredinol yn arbenig am ei fedr fel cyfieithwr. Fel bardd yr oedd yn dra adnabyddus dàn yr enw *Iago Trichrug;* ymddangosodd llawer iawn o'i gyfansoddiadau barddonol yn nghyhoeddiadau cylchynol Cymru. Wrth gyfansoddi ar fesur caeth, gofalai yn wastad am arddangos synwyr rhydd. Yr oedd gwneyd englyn yn beth hynod naturiol iddo. Prin y gallai ysgrifenu llythyr at gyfaill heb i englyn neu ddau ddïanc oddi wrtho cyn y diwedd. Ei emynau a'i bennillion cysegredig ydynt yn nodedig am eu hystwythder, eu tlysni, a'u prïodolder.

Yr oedd wedi ei addurno â chymhwysderau mawrion fel gweinidog yr efengyl. Yr oedd yn bregethwr sylweddol, eglur, rhëolaidd, a serchog; byddai ganddo fater da, iaith dda, a llais a thraddodiad da. Yn nghanol dysgleirdeb ei alluoedd, a'i holl ragoriaethau, yr oedd o naturiaeth yn ddarostyngedig i iselder meddwl a llwfrdra ysbryd, a theimlai hyny ar amserau yn rhwystr iddo wrth bregethu, gan fel y llethid ef gan "ofn dyn." Ond aml a fu yr oedfäon a gafodd, pan y codid ef uwchlaw iddo ei hun a phawb dynion, ac y byddai yn "llawn o rym gan Ysbryd yr Arglwydd," nes dylanwadu yn effeithiol ar holl deimladau ei wrandäwyr. "Och o'r diwrnod" ar gynnulleidfa *Jewin Crescent,* pan y daethant i wybod "na chaent weled ei wyneb ef mwy!"

Fel y rhan fwyaf a gyrhaeddasant enwogrwydd yn mysg y Cymry, gorfu i Mr. Hughes ennill ei radd uchel fel ysgrifenydd ac fel pregethwr drwy fyrdd o anfanteision. Tra yr oedd raid iddo weithio yn ddygn "yn nghanol y mŵg a'r tân," a dwyn i fynu deulu lliosog, ac er cyfarfod ag "amryw brofedigaethau," nes dywedyd,

> "Yn Nghaerludd go brudd yw'm bron,
> Gan filoedd o ofalon;"

eto yn nghanol y cwbl, bu yn ddiwyd i amaethu ei feddwl ei hun, ac i borthi praidd Duw.

Yr oedd ei brofiad efengylaidd, a'i fywyd sanctaidd, yn dangos ei fod wedi derbyn yn helaeth o'r "eneiniad oddi wrth y Sanctaidd hwnw;" yn mhob peth ymddygai yn addas i "ŵr Duw."

Yn awr mae efe 'yn gorphwys oddi wrth ei lafur, a'i weithredoedd sydd yn ei ganlyn ef.' Yn ei Esboniad clodfawr, yn enwedig, "y mae efe wedi marw yn llefaru eto;" a dïau mai para i lefaru yn ddaionus a wna tra y pery "CYMRU, CYMRO, a CHYMRAEG."

Treffynnon,
Awst 24, 1846.

SYLWADAU CYFFREDINOL AC ARWEINIOL

AR

LYFRAU Y TESTAMENT NEWYDD.

YR EFENGYL YN OL MATTHEW

Mae y gair Efengyl yn arwyddo newyddion da neu genadwri lawen. Defnyddir y gair yn gyffredin yn y Testament Newydd i arwyddo y genadwri ei hun, sef y genadwri am iachawdwriaeth i bechaduriaid trwy gyfryngaeth yr Arglwydd Iesu Grist. Ond yma defnyddir ef i ddynodi y llyfr sy'n cynnwys yr hanes am yr amgylchiadau a gyfarfuant â'r Cenadwr Dwyfol yn nygiad ei genadwri i'r byd.

Pa bryd yr ysgrifenwyd yr Efengyl gan Matthew sydd wedi bod yn bwnc o ddadl gan ddysgedigion ysgrythyrol. Rhai a osodant yr amser mòr gynnar â'r flwyddyn 37 o oed Crist, ac eraill mòr ddiweddar â'r flwyddyn 63; ond y dŷb fwyaf cyffredin yw iddo ei hysgrifenu oddeutu y fl. 41, wyth neu ddeng mlynedd ar ol marwolaeth y Messiah. Mae cryn ddadl wedi bod hefyd ynghylch pa un ai yn yr iaith Hebraeg ynte yn yr iaith Roeg yr ysgrifenodd Matthew ei Efengyl. Gan yr ymddengys ei fod wedi ei hysgrifenu yn benaf i'w defnyddio gan y dychweledigion Iuddewaidd a Samariaidd, bernir gan amryw iddi ymddangos yn gyntaf yn yr Hebraeg, a'i chyfieithu i'r Roeg oddeutu y fl. 60, tra yr oedd Matthew eto yn fyw. Eraill, oddi wrth y mynych ddeongliad o eiriau Hebraeg, (pen. 1. 23, &c.) a benderfynant mai yn yr iaith Roeg yr ysgrifenodd Matthew ei Efengyl gyntaf. Pa fodd bynag, tebygol ydyw iddo ef ei hysgrifenu yn y ddwy iaith. Mae yr Efengyl, megys y mae genym yn yr iaith Roeg, yn ddiammeu yn gyfansoddiad gwreiddiol, ac nid yn gyfieithiad. Efallai i Matthew ysgrifenu yn yr Hebraeg yn fuan ar ol esgyniad ein Harglwydd, er mwyn y cristionogion Hebreaidd; ac yna yn y Groeg pan yr oedd crefydd Crist wedi ei thaenu yn fwy ëang. Nid peth anfynych ydoedd hyd yn nod i ysgrifenwyr anysbryd-oledig gyhoeddi eu gwaith mewn mwy nag un iaith. Ysgrifenodd Josephus, cydoeswr â Matthew, hanes y rhyfeloedd Iuddewig yn yr ieithoedd Hebraeg a Groeg.

Mae cynnwysiad yr Efengyl yn ol Matthew, ynghyd â thystiolaeth yr hen ysgrifenwyr, yn ymddangos iddi gael ei hysgrifenu yn benaf er cadarnâu yr Hebrëaid yn y ffydd gristionogol. Mae yr holl amgylchiadau a dueddent i foddloni meddyliau yr Iuddewon mai yr Iesu oedd y Crist, yn cael eu nodi allan yn eglur; ac adroddir y gwrthddadleuon a gyfodid yn erbyn yr Iesu gan yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, gyda'i atebion penderfynol ac anwrthwynebol yntau. Gan fod yr Iuddewon yn rhoddi pwys mawr ar gyflawniad y prophwydoliaethau, mae Matthew yn aros llawer gyda hyn; dengys achau yr Iesu oddi wrth Abraham trwy Ddafydd, a'i enedigaeth yn Methlehem, fel y rhag-ddywedwyd, ynghyd ag amgylchiadau eraill yn ei hanes a rag-fynegwyd gan y prophwydi. Mae Matthew mewn modd neillduol wedi dewis y rhanau hyny o hanes, ymddyddanion, a phregethau ein Iachawdwr, ag oedd yn fwyaf addas i argyhoeddi ei genedl ei hun o'u pechadurusrwydd, i symmud eu dysgwyliadau cyfeiliornus am deyrnas ddaearol gan y Messiah, i ddarostwng eu balchder a'u hunan-hyder cenedlaethol, i ddysgu iddynt ysbrydolrwydd goruchwyliaeth yr efengyl, ac i'w parotôi i roddi derbyniad i'r cenedloedd i eglwys Dduw.

Matthew, yr ysgrifenydd, yr hwn a gyfenwid Lefi, ydoedd frodor o Galilea. Cyn ei dröedigaeth, yr oedd yn gasglwr trethi dàn y Rhufeiniaid. (Gwel Matth. 9. 9; Luc. 5. 27.) Wedi ei alw gan Grist, parâodd i'w ddilyn trwy gydol ei weinidogaeth. Ar ol adgyfodiad Crist, arosodd yn Jerusalem gyda yr apostolion eraill, ac a dderbyniodd gyda hwynt ddawn yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost. Nid oes genym un hanes awdurdodedig am dano yn ganlynol. Socrates, ysgrifenydd yn y bummed ganrif, a ddywed iddo, wedi gwasgariad yr apostol-ion o Judea, fyned i Ethiopia, a marw yn ferthyr mewn dinas a elwir Nadebbar, ond trwy ba fath angau, nid yw yn hysbys. Eraill a soniant am ei bregethiad a'i angau yn Parthia neu Persia; ond y mae y gwahaniaeth yn eu hadroddiadau, yn peri nas gallwn edrych ar yr un o honynt yn hanes sicr.

YR EFENGYL YN OL MARC.

Marc, ysgrifenydd yr Efengyl hon, ydoedd nai i Barnabas, fab ei chwaer, Col. 4. 10. Enw ei fam ydoedd Mair, gwraig dduwiol yn Jerusalem, yn nhŷ yr hon y byddai yr apostolion a'r cristionogion boreuol yn mynych ymgynnull, Act. 12. 12. Ei enw Hebrëaidd ydoedd Ioan, a thybir iddo gymmeryd yr enw Marc, enw mwy cydnabyddus ac arferol, pan yr aeth i bregethu yr efengyl i fysg y cenedloedd. Yr oedd newidiad enw fel hyn yn arferiad tra chyffredin yn yr oes hòno. Oddi wrth fod Pedr yn ei alw yn fab iddo, 1 Pedr 5. 13, bernir i'r efengylydd Marc gael ei ddychwelyd trwy offerynoliaeth yr apostol hwnw. Wedi gwaredigaeth Pedr o'i garchar-iad gan Herod, aeth Marc gyda Paul a Barnabas ar eu hymdaith i bregethu yr efengyl, ond nid aeth efe gyda hwynt ar hyd eu holl daith, eithr efe a'u gadawodd yn Pamphylia, ac a ddychwelodd i Jerusalem, at Pedr a'r apostolion eraill, Act. 13. 13. Cawn wedi hyny ei fod yn Antiochia gyda Phaul a Barnabas, ac yn ewyllysgar i gyd-deithio â hwy; ond yr oedd Paul yn anfoddlawn i hyny, ac aeth Marc gyda Barnabas i Cyprus, Act. 15. 37—39. Ar ol hyny, efe a aeth gyda Timothëus i Rufain, ar ddymuniad penodol Paul, yn amser ei garchariad, 2 Tim. 4. 11. Arosodd yn Rhufain tra yr oedd Paul yno yn gaeth, ond am ba hyd sydd ansicr, Col. 4. 10. Philemon 24. Mae yn debygol iddo wedi hyn fyned i Asia, a dychwelyd i Rufain gyda Phedr, lle, mae yn debyg, yr ysgrifenodd ac y cyhoeddodd ei Efengyl. Yn chwanegol at yr hysbysiadau hyn a gesglir o'r Testament Newydd, mae ysgrifenwyr eraill yn dywedyd i Marc ar ol hyn fyned i'r Aipht, ac iddo, wedi plànu eglwys yn Alexandria, farw a chael ei gladdu yno yn y fl. 64.

Mae yr hysbysiadau uchod am Marc o bwys, gan eu bod yn dangos i ni y cysylltiad agos oedd rhwng Marc â dilynwyr cyntaf ein Harglwydd, ac felly y fantais oedd ganddo i ysgrifenu ei Efengyl, er nad oedd yn un o'r apostolion. Tebygol iddo ysgrifenu ei Efengyl yn rhywle o'r flwyddyn 60 i 63. Barn unfrydol yr hen Dadau ydyw fod Marc yn gwasanaethu fel ysgrifenydd i Pedr, ac iddo ysgrifenu yr Efengyl hon dan olygiaeth Pedr, a chyda ei gymeradwyaeth. Os felly, mae mawr ostyngeiddrwydd Pedr i'w weled yn dra amlwg yma. Gosodir allan ei ddiffygion a'i gwymp gyda manylrwydd yn efengyl Marc, tra na chrybwyllir ond yn brin iawn am bethau sydd yn anrhydedd iddo.

Mae yr eglurhadau a roddir yn achlysurol yn yr Efengyl hon (megys pen. 7. 3, 10, &c.) yn dangos ei bod wedi cael ei hysgrifenu yn benaf er mwyn y dychweledigion o'r cenedloedd; a gall hyn esbonio pa fodd yr oedd yn gadael allan achau Crist a'i fywyd boreuol, pa bethau oedd yn llawn dyddoreb i'r Iuddewon.

Mae Marc yn ysgrifenu yn hynod eglur a chryno. Adrodda fwy o weithredoedd nag o ddysgeidiaeth ein Iachawdwr, a dwg i fewn amrywiol amgylchiadau na chrybwyllir gan Matthew.

YR EFENGYL YN OL LUC.

Mae cryn ddadl wedi bod pa un ai Iuddew ai cenedl-ddyn ydoedd Luc. Y farn fwyaf cyffredin ydyw ei fod yn Genedl-ddyn o enedigaeth, ac iddo ddyfod yn Iuddew trwy broselytiaeth, cyn ei ddychweliad i'r ffydd Gristionogol. Dr. *Bloomfield* a farna ei fod yn gyffelyb i Timotheus, sef â'i dad yn Genedl-ddyn, a'i fam yn Iuddewes "Mae dull-iaith Groegaidd-Hebreig ei ysgrifeniadau," medd efe, "a'r wybodaeth gywir o'r grefydd Iuddewig a ddangosir ynddynt, yn peri fod yn debygol fod yr ysgrifenydd, nid yn broselyt Iuddewig, ond yn Iuddew o du ei fam, er yn Roegwr o du ei dad. Fel hyn galluogir ni hefyd i roddi cyfrif am ei gynefindra yn y dull-iaith Groegaidd; canys tebygol ydyw ei fod wedi ei ddysgu yn fedrus gan ei dad yn llëenaeth Groeg." *Jerome* a ddywed fod Luc wedi ei eni yn Antiochia, a'i fod yn dra dysgedig yn yr iaith Roeg. Y crybwylliad cyntaf a gawn am dano sydd yn Act. 16. 10, 11. Yr oedd ef y pryd hwn gyda Paul yn Troas, ac efe a aeth oddiyno gydag ef i Jerusalem, ac yr oedd yn gydymaith i Paul yn ei fordaith i Rufain, ac yn ei garchariad yno. Barna ysgrifenwyr yn gyffredin mai efe oedd yr hwn a ddynodir yn Col. 4. 14. Os felly, yr oedd efe yn physygwr wrth ei alwedigaeth. Ac y mae yn deilwng o sylw fod yr efengylwr Luc yn ei ddesgrifiadau o glefydau ac anhwylderau yn fwy manylaidd ac amgylchiadol na'r tri efengylwr arall.

Tybia rhai i Efengyl Luc gael ei hysgrifenu yn y flwyddyn 53 o oed Crist, ond y rhan fwyaf a dybiant ma' mwy cywir yw golygu iddi gael ei hysgrifenu yn y fl. 63 neu 64. Yn mha le y'i hysgrifenwyd sydd anhysbys mwyaf tebygol ydyw i Luc, wedi iddo adael Paul, fyned i wlad Groeg, ac ysgrifenu ei Efengyl yno, er addysgu y dychweledigion Groegaidd. Mae llawer o'r dammegion a goffëir yn unig ganddo ef, yn nodedig o annogaethol i'r Cenedloedd. Mae ef hefyd yn nodi ei brif amseriadau oddiwrth deyrnasiad yr ymherawdwyr Rhufeinig. Mae ei waith, medd y beirniaid, yn ymddangos yn gyfansoddiad mwy manwl a gorphenedig nag ysgrifeniadau yr efengylwyr eraill, tra y mae yn dwyn yr un nodau o ysbrydoliaeth â'r eiddynt hwythau.

YR EFENGYL YN OL IOAN.

Ioan, yr apostol, ac ysgrifenydd yr Efengyl hon, ydoedd fab i Zebedeus a Salome. Ymddengys fod ei dad, er nad oedd ond pysgodwr o Galilea, yn ŵr oedd yn meddu peth eiddo, yr oedd ganddo long, a chyflog-ddynion yn ei wasanaeth; ac yr oedd Salome ei wraig yn un o'r gwragedd ffyddlawn oedd yn canlyn Crist yn ei deithiau, ac yn gweini iddo o'r pethau oedd ganddynt, Matth. 27. 55, 56; Marc 1. 20, a 15. 41

Ymddengys mai Ioan oedd yr ieuengaf o'r deuddeg apostol. Galwyd ef i fod yn ddilynwr yr Iesu, tra yr oedd gyda'i dad a'i frawd henaf Iago, yn cyweirio rhwydau wrth fôr Tiberias, Matth. 4. 21. Marc 1. 19. Luc 5. 10. Cafodd Ioan ei freintio â chyfeillgarwch neillduol yr Arglwydd Iesu, fel ag i gael ei alw, "y dysgybl yr oedd yr Iesu yn ei garu." Yr oedd ef yn hynod ymlyngar wrth ei Feistr, ac er iddo ffoi gyda'r apostolion eraill pan fradychwyd yr Iesu, efe a ymadnewyddodd yn fuan yn ei wroldeb, ac yr oedd yn wyddfodol yn amser y croeshoeliad. Yr oedd yn bresenol ar ymddangosiadau ein Harglwydd wedi ei adgyfodiad; ac yr oedd ei gydnabyddiaeth a'i gyd-drigiad â Mair, mam Crist, yn ei gymhwyso yn neillduol i ysgrifenu hanes ei Arglwydd. Eusebius a ddywed iddo fyw yn Jerusalem hyd farwolaeth Mair, bymtheng mlynedd ar ol croesboeliad Crist. Wedi hyny, medd hanesiaeth eglwysig, efe a aeth i Asia Leiaf, lle y sefydlodd y saith eglwys, ond yr oedd yn byw yn benaf yn Ephesus, prif-ddinas y wlad hòno. Tua therfyn teyrnasiad Domitian, alltudiwyd ef i Patmos, ynys fechan ac anial yn môr Ægea. Bu farw Domitian yn y fl. 96. Yn yr ynys hòno yr ysgrifenodd efe lyfr y Datguddiad, Dat. 1. 9. Ar esgyniad Nerva i'r orsedd, efe a ryddhäwyd ac a ddychwelodd i Ephesus, yn mha le y bernir iddo ysgrifenu ei Efengyl a'i Epistolau oddeutu y fl. 97. Bu farw, meddir, yn gant oed, oddeutu y fl. 100, yn nheyrnasiad yr ymherawdwr Trajan.

Amcan Ioan yn ysgrifenu ei Efengyl ydoedd, megys y dywed ef ei hun, i ddwyn y darllenwyr i gredu mai Iesu oedd y Crist, Mab Duw, a chan gredu, i gael bywyd yn ei enw ef, pen. 20. 31. Mae yr efengylwyr eraill yn adrodd mwy am wyrthiau ein Iachawdwr, gan roddi prawf allanol o ddwyfoldeb ei genadaeth; ond y mae Ioan yn dywedyd mwy pwy oedd Crist, a pheth oedd neillduolrwydd ei athrawiaeth. Maent hwy yn cofrestru ei ddammegion, ei wyrthiau, a'i ddadleuon gyda yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid; ond mae Ioan yn cofrestru yn benaf ei ymddyddanion am dano ei hun. Maent hwy yn rhoddi i ni hanes bywyd ein Iachawdwr, ond Ioan adroddiad am ei berson, ei athrawiaeth, a'i waith cyfryngol. Yr oedd Ioan yn ysgrifenu ar ol yr efengylwyr eraill, ac y mae efe yn adrodd amryw o bethau na chrybwyllir ganddynt hwy, megys ei ymresymiadau â'r Iuddewon, ac yn enwedig ei sylwadau pwysig ar sefydliad y swper diweddaf.

Irenæus, gyda hen ysgrifenwyr eraill, a ddywed mai un nôd yn ngolwg Ioan wrth ysgrifenu ei Efengyl ydoedd gwrthwynebu heresiau y Gnosticiaid, a'r eiddo Cerinthus yn bennodol.—Mae y geiriau "goleuni" a "bywyd," yn neillduol, yn cyfeirio at philosophi gan yr hereticiaid hyny, y rhai a draws-wyrent yr ymadroddion hyn.

Mae Efengyl Ioan, o hóni ei hun, medd *Barnes*, yn brawf diysgog o wirionedd y datguddiad Cristionogol. Pysgodwr oedd Ioan, heb urddas ac heb ddysg, Act. 4. 13. Pa ŵr yn y dosbarth hwnw yn awr a allai gyfansoddi llyfr fel hyn? Saif yr Efengyl hon hyd ddiwedd y byd yn eglurhâd anatebadwy fod y pysgodwr a roddodd y fath syniadau goruchel am Dduw, ac a dynodd y fath gymmeriad mòr berffaith hawddgar â'r eiddo Iesu Grist, yn cael ei dywys yn unig gan Ysbryd yr Arglwydd.

ACTAU YR APOSTOLION.

Mae yr arweiniad i mewn yn y llyfr hwn, yn gystal â thystiolaeth unol y Cristionogion boreuol, yn profi mai Luc ydoedd yr ysgrifenydd. Bernir ei ysgrifenu oddeutu y fl. 63, ac y mae yn cynnwys yspaid oddeutu deng mlynedd-ar-hugain o hanesyddiaeth. Rhoddir yma yn gyntaf hanes sefydliad a chynnydd y fam-eglwys yn Jerusalem; wedi hyny rhoddir hanes am daeniad yr efengyl yn mysg y Samariaid, a sylfaeniad yr eglwys yn Antiochia; ac yna rhoddir hanes am lwyddiant Cristionogaeth yn mhlith Cenedloedd mwy pellenig. Mae y llyfr hwn yn cysylltu yr Efengylau â'r Epistolau; mae yn ol-ysgrif fuddiol i'r Efengylau, ac yn rhag-arweiniad priodol i'r Epistolau. Mae yn cynnwys llawer o bethau hynod ynghylch yr apostolion Pedr a Paul, a llwyddiant yr eglwys Gristionogol; ac y mae yn adroddiad llygad-dyst neu gydymaith y personau y rhoddir hanes am eu llafur-waith.

Ni chawn yr un dyddiad amseryddol yn gysylltiedig â'r dygwyddiadau a adroddir yn yr Actau; ond crybwyllir rhai ffeithiau cysylltiedig â hanesiaeth gyffredinol, amseriad pa rai sydd adnabyddus; ac y maent hwy yn ein cynnorthwyo i gael allan amseryddiaeth yr holl lyfr, taflen o'r hyn a chwanegir at yr Esboniad hwn.

Mae yr amgylchiadau a'r pregethau a gofnodir yn y llyfr hwn, yn profi yn eglur mai Iesu Grist oedd y Messiah y rhag-ddywedwyd am dano yn ysgrythyrau y prophwydi—mai ewyllys Duw oedd i efengyl Crist gael ei chyhoeddi i'r Cenedloedd—bod y Cristionogion Cenedlig yn rhydd oddiwrth yr hen osodiadau Iuddewig—a bod Cristionogaeth wedi ac i weithio ei ffordd ymlaen yn mysg dynolryw, nid trwy un grym na deniad dynol, ond yn unig trwy ei thystiolaethau a'i dylanwadau dwyfol ei hun.

YR EPISTOL AT Y RHUFEINIAID.

Mae yr epistol at y Rhufeiniaid yn cael ei osod yn gyntaf yn mysg yr epistolau, er mai y pummed ydyw mewn trefn amseryddol, naill ai o herwydd enwogrwydd Rhufain, fel prif-ddinas y byd y pryd hwnw, neu am mai hwn yw yr hwyaf a'r mwyaf cynnwysfawr o holl epistolau Paul. Pa bryd a pha fodd y dygwyd yr efengyl gyntaf i Rufain, nid yw yn hysbys; pa fodd bynag, mae yn amlwg fod yno luaws o ddychweledigion Iuddewaidd a Chenedlig, pan yr oedd Paul yn ysgrifenu yr epistol hwn.

Gellir casglu beth oedd yr achlysur o ysgrifenu yr epistol rhagorol hwn oddiwrth ei gynnwysiad. Yr oedd Paul wedi methu myned i ymweled â'r Cristionogion yn Rhufain, fel y bwriadasai, ac efe a ysgrifenodd y llythyr hwn atynt o Corinth, gyda Phœbe, diacones Cenchrea, porthladd o'r ddinas hòno, pen. 16. 1, 2. Yr oedd yr eglwys yn Rhufain yn cael ei gwneyd i fynu mewn rhan o Genedloedd, y rhai a gofleidiasent Gristionogaeth, ac mewn rhan o Iuddewon, y rhai er eu bod yn credu yn Nghrist, oeddynt yn glynu wrth lawer o'u hen ragfarnau. Yr oedd rhai o'r Iuddewon yn cymysgu y ddeddf a'r efengyl yn y pwnc o gyfiawnâd, ac yn dibrisio y Cenedloedd dychweledig oddiar syniad o'u manteision rhagorach hwy eu hunain. Ar y llaw arall, yr oedd rhai o'r tröedigion Cenedlig, gan wybod fod yr Iuddewon fel cenedl wedi eu gwrthod gan Dduw, yn gosod eu hunain uwchlaw eu brodyr Iuddewig; ac yr oeddynt yn defnyddio eu rhyddid Cristionogol mewn modd tramgwyddus. Er mwyn dystewi y dadleuon hyn, a sefydlu y naill a'r llall yn y gwirionedd, mae yr apostol yn dangos nad oedd gan yr Iuddewon un achos i ymffrostio o'u cyfiawnder a'u rhagorfreintiau, na'r Cenedloedd o'u rhinweddau hwythau. Yr oeddynt wrth naturiaeth yn yr un cyflwr gresynus, ac yr oeddynt yr un fath i gael eu cyfiawnâu trwy ffydd yn unig; ac y mae yr apostol yn eu rhybuddio i beidio gwneuthur camddefnydd o athrawiaeth gras, ac yn eu cynghori i rodio mewn newydd-deb buchedd. Fel hyn ymddengys mai amcan a nôd yr apostol yn y llythyr hwn, yw argyhoeddi yr Iuddew anghrediniol, ac addysgu yr Iuddew crediniol; dychwelyd y Cenedl-ddyn eilun-addolgar, a chadarnâu y Cenedl-ddyn Cristionogol; a gosod y rhai dychweledig o'r Iuddewon a'r Cenedloedd ar yr un tir o ran rhagorfreintiau crefyddol a hawl i ffafr Duw.

Mae yr epistol hwn, medd *Hodge*, yn gynnwysedig o dair rhan. Yn y rhan gyntaf, yr hon a gynnwys yr wyth pennod flaenaf, trinir athrawiaeth cyfiawnâd a'i chanlyniadau. Yr ail, yn cynnwys pennodau 9, 10, a'r 11, llefarir am alwad y cenedloedd, ac am wrthodiad a dychweliad dyfodol yr Iuddewon. Y drydedd ran sydd gynnwysedig o gynghorion ymarferol ac anerchiadau i'r cristionogion yn Rhufain.

Y RHAN GYNTAF a ddechreuir gan yr Apostol trwy gyfarch yr eglwys yn Rhufain, a chanmawl y brodyr am eu ffydd, a thraethu ei ddymuniad am eu gweled, a'i barodrwydd i bregethu yr efengyl yn Rhufain. Yr oedd y parodrwydd hwn yn deillio oddi ar argyhoeddiad meddwl fod yr efengyl yn dadguddio yr unig drefn i achub dynion, sef trwy ffydd yn Nghrist; a bod y drefn hon yr un mòr gymhwys i holl ddynolryw, cenedloedd yn gystal ag Iuddewon, pen. 1. 1—17. Fel hyn y mae Paul yn dwyn i mewn fater mawr ei epistol.

Mewn trefn i gadarnâu ei athrawiaeth ynghylch cyfiawnâd, mae yn profi yn gyntaf nas gall y cenedloedd gael eu cyfiawnâu trwy eu gweithredoedd eu hunain, pen. 1. 18—39; ac yna mae yn cadarnâu yr un gosodiad ynghylch yr Iuddewon, pen. 2 oll, a 3. 1—20. Wedi dangos fel hyn fod cyfiawnâd trwy weithredoedd yn anghyraeddadwy i bechaduriaid, mae yn egluro trefn yr efengyl i gyfiawnâu, pen. 3. 21—31. Mae yn dangos gwirionedd y drefn hon oddi wrth esiampl Abraham, tystiolaeth Dafydd, natur y cyfammod a wnaed âg Abraham a'i had, a natur cyfraith Duw, pen. 4. Mae yn dangos rhagoroldeb y drefn hon fel y mae yn dyrchafu i heddwch â Duw, yn peri llawenydd yn mhob amgylchiad, ac yn sicrâu bywyd tragywyddol, pen. 5. 1—11. Mae yna yn cyferbynu trefn cyfiawnâd â threfn colledigaeth. Megys trwy gamwedd un y daeth barn ar bob dyn i gondemniad, felly ar gyfrif cyfiawnder un y cyfiawnêir pawb, pen. 5. 12—21. Yna mae yn ateb yr wrthddadl fod yr athrawiaeth o gyfiawnâd rhad yn arwain i benrhyddid, ac y mae yn arddangos gwir ddyben a gweithrediad y ddeddf, pen. 6 a'r 7, a diogelwch a breintiau mawrion y rhai a ryddâwyd oddi wrth ei melldith mewn cyfiawnâd, pen. 8.

YR AIL RAN o'r epistol sydd yn egluro bwriadau Duw ynghylch Iuddewon a Chenedloedd. Wrth fyned at y mater hwn, mae yr apostol wedi dangos ei serch at ei genedl, yn sefydlu y gosodiad nad yw Duw wedi ei rwymo ei hun i olygu holl hiliogaeth naturiol Abraham fel plant iddo ei hun, ond gauddo berffaith ryddid i ddewis y neb y mynno i fod yn etifeddion ei deyrnas. Mae yn profi hyn oddi wrth dystiolaethau o'r Ysgrythyr, ac oddi wrth oruchwyliaethau rhagluniaeth, pen. 9. 1—24. Yr oedd Duw wedi rhag-ddywedyd gynt am alwad y Cenedloedd a gwrthodiad yr Iuddewon. Yr achos o wrthodiad yr Iuddewon oedd eu hanghrediniaeth, pen. 9. 25—33; a 10. 1—5. Yna cyferbynir y ddwy drefn o gyfiawnâd, er mwyn dangos fod cyfiawnâd trwy y ddeddf yn anmhosibl, ond fod trefn yr efengyl yn rhwydd a chyfleus, ac o gyfaddasrwydd cyffredinol, pen. 10. 6—21. Dangosir nad yw gwrthodiad yr Iuddewon yn weithred hollol; yr oedd llawer o'r genedlaeth hòno wedi eu dwyn i'r eglwys, y rhai oedd o etholedigaeth gras, pen. 11. 1—10. Ac nid yw eu gwrthodiad yn dragywyddol: mae

dychwcliad dyfodol a chyffredinol i fod ar yr Iuddewon at Grist, ac felly holl Israel a fydd cadwedig, pen. 11. 11—36.

Y DRYDEDD RAN, sef y rhan ymarferol o'r epistol, a gynnwys gyfarwyddiadau yn 1. ynghylch dyledswyddau cyffredinol Cristionogion yn eu hamrywiol berthynasau â Duw, pen. 12; yn 2. ynghylch eu dyledswyddau gwladol, pen. 13; ac yn 3. eu dyledswyddau eglwysig, sef tuag at eu gilydd fel aelodau o'r eglwys, pen. 14 oll, a 15. 1—13. Terfyna yr epistol gyda pheth adroddiad am lafur ac amcanion Paul, pen. 15. 14—33; a chyda yr anerchiadau arferol, pen. 16.

YR EPISTOL CYNTAF AT Y CORINTHIAID.

Corinth ydoedd ddinas fawr ac enwog, prif-ddinas Achaia, yn ngwlad Groeg. Oddiwrth gyfleusdra ei sefyllfa er trafnidaeth, yr oedd yn helaeth ei chyfoeth, ac yn fawr ei gwychedd a'i rhwysg. Yr oedd ei thrigolion yn hynod am afradlonedd, moethusrwydd, anniweirdeb, a phob math o ddrygioni. Dygwyd yr efengyl i Corinth gan Paul, yr hwn a arosodd yno am yn agos i ddwy flynedd, O. C. 51 i 53. Casglwyd yno eglwys luosog, yn cynnwys llawer o Iuddewon, ond mwy o'r Cenedloedd. Yn fuan wedi ymadawiad Paul, aflonyddwyd heddwch yr eglwys gan gau-athrawon, y rhai a ymhonent i wybodaeth ëang am ryddid cristionogol, ac hefyd i hyawdledd a doethineb, ac a geisient ddirymu dylanwad yr apostol ar yr eglwys. Aeth yr eglwys i ymbleidio: yr oedd un blaid yn ymryson yn zelog dros y defodau Iuddewig, a'r blaid arall yn tynu yn rhŷ bell at ymarferiadau anghymedrol eu cymydogion paganaidd.

I feddyginiaethau y drygau hyn yr ysgrifenodd Paul yr epistol hwn, ynghyd ag i ateb rhai gofyniadau o bwys a anfonwyd ato mewn llythyr oddiwrth y Corinthiaid. Gellir crynhoi cynnwysiad yr epistol dàn y ddau beth yma:

Yn gyntaf, dywedir yn erbyn yr annhrefn a'r drygau oedd yn ffynu yn eglwys Corinth, sef yn (1.) Ymraniadau ac ymbleidiau, pen. 1. 2, 3, 4. (2.) Amgylchiad nodedig o odineb, pen. 5. 6, 9—20. (3.) Ysbryd cybydd-lyd a chyfreith-gar, yr hyn oedd yn eu harwain i erlyn eu brodyr eglwysig o flaen llysoedd paganaidd, pen. 6. 1—8. (4.) Cyd-gyfranogi â'r paganiaid yn ngwleddoedd yr eilunod, pen. 8. 9, 10. (5.) Diffyg trefn yn eu haddoliadau cyhoeddus, pen. 11. 2—16. a 14. (6.) Annhrefn cywilyddus yn nerbyniad swper yr Arglwydd, pen. 11. 17—34. (7.) Rhai yn gwadu athrawiaeth adgyfodiad y meirw, pen. 15.

Yn ail, atebir rhai holiadau pwysig a ofynwyd gan y Corinthiaid, megys (1.) Ynghylch yr ystâd priodasol, pen. 7. Yma mae yr apostol yn cymmeryd achlysur i ddangos nad yw y grefydd gristionogol yn ymyraeth âg amgylchiadau gwladol dynion, ond ei bod yn eu gadael dàn y rhwymedigaethau yr oeddynt danynt cyn eu dychweliad, adn. 17—24. (2.) Ynghylch pethau wedi eu haberthu i eilunod, pen. 8. 9, 10. (3.) Am ddoniau ysbrydol, ac am brophwydo, neu ddysgu eraill, pen. 12. 13, 14. (4.) Ynghylch gwneuthur casgliadau haelionus i gynnorthwyo eu brodyr tlodion yn Judea, pen. 16. Mae yr apostol yn terfynu gydag addewid y byddai iddo yn fuan ymweled â hwy, a chydag amrywiol anerchiadau personol.

Ysgrifenwyd yr epistol hwn gan Paul o Ephesus oddeutu y fl. 57.

YR AIL EPISTOL AT Y CORINTHIAID.

Yr ail epistol at y Corinthiaid a ysgrifenwyd, mae yn debygol, o Philippi, oddeutu blwyddyn ar ol y cyntaf. Yr oedd Paul wedi clywed gan Titus fod ei lythyr cyntaf at y Corinthiaid wedi cael ei dderbyn yn dra chroesawus, a'i fod wedi effeithio yn dda ar y rhan fwyaf, gan eu bod yn dangos arwyddion o edifeirwch am eu cam-ymddygiadau, ac wedi esgymuno y troseddwr pennodol y cyfeiriasai ato, 1 Cor. 5. 1. Ond yr oedd yno rai eto yn ymlynu wrth eu gau-athrawon; a chan fod yr apostol yn gohirio ei ymweliad addawedig oddiar anewyllysgarwch i'w trin gyda llymder, yr oeddynt yn ei gyhuddo o ysgafnder meddwl ac anwadalwch ymddygiad; yr oeddynt hefyd yn ei feio fel un balch, gwag-ogoneddgar, a llymdost, ac yn siarad yn ddirmygus am ei gyrhaeddiadau personol a gweinidogaethol. Ac felly ysgrifenodd Paul yr epistol hwn i gadarnâu yr aelodau ffyddlawn, ac i ennill y lleill oddiwrth ymblaid y gau-athrawon.

Mae yr apostol yma, yn (1.) Yn egluro paham na ddaethai i Corinth mòr fuan ag yr addawsai, pen. 1. (2.) Mae yn dangos nad oedd ei ddedfryd yn erbyn y dyn godinebus yn rhŷ lèm, ac yn awr gan fod y troseddwr wedi edifarâu, ei fod yn dymuno iddo gael ei adferu i gymundeb eglwysig, pen. 2. 5—11. (3.) Mae yn diolch i Dduw am lwyddiant ei weinidogaeth, pen. 2. 12—17, ac yn apelio at y Corinthiaid dychweledig fel ei lythyrau canmoliaeth, ysgrifenedig â bys Duw, pen. 3. 1—6. (4.) I ddangos mawredd y swydd weinidogaethol, mae yn dangos tra-rhagoriaeth gweinidogaeth yr efengyl ar weinidogaeth Moses, pen. 3. 7—18. (5.) Mae yn tystio ei fod wedi arfer pob diwydrwydd a ffyddlondeb wrth bregethu, er yr holl gystuddiau yr oedd yn eu goddef er mwyn yr efengyl, pen. 4, ac yn dangos ei fod yn cael ei galonogi yn ei holl ddyoddefiadau gan obaith am ogoniant nef, a chan ddylanwad cariad Crist, pen. 5. (6.) Mae yn taer-annog y Corinthiaid i fuchedd sanctaidd, ac yn enwedig i ochel cyfathrach âg eilun-addolwyr, pen. 6. 7. (7.) Mae yn rhoddi annogaethau iddynt i orphen eu cyfraniadau tuag at eu brodyr tlodion yn Judea, pen. 8. 9. (8.) Mae yn ei amddiffyn ei hun yn wyneb enllibiau y gau-athrawon a'u hymlynwyr, pen. 10. 11, 12, 13.

Yn yr ail lythyr hwn, ni a welwn yr un serchogrwydd gwresog tuag at y dysgyblion yn Corinth, yr un zel dros anrhydedd yr efengyl, a'r un hyfder i weinyddu cerydd cristionogol, ag a ddangosir yn y llythyr cyntaf.

YR EPISTOL AT Y GALATIAID.

Galatia ydoedd dalaeth yn Asia Leiaf, lle yr oedd amryw eglwysi wedi eu plànu trwy offeryniaeth Paul, yr hwn oedd wedi talu dau ymweliad iddynt. Oddiwrth gynnwysiad yr epistol hwn, ymddengys fod rhyw gau-athrawon Iuddewaidd wedi bod yn ceisio isela cymmeriad Paul yn mysg cristionogion Galatia, fel un heb ei awdurdodi yn union-gyrchol gan Grist, megys yr oedd yr apostolion eraill, ac wedi bod yn ymdrechu dymchwelyd ei athrawiaeth yn y pwnc mawr o gyfiawnâd, a chael gan y Galatiaid gadw y seremoniau Iuddewig, ac felly ceisio gwneuthur cymysgedd o'r ddeddf a'r efengyl. Oddiwrth pen. 6. 12, 13, mae yn ymddangos fod y gau-athrawon hyn o gymmeriad anfoesol, ac yn gweithredu oddiar wag-ogoniant, ac oddiar ofn; yr oeddynt yn awyddus i ennill ffafr yr Iuddewon, ac i ddianc rhag yr erlidiau a gyfodid yn erbyn gwir bregethwyr yr efengyl.

Yr amgylchiadau hyn a barodd i Paul ysgrifenu ei lythyr at eglwysi Galatia, yr hyn a wnaeth efe â'i law ei hun, pen. 6. 11, yn wrthwyneb i'w arferiad cyffredin o ddefnyddio un i ysgrifenu yr ymadroddion o'i enau.

Dodir yn gyffredin wrth ddiwedd yr epistol, "At y Galatiaid yr ysgrifenwyd o Rufain;" ond y farn gyffredinol

ydyw fod y nodiad hwn i'w wrthod fel chwanegiad anawdurdodedig ac anghywir. Rhaid fod yr epistol hwn yn mysg ysgrifeniadau cynnaraf yr apostol, ac felly wedi ei ysgrifenu flynyddoedd lawer cyn iddo fod yn Rhufain; ac felly tybir oddiar seiliau da iddo gael ei ysgrifenu o ddinas Corinth, yn y fl. 52 neu 53.

Mae yr epistol hwn yn cynnwys, (1.) Arweiniad i mewn, pen. 1. 1—5. (2.) Amddiffyniad o athrawiaeth ac awdurdod apostolaidd Paul, fel un nad oedd yn ol i'r apostolion eraill, pen. 1. 6—24; a pen. 2. (3.) Rhesymau yn erbyn y rhai a ddadleuent dros gadw deddf Moses, yn profi fod cyfiawnâd trwy ffydd yn Nghrist yn unig, pen. 3. 1—18. Dangosir mai dyben Duw yn rhoddi y ddeddf hòno, ydoedd, nid cyfiawnâu, ond dangos pechod, ac felly arwain eneidiau argyhoeddedig at Grist; fel wedi eu cyfiawnâu trwy ffydd ynddo ef, y derbynient fendithion yr addewid, pen. 3. 19—24. Ac mai y fath yw rhagoriaeth yr oruchwyliaeth efengylaidd, fel nad yw cristionogion mwyach dàn ddysgyblaeth y ddeddf, ond fod Iuddewon a Chenedloedd crediniol yn un yn Nghrist, pen. 3. 25—29; ac arddangosir hyn oddiwrth sefyllfa amserol yr eglwys Iuddewig, pen. 4. 1—7. (4.) Mae yr apostol yn ymresymu â'r Galatiaid ynghylch eu gwendid a'u ffolineb, yn cymmeryd eu twyllo gan y gau-athrawon fel ag i roddi i fynu ryddid yr efengyl, a chymmeryd eu darbwyllo i ddodi eu hunain dàn y ddeddf, pen. 4. 8—31; 5. 1—9. (5.) Rhoddir cyfarwyddiadau ac annogaethau i ymddygiadau Cristionogol, ac i wneuthur iawn ddefnydd o ryddid efengylaidd, pen. 5. 10—26; 6. 1—10. (6.) Yn ddiweddaf, mae yr apostol yn symio i fynu faterion yr epistol, pen. 6. 11—18.

YR EPISTOL AT YR EPHESIAID.

Ephesus ydoedd brif-ddinas y dalaeth a elwid Proconsular Asia, rhan o Asia Leiaf. Yr oedd yn enwog am deml ardderchog Diana, yr hon a gyfrifid yn un o saith ryfeddod y byd; ac yr oedd ei thrigolion yn nodedig am eu hofer-goeledd, eu medr mewn dewiniaeth, a'u gorwychedd, a'u rhysedd. Cawn hanes am bregethiad cyntaf Paul yn Ephesus yn Act. 18. Yn y flwyddyn ganlynol, efe a ddychwelodd yno, lle yr arosodd dros ddwy flynedd. Yn ystod yr arosiad hwn, llafuriodd gyda llwyddiant dirfawr, ac a sefydlodd eglwys lìosog. Yn Act. 20. cawn hanes am yr ymadawiad, y ffarwel cynhyrfiol, a gymmerodd le rhwng yr apostol â henuriaid eglwys Ephesus yn Miletus.

Ysgrifenodd Paul yr epistol hwn at yr Ephesiaid pan yr oedd yn garcharor yn Rhufain. Amcan yr epistol ydoedd cadarnâu yr Ephesiaid yn athrawiaethau yr efengyl, eu gwroli i sefyll yn wyneb tramgwydd y groes, eu rhoi ar eu gwyliadwriaeth yn erbyn dichellion y gau-athrawon a allent ymlusgo i'w mysg, a'u cynghori i rodio yn addas i'w proffes a'u cymmeriad cristionogol.

Gellir dosbarthu yr epistol hwn yn ddwy ran:—

I. Y rhan athrawiaethol, yn y tair pennod gyntaf. (1.) Mae yr apostol yn mawrâu ffafr neillduol Duw i'r Ephesiaid, yn eu galw trwy ei ras, yn ol ei fwriad tragywyddol, ac yn eu bendithio â holl radau iachawdwriaeth, den. 1. 1—14. (2.) Mae yn sicrâu yr Ephesiaid o wresogrwydd ei weddïau drostynt, a'r iddynt gael adnabyddiaeth ëangach o nerthoedd grasol Duw, adn. 15—19. Wedi crybwyll am ragorol fawredd ei nerth ef, mae yn desgrifio ei effeithiolrwydd, ar Grist eu Pen, adn. 20—23. Ac ar yr Ephesiaid eu hunain, pen. 2. 1—10, lle y gosodir allan gyfoeth Dwyfol ras yn eu cadwedigaeth. (3.) Mae yn sefyll ar y breiniau a'r bendithion mawrion a ddygwyd i'r Cenedloedd trwy yr efengyl, yn gydradd â'r Iuddewon crediniol, ac fel un corff â hwy, pen. 2. 11—22. (4.) Mae yn gosod allan urddas ei weinidogaeth yn gysylltiedig â'r Cenedloedd, am yr hyn yr oedd yn dyoddef carchariad gyda diysgogrwydd meddwl, gan weddio drostynt, a moliannu Duw, pen. 3.

II. Y rhan ymarferol, yn y tair pennod olaf. (1.) Mae yn annog yr Ephesiaid i gyd-ddwyn â'u gilydd, a chadw undeb yr Ysbryd, fel rhai wedi eu huno yn un corff yn Nghrist, yr hwn oedd wedi gosod sylfeini yr undeb yn yr amrywiaeth doniau a grasau a gyfranodd, ac yn y swyddau sanctaidd a sefydlodd, pen. 4. 1—16. (2.) Mae yn gosod arnynt, fel rhai wedi dysgu Crist, i ragori ar y Cenedloedd annychweledig, trwy burdeb difrycheulyd ysbryd ac ymddygiad, pen. 4. 17—24. (3.) Mae yn eu rhybuddio rhag lliaws o bechodau pennodol yr oedd y Cenedloedd yn agored iddynt, pen. 4. 25—32; 5. 1—21. (4.) Mae yn disgyn at ddyledswyddau perthynasol a theuluaidd gwŷr a gwragedd, rhieni a phlant, meistriaid a gwasanaethyddion, pen. 5. 22—33; 6. 1—9. (5.) Mae yn terfynu gydag annogaeth gyffredinol i ymladd â'r gelynion ysbrydol, gan ddarlunio cyflawn arfogaeth y cristion i'w gwrthsefyll, pen. 6. 10 i'r diwedd.

YR EPISTOL AT Y PHILIPPIAID.

Philippi ydoedd brif-ddinas rhan o Macedonia, ac a gafodd ei henw oddiwrth Philip, brenin Macedonia, a thad Alexander Fawr. Planwyd y grefydd Gristionogol gyntaf yn Philippi trwy offerynoliaeth Paul, oddeutu y flwyddyn 51 o oed Crist. Yr oedd y Philippiaid yn ymlyngar iawn wrth yr apostol, ac yn hynod serchus tuag ato, fel eu tad yn Nghrist; yr oeddynt fwy nag unwaith wedi cyfranu yn haelionus at ei gynnaliaeth, hyd yn nod pan yr oedd yn aros gydag eglwysi cyfoethocach a lliosocach, pen. 5. 15, 16. Ac yn awr pan yr oedd efe yn garcharor yn Rhufain, hwy a anfonasant ato Epaphroditus eu gweinidog, a chydag ef anrheg i'w gynnorthwyo, dàn ei amgylchiadau cyfyng. Ar ddychweliad Epaphroditus, anfonodd Paul y llythyr hwn gydag ef, yn mha un y mae yn traethu ei ddiolchgarwch diffuant iddynt, a'i serch gwresog tuag atynt, ac yn eu cysuro yn wyneb y pryder a ddangosent o herwydd ei garchariad.

Gellir gosod allan gynnwysiad yr epistol hwn fel y canlyn:—

1. Mae yr apostol yn traethu ei ddiolchgarwch o herwydd ffydd ddïysgog y Philippiaid, a'i weddi am iddynt barâu felly; ac y mae yn eu sicrâu o'i barodrwydd i fyw neu farw, fel y byddai oreu er eu lles hwy a gogoniant Duw, pen. 1. 1—20.

2. Mae yn eu hannog i ymarweddiad addas i'r efengyl, ac i undeb calon a gostyngeiddrwydd ysbryd, gan gefnogi hyny âg esiampl yr Arglwydd Iesu, pen. 1. 21—30; pen. 2. 1—17.

3. Mae yn mynegu ei ewyllys, ei obaith, a'i fwriad i ymweled â hwy; ac yn y cyfamser o anfon atynt Timotheus ac Epaphroditus, pa rai a fawr-ganmolir ganddo, pen. 2. 18—30.

4. Mae yn eu rhybuddio yn erbyn athrawon a bregethent Grist trwy genfigen ac ymryson, pen. 3.

5. Mae yn rhoddi annogaeth gyffredinol iddynt i ddilyn pob peth rhinweddol a chanmoladwy, pen. 4. 2—9.

6. Mae yn cydnabod yn ddiolchus eu tiriondeb tuag ato, ac yn dynodi y boddlonrwydd meddwl a ddysgasai dàn hyfforddiad gras Duw; a chan eu cefnogi i ddysgwyl cyflenwad diwall i'w hanghenrheidiau oddiwrth eu Duw a'u Tud, mae yn terfynu gydag anerchiadau a bendith, pen. 4. 10—23.

YR EPISTOL AT Y COLOSSIAID.

Dinas fawr boblogaidd yn Phrygia, yn Asia Leiaf, ydoedd Colossa, yn sefyll nid yn mhell o Laodicea. Yr oedd Cristionogaeth wedi ei sefydlu yno cyn carchariad Paul, ond mae yn ymddangos nad oedd ef wedi ymweled â'r ddinas hon yn bersonol, pen. 2. 1.

Mae cyffelybrwydd mawr rhwng yr epistol hwn â'r epistol at yr Ephesiaid; cafodd y naill a'r llall eu hysgrifenu gan Paul yn agos i'r un amser, ac ar faterion cyffelyb, ac anfonwyd hwy trwy yr un cenadwr. Dylid darllen y ddau epistol ynghyd, gan y ceir y naill yn fynych yn esboniad ar y llall.

Achlysurwyd yr epistol hwn gan rai pethau dyrus oedd wedi codi yn mysg y Colossiaid, oddiwrth au-athrawon fel y tybygir, mewn canlyniad i'r hyn yr anfonasant at yr apostol yn amser ei garchariad yn Rhufain. Ymddengys fod yr athrawon hyn, nid yn unig yn cymhell ac arddodi llawer o ddefodau cyfraith Moses, ond yn dysgu athrawiaethau y rabbiaid a'r philosophyddion platonaidd, y rhai oedd yn dàl syniadau gŵyrgam ynghylch gweinidogaeth duwiau îs-raddol neu angelion.

Yn y ddwy bennod gyntaf, mae yr apostol yn dysgu y Colossiaid yn athrawiaethol ynghylch y pethau yr oeddynt i'w credu; ac yn y ddwy ddiweddaf, mae yn eu dysgu yn ymarferol ynghylch y pethau yr oeddynt i'w gwneuthur.

I. Yn y rhan athrawiaethol, mae yr apostol, yn (1.) Yn traethu ei foddhâd am yr hyn a glywsai am eu ffydd a'u cariad, ac yn eu sicrhâu o'i weddiau drostynt, pen. 1. 1—14. (2.) Mae yn llefaru am urddas goruchel yr Arglwydd Iesu, gan ddangos ei anfeidrol ragoriaeth ar yr angelion, pen. 1. 15—23. (3.) Mae yn mynegu am ei ddyoddefaint boddlawn yn achos yr efengyl, a'i ymdrech difrifol i gyflawni ei weinidogaeth, pen. 1. 24—29, a'i bryder ar iddynt hwy, a'r cristionogion eraill yn y gymydogaeth, gael eu cadarnâu yn ddïysgog yn y ffydd, pen. 2. 1—7. (4.) Mae yn eu rhybuddio yn erbyn syniadau gŵyr-draws dysgawdwyr Iuddewig, ac yn erbyn paliadau rhith-philosophaidd, a dychymygion a thraddodiadau dynol, fel pethau anghyson â symlrwydd efengyl Crist, pen. 2. 8—23.

II. Yn y rhan ymarferol, mae yn (1.) Yn rhoddi hyfforddiadau ynghylch amryw o ddyledswyddau bywyd, yn enwedig rhai o nodweddiad perthynasol a theuluaidd, pen. 3; a 4. 1—6. (2.) Mae yn terfynu gyda rhai anerchiadau a chyfarwyddiadau, pen. 4. 7—18.

YR EPISTOL CYNTAF AT Y THESSALONIAID.

Thessalonica ydoedd ddinas fawr a phorthladdol, ac a gyfrifid yn brif-ddinas Macedonia. Yr apostol Paul, ar ei daith gyntaf ar gyfandir Europ, a bregethodd yr efengyl yn Thessalonica gyda llwyddiant mawr; ond wedi aros yno ychydig amser, cafodd ei yru oddiyno trwy falais a chreulondeb Iuddewon anghrediniol. Aeth o Thessalonica i Berëa, ac oddiyno i Athen a Chorinth. Wedi methu ymweled â'r Thessaloniaid drachefn, efe a anfonodd Silas a Thimotheus atynt, ac ar eu dychweliad hwy ato i Corinth, (cymharer pen. 3. 6, ac Act. 18. 5.) efe a anfonodd yr epistol hwn at y Thessaloniaid, oddeutu y flwyddyn 52. Y nodiad a chwanegir at yr epistol, a ddywed iddo gael ei ysgrifenu o Athen; ond mae hyny, debygid, yn anghywir, gan yr ymddengys mai o Corinth yr ysgrifenwyd ef. Dylid cofio nad yw y chwanegiadau hyn namyn dynol a diweddar.

Bernir yn gyffredinol mai yr epistol hwn oedd y cyntaf a ysgrifenodd Paul o'i holl epistolau, ac ni a'i cawn ef yn awyddus am iddo gael ei ddarllen i holl eglwysi Cristionogol Macedonia. Amcan yr apostol yn yr epistol hwn yw cadarnâu y Thessaloniaid yn eu hymlyniad wrth ffydd yr efengyl, a'u hannog, oddiwrth eu dyoddefiadau eisoes yn achos yr efengyl, a'r cymmeriad Cristionogol dysglaer a ennillasent yn barod, i fyned ymlaen eto ar gynnydd yn mhob rhan o dduwioldeb.

Cawn yr apostol yma yn (1.) Yn gogoneddu Duw am ei ras tuag at y Thessaloniaid, ac yn eu coffâu hwy o'r dull ffyddlawn a charuaidd y pregethwyd yr efengyl iddynt, pen. 1; 2. 1—16. (2.) Yn mynegu ei ddymuniad i'w gweled, ei bryder serchog ar eu rhan, a'i weddi drostynt, pen. 2. 17—20; a 3. (3.) Yn eu cynghori i gynnyddu mewn sancteiddrwydd a brawdgarwch, ac i fod yn ddiwyd yn eu galwedigaethau er anrhydedd i'r efengyl, pen. 4. 1—12. (4.) Yn eu calonogi rhag tristâu yn ormodol ar ol eu brodyr a hunasant, ac yn eu rhybuddio ynghylch ail-ddyfodiad Crist, pen. 4. 13—18; 5. 1—11. (5.) Yn terfynu gydag amryw gynghorion ymarferol, pen. 5. 12—28.

YR AIL EPISTOL AT Y THESSALONIAID.

Ysgrifenwyd yr ail epistol at y Thessaloniaid yn fuan ar ol y cyntaf, ac o'r un lle. Achlysurwyd ei ysgrifeniad, dybygid, gan yr hysbysiad a ddygwyd i'r apostol gan ddygedydd ei lythyr cyntaf atynt. Dywedid wrtho fod llawer o'r Thessaloniaid, oddiwrth rai ymadroddion yn ei lythyr cyntaf, yn dysgwyl y byddai i ddyfodiad Crist i'r farn gymmeryd lle yn eu hamser hwy; ac yr oedd rhai o honynt, yn y dysgwyliad hwn, yn esgeuluso eu dyledswyddau daearol. Gan hyny ysgrifenodd Paul atynt drachefn i feddyginiaethu yr amryfusedd hwn.

1. Mae yr apostol yn traethu ei lawenydd oblegid eu ffydd, eu cariad, a'u hamynedd dàn erlidiau, ac y mae yn eu sicrâu o wobrwyad cyflawn yn nyfodiad Crist, pen. 1.

2. Mae efe yna yn diwygio y cam-gymmeriad y syrthiasant iddo, gan eu sicrâu y byddai, cyn dyfodiad yr Arglwydd i'r farn, wrthgiliad mawr wedi cymmeryd lle yn yr eglwys, gallu anghristiaidd, yr hwn a eilw efe "y dyn pechod," a natur yr hwn a ddysgrifir ganddo. Yr oedd rhagarwyddion o hono, medd efe, wedi ymddangos eisoes, ond hyd yma yr oedd ei lwyddiant mawr yn cael ei attal. Yn wyneb hyn, mae yn eu cymhell hwy i ddïysgogrwydd cristionogol, ac yn gweddïo ar iddynt gael eu dyddanu a'u cryfâu, pen. 2.

3. Mae yn dymuno eu gweddiau, ac yn mynegu ei hyder y byddai iddynt hwy dderbyn a dilyn ei addysgiadau, pen. 3. 1—5.

4. Mae yn dywedyd yn erbyn y rhai oedd yn rhodio yn afrëolus. ac yn terfynu gyda'i gyfarchiad arferol. pen. 3. 6—18.

YR EPISTOL CYNTAF AT TIMOTHEUS.

Timotheus ydoedd frodor o Lystra, dinas yn Lycaonia, yn Asia Leiaf. Ei dad ydoedd Roegwr, ond ei fam Eunice ydoedd Iuddewes, a gwraig dduwiol, ac felly yr oedd ei nain Lois. Ymddengys fod y gofal manwl a gymmerasant am ei hyfforddiad wedi ei wobrwyo â'r llwyddiant dymunedig, canys dywed Paul ei fod er yn fachgen

yn gwybod yr Ysgrythyr Lân. Daeth Timotheus yn nodedig am ei sanctaidd ymarweddiad a'i gymhwysderau gweinidogaethol, ac felly pan ail ymwelodd yr apostol Paul â Lystra, efe a'i dewisodd i gyd-deithio âg ef, er nad ydoedd y pryd hwn ond yn dra ieuanc, Act. 16. Cawn grybwylliadau mynych am Timotheus fel cynnorthwywr Paul yn mhregethiad yr efengyl a phlaniad eglwysi, ac fel cenadwr drosto i Corinth, Philippi, Thessalonica, &c. Yn Act. 20, cawn ef yn myned gyda Paul i Asia, ac oddiwrth pen. 1. 3, o'r epistol hwn, ymddengys i Paul ei adael yn Ephesus, i addysgu yr eglwys yno, a sefydlu dysgyblaeth ac iawn drefn ynddi. O'r pryd hwnw nid oes genym ddim hanes am Timotheus ond a roddir i ni gan hysbysiadau traddodiadol hen hanesyddiaeth eglwysig. Defarant hwy am dano fel esgob cyntaf eglwys yr Ephesiaid, ac iddo gael ei ferthyru trwy ei guro â choed a chèryg, pan yn pregethu yn agos i deml Diana, yn y fl. 97.

Bu llawer o wahaniaeth barn ynghylch yr amser yr ysgrifenwyd yr epistol hwn; y farn gyffredin yn awr ydyw iddo gael ei ysgrifenu oddeutu y fl. 64, rhwng carchariad cyntaf Paul yn Rhufain â'i ail garchariad.

Amcan yr epistol hwn oedd cyfarwyddo Timotheus, wedi ei adael yn Ephesus, pa fodd i iawn lywodraethu yr eglwys yno, yn gystal âg i ymarweddu ei hunan fel gweinidog yr efengyl. Mae yn ei gyfarwyddo yn newisiad swyddwyr priodol yn yr eglwys, ac yn ei rybuddio yn erbyn dylanwad gau-athrawon, y rhai oeddynt trwy wahaniaethau cywrain afreidiol, a dadleuon diddiwedd, yn llygru symlrwydd yr efengyl. Mae yn gwasgu arno i edrych yn ddyfal ar ol anrhydedd crefydd ymarferol, ac yn annog i bob diwydrwydd, ffyddlondeb, a zêl, yn nghyflawniad ei swydd. Dyna faterion y pedair pennod gyntaf; ac y bummed a'r chweched bennod, rhoddir cyfarwyddiadau i Timotheus ynghylch rhai dosbarthiadau neilldiol, condemnir dadleuon ofer ac ymrysonau, dywedir yn erbyn ariangarwch, ac annogir y cyfoethogion i weithredoedd da.

YR AIL EPISTOL AT TIMOTHEUS.

Ysgrifenodd Paul yr epistol hwn, dybygid, yn ystod ei ail garchariad yn Rhufain, ac y mae ynddo yn hysbysu i Timotheus yr amgylchiadau a gymmerasant le yn ystod ei garchariad, ac yn dymuno arno ddyfod ato i Rufain, ond gan ei fod yn ansicr a ga'i ef ei adael yn fyw i'w weled, mae Paul yn rhoddi iddo amryw gynghorion, a chefnogaethau i iawn gyflawni ei orchwylion gweinidogaethol. Mae yn amlwg fod Timotheus y pryd hwn yn rhywle yn Asia Leiaf. Dywed rhai mai yn Ephesus yr ydoedd, ond oddiwrth ddeisyfiad Paul arno i ddwyn gydag ef y cochl a'r llyfrau a adawodd yn Tröas, mae hyny yn annhebyg, gan fod Tröas yn mhell allan o'r ffordd o Ephesus i Rufain, i ba le yr oedd Paul yn dymuno arno ddyfod ato yn ebrwydd.

Cynnwysiad yr epistol hwn, ydyw, (1.) Cyfarwyddiadau i ddiwydrwydd, amynedd, a phenderfyniad i gadw ffurf yr athrawiaeth iachus, pen. 1. (2.) Annogaethau i wrolder dàn gystuddiau ac erlidiau, i draddodi yr athrawiaeth bur i eraill, ac i ymarweddu yn bur, pen. 2. (3.) I ochel gau-athrawon, nodau pa rai a roddir, ac i fod yn ffyddlawn gyda dyledswyddau ei weinidogaeth, pen. 3; a 4. 1—8. Wrth derfynu mae yr apostol yn deisyf ar Timotheus i ddyfod ato yn ddioed, ac yn rhoddi iddo amryw gyfarwyddiadau ac anerchiadau.

Mae epistolau Paul at Timotheus yn hynod fuddiol fel cynnorthwyau i ddysgyblaeth eglwysig, ac y maent yn drysorau o werth annrhaethol i holl weinidogion yr efengyl hyd ddiwedd y byd.

YR EPISTOL AT TITUS.

Titus ydoedd Roegwr, wedi ei ddychwelyd i gristionogaeth trwy offerynoliaeth Paul. Yr oedd efe yn ŵr o ras mawr a doniau helaeth, ac yn gymmeradwy iawn gan yr apostol. Cawn fod Paul yn ei gymmeryd gydag ef o Antiochia i Jerusalem, i'r cynghor neu y gymanfa eglwysig a gynnaliwyd yno yn y fl. 49, Galat. 2. 1; ac wedi hyny yn ei anfon i ymweled âg eglwys Corinth, 2 Cor. 12. 18. Mae yr epistol hwn yn dangos iddo fod gyda Paul yn Creta, pen. 1. 5; ac yn 2 Tim. 4. 10, crybwyllir ei fod yn Dalmatia ychydig amser o flaen merthyrdod yr apostol. Nid oes genym wedi hyny un hanes ganonaidd am dano; ond traddodiad a ddywed iddo farw yn Creta mewn oedran teg.

Bernir i Paul ysgrifenu yr epistol hwn oddeutu y fl. 64, oddeutu yr un amser ag yr amonodd yr epistol cyntaf at Timotheus. Yr oedd Titus, mae yn amlwg, yn Creta pan y'i derbyniodd, wedi ei adael yno gan Paul, i drefnu yr eglwys a sefydlasai efe yno, ac i ddwyn ymlaen y gwaith a ddechreuasid ganddo ef.

Mae yr epistol hwn yn cynnwys yn benaf hyfforddiadau i Titus ynghylch henuriaid yr eglwys, a'r dull yr oedd iddo weinyddu addysg; ac yn y rhan ddiweddaf cyfarwyddir ef i annog i ufudd-dod i'r llywiawdwyr, i wasgu y pwys o ddilyn gweithredoedd da, i ymgadw rhag cwestiynau ffol, ac i ochel hereticiaid. Ymddengys fod y gau-athrawon luddewaidd yn dysgu i'r eglwysi fod ufudd-dod i gyfraith Moses yn angenrheidiol er iachawdwriaeth, ac y maddeuid ymarferiadau drygionus trwy effeithiolrwydd yr offrymau Lefiaidd. Ond yn wrthwyneb i'w heresi hwy, mae yr epistol hwn yn gosod allan rad ras Duw yn iachawdwriaeth pechadur trwy Grist, ac ynglŷn â hyny mae yn dangos fod y rhai a gredasant i Dduw yn Nghrist i ofalu am flaenori mewn gweithredoedd da.

YR EPISTOL AT PHILEMON

Philemon ydoedd frodor o Colossa, ac ymddengys ei fod yn ŵr o urddas a chyfoeth. Cafodd ei ddychwelyd i ffydd Crist dàn weinidogaeth Paul; ac oddiwrth fod yr apostol yn ei alw yn gyd-weithiwr iddo, adn. 1, bernir gan awer ei fod yn gyd-weinidog âg Archippus, yn eglwys Colossa, adn. 2.

Ysgrifenodd Paul yr epistol hwn at Philemon, pan yr oedd ef yn garcharwr yn Rhufain. Yr oedd Onesimus, gwas Philemon, wedi gwneuthur rhyw gamwri â'i feistr, ei yspeilio o'i feddiannau, mae yn debyg, a dianc ymaith i Rufain. Yna cafodd ei arwain gan ragluniaeth Duw i wrando ar Paul, a bendithiwyd addysgiadau yr apostol i'w ddychwelyd at Gristionogaeth. Ymddengys i Paul ei ddàl ef yn Rhufain nes cael prawf boddlonol o wirionedd ei dröedigaeth; ac yna efe a'i hanfonodd yn ol at ei feistr. Ac felly amcan y llythyr hwn yw gofyn maddeuant Philemon i Onesimus, ac attolygu arno i'w dderbyn yn ol, nid yn unig fel gwas, ond fel brawd yn Nghrist.

Mae y llythyr bychan hwn yn dra phrydferth a chynhyrfiol fel cyfansoddiad, a'i gynnwysiad yn gosod allan yn ogoneddus effeithiau daionus yr efengyl, a hynawsedd ysbryd cristionogol.

YR EPISTOL AT YR HEBREAID.

Mae dynion dysgedig wedi bod yn amrywio yn eu barnau ynghylch awdwr yr epistol tra-nodedig hwn.

Priodolir ef gan rai i Luc, gan eraill i Barnabas, gan eraill i Clement o Rufain, &c. Ond y farn fwyaf cyffredinol yn mysg y beirniaid enwocaf, hen a diweddar, ydyw mai yr apostol Paul yw ei awdwr; a rhoddant y rhesymau cadarnaf dros y farn hon. Gallai fod yr apostol yn peidio dodi ei enw wrtho, o herwydd rhagfarn llawer o'r cristionogion Hebreaidd yn ei erbyn fel apostol mawr y Cenedloedd.

Yr achlysur o ysgrifenu yr epistol hwn a ymddengys oddiwrth ei gynnwysiad. Yr oedd yr Iuddewon anghredinïol yn arfer llawer o resymau i geisio hudo eu brodyr dychweledig oddiwrth ffydd yr efengyl. Yr oeddynt yn darlunio goruchwyliaeth Moses fel yn ogoneddusach na goruchwyliaeth yr efengyl, ac yn gwaradwyddo ymlyniad wrth Waredwr anweledig. Mae yr apostol gan hyny yn dangos gogoniant Iesu o Nazareth, fel Mab Duw, a'r lendithion sydd yn deillio oddiwrth ei farwolaeth fel aberth perffaith dros bechod, ac felly fod y grefydd gristionogol yn rhagorach a pherffeithiach na'r eiddo Moses. Mae yn y modd medrusaf yn addysgu yr Hebreaid dychweledig yn ngwybodaeth yr efengyl, gan ddangos iddynt werth yr egwyddor o ffydd mewn gwrthddrychau anweledig, a'u rhybuddio yn ddifrifol rhag gwrthgiliad oddiwrth yr athrawiaeth a'r broffes gristionogol.

Gellir rhanu yr epistol hwn yn dair rhan:—

Y RHAN I. sydd yn profi Duwdod Crist, a digonolrwydd ei aberth dros bechod.

1. Profir rhagoriaeth Crist ar yr angelion, gan y rhai yr addolir ef fel eu Crëawdwr a'u Harglwydd, pen. 1 Dylid gan hyny wrando arno ac ufuddâu iddo, pen. 2. 1—4. Dangosir fod Crist yn rhagori ar yr angelion, ei ymddarostyngiad amserol yn nyddiau ei gnawd, pen. 2. 5—9; canys heb hyny nis gallasai gyflawni gwaith y prynedigaeth, adn. 10—15; er mwyn yr hyn y cymmerodd nid naturiaeth angelion, ond yr eiddo Abraham, adn. 16—18.

2. Ei ragoriaeth ar Moses, yr hwn oedd was yn unig, tra mae Crist yn Arglwydd, pen. 3. 1—6. Cymhwysir y rhesymiad hwn at yr Hebreaid crediniol, y rhai a rybuddir yn sobr i beidio ymddwyn fel eu henafiaid anghredinïol, y rhai a ddyfethwyd yn yr anialwch, pen. 3. 7—19; 4. 1—13.

3. Ei ragoriaeth ar Aaron, a phob arch-offeiriad arall. Crist yw y gwir Arch-offeiriad, yr hwn a gysgodwyd gan Melchisedec ac Aaron, pen. 4. 14—16; a 5. 6, 7, 8; ac efe a gafodd weinidogaeth mwy rhagorol na'r arch-offeiriaid Lefiaidd, yn gymmaint â'i fod yn Gyfryngwr cyfammod gwell; o ganlyniad rhaid fod gwneuthuriad y cyfammod newydd hwn yn dirymu holl sefydliad Moses. Yn mhenodau 5. a 6. mae'r apostol yn cymmeryd mantais i fyned oddiwrth ei fater i geryddu y cristionogion Hebreaidd am eu hanwybodaeth o'r ysgrythyrau.

4. Mai Crist yw sylwedd y tabernacl a'i ddodrefn, a'r holl ordeiniadau cysylltiedig, a bod ei aberth mawr a pherffaith ef wedi rhoddi terfyn ar yr holl aberthau lefiticaidd, pen. 9; 10. 1—18.

RHAN II. Y cymhwysiad o'r rhesymau a'r profion blaenorol, yn mha un y mae yr Hebreaid yn cael eu hannog.

1. I ffydd, gweddi, a sefydlogrwydd gyda'r efengyl, pen. 10. 19—25. Cadarnheir yr annogaeth yma trwy osod allan y perygl o wrthod Crist, wedi derbyn gwybodaeth o'r gwirionedd, a thrwy amrywiol ocheliadau, ymresymiadau, a chefnogaethau, yn dangos natur, rhagoroldeb, ac effeithiolrwydd ffydd, yr hyn a eglurir trwy esiamplau seintiau enwocaf, o Abel hyd derfyn goruchwyliaeth yr Hen Destament, pen. 10. 26—39; 11.

2. I amynedd a diwydrwydd yn yr yrfa gristionogol oddiwrth dystiolaeth credinwyr blaenorol, oddiwrth esiampl Crist, ac oddiwrth ddyben tadol ceryddon yr Arglwydd, pen. 12. 1—13.

3. I heddwch a sancteiddrwydd, ac i wyliadwriaeth dduwiol arnynt eu hunain ac ar eu gilydd, yr hyn a gymhellir oddiwrth amgylchiad Esau, pen. 12. 14—17.

4. I dderbyniad ufudd o'r efengyl, ac addoliad parchus o Dduw, yr hyn a gefnogir oddiwrth ragoriaeth goruchwyliaeth yr efengyl, a'r euogrwydd o'i dibrisio, pen. 12. 18—29.

5. I frawdgarwch, llettygarwch, tosturi, purdeb, a boddlonrwydd meddwl, pen. 13. 1—6.

6. I gofio ffydd ac esiampl eu gweinidogion a fuant feirw, pen. 13. 7, 8.

7. I wylio yn erbyn gau-athrawiaethau ynghylch aberth Crist, adn. 9—12.

8. I ddyoddefgarwch dàn waradwyddiadau dros Grist, ac i ddiolchgarwch i Dduw, adn. 13—15.

9. I ymostyngiad i'w bugeiliaid, ac i weddi dros yr apostol, adn. 16—19.

RHAN III. Y diweddglo, yn cynnwys gweddi dros yr Hebreaid, a chyfarchiadau apostolaidd, pen. 13. 20—25

EPISTOL CYFFREDINOL IAGO.

Ysgrifenydd yr epistol hwn oedd Iago, mab Alpheus neu Cleopas, yr hwn a elwir yn frawd yr Arglwydd, gan ei fod yn gefnder neu gâr agos i'n Hiachawdwr, Galat. 1. 19. Gelwir ef hefyd Iago fychan, neu Iago leiaf; i'w wahaniaethu oddiwrth Iago brawd Ioan, yr hwn a farwolaethwyd gan Herod Agrippa, Marc 15. 40; Act. 12. 2. Ystyrid ef yn benodol, yn apostol yr enwaediad, neu apostol yr Iuddewon. Hen hanesyddiaeth eglwysig a ddywed iddo gael ei ladd gan Iuddewon anghredinïol oddeutu y flwyddyn 62, am ddatgan yn gyhoeddus mai Iesu oedd y Messïah. Bernir i'r epistol hwn gael ei ysgrifenu oddeutu y fl. 61. Ymddengys mai amcan yr epistol ydoedd rhybuddio y cristionogion Iuddewig yn erbyn y beïau neilluol oedd yn ffynu yn mysg yr Iuddewon, a'u dysgu rhag cam-ddefnyddio yr athrawiaeth o gyfiawnâd trwy ffydd, trwy ddangos mai ffydd fywiol, ffrwythlawn, a gweithgar, oedd ffydd yr efengyl. Rhoddir yma hefyd rybuddion a chynghorion i'r Iuddewon anghredinol, a dyddenir y cristionogion yn wyneb yr erlidiau a ddyoddefent oddiwrth yr anghredinwyr. Llefarir yma am ddinystr y genedl Iuddewig fel yn prysuro yn gyflym.

Gellir dosparthu cynnwysiad y llythyr hwn fel hyn,—

I. Annogaethau, pen. 1. (1.) I amynedd siriol dàn brofedigaethau, adn. 2—4. (2.) I weddïo am ddoethineb, a hyny mewn ffydd ddiysgog, adn. 5—8. (3.) I ostyngeiddrwydd a boddlonrwydd, adn. 9—11. (4.) I wrthwynebu temtasiynau tumewnol yn gystal â goddef profedigaethau allanol, heb briodoli bai i Dduw, yr hwn nid yw yn awdwr pechod, ond yn gyfranwr pob daioni, adn. 12—18. (5.) I dderbyn y gair mewn addfwynder, gan fod yn ofalus i'w osod mewn ymarferiad, adn. 19—27.

II. Ymliwiadau neu geryddon. (1.) Tueddrwydd annheg o blaid cyfoethogion, ac anmharch i'r tlodion, pen. 2. 1—13. (2.) Syniadau penrhydd am gyfiawnâd, lle dangosir ofered yw ffydd ddiffrwyth, adn. 14—26. (3.) Tymher feistrolgar, a thafod aflywodraethus, pen. 3. (4.) Trachwantau bydol a chynhenau, pen. 4. 1—12. (5.) Rhyfygu ar amser i ddyfod i fyned ar ol y byd, a chybydd-dod a gormes, pen. 4. 13—17; 5. 1—6.

III. Cynghorion a gocheliadau. (1.) I ymaros dàn drallodau, mewn gobaith am waredigaeth, pen. 5. 7—11. (2.) Yn erbyn tyngu, adn. 12. (3.) Cynghor i weddi a mawl, adn. 13. (4.) Am ymweled â chleifion, a gryn gweddi, adn. 14—18. (5.) I ymgais am ddychwelyd brodyr cyfeiliornus, adn. 19, 20.

EPISTOL CYNTAF PEDR.

Nis gall darllenydd yr ysgrifeniadau efengylaidd lai na bod yn dra hysbys yn hanes yr apostol Pedr, gan y sonir am dano mòr fynych ynddynt, ac felly nid rhaid i ni yma eu had-goffâu. Am fârwolaeth Pedr, tystiolaethid gan hen haneswyr eglwysig iddo gael ei groeshoelio â'i ben i waered, yn Rhufain, yn amser erledigaeth Nero yn y fl. 66. Bernir i'r epistol hwn gael ei ysgrifenu oddeutu y fl. 64. Cyfeirir ef at yr Iuddewon dychweledig oedd wedi eu gwasgaru gan erlidiau ar hyd gwledydd cenedlig; calonogir hwy yn wyneb eu cystuddiau, a chynghorir hwy i ymddwyn yn addas fel cristionogion danynt.

Cawn yma, heblaw y cyfarchiad a'r diweddglo,

1. Annogir y cristionogion Iuddewig, oddiar ystyriaeth o'r breintiau a'r bendithion neillduol a rad-roddwyd iddynt, i wyliadwriaeth, brawdgarwch, addfwynder, a phob sancteiddrwydd, pen. 1; 2. 1—10.

2. Cynghorir hwy i ddangos rhinwedd yr efengyl yn eu bucheddau yn mysg y Cenedloedd paganaidd, pen. 2. 11, 12, ac yn neillduol i lanw eu lleoedd fel deiliaid tuag at eu llywiawdwyr, adn. 13—17, fel gweision tuag at eu meistriaid, adn. 18—25, ac fel gwŷr a gwragedd tuag at eu gilydd, pen. 3. 1—13.

3. Cefnogir hwy i ddyoddefgarwch, amynedd, a sancteiddrwydd dàn eu blinderau, oddiwrth esiampl Crist, pen. 3. 14—18, oddiwrth gosbedigaeth y rhai anufudd megys yn nyddiau Nöah, adn. 19—22, oddiwrth dröedigaeth y cristionogion i fod yn feirw i'r cnawd, pen. 4. 1—6, oddiwrth y dinystr oedd yn nesâu ar y wladwriaeth Iuddewig, adn. 7—11, ac oddiwrth yr ystyriaeth o fod cystuddiau yn gyfran credinwyr dàn yr efengyl, ac yn achos o lawenydd, adn. 12—19.

4. Rhoddir cynghorion neillduol i weinidogion ac aelodau cristionogol, pen. 5. 1—11.

AIL EPISTOL PEDR.

Ymddengys fod yr epistol hwn wedi ei ysgrifenu gan yr apostol pan yr oedd efe mewn gwth o oedran, ac yn agos i'w angau, ac yn fuan wedi ysgrifeniad ei epistol cyntaf; ac y mae y llythyr hwn yn cadarnâu athrawiaethau ac addysgiadau y llythyr hwnw.

Mae yr apostol yma yn 1. wedi dynodi y cyflwr dedwydd y dygwyd y cristionogion iddo trwy yr efengyl, yn cynghori y rhai a dderbyniasant ddoniau gwerthfawr iachawdwriaeth, i wneyd defnydd sanctaidd o honynt mewn grasau a rhinweddau, pen. 1. 1—11.

2. Er mwyn ennill eu sylw yn fwy, mae yn coffa iddynt ei fod yn llefaru wrthynt mewn golwg agos ar dragywyddoldeb, ac mai nid chwedlau cyfrwys oedd ei faterion, ond pethau wedi eu sicrâu gan lef o'r nef, a chan brophwydoliaeth ysbrydoledig, adn. 12—21.

3. Mae yn eu rhybuddio yn erbyn gau-athrawon, gan ddarlunio eu drygioni, a mynegu eu dinystr, pen. 2.

4. Mae yn eu cadarnâu yn erbyn y dirmygwyr a watwarant yr athrawiaeth am ddyfodiad Crist i'r farn, gan ddangos paham yr oedid y dydd mawr hwnw, a darlunio ei amgylchiadau a'i ganlyniadau, gydag annogaethau priodol i ddiwydrwydd a sancteiddrwydd, pen. 3. 1—14.

5. Fel diwedd-glöad, mae Pedr yn dangos fod ei athrawiaeth ef yn cytuno â'r eiddo Paul, ac y mae yn ailadrodd swm ei epistol, adn. 15—18.

EPISTOL CYNTAF IOAN.

Er naa yw enw yr apostol Ioan wedi ei ddodi wrth yr epistol hwn, mae yn ei amlygu ei hun yn gynnyrch dilys y dysgybl anwyl, ac wedi ei dderbyn felly o'r dechreuad gan eglwys Crist. Bernir ei ysgrifenu oddeutu y fl. 68. Nid yw yr epistol hwn yn cael ei gyfeirio at eglwys na phobl neillduol, ac yn wir er y gelwir ef yn epistol, nid yw wedi ei ysgrifenu ar ffurf llythyr, ond mae yn draethawd cynnwysfawr ar y grefydd Gristionogol, yn athrawiaethol ac ymarferol, ac wedi ei fwriadu, dybygid, i wrthwynebu heresiau y gau-athrawon, y rhai oeddynt, rai o honynt, yn gwadu Duwdod, ac eraill wirddyn dod yr Iachawdwr, ac yn haeru fod dyoddefiadau Crist dros bechaduriaid yn dilëu y rhwymedigaeth i fywyd sanctaidd.

1. Mae yr apostol yn tystiolaethu am wir Dduwdod a dyndod Crist, ac yn dangos fod cysylltiad angenrheidiol rhwng ffydd a sancteiddrwydd buchedd, er dwyn cristionogion i fwynâu cymdeithas â Duw, pen. 1. 1—7.

2. Mae yn profi pechadurusrwydd ein natur, ac yna yn cyfeirio at iawn Crist er maddeuant ac er sancteiddiad, gan ddangos fod ffydd yn aberth Crist yn ei hamlygu ei hun mewn ufudd-dod o'i gorchymynion, cariad at y brodyr, a goruchafiaeth ar y byd, pen. 1. 8—10; 2. 1—17.

3. Mae yn rhybuddio rhag yr anghristiau lawer oedd wedi ymddangos, ac yn dangos y feddyginiaeth oreu rhag eu cyfeiliornadau dinystriol, adn. 18—29.

4. Mae yn gosod allan ragorfreintiau a dyledswyddau gwir gredinwyr, a'r nodau trwy ba rai y'u hadnabyddir fel plant Duw, pen. 3.

5. Mae yn rhoddi nôd wrth ba un yr adnabyddid un math o anghrist, sef anghyffesu ddyfod Crist yn y cnawd, pen. 4. 1—3. Ac hefyd nodau er gwahaniaeth gau-gristionogion, megys cariad at y byd, adn. 4—6; y diffyg o gariad brawdol, adn. 7—12; a gwadu fod Crist yn Fab Duw, adn. 13—15. Ac y mae yn argymhell cariad brawdol oddiwrth yr ystyriaeth o gariad Duw yn rhoddi ei Fab dros bechaduriaid, adn. 16—21.

9. Mae yn dangos y cysylltiad rhwng ffydd yn Nghrist, adenedigaeth, cariad at Dduw a'i blant, ufudd-dod i'w orchymynion, a goruchafiaeth ar y byd; ac y mae yn tystio fod Iesu Grist yn wir Fab Duw, yn addas Waredwr, ac yn un sydd yn gwrandaw gweddïau, pen. 5. 5—16.

7. Wrth symio y cyfan, mae yn dangos fod buchedd bechadurus yn anghyson â duwioldeb, ac yn rhybuddio credinwyr yn erbyn eilun-addoliaeth, adn. 17—21.

AIL EPISTOL IOAN.

Mae yr epistol hwn, fel y trydydd, wedi ei gam-enwi yn "gyffredinol," gan mai at berson neillduol y'i cyfeirir. Pwy oedd "yr etholedig arglwyddes" at ba un yr ysgrifenwyd y llythyr bŷr hwn, nid yw yn hysbys; ymddengys ei bod yn bendefiges urddasol, ac yn enwog am ei chrefydd. Oddiwrth fod yr apostol yn sôn am ymweled â hi ar fŷrder, tybir nad oedd hi yn byw yn mhell o Ephesus, lle y bernir fod Ioan yn cyfanneddu pan yr ysgrifenodd ati. Mae yn debyg fod ail a thrydydd epistol Ioan wedi eu hysgrifenu oddeutu yr un amser â'i epistol cyntaf. Mae yn grynodeb o'r epistol hwnw, ac yn cyffwrdd mewn ychydig eiriau â'r un materion.

Mae yr apostol yn traethu ei foddâd a'i lawenydd yn nghymmeriad sanctaidd yr arglwyddes hon, ac yn nghrefyddolrwydd ei phlant. Mae yn eu cynghori i gyflawni y gorchymyn mawr ynghylch cariad cristionogol, i aros yn athrawiaeth Crist, ac i wylio yn erbyn hudoliaethau y gau-athrawon, gan beidio dangos un gefnogaeth i'r cyfryw rai.

TRYDYDD EPISTOL IOAN.

Cyfeirir y llythyr hwn at ryw wr dychweledig o'r Cenedloedd o'r enw Gaius neu Caius; ond pwy ydoedd ni wyddis. Sonir yn y Testament Newydd am amryw bersonau o'r enw hwn.

Yn y llythyr byr hwn, mae yr apostol Ioan yn traethu ei ddymuniad am lwyddiant Gaius, a'i lawenydd oblegid y gair da oedd iddo am ei ddïysgogrwydd yn y ffydd, a'i zêl, a'i lettygarwch i weision Crist; mae yn ei rybuddio yn erbyn gŵr uchel-dybus a thrahaus o'r enw Diotrephes, ac yn canmawl cymmeriad y brawd Demetrius, gan adael yr hyn oedd ganddo i'w ddyweyd yn mhellach i ymddyddan personol.

EPISTOL JUDAS.

Judas, ysgrifenydd yr epistol hwn, oedd yr apostol a gyfenwid Lebbëus a Thadëus, ac oedd yn frawd i Iago leiaf, Matth. 10. 3; Marc 3. 18. Bernir yn gyffredin i'r epistol hwn gael ei ysgrifenu oddeutu y flwyddyn 65, ac y mae yn cael ei gyfeirio at gristionogion yn gyffredinol. Oddiwrth y tebygrwydd sydd rhwng yr epistol hwn â'r ail bennod o ail epistol Pedr, ymddengys iddo gael ei ysgrifenu oddeutu yr un amser, ac ar yr un achlysur â'r epistol hwnw, ac y mae yn dra phosibl, medd Esgob Sherlock a Dr. Doddridge, fod ail epistol Pedr o flaen Judas pan yn ysgrifenu hwn.

Wedi cyfarchiad cyffredinol, mae yr apostol Judas yn annog y cristionogion i sefyll ac ymdrech yn egnïol o blaid y ffydd, gan adgofio iddynt y dinystr a ddaeth ar bobl broffesedig yr Arglwydd yn yr hen amserau, ie ar yr angelion gwrthgiliedig, am eu pechodau, yn gystal ag ar breswylwyr Sodom a Gomorrah, adn. 1—7. Yna mae yn tynu darluniad o'r gau-athrawon drygionus oddiwrth ba rai yr oeddynt mewn perygl, ac yn cyhoeddi barnedigaeth arnynt, adn. 8—19; ac mae yn terfynu gyda chynghorion i'r credinwyr, adn. 20—25

DATGUDDIAD IOAN Y DUWINYDD.

Ysgrifenwyd llyfr y Datguddiad, dybygid, oddeutu y flwyddyn 96 neu 97, wedi dychweliad Ioan o ynys Patmos, i ba le yr alltudiwyd ef yn yr erledigaeth a gyfodwyd gan yr ymherawdwr Domitian.

Nid oes un llyfr wedi cael mwy o esboniadau a gwahanol ddehongliadau arno na'r llyfr hwn, yr hwn a gyfrifir yn gyfiawn y rhan anhawddaf a mwyaf dyrus o'r Testament Newydd. Mae yr iaith ffugyrol yn mha un y traddodir y gweledigaethau, yr amrywiaeth o arwydd-luniau dàn ba rai y rhag-arwyddir yr amgylchiadau, ac ëangder y brophwydoliaeth fel mae yn cynnwys holl oesoedd yr eglwys gristionogol, yn peri nas gellir esbonio y llyfr hwn yn benderfynol nes i amser daflu mwy o oleuni ar y dygwyddiadau a rag-ddywedir ynddo. Er hyny dyn a astudio lyfr y Datguddiad yn awr gyda gostyngeiddrwydd meddwl ac ufudd-dod ffydd, a gaiff gysur buddioldeb neillduol. Eangir ei olygiadau ar ogoniant rhagluniaeth Duw yn ei chysylltiad â gweinyddiadau gras; calonogir ei weddïau am lwyddiant yr efengyl dros y byd; a chymmodir ei ïeddwl â'r amgylchiadau sydd ynddynt eu hunain yn ofidus a llwfrhäol, ond yn foddion gan Dduw i gyflawni ei fwriadau er ei ogoniant ei hun, a dedwyddwch ei holl garedigion.

Mae y llyfr hwn yn cynnwys dau brif raniad:—

Y CYNTAF sydd ynghylch "y pethau sydd," sef yr agwedd yr oedd yr eglwys ynddo y pryd hwnw; ac y mae yn cynnwys cyfarchiad Ioan at y saith eglwys, a'i adroddiad o ymddangosiad yr Arglwydd Iesu, a'i gyfarwyddyd i'r apostol i ysgrifenu yr hyn a welodd, pen. 1. 9—20. Hefyd yr anerchiadau neu y llythyrau at saith eglwys Asia, pen. 2; 3. Er fod y rhai hyny yn cyfeirio yn union-gyrchol at ansawdd yr eglwysi hyn, fel yr oeddynt y pryd hwnw, maent yn cynnwys cyfarwyddiadau ac annogaethau, canmoliaethau a cheryddon, addewidion a bygythion, sydd yn hynod addysgiadol i holl eglwys Crist yn mhob gwlad ac oes.

YR AIL RAN a gynnwysa brophwydoliaeth am "y pethau a fydd ar ol hyn," ac sydd yn darlunio sefyllfa ddyfodol yr eglwys o'r amser y gwelodd Ioan y gweledigaethau hyd nes y daw y diwedd. Mae y rhestr o ddygwyddiadau yn cael eu dwyn ymlaen yn y Datguddiad, trwy saith sel yn cael eu hagor, saith udgorn yn cael eu hudganu, a saith phïol yn cael eu tywallt, oll yn eu trefn. Mae y saith udgorn yn canlyn y seithfed sel, a'r saith phïol yn canlyn y seithfed udgorn.

Gellir dosbarthu cynnwysiad y brophwydoliaeth fel hyn:—

1. Yr arddangosiad o'r gogoniant Dwyfol, pen. 4.
2. Y llyfr seliedig, a'r Oen yn ei agor, pen. 5.
3. Agoriad y chwe' sel gyntaf, pen. 6.
4. Selio y pedair-mil a'r saith ugein-mil, a chyflwyno tyrfa aneirif y gynau gwynion ger bron yr orsedd fainc, pen. 7.
5. Agoriad y seithfed sel, ac udganiad y chwe' udgorn cyntaf, ynghyd â gweledigaeth y llyfr bychan agored, a mesuriad y deml, a'r ddau dyst, pen. 8; 9; 10; 11. 1—14.
6. Caniad y seithfed udgorn; gweledigaeth y wraig a erlidid gan y ddraig, a'r bwystfilod o'r môr a'r ddaear, pen. 11. 15—19; 12; 13.
7. Gweledigaeth yr Oen a'i fintai ar fynydd Sïon, a chyhoeddiadau rhybuddiol yr angelion, pen. 14.
8. Y saith phïol; putain Babilon a'i chwymp, pen. 15; 16; 17; 18; 19. 1—10.
9. Y lladdfa fawr, y mil-blynyddoedd, Gog a Magog, a'r farn, pen. 19. 11—21; 20.
10. Y Jerusalem newydd, pen. 21; 22. 1—5. Y diweddglo, pen. 22. 6—21.

GWLAD CANAAN
YN NYDDIAU
EIN HIACHAWDWR,
ER EGLURO
YR EFENGYLWYR
Ac hefyd Hanesyddiaeth
Y TESTAMENT NEWYDD.
Gradd fesurfa milltiroedd Saesoneg.
Eglurhad.
Yr erwau ôr Hen Destament fel hyn Adulam.
Yr erwau fel hyn. Pella ydynt yn cadwad allan o Josephus.
BERYTUS
SIDON
DAMASCUS
TYRUS
ACCHO
CESAREA
JOPPA
JERUSALEM
BETHLEHEM
TIBERIAS
NAZARETH
SAMARIA
Hydred dwyreiniol o Greenwich.
JERUSALEM.
Gyhoeddedig gan E.M. Evans, Treffynnon, 1846.

YR EFENGYL

YN OL

SANT MATTHEW.

PENNOD I.

11 *Achau Crist.* 18 *Ei genhedlu o'r Ysbryd Glân, a'i eni o Fair forwyn.*

* LLYFR [a] cenhedliad † Iesu Grist, [b] fab Dafydd, [c] fab Abraham.

a Gen. 2. 4. a 5. 1. Es. 53. 8. Luc 3. 23, &c. Rhuf. 9. 5. b pen. 9. 27. a 15. 22. a 22. 42—45. 2 Sam. 7. 13, 16. Salm 89. 36. a 132. 11. Es. 9. 6, 7. a 11. 1. Jer. 23. 5. a 33. 15—17, 26. Amos 9. 11. Zec. 12. 8. Luc 1. 31, 32, 69, 70. Ioan 7. 42. Act. 2. 30. a 13, 22, 23. Rhuf. 1. 3, 4. Dat. 22. 16. c Gen. 12. 3. a 22. 8. a 26. 3—5. a 28. 13, 14. Rhuf. 4. 13. Gal. 3. 16.

* *Llyfr cenhedliad*, nid yw yn arwyddo dim mwy nag ysgrifen, yn cynnwys gwaedoliaeth ac achau Iesu Grist: Llyfr y galwai yr Iuddewon agos i bob ysgrifen, ac nid yw y geiriau uchod i'w hystyried fel titl, neu enw yr holl efengyl yn ol St. Mathew, ond yn unig am achau ocanlynol ein Iachawdwr. † Iesu, sydd enw Hebraeg, yn arwyddo Gwaredwr; a Christ, sydd enw Groeg, o'r un ystyr a'r gair Hebraeg Messiah, yn arwyddo Eneiniog. Felly, mae Crist wedi ei eneinio yn Arch-offeiriad, yn Frenin, ac yn Brophwyd; a thrwy ei weinyddiad o'r ystair swydd hyn, mae yn Waredwr ei bobl. Tybia rhai dhefyd, bod y ddau enw yn arwyddo ei fod ef yn Waredwr i Iuddewon a Chenedloedd.

2 [d] Abraham a genhedlodd Isaac; ac [e] Isaac a genhedlodd Jacob; [f] a Jacob a genhedlodd Judas a'i frodyr;

d Gen. 21. 2, 3. Jos. 24. 2, 3. 1 Cron. 1. 28. Es. 51. 2. Luc 3. 34. Act. 7. 8. Rhuf. 9. 7—9. Heb. 11. 11, 17, 18. e Gen. 25. 26. Jos. 24. 4. 1 Cron. 1. 34. Es. 41. 8. Mal. 1. 2, 3. Rhuf. 9. 10—13. f Gen. 29. 32—35. a 30. 5—20. a 35. 16—19. a 46. 8, &c. a 49. 8—12. Exod. 1. 2—5. 1 Cron. 2. 1, &c. a 5. 1, 2. Luc. 3. 33, 34. Act. 7. 8. Heb. 7. 14. Dat. 7. 5.

3 A [g] Judas a genhedlodd Phares a Zara o [h] Thamar; [i] a Phares a genhedlodd Esrom; ac Esrom a genhedlodd [k] Aram;

g Gen. 38. 29, 30. a 46. 12. Num. 26. 20, 21. 1 Cron. 2. 3, 4. a 9. 4. h Gen. 38. 6, 11, 24—26. i Gen. 46. 12. Num. 26. 21. Ruth 4. 18. 1 Cron. 2. 5. a 4. 1. Luc 3. 33. k Ruth 4. 19. 1 Cron. 2. 9.

4 Ac Aram a genhedlodd [l] Aminadab; ac Aminadab a genhedlodd [m] Naasson; a Naasson a genhedlodd Salmon;

l Ruth 4. 19, 20. 1 Cron. 2. 10—12. m Num. 1. 7. a 2. 3. a 7. 12, 17. a 10. 14. Luc 3. 32.

5 A [n] Salmon a genhedlodd Booz o [o] Rachab; a [p] Booz a genhedlodd Obed o Ruth; ac [q] Obed a genhedlodd Jesse;

n Ruth 4. 21. 1 Cron. 2. 11, 12. o Jos. 2. 1, &c. a 6. 22—25. Heb. 11. 31. Iago 2. 25. p Ruth 1. 4, 16, 17, 22. a 2—4. q Luc 3. 32.

6 A [r] Jesse a genhedlodd Dafydd frenhin; a Dafydd frenhin a genhedlodd [s] Solomon o'r [t] hon *a fuasai wraig* [u] Uriias;

r Ruth 4. 22. 1 Sam. 16. 1, 11—13. a 17. 12, 58. a 20. 30, 31. a 22. 8. 2 Sam. 23. 1. 1 Cron. 2. 15. Salm 72. 20. Es. 11. 1. Act. 13. 22, 23. s 2 Sam. 12. 24, 25. 1 Cron. 3. 5. a 14. 4. a 28. 5. t 2 Sam. 11. 3, 26, 27. 1 Bren. 1. 11—17. 28—31. a 15. 5. Rhuf. 8. 3. u 2 Sam. 23. 39. 1 Cron. 11. 41.

7 A Solomon a genhedlodd [x] Roboam; a Roboam a genhedlodd [y] Abïa; ac Abïa a genhedlodd [z] Asa;

x 1 Bren. 11. 43. a 12. 1, &c. 1 Cron. 3. 10. 2 Cron. 9. 31. a 13. 7. y 1 Bren. 14. 31. 2 Cron. 12. 1. z 1 Bren. 15. 8—23. 2 Cron. 14—16.

8 Ac Asa a genhedlodd [a] Josaphat; a Josaphat a genhedlodd [b] Joram; a Joram a genhedlodd [c] Ozïas;

a 1 Bren. 15. 24. a 22. 2, &c. 2 Bren. 3. 1. 2 Cron. 17—20. b 1 Bren. 22. 50. 2 Bren. 8. 16. 1 Cron. 3. 11. 2 Cron. 21. 1. c 2 Bren. 14. 21. a 15. 1—6. 2 Cron. 26. 1, &c.

9 Ac Ozïas a genhedlodd [d] Joatham; a Joatham a genhedlodd [e] Achaz; ac Achaz a genhedlodd [f] Ezecïas;

d 2 Bren. 15. 7, 32—38. 1 Cron. 3. 11—13. 2 Cron. 26. 21. a 27. e 2 Bren. 15. 38. a 16. 1, &c. 2 Cron. 27. 9. a 28. 1, &c. Es. 7. 1—13. f 2 Bren. 16. 20. a 18—20. 2 Cron. 28. 27. a 29—32. Es. 36—39.

10 Ac Ezecïas a genhedlodd [g] Manasses; a Manasses a genhedlodd [h] Amon; ac Amon a genhedlodd [i] Josïas;

g 2 Bren. 20. 21. a 21. 1—18. a 24. 3, 4. 1 Cron. 3. 13—15. 2 Cron. 32. 33. a 33. 1—19. h 2 Bren. 21. 19—26. 2 Cron. 33. 20—24. i 1 Bren. 13. 2. 2 Bren. 21. 26. a 22. a 23. 1—39. 2 Cron. 33. 25. a 34. a 35. Jer. 1. 2, 3.

11 A Josïas a genhedlodd [k] Jechonïas a'i frodyr, [l] ynghylch amser y symmudiad i Babilon:

k 2 Bren. 23. 31—37. a 24. 1 Cron. 3. 15—17. 2 Cron. 36. 1, &c. Jer. 22. 10—28. l 2 Bren. 24. 14—16. a 25. 11. 2 Cron. 36. 10, 20. Jer. 27. 20. a 39. 9. a 52. 11—15, 28—30. Dan. 1. 2.

12 Ac wedi y symmudiad i Babilon, [m] Jechonïas a genhedlodd Salathiel; [n] a Salathiel a genhedlodd Zorobabel;

m 2 Bren. 25. 27. 1 Cron. 3. 17. Jer. 22. 24, 28. n Esra 3. 2. a 5. 2. Neh. 12. 1. Hag. 1. 1, 12, 14. a 2. 2, 23. Luc 3. 27.

13 A Zorobabel a genhedlodd Abiud; ac Abiud a genhedlodd Eliacim; ac Eliacim a genhedlodd Azor:

14 Ac Azor a genhedlodd Sadoc; a Sadoc a genhedlodd Achim; ac Achim a genhedlodd Eliïud;

15 Ac Eliïud a genhedlodd Eleazar; ac Eleazar a genhedlodd Matthan; a Matthan a genhedlodd Jacob;

16 A Jacob a genhedlodd [o] Joseph, gwr Mair, [p] o'r hon y ganed Iesu, [q] yr hwn a elwir Crist.

o adn. 18—25. pen. 2. 13. Luc 1. 27. a 2. 4, 5, 48. a 3. 23. a 4. 22. p Marc 6. 3. Luc 1. 31—35. a 2. 7, 10, 11. q pen. 27. 17, 22. Ioan 4. 25.

17 Felly yr holl genhedlaethau o Abraham hyd Dafydd, *sydd* bedair cenhedlaeth ar ddeg; ac o Dafydd hyd y symmudiad i Babilon, pedair cenhedlaeth ar ddeg; ac o'r symmudiad i Babilon hyd Grist, pedair cenhedlaeth ar ddeg.

Gwedi f'r Efengylwr ddywedyd yn yr adnod gyntaf, fod Iesu Grist yn fab Dafydd, fab Abraham, o ba rai yn neillduol yr addawyd ac y disgwylid y Messiah, mae efe yn yr ail adnod, yn dechreu cyfrif ei achau ef o Abraham i fynu, yn dri dosparth, pedair cenhedlaeth

ar ddeg yn mhob dosparth. Y dosparth cyntaf yn dechreu yn Abraham ac yn dybenu yn Dafydd: yr ail yn dechreu yn Solomon ac yn dybenu yn Jechonïas, yn nghylch amser y symmudiad i Babilon; a'r trydydd yn dechreu o'r Jechonïas hwnw ac yn dybenu yn Nghrist.

Gan fod y duwinyddion mwyaf dysgedig yn addef fod anhawsderau mawrion yn perthyn i'r achau hyn, (yn enwedig i gysoni Mathew â Luc) rhaid i ni ymfoddloni ar ychydig sylwadau cyffredinol ar yr adnodau oll. Mae yn amlwg mai achau Joseph, ac nid Mair, a roddir yma: rhoddir achau Mair gan Luc, gan eu holrhain yn ol hyd Adda. Mae yn ddïammau bod Ach-lyfrau cywir gan yr Iuddewon, yn cael eu cadw yn ofalus; yn enwedig o lwyth Judah, y llwyth breninol: o ba rai, tebygir, y cymmerodd Mathew yr achau hyn: ac er manyled oedd yr Iuddewon yn nghylch achau, eto nid oes dim hanes iddynt erioed ammau achau Crist: pe gallasent, buasai hyny yn ddigon o sylfaen i'w wrthod ef fel Messiah. Fel yr oedd olrheiniad ei achau o Abraham, Judah, a Dafydd, yn profi mai efe oedd y Messiah; felly hefyd yr oedd olrhain ei achau i lawr hyd Adda, yn brawf o wir ddynoliaeth, mai efe oedd Had y wraig, a'r hwn yn nghyflawnder yr amser a wnaethpwyd o wraig. Y Brawd a anwyd erbyn caledi. Enwir yma bedair o wragedd yn mhlith henafiaid Crist; dwy o honynt, Rahab a Ruth, o blith y Cenedloedd, i arwyddo ei berthynas ef â'r Cenedloedd yn gystal ac â'r Iuddewon: a'r ddwy eraill, Tamar a Bethseba, a llychwiniadau gwarthus ar eu henwau, yr hyn yn ddïau oedd ran o ddarostyngiad y Cyfryngwr pan ymddangosodd yn "nghyffelybiaeth cnawd pechadurus:" ac i ddangos hefyd ei diriondeb ef, a'i barodrwydd i achub y penaf o bechaduriaid. Dirmygai yr Iuddewon Grist herwydd tlodi ei fam, tybient nad oedd dichon mai efe oedd y Messiah, gan ei eni ef o wraig mòr dlawd; rhoddir y gwragedd uchod yn mhlith yr achau, i ddangos fod amryw o'u henafiaid enwocaf hwy eu hunain, wedi hanu o famau llawer llai cyfrifol na Mair; yr oedd hi yn ddiwair os oedd yn dlawd, yr hyn nid oedd pob un o'r gwragedd uchod unwaith.

Am yr anghysondeb sydd yn ymddangos rhwng Mathew a Luc, nis gallwn ddywedyd dim yn well yma, na bod y ddau wedi ysgrifenu dàn arweiniad anffaeledig yr Ysbryd Glân, yr hwn nid yw awdwr anghydfod, ond trefn. Anogir ni gan yr apostol i beidio anmhwyllo yn nghylch cwestiynau ffol, ac achau annorphen: a thybia rhai ei fod yn cyfeirio yno at achau yr Arglwydd Iesu. "Pwy a draetha ei oes ef," yw hi yn hyn, fel mewn ystyriaethau eraill. Olrheinied y darllenydd yn fanol, y cyfeiriadau ysgrythyrol sydd wrth yr adnodau uchod; mae yn ddïammau, fel y dywed Mr. Scott, mai dyna yr eglurhad gorau a gair arnynt.

18 ¶ [r] A genedigaeth yr Iesu Grist oedd fel hyn: Wedi * dyweddïo Mair ei fam ef â Joseph, cyn eu dyfod hwy ynghyd, hi a gafwyd yn feichiog [s] o'r † Ysbryd Glân.

r Luc 1. 27, &c. s Gen. 3. 15. Job 14. 4. a 15. 14. Luc 1. 25. Gal. 4. 4, 5. Heb. 7. 26. a 10. 5.

* Dyweddïo gynt, oedd ammod ddifrifol o brïodas rhwng gwrryw a benyw, i'w chyflawni ar amser pennodol, a gytunid arno ganddynt hwy. Yr oedd dyweddïo yn arferiad gweddus, a chymmeradwy yn ngolwg Duw, Deut. 20. 7. ond nis gallwn ddywedyd bod rhwymau ar neb i arfer y ddefod hon yn awr. Arferid dyweddïo flwyddyn, neu hanner blwyddyn o leiaf, cyn y brïodas; fel y caid sicrwydd yn yr ypsaid hyny o ddiweirdeb y ferch, ac nad oedd hi yn feichiog o arall cyn ei dyweddïo. † Ewyllys Duw oedd, i'w Fab gael ei eni o forwyn, i gyflawni yr addewid, Esay 7. 14. O'r Ysbryd Glân, fel y byddai efe yn beth sanctaidd, ac heb drosglwyddiad o bechod ynddo. O forwyn wedi ei dyweddïo, 1. Fel na byddai efe dan warth basdarddiaeth. 2. Na'i fam yn agored i gospedigaeth y gyfraith Iddewig. 3. Fel y byddai bonedd Mair drwy ei dyweddiawl briod. 4. Fel y byddai i Grist gael un i ofalu am dano yn ei fabandod.

19 * A Joseph [t] ei gwr hi, gan ei fod [u] yn gyfiawn, ac heb chwennych ei gwneuthur hi [x] yn siampl, [y] a ewyllysiodd ei rhoi hi ymaith yn ddirgel.

t Lef. 19. 20. Deut. 22. 23, 24. u Gen. 6. 9. Salm 112. 4, 5. Marc 6. 20. Luc 2. 25. Act. 10. 22. x Gen. 38. 24. Lef. 20. 10. Deut. 22. 21—24. Ioan 8. 4, 5. y Deut. 24. 1—4. Marc 10. 4.

* Yr oedd yn amlwg i Joseph erbyn hyn bod Mair yn feichiog, ond nid oedd wedi ei amlygu iddo eto pa fodd yr oedd hi wedi beichiogi, am hyny yr oedd petrusder ar ei feddwl pa fodd i ymddwyn tuag ati. Yr oedd ei ddewis ganddo o dri pheth. 1. *Gallasai*, er hyn, ei chymmeryd hi i'w dŷ, fel ei wraig; oblegid nid oedd deddf ysgariaeth ddim ond deddf o ryddid, i roddi ymaith wraig o herwydd aflendid, nid oedd yn rhwymo y dyn i wneuthur hyny. 2. Gallasai roddi iddi lythyr ysgar, a'i gadael hi gyda'i theulu. Mae y rhai cyfarwydd yn ysgrifeniadau yr Iuddewon yn dywedyd fod dwy ffordd y gallasid gwneyd hyn; un ai yn ddirgel, trwy roddi llythyr ysgar yn ei mynwes hi yn ngŵydd dau neu dri o dystion, neu ynte yn fwy amlwg a chyhoeddus ger bron y Swyddog gwladol. 3. Gallasai, yn ol y ddeddf, Deut. 22. 23, 24, &c. ei dwyn hi allan i'w holi, pa un ai ei threisio a gawsai, ai ynte cydsynio a wnaethai o honi ei hun. Os yr olaf, yr oedd i gael ei llabyddio â meini yn ol y ddeddf. Yn ei betrusder penderfynodd Joseph ar yr ail o'r tri pheth uchod, fel y llwybr mwyaf tirion a mwyaf dirgelaidd a oddefai y gyfraith iddo.

20 * Ac [z] efe yn meddwl y pethau hyn, wele, [a] angel yr Arglwydd a ymddangosodd iddo [b] mewn breuddwyd, gan ddywedyd, [c] † Joseph, mab Dafydd, [d] ‡ nac ofna gymmeryd Mair dy wraig: ‖ oblegid [e] yr hyn a genhedlwyd ynddi sydd o'r Ysbryd Glân.

z Salm 22. 8, 9. a 94. 19. a 119. 125. a 143. 8. Diar. 3. 5, 6. a 12. 5. Es. 26. 3. a 30. 21. a Barn. 13. 3, 8, 9. Luc 1. 10—13, 19, 26, &c. a 2. 8—14. b pen. 2. 13, 19, 22. Gen. 31. 11. Num. 12. 6. Job 4. 13—16. a 33. 15, 16. Joel 2. 28. c Es. 7. 2, 13. Jer. 33. 26. Luc 2. 4. d pen. 28. 5. Gen. 46. 3. 1 Bren. 17. 13. Es. 51. 7. Jer. 40. 9. Luc 1. 30. e adn. 18. Jer. 31. 22.

* Gyda bod Joseph wedi penderfynu yn ei feddwl ei hun, pa fodd i ymddwyn tuag at Mair, a chyn iddo osod ei fwriad mewn gweithrediad; dyma Angel Duw yn ymddangos iddo mewn breuddwyd, ac yn chwalu ymaith ei holl ofnau a'i betrusder. † "Joseph mab Dafydd," (ebe efe,) er mor dlawd ac isel oedd Joseph, eto dyma angel yn ei gyfenwi ef yn fab Dafydd, ac yn cadarnhâu cywirdeb yr achau a roddwyd gan Mathew yn yr adnodau o'r blaen. ‡ "Nac ofna gymmeryd Mair dy wraig:" dy wraig yw hi yn nghyfrif Duw, yn ngŵydd yr hwn yr ammodasoch: nac ofna ei chymmeryd hi; nac ofna ddigio Duw, nac ofna droseddu y gyfraith, nac ofna ddwyn gwarth arnat dy hun. Pan ddyweddiid merch i wr, gwraig y gwr hwnw y galwai yr Iuddewon hi, fel pe buasai wedi ei ei phriodi hefyd. ‖ Nid halogedig yw hi fel yr wyt ti yn ofni, ond beichiog o'r Ysbryd Glân yw hi, a beichiog hefyd ar y Messiah: anrhydedd a braint i ti ei chael hi, a bod yn dad cyfrifedig y Messiah hwnw.

21 * A [f] hi a esgor ar fab, † a [g] thi a elwi ei enw ef IESU: [h] ‡ oblegid efe a wared ei bobl oddi wrth eu pechodau.

f Gen. 17. 19, 21. a 18. 10. Barn. 13. 3. 2 Bren. 4. 16, 17. Luc 1. 13, 35, 36. g Luc 1. 31. a 2. 21. h Salm 130. 7, 8. Es. 12. 1, 2. a 45. 21, 22. Jer. 23. 6. a 33. 16. Ezec. 36. 25—29. Dan. 9. 24. Zec. 9. 9. Ioan 1. 29. Act. 3. 26. a 4. 12. a 5. 31. a 13. 23, 38, 39. Eph. 5. 25—27. Col. 1. 20—23. Tit. 2. 14. Heb. 7. 25. 1 Ioan 1. 7. a 2. 1, 2. a 3. 5. Dat. 1. 5, 6. a 7. 14.

* Ar yr amser priodol, hi a esgor ar Fab. Ei Mab hi fydd efe, nid dy Fab naturiol di. Cnawd o'i chnawd hi, nid wedi ei genedlu genyt ti. † Fel priod Mair, ac

fel ei dad cyfrifedig yntau, ti a gai yr anrhydedd a'r awdurdod o'i enwi ef; a thi a elwi ei enw ef Iesu, dyna fydd ei enw ef, o blegid dyna fydd ei swydd a'i waith ef, gwaredu ei bobl oddi wrth eu pechodau. ‡ Nid brenin a gwaredwr tymhorol, fel y dychymmyga yr Iuddewon, ac iddynt hwy yn unig; ond gwaredwr ei bobl, pawb a gredant ynddo, o Iuddewon a Chenedloedd; a gwaredwr oddiwrth bechodau; oddiwrth euogrwydd pechodau, trwy ei gyfiawnder; oddiwrth lywodraeth pechodau, trwy ras sancteiddiol; ac oddiwrth adragywyddol gosp am bechodau yn y byd y ddaw. Efe yn unig yw.

22 * (A hyn oll a wnaethpwyd, [i] fel y cyflawnid yr hyn a ddywedwyd gan yr Arglwydd trwy y prophwyd, gan ddywedyd,

i pen. 2. 15, 23. a 5. 17. a 8. 17. a 12. 17. a 13. 35. a 21. 4. 1 Bren. 8. 15, 24. Ezra 1. 1. Luc 21. 22. a 24. 44. Ioan 10. 35. a 12. 38—40. a 15. 15. 25. a 17. 12. a 18. 9. a 19. 24, 28, 36, 37. Act. 3. 18. a 13. 27—29. Dat. 17. 17.

23 † Wele, [k] morwyn a fydd feichiog, ac a esgor ar fab; a hwy a alwant ei enw ef [l] Emmanuel, yr hyn o'i gyfieithu yw, [m] ‡ Duw gyd â ni.

k Es. 7. 14. l Es. 7. 14. a 8. 8. m pen. 28. 20. Salm 46. 7, 11. Es. 8. 8—10. a 9. 6, 7. a 12. 2. Ioan 1. 14. Act. 18. 9, 10. 1 Ruf. 1. 3, 4. a 9. 5. 2 Cor. 5. 19. 1 Tim. 3. 16. 2 Tim. 4. 17, 22.

* Cyfeiriad sydd yn y ddwy adnod uchod at Esay 7. 14. ac yn ngenedigaeth Crist y cyflawnwyd y brophwydoliaeth nodedig hòno. † Ni bu y fath beth erioed o'r blaen, na chwedi, ac ni bydd byth mwyach; *morwyn* yn feichiog, ac eto yn *forwyn!* Mae hyna yn rhyfeddod mawr, ond wele eto ryfeddod mwy, hi a esgor ar fab, yr Emmanuel! ‡ Duw gyda ni, Duw yn ein natur ni, wedi ymddangos yn y cnawd; Duw o'n plaid ni, i'n gwaredu o law ein holl elynion.

24 * A Joseph, pan ddeffroes o gwsg, [n] † a wnaeth megis y gorchymynasai angel yr Arglwydd iddo, ‡ ac a gymmerodd ei wraig:

n Gen. 6. 22. a 7. 5. a 22. 2, 3. Ex. 40. 16, 19, 25, 27, 32. 2 Bren. 5. 11—14. Ioan 2. 5—8. a 15. 14. Heb. 11. 7, 8, 24—31. Iago 2. 21—26.

25 ‖ Ac nid adnabu efe hi hyd [o] oni esgorodd hi ar ei mab § cyntaf-anedig. [p] A galwodd ei enw ef IESU.

o Ex. 13. 2. a 22. 29. Luc 2. 7. Rhuf. 8. 29. p Luc 2. 21.

* Duw sydd yn rhoddi cwsg, a Duw sydd yn deffrôi. Cysgodd Joseph y waith hon mewn trallod mawr, ond deffrôdd yn dawel iawn ei feddwl; yn llawn o ffydd ac ufudd-dod; ffydd yn yr hyn a ddatguddiodd yr angel iddo, † ac ufudd-dod i'r hyn a orchymynodd efe iddo: efe a gymmerodd ei wraig. ‡ Efe a'i cymmerodd hi i'w dŷ, ac a'i harddelwodd hi fel ei wraig, gan ei charu a'i hanrhydeddu fel y cyfryw; ‖ ond nid adnabu efe hi hyd oni esgorodd ar ei chyntaf-anedig, IESU. § *Cyntaf*-anedig, nid *unig*-anedig Mair oedd Iesu; diammau bod iddi amryw blant o Joseph wedi hyny.

PEN. II.

Y doethion yn cael eu cyfarwyddo at Grist trwy weinidogaeth seren.

AC [a] wedi geni yr Iesu yn [b] * Bethlehem Judea, † yn nyddiau [c] Herod frenhin, wele, ‡ doethion a ddaethant [d] o'r dwyrain i Jerusalem,

a pen. 1. 25. Luc 2. 4—7. b adn. 5. Mica 5. 2. Luc 2. 11, 15. Ioan 7. 42. c adn. 3, 19. Gen. 49. 10. Dan. 9. 24, 25. Hag. 2. 6—9. d 1 Bren. 4. 30. Job 1. 3. Salm 72. 9—12. Es. 11. 10. a 60. 1, &c.

* Yn Bethlehem Judea yr oedd Crist i gael ei eni yn ol arfaeth Duw, a rhag-fynegiad y prophwyd Mica 5. 2, a rhyfedd fel y defnyddiodd Duw drethiad yr holl fyd gan Augustus Cesar, i ddwyn Joseph a Mair i Bethlehem ar yr amser hwnw. Tua chwe milltir i'r dehau-ddwyrain o Jerusalem; a dywedir Bethlehem Judea, i'w gwahaniaethu hi oddi wrth Bethlehem arall yn llwyth Zabulon. † Yn nyddiau Herod frenin y ganed ef: Edomiad, meddant, oedd yr Herod hwn o waedoliaeth, ond yn proffesu y grefydd Iuddewig; a thybir mai efe oedd y cenedl-ddyn cyntaf a lywodraethodd ar yr Iuddewon, ac os felly, cyflawnwyd prophwydoliaeth Jacob ynddo ef, Gen. 49. 10. ‡ Pwy oedd y doethion hyn a ddaethant i Jerusalem nis gwyddis. Tybia rhai mai breninoedd oeddynt, eraill mai math o sêr-ddewiniaid, eraill mai philosophyddion, ac eraill mai plaid o grefyddwyr o ryw fath. Doethion y geilw Mathew hwynt, ac yr oeddynt wedi cael ar ddeall rywfodd, (gan yr Iuddewon a ymdeithient yn eu gwlad, mae'n debyg,) fod y Messiah i gael ei eni o gylch yr amser hwnw.

2 * Gan ddywedyd, Pa le y mae yr hwn a [e] anwyd yn Frenhin yr Iuddewon? † canys gwelsom ei [f] seren ef yn y dwyrain, ‡ a daethom i'w [g] addoli ef.

e pen. 21. 5. Salm 2. 6. Es. 9. 6, 7. a 32. 1, 2. Jer. 23. 5. Zec. 9. 9. Luc 2. 11. a 19. 38. a 23. 3, 38. Ioan 1. 49. a 12. 13. a 18. 37. a 19. 12—15, 19. f Num. 24. 17. Es. 60. 3. Luc 1. 78, 79. Dat. 22. 16. g adn. 10, 11. Salm 45. 11. Ioan 9. 38. a 20. 28. Heb. 1. 6.

* Gan mai Jerusalem oedd y Brif-ddinas, naturiol iawn oedd iddynt ddyfod yno i holi am enedigaeth brenin. Mae'n debyg iddynt ymholi âg offeiriaid ac athrawon enwocaf Jerusalem, ond yn ofer, nis gwyddai neb yno am un mòr ddistadl a Iesu. Tua'r amser y ganwyd Crist, yr oedd disgwyliad trwy holl wledydd y Dwyrain, y cyfodai Brenin yn Judea, a lywodraethai ar yr holl fyd: Crist oedd y Brenin hwnw, (Matt. 28. 18; Dat. 11. 15.) ond ni fynai yr Iuddewon ei adnabod na'i gydnabod ef fel y cyfryw. † Tybir y rhaid eu bod wedi cael datguddiad goruwch-naturiol gan Dduw, mai ei "seren ef," sef y Messiah, oedd yr hon a welsant. Barnai doethion y Dwyrain fod ymddangosiad seren na welsid o'r blaen, yn rhag-arwyddo genedigaeth brenin, neu rywun mwy enwog na chyffredin; ac efallai bod y doethion hyn yn gwybod am brophwydoliaeth Balaam, am y seren a ddeuai o Jacob: Num. 24. 17. Ei gweled hi yn y dwyrain a arwydda iddynt hwy ei gweled pan oeddynt yn y dwyrain, ond rhaid bod y seren yn y gorllewin; canys felly yr oedd Canaan o wlad y dwyrain. ‡ Nis gellir gwybod yn iawn, pa un ai anrhydedd personol i Grist fel brenin, ai ynte gwir addoliad crefyddol iddo fel Person Dwyfol, a feddylir wrth ei addoli ef yn y lle hwn. Pa un bynag o'r ddau, gellir golygu y doethion hyn fel blaen-ffrwyth y Cenedloedd yn nyddiau yr efengyl.

3 * Ond pan glybu Herod frenhin, [h] efe a gyffrôwyd, † a holl Jerusalem gyd âg ef.

h pen. 8. 29. a 23. 37. 1 Bren. 18. 17, 18. Ioan 11. 47, 48. Act. 4. 2, 24—27. a 5. 24—28. a 16. 20, 21. a 17. 6, 7.

* Gan y gwyddai Herod fod disgwyliad cyffredinol yn mhlith yr Iuddewon am y Messiah, ac yn meddwl mai brenin daearol a fyddai y Messiah hwnw, efe a gyffrôdd, pan glywodd yr ymofyniad uchod am dano gan y doethion. † Cyffrôdd holl Jerusalem hefyd; nid am eu bod yn caru Herod na'i lywodraeth, ond am y gwyddent trwy brofiad, y byddai sôn am frenin arall yn achos o derfysg ofnadwy a thywallt gwaed yn eu plith.

4 * A chwedi dwyn ynghyd yr holl [i] arch-offeiriaid ac [k] ysgrifenyddion y bobl, [l] efe a ymofynodd â hwynt pa le y genid Crist.

i pen. 21. 15, 23. a 26. 3, 47. a 27. 1. 1 Cron. 24. 4, &c. 2 Cron. 36. 14. Ezra 10. 5. Neh. 12. 7. Ioan. 7. 32. a 18. 3. k pen. 7. 29. a 13. 52. 2 Cron. 34. 15. Ezra 7. 6, 11, 12. Jer. 8. 8. Marc 8. 31. Luc 20. 19. a 23. 10. Ioan 8. 3. Act. 4. 5. a 6. 12. a 23. 9. l Mal. 2. 7. Ioan 3. 10.

* Er mai brenin yr Iuddewon a ddywedasai y doethion, eto gwyddai Herod mai y Messiah oedd y brenin hwnw; gan hyny ei holiad oedd, Pa le y genid Crist. Ei ddyben yn holi am le ei enedigaeth oedd, fel y lladdai efe ef, ac felly diddymu holl amcanion Duw o'r dechreuad. Tybir mai o'r Lefiaid yr oedd yr ysgrifenyddion oll, eu gwaith oedd ysgrifenu copiau o lyfrau

yr Hen Destament; a chan eu bod hwy yn gyfarwydd yn y llyfrau hyny, ymofynid â hwy ar achosion dyrys mewn pethau ysgrythyrol; ac felly ymofynodd Herod â hwy, am y fàn lle yr oedd y Messiah i gael ei eni.

5 * A hwy a ddywedasant wrtho, [m] Yn Bethlehem Judea: canys felly yr ysgrifenwyd trwy y prophwyd;

m Gen. 35. 19. Jos. 19. 15. Ruth 1. 1, 19. a 2. 4. a 4. 11. 1 Sam. 16. 1.

6 † A [n] thithau, Bethlehem tir Juda, ‡ nid lleiaf wyt ym mhlith tywysogion Juda: canys o honot ti y daw [o] Tywysog yr hwn a fugeilia fy mhobl Israel.

n adn. 1. Mica 5. 2. Ioan 7. 42. o pen. 28. 18. Gen. 49. 10. Num. 24. 19. 1 Cron. 5. 2. Salm 2. 1—6. Es. 9. 6, 7. Eph. 1. 22. Col. 1. 18. Dat. 2. 27. a 11. 15.

* Cafodd Herod atebiad yn y fàn, mai yn Bethlehem Judea y genid Crist, canys felly yr ysgrifenwyd trwy y prophwyd, Mica 5. 2. † Tref fechan oedd Bethlehem, yn Judea; tua chwe' milltir i'r deau o Jerusalem. Er nad oedd ond bechan o faintioli, eto yr oedd yn enwog o herwydd enwogion a anwyd ynddi, a'r enwocaf o honynt oll oedd y Messiah, Llywydd Israel, a Bugail Israel. ‡ Lleiaf, medd Mica, felly yr oedd yn ei amser ef; *nid* lleiaf, medd yr Efengylwr, am fod y Messiah wedi ei eni ynddi. Yn mhlith *miloedd* Judah a ddywedir yn Mica 5. 2; arferai yr Iuddewon ranu y bobl yn mhob llwyth yn *filoedd*, a gosodent dywysog, neu flaenor, ar bob un o'r miloedd hyny.

7 * Yna Herod, [p] wedi galw y doethion yn † ddirgel, a'u holodd hwynt yn fanwl am yr amser yr ymddangosasai y seren.

p pen. 26. 3—5. Ex. 1. 10. 1 Sam. 18. 21. Salm 10. 9, 10. a 55. 21. a 64. 4—6. a 83. 3, 4. Es. 7. 5—7. Ezec. 38. 10, 11. Dat. 12. 1—5, 15.

* Gwedi i Herod gael gwybod y *lle* y genid Crist, y peth nesaf oedd gwybod yr *amser:* am hyny ymholodd â'r doethion, pa bryd yr ymddangosasai y seren. † Galwodd hwynt yn ddirgel; gwyddai bod yr Iuddewon bob amser yn ddigon parod i wrthryfela, am hyny gwell ganddo gadw y mater hwn rhyngddynt hwy hyd ag yr oedd dichon, nes y caffai gyfle i ladd y brenin mabanaidd.

8 * Ac wedi eu danfon hwy i Bethlehem, efe a ddywedodd, [q] Ewch, ac ymofynwch yn fanwl am y † mab bychan; a phan gaffoch *ef*, mynegwch i mi [r] fel y gallwyf finnau ddyfod a'i addoli ef.

q 1 Sam. 23. 22, 23. 2 Sam. 17. 14. 1 Bren. 19. 2. Job 5. 12, 13. Salm 33. 10, 11. Diar. 21. 30. Galar. 3. 37. 1 Cor. 3. 19, 20. r pen. 26. 48, 49. 2 Sam. 15. 7—12. 2 Bren. 10. 18, 19. Ezra 4. 1, 2. Salm 12. 2, 3. a 55. 11—15. Diar. 26. 24, 25. Jer. 41. 5—7. Luc 20. 20, 21.

* Dywedodd Herod wrth y doethion, mai Bethlehem oedd y fàn, ac anfonodd hwy yno i ymofyn yn fanwl am y mab bychan. † Gwyddai Herod yn dda mai y Messiah ydoedd, ond ni chymmerai arno hyny wrth y doethion, rhag y tybient hwy fod bwriad drwg yn ei galon ef tuag ato, fel gwrth-ymgeisydd am y freniniaeth. Rhyfedd na buasai hen gadnaw mòr gyfrwys a Herod, yn danfon rhyw rai o'i bobl ei hun gyda'r doethion, neu yspiwyr ar eu hol: yn hyn dyrysodd Duw amcanion yr un cyfrwys. Twyll a chelwydd Herod ydoedd hyn, ei fwriad ef ydoedd lladd Iesu, fel y dangosodd wedi hyn trwy ladd plant Bethlehem, gan obeithio lladd Crist yn eu plith: adn. 16.

9 * Hwythau, wedi clywed y brenhin, a aethant; † ac wele, y [s] seren a welsent yn y dwyrain a aeth o'u blaen hwy, hyd oni ddaeth hi a sefyll goruwch y lle yr oedd y mab bychan.

s adn. 2. Salm 25. 12. Diar. 2. 1—6. a 8. 17. 2 Pedr 1. 19.

* Aeth y doethion tua Bethlehem, heb neb o Jerusalem gyda hwynt. Efallai na feiddiai neb fyned gan ofn Herod; neu, efallai, mai hollawl ddifaterwch yr Iuddewon am y Messiah oedd yr achos. Dirmygedig oedd, ac ni wnaethant gyfrif o hóno. † Ond er na chafodd y dieithriaid hyn arweinydd o Jerusalem, rhoddodd Duw y seren yn arweinydd iddynt. Nid seren naturiol oedd hon, ond rhyw oleuni goruwchnaturiol a osododd Duw yn yr awyr i'r perwyl hwn yn unig, fel y golofn dân gynt yn yr anialwch.

10 * A phan welsant y seren, [t] llawenychasant â llawenydd mawr dros ben.

t Deut. 32. 43. Salm 67. 4. a 105. 3. Luc 2. 10, 11, 20. Act. 13. 46—48. Rhuf. 15. 9—13.

* Gwedi colli eu golwg ar y seren am hir o amser, llawenychasant yn fawr pan ymddangosodd iddynt yr ail waith. Ac nid rhyfedd, yn enwedig os oeddent yn credu yn y Messiah fel ceidwad pechaduriaid. Llawenydd mawr i'r holl bobl oedd y newyddion da am ei enedigaeth ef.

11 ¶ * A phan ddaethant i'r tŷ, [u] hwy a welsant y mab bychan gyd â Mair ei fam, a hwy a syrthiasant i lawr, ac a'i [x] haddolasant ef: ac wedi agoryd eu trysorau, [y] a offrymmasant iddo anrhegion; † aur, [z] a thus, a myrr.

u Luc 2. 16, 26—32, 38. x adn. 2. pen. 4. 9, 10. a 14. 33. Salm 2. 12. a 95. 6. Ioan 5. 20, 23. Act. 10. 25, 26. Dat. 19. 10. a 22. 8—10. y Gen. 43. 11. 1 Sam. 10. 27. 1 Bren. 19. 2, 10. Salm 72. 10, 15. Es. 60. 6. z Ex. 30. 23, 34. Lef. 2. 1, 2. a 6. 15. Num. 7. 14, 86. Salm 45. 8. Mal. 1. 11. Dat. 5. 8.

* Nid yw o bwys yn y byd i ni wybod pa bryd wedi geni Crist y daeth y doethion. Pan ddaethant, hwy a'i cawsant gyda Mair ei fam, mewn agwedd a lletty digon gwael, mae yn sicr; ond ni bu hyny yn rhwystr iddynt hwy i syrthio i lawr, a'i addoli: yr hyn sydd brawf go ddiammeuol, eu bod hwy wedi cael datguddiad dwyfol ac ysbrydol o hóno, ac eu bod yn credu ynddo fel Mab Duw, ac fel Iachawdwr dynion. † Tybiai yr henafiaid yn gyffredin bod y thus a'r myrr a offrymasant iddo, yn gydnabyddiaeth o ddwyfoldeb ei berson, a'r aur yn gydnabyddiaeth o hóno fel brenin. Pa fodd bynag am hyny, trefnodd Duw y rhoddion hyn yn brydlawn iawn, er cynnaliaeth ei rieni tlodion ac yntau, yn eu hymdaith alltudaidd yn yr Aipht.

12 * Ac wedi eu [a] rhybuddio hwy gan Dduw trwy freuddwyd, na ddychwelent at Herod, [b] hwy a aethant drachefn i'w gwlad ar hyd ffordd arall.

a adn. 22. pen. 1. 20. a 27. 19. Gen. 20. 6, 7. a 31. 24. Job 33. 15—17. Dan. 2. 19. b Ex. 1. 17. Act. 4. 19. a 5. 29. 1 Cor. 3. 19.

* Bwriad syml y doethion oedd, cael hyd i Grist i'w addoli ef: mynai Herod gymmeryd mantais ar eu diniweidrwydd hwy, i gael gafael ar Grist i'w ladd ef; ond rhybuddiodd Duw hwy fel y dychwelasant heb amlygu i Herod pa le yr oedd ef. Anrhydeddodd Duw y doethion hyn mewn tair ffordd, 1. Trwy roddi y seren iddynt. 2. Trwy y gair o enau yr Arch-offeiriaid a'r ysgrifenyddion, ac yn 3. Trwy ymddiddan â hwy mewn breuddwyd.

13 Ac wedi iddynt ymado, wele [c] angel yr Arglwydd yn ymddangos i Joseph mewn breuddwyd, gan ddywedyd, [d] * Cyfod, cymmer y mab bychan a'i fam, a ffo i'r Aipht, a bydd yno [e] hyd oni ddywedwyf i ti: [f] canys ceisio a wna Herod y mab bychan i'w ddifetha ef.

c adn. 19. pen. 1. 20. Act. 5. 19. a 10. 7, 22. a 12. 11. Heb. 1. 13, 14. d pen. 10. 23. Dat. 12. 6, 14. e adn. 19, 20. Jos. 3. 13, 17. a 4. 10, 18. Dan. 3. 25, 26. Act. 16. 36. f adn. 16. Ex. 1. 22. a 2. 2, 3. Act. 7. 19. Dat. 12. 4.

* Er y gallasai Duw achub y "mab bychan" rhag Herod mewn modd gwyrthiol pe gwelsai hyny yn orau; ond trwy ffoi i'r Aipht y gwelodd yn dda i wneyd hyny: yn un peth fel y dangosai i ni, mai arfer moddion addas yw ein dyledswydd ni yn mhob amgylchiad, ac hefyd fel y caffai Herod ddangos llid ei galon yn ei geisio i'w ddifetha. Dan lywodraeth Rhufain, ac allan

b lywodraeth Herod, yr oedd yr Aipht y pryd hwn; yr
r oedd yno lawer o Iuddewon yn preswylio, a themi a
ynagogau ganddynt meddant; ac am nad oedd bell
awn o Bethlehem, danfonodd Duw y teulu hwn yno.

14 * *Ac* yntau pan gyfododd, [g] a gymmerth
y mab bychan a'i fam o hyd nos, ac a giliodd
'r Aipht:

g adn. 20, 21. pen. 1. 24. Act. 26. 19.

15 Ac a fu yno [h] hyd farwolaeth Herod:
fel y cyflawnid yr hyn a ddywedwyd gan yr
Arglwydd trwy y prophwyd, gan ddywedyd,
† O'r Aipht y gelwais fy mab.

h adn. 19. Act. 12. 1—4, 23, 24. i adn. 17, 23. pen. 1. 22.
4. 14, 15. a 8. 17. a 12. 16—18. a 21. 4. a 26. 54, 56. a 27. 35. Luc
24. 44. Ioan 19. 28, 36. Act. 1. 16. k Ex. 4. 22. Num. 24. 8.
Hos. 11. 1.

* Ni bu Joseph yn anufudd i'r weledigaeth nefol:
redodd, am hyny efe a ufuddâodd. Mae gwir ffydd
ob amser, yn gweithio ufudd-dod parod ac ewyllysgar.
ychwynodd Joseph yn ddioed, o hyd nos: nid oedd
anddo fawr o waith parotôi, na nemawr i gymmeryd
ydag ef, ond Mair a Iesu, anrhegion y doethion, ac
iddewid Duw. † Galwodd Duw ei fab Israel o'r Aipht,
galwodd ei Briod Fab Iesu wedi hyny, Hos. 11. 1.

16 ¶ * Yna Herod, [l] pan weles ei siommi
gan y doethion, [m] a ffrommodd yn aruthr, ac a
ddanfonodd [n] ac a laddodd yr † holl fechgyn
oedd yn Bethlehem, ac yn ei holl gyffiniau, o
ddwy-flwydd oed a than hynny, [o] wrth yr amser
yr ymofynasai efe yn fanwl â'r doethion.

l Gen. 39. 14, 17. Num. 22. 29. a 24. 10. Barn. 16. 10. Job 12.
m Diar. 27. 3, 4. Dan. 3. 13, 19, 20. n Gen. 49. 7.
Bren. 8. 12. Diar. 28. 15, 17. Es. 26. 21. a 59. 7. Hos. 10. 14.
Dat. 17. 6. o adn. 7.

* Yma mae Herod yn amlygu beth oedd ef yn feddwl
wrth ddyfod i addoli Crist yn adn. 8. Ei fwriad o'r
dechreu oedd ei ladd ef; a phan ei siomwyd gan y
doethion, aeth yn eithaf cynddeiriog i gyflawni y bwr-
iad hwnw: † a rhag methu Crist, efe a laddodd holl
blant Bethlehem a'i hamgylchoedd. Dywedir iddo
fynu lladd hyd yn nod ei fab ei hun y pryd hwnw, ond
nid oes sicrwydd am hyny. Dyn o greulondeb ofnad-
wy oedd Herod, proffesai gariad rhyfeddol at ei wraig,
eto rhoddodd hi a dau o'i feibion o hóni i farwolaeth,
gyda mab arall heblaw hyny: ychydig cyn ei farw,
gorchymynodd ladd y dynion penaf yn mhlith yr
Iuddewon pan fyddai farw, fel y byddai yr holl brif
deuluoedd mewn galar, megys am ei farw ef; felly nid
oedd lladd plant Bethlehem, (tua 50 oedd o honynt
meddant) ond peth bychan gan ddyn cythreulig o fath
hwn.

17 * Yna y [p] cyflawnwyd yr hyn a ddy-
wedasid gan Jeremïas y prophwyd, gan
ddywedyd,

p adn. 15.

18 [q] Llef a glybuwyd yn Rama, [r] galar, ac
wylofain, ac ochain mawr, [s] † Rachel yn wylo
am ei phlant; [t] ac ni fynnai ei chysuro am nad
oeddynt.

q Jer. 31. 15. r Jer. 4. 31. a 9. 17—21. Ezec. 2. 10. Dat.
8. 13. s Gen. 35. 16—20. t Gen. 37. 30, 33—35. a 42. 36.
Job 14. 10.

* Mae y geiriau a grybwyllir yma i'w cael yn Jer. 31.
15. cyflawnwyd hwynt o'r blaen, yn nghaethgludiad
plant Judah a Benjamin i Babilon; a chyflawnwyd
hwynt drachefn yn y cyflafan erchyll hwn. † Rachel
ydoedd fam Benjamin, gwraig hoff iawn o blant; am
hyny addas iawn oedd ei dwyn hi megys i fynu o'i
bedd (yr hon oedd hefyd yn gyfagos yno) i alaru am
blant Bethlehem.

19 ¶ * Ond [u] wedi marw Herod, wele
[x] angel yr Arglwydd mewn breuddwyd yn ym-
ddangos i Joseph yn yr Aipht,

u Salm 76. 10. Es. 51. 12. Dan. 8. 25. a 11. 45. x adn. 13.
pen. 1. 20. Salm 139. 7. Jer. 30. 10. Ezec. 11. 16.

20 Gan ddywedyd, [y] † Cyfod, a chymmer
y mab bychan a'i fam, a dos i dir Israel:
[z] canys y rhai oedd yn ceisio einioes y mab
bychan a fuant feirw.

y adn. 13. Diar. 3. 5, 6. z Ex. 4 19. 1 Bren. 11. 21, 40.
a 12. 1—3.

* Ychydig fisoedd y cafodd Herod fyw ar ol y weith-
red ofnadwy uchod: rhoddodd Duw derfyn ar ei hoedl
a'i greulondeb yn nghyd: a hyny meddant, trwy glef-
ydau ffiaidd a dychrynllyd ar ei gorph, ac euogrwydd
ofnadwy yn ei gydwybod. Yr oedd yn ddychryn iddo
ei hun ac i bawb o'i amgylch. † Ar farwolaeth Herod,
cofiodd Duw ei addewid i Joseph, a danfonodd ei angel
i alw y teulu sanctaidd yn ol i dir Israel.

21 Ac [a] wedi ei gyfodi, efe a gymmerth y
mab bychan, a'i fam, ac a ddaeth i dir Israel.

a Gen. 6. 22. Heb. 11. 8.

22 Eithr pan glybu efe fod * Archelaus yn
teyrnasu ar Judea yn lle ei dad Herod, [b] efe a
† ofnodd fyned yno. Ac [c] wedi ei rybuddio
gan Dduw mewn breuddwyd, efe a giliodd [d] i
barthau Galilea.

b Gen. 19. 17—21. 1 Salm 16. 2. Act. 9. 13, 14. c adn. 12.
pen. 1. 20. Salm 48. 14. a 73. 24. a 107. 6, 7. a 121. 8. Es. 30. 21.
a 48. 17, 18. d pen. 3. 13. Ioan 7. 41, 42, 52.

* Gan fod gwir Frenin yr Iuddewon yn awr wedi ei
eni, trefnodd rhagluniaeth ryfeddol Duw, na bu dim
llywodraethwyr gosodedig dan yr enw *breninoedd* yn
ychwaneg ar Judea, rhaglawiaid yn unig oeddynt yn
cael eu gosod o bryd i bryd gan ymerawdwyr Rhufain.
† O holl feibion Herod, dywedir mai yr Archelaus hwn
oedd y creulonaf, am hyny ofnai Joseph fyned i Judea;
ac wedi ei rybuddio eto gan Dduw mewn breuddwyd,
efe a aeth i barthau Galilea, dosparth dan raglawiaeth
Philip, gwr o gynneddfau gwell a mwy diniwed.

23 A phan ddaeth, efe a drigodd mewn
dinas a elwid [e] * Nazareth: fel y cyflawnid yr
hyn a ddywedasid trwy y prophwydi, [f] † Y
gelwid ef yn Nazarëad.

e Ioan 18. 5, 7. a 19. 19. Act. 2. 22. f pen. 26. 71. Salm
69. 9, 10. Es. 53. 1, 2. Ioan 1. 45, 46. Act. 24. 5.

* Bu Joseph yn byw yn Nazareth o'r blaen, Luc 2. 4.
Dinas fechan, wael, ac anenwog iawn oedd Nazareth:
mòr anenwog, fel y dywedai Nathanäel, "A ddichon
dim da ddyfod o Nazareth." Rhan o ddarostyngiad
Iesu oedd trigo yn y lle tlawd hwn, ac o'r "tir sych"
hwn y cododd Duw "Blanigyn enwog" i'w bobl. † Gellid
ei alw ef yn Nazarëad am ei fod yn preswylio yn Naz-
areth. Galwyd ef felly hefyd (a'i ganlynwyr gydag ef)
mewn ffordd o ddirmyg ac anfri: a thybia rhai ei alw
felly fel sylwedd a gwrth-gysgod Nazarëaid gynt dan yr
hen oruchwyliaeth. Pa rai o'r prophwydi a ddywedodd
y gelwid ef nis gwyddom: tybia Mr. Scott, mai y pro-
phwydoliaethau am ei waeledd a'i ddirmyg yn ngolwg
y bobl, a feddylir gan yr Efengylwr. Gwelwch ei
gyfeiriadau perthynol i ddiwedd yr adnod.

PEN. III.

1 *Ioan yn pregethu.* 7 *Y mae'n ceryddu'r Phariseaid.*
13 *Bedyddio Crist.*

* Ac [a] yn y dyddiau hynny y daeth [b] Ioan
Fedyddiwr, gan [c] bregethu yn [d] † ni-
ffaethwch Judea,

a Luc 3. 1, 2. b pen. 11. 11. a 14. 2, &c. a 16. 14. a 17. 12,
13. a 21. 25—27, 32. Marc 1. 4. a 6. 16—29. Luc 1. 13—17, 76. a 3.
2—20. Ioan 1. 6—8, 15—36. a 3. 27—36. Act. 1. 22. a 13. 24, 25. a
19. 3, 4. c Es. 40. 3—6. Marc 1. 7. Luc 1. 17. d pen. 11. 7.
Jos. 15. 61, 62. Luc 7. 24.

Mae wyth neu naw mlynedd ar hugain o amser
rhwng diwedd y bennod o'r blaen a dechreu hon; a
chymmaint a hyny o oes Ioan Fedyddiwr a Christ, heb
ddim sôn am dani gan Matthew. * Y dyddiau hyny

oedd tua'r bymthegfed flwyddyn i Tiberius Cesar, pan oedd Ioan a Christ tua deg ar hugain oed, ac yn dechreu ar eu gweinidogaeth gyhoeddus. † Diffaethwch Judea oedd ran o'r wlad hòno, lle nad oedd llawer o dai a thrigolion. Yno y dechreuodd Ioan ei weinidogaeth, nid rhuthro ar unwaith i'r manau mwyaf cyhoeddus a phoblogaidd. *Diffaethwch Judea*, ydoedd i'r dwyrain o Jerusalem, yn ymestyn gyda glàn gorllewinol y môr marw, o'i ben gogleddol lle yr âi yr Iorddonen iddo, yn mhell tua phen deheuol y môr hwnw.

2 A dywedyd, [e] * Edifarhêwch: [f] canys nesâodd † teyrnas nefoedd.

e pen. 4. 17. a 11. 20. a 12. 41. a 21. 29—32. 1 Bren. 8. 47. Job 42. 6. Ezec. 18. 30—32. a 33. 11. Marc 1. 4, 15. a 6. 12. Luc 13. 3, 5. a 15. 7, 10. a 16. 30. a 24. 47. Act. 2. 38. a 3. 19. a 11. 18. a 17. 30. a 20. 21. a 26. 20. 2 Cor. 7. 10. 2 Tim. 1. 25. Heb. 6. 1. 2 Pedr 3. 9. Dat. 2. 5, 21. f pen. 5. 3, 10, 19, 20. a 6. 10, 33. a 10. 7. a 11. 11, 12. a 13. 11, 24, 31, 33, 44, 45, 47, 52. a 18. 1—4, 23. a 20. 1. a 22. 2. a 23. 13. a 25. 1, 14. Dan. 2. 44. Luc 6. 20. a 9. 2. a 10. 9—11. Ioan 3. 3—5. Col. 1. 13.

* Edifeirwch a arwydda dröad hollawl ar y meddwl, y tymmerau, y serchiadau, a'r holl enaid. Galwai Ioan ar yr Iuddewon i edifarâu am eu pechodau, eu cyfiawnderau deddfol, a'u dychymygion cnawdol am y Messiah. Diwygiwch, medd rhai; ystyriwch, medd eraill: mae y gair gwreiddiol yn arwyddo newidiad meddwl, bwrw adolygiad ar weithredoedd a aethant heibio, gofidio o'u herwydd, a'u casâu a'u gadael. Bod yn ddoeth ar ol y weithred, medd *Beza*, ac felly gofidio am fai a diwygio oddi wrtho. Y gair *bar*, llid neu ddigter, yw gwreiddyn y gair *edifaru*, neu *edifarâu:* mae pechod yn tarddu o elyniaeth at Dduw, ac yn digio Duw, yn ei annog ef i *far* yn erbyn y pechadur; a phan ddaw y pechadur i ofidio ac ymostwng am ei bechod, mae yr Arglwydd yn *edifaru*, neu yn dadlidio yn erbyn y pechadur; yn maddau iddo, ac yn cymmodi yn heddychol âg ef yn Nghrist, heb gyfrif iddo ei bechod. † Wrth deyrnas nefoedd yma y meddylir, goruchwyliaeth yr efengyl, mewn cyferbyniad i oruchwyliaeth y seremoniau, teyrnas satan, a holl deyrnasoedd paganaidd ac eilunaddolgar y byd. Mab y dyn yw brenin y deyrnas hon.

3 * Oblegid hwn yw efe yr hwn y dywedwyd am dano gan [g] Esaias y prophwyd, gan ddywedyd, † Llef un yn llefain yn y diffaethwch, [h] ‡ Parottôwch ffordd yr Arglwydd; gwnewch yn uniawn ei lwybrau ef.

g Es. 40. 3. Marc 1. 3. Luc 3. 3—6. Ioan 1. 23. h Es. 57. 14, 15. Mal. 3. 1. Luc 1. 17, 76.

* Beth bynag oedd meddwl llythyrenol y geiriau yn Esaias, mae yn amlwg eu bod yn brophwydoliaeth am Ioan, fel rhagflaenor y Messiah. † Llef y gelwir gweinidogaeth Ioan, i arwyddo nad oedd ond bèr, eithr eglur a nerthol iawn. ‡ Cyfeiriad sydd yma at y dull y byddai cloddgâd *(pioneers)* yn myned o flaen brenin a'i fyddin i arloesi ffordd iddynt trwy'r anialwch. Diffaethwch ofnadwy oedd y byd hwn cyn dyfodiad y Messiah a'r efengyl, a rhyfedd y cyfnewidiad a wnaeth yr efengyl arno.

4 A'r Ioan hwnnw oedd [i] â'i ddillad o * flew camel, a gwregys o groen yn nghylch ei lwynau: [k] a'i fwyd oedd † locustiaid a [l] mel gwyllt.

i pen. 11. 8. 2 Bren. 1. 8. Zec. 13. 4. Mal. 4. 5. Marc 1. 6. Luc 1. 17. Dat. 11. 3. k pen. 11. 18. Lef. 11. 22. l Deut. 32. 13. 1 Sam. 14. 25—27.

* Yr oedd dillad Ioan yn debyg i ddillad y prophwydi gynt, yn enwedig Elias. Nid o flew mânaf a thecaf y camel, ond o'i flew hirion a geirwon, o ba rai y gwnaid y dillad garwaf yn y dwyrain gynt, y rhai a wisgai y tlodion, a phrophwydi hunan-ymwadol, a gau brophwydi hefyd; (Zec. 13. 4.) ac a wisgir eto gan fonachod pabaidd, yn y gwledydd lle mae y cyfryw gymdeithasau o frawdolion. Gan i Ioan ddyfod yn ysbryd a nerth Elias, efe a ymwisgodd fel Elias hefyd; mewn dillad o flew camel, a gwregys o groen yn nghylch ei lwynau, fel yr oedd gan Elias. † Ac ymborthai ar locustiaid, y rhai oedd yn lân, ac yn gyfreithlawn eu bwyta dàn y ddeddf: ac yr oedd mêl ddigonedd yn holl wlad Canaan. Amcan yr adnod hon yw dangos i ni, mai gwr cymmedrol a gweddaidd ydoedd Ioan yn ei ymborth a'i ddillad, y fath a weddai i holl weinidogion yr efengyl fod.

5 * Yna [m] yr aeth allan atto ef Jerusalem, a holl Judea, a'r holl wlad o amgylch yr Iorddonen:

m pen. 4. 25. a 11. 7—12. Marc 1. 5. Luc 16. 16. Ioan 3. 33, a 5. 35.

* Nid rhyfedd bod gwrandawyr Ioan yn lliosog, pan ystyriom yn 1. Na chododd prophwyd yn Israel er ys cannoedd o flynyddoedd o'r blaen. 2. Pan ystyriom newydd-deb ei athrawiaeth ef, a'r nerth oedd yn cydfyned â hi. Ac yn 3. Pan ystyriom ei fod yn mynegi dyfodiad y Messiah megys ar y drws, ac yn bedyddio dynion, yr hyn oedd ddefod newydd i'r Iuddewon, er eu harfer o'r blaen ar broselytiaid o blith y cenedloedd.

6 * A [n] hwy a fedyddiwyd ganddo ef yn yr Iorddonen, [o] gan gyffesu eu pechodau.

n adn. 11, 13—16. Ezec. 26. 25. Marc 1. 8, 9. Luc 3. 16. Ioan 1. 25—28, 31—33. a 3. 23—25. Act. 1. 5. a 2. 38—41. a 10. 36—38. a 11. 16. a 19. 4, 5. 1 Cor. 10. 2. Col. 2. 12. Tit. 26. 40. Heb. 6. 2. a 9. 10. 1 Pedr 3. 21. o Lef. 16. 21. a 3. 5, 6. Num. 5. 7. Jos. 7. 19. Job 33. 27, 28. Salm 32. 5. Diar. 28. 13. Dan. 9. 4. Marc 1. 5. Luc 15. 18—21. Act. 19. 18. a 22. 16. Iago 5. 16. 1 Ioan 1. 9.

* Arwydda y gair gwreiddiol a gyfieithir bedyddio, unrhyw fath o olchiad â dwfr, neu daenelliad. Nid yw yn debygol y gallasai Ioan ei hun drochi y fath lïaws yn yr Iorddonen; mwy tebygol o lawer yw, mai tywallt, neu daenellu dwfr arnynt a wnaeth, yr hyn oedd ddangosiad amlycach o dywalltiad yr Ysbryd Glân, yr hyn oedd bedydd yn ei arddangos. Parotôad i'r oruchwyliaeth Gristionogol oedd bedydd Ioan, (fel ei holl weinidogaeth i gyd) ac nid y bedydd Cristionogol a orchymynodd Crist wedi hyny. Gan mai un o brif ordinadau yr efengyl yw bedydd, Crist ei hun a sefydlodd yr ordinâd hon gyntaf yn ddïammau, fel yr ordinâd arall o swper yr Arglwydd; felly nid bedydd yr efengyl, fel y gorchymynodd Crist ei weinyddu, ydoedd bedydd Ioan, yn mha ddull bynag yr oedd ef yn ei weinyddu; ai trwy drochiad, tywalltiad, neu daenelliad. Nid oes hanes fod Ioan yn bedyddio yn enw y Mab a'r Ysbryd Glân ychwaith, fel y gorchymynodd Crist fedyddio, yn Matt. 28. 19; gan hyny nis gallai ei fedydd ef fod yn fedydd efengylaidd, fel y sefydlodd Crist ef. Gan i Ioan fedyddio Crist ei hun, buasai yn ei fedyddio ef yn ei enw ei hun, pe bedyddiasai yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân; yr hyn a fuasai beth rhyfedd iawn, a dywedyd y lleiaf am dano.

7 ¶ A phan welodd efe lawer o'r [p] * Phariseaid ac o'r † Saduceaid yn dyfod i'w fedydd ef, efe a ddywedodd wrthynt hwy, [q] ‡ O genhedlaeth gwiberod, [r] ‖ pwy a'ch rhag-rybuddiodd i [s] ffoi rhag y llid a fydd?

p pen. 5. 20. a 12. 24. a 15. 12. a 16. 6, 11, 12. a 22. 23, 34. a 23. 13, &c. Marc 7. 3—5. a 8. 15. a 12. 13, 18. Luc 7. 30. a 11. 39—44. a 16. 14. a 18. 11. Ioan 1. 24. a 7. 45—49. a 9. 40. Act. 4. 1, 2. a 5. 17. a 15. 5. a 23. 6—9. a 26. 5. q pen. 12. 34. a 23. 33. Gen. 3. 15. Salm 58. 3—6. Es. 57. 3, 4. Luc 3. 7. Ioan 8. 44. 1 Ioan 3. 10. Dat. 12. 9, 10. r Jer. 6. 10. Ezec. 3. 18—21. a 33. 3—7. Act. 20. 31. Heb. 11. 7. s Rhuf. 5. 9. 1 Thes 1. 10. 2 Thes. 1. 9. Heb. 6. 18. Dat. 6. 16, 17.

* Plaid grefyddol oedd y Phariseaid, yn cymmeryd arnynt fod yn fanol iawn yn ngweithredoedd y ddeddf a thraddodiadau y tadau. † Y Saduceaid oeddynt blaid arall o bobl: gwadent anfarwoldeb yr enaid, adgyfodiad y corph, ysbrydion da a drwg, a chyflwr i ddyfod. ‡ Y gwiberod i ba rai y cyffelybir hwynt ydynt y fath waethaf o bob rhywogaeth o seirff a nadroedd: yr oedd y naill felly yn eu rhagrith, a'r lleill yn eu haflendid a'u cyfeiliornadau gwenwynig. ‖ Pa raid i chwi, Phariseaid, ffoi, sydd yn tybied fod genych ddigon o grefydd; a chwithau, Saduceaid, sydd yn tybied nad oes dim mewn crefydd, ac nad oes byd na chosp i ddyfod.

8 [t] * Dygwch gan hynny [u] † ffrwythau addas i edifeirwch.

t pen. 21. 28—30, 32. Es. 1. 16, 17. Luc 3. 8, 10—14. Act. 26. 20. Rhuf. 2. 4—7. 2 Cor. 7. 10, 11. 2 Pedr 1. 4—8. u Gal. 5. 22, 23. Eph. 5. 9. Phil. 1. 11. w Jer. 7. 3—7. a 26. 13. a 36. 3.

* * Ni wiw i chwi ddyfod yma i blith torf o rai edifeirol, rhaid i chwi eich hunain edifarâu: † a ffrwythau addas i edifeirwch yw, ffydd, a sancteiddrwydd calon ac ymarweddiad. Gadêwch eich pechodau, yn gystal a'u hyfaddef, er prawf o wirionedd eich edifeirwch.

9 * Ac [x] na feddyliwch ddywedyd ynoch eich hunain, [y] † Y mae gennym ni Abraham yn dad *i ni:* canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, [z] y dichon Duw, ïe, o'r ‡ meini hyn cyfodi plant i Abraham.

x Marc 7. 21. Luc 3. 8. a 5. 22. a 7. 39. a 12. 17. y Ezec. 33. 24. Luc 16. 24. Ioan 8. 33, 39, 40, 53. Rhuf. 4. 1. 11—16. a 9. 7, 8. Gal. 4. 22—31. z pen. 8. 11, 12. Luc 19. 40. Act. 15. 14. 1 Rhuf. 4. 17. 1 Cor. 1. 27, 28. Gal. 3. 27—29. Eph. 2. 12, 13.

* Rhan o waith gweinidogion y gair yw, rhybuddio pynion nad ymddiriedont mewn gau noddfêydd. † Yr oedd yr Iuddewon yn ymorphwys llawer ar eu bod yn Sellant i Abraham, a'r cyfammod a wnaethai Duw âg Abraham ac â'i had, yr unig eglwys weledig ar y ddaear i pryd hwnw: dyma oedd eu gau noddfa hwynt. ‡ Ond na thwyller chwi, ebe Ioan, mae Duw yn myned i newid yr oruchwyliaeth, ac yn myned i ddwyn y cenhedloedd i mewn i'r eglwys, fel had ysbrydol Abraham: ac weithred mòr rhyfedd i'r Iuddewon, a phe buasai Duw am bywâu y cèrig oedd ger eu bronau.

10 * Ac [a] yr awr hon hefyd [b] y mae y bwyell wedi ei gosod ar wreiddyn y prenau: pob pren gan hynny yr hwn nid yw yn dwyn ffrwyth da, [d] a dorrir i lawr, † ac a deflir i'n tân.

a Mal. 3. 1—3. a 4. 1. Heb. 3. 1—3. a 10. 28—31. a 12. 25. Luc 3. 9. a 23. 31. c Salm 1. 3. a 92. 13, 14. Es. 61. 3. Jer. 17. 8. Ioan 15. 2. d pen. 7. 19. a 21. 19. Salm 80. 15, 16. Es. 5. 1—7. a 27. 11. Ezec. 15. 2—7. Luc 13. 6—9. Ioan 15. 6. Heb. 6. 8. 1 Pedr 4. 17, 18.

* Yr oedd yr Iuddewon, am eu bod yn had Abraham, yn disgwyl ymwared tymmorol oddi dan iau y Rhufeiniaid, pan ddelai y Messiah, er byw yn eu pechodau; ond yma mae Ioan yn bygwth barn a dinystr ofnadwy ymynt, fel cenedl, onid edifarâent. Hwy oedd y prenau, Illuoedd y Rhufeiniaid oedd y fwyell. † Tân barnedigaeth dymmorol, a thân uffern hefyd i'r annuwiol.

11 * Myfi yn ddiau [e] ydwyf yn eich bedyddio chwi â dwfr i edifeirwch: [f] eithr yr hwn sydd yn dyfod ar fy ol i, sydd gryfach na myfi, [g] yr hwn nid ydwyf deilwng i ddwyn ei esgidiau: [h] efe a'ch bedyddia chwi â'r † Ysbryd Glân, ac *â* ‡ thân.

e adn. 6. Marc 1. 4, 8. Luc 3. 3. Ioan 1. 26. Act. 13. 24. a 19. 4. f Luc 1. 17. Ioan 1. 15, 26, 27, 30, 34. a 3. 23—36. g Marc 1. 7. Luc 7. 6, 7. Act. 13. 25. Eph. 3. 8. 1 Pedr. 5. 5. h Es. 4. 4. a 44. 3. a 59. 20, 21. Zec. 13. 9. Mal. 3. 2—4. Marc 1. 8. Luc 3. 16. Ioan 1. 33. Act. 1. 5. a 2. 2—4. a 11. 15, 16. 1 Cor. 12. 13. Gal. 3. 27, 28.

* Yr oedd bedydd Ioan yn rhwymo y bobl i edifeirwch, a hwythau yn eu bedydd yn addef y rhwymau hyny yn gyhoeddus. Sandalau oedd yr hyn a elwir *esgidiau* yma, dim ond gwadnau o goed neu ledr, a thàreiau wrthynt yn eu clymu wrth y traed: pan âi neb ar neges neu ymweliad i dŷ gwr mawr, gadâwai ei sandalau wrth y drws allan, yn ngofal ei was; a chyfrifid dwyn esgidiau neu sandalau un felly, y gwasanaeth gwaelaf o bob gwasanaeth, a chan y gwas iselaf a gadwai neb. Cyfeiriad at hyny sydd gan Ioan uchod, a golygai ei hun yn annheilwng i wneyd y gwasanaeth lleiaf i Grist; eto yr oedd yn ewyllysgar a ffyddlawn i wneyd er hyn oll a allai, i barotoi ffordd yr Arglwydd, ac i ddarpar y bobl i'w dderbyn ef. † Ond nid oedd hyny yn ddigon heb iddynt gael eu bedyddio hefyd â'r Ysbryd Glân, ac â thân. Cyflawnwyd hyn yn nodedig ar yr apostolion ar ddydd y pentecost, ac mae yn cael ei gyflawni ar y saint o hyd. ‡ Mae goruchwyliaethau yr Ysbryd fel tân, yn goleuo, yn gwresogi, ac yn puro'r galon oddiwrth ei llygredigaethau.

12 Yr hwn [i] *y mae* ei * wyntyll yn ei law, ac [k] efe a lwyr-lanhâ ei † lawr-dyrnu, [l] ac a gasgl ei wenith i'w ‡ ysgubor; [m] eithr yr us a lysg efe [n] â ‖ than anniffoddadwy.

i Es. 30. 24. a 41. 16. Jer. 4. 11. a 15. 7. a 51. 2. Luc 3. 17. k pen. 13. 41, 49, 50. Mal. 3. 3. a 4. 1. Ioan 15. 2. l pen. 13. 30, 43. Amos 9. 9. m Job 21. 18. Salm 1. 4. a 35. 5. Es. 5. 24. a 17. 13. Hos. 13. 3. Luc 3. 17. n Es. 1. 31. a 66. 24. Jer. 7. 20. a 17. 27. Ezec. 20. 47, 48. Marc 9. 43—48.

Cyfeiriad sydd yma at yr arferiad o losgi yr us ar ol nithio, fel na chwythai y gwynt ef yn ol am ben y gwenith. *Doddridge.* Cyfeiriad sydd yma, yn yr ystyr lythyrenol, at ofal Duw am yr Iuddewon crediniol, a'i farnedigaethau ar y rhai anghrediniol o honynt, yn amser dinystr Jerusalem. *Scott.* * Y wyntyll oedd athrawiaeth lèm a miniog Iesu. Math o raw denau a llydan meddant oedd gwyntyll yr Iuddewon, un ai i godi yr ŷd a'r us i'r gwynt, neu ynte i wneyd gwynt â hi, pan nithid yr ŷd mewn gogr: nithio â gwyntyll ac â gogr a ddywedir yn Isa. 30. 24, ond nithio â rhaw ac â gwyntyll yw y Saesoneg yno. † Y llawr-dyrnu oedd gwlad Judea. ‡ Yr ysgubor oedd yr eglwys efengylaidd. ‖ A'r tân anniffoddadwy oedd barn Duw ar wrthodwyr ei Fab.

13 ¶ * Yna y daeth yr Iesu [o] o Galilea i'r Iorddonen at Ioan, i'w † fedyddio ganddo.

o pen. 2. 22. Marc 1. 9. Luc. 3. 21.

* Yr oedd Crist yn awr tua deg ar hugain oed, yr oedran iddo ddechreu ar ei weinidogaeth gyhoeddus. † Nid oedd achos i Grist wrth fedydd yr un fath a dynion eraill, am nad oedd ynddo bechod; ond mynai gael ei fedyddio, yn un peth, er anrhydeddu gweinidogaeth Ioan, peth arall, er cyd-ymffurfio ei hun â'r hyn a drefnodd efe wedi hyny i'w ganlynwyr, ac hefyd i dderbyn tystiolaeth ei Dad am dano ar yr achlysur hwnw.

14 * Eithr [p] Ioan a warafunodd iddo ef, gan ddywedyd, [q] † Y mae arnaf fi eisiau fy medyddio gennyt ti, ac a ddeui di attaf fi?

p Luc 1. 43. Ioan 13. 6—8. q Ioan 1. 16. a 3. 3—7. Act. 1. 5—8. Rhuf. 3. 23, 25. Gal. 3. 22, 27—29. a 4. 6. Eph. 2. 3—5. Dat. 7. 9—17.

* Gwarafunodd Ioan, nid o wrthwynebiad, ond o wir ostyngeiddrwydd a gwylder, † gan gydnabod fod arno ef ei hun angen cael ei fedyddio â'r Ysbryd Glân gan Grist, er cyfranogiad chwanegol o'i ddoniau.

15 Ond yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho ef, [r] * Gâd yr awr hon; [s] canys fel hyn y mae yn weddus i ni gyflawni pob cyfiawnder. † Yna efe a adawodd iddo.

r Ioan 13. 7—9. s Salm 40. 7, 8. Es. 42. 21. Luc 1. 6. Ioan 4. 34. a 8. 29. a 13. 15. a 15. 10. Phil. 2. 7, 8. Heb. 7. 26. 1 Pedr 2. 21—24. 1 Ioan 2. 6.

* Fel pe dywedasai y Cyfryngwr, Nid pa un yw y mwyaf a'r lleiaf yw y pwnc yn awr, ond dy ddyledswydd di yw bedyddio, a rhan o fy nyledswydd innau yw cael fy medyddio: hyn yw ewyllys Duw yn fy stad bresenol I o ddarostyngiad. Cyflawni pob ordinâd neu osodiad cyfiawn a feddylir yn y fàn hon; tybia rhai fod yma gyfeiriad at olchi yr offeiriaid cyn eu gosod yn eu swydd a'u gwaith; (Exod. 29. 4.) ac i gyflawni y gyfraith hon, neu ei sylwedd hi, yr oedd yn gweddu i Iesu fel Arch-offeiriad mawr, gael ei olchi trwy fedydd gan Ioan, fel y golchwyd yr offeiriaid cyntaf gan Moses. † Ioan wedi clywed hyn a ufuddâodd.

16 A'r [t] Iesu, wedi ei fedyddio, a aeth yn y fan i fynu o'r dwfr: [u] ac wele, y * nefoedd a agorwyd iddo, [x] ac efe a welodd Ysbryd Duw yn disgyn † fel colommen, ac yn dyfod arno ef.

t Marc 1. 10. u Ezec. 1. 1. Luc 3. 21. Act. 7. 56. x Es. 11. 2. a 42. 1. a 59. 21. a 61. 1. Luc 3. 22. Ioan 1. 31—34. a 3. 34. Col. 1. 18, 19.

17 Ac [y] wele, lef o'r nefoedd, yn dywedyd, [z] ‡ Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd.

y Ioan 5. 37. a 12. 28—30. Dat. 14. 2. z pen. 12. 18. a 17. 5. Salm 2. 7. Es. 42. 1, 21. Marc 1. 11. a 9. 7. Luc 3. 22. a 9. 35. Eph. 1. 6. Col. 1. 13. 2 Pedr 1. 17.

* Y nefoedd a agorwyd, efallai yn debyg fel y gwelir ar amser mellt, ond yn llawer tanbeidiach a mwy gogoneddus. Felly y dywedai yr Iuddewon, pan welid rhyw lewyrchiad rhyfeddol o ddisglaer a gogoneddus, yn yr awyr neu y cymylau. † A gwelwyd Ysbryd Duw yn disgyn arno fel colomen. Tybia rhai mai fflam o dân ydoedd ar *lun* neu *ffurf* colomen; ond dywed eraill mai *fel* colomen o ran *ysgogiad* yw y cwbl a ellir gasglu oddiwrth y gair gwreiddiol. Dïammau bod y weledigaeth hon yn amlwg i'r holl dorf, ac yn hyn cyflawnwyd y brophwydoliaeth yn Esaiah 60. 1. ‡ Heblaw disgyniad yr Ysbryd ar Grist, dyma lef y Tad hefyd, yn glywedig i bawb, yn ei arddelwi ef fel ei Fab, ei unig-anedig Fab; yn yr hwn ei boddlonwyd ef, er tragywyddoldeb, er pan ddaeth yn y cnawd, yn ei Berson, yn ei waith, a'i holl bobl grediniol yn gymmeradwy ynddo ef. Mae *boddlonwyd* yn yr amser a basiodd, ond dywedir fod y gair gwreiddiol yn arwyddo y tri amser, gorphenol, presenol, a dyfodol; yn yr hwn y'm boddlonwyd, yn yr hwn yr wyf yn foddlawn, ac yn yr hwn y'm boddlonir: Duw yn foddlawn erioed, yn wastad, ac am byth, yn ei anwyl Fab.

PEN. IV.

1 *Ympryd Crist, a'i demtiad.* 17 *Mae'n dechreu pregethu, &c.*

*YNA [a] yr Iesu a arweiniwyd i fynu [b] i'r anialwch gan yr † Ysbryd, [c] i'w ‡ demtio gan ddiafol.

a Marc 1. 12, 13. Luc 4. 1, &c. Rhuf. 8. 14. b 1 Bren. 18. 12. 2 Bren. 2. 16. Ezec. 3. 12, 14. a 8. 3. a 11. 1, 24. a 40. 2. a 43. 5. Act. 8, 39. c Gen. 3. 15. Ioan 14. 13. Heb. 2. 18. a 4. 15, 16.

Ar ol yr amlygiadau gogoneddus uchod, dyma brofedigaethau chwerwon yn dyfod ar Fab Duw; * arweiniwyd ef i fynu i'r anialwch: anialwch ar làn yr Iorddonen, ger llaw môr Galilea, tebygir, lle dychrynllyd iawn. Anialwch Sinai medd rhai, lle yr ymprydiodd Moses ac Elias ddeugain niwrnod a deugain nos, fel y gwnaeth Iesu y pryd hwn; (adn. 2.) tybia eraill mai rhyw anialwch yn gyfagos i Jerusalem ydoedd, a gallwn feddwl hyny wrth i ddiafol gymmeryd Iesu i'r ddinas sanctaidd, a'i osod ef ar binacl y deml; (adn. 5.) ond a allai fod anialwch felly, yn llawn o wylltfilod fel y dywed Marc 1. 13, mòr agos i Jerusalem yn amser Crist? † Yr Ysbryd Glân a'i harweiniodd, nid trwy orfod ac anfodd, ond trwy dueddu ei feddwl y ffordd hòno. ‡ I'w demtio gan ddiafol, fel y gorchfygai ddiafol, ac y gwnelid ef yn mhob peth yn gyffelyb i'w frodyr.

2 * Ac wedi iddo [d] ymprydio ddeugain niwrnod a deugain nos, [e] † ar ol hynny efe a newynodd.

d Ex. 24. 18. a 34. 28. Deut. 9. 9, 18, 25. 18. 18. 1 Bren. 19. 8. Luc 4. 2. e pen. 21. 18. Marc 11. 12. Ioan 4. 6. Heb. 2. 14—17.

* Ymprydiodd ddeugain niwrnod a deugain nos, i ddangos ei allu fel Duw; † ac ar ol hyny efe a newynodd, i ddangos ei fod yn meddu gwir ddynoliaeth.

3 * A'r [f] temtiwr pan † ddaeth atto, a ddywedodd, [g] ‡ Os mab Duw wyt ti, [h] arch i'r cerrig hyn fod yn || fara.

f Job 1. 9—12. a 2. 4—7. Luc 22. 31, 32. 1 Thes. 3. 5. Dat. 2. 10. a 12. 9—11. g pen. 3. 17. Luc 4. 3, 9. h Gen. 3. 1—5. a 25. 29—34. Ex. 16. 3. Num. 11. 4—6. Salm 78. 17—20. Heb. 12. 16, 17.

* Y temtiwr hwn oedd diafol, y penaf, mae'n debyg, o'r ysbrydion syrthiedig. Mae y gair gwreiddiol yn arwyddo un yn *trywanu*, neu *wânu trwodd*, meddant; mae yn air hynod rymus i ddangos grym temtasiwn y diafol, ac yn eglurâd ar Ephes. 6. 16, am bicellau tanllyd y fall. † Daeth ato, efallai, mewn ffurf weledig, wedi hir ac aml demtio ei feddwl o'r blaen, mewn modd anweledig. ‡ Gwyddai diafol yn dda mai Mab Duw oedd, am hyny yr oedd yr "os" yma yn brawf o'i ddigywilydd-dra cythreulig ef. || Gwyddai mai bara oedd eisiau ar y Cyfryngwr y pryd hwn, am hyny yn ol ei arfer, cymmwysai y demtasiwn at yr achlysur. Gweddïwn am nabod a gwrthwynebu ei ddichellion ef.

4 Ac yntau a attebodd ac a ddywedodd, [i] * Ysgrifenwyd, [k] † Nid trwy fara yn unig y bydd byw dyn, [l] ond trwy bob gair a ddaw allan o enau Duw.

i adn. 7, 10. Luc 4. 4, 8, 12. Rhuf. 12. 4. Eph. 6. 17. k Deut. 8. 3. Luc 4. 4. l pen. 14. 16—21. Ex. 16. 8, 15, 35. a 23. 15. 1 Bren. 17. 12—16. 2 Bren. 4. 42—44. a 7. 1, 2. Hag. 2. 16—19. Mal. 3. 9—11. Marc 6. 38—44. a 8. 4—9. Ioan 6. 5, &c. 31, &c. 63.

* Dyma'r Cyfryngwr yn ateb y temtiwr trwy air Duw; cleddyf yr Ysbryd yw yr arf gorau i ninnau i wrthwynebu diafol âg ef. † Nid trwy fara yn unig y bydd byw dyn, gall Duw gynnal bywyd dyn â gair ei nerth, heb fara; ac nis gall bara ei gynnal heb fendith Duw arno.

5 * Yna y [m] cymmerth diafol ef i'r [n] † ddinas sanctaidd, ac a'i gosododd ef [o] ar ‡ binacl y deml;

m Luc 4. 9. Ioan 19. 11. n pen. 27. 53. Neh. 11. 1. Es. 48. 2. a 52. 1. Dan. 9. 16. o 2 Cron. 3. 4.

Gwedi methu yn ei brawf cyntaf, cynnygiodd y diafol yr ail waith: * efe a gymmerth yr Iesu, trwy oddefiad yn ddïau, nid o drais; ac nis gwyddom pa fodd, pa un ai ar hyd y ddaear ai ynte trwy yr awyr. † Y ddinas sanctaidd oedd Jerusalem, ond nid sanctaidd iawn ydoedd yr amser hwnw. ‡ Dywed Josephus fod y pinacl hwn mòr uchel, fel yr oedd yn arswydus i neb edrych i lawr o'i ben ef.

6 Ac a ddywedodd wrtho, * Os mab Duw wyt ti, bwrw dy hun i lawr; [p] canys † ysgrifenwyd, [q] Y rhydd efe orchymyn i'w angelion am danat; a hwy a'th ddygant yn *eu* dwylaw, [r] rhag taro o honot un amser dy droed wrth garreg.

p adn. 4. 2 Cor. 11. 14. q Salm 91. 11, 12. Luc 4. 9—12. Heb. 1. 14. r Job 1. 10. a 5. 23. Salm 34. 7, 20.

* Gwedi cael Mab Duw ar ben y pinacl, mae diafol yn ei demtio i'w fwrw ei hun i lawr oddi yno, yr hyn pe'i gwneuthai a fuasai yn rhyfyg ofnadwy. Yn yr ymosodiad cyntaf, yn adn. 3, yr oedd diafol yn ceisio temtio Crist i beidio ymddiried i ragluniaeth a gofal Duw am fara iddo; ac yma ceisiai ei demtio ef i ryfygu ar ragluniaeth a gofal Duw, am ei gadw ef os bwriai ei hun i lawr o ben y pinacl. † Gwedi clywed Iesu yn defnyddio ysgrythyr o'r blaen, dyma y temtiwr hefyd yn defnyddio ysgrythyr, ond yn ei cham-ddefnyddio; yn un peth yr oedd yn ei cham-adrodd, gadawodd yn ol y geiriau "yn dy holl ffyrdd," am y gwyddai nad oedd bwrw ei hun i lawr yn un rhan o "ffyrdd" Mab Duw. Yr oedd hefyd yn ei defnyddio i ddyben drwg, er annogaeth i weithred ryfygus, ac nid er cysur i'r ofnus.

7 Yr Iesu a ddywedodd wrtho, [s] Ysgrifenwyd drachefn, [t] * Na themtia yr Arglwydd dy Dduw.

s adn. 4, 10. pen. 21. 16, 42. a 22. 31, 32. Es. 8. 20. t Ex. 17. 2, 7. Num. 14. 22. Deut. 6. 16. Salm 78. 18, 41, 56. a 95. 9. a 106. 14. Mal. 3. 15. Act. 5. 9. 1 Cor. 10. 9. Heb. 3. 9.

* Temtio Duw fuasai i'r Cyfryngwr geisio ganddo roddi prawf ychwaneg o'i Faboliaeth, nag oedd wedi ei roddi eisoes yn pen. 3. 16, 17. yn enwedig i foddloni y diafol. A themtio Duw yw i neb ddisgwyl iddo eu cadw ar lwybr anghyfreithlawn.

8 Trachefn [u] y cymmerth Diafol ef i * fynydd tra uchel, [x] ac a ddangosodd iddo holl deyrnasoedd y byd a'u gogoniant;

u adn. 5. Luc 4. 5—7. x pen. 16. 26. Esther 1. 4. a 5. 11. Salm 49. 16, 17. Dan. 4. 30. Heb. 11. 24—26. 1 Pedr 1. 24. 1 Ioan 2. 15, 16. Dat. 11. 15.

9 Ac a ddywedodd wrtho, [y] Hyn oll a roddaf i ti, [a] os syrthi i lawr a'm † haddoli i.

y pen. 26. 15. Ioan 13. 3. z 1 Sam. 2. 7, 8. Salm 72. 11. a 13. 7, 8. Diar. 8. 15. Jer. 27. 5, 6. Dan. 2. 37, 38. a 4. 32. a 5. 18, 19, 26—28. Ioan 12. 31. a 14. 30. a 16. 11. Dat. 19. 16. a 1 Cor. 10. 20, 21. 2 Cor. 4. 4. 1 Tim. 3. 6. Dat. 19. 10. a 22. 8, 9.

10 * Pa fynydd oedd hwn nis gwyddom, efallai mai iedrith oedd y cwbl: mae yn sicr mai lledrith oedd yr hyn oll a ddangosodd y diafol i Grist ar y mynydd; nis allasai efe ddangos holl deyrnasoedd y byd oddiar ben unrhyw fynydd, mewn gwirionedd, ond nis gwyddom i beth a allasai drwy dwyll. Nis gallasai tad y celwydd gyflawni hyn pe ceisiasai, ond rhoddwyd i Grist bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear gan ei Dad i hun, (pen. 28. 18.) ac ar ddiafol y temtiwr celwyddog hwn hefyd: gwel Dat. 20. 1—3. † Dyma'r demtasiwn fwyaf erchyll a digwilydd o'r un eto; diafol yn ofyn gan Fab Duw ei addoli ef! Yn hyn efe a'i danosodd ei hun, mai diafol ydoedd.

10 Yna yr Iesu a ddywedodd wrtho, [b] * Ymaith, [c] Satan; canys ysgrifenwyd, [d] † Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac ef yn unig a wasanaethi.

b pen. 16. 23. Iago 4. 7. 1 Pedr 5. 9. c 1 Cron. 21. 1. Job 1. 6, 12. a 2. 1. Salm 109. 6. Zec. 3. 1, 2. d Deut. 6. 13, 14. a 10. 20. Jos. 24. 14. 1 Sam. 7. 3. Luc 4. 8.

Fel yr oedd y demtasiwn uchod yn fwy pechadurus a digywilydd na'r un arall, e gyffrôdd yr Iesu yn sanctaidd yn ei gwyneb, yn fwy nac yn wyneb yr un o'r lleill, ac a ddywedodd, * ymaith, Satan; geiriau sydd yn arwyddo, ei dra atgasrwydd ef at y diafol, ac hefyd ei awdurdod ef ar y diafol. † Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac y mae addoli unrhyw greadur yn drosedd ar awredd Duw, ac ar ei dragywyddol ddeddfau ef.

11 * Yna [e] y gadawodd diafol ef: ac [f] wele, † angelion a ddaethant ac a weiniasant iddo.

e Luc 4. 13. a 22. 53. Ioan 14. 13. f adn. 6. pen. 26. 53. a 28. 2—5. Marc 1. 13. Luc 22. 43. 1 Tim. 3. 16. Heb. 1. 6. Dat. 5. 11, 12.

* Gwrthwynebwch ddiafol, ebe Iago, ac efe a ffŷddiwrthych: felly y gwnaeth oddiwrth y Pen, felly y gwna oddiwrth yr aelodau, pan orchymyno Duw, yr hwn hi âd iddynt gael eu temtio uwchlaw eu gallu. † Pan ymadawodd yr angel drwg, wele angelion da yn dyfod at Iesu, nid i'w gynnorthwyo yn y frwydr, ond i gydchwarae wenhâu âg ef wedi ennill y frwydr, ac i ddwyn rhyw ymgeledd corphorol iddo ar ol ei hir newyn a'i ymdrech galed. Bernir fod y gair gweini iddo yn arwyddo hyny.

12 ¶ A [g] phan glybu yr Iesu * draddodi Ioan, † efe a aeth i Galilea.

g Marc 1. 14. a 6. 17. Luc 3. 20. a 4. 14, 31. Ioan 4. 43, 54.

* Yn mhen ryw amser wedi y pethau uchod, cafodd Ioan ei draddodi i garchar am geryddu Herod yn achos Herodias, gwraig Phylip ei frawd. † Pan glybu yr Iesu hyny efe a aeth i Galilea, dosparth nad oedd dàn lywodraeth Herod, fel y gallai bregethu yr efengyl yn fwy Tiberygl.

13 A [h] chan adaw * Nazareth, efe a aeth ac a arhosodd yn [i] † Capernaum, yr hon sydd wrth y môr, y'nghyffiniau [k] Zabulon a [l] Nephthali:

h Luc 4. 30, 31. i pen. 11. 23. a 17. 24. Marc 1. 21. Ioan 4. 46. a 6. 17, 24, 59. k Jos. 19. 10—16. l Jos. 19. 32—39.

* Yr oedd Nazareth yn Galilea isaf, ac yno yr oedd cartref Iesu o'i febyd; ond o herwydd cael ei erlid yno, (gwel Luc 4. 30, 31.) efe a ymadawodd, ac a aeth i † Capernaum, dinas fawr yn Galilea uchaf, yn agos i fôr Tiberias. Gan nad oes son am dani yn yr Hen Destament, bernir mai wedi y dychweliad o Babilon yr adeiladwyd hi gan yr Iuddewon. *Maes edifeirwch* medd rhai, *Dinas heddwch* medd eraill, yw ystyr yr enw; a safai y ddinas ar làn orllewinol môr Galilea, wrth ei ben gogleddol ef.

14 * Fel [m] y cyflawnid yr hyn a ddywedwyd trwy Esaias y prophwyd, [n] gan ddywedyd,

m pen. 1. 22. a 2. 15, 23. a 8. 17. a 12. 17—21. a 26. 54, 56. Luc 22. 37. a 24. 44. Ioan 15. 25. a 19. 28, 36, 37. n Es. 9. 1, 2.

15 Tir Zabulon, a thir Nephthali, *wrth* ffordd y môr, tu hwnt i'r Iorddonen, [o] † Galilea y Cenhedloedd:

o Jos. 20. 7. a 21. 32. 1 Bren. 9. 11. 2 Bren. 15. 29.

16 ‡ Y bobl [p] oedd yn eistedd mewn tywyllwch, a welodd oleuni mawr; ac i'r rhai a eisteddent ym mro a [q] chysgod angau, ‖ y cyfododd goleuni iddynt.

p Salm 107. 10—14. Es. 42. 7. a 60. 1—3. Mica 7. 8. Luc 1. 78, 79. a 2. 32. q Job 3. 5. a 10. 22. a 34. 22. Salm 44. 19. Jer. 13. 16. Amos 5. 8.

* Fel yr oedd holl symmudiadau a gweithredoedd Crist yn gyflawniad o ryw brophwydoliaethau, felly yr oedd y symmudiad hwn i Capernaum. Sef yr hyn a gawn yn y ddwy adnod nesaf: gwel Esa. 9. 1, 2, a'r sylwadau yno, gyda'r sylwadau hyn. † Galilea y Cenedloedd, y gelwid y rhan hon o'r wlad er ys oesoedd lawer, am ei bod ar derfynau y Cenedloedd, a llawer o'r Cenedloedd mae'n debyg yn preswylio ynddi, yn gymmysg â'r Iuddewon. Gwel y nodau cyfeiriol ar ol yr adnod. ‡ O herwydd pellder y wlad hon o Jerusalem, a chymmysgedd yr Iuddewon â'r Cenedloedd paganaidd, yr oedd yr holl drigolion mewn tywyllwch gresynol iawn o ran crefydd, fel y dywedir eu bod yn eistedd yn mro a chysgod angau! iaith grefach nis gallesid ei defnyddio i osod allan drueni dynion. *Rhodio* mewn tywyllwch a ddywedir yn Esa. 9. 2, a phob un o'r ddau air yn arwyddo *byw* mewn tywyllwch moesol ac ysbrydol, a hyny yn dawel ac esmwyth, heb chwennych y goleuni. ‖ Ond, yn ngweinidogaeth Iesu Grist, cyfododd goleuni mawr, Haul cyfiawnder, i'r trueiniaid andwyol hyn!

17 ¶ [r] * O'r pryd hwnnw y dechreuodd yr Iesu bregethu, a dywedyd, [s] † Edifarhêwch: canys [t] nesâodd teyrnas nefoedd.

r Marc 1. 14. s pen. 3. 2. a 9. 13. a 10. 7. Marc 1. 15. Luc 5. 32. a 9. 2. a 10. 11—14. a 15. 7, 10. a 24. 47. Act. 2. 38. a 3. 19. a 11. 18. a 17. 30. a 20. 21. a 26. 20. 2 Tim. 2. 25, 26. Heb. 6. 1. t pen. 11. 12. a 13. 11, 19, 24, 47. a 25. 1.

* O'r pryd y bedyddiwyd ef, neu o'r pryd y traddodwyd Ioan, medd *Poole:* o'r pryd y daeth i'r parthau hyn, medd *Guyse* a *Doddridge*. † Yr un peth oedd swm ei weinidogaeth ef a Ioan Fedyddiwr; pregethu teyrnas Dduw a galw ar bawb i edifeirwch.

18 ¶ A'r Iesu [u] yn rhodio wrth [x] fôr Galilea, efe a ganfu [y] ddau frodyr * Simon, *yr hwn* a elwir Pedr, ac Andreas ei frawd, yn bwrw rhwyd i'r môr: [z] canys pysgodwyr oeddynt.

u Marc 1. 16—18. x pen. 15. 29. Num. 33. 11. Deut. 3. 17. Luc 5. 1. Ioan 6. 1. a 21. 1. y pen. 10. 2. Luc 6. 4. Ioan 1. 40, 41. a 6. 8. z Ex. 3. 1, 10. Barn. 6. 11, 12. 1 Bren. 19. 19—21. Salm 78. 70—72. Amos 7. 14, 15. 1 Cor. 1. 27—29.

* Gwelir yn Ioan 1. 40—42, bod y ddau frawd hyn wedi cael eu galw o'r blaen, a'u bod yn ddisgyblion i'r Arglwydd Iesu; ond na roddasant ymaith eu galwedigaeth i'w ganlyn ef yn hollawl hyd y tro hwn: yn awr gadawsant bob peth, ac a'i canlynasant ef. Y dosparth iselaf o ddynion oedd pysgodwyr yn yr Aipht, ac felly yn Nghanaan hefyd meddant; ond yn ei ben-arglwyddawl ewyllys a'i ras, galwodd Iesu ei apostolion gan mwyaf o'r dosparth isel hwnw, at y gwaith mwy anrhydeddus o ddala dynion yn rhwyd yr efengyl, fel y dywedir yn yr adnod nesaf.

19 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [a] * Deuwch ar fy ol i, [b] a mi a'ch gwnaf yn † bysgodwyr dynion.

a pen. 8. 22. a 9. 9. a 16. 24. a 19. 21. Marc 2. 14. Luc 5. 27. a 9. 59. Ioan 1. 43. a 12. 26. a 21. 22. b Ezec. 47. 9, 10. Marc 1. 17, 18. Luc 5. 10, 11.

* Galwyd hwy o'r blaen fel disgyblion, megys y sylwyd, yn awr maent yn cael eu galw i'w swydd, fel apostolion:

† a swydd anrhydeddus iawn ydyw; bod yn offerynol i achub pechaduriaid. "Mi a'ch gwnaf yn bysgodwyr dynion." Aml y galwodd Duw ddynion at ei waith ef pan oeddynt brysuraf gyda'u gorchwylion eu hunain: megys Saul, pan oedd yn ceisio'r asynod; Moses a Dafydd, pan oeddynt yn bugeilio y defaid; Eliseus, pan oedd yn aredig; Mathew, oddiwrth y dollfa; ac hyd yn nod Saul o Tarsis, pan oedd yn brysur yn erlid.

20 * A [c] hwy yn y fan, gan † adael y rhwydau a'i canlynasant ef.

c pen. 10. 37, 38. a 19. 27. 1 Bren. 19. 21. Salm 119. 60. Marc 10. 28, 29. Luc 18. 28—30. Gal. 1. 16.

* Pan alwo Iesu, rhaid ufuddhâu; pan alwo efe, mae yn tynu hefyd. † Nid yw yn anhebgorol angenrheidiol i weinidogion y gair beidio a gwneyd dim arall: ond e ddylai yr eglwysi a allont, gynnal eu gweinidogion, a'r gweinidogion a gaffont eu cynnal, maent yn pechu os na roddant eu hunain i fynu yn hollawl i'w gwaith.

21 Ac wedi myned rhagddo oddi yno, efe a welodd [d] ddau frodyr eraill, * Iago *fab* Zebedëus, ac † Ioan ei frawd, mewn llong gyd â Zebedëus eu tad, yn cyweirio eu rhwydau: ac a'u galwodd hwy.

d pen. 10. 2. a 17. 1. a 20. 20, 21. a 26. 37. Marc 1. 19. a 3. 17. a 5. 37. Luc 5. 10, 11. Ioan 21. 2. Act. 12. 2.

22 [e] ‡ Hwythau yn ebrwydd, gan adael y llong a'u tad, a'i canlynasant ef.

e pen. 10. 37. Deut. 33. 9, 10. Marc 1. 20. Luc 9. 59, 60. a 14. 26, 33. 2 Cor. 5. 16.

Wele ddau frodyr eto, o'r un gelfyddyd onest â'r ddau o'r blaen, yn cael eu galw gyda'r un effaith, ac at yr un gwaith. * Iago, yr hwn a laddodd Herod wedi hyny â'r cleddyf, † ac Ioan, y disgybl yr hwn a garai yr Iesu, yr Efengylwr, yr apostol, a'r duwinydd. ‡ Gadawsant y llong a'u tad, dyna eu "pob peth" hwy, ac a'i canlynasant ef.

23 ¶ * A'r [f] Iesu a aeth o amgylch holl Galilea, [g] gan ddysgu yn eu synagogau, a phregethu [h] efengyl y deyrnas, [i] † a iachâu pob clefyd a phob afiechyd ym mhlith y bobl.

f pen. 9. 35. Marc 6. 6. Ioan 7. 9. Act. 10. 3. g pen. 12. 9. a 13. 54. Salm 74. 8. Marc 1. 39. a 6. 2. Luc 4. 15, 16, 44. a 13. 10. Act. 9. 20. a 13. 14, &c. a 18. 4. h pen. 13. 19. a 24. 14. Marc 1. 14. Luc 4. 17, 18. a 8. 1. a 20. 1. Rhuf. 10. 15. i pen. 10. 7, 8. a 11. 5. a 15. 30, 31. Marc 1. 32—34. a 3. 10. Luc 4. 40, 41. a 5. 17. a 6. 17. a 7. 22. a 9. 11. a 10. 9. Act. 5. 15, 16.

* Nid oedd yn ddigon gan Iesu ddanfon y pedwar disgybl uchod, eithr efe a aeth ei hun o amgylch i bregethu a dysgu y bobl, yn y synagogau, a phob màn y caffai wrandawyr. Yr oedd adeilad y synagogau ar yr un *dull* a'r deml, ac felly y maent eto yn ngwledydd y dwyrain meddant, gyda phyrth a chynteddoedd; ni chaid aberthu ond yn y deml, ond am ranau eraill o addoliad, caid eu cyflawni yn y synagogau. † Ac nid pregethu yn unig, ond iachâu pob clefyd ac afiechyd yn mhlith y bobl, ac fel hyny yr oedd yn gwneyd lles i gyrph ac eneidiau dynion, ac ar yr un pryd yn profi dwyfoldeb ei anfoniad a dwyfoldeb ei athrawiaeth.

24 * Ac [k] aeth sôn am dano ef trwy holl [l] Syria; a hwy a ddygasant atto yr [m] holl rai drwg eu hwyl, a'r rhai yr oedd amryw glefydau a chnofèydd yn eu dala, a'r [n] rhai † cythreulig, a'r rhai [o] lloerig, a'r [p] sawl oedd â'r parlys arnynt; ac efe a'u hiachâodd hwynt.

k pen. 9. 26, 31. a 14. 1. Jos. 6. 27. 1 Bren. 4. 31. a 10. 1. 1 Cron. 14. 17. Marc 1. 28. Luc 4. 14, 37. a 5. 15. l 2 Sam. 8. 6. Luc 2. 2. Act. 15. 23, 41. m adn. 23. pen. 8. 14, 15. a 9. 35. Ex. 15. 26. n pen. 9. 32. a 12. 22. a 15. 22. a 17. 18. Marc 5. 2—18. Luc 4. 33—35. a 8. 27—37. Act. 10. 38. o pen. 17. 15. p pen. 8. 6, 13. a 9. 2—8.

* Nid rhyfedd fyned sôn am dano, ac yntau yn gwneyd y fath weithredoedd; ond rhyfedd na buasai mwy o gredu ynddo. Darllenwn am lawer yn dyfod ato am iachâd corphorol, ond ni ddarllenwn am neb yn dywedyd wrtho, Beth a wnawn fel y byddwn cadwedig. Syria mewn ystyr briodol oedd i'r gogledd o Galilea, nid ydym yn darllen i Grist fyned i'r wlad hòno, ond daeth rhai oddi yno ato ef, pan glywsant son am dano. † *Rhai cythreulig:* darllenwn am ddau fath o rai cythreulig; rhai yr oedd diafol yn cael ei oddef i'w poeni a'u harteithio, Marc 5. 3—5. Luc 9. 39. ac eraill y preswyliai ynddynt yn gorphorol, i brophwydo a swyno, Act. 16. 16. Ni ddarllenir am ddynion cythreulig yn yr Hen Destament: tybia rhai eu bod yn amser y Cyfryngwr, fel y caffai efe gyfle i amlygu ei allu yn eu bwrw allan, a thrwy hyny amlygu ei Dduwdod: tybia eraill eu bod yn cael eu goddef er argyhoeddi a chywilyddio y Saduceaid, y rhai ddywedent nad oedd ysbrydion.

25 * A [q] thorfeydd lawer a'i canlynasant ef o Galilea, a [r] † Decapolis, a Jerusalem, a Judea, ac *o'r* tu hwnt i'r Iorddonen.

q pen. 5. 1. a 8. 1. a 12. 15. a 19. 2. Marc 3. 7. a 6. 2. Luc 6. 17. r Marc 5. 20. a 7. 31.

* Canlynasant ef am y *torthau*, sef eu lles corphorol, a rhai, efallai, o ddybenion gwell. Yr oedd yma gymmysgedd o Iuddewon a Chenedloedd yn canlyn Crist, yr hwn a ddaeth i fod yn Waredwr i bob un o'r ddau, ac i ddattod canol-fur y gwahaniaeth oedd rhyngddynt, i wneuthur y ddau yn un eglwys efengylaidd. † Deg dinas yw ystyr y gair Decapolis, cenedloedd oedd yn byw yn y wlad a elwid felly. Tybia rhai nad oedd ond un o'r deg dinas o du gorllewin yr Iorddonen, a bod y naw eraill o du y dwyrain, yn y rhan o'r wlad a ddaeth i hanner llwyth Manasseh gynt; ond wedi dychweliad yr Iuddewon o'r caethiwed, ni pherchenogodd neb o honynt y wlad a'r dinasoedd hyny, eithr meddiannwyd hwy gan genedloedd, neu yn hytrach gan y Groegiaid.

PEN. V.

Pregeth Crist ar y mynydd, &c.

A [a] PHAN welodd *yr Iesu* y * tyrfâoedd, [b] efe a esgynodd i'r † mynydd: ac wedi iddo ‡ eistedd, [c] ei ddisgyblion a ddaethant atto.

a pen. 4. 25. a 13. 2. Marc 4. 1. b pen. 15. 29. Marc 3. 13. Ioan 6. 2, 3. c pen. 4. 18—22. a 10. 2—4. Luc 6. 13—16.

2 Ac [d] efe a || agorodd ei enau, ac a'u dysgodd hwynt, gan ddywedyd,

d pen. 13. 35. Job 3. 1. Salm 78. 1, 2. Diar. 8. 6. a 31. 8, 9. Act. 8. 35. a 10. 34. a 18. 14. Eph. 6. 19.

* Mae yn amlwg mai y torfèydd a grybwyllwyd yn niwedd y bennod o'r blaen, yw y tyrfâoedd yma, a pha beth bynag oedd eu dyben hwy yn canlyn Crist, ei fwriad ef oedd eu dysgu hwynt. † Ac fel y clywid ef yn well, efe a esgynodd i'r mynydd. Nid yw o bwys pa fynydd oedd hwn, yr oedd yn burion lle gan Fab Duw i bregethu. Tybia rhai mai mynydd Tabor oedd y mynydd a feddylir, ac yr oedd hwnw yn gyfleus fel canol-fan, i'r rhai a ddaethent at yr Iesu o'r mànau a enwir yn pen. 4. 25. ‡ Eistedd oedd arfer y Doctoriaid Iuddewig wrth ddysgu y bobl, ac yma mae yr Athraw mawr yn gwneyd yr un modd: || a chyda'r difrifwch a'r sobrwydd mwyaf, mae yn agoryd ei enau ac yn dechreu ar ei bregeth ragorol. Ymadrodd cyffredin yn yr Ysgrythyr am un yn dechreu llefaru, ac yn arwyddo llefaru yn rhydd, yn eglur, a chyda bywiogrwydd ysbryd; ac ar fater o'r pwys a'r canlyniad mwyaf, fel yn y bregeth ryfeddol hon.

3 [e] Gwyn eu byd y [f] * tlodion yn yr yspryd: [g] † canys eiddynt yw teyrnas nefoedd.

e adn. 4—11. pen. 11. 6. a 13. 16. a 24. 46. Salm 1. 1. a 2. 12. a 32. 1, 2. a 41. 1. a 84. 12. a 112. 1. a 119. 1, 2. a 128. 1. a 146. 5. Diar. 8. 32. Es. 30 18. Luc 6. 21, &c. a 11. 28. Ioan 20. 29. Rhuf. 4. 6—9 Iago 1. 12. Dat. 19. 9. a 22. 14. f pen. 11. 25. a 18. 1—3. Lef. 26. 41, 42. Deut. 8. 2. 2 Cron. 7. 14. a 33. 12, 19, 23. a 34. 27. Job 42. 6. Salm 34. 18. a 51. 17. Diar. 16. 19. a 29. 23. Es. 57. 15. a 61. 1. a 66. 2. Jer. 31. 18—20. Dan. 5. 21, 22. Mica 6. 8. Luc 4. 18. a 6. 20. a 18. 14. Iago 1. 10. a 4. 9, 10. g pen. 3. 2. a 8. 11. Marc 10. 14. Iago 2. 5.

* Nid rhai tlodion yn y byd a enwir yma, er mai rhai
ly yw canlynwyr Iesu yn gyffredin; ond tlodion yn yr
oryd: dynion teimladwy o'u heuogrwydd a llygredd
natur. † Eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd; breint-
i allanol yr efengyl, gras ysbrydol yr efengyl, a
wynhâd tragywyddol o Dduw yn y nef. Gwyn eu byd
awr, a gwyn eu byd byth.

4 Gwyn eu byd [h] y rhai sydd yn * galaru:
nys hwy a † ddiddenir.

h Salm 6. 1—9. a 13. 1—5. a 30. 7—11. a 32. 3—7. a 40. 1—3.
9. 29, 30. a 116. 3—7. a 126. 5, 6. Es. 12. 1. a 25. 8. a 30. 19. a
10. a 38. 14—19. a 51. 11, 12. a 57. 18. a 61. 3. a 66. 10. Jer.
9—12, 16, 17. Ezec. 7. 16. a 9. 4. Zec. 12. 10—14. a 13. 1. Luc
21, 25. a 7. 38, 50. a 16. 25. Ioan 16. 20—22. 2 Cor. 1. 4—7. a 7.
0. Iago 1. 12. Dat. 7. 14—17. a 21. 4.

* Disgwyliai yr Iuddewon wleddoedd a llawenydd
awdol dan lywodraeth y Messiah; a thybia y byd eto
ui mewn llawenydd cnawdol mae dedwyddwch, ond
yn eu byd y rhai sydd yn galaru, medd Iesu. Galaru
dduwiol a feddylir, galar am bechod, o'r un natur
tlodi ysbryd yn yr adnod o'r blaen. † E ddiddenir
hai hyn, â gorfoledd yr iachawdwriaeth, â diddanwch
Ysbryd Glân, ac a llawenydd annhraethadwy a go-
neddus yn y nef: am hyny gwyn eu byd.

5 Gwyn eu byd y [i] rhai * addfwyn: canys
wy † a etifeddant y ddaear.

i pen. 11. 29. a 21. 5. Num. 12. 1. Salm 22. 26. a 25. 9. a 69.
a 147. 6. a 149. 4. Es. 11. 4. a 29. 19. a 61. 1. Zeph. 2. 3. Gal. 5.
Eph. 4. 2. Col. 3. 12. 1 Tim. 6. 11. 2 Tim. 2. 25. Tit. 3. 2. Iago
21. a 3. 13. 1 Pedr 3. 4, 15. k Salm 25. 13. a 37. 9, 11, 22,
34. Es. 60. 21. Rhuf. 4. 13.

* Nid tymherau naturiol a feddylir, ond tueddiadau
u ysbryd grasol, yn tarddu oddiar y tlodi a'r galar
wiol yn yr adnodau o'r blaen. † Mae yr ysbryd hwn
ddedwyddwch ynddo ei hun; ac heblaw hyny, caiff
bobl hyn etifeddu y ddaear: cânt hyny a fyddo raid
ffynt o'r byd, cânt yr hyn fyddo oreu er eu lles, a chânt
ynhâu hyny mewn llonyddwch tawel a dedwydd.

6 Gwyn eu byd y [l] rhai sydd arnynt * new-
a syched am gyfiawnder: [m] † canys hwy a
liwellir.

l Salm 42. 1, 2. a 63. 1, 2. a 84. 2. a 107. 9. Amos 8. 11—13.
c 1. 53. a 6. 21, 25. Ioan 6. 27. m Salm 4. 6, 7. a 17. 15. a
5. a 65. 4. Can. 5. 1. Es. 25. 6. a 41. 17, 18. a 44. 3. a 49. 9, 10.
55. 1—3. a 65. 13. a 66. 11, 12. Ioan 4. 14. a 6. 48—58. a 7. 37,
Dat. 7. 16, 17.

* Cyfiawnder Crist yn gyfrifol, a chyfiawnder sanct-
ddrwydd yn dumewnol a feddylir yma, nid cyfiawnder
weithredoedd deddfol. † Gwyn eu byd y tlodion,
llarus, ac addfwyn uchod, sydd yn hiraethu fel dynion
wynog a sychedig, am gymmod â Duw, am ddelw
iw, ac am ei fwynhau a'i ogoneddu, canys hwy a gânt
dymuniad yn llawn. Mae y gair am *ddiwallu* o'r
ir *porfa* meddant, ac fel y diwellir anifeiliaid ar borfa
âs a digonol, felly y diwellir y rhai sydd arnynt newyn
syched am gyfiawnder, â'r holl fendithion a ddymuna
heneidiau sancteiddiedig.

7 Gwyn eu byd y [n] rhai * trugarogion:
canys hwy a † gânt drugaredd.

n pen. 6. 14, 15. a 18. 33—35. 2 Sam. 22. 26. Job 31. 16—22.
lm 18. 25. a 37. 26. a 41. 1—4. a 112. 4, 5, 9. Diar. 11. 17. a 14.
a 19. 17. Es. 57. 1, 2. a 58. 6—12. Dan. 4. 27. Mica 6. 8. Marc
25, 26. Luc 6. 35, 36. Eph. 4. 32. a 5. 1, 2. Col. 3. 12. Iago 3.
o Hos. 1. 6. a 2. 1, 23. Rhuf. 11. 30, 31. 1 Cor. 7. 25. 2 Cor.
1. 1 Tim. 1. 13, 16. 2 Tim. 1. 16—18. Heb. 4. 16. a 6. 10. Iago 2.
1 Pedr 2. 10.

* Nid creûlawn wrth eraill, na difater am ddedwydd-
h presenol a thragywyddol eraill, yw y bobl a nodwyd
hod, ond trugarogion ydynt; † ac yn hyny maent yn
dedwydd, canys hwy a gânt drugaredd; hwy a gânt dru-
redd gan Dduw, maent wedi ei chael eisoes, a chânt
ugaredd gan ddynion mewn amgylchiadau o galedi.

8 Gwyn eu byd y [p] rhai * pur o galon:
canys hwy † a welant Dduw.

p pen. 23. 25—28. 1 Cron. 29. 17—19. Salm 18. 26. a 24. 4. a
6, 10. a 73. 1. Diar. 22. 11. Ezec. 36. 25—27. Act. 15. 9. 2 Cor.
1. Tit. 1. 15. Heb. 9. 14. a 10. 22. Iago 3. 17. a 4. 8. 1 Pedr. 1. 22.
Gen. 32. 30. Job 19. 26, 24. 1 Cor. 13. 12. Heb. 12. 14. 1 Ioan 3. 2, 3.

* Mewn cyferbyniad i fucheddau aflan a phenrhydd
rhai o wrandawyr Crist, ac mewn cyferbyniad hefyd i
ddeddfoldeb a rhith-sancteiddrwydd eraill, mae efe yma
yn sôn am burdeb calon, yr hyn nis gellir ei gael ond
trwy ei waed ef, a gwaith ei Ysbryd. † A gwynfyd y
rhai pur o galon yw, cael gweled Duw; nid â llygaid o
gnawd, ond trwy ffydd, mewn amlygiadau ysbrydol o
hóno yma, ac yn ddi-lèn yn y nef. Ni cha'i neb ond
rhai glân seremoniol, o ran eu cyrph a'u ddillad hefyd,
fyned i'r deml gynt: tybir fod cyfeiriad at hyny yma,
ond i'r rhai pur o *galon* mae yr addewid hon, y cânt
hwy weled Duw fel y sylwyd eisoes.

9 Gwyn eu byd y [r] * tangnefeddwyr:
[s] canys hwy a elwir yn † blant i Dduw.

r 1 Cron. 12. 17, 18. Salm 34. 12—14. a 120. 6, 7. a 122. 6—8. Act. 7. 26. Rhuf. 12. 18. a 14. 1—7, 17—19. 1 Cor. 6. 6—8. 2 Cor. 5. 20. a 13. 11. Gal. 5. 22. Eph. 4. 1—3. Phil. 2. 1—3. a 4. 2. Col. 3. 13—15. 2 Tim 2. 22—24. Heb. 12. 14. Iago 1. 19, 20. a 3. 16—18. s adn. 45, 48. Salm 82. 6, 7. Luc 6. 35. a 20. 36. Eph. 5. 1, 2. Phil. 2. 15, 16. 1 Pedr 1. 14—16.

* Disgwyliai yr Iuddewon am Fessiah i'w harwain allan i ryfel a dial ar eu gorthrymwyr; ac mae y byd eto yn canmol llawer ar y dewrion i dywallt gwaed: ond tangnefeddwyr yw canlynwyr Iesu; tangnefeddwyr yn y wladwriaeth, yn y gymmydogaeth, yn eu teuluoedd, ac yn yr eglwys. † Gelwir y rhai hyn yn blant i Dduw: Duw y tangnefedd yw efe, a meibion tangnefedd ynt hwythau. Gelwir hwy yn blant i Dduw am eu bod yn blant iddo.

10 Gwyn eu byd y [t] rhai a erlidir o * achos
cyfiawnder: [u] canys eiddynt yw † teyrnas nef-
oedd.

t pen. 10. 23. Salm 37. 12, 13. Marc 10. 30. Luc 6. 22, 23. a 21. 12, 13. Ioan 15. 20, 21. Act. 5. 40, 41. a 8. 1. Rhuf. 8. 35—39. 1 Cor. 4. 9—13. 2 Cor. 4. 8—12, 17. Phil. 1. 28, 29. 2 Tim. 2. 12. a 3. 11, 12. Iago 1. 2—5. 1 Pedr 3. 14. a 4. 12—16. Dat. 2. 10. u adn. 3. 2 Thes. 1. 4—7. Iago 1. 12.

* Wrth gyfiawnder yma, mae i ni ddeall, achos cyfiawn, ac athrawiaeth gyfiawn, yr efengyl; a chydwybod gyfiawn, ac ymarweddiad cyfiawn, ei phroffeswyr. Sonir am *erlid* yn yr adnod hon a'r nesaf; erlid â llaw meddant a feddylir yma, trwy wialenodiau neu ryw beth felly, ac erlid â thafod a feddylir yn yr adnod nesaf, fel mae yn amlwg wrth y "pob drygair" a grybwyllir yno. † Y rhai a ddyoddefant erlid yn amyneddgar am y pethau uchod, ydynt wir ddeiliaid y Messiah, ac a gânt deyrnasu byth gydag ef yn nheyrnas nefoedd. Eiddynt hwy yw y deyrnas.

11 * Gwyn eich byd [x] pan y'ch gwarad-
wyddant, ac *y'ch* erlidiant, ac y dywedant bob
drygair yn eich [y] erbyn er fy mwyn i, a hwy
yn gelwyddog.

x pen. 10. 25. a 27. 39. Salm 35. 11. Es. 66. 5. Luc 7. 33, 34. Ioan 9. 28. 1 Pedr 2. 23. a 4. 14. y pen. 10. 18, 22, 39. a 19. 29. a 24. 9. Salm 44. 22. Marc 4. 17. a 8. 35. a 13. 9, 13. Luc 6. 22. a 9. 24. a 21. 12, 17. Ioan 15. 21. Act. 9. 16. Rhuf. 8. 36. 1 Cor. 4. 10. 2 Cor. 4. 11. Dat. 2. 3.

* Drwg-eiriau celwyddog yw y fath iselaf o erlid, a phrin y diangodd neb o'r duwiolion erioed heb gael eu herlid fel hyn: felly y gwnaed a Dafydd, Ioan Fedyddiwr, a Christ ei hun. Gwyn fyd y rhai a erlidir felly, am mai celwyddog yw y drwg eiriau, am mai er mwyn Crist y cânt eu herlid, am y tyn Duw ymaith eu gwarth, ac am y bydd gwobr iddynt yn y nef. Gair cyfreithiawl meddant yw y gair am *erlid* yn y fàn hon, yn arwyddo erlid trwy gyfraith a chyhuddion cyhoeddus; a thybia rhai fod Crist yn cyfeirio at erlidiau felly, a ga'i y prif Gristionogion mewn llysoedd gwladol, ar ol ei ymadawiad ef.

12 [z] * Byddwch lawen a hyfryd: [a] † canys
mawr *yw* eich gwobr yn y nefoedd: [b] oblegid
felly yr erlidiasant hwy y prophwydi a fu o'ch
blaen chwi.

z Luc 6. 23. Act. 5. 41. a 16. 25. Rhuf. 5. 3. Phil. 2. 17, 18. Col. 1. 24. Iago 1. 2. 1 Pedr 4. 13. a pen. 6. 1, 2, 4, 5, 16. a 10. 41, 42. a 16. 27. Gen. 15. 1. Ruth 2. 12. Salm 19. 11. a 58. 11. Diar. 11. 18. Es. 3. 10. Luc 6. 23, 35. 1 Cor. 3. 8. Col. 3. 24. Heb. 11. 6, 26. b pen. 21. 34—38. a 23. 31—37. 1 Bren. 18. 4, 13. a 19. 2,

10, 14. a 21. 20. a 22. 8, 26, 27. 2 Bren. 1. 9, &c. 2 Cron. 16. 10. a 24. 20—22. a 36. 16. Neh. 9. 26. Jer. 2. 30. a 26. 8, 9. 21—23. Luc 6. 23. a 11. 47—51. a 13. 34. Act. 7. 51, 52. 1 Thes. 2. 15.

* Mae y geiriau "llawen a hyfryd" yma, yn arwyddo y radd uwchaf o lawenydd a gorfoledd: llawenydd hyd at làmu, a neidio, fel Dafydd gynt o flaen yr arch. † Nid o herwydd yr erlid ynddo ei hun, ond o herwydd y fraint o gael dyoddef er *mwyn* Crist, ac o herwydd y gwobr mawr yn y nef.

13 ¶ * Chwi yw [c] halen y ddaear: † eithr [d] o diflasodd yr halen, â pha beth yr helltir ef? ni thâl efe mwy ddim ond i'w fwrw allan, a'i sathru gan ddynion.

c Lef. 2. 13. Col. 4. 6. d Marc 9. 49, 50. Luc 14. 34, 35. Heb. 6. 4—6. 2 Pedr 2. 20, 21.

* Yn hytrach na thrallodi ein hunain yn nghylch yr hyn a ddywedo dynion am danom, ein lle ni yw ymdrechu bod yn halen y ddaear, mewn athrawiaeth iachus, mewn ymadroddion grasol, ac mewn buchedd sanctaidd. Dywedid gynt fod Groeg yn Halen yr holl Genedloedd, oblegid y ddysgeidiaeth a geid oddi yno: pa faint mwy Cristionogion, yn enwedig athrawon. † Dywedir y gall halen golli ei flas, ac nad yw wedi hyny dda i ddim: felly proffeswyr crefydd, wedi colli yn y pethau uchod, nid ydynt dda i ddim: ïe, maent yn waeth na dynion eraill.

14 * Chwi yw [e] goleuni y byd. [f] † Dinas a osodir ar fryn, ni ellir ei chuddio.

e Ioan 5. 35. a 12. 36. Rhuf. 2. 19, 20. 2 Cor. 6. 14. Eph. 5. 8—14. Phil. 2. 15. 1 Thes. 5. 5. Dat. 1. 20. a 2. 1. f Gen. 11. 4—8. Dat. 21. 14, &c.

* Crist yw goleuni y byd yn yr ystyr uwchaf; yn nesaf ei weinidogion, ac wedi hyny proffeswyr yr efengyl. Rhaid i ni oll dderbyn ein goleuni o hòno ef, fel y lleuad a'r ser o'r haul naturiol. † Dywed *Maundrel* fod dinas a elwid Saphet, yr hen Bethulia gynt, yn sefyll ar fryn yn ngolwg Iesu, pan oedd yn traddodi y bregeth hon.

15 * Ac [g] ni oleuant ganwyll, a'i dodi dan lestr, ond mewn canwyllbren; a [h] hi a oleua i bawb sydd yn y tŷ.

g Marc 4. 21, 22. Luc 8. 16, 17. a 11. 33. h Ex. 25. 37. Num. 8. 2.

* Dylech chwi, fy nisgyblion, ystyried hefyd, i ba ddyben y cyfrenais oleuni a gwybodaeth i chwi: nid er eich lles eich hunain yn unig; ond i'r dyben i chwi oleuo eraill: gan nad oes neb yn goleuo cymmaint a chanwyll mewn ystafell i'w chuddio gwedi hyny. Canwyllau Duw yw gweinidogion y gair, (a phroffeswyr hefyd yn eu graddau) i oleuo byd tywyll. Nid oedd *canwyllau* yn y wlad hòno, o'r fath ag sydd yn ein gwlad ni, eithr *lampau* oedd ganddynt i oleuo yn eu tai. Yr oedd un lamp o leiaf yn goleuo y tŷ drwy y nos, yr hon a safai ar ddaliedydd, neu bost, wedi ei sicrâu yn y llawr, yr hwn a elwir yma "canwyllbren;" ac o'r lamp safedig hòno y goleuid lampau bychain eraill, i amryw ystafelloedd y tŷ, fel y byddai eu heisiau. Llestr mesur ŷd yw ystyr y Groeg, meddant; *bushel* yw y Saesoneg, ond ni wyddai yr Iuddewon ddim am fesur wrth yr enw hwnw.

16 [i] * Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, [k] fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, [l] † ac y gogoneddont [m] eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd.

i Diar. 4. 18. Es. 58. 8. a 60. 1—3. Rhuf. 13. 11—14. Eph. 5. 8. Phil. 2. 15, 16. 1 Thes. 2. 12. a 5. 6—8. 1 Pedr 2. 9. 1 Ioan 1. 5—7. k pen. 6. 1—5, 16. a 23. 5. Act. 9. 36. Eph. 2. 10. 1 Tim. 2. 10. a 5. 10, 25. a 6. 18. Tit. 2. 7, 14 a 3. 1, 7, 8, 14. Heb. 10. 24. 1 Pedr 2. 12. a 3. 1, 16. l Es. 41. 3. Ioan 15. 8. 1 Cor. 14. 25. 2 Cor. 9. 13. Gal. 1. 24. 2 Thes. 1. 10—12. m adn. 45. 48. pen. 6. 9. a 23. 9. Luc 11. 2.

* Byddwch ddyfal, gan hyny, i beri i'ch goleuni lewyrchu ger bron dynion; goleuni eich athrawiaeth, a goleuni eich gweithredoedd da, mewn ymarweddiad sanctaidd. † A hyny nid i'ch dangos eich hunain, ond i ogoneddu Duw: i ddwyn dynion i barchu yr efengyl, i brofi o'i heffeithiau, ac i wneuthur proffes gyhoedd o hòni.

17 ¶ * Na thybiwch fy nyfod [n] i dorri y gyfraith, neu y prophwydi: ni ddaethum i dorri, [o] ond i gyflawni.

n Luc 16. 17. Ioan 8. 5. Act. 6. 13. a 18. 13. a 21. 28. Rhuf. 3. 31. a 10. 4. Gal. 3. 17—24. o pen. 3. 15. Salm 40. 6—8. Es. 42. 21. Rhuf. 8. 4. Gal. 4. 4, 5. Col. 2. 16, 17. Heb. 10. 3—12.

* E gyflawnodd yr Arglwydd Iesu y ddeddf *seremoniol*, fel yr oedd ef yn ei berson a'i waith yn sylwedd ei holl gysgodau hi: ond mae yn amlwg mai y gyfraith *foesol* mae ef yn feddwl yma. Efe a gyflawnodd hòno yn yr ystyriaethau a ganlyn: eglurhâodd hi yn fanylach na neb arall erioed; amddiffynodd hi yn wyneb gau olygiadau y dysgawdwyr Iuddewig o hòni; ufuddhâodd yn berffaith iddi mewn calon ac ymarweddiad trwy ei oes; aeth dàn ei melltith, a rhoddodd iawn iddi tros ei bobl; a sefydlodd hi yn rhëol berffaith o ufudd-dod i bob dyn tra parhâo y byd. Ni ddaeth Crist i dòri y gyfraith trwy ei throseddu, ac ni thòrodd efe ddim o hòni felly tra bu ar y ddaear; ond wrth ei *thòri* yn y fàn hon y meddylir ei *dirymu*, neu ei *dadwneyd*, fel na byddai yn gyfraith mewn grym mwyach. Mae llawer o gyfreithiau dynion yn cael eu *tori*, neu eu *diddymu* felly, ond byth ni ddaw hyny i gyfraith foesol Duw, fel y gwelwn yn yr adnod nesaf.

18 * Canys [p] yn wir meddaf i chwi, [q] Hyd onid êl y nef a'r ddaear heibio, nid â un † iod nac un ‡ tippyn [r] o'r gyfraith heibio, hyd oni || chwblhâer oll.

p adn. 26. pen. 6. 2, 16. a 8. 10. a 10. 15, 23, 42. a 11. 11. a 13. 17. a 16. 28. a 17. 29. a 18. 3, 18. a 19. 23, 28. a 21. 21, 31. a 23. 36. a 24. 2, 34, 47. a 25. 12, 40, 45. a 26. 13, 34. Marc 3. 28. a 6. 11. a 8. 12. a 9. 1, 41. a 10. 15, 29. a 11. 23. a 12. 43. a 13. 30. a 14. 9, 18, 25, 30. Luc 4. 24. a 11. 51. a 12. 37. a 13. 35. a 18. 17, 29. a 21. 32. a 23. 43. Ioan 1. 51. a 3. 3, 5, 11. a 5. 19, 24, 25. a 6. 26, 32, 47, 53. a 8. 34, 51, 58. a 10. 1, 7. a 12. 24. a 13. 16, 20, 21, 38. a 14. 12. a 16. 20, 23. a 21. 18. q pen. 24. 35. Salm 102. 26. Es. 51. 6. Luc 16. 17. a 21. 33. Heb 1. 11, 12. 2 Pedr 3. 10—13. Dat. 20. 11. r Salm 119. 89, 90, 152. Es. 40. 8. 1 Pedr 1. 25.

* Yn *wir*, Amen yw y gair Groeg, yn arwyddo difrifwch yr Arglwydd Iesu, a gwirionedd yr hyn mae yn ddywedyd. † *Iod*, y llythyren leiaf yn yr egwyddor Hebraeg a'r Groeg hefyd. ‡ *Tippyn*, y darn lleiaf o unrhyw lythyren. || Cwblhâwyd pob peth ag oedd yn y gyfraith a'r prophwydi am y Messiah, yn ei fywyd a'i angau; a chwblhêir oll yn ei bobl, ac ar ei elynion.

19 * Pwy bynnag gan hynny a dorro un o'r [t] gorchymynion lleiaf hyn, ac a [u] ddysgo i ddynion felly, [x] † lleiaf y gelwir ef yn nheyrnas nefoedd: ond pwy bynnag a'*u* gwnelo, ac a'*u* dysgo *i eraill*, hwn a elwir yn [z] fawr yn nheyrnas nefoedd.

s Deut. 27 26. Salm 119. 6, 128. Gal. 3. 10—13. Iago 2. 10, 11. t pen. 23. 23. Deut. 12. 32. Luc 11. 42. u pen. 15. 3—6. a 23. 16—22. Mal. 2. 8, 9. Rhuf. 3. 8. a 6. 1, 15. 1 Tim. 6. 3, 4. Dat. 2. 14, 15, 20. x pen. 11. 11. 1 Sam. 2. 30. y pen. 28. 20. Act. 1. 1. Rhuf. 13. 8—10. Gal. 5. 14—24. Phil. 3. 17, 18. a 4. 8, 9. 1 Thes. 2. 10—12. a 4. 1—7. 1 Tim. 4. 11, 12. a 6. 11. Tit. 2. 8—10. a 3. 8. z pen. 19. 28. a 20. 26. Dan. 12. 3. Luc 1. 15. a 9. 48. a 22. 24—26. 1 Pedr 5. 4.

* Byddai yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn eu hagoriadau ar y gyfraith, yn gwneuthur llawer o wahaniaethau dibwys, a niweidiol yn wir, rhwng gorchymynion mawr a bychain, a thrwy hyny a'u hesamplau hefyd, yn eu tori, ac yn dysgu i eraill eu tori. † Yma mae Crist yn dangos bod holl orchymynion Duw yn ogyfuwch; a bod y neb a iselo unrhyw orchymyn yn ei iselu ei hun: nid yw yn wir aelod o'r eglwys ar y ddaear, ac ni ddaw byth i'r nef.

20 Canys meddaf i chwi, * Oni bydd eich cyfiawnder yn [a] † helaethach na *chyfiawnder* yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid, [b] nid ewch i mewn i deyrnas nefoedd.

a pen. 23. 2—5, 25, 28. Luc 11. 39, 40, 44. a 12. 1. a 16. 14, 15. a 18. 10—14. a 20. 46, 47. Rhuf. 9. 30—32. a 10. 2, 3. 2 Cor. 5. 17. b pen. 3. 10. a 7. 21. a 18. 5. Marc 10. 15, 25. Luc 18. 17, 24, 25. Ioan 3. 3—5. Heb. 12. 14. Dat. 21. 27.

* Athrawiaeth yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid oedd a'u :—nad oedd gorchymynion a gwaharddiadau y ddeddf yn cyrhaedd dim pellach na'r gweithredoedd allanol—bod manylrwydd yn nghyflawniadau y ddeddf seremoniol yn esgusodi am afreolaeth a byrdra moesol—a bod rhyw ragor-freintiau mawrion yn perthyn o genenrhaid i hiliogaeth Abraham: ac ar y pethau uchod y oeddynt yn sylfaenu eu cyfiawnder. † Y cyfiawnder helaethach yw cyfiawnder cyfrifol Crist, cyfiawnder ewyddorol yn y galon, a chyfiawnder ymarferol, mwy ddiffurfiol â'r ddeddf.

21 ¶ * Clywsoch ddywedyd [c] gan y rhai gynt, [d] Na ladd; [e] a phwy bynnag a laddo, euog fydd o farn:

c adn. 27, 33, 43. 2 Sam. 20. 18. Job 8. 8—10. d Gen. 9. 5, Ex. 20. 13. Deut. 5. 17. e Ex. 21. 12—14. Num. 35. 12, 16—, 30—34. Deut. 21. 7—9. 1 Bren. 2. 5, 6, 31, 32.

22 † Eithr [f] yr ydwyf fi yn dywedyd i chwi, Pob un a ddigio wrth [h] ei frawd [i] heb ystyr, a fydd euog o farn: a [l] phwy bynnag a ddywedo wrth ei frawd, ‡ Racca, a fydd euog [m] o ynghor: a phwy bynnag a ddywedo, ‖ O ynfyd, a fydd euog o [o] § dân uffern.

f adn. 28, 34, 44. pen. 3. 17. a 17. 5. Deut. 18. 18, 19. Act. 3. —23. a 7. 37. Heb. 5. 9. a 12. 25. g Gen. 4. 5, 6. a 37. 4, 8. Sam. 17. 27, 28. a 18. 8, 9. a 20. 30—33. a 22. 12, &c. 1 Bren. 21. 2 Cron. 16. 10. Esther 3. 5, 6. Salm 37. 8. Dan. 2. 12, 13. a 3. , 19. Eph. 4. 26, 27. h adn. 23, 24. pen. 18. 21, 35. Deut. 15. . Neh. 5. 8. Ob. 10. 12. Rhuf. 12. 10. 1 Thes. 4. 6. 1 Ioan 2. 9. a 10, 14, 15. a 4. 20, 21. a 5. 16. i Salm 7. 4. a 25. 3. a 35. 19. a 9. 4. a 109. 3. Galar. 3. 52. Ioan 15. 25. k adn. 21. l pen. 1. 18, 19. a 12. 24. 1 Sam. 20. 30. 2 Sam. 16. 7. Ioan 7. 20. a 8. 48. Act. 17. 18. 1 Cor. 6. 10. Eph. 4. 31, 32. Tit. 3. 2. 1 Pedr 2. 23. a 3. Judas 9. m pen. 10. 17. a 26. 59. Marc 14. 55. a 15. 1. Ioan 1. 47. Act. 5. 27. n Salm 14. 1. a 49. 10. a 92. 6. Diar. 14. 16. 18. 6. Jer. 17. 11. o adn. 29, 30. pen. 10. 28. a 18. 8, 9. a 25. 1. Marc 9. 47. Luc 12. 5. a 16. 23, 24. Dat. 20. 14.

* Byddai y Phariseaid yn eu darlithiau ar y gyfraith, n arferol o ragymadroddi fel hyn, "Clywsoch ddywedd gan y rhai gynt." Felly Crist yma, Clywsoch ddyedyd gan Dduw ar Sinai, Na ladd, yr hwn yw y hweched gorchymyn. † Ac yn awr mae eich athrawon hwi yn dywedyd, mai y *weithred* o lofruddiaeth yn nig a waherddir yma; ond yr wyf fi yn dywedyd i hwi, fod y gorchymyn hwn yn gwahardd pob casineb iiachos yn y meddwl tuag at frawd, a bod gan Dduw rymach barn i'r cyfryw nac a roddir yn eich brawdleedd chwi, yr hyn yw tagu, tori y pen, neu o'r mwyaf, labyddio â meini. Hyn oedd dull y Rabbiniaid o efaru, pan roddent eu penderfyniad ar ryw fater mewn ladl, a phan wrthbrofent ryw dŷb neu ddaliad cyfeilornus. Tybir fod Crist yn dangos yma, fod ei awdurlod ef yn ogyfuwch â'r awdurdod a roddodd y gyfraith n y dechreu, sef yn ogyfuwch âg awdurdod Duw; ac rn hyn fel yn mhob peth arall, ni thybiodd ef yn drais od ogyfuwch â Duw: efe a'r Tad un ydynt. ‡ *Raca*, nyny yw, adyn gwag a diwerth, neu coegyn yn ein iaith ni. Y Cynghor, oedd y brawdlys uwchaf yn mhlith yr Iuddewon. ‖ *O ynfyd*, hyny yw, milain diras a drygconus. § *Tân uffern*, hyny yw, llosgi yn fyw yn nyffryn Hinnom; yr hwn, o herwydd y tân gwastadol oedd yno losgi sothach a budreddi, a ddefnyddiai yr Iuddewon el arwyddlun o uffern. Bernir y byddid yn llosgi rhai drwg weithredwyr yn y lle ofnadwy hwnw.

23 * Gan hynny, os [p] dygi dy rodd i'r allor, ac yno [q] dyfod i'th gof fod gan dy frawd ddim yn dy erbyn;

p pen. 8. 4. a 23. 19. Deut. 16. 16, 17. 1 Sam. 15. 22. Es. 1. 10 —17. Hos. 6. 6. Amos 5. 21—24. q Gen. 41. 9. a 42. 21, 22. a 50. 15—17. Lef. 6. 2—6. 1 Bren. 2. 44. Galar. 3. 20. Ezec. 16. 63. Luc 19. 8.

24 † Gâd [r] yno dy rodd ger bron yr allor, a dos ymaith: yn ‡ gyntaf cymmoder di â'th frawd, [s] ac yno tyred ac offrwm dy rodd.

r pen. 18. 15—17. Job 42. 8. Diar. 25. 9. Marc 9. 50. Rhuf. 12. 17, 18. 1 Cor. 6. 7, 8. 1 Tim. 2. 8. Iago 3. 13—18. a 5. 16. 1 Pedr 3. 7, 8. s pen. 23. 23. 1 Cor. 11. 28.

* Wrth y *rhodd* yma, mae i ni ddeall yr offrwm gwirfodd, gorau, a mwyaf gwerthfawr. † Ond os byddai cweryl ac anghydfod rhwng yr offrymwr a'i frawd, ni byddai ei rodd yn gymmeradwy gan Dduw, pa mòr wirfoddol a gwerthfawr bynag y byddai. Yn ngofal yr offeiriaid a fyddai yn gweini y pryd hwnw, hyd oni chymmodai yr offrymydd â'i frawd. Nid oedd yn angenrheidiol offrymu yr aberthau yn y fàn y dygid hwy i'r deml, gellid eu gadael hyd ryw amser pennodol arall; ac os anifeiliaid a fyddent, yr oedd maesydd porfâog yn perthyn i'r deml, i gadw yr anifeiliaid hyny. ‡ Rhaid iddo yn gyntaf ymgymmodi â'i frawd, trwy addef ei fai, a gwneyd iawn yn ol natur y bai, neu ddeisyf maddeuant gan ei frawd. Addas iawn yw y rheol uchod i bawb eto; anghymmeradwy fydd ein cyflawniadau gorau ni gan Dduw, tra byddo rhwystr rhyngom â'n brodyr. Cymmoder ni â'n brodyr yn ddioed fel na rwystrer addoliad Duw.

25 Cyttuna [t] â'th * wrthwynebwr ar frys, [u] tra fyddech ar y † ffordd gyd âg ef; rhag un amser i'th wrthwynebwr dy roddi di yn llaw y barnwr, [x] ac i'r barnwr dy roddi at y swyddog, ‡ a'th daflu y'ngharchar.

t Gen. 23. 3—8, 13—22. a 33. 3—11. 1 Sam. 25. 17—35. Diar. 6. 1—5. a 25. 8. Luc 12. 58. a 14. 31, 32. u Job 22. 21. Salm 32. 6. Es. 55. 6, 7. Luc 13. 24, 25. 2 Cor. 6. 2. Heb. 3. 7, 13. a 12. 17. x 1 Bren. 22. 26, 27.

26 Yn wir meddaf i ti, [y] Ni ddeui di allan oddi yno, hyd oni thalech y ffyrling eithaf.

y pen. 18. 34. a 25. 41, 46. Luc 12. 59. a 16. 26. 2 Thes. 1. 9. Iago 2. 13.

Mae golwg yn y geiriau hyn ar ddyn wedi troseddu yn erbyn ei gymmydog, ac o herwydd hyny yn agored i'r gyfraith wladol. Ac os yw dyn felly mewn perygl, pa faint mwy brawd wedi pechu yn erbyn brawd? Er nad yw yn agored i'r gyfraith wladol, eto mae wedi digio Duw, ac yn agored i gael ei geryddu ganddo ef. Mae yma hefyd rybudd dwys i'r annuwiol, yr hwn mae Duw yn * wrthwynebwr iddo, † ac yntau ar y ffordd gydag ef i'r farn. Annogir ef i gytuno âg ef ar frys, yn ol trefn yr efengyl o gymmodi pechadur â Duw. Gwrthwynebwr mewn cyfraith yw ystyr y gair Groeg meddant, ac yn ol y gyfraith Rufeinig, gallai yr achwynydd beri i'r hwn a wnaethai gam âg ef, fyned gydag ef at y barnwr; oddigerth y cytunai y ddau ar y ffordd, i benderfynu y mater yn heddychol rhyngddynt â'u gilydd. ‡ Rhag os teflir ef i garchar uffern, na ddaw efe byth oddi yno. Y pethau uchod yw golygiadau yr Awdwyr a enwir wrth y gwaith hwn.

27 ¶ Clywsoch ddywedyd gan y rhai gynt, [z] * Na wna odineb.

z Ex. 20. 14. Lef. 20. 10. Deut. 5. 18. a 22. 22—24. Diar. 6. 32.

28 † Eithr [a] yr ydwyf fi yn dywedyd i chwi, [b] fod pob un a'r sydd yn edrych ar wraig i'w chwennychu hi, [c] wedi gwneuthur eisoes odineb â hi yn ei galon.

a adn. 22, 39. pen. 7. 28, 29. b Gen. 39. 7, &c. Ex. 20. 17. 2 Sam. 11. 2. Job 31. 1, 9. Diar. 6. 25. Iago 1. 14, 15. 2 Pedr 2. 14. 1 Ioan 2. 16. c Salm 119. 96. Rhuf. 7. 7, 8, 14.

Amcan yr Arglwydd Iesu yn yr adnodau hyn, fel y rhai o'r blaen, oedd, dangos na ddaeth ef i dori y gyfraith, ond i egluro ysbrydolrwydd y gyfraith, a diwygio agoriadau diflas ac arwynebol y Phariseaid ar y gyfraith. * Y *weithred* o odineb a waharddent hwy yn unig; † ond yma mae edrychiad y llygaid, a chwennychiad y galon, yn cael eu dangos yn doriad o'r gorchymyn, ac yn odineb yn nghyfrif Duw. Syllu yn graff a manol yw ystyr y gair, ar amcan o dda neu ddrwg, ond yma ar amcan drwg a godinebus: gwel y gair yn yr ystyr uchod yn pen. 7. 3; 18. 10; Luc 7. 44. Rhoddai yr Iuddewon, ac eraill hefyd, aelodau a rhanau y corph am nwydau a thueddiadau y meddwl a'r galon; am mai trwy aelodau a rhanau y corph, yr oedd y nwydau a'r tueddiadau

hyny yn cael eu cynhyrfu, ac yn gweithredu: gwel Rhuf. 6. 13; 7. 23.

29 Ac [d] os dy * lygad dehau a'th rwystra, [e] tyn ef allan, a thafl oddi wrthyt; [f] canys da i ti golli un o'th aelodau, ac na thafler dy holl gorph i uffern.

d pen. 18. 8, 9. Marc 9. 43—48. e pen. 19. 12. Rhuf. 6. 6. a 8. 13. 1 Cor. 9. 27. Gal. 5. 24. Col. 3. 5. 1 Pedr 4. 1—3. f pen. 16. 26. Diar. 5. 8—14. Marc 8. 36. Luc 9. 24, 25.

30 Ac os dy † law ddehau a'th [g] rwystra, tòr hi ymaith, a thafl oddi wrthyt; canys da i ti golli un o'th aelodau, [h] ac na thafler dy holl gorph i uffern.

g pen. 11. 6. a 13. 21. a 16. 23. a 18. 6, 7. a 26. 31. Luc 17. 2. Rhuf. 9. 33. a 14. 20, 21. 1 Cor. 8. 13. Gal. 5. 11. 1 Pedr 2. 8. h pen. 22. 13. a 25. 30. Luc 12. 5.

Meddwl y ddwy adnod hyn yw, y dylai iachawdwriaeth ein heneidiau fod o flaen pob peth arall yn ein golwg, ac y dylem ymwrthod â phob peth a fyddo yn rhwystr i hyny, pa mòr anwyl neu werthfawr bynag y byddo, a pha mòr anhawdd bynag y byddo genym ninnau ymadael âg ef. * Y llygad dehau yma, yw y llygad godinebus yn yr adnodau o'r blaen, efallai, ac yn arwyddo pob chwant pechadurus: † a'r llaw ddehau, a arwydda bob peth cyfreithlawn a gwasanaethgar ynddo ei hun, ond fel y byddo dynion yn ymrwystro gydag ef o ran pethau yr iachawdwriaeth.

31 A dywedwyd, [i] * Pwy bynnag a ollyngo ymaith ei wraig, rhoed iddi lythyr ysgar.

i pen. 19. 7. Deut. 24. 1—4. Jer. 3. 1. Marc 10. 2—4.

32 † Ond [k] yr ydwyf fi yn dywedyd i chwi, fod [l] pwy bynnag a ollyngo ymaith ei wraig, ond o achos godineb, yn peri iddi wneuthur godineb: a phwy bynnag a briodo yr hon a ysgarwyd, y mae efe yn gwneuthur godineb.

k adn. 28. Luc 9. 30, 35. l pen. 19. 8, 9. Mal. 2. 14—16. Marc 10. 5—12. Luc 16. 18. 1 Cor. 7. 4.

* Dysgai yr Athrawon Iuddewig bod yn gyfreithlon i wr ymadael â'i wraig am bethau bychain iawn; gan gymmeryd mantais ar y geiriau hyny, *Oni chaiff hi ffafr yn ei olwg ef*, Deut. 24. 1. † Ond yma mae Crist yn dangos mai am odineb yn unig mae ysgariaeth yn gyfreithlawn, a bod y neb a ysgaro ei wraig heb hyny, yn peri iddi wneuthur godineb, yn ei gosod mewn profedigaeth i hyny. Ei wraig ef ydyw yn ngolwg Duw, er ei hysgar yn anghyfreithlawn, a godineb fyddai iddi briodi â neb arall.

33 ¶ Trachefn, clywsoch ddywedyd gan y rhai gynt, [m] * Na thwng anudon: eithr tâl dy lwon i'r Arglwydd.

m Ex. 20. 7. Lef. 19. 12. Num. 30. 2, &c. Deut. 5. 11. Salm 1. 14. a 76. 11. Can. 5. 4—6. Nah. 1. 15.

34 † Ond yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych chwi, [n] Na thwng ddim: nac i'r [o] nef; canys gorseddfa Duw ydyw:

n Deut. 23. 21—23. Can. 9. 2. Iago 5. 12. o pen. 23. 22. Es. 57. 15. a 66. 1.

35 Nac i'r [p] ddaear; canys troed-faingc ei draed ydyw: nac i Jerusalem; canys [q] dinas y brenhin mawr ydyw.

p Salm 99. 5. q 2 Cron. 6. 6. Salm 48. 2. a 87. 2. Mal. 1. 14.

36 Ac [r] na thwng i'th ben; [s] am na elli wneuthur un blewyn yn wyn, neu yn ddu.

r pen. 23. 16—21. s pen. 6. 27. Luc 12. 25.

* Nid yw yr Arglwydd Iesu yma yn gwrthwynebu cyfraith yr Arglwydd, Deut. 6. 13. a 10. 20. nid yw yn beio Abraham, a dyngodd ei was, Gen. 24. 3. ac nid yw yn diddymu y moddion defnyddiol hyny sydd yn derfyn ar bob ymryson, Heb. 6. 16; † ond dywedyd y mae yn erbyn tyngu anudon, tyngu cyffredin, a thyngu afreidiol, yr hyn oedd arferiad cyffredin yn mhlith yr Iuddewon. Tyngent i'r nef, i'r ddaear, i Jerusalem, ac i'w penau, rhyw beth ond peidio enwi Duw, yr hyn a farnent yn bechod mawr. Mae un gwr dysgedig yn darllen y geiriau fel hyn, "I'r nef, na thwng ddim, nac i'r ddaear, nac i Jerusalem, nac i'th ben." Dangosir yma, nad yw tyngu yn ysgafn i greaduriaid Duw, fawr llai pechadurus na thyngu i Dduw ei hun.

37 Eithr [t] bydded eich ymadrodd chwi, * Ië, ïe; Nag ê, nag ê: oblegid beth bynnag *sydd* dros ben hyn, [u] † o'r drwg y mae.

t 2 Cor. 1. 17—20. Col. 4. 6. Iago 5. 12. u pen. 13. 19. a 15. 19. Ioan 8. 44. Eph. 4. 25. Col. 3. 9.

* Yma mae ein Harglwydd bendigedig yn gwarafun llwon ond ar achosion o bwys, er terfynu dadl ac ymryson. Digon i bob dyn geirwir ydyw ïe, ïe; neu nage, nage; mewn pob ymddiddan cyffredin neu fasnach fydol. † Beth bynag sydd dros ben hyn o'r drwg y mae; o egwyddor ddrwg, o arfer ddrwg, i ryw ddyben drwg, ac o ddiafol, yr ysbryd drwg.

38 ¶ Clywsoch ddywedyd, [x] * Llygad am lygad, a dant am ddant.

x Ex. 21. 22—27. Lef. 24. 19, 20. Deut. 19. 19.

* Felly yr oedd rhëol y gyfraith gynt i swyddogion a barnwyr gwladol i farnu wrthi; ond nid i ddynion cyffredin, i'w cefnogi mewn ysbryd ymddial ar eu gilydd. Felly y camddehonglid y ddeddf uchod gan yr athrawon Iuddewig i'r bobl.

39 Eithr yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych chwi, [y] * Na wrthwynebwch ddrwg: ond [z] pwy bynnag a'th darawo ar dy rudd ddehau, † tro y llall iddo hefyd.

y Lef. 19. 18. 1 Sam. 24. 10—15. a 25. 31—34. a 26. 8—10. Job 31. 29—31. Diar. 20. 22. a 24. 29. Rhuf. 12. 17, 19. 1 Thes. 5. 15. Heb. 12. 4. Iago 5. 6. 1 Pedr 3. 9. z 1 Bren. 22. 24. Job 16. 10. Es. 50. 6. Galar. 3. 30. Mica 5. 1. Luc 6. 29. a 22. 64. 1 Pedr 2. 20—23.

40 Ac [a] i'r neb a fynno ymgyfreithio â thi, ‡ a dwyn dy bais, gâd iddo *dy* gochl hefyd.

a Luc 6. 29. 1 Cor. 6. 7.

41 ‖ A phwy bynnag a'th [b] gymhello un filldir, dos gyd âg ef ddwy.

b pen. 27. 32. Marc 15. 21. Luc 23. 26.

* Na wrthwynebwch ddrwg â drwg, sef trwy dalu drwg am ddrwg. † Ac mewn pethau bychain, megys dy daro ar dy rudd, goddef dy daro ar y llall hefyd, yn hytrach na rhoi ergyd am ergyd mewn ysbryd dialgar. ‡ Os bydd rhyw un yn gyfreithgar, a thrwy anghyfiawnder yn dwyn dy bais, nid yw ond peth bychan; gad iddo dy gochl hefyd yn hytrach nac ymgyfreithio âg ef mewn tymher ddialgar. Y *bais* oedd fath o ddilledyn llian am y corph, a'r *cochl* oedd fath o fantell dros y dillad eraill oll; a chreulondeb mawr oedd dwyn y *bais* uchod oddi ar un, trwy rym cyfraith. ‖ Pwy bynag a'th gymhello un filltir, (fel y cymhellwyd Simon o Cyrene i ddwyn croes Crist.) Pan oedd Judea dan lywodraeth y Persiaid, byddai swyddogion yn cymhell y bobl a'u hanifeiliaid, i gynorthwyo eu cludo hwy o fàn i fàn; ond yr oedd dysgyblion y Doctoriaid Iuddewig yn cael eu hesgusodi o'r gwasanaeth hwn, ac yn ei wrthwynebu: mae Crist yn dysgu ei ddysgyblion ef i ufuddhâu, yn hytrach na gwrthwynebu yn ymrysongar. Amcan yr adnodau hyn oll yw, dysgu i ni oddef pob math o ddrygau er mwyn heddwch, lle na byddo dyledswydd yn galw am y gwrthwyneb, ac ymddiried ein hachos i law Duw.

42 * Dyro [c] i'r hwn a ofyno gennyt; ac na thro oddi wrth yr hwn sydd yn ewyllysio † echwyna gennyt.

c pen. 25. 35—40. Deut. 15. 7—14. Job 31. 16—20. Salm 37. 21, 25, 26. a 112. 5—9. Diar. 3. 27, 28. a 11. 24, 25. a 19. 17. Can. 11. 1, 2, 6. Es. 58. 6—12. Dan. 4. 27. Luc 6. 30—36. a 11. 41. a 14. 12—14. Rhuf. 12. 20. 2 Cor. 9. 6—15. 1 Tim. 6. 17—19. Heb. 6. 10. a 13. 16. Iago 1. 27. a 2. 15, 16. 1 Ioan 3. 16—18.

* Dyro i'r hwn a ofyno genyt, yn ol dy allu, ac heb dy ddrygu dy hun, er ei fod heb ddim i dalu yn ol. † Ac i'r hwn sydd yn ewyllysio echwyna genyt, ac yn

riadu talu yn ol pan allo. Os na elli roddi, na thro di wrthynt yn wgus ac yn sarrug am eu bod yn llodion.

43 ¶ Clywsoch ddywedyd, [d] * Câr dy gymmydog, [e] † a chasâ dy elyn.

d pen. 19. 19. a 22. 39, 40. Lef. 19. 18. Marc 12. 31—34. Luc 27—29. Rhuf. 13. 8—10. Gal. 5. 13, 14. Iago 2. 8. e Ex. 17. 1—16. Deut. 12. 6. a 25. 17. Salm 139. 21, 22.

* Câr dy gymmydog, oedd orchymyn Duw, † casâ dy elyn, oedd chwanegiad y Phariseaid at y gorchymyn hwnw. Cyfrifai yr Iuddewon eu cenedl eu hunain yn gymmydogion, ond cyfrifent bob cenedl ddi-enwaededig y elynion, o herwydd y gorchymyn yn nghylch y Canaeiaid, Deut. 23. 6.

44 * Eithr yr ydwyf fi yn dywedyd wrthch chwi, [f] † Cerwch eich gelynion, bendithch y rhai â'ch melldithiant, gwnewch dda i'r wl a'ch casânt, a gweddïwch dros y rhai a nel niwed i chwi, ac a'ch erlidiant:

f Ex. 23. 4, 5. 2 Bren. 6. 22. 2 Cron. 28. 9—15. Salm 7. 4. a 13, 14. Diar. 25. 21, 22. Luc 6. 27, 28. a 23. 34. Act. 7. 60. Rhuf. 14, 20, 21. 1 Cor. 4. 12, 13. a 13. 4—8. 1 Pedr 3. 9.

* Mae yr Arglwydd Iesu yn dywedyd yma, nid mewn rdd o gyngor, ond mewn ffordd o orchymyn awdurdol. † Cerwch eich gelynion; nid â chariad o rrfrydwch ynddynt fel gelynion ac annuwiolion, ond â ariad o ewyllys da tuag atynt fel eich cyd-greaduriaid, n weddïo drostynt, a gwneyd pob daioni iddynt.

45 * Fel [g] y byddoch blant i'ch Tad yr hwn ydd yn y nefoedd: [h] canys y mae efe yn peri w haul godi ar y drwg a'r da, ac yn gwlawio y cyfiawn a'r anghyfiawn.

g adn. 9. Luc 6. 35. Ioan 13. 35. Eph. 5. 1. 1 Ioan 3. 9, 10. h Job 24. 3. Salm 145. 9. Act. 14. 17.

* Trwy garu ein gelynion felly, y byddwn, ac y danoswn ein bod, yn blant i'n Tad yr hwn sydd yn y nefedd: oblegid y mae efe yn peri i'w haul godi ar y wg â'r da, ac yn gwlawio ar y cyfiawn â'r anghyfiawn.

46 Oblegid [i] os cerwch y sawl a'ch caro, a wobr sydd i chwi? oni wna y [k] publicanod efyd yr un peth?

i pen. 6. 1. Luc 6. 32—35. 1 Pedr 2. 20—23. k pen. 9. 10, 11. a 11. 19. a 18. 17. a 21. 31, 32. Luc 15. 1. a 18. 13. a 19. 2, 7.

47 Ac os [l] cyferchwch well i'ch brodyr yn nig, [m] pa ragoriaeth yr ydych chwi yn ei rneuthur? onid ydyw y * publicanod hefyd n gwneuthur felly?

l pen. 10. 12. Luc 10. 4, 5. m adn. 20. 1 Pedr 2. 20.

Os na charwn ond y sawl a'n caro ninnau, &c. pa le nae y rhagoriaeth i'w weled rhwng crefyddwyr, a rhai igrefydd, a pha le mae y prawf ein bod ni yn disgwyl m wobr mewn byd a ddaw? * Publicanod oedd y rhai godent y dreth ar yr Iuddewon dros y Rhufeiniaid, ac fath waethaf o ddynion oeddynt yn gyffredin.

48 Byddwch [n] chwi gan hynny yn * berffaith, [o] fel y mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith.

n Gen. 17. 1. Lef. 11. 44. a 19. 2. a 20. 26. Job 1. 1. a 2. 3. Salm 37. 37. Luc 6. 36. 2 Cor. 7. 1. a 13. 9, 11. Phil. 3. 12—15. Col. 1. 28. a 4. 12. Iago 1. 4. 1 Pedr 1. 15. o adn. 16, 45. Eph. 5. 1, 2. 1 Ioan 3. 3.

* Er nas gall neb o'r saint fod yn berffaith yn y byd hwn, eto, dengys ein Harglwydd yma mai dyleds wydd i saint yw bod yn berffaith, a bod ymgais ynddynt am berffeithrwydd. Geilw Duw hwnw yn berffaith sydd yn ymesaf at berffeithrwydd. Chwi a fyddwch gan hyny yn berffaith, medd rhai, a thybiant mai addewid yw y geiriau, yn hytrach na gorchymyn: po mwyaf y tebygo ddynion mewn daioni i ddaioni Duw, mwyaf perffaith ddynt; a gwelir y rhai hyn oll yn gwbl berffaith yn y nef, canys am dduwiolion yn ddïau y dywedir.

PEN. VI.

Crist yn parhau yn ei bregeth ar y mynydd.

[a] * GOCHELWCH rhag gwneuthur eich † elusen y'ngwydd dynion, [b] er mwyn cael eich gweled ganddynt: [c] os amgen, ni chewch dâl gan eich [d] Tad yr hwn sydd yn y nefoedd.

a pen. 16. 6. Marc 8. 15. Luc 11. 35. a 12. 1, 15. Heb. 2. 1. b adn. 5, 16. pen. 23. 5, 14, 28—30. 2 Bren. 10. 16, 31. Ezec. 33. 31. Zec. 7. 5, 6. a 13. 4. Luc 16. 15. Ioan 5. 44. a 12. 43. Gal. 6. 12, 13. c adn. 4, 6. pen. 5. 46. a 10. 41, 42. a 16. 27. a 25. 40. 1 Cor. 9. 17, 18. Heb. 6. 10. a 11. 26. 2 Ioan 8. d adn. 9. pen. 5. 48.

* Fel yr oedd yn angenrheidiol gochelyd gau agoriadau y Phariseaid ar y gyfraith, felly yr oedd hefyd rhag eu dull rhagrithiol a gwag-ogoneddgar hwynt yn cyflawni dyledswyddau crefydd; er mwyn cael eu gweled gan ddynion. † Mewn rhai ysgrifau o'r Testament Groeg, cyfiawnder, ac nid elusen, yw y gair yma: gair yn cynnwys y gwahanol ddyledswyddau a grybwyllir yn y blaen. Os na ochelent hwy rhag gwneuthur eu helusen yn ngŵydd dynion, er mwyn cael eu gweled gan ddynion, ni châent dâl gan eu Tad nefol; eu gweled gan ddynion, a'u canmol gan ddynion, oedd y tâl oeddynt hwy yn geisio; yr oeddynt yn cael hyny, a hyny yn unig a gâent, ni chaent ddim gan Dduw.

2 Am hynny [e] pan wnelych elusen, na * udgana o'th flaen, [f] fel y gwna y † rhagrithwyr [g] yn y synagogau, ac ar yr heolydd, fel y [h] molianner hwy gan ddynion. [i] Yn wir meddaf i chwi, Y maent yn derbyn eu gwobr.

e Job 31. 16—20. Salm 37. 21. a 112. 9. Diar. 19. 17. Can. 11. 2. Es. 58. 7, 10—12. Luc 11. 41. a 12. 33. Ioan 13. 29. Act. 9. 36. a 10. 2, 4, 31. a 11. 29. a 24. 17. Rhuf. 12. 8. 2 Cor. 9. 6—15. Gal. 2. 10. Eph. 4. 28. 1 Tim. 6. 18. Philemon 7. Heb. 13. 16. Iago 2. 15, 16. 1 Pedr 4. 11. 1 Ioan 3. 17—19. f adn. 5. pen. 7. 5. a 15. 7. a 16. 3. a 22. 28. a 24. 51. Es. 9. 17. a 10. 6. Marc 7. 6. a 12. 56. a 13. 15. g adn. 5. pen. 23. 6. Marc 12. 39. Luc 11. 43. a 20. 46. h 1 Sam. 15. 30. Ioan 5. 41, 44. a 7. 18. 1 Thes. 2. 6. i adn. 5, 16. pen. 5. 18.

3 Eithr pan wnelych di elusen, [k] ‡ na wyped dy *law* aswy pa beth a wna dy *law* ddehau:

k pen. 8. 4. a 9. 30. a 12. 19. Marc 1. 44. Ioan 7. 4.

4 Fel y byddo dy elusen yn y dirgel: a'th Dad yr hwn [l] a wêl yn y dirgel, efe [m] a dâl i ti yn yr amlwg.

l adn. 6, 18. Salm 17. 3. a 44. 21. a 139. 1—3, 12. Jer. 17. 10. a 23. 24. Heb. 4. 13. Dat. 2. 23. m pen. 10. 42. a 25. 34—40. 1 Sam. 2. 30. Luc 14. 14. 1 Cor. 4. 5. Judas 24.

* Nid oes sylfaen i feddwl bod yr Iuddewon yn udganu felly wrth wneyd elusen, ond yr oeddynt yn ei gwneyd mòr amlwg ag oedd modd, er mwyn cael eu gweled a'u canmol gan ddynion. † Rhagrithwyr, neu rith-chwareüwyr mewn chwareufa: dynion yn ymddangos y peth nid ydynt mewn gwirionedd. Bernir mai gyda golwg ar chwareüaeth y llefarodd Iesu y geiriau hyn; ac fel y bydd chwareüwyr yn chwarae er mwyn cael eu gweled, felly y Phariseaid yn cyflawni eu dyledswyddau crefyddol. Y gwobr oeddynt hwy yn geisio oedd eu moliannu gan ddynion, ac yr oeddynt yn cael hyny, felly yr oeddynt yn derbyn eu gwobr. ‡ Na wyped dy law aswy: dywedir mai ar y llaw ddehau wrth fyned i'r synagog y byddai blwch y tlodion.

5 ¶ A [n] phan weddïech, [o] na fydd fel y rhagrithwyr: [p] * canys hwy a garant weddïo yn sefyll yn y synagogau, † ac y'nghonglau yr heolydd, fel yr ymddangosont i ddynion. [q] Yn wir meddaf i chwi, Y maent yn derbyn eu gwobr.

n pen. 7. 7, 8. a 9. 38. a 21. 22. Salm 5. 2. a 55. 17. Diar. 15. 8. Es. 55. 6, 7. Jer. 29. 12. Dan. 6. 10. a 9. 4, &c. Luc 18. 1. Ioan 16. 24. Eph. 6. 18. Col. 4. 2, 3. 1 Thes. 5. 17. Iago 5. 15, 16. o adn. 2. pen. 23. 14. Job 27. 8—10. Es. 1. 15. Luc 18. 10, 11. a 20. 47. p pen. 23. 6. Marc 12. 38. Luc 11. 43. q adn. 2. Luc 14. 12—14.

* Gweddïo yn y synagogau oedd beth arferol a chyf-

reithlon; a gweddïo yn sefyll oedd felly, hefyd; ond myned i'r synagogau i weddïo er mwyn cael eu gweled gan ddynion oedd bechadurus, ac ar hyny y beia ein Hiachawdwr. † Gweddïo yn nghonglau yr heolydd ydoedd wrthyn iawn, a thra gwag-ogoneddgar.

6 * Ond tydi, pan weddïech, [r] dos i'th * ystafell; ac wedi cau dy ddrws, [s] gweddïa ar dy Dad yr hwn *sydd* yn y dirgel; a'th Dad yr hwn a wêl yn y dirgel, a dâl i ti yn yr amlwg.

r pen. 14. 23. a 26. 36—39. Gen. 32. 24—29. 2 Bren. 4. 33. Es. 26. 20. Ioan 1. 48. Act. 9. 40. a 10. 9, 30. s Ioan 20. 17. Rhuf. 8. 5. Eph. 3. 14.

Rhaid i ni ddëall mai am weddïau dirgel y meddwl, ac nid am weddïau cyhoeddus llafar, mae yr Arglwydd Iesu yn dywedyd yma. Mae gweddïo yn y dirgel yn gymmaint dyledswydd a gweddïo yn y teulu, neu yn y gynnulleidfa. * Dos i'th ystafell; unrhyw le neilluedig a feddylir, er mwyn dirgelwch a llonyddwch: maes, gardd, neu fynydd, sy mòr gyfleus ag ystafell; oblegid gwêl a chlyw Duw yn mhob màn, ac efe a dâl yn yr amlwg, ïe, yn ngŵydd dynion ac angelion yn y dydd a ddaw. Dywedir fod yn holl dai yr Iuddewon ystafell i weddïo yn ddirgel ynddi, wedi ei hadeiladu yn union uwch ben y porth trwy yr hwn yr âid i mewn i'r tŷ, ac yn uwch na'r holl ystafelloedd eraill: efallai mai ystafell felly oedd Crist yn feddwl yn y fàn hon, er nad yw y gair yn arwyddo ond rhyw ystafell gyflëus i weddi ddirgel.

7 A phan weddïoch, [t] na fyddwch * siaradus, fel y * cenhedloedd: canys y maent hwy yn tybied y cânt eu gwrandaw am eu haml eiriau.

t 1 Bren. 18. 26—29. Can. 5. 2, 3, 7. Act. 19. 34. u pen. 26. 39, 42, 44. 1 Bren. 8. 29—54. Dan. 9. 18, 19. x adn. 32. pen. 18. 17.

8 Na fyddwch gan hynny debyg iddynt hwy: canys [y] gŵyr eich Tad pa bethau sydd arnoch eu heisiau, cyn gofyn o honoch ganddo.

y adn. 32. Salm 38. 9. a 69. 17—19. Luc 12. 30. Phil. 4. 6.

* Pa un bynag ai yn ddirgel ai yn gyhoeddus y gweddïom, gorchymynir i ni gymmeryd geiriau gyda ni, ac felly gwneyd ein deisyfiadau yn hysbys ger bron Duw: ond wrth "siaradus" yma y meddylir, arfer lliaws o eiriau ofer, difeddwl, ac heb ysbryd gweddi, er mwyn dangos ein hyawdledd a'n dawn, yr hyn sydd agwedd anmharchus a rhyfygus iawn ger bron Duw. † Arferai y paganiaid amledd geiriau felly ger bron eu duwiau, fel y gwelir yn mhrophwydi Baal, 1 Bren. 18. 26, ac yr oedd y Phariseaid yn amser Crist wedi myned yn debyg iddynt; a'r pabyddion eto. Nis gwyddai gau dduwiau y Cenedloedd ddim, er yr holl aml eiriau siaradus a ddefnyddid wrth weddïo arnynt; ond gŵyr yr Arglwydd hollwybodol, a Thad ei bobl, beth sydd yn eisiau ar bob un o'i blant ef, cyn gofyn o honynt ganddo. Mae hyn yn gryfder mawr i'r duwiolion weddïo, ac yn gwneyd yn afreidiol iddynt arfer llawer o aml eiriau; llwyddodd gweddi fèr y publican, yn gystal â gweddi faith Solomon, ac amryw eraill.

9 [z] * Am hynny gweddïwch chwi † fel hyn: [a] ‡ Ein Tad, [b] yr hwn *wyt* yn y ‖ nefoedd, [c] sancteiddier dy § Enw.

z Luc 11. 1, 2. a adn. 1. 6, 14, 15. pen. 5. 16, 45, 48. a 7. 11. a 10. 29. a 26. 29, 39, 42. Es. 63. 16. a 64. 8. Luc 15. 18, 19, 21. Ioan 20. 17. Rhuf. 1. 7. a 8. 15. Gal. 1. 1. a 4. 6. 1 Pedr 1. 17. b pen. 23. 9. 2 Cron. 20. 6. Salm 115. 3. Es. 57. 15. a 66. 1. c Lef. 10. 3. 2 Sam. 7. 26. 1 Bren. 8. 43. 1 Cron. 17. 24. Neh. 9. 5. Salm 72. 18, 19. a 103. 20—22. a 113. 2, 3. Es. 6. 3. a 37. 20. Ezec. 36. 23. a 38. 23. Hab. 2. 14. Zec. 14. 9. Mal. 1. 11, 14. Luc 2. 14. a 11. 2. 1 Tim. 6. 16. Dat. 4. 11. a 5. 12—14.

* Gwedi gwahardd bod yn siaradus mewn gweddi yn yr adnodau uchod, mae yr Arglwydd Iesu yn dysgu i ni pa fodd i weddïo yn yr adnod hon a'r rhai canlynol. † Nid bob amser yn y geiriau hyn, ond bob amser yn y dull eglur, cynnwysfawr a gostyngedig hyn. ‡ Mae Duw yn Dad ei holl grëaduriaid yn gyffredinol, yr enwedig angelion a dynion; ond mae yn Dad y cred inwyr mewn modd neillduol, a hwythau yn nesâu at mewn ysbryd ffydd, mabwysiad, ac anwyldeb, fel e blant. ‖ Y nefoedd yw ei breswylfa, goruwch pawb, a yn Arglwydd ar bawb. § Enw Duw yw pa beth bynag y gwnaeth efe ei hun yn hysbys drwyddo: gogoneddei Duw yn mhob amlygiad a wnaeth o hòno ei hun.

10 [d] * Deled dy deyrnas. [e] † Gwneler dy ewyllys, [f] megis yn y nef, *felly* ar y ddaear hefyd.

d pen. 3. 2. a 4. 17. a 16. 28. Salm 2. 6—12. Es. 2. 2—4. Jer. 23. 5, 6. Dan. 2. 44. a 7. 13, 14, 27. Zec. 9. 9. Marc 11. 10. Luc 19. 11, 38. Col. 1. 13. Dat. 11. 15. a 12. 10. a 19. 6. a 20. 4. e pen. 7. 21. a 12. 50. a 26. 42. Salm 40. 8. Marc 3. 35. Ioan 4. 34. a 6. 39, 40. a 7. 17. Act. 13. 22. a 22. 14. Rhuf. 12. 2. Eph. 6. 6. Col. 1. 9. 1 Thes. 4. 3. a 5. 18. Heb. 10. 7, 36. a 13. 21. 1 Pedr 2. 15. a 4. 2. f Neh. 9. 6. Salm 103. 19—21. Dan. 4. 35. Heb. 1. 14.

* I'r dyben o sancteiddio (neu ogoneddu) enw Duw, mae Crist yn dysgu i ni weddïo, Deled dy deyrnas. Deled teyrnas y Messiah, yr hon a ddisgwylid, ac oedd ar ddyfod y pryd hwnw; deled dy deyrnas yn ngweinidogaeth yr efengyl drwy yr holl fyd; a deled dy deyrnas yn nghalonau plant dynion. † Fel y llwyddo teyrnas Dduw, felly y gwneir ei ewyllys; ei ewyllys yn ei air, a'i ewyllys yn ei ragluniaeth. Ymostyngiad ac ufuddodd i'w ewyllys, a feddylir yma wrth "wneyd."

11 * Dyro [g] i ni heddyw ein bara † beunyddiol.

g pen. 4. 4. Ex. 16. 16—35. Job 23. 12. Salm 33. 18, 19. a 34. 10. Diar. 30. 8. Luc 11. 3. Ioan 6. 31, &c. 2 Thes. 3. 12. 1 Tim. 6. 8.

* Yma dysgir ni i gydnabod, mai yn Nuw yr ydym yn byw, yn symmud, ac yn bod. Dysgir ni hefyd ar y naill law, i fod yn gymmedrol yn ein dymuniadau, dim ond ein digonedd o fara; † ac ar y llaw arall, i ymddiried yn wastadol yn yr Arglwydd, heb rag-ofalu yn ormodol.

12 * A [h] maddeu i ni ein [i] dyledion, [k] † fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.

h Es. 34. 7. 1 Bren. 8. 80, 34, 39, 50. Salm 32. 1, 2. a 130. 3, 4. Es. 1. 18. Dan 9. 19. Act. 13. 38. Eph. 1. 7. 1 Ioan 1. 7—9. i pen. 18. 23—27, 34. Luc 7. 40—42. a 11. 4. k adn. 14, 15. pen. 18. 21, 22, 28—35. Neh. 5. 12, 13. Marc 11. 25, 26. Luc 6. 37. a 17. 3—5. Eph. 4. 32. Col. 3. 13.

* Y dyledion yma yw ein pechodau, o gyflawniad a gommeddiad; pechodau ar feddwl, gair, a gweithred. Dylem weddïo am faddeuant o'n pechodau bob dydd, fel am ein bara beunyddiol. † Rhaid i ni fod yn faddeugar ein hunain hefyd, wrth weddïo am faddeuant: ac felly gweddïo mewn *cariad* yn gystal ag mewn *ffydd*.

13 * Ac [l] nac arwain ni i brofedigaeth; eithr [m] gwared ni rhag † drwg. Canys [n] eiddo ti yw y deyrnas, a'r nerth, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. [o] Amen.

l pen. 26. 41. Gen. 22. 1. Deut. 8. 2, 16. Diar. 30. 8, 9. Luc 22. 31, 32, 40, 46. 1 Cor. 10. 13. 2 Cor. 12. 7—9. Heb. 11. 36, 37. 1 Pedr 5. 8. 2 Pedr 2. 9. Dat. 2. 10. a 3. 10. m 1 Cron. 4. 10. Salm 121. 7, 8. Jer. 15. 21. Ioan 17. 15. Gal. 1. 4. 1 Thes. 1. 10. 2 Tim. 4. 17. 18. Heb. 2. 14, 15. 1 Ioan 3. 8. a 5. 18, 19. Dat. 7. 14—17. a 21. 4. n adn. 10. Ex. 15. 18. 1 Cron. 29. 11, 12. Salm 10. 16. a 47. 2, 7, a 145. 10—13. Dan. 4. 25, 34, 35. a 7. 18. 1 Tim. 1. 17. a 6. 15—17. Dat. 5. 13. a 19. 1. o pen. 28. 20. Num. 5. 22. Deut. 27. 15, &c. 1 Bren. 1. 36. 1 Cron. 16. 36. Salm 41. 13. a 72. 19. a 89. 52. a 106. 48. Jer. 28. 6. 1 Cor. 14. 16. 2 Cor. 1. 20. Dat. 1. 18. a 3. 14. a 19. 4. a 22. 20.

* Ac fel na byddo i ni bechu rhagllaw, gweddïwn nad elom i brofedigaeth. Nid yw Duw yn temtio neb, nac yn arwain neb i brofedigaeth; ond dichon i ragluniaeth ein harwain i amgylchiadau a rydd lawer o fantais i ddiafol a'n llygredigaethau ein hunain arnom. † Wrth y drwg yma, gellir cymmeryd i mewn bob drwg: calon ddrwg, diafol drwg, profedigaethau drwg, a gweithredoedd drwg. ‡ E ddichon Duw gyflawni yr holl ddeisyfiadau uchod, canys eiddo ef yw y deyrnas, y nerth, a'r gogoniant yn oes oesoedd. ‖ Mae yr Amen yma yn arwyddo *dymuniad*, a *ffydd* y gweddïwr, yn nghyd a *sicrwydd* o gyflawniad y pethau.

14 * Oblegid [p] os maddeuwch i ddynion eu camweddau, eich Tad nefol a faddeu hefyd i chwithau:

p adn. 12. pen. 7. 2. a 18. 24—35. Diar. 21. 13. Marc 11. 25, 26. Iago 2. 13. 1 Ioan 3. 10.

15 † Eithr oni faddeuwch i ddynion eu camweddau, ni faddeu eich Tad eich camweddau chwithau.

* Nid *am* ein bod ni yn maddau i ddynion mae Duw yn maddau i ni; † eto, ar yr un pryd, ni faddau efe i ni oni faddeuwn ni i ddynion. A'r trugarog y gwna efe drugaredd.

16 ¶ Hefyd, [q] pan * ymprydioch, [r] na bydd wch fel y rhagrithwyr, yn wyneb-drist: canys anffurfio eu hwynebau y maent, fel yr ymddangosont i ddynion eu bod yn ymprydio. ¶ Yn wir meddaf i chwi, Y maent yn derbyn eu gwobr.

q pen. 9. 14, 15. 2 Sam. 12. 16, 21. Neh. 1. 4. Esther 4. 16. Psalm 35. 13. a 69. 10. a 109. 24. Dan. 9. 3. Luc 2. 37. Act. 10. 30. 13. 2, 3. a 14. 23. 1 Cor. 7. 5. 2 Cor. 6. 5. a 11. 27. r adn. 2, 5. 1 Bren. 21. 27. Es. 58. 3—5. Zec. 7. 3—5. Mal. 3. 14. Marc 2. 18. Luc 18. 12. s adn. 2, 5.

17 † Eithr pan ymprydiech di, [t] enneinia dy ben, a golch dy wyneb;

t Ruth 3. 3. 2 Sam. 14. 2. Preg. 9. 8. Dan. 10. 2, 3.

18 Fel [u] nad ymddangosech i ddynion dy fod yn ymprydio, ond i'th Dad yr hwn sydd yn y dirgel: a'th Dad yr hwn sydd yn gweled yn y dirgel, [x] a dâl i ti yn yr amlwg.

u 2 Cor. 5. 9. a 10. 18. Col. 3. 22—24. 1 Pedr 2. 13. x adn. 4, 6. Rhuf. 2. 6, 7. 1 Pedr 1. 7.

Gwedi sôn am elusen a gweddi, mae ein Hiachawdwr yma yn sôn am ddyledswydd arall a fynych arferid gan yr Iuddewon, sef ympryd. * Nid am ympryd cyhoedd, gwladol nac eglwysig, y mae yn sôn, ond am ympryd personol, a ddylasai gael ei gadw yn ddirgel; ond a gadwai y Phariseaid rhagrithiol yn amlwg i bawb, er mwyn cael eu gweled gan bawb, a'u mawrygu am eu rhith-grefydd. † Mae efe yn cymmeryd yn ganiatâol y byddai i'w ddisgyblion ymprydio, ac yn eu hannog nad ymddangosent i ddynion eu bod yn ymprydio, ond ei wneyd yn sobr ger bron Duw, yr hwn sydd yn gweled yn y dirgel. Eneiniai yr Iuddewon eu penau yn gyffredin, heblaw ar amserau gwleddoedd a llawenydd; a'r cynghor yma ydoedd, bod iddynt ymdrwsio fel arferol pan ymprydient yn ddirgel, fel nad ymddangosent i ddynion eu bod yn ymprydio, er mwyn eu gweled a'u canmol gan ddynion; am eu Tad nefol, gallai ef weled eu bod yn ymprydio, heb iddynt hwy wneyd unrhyw arwydd allanol o hyny.

19 ¶ [y] * Na thrysorwch iwch' drysorau ar y ddaear, lle y mae gwyfyn a rhwd yn llygru, a lle y mae lladron yn cloddio trwodd ac yn lladratta.

y Job 31. 24, 25. Salm 39. 6. a 62. 10. Diar. 11. 4. a 16. 16. a 23. 5. Preg. 2. 26. a 5. 10—14. Zeph. 1. 18. Luc 12. 21. a 18. 24, 25. 1 Tim. 6. 8—10. Heb. 13. 5. Iago 5. 2, 3. 1 Ioan 2. 15, 16.

20 † Eithr [z] trysorwch iwch' drysorau yn y nef, lle nid oes na gwyfyn na rhwd yn llygru, a lle nis cloddia lladron trwodd ac nis lladratant.

z pen. 19. 21. Luc 12. 33. a 16. 9. 1 Tim. 6. 17—19. Heb 10. 34. a 11. 26. Iago 2. 5. 1 Pedr 1. 4. a 5. 4. Dat. 2. 9.

21 ‡ Canys [a] lle y mae eich trysor, [b] yno bydd eich calon hefyd.

a Es. 33. 6. Luc 12. 34. 2 Cor. 4. 18. b pen. 12. 34, 35. Diar. 4. 23. Jer. 4. 14. a 22. 17. Act. 8. 21. Rhuf. 7. 5—7. Phil. 3. 19, 20. Col. 3. 1—3. Heb. 3. 12.

* Trysor yw rhywbeth a gyfrifir yn werthfawr, ac a roddir i'w gadwerbyn yr amser a ddaw: ac ni thâl holl bethau y ddaear ddim erbyn yr amser hwnw; oblegid maent yn darfod wrth eu defnyddio, ac yn llygru wrth eu cadw: mae lladron yn eu lladrata yn aml, a ninnau i'w gadael oll yn fuan. Muriau o glai oedd i lawer o'r tai yn y dwyrain, a chloddio trwy y rhai hyny a wnâi y lladron i ladrata; nid tòri i mewn trwy y drysau a'r ffenestri, fel yn ein gwlad ni. † Ond y mae trysor yn y nef, ffafr Duw, doniau yr Ysbryd Glân, a mwynâd cyflawn o hóno yn y diwedd, a ateb yn berffaith i'n hangen ni, ac nid oes darfod byth iddynt, na cholli byth arnynt. ‡ Pa un bynag ai pethau y nef ai pethau y ddaear yw ein trysor ni, lle mae ein trysor, yno hefyd y mae ein calon: hawdd i ni wybod beth ydym a pha beth a fyddwn. Tybir mai aur ac arian, ŷd a dillad, a feddyliai Iesu wrth drysorau ar y ddaear yn y geiriau uchod.

22 [c] * Canwyll y corph yw y llygad: am hynny o bydd dy lygad yn [d] syml, dy holl gorph fydd yn oleu.

c Luc 11. 34—36. d Act. 2. 46. 2 Cor. 11. 3. Eph. 6. 5. Col. 3. 22.

23 † Eithr os [e] bydd dy lygad yn ddrwg, dy holl gorph fydd yn dywyll. [f] Am hynny os bydd y goleuni sydd ynot yn dywyllwch, pa faint *fydd* y tywyllwch!

e pen. 20. 15. Es. 44. 18—20. Marc 7. 22. Eph. 4. 18. a 5. 8. 1 Ioan 2. 11. f pen. 23. 16, &c. Diar. 26. 12. Es. 5. 20, 21. a 8. 20. Jer. 4. 22. a 8. 8, 9. Luc 8. 10. Ioan 9. 39—41. Rhuf. 1. 22. a 2. 17—23. 1 Cor. 1. 18—20. a 2. 14. a 3. 18, 19. Dat. 3. 17, 18.

* Fel y mae llygad goleu yn angenrheidiol i gyfarwyddo holl ysgogiadau a symmudiadau y corph, felly mae dëall goleu ysbrydol yn wir angenrheidiol, i ddysgu yr enaid i farnu rhwng trysorau y nef a thrysorau y ddaear; ac i farnu hefyd pa un o'r ddau yw ein trysorau dewisedig ni. † Os bydd y llygad ysbrydol yn ddrwg, gan ddaearoldeb a chwantau, bydd yr holl enaid yn dywyll, ac yn cael ei gam-arwain i ddinystr a choll-edigaeth. Llygad syml yn y fàn hon medd rhai, a arwydda ddyn o galon dosturiol a haelionus; a llygad drwg a arwydda ddyn caled a chybyddlyd.

24 ¶ Ni ddichon neb [g] wasanaethu dau arglwydd: canys naill ai efe a gasâ y naill, ac a gâr y llall; ai efe a ymlŷn wrth y naill, ac a esgeulusa y llall. * Ni ellwch wasanaethu Duw a [h] † mammon.

g pen. 4. 10. Jos. 24. 15, 19, 20. 1 Sam. 7. 3. 1 Bren. 18. 21. 2 Bren. 17. 33, 34, 41. Ezec. 20. 39. Zeph. 1. 5. Luc 16. 13. Rhuf. 6. 16—22. Gal. 1. 10. Iago 4. 4. 1 Ioan 2. 15, 16. h Luc 16. 9, 11, 13. 1 Tim. 6. 9, 10, 17.

Na thwyllwch eich hunain, gan dybied y gellwch ranu eich calon rhwng pethau'r nef â phethau y ddaear, rhwng caru Duw â charu y byd. * Wrth wasanaethu yma, y meddylir, hollawl ymroddiad calon i wasanaethu. † Mammon sydd air Syriaidd, yn arwyddo golud. Tybir bod gan y paganiaid gynt eilun dan yr enw mammon, duw yr arian; am hyny geilw yr apostol y cybydd yn eilun-addolwr.

25 Am hynny [i] meddaf i chwi, [k] * Na ofelwch am eich bywyd, pa beth a fwyttâoch, neu pa beth a yfoch; neu am eich corph, pa beth a wisgoch. [l] † Onid yw y bywyd yn fwy na'r bwyd, a'r corph *yn fwy* nâ'r dillad?

i pen. 5. 22, 28. Luc 12. 4, 5, 8, 9, 22. k adn. 31, 34. pen. 10. 19. a 13. 22. Salm 55. 22. Marc 4. 19. a 13. 11. Luc 8. 14. a 10. 40, 41. a 12. 22, 25, 26, 29. 1 Cor. 7. 32. Phil. 4. 6. 2 Tim. 2. 4. Heb. 13. 5, 6. 1 Pedr 5. 7. l Luc 12. 23. Rhuf. 8. 32.

* Ni waherddir diwydrwydd i ni yma yn ein gwahanol alwedigaethau, mae hyny yn ddyledswydd ar bawb; ond gwaherddir i ni ragofalu yn ormodol, rhwygo a dryllio y galon, fel yr arwydda y gair: rhagofalu yn gybyddlyd, a rhagofalu heb ymddiried dim i ragluniaeth a gofal Duw. † Duw a roddodd i ni ein corph, a'n bywyd, y ddau beth mwyaf; ac oni ddarpar ef ymborth a dillad, y pethau lleiaf?

26 * Edrychwch [m] ar adar y nefoedd: o

blegid nid ydynt yn hau, nac yn medi, nac yn cywain i ysguboriau; ac [n] y mae eich Tad nefol yn eu porthi hwy. † Onid ydych chwi yn rhagori llawer arnynt hwy?

m pen. 10. 29—31. Gen. 1. 29—31. Job 35. 11. a 38. 41. Salm 104. 11, 12, 27, 28. a 145. 15, 16. a 147. 9. Luc 12. 6, 7, 24. n adn. 32. pen. 7. 9—11. Luc 12. 32.

Ac yn mhellach, mae Duw yn gofalu am ei holl grëaduriaid. * Edrychwch ar adar y nefoedd; nid yr adar dôf o amgylch ein tai, ond adar y nefoedd, yr adar gwylltion, y rhai nid ydynt yn llafurio dim at eu cynnaliaeth, ac nis gallant; mae Duw yn eu porthi hwy, † a pha faint mwy chwi, ei blant? a anghofia y Tad nefol ei blant!

27 * A phwy o honoch [o] gan ofalu, a ddichon chwanegu un cufydd at ei faintioli?

o pen. 5. 36. Salm 39. 6. Preg. 3. 14. Luc 12. 25, 26. 1 Cor. 12. 18.

* Ac hefyd, pa les yw eich holl ragofalon heb fendith Duw? nis gellwch chwanegu at eich maintioli, nac estyn dyddiau eich einioes; ac mwy na hyny, nis gellwch chwanegu at eich cyfoeth na'ch dedwyddwch ond fel y gwelo Duw yn dda.

28 A [p] phaham yr ydych chwi yn gofalu am ddillad? * Ystyriwch [q] lili y maes, pa fodd y maent yn tyfu: nid ydynt nac yn llafurio nac yn nyddu;

p adn. 25, 31. pen. 10. 10. Luc 3. 11. a 22. 35, 36. q Luc 12. 27.

29 Eithr yr wyf yn dywedyd i chwi, [r] na wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r rhai hyn.

r 1 Bren. 10. 5—7. 2 Cron. 9. 4—6, 20—22. 1 Tim. 2. 9, 10. 1 Pedr 3. 2—5.

30 Am hynny os [s] dillada Duw felly lysieuyn y maes, yr hwn sydd heddyw, ac y fory a fwrir i'r † ffwrn, oni *ddillada efe* chwi yn hytrach o lawer, [t] O chwi o ychydig ffydd?

s Salm 90. 5, 6. a 92. 7. Es. 40. 6—8. Luc 12. 28. Iago 1. 10, 11. 1 Pedr 1. 24. t pen. 8. 26. a 14. 31. a 16. 8. a 17. 17. Marc 4. 40. a 9. 19. Luc 9. 41. Ioan 20. 27. Heb. 3. 12.

O'r blaen, soniai yr Arglwydd Iesu am ofal Duw dros grëaduriaid direswm, a bywyd ynddynt; yma mae yn sôn am grëaduriaid difywyd, ac yn dangos gofal Duw am danynt, er cywilyddio dynion o herwydd eu rhagofal, a'u hanymddiried yn yr Arglwydd. * Gan y byddai breninoedd y dwyrain yn arfer ymwisgo mewn dillad gwŷnion, mae yn debygol mai y lili wèn a feddylir yma ac nid y *tulip*, blodeuyn o amryw liwiau. † *Ffwrn*, nid hawdd yw i ni ddëall beth yw bwrw blodau i ffwrn, gan hyny tybia *Doddridge* mai pair dystyll a feddylir, lle byddid yn dystyllu blodau a llysiau, i wneuthur gwirod o honynt. Pan dòrid llysiau y maes yn y gwledydd poethion hyny, hwy a sychent yn grás mewn ychydig oriau; a dywedir yr arferid eu casglu i boethi ffyrnau â hwynt: tybia rhai nad oedd y gelfyddyd o ddystyllu a grybwyllwyd uchod, yn adnabyddus i'r Iuddewon yn amser Crist.

31 * Am hynny na ofelwch, gan ddywedyd, [u] Beth a fwyttawn? neu, Beth a yfwn? neu, A pha beth yr ymddilladwn?

u pen. 4. 4. a 15. 33. Lef. 25. 20—22. 2 Cron. 25. 9. Salm 78. 18—31. Luc 12. 29.

32 (Canys [x] yr holl bethau hyn y mae y † Cenhedloedd yn eu ceisio) [y] oblegid ‡ gŵyr eich Tad nefol fod arnoch eisieu yr holl bethau hyn.

x pen. 5. 46, 47. a 20. 25, 26. Salm 17. 14. Luc 12. 30. Eph. 4. 17. 1 Thes. 4. 5. y adn. 8. Salm 103. 13. Luc 11. 11—13. a 12. 30.

* Ail grybwylliad sydd yma o'r hyn a ddywedwyd yn adnod 25, yn erbyn rhagofalon; † yn un peth, o herwydd mai y rhai sydd heb ystyried fod eneidiau ganddynt, ac heb wybod dim am ragluniaeth Duw, sydd yn rhagofalu felly. ‡ Peth arall, mae gan dduwiolion *Dad nefol* i ofalu am danynt, yr hwn fel Duw a ŵyr eu hangen, ac fel Tad a ddiwalla eu hangen.

33 Eithr [z] yn gyntaf ceisiwch [a] * deyrnas Dduw, † a'i [b] gyfiawnder ef, [c] ‡ a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg.

z 1 Bren. 3. 11—13. a 17. 13. 2 Cron. 1. 7—12. a 31. 20, 21. Diar. 2. 1—9. a 3. 9, 10. Hag. 1. 2—11. a 2. 16—19. Luc 12. 31. Ioan 6. 27. a pen. 3. 2. a 4. 17. a 13. 44—46. Act. 20. 25. a 28. 31. Rhuf. 14. 17. Col. 1. 13, 14. 2 Thes. 1. 5. 2 Pedr 1. 11. b pen. 5. 6. Es. 45. 24. Jer. 23. 6. Luc 1. 6. Rhuf. 1. 17. a 3. 21, 22. a 10. 3. 1 Cor. 1. 30. 2 Cor. 5. 21. Phil. 3. 9. 2 Pedr 1. 1. c pen. 19. 29. Salm 34. 9, 10. a 37. 3, 18, 19, 25. a 84. 11, 12. Marc 10. 30. Luc 18. 29, 30. Rhuf. 8. 31, 32. 1 Cor. 3. 22. 1 Tim. 4. 8.

* Wrth deyrnas Dduw mae i ni ddeall, teyrnas y Messiah, sef goruchwyliaeth yr efengyl a'i llwyddiant yn y byd. † Wrth ei gyfiawnder ef, dëallwn, y cyfiawnder hwnw sydd yn ein cyfiawnâu, y gras sydd yn ein sancteiddio, a'r gweithredoedd da yn y rhai y dylem rodio. Dylem geisio y pethau uchod o flaen pob peth, ac yn benaf o bob peth. ‡ A holl bethau angenrheidiol y byd hwn a roddir i ni yn chwaneg. Yn chwaneg am nad ydynt yn perthyn o angenrheidrwydd i'r cyfammod gras, ond yn deilliaw o ddaioni Duw, fel y gwelo ef yn dda eu rhoi neu eu hattal.

34 [d] * Na ofelwch gan hyny dros drannoeth: [e] † canys trannoeth a ofala am ei bethau ei hun. [f] ‡ Digon i'r diwrnod ei ddrwg ei hun.

d adn. 11, 25. Ex. 16. 18—20. Galar. 3. 23. e Deut. 33. 25. 1 Bren. 17. 4—6, 14—16. 2 Bren. 7. 1, 2. Luc. 11. 3. f Ioan 14. 27. a 16. 33. Act. 14. 22. 1 Thes. 3. 3, 4.

* Na ofelwch dros y *fory*, pa faint llai dros ryw hir amser i ddyfod. † Y Duw a ofalodd am danoch hyd yn hyn, a ofala am danoch y fory pan ddelo y fory. ‡ Mae gofidiau pob dydd yn ei ddydd yn ddigon i chwi, heb eich llwytho eich hunain â gofidiau dychymygol cyn y delont.

PEN. VII.

Crist yn gorphen ei bregeth ar y mynydd.

[a] * NA fernwch, fel na'ch barner.

a Es. 66. 5. Ezec. 18. 52—56. Luc 6. 37. Rhuf. 2. 1, 2. a 14. 3, 4, 10—13. 1 Cor. 4. 3—5. Iago 3. 1. a 4. 11, 12.

2 † Canys [b] â pha farn y barnoch, y'ch bernir; ac â pha fesur y mesuroch, yr adfesurir i chwithau.

b Barn. 1. 7. Salm 18. 25, 26. a 137. 7, 8. Jer. 51. 24. Obad. 15. Marc 4. 24. Luc 6. 38. 2 Cor. 9. 6. 2 Thes. 1. 6, 7. Iago 2. 13. Dat. 18. 6.

* Nid yw yr Arglwydd Iesu yma yn gwahardd pob barn i'r rhai y perthyn iddynt farnu; ond mae yn gwahardd i ni ddrwg-dybied yn ddisail am ein gilydd, a rhoi barn fyrbwyll, galed, ac anghyfiawn ar ein gilydd: yn enwedig ar gyflyrau ein gilydd. † Pwy bynag sydd yn dueddol i farnu yn gul am eraill, mae yn arwydd go amlwg mai dyn di ras yw ef ei hun; ac yn ol fel y mae ef yn barnu ac yn mesur eraill, y bernir ac y mesurir yntau, gan ddynion yma, a chan Dduw yn nydd y farn.

3 A [c] phaham yr wyt yn edrych ar y * brycheuyn sydd yn llygad dy frawd, [d] ac nad ydwyt yn ystyried y trawst sydd yn dy lygad dy hun?

c Luc 6. 41, 42. a 18. 11. d 2 Sam. 12. 5, 6. 2 Cron. 28. 9, 10. Salm 50. 16—21. Ioan 8. 7—9. Gal. 6. 1.

4 Neu pa fodd y dywedi wrth dy frawd, Gâd i mi fwrw allan y brycheuyn o'th lygad; ac wele, drawst yn dy lygad dy hun?

5 [e] O ragrithiwr, [f] bwrw allan yn gyntaf y trawst o'th lygad dy hun; ac yna y gweli yn eglur fwrw y brycheuyn allan o lygad dy frawd.

e pen. 22. 18. a 23. 14, &c. Luc 12. 56. a 13. 15. f Salm 51. 9—13. Luc 4. 23. a 6. 42. Act. 19. 15.

* Am y brycheuyn a'r trawst yn y llygaid yma, tybir

mai ymadrodd diarebol yn mhlith yr Iuddewon ydoedd, n arwyddo beïau bychain rhai, a beïau mawrion eraill. rawst mewn llygad sydd ymadrodd dieithr ynddo ei un, ond addas iawn i osod allan fawredd, amlygrwydd, c anferthwch beïau dynion. Gallwn ddysgu yn yr ndnodau hyn, 1. Fod y rhai mwyaf tueddol i feio eraill, n fwy beïus eu hunain mewn rhyw bethau. 2. Mai hagrith hollol yw craffu ar feïau bychain eraill, a bod heb weled beïau mwy ynom ein hunain. 3. Mai dywylydd-dra eithaf yw beio a barnu ar eraill am bechodau, a ni ein hunain yn byw yn yr un pechodau, neu ai eraill mwy. 4. Nad oes dim gwell ffordd i'n dysgu i i fod yn dirion wrth eraill, nag edrych i'n ealonau n ffyrdd ein hunain.—Peth chwithig yw i ddyn geisio rynu brycheuyn o lygad arall, ac efe bron yn ddall ei un; a mwy chwithig yw i ddyn gymmeryd arno gerddu bai bychan mewn arall, ac efe ei hun yn euog o ll llawer mwy.

6 ¶ Na roddwch [s] y peth *sydd* sanctaidd i'r ‡ cwn, ac [h] na theflwch eich gemmau o flaen y † moch; rhag iddynt eu sathru dan eu traed, a throi a'ch rhwygo chwi.

g pen. 10. 14, 15. a 15. 26. Diar. 9. 7, 8. a 23. 9. a 26. 11. Act. 3. 45—47. Phil. 3. 2. Heb. 6. 6. a 10. 29. 2 Pedr 2. 22. h Diar. 1. 22. i pen. 22. 5, 6. a 24. 10. 2 Cor. 11. 26. 2 Tim. 4. 14, 15.

* Y cŵn yw gelynion creulawn ac erlidgar yr efengyl, arod i gnoi a rhwygo. Ni roddai yr offeiriaid ddim i'r aberthau i'r cŵn, hyd yn nod y rhanau nad aberthid honynt: cyfeiriad at hyny sydd yma tybir, ond dynion dueddiadau cyffelyb i gŵn a moch a feddylir, fel y ylwyd uchod. † Y moch yw pechaduriaid aflan a halogedig, y rhai a sathrant bethau sanctaidd a gwerthlawr Duw, i ymlenwi ar bechodau ffiaidd. Y pethau anctaidd a'r gemau a waherddir iddynt yw, pethau rofiadol crefydd, breintiau eglwysig, gwaith y weinidogaeth, ac hyd yn nod pregethiad yr efengyl i bechadriaid cyndyn a chableddus.

7 ¶ * Gofynwch, a [k] rhoddir i chwi; [l] ceiswch, a chwi a gewch; [m] curwch, ac fe agorir i chwi.

k adn. 11. pen. 21. 22. l Bren. 3. 5. Salm 10. 17. a 50. 15. a 86. 5. a 145. 18, 19. Es. 55. 6, 7. Jer. 29. 12, 13. a 33. 3. Marc 11. 24. Luc 11. 9, 10, 13. a 18. 1. Ioan 4. 10. a 14. 13. a 15. 16. a 16. 23, 24. Iago 1. 5, 6. a 5. 15. 1 Ioan 3. 22. a 5. 14, 15. Dat. 3. 17, 18. m pen. 6. 33. Salm 10. 4. a 27. 8. a 69. 32. a 70. 4. a 105. 3, 4. a 119. . Diar. 8. 17. Can. 3. 2. Amos 5. 4. Rhuf. 2. 7. a 3. 11. Heb. 11. . m Luc 13. 25.

8 † Canys [n] pob un sydd yn gofyn, sydd yn derbyn; a'r neb sydd yn ceisio, sydd yn cael; ac i'r hwn sydd yn curo, yr agorir.

n pen. 15. 22—28. 2 Cron. 33. 1, 2, 19. Jona 2. 2. a 3. 8—10. Luc 23. 42, 43. Act. 9. 11.

* Y peth a orchymynir yma yw gweddi, yn y tri gair, gofyn, ceisio, a churo; i arwyddo ffydd, parâd, a thaerineb. Y peth a addewir yw, gwrandawiad ac atebiad, yn y tri gair, rhoddi, cael, ac agor. Mae yr addewid o *cael*, yn arwyddo gwrandawiad, a'r addewid o *roddi*, yn dangos nad oes dim teilyngdod ynom ni na'n gweddiau: ac eto, pwy bynag a ddêl at borth trugaredd yn enw Cyfryngwr, efe a gaiff pa bethau bynag a addawodd Duw.

9 * Neu [o] a oes un dyn o honoch, yr hwn os gofyn ei fab iddo fara, a rydd iddo garreg?

o Luc 11. 11—13.

10 Ac os gofyn efe bysgodyn, a ddyry efe sarph iddo?

11 † Os chwychwi gan hynny, [p] a chwi yn iddrwg, a fedrwch roddi rhoddion da i'ch plant, [q] pa faint mwy y rhydd eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd [r] bethau da i'r rhai a ofynant iddo?

p Gen. 6. 5. a 8. 21. Job 15. 16. Jer. 17. 9. Rhuf. 3. 9—19. Gal. 3. 22. Eph. 2. 1—3. Tit. 3. 3. q Ex. 34. 6, 7. 2 Sam. 7. 19. Salm 86. 5, 15. a 103. 11—13. Es. 49. 15. a 55. 8, 9. Hos. 11. 8, 9. Mica 7. 18. Mal. 1. 6. Ioan 3. 16. Rhuf. 5. 8—10. a 8. 32. Eph. 2. 4, 5. 1 Ioan 3. 1. a 4. 10. r Salm 84. 11. a 85. 12. Jer. 33. 14. Hos. 14. 2. Luc 2. 10, 11. a 11. 13. 2 Cor. 9. 8—15. Tit. 3. 4—7.

* I ddangos yn mhellach barodrwydd Duw i wrando gweddïau, mae yr Arglwydd Iesu yma yn apelio at deimladau ac ymddygiadau ei wrandawyr tuag at eu plant eu hunain: er eu bod hwy yn ddrwg ac yn galed, eto, pan fyddai eu plant yn gofyn bara ganddynt, ni roddent gàreg iddynt i'w newynu yn lle bara; a phan ofynent am bysgodyn, ni roddent ysgorpion iddynt i'w gwenwyno yn lle pysgodyn. Enwir y ddau hyn, am mai bara a physgod oedd ymborth cyffredin y bobl ar hyn glànau môr Galilea, lle yr oedd Crist yn awr yn pregethu efallai. Tybia un gwr mai y llysŵen a feddylir wrth y pysgodyn yma, am fod y sarph a hithau yn gyffelyb! ond tybiwn mai allan oedd y llysŵen, heb esgyll a chèn hefyd iddi, ac na fwytêid hi gan yr Iuddewon. † Gan hyny, os yw tadau naturiol mòr dyner tuag at eu plant, pa faint mwy y Tad nefol i'r rhai a ofynant ganddo. Ni attal efe ddim daioni oddiwrthynt.

12 * Am hynny [s] pa bethau bynnag oll a ewyllysioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy: [t] † canys hyn yw y gyfraith a'r prophwydi.

s Luc 6. 31. t pen. 22. 39, 40. Lef. 19. 18. Es. 1. 17, 18. Jer. 7. 5, 6. Ezec 18. 7, 8, 21. Amos 5. 14, 15. Mica 6. 8. Zec. 7. 7—10. a 8. 16, 17. Mal. 3. 5. Marc 12. 29—44. Rhuf. 13. 8—10. Gal. 5. 13, 14. 1 Tim. 1. 5. Iago 2. 10—13.

* Caru ac addoli Duw, yw swm a sylwedd gorchymynion y llech gyntaf; a charu ein cymmydog fel ni ein hunain, yw swm a sylwedd gorchymynion yr ail lech: neu yn iaith yr adnod uchod, gwneuthur i arall yn hollawl fel y dymunem iddo ef wneuthur i ni, pe byddem yn ei sefyllfa ef, ac yntau yn yr eiddom ni. † Dyma ddeddf Duw, a dyma ddeddf natur hefyd; ond nid hyn yw y cwbl o grefydd.

13 ¶ Ewch i mewn [u] trwy y porth cyfyng: [x] * canys ehang *yw* y porth, a † llydan *yw* y ffordd [y] sydd yn arwain i ddistryw; a llawer yw y rhai sydd yn myned i mewn trwyddi:

u pen. 3. 2, 8. a 18. 2, 3. a 23. 13. Diar. 9. 6. Es. 55. 7. Ezec. 18. 27—32, Luc 9. 23. a 13, 24, 25. a 14. 33. Ioan 10. 9. a 14. 6. Act. 2. 38—40. a 3. 19. 2 Cor. 6. 17. Gal. 5. 24. x Gen. 6. 5, 12. Salm 14. 2, 3. Es. 1. 9. Rhuf. 3. 9—19. 2 Cor. 4. 4. Eph. 2. 2, 3. 1 Ioan 5. 19. Dat. 12. 9. a 13. 8. a 20. 3. y pen. 25. 41, 46. Diar. 7. 27. a 16. 25. Rhuf. 9. 22. Phil. 3. 19. 2 Thes. 1. 8, 9. 1 Pedr 4. 17, 18. Dat. 20. 15.

14 ‡ Oblegid cyfyng *yw* y porth, [z] a ‖ chul *yw* y ffordd, sydd yn arwain i'r bywyd; * ac ychydig yw y rhai sydd yn ei chael hi.

z pen. 16. 24, 25. Diar. 6. 26, 27. a 8. 20. Es. 30. 21. a 35. 8. a 57. 14. Jer. 6. 16. Marc 8. 34. Ioan 15. 18—20. a 16. 2, 33. Act. 14. 22. 1 Thes. 3. 2—5. a pen. 20. 16. a 22. 14. Luc 12. 32. a 13. 23—30. Rhuf. 9. 27—29, 32. a 11. 5, 6. a 12. 2. Eph. 2. 2, 3. 1 Pedr 3. 20, 21.

Dau ddiwedd sydd i blant dynion, dinystr tragywyddol, a bywyd tragywyddol. * Wrth y porth ehang deallir ein genedigaeth i'r byd; daeth holl deulu Adda a'u holl lygredigaethau gyda hwynt, i mewn trwyddo. † Y ffordd lydan yw bywyd annuwiol yn y byd. ‡ Y porth cyfyng yw porth yr adenedigaeth, edifeirwch a hunan-ymwadiad. ‖ Y ffordd gul (neu drallodus yn y Groeg) yw bywyd neu yrfa y duwiol yn y byd hwn. Cul i gnawd a llygredd yw, a thrallodus gan rwystrau a blinderau; ond ffordd sydd yn arwain i'r bywyd yw, i'r ychydig sydd yn ei chael hi.—Cyfeiriad, medd rhai, at borth cyfyng, a ffordd gul, a wnâid o flaen tâi i ddyfod atynt ar amser gwledd briodasol; fel y gollyngid y gwahoddedigion i mewn, ac y cedwid allan y rhai nâ byddent wahoddedig.

15 ¶ [b] * Ymogelwch rhag [c] gau-brophwydi, [d] y rhai a ddeuant attoch yn † ngwisgoedd defaid, ond oddi mewn [e] ‡ bleiddiaid rheibus ydynt hwy.

b pen. 10. 17. a 16. 6, 11. Marc 12. 38. Luc 12. 15. Act. 13. 40.

Phil. 3. 2. Col. 2. 8. 2 Pedr 3. 17. c pen. 24. 4, 5, 11, 24, 25. Deut. 13. 1—3. Es. 9. 15, 16. Jer. 14. 14—16. a 28. 15—17. a 29. 21, 32. Ezec. 13. 16, 22. Mica 3. 5—7, 11. Marc 13. 22, 23. 2 Pedr 2. 1—3. 1 Ioan 4. 1. Dat. 19. 20. d Zec. 13. 4. Marc 12. 38—40. Rhuf. 16. 17, 18. 2 Cor. 11. 13—15. Gal. 2. 4. Eph. 4. 14. a 5. 6. Col. 2. 8. 1 Tim. 4. 1—3. 2 Tim. 3. 5—9, 13. a 4. 3. 2 Pedr 2. 18, 19. Judas 4. Dat. 13. 11—17. e Es. 56. 10, 11. Ezec. 22. 25. Mica 3. 5. Zeph. 3. 3, 4. Act. 20. 29—31. Dat. 17. 6.

* Gau-brophwydi oedd y mwyaf niweidiol i achos crefydd ac eneidiau dynion o bawb, dan yr hen oruchwyliaeth; a gau-athrawon sy felly dan yr efengyl. † Deuant atoch mewn rhith-sanceiddrwydd a rhithgostyngeiddrwydd, yn addfwyn a diniwed iawn; ‡ ond o'u mewn bleiddiaid ydynt, ac ysglyfaethu yw eu bwriad.

16 [f] * Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt. [g] † A gasgl rhai rawnwin oddi ar ddrain, neu ffigys oddi ar ysgall?

f adn. 20. 2 Pedr 2. 10—18. Judas 10—19. g Luc 6. 43—45. Iago 3. 12.

17 ‡ Felly [h] pob pren da sydd yn dwyn ffrwythau da; [i] ond y pren drwg sydd yn dwyn ffrwythau drwg.

h Salm 1. 3. a 92. 13, 14. Es. 5. 3—5. a 61. 3. Jer. 17. 8. Luc 13. 6—9. Gal. 5. 22—24. Eph. 5. 9. Phil. 1. 11. Col. 1. 10. Iago 3. 17, 18. i pen. 12. 33—35. Judas 12.

18 [k] Ni ddichon pren da ddwyn ffrwythau drwg, na phren drwg ddwyn ffrwythau da.

k Gal. 5. 17. 1 Ioan 3. 9, 10.

19 ‖ Pob pren [l] heb ddwyn ffrwyth da, a dorrir i lawr, ac a deflir yn tân.

l pen. 3. 10. a 21. 19, 20. Es. 5. 5—7. a 27. 11. Ezec. 15. 2—7. Luc 3. 9. a 13. 6—9. Ioan 15. 2—6. Heb. 6. 8. Judas 12.

20 § O herwydd paham, [m] wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt.

m adn. 16. Act. 5. 38.

* Er ymrithio o'r gau-athrawon hyn *fel* gweinidogion cyfiawnder, eto nid anhawdd fydd eu hadnabod: wrth eu ffrwythau; nid wrth eu hymadroddion teg a gweniethus, yr adnabyddir hwynt. † Fel nas dichon drain ddwyn grawnwin, nac ysgall ddwyn ffigys, felly nis gall y rhai hyn ddwyn ffrwythau da: mae eu hegwyddorion yn ddrwg, am hyny mae eu hysbryd a'u gweithredoedd yn gyfatebol. Maent yn hunanol, yn drahaus, yn chwanog i fudr-elw, yn ddadleugar, yn ddrwg-anwydus, ac yn anfaddeugar a dialgar. ‡ Beth bynag fyddo'r pren, felly bydd ei ffrwyth; a pha beth bynag a fyddo calon ac egwyddorion dynion, felly bydd eu gweithredoedd. ‖ Ac yn ol eu gweithredoedd y barna Duw ddynion; bleiddiaid, drain, ac ysgall y barna efe y gau-brophwydi uchod, ac i'r tân tragywyddol y teflir hwynt. § Ceisiwn eu hadnabod, rhag eu canlyn yno.

21 ¶ * Nid pob un a'r sydd [n] yn dywedyd wrthyf, Arglwydd, Arglwydd, [o] a ddaw i mewn i † deyrnas nefoedd; ond yr hwn [p] sydd yn gwneuthur ‡ ewyllys fy [q] Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.

n pen. 25. 11, 12. Hos. 8. 2, 3. Luc 6. 46. a 13. 25. Act. 19. 13, &c. Tit. 1. 16. Iago 2. 20—26. o pen. 18. 3. a 19. 24. a 21. 31. a 25. 21. Marc 9. 47. a 10. 23, 24. Luc 18. 25. Ioan 3. 5. Act 14. 22. Heb 4. 6. p pen. 12. 50. a 21. 29—31. Marc 3. 35. Luc 11. 28. Ioan 6. 40. a 7. 17. Rhuf. 12. 2. Eph. 6. 6. Col. 4. 12. 1 Thes. 4. 3. a 5. 18. Heb. 13. 21. 1 Pedr 2. 15. a 4. 2. 1 Ioan 3. 21—24. Dat. 22. 14. q pen. 10. 32, 33. a 16. 17. a 18. 10, 19, 35. a 26. 39, 42. Ioan 5. 17. a 10. 29, 30. a 14. 7. a 15. 23. Dat. 2. 27. a 3. 5.

* Gall y gau-athrawon uchod, a'u canlynwyr hefyd, ddywedyd Arglwydd, Arglwydd, hyny yw, gwneuthur proffes gyhoeddus o Grist, a rhith weddio arno; ond nid ânt i mewn i deyrnas nefoedd, am mai rhagrithiol ydynt. † Teyrnas y gogoniant fry a feddylir yma wrth deyrnas nefoedd. ‡ Ewyllys fy Nhad; edifarâu am bechod, ei gasâu a'i adael, credu yn Nghrist, ac ymostwng iddo a'i garu, rhodio yn ei ffyrdd, a charu ein gilydd. Gwir grefydd yw ufudd-dod i holl ewyllys Duw.

22 Llawer a ddywedant [r] wrthyf yn y * dydd hwnnw, Arglwydd, Arglwydd, [s] oni † phrophwydasom yn dy enw di? ac oni ‡ fwriasom allan gythreuliaid yn dy enw di? ac oni wnaethom wyrthiau lawer yn dy enw di?

r adn. 21. pen. 24. 36. Es. 2. 11, 17. Mal. 3. 17, 18. Luc 10. 12. 1 Thes. 5. 4. 2 Thes. 1. 10. 2 Tim. 1. 12, 18. a 4. 8. s pen. 10. 5—8. Num. 24. 4. a 31. 8. Luc 13. 26. Ioan 11. 51. 1 Cor. 13. 1, 2. Heb. 6. 4—6.

23 Ac yna yr addefaf wrthynt, [t] ‖ Nis adnabum chwi erioed: [u] ewch ymaith oddi wrthyf, chwi weithredwyr anwiredd.

t pen. 25. 12. Ioan 10. 14, 27—30. 2 Tim. 2. 19. u pen. 25. 41. Salm 5. 5. a 6. 8. Luc 13. 27.

* Y dydd hwnw yw dydd mawr y farn gyffredinol, ac yma mae Iesu yn dangos mai efe fydd y Barnwr yn y dydd hwnw, er gwaeled yr olwg arno pan oedd yn llefaru. † Prophwydodd Balaam a Saul dan yr Hen Destament; ‡ bu Judas a llawer gydag ef yn bwrw allan gythreuliaid, ac yn gwneyd gwyrthiau dan y Testament Newydd; ‖ ond nis adnabu Crist mo honynt *erioed*, pan oeddynt fwyaf blodeuog a gwresog yn eu crefydd: hyny yw, nis adnabu mo honynt ond fel rhagrithwyr a gweithredwyr anwiredd.

24 ¶ * Gan hynny [x] pwy bynnag sydd yn gwrando fy ngeiriau hyn, ac yn eu gwneuthur, mi a'i cyffelybaf ef i [y] † wr doeth, [z] yr hwn a adeiladodd ‡ ei dŷ ar y ‖ graig:

x adn. 7, 8, 13, 14. pen. 5. 3, &c., 28—32. a 6. 14, 12, 19, &c. a 12. 50. Luc 6. 47—49. a 11. 28. Ioan 13. 17. a 14. 15, 22—24. a 15. 10, 14. Rhuf. 2. 6—9. Gal. 5. 6, 7. a 6. 7, 8. Iago 1. 21—27. a 2. 17—26. 1 Ioan 2. 3. a 3. 22—24. a 5. 3—5. Dat. 22. 14, 15. y Job 28. 28. Salm 111. 10. Diar. 10. 8. a 14. 8. Iago 3. 13—18. z 1 Cor. 3. 10, 11.

25 § A'r [a] gwlaw a ddisgynodd, a'r llifeiriant a ddaethant, a'r gwyntoedd a chwythasant, ac a ruthrasant ar y tŷ hwnnw; ac ni syrthiodd: [b] oblegid sylfaenesid ef ar y graig.

a Ex. 13. 11, &c. Mal. 3. 3. Act. 14. 22. 1 Cor. 3. 13—15. Iago 1. 12. 1 Pedr 1. 7. b pen. 16. 18. Salm 125. 1, 2. Eph. 3. 17. Col. 2. 7. 1 Pedr 1. 5. 1 Ioan 2. 19.

* Dyma gymmwysiad, a diwedd-glo y bregeth ragorol hon. † Yr adeiladydd doeth yw yr hwn sydd yn gwrando y gair yn ddëallgar ac yn grediniol, ac yn ymdrechu yn ddiragrith i wneuthur yn ol y gair. ‡ Ei dŷ, mae'n debyg, yw gobaith am iachawdwriaeth a bywyd tragywyddol. ‖ Y graig, sylfaen ei dŷ, yw Crist, yn ei iawn, ei gyfiawnder, ei eiriolaeth a'i ras. § Y gwlaw, y llifeiriant, a'r gwyntoedd, yw y profedigaethau, erledigaethau, a phob trallodau mae yn gyfarfod yn y byd, ac a gyferfydd yn angau. E saif tŷ hwn am ei fod ar y Graig, a hòno yn Graig dragywyddol.

26 A phob un a'r sydd yn gwrando fy ngeiriau hyn, [c] ac heb eu gwneuthur, a gyffelybir i * wr ffol, yr hwn a adeiladodd ei dŷ ar y † tywod:

c Diar. 14. 1. Luc 6. 49. Iago 2. 20.

27 ‡ A'r [d] gwlaw a ddisgynodd, a'r llifddyfroedd a ddaethant, a'r gwyntoedd a chwythasant, ac a gurasant ar y tŷ hwnw; ac efe a syrthiodd, a'i gwympa a fu fawr.

d pen. 12. 43—45. a 13. 19—22. Ezec. 13. 10—16. Heb. 10. 26—31. 2 Pedr 2. 20—22.

* Yr adeiladydd ffol yw y proffeswr camsyniol a thwylledig: mae ganddo yntau dŷ, sef gobaith fel y llall; ond nid yw wedi ei seilio ar y graig, eithr ar y † tywod; mae yn gwrando yr efengyl, yn cydsynio â'i gwirion eddau, yn dysgu siarad a dadleu am danynt, yn cymdeithasu â duwiolion, ac yn cyfranogi o'u breintiau, ac, efallai, yn perchen doniau; ond y mae ei wybodaeth yn ei chwyddo, ei ffydd yn farw, ac nid yw yn ufudd i'r gwirionedd. ‡ Mae hwn yn ymyl y graig, eto ar y tywod y mae, a'r pethau uchod yw sail ei dŷ; a phan ddelo y drychinoedd uchod i guro arno, efe a syrth:

eil hyd angau a'r farn, mae yn sicr o syrthio yno, otnadwy fydd y cwymp!

28 A bu, wedi i'r Iesu orphen y geiriau hyn, [e] * y torfeydd a synnasant wrth ei ddysgeidiaeth ef.

e pen. 13. 54. Salm 45. 2. Marc 1. 22. a 6. 2. Luc 4. 22. a 19. 48. Ioan 7. 15, 46.

29 † Canys yr oedd efe yn eu dysgu hwynt fel *un* [f] ag awdurdod ganddo, [g] ‡ ac nid fel yr ysgrifenyddion.

f pen. 5. 20, 28, 32, 44. a 21. 23—27. a 28. 18. Deut. 18. 18, 19. Heg. 8. 4. Es. 50. 4. Jer. 23. 28, 29. Mica 3. 8. Luc 21. 15. Act. 3. 22. 23. a 6. 10. Heb. 4. 12, 13. g pen. 15. 1—9. a 23. 2—6, 15—23. Marc 7. 5—13. Luc 20. 8, 46, 47.

* Synodd y torfêydd wrth ddoethineb, pwys, ac ffeithiau grymus athrawiaeth Iesu. † Yr oedd rhyw ofwredd ac awdurdod yn cyd-fyned â'i eiriau ef, ag oedd peri iddynt eu teimlo a'u cymmeradwyo. ‡ Nid felly y ysgrifenyddion, eu dysgawdwyr cyffredinol hwy; nid iddd gan y rhai hyny ddim ond traddodiadau, defodau, seremoniau oerion, diflas, a diles er iachawdwriaeth . heneidiau; fel y gwelir eto yn eu llyfrau, y Talmud Mishnah.

PEN. VIII.

Crist yn glanâu'r gwahan-glwyfus, 28 yn bwrw allan gythreuliaid.

AC wedi ei [a] ddyfod ef i waered o'r mynydd, [b] torfeydd lawer a'i canlynasant ef.

a pen. 5. 1. b adn. 18. pen. 4. 25. a 12. 15. a 15. 30. a 19. 2. a 20. 29. Marc 3. 7. Luc 5. 15. a 14. 25—27.

2 Ac [c] wele, *un* [d] * gwahan-glwyfus a ddaeth a'i [e] haddolodd ef, gan ddywedyd, Arglwydd, os mynni, ti a elli fy nglanhâu i.

c Marc 1. 40, &c. Luc 5. 12, &c. d pen. 10. 8. a 26. 6. Lef. 13. 44—46. Num. 5. 2, 3. a 12. 10. Deut. 24. 8, 9. 2 Sam. 3. 39. 2 Bren. 5. 1, 27. a 7. 3, 4. a 15. 5. 2 Cron. 26. 19—21. Luc 4. 27. a 17. 12—19. e pen. 2. 11. a 4. 9. a 14. 33. a 15. 25. a 18. 26. a 20. 9, 17. Marc 1. 40. a 5. 6, 7. Luc 5. 12. Ioan 9. 38. 1 Cor. 14. 25. Heb. 12. 19 10. a 22. 8, 9. f pen. 9. 28, 29. a 13. 58. Marc 9. 22—24.

* Darllenwn lawer am y gwahan-glwyf yn llyfrau Moses. Cramen wèn yn y cnawd ydoedd, yr hon a lusai y corph yn raddol, ac yr oedd yn heintus. Yr oedd y gwahan-glwyfus, a phob peth y cyfhyrddai âg ef, yn halan dan y ddeddf; am hyny caüid ef allan o'r gwersyll ac o gymdeithas dynion. Barnai yr Iuddewon mai nuw oedd yn rhoddi y gwahan-glwyf ar ddynion yn lliligyfrwng, ac nid oedd yr un feddyginiaeth naturiol ii iachâai. Rhoddodd Duw ef yn gospedigaethol ar Miriam, Gehazi, ac Uzziah. Yr oedd yn arwyddlangosiad o euogrwydd, halogrwydd, a llywodraeth rechod, fel y mae yn caëad dynion allan o gymundeb â nuw ac o'r nefoedd.

3 A'r Iesu a [g] estynodd *ei* law, * ac a yffyrddodd âg ef, gan ddywedyd, [h] Mynnaf, Glanhâer di. [i] † Ac yn y fan ei wahan-glwyf ff a lanhâwyd.

g 2 Bren. 5. 11. h Gen. 1. 3. Salm 33. 9. Marc 1. 41. a 4. 39. a 5. 41. a 7. 34. a 9. 25. Luc 5. 13. a 7. 14. Ioan 5. 21. a 11. 43. 1 15. 24. i pen. 11. 4, 5. 2 Bren 5. 14. Luc 17. 14, 15.

* Yr oedd cyfhwrdd â'r gwahan-glwyfus yn halogi raill; ond tybir nad oedd yr offeiriaid yn aflan er yfhwrdd: mae yn sicr nad oedd yn aflanâu Crist, † ond m cilio ymaith ar ei air a'i gyfhyrddiad ef, a'r dyn yn nyned yn lân yn y fân. Wrth fod Iesu yn cyfhwrdd r gwahan-glwyfus, mae yn dangos nad yw yn casâu yr n pechadur a ddêl ato pa mòr aflan bynag y byddo. Nid yr un glanâd oedd hwn â hwnw a grybwyllir yn Marc 1. 40; Luc 5. 12: yr oedd y lleoedd yn wahanol, r Iesu yn myned i leoedd gwahanol, ac yn gwneyd ethau gwahanol, wedi glanâu hwn a glanâu hwnw; fel gellir gweled wrth gymharu yr hanes yma â'r hanes rn y mànau hyny.

4 A dywedodd yr Iesu wrtho, [k] * Gwel na ddywedych wrth neb; eithr dos, [l] † dangos dy hun i'r offeiriad, ac offrymma y rhodd a orchymynodd Moses, [m] er tystiolaeth iddynt.

k pen. 6. 1. a 9. 30. a 12. 16—19. a 16. 20. a 17. 9. Marc 1. 43, 44. a 7. 36. Luc 5. 14. Ioan 5. 41. a 7. 18. a 8. 50. l pen. 3. 15. a 5. 17. Lef. 13. 2, &c. a 14. 2, &c. Es. 42. 21. Luc 17. 14. m pen. 10. 8. 2 Bren. 5. 7, 8. Marc 1. 44. a 6. 11. a 13. 9. Luc 5. 14. a 21. 13. Ioan 10. 37, 38.

* Tybia rhai mai hyd oni ddangosai ei hun i'r offeiriad y gorchymynodd yr Iesu iddo dewi, rhag i'r offeiriad, o elyniaeth at Iesu, ei farnu yn aflan ac yntau yn lân. † Gorchymynodd iddo ddangos ei hun i'r offeiriad, ac offrwm dros ei lanâd, i ddangos ei barch i'r offeiriadaeth a'r gosodiadau seremoniol, y rhai oedd eto yn eu grym: ac hefyd fel y byddai hyny yn dystiolaeth gyhoeddus o wirionedd y wyrth.

5 ¶ Ac wedi [n] dyfod yr Iesu i mewn i Capernaum, daeth atto [o] * ganwriad, gan ddeisyfu arno,

n pen. 4. 13. a 9. 1. a 11. 23. Marc 2. 1. Luc 7. 1. o pen. 27. 54. Marc 15. 39. Luc 7. 2, &c. Act. 10. 1, &c. a 22. 25. a 23. 17, 23. a 27. 13, 31, 43.

6 A dywedyd, Arglwydd, [p] y mae fy ngwas yn gorwedd gartref yn glaf o'r [q] † parlys, ac mewn poen dirfawr.

p Job 31. 13, 14. Act. 10. 7. Col. 3. 11. a 4. 1. 1 Tim. 6. 2. Philemon 16. q pen. 4. 24. a 9. 2. Marc 2. 3, &c. Act. 8. 7. a 9. 33.

7 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, [r] Mi a ddeuaf ac a'i hiachâf ef.

r pen. 9. 18, 19. Marc 5. 23, 24. Luc 7. 5.

8 A'r canwriad a attebodd ac a ddywedodd, Arglwydd, [s] nid ydwyf fi ‡ deilwng i ddyfod o honot dan fy nghronglwyd: [t] eithr yn unig dywed y gair, a'm gwas a iachêir.

s pen. 3. 11, 14. a 15. 26, 27. Gen. 32. 10. Luc 5. 8. a 7. 6, 7. Ioan 1. 27. a 13. 6—8. t adn. 3. Num. 20. 8. Salm 33. 9. a 107. 20. Marc 1. 25—27. Luc 7. 7.

9 Canys dyn ydwyf finnau dan awdurdod, a chennyf filwyr danaf: a dywedaf wrth hwn, [u] Cerdda, ac efe a â; ac wrth arall, Tyred, ac efe a ddaw; ac wrth fy ngwas, [x] Gwna hyn, ac efe a'i gwna.

u Job 38. 34, 35. Salm 107. 25—29. a 119. 91. a 148. 8. Jer. 47. 6, 7. Ezec. 14. 17—21. Marc 4. 39—41. Luc 4. 35, 36, 39. a 7. 8. x Eph. 6. 5, 6. Col. 3. 22. Tit. 2. 9.

10 A'r Iesu pan glybu, a [y] ‖ ryfeddodd, ac a ddywedodd wrth y rhai oedd yn canlyn, Yn wir meddaf i chwi, [z] Ni chefais gymmaint ffydd, na ddo yn yr Israel.

y Marc 6. 6. Luc 7. 9. z pen. 15. 28. Luc 5. 20. a 7. 50.

* Canwriad oedd swyddog ar gant o filwyr yn y llengau Rhufeinig. Mae yn sicr mai Rhufeinwr oedd y canwriad hwn; pagan o ran ei ddygiad i fynu; ond wedi dyfod i wybodaeth am y gwir Dduw drwy ei gyfeillach â'r Iuddewon, a darllen yr Hen Destament. † Dywedir fod dau fath o barlys, un yn dirdynu y gewynau yn ofnadwy, ac yn peri poen dirfawr; a'r llall yn peri i'r gewynau ymollwng a gwànâu, ond heb boen fel y cyntaf. Mae pob peth yn yr hanes uchod am dano, yn profi ei fod yn ddyn duwiol; ‡ yn enwedig ei ostyngeiddrwydd ger bron Iesu, a'i ffydd gadarn yn ei allu ef. Gwelwn wr mawr, o genedl fuddugoliaethus, ac mewn sefyllfa uchel, yn sefyll o flaen Iesu o Nazareth, dyn o agwedd dlawd, gofidus a chynnefin â dolur; ac yn dywedyd wrtho, Nid ydwyf deilwng i ddyfod o honot dàn fy nghronglwyd! Mae ei ffydd yn yr Arglwydd Iesu hefyd mòr amlwg a'i ostyngeiddrwydd; Yn unig dywed y gair, ebe efe, a'm gwas a iachêir! ‖ Nid rhyfedd i'r Iesu ryfeddu; nid rhyfeddu fel Duw a wnaeth, ond rhyfeddu fel dyn, ac er dangos y canwriad cenedlig hwn fel esampl o ffydd a gostyngeiddrwydd diffuant i'r Iuddewon.

11 * Ac yr ydwyf yn dywedyd i chwi, [a] y daw llawer o'r dwyrain a'r gorllewin, ac a

[b] † eisteddant gyd âg Abraham ac Isaac a Jacob [c] yn nheyrnas nefoedd.

a pen. 24. 31. Gen. 12. 3. a 22. 18. a 28. 14. a 49. 10. Salm 22. 27. a 98. 3. Es. 2. 2, 3. a 11. 10. a 49. 6. a 52. 10. a 60. 1—6. Jer. 16. 19. Dan. 2. 44. Mica 4. 1, 2. Zec. 8, 20—23. Mal. 1. 11. Luc 13. 29. a 14. 23, 24. Act. 11. 18. Rhuf. 15. 9. Gal. 3. 28, 29. Eph 2. 11—14. a 3. 6. Col. 3. 11. b Luc 12. 37. a 13. 29. a 16. 22. Dat. 3. 20, 21. c pen. 3. 2. Luc 13. 28. Act. 14. 22. 1 Cor. 6. 9. a 15. 50. 2 Thes. 1. 5.

12 ‡ Ond [d] plant y deyrnas a [e] deflir i'r tywyllwch eithaf: yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd.

d pen. 3. 9, 10. a 21. 43. Act. 3. 25. Rhuf. 9. 4, 5. e pen. 13. 42, 50. a 22. 12, 13. a 24. 51. a 25. 30. 2 Pedr 2. 4, 17. Judas 13.

* Fel pe dywedasai yr Iesu, Nid yw y canwriad hwn ond blaenffrwyth y Cenedloedd; yn mhen ychydig e ddaw llawer, tyrfa fawr nas gall neb ei rhifo, o holl barthau pellaf y byd, † ac a eisteddant gyda eich tadau chwi yn nheyrnas nefoedd, i wledda byth yn swper neithior yr Oen. ‡ A chwithau, a ystyriwch eich hunain yn blant y deyrnas, a fwrir allan i'r tywyllwch eithaf: i dywyllwch cyfeiliornadau, i dywyllwch anwybodaeth, i dywyllwch ofer-goelion, ac i dywyllwch uffern.—Cyfeiriad sydd yma at ddynion gwrthodedig a drwg, yn cael eu bwrw allan yn y nos dywyll, o ystafell lawn goleuni lle byddai gwledd a llawenydd; a'u bwrw allan hefyd efallai i ddaeardy tywyll, lle na byddai dim goleuni o gwbl: ond yn uffern mae y tywyllwch *eithaf*, a hwnw yn dywyllwch tragywyddol hefyd.

13 A dywedodd yr Iesu wrth y canwriad, [f] Dos ymaith; [g] * ac megis y credaist, bydded i ti. [h] A'i was a iachâwyd yn yr awr honno.

f adn. 4. Preg. 9. 7. Marc 7. 29. Ioan 4. 50. g pen. 9. 29, 30. a 15. 28. a 17. 20. Marc 9. 23. h Ioan 4. 52, 53.

* Nid *am* i'r canwriad gredu y caniatâwyd ei ddeisyfiad, ond *fel* y credodd: nid yw ein ffydd ni yn haeddu y drugaredd leiaf, ond gras yw sydd yn gogoneddu Duw, ac yn derbyn y gwobr, nid o ddyled eithr o rad ras.

14 ¶ A phan ddaeth yr Iesu * [i] dŷ Pedr, efe a welodd ei [h] chwegr ef yn gorwedd, ac yn glaf o'r † cryd.

i adn. 20. pen. 17. 25. Marc 1. 29. Luc 4. 38, 39. k 1 Cor. 9. 5. 1 Tim. 3. 2. a 4. 3. Heb. 13. 4.

15 ‡ Ac efe a [l] gyffyrddodd â'i llaw hi; a'r cryd a'i ‖ gadawodd hi: § a hi a gododd, [m] ac a wasanaethodd arnynt.

l adn. 3. pen. 9. 20, 29. a 14. 36. a 20. 34. 2 Bren. 13. 21. Es. 6. 7. Marc 1. 41. Luc 8. 54. Act. 19. 11—13. m Luc 4. 38, 39 Ioan 12. 1—3.

* Yn Capernaum, fel mae yn amlwg yn adn. 5: yno yr oedd Pedr yn byw debygid, a'i chwegr, mam ei wraig, gydag ef; ac yno y llettyai yr Iesu pan fyddai yn y ddinas hòno, yr Athraw gyda'i ddisgybl, y Brenin gyda'i ddeiliad, ïe, Mab Duw gyda'i grëadur tlawd: yr hwn ac efe yn gyfoethog, a aeth er ein mwyn ni yn dlawd, fel y cyfoethogid ni trwy ei dlodi ef. † Cryd blin ebe Luc, y dwymyn yn ol y Saesoneg, a'r Groeg hefyd. ‡ Cyffyrddodd Iesu â'i llaw hi, nid i deimlo curiad y gwaed fel meddygon, ond i'w hiachâu. Efe a geryddodd y cryd medd Luc; hawdd oedd i'r hwn a fedrai geryddu y cythraul, pen. 17. 18, y gwyntoedd a'r môr, adn. 26, geryddu y cryd hwn hefyd. ‖ A'r cryd a'i gadawodd hi; heb gynnorthwy unrhyw foddion naturiol, yn sydyn ac ar yr unwaith, yn hollawl, heb adael dim gwendid ar ei ol. § A hi a gododd i ddangos i bawb ei bod yn iach, ac a wasanaethodd arnynt i ddangos ei dïolchgarwch am ei hiachâd.

16 ¶ * Ac [n] wedi ei hwyrhâu hi, [o] † hwy a ddygasant atto lawer ò rai cythreulig: [p] ac efe a fwriodd allan yr ysprydion â'*i* air, [q] ac a iachâodd yr holl gleifion;

n Marc 1. 32—34. Luc 4. 40, 41. o pen. 4. 24. a 9. 2. Marc 2. 3. Act. 5. 15. p pen. 12. 22. Marc 1. 25—27, 34. a 5. 8. a 9. 25. Act. 19. 13—16. q pen. 14. 14. Ex. 15. 26.

17 Fel [r] y cyflawnid yr hyn a ddywedasid trwy Esaias y prophwyd, gan ddywedyd, [s] ‡ Efe a gymmerodd ein gwendid ni, ac a ddug *ein* clefydau.

r pen. 1. 22. a 2. 15, 23. s Es. 53. 4. 1 Pedr 2. 24.

* Hwyr y dydd Sabbath oedd hwn, Marc 1. 21—31: dechreuai y Sabbath Iuddewig yn yr hwyr, ar fachlud haul, a dybenai yr un amser dranoeth. † Barnai yr Iuddewon y buasai yn anghyfreithlawn dwyn eu cleifion at Iesu ar y Sabbath; ond ar ddiwedd y Sabbath, dygasant ato lawer o gleifion a rhai cythreulig, y rhai a iachâodd efe, trwy osod ei ddwylaw arnynt, medd Luc 4. 40, a bwrw y cythreuliaid allan a'i air, fel y crëodd y byd. ‡ Yn hyn yr oedd yn cymmeryd ymaith wendid, ac yn dwyn ymaith glefydau dynion, yn ol prophwydoliaeth Esaias 53. 4: ond ar y groes yn benaf y cyflawnodd ein Harglwydd y brophwydoliaeth hòno.—Dywedir fod y gair am *wendid*, yn yr Hebraeg ac yn y Groeg, yn arwyddo poenau ac anhwylderau corphorol; a bod y gair am *glefydau*, yn y ddwy iaith uchod, yn arwyddo anhwylderau ac arteithiau y meddwl: cymmerodd Iesu y cyntaf ymaith trwy iachâu dynion yn wyrthiol, a'r ail trwy ddwyn pechodau ei bobl yn ei gorph ar y pren: 1 Pedr 2. 24.

18 ¶ A'r Iesu, [t] pan welodd dorfeydd lawer o'i amgylch, a orchymynodd fyned drosodd [u] i'r lân arall.

t adn. 1. Marc 1. 35—38. Luc 4. 42, 43. Ioan 6. 15. u pen. 14. 22. Marc 4. 35. a 5. 21. a 6. 45. a 8. 13. Luc 8. 22.

* Gan mai yn Capernaum yr oedd Iesu y pryd hwn, rhaid mai dros fôr Galilea, yr hwn hefyd a elwir môr Tiberias yr aeth efe, i wlad y Gergesiaid, gan fod Capernaum ar lân y môr hwnw o'r naill du, a gwlad y Gergesiaid o'r tu arall.

19 * A [x] rhyw ysgrifenydd a ddaeth ac a ddywedodd wrtho, † Athraw, [y] mi a'th ‡ ganlynaf i ba le bynnag yr elych.

x Ezra 7. 6. Marc 12. 32—34. Luc 9. 57, 58. 1 Cor. 1. 20. y Luc 14. 25—27, 33. a 22. 33, 34. Ioan 13. 36—38.

20 ‖ A'r Iesu [a] a ddywedodd wrtho, Y *mae* ffauau gan y llwynogod, [z] a chan ehediaid y nefoedd nythod; § ond [a] gan Fab y dyn nid oes le i roddi *ei* ben *i lawr*.

z Salm 84. 3. a 104. 17. a Salm 40. 17. a 69. 29. a 109. 22. Es. 53. 2, 3. Luc 2. 7, 12, 16. a 8. 3. 2 Cor. 8. 9.

* Un o ysgrifenyddion a dysgawdwyr y gyfraith oedd hwn. † Mae yn debyg fod tystiolaeth yn ei gydwybod ef mai Iesu oedd y Messiah, ond bod ei ddychymmygion ef am y Messiah yn ddynol ac yn gnawdol. ‡ Oblegid hyny yr oedd am ganlyn Crist, gan obeithio cael rhyw le mawr yn y deyrnas pan amlygai Crist ei hun fel Messiah a Brenin yr Iuddewon. ‖ Adwaenai Iesu ddychymmygion ofer ei galon ef, am hyny mae yn dangos na cha'i efe ddim ond tlodi ac adfyd o'i ganlyn ef. Mae'n debyg i hyny fod yn ddigon i gyfnewid meddwl yr ysgrifenydd hwn. § Gwelwn yma yr hwn oedd i gael pob peth dan ei draed, heb le i roddi ei ben i lawr!

21 * Ac [b] un arall o'i ddisgyblion a ddywedodd wrtho, Arglwydd, [c] gâd i mi yn gyntaf fyned a † chladdu fy nhad.

b Luc 9. 59—62. c pen. 19. 29. Lef. 21. 11, 12. Num. 6. 6, 7. Deut. 33. 9, 10. 1 Bren. 19. 20, 21. Hag. 1. 2. 2 Cor. 5. 16.

22 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, [d] Canlyn fi; ‡ a gâd i'r meirw gladdu eu meirw.

d pen. 4. 18—22. a 9. 9. Ioan 1. 43. e Luc 15. 32. Eph. 2. 1, 5. a 5. 14. Col. 2. 13. 1 Tim. 5. 6.

* Un arall o'i ddysgyblion, nid un o'r rhai oedd yn ei ganlyn yn wastadol, ond un o'i wrandawwyr cyffredinol. † Tybia rhai nad oedd ei dad wedi marw, ond ei fod yn oedranus ac yn mròn a marw. Tybia eraill ei fod wedi marw, a hyny sydd fwyaf tebygol oddiwrth atebiad Iesu. ‡ Nid yw yr ateb hwn o eiddo y Cyfryngwr yn dysgu i ni fod yn ddifater am dalu parch dyledus i'n rhieni a'n perthynasau, nac yn fyw nac yn farw; ond

oedd efe yn gweled rhyw anewyllysgarwch dirgelaidd
n y disgybl hwn i'w ganlyn ef, ac y buasai myned i
laddu ei dad yn foddion i chwanegu yr anewyllysgar-
wch hwnw, am hyny gwaharddodd iddo, er profi ei
ewudd-dod. Mae digon o rai meirw ysbrydol i gladdu
n meirw naturiol; heb i ni ymrwystro gyda phethau
rwy eu pwys. Mae pethau cyfreithlawn yn bechad-
iaus, pan rwystront ddyledswyddau mwy pwysig.

23 ¶ Ac wedi iddo [f] fyned i'r llong, ei
ddisgyblion a'i canlynasant ef.

f pen. 9. 1. Marc 4. 36. Luc 8. 22.

24 Ac wele, [g] * bu cynnwrf mawr yn y
môr, hyd oni chuddiwyd y llong gan y tonnau:
† eithr efe oedd yn cysgu.

g Salm 107. 23—27. Es. 54. 11. Jona 1. 4, 5. Marc 4. 37, 38.
t. 27. 14, &c. 2 Cor. 11. 25, 26. h Luc 8. 23. Ioan 6. 17, 18.
11. 5, 6, 15.

25 A'i ddisgyblion a ddaethant *atto*, [i] ac a'i
effroasant, gan ddywedyd, Arglwydd, [k] cadw
: darfu am danom.

i Salm 10. 1. a 44. 22, 23. Es. 51. 9, 10. Marc 4. 38, 39. Luc
24. k 2 Cron. 14. 11. a 20. 12. Jona 1. 6.

26 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [l] ‡ Paham
r ydych yn ofnus, O chwi o ychydig ffydd?
Yna y cododd efe, [m] ac y ceryddodd y
wyntoedd a'r môr; a bu dawelwch mawr.

l pen. 6. 30. a 14. 30, 31. a 16. 8. Es. 41. 10—14. Marc 4. 40.
uc 8. 25. Rhuf. 4. 20. m adn. 27. Job 38. 8—11. Salm 65. 7.
89. 9. a 93. 3, 4. a 104. 6—9. a 107. 28—30. a 114. 3—7. Diar. 8.
29. Es. 50. 2—4. a 63. 12. Nah. 1. 4. Hab. 3. 8. Marc 4. 39, 41.
5. 48—51. Luc 8. 24, 25. Dat. 10. 2.

27 A'r dynion a [n] ryfeddasant, gan ddywed-
d, Pa ryw un yw hwn, gan fod y gwyntoedd
efyd a'r môr yn ufuddhâu iddo?

n pen. 14. 33. a 15. 31. Marc 1. 27. a 6. 51. a 7. 37.

* Mae yn debygol bod y gwynt yn dawel, a'r môr yn
eg a llonydd, pan gychwynodd Iesu a'i ddisgyblion ar
fordaith hon; ond yn sydyn, ac annisgwyliadwy i bawb
nd efe, wele ystorm o wynt, a chynnwrf mawr yn y
môr, onid oedd y disgyblion yn ofni am eu bywyd. Yn
môr Galilea, yr hwn er nad oedd ond bychan, oedd yn
ymhestlog iawn yn aml, ac weithiau yn sydyn iawn.
hedai yr Iorddonen yn gref drwy ei ganol, ar ei hyd
r gogledd i'r dehau, yr hyn a wnâi gryn gynhwrf yn
yfhanol y môr bob amser; ac weithiau cyfodai ystorm
ruthr-wynt angerddol yn sydyn, o'r dehau-ddwyrain;
chan y chwythai y gwynt hwnw yn rymus yn erbyn
nediad yr Iorddonen, perai gynhwrf dychrynllyd yn y
môr, fel yr oedd yn enbyd i lestri bychain fod arno y
ryd hwnw. † Yr oedd yr Iesu yn cysgu, yn lluddedig
an ei lafur caled y dydd hwnw; a chan nad oedd
anddo le i roi ei ben i lawr, da oedd cael gorphwys yn
llong. Cysgodd i brofi ei wir ddynoliaeth, a chysgodd
tro hwn, i brofi ffydd ei ddisgyblion. ‡ Yr oedd
anddynt ffydd, yr oeddynt yn credu y gallasai Iesu eu
adw; ond ffydd wàn ydoedd, pan yr ofnent a Iesu gyda
wynt: gallasai efe eu cadw yn ei gwsg yn gystal ag yn
ffro. ‖ Ar ol ceryddu ei ddisgyblion yn dirion, efe a
ododd, ac fel Duw natur, ac Arglwydd yr holl elfenau,
ife a geryddodd y gwyntoedd a'r môr, a bu dawelwch
nawr, fel y rhyfeddodd y dynion, ac y credasant ei fod
ff yn rhywun mwy na dyn.

28 ¶ Ac [o] wedi ei ddyfod ef i'r làn arall,
i wlad y [p] Gergesiaid, † dau ddieflig a gyfar-
fuant âg ef, [q] y rhai a ddeuent o'r ‡ beddau,
yn dra ffyrnig, [r] fel na allai neb fyned y ffordd
honno.

o Marc 5. 1, &c. Luc 8. 26, &c. Act. 10. 38. p Gen. 10. 16.
15. 21. Deut. 7. 1. q Marc 5. 2—5. Luc 8. 27, 29. r Barn.
6.

Adroddir yr hanes hyn gan Marc a Luc, ychydig yn
anylach na chan Mathew, ond nid oes yr un yn gwrth-
wynebu y llall. * Gwlad y Gergesiaid, yn cynnwys ardal
dinas Gadara; lle y tu dwyrain i fôr Galilea, yn cael
ei gyfaneddu gan gymmysgedd o Iuddewon a Chenedl-
oedd. Gweddillion yr hen Girgasiaid gynt, a grybwyllir
yn Gen. 15. 21 a mànau eraill: mae yn debyg i rai o
honynt wladychu o du dwyrain i fôr Galilea, pan yrwyd
hwy allan o Ganaan gan Josua, a bod rhai o'r hiliog-
aeth yno yn amser Crist. † Dau ddieflig, un a sonia
Marc a Luc, efallai bod un yn waeth na'r llall, beth
bynag am hyny, dywed Mathew bod dau. Am ddynion
yn cael eu meddiannu gan gythreuliaid soniwyd eisoes
yn Math. 4. 24. ‡ Y beddau y dyddiau hyny oeddynt
yn gyffredin mewn lleoedd anghyfanedd, yn mhell
oddiwrth y trefydd, ac yn aml mewn ogofau a thyllau
yn y creigiau a'r mynyddoedd.

29 Ac wele, hwy a lefasant, gan ddywedyd,
[s] * Iesu, [t] Fab Duw, beth sydd i ni *a wnelom*
â thi? † a ddaethost ti yma i'n [u] poeni ni cyn
yr amser?

s 2 Sam. 16. 10. a 19. 22. Joel 3. 4. Marc 1. 24. a 5. 7. Luc 4.
34. a 8. 28. Ioan 2. 4. t pen. 4. 3. Marc 3. 11. Luc 4. 41. Act.
16. 17. Iago 2. 19. u 2 Pedr 2. 4. Judas 6.

* Addefai y cythreuliaid Iesu yn Fab Duw, er cywil-
ydd i'r Iuddewon a'i gwadent: † a chrynent rhag ofn ei
allu ef, rhag cael eu poeni cyn dydd y farn.

30 Ac yr oedd ym mhell oddi wrthynt
[x] genfaint o * foch lawer yn pori.

x Lef. 11. 7. Deut. 14. 8. Es. 65. 4. a 66. 3. Marc 5. 11. Luc
8. 32. a 15. 15, 16.

31 A'r [y] cythreuliaid a ddeisyfasant arno,
gan ddywedyd, † Os bwri ni allan, caniattâ i
ni fyned ymaith i'r genfaint foch.

y Marc 5. 7, 12. Luc 8. 30—33. Dat. 12. 12. a 20. 1, 2.

* Yr oedd yn anghyfreithlawn i'r Iuddewon fwyta cig
moch, ac yr oedd hyd yn nod cyfhwrdd â'u burgun
marw hwy yn halogi dyn; ac yn ol deddfau Hyrcanus,
yr oedd yn anghyfreithlawn iddynt gadw moch: ond yn
groes i bob deddf yr oedd trigolion y wlad hon yn cadw
llawer, ac yn eu gwerthu i'r milwyr Rhufeinig, a'r cenedl-
oedd o'u hamgylch. † Yr oedd deisyf am gael myned
i'r moch yn gydnabyddiaeth o fawredd a goruwch-
awdurdod Iesu, ac o holl fryd y cythreuliaid i wneuthur
rhyw ddrwg.

32 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [z] Ewch.
A hwy wedi myned allan, a aethant i'r genfaint
foch. Ac wele, [a] * yr holl genfaint foch a
ruthrodd dros y dibyn i'r môr, † ac a fuant
feirw yn y dyfroedd.

z 1 Bren. 22. 22. Job 1. 10—12. a 2. 3—6. Act. 2. 23. a 4. 28.
Dat. 20. 7. a Job 1. 13—19. a 2. 7, 8. Marc 5. 13. Luc 8. 33.

* Dyma brawf amlwg i'r Saduceaid o fodoliaeth ys-
brydion. Dyma brawf hefyd o ddaioni y Cyfryngwr,
gallasai efe eu gollwng i mewn i berchenogion y moch
yn gystal ag i'r moch. Sonia un o'r hen dadau, *Origen*,
am ddinas o'r enw Gergesa, yn hen ddinas yn ei amser
ef, yn agos i fôr Galilea, neu Tiberias; a dywed fod
clogwyn anferth o graig yn agos i'r ddinas hòno, uwch
ben y môr, dros yr hon tybir i'r moch wylltio a syrthio
i'r môr: boddodd y moch, ond nid felly y cythreuliaid.
† Dyma brawf i ninnau hefyd, mai Duw sydd geidwad
dyn ac anifail; ac y dylem weddio yn wastadol am gad-
wraeth ein hanifeiliaid.

33 * A'r [b] meichiaid a ffoisant: ac wedi eu
dyfod hwy i'r † ddinas, hwy a fynegasant bob
peth; ‡ a pha beth a ddarfuasai i'r rhai dieflig.

b Marc 5. 14—16. Luc 8. 34—36. Act. 19. 15—17.

* Y meichiaid oedd ceidwaid y moch. Mae gwasan-
aethwyr ffyddlonaf y diafol yn dychrynu rhagddo pan
ymddangoso yn ei wir liwiau. † Gadara, mae'n debyg,
oedd y ddinas, dinas fawr boblogaidd; a thrwy farn
gyfiawn Duw, y gyntaf o ddinasoedd yr Iuddewon a
gymmerwyd gan y Rhufeiniaid. ‡ Cyhoeddodd y
meichiaid hyn yn eu dychryn, nid yn unig beth a ddar-
fuasai i'r moch, ond hefyd gwyrth ddaionus Iesu ar y
rhai dieflig.

34 * Ac wele, yr holl ddinas a ddaeth allan i gyfarfod â'r Iesu: a phan ei gwelsant, [c] † attolygasant iddo ymadael o'u cyffiniau hwynt.

c adn. 29. Deut. 5. 25. 1 Sam. 16. 4. 1 Bren. 18. 17. Job 21. 14. a 22. 17. Marc 5. 17, 18. Luc 8. 28, 37—39.

* Aeth yr holl ddinas allan i gyfarfod â'r Iesu, nid i'w addoli, nac i ddiolch iddo dros y rhai dieflig a waredwyd. Tybia rhai i bobl y ddinas ddyfod allan ar feddwl lladd yr Iesu, am iddo fod yn achlysur o ddistrywio eu moch hwy; ond y tarawyd hwy âg ofn pan welsant ef, ac ni wnaethant ond attolwg iddo ymadael o'u cyffiniau; † yr hyn oedd yn dangos eu bod hwy yn meddiant Satan llawn cymmaint a'r rhai dieflig, ond mewn ystyr arall a mwy pechadurus. Lle mae dynion yn byw fel moch, nid yw Crist yn aros yno, ond diafol.

PEN. IX.

Crist yn iachâu un claf o'r parlys, 23 yn cyfodi merch Jairus o farw i fyw.

* AC [a] efe a aeth i mewn i'r llong, ac a aeth trosodd, † ac a ddaeth i'w [b] ddinas ei hun.

a pen. 7. 6. a 8. 18, 23. Marc 5. 21. Luc 8. 37. Dat. 22. 11 b pen. 4. 13.

* Efe a gymmerodd y Gergesiaid ar eu gair, er gwae iddynt hwy, ac a ymadawodd. † Capernaum yr ydys yn barnu oedd y ddinas a grybwyllir yma. Yn Bethlehem ei ganwyd, yn Nazareth ei magwyd, ac yn Capernaum y preswyliai gan mwyaf wedi dechreu ei weinidogaeth gyhoeddus.

2 Ac wele, [c] hwy a ddygasant atto wr claf o'r parlys, * yn gorwedd mewn gwely; a'r † Iesu yn [d] gweled eu ffydd hwy, a ddywedodd wrth y claf o'r parlys, [e] *Ha* fab, cymmer gysur: [f] ‡ maddeuwyd i ti dy bechodau.

c pen. 4. 24. a 8. 13. Marc 1. 32. a 2. 1—3. Luc 5. 18, 19. Act. 5. 15, 16. a 19. 12. d pen. 8. 10. Marc 2. 4, 5. Luc 5. 19, 20. Ioan 2. 25. Act 14. 9. Iago 2. 18. e adn. 22. Marc 5. 34. Ioan 21. 5. f Salm 32. 1, 2. Preg. 9. 7. Es. 40. 1, 2. a 44. 22. Jer. 31. 33, 34. Luc 5. 20. a 7. 47—50. Act. 13. 38, 39. Rhuf. 4. 6—8. a 5. 11. Col. 1. 12—14.

* Rhyw fath o wely symmudol, a ddygid gan ddynion wrth ei bedair congl, a'r claf ynddo neu arno: gwel Marc 2. 3, 4. † Mae yn ddiammau bod y claf a'r rhai a'i dygent yn credu gallu gwyrthiol Crist, ac efallai yn perchen gwir ffydd gadwedigol hefyd, ac yr oedd Iesu yn gweled eu ffydd; hyny yw, yn ei gweled yn eu calonau, yr hyn oedd brawf o'i Dduwdod. ‡ Nid yn unig e gafodd y claf hwn iachâd corphorol, ond iachâd i'w enaid hefyd: maddeuwyd ei bechodau.

3 Ac wele, [g] rhai o'r * ysgrifenyddion a ddywedasant ynddynt eu hunain, [h] † Y mae hwn yn cablu.

g pen. 7. 29. Marc 2. 6, 7. a 7. 20. Luc 5. 21. a 7. 39, 49. h pen. 26. 65. Lef. 24. 16. Marc 14. 64. Ioan 10. 33—36. Act. 6. 11—13.

* Wele mòr barod oedd y dysgawdwyr Iuddewig yn wastad i feio ar Grist a thramgwyddo wrtho. † Pe credasent mai Mab Duw ydoedd, ni ddywedasent ei fod yn cablu.

4 * A phan [i] welodd yr Iesu eu meddyliau, efe a ddywedodd, [k] Paham y meddyliwch ddrwg yn eich calonnau?

i pen. 12. 25. a 16. 7, 8. Salm 44. 21. a 139. 2. Marc 2. 8. a 8. 16, 17. a 12. 15. Luc 6. 8. a 7. 40. a 9. 46, 47. a 11. 17. Ioan 2. 24, 25. a 6. 61, 64. a 16. 10, 30. a 21. 17. Heb. 4. 12, 13. Dat. 2. 23. k Ezec. 38. 10. Act. 5. 3, 4, 9. a 8. 20—22.

5 † Canys [l] pa un hawsaf ai dywedyd, Maddeuwyd i ti dy bechodau; ai dywedyd, [m] Cyfod, a rhodia?

l Marc 2. 9—12. Luc 5. 23—25. m Es. 35. 5, 6. Ioan 5. 8—14, 17, 18. Act. 3. 6—11, 16. a 4. 9, 10. a 9. 34. a 14. 8—11.

6 Eithr fel y gwypoch [n] fod awdurdod gan Fab y dyn ar y ddaear i faddeu pechodau, (yna y dywedodd efe wrth y claf o'r parlys) [o] Cyfod, cymmer dy wely i fynu, a dos i'th dŷ.

n Es. 43. 25. Mica 7. 18. Marc 2. 7, 10. Luc 5. 21. Ioan 5. 21—23. a 10. 28. a 17. 2. a 20. 21—23. Act. 5. 31. a 7. 59, 60. 2 Cor. 2. 10. a 5. 20. Eph. 4. 32. Col. 3. 13. o adn. 5. Luc 13. 11—13. Act. 9. 34.

* Fel yr oedd yr Arglwydd Iesu yn gweled ffydd y claf o'r blaen, felly hefyd mae yma yn adnabod meddyliau drwg yr ysgrifenyddion; ac yn rhoddi prawf amlwg o'i Dduwdod a'i holl-wybodaeth iddynt, wrth ddywedyd ei fod yn gwybod eu meddyliau. † Mae yn amlwg iddo faddeu pechodau y claf cyn ei iachâu; ac yn awr mae yn iachâu ei gorph, er dangos i'r ysgrifenyddion fod ganddo awdurdod i faddeu ei bechodau. Yr oedd yr apostolion yn iachâu clefydau, ac yn maddeu pechodau, yn enw, a thrwy awdurdod Crist; ond yr oedd Crist yn gwneyd pob un o'r ddau drwy ei awdurdod a'i allu dwyfol ei hun.

7 * Ac efe a gyfododd, ac a aeth ymaith i'w dŷ ei hun.

8 † A'r [p] torfeydd pan welsant, rhyfeddu a wnaethant, [q] a gogoneddu Duw, yr hwn a roisai gyfryw awdurdod i ddynion.

p pen. 12. 23. a 15. 31. Marc 2. 12. a 7. 37. Luc 5. 26. a 7. 16. q pen. 15. 31. Luc 5. 25. a 17. 15. a 23. 47. Act. 4. 21.

* Yr oedd nerth yn myned gyda gair y Cyfryngwr, yn galluogi y claf i wneyd yr hyn a orchymynasai efe iddo: efe a gyfododd, yn holl-iach, ac a aeth ymaith i'w dy, yn ngwŷdd pawb, fel na allai neb ammau gwirionedd y wyrth. † Pa effaith a gafodd hyn ar y bobl? Hwy a ryfeddasant: ond nid oes yma air am gredu yn Iesu, a'i addef yn Fab Duw. Hwy a ogoneddasant Dduw, ond nid yn iawn; nid am ddanfon ei Fab i'r byd i achub pechaduriaid, ond am roddi y fath allu gwyrthiol i *ddynion.*

9 ¶ Ac fel yr oedd yr Iesu yn myned oddi yno, efe a ganfu wr yn eistedd wrth y * dollfa, [r] a elwid † Matthew, ac a ddywedodd wrtho, [s] ‡ Canlyn fi. ‖ Ac efe a gyfododd, ac a'i canlynodd ef.

r pen. 21. 31, 32. Marc 2. 14, &c. Luc 5. 27, 28. a 15. 1, 2. a 19. 2—10. s pen. 4. 18—22. 1 Bren. 19. 19—21. Gal. 1. 16.

* Y dollfa ydoedd le, lle derbynid arian y deyrnged, a dalai yr Iuddewon fel gwarogaeth i'r Rhufeiniaid. † Mathew ydoedd ysgrifenydd yr Efengyl hon, ac un o'r deuddeg apostol, pen. 10. 3. Publican, neu dderbyniwr y deyrnged uchod, oedd cyn ei alw. ‡ Dynion cybyddlyd, anghyfiawn, a gorthrymus iawn oedd y publicanod oll; ond dyma Iesu yn ei ras yn galw un o honynt, nid yn unig i fod yn gristion, ond i fod yn apostol hefyd. ‖ Cerddodd y fath effaith gyda'r geiriau, Canlyn fi, fel y gadawodd Mathew ei alwedigaeth ac unig lwybr ei fywioliaeth yn y fân, ac a'i canlynodd ef.

10 ¶ * A bu, [t] ac efe yn eistedd i fwytta yn y tŷ, wele hefyd, [u] † publicanod lawer a ‡ phechaduriaid a ddaethant, ac a eisteddasant gyd â'r Iesu a'i ddisgyblion.

t Marc 2. 15, 16. Luc 5. 29. u pen. 5. 46, 47. Ioan 9. 31. 1 Tim. 1. 13—16.

* Dywed Luc, pen. 5. 29, mai tŷ Mathew (Lefi yno) oedd hwn, ac iddo wneuthur gwledd fawr i'r Arglwydd Iesu, yr hyn a ddengys ei fod ef yn wr cyfoethog; ac a ddengys hefyd ei gariad at y Cyfryngwr, a'i ddiolchgarwch iddo. Nid yn y tolldŷ, yr hwn a adewsid yn awr, eithr yn nhŷ cartrefol Mathew; yr hwn a wnaethai wledd i'r Arglwydd Iesu medd Luc 5. 29, i ddangos ei gariad a'i ddiolchgarwch iddo am ei alw ef trwy ei ras, ac fel y ca'i publicanod a phechaduriaid eraill gyfle i'w wrando ef. † Hen gyfeillion Mathew, mae yn debyg oedd y publicanod a'r pechaduriaid hyn; a diammau mai ei amcan yn eu gwahodd y tro hwn oedd, nid er mwyn cadw i fynu hen gyfeillach â hwy fel o'r blaen, ond er mwyn iddynt gael cyfle i wrando ar Iesu, a chael lles i'w heneidiau drwy wrando. ‡ Dosparthai yr Iudd-

on ddynolryw yn dri math: y Da, y Cyfiawn, a'r
chaduriaid. Gwelwn y tri dosparth yn Rhuf. 5. 7, 8.
eb gadw ein golwg bob amser ar hyna, nis gallwn
ëall y gair pechaduriaid yn ei lawn ystyr mewn lla-
r o fanau. Afraid sylwi mai y fath waethaf o ddyn-
n oedd y pechaduriaid, a chyda hwynt y cyfrifid y
blicanod.

11 * A phan welodd y Phariseaid, [x] hwy a
lywedasant wrth ei ddisgyblion ef, [y] Paham y
wytty eich † Athraw chwi gyd â'r publicanod
pechaduriaid?

x Marc 2. 16. a 9. 14—16. y pen. 11. 19. Es. 65. 5. Luc 5.
a 15. 1, 2. a 19. 7. 1 Cor. 5. 9—11. Gal. 2. 15. 2 Ioan 10.

* Gan fod eithaf casineb gan y phariseaid at Grist,
oeddynt bob amser yn barod i feïo arno ac i
eyd gwarth cyhoeddus o hóno: a thybiasant fod
ddynt gyfle teg i hyny yn awr. † Yn ol eu traddod-
au hwy yr oedd yn gwbl anghyfreithlawn i'r dysg-
dwyr Iuddewig i wneuthur dim cyfeillach â'r fath
ynion halogedig, yn enwedig cyd-fwyta â hwynt.

12 * A phan glybu yr Iesu, efe a ddywed-
d wrthynt, [z] † Nid rhaid i'r rhai iach wrth
ddyg, ond i'r rhai cleifion.

z Salm 6. 2. a 41. 4. a 147. 3. Jer. 17. 14. a 30. 17. a 33. 6.
s. 14. 4. Marc 2. 17. Luc 5. 31. a 8. 43. a 9. 11. a 18. 11—13.
uf. 7. 9—24. Dat. 3. 17, 18.

13 Ond [a] ewch, a dysgwch pa beth yw *hyn*,
Trugaredd yr ydwyf yn ei ewyllysio, ac nid
erth: canys ni ddaethum [c] i alw rhai || cyf-
wn, [d] ond pechaduriaid i edifeirwch.

a pen. 12. 3, 5, 7. a 19. 4. a 21. 42. a 22. 31, 32. Marc 12. 26.
o 10. 26. Ioan 10. 34. b Diar. 21. 3. Hos. 6. 6. Mica 6. 6—8.
en. 18. 11—13. Marc 2. 17. Luc 5. 32. a 15. 3—10. a 19. 10.
uf. 3. 10—24. 1 Cor. 6. 9—11. 1 Tim. 1. 13—16. d pen. 3.
. a 4. 17. a 11. 20, 21. a 21. 28—32. Es. 55. 6, 7. Luc 15. 7. a 24.
Act. 2. 38. a 3. 19. a 5. 31. a 11. 18. a 17. 30, 31. a 20. 21. a 26.
—20. Rhuf. 2. 4—6. 2 Tim 2. 25, 26. 2 Pedr 3. 9.

* Ni feiddiai y Phariseaid ddywedyd y geiriau uchod
union-gyrchol wrth Grist ei hun, eithr ei hustyng
fradychus wrth ei ddysgyblion. † Ond clywodd yr
su hwynt, ac amddiffynodd ei hun yn ngwŷdd pawb,
y gymhariaeth addas: ystyriai y publicanod a'r pech-
riaid fel cleifion ysbrydol, ac yntau ei hun fel
ddyg ysbrydol yn eu plith. A pha le y dylai y
ddyg fod ond yn mhlith y cleifion? ‡ Trugaredd ac
aberth; trugaredd yn hytrach nac aberth, yw medd-
y geiriau; hyny yw, mae Duw yn caru gweithredoedd
rugaredd i'n brodyr, yn fwy na'r addoliad manylaf a
hymynir yn y gyfraith, heb y gweithredoedd hyny:
faint mwy na'ch traddodiadau phariseaidd chwi?
Rhai cyfiawn, sef y rhai a dybiant eu bod yn gyfiawn,
nad oes angen edifeirwch arnynt.

14 ¶ * Yna y daeth [e] disgyblion Ioan atto,
n ddywedyd, [f] † Paham yr ydym ni a'r Pha-
seaid yn ymprydio yn fynych, ond dy ddis-
blion di nid ydynt yn ymprydio?

e pen. 11. 2. Ioan 3. 25. a 4. 1. f pen. 6. 16. a 11. 18, 19.
ar. 20. 6. Marc 2. 18—22. Luc 5. 33—39. a 18. 9—12.

15 ‡ A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, [g] A all
ant yr ystafell briodas alaru tra fo y || priod-
o gyd â hwynt? ond y dyddiau a ddaw,
pan ddyger y priod-fab oddi arnynt, [i] ac yna
ymprydiant.

g pen. 25. 1—10. Barn. 14. 11, &c. Salm 45. 14, 15. Ioan 3.
Dat. 19. 9. a 21. 2. h Luc 24. 13—21. Ioan 16. 6, 20—22.
Lf. 1. 9, 10. i Act. 13. 1—3. a 14. 23. 1 Cor. 7. 5. 2 Cor. 11. 27

16 § *Hefyd*, ni ddyd neb lain o frethyn
wydd at hen ddilledyn: [k] canys y cyflawniad
dynn oddi wrth y dilledyn, a'r rhwyg a wneir
h waeth.

k Gen. 33. 14. Salm 125. 3. Es. 40. 11. Ioan 16. 12. 1 Cor. 3.
2. a 13. 13.

17 Ac ni ddodant win newydd mewn
D

[l] costrelau hen: os amgen, y costrelau a dŷr, a'r gwin a red allan, a'r costrelau a gollir: eithr gwin newydd a ddodant mewn costrelau newyddion, ac *felly* y cedwir y ddau.

l Jos. 9. 4. Job 32. 19. Salm 119. 83.

* Erbyn i'r Cyfryngwr ostegu y Phariseaid oedd yn beïo arno am ei gymdeithion, dyma ddysgyblion Ioan yn dyfod ato, ac braidd yn beïo arno am gyfranogi o'r wledd. Tybir mai gwaith y Phariseaid oedd hyn hefyd yn ddirgelaidd, i beri anghydfod rhwng dysgyblion Ioan â Christ, ac i'w ddarostwng ef yn eu golwg hwy. † Yr oedd Ioan mòr ddirwest-lym yn ei fywyd fel y dyweda Crist am dano, nad oedd nac yn bwyta nac yn yfed Math. 11. 18. ac yr oedd y Phariseaid yn ymprydio mòr fynych a dwywaith yn yr wythnos, Luc 18. 12. er nad oedd Duw wedi gorchymyn ond unwaith yn y flwyddyn. ‡ Mae yr Arglwydd Iesu yn ateb dysgyblion Ioan mewn dau beth. 1. Nad oedd ei ddysgyblion ef ddim eto dan oruchwyliaeth ag oedd yn galw am ymprydio. 2. Mai dychweledigion ieuainc oedd ei ddysgyblion ef, i'w dwyn yn raddol at gyflawniadau celyd dysgyblaeth allanol, a duwioldeb. || Mae efe yn egluro y ddau bwnc uchod mewn dwy gyffelybiaeth, 1. Mae yn galw ei hun yn briod-fab, gan gyfeirio at dystiolaeth Ioan am dano, Ioan 3. 29, a'i ddysgyblion yn blant, neu gyfeillion y priod-fab: ac nad oedd yn gweddu iddynt ymprydio tra'r oedd y priod-fab gyda hwynt: ac y caent ddigon o achos ymprydio pan ymadawai efe â hwynt. § 2. Mae yn dangos, drwy y gymhariaeth o osod llain o frethyn newydd at hen ddilledyn, a rhoddi gwin newydd mewn hen gostrelau (o groen) yr anaddasrwydd i'w ddysgyblion ef ymprydio y pryd hwnw, rhag y byddai iddynt ddigaloni dan iau mòr galed, neu ynte ymorphwys yn ddeddfol yn y cyflawniadau hyny. Gwers dda sydd yma i weinidogion yr efengyl, i beidio gosod gormod ar ddysgyblion ieuainc.—Croen neu ledr ydoedd costrelau yr Iuddewon, a phan heneiddiai y rhai hyny, byddent yn debyg o rwygo a thòri gan ymweithiad gwin newydd, os rhoddid y cyfryw ynddynt.

18 ¶ Tra yr oedd efe yn dywedyd hyn wrthynt, [m] wele, daeth rhyw [n] * bennaeth, ac a'i [o] † haddolodd ef, gan ddywedyd, [p] Bu farw fy merch yr awr hon: eithr [q] tyred a gosod dy ‡ law arni, a byw fydd hi.

m Marc 5. 22, &c. Luc 8. 41, &c. n Luc 8. 49. a 13. 14. a 18. 18. Act. 13. 15. o pen. 7. 2. a 14. 33. a 15. 25. a 17. 14. a 20. 20. a 28. 17. Marc 5. 22. Luc 17. 15, 16. Act. 10. 25, 26. p adn. 24. Marc 5. 23. Luc 7. 2. a 8. 42, 49. Ioan 4. 47—49. q pen. 8. 8, 9. 2 Bren. 5. 11. Ioan 11. 21, 32.

19 || A'r Iesu a [r] gyfododd, ac a'i canlynodd ef, a'i ddisgyblion.

r pen. 8. 7. Ioan 4. 34. Act. 10. 38. Gal. 6. 9, 10.

* Y penaeth hwn ydoedd Jairus, penaeth y synagog, medd Marc 5. 22. un yn gofalu am addoliad Duw yn y synagog, ac efallai bod ganddo ryw awdurdod fel llywodraethwr gwladol hefyd, dan y cynghor mawr yn Jerusalem. † Addolodd ef yn gyhoeddus yn ngwydd pawb, gan syrthio wrth ei draed ef, medd yr Efengylwyr eraill. Pa un ai parch iddo fel dyn yn unig, ai ynte addoliad gwirioneddol oedd hwn nid yw yn amlwg. ‡ Nid oedd ffydd hwn mòr rymus a ffydd y Canwriad; yn unig dywed y gair, ebe hwnw. || Bwriai yr Iuddewon yr Arglwydd Iesu allan o'r synagogau, yr oedd ef yn fwy tirion.

20 ¶ (Ac [s] wele, gwraig y buasai [t] * gwaed-lif arni ddeuddeng mlynedd, a ddaeth o'r tu cefn *iddo*, ac a [u] gyffyrddodd âg [x] ymyl ei wisg ef.

s Marc 5. 25, &c. Luc 8. 43, &c. t Lef. 15. 25, &c. u pen. 14. 36. Marc 5. 28. a 6. 56. a 8. 22. Act. 5. 15. a 19. 12. x pen. 23. 5. Num. 15. 38, 39. Deut. 22. 12. Luc 8. 44.

21 † Canys hi a ddywedasai ynddi ei hun
25

[y] Os caf yn unig gyffwrdd â'i wisg ef, iach fyddaf.

y Marc 5. 26—33. Luc 8. 45—47.

* Dyma ddangosiad nodedig o ffydd eto; gwraig mewn afiechyd peryglus, gwaedlif; hen afiechyd, o ddeuddeng mlynedd; pob moddion meddygol wedi methu; a hithau yn myned waethwaeth: † credai hon ond iddi gael cyffwrdd âg ymyl gwisg Iesu, yr elai yn iach. Am ymyl y wisg, gwel Num. 15. 38—40.

22 * Yna yr Iesu a drodd; a phan ei gwelodd hi, efe a ddywedodd, [z] *Ha* ferch, bydd gysurus; [a] † dy ffydd a'th iachâodd. A'r wraig a iachâwyd [b] o'r awr honno.)

z adn. 2. Marc 5. 34. Luc 8. 48. a adn. 29. Marc 10. 52. Luc 7. 50. a 17. 19. a 18. 42. Act. 14. 9. Heb. 4. 2. b pen. 17. 18. Ioan 4. 53. Act. 16. 18.

* Gwyddai yr Iesu yn ddiammau am ddyfodiad y wraig hon, ac efe a dueddodd ei mheddwl i ddyfod ato. † Gallu yr Arglwydd Iesu oedd yr achos effeithiol o'r iachâd, ac nid unrhyw rinwedd cyfareddol yn ei ddillad, a thrwy ffydd yn ei allu ef y derbyniodd y wraig iachâd. Ffydd yn ngallu dwyfol Crist, i'w iachâu hi o'i hanhwyldeb corphorol, a fu yr offerynol achos iddi hi gael ei hiachâu; yr oedd hyn yn wahanol i ffydd gadwedigol ynddo ef, ac nis gwyddom a oedd y ffydd hòno gan y wraig hon ai nid oedd.

23 A phan ddaeth yr Iesu [c] i dŷ y pennaeth, a gweled y [d] * cerddorion a'r dyrfa yn terfysgu,

c adn. 18, 19. Marc 5. 35—37. Luc 8. 49—51. d pen. 11. 17. 2 Cron. 35. 25. Jer. 9. 17—20. Marc 5. 38—40. Luc 7. 32. Act. 9. 39.

* Dywedir mai arfer genedlig oedd cerddoriaeth mewn angladdau, ac nad oedd yn mhlith yr Iuddewon, ond fel ei dygwyd i mewn drwy hir ymgymysgu â'r cenedloedd. Mae yn amlwg fod y cyfryw arferiad yn eu plith mòr foreu âg amser Jeremiah. Gwel 2 Cron. 35. 25, Jer. 48. 36. Arferent bibellau bychain, megys y *flute*, ar farwolaeth plant; a rhai mwy, ac o gryfach sain, ar farwolaeth rhai mewn oed.

24 Efe a ddywedodd wrthynt, [e] Ciliwch: canys [f] * ni bu farw y llangces, ond cysgu y mae hi. [g] A hwy a'i gwatwarasant ef.

e 1 Bren. 17. 18—24. Act. 9. 40. a 20. 10. f Ioan 11. 4, 11—13. g pen. 27. 39—43. Salm 22. 6, 7. Es. 49. 7. a 53. 3.

* Mae yn amlwg mai wrth y rhai oedd yn cyflawni y defodau angladdawl, ac yn darpar i gladdu yr eneth, y dywedodd Iesu y geiriau uchod; a'i feddwl yn unig oedd, nad oedd hi ddim wedi marw felly, fel ag i ofyn âm eu cynnorthwyon hwynt: ond y cyfodid hi yn y fàn.

25 * Ac wedi [h] bwrw y dyrfa allan, efe a aeth i mewn, [i] † ac a ymaflodd yn ei llaw hi; a'r llangces a gyfododd.

h 2 Bren. 4. 32—36. Act. 9. 40, 41. i Marc 1. 31. a 5. 41. a 8. 23. a 9. 27. Luc 8. 54.

26 ‡ A'r [k] gair o hyn a aeth dros yr holl wlad honno.

k pen. 4. 24. a 14. 1, 2. Marc 1. 45. a 6. 14. Act. 26. 26.

* Parodd Iesu i'r gwatwarwyr hyn fyned allan, fel na chaent yr anrhydedd o weled ei ogoniant ef yn y wyrth ryfedd hon. † Efe a ymafloddd yn ei llaw hi, fel yr ymaflwn ninnau yn llaw plentyn i'w ddeffro; a hi a gyfododd yn y fàn yn fyw ac yn berffaith iach. ‡ Gwyddai yr holl dyrfa a fwriesid allan, ei bod hi wedi marw yn sicr, ac ni chredent amgen; ac wedi ei bywhâu, aeth y gair o hyny ar led yn fuan fel yr oedd yn naturiol.

27 ¶ A phan oedd yr Iesu yn myned oddi yno, [l] dau ddeillion a'i canlynasant ef, gan lefain a dywedyd, [m] * Mab Dafydd, [n] trugarhâ wrthym.

l pen. 11. 5. a 12. 22. a 20. 30. Marc 8. 22, 23. a 10. 46. Luc 7. 21. Ioan 9. 1, &c. m pen. 12. 23. a 15. 22. a 20. 30, 31. a 21. 9, 15. a 22. 41—45. Marc 10. 47, 48. a 11. 10. a 12. 35—37. Luc 28. 38, 39. a 20. 41. Ioan 7. 42. Rhuf. 1. 3. a 9. 5. n pen. 17. 15. Marc 9. 22. Luc 17. 13.

28 Ac wedi iddo [o] ddyfod i'r tŷ, y deillion a ddaethant atto: a'r Iesu a ddywedodd wrthynt, [p] † A ydych chwi yn credu y gallaf fi wneuthur hyn? Hwy a ddywedasant wrtho, Ydym, Arglwydd.

o pen. 8. 14. a 13. 36. p adn. 22. pen. 8. 2. a 13. 58. Marc 9. 23, 24. Ioan 4. 48—50. a 11. 26, 40.

29 ‡ Yna y [q] cyffyrddodd efe a'u llygaid hwy, gan ddywedyd, [r] Yn ol eich ffydd bydded i chwi.

q pen. 20. 34. Ioan 9. 6, 7. r pen. 8. 6, 7, 13. a 15. 28. Marc 10. 52.

30 [s] A'u llygaid a agorwyd: a'r Iesu [t] a orchymynodd iddynt trwy fygwth, gan ddywedyd, ‖ Gwelwch nas gwypo neb.

s Salm 146. 8. Es. 35. 5. a 42. 7. Ioan 9. 7—26. t pen. 8. 4. a 12. 16. a 17. 9. Marc 5. 43. Luc 5. 14. a 8. 56.

31 § Ond wedi iddynt ymado, [u] hwy a'i clodforasant ef trwy yr holl wlad honno.

u Marc 1. 44, 45. a 7. 36.

* Dyma y rhai cyntaf y darllenwn am danynt a ddaeth at Iesu gan ei addef yn Fessiah; oblegid hyny yw meddwl y cyfarchiad Mab Dafydd. Rhagfynegodd y prophwydi y byddai i'r Messiah agoryd llygaid y deillion; gwyddent hwythau am y prophwydoliaethau hyny; ac wedi clywed am wyrthiau blaenorol Crist, credent y gallai efe agoryd eu llygaid hwy, ac mai efe oedd Mab Dafydd, y Messiah. † Gwyddai Iesu o'i ran ei hun eu bod yn credu heb ofyn iddynt; eithr gofynodd, i dynu cyfaddefiad ganddynt hwy mewn geiriau, ac i ddangos iddynt hwy a ninnau, yr angenrheidrwydd o ffydd, ac mai trwy ffydd mae i ni dderbyn pob peth gan Dduw. ‡ Ni wnaeth neb ond Iesu wyrth o'r fath hyn erioed. ‖ Gwyddid o'r blaen eu bod yn ddeillion, ac o hyny allan deuai pawb i wybod eu bod yn gweled; gorchymyn Crist oedd, na chaffai neb wybod mai *efe* a agorodd eu llygaid: fel nad ymddangosai ei fod ef yn ymgais am hunan-glod, ac fel na chynhyrfid eiddigedd yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid, oblegid nid oedd ei awr ef wedi dyfod eto. § Ond gan eu gorfoledd a diolchgarwch eu calonau, nis gallasent hwy beidio a'i glodfori ef drwy yr holl wlad hòno. Yr oedd eu hegwyddor yn dda, ond nis gellir cyfiawnâu eu hymddygiad.

32 ¶ Ac a hwy yn myned allan, wele, rhai a ddygasant atto [x] ddyn * mud, cythreulig.

x pen. 12. 22, 23. Marc 9. 17—27.

33 † Ac wedi bwrw y cythraul allan, [y] llefarodd y mudan: a'r torfeydd a ryfeddasant, gan ddywedyd, [z] ‡ Ni welwyd y cyffelyb erioed yn Israel.

y pen. 15. 30, 31. Ex. 4. 11, 12. Es. 35. 6. Marc 7. 32—37. Luc 11. 14. z 2 Bren. 5. 8. Salm 76. 1. Jer. 32. 20. Luc 7. 9.

* Wrth i'r mudan hwn lefaru wedi bwrw y cythraul allan, mae'n debyg mai trwy weithrediad y cythraul arno yr oedd yn fud, ac nid o'i fabandod na thrwy ddamwain. Mae y gair Groeg, *chophon*, yn arwyddo byddar, yn gystal a mud. † Ni ddywedir yma pa fodd y bwriwyd y cythraul allan, ond mae yn sicr mai â gair ei enau y bwriodd Iesu ef allan fel y gwnaethai droion eraill. ‡ Ni welwyd y cyffelyb erioed yn Israel: ni welwyd yn *Israel*, y genedl a welodd fwyaf o bawb o ryfeddodau a gwyrthiau; ac ni welwyd *erioed* yn Israel, ni wnaeth yr holl brophwydi o'r dechreuad ddim yn gyffelyb. Rhagfynegwyd y gwnelai y Messiah bethau fel hyn, ac Iesu yn unig a'u gwnaeth, er dangos yn amlwg mai efe oedd y Messiah.

34 [a] * Ond y Phariseaid a ddywedasant, Trwy bennaeth y cythreuliaid y mae efe yn bwrw allan gythreuliaid.

a pen. 12. 23, 24. Marc 3. 22. Luc 11. 15. Ioan 3. 20.

* Gan y cawn sylwi ar y cyhuddiad anwireddus hwn

t), yn nghyd âg ateb yr Iachawdwr iddo, awn heibio i o yn y lle hwn, gyda sylwi yn unig, ar y gwahanol ffaith a gafodd y wyrth hon ar y bobl gyffredin ac ar rhariseaid: rhyfeddai y werin, ac ymgynddeiriogai y octoriaid Iuddewig, wrth yr un weithred.

335 A'r [b] Iesu a aeth o amgylch yr holl ddinsoedd a'r trefydd, gan ddysgu yn eu * synagogau hwynt, a chan bregethu efengyl y teyrnas, a iachâu pob clefyd, a phob afiechyd ym mhlith y bobl.

b pen. 4. 23, 24. a 11. 1, 5. Marc 1. 32—39. a 6. 6, 56. Luc 4. 34—44. a 13. 22. Act. 2. 22. a 10. 38.

* Y deml oedd yr unig fàn i aberthu, ond yr oedd synagogau lawer trwy holl wlad Israel i weddïo yn gyddeddus a dysgu y bobl. Gan fod goddefiad i bwy gnag oedd yn meddu dawn a chymhwysderau i roddi ir o gynghor yn y synagogau, byddai yr Iesu yn ichu yn wastad iddynt i bregethu y pethau am dano hun, gan gadarnâu ei athrawiaeth drwy wyrthiau.

336 ¶ * A [c] phan welodd efe y torfeydd, e a dosturiodd wrthynt, am eu bod wedi no, † a'u gwasgaru [d] fel defaid heb ganddynt gail.

c pen. 14. 14. a 15. 32. Marc 6. 34. Heb. 4. 15. a 5. 2. d pen. 6. 6. a 15. 24. Num. 27. 17. 1 Bren. 22. 17. 2 Cron. 18. 16. Es. 9—11. Jer. 50. 6. Ezec. 34. 3—6. Zec. 10. 2. a 11. 16. a 13. 7, 8.

* Pan welodd Iesu y torfeydd, yn amddifad o bobdaeth, yn awyddus am gael eu dysgu, ac wedi blino ei ganlyn ef yn mhell o'u cartref-leoedd, efe a sturiodd wrthynt: yn eu holl gystudd hwynt efe a studdiwyd. † Yr oeddynt fel defaid ar wasgar, dlegid nad oedd ganddynt fugeiliaid yn gofalu am nynt, i'w bugeilio, eu porthi, na'u corlanu. Mae iist yn cyfrif y bobl hyny heb fugeiliaid, sydd heb geiliaid da.

337 Yna y dywedodd efe wrth ei ddisgyblion, * Y cynhauaf yn ddïau *sydd* fawr, [f] † ond y weithwyr yn anaml.

e pen. 28. 19. Marc 16. 15. Luc 10. 2. a 24. 47. Ioan 4. 35, 36. t. 16. 9, 10. a 18. 10. f 1 Cor. 3. 9. 2 Cor. 6. 1. Phil. 2. 19—Col. 4. 11. 1 Thes. 5. 12, 13. 1 Tim. 5. 17.

338 [g] Am hynny attolygwch [h] i Arglwydd y ynhauaf, [i] ‡ anfon gweithwyr i'w gynhauaf.

g Luc 6. 12, 13. Act. 13. 2. 2 Thes. 3. 1. h pen. 10. 1—3. an 20. 21. Eph. 4. 11. i Salm 68. 11, 18. Jer. 3. 15. Mica 5. Luc 10. 1, 2. Act. 8. 4. 1 Cor. 12. 28.

* Trwy weinidogaeth Ioan a Christ, yr oedd deffrôad awr yn y wlad eisoes, heb sôn am y cenedloedd oedd gael yr efengyl yn fuan, felly yr oedd y cynhauaf yn wr. † Er bod llawer o offeiriaid, Lefiaid, ysgrifenddion ar hyd y wlad, eto nid oeddynt yn *weithwyr*, yr edd y gweithwyr yn anaml. ‡ Am hyny dyledswydd ychydig weithwyr ag oedd, oedd gweddïo am i Arwydd y cynhauaf ddanfon gweithwyr ychwaneg. Ystyr gair *anfon* yma yw, *gyru*, neu *wthio* allan, trwy weithiad grymus ar eu meddyliau.

PEN. X.

Crist yn anfon ei apostolion, ac yn eu cysuro, &c.

AC wedi [a] galw ei ddeuddeg disgybl atto, [b] † efe a roddes iddynt awdurdod *yn erbyn* ysprydion aflan, i'w bwrw hwynt allan, ac iachâu pob clefyd a phob afiechyd.

a pen. 19. 28. a 26. 20, 47. Marc 3. 13, 14. a 6. 7. Luc 6. 13. an 6. 70. Dat. 12. 1. a 21. 12—14. b pen. 6. 13. a 28. 18, 19. Marc 3. 15. a 16. 17, 18. Luc 9. 1. a 10. 19. a 21. 15. a 24. 49. Ioan 27, 35. a 17. 2. a 20. 21—23. Act. 1. 8. a 3. 15, 16. a 19. 15.

* Dewisodd yr Arglwydd Iesu y nifer deuddeg, tybir, yda golwg ar ddeuddeg llwyth Israel; ac fel y bu y euddeg patriarch gynt yn dadau yr eglwys Iuddewig, elly hefyd bu y deuddeg hyn megys yn dadau yr eglwys fengylaidd. † Mae Marc a Luc yn sôn am bregethu n mlaenaf, a'r awdurdod gwyrthiol hyn ar ol hyny; yr yn oedd angenrheidiol er cadarnâu gwirionedd eu gweinidogaeth a'u hanfoniad hwy. Nis gallai neb llai na Duw roddi yr awdurdod hwn: yr oedd yn hanfodol yn Iesu fel Person dwyfol, am hyny gallai ei roddi i eraill: ond cyfranedig ydoedd i'r apostolion, wedi ei roddi iddynt gan yr Arglwydd Iesu. Yr oedd *ef* yn gwneyd ei wyrthiau yn ei nerth hanfodol ei hun, eithr yr apostolion drwy y nerth neu yr awdurdod a roisai efe iddynt.

2 Ac enwau y deuddeg [c] * apostolion, yw y rhai hyn: † Y cyntaf, [d] Simon, yr hwn a elwir Pedr, ac [e] Andreas ei frawd; [f] Iago *mab* Zebedëus, [g] ac Ioan ei frawd;

c Luc 6. 13. a 9. 10. a 11. 49. a 22. 14. Act. 1. 26. Eph. 4. 11. Heb. 3. 1. Dat. 18. 20. d pen. 4. 18. a 16. 16—18. Marc 1. 16, 17. a 3. 16. Luc 6. 14. Ioan 1. 40—42. Act. 1. 13. 1 Pedr 1. 1. 2 Pedr 1. 1. e Marc 1. 29. a 3. 18. a 13. 3. Ioan 6. 8. a 12. 22. f pen. 4. 21. a 17. 1. a 20. 20. a 26. 37. Marc 3. 17. Luc 5. 10. Ioan 21. 2. Act. 12. 2. 1 Cor. 15. 7. g Luc 22. 8. Ioan 13. 23. a 20. 2. a 21. 20, 24. Act. 3. 1. 1 Ioan 1. 3, 4. 2 Ioan 1. 3 Ioan 1. Dat. 1. 1, 9. a 22. 8.

3 [h] Phylip, a Bartholomeus; [i] Thomas, a [k] Matthew y publican; [l] Iago *mab* Alphëus, [m] a Lebbëus, yr hwn a gyfenwid Thadëus;

h Marc 3. 18. Luc 6. 14. Ioan 1. 43—46. a 6. 5—7. a 12. 21, 22. a 14. 9. i Luc 6. 15. Ioan 11. 16. a 20. 24—29. a 21. 2. k pen. 9. 9. Marc 2. 14. Luc 5. 27. a 6. 15. Act. 1. 13. l pen. 27. 56. Marc 3. 18. Luc 6. 15, 16. Act. 1. 13. a 12. 17. a 15. 13. a 21. 18. Gal. 1. 19. a 2. 9. Iago 1. 1. m Marc 3. 18. Luc 6. 16. Ioan 14. 22. Act. 1. 13. Judas 1.

4 ‡ [n] Simon y Canaanead, [o] a ‖ Judas Iscariot, yr hwn hefyd a'i bradychodd ef.

n Marc 3. 18. Luc 6. 15. Act. 1. 13. o pen. 26. 14, 47. a 27. 3. Marc 3. 19. a 14. 10, 43. Luc 6. 16. a 22. 3, 47. Ioan 6. 71. a 13. 2, 26—30. a 18. 2—5. Act. 1. 16—20, 25.

* Ystyr y gair apostol yw cenad; ac yn yr ystyr hyny mae Crist ei hun yn cael ei alw yn apostol, Heb. 3. 1. Enwir hwynt yma bob yn ddau a dau, oblegid mai felly y danfonwyd hwynt allan i bregethu, Marc 6. 7. † Enwir Simon, y *cyntaf*, nid am fod ganddo unrhyw awdurdod ar yr apostolion eraill, fel y tybia rhai; ond am mai efe oedd un o'r rhai cyntaf a ganlynodd Grist, ac am ei fod yn un hynod yn mhlith y dysgyblion o ran ei ddawn, ei wresawgrwydd, a phybyrwch ei feddwl: rhaid enwi rhywun yn gyntaf. ‡ Simon y Canaanêad; gelwir hwn felly i'w wahaniaethu ef oddi wrth Simon Pedr yn adn. 2, a gelwir hwnw yn Simon Pedr i'w wahaniaethu ef oddi wrth hwn. Tybir mai un o'r dref a elwid Cana yn Galilea ydoedd hwn, ac mai o hyny y gelwid ef Simon y Canaanêad; ac nid yw yn debyg fod yr un o apostolion Crist, o hiliogaeth yr hen Ganaanêaid gynt. ‖ Judas Iscariot; gelwid hwn felly oddi wrth enw ei le genedigol, tref o'r enw *Iscarioth* yn llwyth Ephraim, medd rhai, o *Carioth* yn llwyth Judah medd eraill. *Is*-carioth, *gwr* o Carioth.

5 Y deuddeg hyn [p] a anfonodd yr Iesu, ac a orchymynodd iddynt, gan ddywedyd, [q] * Nac ewch i ffordd y Cenhedloedd, ac i ddinas [r] y † Samariaid nac ewch i mewn.

p pen. 22. 3. Luc 9. 2. a 10. 1. Ioan 20. 21. q Ioan 7. 35. Act. 10. 45—48. a 11. 1—18. a 22. 21—23. Rhuf. 15. 8, 9. 1 Thes. 2. 16. r 1 Bren. 17. 24, &c. Luc 9. 52—54. Ioan 4. 9, 22—24. Act. 1. 8. a 8. 1, 5, &c.

6 ‡ Eithr [s] ewch yn hytrach at [t] gyfrgolledig ddefaid tŷ Israel.

s pen. 15. 24—26. Luc 24 47. Act. 3. 26. a 13. 46. a 18. 6. a 26. 20. a 28. 25—28. Rhuf. 11. 11—15. t pen. 18. 11, 12. Salm 119. 176. Es. 53. 6. Ezec. 34. 5, 16. Luc 15. 3—10. 1 Pedr 2. 25.

* Nid oedd yr amser eto wedi dyfod i bregethu yr efengyl i'r cenedloedd, na digon o weithwyr i gynhauaf mòr fawr; am hyny nid oeddynt i fyned eto i ffordd y cenedloedd. † Nid oeddynt ychwaith i fyned i mewn i ddinas y Samariaid; cenedloedd oedd yno gan mwyaf, yn gymmysg âg Iuddewon gwrthgiliedig, dim gwell na chenedloedd. Gan fod y Samariaid oll yn ffiaidd gan yr Iuddewon, buasai pregethu yr efengyl yno y pryd hwnw yn dramgwydd i'r Iuddewon, ac yn rhwystr iddynt hwy ei derbyn. ‡ Tŷ Israel yma oedd y ddau lwyth; yr oedd y deg arall ar goll er ys oesoedd, 2 Bren.

17. 6. cyfr-golledig ddefaid oedd y rhai hyn, o ran arferion drwg, o ran cyfiwr drwg, ac o ran nad oedd ganddynt wir fugeiliaid yn gofalu am danynt. Yr oedd y rhai hyn i gael y cynnyg cyntaf ar yr efengyl, fel y byddent yn ddiesgus.

7 * Ac wrth fyned, [u] Pregethwch, gan ddywedyd, [x] Fod teyrnas nefoedd yn nesâu.

u pen. 4. 17. a 11. 1. Es. 61. 1. Jona 3. 2. Marc 6. 12. Luc 9. 60. a 16. 16. Act. 4. 2. x pen. 3. 2. a 11. 11, 12. a 21. 31, 43. a 23. 13. Luc 9 2, 6. a 10. 9—11. Act. 20. 25. a 28. 31.

8 [y] † Iachêwch y cleifion, glanhêwch y rhai gwahan-glwyfus, cyfodwch y meirw, bwriwch allan gythreuliaid: [z] ‡ derbyniasoch yn rhad, rhoddwch yn rhad.

y adn. 1. Marc 16. 18. Luc 10. 9. Act. 4. 9, 10, 30. a 5. 12—15. z 2 Bren. 5. 15, 16, 20—27. Act. 3. 6. a 8. 19—23. a 20. 33—35.

* Eu gwaith hwynt oedd pregethu: pregethu Crist a'r iachawdwriaeth fawr trwy Grist, yn ei holl helaethrwydd: pregethu teyrnas y Messiah hefyd, sef goruchwyliaeth yr efengyl, a chymmeil dynion i dderbyn Crist a'i iachawdwriaeth, ac ymroddi yn ddeiliaid iddo. Yr oeddynt i wneyd hyn yn gyhoeddus, â llef uchel, fel Jonah yn Ninifeh. Cenadon Duw oeddynt! † Ac i wneyd i fynu am waeledd eu hymddangosiad, ac i brofi dwyfoldeb eu danfoniad, yr oeddynt i wneyd y gwyrthiau a enwyd yn ol yr awdurdod a gawsent. ‡ Eithr nid oeddynt i wneyd elw iddynt eu hunain o'u gweinidogaeth, ond rhoddi yn rhad fel y derbyniasent yn rhad.

9 * Na feddwch [a] aur, nac arian, nac efydd i'ch pyrsau;

a Marc 6. 8. Luc 9. 3. a 10. 4. a 22. 35.

10 Nac [b] ysgrepan i'r daith, na [c] dwy bais, nac esgidiau, † na ffon: [d] ‡ canys teilwng i'r gweithiwr ei fwyd.

b 1 Sam. 9. 7. a 17. 40. c Luc 3. 11. 2 Tim. 4. 13. d Luc 10. 7. 1 Cor. 9. 4—14. Gal. 6. 6, 7. 1 Tim. 5. 17, 18.

* Amcan y gwaharddiadau hyn oedd, dangos i'r apostolion na ddylent fod yn rhagofalus am bethau tymmorol, ond myned i'w gwaith gan ymddiried i ofal rhagluniaeth Duw. † *Na ffon;* tybir nad yw Crist ddim yn gwahardd iddynt yma ffon i deithio ar ei phwys, yn y modd cyffredin; ond mai ffon i gario beichiau â hi a feddylir, neu ffon i amddiffyn eu hunain. Yn Marc 6. 8. mae yn gorchymyn llaw-ffon iddynt. Na *ffyn* yw y Saesoneg, a dywedir fod y nifer *dau* yn perthyn i bob un o'r pethau a enwir uchod, yn gystal a dwy bais. Pan elai yr Iuddewon i daith bell, hwy a gymmerent bâr o ddillad a phethau eraill gyda hwynt, heblaw yr hyn oedd am danynt ac mewn gwasanaeth uniongyrchol ganddynt; ond gwaharddai Iesu hyny i'w apostolion, rhag llwytho eu hunain â phethau afreidiol, eithr danfonai hwy yn union fel yr oeddynt. ‡ Heblaw dysgu ei apostolion ymddiried i ofal rhagluniaeth, mae yn dysgu hefyd i'r bobl eu dyledswydd tuag at yr apostolion, ac i bawb eto eu dyledswydd tuag at weinidogion yr efengyl; teilwng i'r gweithiwr ei fwyd.

11 Ac i ba ddinas bynnag neu dref yr eloch, [e] * ymofynwch pwy sydd deilwng ynddi; [f] ac yno trigwch hyd onid eloch ymaith.

e Gen. 19. 1—3. Barn. 19. 16—21. 1 Bren. 17. 9, &c. Job 31. 32. Luc 10. 38—42. a 19. 7. Act. 16. 15. a 18. 1—3. 3 Ioan 7, 8. f Marc 6. 10. Luc 9. 4. a 10. 7, 8.

12 † A phan ddeloch i dŷ, [g] cyferchwch well iddo.

g Luc 10. 5, 6. Act. 10. 36. 2 Cor. 5. 20. 3 Ioan 14.

13 ‡ Ac os bydd y tŷ yn [h] deilwng, deued eich tangnefedd arno: ac oni bydd yn deilwng, dychweled eich tangnefedd attoch.

h Salm 35. 13. Luc 10. 6. 2 Cor. 2. 16.

14 ‖ A [i] phwy bynnag ni'ch derbynio chwi, ac ni wrandawo eich geiriau, pan ymadawoch o'r tŷ hwnnw, neu o'r ddinas honno, [k] ysgydwch y llwch oddi wrth eich traed.

i adn. 40, 41. pen. 18. 5. Marc 6. 11. a 9. 37. Luc 9. 5, 48. a 10. 10, 11. Ioan 13. 20. 1 Thes. 4. 8. k Neh. 5. 13. Act. 13. 51. a 18. 6. a 20. 26, 27.

15 [l] § Yn wir meddaf i chwi, [m] Esmwythach fydd i dir y Sodomiaid a'r Gomoriaid [n] yn nydd y farn, nag i'r ddinas honno.

l pen. 5. 18. a 24. 34, 35. m pen. 11. 22—24. Ezec. 16. 48—56. Marc 6. 11. Luc 10. 11, 12. Ioan 15. 22—24. n pen. 12. 36. 2 Pedr 2. 9. a 3. 7. 1 Ioan 5. 17.

* Ymofynwch pwy sydd deilwng: pwy sydd a gair da iddo am grefydd, ymarweddiad hardd, a llettygarwch. Ewch i mewn yno, yn hytrach nac i blith rhai annuwiol ac anfoesol, yr hyn a fyddai yn fagl i chwi, yn warth i'ch swydd, ac yn rhwystr i lwyddiant eich gweinidogaeth. † A phan eloch i dŷ, ewch yno yn addfwyn a boneddigaidd, fel y gweddai i genadon yr efengyl, fel yr enniller y teulu wrth eich ymddygiad hardd chwi. Cyferchwch hwy yn y dull arferedig, gan ddymuno tangnefedd arnynt. ‡ Os bydd y tŷ yn dŷ crefyddol, teilwng, e ddaw tangnefedd arno, yn ol eich dymuniad chwi: os na bydd, nid â eich gweddi chwi ddim yn ofer, ac ni byddwch chwi ddim ar eich colled; daw y fendith arnoch chwi eich hunain. ‖ Lle na dderbynier mo honoch, ymadewch; ac wrth ymadael, ysgydwch y llwch oddi wrth eich traed, yn arwydd o'ch tra chasineb at eu caledwch a'u hannuwioldeb. (Pan fyddai yr Iuddewon wedi bod ar ryw achlysur yn ngwlad y cenedloedd, ysgydwent lwch eu daear oddiwrth eu traed ar y terfyn, rhag halogi y tir sanctaidd â llwch y cenedloedd. Cyfeiriad at hyny, tebygir, sydd yma.) § Er bod pechodau y Sodomiaid a'r Gomoriaid yn fawr iawn, eto ni phechasant yn wyneb cymmaint o oleuni a chynnygion da ag y pechodd yr Iuddewon hyn, a phawb eraill sydd yn gwrthod yr efengyl: am hyny bydd eu barn hwy yn drymach na barn y Sodomiaid.

16 ¶ Wele, yr ydwyf fi yn eich * danfon [o] fel † defaid y'nghanol bleiddiaid: byddwch chwithau [p] gall fel y seirph, [q] a diniwed fel y colommenod.

o Luc 10. 3. Act. 20. 29. p Gen. 3. 1, 13. Luc 21. 15. 1 Cor. 14. 20. 2 Cor. 11. 3, 14. Eph. 5. 15—17. Col. 1. 9. a 4. 5. q 2 Cor. 8. 20. Phil. 2. 15. 1 Thes. 2. 10. a 5. 22. Rhuf. 16. 18, 19. 2 Cor. 1. 12. a 11. 3.

* Mae y danfon yma yn myned am holl ddanfoniad yr apostolion, ac nid am eu danfoniad y tro hwn yn unig; oblegid ar ol ymadawiad Iesu y buont hwy yn nghanol bleiddiaid fwyaf, nid cyn ei esgyniad. † Y crëaduriaid mwyaf diniwed o holl grëaduriaid y maes yw y defaid; y mwyaf diniwed o holl adar yr awyr yw y colomenod; a'r mwyaf cyfrwys o'r holl grëaduriaid direswm yw y seirff. Call i beidio cyffrôi gelynion y gwirionedd yn afreidiol, a chall i weled a gochel perygl oddi wrth y rhai hyny; a phwnc mawr yn y callineb cyntaf oedd, bod yn ddiniwed fel y colomenod. Ymadrodd diarebol mae yn debyg oedd y ddau beth uchod, a bod *mòr llygad-fain â'r sarff* ydoedd ddiareb yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Dysgir ni yma, y dylai callineb a diniweidrwydd fod yn nghrefydd pawb, yn enwedig gweinidogion yr efengyl.

17 Eithr [r] ymogelwch rhag dynion; [s] canys hwy a'ch roddant chwi i fynu i'r [t] * cynghor, ac a'ch [u] ffrewyllant chwi yn eu synagogau.

r Mica 5. 7. Marc 13. 9, 12. Act. 14. 5, 6. a 17. 14. a 23. 12—22. 2 Cor. 11. 24—26. 2 Tim. 4. 15. s pen. 24. 9, 10. Marc 13. 9. Luc 21. 12, 13. Ioan 16. 2. Act. 4. 6, &c. a 5. 26, &c. a 23. 1, &c. t pen. 5. 22. a 26. 59. Ioan 11. 47. u pen. 20. 19. a 23. 34. Deut. 25. 2, 3. Act. 5. 40. a 22. 19. a 26. 11. 2 Cor. 11. 24, 25. Heb. 11. 36.

18 † A chwi a [x] ddygir at lywiawdwyr a brenhinoedd o'm hachos i, [y] ‡ er tystiolaeth iddynt hwy ac i'r Cenhedloedd.

x Salm 2. 1—6. Act. 5. 25—27. a 12. 1—4. a 23. 33, 34. a 24. —26. 2 Tim. 4. 16, 17. y pen. 8. 4. Marc 13. 9. 2 Tim. 1. 8. Dat. 1. 9. a 6. 9. a 11. 7.

* Mae y cynghor a'r synagogau yn dangos yr erlid a ga'i yr apostolion gan yr Iuddewon, † a'r llywiawdwyr a'r breninoedd yn dangos yr erlid a gaent yn mhlith y

enedloedd. Dyma'r bleiddiaid a soniwyd yn yr adnod
blaen. ‡ Ger bron y rhai hyn oll, bu yr apostolion
y tystiolaethu am Grist, ac yn eu herbyn hwythau,
vy eu proffes o hôno, a thrwy ddyoddef yn ei achos.
Er tystiolaeth yn eu *herbyn* hwy a'r cenedloedd yw y
esoneg, ond addefir mai *iddynt* hwy ac *i'r* cenedloedd
r meddwl y geiriau Groeg.

19 Eithr [z] pan y'ch rhoddant chwi i fynu,
[c] na ofelwch pa fodd neu pa beth a lefaroch:
canys [b] rhoddir i chwi yn yr awr honno pa
bth a lefaroch.

z Marc 13. 11. Luc 12. 11. a 21. 14. a pen. 6. 25, 31, 34.
il. 4. 6. Iago 1. 5. b Ex. 4. 12, 15. Jer. 1. 7—9. Dan. 3. 16
18. Act. 4. 8—14. a 5. 29—33. a 6. 10. a 26. 2, &c. 2 Tim. 4. 17.

20 Canys nid chwychwi yw y rhai sydd yn
lefaru, [c] ‡ ond Yspryd [d] eich Tad yr hwn sydd
n llefaru ynoch.

c 2 Sam. 23. 2. Marc 12. 36. Luc 11. 13. a 21. 15. Act. 2. 4.
8. a 7. 55, 56. a 28. 25. 1 Pedr 1. 12. 2 Pedr 1. 21. d pen.
32. Luc 12. 30—32.

Dynion anllythyrenog oedd yr apostolion, ac anghyn-
ifin a llefaru ger bron gwŷr mawr, † ond yma calon-
iir hwy âg addewid, y rhoddai Duw iddynt pa beth i
faru yn yr awr y byddai ei eisiau. ‡ Achos Duw oedd
achos, a danfonai Duw ei Ysbryd i ddadlau dros ei
hos yn yr apostolion. Er y gall pob gweinidog yr
engyl ddysgwyl cymmorth yr Ysbryd Glân yn ei waith,
o nid yw yr addewid *hon* yn perthyn i waith cyffredin
weinidogaeth; yn enwedig i weinidog dilafur.

21 * A [e] brawd a rydd frawd i fynu i farw-
aaeth, a thad ei blentyn: [f] a phlant a godant i
rnu yn erbyn *eu* rhieni, ac a barant eu marw-
aaeth hwynt.

e adn. 34, 35. pen. 24. 10. Mica 7. 5, 6. Zec. 13. 3. Marc 13.
13. Luc 12. 51—53. a 21. 16, 17. f 2 Sam. 16. 11. a 17. 1—
Job 19. 19.

22 A [g] chas fyddwch gan bawb [h] er mwyn
enw i: [i] † ond yr hwn a barhâo hyd y di-
edd efe fydd cadwedig.

g pen. 24. 9. Es. 66. 5, 6. Luc 6. 22. Ioan 7. 7. a 15. 18, 19. a
14. 1 Ioan 3. 13. h adn. 39. pen. 5. 11. Ioan. 15. 21. Act. 9.
2 Cor. 4. 11. Dat. 2. 3. i pen. 24. 13. Dan. 12. 12, 13. Marc
13. Luc 8. 15. Rhuf. 2. 7. Gal. 6. 9. Heb. 3. 14. a 6. 11. Iago 1.
Judas 20, 21. Dat. 2. 7, 10, 17, 26. a 3. 21.

* Gwelwn yma elyniaeth calon dynion anianol, yn
erbyn Crist a'r efengyl; yn tori drwy holl rwymau natur
serchiadau dynol: y perthynasau agosaf yn casâu, yn
radychu, ac yn erlid eu gilydd i farwolaeth! † Ond
r hwn a ddalio ei brofi gan yr erlidiau hyn, fel y deil
ur ei brofi yn y tân, ac a barhâo heb wadu y ffydd, hyd
diwedd y prawf neu ddiwedd ei oes, efe a fydd cadw-
dig.

23 * A [k] phan y'ch erlidiant yn y ddinas
on, ffowch i un arall: canys yn wir y dywed-
f wrthych, † Na orphenwch ddinasoedd Israel,
‡ nes dyfod Mab y dyn.

k pen. 2. 13. a 12. 14, 15. Luc 4. 29—31. Ioan 7. 1. a 10. 39—
2. a 11. 53, 54. Act. 8. 1. a 9. 24, 25. a 13. 50, 51. a 14. 6, 7, 19, 20.
17. 10, 14. a 20. 1. l pen. 16. 28. a 24. 27, 30, 48. a 25. 13. a
6. 64. Marc 13. 26. Luc 18. 8. a 21. 27.

* Yn yr erlidiau hyn, dyledswydd yr apostolion oedd
rfer pob moddion i achub eu bywydau gwerthfawr a
efnyddiol; drwy ffoi o un ddinas i'r llall, a phregethu
hyd, pa le bynag yr elent. † Ac er cael eu herlid
elly o ddinas i ddinas, ni chaent amser i fyned drwy
oll ddinasoedd Israel, ‡ hyd oni ddeuai Mab y dyn i
ddïal ar y genedl Iuddewig, a'u danfon hwythau at y
enedloedd.

24 [m] * Nid yw y disgybl yn uwch na'*i*
athraw, na'r gwas yn uwch na'i Arglwydd.

m 2 Sam. 11. 11. Luc 6. 40. Ioan 13. 16. a 15. 20, 21. Heb.
2. 2—4.

25 Digon i'r disgybl fod fel ei athraw, a'r
gwas fel ei arglwydd. [n] † Os galwasant ber-
chen y tŷ yn ‡ Beelzebub, pa faint mwy ei
ei dylwyth ef?

n pen. 9. 34. a 12. 24. Marc 3. 22. Luc 11. 15. Ioan 7. 20. a
8. 48, 52. a 10. 20.

* Na ryfeddwch wrth yr erlidiau hyn; gwelsoch, a
chewch weled eto, eich athraw yn cael ei erlid, na
ddysgwyliwch chwithau well triniaeth, digon o anrhyd-
edd i'r dysgybl fod fel ei athraw. † Os galwasant fi, y
pen teulu, yn swynwr, ac mewn cyngrair â Beelzebub,
pa faint mwy y dywedant bethau felly am danoch chwi?
‡ Beelzebub, penaeth y cythreuliaid, oedd duw Ecron:
duw y cylion (yn Gymraeg) y galwai yr Iuddewon ef o
wawd, o herwydd yr heidiau o gylion a ddisgynai ar yr
anifeiliaid a aberthid iddo: a dywedant nad oedd yr un
i'w weled yn y deml yn Jerusalem, er maint o aberthau
a leddid yno.

26 [o] * Am hynny nac ofnwch hwynt: [p] o-
blegid nid oes dim † cuddiedig, a'r nas dat-
guddir; na dirgel, a'r nas gwybyddir.

o adn. 28. Diar. 28. 1. a 29. 25. Es. 41. 10, 14. a 43. 1, 2. a 51.
7, 8, 12, 13. Jer. 1. 8, 17, 18. Ezec. 2. 6. Act. 4. 13, 19. 1 Pedr 3.
14. p Marc 4. 22. Luc 8. 17. a 12. 2, 3. a 24. 47. Act. 1. 8.

* Nac ofnwch am danoch eich hunain, nac am lwydd-
iant eich gwaith: nis gallant hwy eich drygu ond fel y
goddefo Duw, nac atal llwyddiant yr efengyl. † Er bod
uniondeb eich egwyddorion chwi, a gogoniant yr
efengyl, yn guddiedig yn bresenol; eto dygaf fi bob un
o'r ddau i'r goleuni yn ei iawn bryd.

27 Yr hyn [q] yr ydwyf yn ei ddywedyd wrth-
ych chwi yn y * tywyllwch, dywedwch yn y
goleuni: a'r hyn a glywch yn y † glust,
[r] pregethwch ‡ ar bennau y tai.

q pen. 13. 11—17, 34, 35. Luc 8. 10. Ioan 16. 13, 25, 29. 2 Cor.
3. 12. r Diar. 1. 20—23. a 8. 1—5. Act. 5. 20, 28. a 17. 17.

* Tywyllwch yma a arwydda, yn ddirgel, ac o'r neilldu;
felly y byddai Crist yn aml yn dysgu ei ddysgyblion.
† Yn y glust: byddai y dysgawdwyr Iuddewig yn arfer
traddodi eu hathrawiaeth yn ddistaw, yn nghlustiau eu
dysgyblion. ‡ Pan fyddai yr Iuddewon am wneuthur
rhywbeth yn gyhoedd iawn, byddent yn myned i benau
y tai i'w gyhoeddi.

28 * Ac [s] nac ofnwch rhag y rhai a laddant
y corph, ac nid allant ladd yr enaid; † eithr
yn hytrach [t] ofnwch yr hwn a [u] ddichon ddis-
trywio enaid a chorph yn uffern.

s adn. 26. Es. 8. 12, 13. a 51. 12. Dan. 3. 10—18. Luc 12. 4,
5. Act. 20. 23, 24. a 21. 13. Rhuf. 8. 35—39. 2 Tim. 4. 6—8. Heb.
11. 35. Dat. 2. 10. t Salm 119. 120. Preg. 5. 7. a 8. 12, 13. Es.
66. 2. Jer. 5. 22. Heb. 12. 28, 29. u pen. 25. 46. Marc 9. 43—
48. Luc 16. 22—26. Ioan 5. 29. 2 Thes. 1. 8—10. Dat. 20. 10—15.

* Nis gall eich erlidwyr ond lladd eich cyrph am
wneyd eich dyledswydd, a hwy a wnant hyny yn y di-
wedd; † ond yn hytrach na thynu yn ol rhag ofn hyny,
ofnwch Dduw yr hwn a ddichon gospi enaid a chorph
yn uffern am anffyddlondeb yn eich dyledswydd. Ofn
Duw yw y peth gorau i fwrw allan ofn dynion.

29 * Oni [x] werthir dau aderyn y tô er
† ffyrling? [y] ac ni syrth un o honynt ar y
ddaear heb eich tad chwi.

x Luc 12. 6, 7. y Salm 104. 27—30.

30 [z] Ac y mae, ïe, holl wallt eich pen wedi
eu cyfrif.

z 1 Sam. 14. 45. 2 Sam. 14. 11. 1 Bren. 1. 52. Luc 12. 7. a
21. 18. Act. 27. 34.

31 Nac ofnwch gan hynny: chwi a delwch
fwy na llawer o adar y tô.

a pen. 6. 26. a 12. 11, 12. Salm 8. 5. Luc 12. 24. a 13. 15
16. 1 Cor. 9. 9, 10.

* Mae y Cyfryngwr yma yn dangos gofal manylaf
Duw yn ei ragluniaeth, am y pethau distadlaf, a mwyaf
diwerth, a pha faint mwy y gofala efe am ei genadon,
gweinidogion yr efengyl, y rhai sydd yn werth llawer o
adar y tô. Cyfeiriad sydd yma tybir, at y ddau aderyn
tô a ddefnyddid i lanâu y gwahan-glwyfus, dan y ddeddf

seremoniol: Lefit. 14. 4, &c. † Ffyrling: tua thair ffyrling o'n harian ni.

32 Pwy bynnag gan hynny a'm [b] * cyffeso i y'ngŵydd dynion, [c] minnau a'i † cyffesaf yntau y'ngŵydd fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.

b Salm 119. 46. Luc 12. 8, 9. Ioan 9. 22. Rhuf. 10. 9, 10. 1 Tim. 6. 12, 13. 2 Tim. 1. 8. 1 Ioan 4. 15. Dat. 2. 13. c pen. 25. 35. 1 Sam. 2. 30. Dat. 3. 5.

33 ‡ A phwy bynnag a'm [d] gwado i y'ngŵydd dynion, minnau a'i gwadaf yntau y'ngŵydd fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.

d pen. 26. 70—75. Marc 8. 38. Luc 9. 26. a 12. 9. 2 Tim. 2. 12, 13. 2 Pedr 2. 1. 1 Ioan 2. 23.

Mae Crist yn gofyn genym ni, nid yn unig credu ynddo, ond hefyd gwneuthur proffes gyhoeddus o hóno, a hyny yn wyneb peryglon, gelynion, a gwrthwynebiadau. * Yma, yn ngŵydd dynion, y mae i ni ei gyffesu ef; † a phwy bynag a wnelo hyny yn ffyddlawn a diragrith yma, cyffesa yntau y rhai hyny yn gyhoeddus ddydd y farn, yn ngŵydd ei Dad. ‡ Pwy bynag a'i gwado ef yma, drwy gywilydd neu ofn, Iesu a'i gwad yntau yn ngŵydd ei Dad. Gwadu parhâus a hollawl a feddylir, nid gwadu fel Pedr, yr hwn a gafodd faddeuant.

34 * Na thybiwch [e] fy nyfod i ddanfon tangnefedd ar y ddaear: † ni ddaethum i ddanfon tangnefedd, ond cleddyf.

e Jer. 15. 10. Luc 12. 49—53. Ioan 7. 40—52. Act. 13. 45—50. a 14. 2, 4.

35 ‡ Canys mi a ddaethum [f] i osod dyn i ymrafaelio yn erbyn ei dad, a'r ferch yn erbyn ei mam, a'r waudd yn erbyn ei chwegr.

f adn. 21. pen. 24. 10. Mica 7. 5, 6. Marc 13. 12. Luc 21. 16.

* Tybiai yr Iuddewon y byddai heddwch yn gyffredinol yn eu plith, dan lywodraeth y Messiah a ddychymmygent ac a ddysgwylient hwy; † ac er mai Iesu oedd y Messiah, ac er mai sanctaidd a heddychol oedd ei gyfreithiau a'i deyrnas; eto o herwydd llygredigaeth, anghrediniaeth, a gelyniaeth calon yr Iuddewon, gwrthodasant y Messiah a'i deyrnas: rhyfelasant yn ei herbyn, a rhyfelodd Duw yn ofnadwy â hwythau, am eu gwrthodiad o hóni. ‡ Tybir mai barn Duw ar yr Iuddewon am wrthod Crist a'r efengyl, yw yr "ymrafaelio" annaturiol a sonir yma: ysbryd drwg o anghydfod, rhwng y perthynasau agosaf a'u gilydd, nid yn nghylch yr efengyl, ond am eu gwrthodiad o hóni. Nid hyny oedd amcan na dymuniad Crist yn ei ddyfodiad, ond gwyddai ef mai hyny a fyddai y canlyniad, lle byddai rhai yn derbyn yr efengyl, ac eraill yn ymrafaelio â hwynt ac yn eu herlid, am hyny.

36 * A [g] gelynion dyn *fydd* tylwyth ei dŷ ei hun.

g Gen. 3. 15. a 4. 8—10. a 37. 17—28. 1 Sam. 17. 28. 2 Sam. 16. 11. Job 19. 13—19. Salm 41. 9. a 55. 13. Jer. 12. 6. a 20. 10. Ioan 13. 18.

* Lle dylasai dyn ddysgwyl y cariad a'r cyfeillgarwch mwyaf, mae yn cael y cas a'r gelyniaeth gwaethaf. Mòr ddychrynllyd yr oedd y farn uchod wedi syrthio ar wrthodwyr yr efengyl!

37 * Yr hwn [h] sydd yn caru tad neu fam yn fwy na myfi, nid yw deilwng o honof fi: a'r neb sydd yn caru mab neu ferch yn fwy na myfi, [i] † nid yw yn deilwng o honof fi.

h pen. 22. 37. Deut. 33. 9. Luc 14. 26. Ioan 5. 23. a 21. 15—17. 2 Cor. 5. 14, 15. Phil. 3. 7—9. i pen. 22. 8. Luc 20. 35. a 21. 36. 2 Thes. 1. 5—7. Dat. 3. 4.

* Nid yw Crist yma yn gwahardd serchiadau naturiol, ond dangos y mae, y dylai efe gael ei garu o flaen pawb a phob peth arall. Ac os bydd cariad at neb o'n perthynasau yn rhwystr i ni garu a chanlyn Iesu, † nad ydym ni ddim yn deilwng o hóno ef. Nid ydym deilwng o'i ffafr ef yma, nac o'i ogoniant yn y byd a ddaw.

38 * A'r hwn [k] nid yw yn cymmeryd ei groes, ac yn canlyn ar fy ol i, † nid yw deilwng o honof fi.

k pen. 16. 24. a 27. 32. Marc 8. 34. a 10. 21. Luc 9. 23, 24. a 14. 27. Ioan 19. 17.

* Nid *gwneyd* croes a ddywedir, ond *cymmeryd* y groes. Nid helbulon cyffredin bywyd a feddylir wrth y groes, ond erledigaethau hyd ferthyrdod o achos yr efengyl. Cymmeryd y groes yma, sydd yn cyfeirio at yr arfer o beri i ddrwg-weithredwyr gario eu croesau i'r dienydd-le, a dangosiad lled amlwg, y byddai raid i'r apostolion farw drwy groeshoeliad. † Os na wnaent gymmeryd eu croesau, nid oeddynt deilwng o hóno ef; cymmerodd ef ei groes, a bu farw arni drostynt hwy.

39 * Y neb [l] sydd yn cael ei einioes, a'i cyll: † a'r neb a gollo ei einioes o'm plegid i, a'i caiff hi.

l pen. 16. 25, 26. Marc 8. 35, 36. Luc 17. 33. Ioan 12. 25. Phil. 1. 20, 21. 2 Tim. 4. 6—8. Dat. 2. 10.

* Yr hwn a gaffo ei fywyd naturiol trwy fy ngwadu I, yn hytrach na dyoddef hyd angau, a gyll ei fywyd tragywyddol; † ond y neb a gollo ei fywyd naturiol o'm plegid I, a gaiff fywyd tragywyddol.

40 ¶ * Y neb [m] sydd yn eich derbyn chwi, sydd yn nerbyn i; [n] a'r neb sydd yn fy nerbyn i, sydd yn derbyn yr hwn a'm danfonodd i.

m pen. 18. 5. Luc 9. 48. a 10. 16. Ioan 13. 20. a 20. 21. 2 Cor. 5. 20. Gal. 4. 14. 1 Thes. 4. 8. n Ioan 5. 23. a 12. 44—49. Phil. 2. 10, 11. 1 Ioan 2. 22, 23. 2 Ioan 9.

41 † Y neb [o] sydd yn derbyn prophwyd yn enw ‡ prophwyd, a dderbyn wobr prophwyd; a'r neb sydd yn derbyn ‖ un cyfiawn yn enw un cyfiawn, a dderbyn [p] wobr un cyfiawn.

o Gen. 20. 7. 1 Bren. 17. 9—15, 20—24. a 18. 3, 4. 2 Bren. 2. 8—10, 16, 17, 32—37. Act. 16. 15. Rhuf. 16. 1—4, 23. 2 Tim. 1. 16—18. 3 Ioan 5—8. p pen. 6. 1, 4, 6, 18. a 16. 27. a 25. 34—40. Es. 3. 10. Luc 14. 13, 14. 1 Cor. 9. 17. 2 Thes. 1. 6, 7. 2 Ioan 8.

42 A phwy bynnag a roddo i'w yfed i [q] un o'r § rhai bychain hyn, [r] * phïolaid o *ddwfr* oer yn unig yn enw disgybl, yn wir meddaf i chwi, [s] Ni chyll efe ei wobr.

q pen. 18. 3—6, 10, 14. Zec. 13. 7. Marc 9. 42. Luc 17. 2. 1 Cor. 8. 10—13. r Marc 9. 41. a 12. 42, 43. a 14. 7, 8. 2 Cor. 8. 12. s Diar. 24. 14. Luc 6. 35. 2 Cor. 9. 6—15. Phil. 4. 15—19. Heb. 6. 10.

Gwedi rhag-fynegi o'r blaen am yr erlidiau a'r gwrthwynebiadau a ga'i yr apostolion, mae yr Arglwydd Iesu yn yr adnodau hyn, yn dangos na byddai pawb, yn hollawl, ddim yn eu herlid ac yn eu casâu; ond y derbynid hwy gan rai yn dirion ac yn llettygar; ac na byddai y rhai hyny ddim ar eu colled o'u derbyn, ond y gwobrwyai Duw hwynt, gan ystyried derbyniad ei genadon fel derbyniad iddo ef ei hun, a'r Tad yr hwn a'i hanfonodd ef. * Derbyn sydd air cyffredin, yn arwyddo yma, derbyn athrawiaeth yr apostolion am Grist, trwy ei gwrando a'i chredu: ac fel hyny yr oeddynt yn derbyn Crist ei hun, a'r Tad yr hwn a'i hanfonodd ef. † Gellir meddwl wrth dderbyn yn adn. 41, mai derbyn i'w tai a ddylem ddëall, a groesawu yr apostolion fel cenadon Crist, ac er ei fwyn ef. Ac fel hyny hefyd yr oeddynt yn derbyn Crist; fel y mae y neb a dderbynio genadwr brenin, megys yn derbyn y brenin ei hun. ‡ Prophwyd: yr apostolion, ac eraill yn yr eglwys dan ysbrydoliaeth neillduol Duw. Prophwyd a arwydda apostol, neu un yn y weinidogaeth. ‖ Un cyfiawn: un enwog mewn duwioldeb a sancteiddrwydd. Un cyfiawn a arwydda ddyn duwiol sanctaidd, er na byddai yn y weinidogaeth. § Rhai bychain: crefyddwyr ieuainc; didwyll, ond bychain mewn gwybodaeth. Rhai bychain a arwydda y rhai tlodion a distadl, o wir ddisgyblion a chanlynwyr Crist. * Yr oedd hyny yn werthfawr iawn i deithwyr lluddedig yn y wlad boeth hòno, nid hawdd oedd ei gael heb arian, ond gan ambell i wr neu wraig dra chymmwynasgar; ac yn enwedig nid hawdd oedd i

dysgyblion tlodion Crist ei gael, herwydd gelyniaeth pawb yn gyffredin yn eu herbyn.

PEN. XI.

Ioan yn anfon ei ddysgyblion at Grist. 7 Tystiolaeth Crist am Ioan, &c.

1 BU, pan orphenodd yr Iesu [a] orchymyn i'w ddeuddeg disgybl, [b] * efe a aeth oddi yno i † ddysgu ac i bregethu yn eu dinasoedd hwy.

a pen. 28. 20. Ioan 15. 10, 14. Act. 1. 2. a 10. 42. 1 Thes. 4. 2. 2 Thes. 3. 6, 10. 1 Tim. 6. 10. b pen. 4. 23. a 9. 35. Es. 61. 1—3. Marc 1. 38, 39. Luc 4. 15—21. a 8. 1. Act. 10. 38.

* Nid oedd Iesu byth yn segur: wedi danfon ei dysgyblion i bregethu, efe a aeth ei hun hefyd. † Dysgu phregethu yw gwaith gweinidogion yr efengyl, nid sgura.

2 A [c] Ioan, pan glybu [d] * yn y carchar weithredoedd Crist, [e] wedi danfon dau o'i ddisgyblion,

c Luc 7. 18—23. d pen. 4. 12. a 14. 3. Marc 6. 17, 18. Luc 3. 19, 20. Ioan 3. 24. e pen. 9. 14. Ioan 3. 25—28. a 4. 1. Act. 18. 1—3.

3 A ddywedodd wrtho, † [f] Ai tydi yw yr hwn sydd yn dyfod, ai un arall yr ydym yn ei ddisgwyl?

f pen. 2. 2—6. a 21. 5, 9. Gen. 3. 15. a 12. 3. a 49. 10. Num. 24. 17. Deut. 18. 15—18. Salm 2. 6—12. a 110. 1—5. Es. 7. 14. a 9. 6, 7. Jer. 23. 5, 6. Ezec. 34. 23, 24. Dan. 9. 24—26. Hos. 3. 5. Joel 2. 28—32. Amos 9. 11, 12. Ob. 21. Mica 5. 2. Zeph. 3. 14—17. Hag. 2. 7. Zec. 9. 9. Mal. 3. 1. a 4. 2. Ioan 4. 25. a 6. 14. 7. 7. 31, 41, 42.

* Sef Ioan Fedyddiwr yn y carchar gan Herod, am iddo ddywedyd yn erbyn ei losgach aflan ef; gyda gwraig Philip ei frawd: gwel yr hanes yn pen. 14. 3—12. † Ai tydi yw yr hwn sydd yn dyfod, sef y Messiah. Felly y dywedai yr Iuddewon am y Messiah, "Yr hwn sydd yn dyfod," yn enwedig tua'r amser hwnw; oblegid fod dysgwyliad cyffredinol am dano y pryd hwnw. Gwyddai Ioan yn ddiammau mai Iesu oedd y Messiah; ond yr oedd ammheuaeth yn ei ddysgyblion ef, ac er eu mwyn iwynt y danfonodd efe hwy at Grist i ofyn.

4 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Ewch a mynegwch i Ioan y pethau a glywch ac a welwch:

5 Y mae y [g] deillion yn gweled eilwaith, a'r cloffion yn rhodio, [i] a'r cleifion gwahanol wedi eu glanhâu, [k] a'r byddariaid yn clywed; y mae y meirw yn cyfodi, [m] * a'r tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt.

g pen. 9. 30. Salm 146. 8. Es. 29. 18. a 35. 4—6. a 42. 6, 7. Luc 4. 18. a 7. 21, 22. Ioan 2. 23. a 3. 2. a 5. 36. a 10. 25, 38. a 14. 11, 12. Act. 2. 22. a 4. 9, 10. h pen. 15. 30, 31. a 21. 14. Act. 3. 2—8. a 14. 8—10. i pen. 8. 1—4. a 10. 8. 2 Bren. 5. 7, 14. k Es. 43. 8. Marc 7. 37. a 9. 25. l pen. 9. 24, 25. Luc 7. 14—16, 22. Ioan 11. 43, 44. m pen. 5. 3. Salm 22. 26. a 72. 12, 13. Es. 61. 1—3. a 66. 2. Zec. 11. 7. Luc 4. 18. Iago 2. 5.

6 † A [n] dedwydd yw yr *hwn* [o] ni rwystrir ynof fi.

n pen. 5. 3—12. Salm 1. 1, 2. a 32. 1, 2. a 119. 1. Luc 11. 27, 28. o pen. 13. 55—57. a 15. 12—14. a 18. 7. a 24. 10. a 26. 31. Es. 8. 14, 15. Luc 2. 34. a 4. 23—29. Ioan 6. 60, 61, 66. a 7. 41, 42. Rhuf. 9. 32, 33. 1 Cor. 1. 23. a 2. 14. Gal. 5. 11. 1 Pedr 2. 8.

Dewisodd yr Arglwydd Iesu ateb yr ymofynwyr hyn iddrwy weithredoedd yn hytrach nac mewn geiriau; gwelssant ef yn gwneuthur amryw wyrthiau, a chlywsant ef yn pregethu yr efengyl pan ddaethant ato, gwel Luc 7. 21. Yr oedd hyn oll yn gyflawniad o'r prophwydoliaethau am y Messiah, gwel Esaias 35. 4, 5, 6. a 61. 1. a chanfyddai Ioan wrth y gweithredoedd hyn mai Iesu oedd y Messiah, gan nas gwnaethai neb mo'u cyfryw ond Iesu. † A'r tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt: arwydda y gair Groeg y weithred o bregethu yn gystal a chael pregethu iddynt. Tlodion oedd yn pregethu, ac i dlodion yr oeddynt yn pregethu: nid felly y twyllwyr; i'r mawrion y byddent hwy yn pregethu. † Ni rwystrir: tybia rhai mai cerydd ar ddysgyblion Ioan yw y geiriau yma, am eu hammeuaeth o Grist. Dïau eu bod yn perthyn i bawb eto a ymrwystro wrtho ef.

7 ¶ * Ac a hwy yn myned ymaith, yr [p] Iesu a ddechreuodd ddywedyd wrth y bobloedd am Ioan, [q] Pa beth yr aethoch allan i'r anialwch i edrych am dano? [r] † ai corsen yn ysgwyd gan wynt?

p Luc 7. 24—30. q pen. 3. 1—3, 5. a 21. 25. Marc 1. 3—5. Luc 3. 3—7. a 8. 18. Ioan 1. 38. a 5. 35. r Gen. 49. 4. 2 Cor. 1. 17, 18. Eph. 4. 14. Iago 1. 6.

8 Eithr pa beth yr aethoch allan i'w weled? [s] ‡ ai dyn wedi ei wisgo â dillad esmwyth? wele, y rhai sydd yn gwisgo *dillad* esmwyth, mewn tai brenhinoedd y maent.

s pen. 3. 4. 2 Bren. 1. 8. Es. 20. 2. Zec. 13. 4. 1 Cor. 4. 11. 2 Cor. 11. 27. Dat. 11. 3.

9 Eithr pa beth yr aethoch allan i'w weled? [t] || ai prophwyd? ïe, meddaf i chwi, a mwy na phrophwyd.

t adn. 13, 14. pen. 14. 5. a 17. 12, 13. a 21. 24—26. Marc 9. 11—13. Luc 1. 15—17, 76.

* Gwedi i ddysgyblion Ioan ymadael, trôdd yr Arglwydd Iesu at ei wrandawyr, y rhan fwyaf o ba rai a fuasent yn gwrando Ioan o'r blaen, ac a ofynodd iddynt beth oedd eu dyben yn myned: † nid i weled corsen yn ysgwyd gan wynt; nid dyn tröedig anwastad felly oedd Ioan. ‡ Nid i weled rhyw wr boneddig mawr ychwaith, nid un felly oedd Ioan; || ond i weled prophwyd, ïe, y mwyaf o'r holl brophwydi a fu o'i flaen ef. Dysgir ni yma i ystyried beth yw ein dyben yn cyrchu i wrando pregethwyr enwog: a dysgir pregethwyr hefyd na ddylent fod yn ddynion anwadal a moethus.

10 * Canys hwn ydyw *efe* [u] am yr hwn yr ysgrifenwyd, Wele, yr ydwyf fi yn anfon fy nghennad o flaen dy wyneb, yr hwn a barottoa dy ffordd o'th flaen.

u pen. 3. 3. Es. 40. 3. Mal. 3. 1. a 4. 5. Marc 1. 2. Luc 7. 26, 27. Ioan 1. 23.

11 † Yn wir meddaf i chwi, ym mhlith [x] plant gwragedd, ni chododd neb [y] mwy nag Ioan Fedyddiwr: ‡ er hynny [z] yr hwn sydd leiaf yn nheyrnas nefoedd, sydd [a] fwy nag ef.

x Job 14. 1, 4. a 15. 14. a 25. 4. Salm 51. 5. Eph. 2. 3. y pen. 3. 11. 1 Sam. 2. 30. Luc 1. 15. a 7. 28. Ioan 5. 35. z pen. 5. 19. Es. 30. 26. Zec. 12. 8. Luc 9. 48. 1 Cor. 6. 4. a 15. 9. Eph. 3. 8. a Ioan 7. 39. a 10. 41. Rhuf. 16. 25, 26. Col. 1. 26, 27. 2 Tim. 1. 10. Heb. 11. 40. 1 Pedr 1. 10.

* Ysgrifenwyd hyn yn Malachi 3. 1. Yno mae y Tad yn llefaru wrth yr eglwys, ac yn dywedyd, efe a arloesa y ffordd *o'm* blaen *i*: yma mae yn llefaru wrth y Mab, ac yn dywedyd o flaen *dy* wyneb, *o'th* flaen; yr hyn sydd yn dangos mai un yw y Tad a'r Mab. † Ioan Fedyddiwr oedd y genad anfonedig, ac yr oedd efe yn rhagori ar yr holl brophwydi mewn amryw bethau: yr oedd ef ei hun yn wrthddrych prophwydoliaeth; ganwyd ef mewn modd rhyfedd, gwel Luc 1. 18; yr oedd yn rhagorol yn sancteiddrwydd ei fywyd, gwresawgrwydd a llwyddiant ei weinidogaeth; ac uwchlaw pob peth, yr oedd wedi ei ddanfon yn rhagflaenor y Messiah, nid i brophwydo y deuai, ond i gyhoeddi ei fod *wedi* dyfod. ‡ Eto, byddai y lleiaf yn yr eglwys efengylaidd yn fwy na Ioan. Y pregethwr lleiaf medd rhai, am y gallai bregethu marwolaeth, adgyfodiad, ac esgyniad Crist, yr hyn nis gallasai Ioan yn ei amser ef. Y credadyn lleiaf, medd eraill, am y byddai ganddo eglurach adnabyddiaeth o'r efengyl, a holl drefn yr iachawdwriaeth nag oedd gan Ioan. Rhagoriaeth yr oruchwyliaeth a feddylir yn benaf, ac nid rhagoriaeth y dynion.

12 * Ac [b] o ddyddiau Ioan Fedyddiwr hyd

yn awr, † yr ydys yn treisio teyrnas nefoedd,
‡ a threiswyr sydd yn ei chipio hi.

b pen. 21. 23—32. Luc 7. 29, 30. a 13. 24. a 16. 16. Ioan 6. 27. Phil. 2. 12.

* O ddyddiau Ioan Fedyddiwr hyd yn awr: sef o'r amser y dechreuasai Ioan ei weinidogaeth hyd yr amser yr oedd Crist yn llefaru y geiriau uchod, yr hyn oedd tua blwyddyn, tybia rhai. † Parodd gweinidogaeth Ioan y fath ddeffrôad cyffredinol, fel yr oedd lluoedd yn ymofyn yn awyddus am wybodaeth o'r efengyl ac iachawdwriaeth eu heneidiau. ‡ A'r rhai mwyaf awyddus a deffro oedd yn cael yr iachawdwriaeth hòno; a rhai o honynt y fath waethaf o ddynion o'r blaen, tebycach i dori tai na threisio teyrnas nefoedd.

13 * Canys [c] yr holl brophwydi a'r gyfraith
a brophwydasant hyd † Ioan.

c pen. 5. 17, 18. Mal. 4. 6. Luc 24. 27, 44. Ioan 5. 46, 47. Act. 3. 22—24. a 13, 27. Rhuf. 3. 21.

* Yr oedd y prophwydi a chysgodau y gyfraith seremoniol mewn grym hyd Ioan, ac yn dangos Crist i ddyfod; † ond dangosodd Ioan ef wedi dyfod, a chafodd y prophwydi a'r gyfraith eu cyflawni.

14 Ac [d] os ewyllysiwch *ei* dderbyn, [e] * efe
yw Elias yr hwn oedd ar ddyfod.

d Ezec. 2. 5. a 3. 10, 11. Ioan 16. 12. 1 Cor. 3. 2. e pen. 17. 10—13. Mal. 4. 5. Marc 9. 11—13. Luc 1. 17. Ioan 1. 21—23. Dat. 20. 4.

* Yn Malachi 4. 5. dywedodd Duw y danfonai efe Elias y prophwyd o flaen y Messiah: deallai yr Iuddewon hyny yn llythyrenol, am Elias yn ei berson ei hun; ond dywedai Crist wrthynt yma mai Ioan oedd yr Elias hwnw, am ei ddyfod yn ysbryd a nerth Elias.

15 * Y neb [f] sydd ganddo glustiau i wran-
do, † gwrandawed.

f pen. 13. 9, 43. Marc 4. 9, 23. a 7. 16. Luc 8. 8. Dat. 2. 7, 11, 17, 29. a 3. 6, 13, 22.

* Nid clustiau allanol y corph yn unig a feddylir yma, ond gwrandawiad tufewnol a chrediniol. † Gwrandawed a chreded fy nhystiolaeth I am Ioan, fel y gwrandawo ac y credo dystiolaeth Ioan am danaf finnau.

16 ¶ Eithr [g] i ba beth y cyffelybaf fi y
[h] * genhedlaeth hon? [i] † Cyffelyb yw i blant yn
eistedd yn y marchnadoedd, ac yn llefain wrth
eu cyfeillion,

g Galar. 2. 13. Marc 4. 30. Luc 13. 18. h pen. 12. 34. a 23, 36. a 24. 34. i Luc 7. 31—35.

17 Ac yn dywedyd, [k] Canasom [l] bibell i
chwi, ac ni ddawnsiasoch; canasom alarnad i
chwi, ac ni chwynfanasoch.

k Es. 28. 9—13. 1 Cor. 9. 19—23. l pen. 9. 15, 23. 1 Bren. 1. 40. Es. 30. 29. Jer. 9. 17—20. a 31. 4. Luc 15. 25.

* Y genedlaeth hon: yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn benaf; y rhai ni chredent dystiolaeth Ioan am Grist, ac ni dderbynient Grist ei hun. † Yn y gyffelybiaeth hon, tybir fod yr Arglwydd Iesu yn cyfeirio at ryw chwareüaeth arferedig gan blant y trefydd yn y wlad hòno; megis dynwared priodasau a chladdedigaethau er difyru eu gilydd; ond o herwydd eu tymherau anynad, ni fedrai y chwareuwyr mewn un modd eu boddâu.

18 * Canys [m] daeth Ioan heb na bwytta nac
yfed; ac meddant, [n] † Y mae cythraul ganddo.

m pen. 3. 4. Jer. 15. 17. a 16. 8, 9. Luc 1. 15. 1 Cor. 9. 27. n pen. 10. 25. 2 Bren. 9. 11. Jer. 29. 26. Hos. 9. 7. Ioan 7. 20. a 8. 48. a 10. 20. Act. 26. 24.

19 [o] ‡ Daeth Mab y dyn yn bwytta ac yn
yfed; ac meddant, || Wele ddyn glwth, ac yfwr
gwin, [p] cyfaill publicanod a phechaduriaid. [q] A
doethineb a gyfiawnhawyd gan ei phlant ei
hun.

o Luc 5. 29, 30. a 7. 34, 36. a 14. 1. Ioan 12. 2, &c. Rhuf. 15. 2. p pen. 9. 10, 11. Luc 15. 1, 2. a 19. 7. q Luc 7. 29, 35. 1 Cor. 1. 24—29. Eph. 3. 8—10. Dat. 5. 11—14. a 7. 12.

Yma cawn eglurhâd o'r ddammeg uchod: yr Iuddewon anghrediniol oedd y plant anfoddog, ac Ioan Fedyddiwr a Christ oedd y chwareuwyr. * Ioan oedd wedi bod yn canu galarnad, drwy bregethu edifeirwch, bygwth barn, a byw yn llym, heb na bwyta nac yfed yn siriol a chymdeithasgar fel dynion eraill. † Yn lle ei gredu, gwrthodwyd ef, fel un a chythraul ganddo: dyn pen-brudd, anghyfeillgar, ac annymunol oedd gan y gwŷr mawr Iuddewig. ‡ Iesu Grist oedd yn canu pibell, mewn tymher addfwyn, garuaidd, a gweinidogaeth felus efengylaidd; || ac eto, am ei fod yn derbyn publicanod a phechaduriaid, ac yn bwyta wrth ei angen gyda hwynt, gwrthodid yntau gan yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid deddfol, fel dyn glwth, yfwr gwin, &c. § Ond am wir blant Duw, plant doethineb ydynt hwy, a chyfiawnheir doethineb ymddygiad ac athrawiaeth, Ioan a Christ, ganddynt hwy. Galwai y Phariseaid eu hunain yn blant doethineb, a thybia rhai, mai gwawdiaith yw y geiriau olaf; bod y Phariseaid hunanol yn cymmeryd arnynt farnu doethineb Crist a Ioan. Fel yna, rhaid rhoi condemnio am gyfiawnâu.

20 ¶ * Yna [r] y dechreuodd efe [s] edliw i'r
dinasoedd yn y rhai y gwnaethid y rhan fwyaf
o'i weithredoedd nerthol ef, [t] † am nad edifar-
hasent.

r Luc 10. 13—15. s Salm 81. 11—13. Es. 1. 2—5. Mica 6. 1—5. Marc 9. 19. a 16. 14. Iago 1. 5. t pen. 12. 41. a 21. 29—32. Jer. 8. 6. Act. 17. 30. 2 Tim. 2. 25, 26. Dat. 2. 21. a 9. 20, 21. a 16. 9, 11.

* Gwedi hir bregethu, a gwneyd llawer o wyrthiau, a'r cwbl yn aneffeithiol, mae yr Arglwydd Iesu yma yn troi i geryddu yn llym. † Nid am na fawrhasent ac am na dderchafasent ef, ond am nad edifarhasent. Mae pob peth yn rhy fychan heb edifeirwch am bechod.

21 [u] Gwae di, * Chorazin; gwae di, [x] Beth-
saida: [y] canys pe gwnaethid yn † Tyrus a
Sidon y gweithredoedd nerthol a wnaethpwyd
ynoch chwi, ‡ hwy a [z] edifarhasent er ys talm
mewn sachlian a lludw.

u pen. 18. 7. a 23. 13—29. a 26. 24. Jer. 13. 27. Luc 11. 42—52. Judas 11. x Marc 6. 45. a 8. 22. Luc 9. 10. Ioan 1. 44. a 12. 21. y pen. 12. 41, 42. Ezec. 3. 6, 7. Act. 13. 44—48. a 28. 25—28. z Job 42. 6. Jona 3. 5—10.

f 22 || Eithr meddaf i chwi, [a] Esmwythach
cydd i [b] Tyrus a Sidon yn [c] nydd y farn, nag i
hwi.

a adn. 24. Luc 10. 14. a 12. 47, 48. Heb. 2. 3. a 6. 4—8. a 10. 26—31. b Es. 23. Jer. 25. 22. a 27. 3. Ezec. 26—28. a 29. 18. Amos 1. 9, 10. Zec. 9. 2, 3. c pen. 12. 36. 2 Pedr 2. 9. a 3. 7. 1 Ioan 4. 17.

* Chorazin a Bethsaida oedd enwau dwy o'r trefydd a grybwyllwyd yn yr adnod o'r blaen. † Tyrus a Sidon oedd ddwy dref genedlig, cyfoethog ac annuwiol iawn yn eu hamser; a dirmygus iawn oedd y trigolion yn ngolwg yr Iuddewon. ‡ Llefaru fel *dyn* y mae Crist yma am eu hedifeirwch; gallesid barnu y buasent yn edifarhau fel y Ninifeaid wrth bregeth Jonah, pe cawsent yr un moddion ag a gafodd Chorazin a Bethsaida. Cerydd trwm i'r Iuddewon oedd edliw bod eu calonau yn galetach na'r paganiaid: a cherydd perthynol iawn eto, i lawer o rai a *elwir* yn gristionogion. || Dydd y farn ddiweddaf a feddylir, nid unrhyw farn dymhorol. Yn ol manteision dynion y bydd eu barn: yr hwn a wybu ewyllys ei Arglwydd ac nis gwnaeth, a gurir â *llawer* o ffonodiau.

23 * A thydi, [d] Capernaum, [e] yr hon a
† ddyrchafwyd hyd y nef, a dynnir i lawr hyd
yn uffern: canys pe gwnaethid yn [f] Sodom y
gweithredoedd nerthol a wnaethpwyd ynot ti,
hi a fuasai yn aros hyd heddyw.

d pen. 4. 13. a 8. 5. a 17. 24. Luc 4. 23. Ioan 4. 46, &c. e Es. 14. 13—15. Galar. 2. 1. Ezec. 28. 12—19. a 31. 16, 17. Ob. 4. Luc 14. 11. 2 Pedr 2. 4—9. f Gen. 13. 13. a 19. 24, 25. Ezec. 16. 48—50. Judas 7. Dat. 11. 8.

24 Eithr yr ydwyf yn dywedyd i chwi, Y

dd [g] esmwythach i dir Sodom, yn nydd y
n, nag i ti.
g pen. 10. 15. Galar. 4. 6. Marc 6. 11. Luc 10. 12.
* Capernaum oedd prif breswylfa Crist yn amser ei
inidogaeth gyhoeddus. † Yr oedd wedi ei derchafu
gys hyd y nef mewn cyfoeth a mawredd, ac yn enw-
g mewn breintiau a manteision crefyddol, trwy
swyliad, gweinidogaeth, a gwyrthiau Crist ynddi.
u y pethau eraill yn yr adnodau hyn, yr un meddwl
ld iddynt a'r ddwy adnod o'r blaen.

25 ¶ Yr amser hwnnw yr [h] * attebodd yr
su, ac y dywedodd, [i] I ti yr ydwyf yn
liolch, O Dad, [k] Arglwydd nef a daear, [l] am
ii ‡ guddio y pethau hyn rhag y ‖ doethion
rhai deallus, [m] a'u datguddio o honot i rai
ychain.
h Luc 10. 21. i 1 Cron. 29. 13. Dan. 2. 23. Ioan 11. 41.
nes. 2. 13, 14. k Gen. 14. 19, 22. Deut. 10. 14, 15. 2 Bren.
15. Es. 66. 1. Dan. 4. 35. Act. 17. 24. l pen. 13. 11—16. Es.
1. a 29. 10—14, 18, 19. Marc 4. 10—12. Ioan 7. 48, 49. a 9. 39
1. a 12. 38—40. Rhuf. 11. 8—10. 1 Cor. 1. 18—29. a 2. 6—8. a
3—20. 2 Cor. 4. 3—6. m pen. 16. 17. a 18. 3, 4. a 21. 16.
am. 2. 18. a 3. 4—21. Salm 8. 2. Jer. 1. 5—7. Marc 10. 14—16.

26 Ie, O Dad; [n] canys felly y rhyngodd
dd i ti.
n Job 33. 13. Es. 46. 10. Rhuf. 9. 18. a 11. 33—36. Eph. 1. 9,
a 3. 11. 2 Tim. 1. 9.

Nid yw ateb bob amser yn yr ysgrythyrau, yn ar-
ddo ateb i ofyniad rhywun arall, eithr llefaru, ar
hyw achlysur; dechreu ymadrodd. † Diolch: ar-
ddo y gair Groeg, cyffesu, yn gystal a diolch, ac a
eithir felly yn aml. Yn mhob diolch y mae cyffesu
wredd a daioni Duw. Nid diolch yr oedd Crist am
Tad guddio pethau teyrnas nefoedd oddi wrth un
th o ddynion, a'u datguddio i fath arall; eithr diolch
oedd efe am fod rhai bychain a diddysg yn cael dat-
ddiad o honynt, pryd yr oeddynt yn guddiedig oddi
h y doethion a'r rhai deallus; a hyny yn wirfoddol,
na fynent eu gwybod. ‡ Cuddio: dywedir yn aml
yr ysgrythyr, bod Duw yn gwneyd pethau, pryd nad
ond yn eu goddef, ac yn rhag-weled mai felly y
dd. ‖ Y doethion a'r deallus oedd y dysgedigion
dewig; yr oeddynt felly o ran manteision, felly yn
golwg eu hunain, ac felly yn nghyfrif y werin an-
bodus. § Y rhai bychain oedd yr apostolion a dys-
blion Iesu. Bychain o ran gwybodaeth a dysgeid-
th ddynol, a bychain yn nghyfrif y doethion a'r
allus uchod. Gadawodd Duw y doethion a'r deallus
nallineb a balchder eu calonau, heb ddatguddio dir-
wch yr efengyl iddynt; ac a'i datguddiodd i rai
ddysg tlodion: i ddangos ei ben-arglwyddiaeth, ac fel
orfoleddai un cnawd ger ei fron ef.

27 * Pob peth [o] a roddwyd i mi gan fy
had: † ac [p] nid edwyn neb y Mab ond y
ad; [q] ‡ ac nid edwyn neb y Tad ond y Mab;
a'r *hwn* yr ewyllysio y Mab *ei* ddatguddio
do.
o pen. 28. 18. Ioan 3. 35. a 5. 21—29. a 13. 3. a 17. 2. 1 Cor.
25—27. Eph. 1. 20—23. Phil. 2. 10, 11. Heb. 2. 8—10. 1 Pedr
22. p Luc 10. 22. Ioan 10. 15. q Ioan 1. 18. a 6. 46. a
6—9. a 17. 2, 3, 6, 25, 26. 1 Ioan 2. 23. a 5. 19, 20. 2 Ioan 9.
* Er gwaeled yr olwg oedd ar y Cyfryngwr y pryd
wnw, ac er iseled oedd meddyliau dynion am dano,
ne yma yn hòni dau beth mawr am dano ei hun: yn
ntaf, ei fod yn Fab Duw o ran ei berson; ac yn ail,
d y Tad wedi rhoddi pob peth iddo fel Cyfryngwr.
bb peth o awdurdod a llywodraeth ar y byd, a phob
th er iachawdwriaeth i'w eglwys. † Nid edwyn neb
Mab, o ran ei hanfod dwyfol a'i genedliad tragywydd-
ol ond y Tad. Mae hyn yn brawf o wir Dduwdod
rist, y Mab; oblegid pe nâ buasai efe ond dyn, gallas-
dynion ei adnabod, neu ei amgyffred ef, fel unrhyw
lyn arall. ‡ Ac nid edwyn neb y Tad, o ran ei hanfod,
arfaeth, a'i gyngor, ond y Mab. Mae hyn hefyd yn
awf o Dduwdod y Mab; oblegid nid oes yr un dyn,

neu grëadur meidrol, a all adnabod y Tad, yn yr ystyr y dylid deall am *adnabod* yn y fàn hon: Gwel Job 11. 7—9. Adnabod yn drwyadl, ac i berffeithrwydd, yw ystyr y gair gwreiddiol meddant, ac nid oes ond y Personau Dwyfol yn adnabod eu gilydd felly. ‖ Digon i ni hyny; a da i ni fod y Mab, drwy ei air a'i Ysbryd, yn datguddio i ni ddyfnion bethau Duw.

28 ¶ [r] * Deuwch attaf fi [s] † bawb a'r y
sydd yn flinderog ac yn llwythog, [t] a mi a es-
mwythâf arnoch.
r Es. 45. 22—25. a 55. 1—3. Ioan 6. 37. a 7. 37. Dat. 22. 17.
s pen. 23. 4. Gen. 3. 17—19. Job 5. 7. a 14. 1. Salm 32. 4. a 38. 4.
a 90. 7—10. Preg. 1. 8, 14. a 2. 22, 23. a 4. 8. Es. 1. 4. a 61. 3. a 66.
2. Mica 6. 6—8. Act. 15. 10. Rhuf. 7. 22—25. Gal. 5. 1. t adn.
29. Salm 94. 13. a 116. 7. Es. 11. 10. a 28. 12. a 48. 17, 18. Jer. 6.
16. 2 Thes. 1. 7. Heb. 4. 1.

29 ‡ Cymmerwch [u] fy iau arnoch, [x] a dysg-
wch gennyf; [y] ‖ canys addfwyn ydwyf, a gos-
tyngedig o galon: [z] a chwi a gewch orphwysdra
i'ch eneidiau.
u pen. 7. 24. a 17. 5. Ioan 13. 17. a 14. 21—24. a 15. 10—14.
1 Cor. 9. 21. 2 Cor. 10. 5. 1 Thes. 4. 2. 2 Thes. 1. 8. Heb. 5. 9.
x adn. 27. pen. 28. 20. Luc 6. 46—48. a 8. 35. a 10. 39—42. Ioan
13. 15. Act. 3. 22, 23. a 7. 37. Eph. 4. 20, 21. Phil. 2. 5. y pen.
12. 19, 20. a 21. 5. Num. 12. 3. Salm 131. 1. Es. 42. 1—4. Zec. 9.
9. Luc 9. 51—56. 2 Cor. 10. 1. Phil. 2. 7, 8. 1 Pedr 2. 21—23.
z adn. 28. Jer. 6. 16. Heb. 4. 3—11.

30 § Canys [a] fy iau *sydd* esmwyth, a'm
[b] baich sydd ysgafn.
a Diar. 3. 17. Mica 6. 8. Act. 15. 10, 28. Gal. 5. 1, 18. 1 Ioan
5. 3. b Ioan 16. 33. 2 Cor. 1. 4, 5. a 4. 17. a 12. 9, 10. Phil.
4. 13.

* Gan fod Iesu y fath un, e dâl dyfod ato; a'r dyfod ato hyny yw, credu ynddo, yn ddiammau: rhoddir y naill air am y llall yn aml yn yr ysgrythyrau. † Y rhai a wahoddir yw, pawb sydd yn flinderog a llwythog; gan ddefodau a seremoniau y ddeddf, gan draddodiadau y Phariseaid, gan euogrwydd pechod, gan wasanaeth satan, a chan helbulon y byd. Fel hyn y mae pawb yn flinderog a llwythog gan rywbeth, a phawb yn cael eu gwahodd at Iesu, ond y tri blaenaf yn benaf. ‡ Iau Crist yw ei holl ewyllys dadguddiedig ef; a chymmeryd ei iau yw, ymroddi yn ewyllysgar i ufuddhâu i'w ewyllys, dilyn ei esampl, a'i wasanaethu o'r galon. —Offeryn a roddir ar wàrau ac am yddfau ychain a ddeallwn ni wrth iau, ond mae y gair Hebraeg meddant yn arwyddo unrhyw fath o rwymiad neu ddyledswydd, a fydd ar un i wneyd rhyw beth neu orchwyl pennodol. ‖ Addfwyn a gostyngedig o galon oedd Iesu, yr oedd yn dywedyd felly yma, er annogaeth i bawb ddyfod ato, er gosod ei hun yn esampl i bawb, ac er cerydd i'r athrawon Iuddewig, y rhai oeddynt yn drahaus ac anaddfwyn. § Mae iau Crist yn esmwyth, a'i faich yn ysgafn mewn cymhariaeth i'r holl lwythau blinderog a enwyd uchod; ac yn esmwyth ac ysgafn i'r enaid crediniol a sanctaidd. Mae y gair gorphwysdra yn adn. 29, yn arwyddo llawenydd a hyfrydwch yn gystal â gorphwysdra.

PEN. XII.

Crist yn ceryddu dallineb y Phariseaid, o ran torri y Sabbath, &c.

YR amser hwnnw [a] yr aeth yr Iesu ar y *dydd*
sabbath * trwy yr ŷd: † ac yr oedd chwant
bwyd ar ei ddisgyblion, ‡ a hwy a ddechreuas-
ant [b] dynnu tywys, a bwytta.
a Marc 2. 23—28. Luc 6. 1—5. b Deut. 23. 25.

* Trwy ryw faes lle yr oedd ŷd yn tyfu, ac yn awr bron yn addfed: yr oedd llwybrau cyfreithlawn, neu oddefol o leiaf, i fyned trwy faesydd felly, fel y gwelir yn aml yn ein gwlad ninnau. † Mae yr adnod hon yn dangos tlodi a sefyllfa isel yr Arglwydd Iesu a'i ddysgyblion; yr oedd chwant bwyd arnynt, ac nid oedd ganddynt ddim, ond tynent y tywys i'w bwyta. ‡ Yr oedd hyny yn oddefol ac yn gyfreithlawn yn ol y gyfraith.

2 * A phan welodd y Phariseaid, hwy a ddywedasant wrtho, [c] † Wele, y mae dy ddisgyblion yn gwneuthur yr hyn nid yw rydd ei wneuthur ar y sabbath.

[c] adn. 10. Ex. 20. 9—11. a 23. 12. a 31. 15—17. a 35. 2. Num. 15. 32—36. Es. 58. 13. Marc 3. 2—5. Luc 6. 6—11. a 13. 10—17. a 23. 56. Ioan 5. 9—11, 16, 17. a 7. 21—24. a 9. 14—16.

* Gallwn feddwl yma bod y Phariseaid yn gwilied yn fanol ar Iesu yn mhob màn, i gael rhyw achlysur yn ei erbyn pe gallent. † Nis gallent feïo am y *weithred*, oblegid yr oedd yn gyfreithlawn; ond mynent hwy ei bod yn anghyfreithlawn *ar y Sabbath*, yr hyn nid oedd. Ystyriai y Pharisêaid y weithred o dynu y tywys yn fath o fedi, ac felly yn dòriad ar y Sabbath yn eu tŷb ragfarnllyd hwy.

3 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [d] * Oni ddarllenasoch [e] pa beth a wnaeth Dafydd, pan oedd chwant bwyd arno ef, a'r rhai *oedd* gyd âg ef?

d adn. 5. pen. 19. 4. a 21. 16. a 22. 31. Marc 12. 10, 26. Luc 6. 3. a 10. 26. e 1 Sam. 21. 3—6. Marc 2. 25, 26.

4 † Pa fodd yr aeth efe i mewn i dŷ Dduw, ac y bwyttâodd [f] y bara gosod, yr hwn nid oedd rydd iddo ei fwytta, nac i'r rhai oedd gyd âg ef, ond yn unig i'r offeiriaid?

f Ex. 25. 30. Lef. 24. 5—9.

* Oni ddarllenasoch: mae yr Arglwydd Iesu yma yn ceryddu y Phariseaid, am eu hanwybodaeth o'r ysgrythyr, a hwythau yn ymffrostio cymmaint o'u gwybodaeth. Mae hefyd yn defnyddio yr ysgrythyr i amddiffyn a chyfiawnhau ei ddysgyblion. † Gan i Dafydd, a'r rhai oedd gydag ef, fwyta o'r bara sanctaidd wrth eu gwir angen, yr hyn nid oedd rydd iddynt, ac eto nid ydych yn beïo arnynt; pa raid beïo ar fy nysgyblion I, am hyn o beth a wnaethant, wrth eu gwir angen, ar y dydd sanctaidd. Gan fod yr achos yn cyfreithloni y weithred yno, er ei bod yn groes i ddeddf osodedig Duw; pa faint mwy yn yr amgylchiad hwn, sydd yn unig yn groes i'ch traddodiad deddfol chwi?

5 * Neu oni ddarllenasoch yn y gyfraith, [g] fod yr offeiriaid ar y sabbathau yn y deml yn [h] † halogi y sabbath, a'u bod yn ddigerydd?

g Num. 28. 9, 10. Ioan 7. 22, 23. h Neh. 13. 17. Ezec. 24. 21.

* Mae y gyfraith a grybwyllir yma i'w gweled yn Num. 28. 9. † a'r gwaith perthynol i'r aberthau a enwir yno oedd halogiad y Sabbath: hyny yw, buasai yn halogi y sabbath, pe gwnaethid ef gan neb arall, heblaw yr offeiriaid, neu i ryw dyben arall, heblaw at wasanaeth Duw.

6 * Eithr yr ydwyf yn dywedyd i chwi, [i] fod yma *un* mwy na'r deml.

i adn. 41, 42. 2 Cron. 6. 18. Hag. 2. 7—9. Mal. 3. 1. Ioan 2. 19—21. Eph. 2. 20—22. Col. 2. 9. 1 Pedr 2. 4, 5.

* Yr oedd gan yr Iuddewon ryw ddychymmygion coel-grefyddol iawn am y deml, ac yr oedd yn ddywediad cyffredin yn eu plith, "nad oedd dim sabbath yn y deml." Tybient fod y deml yn cyfreithloni ac yn sancteiddio pob peth a wnelid ynddi. Ar gyfer hyna, mae Crist yn dywedyd am dano ei hun yma, ei fod ef yn fwy na'r deml; nad oedd y deml ond cysgod o hóno ef; a chan hyny bod ei fawredd ef yn ddigon i gyfreithloni gweithred ei ddysgyblion.

7 * Ond [k] pe gwybuasech beth yw *hyn*, [l] † Trugaredd a ewyllysiaf, ac nid aberth, ni [m] farnasech chwi yn erbyn ‡ y rhai diniwed.

k pen. 9. 13. a 22. 29. Act. 13. 27. l Es. 1. 11—17. Hos. 6. 6. Mica 6. 6—8. m Job 32. 3. Salm 94. 21. a 109. 31. Diar. 17. 15. Iago 5. 6.

* Dyma gyhuddo y Phariseaid o annwybodaeth eto. † Sylwyd ar y geiriau hyn o'r blaen (Pen. 9. 13.) ‡ Diniwed oedd y dysgyblion yn ngolwg Iesu, er eu barnu yn dorwyr sabbath gan y Phariseaid.

8 Canys [n] * Arglwydd ar y sabbath hefyd yw † Mab y dyn.

n pen. 9. 6. Marc. 2. 28. a 9. 4—7. Luc 6. 5. Ioan 5. 17—23. 1 Cor. 9. 21. a 16. 2. Dat. 1. 10.

* Arglwydd ar y sabbath: efe a'i gosododd yn y dechreuad; efe a adnewyddodd, neu yn hytrach a gadarnhâodd y gosodiad, ar Sinai; efe a'i newidiodd o'r seithfed dydd i'r wythfed, dan yr efengyl; ac efe yw y deddfwr mewn perthynas iddo, i ddangos beth sydd gyfreithlawn ac anghyfreithlawn ei wneyd arno. † Nid yw yr enw Mab y dyn yn cael ei roddi i neb ond Crist yn y Testament Newydd, yn arwyddo ei wir ddynoliaeth.

9 * Ac wedi iddo ymadael oddi yno, [o] efe a aeth i'w synagog † hwynt.

o Marc 3. 1—5. Luc 6. 6—11.

* Gwelwn yma, fod Arglwydd y sabbath yn cadw y sabbath ei hun yn gydwybodol ac yn fanwl: ei arfer ef oedd myned i'r synagogau ar y dyddiau sabbath. Sabbath arall oedd hwn medd Luc 6. 6. ac nid y sabbath y bu ei ddysgyblion yn tynu y tywys. † Er maint a feïai y Phariseaid arno y sabbath o'r blaen, nid oedd arno ddim ofn myned i'w synagog hwynt drachefn. Y cyfiawn a fydd hyf megis llew.

10 ¶ * Ac wele, yr oedd dyn [p] a chanddo law wedi gwywo. † A hwy a ofynasant iddo, gan ddywedyd, [q] Ai rhydd iachâu ar y sabbathau? [r] fel y gallent achwyn arno.

p 1 Bren. 13. 4—6. Zec. 11. 17. Ioan 5. 3. q pen. 19. 3. a 22. 17, 18. Luc 14. 3—6. a 20. 22. Ioan 5. 10. r Es. 32. 6. a 59. 4, 13. Luc 6. 7. a 11. 54. a 23. 2, 14. Ioan 8. 6.

* Dywed Luc 6. 6. mai y llaw ddehau ydoedd, y fwyaf defnyddiol i ennill bywioliaeth. † Gofynasant iddo ai rhydd iachâu ar y sabbathau: pe dywedasai mai rhydd ydoedd, buasent yn achwyn arno fel torwr sabbath, yr hyn oedd drosedd bywyd yn mhlith yr Iuddewon. Pe dywedasai nad oedd rydd, buasai hyny yn anghyson â chyfreithlondeb tynu y tywys y sabbath o'r blaen.

11 * Ac efe a ddywedodd wrthynt, [s] Pa ddyn o honoch fydd a chanddo un ddafad, [t] ac o syrth honno mewn pwll ar y *dydd* sabbath, nid ymeifl ynddi, a'*i* chodi allan?

s Luc 13. 15—17. a 14. 5. t Ex. 23. 4, 5. Deut. 22. 4.

12 † Pa faint gwell gan hynny [u] ydyw dyn na dafad? Felly [x] rhydd yw gwneuthur yn dda ar y sabbathau.

u pen. 6. 26. Luc 12. 24. x Marc 3. 4. Luc 6. 9.

* Gwyddai yr Arglwydd Iesu mai bwriad y Phariseaid oedd, ei fachellu ef yn ei ateb os gallent; am hyny mae yn dangos doethineb ac addasrwydd hynod yn ei atebiad. Peth cyfreithlawn, ac arferedig, yn eu plith *hwy*, er mòr fanwl oeddynt, oedd achub bywyd anifail, o gyn lleied gwerth a dafad, ar y dydd sabbath; † ac o ganlyniad, ac yn ol pob rheswm, pa faint mwy cyfreithlawn iachâu dyn, yr hwn sydd yn llawer mwy ei werth na dafad?

13 * Yna y dywedodd efe wrth y dyn, Estyn dy law. Ac efe a'*i* hestynodd; [y] a *hi* a wnaed yn iach, fel y llall.

y Luc 13. 13. Act. 3. 7, 8.

* Gan nas medrai y Phariseaid ei ateb ef, mae efe yn myned yn mlaen a'i orchwyl, ac yn iachâu y dyn à gair ei enau. Nid oedd yma ddim tori sabbath; yr oedd llawer mwy yn yr helbul o godi dafad o'r ffos.

14 ¶ * Yna yr [z] aeth y Phariseaid allan, ac a ymgynghorasant yn ei erbyn ef, pa fodd y difethent ef.

z pen. 27. 1. Marc 3. 6. Luc 6. 11. Ioan 5. 18. a 10. 39. a 11. 53. 57.

* Rhwng atebiad doeth Iesu, a'r weithred wyrthiol a wnaeth efe ger bron eu llygaid hwynt; yr oedd eu balchder trahaus wedi cael y fath ergyd a chywilydd, fel yr aethant allan o'r synagog yn y fàn, i ymgynghori pa fodd y difethent ef, un ai trwy frad yn ddirgel, neu

y gam-gyhuddiad cyhoeddus. Ceisient ffurfio cŵyn
i ei erbyn ef am iddo wneyd ei hun yn fwy na'r deml,
Arglwydd ar y sabbath, am iddo iachâu y dyn ar y
sabbath, ac amddiffyn tynu y tywys ar y sabbath: ond
n y gwyddai yr Iesu eu hamcan hwy, efe a giliodd
di yno, fel y dywedir yn yr adnod nesaf.

15 A'r Iesu gan wybod, [a] a giliodd oddi
o; [b] * a thorfeydd lawer a'i canlynasant ef,
efe a'u hiachâodd hwynt oll;

a pen. 10. 23. Luc 6. 12. Ioan 7. 1. a 10. 40—42. a 11. 54.
pen. 4. 24, 25. a 19. 2. Marc 3. 7—12. a 6. 56. Luc 6. 17—19.
n 9. 4. Gal. 6. 9. 1 Pedr 2. 21.

16 † Ac [c] a orchymynodd iddynt, na wnaent
yn gyhoedd:

c pen. 9. 30. a 17. 9. Marc 7. 36. Luc 5. 14, 15.

Nid oes dim yn y ddwy adnod hyn ond pethau a
wyd arnynt o'r blaen. * Byddai torfeydd yn canlyn
sist yn ei holl symudiadau, ac yntau yn iachâu eu holl
ifion. † Gan nad oedd ei amser wedi dyfod eto, nid
dd yn ewyllysio cyffroi gelyniaeth y Phariseaid yn ei
oyn, trwy fod llawer o sôn am dano. Ac nid ei am-
n oedd ceisio ei ogoniant ei hun eto, ond gogoniant
dhwn a'i hanfonodd.

17 * Fel [d] y cyflawnid yr hyn a ddywedasid
wy Esaias y prophwyd, [e] gan ddywedyd,

d pen. 8. 17. a 13. 35. a 21. 4. Es. 41. 22, 23. a 42. 9. a 44. 26.
n 21. 22. a 24. 44. Ioan 10. 35. a 12. 38. a 19. 28. Act. 13. 27.
Es. 42. 1—4.

* Cyfeiriad sydd yma at Esaias 42. 1—4. Y Tad yn
rfaru am dano wrth yr Eglwys.

18 * Wele [f] fy ngwasanaethwr, [g] yr hwn a
dewisais; † [h] fy anwylyd, yn yr hwn y mae fy
naid yn foddlawn: [i] gosodaf fy yspryd arno,
‡ ac efe a draetha farn i'r Cenhedloedd.

f Es. 49. 5, 6. a 52. 13. a 53. 11. Zec. 3. 8. Phil. 2. 6, 7.
Salm 89. 19. Es. 49. 1—3. Luc 23. 35. 1 Pedr 2. 4. h pen. 3.
a 17. 5. Marc 1. 11. a 9. 7. Luc 9. 35. Eph. 1. 6. Col. 1. 1, 13.
Pedr 1. 17. i pen. 3. 16. Es. 11. 2. a 59. 20, 21. a 61. 1—3.
c 3. 22. a 4. 18. Ioan 1. 32—34. a 3. 34. Act. 10. 38. k Es.
. 15, 16. a 49. 6. a 60. 2, 3. a 62. 2. Jer. 16. 19. Luc 2. 31, 32.
t. 11. 18. a 13. 46—48. a 14. 27. a 26. 17, 18. Rhuf. 15. 9—12.
bh. 2. 11—13. a 3. 5—8.

* Nid yw yr efengylwr wedi gofalu am osod y bro-
nwydoliaeth hon i lawr yn hollawl air yn air: nid yw
gwahaniaeth ond bychan, a digon i ni bod y synwyr
un. Mae y Tad yn galw Crist yn was, o herwydd
do gymmeryd arno agwedd gwas, a bod yn ufudd hyd
agau. † Geilw ef yn anwylyd hefyd, i ddangos ei gariad
o a'i foddlonrwydd ynddo, sef yn ei berson a'i waith
.—Yn Isa. 42. 1. mae y geiriau hyn, gwel y sylwadau
ao at yr ychydig a wnaed yn y fân hon. ‡ Traethu
arn i'r cenedloedd, yw pregethu yr efengyl, cyfraith
wr crefydd, cyfiawnder, a gwirionedd, yr hyn a dde-
reuodd Crist, ac a ddygwyd yn mlaen gan ei apostolion.

19 [l] * Nid ymryson efe, † ac ni lefain; ac
i chlyw neb ei lais ef yn yr heolydd.

l pen. 11. 29. Zec. 9. 9. Luc 17. 20. Ioan 18. 36—38. 2 Cor.
. 1. 2 Tim. 2. 24, 25.

* Nid trwy ymryson a therfysg yr â efe yn mlaen â'i
aith, nac y gesyd i fynu ei deyrnas, fel gormeswyr
nyfelgar daear: ni adawai i Pedr gymmaint a thynu
gleddyf heb ei geryddu. † Ni lefa, i godi terfysg a
wrthryfel; ‡ ac ni chlywir ei lais yn yr heolydd yn
llonyddu y trigolion heddychol, nac yn cadw swn
nodresgar am ei weithredoedd ei hun.

20 [m] * Corsen ysig nis tŷr, † a llin yn
mygu nis diffydd, [n] ‡ hyd oni ddygo efe allan
arn i fuddugoliaeth.

m pen. 11. 28. 2 Bren. 18. 21. Salm 51. 17. a 147. 3. Es. 40.
. a 57. 15. a 61. 1—3. Galar. 3. 31—34. Ezec. 34. 16. Luc 4. 18.
Cor. 2. 7. Heb. 12. 12, 13. n Salm 98. 1—3. Es. 42. 3, 4.
huf. 15. 17—19. 2 Cor. 2. 14. a 10. 3—5. Dat. 6. 2. a 19. 11—21.

* Corsen: cyrs ydynt blanigion cecysaidd, cau oddi
ewn, diwerth a hawdd eu dryllio. Yma, corsen ysig,
ef wedi ei darn ddryllio eisoes, ac o herwydd hyny yn
wy diwerth byth. Corsen chwibanogl i ganu drwyddi,
tybia rhai a feddylir yma. † Llin yn mygu, sef y
babwyren yn y lamp, na byddo yn cynneu yn dda.
Ymadrodd diarebol yw y geiriau, a arferid gan yr Iu-
ddewon am ddyn addfwyn, tirion, a gofalus. Y cyfryw
un yw Iesu, tyner a gofalus iawn am y gwanaf o'i saint,
ac am eu grasau gweiniaid. ‡ Nid yn unig mae yn
dirion ac yn addfwyn wrth y gweiniaid, ond efe a'u
nertha hefyd, ac a fyn eu gweled yn fuddugoliaethus ar
eu holl elynion. Tybia rhai mai llwyddiant a budd-
ugoliaeth ei achos yn y byd a feddylir. Wrth hyn mae
rhai yn dëall yr efengyl, a buddugoliaeth yr efengyl ar
wrthwynebiadau yr Iuddewon, ac ar annuwioldeb y
Cenedloedd: gwel ar yr adnod oll yn Isa. 42. 3.

21 * Ac [o] yn ei enw ef y gobeithia y Cen-
hedloedd.

o Es. 11. 10. Rhuf. 15. 12, 13. Eph. 1. 12, 13. Col. 1. 27.

* Pan gyhoedder ei enw ef, sef yr efengyl, yn mhlith
y cenedloedd, dygir hwy i obeithio ynddo am iachawd-
wriaeth, er ei wrthod gan yr Iuddewon. Dichon Duw
o'r meini hyn gyfodi plant i Abraham.

22 ¶ * Yna y [p] dygpwyd atto un cythreulig,
dall a mud: [q] ac efe a'i hiachâodd ef, fel y
[r] llefarodd ac y gwelodd y dall a mud.

p pen. 9. 32. Luc 11. 14. q Marc 7. 35—37. a 9. 17—26.
r Salm 51. 15. Es. 29. 18. a 32. 3, 4. a 35. 5, 6. Act. 26. 18.

* Sylwyd ar fater cyffelyb i'r adnod hon o'r blaen.
Pen. 9. 32, 33.

23 * A'r holl [s] dorfeydd a synnasant, ac a
ddywedasant, [t] Ai hwn yw Mab Dafydd?

s pen. 9. 33. a 15. 30, 31. t pen. 9. 27. a 15. 22. a 21. 9. a
22. 42, 43. Ioan 4. 29. a 7. 40—42.

* Dyma y tro cyntaf yr ydym yn darllen i wyrthiau
ein Iachawdwr argyhoeddi y bobl, a pheri iddynt feddwl
mai efe oedd y Messiah; oddigerth y ddau ddyn dall
yn pen. 9. 27. Ffydd ammheüus sydd yma hefyd,—Ai
hwn yw?

24 * Eithr [u] pan glybu y Phariseaid, hwy a
ddywedasant, Nid yw † hwn yn bwrw allan
gythreuliaid, ‡ ond trwy Beelzebub pennaeth
y cythreuliaid.

u pen. 9. 34. Marc 3. 22. Luc 11. 15.

* Rhwng hynodrwydd y weithred, a syndod y bobl,
ofnodd y Phariseaid y credai pawb yn Iesu, mai efe
oedd y Messiah; ac felly y collent hwy eu parch fel
dysgawdwyr yn y wlad. † Hwn: mae y gair Groeg
outos, a gyfieithir *hwn*, yn arwyddo dirmyg ac anfri,
megys yr adyn hwn, neu rywbeth cyffelyb. ‡ Am
Beelzebub, gwel pen. 9. 32—34. Mynai y Phariseaid
i'r bobl gredu fod Iesu mewn cyngrair â'r diafol, ac
felly yn haeddu marw fel swyn-gyfareddwr, yn hytrach
na'i arddelwi yn Fessiah.

25 * A'r [x] Iesu yn gwybod eu meddyliau, a
ddywedodd wrthynt, [y] † Pob teyrnas wedi ym-
rannu yn ei herbyn ei hun, a anghyfanneddir;
a phob dinas neu dŷ wedi ymrannu yn ei erbyn
ei hun, ni saif.

x pen. 9. 4. Salm 139. 2. Jer. 17. 10. Amos 4. 13. Marc 2. 8
Ioan 2. 24, 25. a 21. 17. 1 Cor. 2. 11. Heb. 4. 13. Dat. 2. 23
y Es. 9. 21. a 19. 2, 3. Marc 3. 23—26. Luc 11. 17, 18. Gal. 5. 15.
Dat. 16. 19. a 17. 16, 17.

26 ‡ Ac os Satan a fwrw allan Satan, efe a
ymrannodd yn ei erbyn ei hun: pa wedd gan
hynny y [z] saif ei deyrnas ef?

z Ioan 12. 31. a 14. 30. a 16. 11. 2 Cor. 4. 4. Col. 1. 13. 1 Ioan
5. 19. Dat. 9. 11. a 12. 9. a 16. 10. a 20. 2, 3.

* Nis gall neb wybod meddyliau ond Duw: dyma eto
brawf o Dduwdod Iesu. † Fel y mae pob ymraniad
mewn teyrnas, dinas, neu dŷ, yn sicr o ddistrywio y
deyrnas, neu y ddinas hòno, neu y tŷ hwnw; ‡ felly os
â satan i gymmeryd fy mhlaid I, ac i fwrw allan satan,
efe a ymranodd yn ei erbyn ei hun, ac ni saif ei deyrn-
as. Ond, y mae satan yn rhy gyfrwys i wneyd felly;
gall y naill ysbryd aflan chwarae â'r llall, fel mewn

swyn-gyfaredd, a helaethu eu teyrnas drwy hyny; ond peth arall yw i'r naill fwrw *allan* y llall, o blaid i mi, distryw y deyrnas a fyddai hyny.

27 Ac os trwy Beelzebub yr ydwyf fi yn bwrw allan gythreuliaid, [a] trwy bwy y mae * eich plant chwi yn *eu* bwrw *hwynt* allan? † am hynny [b] y byddant hwy yn farnwyr arnoch chwi.

a Marc 9. 38, 39. Luc 9. 49, 50. a 11. 19. Act. 19. 13—16. b adn. 41. 42. Luc 19. 22. Rhuf. 3. 19.

* Dywedir y byddai swynwyr Iuddewig yn y dyddiau hyny yn cymmeryd arnynt weithiau fwrw allan gythreuliaid, trwy weddio Duw Abraham, Isaac, a Jacob. † Am hyny byddant hwy yn dystion yn eich erbyn chwi, mai nid trwy Beelzebub yr wyf fi yn bwrw allan gythreuliaid mwy na hwythau. Ni ddywedwch felly am danynt hwy, a phaham y dywedwch am danaf fi?

28 Eithr os [c] ydwyf fi yn bwrw allan gythreuliaid trwy * Yspryd Duw, [d] yna y daeth teyrnas Dduw attoch.

c adn. 18. Marc 16. 17. Luc 11. 20. Act. 10. 38. d pen. 21. 31, 43. Es. 9. 6, 7. Dan. 2. 44. a 7. 14. Marc 1. 15. a 11. 10. Luc 1. 32, 33. a 9. 2. a 10. 11. a 16. 16. a 17. 20, 21. Rhuf. 14. 17. Col. 1. 13. Heb. 12. 28.

* Er bod gan Grist bob gallu ynddo ei hun, fel Duw; ac mae yn honi ac yn dangos hyny yn aml; eto mae yma yn dywedyd mai trwy Ysbryd Duw mae yn gweithredu, er profi ei ddanfoniad gan y Tad fel Messiah. † Ac os efe yw y Messiah, fel y mae ei weithredoedd yn profi; yna daeth teyrnas Dduw, goruchwiliaeth yr efengyl, a gwrthoded yr Iuddewon ef a'i deyrnas ar eu perygl.

29 * Neu, [e] pa fodd y dichon neb fyned *i* mewn i † dy un cadarn, a *llwyr*-yspeilio ei ‡ ddodrefn ef, oddi eithr iddo yn gyntaf ‖ rwymo y cadarn? ac yna yr yspeilia efe ei dŷ ef.

e Es. 49. 24. a 53. 12. Marc 3. 27. Luc 11. 21, 22. 1 Ioan 3. 8. a 4. 4. Dat. 12. 7—9. a 20. 1—3, 7—9.

Mae y mater blaenorol yn cael ei ddangos yn mhellach yma trwy gymhariaeth addas. * Diafol yw yr un cadarn: nid oes neb cadarnach nag ef ond Duw. † Y byd hwn yw ei dŷ ef: duw a thywysog y byd hwn y gelwir ef. ‡ Cyrph ac eneidiau dynion yw ei ddodrefn ef: yr arfau anghyfiawnder sydd yn ei filwriaeth a'i wasanaeth ef. ‖ Mab Duw sydd yn ei rwymo ef wrth ei ewyllys, ac yn yspeilio ei dŷ ef, yr hyn sydd brawf mai efe yw y Messiah, ac nad oes dim cyngrair rhyngddo a diafol.

30 * Y neb [f] nid yw gyd â mi, sydd yn fy erbyn; † a'r neb [g] nid yw yn casglu gyd a mi, sydd yn gwasgaru.

f pen. 6. 24. Jos. 5. 13. a 24. 15. 1 Cron. 12. 17, 18. Marc 9. 40. Luc 9. 50. a 11. 23. 2 Cor. 6. 15, 16. Dat. 3. 15, 16. g Gen. 49. 10. Hos. 1. 11. Ioan 11. 52.

* Y neb nid yw gyda mi, sydd yn fy erbyn: y diafol medd rhai; dynion tebyg i Meroz, medd eraill, nad oeddynt o blaid nac yn erbyn Iesu; y Phariseaid, medd eraill, y rhai nid oeddynt gydag ef ond yn amlwg yn ei erbyn. † Y neb nid yw yn ol ei ddawn a'i allu yn casglu deiliaid gyda mi i fy nheyrnas, nid yw ei holl lafur, beth bynag a fyddo, ddim gwell na gwasgaru a gwastraffu. Gwasgaru dynion yn lle eu casglu, medd rhai.

31 ¶ * Am hynny y dywedaf wrthych chwi, [h] † Pob pechod a chabledd a faddeuir i ddynion: [i] ‡ ond cabledd *yn erbyn* yr Yspryd *Glân* ni faddeuir i ddynion.

h Es. 1. 18. a 55. 7. Ezec. 33. 11. 1 Tim. 1. 13—15. 1 Ioan 1. 9. a 2. 1, 2. i Marc 3. 28—30. Luc 12. 10. 1 Ioan 5. 16.

32 ‖ A [k] phwy bynnag a ddywedo air yn erbyn Mab y dyn, fe a faddeuir iddo: [l] § ond pwy bynnag a ddywedo yn erbyn yr Yspryd Glân, [m] nis maddeuir iddo, nac yn y byd hwn, nac yn *y byd* a ddaw.

k pen. 11. 19. Luc 7. 34. a 23. 34. Act. 3. 14, 15, 19. a 26. 9—11. 1 Tim. 1. 15. l Ioan 7. 39. Heb. 6. 4—6. a 10. 26—29. m Job 36. 18. Marc 3. 29. Luc 16. 23—26.

* Wrth weled y Phariseaid wedi myned i eithafoedd dychrynllyd iawn o bechod yn adn. 24, mae Crist yn rhoddi rhybudd deffröus a difrifol iddynt yn yr adnodau hyn. † Pob pechod a chabledd a faddeuir i ddynion: dyna wirionedd gwerthfawr i *ddynion;* ni faddeuir un pechod i angelion. *Pob* pechod: dyna reol gyffredin; ond y mae un eithriad iddi: ‡ ond cabledd yn erbyn yr Ysbryd Glân *ni* faddeuir i *ddynion.*—Gyda golwg ar y rhai a wadant *bersonoliaeth* yr Ysbryd Glân, sylwa un awdwr, nas gellir cyfeirio cabledd yn erbyn *priodoledd,* eithr yn erbyn *person;* gan hyny rhaid bod yr Ysbryd Glân yn *Berson,* yn deall, ac mewn ystyr yn teimlo y cabledd yn ei erbyn, a'r anfri a'r dirmyg a roddir arno: gwel Heb. 10. 29. a'r sylwad yno ar ddiwedd yr adnod. ‖ Pwy bynag a ddywedo air yn erbyn Mab y dyn, yn ei anwybodaeth o hóno a'i anghrediniaeth ynddo, megys y dywedodd llawer, fe a faddeuir iddo, ar ei edifeirwch a'i ffydd, megys y maddeuwyd i Paul a llawer eraill. § Ond pwy bynag a ddywedo yn erbyn yr Ysbryd Glân, trwy daeru mai gweithredoedd satan fydd ei weithredoedd ef, pan ddelo yn ngoruchwyliaeth ogoneddus a nerthol yr efengyl, ni faddeuir iddo, nac yn y byd hwn nac yn y byd a ddaw. Dychymmygai yr Iuddewon y byddai holl had Abraham yn gadwedig; ac er bod rhai pechodau, na chaid maddeuant o honynt yn y byd hwn, eto y gwnaid iawn am danynt yn angau, ac y maddeüid hwynt wedi angau.

33 * Naill ai [n] gwnewch y pren yn dda, [o] a'i ffrwyth yn dda; ai gwnewch y pren yn ddrwg, a'i ffrwyth yn ddrwg: canys y pren a adwaenir wrth *ei* ffrwyth.

n pen. 23. 26. Ezec. 18. 31. Amos 5. 15. Luc 11. 39, 40. Iago 4. 8. o pen. 3. 8—10. a 7. 16—20. Luc 3. 9. a 6. 43, 44. Ioan 15. 4—7. Iago 3. 12.

* Mae y diafol yn ddrwg, am hyny mae ei ffrwyth yn ddrwg, ac nis gall fod yn dda fel fy ngweithredoedd I. Yr ydych chwithau, Phariseaid, yn ddrwg, a'ch ffrwyth yn ddrwg yn fy ngham farnu I, a'ch calonau yn llawn o aflendid dan rith o sancteiddrwydd. Mae fy ffrwyth innau yn dda, a phaham na fernwch *fi* yn dda? llefarwch bethau cyson: os yw y ffrwyth yn dda, rhaid fod y pren yn dda hefyd.—Wrth y *pren* mai rhai yn deall Crist ei hun yn y fàn hon, fel pe dywedasai efe, Gan fod fy ffrwyth, neu fy ngweithredoedd i yn dda, caniatêwch fy mod innau yn dda; neu ynte profwch fod fy ngweithredoedd i yn ddrwg, i brofi fy mod i fy hun yn ddrwg: dywedwch bethau cyson, a bernwch am danaf fi yn ol fy ffrwyth a'm gweithredoedd. Tybia eraill mai y Phariseaid oedd y *pren,* ac fel pe dywedasai Crist wrthynt, Na feddyliwch byth mwyach eich bod chwi yn dda, gan eich bod yn beiddio dywedyd cabledd yn erbyn yr Ysbryd Glân; heblaw dywedyd pethau atgas a chelwyddog yn fy erbyn i, Mab y dyn: nis gall neb da fod yn euog o hyn, ac mae hyn yn brawf nad ydych chwi yn dda.

34 * O [p] eppil gwiberod, [q] pa wedd y gellwch lefaru pethau da, a chwi yn ddrwg? [r] † canys o helaethrwydd y galon y llefara y genau.

p pen. 3. 7. a 23. 33. Luc 3. 7. Ioan 8. 44. 1 Ioan 3. 10. q 1 Sam. 24. 13. Salm 10. 6, 7. a 52. 2—5. a 53. 1. a 64. 3—5. a 120. 2—4. a 140. 2, 3. Es. 32. 6. a 59. 4, 14. Jer. 7. 2—5. Rhuf. 3. 10—14. Iago 3. 5—8. r Luc 6. 45.

35 Y [s] dyn da, o drysor da y galon, a ddwg allan bethau da: [t] a'r dyn drwg, o'r trysor drwg, a ddwg allan bethau drwg.

s pen. 13. 52. Salm 37. 30, 31. Diar. 10. 20, 21. a 12. 6, 17—19. a 15. 4, 23, 28. a 16. 21—23. a 25. 11, 12. Eph. 4. 29. Col. 3. 16. a 4. 6. t adn. 34.

* Galwodd Ioan hwy felly pen. 3. 7. a dyma Grist yn

galw felly eto. Had ac eppil yr hen sarph, yn llawn gyfrwysder a gwenwyn, fel diafol ei hun. † Y peth a ddo yn y galon a ddaw allan yn yr ymadroddion; drwg drwg, a da o'r da: canys o helaethrwydd y galon y llefara y genau.

36 Eithr yr ydwyf yn dywedyd wrthych, mai [a] am bob * gair segur a ddywedo dynion, rhoddant hwy gyfrif yn nydd y farn.

a u Preg. 12. 14. Rhuf. 2. 16. Eph. 5. 4—6. Judas 14, 15. Dat. 12.

37 † Canys wrth dy eiriau y'th [x] gyfiawnhair, ac wrth dy eiriau y'th gondemnir.

x Iago 2. 21—25.

Rhag i'r Phariseaid wedi y cwbl, dybied yn ysgafn geiriau cableddus a ddywedasent, mae Crist yma yn dwyn megis i olwg y farn; ac yn dywedyd y rhaid i dynion roddi cyfrif yn y farn hyd yn nod am bob gair sur a ddywedasant, pa faint mwy am eiriau cableddus erbyn Mab y dyn a'r Ysbryd Glân. * Gair segur yw gair nad yw yn ogoniant i Dduw, neu yn adeiladu i ddynion. Pob geiriau afraid, geiriau segur ynt. † Bydd coffa yn y farn am eiriau yn gystal ag weithredoedd, a byddant yn dystion o'n plaid neu ein herbyn, pa un ai duwiol ai annuwiol a fyddom.

38 ¶ * Yna yr attebodd rhai o'r ysgrifenddion a'r Phariseaid, gan ddywedyd, [y] † Araw, ni a chwennychem ‡ weled arwydd ennyt.

y pen. 16. 1—4. Marc 8. 11, 12. Luc 11. 16, 29. Ioan 2. 18. a 8. 1 Cor. 1. 22.

* Gwedi y cwbl a wnaethai ac a ddywedasai yr Arwydd Iesu, nid oedd y bobl hyn yn cael eu boddloni i efe oedd y Messiah. † Athraw y galwent bawb a defent yn ddysgawdwyr, nid oeddynt yn gwadu hyny esu. ‡ Ond i brofi mai efe oedd y Messiah, chwenchent ryw arwydd mwy nac a wnaethai ef eto. Taerent gallai swynwyr, drwy eu cyngrair â diafol, wneyd pob th a wnaethai efe eto; am hyny mynent iddo wneyd ywbeth nad allai swynwyr ei wneyd, rhyw arwydd o'r nef.

39 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthnt, * Cenhedlaeth ddrwg a [z] godinebus sydd ceisio arwydd; † ac [a] arwydd nis rhoddir ili, ond arwydd y prophwyd Jonas.

z Es. 57. 3. Marc 8. 38. Iago 4. 4. a pen. 16. 4. Luc 11. 30.

40 Canys [b] fel y bu Jonas dridiau a thair s yn mol y morfil, [c] ‡ felly y bydd Mab y rn dridiau a thair nos [d] y'nghalon y ddaear.

b Jona 1. 17. c pen. 16. 21. a 17. 23. a 27. 40, 63, 64. Ioan 19. d Salm 63. 9. Jona 2. 2—6.

* Cenedlaeth *ddrwg*, o herwydd eu hanffyddlondeb i Iammod Duw, eu hanghrediniaeth yn y Messiah, a'u yniaeth tuag ato. *Godinebus*, o ran eu dirywiad gredig oddi wrth eu tad Abraham; ac yr oedd llawer honynt yn euog o'r pechod hwnw yn weithredol. Gwnaeth Iesu lawer o arwyddion wedi hyn, ond nid boddloni hwy, nac o'r fath a geisient hwy, sef rhyw wydd tanbaid o'r nef. ‡ Cyfrifai yr Iuddewon ddarn Iddiwrnod yn ddiwrnod cyfan, a'i nos hefyd, sef pedair r ar hugain; ac yn ol y cyfrif hyny bu Crist yn y dd dri diwrnod a thair nos. Dyma arwydd o'r ddaear dynt, yn lle arwydd o'r nef.

41 [e] * Gwyr Ninife a [f] gyfodant yn y farn yd â'r [g] genhedlaeth hon, ac a'i condemniant ; [h] am iddynt hwy edifarhâu wrth bregeth onas: † ac [i] wele fwy na Jonas yma.

e Luc 11. 32. f adn. 42. Es. 54. 17. Jer. 3. 11. Ezec. 16. 52. Rhuf. 2. 27. Heb. 11. 7. g adn. 39, 45. pen. 16. 4. a 17. a 23. 36. h Jona 3. 5—10. i adn. 6, 42. Ioan 3. 31. a 4. a 8. 53—58. Heb. 3. 5, 6.

* Bydd edifeirwch y Ninifeaid wrth bregeth Jonas, yn el ei osod ddydd y farn, ar gyfer caledrwydd ac anedifeirwch yr Iuddewon wrth weinidogaeth mwy rhagorol Crist, ac felly yn eu dangos yn ddïesgus, ac yn eu condemnio. † Yr oedd Crist yn fwy na Jonas yn ei berson, yn ei sanctaiddrwydd, yn ei weinidogaeth, ac yn ei weithredoedd.

42 [k] * Brenhines y dehau a gyfyd yn y farn gyd â'r genhedlaeth hon, ac a'i condemnia hi; † am iddi hi ddyfod o eithafoedd y ddaear i [l] glywed doethineb Solomon: ‡ ac [m] wele fwy na Solomon yma.

k 1 Bren. 10. 1, &c. 2 Cron. 9. 1, &c. Luc 11. 31. Act. 8. 27, 28. l 1 Bren. 3. 9, 12, 28. a 4. 29, 34. a 5. 12. a 10. 4, 7, 24. m pen. 3. 17. a 17. 5. Es. 7. 14. a 9. 6, 7. Ioan 14. 18. Phil. 2. 6, 7. Heb. 1. 2—4.

* Brenines Seba yn Arabia, yr hon wlad oedd i'r dehau o Jerusalem. † Er mai benyw wan oedd hon, a brenines fawr hefyd, h ia ddaeth o bellder dirfawr, "o eithafoedd y ddaear," i glywed doethineb Solomon; dyma finnau, y Doethineb tragywyddol ei hun yn eich canol chwi, ac ni dderbyniwch mo honof: am hyny bydd ei hymddygiad hi yn eich condemnio chwi yn y farn. ‡ Wrth ddywedyd ei fod yn fwy na Solomon, yr oedd Iesu yn dywedyd ei fod yn fwy na dyn: yr oedd Solomon yn "ddoethach nac un dyn," am hyny rhaid mai hwn oedd y Messiah.

43 * A phan [n] êl yr ypryd aflan † allan o ddyn, [o] ‡ efe a rodia ar hyd [p] lleoedd sychion, [q] ‖ gan geisio gorphwysdra, ac nid *yw* yn ei gael.

n Luc 11. 24. Act. 8. 13. o Job 1. 7. a 2. 2. 1 Pedr 5. 8. p Salm 63. 1. Es. 35. 6, 7. a 41. 18. Ezec. 47. 8—12. Amos 8. 11—13. q pen. 8. 29. Marc 5. 7—13. Luc 8. 28—32.

44 Yna medd efe, Mi a ddychwelaf [r] i'm tŷ o'r lle y daethum allan. § Ac wedi y delo, [s] y mae yn *ei* gael yn wag, wedi *ei* ysgubo a'*i* drwsio.

r adn. 29. Luc 11. 21, 22. Ioan 13. 27. Eph. 2. 2. 1 Ioan 4. 4. s pen. 13. 20—22. Salm 81. 11, 12. Hos. 7. 6. Ioan 12. 6. a 13. 2. Act. 5. 1—3. a 8. 18—23. 1 Cor. 11. 19. 2 Thes. 2. 9—12. 1 Tim. 6. 4, 5, 9, 10. 1 Ioan 2. 19. Judas 4. 5. Dat. 13. 3, 4, 8, 9.

Dammeg yw y geiriau hyn, yn rhagfynegi gwrthodiad yr Iuddewon:—* Y dyn yn adn. 43. yw y genedlaeth ddrwg hon, (sef yr Iuddewon) yn adn. 45. Yr oedd yr holl genedl, agos, fel dyn cythreulig, wedi eu meddiannu gan ddiafol, yr hwn sydd yn aflan ei hun, ei weithredoedd yn aflan, ac yn hudo dynion i aflendid. † Aeth allan i raddau o hono ei hun, o blith yr Iuddewon, rhag cael ei fwrw allan gan Iesu, ond yn erbyn ei ewyllys. ‡ Yna rhodiodd ar hyd leoedd sychion: barnai yr Iuddewon bod yr ysbrydion drwg yn caru crwydro mewn lleoedd sychion, diffaeth ac anghyfannedd. Y gwledydd paganaidd yn ol barn rhai yw y lleoedd sychion hyn. ‖ Aeth yr apostolion ar ei ol yn fuan i'r gwledydd hyny, ac o herwydd hyny nid oedd yn cael ilonydd yno, mwy nag yn ngwlad Judea: ac am fod Crist a'i apostolion wedi gadael y wlad hono, aeth yn ei ol. § Mae yn cael yr Iuddewon yn wag o Grist, ac yn wag o grefydd; a chalonau y bobl wedi eu hysgubo, a'u trwsio (fel gwely y butain, yn Diar. 7. 16, 17.) yn barod i'w dderbyn.

45 * Yna y mae efe yn myned, ac yn cymmeryd gyd âg ef ei hun [t] saith ypryd eraill [u] gwaeth nag ef ei hun; ac wedi iddynt fyned i mewn, hwy a gyfanneddant yno: † [x] ac y mae diwedd y dyn hwnnw yn waeth na'i ddechreuad. [y] Felly y bydd hefyd i'r genhedlaeth ddrwg hon.

t adn. 24. Marc 5. 9. a 16. 9. Eph. 6. 12. u pen. 23. 15. x Luc 11. 26. Heb. 6. 4—8. a 10. 26—31, 39. 2 Pedr 2. 14—22. 1 Ioan 5. 16, 17. Judas 10—13. y pen. 21. 38—44. a 23. 32—39. a 24. 34. Luc 11. 49—51. a 19. 41—44. Ioan 15. 22—24. Rhuf. 11. 8—10. 1 Thes. 2. 15, 16.

* Ar ei ddychweliad mae yn cymmeryd saith, sef llawer, o ysbrydion eraill, gwaeth nag ef ei hun (lle y gwelwn, fod rhai ysbrydion drwg yn waeth na'u gilydd) ac yn cael ei oddef i aros yno; † ac mae

diwedd y genedl yn myned yn waeth na'i dechreuad. Yn hanes yr Iuddewon o hyn i'w dinystr diweddaf, gwelir mai felly y bu. Gellir cymhwyso y ddammeg uchod at lawer o ddynion yn bersonol yn ein dyddiau ni, ond byddai hyny yn rhy faith yma. Y pethau uchod yw golygiadau ein hawdwyr ar feddwl llythyrenol y geiriau.

46 ¶ Tra [z] yr ydoedd efe yn llefaru wrth y torfeydd, * wele, *ei* fam [a] a'i frodyr oedd yn sefyll allan, yn ceisio ymddiddan âg ef.

z Marc 3. 21, 31. Luc 8. 10. a pen. 13. 55. Marc 6. 3. Ioan 2. 12. a 7. 3, 5, 10. Act. 1. 14. 1 Cor. 9. 5. Gal. 1. 19.

47 A dywedodd un wrtho, † Wele, y mae dy fam di a'th frodyr yn sefyll allan, yn ceisio ymddiddan â thi.

48 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrth yr hwn a ddywedasai wrtho, [b] ‡ Pwy yw fy mam i? a phwy yw fy mrodyr i?

b pen. 10. 37. Deut. 33. 9. Marc 3. 32, 33. Luc 2. 49, 52. Ioan 2. 3, 4. 2 Cor. 5. 16.

49 ‖ Ac efe a estynodd ei law tu ag at [c] ei ddisgyblion, ac a ddywedodd, Wele, fy mam i, a'm brodyr i.

c pen. 28. 7. Marc 3. 34. Ioan 17. 8, 9, 20. a 20. 17—20.

50 Canys pwy bynnag a [d] wna ewyllys fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd, [e] efe yw fy mrawd i, [f] a'm chwaer, [g] a'm mam.

d pen. 7. 21. a 17. 5. Marc 3. 35. Luc 8. 21. a 11. 27, 28. Ioan 6. 29, 40. a 15. 14. Act. 3. 22, 23. a 16. 30, 31. a 17. 30. a 26. 20. Gal. 5. 6. a 6. 15. Heb. 5. 9. Iago 1. 21, 22. 1 Pedr 4. 2. 1 Ioan 2. 17. a 3. 23, 24. Dat. 22. 14. e pen. 25. 40, 45. a 28. 10. Salm 22. 22. Ioan 20. 17. Rhuf. 8. 29. Heb. 2. 11—17. f Can. 4. 9, 10, 12. a 5. 1, 2. 1 Cor. 9. 5. 2 Cor. 11. 2. Eph. 5. 25—27. g Ioan 19. 26, 27. 1 Tim. 5. 2.

* Barna rhai na bu plant i Mair ar ol Iesu, ac mai rhyw berthynasau eraill a elwir yma yn frodyr, yn ol dull yr Iuddewon o lefaru. † Yr oeddynt yn ei geisio, rhag iddo lafurio i ormod lludded wrth lefaru; neu rhag ofn i'r Phariseaid yn eu digofaint wneuthur niwed iddo; neu ar ryw achos o bwys oedd ganddynt hwy. ‡ Ni fynai yr Iesu gael ei aflonyddu na'i rwystro, gydag achos a gwaith Duw, gan neb perthynasau dynol, nac er unrhyw ystyriaethau tymhorol. ‖ Er ei fod yn caru ac yn anrhydeddu ei berthynasau yn ol y cnawd, eto ei wir ddysgyblion oedd ei geraint anwylaf o bawb, a'r rhai hyn a anrhydedda efe fwyaf yn y dydd a ddaw.

PEN. XIII.

Dammeg yr hauwr, a'r had, &c.

Y * DYDD hwnnw yr aeth yr Iesu allan o'r tŷ, ac yr [a] † eisteddodd wrth *lân* y môr.

a Marc 2. 13. a 4. 1.

2 A [b] thorfeydd lawer a ymgynnullasant atto ef, [c] fel yr aeth efe i'r llong, ac yr eisteddodd: a'r holl dyrfa a safodd ar y lân.

b pen. 4. 25. a 15. 30. Gen. 49. 10. Luc 8. 4—8. c Marc 4. 1. Luc 5. 3.

* Y dydd hwnw, lle gwelwn ddiwydrwydd Iesu; nid oedd efe yn treulio un rhan o'r dydd yn segur. † Eistedd oedd ystum yr athrawon Iuddewig wrth lefaru yn gyhoeddus, fel y crybwyllwyd o'r blaen.

3 Ac efe a lefarodd wrthynt lawer o bethau trwy [d] * ddammegion, gan ddywedyd, Wele, [e] yr hauwr a aeth allan i hau.

d adn. 10—13, 34, 35, 53. a 22. 1. a 24. 32. Barn. 9. 8—20. 2 Sam. 12. 1—7. Salm 49. 4. a 78. 2. Es. 5. 1—7. Ezec. 17. 2. a 20. 49. a 24. 3, &c. Mica 2. 4. Hab. 2. 6. Marc 3. 23. a 4. 2, 13, 33. a 12. 1, 12. Luc 8. 10. a 12. 41 a 15. 3, &c. Ioan 16. 25. e Marc 4. 3—9. Luc 8. 5—8.

4 Ac fel yr oedd efe yn hau, peth a syrthiodd ar [f] *fin* y ffordd; a'r adar a ddaethant ac a'i difasant.

f adn. 18, 19.

5 Peth arall a syrthiodd ar [g] greig-leoedd, lle ni chawsant fawr ddaear: ac yn y man yr eginasant, gan nad oedd iddynt ddyfnder daear:

g adn. 20. Ezec. 11. 19. a 36. 26. Amos 6. 12. Zec. 7. 12.

6 Ac [h] wedi codi yr haul, y poethasant, ac [i] am nad oedd ganddynt wreiddyn, hwy a wywasant.

h adn. 21. Es. 49. 10. Iago 1. 11, 12. Dat. 7. 16. i pen. 7. 26, 27. Luc 8. 13. Eph. 3. 17. Col. 1. 23. a 2. 7.

7 A pheth arall a syrthiodd [k] ym mhlith y drain; a'r drain a godasant, ac a'u tagasant hwy.

k adn. 22. Gen. 3. 18. Jer. 4. 3, 4. Marc 4. 18, 19.

8 Peth arall hefyd a syrthiodd mewn [l] tir da, ac a ddygasant ffrwyth, [m] peth ar ei ganfed, arall ar ei driugeinfed, arall ar ei ddegfed ar hugain.

l adn. 23. Luc 8. 15. Rhuf. 7. 18. m Gen. 26. 12. Ioan 15. 8. Gal. 5. 22, 23. Phil. 1. 11.

9 Y neb [n] sydd ganddo glustiau i wrando, gwrandawed.

n adn. 16. pen. 11. 15. Marc 4. 9, 23. a 7. 14—16. Dat. 2. 7, 11, 17, 29. a 3. 6, 13, 22. a 13. 8, 9.

* Dammeg, yn yr Hen Destament, a arwydda, ymadrodd ardderchog, uwchlaw y dull cyffredin o ymadroddi, ac yn cynnwys rhyw ddirgelwch pwysig ynddo. Ystyr y gair Groeg, a gyfieithir dammeg, yw, gosod y naill beth ar gyfer y llall, ac felly eu cymharu â'u gilydd: ac felly yr oedd Crist yn gwneyd yn ei holl ddammegion; dangos pethau ysbrydol trwy bethau naturiol. Am y dammegion, dylem ystyried y pethau canlynol:—1. Am-can pob dammeg yw dysgu i ni ryw athrawiaeth ysbrydol. 2. Nad oes dim rhaid fod y ddammeg ei hun yn wirionedd: fel y gwelwn yn nammeg Jotham, Barn. 9. 7—15, ni bu y cyfryw beth mewn gwirionedd. 3. Nad oes dim achos bod y gweithredoedd a grybwyllir yn y ddammeg, yn gyfiawn ac yn dda; fel y gwelwn yn y ddammeg am y goruchwyliwr anghyfiawn, Luc 16. 1—8. 4. I ddeall dammeg, dylem ystyried ei phrif rediad a'i chynnwysiad; a pha beth oedd yr Arglwydd Iesu am ddysgu i ni ynddi. 5. Bod hyny i'w ddeall wrth yr agoriad mwyaf neilduol mae efe yn wneyd arni; un ai yn ei ragymadrodd iddi, neu yn ei ddiwedd-glo o honi. 6. Na ddylem ddisgwyl i bob peth yn y ddammeg, gael pethau i'w hateb yn yr eglurhad o honi. Ac yn 7fed, er mai rhyw un prif beth a ddylem ni ei ystyried yn y ddammeg, fel yn ein dysgu, eto gall ein dysgu ni mewn amryw o bethau cyferbyniol a'i dehongliad, heblaw yr un peth hwnw. Yr oedd dysgu ar ddammegion yn fanteisiol i'r cof, i'r deall, ac i'r serch. Gan mai dyma ddammeg gyntaf ein Iachawdwr, tybiwyd yn angenrheidiol dywedyd hyna fel agoriad i'r dammegion yn gyffredin. Sylwn yn fanylach ar y ddammeg hon pan ddelom at yr eglurhad o honi.—Mae dammegion Iesu yn rhagori ar ddammegion pawb eraill: nid yw efe byth yn gosod anifeiliaid a phrenau i lefaru, fel pe byddent ddynion; mae ei ddammegion ef oll yn naturiol a phosibl, ac un ddammeg yn unig sydd ganddo allan o derfynau y byd hwn; hòno am y gwr goludog yn uffern, ac Abraham a Lazarus yn y nef. Luc 16. 19—31.

10 A daeth ei ddisgyblion, ac a ddywedasant wrtho, [o] * Paham yr wyt ti yn llefaru wrthynt trwy ddammegion?

o Marc 4. 10, 33, 34.

* Mae yn debyg nad oedd y dysgyblion hyn eu hunain yn deall y ddammeg yn hollawl, am hyny deuent ato ef o'r neilldu, yn ol trefn dysgyblion y dysgawdwyr Iuddewig, i geisio ganddo ei hegluro iddynt. Efallai eu bod yn gofidio dros y torfeydd hefyd.

11 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrth-

ynt, [p] Am roddi i chwi * wybod [q] † dirgelion teyrnas nefoedd, ac ni rhoddwyd iddynt hwy.

p pen. 11. 25, 26. a 16. 17. Salm 25. 8, 9, 14. Es. 29. 19. a 35. 8. Marc 4. 11. Luc 8. 10. a 10. 39—42. Ioan 7. 17. Act. 16. 14. a 17. 11, 12. 1 Cor. 2. 9, 10. a 4. 7. Iago 1. 5, 16—18. 1 Ioan 2. 27. q Rhuf 16. 25. 1 Cor. 2. 7. a 4. 1. a 13. 2. a 15. 51. Eph. 1. 9. a 3. 3—9. a 5. 32. a 6. 19. Col. 1. 26, 27. a 2. 2. 1 Tim. 3. 9, 16.

12 Oblegid [r] pwy bynnag ‡ sydd ganddo, i hwnnw y rhoddir, ac efe a gaiff helaethrwydd: || eithr pwy bynnag nid oes ganddo, [s] oddi arno ef y dygir, ïe, yr hyn sydd ganddo.

r pen. 25. 29. Marc 4. 24, 25. Luc 8. 18. a 19. 24—26. Ioan 15. 2—5. s pen. 21. 43. Es. 5. 4—7. Marc 12. 9. Luc 10. 42. a 12. 20, 21. a 16. 2, 25. Dat. 2. 5. a 3. 15, 16.

* Mae gwybodaeth o ddau fath o ran ei *natur;* sef gwybodaeth hanesiol yn y llythyren yn unig, a gwybodaeth ysbrydol, brofiadol, yr hon sydd gan y credinwyr yn unig. Mae gwybodaeth o ddau fath hefyd o ran ei *gyraddau;* sef gwybodaeth gyffredin, gymmysglyd, a gwybodaeth mwy eglur a pherffaith. † Dirgelion yw pethau nas gellir gwybod yn hanesiol am danynt, heb ddatguddiad geiriol yr Ysgrythyr: ac nas gellir gwybod yn brofiadol a chadwedigol am danynt, heb oleuni a dysgeidiaeth yr Ysbryd Glân. Y cyfryw ddirgelion oedd ac ydyw pob peth a berthyn i Grist a threfn yr iachawdwriaeth. Rhodd Duw i'r neb y mỳno yw yr wybodaeth o honynt. ‡ Sydd ganddo, sef sydd ganddo yr hyn a roddwyd iddo yn adn. 11, hyny yw, gwybodaeth, ffydd, a gras: efe a gaiff gynnydd chwanegol ar y pethau hyny. || Ond pwy bynag nid yw y pethau uchod ganddo, ac sydd yn ddiystyr o honynt, dygir oddi arno ef y pethau sydd ganddo, ag y mae yn ymddiried ynddynt.

13 Am hynny yr ydwyf yn llefaru wrthynt hwy ar ddammegion: [t] * canys a hwy yn gweled, nid ydynt yn gweled; ac yn clywed, nid ydynt yn clywed, nac yn deall.

t adn. 16. Deut. 29. 3, 4. Es. 42. 18—20. a 44. 18. Jer. 5. 21. Ezec. 12. 2. Marc 8. 17, 18. Ioan 3. 19, 20. a 10. 39—41. 2 Cor. 4. 3, 4.

* Cyfiawn oedd llefaru ar ddammegion wrth y bobl hyny, o herwydd iddynt o'r blaen weled gwyrthiau Crist, a chlywed ei eiriau, ac ni chredasant ynddo.

14 * Ac ynddynt hwy y cyflawnir [u] prophwydoliaeth Esaias, yr hon sydd yn dywedyd, † Gan glywed y clywch, ac ni ddeallwch; ac yn gweled y gwelwch, ac ni chanfyddwch.

u Es. 6. 9, 10. Marc 4. 12. Luc 8. 10. Ioan 12. 39, 40. Act. 28. 25—27. Rhuf. 11. 8—10. 2 Cor. 3. 14, 15.

15 ‡ Canys [x] brasâwyd calon y bobl hyn, a hwy a [y] glywsant â'*u* clustiau yn drwm, ac a [z] gauasant eu llygaid; rhag canfod â'*u* llygaid, a chlywed â'*u* clustiau, a deall â'r galon, [a] a throi, [b] ac i mi eu hiachâu hwynt.

x Salm 119. 70. y Zec. 7. 11. Ioan 8. 43, 44. Act. 7. 57. 2 Tim. 4. 4. Heb. 5. 11. z Es. 29. 10—12. a 44. 20. 2 Thes. 2. 10, 11. a Act. 3. 19. 2 Tim. 2. 25, 26. Heb. 6. 4—6. b Es. 57. 18. Jer. 3. 22. a 17. 14. a 33. 6. Hos. 14. 4. Mal. 4. 2. Marc 4. 12. Dat. 22. 2.

* Mae y brophwydoliaeth hon yn Esaias 6. 9, 10. Tybir ei bod yn perthyn yn neilldiol i'r Iuddewon, ac yn enwedig i'r Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, yn amser ein Iachawdwr a'i apostolion, a chymhwysir hi atynt hwy bump o weithiau yn y Testament Newydd, heblaw y fàn hon. † Ni ddeallent ac ni chanfyddent, am na *fynent* ddeall na chanfod: yr oeddynt yn casâu y goleuni ac yn caru y tywyllwch. ‡ Brasâwyd calon y bobl hyn, sef gan falchder, deddfoldeb, a rhagrith; dyna eu gwaith pechadurus hwy: a gadawodd Duw hwynt felly yn ei farn gyfiawn am eu pechadurusrwydd. || Iachâu: sef gwaredu eu heneidiau trwy fendithion yr iachawdwriaeth.

16 * Eithr [c] dedwydd *yw* eich llygaid chwi, am eu bod yn gweled; a'ch clustiau, am eu bod yn clywed.

c pen. 5. 3—11. a 16. 17. Luc 2. 29, 30. a 10. 23. Ioan 20. 29. Act. 26. 18. 2 Cor. 4. 6. Eph. 1. 17, 18.

17 Oblegid yn wir y dywedaf i chwi, [d] chwennychu o lawer o brophwydi a rhai cyfiawn weled *y pethau* a welwch chwi, ac † nis gwelsant; a chlywed *yr hyn* a glywch chwi, ac nis clywsant.

d Luc 10. 24. Ioan 8. 56. Eph. 3. 5, 6. Heb. 11. 13, 39, 40. 1 Pedr 1. 10—12.

* Dedwydd, o herwydd gweled y Messiah wedi dyfod yn y cnawd, a chlywed ei eiriau ef. Ond gweled a chlywed yn ysbrydol yn benaf a feddylir. † Gwelodd y prophwydi â llygad ffydd trwy yr addewidion, ond ni welsant gyflawniad o'r addewidion. Cawsant eu goleuni o'r Haul hwn cyn iddo godi goruwch y llywel, *(horizon)* ac hiraethent am ei weled wedi codi; ond cadwyd hyny fel bendith arbenig i'r apostolion.

18 ¶ [e] * Gwrandewch chwithau gan hynny ddammeg yr hauwr.

e adn. 11, 12. Marc 4. 14.

* Gwrandawsent y ddammeg o'r blaen, yn awr dyma eglurhad arni, yn dangos gwahanol effeithiau y gair ar wahanol ddynion, yn nghyd â'r achosion o hyny.—Yr hauwr yw y pregethwr; Crist ei hun yn gyntaf, gwedi hyny ei apostolion, yna holl weinidogion yr efengyl yn mhob oes a gwlad.

19 * Pan glywo neb [f] air y deyrnas, [g] ac † heb *ei* ddeall, y mae y [h] ‡ drwg yn dyfod, ac yn cipio yr hyn a hauwyd || yn ei galon ef. [i] § Dyma yr hwn a hauwyd ar *fin* y ffordd.

f pen. 4. 23. Luc 8. 11. a 9. 2. a 10. 9. Act. 20. 25. a 28. 23. Rhuf. 14. 17. 2 Cor. 4. 2, 3. Eph. 3. 8. g Diar. 1. 7, 20—22. a 2. 1—6. a 17. 16. a 18. 1, 2. Ioan 3. 19, 20. a 8. 43. a 18. 38. Act. 17. 32. a 18. 15. a 24. 25, 26. a 25. 19, 20. a 26. 31, 32. Rhuf. 1. 28. a 2. 8. 2 Thes. 2. 12. Heb. 2. 1. 1 Ioan 5. 20. h adn. 38. Marc 4. 15. Luc 8. 12. 1 Ioan 2. 13, 14. a 3. 12. a 5. 18. i adn. 4.

* Gair y deyrnas, sef yr efengyl, yw yr had: trwy hwn mae Crist yn gosod i fynu ei deyrnas yn y byd; yn yr eglwys ac yn nghalonau dynion, ac yn eu darpar i deyrnas gogoniant. † Nid yn unig heb ei ddeall yn ysbrydol, ond drwy hollawl ddifaterwch, heb ei ddeall yn y pwnc a'r hanes. ‡ Y drwg yma yw diafol, yr ysbryd drwg: fel y mae adar yn cipio yr had ar ol ei hau, felly mae yntau yn ein cynnulleidfâoedd yn cipio y gair. || Wrth y galon yma y deallir y meddwl, â'r hwn yr ydym yn amgyffred yr hyn a glywom. § Min y ffordd a ddengys galon heb ei braenaru, a phob chwantau pechadurus fel trafaelwyr yn ei sathru.

20 * A'r hwn a [k] hauwyd ar y creigleoedd, † yw yr hwn sydd yn gwrando y gair, ‡ ac [l] yn ebrwydd trwy lawenydd yn ei dderbyn;

k adn. 5, 6. l 1 Sam. 11. 13—15. 2 Cron. 24. 2, 6, 14. Salm 78. 34—37. a 106. 12, 13. Es. 58. 2. Ezec. 33. 31, 32. Marc 4. 16, 17. a 6. 20. Ioan 5. 35. Act. 8. 13. Gal. 4. 14, 15.

21 || Ond nid oes ganddo [m] wreiddyn ynddo ei hun, § eithr [n] dros amser y mae: [o] a phan ddelo gorthrymder neu erlid oblegid y gair, yn y fan efe a [p] rwystrir.

m adn. 6. pen. 7. 22, 23, 26, 27. Job 19. 28. Diar. 12. 3, 12. Luc 8. 13. Ioan 6. 26, 61—65, 70, 71. a 15. 5—7. Act. 8. 21—23. Gal. 5. 6 a 6. 15. Eph. 3. 17. 2 Pedr 1. 8, 9. 1 Ioan 2. 19, 20. n pen. 10. 22. a 24. 13. Job 27. 8—10. Salm 36. 3. Hos. 6. 4. Rhuf. 2. 7. Phil. 1. 6. 1 Pedr 1. 5. o pen. 5. 10—12. a 10. 37—39. a 16. 24—26. Marc 4. 17. a 8. 34—36. a 13. 12, 13. Luc 9. 23—25. a 14. 26—33. a 21. 12—18. Ioan 12. 25, 26. Gal. 6. 12. 2 Tim. 4. 10. Heb. 10. 35—39. Dat. 2. 13. p adn. 57. pen. 11. 6. a 24. 9, 10. a 26. 31, 33.

* Y creig-leoedd a arwydda galonau heb eu meddalu a'u cyfnewid trwy ras. † Mae llawer o'r cyfryw yn gwrando yr efengyl yn bur gyson; ‡ ac yn teimlo rhyw fath o lawenydd, ac effeithiau ansanctaidd ar eu serchiadau, wrth briodoli iddynt eu hunain y pethau gwerthfawr sydd yn y gair: ond nid oes yma ddim dryllliad calon, nac edifeirwch a galar duwiol am bechod. || Pethau arwynebol ar y tymherau yw y cwbl; nid oes

ganddynt egwyddor rasol, ac nid ydynt wedi eu gwreiddio yn nghariad Duw. § Am hyny dros amser y parhâ eu crefydd, pan ddelo erlid gwladol neu deuluaidd arnynt hwy am eu proffes, hwy a rwystrir.

22 * A'r hwn a hauwyd [q] ym mhlith y drain, yw yr hwn sydd yn gwrando y gair; [r] ac y mae gofal y byd hwn, a [s] thwyll cyfoeth, † [t] yn tagu y gair, ac y mae yn myned yn ddiffrwyth.

q adn. 7. Marc 4. 18. Luc 8. 14. r pen. 6. 24, 25. a 19. 16—24. Gen. 13. 10—13. Jos. 7. 20, 21. 2 Bren. 5. 20—27. Marc 10. 23—25. Luc 12. 15, 21, 29, 30. a 21. 34. Act. 5. 1—11. a 8. 18. 1 Tim. 6. 9, 10. 2 Pedr 2. 14, 15. 1 Ioan 2. 15, 16. Judas 11. s Salm 52. 7. a 62. 10. Diar. 11. 28. a 23. 5. Preg. 4. 8. a 5. 10, 11, 13, 14. Marc 4. 19. Luc 18. 24, 25. 1 Tim. 6. 17. t Luc 8. 14. Judas 12.

* Y drain yma yw gofalon y byd a thwyll cyfoeth: gofalon y byd i'r tlodion, a thwyll cyfoeth i'r mawrion. Awydd anghyfreithlawn am bethau gwaharddedig, neu awydd anghymmedrol am bethau cyfreithlawn. † Mae y drain yn tagu yr had drwy sugno brasder y ddaear oddiwrth y gwreiddyn, cadw y gwynt a'r haul oddiwrth yr eginyn, ac attal lle iddo dyfu. Felly mae gofalon y byd, &c, yn lladrata holl feddyliau y gwrandawwyr hyn, ac yn attal ymgeledd yr Ysbryd Glân oddi wrthynt, a diffrwytho maent yn eu crefydd. O mòr gul yw y ffordd sydd yn arwain i'r bywyd tragywyddol! ac O mòr lleied sydd yn ei chael hi!

23 * Ond yr hwn [u] a hauwyd yn y [x] tir da, yw yr hwn sydd yn gwrando y gair, ac yn *ei* ddeall; † *sef* yr hwn [y] sydd yn ffrwytho, ‡ ac yn dwyn [z] peth ei ‖ ganfed, arall ei driugeinfed, arall ei ddegfed ar hugain.

u adn. 8. Marc 4. 20. Luc 8. 15. x Diar. 1. 5, 6. a 2. 2—6. Ezec. 18. 31. a 36. 26. Marc 10. 15. Ioan 1. 11—13. a 8. 47. a 10. 26, 27. a 17. 7, 8. Act. 16. 14. a 17. 11. 2 Thes. 2. 10, 13, 14. Heb. 4. 2. a 8. 10. Iago 1. 21, 22. 1 Pedr 2. 1, 2. 1 Ioan 5. 20. y pen. 3. 8, 10. a 12. 33. Salm 1. 1—3. a 92. 13—15. Luc 6. 43, 44. a 13. 9. Ioan 15. 1—8, 16. Gal. 5. 22, 23. Phil. 1. 11. a 4. 17. Col. 1. 6, 10. Heb. 6. 7. a 13. 15, 16. z 2 Cor. 8. 1, 2. a 9. 10. 1 Thes. 4. 1. 2 Pedr 1. 5—8. a 3. 18.

Er i gymmaint o'r had gwerthfawr fyned yn ofer, eto nid â i gyd yn ofer, ac ni ddychwel yn wag, Es. 55. 10, dyma beth o hóno yn dwyn ffrwyth. * Y tir da, yw y calonau sydd wedi cael eu darpar a'u gwneyd yn dda gan Dduw: calonau wedi eu hadnewyddu a'u sancteiddio gan yr Ysbryd Glân. † Nid yn unig mae y rhai hyn yn gwrando y gair ac yn ei dderbyn, sef ei gredu; ond mae y gair fel had anllygredig ynddynt yn dwyn ffrwyth, mewn sancteiddrwydd bywyd, ac ufudd-dod i ewyllys Duw. ‡ Ffrwyth yw y cwbl, yr un peth o ran ei natur; ond nid yr un graddau yn mhawb. Gall dyn fod yn ddidwyll yn ngolwg Duw, er nad yw yn dwyn cymmaint o ffrwyth â rhai eraill. ‖ Y ganfed oedd y ffrwyth mwyaf oeddid yn ddisgwyl gael yn y gwledydd hyny. Gwel Gen. 26. 12. I wneyd gwir Gristion rhaid i'r pethau hyn fod:—1. Gwrando y gair. 2. Ei ddeall, neu ei gredu. 3. Ei gadw. 4. Dwyn ffrwyth. 5. A dwyn ffrwyth trwy amynedd, Luc 8. 15.

24 ¶ Dammeg arall a [a] osododd efe iddynt, gan ddywedyd, [b] * Teyrnas nefoedd sydd gyffelyb i ddyn a hauodd [c] † had da yn ei faes:

a pen. 21. 33. Barn. 14. 12, 13. Ezec. 17. 2. b adn. 33, 44, 45, 47. pen. 3. 2. a 20. 1. a 22. 2. a 25. 1. Marc 4. 30. Luc 13. 18, 20. c adn. 19, 37. pen. 4. 23. Col. 1. 5. 1 Pedr 1. 23.

25 ‡ A thra yr oedd y [d] dynion yn cysgu, [e] daeth ei elyn ef, ac a hauodd [f] efrau ym mhlith y gwenith, ac a aeth ymaith.

d pen. 25. 5. Es. 56. 9, 10. Act. 20. 30, 31. Gal. 2. 4. 2 Tim. 4. 3—5. Heb. 12. 15. 2 Pedr 2. 1. Dat. 2. 20. e adn. 39. 2 Cor. 11. 13—15. 1 Pedr 5. 8. Dat. 12. 9. a 13. 14. f adn. 38.

26 Ac [g] wedi i'r eginyn dyfu, a dwyn ffrwyth, yna yr ymddangosodd yr efrau hefyd.

g Marc 4. 26—29.

27 A [h] gweision gwr y tŷ a ddaethant, ac a ddywedasant wrtho, ‖ Arglwydd, oni hauai [i] di had da yn dy faes? [i] o ba le gan hynny y mae yr efrau ynddo?

h 1 Cor. 3. 5—9. a 12. 28, 29. a 16. 10. 2 Cor. 5. 18—20. a 6. 1, 4. Eph. 4. 11, 12. i Rhuf. 16. 17. 1 Cor. 1. 11—13. a 15. 12. &c. Gal. 3. 1—3. Iago 3. 15, 16. a 4. 4.

28 Yntau a ddywedodd wrthynt, Y gelyn *ddyn* a wnaeth hyn. A'r gweision a ddywedasant wrtho, [k] A fynni di gan hynny i ni fyned a'u casglu hwynt.

k Luc 9. 49—54. 1 Cor. 5. 3—7. 2 Cor. 2. 6—11. 1 Thes. 5. 14. Judas 22, 23.

29 Ac efe a ddywedodd, § Na fynnaf; rhag i chwi, wrth gasglu yr efrau, ddiwreiddio y gwenith gyd â hwynt.

30 Gadewch i'r ddau gyd-dyfu hyd y cynhauaf: ac yn amser y cynhauaf y dywedaf [m] wrth y medelwyr, Casglwch yn gyntaf yr efrau, [n] a rhwymwch hwynt yn ysgubau i'w [o] *llwyr*-losgi; [p] ond casglwch y gwenith i'm hysgubor.

l adn. 39. pen. 3. 12. a 22. 10—14. a 25. 6—13, 32. Mal. 3. 18. 1 Cor. 4. 5. m adn. 39—43. n 1 Sam. 25. 29. o pen. 25. 41. Es. 26. 10, 11. Ezec. 15. 4—7. Ioan 15. 6. p pen. 3. 12. Luc 3. 17.

* Teyrnas nefoedd yma a arwydda oruchwyliaeth yr efengyl, neu yr eglwys weledig yn y byd hwn. † Yr had da yw athrawiaeth dda yn cael ei phregethu, a dynion da yn cael eu gosod yn yr eglwys. ‡ Y dynion oedd apostolion Crist, a gwir weinidogion y gair wedi hyny, a'u cwsg oedd gormod diofalwch a diffyg gwyliadwriaeth. ‖ Rhyw fath o chwyn tebyg iawn i wenith oedd yr efrau, nas gwyddom ni am danynt yn y wlad hon. Mae gofyniadau y gweision yma yn dangos gofid gwir weinidogion y gair o weled y fath gymmysgedd a llygriad yn yr eglwys, a'u parodrwydd hwy, hyd y mae ynddynt, i'w phuro oddi wrth y cymmysgedd a'r llygriad hyny. § Ac mae yr ateb yn dangos amynedd Duw at y rhai drwg, ei ofal am ei wir bobl, ac hefyd anfedrusrwydd ei weision ffyddlonaf i wahaniaethu duwiolion a rhagrithwyr. Cawn sylwi ar y ddammeg hon eto yn yr agoriad arni.

31 ¶ Dammeg arall [q] a osododd efe iddynt, gan ddywedyd, [r] * Cyffelyb yw teyrnas nefoedd i † ronyn o had mwstard, yr hwn a gymmerodd dyn ac a'*i* hauodd yn ei faes.

q adn. 24. Luc 19. 11. a 20. 9. r Marc 4. 30—32. Luc 13. 18, 19.

32 Yr hwn yn wir sydd [s] leiaf o'r holl hadau; ‡ ond wedi iddo dyfu, mwyaf un o'r llysiau ydyw, ac y mae efe yn myned yn bren; [t] fel y mae adar y nef yn dyfod, ac yn nythu yn ei gangau ef.

s Salm 72. 16—19. Es. 2. 2—4. Ezec. 47. 1—5. Dan. 2. 34, 35, 44, 45. Mica 4. 1—3. Zec. 4. 10. a 8. 20—23. a 14. 7—10. Act. 1. 15. a 21. 20. Rhuf. 15. 18, 19. Dat. 11. 15. t Ezec. 17. 23, 24. a 31. 6. Dan. 4. 12.

* Wrth deyrnas nefoedd yma eto mae i ni ddëall goruchwyliaeth yr efengyl, † yr hon oedd yn y dechreuad yn fechan iawn fel gronyn o had mwstard, yr hwn sydd un o'r hadau lleiaf a heüir; ‡ ond yn y gwledydd hyny, mae'n debyg, a dyfai i faintioli rhyfeddol. Felly gweinidogaeth yr efengyl, ymdaenodd mewn ychydig flynyddoedd dros deyrnasoedd eraill, a hi a ymdaena yn fuan dros wyneb yr holl ddaear.

33 ¶ Dammeg arall a lefarodd efe wrthynt, Cyffelyb yw teyrnas nefoedd [u] * i surdoes, yr hwn a gymmerodd gwraig ac a'i cuddiodd mewn † tri pheccaid o flawd, [x] hyd oni surodd y cwbl.

u Luc 13. 21. 1 Cor. 5. 6, 7. Gal. 5. 9. x Job 17. 9. Diar. 4. 18. Hos. 6. 3. Ioan 15. 2. a 16. 12, 13. Phil. 1. 6, 9. a 2. 13—15. 1 Thes. 5. 23, 24. 2 Pedr 3. 18.

Yn y ddammeg ddiweddaf gwelsom lwyddiant a chynnydd achos yr efengyl yn y byd; yma gwelwn effaith a chynnydd gras yr efengyl yn y galon, yn troi yr holl enaid i'r unrhyw ansawdd a natur sanctaidd âg ef ei hun. * Surdoes fyddai gan y gwragedd yn y wlad hòno yn eplesu eu toes. † Tri phecaid: hyny yn gyffredin a bobid ar y tro. Tair phiolaid, gwel Gen. 18. 6.

34 [y] * Hyn oll a lefarodd yr Iesu trwy ddammegion wrth y torfeydd; ac heb ddammeg ni lefarodd efe wrthynt:

y adn. 13. Marc 4. 33, 34.

35 Fel [z] y cyflawnid yr hyn a ddywedwyd trwy y prophwyd, gan ddywedyd, [a] Agoraf fy ngenau mewn dammegion; [b] † mynegaf bethau cuddiedig [c] er pan seiliwyd y byd.

z adn. 14. pen. 13. 4, 5. a Salm 78. 2. b Salm 49. 4. Es. 42. 9. Amos 3. 7. Rhuf. 16. 25, 26. 1 Cor. 2. 7. Eph. 3. 5, 9. Col. 1. 25, 26. 2 Tim. 1. 9, 10. Tit. 1. 2, 3. Heb. 1. 1. 1 Pedr 1. 11, 12. c pen. 25. 34. Ioan 17. 24. Act. 15. 18. 1 Pedr 1. 20, 21. Dat. 13. 8. a 17. 8.

* Llefarodd yr Iesu y pethau uchod ar ddammegion, rhag ofn yr Iuddewon; pe llefarasai yn fwy eglur, buasai ei elynion yn cyffrôi yn ei erbyn. Llefarodd felly hefyd fel cerydd arnynt, am beidio credu y pethau a lefarasai o'r blaen yn eglurach: a llefarodd felly i wneyd ei ddysgyblion yn fwy awyddus am ddeall ei feddwl. Llefarodd felly, yn olaf, i gyflawni yr ysgrythyr, Salm 78. 2. † Pethau cuddiedig yn nghyngor tragywyddol Duw, cuddiedig gan dywyllwch cysgodau am oesoedd, a chuddiedig o ran y dull yr oedd Crist yn eu llefaru y pryd hwnw. Y pethau am dano ei hun a'i deyrnas oeddynt.

36 ¶ * Yna [d] yr anfonodd yr Iesu y torfeydd ymaith, [e] ac yr aeth i'r tŷ: † a'i ddisgyblion a ddaethant atto, gan ddywedyd, [f] ‡ Eglura i ni ddammeg efrau y maes.

d pen. 14. 22. a 15. 39. Marc 6. 45. a 8. 9. e adn. 1. pen. 9. 28. Marc 4. 34. f adn. 11. pen. 15. 15, 16. Marc 7. 17. Ioan 16. 17—20.

* Aeth y torfeydd ymaith heb fod nemawr gwell o'r hyn a glywsent, fel yr â torfeydd lawer eto. † Er bod y torfeydd yn ddifater am wybodaeth, nid felly y dysgyblion, yr oeddynt hwy am ddeall. ‡ Ac yn enwedig am ddeall dammeg efrau y maes: yn hon yr oeddynt dywyllaf, neu hon a gawsai yr effaith fwyaf arnynt. Mynega i ni, yw y Saesoneg; ond addefa ein Hawdwyr mai *egluro* yw meddwl y gair Groeg; a hyny oedd eisiau yn awr, canys yr oedd Crist wedi *mynegi* neu *draethu* y ddammeg o'r blaen.

37 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, [g] * Yr hwn sydd yn hau yr had da, [h] yw Mab y dyn;

g adn. 24, 27. h adn. 41. pen. 10. 40. a 16. 13—16. Luc 10. 16. Ioan 13. 20. a 20. 21. Act. 1. 8. Rhuf. 15. 18. 1 Cor. 3. 5—7. Heb. 1. 1. a 2. 3.

38 † A'r [i] maes yw y byd; [k] ‡ a'r had da, hwynt-hwy yw plant y deyrnas; a'r efrau yw [l] plant y drwg;

i pen. 24. 14. a 28. 18—20. Marc 16. 15—20. Luc 24. 47. Rhuf. 10. 18. a 16. 26. Col. 1. 6. Dat. 14. 6. k Salm 22. 30. Es. 53. 10. Hos. 2. 23. Zec. 10. 8, 9. Ioan 1. 12, 13. a 12. 24. Rhuf. 8. 17. Iago 1. 18. a 2. 5. 1 Pedr 1. 23. 1 Ioan 3. 2, 9. l adn. 19. Gen. 3. 15. Ioan 8. 44. Act. 13. 10. Phil. 3. 18, 19. 1 Ioan 3. 8, 10.

39 ‖ A'r [m] gelyn yr hwn a'u hauodd hwynt, yw diafol; [n] § a'r cynhauaf yw diwedd y byd; [o] a'r medelwyr yw yr angelion.

m adn. 25, 28. 2 Cor. 2. 17. a 11. 3, 13—15. Eph. 2. 2. a 6. 11, 12. 2 Thes. 2. 8—11. 1 Pedr 5. 8. Dat. 12. 9. a 13. 14. a 19. 20. a 20. 2, 3, 7—10. n adn. 49. pen. 24. 3. Dat. 14. 15. o pen. 25. 31. Dan. 7. 10. 2 Thes. 1. 7—10. Judas 14.

* Yr hauwr yw Crist ei hun yn gyntaf ac yn benaf, a'i genadon hefyd drwy ei anfoniad ef. † Y maes yw y byd, yr holl fyd yn gyffredin, nid gwlad Israel yn unig: a Christ yr hauwr yw perchen y maes. ‡ Yr had da, plant y deyrnas, yw gwir dduwiolion; deiliaid ffyddlon teyrnas Iesu yma, ac etifeddion y deyrnas yn y nef. Yr efrau yw plant y drwg, plant diafol; ond yn yr eglwys, ac a rhyw fath o grefydd ganddynt, gau-gredinwyr, rhagrithwyr, annghristwyr, gwrth-ddeddfwyr, a ffugysbrydolwyr, o bob math. ‖ Diafol drwy ei offerynau, sef y gau-athrawon, a genedlodd y rhai hyn oll, ac a'u dygodd i mewn i'r eglwys, i dwyllo dynion, ac i waradwyddo yr efengyl. Ar hyd nos, ac yn ddirgel, mae efe yn gwneyd hyn fwyaf llwyddiannus, pan mae gweinidogion a christionogion leiaf gwyliadwrus. § Ond yn niwedd y byd, dydd y farn gyffredinol, daw cynhauaf ar y da a'r drwg, ac angelion fydd y medelwyr yno: hwy fydd gweision Mab y dyn yn y gorchwyl mawr ac olaf hwn.

40 * Megis gan hynny [p] y cynnullir yr efrau, ac a'u llwyr losgir yn tân; felly y bydd yn niwedd y byd hwn.

p adn. 30.

41 [q] † Mab y dyn a ddenfyn ei angelion, [r] a hwy a gynnullant allan o'i deyrnas ef yr holl dramgwyddiadau, [s] a'r rhai a wnant anwiredd;

q pen. 24. 31. Marc 13. 27. Heb. 1. 6, 7, 14. Dat. 5. 11, 12. r adn. 49. pen. 18. 7. Rhuf. 16. 17, 18. 2 Pedr 2. 1, 2. s pen. 7. 22, 23. Luc 13. 26, 27. Rhuf. 2. 8, 9, 16. Dat. 21. 27.

42 Ac [t] a'u bwriant hwy ‡ i'r ffwrn dân: yno y bydd [u] wylofain a rhingcian dannedd.

t pen. 3. 12. a 25. 41. Salm 21. 9. Dan. 3. 6, 15—17, 21, 22. Marc 9. 43—49. Luc 16. 23, 24. Dat. 14. 10. a 20. 10, 14, 15. a 21. 8. u adn. 50. pen. 8. 12. a 22. 13. Luc 13. 28.

43 ‖ Yna [x] y llewyrcha y rhai cyfiawn fel yr haul, [y] yn nheyrnas eu Tad. [z] § Yr hwn sydd ganddo glustiau i wrando, gwrandawed.

x pen. 25. 34, 46. Dan. 12. 3. 1 Cor. 15. 41—54. Dat. 21. 3—5, 22, 23. y pen. 26. 29. Luc 12. 32. a 22. 29. Iago 2. 5. z adn. 9.

* Er mòr debyg oedd yr efrau i'r gwenith, mae'n debyg nad oeddent dda i ddim, am hyny cynnullid hwynt o blith y gwenith, a llosgid hwynt. † Felly y gwneir â phlant y drwg yn nydd y farn; gwelir Mab y dyn yn Arglwydd angelion ac yn farnwr dynion, ac ar ei orchymyn ef, hwy a gynnullant holl weithredwyr anwiredd a fu yn dramgwydd i'w achos ef yn y byd, ac eu bwriant i uffern, y ffwrn dân, y temtwyr â'r temtiedig, y twyllwyr â'r twylledig, i gyd-wylofain a rhincian dannedd byth. ‡ Cyfeiriad efallai at losgi drwg-weithredwyr ac eraill yn fyw mewn ffwrn o dân poeth, yr hyn a wnâid yn ngwledydd y dwyrain, fel y gwelwn yn Dan. 3. 11; ond uffern yw y ffwrn dân a feddylir yma, canys am yr hyn a wnâir yn niwedd y byd hwn y sonir: adn. 40. ‖ Ond y rhai cyfiawn, yn nghyfiawnder cyfrifol Iesu, ac âg egwyddor gyfiawn a didwyll yn eu calonau, a ddygir i'r nef, teyrnas eu Tad, ac yno disgleiriant, yn berffaith sanctaidd a gogoneddus, heb frycheuyn arnynt na'r un rhagrithiwr yn eu plith. § Gwrandâwn ninnau yn sobr a chrynedig, ar y ddammeg bwysig hon a'i dehongliad.

44 ¶ Drachefn, [a] cyffelyb yw * teyrnas nefoedd i † drysor wedi ei ‡ guddio mewn ‖ maes; yr hwn wedi i ddyn ei gaffael, a'i cuddiodd, ac [b] o lawenydd am dano, sydd yn myned ymaith, § ac yn gwerthu yr hyn oll a fedd, ac [c] yn prynu y maes hwnnw.

a pen. 6. 21. Diar. 2. 2—5. a 16. 16. a 17. 16. a 18. 1. Ioan 6. 35. Rhuf. 15. 4. 1 Cor. 2. 9, 10. Col. 2. 3. a 3. 3, 4, 16. b pen. 19. 21, 27, 29. Luc 14. 33. a 18. 23, 24. a 19. 6—8. Act. 2. 44—47. a 4. 32—35. Phil. 3. 7—9. Heb. 10. 34. a 11. 24—26. c Diar. 23. 23. Es. 55. 1. Dat. 3. 18.

* Wrth deyrnas nefoedd yn y ddammeg hon, y meddylir Crist ei hun, ei gyfiawnder, ei ras, a holl fendithion yr efengyl. † Cyffelybir y rhai hyn i *drysor*, rhywbeth anfeidrol werthfawr. ‡ Mae y trysor hwn wedi ei guddio, sef yn guddiedig oddiwrth ddoethion a deallus y byd hwn. ‖ Yn maes yr efengyl a gwir grefydd y mae y trysor yn guddiedig. Neu drysor *cuddiedig* mewn maes,

meddant, yw y Groeg; nid trysor wedi ei guddio mewn llestr neu rywbeth felly yn y maes a feddylir, gallasai y dyn gymmeryd hwnw ymaith ar ol ei gael, heb brynu y maes; eithr yn hytrach mŵn-glawdd, neu wythen o aur neu arian, yn naturiol yn y maes, a feddylir; ac wedi i'r dyn ddarganfod peth felly, yn ddiarwybod i bawb eraill, efe a brynodd y maes er mwyn y trysor oedd ynddo. § Ar ol i ddyn gael gwybodaeth am dano trwy ddatguddiad Ysbryd Duw, mae yn llawenychu o'i herwydd, ac yn ymadael â'i holl bechodau a'i bleserau bydol, ac yn cofleidio yr holl wirionedd, a'r cwbl o grefydd, ac yn etifeddu y trysor.

45 ¶ Drachefn, [d] cyffelyb yw teyrnas nefoedd i farchnattâwr, [e] * yn ceisio perlau teg;

d pen. 16. 26. a 22. 5. Diar. 3. 13—18. a 8. 10, 11, 18—20. e Job 28. 18. Salm 4. 6, 7. a 39. 6, 7. Preg. 2. 2—12. a 12. 8, 13.

46 * Yr hwn wedi iddo gaffael [f] un perl gwerthfawr, [g] ‡ a aeth *ac* a werthodd gymmaint oll ag a feddai, ac a'i prynodd ef.

f Es. 33. 6. 1 Cor. 3. 21—23. Eph. 3. 8. Col. 2. 3. h Ioan 5. 11, 12. Dat. 21. 21. g Marc 10. 28—31. Luc 18. 28—30. Act. 20. 24. Gal. 6. 14.

* Mae pob dyn yn farchnatâwr yn ceisio perlau têg; pawb yn ceisio dedwyddwch yn ei ffordd ei hun. Math o feini gwerthfawr oedd y perlau teg hyn, a brynid ac a werthid gan farchnatâwyr y cyfryw bethau yn y dwyrain; a dygid hwy gan y marchnatâwyr Iuddewig hefyd, o lànau y môr coch lle yr oeddynt i'w cael. † Pan gafto pechadur iawn olwg ar Grist yn ei ogoniant a'i werth, mae yn ei weled yn "berl gwerthfawr," ac yn gweled pob peth arall yn ddiwerth mewn cymhariaeth iddo. ‡ Mae yn foddlawn i ymadael â phob peth arall fel tòm a cholled fel yr ennillo y perl gwerthfawr hwn.

47 ¶ Drachefn, * cyffelyb yw teyrnas nefoedd i [h] † rwyd a fwriwyd yn y ‡ môr, [i] ac a gasglodd o bob rhyw beth:

h pen. 4. 19. Marc 1. 17. Luc 5. 10. i adn. 26—30. pen. 22. 9, 10. a 25. 1—4. Luc 14. 21—23. Ioan 15. 2, 6. Act. 5. 1—10. a 8. 18—22. a 20. 30. 1 Cor. 5. 1—6. a 10. 1—12. a 11. 19. 2 Cor. 11. 13—15, 26. a 12. 20, 21. Gal. 2. 4. 2 Tim. 3. 2—5. a 4. 3, 4. Tit. 1. 9—11. 2 Pedr 2. 1—3, 13—22. 1 Ioan 2. 18, 19. a 4. 1—6. Judas 4, 5. Dat. 3. 1, 15—17.

48 Yr hon, wedi ei llenwi, a ddygasant i'r làn, ac a eisteddasant, [k] ac a gasglasant y rhai da mewn llestri, ac a fwriasant allan y rhai drwg.

k adn. 30, 40—43. pen. 3. 12.

49 Felly y bydd yn niwedd y byd: [l] yr angelion a ânt allan, [m] ac a ddidolant y rhai drwg o blith y rhai cyfiawn;

l adn. 39. pen. 24. 31. m pen. 22. 12—14. a 25. 5—12, 19—33. 2 Thes. 1. 7—10. Dat. 20. 12—15.

50 Ac a'u bwriant hwy i'r ffwrn dân: yno y bydd [n] wylofain a rhingcian dannedd.

n pen. 24. 50, 51. Luc 13. 27, 28. Dat. 14. 10, 11. a 16. 10, 11.

Mae y ddammeg hon yn debyg i ddammeg yr efrau, yn dangos y cymmysgedd o dda a drwg a fydd yn yr eglwys tra byddo hi ar y ddaear. * Teyrnas nefoedd yw goruchwyliaeth yr efengyl. † Y rhwyd yw yr efengyl ei hun, yn y pregethiad o honi. ‡ Y môr yw y byd yn gyffredin, lle pregethir yr efengyl. ‖ Y pob rhyw beth, da a drwg a gasglodd y rhwyd, yw, y dynion da a drwg a gesglir i'r eglwys gan yr efengyl. Mae y gair a gyfieithir *drwg*, yma, yn arwyddo pysgod meirw, braenllyd, a drewedig; i ddangos fod dynion o'r fath waethaf, a mwyaf diobaith am danynt, yn dyfod i'r eglwys yn mhlith rhai eraill. Nid oes achos egluro ar y rhan arall o'r adnodau uchod.

51 Iesu a ddywedodd wrthynt, [o] * A ddarfu i chwi ddeall hyn oll? † Hwythau a ddywedasant wrtho, Do, Arglwydd.

o adn. 11, 19. pen. 15. 17. a 16. 11. a 24. 15. Marc 4. 34. a 7. 18. a 8. 17, 18. Luc 9. 44, 45. Act. 8. 30, 31. 1 Ioan 5. 20.

* Yr oedd Iesu yn ofalus am i'w ddysgyblion ddeall yr hyn a ddywedasai efe, ac yn ewyllysgar i'w dysgu os nad oeddynt. † Felly y dylai gweinidogion yr efengyl fod. † Atebasant yn ddiolchgar, eu bod; ond efallai iddynt ateb yn rhy hyderus; go dywyll oeddynt eto mewn llawer o bethau a berthynent i Grist a'r efengyl, yn enwedig offeiriadaeth Crist.

52 A dywedodd yntau wrthynt, Am hynny pob [p] * ysgrifenydd wedi ei † ddysgu i deyrnas nefoedd, ‡ sydd debyg i ddyn o berchen tŷ, [q] yr hwn sydd yn dwyn allan o'i drysor, [r] ‖ *bethau* newydd a hen.

p pen. 23. 34. Ezra 7. 6, 10, 21. Luc 11. 49. 2 Cor. 3. 4—6. Col. 1. 7. 1 Tim. 3. 6, 15, 16. 2 Tim. 3. 16, 17. Tit. 1. 9. a 2. 6, 7. q pen. 12. 35. Diar. 10. 20, 21. a 11. 30. a 16. 20—24. a 22. 17, 18. Preg. 12. 9—11. 2 Cor. 4. 5—7. a 6. 10. Eph. 3. 4, 8. Col. 3. 16. r Can. 7. 13. Ioan 13. 34. 1 Ioan 2. 7, 8.

Gan hyny, os ydych yn eu deall, cyfrenwch eich gwybodaeth o honynt i eraill, nid gwybodaeth i chwi eich hunain ydyw. * Yr ysgrifenyddion oedd dysgawdwyr y bobl dan yr hen oruchwyliaeth; (y cyfryw un oedd Ezra, gwel pen. 7. 6, 10.) a'r apostolion a gweinidogion yr efengyl oedd i gymmeryd eu lle dan yr oruchwyliaeth newydd. † Rhaid fod y dysgawdwyr hyn wedi cael eu dysgu eu hunain gan yr Ysbryd Glân, yn holl athrawiaeth fawr yr efengyl, dirgeledigaethau teyrnas nefoedd, cyn y gallent ddysgu eraill. ‡ Yna byddant fel pen-teulu cyfoethog a gofalus, yn meddu ar drysorau o luniaeth yn wastad wrth law, i ddiwallu anghenion y teulu. ‖ Pethau newydd a hen: gwirioneddau y Testament Newydd a'r Hen; addysgiadau, sylwadau, a phrofiadau, newydd a hen; llewyrch a blas newydd ar hen wirioneddau; ac efallai bod yma gyfeiriad hefyd at y ddwy oruchwyliaeth, newydd a hen. Ni ddylai gweinidogion yr efengyl fod yn rhai newyddion, anhyddysg, ac anwybodus; ond yn nerthol yn yr ysgrythyrau, ac yn medru iawn gyfranu gair y gwirionedd.

53 ¶ A bu, wedi i'r Iesu orphen y dammegion hyn, [s] efe a ymadawodd oddi yno.

s Marc 4. 33—35.

54 * Ac [t] efe a ddaeth i'w wlad ei hun, [u] † ac a'u dysgodd hwynt yn eu synagog; ‡ fel y [x] synnodd arnynt, ac y dywedasant, O ba le y daeth y doethineb hwn, a'r gweithredoedd nerthol i'r *dyn* hwn?

t pen. 2. 23. Marc 6. 1, 2. Luc 4. 16—30. Ioan 1. 11. u Salm 22. 22. a 40. 9, 10. Act. 13. 46. a 28. 17—29. x Ioan 7. 15, 16. Act. 4. 13.

* Bernir mai Nazareth a feddylir yma wrth ei wlad ei hun, oblegid yno y dygwyd ef i fynu. † Er iddo gael ei wrthod yno o'r blaen, Luc 4. 29, anturiodd atynt drachefn i bregethu iddynt. ‡ Nis gallasant wadu ei ddoethineb a'i weithredoedd rhyfedd, yr oeddynt yn synu wrthynt; ond syndod heb gredu oedd: syndod yn tarddu oddiar anwybodaeth; yr hyn a ddichon fod heb ddim gwaith ysbrydol a chadwedigol ar y galon.

55 * Onid hwn yw [y] mab y saer? [z] † onid Mair y gelwir ei fam ef? [a] a Iago, a Joses, a Simon, a Judas, ‡ ei frodyr ef?

y Salm 22. 6. Es. 49. 7. a 53. 2, 3. Marc 6. 3. Luc 3. 23. a 4. 22. Ioan 1. 45, 46. a 6. 42. a 7. 41, 42. a 9. 29. z pen. 1. 18—20. Luc 1. 27. a 2. 5—7. a pen. 12. 48. a 27. 56. Marc 15. 40, 47. a 16. 1. Luc 24. 10. Ioan 19. 25. Gal. 1. 19.

56 Ac onid yw ei chwiorydd ef holl gyd â ni? o ba le gan hynny y mae gan hwn y pethau hyn oll?

* Diammau mai saer oedd Joseph, yr hwn a ystyrid yn dad yr Iesu. Mae y gair Groeg yn arwyddo gweithiwr mewn coed. † Onid Mair, heb ddim arall mwy anrhydeddus, y gelwir ei fam ef. ‡ Brodyr, neu berthynasau, nid yw dysgedigion yn cytuno pa un, ac nid yw o bwys ei wybod.

57 * A [b] hwy a rwystrwyd ynddo ef. A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, [c] † Nid yw prophwyd heb anrhydedd, ond yn ei wlad ei hun, ac yn ei dŷ ei hun.

b pen. 11. 6. Es. 8. 14. Marc 6. 3. Luc 2. 34, 35. a 8. 23. Ioan

6. 61. 1 Cor. 1. 23—28. c Marc 6. 14. Luc 4. 24. Ioan 4. 44. Act. 3. 22, 23. a 7. 37—39, 51, 52.

58 ‡ Ac [d] ni wnaeth efe nemmawr o weithredoedd nerthol yno, oblegid eu hanghredin-iaeth hwynt.

d Marc 6. 5, 6. Luc 4. 25—29. Rhuf. 11. 20. Heb. 3. 12—19. a 4. 6—11.

* Wrth edrych ar iselder ei waedoliaeth, tlodi ei berthynasau, gwaeledd ei ddygiad i fynu, eu cynnefindra hwy âg ef o'i febyd, ac yn enwedig, am nad oedd wedi ei addysgu gan yr ysgrifenyddion, na'i awdurdodi gan yr arch-offeiriaid, i ddysgu yn gyhoeddus, hwy a rwystrwyd ynddo ef: dirmygasant ei berson, a gwrthodasant ei efengyl. † Ymadrodd diarebol oedd hyn, ac yr oedd yn wir am Iesu, y gorau o ddynion: tybiai ei gymmydogion ei fod yn cymmeryd gormod arno fel prophwyd, neu athraw; pa faint mwy fel Messiah. ‡ Nid o herwydd diffyg gallu ni wnaeth efe nemawr o weithredoedd nerthol yno; ond nid oedd efe yn tybied ei fod yn gweddu i'w ddoethineb a'i fawredd, i gymmell ei wyrthiau ar ddynion mòr ddigred: nid oedd yn cydweddu ychwaith, â'r hyn a wyddai efe am gynghor ei Dad mewn perthynas iddynt.

PEN. XIV.

1 *Tyb Herod am Grist.* 3 *Carchar Ioan a'i ddienydd.*

* Y PRYD hwnnw y clybu † [a] Herod [b] y tetrach sôn am yr Iesu;

a Marc 6. 14—16. a 8. 15. Luc 9. 7—9. a 13. 31, 32. a 23. 8—12, 15. Act. 4. 27. b Luc 3. 1.

2 ‡ Ac efe a ddywedodd wrth ei weision, [c] Hwn yw Ioan Fedyddiwr: efe a gyfododd o feirw, ac am hynny y mae nerthoedd yn gweithio ynddo ef.

c pen. 11. 11. a 16. 14. Marc 8. 28. Ioan 10. 41.

* Pa bryd bynag oedd y "pryd hwnw," gallasai Herod glywed o'r blaen; ond fel gwŷr mawr yn gyffredin, diystyr oedd efe o bethau a phersonau crefyddol ac isel: ond y pryd hwnw yr oedd y son am Iesu wedi myned yn fawr a helaeth, fel nad allai Herod lai nâ chlywed a sylwi o'r diwedd. † Mab oedd yr Herod hwn i'r hen Herod, a laddodd blant Bethlehem. Tetrarch oedd lywodraethwr ar y bedwerydd ran o deyrnas, felly y rhanai y Rhufeiniaid wlad Canan. ‡ Tarawyd Herod gan ei gydwybod euog am ladd Ioan, a dychrynodd rhag ei fod wedi cyfodi o feirw, ac y dialai arno ef. Dywedir mai Saducêad oedd Herod, ac yn gwadu yr adgyfodiad o feirw; eto yr oedd braw ei gydwybod ef yn awr, yn trechu ei dyb gyfeiliornus.

3 ¶ * Canys [d] Herod a ddaliasai Ioan, ac a'i rhwymasai, † ac a'*i* dodasai yn ngharchar, oblegid Herodias, [e] gwraig Phylip ei frawd ef.

d pen. 4. 12. Marc 6. 17. Luc 3. 19, 20. Ioan 3. 23, 24. e Luc 3. 1.

* Dywedir bod Herodias yn ŵyres i'r hen Herod, ac felly yn nith i Phylip a'r Herod hwn: heblaw hyny, yr oedd Phylip ei gwr cyntaf yn fyw, a hi yn byw mewn llosgach gyda Herod ei hewythr a'i brawd-yn-nghyfraith. Beth a allasai fod yn fwy croes i ddeddf Duw a deddf natur na hyn? † Tybir i Ioan fod yn ngharchar am tua blwyddyn a hanner, a chael tori ei ben yn y diwedd, am feiddio dywedyd yn erbyn llosgach Herod â gwraig ei frawd.

4 * Canys Ioan a ddywedodd wrtho, [f] Nid cyfreithlawn i ti ei chael hi.

f Lef. 18. 16. a 20. 21. Deut. 25. 5, 6. 2 Sam. 12. 7. 1 Bren. 21. 19. 2 Cron. 26. 18, 19. Diar. 28. 1. Es. 8. 20. Marc 6. 18. Act. 24. 24, 25.

* Tybir mai ar wahoddiad yr aeth Ioan i lys Herod, ond gan iddo fyned yno nis gallai ddyfod oddi yno heb ryddâu ei gydwybod, a dywedyd wrth Herod am ei ddrwg fuchedd: dyn yn ysbryd a nerth Elias oedd Ioan.

5 * Ac [g] efe yn ewyllysio ei roddi ef i farwolaeth, † a ofnodd y dyrfa; [h] canys hwy a'i cymmerent ef megis prophwyd.

g Marc 6. 19, 20. a 14. 1, 2. Act. 4. 21. a 5. 26. h pen. 21. 26, 32. Marc 11. 30—32. Luc 20. 6.

* Ewyllysiai Herod roddi Ioan i farwolaeth o herwydd ei hyfdra yn dywedyd yn erbyn ei bechod ef, a Herodias hefyd yn ei annog ef i hyny. † Ond gan gymmaint oedd parch Ioan yn mhlith y bobl, ofnai Herod wneyd hyny rhag codi gwrthryfel yn mysg ei ddeiliaid.

6 * Eithr pan [i] gadwyd dydd genedigaeth Herod, [k] † y dawnsiodd [l] merch Herodias ger eu bron hwy, ‡ ac a ryngodd fodd Herod.

i Gen. 40. 20. Esther 1. 2—9. a 2. 18. Dan. 5. 1—4. Hos. 7. 5, 6. Marc 6. 21—23. k pen. 22. 24. l Esther 1. 10—12.

7 O ba herwydd [m] efe a addawodd, trwy lw, roddi iddi beth bynnag a ofynai.

m Esther 5. 3, 6. a 7. 2.

* Tybir fod hyn tua blwyddyn a hanner wedi rhoddi Ioan yn ngharchar. Cyfrifai yr Iuddewon mai arfer genedlig oedd cadw dydd genedigaeth; ond fel pob arfer lygredig arall, daeth yn raddol i'w plith hwythau. † Salome oedd enw hon, merch Herodias o Phylip. Nid peth arferol oedd i ferched boneddigaidd ddawnsio ger bron gwrrywiaid yn mhlith yr Iuddewon; ond yma yr oedd pob gwylder a gweddeidd-dra wedi darfod. Nid yn yr hen ddull gwladaidd a gweddus, y dawnsiai merched yr Hebreaid gynt ar achlysuron o lawenydd; ond mewn dull anniwair ac anllad, a ddygasid i blith mawrion yr Iuddewon yn ddiweddar, oddi wrth y cenedloedd paganaidd o'u hamgylch. ‡ Gwedi ei enyn gan win, cafodd Herod ei foddâu gymmaint yn llamsach y ferch hon, fel y tyngodd yn annuwiol, y rhoddai efe iddi beth bynag a geisiai.

8 A hithau, [n] * wedi ei rhag-ddysgu gan ei mam, a ddywedodd, [o] Dyro i mi yma ben Ioan Fedyddiwr mewn [p] dysgl.

n 2 Cron. 22. 3. Marc 6. 24. o 1 Bren. 18. 4, 13. a 19. 2. 2 Bren. 11. 1. Diar. 1. 16. p Num. 7. 13, 19, 84, 85. Ezra 1. 9.

* Gwelwn yma rym dygasedd ac awydd dial: nid oedd dim llai na bywyd Ioan Fedyddiwr a foddlonai y Jezebel hon. Gwelwn hefyd y niwed ofnadwy o rïeni annuwiol, yn tywys eu plant i ddrygioni a cholledigaeth. A gwelwn yn drydydd pa fath yw gwŷr llys gwenieithus; nid oedd yr un o honynt a ymyrai i achub bywyd y Bedyddiwr sanctaidd.

9 * A'r [q] brenhin a fu [r] drist ganddo: [s] † eithr o herwydd y llw, ‡ a'r rhai a eisteddent gyd âg ef wrth y ford, efe a orchymynodd *ei* roi *ef iddi.*

q adn. 1. Marc 6. 14. r adn. 5. pen. 27. 17—26. Dan. 6. 14—16. Marc 6. 20, 26. Luc 13. 32. Ioan 19. 8, 12—16. Act. 24. 23—27. a 25. 3—9. s Num. 30. 5—8. Barn. 11. 30, 31, 39. a 21. 1, 7—23. 1 Sam. 14. 24, 39—45. a 25. 22, 32—34. a 28. 10. 2 Bren. 6. 31—33.

10 ‖ Ac efe a anfonodd [t] ac a dorrodd ben Ioan yn y carchar.

t pen. 17. 12. a 21. 35, 36. a 22. 3—6. a 23. 34—36. 2 Cron. 36. 16. Jer. 2. 30. Marc 6. 27—29. a 9. 13. Luc 9. 9. Dat. 11. 7.

11 § A dygpwyd ei ben ef mewn dysgl, [u] ac a'i rhoddwyd i'r llangces: a hi a'*i* dug *ef* i'w mam.

u Gen. 49. 7. Diar. 27. 4. a 29. 10. Jer. 22. 17. Ezec. 16 3, 4. a 19. 2, 3. a 35. 6. Dat. 16. 6. a 17. 6.

* A'r brenin a fu drist ganddo: tarawodd ei gydwybod ef, ond odid, a brawychodd wrth y fath gais echryslawn; ond tybir mai ofn y bobl a'i tristâodd fwyaf, ac ofn rhyw farn drom am y fath weithred. † Llw drwg a byrbwyll oedd y llw, a dylasai dori y fath lw, yn hytrach na'i gadw. ‡ Ni fynai i'w wahoddedigion ei weled yn tori ei addunedau ehud: dylasent hwy ei gynghori ef i wneyd hyny; ond mae yn debyg mai nid cymmeradwy iawn oedd Ioan ganddynt hwythau. ‖ Heb un math yn y byd o brawf, na rhaith, na rhybudd, efe a ddan

fonodd un o'r milwyr gwarcheidiol, (felly yr arwydda y gair a gyfieithir dienyddwr, yn Marc 6. 27.) i'r carchar lle yr oedd Ioan, ac a dorodd ei ben ef. § Yn ol cais y llances, hi a gafodd ben Ioan, ac a'i dug i'w mam; yr hon, medd Jerome, a'i hanmharchodd yn greulawn, gan dynu y tafod allan, a'i wanu trwodd â nodwydd! Dyma ddifyrwch echryslawn ar ddydd genedigaeth brenin; ond beth ni wna chwant anniwair, a dïal? Daeth barn yn fuan am hyn oll, meddant; cafodd Herod ryfel gwaedlyd yn achos Herodias, collodd ei deyrnas, alltudiwyd ef a hithau i wlad bellenig, a buont feirw yno yn gas gan, ac yn casâu eu gilydd. Torodd y rhew, meddant, dan Salome, a chan gauad am ei gwddf, aeth ei phen ymaith.

12 * A'i ddisgyblion ef a ddaethant ac a [x] gymmerasant ei gorph ef, ac a'i claddasant: ac a aethant ac a fynegasant i'r Iesu.

x pen. 27. 58—61. Act. 8. 2.

* Er dangos eu parch i'w hathraw, claddodd ei ddysgyblion ef yn weddaidd; mynegasant i'r Iesu y tro llofruddiog, a thybir iddynt ganlyn Crist o hyny allan.

13 ¶ * A phan [y] glybu yr Iesu, efe a ymadawodd oddi yno mewn llong, † i anghyfanneddle o'r naill du: ‡ ac wedi clywed o'r torfeydd, hwy a'i canlynasant ef ar draed allan o'r dinasoedd.

y adn. 1, 2. pen. 10. 23. a 12. 15. Marc 6. 30—33. Luc 9. 10. Ioan 6. 1, 2.

14 A'r Iesu a aeth allan, ac a welodd dyrfa fawr; [z] || ac a dosturiodd wrthynt, ac efe a iachâodd eu cleifion hwynt.

z pen. 9. 36. a 15. 32. Marc 6. 34. a 8. 1, 2. a 9. 22. Luc 7. 13. a 19. 41. Ioan 11. 33—35. Heb. 2. 17. a 4. 15. a 5. 2.

* Pan glybu yr Iesu, efe a ymadawodd, rhag ofn Herod mae yn debyg, ac i gael ychydig seibiant iddo eu hun a'i ddysgyblion. † Lle dan lywodraeth Phylip oedd yr anghyfanneddle hwn, felly yr oeddynt allan o gyrhaedd Herod. ‡ Aethai yr Iesu mewn llong dros gŵr o fôr, neu lyn Tiberias; canlynodd y torfeydd ef ar draed, trwy fyned o amgylch a chroesi yr Iorddonen oedd yn rhedeg i'r llyn hwnw, a thrwyddo. || Er mor lluddedig oedd yr Iesu, efe a dosturiodd wrth y torfeydd: tosturiodd wrth eu heneidiau gan eu dysgu, ac wrth eu cyrph gan iachâu eu clefydau.

15 ¶ * Ac wedi ei myned hi yn hwyr, [a] daeth ei ddisgyblion atto, gan ddywedyd, Y lle sydd anghyfannedd, a'r awr a aeth weithian heibio: [b] gollwng y dyrfa ymaith, fel yr elont i'r pentrefi, ac y prynont iddynt fwyd.

a Marc 6. 35, 36. Luc 9. 12. b pen. 15. 23. Marc 8. 3.

* Yr awr giniaw, mae'n debyg, oedd wedi myned heibio, a'r dydd yn hwyrâu.

16 A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, [c] * Nid rhaid iddynt fyned ymaith: † rhoddwch chwi iddynt beth i'w fwytta.

c 2 Bren. 4. 42—44. Job 31. 16, 17. Diar. 11. 24. Preg. 11. 2. Luc 3. 11. Ioan 13. 29. 2 Cor. 8. 2, 3. a 9. 7, 8.

* Gwyddai yr Iesu beth a allai efe wneyd, a pha beth oedd yn fwriadu ei wneyd, er nas gwyddai y dysgyblion. † Dywedodd wrth ei ddysgyblion am roddi iddynt beth i'w fwyta, i ddangos iddynt eu dyledswydd, ac i brofi eu ffydd ynddo ef, a'u hufudd-dod i'w orchymyn.

17 A hwy a ddywedasant wrtho, [d] * Nid oes gennym ni yma ond pum torth, a dau bysgodyn.

d pen. 15. 33, 34. Num. 11. 21—23. Salm 78. 19, 20. Marc 6. 37, 38. a 8. 4, 5. Luc 9. 13. Ioan 6. 5—9.

18 Ac efe a ddywedodd, Dygwch hwynt yma i mi.

19 [e] † Ac wedi gorchymyn i'r torfeydd eistedd ar y gwelltglas, a chymmeryd y pum torth, a'r ddau bysgodyn, [f] efe a edrychodd i fynu tu a'r nef, [g] ‡ ac a fendithiodd, ac a dorrodd; ac a roddes y torthau i'r disgyblion, a'r disgyblion i'r torfeydd.

e pen. 15. 35. Marc 6. 39, 40. a 8. 6. Luc 9. 14, 15. Ioan 6. 10. f Marc 6. 41. a 7. 34. Luc 9. 16. Ioan 11. 41. g pen. 15. 36. a 26. 26, 27. 1 Sam. 9. 13. Marc 8. 6. a 14. 22, 23. Luc 22. 19. a 24. 30. Ioan 6. 11, 23. Act. 27. 35. Rhuf. 14. 6. 1 Cor. 10. 16, 31. a 11. 24. Col. 3. 17. 1 Tim. 4. 4, 5.

20 A hwy oll a fwyttasant, ac a [h] gawsant eu digon: [i] || ac a godasant o'r briw-fwyd oedd yn ngweddill, § ddeuddeg basgedaid yn llawn.

h pen. 5. 6. a 15. 33. Ex. 16. 8, 12. Lef. 26. 26. 1 Bren. 17. 12—16 2 Bren. 4. 43, 44. Diar. 13. 25. Ezec. 4. 14—16. Hag. 1. 6. Luc 1. 53. a 9. 17. Ioan 6. 7, 11. i pen. 15. 37, 38. a 16. 8—10. Marc 6. 42—44. a 8. 8, 9, 16—21. Ioan 6. 12—14.

* Nid oedd gan y dysgyblion ond ychydig ymborth, efallai prin digon iddynt eu hunain a'u Hathraw; a hwnw yn wael, pùm torth haidd, medd Ioan; lle y gwelwn dlodi ac iselder Mab Duw a'i ganlynwyr yn y byd hwn. † Er nad oedd ond y gwelltglas yn fwrdd ganddynt, a'r awyr lâs yn dô uwch eu penau, eto yr oedd yma wledd ardderchocach na gwledd Ahasferus gynt. ‡ Diammau mai arfer wastadol Iesu oedd gofyn bendith ar ei ymborth, a dïolch am dano hefyd: ac yn hyn mae yn dangos y dylem ninnau wneyd yr un modd. Gallasai beri i'r ymborth amlhâu, fel y bendithiodd y crëaduriaid gynt, Gen. 1. 22. ond yma ni wnaeth ond gofyn bendith Duw ar hyny oedd. Ac eto rhaid ei fod yn amlhâu wrth ei dori fel olew y wraig weddw gynt. || Er bod y dyrfa yn bùm mil, heblaw gwragedd a phlant, eto cafodd pob un ei ddigon; ac mae yn debyg fod y gweddill yn fwy nac oedd y cyfan ar y dechreu, felly ni bu neb ar ei golled. § Deuddeg basgedaid, un i bob un o'r dysgyblion i'w cario, yn ol arfer yr Iuddewon wrth deithio.

21 * A'r rhai a fwyttasant oedd yn [k] nghylch pum mil o wyr, heb law gwragedd a phlant.

k Ioan 6. 19. Act. 4. 4, 34. 2 Cor. 9. 8—11. Phil. 4. 19.

* Mae yn ddigon tebygol fod y nifer hyny o wragedd a phlant hefyd, tua deng mil o gwbl; ond pa nifer bynag oeddynt, hwy a gawsant oll eu digon, a llawer yn weddill.

22 ¶ * Ac yn y fan [l] y gyrrodd yr Iesu ei ddisgyblion i fyned i'r llong, ac i fyned i'r lân arall o'i flaen ef, [m] tra fyddai efe yn gollwng y torfeydd ymaith.

l Marc 6. 45. m pen. 13. 36. a 15. 39.

* Mae Ioan wrth adrodd yr hanes hwn (pen. 6. 15.) yn dywedyd fod y dynion ar fedr cipio yr Iesu i'w wneuthur yn frenin; am hyny tro call a doeth iawn oedd iddo ef ddanfon y dysgyblion ymaith, a gollwng y dyrfa ymaith yn ddïoed, rhag y buasai amcan y bobl i'w wneuthur ef yn frenin yn achos o gynnwrf, a phery gl iddo ef ei hun. Mae y gair gyru yn arwyddo annewyllysgarwch i fyned o'u tu hwynt, a brys i'w danfon o'i du yntau.

23 Ac wedi iddo ollwng y torfeydd ymaith, [n] efe a esgynodd i'r mynydd wrtho ei hun, * i weddïo: ac wedi ei † hwyrhâu hi, [o] yr oedd efe yno yn unig.

n pen. 6. 6. a 26. 36. Marc 6. 46. Luc 6. 12. Act. 6. 4. o Ioan 6. 15—17.

* Arferai Iesu weddïo yn ddirgel yn aml, er dangos y dylai pawb o'i ganlynwyr wneyd yr un modd. Nid oedd ganddo ef ddim pechodau i ofyn eu maddau na'u darostwng: ond yr oedd ganddo lawer o waith pwysig o'i flaen, profedigaethau a dyoddefiadau mawrion i fyned trwyddynt; ac yr oedd angen cymmorth ar ei ddynoliaeth yn wyneb y pethau hyny. Heblaw hyny, yr oedd achos ei ddysgyblion a'i holl eglwys ganddo ef i'w ddwyn at y Tad yn ei weddïau. A'i brif hyfrydwch hefyd oedd cymdeithasu â Duw. † Soniwyd am hwyrâu o'r blaen yn adn. 15. Yr oedd gan yr Iuddewon ddau

wwyr; y cyntaf, o dri o'r gloch hyd fachlud haul, am
hwnw y soniwyd o'r blaen; a'r ail, yn ngwyll y nos, fe
y galwn ninnau hwyr: y cyfnos, Exod. 12. 6, Deut. 16. 6

24 A'r llong oedd weithian yn nghanol y
môr, [p] yn drallodus gan donnau: * canys gwynt
gwrthwynebus ydoedd.
p pen. 8. 24. Es. 54. 11. Marc 6. 48. Ioan 6. 18.

25 † Ac yn [q] y bedwaredd wylfa o'r nos yr
aeth yr Iesu attynt, [r] ‡ gan rodio ar y môr.
q pen. 24. 43. Luc 12. 38. r Job 9. 8. Salm 93. 3, 4. a 104.
3. Marc 6. 48. Ioan 6. 19. Dat. 10. 2, 5, 8.

26 A phan welodd y disgyblion ef yn rhodio
ar y môr, [s] dychrynasant, gan ddywedyd,
|| Drychiolaeth ydyw. § A hwy a waeddasant
rhag ofn.
s 1 Sam. 28. 12—14. Job 4. 14—16. Dan. 10. 6—12. Marc 6.
49, 50. Luc 1. 11, 12. a 24. 5. Act. 12. 15. Dat. 1. 17.

27 * Ac yn y man y llefarodd yr Iesu
wrthynt, gan ddywedyd, [t] Cymmerwch gysur:
[u] myfi ydyw; nac ofnwch.
t pen. 9. 2. Ioan 16. 33. Act. 23. 11. u Es. 41. 4, 10, 14. a
51. 12. Luc 24. 38, 39. Ioan 6. 20. a 14. 1—3. Dat. 1. 17, 18.

* Cyfododd y gwynt gwrthwynebus hyn yn ol cynghor
Duw, fel y caffai Iesu gyfle i ddangos fod ganddo awdurdod ar y gwynt â'r tònau. † Arferai yr Iuddewon
gynt, ranu eu nos yn dair gwylfa, pedair awr yn mhob
gwylfa; ond arfer y Rhufeiniaid oedd ei rhanu yn
bedair gwylfa, tair awr yn mhob gwylfa: ac wedi i'r
Iuddewon fyned dan eu llywodraeth hwy, newidiasant
iddosparthiad y nos fel hwythau, i bedair gwylfa. Tua
thri o'r gloch yn y bore oedd yr amser a enwir yma.
‡ Priodol i Dduw yn unig, yw "sathru ar dònau y môr," Job 9. 8. Pan fyddai yr Aiphtiaid am ddangos rhywbeth anmhosibl ei wneyd, byddent yn tynu llun dau
idroed yn cerdded ar y môr. || Mae yn debyg nad oedd
yr athrawiaeth am ysbrydion a drychiolaethau yn anhysbys i'r Iuddewon, nac yn anghredadwy ganddynt;
er bod yn eu plith lawer o Saduceaid yn gwadu y cyfryw
athrawiaeth. § Gan nad oedd eto yn ddigon goleu i
ganfod mai yr Iesu oedd, tybiodd y dysgyblion mai
ysbryd rhyw ddyn marw ydoedd, yn rhag-arwyddo drwg;
neu, yntau, diafol, yn dyfod i wneuthur rhyw niwed
iddynt; am hyny brawychasant, a gwaeddasant gan
ofn. Cyfieithiad y Deg a thriugain, o Salm 91. 6, sydd
ffel hyn:—"*Rhag ofn y diafliaid, sydd yn rhodio yn y
nos,*" yr hyn sydd brawf amlwg, bod yr Iuddewon yn credu
y cyfryw beth. * Ond llefarodd yr Iesu wrthynt yn ei lais
adnabyddus ei hun, gan sicrâu iddynt mai efe, eu Harglwydd a'u Cyfaill, ydoedd: yr hyn a chwalodd ymaith
eu holl ofnau, ac a'u llanwodd â llawenydd mawr.

28 * A Phedr a'i hattebodd, ac a ddywedodd, O Arglwydd, † os tydi yw, [x] arch i mi
iddyfod attat ar y dyfroedd.
x pen. 19. 27. a 26. 32—35. Marc 14. 32. Luc 22. 31—34, 49,
50. Ioan 6. 68. a 13. 36—38. Rhuf. 12. 3.

29 Ac efe a ddywedodd, ‡ Tyred. Ac wedi
fi Pedr ddisgyn o'r llong, [y] || efe a rodiodd ar y
ddyfroedd, i ddyfod at yr Iesu.
y pen. 17. 20. a 21. 21. Marc 9. 23. a 11. 22, 23. Luc 17. 6.
Act. 3. 16. Rhuf. 4. 19. Phil. 4. 13.

30 § Ond [z] pan welodd efe y gwynt yn gryf,
efe a ofnodd: a phan ddechreuodd suddo, efe
a lefodd, gan ddywedyd, [a] Arglwydd, cadw fi.
z pen. 26. 69—75. 2 Bren. 6. 15. Marc 14. 38, 66—72. Luc 22.
54—61. Ioan 18. 25—27. 2 Tim. 4. 16, 17. a pen. 8. 24, 25.
Salm 3. 7. a 69. 1, 2. a 107. 27—30. a 116. 3, 4. Galar. 3. 54—56.
Jona 2. 2—7. 2 Cor. 12. 7—10.

31 * Ac yn y man [b] yr estynodd yr Iesu *ei*
llaw, [c] ac a ymaflodd ynddo ef, ac a ddywedodd
wrtho, [d] † Tydi o ychydig ffydd, paham y
[e] petrusaist?
b Salm 138. 7. Marc 1. 31, 41. a 5. 41. Act. 4. 30. c Gen.
22. 14. Deut. 32. 36. Marc 16. 7. Luc 22. 31, 32. a 24. 34. 1 Pedr
1. 5. d pen. 8. 36. a 16. 8. a 17. 20. Marc 4. 40. a 16. 14. Luc
24. 25. e pen. 21. 21. a 28. 17. Marc 11. 23. Rhuf. 4. 18—20.
1 Tim. 2. 8. Iago 1. 6—8.

* Yr oedd Pedr yn fwy blaenllaw na'r un o'r dysgyblion eraill yn gyffredin, i lefaru a gweithredu; ond yn ei wresawgrwydd a'i wroldeb, nid oedd bob amser yn ddigon adnabyddus o'i galon ei hun, ac o herwydd hyny yr oedd weithiau yn rhy fyrbwyll ac anturiol. † Yr oedd yr "os" yma yn dangos nad oedd ffydd Pedr ddim mòr gadarn ag y dylasai fod, wedi iddo glywed llais ei Arglwydd yn dywedyd, Myfi ydyw. ‡ Caniatâodd yr Iesu iddo ddyfod, i brofi ei ffydd, ac i ddangos iddo ei wendid. || Efe a rodiodd ar y dyfroedd cyhyd ag y daliodd Iesu ef i fynu, a chyhyd ag y parhâodd ei ffydd yntau a'i gafael yn Iesu. § Yn amgylchiad Pedr yma, gallwn weled fel y mae hi gyda chredinwyr yn gyffredin; tybiwn weithiau y gallwn ymddiried i Dduw yn mhob amgylchiad a sefyllfa; ond yn aml, pan ddelo rhyw drallod neu gyfyngdra, mae ein calonau ni yn pallu, a ninnau yn soddi. Nis gŵyr neb beth ydyw ei galon hyd oni phrofer ef. * Yn yr adeg hyn o enbydrwydd, gwaeddodd Pedr am ei fywyd, ac yn y fàn ymaflodd yr Iesu ynddo: nid yw efe byth yn mhell oddiwrth ei bobl yn eu cyfyngderau. † Mae petruso yn wrthwyneb i ffydd, ond nid yw yn profi fod yr enaid heb ddim ffydd, y mae ganddo ychydig ffydd.

32 * A phan [f] aethant hwy i mewn i'r llong,
peidiodd y gwynt.
f Salm 107. 29, 30. Marc 4. 41. a 6. 51. Ioan 6. 21.

33 † A daeth y rhai oedd yn y llong, ac
[g] a'i haddolasant ef, gan ddywedyd [h] ‡ yn wir
Mab Duw ydwyt ti.
g pen. 15. 25. a 28. 9, 17. Luc 24. 52. h pen. 16. 16. a 17.
5. a 26. 63. a 27. 43, 54. Salm 2. 7. Marc 1. 1. a 14. 61. a 15. 39.
Luc 4. 41. a 8. 28. Ioan 1. 49. a 6. 69. a 9. 35—38. a 11. 27. a 17.
1. a 19. 7. Act. 8. 37. Rhuf. 1. 4.

* Rhodiodd Crist a Pedr megis llaw yn llaw hyd oni ddaethant i mewn i'r llong: ac yn y fàn y daethant i mewn, peidiodd y gwynt ar arch ei Grëawdwr a'i lywodraethwr mawr. † Mae yn ddïau bod amryw yn y llong heblaw yr apostolion; o leiaf yr oedd y morwyr a berthynai i'r llong yno. Y rhai hyn wedi gweled Iesu yn rhodio ar y môr, ei weled yn achub Pedr rhag soddi, a gweled y gwynt yn tawelu yn y fàn y daeth i'r llong; hwy a synasant, ac a'i haddolasant ef, gan ei gyfaddef yn wir yn Fab Duw. ‡ Dyma'r tro cyntaf yr ydym yn cael cydnabyddiaeth eglur a phendant o hóno yn Fab Duw. Cydnabuwyd ef yn Fab Dafydd, ac y Prophwyd oedd ar ddyfod i'r byd, o'r blaen; ond yma yn Fab Duw, ac ni wrthododd yntau yr addoliad na'r cydnabyddiaeth.

34 ¶ Ac [i] wedi iddynt fyned trosodd, hwy
a ddaethant i dir [k] * Gennesaret.
i Marc 6. 53—56. k Luc 5. 1.

35 † A phan adnabu gwyr y fan honno ef,
[l] hwy a ‡ anfonasant i'r holl wlad honno o amgylch, ac a ddygasant atto y rhai oll oedd
mewn anhwyl:
l pen. 4. 24, 25. Marc 1. 28—34. a 2. 1, &c. a 3. 8—10. a 6. 55.

36 || Ac a attolygasant iddo gael [m] cyffwrdd
yn unig âg [n] ymyl ei wisg ef: a chynnifer ag a
gyffyrddodd [o] a iachâwyd.
m pen. 9. 20, 21. Marc 3. 10. Luc 6. 19. Act. 19. 11, 12.
n pen. 23. 5. Ex. 28. 33, &c. Num. 15. 38, 39. o Ioan 7. 23.
Act. 3. 16. a 4. 9, 10, 14—16.

* Gennesaret oedd enw ardal helaeth ar du gorllewin y llyn, yr hwn yn Luc 5. 1, a elwir llyn Gennesaret. Ystyr y gair yw Gardd y Tywysog. † Yn yr ardal hon yr oedd Capernaum, lle y buasai yr Iesu o'r blaen, a lle yr adwaenid ef gan lawer o'r trigolion, o herwydd amryw wyrthiau a wnaethai efe yn eu plith. ‡ Gweithred o ddyngarwch a thiriondeb oedd dwyn y cleifion ato ef, ac arferid gwneyd hyny yn mhob màn: ond O na byddai pawb yn fwy awyddus am ddwyn pechaduriaid at

Iesu i gael iachâd ysbrydol. ‖ Barna rhai mai dychymmyg ofer-goelus oedd y gred oedd ganddynt, a'r dymuniad o gael cyfhwrdd âg ymyl ei wisg ef; ond os felly, pa fodd yr oeddynt yn cael iachâd? nid oedd Iesu yn gwneyd dim i gefnogi dychymmygion coel-grefyddol felly; gwyddai efe am natur eu ffydd hwy, ei bod o'r iawn ryw: crediniaeth gref yn ei allu gwyrthiol ef, a hyder yn ei ddaioni dwyfol: am hyny ni siomodd mo honynt, ond iachâodd bawb a gyfhyrddent âg ef.

PFN. XV.

Crist yn argyhoeddi yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, &c.

*YNA [a] yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, [b] † y rhai oedd o Jerusalem, [c] a ddaethant at yr Iesu, gan ddywedyd,

a Marc 7. 1, &c. b pen. 5. 20. a 23. 2, 15, &c. Luc 5. 30. Act. 23. 9. c Luc 5. 17, 21.

2 Paham y mae dy ddisgyblion di [d] yn troseddu ‡ traddodiad yr hynafiaid? canys nid ydynt yn ‖ golchi eu dwylaw pan fwyttâont fara.

d Marc 7. 2. Gal. 1. 14. Col. 2. 8, 20—23. 1 Pedr 1. 18.

* Cyn y gallom ddëall yr adnodau uchod yn iawn, rhaid i ni ddëall rhywbeth am y llywodraeth Iuddewig mewn pethau crefyddol:—Yr arch-offeiriad oedd y prif swyddog eglwysig; yn chwanegol at hyny, gosododd yr Arglwydd ddeg a thriugain eraill, Num. 11. 25, i gymmeryd eu rhan yn y llywodraeth. Y *Sanhedrim* y gelwid y rhai hyn, neu Senedd, yn ein iaith ni. Cynnulliad y rhai hyn oedd prif frawdlys yr Iuddewon, mewn pethau a berthynent i gyfraith Duw, yn foesol, yn wladol, ac yn seremonïol: ac yr oedd yn rhaid i bawb ymostwng i'w penderfyniad hwy. Gwaith y Senedd hon oedd, gofalu na byddai dim llygriad mewn crefydd. Yr oedd eu llys penaf yn Jerusalem, ond yr oedd ganddynt lysoedd bychain mewn amryw barthau o'r wlad: ac mae yn debyg fod llawer o'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn aelodau o'r Senedd hon. † Tybir i'r rhai hyn ddyfod o Jerusalem fel ysbïwyr, i edrych a gaent hwy rywbeth yn erbyn Iesu; a chan nas gallasent gael dim yn ei erbyn o ran yr un o orchymynion Duw, maent yn dechreu cwerylu âg ef am droseddu traddodiadau yr hynafiaid. ‡ Rhy faith fyddai dywedyd y cwbl am y traddodiadau hyn: yr oedd gan yr Iuddewon lawer aneirif o honynt; ac er dystrywio llawer o honynt yn ninystr diweddaf Jerusalem, mae ganddynt lawer o honynt eto, ac y maent yn awr fel cynt, yn rhoddi mwy o bwys ar y traddodiadau nac ar Air Duw. Taerent oddiar Deut. 4. 14, i'r Arglwydd roddi y deddfau ysgrifenedig i Moses y dydd, a'r traddodiadau llafar a di-ysgrifenedig y nos, yn y deugain niwrnod a deugain nos y bu efe gydag ef yn y mynydd. ‖ Un o'r traddodiadau hyny oedd, golchi dwylaw fel defod grefyddol cyn bwyta, yr hon ddefod nid oedd Iesu a'i ddysgyblion, mae yn debyg, yn ofalus iawn am ei chadw. Rhoddai yr Iuddewon bwys mawr ar y ddefod hon; dywedai eu hathrawon wrthynt, bod esgeuluso golchi y dwylaw yn fwy o bechod na godineb: ac un o honynt, pan oedd yn y carchar, ac heb ddigon o ddwfr i olchi ei ddwylo ac i'w yfed, a ddewisodd olchi ei ddwylaw yn hytrach, gan ddywedyd ei bod yn well iddo farw o syched, na throseddu traddodiad yr hynafiaid. Wrth hyn, nid rhyfedd eu bod yn beïo ar Grist, ac yn barnu y dylasai gael ei ddwyn o flaen y Senedd.

3 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, [e] * A phaham yr ydych chwi yn troseddu gorchymyn Duw trwy eich traddodiad chwi?

e pen. 7. 3—5. Marc 7. 6—8, 13.

* Mae pob chwanegiad at ddeddfau Duw, yn drais ar ei awdurdod llywodraethrol ef, ac yn sarhâd rhyfygus ar ei ddoethineb ef, megys pe buasai wedi esgeuluso rhywbeth a allai dyn ei gyflawni.

4 * Canys [f] Duw a orchymynodd, gan ddywedyd, [g] Anrhydedda dy dad a'th fam: [h] † a'r hwn a felldithio dad neu fam, lladder ef yn farw.

f pen. 4. 10. a 5. 17—19. Es. 8. 20. Rhuf. 3. 31. g pen. 19. 19. Ex. 20. 12. Lef. 19. 3. Deut. 5. 16. Diar. 23. 22. Eph. 6. 1. h Ex. 21. 17. Lef. 20. 9. Deut. 21. 18—21. a 27. 16. Diar. 20. 20. a 30. 17.

5 ‡ Eithr [i] yr ydych chwi yn dywedyd, Pwy bynnag a ddywedo wrth *ei* dad neu *ei* fam, [k] ‖ Rhodd *yw* pa beth bynnag y ceit lês oddi wrthyf fi, ac [l] ni anrhydeddo ei dad neu ei fam, *difai fydd.*

i pen. 23. 16—18. Amos 7. 15—17. Marc 7. 10—13. Act. 4. 19. a 5. 29. k Lef. 27. 9, &c. Diar. 20. 25. Marc 7. 11, 12.

6 [m] Ac fel hyn y gwnaethoch orchymyn Duw yn ddirym trwy eich traddodiad eich hun.

l 1 Tim. 5. 3, 4, 8, 16. m Salm 119. 126, 127, 139. Jer. 8. 8, 9. Hos. 4. 6. Mal. 2. 7—9. Marc 7. 13. Rhuf. 3. 31.

Mae yr Arglwydd Iesu yma yn crybwyll un amgylchiad o lawer, i ddangos pa fodd yr oeddent hwy yn troseddu gorchymyn Duw trwy eu traddodiad eu hunain. * Gorchymyn Duw oedd, anrhydeddu rhieni; yr hyn sydd yn cynnwys pob math o ddyledswydd sydd ar blant i'w rhieni; eu caru, eu parchu, a'u cynnal yn eu henaint, os bydd achos, a'r plant yn gallu gwneyd hyny. Dyna orchymyn Duw, a thyna ddeddf naturiol a rhesymol, a gymmeradwywyd hyd yn nod gan baganiaid. † Ac yn Exod. 21. 17, mae Duw yn gorchymyn rhoddi i farwolaeth y neb a dòro y gorchymyn hwn, drwy felldithio, cablu, neu anmharchu tad neu fam. ‡ Nid oedd y Phariseaid yn dywedyd yn erbyn y gorchymyn uchod mewn geiriau; ond yr oedd ganddynt draddodiad, ag oedd yn ei ddirymu: ‖ sef, os byddai i rywun wneyd adduned o gyflwyno yr hyn oll a allai hebgor o'i feddiannau i'r drysorfa, at achos crefydd, gallai beidio cynnorthwyo ei dad neu ei fam, pa mor anghenus bynag a fyddent; dàn yr esgus rhagrithiol nas gallai eu cynnorthwyo heb dori ei adduned. Arferai llawer wneyd felly yn mhlith yr Iuddewon, a chefnogid hwy i hyny gan y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion, ceidwaid y drysorfa.

7 [n] * O ragrithwyr, [o] da y prophwydodd Esaias am danoch chwi, gan ddywedyd,

n pen. 7. 5. a 23. 23—29. o Marc 7. 6. Act. 28. 25—27.

8 [p] Nesâu y mae y bobl hyn attaf â'u genau, a'm hanrhydeddu â'u gwefusau; [q] a'u calon sydd bell oddi wrthyf.

p Es. 29. 13. Ezec. 33. 31. Ioan 1. 47. 1 Pedr 3. 10. q Diar. 23. 26. Jer. 12. 2. Act. 8. 21. Heb. 3. 12.

9 † Eithr yn ofer [r] y'm hanrhydeddant i, gan [s] ‡ ddysgu gorchymynion dynion yn ddysgeidiaeth.

r Ex. 20. 7. Lef. 26. 16, 20. 1 Sam. 25. 21. Salm 39. 6. a 73. 13. Preg. 5. 2—7. Es. 1. 13—15. a 58. 1—3. Mal. 3. 14. Marc 7. 7. 1 Cor. 15. 2. Iago 2. 20. s Deut. 12. 32. Diar. 30. 5, 6. Es. 29. 13. Col. 2. 18—22. 1 Tim. 1. 4. a 4. 1—3, 6, 7. Tit. 1. 14. Heb. 13. 9. Dat. 22. 18.

* O ragrithwyr, sydd yn cymmeryd arnoch fod yn grefyddol iawn oddi allan, ond heb ddim egwyddor sanctaidd, ffydd, cariad, nac ufudd-dod yn y galon. Dengys yr wythfed adnod yn amlwg beth yw rhagrithiwr. † Ofer oedd holl wasanaeth y rhagrithwyr hyn, ac ofer yw y cyffelyb eto; ofer i Dduw; anghymmeradwy ganddo, a di-ogoniant iddo: ofer iddynt eu hunain; am nad oedd yn effeithio i ddwyn eu calonau at Dduw na'u sancteiddio. ‡ Y gorchymynion dynion hyn oedd y traddodiadau a soniwyd uchod, y rhai oedd heb un sail iddynt yn ngorchymynion Duw, ac y rhan fwyaf o honynt yn groes i orchymynion Duw. Ofer hefyd oedd y rhai hyny i ddynion.

10 ¶ * Ac [t] wedi iddo alw y dyrfa atto, efe a ddywedodd wrthynt, [u] † Clywch a deallwch.

t 1 Bren. 22. 28. Marc 7. 14, 16. Luc 20. 45—47. u pen. 13. 19. a 24. 15. Es. 6. 9. a 55. 3. Luc 24. 45. Eph. 1. 17, 18. Col. 1. 9. Iago 1. 5.

11 ‡ Nid [x] yr hyn sydd yn myned i mewn i'r genau, sydd yn halogi dyn; [y] ‖ ond yr hyn

sydd yn dyfod allan o'r genau, hynny sydd yn halogi dyn.

x Marc 7. 15. Luc 11. 38—41. Act. 10. 14, 15. a 11. 8, 9. Rhuf. 14. 14, 17, 20. 1 Tim. 4. 4, 5. Tit. 1. 15. Heb. 13. 9. y adn. 18—20. pen. 12. 34—37. Salm 10. 7. a 12. 2. a 52. 2—4. a 58. 3, 4. Es. 37. 23. a 59. 3—5, 13—15. Jer. 9. 3—6. Rhuf. 3. 13, 14. Iago 3. 5—8. 2 Pedr 2. 18.

* Ar ol i'r Arglwydd Iesu ateb yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn eu gwynebau, mae yn troi, ac yn galw y dyrfa ato, i'w rhybuddio hwy rhag dysgeidiaeth gyfeiliornus a thraddodiadol yr athrawon hyny. † Clywch a deallwch, ebe efe; gwyddai yr Iesu eu bod wedi cael eu cam-ddysgu, a bod y ddysgeidiaeth a gawsent wedi cywyllu eu deall yn hytrach na'i oleuo: gwyddai hefyd y medrent ddeall ond cael iawn ddysgeidiaeth. ‡ Nid yw pethau cyfreithlawn i ddyn eu bwyta, ac wedi eu sancteiddio trwy air Duw a gweddi, yn halogi dyn, er fiddo eu bwyta â dwylaw heb eu golchi. Nid am bethau aflan dan y ddeddf mae Crist yn llefaru yma, buasai hyny yn halogi dyn y pryd hwnw; ac nid am fwyta ac yfed i lythineb a meddwdod, ychwaith, mae hyny yn halogi dyn bob amser. || Ond yr hyn sydd yn halogi dyn mewn gwirionedd, yw yr hyn sydd yn tarddu o'i galon a'i feddyliau halogedig ef, ac yn cael eu traethu ganddo a'i enau, felly mae yn halogi yr holl gorph, ac yn gosod troell naturiaeth yn fflam. Pob un a ddywed ylygredigaeth ei feddwl.

12 Yna y daeth ei ddisgyblion atto, ac a ddywedasant wrtho, [z] * A wyddost ti ymrwystro o'r Phariseaid wrth glywed yr ymadrodd hwn?

z pen. 17. 27. 1 Bren. 22. 13, 14. 1 Cor. 10. 32, 33. 2 Cor. 6. 3. Gal. 2. 5. Iago 3. 17.

* Diammau fod y Phariseaid wedi ymrwystro, neu fframgwyddo, yn fawr, o herwydd hyfder yr Iesu yn dywedyd yn erbyn eu traddodiadau hwy: ac hefyd o achlerwydd iddo ddysgu y dyrfa i wneyd yn ysgafn o anonynt. Mae yn debyg hefyd fod y dysgyblion wedi brawychu rhag ofn y buasai eu hathraw yn dyfod i ryw ffrallod a chosp o herwydd yr hyn a ddywedasai.

13 Ac yntau a attebodd ac a ddywedodd, [a] * Pob planhigyn yr hwn nis plannodd fy Nhad nefol, † a ddiwreiddir.

a pen. 13. 40, 41. Salm 92. 13. Es. 60. 21. Ioan 15. 2. 1 Cor. 3. 12—15.

14 [b] ‡ Gadewch iddynt: [c] tywysogion deilliion i'r deillion ydynt. [d] § Ac os y dall a dywys y dall, y ddau a syrthiant yn y ffos.

b Hos. 4. 17. 1 Tim. 6. 5. c pen. 23. 16—24. Es. 9. 16. a 42. 19. a 56. 10. Luc 6. 39. d Jer. 5. 31. a 6. 15. a 8. 12. Ezec. 14. 9, 10. Mica 3. 6, 7. 2 Pedr 2. 1, 17. Dat. 19. 20. a 22. 15.

* Wrth bob planhigyn yma y gellir deall, pob athrawiaeth, pob arferiad, pob defod, pob traddodiad, a phob gosodiad mewn crefydd, a'r nad yw o Dduw; neu ynte, pob dysgawdwr, a phob person a'r nad yw o Dduw; † a ddiwreiddir, i roddi lle i athrawiaeth a gosodiadau gwell, ac i ddysgawdwyr a chrefyddwyr gwell hefyd. Felly y gwnaed â'r grefydd Iuddewig, ei dysgawdwyr a'i phroffeswyr, i roddi lle i'r efengyl bur a sanctaidd. ‡ Gadewch iddynt, nid oes arnaf fi fawr o'u hofn. Gadewch iddynt, nid oes dim gwellâu i fod arnynt; eu diwreiddio a gânt. Hollol ymwrthodwch â hwynt, yw ystyr y Groeg meddant, herwydd eu dallineb cyfeiliornus, a'u gwaith yn arwain eraill ar gyfeiliorn. || Arweinyddion deillion ydynt, a deillion yw eu canlynwyr; ac yn ol natur pethau, a barn gyfiawn Duw, i'r ffos ofnadwy o dragywyddol golledigaeth, yr ânt hwy â'u canlynwyr. Gweinidogaeth annwybodus ac anffyddlawn, yw y plâ mwyaf a ddichon Duw ddanfon i blith dynion.

15 * A Phedr a attebodd ac a ddywedodd wrtho. [e] † Eglura i ni y ddammeg hon.

e pen. 13. 36. Marc 4. 34. a 7. 17. Ioan 16. 29.

16 A dywedodd yr Iesu, [f] ‡ A ydych chwithau etto heb ddeall?

f adn. 10. pen. 13. 51. a 16. 9, 11. Es. 28. 9, 10. Marc 6. 52. a 7. 18. a 8. 17, 18. a 9. 32. Luc 9. 45. a 18. 34. a 24. 45. Heb. 5. 12.

* Pedr oedd y mwyaf blaenllaw i lefaru yn gyffredin: mae yma yn gofyn drosto ei hun a'r dysgyblion eraill, fel mae yn amlwg wrth yr ateb. † Y ddammeg hon: neu y dywediad hwn, sydd yn dywyll i ni: dammeg y galwai yr Iuddewon bob dywediad tywyll. Y pethau a ddywedasai yr Iesu am yr hyn oedd yn halogi, ac nad oedd yn halogi dyn, oedd yn dywyll i'r dysgyblion. Yr oeddynt hwythau, efallai, braidd yn ofni, bod yr Iesu wedi myned yn rhy bell, a chwedi dywedyd gormod yn erbyn y gyfraith yn nghylch bwydydd. ‡ Dëallwn wrth yr ateb, bod yr Iesu yn eu lled geryddu am eu hanwybodaeth; dylasent ddëall pethau fel hyn yn well, wedi bod cyhyd gydag ef. Mae Duw yn disgwyl i ni gynnyddu mewn gwybodaeth yn gyfatebol i'r manteision a gaffom.

17 Onid ydych chwi yn deall etto, [g] fod * yr hyn oll sydd yn myned i mewn i'r genau, † yn cilio i'r bola, [h] ac y bwrir ef allan i'r geudy?

g Marc 7. 19, 20. 1 Cor. 6. 13. Col. 2. 21, 22. h 2 Bren. 10. 27.

18 ‡ Eithr [i] y pethau a ddeuant allan o'r genau, sydd yn dyfod allan o'r galon; a'r *pethau* hynny a halogant ddyn.

i adn. 11. pen. 12. 34. 1 Sam. 24. 13. Salm 36. 3. Diar. 6. 12. a 10. 32. a 15. 2, 28. Luc 19. 22. Iago 3. 6—10. Dat. 13. 5, 6.

19 [k] ‖ Canys o'r galon y mae [l] meddyliau drwg yn dyfod allan, lladdiadau, tor-priodasau, godinebau, lladradau, cam-dystiolaethau, cablau.

k Gen. 6. 5. a 8. 21. Diar. 4. 23. a 6. 14. a 22. 15. Jer. 17. 9. Marc 7. 21—23. Rhuf. 3. 10—19. a 7. 18. a 8. 7, 8. Gal. 5. 19—21. Eph. 2. 1—3. Tit. 3. 2—6. l pen. 9. 4. Salm 119. 113. Es. 55. 7. a 59. 7. Jer. 4. 14. Act. 8. 22. Iago 1. 13—15.

20 Dyma y pethau [m] sydd yn halogi dyn: [n] ‖ eithr bwytta â dwylaw heb olchi, ni haloga ddyn.

m 1 Cor. 3. 16, 17. a 6. 9—11, 18—20. Eph. 5. 3—6. Dat. 21. 8, 27. n adn. 2. pen. 23. 25, 26. Marc 7. 3, 4. Luc 11. 38—40.

* Wrth "yr hyn oll" yma, rhaid i ni ddëall, yr hyn oll ag oedd yn lân dan y ddeddf; yr hyn oll a gymmerid mewn cymmedroldeb; ac yr hyn oll oedd yn cael ei sancteiddio drwy air Duw a gweddi, a'i gymmeryd trwy dalu diolch. † Pethau er ymgeledd y corph yw pob peth felly, ac yn myned yn mlaen yn ol trefn reolaidd natur; nid yw yn myned i'r galon, nac yn effeithio i halogi yr enaid mewn ystyr foesol na seremoniol chwaith. ‡ Ond y pethau a enwir yn adn. 19, sydd yn halogi dyn; mae eu nyth yn y galon, ac y maent yn halogi yno; maent yn cyfodi yn y meddyliau, ac yn halogi yno; ac yn aml maent yn tori allan mewn geiriau a gweithredoedd, ac felly yn halogi yr holl ddyn, a hwnw yn halogi eraill. || Ymddiddanion drwg yw y Groeg: nid yn unig mae ymddiddanion drwg yn dyfod o'r galon, ond mae y galon hefyd mewn meddyliau drwg, megys yn cynnal math o gydymddiddan â hi ei hun. § Am fwyta â dwylaw heb olchi, nid yw ond yn erbyn traddodiad dynol, heb sail iddo yn ngair Duw, ac nid yw yn halogi dyn yn ngolwg Duw.

21 ¶ A'r Iesu a aeth oddi yno, [o] ac a giliodd i dueddau [p] * Tyrus a Sidon.

o Marc 7. 24. p pen. 10. 5, 6. a 11. 21—23. Gen. 49. 13. Jos. 11. 8. a 13. 6. a 19. 28, 29. Barn. 1. 31.

* Dwy o brif ddinasoedd Phœnicia oedd Tyrus a Sidon, yn sefyll ar lân Môr y Canoldir, yn y gogledd-orllewin i Ganaan. Yr oedd hon yn daith bell i'r Iesu o lân môr Tiberias lle yr oedd o'r blaen; ond nid rhy bell ganddo ef i wneuthur daioni. Neu *tua* thueddau Tyrus a Sidon, canys nid yw yn ymddangos i Grist fyned dros derfynau gwlad Israel o gwbl, i derfynau y Cenedloedd, na'r tro hwn nac yr un tro arall. Mae dadlau mawr wedi bod ar y pwnc o fedydd am ystyr y gair Groeg *eis*, a hwnw yw y gair a gyfieithir *i* dueddau Tyrus a Sidon yn y fân hon.

22 Ac wele, [q] * gwraig o Ganaan a ddaeth o'r parthau hynny, ac a lefodd, gan ddywedyd wrtho, [r] Trugarhâ wrthyf, † O Arglwydd, [s] Fab Dafydd: [t] ‡ y mae fy merch yn ddrwg ei hwyl gan gythraul.

q pen. 3. 8, 9. Salm 45. 12. Ezec. 3. 6. Marc 7. 26. r pen. 9. 27. a 17. 15. Salm 4. 1. a 6. 2. Luc 17. 13. a 18. 13. s pen. 1. 1. a 20. 30, 31. a 22. 42—45. Luc 18. 38, 39. Ioan 7. 41, 42. t pen. 17. 15. Marc 7. 25. a 9. 17—22.

23 ‖ Eithr [u] nid attebodd efe iddi *un* gair. A daeth ei ddisgyblion atto, ac a attolygasant iddo, gan ddywedyd, § [x] Gollwng hi ymaith; canys y mae hi yn llefain ar ein hol.

u Gen. 42. 7. Deut. 8. 2. Salm 38. 1. Galar. 3. 8. x pen. 14. 15. Marc 10. 47, 48.

* Mae yn debyg mai paganes a fuasai y wraig hon, un o hiliogaeth yr hen Ganaaneaid, gweddillion pa rai a lechasant yn yr ardaloedd hyny. Groeges, Syrophenicia o genedl, medd Marc 7. 26: dosparthai Paul bawb yn Iuddewon a Groegwyr, neu Iuddewon a Chenedloedd, o ba genedl bynag y byddai y Groegwyr neu y Cenedloedd hyny. † Tybir ei bod wedi cael ei dychwelyd i'r grefydd Iuddewig trwy ddarllen y cyfieithiad Groeg o'r Hen Destament, ac wrth gymharu yr hyn a ddarllenasai am y Messiah, â'r hyn a glywsai am Iesu, penderfynodd yn ei feddwl mai Iesu oedd y Messiah: am hyny mae yn ei gyfarch ef "O Arglwydd, Fab Dafydd," enwad cyffredinol ar y Messiah yn mhlith yr Iuddewon. ‡ Yr oedd ei merch wedi ei meddiannu gan gythraul, fel llawer yn y dyddiau hyny. Cael ei *blino yn dost* yw y Saesoneg, wedi ei *drwg-reibio*, neu ei *meddiannu* gan gythraul, yw y Groeg: dywedir fod amryw raddau o'r anhwyl truenus hwn, ac mai y fath waethaf oedd ar y ferch hon. ‖ Peidiodd Iesu a'i hateb ar y cyntaf, nid o ddifaterwch am ei chŵyn, ond i brofi ei ffydd, neu yn hytrach i ddangos ei ffydd hi i eraill. § Y dysgyblion, un ai yn blino ar ei chriau hi, neu yn tosturio wrthi, a ddeisyfent ar Grist wrando ei chŵyn a'i gollwng ymaith. Nid oes dim anghysondeb yn yr Efengylwyr yn eu hadroddiad o'r hanes hwn, erbyn i ni ystyried bod y naill Efengylwr, yn aml yn crybwyll peth ag mae y lleill yn ei adael heb ei grybwyll.

24 * Ac efe a attebodd ac a ddywedodd, [y] † Ni'm danfonwyd i ond at ddefaid colledig tŷ Israel.

y pen. 9 36. a 10. 5, 6. Es. 53. 6. Jer. 50. 6, 7. Ezec. 34. 5, 6, 16, 23. Luc 15. 4—6. Act. 3. 25, 26. a 13. 46. Rhuf. 15. 8.

* Wrth y dysgyblion y dywedodd yr Iesu hyn, ond yn nghlyw y wraig. † Nid oedd efe wedi derbyn ei weinidogaeth, na chael ei ddanfon at y Cenedloedd, na'i apostolion chwaith y pryd hwnw; er bod ambell un fel y wraig hon yn cael eu galw trwy ras. Atynt hwy yn benaf, ac yn mlaenaf, yw y meddwl, yn ol rhediad yr iaith a lefarai Crist yn y fan hon; ac yr oedd tŷ Israel oll yn awr fel defaid colledig, heb fugail arnynt: pen. 9. 36; 10. 5, 6.

25 [z] Ond hi a ddaeth ac [a] a'i haddolodd ef, gan ddywedyd, [b] Arglwydd, cymhorth fi.

z pen. 20. 31. Gen. 32. 26. Hos. 12. 4. Luc 11. 8—10. a 18. 1, &c. a pen. 14. 33. b Marc 9. 22, 24.

* Dwywaith eisoes yr oedd y wraig hon wedi cael ei digaloni; ac eto dyma hi yn addoli, yr hyn sydd yn dangos ei bod yn credu yn Nuwdod yr Arglwydd Iesu; ac yn para i erfyn, yr hyn sydd yn dangos ei fod ef yn wobrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio.

26 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd, [c] Nid da cymmeryd * bara y † plant, a'i fwrw i'r ‡ cŵn.

c pen. 7. 6. Marc 7. 27, 28. Act. 22. 21, 22. Rhuf. 9. 4. Gal. 2. 15. Eph. 2. 12.

* Wrth fara yma y mae i ni ddëall gweinidogaeth yr efengyl, yn nghyd â'r gwyrthiau, trwy ba rai yr oedd gwirionedd yr efengyl yn cael ei gadarnhau. † Y plant oedd y genedl Iuddewig; plant y deyrnas, mab, a chyn taf-anedig Duw, Exod. 4. 22. ‡ Y cŵn oedd y Cenedl oedd: felly y galwai yr Iuddewon hwynt, ac felly dirmygent hwy, fel rhai nad oeddynt deilwng i fod yn aelodau o deulu Duw.—Defnyddiai Crist enw yr Iuddewon ar y Cenedloedd, nid o'i ddirmyg ef ei hun a y wraig hon fel un o honynt; ond er dangos iddi h pwy a pha fath ydoedd, er dangos mawredd ei ddaion iddi ar ol hyn, ac er mwynâu y ganmoliaeth o'i ffydd hi yn adn. 28.

27 Hithau a ddywedodd, [d] * Gwir *yw*, Arglwydd: [e] † canys y mae y cŵn yn bwytta o'r briwsion sydd yn syrthio oddi ar fwrdd eu harglwyddi.

d pen. 8. 8. Gen. 32. 10. Job 40. 4, 5. a 42. 2—6. Salm 51. 4 5. Ezec. 16. 63. Dan. 9. 18. Luc 7. 6, 7. a 15. 18, 19. a 18. 13. a 23 40—42. Rhuf. 3. 4, 19. 1 Cor. 15. 8, 9. 1 Tim. 1. 13—15. e pen 5. 45. Luc 16. 21. Rhuf. 3. 29. a 10. 12. Eph. 3. 8, 19.

Yn yr adnod o'r blaen, cafodd y wraig hon drydydd gwrthyriad; nid yn unig digon i'w digaloni yn hollawl, ond hefyd digon i'w thramgwyddo yn fawr. * Ond yn lle digaloni na thramgwyddo, mae hi yn myned yn fwy i'r llwch, ac yn addef mai un o'r cŵn oedd, ac fel y cyfryw, nad oedd yn haeddu dim: † ac nid hyny yn unig, ond mae yn defnyddio yr enw dirmygus i chwanegu ei thaerineb; ac yn gofyn am drugaredd i'w merch fel briwsionyn o fara y plant. Mawr oedd gostyngeiddrwydd, cymmedrolder, ffydd, a thaerineb, y wraig hon.

28 Yna yr attebodd yr Iesu, ac a ddywedodd wrthi, Ha wraig, [f] * mawr *yw* dy ffydd: [g] † bydded i ti fel yr wyt yn ewyllysio. A'i merch a iachâwyd o'r awr honno allan.

f pen. 8. 10. a 14. 31. 1 Sam. 2. 30. Luc 17. 5. Rhuf. 4. 19, 20. 2 Thes. 1. 3. g pen. 8. 13. a 9. 29, 30. Marc 5. 34. a 7. 29, 30. a 9. 23, 24. Luc 7. 9, 50. a 18. 42, 43. Ioan 4. 50—53.

* Rhodd a gweithrediad Duw yw ffydd; ac Iesu yn ddirgelaidd oedd yn rhoddi ffydd i'r wraig hon, ac yn ei chynnal ynddi. Yr oedd ei ffydd yn fawr wrth ystyried dau beth. 1. Leied y manteision a gawsai hi, fel paganes genedlig. Sylwir gan rai, na ryfeddodd yr Iesu wrth ffydd neb ond paganiaid. Math. 8. 10. 2. Wrth ystyried ei thaerineb parâus hi, er cael ei digaloni dair gwaith; yr oedd fel Jacob, megys yn dywedyd, "Ni'th ollyngaf oni'm bendithi." † Ac fel Jacob hefyd, "cafodd nerth gyda Duw, a gorchfygodd." Hi a gafodd ddymuniad ei chalon, iachâd i'w merch a phob peth arall hefyd, mae yn debyg.

29 ¶ * A'r Iesu a aeth oddi yno, [h] ac a ddaeth ger llaw [i] môr Galilea; [k] ac a esgynodd i'r mynydd, ac a eisteddodd yno.

h Marc 7. 31. i pen. 4. 18. Jos. 12. 3. Es. 9. 1. Marc 1. 16. Luc 5. 1. Ioan 6. 1, 23. a 21. 1. k pen. 5. 1. a 13. 2.

30 A [l] daeth atto dorfeydd lawer, a chanddynt gyd â hwynt gloffion, deillion, mudion, † anafusion, ac eraill lawer: a hwy a'u bwriasant i lawr wrth draed yr Iesu, ac efe a'u hiachâodd hwynt:

l pen. 4. 23, 24. a 11. 4, 5. a 14. 35, 36. Es. 35. 5, 6. Marc. 1. 32—34. a 6. 54—56. Luc 6. 17—19. a 7. 21, 22. Act. 2. 22. a 5. 15, 16. a 19. 11, 12.

31 Fel y rhyfeddodd y torfeydd, wrth weled y ‡ [m] mudion yn llefaru, [n] y rhai anafus yn iach, [o] y cloffion yn rhodio, a'r deillion yn gweled: [p] ‖ a hwy a ogoneddasant [q] Dduw Israel.

m pen. 9. 33. Marc 7. 37. n pen. 18. 8. Marc 9. 43. Luc 14. 13, 21. o pen. 21. 14. Act. 3. 2—11. a 14. 8—10. p pen. 9. 8. Salm 50. 15, 23. Marc 2. 12. Luc 7. 16. a 17. 15—18. a 18. 43. Ioan 9. 24. q Gen. 32. 28. a 33. 20. Ex. 24. 10.

* Yma mae Iesu yn dyfod yn ei ol eto, yn agos i fôr Galilea, o ba le yr aethai i dueddau Tyrus a Sidon. † Anafusion: rhai wedi crymu, medd *Guyse;* ond dywed *Doddridge*, a *Scott*, fod y gair Groeg, *chullous*, yn arwyddo aelod wedi ei dori ymaith, a bod adferu y cyfryw yn wyrth mòr nodedig a gogoneddus â'r un

wnaeth ein Harglwydd Iesu: dim llai na gallu crëawl. Nid rhai y tòrasid ymaith eu haelodau fel y sylwyd uchod, medd rhai; ond rhai wedi colli grym a defnydd eu haelodau, gan ryw glefydau diffrwythawl a fuasai urnynt.—‡ Mae y gair gwreiddiol yn arwyddo byddarion a mudion hefyd meddant, ac os o'r enedigaeth yr oedd y mudanrwydd, mae yn debyg fod y dynion yn fyddariaid hefyd. || Taerai yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid mai trwy allu y diafol y gwnai Iesu y gweithredoedd hyn; ond priodolai y bobl dlodion hwynt i allu Duw, a gogoneddent Dduw Israel, yr hwn a ddanfonasai y Messiah i'r byd yn ol y prophwydoliaethau i wneuthur y cyfryw bethau.

32 ¶ A [r] galwodd yr Iesu ei ddisgyblion atto, ac a ddywedodd, [s] Yr ydwyf yn tosturio wrth y dyrfa; * canys y maent yn aros gyd â mi [t] dridiau weithian, [u] † ac nid oes ganddynt ddim i'w fwytta: ac nid ydwyf yn ewyllysio eu gollwng hwynt ymaith ar eu cythlwng, [x] rhag eu llewygu ar y ffordd.

r pen. 9. 36. a 14. 14. a 20. 34. Marc 8. 1, 2. a 9. 22. Luc 7. 13. s Heb. 4. 15. t pen. 12. 40. a 27. 63. Act. 27. 33. u pen. 15. 32, 33. Luc 12. 29, 30. x 1 Sam. 14. 28—31. a 30. 11, 12. Marc 8. 3.

33 A'i ddisgyblion a ddywedent wrtho, [y] ‡ O ba le y caem ni gymmaint o fara yn y diffaethwch, fel [z] y digonid tyrfa gymmaint?

y Num. 11. 21, 22. 2 Bren. 4. 42, 43. Marc 6. 37. a 8. 4, 5. Ioan 6. 5—7. z pen. 14. 15. Luc 9. 13. Ioan 6. 8, 9.

34 A'r Iesu a ddywedai wrthynt, [a] Pa sawl torth sydd gennych? A hwy a ddywedasant, Saith, ac [b] ychydig bysgod bychain.

a pen. 16. 9, 10. b Luc 24. 41, 42. Ioan 21. 9, 10.

35 Ac efe a orchymynodd i'r torfeydd [c] eistedd ar y ddaear.

c pen. 14. 19. Marc 6. 39, 40. Luc 9. 14—16. Ioan 6. 10.

36 A chan gymmeryd y saith dorth, a'r pysgod, [d] a diolch, efe a'*u* torrodd, ac a'*u* rhoddodd i'w ddisgyblion, a'r disgyblion i'r dyrfa.

d pen. 26. 26, 27. 1 Sam. 9. 13. Luc 22. 19. Ioan 6. 11. Act. 27. 35. Rhuf. 14. 6. 1 Cor. 10. 31. 1 Tim. 4. 3, 4.

37 || A hwy [e] oll a fwyttasant, ac a gawsant eu digon: ac a godasant o'r briw-fwyd oedd y'ngweddill [f] saith fasgedaid yn llawn.

e adn. 33. pen. 14. 20, 21. Salm 107. 9. Luc 1. 53. f pen. 16. 9, 10. Marc 8. 8, 9, 19—21.

38 A'r rhai a fwyttasant oedd bedair mil o ŵyr, heb law gwragedd a phlant.

39 Ac [g] wedi iddo ollwng y torfeydd ymaith, efe a aeth i long, § ac a ddaeth i barthau Magdala.

g pen. 14. 22. Marc 8. 10.

* Arhosodd y dyrfa hon gyda'r Iesu dridiau, neu hyd y trydydd, gan faint eu hawydd i wrando arno, ac i gweled ei wŷrthiau. Rhaid eu bod wedi llettya ddwy noson yn y ddiffaethwch; yr hyn a allasent yn ddiberygl, efallai, yn y wlad gynhes hòno. † Mae yn debyg iddynt iddwyn peth ymborth gyda hwynt, ond fod y cwbl wedi darfod yn mhell cyn hyn, a hwythau gan hir gythlwng yn mron a llewygu. ‡ Rhyfedd mòr fuan yr anghofiodd y dysgyblion y wŷrth a wnaethai yr Iesu o'r blaen, ysef porthi y pùm mil, pen. 14. 21. || Y cwbl o wahaniaeth rhwng y wŷrth hon â'r wŷrth hòno yw, yr oedd yno bùm mil, heblaw gwragedd a phlant; nid oedd yma ond pedair mil, heblaw gwragedd a phlant: nid oedd yno ond pùm torth, a dau bysgodyn; yr oedd yma saith dorth, ac ychydig bysgod bychain: gweddillwyd yno ddeuddeg basgedaid o friw-fwyd; ni weddillwyd yma ond saith, basgedaid am bob torth: felly, yr oedd y wŷrth o'r blaen yn fwy na hon. Nid yr un gair sydd am *fasged* yn y fàn hon ag yn pen. 14. 20: basged fechan a ddygid mewn llaw a feddylir yma, ond un fawr a ddygid ar yr ysgwydd a feddylir yno. *Spuridas* yw y gair yn y fàn hon, *Cophinous* yw y gair yn pen. 14. 20. § Dalmanutha, medd Marc 8. 10. Tybir mai Magdala oedd enw y wlad; a Dalmanutha oedd le, neu dref yn y wlad hòno. Lle o du y dwyrain i fôr Galilea medd rhai, o du y gorllewin medd eraill, ac felly y gosodir ef ar y mapiau, i'r dehau o Capernaum a Bethsaida: un oddi yno oedd Mair Magdalen, neu Mair o Magdala.

PEN. XVI.

Y Phariseaid yn gofyn arwydd. 13 *Tyb y bobl am Grist, &c.*

* AC wedi i'r [a] Phariseaid a'r [b] Saduceaid ddyfod atto, a'i [c] demtio, hwy a attolygasant iddo † ddangos iddynt [d] arwydd o'r nef.

a pen. 5. 20. a 9. 11. a 12. 14. a 15. 1. a 22. 15, 34. a 23. 2. a 27. 62. b adn. 6, 11. pen. 3. 7, 8. a 22. 23. Marc 12. 18. Luc 20. 27. Act. 4. 1. a 5. 17. a 23. 6—8. c pen. 19. 3. a 22. 18, 35. Marc 10. 2. a 12. 15. Luc 10. 25. a 11. 16, 53, 54. a 20. 23. Ioan 8. 6. d pen. 12. 38, 39. Marc 8. 11—13. Luc 11. 16, 29, 30. Ioan 6. 30, 31. 1 Cor. 1. 22.

* Nid oedd yr un dwy blaid o ddynion yn fwy croes i'w gilydd, mewn egwyddorion ac ymarferiad, nag oedd y Phariseaid a'r Saduceaid: y naill yn rhith-grefyddol iawn, a'r lleill yn hollawl ddigrefydd; eto yr oeddynt yn cytuno yn eithaf i ddyfod i demtio yr Arglwydd Iesu, pe gallasent lwyddo. † Taerent mai trwy ei gyngrair â diafol yr oedd efe yn gwneyd ei arwyddion ar y ddaear, am hyny mynent iddo ddangos rhyw arwydd goruwchnaturiol, fel y tân ar Sinai, neu y bara a ddaeth o'r nef: neu, efallai, dangos iddynt arwydd Mab y dyn yn nghymylau y nef, fel y crybwyllodd Daniel, 7. 13. Addawai twyllwyr yr amseroedd hyny, ddangos i'r bobl *arwydd rhyddid*, sef rhyw ymddangosiad gwŷrthiol o'r nef, i'w sicrâu hwynt o waredigaeth oddi tàn iau y Rhufeiniaid. Cyfeiriad at hyny sydd yn 1 Cor. 1. 22.

2 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, [e] * Pan ·fyddo yr hwyr, y dywedwch, Tywydd têg; canys y mae yr wybr yn goch.

e Luc 12. 54—56.

3 A'r bore, Heddyw dryccin; canys y mae yr wybr yn goch ac yn bruddaidd. [f] † O ragrithwyr, chwi a fedrwch ddeall wyneb yr wybren; ‡ ac oni fedrwch [g] arwyddion yr amserau?

f pen. 7. 5. a 15. 7. a 22. 18. a 23. 13. Luc 11. 44. a 13. 15. g pen. 4. 23. a 11. 5. 1 Cron. 12. 32.

* Arwyddion pur sicr o dywydd teg a drychin yw y pethau a grybwyllir uchod; ac oeddynt yn y wlad hòno, mae yn debyg. Ymffrostiai yr Iuddewon yn fawr am eu medrusrwydd i ddarogan y tywydd. † Rhagrithwyr oedd y Phariseaid yn eu crefydd; a rhagrithwyr oeddynt hwy â'r Saduceaid hefyd, yn eu neges presenol at yr Arglwydd Iesu: cymmerent arnynt geisio arwydd ganddo, er mwyn credu ynddo; ond eu gwir ddyben oedd ei demtio, gan feddwl nas gallai ddangos arwydd iddynt. ‡ Faint bynag o sicrwydd oedd yn arwyddion y tywydd, yr oedd llawer mwy yn arwyddion yr amserau hyny, mai Iesu oedd y Messiah. Pe buasent hwy yn medru gan ddallineb, gymharu y pethau yn nghylch Iesu, ac a wnaid gan Iesu, â'r holl brophwydoliaethau am dano; nis gallasent beidio gweled mai efe yn sicr oedd y Messiah. Ond yr oeddent hwy yn fwy hyddysg yn mhob peth, nac yn yr Ysgrythyrau. Arwyddion dyfodiad y Messiah yn yr amserau hyny a feddylir; ac un o'r arwyddion oedd, bod y deyrn-wialen wedi ymadaw o Judah, canys yr oedd yr Iuddewon a'u gwlad dan lywodraeth y Rhufeiniaid y pryd hwn; arwydd arall oedd dyfodiad Ioan Fedyddiwr, fel cenad o flaen y Messiah, yn ol y prophwydoliaethau o hyny; ac arwydd arall ydoedd athrawiaeth, gweithredoedd, ac ymarweddiad Crist ei hun, yn cyfateb i'r prophwydoliaethau am y Messiah.

4 * Y mae [h] cenhedlaeth ddrwg a godineb-

us yn ceisio arwydd; ac arwydd nis rhoddir iddi, [i] † ond arwydd y prophwyd Jonas. [k] ‡ Ac efe a'u gadawodd hwynt, ac a aeth ymaith.

h pen. 12. 39, 40. Marc 8. 12, 38. Act. 2. 40. i Jona 1. 17. Luc 11. 29, 30. k pen. 15. 14. Gen. 6. 3. Hos. 4. 17. a 9. 12. Marc 5. 17, 18. Act. 18. 6.

* Cenedlaeth ddrwg a godinebus: hyny yw, cenedlaeth annhebyg iawn i'w tad Abraham: gwelodd Abraham ddydd Crist o bell, a llawenychodd; nis gallent hwy ei weled er ei fod yn eu plith. Credodd Abraham heb un arwydd; ni chredent hwy er cael arwyddion lawer. † Soniwyd am arwydd y prophwyd Jonas o'r blaen, pen. 12. 39; ond tybir fod Jonas yma i'w ystyried yn gysgod o Grist mewn amryw bethau heblaw yn ei gladdedigaeth a'i adgyfodiad:—1. Bwriwyd Jonas i'r môr; rhoddwyd Crist i farwolaeth: 2. bwriwyd Jonas i'r môr o'i wirfodd; o'i wirfodd y rhoes Crist ei einioes i lawr: 3. achubodd Jonas y llong drwy fyned i'r môr; achubodd Iesu yr eglwys drwy farw: 4. gwedi i Jonas fod yn mol y pysgodyn dridiau, bwriwyd ef ar dir sych; cyfododd Crist o feirw y trydydd dydd: 5. er i'r Ninifeaid wneyd ymddangosiad o edifeirwch wrth bregeth Jonas, eto dinystriwyd hwy yn fuan wedi hyny: felly y gwnaed â'r Iuddewon o fewn deugain mlynedd wedi esgyniad Crist. ‡ Gadawodd Iesu y gwersi uchod gyda hwynt, ac aeth ymaith.

5 Ac [l] wedi dyfod ei ddisgyblion ef i'r làn arall, hwy a ollyngasant dros gôf gymmeryd bara *ganddynt.*

l pen. 15. 39. Marc 8. 13, 14.

6 ¶ A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, [m] * Edrychwch ac ymogelwch rhag [n] † surdoes [o] y Phariseaid a'r Saduceaid.

m Luc 12. 15. n adn. 12. Ex. 12. 15—19. Lef. 2. 11. Marc 8. 15. Luc 12. 1. 1 Cor. 5. 6—8. Gal. 5. 9. 2 Tim. 2. 17. o adn. 1.

7 † A [p] hwy a ymresymmasant yn eu plith eu hunain, gan ddywedyd, [q] ‡ *Hyn sydd* am na chymmerasom fara *gennym.*

p Marc 8. 16—18. a 9. 10. Luc 9. 46. q pen. 15. 16—18. Act. 10. 14.

* Dyblir y gocheliad yn Groeg, yr un fath a'r Gymraeg, i ddangos yr angenrheidrwydd o fod yn dra gwyliadwrus. † Y surdoes hwn oedd, rhagrith, didduwiaeth, traddodiadau ofer, a gelyniaeth balch yn erbyn y gwirionedd; yr hyn bethau oedd yn suro ac yn llygru pawb a'u derbyniai, a phob peth a wnelent, fel y surdoes yn y blawd. Byddai y dysgawdwyr Iuddewig yn gwahardd i'w dysgyblion brynu bara gan y Cenedloedd, a chan y Samariaid, fel y gochelent y surdoes oedd yn eu bara hwynt; tybir fod Crist yn cyfeirio at y gwaharddiadau hyny yn y fàn hon, ond yn gosod surdoes, gau athrawiaeth y Pharisêaid a'r Saduceaid, yn lle surdoes bara y Cenedloedd a'r Samariaid: yr oedd yn troi gocheliad y dysgawdwyr Iuddewig, yn eu herbyn hwy eu hunain. ‡ Tybiodd y dysgyblion mai cerydd oedd hyn arnynt am eu hanghof o gymmeryd bara ganddynt, a gwahardd-iad i geisio bara gan y Phariseaid a'r Saduceaid, gan ddeall y geiriau yn naturiol, ac nid yn ysbrydol.

8 A'r [r] Iesu yn gwybod, a ddywedodd wrthynt, [s] * Chwychwi o ychydig ffydd, paham yr ydych yn ymresymmu yn eich plith eich hunain, am na chymmerasoch fara *gyd â chwi?*

r Ioan 2. 24, 25. a 16. 30. Heb. 4. 13. Dat. 2. 23. s pen. 6. 30. a 8. 26. a 14. 31. Marc 16. 14.

9 Onid [t] ydych chwi yn deall etto, nac yn cofio [u] pum torth y pum mil, a pha sawl basgedaid a gymmerasoch i fynu?

t pen. 15. 16, 17. Marc 7. 18. Luc 24. 25—27. Dat. 3. 19. u pen. 14. 17—21. Marc 6. 38 | 44. Luc 9. 13—17. Ioan 6. 9—13.

10 Na [x] saith dorth y pedair mil, a pha sawl cawellaid a gymmerasoch i fynu?

x pen. 15. 34—38. Marc 8. 5—9, 17—21.

11 Pa fodd [y] nad ydych yn deall, nad am fara y dywedais wrthych, ar ymogelyd rhag surdoes y Phariseaid a'r Saduceaid?

y Marc 4. 40. a 8. 21. Luc 12. 56. Ioan 8. 43.

12 Yna y deallasant na ddywedasai efe am ymogelyd rhag surdoes bara, [z] ond rhag † athrawiaeth y Phariseaid a'r Saduceaid.

z pen. 15. 4—9. a 23. 13, &c. Act. 23. 8.

* Mae Crist yn cyhuddo ei ddysgyblion yma o dr pheth; annwybodaeth, anghrediniaeth, ac anghof: an nwybodaeth; herwydd nad oeddynt yn deall mai an bethau ysbrydol yr oedd efe yn dywedyd ac nid an surdoes bara naturiol: anghrediniaeth; am nad oeddynt yn credu y gallai efe eu cynnal, er eu bod wedi anghofio cymmeryd bara ganddynt: anghof; herwydd anghofio ei wyrthiau rhyfeddol, a wnaethai efe mòr ddiweddar. Nid oes dim yn dywyll yn y geiriau hyn, gallwn ddysgu y pethau canlynol oddiwrth yr hanes:—1. Fod yr Arglwydd yn disgwyl i ni, nid yn unig i glywed a gweled, ond dëall hefyd. 2. Ei fod ef yn disgwyl i ni wrando, nid am yr amser presenol yn unig, ond hefyd erbyn yr amser a ddaw. 3. Ei fod ef yn anfoddlon iawn i'w bobl ei hun, pan welo efe ddallineb ac annwybodaeth ynddynt, gwedi iddynt gael moddion gwybodaeth mwy na chyffredin. 4. Y dylai hen brofiadau o allu a daioni Duw tuag atom ni, gryfhâu ein ffydd ni, pan ddelom i gyffelyb amgylchiadau drachefn: a bod ammau, a phetruso, ar ol cael y fath brofiadau, yn dangos ffydd wan a bechan, ac hefyd caledwch calon mawr, na wnaethai trugareddau Duw fwy o argraff ar ein heneidiau. † Yr oedd athrawiaeth y Phariseaid yn gynnwysedig mewn dau beth: 1. Cyfiawnhâd trwy weithredoedd y ddeddf: a hyny yn ol yr ystyr anmherffaith a roddent hwy i'r ddeddf. 2. Rhwymedigaeth i draddodiadau yr hynafiaid; a rhai o'r rhai hyny, fel y soniwyd, yn groes i ddeddf Duw, ac yn ei dirymu. Gellir gweled athrawiaeth y Saduceaid yn Act. 23. 8. Egwyddorion tra dymunol a chymmeradwy gan ddynion cnawdol, ac mae yn debygol fod Herod, ei wŷr llys, ei arglwyddi, a'i ben-capteniaid, wedi llyncu yr egwyddorion hyny, a hwy oedd yr Herodianiaid a sonir am danynt yn Math. 22. 16, a Marc 3. 6.

13 ¶ Ac [a] wedi dyfod yr Iesu i dueddau [b] * Cesarea Philippi, efe a ofynodd i'w ddisgyblion, gan ddywedyd, [c] † Pwy y mae dynion yn dywedyd fy [d] mod i, ‡ Mab y dyn?

a pen. 15. 21. Act. 10. 38. b Marc 8. 27. c Luc 9. 18. d pen. 8. 20. a 9. 6. a 12. 8, 32, 40. a 13. 37, 41. a 25. 31. Dan. 7. 13. Marc 8. 38. a 10. 45. Ioan 1. 51. a 3. 14. a 5. 27. a 12. 34. Act. 7. 56. Heb. 2. 14—18.

14 ‖ A hwy a ddywedasant, Rhai, *mai* [e] Ioan Fedyddiwr, a rhai, *mai* [f] Elias, ac eraill, *mai* Jeremias, neu un o'r prophwydi.

e pen. 14. 2. Marc 8. 28. Luc 9. 19. f Mal. 4. 5. Marc 6. 15. Luc 9. 18, 19. Ioan 7. 12, 40, 41. a 9. 17.

* Tybir mai Lais, neu Dan, oedd enw y ddinas hon yn yr Hen Destament. Yr oedd yn sefyll wrth droed mynydd Libanus, ar làn yr Iorddonen, yn agos i'w tharddiad, ac yn nghŵr gogleddol eithaf gwlad Canaan. Ail-adeiladwyd hi yn hardd iawn gan Phylip, Tetrarch y rhan hòno o'r wlad, a galwodd hi Cesarea, er anrhydedd i Cesar; a chwanegodd ei enw ei hun at hyny, gan ei galw Cesarea Philippi, i'w gwahaniaethu oddiwrth Cesarea arall, oedd ar làn môr y Canoldir. † Gwyddai yr Iesu yn llawn cystal â'i ddysgyblion, a gwell, beth oedd tyb y bobl am dano; ond ei fwriad oedd, tynu y gyffes a ganlyn o enau Pedr. ‡ Enw priodol i Grist yw Mab y dyn, yn dangos ei fod yn wir ddyn, ond yn fwy na dyn. ‖ Tybiai Herod mai Ioan Fedyddiwr wedi adgyfodi oedd. Tybiai eraill mai Elias wedi dyfod o'r nef, yn rhagflaenor y Messiah, oedd. Tybiai eraill mai Jeremias, neu un o'r prophwydi oedd. Tybiai yr Iuddewon fod eneidiau dynion duwiol pan fyddent feirw, yn cael eu trosglwyddo i gyrph eraill; a hyny a barai iddynt feddwl mai un o'r prophwydi oedd Iesu. Yr

oedd traddodiad hefyd yn eu plith, i Jeremïas guddio arch y cyfammod pan ddaeth y Babiloniaid gynt i Jerusalem; ac yr ymddangosai efe yn eu plith pan ddelai y Messiah, i adferu yr arch. Gwel 2 Maccabeaid 2. 5—8.

15 Efe a ddywedodd wrthynt, [g] * Ond pwy meddwch chwi ydwyf fi?

g pen. 13. 11. Marc 8. 29. Luc 9. 20.

16 † A Simon Pedr a attebodd ac a ddywedodd, [h] ‡ Ti yw y Crist, Mab [i] y Duw byw.

h pen. 14. 33. a 26. 63. a 27. 54. Salm 2. 7. Marc 14. 61. Ioan 1. 49. a 6. 69. a 11. 27. a 20. 31. Act. 8. 37. a 9. 20. Rhuf. 1. 4. Heb. 1. 2—5. 1 Ioan 4. 15. a 5. 5, 20. i Deut. 5. 26. Salm 42. 1. Dan. 6. 26. Act. 14. 15. 1 Thes. 1. 9.

* Mae yn amlwg mai hyn oedd amcan y gofyniad o'r blaen. Chwi, fy nysgyblion, a'm hapostolion, pwy meddwch chwi ydwyf fi? Mae ein Harglwydd yn gofyn, nid yn unig ffydd yn y galon, ond hefyd cyffes a'r genau, Rhuf. 10. 10. † Pedr, eto, yw y llefarwr arma, ac yn ateb drosto ei hun a'i frodyr; a hwythau yn ymdysyniaw yn hollawl â'i atebiad ef. ‡ Nid yw yr atebiad ond byr; eithr y mae yn cynnwys gwir, unig, a holl, ogylfaen yr efengyl. Ti yw Crist; yr eneiniog, yr hwn a addawyd er yr hen oesoedd i'r byd, dan yr enw Messiah, Dan. 9. 24, 25. Ti yw Mab y Duw byw; nid trwy *naturiaeth*, fel duwiolion yn gyffredin; ond o *naturiaeth*, a thragywyddol genedliad: priodol Fab y tragywyddol Dduw, mewn dull gwahanol i bawb eraill, ac mewn modd anamgyffredadwy i bob creadur.

17 A'r Iesu gan atteb a ddywedodd wrtho, * Gwyn dy fyd di, [1] Simon mab Jona: [a] canys nid † cig a gwaed a ‡ ddatguddiodd [b] yn i ti, [n] ond fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.

k pen. 5. 3—11. a 13. 16, 17. Luc 10. 23, 24. a 22. 32. 1 Pedr 1. 3—5. a 5. 1. l Ioan 1. 42. a 21. 15—17. m Gal. 1. 11, 12, 16. n pen. 11. 25—27. Es. 54. 13. Luc 10. 21, 22. Ioan 6. 45. 1. 17. 6—8. 1 Cor. 2. 9—12. Gal. 1. 16. Eph. 1. 17, 18. a 2. 8. a 3. 4, 18, 19. Col. 1. 26, 27. 1 Ioan 5. 20.

* Yr oedd gan Simon y pryd hwn lawer o erlidiaethau i fyned trwyddynt, a merthyrdod i'w ddyoddef yn y diwedd; eto, "gwyn ei fyd," o herwydd yr oedd yn oldyn newydd, ac yn wir gredadyn yn Nghrist. † Wrth cig a gwaed mae i ni ddëall yma, rheswm, doethineb, a dysgeidiaeth ddynol: syniadau a golygiadau dyn aniannol. Gwel 1 Cor. 2. 14. ‡ Nid gwybodaeth, neu ddatguddiad, digyfrwng, trwy ysbrydoliaeth, a feddylir yma; ond dysgeidiaeth a goleuni y Tad, trwy yr ysgrythyrau, y fath mae pob gwir gredadyn yn gael.

18 Ac yr ydwyf finnau yn dywedyd i ti, mai [o] ti yw * Pedr, ac [p] ar y † graig hon [q] yr ‡ adeiladaf [r] fy eglwys; [s] || a phyrth uffern nis gorchfygant hi.

o pen. 10. 2. Ioan 1. 42. Gal. 2. 9. p Es. 28. 16. 1 Cor. 3. 10, 11. Eph. 2. 19—22. Dat. 21. 14. q Zec. 6. 12, 13. 1 Cor. 3. 9. Heb. 3. 3, 4. r pen. 18. 17. Act. 2. 47. a 8. 1. Eph. 3. 10. a 5. 25—27, 32. Col. 1. 18. 1 Tim. 3. 5, 15. s Gen. 22. 17. 2 Sam. 8. 4. Salm 69. 12. a 127. 5. Diar. 24. 7. Es. 28. 6. 1 Cor. 15. 55. Salm 125. 1, 2. Es. 54. 17. Ioan 10. 27—30. Rhuf. 8. 33—39. Heb. 12. 28. Dat. 11. 15. a 21. 1—4.

* Ail grybwylliad o enw newydd yr apostol yw hyn, rhoddwyd ef iddo o'r blaen, pan ddygwyd ef gyntaf at Grist, Ioan 1. 4. Mae yn wir mai Cephas yw yn ei ndnod a grybwyllwyd; ond y mae y gair Syriaeg Cephas, a'r gair Groeg Petr, ill dau yn arwyddo yr un peth, sef Craig, neu gareg. † Dychymmyg y Pab oedd dywedyd mai Pedr oedd y graig hon; mae yn sicr mai Crist ei hun, Craig brofedig a Sylfaen safadwy yr eglwys, a feddylir; a gwae y neb a geisio osod yr un sylfaen arall. Mae yn wir fod cyffes Pedr yn graig yn *athrawiaethol*; nc felly yr oedd pob un o'r apostolion eraill yn gystal ag yntau, Eph. 2. 20. ‡ Crist yw sylfaen yr eglwys, a Christ hefyd yw adeiladydd yr eglwys: efe sydd yn galw ei bobl, efe sydd yn eu gosod yn ei dŷ, efe sydd yn eu cynnysgaeddu â grasau ei Ysbryd, ac efe sydd yn cynnyddu y grasau hyny, hyd oni pherffeithier yr holl saint mewn gogoniant. || A phyrth uffern, sef gallu, cyfrwysder, llid, a holl gynghoriadau y diafol a'i offerynau, nis gorchfygant yr eglwys: nis gorchfygant i attal rhediad a llwydd yr efengyl, i ddifodi yr eglwys oddi ar y ddaear, i attal gweithrediadau yr Ysbryd Glân ar galonau y saint, nac i ddistrywio yr un o'r credinwyr gwanaf. Yn mhyrth y dinasoedd gynt y cedwid arfau rhyfel, ac y penderfynid gwneyd rhyfel, &c. Pyrth *marwolaeth*, medd rhai: er gorfod i lawer o wir aelodau eglwys Crist ddyoddef marwolaeth trwy ferthyrdod, ac yn y modd creulonaf, eto ni orchfygir yr eglwys, hyd yn nod fel hyny.

19 * A [u] rhoddaf i ti [x] † agoriadau teyrnas nefoedd: [y] ‡ a pha beth bynnag a rwymech ar y ddaear, a fydd rhwymedig yn y nefoedd; a pha beth bynnag a ryddhâech ar y ddaear, a fydd wedi ei ryddhâu yn y nefoedd.

u Act. 2. 14, &c. a 10. 34, &c. a 15. 7. x Es. 22. 22. Dat. 1. 18. a 3. 7. a 9. 1. a 20. 1—3. y pen. 18. 18. Ioan 20. 23. 1 Cor. 5. 4, 5. 2 Cor. 2. 10. 1 Thes. 4. 8. Dat. 11. 6.

* Fel yr oedd Pedr wedi llefaru wrth Grist yn enw y dysgyblion eraill, felly y mae Crist yma yn llefaru wrtho ef a hwythau oll. Gwelwn yr un pethau yn cael eu dywedyd wrth bawb o honynt yn Math. 18. 18. a Ioan 20. 23. † Agoriadau oeddynt arwydd o awdurdod gynt; a dywedir y byddid arferol o roddi agoriad i'r dysgawdwyr Iuddewig wrth eu gosod yn eu swydd, fel arwydd o'u hawdurdod i egluro yr ysgrythyrau. Mae yr agoriadau yma yn arwyddo, awdurdod, danfoniad, a chymhwysder, yr apostolion yn mlaenaf, ac wedi hyny holl wir weinidogion y Testament Newydd, i bregethu yr efengyl, i weinyddu ei hordinhadau, ac i lywodraethu a bugeilio eglwys Dduw: ‡ pwy i dderbyn i mewn, a phwy i fwrw allan; pa fodd i farnu a gweinyddu dysgyblaeth yn holl dŷ yr Arglwydd, yn nghyd âg addewid o foddlonrwydd Duw ar yr hyn a wnelont yn unol â'i air ef. Heblaw yr hyn a grybwyllwyd uchod, dichon fod rhwymo a rhyddâu yn y fân hon yn arwyddo, yr awdurdod a fyddai i'r apostolion i ddiddymu rhai o bethau y ddeddf seremoniol, megys yr enwaediad; a gadael pethau eraill heb eu diddymu, megys y glanâd yn Act. 21. 24.

20 * Yna [z] y gorchymynodd efe i'w ddisgyblion, na ddywedent i neb mai efe oedd [a] Iesu Grist.

z pen. 8. 4. a 17. 9. Marc 8. 30. a 9. 9. Luc 9. 21, 36. a Ioan 1. 41, 45. a 20. 31. Act. 2. 36. 1 Ioan 2. 22. a 5. 1.

* Nis gallwn wybod yn sicr, paham y gwaharddai efe i'w ddysgyblion ddywedyd mai efe oedd Iesu Grist, neu y Messiah: y pethau mwyaf tebygol oedd yr hyn a ganlyn:—1. Am nad oeddynt hwy eto yn addas i gyhoeddi gwirionedd mòr fawr. 2. Am nad oedd yr amser eto wedi dyfod i'w gyhoeddi. 3. Ni fynai efe ei gyhoeddi tan ar ol ei adgyfodiad o feirw, wedi buddugoliaethu ar angau; rhag y byddai i'r rhai a glywent o'r blaen ac a gredent, gael ysgwyd eu ffydd yn ei farwolaeth ef: yr hyn sydd dra thebygol; oblegid yn y geiriau nesaf, mae yn dechreu sôn am ei farwolaeth. 4. Fel y gochelai, hyd ag yr oedd dichon, genfigen a chasineb y Phariseaid. 5. Fel y byddai iddo ef ei hun yn gyntaf, gyhoeddi y gwirionedd mawr hwn, a'i gadarnhâu drwy wyrthiau. 6. Ac fel na chyffrôai y Rhufeiniaid yn ei erbyn, drwy glywed ei fod yn hòni ei hun yn frenin yr Iuddewon.

21 ¶ * O hynny allan [b] y dechreuodd yr Iesu ddangos i'w ddisgyblion fod yn rhaid iddo fyned i Jerusalem, a dioddef llawer gan yr henuriaid, a'r [c] arch-offeiriaid, a'r ysgrifenyddion, a'i ladd, [d] † a chyfodi y trydydd dydd.

b pen. 17. 22, 23. a 20. 17—19, 28. a 26. 2. Marc 8. 31. a 9. 31, 32. a 10. 32—34. Luc 9. 22, 31, 44, 45. a 18. 31—34. a 24. 6, 7, 26, 27, 46. c pen. 26. 47. a 27. 12. 1 Cron. 24. 1—19. Neh. 12. 7. d pen. 27. 63. Ioan 2. 19—21. Act. 2. 23—32.

* Gwedi cadarnhâu ei ddysgyblion yn y ffydd am ddwyfoldeb ei berson, a rhag iddynt dybied y byddai

iddo ymddangos yn ei ogoniant fel brenin daearol yn y fàn; mae Crist yma yn dechreu dangos iddynt, mai fel arall y byddai: y byddai raid iddo fyned yn fuan i Jerusalem, a dyoddef llawer gan benaethiaid a blaenoriaid y bobl, ac o'r diwedd ei ladd. Ychydig a wyddai y dysgyblion eto am swydd a gwaith offeiriadol y Cyfryngwr; y cwbl a wyddent hwy am dano oedd, fel prophwyd a brenin. † Ond rhag iddynt ddigaloni wrth glywed am ei farwolaeth, mae efe yn rhag-fynegi ei adgyfodiad hefyd iddynt, athrawiaeth na wyddent ddim am dani o'r blaen.

22 * A Phedr, † wedi ei gymmeryd ef atto, a [e] ddechreuodd ei ‡ geryddu ef, gan ddywedyd, Arglwydd, || trugarhâ wrthyt dy hun; nis bydd hyn i ti.

e adn. 16, 17. pen. 26. 51—53. Marc 8. 32. Ioan 13. 6—8.

* Mae ymddygiad Pedr yma, pa mòr ddaionus bynag oedd ei amcan, yn dangos mai craig sâl a fuasai efe i adeiladu yr eglwys arni. † Ei gymmeryd ef o'r neilldu erbyn ei law, felly yr arwydda y gair Groeg. ‡ Ei geryddu ef, fel gwr ei gyfaill, pan ddywedai rywbeth yn fyrbwyll, islaw iddo ei hun, neu er niwed iddo ei hun. || Trugarhâ: nid yw y perwyddiad yn y Groeg; am hyny nis gwyddom pa un ai "Arglwydd, trugarhâ wrthyt dy hun," ai ynte, "trugarhâed yr Arglwydd wrthyt," a ddylai fod. Mae geiriau Pedr yn dangos ei fod ef eto yn annwybodus o drefn cadw pechaduriaid trwy angau Crist; ac hefyd yn dangos gwendid mawr ynddo ef, yn gwrthwynebu yr hwn a addefasai mor ddiweddar yn Fab Duw. Nid yw dybenion a serchiadau da yn ddigon i gyfreithloni gweithredoedd drwg.

23 Ac efe a drodd, ac a ddywedodd wrth Pedr, [f] Dos yn fy ol i, [g] * Satan: [h] rhwystr ydwyt ti i mi: † am [i] nad ydwyt yn synied y pethau sydd o Dduw, ond y pethau sydd o ddynion.

f pen. 4. 10. Gen. 3. 1—6, 17. Marc 8. 33. Luc 4. 8. 2 Cor. 11. 14, 15. g 2 Sam. 19. 22. 1 Cron. 21. 1. Zec. 3. 1, 2. Ioan 6. 70. h pen. 18. 7. Es. 8. 14. Rhuf. 14. 21. i Marc 8. 33. Rhuf. 8. 5—8. 1 Cor. 2. 14, 15. Phil. 3. 19. Col. 3. 2.

* Ystyr y gair Satan yw gwrthwynebwr, a cheisio gwrthwynebu Crist yr oedd Pedr; am hyny mae Iesu yn ei geryddu yn llym, yr un modd ag y ceryddodd efe Satan ei hun yn Luc. 4. 8. Diau bod Satan yn ceisio temtio Crist yma trwy Pedr, yr un modd ag y temtiodd efe Efa trwy y sarph. Gwyddai Iesu hyny, er nas gwyddai Pedr, ac am hyny mae yn ei geryddu mor llym. † Syniad Pedr oedd am fawredd a gwynfyd daearol, dan lywodraeth y Messiah yn y byd hwn; nis gwyddai ddim am ewyllys a threfn Duw iddo farw.

24 ¶ Yna y dywedodd yr Iesu wrth ei ddisgyblion, [k] * Os myn neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded âg ef ei hun, [l] † a chyfoded ei groes, ‡ a chanlyned fi.

k pen. 10. 38. Marc 8. 34. a 10. 21. Luc 9. 23—27. a 14. 27. Act. 14. 22. Col. 1. 24. 1 Thes. 3. 3. 2 Tim. 3. 12. Heb. 11. 24—26. l pen. 27. 32. Marc 15. 21. Luc 23. 26. Ioan 19. 17. 1 Pedr 4. 1, 2.

Gorfu ar Grist ei hun fyned i mewn i'w deyrnas a'i ogoniant trwy ddyoddefaint a marw; ac yma mae yn dangos mai yr un llwybr oedd i'w ganlynwyr hefyd. * Rhaid ymwadu â holl hudoliaethau balchder, uchelfryd, cybydd-dod, hunan-gariad cnawdol, a chyffelyb; † a chyfodi y groes, pob croes yn nhrefn rhagluniaeth, a phob erledigaeth o achos crefydd, ie hyd at ddyoddef merthyrdod ar y groes, canys felly y gorfu ar yr apostolion wedi hyny. ‡ A chanlyn Crist hefyd, yn ei athrawiaeth a'i esampl, mewn ffydd, a phroffes, ac ufudd-dod o'r galon i'w holl orchymynion.

25 * [m] Canys pwy bynnag a ewyllysio gadw ei fywyd, a'i cyll: a phwy bynnag a gollo ei fywyd o'm plegid i, a'i caiff.

m pen. 10. 39. Esther 4. 16. Marc 8. 35. Luc 17. 33. Ioan 12. 25. Act. 20. 23, 24. Dat. 12. 11.

26 * Canys [n] pa lesâd i ddyn, os [o] ynnill efe yr holl fyd, a cholli ei † enaid ei hun [p] neu pa beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid?

n pen. 5. 29. Job 2. 4. Marc 8. 36. Luc 9. 25. o pen. 4. 8, 9. Job 27. 8. Luc 12. 20. a 16. 25. p Salm 49. 7, 8. Marc 8. 37.

* Dwy ddiareb Iuddewig yw y geiriau uchod, ac mae ein Harglwydd yn ei defnyddio yma fel hyn:—Pe byddai i ddyn achub ei fywyd naturiol, ac ennill yr holl fyd hefyd, trwy wadu ei grefydd a gwrthgilio, pa les a fyddai hyny iddo a cholli ei enaid? A pha beth a rodda efe yn gyfnewid, neu yn bridwerth dros ei enaid, i'w waredu o ddistryw a cholledigaeth. † Er mai yr un gair gwreiddiol a gyfieithir *bywyd;* yn adn. 25, ag a gyfieithir *enaid,* yn yr adnod hon; eto, mae yn amlwg mai y bywyd naturiol a feddylir yno, ac mai yr enaid anfarwol a feddylir yma.

27 Canys [q] * Mab y dyn a ddaw † yn ngoniant ei Dad [r] gyd â'i angelion; [s] ‡ ac yna y rhydd efe i bawb yn ol ei weithred.

q pen. 24. 30. a 25. 31. a 26. 64. Marc 8. 38. a 14. 62. Luc 9. 26. a 21. 27. a 22. 69. r pen. 13. 41, 49. Dan. 7. 10. Zec. 14. 5. 2 Thes. 1. 7—10. Judas 14. s pen. 10. 41, 42. Job 34. 11. Salm 62. 12. Diar. 24. 12. Es. 3. 10, 11. Jer. 17. 10. a 32. 19. Ezec. 7. 27. Rhuf. 2. 6, 2 Cor. 5. 10. Eph. 6. 8. 1 Pedr 1. 17. Dat. 2. 23. a 22. 12—15.

Yn yr adnod hon mae yr Arglwydd Iesu yn dangos y bydd y pethau uchod o bwys mawr yn nydd y farn, pa mor ysgafn bynag y gwneler o honynt yn awr. * Y barnwr fydd Mab y dyn, yr hwn oedd mewn agwedd gwas, ac yn cael ei ddirmygu ar y ddaear. † Dull ei ddyfodiad fydd, yn ngoniant ei Dad; a'i ogoniant ei hun hefyd, Luc 9. 26. Pryd hyn yr ymddengys efe yn ddisgleirdeb gogoniant y Tad, ac yn wir lun ei berson ef. Heblaw y gogoniant y mae dynoliaeth Crist yn wisgo yn y nef, tybir y bydd rhyw ddisgleirdeb chwanegol, a mwy ysplenydd, yn cael ei roddi iddo y pryd hwnw, pan y danfoner ef ar achos mor fawr a barnu yr holl fyd. ‡ Rheol y farn, fydd gweithred pob un: rhoddir dedfryd o fywyd tragywyddol i'r rhai cyfiawn, ac o farwolaeth dragywyddol i'r rhai drygionus, yn ol fel y profer wrth eu gweithredoedd eu bod.

28 Yn wir y dywedaf wrthych, [t] * Y mae rhai o'r sawl sydd yn sefyll yma, a'r ni [u] † phrofant angau, hyd oni [x] welont Fab y dyn ‡ yn dyfod yn ei frenhiniaeth.

t Marc 9. 1. Luc 9. 27. u Luc 2. 26. Ioan 8. 52. Heb. 2. 9. x pen. 10. 23. a 24. 3, 27—31, 42. a 26. 64. Marc 13. 26. Luc 18. 8. a 21. 27, 28.

* Rhai o'r sawl oedd yn sefyll o amgylch yr Iesu y pryd hwnw a feddylir. Gwelodd Ioan, ac efallai rai eraill ag oedd yno, yr hyn oll a grybwyllir yn yr adnod hon, Ioan 21. 22. † Profi angau sydd ymadrodd Hebreaidd am farw, Ni byddant feirw. ‡ Nid ei esgyniad oedd Crist yn feddwl yma: *myned* i'w freniniaeth oedd hyny, ac nid *dyfod* iddi: ond ei ddyfodiad mewn nerth a gogoniant mawr, i osod i fynu ei deyrnas gyfryngol yn y byd, trwy dywalltiad ei Ysbryd, cynnydd rhyfeddol ei eglwys, dadymchweliad yr holl oruchwyliaeth seremoniol, a dinystr Jerusalem, y deml, a chenedl yr Iuddewon, am eu cyndynrwydd a'u hanghrediniaeth.

PEN. XVII.

Gwedd-newidiad Crist. 14. *Y mae efe yn iachâu y lloerig, &c.*

AC ar ol [a] * chwe diwrnod, y cymmerodd yr Iesu, [b] † Pedr, ac Iago, ac Ioan ei frawd, ac a u dug hwy i [c] ‡ fynydd uchel o'r neilldu.

a Marc 9. 1. Luc 9. 28. b pen. 26. 37. Marc 5. 37. Luc 8. 51. 2 Cor. 13. 1. c 2 Pedr 1. 18.

2 || A [d] gwedd-newidiwyd ef ger eu bron hwy: [e] a'i wyneb a ddisgleiriodd fel yr haul, a'i [f] ddillad oedd cyn wyned a'r goleuni.

d Luc 9. 29. Rhuf. 12. 2. Phil. 2. 6, 7. e pen. 28. 3. Ex.

34. 29—35. Ioan 1. 14. a 17. 24. Act. 26. 13—15. Dat. 1. 13—17. a 10. 1. a 19. 12, 13. a 20. 11. f Salm 104. 2. Marc 9. 3.

* "Ac wedi chwe diwrnod," medd Mathew a Marc: "yn nghylch wyth niwrnod," medd Luc 9. 28. Cyfrif Luc y dydd o'r blaen, sef y dydd y llefarodd yr Iesu y pethau sydd yn y bennod flaenorol, â dydd y gwedd-newidiad; cyfrif Mathew a Marc y chwe diwrnod oedd rhwng y ddau hyny yn unig, ac fel hyny nid oes dim anghysondeb rhwng y tri. † Yr oedd tri o dystion yn angenrheidiol i bob peth, a thri yn ddigon. Ond pa ham y tri hyn? Yr oedd Pedr i fod yn offeryn nodedig i ddwyn yn mlaen waith yr efengyl: yr oedd Iago i gael ei ladd â'r cleddyf cyn pen hir; efe oedd yr apostol cyntaf a ddyoddefodd: yr oedd Ioan i fyw yn hwy na neb eraill o'r apostolion, ac i ysgrifenu yr Efengyl, yr Epistolau, a'r Datguddiad: ac yr oedd y tri hyn i fod yn dystion o ymdrech caled a chwys gwaedlyd Iesu yn yr ardd, cyn pen ychydig amser. ‡ Barnai yr hynafiaid, mai Tabor oedd y mynydd hwn, ond yn gwbl ddisail. Barnai eraill, heb ddim gwell sail, efallai, mai mynydd yn agos i Cesarea Philipi ydoedd, ar ben yr hwn y gosododd Jeroboam gynt un o'r ddau lo aur a wnaethai; ac i'r Arglwydd Iesu ddewis dangos ei ogoniant yno, fel arwydd buddugoliaeth ar y ddelw-addoliaeth hòno. Y gwir yw, nis gwyddis pa fynydd oedd, ac nid yw o bwys i wybod. || Gwelai y dysgyblion ef bob dydd mewn dull fel dyn, yma gwelsant ef yn ei ogoniant fel Duw: i'w cadarnhâu yn y broffes a wnaethent o hono, pen. 16. 16; i'w cynnal yn y gred hòno wrth ei weled yn yr ardd, ac yn marw ar y groes; i ddangos iddynt y gogoniant oedd yn ei aros gyda'r Tad; ac, yn olaf, i ddangos iddynt y gogoniant a'r dedwyddwch a gaent hwythau gydag ef yn y nef.

3 Ac [g] wele, [h] * Moses ac [i] Elias a ymddangosodd iddynt, † yn ymddiddan âg ef.

g Marc 9. 4. Luc 9. 30, 31. h pen. 11. 13, 14. Deut. 18. 18. a 34. 5, 6, 10. Luc 24. 27, 44. Ioan 1. 17. a 5. 45—47. 2 Cor. 3. 7—11. Heb. 3. 1—6. i adn. 10—13. 1 Bren. 17. 1. a 18. 36—40. 2 Bren. 2. 11—14. Mal. 4. 5. Luc 1. 17. a 9. 33. a 16. 16.

4 ‡ A [k] Phedr a attebodd ac a ddywedodd wrth yr Iesu, O Arglwydd, [l] da yw i ni fod yma: os ewyllysi, gwnawn yma || dair pabell; un i ti, ac un i Moses, ac un i Elias.

k Marc 9. 5, 6. Luc 9. 33. l Ex. 33. 18, 19. Salm 4. 6. a 16. 11. a 63. 1—5. Es. 33. 17. Zec. 9. 17. Ioan 14. 8, 9. a 17. 24. Phil. 1. 23. 1 Ioan 3. 2. Dat. 21. 23. a 22. 3—5.

* Dyma Moses, rhoddwr y ddeddf, ac Elias, adferwr y ddeddf, wedi cael eu danfon i ymddiddan â'r Iesu: un wedi ei gladdu gan Dduw, heb neb yn gwybod pa le, a'r llall wedi cael ei gymmeryd i'r nef gorph ac enaid, heb brofi marwolaeth. Pa fodd yr ymddangosasant, pa un ai yn eu cyrph priodol, ai ynte hebddynt, nis gwyddom ni, ac nid yw yn perthyn i ni ymchwilio i'r fath bethau. † Dywed Luc 9. 31. mai "am ei ymadawiad ef, yr hwn a gyflawnai efe yn Jerusalem," yr oeddynt yn ymddiddan: a thyna'r cwbl a allwn ni wybod am yr ymddiddan hwn. ‡ Synied pethau o ddynion yr oedd Pedr yma eto; dywed Luc na wyddai efe beth yr oedd yn ei ddywedyd. Nis gallasai yr Iesu aros yno yn hir, yr oedd ganddo waith mawr i fyned drwyddo; na Moses ac Elias, yr oedd ganddynt le gwell yn y nef; na'r tri apostol chwaith, yr oedd ganddynt hwythau waith mawr o'u blaenau. || Pebyll o gangenau coed meddant a feddylir, fel y gwnai yr Iuddewon ar ŵyl y pebyll, ac fel y gwnai teithwyr ar leoedd hyfryd, pan ewyllysient aros a gorphwys yno am ryw yspaid.

5 Ac efe etto yn llefaru, [m] wele, * cwmmwl goleu a'u cysgododd hwynt: ac wele, [n] lef o'r cwmmwl, yn dywedyd, [o] † Hwn yw fy anwyl Fab, [p] yn yr hwn y'm boddlonwyd: [q] ‡ gwrandewch arno ef.

m Ex. 40. 34, 35. 1 Bren. 8. 10—12. Salm 18. 10, 11. Luc 9. 34. Act. 1. 9. Dat. 1. 7. n Ex. 19. 19. Deut. 4. 11, 12. a 5. 22. Job 38. 1. Salm 81. 7. Ioan 5. 37. a 12. 28—30. Act. 9. 3—6. o pen. 3. 17. Marc 1. 11. a 9. 7. Luc 3. 22. a 9. 35. Ioan 3. 16, 35. a 5. 20—23. Eph. 1. 6. Col. 1. 13. 2 Pedr 1. 16, 17. p pen. 12. 18. Es. 42. 1. Ioan 15. 9, 10. q Deut. 18. 15, 19. Act. 3. 22, 23 a 7. 37. Heb. 2. 1—3. a 5. 9. a 12. 25, 26.

* Nid cwmwl fel y tywyllwch ar Sinai oedd hwn, ond cwmwl *goleu*, yn arwyddo datguddiad eglurach a mwy cysurus o ogoniant Duw drwy yr efengyl. Diau ei fod yn arwydd o bresenoldeb Duw, ei fod yn dysgu gostyngeiddrwydd i'r dysgyblion, ac na ddylasent hyll-dremu yn ormodol i'w ddirgeledigaethau ef. † Sylwyd ar y dystiolaeth hon am Faboliaeth Crist o'r blaen, yn pen. 3. 17. ‡ Yma mae Duw Dad yn arddelwi ei Fab goruwch Moses, Elias, a'r holl brophwydi; ac yn gorchymyn i'r dysgyblion, ac i bawb, ei wrando ef, fel unig ddysgawdwr ac athraw ei eglwys. Nid yw hyn yn iselu dim ar weinidogion y gair, y rhai sydd yn traddodi y genadwri a dderbyniant gan Grist.

6 A phan glybu y disgyblion *hynny*, [r] * hwy a syrthiasant ar eu hwyneb, ac a ofnasant yn ddirfawr.

r Lef. 9. 24. Barn. 13. 20, 22. 1 Cron. 21. 16. Ezec. 3. 23. a 43. 3. Dan. 8. 17. a 10. 7—9, 16, 17. Act. 22. 7. a 26. 14.

7 † A daeth yr Iesu, ac a [s] gyffyrddodd â hwynt, ac a ddywedodd, [t] Cyfodwch, ac nac ofnwch.

s Dan. 8. 18. a 9. 21. a 10. 10, 18. Dat. 1. 17. t Luc 24. 5. Act. 9. 6.

8 ‡ Ac wedi iddynt ddyrchafu eu llygaid, [u] || ni welsant neb ond yr Iesu yn unig.

u Marc 9. 8. Luc 9. 36. Act. 12. 10, 11.

* Yr oedd yr olwg a welsai, a'r llef a glywsai y dysgyblion, yn ormod i'w natur wan hwy; ofnasant yn ddirfawr, a syrthiasant ar eu hwynebau, ac nid rhyfedd. Beth a dalsai pebyll Pedr yma pe cawsai eu gwneyd,—ni ddichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw. Da yw i ni mai nid i angelion y darostyngwyd, neu yr ymddiriedwyd gweinidogaeth yr efengyl, nis gallem eu dyoddef; da i ni gael dynion fel ni ein hunain. † Mawr oedd tiriondeb yr Iesu anwyl, yn yr amgylchiad hwn fel yn mhob peth arall: daeth atynt, fel tad at ei blant ofnus, cyfhyrddodd â hwynt, a dywedodd, Cyfodwch, ac nac ofnwch; a diammau iddo eu cryfhâu, fel Daniel gynt, Dan. 10. 18. ‡ Erbyn iddynt ddadebru, ac agor eu llygaid, nid oedd yno ond yr Iesu ei hun, yn ei agwedd gyffredinol, oddigerth ychydig ddisgleirdeb, efallai, fel gwyneb Moses gynt. || Gweinidogion yr hen oruchwyliaeth oedd Moses ac Elias, ac efallai fod ymadawiad y ddau hyny yn awr, yn rhagarwyddo diflaniad yr oruchwyliaeth Iuddewig; ac arosiad Iesu yn arwyddo gosodiad a pharâd yr oruchwyliaeth efengylaidd, o hyny hyd ddiwedd y byd.

9 Ac fel yr oeddynt yn disgyn o'r mynydd, [x] gorchymynodd yr Iesu iddynt, gan ddywedyd, * Na ddywedwch y weledigaeth i neb, [y] hyd oni adgyfodo Mab y dyn o feirw.

x pen. 16. 20. Marc 8. 30. a 9. 9, 10. Luc 8. 56. a 9. 21, 22 y adn. 23. pen. 16. 21. Luc 18. 33, 34. a 24. 46, 47.

* Na ddywedwch i'r dysgyblion eraill rhag eu tristâu am na chawsent hwythau yr un weledigaeth. Na ddywedwch i *neb* tàn ar ol fy adgyfodiad, oblegid ni chredant: ni wna ddim ond chwanegu eu gelyniaeth. Yn ei adgyfodiad, fe'i heglurir ef i bawb, yn Fab Duw mewn gallu. Rhuf. 1. 4.

10 A'i ddisgyblion a ofynasant iddo, gan ddywedyd, [z] † Paham gan hynny y mae yr ysgrifenyddion yn dywedyd, fod yn rhaid dyfod o Elias yn gyntaf?

z adn. 3, 4. pen. 11. 14. a 27. 47—49. Mal. 4. 5. Marc 9. 11. Ioan 1. 21, 25.

* Sylwyd o'r blaen, fod disgwyliad cyffredin gan yr Iuddewon, y byddai i Elias ddyfod o flaen y Messiah; ac yn awr, gan iddo ddyfod, yr oedd y dysgyblion yn rhyfeddu iddo aros cyn lleied amser; ac yn rhyfeddu hefyd, fod yr Iesu yn gwahardd iddynt hwy fynegi iddynt ei weled ef: gan feddwl, mae yn debyg, na

buasai dim yn tueddu yn fwy, i beri i bawb gredu mai Iesu oedd y Messiah, nag adrodd y weledigaeth.

11 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, * Elïas yn wir a ddaw yn gyntaf, [a] † ac a edfryd bob peth.

a Mal. 4. 6. Luc 1. 16, 17. a 3. 3—14. Act. 3. 21.

12 Eithr yr ydwyf fi yn dywedyd i chwi, ‡ ddyfod o Elïas eisoes; [b] ac nad adnabuant hwy ef, [c] ‖ ond gwneuthur o honynt iddo beth bynnag a fynnasant: [d] felly y bydd hefyd i Fab y dyn ddioddef ganddynt hwy.

b pen. 11. 9—15. a 21. 23—25, 32. Marc 9. 12, 13. a 11. 30—32. Luc 7. 33. Ioan 1. 11. a 5. 32—36. Act. 13. 24—28. c pen. 11. 2. a 14. 3—10. Marc 6. 14—28. Luc 3. 19, 20. Act. 7. 52. d pen. 16. 21. Es. 53. 3, &c. Luc 9. 21—25. Act. 2. 23. a 3. 14, 15. a 4. 10.

13 § Yna [e] y deallodd y disgyblion mai am Ioan Fedyddiwr y dywedasai efe wrthynt.

e pen. 11. 14.

* Sef Ioan Fedyddiwr dàn yr enw Elias, (fel y mae Crist yn myned dàn yr enw Dafydd,) am ei fod yn ysbryd a nerth Elias. † Mae y gair "edfryd," neu adferu, yn y man yma yn arwyddo, trefnu; neu osod pob peth mewn trefn. E wnaeth Ioan hyny, drwy bregethu edifeirwch, cyhoeddi bod teyrnas nefoedd yn nesâu, a bod y Messiah wedi dyfod; fel hyny yr oedd yn trefnu, neu yn darpar, meddyliau y bobl i'w dderbyn. Gellir dëall wrth y gair, hefyd, bod Ioan yn gorphen, ac yn cauad i fynu, yr hen oruchwyliaeth; ac fel rhagflaenor, yn dwyn i mewn yr oruchwyliaeth newydd, sef goruchwyliaeth y Messiah. ‡ Ioan Fedyddiwr, fel y sylwyd, oedd yr Elias yma; ond nid adnabu yr Iuddewon ef: nid adnabuant mai efe oedd yr Elias a addawyd yn Malachi, ac nid adnabuant ei fod ef yn rhag-flaenor y Messiah. ‖ Ymddygasant ato fel y gwelsant yn dda; trwy wrthod ei athrawiaeth a'i fedydd, ei alw yn gythraul, ac o'r diwedd, goddef i Herod ei garcharu a thori ei ben. Dïau bod llawer o'r Saduceaid a'r Phariseaid yn llwyr foddlawn i'w ddïenyddiad, am iddo eu galw hwy yn genedlaeth gwiberod. § Gwedi clywed y pethau uchod, deallodd y dysgyblion mai Ioan Fedyddiwr oedd Elias, ac nid Elias ei hun.

14 ¶ * Ac [f] wedi eu dyfod hwy at y dyrfa, daeth atto *ryw* ddyn, [g] *ac* a ostyngodd iddo ar ei liniau,

f Marc 9. 14. Luc 9. 37. g Marc 1. 40. a 10. 17. Act. 10. 25, 26.

15 Ac a ddywedodd, Arglwydd, [h] trugarhâ wrth fy mab, [i] oblegid y mae efe yn † lloerig, ac yn flin arno: [k] ‡ canys y mae efe yn syrthio yn y tân yn fynych, ac yn y dwfr yn fynych.

h pen. 15. 22. Marc 5. 22, 23. a 9. 22. Luc 9. 38—42. Ioan 4. 46, 47. i pen. 4. 24. Marc 9. 17, 18, 20—22. k pen. 8. 31, 32. Job 1. 16—19. a 2. 7. Marc 5. 4, 5.

16 ‖ Ac mi a'i dygais ef at dy ddisgyblion di, [l] ac ni allent hwy ei iachâu ef.

l adn. 19, 20. 2 Bren. 4. 29—31. Luc 9, 40. Act. 3. 16. a 19. 15, 16.

* Tranoeth, medd Luc, 9. 37. y daethant i wared o'r mynydd at y naw dysgybl eraill, wedi bod ar y mynydd drwy y nos. † Mae y gair Cymraeg "lloerig" yn ateb yn hollawl i'r gair Groeg, ac yn arwyddo rhyw glefyd, neu annhrefn gorphwyllog yn yr ymenydd; a barnai yr hynafiaid fod y lleuad ar ryw amserau yn effeithio arno. Dywed Luc 9. 39. bod ysbryd hefyd yn cymmeryd y bachgen hwn, sef ar yr amserau y byddai fwyaf gorphwyllog gan ei glefyd. ‡ Bernir hefyd bod y clefyd a elwir yr Haint Dygwydd *(Epilepsy,* neu *Falling Sickness)* arno ef; ac felly rhaid ei fod yn druenus iawn rhwng pobpeth. ‖ Yr achos na allai y dysgyblion ei iachâu ef oedd, diffyg ychwaneg o ffydd; gwel adn. 20.

17 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd, [m] * O genhedlaeth anffyddlawn a throfäus, [n] pa hyd y byddaf gyd â chwi? pa hyd y dioddefaf chwi? † dygwch ef yma attaf fi.

m pen. 6. 30. a 8. 26. a 13. 58. a 16. 8. Marc 9. 19. a 16. 14. Luc 9. 41. a 24. 25. Ioan 20. 27. Heb. 3. 16—19. n Ex. 10. 3. a 16. 28. Num. 14. 11, 27. Salm 95. 10. Diar. 1. 22. a 6. 9. Jer. 4. 14. Act. 13. 18.

18 ‡ A'r Iesu [o] a geryddodd y cythraul; ac efe a aeth allan o hono: a'r bachgen a iachâwyd [p] o'r awr honno.

o pen. 12. 22. Marc 1. 34. a 5. 8. a 9. 25—27. Luc 4. 35, 36, 41. a 8. 29. a 9. 42. Act. 16. 18. a 19. 13—15. p pen. 9. 22. a 15. 28. Ioan 4. 52, 53.

* Tybir fod y cerydd hwn yn cael ei roddi i bawb o honynt: i dad y bachgen am ei ddiffyg ffydd, gwel Marc 9. 22, 23; i'r dysgyblion am eu diffyg ffydd hwythau, adn. 20; ac yn enwedig i'r Ysgrifenyddion oedd yn bresenol, y rhai, fel y tybir, oedd wedi bod yn gwatwar y dysgyblion, o herwydd iddynt fethu a'i iachâu ef. † Dygwch ef yma ataf fi, ebe Iesu, a chwi a gewch weled yn fuan beth a allaf fi wneyd arno. ‡ Er ei fod yn y cyflwr truenus hwnw er yn blentyn, Marc 9. 21, ac er mor benderfynol a dewr yr oedd y cythraul am gadw ei feddiant, Marc 9. 26, Luc 9. 42; gorfu arno fyned allan gyda gair a cherydd Iesu, ac ni chafodd fyned iddo ef mwy. A'r bachgen a iachâwyd hefyd o'r awr hóno.

19 Yna [q] y daeth y disgyblion at yr Iesu o'r neilldu, ac a ddywedasant, * Paham nad allem ni ei fwrw ef allan?

q Marc 4. 10. a 9. 28.

20 A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, [r] † Oblegid eich anghrediniaeth: canys yn wir y dywedaf i chwi, [s] ‡ Pe bai gennych ffydd megis [t] ‖ gronyn o had mwstard, chwi a ddywedech wrth y § mynydd hwn, Symmud oddi yma draw, ac efe a symmudai; ac [u] ni bydd dim ammhosibl i chwi.

r adn. 17. pen. 14. 30, 31. s pen. 21. 21. Marc 11. 23 Luc 17. 6. 1 Cor. 13. 2. t pen. 13. 31. Marc 4. 31. u Marc 9. 23. Luc 1. 37. a 18. 27.

* Mae yn debygol bod y dysgyblion wedi bwrw allan gythreuliaid cyn hyn, ac yn synu yn ofidus paham y methasant y waith hon. † Wrth anghrediniaeth yma, mae i ddëall, nid hollawl ddiffyg o ffydd, ond gwendid ffydd; a gwendid ei gweithrediad ar yr amser hwnw. ‡ Pa un ai am ffydd wyrthiol yn unig mae Crist yn dywedyd yma, mae yn anodd penderfynu; mwy tebygol mai am wir ffydd yn gyffredin mae yn dywedyd. Rhaid bod gallu ac addewid Duw yn wrthddrych ganddi. Yr oedd addewid wyrthiol gan y dysgyblion, Math. 10. 1. ‖ Dïareb Iuddewig am ryw beth bychan. § Dïareb arall am unrhyw beth anhawdd, neu anmhosibl.

21 * Eithr [x] nid â y rhywogaeth hyn allan, [y] ond trwy weddi ac ympryd.

x pen. 12. 45. y 1 Bren. 17, 20, 21. Dan. 9. 3. Marc 9. 29. Act. 13. 2, 3. a 14. 23. 1 Cor. 7. 5. 2 Cor. 11. 27. Eph. 6. 18.

* Y rhywogaeth hon o gythreuliaid, medd rhai; tybiant fod gwahanol rywiau, neu raddau o honynt. Y rhywogaeth hon o ffydd, medd eraill; nid â allan mewn gweithrediad. Y rhywogaeth hon o wyrthiau, medd eraill.

22 ¶ Ac fel yr oeddynt hwy yn aros yn Galilea, * dywedodd yr Iesu wrthynt, [z] Mab y dyn a [a] draddodir i ddwylaw dynion:

z pen. 16. 21. a 20. 17, 18. Marc 8. 31. a 9. 30, 31. a 10. 33, 34. Luc 9. 22, 44. a 18. 31—34. a 24. 6, 7, 26, 46. a pen. 24. 10. a 26. 16, 46. Act. 7. 52. 1 Cor. 11. 23.

23 A [b] hwy a'i lladdant, a'r [c] trydydd dydd y cyfyd efe. [d] † A hwy a aethant yn drist iawn.

b Salm 22. 15, 22, &c. Es. 53. 7, 10—12. Dan. 9. 26. Zec. 13. 7. c Salm 16. 10. Ioan 2. 19. Act. 2. 23—31. 1 Cor. 15. 3, 4. d Ioan 16. 6, 20—22.

* Yn raddol yr oedd Crist yn dysgu ei ddysgyblion yn y pethau am dano ei hun; ar ol eu cadarnhâu yn y gwirionedd am ddwyfoldeb ei Berson, ac mai efe oedd

y Messiah, mae efe yma yn dywedyd am ei ddyoddef-
aint, ei farwolaeth, a'i adgyfodiad. † Gan mai fel
brenin daearol yr oeddynt hwy yn disgwyl y Messiah,
ac heb ddëall bod yn rhaid iddo farw ac adgyfodi, hwy
a aethant yn drist iawn wrth glywed am y driniaeth
greulawn uchod a gaffai efe, ac yn enwedig am ei farw.
Nid oeddynt hwy eto yn dëall bod yn rhaid i Grist farw
ac adgyfodi, cyn myned i'w ogoniant, a chyn sefydlu ei
deyrnas ysbrydol ar y ddaear.

24 ¶ Ac [e] wedi dyfod o honynt i Caper-
naum, y rhai oedd yn derbyn * *arian* y deyrn-
ged a ddaethant at Pedr, ac a ddywedasant,
† Onid yw eich athraw chwi yn talu teyrnged?
e Marc 9. 33.

25 Yntau a ddywedodd, [f] ‡ Ydyw. Ac
wedi ei ddyfod ef i'r tŷ, ‖ yr Iesu a achubodd
ei flaen ef, gan ddywedyd, Beth yr wyt ti yn
ei dybied, Simon? gan bwy y cymmer bren-
hinoedd y ddaear deyrnged neu dreth? [g] § gan
eu plant eu hun, ynte gan estroniaid?
f pen. 3. 15. a 22. 21. Rhuf. 13. 6, 7. g 1 Sam. 17. 25.

* Bernir mai nid y deyrnged o warogaeth i Ymher-
awdwr Rhufain oedd y deyrnged yma, eithr teyrnged at
wasanaeth y deml, i brynu aberthau ac i ddwyn yn
mlaen addoliad Duw. Yn Exod. 30. 11—16, gwelwn
osodiad y dreth, neu y deyrnged hon; pob un o ugain
mlwydd oed, ac uchod, oedd i dalu hanner sicl, tua
phymtheg ceiniog o'n harian ni: tlawd a chyfoethog yr
un faint. Cesglid y deyrnged hon ar y cyntaf yn
achlysurol, pan fyddai ei heisiau, a phan rifid y bobl;
ond yn amser Josephus yr oedd yn flynyddawl. † Wrth
y gofyniad yma, mae yn ymddangos nad oedd rhwymau
ar neb i dalu y deyrnged hon, ond fel y gwelai pob un
fod yn dda. Felly yr oedd yn amser Nehemiah, pen.
10. 32, a thraian sicl oedd y swm yno. ‡ Atebodd Pedr
dros ei Arglwydd ei fod ef yn talu, gan wybod ei fod
bob amser yn barod i bob peth crefyddol a chyfiawn.
‖ Yn ngwaith Iesu yn achub blaen Pedr, gwelwn brawf
o'i hollwybodaeth ef. § Gan eu deiliaid y cymmer
breninoedd y ddaear deyrnged, nid gan eu plant.

26 Pedr a ddywedodd wrtho, Gan estron-
iaid. * Yr Iesu a ddywedodd wrtho, gan
hynny y mae y plant yn rhyddion.

27 † Er hynny, [h] rhag i ni eu rhwystro
hwy, dos i'r môr, a bwrw fach, [i] a chymmer y
pysgodyn a ddêl i fynu yn gyntaf; ‡ ac wedi
ii ti agoryd ei safn, ti a gei ddarn o arian:
[k] cymmer hwnnw, a dyro iddynt drosoî fi a
thithau.
h pen. 15. 12—14. Rhuf. 14. 21. a 15. 1—3. 1 Cor. 8. 9, 13. a
9. 19—22. a 10, 32, 33. 2 Cor. 6. 3. 1 Thes. 5. 22. Tit. 2. 7, 8.
ii Gen. 1. 28. 1 Bren. 17. 4. Salm 8. 8. Jona 1. 17, a 2. 10. Heb.
2. 7, 8. k 2 Cor. 8. 9. Iago 2. 5.

* Yma mae Crist yn arddelwi ei hun yn Fab Duw, ac
nad oedd raid iddo, fel y cyfryw, dalu y deyrnged hon,
at wasanaeth tŷ Dduw. Pe teyrnged i Ymherawdwr
Rhufain fuasai, ni buasai priodoldeb yn y dull hwn o
ymresymu: Mab Duw, nid mab Cesar, oedd Iesu.
† Gan fod Iesu wedi ei wneuthur dàn y ddeddf,
rhwedi dyfod i gyflawni pob cyfiawnder; ac fel na
roddai achlysur i neb i ymrwystro wrth ei athrawiaeth
ef, a dywedyd ei fod yn troseddu cyfraith Duw; dewis-
odd dalu y deyrnged er mai Mab yr hwn oedd yn der-
byn y deyrnged ydoedd. ‡ Gwelwn yma eto wybodaeth
a gallu dwyfol Crist: gwybodaeth, fod rhyw bysgodyn
wedi llyncu darn o arian drwy ryw foddion: a gallu,
yn peri i'r pysgodyn *hwnw* ymaflyd yn mach Pedr.

PEN. XVIII.

Crist yn rhybuddio ei ddisgyblion i fod yn ostyngedig, &c.

AR [a] yr awr honno y daeth y disgyblion at
yr Iesu, gan ddywedyd, [b] * Pwy sydd fwyaf
[c] yn nheyrnas nefoedd?
a Marc 9. 33. b pen. 20. 20—28. a 23. 11. Marc 9. 34. a
10. 35—45. Luc 9. 46—48. a 22. 24—27. Rhuf. 12. 10. Phil. 2. 3.
c pen. 3. 2. a 5. 19, 20. a 7. 21. Marc 10. 14, 15.

* Yn Marc 9. 33, 34, yr ydym yn cael fod dadl wedi
bod o'r blaen rhwng y dysgyblion ar y ffordd, yn nghylch
y pwnc a enwir yma. Dychymmygent hwy o hyd, fel
yr Iuddewon yn gyffredin, mai teyrnas ddaearol, flodeu-
og, llwyddiannus, a gogoneddus iawn, a fyddai teyrnas
y Messiah; ac y byddai rhyw un o honynt hwy yn sicr
o gael y lle blaenaf, a'r awdurdod uchaf yn y deyrnas
hòno. Tair gwaith y cawn hwynt yn y dychymmyg
cyfeiliornus hwn. Yma, a pen. 20. 20—24, ac ar
weinyddiad y swper sanctaidd, Luc 22. 24. Ac wrth
Act. 1. 6. gwelwn i hyn lŷnu gyda hwynt hyd esgyniad
Crist i'r gogoniant. Y cwbl o wahaniaeth yn hyn,
rhyngddynt hwy â'r Iuddewon yn gyffredin oedd, eu
bod hwy yn credu mai Iesu oedd y Messiah, a'i fod yn
Fab Duw: yr hyn ni chredai eraill.

2 A'r Iesu a alwodd atto [d] * fachgennyn, ac
a'i gosododd yn eu canol hwynt;
d pen. 19. 13, 14. 1 Bren. 3. 7. Jer. 1. 7. Marc 9. 36, 37.

3 Ac a ddywedodd, [e] Yn wir y dywedaf i
chwi, [f] † Oddi eithr eich troi chwi, [g] a'ch
gwneuthur fel ‡ plant bychain, [h] ‖ nid ewch
chwi ddim i mewn i deyrnas nefoedd.
e pen. 5. 18. a 6. 2, 5, 16. Ioan 1. 51. a 3. 3. f pen. 13. 15.
Salm 51. 13. Es. 6. 10. Marc 4. 12. Luc 22. 32. Act. 3. 19. a 28. 27.
Iago 5. 19, 20. g Marc 10. 14, 15. Luc 18. 16, 17. 1 Cor. 14. 20.
1 Pedr 2. 2. h pen. 5. 20. a 19. 23. Luc 13. 24. Ioan 3. 5. Act.
14. 22. 2 Pedr 1. 11.

4 § Pwy bynnag gan hynny a'i [i] gostyngo
ei hunan fel y bachgennyn hwn, hwnnw yw
[k] y mwyaf yn nheyrnas nefoedd.
i pen. 23. 12. Salm 131. 1, 2. Es. 57. 15. 1 Pedr 5. 5. k adn.
1. pen. 20. 26. Marc 10. 43. Luc 4. 48.

* Dewisodd Iesu ateb ei ddysgyblion drwy arwydd
addas, yn gystal ag mewn geiriau. Efe a alwodd ato
fachgenyn oedd gerllaw: plentyn bychan ydoedd, canys
dywed Marc 9. 36, iddo ei gymmeryd yn ei freichiau.
† Nid troi o ran cyflwr a feddylir yma; yr oeddynt oll
wedi cael eu troi felly ond Judas Iscariot; eithr eu troi
o'r meddyliau uchel a hunan-geisiol oedd ganddynt, am
flaenoriaeth ar eu gilydd. ‡ 1. Nid yw plant bychain
yn uchelfryd, nac yn awyddus am arglwyddiaeth. 2. Nid
ydynt yn ymffrostgar a gwag-ogoneddgar, ac yn tybied
eu hunain yn well na'u gilydd. 3. Maent yn ewyllys-
gar i gymmeryd eu dysgu a'u hyfforddi. 4. Maent yn
byw ar ragluniaeth eu tad, heb ormod rhagofalu. 5. Nid
ydynt yn llidiog ac yn ddialgar. Y tri pheth cyntaf a
feddylir yn benaf yma. ‖ Heb fod yn isel a hunan-
ymwadol ni byddwch chwi yn enwog yn yr eglwys ar y
ddaear, ac ni fwynhêwch nemawr o'i bendithion; ac nid
ewch i deyrnas y gogoniant chwaith. § Y mwyaf gos-
tyngedig ac isel yn ei feddwl ei hun fydd y mwyaf, a'r
enwocaf, yn nheyrnas nefoedd.

Dysgir i ni yma, 1. Yr angen o ostyngeiddrwydd i
iachawdwriaeth. 2. Y rhaid i eneidiau dychweledig
gael eu mynych droi. Edifarâu sydd waith ni pher-
ffeithir hyd oni byddom feirw. 3. Pa mor ffiaidd yn
ngolwg Duw, yw uchel-gais a balchder, yn enwedig yn
ngweinidogion yr efengyl. 4. Mai y ffordd i fod yn
fawr yn yr eglwys yw, bod yn fychan. 5. Mai gwir
ostyngeiddrwydd yw, meddyliau isel am danom ein
hunain.

5 A phwy bynnag [l] a dderbynio gyfryw
* fachgennyn yn fy enw i, [m] a'm derbyn i.
l pen. 10. 40—42. a 25. 40, 45. Marc 9. 41. Luc 9. 48. a 17. 2.
m Marc 9. 37. Ioan 13. 20. Gal. 4. 14.

6 A phwy bynnag a [n] † rwystro un o'r rhai
[o] bychain hyn a gredant ynof fi, da fyddai iddo
pe crogid ‡ maen melin am ei wddf, a'i foddi
yn eigion y môr.

n Salm 105. 15. Zec. 2. 8. Marc 9. 42. Luc 17. 2. Act. 9. 5. Rhuf. 14. 13—15, 21. a 15. 1—3. 1 Cor. 8. 9—13. a 10. 32, 33. 2 Thes. 1. 6—9. o adn. 10, 14. Zec. 13. 7. Luc 17. 2.

* Wrth fachgenyn yn y fàn yma, rhaid i ni ddëall gwir gredadyn, tlawd ac isel o ysbryd, fel mae y chweched adnod yn dangos yn amlwg. A'i dderbyn, yw dangos unrhyw garedigrwydd iddo er mwyn Crist: mae Iesu yn ystyried hyny fel pe'i gwnelid iddo ef ei hun. † Mae y gair "rhwystro" yma, yn arwyddo peri tramgwydd: gwneyd rhywbeth, un ai trwy hudo a denu, neu ynte trwy erlid, i dynu dyn dduwiol i bechod, neu wadu ei grefydd dros amser. ‡ Maen melin a dröid gan asyn a feddylir; y fath fwyaf o felinau yn mhlith yr Iuddewon: melinau llaw oedd y lleill. Dywedir y byddai yr hynafiaid yn cospi rhai drwg-weithredwyr felly. Mae y gosp yn ddeublyg; pwys y maen, ac eigion y môr. Mae hefyd yn gosp sicr o fod yn angeuol.

7 ¶ [p] * Gwae y byd oblegid rhwystrau: [q] † canys anghenrhaid yw dyfod rhwystrau; [r] er hynny gwae y dyn hwnnw trwy yr hwn y daw y rhwystr.

p Gen. 13. 7. 1 Sam. 2. 17, 22—25. 2 Sam. 12. 14. Luc 17. 1. Rhuf. 2. 23, 24. 1 Tim. 5. 14, 15. a 6. 1. Tit. 2. 5, 8. 2 Pedr 2. 2. q Marc 13. 7. Act. 1. 16. 1 Cor. 11. 19. 2 Thes. 2. 3—12. 1 Tim. 4. 1—3. 2 Tim. 3. 1—5. a 4. 3, 4. Judas 4. r pen. 13. 41, 42. a 23. 13, &c. a 26. 24. Ioan 17. 12. Act. 1. 18—20. 2 Pedr 2. 3, 15—17. Judas 11—13. Dat. 2. 14, 15, 20—23. a 19. 20, 21.

8 † Am hynny [s] os dy law neu dy droed a'th rwystra, tòr hwynt ymaith, [t] a thafl oddi wrthyt: ‡ gwell yw i ti fyned i mewn i'r bywyd yn gloff, neu [u] yn anafus, nag â chennyt ddwy law, neu ddau droed, dy daflu i'r [x] tân tragywyddol.

s pen. 5. 29, 30. a 14. 3, 4. Deut. 13. 6—8. Marc 9. 43—48. Luc 14. 26, 27, 33. a 18. 22, 23. t Es. 2. 20, 21. a 30, 22. Ezec. 18. 31. Rhuf. 13. 12. Phil. 3. 8, 9. u pen. 15. 30, 31. x pen. 25. 41, 46. Es. 33. 14. Marc 9. 48, 49. Luc 16. 24. 2 Thes. 1. 8, 9. Dat. 14. 10. a 20. 15. a 21. 8.

9 Ac os dy lygad a'th rwystra, tyn ef allan, a thafl oddi wrthyt: gwell yw i ti [y] yn unllygeidiog fyned i mewn i'r bywyd, [z] nag â dau lygad gennyt dy daflu i dân uffern.

y pen. 19. 17, 23, 24. Act. 14. 22. Heb. 4. 11. Dat. 21. 27. z pen. 16. 26. Luc 9. 24, 25.

* Mae rhwystro yma yn arwyddo yr un peth ag yn adnod y chweched, neu, efallai, yn helaethach; pob hudoliaethau, siamplau, a gweithredoedd drwg: pob erlid a gwarth ar grefydd: pob cyfeiliorni, gau-athrawiaethau, a phob terfysgoedd ac ymraniadau yn yr eglwys; trwy ba rai mae y saint gweiniaid yn cael eu gwanhâu, eu dyrysu, eu llygru a'u cloffi. Mae y byd yn llawn o'r cyfryw rwystrau y dydd heddyw, yn mhob cwr o hono; ac maent yn lluddias llafur y cenadon, a llwydd yr efengyl, ac yn cynnysgaeddu anghredinwyr o bob math, â'u harfau mwyaf enbyd yn erbyn y gwirioneedd. A gwae y byd oblegid y rhwystrau hyn: y rhai hyn sydd yn cynnal teyrnas satan i fynu, ac yn dal eneidiau yn ei feddiant: y rhai hyn a dyn farn Duw ar y byd, ac a ddamnia y byd yn y diwedd! † Anghenrhaid yw eu dyfod; o herwydd ymgais gwastadol satan, a llygredigaethau calonau dynion; nid oes fodd na ddaw rhwystrau; ac yn ol natur pethau, nid oes dichon iddynt beidio. † Am hyny mae yr Arglwydd Iesu yn gwasgu ar ei ddysgyblion yr angenrheidrwydd tramawr o hunanymwadiad; dylent ymwrthod â'r pethau anwylaf a feddent yn dymhorol, pe byddai hyny law, neu droed, neu lygad, yn hytrach na gadael i ddim eu rhwystro yn eu proffes a'u gyrfa grefyddol. ‡ Nid â neb i mewn i'r bywyd yn anafus felly; bydd cyrph yr holl saint yno "yr un ffurf â'i gorph gogoneddus ef," eu Priod: ond pe gorfyddai myned felly, byddai hyny yn well na myned yn gorph cyfan i uffern.

10 [a] * Edrychwch na ddirmygoch yr un o'r rhai bychain hyn: † canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, [b] fod eu hangelion hwy yn y nefoedd, bob amser yn [c] gweled wyneb fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.

a adn. 6, 14. pen. 12. 20. Salm 15. 4. Zec. 4. 10. Luc 10. 16. Rhuf. 14. 1—3, 10, 13—15, 21. a 15. 1. 1 Cor. 8. 8—13. a 9. 22. a 11. 22. a 16. 11. 2 Cor. 10. 1, 10. Gal. 4. 13, 14. a 6. 1. 1 Thes. 4. 8. 1 Tim. 4. 12. b pen. 1. 20. a 2. 13, 19. a 24. 31. Gen. 32. 1. 2. 2 Bren. 6. 16, 17. Salm 34. 7. a 91. 11. Luc 16. 22. Act. 5. 19. a 10. 3. a 12. 7—11, 23. a 27. 23. Heb. 1. 14. c 2 Sam. 14. 28. 1 Bren. 22. 19. Esther 1. 14. Salm 17. 15. Luc 1. 19.

* Am y rhai bychain hyn sylwyd o'r blaen. Mae y gocheliad yn cael ei roddi i weinidogion, deallwn: "nyni y rhai ydym gryfion, a ddylem gynnal gwendid y rhai gweiniaid," ac nid eu dirmygu mewn un modd. † Mae yn fawr gan eu Tad nefol am danynt, ac am y gwanaf o honynt: mae ei angelion ef yn ysbrydion gwasanaethgar yn gweini arnynt. Er eu bod yn gweled wyneb y Tad yn y drydedd nef, nid ydynt yn tybied eu swydd yn wael, na'u dedwyddwch yn llai, o weini ar y rhai bychain hyn. Nid oes yma un sail i'r dyb hono, fod rhyw un angel pennodol yn perthyn fel gwarcheidwad i bob un o'r saint.

11 * Canys [d] daeth Mab y dyn i gadw yr hyn a gollasid.

d pen. 9. 12, 13. a 10. 6. a 15. 24. Luc 15. 24, 32. a 19. 10. Ioan 3. 17. a 12. 47. 1 Tim. 1. 15.

* Dyma reswm uwch, a mwy eto, paham na ddylai neb ddirmygu y saint; nid yn unig mae angelion yn gweini iddynt, ond daeth Mab y dyn, Arglwydd angelion, yn geidwad iddynt: ac efe a'u ceidw hefyd, er ymgais pawb i'w dirmygu, eu rhwystro, a'u difetha.

12 [e] Beth dybygwch chwi? [f] * O bydd gan ddyn gant o ddefaid, a myned o un o honynt ar ddisberod; oni âd efe yr amyn un cant, a myned [g] i'r mynyddoedd, a cheisio yr hon a aeth ar ddisberod?

e pen. 21. 28. a 22. 42. 1 Cor. 10. 15. f pen. 12. 11. Salm 119. 176. Es. 53. 6. Jer. 50. 6. Ezec. 34. 16, 28. Luc 15. 4. Ioan 10. 11, &c. 1 Pedr 2. 25. g 1 Bren. 22. 17. Ezec. 24. 6, 12.

13 Ac os bydd *iddo* ei chael hi, yn wir meddaf i chwi, [h] y mae yn llawenhâu am honno mwy nag am yr amyn un cant y rhai nid aethant ar ddisberod.

h Salm 147. 11. Es. 53. 11. a 62. 5. Jer. 32. 37—41. Mica 7. 18. Zeph. 3. 17. Luc 15. 5—10, 24. Ioan 4. 34—36. Iago 2. 13.

14 Felly [i] nid yw ewyllys [k] eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd, [l] gyfrgolli yr un o'r rhai bychain hyn.

i Luc 12. 32. Ioan 6. 39, 40. a 10. 27—30. a 17. 12. Rhuf. 8. 28—39. Eph. 1. 5—7. 1 Pedr 1. 3—5. k pen. 5. 16. a 6. 9, 32. 1 Es. 40. 11. Zec. 13. 7. Ioan 21. 15. 1 Cor. 8. 11—13. 2 Tim. 2. 10. Heb. 12. 13.

* Er dangos y mater uchod eto yn eglurach, ac yn fwy pwysig, mae ein Harglwydd yn defnyddio dammeg:—Gan fod gan ddyn gymmaint o ofal am un ddafad golledig o gant, a chymmaint o lawenydd am dani ar ol ei chael; pa faint mwy yw gofal y Tad nefol am ei bobl, ag oedd wrth natur yn golledig, a pha faint mwy ei hyfrydwch ef yn eu cadwedigaeth a'u hiachawdwriaeth hwy. Dyma y Tad, Crist, a'r angelion, ar waith yn iachawdwriaeth a chadwedigaeth y credinwyr gweiniaid; am hyny na ddirmyged neb hwynt, na rwystred neb hwynt; ac na feddylied neb lwyddo i'w dyfetha. Cawn y ddammeg hon yn gyflawnach eto, yn Luc 15. 3—7.

15 ¶ * Ac [m] os pecha dy frawd i'th erbyn, [n] † dos, ac argyhoedda ef rhyngot ti ac ef ei hun. Os efe a wrendy arnat, [o] ti a ynnillaist dy frawd.

m adn. 35. Lef. 6. 2—7. Luc 17. 3, 4. 1 Cor. 6. 6—8. a 8. 12. 2 Cor. 7. 12. Col. 3. 13. 1 Thes. 4. 6. n Lef. 19. 17. Salm 141. 5. Diar. 25. 9, 10. o Diar. 11. 30. Rhuf. 12. 21. 1 Cor. 9. 19—21. Iago 5. 19, 20. 1 Pedr 3. 1.

16 ‡ Ac os efe ni wrendy, cymmer gyd â thi etto un neu ddau, [p] fel y'ngenau dau neu

dri o dystion y byddo pob gair yn safadwy.
p Num. 35. 30. Deut. 17. 6. a 19. 15. 1 Bren. 21. 13. Ioan 8. 7. 2 Cor. 13. 1. 1 Tim. 5. 19. Heb. 10. 28. 1 Ioan 5. 7, 8. Dat. 1. 3.

17 ‖ Ac os efe ni wrendy arnynt hwy, dywed i'r eglwys: § ac os efe ni wrendy ar yr eglwys chwaith, [r] bydded ef i ti megis [s] yr ethnig a'r [t] publican.
q Act. 6. 1—3. a 15. 6, 7. 1 Cor. 5. 4, 5. a 6. 1—4. 2 Cor. 2. 7, 3 Ioan 9, 10. r Rhuf. 16. 17, 18. 1 Cor. 5. 9—13. 2 Thes. 6, 14, 15. 1 Tim. 6. 5. 2 Ioan 10, 11. s pen. 6. 7. Ezra 6. 21. Zzec. 11. 12. 2 Cor. 6. 14—17. Eph. 4. 17—19. a 5. 11, 12. t pen. 46. a 11. 19. a 21. 31, 32. Luc 15. 1. a 18. 11. a 19. 2, 3.

Mae y cynghorion gwerthfawr ac angenrheidiol hyn, n dyfod i mewn yn naturiol iawn ar ol y pethau blaen-rawl uchod: ac mor eglur i bawb, fel nad oes braidd dim eisiau agoriad arnynt. Sylwn yn fyr arnynt fel yn:—* 1. Am *frawd* y sonir, nid am rywun oddiallan r eglwys, a rhwymau brawdoliaeth: nid oes dim a fyno r eglwys a barnu y cyfryw. 2. Brawd wedi *pechu* dyw; yr hyn a ddygwydd yn aml, ysywaeth, yn y stâd nmherffaith hon: aml y rhoddir achos tramgwydd, ac aml y tramgwyddir heb achos. 3. Yn erbyn rhyw *frawd erall, yn bersonol,* y pechodd; nid rhyw bechod amlwg chyhoeddus i bawb: y neb a becho felly, a ddylai gael i geryddu yn ngŵydd pawb. † Yn nesaf, mae yma gyfar-yyddiadau pa fodd y dylai y brawd a ddigiwyd ymddwyn tuag at y brawd a bechodd:—1. Myned a'i argyhoeddi lf: ymresymu âg ef mewn ysbryd têg, arafaidd, a di-yffro; a cheisio dangos ei fai yn eglur iddo. 2. Gwneyd yny yn ddirgel; "rhyngot ti âg ef ei hun," nid ei ldynoethi ar led yr holl wlad, ac fel hyny gwneyd y rwg yn waeth. Ac os llwydda hyny i ddyfod âg ef i ydnabod ei fai, dyna'r amcan wedi ei gael, cymmod wedi ei wneyd, a'r brawd wedi ei ennill a'i adferu. ‡ Os efe ni wrendy, y rhëol nesaf yw, cymmeryd gyda thi un neu ddau, dim ond hyny a fyddo yn angenrheidiol fel ystion, yn ol y gyfraith gynt: Deut. 19. 15; a'r rhai yny y mwyaf duwiol, cyfrifol, distaw, a thangnefeddus n yr eglwys. A cheisier penderfynu y mater yn eu ŵydd, ac yn ol eu barn hwy. ‖ Os efe ni wrendy arnynt hwy, fel athrwynwyr cydwybodol a diduedd; rna, ac nid yn gynt, dywed i'r eglwys, y byddo pob un honoch yn perthyn iddi: crybwyller y trosedd yn deg gwirioneddol yno, yn nghyd ag ymddygiad y tram-ŵyddedig tuag at yr hwn a bechodd, o'r dechreuad hyd yny. Os gwrendy efe ar yr eglwys, dyna'r amcan o'r liwedd wedi ei gael, a'r brawd wedi ei ennill a'i achub. Ond, os efe ni wrendy ar eglwys Dduw, yr hon nid yw n gyffredin heb ysbryd barn ganddi; bwrier ef allan, a ydded i ti, ac i'r holl eglwys, fel yr ethnig a'r public-an. Cyfrif ef yn aflan, fel y cyfrifai yr Iuddewon y enedloedd a'r Publicanod; ac na fydded i ti gyd-ymundeb eglwysig âg ef mwyach hyd oni edifarhâo. Dyma rëol Duw; ac ni bu da erioed o fyned yn groes iddi.

18 Yn wir meddaf i chwi, [u] pa bethau byn-nag a rwymoch ar y ddaear, fyddant wedi eu rhwymo yn y nef: a pha bethau bynnag a yddhâoch ar y ddaear, a fyddant wedi eu rhyddhâu yn y nef.
u pen. 16. 19. Ioan 20. 23. Act. 15. 28, 29. 1 Cor. 5. 4, 5. 2 Cor. 2. 10. Dat. 3. 7, 8.

* Beth bynag a wneloch chwi fel hyn, rhwymo neu yddhâu, diaelodi neu dderbyn, yn ol rhëolau fy ngair , a gadarnhêir yn y nefoedd: a dengys Duw ei fodd-onrwydd iddo ddydd y farn. Gwel pen. 16. 19.

19 Trachefn meddaf i chwi, [x] * Os cydsynia llau o honoch ar y ddaear am ddim oll, beth bynnag a'r a ofynant, [y] † efe a wneir iddynt gan fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.
x pen. 21. 22. Marc 11. 24. Ioan 15. 7, 16. Act. 1. 14. a 2. 1, 2. a 4. 24—31. a 6. 4. a 12. 5. Eph. 6. 18—20. Phil. 1. 19. Iago 5. 14—16. 1 Ioan 5. 14—16. Dat. 11. 4—6. y Ioan 14. 13, 14. a 16. 23, 24.

20 ‡ Canys lle y mae [z] dau neu dri wedi ymgynnull ‖ yn fy enw i, [a] § yno yr ydwyf yn eu canol hwynt.
z Gen. 49. 10. Ioan 20. 19, 26. 1 Cor. 5. 4. 1 Thes. 1. 1. Philemon 2. a pen. 28. 20. Ex. 20. 24. Zec. 2. 5. Ioan 8. 58. Dat. 1. 11—13. a 2. 1. a 21. 3.

* Cydsyniad mewn gweddi a feddylir yn benaf yma: mae yr Arglwydd Iesu megys yn cymmeryd yn ganiatâol, na byddai i neb o'i bobl ef byth ddysgyblu drwg-weithredwyr, heb gyd-weddio am gyfarwyddyd Duw yn y gorchwyl, ac am fendith hefyd ar y ddysgyblaeth er adferiad y troseddwr. † Mae yr addewid hon yn cyf-eirio yn benaf at yr atebion gwyrthiol i weddïau, a fyddai yr apostolion yn gael, gwel Math. 21. 21, 22; Marc 11. 23, 24; Ioan 14. 13, 14; 1 Ioan 3. 22; Iago 5. 16. ond gall yr eglwys ddisgwyl cyflawniad cyffredin-ol o hóni yn mhob oes. ‡ Nid oes achos i'r eglwys fod yn lliosog i gael gwrandawiad a phresenoldeb Duw: lle bynag y byddo dau neu dri, gallant ddisgwyl gwran-dawiad a phresenoldeb eu Duw. ‖ Ymgynnull yn ei enw ef yw, ymgynnull mewn ufudd-dod i'w orchymyn ef, mewn cariad ato ef, i'r dyben o'i ogoneddu ef, mewn ffydd yn ei addewid ef, ac at ryw ran o'i waith a'i addoliad ef. § Yno yr ydwyf: nid Mi a fyddaf yno, ond yr ydwyf yno: gan gyfeirio at ei bresenoldeb dwyfol, bob amser ac yn mhob màn; ac hefyd at ei bresenoldeb neilluol trwy ddylanwadau ei Ysbryd, a thywalltiadau o'i fendithion, yn mhlith ac ar ei bobl.

21 ¶ Yna y daeth Pedr atto ef, ac a ddy-wedodd, Arglwydd, pa sawl gwaith y * pecha fy mrawd i'm herbyn, ac y maddeuaf iddo? [b] † ai hyd seithwaith?
b adn. 15. Luc 17. 3, 4.

22 Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Nid ydwyf yn dywedyd wrthyt, Hyd seithwaith: [c] ond ‡ Hyd ddengwaith a thriugain seithwaith.
c pen. 6. 11, 12, 14, 15. Es. 55. 7. Mica 7. 19. Marc 11. 25, 26. Rhuf. 12. 21. Eph. 4. 26, 31, 32. a 5. 1. Col. 3. 13. 1 Tim. 2. 8.

* Rhaid i ni ddëall mai am bechod y naill frawd yn erbyn y llall, a maddeuant y naill frawd i'r llall, y sonir yma; nid am bechod yn erbyn Duw, (oddigerth fel y mae pob trosedd yn bechod yn erbyn Duw,) nac am bechod yn galw am sylw a barn eglwysig. Ofnai Pedr, mae yn debyg, y byddai i ddynion drwg dan enw brodyr, gymmeryd mantais ar y ddyledswydd o faddeuant yn eraill, i droseddu yn eu herbyn a'u tramgwyddo fel y mynent. † Tybia rhai, bod golwg Pedr yma ar Diar. 24. 16. Tybia eraill, bod ei olwg ar Amos 1. 3. Athrawiaeth y Rabbiniaid Iuddewig oedd fel hyn: bod tri o droseddau i gael eu maddau, ond nid y pedwerydd. Rhoddai Pedr yma y tri â'r pedwar yn nghyd; megys y gwnai rhai o honynt hwythau, efallai; a gofynai, ai hyd saith waith. ‡ Mae Iesu yn ei ateb, yn rhoddi rhifedi terfynol am annherfynol, i ddangos y dylai ein maddeu-ant ni fod yn ddiderfyn, fel maddeuant Duw ei hunan; ac y dylai ein hysbryd ni fod yn ysbryd maddeugar, ac nid yn ddigofus a dialgar.

23 ¶ * Am hynny [d] y cyffelybir teyrnas nefoedd i ryw frenhin [e] a fynnai gael cyfrif gan ei weision.
d pen. 3. 2. a 13. 24, 31, 33, 44, 45, 47, 52. a 25. 1, 14. e pen. 25. 19—30. Luc 16. 1, 2. a 19. 12—27. Rhuf. 14. 12. 1 Cor. 4. 5. 2 Cor. 5. 10, 11.

24 A phan ddechreuodd gyfrif, fe a ddygwyd atto un ag oedd [f] yn ei ddyled ef o [g] † ddeng mil o dalentau.
f Luc 7. 41, 42. a 13. 4. a 16. 5, 7. g 1 Cron. 29. 7. Ezra 9. 6. Salm 38. 4. a 40. 12. a 130. 3, 4.

25 A chan nad oedd ganddo *ddim* i dalu, [h] gorchymynodd ei arglwydd ei werthu ef, a'i wraig, a'i blant, a chwbl a'r a feddai, a thalu *y ddyled.*
h Lef. 25. 39. 2 Bren. 4. 1. Neh. 5. 5, 8. Es. 50. 1.

26 A'r gwas a syrthiodd i lawr, ac a'i haddolodd ef, gan ddywedyd, Arglwydd, [i] bydd ymarhous wrthyf, a mi a dalaf i ti y cwbl oll.

i adn. 29. Luc 7. 43. Rhuf. 10. 3.

27 Ac arglwydd y gwas hwnnw a [k] dosturiodd *wrtho,* ac a'i gollyngodd, ac a faddeuodd iddo y ddyled.

k Barn. 10. 16. Neh. 9. 17. Salm 78. 38. a 86. 5, 15. a 145. 8. Hos. 11. 8.

28 Ac wedi myned o'r gwas hwnnw allan, efe a gafodd un o'i gyd-weision yr hwn oedd yn ei ddyled ef o ‡ gàn ceiniog: ac efe a ymaflodd ynddo, [l] ac a'*i* llindagodd, gan ddywedyd, Tâl i mi yr hyn sydd ddyledus arnat.

l Deut. 15. 2. Neh. 5. 7, 10, 11. a 10. 31. Es. 58. 3. Ezec. 45. 9. m adn. 26. pen. 6. 12. Philemon. 18, 19.

29 Yna y syrthiodd ei gyd-was wrth ei draed ef, ac a ymbiliodd âg ef, gan ddywedyd, [m] Bydd ymarhous wrthyf, a mi a dalaf i ti y cwbl oll.

n 1 Bren. 21. 27—29. a 22. 27.

30 Ac nis gwnai efe: [n] ond myned a'i fwrw ef y'ngharchar, hyd oni thalai yr hyn oedd ddyledus.

o Salm 119. 136, 158. Jer. 9. 1. Marc 2. 5. Luc 19. 41. Rhuf. 9. 1—3. a 12. 15. 2 Cor. 11. 21. Heb. 13. 3. p Gen. 37. 2. Luc 14. 21. Heb. 13. 17.

31 A phan welodd ei gyd-weision y pethau a wnelsid, [o] bu ddrwg dros ben ganddynt: [p] a hwy a ddaethant ac a fynegasant i'w harglwydd yr holl bethau a fuasai.

32 Yna ei arglwydd, wedi ei alw ef atto, a ddywedodd wrtho, [q] Ha was drwg, maddeuais i ti yr holl ddyled honno, am i ti ymbil â mi:

q pen. 25. 26. Luc 19. 22. Rhuf. 2. 19.

33 Ac oni ddylesit tithau drugarhâu wrth dy gyd-was, [r] megis y trugarhêais innau wrthyt ti?

r pen. 5. 44, 45. Luc 6. 35, 36. Eph. 4. 32. a 5. 1, 2. Col. 3. 13.

34 A'i arglwydd a ddigiodd, [s] ac a'i rhoddodd ef i'r ‖ poenwyr, hyd oni thalai yr hyn oll oedd ddyledus iddo.

s pen. 5. 25, 26. Luc 12. 58, 59. 2 Thes. 1. 8, 9. Dat. 14. 10, 11.

35 Ac felly y [t] gwna fy Nhad nefol i chwithau, [u] oni faddeuwch o'ch calonnau bob un i'w frawd eu camweddau.

t pen. 6. 12, 14, 15. a 7. 1, 2. Diar. 21. 13. Luc 6. 37, 38. Iago 2. 13. u Diar. 21. 2. Jer. 3. 10. Zec. 7. 12. Luc 16. 15. Iago 3. 14. a 4. 8. Dat. 2. 23.

Mae y ddammeg hon yn agoriad ar athrawiaeth maddeuant, yr hon a ddechreuwyd yn ngofyniad Pedr ac ateb Crist, yn y ddwy adnod o'r blaen. Mae y ddammeg yn dysgu i ni y pethau canlynol:—1. Bod y naill ddyn yn y byd hwn, yn ymddybynu ar y llall, ac yn ddyledus i'r llall am lawer o bethau. 2. Bod ar bob dyn ddyled fawr iawn i Dduw; ac nad yw ein holl ddyledion ni i'n gilydd ddim mewn cymhariaeth i'r ddyled fawr hòno. 3. Nad oes genym ni ddim i dalu i Dduw, fel iawn am ein dyled. 4. Bod yn gyfiawn i Dduw ofyn llawn foddlonrwydd genym ni. 5. Y bydd i Dduw faddau i ni ein dyledion er mwyn Crist, wrth i ni ofyn maddeuant a thrugaredd ganddo. 6. Nad ydym ni ddim mor barod i faddau i'n brodyr eu camweddau, ag ydyw Duw i faddau i ni. 7. Bod ein anmharodrwydd ni i faddau i'n brodyr, ar ol tiriondeb Duw yn maddau i ni, yn gŵyn mawr, neu y bydd yn gŵyn mawr yn ein herbyn yn llŷs y nef. 8. Y dylem ni ystyried mawr ddaioni, a rhad gariad Duw tuag atom ni, yn maddau i ni; a bod yr ystyriaeth o hyny yn ein cymhell ni i faddau i eraill. 9. Y dylem ni faddau o'n calonau i ddynion eu camweddau; heb eu casâu, meddwl y ddrwg am danynt, na cheisio dial arnynt, na gofyn iawn ganddynt uwchlaw yr hyn allont ei wneyd: a bo yn barod i wneyd pob daioni iddynt, yn ol a allom n 10. Bod ysbryd ac ymddygiad croes i hyn, yn arwyd drwg am ein cyflwr ni; na faddeuodd Duw ddim mew gwirionedd i ni, a bod hyn yn rhwystr i ni i ga maddeuant: mae hefyd yn argoel drwg, fod rhy gospedigaeth oddi wrth Dduw, yn ein haros ni yn y by hwn, i'n dwyn ni i dymher mwy tebyg i'r efengyl: a os nad yn y byd hwn, bydd yn sicr o ddyfod yn y byd ddaw. * Teyrnas nefoedd yma yw yr eglwys weledig yn ei stad anmherffaith bresenol ar y ddaear. † O talentau o aur oedd y talentau hyn, dywedir eu bod y 72,000,000 o arian Lloegr: os arian, yr oeddynt y agos i 2,000,000. Felly y dywed *Scott;* ond y ma eraill yn eu gwneyd yn 6,750,000. Yr oedd talenta yr Iuddewon a thalentau y Groegiaid yn wahanol, ac mae llawer o amrywiaeth barn yn eu cylch. Dyled faw yw dyled y pechadur i Dduw. ‡ Wrth gyfrif ceiniog Rhufeiniaid *(Denarius)* yn saith a dimmai o'n hariar ni, yr oedd y swm yn dair punt a hanner coron ‖ Byddai carcharorion yn cael eu poeni yn ngwledydd y dwyrain yn llawer gwaeth na chyda ni: trwy newyn llyffetheiriau trymion, fel na allent nac eistedd na gorwedd; eu ffrewyllu yn aml, ac weithiau eu dirdynu a yr arteith-glwyd. At hyny y cyfeirir yma.

PEN. XIX.

Crist yn iachâu'r cleifion. 3. Ateb y Phariseaid am ysgariaeth.

A BU, [a] pan orphenodd yr Iesu yr ymadroddion hyn, efe a ymadawodd o * Galilea, ac a ddaeth i derfynau Judea, † tu hwnt i'r Iorddonen:

a Marc 10. 1. Ioan 10. 40.

2 [b] ‡ A thorfeydd lawer a'i canlynasant ef; ac efe a'u hiachâodd hwynt yno.

b pen. 4. 23—25. a 9. 35, 36. a 12. 15. a 14. 35, 36. a 15. 30, 31. Marc 6. 55, 56.

* Ar ol y dychweliad o Babilon, rhanwyd gwlad Canaan yn dri dosparth; Judea, yn y pen deheuol; Samaria, yn y canol; a Galilea, yn y gogledd. Rhenid Galilea eilwaith yn ddwy ran, sef Galilea uchaf, yr hon a elwid Galilea y cenedloedd: a Galilea isaf, rhwng hòno â Samaria. Yn Galilea yr oedd Nazareth, lle magwyd ein Iachawdwr, ac yn ninasoedd Galilea y gwnaeth efe fwyaf o'i weithredoedd nerthol. Mae efe yma yn gadael Galilea am y tro diweddaf, ac yn myned tua Jerusalem erbyn ei ddyoddefaint. † Yr Iorddonen oedd terfyn Judea ar y tu dwyrain; a thybir wrth Ioan 1. 28. a 10. 40, mai Bethabara, lle gyferbyn â therfynau Judea, y tu arall i'r afon, a feddylir yn y fàn yma. Nid y tu hwnt i'r Iorddonen yr oedd Judea; eithr trwy wlad oedd tu hwnt, neu o du dwyrain i'r Iorddonen, y daeth Iesu y tro hwn o Galilea i derfynau Judea. Wrth gychwyn o Galilea, croesodd yr Iorddonen neu fôs Galilea, i'r wlad tu hwnt i'r Iorddonen; ac yn rhywle yn îs i lawr yr afon, croesodd hi drachefn, i ddyfod derfynau Judea; canys yr oedd Galilea a Judea o du gorllewin yr Iorddonen, nid y tu hwnt. ‡ Canlyna llawer ef, ac iachâwyd llawer ganddo, ond ni ddywedi i neb gredu ynddo.

3 ¶ A daeth y Phariseaid atto, [c] gan e * demtio, a dywedyd wrtho, [d] † Ai cyfreith lawn i wr ysgar â'i wraig am ‡ bob achos?

c pen. 16. 1. a 22. 16—18, 35. Marc 10. 2. a 12. 13—15. Lu 11. 53, 54. Ioan 8. 6. Heb. 3. 9. d pen. 5. 31, 32. Mal. 2 14—16.

* Mae y gair a gyfieithir "temtio," yma, yn arwydd gwneuthur prawf o hòno: sef ceisio ei faglu ef yn e ymadroddion, fel y gallent achwyn arno. † Pe dywed asai yr Iesu mai cyfreithlawn oedd, buasai yn gwrth

iddywedyd yr hyn oedd wedi ei ddywedyd o'r blaen: pe
ydywedasai nad oedd yn gyfreithlawn, buasai yn dywed-
yd yn erbyn agoriad eu hathrawon hwy ar Deut. 24. 1.
ac ar bob llaw, buasent hwy yn cael achlysur yn ei erbyn
f. ‡ Wrth "bob achos," barnai yr Iuddewon, nid
godineb yn unig, ond pob peth ag oedd yn annymunol
ac yn anhawddgar yn y wraig; megys tymher ddrwg,
gwyneb hyll, neu ryw anffurfiaeth corphorawl, ac ym-
ysgarent â'u gwragedd yn gyffredin am bethau felly.
Yr oedd dwy athrofa enwog yn mhlith yr Iuddewon, yn
wahanol eu tybiau am ysgariaeth: hòno dan arolygiad
Shammah, neu *Sammai*, a ddysgai na ddylesid ysgar
ond am odineb; a'r llall dan arolygiad *Hillel*, a ddysgai
y gellid ysgar am unrhyw achos, neu rith o achos, fel
y sylwyd eisoes.

4 * Ac efe a attebodd ac a ddywedodd
wrthynt, [e] Oni ddarllenasoch [f] i'r hwn a'*u*
gwnaeth o'r dechreu, eu gwneuthur hwy yn
wrryw a banyw?

e pen. 12. 3. a 21. 16, 42. a 22. 31. Marc 2. 25. a 12. 10, 26. Luc 6. 3. a 10. 26. f Gen. 1. 27. a 5. 2. Mal. 2. 15.

5 Ac [g] efe a ddywedodd, Oblegid hyn y gâd
ddyn dad a mam, ac y [h] glŷn wrth ei wraig:
[i] a'r ddau fyddant yn un cnawd.

g Gen. 2. 21—24. Salm 45. 10. Marc 10. 6—9. Eph. 5. 31. h Gen. 34. 3. Deut. 4. 4. a 10. 20. a 11. 22. 1 Sam. 18. 1. 2 Sam. 1. 26. 1 Bren. 11. 2. Salm 63. 8. Rhuf. 12. 9. i 1 Cor. 6. 16. a 7. 2, 4.

6 O herwydd paham, nid ydynt mwy yn
lddau, ond yn un cnawd. † Y peth gan hynny
[k] a gyssylltodd Duw, nac ysgared dyn.

k Diar. 2. 17. Mal. 2. 14. Marc 10. 9. Rhuf. 7. 2. 1 Cor. 7. 10—14. Eph. 5. 28. Heb. 13. 4.

* Gwyddai yr Iesu am fwriad dichellgar y Phariseaid, am hyny mae yntau yn ofalus a doeth yn ei ateb: yn lle dywedyd yn union-gyrchol Ië, neu Nage; mae yn eu ceyfeirio hwy at sefydliad cyntaf priodas gan y Creawdwr; fel pe dywedasai, Yr ydych chwi yn addef ac yn arddelwi Llyfr Genesis yn gystal a Deuteronomium, a pha fodd y gellwch chwi roddi agoriad ar Deuteronomium 24. 1. ag sydd yn groes i Genesis 1. 27. a 2. 24. † Na ryfyged neb, mewn athrawiaeth na gweithred, i ysgar yr hyn a gyssylltodd Duw.

7 Hwythau a ddywedasant wrtho, [l] * Paham
gan hynny y gorchymynodd Moses roddi lly-
thyr ysgar, [m] a'i gollwng hi ymaith?

l pen. 5. 31. Deut. 24. 1—4. Es. 50. 1. Jer. 3. 8. Marc 10. 4. m pen. 1. 19. Mal. 2. 16.

8 Yntau a ddywedodd wrthynt, Moses,
[n] † o herwydd caledrwydd eich calonnau, a
[o] ‡ oddefodd i chwi ysgar â'ch gwragedd:
[p] eithr o'r dechreu nid felly yr oedd.

n Salm 95. 8. Zec. 7. 12. Mal. 2. 13, 14. Marc 10. 5. o pen. 3. 15. a 8. 34. 1 Cor. 7. 6. p Gen. 2. 24. a 7. 7. Jer. 7. 16.

* Cyfeiriad sydd yma at y geiriau a nodwyd o'r blaen, yn Deut. 24. 1—4. † "O herwydd caledrwydd eich calonau:" rhag i chwi drin eich gwragedd yn ddrwg ac yn greulawn, ac efallai eu llofruddio; yr oedd yn angenrheidiol wrth y gyfraith hòno i ragfaenu drwg mwy: felly mae y gyfraith a ddadleuwch chwi megys o'ch plaid, yn warth i chwi fel cenedl o ddynion. ‡ Heblaw hyny, nid *gorchymyn rhwymedig* yw y ddeddf hòno, eithr *goddefiad* yn unig, o herwydd yr achos a grybwyllwyd: o'r dechreuad, pan oedd dyn yn ei gyflwr o ddiniweidrwydd, nid felly yr oedd.

9 * Ac meddaf i chwi, [q] Pwy bynnag a ys-
garo â'i wraig, [r] ond am odineb, ac a briodo un
arall, † y mae efe yn torri priodas: ‡ ac y mae
yr hwn a briodo yr hon a ysgarwyd, [s] yn torri
priodas.

q pen. 5. 32. Marc 10. 11, 12. Luc 16. 18. 1 Cor. 7. 10—13, 29. r 2 Cron. 21. 11. Jer. 3. 8. Ezec. 16. 8, 15, 29. 1 Cor. 5. 1. s Gen. 12. 18, 19. a 20. 3. Jer. 3. 1. Rhuf. 7. 2, 3. 1 Cor. 7. 4, 11, 39.

* Megys ag nad oedd y ddeddf uchod o'r dechreuad, felly ni chaiff hi fod mwyach dàn yr efengyl: godineb yw, ac a fydd, yr unig achos, a gyfreithlona i ŵr ysgar â'i wraig. † A phwy bynag a ysgaro â'i wraig ond am odineb, ac a brioda un arall, godineb a fydd hyny; am fod y briodas gyntaf yn sefyll yn nghyfrif Duw. ‡ Ac mae yr hwn a briodo y wraig a ysgarwyd yn anghyfreithlawn, yn godinebu hefyd: oblegid gwraig briodol yw hi yn nghyfrif Duw.

10 ¶ * Dywedodd ei ddisgyblion wrtho,
[t] Os felly y mae yr achos rhwng gwr a gwraig,
nid da gwreicca.

t Gen. 2. 18. Diar. 5. 15—19. a 18. 22. a 19. 13, 14. a 21. 9, 19. 1 Cor. 7. 1, 2, 8, 26—28, 32—35, 39, 40. 1 Tim. 4. 3. a 5. 11—15.

* Yr oedd athrawiaeth lygredig y Rabbiniaid yn nghylch ysgariaeth, ac arfer lygredig yr Iuddewon, yn tarddu oddiar yr athrawiaeth hòno, wedi greddfu mòr ddwfn yn y wlad yn gyffredin; fel yr oedd hyd yn nod dysgyblion Iesu y pryd hwnw, yn tybied bod ei agoriad ef ar y mater yn rhy gaeth o lawer: a thybient yn well i ddynion beidio â phriodi o gwbl, os na chaent ryddid i ysgar â'u gwragedd yn ol y dull cyffredin: os nad oedd dim ond godineb a gyfreithlonai ysgariaeth.

11 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [u] * Nid
yw pawb yn derbyn y gair hwn, ond *y rhai* y
rhoddwyd iddynt.

u 1 Cor. 7. 7, 9, 17, 35.

12 † Canys y mae eunuchiaid a aned felly
o groth *eu* mam; ‡ ac y mae eunuchiaid a
[x] wnaed gan ddynion yn eunuchiaid; ‖ ac y
mae eunuchiaid [y] a'u gwnaethant eu hun yn
eunuchiaid er mwyn teyrnas nefoedd. § Y
neb a ddichon *ei* dderbyn, derbynied.

x Es. 39. 7. a 56. 3, 4. y 1 Cor. 7. 32—38. a 9. 5, 15.

* Nid pawb a all fyw yn ol y gair hwn, sef heb wreica: nis gall fyw felly yn gysurus iddo ei hun, nac ychwaith heb bechu yn erbyn Duw. Nis gall neb fyw felly ond y rhai y rhoddwyd iddynt: dawn Duw yw dawn gweddwdod a diweirdeb, ac ychydig iawn sydd yn berchen arno. † Y mae rhai, wedi eu ffurfio felly o'r groth, yn anghymhwys i'r ystad briodasol; un ai trwy ryw ddiffyg corphorol, neu dueddiad meddwl. ‡ Y mae rhai wedi cael eu gwneyd felly, trwy eu hanafu gan ddynion, i ddybenion drwg a rhy ffiaidd eu henwi. ‖ Y mae rhai eraill, trwy benderfyniad cadarn, ympryd a gweddi, wedi llwyddo i ddarostwng tuedd cynnwynawl eu natur, er mwyn ymroddiad mwy llwyr a hollawl i wasanaeth Duw. § Od oes neb a ddichon ffrwyno ei chwantau, llywodraethu ei dueddiadau, a byw yn wir ddiwair heb wreica, gwneled felly er mwyn crefydd; ond os amgen, gwell yw priodi nac ymlosgi. Ystyr y gair Eunuchiaid yw, *ceidwaid y gwelyau:* dynion dyspaddedig oeddynt geidwaid y gordderchadon yn ngwledydd y dwyrain, ac ydynt eto.

13 ¶ * Yna y [z] dygwyd atto blant bychain,
fel y rhoddai *ei* ddwylaw arnynt, ac y gweddi-
ai: [a] † a'r disgyblion a'u ceryddodd hwynt.

z pen. 18. 2—5. Gen. 48. 1, 9—20. 1 Sam. 1. 24. Salm 95. 14, 15. Jer. 32. 39. Marc 10. 13. Luc 18. 15. Act. 2. 39. 1 Cor. 7. 14. a pen. 16. 22. a 20. 31. Luc 9. 49, 50, 54, 55.

* I ba beth y dygid y plant bychain hyn at Iesu? Nid i'w bedyddio; oblegid nid oedd yr Iesu yn bedyddio neb ei hunan, Ioan 4. 2. Nid i'w hiachâu; pe felly, ni buasai y dysgyblion mòr greulawn a cheisio eu gwahardd. Nid i'w haddysgu; oblegid yr oeddynt yn rhy ieuainc i hyny. Ond, fel y cyfhyrddai efe â hwynt, medd Marc a Luc; fel y rhoddai ei ddwylaw arnynt, ac y gweddiai, medd Matthew yma, neu fel y bendithiai hwynt. Gosod dwylaw ar ddynion a'u bendithio, neu weddio am fendith arnynt, oedd hen ddefod yn mhlith yr Iuddewon, Gen. 48. 14—20. Gofynid am hyny yn aml gan ddynion a ystyrid yn enwog mewn duwioldeb; a diammau fod meddyliau mawr gan rieni y plant hyn

am dduwioldeb Iesu. † Ceryddai y dysgyblion hwynt, gan dybied os deuai llawer at eu hathraw ar neges felly, y byddai yn ormod o drafferth iddo.

14 A'r Iesu a ddywedodd, [b] * Gadewch i blant bychain, ac na waherddwch iddynt ddyfod attaf fi: [c] † canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd.

b Gen. 17. 7, 8, 24—26. a 21. 4. Barn. 13. 7. 1 Sam. 1. 11, 22, 24. a 2. 18. Marc 10. 14, 15. Luc 18. 16. c pen. 11. 25. a 18. 3. 1 Cor. 14. 20. 1 Pedr 2. 1, 2.

15 Ac [d] wedi iddo roddi *ei* ddwylaw arnynt, efe a aeth *ymaith* oddi yno.

d Es. 40. 11. Marc 10. 16. 1 Cor. 7. 14. 2 Tim. 3. 15.

* Mawr oedd gostyngeiddrwydd ac addfwynder ein Harglwydd yn hyn fel yn mhob peth arall: diammau iddo gael effaith ragorol ar rïeni y plant, ac ar bawb ag oedd yno yn bresenol. Da iawn fyddai i weinidogion yr efengyl ymddwyn yn debyg iddo tuag at blant bychain; dichon gael effaith fendithiol ar y plant, a chwanegu eu defnyddioldeb hwythau. † "Eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd:" meddwl amlwg y geiriau hyn yw, bod hawl gyfammodol, ac aelodaeth eglwysig, plant bychain y credinwyr, i barhau dàn oruchwyliaeth yr efengyl fel o'r blaen dàn yr hen oruchwyliaeth. Mae yn wir nas gellir sylfaenu bedydd babanod ar ddim a *wnaeth* Crist yn y màn yma; ond y mae mòr wir a hyny, y gellir ei sylfaenu ar yr hyn a *ddywedodd* efe. Os yw plant i fod yn aelodau o'r eglwys weledig, mae yn rhaid eu bedyddio; oblegid nis gallant fod yn aelodau heb eu bedyddio, mwy nag y gallai plant yr Iuddewon fod gynt heb eu henwaedu. Os dadleuir, mai teyrnas y gogoniant a feddylir yma; addefir yn rhwydd, fod babanod yn y gogoniant yn gystal a rhai mewn oedran; ond nid yw hyna yn gwanychu dim ar y ddadl dros eu bedyddio: os ydynt yn cael eu gwneyd yn addas i'r eglwys yn y nef, maent yn addas i'r eglwys ar y ddaear, a pha un bynag o'r ddwy a feddylir, maent yn addas i'w bedyddio: ac y mae dadl gref dros eu bedyddio yn ngeiriau ein Iachawdwr yma.

16 ¶ Ac wele, [e] un a ddaeth, ac a ddywedodd wrtho, * Athraw da, [f] † pa beth da a wnaf, fel y caffwyf [g] ‡ fywyd tragywyddol?

e Marc 10. 17. Luc 18. 18. f Luc 10. 25. Ioan 6. 27—29. Act. 16. 30. g pen. 25. 46. Dan. 12. 2. Ioan 3. 15. a 4. 14. a 5. 39. a 6. 47, 68. a 10. 28. a 12. 25. a 17. 2, 3. Rhuf. 2. 7. a 5. 21. a a 6. 22, 23. 1 Tim. 1. 16. a 6. 12, 19. Tit. 1. 2. a 3. 7. 1 Ioan 1. 2. a 2. 25. a 5. 11—13, 20. Judas 21.

* *Didascale* yw y gair Groeg yma am Athraw; enw a gymmerai y Rabbiniaid Iuddewig arnynt eu hunain: ac ymddengys fod y gwr hwn a ddaeth at yr Iesu yn ei ystyried ef yn athraw mewn gwirionedd, ac mai nid gwatwar yr oedd. † Gellid meddwl ar y cyntaf fod ei ofyniad yn debyg i ofyniad ceidwad y carchar; ond gwelodd Iesu bod ei farn yn gyfeiliornus, ei ysbryd deddfol heb ei ddarostwng, a'i fod yn tybied y gallai wneyd rhywbeth i haeddu bywyd tragywyddol. ‡ Mae yn debyg mai Pharisead oedd hwn, ac nid un o'r Saduceaid; gan ei fod o'r meddyliau deddfol uchod, ac yn credu cyflwr a byd i ddyfod.

17 Yntau a ddywedodd wrtho, * Paham y gelwi fi yn dda? [h] † nid da neb ond un, *sèf* Duw: [i] ‡ ond os ewyllysi fyned i mewn i'r bywyd, cadw y gorchymynion.

h 1 Sam. 2. 2. Salm 52. 1. a 145. 7—9. Iago 1. 17. 1 Ioan 4. 8—10, 16. i Lef. 18. 5. Ezec. 20. 11, 12. Luc 10. 26—28. Rhuf. 10. 5. Gal. 3. 11—13.

* Gwyddai y Cyfryngwr nad oedd gan y gwr ieuanc hwn ddim meddwl gwell na dyn am dano; am hyny mae yn dywedyd wrtho, "Paham y gelwi fi yn dda," er ei argyhoeddi o'i annwybodaeth, a rhoddi awgrym iddo hefyd ei fod ef yn fwy na dyn; † ac os oedd yn dda, yn ystyr helaethaf y gair, rhaid ei fod yn Dduw; oblegid Duw yn unig sydd yn ddechreuol, yn hanfodol, ac yn hollol dda. ‡ Gan y gwyddai Crist mai yn ddeddfol, ac yn ol telerau y cyfammod gweithredoedd, yr oedd y dyn yn disgwyl cael myned i mewn i'r bywyd; mae yn ei ateb yn ol ei egwyddor ef yn gofyn; "Cadw y gorchymynion," dyna athrawiaeth y Phariseaid. Os mynai y gwr ieuanc hwn fyned i'r bywyd trwy ei weithredoedd a'i deilyngdod ei hun, y ffordd i hyny oedd cadw holl orchymynion Duw yn berffaith: gwyddai Iesu fod yr hen ffordd hòno wedi ei chauad i fynu er y cwymp yn Eden, ac nas gallai y gwr ieuanc hwn na neb arall gadw y gorchymynion chwaith, yn berffaith; eto, annogai ef i geisio gwneyd hyny, fel y gwelai ei gyfeiliorni ac y teimlai ei annallu. Ond tybia rhai mai cadw y gorchymynion fel y cedwir hwy gan bechadur argyhoeddedig, edifeiriol, a chrediniol, a annogai yr Iesu yma; sef o wir gariad at Dduw, ac o wir awydd am ei ogoneddu ef yn mhob peth.

18 Efe a ddywedodd wrtho yntau, [k] * Pa rai? A'r Iesu a ddywedodd, [l] † Na ladd, Na odineba, Na ladratta, Na ddwg gam dystiolaeth,

k Gal. 3. 10. Iago 2. 10, 11. l pen. 5. 21—28. Ex. 20. 12—17. Deut. 5. 16—21. Marc 10. 19. Luc 18. 20. Rhuf. 13. 8—10.

19 [m] Anrhydedda dy dad a'*th* fam, a [n] Chàr dy gymmydog fel ti dy hun.

m pen. 15. 4—6. Lef. 19. 3. Diar. 30. 17. Eph. 6. 1, 2. n pen. 22. 39. Lef. 19. 18. Luc 10. 27. Rhuf. 13. 9. Gal. 5. 14. Iago 2. 8.

* Yr oedd y dyn hwn yn dangos annwybodaeth mawr, wrth ofyn Pa rai; dylasai wybod, mai "cadw y gyfraith i gyd oll," yw gofyn y cyfammod gweithredoedd; a bod pwy bynag a ballo mewn un pwnc yn euog o'r cwbl. † Nid yw yr Arglwydd Iesu yn enwi ond gorchymynion yr ail lech yma: barnai y Phariseaid y rhai hyny yn bethau mwyaf distadl, a hawddaf yn y byd eu cadw; ac felly yr oeddynt, yn ol yr agoriad arwynebol a roddent hwy arnynt: ac eto, cyn dybenu, mae Iesu yn dangos i'r dyn ieuanc goludog hwn, ei fod ef yn ddiffygiol iawn hyd yn nod yn y rhai hyny, heb son am orchymynion eraill, a thrymach, y llech gyntaf.

20 Y gwr ieuangc a ddywedodd wrtho, [o] * Mi a gedwais y rhai hyn oll o'm hieuengctid.: [p] † beth sydd yn eisieu i mi etto?

o Marc 10. 20. Luc 15. 7, 29. a 18. 11, 12, 21. Ioan 8. 7. Rhuf. 3. 19—23. a 7. 9. Gal. 3. 24. Phil. 3. 6. p Marc 10. 21. Luc 18. 22.

* Yn ol eglurhâd yr athrawon Phariseaidd ar y gorchymynion hyn, tybiai y gwr ieuanc ei fod wedi eu cadw yn ddigon diwall o'i fabandod. Pe buasai yn dëall yr eglurhâd ysbrydol a roddes Crist arnynt, yn ei bregeth ar y mynydd, ni buasai yn dywedyd fel hyn. † Gan ymddiried yn ei hunan-gyfiawnder hwn, gofynai yn hyf iawn, "Beth sydd yn eisiau i mi eto?" gan feddwl yn sicr nad oedd dim yn eisiau; neu os oedd rhywbeth, ei fod ef yn ddigon galluog ac yn ddigon ewyllysgar ei gyflawni.

21 * Yr Iesu a ddywedodd wrtho, [q] Os ewyllysi fod yn berffaith, [r] dos, gwerth yr hyn sydd gennyt, a dyro i'r tlodion; a thi a gei drysor yn y nef: a thyred, [s] canlyn fi.

q pen. 5. 19, 20, 48. Gen. 6. 9. a 17. 1. Job 1. 1. Salm 37. 37. Luc 6. 40. Phil. 3. 12—15. r adn. 6. 19, 20. Marc 10. 21. Luc 12. 33. a 14. 33. a 16. 9. a 18. 22. Act. 2. 45. a 4. 32—34. 1 Tim. 6. 17, 18. Heb. 10. 34. s adn. 28. pen. 4. 19. a 8. 22. a 9. 9. a 16. 24. Marc 2. 14. a 8. 34. a 10. 21. Luc 5. 27. a 9. 23. a 18. 22. Ioan 10. 27.

* I'r dyben o ddangos iddo ef ac eraill, y drwg oedd yn gorwedd yn nghudd dàn yr ymddangosiadau gwychion hyn, mae Iesu yn gorchymyn iddo werthu ei feddiannau; rhanu yr arian yn mysg y tlodion, os oedd yn caru ei gymmydog fel ef ei hun; canlyn Crist yn ei ddirmyg a'i iselder y pryd hwnw; ac yna y ca'i efe drysor llawer iawn gwell yn y nef. Barnai yr Iuddewon mai perffeithrwydd crefydd oedd hyn, a bod y neb a wnâi hyn yn berffaith hollawl; felly yr oedd Iesu yn profi y gwr ieuanc bostfawr hwn, wrth rëol perffeithrwydd ei bobl ei hun. Dyma ymddwyn fel meddyg medrus, yn

yned yn union at waelod y clwyf, ac yna yn cymhwyso
feddyginiaeth.

22 * A phan glybu y gwr ieuangc yr ym-
drodd, [t] efe a aeth i ffordd yn † drist: [u] canys
yr oedd yn berchen dâ lawer.

t pen. 13. 22. a 14. 9. Barn. 18. 23, 24. Dan. 6. 14—17. Marc
. 26. a 10. 22. Luc 18. 23. Ioan 19. 12—16. u pen. 6. 24. a 16.
6. Salm 17. 14. Ezec. 33. 31. Eph. 5. 5. Col. 3. 5.

* Gwedi clywed y pethau uchod, aeth y gwr ieuanc i
ffordd, aeth i ffordd oddi wrth yr unig Iachawdwr, a'r
unig athraw a allasai ei wneyd yn ddoeth i iachawdwr-
aeth. † Aeth i ffordd yn drist hefyd: aeth yn drist,
fallai, am iddo ddyfod at yr Iesu o gwbl i ofyn yr hol-
ad iddo; aeth yn drist am fod y telerau mor galed i'w
galon gybyddlyd ef; efe a chwennychai gael y nefoedd,
e'i cawsai yn rhad, neu am ychydig; ond yr oedd
werthu yr hyn *oll* a feddai, yn ymadrodd rhy galed!
aeth yn drist hefyd, o herwydd cael ei groesi, a'i siomi;
gweled nad oedd ganddo gystal crefydd ag a dybiai
fe fod ganddo. Carai llawer gael y nefoedd yn eu
ffordd eu hunain, ond ychydig yn ffordd Duw. Mor
wyllodrus a chamsyniol yw ein calonau ni; tybiwn ni
in bod wedi gwneyd pobpeth, a ninnau heb wneyd
im, ac heb ewyllys i wneyd dim yn wirioneddol.

23 ¶ Yna y dywedodd yr Iesu wrth ei
ddisgyblion, * Yn wir y dywedaf i chwi, [x] mai
yn anhawdd yr â goludog [y] i mewn i deyrnas
nefoedd.

x Deut. 6. 10—12. a 8. 10—18. Job 31. 24, 25. Salm 49. 6, 7,
16—19. Diar. 11. 28. a 30. 8, 9. Marc 10. 23. Luc 12. 15—21. a 16.
3, 14, 19—28. a 18. 24. 1 Cor. 1. 26. 1 Tim. 6. 9, 10. Iago 1. 9—
11. a 2. 6. a 5. 1—4. y pen. 5. 20. a 18. 3. a 21. 31. Ioan 3. 3,
. Act. 14. 22.

24 A thrachefn meddaf i chwi, [z] † Haws yw
gamel fyned trwy grai y nodwydd ddur, nag
oludog fyned i mewn i deyrnas Dduw.

z adn. 26. pen. 23. 24. Jer. 13. 23. Marc 10. 24, 25. Luc 18.
25. Ioan 5. 44.

* Nid condemnio golud y mae Crist yma; rhodd Duw
yw golud, ac mae yn dda yn ei le, ac yn drugaredd fawr
i gael. Nid dwedyd ei bod yn llwyr anmhosibl i'r
goludog fod yn gadwedig chwaith y mae; mae llawer o'r
yfryw yn gadwedig yn ddiau. Ond dangos y mae efe,
od yn *anhawdd* iawn i'r rhai goludog fod yn gadwedig.
Mae yn anhawdd meddiannu golud heb i'r golud fedd-
annu y galon, ei gwneyd yn falch, yn gybyddlyd, neu
n gnawdol a moethus. Caiff y dyn goludog ddigon o
wenieithwyr, ond ychydig o argyhoeddwyr: ac y mae
golud yn dra thueddol i chwanegu rhif a grym y
hwystrau sydd ar ffordd ei berchenog i gofleidio cre-
ydd hunan-ymwadol Iesu. † Camel yn myned trwy
grai nodwydd, oedd ymadrodd diarebol yn mhlith yr
Iuddewon, am unrhyw beth anhawdd, neu braidd an-
mhosibl. Tybia rhai mai rhaff angor a feddylir, ac nid
y crëadur a elwir camel: dywedir fod y gair *chamelon*
yn arwyddo pob un o'r ddau. Dywedir hefyd fod porth
isel yn agos i Jerusalem, a elwid crai y nodwydd; trwy
yr hwn nis gallai camel fyned heb dynu ei lwyth i lawr.

25 A phan glybu ei ddisgyblion ef *hyn*,
** synnu a wnaethant yn ddirfawr, gan ddywed-
yd, [a] Pwy gan hynny a all fod yn gadwedig?

a pen. 24. 22. Marc 13. 20. Luc 13. 23, 24. Rhuf. 10. 13. a 11.
5—7.

26 A'r Iesu a † edrychodd arnynt, ac a
ddywedodd wrthynt, ‡ Gyd â dynion am-
mhosibl yw hyn, [b] ond gyd â Duw pob peth
sydd bosibl.

b Gen. 18. 14. Num. 11. 23. Job 42. 2. Jer. 32. 27. Zec. 8. 6.
Marc 10. 27. Luc 1. 37. a 18. 27.

* Wrth feddwl bod llawer yn oludog, pawb agos yn
chwennych bod yn oludog, a'r byd yn gyffredin yn
meddwl mai y rhai mwyaf eu golud oedd y rhai mwyaf
hoff gan Dduw; e synodd y dysgyblion wrth glywed yr
athrawiaeth newydd a chaled uchod. Efallai eu bod
yn meddwl hefyd fel hyn:—os annodd yw i'r rhai
goludog fod yn gadwedig, sydd a chymmaint o fanteision ganddynt; pa fodd y gall y tlodion fod, sydd yn llawn o helbul a thrafferth, heb hamdden i ddim gan drallodau bydol. † Mae edrychiad Iesu yma yn dangos ei dosturi tuag at ei ddysgyblion, yn eu syndod a'u hofnau presenol am gadwedigaeth eu heneidiau. ‡ O ran dynion, ebai efe, cyfoethogion a thlodion, mae y peth yn anmhosibl; ond gyda Duw, mae pob peth yn bosibl: gall ef wneyd tlodion y byd hwn yn gyfoethogion mewn ffydd, ac yn etifeddion y deyrnas; a gall ef wneyd y rhai sydd yn oludog yn y byd hwn yn dlodion yn yr ysbryd, yn gyfoethog mewn gras ac yn gadwedig yn y diwedd.

27 ¶ Yna Pedr a attebodd ac a ddywedodd
wrtho, Wele, [c] * nyni a adawsom bob peth, ac
a'th ganlynasom di: [d] † beth gan hynny a
fydd i ni?

c pen. 4. 20—22. a 9. 9. Deut. 33. 9. Marc 1. 17—20. a 2. 14.
a 10. 28. Luc 5. 11, 27, 28. a 14. 33. a 18. 28. Phil. 3. 8. d pen.
20. 10—12. Luc 15. 29. 1 Cor. 1. 29. a 4. 7.

28 A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Yn wir
meddaf i chwi, y cewch chwi, y rhai a'm can-
lynasoch i, [e] yn ‡ yr adenedigaeth, [f] pan eis-
teddo Mab y dyn ar orsedd ei ogoniant, [g] eis-
tedd chwithau ar ddeuddeg gorsedd, yn barnu
[h] deuddeg llwyth Israel.

e Es. 65. 17. a 66. 22. Act. 3. 21. 2 Pedr 3. 13. Dat. 21. 5.
f pen. 16 27. a 25. 31. 2 Thes. 1. 7—10. Dat. 20. 11—15. g pen.
20. 21. Luc 22. 28—30. 1 Cor. 6. 2, 3. 2 Tim. 2. 12. Dat. 2. 26, 27.
a 3. 21. h Ex. 15. 27. a 24. 4. a 28. 21. Lef. 24. 5. Jos. 3. 12.
1 Bren. 18. 31. Ezra 6. 17. Dat. 7. 4. a 12. 1. a 21. 12—14. a
22. 2.

* Nid oedd gan y dysgyblion ond ychydig i'w adael,
eto eu pob peth hwy ydoedd, yn gystal a phe buasai
chwaneg; ac nid llai na gras Duw a'u gwnaeth yn fodd-
lawn i'w adael. † Tybir fod Pedr yma yn disgwyl rhyw
wobrwy daearol, yn ol ei ddychymmygion ef y pryd
hwnw am deyrnas a mawredd daearol y Messiah; ond
tybia eraill nad felly y dylem ddëall ei ofyniad, eithr am
bethau ysbrydol, yn perthyn i'r bywyd tragywyddol.
‡ Os yw y gair adenedigaeth, yn perthyn i'r ymadrodd
o'r blaen, mae yn arwyddo adenedigaeth y dysgyblion
yn bersonol; ond os yw yn perthyn i'r ymadrodd sydd
ar ei ol, mae yn arwyddo rhywbeth arall: gosodiad i
fynu yr oruchwyliaeth efengylaidd, a dinystr yr Iuddew-
on, medd rhai; pryd hyny yr oedd yr apostolion wedi
cael eu gwisgo â nerth o'r uchelder i bregethu yr efen-
gyl, a'u tystiolaeth yn erbyn yr Iuddewon digred yn cael
ei chyflawni. Dyfodiad Mab Duw i farnu y byd, medd
eraill; a thybir yr ymddengys y deuddeg apostol y pryd
hwnw, mewn gwahaniaeth amlwg oddiwrth eu holl
frodyr yn Nghrist, ac y bydd y byd a'r eglwys yn cael
eu barnu yn ol eu hathrawiaeth hwy. Mae yma gyf-
eiriad yn ddiau at benaethiaid deuddeg llwyth Israel
gynt; ac er y gwyddai Iesu na byddai Judas yn un o'r
deuddeg, eto gwyddai y dewisid un yn ei le i wneyd
deuddeg.

29 A [i] * phob un a'r a adawodd † dai, [k] neu
frodyr, neu chwiorydd, neu dad, neu fam, neu
wraig, neu blant, neu diroedd, [l] er mwyn fy
enw i, ‡ a dderbyn [m] y càn cymmaint, ‖ a
[n] bywyd tragywyddol a etifedda efe.

i pen. 16. 25. Marc 10. 29, 30. Luc 18. 29, 30. k pen. 8.
21, 22. a 10. 37, 38. Luc 14. 26. 2 Cor. 5. 16. Phil. 3. 8.
1 pen. 5. 11. a 10. 22. Luc 6. 22. Ioan 15. 19. Act. 9. 16. 1 Pedr
4. 14. 3 Ioan 7. m pen. 13. 8, 23. n adn. 16. pen. 25.
34, 46.

* Yr oedd yr addewid o'r blaen i'r deuddeg apostol
yn unig; mae yr addewid hon i holl wir ganlynwyr
Crist yn mhob oes, a gaffo eu colledu er ei fwyn ef.
† Cafodd llaweroedd o ganlynwyr Iesu eu colledu yn yr
holl bethau a enwir yma mewn amseroedd o erledig-
aethau ar grefydd. ‡ Mae y rhan gyntaf o'r addewid
yn cynnwys tawelwch cydwybod, nerth a chysuron yr

Ysbryd Glân mewn trallodau, a gofal rhagluniaethol Duw am gyfeillion a chynnorthwyon i'w bobl yn eu cyfyngderau. ‡ Mae y pethau uchod yn gàn cymmaint o ran eu gwerth a dim a gollwyd; ond mae yr ail ran o'r addewid yn gàn cymmaint â hyny eilwaith: a bywyd tragywyddol a etifedda efe.

30 * Ond [o] llawer o'*r rhai* blaenaf a fyddant yn olaf, a'r rhai olaf yn flaenaf.

o pen. 8. 11, 12. a 20. 16. a 21. 31, 32. Marc 10. 31. Luc 7. 29, 30. a 13. 30. a 18. 13, 14. Rhuf. 5. 20, 21. a 9. 30—33.

* Ond fel yr ymddangoso pob peth o benarglwyddiaeth a gras Duw, ac nid yn ol haeddiant a disgwyliadau dynion, bydd llawer o'r rhai blaenaf yn olaf, a'r rhai olaf yn flaenaf. Bydd y publicanod a'r pechaduriaid yn flaenaf i dderbyn yr efengyl, ac felly i fyned i mewn i'r bywyd; a'r Ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn olaf. Bydd y cenedloedd yn flaenaf yn yr un ystyr; a'r Iuddewon yn olaf, er eu bod yn flaenaf o ran y cynnygiad o hóni iddynt. Bydd llawer o rai moesol, a mwyaf gobeithiol eu hargoelion yn olaf; a llawer o'r dynion gwaethaf, a mwyaf diobaith am danynt, yn flaenaf yn nydd y farn. Sioma y dydd hwnw lawer o ddisgwyliadau y byd presenol.

PEN. XX.

Dammeg y winllan, &c.

CANYS [a] teyrnas nefoedd sydd debyg i [b] wr o berchen tŷ, yr hwn a aeth allan [c] a hi yn dyddhâu, [d] i gyflogi gweithwyr i'w winllan.

a pen. 3. 2. a 13. 24, 31, 33, 44, 45, 47. a 22. 2. a 25. 1, 14. b pen. 9. 37, 38. a 21. 33—43. Can. 8. 11, 12. Es. 5. 1, 2. Ioan 15. 1. c pen. 23. 37. Jer. 25. 3, 4. d Marc 13. 34. 1 Cor. 15. 58. Heb. 13. 21. 2 Pedr 1. 5—10.

2 Ac [e] wedi cyttuno â'r gweithwyr er * ceiniog y dydd, [f] efe a'u hanfonodd hwy i'w winllan.

e adn. 13. Ex. 19. 5, 6. Deut. 5. 27—30. f 1 Sam. 2. 18, 26. a 3. 1, 21. a 16. 11, 12. 1 Bren. 3. 6—11. a 18. 12. 2 Cron. 34. 3. Preg. 12. 1. Luc 1. 15. 2 Tim. 3. 15.

3 Ac efe a aeth allan ynghylch [g] y drydedd awr, ac a welodd eraill [h] yn sefyll yn segur yn y † farchnadfa;

g Marc 15. 25. Act. 2. 15. h adn. 6, 7. pen. 11. 16, 17. Diar. 19. 15. Ezec. 16. 49. Act. 17. 17—21. 1 Tim. 5. 13. Heb. 6. 12.

4 Ac a ddywedodd wrthynt, [i] Ewch chwithau i'r winllan; [k] a pha beth bynnag a fyddo cyfiawn, mi a'i rhoddaf *i* chwi.

i pen. 9. 9. a 21. 23—31. Luc 19. 7—10. Rhuf. 6. 16—22. 1 Cor. 6. 11. 1 Tim. 1. 12, 13. Tit. 3. 8. 1 Pedr 1. 13. a 4. 2, 3. k Col. 4. 1.

5 A hwy a aethant ymaith. *Ac* efe a aeth allan drachefn ynghylch y [l] chweched a'r nawfed awr, [m] ac a wnaeth yr un modd.

l pen. 27. 45. Marc 15. 33, 34. Luc 23. 44—46. Ioan 1. 39. a 4. 6. a 11. 9. Act. 3. 1. a 10. 3, 9. m Gen. 12. 1—4. Jos. 24. 2, 3. 2 Cron. 33. 12—19. Heb. 11. 24—26.

6 Ac [n] efe a aeth allan ynghylch yr unfed awr ar ddeg, ac a gafodd eraill yn sefyll yn segur, ac a ddywedodd wrthynt, Paham y sefwch chwi yma ar hyd y dydd yn segur?

n Preg. 9. 10. Luc 23. 40—43. Ioan 9. 4.

7 Dywedasant wrtho, [o] Am na chyflogodd neb nyni. Dywedodd yntau wrthynt, [p] Ewch chwithau i'r winllan; [q] a pha beth bynnag fyddo cyfiawn, chwi a'*i* cewch.

o Act. 14. 16. a 17. 30, 31. Rhuf. 10. 14—17. a 16. 25. Eph. 2. 11, 12. a 3. 5, 6. Col. 1. 26. p pen. 22. 9, 10. Luc 14. 21—23. q Eph. 6. 8. Heb. 6. 10.

8 A [r] phan aeth hi yn hwyr, arglwydd y winllan a ddywedodd [s] wrth ei oruchwyliwr, Galw y gweithwyr, a dyro iddynt *eu* cyflog, gan ddechreu o'r *rhai* diweddaf hyd y *rhai* cyntaf.

r pen. 13. 39, 40. a 25. 19, 31. Rhuf. 2. 6—10. 2 Cor. 5. 1 Heb. 9. 28. Dat. 20. 11, 12. s Gen. 15. 2. a 39. 4—6. a 43. 1 Luc 12. 42. a 16. 1, 2. 1 Cor. 4 1, 2. Tit. 1. 7. 1 Pedr 4. 10.

9 A phan ddaeth y rhai *a gyflogasi* ynghylch yr unfed awr ar ddeg, [t] hwy a gawsant bob un geiniog.

t adn. 2, 6, 7. Luc 23. 43. Rhuf. 4. 3—6. a 5. 20, 21. Eph. 1. —8. a 2. 8—10. 1 Tim. 1. 14—16.

10 A phan ddaeth y rhai cyntaf, hwy dybiasant y caent fwy; a hwythau a gawsant bob un geiniog.

11 Ac wedi iddynt gael, [u] grwgnach wnaethant yn erbyn gwr y tŷ,

u Luc 5. 30. a 15. 2, 28. a 19. 7. Act. 11. 2, 3. a 13. 45. a 2 21, 22. 1 Thes. 2. 16. Judas 16.

12 Gan ddywedyd, Un awr y gweithiodd y rhai olaf hyn, a thi a'u gwnaethost hwynt [x] yn gystal a ninnau, y rhai a [y] ddygasom bwys y dydd a'r gwres.

x Luc 14. 10, 11. Rhuf. 3. 22—24, 30. Eph. 3. 6. y Es. 58 2, 3. Zec. 7. 3—5. Mal. 1. 13. a 3. 14. Luc 15. 29, 30. a 18. 11, 12 Rhuf. 3. 27. a 9. 30—32. a 10. 1—3. a 11. 5, 6. 1 Cor. 4. 11. 2 Cor 11. 23—28.

13 Yntau a attebodd ac a ddywedodd wrth un o honynt, [z] Y cyfaill, [a] nid ydwyf yn gwneuthur cam â thi: onid er ceiniog y cyttunaist â mi?

z pen. 22. 12. a 26. 50. a Gen. 18. 25. Job 34. 8—12, 17 18. a 35. 2. a 40. 8. Rhuf. 9. 14, 15, 20.

14 Cymmer yr *hyn sydd* [b] eiddot, a dos ymaith: yr ydwyf yn ewyllysio rhoddi i'r olaf hwn megis i tithau.

b pen. 6. 2, 6, 16. 2 Bren. 10. 16, 30, 31. Ezec. 29. 18—20 Luc 15. 31. a 16. 25. Rhuf. 3. 4, 19.

15 Ai [c] nid cyfreithlawn i mi wneuthur a fynnwyf â'r eiddo fy hun? [d] ‡ neu a ydyw dy lygad di yn ddrwg, [e] am fy mod i yn dda?

c pen. 11. 25. Ex. 33. 19. Deut. 7. 6—8. 1 Cron. 28. 4, 5. Jer 27. 5—7. Ioan 17. 2. Rhuf. 9. 15—24. a 11. 5, 6. 1 Cor. 4. 7. Eph 1. 11. a 2. 1, 5. Iago 1. 18. d Deut. 15. 9. a 28. 54. Diar. 23. 6 a 28. 22. Marc 7. 22. Iago 5. 19. e Jona 4. 1—4. Act. 13. 45.

16 Felly [f] y rhai olaf fyddant yn flaenaf, a'r rhai blaenaf yn olaf: [g] canys llawer sydd wedi eu galw, ac ychydig wedi eu dewis.

f pen. 8. 11, 12. a 19. 30. a 21. 31. Marc 10. 31. Luc 7. 47. 13. 28—30. a 15. 7. a 17. 17, 18. Ioan 12. 19—22. Rhuf 5. 20. a 9 30, 31. g pen. 7. 13. a 22. 14. Luc 14. 24. Rhuf. 8. 30. 2 Thes 2. 13, 14.

Nid yw y ddammeg hon gan yr un o'r efengylwy eraill: traddododd yr Arglwydd Iesu hi yn ddiau, fe eglurhâd ar yr hyn a ddywedasai yn yr adnod olaf o'r bennod o'r blaen, yr hyn hefyd a ail ddywedir gandd yn niwedd y ddammeg hon: a'r geiriau hyny yw y agoriad gorau i ddëall y ddammeg. Teyrnas nefoed yw goruchwyliaeth ben-arglwyddiaethol Duw, yn galw cenedloedd neu bersonau i fwynhâu bendithion ys brydol yn ei eglwys; yr Iuddewon yn gyntaf, ac wed hyny y Cenedloedd. Y gwr o berchen tŷ yw y Ta nefol; y winllan yw yr eglwys weledig; y gweithwy yw dynion mewn swyddau eglwysig yn benaf, yn nghy â phawb a elwir drwy yr efengyl yn gyffredinol; a' gwaith yw addoliad a gwasanaeth Duw, a'r hyn oll berthyn i iachawdwriaeth ein heneidiau ni ein hunai ac eraill. Sefyll yn segur yn y farchnadfa a arwydda dynion yn esgeuluso y gwaith mawr a phriodol at b un y danfonwyd hwynt i'r byd; sef gogoneddu Duw a cheisio achub eu heneidiau. Y geiniog a arwydda breintiau a fwynheir gan ddynion yn yr eglwys. Am gwahanol amserau o'r dydd a grybwyllir, y mae llawe o wahanol feddyliau: tybia rhai bod yr awr gyntaf, "hi yn dyddhâu," yn arwyddo galwad yr Iuddewon yn dechreuad; a'r oriau eraill, y drydedd, y chweched, a

awfed, yn arwyddo gweinidogaeth a galwad y prophwydi o oes i oes; a'r unfed awr ar ddeg yn arwyddo gweinidogaeth yr apostolion a galwedigaeth y cenedloedd. Tybia eraill ychydig yn wahanol, fel hyn: yr awr gyntaf, yn arwyddo dechreuad gweinidogaeth Crist; a'i drydedd, gweinidogaeth yr apostolion pan ddanfonwyd hwy allan gyntaf i bregethu i'r Iuddewon; y drweched a'r nawfed, eu gweinidogaeth ar ol dydd y Pentecost, i'r Iuddewon yn Judea, a'r rhai gwasgaredig newn mànau eraill; a'r unfed awr ar ddeg, galwedigaeth y cenedloedd. Gellid cymhwyso yr oriau hyn hefyd yn ddigon priodol, at alwedigaeth dynion mewn wahanol oedran: yn eu mebyd, ieuenctid, canol oed, henaint, ac ar wely angau. Yr hwyr yw amser cyfrif, neu thalu y cyflog; diwedd einioes dynion, neu ddydd y farn gyffredinol. Y grwgnachwyr oedd yr Iuddewon, o herwydd bod y cenedloedd yn cael eu gwneyd yn gydetyfranogion â hwynt o freintiau yr efengyl, neu fenithion teyrnas y Messiah. Gwelir y grwgnachrwydd hwn yn amlwg wrth droi at yr ysgrythyrau cyfeiriol a berthyn i'r gair grwgnach yn adn. 11. Pwys y dydd a'r gwres oedd y gorthrymderau a ddyoddefodd yr Iuddewon gan y cenedloedd o oes i oes, o herwydd eu hymddiriniad wrth addoliad y gwir Dduw: ni ddyoddefodd y rhai Cristionogol o honynt ddim caledi neilldiol, mwy na'r cenedloedd Cristionogol. Mae ymddiffyniad gwrth tŷ yn gyfiawn ac yn rhesymol iawn; ac ar yr un pryd yn dangos afresymoldeb y grwgnachwyr. Er ceiniog y bytunwyd, a'r geiniog hòno a dalwyd: nid yw Duw ddyledwr i neb, ac ni chaiff neb fod ar eu colled am ddim y wnelont yn ei wasanaeth ef. Os ydyw yn rhoddi mwy i rai na'u gilydd, o'r eiddo ei hun mae yn rhoddi; ac onid oes ganddo awdurdod i wneyd felly? mae y fenithin leiaf yn fwy na haeddiant neb sydd yn ei chael; felly nid oes le i ymffrost na grwgnach chwaith. Am y blaenaf a'r olaf yn adn. 16, sylwyd o'r blaen, pen. 19. 30. Mae y gair *galw*, yn rhan olaf yr adnod, weithiau yn arwyddo *gwahodd*, drwy weinidogaeth gyhoeddus yr efengyl, a dwyn dynion fel aelodau o'r eglwys weledig: fel hyny fe alwyd llawer o Iuddewon a chenedloedd; ond ychydig a ddewiswyd, drwy arfaeth ddigyfnewid Duw, i fod yn gyfranogion o ras achubol ac i fywyd tragywyddol. Pa fodd bynag y grwgnacho dynion a eddfol yn erbyn hyn, fel y gweithwyr uchod; dyma fel y dywedodd Iesu, ychydig sydd wedi eu dewis, ac e oldengys ef ei gyfiawnder yn amlwg yn y dydd a ddaw.

* *Ceiniog:* tua saith geiniog a dimmai o'n harian ni. Hyny oedd cyflog diwrnod gwaith yn gyffredin yn mhlith yr Iuddewon. † *Yn y farchnadfa* y byddai gweithwyr yn arfer sefyll i gael eu cyflogi. Felly gyda ninnau yn aml. ‡ *Dy lygad di yn ddrwg:* cyfeiriad sydd yma at yr effaith gas y mae ysbryd hunanol a chenfigenus yn ngael ar wynebpryd ac edrychiad dynion.

17 ¶ * Ac [h] a'r Iesu yn myned i fynu i Jerusalem, [i] † efe a gymmerth y deuddeg disgybl o'r neilldu ar y ffordd, ac a ddywedodd wrthynt,

h Marc 10. 32—34. Luc 18. 31—34. Ioan 12. 12. i pen. 13. 1. a 16. 13. Gen. 18. 17. Ioan 15. 15. Act. 10. 41.

18 ‡ Wele, yr ydym ni yn myned i fynu i Jerusalem; [k] ‖ a Mab y dyn a draddodir i'r arch-offeiriaid a'r ysgrifenyddion, a [l] hwy a'i condemniant ef i farwolaeth,

k pen. 16. 21. a 17. 22, 23. a 26. 2. Salm 2. 1—3. a 22. 1, &c. a 59. 1, &c. Es. 53. Dan. 9. 24—27. Act. 2. 23. a 4. 27, 28. l pen. 26. 66. a 27. 1. Marc 14. 64, 65. Luc 22. 71.

19 Ac [m] a'i traddodant ef i'r Cenhedloedd, [n] i'*w* watwar, ac i'*w* fflangellu, ac i'*w* groeshoelio: [o] § a'r trydydd dydd efe a adgyfyd.

m p en. 27. 2, &c. Marc 15. 1, 16, &c. Luc 23. 1, &c. Ioan 18. 28, &c. Act. 3. 13—16. n pen. 26. 67, 68. a 27. 27—31. Salm 22. 7, 8. a 35. 16. Es. 53. 3. Marc 14. 65. a 15. 16—20, 29—31. Luc 23. 11. Ioan 19. 1—4. o pen. 12. 40. a 16. 21. Es. 26. 19. Hos. 6. 2. Luc 24. 46. 1 Cor. 15. 4.

* Dyma'r tro diweddaf i'r Arglwydd Iesu fyned i fynu i Jerusalem, yr oedd amser ei ddyoddefaint ef yno yn awr yn agoshân. † Nid oedd achos iddo rag-fynegi ei ddyoddefaint i neb ond ei ddysgyblion; ac yr oedd yn angenrheidiol eu rhag-hysbysu hwy, er darpar eu meddyliau erbyn y fath dro. ‡ Er y gwyddai Mab Duw beth oedd yn ei aros yn Jerusalem, eto mae yn myned yno yn ewyllysgar ac o'i wirfodd, Ioan 10. 18. ‖ Traddodwyd ef gan Judas i'r arch-offeiriaid a'r ysgrifenyddion; ac ar ol iddynt hwy ei gondemnio ef yn ol eu cyfraith hwynt, traddodasant hwythau ef i Herod, Pilat, a'r milwyr Rhufeinig, i'w groeshoelio. § Yn mhob màn ag mae Crist yn rhag-fynegi am ei farwolaeth, mae hefyd yn dywedyd am ei adgyfodiad, er cysuro ei ddysgyblion: ond am ei adgyfodiad y trydydd dydd, nid oeddynt hwy yn deall eto, nac yn credu.

20 ¶ Yna [q] y daeth [r] * mam meibion Zebedëus atto gyd â'i meibion, [s] gan addoli, a deisyf rhyw beth ganddo.

q Marc 10. 35. r pen. 4. 21. a 27. 56. Marc 15. 40. s pen. 2. 11. a 8. 2. a 14. 33. a 15. 25. a 28. 17.

21 Ac efe a ddywedodd wrthi, [t] Pa beth a fynni? Dywedodd hithau wrtho, [u] † Dywed am gael o'm dau fab hyn eistedd, [x] y naill ar dy law ddehau, a'r llall ar dy law aswy, [y] yn dy frenhiniaeth.

t adn. 32. 1 Bren. 3. 5. Esther 5. 3. Marc 6. 22. a 10. 36, 51. Luc 18. 41. Ioan 15. 7. u pen. 18. 1. a 19. 28. Jer. 45. 5. Marc 10. 37. Luc 22. 24. Rhuf. 12. 10. Phil. 2. 3. x 1 Bren. 2. 19. Salm 45. 9. a 110. 1. Marc 16. 19. Rhuf. 8. 34. Col. 3. 1. y Luc 17. 20, 21. a 19. 11. Act. 1. 6.

* Salome ydoedd enw y wraig hon, Marc 15. 40. ac Iago ac Ioan oedd enwau ei meibion, pen. 10. 2. Efallai fod Zebedeus ei hun wedi marw erbyn hyn, neu, ynte, nad oedd yn canlyn Crist mòr gyson â hi a'i meibion. † Efallai ei bod yn meddwl am y deuddeg gorsedd a addawodd Crist i'w apostolion yn pen. 19. 28. ac am i'w dau fab hi gael eistedd yn nesaf ato ef, fel arwydd o anrhydedd, a blaenoriaeth ar y dysgyblion eraill. Neu, efallai, bod yma gyfeiriad at drefn y Senedd Iuddewig: yno yr oedd y *Nasi*, neu rag-lywydd y llys, yn eistedd ar y brif gadair; yr hwn a elwid *Ab Beth Din*, neu dad y barnydd, yn eistedd ar ei ddeheulaw; a'r llall, yr hwn a elwid y *Chachem*, neu y doeth, yn eistedd ar ei aswy. Ond peth rhyfedd oedd iddi ofyn y fath gais yn union ar ol i Grist ddywedyd am ei farwolaeth: oddigerth iddi feddwl y gosodai efe i fynu ei freniniaeth, ac yr ymddangosai yn ei ogoniant a'i fawredd fel Messiah, yn y fàn wedi adgyfodi. Mae yn amlwg bod rhyw feddyliau felly gan y dysgyblion am dano.

22 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd, [z] * Ni wyddoch chwi beth yr ydych yn ei ofyn. † A ellwch chwi yfed o'r [a] cwppan yr ydwyf fi ar yfed o hóno, a'ch [b] bedyddio â'r bedydd y bedyddir fi? ‡ Dywedasant wrtho, [c] Gallwn.

z Marc 10. 38. Rhuf. 8. 26. Iago 4. 3. a pen. 26. 39, 42. Salm 75. 3. Jer. 25. 15, &c. Marc 14. 36. Luc 22. 42. Ioan 18. 11. b Marc 10. 39. Luc 12. 50. c pen. 26. 35, 56. Diar. 16. 18.

* Cerydd addas oedd hwn; mae yn sicr nas gwyddai y wraig na'i meibion beth yr oeddynt yn ei ofyn, nac ychwaith anaddasrwydd yr amser i ofyn y fath gais dychymmygol a hunanol. † Arferai yr Iuddewon roddi cwpan i bob un o'r gwahoddedigion mewn gwledd; ac yn ol a fyddai ynddo, ychydig neu lawer, y dangosai perchen y wledd ei groesaw iddynt. Oddiwrth hyny daeth cwpan i arwyddo cyfran osodedig, o ddedwyddwch neu ddyoddefaint, ac arferir y gair am ddyoddefaint a gofid yn aml yn yr ysgrythyrau. Felly y defnyddir ef yma; ac felly mae bedyddio hefyd, yn arwyddo yr holl lifeiriant ofnadwy o ddyoddefiadau a aeth dros ben ein Harglwydd bendigedig. Mae yn dangos yma hefyd, y byddai raid i'r rhai agosaf ato ef yn ei freniniaeth, fyned trwy lawer o ddyoddefiadau fel yntau ei hun. ‡ Mae yr ateb yn dangos annwybodaeth mawr o ofyniad Iesu, neu anystyriaeth mawr o'u gwendid hwy eu hunain.

23 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [d] * Diau yr yfwch o'm cwppan, ac y'ch bedyddir â'r bedydd y'm bedyddir âg ef: eithr eistedd ar fy llaw ddehau ac ar fy llaw aswy, † nid eiddof *ei* roddi; ond [e] i'r sawl y darparwyd gan fy Nhad.

d Act. 12. 2. Rhuf. 8. 17. Col. 1. 24. 2 Tim. 2. 11, 12. Dat. 1. 9. e pen. 25. 34. Marc 10. 40. 1 Cor. 2. 9. Heb. 11. 16.

* Iago oedd y cyntaf o'r apostolion a yfodd o gwpan, ac a fedyddiwyd â bedydd, dyoddefaint, Act. 12. 2; ac er na ddyoddefodd Ioan ferthyrdod, eto, gorfu arno yntau ddyoddef llawer trwy ystod ei hir oes. † Nid eiddof ei roddi: cam ddefnyddiwyd y geiriau hyn, i wadu Duwdod Crist, a'i ogyfuwchder â'r Tad. Nid dywedyd beth oedd ei *allu* a'i *awdurdod* fel Duw y mae efe yma; ond beth oedd ei *swydd* fel cyfryngwr: yr oedd lleoedd pawb yn y nef, wedi eu trefnu yn nhragywyddol gyngor Duw, ac yntau fel Cyfryngwr, i osod pawb yn ei le, yn ol y trefniad a'r cyngor tragywyddol hwnw. Mae y geiriau, *it shall be given to them*, yn yr adnod hon yn Saesoneg yn afreidiol, yn ol barn y Saeson eu hunain: nid ydynt yn y Gymraeg, nac yn y Groeg chwaith,

24 * A phan glybu y deg *hyn*, [f] hwy a sorrasant wrth y ddau frodyr.

f Diar. 13. 10. Marc 10. 41. Luc 22. 23, 24. 1 Cor. 13. 4. Phil. 2. 3. Iago 3. 14—18. a 4. 1, 5, 6. 1 Pedr 5. 5.

* Yr oedd y dysgyblion eraill mor awyddus am y lle blaenaf â'r ddau hyn; am hyny hwy a sòrasant wrthynt, am iddynt achub y blaen arnynt hwy.

25 * A'r Iesu [g] a'u galwodd hwynt atto, ac a ddywedodd, Chwi a wyddoch fod [h] pennaethiaid y Cenhedloedd yn [i] tra-arglwyddiaethu arnynt, a'r rhai mawrion yn tra-awdurdodi arnynt hwy.

g pen. 11. 29. a 18. 3, 4. Ioan 13. 12—17. h Marc 10. 42. Luc 22. 26, 27. i Dan. 2. 12, 13, 37—45. a 3. 2—7, 15, 19—22. a 5. 19.

26 Eithr [k] nid felly y bydd yn eich plith chwi: ond pwy bynnag a fynno fod yn fawr yn eich plith chwi, bydded yn [l] weinidog i chwi;

k pen. 23. 8—12. Marc 10. 43—45. Luc 14. 7—11. a 18. 14. Ioan 18. 36. 2 Cor. 1. 24. a 10. 4—10. 1 Pedr 5. 3. 3 Ioan 9, 10. Dat. 13. 11—17. a 17. 6. l pen. 25. 44. a 27. 55. Exod. 24. 13. Act. 13. 5. 2 Tim. 1. 18. Philemon 13. Heb. 1. 14. 1 Pedr 4. 11.

27 A phwy bynnag a fynno fod yn bennaf yn eich plith, [m] bydded yn was i chwi:

m Marc 9. 33—35. Luc 22. 26. Act. 20. 34, 35. Rhuf. 1. 14. 1 Cor. 9. 19—23. 2 Cor. 4. 5. a 11. 5, 23—27. a 12. 15.

* Efallai y buasai dadl annymunol yn cyfodi yn mhlith y dysgyblion pe gadawsai yr Iesu hwynt iddynt eu hunain. Ond i ragflaenu hyny, efe a'u galwodd hwynt oll ato, ac a ddangosodd pa fath a fyddai ei deyrnas ef, a pha fath a ddylai ei ddeiliaid ef fod. Nid oes dim yn dywyll nac yn ddyrys yn y geiriau hyn: gallwn sylwi ar y pethau canlynol ynddynt:—1. Bod Crist yn dangos gwahaniaeth mawr rhwng ei freniniaeth ef â breniniaethau y byd hwn: mae breninoedd y ddaear yn uchelfryd, yn dra-arglwyddiaethol, ac yn greulawn; ond ni ddylai neb fod felly yn ei deyrnas ef. 2. Mae yma gerydd i'r dysgyblion, am eu balchder, eu huchel-gais, a'u hawydd am flaenoriaeth ac uchafiaeth ar eu gilydd. Mae y cyfryw ysbryd yn gwneyd pawb yn anghymhwys iawn i deyrnas Iesu. 3. Mae yma ddangosiad pa fath a ddylent fod; am yr iselaf wrth draed eu gilydd, ac am y mwyaf awyddus i barchu a gwasanaethu eu gilydd. Dyna ffordd Crist i'w bobl fod yn fawr, ac yn benaf; a thyna'r fath ddynion a fyddant yn fawr yn yr eglwys yma, ac hefyd yn y nef.

28 * Megis [n] na ddaeth Mab y dyn i'w wasanaethu, ond i wasanaethu, [o] † ac i roddi ei einioes yn bridwerth [p] dros lawer.

n Luc 22. 27. Ioan 13. 4—17. Phil. 2. 4—8. Heb. 5. 8. o Job 33. 24. Salm 49. 7. Es. 53. 10, 11. Dan. 9. 24—26. Ioan 10. 15. a 11. 50—52. Rhuf. 3. 24—26. Gal. 3. 13. Eph. 1. 7. a 5. 2. 1 Tim. 2. 6. Tit. 2, 14. 1 Pedr 1. 18. a 2. 24. a 3. 18. Dat. 5. 8, 9. p pen. 26. 28. Marc 14. 24. Rhuf. 5. 15—19. Heb. 9. 28. 1 Ioan 2. 2.

* Heblaw yr hyfforddiadau blaenorol, mae Mab y dyn Brenin y deyrnas, yn y geiriau hyn yn gosod ei hun y esampl o ostyngeiddrwydd, addfwynder, a hunan-yn wadiad. Nid i dderbyn gwasanaeth rhwysgfawr fe breninoedd y byd hwn y daeth efe, ond i wasanaethu gwneyd daioni i gyrph ac eneidiau dynion. † Ac ni hyn yn unig, ond hefyd i roddi ei einioes yn bridwerth dros lawer; cynnifer ag a roddodd y Tad iddo: i'w prynu oddi wrth felltith y ddeddf a phob anwiredd Pris rhyddâd, pryniad, a gwaredigaeth, yn cael ei rodd gan un dros arall, neu eraill, ag na byddo gofy ychwaneg dros y cyfryw: hyny meddant yw ystyr y gai *lutron*, a gyfieithir *pridwerth* yn y fàn uchod.

29 ¶ * Ac [q] a hwy yn myned allan o Jericho, tyrfa fawr a'i canlynodd ef.

q Marc 10. 46—52. Luc 18. 35—43.

30 Ac wele, [r] † dau ddeillion yn eistedd ar *fin* y ffordd, pan glywsant fod yr Iesu yn myned heibio, a lefasant, gan ddywedyd, [s] ‡ Arglwydd, fab Dafydd, trugarhâ wrthym.

r pen. 9. 27—31. a 12. 22. a 21. 14. Salm 146. 8. Es. 29. 18. a 35. 5, 6. a 42. 16, 18. a 59. 10. a 61. 1, 2. Luc 4. 18. a 7. 21. Ioan 9 1, &c. s pen. 12. 23. a 15. 22. a 21. 9. a 22. 42. Act. 2. 30. Rhuf 1. 3, 4.

31 ‖ A'r dyrfa [t] a'u ceryddodd hwynt, fel y tawent: [u] hwythau a lefasant fwy-fwy, gan ddywedyd, Arglwydd, fab Dafydd, trugarhâ wrthym.

t pen. 15. 23. a 19. 13. u pen. 7. 7, 8. Gen. 32. 25—29. Luc 11. 8—10. a 18. 1, &c. 39. Col. 4. 2. 1 Thes. 5. 17.

32 A'r Iesu a safodd, ac a'u galwodd hwynt, ac a ddywedodd, [x] Pa beth a ewyllysiwch ei wneuthur o honof i chwi?

x adn. 21. Ezec. 36. 37. Act. 10. 29. Phil. 4. 6.

33 Dywedasant wrtho, [y] Arglwydd, agoryd ein llygaid ni.

y Salm 119. 18. Eph. 1. 17—19.

34 § A'r [z] Iesu a dosturiodd *wrthynt*, ac [a] a gyffyrddodd â'u llygaid: ac yn ebrwydd y cafodd eu llygaid olwg, [b] a hwy a'i canlynasant ef.

z pen. 9. 36. a 14. 14. a 15. 32. Salm 145. 8. Luc 7. 13. Ioan 11. 33—35. Heb. 2. 17. a 4. 15, 16. 1 Pedr 3. 8. a pen. 9. 29. Marc 7. 33. Luc 22. 51. Ioan 9. 6, 7. b pen. 8. 15. Salm 119. 67, 71. Luc 18. 43. Act. 26. 18.

* Yr oedd Jericho yn sefyll tua phedair milltir ar bymtheg i'r dwyrain o Jerusalem, ac ar y ffordd o Bethabara yno. Dywed Mathew a Marc mai wrth fyned *allan* o Jericho, y gwnaeth Iesu y wyrth hon; ond dywed Luc 18. 35, mai fel yr oedd efe yn *nesâu at* Jericho y bu. Cysonir yr ymddangosiad hyn o anghysondeb fel y canlyn. Tybia rhai, i'r deillion ddechreu llefain ar Iesu fel yr oedd efe yn *nesâu at* y ddinas; ond nad agorodd efe eu llygaid nes ei fyned *allan o'r* ddinas, tua Jerusalem. Tybia eraill, iddo aros amryw ddydd iau yn Jericho, ac y byddai yn myned allan bob dydd o amgylch y ddinas, ac mai wrth rodio felly ryw ddiwrnod y gwnaeth efe y wyrth hon. Dywed eraill y gellid darllen y geiriau "ac efe yn nesâu," yn Luc, "ac efe yn agos," (Gwel Luc 19. 29.) ac fel yna mae yr anghysondeb yn diflanu. † Ni sonia Marc a Luc ond am un dyn dall, a dywed Marc mai Bartimeus oedd ei enw Nid ydyw y ddau efengylwr hyn yn dywedyd yn groes i Mathew: tybir fod Bartimeus yn fwy adnabyddus iddynt hwy, ac mai am hyny y darfu iddynt ei enwi ef ac heb wneyd dim sylw o'r llall. ‡ Sylwyd ar y geiriau hyn o'r blaen: Mab Dafydd oedd enw adnabyddus i'r Iuddewon ar y Messiah; a diammau bod y deillion hyn yn credu mai Iesu oedd y Messiah. ‖ Pa ham y ceryddai y dyrfa hwynt? Am eu bod yn afionyddu yr Iesu medd rhai; ond ai nid tebyg mai am eu bod yn e alw yn Fab Dafydd, gan ei addef ef yn Fessiah? § Yr niwedd yr hanes uchod, gallwn weled dau beth, yn l Grym a thaerineb ffydd mewn gweddi; ac yn 2. Tostur Mab Duw, a'i barodrwydd i wrando ac ateb gweddiau

d bobl anghenus, pan lefont arno mewn ffydd a thaer-
aeb.

PEN. XXI.

Crist yn marchogaeth ar asen i Jerusalem, &c.

A [a] * PHAN ddaethant yn gyfagos i Jerusalem, a'u dyfod hwy i † Bethphage, i
fynydd yr Olew-wydd, yna yr anfonodd yr
esu ddau ddisgybl,

a Marc 11. 1. Luc 19. 28, 29. b pen. 24. 3. a 26. 30. Zec.
4. Luc 19. 37. a 21. 37. Ioan 8. 1. Act. 1. 12.

2 Gan ddywedyd wrthynt, [c] ‡ Ewch i'r pen-
ref sydd ar eich cyfer, ac yn y man chwi
gewch asen yn rhwym, ac ebol gyd â hi:
ollyngwch *hwynt*, a dygwch attaf fi.

c pen. 26. 18. Marc 11. 2, 3. a 14. 13—16. Luc 19. 30—32. Ioan
5—8.

3 Ac os dywed neb ddim wrthych, dywed-
ych, [d] || Y mae yn rhaid i'r § Arglwydd wrth-
nt: [e] ac yn y man efe a'u denfyn hwynt.

d 1 Cron. 29. 14—16. Salm 24. 1. a 50. 10, 11. Hag. 2. 8, 9.
an 3. 35. a 17. 2. Act. 17. 25. 2 Cor. 8. 9. e 1 Sam. 10. 26.
Bren. 17. 9. Ezra 1. 1, 5. a 7. 27. 2 Cor. 8. 1, 2, 16. Iago 1. 17.

* Dygwyddodd amryw bethau, megys galw Zacheus,
Hgyfodi Lazarus, &c. rhwng yr hanes yn y bennod o'r
daen, â'r hanes hyn a ganlyn. † Bethphage (Tŷ y
igys cynar:) pentref bychan oedd, yn perthyn i'r offeir-
iaid, yn nghylch dwy filltir o du y dwyrain i Jerusalem,
c ar ffordd yr Iesu o Jericho yno. Rhaid ei fod yn
gos i Bethania, oblegid enwa Marc a Luc y ddau le yn
r hanes hwn, Marc 11. 1. Luc 19. 29. ‡ Tybir mai
ethphage oedd y pentref hwn, ond bod yr Iesu heb
dyfod iddo eto. || Nid *rhaid* naturiol, o herwydd
udded y daith; yr oedd Iesu wedi teithio ar ei draed
Galilea hyd yno, a hawdd y gallasai deithio dwy
lltir, oddi yno i Jerusalem: ond *rhaid* i gyflawni pro-
hwydoliaeth, Zech. 9. 9. a *rhaid* i ddangos tlodi, a
ostyngeiddrwydd, Brenin Sion, yn marchogaeth ar
ebol llwdn asen;" ac yr unig dro y marchogodd erioed
n ei holl deithiau. § Yr Arglwydd, yr hwn a bïau yr
nifeiliaid ar fil o fynyddoedd: nid oedd nemawr o
eth iddo gael benthyg yr eiddo ei hun am y tro hwn,
fyned i mewn i Jerusalem y tro diweddaf fel Brenin.
welir rhagwybodaeth ddwyfol y Cyfryngwr mewn
mryw bethau yn yr hanes uchod. 1. Chwi gewch asen.
. Ac ebol gyda hi. 3. Ar yr hwn nid eisteddodd neb,
Marc 11. 2. 4. Chwi a'i cewch yn rhwym. 5. Chwi
ii cewch yn y màn wedi y deloch i mewn i'r pentref.
. Dywedir wrthych, Pa ham y gollyngwch ef? 7. Gadew-
i chwi ei gael, ond dywedyd, Mae yn rhaid i'r Ar-
lwydd wrtho. Pwy a allasai ragwybod a rhagddy-
edyd yr holl bethau uchod, ond Duw hollwybodol?
phwy a allasai dueddu y perchenogion i ollwng yr
bol, ond un ag oedd ag awdurdod ganddo ar galonau?

4 * A [f] hyn oll a wnaethpwyd, fel y cyf-
awnid yr hyn a ddywedasid trwy y prophwyd,
yn dywedyd,

f pen. 1. 22. a 26. 56. Ioan 19. 36, 37 g Zec. 9. 9. Ioan
2. 15.

5 Dywedwch [h] i ferch Sïon, Wele, [i] dy
renhin yn dyfod i ti [k] yn addfwyn, ac [l] yn eis-
edd ar asen, † ac ebol llwdn *asen* arferol â'r
au.

h Salm 9. 14. Es. 12. 6. a 40. 9. a 62. 11. Zeph. 3. 14, 15.
pen. 2. 2, 6. Gen. 49. 10. Num. 24. 19. Salm 2. 6—12. a 45. 1,
c. a 72. 1, &c. a 110. 1—4. Es. 9. 6, 7. Jer. 23. 5, 6. Ezec. 34. 24.
37. 24. Dan. 2. 44, 45. a 7. 13, 14. Mica 5. 2. Zec. 6. 12, 13. Ioan
49. a 19. 15—22. k pen. 11. 29. a 12. 19, 20. 2 Cor. 10. 1.
hil. 2. 3—5. l Deut. 17. 16. Barn. 5. 10. a 12. 14. 2 Sam. 16.
1 Bren. 1. 33. a 10. 26. Hos. 1. 7. Mica 5. 10, 11. Zec. 9. 10.

* Addefai yr Iuddewon mai prophwydoliaeth am y
Messiah oedd y geiriau uchod; eto, cymmaint oedd eu
allineb, er iddynt weled cyflawniad o hóni, ni chred-
nt mai Iesu oedd y Messiah. † Ar yr ebol yr eistedd-
odd Iesu, mae y geiriau yn eglurhâu y naill y llall: asen, yn dangos rhyw yr anifail, ac ebol, yn dangos yr oed. Felly yn y Groeg yr un modd, ond gadawyd y geiriau allan yn gwbl yn y Saesoneg; "yn eistedd ar asen, ac ebol llwdn asen," sydd yn diweddu yr adnod yno. Gellid meddwl mai yr asen, y fam, oedd arferol â'r iau; eto am yr ebol, llwdn yr asen, y dywedir hyn debygid; ac efallai ei fod eisoes wedi ei gynnefino a'r iau.

6 * Y disgyblion a aethant [m] ac a wnaeth-
ant fel y gorchymynasai yr Iesu iddynt.

m Gen. 6. 22. a 12. 4. Ex. 39. 43. a 40. 16. 1 Sam. 15. 11.
Ioan 15. 14.

* Gwelwn yma ufudd-dod parod y dysgyblion: gwnaethant fel y gorchymynodd eu Harglwydd, a chawsant bob peth fel y dywedodd efe.

7 A hwy a [n] ddygasant yr asen a'r ebol, ac
[o] a ddodasant eu * dillad arnynt, ac a'*i* gosod-
asant *ef* i eistedd ar hynny.

n Marc 11. 4—8. Luc 19. 32—35. o 2 Bren. 9. 13.

8 † A thyrfa ddirfawr a daenasant eu ‡ di-
llad ar y ffordd; [p] || eraill a dorrasant gangau
o'r gwŷdd, ac a'*u* taenasant ar hyd y ffordd.

p Lef. 23. 40.

9 A'r torfeydd, y rhai oedd yn myned o'r
blaen, a'r rhai oedd yn dyfod ar ol, a lefasant,
gan ddywedyd, [q] § Hosanna i fab Dafydd:
[r] Bendigedig yw yr hwn sydd yn dyfod yn
enw yr Arglwydd: Hosanna [s] yn y goruchaf-
ion.

q adn. 15. Salm 118. 24—26. Marc 11. 9, 10. r pen. 23.
39. Luc 19. 37, 38. Ioan 12. 13—15. s Luc 2. 14.

* Gwelwn yma eto dlodi ein Harglwydd; nid oedd yno yr un cyfrwy, dim ond cefn noeth yr anifail; am hyny dododd y dysgyblion eu dillad ar yr asen, a'r ebol hefyd, fel y gallai efe gymmeryd ei ddewis o honynt. Ar yr ebol medd Luc, pen. 19. 35, ac ni sonia efe ond am ebol yn unig, yn yr hanes oll; ond mae y brophwydoliaeth yn Zech. 9. 9, a'r hanes yn yr adnodau hyn, yn dangos fod yno asen ac ebol; a thybia rhai i Grist eistedd ar bob un o'r ddau, y naill ar ol y llall. † Yr oedd Iesu wedi adgyfodi Lazarus ychydig iawn o'r blaen; ac yr oedd y wyrth ryfedd hòno wedi dwyn torfeydd o bobl o'i amgylch ef, i'w groesawi i Jerusalem. ‡ Mae hen hanesion yn dywedyd y byddid arferol o daenu dillad ar hyd y ffordd gynt er groesawi tywysogion: a dywedir ddarfod gwneyd felly i Jehu, pan eneiniwyd ef yn frenin ar Israel, 2 Bren. 9. 13. || Cangau o'r palmwydd a gymmerasant, medd Ioan 12. 13. Arferid gwneyd hyn hefyd, wrth groesawi breninoedd a rhyfelwyr buddugoliaethus i ddinasoedd: ac yr oedd hyn yn ddefod gan yr Iuddewon hefyd ar wyl y pebyll. § Cymmerwyd y geiriau hyn, mae'n debyg, o Salm 118. 24, 25, 26. Llefarwyd hwy gan Dafydd yn brophwydol am y Messiah, a defnyddiwyd hwy felly gan y torfeydd yn yr amgylchiad hwn: i groesawi Iesu fel Messiah, ac i ddymuno llwyddiant ei deyrnas ef. Hosanna, gair Hebraeg, yn arwyddo Achub attolwg.

10 Ac wedi ei ddyfod ef i mewn i Jerusa-
lem, [t] * y ddinas oll a gynhyrfodd, gan ddy-
wedyd, † [u] Pwy yw hwn?

t pen. 2. 3. Ruth 1. 19. 1 Sam. 16. 4. Ioan 12. 16—19.
u Can. 3. 6. Es. 63. 1. Luc 5. 21. a 7. 49. a 9. 9. a 20. 2. Ioan 2.
18. Act. 9. 5.

11 A'r torfeydd a ddywedasant, [x] ‡ Hwn yw
Iesu y prophwyd [y] o Nazareth yn Galilea.

x pen. 16. 13, 14. Deut. 18. 15—19. Luc 7. 16. Ioan 7. 40. a
9. 17. Act. 3. 22, 23. a 7. 37. y pen. 2. 23. Ioan 1. 45, 46.

* Wrth weled Iesu yn ei agwedd dlawd, yn marchogaeth ar ebol llwdn asen, a chlywed yr holl dorfeydd yn bloeddio y geiriau uchod er clodforedd iddo; nid rhyfedd fod y ddinas oll yn ymgynhyrfu: ni welwyd y cyffelyb o'r blaen yn Jerusalem. † Wrth fod Iesu wedi

treulio y rhan fwyaf o'i oes yn Galilea, ac heb fod ond ychydig weithiau yn Jerusalem, mae yn debyg nad oedd nemawr yn ei adnabod ef yno, gan hyny gofynent mewn syndod, Pwy yw hwn? ‡ Ni roddodd y dyrfa ddim uwch enw iddo na Iesu y Prophwyd; pe amgen, mae yn debyg y cawsent hwy ac yntau eu cymmeryd i fynu fel cythryblwyr a gwrthryfelwyr. Tybia rhai mai y Prophwyd a ragfynegodd Moses yn Deut. 18. 18, oedd y bobl yn feddwl, ac eu bod wrth ddywedyd fel hyn am dano, yn llwyr gredu a chyfaddef mai efe oedd y Messiah.

12 ¶ * A'r Iesu [z] a aeth i mewn i deml Dduw, [a] † ac a daflodd allan bawb a'r oedd yn gwerthu ac yn prynu yn y deml, ac a ddymchwelodd i lawr fyrddau y [b] ‡ newidwyr arian, a chadeiriau y rhai oedd yn gwerthu [c] colommenod:

z Mal. 3. 1, 2. Marc 11. 11. a Marc 11. 15. Luc 19. 45, 46. Ioan 2. 14—17. b Deut. 14. 24—26. c Lef. 1. 14. a 5. 7, 11. a 12. 6, 8. a 14. 22, 30. a 15. 14, 29. Luc 2. 24.

13 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [d] Ysgrifenwyd, [e] || Tŷ gweddi y gelwir fy nhŷ i; eithr [f] chwi a'i gwnaethoch yn ogof lladron.

d pen. 2. 5. Ioan 15. 25. e Salm 93. 5. Es. 56. 7. f Jer. 7. 11. Marc 11. 17. Luc 19. 46.

14 A [g] daeth y deillion a'r cloffion atto yn y deml; ac efe a'u hiachâodd hwynt.

g pen. 9. 35. a 11. 4, 5. Es. 35. 5, 6. Act. 3. 1—9. a 10. 38.

* Yn y fàn wedi ei ddyfod i Jerusalem, aeth yr Iesu i'r deml; nid i'r senedd-dŷ, nac i unrhyw lŷs gwladol, ond i deml Dduw, i ddangos mai efe oedd Arglwydd y deml, ac mai ysbrydol oedd natur ei deyrnas ef. Nid i'r sancteiddiolaf yr aeth, nid oedd neb ond yr arch-offeiriad i fyned yno; nac i'r cyssegr chwaith, nid oedd neb ond yr offeiriaid i fyned yno: eithr i'r cyntedd nesaf allan, mae'n debyg, lle byddai y bobl yn ymgyfarfod i addoli, Luc 1. 10, neu ynte i'r lle a elwid cyntedd y Cenedloedd. † Gwnaethai Iesu beth fel hyn unwaith o'r blaen, yn nechreuad ei weinidogaeth gyhoeddus, Gwel Ioan 2. 13—17. Mae yn debyg fod y rhan hon o'r deml wedi cael ei gwneyd yn hollawl yn dŷ marchnad, i brynu a gwerthu pethau at yr aberthau ynddi: megys gwin, halen, olew, ychain, defaid, a cholommenod: a chan fod y Pasc yn awr ar y drws, yr oedd y farchnad yn llawnach nac arferol. ‡ Byddai yr Iuddewon arianog a chribddeiliog hefyd yno, yn newid arian â dïeithriaid a ddeuent o wledydd pellenig i addoli; ac yn codi llôg neu usuriaeth anghyfiawn ar y dïeithriaid hyny am gyfnewid â hwynt. A byddai yr offeiriaid yn goddef y cyfryw bethau yn y lle sanctaidd, am elw llygredig a ddeuai iddynt hwy o hyny. || Fel hyn yr oedd tŷ gweddi Duw wedi myned yn dŷ marchnad, ïe, dim gwell nac ogof lladron, gan yr anghyfiawnder a wnaid yno. Peth rhyfedd oedd i bawb o honynt gymmeryd y fath weithred a hon ar law Iesu; dïammau iddo wisgo rhyw awdurdod ddwyfol y pryd hwnw, onid oedd pawb yn gorfod ymostwng iddo yn ddiwrthwyneb: yr hon awdurdod a ddangosodd efe hefyd, yn iachâd y deillion a'r cloffion a ddaethent ato yn y deml.

15 A [h] phan welodd yr arch-offeiriaid a'r ysgrifenyddion * y rhyfeddodau a wnaethai efe, † a'r plant yn llefain yn y deml, ac yn dywedyd, [i] ‡ Hosanna i fab Dafydd; [k] hwy a lidiasant,

h adn. 23. pen. 26. 3, 59. a 27. 1, 20. Es. 26. 11. Marc 11. 18. Luc 19. 39, 40. a 20. 1. a 22. 2, 66. Ioan 11. 47—49, 57. a 12. 19. i adn. 9. pen. 22. 42. Ioan 7. 42. k Jona 4. 1.

16 Ac a ddywedasant wrtho, [l] || A wyt ti yn clywed beth y mae y rhai hyn yn ei ddywedyd? A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Ydwyf. [m] § Oni ddarllenasoch chwi erioed, [n] * O enau plant bychain a rhai yn sugno y perffeithiais i foliant?

l Luc 19. 39, 40. Ioan 11. 47, 48. Act. 4. 16—18. m pen. 12. 3. a 19. 4. a 22. 31. Marc 2. 25. n pen. 11. 25. Salm 8. 2.

* Y rhyfeddodau a sonir yma oedd, iachâu y deillion a'r cloffion, adn. 14: ac efallai eu bod yn sŷnu petli hefyd, bod dyn o ymddangosiad isel Iesu, wedi gallu dadymchwelyd eu holl farchnad hwy yn y deml. † Mae yn ddïammau fod y plant hyn dàn ddylanwadau dwyfol a grymus; yn un peth, i gyflawni yr ysgrythyr; peth arall, i ddwyn tystiolaeth i Grist, mai efe oedd y Messiah; ac yn drydydd, i gondemnio dallineb ac anghrediniaeth yr arch-offeiriaid, yr ysgrifenyddion, a'r Phariseaid. ‡ Hosanna i Fab Dafydd: cystal a dywedyd, henffych i'r Messiah, croesaw iddo, i'w ddinas ac i'w deml ei hun. || Peth cyffredin yn mhlith yr Iuddewon oedd i blant waeddi allan yn debyg i hyn ar achlysuron cyhoeddus, ac yn debyg i hyn arferent waeddi o flaen y dysgawdwyr Iuddewig yn eu dyfodiad i ryw le, mewn ffordd o groesaw iddynt; nid oedd bloeddiau felly mewn un modd yn ddïeithr i'r gwŷr mawr hyn, ond gwaith y plant yn mawrâu person a gasâent hwy yn eu calon, oedd yn peri iddynt hwy lidio fel yn adn. 15. § Bai y dysgawdwyr hyn yn Israel o hyd oedd, eu hannwybodaeth o'r ysgrythyrau a berthynent i'r Messiah; a'u dallineb gwirfoddol, na welent eu bod yn cael eu cyflawni yn Iesu o Nazareth. * Mae y geiriau hyn yn Salm 8. 2, ond ychydig yn wahanol yma, wedi eu cymmeryd allan o gyfieithiad Groeg y deg a thriugain. Cafodd y geiriau eu cyflawni yma; ond cawsant eu cyflawni yn mhellach yn llwyddiant yr efengyl drwy weinidogaeth yr apostolion, 'gwan bethau y bŷd yn gwaradwyddo y pethau cedyrn:' ac y maent yn cael eu cyflawni felly eto yn barâus.

17 ¶ * Ac [o] efe a'u gadawodd hwynt, ac y aeth allan o'r ddinas i [p] Bethania, ac a lettyodd yno.

o pen. 16. 4. Jer. 6. 8. Hos. 9. 12. Marc 3. 7. Luc 8. 37, 38. p Marc 11. 11, 19. Luc 10. 38. Ioan 11. 1, 18. a 12. 1—3.

18 † A'r [q] bore, fel yr oedd efe yn dychwelyd i'r ddinas, [r] yr oedd arno chwant bwyd.

q Marc 11. 12, 13. r pen. 4. 2. a 12. 1. Luc 4. 2. Heb. 4. 15.

19 ‡ A phan welodd efe ffigysbren ar y ffordd, efe a ddaeth atto, [s] ac ni chafodd ddim arno, ond dail yn unig: ac *efe* a ddywedodd wrtho, [t] || Na thyfed ffrwyth arnat byth mwyach. Ac yn ebrwydd y crinodd y ffigysbren.

s Es. 5. 4, 5. Luc 3. 9. a 13. 6—9. Ioan 15. 2, 6. 2 Tim. 3. 5. Tit. 1. 16. t Marc 11. 14. Luc 19. 42—44. Heb. 6. 7, 8. 2 Pedr 2. 20—22. Dat. 22. 11.

20 § A phan welodd y disgyblion, hwy a ryfeddasant, gan ddywedyd, [u] Mor ddisymmwth y crinodd y ffigysbren!

u Es. 40. 6—8. Marc 11. 20, 21. Iago 1. 10, 11.

* Daeth yr Iesu i Jerusalem bùm niwrnod cyn dyoddef o hóno, a thybir ei fod yn myned bob nos, hyd y nos y bradychwyd ef, i Bethania i lettya. Gan fod Jerusalem yn llawn iawn o ddïeithriaid ar amser y Pasc, mae yn debyg bod yn anhawdd i'r Iesu a'i ddysgyblion tlodion gael lletty yno. Efallai, hefyd, ei fod yn myned allan rhag ofn llid yr Iuddewon; neu er cael gwell hamdden a distawrwydd, o dwrf ac aflonyddwch y ddinas, i weddïau, myfyrdodau, ac ymddiddanion dirgel gyda ei ddysgyblion. † Bore yr ail ddiwrnod oedd hwn. Un ai yr oedd ei letty yn dlawd (gyda Lazarus a'i ddwy chwaer, tebygir,) neu ynte, ni fynai efe roddi trafferth iddynt mòr foreu; cychwynodd Iesu a'i ddysgyblion i'r addoliad a chwant bwyd arnynt. Onid oes yma esampl deilwng o ystyriaeth rhai dynion. Tybia rhai mai allan, dan gysgod y coed olew-wydd, y llettyodd Iesu, ac nid mewn un tŷ, pe amgen na chawsai fyned allan y bore heb fwyd. ‡ Cawn gyfle i sylwi ar y ffigysbren diffrwyth hwn eto, pan ddelom at Marc 11. 13.

Melltithiodd Iesu y ffigysbren hwn, yn un peth i
oddi prawf yn chwaneg i'w ddysgyblion, o'i allu a'i
duwdod; a thybir hefyd ei fod yn rhag-ddangosiad o
iffrwythder y genedl Iuddewig pan ddaeth y Messiah
ynt, a'r farn o ddiffrwythder a syrthiodd arnynt o
yny hyd yn hyn: ni thyfodd ffrwyth arnynt eto. Dylas-
Judas grynu y pryd hwnw hefyd; a dylai pob pro-
eswr diffrwyth a rhagrithiol grynu eto. § Dywed Marc
1. 20, mai y bore y gwelodd y dysgyblion y ffigysbren
edi crino; am hyny rhaid mai tranoeth, ar ol ei fell-
ithio, y sylwasant arno.

21 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd
rthynt, * Yn wir meddaf i chwi, [x] Os bydd
ennych ffydd, ac heb ammeu, ni wnewch yn
nig hyn *a wnaethum* i i'r ffigysbren, eithr
efyd os dywedwch wrth y mynydd hwn, Cod-
r di i fynu, a bwrier di i'r môr; hynny a fydd.

x pen. 17. 20. Marc 11. 22, 23. Luc 17. 6, 7. Rhuf. 4. 19, 20. Cor. 13. 2. Iago 1. 6.

22 A [y] pha beth bynnag a ofynoch mewn
weddi, gan gredu, chwi a'i derbyniwch.

y pen. 7. 7, 11. a 18. 19. Marc 11. 24. Luc 11. 8—10. Ioan 14. 3. a 15. 7. a 16. 24. Iago 5. 16. 1 Ioan 3. 22. a 5. 14, 15.

* Addewid i'r apostolion sydd yn y geiriau hyn: pa
yryd bynag y byddai yn angenrheidiol iddynt wneyd
wyrthiau er cadarnâu eu hathrawiaeth a gogoneddu
duw, na byddai dim yn eisiau ond gweddïo am gym-
orth i'w gwneyd, a chredu y caent y cymmorth hwnw.
allwn ninnau ddysgu hyn oddiwrth y geiriau: nad oes
im yn angenrheidiol er gogoniant Duw a'n lles ein
unain, nas gall credinwyr ei gael gan Dduw, os gofyn-
nt mewn ffydd heb ammau dim. Heb wneuthur dim
wahaniaeth rhwng ffydd wyrthiol a ffydd arall, mae y
osodiad cyffredinol yn gywir; ac fe gyflawna Duw i
ob credadyn beth bynag a addawodd.

23 Ac [z] wedi ei ddyfod ef i'r deml, [a] yr
rch-offeiriaid a henuriaid y bobl a ddaethant
tto * fel yr oedd efe yn athrawiaethu, gan
ddywedyd, [b] † Trwy ba awdurdod yr wyt ti yn
wneuthur y pethau hyn? a phwy a roddes i
ti yr awdurdod hon?

z Marc 11. 27, 28. Luc 19. 47, 48. a 20. 1, 2. a 1 Cron. 24. &c. b Ex. 2. 14. Act. 4. 7. a 7. 27.

* Mae yn amlwg fod yr Arglwydd Iesu yn pregethu
ob dydd yn y deml, a dywed Luc 19. 48, fod y bobl yn
Hŷnu wrtho i wrando arno. † Aelodau o'r Senedd fawr
n Jerusalem oedd y gofynwyr hyn; cymmerent arnynt
ti holi ef, paham y daethai i'r ddinas gyda'r fath
wysg, a bloeddiadau y bobl? Paham y cymmerai efe
rno fwrw y prynwyr a'r gwerthwyr allan o'r deml? A
haham yr athrawiaethai efe yn y deml? Yr oeddynt
n meddwl mai hwy oedd ffynon pob awdurdod eglwys-
g, ac mai hwy oedd unig lywodraethwyr y deml; am
yny chwenychent wybod trwy ba awdurdod y gwnai
fe y cyfryw bethau.

24 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd
wrthynt, [c] * Minnau a ofynaf i chwithau un
gair, yr hwn os mynegwch i mi, minnau a
ynegaf i chwithau trwy ba awdurdod yr wyf
yn gwneuthur y pethau hyn.

c pen. 10. 16. Diar. 26. 4, 5. Luc 6. 9. Col. 4. 6.

25 [d] † Bedydd Ioan, o ba le yr oedd? ai o'r
nef, ai o ddynion? ‡ A hwy a ymresymmasant
yn eu plith eu hunain, gan ddywedyd, Os dy-
wedwn, O'r nef; efe a ddywed wrthym, [e] Pa-
ham gan hynny nas credasoch ef?

d pen. 3. 1, &c. a 11. 7—15. a 17. 12, 13. Marc 1. 1—11. a 11. 27—33. Luc 1. 11—17, 67—80. a 3. 2—20. a 7. 28—35. Ioan 1. 6, 15, 25—34. a 3. 26—36. e Luc 20. 5. Ioan 3. 18. a 5. 33—36, 44—47. a 10. 25, 26. a 12. 37—43. 1 Ioan 3. 20.

26 Ond os dywedwn, O ddynion; [f] y mae
arnom ofn y bobl: [g] canys y mae pawb yn
cymmeryd Ioan megis prophwyd.

f adn. 46. pen. 14. 5. Es. 57. 11. Marc 11. 32. a 12. 12. Luc 20. 6, 19. a 22. 2. Ioan 9. 22. Act. 5. 26. g Marc 6. 20. Ioan 5. 35. a 10. 41, 42.

27 A hwy a attebasant i'r Iesu, ac a ddy-
wedasant, [h] ‖ Ni wyddom ni. Ac yntau a
ddywedodd wrthynt, § Nid wyf finnau yn dy-
wedyd i chwi trwy ba awdurdod yr wyf yn
gwneuthur y pethau hyn.

h pen. 15. 14. a 16. 3. a 23. 16, &c. Es. 6. 10. a 28. 9. a 29. 10—12. a 42. 19, 20. a 56. 10, 11. Jer. 8. 7—9. Mal. 2. 6—9. Luc 20. 7, 8. Ioan 9. 30, 40, 41. Rhuf. 1. 18—22, 28. 2 Cor. 4. 3, 4. 2 Thes. 2. 9, 10.

* Gwyddai yr Iesu mai o lid a dichell yr oedd yr arch-
offeiriaid a henuriaid y bobl yn gofyn iddo; ac yn lle
rhoddi ateb uniongyrchol iddynt, gofynodd yntau
holiad arall iddynt hwy, angenrheidiol ei ateb yn
gyntaf: a phed atebasent hwy ofyniad Iesu yn iawn,
gwnaethai yr un atebiad y tro i'r ddau ofyniad, yr
eiddynt hwy a'r eiddo yntau. † Wrth *fedydd* Ioan yma,
dylem ddeall holl weinidogaeth Ioan, ac yn enwedig ei
dystiolaeth ef am Iesu. ‡ Ychydig a feddyliodd yr
holwyr hyn, y buasent yn cael eu dyrysu â'r fath ofyn-
iad: ac y maent yn ymresymu ar y pwnc mòr gyfrwys
ag y goddefai amgylchiadau iddynt wneyd. Os dywed-
ent mai o Dduw yr oedd, buasai Iesu yn gofyn iddynt,
"Paham gan hyny nas credasech ei dystiolaeth ef am
danaf fi?" yr hyn pe gwnaethech, gallasech wybod mai
myfi yw y Messiah, heb ofyn i mi yn awr am fy awdur-
dod. Os dywedent o ddynion, yr oeddynt yn ofni y
bobl ar y llaw arall; canys yr oedd pawb yn cymmeryd
Ioan fel prophwyd, ac yn barod i labyddio y neb a'i
gwadai, Luc 20. 6. Yr oedd mwy o barch i Ioan nac
oedd i Grist, deuai llawer o'r Phariseaid ac o'r Saduce-
aid i fedydd Ioan; yr achos o'r parch hwn i Ioan oedd,
am fod yn dda gan y bobl ei glywed ef yn dywedyd, mai
rhagflaenor y Messiah ydoedd, a bod y Messiah a'i
deyrnas yn dyfod yn y fan; ond pan ddaeth yr Iesu, nid
oedd ei ymddangosiad ef yn ateb i ddisgwyliad yr Iu-
ddewon; ac yn lle ei dderbyn ef fel Messiah, ei gasâu
a'i ddirmygu ef a wnaethant hwy. ‖ Yn hytrach nag
ateb yr un o'r ddwy ffordd, dewisasant ddywedyd, nas
gwyddent; er eu bod wrth hyny yn dywedyd yn erbyn
eu cydwybod, a'u balchder hefyd. § Gan nad atebent
hwy Iesu, nid atebai yntau iddynt hwythau. Os nad
oedd tystiolaeth Ioan, a'i weithredoedd ei hun, yn
ddigon i'w hargyhoeddi, byddent heb eu hargyhoeddi.
A fŷno fod yn annwybodus, bydded yn annwybodus. Nid
oes neb mòr ddall â'r hwn ni fŷn weled.

28 ¶ Ond [i] beth dybygwch chwi? [k] Yr
oedd gan * wr † ddau fab: ac efe a ddaeth at
y cyntaf, ac a ddywedodd, [l] *Fy* mab, dos,
gweithia heddyw yn fy ngwinllan.

i pen. 17. 25. a 22. 17. Luc 13. 4. 1 Cor. 10. 15. k Luc 15. 11—32. l pen. 20. 5—7. Marc 13. 34. 1 Cor. 15. 58.

29 Ac yntau a attebodd ac a ddywedodd,
[m] Nid âf: ond wedi hynny efe a edifarhaodd,
ac a aeth.

m adn. 31. Jer. 44. 16. Eph. 4. 17—19. n pen. 3. 2—8. 2 Cron. 33. 10—19. Es. 1. 16—19. a 55. 6, 7. Ezec. 18. 28—32. Dan. 4. 34—37. Jona 3. 2, 8—10. Luc 15. 17, 18. Act. 26. 20. Eph. 2. 1—10.

30 A phan ddaeth efe at yr ail, efe a ddy-
wedodd yr un modd. Ac efe a attebodd ac a
ddywedodd, [o] Myfi *a âf*, arglwydd; ac nid aeth
efe.

o pen. 23. 3. Ezec. 33. 31. Rhuf. 2. 17—25. Tit. 1. 16.

31 Pa un o'r ddau [p] a wnaeth ewyllys y
tad? Dywedasant wrtho, [q] Y cyntaf. Yr Iesu
a ddywedodd wrthynt, [r] Yn wir meddaf i chwi,
[s] yr â y publicanod a'r putteiniaid i mewn i
deyrnas Dduw o'ch blaen chwi.

p pen. 7. 21. a 12. 50. Ezec. 33. 11. Luc 15. 10. Act. 17. 30. 2 Pedr 3. 9. q 2 Sam. 12. 5—7. Job 15. 6. Luc 7. 40—42. a 19. 22. Rhuf. 3. 19. r pen. 5. 18. a 6. 5. a 18. 3. s pen. 9. 9. a 20. 16. Luc 7. 37—50. a 15. 1, 2. a 19. 9, 10. Rhuf. 5. 20. a 9. 30—33. 1 Tim. 1. 13—16.

32 Canys [t] daeth Ioan attoch yn ffordd cyfiawnder, [u] ac ni chredasoch ef: ond y publicanod a'r putteiniaid a'i credasant ef. Chwithau, yn gweled, [x] nid edifarhasoch wedi hynny, fel y credech ef.

t pen. 3. 1—8. Es. 35. 8. Jer. 6. 16. Luc 3. 8—13. 2 Pedr 2. 21. u adn. 25. pen. 11. 18. Luc 7. 29, 30. Ioan 5. 33—36. Act. 13. 25—29. x Salm 81. 11, 12. Zec. 7. 11, 12. Ioan 5. 37—40. 2 Tim. 2. 25. Heb. 3. 12. a 6. 6—8.

Gwedi i'r Iesu ddistewi yr arch offeiriaid a'r henuriaid, heb roddi iddynt yr un fantais yn ei erbyn ei hun; mae efe yn y ddammeg hon a'r nesaf, yn dangos iddynt, pa fodd y gwrthodai Duw hwynt a'r genedl Iuddewig am eu hanghrediniaeth, ac y derbyniai y cenedloedd crediniol i mewn i'r eglwys yn eu lle. Neu, efallai y gellid egluro y ddammeg hon yn fanylach fel hyn: * Y gwr, tad y ddau fab, yw Duw; Crëawdwr a Chynnaliwr pawb, a Chymmwynaswr nodedig Israel. † Y cyntaf o'r ddau fab, a arwydda yr Iuddewon drygionus a thra annuwiol: megys y publicanod a'r puteiniaid, adn. 32, y rhai a gredasant gwedi, ac a ddaethant yn ddysgyblion i Grist. A'r ail fab, a arwydda yr arch-offeiriaid, yr Ysgrifenyddion, a'r Phariseaid, y rhai oedd ganddynt "rith duwioldeb," ond a ymddygasant yn fwyaf gelynol i'r efengyl. Am y pethau eraill yn y ddammeg, tebygir nad oes dim eisiau agoriad arnynt, mae y ddwy adnod olaf yn egluro y ddammeg oll. ‡ Er na fynai yr arch-offeiriaid a'r henuriaid addef Ioan a'i weinidogaeth, mae Crist yma yn ei arddelwi ef fel gwr cyfiawn, a gweinidogaeth gyfiawn ganddo, ac yn addysgu pawb yn ffordd cyfiawnder. Ac er nas credent hwy ef, eto credodd llawer o'r publicanod a'r puteiniaid iddo, ac felly aethant i mewn i'r winllan yma, ac i deyrnas y gogoniant fry. Peth annodd yw argyhoeddi dyn moesol, a hunan-gyfiawn, bod arno eisiau yr iachawdwriaeth; ac am hyny mae gwell gobaith am yr hollawl annuwiol nac am dano ef.

33 ¶ [y] Clywch ddammeg arall. [z] * Yr oedd rhyw ddyn o berchen tŷ, yr hwn a blannodd † winllan, ac a osododd ‡ gae yn ei chylch hi, ac a gloddiodd ynddi || win-wryf, ac a adeiladodd dŵr, ac a'i gosododd hi allan [a] § i lafurwyr, ac [b] * a aeth oddi cartref.

y pen. 13. 18. 1 Bren. 22. 19. Es. 1. 10. Jer. 19. 3. Hos. 4. 1. z Salm 80. 8—16. Can. 8. 11, 12. Es. 5. 1—4. Jer. 2. 21. Marc 12. 1. Luc 20. 9. Ioan 15. 1. a pen. 23. 2. Deut. 1. 15—17. a 16. 18. a 17. 9—12. a 33. 8—10. Mal. 2. 4—9. b pen. 25. 14, 15. Marc 13. 34. Luc 19. 12.

Dyma ddammeg arall eto, i'r un perwyl a'r ddammeg o'r blaen. * Yr hwn a blanodd y winllan oedd Arglwydd y lluoedd, Esay 5. 7. † Y winllan oedd y genedl Iuddewig, tŷ Israel, Esay 5. 7. ‡ Y cae o'i hamgylch oedd rhagluniaeth a gofal Duw. || Y gwin-wryf a'r tŵr oedd yr holl ragor-freintiau eglwysig oedd gan yr Iuddewon. Ac efallai mai mynydd Sion, lle yr oedd y ddinas a'r deml, oedd y tŵr. Pwll wedi ei gloddio yn y ddaear, a'i weithio oll oddi fewn â meini, oedd y gwin-wryf, ac ydyw y dydd heddyw yn Persia; a thybia rhai mai allor y poeth-offrwm yn y deml, a feddylir wrth y gwin-wryf yn y ddammeg hon; am fod gwaed yr aberthau yn llifo yn wastad ar ac o amgylch yr allor hono, fel yr oedd nodd y gwin-rawn yn llifo yn ac o amgylch y gwin-wryfau mewn gwinllanoedd. § Y llafurwyr oedd yr arch-offeiriaid Iuddewig, athrawon a llywodraethwyr y bobl. * Y perchenog yn myned oddi cartref a arwydda, nad oedd yr Arglwydd ddim gyda hwynt mewn modd amlwg fel ar y cyntaf, yn rhoddiad y ddeddf, a gosodiad i fynu yr oruchwyliaeth Iuddewig. Efallai bod yma gyfeiriad hefyd, at ymadawiad y presenoldeb dwyfol (y SHECINA) o'r sancteiddiolaf; yr hyn a fu, meddir, yn amser y caethgludiad i Babilon ac ni ddychwelodd mwyach.

34 * A phan nesâodd amser ffrwytha [c] † efe a ddanfonodd ei weision at y llafurwyr [d] ‡ i dderbyn ei ffrwythau hi.

c 2 Bren. 17. 13, 14. 2 Cron. 36. 15, 16. Neh. 9. 29, 30. Jer. 25. 3—7. a 35. 15. Zec. 1. 3—6. a 7. 9—13. Marc 12. 2—5. Luc 20. 10—19. d Can. 8. 11, 12. Es. 5. 4.

35 || A'r llafurwyr [e] a ddaliasant ei weision ef, ac un a gurasant, ac arall a laddasant, ac arall a labyddiasant.

e pen. 5. 12. a 23. 31—34. 1 Bren. 18. 4. 13. a 19. 2, 10. a 22. 24. 2 Cron. 16. 10. a 24. 21, 22. a 36. 15, 16. Jer. 2. 30. a 26. 21—24. Luc 13. 33, 34. Act. 7. 52. 1 Thes. 2. 15, 16. Heb. 11. 36, 37.

36 Trachefn, efe anfonodd weision eraill § fwy na'r rhai cyntaf: * a hwy a wnaethant iddynt yr un modd.

* Amser ffrwythau: sef yr amser y gallesid disgwyl i bobl Dduw, yr Iuddewon, ddwyn ffrwythau cyfiawnder yn gyfatebol i'r manteision a gawsent. Mae Duw yn *disgwyl* i'w bobl ddwyn ffrwyth, cyfatebol i'w breintiau. † Y gweision hyn oedd prophwydi enwog a duwiol yr Hen Destament, y rhai a ddanfonodd Duw o oes i oes, i adgofio yr Iuddewon am eu dyledswyddau, ac i'w hyfforddi a'u cefnogi yn eu dyledswyddau. ‡ Pan fyddai gwr yn gosod ei winllan i ddeiliaid i'w llafurio hi, hwy a dalent iddo ef hyn a hyn o'r *ffrwythau* yn flynyddawl, yn lle talu mewn *arian* iddo. || Yn lle eu derbyn yn groesawgar a gwrando arnynt, eu trin yn ddrwg a wnaed lawer gwaith: tarawyd a charcharwyd Jeremiah; tarawyd Micheah; llabyddiwyd Zechariah yn nghyntedd tŷ yr Arglwydd; a chyffelyb driniaeth a gafodd llawer eraill. Blingo, neu gymmeryd y croen ymaith, yw ystyr y gair Groeg *(edeiran)* meddant; ac efallai mai curo, neu ffrewyllu hyd at dynu ymaith y croen, a feddylir. § Mwy o rifedi, mae yn debygol, a arwydda y gair "mwy" yma: mae yn anhawdd meddwl bod llawer o brophwydi mwy mewn goleuni, duwioldeb, ac enwogrwydd, na'r rhai a grybwyllwyd uchod, yn enwedig Jeremiah. Cymmer *Guyse* a *Doddridge* y ddau ystyr i mewn; ond y mae *Pool* a *Scott* yn myned heibio i'r gair heb wneuthur yr un sylw o hono. * Pa fodd bynag am feddwl y gair, yr un modd yr ymddygwyd tuag at y gweision, hyd yn nod Ioan Fedyddiwr, y mwyaf o honynt oll.

37 Ac [f] yn ddiweddaf oll, efe a anfonodd attynt ei fab ei hun; * gan ddywedyd, [g] Hwy a barchant fy mab i.

f pen. 3. 17. Marc 12. 6. Luc 20. 13. Ioan 1. 18, 34. a 3. 16, 35, 36. Heb. 1. 1, 2. g Es. 5. 4. Jer. 36. 3. Zeph. 3. 7.

* Gwyddai Duw pa fodd yr ymddygai yr Iuddewon tuag at ei Fab; ond yma mae yn llefaru yn ol dull dynol, ac yn dywedyd yr hyn oedd resymol ei ddisgwyl: hwy a ddylasent barchu ei Fab ef, ond nis gwnaethant.

38 A phan welodd y llafurwyr y mab, hwy a ddywedasant yn eu plith eu hun, [h] * Hwn yw yr etifedd; deuwch, lladdwn ef, † a daliwn ei etifeddiaeth ef.

h pen. 2. 13—16. a 26. 3, 4. a 27. 1, 2. Gen. 37. 18—20. Salm 2. 2—8. Marc 12. 7, 8. Luc 20. 14. Ioan 11. 47—53. Act. 4. 27, 28. a 5. 24—28.

39 Ac [i] wedi iddynt *ei* ddal, [k] ‡ hwy a'i bwriasant ef allan o'r winllan, [l] ac a'*i* lladdasant.

i pen. 26. 50—57. Marc 14. 46—53. Luc 22. 52—54. Ioan 18. 12, 24. Act. 2. 23. k Heb. 13. 11—13. l Act. 2. 23. a 3. 14, 15. a 4. 10. a 5. 30. a 7. 52. Iago 5. 6.

* Er mai yn eu hannwybodaeth yr oedd llawer yn ymddwyn yn anmharchus tuag at Iesu; eto mae yn amlwg mai nid felly yr oedd yr arch-offeiriaid a henuriaid y bobl: dyma hwy yn dywedyd, "Hwn yw yr etifedd," ac eto yn ei ladd ef. Gwedi gweled ei wyrthiau, clywed ei athrawiaeth, a chlywed y bobl yn ei glodfori ar ei ddyfodiad i Jerusalem, nis gallasent lai na meddwl yn eu cydwybodau mai Mab Duw a Messiah ydoedd:

m hyny yr oedd eu cynddaredd tuag ato yn fwy di-
esgus. † Daliwn ei etifeddiaeth ef: yr oedd hyn yn
ilangos ysbryd ac ymddygiad y llywodraethwyr Iuddew-
g, y rhai oedd y pryd hwnw yn ymgynghori i ladd Iesu,
'r dyben i ddiogelu eu hawdurdod a'u parch eu hunain,
c i gadw y genedl rhag y Rhufeiniaid: fel rhai yn pen-
derfynu lladd yr etifedd i feddiannu yr etifeddiaeth.
For ynfyd yw dynion, yn ceisio diddymu cyngor Duw.
Tybia rhai mai esgymmuno Crist o'r eglwys Iuddew-
g, a feddylir wrth fwrw allan o'r winllan: ond mae yn
ebyg nad yw yn arwyddo dim mwy na'i gondemnio ef,
i groeshoelio y tu allan i byrth Jerusalem, a dynoethi
i gorph marw ef, yn groes i bob cyfiawnder a gwedd-
idd-dra. Gesyd Marc lladd yn gyntaf, ac wedi hyny
wrw allan o'r winllan, Marc 12. 8.

40 * Am hynny pan ddêl arglwydd y win-
llan, [m] pa beth a wna efe i'r llafurwyr hynny?

m Marc 12. 9. Luc 20. 15, 16. Heb. 10. 29.

41 † Hwy a ddywedasant wrtho, [n] Efe a
ddifetha yn llwyr y dynion drwg hynny, [o] ‡ ac
esyd y winllan i lafurwyr eraill, y rhai a dal-
unt iddo y ffrwythau yn eu hamserau.

n pen. 3. 12. a 22. 6, 7. a 23. 35—38. a 24. 21, 22. Lef. 26. 14, &c. Deut. 28. 59—68. Es. 5. 5—7. Dan. 9. 26. Zec. 11. 8—10. a 13. 7. a 14. 2, 3. Mal. 4. 1—6. Luc 17. 32—37. a 19. 41—44. a 21. 22—24. 1 Thes. 2. 16. Heb. 2. 3. a 12. 25. o adn. 43. pen. 8. 11. Es. 29. 5—7. a 65. 15. a 66. 19—21. Luc 13. 28, 29. a 14. 23, 24. Act. 13. 46—48. a 15. 7. a 18. 6. a 28. 28. Rhuf. 9. a 10. a 11. a 15. 8—18.

* Gwedi i'r Arglwydd Iesu orphen y ddammeg, mae
yn gofyn i'r arch-offeiriaid a'r henuriaid, beth a wnai
arglwydd y winllan i'r llafurwyr drwg hyny. Wrth ei
ddyfodiad yma rhaid i ni ddeall ei ddyfodiad i ddin-
strio yr Iuddewon trwy luoedd y Rhufeiniaid. † Mae
yn bur sicr nad oeddynt hwy yn deall y pryd hwn, mai
am danynt hwy yr oedd y ddammeg: atebasant yn gywir
nwn; ac wrth ateb, rhoddasant farn arnynt eu hunain
yn ddiarwybod: fel y dywedasant hwy, felly y bu. ‡ Y
llafurwyr eraill yma oedd, yr apostolion, a gweinidog-
ion yr efengyl yn mhob oes. Mae Luc 20. 16, yn gosod
ar ateb uchod i lawr fel geiriau Crist ei hun, a'r arch-
offeiriaid a'r henuriaid yn dywedyd, Na ato Duw. I
gysoni hyn, tybir nad oeddynt yn deall y ddammeg ar
- cyntaf; ond pan ei deallasant, dywedasant, Na atto
Duw i ni ladd y gwir Fessiah, ac i hyn ddyfod i ni.

42 Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, [p] * Oni
ddarllenasoch chwi erioed yn yr ysgrythyrau,
† Y maen a ‡ wrthododd yr adeiladwyr, hwn
a wnaethpwyd yn ben congl: ‖ gan yr Ar-
glwydd y gwnaethpwyd hyn, [r] a rhyfedd yw yn
ein golwg ni?

p adn. 16. q Salm 118. 22, 23. Es. 28. 16. Zec. 3. 8, 9. Marc 12. 10, 11. Luc 20. 17, 18. Act. 4. 11. Rhuf. 9. 33. Eph. 2. 20. 1 Pedr 2. 4—8. r Hab. 1. 5. Act. 13. 40, 41. Eph. 3. 3—9.

43 § Am hynny meddaf i chwi, [s] y dygir
teyrnas Dduw oddi arnoch chwi, ac a'i rhoddir
[t] genedl a ddygo ei ffrwythau.

s adn. 41. pen. 8. 11, 12. a 12. 28. Luc 17. 20, 21. Ioan 3. 3, 5. Ex. 19. 6. Es. 26. 2. 1 Pedr 2. 9.

* Yma mae Crist yn myned i egluro, a phrofi gwir-
ionedd y ddammeg uchod yn mhellach, drwy yr ys-
grythyr, Salm 118. 22, 23; ac yr oedd yr Iuddewon yn
gyffredin yn addef mai prophwydoliaeth am y Messiah
oedd y Salm hòno. † Yn y ddammeg o'r blaen, yr
oedd yr eglwys yn cael ei chymharu i winllan, yma i
adeilad; a Iesu Grist, y Messiah, yw y maen: y sail
faen, sydd yn cynnal yr holl adeilad, a'r pen congl-faen
nefyd, sydd yn uno ac yn cyssylltu yr holl eglwys, o
Iuddewon a Chenedloedd crediniol, yn un adeilad fawr
i gogoneddus. Heblaw y sylwadau uchod, gwel hefyd
ar Salm 118 22, 23. ‡ Yr adeiladwyr oedd blaenoriaid
yr eglwys Iuddewig: adeiladu oeddynt yn gymmeryd
arnynt, ac adeiladu a ddylasent; ond nis gallasant ad-
eiladu heb y maen hwn, namyn dinystrio: ac nis gall
neb eto adeiladu yr eglwys heb Grist yn sylfaen ac yn
ben congl-faen iddi. Ond gwrthod y maen hwn a
wnaethant hwy; edryched yr adeiladwyr presenol na
wrthodont ef. ‖ Gan yr Arglwydd y gosodwyd y maen
hwn yn ben y gongl, a rhyfedd oedd gan yr adeiladwyr
Iuddewig hyny, a hwythau yn ei wrthod. Neu, ynte,
gan yr Arglwydd y dyfethwyd hwy, ac y dygwyd y Cen-
edloedd i mewn i'r adeilad, a rhyfedd oedd hyny hefyd
yn eu golwg hwy. § Yn adn. 43, mae yr Arglwydd Iesu
yn dywedyd yn amlwg, yr hyn a lafarodd efe yn y ddam-
meg o'r blaen, a'r hyn oedd mòr rhyfedd gan yr arch-
offeiriaid a'r henuriaid, ag y dywedasant am dano, Na
atto Duw. Rhagfynegiad eglur o wrthodiad yr Iuddew-
on, ac o alwad y Cenedloedd, i'r eglwys dan yr efengyl:
dechreuwyd galw y Cenedloedd yn fuan ar ol hyn, a
gwrthodwyd yr Iuddewon yn gwbl, yn mhen ychydig
mwy na 40 mlynedd ar ol hyn.

44 * A [u] phwy bynnag a syrthio ar y maen
hwn, efe a ddryllir: [x] ac ar bwy bynnag y
syrthio, efe a'i mâl ef yn chwilfriw.

u Salm 2. 12. Es. 8. 14, 15. a 60. 12. Zec. 12. 3. Luc 20. 18. Rhuf. 9. 33. 2 Cor. 4. 3, 4. 1 Pedr 2. 8. x pen. 26. 24. a 27. 25. Salm 2. 9. a 21. 8, 9. a 110. 5, 6. Dan. 2. 34, 35, 44, 45. Ioan 19. 11. 1 Thes. 2. 16.

* Cyfeiriad sydd yma at y dull ofnadwy o labyddio
yn mhlith yr Iuddewon: yn gyntaf, chwyrn-deflid y
drwg-weithredwr o ryw uchder mawr ar gàreg; ac os na
byddai hyny yn angeu iddo, teflid càreg fawr arall arno,
yr hon a fyddai sicr o'i ddryllio ef i farwolaeth. Tybir
fod syrthio ar y maen, yn arwyddo y gwrthwynebiad a
roddwyd i Grist yn amser ei ddarostyngiad; a bod
syrthiad y maen ar ddynion, yn arwyddo y barnau trym-
ion a ddaeth ar yr Iuddewon ar ol esgyniad Crist i'r
gogoniant. Mae gwaith dynion yn gwrthod Crist, a'i
farnedigaethau yntau ar ei wrthodwyr, y naill fel y
llall, yn ddrylliad a dinystr i eneidiau dynion. Ymry-
soned priddell â phriddellau y ddaear.

45 * A phan glybu yr arch-offeiriaid a'r
Phariseaid ei ddammegion ef, [y] hwy a wybuant
mai am danynt hwy y dywedai efe.

y Marc 12. 12. Luc 11. 45. a 20. 19.

46 † Ac a [z] hwy yn ceisio ei ddala, hwy a
ofnasant y torfeydd; [a] am eu bod yn ei gym-
meryd ef fel prophwyd.

z 2 Sam. 12. 7—13. Diar. 9. 7—9. a 15. 12. Es. 29. 1. Ioan 7. 7. a adn. 11. Luc 7. 16, 39. Ioan 7. 40, 41. Act. 2. 22.

* Gwyddai yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid erbyn
hyn, mai am danynt hwy y llefarai Iesu yn yr adnodau
o'r blaen: nis gallent wadu nad hwy oedd y llafurwyr
a'r adeiladwyr, a'u bod yn ei wrthod ef; ond yn lle ym-
ostwng am eu drygioni, a chrynu rhag y farn, † enyn-
odd eu cynddaredd yn fwy yn ei erbyn ef, ac oni buasai
ofn y bobl oedd yn bresenol, y rhai a feddylient yn well
am dano na hwynt-hwy, buasent yn ei roddi ef i farw-
olaeth yn y fan hòno. Dywed Luc 20. 20. iddynt ei
wylied ef, a gosod cynllwynwyr iddo, fel os gallent ei
ddal ef yn ei ymadroddion, i'w draddodi ef i'r rhaglaw.

PEN. XXII.

Dammeg priodas mab y brenin, &c.

A'R Iesu a attebodd, [a] ac a lefarodd wrthynt
drachefn mewn dammegion, gan ddywed-
yd,

a pen. 9. 15—17. a 12. 43—45. a 13. 3—11. a 20. 1—16. a 21. 28—46. Marc 4. 33, 34. Luc 8. 10.

2 [b] Cyffelyb yw teyrnas nefoedd i ryw
* frenhin [c] a wnaeth briodas i'w fab,

b pen. 13. 24, 31—33, 44—47. a 25. 1, 14. c pen. 25. 1—13. Salm 45. 10—16. Ioan 3. 29, &c. 2 Cor. 11. 2. Eph. 5. 24—32. Dat. 19. 7—9.

3 † Ac [d] a ddanfonodd ei weision i alw y
rhai [e] a wahoddasid i'r briodas: [f] ac ni fynnent
hwy ddyfod.

d pen. 3. 2. a 10. 6, 7. Diar. 9. 1—3. Es. 55. 1, 2. Marc 6. 7—

11. Luc 9. 1—6. a 14. 15—17. e 1 Sam. 9. 13. Zeph. 1. 7. f pen. 23. 37. Salm 81. 10—12. Diar. 1. 24—32. Es. 30. 15. Jer. 6. 16, 17. Hos. 11. 2, 7. Luc 13. 34. a 15. 28. a 19. 27. Ioan 5. 40. Act. 13. 45. Rhuf. 10. 21. Heb. 12. 25.

4 Trachefu efe a anfonodd [g] weision eraill, gan ddywedyd, Dywedwch wrth y rhai a wahoddwyd, [h] Wele, parottöais fy nghiniaw: ‡ fy ychain a'*m* pasgedigion a laddwyd, [i] a phob peth *sydd* barod: deuwch i'r brïodas.

g Luc 10. 1—16. a 24. 46, 47. Act. 1. 8. a 11. 19, 20. a 13. 46. a 28. 17, &c. h Diar. 9. 1, 2. Can. 5. 1. Ioan 6. 50—57. Rhuf. 8. 32. 1 Cor. 5. 7, 8. i adn. 8. Neh. 9. 17. Salm 86. 5. Luc 14. 17.

5 ‖ A [k] hwy yn ddïystyr ganddynt, a aethant ymaith, [l] un i'w faes, ac arall i'w fasnach:

k Gen. 19. 14. a 25. 34. Salm 106. 24, 25. Diar. 1. 7. Act. 2. 13. Rhuf. 2. 4. Heb. 2. 3. l pen. 13. 22. a 24. 38, 39. Luc 14. 18—20. a 17. 26—32. Rhuf. 8. 6. 1 Tim. 6. 9, 10. 2 Tim. 3. 4. 1 Ioan 2. 15, 16.

6 § A'r [m] lleill a ddaliasant ei weision ef, ac a'*u* hammharchasant, ac a'*u* lladdasant.

m pen. 5. 10—12. a 10. 1—18, 22—25. a 21. 35—39. a 23. 34—37. Ioan 15. 19, 20. a 16. 2, 3. Act. 4. 1—3. a 5. 40, 41. a 7. 51—57. a 8. 1. 1 Thes. 2. 14, 15.

7 A phan glybu y brenhin, [n] efe a lidiodd; ac a ddanfonodd [o] ei luoedd, ac a ddinystriodd y lleiddiaid hynny, ac a losgodd eu dinas hwynt.

n pen. 21. 40, 41. Dan. 9. 26. Zec. 14. 1, 2. Luc 19. 42—44. a 21. 21—24. 1 Thes. 2. 16. 1 Pedr 4. 17, 18. o Deut. 28. 49, &c. Es. 10. 5—7. a 13. 2—5. Jer. 51. 20—23. Joel 2. 11, 25. a 3. 2. Luc 19. 27.

8 Yna efe a ddywedodd wrth ei weision, [p] Yn wir y brïodas sydd barod, [q] ond y rhai a wahoddasid nid oeddynt deilwng.

p adn. 4. q pen. 10. 11—13, 37, 38. Luc 20. 35. a 21. 36. Act. 13. 46. 2 Thes. 1. 5.

9 [r] Ewch gan hynny i'r prif-ffyrdd, a chynnifer ag a gaffoch, gwahoddwch i'r brïodas.

r Diar. 1. 20—23. a 8. 1—5. a 9. 4—6. Es. 55. 1—3, 6, 7. Marc 16. 15, 16. Luc 14. 21—24. a 24. 47. Act. 13. 47. Eph. 3. 8. Dat. 22. 17.

10 A'r gweision hynny a aethant allan i'r *prif*-ffyrdd, ac a gasglasant ynghyd gynnifer oll ag a gawsant, [s] drwg a da: [t] a llanwyd y brïodas o wahoddedigion.

s adn. 11, 12. pen. 13. 38, 47, 48. a 25. 1, 2. 1 Cor. 6. 9—11. 2 Cor. 12. 21. 1 Ioan 2. 19. Dat. 2. 14, 15, 20—23. t pen. 25. 10. Dat. 5. 9. a 7. 9. a 19. 6—9.

11 ¶ A [u] phan ddaeth y brenhin i mewn i weled y gwahoddedigion, efe a ganfu yno ddyn [x] heb * wisg prïodas am dano:

u pen. 3. 12. a 13. 30. a 25. 31, 32. 1 Cor. 4 5. Heb. 4. 12, 13. Dat. 2. 23. x 2 Bren. 10. 22. Salm 45. 13, 14. Es. 52. 1. a 61. 3, 10. a 64. 6. Zec. 3. 3, 4. Luc 15. 22. a 13. 14. Gal. 3. 27. Eph. 4. 24. Col. 3. 10, 11. Dat. 3. 4, 5, 18. a 16. 15. a 19. 8.

12 Ac efe a ddywedodd wrtho, [y] Y cyfaill, [z] pa fodd y daethost i mewn yma, heb fod gennyt wisg prïodas? [a] Ac yntau a aeth yn fud.

y pen. 20. 13. a 26. 50. z pen. 5. 20. Act. 5. 2—11. a 8. 20—23. 1 Cor. 4. 5. a 1 Sam. 2. 9. Job 5. 16. Salm 107. 42. Jer. 2. 23. Rhuf. 3. 19. Tit. 3. 11.

13 Yna y dywedodd y brenhin wrth y gweinidogion, [b] † Rhwymwch ei draed a'i ddwylaw, a chymmerwch ef ymaith, a theflwch i'r [c] tywyllwch eithaf: [d] yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd.

b pen. 12. 29. a 13. 30. Dan. 3. 20. Ioan 21. 18. Act. 21. 11. c pen. 8. 12. a 25. 30. 2 Thes. 1. 9. 2 Pedr 2. 4, 17. Judas 6. 13. d pen. 13. 42, 50. a 24. 51. Salm 37. 12. a 112. 10. Luc 13. 28. Act. 7. 54.

14 ‡ Canys [e] llawer sydd wedi eu galw, ac ychydig wedi eu dewis.

e pen. 7. 13, 14. a 20. 16. Luc 13. 23, 24.

Tra yr oedd yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid yn ymddigio o herwydd y dammegion argyhoeddiadol a bygythiol o'r blaen, ac yn ymgynghori pa fodd y caent achos yn erbyn yr Iesu; aeth ef yn mlaen i draeth dammeg arall iddynt. * Y brenin yw Duw Dad, Person cyntaf yn y Drindod. Mab y brenin yw Iesu Grist, tragywyddol ac unig-anedig Fab Duw, yr ail Berson yn y Drindod. Y brïodas a wnaeth y brenin i'w Fab, a arwydda, undeb personol Mab Duw â'n natur ni; y berthynas agos ac anwyl, mae yr holl eglwys, phob credadyn, yn cael ei dwyn iddi, â Christ y Prïod fab; yn nghyd a'r anrhydedd, y cyfoeth, a'r bendithion ysbrydol, mae yr eglwys yn gael trwy y berthynas sanctaidd hon, yr hon a osodir allan yn aml yn yr ys grythyrau dàn y gymhariaeth o brïodas. A wnaeth wledd prïodas yw ystyr y Groeg, ac am wledd y soni yn y ddammeg hon. † Y gweision cyntaf a enwir efallai oedd, prophwydi cyffredinol yr Hen Destamen o oes i oes. Y "gweision eraill," oedd Ioan Fedyddiwr, y deuddeg apostol, a'r deg dysgybl a thriugain A'r trydydd gweision, a ddanfonwyd i'r prif-ffyrdd oedd yr apostolion a gweinidogion eraill, a aethant i blith y Cenedloedd ar ol esgyniad Crist a thywalltiad yr Ysbryd Glân. Arferid gwahodd ddwywaith, yn gyntaf i hysbysu y gwahoddedigion eu bod hwy i ddyfod i'r wledd, ac fel y parotôent eu hunain i hyny; a gwahoddid hwy yr ail waith ychydig amser cyn y wledd, megys y dydd o'r blaen, i ddyfod i'r wledd ar yr amser gosodedig. Ganmai yn y nos y prïodid yn mhlith yr Iuddewon, rhaid mai yn y nos yr oedd y wledd hefyd, er ei galw yn *giniaw* yn y fàn hon, y pryd ganol dydd yn ein gwladni. ‡ Wrth yr ychain a'r pasgedigion a laddwyd, mae i ni ddeall, y ddarpariaeth gyflawn a bras, a wnaeth Duw yn yr iachawdwriaeth, i'n heneidiau tlodion a cholledig ni: yr hyn a osodir allan dàn gyffelybiaeth gwledd, gwledd prïodas, a gwledd prïodas Mab y Brenin. ‖ Wrth ddïystyrwch y gwahoddedigion, rhaid i ni ddeall cyndynrwydd yr Iuddewon, eu cariad at y byd a'i bethau, a'u gwrthodiad o Grist a'r efengyl. § Dàl, anmharchu, a lladd y gweision, a arwydda y driniaeth ddrwg a gafodd yr apostolion gan yr Iuddewon; yr hyn ddarllenwn yn aml yn llyfr yr Actau. Llabyddiwyd Stephan, a lladdwyd Iago â'r cleddyf, yn bur fuan. Y lluoedd a ddanfonodd y Brenin i ddinystrio y lleiddiaid hyny oedd, lluoedd y Rhufeiniaid, y rhai a ddinystriasant yr Iuddewon, ac a losgasant eu dinas hwy a thân, pan ddaeth digofaint Duw arnynt hwy hyd yr eithaf. * Wrth y wisg brïodas, gallwn ddeall, Crist ei hun, ei gyfiawnder, a gwir sancteiddrwydd: heb yr hyn bethau, nis gall neb fod yn wir wahoddedigion, nac yn wir aelodau o'r eglwys ar y ddaear, nac ychwaith wir gyfranogi o wleddoedd ysbrydol y saint. Gallwn weled yma mai cymmysg yw yr eglwys yn y byd hwn o ragrithwyr a gwir gredinwyr: bod Duw yn canfod pob rhagrithiwr neu gau broffeswr yn ei dŷ; ac y pura efe ei eglwys ddydd y farn, gan daflu pawb rhagrithiol i'r tywyllwch eithaf. Byddai gwŷr mawr gynt yn cadw gwisgoedd prïodas i'w gwahoddedigion, dim ond eu rhoddi am danynt: a bai y dyn hwn oedd, gwrthod y wisg pan y cynnygiwyd hi iddo; yr hyn oedd yn dangos ei falchder, ei gyndynrwydd, a'i anmharch ar y brenin, a'r holl brïodas. Ac onid felly mae pechadur deddfol yn gwrthod Crist a'i gyfiawnder, gan ymddiried yn hytrach yn ei fratiau budron ei hun. Nid rhyfedd yr â y cyfryw yn fud, pan ddelo i sefyll ger bron brawdle Crist. † Disgwylid i bob gwahoddedig ddyfod i wledd prïodas mewn gwisg o'r fath harddaf, mewn gwisg wèn yn gyffredin; ac os dygwyddai i estron fod yn bresenol, heb gael ei wahodd mewn pryd i ddarpar gwisg, byddai arglwydd y wledd yn rhoddi gwisg iddo, fel y sylwyd uchod: ymddygiad tra anmharchus a thramgwyddus, oedd dyfod i brïodas heb wisg prïodas.—Yr un gair sydd am *gyfaill* yn y fàn hon, ag sydd am Judas fel cyfaill, yn pen. 26. 50; (gwel y sylwad yno) ond gair arall sydd am gyfaill, pan y meddylir cyfaill mewn gwirionedd. Bwrw un allan o wledd, a ystyrid yn ddirmyg o'r mwyaf ar y cyfryw un; ond yr oedd tramgwydd

erenin fel y gwnaethai y dyn uchod, yn haeddu mwy
a'i fwrw ef allan o'r wledd; sef ei daflu ef yn rhwym
raed a dwylo, i ddaeardy tywyll hefyd, fel y sylwyd ar
en. 8. 12. ‡ Pan fyddai eisiau milwyr ar y Rhufein-
aid, hwy a alwent yn nghyd yr holl wrrywaid mewn
edran, ac o'r rhai hyny hwy a ddewisent y nifer a
ddai yn angenrheidiol: gwel ar pen. 20. 16, a Dat.
7. 14.—Gwelwn ar y cyfan o'r ddammeg hon, fod
olledigaeth dynion, yn tarddu o honynt eu hunain
chyndynrwydd eu calon; a bod cadwedigaeth y rhai
gedwir, yn tarddu o rad ras, a dewisiad pen-arglwydd-
aethol Duw.

15 ¶ * Yna [f]yr aeth y Phariseaid, ac a
ymmerasant gynghor [g]pa fodd y rhwydent
lf yn *ei* ymadrodd.

f Salm 2. 2. Marc 12. 13—17. Luc 20. 20—26. g Salm 41.
a 56. 5—7. a 57. 6. a 59. 3. Es. 29. 21. Jer. 18. 18. a 20. 10. Luc
1. 53, 54. Heb. 12. 3.

* Chwennych ei fywyd ef yr oeddynt hwy: ond yr oedd
rnynt ofn ei gymmeryd o drais, rhag ofn y bobl; ac
eis gallent ei roddi i farwolaeth fel arall, heb gael
nywbeth i achwyn yn ei erbyn ger bron Pilat, y rhag-
w Rhufeinig: ac i'r dyben hyny ceisiasant ei rwydo
f yn ei ymadroddion.

16 * A hwy a ddanfonasant atto eu dis-
yblion ynghyd [h]â'r † Herodianiaid, gan ddy-
edyd, [i] ‡ Athraw, [k]ni a wyddom dy fod yn
eirwir, ac yn dysgu ffordd Duw mewn gwir-
onedd, [m]ac nad oes arnat ofal rhag neb:
blegid nid wyt ti yn edrych ar wyneb dyn-
on.

h pen. 16. 11, 12. Marc 3. 6. a 8. 15. i adn. 24, 36. pen.
5. 18, 49. Marc 10. 17. Lef. 7. 40. k Salm 5. 9. a 12. 2. a 55.
1. Diar. 29. 5. Es. 59. 13—15. Jer. 9. 3—5. Ezec. 33. 30, 31.
Mal. 2. 6. Ioan 7. 18. a 14. 6. a 18. 37. 2 Cor. 2. 17. a 4. 2. 1 Ioan
20. m Deut. 33. 9. 1 Bren. 22. 14. Job 32. 21, 22. Mica 3. 9
-12. Mal. 2. 9. Marc 12. 14. Luc 20. 21. 2 Cor. 5. 16. Gal. 1. 10. a
6. 1 Thes. 2. 4. Iago 3. 17.

17 Dywed i ni gan hynny, [n]Beth yr wyt ti
n ei dybied? [o] || Ai cyfreithlawn rhoddi
eyrnged i [p]Cesar, ai nid *yw?*

n Jer. 42. 2, 3, 20. Act. 28. 22. o Deut. 17. 14, 15. Ezra 4.
8. a 7. 24. Neh. 5. 4. a 9. 37. Act. 5. 37. Rhuf. 13. 6, 7. p Luc
1. Ioan 19. 12—15. Act. 17. 7. a 25. 8.

* Yr oedd y Phariseaid a'u holl ddysgyblion, yn dàl
n gryf iawn yn erbyn talu teyrnged i Cesar, gan ddy-
edyd nad oedd gyfreithlawn i bobl ryddion a phriodol
r Arglwydd, gael eu llywodraethu gan estroniaid.
wel Deut. 17. 15. ac nad oedd gyfreithlawn iddynt
alu teyrnged i'r cyfryw. † Yr Herodianiaid oeddynt
aduceaid gan mwyaf o ran eu crefydd, gwŷr llŷs a
wenieithwyr Herod oeddynt; ac er ei foddloni ef, yn
ãl y dylasai yr Iuddewon dalu teyrnged i Cesar. Er
aòr groes oedd y rhai hyn i'w gilydd, cytunasant yn
urion i demtio yr Iesu. ‡ Mae yn wir fod Iesu yn
wbl deilwng o'r holl ganmoliaeth sydd yn y rhagym-
rodd hwn; eto nid oedd ddim amgen na gweniaeth
ddichellgar a rhagrithiol yn eu genau hwy y pryd hwnw.
Tybient nad oedd yn bosibl iddo ddianc heb gael ei
wydo gan un o'r ddwy blaid: pe dywedasai ei *bod* yn
yfreithlawn, buasai y Phariseaid yn achwyn yn ei er-
yn, ei fod yn cymmeryd plaid paganiaid, yn erbyn
nyddid ei genedl ei hun; ac yna buasai y bobl yn
yffredin yn codi yn ei erbyn. Pe dywedasai *nad* oedd
n gyfreithlawn, buasai yr Herodianiaid yn rhoddi
wyn yn ei erbyn, ei fod yn gwrthryfela yn erbyn Cesar,
c am hòni y freniniaeth iddo ei hun. Ac, yn wir,
allai y buasai ei waith yn cymmeryd arno benderfynu
ddadl ryw ffordd, yn cael ei ddefnyddio gan yr holwyr
radychus hyn fel cŵyn yn ei erbyn.

18 Ond yr Iesu [q]a wybu eu drygioni hwy,
c a ddywedodd, [r]Paham yr ydych yn fy
hemtio i, * chwi ragrithwyr?

q Marc 2. 8. Luc 5. 22. a 9. 47. a 20. 23. Ioan 2. 25. Dat. 2.
23. r pen. 16. 1—4. a 19. 3. Marc 12. 15. Luc 10. 25. Ioan 8. 6.
Act. 5. 9.

19 † Dangoswch i mi arian y deyrnged. A
hwy a ddygasant atto [s]geiniog.

s pen. 18. 28. a 20. 2. Dat. 6. 6.

20 Ac efe a ddywedodd wrthynt, ‡ Eiddo
pwy *yw* y ddelw hon a'r argraff?

21 Dywedasant wrtho, || Eiddo Cesar. Yna
y dywedodd wrthynt, [t] § Telwch chwithau yr
eiddo Cesar i Cesar, [u]a'r eiddo Duw i Dduw.

t pen. 17. 25—27. Diar. 24. 21. Luc 23. 2. Rhuf. 13. 7.
u adn. 37. pen. 4. 10. Dan. 3. 16—18. a 6. 10, 11, 20—23. Mal. 1.
6. Act. 4. 19. a 5. 29. 1 Pedr 2. 13—17.

22 * *A* phan glywsant hwy *hyn,* [x]rhyfeddu
a wnaethant, a'i adael ef, a myned ymaith.

x adn. 33, 46. pen. 10. 16. Diar. 26. 4, 5. Luc 20. 25, 26. a 21.
15. Act. 6. 10. Col. 4. 6.

* Er mòr ddichellgar oedd y bobl hyn yn eu cyfarch-
iad i'r Iesu, ac yn ngosodiad eu pwnc ger ei fron,
gwyddai efe beth oedd yn eu calon a'u bwriad. Gwyddai
mai mewn rhagrith y daethent ato, ac mai eu bwriad
oedd ei rwydo. † Yr oedd gan yr Iuddewon arian priod-
ol iddynt eu hunain, megys sicl, a hanner sicl; ond nid
y rhai hyny oedd arian y deyrnged; ac felly nid am y
rhai hyny y galwodd yr Iesu, ond am arian y deyrnged;
sef y geiniog Rufeinig. ‡ Mae yn debyg fod llun Ces-
ar y geiniog, a'i enw hefyd, efallai, o amgylch yr ymyl,
yn nghyd a rhyw eiriau eraill, megys enwau y gwledydd
yr oedd ef yn teyrnasu arnynt: fel y gwelwn ar arian
ein gwlad ein hunain. || Mae rhediad *(currency)* arian
mewn gwlad, yn brawf, ac yn gydnabyddiaeth y trigol-
ion, o lywodraeth y brenin a'u bathodd, ar y wlad hòno.
Felly, wrth i'r bobl hyn gydnabod arian Cesar, yr oedd-
ynt yn cydnabod llywodraeth Cesar arnynt, heb i'r Iesu
ddywedyd dim. § Mae yma gerydd i'r ddwy blaid: i'r
Phariseaid, am eu gwrthryfel yn erbyn Cesar, dàn rith
o grefydd a ffyddlondeb i'w Duw; ac i'r Herodianiaid,
am eu difaterwch am grefydd, er mwyn bod yn ffyddlon
i Cesar. Nid yw gwir grefydd yn gwneyd dynion yn
anffyddlawn i'r llywodraeth wladol: ac ni ddylai ffydd-
londeb i'r llywodraeth wladol wneyd dynion yn ddifater
am grefydd. Caffed Duw ei eiddo ei hun mewn addol-
iad; a'r brenin ei eiddo yntau mewn ffyddlondeb.
* Tybiodd y rhai bradychus hyn eu bod hwy yn gyfrwys
iawn yn eu gofyniad; ond pan welsant ddoethineb Iesu
yn ei atebiad, rhyfeddasant; ac aethant ymaith wedi eu
siomi, eu ceryddu, a thàn eu cywilydd: buasai gwell
ganddynt pe na ddaethent ato.

23 ¶ * [y]Y dydd hwnnw y daeth atto [z]y
Saduceaid, [a]y rhai sydd yn dywedyd nad oes
adgyfodiad, ac a ofynasant iddo,

y Marc 12. 18, &c. Luc 20. 27, &c. z pen. 3. 7. a 16. 6.
Act. 4. 1. a 5. 17. a 23. 6—8. a 1 Cor. 15. 12—14. 2 Tim. 2. 18.

24 Gan ddywedyd, [b]Athraw, [c] † dywedodd
Moses, Os bydd marw neb heb iddo blant,
priodeed ei frawd ei wraig ef, a chyfoded had
i'w frawd.

b adn. 16, 36. pen. 7. 21. Luc 6. 46. c Gen. 38. 8, 11. Deut.
Deut. 25. 5—10. Ruth 1. 11. Marc 12. 19. Luc 20. 28.

25 ‡ Ac [d]yr oedd gyd â ni saith o frodyr:
a'r cyntaf a briododd wraig, ac a fu farw; ac
efe heb hiliogaeth iddo, a adawodd ei wraig i'w
frawd.

d Marc 12. 19—23. Luc 20. 29—33. Heb. 9. 27.

26 Felly hefyd yr ail, a'r trydydd, hyd y
seithfed.

27 Ac yn ddiweddaf oll bu farw y wraig
hefyd.

28 || Yn yr adgyfodiad, gan hynny, gwraig
i bwy o'r saith fydd hi? canys hwynt-hwy oll
a'i cawsant hi.

* Am y Saduceaid a'u daliadau cyfeiliornus, sylwasom

o'r blaen: nid yw yn ymddangos fod gan y rhai hyn yr un bwriad yn erbyn bywyd Iesu, fel y Phariseaid a'r Herodianiaid o'r blaen; ond tybient nad oedd modd iddo ateb eu gofyniad hwy. † Mae y ddeddf a grybwyllir yma yn Deut. 25. 5. Yr oedd plentyn yr ail frawd i fod ar enw y brawd trancedig, ac i feddiannu ei etifeddiaeth ef: fel hyny yr oedd etifeddiaethau y gwahanol lwythau a'r gwahanol deuluoedd yn cael eu cadw ar wahan, heb fyned i lwythau a theuluoedd eraill. ‡ Pa un a fu amgylchiad o'r fath a enwir yma ai peidio, nis gwyddis; efallai mai tybiaeth ydyw, a ddychymmygodd y Saduceaid, er gwatwar athrawiaeth yr adgyfodiad, anfarwoldeb yr enaid, a chyflwr i ddyfod. Pa un bynag, yr oedd yn hen chwedl yn eu plith hwy, ac yr oeddynt wedi dyrysu llawer o'u gwrthwynebwyr â'r pwnc hwn, ac yn meddwl dyrysu Mab Duw yr un modd. ‖ Y pwnc oedd, gwraig i ba un o'r saith a fyddai hi yn yr adgyfodiad, gan i'r saith ei chael hi yma, ac heb i'r un o honynt gael plant o hóni, a hithau yn marw heb ei phriodi â neb arall.

29 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, * Yr ydych yn cyfeiliorni, [e] gan na wyddoch yr ysgrythyrau, [f] na gallu Duw.

e Job 19. 25—27. Salm 16. 9—11. a 17. 15. a 49. 14, 15. a 73. 25, 26. Es. 25. 8. a 26. 19. a 57. 1, 2. Dan. 12. 2, 3. Hos. 13. 14. Luc 24. 44—47. Ioan 20. 9. Rhuf. 15. 4. f Gen. 18. 14. Jer. 32. 17. Luc 1. 37. Act. 26. 8. Phil. 3. 21.

30 Oblegid [g] yn yr adgyfodiad † nid ydynt nac yn gwreicca, nac yn gwra; ‡ eithr y maent [h] fel angelion Duw yn y nef.

g Marc 12. 24, 25. Luc 20. 34—36. Ioan 5. 28, 29. 1 Cor. 7. 29—31. 1 Ioan 3. 1, 2. h pen. 13. 43. Salm 103. 20. Zec. 3. 7. Dat. 5. 9—11. a 19. 10.

* Pan dybiodd y Saduceaid gwatwarllyd hyn eu bod yn ddoethion, hwy a aethant yn ffyliaid: ac nid arbeddodd Iesu ddywedyd felly wrthynt. Yr oeddynt yn cyfeiliorni drwy feddwl na byddai adgyfodiad; neu os byddai, y byddai gwreica a gwra yn y byd a ddaw fel yn hwn. Yr oeddynt yn cyfeiliorni hefyd, drwy feddwl bod yn anmhosibl i allu Duw adgyfodi y meirw. Ac yr oeddynt yn cyfeiliorni yn drydydd, drwy feddwl nad oedd dim prawf o adgyfodiad y meirw yn yr ysgrythyr. † Yma mae y Crëawdwr wedi ordeinio priodas, er ymgeledd y naill i'r llall; er "ffrwytho ac amlâu," a gwneyd i fynu ddifrod angau; ac hefyd er ymwared cyfreithlawn rhag chwantau anghymmedrol: ond yn mhlith y saint yn y byd a ddaw, ni bydd achos am yr un o'r pethau uchod; ni bydd eisiau ymgeledd y stad bresenol yno; ni bydd neb yn marw yno; ac nid cyrph anianol, fel yma, a fydd yno. ‡ Bydd pawb fel angylion Duw yno: nid yn mhob ystyr; ond yn y pethau uchod a enwyd: bydd pawb yn berffaith sanctaidd a dedwydd, yn anllygredig, yn ysbrydol, ac yn anfarwol byth. Gwell i ni beidio hyll-drèmu yn mhellach i'r pethau uchod.

31 Ac am adgyfodiad y meirw, [i] * oni ddarllenasoch yr hyn a ddywedwyd wrthych gan Dduw, gan ddywedyd,

i pen. 9. 13. a 12. 3, 7. a 21. 16, 42.

32 † Myfi [k] yw Duw Abraham, a Duw Isaac, a Duw Jacob? [l] Nid yw Duw Dduw y *rhai* meirw, ond y *rhai* byw.

k Ex. 3. 6, 16. Act. 7. 32. Heb. 11. 16. l Marc 12. 26, 27. Luc 20. 37, 38.

33 ‡ A phan glybu y torfeydd *hynny*, [m] hwy a synnasant wrth ei athrawiaeth ef.

m adn. 22. pen. 7. 28, 29. Marc 6. 2. Luc 2. 47. a 4. 22. a 20. 39, 40. Ioan 7. 46.

* Nid oedd y Saduceaid yn addef un ran o'r Hen Destament yn air Duw, ond Pùm Llyfr Moses yn unig; am hyny mae Crist yn profi yr adgyfodiad iddynt o ysgrifeniadau Moses, y rhai a addefent: ni buasai gwiw iddo wneyd hyny o un màn arall, gan eu bod yn eu gwrthod, ac yn gwadu eu dwyfol ysbrydoliaeth. † Er dëall y prawf sydd yn y geiriau hyn, rhaid i ni ystyried y pethau canlynol: 1. Perthynas gyfammodol Duw âg Abraham, Isaac, a Jacob, a arwydda y geiriau, "Myw Duw, &c," ac nid ei berthynas â hwynt, a'i arglwyddiaeth arnynt, fel ei grëaduriaid yn unig. 2. Yr oedd patriarchiaid hyn wedi meirw er ys oesoedd pan ddywedodd Duw y geiriau uchod i Moses, Exod. 3. 6, y hyn sydd brawf fod eu heneidiau y pryd hwnw yn fyw ac o ganlyniad yn anfarwol, yr hyn a wadai y Saduceaid. 3. Rhaid i ni feddwl fod Abraham, Isaac, a Jacob, y arwyddo y *cwbl* o'r personau hyny, eu cyrph yn gystal â'u heneidiau; yr hyn a brawf adgyfodiad eu cyrph oblegid heb hyny ni byddai Duw ond Duw y rhai meirw os gadawai eu cyrph mewn stad marwolaeth byth. 4. Nid yw Duw Dduw y rhai meirw; hyny yw, nid yw efe yn dangos nemawr o garedigrwydd iddynt, os ydyn i farw ac heb adgyfodi mwyach. Yn y byd hwn, nachafodd Abraham, Isaac, a Jacob, ddim llawer o garedigrwydd gan Dduw, mwy nag a allai dynion eraill egael; ond dywed yr apostol, Heb. 11. 16, iddo "barotôdinas iddynt," yr hyn ni wnaeth ar y ddaear; am hynrhaid mai "un nefol" ydoedd, a rhaid iddynt hwythargael eu hadgyfodi, a byw byth i'w chyfanneddu. ‡ Nid rhyfedd i'r bobl, druain, synu wrth ei athrawiaeth ef yr oedd yn wahanol iawn i, ac yn rhagori llawer ar, pethau sychion a diflas, a arferent hwy glywed gan Phariseaid a'r Saduceaid. Pethau am fater eu heneidiau, a bywyd tragywyddol, oedd ganddo ef; a'r pethau hyny yn cael eu profi allan o'r ysgrythyrau, ac ysgrythyrau a addefai y Saduceaid eu hunain.

34 ¶ * Ac [n] wedi clywed o'r Phariseaid ddarfod *i'r Iesu* ostegu y Saduceaid, [o] hwy a ymgynnullasant ynghyd i'r un lle.

n Marc 12. 28. o pen. 12. 14. a 27. 3—5. Es. 41. 5—7. Ioan 11. 47—50. Act. 5. 24—28. a 19. 23—28. a 21. 28—30.

35 Ac un o honynt, † *yr hwn oedd* [p] gyfreithiwr, a ofynodd *iddo*, [q] gan ei demtio, a dywedyd,

p Luc 7. 30. a 10. 25. a 11. 45, 46, 52. a 14. 3. Tit. 3. 13. q adn. 18. Marc 10. 2.

36 Athraw, [r] ‡ pa un *yw* y gorchymyn mawr yn y gyfraith?

r pen. 5. 19, 20. a 15. 6. a 23. 23, 24. Hos. 8. 12. Marc 12. 28—33. Luc 11. 42.

37 ‖ A'r Iesu a ddywedodd wrtho, [s] Ceri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl.

s Deut. 6. 5. a 10. 12. a 30. 6. Marc 12. 29, 30, 33. Luc 10. 27. Rhuf. 8. 7. Heb. 10. 16, 17. 1 Ioan 5. 3—5.

38 Hwn yw y cyntaf, a'r gorchymyn mawr.

39 § A'r ail *sydd* gyffelyb iddo; [t] Câr dy [u] gymmydog fel ti dy hun.

t pen. 19. 19. Lef. 19. 18. Marc 12. 21. Luc 10. 27, 28. Rhuf. 13. 9, 10 Gal. 5. 14. Iago 2. 8. u Luc 10. 29—37. Rhuf. 15. 2. Gal. 6. 10.

40 * Ar [x] y ddau orchymyn hyn y mae yr holl gyfraith a'r prophwydi yn sefyll.

x pen. 7. 12. Ioan 1. 17. Rhuf. 3. 19—21. 1 Tim. 1. 5. 1 Ioan 4. 7—11. a 1. 9—21.

* Gallesid meddwl y buasai yn dda gan y Phariseaid i'r Iesu ostegu y Saduceaid; ond y cyfryw oedd eu gelyniaeth tuag ato, fel yr oedd yn ddrwg ganddynt hyny yn hytrach: a gwnaethant hwythau un ymosodiad yn chwaneg i'w demtio ef, gan obeithio cael rhywachlysur i'w feïo ar ei ymadroddion ef yn nghylch y gorchymynion. † Un o'r ysgrifenyddion, neu Ddoctoriaid y gyfraith. ‡ Yr holl gyfraith a feddylir yma, nid y gyfraith foesol, neu y deg gair deddf, yn unig. Yr oedd mynych ddadl yn mhlith y dysgawdwyr Iuddewig, pa un oedd y gorchymyn mwyaf, neu y blaenaf, yn y gyfraith: mynai rhai mai deddf yr enwaediad oedd, eraill mai deddf yr aberthau, ac eraill mai deddf y phylacterau. Cytunai pawb o honynt fod deddf yr enwaediad i'w hystyried o flaen deddf y sabbath; ond am y lleill yr oeddynt yn methu cytuno pa un oedd y gorchymyn mwyaf, a blaenaf. ‖ Mae *Dr. Lightfoot* (ar Marc 12.

3.) yn sylwi, fod Crist yn ateb yr Ysgrifenydd hwn â
air oedd yn ysgrifenedig ar y phylacterau, drwy yr hyn
o oedd yn gochelyd pob achos o dramgwydd, ac yn dan-
os hefyd, bod cadw y ddeddf foesol yn fwy cymmerad-
y gan Dduw, na'r holl aberthau a'r poeth-offrymau a
elent roddi iddo. Os gofyn neb, at ba un o'r deg gor-
nymyn yr oedd Crist yn cyfeirio yn ei ateb hwn; gellir
wwedyd, mai nid at un mwy na'r llall; ond hyn yw swm
si sylwedd y pedwar gorchymyn cyntaf, y rhai sydd yn
cynnwys ein dyledswydd tuag at Dduw. Mae ein
diachawdwr yma yn dangos, nad yw cadw llythyren y
orchymynion hyny oddiallan ddim, os na byddir yn
nwneyd hyny oddiar egwyddor o gariad at Dduw: a
naru Duw hefyd yn benaf o bob peth, ac â'r holl galon,
c. § Dyma hefyd swm a sylwedd gorchymynion yr
ll lech, ein dyledswydd tuag at ein cymmydogion.
rwy grybwyll hwn gyda'r llall, mae Crist yn rhoddi
ocheliad i'r Phariseaid, rhag y meddwl ffol ag oedd
anddynt hwy, bod cadw un gorchymyn rhagorol, yn
sgusodi y troseddiad o amryw orchymynion eraill.
lae yn sicr eu bod hwy yn dueddol iawn i fawrâu
yledswyddau y llech gyntaf, i esgeuluso dyledswyddau
r ail: am hyny yr oedd y wers hon yn angenrheidiol
wn iddynt. * Y ddau orchymyn hyn yw sylwedd yr
holl ddeddf foesol, a sylfaen holl wir grefydd. Dyma
holl ddeddf natur, a ysgrifenwyd ar y cyntaf yn nghalon
yn, ac yr hon ni ddirymir byth. Ac mae yr holl
datguddiad dwyfol wedi ei sylfaenu ar y ddau hyn, ac
n eu cadarnâu. Da yw i ni, fod y ddeddf hon yn llaw
yfryngwr, ac ei fod ef yn ddiwedd y ddeddf, er cyf-
awnder i bob un sydd yn credu.

41 ¶ * Ac [y] wedi ymgasglu o'r Phariseaid
rnghyd, yr Iesu a ofynodd iddynt,

y adn. 15, 34. Marc 12. 35. Luc 20. 41.

42 Gan ddywedyd, [z] † Beth a dybygwch
dhwi am Grist? mab i bwy ydyw? Dywedent
wrtho, [a] ‡ *Mab* Dafydd.

z pen. 2. 4—6 a 14. 33. a 16. 13—17. Ioan 1. 49. a 6. 68, 69. 2 20. 28. Phil. 2. 9—11. a 3. 7—10. Col. 3. 11. 1 Pedr 2. 4—7. Dat. . 12—14. a pen. 1. 1. a 21. 9. Es. 7. 13, 14. a 9. 6, 7. a 11. 1— . Jer. 23. 5, 6. Ezec. 34. 23, 24. Amos 9. 11. Luc 1. 69, 70. Ioan . 41, 42. Act. 13. 22, 23.

43 Dywedai yntau wrthynt, || Pa fodd gan
uynny y mae Dafydd yn [b] yr yspryd yn ei alw
ef yn Arglwydd, gan ddywedyd,

b 2 Sam. 23. 2. Marc 12. 36. Luc 2. 26, 27. Act. 1. 16. a 2. 30, 11. Heb. 3. 7. 2 Pedr 1. 21. Dat. 4. 2.

44 [c] Dywedodd yr ARGLWYDD wrth [d] fy
Arglwydd, Eistedd ar fy neheulaw, [e] hyd oni
osodwyf dy elynion yn droed-faingc i'th draed
lli?

c Salm 110. 1. Act. 2. 34. 1 Cor. 15. 25. Heb. 1. 3, 13. a 10. 2, 13. a 12. 2. d Ioan 20. 28. 1 Cor. 1. 2. Phil. 3. 8. e Gen. . 15. Salm 2. 8, 9. a 21. 9. Es. 63. 1—6. Luc 19. 27. Dat. 19. 19— 1. a 20. 1—3, 11—15.

45 Os yw Dafydd gan hynny yn ei alw ef
yn Arglwydd, [f] pa fodd y mae efe yn fab iddo?

f Ioan 8. 58. Rhuf. 1. 3, 4. a 9. 5. Phil. 2. 6—8. 1 Tim. 3. 15. Heb. 2. 14. Dat. 22. 16.

46 § Ac [g] nid allodd neb atteb gair iddo,
[a] ac ni feiddiodd neb o'r dydd hwnnw allan
ymofyn âg ef mwyach.

g pen. 21. 27. Job 32. 15, 16. Es. 50. 2—9. Luc 13. 17. a 14. 6. Ioan 8. 7—9. Act. 4. 14. h Marc 12. 34. Luc 20. 40.

* Gwedi ateb a gostegu ei demtwyr oll, a'r Phariseaid
yn aros yno, yn cyd-ymgynghori pa beth a wnaent nesaf
i geisio ei rwydo ef; mae yntau, yn ei dro, yn eu holi
hwythau am unwaith. † Y gofyniad oedd, Beth a
debygent hwy am Grist, y Messiah, mab i bwy ydoedd.
Fel pe dywedasai, Mi a wn nad ydych yn credu ynof
fi, mai *myfi* yw y Messiah; ond yr ydych chwi yn dis-
gwyl y Messiah i ddyfod, yn ol y prophwydoliaethau
am dano, a mab i bwy debygwch chwi a fydd efe pan
ddelo? ‡ Maent hwythau yn ateb yn ddïoed, mai mab
Dafydd a fyddai; heb feddwl dim yn amgen am dano:
nid oeddent yn meddwl y byddai ddim mwy na dyn, o
hiliogaeth ddiledryw Dafydd; a brenin, neu dywysog
gwladol ar yr Iuddewon, i'w gwaredu hwy oddi wrth eu
holl elynion daearol, a'u hadferu i'w holl ryddid a'u
breintiau gwladol fel cynt. || Nid yw Crist yn ei ail
ofyniad, yn dywedyd *nad* oedd y Messiah yn fab Dafydd;
ond y mae am iddynt hwy ddëall ei fod yn rhywun *mwy*
na mab Dafydd, gan fod Dafydd ei hun drwy ysbrydol-
iaeth Duw, yn ei alw ef yn Arglwydd. Addefai y
Phariseaid eu hunain, mai am y Messiah yr oedd Da-
fydd wedi llefaru y geiriau uchod (Salm 110. 1.) a'r
gofyniad oedd, pa fodd y gallai efe fod yn *fab* Dafydd,
yn ol tystiolaeth y prophwydi, ac yn Arglwydd Dafydd,
yn ol tystiolaeth Dafydd ei hun. Rhaid ei fod yn Ber-
son dwyfol, ac yn ddyn gwirioneddol, cyn y gallai hyny
fod. Gan fod y Messiah yn Arglwydd Dafydd, rhaid ei
fod yn Dduw; gan ei fod yn eistedd ar ddeheulaw yr
ARGLWYDD, (Jehofah yma,) rhaid ei fod yn ogyfuwch
â'r Tad. Beth a ddywed gwadwyr ei Dduwdod ef wrth
hyn? § Yr un fath a'r Phariseaid, mae dydd yn dyfod
pryd nad allant ateb gair, ac ni feiddiant wadu mwyach.

PEN. XXIII.

Crist yn rhybuddio'r bobl i ddilyn athrawiaeth dda, &c.

YNA y llefarodd yr Iesu [a] wrth y torfeydd
a'i ddisgyblion,

a pen. 15. 10, &c. Marc 7. 14. Luc 12. 1, 57. a 20. 45.

2 Gan ddywedyd, [b] * Y'nghadair Moses yr
eistedd yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid.

b Neh. 8. 4—8. Mal. 2. 7. Marc 12. 38. Luc 20. 46.

3 Yr hyn oll gan hynny [c] a ddywedant
wrthych am eu cadw, cedwch a gwnewch;
‡ eithr yn ol eu gweithredoedd na wnewch:
[d] canys dywedant, ac nis gwnant.

c pen. 15. 2—9. Exod. 18. 19, 20, 23. Deut. 4. 5. a 5. 27. a 17. 9—12. 2 Cron. 30. 12. Act. 5. 29. Rhuf. 13. 1. d pen. 21. 30. Salm 50. 16—20. Rhuf. 2. 19—24. 2 Tim. 3. 5. Tit. 1. 16.

Gwedi i'r Iesu drwy ei ddoethineb ddistawu ei holl
wrthwynebwyr, efe a dröddi at ei ddisgyblion, a'r torf-
eydd oedd o hyd o'i amgylch yn y deml, ac a lefarodd
wrthynt yn nghylch yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid.
Gallai rhai o'r bobl feddwl yn rhy uchel am yr Ysgrif-
enyddion a'r Phariseaid, a thybied eu bod hwy yn
anffaeledig, yn eu hathrawiaeth a'u hymarweddiad;
gallai eraill feddwl yn rhy isel am danynt, o herwydd
gwrthwynebiad yr Arglwydd Iesu iddynt: yn yr ail
adnod a'r drydedd, mae efe yn rhoddi gocheliad rhag y
ddau beth. * Cadair Moses: tybir fod yma gyfeiriad at
y pulpud a wnaed i Nehemiah 8. 4. Yr oedd gan yr
Iuddewon rywbeth cyffelyb yn eu synagogau; safent i
fynu i ddarllen yr ysgrythyrau, ac yna eisteddent yn y
gadair hòno i'w hegluro i'r bobl. Yr Ysgrifenyddion
a'r Phariseaid oedd fwyaf yn y sefyllfa hòno; ac nid yw
yr Arglwydd Iesu yn beio arnynt am eistedd yn nghadair
Moses: yr oedd y swydd yn gyfreithlawn ac yn dda.
† Yr oedd eu gwaith hefyd yn dda, cyn belled ag yr
oeddent hwy yn gwneyd cyfiawnder â chyfraith Moses,
ac nid pellach. O fewn y terfynau hyn rhaid i ni ddëall
y geiriau, "Yr hyn oll a ddywedant wrthych am eu
cadw, cedwch a gwnewch;" yr oedd ganddynt hwy lawer
o draddodiadau yn eu hathrawiaeth, (ac yn enwedig
gwrthod Iesu fel Messiah) y rhai ni ddylasai y bobl eu
cadw na'u gwneuthur. ‡ Er bod athrawiaeth yr Ysgrif-
enyddion a'r Phariseaid yn dda, cyn belled ag yr oedd-
ynt yn iawn egluro cyfraith Moses; eto, nid oedd eu
buchedd a'u gweithredoedd yn cyfateb i'w hathrawiaeth:
yr oeddynt yn dywedyd llawer o bethau, nad oeddynt yn
eu gwneyd. Athrawon truenus yw y rhai hyny, sydd
yn pregethu yn dda, a'u bucheddau yn groes i'w ha-
thrawiaeth. Nis gallant fod yn gymmeradwy; eto dylid
derbyn eu hathrawiaeth, ond nid dilyn eu hesamplau.

4 * Oblegid [e] y maent yn rhwymo beichiau
trymion ac anhawdd eu dwyn, ac yn *eu* gosod

ar ysgwyddau dynion; † ond nid ewyllysiant eu syflyd hwy âg un o'u bysedd.

e adn. 23. pen. 11. 28—30. Luc 11. 46. Act. 15. 10, 28. Gal. 6. 13. Dat. 2. 24, 25.

* Dywed rhai mai y deddfau moesol a seremoniol yn eu hystyr manylaf, yw y beichiau trymion yma; dywed eraill mai traddodiadau y Phariseaid yn chwanegol at y deddfau hyny, a feddylir. Arferai y dysgawdwyr Iuddewig y gair *rhwymo* yn aml,—mae y peth a'r peth wedi ei rwymo arnoch, a'r peth a'r peth wedi ei ryddâu oddi arnoch: mae y Rabbi hwn a hwn yn rhwymo fel a'r fel, a'r Rabbi hwn a hwn yn rhyddâu fel a'r fel; sef yn gwarafun neu yn caniatâu, y peth hyn a'r peth arall, a'r naill yn rhwymo a'r llall yn rhyddâu, yr un pethau. † Pa un bynag, yr oeddynt hwy yn eu gwasgu ar eraill mewn athrawiaeth, ond yn ddigon difater am danynt eu hunain o ran arferiad. Mae yr adnod hon yn agoriad ar yr adnod o'r blaen.

5 * Ond [f] y maent yn gwneuthur eu holl weithredoedd er mwyn eu gweled gan ddynion: [g] † *canys* y maent yn gwneuthur yn llydain eu phylacterau, ac [h] yn gwneuthur ymylwaith eu gwisgoedd yn helaeth;

f pen. 6. 1, 2, 5, 16. 2 Bren. 10. 16. Luc 16. 15. a 20. 47. a 21. 1. Ioan 5. 44. a 7. 18. a 12. 43. Phil. 1. 15. a 2. 3. 2 Thes. 2. 4. g Deut. 6. 8. Diar. 3. 3. a 6. 21—23. h pen. 9. 20. Num. 15. 38, 39. Deut. 22. 12.

* Sylwyd ar y rhan flaenaf o'r adnod hon o'r blaen, pen. 6. 1, 2, 5, 16. † Am y phylacterau gwel Exod. 13. 9, 16. Num. 15. 37—40; a Deut. 6. 8, 9. a 11. 18. a 22. 12. Ystyr y gair Groeg *phulachteria* yw, *cadwedigion.* Darnau bychain o femrwn oeddynt, a rhyw adnodau, neu ranau o'r gyfraith, yn ysgrifenedig arnynt. Gwisgai yr Iuddewon hwynt, ar orchymyn Duw, ar eu talcenau, eu harddynau, ar ymylau eu gwisgoedd, ac ar ystlysbyst eu drysau, fel y byddent yn goffadwriaeth iddynt o orchymynion yr Arglwydd. Ond yn mhen amser, aethant i wneyd camddefnydd o honynt; rhai er rhithgrefydd, ac eraill er swyn-gyfaredd, gan feddwl eu bod yn rhinweddol i'w cadw rhag ysbrydion, a rhyw anffodau ofergoelus o'r fath. Beiir yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid yma gan Grist, am eu gwisgo yn lletach nac eraill, er dangos eu hunain yn dra rhith-grefyddol: yn fwy crefyddol nac eraill.

6 A [i] charu y *maent* * y lle uchaf mewn gwleddoedd, a'r † prif-gadeiriau yn y synagogau,

i pen. 20. 21. Diar. 25. 6, 7. Marc 12. 38, 39. Luc 11. 43. a 14. 7—11. a 20. 46, 47. Rhuf. 12. 10. Iago 2. 1—4. 3 Ioan 9.

7 A chyfarch yn y marchnadoedd, a'u galw gan ddynion, [k] ‡ Rabbi, Rabbi.

k Ioan 1. 38, 49. a 3. 2, 26. a 6. 25. a 20. 16.

Nid yw yr Arglwydd Iesu yn beio arnynt am gymeryd y prif-gadeiriau a'r cyfarch hyn, pan eu rhoddid iddynt; ond beio y mae efe ar eu balchder a'u hunan hwynt, yn awyddu am danynt; felly dylid rhoi y pwys ar y gair *caru* wrth ddarllen yr adnodau hyn. * Y lle nesaf at y gwr a wnâi y wledd.—Y rhai a ystyrient eu hunain yn fwyaf dysgedig, a geisient y prif-gadeiriau hyn yn y synagogau. † Yr oedd i'r prif athrawon gadeiriau iddynt eu hunain, a'u cefnau ar y pulpud, lle y darllenid y gyfraith, ac â'u gwynebau at y bobl. Cyfrifid y rhai hyn y mwyaf anrhydeddus; am hyny yr oedd yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn awyddus am eu cael. Rhodiai y dynion beilchion a hunanol hyn ar hyd y marchnad-leoedd, yn unig er mwyn cael eu cyfarch yn gyhoeddus ger gwydd y lliaws; trwy estyn llaw iddynt, crymu y pen, neu blygu y glin, a'u galw yn Rabbi, Rabbi; yr hyn o'i ddywedyd ddwywaith, oedd yn arwydd o barch mawr iawn yn wir. ‡ Mae y gair Rabbi, meddant, yn arwyddo *mawredd a lliosogrwydd;* gan hyny yr oedd yn enw tra anrhydeddus, fel yr oedd yn arwyddo mawredd ac amrywiaeth dysg yr athrawon hyn. Felly nid rhyfedd eu bod yn awyddus am dano: cyfrifid bod eu geiriau hwy yn fwy gwerthfawr a phwysig na geiriau y prophwydi, ac yn llawn cyd-radd a'r gyfraith. Felly, nid rhyfedd bod Crist yn gwahardd yr enw i ddisgyblion ef.

8 * Eithr [l] na'ch galwer chwi Rabbi: canys [m] un yw eich Athraw chwi, *sef* Crist; † [n] chwithau oll brodyr ydych.

l adn. 10. 2 Cor. 1. 24. a 4. 5. Iago 3. 1. 1 Pedr 5. 3. m pen. 10. 25. a 17. 5. a 26. 49. Ioan 13. 13, 14. Rhuf. 14. 9, 10. 1 Cor. 12, 13. a 3. 3—5. n Luc 22. 32. Eph. 3. 15. Col. 1. 1, 2. Dat. 9. a 19. 10. a 22. 9.

9 ‡ Ac [o] na elwch neb yn dad i chwi ar ddaear: [p] canys un Tad sydd i chwi, yr hwn sydd yn y nefoedd.

o 2 Bren. 2. 12. a 6. 21. a 13. 14. Job 32. 21, 22. Act. 22 1 Cor. 4. 15. 1 Tim. 5. 1, 2. Heb. 12. 9. p pen. 6. 8, 9, 32. Mat. 1. 6. Rhuf. 8. 14—17. 2 Cor. 6. 18. 1 Ioan 3. 1.

10 Ac na'ch galwer yn athrawon: || canys un yw eich Athraw chwi, *sef* Crist.

* Nid yw yr Arglwydd Iesu yn gwahardd i weinidogion y gair gael y parch sydd ddyledus iddynt fel y cyfryw; ond yn y geiriau hyn, mae yn gwahardd iddynt awyddu am enwau a *theitlau* uchel, fel y gwnai y dysgawdwyr Iuddewig: ac mae yn gwahardd hefyd iddynt gam-arfer awdurdod eu swydd, i dra-arglwyddiaethu ar eu brodyr mewn pethau crefyddol. † Pe buasai rhyw flaenoriaeth i Pedr ar ei gyd-apostolion, fel y taer eglwys Rhufain, dyma'r màn i ddangos hyny; ond nid oes yma air o sôn am y cyfryw beth: dim, ond "Brodyr ydych." ‡ Hònai yr apostol, 1 Cor. 4. 15, mai efe oedd tad y Corinthiaid, fel yr offeryn a'u cenedlassai hwy yn Nghrist Iesu, trwy yr efengyl; ond yma, mewn ystyr arall y rhaid i ni olygu tad: na elwch neb yn dad, osod eu cyfreithiau eu hunain arnoch chwi, nac i bèn pa athrawiaeth a ddylech gredu yn ol eu mympwy hwy. Rhoddid yr enw hwn yn ddiammau i'r Phariseaid; 'ts sylwa yr Esgob *Wilkins*, fod gweinidogion hunanol pob enw o grefydd, yn fawr am dano. || Mae yn rhyfedd fod y geiriau hyn yn dygwydd ddwy waith yn y tair adnod uchod: gwyddai ein Harglwydd pa mòr angen rheidiol oeddynt, a bod hyd yn nod ei weinidogion e yn rhy dueddol i'w hanghofio. Gallwn sylwi yn olaf Gan fod yr enwau uchod yn cael eu gwahardd i apostolion Iesu, pa faint mwy i weinidogion cyffredinol y efengyl? Cadwed Duw ei weinidogion, heb awyddu am barch ac enwau mawr: a gwareded hwy rhag cam ddefnyddio y parch a gaffont, i dra-arglwyddiaethu a etifeddiaeth Duw.

11 * A'r [q] mwyaf o honoch a fydd yn weinidog i chwi.

q pen. 20. 26, 27. Marc 10. 43, 44. Luc 22. 26, 27. Ioan 13. 14 15. 1 Cor. 9. 19. 2 Cor. 4, 5. a 11. 23. Gal. 5. 13. Phil. 2. 5—8.

12 † A [r] phwy bynnag a'i dyrchafo ei hun a ostyngir; a phwy bynnag a'i gostyngo ei hun a ddyrchefir.

r pen. 5. 3. a 18. 4. Job 22. 29. Salm 138. 6. Diar. 15. 33. 16. 18, 19. a 29. 23. Es. 57. 15. Dan. 4. 37. Luc 1. 51, 52. a 14. 11 a 18. 14. Iago 4. 6. 1 Pedr 5. 5.

* Mae yr adnodau hyn yn egluro yr adnodau o'r blaen, ac yn dangos i ni yn 1. Mai nid yr *enw*, ond *rhodres* yr enw, oedd Crist yn ei feio. Yn 2. Mai nid y Rabbi, a'r Athraw, oedd efe yn ei wahardd, ond cyfryw Rabbi, ac Athraw, a wnelai ddyn yn rhy fawr, a uchel, i weinidogaethu yn yr eglwys: y cyfryw anrhydedd a ddyrchafai galon dyn uwchlaw ei waith. Athrawgresynol yw hwnw yn eglwys Dduw, sydd yn ei dybiedi hun yn rhy fawr, ac uchel, i weinidogaethu yndd † Pwy bynag a'i dyrchafo ei hun felly, fe'i darostwn Duw, a dynion hefyd, ef. Mae Duw yn gwrthwynebu beilchion, a dynion yn eu dirmygu, yn enwedig pregeth wyr beilchion. Ond y mae Duw a dynion yn anrhydeddu ac yn dyrchafu y rhai gostyngedig. Mae y geiriau hyn, neu eu cyffelyb, yn cael eu crybwyll o leiaf ddeu waith, gan y pedwar efengylwr; yr hyn sydd yn dangos mai nid i weinidogion yn unig y maent yn perthyn ond i ddisgyblion Crist yn gyffredinol.

13 ¶ * Eithr [s] gwae chwi, ysgrifenyddion
a Phariseaid, † ragrithwyr: [t] ‡ canys yr ydych
yn cau teyrnas nefoedd o flaen dynion: ‖ canys
chwi nid ydych yn myned i mewn, a'r rhai
sydd yn myned i mewn nis gadewch i fyned i
mewn.

s adn. 14, 15, 27, 29. Es. 9. 14, 15. a 33. 14. Zec. 11. 17. Luc 11. 43, 44. t pen. 21. 31, 32. Luc 11. 52. Ioan 7. 46—52. a 9. 20, 24, 34. Act. 4. 17, 18. a 5. 28, 40. a 8. 1. a 13. 8. 1 Thes. 2. 15, 16. 2 Tim. 3. 8. a 4. 15.

* Yn yr adnod hon a'r rhai canlynol, mae wyth o
weëau trymion, yn cael eu cyhoeddi uwch ben yr Ysgrif-
enyddion a'r Phariseaid, dysgawdwyr y dyddiau hyny.
Mae dau beth yn y gwaëau hyn: 1. Y farn ofnadwy a
ddaeth ar yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, yn ninystr
y genedl yn lled fuan wedi hyny. 2. Colledigaeth dra-
gwyddol eu heneidiau yn uffern dàn ddigofaint Duw.
† Chwareüwyr, yw ystyr y gair gwreiddiol *upochritai* a
gyfieithir rhagrithwyr. Fel y mae chwareüwyr yn
personoli dynion eraill, ac yn ymddangos y peth nid
ydynt, (byddai yr henafiaid hefyd yn chwarae dan
enwgwd) felly yr oedd y dysgawdwyr hyn yn eu holl
ddefydd, ac yn enwedig fel athrawon: cymmerent arnynt
ddysgu y bobl, eithr nid oeddynt ond yn eu twyllo, ac
yn eu harwain ar gyfeiliorn. ‡ Yn lle egluro y pro-
phwydoliaethau a'r cysgodau am y Messiah, a chyfeirio
y bobl at Iesu fel Messiah; yr oeddynt yn gwneyd a
phelent i'w wadu a'i ddirmygu ef, a rhwystro y bobl i
ddyfodu ynddo. ‖ Ni chredent ynddo eu hunain, a bwr-
iant eraill allan o'r synagog a gredai ynddo: felly yr
oeddent, hyd ag oedd ynddynt hwy, yn cau teyrnas nef-
oedd yma, ac yn y byd a ddaw, rhag i'r bobl fyned i
mewn.

14 Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid,
ragrithwyr: [u] * canys yr ydych yn llwyr-fwytta
tai gwragedd gweddwon, † a hynny yn rhith
hir weddio: [x] ‡ am hynny y derbyniwch farn
fwy.

u Ex. 22. 22—24. Job 22. 9. a 31. 16—20. Marc 12. 40. Luc 20. 47. 2 Tim. 3. 6. Tit. 1. 10, 11. 2 Pedr 2. 14, 15. x adn. 33. pen. 11. 24. Luc 12. 48. Iago 3. 1. 2 Pedr 2. 3.

* Trwy un o'r tair ffordd ganlynol, neu, efallai, trwy
bob un o honynt, yr oedd y bobl hyn yn llwyr-fwyta tai
gwragedd gweddwon: 1. Yr oedd llawer o'r Phariseaid
mewn rhyw swyddau gwladol; ac fel hyny gallent or-
ddeirymu gwragedd gweddwon, a gwneyd trais ac anghyf-
iawnder â hwynt yn eu meddiannau. 2. O herwydd
yn rhith o fawr sancteiddrwydd, byddai dynion goludog
yn eu dewis hwy fel ymddiriedolwyr a chymmyn-wein-
yddwyr wrth wneyd eu hewyllysiau; ac fel hyny gallent
gwneyd cam â'r gweddwon, a'r amddifad hefyd. 3. Bydd-
ent yn hudo gwragedd gweddwon, gweiniaid eu medd-
iliau, i roddi mwy nag oedd raid o'u meddiannau at
wasanaeth y deml, (ond at eu gwasanaeth hwy mewn
gwirionedd,) dan yr esgus o weddio drostynt. † Nid
hir weddio a feïr ond *rhith* hir weddio. Parâent i
weddio am dair awr meddant, ond *rhith* hir weddio oedd
o cwbl. ‡ Mae barn drom i fod am bob trais ac anghyf-
iawnder; ond y neb a wnelo grefydd yn gochl i ddwyn
hyn yn mlaen, bydd barn ddychrynllyd ar y cyfryw.

15 Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid,
ragrithwyr: [y] * canys amgylchu yr ydych y
môr a'r tir, i wneuthur un [z] proselyt; † ac
wedi y gwneler, [a] yr ydych yn ei wneuthur ef
yn fab uffern, yn ddau mwy na chwi eich hun-
ain.

y Gal. 4. 17. a 6. 12. z Esther 8. 17. Act. 2. 10. a 13. 43. a Act. 14. 2, 19. a 17. 5, 6, 13.

* Ystyr y gair proselyt yw, dyfodiad o un genedl at
genedl arall: ond yn y Testament Newydd mae yn
arwyddo, tröedigaeth dynion o baganiaeth i'r grefydd
Iuddewig. Yr oedd dau fath o broselytiaid, 1. Rhai yn
addoli y gwir Dduw, ond heb gofleidio holl ddefodau y
grefydd Iuddewig. Caniatêid i'r rhai hyn fyw yn
mhlith yr Iuddewon, a gelwid hwy, proselytiaid y porth.
2. Y lleill, a gyd-ymffurfient â'r holl grefydd Iuddewig,
ac a dderbynid i'r eglwys trwy enwaediad, bedydd, ac
aberth: a'r rhai hyn a elwid, proselytiaid cyfiawnder.
Amgylchu môr a thir, oedd ymadrodd diarebol, yn ar-
wyddo cymmeryd llawer o boen a thrafferth i gyflawni
rhyw amcan, neu orchwyl. Ac felly y gwnai y Phari-
seaid i droi y cenedloedd i'r grefydd Iuddewig, ac yn
enwedig at eu plaid eu hunain: nid er lles i'w heneid-
iau, ond er anrhydedd iddynt eu hunain, ac er chwanegu
eu plaid. † Ar ol eu gwneyd yn broselytiaid, byddent
yn gwenwyno eu meddyliau, ac yn eu gwneyd yn fwy
rhagfarnllyd, a gelynol yn erbyn Crist a'r grefydd
Gristionogol, nag oeddynt hwy eu hunain. Proselyt-
iaid oedd yr Iuddewon Groegaidd gan mwyaf, a dan-
gosasant y gelyniaeth mwyaf chwerw yn erbyn Cristion-
ogaeth. Gwel y cyfeiriadau a berthyn i'r rhan olaf o'r
adnod.

16 Gwae chwi, [b] dywysogion deillion, y rhai
ydych yn dywedyd, [c] * Pwy bynnag a dwng
i'r deml, [d] nid yw ddim; ond pwy bynnag a
dwng i aur y deml, [e] y mae efe mewn dyled.

b adn. 17, 19, 26. pen. 15. 14. Es. 56. 10, 11. Ioan 9. 39—41. c pen. 5. 33, 34. Iago 5. 12. d pen. 15. 5, 6. Marc 7. 10—13. e Gal. 5. 3.

17 † Ffyliaid, a deillion: canys pa un sydd
fwyaf, yr aur, [f] ai y deml sydd yn sancteiddio
yr aur?

f adn. 19. Ex. 30. 26—29. Num. 16. 38, 39.

18 A phwy bynnag a dwng i'r allor, nid yw
ddim; ond pwy bynnag a dyngo i'r rhodd sydd
arni, y mae efe mewn dyled.

19 Ffyliaid, a deillion: canys pa un fwyaf,
y rhodd, [g] ai yr allor sydd yn sancteiddio y
rhodd?

g Ex. 29. 37.

20 ‡ Pwy bynnag gan hynny a dwng i'r
allor, sydd yn tyngu iddi, ac i'r hyn oll *sydd*
arni.

21 A phwy bynnag a dwng i'r deml, sydd
yn tyngu iddi, [h] ac i'r hwn sydd yn preswylio
ynddi.

h 1 Bren. 8. 13, 27. 2 Cron. 6. 2. a 7. 2. Salm 26. 8. a 132. 13, 14. Eph. 2. 22. Col. 2. 9.

22 A'r hwn a dwng i'r nef, sydd yn tyngu
[i] i orsedd-faingc Duw, ac i'r hwn sydd yn eis-
tedd arni.

i pen. 5. 34. Salm 11. 4. Es. 66. 1. Act. 7. 49. Dat. 4. 2, 3.

* Mae Crist wedi gwahardd y dull hyn o dyngu yn
pen. 5. 24, &c. Yma mae yn beio ar y gau-athrawiaeth
a roddai y Phariseaid i'r bobl yn nghylch llŵon, er
mwyn eu helw eu hunain. Dywedent hwy nad oedd
dim niwed tyngu i bethau crëedig: a dywedent y gallai
dyn dyngu i'r deml, neu i'r allor, a pheidio cyflawni ei
lŵ, neu ei adduned, nad oedd hyny ddim; ond os
tyngai efe i'r aur oedd yn nhrysorfa y deml, ac yn elw
iddynt hwy, neu os tyngai efe i'r rhodd a ddygai i'r
allor, bod yn rhaid iddo gadw ei lŵ: ac nas gallai ei
dòri heb fod mewn dyled, neu yn euog. † Ffyliaid a
deillion oeddynt, yn gwneyd y fath wahaniaeth disyn-
wyr rhwng y deml a'i haur, a rhwng yr allor a'i rhodd.
Rhaid bod y deml yn fwy sanctaidd na'i haur, a'r allor
yn fwy sanctaidd na'i rhodd. Felly yr oedd eu hathraw-
iaeth hwy yn gyfeiliornus, ac yn hollawl groes i natur a
gwirionedd pethau. ‡ Yn adn. 20, 21, ni gawn athraw-
iaeth Crist ei hun yn nghylch y llŵon, neu yr addun-
edau hyn: gwahanol iawn i'r eiddo y Phariseaid; ac
mòr amlwg, nad oes dim eisiau agoriad ar y geiriau.
‖ Tyngu i'r nefoedd, hefyd, oedd arferiad goddefol gan
yr Iuddewon; a thybient nad oedd fawr o niwed ynddo:
heb ystyried eu bod fel hyny yn tyngu i orsedd-faing

Duw, ac i Dduw ei hun, sydd yn eistedd arni. Nid yw tyngu i greaduriaid diwybodaeth, a phethau di fywyd, ddim gwell na thyngu i'r Creawdwr ei hun: hyny ydyw; bydd cyfrif am lŵon felly, fel pe tyngid i enw Duw ei hunan. Mae y llŵon yr un môr rhwymedig, a'r euogrwydd o'u tyngu, a'u tori, yr un fath â phe tyngid i'w enw mawr ac ofnadwy ef. Gocheled y Cymry yr arfer ddrwg hon!

23 Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr: [k] * canys yr ydych yn degymmu y mintys, a'r anis, a'r cwmin, † ac a adawsoch heibio [l] y pethau trymach o'r gyfraith, barn a thrugaredd, a ffydd: [m] ‡ rhaid oedd gwneuthur y pethau hyn, ac na adewid y lleill heibio.

k Luc 11. 42. l pen. 9. 13. a 12. 7. a 22. 37—40. 1 Sam. 15. 22. Diar. 21. 3. Hos. 6. 6. Mica 6. 8. Gal. 5. 22, 23. m pen. 5. 19, 20.

* Yr oedd y Phariseaid yn fanol ac yn rhith gydwybodol iawn yn eu degymu: degyment hyd yn nod bob mân-lysiau a dyfai yn eu gerddi. Yr oedd hyny yn dda ynddo ei hun; ond nid da eu hegwyddor na'u dyben hwy yn gwneyd hyny: yr hyn oedd, er mwyn ymddangos i ddyniou eu bod yn gyfiawn, ac er mwyn cael eu parchu gan ddynion fel rhai cyfiawn. Ymffrostiai un o honynt yn ei weddi ger bron Duw, ei fod yn degymu cymmaint oll ag a feddai, Luc 18. 12. Nid oedd y mân-lysiau hyn ond pethau diwerth iawn, ac mae yn ammheüs a ddylesid eu degymu hwynt. † Er eu bod yn fanol iawn mewn pethau bychain, di bwys a di werth; yr oeddynt ar ol yn fawr mewn pethau trymach: sef barn, neu gyfiawnder; trugaredd i'r anghenog a'r tlawd; a ffydd yn Iesu fel Messiah, neu ffyddlondeb tuag at Dduw a dynion. ‡ Er fod y pethau i gael eu gwneyd; eto, y pethau olaf hyn oedd y mwyaf pwysig, a mwyaf rheidiol eu gwneyd.

24 * Tywysogion deillion, [n] y rhai ydych yn † hidlo gwybedyn, ac yn llyngcu camel.

n pen. 7. 4. a 15. 2—6. a 19. 24. a 27. 6—8. Luc 6. 7—10. Ioan 18. 28, 40.

* Arweinyddion yw ystyr y gair tywysogion yn y man yma. Arweinyddion y bobl mewn pethau crefyddol oedd y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion, ond arweinyddion deillion oeddynt. † Yn y gwledydd poethion hyny yr oedd gwybed lawer; a llawer o honynt yn syrthio yn y gwin a yfid: yr hwn a hidlai yr Iuddewon yn ofalus rhag iddynt lyncu y gwybed. O hyn daeth y geiriau uchod yn ddiareb yn eu plith, am rai a fyddent yn fanol iawn mewn pethau bychain, ond yn lled ddifater mewn pethau llawer mwy pwysig. Dau nod gwastadol o ragrithiwr yw, 1. Ei fod yn hannerog yn ei gyflawniadau crefyddol. 2. Rhoddi y pwys mwyaf ar y pethau lleiaf, ac sydd yn gofyn leiaf o'r galon. Hyn oedd ymadrodd diarhebol, am ddyn manol iawn mewn pethau bychain, ac ar yr un pryd yn gwneyd drygau mwy, yn ddigon esmwyth ei gydwybod.

25 Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr: [o] * canys yr ydych yn glanhâu y tu allan i'r cwppan a'r ddysgl, ac o'r tu mewn y maent [p] yn llawn o drawsedd ac anghymmedroldeb.

o pen. 15. 19, 20. Marc 7. 4. Luc 11. 39, 40. p Es. 28. 7, 8.

26 † *Ti* Pharisead dall, [q] glanhâ yn gyntaf yr hyn *sydd* oddi fewn i'r cwppan a'r ddysgl, fel y byddo yn lân hefyd yr hyn sydd oddi allan iddynt.

q pen. 12. 33. Es. 55. 7. Jer. 4. 14. a 13. 27. Ezec. 18. 31. Luc 6. 45. 2 Cor. 7. 1. Heb. 10. 22. Iago 4. 8.

* Yr oedd y bobl hyn yn ofalus iawn yn eu golchiadau seremoniol a thraddodiadol, ac yn eu hymddangosiadau allanol; ond a'u calonau oddi mewn yn llawn o aflendid, cybydd-dod, ac anghyfiawnder yn awyddu am y pethau nad oedd eiddynt, fel y gallent eu treulio mewn rhysedd ac anghymmedroldeb. Am hyny yr oedd yr Arglwydd Iesu yn eu cymharu i ddynion yn glanâu y tu allan i'r cwpanau a'u dysglau bwyta, ac yn gadael y tu fewn y'n aflan heb eu golchi. Diammau y byddent hwy yn glanâu y tufewn hefyd, oddi wrth bob llychwiniad naturiol; ond trwy drawsedd anghyfiawn yr oeddyn hwy yn cael eu bwydydd a'u diodydd yn y llestri hyn ac yr oeddynt yn bwyta ac yn yfed o honynt i anghym medroldeb: felly mae yma gerydd deublyg arnynt he law am eu rhagrith, sef am eu trawsedd yn cael petha ac am eu hanghymmedroldeb yn y defnyddiad o ho ynt, ar ol eu cael. † Ti Pharisead dall, medd Iesu dyma gerydd llym, ond eithaf teilwng; dall oeddyn heb weled ffieidd-dra tumewnol eu calonau: dall pan meddylient dwyllo Duw âg ymddangosiad allanol: dall pryd na welent, ond glanâu y galon yn gyntaf, deuai pob peth oddi allan yn lân o ganlyniad.

27 Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid ragrithwyr: * canys [r] tebyg ydych chwi i [s] feddau wedi eu gwynnu, y rhai sydd yn ymddangos yn dêg oddi allan, ond oddi mewn sydd yn llawn o esgyrn y meirw, a phob aflendid.

r Es. 58. 1, 2. Luc 11. 44. Act. 23. 3. s Num. 19. 16.

28 † Ac felly [t] chwithau oddi allan ydych yn ymddangos i ddynion yn gyfiawn, [u] ond o fewn yr ydych yn llawn rhagrith ac anwiredd.

t adn. 5. 1 Sam. 16. 7. Salm 51. 6. Jer. 17. 9, 10. Luc 16. 15 Heb. 4. 12, 13. u pen. 12. 34, 35. a 15. 19, 20. Marc 7. 21—23

* Byddai llawer iawn o harddu ac addurno ar feddau gwŷr mawr yn mhlith yr Iuddewon: beddau anamlwg oedd i'r tlodion, Luc 11. 44. Ond yr un peth oedd oddi fewn iddynt oll; dim ond esgyrn y meirw a madredd aflan cyrph braenllyd. Heblaw gwynu beddau e addurn a harddwch fel y sylwyd, byddai yr Iuddewon yn eu gwynu hefyd fel y gwelai pawb hwynt, i ymgadw rhag halogiad seremoniol trwy gyfhwrdd â hwynt (gwel Num. 19, 16.) a lle ni byddai un math o adeilad waith ar y bedd, hwy a wynent y ddaear wastad lle byddai un wedi ei gladdu. † Felly hefyd y rhagrithwyr hyn, yr oeddynt yn dra ffiaidd oddifewn yn ngolwg Duw Nis gall atgasach cymhariaeth na hon fod, o ragrithwyr

29 Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid ragrithwyr: * canys [x] yr ydych yn adeiladu beddau y prophwydi, ac yn addurno beddau y rhai cyfiawn;

x Luc 11. 47, 48. Act. 2. 29.

30 † Ac yr ydych yn dywedyd, Pe buasem ni yn nyddiau ein tadau, ni buasem ni gyfranogion â hwynt yn [y] ngwaed y prophwydi.

y adn. 34, 35. pen. 21. 35, 36. 2 Cron. 36. 15, 16. Jer. 2. 30.

* Dangosai yr Iuddewon anrhydedd mawr i fedd Mordecai, ac addurnodd Herod feddrod Dafydd yn wych dros ben, medd haneswyr; ac mae yn debyg eu bod yn gwneyd yr un modd â beddau y prophwydi a laddasa eu henafiaid, † ac fel hyny yn cymmeryd arnynt anghym meradwyo gweithredoedd eu tadau, a bod yn well n hwynt. Nid beio arnynt am addurno beddau y pro phwydi yr oedd Iesu yma; ond beio ar eu rhagrith y hyny: anrhydeddent feddau a choffadwriaeth y proph wydi, ond ni chredent eu prophwydoliaethau am Iesu parchent y rhai cyfiawn meddir, ac ar yr un pryd y oeddynt yn ymgynghori pa fodd i roddi Iesu Grist Cyfiawn i farwolaeth. Canmolir rhyw Rabbi Iuddewi yn fawr gan un o'i ddysgyblion, trwy ddywedyd idd adeiladu bedd Adda a bedd Abraham.

31 * Felly yr ydych [z] yn tystiolaethu an danoch eich hunain, [a] eich bod yn blant i'r rhai a laddasant y prophwydi.

z Jos. 24. 22. Job 15. 5, 6. Salm 64. 8. Luc 19. 22. a Ac 7. 51, 52. 1 Thes. 2. 15, 16.

32 † Cyflawnwch chwithau hefyd [b] fesur eich tadau.

b Gen. 15. 16. Num. 32. 14. Zec. 5. 6—11.

33 ‡ O [c] seirph, hiliogaeth gwiberod, [d] ‖ pa
dd y gellwch ddiangc rhag barn uffern?

c pen. 3. 7. a 12. 34. Gen. 3. 15. Salm 58. 3—5. Es. 57. 3, 4. a 3. 7. Ioan 8. 44. 2 Cor. 11. 3. Dat. 12. 9. d adn. 14. Heb. 3. a 10. 29. a 12. 25.

* Addefai y Phariseaid yn y gwaith uchod o adeiladu
eddau y prophwydi, eu bod yn blant i'r rhai a'u lladd-
ent; ac felly yr oeddent, nid o ran gwaedoliaeth na-
iriol yn unig, ond o ran yspryd, gelyniaeth ac ym-
lygiad hefyd, tuag at Fab Duw, yr hyn a ddangosas-
nt yn fuan wedi hyn. † Fel pe dywedasai yr Iesu,
dhoddwch heibio y rhagrith a'r ffug-sancteiddrwydd
yllodrus hwn, a dangoswch yn eglur mewn gweithred
hyn sydd yn awr yn eich calon, sef lladd y Messiah:
fel hyny gorphenwch yr hyn a ddechreuodd eich
dau, a chyflawnwch fesur eu hamcan a'u hanwiredd
wy. ‡ Seirph o ran cyfrwysdra, dichell, ac ymddang-
siad têg, ond llawn o wenwyn a gelyniaeth yn erbyn
rist. A hiliogaeth gwiberod; fel yr oedd y tadau, felly
ae eu hiliogaeth. ‖ Er eu bod trwy eu rhagrith yn
wyllo dynion, eto ni thwyllent mo Dduw, ac nis gall-
nt ddianc barn ofnadwy uffern trwy eu rhagrith a'u
ug-dduwioldeb.

34 ¶ * Am hynny, wele, [e] yr ydwyf yn
nfon attoch [f] † brophwydi, [g] a doethion, ac
ysgrifenyddion: ‡ a *rhai* [i] o honynt a ledd-
ch, ac a groeshoeliwch; a *rhai* o honynt a
rewyllwch yn eich synagogau, ac a erlidiwch
o dref i dref:

e pen. 10. 16. a 28. 19, 20. Luc 11. 49. a 24. 47. Ioan 20. 21. t. 1. 8. 1 Cor. 12. 3—11. Eph. 4. 8—12. f Act. 11. 27. a 13. a 15. 32. Dat. 11. 10. g Diar. 11. 30. 1 Cor. 2. 6. a 3. 10. bl. 1. 28. h pen. 13. 52. i pen. 10. 16, 17. Ioan 16. 2. Act. 40. a 7. 51, 52, 58, 59. a 9. 1, 2. a 12. 2. a 14. 19. a 22. 19, 20. Cor. 11. 24, 25. 1 Thes. 2. 16.

35 ‖ Fel [k] y delo arnoch chwi yr holl waed
yfiawn a'r a ollyngwyd ar y ddaear, [l] o waed
bel gyfiawn [m] hyd waed § Zecharïas fab
arachïas, yr hwn a laddasoch rhwng y deml
r allor.

k Gen. 9. 5, 6. Num. 35. 33. Deut. 21. 7, 8. 2 Bren. 21. 16. a 4. Es. 26. 21. Jer. 2. 30, 34. a 26. 15, 23. Galar. 4. 13, 14. Dat. 24. l Gen. 4. 8. Heb. 11. 4. a 12. 24. 1 Ioan 3. 11, 12. 2 Cron. 24. 21, 22. Zec. 1. 1. Luc 11. 51.

36 Yn wir meddaf i chwi, [n] Daw hyn oll ar
genhedlaeth hon.

n pen. 24. 34. Ezec. 12. 21—28. Marc 13. 30, 31. Luc 21. 2, 33.

* Yn Luc 11. 49, dywedir mai Doethineb Duw sydd
m danfon; yma Crist sydd yn danfon: gan hyny rhaid
ai Crist a feddylir yn y fàn hòno, fel yn yr wythfed
'r Diarebion. Yn y fàn hon mae efe yn ei arddelwi ei
un fel y Messiah, ac yn dangos ei awdurdod fel y
yfryw i ddanfon ei genadon. † Apostolion, efengylwyr,
ugeiliaid ac athrawon: dysgawdwyr a gweinidogion y
Testament Newydd, dàn enw prophwydi, doethion ac
sgrifenyddion yr hen oruchwyliaeth, a dim llai enwog
a'r goreu o honynt hwy. ‡ Fel pe dywedasai yr Iesu,
n lle eu derbyn, a throi o'ch ffyrdd drygionus wrth eu
weinidogaeth hwy, mi a wn mai eu herlid a'u lladd a
newch. Ac felly yn hollawl y bu: llabyddiwyd Stephan,
ct. 7. 59; lladdwyd Iago, Act. 12. 2; torwyd pen Paul;
chroeshoeliwyd Pedr, medd Eusebius; ffrewyllwyd
r apostolion, Act. 5. 40; cospwyd y dysgyblion yn mhob
ynagog, ac erlidiwyd hwy hyd ddinasoedd dïeithr
efyd, Act. 26. 11. ‖ Mae Duw yn ymweled âg anwir-
dd y tadau ar y plant hyd y drydedd a'r bedwaredd
enedlaeth; ond yma yr oedd y plant yn para i rodio yn
fyrdd eu tadau, ac yn cyflawni mesur eu tadau, ïe, yn
nyned i wneuthur yn waeth na'u tadau; am hyny yr
oedd yn gyfiawn eu gwneuthur hwy yn siampl i holl
enedlaethau dyfodawl y ddaear. § Amryw wahanol
eddyliau sydd am y Zecharïas hwn: tybia rhai, mai
hwnw a sonir yn 2 Cron. 24. 20, 21, 22, ydoedd. Gwrth-
ddadleuir, mai mab Jehoiada oedd hwnw, ac nid mab
Barachïas: Tybia eraill, mai Zecharïas mab Barachïas mab Ido, y prophwyd oedd, Zech. 1. 1. Mae yn wir nad oes dim hanes ysgrythyrol i hwnw gael ei ladd; ac nad oedd teml yn ei amser ef, medd rhai; ond dywed eraill ei bod, wedi ei hail adeiladu; ac yr oedd traddodiad yn mhlith yr Iuddewon, mai ei ladd a gafodd efe, a hyny ar ddydd mawr y cymmod. Cyflawnwyd y geiriau trymion hyn o'r eiddo ein Hiachawdwr ar y genedlaeth hono. Daeth digofaint Duw arnynt hwy hyd yr eithaf.

37 [o] * Jerusalem, Jerusalem, [p] † *yr hon* wyt
yn lladd y prophwydi, ac yn llabyddio y rhai a
ddanfonir attat, [q] ‡ pa sawl gwaith y mynnaswn
gasglu dy blant ynghyd, [r] megis y casgl iâr ei
chywion dan *ei* hadenydd, [s] ac nis mynnech.

o Jer. 4. 14. a 6. 8. Luc 13. 34. Dat. 11. 8. p adn. 60. pen. 5. 12. a 21. 35, 36. a 22. 6. 2 Cron. 24. 21, 22. Neh. 9. 26. Jer. 2. 30. a 26. 23. Marc 12. 3—6. Luc 20. 11—14. Act. 7. 51, 52. 1 Thes. 2. 15. Dat. 11. 7. a 17. 6. q 2 Cron. 36. 15, 16. Salm 81. 8—11. Jer. 6. 16, 17. a 11. 7, 8. a 25. 3—7. a 35. 15. a 42. 9—13. a 44. 4. Zec. 1. 4. r Deut. 32. 11. Ruth. 2. 12. Salm 17. 8. a 36. 7. a 57. 1. a 63. 7. a 91. 4. s pen. 22. 3. Diar. 1. 24—31. Es. 50. 2. Hos. 11. 2, 7. Luc 14. 17—20. a 15. 20. a 19. 14—44.

38 ‖ Wele, [t] yr ydys yn gadael eich tŷ i
chwi yn anghyfannedd.

t pen. 24. 2. 2 Cron. 7. 20, 21. Salm 69. 24, 25. Es. 64. 10—12. Jer. 7. 9—14. Dan. 9. 26, 27. Zec. 11. 1, 2. a 14. 1, 2. Marc 13. 14. Luc 13. 35. a 19. 43, 44. a 21. 6, 20, 24. Act. 6. 13, 14.

39 § Canys meddaf i chwi, [u] Ni'm gwelwch
ar ol hyn, hyd oni ddywedoch, [x] Bendigedig
yw yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd.

u Hos. 3. 4, 5. Luc 2. 26—30. a 10. 22, 23. a 17. 22. Ioan 8. 21, 24, 56. a 14. 9, 19. x pen. 21. 9. Salm 118. 26. Es. 40. 9—11. Zec. 12. 10. Rhuf. 11. 25, 26. 2 Cor. 3. 14—18.

* Jerusalem y ddinas sanctaidd, y lle enwocaf dàn y nef, tegwch bro, a llawenydd yr holl ddaear, O y fath gyfnewidiad a rag-fynegir yma! Mae ail-adroddiad y gair yn arwyddo pwys yr hyn y ddywedir, ac hefyd teimladau cyffröus yr Arglwydd Iesu wrth lefaru. † Yr hon wyt wedi lladd llawer eisoes, adn. 35; ac a leddi eto lawer yn chwaneg adn. 34, hyd yn nod y Messiah ei hun. Yr oedd Jerusalem wedi myned mòr nodedig am ladd y prophwydi, fel yr oedd y geiriau, "Ni all fod y derfydd am brophwyd allan o Jerusalem," wedi myned yn ddïareb yn mhlith yr Iuddewon eu hunain, Luc 13. 33. ‡ Amryw weithiau y defnyddia yr Arglwydd y gymhariaeth hon yn yr Hen Destament: gwel y cyfeiriadau. Nid oes yn holl anian gymhariaeth mwy addas, i osod allan gariad y Gwaredwr at ei bobl, a'i ofal ffyddlon am danynt. Dàn gysgod ei adenydd ef maent yn gynhes ac yn ddïogel; ac ef ei hun yn unig wedi bod yn wyneb yr ystorm a'r gelynion i'w dïogelu hwy. Danfonodd ei brophwydi, daeth ei hun, ac wedi hyny danfonodd ei apostolion, i'w casglu hwynt dàn ei gysgod, ond nis mynent ddyfod. O galedrwydd calon dyn! Yn y Dwyrain mae adar ysglyfaethus yn wastad ar yr adain, fel mae yn bur anhawdd magu cywion ieir, am y bydd yr adar hyny yn barod i ddisgyn arnynt a'u hysglyfio bob mynyd: fel hyn mae llygad y fam yn wastad tuag i fynu, yn gwylied y gelynion, ac yn y fàn y canfydda hi un o honynt yn nesâu, hi a rydd ysgrêch rybuddiol, a ffôa y cywion dan ei hadenydd hi am ddiogelwch. ‖ Ymddiriedai yr Iuddewon lawer yn eu tŷ, sef eu teml; ond yma mae barn yn cael ei bygwth ar eu tŷ, eu dinas, eu gwlad, ac ar yr holl genedl. § Dyma y rhybudd diweddaf a roddodd yr Arglwydd Iesu i Jerusalem, ar ol dau eraill, a grybwyllir yn Luc 13. 34, 35. a 19. 41—44: a dyma y tro diweddaf, mae yn debyg, y bu efe yn y deml, cyn dyoddef o hóno. Gadawodd y deml, a gadawodd y byd yn fuan; ac nid oedd yr Iuddewon digred i gael ei weled mwyach (ar ol ei esgyniad) hyd oni ddelo yn nydd y farn gyffredinol: yna pob llygad a'i gwel; a bydd raid i'r dewraf, a mwyaf digred o honynt hwythau y pryd hyny, ddywedyd gyda'r dorf o'r blaen, Bendigedig yw yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd. Ond, tybia rhai, mai

cyfeiriad sydd yma at amser tröedigaeth a dychweliad yr Iuddewon, pryd y dywedant y geiriau uchod o'u bodd, ac nid o raid a gorfod.

PEN XXIV.

Arwyddion dyfodiad Crist.

A'R Iesu a aeth allan, [a] ac a ymadawodd o'r deml: * a'i ddisgyblion a ddaethant *atto*, [b] i ddangos iddo adeiladau y deml.

a pen. 23. 39. Jer. 6. 8. Ezec. 8. 6. a 10. 17—19. a 11. 22, 23. Hos. 9. 12. b Marc 13. 1, 2. Luc 21. 5, 6. Ioan 2. 20.

2 A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Oni welwch chwi hyn oll? † Yn wir meddaf i chwi, [c] Ni adewir yma garreg ar garreg, a'r ni ddattodir.

c 1 Bren. 9. 7, 8. Jer. 26. 18. Ezec. 7. 20—22. Dan. 9. 26, 27. Mica 3. 12. Luc 19. 44. 2 Pedr 3. 11.

Nid yw Ioan yn crybwyll dim am y brophwydoliaeth sydd yn y bennod hon; oblegid tybir mai ar ol dinystr Jerusalem yr ysgrifenodd efe ei efengyl. * Yr oedd y deml yn fawr iawn, ac o adeiladaeth gadarn ac ardderchog anghyffredin. Dywed Josephus fod rhai o'i meini yn bùm cufydd a deugain o hyd, yn bùm cufydd o uchder, ac yn chwe cufydd o led. A dywed yr un gwr fod meini mynor y deml mòr wynion, fel yr oedd yn ymddangos o bell fel mynydd o eira. Efallai bod y dysgyblion yn ammau, a oedd dichon i'r fath dŷ gael ei wneyd byth yn anghyfannedd; neu ynte eu bod yn gresynu, wrth feddwl y gwnaid y fath adeilad ardderchog yn anghyfannedd. † Ond sicrâodd Iesu iddynt, na adewid yno gàreg ar gàreg, heb eu dattod: ac felly y bu yn hollawl cyn pen deugain mlynedd. Chwennychai Titus, llywydd y fyddin Rhufeinig, arbed y deml; o barch i'r lle medd rhai, er cofarwydd o'i fuddugoliaeth, medd eraill; ond methodd mewn un modd ag attal cynddeiriogrwydd ei filwyr, llosgasant yr hyn oedd hylosg o hóni, a dymchwelasant yr holl furiau, fel na adawyd càreg ar gàreg. Wrth weled hyny, gorchymynodd Titus iddynt gloddio ei holl sylfeini hi, gan obeithio cael yno lawer o drysorau cuddiedig: ac wedi hyny arddwyd y tir ar ba un y safasai y deml fawr. Gwelwn yn hyn gywirdeb prophwydoliaeth Duw, Jer. 26. 18; Mica 3. 12. Gwelwn hefyd beth mòr wael yw mawredd, llwyddiant, a gweithredoedd, dynion annuwiol, yn wyneb barnau ofnadwy yr Hollalluog. A gwelwn hefyd leied o fri sydd gan Dduw ar leoedd addoliad gwychion, pan elont yn ogof lladron. Dywedir i Julian y gwrthgiliwr, yn ei ryfyg, geisio ail-adeiladu y deml, er mwyn dirymu geiriau Crist; ond fod pelau o dân gwyllt yn tòri drwy y sylfeini, fel na allai neb weithio na myned yn agos i'r fàn. Peth ofnadwy yw ymryson â Duw!

3 ¶ Ac [d] efe yn eistedd ar fynydd yr Olew-wydd, [e] y disgyblion a ddaethant atto o'r neilldu, gan ddywedyd, [f] * Mynega i ni, pa bryd y bydd y pethau hyn? [g] † a pha arwydd *fydd* o'th ddyfodiad, ‡ ac o [h] ddiwedd y byd?

d pen. 21. 1. Marc 13. 3, 4. e pen. 13. 10, 11, 36. a 15. 12. a 17. 19. f Dan. 12. 6—8. Luc 21. 7. Ioan 21. 21, 22. Act. 1. 7. 1 Thes. 5. 1. g adn. 32, 33, 43. h pen. 13. 39, 40, 49. a 28. 20. Heb. 9. 26.

4 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, [i] ‖ Edrychwch rhag i neb eich twyllo chwi.

i Jer. 29. 8. Marc 13. 5, 6, 22. Luc 21. 8. 2 Cor. 11. 13—15. Eph. 4. 14. a 5. 6. 2 Thes. 2. 3. 2 Pedr 2. 1—3. 1 Ioan 4. 1.

* "Y pethau hyn" oedd dinystr Jerusalem a'r deml, a grybwyllwyd yn pen. 23. 38, a'r ail adnod o'r bennod hon. † Wrth ddyfodiad Crist, bernir fod y dysgyblion yn meddwl, ei ddyfodiad ef yn ei ogoniant fel Messiah, i osod i fynu ei deyrnas mewn mawredd yn mhlith yr Iuddewon. Glŷnodd y dyb ddychymmygol hon am deyrnas ddaearol y Messiah gyda hwynt hyd y dydd y cymmerwyd Iesu i fynu i'r nef, Act. 1. 6. ‡ Tybia rhai fod yr apostolion yn barnu y byddai dinystr Jerusalem a diwedd y byd yr un amser. Dywed eraill mai diwedd yr oes, a'r oruchwyliaeth hòno, a feddylir wrth ddiwedd y byd; a bod tyb gyffredinol gan yr apostolion, y gadawai Iesu hwy am ychydig, cyn gosod i fynu ei deyrnas ac yna y dychwelai mewn gogoniant mawr, i ddial ar ei elynion, i ddistrywio Jerusalem, i ddiddymu yr oruchwyliaeth hòno, ac i osod i fynu ei deyrnas ogoneddus fel Messiah. ‖ Pa beth bynag oedd eu tyb hwy, a pha beth bynag oedd ystyr y gofynion uchod, mae Crist yn eu rhybuddio i edrych rhag i neb eu twyllo; ac yn yn myned yn mlaen i fynegi iddynt yr arwyddion. Mae yn sicr fod dinystr Jerusalem megys yn gysgod, neu yn arwydd-lun, o ddiwedd y byd; a bernir fod rhai o'r arwyddion yn y bennod hon, yn perthyn i'r naill ddygwyddiad, a rhai eraill yn perthyn i'r llall: ond nid hawdd yw i neb eu gwahaniaethu.

5 * Canys daw llawer [k] yn fy enw i, gan ddywedyd, Myfi yw Crist; † ac a dwyllant lawer.

k adn. 11. 24. Jer. 14. 14. a 23. 21, 25. Ioan 5. 43. Act. 5. 36, 37. a 8. 9, 10. Dat. 13. 8.

* Yr arwydd cyntaf cyn dinystr Jerusalem oedd, y deuai llawer o dwyllwyr; a phob un yn cymmeryd arno mai efe oedd y Crist, y Messiah. Yr oedd disgwyliad cyffredinol am y Messiah yn yr oes hóno, ac fe ddaeth llawer o dwyllwyr yn ei enw ef o amser Crist hyd ddinystr Jerusalem. Gwel *Josephus*, Llyfr 2. pen. 13; a *Whitby* ar Mathew 24. † Cymmerai y twyllwyr arnynt y gwaredent yr Iuddewon oddi tan iau y Rhufeiniaid, ac fel hyny yr oeddynt yn twyllo llawer i'w canlyn, ac i wrthryfela yn erbyn y Rhufeiniaid, yr hyn a brysurodd lawer ar ddinystr y genedl. Yr oeddynt hefyd yn eu hudo oddi wrth yr efengyl.

6 * A [l] chwi a gewch glywed am ryfeloedd, a son am ryfeloedd: [m] † gwelwch na chyffröer chwi: canys [n] rhaid *yw* bod *hyn* oll; [o] eithr nid yw y diwedd etto.

l Jer. 4. 19—22. a 6. 22—24. a 8. 15, 16. a 47. 6, 7. Ezec. 7. 24—26. a 14. 17—21. a 21. 9—15, 28. Marc 13. 7, 8. Luc 21. 9. m Salm 27. 1—3. a 46. 1—3. a 112. 7. Es. 8. 12—14. a 12. 2. a 26. 3, 4, 20, 21. Hab. 3. 16—18. Luc 21. 19. Ioan 14. 1, 27. 2 Thes. 2. 2. 1 Pedr 3. 14, 15. n pen. 26. 54. Luc 22. 37. Act. 27. 24—26. o adn. 14. Dan. 9. 24—27.

7 Canys [p] cyfyd cenedl yn erbyn cenedl, a theyrnas yn erbyn teyrnas: ac fe fydd [q] newyn, a nodau, a daear-grynfâau mewn mannau.

p 2 Cron. 15. 6. Es. 9. 19—21. a 19. 2. Ezec. 21. 27. Hag. 2. 21, 22. Zec. 14. 2, 3, 13. Heb. 12. 27. q Es. 24. 19—23. Ezec. 14. 21. Joel 2. 30, 31. Zec. 14. 4, 5. Luc 21. 11, 25, 26. Act. 2. 19, 20. a 11. 28.

8 ‡ *A* [r] dechreuad gofidiau *yw* hyn oll.

r Lef. 26. 18—29. Deut. 28. 59. Es. 9. 12, 17, 21. a 10. 4. 1 Thes. 5. 3. 1 Pedr 4. 17, 18.

* Mae digonedd o hanesion credadwy yn dangos, i'r pethau a enwyd yn yr adnodau uchod gymmeryd lle, rhwng yr amser y llefarodd Crist y geiriau â dinystr Jerusalem. Bu llawer o ryfeloedd gwaedlyd rhwng yr Iuddewon a'r Rhufeiniaid; a rhwng gwahanol deyrnasoedd amgylchynol â'u gilydd. Bu daear-grynfâau enbyd yn Creta, yn Asia Leiaf, yn yr Eidal, ac yn enwedig yn Judea. Sonir am newyn yn Act. 11. 28: a bu heintiau marwol hefyd yr un modd. † Cyngor yr Arglwydd Iesu i'w apostolion yw, na chyffröid hwynt: sef, na byddai i'w ffydd ynddo ef gael ei gwanâu, na byddai iddynt ddigaloni yn eu proffes, nac esgeuluso eu gweinidogaeth gan ofn, a meddwl y byddai dinystr ar y genedl yn y fàn. ‡ Nid oedd hyn oll ond dechreuad gofidiau, fel gloesion achlysurol gwraig feichiog, cyn dyfod ei gwewyr esgor arni. Er bod y pethau uchod yn farnau trymion, eto, nid oeddynt ond megys dim mewn cymhariaeth i'r dinystr ofnadwy a ddaeth ar yr Iuddewon yn y diwedd: ac nid yw y cyfryw bethau ond ysgafn at yr hyn a ddaw ar yr annuwiolion yn nydd y farn.

9 * Yna [s] y'ch traddodant chwi i'ch gorthrymmu, ac a'ch lladdant: † a chwi a gasêir

an yr holl genhedloedd er mwyn fy enw i.
s pen. 10. 17—22. a 22. 6. a 23. 34. Marc 13. 9—13. Luc 11.
a 21. 12, 16, 17. Ioan 15. 19, 20. a 16. 2. Act. 4. 2, 3. a 5. 40,
a 7. 59. a 12. 2. a 21. 31, 32. a 22. 19—22. a 28. 22. 1 Thes. 2.
—16. Dat. 2. 10. a 6. 9—11. a 7. 14.

* Gwelwn yma angenrheidrwydd y cyngor o'r blaen, "Na chyffröer chwi." Disgwyliai y dysgyblion am ywredd a derchafiad yn nheyrnas y Messiah; ond yma âsâu, gorthrymu, a lladd, a addewir iddynt. Dygwyddd hyn iddynt oll, ond Ioan, cyn dinystr Jerusalem; ac ar ol hyny, cafodd y cristionogion eu herlid agos yn libaid, am dri chân mlynedd, gan y paganiaid.

10 * Ac yna [t] y rhwystrir llawer, † ac y radychant eu gilydd, ac y casânt eu gilydd.
t pen. 11. 6. a 13. 21, 57. a 26. 31—34. Marc 4. 17. Ioan 6. 60, 66, 67. 2 Tim. 1. 15. a 4. 10, 16. u pen. 10. 21, 35, 36. a 26. —24. Mica 7. 5, 6. Marc 13. 12. Luc 21. 16.

* Llawer nad oedd ganddynt ond rhith o grefydd yn dechreu, nis gallent ddâl heb rwystro a gwrthgilio yn mneb erledigaethau. † Ac nid hyny yn unig, ond adychu y rhai gwir grefyddol o dra chasineb atynt. casineb mwyaf o bob casineb, yw casineb at grefydd: chasineb gwrthgilwyr yw y gwaethaf o hwnw.

11 * A [x] gau-brophwydi lawer a godant, ac dwyllant lawer.
x adn. 5, 24. pen. 7. 15. Marc 13. 22. Act. 20. 30. 1 Tim. 4. 1. Pedr 2. 1. 1 Ioan 2. 18, 26. a 4. 1. Judas 4. Dat. 19. 20.

12 † Ac [y] o herwydd yr amlhâ anwiredd, ‡ fe a oera cariad llawer.
y Iago 4. 1—4. a 5. 1—6. z Dat. 2. 4, 5. a 3. 15, 16.

* Enwir yma ddau arwydd yn chwaneg; gau-browydi lawer yn codi, a chariad llawer yn oeri. Am y ntaf, cyfarfyddwn â hwy eto yn adn. 23, 24. † Wrth wiredd yma gallwn ddeall, cynddeiriogrwydd a chreundeb gelynion yr efengyl; brad a dichell gwrthgilwyr gau-frodyr; a phob math o bechodau ac arferion rwg. ‡ O herwydd y pethau uchod a'u heffeithiau. rwg, fe a oera cariad llawer o wir gristionogion. Fe oera eu cariad at Dduw, a'u gwresawgrwydd yn ei nith, fe a oera eu cariad at eu brodyr, ac fe a oera eu riad atoch chwithau yr apostolion, eu hathrawon. Fe oera cariad rhai gan ofn erlid, fe a oera cariad eraill an siomedigaethau mewn gau-frodyr, ac fe a oera carâd eraill gan effeithiau esamplau drwg, a gwrthgiliad bryd. Rhwng pob peth fe a oera cariad *llawer.*

13 * Eithr [a] y neb a barhâo hyd y diwedd, wnnw a fydd cadwedig.
a adn. 6. pen. 10. 22. Marc 13. 13. Luc 8. 15. Rhuf. 2. 7. Cor. 1. 8. Heb. 3. 6, 14. a 10. 39. Dat. 2. 10.

* Er y gwrthgilia ac yr oera llawer, gan fethu a dâl n ffordd, eto, y mae gan Dduw weddill, y rhai a gânt erth i bara hyd y diwedd: eu gwaredu rhag pob niwed wirioneddol, a'u cadw i fywyd tragywyddol.

14 * A'r [b] efengyl hon *am* y deyrnas [c] a bregethir trwy yr holl fyd, ‡ er tystiolaeth r holl genhedloedd: [d] ac yna y daw y diwedd.
b pen. 4. 23. a 9. 35. a 10. 7. Act. 20. 25. c pen. 28. 19. Marc 16. 15, 16. Luc 24. 47. Act. 1. 8. Rhuf. 10. 18. a 15. 18—21. 16. 25, 26. Col. 1. 6, 23. d adn. 3, 6. Ezec. 7. 5—7, 10.

Yn nghanol, ac er gwaethaf, yr erledigaethau a'r wrthgiliadau hyn, yr oedd pregethiad yr efengyl i rned yn mlaen drwy yr holl fyd: nid oedd dim a allai addias arfaeth ac achos Duw. Bwriadwyd yr addewid on er calondid i'r apostolion yn eu gwaith; ac er alondid i holl weinidogion y gair yn mhob oes ac am ylchiad. * Efengyl y deyrnas, am mai hi sydd yn atguddio holl drefn fawr yr iachawdwriaeth, yn dwyn echaduriaid i deyrnas gras yma, ac i deyrnas y gogonant yn y diwedd. † Os wrth yr holl fyd, y deallir yma el mewn rhai mànau eraill, y rhanau mwyaf enwog, eu adnabyddus, o'r byd, cafodd yr efengyl ei phregethu elly cyn dinystr Jerusalem, yr hyn a ddealla rhai wrth "diwedd" yn niwedd yr adnod. Pregethwyd hi yn dumea, Syria, a Mesopotamia, gan Judas; yn yr Aipht, Armorica, Mauritania, a pharthau eraill o Affrica, gan Marc, Simon, a Judas; yn Ethiopia, gan Eunuch Candace a Matthias; yn Pontus, Galatia, a pharthau cymmydogaethol Asia, gan Pedr; yn nhiriogaethau saith eglwys Asia, gan Ioan; yn Parthia, gan Mathew; yn Scythia, gan Phylip ac Andreas; yn mharthau gogleddol a gorllewinol Asia, gan Bartholomeus; yn Persia, gan Simon a Judas; yn Media, Carmania, ac amryw barthau dwyreiniol, gan Thomas; drwy y meithder dirfawr, o Jerusalem oddiamgylch hyd Illyricum, gan Paul, ac hefyd yn yr Eidal, ac efallai yn yr Hispaen, Ffrainc, a Phrydain; yn y rhan fwyaf o'r manau hyny, planwyd eglwysi Cristionogol mewn llai na deng mlynedd ar hugain wedi marwolaeth Crist, yr hyn oedd cyn dinystrio Jerusalem. † Pa le bynag y pregethir yr efengyl, tystiolaeth yw hi fod ceidwad i bechaduriaid wedi ei eni, ac mai Iesu yw; a phan gaffo Duw ei etholedigion oll yn nghyd, yna y bydd y diwedd.

15 [e] * Am hynny pan weloch y ffieidd-dra anghyfanneddol, † a ddywedwyd [f] trwy Daniel y prophwyd, ‡ yn sefyll yn y lle sanctaidd, ([g] y ‖ neb a ddarlleno, ystyried)
e Marc 13. 14. Luc 19. 43. a 21. 20. f Dan. 9. 27. a 12. 11. g Ezec. 40. 4. Dan. 9. 23, 25. a 10. 12—14. Heb. 2. 1. Dat. 1. 3. a 3. 22.

* Ffieidd-dra sydd air ysgrythyrol am eilunod ac eilun-addoliaeth; ac yma, lluoedd a banerau eilunaddolgar y Rhufeiniaid, a feddylir; y rhai oedd yn dyfod i anghyfanneddu Jerusalem. † Mae tri o destynau yn Daniel yn crybwyll am y ffieidd-dra hwn, Dan. 9. 27. a 11. 31. a 12. 11. ‡ Yr oedd holl wlad Canaan i gyd yn cael ei alw yn dir sanctaidd; a rhai ystadau o amgylch Jerusalem mewn modd arbenig felly. ‖ Y neb a ddarlleno brophwydoliaeth Daniel, ystyried hi yn fanol; a phan welo gyflawniad o hóni, sef byddin o baganiaid wedi dyfod i'r lle sanctaidd, bydd yn llawn pryd iddo ffoi am ei einioes.

16 * Yna [h] y rhai a fyddant yn Judea, ffoant i'r mynyddoedd.
h Gen. 19. 15—17. Ex. 9. 20, 21. Diar. 22. 3. Jer. 6. 1. a 37. 11, 12. Luc 21. 21, 22. Heb. 11. 7.

17 † Y [i] neb *a fyddo* ar [k] ben y tŷ, na ddisgyned i gymmeryd dim allan o'i dŷ.
i pen. 6. 25. Job 2. 4. Diar. 6. 4, 5. Marc 13. 15, 16. Luc 17. 31—33. k pen. 10. 27. Deut. 22. 8.

18 ‡ A'r hwn *a fyddo* yn y maes, na ddychweled yn ei ol i gymmeryd ei ddillad.

* Byddai trigolion y wlad, ar amser o berygl ac ymgyrch gelynion, yn arfer ffoi i Jerusalem er mwyn diogelwch; ond yn awr nid oedd gwiw myned yno: pan welynt y gelynion yn nesâu, ffoi i'r mynyddoedd mwyaf anghyfannedd oedd yr unig ffordd i achub eu heinioes. † Sylwyd o'r blaen, mai gwastad oedd penau y tai yn y wlad hòno, a chanllawiau o amgylch iddynt, ac a grisiau oddi allan i fyned i lawr ac i fynu. Yma byddai yr Iuddewon yn arfer eistedd, rhodio, ymddiddan, myfyrio, a gweddïo: a phan welent luoedd y Rhufeiniaid yn dyfod, yr oeddynt i ffoi yn ddïoed, oddi ar benau y tai, heb gymmaint a myned i'r tŷ i gymmeryd dim gyda hwynt, rhag iddynt wrth hyny golli eu bywydau. ‡ A'r rhai a ddygwyddai fod allan yn gweithio yn y maes, ac wedi ymddïosg i weithio; nid oeddynt i droi yn ol o'r fân lle yr oeddynt, gymmaint ag i'r pen arall i'r tir, i geisio eu dillad; ond dïanc am eu heinioes, fel Lot o Sodom, rhag iddynt syrthio yn nwylaw eu gelynion, wrth yr ymdroi lleiaf. Dywedir i ragluniaeth ryfedd Duw ymddangos yn nodedig iawn yn nghyflawniad y rhan hon o'r brophwydoliaeth: gwedi i'r Rhufeiniaid ddyfod y waith gyntaf yn agos i Jerusalem, ciliasant yn ol drachefn, yn sydyn ac yn annisgwyliadwy i bawb; pryd y gallasent gymmeryd y ddinas yn hawdd iawn. Trwy hyny rhoddasant arwydd megys, i'r cristionogion i ffoi; yr hyn a wnaethant, rhai i ddinas a elwid Pella, yn Perea, gwlad fynyddig y tu arall i'r Iorddonen; a rhai i fynydd Libanus yn y gogledd; ac fel hyny ni chollwyd yr un o'r cristionogion, meddant, yn y difrod a'r celanedd ofnadwy.

19 * A [l]gwae y rhai beichiogion, a'r rhai yn rhoi bronnau, yn y dyddiau hynny.

l Deut. 28. 53—56. 2 Sam. 4. 4. 2 Bren. 15. 16. Galar. 4. 3, 4, 10. Hos. 13. 16. Marc 13. 17, 18. Luc 21. 23. a 23. 29, 30.

20 † Eithr gweddïwch na byddo eich ffoedigaeth yn y gauaf, [m] ‡ nac ar y *dydd* sabbath:

m Ex. 16. 29. Act. 1. 12.

* "Gwae y rhai beichiogion," am eu bod mewn cyflwr anfanteisiol iawn i ffoi gyda brys. "A'r rhai yn rhoi bronau," o herwydd yr un achos: nid hawdd ffoi gyda phlentyn ar y breichiau. Tybir fod yma gyfeiriad hefyd at wragedd yn ymborthi ar eu plant eu hunain yn y gwarchae. "Gwae," yn yr adnod hon sydd yn arwyddo tosturi yr Arglwydd Iesu wrth y gwragedd truenus hyn. † Mae yn eu hanog i weddïo "na byddai eu ffoedigaeth yn y gauaf," pan fyddai y dydd yn fŷr, yr hin yn oer, a'r ffyrdd yn ddrwg i deithio, yn enwedig i *ffoi*. ‡ "Nac ar y dydd sabbath," pryd y byddai yr Iuddewon yn debyg o'u hattal, gan nad oedd yn gyfreithlawn teithio ar y sabbath ond taith diwrnod sabbath, tua dwy filltir. Byddai rhai cristionogion Iuddewig hefyd, efallai, yn petruso ffoi ar y sabbath, hyd yn nod i achub eu bywydau.

21 * Canys [n] y pryd hwnnw y bydd gorthrymder mawr, y fath ni bu o ddechreu y byd hyd yr awr hon, ac ni bydd chwaith.

n Salm 69. 22—28. Es. 65. 12—16. a 66. 15, 16. Dan. 9. 26. a 12. 1. Joel 1. 2. a 2. 2. Zec 11. 8, 9. a 14. 2, 3. Mal. 4. 1. Marc 13. 19. Luc 19. 43, 44. a 21. 24. 1 Thes. 2. 16. Heb. 10. 26—29.

22 † Ac [o] oni bai fyrhâu y dyddiau hynny, ni fuasai gadwedig un cnawd oll: ‡ eithr [p] er mwyn yr etholedigion fe fyrhêir y dyddiau hynny.

o Marc 13. 20. p Es. 6. 13. a 65. 8, 9. Zec. 13. 8, 9. a 14. 2. Rhuf. 9. 11. a 11. 25—31. 2 Tim. 2. 10.

* Pwy bynag a ddarlleno hanes y gorthrymderau hyn yn ngwaith *Josephus*, a genfydd, nad oes dim yn gyffelyb iddynt yn yr holl ysgrythyr; nac mewn unrhyw hanes arall, cynt na chwedi hyny. Wylodd yr Iesu uwch ben Jerusalem, wrth rag-weled ei gofidiau; ac anodd i neb ddarllen yr hyn a adroddir gan yr hanesydd uchod, heb wylo hefyd. Y gorthrymderau mwyaf oedd, drwy ymladdfeydd ofnadwy yr Iuddewon â'u gilydd o fewn y ddinas: ni wnaeth y Rhufeiniaid ond megys rhoddi terfyn buan ar y creulondeb a'r tywallt gwaed dychrynllyd hyny, trwy ddistrywio y ddinas, a gwasgar a difrodi y bobl, y rhai oedd fel cythreuliaid mewn rhith dynion, yn llarpio eu gilydd yn ddidrugaredd. † Nid hir y paraodd y dyddiau enbyd hyny; cymmerwyd y ddinas mewn llai na chwe mis wedi dechreu ymosod arni; a darostyngwyd yr holl wlad mewn llai na deunaw mis yn chwaneg. ‡ Tebygir mai nid y cristionogion a ddïangasent a feddylir yma wrth yr "etholedigion;" nid oedd y drygfyd hwn yn peryglu dim arnynt hwy, ac nid oes dim hanes i gymmaint ag un o'r cristionogion golli ei fywyd, yn y cythrwfl a'r galanastra i gyd. Ond wrth yr etholedigion deallir, y rhai o'r Iuddewon a alwai Duw mewn amseroedd i ddyfod: y "gweddill yn ol etholedigaeth gras." Pe buasai y dyddiau yn parâu yn hir fel y parâsant am ychydig, buasai yr holl genedl Iuddewig yn cael eu llwyr ddifodi; ond er mwyn etholedigion Duw o'r genedl hòno, y rhai oedd y pryd hwnw heb eu galw, a llawer heb eu geni, e fyrhâwyd y dyddiau, ac e arbedwyd y genedl.

23 Yna os dywed neb wrthych, * Wele, [q] llyma Grist, neu llyma; na chredwch.

q Marc 13. 21. Luc 17. 23, 24. a 21. 8. Ioan 5. 43.

24 † Canys [r] cyfyd gau-gristiau, a gau-brophwydi, [s] ac a roddant arwyddion mawrion a rhyfeddodau, [t] ‡ hyd oni [u] thwyllant, pe *bydd-ai* bosibl, ie, yr etholedigion.

r adn. 5 11. 2 Pedr 2. 1—3. a 3. 17. s Deut. 13. 1, 2. 2 Thes. 2. 9—11. Dat. 13. 13, 14. a 19. 20. t Ioan 6. 39. a 28—30. Rhuf. 8. 28—39. 2 Tim. 2. 19. 1 Pedr 1. 5. 1 Ioan 5. Dat. 12. 9—11. a 13. 7, 8, 14. u Marc 13. 22. Act. 20. 16. R 12. 18. Gal. 4. 15.

25 Wele, [x] rhagddywedais i chwi.

x Es. 44. 7, 8. a 46. 10, 11. a 48. 5, 6. Luc 21. 13. Ioan 1

26 Am hynny, os dywedant wrthy || Wele, [y] y mae efe yn y diffaethwch; r ewch allan: wele, yn yr ystafelloedd: chredwch.

y pen. 3. 1. Es. 40. 3. Luc 3. 2, 3. Act. 21. 38.

* Yn amser y gwarchae ar Jerusalem, yr oedd d gwyliad mawr am y Messiah; a chymmerodd llawe ddynion drwg y fantais ar y disgwyliad hyny, i ddyw yd mai hwy oedd y Messiah: † felly yr oedd tua'r am hyny lawer o gau-gristiau, a gau-brophwydi, yn hud bobl trwy arwyddion a rhyfeddodau gau. Diamma dichon i hudoliaeth dyn, a gallu y diafol pan ei godd er, gyflawni pethau tebyg i wyrthiau, ond ni ddalie eu cymharu â gwir wyrthiau y Cyfryngwr a'i apostolic ‡ Mae yn debyg i'r Arglwydd yn ei farn gyfiawn i od y cyfryw bethau yr amser hwnw; a rhoddi llaweroe o'r Iuddewon i fynu i amryfusedd cadarn, i gredu c wydd, fel barn arnynt am na chredasent yn y gw Fessiah. Ond ni lwyddasant i dwyllo neb o etholedi ion Duw; ac ni lwydda neb gau-athrawon byth i wne hyny; oblegid mae yn anmhosibl dadymchwelyd arfae ddigyfnewid Duw, yr hwn a'u hetholodd hwynt i iac awdwriaeth. || Os dywedant fod y Messiah yn rhyw yn y diffeithwch, yn darpar byddin yn erbyn y Rhufei iaid, nac ewch chwi allan ato, nid yw ond twyllw Neu, os dywedent ei fod mewn rhyw ystafell ddirge yn gwneyd gwyrthiau i geisio hudo dynion i gredu m y Messiah yw, na chredwch chwi. Yn rhai o ystafel oedd y deml efallai; dywed *Josephus* i chwe mil o ddy ion annedwydd gael eu hudo gan gau brophwyd i fyne i'r deml, yr hwn a haerai i'r Arglwydd trwyddo ef o chymyn iddynt fyned yno, ac y câent weled arwyddio o waredigaeth; ond yn lle hyny eu llosgi i farwolaet a gawsant, wrth geisio dianc, pan roed y deml ar dâ gan y Rhufeiniaid. Er sicrâu na thwyllir yr etholedi ion, eto dylent hwythau fod ar eu gwyliadwriaeth rha cael eu twyllo.

27 * Oblegid [z] fel y daw y fellten o'r dwy rain, ac y tywynna hyd y gorllewin; fell hefyd [a] y bydd dyfodiad Mab y dyn.

z Job 37. 3. a 38. 35. Es. 30. 30. Zec. 9. 14. Luc 17. 2 a pen. 16. 28. Mal. 3. 2. a 4. 5. Iago 5. 8. 2 Pedr 3. 4.

28 † Canys [b] pa le bynnag y byddo y gelai yno yr ymgasgl yr eryrod.

b Deut. 28. 49. Job 39. 27—30. Jer. 16. 16. Amos 9. 1—4. L 17. 37.

* Nid mewn rhyw un màn, diffaethwch nac ystafel y bydd y Messiah pan ddelo efe; ond bydd ei ddyfodia ef fel y fellten, yn amlwg, yn sydyn, yn nerthol, ac y gyffredinol, dros yr holl wlad. Daeth byddinoedd Rhufeiniaid i mewn i Judea o'r dwyrain, a difrodasa yr holl wlad hyd y gorllewin, yn gyflym ac yn ofnadw iawn. Tybia rhai fod yma gyfeiriad hefyd at ddyfodia Mab y dyn yn ngweinidogaeth yr efengyl, yr hon a yn daenodd yn gyflym ac yn danbaid iawn tua'r gorllewi ar ol dydd y pentecost. Tybia eraill fod yma gyfeiria at ei ddyfodiad ddydd y farn. † Diareb yw y geiria hyn, mewn arferiad cyffredin yn mhlith yr Iuddewo yn dangos nad oes fawr o drafferth i gael pethau at e gilydd, sydd a thuedd naturiol ynddynt y naill at y lla fel y mae yn yr eryrod at y gelain. Yr Iuddewon, f cenedl, oedd y gelain yma; yn feirw mewn pechodau, chwedi eu rhoddi i fynu i gael eu difrodi. Y Rhufei iaid oedd yr eryrod, am fod llun eryrod ar eu banera Barna eraill mai Crist wedi ei groeshoelio yw y gelai a'i bobl, sydd yn dyfod ato yn ewyllysgar yn nydd nerth, yw yr eryrod. A barna eraill mai casgliad ei sai ato ddydd y farn, a feddylir.

29 ¶ * Ac yn y fan [c] wedi gorthrymder

ddiau hynny, [d] † y tywyllir yr haul, a'r
auad ni rydd ei goleuni, a'r ser a syrth o'r
f, a nerthoedd y nefoedd a ysgydwir.
c adn. 8. Marc 13. 24, 25. d Es. 13. 10. a 24. 23. Jer. 4.
28. Ezec. 32. 7, 8. Joel 2. 30, 31. a 3. 15. Amos 5. 20. Zeph. 1.
15. Luc 21. 25, 26. Act. 2. 19, 20. Dat. 6. 12—17.
* Mae y geiriau "yn y fàn wedi gorthrymder y dydd-
l hyny," yn cyfyngu meddwl yr adnod yn benaf at
nystr Jerusalem; er, efallai bod yma gyfeiriad hefyd
ddiwedd y byd hwn. † Mae tywyllu yr haul, a'r
uad, y ser yn syrthio, a nerthoedd y nefoedd yn cael
hysgwyd, yn arwyddo diddymiad hollawl ar lwydd-
t a breintiau y genedl Iuddewig; dadymchweliad eu
ll osodiadau eglwysig a gwladol; tafiu eu tywysogion
l hoffeiriaid o bob awdurdod; truenus gyflwr yr holl
nedl, ac yn enwedig eu penaethiaid; a'r tywyllwch
esol a chrefyddol yr oeddynt i gael eu taflu iddo.
un bynag a gymmerodd y pethau hyn le yn llythyr-
ol y pryd hyny ai peidio, mae yn sicr y cymmerant
yn llythyrenol yn niwedd y byd, 2 Pedr 3. 10, 12.

30 * Ac yna yr ymddengys [e] arwydd Mab
dyn yn y nef: [f] ac yna y galara holl lwythau
ddaear, a hwy a [g] welant Fab y dyn yn dyfod
gymmylau y nef, gyd â nerth a gogoniant
awr.
e adn. 3. Dan. 7. 13. Marc 13. 4. f Zec. 12. 10. Dat. 1. 7.
en. 16. 27, 28. a 26. 64. Marc 13. 26. a 14. 62—64. Luc 21. 27.
1. 1. 11. 2 Thes. 1. 7, 8.

31 † Ac [h] efe a ddenfyn [i] ei angelion [k] â
awr sain udgorn; a hwy a [l] gasglant ei ethol-
igion ef ynghyd o'r pedwar gwynt, [m] o ei-
afoedd y nefoedd hyd eu heithafoedd hwynt.
h pen. 28. 18. Marc 16. 15, 16. Luc 24. 47. Act. 26. 19, 20.
en. 13. 41. a 25. 31. Dat. 1. 20. a 2. 1. a 14. 6—9. k Num.
1—10. Salm 81. 3. Es. 27. 13. 1 Cor. 15. 52. 1 Thes. 4. 16.
s. 11. 12. a 49. 18. a 60. 4. Marc 13. 27. Ioan 11. 52. Eph. 1.
2 Thes. 2. 1. m Salm 22. 27. a 67. 7. Es. 13. 5. a 42. 10.
23. 6. a 45. 22. Zec. 9. 10. Rhuf. 10. 18.
* Dywed Josephus bod arwyddion gweledig yn yr
yr o flaen dinystr Jerusalem: sef seren fawr ar lun
eddyf tanllyd, yn ymysgwyd uwch ben y ddinas; ac
nddangosiad o fyddinoedd rhyfelgar yn yr awyr.
tybia eraill mai y farn ofnadwy a ddaeth ar yr Iuddew-
, a feddylir; sef bod hyny yn ddigon o arwydd i bawb,
esgyniad Mab y dyn i'w orsedd yn y nef; a'i fod yn
fod yn ei ragluniaeth, megys yn marchog ar y cymyl-
, i ddïal ar y rhai nis mynent ef i deyrnasu arnynt.
nd barna llawer mai prophwydoliaeth am ddydd mawr
farn yw y geiriau uchod: mae yn debyg y gellir ei
ymhwyso at bob un o'r ddau beth, dinystr Jerusalem,
diwedd y byd. Rhydd Iesu yr enw Mab y dyn iddo
hun, gyda chyfeiriad at Dan. 7. 13, 14, ac mae y
rophwydoliaeth hòno yn ei olwg ef yn yr ymadroddion
yn oll; yr *arwydd* a fyddai ei ddïal ef ar yr Iuddewon,
inystr yr holl drefniadau Iuddewig, ar adfeilion pa rai
cwbl sefydlid teyrnas a breniniaeth Mab y dyn, a gry-
wyllir yn y lle a nodwyd gan Daniel. † Dywed rhai
nai gweinidogaeth yr efengyl yw y mawr sain udgorn
ma, ac mai gweinidogion yr efengyl yw yr angelion,
wy y rhai mae Duw yn casglu ei etholedigion i'w
glwys. Ond tybia eraill mai y casglu diweddaf a fydd
r y saint yn niwedd y byd, a feddylir, 1 Cor. 15. 52.
Thes. 4. 16.

32 * Ond dysgwch [n] ddammeg oddi wrth y
figysbren; Pan yw ei gangen eisoes yn dyner,
'i ddail yn torri allan, chwi a wyddoch *fod* yr
âf yn agos:
n Marc 13. 28, 29. Luc 21. 29, 30.

33 Ac felly chwithau, [o] pan weloch hyn oll,
gwybyddwch ei fod yn agos, wrth y drysau.
o adn. 3. p Ezec. 7. 2, &c. Heb. 10. 37. Iago 5. 9. 1 Pedr
7.

34 † Yn wir meddaf i chwi, [q] Nid â y gen-
edlaeth hon heibio, hyd oni wneler hyn oll.

q pen. 12. 45. a 16. 28. a 23. 36. Marc 13. 30, 31. Luc 11. 50.
a 21. 32, 33.

35 [r] ‡ Nef a daear a ânt heibio, eithr [s] fy
ngeiriau i nid ânt heibio ddim.
r pen. 5. 18. Salm 102. 26. Es. 34. 4. a 51. 6. a 54. 10. Jer. 31.
35, 36. Heb. 1. 11, 12. 2 Pedr 3. 7—12. Dat. 6. 14. a 20. 11.
s Num. 23. 19. Salm 19. 7. a 89. 34, 35. Diar. 30. 5. Es. 40. 8. a
55. 11. Tit. 1. 2. 1 Pedr 1. 25. Dat. 3. 14.
* Yn adn. 3, yr oedd y dysgyblion wedi gofyn pa ar-
wydd a fyddai o ddyfodiad Mab y dyn; ac o'r adnod
hòno hyd yma, mae yntau yn rhoddi arwyddion iddynt.
Yma mae yn defnyddio cyffelybiaeth eglur, a hysbys i
bawb: pan mae y coedydd yn dechreu blaguro a deilio,
mae yn arwydd sicr fod yr haf yn agos; felly hefyd, pan
welynt hwythau yr arwyddion blaenorol yn dyfod i ben,
gallent fod yn sicr, fod dinystr Jerusalem, dymchweliad
y wladwriaeth Iuddewig, gwasgariad yr holl genedl, a
sefydliad teyrnas y Messiah yn y byd yn gyffredinol,
ar y drws. Yr oedd tri o'r Efengylwyr, Mathew, Marc,
a Luc, wedi ysgrifenu eu hefengylau yn hir cyn i hyn
ddyfod i ben; ac felly yr oedd yr arwyddion yn ddigon
hysbys i'r cristionogion oll; a thrwy hyny yr oeddynt
yn gwybod pa bryd i ffoi, rhag cael eu dinystrio yn y
difrod mawr. † Mewn llai na deugain mlynedd, cym-
merodd y cwbl le; felly yr oedd llawer o'r Iuddewon ag
oedd yn bobl ieuainc pan lefarodd Iesu y geiriau hyn,
yn fyw pan ddaeth y pethau i ben. Bernir nad oedd
neb o'r apostolion yn fyw ond Ioan. Yr oedd y lleill
oll wedi eu merthyru. Rhyfedda yr *Esgob Newton* pa
fodd y gall neb ddeall rhai o'r pethau yn y bennod hon
am ddinystr Jerusalem, a'r pethau eraill am ddiwedd y
byd, nac am unrhyw ddygwyddiad yn mhellder amser;
a'r Arglwydd Iesu yn dywedyd mòr eglur, y cyflawnid y
cwbl cyn diwedd y genedlaeth hòno. ‡ Mae y geiriau
hyn yn sicrâu cyflawniad y pethau. Efallai bod ynddynt
gyfeiriad hefyd at ddiwedd y byd; pryd hyny fe â'r nef
a'r ddaear heibio, 2 Pedr 3. 10, 12, ond fe saif geiriau
Duw, ac fe'u cyflawnir oll.

36 ¶ * Ond am [t] y dydd hwnnw a'r awr nis
gŵyr neb, nac angelion y nefoedd, ond fy
Nhad yn unig.
t adn. 42, 44. pen. 25. 13. Zec. 14. 7. Marc 13. 32, 33. Act. 1.
7. 1 Thes. 5. 2. 2 Pedr 3. 10. Dat. 3. 3. a 16. 15.
* Gwedi rhoddi digon o arwyddion i'r dysgyblion am
ddinystr Jerusalem, a dywedyd nad âi y genedlaeth
hòno heibio, hyd oni welid hyny oll; mae Crist yn yr
adnod hon megys yn gwahardd ymofyn yn fanylach yn
nghylch yr amser pennodol, ac yn dywedyd nad oedd
neb ond Duw yn unig a wyddai yr amser megys i'r
diwrnod. Mae rhai yn meddwl mai am ddydd y farn
yn unig, mae y geiriau hyn. Mae yn sicr nas gŵyr neb
am y dydd hwnw, chwaith, ond yr hwn sydd yn holl-
wybodol; ac ni pherthyn i neb wybod: ein lle ni yw bod
yn barod, gan y gwyddom yn sicr y daw rywbryd. Un
o'r pethau a gadwodd Duw iddo ei hun, yw gwybodaeth
o'r pethau i ddyfod.

37 * Ac [u] fel *yr oedd* yn nyddiau Noë,
felly hefyd y bydd dyfodiad Mab y dyn.
u Gen. 6. a 7. Job 22. 15—17. Luc 17. 26, 27. Heb. 11. 7.
1 Pedr 3. 20, 21. 2 Pedr 2. 5. a 3. 6.

38 Oblegid fel yr oeddynt yn y dyddiau
ym mlaen y diluw [x] yn bwytta ac yn yfed, yn
prïodi ac yn rhoi i brïodas, hyd y dydd yr aeth
Noë i mewn i'r arch,
x 1 Sam. 25. 36—38. a 30. 16, 17. Es. 22. 12—14. Ezec. 16.
49, 50. Amos 6. 3—6. Luc 12. 19, 20, 45. a 14. 18—20. a 17. 26—
28. a 21. 34, 35. Rhuf. 13. 13, 14. 1 Cor. 7. 29—31.

39 Ac [y] ni wybuant hyd oni ddaeth y diluw,
a'u cymmeryd hwy oll ymaith; felly hefyd y
bydd dyfodiad Mab y dyn.
y pen. 13. 13—15. Barn. 20. 34. Diar. 23. 35. a 24. 12. a 29.
7. Es. 42. 25. a 44. 18, 19. Luc 19. 44. Ioan 3. 20. Act. 13. 41.
Rhuf. 1. 28. 2 Pedr 3. 5.
* Nid oes achos am egluro llawer ar y geiriau hyn:
dysgir i ni ddau beth ynddynt. 1. E ddaeth y diluw yn
ddisymmwth ar yr hen fyd, a phryd nad oedd neb yn ei

ddisgwyl, er eu rhybuddio gan Noah: ac felly y daeth dinystr Jerusalem, er rhybuddio yr Iuddewon gan Grist a'i apostolion: felly y daw diwedd y byd hwn: "fel lleidr yn y nos." 2. E ddaeth y diluw pan oedd pawb yn ddiofal ac yn ymdroi yn eu pechodau; felly yr oedd yr Iuddewon pan ddaeth eu dinystr hwythau; ac felly, mae'n debyg, y bydd y byd hwn, pan ddelo y Barnwr ar y cwmwl.

40 * Yna y bydd dau yn y maes; [z] y naill a gymmerir, a'r llall a adewir.

z 2 Cron. 33. 12, 13, 19, 23, 24. Luc 17. 34—37. a 23. 39—43. 1 Cor. 4. 7. 2 Pedr 2. 5, 7—9.

41 Dwy *a fydd* yn [a] malu mewn melin; un a gymmerir, a'r llall a adewir.

a Ex. 11. 5. Es. 47. 2.

* Yn amser dinystr Jerusalem, bydd llawer o ddynion yn cydweithio â'u gilydd yn yr un maes, a gwragedd yn cyd-falu yn yr un felin; a thrwy ryw dro neilluol mewn rhagluniaeth ar y pryd hwnw, e gymmerir un gan y gelynion, ac fe adewir y llall. Melinau i'w troi â llaw, a chan wragedd, a fyddai gan yr Iuddewon; ac os bydd-ent yn fawrion, neu yr ŷd i'w falu mewn brys, byddai dwy yn malu; un yn eistedd ar gyfer y llall, ac yn troi y maen uchaf. Neu fel hyn: bydd un yn credu yr ar-wyddion a roddais I, ac yn disgwyl am danynt, ac fel hyny yn diianc; a'r llall yn ei ymyl heb eu credu, ac o herwydd hyny yn syrthio yn nwylo ei elynion. Felly y bydd hefyd yn nydd y farn; e ddidola Duw ddynion a fu gyda eu gilydd trwy eu hoes, ac a farna y naill i gospedigaeth dragywyddol, ac eraill i fywyd tragywydd-ol, yn ol fel y byddont yn gredinwyr ac yn anghredin-wyr.

42 ¶ [b] * Gwyliwch gan hynny; [c] am na wyddoch pa awr y daw eich Arglwydd.

b pen. 25. 13. a 26. 38—41. Marc 13. 33—37. Luc 12. 35—38. a 21. 36. Rhuf. 13. 11. 1 Cor. 16. 13. 1 Thes. 5. 6. 1 Pedr 4. 7. a 5. 8. Dat. 3. 2, 3. a 16. 15. c adn. 36, 44. Marc 13. 33—35.

43 † A gwybyddwch hyn, pe gwybuasai [d] gwr y tŷ [e] pa wyliadwriaeth y deuai y lleidr, efe a wyliasai, ac [f] ni adawsai gloddio ei dŷ trwodd.

d pen. 20. 11. Diar. 7. 19. e Luc 12. 39. 1 Thes. 5. 2—6. 2 Pedr 3. 10, 11. f Ex. 22. 2, 3.

44 Am hynny [g] byddwch chwithau barod: canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y dyn.

g pen. 25. 10, 13. Luc 12. 40. Phil. 4. 5. Iago 5. 9. Dat. 19. 7.

* Mae yn debyg mai am ddydd marw a barn mae yr Arglwydd Iesu yn llefaru yn yr adnodau hyn, gan annog ei ddysgyblion i wylied a bod yn barod, am na wyddent pa bryd y deuai. Gwel ar pen. 6. 19. † Mae yn defnydd-io cymhariaeth, am wr yn gwylio ei dŷ rhag ofn i leidr ddyfod i mewn, er eu hannog hwy (a ninnau hefyd) i wyliadwriaeth ddyfal a sanctaidd. Os yw ychydig fedd-iannau bydol yn werth gwylio drostynt, pa faint mwy yr enaid gwerthfawr ac anfarwol!

45 * Pwy gan hynny [h] sydd was ffyddlon a doeth, yr hwn a osododd ei arglwydd ar ei deulu, [i] † i roddi bwyd iddynt mewn pryd?

h Luc 12. 41—43. a 16. 10—12. a 19. 17. Act. 20. 28. 1 Cor. 4. 1, 2. 1 Tim. 1. 12. 2 Tim. 2. 2. Heb. 3. 5. 1 Pedr 4. 10, 11. Dat. 2. 13. i pen. 25. 35—40. Ezec. 34. 2. Ioan 21. 15—17. 1 Cor. 3. 1, 2. Eph. 4. 11—13. 1 Pedr 5. 1—3.

46 [k] ‡ Gwyn ei fyd y gwas hwnnw, yr hwn y caiff ei arglwydd ef, pan ddelo, yn gwneuthur felly.

k pen. 25. 34. Luc 12. 37, 43. Phil. 1. 21—23. 2 Tim. 4. 6—8. 2 Pedr 1. 13—15. Dat. 2. 19. a 16. 15.

47 ‖ Yn wir meddaf i chwi, [l] ar ei holl ddâ y gesyd efe ef.

l pen. 25. 21, 23. Dan. 12. 3. Luc 12. 37, 44. a 19. 17. a 22. 29, 30. Ioan 12. 26. 2 Tim. 2. 12. 1 Pedr 5. 4. Dat. 3. 21. a 21. 7.

* Yr oedd y geiriau hyn yn perthyn yn benaf i'r apostolion, ac y maent yn perthyn yn benaf eto i wein-idogion y gair. Gweision ydynt; a dylent fod yn we ion ffyddlawn, a doeth; gweision wedi eu gosod nheulu Duw ydynt; † a'u gwaith yw rhoddi bwyd teulu mewn pryd: ac mae yn angenrheidiol wrth ffy londeb mawr, a doethineb mawr i wneyd hyny. ‡ Gw eu byd y gweision hyny, ac a wnelo felly, nid ambe dro, ond yn wastad, hyd ddyfodiad eu harglwydd. ‖ Cé ddigon o ddefnyddiau at eu gwaith yma, a'u gogoned yn y nef wedi gorphen eu gwaith.

48 * Ond [m] os dywed y gwas drwg hwnn [n] yn ei galon, [o] Y mae fy arglwydd yn oe dyfod;

m pen. 18. 32. a 25. 26. Luc 19. 22. n Deut. 9. 4. a 15. 2 Bren. 5. 26. Es. 32. 6. Marc 7. 21. Luc 12. 45. Ioan 13. 2. A 5. 3. a 8. 22. o Preg. 8. 11. Ezec. 12. 22, 27. 2 Pedr 3. 3—5.

49 A dechreu [p] curo *ei* gyd-weision, bwytta ac yfed gyd â'r meddwon;

p Es. 66. 5. 2 Cor. 11. 20. 1 Pedr 5. 3. 3 Ioan 9, 10. Dat. 7. a 16. 6. a 17. 6. a 19. 2. a 7. 15. q pen. 2. 13—16, 29. Es. 12. Ezec. 34. 3. Mica 3. 5. Rhuf. 16. 18. Phil. 3. 19. Tit. 1. 11, 2 Pedr 2. 13, 14. Judas 12.

50 † Arglwydd y gwas hwnnw [r] a ddaw y y dydd nid yw efe yn disgwyl am *dano*, mewn awr nis gŵyr efe;

r adn. 42—44. Diar. 29. 1. 1 Thes. 5. 2. Dat. 3. 3.

51 Ac efe a'i ‡ gwahana ef, [s] ac a esyd ran ef gyd â'r ‖ rhagrithwyr: [t] yno bydd wylo fain a rhingcian dannedd.

s Job 20. 29. Es. 33. 14. Luc 12. 46. t pen. 8. 12. a 22. 1 a 25. 30. Luc 13. 28.

* Mae yma fath arall o weision, yn ddifeddwl a ddyfodiad eu Harglwydd, yn bwrw y dydd drwg y mhell, ac yn nesâu i eistedd-le trais; yn curo eu cyd weision, yn tra-arglwyddiaethu ar eu gwell; ac yn l porthi y teulu, yn bwyta ac yn yfed gyda'r meddwo + Mae yr Arglwydd yn dyfod pryd nad yw y gweisio hyny yn disgwyl, yn eu tori ymaith o fod yn weision yn ysgar eu cyrph a'u heneidiau, ac yn eu danfon at rhagrithwyr yn uffern, lle nad oes ond wylofain a rhinc ian dannedd. ‡ Dywedir bod y gair a gyfieithir gwa hanu yma, yn arwyddo tori yn ddau; fel y byddai barbariaid yn gwneyd â'u gelynion. Tybia eraill m dryllio y cnawd â ffrewyllau a feddylir; fel y byddid y arfer gwneyd a drwg-weithredwyr, ac yna eu danfon garchar tywyll. Tybia eraill mai rhyw gosp llai n marwolaeth a feddylir. ‖ Dywedai Mahomet fod rhy saith ogof ofnadwy yn uffern, a bod y ddyfnaf a'r fwy dychrynllyd o'r saith i'r rhagrithwyr. Mae llawer o fath hyn o weision yn y byd yn mhob oes, ac ofnadw iawn fydd eu barn yn y diwedd!

PEN. XXV.

Dammeg y dey morwyn, &c.

[a] * YNA [b] tebyg fydd teyrnas nefoedd i [c] dde o forwynion, [d] y rhai a gymmerasan eu lampau, ac [e] a aethant allan i gyfarfod [f] â priod-fab.

a pen. 24. 42—51. Luc 21. 34—36. b pen. 3. 2. a 13. 2 31, 38, 44, 45, 47. a 20. 1. a 22. 2. Dan. 2. 44. c Salm 45. 1 Can. 1. 3. a 5. 8, 16. a 6. 1, 8. Dat. 14. 4. d pen. 5. 16. Luc 1 35, 36. Phil. 2. 15, 16. e 2 Tim. 4. 8. Tit. 2. 13. 2 Pedr 1. 13- 15. a 3. 12, 13. f pen. 9. 15. a 22. 2. Salm 45. 9—11. Es. 54. a 62. 4, 5. Marc 2. 19, 20. Luc 5. 34, 35. Ioan 3. 29. 2 Cor. 11. Eph. 5. 25—33. Dat. 19. 7. a 21. 2, 9.

2 † A [g] phump o honynt oedd gall, a phump yn ffol.

g pen. 7. 24—27. a 13. 19—23, 38—43, 47, 48. a 22. 10, 11. Je 24. 2. 1 Cor. 10. 1—5. 1 Ioan 2. 19. Judas 5.

3 Y rhai oedd [h] ffol a gymmerasant e lampau, ac ni chymmerasant olew gyd â hwynt

h pen. 23. 25, 26. Es. 48. 1, 2. a 58. 2. Ezec. 33. 31. 2 Tim. 5. Heb. 12. 15. Dat. 3. 1, 15, 16.

4 A'r rhai call a gymmerasant [i] olew yn e llestri gyd â'u lampau.

i Salm 45. 7. Zec. 4. 2, 3. Ioan 1. 15, 16. a 3. 34. Rhuf. 8. 9. 1 Cor. 1. 22. Gal. 5. 22, 23. 1 Ioan 2. 20, 27. Judas 9.

5 ‡ A thra [k] yr oedd y priod-fab yn aros yn hir, [l] yr hepiasant oll ac yr hunasant.

k adn. 19. pen. 24. 48. Hab. 2. 3. Luc 12. 45. a 20. 9. Heb. 10. 37. 2 Pedr 3. 4—9. Dat. 2. 25. l pen. 26. 40, 43. Can. 3. 1. 2. Jona 1. 5, 6. Marc 14. 37, 38. Luc 18. 8. Rhuf. 13. 11. Eph. 14. 1 Thes. 5. 6—8. 1 Pedr 5. 8.

6 ‖ Ac [m] ar hanner nos y bu [n] gwaedd, Wele, y mae y priod-fab yn dyfod; [p] ewch allan i gyfarfod âg ef.

m pen. 24. 44. Marc 13. 33—37. Luc 12. 20, 38—40, 46. 1 Thes. 5. 1—3. Dat. 16. 15. n pen. 24. 31. Ioan 5. 28, 29. 1 Thes. 4. 16. 2 Pedr 3. 10. o adn. 31. Salm 50. 3—6. a 96. 13. Esai. 9. 2 Thes. 1. 7—10. Judas 14, 15. p adn. 1. Es. 25. 9. Amos 4. 12. Mal. 3. 1, 2. Dat. 19. 7—9.

7 Yna [q] y cyfododd yr holl forwynion hynny, a drwsiasant eu lampau.

q Luc 12. 35. 2 Pedr 3. 14. Dat. 2. 4, 5. a 3. 2, 19, 20.

8 § A'r rhai ffol a ddywedasant wrth y rhai call, [r] * Rhoddwch i ni o'ch olew chwi: [s] canys y mae ein lampau yn diffoddi.

r pen. 3. 9. Luc 16. 24. Act. 8. 24. Dat. 3. 9. s pen. 13. 20, 21. Job 8. 13, 14. a 18. 5. a 21. 17. Diar. 4. 18, 19. a 13. 9. a 20. 20. Luc 8. 18.

9 † A'r rhai call a attebasant, gan ddywedyd, *Nid felly;* [t] rhag na byddo digon i ni ac i chwithau: [u] ond ewch yn hytrach at y rhai sydd yn gwerthu, a phrynwch i chwi eich hunain.

t Salm 49. 7—9. Jer. 15. 1. Ezec. 14. 14—16, 20. u Es. 55. 1—3, 6, 7. Act. 8. 22. Dat. 3. 17, 18.

10 ‡ A thra yr oeddynt yn myned ymaith i brynu, [x] daeth y priod-fab; [y] a'r rhai oedd parod, a aethant i mewn gyd âg ef i'r briodas: a chauwyd y drws.

x adn. 6. Dat. 1. 7. a 22. 12. 20. y adn. 20—23. Luc 12. 36, 37. Col. 1. 12. 2 Tim. 4. 8. 1 Pedr 1. 13. z Gen. 7. 16. Num. 24. 28—34. Salm 95. 11. Luc 13. 25. Heb. 3. 18, 19.

11 ‖ Wedi hynny y daeth y morwynion eraill hefyd, * gan ddywedyd, Arglwydd, Arglwydd, agor i ni.

a pen. 7. 21—23. Heb. 12. 16, 17.

12 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd, Yn wir meddaf i chwi, [b] Nid adwaen chwi.

b Salm 1. 6. a 5. 5. Hab. 1. 13. Luc 13. 26—30. Ioan 10. 27. 1 Cor. 8. 3. Gal. 4. 3. 2 Tim. 2. 19.

13 [c] § Gwyliwch gan hynny; am na wyddoch na'r dydd na'r awr y daw Mab y dyn.

c pen. 24. 42, 43. Marc 13. 33—37. Luc 21. 36. Act. 20. 31. 1 Cor. 16. 13. 1 Thes. 5. 6. 2 Tim. 4. 5. 1 Pedr 4. 7. a 5. 8. Dat. 16. 15.

Tua diwedd y bennod o'r blaen, trôodd yr Arglwydd Iesu ei ymadrodd yn raddol, o sôn am ddinystr Jerusalem, i grybwyll am angau a diwedd y byd: gan annog ei ddysgyblion i wyliadwriaeth ddyfal erbyn yr amgylchiadau sobr a difrifol hyny. Yn y ddammeg hon mae efe yn canlyn ar yr un mater, fel y gwelwn yn amlwg yn yr adnod olaf o honi, sef y drydedd ar ddeg. * Mae y pethau a grybwyllir yn y ddammeg hon, yn cael eu cymmeryd oddiwrth ddefodau yr Iuddewon mewn priodasau. Byddai y priod-fab yn myned i gyrchu y briodasferch adref o hyd nos, wrth oleuni lampau; a'i gyfeillion gydag ef. Byddai y briodas-ferch a'i chyfeillesau hithau yn barod yn ei ddisgwyl: ac ni byddai y nifer un amser meddant, yn llai na deg; a phob un o honynt a'i lamp ganddi yr un modd a chyfeillion y priod-fab. Yn ysbrydol, Crist yw y Priod-fab, a'i wir eglwys yw y briodas-ferch; a'r rhai sydd yn proffesu crefydd, yn aelodau eglwysig, ac yn ymddangos fel gwir gristionogion, yw y morwynion; a'r lampau yw y broffes maent yn wneyd. † Yr oedd pump o'r morwynion hyn yn gall; wedi cymmeryd olew gyda hwy i adlenwi eu lampau fel y byddai eisiau: a'r pump arall yn ffol; wedi esgeuluso y ddarpariaeth angenrheidiol hono. Mae hyn yn dangos i ni mai cymmysg yw yr eglwys; mae ynddi rai yn gyfranogion o'r dduwiol anian, a gwreiddyn y mater ynddynt, ac yn berchen ar holl rasau gwirioneddol yr Ysbryd Glân: ac y mae ynddi rai eraill heb ganddynt ddim ond proffes, ychydig o wybodaeth, a rhyw gynhyrfiadau ar eu tymherau yn eu tarawiad allan cyntaf gyda chrefydd. A'u ffolineb yw, ymfoddloni ar hyny. Hyn oedd yr arferiad, cymmeryd llestraid o olew yn un llaw, a lamp yn y llaw arall, i'w hadlenwi â'r olew o'r llestr, fel y byddai yn angenrheidiol: y morwynion ffol ni wnaethant hyn, gan hyny diffoddodd eu lampau, pan ddarfu yr ychydig olew oedd ynddynt.—Mae yn sicr nâ ddylem feddwl wrth y morwynion ffol, fod rhyw fesur o wir ras gan neb gan grefyddwyr; dirdynu y ddammeg yn ormodol fyddai meddwl hyny, wrth fod olew yn lampau y rhai ffol; ac ni chydsaif hyny â'r athrawiaeth o barâd mewn gras, a gawn mewn mànau eraill o'r ysgrythyr. ‡ Y priod-fab yn aros yn hir, a arwydda, yr yspaid hyny o amser, rhwng dechreu ein proffes ni o grefydd, â dydd marwolaeth a barn: ac, efallai, ei fod hefyd yn dangos y tuedd sydd mewn dynion, da a drwg yn ormodol, i dybied fod y dydd hwnw yn mhell. Yr holl forwynion yn hepian ac yn huno, a arwydda, y diffyg gwyliadwriaeth, gwresawgrwydd a dyfalwch, sydd yn y gwir gristionogion; a'r sicrwydd cnawdol, a'r difaterwch hollol, y mae rhith-gristionogion yn syrthio iddo, wrth feddwl fod y dydd mawr yn mhell. ‖ Y waedd hanner nos, a'r priod-fab yn dyfod, a arwydda, y modd annisgwyliadwy y geilw Crist ddynion o'r byd, ac y daw i farn; yn nghyd â'r braw a'r syndod a bair hyny i bawb, yn enwedig gan grefyddwyr anmharod: yr hyn a ddangosir yn eu brys a'u trafferth yn trwsio eu lampau, adn. 7. § Lampau y morwynion ffol yn diffoddi, a ddengys i ni, er y tâl rhith o grefydd i wneyd ymddangosiad â hi, tra fyddo dynion byw; ond pan ddelont i farw, a'i heisiau fwyaf arnynt, mae yn diffodd, ac yn eu gadael hwynt mewn tywyllwch ac annobaith. Er i lampau y rhai call waelu yn fawr yn eu llewyrch tra buont hwy yn hepian; eto yr oedd ganddynt olew i'w hadlenwi a'u trwsio: felly gwir dduwiolion; er gwaelu llawer o ran eu hysbryd a'u hagwedd drwy anwyliadwriaeth, eto maent hwy yn *reddfol*, ac o ran *cyflwr*, yn barod i bob dygwyddiad. * Mae cais y morwynion ffol gan y rhai call, yn dangos truenus gyflwr a phrofiad rhagrithwyr yn awr angau: dymunent fod yn nghyflwr y gwir dduwiolion y pryd hwnw, a dymunent gael rhyw gymmorth ganddynt yn eu braw a'u caledi. † Mae ateb y rhai call yn dangos na fedd y goreu o'r duwiolion ddim gras i'w hebgor; dim gweithredoedd da dros ben digon, fel y taera eglwys Rufain; nis gallant ond gresynu wrth ragrithwyr, a'u cyfeirio at y moddion hyny, trwy ba rai y cawsont hwy ras eu hunain. ‡ Mae myned ymaith i brynu ar y fath amser anmhrydlawn, yn dangos y braw, yr helbul, a'r dyryswch, a fydd ar bechaduriaid wrth farw, pryd y bydd yn rhy ddiweddar i gael yr hyn a esgeuluswyd ei geisio mewn bywyd. ‖ Yn y cyfwng hwn o astrusi, mae y duwiolion yn myned i mewn i wledd dragywyddol y briodas; y drws yn cael ei gauad am byth; a'r rhagrithwyr a'r hunandwyllwyr er euro yn cael eu gwadu, eu gwrthod, a'u cauad allan. Gwareded yr Arglwydd daionus ni oll rhag crefydd fel hyn! Dechreu yn ffol a ddybena mewn siomedigaeth. § Yr addysg oddiwrth y cwbl yw GWYLIWCH.

14 ¶ * Canys *y mae teyrnas nefoedd* [d] fel † dyn yn myned i wlad ddieithr, ‡ yr hwn a alwodd ei weision, [e] ac a roddes ei ddâ attynt.

d pen. 21. 33. Marc 13. 34. Luc 19. 12, 13. a 20. 9. e Luc 16. 1—12. Rhuf. 12. 6—8. 1 Cor. 3. 5. a 4. 1, 2. a 12. 7—28. Eph. 4. 11. 1 Pedr 4. 9—11.

15 ‖ Ac i un y rhoddodd efe bum [f] talent, ac i arall ddwy, ac i arall un, § i bob un yn ol ei allu ei hun; ac yn y fan efe a aeth oddi cartref.

f pen. 18. 24. Luc 12. 48. a 19. 13, 14.

Amcan y ddammeg hon eto, fel yr un o'r blaen, yw annog dynion i wyliadwriaeth a diwydrwydd, ac i fod yn barod erbyn dydd eu cyfrif mawr. * Teyrnas nefoedd yma, fel yn y ddammeg o'r blaen yw, goruchwiliaeth rhagluniaeth Duw dan yr efengyl. † Y dyn yn myned i wlad ddïeithr yw Crist yn esgyn i'r gogoniant: gwlad ddïeithr yw y nefoedd i bawb ar y ddaear. ‡ Y gweision, yn yr ystyr flaenaf, oedd yr apostolion; i'r rhai y rhoddodd efe wahanol ddoniau apostolaidd cyn iddo eu gadael: am y doniau hyn, gwel 1 Cor. 12. 4—10. Eph. 4. 7, 8, 11. Gellir hefyd ystyried y "da" hyn fel cyfraniadau rhagluniaethol Duw i ddynion yn gyffredinol, ac i broffeswyr yr efengyl yn neillduol: pob peth ag y gellir gwneyd defnydd da neu ddrwg o honynt, neu eu gadael heb wneyd unrhyw ddefnydd o honynt. ‖ Os aur oedd y talentau hyn, dywedir fod y pùm talent yn 36,000 o bùnnau o'n harian ni; neu os arian, eu bod yn 2,250 o bùnnau. Diammau bod y symiau yn fawr ac yn arwyddo gwerth y doniau a'r breintiau mae pob dyn yn gael gan Dduw, yn enwedig pob cristionogion proffesedig. § Mae Crist yn cyfranu ei ddoniau i ddynion fel y gwelo efe yn dda, i rai fwy ac i rai lai, fel y mae yn fwyaf cyd-weddol â sefyllfa pob un yn y byd.

16 * A'r hwn a dderbyniasai y pùm talent [g] a aeth, ac a farchnattaodd â hwynt, ac a wnaeth bùm talent eraill.

g 2 Sam. 7. 1—3. 1 Cron. 13. 1—3. a 22—26. a 28. 2, &c. a 29. 1—17. 2 Cron. 1. 9, 10. a 15. 8—15. a 17. 3—9. a 19. 4—10. a 31. 20, 21. a 33. 15, 16. a 34. a 35. Neh. 5. 14—19. Es. 23. 18. a 49. 23. a 60. 5—16. Act. 13. 36. Rhuf. 15. 18, 19. 1 Cor. 9. 16—23. a 15. 10. 1 Tim. 6. 17, 18. 2 Tim. 2. 6. a 4. 5—8. Philemon 6, 7. 3 Ioan 5—8.

17 A'r un modd yr hwn *a dderbyniasai y* ddwy, [h] a ynnillodd yntau ddwy eraill.

h Gen. 18. 19. 2 Sam. 19. 32. 1 Bren. 18. 3, 4. 2 Bren. 4. 8—10. Job 29. 11—17. a 31. 16—22. Diar. 3. 9, 10. Preg. 11. 1—6. Marc 14. 3—8. Act. 9. 36—39. a 10. 2. a 11. 29, 30. 2 Cor. 8. 12. a 9. 11—14. Gal. 6. 9, 10. Eph. 5. 16. Col. 4. 17. 1 Tim. 5. 10. 2 Tim. 1. 16—18. Heb. 6. 10, 11. 1 Pedr 4. 10.

18 † Ond yr hwn a dderbyniasai un, a aeth ac a gloddiodd yn y ddaear, [i] ac a guddiodd arian ei arglwydd.

i Diar. 18. 9. a 26. 13—16. Hag. 1. 2—4. Mal. 1. 10. Luc 19. 20. Heb. 6. 12. 2 Pedr. 1. 8.

* Amcan y rhan hon o'r ddammeg yw, dangos fel y mae gweinidogion a christionogion grasol a ffyddlon, yn defnyddio eu talentau er gogoniant Duw, er cymmorth i'w achos, er lles i'w cyd-greaduriaid, ac er adeiladaeth ac iachawdwriaeth i'w heneidiau eu hunain. † Mae gwas yr un dalent yn dangos diffrwythder gweinidogion a phroffeswyr diras; a'u hollawl ddifaterwch am ddefnyddio eu doniau, eu manteision, a'u meddiannau i ogoniant Duw, &c.; ond byw iddynt eu hunain mewn diogi a daearoldeb, ac efallai yn eiddigeddu yn gas wrth eraill mwy llafurus a defnyddiol na hwy eu hunain. Ni ddylid casglu oddiwrth yr adnodau hyn, mai y rhai mwyaf eu talentau yw y rhai mwyaf eu llafur a'u defnydd, oblegid gwelwyd i'r gwrthwyneb lawer gwaith.

19 * Ac wedi [k] llawer o amser, y mae arglwydd y gweision hynny yn dyfod, [l] ac yn cyfrif â hwynt.

k adn. 5. pen. 24. 48. l pen. 18. 23, 24. Luc 16. 1, 2, 19, &c. Rhuf. 14. 7—12. 1 Cor. 3. 12—15. 2 Cor. 5. 10. Iago 3. 1.

* Yn nydd y farn, geilw Duw bawb i gyfrif: pa fodd y defnyddiasant eu hamser, eu hiechyd, eu gwybodaeth, eu synwyr, eu cof, eu deall, eu cyfoeth, eu hawdurdod, eu swyddau, a'u holl fanteision a'u breintiau: pa un ai er gogoniant Duw, &c. ai ynte mewn bydolrwydd ac oferedd cnawdol a diles.

20 * A daeth yr hwn a dderbyniasai bùm talent, ac a ddug bùm talent eraill, gan ddywedyd, Arglwydd, pùm talent a roddaist attaf: [m] wele, mi a ynnillais bùm talent eraill attynt.

m Luc 19. 16, 17. Act. 20. 24. 1 Cor. 15. 10. Col. 1. 29. 2 Tim. 4. 1—8. Iago 2. 18.

21 A dywedodd ei arglwydd wrtho, [n] Da was da a ffyddlawn: buost ffyddlawn ar ychydig, [o] mi a'th osodaf ar lawer: [p] dos i mewn i lawenydd dy arglwydd.

n 2 Cron. 31. 20, 21. Luc 16. 10. Rhuf. 2. 29. 1 Cor. 4. 5. 2 Cor. 5. 9. a 10. 18. 1 Pedr 1. 7. o adn. 34—40. a 10. 40—46. a 24. 47. Luc 12. 44. a 22. 28—30. Dat. 2. 10, 26—28. a 3. 21. a 5. 7. p adn. 23. Salm 16. 10, 11. Ioan 12. 26. a 14. 3. a 17. 24. Phil. 1. 23. 2 Tim. 2. 12. Heb. 12. 2. 1 Pedr 1. 8. Dat. 7. 17.

22 † A'r hwn a dderbyniasai ddwy dalent ddaeth, ac a ddywedodd, Arglwydd, dwy dalent a roddaist attaf: wele, [q] dwy eraill a ynnillais attynt.

q Luc 19. 18, 19. Rhuf. 12. 6—8. 2 Cor. 8. 1—3, 7, 8, 12.

23 ‡ Ei arglwydd a ddywedodd wrtho, [r] Da was da a ffyddlawn: buost ffyddlawn ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer: dos i mewn i lawenydd dy arglwydd.

r adn. 21. Marc 12. 41—44. a 14. 8, 9.

* Yn nghyfrif y gwas cyntaf, gallwn weled, fod gweision ffyddlonaf, mwyaf doniol, a mwyaf llafurus Duw yn barod i gydnabod mai ganddo ef y derbyniasant eu holl ddoniau; a'u bod yn ystyried eu hunain yn atebol iddo ef am danynt ac am yr iawn ddefnyddiad o honynt. † Yn nghyfrif yr ail was, gallwn weled yr un pethau ac nad yw y dyn duwiol o ychydig ddawn, yn cenfigenu wrth yr hwn sydd fwy ei ddawn nag ef; nac ychwaith yn cymmeryd bychandra ei ddawn yn achlysur i beidio ei ddefnyddio. Gallwn sylwi yma, fod mwy o ragoriaeth rhwng y cyntaf â'r ail, nag oedd rhwng yr ail â'r trydydd. ‡ Yn yr atebiad i'r ddau was hyn, gallwn weled, y bydd yr Arglwydd Iesu ddydd y farn, yn cydnabod yn diriondeb holl lafur ei weision, ac yn eu gwobrwyo hwynt yn rasol yn ol eu llafur a'u ffyddlondeb. A gwelwn hefyd, yn ei atebiad i'r ail was, y bydd ffyddlondeb ar ddoniau bychain yn cael ei gymmeradwyo ganddo ef, yn gystal a ffyddlondeb ar ddoniau llawer mwy. *Chara* yw y gair Groeg am *lawenydd*, a defnyddir yr un gair am *wledd*, neu *gyfeddach*, yn y cyfieithiad Groeg o Esth. 9. 19, a thybia rhai fod yn y fàn hon gyfeiriad at wledd. Ond gan mai gogoneddiad ei ddynoliaeth mewn corph ac enaid, oedd y llawenydd yr aeth yr Arglwydd Iesu i mewn iddo, i lawenydd cyffelyb yn ddïau y dwg efe ei holl weision ffyddlawn hefyd.

24 * A'r hwn a dderbyniasai yr un dalent a ddaeth, ac a ddywedodd, [s] Arglwydd, [t] mi a'th adwaenwn di, mai gwr caled ydwyt, yn medi lle nis hauaist, ac yn casglu lle ni wasgeraist:

s pen. 7. 21. Luc 6. 46. t pen. 20. 12. Job 21. 14, 15. Es. 58. 3. Jer. 44. 16—18. Ezec. 18. 25—29. Mal. 1. 12, 13. a 3. 14, 15. Luc 15. 29. a 19. 20—22. Rhuf. 8. 7. a 9. 20.

25 A mi [u] a ofnais, ac a aethum, ac a guddiais dy dalent yn y ddaear: wele, yr wyt yn cael yr eiddot dy hun.

u 2 Sam. 6. 9, 10. Es. 57. 11. Rhuf. 8. 15. 2 Tim. 1. 6, 7. Dat. 21. 8.

26 † A'i arglwydd a attebodd ac a ddywedodd wrtho, [x] O was drwg a diog, ‡ ti a wyddit fy mod yn medi lle nis hauais, ac yn casglu lle nis gwasgerais:

x pen. 18. 32. Job 15. 5, 6.

27 [y] Am hynny y dylesit ti roddi fy arian at y cyfnewidwyr, a mi pan ddaethwn a gawswn dderbyn yr eiddo fy hun [z] ‖ gyd â llog.

y Luc 19. 22, 23. Rhuf. 3. 19. Judas 15. z Deut. 23. 19, 20.

* Mae gwas yr un dalent yn ddarluniad o agwedd a iaith calon llawer o ddynion eto, y rhai ni dderbyniasant gariad y gwirionedd; mae eu syniadau cnawdol y casâu sancteiddrwydd Duw, ac yn grwgnach yn erbyn ei ragluniaeth, ei ben-arglwyddiaeth, a threfn iachawd

aeth: dadleuant fod Duw yn gofyn mwy gan ddyn
g a all dyn ei wneyd, a hyny i esgusodi eu hunain i
dio a gwneyd dim. Tybiant mai oferedd yw treulio
ver o'u hamser a'u dawn i wasanaethu yr Arglwydd;
ymfoddlonant ar beidio bod yn gwbl mòr anfoesol â
i dynion eraill. † Drwg a dïog y galwodd Iesu y
as hwn: drwg, yn ei feddyliau celyd ac annheilwng
ei arglwydd, a dïog, am na wnaethai well defnydd
d dalent. Felly y cyfrif Mab Duw yr holl ddynion
frwyth yn y farn; y mrai sydd yn awr yn cecrus-
adlau yn erbyn etholedigaeth Duw, gallu ac anallu
, &c.; ac heb wneyd dim i ogoneddu Duw, nac i
ithio allan eu hiachawdwriaeth eu hunain. Y rheswm
roddodd y gwas anfuddiol hwn yn esgus am ei ym-
ygiad diffrwyth, a droes yn ei erbyn, ac yn gondemn-
l iddo: gan y gwyddai, neu gan ei fod yn meddwl,
i un caled felly oedd ei arglwydd, dylasai y meddwl
my ei annog ef i farchnata er chwanegu y dalent. Ac
oedd yn ofni colli wrth farchnata, dylasai roddi yr
an at y cyfnewidwyr, ar log; nid oedd dim perygl
lli fel hyny. Pe gwnaethai felly, cawsai ei arglwydd
ii lle ni hauodd, yn ol ei dyb galed ef am dano. Yn
dd y farn cair gweled holl esgusodion a dadleuon
mion yma, yn troi yn eu herbyn, ac yn gondemniad
iynt. ‡ "Ti a wyddit:" nid addefiad sydd yma mai
felly oedd ei arglwydd; ond dadl, o enau y gwas ei
un, i'w euog-farnu ef; am nad ymddygodd efe yn
fatebol i'w feddyliau caledion am ei arglwydd. || Gyda
g: tybir fod Crist yma yn caniatâu llog rhesymol am
ian. Yr eiddo fy hun gyda'i *gynnyrch* meddant yw
eddwl y Groeg, eto rhaid mai llog a fyddai y cynnyrch
wnw, o roddi yr arian at y *cyfnewidwyr;* ond llog
ffreithlawn a feddylir yn ddïau, ni roddai y *cyfnewid-*
wyr log anghyfreithlawn.

28 * Cymmerwch [a] gan hynny y dalent
ddi wrtho, a rhoddwch i'r hwn sydd ganddo
deg talent.

a Luc 10. 42. a 19. 24.

29 † (Canys [b] i bob un y mae ganddo y
noddir, ac efe a gaiff helaethrwydd; ac oddi
yr hwn nid oes ganddo [c] y dygir oddi arno,
, yr hyn sydd ganddo.)

b pen. 13. 12. Marc 4. 25. Luc 8. 18. a 16. 9—12. a 19. 25, 26. Ioan 15. 2. c pen. 21. 41. Galar. 2. 6. Hos. 2. 9. Luc 12. 19—.. a 16. 1—3, 20—25. Ioan 11. 48. Dat. 9. 5.

30 A [d] bwriwch allan y gwas anfuddiol i'r
tywyllwch eithaf: yno y bydd wylofain a
mingcian dannedd.

d pen. 3. 10. a 5. 13. Jer. 15. 1, 2. Ezec. 15. 2—5. Luc 14. 34, 5. Ioan 15. 6. Tit. 3. 14. Heb. 6. 7, 8. Dat. 3. 15, 16. e pen. 8. 2. a 13. 42, 50. a 22. 13. a 24. 51. Luc 13. 28. 2 Pedr 2. 17. Judas 3. Dat. 21. 8.

* Mae yr Arglwydd yn aml yn y byd hwn, yn ymidifadu dynion, pregethwyr a phroffeswyr hefyd, o'r oniau, y breintiau, a'r meddiannau, a roddasai iddynt, m na wnaethant iawn ddefnydd o honynt; ac yn chwangu y cyfryw bethau i ddynion gwir dduwiol, ffyddlawn, llafurus yn ei wasanaeth ef. Ond yma am ddydd y arn y sonir; a'r cwbl a allwn ddeall yw, na bydd holl doniau dynion diras, megys deall, dysgeidiaeth, yfoeth, ac anrhydedd, o un lles yn y byd iddynt yno; m na wnaethant y defnydd dyladwy o honynt: yn y ydd hwnw collant y cwbl, a dedwyddwch y nefoedd efyd; ac yn y tywyllwch eithaf y bydd eu lle a'u rhan dragywyddol. † O'r tu arall, pob un y byddo ganddo as a doniau, a chwedi gwneyd iawn ddefnydd o honynt; bfe a gaiff helaethrwydd o ddedwyddwch a gogoniant rn y nef. Ond rhaid i ni ddeall hyn, mai o ras y bydd wobr, ac nid o ddyled.

31 ¶ [f] * A Mab y dyn, pan ddêl yn ei
ogoniant, a'r holl angelion sanctaidd gyd âg
ef, [g] yna yr eistedd ar orsedd-faingc ei ogon-
iant.

f adn. 6. pen. 16. 27. a 19. 28. a 26. 64. Dan. 7. 13, 14. Zec. 14. 5. Marc 8. 38. a 14. 62. Luc 9. 26. a 22. 69. Ioan 1. 51. a 5. 27—29. Act. 1. 11. 1 Thes. 4. 16. 2 Thes. 1. 7, 8. Heb. 1. 8. Judas 14. Dat. 1. 7. g Salm 9. 7. Dat. 3. 21. a 20. 11.

32 † A [h] chyd-gesglir ger ei fron ef yr holl
genhedloedd: [i] ‡ ac efe a'u didola hwynt oddi
wrth eu gilydd, megis y didola'r bugail y
defaid oddi wrth y geifr:

h Salm 96. 13. a 98. 9. Act. 17. 30, 31. Rhuf. 2. 12, 16. a 14. 10—12. 2 Cor. 5. 10. Dat. 20. 12—15. i pen. 3. 12. a 13. 42, 43, 49. Salm 1. 5. a 50. 3—5. Ezec. 34. 17—22. Mal. 3. 18. 1 Cor. 4. 5.

33 || Ac a esyd [k] y defaid ar [l] ei ddeheulaw,
ond y geifr ar yr aswy.

k Salm 79. 13. a 95. 7. a 100. 3. Ioan 10. 26—28. a 21. 15—17. l Gen. 48. 13, 14, 17—19. Salm 45. 9. a 110. 1. Marc 16. 19. Act. 2. 34, 35. Eph. 1. 20. Heb. 1. 3.

Gwedi sôn am gyfrif â'r gweision yn yr adnodau o'r blaen, mae yr Arglwydd Iesu yma yn dywedyd yn egluraach eto am ddydd mawr y farn; mewn ymadroddion mawreddus anghyffredin, ac mewn dull mwy ardderchog na nemawr o fânau yn yr holl ysgrythyr. Pa fodd y gall neb ddarllen y geiriau hyn, a meddwl nad yw y llefarwr ddim ond dyn? Pwy ond Duw anfeidrol a allasai ddywedyd y fath eiriau? Pwy a all eu darllen hefyd heb grynu ac arswydo, a dychymmygu ei fod yn sefyll o flaen gorsedd y Barnwr mawr? * Daeth Mab y dyn, y tro cyntaf yn isel ac yn dlawd, ar agwedd gwas; ond yma mae yn dyfod yn ei holl fawredd a'i ogoniant, fel Duw, fel Cyfryngwr, ac fel Barnwr. Daw ei holl angelion sanctaidd hefyd gydag ef; fel ei addolwyr, ac fel gweision, cedyrn o nerth i wneuthur ei air ef. Ac efe a eistedd ar orsedd-fainc ei ogoniant, yr hon hefyd fydd gorsedd barn, yn ngolwg yr holl fydoedd, ac i farnu byw a meirw. † Cyd-gesglir ger ei fron ef yr holl genedloedd; bychain a mawrion, hen ac ieuainc, saint a phechaduriaid, Iuddewon a Chenedloedd; holl ddynolryw, byw a meirw, o ddechreuad y byd hyd yr awr ddiweddaf; nis gall neb ddïanc rhagddo, nac ymguddio o'i wydd. ‡ Gwedi eu casglu oll, efe a ddidola y dorf aneirif yr un mòr hawdd, ac yr un mòr gywir ac y didola y bugail y defaid oddi wrth y geifr. || Defaid: cymhariaeth addas iawn i ddangos tuedd ddiniwed, addfwyn, ddefnyddiol, a sanctaidd y duwiolion. Geifr: cymhariaeth addas i ddangos anian halogedig a buchedd drygionus annuwiolion. Gesyd y defaid ar ei ddeheulaw, i ddangos eu cymmeradwyaeth a'u hanrhydedd: a'r geifr ar ei law aswy, i ddangos eu gwrthodiad a'u condemniad i warth tragywyddol. Tybir fod yma gyfeiriad at arfer y barnwyr Iuddewig, yn y Sanhedrim neu ryw lys barn; yn gosod y rhai a ryddêid ar eu llaw ddehau, a'r rhai a gondemnid ar eu llaw aswy; ac yna pob dosparth i ddderbyn eu dedfryd, fel y gwelwn yma eto: adn. 34, 41.

34 * Yna [m] y dywed y Brenhin wrth y rhai
ar ei ddeheu-law, [n] † Deuwch, chwi fendiged-
igion fy Nhad, [o] ‡ etifeddwch y deyrnas [p] a
barrottöwyd i chwi [q] er seiliad y byd.

m pen. 21. 5. a 22. 11—13. a 27. 37. Salm 2. 6. a 24. 7—10. Es. 9. 7. a 32. 1, 2. a 33. 22. Jer. 23. 5, 6. Ezec. 37. 24, 25. Dan. 9. 25. Zeph. 3. 15. Zec. 9. 9, 10. Luc 1. 31—33. a 19. 38. Ioan 1. 49. a 12. 13. a 19. 15, 19—22. Dat. 19. 16. n adn. 21, 23, 41. pen. 5. 3—12. Gen. 12. 2, 3. Deut. 11. 26—28. Salm 115. 13—15. Luc 11. 28. Act. 3. 26. Gal. 3. 13, 14. Eph. 1. 3. 1 Pedr 1. 3. o Luc 12. 32. Rhuf. 8. 17. 1 Cor. 6. 9. Gal. 5. 21. Eph. 5. 5. 2 Tim. 2. 12. a 4. 8. Iago 2. 5. 1 Pedr 1. 4, 5. Dat. 21. 7. p pen. 20. 23. Marc 10. 40. Ioan 14. 2, 3. 1 Cor. 2. 9. Heb. 11. 16. q Act. 15. 18. Eph. 1. 4—6. 1 Pedr 1. 19, 20. Dat. 13. 8.

* Gwedi didoli ei ddefaid a'u gosod ar ei ddeheulaw, yna y dywed y Brenin;—nodwn, yr hwn a'i galwai ei hun yn Fab y dyn o'r blaen, sydd yma yn ei alw ei hun yn Frenin. Nid Brenin yr Iuddewon yn unig, na Brenin y saint yn unig; ond Brenin mawr yr holl fydoedd. † Efe a ddywed wrth ei bobl, Deuwch chwi fendigedigion fy Nhad: y rhai a garodd fy Nhad a chariad tragywyddol; arfaethodd eu bendithio yn ei gyngor a'i gyfammod tragywyddol; a'u bendithiodd trwof fi mewn amser; ac a'u gwna yn fendigedig mewn dedwyddwch tragywyddol. || Etifeddwch y deyrnas a

barotôwyd i chwi er seiliad y byd: nid ei haeddu a wnaethoch trwy weithredoedd; ond ei pharotôi a wnaed i chwi cyn eich bod: ac mewn amser parotôwyd chwithau trwy ras i'r deyrnas; deuwch weithian ac etifeddwch hi.

35 * Canys [r] bûm newynog, a chwi a roisoch i mi fwyd: bu arnaf [s] syched, a rhoisoch i mi ddiod: [t] bûm ddïeithr, a dygasoch fi gyd â chwi:

r adn. 40. pen. 10. 40—42. a 26. 11. Deut. 15. 7—11. Job 29. 13—16. a 31. 16—21. Salm 112. 5—10. Diar. 3. 9, 10. a 11. 24, 25. a 14. 21, 31. a 19. 17. a 22. 9. Preg. 11. 1, 2. Es. 58. 7—11. Ezec. 18. 7, 16. Dan. 4. 27. Mica 6. 8. Marc 14. 7. Luc 11. 41. a 14. 12—14. Ioan 13. 29. Act. 4. 32. a 9. 36—39. a 10. 31. a 11. 29. 2 Cor. 8. 1—4, 7—9. a 9. 7—14. Eph. 4. 28. 1 Tim. 6. 17—19. Philemon 7. Heb. 6. 10. a 13. 16. Iago 1. 27. 1 Pedr 4. 9, 10. 1 Ioan 3. 16—19. s adn. 42. Diar. 25. 21. Rhuf. 12. 20. t adn. 43. Gen. 18. 2—8. a 19. 1—3. Act. 16. 15. Rhuf. 12. 13. a 16. 23. 1 Tim. 5. 10. Heb. 13. 1—3. 3 Ioan 5—8.

36 [u] Noeth, a dilladasoch fi: [x] bûm glaf, † ac ymwelsoch â mi: [y] bûm y'ngharchar, a daethoch attaf.

u Job 31. 19, 20. Luc 3. 11. Iago 2. 14—16. x adn. 43. Ezec. 34. 4. Act. 20. 35. a 28. 8, 9. Iago 1. 27. a 5. 14, 15. y Phil. 4. 10—14. 2 Tim. 1. 16—18. Heb. 10. 34. a 13. 3.

37 Yna yr ettyb y rhai cyfiawn iddo, gan ddywedyd, Arglwydd, [z] pa bryd y'th welsom yn newynog, ac y'*th* borthasom? neu yn sychedig, ac y rhoisom i *ti* ddiod?

z pen. 6. 3. 1 Cron. 29. 14. Diar. 15. 33. Es. 64. 6. 1 Cor. 15. 10. 1 Pedr 5. 5, 6.

38 A pha bryd y'th welsom yn ddïeithr, ac y'*th* ddygasom gyd â ni? neu yn noeth, ac y'*th* ddilladasom?

39 A pha bryd y'*th* welsom yn glaf, neu y'ngharchar, ac y daethom attat?

40 [a] A'r brenhin a ettyb, ac a ddywed wrthynt, Yn wir meddaf i chwi, [b] Yn gymmaint a'*i* wneuthur o honoch i un o'r * rhai hyn fy mrodyr lleiaf, [d] i mi y gwnaethoch.

a adn. 34. Diar. 25. 6, 7. b pen. 10. 42. 2 Sam. 9. 1, 7. Marc 9. 41. Ioan 19. 26, 27. a 21. 15—17. 1 Cor. 16. 21, 22. 2 Cor. 4. 5. a 5. 14, 15. a 8. 7—9. Gal. 5. 6, 13, 22. 1 Thes. 4. 9, 10. 1 Pedr 1. 22. 1 Ioan 3. 14—19. a 4. 7—12, 20, 21. a 5. 1, 2. c pen. 12. 49, 50. a 18. 5, 6, 10. a 28. 10. Marc 3. 34, 35. Ioan 20. 17. Heb. 2. 11—15. a 6. 10. d Act. 9. 4, 5. Eph. 5. 30.

* Yn yr adnodau hyn sylwn ar y pethau canlynol:—1. Mai pobl druain dlodion yw y rhan fwyaf o bobl Dduw yn mhob man ac oes o'r byd. Mynych y mae llawer o honynt fel y dywedir yma, yn newynog, yn sychedig, yn ddïeithr, yn noethion, yn gleifion, ac yn ngharcharau, am eu crefydd. 2. Mai pobl o duedd elusengar, a thosturiol yw holl ganlynwyr Iesu. Maent yn caru diwallu y newynog, disychedu y sychedig, bod yn lletygar i'r dïeithr, dilladu y noeth, ymweled a'r claf, ac ymgeleddu y carcharor, yn enwedig, yn achos Iesu. 3. Gwelwn fod Iesu yn cymmeryd y cymmwynasau uchod a wneler i'w bobl, fel pe eu gwnelid iddo ef ei hun; yn eu dangos ar gyhoedd yr holl fyd; ac yn cymmeradwyo ei saint o'u plegid. 4. Gwelwn yn olaf, y bydd duwiolion yn y dydd diweddaf yn mhell o ymffrostio yn eu gweithredoedd da: ond yn hytrach am eu cuddio, fel pethau na fydd o werth eu dangos, ac annheilwng iddynt hwy gael cymmaint o anrhydedd o'u plegid. Mae y gair Groeg meddant yn arwyddo, nid ymweled yn unig âg un, eithr hefyd gofalu am dano, gwneyd pob cynnorthwy ac ymgeleddd iddo; a hyny mewn ystyr ysbrydol yn gystal a thymmorol, i ddysgyblion Iesu yn ddiammau. Cyn gadael y geiriau hyn, rhaid i ni sylwi eto, nad yw y gweithredoedd elusengar hyn ddim ond nodau, ac arwyddion, wrth ba rai y bydd Crist yn dangos ei bobl. Ffrwythau ffydd a chariad ydynt; nid oes, ac ni bydd, dim teilyngdod na haeddiant iachawdwriaeth ynddynt. Am hyny gellir gosod allan y mater fel hyn: nid oes dim iachawdwriaeth i becha ond trwy rad drugaredd Duw; nid oes dim trugar ond trwy aberth a chyfryngdod ei anwyl Fab ef; nid dim rhan yn Nghrist, ond trwy ffydd yn ddo ef; nid dim gwir a chadwedigol ffydd, ar nad yw yn gwei trwy gariad; nid oes dim cariad at Grist, heb ga hefyd at ei bobl ef, ei esampl a'i orchymynion; nid dim gwir gariad at bobl Crist, heb ei fod yn cym dyn i wneyd daioni iddynt, yn ol ei allu a'i gyfleus fel y gwelo hwynt mewn caledi ac amgylchiadau angh us. A'r neb a wnelo felly, mae yn rhoddi prawf di mheuol, ei fod yn wir gredadyn, yn aelod o gorph geledig Crist, ac a rhan iddo yn ei holl fendithion e

41 Yna y dywed efe hefyd wrth y [e] rha fyddant ar y llaw aswy, [f] * Ewch oddi wrth [g] † rai melldigedig, ‡ i'r [h] tân tragywydd [i] *yr hwn* a barottöwyd i ddiafol ac i'w ang ion.

e adn. 33. f pen. 7. 23. Salm 6. 8. a 119. 115. a 139. Luc 13. 27. g Deut. 27. 15—26. a 28. 16, &c. Salm 119. 21. 17. 5. Gal. 3. 10—13. Heb. 6. 8. h adn. 46. pen. 3. 12. a 13. 50. Marc 9. 43—48. 2 Thes. 1. 9. Dat. 14. 10, 11. a 20. 10— i Ioan 8. 44. Rhuf. 9. 22, 23. 2 Pedr 2. 4. 1 Ioan 3. 10. Juda Dat. 12. 7—9.

42 ‖ Canys [k] bûm newynog, ac ni roisoch mi fwyd: bu arnaf syched, ac ni roisoch i ddiod:

k adn. 35. pen. 10. 37, 38. a 12. 30. Amos 6. 6. Ioan 5. 2 8. 42—44. a 14. 21. 1 Cor. 16. 22. 2 Thes. 1 8. Iago 2. 15— 1 Ioan 3. 14—17. a 4. 20.

43 Bûm ddïeithr, ac ni'm dygasoch gyd chwi: noeth, ac ni'm dilladasoch: yn glaf, y'ngharchar, ac ni ymwelsoch â mi.

44 § Yna yr attebant hwythau hefyd idd gan ddywedyd, Arglwydd, [l] pa bryd y'th we som yn newynog, neu yn sychedig, neu y ddïeithr, neu yn noeth, neu glaf, neu ngharchar, ac ni weiniasom i ti?

l adn. 24—27. pen. 7. 22. 1 Sam. 15. 13—15, 20, 21. Jer. 2. 35. Mal. 1. 6. a 2. 17. a 3. 13. Luc 10. 29.

45 Yna yr ettyb efe iddynt, gan ddywe yd, Yn wir meddaf i chwi, [m] Yn gymmaint a nas gwnaethoch i'r un o'r rhai lleiaf hyn, n gwnaethoch i minnau.

m adn. 40. Gen. 12. 3. Num. 24. 9. Salm 105. 15. Diar. 31. a 21. 13. Zec. 2. 8. Ioan 15. 18, 19. Act. 9. 5. 1 Ioan 3. 12— a 5. 1—3.

Ar ol cyfiawnâu ac anrhydeddu y dorf ar ei ddehe law, mae y Barnwr yn troi at y rhai ar ei law aswy, chyda mawredd ofnadwy yn ei lais a'i wynebpryd, m yn cyhoeddi y ddedfryd ddychrynllyd arnynt hw

* "Ewch oddiwrthyf," yw y geiriau cyntaf: llawer gwai y dywedasant hwy wrtho ef, Cilia oddiwrthym, canys n ydym yn chwennych gwybod dy ffyrdd: ac yn awr rh o'u barn hwythau fydd, cael eu gwrthod ganddo ynta

† "Rhai melldigedig:" dyna eu cyflwr fel torwyr c ammod, fel sathrwyr deddfau Duw, ac fel gwrthodw ei Fab a'i efengyl ef: a thàn ei felltith gyfiawn y byd ant byth. ‡ Dedfrydir hwynt i dân, yr arwydd mwy dychrynllyd o ddigofaint Duw, a'r peth mwyaf poeny fawr a allwn feddwl am dano. Bydd y tân hwn dragywyddol; am hyny rhaid fod y colledigion i ba yn dragywyddol, a chwedi gwneyd pethau yn haed cosp dragywyddol, sef wedi pechu yn erbyn Duw a feidrol. Darparwyd y tân tragywyddol hwn ar y cyn i ddiafol a'i angelion; ond gan i'r rhai drygionus gy meryd plaid diafol a'i wasanaethu ef, y tân hwn fy eu rhan hwythau hefyd. ‖ Gwedi cyhoeddi y ddedfry mae y barnwr yn dangos cyfiawnder y ddedfryd; fel dywedai, Chwi a wyddoch yn eich cydwybodau ei hunain eich bod yn ei haeddu; gwyddoch na wnaet och ddim daioni erioed i neb o'm brodyr tlodion anghenus I, ac yn hyny dangosasoch nad oedd geny

n cariad ataf fi, na ffydd ynof fi. Gan fod y pech-
1 gomeddol a enwir yn yr adnodau uchod yn cael
n mòr drom, pa le yr ymddengys y rhai a newynodd,
speiliodd, a garcharodd, ac a laddodd bobl Dduw?
ae y rhai hyn yn gymmaint am wadu eu drwg, ac
l y rhai o'r blaen am ymwadu â'u daioni. Efallai
eu meddwl oedd, na welsent hwy mo Grist ei hun
ed mewn cyfyngder ac angen, heb weini iddo: tybia
lwyr yn wastad fod ganddynt hwy barch mawr i
aw, a Christ, er ymddwyn yn greulawn tuag at ei
l, heb ystyried yr undeb a'r agosrwydd sydd rhwng
st â'i bobl.

46 A'r rhai hyn a ânt i [n] gospedigaeth
ragywyddol: ond [o] y rhai cyfiawn i fywyd
gywyddol.

n adn. 41. Dan. 12. 2. Marc 9. 44, 46, 48, 49. Luc 16. 26. Ioan
. 2 Thes. 1. 9. Dat. 14. 10, 11. a 20. 10, 15. a 21. 8. o pen.
13. Salm 16. 10, 11. Ioan 3. 15, 16, 36. a 10. 27, 28. Rhuf. 2. 7.
21. a 6. 23. 1 Ioan 2. 25. a 5. 11, 12. Judas 21.

Yr un gair (tragywyddol) sydd yn nwy ran yr adnod;
un gair (*aiônion*) sydd yn y Groeg hefyd; felly os
yn arwyddo dedwyddwch annherfynol i'r saint, mae
rhaid ei fod yn arwyddo cospedigaeth annherfynol
annuwiol yr un modd. A thruenus yw cyflwr y rhai
eiddiant anturio eu heneidiau, ar y dyb ei fod yn
yddo rhyw ypsaid derfynol yn yr un o'r ddau le.
y darluniad uchod o'r farn, gwelwn ddiwedd teyrnas
s, a dechreu teyrnas gogoniant: diwedd y byd cyf-
vidiol a thrancedig hwn, a dechreu ystâd ddigyf-
vid a thragywyddol byth.

PEN. XXVI.

Llywodraethwyr yn cyd-fwriadu yn erbyn Crist. 14
Judas yn ei werthu ef.

A BU, [a] wedi i'r Iesu orphen y geiriau hyn
oll, efe a ddywedodd wrth ei ddisgyblion,

a pen. 19. 1.

2 † Chwi [b] a wyddoch mai gwedi deuddydd
mae y pasc, ‡ a Mab y dyn a [d] draddodir
y groes-hoelio.

b Marc 14. 2. Luc 22. 1, 2, 15. Ioan 13. 1. c Ex. 12. 11—
a 34. 25. Ioan 2. 13. a 11. 55. a 12. 1. d adn. 24, 45. a 17.
a 20. 18, 19. a 27. 4. Luc 24. 6, 7. Ioan 13. 2. a 18. 2.

* Gorphenodd yr Arglwydd Iesu ei weinidogaeth
hoeddus pan aeth allan o'r deml, pen. 23. 39: gwedi
faru amryw bethau pwysig wrth ei ddysgyblion yn
hylch dinystr Jerusalem a dydd y farn, pen. 24. a
. mae yma yn mynegi yn amlwg iddynt am ei ddy-
defaint a'i farwolaeth, yr hyn oedd i gymmeryd lle
fuan iawn. Gwyddai ef yn hollawl o hyd, pa bryd
pha fodd, yr oedd i ddyoddef; ac eto gwynebodd ar ei
yoddefiadau annhraethol gyda'r tawelwch a'r gwrol-
b mwyaf. † Tybir iddo lefaru y pethau o'r blaen ar
dydd Mawrth; ac efallai iddo lefaru y geiriau hyn ar
wyr y diwrnod hwnw, yr hyn oedd ddau ddiwrnod
nion cyn bod oen y pasg i gael ei fwyta. ‡ Traddod-
id Judas ef i ddwylaw henuriaid yr Iuddewon, ei
ynion creulonaf: a thraddodasant hwythau ef i'r llyw-
raeth Rufeinig i'w groeshoelio, gan nad oedd ganddynt
wy eu hunain awdurdod i roddi neb i farwolaeth o'r
th hóno. Gwel Ioan 18. 31.

3 * Yna [e] yr ymgasglodd yr arch-offeiriaid,
'r ysgrifenyddion, a henuriaid y bobl, [f] † i lys
r arch-offeiriad, yr hwn a elwid [g] Caiaphas:

e pen. 21. 45, 46. Salm 2. 1, 2. a 56. 6. a 64. 4—6. a 94. 20, 21.
er. 11. 19. a 18. 18—20. Ioan 11. 47—53, 57. Act. 4. 25—28.
adn. 58. Jer. 17. 27. Marc 14. 54. g adn. 57. Ioan 11. 49. a
8. 13, 14, 24. Act. 4. 5, 6.

4 ‡ A hwy a gyd-ymgynghorasant fel y
alient yr Iesu [h] trwy ddichell, ac y lladdent
f.

h pen. 23. 33. Gen. 3. 1. Act. 7. 19. a 13. 10. 2 Cor. 11. 3.

5 Eithr hwy a ddywedasant, [i] || Nid ar yr
wyl, [h] § rhag bod cynnwrf ym mhlith y bobl.

i Salm 76. 10. Diar. 19. 21. a 21. 30. Es. 46. 10. Galar. 3. 37.
Marc 14. 2, 12, 27. Luc 22. 7. Ioan 18. 28. Act. 4. 28. k pen.
14. 5. a 21. 26. Luc 20. 6.

Tra yr oedd Iesu yn rhagfynegi y peth uchod i'w ddysgyblion, yr oedd ei elynion yn ymgynghori yn Jerusalem pa fodd y lladdent ef. * Aelodau o'r Senedd fawr Iuddewig oedd y rhai a grybwyllir yma. Am ddechreuad y Senedd hòno, gwel Num. 11. 16, 17, 24, 25. Deg a thriugain a enwir yno; ond dywedir i Eldad a Medad gael eu chwanegu atynt i wneyd deuddeg a thriugain, chwech am bob un o lwythau Israel. † Eisteddai y Senedd hon yn gyffredin mewn llys, neu ystafell o'r deml, a elwid Gazith; a barnai bob materion mwyaf eu pwys: y brawdlys arall, nesaf at hwn, oedd gynnwysedig o dri ar hugain, y rhai a eisteddent wrth, neu uwch ben un o byrth y ddinas, Deut. 16. 18. Yr oedd dau o'r llysoedd olaf hyn yn Jerusalem, ac un yn mhorth pob dinas a gynnwysai chwech ugain o deuluoedd. Ond yma, nid yn y lle dyladwy yr ymgasglwyd, eithr yn llys Caiaphas yr arch-offeiriad. ‡ Yr oedd gwaith drwg yn gofyn am le anghyfreithlawn i ymgynghori yn ei gylch: eu bwriad cyntaf hwy oedd lladd Iesu yn ddirgel, trwy frad; ond nid felly yr oedd bwriad Duw, am hyny nis gallent hwy gael eu ffordd. || Arferai yr Iuddewon roddi drwg-weithredwyr i farwolaeth ar un o'r tair gŵyl arbenig yn Jerusalem; oblegid ar yr amserau hyny byddai torfeydd lliosog o bobl yn bresenol, ac felly y caent glywed ac ofni, Deut. 17. 12, 13. Nid ar *ddydd* yr ŵyl yw y Saesoneg, ond yn gyfeiliornus, nid yw y gair *dydd* yn y Groeg, ac nid *dydd* y Pasg a feddylir, eithr yr ŵyl oll; yr hon oedd i barâu am saith niwrnod, heblaw *dydd* y Pasc, ac ar ol y dydd hwnw. § Er mai hyn oedd yr arferiad cyffredin, eto, mynent ei thaflu heibio y tro hwn, nid o barch i'r ŵyl, nac o barch i addoliad Duw ar yr ŵyl; ond rhag ofn y bobl: gwyddent fod y bobl yn bleidiol iawn i Iesu, o herwydd ei ddiniweidrwydd, ei addfwynder, a'i aml wyrthiau daionus yn eu plith. Ofnent hefyd, os byddai cynnwrf yn mhlith y bobl, y deuai eu gorchfygwyr y Rhufeiniaid, a'u milwyr, am eu penau. Ond Duw a drefnodd amser marwolaeth Iesu, ac nid ei elynion: a'i drefn ef oedd, i "Grist ein pasg ni" gael ei aberthu ar ŵyl y pasg Iuddewig.

6 ¶ * Ac a'r Iesu [l] yn Bethania, yn nhŷ
[m] † Simon y gwahan-glwyfus,

l pen. 21. 17. Marc 11. 12. Ioan 11. 1, 2. a 12. 1, 2. m Marc
14. 3.

7 [n] ‡ Daeth atto wraig a chanddi flwch o
[o] ennaint gwerthfawr, ac *a'i* tywalltodd ar ei
|| ben, ac efe yn eistedd *wrth y ford.*

n Ioan 12. 2, 3. o Ex. 30. 23—33. Salm 133. 2. Preg 9. 8.
a 10. 1. Can. 1. 3. Es. 57. 9. Luc 7. 37, 38, 46.

8 § A phan welodd ei ddisgyblion, [p] hwy a
sorrasant, gan ddywedyd, [q] I ba beth *y bu* y
golled hon?

p 1 Sam. 17. 28, 29. Preg. 4. 4. Marc 14. 4. Ioan 12. 4—6.
q Ex. 5. 17. Amos 8. 5. Hag. 1. 2—4. Mal. 1. 7—10, 13.

* Tref ydoedd Bethania wrth droed mynydd yr olewwydd, tua dwy filltir i'r dwyrain o Jerusalem. Yr wythnos olaf o fywyd Iesu byddai yn lletya yn Bethania y nos, ac yn athrawiaethu yn y deml y dydd. † Mae yn sicr nad oedd y Simon hwnw yn wahanglwyfus y pryd hyny: pe buasai, ni chawsai aros yn y dref, ac ni buasai neb yn dyfod i'w dŷ, yn enwedig i fwyta gydag ef. Ond tybir iddo fod unwaith yn wahanglwyfus, ac i'r Arglwydd Iesu ei lanâu ef: neu, ynte, fod rhyw un o'i henafiaid wedi bod yn wahanglwyfus, ac yntau yn cael ei alw felly o herwydd hyny. Efallai ei fod yn cael yr enw hwn yma hefyd, i'w wahaniaethu ef oddiwrth Simon y Pharisead a grybwyllir yn Luc 7. 36, 40. Eneiniad arall sydd yno, mewn lle arall, gan wraig arall, ac ar amser arall. ‡ Mair, chwaer Lazarus, oedd y wraig hon, Ioan 12. 3; ac efallai mai y diwrnod yr adgyfododd Iesu ei brawd Lazarus o farw oedd yr amser: os felly, nid rhyfedd bod ei chariad yn fawr at Grist.

Blwch alabaster o enaint yw y Saesoneg, ac felly y Groeg hefyd, *alabastron;* a rhyw fath o faen teg a llyfn oedd yr alabaster, o ba un y gwnâid blychau i gadw enaint ynddynt, am y cadwai yn well yn y rhai hyny nac mewn dim arall. ‖ Y pen a ddywedir gan Matthew a Marc, ond dywed Ioan y traed: mae yn debygol iddi eneinio ei ben a'i draed hefyd; heb hyny, nis gallwn gysoni yr Efengylwyr â'u gilydd: aml y bydd un Efengylwr yn crybwyll peth y bydd y lleill wedi ei adael allan, ac rhyngddynt oll, cawn yr hanes yn berffaith. § Dywed Ioan yn fwy manol, mai Judas Iscariot oedd yr hwn a sòrodd ac a rwgnachodd; a chrybwylla yr achos o hyny, Ioan 12. 6.

9 * Canys [r] fe a allasid gwerthu yr ennaint hwn er llawer, a'i roddi i'r tlodion.

r Jos. 7. 20, 21. 1 Sam. 15. 9, 21. 2 Bren. 5. 20. Marc 14. 5. Ioan 12. 5, 6. 2 Pedr 2. 15.

10 † A'r Iesu a wybu, ac a ddywedodd wrthynt, [s] Paham yr ydych yn gwneuthur blinder i'r wraig? ‡ canys hi a weithiodd [t] weithred dda arnaf.

s Job 13. 7. Marc 14. 6. Luc 7. 44—50. Gal. 1. 7. a 5. 12. a 6. 17. t Neh. 2. 18. 2 Cor. 9. 8. Eph. 2. 10. Col. 1. 10. 2 Thes. 2. 17. 1 Tim. 3. 1. a 5. 10. 2 Tim. 2. 21. Tit. 1. 16. a 2. 14. a 3. 1, 8, 14. Heb. 13. 21. 1 Pedr 2. 12.

11 ‖ Oblegid [u] y mae gennych y tlodion bob amser gyd â chwi; [x] § a mi nid ydych yn ei gael bob amser.

u pen. 25. 34—40, 42—45. Deut. 15. 11. Marc 14. 7. Ioan 12. 8. Gal. 2. 10. 1 Ioan 3. 17. x pen. 18. 20. a 28. 20. Ioan 13. 33. a 14. 19. a 16. 5, 28. a 17. 11. Act. 3. 21.

* Er llawer, medd Matthew; er tri chàn ceiniog, medd Ioan; uwchlaw tri chàn ceiniog, medd Marc 14. 5. Mewn geiriau yn unig mae y gwahaniaeth, nid oes dim yn y synwyr. Tybir fod y tri chàn ceiniog hyn tua naw punt, saith swllt, a chwe' cheiniog, o'n harian ni. Gwyddai Judas werth yr enaint lawer yn well nac y gwyddai werth ei Arglwydd. † A'r Iesu yn gwybod, yw y Groeg meddant; nid trwy glywed grwgnach y dysgyblion, na chlywed eu bod yn grwgnach, eithr yn ei hollwybodaeth ddwyfol ei hun. ‡ Nid oedd dim yn rhy dda na rhy werthfawr, gan y wraig dduwiol hon i wneuthur i'w Harglwydd, ac y mae yntau yn cymmeradwyo ei gweithred ac yn ceryddu ei cheryddwyr. Mae gweithredoedd yn dda neu yn ddrwg, yn ol fel y byddo egwyddorion a dybenion y rhai a'u gwnelo; yr hyn a wnaeth Mair oedd o gariad at Grist, ac er anrhydedd a gogoniant iddo; felly yr oedd yn weithred dda, er nad oedd yr un gorchymyn pennodol am ei gwneyd. ‖ Nid yw yr hyn a ddywed ein Hiachawdwr yma yn dangos ei fod yn ddibris o'r tlodion, ond yn hytrach i'r gwrthwyneb: dywed fod y tlodion gyda ni bob amser; yr hyn sydd gystal a dywedyd, bod yn ddyledswydd arnom ninnau bob amser eu cynnorthwyo. Ond ni ddylai achos y tlodion fyned o flaen achos Duw. § Yr oedd Iesu i'w gadael yn fuan iawn, ac nid oedd ond ychydig amser ganddynt i'w anrhydeddu ef yn bersonol. Ai nid yw y geiriau hyn yn ddigon yn erbyn athrawiaeth ynfyd y traws-sylweddiad, a phresenoldeb corphorol Crist yn y sacrament.

12 * Canys [y] hi yn tywallt yr ennaint hwn ar fy nghorph, a wnaeth *hyn* i'm claddu i.

y 2 Cron. 16. 14. Marc 14. 8. a 16. 1. Luc 23. 56. a 24. 1. Ioan 12. 7. a 19. 39, 40.

13 † Yn wir meddaf i chwi, [z] Pa le bynnag y pregether yr efengyl hon yn yr holl fyd, [a] mynegir yr hyn a wnaeth hi hefyd, er coffa am dani hi.

z pen. 24. 14. a 28. 19. Salm 98. 2, 3. Es. 52. 10. Marc 13. 10. a 16. 15. Luc 24. 47. Rhuf. 10. 18. a 15. 19. Col. 1. 6, 23. 1 Tim. 2. 6. Dat. 14. 6. a 1 Sam. 2. 30. Salm 112. 6. Marc 14. 9. 2 Cor. 10. 18. Heb. 6. 10.

* Fel pe dywedasai Crist, Pe cawsai yr enaint hwn ei ddefnyddio i ber-arogli ac eneinio fy nghorph marw yn y modd arferol ni buasai neb yn grwgnach; a phaham y grwgnechir yn awr, gan na bydd cyfle i Mair na arall wneyd hyny ar ol i mi farw; gan y cleddir fi union o flaen y Sabbath, ac y cyfodaf yn fore y dydd ol y Sabbath. † Ysgrifenwyd y weithred hon gan o'r Efengylwyr; felly pa le bynag yr elo yr efeng bydd coffa am y wraig a'r weithred hon, Preg. 7. 1.

14 ¶ * Yna [b] yr aeth un o'r deuddeg, hwn a elwid [c] Judas Iscariot, at yr arch-offei iaid,

b Marc 14. 10. Luc 22. 3—6. Ioan 13. 2, 30. c pen. 10. Ioan 6. 70, 71. a 18 2.

15 Ac a ddywedodd *wrthynt,* [d] † Pa beth roddwch i mi, a mi a'i traddodaf ef i chwi ‡ A hwy a osodasant iddo [e] ddeg ar hugain arian.

d Gen. 38. 16. Barn. 16. 5. a 17. 10. a 18. 19, 20. Es. 56. 1 1 Tim. 3. 3. a 6. 9, 10. 2 Pedr 2. 3, 14, 15. e pen. 27. 3— Gen. 37. 26—28. Ex. 21. 32. Zec. 11. 12, 13 Act. 1. 18.

16 ‖ Ac o hynny allan [f] y ceisiodd ef amser cyfaddas i'w fradychu ef.

f Marc 14. 11. Luc 22. 6.

* Er bod Judas yn un o'r deuddeg apostol, ac y gyfranog o bob tiriondeb ac addfwynder gan Grist fe yr apostolion eraill, eto nid oedd efe ond rhagrithiw ar y goreu; ac a droes yn fradwr twyllodrus. Yr oed yr amgylchiad hwn o gymmaint echrusder fel y ma pob un o'r Efengylwyr yn crybwyll fod Judas yn un o' deuddeg. Efallai bod ei sòriant o herwydd na chawsa arian yr enaint yn ei gôd, Crist yn ei geryddu ar gy hoedd y dysgyblion, yn nghyd a bod satan wedi rhoi peth yn ei galon eisoes; wedi ei gyffröi ef i fyned at y arch-offeiriaid y pryd hwn. † Dywedir gan Ioan ei foe ef yn lleidr, ac felly nid oedd gwaeth ganddo pa beth wnelai am arian. ‡ Dywedir mai tua thair punt phymtheg swllt oedd y deg ar hugain arian yma: y pris am einioes caethwas a leddid trwy ddamwain, Exod 21. 32. Peth rhyfedd na buasai cybydd-dra Judas yn peri iddo ofyn mwy; a diammau pe gwnaethai, y buasai awydd yr arch-offeiriaid am gael Iesu i'w gafael, yn peri iddynt roddi braidd unrhyw bris iddo. Ond gwas oedd efe, a phris gwas oedd wedi ei ordeinio i fod am dano, Zech. 11. 12, 13. Ychydig oedd Judas na'r arch-offeiriaid yn feddwl y pryd hwnw eu bod yn cyflawni prophwydoliaeth nodedig am Grist. ‖ Yr amser cyfaddas yma oedd, rhyw gyfle yn absen y bobl: ac nid hir y buwyd heb ei gael. I'w draddodi, neu i'w roddi ef i fynu, meddant yw y Groeg; fel gwerthwr yn rhoddi i fynu yr hyn a werthodd, i ofal a meddiant y prynydd.

17 ¶ * Ac [g] ar y *dydd* cyntaf o *wyl* y bara croyw, y disgyblion a ddaethant at yr Iesu, gan ddywedyd wrtho, [h] † Pa le y mynni i ni barrottoi i ti fwytta y pasc?

g Ex. 12. 18—20. a 13. 6—8. Lef. 23. 5, 6. Num. 28. 16, 17 Deut. 16. 1—4. Marc 14. 12. Luc 22. 7. h pen. 3. 15. a 17. 24, 25. Luc 22. 8, 9.

18 Ac yntau a ddywedodd, [i] ‡ Ewch i'r ddinas at y cyfryw un, a dywedwch wrtho, [k] Y mae yr Athraw yn dywedyd, [l] ‖ Fy amser sydd agos: gyd â thi y cynnaliaf y pasc, mi a'm disgyblion.

i Marc 14. 13—16. Luc 22. 10—13. k adn. 49. pen. 21. 3. a 23. 8, 10. Marc 5. 35. Ioan 11. 28. a 20. 16. l adn. 2. Luc 22. 53. Ioan 7. 6, 30. a 12. 23. a 13. 1. a 17. 1.

19 [m] § A'r disgyblion a wnaethant y modd y gorchymynasai yr Iesu iddynt, [n] ac a barottoisant y pasc.

m pen. 21. 6. Ioan 2. 5. a 15. 14. n Ex. 12. 4—8. 2 Cron 35. 10, 11.

* Y dydd a enwir yma oedd y pedwerydd dydd ar ddeg o fis Abib, gwel y cyfeiriadau. Dèlid yr oen pasg ar y degfed dydd, a lleddid ef ar y pedwerydd ar ddeg, yn y cyfnos, neu rhwng y ddau hwyr; sef tua thri o'r gloch yn y prydnawn. † Yr oedd y pasg yn goffadwriaeth oesol i'r Iuddewon o'u gwaredigaeth o'r Aipht, ac

gysgod hefyd o aberthiad Crist. Yr oedd llawer o lith parotôi ar y pasg: y cwbl o ddyben yr Efengwyr oedd, dangos i ni bod yr Arglwydd Iesu yn lw y pasg. Dywed y *Dr. Lightfoot*, nad oedd n tâl i fod am dai yn Jerusalem ar wyl y pasg, i y byddai dïeithriaid yn cael ystafelloedd i baiôi a bwyta y pasg am ddim. ‡ Cyferfydd â chwi wyn yn dwyn ystenaid o ddwfr, medd Marc 14. 13. ibia rhai fod y dyn hwn yn un o ddysgyblion u, neu o leiaf yn gyfaill iddo. Pa un bynag am yny, mae gwybodaeth ddwyfol a gallu dwyfol y Cyfagwr i'w weled yma yn eglur: ei wybodaeth, yn rhagegi pa fodd y cyfarfyddai y dysgyblion â'r dyn; a'i u, yn tueddu calon y dyn i'w dderbyn ef a'i ddysgybl- ar yr achlysur hwnw. ‖ Gwyddai pawb fod amser pasg yn agos; felly nid hyny a feddylir yma, ond eser marwolaeth Iesu: a thybir ei fod yn crybwyll ny i'r dyn hwn er cadarnâu ei ffydd ef ynddo pan ei elai yn dyoddef ac yn marw. § Cafodd y dysgyblion bpeth fel y dywedasai yr Iesu, a pharotoisant y pasg.

220 * Ac [o] wedi ei myned hi yn hwyr, [p] efe eisteddodd gyd â'r deuddeg.

o Marc 14. 17, 18. Luc 22. 14—16. p Ex. 12. 11. Can. 12.

221 † Ac fel yr oeddynt yn bwytta, efe a ywedodd, [q] Yn wir yr wyf yn dywedyd i wi, mai un o honoch chwi a'm bradycha i.

q adn. 2, 14—16. Salm 55. 12—14. Ioan 6. 70, 71. a 13. 21. b. 4. 13. Dat. 2. 23.

222 ‡ A [r] hwythau yn drist iawn, a ddechreunnt ddywedyd wrtho, bob un o honynt, Ai yfi yw, Arglwydd?

r adn. 38. Marc 14. 19, 20. Luc 22. 23. Ioan 13. 22—25. a 17.

223 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd, [s] ‖ Yr wn a wlych *ei* law gyd â mi yn y ddysgl, wnnw a'm bradycha i.

s Salm 41. 9. Luc 22. 21. Ioan 13. 18, 26—28.

224 [t] § Mab y dyn yn ddiau sydd yn myned, el y mae yn ysgrifenedig am dano: [x] eithr wae y dyn hwnnw trwy yr hwn y bradychir ab y dyn: da fuasai i'r dyn hwnnw pe nas nesid ef.

t adn. 54, 56. Gen. 3. 15. Salm 22. 1—21. a 69. 1—21. Es. 50. 5. a 53. Dan. 9. 26. Zec. 12. 10. a 13. 7. Marc 9. 12. Luc 24. 25, 46. Ioan 19. 24, 28, 36, 37. Act. 13. 27—29. a 17. 2, 3. a 26. 22, a 28. 23. 1 Cor. 15. 3. 1 Pedr 1. 11. u Luc 22. 22. Act. 2. a 4. 28. x pen. 18. 7. a 27. 3—5. Salm 55. 15, 23. a 109. 119. Marc 14. 21. Ioan 17. 12. Act. 1. 16—20.

* "Pan aeth hi yn hwyr:" yr oedd y pasg i'w fwyta ddiwedd y pedwarydd dydd ar ddeg, gyda bod y pymegfed yn dechreu; canys byddai yr Iuddewon yn chreu eu diwrnod ar ostwng haul, ac nid ar hanner s fel y Rhufeiniaid a chenedloedd eraill. Mae yn byg i'r Arglwydd Iesu dreulio y rhan fwyaf o'r diwrd hwnw mewn myfyrdodau a gweddïau o'r neildu, ac d aeth efe i Jerusalem tàn yr hwyr. Dywedir mai yg i hyn oedd dull yr Iuddewon o fwyta y pasg:— mmerai y pen-teulu gwpanaid o win i ddechreu y edd; yr hwn ar ol ei fendithio yn ddifrifol iawn, a nai yn mhlith y gwahoddedigion, ac yna efe a olchai ddwylaw:—Yna dechreuai y swper gyda dail surion bara croyw: ac ar ol dechreu bwyta, gofynai yr ieugaf o'r gwahoddedigion, plentyn yn gyffredin, pa beth neilduol oedd yn y swper hono, yn ol Exod. 12. 20, hyn a ddygai i mewn yr *haggadah*, sef egluro, a dangos ben y swper (mewn cyfeiriad at hyny y darllenwn am *angos marwolaeth yr Arglwydd*, 1 Cor. 11. 26.) Yna fodai y pen-teulu a chymmerai gwpanaid arall, a llchai ei ddwylo yr ail waith, cyn profi o'r oen; ac ae yn debyg mai y pryd hwn y golchodd Crist draed ddysgyblion. Yna, gwedi bwyta y pasg, y canlynai rpanaid arall o win; yr hwn, gyda thammaid o fara i b un, oedd y cwpan sacramentaidd yn y swper hon. Gwedi hyny, ar ol rhyw ymddiddanion duwiol a chyfeillgar, ac yfed, o leiaf, bedwarydd cwpanaid o win; cânai y teulu oll ryw Salm o fawl: ac felly dybenid y gwasanaeth difrifol. Math o led-orwedd oedd eisteddiad yr Iuddewon wrth eu byrddau, ar feinciau esmwyth o amgylch y bwrdd: yn eu *sefyll*, a'u ffyn yn eu dwylaw yn barod i'r daith, y bwytâodd Israel y pasg cyntaf, y nos cyn gadael yr Aipht; mae yn debyg nad oedd y gorchymyn hwnw ond am y tro hwnw, bwytêid y pasg wedi hyny o eistedd neu led-orwedd, fel pob pryd arall; a dywedai y Rabbïod Iuddewig fod yr agwedd hòno, yn arwyddo eu gorphwysdra hwy yn Nghanaan. † Crybwyllodd Crist am ei draddodiad o'r blaen, pen. 17. 22. a 20. 18: yma mae yn dywedyd yn eglurach, mai ei fradychu a gâi; ac mai un o honynt hwy a'i bradychai, gan nodi allan y bradychwr hefyd, yn bur amlwg. ‡ Wrth glywed hyn, tristâodd y dysgyblion yn fawr; ac er nad oedd yr un o honynt, ond Judas, yn bwriadu y cyfryw weithred ysgeler, eto yr oeddynt oll, ond efe, yn ofni eu calonau twyllodrus, a phob un yn gofyn i'r Arglwydd Iesu, fel chwiliwr ac adnabyddwr calonau pawb, Ai myfi yw, Arglwydd? Nid oedd yr un o honynt yn ofni y llall, nac yr un yn drwg-dybio Judas; ond pob un yn ei ofni ei hun. ‖ Mae'n debyg y byddai pob un o honynt yn y ddysgl o bryd i bryd, ond mai Judas oedd yn gwneyd hyny ar y mynyd hwnw. Dysgl y dail surion, neu ryw gyffaith arall, mae yn debyg oedd hon. § Er bod yn rhaid i Fab y dyn fyned, fel yr arfaethwyd iddo, ac fel yr ysgrifenwyd am dano; eto nid oedd hyny yn lleiâu dim ar euogrwydd y bradychwr: gweithredu yn rhydd yr oedd efe; yn ol tuedd ei galon gybyddlyd, ac yn ol annogaethau satan. Ac yr oedd y fath gosp ofnadwy yn ei aros mewn byd arall, fel y buasai yn well iddo pe nas ganesid ef. Dyma destyn teilwng iawn o sylw y rhai ni fynant ddeall pa fodd y mae Duw wedi arfaethu goddef pechod, ac heb fod yn awdwr pechod.

25 * A [y] Judas, yr hwn a'i bradychodd ef, a attebodd ac a ddywedodd, Ai myfi yw *efe*, Athraw? Yntau a ddywedodd wrtho, [z] † Ti a ddywedaist.

y 2 Bren. 5. 25. Diar. 30. 20. z adn. 64. pen. 27. 11. Ioan 18. 37.

* Ar ol i bawb o'r dysgyblion ofyn yn athrist, Ai myfi yw, ac wrth weled ei nodi allan mòr amlwg; mae Judas hefyd, yn ceisio gosod y gwyneb gorau arno ei hun, ac mewn ysproyd cymmysg o euogrwydd, digter, a braw, yn beiddio gofyn, Ai myfi yw efe, Athraw: fel pe dywedasai, Gobeithio nad wyt ti ddim yn meddwl mai myfi yw yr hwn a'th fradycha. † Mae ateb ein Harglwydd yn gystal a dywedyd yn bendant, Ti yw y gwr. Eto nid oedd hyn, na'r bygythiad ofnadwy o'r blaen ddim yn ddigon i'w atal ef rhag rhuthro'n ben-dra-mwnwgl i'w le a'i ddinystr ei hun.

26 ¶ * Ac [a] fel yr oeddynt yn bwytta, [b] yr Iesu a gymmerth y bara, ac wedi iddo † fendithio, [c] efe a'*i* ‡ torrodd, ac a'*i* rhoddodd i'r disgyblion, ac a ddywedodd, [d] ‖ Cymmerwch, bwyttêwch: [e] hwn yw fy nghorph.

a Marc 14. 22. Luc 22. 19. b Luc 24. 30. 1 Cor. 11. 23—25. c Act. 2. 46. a 20. 7. 1 Cor. 10. 16, 17. d Ioan 6. 33—35, 47—58. 1 Cor. 11. 26—29. e Ezec. 5. 4, 5. Luc 22. 20. 1 Cor. 10. 4. Gal. 4. 24, 25.

27 Ac [f] wedi iddo gymmeryd y cwppan, a dïolch, efe a'*i* rhoddes iddynt, gan ddywedyd, [g] § Yfwch bawb o hwn:

f Marc 14. 23, 24. Luc 22. 20. g Salm 116. 13. Can. 5. 1. a 7. 9. Es. 25. 6. a 55. 1. 1 Cor. 10. 16. a 11. 28.

* Rhaid i ni ddeall mai ar ol bwyta y pasg y cymmerth Iesu y bara hwn, a'r cwpan yn adn. 27. Pa un a oedd y goldefod olaf hon yn arferedig yn y pasg Iuddewig ai nid oedd, nis gwyddom: os ydoedd, mae yn sicr na ddefnyddiwyd mo hóni erioed o'r blaen i'r un dyben a'r tro hwn, sef fel sacrament yr oruchwyliaeth

newydd. Dywed y Rabbiniaid Iuddewig mai darn o'r oen oedd y peth diweddaf a fwytêid ar noson y pasg; ac os felly, mae gwaith ein Hiachawdwr yn cymmeryd bara a gwin y tro hwn yn gwneyd yr amgylchiad yn fwy nodedig; gan ei fod yn llwyr wahanol i'r drefn arferedig, ac yn arwyddo y tro cyntaf, bod y pasg Iuddewig i roddi lle i sefydliad arall, a mwy ardderchog. † "Ac a fendithiodd:" efe a fendithiodd Dduw am y bara, ac a ddeisyfodd fendith Duw arno, fel yr arferai wneyd yn ddiau bob amser wrth gymmeryd ymborth. Ond y mae bendithio uwch ben y bara, a diolch eilwaith uwch ben y cwpan, yn arwyddo mwy na hyny yma; sef neilldua a chyssegriad y naill a'r llall i wasanaeth a dyben sacramentaidd, yr hyn ni bu erioed o'r blaen. ‡ Torthau llydain, teneuon, ac uchel gras, oedd y bara croyw, ac felly yr oeddynt yn hawdd eu tòri. Diammau fod y tòri hwn yn arwyddo drylliad corph Crist. Gwel 1 Cor. 11. 24. ‖ "Hwn yw fy nghorph:" nid yn draws-sylweddol, fel y dywed y Pabyddion; nac yn gyd-sylweddol, fel y dywed y Lutheriaid; ond yn arwyddol: felly, mae y bara a'r gwin yn y sacrament, yn arwyddion sanctaidd o gorph a gwaed Iesu Grist. Ac wrth gymmeryd, bwyta ac yfed, yr elfenau hyn, mae y gwir gymunwyr yn derbyn Crist, ac yn ymborthi arno ef trwy ffydd yn eu calonau. § Sylwyd o'r blaen, fod y cwpan, neu yn hytrach y gwin yn y cwpan, yn arwydd o waed tywalltedig Iesu; ac y mae yma orchymyn i'r holl ddysgyblion gymmeryd y cwpan yn gystal a chymmeryd y bara. Mae angen holl aberth Crist ar bob credadyn, ac y mae hawl gan bob cymunwr i'r naill arwydd fel y llall: a pha fodd yr etyb yr offeiriaid pabaidd yn y farn, am atal y cwpan oddiwrth y llëygion!

28 * Canys hwn yw [h] fy ngwaed o'r testament newydd, yr hwn [i] a dywelltir dros lawer, er maddeuant pechodau.

h Ex. 24. 7, 8. Lef. 17. 11. Jer. 31. 31. Zec. 9. 11. Marc 14. 24. Luc 22. 20. 1 Cor. 11. 25. Heb. 9. 14—22. a 10. 4—14. a 13. 20. i pen. 20. 28. Rhuf. 5. 15, 19. Eph. 1. 7. Col. 1. 14. 20. Heb. 9. 22. 28. 1 Ioan 2. 2. Dat. 7. 9, 14.

29 † Ac yr ydwyf yn dywedyd i chwi, [k] nad yfaf o hyn allan o ffrwyth hwn y winwydden, [l] hyd y dydd hwnnw pan yfwyf ef [m] gyd â chwi yn newydd yn nheyrnas fy Nhad.

k Salm 4. 7. a 104. 15. Es. 24. 9—11. Marc 14. 25. Luc 22. 15—18. l pen. 18. 20. a 28. 20. Salm 40. 3. Can. 5. 1. Es. 53. 11, Zeph. 3. 17. Zec. 9. 17. Luc 15. 5, 6, 23—25, 32. Ioan 15. 11. a 16. 22. a 17. 13. Act. 10. 41. Heb. 12. 2. Dat. 5. 8—10. a 14. 3. m pen. 13. 43. a 16. 28. a 25. 34. Luc 12. 32. a 22. 18, 29, 30. Dat. 7. 17.

30 ‡ Ac [n] wedi iddynt ganu hymn, [o] ‖ hwy a aethant allan i fynydd yr Olew-wydd.

n Salm 81. 1—4. Marc 14. 26. Eph. 5. 19, 20. Col. 3. 16, 17. o Luc 21. 37. a 22. 39. Ioan 14. 31. a 18. 1—4.

* Mae y gair a gyfieithir yma Testament, yn cael ei gyfieithu cyfammod, mewn amryw fànau eraill. Goruchwyliaeth yr efengyl a feddylir, mewn cyferbyniad i'r hen oruchwyliaeth. A pha beth yw goruchwyliaeth yr efengyl, ond datguddiad eglurach na'r hen oruchwyliaeth, o'r cyfammod tragywyddol o ras, a wnaeth Duw â'i Fab? gwaed yr hwn, yn ol y cytundeb tragywyddol hwnw, sydd yn cadarnâu y cyfammod, ac yn sicrâu holl fendithion y cyfammod i'r rhai a gredont. Er maddeuant pechodau yn unig a enwir yma, eto mae pob bendith ysbrydol arall yn gynnwysedig yn hyny, ac yn nglŷn â hyny: ac y maent oll yn dyfod trwy waed Iesu Grist, gwaed y cyfammod tragywyddol. Gwel y cyfeiriadau. † Cynnygir y pethau canlynol fel agoriadau ar yr adnod hon:—1. Nad oedd ein Harglwydd ddim yn meddwl cadw y pasg Iuddewig, er cof am waredigaeth Israel o'r Aipht, ac yfed gwin i'r dyben hyny, byth ar ol y tro yma: nad oedd yr ordinhâd hono ddim i barâu mwyach; ond bod yr ordinhâd arall, o fara a gwin, er cof am aberth Iesu, a gwaredigaeth llawer mwy trwy ei aberth ef, i gymmeryd ei lle o hyny allan, dàn oruchwyliaeth newydd yr efengyl, yr hon a elwir yma, Teyrnas y Tad. 2. Tybia eraill, mai gogoniant y nef a feddylir wrth deyrnas y Tad; ac mai ymadrodd cyffelybiaethol yw yfed gwin yno. Mynych y mae dedwyddwch y nef yn cael e osod allan dan y gymhariaeth o wledd, bwyta ac yfed 3. Y trydydd meddwl yw, bod yma gyfeiriad at waith Crist yn bwyta ac yn yfed gyda ei ddysgyblion ar ol e adgyfodiad. Gwel Act. 10. 41. Tybia rhai fod teyrnas y Tad yn y fàn hon, i'w deall yn wahanol i deyrnas Crist mewn mànau eraill; ac ei bod yn arwyddo y deyrnas sydd Crist i fynu i Dduw a'r Tad yn y dydd diweddaf neu deyrnas Crist wedi ei rhoddi i fynu felly; (1 Cor 15. 24.) ac os hyny a feddylir, rhaid mai yn gyffelybiaethol y sonia Crist am yfed o ffrwyth y winwydden gyda'i ddysgyblion, yn y deyrnas hòno.—Dychymmyg ynfyd iawn debygem sydd gan un gwr dysgedig, y rhaid i'r corph dynol gael rhyw gynnaliaeth yn y nef, yn gyffelyb fel mae yn cael ar y ddaear; a'i sail ef i'r dychymmyg hwnw yw, nad oes neb ond Duw a chanddo anfarwoldeb, heb gynnaliaeth. ‡ Yr Hymn a ganai yr Iuddewon yn gyffredin ar yr achlysur hwn, a elwid Hallel; yr hon oedd yn dechreu yn Salm 113, ac yn diweddu yn 118. Diammau bod canu mawl i Dduw ar ddiwedd y Sacrament, yn weddus iawn i ninnau. ‖ Gwyddai Iesu yn awr fod ei awr wedi dyfod, am hynyaeth allan o'r ddinas y pryd hwnw o'r nos, fel na byddai terfysg yn y ddinas, ac yn enwedig yn nhŷ y gwr lle yr ydoedd. Gadewch i ni ei ganlyn.

31 * Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt, [p] Chwychwi oll a rwystrir heno o'm plegid i: † canys ysgrifenedig yw, [q] Tarawaf y bugail, [r] a defaid y praidd a wasgerir.

p adn. 56. pen. 11. 6. a 24. 9, 11. Marc 14. 27, 28. Luc 22. 31, 32. Ioan 16. 32. q Es. 53. 10. Zec. 13. 7. r Job 6. 15—22. a 19. 13—16. Salm 38. 11. a 69. 20. a 88. 18. Galar. 1. 19. Ezec. 34. 5, 6.

32 ‡ Eithr wedi [s] fy adgyfodi, [t] mi a âf o'ch blaen chwi i Galilea.

s pen. 16. 21. a 20. 19. a 27. 63, 64. Marc 9. 9, 10. Luc 18. 33, 34. t pen. 28. 6, 7, 16. Marc 16. 7. Ioan 21. 1, &c. 1 Cor. 15. 6.

33 A Phedr a attebodd ac a ddywedodd wrtho, [u] ‖ Pe rhwystrid pawb o'th blegid di, [x] *etto* ni'm rhwystrir i byth.

u Marc 14. 29. Luc 22. 33. Ioan 13. 36—38. a 21. 15. x Salm 17. 5. a 119. 116, 117. Diar. 16. 18, 19. a 20. 6. a 28. 25, 26. Jer. 17. 9. Rhuf. 12. 10. Phil. 2. 3. 1 Pedr 5. 5, 6.

34 Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Yn wir yr wyf yn dywedyd i ti, [y] mai y nos hon, § cyn canu o'r ceiliog, * y'm gwedi deirgwaith.

y Marc 14. 30, 31. Luc 22. 34. Ioan 13. 38.

35 † Pedr a ddywedodd wrtho, [z] Pe gorfyddai i mi farw gyd â thi, ni'th wadaf ddim. [a] Yr un modd hefyd y dywedodd yr holl ddisgyblion.

z pen. 20. 22, 23. Diar. 28. 14. a 29. 23. Rhuf. 11. 20. 1 Cor. 10. 12. Phil. 2. 12. 1 Pedr 1. 17. a pen. 20. 24. Ex. 19. 8.

* Mae y gair "rhwystro" yn arwyddo amryw bethau yn yr ysgrythyr; felly y mae yma: cafodd y dysgyblion eu dychrynu a'u trallodi yn fawr wrth weled dàl yr Iesu; mae yn debyg i'w ffydd ynddo wanychu; mae yn sicr iddynt oll ei adael; ac i Pedr, y dewraf o honynt, ei wadu. † Gwyddai yr Iesu am y brophwydoliaeth yn Zech. 13. 7. a gwyddai mai y noson athrist hòno yr oedd i gael ei chyflawni. Efe oedd y Bugail oedd i gael ei daro, a'i ddysgyblion oedd y praidd oedd i gael eu gwasgaru. ‡ Dywedodd hyn, mae yn debyg i'w cysuro hwynt: fel pe dywedasai; er taro y Bugail, a'i ladd; eto efe a adgyfyd yn fuan, ac efe a â fel bugail o flaen ei braidd i Galilea, ac yno cewch ei weled yn fyw. Dyma ddychwelyd y llaw ar y rhai bychain, i'w casglu hwynt ar ol y gwasgariad mawr. ‖ Llefarodd Pedr y geiriau hyn yn ddiammau, yn ol meddwl gonest ei galon, ac yn ol ei benderfyniad cryf, y pryd hwnw; ond llefarodd mewn gormod hyder yn ei nerth ei hun, a llawer rhy fychan o ymddiried yn ei Arglwydd. Tybiai ei hun yn gryfach na'i holl frodyr, yn lle hyny aeth yn wànach na

beb. § Cyn canu o'r ceiliog ddwywaith, medd Marc 4. 30. Rhaid i ni ddeall mai oddiar eu cof yr oedd yr efengylwyr yn ysgrifenu, yn mhen hir o amser ar ol ywed ymadroddion ein Hiachawdwr. Dengys hyny r achos, paham nad ydynt oll yn adrodd pob peth air n air. Amser caniad y ceiliog a gyfrifid, o hanner os i dri o'r gloch yn y bore; a thua thri o'r gloch yn enaf, gan y cânai yn fwyaf croch tua thoriad y dydd, a elwid hyny yn ail ganiad y ceiliog; a phryd arall, ewn ffordd o hynodrwydd, yn ganiad y ceiliog.—Mae nai yn gwrthddadlau yn erbyn hyn, o herwydd na ldefid cadw ieir a cheiliogod o fewn Jerusalem: ond llai y milwyr Rhufeinig eu cadw er gwaethaf yr Iulewon, neu gallai Pedr glywed ceiliog yn canu yn nisrwrwydd y bore o bell, y tu allan i furiau y ddinas. Yn adnodau 70, 72, a 74, o'r bennod hon gwelwn i edr wadu dair gwaith cyn ail ganiad y ceiliog, a phob o yn waeth, waeth, hyd at regu a thyngu nad adwaen- i efe mo'r Iesu. † Gan fod y peth yn eithaf pell oddirth feddwl Pedr y pryd hwnw, daliodd i daeru na adai, serch gorfod marw. Ni chredai rag-wybodaeth esu, ni chredai ei wendid a thwyll ei galon ei hun, ac is gwyddai fawr am y brofedigaeth oedd i ddyfod arno.

36 ¶ Yna y daeth yr Iesu gyd â hwynt i lfan a elwid * Gethsemane, ac a ddywedodd rth ei ddisgyblion, Eisteddwch yma, [c] tra yr lwyf a gweddio accw.

b Marc 14. 32. Luc 22. 39. Ioan 18. 1. c adn. 39, 42. Salm 2. 1, 2. a 69. 1—3, 13—15. Heb. 5. 7.

* Ystyr y gair Gethsemane yw, Dyffryn y brasder; fallái oddiwrth frasder y ddaear yn y fàn hòno, neu ntau yr olew-wydd a dyfai o amgylch yno. Pentref ychan oedd Gethsemane, gerllaw Jerusalem, wrth croed mynydd yr Olew-wydd; ac yr oedd yno ardd, lle r arferai yr Iesu yn aml fyned i weddio, Ioan 18. 2. lle yr oedd *gardd* medd Ioan, pen. 18. 1: gan na chantâêid gerddi o fewn muriau Jerusalem, mae yn ddïamnau bod gerddi lawer o amgylch yno; ond gan fod ethsemane yn bentref bychan fel y tybir, efallai mai ardd yn perthyn i rywun yn y pentref hwnw oedd hon.

37 * Ac efe a gymmerth [d] Pedr, a dau fab Zebedëus, ac a ddechreuodd [e] dristâu ac ymofidio.

d pen. 4. 18, 21. a 17. 1. a 20. 20. Marc 5. 37. e Marc 14. 33, 34. Luc 22. 44. Ioan 12. 27.

38 Yna efe a ddywedodd wrthynt, [f] † Trist iawn yw fy enaid hyd angau: [g] ‡ arhoswch yma, a gwyliwch gyd â mi.

f Job 6. 2—4. Salm 88. 1—7, 14—16. a 116. 3. Es. 53. 10. huf. 8. 32. 2 Cor. 5. 21. Gal. 3. 13. 1 Pedr 2. 24. a 3. 18. g adn. D. pen. 25. 3. 1 Pedr 4. 7.

* Dau fab Zebedëus oedd Iago ac Ioan. Y tri hyn eddynt dystion o'i wedd-newidiad gogoneddus ef ar y nynydd o'r blaen; ac yn awr dyma hwy yn cael golwg rahanol iawn arno, mewn tristwch mawr a gofid. † Dycedir fod y geiriau o'r blaen, "tristâu ac ymofidio," a'r eiriau hyn, "trist iawn yw fy enaid," yn y iaith wreiddol, yn eiriau o'r fath gryfaf a ellir ddychymmygu; ac m arwyddo y tristwch, y syndod, y gofid, a'r arswyd neddwl, mwyaf a ellir feddwl am dano; megys un wedi i amgylchynu â thrallodau, wedi ei orchuddio gan rueni, ac bron wedi ei lyncu i fynu gan ddychryn ac rswyd. Yr oedd hyn yn brawf ïammheuol fod Iesu n wir ddyn, ac yn gyfranog o holl deimladau dynolaeth. Fel machnïyd ei bobl, yr oedd eu pechodau neirif hwy, cospedigaeth eu heddwch, a gwg ofnadwy Duw am bechodau, yn gwasgu yn annhraethadwy ar ei naid y pryd hwn. Nid oedd yn gweled glàn na therfyn w ofidiau mawrion ond yn angau; ac er mòr ddychrynllyd oeddynt, nid oedd am dynu yn ol; cuddiwyd edieirwch o'i olwg: gosododd ei wyneb fel callestr, a wyddai na chywilyddid mo hòno yn y diwedd. ‡ "Arhoswch yma," ebai efe wrth y tri thyst, ac edrychwch pa odd y bydd gyda mi, a gwyliwch drosoch eich hunain hefyd. Nid oedd yn gofyn cymmorth yn y byd ganddynt, ond gwylio.

39 * Ac wedi iddo fyned ychydig ym mlaen, [h] † efe a syrthiodd ar ei wyneb, [i] gan weddio a dywedyd, [k] ‡ Fy Nhad, [l] os yw bosibl, [m] aed y cwppan hwn heibio oddi wrthyf: etto [n] nid fel yr ydwyf fi yn ewyllysio, ond fel yr ydwyt ti.

h Gen. 17. 3. Num. 14. 5. a 16. 22. 1 Cron. 21 16. Ezec. 1. 28. Luc 17. 16. Act. 10. 25. Dat. 19. 10. i Marc 14. 35, 36. Luc 22. 41, 42. k adn. 42. Ioan 11. 41. a 12. 27. l pen. 24. 24. Marc 13. 22. m pen. 20. 22. Ioan 18. 11. n 2 Sam. 15. 26. Ioan 12. 28. a 14. 31. Rhuf. 15. 1—3. Phil. 2. 8.

* Tuag ergyd càreg medd Luc 22. 41. Mae gweddi ddirgel yn caru neillduaeth, hyd yn nod oddiwrth y cyfeillion goreu. † Efe a aeth ar ei wyneb medd Luc, mae yn debyg iddo fyned ar ei liniau yn gyntaf, ac wedi hyny syrthio ar ei wyneb: yr oedd teimladau gofidus ei feddwl yn myned ag ef i bob agwedd. Syrthiodd Abraham ar ei wyneb, Gen. 17. 17; felly Moses ac Aaron, Num. 16. 22, 45. Mae syrthio ar y wyneb bob amser yn arwyddo cynhyrfiadau cyffröus y meddwl. Gwel Jos. 7. 6, 7. a Job 1. 20. ac felly yr oedd yma, mwy nac yn neb arall erioed. ‡ "Os ewyllysi droi heibio y cwpan hwn oddi wrthyf," medd Luc 22. 42. felly mae *ewyllysio* Luc yn eglurhâu *posibl* Mathew. Mae pob peth yn bosibl gyda Duw, ond nid yw yn ewyllysio pob peth. Nid oedd yn ewyllysio troi y cwpan hwn heibio, am hyny nid oedd yn bosibl. Nid oedd yn bosibl o herwydd arfaeth a chyngor tragywyddol, am hyny nis gallai y Tad ewyllysio ei droi heibio, ac nis gallai Iesu ychwaith ewyllysio iddo ei wneyd. Gwyddai Iesu fel Duw, nad oedd yn bosibl troi y cwpan heibio; ond fel dyn, yr oedd yn ofni ei yfed. Duw-ddyn oedd y Person a ddyoddefodd; eto, addef pawb, mai y ddynoliaeth oedd yn dyoddef: ac yr un modd, Duw-ddyn oedd y Person oedd yma yn gweddio; eto fel dyn yr oedd yn gweddio, ac mewn darostyngiad i ewyllys Duw. Ychwaneg na hyna nid yw ddoeth i ni ddywedyd ar yr amgylchiad difrifol hwn: un o ddyfnion bethau Duw ydyw!

40 * Ac efe a ddaeth at y disgyblion, [o] ac a'u cafodd hwy yn cysgu; † ac a ddywedodd wrth Pedr, [p] Felly; oni ellwch chwi wylied un awr gyd â mi?

o adn. 43. pen. 25. 5. Can. 5. 2. Marc 14. 37. Luc 9. 32. a 22. 45. p adn. 35. Barn. 9. 38. 1 Sam. 26. 15, 16. 1 Bren. 20. 11.

41 [q] ‡ Gwyliwch a gweddiwch, [r] fel nad eloch i brofedigaeth. [s] || Yr ysbryd yn ddiau *sydd* barod, eithr y cnawd *sydd* wan.

q pen. 24. 42. a 25. 13. Marc 13. 33—37. a 14. 38. Luc 21. 36. a 22. 40, 46. 1 Cor. 16. 13. 1 Pedr 4. 7. a 5. 8. Dat. 16. 15. r pen. 6. 13. Luc 8. 13. a 11. 4. 1 Cor. 10. 13. 2 Pedr 2. 9. Dat. 3. 10. s Salm 119. 4, 5, 24, 25, 32, 35—37, 115—117, 173, 174. Es. 26. 8, 9. Rhuf. 7. 18—25. a 8. 3. 1 Cor. 9. 27. Gal. 5. 16, 17, 24. Phil. 3. 12—14.

* Er bod calonau y dysgyblion hyn yn gywir tuag at Grist; er eu proffes gadarn yn ddiweddar o ymlyniad wrtho; er y rhybudd a roddasai efe iddynt y deuai profedigaeth; ac er ei orchymyn caeth iddynt wylio; cysgu a wnaethant yn lled fuan. † Cyfeiriodd Iesu y ceryddi yn benaf at Pedr, (a'r lleill hefyd,) am mai Pedr oedd wedi gwneyd y broffes hyfaf, ac efe oedd yn y perygl mwyaf. ‡ "Gwyliwch," ebai efe drachefn, nid er fy mwyn I yn gymmaint, ond er eich mwyn eich hunain, nad eloch i brofedigaeth, yr hon sydd yn awr yn nesâu bob mynyd arnoch chwi a minnau. Wrth fod gweddio yn gyssylltedig â gwylio yma, rhaid i ni ddeall mai nid gwylio rhag i'r corph gysgu yn unig a feddylir; ond gwylio yn ysbrydol rhag profedigaeth. Nid fel nad elent mewn un modd i brofedigaeth, yr oedd hyny bron yn anmhosibl y noswaith hòno; ond fel nâ orchfygid hwy gan brofedigaeth, ac iddynt syrthio yn y brofedigaeth. || Er bod eu hysbrydoedd hwy trwy Dduw yn wir ewyllysgar i lynu wrtho ef, ie, hyd farw; eto yr oedd y cnawd, sef eu natur, yn wàn i ddyoddef erlid a gwawd

er ei fwyn ef, heb gael ei nerthu gan Dduw i hyny: ac am hyn y dylasent fod yn gweddio. Tybia rhai mai esgusodiad dros wendidau dynion duwiol, yw y geiriau uchod, ond pell iawn oddi wrth hyny; rhybudd ydynt, o wendid ein natur, a rheswm, paham y dylem ní wylio a gweddio, am fod ein natur yn wàn.

42 * Efe a aeth drachefn [t] yr ail waith, ac a weddïodd, gan ddywedyd, Fy Nhad, onis gall y cwppan hwn fyned heibio oddi wrthyf, na byddo i mi yfed o hono, gwneler dy ewyllys di.

t adn. 39. Salm 22. 1, 2. a 69. 1—3, 17, 18. a 88. 1, 2. Marc 14. 39, 40. Heb. 4. 15. a 5. 7, 8.

43 † Ac efe a ddaeth, ac a'u cafodd hwy yn cysgu drachefn: [u] canys yr oedd eu llygaid hwy wedi trymhâu.

u Diar. 23. 34. Jona 1. 6. Luc 9. 32. Act. 20. 9. Rhuf. 13. 1. 1 Thes. 5. 6—8.

* Nid oes dim i'w chwanegu ar yr adnod hon, ond bod y Cyfryngwr, pe byddai modd, yn fwy ymroddgar i ewyllys Duw nac yn ei weddi y tro cyntaf. † Buan y cafodd y dysgyblion wybod drwy brofiad, bod y cnawd yn wàn. Diammau iddynt wneyd a allent i ymgadw yn effro; ond wedi trafferth y dydd o'r blaen, yn parotôi y pasg, &c. yr oedd eu llygaid yn trymâu er pob ymdrech, a chysgu a wnaethant yr ail waith.

44 Ac efe a'u gadawodd hwynt, ac a aeth ymaith drachefn, ac [x] a weddïodd y drydedd waith, * gan ddywedyd yr un geiriau.

x pen. 6. 7. Dan. 9. 17—19. Luc 18. 1. 2 Cor. 12. 8.

45 Yna y daeth efe at ei ddisgyblion, ac a ddywedodd wrthynt, [y] † Cysgwch bellach, a gorphwyswch: wele, [z] y mae yr awr wedi nesâu, a Mab y dyn a draddodir i ‡ ddwylaw pechaduriaid.

y 1 Bren. 18. 27. Preg. 11. 9. z adn. 2, 14, 15. Marc 14. 41, 42. Luc 22. 53. Ioan 13. 1. a 17. 1.

46 ‖ Codwch, [a] awn: wele nesâodd yr hwn sydd yn fy mradychu.

a 1 Sam. 17. 48. Luc 9. 51. a 12. 50. a 22. 15. Ioan 14. 31. Act. 21. 13.

* Nid yr un geiriau yn hollol, mae yn debyg, ond yr un mater, ac yn agos yr un geiriau. Yr oedd gweddio fel hyn dair gwaith mewn cyn lleied amser yn dangos mawredd y dyoddefiadau oedd yn dyfod ar Iesu, a gwasgfa ei feddwl a'i daerineb yntau yn wyneb y dyoddefiadau hyny. † Cerydd tyner ac addfwyn iawn a roddodd efe i'w ddysgyblion y tro o'r blaen, ac ystyried ei fod ef ei hun mewn cymmaint trallod: yr hyn a ddengys i ni nad yw ein gofidiau a'n croesau ddim yn esgus i ni, i fod yn anynad ac yn ddrwg-dymherus wrth eraill. Mae y cerydd yma beth yn llymach: fel pe dywedasai yr Iesu, Cysgwch a gorphwyswch bellach, os gellwch, ac os beiddiwch. Nid oedd fy ngwasgfa dròm a chaled I ddim yn ddigon i'ch cadw yn effro; yn awr mae awr eich profedigaeth chwi a minnau wedi dyfod, ac nis gellwch chwi mwy na minnau gysgu mwyach: nesâodd yr hwn sydd yn fy mradychu, a Mab y dyn a draddodir. ‡ Sef i ddwylaw y milwyr Rhufeinig, y rhai a alwai yr Iuddewon mewn ffordd o hynodrwydd, yn bechaduriaid; am eu bod yn ddïenwaededig, ac yn baganiaid eilun-addolgar: gwel Galat. 2. 15. Ond yn y weithred bresenol, yr oedd yr enw *pechaduriaid* yn fwy teilwng i'r Iuddewon nac i neb eraill, canys hwy oedd yn blaenori y Rhufeiniaid yn y gorchwyl drygionus hwn; a thybia rhai mai yr Iuddewon oedd yr Arglwydd Iesu yn feddwl, wrth y *pechaduriaid* uchod. ‖ "Codwch, awn;" yr oedd Crist yma yn ymwroli, ac yn myned i wynebu yn gadarn ar ei holl elynion yn y frwydr fawr.

47 Ac efe etto yn llefaru, [b] wele, Judas, * un o'r deuddeg, a ddaeth, a chyd âg ef † dyrfa fawr â chleddyfau a ffyn, ‡ oddi wr yr arch-offeiriaid a henuriaid y bobl.

b adn. 55. Marc 14. 43. Luc 22. 47, 48. Ioan 18. 1—8. A 1. 16.

* Mae Judas yn cael ei alw yn un o'r deuddeg o hy oblegid y mae hyny yn mwyhau ei drosedd ef, ac dangos gonestrwydd ac anmhleidgarwch yr ysgrifenw sanctaidd: nid ydynt yn celu y gwirionedd er mòr g ydyw. † Yn Ioan 18, 12, dywedir mai y fyddin, milwriaid, a swyddogion yr Iuddewon, oedd y dyrfa fa hon. O ran Iesu ei hun a'i ychydig ddysgyblion gwei iaid, ni buasai raid iddynt wrth gleddyfau a ffyn; o yr oeddynt hwy o hyd yn ofni y bobl. ‡ Rhoddw gwarant i ddàl yr Iesu, mae yn debyg, oddiwrth Senedd fawr, yr hon a elwid y Sanhedrim; a danfonw byddin o filwyr Rhufeinig dàn olygiaeth rhai o'r offei iaid i'w ddàl ef. Byddai llawer o'r milwyr hyny y Jerusalem yn wastad ar ŵyl y pasg, a'r prif wyliau erai rhag ofn y byddai terfysg a gwrthryfel yn mhlith Iuddewon.

48 A'r hwn a'i bradychodd ef a roisai a wydd iddynt, gan ddywedyd, [c] * Pa un bynna a gusanwyf, hwnnw yw efe: [d] † deliwch ef.

c 2 Sam. 3. 27. a 20. 9, 10. Salm 28. 3, a 55. 20, 21. d Ma 14. 44.

49 Ac yn ebrwydd y daeth at yr Iesu, ac ddywedodd, [e] Henffych well, Athraw; [f] ac a cusanodd ef.

e pen. 27. 29, 30. Marc 15. 18. Ioan 19. 3. f Gen. 27. 2 1 Sam. 10. 1. Diar. 27. 6. Marc 14. 45, 46. Luc 7. 45. 1 The 5. 26.

* Tybir y byddai yr Iesu yn ei fawr ostyngeiddrwyd a'i addfwynder, yn goddef i'w ddysgyblion ei gyfarch â chusan, pan ddychwelent ato wedi bod yn absenol ar ychydig ar ryw achos. Dyma'r arwydd a roddodd Juda i'r dyrfa; ac yr oedd yn ddigon hyf a digywilydd wneyd fel y dywedasai. † "Deliwch ef, a dygwc ymaith yn sicr," yw y geiriau yn Marc 14. 44; fel p dywedasai, Mae efe wedi dïanc amryw weithiau o afa ei elynion, mewn modd rhyfedd, a gwyrthiol; am hyn cymmerwch ofal ato, os dïanc a wna efe ar ol i chwi gael yn eich dwylo, bydded y bai arnoch chwi, ac ni arnaf fi.

50 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, [g] * Y cy aill, † i ba beth y daethost? Yna y daethan ac y rhoisant ddwylaw ar yr Iesu, ac a'i dalias ant ef.

g pen. 20. 13. 2 Sam. 16. 17. Salm 40. 9. a 55. 13, 14. L 22. 48.

* Dull cyffredin o ddywedyd yw hyn, "y cyfaill;" on yma mae yn arwyddo mwy na hyny; sef y peth a fuas Judas yn ei broffesu, ac yr hyn a ddylasai fod yn barâu ac mewn gwirionedd. Gwawd-iaith lèm ydyw, y ceryddu Judas am ei frad a'i ragrith. *Etaire*, ni *philos*, fel yn Iago 2. 23. a mànau eraill; gwel y sylwa ar pen. 22. 12: dull moesgar, ac eto gwatwarus, o lefar wrth un yw y gair; pryd na byddo yr hwn y llefar wrtho yn wir gyfaill, ond yn fradychwr dan rith gyfai fel Judas yma. † "I ba beth y daethost:" sef i ba be y daethost fel hyn, gyda byddin o wŷr arfog? Pa fod y mae cysoni Henffych well, Athraw, cusanu, â thyr o filwyr fel hyn? O ragrith ofnadwy, a drygioni, sy yn nghalon dyn! yn enwedig gwrthgiliwr; y gely gwaethaf, a mwyaf dichellgar i Grist a'i efengyl.

51 * Ac wele, [h] un o'r rhai oedd gyd â Iesu, a estynodd *ei* law, ac a dynodd ei gled yf, ac a darawodd † was yr arch-offeiriad, ac dorrodd ei glust ef.

h adn. 35. Marc 14. 47. Luc 9. 55. a 22. 36—38, 49—51. Io 18. 10, 11, 36. 2 Cor. 10. 4.

52 Yna y dywedodd yr Iesu wrtho, [i] D chwel dy gleddyf i'w le: ‡ canys [k] pawb a'r gymmerant gleddyf, a ddïfethir â chleddyf.

f pen. 5. 39. Rhuf. 12. 19. 1 Cor. 4. 11, 12. 1 Thes. 5. 15. Pedr 2. 21—23. a 3. 9. k pen. 23. 34—36. Gen. 9. 6. Salm 55. Ezec. 35. 5, 6. Dat. 13. 10. a 16. 6.

53 A ydwyt ti yn tybied nas gallaf yr awr
on ddeisyf ar fy Nhad, [l]ac efe a rydd yn y
a i mi fwy na [m] || deuddeg [n] lleng o angelion?
l pen. 25. 31. 2 Bren. 6. 17. Dan. 7. 10. 2 Thes. 1. 7. Judas
m pen. 10. 1, 2. n Luc 8. 30.

54 [o] § Pa fodd ynte y cyflawnid yr ysgry-
yrau, mai felly y gorfydd bod?
o adn. 24. Salm 22. a 69. Es. 53. Dan. 9. 24—26. Zec. 13. 7.
c 24. 44—46. Ioan 10. 35. Act. 1. 16.

* Dywed Ioan 18. 10, mai Simon Pedr a dynodd ei
eddyf, ac mai Malchus oedd enw gwas yr arch-offeir-
iad. Pa fodd y daeth fod cleddyf gan Simon, gwel Luc
. 35—38. Heblaw bod Pedr yn ddyn mwy byrbwyll
'r dysgyblion eraill o naturiaeth, fel y mae yn amlwg
fod; efallai ei fod yn cofio ei adduned o farw yn
trach na gwadu ei Arglwydd, ac fel hyn yn meddwl
mgos ei ddewrder a'i ymlyniad wrtho: ond annoeth
wn oedd ei ymddygiad yn y tro hwn, a rhyfedd fel y
dlodd ei ysbryd mewn ychydig amser wedi hyny.
Rhyfedd na buasai efe yn taro Judas, y bradwr, yn
rtrach na neb arall; ond, efallai, nad oedd efe yn deall
pryd hwnw, mai i'r dyben o fradychu y daethai efe;
u, ynte, fod Judas wedi cilio i rywle i ganol y dorf,
y fàn wedi cyflawni ei weithred fradychus: ac, efall-
fod Malchus yn fwy prysur a blaenllaw na neb arall,
dàl yr Iesu. ‡ Mae yn bur debygol mai ei ddifetha
gawsai Pedr y pryd hwnw, oni buasai i'r Arglwydd
su mewn modd dirgelaidd attal cynddeiriogrwydd y
rfa. Tybir fod yma gyfeiriad at y farn a ddaeth ar
Iuddewon hefyd: daethant hwy â chleddyfau i ddàl
su, a chyn pen hir difethwyd hwythau â chleddyf y
rufeiniaid. || Gwyddai Iesu fod ei awr wedi dyfod, ac
ll oedd yn meddwl gwrthsefyll ei elynion: a phe buas-
nid oedd arno angen cymmorth egwan Pedr a'i
eddyf; canys gallasai gael deuddeg lleng o angelion
n ei Dad, dim ond eu gofyn. Dosparthid y milwyr
rufeinig yn llengau, chwe mil yn mhob lleng medd
ai, rhagor medd eraill. Nid aml yr ymddiriedid
uddeg lleng i ofal y blaenor penaf yn mhlith y Rhuf-
niaid, ond hawdd y gallasai Iesu gael mwy na hyny
n ei Dad: a phan ystyriom y dinystr a wnaeth un
gel yn ngwersyll yr Assyriaid, buasai y fyddin hon
ofnadwy iawn. § Yr ysgrythyrau cyfeiriol yw yr
oriad gorau ar adnod 54.

55 Yn yr awr honno y dywedodd yr Iesu
rth y torfeydd, [p] * Ai megis at leidr y daeth-
ch chwi allan, â chleddyfau a ffyn i'm dal i?
r oeddwn i beunydd gyd â chwi yn eistedd
n dysgu yn y deml, ac ni'm daliasoch.
p Marc 14. 48—50. Luc 22. 52, 53. q Marc 12. 35. Luc 21.
, 38. Ioan 8. 2. a 18. 20, 21.

56 A hyn oll a wnaethpwyd, [r] † fel y cyf-
wnid ysgrythyrau y prophwydi. [s] ‡ Yna yr
oll ddisgyblion a'i gadawsant ef, ac a ffoisant.
r adn. 54. Es. 44. 26. Act. 2. 23. s adn. 31. Marc 14. 50—
. Ioan 16. 32. a 18. 8, 9, 16. 2 Tim. 4. 16.

* Er bod ein Harglwydd yma yn ymroddi i ddwylo
elynion, eto wrth roddi ei hun i fynu mae yn hòni ei
diniweidrwydd: nid lleidr na drwg-weithredwr oedd
e, ac nid oedd angenrhaid ei ddàl fel y cyfryw: gall-
ent ei gael yn y deml bob dydd, nid yn terfysgu ond
a dysgu y bobl. Yr oedd lladron y pryd hwnw yn y
lad, mòr lliosog a chryfion, fel nas gellid eu gwynebu
u darostwng hwynt ond trwy nerth arfau a milwyr.
Am Judas yn bradychu, Salm 41. 9; am drin Crist fel
oseddwr, Isa. 53. 12; ac am y dysgyblion yn ei adael
ac yn ffoi, Zech. 13. 7. Tybia rhai mai geiriau
Mathew yw y rhai uchod, ond mae yn amlwg yn Marc
4. 49. mai geiriau Crist ei hun ydynt. Pan welodd y
ysgyblion ei ddàl ef, hwy a'i gadawsant ac a ffoisant:
fallai eu bod yn meddwl o hyd tan yn awr, y buasai efe
n ei waredu ei hun fel y gwnaethai rai gweithiau o'r
blaen: diammau iddynt ofni y cawsent hwythau eu cymmeryd i fynu hefyd, fel ei ganlynwyr ef. Beth bynag oedd eu meddyliau a'u hofnau, annheilwng iawn yr ymddygasant yn y tro hwn; ac maent yn dysgu i ni na roddom ormod hyder ar gyfeillach y dynion gorau. Eto, ni ddylem goll-farnu pawb a gilio mewn profedigaeth.

57 ¶ A'r [t] rhai a ddaliasent yr Iesu, a'i
dygasant *ef* ymaith at * Caiaphas yr arch-
offeiriad, lle yr oedd yr ysgrifenyddion a'r
henuriaid wedi ymgasglu ynghyd.
t Salm 56. 5, 6. Marc 14. 53, 54. Luc 22. 54, 55. Ioan 11. 49. a 18. 12—14, 24.

* Dygasant ef at Annas chwegrwn Caiaphas yn gyntaf medd Ioan 18. 13, ac oddi yno at Caiaphas, mae yn debyg, lle'r oedd y cyngor wedi ymgyfarfod, hyd yn nod yn nyfnder nos: gymmaint oedd eu hawydd am gael Iesu i'w crafangau!

58 * A Phedr a'i canlynodd ef o hirbell,
hyd yn llys yr arch-offeiriad; [u] † ac a aeth i
mewn, ac a eisteddodd gyd â'r gweision, i
weled y diwedd.
u Ioan 18. 15, 16, 25.

* Mae yn debyg i Pedr ddychwelyd yn bur fuan wedi ffoi a gadael yr Iesu yn yr ardd, ond erbyn hyn nid oedd yn ddigon calonog i lynu wrtho, dim ond canlyn o hirbell. † Dyma gam annoeth arall a wnaeth Pedr; trwy daro gwas yr arch-offeiriad gwnaeth ei hun yn agored i berygl, ac yr oedd yn ofni canlyn Iesu yn amlwg fel ei ddysgybl; am hyny ni ddylasai mewn un modd fyned i lys yr arch-offeiriad, gan ei fod wrth hyny yn ei osod ei hun yn ngafael profedigaeth. Gwelwn yma gredadyn gwrol wedi dechreu dyrysu.

59 * A'r arch-offeiriaid a'r henuriaid, a'r
holl gynghor, [x] a geisiasant gau-dystiolaeth yn
erbyn yr Iesu, fel y rhoddent ef i farwolaeth;
x Deut. 19. 16—21. 1 Bren. 21. 8—13. Salm 27. 12. a 35. 11, 12. a 94. 20, 21. Diar. 25. 18. Marc 14. 55, 56. Act. 6. 11—13. a 24. 1—13.

60 Ac [y] nis cawsant: ïe, er dyfod *yno* gau-
dystion lawer, ni chawsant. [z] Eithr o'r diwedd
fe a ddaeth dau gau-dyst,
y Dan. 6. 4, 5. Tit. 2. 8. 1 Pedr 3. 16. z Deut. 19. 15. Marc 14. 57—59.

* Yr oedd y Senedd ddrygionus hon yn penderfynu rhoddi yr Iesu i farwolaeth ryw ffordd neu gilydd, ac os gallent wneyd hyny dan rith o gyfiawnder, goreu i gyd. Gwyddent nas gallent hyny, hyd yn nod yn rhithiol, heb gyflogi gau-dystion; ac er cael digon o'r cyfryw am arian, eto nid oedd yr un dau o honynt yn cytuno yn yr un chwedl gelwyddog; ac heb ddau ni wnaethai mo'r tro yn wyneb y gyfraith, Deut. 19. 5. Mewn prawf yn erbyn twyllwyr a gau-brophwydi, yr oedd yn rhydd dywedyd y peth a fynid, gwir neu anwir; gan nas goddefid i neb ddywedyd dim er amddiffyniad i'r cyhuddedig. Mae hyn yn dangos fod dallineb a drygioni y dysgawdwyr Iuddewig yn fawr uwchlaw amgyffred.

61 * Ac a ddywedasant, [a] Hwn a ddywed-
odd, [b] † Mi a allaf ddinystrio teml Dduw, a'i
hadeiladu mewn tri diwrnod.
a adn. 71. pen. 12. 24. Gen. 19. 9. 1 Bren. 22. 27. 2 Bren. 9. 11. Salm 22. 6, 7. Es. 49. 7. a 53. 3. Luc 23. 2. Ioan 9. 29. Act. 17. 18. a 18. 13. a 22. 22. b pen. 27. 40. Jer. 26. 8—11, 16—19. Marc 15. 29. Ioan 2. 19—21. Act. 6. 13.

* Yn niwedd adn. 60. dywedir iddynt gael dau gau-dyst, ond nid oedd y rhai hyny chwaith yn cytuno yn yr un dystiolaeth, Marc 14. 59. † Wrth gymharu adroddiad y geiriau hyn gan y gau-dystion, a'r modd y llefarwyd hwy gan Iesu yn Ioan 2. 19. gwelir eu bod wedi cael eu cam-adrodd yn fawr yma. "Dinystriwch y deml hon," medd Iesu; gan feddwl teml ei gorph, Ioan 2. 21. "Mi a allaf ddinystrio teml Dduw," medd y gau-dystion; gan feddwl y deml yn Jerusalem. Pe buasai y dystiolaeth hon yn hollawl wir, nid yw yn

ymddangos fod dim ynddi i euog-farnu Crist, a methodd yr arch-offeiriad a gwneyd dim o hóni.

62 * A chyfododd yr arch-offeiriad, ac a ddywedodd wrtho, [e] A attebi di ddim? beth *y mae* y rhai hyn yn *ei* dystiolaethu yn dy erbyn?

e pen. 27. 12—14. Marc 14. 60. Luc 23. 9. Ioan 18. 19—23. a 19. 9—11.

63 † Ond [d] yr Iesu a dawodd. ‡ A'r arch-offeiriad gan atteb a ddywedodd wrtho, [e] ‖ Yr ydwyf yn dy dynghedu di trwy y Duw byw, [f] ddywedyd o honot i ni, ai tydi yw [g] y Crist, Mab Duw.

d Salm 38. 12—14. Es. 53. 7. Dan. 3. 16. Act. 8. 32—35. 1 Pedr 2. 23. e Lef. 5. 1. Num. 5. 19—21. 1 Bren. 22. 16. 2 Cron. 18. 15. Diar. 29. 24. f Marc 14. 61. Luc 22. 66—71. Ioan 8. 25. a 10. 24. a 18. 37. g pen. 16. 16. a 27. 40, 43, 54. Salm 2. 6, 7. Es. 9. 6, 7. Ioan 1. 34, 49. a 3. 16—18. a 5. 18—25. a 6. 69. a 10. 30, 36. a 19. 7. a 20. 31. 1 Ioan 5. 11—13.

* Cymmerai yr arch-offeiriad trahâus hwn arno, ei fod wedi cael digon yn erbyn yr Iesu; a rhyfeddai ei fod yn peidio ateb drosto ei hun: braidd na ddywedai fod ei ddistawrwydd yn ddirmyg ar y llys, ac yn addefiad o'r bai. † Ond yr Iesu o hyd a dawodd. Hawdd y gallasai wrthbrofi y fath anwiredd, ond nid oedd yn werth ganddo. Gwyddai eu bod hwy yn penderfynu ei dori ymaith, am hyny gadawodd iddynt gymmeryd eu ffordd. Ac yn hyn hefyd, yr oedd yn cyflawni prophwydoliaeth, Esaiah 53. 7. "Ac fel y tau dafad o flaen y rhai a'i cneifiai, felly nid agorai yntau ei enau." ‡ Gan nas gallai yr arch-offeiriad wneyd dim o dystiolaeth y gau-dystion, mae yn ceisio maglu a phrofi yr Iesu trwy fater arall; ai efe oedd Mab Duw, neu y Messiah. Nid er mwyn credu ynddo yr oedd yn chwennych gwybod; ond i'r dyben o'i euog-farnu am gabledd, os addefai ei hun yn Fab Duw; neu os gwadai, yr oeddynt yn barod i'w farnu ef am wadu yr hyn a honasai efe o'r blaen wrth eraill. ‖ Cymmerai yr arch-offeiriad arno fod yn ddifrifol iawn, fel pe dywedasai, Dywed i ni y gwir, fel pe byddit ar dy lw, ac yn ngŵydd y Duw byw: ac yr wyf fi, fel arch-offeiriad Duw, yn cyhoeddi barn a melltith ofnadwy arnat os na ddywedi, ac os na ddywedi y gwirionedd.

64 * Yr Iesu a ddywedodd wrtho, [h] Ti a ddywedaist: eithr meddaf i chwi, [i] † Ar ol hyn y gwelwch Fab y dyn yn eistedd ar [k] ddeheulaw y gallu, ac yn dyfod ar gymmylau y nef.

h adn. 25. pen. 27. 11. Marc 14. 62. Luc 22. 70. Ioan 18. 37. i pen. 16. 27. a 24. 30. a 25. 31. Dan. 7. 13. Luc 21. 27. Ioan 1. 50, 51. Act. 1. 11. Rhuf. 14. 10. 1 Thes. 4. 16. Dat. 1. 7. a 20. 11. k Salm 110. 1. Act. 7. 56. Heb. 1. 3. a 12. 2.

* Mae Marc 14. 62, a Luc. 22. 67—70, a Matthew yma, yn adrodd ateb Crist ychydig yn wahanol i'w gilydd: efallai mai gosod y cwbl yn nghyd, a ddywedir gan y tri, a wna yr ateb yn gyflawn. † Mae yn y geiriau hyn gyfeiriad amlwg at brophwydoliaeth Daniel am Fab y dyn, Dan. 7. 13, 14. Cynnwys y geiriau esgyniad Crist i'r gogoniant, yr hyn a amlygwyd yn nhywalltiad yr Ysbryd ar ddydd y Pentecost; ei ddyfodiad i farnu a dinystrio Jerusalem a'r genedl Iuddewig; ac ei ddyfodiad ar gymylau y nef yn y dydd diweddaf.

65 * Yna [l] y rhwygodd yr arch-offeiriad ei ddillad, gan ddywedyd, [m] † Efe a gablodd: pa raid i ni mwy wrth dystion? wele, yr awrhon y clywsoch ei gabledd ef.

Lef. 21. 10. 2 Bren. 18. 37. a 19. 1—3. Jer. 36. 24. Marc 14. 63, 64. m pen. 9. 3. 1 Bren. 21. 10—13. Luc 5. 21. Ioan 10. 33, 36.

66 Beth dybygwch chwi? ‡ Hwythau gan atteb a ddywedasant, [n] Y mae efe yn euog o farwolaeth.

n Lef. 24. 11—16. Ioan 19. 7. Act. 7. 52. a 13. 27, 28. Iago 5. 6.

* Gwaherddid i'r arch-offeiriad rwygo ei ddillad ar amryw o achosion y caniatêid i ddynion eraill rhwygo, Lef. 21. 10; ond ar achos o gabledd, neu rywddrwg cyhoeddus, bernid yn ganiatâol iddo eu rhwygo. Yr oedd yn rhydd iddo wneyd am gabledd fel y sylwyd, a thybiodd ef i'r Iesu gablu, trwy ddywedyd am dano hun yr hyn a ddywedasai Daniel am y Messiah: e nid chwi a'm gwelwch *i*, a ddywedodd yr Iesu, eithr chwi a welwch Fab y dyn; a'r arch-offeiriad yn casglu mai am dano ei hun yr oedd efe yn meddwl. † Barn efe bod Iesu wedi cablu yn ddychrynllyd, o herwydd iddo addef ei hun yn Fab Duw; a phenderfynai yn fân nad oedd dim eisiau ychwaneg o dystion na thystiolaeth yn ei erbyn ef, ond bod ei eiriau ef ei hun yn ddigon i'w euog-farnu ef. ‡ A hyn y cytunodd y rhai fwyaf o'r cyngor; ei fod ef wedi cablu, ac yn euog farwolaeth: ond tybir fod Nicodemus a Joseph o Arimathea yno, ac na chytunasant hwy â'r ddedfryd fyr bwyll ac anghyfiawn hon, Luc 23. 50, 51.

67 * Yna [o] y poerasant yn ei wyneb, ac a'i cernodiasant; [p] eraill a'i tarawsant *ef* â gwïail,

o pen. 27. 30. Num. 12. 14. Deut. 25. 9. Job 30. 9—11. Es. 50. 6. a 52. 14. a 53. 3. Marc 14. 65. a 15. 19. 1 Cor. 4. 13. Heb. 12. 2. p pen. 5. 39. 1 Bren. 22. 24. Jer. 20. 2. Galar. 3. 30, 45. Ioan 18. 22. Act. 23. 2, 3. 2 Cor. 11. 20, 21.

68 Gan ddywedyd, [q] † Prophwyda i ni, [r] O Crist, Pwy yw yr hwn a'th darawodd?

q pen. 27. 39—44. Gen. 37. 19, 20. Barn. 16. 25. Luc 22. 63—65. r pen. 27. 28, 29. Marc 15. 18, 19. Ioan 19. 2, 3, 14, 15. 1 Pedr 2. 4—8.

* Yr oedd y driniaeth hon i gyd, yn dangos pa mor ddirmygus oedd Iesu yn ngolwg y gwŷr mawr hyn ac yn gyflawniad o amryw brophwydoliaethau, Esaiah 50. 6. a 52. 14. Mica 5. 1. Y dirmyg eithaf a allesid wneyd: yr oedd poeri ar y ddaear yn ngolwg ûn, yr dramgwyddus iawn yn mhlith yr Iuddewon, pa faint mwy poeri yn ngwyneb un? † Ar ol iddynt orchuddio ei wyneb ef y dywedent fel hyn, debygid wrth Marc 14. 65, a Luc 22. 64; a hwy a orchuddiasant ei wyneb ef yn arwydd o'i gondemniad, fel yr arferid gwneyd â dynion a gondemnid: gwel Esth. 7. 8. a'r sylwad yno.

69 ¶ * A [s] Phedr oedd yn eistedd allan yn y llys: † a daeth morwynig atto, ac a ddywedodd, ‡ *A* thithau oeddit gyd âg [t] Iesu y Galilead.

s adn. 58. 1 Bren. 19. 9, 13. Salm 1. 1. Marc 14. 66—68. Luc 22. 55—57. Ioan 18. 25. 2 Pedr 2. 7—9. t adn 71. pen. 2. 22. 23. a 21. 11. Ioan 1. 46. a 7. 41, 52. Act. 5. 37.

70 ‖ Ac [u] efe a wadodd ger *eu* bron *hwy* oll, ac a ddywedodd, Nis gwn beth yr wyt yn ei ddywedyd.

u adn. 34, 35, 40—43, 51, 56, 58. Salm 119. 115—117. Diar. 28. 26. a 29. 23, 25. Es. 57. 11. Jer. 17. 9. Rhuf. 11. 20. 1 Cor. 10. 12. Dat. 21. 8.

* Yr oedd Pedr yn y llys i waered, medd Marc 14. 66. Rhaid mai rhyw ystafell arall yn yr un adeiladydoedd, digon agos i weled a chlywed pa fodd yr oedd achos Iesu yn myned yn mlaen. † Mae yn debyg mai y ddrysores, a ollyngodd Pedr i mewn, oedd hon. ‡ Efallai ei bod yn gweled arwydd o drallod a gofid yn ei wyneb ef, ac oddi wrth hyny yn casglu ei fod yn un o ddysgyblion yr Iesu. ‖ Diammau fod Pedr o'r blaen yn llawn o ofnau a braw, ac yn cael ei demtio yn ddirgelaidd gan satan; a phan ymosododd y forwynig hon arno yn chwanegol at hyny, methodd a dàl; ond gwaddodd ei Arglwydd ar gyhoedd pawb! Peth enbyd yw Gristionogion fyned i leoedd profedigaethus.

71 * A [x] phan aeth efe allan i'r porth, gwelodd un arall ef; a *hi* a ddywedodd wrth y rhai oedd yno, [y] Yr oedd hwn hefyd gyd â'r Iesu o Nazareth.

x Marc 14. 68, 69. Luc 22. 58. Ioan 18. 25—27. y adn. 61.

72 † A thrachefn efe a wadodd [z] trwy lw. [a] Nid adwaen i y dyn.

z pen. 5. 34—36. Ex. 20. 7. Es. 48. 1. Zec. 5. 3, 4. a 8. 17. 3. 3. 5. Act. 5. 3, 4. a adn. 74. Luc 22. 34.

3 Gwedi syrthio yn y brofedigaeth gyntaf, mae yn gyg i Pedr feddwl am fyned ymaith, ond erbyn ei fod y porth, dyma ryw un arall yn ymosod arno yr un ld a'r gyntaf: † ac os gwàn oedd efe y tro cyntaf, n yn wànach, a syrthiodd yn ddyfnach y tro hwn; dodd trwy *lw* y waith hon nad adwaenai efe y dyn. n yw y dynion gorau pan y gadawo Duw hwynt!

73 * Ac ychydig wedi, daeth y rhai oedd sefyll ger llaw, ac a ddywedasant wrth Pdr, [b] Yn wir yr wyt tithau *yn un* o honynt; canys y mae dy leferydd yn dy gyhuddo.

b Luc 22. 59, 60. Ioan 18. 26, 27. c Barn. 12. 6. Neh. 4.

74 ‡ Yna [d] y dechreuodd efe regu a thyngu, iid adwaen i dyn. [f] || Ac yn y man y canl y ceiliog.

d pen. 27. 25. Barn. 17. 2. a 21. 18. 1 Sam. 14. 24—28. Marc 71. Act. 23. 12—14. Rhuf. 9. 3. 1 Cor. 16. 22. e pen. 10. 28, 33. Ioan 21. 15—17. Dat. 3. 15. f Marc 14. 30, 68, 72. Luc 60. Ioan 18. 27.

Awr y brofedigaeth oedd hon ar Pedr:—mae yn yg nad aeth efe ddim allan er iddo gychwyn myned; yn awr dyma drydydd ymgyrch y gelyn arno, a thost m y cafodd ei archolli! Dywed Ioan mai câr i lchus a ymosododd arno y tro hwn, Ioan 18. 26. Marc a ddywed, Galilead wyt ti, a'th leferydd sydd yg, Marc 14. 70. Gwyddent mai Galileaid oedd llynwyr Iesu, ac mae'n debyg fod acen a llediaith sgl y wlad hòno yn amlwg yn ymadrodd Pedr. ‡ Dan rydydd ymosodiad hwn, yn enwedig oddiwrth gâr i'r y torasai efe ei glust, dychrynodd Pedr dros fesur; lhan dyngu a rhegi, efe a wadodd nad adwaenai efe Iesu. || Gyda hyn canodd y ceiliog yr ail waith, yn gair yr Iesu. Dywed yr Iuddewon y byddid yn symd yr holl geiliogod allan o Jerusalem ar ŵyl y pasg, l ni chyd-saif y traddodiad ofer-goelus hyny â gwiredd yr hanes hwn.

75 * A [g] chofiodd Pedr air yr Iesu, yr hwn ddywedasai wrtho, Cyn canu o'r ceiliog, ti am edi deirgwaith. [h] Ac efe a aeth allan, ac a lodd yn chwerw-dost.

g adn. 34. Luc 22. 61, 62. Ioan 13. 38. h pen. 27. 3—5. 22. 32. Rhuf. 7. 18—20. 1 Cor. 4. 7. Gal. 6. 1. 1 Pedr 1. 5.

* Syrthiodd Pedr yn alaethus iawn yn wyneb ei fedigaeth; ond nid hir y gadawodd Duw ef yn y thiad hwnw: adferodd ef yn fuan, yn rasol, ac yn ithiol. Yr oedd edifeirwch mòr amlwg a'i fai; efe wylodd yn chwerw-dost: ac yr oedd ei holl fywyd o ny allan yn brawf diammeuol o wirionedd ei adferiad. niad y ceiliog, cofio gair yr Iesu, ac edrychiad yr iu, Luc 22. 61, a fu fel moddion ei adferiad. "Seithfith y syrth y cyfiawn, ac efe a gyfyd drachefn." "Yr n sydd yn sefyll, edryched na syrthio."

PEN. XXVII.

Rhoddi Crist yn rhwym at Pilat, &c.

A PHAN [a] ddaeth y bore, [b] cydymgynghorodd yr holl arch-offeiriaid, a henuriaid y bl, yn erbyn yr Iesu, *fel* y rhoddent ef i rwolaeth.

a Barn. 16. 2. 1 Sam. 19. 11. Diar. 4. 16—18. Mica 2. 1. Luc 66. Act. 5. 2. b pen. 23. 13. a 26. 3, 4. Salm 2. 2. Marc 15. Luc 23. 1, 2. Ioan 18. 28. Act. 4. 24—28.

2 † Ac wedi iddynt [c] ei rwymo, hwy a'*i* rgasant *ef* ymaith, [d] ‡ ac a'i traddodasant ef Pontius Pilat y rhaglaw.

c Gen. 22. 9. Ioan 18. 12, 24. Act. 9. 2. a 12. 6. a 21. 33. a 22. 29. a 24. 27. a 28. 20. 2 Tim. 2. 9. Heb. 13. 3. d pen. 20. 19. c 18. 32, 33. a 20. 20. Act. 3. 13.

* Cawsom hanes gweithrediadau y noson erchyll o'r aen eisoes, ac yn awr, wedi ychydig iawn o orphwys, ma elynion Iesu i fynu yn fore iawn eto. Yr oeddynt wedi penderfynu ei fod yn haeddu marw o'r blaen: a'r pwnc yn awr oedd, cyflawni y penderfyniad hwnw mòr fuan ag yr oedd dichon. † Rhwymwyd yr Iesu o'r blaen, pan ddaliwyd ef; ond efallai iddynt ei ryddâu ef o'r rhwymau hyny tra bu dàn holiad, ac yn awr ei ail rwymo: neu, ynte, iddynt ei rwymo yn gaethach nac o'r blaen. ‡ Gan fod yr Iuddewon y pryd hwn dàn iau y Rhufeiniaid, nid oedd awdurdod ganddynt i osod neb i farwolaeth heb gydsyniad y Rhaglaw Rhufeinig: a chan mai croeshoeliad oedd y farwolaeth Rufeinig, yr oeddynt yn fwy ewyllysgar i draddodi yr Iesu i Pilat, fel y rhoddid ef i'r farwolaeth echryslawn hòno.

3 ¶ * Yna [e] pan welodd Judas, yr hwn a'i bradychodd ef, ddarfod ei gondemnio ef, [f] † bu edifar ganddo, ‡ ac a ddug drachefn y deg ar hugain arian i'r arch-offeiriaid a'r henuriaid.

e pen. 26. 14—16, 47—50. Marc 14. 10, 11, 43—46. Luc 22. 2—6, 47, 48. Ioan 13. 2, 27. a 18. 3. f Job 20. 5, 15—29. 2 Cor. 7. 10.

4 Gan ddywedyd, [g] || Pechais, § gan fradychu [h] gwaed gwirion. * Hwythau a ddywedasant [i] Pa beth *yw hynny* i ni? [k] edrych di.

g Gen. 42. 21, 22. Ex. 9. 27. a 10. 16, 17. a 12. 31. 1 Sam. 15. 24, 30. 1 Bren. 21. 27. Rhuf. 3. 19. h adn. 19, 23, 24, 54. Jer. 26. 15. Jona 1. 14. Luc 23. 22, 41, 47. Ioan 19. 7. Act. 13. 28. Heb. 7. 26. 1 Pedr 1. 19. i adn. 25. Act. 18. 15—17. 1 Tim. 4. 2. Tit. 1. 16. 1 Ioan 3. 12. Dat. 11. 10. k 1 Sam. 28. 16—20. Job 13. 4. a 16. 2. Luc 16. 25, 26.

5 † Ac wedi iddo daflu yr arian yn y deml, [l] efe a ymadawodd, ‡ ac a aeth ac a ymgrogodd.

l Barn. 9. 54. 1 Sam. 31. 4, 5. 2 Sam. 17. 23. 1 Bren. 16. 18. Job 2. 9. a 7. 15. Act. 1. 18, 19.

* Tybia rhai mai ar ol condemnio Crist gan Pilat, y dygwyddodd y pethau a gryòwyllir yn yr adnodau hyn yn nghylch Judas, a bod Matthew wedi gosod yr hanes allan o'i iawn drefn yma: ond nid yw hyny o bwys yn y byd. † Pan welodd Judas gondemnio yr Iesu, efe a edifarâodd; ond nid mewn gwir ymostyngiad a galar duwiol, yn nghyd a ffydd, gobaith, a chariad: yr oedd yn ddrwg ganddo iddo wneuthur y weithred fradychus hon, ac e lanwyd ei galon a'i gydwybod âg euogrwydd a dychryn ofnadwy. Efallai i Judas feddwl na allesid cael dim yn erbyn Iesu i'w gondemnio ef, neu ynte y gwaredai efe ei hun yn wyrthiol; ac yna y ca'i efe yr arian, heb i'r Iesu gael dim niwed. ‡ Aeth yn gymmaint gwasgfa arno, fel y bu gorfod iddo megys cyfog yr arian drachefn, yn debyg i ddyn yn cyfog gwenwyn, ond yn rhy ddiweddar, ar ol iddo ei wenwyno yn farwol ac anfeddyginiaethol. Mae pechod yn felus yn y genau, ond yn chwerw iawn yn y bòl. || Cyfaddefodd Cain, Pharaoh, a Saul, iddynt bechu, fel Judas; ond nid mewn gwir edifeirwch yr un o honynt mwy nag yntau. § Yr oedd y dystiolaeth hon yn anrhydedd i'r Iesu, yn rhybudd ac yn ocheliad i'r Iuddewon, ac yn ddychryn i Judas ei hun. Nis gallasai diafol ddyfeisio dim gwell na gosod Judas yn mhlith y dysgyblion, er cael rhywbeth yn erbyn Iesu; ond nid oedd dim i'w gael: ac mae tystiolaeth wirfoddawl y gelyn hwn yn gadarnâd arbenig i dystiolaeth yr apostolion. * Cysur gwael a gafodd efe gan yr arch-offeiriaid a'r henuriaid; gwedi iddynt ei hudo ef i bechu, maent yn gadael rhyngddo ef â'r canlyniad, ac braidd yn gwatwar ei drallod, gan ddywedyd dan chwerthin yn atgas, mae yn debyg, "Beth yw hyny i ni, edrych di." Mae yr ateb hwn, "Beth yw hyny i ni," hefyd, yn dangos caledrwydd ofnadwy y dynion hyn: yr oedd yn beth iddynt hwy, a chawsant wybod ei fod cyn hir, er eu gwae tragywyddol! † Mae yn debyg mai o drysorfa y deml y cymmerwyd yr arian a roddasid i Judas, ac yn y deml yr oedd yn iawn iddo yntau eu gadael. ‡ Cyflawnodd yr ateb gwatwarllyd uchod ei drallod ef, ac yn lle troi at Dduw i ofyn maddeuant, efe a aeth ac a ymgrogodd! Yn Act. 1. 18. dywedir iddo wedi ymgrogi, dori yn ei ganol, a'i holl ymysgaroedd ef a dywalltwyd allan! Dìau mai ei waith ef ei hun oedd ei farwolaeth; a thybia rhai i'r goeden, neu y gangen,

wrth ba un yr ymgrogai, dòri; ac iddo yntau yn ei syrthiad, dori yn ei ganol fel y dywedwyd. Mòr ddychrynllyd y daeth barn Duw ar fab hwn y golledigaeth, ac mòr gyflym hefyd ei goddiweddodd! Mae yn bur amlwg ei fod wedi marw o flaen Iesu.

6 A'r arch-offeiriaid a gymmerasant yr arian, ac a ddywedasant, [m] * Nid cyfreithlawn *i ni* [n] eu bwrw hwynt yn y drysorfa; canys gwerth gwaed ydyw.

m pen. 23. 24. Luc 6. 7—9. Ioan 18. 28. n Deut. 23. 18. Es. 61. 8.

* Gwir iawn nad oedd yr arian hyn, gwerth gwaed Iesu, (a gwerth gwaed Judas hefyd yn wir) yn gyfreithlawn i'r drysorfa, at wasanaeth y deml; ond, yn hyn fel pethau eraill, yr oeddynt hwy yn dangos eu rhagrith, yn hidlo gwybedyn ac yn llyncu camel, pen. 23. 23, 24.

7 * Ac wedi iddynt gyd-ymgynghori, hwy a brynasant â hwynt faes y crochenydd, yn gladdfa dieithriaid.

8 † Am hynny [o] y galwyd y maes hwnnw, Maes y gwaed, [p] hyd heddyw.

o Act. 1. 19. p pen. 28. 15. Deut. 34. 6. Jos. 4. 9. Barn. 1. 26. 2 Cron. 5. 9.

9 ‡ (Yna y cyflawnwyd yr hyn a ddywedwyd trwy Jeremïas y prophwyd, gan ddywedyd, [q] A hwy a gymmerasant y [r] deg ar hugain arian, pris y prisedig, yr hwn a brynasant gan feibion Israel;

q Zec. 11. 12, 13. r pen. 26. 15. Ex. 21. 32. Lef. 27. 2—7.

10 Ac a'u rhoisant hwy am faes y crochenydd, megis y gosododd yr Arglwydd i mi.)

* Tybiai y rhagrithwyr hyn, mai gwneyd rhyw weithred rith-elusengar oedd oreu iddynt â'r arian; gan hyny cytunasant i brynu rhyw ddernyn bychan o dir, a fuasai gynt yn meddiant rhyw grochenydd, ac, wedi ei gloddio a'i ddifwyno gan hwnw, nid oedd o fawr werth. Defnyddiwyd y maes yn gladdfa dieithriaid, sef y cyfryw ddieithriaid o'r cenedloedd a fyddai marw yn Jerusalem, ac a fernid yn annheilwng i gael eu claddu yn mhlith y genedl sanctaidd. † Tröwyd enw y maes hwnw yn Aceldama, (Act. 1. 19.) hyny yw, Maes y gwaed, er tystiolaeth barâus o'r weithred waedlyd trwy yr hon ei prynwyd: hyny oedd ei enw pan ysgrifenodd Matthew ei efengyl. ‡ Yr oedd hyn hefyd yn gyflawniad o brophwydoliaeth: ond nid oes y fath brophwydoliaeth yn Jeremiah, fel y dywedir yma; eithr yn Zech. 11. 12, 13. y mae. Cynnygir y pethau canlynol i egluro y dyryswch hwn:—1. Tybia rhai, i Jeremiah lefaru y geiriau, er nad ydynt yn ysgrifenedig yn ei lyfr, ac i Zechariah eu gosod yn ei lyfr ef. 2. Tybia eraill, mai Llyfr Jeremiah oedd y pryd hwnw y cyntaf o'r prophwydi, a bod y lleill i gyd yn myned wrth ei enw ef. 3. Tybia eraill, mai Jeremiah a ysgrifenodd y nawfed, y ddegfed, a'r unfed bennod a'r ddeg o Zechariah. 4. Tybia eraill, mai yr adysgrifenwyr, wrth dalfyru yr enw rywbryd, a wnaethant gam-gymmeriad; gan ysgrifenu *Zriou* yn lle *Iriou*. 5. Dywed eraill bod y Syriaeg a'r Persiaeg yn darllen *Yr hyn a ddywedwyd trwy y prophwyd*, heb enwi neb. Gwedi y cwbl nid yw yr enw o bwys mawr, gan fod y brophwydoliaeth i'w chael yn yr Hen Destament.

11 * A'r [s] Iesu a safodd ger bron y rhaglaw: a'r rhaglaw a ofynodd iddo, gan ddywedyd, Ai ti yw Brenhin yr Iuddewon? † A'r Iesu a ddywedodd wrtho, [t] Yr wyt ti yn dywedyd.

s pen. 10. 18, 25. Marc 15. 2. Luc 23. 3. Ioan 18. 33—36. t pen. 26. 25, 64. Marc 14. 62. Ioan 18. 37. 1 Tim. 6. 13.

* Yn Luc 23. 2, ni a welwn fod yr Iuddewon wedi cyhuddo yr Iesu wrth Pilat, o hòni mai efe oedd brenin yr Iuddewon. Yr oedd yn angenrheidiol iddynt osod rhyw drosedd gwladol yn ei erbyn ef ger bron Pilat; gan na wnaethai efe, yr hwn oedd bagan, ddim sylw o'r cyhuddiad arall, ei fod yn hòni ei hun yn fab Duw. † Yr oedd Iesu yn ofalus yn ei ateb: Yr wyt ti yn dywedyd. Ti sydd yn dywedyd, nid myfi: er nad wyf finau yn dywedyd i'r gwrthwyneb. Ychydig a wyddost ti, Pilat, pwy sydd yn sefyll o'th flaen, a llai o lawer rhaid i tithau sefyll o'i flaen yntau ar ol hyn. Yna gweli mai Brenin yw. Cawn y dull hwn o ateb gan Iesu amryw weithiau, ac yn ol y geirweddiad Hebraeg mae yn addefiad o'r hyn a ofynir meddant, neu i'w ddëall gan y gofynwr fel addefiad.

12 A phan [u] gyhuddid ef gan yr arch-offeiriaid a'r henuriaid, * nid attebodd efe ddim.

u adn. 14. pen. 26. 63. Salm 38. 13, 14. Es. 53. 7. Marc 15. 3—5. Ioan 19. 9—11. Act. 8. 32. 1 Pedr 2. 23.

13 Yna y dywedodd Pilat wrtho, [x] Onid clywi di faint o bethau y maent hwy yn eu tystiolaethu yn dy erbyn di?

x pen. 26. 62. Ioan 18. 35. Act. 22. 24.

14 Ac nid attebodd efe iddo un gair; † fel y [y] rhyfeddodd y rhaglaw yn fawr.

y Salm 71. 7. Es. 8. 18. Zec. 3. 8. 1 Cor. 4. 9.

* Sylwyd o'r blaen ar ddystawrwydd Iesu ger bron ei gam-gyhuddwyr. Gwel pen. 26. 62, 63. Yma gellir chwanegu, nad oedd ganddo ef ddim bai i'w gyfaddef; eto nid oedd efe yn chwennych ei gyfiawnâu ei hun, gan ei fod yn ymostwng i gondemniad, fel y gallai farw yn aberth gwirfoddol dros ein pechodau ni. † Mae yn debyg fod agwedd dawel, sefydlog, a mawryddig, ar wynebpryd Iesu yn y dystawrwydd hyn; gwahanol iawn i ddrwg-weithredwyr euog yn gyffredin: ac mae yn debyg hefyd, bod Pilat yn credu ei fod yn ddiniwed, am hyny yr oedd yn rhyfeddu nad atebai drosto ei hun, i amddiffyn ei gam: a rhyfedd oedd ar ryw olwg.

15 * Ac ar yr [z] wyl *honno* yr arferai y rhaglaw ollwng yn rhydd i'r bobl un carcharor, yr hwn a fynnent.

z pen. 26. 5. Marc 15. 6, 8. Luc 23. 16, 17. Ioan 18. 38, 39. Act. 24. 27. a 25. 9.

16 Ac yna yr oedd ganddynt [a] † garcharor hynod, a elwid Barabbas.

a Marc 15. 7. Luc 23. 18, 19, 25. Ioan 18. 40. Act. 3. 14. Rhuf. 1. 32.

17 Wedi iddynt gan hynny ymgasglu ynghyd, Pilat a ddywedodd wrthynt, [b] ‡ Pa un a fynnwch i mi ei ollwng yn rhydd i chwi? Barabbas, [c] ai yr Iesu, yr hwn a elwir Crist?

b adn. 21. Jos. 24. 15. 1 Bren. 18. 21. c adn. 22. Marc 15. 9—12. Ioan 19. 15.

18 Canys efe [d] a wyddai mai o genfigen y traddodasent ef.

d Gen. 37. 11. 1 Sam. 18. 7—11. Salm 106. 16. Diar. 27. 4. Preg. 4. 4. Es. 26. 11. Marc 15. 10. Act. 5. 17. a 7. 9. a 13. 45. Iago 4. 5.

* Tybia rhai mai hen arferiad Iuddewig oedd rhoi gollyngdod i ryw un carcharor ar ŵyl y pasg, er anrhydedd i'r ŵyl hòno, ac er cof am waredigaeth Israel o gaethiwed yr Aipht. Ond dywed eraill, nad oes dim hanes am y cyfryw arferiad yn mhlith yr Iuddewon eu hunain; ond mai y llywodraethwyr Rhufeinig a'i dechreuodd, yn unig er mwyn boddâu yr Iuddewon ac ennill parch a phoblogrwydd yn eu plith. † Gwel fwy o hanes y dyn drwg hwn yn Marc 15. 7; Luc 23. 19; Ioan 18. 40: ond er bod hwn yn ddrwg, a'r Iesu yn berffaith ddiniwed, hwn a ryddâwyd, a'r Iesu a groeshoeliwyd: yn hyn gwadodd yr Iuddewon y Sanct a'r Cyfiawn, a deisyfiasant roddi iddynt wr llofruddiog: adn. 26. Act. 3. 14. Gan fod Pilat yn credu, fel y dywedwyd uchod, mai diniwed oedd Iesu, ac mai o genfigen y traddodasid ef; cymmerodd fantais ar y ddefod hon gynnyg ei ollwng ef yn rhydd, ond ni thyciodd.

19 ¶ * Ac efe yn eistedd ar yr orseddfaingc, [e] ei wraig a ddanfonodd atto, gan ddy-

edyd, Na fydded i ti a wnelych â'r [f] cyfiawn
nnw: canys goddefais lawer heddyw mewn
euddwyd o'i achos ef.
e Gen. 20. 3—6. a 31. 24, 29. Job 33. 14—17. Diar. 29. 1.
in. 4, 24. Zec. 9. 9. Luc 23. 41, 47. 1 Ioan 2. 1.

20 † A'r arch-offeiriaid a'r henuriaid [g] a
rswadiasant y bobl, [h] fel y gofynent Barab-
s, ac y difethent yr Iesu.
g Marc 15. 11. Act. 14. 18, 19. a 19. 23—29. h Luc 23. 18
0. Ioan 18. 40. a 19. 15, 16. Act. 3. 14, 15.

Tra yr oedd Pilat fel hyn yn ceisio achub yr Iesu,
na genadwri ddifrifol yn dyfod ar frys oddi wrth ei
ig ato, i'w gadarnâu ef yn yr ymgais hyny. Dyodd-
sai ei wraig lawer mewn breuddwyd, wedi iddo ef
odi a'i gadael, yn achos y Cyfiawn hwnw. Breu-
wydiodd mae yn debyg mai cyfiawn oedd efe; a
uddwydiodd efallai hefyd am ryw farn ddychrynllyd
ldeuai ar Pilat a'i holl deulu os condemniai efe y
iawn hwnw. Os gwir yr hanes am ddiwedd Pilat a
hau, daeth y breuddwyd i ben yn rhy wir. Ei henw
ld *Claudia Procula* meddant, a sylwa un gwr dysged-
(Grotius) fod y crybwylliad hwn am wraig Pilat yn
li allan amser croeshoeliad Crist, ac yn brawf dyg-
ddiadol o gywirdeb hanes yr Efengylwr; oblegid yn
eyrnasiad *Tiberius Cesar* yn unig, y caniatêid i
gedd y rhaglawiaid fyned gyda'u gwŷr, i'r taleithiau
y danfonid hwy yn rhaglawiaid. Y Tiberius hwnw
wygid, oedd yn amherawdwr Rhufain pan groeshoel-
d Crist: gwel Luc 3. 1. † Hawdd oedd i'r arch-
eiriaid a'r henuriaid berswadio torf o bobl annwybod-
ïi'w pleidio, er eu bod ychydig ddyddiau o'r blaen yn
eddio Hosanna i Fab Dafydd: yn enwedig gan nad
ld fawr o argoel yn awr iddo eu gwared hwy oddi
h y Rhufeiniaid.

21 A'r rhaglaw a attebodd ac a ddywedodd
thynt, * Pa un o'r ddau a fynnwch i mi ei
wng yn rhydd i chwi? † Hwythau a ddy-
ddasant, Barabbas.

22 Pilat a ddywedodd wrthynt, [i] Pa beth
n hynny a wnaf i'r Iesu, yr hwn a elwir
iist? Hwythau oll a ddywedasant wrtho,
oes-hoelier ef.
i i adn. 17. Job 31. 31. Salm 22. 8, 9. Es. 49. 7. a 53. 2, 3. Zec.
3. Marc 14. 55. a 15. 12—14. Luc 23. 20—24. Ioan 19. 14, 15.
13. 28.

23 A'r rhaglaw a ddywedodd, [k] Ond pa
rwg a wnaeth efe? [l] ‡ Hwythau a lefasant
fwy, gan ddywedyd, Croes-hoelier ef.
k Gen. 37. 18, 19. 1 Sam. 19. 3—15. a 20. 31—33. a 22. 14—
l Act. 7. 57. a 17. 5—7. a 21. 28—31. a 22. 22, 23. a 23. 10,
-15.

Yr oedd ar law y bobl ddewis pa garcharor a ollyng-
yn rhydd iddynt, ac yma mae Pilat yn gofyn iddynt
ail waith pa un a fynent: gan ewyllysio yn ddiam-
u o hyd achub yr Iesu. † Yn newisiad y bobl,
elwn wirionedd geiriau Pedr, Act. 3. 14, "Eithr chwi
wadasoch y Sanct, a'r Cyfiawn, ac a ddeisyfiasoch
di i chwi wr llofruddiog." ‡ Po mwyaf yr oedd Pilat
achub yr Iesu, mwyaf i gyd yr oeddynt hwythau am
groeshoelio ef; er methu profi yr un bai yn ei erbyn.

24 ¶ * A Philat, pan welodd nad oedd
n yn tycio, ond yn hytrach bod cynnwrf,
gymmerth ddwfr, [m] ac a olchodd *ei* ddwy-
y ger bron y bobl, gan ddywedyd, Dieuog
wyf fi oddi wrth waed y [n] cyfiawn hwn:
rychwch chwi.
m Deut. 21. 6, 7. Job 9. 30, 31. Salm 26. 6. Jer. 2. 27, 35.
in. 4, 19, 54. Ioan 19. 4. Act. 3. 14. 2 Cor. 5. 21. 1 Pedr 3. 18.

25 ‡ A'r holl bobl a attebodd ac a ddywed-
d, [o] *Bydded* ei waed ef arnom ni, [p] ac ar ein
nt.
o pen. 23. 30—37. Num. 35. 33. Deut. 19. 10, 13. Jos. 2. 19.
2 Sam. 3. 28, 29. 2 Bren. 24. 3, 4. Salm 109. 12—19. Ezec. 22.
2—4. a 24. 7—9. Act. 5. 28. a 7. 52. 1 Thes. 2. 15, 16. Heb. 10.
28—30. p Ex. 20. 5. Ezec. 18. 14, &c.

26 ¶ Yna [q] y gollyngodd efe Barabbas yn
rhydd iddynt: ‖ ond [r] yr Iesu a fflangellodd
efe, ac a'*i* rhoddes i'*w* groes-hoelio.
q Marc 15. 15. Luc 23. 25. r pen. 20. 19. Es. 50. 6. a 53.
5. Marc 10. 34. Luc 18. 32, 33. Ioan 19. 1. 1 Pedr 2. 24.

* Buasai condemnio Iuddew i'w groeshoelio, yn debyg o godi gwrthryfel yn y rhan fwyaf o amgylchiadau; ond yma yr oedd peidio a chroeshoelio yr Iesu yn debyg o godi gwrthryfel. Yr oedd Pilat a'i Raglawiaeth yn gas gan yr Iuddewon eisoes; ac yn awr yr oedd yn ofni rhag y buasent yn achwyn arno ger bron Cesar, am beidio rhoddi un i farwolaeth ag oedd, ebent hwy, yn hòni hawl i'r orsedd. † Defod Iuddewig oedd golchi dwylo i ymddiheuraw oddiwrth waed, Deut. 21, 6, 7, a thybir ei bod yn ddefod yn mysg y cenedloedd hefyd. Ond yma nid oedd ond diles iawn i Pilat; nid oedd yr un bai yn Iesu, a phe buasai, nid oedd yr un wedi ei brofi, am hyn yr oedd efe yn euog o'i waed ef. Ni bu erioed y fath anghysondeb, condemnio y cyfiawn, ac wrth wneyd hyny, tystiolaethu mai cyfiawn oedd. ‡ Rhoddodd Pilat rybudd teg i'r Iuddewon, ond dychrynllyd oedd eu hatteb hwy i'r rhybudd hwnw, a daeth arnynt hwy a'u plant yr hyn a erfyniasant hyd yr eithaf. Ar wyl y pasg y rhoddasent hwy Grist i farwolaeth; ac ar wyl y pasg y cauodd Titus arnynt hwythau o fewn muriau Jerusalem. Gwrthod y gwir Grist oedd eu pechod; a chanlyn gau-gristiau i'w dinystr fu eu cosp. Prynasant Iesu fel caeth-was; gwerthwyd hwythau wedi hyny fel caethion am y pris iselaf. Rhoddasant Iesu i farwolaeth rhag i'r Rhufeiniaid eu dyfetha hwy a'u dinas; a daeth y Rhufeiniaid gan eu dyfetha hwynt a'u dinas. Yr oeddynt yn awyddus iawn am i Iesu gael ei groeshoelio; croeshoeliwyd nifer aneirif o honynt hwythau wedi hyny: ïe y fath liaws, medd *Josephus*, hyd nad oedd dim coed i'w cael i wneyd croesau, na lle i osod y croesau i fynu! Ac er bod weithian agos i ddeunaw cant o flynyddoedd er pan ddywedasant y geiriau "Bydded ei waed ef arnom ni ac ar ein plant," mae y farn yn aros yn drom ar yr holl genedl y dydd heddyw; gan ddirmyg dynion, a thàn ddigofaint Duw. ‖ Sylwir ar fflangellu Crist eto, pan ddelom at Marc 15. 15, neu Ioan 19. 1.

27 * Yna milwyr y rhaglaw a gymmerasant yr Iesu i'r dadleudŷ, ac a gynnullasant atto yr holl [s] fyddin.
s Ioan 18. 3. Act. 10. 1. a 27. 1.

28 † A hwy [t] a'i dïosgasant ef, ac a roisant am dano fantell o ysgarlad.
t Marc 15. 17. Luc 23. 11. Ioan 19. 2—5.

29 ¶ A chwedi iddynt [u] blethu coron o ddrain, hwy a'*i* gosodasant ar ei ben ef, a chorsen yn ei law ddehau; ac a blygasant eu gliniau ger ei fron ef, ac a'i gwatwarasant, gan ddywedyd, [x] Henffych well, brenhin yr Iuddewon.
u pen. 20. 19. Salm 35. 15, 16. a 69. 7, 19, 20. Es. 49. 7. a 53.
3. Jer. 20. 7. Heb. 12. 2, 3. x adn. 37. pen. 26. 49. Marc 15. 18.
Luc 23. 36, 37. Ioan 19. 3.

30 A [y] hwy a boerasant arno, ac a gymmerasant y gorsen, ac a'i tarawsant ar ei ben.
y pen. 26. 67. Job 30. 8—10. Es. 50. 6. a 52. 14. Mica 5. 1.
Marc 15. 19. Luc 18. 32, 33.

31 Ac wedi iddynt ei watwar, ‡ hwy a'i dïosgasant ef o'r fantell, ac a'i gwisgasant â'i ddillad ei hun, [z] ‖ ac a'i dygasant ef ymaith i'w groes-hoelio.
z pen. 20. 19. a 21. 39. Es. 53. 7. Ioan 19. 16, 27.

* Gan mai fel un yn hòni ei hun yn frenin yr Iuddewon (er na phrofwyd hyny,) y condemniwyd yr Iesu, traddodwyd ef i'r milwyr Rhufeinig, fel teyrndroseddwr yn erbyn ymherodraeth Rhufain. † Mae y fantell ysgarlad, y goron ddrain, a'r gorsen, yn arwyddo gwisg freninol, coron freninol, a theyrn-wïalen; a'r cwbl

yn cael ei wneyd er gwatwar Iesu fel brenin yr Iuddewon: yr hyn a ddangosir yn eglur yn mhlygu y gliniau ger ei fron, ei watwar, poeri yn ei wyneb, ei daro ar ei ben, a'i ddiosg yn y diwedd. *Akanthon* yw y gair am *ddrain* yn y fàn hon, tybia rhai mai llysiau meddal, ystwyth, ac heb bigau oeddynt, ac mai dirmygu yn fwy na phoeni Crist, oedd amcan y milwyr uchod; ond tybia eraill mai math o ddrain pigog iawn oeddynt, ac yn boenus iawn pan eu rhoid yn goron blethedig ar ben y Cyfryngwr. ‡ Yr oedd y diosg hyn hefyd yn arwyddo eu bod hwy yn ei ddifeddiannu ef o bob awdurdod freninol. ‖ Y dull o groeshoelio oedd fel hyn:—Gosodid y groes i orwedd ar y ddaear, a gosodid y dyn annedwydd i orwedd arni: yna hoelid ei ddwylaw ar eu llawn estyniad wrth y trawsbren, a'r un modd y ddau droed wrth y darn syth. Ar ol ei hoelio felly, cyfodid y groes i fynu, a gollyngid hi mewn twll yn y ddaear, a hyny gydag ysgytiad, neu ergyd, a fyddai yn aml yn dadgymmalu yr esgyrn, gan fod holl bwysau y corph yn grogedig wrth yr hoelion oedd trwy y dwylaw a'r traed. Dyma'r farwolaeth ddychrynllyd a ddyoddefodd yr Iesu bendigedig, ein Machnïydd ni, yr hwn ei hun a ddug ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren. O Iuddewon creulawn! O Iesu anwyl! O echrysder pechod! Ac O drefn ryfedd iachawdwriaeth dyn colledig!!!

32 * Ac [a] fel yr oeddynt yn myned allan, [b] † hwy a gawsant ddyn o [c] Cyrene, a'i enw Simon; ‡ hwn a gymmellasant i ddwyn ei groes ef.

a Lef. 4. 3, 12, 21. Num. 15. 35, 36. 1 Bren. 21. 10, 13. Act. 7. 58. Heb. 13. 11, 12. b pen. 16. 24. Marc 15. 21. Luc 23. 26. c Act. 2. 10. a 6. 9. a 11. 20. a 13. 1.

33 ‖ A phan ddaethant i le a elwid [d] Golgotha, yr hwn a elwir, lle y benglog,

d Marc 15. 22. Luc 23. 27—33. Ioan 19. 17.

34 § Hwy [e] a roisant iddo i'w yfed, finegr yn gymmysgedig â bustl: ac wedi iddo *ei* brofi, ni fynnodd efe yfed.

e adn. 48. Salm 69. 21. Marc 15. 23. Ioan 19. 28—30.

* Allan o ddinas Jerusalem a feddylir yma, i'r bryn a elwid Calfaria; ac yr oedd hyn yn cyfateb i'r hyn a ddywed yr apostol yn Heb. 13. 11, 12, am yr aberthau cysgodol y tu allan i'r gwersyll, ac am ddyoddefaint Crist y tu allan i'r porth. † Efallai iddynt dybied bod y Simon hwn yn un o ganlynwyr Iesu. Dywedir mai gwlad yn Affrica oedd Cyrene o du y gorllewin i'r Aipht. ‡ Dywed Ioan i Iesu ddwyn ei groes ei hun, a dywed Luc i Simon ei dwyn ar ei ol ef, ac yr oedd pob un o'r dywediadau hyn yn wir. Yr oedd yn arferiad peri i'r drwg-weithredwr ddwyn ei groes; ond y darn croes o honi, medd rhai, a rhywun arall i ddwyn y darn syth: felly yma, gallasai Iesu ddwyn y draws-lath, a Simon y darn arall ar ei ol. Tybia eraill i Iesu orfod ei dwyn oll hyd onid aeth allan o Jerusalem, a Simon oddi yno i ben y bryn. A thybia eraill fod Iesu dàn un pen iddi, a Simon dàn y pen arall ar ei ol. Pa fodd bynag y bu, mae yn ddïammau fod Iesu yn wàn ac yn llesg i'w dwyn, wedi yr holl driniaeth galed a gawsai, a'i elynion mewn brys mawr i'w osod i farwolaeth. ‖ Golgotha, yn Hebraeg; *Cranion* yn y Groeg; Calvaria, yn y Lladin; lle'r benglog, yn Gymraeg: bryn, neu fynydd bychan y tu allan i Jerusalem, o du y gogledd orllewin iddi. Cafodd yr enw uchod medd rhai, o herwydd ei fod ar lun penglog: ond medd eraill, o herwydd mai yma y dïenyddid ac y cleddid drwg-weithredwyr, esgyrn a phenglogau pa rai oedd yn aml yn noethion ar hyd y mynydd. Lle aflan a melldigedig y cyfrifid ef, ac yma y dyoddefodd ein Harglwydd ni. § Gwin myrllyd a ddywed Marc 15. 23. Byddid yn arfer, o dosturi tuag at y dyoddefwyr, rhoddi iddynt ryw ddïod gymmysgedig i'w hyfed, er marweiddio eu teimladau, ac felly ysgafnâu eu poenau. Tebygir i rai o'r gwragedd tosturiol a ganlynasent yr Iesu, gynnyg rhyw gymmysglyn felly iddo ef; ond ni fynnai efe ei brofi: yr oedd yn foddlawn i ddyoddef yr holl boen, heb arfer yr un ddyfais i'w leiâu. Tybia hefyd i'r milwyr, neu rai o'i elynion, roddi gwinegr bustl iddo wedi hyny, er gwatwar a dirmyg arno, he feddwl nemawr, eu bod yn cyflawni hen brophwydoliaeth wrth wneuthur hyny, Salm 69. 21. Nis gellir cysoni Mathew a Marc, heb dybied y ddau beth uchod. *Cal* (Bustl,) a arwydda unrhyw beth *eithaf* chwerw.

35 * Ac [f] wedi iddynt ei groeshoelio e hwy a [g] rannasant ei ddillad, gan fwrw coelbren; [h] er cyflawni y peth a ddywedwyd trwy y pro phwyd, Hwy a rannasant fy nillad yn eu plith ac ar fy ngwisg y bwriasant goelbren.

f Salm 22. 16. Ioan 20. 20, 25, 27. Act. 4. 10. g Marc 1 24. Luc 23. 34. Ioan 19. 23, 24. h Salm 22. 18.

36 † A [i] chan eistedd, hwy a'i gwyliasan ef yno:

i adn. 54. Marc 15. 39, 44.

37 ‡ A gosodasant hefyd uwch ei ben e [k] ei achos yn ysgrifenedig, HWN YW IESU BRENHIN YR IUDDEWON.

k Marc 15. 26. Luc 23. 38. Ioan 19. 19—22.

38 ‖ Yna [l] y croes-hoeliwyd gyd âg ef dda leidr; un ar y llaw ddehau, ac un ar yr aswy.

l adn. 44. Es. 53. 12. Marc 15. 27, 28. Luc 22. 37. a 23. 32, 33 39—43. Ioan 19. 18, 31—35.

* Mae yn debyg mai rhan y dïenyddwyr oedd dilla y drwg-weithredwyr, yno fel yn y wlad hon: ac wrt ranu dillad Iesu, yr oeddynt yn ddïarwybod iddynt e hunain, yn cyflawni prophwydoliaeth arall o'r ysgrythy Salm 22. 18. Dihatrwyd ef, i'n gwisgo ni â chyfiawnde tragywyddol. † Gwyliasant ef rhag i rai o'r bobl dos turio wrth ei boenau a'i ryddâu ef. ‡ Mewn amgylchiad au nodedig, byddid yn arfer rhoddi achos dïenyddia drwg-weithredwyr yn ysgrifenedig uwch eu penau ar groes. Cawn sylwi yn fanylach ar hyn eto pan ddelon at Ioan 19. 19—22. ‖ Barabbas a ddylasai fod gyda ddau leidr hyn, ac nid yr Iesu. Amcan ei elynion wrt ei osod ef yn y canol, yn ddïau oedd, ei ddirmygu; a ddangos i bawb fel y mwyaf ysgeler o'r tri: ond yr oed gan Dduw amcan arall; cyflawni y brophwydoliaet sydd yn dywedyd, *Ac efe a gyfrifwyd gyda'r troseddwyr* Esaiah 53. 12.

39 ¶ * A'r rhai oedd yn myned heibi [m] a'i cablasant ef, gan ysgwyd eu pennau,

m Salm 22. 6, 7, 17. a 31. 11—13. a 35. 15—21. a 69. 7—12 20. a 109. 2, 25. Galar. 1. 12. a 2. 15—17. Marc 15. 29, 30. Luc 23 35—39. 1 Pedr 2. 22—24.

40 A [n] dywedyd, Ti [o] yr hwn a ddinystri deml, ac a'*i* hadeiledi mewn tridiau, gwared dy hun. [p] Os ti yw Mab Duw, [q] disgyn oddi a y groes.

n Gen. 37. 19, 20. Dat. 11. 10. o pen. 26. 61. Luc 14. 29 30. Ioan 2. 19—22. p adn. 54. pen. 4. 3, 4. a 26. 63, 64. q pen 16. 4. Luc 16. 31.

41 † A'r un modd [r] yr arch-offeiriaid hefyd gan watwar, gyd â'r ysgrifenyddion a'r henur iaid a ddywedasant,

r Salm 22. 12, 13. Es. 49. 7. Zec. 11. 8. Marc 15. 31, 32. Lu 22. 52. a 23. 35.

42 Efe [s] a waredodd eraill, ei hunan nis gal efe ei waredu. Os [t] Brenhin Israel yw, dis gyned yr awrhon oddi ar y groes, a ni a gred wn iddo.

s Ioan 9. 24. a 40. 47. Act. 4. 14. t adn. 37. pen. 2. 2. Lu 19. 38. Ioan 1. 49.

43 [u] Ymddiriedodd yn Nuw; gwareded ef ef yr awrhon, os efe a'i mỳn ef: canys efe ddywedodd, [x] Mab Duw ydwyf.

u Salm 3. 2. a 14. 6. a 22. 8. a 42. 10. Es. 36. 15, 18. a 37. 10 x adn. 40. Ioan 3. 16, 17. a 5. 17—25. a 10. 30, 36. a 19. 7.

44 ‡ A'r [y] un peth hefyd a edliwiodd lladron iddo, y rhai a groeshoeliasid gyd âg ef

y adn. 38. Job 30. 7—9. Salm 35. 15. Marc 15. 32. Luc 23. 4, 40.

Mae yn debygol nad oes yn holl hanesiaeth y byd, dim hanes am unrhyw berson, yn dyoddef dàn arteith-u marwolaeth greulawn, ac yn cael ei drin gyda'r fath ïystyrwch, dirmyg a gwatwar, gan bob graddau ac iddau o ddynion, ac hyd yn nod gan un, o leiaf, o'i d-ddyoddefwyr. Mab Duw yn unig oedd i ddyoddef l hyn; ac mae hyn yn brawf, tu hwnt i bob peth arall, elyniaeth atgas a gwenwynig dyn, tuag at ddelw nctaidd, gwirionedd, a deddf ei Grëawdwr: ac yn igon i ddarostwng holl feddyliau beilchion dynion ddfol, y rhai sydd yn gwybod mwy am bob peth, nac n Dduw, ac am danynt eu hunain. * Y werin annwy-dus, a'r rhai oedd yn myned heibio, a'i cablent yn ei enau, gan ysgwyd eu penau: gwatwarent ei ddwyfol boliaeth ef, edliwient iddo yr hyn a ddywedasai am inystrio y deml, a dywedent yn ddirmygus wrtho am waredu ei hun. † Yr un modd hefyd yr arch-offeir-did, yr ysgrifenyddion, a henuriaid y bobl, gan anghof-eu hurddas a'u sefyllfâoedd anrhydeddus, a'i gwatwar-t yn greulawn. Edliwient iddo hyd yn nod ei rthiau daionus, a haerent yn ddirmygus nas gallai ei redu ei hun: a gwawdient ef fel Brenin Israel. Dy-dent y credent iddo pe disgynai oddi ar y groes, er chredasant wedi iddo godi o'r bedd, yr hyn oedd feddach na phe disgynasai oddi ar y groes. Gwawd-nt hwythau ef fel Mab Duw, a Messiah; a gwawdient ymddiried yn Nuw: gan ddywedyd yn rhyfygus a nableddus wrth Dduw ei hun am ei waredu ef yr awr no, os efe a'i mynai ef. ‡ Tybia rhai i'r ddau leidr y cyntaf ei gablu, ond i un o'r ddau gael ei droi a'i hub wedi hyny. Tybia eraill mai trawsddefnyddiad fif sydd yma yn unig, y lliosog yn lle yr unigol.

45 * Ac [z] o'r chweched awr y bu [a] † ty-yllwch ar yr holl ddaear hyd y nawfed awr.

z Marc 15. 25, 33, 34. Luc 23. 44, 45. a Es. 50. 3. Amos 8. 9. Dat. 8. 12. a 9. 2.

46 ‡ Ac y'nghylch y nawfed awr [b] y llefodd Iesu â llef uchel, ‖ gan ddywedyd, [c] Eli, Eli, lama sabachthani? hynny yw, Fy Nuw, y Nuw, paham y'm gadewaist?

b Marc 15. 34. Luc 23. 46. Ioan 19. 28—30. Heb. 5. 7. Salm 22. 1. a 71. 11.

47 § A rhai o'r sawl oedd yn sefyll yno, an glywsant, a ddywedasant, [d] Y mae hwn yn alw am Elias.

d pen. 11. 14. Mal. 4. 5. Marc 15. 35, 36.

48 * Ac yn y fan un o honynt a redodd, ac ggymmerth yspwng, [e] ac a'*i* llanwodd o finegr, a'*i* rhoddodd ar gorsen, ac a'i diodod ef.

e adn. 34. Salm 69. 21. Luc 23. 36. Ioan 19. 29, 30.

49 † A'r lleill a ddywedasant, Paid, [f] e-rychwn a ddaw Elias i'w waredu ef.

f adn. 43.

50 ¶ ‡ A'r Iesu, [g] wedi llefain drachefn â ef uchel, [h] a ymadawodd â'r yspryd.

g Marc 15. 37. Luc 23. 46. Ioan 19. 30. h pen. 20. 28. Salm 22. 14, 15. Es. 53. 9—12. Dan. 9. 26. Ioan 10. 11, 15. Heb. 9. 14. a 9. 14.

* Cawn sylwi ar yr amser yr hoeliwyd Iesu ar y groes yn ddelom i gysoni Marc 15. 25. a Ioan 19. 14. † Mae yn neu dri o bethau yn profi mai nid tywyllwch o rwydd diffyg naturiol ar yr haul oedd hwn:—1. Yr dd yn llawn lleuad yr amser hwnw, gan hyny nis gall-ai fod diffyg naturiol ar yr haul. 2. Parâodd y tywyll-ch hwn dair awr; ac nid oes un diffyg naturiol ar yr ul yn parâu cyhyd â hyny: o leiaf i beri tywyllwch llawl fel hwnw. 3. Mae y tri Efengylwr, Mathew, Marc, a Luc, yn dywedyd ei fod ar yr holl ddaear; a pha a bynag a ydyw y geiriau yn arwyddo yr holl fyd ai idio, diammau fod y tywyllwch hwn yn helaethach ei rhaeddiad na diffyg naturiol ar yr haul. Eto, os nad dd yn cyrhaedd ond dros derfynau gwlad Judea yn unig, yr oedd fel hyny yn fwy rhyfedd; gan fod y wlad hòno yn dywyllwch, a holl ranau eraill y byd yn oleu. Gellir ystyried y tywyllwch hwn yn arwyddol o dywyll-wch moesol, annwybodaeth, a drygioni yr Iuddewon, a'r byd oll yn wir; yn arwyddol o ing a dyoddefiadau Iesu; yn arwyddol o guddiad wyneb a gwg Duw arno, efallai; ac yn arwydd diammheuol o anfoddlonrwydd Duw ar yr Iuddewon am y weithred ofnadwy o groeshoelio ei Fab. ‡ Y nawfed awr oedd tri o'r gloch yn y prydnawn: yr oedd Iesu y pryd hwn mewn dirfawr boen yn ei gorph, ac yn enwedig yn ei enaid; ac yn agos iawn a gorphen ei holl ddyoddefiadau mawrion. ‖ Hebraeg yw y geir-iau nodedig hyn, ond y mae Marc yn eu hadrodd ychydig bach yn wahanol; Eloï, yn lle Eli, yn ol y lledaith Syriaidd o'r iaith, yr hyn oedd arferedig iawn yn y dyddiau hyny. Llefarodd Dafydd y geiriau hyn, neu yn debyg iddynt, yn Salm 22. 1, a diammau iddo eu llefaru yn brophwydol am Grist, fel y mae hefyd yr holl Salm hòno. Nid oes neb ond Iesu ei hun a all ddywedyd, beth oedd yn y "Gadael" hwn: tybia rhai iddo guddio llewyrch ei wyneb yn *hollawl* oddi wrtho *(Scott;)* tybia eraill fod hyny yn anmhosibl *(Pool.)* Mae yn sicr iddo wneyd hyny i raddau annhraethol ac anamgyffredadwy i ni. Felly mae y gair yn arwyddo, cuddiad o wyneb y Tad, teimlad ofnadwy o'i ŵg a'i sorriant am bechodau yr eglwys, a rhoddi Crist i fynu i ddwylo ei elynion, dynion, a galluoedd y tywyllwch. Yr oedd hyn yn fwy poenus ac ofnadwy i'r Cyfryngwr sanctaidd, na'i holl ddyoddefiadau eraill i gyd; ond yr oedd hyn yn angenrheidiol, oblegid heb hyn ni buasai ei ddyoddefaint yn gyflawn, ac heb hyn ni buasai y Tad yn dangos ei anfoddlonrwydd a'i sorriant at bechod. Gallwn sylwi yma hefyd, bod Iesu yn arddelwi perthyn-as â'r Tad ac yn ymddiried ynddo, yn eigion ei holl ddyoddefiadau mwyaf. Gwyddai mai Mab Duw ydoedd, ac mai machnïydd ei bobl ydoedd. Gwyddai nad oedd dim pechod ynddo ei hun, ac y gwnai iawn dros bech-odau ei bobl. § Rhai na chlywsant yn eglur beth a ddywedasai; neu yr Iuddewon Groegaidd nad oeddynt yn deall yr iaith yn dda; neu ynte i'r dyben o'i wawdio ef, y dywedwyd fel hyn: fel pe dywedasent, Mae hwn wedi bod yn ei hòni ei hun yn Fab Duw, ac yn awr mae Duw wedi ei adael, a byddai yn dda ganddo pe deuai Elias i'w waredu ef. * Dyma'r amser, mae yn debyg, y dywedodd yr Iesu "Y mae syched arnaf," Ioan 19. 28. Gwinegr a dwfr yn gymmysgedig oedd diod y milwyr Rhufeinig, ac nid oedd dim gwell i'w gynnyg i'r Iesu yn ei boenau mawrion. † Pa un ai o ddirmyg arno ai o dosturi, y rhoddwyd y gwinegr iddo, nis gwyddom; ond mae yn amlwg mai mewn gwawd y dywedwyd y geiriau hyn. ‡ Pwy ond Iesu a glywyd yn llefain â llef uchel wrth farw? onid oedd hyn yn profi fod ei nerth ynddo? y gallasai fyw yn hwy?—ond yn awr yr oedd y gwaith wedi ei orphen, ac efe a *ymaduwodd* â'r ysbryd. Gwel Marc 15. 39.

51 * Ac wele, [i] llen y deml a rwygwyd yn ddau oddi fynu hyd i waered: [k] † a'r ddaear a grynodd, a'r meini a holltwyd:

i Ex. 26. 31—37. a 40. 21. Lef. 16. 2, 12—15. 2 Cron. 3. 14. Marc 15. 38. Luc 23. 45. Eph. 2. 13—18. Heb. 6. 19, 20. a 10. 19—22. k pen. 28. 2. Salm 18. 7, 15. Mica 1. 3, 4. Nah. 1. 3—5. Hab. 3. 10—13. Heb. 12. 25—27. Dat. 11. 13, 19.

52 ‡ A'r beddau a agorwyd; a [l] llawer o gyrph y saint a [m] hunasent a gyfodasant,

l Es. 26. 19. Hos. 13. 14. Ioan 5. 25—29. 1 Cor. 15. 20. m Dan. 12. 2. 1 Cor. 11. 30. a 15. 51. 1 Thes. 4. 14. a 5. 10.

53 Ac a ddaethant allan o'r beddau ar ol ei gyfodiad ef, ac a aethant i mewn i'r [n] ddinas sanctaidd, ac a ymddangosasant i lawer.

n pen. 4. 5. Neh. 11. 1. Es. 48. 2. Dan. 9. 24. Dat. 11. 2. a 21. 2. a 22. 19.

* Am wneuthuriad a gwasanaeth llèn y deml gwel y cyfeiriadau. Dywedir ei bod o ddefnyddiau gwerthfawr a chryfion iawn, a diammau mai peth gwyrthiol a gor-uwch-naturiol oedd ei rhwygiad, i ddangos bod yr hen

oruchwyliaeth yn awr ar ben; yr holl gysgodau wedi cael eu cyflawni; bod y ffordd i'r sancteiddiolaf wedi ei hagoryd; a'r gwahaniaeth rhwng Iuddew a chenedl-ddyn wedi ei ddiddymu trwy aberth Iesu. Gan i hyn ddygwydd ar amser yr hwyr-aberth, rhaid bod amryw o'r offeiriaid, ac efallai Caiaphas ei hun, yn y deml pan ddygwyddodd; eto, gan gymmaint oedd eu dallineb, a chaledrwydd eu calonau, ni chredasant er gweled y fath arwydd rhyfeddol. † Ar yr un pryd ag y rhwygodd y llèn yn y deml, e grynodd y ddaear yn arswydus hefyd, a holltodd y creigiau mewn modd rhyfedd: nid ar hyd y gwythenau fel y buasai yn naturiol iddynt; ond ar draws eu gwythenau drwy y mànau cryfaf. Felly y tystiolaethodd amryw ddynion geirwir a deithiasant y ffordd hòno, ac a welsant yr holltau: ïe, mae genym hanes am un dyn, ag oedd yn gwadu yr ysgrythyrau bob amser, hyd onid aeth i'r wlad hòno, a gweled yr agenau yn y creigiau fel y dywedwyd uchod, bu hyny yn foddion i'w ddychwelyd, fel na bu yn anghredadyn mwy. ‡ Yn y daear-gryn hyn agorodd amryw feddau, ac ar ol adgyfodiad Iesu cyfododd amryw o gyrph y saint, ac ymddangosasant i lawer yn Jerusalem y ddinas sanctaidd. Tybia rhai mai rhai o saint enwocaf yr Hen Destament oeddynt, a bod y bobl yn eu hadnabod trwy ddatguddiad, fel yr adnabuwyd Moses ac Elias gan y dysgyblion ar y mynydd: ond tybia eraill mai rhai o'r saint diweddar oeddynt, megys Simeon, Zecharias, Ioan Fedyddiwr a'r cyfryw, y rhai a adwaenid yn eu bywyd gan lawer ag oedd yn fyw y pryd hwnw. Pa beth a ddaeth o'r saint hyn gwedi eu hymddangosiad nis gwyddom; y farn mwyaf cyffredin yw, mai esgyn i'r gogoniant a wnaethant gyda, neu ar ol yr Arglwydd Iesu, ond nid yn weledig i ddynion, pe amgen buasai sôn am hyny. Yr oedd yn olwg ryfedd os oedd y beddau hyn yn agored trwy gydol y Sabbath.

54 * Ond [o] y canwriad, a'r rhai oedd gyd âg ef yn gwylied yr Iesu, [p] wedi gweled y ddaear-gryn, a'r pethau a wnaethid, a [q] ofnasant yn fawr, gan ddywedyd, [r] † Yn wir Mab Duw ydoedd hwn.

o adn. 33. pen. 8. 5. Act. 10. 1. a 21. 32. a 23. 17, 23. a 27. 1, 43. p Marc 15. 39. Luc 23. 47. q 2 Bren. 1. 13, 14. Act. 2. 37. a 16. 29, 30. Dat. 11. 13. r adn. 40, 43. pen. 26. 63. Luc 22. 70. Ioan 19. 7. Rhuf. 1. 4.

55 ‡ Ac [s] yr oedd yno lawer o wragedd yn edrych o hirbell, y rhai a ganlynasent yr Iesu o Galilea, [t] gan weini iddo ef:

s Luc 23. 27, 28, 48, 49. Ioan 19. 25—27. t Luc 8. 3.

56 Ym mhlith y rhai yr oedd [u] Mair Magdalen, a [x] Mair mam [y] Iago a Joses, [z] a mam meibion Zebedëus.

u adn. 61. pen. 28. 1. Marc 15. 40, 41. a 16. 1, 9. Luc 24. 10. Ioan 20. 1, 18. x Marc 15. 47. a 16. 1. Ioan 19. 25. y pen. 13. 55. Marc 15. 40. a 16. 1. z pen. 20. 20, 21.

* Yn adnod 36 darllenwn am y milwyr yn gwylied yr Iesu: y Canwriad hwn oedd flaenor, neu gadben y milwyr hyny. Gwedi iddo ef a'r milwyr weled y rhyfeddodau aruthrol uchod, er mai paganiaid oeddynt, hwy a ofnasant yn fawr, pryd yr oedd blaenoriaid yr Iuddewon yn ddigon caled a digryn. Tybia rhai i rai o honynt gael eu gwir ddychwelyd y pryd hwn; ac efallai rai, neu bob un, o'r pedwar a groeshoeliasant yr Iesu, yn atebiad i'w weddi ef drostynt, Luc 23. 34. † Yn wir yr oedd hwn yn wr cyfiawn, medd Luc 23. 47. Efallai i'r canwriad ddywedyd pob un o'r ddau. Pa fodd bynag am hyny, geiriau Mathew sydd i egluro geiriau Luc, ac nid geiriau Luc i egluro geiriau Mathew, fel y ceisia y rhai a wadant Dduwdod Iesu daeru. Nid rhyw syniad paganaidd ychwaith, mai mab un o'r duwiau ydoedd Iesu, sydd yn y geiriau hyn; gwyddai y Canwriad mai am hòni ei hun yn wir Fab Duw yr oedd yr Iuddewon yn ei farnu ef. Athrist yw meddwl, fel y rhyfyga cyfeiliornwyr i gam-ddehongli yr ysgrythyrau er darostwng Mab Duw! ‡ Nid oes achos sylwi ar ddim yn mherthynas i'r gwragedd duwiol hyn, ond eu cariad at Iesu. Canlyn asent ef yr holl ffordd o Galilea; glynasant wrtho dr[illegible] ei holl ofidiau hyd y diwedd; a chafodd rhai o hony[illegible] y fraint o ddwyn y newydd cyntaf o'i adgyfodiad. [illegible] Ioan 19. 25, gwelwn fod Mair mam yr Iesu yno yn u[illegible] a thyma'r pryd yr aeth cleddyf trwy ei henaid hi, Lu[illegible] 2. 35.

57 ¶ Ac wedi ei myned hi yn hwyr, [a] daet[illegible] gwr goludog o [b] * Arimathea, a'i enw † Jo[illegible] eph, yr hwn a fuasai yntau yn ddisgybl i[illegible] Iesu:

a Marc 15. 42, 43. Luc 23. 50, 51. Ioan 19. 38—42. b 1 Sa[illegible] 1. 1. a 7. 17.

58 Hwn a aeth at Pilat, [c] ac a ofynod[illegible] gorph yr Iesu. Yna y gorchymynodd Pila[illegible] roddi y corph.

c Marc 15. 44—46. Luc 23. 52, 53.

59 ‡ A Joseph wedi cymmeryd y corph[illegible] a'i ‖ hamdöodd â llïan glân,

60 § Ac a'i gosododd ef [d] yn ei fèdd newyd[illegible] ei hun, yr hwn a dorrasai efe yn y graig; ac [illegible] dreiglodd [e] faen mawr wrth ddrws y bedd, ac [illegible] aeth ymaith.

d Es. 53. 9. e adn. 66. pen. 28. 2. Marc 16. 3, 4. Luc 2[illegible] 2. Ioan 20. 1.

61 Ac yr oedd yno [f] Mair Magdalen, [illegible] Mair arall, yn eistedd gyferbyn â'r bedd.

f adn. 56.

* Dywedir mai yr un â Ramah, dinas Samuel, oed[illegible] Arimathea: dywedir ei bod rhwng Lyda a Joppa, tu[illegible] 36 milltir i'r gorllewin o Jerusalem, ac mai Ramola yw ei henw presenol gan y Twrciaid. Ond dywed erail[illegible] mai yr un â Ramathaim Zophim, yn agos i Bethel ydoedd. Os felly yr oedd tua chwe milltir i'r gogledd o Jerusalem. † Er gochelyd meithder, cynghorwn y darllenydd i ddilyn y cyfeiriadau, fel y gwelo beth mae pob un o'r efengylwyr yn ddywedyd am y Joseph hwn tystiolaeth y pedwar yn nghyd sydd yn dangos yn gyf[illegible] lawn pa fath wr ydoedd. Ond swm y cwbl yw ei fod yn ddysgybl i'r Iesu: dyma'r fraint benaf ac anrhydedd mwyaf y gwr mawr hwn. ‡ Trwy hwn cafodd yr Iesu gladdedigaeth anrhydeddus; ac er ei gyfrif ef gyda'r troseddwyr, e gafodd ei osod gyda'r cyfoethog yn e farwolaeth, yn ol geiriau Esaiah 53. 9, 12. ‖ Dywedir y byddai y Dwyreinwyr yn amdôi, neu yn amrwymo cyrph meirw yn gywrain iawn, ac y cymmerai lawer o amser i'w dadrwymo. Pwy a ddadrwymodd gorph sanctaidd ein Harglwydd? Angelion efallai, a thybien eu swydd yn anrhydeddus iawn! Diammau mai trwy ryw weithrediad goruwch-naturiol y "gollyngwyd ef yn rhydd," Ioan 11. 44. § Ni ddodesid dyn erioed o'r blaen yn y bedd newydd hwn, gan hyny nid rhywun arall a gyfododd ond Iesu ei hun; a phe gallesid profi mai e ladrata a wnaed, diammau y buasid yn galw dyn mòn anrhydeddus a Joseph i gyfrif am y twyll, ond ni wnaed dim o'r cyfryw. Yr oedd yn angenrheidiol ei gladdu fel hyn gyda brys o herwydd bod y Sabbath Iuddewig ar ddechreu. Yn sicr pe byddai yn gyfreithlawn claddu neb ar y Sabbath, buasai yn gyfreithlawn claddu Iesu ar y dydd sanctaidd.

62 ¶ * A thrannoeth, yr hwn sydd ar ô [g] y darpar-wyl, [h] yr ymgynnullodd yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid at Pilat,

g pen. 26. 17. Marc 15. 42. Luc 23. 54—56. Ioan 19. 14, 42 h adn. 1, 2. Salm 2. 1—6. Act. 4. 27, 28.

63 Gan ddywedyd, Arglwydd, y mae yn gôf gennym [i] ddywedyd o'r twyllwr hwnnw, ac efe etto yn fyw, [k] † Wedi tridiau y cyfodaf.

i Luc 23. 2. Ioan 7. 12, 47. 2 Cor. 6. 8. k pen. 16. 21. 17. 23. a 20. 19. a 26. 61. Marc 8. 31. a 10. 34. Luc 9. 22. a 18 33. a 24. 6, 7. Ioan 2. 19.

64 ‡ Gorchymyn gan hynny gadw y bedd yn ddïogel hyd y trydydd dydd; rhag dyfod

ddisgyblion o hŷd nos, a'i ladratta ef, a dywedyd wrth y bobl, Efe a gyfododd o feirw: a bydd yr amryfusedd diweddaf yn waeth à'r cyntaf.

1 pen. 12. 45.

65 A dywedodd Pilat wrthynt, Y mae ennych wyliadwriaeth; ewch, [m] gwnewch mòr iliogel ag y medroch.

m pen. 28. 11—15. Salm 76. 10. Diar. 21. 30.

66 § A hwy a aethant ac a wnaethant y dd yn ddiogel, [n] ac a seliasant y maen, gyd r wyliadwriaeth.

n Dan. 6. 17. 2 Tim. 2. 19.

* Rhaid mai y Sabbath oedd y "trannoeth" hwn: yn r dyma'r bobl oedd yn beio ar y Cyfryngwr am ei ithredoedd o drugaredd ac angenrheidrwydd ar y dydd bbath, yn troseddu y Sabbath eu hunain yn ddiofn, wy osod dynion ar waith i sicrâu y bedd. † Dywedd yr Iesu amryw weithiau wrth ei ddysgyblion y fodai efe y trydydd dydd, ac mae yn debyg i hyny fyned wfodd i glustiau yr Arch-offeiriaid a'r Phariseaid, ac lynt hwy ddàl mwy ar y peth na'r dysgyblion eu main: diammau eu bod yn ofni yn ddirgelaidd, y fodai efe fel y dywedasai. ‡ Y peth oeddynt hwy yn riadu er diogelu y bedd, a fu yn foddion i wneyd gyfodiad Iesu yn fwy cyhoeddus, nodedig, a rhyfedd. Pe buasai y sel a'r gwylwyr heb gael eu gosod, llasent gyda mwy o debygolrwydd daeru mai ei ddysblion a'i lladratasant; ond cloff iawn oedd y chwedl awr. || Fel pe dywedasent, Yr oedd llawer yn cael hudo i gredu ynddo ac efe yn fyw; ac os clywant ei d wedi adgyfodi o feirw, e gred pawb yn y twyllwr. Tybir eu bod am rwystro per-arogli corph yr Iesu yn stal a rhwystro iddo adgyfodi. Wrth weled Joseph o rimathea a Nicodemus, dau wr pendefigaidd yn perthyn Sanhedrim, yn dangos cymmaint o barch i'w gorph tybiasant y buasai y ddau hyny yn mynu ei berogli ar ol y Sabbath; a buasai hyny yn warth mawr eu Senedd hwy.

PEN. XXVIII.

Adgyfodiad Crist, &c.

AC [a] yn niwedd y sabbath, a hi yn † dyddhâu i'r *dydd* cyntaf o'r wythnos, daeth ‡ Mair Magdalen, a'r Fair arall, i edrych y bedd.

a Marc 16. 1, 2. Luc 23. 56. a 24. 1, 22. Ioan 20. 1. b pen. 56, 61.

* Yn niwedd y Sabbath: neu wedi i'r Sabbath fyned rosodd; yr hyn oedd tua machlud haul yr hwyr o'r laen. Gwel Marc 16. 1. † "A hi yn dyddâu," medd Matthew. "Yn fore iawn—a'r haul wedi codi," medd Marc 16. 2. "Ar y cynddydd," medd Luc 24. 1. "Y bore, a hi eto yn dywyll," medd Ioan 20. 1. Rhaid i ni ddenderfynu bod yr efengylwyr, bob un o honynt, yn dyedyd y gwirionedd yn anffaeledig; eto, y mae peth *mddangosiad* o anghysondeb yn y gwahanol ddyddau uchod, y rhai a geisir eu cysoni fel hyn:—1. Tybir r gwragedd gychwyn oddi cartref a hi yn dywyll, ar y gnddydd, neu a hi *yn* dyddâu; ond bod yr haul wedi odi erbyn iddynt ddyfod at y bedd: ac felly bod y naill efengylwr yn sôn am eu cychwyniad, ac arall yn sôn am u dyfodiad at y bedd. 2. Tybia eraill iddynt ddyfod dwywaith at y bedd; y tro cyntaf a hi yn dywyll, ac ma dychwelyd; a dyfod yr ail waith a'r haul wedi codi: c yna bod y naill efengylwr yn crybwyll eu dyfodiad yntaf, ac arall eu hail ddyfodiad. 3. Tybia eraill i rai honynt ddyfod o flaen y lleill: y rhai cyntaf a hi yn ywyll, a'r lleill wedi i'r haul godi. ‡ Er mai dwy vraig a enwir yma, mae yn ddiammau bod ychwaneg na hyny: ac nid oes dim anhygoel nac annhebyg yn yr n o'r tri golygiad uchod.

2 * Ac wele, [c] bu daear-gryn mawr: [d] canys disgynodd angel yr Arglwydd o'r nef, ac a ddaeth ac a dreiglodd y maen oddiwrth y drws, ac a eisteddodd arno.

c pen. 27. 51—53. Act. 16. 26. Dat. 11. 19. d Marc 16. 3—5. Luc 24. 2—5. Ioan 20. 1, 12, 13. 1 Tim. 3. 16. 1 Pedr 1. 12.

3 A'i [e] wyneb-pryd oedd fel mellten, [f] a'i wisg yn wen fel eira.

e pen. 17. 2. Dan. 10. 5, 6. Dat. 10. 1. a 18. 1. f Marc 9. 3. a 16. 5. Act. 1. 10. Dat. 3. 4, 5.

4 † A rhag ei ofn ef [g] y crynodd [h] y ceidwaid, ac a aethant megis yn feirw.

g adn. 11. pen. 27. 65, 66. h Job 4. 14. Salm 48. 6. Dan 10. 7. Act. 9. 3—7. a 16. 29. Dat. 1. 17.

Er boreued oedd y gwragedd duwiol hyn, yr oeddynt yn rhy ddiweddar i gael Iesu yn y bedd: yr oedd wedi codi o'u blaen hwy. Gorweddodd yn ddigon hir i brofi ei fod wedi llwyr farw, a chododd yn ddigon buan fel na welodd lygredigaeth. * Tra yr oeddent hwy yn rhag-ofalu ar hyd y ffordd, pwy a dreiglai y maen ymaith iddynt, a chyn eu dyfod yn agos at y bedd; wele yr oedd pethau rhyfedd iawn wedi cymmeryd lle yno: bu daeargryn mawr, ac angel gogoneddus a ddisgynasai ac a dreiglasai y maen ymaith, a chyfodasai yr Iesu bendigedig fel buddugoliaethwr cadarn o afaelion angau, canys nid oedd bosibl ei atal ef ganddo. † Nid oes yma air o sôn pa hyd y bu y ceidwaid yn eu llewyg, nac i ba le y ffoisant wedi dyfod atynt eu hunain. Gwelsant yr angel er eu dychryn, ond mae yn debyg na welsant yr Iesu yn adgyfodi, nac wedi iddo ddyfod i fynu o'r bedd. Nid am fod achos y danfonwyd angelion (dau medd Ioan 20. 12.) i dreiglo ymaith y maen, gallasai yr Iesu wneyd hyny ei hun yn hawdd: ond yr oedd hyn yn angenrheidiol er anrhydedd i Fab Duw; er dangos ei fod yn dyfod o'r bedd yn gyfreithlawn, a thrwy fodd y Tad a'i ddeddf; ac fel y byddai angelion yn dystion o'i adgyfodiad ef. Efe a welwyd gan angelion, 1 Tim. 3. 16.

5 * A'r angel a attebodd ac a ddywedodd wrth y gwragedd, [i] Nac ofnwch: canys mi a wn mai [k] ceisio yr ydych yr Iesu, yr hwn a groeshoeliwyd.

i Es. 35. 4. a 41. 10, 14. Dan. 10. 12, 19. Marc 16. 6. Luc 1. 12, 13, 30. Dat. 1. 17, 18. k Salm 105. 3, 4. Luc 24. 5. Ioan 20. 13—15. Heb. 1. 14.

6 Nid yw efe yma: canys cyfododd, [l] megis y dywedodd. [m] † Deuwch, gwelwch y fan lle y gorweddodd yr Arglwydd.

l pen. 12. 40. a 16. 21. a 17. 9, 23. a 20. 19. a 26. 31, 32. a 27. 63. Marc 8. 31. Luc 24. 6—8, 23, 44. Ioan 2. 19. a 10. 17. m Marc 16. 6. Luc 24. 12. Ioan 20. 4—9.

7 ‡ Ac [n] ewch ar ffrwst, a dywedwch i'w ddisgyblion, gyfodi o honno o feirw. || Ac wele, [o] y mae efe yn myned o'ch blaen chwi i Galilea: yno y gwelwch ef. [p] Wele, dywedais i chwi.

n adn. 10. Marc 16. 7, 8, 10, 13. Luc 24. 9, 10, 22—24. Ioan 20. 17, 18. o adn. 16, 17. pen. 26. 32. Marc 14. 28. Ioan 21. 1, &c. 1 Cor. 15. 6. p pen. 24. 25. Es. 44. 8. a 45. 21. Ioan 14. 29. a 16. 4.

8 § Ac wedi eu myned ymaith ar frys oddi wrth y bedd, [q] gyd âg ofn a llawenydd mawr, rhedasant i fynegi i'w ddisgyblion ef.

q Ezra 3. 12, 13. Salm 2. 11. Marc 16. 8. Luc 24. 36—41. Ioan 16. 20, 22. a 20. 20, 21.

* Gwelwn yma fraint y rhai a geisiant yr Iesu rhagor ei elynion: dyma'r angel a fu yn ddychryn i'r ceidwaid, yn cysuro y gwragedd, ac yn peri iddynt beidio ag ofni, na byddai dim niwed iddynt hwy. † Mawr oedd ymostyngiad a thiriondeb yr angel gogoneddus hwn, yn cymmeryd y gwragedd crynedig megys erbyn eu dwylo, ac yn eu harwain i mewn i'r bedd, fel y caent weled â'u llygaid eu hunain nad oedd corph yr Iesu yno, ei fod wedi cyfodi. Mae yn werth sylwi hefyd fod yr

angel yn ei alw ef yn Arglwydd: mae efe yn Arglwydd angelion. ‡ Gan i chwi gael weithian ddigon o brawf ei fod ef wedi cyfodi, ni wiw i chwi aros yma yn hwy, nid yw y fàn yma ond fel daear gyffredin arall mwyach; mae eich dyledswydd yn eich galw chwi ffordd arall yn ddioed, Ewch ar ffrwst, a dywedwch i'w ddysgyblion. ‖ Yn pen. 26. 32, dywedodd yr Iesu yr âi efe o flaen ei ddysgyblion i Galilea ar ol ei adgyfodi; ac yn adn. 16, a 17. o'r bennod hon, ni a welwn mai felly y bu: ond cawn sylwi ar hyn eto. § Yr oedd y gwragedd wedi ofni wrth y pethau a welsent, a chwedi llawenychu wrth y pethau a glywsent: ac ar redeg, yn y teimladau cymmysg hyn, hwy a aethant i fynegi i'r dysgyblion.

9 ¶ * Ac [r] fel yr oeddynt yn myned i fynegi i'w ddisgyblion ef, wele, yr Iesu a gyfarfu â hwynt, gan ddywedyd, [s] † Henffych well. ‡ A hwy a ddaethant, [t] ac a ymafaelasant yn ei draed ef, ac [u] a'i haddolasant.

r Es. 64. 5. Marc 16. 9, 10. Ioan 20. 14—16. s Luc 1. 28. 2 Cor. 13. 11. t Can. 3. 3, 4. Luc 7. 38. Ioan 12. 3. a 20. 17. Dat. 3. 9. u adn. 17. pen. 14. 33. Luc 24. 52. Ioan 20. 28. Dat. 5. 11—14.

10 Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt, [x] Nac ofnwch: [y] § ewch, mynegwch [z] i'm brodyr, fel yr elont i Galilea, ac yno y'm gwelant i.

x adn. 5. pen. 14. 27. Luc 24. 36—38. Ioan 6. 20. y adn. 7. Barn 10. 16. Salm 103. 8—13. Marc 16. 7. z pen. 12. 48—50. a 25. 40, 45. Marc 3. 33—35. Ioan 20. 17. Rhuf. 8. 29. Heb. 2. 11—18.

* Gwelwn yma brofiad yr eglwys yn y Caniadau yn cael ei wirio: "Nid aethwn i nepell hyd oni chefais yr hwn sydd hoff gan fy enaid," Can. 3. 4. † Dywedir fod y gair gwreiddiol, *Cairete*, a gyfieithir yma "henffych well," yn arwyddo, Gorfoleddwch. Dyma dristwch ac ofn yn troi yn orfoledd yn fuan iawn. Mae golwg ar Iesu yn ddigon i wneyd hyny bob amser. ‡ Buan yr adnabuant ef, a chan gynted ag yr adnabuant, syrthiasant wrth ei draed i'w addoli. § Yr oedd gan y gwragedd hyn dri pheth i'w fynegi:—Tystiolaeth yr angel; gweled y bedd yn wag; gweled a theimlo yr Iesu wedi adgyfodi.

11 ¶ * Ac wedi eu myned hwy, wele, [a] rhai o'r wyliadwriaeth a ddaethant i'r ddinas, ac a fynegasant i'r arch-offeiriaid yr hyn oll a wnaethid.

a adn. 4. pen. 27. 65, 66.

12 † Ac [b] wedi iddynt ymgasglu ynghyd gyd â'r henuriaid, a chydymgynghori, hwy a roisant arian lawer i'r milwyr,

b pen. 26. 3, 4. a 27. 1, 2, 62—64. Salm 2. 1—7. Ioan 11. 47, 48. a 12. 10, 11. Act. 4. 5—22. a 5. 33, 34, 40.

13 Gan ddywedyd, Dywedwch, Ei ddisgyblion a ddaethant o hyd nos, ac a'i lladrattasant ef, a nyni yn cysgu.

14 ‡ Ac os clyw y rhaglaw hyn, [c] ni a'i perswadiwn ef, ac a'ch gwnawn chwi yn ‖ ddïofal.

c Act. 12. 19.

15 A [d] hwy a gymmerasant yr arian, ac a wnaethant fel yr addysgwyd hwynt: § a thaenwyd y gair hwn ym mhlith yr Iuddewon [e] hyd y dydd heddyw.

d pen. 26. 15. 1 Tim. 6. 10. e pen. 27. 8.

* Matthew yn unig sydd yn adrodd y darn uchod o'r hanes, yr hwn sydd yn angenrheidiol i amryw ddybenion. 1. Er dangos pa fodd y daeth yr efengylwyr i wybod am y daear-gryn, a'r amgylchiadau a gymmerodd le, yn adgyfodiad Crist: daeth hyny allan gan y ceidwaid eu hunain. 2. Er dangos i ni ddrygioni arswydus yr arch-offeiriaid a'r henuriaid, yn ceisio cuddio y gwaed a dywalltasent fel hyn drwy wobr a chelwydd. 3. Er dangos i ni ddau wyneb y ddalen megys, tystiolaeth yr efengylwyr â thystiolaeth y ceidwaid hefyd. Fel hyn mae prawf digonol o adgyfodiad Iesu. 4. Er dangos y mòr ffol ac ynfyd mae dynion yn eu dangos eu huna yn eu llid a'u cenfigen. † Oni luniwyd yma chwe ynfyd iawn! Y gwylwyr yn cysgu ar eu gwyliadwriaet yr hyn oedd farwolaeth sicr wrth ddeddf filwraidd Rhufeiniaid. Yr holl wylwyr yn cysgu ar unwaith. os felly, pa fodd y gallent hwy wybod yn eu cwsg pw a'i lladrataodd ef? Ac os oedd un yn effro, pa fodd ddeffrôodd hwnw y lleill pan welodd y perygl? Ei waith, onid oedd yn annhebygol iawn, y buasai ychyd ddysgyblion gweiniaid ac ofnus, yn beiddiaw gwynet ar wyliadwriaeth o filwyr arfog a gwaedlyd, y rhai, buasent yn cysgu, a fuasent yn deffro yn fuan wrth trwst o dreiglo y maen ymaith. A pha fodd y bu, n chymmerwyd y dysgyblion i fynu am y lladrad haeriad hwn? Nid oes sôn i neb wneyd hyny, na chymmair âg edliw y fath beth iddynt byth gwedi. ‡ Mae hyn y dangos meddalwch gwagsaw Pilat, a'i fod yn hollawl y llaw yr Iuddewon, i wneyd fel y mynent âg ef. ‖ A a'ch gwnawn chwi yn ddiofal; nid yn unig yn ddiberyg am eich bywyd, ond yn hollawl ddiofal, a dibryder, daw byth ddim galw i gyfrif arnoch am y tro. Felly y arwydda y gair Groeg. § Mae y geiriau hyn yn dango fod amryw flynyddoedd wedi myned drosodd, cyn Mathew ysgrifenu ei efengyl. Rhyfedd ddallineb y Iuddewon pan y coelient y fath chwedl ffol.

16 ¶ [f] * A'r un disgybl ar ddeg [g] a aethant Galilea, † i'r mynydd lle yr ordeiniasai y Iesu iddynt.

f Marc 16. 14. Ioan 6. 70. Act. 1. 13—26. 1 Cor. 15. 5. g adn. 7, 10. pen. 26. 32.

17 ‡ A phan welsant ef, [h] hwy a'i haddolasant ef: [i] ond rhai a ammheuasant.

h adn. 9. Salm 2. 12. a 45. 11. Ioan 5. 23. i 1 Cor. 15. 6.

* Mae yr efengylwyr eraill yn crybwyll am amryw droion yr ymddangosodd yr Iesu i'w ddysgyblion yn Jerusalem cyn y tro hwn yn Galilea: ymddangosodd ddau o honynt ar y ffordd i Emmaus y diwrnod yr adgyfododd, Luc 24. 13—31. Ymddangosodd iddynt oll ond Thomas, ar hwyr y diwrnod hwnw, Ioan 20. 19; a ymddangosodd iddynt oll yn nghyd ar hwyr y Sabbath canlynol, Ioan 20. 26. Gan hyny rhaid mai gwedi hyn yr ymddangosodd efe iddynt yn Galilea: a thybir mai yno "y gwelwyd ef gan fwy na phùm cant brodyr ar unwaith," 1 Cor. 15. 6. Yn Galilea y treuliodd yr Iesu y rhan fwyaf o'i oes, y pregethodd fwyaf, ac y gwnaeth fwyaf o'i wyrthiau. Adwaenid ef yno gan lawer, ac yno yr oedd y rhan fwyaf o'i ddysgyblion. Yr oedd yn dda gan Iesu am Galilea, hen wlad ei ymdaith; ac aeth yno i'w ddangos ei hun ar ol ei adgyfodiad, fel y byddai digon o dystion o hyny. † Bernir mai ar fynydd Tabor y gwedd newidiwyd Crist, ond yn ddisail; a barna rhai mai Tabor oedd y mynydd hwn, eithr nid oes sail i hyny chwaith. Barna eraill mai rhyw fynydd yn nes i fôr Tiberias ydoedd, er mwyn cyfleusdra i'w ddysgyblion o bob tu i'r Iorddonen ddyfod i'w gyfarfod a'i weled. ‡ Nid rhyfedd iddynt ei addoli, ond rhyfedd i neb ammau ar ol ei weled. Yr oedd yr apostolion wedi ei weled amryw weithiau o'r blaen, a phob ammheuaeth wedi ei symmud o'u meddyliau hwy; gan hyny rhaid mai rhyw rai o'r pùm cant brodyr a ammheuasant yma ond mae yn ddïau iddynt gael eu gwaredu o'u hammeuaeth, fel y cafodd Thomas oddi wrth ei anghrediniaeth. Mae crybwyll yr ammheuaeth hyn, fel amryw bethau eraill, yn dangos gonestrwydd diduedd yr efengylwyr yn adrodd y pethau gwaethaf yn y dysgyblion yn gystal â'r pethau gorau.

18 * A'r Iesu a ddaeth, ac a lefarodd wrthynt, gan ddywedyd, [k] † Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear.

k pen. 11. 27. a 16. 28. Salm 2. 6—9. a 89. 27. a 110. 1, 2. Es. 9. 6, 7. Dan. 7. 14. Luc 1. 32, 33. a 10. 22. Ioan 3. 35. a 5. 22—27. a 13. 3. a 17. 2. Act. 2. 36. a 10. 36. Rhuf. 14. 9. 1 Cor. 15. 27. Eph. 1. 20—22. Phil. 2. 9—11. Col. 1. 16—19. Heb. 1. 2. a 2. 8. 1 Pedr 3. 22. Dat. 11. 15. a 17. 14. a 19. 16.

19 [1] ‡ Ewch gan hynny a dysgwch yr holl
nhedloedd, [m] gan eu bedyddio hwy [n] ‖ yn
w y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân;

1 Salm 22. 27, 28. a 98. 2, 3. Es. 42. 1—4. a 49. 6. a 52. 10. a
18, 19. Marc 16. 15, 16. Luc 24. 47, 48. Act. 1. 8. a 13. 46, 47. a
28. Rhuf. 10. 18. Col. 1. 23. m Act. 2. 38, 41. a 8. 12—16,
—38. a 9. 18. a 10. 47, 48. a 16. 15, 33. a 19. 3—5. 1 Cor. 1. 13—
a 15. 29. 1 Pedr 3. 21. n pen. 3. 16, 17. Gen. 1. 26. Num.
24—27. Es. 48. 16. 1 Cor. 12. 4—6. 2 Cor. 13. 14. Eph. 2. 18.
oan 5. 7. Dat. 1. 4—6.

20 § Gan ddysgu [o] iddynt gadw pob peth
a orchymynais i chwi. * Ac wele, [p] yr yd-
f fi gyd â chwi bob amser [q] hyd ddiwedd y
d. †[r] Amen.

o pen. 7. 24—27. Deut. 5. 32. a 12. 32. Act. 2. 42. a 20. 20, 21.
1 Cor. 11. 2, 23. a 14. 37. Eph. 4. 11—17, 20, &c. Col. 1. 28.
Thes. 4. 1, 2. 2 Thes. 3. 6—12. 1 Tim. 6. 1—4. Tit. 2. 1—10.
edr 2. 10—19. 2 Pedr 1. 5—11. a 3. 2. 1 Ioan 2. 3, 4. a 3. 19—
Dat. 22. 14. p pen. 1. 23. a 18. 20. Gen. 39. 2, 3, 21. Ex. 3.
Jos. 1. 5. Salm 46. 7, 11. Es. 8. 8—10. a 41. 10. Marc 16. 20.
m 14. 18—23. Act. 18. 9, 10. 2 Tim. 4. 17. Dat. 22. 21. q pen.
39, 40, 49. a 24. 3. r pen. 6. 13. 1 Bren. 1. 36. 1 Cron. 16.
Salm 72. 19. Dat. 1. 18. a 22. 20.

* Nis gellir gwybod yn iawn pa un ai ar y mynydd
Galilea y llefarodd yr Iesu y geiriau hyn, ai ynte
di dychwelyd i Jerusalem, ryw ychydig o amser cyn
esgyniad. Y peth olaf sydd fwyaf tebygol; ac mae y
iriau "A'r Iesu a ddaeth," yn nechreu adn. 18, braidd
dangos hyny. † Awdurdod, ac nid Gallu, *(power)*
yn y cyfleithiad Saesoneg, sydd yma; ac addef y
eson eu hunain, mai Awdurdod a ddylai fod. Mae
wer nas *gallant* gyflawni y pethau mae ganddynt
durdod i'w cyflawni; ac o'r tu arall, mae gan lawer
u i gyflawni pethau nad oes ganddynt *awdurdod* i'w
flawni. Ond y mae gan Iesu bob un o'r ddau: mae
nddo *allu* yn *hanfodol*, fel Duw; ac *awdurdod* yn
erbyniedig, fel Mab y dyn, fel Cyfryngwr. Mae yr
durdod hon ar bawb, a phob peth, yn y nef ac ar y
aear; ar angelion a dynion; i lywodraethu holl rawd
agluniaeth, ac i gyfranu pob bendithion ysbrydol er
s ei eglwys. ‡ Mae yn amlwg mai gorchymyn yw
wn, i'r apostolion fyned a phregethu yr efengyl i'r holl
l yn ddiwahaniaeth, i'r cenedloedd paganaidd yn
stal âg i'r Iuddewon: er iddynt hwy ar y cyntaf ei
m-ddëall, a thybied mai yr Iuddewon yn mhlith y
nedloedd oedd i'w feddwl wrth yr holl genedloedd.
Dysgwch:" hyny yw, Gwnewch ddysgyblion, neu pro-
lytiwch, yr holl genedloedd: dychwelwch hwynt, i
fleidio y grefydd Gristionogol. Ymddengys fod y
ir *dysgu* yma, yn cynnwys y cwbl o weinidogaeth yr apostolion er dychwelyd y cenedloedd at Grist; a bod *bedyddio*, a *dysgu*, eilwaith, yn adn. 20, yn rhanau gwahanredol o'r weinidogaeth gyffredinol hòno. Mae yn wir fod yn angenrheidiol dysgu paganiaid mewn oedran, yn athrawiaeth ac egwyddorion crefydd cyn eu bedyddio; ond nid oes yma ddim yn erbyn bedyddio babanod y credinwyr, am nad ydynt mewn oedran i gael eu dysgu, mwy nag oedd yn erbyn enwaedu babanod yr Iuddewon, a babanod y proselytiaid i'r grefydd hòno, a'u dysgu gwedi hyny fel y tyfent i fynu. Mae y ddau achos yr un fath yn hollawl. ‖ Yma cawn osodiad a sefydliad cyntaf bedydd, fel ordinâd Gristionogol dàn oruchwyliaeth yr efengyl. Bedyddio yn enw (nid yn enwau) y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân; mae yma brawf amlwg o athrawiaeth y Drindod, dwyfoldeb pob un o'r Personau, ac hefyd unoliaeth y tri Pherson o ran hanfod a gogyfuwchder. Bedyddio yn Enw yw, bedyddio trwy awdurdod, ac i ffydd, proffes, ac addoliad, y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. § Mae y gair a gyfieithir *dysgu* yma, yn hollawl wahanol yn y Groeg, i'r gair a gyfieithir *dysgu* yn adn. 19. mae y cyntaf yn arwyddo dysgu yr athrawiaeth a phynciau sylfaenol crefydd, a'r ail yn arwyddo dysgu yn fanylach yn mhethau ymarferol crefydd, trwy aml gynghorion a rhybuddion neilldiol. Pe buasai Crist yn eu danfon allan i bregethu Iuddewaeth, gallasai ddefnyddio bron yr un geiriau: "Ewch a dychwelwch yr holl Genedloedd, gan eu henwaedu hwynt yn enw Duw Israel, a'u dysgu i gadw yr hyn oll a orchymynodd Moses." Pa beth fuasai yn hyna yn erbyn enwaedu plant y dychweledigion? Pa beth yn erbyn bedyddio plant y credinwyr? Dim oll yn sicr. * Er bod y Cyfryngwr o ran ei bresenoldeb corphorol yn myned i adael ei ddysgyblion, eto mae yn addaw bod gyda hwynt o ran ei bresenoldeb ysbrydol yn eu holl waith: ac nid gyda hwy yn unig, ond gyda ei holl wir weinidogion yn mhob màn ac oes. Bu feirw yr apostolion yn mhen ychydig flynyddoedd, ond mae yr addewid yn cyrhaedd hyd ddiwedd y byd, gan hyny mae yn perthyn i holl weinidogion yr efengyl. Tybia rhai mai dinystr Jerusalem a feddylir wrth ddiwedd y byd yma, ond pe hyny, ni buasai yr addewid yn para cyhyd a'r apostolion oll: bu Ioan byw ar ol dinystr Jerusalem. Mae yr addewid hon yn dangos holl-bresenoldeb a thragywyddoldeb yr Arglwydd Iesu, ac nas gall neb o'i genadon wneuthur dim hebddo ef. † Amen: os Crist a ddywedodd yr Amen yma, mae yn dangos sicrwydd yr addewid, Felly y bydd yn sicr. Os ei ddysgyblion a'i dywedodd, mae yn dangos eu dymuniad a'u gweddi ddifrifol am gyflawniad o hóni. Felly y byddo.

YR EFENGYL

YN OL

SANT MARC.

PENNOD. I.

Swydd Ioan Fedyddiwr, &c.

* DECHREU † efengyl [b] Iesu Grist, [c] Fab
Duw;

a Luc 1. 2, 3. a 2. 10, 11. Act. 1. 1, 2. b Ioan 20. 31. Rhuf.
1—4. 1 Ioan 1. 1—3. a 5. 11, 12. c Salm 2. 7. Mat. 3. 17. a
33. a 17. 5. Ioan 1. 14, 34, 49. a 3. 16. a 6. 69. Rhuf. 8. 3, 32.

Tybir mai ar ol Matthew yr ysgrifenodd Marc, ac iddo o herwydd hyny adael allan bob peth yn nghylch genedigaeth Iesu Grist, a dechreu ei efengyl gyda hanes bŷr o weinidogaeth Ioan Fedyddiwr. * Hyny yn wir oedd "dechreu yr efengyl," dygiad goruchwyliaeth y Testament Newydd i mewn, agoriad y newyddion da am Iesu Grist y Gwaredwr. † Gelwir hi yn efengyl Iesu Grist, Mab Duw, fel y byddo genym ni feddyliau teilwng ac addas am dani, ac am ei hawdwr, fel un yn perthyn mòr agos i'r Tad.

2 Fel yr [d] ysgrifenwyd yn y prophwydi, [e] Wele, yr ydwyf fi yn anfon fy nghennad o flaen dy wyneb, yr hwn a barottôa dy ffordd o'th flaen.

d Salm 40. 7. Mat. 2. 5. a 26. 24, 31. Luc 1. 70. a 18. 31. e Mal. 3. 1. Mat. 11. 10. Luc 1. 15—17, 76. a 7. 27, 28.

3 [f] * Llef un yn llefain yn y diffaethwch, † Parottôwch ffordd yr Arglwydd, gwnewch yn uniawn ei lwybrau ef.

f Es. 40. 3—5. Mat. 3. 3. Luc 3. 4—6. Ioan 1. 15, 19—34. a 3. 28—36.

Sylwyd ar y geiriau hyn o'r blaen, Math. 3. 3. a 11. 10. * Yn unig sylwn yma, mai dyna beth yw gweinidog yr efengyl, "Llef un yn llefain:" llefaru y pethau a roddodd Duw iddo i'w llefaru, Exod. 4. 15. Yn y Dwyrain, pan fyddo gwr mawr, yn enwedig tywysog neu frenin, i fyned ar ei ymdaith trwy ddinas neu dref, efe a ddenfyn genad o'i flaen i beri i'r bobl barotôi y ffordd, a darpar i dderbyn y gwr mawr; yna gwelir rhai yn ysgubo y ffordd, eraill yn taenu dillad ar hyd y ffordd, ac eraill yn gwneuthur bwâau a gwaith dolenog o ddail a blodau ar draws y ffordd, o dàn ba rai y deuai y tywysog i mewn. † Rhaid bod Iesu yn Arglwydd yn ol y geiriau hyn.

4 [g] Yr oedd Ioan yn bedyddio yn y * diffaethwch, † ac yn pregethu bedydd edifeirwch, er [h] maddeuant pechodau.

g Mat. 3. 1, 2, 6, 11. Luc 3. 2, 3. Act. 10. 37. a 13. 24, 25. a 19. 3, 4. h Act. 22. 16.

5 Ac [i] aeth allan atto ef holl wlad Judea, a'r Hierosolymitiaid, ac a'u [k] bedyddiwyd oll ganddo yn afon yr Iorddonen, [l] gan gyffesu eu pechodau.

i Mat. 3. 5, 6. a 4. 25. k Ioan 1. 28. a 3. 23. l Lef. 26. 40. Jos. 7. 19. Salm 32. 5. Diar. 28. 13. Act. 2. 38. a 19. 18. 1 Ioan 1. 8—10.

* Lle nad oedd yn cael ei gyfanneddu ond ychydig. † Mae bedydd Ioan yn myned am holl weinidogaeth Ioan, sef pregethu edifeirwch, maddeuant pechodau, a bedyddio fel arwydd a sel o bob un o'r ddau. Gwel o'r blaen, Matth. 3. 5, 6. ‡ Tebyg iawn yw y gair yn y Groeg hefyd, "a hwy o Jerusalem" yw y Saesoneg, a thrigolion Jerusalem yn sicr a feddylir: gwel Matth. 3. 5.

6 Ac Ioan oedd [m] wedi ei wisgo â blew camel, a gwregys croen ynghylch ei lwynau, ac yn [n] bwytta locustiaid a mel gwŷllt:

m 2 Bren. 1. 8. Zec. 13. 4. Mat. 3. 4. n Lef. 11. 22.

7 Ac efe a bregethodd, gan ddywedyd, [o] Y mae yn dyfod ar fy ol i un cryfach na myfi, carrai esgidiau yr hwn nid wyf fi deilwng i ymostwng, ac i'w dattod.

o Mat. 3. 11, 14. Luc 3. 16. a 7. 6, 7. Ioan 1. 27. a 3. 28—31. Act. 13. 25.

8 Myfi yn wir [p] a'ch bedyddiais chwi â dwfr: eithr [q] efe a'ch bedyddia chwi â'r Ysbryd Glân.

p Mat. 3. 11. q Diar. 1. 23. Es. 32. 15. a 44. 3. Ezec. 36. 25—27. Joel 2. 28. Act. 1. 5. a 2. 4, 17. a 10. 45. a 11. 15, 16. a 19. 4—6. 1 Cor. 12. 13. Tit. 3. 5, 6.

9 A bu yn y dyddiau hynny, [r] ddyfod o'r Iesu o Nazareth yn Galilea, ac efe a fedyddiwyd gan Ioan yn yr Iorddonen.

r Mat. 3. 13—15. Luc 3. 21.

10 Ac yn ebrwydd [s] wrth ddyfod i fynu o'r dwfr, efe a welodd y nefoedd yn agored, a'r Ysbryd [t] yn disgyn arno megis colommen.

s Mat. 3. 16. Ioan 1. 31—34. t Luc 3. 22. Ioan 1. 32.

11 A [u] llef a ddaeth o'r nefoedd, [x] Tydi yw fy anwyl fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd.

u Mat. 3. 17. Ioan 5. 37. a 12. 28—30. 2 Pedr 1. 17, 18. x pen. 9. 7. Salm 2. 7. Es. 42. 1. Mat. 17. 5. Luc 9. 35. Ioan 1. 3[illegible] a 3. 16, 35, 36. a 5. 20—23. a 6. 69. Rhuf. 1. 4. Col. 1. 13.

* Gan ddarfod sylwi eisoes ar yr hyn a adroddir y[illegible] yr adnodau hyn, wrth ysgrifenu ar y drydedd bennod [illegible] Matthew, awn rhagom at bethau na chrybwyllodd Ma[illegible] thew am danynt.

12 * Ac yn ebrwydd [y] y gyrrodd yr yspry[illegible] ef i'r diffaethwch.

y Mat. 4. 1, &c. Luc 4. 1, &c.

13 † Ac efe a fu yno yn y diffaethwc[illegible] [z] ddeugain niwrnod [a] yn ei demtio gan Satan [illegible] ‡ ac yr oedd efe gyd â'r gwŷllt-filod; [b] a'r an[illegible] gelion a weiniasant iddo.

z Ex. 24. 18. a 34. 28. Deut. 9. 11, 18, 25. 1 Bren. 19. 8 a Heb. 2. 17, 18. a 4. 15. b 1 Bren. 19. 5—7. Mat. 4. 11. a 2[illegible] 53. 1 Tim. 3. 16.

* Tybir mai rhyw argraffiadau grymus ar feddwl Iesu oedd y "gŷru" yma, yn ei gymmell ef yn nerthol i gil iaw o gymdeithas dynion, ac i fyned i'r "diffaethwch gwag erchyll," i fod gyda'r gwylltfilod. † Tybia rha mai y diffaethwch y bu Israel yn crwydro ynddo gyn oedd hwn: os felly yr oedd yn lle manteisiol iawn Satan i gynnyg ei demtasiynau erchyll. ‡ Nid yw Mathew yn son dim am hyn: yr oedd ef yn ysgrifenu i'r Iuddew on, y rhai a wyddent pa fath le oedd y diffaethwch lle temtiwyd Crist, a bod yno wylltfilod; tybir i Marc ys grifenu ei efengyl i'r Cenedloedd, y rhai ni wydden ddim am y diffaethwch hwnw; ac am hyny y sylwa fo yno wylltfilod anferth a pheryglus, a bod Iesu yno yr mhlith y gwylltfilod hyny. Hen Satan oedd y gwaetha o honynt oll, ond yr oedd Iesu yn Arglwydd arno ef a'r gwylltfilod.

14 * Ac [c] ar ol traddodi Ioan, † yr Iesu a ddaeth i Galilea, [d] gan bregethu efengyl teyrnas Dduw,

c Mat. 4. 12. a 11. 2. a 14. 2. Luc 3. 20. Ioan 3. 22—24. d Es. 61. 1—3. Mat. 4. 23. a 9. 35. Luc 4. 17—19, 43, 44. a 8. 1. Act. 20. 25. a 28. 23. Eph. 2. 17.

15 A dywedyd, [e] ‡ Yr amser a gyflawnwyd, [f] a theyrnas Dduw a nesâodd: [g] || edifarhêwch, § a chredwch yr efengyl.

e Dan. 2. 44. a 9. 25. Gal. 4. 4. Eph. 1. 10. f Mat. 3. 2 a 4. 17. a 10. 7. Luc 10. 9, 11. g Mat. 21. 31, 32. Luc 24. 47. Act. 2. 36—38. a 20. 21. 2 Tim. 2. 25, 26.

* Tybia rhai oddiwrth yr adnod hon a'r rhai cyffelyb iddi, i'r Arglwydd Iesu ddechreu ei weinidogaeth pan oedd Ioan yn ei gorphen; ond wrth gymharu hon â Ioan 2. a 3. a 4. 1, 2, 3, mae yn amlwg i'r Iesu bregethu, a bedyddio trwy ei ddysgyblion, am grŷn amser cyn i Ioan gael ei fwrw yn ngharchar. † Gair Duw nis rhwymir: er cauad genau Ioan, aeth yr Iesu yn ddiofn yn ei le i Galilea. ‡ Cyflawnwyd yr amser a arfaeth odd Duw, a ragfynegodd y prophwydi, ac yn enwedig deng-wythnos a thriugain Daniel; ac yr amser a fawr ddisgwyliodd saint yr Hen Destament o oes i oes. || Mae edifeirwch yn parotoi y galon i wneyd derbyniad ffyddiog o'r efengyl. § Credwch *yn* yr efengyl, yn ol y Groeg: sef yn ei thystiolaeth am Grist.

16 Ac [h] fel yr oedd efe yn rhodio wrth fôr Galilea, * efe a ganfu [i] Simon, ac Andreas ei frawd, yn bwrw rhwyd yn y môr: (canys pysgodwyr oeddynt.)

h Mat. 4. 18, &c. Luc 5. 1. i pen. 3. 16, 18. Mat. 10. 2 Luc 6. 14. Ioan 1. 40—42. a 6. 8. a 12. 22. Act. 1. 13.

17 A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Deuwch ar fy ol i, † a gwnaf iwch' fod yn [k] bysgodwyr dynion.

k Ezec. 47. 10. Mat. 4. 19, 20. Luc 5. 10. Act. 2. 38—41.

18 Ac yn ebrwydd, [l] gan adael eu rhwydau y canlynasant ef.

l pen. 10. 28—31. Mat. 19. 27—30. Luc 5. 11. a 14. 33. a 18 28—30. Phil. 3. 8.

19 Ac wedi iddo fyned rhagddo ychydig oddi yno, efe a ganfu [m] Iago *fab* Zebedëus, ac

Ioan ei frawd ef, a hwy yn y llong yn cyweirio
i rhwydau.

m pen. 3. 17. a 5. 37. a 9. 2. a 10. 35. a 14. 33. Act. 1. 13. a
12. 2.

20 Ac yn y man efe a'u galwodd hwynt:
‡ a hwy a adawsant eu tad Zebedëus yn y
ong gyd â'r cyflog-ddynion, ac a aethant ar
ol ef.

h pen. 10. 29. Deut. 33. 9. 1 Bren. 19. 20. Mat. 4. 21; 22. a 8.
22. a 10. 37. Luc 14. 26. 2 Cor. 5. 16.

* Mae yn amlwg i'r ddau frawd hyn gael eu galw o'r
aen i adnabyddiaeth o Grist (Ioan 1. 40—42,) ac
dlynt ei ganlyn ef am ryw amser, i Cana a Capernaum, Ioan 2. 2, 12, ac wedi hyny i Jerusalem, Ioan 2.
., 17. Gwedi hyny gadawodd iddynt fyned ymaith
os amser, rhag ofn y Phariseaid, neu Herod efallai;
yn awr eu galw hwy yr ail waith i adael pob peth am
hoes, a'i ganlyn ef. † Gwnaf i chwi fod yn offeryn-
i i ddàl dynion yn rhwyd yr efengyl, er eu hachub i
wyd tragywyddol: swydd lawer iawn gwell na physg-
a yn môr Galilea. ‡ Diammau bod rhyw nerth a
llu dirgelaidd yn myned gyda geiriau yr Arglwydd
su, ag oedd yn gwneyd y dynion yn ufudd i'w ganlyn,
gadael pob peth i hyny. "Ei bobl a fyddant ewyllys-
r yn nydd ei nerth." Gwybod a gaffom ni oll am y
rth hwn.

21 A [o] hwy a aethant i mewn i Capernaum;
ac yn ebrwydd ar y dydd sabbath, [p] wedi
ddo fyned i mewn i'r synagog, efe a athraw-
ethodd.

o pen. 2. 1. Mat. 4. 13. Luc 4. 31. a 10. 15. p adn. 39. pen.
2. Mat 4. 23. Luc 4. 16. a 13. 10. Act. 13. 14, &c. a 17. 2. a
4.

22 † A [q] synnasant wrth ei athrawiaeth ef:
canys yr oedd efe yn eu dysgu hwy megis un
[r] aurwddod ganddo, ac nid [r] fel yr ysgrifen-
ddion.

q Jer. 23. 29. Mat. 7. 28, 29. a 13. 54. Luc 4. 32. a 21. 15. Ioan
46. Act. 6. 10. a 9. 21, 22. 2 Cor. 4. 12. Heb. 4. 12, 13. r pen.
3—13. Mat. 23. 16—24.

** Tybir mai tranoeth wedi i'r Iesu fyned i mewn i
apernaum oedd y sabbath hwn: yr oedd efe yn ofalus
n orphwys ar y sabbath, ac am addoli Duw ac addysgu
nion yn y Synagog pa le bynag y byddai. † Mae yr
engylwyr yn aml yn sôn am fod y bobl yn sŷnu wrth
athrawiaeth ef; ond un peth yw sŷnu, peth arall yw
edu yr athrawiaeth. Gwel Matth. 7. 28, 29.

23 Ac yr oedd yn eu synagog hwy [s] ddyn
ynddo * yspryd aflan; † ac efe a lefodd,

s adn. 34. pen. 5. 2. a 7. 25. a 9. 25. Mat. 12. 43. Luc 4. 33
37.

24 Gan ddywedyd, [t] ‡ Och, ‖ beth sydd i
a wnelom â thi, Iesu o Nazareth? a ddaeth-
t ti i'n difetha ni? § mi a'th adwaen pwy yd-
wt, [u] Sanct Duw.

t pen. 5. 7. Ex. 14. 12. Mat. 8. 29. Luc 8. 28, 37. Iago 2. 19.
Salm 16. 10. a 89. 18, 19. Dan. 9. 24. Luc 4. 34. Act. 2. 27. a 3.
a 4. 27. Dat. 3. 7.

** Am yr "ysbryd aflan," sylwasom o'r blaen, Matth.
.. 43. Nid rhyw glefyd, neu loerigrwydd oedd yn
ino y dyn hwn, fel y ceisia rhai daeru; ond ysbryd
an oedd wedi cael ei oddef i'w feddiannu. † Tybir
ni yr ysbryd aflan a lefodd yn y dyn, a thrwy ddef-
ddio peiriannau ymadrodd y dyn. ‡ Mae yr "Och"
na yn arwyddo, digofaint, arswyd, poen, a gwatwar: a
ammau fod pob un o honynt yn nheimladau yr ysbryd
an y pryd hwn. "Gâd ni yn llonydd," sydd yn y
dfeithiad Saesoneg; ond "*Eâ*" yw y gair Groeg, yn
wyddo Och, fel yn y Gymraeg. ‖ Fel pe dywedasai,
a wyddom nad yw yn dda genyt ni, a gwyddost ti-
au nad yw yn dda genym ni dydi, am hyny Och! gâd
yn llonydd: ein hunig obaith am ddàl i fynu ein
ymas a'n rhwysg yw, cael bod yn llonydd; gwyddom
s gallwn ddàl i fynu yn dy erbyn di. A ddaethost ti
i'n dyfetha ni, trwy ddattod ein gweithredoedd, ein
bwrw allan o ddynion, i dòri ar rwysg ein llywodraeth,
ac i'n bwrw i'r dyfnder? Yr oedd traddodiad yn mhlith
yr Iuddewon, y dyfethid Galilea gan y Messiah: gan
hyny tybia rhai mai geiriau y dyn, un o'r Galilêaid,
oedd y rhai hyn, ac nid geiriau yr ysbryd aflan oedd
yn y dyn. Pa fodd y daeth y traddodiad uchod i blith
yr Iuddewon nis gwyddom; ond yn hytrach na dyfetha
Galilea, neu ei thrigolion, yno y treuliodd y Messiah y
rhan fwyaf o'i amser; ac yno y pregethodd fwyaf, ac y
gwnaeth y rhan fwyaf o'i wyrthiau daionus. § Er tloted
oedd yr olwg ar Iesu, gwyddai yr ysbryd aflan pwy
ydoedd, ac er cymmaint o'r Iuddewon oedd yn ei wadu,
gorfu ar y diafol hwn ei addef. "Y mae y cythreuliaid
hefyd yn credu ac yn crynu."

25 * A'r Iesu [x] a'i ceryddodd ef, gan ddy-
wedyd, Taw, a dos allan o hono.

x adn. 34. pen. 3. 11, 12. a 9. 25. Salm 50. 16. Luc 4. 35, 41
Act. 16. 17, 18.

26 Yna wedi i'r yspryd aflan ei [y] † rwygo
ef, a gwaeddi â llef uchel, efe a ddaeth allan o
hono.

y pen. 9. 20, 26. Luc 9. 39, 42. a 11. 22.

* Tybia rhai fod yr ysbryd aflan drwy y cyfaddefiad uchod, "Mi a'th adwaen," yn ceisio peri i'r bobl feddwl fod cyngrair rhwng Iesu âg ef; ac o herwydd hyny fod yr Iesu yn ei geryddu: ond pa un bynag am hyny, nid oedd ar Iesu eisiau tystiolaeth gan dad y celwydd. † Dywed Luc 4. 35, na wnaeth efe ddim niwed iddo. Dywedir mai dirdŷnu yw meddwl y gair Groeg a gyfieithir yma "rhwygo;" felly mae yn debyg i'r ysbryd aflan ysgwyd a dirdŷnu y dyn yn ofnadwy, fel pe buasai am ei rwygo yn ddrylliau, ond iddo orfod ei adael yn y diwedd heb wneyd dim niwed iddo. Mòr anodd yw gan y diafol ollwng ei ysglyfaeth!

27 * Ac [z] fe a aeth ar bawb fraw, fel yr
ymofynasant yn eu mysg eu hunain, gan ddy-
wedyd, Beth yw hyn? † pa athrawiaeth newydd
yw hon? [a] canys trwy awdurdod y mae efe yn
gorchymyn, ïe, yr yspryd aflan, a hwy yn
ufuddhâu iddo.

z pen. 7. 37. Mat. 9. 33. a 12. 22, 23. a 15. 31. a Luc 4.
36. a 9. 1. a 10. 17—20.

* Yr oedd sŵynwyr yn mhlith yr Iuddewon, a'r rhai hyny yn bwrw allan gythreuliaid trwy ryw ddefodau cyfareddol o'r eiddynt hwy; ond erioed o'r blaen nis gwelsent neb yn eu bwrw allan fel hyn â'i air gorchymynol ac awdurdodol. † Yr oedd hyn yn brawf o ddwyfoldeb a gwirionedd athrawiaeth Crist; ond eto, wedi y cwbl, nid oes yma ddim credu.

28 * Ac yn ebrwydd [b] yr aeth sôn am dano
dros yr holl wlad o amgylch Galilea.

b adn. 45. Mica 5. 4. Mat. 4. 24. a 9. 31. Luc 4. 14, 37.

* Sôn am ei enw a'i wyrthiau yn fwy nag am ei athrawiaeth. Cafodd llawer fel hyny eu dwyn ato er cael iachâd i'w cyrph, ond ychydig mewn cymhariaeth a gredasant ynddo er iachâd eu heneidiau.

29 Ac yn y man wedi iddynt fyned allan
o'r synagog, [c] hwy a aethant i dŷ Simon ac
Andreas, gyd âg Iago ac Ioan.

c Mat. 8. 14, 15. Luc 4. 38, 39. a 9. 58.

30 Ac [d] yr oedd chwegr Simon yn gorwedd
yn glaf o'r crŷd: ac yn ebrwydd y [e] dywedas-
ant wrtho am dani hi.

d 1 Cor. 9. 5. e pen. 5. 23. Ioan 11. 3. Iago 5. 14, 15.

31 * Ac efe a ddaeth [f] ac a'i cododd hi i
fynu, gan ymaflyd yn ei llaw hi: a'r crŷd a i
gadawodd hi yn y man, a hi a [g] wasanaethodd
arnynt hwy.

f pen. 5. 41. Act. 9. 41. g pen. 15. 41. Salm 103. 1—3. a
116. 12. Mat. 27. 55. Luc 8. 2, 3.

* Sylwyd ar y wyrth hon o'r blaen yn Matth. 8. 14,

15. Mae y wyrth hon yn amlwg, 1. Yn iachâd y wraig heb ddefnyddio unrhyw foddion. 2. Yn ei fod yn sydyn, ac ar unwaith: nid gwellâu yn raddol a wnaeth hi, ond yn y fân, ac yn hollawl, fel y gallodd wasanaethu arnynt hwy wrth y bwrdd.

32 * Ac [h] wedi iddi hwyrhâu, pan fachludodd yr haul, hwy a ddygasant atto yr † holl rai drwg eu hwyl, a'r rhai cythreulig.

h adn. 21. pen. 3. 2. Mat. 8. 16, 17. Luc 4. 40.

33 A'r [i] holl ddinas oedd wedi ymgasglu wrth y drws.

i adn. 5. Act. 13. 44.

34 Ac efe a iachâodd lawer o rai drwg eu hwyl o amryw heintiau, ac a fwriodd allan lawer o gythreuliaid; [k] ‡ ac ni adawodd i'r cythreuliaid ddywedyd yr adwaenent ef.

k adn. 25. pen. 3. 12. Luc 4. 41. Act. 16. 16, 17.

* Yr oedd y sabbath yn mhlith yr Iuddewon drosodd yn yr hwyr, ar fachlud haul. Tybia llawer yn anghyfreithlawn i Grist iachâu ar y sabbath, gan hyny dygent eu cleifion yn yr hwyr. † Dyma un màn at laweroedd o fânau eraill, lle mae y gair "holl" yn myned am lawer, nid am bawb; felly ofer yw adeiladu dim ar y fath eiriau â *holl*, a *phawb*, ag sydd yn anghytunol â chysondeb y ffydd. ‡ Ni fynai Iesu eto dystiolaeth gan y cythreuliaid: nid yw gair da satan a'i had ond gwarth i Grist a'i had.

35 * A'r bore yn blygeiniol iawn, [l] wedi iddo godi, efe a aeth allan, ac a aeth i le anghyfannedd; † ac yno y gweddïodd.

l pen. 6. 46—48. Salm 5. 3. a 109. 4. Luc 4. 42. a 6. 12. a 22. 39—46. Ioan 4. 34. a 6. 15. Eph. 6. 18. Phil. 2. 5. Heb. 5. 7.

* Gwedi ei holl lafur dirfawr y dydd o'r blaen, dyma Grist yn codi yn fore dranoeth i weddïo: anghraifft i bregethwyr yr efengyl ac yn enwedig i bregethwyr dioglyd. Mae y Groeg yn arwyddo cyn ei bod yn ddydd, yn gyson a'r Saesoneg a'r Gymraeg hefyd. † Hoff waith gan Iesu oedd gweddïo yn ddirgel: O na byddai yn fwy felly genym ninnau!

36 A Simon, a'r rhai oedd gyd âg ef, * a'i dilynasant ef.

37 Ac wedi iddynt ei gael ef, hwy a ddywedasant wrtho, [m] Y mae pawb yn dy geisio di.

m adn. 5. Zec. 11. 1. Ioan 3. 26. a 11. 48. a 12. 19.

38 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [n] † Awn i'r ‡ trefydd nesaf, || fel y gallwyf bregethu yno hefyd: [o] canys i hynny y daethum allan.

n Luc 4. 43. o Es. 61. 1—3. Luc 2. 49. a 4. 18—21. Ioan 9. 4, 5. a 16. 28.

39 § Ac [p] yr oedd efe yn pregethu yn eu synagogau hwynt trwy holl Galilea, [q] ac yn bwrw allan gythreuliaid.

p adn. 21. Luc 4. 43, 44. q pen. 7. 30. Luc 4. 41.

Ymddengys i'r Iesu godi at ei orchwyl o flaen ei ddysgyblion, er esampl o ddiwydrwydd iddynt hwy a ninnau hefyd fel y sylwyd. Pan welsant ei fod wedi myned allan, gwyddent yn bur dda pa le i gael hyd iddo: dïammau iddo fod yn y màn anghyfannedd hwnw lawer gwaith o'r blaen, fel yn ngardd Gethsemane. * Mae y gair a gyfieithir "dilyn" yma, yn arwyddo dilyn yn elynol; ond nis gall feddwl felly yma: er, yn ddïammau, mai nid dymunol oedd gan feddwl sanctaidd Iesu, gael ei aflonyddu hyd yn nod gan ei ddysgyblion, ar hyn o bryd. † Ni fynai Crist fyned yn ol gyda ei ddysgyblion at y "pawb oedd yn ei geisio" y tro hwn; pa beth bynag oedd ei reswm am hyny. Efallai ei fod yn gwybod am ryw fwriad oedd gan y dorf, i'w wneuthur yn frenin, neu rywbeth, nas gwyddai ei ddysgyblion ddim am dano. ‡ *Comotòleis*, Trefydd, ydynt bentrefydd a synagog ynddynt. *Comai*, Pentrefydd heb synagogau. *Poleis*, Trefydd wedi-eu hamgylchu â muriau. Y gair cyntaf sydd yma; trefydd lle yr oedd synagogau. Yr oedd Iesu yn fwy am bregethu yn y synagogau na am wneyd gwyrthiau: yn fwy am wneyd lles i eneidiau dynion, nac am borthi blysiau a chwilfrydedd (*curiosity*) dynion â'i ryfeddodau gwyrthiol. Da pe byddai pawb sydd wedi cymmeryd arnynt yr enw Gweinidogion Crist, mòr hoff o bregethu ag oedd Crist ei hun o pregethu fel efe, ac yn ei ysbryd ef. § Felly efe a deithiodd trwy holl Galilea, gan bregethu yn y synagogau pa le bynag y caffai gyfle, a chan gadarnâu e athrawiaeth, a'i anfoniad fel Messiah, trwy wyrthiau.

40 * A [r] daeth atto ef *un* [s] gwahan-glwyfus gan ymbil âg ef, a [t] gostwng ar ei liniau iddo, a dywedyd wrtho, [u] Os mynni, ti a elli fy nglanhâu.

r Mat. 8. 2—4. Luc 5. 12—14. s Lef. 13. a 14. Num. 12. 10—15. Deut. 24. 8, 9. 2 Sam. 3. 29. 2 Bren. 5. 5, &c. 27. a 7. 3. a 15. 5. Mat. 11. 5. Luc 17. 12—19. t pen. 10. 17. 2 Cron. 6. 13. Mat. 17. 14. Luc 22. 41. Act. 7. 60. Eph. 3. 14. u pen. 9. 22. 23. Gen. 18. 14. 2 Bren. 5. 7.

41 † A'r Iesu, [x] gan dosturio, a estynodd *ei* law, ‡ ac a gyffyrddodd âg ef, ac a ddywedodd wrtho, [y] Mynnaf, bydd lân.

x pen. 6. 34. Mat. 9. 36. Luc 7. 12, 13. Heb. 2. 17. a 4. 15. y pen. 4. 39. a 5. 41, 42. Gen. 1. 3. Salm 33. 9. Heb. 1. 3.

42 Ac wedi iddo ddywedyd *hynny*, [z] ymadawodd y gwahan-glwyf âg ef yn ebrwydd, a'i glanhâwyd ef.

z adn. 31. pen. 5. 29. Mat. 15. 28. Ioan 4. 50—53.

43 || Ac [a] wedi gorchymyn iddo yn gaeth, efe a'i hanfonodd ef ymaith yn y man;

a pen. 3. 12. a 5. 43. a 7. 36. Mat. 9. 30. Luc 8. 56.

44 Ac a ddywedodd wrtho, Gwel na ddywedych ddim wrth neb: eithr dos ymaith, [b] dangos dy hun i'r offeiriad, ac offrymma dros dy lanhâd y pethau a orchymynodd Moses, er tystiolaeth iddynt hwy.

b Lef. 14. 2—32. Mat. 23. 2, 3. Luc 5. 14. a 17. 14.

* Cawsom yr hanes hwn o'r blaen, yn Matth. 8. 2—4. a chawn yr un hanes eto, yn Luc 5. 12—14. † A'r Iesu gan dosturio: neu wedi cyffrôi yn ei ymysgaroedd, felly yr arwydda y gair. Yr oedd golwg mòr resynol ar y gwahan-glwyfus, ac oedd yn ddigon i enyn tosturi mewn unrhyw ddyn a'i gwelai: pa faint mwy yn yr Iesu addfwyn a thosturiol? ‡ Yn ei dosturi, ni a welwn brawf o'i wir ddynoliaeth; yn ei waith yn ei lanâu ef â chyffhyrddiad ac â gair ei enau, ni a welwn brawf o'i Dduwdod; ac yn y cwbl ni a welwn ei fawr drugaredd. || Nis gwyddom ni, ac nid yw yn angenrheidiol gwybod, paham yr oedd Iesu yn rhoi gorchymyn o'r fath hyn i'r gwahan-glwyfus: rhag rhoi dim achlysur i ennyn digofaint ei elynion, efallai; neu, ynte, fel na chaffai neb achlysur i ddywedyd ei fod yn ymffrostio o'i weithredoedd. § Gwnelai y tro iddo ddangos ei hun i ryw offeiriad, yn rhywle yn ei gymmydogaeth, fel y byddai tystiolaeth gyfreithlawn o'i lanâd ef; ond yr oedd yn rhaid myned i Jerusalem o bob màn i offrymu dros ei lanâd, er tystiolaeth i'r offeiriaid yno ei fod wedi ei lanâu.

45 * Eithr efe a aeth ymaith, [c] ac a ddechreuodd gyhoeddi llawer, a thaenu y gair ar led, [d] † fel na allai yr Iesu fyned mwy yn amlwg i'r ddinas; eithr yr oedd efe allan mewn lleoedd anghyfannedd: ac o bob parth y daethant atto ef.

c Mat. 9. 31. Luc 5. 15. d pen. 2. 1, 2, 13.

* Mae yn debyg fod gorfoledd y gwahan-glwyfus gymmaint, fel nad allai ymatal heb gyhoeddi y wyrth a wnaed arno yn mhob man. Pa un a oedd hyny yn feïus yndo nid yw yn perthyn i ni farnu: bai pur esgusodol oedd yn sicr. † Nid am nad *allai*, ond am na fynai. Nid oedd yn dewis myned i blith torfeydd mòr lliosog

ddynion, a chael canmoliaeth o ryw fath gan rai, a'i od ei hun yn agored i ddigofaint a chenfigen ei elyn. Er ei fod yn ymgilio, yr oedd lluoedd yn dyfod ei ol o bob parth.

PEN II.

Crist yn iuchâu un claf o'r parlys, &c.

AC [a] efe a aeth drachefn i Capernaum, wedi *rhai* dyddiau; [b] a chlybuwyd ei fod yn tŷ.

a pen. 1. 45. Mat. 9. 1. b pen. 7. 24. Luc 18. 35—38. Ioan 7. Act. 2. 6.

2 Ac [c] yn y man llawer a ymgasglasant ghyd, † hyd na annent, hyd yn nôd yn y oedd ynghylch y drws: [d] ac efe a bregethodd gair iddynt hwy.

c adn. 13. pen. 1. 33, 37, 45. a 4. 1, 2. Luc 5. 17. a 12. 1. en. 1. 14. a 6. 34. Mat. 5. 2. Luc 8. 1, 11. Act. 8. 25. a 11. 19. a. 25. a 16. 6. Rhuf. 10. 8. 2 Tim. 4. 2.

3 A daethant atto, [e] gan ddwyn un claf o'r rlys, yr hwn a ddygid gan bedwar.

e Mat. 9. 2. Luc 5. 18.

4 A chan na allent nesâu atto gan y dyrfa, didôi y tô a wnaethant lle yr oedd efe: ac di iddynt dorri trwodd, hwy a ollyngasant i ered y gwely yn yr hwn y gorweddai y claf parlys.

f Deut. 22. 8. Luc 5. 19.

5 A phan [g] welodd yr Iesu eu ffydd hwynt, fe a ddywedodd wrth y claf o'r parlys, [i] *Ha* o, [k] maddeuwyd i ti dy bechodau.

g Gen. 22. 12. Ioan 2. 25. Act. 11. 23. 1 Thes. 1. 3, 4. Iago 2. 22. h adn. 9, 10. Es. 53. 11. Mat. 9. 2. Luc 5. 20. a 7. 47— Act. 5. 31. 2 Cor. 2. 10. Col. 3. 13. i pen. 5. 34. Mat. 9. 22. 8. 48. k Job 33. 17—26. Salm 32. 1—5. a 90. 7—9. a 103. Es. 38. 17. Ioan 5. 14. 1 Cor. 11. 30. Iago 5. 15.

6 ‖ Ac yr oedd rhai o'r ysgrifenyddion yn tedd yno, [l] ac yn ymresymmu yn eu calon-u,

l 1 pen. 8. 17. Mat. 16. 7, 8. Luc 5. 21, 22. 2 Cor. 10. 5.

7 Beth a wna hwn fel hyn yn [m] dywedyd bledd? [n] pwy a all faddeu pechodau, ond uw yn unig?

m pen. 14. 64. Mat. 9. 3. a 26. 65. Ioan 10. 33, 36. n Salm 4. Es. 43. 25. Dan. 9. 9. Mica 7. 18. Luc 5. 21. a 7. 49. Ioan 20—23.

8 Ac yn ebrwydd, [o] § pan wybu yr Iesu yn yspryd eu bod hwy yn ymresymmu felly ddynt eu hunain, efe a ddywedodd wrthynt, [p] aham yr ydych yn ymresymmu am y peth-hyn yn eich calonnau?

o 1 Cron. 29. 17. Mat. 9. 4. Luc 5. 22. a 6. 8. a 7. 39, 40. Ioan 4, 25. a 6. 64. a 21. 17. Heb. 4. 13. Dat. 2. 23. p pen. 7. 21. m 139. 2. Diar. 15. 26. a 24. 9. Es. 55. 7. Ezec. 38. 10. Luc 24. Act. 5. 3. a 8. 22.

9 * Pa un [q] sydd hawsaf, ai dywedyd wrth claf o'r parlys, [r] Maddeuwyd i ti *dy* bechod-; ai dywedyd, Cyfod, a chymmer i fynu dy ly, a rhodia?

q Mat. 9. 5. Luc 5. 22—25. r adn. 5.

10 Eithr fel y gwypoch [s] fod gan Fab y dyn durdod i faddeu pechodau ar y ddaear, (eb e wrth y claf o'r parlys,)

s Dan. 7. 13, 14. Mat. 9. 6—8. a 16. 13. Ioan 5. 20—27. 1 Tim. 3—16.

11 Wrthyt ti yr wyf yn dywedyd, [t] Cyfod, chymmer i fynu dy wely, a dos i'th dŷ.

t pen. 1. 41. Ioan 5. 8—10. a 6. 63.

12 Ac yn y man y cyfododd efe, ac y cym-erth i fynu ei wely, ac a aeth allan yn eu gwydd hwynt oll; [u] hyd oni synnodd pawb, a [x] gogoneddu Duw, gan ddywedyd, [y] Ni welsom ni erioed fel hyn.

u pen. 1. 27. Mat. 9. 8. a 12. 23. Luc 7. 16. x Mat. 15. 31. Luc 5. 26. a 13. 13. a 17. 15. Act. 4. 21. y Mat. 9. 33. Ioan 7. 31. a 9. 32.

Sylwyd ar yr hanes hyn o'r blaen yn Matth. 9. 1—8, cawn yr un hanes eto, yn Luc 5. 18—26. * Gwedi i'r Iesu fod rai dyddiau yn y lleoedd anghyfannedd, efe a ddychwelodd i Capernaum, yr hon a eilw Matthew 9. 1. "ei ddinas ei hun," am mai yno yr oedd yn cartrefu fwyaf yn amser ei weinidogaeth gyhoeddus. † "Hyd na annent:" gwel yr un gair yn 1 Bren. 7. 26; ac eilwaith yn Ioan 8. 37; llenwi, dàl, neu gynnwys, yw ei ystyr. ‡ Sylwyd eisoes fod penau y tai yn wastad yn mhlith yr Iuddewon, a grisiau i fyned i'w penau oddi allan; a bod math o ddellt, neu frad-ddor, a ellid yn hawdd ei agoryd, ar ben y tŷ, i ollwng y claf drwyddo yn ei wely, ger bron yr Iesu lle yr oedd yn eistedd. (Gwel 2 Bren. 1. 2.) Mae yn debyg y gellid gwneyd hyn heb niweidio fawr ar y tŷ, na drygu nac anfoddloni ei berchenog. ‖ Tybir fod yr ysgrifenyddion hyn wedi dyfod fel yspïwyr i wylied ar ymadroddion ac ymddygiadau Iesu, fel y caent rywbeth i achwyn arno ger bron y cyngor mawr yn Jerusalem. § Yn ei feddwl ei hun, yn ei natur a'i Berson Dwyfol, yn ei briodoledd Ddwyfol o hollwybodaeth, trwy yr hon yr oedd ac y mae efe yn gwybod pob peth. * Yr oedd awdurdod ddwyfol yn angenrheidiol i faddeu pechodau, a gallu dwyfol yn angenrheidiol i iachâu y corph: meddai Iesu bob un o'r ddau, ac arferodd yr olaf er prawf ei fod yn meddu y blaenaf. Fel hyn cafodd y dyn iachâd o'i holl lesgedd, a maddeuant o'i holl anwiredd: cafodd y dyrfa eu calonogi i ddyfod at Iesu am yr un bendithion: cafodd Duw ei ogoneddu, a chafodd yr ysgrifenyddion, gelynion Iesu, eu siomi a'u cywilyddio. Ar y ddaear y mae i, ddynion gael maddeuant pechodau, nid ar ol iddynt farw a gadael y ddaear; a phan oedd Mab y dyn ar y ddaear, yn ei ystâd o ddarostyngiad, yr oedd ganddo ef y pryd hwnw awdurdod i faddau pechodau, yn gystal ag ar ol ei ogoneddu yn y nef.

13 * Ac efe a aeth allan drachefn [z] wrth lân y môr: [a] a'r holl dyrfa a ddaeth atto; ac efe a'u dysgodd hwynt.

z Mat. 13. 1. a adn. 2. pen. 3. 7, 8, 20, 21. a 4. 1. Diar. 1. 20—22. Luc 19. 48. a 21. 38.

* Erbyn bod Iesu yn gorphen ei orchwyl yn un màn, mae yn myned ymaith i fan arall, ac at orchwyl arall, yn ddioed: nid oedd efe byth yn segur.

14 ¶ * Ac efe yn myned heibio, [b] efe a ganfu † Lefi *fab* [c] Alphëus yn eistedd wrth y dollfa, ac a ddywedodd wrtho, [d] Canlyn fi. Ac efe a gododd, ac a'i canlynodd ef.

b pen. 3. 18. Mat. 9. 9. Luc 5. 27. c pen. 3. 18. Luc 6. 15. Act. 1. 13. d pen. 1. 17—20. Mat. 4. 19—22.

15 A bu, [e] a'r Iesu yn eistedd i fwytta yn ei dŷ ef, i lawer hefyd o bublicanod a ‡ phechaduriaid eistedd gyd â'r Iesu a'i ddisgyblion: canys llawer oeddynt, a hwy a'i canlynasent ef.

e Mat. 9. 10, 11. a 21. 31, 32. Luc 5. 29, 30. a 15. 1.

16 A phan welodd yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid ef yn bwytta gyd â'r publicanod a'r pechaduriaid, hwy a ddywedasant wrth ei ddisgyblion ef, [f] Paham y mae efe yn bwytta ac yn yfed gyd â'r [g] publicanod a'r pechaduriaid?

f adn. 7. Es. 65. 5. Luc 15. 2, &c. a 18. 11. a 19. 7, 10. 1 Cor. 2. 15. Heb. 12. 3. g Mat. 18. 17.

17 A'r Iesu, pan glybu, a ddywedodd wrthynt, [h] Y rhai sydd iach nid rhaid iddynt wrth y meddyg, ond y rhai cleifion: [i] ni ddaethum i

alw y rhai cyfiawn, ond pechaduriaid, i edifeirwch.

h Mat. 9. 12. 13. Luc 5. 31, 32. a 15. 7, 29. a 16. 15. Ioan 9. 34, 40, 41. i Mat. 18. 11. Luc 15. 10. a 19. 10. Act. 20. 21. a 26. 20. Rhuf. 5. 6—8, 20, 21. 1 Tim. 1. 15, 16. Tit. 2. 14. a 3. 3—7.

* Cawsom y darn hwn o hanes yn Matth. 9. 9, gwel y sylwadau yno. † Matthew yw yr enw yno; peth cyffredin oedd bod dau enw ar yr un dyn yn mhlith yr Iuddewon. Mae yn ammheüus pa un ai brawd i Iago mab Alphëus oedd efe, ai ynte mab i ryw Alphëus arall. Tybia *Scott* mai y peth cyntaf sy debycaf. ‡ Nid cenedloedd oedd y pechaduriaid hyn, fel y ceisia rhai gwŷr dysgedig ddywedyd; ond Iuddewon o ymarweddiad drygionus a gwarthus.

18 ¶ A [k] disgyblion Ioan a'r Phariseaid oeddynt yn ymprydio. A hwy a ddaethant ac a ddywedasant wrtho, [l] Paham y mae disgyblion Ioan a'r Phariseaid yn ymprydio, ond dy ddisgyblion di nid ydynt yn ymprydio?

k Mat. 9. 14—17. Luc 5. 33—39. l Mat. 6. 16, 18. a 23. 5. Luc 18. 12. Rhuf. 10. 3.

19 A dywedodd yr Iesu wrthynt, [m] A all plant yr ystafell briodas ymprydio, tra fyddo y priodas-fab gyd â hwynt? tra fyddo ganddynt y priodas-fab gyd â hwynt, ni allant ymprydio.

m Gen. 29. 22. Barn. 14. 10, 11. Salm 45. 14. Can. 6. 8. Mat. 25. 1—10.

20 Eithr y dyddiau a ddaw, pan [n] ddyger y [o] priodas-fab oddi arnynt; [p] ac yna yr ymprydiant yn y dyddiau hynny.

n Salm 45. 11. Can. 3. 11. Es. 54. 5. a 62. 5. Ioan 3. 29. 2 Cor. 11. 2. Dat. 19. 7. a 21. 9. o Zec. 13. 7. Mat. 26. 31. Ioan 7. 33, 34. a 12. 8. a 13. 33. a 16. 7, 28. a 17. 11, 13. Act. 1. 9. a 3. 21. p Act. 13. 2, 3. a 14. 23. 1 Cor. 7. 5. 2 Cor. 6. 5. a 11. 27.

21 ¶ Hefyd [q] ni wnia neb ddernyn o frethyn newydd ar ddilledyn hen: *os* amgen, ei gyflawniad newydd ef a dynn oddi wrth yr hen, a gwaeth fydd y rhwyg.

q Salm 103. 13—15. Es. 57. 16. 1 Cor. 10. 13.

22 Ac ni rydd neb win newydd mewn hen [r] gostrelau: *os* amgen, y gwin newydd a ddryllia y costrelau, a'r gwin a red allan, a'r costrelau a gollir: eithr gwin newydd sydd raid ei roi mewn costrelau newyddion.

r Jos. 9. 4, 13. Job 32. 19. Salm 119. 83. Mat. 9. 17. Luc 5. 37, 38.

Sylwyd ar yr adnodau hyn hefyd yn Matthew 9. 14—17. Swm y cwbl yw, 1. Bod ymprydio yn ymarferiad addas dàn oruchwyliaethau ceryddol a thrallodus rhag lunaeth, ac y dylai gael ei arferyd yn gyfatebol i'r amgylchiadau. 2. Na ddylai crefyddwyr ieuainc gael eu digaloni a dyledswyddau rhy drymion a llym-dost, ond eu cymmeryd a'u dwyn yn mlaen yn raddol. 3. Bod dynion rhagrithiol ac ofer-goelus yn ehud yn gosod y swm o grefydd mewn pethau allanol a dibwys: ac heb ystyried beth a all pob dyn ddàl, maent yn rhyfygus yn gosod deddfau heb ddoethineb.

23 A bu [s] iddo fyned trwy yr ŷd ar y sabbath; a'i ddisgyblion a ddechreuasant ymdaith [t] gan dynnu y tywys.

s Mat. 12. 1—8. Luc 6. 1—5. t Deut. 33. 24, 25.

24 A'r Phariseaid a ddywedasant wrtho, Wele, [u] pahain y gwnant ar y sabbath [x] yr hyn nid yw gyfreithlawn?

u adn. 7, 16. Mat. 7. 3—5. a 15. 2, 3. a 23. 23, 24. Heb. 12. 3. x Ex. 20. 10. a 31. 15. a 35. 2, 3. Num. 15. 32—36. Neh. 13. 15—22. Es. 56. 2, 4, 6. a 58. 13. Jer. 17. 20—27.

25 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [y] Oni ddarllenasoch erioed [z] beth a wnaeth Dafydd, pan oedd angen a chwant bwyd arno, efe a rhai oedd gyd âg ef?

y pen. 12. 10, 26. Mat. 19. 4. a 21. 16, 42. a 22. 31. Luc 10. 26. z 1 Sam. 21. 3—6.

26 Pa fodd yr aeth efe i dŷ Dduw, da [a] * Abïathar yr arch-offeiriad, ac y bwyttâod y bara gosod, [b] y rhai nid cyfreithlawn e bwytta, ond i'r offeiriaid yn unig, ac a'i rhodde hefyd i'r rhai oedd gyd âg ef?

a 1 Sam. 22. 20—22. a 23. 6, 9. 2 Sam. 8. 17. a 15. 24, 29, 3. a 20. 25. 1 Bren. 1. 7. a 2. 22, 26, 27. a 4. 4. b Ex. 29. 32, 3 Lef. 24. 5—9.

27 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [c] † Y sab bath a wnaethpwyd er mwyn dyn, ‡ ac nid dy er mwyn y sabbath.

c Ex. 23. 12. Deut. 5. 14. Neh. 9. 13, 14. Ezec. 20. 12, 2 Luc 6. 9. Ioan 7. 23. 1 Cor. 3. 21, 22. 2 Cor. 4. 15.

28 Am hynny [d] y mae Mab y dyn yn Ar glwydd hefyd ar y sabbath.

d pen. 3. 4. Mat. 12. 8. Luc 6. 5. a 13. 15 16. Ioan 5. 9—1 17. a 9. 5—11, 16. Dat. 1. 10.

Sylwyd rhywbeth ar yr hyn a adroddir yn yr adnoda hyn hefyd, yn Matthew 12. 1—8. Mae yr hanes at b un y cyfeirir yma yn 1 Sam. pen. 21. * Ahimelec oedd yr *Arch*-offeiriad pan fwytâodd Dafydd y bar gosod, ond Abïathar ei fab oedd yr offeiriad *penaf* dan ef; ac efallai mai efe oedd yn arolygu y babell a'i hol wasanaeth. Lladdwyd Ahimelech yn fuan wedi hyn ac aeth Abïathar yr arch-offeiriad yn ei le, a bu yn e swydd am ddeugain mlynedd, hyd wedi marwolaet Dafydd. Yr oedd efe yn llawer mwy enwog yn y hanes, nac y bu ei dad; a hyny, mae yn debyg a barod i'r Iesu ei enwi ef yma yn hytrach na'i dad Ahimelech Llawer a boenodd beirniaid dysgedig i geisio cysoni y adnod uchod â'r hanes yn Samuel, ond tybir fod y syl uchod yn esmwyth ac yn foddlonawl. † Trefnwyd sabbath yn y dechreuad, cyn y cwymp, er mwyn dyn; pharâwyd ef wedi y cwymp, fel yn fwy angenrheidio byth i ddynion, wrth eu hystyried yn greaduriai rhesymol, yn byw yn gymdeithasol, ag iddynt lawer anghenion a thrallodion; yn greaduriaid a deiliaid Duw yn ymddarpar i ystad o dragywyddol ddedwyddwch ne drueni, an yn bechaduriaid dan oruchwyliaeth o dru garedd. Er mwyn i ddyn gael gorphwysiad corphorol oddi wrth waith a llafur bydol; ac er mwyn i ddyn gae ymgeledd ysbrydol, yn ordinadau ac addoliad Duw ond ar yr un pryd, nid yw gweithredoedd o drugared ac angenrheidrwydd yn cael eu gwarafun ar y dyd sabbath; y fath ag sydd reidiol er cysur, cynnaliaeth, chadwedigaeth bywyd dyn ac anifail. ‡ Ond n wnaethpwyd dyn er mwyn y sabbath; fel pe byddai e waith ef yn ei gadw o ryw lesâd neu wasanaeth i Dduw neu fel pe gofynid iddo ei gadw i'r llythyren fanylaf, e niwed gwirioneddol iddo ei hun. Nid oedd Mab y dyn Arglwydd y Sabbath, yn gofyn i'w ddysgyblion newynu yn hytrach na thynu y tywys ar y Sabbath. Wrth rheol gyffredin hon mae i ninnau farnu am gadwedig aeth *allanol* y dydd sanctaidd.

PEN. III.

Crist yn iachâu'r llaw wywedig, &c.

AC [a] efe a aeth i mewn drachefn i'r synagog ac yr oedd yno ddyn a chanddo [b] law wed gwywo.

a pen. 1. 21. Mat. 12. 9—14. Luc 6. 6—11. b 1 Bren. 1 4, 6. Ioan 5. 3.

2 A [c] hwy a'i gwyliasant ef, a iachâai efe e ar y dydd sabbath; fel y cyhuddent ef.

c Salm 37. 32. Es. 29. 20, 21. Jer. 20. 10. Dan. 6. 4. Luc 6. a 11. 53, 54. a 14. 1. a 20. 20. Ioan 9. 16.

3 Ac [d] efe a ddywedodd wrth y dyn yr oed ganddo y llaw wedi gwywo, Cyfod, i'r canol.

d Es. 42. 4. Dan. 6. 10. Luc 6. 8. Ioan 9. 4. 1 Cor. 15. 5 Gal. 6. 9. Phil. 1. 14, 28—30. 1 Pedr 4. 1.

4 * Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, [e] Ai
nydd gwneuthur da ar y dydd sabbath, † ynte
wneuthur drwg? cadw einioes, ai lladd?
‡ A hwy a dawsant â sôn.

e pen. 2. 27, 28. Mat. 12. 10—12. Luc 6. 9. a 13. 13—17. a 14.
5. f pen. 9. 34.

5 ‖ Ac wedi edrych arnynt o amgylch [g] yn
lligllawn, gan [h] dristâu am galedrwydd eu
lon hwynt, efe a ddywedodd wrth y dyn,
Estyn allan dy law. Ac efe a'i hestynodd:
i law ef a wnaed yn iach fel y llall.

g Luc 6. 10. a 13. 15. Eph. 4. 26. Dat. 6. 16, 17. h Gen. 6.
Barn. 10. 16. Neh. 13. 8. Salm 95. 10. Es. 63. 9, 10. Luc 19. 40
44. Eph. 4. 30. Heb. 3. 10, 17. i 1 Bren. 13. 6. Mat. 12. 13.
uc 6. 10. a 17. 14. Ioan 5. 8, 9. a 9. 7. Heb. 5. 9.

Gwedi i'r Iesu orphen ei ymddiddanion uchod ar làn
môr, pen. 2. 13, efe a ddychwelodd ac a aeth i mewn
achefn i'r synagog, lle yr oedd torf yn ei aros, a gwaith
do ei wneyd. Sylwyd ar yr hanes hwn yn Matthew
. 10—13. * Dywed Matthew mai hwy a ofynasant
do ef: mae Matthew a Marc yn dywedyd y gwir, ac yn
rffaith gyson â'u gilydd:—Gofynasant hwy iddo ef yn
mtaf, "Ai rhydd iachâu ar y sabbathau;" yna, gwedi
do ef eu hateb hwy, gofynodd yntau iddynt hwythau
ei dro, "Ai rhydd gwneuthur da ar y dydd sabbath?
." Fel yna mae y ddau efengylwr yn gyson â'u
lydd, ac angen am adroddiad y ddau i gael yr hanes
gyflawn. † Gwneuthur da oedd iachâu ar y sabbath,
gwneuthur drwg fuasai peidio: "y neb a fedr wneuth-
daioni ac nid yw yn ei wneuthur, pechod ydyw iddo."
meb a fedro gadw einioes ac ni wna hyny, mae efe yn
og o golli yr einioes hòno. ‡ Gan nas medrent
th-ddywedyd yr athrawiaeth oleu a chadarn uchod, a
an nad oedd ar eu calonau ychwaith ei chyfiawnhâu,
wisasant sòri a thewi a sôn. ‖ Digllondeb dibechod
dd y digllondeb hwn o eiddo ein Harglwydd, digllon-
b perffaith sanctaidd; iawn agwedd calon, bod heb-
o a fuasai ddiffyg pechadurus. Digllondeb yn erbyn
chod, a thristwch yn gymmysg âg ef dros y pechad-
iaid.

6 * A'r [k] Phariseaid a aethant allan, ac a
mgynghorasant yn ebrwydd gyd â'r [l] Herod-
niaid yn ei erbyn ef, pa fodd y difethent ef.

k Salm 109. 3, 4. Mat. 12. 14. Luc 6. 11. a 20. 19, 20. a 22. 2.
an 11. 53. l pen. 8. 15. a 12. 13. Mat. 22. 16.

7 A'r [m] Iesu gyd â'i ddisgyblion a giliodd
a'r † môr: [n] a lliaws mawr a'i canlynodd ef,
[o] ‡ Galilea, ac o Judea,

m Mat. 10. 23. a 12. 15. Luc 6. 12. Ioan 10. 39—41. a 11. 53,
Act. 14. 5, 6. a 17. 10, 14. n Mat. 4. 25. Luc 6. 17. o pen.
39. Jos. 20. 7. a 21. 32. Luc 23. 5. Ioan 7. 41, 52.

8 Ac o Jerusalem, ac o [p] ‖ Idumea, ac o'r
u hwnt i'r Iorddonen; a'r rhai o gylch [r] Ty-
s a Sidon, lliaws mawr, pan glywsant gym-
aint a wnaethai efe, a ddaethant atto.

p Es. 34. 5. Ezec. 35. 15. a 36. 5. Mal. 1. 2—4. q Num.
33—38. Jos. 13. 8, &c. r pen. 7. 24, 31. Jos. 19. 28, 29. Salm
12. a 87. 4. Es. 23. Ezec. 26—28.

9 Ac efe a ddywedodd wrth ei ddisgyblion
n fod llong yn barod iddo, [s] oblegid y dyrfa,
ag iddynt ei wasgu ef.

s pen. 5. 30, 31. Ioan 6. 15.

10 Canys efe a iachasai lawer, hyd oni
wysent arno, er mwyn [t] cyffwrdd ag ef,
ynnifer ag oedd â § phläau arnynt.

t pen. 5. 27, 28. a 6. 56. Mat. 14. 36. Act. 5. 15. a 19. 11, 12.
pen. 5. 29. Gen. 12. 17. Num. 11. 33. Luc 7. 2. Heb. 12. 6.

11 A'r [x] ysprydion aflan, pan welsant ef, a
rthiasant i lawr ger ei fron ef, ac a waeddas-
t, gan ddywedyd, Ti yw [y] Mab Duw.

x pen. 1. 23, 24. a 5. 5, 6. Mat. 8. 31. Luc 4. 41. Act. 16. 17.
19. 13—17. y pen. 1. 1. Mat. 4. 3, 6. a 8. 29. Luc 8. 28.

12 Yntau [z] a orchymynodd iddynt yn gaeth,
na chyhoeddent ef.

z pen. 1. 25, 34. Mat. 12. 16. Act. 16. 18.

* Yr Herodianiaid a gyfunient eu crefydd i'r amser-au, ac yn enwedig a wenieithient i Herod. (Gwel y Daflen o Swyddau a Graddau Dynion yn niwedd y Testament Newydd.) Sylwyd ar yr Herodianiaid hyn o'r blaen, yn Matth. 22. 16. croes iawn oedd y Phariseaid â hwythau i'w gilydd yn gyffredin, ond yr oedd y ddwy blaid yn cytuno yn dda i gyd-ymgynghori yn erbyn Iesu. † Môr Galilea oedd hwn, nid môr mawr y canoldir: dywedir fod y llyn hwn yn dair milltir ar ddeg o hyd, ac yn bump o led: ond yn ol eraill yr oedd yn bedair milltir ar hugain o hyd, ac yn bymtheg o led: felly dywed *Guyse*. Ac i fyned *ar* y môr hefyd, fel y gwelwn yn adn. 9, os nad aeth efe hefyd *dros* môr; er mwyn cilio o lywodraeth Herod, o du gorllewin y môr, i lywodraeth Philip, oedd o du dwyrain y môr; fel yr ymgadwai yn well rhag y Pharisêaid a'r Herodianiaid, a grybwyllir yn adn 6. ‡ Yr oedd Galilea i'r gogledd i'r môr hwn; Judea, Jerusalem, ac Idumea, yr hon yw Edom, i'r de; y parthau tu hwnt i'r Iorddonen tua'r dwyrain; a Thyrus a Sidon tua'r gogledd-orllewin. ‖ Dywed *Josephus*, yr Hanesydd Iuddewig, i Hyrcanus beri i'r Idumeaid droi yn Iuddewon, tua chant a hanner o flynyddoedd cyn geni Crist. § Mae y gair a gyfieithir yma "pläau" yn arwyddo *ffrewyllau*, ac yn dangos mai effaith anfoddlonrwydd Duw am bechod yw pob clefydau, ac y dylid eu derbyn a'u hystyried fel ei geryddon ef er llesâd a bendith i ni. Sylwyd ar gyffes yr ysbrydion aflan o'r blaen, a gwaharddiad Crist iddynt ei gyffesu: nid oedd efe yn dewis y fath bregethwyr.

13 ¶ * Ac [a] efe a esgynodd i'r mynydd, ac
a alwodd atto y † rhai a fynnodd efe: a hwy a
ddaethant atto.

a Mat. 10. 1, &c. Luc 6. 12—16.

14 ‡ Ac [b] efe a ordeiniodd ddeuddeg, fel y
byddent gyd âg ef, [c] ac fel y danfonai efe
hwynt i bregethu;

b Ioan 15. 16. Act. 1. 24, 25. Gal. 1. 1, 15—20. c Luc 9.
1—6. a 10. 1—11. a 24. 47. Act. 1. 8.

15 Ac i fod ganddynt awdurdod i iachâu
clefydau, ac i fwrw allan gythreuliaid.

* Efe a esgynodd i'r mynydd i weddio medd Luc 6. 12. a dywed iddo barâu ar hyd y nos yn gweddio Duw. Yr oedd yn myned i ordeinio ei ddeuddeg apostol y bore dranoeth, gan hyny efe a weddiodd lawer drostynt cyn eu neilldio i'w gwaith. † Y rhai a fynodd efe oedd y deuddeg, a enwir yn yr adnodau canlynol, o blith ei holl ddysgyblion eraill. Nid am fod unrhyw ragoriaeth yn y rhai hyn mwy nac eraill y galwodd yr Iesu hwynt i'r apostoliaeth, (ie, efe a wyddai fod un o honynt yn ddiafol,) ond am mai felly y rhyngodd bodd iddo wneyd: y rhai a *fynodd* efe. ‡ Efe a ordeiniodd y deuddeg hyn ryw yspaid o amser cyn iddo eu danfon hwy allan i bregethu (pen. 6. 7—13.) "fel y byddent gydag ef," i gael eu hyfforddi a'u dysgu erbyn eu gwaith mawr a phwysig.

16 * Ac [d] i Simon y rhoddes efe enw Pedr.

d pen. 1. 16. Mat. 16. 16—18. Ioan 1. 42. 1 Cor. 1. 12. a 3. 22.
a 9. 5. Gal. 2. 7—9. 2 Pedr 1. 1.

17 Ac [e] Iago *fab* Zebedëus, ac Ioan brawd
Iago, ([f] ac efe a roddes iddynt enwau, † Boan-
erges; yr hyn yw Meibion y daran)

e pen. 1. 19, 20. a 5. 37. a 9. 2. a 10. 35. a 14. 33. Ioan 21. 2,
20—25. Act. 12. 1. f Es. 58. 1. Jer. 23. 29. Heb. 4. 12. Dat.
10. 11.

18 Ac [g] Andreas, a [h] Phylip, a [i] Bartholom-
ëus, a [k] Matthew, a [l] Thomas, ac [m] Iago *fab*
[n] Alphëus, a [o] Thadëus, ‡ a [p] Simon y Can-
aanead,

g Ioan 1. 40. a 6. 8. a 12. 21, 22. Act. 1. 13. h Ioan 1. 43
—45. a 6. 5—7. a 14. 8, 9. i Mat. 10. 3. Luc 6. 14. Act. 1. 13.
k pen. 2. 14. Mat. 9. 9. Luc 5. 27—29. a 6. 15. l Ioan 11. 16.

a 20. 24—29. a 21. 2. Act. 1. 13. m pen. 6. 3. Mat. 10. 3. a 13. 55. Luc 6. 15. Act. 15. 13. a 21. 18. l Cor. 9. 5. a 15. 7. Gal. 1. 19. a 2. 9. Iago 1. 1. n pen. 2. 14. o Mat. 10. 3. Luc 6. 16. Ioan 14. 22. Act. 1. 13. Judas 1, &c. p Mat. 10. 4. Luc 6. 15. Act. 1. 13.

19 ‖ A [q] Judas Iscariot, yr hwn hefyd a'i bradychodd ef. A hwy a ddaethant i dŷ.

q Mat. 26. 14—16, 47. a 27. 3—5. Ioan 6. 64, 71, 72. a 12. 4—6. a 13. 2, 26—30. Act. 1. 16—25.

* Rhoddi enw, neu gyfnewi, yn ddiammau yw, rhoddi enw chwanegol, at yr enw o'r blaen. † Rhoddwyd yr enw Boanerges, Meibion y daran, i Iago ac Ioan yn ddiammau, yn un peth i ddangos iddynt beth oedd eu dyledswydd, sef taranu eu gweinidogaeth uwch ben byd o bechaduriaid colledig: ac yn ail, am y gwyddai Iesu mai meibion y daran a fyddent hwy; yr hyn hefyd a ddangosasant hwy cyn hir, wrth ofyn am gael tân i lawr o'r nefoedd i ddyfetha y Samariaid, Luc. 9. 54. Costiodd gwresowgrwydd a hyfdra didderbyn wyneb Iago ei fywyd iddo cyn pen llawer o amser, Act. 12. 1, 2; ac mae yn amlwg bod Ioan, yn gystal ac Iago, o dymherau gwresog, a'r tymherau hyny wedi eu sanctei ddio a'u puro yn fawr, sydd yn ei wneyd ef mòr serchog a charuaidd yn ei ysgrifeniadau. Mae y rhai hyny sydd yn tybied fod Ioan o ysbryd mwy lleddf ac addfwyn na'r ysgyblion eraill, yn hollawl gamsynied ei gymmeriad ef; oblegid nid oes braidd yr un ran o'r ysgrythyr yn fwy llym a dychrynllyd i ragrithwyr a phroffeswyr anghyson, nag yw ei epistol cyntaf ef. ‡ Simon a elwir Zelotes, medd Luc 6. 15. *Cananiten*, gair yn tarddu o wreiddyn Hebraeg, yn arwyddo *bod yn wresog*. Mae y gair Groeg, *Chananites*, brodor o Ganaan, yn dechreu â *Ch*, nid *C*. ‖ Efallai na ddylem chwilio yn rhy fanol, beth oedd dyben Duw yn gadael i "Fab y golledigaeth" fod o rif yr apostolion: nid am na wyddai Crist beth ydoedd y bu hyny; nid am nad oedd ganddo neb arall i'w ddanfon, gallasai ddewis rhyw un arall o'r deg a thriugain; ac nid am ei fod yn ewyllysio i ddynion penrydd anfucheddol fod yn y weinidogaeth, nid ydym yn darllen am Judas ei fod yn ddyn anfucheddol.—Dylem feddwl fod gan Grist ryw ddybenion doeth yn hyn, er nas gwyddom ni pa beth oeddynt.—Beth pe dywedem iddo wneyd hyn, i'n dysgu ni i beidio ceisio barnu calonau dynion, ond gadael hyny i Dduw. 2. I arfogi ei bobl yn wyneb gwarth gweinidogion drwg, y rhai a drôant yn warthus ar ol dyfod i'r weinidogaeth. 3. I ddangos nad yw effaith y weinidogaeth ddim bob amser yn ymddibynu ar gyflwr da ysbrydol y gweinidog: gall cloch alw dynion i glywed y gair, er nad yw hi ei hun yn derbyn dim llesâd oddiwrtho. Ar yr un pryd, nid oes yma yr un warant i ddynion ddewis, nac i lywodraethwyr yr eglwys ordeinio, dynion penrydd ac anfoesol cyhoeddus yn weinidogion. Nid dyn felly oedd Judas. Nac i oddef dynion felly; cyn gynted ag y dangosodd Judas beth ydoedd, diarddelwyd ef gan Grist a'i apostolion: aeth i'w le ei hun, a rhoddwyd ei esgobaeth ef i arall.

20 A'r dyrfa a ymgynnullodd drachefn, [r] fel na allent gymmaint a bwytta bara.

r adn. 9. pen. 6. 31. Luc 6. 17. Ioan 4. 31—34.

21 * A phan glybu yr eiddo ef, hwy a aethant i'w ddal ef: canys dywedasant, [s] † Y mae efe allan o'i bwyll.

s 2 Bren. 9. 11. Jer. 29. 26. Ioan 10. 20. Act. 26. 24. 2 Cor. 5. 13.

* Tybir mai perthynasau naturiol Crist a feddylir wrth "eiddo ef" yn y fàn yma: yr oedd amryw o honynt heb gredu ynddo, ond ar yr un pryd yn gofidio drosto o herwydd ei lafur anghymmedrol a'i ludded. Gwyddent mae yn debyg na chysgasai ef ddim drwy y nos o'r blaen, ac na fwytasai ddim ychwaith: ac wrth weled y dyrfa yn ei ganlyn yn ddibaid, fel na chaffai amser i orphwys na bwyta, ymdrechasant ei gael ef ymaith, braidd drwy orchest a gorfod, rhag iddo lewygu gan ormod llafur. Mae yn anodd meddwl mai mewn gwawd yr oedd ei geraint yn dywedyd ei fod ef allan o'i bwyll: ofni yr oeddynt bod ei wresowgrwydd a'i ddyhêwyd ef eisoes wedi myned yn rhy bell, yn fwy nag a allasai ei natur ef ddàl heb lewygu. Dywedir bod y gair a gyfieithir yma "allan o bwyll" yn arwyddo mewn manàu eraill, llewygu gan dreuliad a methiant natur.

22 ¶ A'r ysgrifenyddion, [t] y rhai a ddaethent i waered o Jerusalem, a ddywedasant [u] fod Beelzebub ganddo, ac mai trwy bennaeth y cythreuliaid yr oedd efe yn bwrw allan gythreuliaid.

t pen. 7. 1. Mat. 15. 1. Luc 5. 17. u Salm 22. 6. Mat. 9. 34. a 10. 25. a 12. 24. Luc 11. 15. Ioan 7. 20. a 8. 48, 52.

23 Ac wedi iddo eu galw hwy atto, efe a ddywedodd wrthynt [x] mewn dammegion, [y] Pa fodd y gall Satan fwrw allan Satan?

x Salm 49. 4. Mat. 13. 34, 35. y Mat. 12. 25—30. Luc 11. 17—23.

24 Ac [z] o bydd teyrnas wedi ymrannu yn ei herbyn ei hun, ni ddichon y deyrnas honno sefyll.

z Barn. 9. 23, &c. a 12. 1—6. 2 Sam. 20. 1, 6. 1 Bren. 12. 16, &c. Es. 9. 20, 21. a 19. 2, 3. Ezec. 37. 22. Zec. 11. 14. Ioan 17. 21. 1 Cor. 1. 10—13. Eph. 4. 3—6.

25 Ac [a] o bydd tŷ wedi ymrannu yn ei erbyn ei hun, ni ddichon y tŷ hwnnw sefyll.

a Gen. 13. 7, 8. a 37. 4, &c. Salm 133. 1. Gal. 5. 15. Iago 3. 16.

26 Ac os Satan a gyfyd yn ei erbyn ei hun, ac a fydd wedi ymrannu, ni all efe sefyll, eithr y mae iddo ddiwedd.

27 Ni ddichon neb [b] fyned i mewn i dŷ y cadarn, ac yspeilio ei ddodrefn ef, oni bydd iddo yn gyntaf rwymo y cadarn: ac yna yr yspeilia ei dŷ ef.

b Gen. 3. 15. Es. 27. 1. a 49. 24—26. a 53. 12. Mat. 12. 29. Luc 10. 17—20 a 11. 21—23. Ioan 12. 31. Rhuf. 16. 20. Eph. 6. 10—13. Col. 2. 15. Heb. 2. 14. 1 Ioan 3. 8. a 4. 4. Dat. 12. 7—9. a 20. 1—3.

28 Yn wir y dywedaf i chwi, [c] y maddeuir pob pechod i feibion dynion, a pha gabledd bynnag a gablant:

c Mat. 12. 31, 32. Luc 12. 10. Heb. 6. 4—8. a 10. 26—31. 1 Ioan 5. 16.

Nid oes yn yr adnodau uchod ddim ar na sylwyd arnynt yn Matth. 9. 34. a 12. 31, 32, 33. cyfeiriwn y darllenydd at y lleoedd hyny.

29 * Eithr yr hwn a gablo yn erbyn yr Ysbryd Glân, ni chaiff faddeuant yn dragywydd, [d] ond y mae yn euog o farn dragywydd:

d pen. 12. 40. Mat. 25. 46. 2 Thes. 1. 9. Judas 7, 13.

Tybir yn gyffredin fod y pechod hwn yn gynnwysedig, yn llid gwirfoddol y rhai a wrthsafent dystiolaeth eglur y gwirionedd, y rhai ni chydnabyddent fod gwyrthiau Crist wedi cael eu gwneyd trwy fŷs neu allu Duw, ond yn eu llid ac yn groes i dystiolaeth eu cydwybodau, a'u priodolent i Beelzebub penaeth y cythreuliaid, fel yn adn. 22. Hyn yn ddiammau oedd pechod y Pharisêaid, am neu wrth y rhai y llefarai Crist y pryd hwn; ac mae y rhai hyny hefyd yn euog o'r un pechod, y rhai a wrthwynebant ac a erlidiant athrawiaeth, ffyrdd, a gweision Crist, am eu bod yn ysbrydol, neu am fod rhyw amlygiadau o'r Ysbryd Glân ynddynt; sef pan y gwrthwynebant ac yr erlidiant felly o lid, ac yn erbyn eu gwybodaeth a thystiolaeth eu cydwybod. Nid oes ac ni bydd maddeuant i'r rhai a bechant fel hyn, oblegid ni fwriadwyd marwolaeth Crist yn aberth dros y pechod hwn; ac heb aberth nis gall fod iawn, ac o ganlyniad nid oes maddeuant, Heb. 10. 26, 27. Tybia rhai mai priodoli gwyrthiau Crist i'w gynghrair ef â Satan, yw y pechod a grybwyllir yn unig, ac nas gallai neb ond y dynion a grybwyllir yn adn. 22. fod yn euog o hóno; ond sylwa eraill, nad am bethau a *fu* yr oedd Iesu yn llefaru yn yr adnod hon, eithr am bethau a *fyddai*, neu a allai fod

r ol hyny, dan oruchwyliaeth oleuach yr Ysbryd, yryd y cablai dynion yn ei erbyn ef.

30 Am [e] iddynt ddywedyd, Y mae yspryd ilflan ganddo.

e adn. 22. Ioan 10. 20.

31 ¶ Daeth [f] gan hynny ei frodyr ef a'i fam; a chan sefyll allan, hwy a anfonasant tto gan ei alw ef.

f Mat. 12. 46—48. Luc 8. 19—21.

32 A'r bobl oedd yn eistedd o'i amgylch, a ddywedasant wrtho, Wele, y mae dy fam a'th frodyr allan yn dy geisio.

33 Ac efe a'u hattebodd hwynt, gan ddyedyd, [g] Pwy yw fy mam i, [h] neu fy mrodyr i?

g Deut. 33. 9. Luc 2. 49. Ioan 2. 4. 2 Cor. 5. 16. h adn. pen. 6. 3. Ioan 7. 3—5.

34 Ac wedi iddo edrych oddi amgylch ar y nai oedd yn eistedd yn ei gylch, efe a ddyedodd, [i] Wele fy mam i, a'm brodyr i.

i Salm 22. 22. Can. 4. 9, 10. a 5. 1, 2. Mat. 12. 49, 50. a 25. —45. a 28. 10. Luc 11. 27, 28. Ioan 20. 17. Rhuf. 8. 29. Heb. 2. , 12.

35 Canys pwy bynnag a [k] wnelo ewyllys Duw, hwnnw yw fy mrawd i, a'm chwaer, a'm am i.

k Mat. 7. 21. Ioan 7. 17. 1 Ioan 2. 17. a 3. 22, 23.

(Gwel ar Math. 12. 46—50. * Ei fam:—Mae un o'r en dadau yn ei chyhuddo hi o rodres ac euogrwydd am isio ei dynu ef oddiwrth bregethu y gair: ac un arall a dywedyd ei bod yn euog o anghrediniaeth: ac un arall yn ei chyhuddo hi o wag-ogoniant, gwendid, a wallgofrwydd, am y tro hwn. Diammau fod y pethau n yn ocheliadau ysgrythyrol yn erbyn yr anrhydedd *Dun-addolgar* a roddir i Mair mam yr Iesu. Dylid ei narchu fel gwraig dduwiol, fel rhyw wraig dduwiol all; ond nid hi heb ei gwendid. Ei ddysgyblion yw berthynasau agosaf ef.

PEN IV.

Dammeg yr hauwr, &c.

AC [a] efe a ddechreuodd drachefn athrawiaethu yn ymyl y môr: a thyrfa fawr a ngasglodd atto, [b] hyd oni bu iddo fyned i'r ong, ac eistedd ar y môr: a'r holl dyrfa oedd rth y môr, ar y tir.

a pen. 2. 13. Mat. 13. 1, 2. b Luc 5. 1—3.

2 Ac efe a ddysgodd iddynt lawer [c] ar dammegion, ac a ddywedodd wrthynt [d] yn ei dysgeidiaeth ef,

c adn. 11. pen. 3. 23. Salm 49. 4. Mat. 13. 3, 10, 34, 35. pen. 12. 38. Mat. 7. 28. Ioan 7. 16, 17. a 18. 19.

* Byddai Crist yn aml yn athrawiaethu yn ymyl y Br: yr achos o hyny yn ddiau oedd, y gallai efe gael ng yno yn ymyl y làn i fyned iddi, pan fyddai y dorf ssog yn ei wasgu; ac felly pregethu yn gyfleus iddynt b ddim anghyfleusdra iddo ei hun oddi wrthynt.

3 [e] * Gwrandewch: Wele, [f] hauwr a aeth dan i hau:

e adn. 9. pen. 7. 14. Deut. 4. 1. Salm 34. 11. a 45. 10. Diar. 7. a 8. 32. Es. 46. 3, 12. a 55. 1, 2. Act. 2. 14. Heb. 2. 1—3. Iago 5. Dat. 2. 7, 11, 29. f adn. 14, 26—29. Preg. 11. 6. Es. 28. —26. Mat. 13. 3, 24—26. Luc 8. 5—8 Ioan 4. 35—38. 1 Cor. 3. 6—9.

4 A darfu wrth hau, i beth syrthio ar fin y rdd, [g] ac ehediaid yr awyr a ddaethant ac a'i dasant.

g adn. 15. Gen. 15. 11. Mat. 13. 4, 19. Luc 8. 5, 12.

5 A pheth a syrthiodd ar [h] greigle lle ni afodd fawr ddaear; ac yn y fan yr eginodd, n nad oedd iddo ddyfnder daear.

h adn. 16, 17. Ezec. 11. 19. a 36. 26. Hos. 10. 12. Amos 6. Mat. 13. 5, 6, 20, 21. Luc 8. 6, 13.

6 A phan [i] gododd yr haul, y poethwyd ef; ac am [k] nad oedd gwreiddyn iddo, efe a wywodd.

i Can. 1. 6. Es. 25. 4. Jona 4. 8. Iago 1. 11. Dat. 7. 16. k Salm 1. 3. a 92. 13—15. Jer. 17. 5—8. Eph. 3. 17. Col. 2. 7. 2 Thes. 2. 10. Judas 12.

7 A pheth [l] a syrthiodd ym mhlith drain; a'r drain a dyfasant, ac a'i tagasant ef, ac ni ddug ffrwyth.

l adn. 18, 19. Gen. 3. 17, 18. Jer. 4. 3. Mat. 13. 7, 22. Luc 8. 7, 14. a 12. 15. a 21. 34. 1 Tim. 6. 9, 10. 1 Ioan 2. 15, 16.

8 A pheth arall [m] a syrthiodd mewn tir da, ac a roddes ffrwyth tyfadwy a chynnyrchiol, ac a ddug un ddeg ar hugain, ac un dri ugain, ac un [n] gant.

m adn. 20. Mat. 13. 8, 23. Luc 8. 8, 15. Ioan 1. 12, 13. a 3. 19—21. a 7. 17. Act. 17. 11. Heb. 4. 1, 2. Iago 1. 19—22. 1 Pedr 2. 1—3. n Gen. 26. 12. Phil. 1. 11.

9 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [o] Y neb sydd ganddo glustiau i wrando, gwrandawed.

o Gwel ar adn. 3, 23, 24.—pen. 7. 14, 16. Mat. 11. 15. a 13. 9. a 15. 10. Luc 8. 18. Dat. 3. 6, 13, 22.

10 A [p] phan oedd efe wrtho ei hun, y rhai oedd yn ei gylch ef gyd â'r deuddeg a ofynasant iddo am y ddammeg.

p adn. 34. pen. 7. 17. Diar. 13. 20. Mat. 13. 10, 36. Luc 8. 9.

11 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [q] I chwi y rhodded gwybod dirgelwch teyrnas Dduw: † eithr i'r [r] rhai sydd allan, [s] ar ddammegion y gwneir pob peth:

q Mat. 11. 25. a 13. 11, 12, 16. a 16. 17. Luc 8. 10. a 10. 21—24. 1 Cor. 4. 7. 2 Cor. 4. 6. Eph. 2. 4—10. Tit. 3. 3—7. Iago 1. 16 —18. 1 Ioan 5. 20. r 1 Cor. 5. 12, 13. Col. 4. 5. 1 Thes. 4. 12. 1 Tim. 3. 7. s Mat. 13. 13.

12 Fel yn [t] gweled y gwelant, ac ni chanfyddant; ac yn clywed y clywant, ac ni ddeallant; rhag iddynt [u] ddychwelyd, a maddeu iddynt *eu* pechodau.

t Deut. 29. 4. Es. 6. 9, 10. a 45. 18. Jer. 5. 21. Mat. 13. 14, 15. Luc 8. 10. Ioan 12. 37—41. Act. 28. 25—27. Rhuf. 11. 8—10. u Jer. 31. 18—20. Ezec. 18. 27—32. Act. 3. 19. 2 Tim. 2. 25, 26. Heb. 6. 6.

13 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [x] Oni wyddoch chwi y ddammeg hon? a pha fodd y gwybyddwch yr holl ddammegion?

x pen. 7. 17, 18. Mat. 13. 51, 52. a 15. 15—17. a 16. 8, 9. Luc 24. 25. 1 Cor. 3. 1, 2. Heb. 5. 11—14. Dat. 3. 19.

14 ¶ Yr [y] hauwr sydd yn hau y [z] gair:

y Gwel ar adn. 3.—Es. 32. 20. Mat. 13. 19, 37. Luc 8. 11. z pen. 2. 2. Col. 1. 5, 6. 1 Pedr 1. 23—25.

15 A'r [a] rhai hyn yw y rhai ar fin y ffordd, lle yr hauir y gair; ac wedi iddynt ei glywed, [b] y mae Satan yn dyfod yn ebrwydd, ac yn dwyn ymaith y gair a hauwyd yn eu calonnau hwynt.

a Gwel ar adn. 4.—Gen. 19. 14. Es. 53. 1. Mat. 22. 5. Luc 8. 12. a 14. 18, 19. Act. 17. 18—20, 32. a 18. 14—17. a 25. 19, 20. a 26. 31, 32. Heb. 2. 1. a 12. 16. b Job 1. 6—12. Zec. 3. 1. Mat. 13. 19. Act. 5. 3. 2 Cor. 2. 11. a 4. 3, 4. 2 Thes. 2. 9. 1 Pedr 5. 8. Dat. 12. 9. a 20. 2, 3, 7, 10.

16 A'r rhai hyn yr un ffunud yw y rhai [c] a hauir ar y creigle; y rhai, wedi clywed y gair, sydd yn ebrwydd yn ei dderbyn ef yn llawen;

c pen. 6. 20. a 10. 17—22. Ezec. 33. 31, 32. Mat. 8. 19, 20. a 13. 20, 21. Luc 8. 13. Ioan 5. 35. Act. 8. 13, 18—21. a 24. 25, 26. a 26. 28.

17 Ac [d] nid oes ganddynt wreiddyn ynddynt eu hunain, eithr dros amser y maent: yna, [e] pan ddêl blinder neu erlid o achos y gair, yn y man y rhwystrir hwynt.

d adn. 5, 6. Job 19. 28. a 27. 8—10. Ioan 8. 31. a 15. 2—7. 2 Tim. 1. 15. a 2. 17, 18. a 4. 10. 1 Ioan 2. 19. e Mat. 11. 6. a 13. 21. a 24. 9, 10. 1 Cor. 10. 12, 13. Gal. 6. 12. 1 Thes. 3. 3—5. 2 Tim. 4. 16. Dat. 2. 10, 13.

18 A'r rhai hyn yw y rhai [f] a hauwyd ym mysg y drain; y rhai a wrandawant y gair,
f Gwel ar adn. 7.—Jer. 4. 3. Mat. 13. 22. Luc 8. 14.

19 Ac [g] y mae gofalon y byd hwn, a [h] hudoliaeth golud, [i] a chwantau am bethau eraill, yn dyfod i mewn, ac yn tagu y gair, a myned y mae yn [k] ddiffrwyth.
g Luc 10. 41. a 12. 17—21, 29, 30. a 21. 34. Phil. 4. 6. h Diar. 23. 5. Preg. 4. 8. a 5. 10—16. 1 Tim. 6. 9, 10, 17. i 1 Pedr 4. 2, 3. 1 Ioan 2. 15, 16. k Mat. 3. 10. Ioan 15. 2. Heb. 6. 7, 8. 2 Pedr 1. 8. Judas 12.

20 A'r rhai hyn yw y rhai [l] a hauwyd mewn tir da; y rhai sydd yn gwrando y gair, ac yn *ei* dderbyn, ac yn dwyn ffrwyth, un ddeg ar hugain, ac un dri ugain, ac un [m] gant.
l Gwel ar adn. 8.—Mat. 13. 23. Luc 8. 15. Ioan 15. 4, 5. Rhuf. 7. 4. Gal. 5. 22, 23. Phil. 1. 11. Col. 1. 10. 1 Thes. 4. 1. m Gen. 26. 12.

* Sylwyd ar y ddammeg hon yn Matth. 13. Crybwyllir hi gan Matthew, Marc, a Luc, ac y mae o ddefnydd rhagorol. 1. I ddangos rhagoroldeb gair Duw, yr hwn a elwir yma fel mewn llawer o fànau eraill, Y Gair, mewn ffordd o ragoroldeb. Had Duw ydyw, yr had da, ac ardderchawgrwydd pregethu; oblegid dyna beth yw hau yr had. 2. I ddangos rhagoriaeth pregethiad y gair ar areithiau moesawl, a dadleuon athronawl, *(philosophical)* oddi wrth ba rai nis gellir disgwyl dim ffrwyth. 3. I ddangos gwahanol effeithiau y gair ar wahanol ddynion, lle mae y gair yn cael ei bregethu: mae rhai yn dwyn gwir ffrwythau ffydd a sancteiddrwydd, a hyny yn barâus, ond nid pawb yr un graddau. Ond y mae llawer, ïe, y rhan fwyaf, o'r rhai sydd yn clywed y gair, nad ydynt yn dwyn dim ffrwyth, neu ddim ffrwyth arosawl; yr hyn yn wir nid yw ddim gwir ffrwyth. 4. Mae y ddammeg yn dangos i ni yr achos o ddiffrwythdra rhai gwrandawyr: diofalwch a marweidd-dra rhai, heb ystyried y gair, i fyfyrio arno, ei gymhwyso at eu calonau, a'i gadw yn eu côf. Eraill heb adael iddo soddi i'w calonau, a gwreiddio ynddynt, er ei fod yn eu cyffrôi ychydig am yr amser presenol, ac yn destyn ymddiddan yn ei gylch iddynt. Eraill â'u calonau yn llawn o helyntion a gofalon y byd hwn, ac wedi eu llenwi o gariad at bethau y bywyd presenol, y rhai nis gallant ymadael â hwynt pan ddel erlid a gorthrymder o achos crefydd; mae y gair o herwydd hyny yn myned yn ddiffrwyth iddynt hwy. Am y lleill, nid ydynt hwy yn foddlawn ar wrando y gair yn unig, heb ei ddëall hefyd, ei gadw a'i wneuthur: âi y dysgyblion at Iesu wedi iddo orphen llefaru, i gael gwybod meddwl y ddammeg, a dëall dirgelion teyrnas nefoedd. † Yr oedd y rhan fwyaf o wrandawyr Iesu, yn ddïammau, yn aelodau o'r eglwys Iuddewig, ac eto mae efe yn eu galw yn rhai oddi allan; yr hyn a ddengys i ni y gall dynion fod o *fewn* yr eglwys weledig, ac eto *oddi allan* i'r wir eglwys ddirgeledig, ac yn ddïeithriaid i ddirgelion teyrnas nefoedd.

Mae gan un o'r hen dadau, *(Theophylact)* sylw fel hyn ar y ddammeg hon.—"Gwelwn," ebai efe, "mòr brin yw dynion da, a pha gyn lleied sydd yn gadwedig! oblegid ni syrthiodd ond y bedwerydd ran o'r had ar dir da, ac a ffrwythodd, Gwelwn yma hefyd y graddoldeb. Yr had ar fin y ffordd nid eginodd o gwbl; yr had ar y graig a eginodd, ond ni chynnyddodd; yr had yn mhlith y drain a eginodd ac a gynnyddodd, ond ni ffrwythodd; yr had a hauwyd mewn tir da a eginodd, a gynnyddodd, ac a ddug ffrwyth i berffeithrwydd." Am bethau eraill y ddammeg, gwel ar Matth. 13.

21 ¶ Ac efe a ddywedodd wrthynt, [n] * A ddaw canwyll i'w dodi dan lestr, neu dan wely? ac nid i'w gosod ar ganhwyllbren?
n Es. 60. 1—3. Mat. 5. 15. Luc 8. 16. a 11. 33. 1 Cor. 12. 7. Eph. 5. 3—15. Phil. 2. 15, 16.

* Amcan Iesu yn y gofyniad uchod oedd, dangos i'w ddysgyblion, mai eu dyledswydd hwy oedd goleuo eraill â'r goleuni oedd efe yn ei roddi iddynt hwy, ac nid ei guddio, a'i gadw yn ddiffrwyth iddynt eu hunain. Yn ol Luc 8. 16, mae yn dywedyd, Nid yw neb wedi goleuo canwyll, yn ei chuddio hi â llestr, &c., ac yn ol Marc yma, mae yn gofyn yn holiadol, A ddaw canwyll i'w dodi dan lestr, &c.? Efallai iddo ddywedyd y geiriau ddwywaith, yn mhob un o'r ddwy ffordd, er mwyn ar graffu yr addysg yn ddyfnach ar feddyliau ei ddysgybl ion. Felly y tybia *Doddridge*, a thybia efe bod dul felly yn dra buddiol wrth lefaru, i argraffu y gwirioned ar feddyliau dynion, y rhai sydd arnynt angen eu cae llin ar lin, a gorchymyn ar orchymyn, er ei fod yn ddul y beïir arno gan feirniaid manylaidd ar areithyddiaeth

22 * Canys nid [o] oes dim cuddiedig, a'r ni amlygir; ac ni bu ddim dirgel, ond fel y dela i eglurdeb.
o Salm 40. 9, 10. a 78. 2—4. Mat. 10. 26, 27. Luc 8. 17. a 12 2, 3. Act. 4. 20. a 20. 27. 1 Cor. 4. 5. 1 Ioan 1. 1—3.

23 † Od [p] oes gan neb glustiau i wrando gwrandawed.
p Gwel ar adn. 9.—Mat. 11. 15. Dat. 2. 7, 11, 17. 29.

* Sylwyd ar y geiriau hyn yn Matth. 10. 26. Er meddwl yn y lle hwn yn ddïammau yw, mai pethau i'w gwneyd yn amlwg yw pethau yr efengyl, ac mai dyled swydd yr apostolion, fel yn yr adnod o'r blaen, oedd eu hamlygu a'u cyhoeddi. † Ac mai dyledswydd pawb ag oedd a chlustiau ganddynt hefyd, oedd eu gwrando Felly eto.

24 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [q] * Edrychwch beth a wrandawoch. [r] † A pha fesur y mesuroch, y mesurir i chwithau; a [s] chwanegir i chwi, y rhai a wrandewch.
q Diar. 19. 27. Luc 8. 18. Act. 17. 11. Heb. 2. 1. 1 Ioan 4. 1. 2 Pedr 2. 1—3. r Mat 7. 2. Luc 6. 37, 38. 2 Cor. 9. 6. s pen 9. 7. Es. 55. 3. Ioan 5. 25. a 10. 16, 27.

25 ‡ Canys [t] yr hwn y mae ganddo, y rhoddir iddo: a'r hwn nid oes ganddo, ïe, yr hyn sydd ganddo a ddygir oddi arno.
t Mat. 13. 12. a 25. 28, 29. Luc 8. 18. a 16. 9—12. a 19. 24—26. Ioan 15. 2.

* Fel pe dywedasai yr Iesu, Edrychwch, a sylwch yn fanol, ar y pethau a glywsoch ac a glywoch eto genyf fi gwrandewch y gwirionedd, yr holl wirionedd, a dim ond y gwirionedd: e gyfyd gau-gristiau, ac a dwyllant lawer âg athrawiaethau cyfeiliornus, edrychwch chwi beth a wrandawoch. Pa *fodd* y clywoch a ddywedir yn Luc 8. 18. Nid fel min y ffordd, y creig-leoedd, na'r tir dreiniog; ond fel y tir da. Ystyried, a dàl ar beth yn fanol, meddant yw ystyr y gair Groeg; oblegid nid rhoi gocheliad yn erbyn gau athrawiaeth y mae Crist yma eithr cynghori i ddàl ar y wir athrawiaeth. † Nid gwrando yn dda yn unig oedd dyled yr apostolion, ond cyfranu y gair i eraill: os prin y gwnaent hyny, prin fyddai eu bendithion hwythau, os yn helaeth, caen hwythau eu bendithio yn helaeth yn eu llafur. ‡ Yr hwn sydd yn ffyddlawn ac yn weithgar yn ol y dawn sydd ganddo, e chwanegir hyny a phob bendith arall iddo; ond yr hwn nid oes ganddo galon ac ysbryd i fod yn ffyddlawn, cymmerir oddi arno y dreintiau a'r cyfleusderau sydd ganddo, ac efallai hefyd y dawn sydd ganddo.

26 ¶ * Ac efe a ddywedodd, [u] Felly y mae teyrnas Dduw, [x] fel pe bwriai ddyn had i'r ddaear;
u Mat. 3. 2. a 4. 17. a 13. 11, 31, 33. Luc 13. 18. x adn. 3 4, 14, &c. Diar. 11. 18. Preg. 11. 4, 6. Es. 28. 24—26. a 32. 20 Mat. 13. 3, 24. Luc 8. 5, 11. Ioan 4. 36—38. a 12. 24. 1 Cor. 3. 6—9. Iago 3. 18. 1 Pedr 1. 23—25.

27 † A chysgu, a chodi nos a dydd, a'r had yn egino [y] ac yn tyfu, y modd nis gwŷr efe.
y Preg. 8. 17. a 11. 5. Ioan 3. 7, 8. 1 Cor. 15. 37, 38. 2 Thes 1. 3. 2 Pedr 3. 18.

28 ‡ Canys y [z] ddaear a ddwg ffrwyth o hon ei hun; [a] ‖ yn gyntaf yr [b] eginyn, ar ol hynny y dywysen, yna yr ŷd yn llawn yn y dywysen.

z Gen. 1. 11, 12. a 2. 4, 5, 9. a 4. 11, 12. Es. 61. 11. a adn. 2. Salm 1. 3. a 92. 13, 14. Diar. 4. 18. Hos. 6. 3. Phil. 1. 6, 1. Col. 1. 10. 1 Thes. 3. 12, 13. b Mat. 13. 26.

29 § A phan ymddangoso y ffrwyth, yn wydd [c] y rhydd efe y crymman ynddo, am fod y cynhauaf.

c Es. 57. 1, 2. Joel 3. 13. Mat. 13. 30, 40—43. Dat. 14. 13

iid yw y ddammeg hon gan yr un o'r efengylwyr ill, ac nid oes yma eglurâd arni fel rhai o'r dam-rion eraill. * Mae goruchwyliaeth a mynediad yr gyl yn mlaen yn y byd fel pe bwriai ddyn had i'r ear. Y ddaear yw calonau dynion; yr had yw gair y; yr hauwyr yw gweinidogion a phregethwyr y gair. edswydd y llafurwr yw hau: eu dyledswydd hwythau pregethu ac arfer pob moddion eraill er iachawdwr-h dynion. † Gwedi hau, mae y llafurwr yn gorphwys s ac yn codi at ei orchwylion eraill y dydd, a'r had gino ac yn tyfu heb ei gymmorth ef, ac mewn modd gwyr efe: felly mae gair Duw ar ol ei bregethu; ar law y pregethwr mae ei lwyddo na'i wneyd yn thiol, "Duw sydd yn rhoddi y cynnydd." Gwel y inidog yn aml ei waith yn aflwyddo lle'r oedd efe lisgwyl llwyddiant; ac yn llwyddo weithiau lle nad ll ganddo ef fawr o ddisgwyliad am lwyddiant: ac ai mai ar ol iddo ef farw y bydd ffrwyth ei lafur yn d i'r amlwg ar lawer un. Am hyny ni ddylai efe yn rhy wresog ei ddisgwyliad am lwydd, na digaloni ormodol am aflwydd: ei waith ef ydyw hau. ‡ Fel y ddaear o'i hansawdd naturiol ei hun, yn nghyd wres yr haul a gwlaw y nefoedd, yn peri i'r had o, tyfu, ffrwytho, ac addfedu; felly mae Duw trwy as, a goruchwyliaethau ei Ysbryd, yn peri i'w efen-wyddo yn y byd, ac i'w air lwyddo yn nghalonau ei ... || Fel yr had naturiol a hauwyd yn y ddaear, mae y gwaith ysbrydol yn myned yn mlaen yn dol, ac yn gynnyddol: yn gyntaf argyhoeddiad o ood, edifeirwch, ymofyn am Grist ac iachawdwr-n; yna cynnyddu mewn dëall a barn sefydlog, mwy ofiad a gostyngeiddrwydd; ac fel hyn yn myned yn en yn gynnyddol mewn ffrwythau peraidd sanct-rwydd a gweithredoedd da. § Fel hyn mae eneid-yn cael eu darpar i'r nefoedd: a phan fydd mesur gwasanaeth a'u profedigaethau wedi ei gyflawni, a thau yn barod i fyned i'r dedwyddwch a'r gogoniant riadwyd iddynt; fe'u casgla Duw hwynt fel gwenith ynhauaf i'w ysgubor. Yna caiff gweinidogion y fedi o ffrwyth eu llafur mewn llawenydd! *Nôd.*

iid yw yr hyn a ddywedir am gysgu a chodi yn adn. yn un sail i grefyddwyr na gweinidogion feddwl, yr gwaith da yn mlaen a hwy yn ddiofal ac yn ddilafur i gylch: amcan y geiriau yw dangos, mai gwaith , ac nid llafur dyn, sydd yn peri y cynnydd.

30 ¶ Ac efe a ddywedodd, [d] I ba beth y elybem deyrnas Dduw? neu ar ba ddam-g y gwnaem gyffelybrwydd o honi?

d Galar. 2. 13. Mat. 11. 16. Luc 13. 18, 20, 21.

31 [e] * Megis gronyn o had mwstard *ydyw*, hwn pan hauer yn y ddaear, [f] sydd leiaf o'r hadau sydd ar y ddaear.

e Mat. 13. 31—33. Luc 13. 19. f Gen. 22. 17, 18. Salm 72. 9. Es. 2. 2, 3. a 9. 7. a 49. 6, 7. a 53. 2, 12. a 54. 1—3. a 60. zec. 17. 22—24. Dan. 2. 34, 35, 44, 45. Amos 9. 11—15. Mica 2. Zec. 2. 11. a 8. 20—23. a 12. 8. a 14. 6—9. Mal. 1. 11. Act. a 4. 4. a 5. 14. a 19. 20. a 21. 20. Dat. 11. 15. a 20. 1—6.

32 Eithr wedi yr hauer, y mae yn tyfu, ac myned yn fwy nâ'r holl lysiau, ac [g] efe a g ganghennau mawrion: fel y gallo ehed-yr awyr [h] nythu dan ei gysgod ef.

g Salm 80. 9—11. Ezec. 31. 3—10. Dan. 4. 10—14, 20—22. lm 91. 1. Can. 2. 3. Es. 32. 2. Galar. 4. 20.

(Cyn i Grist farw a chael ei gladdu yn y ddaear, (yr a elwir *hau* yn 1 Cor. 15. 42, 43.) nid oedd ei nas ond bechan iawn: ychydig bach yn ngwlad ea a Galilea, congl fechan iawn o'r byd; ond wedi ei adgyfodiad, hi a gynnyddodd yn rhyfeddol, ac a gynnydda eto yn fwy na'r holl deyrnasoedd, a chaiff Iuddewon a Chenedloedd nythu yn dawel ac yn ddedwydd yn ei changenau hi. Gwel ar Matth. 13. 31, 32.

33 * Ac [i] â chyfryw ddammegion lawer y traethodd efe iddynt y gair, [k] hyd y gallent *ei* wrando.

i Mat. 13. 34, 35. k Ioan 16. 12. 1 Cor. 3. 1, 2.

34 † Ond heb ddammeg ni lefarodd wrthynt: ‡ ac [l] o'r neilldu i'w ddisgyblion efe a eglurodd bob peth.

l adn. 10, 11. pen. 7. 17—23. Mat. 13. 36, &c. a 15. 15, &c. Luc 8. 9, &c. a 24. 27, 44—46.

* Yr oedd ein Harglwydd yn dysgu y bobl yn y dull hwnw ag oedd yn fwyaf addas i agwedd eu meddyliau hwy. Yr oeddynt yn rhy dywyll a rhagfarnllyd y pryd hwn i dderbyn y fath athrawiaeth eglur ag a draddodwyd wedi hyny gan yr apostolion. † Yr oedd ei ddammegion ef, heb roddi ûn achos o dramgwydd i neb, unrhyw fantais i'w elynion; yn tueddu i ennyn ysbryd o ymofyniad, ac yn parotôi y ffordd i athrawiaeth mwy cyflawn a goleu, pan ddeuai yr amser priodol. ‡ O'r neilldu efe a eglurodd bob peth i'w ddysgyblion, i'w darpar a'u dysgu hwynt i lefaru yn eglur am ddirgeledigaethau teyrnas nefoedd.

35 ¶ * Ac [m] efe a ddywedodd wrthynt y dwthwn hwnnw, wedi ei hwyrhâu hi, [n] Awn trosodd i'r tu draw.

m Mat. 8. 23. Luc 8. 22. n pen. 5. 21. a 6. 45. a 8. 13. Mat. 8. 18. a 14. 22. Ioan 6. 1, 17, 25.

36 Ac wedi iddynt ollwng ymaith y dyrfa, † hwy a'i cymmerasant ef [o] fel yr oedd yn y llong: ac yr oedd hefyd longau eraill gyd âg ef.

o adn. 1. pen. 3. 9.

37 Ac [p] fe a gyfododd [q] tymmestl fawr o wynt, a'r tonnau a daflasant i'r llong, hyd onid oedd hi yn llawn weithian.

p Mat. 8. 24. Luc 8. 23. q Job 1. 12, 19. Salm 107. 23—31. Jona 1. 4. Act. 27. 14—20, 41. 2 Cor. 11. 25.

38 ‡ Ac yr oedd efe [r] yn y pen ôl i'r llong, yn cysgu ar obennydd: [s] a hwy a'i deffroisant ef, ac a ddywedasant wrtho, Athraw, [t] ai difatter gennyt ein colli ni?

r Ioan 4. 6. Heb. 2. 17. a 4. 15. s 1 Bren. 18. 27—29. Job 8. 5, 6. Salm 44. 23, 24. Es. 51. 9, 10. Mat. 8. 25. Luc 8. 24. t Salm 10. 1, 2. a 22. 1, 2. a 77. 7—10. Es. 40. 27, 28. a 49. 14—16. a 54. 6—8. a 63. 15. a 64. 12. 1 Pedr 5. 7.

39 Ac [u] efe a gododd i fynu, [x] ac a geryddodd y gwynt, ac a ddywedodd wrth y môr, || Gostega, distawa. A'r gwynt a ostegodd, a bu tawelwch mawr.

u Ex. 14. 16, 22, 28, 29. Job 38. 11. Salm 29. 10. a 93. 3, 4. a 104. 7—9. a 107. 29. a 148. 8. Diar. 8. 29. Jer. 5. 22. x pen. 9. 25. Nah. 1. 4. Luc 4. 39.

40 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [y] Paham yr ydych mor ofnog? pa fodd [z] nad oes gennych ffydd?

y Salm 46. 1—3. Es. 42. 3. Mat. 8. 26. a 14. 31. Luc 8. 25. Ioan 6. 19, 20. z Mat. 6. 30. a 16. 8.

41 Eithr hwy [a] a ofnasant yn ddirfawr, ac a ddywedasant wrth eu gilydd, [b] Pwy yw hwn, gan fod y gwynt a'r môr yn ufuddhâu iddo?

a pen. 5. 33. 1 Sam. 12. 18—20, 24. Salm 89. 7. Jona 1. 9, 15, 16. Mal. 2. 5. Heb. 12. 28. Dat. 15. 4. b pen. 7. 37. Mat. 8. 27. a 14. 32, 33. Luc 4. 36. a 8. 25.

* Un o'r dyddiau mwyaf prysur yn mywyd Iesu oedd y dydd hwn: ymdrechodd ei berthynasau gael ganddo arbed ei hun er ys oriau o'r blaen, (gwel pen. 3. 21, 31.) ond efe a lefarodd lawer gwedi hyny; ac eto, dyma efe yn hwyr y dydd yn morio tua gwlad y Gadareniaid fel na chollai ddim amser. † "Fel yr oedd," yn y llong

lle y buasai yn pregethu, heb un rhag-barotôad, na gofal neillduol am ei iechyd, ei esmwythder, na ei ymgeledd, ar ol y fath lafur a lludded! Y fath anghraifft a roddes efe i ni o ddyoddef caledi, a pheidio gofalu yn ormodol am danom ein hunain, tra byddom yn llafurio i wneuthur daioni i eneidiau dynion. ‡ Mae yn ddiammau bod y dymhestl hon yn fwriadol, i Fab Duw gael dangos ei awdurdod ar y gwynt a'r môr yn gystal ag ar glefydau a chythreuliaid. Fel dyn, yr oedd yn deimladwy o ludded a chwsg, ond fel Duw, yr oedd yn medru llywodraethu y pethau mwyaf dilywodraeth. Gwel ychwaneg ar yr hanes hyn yn Matth. 8. 23—27. || Heddwch, bydd lonydd, yw y Saesoneg, neu bydd heddychol a llonydd: *cauad* neu *gloi y safn* meddant, yw ystyr y gair Groeg am *ddistewi*, neu fod yn *llonydd*.

PEN. V.

Crist yn bwrw allan gythreuliaid, &c.

AHWY [a] a ddaethant i'r tu hwnt i'r môr, * i wlad y Gadareniaid.

a pen. 4. 35. Mat. 8. 28—34. Luc 8. 26.

2 Ac ar ei ddyfodiad ef allan o'r llong, yn y man cyfarfu âg ef [b] o blith y beddau, † ddyn [c] âg yspryd aflan ynddo.

b Es. 65. 4. Luc 8. 27. c adn. 8. pen. 1. 23, 26. a 3. 30. a 7. 25. Luc 9. 42.

3 ‡ Yr hwn oedd â'*i* drigfan ym mhlith y beddau; [d] || ac ni allai neb, ïe, â chadwynau, ei rwymo ef:

d pen. 9. 18—22. Dan. 4. 32, 33. Luc 8. 29.

4 O herwydd ei rwymo ef yn fynych â llyffetheiriau, ac *â* chadwynau, a darnio o hono y cadwynau, a dryllio y llyffetheiriau: ac ni allai neb ei [e] ddofi ef.

e Iago 3. 7, 8.

5 Ac yn wastad nos a dydd yr oedd efe yn [f] llefain yn y mynyddoedd, ac ym mhlith y beddau, ac yn ei dorri ei hun â cherrig.

f 1 Bren. 18. 28. Job 2. 7, 8. Ioan 8. 44.

6 § Ond pan ganfu efe yr Iesu o hirbell, [g] efe a redodd ac a'i haddolodd ef;

g Salm 66. 3. a 72. 9. Luc 4. 41. Act. 16. 17. Iago 2. 19.

Cawsom yr hanes nodedig uchod, ond yn fyrach o lawer, yn Matthew 8. 28—34: cair yr un hanes eto yn Luc 8. 26—40. * Gwlad y Gergesiaid, ddywed Matthew: yr oedd gwlad y Gergesiaid yn helaethach na'r Gadareniaid, yr hon oedd o'i mewn hi. † Dywed Matthew "*dau* ddieflig a gyfarfuant âg ef:" mae yn ddiammau bod dau o honynt; er nad yw Marc a Luc yn enwi ond un. Tybir fod un yn fwy ffyrnig a gorwyllt na'r llall; ac mai am hyny yr enwir un yma ac yn Luc heb sôn am y llall: a thybia rhai mai cenedl-ddyn oedd y gwaethaf o'r ddau, ac mai Iuddew oedd y llall. ‡ Tybia rhai fod yr ysbryd aflan yn gyru y rhai a feddiennid ganddynt i blith y beddau, i gadarnâu y dychymmyg ofer-goelus oedd gan yr Iuddewon am awdurdod ysbrydion drwg ar y meirw. Yr oedd y fath syniadau yn ddiammau gan y paganiaid: ond mae yn debycach fod y rhai cythreulig yn dewis y gogofau hyn fel math o loches. Yr oedd lleoedd digysur ac anghyfannedd felly hefyd, yn fwy cydnaws â meddyliau dybrudd y fath resynolion truenus na chymdeithas â dynion. || Ni allai neb ei rwymo: mae yr holl ddarluniad athrist i gyd yn ddangosiad addas iawn o gyflwr ac agwedd "plant anufudd-dod," yn y rhai mae satan yn llywodraethu ac yn gweithio yn ddiwahardd. § Yr oedd golwg ar Iesu mòr ddychrynllyd ac ofnadwy i'r ysbryd aflan, fel yr oedd yn gorfod rhedeg ato o'i anfodd ei hun, a'i gydnabod ef yn Iesu, Mab y Duw Goruchaf. Mae yn wir bod y cythreulig, neu y cythreuliaid ynddo, yn addef Iesu fel Messiah wrth yr enw uchod, ond yr oeddynt yn addef ei Dduwdod ef hefyd; oblegid nid enw o swydd ac anrhydedd felly yw Mab y Duw Goruchaf, eithr e[illegible] yn perthyn i Grist fel Person Dwyfol: Mab y D[illegible] Goruchaf a wnâed, neu a enneiniwyd, yn Fessiah.

7 A chan waeddi â llef uchel, efe a dd[illegible] wedodd, [h] Beth sydd i mi *a wnelwyf* â t[illegible] Iesu, [i] Mab y Duw goruchaf? [k] * yr ydwyf [illegible] dy dynghedu trwy Dduw, [l] † na phoenech fi[illegible]

h pen. 1. 24. Hos. 14. 8. Mat. 8. 29. Luc 4. 34. i pen [illegible] 11. a 14. 61. Mat. 16. 16. Ioan 20. 31. Act. 8. 37. a 16. [illegible] k 1 Bren. 22. 16. Mat. 26. 63. Act. 19. 13. l Gen. 3. 15. M[illegible] 8. 29. Luc 8. 28. Rhuf. 16. 20. Heb. 2. 14. 2 Pedr 2. 4. 1 Ioan [illegible] 8. Judas 6. Dat. 12. 12. a 20. 1—3.

8 (Canys dywedasai wrtho, [m] Yspryd afla[illegible] dos allan o'r dyn)

m pen. 1. 25. a 9. 25, 26. Act. 16. 18.

9 Ac efe a ofynodd iddo, [n] Beth *yw* [illegible] enw? Yntau a attebodd, gan ddywedy[illegible] [o] ‡ Lleng *yw* fy enw: am fod llawer o honoi[illegible]

n Luc 8. 30. a 11. 21—26. o Mat. 26. 53.

10 || Ac [p] efe a fawr-ymbiliodd âg ef, [illegible] yrrai efe hwynt allan o'r wlad.

p adn. 13. pen 3. 22.

11 Ond yr oedd yno ar y mynyddoed[illegible] [q] genfaint fawr o foch yn pori.

q Lef. 11. 7, 8. Deut. 14. 8. Es. 65. 4. a 66. 3. Mat. 8. 30. L[illegible] 8. 32.

12 A'r [r] holl gythreuliaid a attolygasa[illegible] iddo, gan ddywedyd, Danfon ni i'r moch, f[illegible] y gallom fyned i mewn iddynt.

r Job 1. 10, 11. a 2. 5. Luc 22. 31, 32. 2 Cor. 2. 11. 1 Pe[illegible] 5. 8.

13 Ac yn y man y [s] caniattâodd yr Ies[illegible] iddynt. A'r ysprydion aflan, wedi myne[illegible] allan, a aethant i mewn i'r moch: a [t] rhuthrod[illegible] y genfaint dros y dibyn i'r môr (*ac* ynghylc[illegible] dwy fil oeddynt) ac a'u boddwyd yn y môr.

s 1 Bren. 22. 22. Job 1. 12. a 2. 6. Mat. 8. 32. Dat. 13. 5— a 20. 7. t Ioan 8. 44. Dat. 9. 11.

14 A'r [u] rhai a borthent y moch a ffoisan[illegible] ac a fynegasant *y peth* yn y ddinas, ac yn [illegible] wlad: a hwy a aethant allan i weled beth oed[illegible] hyn a wnaethid.

u Mat. 8. 33. Luc 8. 34.

15 A hwy a ddaethant at yr Iesu, ac [illegible] welsant [x] y cythreulig, yr hwn y buasai llen[illegible] ynddo, yn eistedd, ac yn ei ddillad, ac yn [illegible] iawn bwyll; [y] ac a ofnasant.

x adn. 4. Es. 49. 24, 25. Mat. 9. 33. a 12. 29. Luc 8. 35, 36. 10. 39. Col. 1. 13. y 1 Sam. 6. 20, 21. a 16. 4. 1 Cron. 13. 1[illegible] a 15. 13. 2 Tim. 1. 7.

16 A'r rhai a welsant a fynegasant iddyn[illegible] pa fodd y buasai i'r cythreulig, ac am y moch[illegible]

17 A dechreuasant [z] ddymuno arno ef fyne[illegible] ymaith o'u goror hwynt.

z adn. 7. pen. 1. 24. Gen. 26. 16. Deut. 5. 25. 1 Bren. 17. 1[illegible] Job 21. 14, 15. Mat. 8. 34. Luc 5. 8. a 8. 37. Act. 16. 39.

18 Ac efe yn myned i'r llong, yr hwn [illegible] buasai y cythraul ynddo, a [a] ddymunodd arn[illegible] gael bod gyd âg ef.

a adn. 7, 17. Salm 116. 12. Luc 8. 38, 39. a 17. 15—17. a 2[illegible] 42, 46. Phil. 1. 23, 24.

* Nid yw y tynghedu yma ddim mwy na thaer dde[illegible] syfu: nid ceisio ganddo dyngu, fel y meddylia rha[illegible] † "Na phoenech fi," drwy atal fy rhwysg, a'm danfo[illegible] i'r dyfnder cyn dydd y farn. ‡ Sylwyd ar y gair hw[illegible] yn Matth. 26. 53. Faint bynag oedd y nifer, yr oed[illegible] yn ofnadwy iawn i feddiannu un dyn! || Gwlad [illegible] baganiaid ac Iuddewon gwrthgiliedig oedd y wlad hòn[illegible] am hyny ymbiliai y cythreuliaid am gael aros ynddi[illegible] yno y medrent hwy wneyd eu marchnad a chwareu e[illegible] pranciau orau, ac nid mewn gwlad mwy crefyddo[illegible]

oia rhai, oddi wrth Dan. 10. 13, 20. bod gwahanol
rydion drwg yn llywodraethu ar wahanol wledydd,
a raglawiaeth satan eu tywysog. Os felly, dichon
i y rhai hyn oedd wedi eu gosod yn y wlad hòno i
hwynebu amcanion daionus y Cyfryngwr hyd y gall-
: ac efallai y gallent wneyd mwy o ddrwg *yno* nac
un màn arall, gan y gwyddent fwy am dueddiadau ac
rion y trigolion. Am y pethau eraill yn yr hanes
n, cyfeiriwn y darllenydd at y sylwadau ar Matthew
28—34.

19 Ond yr Iesu ni adawodd iddo; eithr dy-
ddodd wrtho, [b] Dos i'th dŷ at yr eiddot, * a
nega iddynt pa faint a wnaeth yr Arglwydd
ot, ac iddo drugarhâu wrthyt.

o Salm 66. 16. Es. 38. 9—20. Dan. 4. 1—3, 37. a 6. 25—27.
a 2. 1, &c. Ioan 4. 29. Act. 22. 1—21. a 26. 4—29.

* Mae yn debyg yr ewyllysiai Crist i'r Cenedloedd o
gylch yno gael clywed am ei weithredoedd daionus
i ddarpar eu meddyliau hwynt i dderbyn athrawiaeth
wyfol yr efengyl, yr hon a bregethid iddynt ar ol hyn.

20 Ac efe a aeth ymaith, ac a ddechreuodd
hoeddi trwy * [c] Decapolis, pa bethau eu
aint a wnaethai yr Iesu iddo. A phawb a
feddasant.

c pen. 7. 31. Mat. 4. 25.

* Gwel sylwad bŷr am Decapolis, yn Matth. 4. 25: o
dwyrain yr Iorddonen a môr Galilea, y dangosir
capolis ar y *mapiau*, ac yn cyffinio â gwlad y Gadar-
aid, o ba un yr oedd y dyn hwn: adn. 1, 2.

21 ¶ * Ac wedi i'r Iesu [d] drachefn fyned
ewn llong i'r làn arall, ymgasglodd tyrfa
wr atto: ac yr oedd efe wrth y môr.

d Mat. 9. 1. Luc 8. 40.

22 † Ac wele, [e] un o bennaethiaid y syna-
gog [f] a ddaeth, a'i enw Jairus: a phan ei gwel-
dd, [g] efe a syrthiodd wrth ei draed ef.

e Mat. 9. 18, 19. Luc 8. 41, 42. f Luc 13. 14. Act. 13. 15.
3. 8, 17. g adn. 33. Mat. 2. 11. Luc 5. 8. a 8. 28. Act. 10. 25.
Dat. 22. 8.

23 Ac [h] efe a fawr-ymbiliodd âg ef, gan
ywedyd, Y mae fy merch fechan ar drangc:
attolwg i ti ddyfod, a [i] dodi dy ddwylaw
ni, fel yr iachâer hi; a byw fydd.

h pen. 7. 25—27. a 9. 21, 22. 2 Sam. 12. 15, 16. Salm 50. 15.
4. 38. a 7. 2, 3, 12. Ioan 4. 46, 47. a 11. 3. i pen. 6. 5, 6.
a 16. 18. 2 Bren. 5. 11. Mat. 8. 3. Luc 4. 40. a 13. 13. Act. 28,
Iago 5. 14, 15.

24 A'*r Iesu* [k] a aeth gyd âg ef: a thyrfa
wr a'i canlynodd ef, [l] ac a'i gwasgasant ef.

k Luc 7. 6. Act. 10. 38. l adn. 31. pen. 3. 9, 10, 20. Luc 8.
45. a 12. 1. a 19. 3.

* Gwedi gwneyd y wyrth ryfedd a daionus ar y rhai
hreulig yn Gadara, mae Iesu yn myned yn ei ol
achefn i Galilea, ac i Capernaum, ei gartref arferol.
Mae yn amlwg wrth yr adnod hon (22) ac wrth Act.
15. fod amryw lywodraethwyr ar bob synagog; ond
d rhyw un yn benaeth, neu arch-synagogydd: gwel
k. 18. 8, 17, un o'r cyfryw oedd Jairus, a gwr o gyfrif
urddas yn Capernaum yn ddiammau. ‡ Yr oedd
endid yn ffydd Jairus; gallasai, a dylasai hefyd, gredu,
gallasai yr Arglwydd Iesu iachâu ei ferch ef o'r màn
yr oedd, heb fyned gydag ef i'r tŷ a dodi ei ddwylaw
ni: ïe, ei hadgyfodi hi pe buasai wedi marw. Ond
n fod yr Iesu yn gweled fod ei ffydd ef o'r iawn ryw,
a aeth gydag ef.

25 * A [m] rhyw wraig, yr hon a fuasai
newn diferlif gwaed [o] ddeuddeng mlynedd,

m Mat. 9. 20—22. Luc 8. 43, 44. n Lef. 15. 20, 25—27.
Luc 13. 11. Ioan 5. 5, 6. Act. 4. 22. a 9. 33, 34.

26 † Ac a [p] oddefasai lawer gan laweroedd
feddygon, ac a dreuliasai gymmaint ag oedd
ar ei helw, [q] ac ni chawsai ddim llesâd, eithr
yn hytrach myned waeth-waeth,

p Job 13. 4. Jer. 8 22. a 30. 13. a 51. 8. q Salm 108. 12.

27 Pan glybu hi am yr Iesu, hi a ddaeth
yn y dyrfa o'r tu ol, ac [r] a gyffyrddodd â'i
wisg ef.

r pen. 6. 56. 2 Bren. 13. 21. Mat. 14. 36. Act. 5. 15. a 19. 12.

28 Canys hi a ddywedasai, ‡ Os cyffyrddaf
â'i ddillad ef, iach fyddaf.

29 Ac [s] yn ebrwydd y [t] sychodd ffynhon-
nell ei gwaed hi: a hi a wybu yn ei chorph
ddarfod ei hiachâu o'r [u] pla.

s Ex. 15. 26. Job 33. 24, 25. Salm 30. 2. a 103. 3. a 107. 20. a
147. 3. t Lef. 20. 18. u adn. 34. pen. 3. 10. 1 Bren. 8. 37. Luc
7. 21.

30 ‖ Ac yn y fan, yr Iesu, gan wybod yn-
ddo ei hun [x] fyned rhinwedd allan o hono, a
drodd yn y dyrfa, *ac* a ddywedodd, § Pwy a
gyffyrddodd â'm dillad?

x Luc 6. 19. a 8. 46. 1 Pedr 2. 9.

31 A'i ddisgyblion a ddywedasant wrtho,
[y] Ti a weli y dyrfa yn dy wasgu, ac a ddywedi
di, Pwy a'm cyffyrddodd?

y Luc 8. 45. a 9. 12.

32 Ac yntau a edrychodd o amgylch, i
weled yr hon a wnaethai hyn.

33 Ond [z] y wraig, gan ofni a chrynu, yn
gwybod beth a wnaethid ynddi, a ddaeth ac a
syrthiodd ger ei fron ef, [a] ac a ddywedodd
iddo yr holl wirionedd.

z pen. 4. 41. Luc 1. 12, 29. a 8. 47. a Salm 66. 16. a 103.
2—5. a 116. 12—14.

34 Ac efe a ddywedodd wrthi, [b] *Ha* ferch,
[c] dy ffydd a'th iachâodd: [d] dos mewn heddwch,
a bydd iach o'th bla.

b Mat. 9. 2, 22. Luc 8. 48. c pen. 10. 52. Luc 7. 50. a 8.
48. a 17. 19. a 18. 42. Act. 14. 9. d 1 Sam. 1. 17. a 20. 42.
2 Bren. 5. 19. Preg. 9. 7.

Fel yr oedd efe yn myned tua thŷ Jairus, a thyrfa
fawr gydag ef yn ei wasgu, wele wraig yn y dorf yn cael
ei hiachâu yn wyrthiol ganddo, heb neb yn gwybod am
y peth ond efe a hithau. * Rhaid fod clefyd o'r natur
hyn am ddeuddeng mlynedd wedi ei gwanâu hi yn
ddirfawr; ac yr oedd yn aflan hefyd dàn y ddeddf, Lefit.
15. 25—29. † Tebyg i'r wraig hon yn treulio ei chwbl
ar feddygon, ac heb fod ddim yn well, ond yn hytrach
yn myned waeth-waeth; felly y mae pechadur teimladwy
o'i bla ysbrydol, aflwyddo a myned waeth-waeth a wna
efe er pob peth, nes y delo at Grist. Mae un meddyg
enwog a dysgedig, meddant, wedi profi i foddlonrwydd,
fod yr holl glefydau a iachâodd Iesu, yn anfeddyginiaethol trwy unrhyw feddyginiaethau dynol. ‡ "Ymyl
ei wisg ef," medd Matthew 9. 20: yr eddi, neu y rhidens,
a sonir yn Num. 15. 38—40. Yr oedd ganddi feddwl
mawr am allu Crist a'i sancteiddrwydd; ond am ei
wybodaeth ef, a'r modd yr oedd ef yn gwneyd ei wyrthiau, nid oedd ei golygiadau hi ond cymmysglyd. Y cwbl
oedd hi yn gredu y pryd hwn oedd, y gallai efe iachâu
ei chorph hi, nid oedd ganddi fawr o syniad am dano
fel Messiah, ac iachawdwr yr enaid: ond mae yn debyg
iddi gael ei goleuo yn hyny hefyd cyn i'r Iesu ddarfod
â hi. ‖ Ni ddywedir yn un màn am yr apostolion fel y
dywedir yma, ac yn Luc 6. 19. a 8. 46, fod nerth neu
rinwedd yn myned allan o honynt i iachâu. Ond i'r
gwrthwyneb, maent hwy yn gwadu y cyfryw beth, ac yn
priodoli yr holl effaith i Grist, Act. 3. 12, 16. Nis gellir
dywedyd y cyfryw beth â hyn am neb, ond am yr hwn
sydd yn Ben-Arglwydd a Llywodraethwr bywyd a marwolaeth, iechyd ac afiechyd. Gan hyny mae hyn yn profi
Duwdod y Cyfryngwr mawr. Nid oes dim arall angenrheidiol sylwi arno yn yr hanes hwn: mae y wraig yn
cael iachâd yn ol ei ffydd, Crist yn chwalu ymaith ei

hofnau, yn peri iddi fyned mewn heddwch, ac yn ddïammau yn gwneyd trugaredd â'i henaid hi. Nid er cyhoeddi gwyrth a wnaethai efe yn ddirgel, yr oedd Crist yn gofyn hyn; ond er cyhoeddi i'r dyrfa ffydd a gostyngeiddrwydd gwylaidd y wraig a iachesid, ac ar yr un pryd i'w sicrâu hi o'i hiachâd.

35 * Ac efe etto yn llefaru, [e] daeth *rhai* o *dy* pennaeth y synagog, gan ddywedyd, Bu farw dy ferch: [f] i beth etto yr aflonyddi yr [g] Athraw?

e Luc 8. 49. f Luc 7. 6, 7. Ioan 11. 21, 32, 39. g pen. 10. 17. Mat. 26. 18. Ioan 11. 28.

36 † A'r Iesu, yn ebrwydd wedi clywed y gair a ddywedasid, a ddywedodd wrth bennaeth y synagog, Nac ofna; [h] cred yn unig.

h adn. 34. pen. 9. 23. 2 Cron. 20. 20. Mat. 9. 28, 29. a 17. 20. Luc 8. 50. Ioan 4. 48—50. a 11. 40. Rhuf. 4. 18—24.

37 ‡ Ac [i] ni adawodd efe neb i'w ddilyn, [k] ond Pedr, ac Iago, ac Ioan brawd Iago.

i Luc 8. 51. Act. 9. 40. k pen. 9. 2. a 14. 33. 2 Cor. 13. 1.

38 Ac efe a ddaeth i dŷ pennaeth y synagog, [l] ac a ganfu y cynnwrf, a'r rhai oedd yn wylo ac yn ochain llawer.

l Jer. 9. 17—20. Mat. 9. 23, 24. a 11. 17. Luc 8. 52, 53. Act. 9. 39.

39 Ac wedi iddo fyned i mewn, efe a ddywedodd wrthynt, Paham y gwnewch gynnwrf, ac yr wylwch? [m] || ni bu farw yr eneth, eithr cysgu *y mae.*

m Dan. 12. 2. Ioan 11. 11—13. Act. 20. 10. 1 Cor. 11. 30. 1 Thes. 4. 13, 14. a 5. 10.

40 A [n] hwy a'i gwatwarasant ef. Ond [o] efe, gwedi bwrw pawb allan, a gymmerth dad yr eneth a'i mam, a'r rhai oedd gyd âg ef, ac a aeth i mewn lle yr oedd yr eneth yn gorwedd.

n Gen. 19. 14. Neh. 2. 19. Job 12. 4. Salm 22. 7. a 123. 3, 4. Luc 16. 14. Act. 17. 32. o 2 Bren. 4. 33. Mat. 7. 6. a 9. 24, 25. Luc 8. 53, 54.

41 Ac [p] wedi ymaflyd yn llaw yr eneth, efe a ddywedodd wrthi, § Talitha, cwmi; yr hyn o'i gyfieithu yw, [q] Yr eneth (yr wyf yn dywedyd wrthyt) cyfod.

p pen. 1. 31. Act. 9. 40, 41. q pen. 1. 41. Gen. 1. 3. Salm 33. 9. Luc 7. 14, 15. a 8. 54, 55. Ioan 5. 28, 29. a 11. 43, 44. Rhuf. 4. 17. Phil. 3. 21.

42 Ac yn y fan y cyfododd yr eneth, ac a rodiodd: canys deuddeng mlwydd *oed* ydoedd hi. [r] A synnu a wnaeth arnynt â syndod mawr.

r pen. 1. 27. a 4. 41. a 6. 51. a 7. 37. Act. 3. 10—13.

* Bu y wyrth uchod, yn nghyd ag ymddiddan Crist â'r wraig, yn achos o rwystr yn mater Jairus, ac yn ddïammau yn achos o bryder a gofid iddo ef: ond yr oedd ei drallod yn fwy pan ddywedwyd iddo bod ei ferch wedi marw! nad oedd un dyben iddo boeni yr Athraw mwy. † Gwelwn yma fawr dynerwch a thosturi Iesu; yn ebrwydd wedi clywed yr hyn a ddywedasid, efe a ddechreuodd gysuro Jairus: "Nac ofna," ebai efe, "cred yn unig:" hynny yw, cred y gallaf fi ei chyfodi hi, ac y gwnaf hyny yn sicr. ‡ Ni adawodd efe i neb ei ganlyn, fel na byddai yr ymddangosiad lleiaf o rodres a gwag-ogoniant, ond Pedr, ac Iago, ac Ioan; fel y byddai nifer digonol o dystion ar y weithred: a thad a mam yr eneth, i'r rhai y perthynai cael gweled y wyrth ar eu plentyn. Yn y wlad hòno byddai torf ryfeddol iawn yn ymgynnull, i alaru a chwyno am farwolaeth unrhyw berson: gwel Ioan 11. 19. || Dïammau bod yr eneth wedi llwyr farw, ond marw i gael ei hadgyfodi yn fuan yr oedd, ac yn yr ystyr hyny gallasai ddywedyd yn briodol nad oedd hi ond cysgu: fel y dywedodd dro arall "Mae ein cyfaill Lazarus yn huno." Efallai bod ganddo ddyben arall yn dywedyd fel hyn hefyd; sef, tynu y bobl i dystiolaethu ei bod hi yn sicr wedi marw, fel na byddai droi wedi hyny, a dywedyd mai mewn cwsg, neu lewyg, yr oedd hi, ac felly gwadu gwirionedd y wyrth. § Gwedi bwrw y gwatwarwyr a phawb allan, ond y rhai a enwyd uchod efe a ymaflodd yn llaw yr eneth, a chyda'r un awdurdod a phe buasai yn deffrôi plentyn o'i gwsg, efe a ddywedodd wrthi, Talitha, cwmi: Syriaeg neu Galdeaeg yw geiriau, ac nid Hebraeg, yn arwyddo, Yr eneth, cyfod. Llefarodd, ac felly y bu; aeth gallu dwyfol gyda ei eiriau: cyfododd yr eneth, a rhodiodd yn berffaith iach; gorchymynodd roddi bwyd iddi, i ddangos bod natur ar ianol ganddi o hyd, ac nas gallasai fyw yn wyrthiol ei chyfodi yn wyrthiol.

43 * Ac [s] efe a orchymynodd iddynt y gaeth, na chai neb wybod hyn; ac a ddywedodd am [t] roddi peth iddi i'w fwytta.

s pen. 1. 43. a 3. 12. a 7. 36. Mat. 8. 4. a 9. 30. a 12. 16. a 16. 9. Luc 5. 14. a 8. 56. Ioan 5. 41. t Luc 24. 30, 42, 43. Act. 10. 41.

* Er gochel casglu torf chwanegol o'i amgylch ef, bod cynhwrf yn eu plith, rhai am ei wneyd yn frenin rhai am ei erlid, ac hefyd fel na ddygid rhai meirw at i'w bywâu; canys er iddo fywâu rhai, er profi ei all dwyfol a'i ddwyfol anfoniad, nid oedd efe am newi trefn natur yn hyn nac mewn dim arall, trwy wney gwyrthiau bob amser yr ewyllysiai dynion iddo e gwneyd.

PEN. VI.

Diystyru Crist gan ei wladwyr ei hun, &c.

* AC efe a aeth ymaith oddi yno, [a] ac a ddaeth i'w wlad ei hun; a'i ddisgyblion a'i canlynasant ef.

a Mat. 13. 54. Luc 4. 16.

2 Ac wedi dyfod y sabbath, [b] efe a ddechreuodd athrawiaethu yn y synagog: a syn a wnaeth llawer a'i clywsant, gan ddywedyd, [c] O ba le y daeth y pethau hyn i hwn? a pha ddoethineb *yw* hon a roed iddo, fel y gwnaid y cyfryw nerthoedd trwy ei ddwylaw ef?

b pen. 1. 21, 22, 39. Luc 4. 15, 31, 32. c Ioan 7. 15. Act. 4. 13, 14.

3 † Onid [d] hwn yw y [e] saer, mab Mair ‡ brawd [f] Iago, a Joses, a [g] Judas, a [h] Simon? ac onid yw ei chwiorydd ef yma yn ein plith ni? || A hwy a [i] rwystrwyd o'i blegid ef.

d Mat. 13. 55, 56. Luc 4. 22. Ioan 6. 42. e Es. 49. 7. a 53. 2, 3. 1 Pedr 2. 4. f pen. 15. 40. 1 Cor. 9. 4. Gal. 1. 19. g Ioan 14. 22. Judas 1. h pen. 3. 18. Act. 1. 13. i Mat. 11. 6. a 13. 57. Luc 2. 34. a 4. 23—29. a 7. 23. Ioan 6. 60, 61. 1 Cor. 1. 23.

* Yma mae ein Iachawdwr yn gadael Capernaum a yn myned i Nazareth, ei wlad ei hun; oblegid er ei en ef yn Bethlehem, eto, yn Nazareth y cafodd ef ei ddwyn i fynu, hyd oni ddechreuodd ar ei weinidogaeth gyhoedd us yn ddeg ar hugain oed. † Mab y saer a ddywed Matthew, pen. 13. 55. Saer ydoedd Joseph, a dïammau i'r Iesu weithio wrth y gelfyddod isel a llafurus hòno gyda ef. Yr oedd deddf yn mhlith yr Iuddewon i bob rhien ddysgu rhyw gelfyddyd i'w meibion; yr oedd amgylch iadau Joseph a Mair yn isel, fel nas gallasent ddwyn Iesu i fynu mewn ysgolion, ac yn foneddigaidd; yr oedd byw mewn seguryd yn beth hollawl groes i dueddiadau sanctaidd y Cyfryngwr; gan mai rhan o ddedfryd yr Addu cyntaf oedd bwyta ei fara trwy chwŷs ei wyneb, yr oedd yn angenrheidiol i'r ail Adda, yn neddfle ei bobl, fynedd dàn y ddedfryd hòno. Dywedir mai saernïaeth oedd gelfyddyd a gyfrifid iselaf yn mhlith yr Iuddewon. Fe hyn aeth yr hwn oedd gyfoethog er ein mwyn ni yn dlawd. ‡ Am ei frodyr ef, sylwyd o'r blaen yn Matth 13. 55. || A hwy a rwystrwyd ynddo ef: er synu wrth e ddoethineb a'i athrawiaeth ef, maent yn ymrwystro wrtho ef; heb un achos yn y byd ond iselder ei waed oliaeth, ei geraint, a'i ddygiad ef i fynu: ni chawsai e

n i fynu wrth draed eu Doctoriaid hwy, am hyny
mt yn warth bod yn ddysgyblion iddo nac ychwaith
adaw arno

Ond yr Iesu a ddywedodd wrthynt,
Nid yw prophwyd yn ddibris ond yn ei
. ei hun, ac ym mhlith ei genedl ei hun,
m ei dŷ ei hun.
Jer. 11. 21. a 12. 6. Mat. 13. 57. Luc 4. 24. Ioan 4. 44.

† Ac [l]ni allai efe yno wneuthur dim
rthiau, ond rhoi ei ddwylaw ar ychydig
ifion, a'*u* hiachâu *hwynt*.
pen. 9. 23. Gen. 19. 22. Es. 59. 1, 2. Mat. 13. 58. Heb. 4. 2.

‡ Ac efe [m]a ryfeddodd o herwydd eu
ghrediniaeth: ‖ [n]ac a aeth i'r pentrefi oddi
ylch, gan athrawiaethu.
l Es. 59. 16. Mat. 8. 10. Ioan 9. 30. n Mat. 4. 23. a 9.
uc 4. 31, 44. a 13. 22.

Mae'n debyg fod y geiriau hyn yn ddiareb yn
th yr Iuddewon, ac mai felly yr oedd hi ar y pro-
di yn gyffredin: felly y cafodd Jeremiah, pen. 12.
felly y cafodd Iesu; a pha ryfedd os yw felly yn
dyddiau ninnau ar lawer un a haeddai well? "Ni
:" nid am nad oedd gallu ganddo yno fel yn mhob
arall; ond un ai am nad oedd yn barnu yn addas
ngos ei wyrthiau lle'r oedd ei berson mòr ddirmygus,
am na ddygwyd nemawr o wrthddrychau ato gan y
anghrediniol, iddo wneyd gwyrthiau arnynt. Ond
a iachâodd ychydig o gleifion yno, digon i adael
o yn ddiesgus. ‡ Dywedir hyn am dano fel dyn, ac
n duil dynol: efe a ryfeddodd fel pe buasai rhyw
n arall yn rhyfeddu yn yr un amgylchiad. Yr oedd
peth dynol yn Iesu ond pechod. ‖ Hyd ag y gellir
ed yn hanes yr efengylwyr, nid aeth efe byth mwy-
i Nazareth. Mae yn drwm pan fyddo tref neu ardal
echu Crist a'i efengyl o'u plith yn hollawl. Ond ni
esu yn segur; ymdeithiodd drwy y wlad a'r pentrefi
egethu efengyl y deyrnas, yr hyn oedd ei hoff waith
wastadol.

¶ * Ac efe a alwodd [o]y deuddeg, ac a
chreuodd eu danfon hwynt bob yn [p]ddau a
; ac a roddes iddynt [q]awdurdod *ar* yspryd-
aflan;
o pen. 3. 13, 14. Mat. 10. 1, &c. Luc 6. 13—16. a 9. 1—6. p Ex.
, 15. Preg. 4. 9, 10. Dat. 11. 3. q pen. 16. 17. Luc 10. 17

8 Ac a orchymynodd iddynt, [r]na chym-
rent ddim i'r daith, † ond llaw-ffon yn
gg; nac ysgrepan, na bara, nac arian yn *eu*
sau:
r Mat. 10. 9, 10. Luc 10. 4. a 22. 35.

Clywsom am alwad ac ordeiniad yr apostolion o'r
n, pen. 3. 13—19, hwn yw y tro cyntaf iddynt gael
danfon allan i bregethu. † "Na ffôn," medd Matthew
10; "Na ffyn," medd Luc 9. 3; a thybir mai wrth
y dylid deall Matthew: dywedir hefyd bod y gair
on" yn Matthew, yn y rhif liosog, yr un modd ac yn
, mewn llawer o ysgrifau neu argraffiadau o'r Testa-
nt Groeg. Byddai teithwyr, pan gychwynent i daith
, yn arferol o gymmeryd gyda hwynt ddwy ffon (yn
cal a dwy bais,) rhag y dygwyddai rhyw anffawd i un
onynt; ond yma gwaherddir hyny i'r dysgyblion, nid
l eu taith ond bèr, ac am ychydig amser y tro hwn,
r oedd llaw-ffon yn unig yn ddigon iddynt. Dyben
wbl oedd, gwahardd iddynt ymlwytho yn ormodol â
pariadau afreidiol, ond ymddiried yn gwbl ar rag-
faeth Duw, tra byddent wrth ei waith ef.

9 * Eithr *eu bod* â [s]sandalau am eu traed;
na wisgent ddwy bais.
s Act. 12. 8.

Ewch yn eich gwisg gyffredin, heb ddarpar i chwi
n hunain fel trafaelwyr, y rhai a dybient y bydd
ynt angen rhywbeth cyn dychwelyd.

10 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [t]I ba le
bynnag yr eloch i mewn i dŷ, arhoswch yno
hyd onid eloch ymaith oddi yno.
t Mat. 10. 11—13. Luc 9. 4. a 10. 7, 8. Act. 16. 15. a 17. 5—7.

11 A [u]pha rai bynnag ni'ch derbyniant, ac
ni'ch gwrandawant, pan eloch oddi yno, ys-
gydwch y llwch *a fyddo* dan eich traed, yn
dystiolaeth iddynt. Yn wir meddaf i chwi,
[x]Y bydd esmwythach i Sodoma a Gomorrah
[y]yn nydd y farn, nag i'r ddinas honno.
u Neh. 5. 13. Mat. 10. 14. Luc 9. 5. a 10. 10, 11. Act. 13. 50,
51. a 18. 6. x Ezec. 16. 48—51. Mat. 10. 15. a 11. 20—24. Luc
10. 12—15. Ioan 15. 20—24. Heb. 6. 4—8. a 10. 26—31. 2 Pedr
2. 6. Judas 7. y Mat. 12. 36. Rhuf. 2. 5, 16. 2 Pedr 2. 9. a 3.
7. 1 Ioan 4. 17.

* Gwel sylw ar yr adnodau hyn yn Matthew 10, 11—
15. Mae yr hanes yn helaethach yno nac yn Marc na
Luc.

12 A hwy a aethant allan, ac a [z]bregethas-
ant ar iddynt * edifarhâu.
z pen. 1. 3, 15. Ezec 18. 30. Mat. 3. 2, 8. a 4. 17. a 9. 13. a
11. 20. Luc 11. 32. a 13. 3, 5. a 15. 7, 10. a 24. 47. Act. 2. 38. a 3.
19. a 11. 18. a 20. 21. a 26. 20. 2 Cor. 7. 9, 10. 2 Tim. 2. 25, 26.

13 † Ac a [a]fwriasant allan lawer o gy-
threuliaid, ‡ ac [q]a eliasant âg olew lawer o
gleifion, ac a'*u* hiachasant.
a Gwel ar adn. 7. b Iago 5. 14, 15.

* Edifeirwch ydoedd ran fawr o weinidogaeth Ioan
Fedyddiwr, a Christ ei hun, ac a ddylai fod yn ngwein-
idogaeth wastadol pawb a bregethant. Pa le bynag yr
elai yr apostolion hyn, pregethent natur, angenrheid-
rwydd, ac achosion edifeirwch; gyda golwg ar, a thrwy
resymau a gymmerent oddi wrth, fendithion teyrnas y
Messiah, yr hon oedd ar ymddangos yn eu plith. † Ac
i brofi eu hawdurdod a dwyfoldeb eu gweinidogaeth, yr
oeddynt yn bwrw allan lawer o gythreuliaid yn enw yr
Arglwydd Iesu. ‡ Nid moddion iachâd oedd yr olew
hwn; pe felly, ni buasai yr iachâd yn wyrthiol: ond
arwydd o iachâd ydoedd. Yr oedd olew yn arwydd
(symbol) o iechyd a llawenydd; a diammau i'r apostol-
ion gael gorchymyn gan eu Harglwydd i wneuthur defn-
ydd o hòno yn ei enw ef, fel arwydd allanol o iechyd
tumewnol, ac, efallai o iachâd yr enaid hefyd. Heb y
cyfryw orchymyn, nis gallasent ddisgwyl iddo ateb y
dyben: ofer-goel fuasai ei ddefnyddio. Wrth Iago 5.
14, gallwn feddwl bod yr apostolion, ac eraill hefyd, yn
ei ddefnyddio yn gyffredinol; ond nid bob amser, gwel
Act. 3. 6, 7, 8. nid oes sôn am dano yno, ac mae yn
debyg fod yr apostolion yn rhydd yn y peth hyn, i'w
ddefnyddio neu beidio. Darfu y peth yn hollawl gyda'r
apostolion, oblegid darfu gwyrthiau y pryd hyny; ac
ynfydrwydd, a gwaeth nac ynfydrwydd, yw yr Enneiniad
diweddaf gan y pabyddion: enneinio i wellâu a byw, yr
oedd yr apostolion; enneinio i farw y maent hwy, a
thrwy hyny yn twyllo eneidiau trueiniaid am eu mater
tragywyddol mewn byd arall!

14 ¶ A'r [c]brenhin Herod a glybu (canys
[d]cyhoeddyd oedd ei enw ef) ac efe a ddywed-
odd, Ioan Fedyddiwr a gyfododd o feirw, ac
am hynny y mae nerthoedd yn gweithio ynddo
ef.
c adn. 22, 26, 27. Mat. 14. 1, 2. Luc 3. 1. a 9. 7. a 13. 31. a
23. 7—12. d pen. 1. 28, 45. 2 Cron. 26. 8, 15. Mat. 9. 31. 1 Thes.
1. 8.

15 Eraill a ddywedasant, [e]Mai Elias yw.
Ac eraill a ddywedasant, Mai [f]prophwyd yw,
neu megis un o'r prophwydi.
e pen. 8. 28. a 9. 12, 13. a 15. 35, 36. Mal. 4. 5. Mat. 16. 14.
a 17. 10, 11. Luc 1. 17. a 9. 8, 19. Ioan 1. 21, 25. f Mat. 21. 11.
Luc 7. 16, 39. Ioan 6. 14. a 7. 40. a 9. 17. Act. 3. 22, 23.

16 Ond Herod pan glybu, a ddywedodd,
[g]Mai yr Ioan a dorrais i ei ben yw hwn; efe a
gyfododd o feirw.

g Gen. 4. 10, 11. Salm 53. 5. Mat. 14. 2. a 27. 4. Luc 9. 9. Dat. 11. 10—13.

17 Canys [h] yr Herod hwn a ddanfonasai ac a ddaliasai Ioan, ac a'i rhwymasai ef yn y carchar, o achos Herodias [i] gwraig Phylip ei frawd; am iddo ei phrïodi hi.

h Mat. 4. 12. a 11. 2. a 14. 3, &c. Luc 3. 19, 20. i Luc 3. 1.

18 Canys Ioan a ddywedasai wrth Herod, [k] Nid cyfreithlawn i ti gael gwraig dy frawd.

k Lef. 18. 16. a 20. 21.—1 Bren. 22. 14. Ezec. 3. 18, 19. Mat. 14. 3, 4. Act. 20. 26, 27. a 24. 24—26.

19 Ond [l] Herodias a ddaliodd ŵg iddo, ac a chwennychodd ei ladd ef; ac nis gallodd.

l Gen. 39. 17—20. 1 Bren. 21. 20.

20 Canys Herod [m] oedd yn ofni Ioan, gan wybod ei fod ef yn wr cyfiawn, ac yn sanctaidd; ac a'i parchai ef: ac wedi iddo ei glywed ef, efe a wnai lawer o bethau, [n] ac a'i gwrandawai ef yn ewyllysgar.

m pen. 11. 18. Ex. 11. 3. 1 Bren. 21. 20. 2 Bren. 3. 12, 13. a 6. 21. a 13. 14. 2 Cron. 24. 2, 15—22. a 26. 5. Dan. 4. 18, 27. a 5. 17. Mat. 14. 5. a 21. 26. n pen. 4. 16. Salm 106. 12, 13. Ezec. 33. 32. Ioan 5. 35.

21 Ac [o] wedi dyfod diwrnod cyfaddas, pan wnaeth Herod ar ei [p] ddydd genedigaeth swpper i'w bennaethiaid, a'i flaenoriaid, a goreugŷr Galilea:

o Gen. 27. 41. 2 Sam. 13. 23—29. Esther 3. 7. Salm 37. 12, 13. Act. 12. 2—4. p Gen. 40. 20. Esther 1. 3—7. a 2. 18. Diar. 31. 4, 5. Dan. 5. 1—4. Hos. 7. 5. 1 Pedr 4. 3. Dat. 11. 10.

22 Ac wedi [q] i ferch Herodias honno ddyfod i mewn, a dawnsio, a boddhâu Herod, a'r rhai oedd yn eistedd gyd âg ef, y brenhin a ddywedodd wrth y llangces, Gofyn i mi y peth a fynnech, ac mi a'*i* rhoddaf i ti.

q Esther 1. 10—12. Es. 3. 16, &c. Dan. 5. 2. Mat. 14. 6.

23 Ac [r] efe a dyngodd iddi, [s] Beth bynnag a ofynech i mi, mi a'*i* rhoddaf i ti, hyd hanner fy nheyrnas.

r 1 Sam. 28. 10. 2 Bren. 6. 31. Mat. 5. 34—37. a 14. 7. s Esther 5. 3, 6. a 7. 2. Diar. 6. 2. Mat. 4. 9.

24 A hithau a aeth allan, ac [t] a ddywedodd wrth ei mam, Pa beth a ofynaf? A hithau a ddywedodd, [u] Pen Ioan Fedyddiwr.

t Gen. 27. 8—11. 2 Cron. 22. 3, 4. Ezec. 19. 2, 3. Mat. 14. 8. u Job 31. 31. Salm 27. 2. Diar. 27. 3, 4. Act. 23. 12, 13.

25 Ac yn y fan hi a aeth i mewn [x] ar frys at y brenhin, ac a ofynodd, gan ddywedyd, Mi a fynnwn i ti roi i mi allan o law, [y] ar ddysgl, ben Ioan Fedyddiwr.

x Diar. 1. 16. Rhuf. 3. 15. y Num. 7. 13, 19, &c.

26 A'r brenhin [z] yn drist iawn, ni chwennychai ei bwrw hi heibio, o herwydd y llwon, a'r rhai oedd yn eistedd gyd âg ef.

z Mat. 14. 9. a 27. 3—5, 24, 25.

27 Ac yn y man [a] y brenhin a ddanfonodd ddihenyddwr, ac a orchymynodd ddwyn ei ben ef.

a Mat. 14. 10, 11.

28 Ac yntau a aeth ac a dorrodd ei ben ef yn y carchar, ac a ddug ei ben ef ar ddysgl, ac a'i rhoddes i'r llangces; a'r llangces a'i rhoddes ef i'w mam.

29 A phan glybu ei ddisgyblion ef, [b] hwy a ddaethant ac a gymmerasant ei gorph ef, ac a'i dodasant mewn bedd.

b 1 Bren. 13. 29, 30. 2 Cron. 24. 16. Mat. 14. 12. a 27. 57—60. Act. 8. 2.

Sylwyd ar yr hanes uchod am ddïenyddiad I Fedyddiwr o'r blaen, Matth. 14. 1—12. ni wnawn y ond crybwyll rhai addysgiadau byrion oddiwrth yr l hanes. 1. Gwelwn pa fath yw gweinidog ffyddlawn; a faidd ddywedyd wrth y dynion mwyaf, yr hyn y wn yn groes i orchymynion eglur Duw. 2. Gwelwn he lidiowgrwydd dynion wedi eu llygru gan chwantau. oedd yn ddigon gan Herodias roi Ioan yn ngharcl rhaid cael ei ben ymaith hefyd. 3. Yr effeith niweidiol o ddynion halogedig mewn Llysoedd brer ol. Herodias anniwair, a gwŷr llys Herod, y rhai oe ynt gan mwyaf yn Saduceaid, a'i hudasant ef i ferth y dyn duwiol, a wrandawai efe weithiau yn ewyllys 4. Gwelwn hefyd gyfrwysdra y dynion hyn; yn cymm yd mantais ar Herod yn ei lawenydd, ar ei ddydd g edigaeth, i beri iddo wneuthur yr hyn ni wnaethai llawer yn ei oriau mwy sobr. 5. Gwelwn hefyd y niw o lŵon ac addunedau byrbwyll ac ehud: yn enwe pan eu gwneler gan ddynion diofn Duw. 6. Gwelwr gwerth o gyfreithiau, a barn deg a chyfiawn, lle nad bywydau dynion wrth ewyllys rhyw un dyn creulawn gorthrymus. 7. Gwelwn mòr bell yr â dynion me rhith o grefydd, fel Herod, ac eto heb ddim gwir re ac hefyd mòr bell yr ânt ffordd arall, mewn drygio 8. Gwelwn beth mòr ddychrynllyd yw cydwybod eu ofnai Herod mai Ioan wedi cyfodi oedd Crist! 9. Gwel yn olaf, fel y mae pechaduriaid yn felltith i'w gilyd hudodd Herod Herodias i losgach; gwedi hyny hudo hithau yntau i lofruddiaeth.—*Hyd hanner fy nheyrn* —Dull cyffredin o lefaru gan freninoedd, er dangos haelfrydedd, ac i roddi caniatâd i un ofyn ganddynt peth a fynai: ond tybiwn nas gallai yr Herod hwn rod dim o'i deyrnas, chwaithach hyd ei hanner, i fer Herodias nac i neb arall; canys nid oedd efe ond rha law dan amherawdwr Rhufain, ac yn atebol i hwnw a ei holl raglawiaeth.

30 ¶ * A'r [c] apostolion a ymgasglasant yr Iesu, ac a fynegasant iddo yr holl betha [d] y rhai a wnaethent, hefyd a'r rhai a athraw iaethasent.

c adn. 7, &c. Luc 9. 10. a 10. 17. d Act. 1. 1. a 20. 18— 1 Tim. 4. 12—16. Tit. 2. 6, 7. 1 Pedr 5. 2, 3.

* Mae yn debyg mai tra bu y pethau uchod yn nghyl Ioan yn cymmeryd lle, y bu yr apostolion yn preget ar hyd y dinasoedd a'r trefydd. Gwedi iddynt orph am y tro hwn, daethant yn ol at eu Harglwydd, i rod cyfrif o'u gwaith, ac i gael addysg chwanegol ganddo Rhaid i holl weinidogion y gair gael eu danfoniad, dysgeidiaeth, a'u holl gyfarwyddyd gan Iesu; a rha iddynt roddi cyfrif iddo ef am eu holl oruchwyliaeth llafur.

31 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [e] Deuw eich hunain i le anghyfannedd o'r neilldu, gorphwyswch encyd. Canys llawer oedd y dyfod ac yn myned, fel nad oeddynt yn ca ennyd cymmaint ag i fwytta.

e pen. 1. 45. a 3. 7, 20. Mat. 14. 13. Ioan 6. 1.

32 * A hwy a aethant i le anghyfanne mewn llong o'r neilldu.

33 A'r bobloedd a'u gwelsant hwy yn my ed ymaith, a llawer [f] a'i hadnabuant ef, a redasant yno ar draed o'r holl ddinasoed ac a'u rhagflaenasant hwynt, ac a ymgasgla ant atto ef.

f adn. 54, 55. Mat. 15. 29—31. Ioan 6. 2. Iago 1. 19.

* Tybir mai rhyw le yn agos i Bethsaida oedd y anghyfannedd hwn, Luc 9. 10. felly nid oedd ganddy ond croesi y naill ben i fôr Galilea, a gallasai y bobl hawdd fyned o amgylch dros yr Iorddonen ar draed bod yn y lle o flaen Iesu a'i ddysgyblion.

34 * A'r Iesu, wedi myned allan, [g] a welo dyrfa fawr, ac a dosturiodd wrthynt, [h] am

fel defaid heb ganddynt fugail: [i] ac a dde-
iodd ddysgu iddynt lawer o bethau.
Mat. 14. 14. a 15. 32. Luc 9. 11. Rhuf. 15. 2, 3. Heb. 2. 17.
h Num. 27. 17. 1 Bren. 22. 17. 2 Cron. 18. 16. Jer. 50.
10. 2. Mat. 9. 36. i Es. 61. 1—3.

r i'r Iesu fyned i'r lle anghyfannedd hwn er mwyn
chydig seibiant a llonyddwch; eto pan welodd efe
fa, a gwybod nad oedd ganddynt ond yr ysgrifen-
n a'r Phariseaid i'w haddysgu mewn pethau ys-
l; nis gallai lai nag anghofio ei ludded ei hun, a
rio wrthynt: ystyriai hwynt fel defaid heb gan-
fugail, a phorthodd hwynt â gwybodaeth ac â
Gwel ar Matth. 9. 36.

* Ac [k] yna wedi ei myned hi yn llawer
ydd, y daeth ei ddisgyblion atto ef, gan
wedyd, Y lle sydd anial, ac weithian *y mae*
n llawer o'r dydd:
Mat. 14. 15. Luc 9. 12.

[l] Gollwng hwynt ymaith, fel yr elont i'r
oddi amgylch, ac i'r pentrefi, ac y pryn-
iddynt eu hunain fara: canys nid oes gan-
t ddim i'w fwytta.
pen. 3. 21. a 5. 31. Mat. 15. 23. a 16. 22.

7 Ond efe a attebodd ac a ddywedodd
ynt, [m] Rhoddwch chwi iddynt *beth* i'w
ta. † A hwy a ddywedasant wrtho, [n] A
ni a phrynu gwerth deucan ceiniog o fara,
oddi iddynt i'w fwytta?
n pen. 8. 2, 3. 2 Bren. 4. 42—44. Mat. 14. 16. a 15. 32. Luc
Ioan 6. 4—10. n Num. 11. 13, 21—23. 2 Bren. 7. 2.
15. 33. Ioan 6. 7.

8 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pa sawl
h sydd gennych? ewch ac edrychwch.
c wedi iddynt wybod, hwy a ddywedasant,
mp, a dau bysgodyn.
pen. 8. 5. Mat. 14. 17, 18. a 15. 34. Luc 9. 13. Ioan 6. 9.

9 || Ac efe a orchymynodd iddynt beri i
wb eistedd yn fyrddeidiau ar y glaswellt.
1 Bren. 10. 5. Esther 1. 5, 6. 1 Cor. 14. 33, 40.

0 A hwy a eisteddasant yn finteioedd a
teioedd, [q] o fesur cannoedd, ac o fesur deg
eugeiniau.
Luc 9. 14, 15.

1 Ac wedi cymmeryd y pum torth a'r
u bysgodyn, [r] gan edrych i fynu tu a'r nef,
a [s] fendithiodd, ac a dorrodd y bara, ac a'*u*
ddes at ei ddisgyblion, i'*w* gosod ger eu
nnau hwynt: a'r ddau bysgodyn a rannodd
rhyngddynt oll.
r pen. 7. 34. Mat. 14. 19. Luc 9. 16. Ioan 11. 41. a 17. 1.
m. 8. 6, 7. a 14. 22. Deut. 8. 10. 1 Sam. 9. 13. Mat. 15. 36. a
26. Luc 24. 30. Ioan 6. 11, 23. Act. 27. 35. Rhuf. 14. 6. 1 Cor.
1. Col. 3. 17. 1 Tim. 4. 4, 5.

42 A hwy oll a fwyttasant, [t] ac a gawsant
gon.
t pen. 8. 8, 9. 2 Bren. 4. 42—44. Salm 145. 15, 16. Mat. 14.
21. a 15. 37, 38. Luc 9. 17. Ioan 6. 12, 13.

43 A chodasant [u] ddeuddeg basgedaid yn
wn o'r briw-fwyd, ac o'r pysgod.
u pen. 8. 19, 20.

44 A'r rhai a fwyttasent o'r torthau, oedd
ghylch pum mil o wŷr.
Cawsom hanes y wyrth hon yn Matth. 14. 15—21;
ni a'i cawn eto yn helaethach yn Ioan 6. † Dywed
n mai Phylip a ddywedodd "A awn ni a phrynu,
." Ioan 6. 5, 7. Efallai mai hyny yn gymhwys oedd
rian ganddynt yn awr yn y gôd gyffredin, neu efallai
i llawer llai oedd ganddynt, ac y cwynent yma nad
ld ganddynt fodd i brynu digon o fara i'r bobl: cyf-
bol i chwe' phunt a thùm swllt o'n harian ni medd
ai, oedd y swm a enwir uchod. ‡ Ac efallai mai Andreas a
ddywedodd am y bachgenyn oedd a'r pùm torth a'r ddau bysgodyn ganddo, Ioan 6. 8. Cytuna y pedwar efengylwr am nifer y torthau a'r pysgod; nifer y bobl a fwytasant; a nifer y basgedeidiau o friw-fwyd gweddill. || Bob yn ddeg a deugain medd Luc 9. 14. Yr oedd yma drefn ar y torfeydd, o ran eu dosparthiad; glanwaithdra o ran y lle, ar y glaswellt; a duwioldeb yn amlwg wrth gymeryd yr ymborth. Er nad oedd yma ond y glaswellt yn fwrdd; yr awyr yn do; bara haidd a physgod yn fwyd; a dim ond dwfr glân mae yn debyg i'w yfed; eto yr oedd yma wledd ardderchocach o lawer, nag oedd gan Ahasferus yn ei holl rwysg a'i fawredd. Nid oedd yma ddim byrddau, ond y ddaear a'r glaswellt; ac wrth *fyrddeidiau* y deallir y minteioedd a grybwyllir yn gannoedd ac yn ddeg a deugeiniau yn adn. 40. *Yn finteioedd.*—Mae y gair Groeg yn arwyddo *gwelyau mewn gardd*, neu ddarnau hir-onglog o dir a elwir yn welyau mewn gardd, meddant; a thybir mai yn gyffelyb i hyny yr oedd pob mintai wedi ei gosod i eistedd, un 50 a'u gwynebau at yr 50 arall, yn mhob dosparth o'r cannoedd; ac un 25 a'u gwynebau ar y 25 arall, yn mhob dosparth o'r deg a deugeiniau; ac felly pob mintai ar wahan, fel gwelyau trefnus mewn gardd brydferth.

45 Ac [x] yn y man efe a gymhellodd ei ddisgyblion i fyned i'r llong, a myned o'r blaen i'r lân arall * i [y] Bethsaida, tra fyddai efe yn † gollwng ymaith y bobl.
x Mat. 14. 22. Ioan 6. 15—17. y pen. 8. 22. Luc 10. 13.

46 ‡ Ac wedi iddo eu danfon hwynt ymaith,
[z] efe a aeth i'r mynydd i weddio.
z pen. 1. 35. Mat. 14. 23. Luc 6. 12. 1 Pedr 2. 21.

* Dywedir fod y geiriau hyn "*i* Bethsaida" wedi cael eu cam-gyfieithu, ac mai drosodd *gyferbyn â* Bethsaida a ddylent fod. Os ar y tu dwyrain i fôr Galilea yr oedd Bethsaida, fel y dangosir hi ar y darluniau, mae yn rhaid fod "*i* Bethsaida" yn anghywir; oblegid yn agos yno yr oeddent hwy y pryd hwn, a gorchymyn sydd yma i'r dysgyblion fyned i'r lân arall, yr hon oedd raid ei bod *gyferbyn* â Bethsaida, ac yn agos i Capernaum, ar du gorllewin i'r môr hwnw. Ond wedi y cwbl, mae dysgedigion yn methu cytuno pa le yr oedd Bethsaida. Cymhara adn. 45, â Luc 9. 10. † Mae y "gollwng ymaith" yma yn arwyddo, y cyfarwyddiadau a'r gorchymynion mae un yn roddi i'w deulu, ei gyfeillion, a'i weinidogion, pan mae yn eu gadael am ryw yspaid. ‡ Gwedi danfon y torfeydd a'r dysgyblion ymaith, mae efe ei hun yn myned o'r neilldu i weddio; ar hyd nos, ar ben mynydd, ac wrtho ei hun. Nid oedd gan Iesu bechod i'w gyfaddef, na maddeuant i'w ofyn; ac eto ni bu neb erioed yn fwy dibaid mewn gweddiau nac ef. Heblaw bod yn hyny yn esampl i ni, yr oedd yn hyfrydwch ganddo ef gymdeithasu â Duw, o'r neilldu oddiwrth bawb. Felly y gwnâi Abraham, Isaac, Jacob, a Moses: felly y gwnelom ninnau.

47 A phan aeth hi yn hwyr, yr oedd y llong ar ganol y môr, ac yntau ei hun ar y tir.

48 Ac [a] efe a'u gwelai hwynt yn flin arnynt yn rhwyfo: (canys y gwynt oedd yn eu herbyn) * Ac ynghylch [b] y bedwaredd wylfa o'r nos [c] efe a ddaeth atynt, gan rodio ar y môr; ac a [d] fynnasai fyned heibio iddynt.
a Es. 54. 11. Jona 1. 13. Mat. 14. 24. b Ex. 14. 24. 1 Sam. 11. 11. Luc 12. 38. c Job. 9. 8. Salm 93. 4. a 104. 3. d Gen. 19. 2. a 32. 26. Luc 24. 28.

49 Ond pan welsant hwy ef yn rhodio ar y môr, hwy [e] a dybiasant mai drychiolaeth ydoedd: a *hwy* a waeddasant.
e Job 4. 14—16. Mat. 14. 25, 26.

50 (Canys hwynt oll a'i gwelsant ef, ac a ddychrynasant) Ac yn y man yr ymddiddanodd efe â hwynt, ac a ddywedodd wrthynt, Cymmerwch gysur: [f] myfi yw; nac ofnwch.

f Mat. 14. 27. Luc 24. 37—41. Ioan 6. 19, 20. a 20. 19, 20.

51 Ac efe a aeth i fynu attynt i'r llong; [g] a'r gwynt a dawelodd. [h] † A hwy a synnasant ynddynt eu hunain yn fwy o lawer, ac a ryfeddasant.

g pen. 4. 39. Salm 107. 28—30. Mat. 8. 26, 27. a 14. 28—32. Luc 8. 24, 25. Ioan 6. 21. h pen. 1. 27. a 2. 12. a 4. 41. a 5. 42. a 7. 37.

52 ‡ Oblegid [i] ni ddeallasant am y torthau *hynny:* ‖ canys [k] yr oedd eu calon hwynt wedi caledu.

i pen. 7. 18. a 8. 17, 18, 21. Mat. 16. 9—11. Luc 24. 25. k pen. 3. 5. a 16. 14.

Gwel ar Matth. 14. 22—33. * Y bedwaredd wylfa o'r nos oedd, wedi pedwar yn y bore; hyd hyny buasai yr Iesu yn y mynydd yn gweddio. † Bu twyllwyr yn cymmeryd arnynt iachâu eleifion yn wyrthiol, ie, rai yn cymmeryd arnynt gyfodi y meirw; ond ni chlywyd am neb erioed yn porthi pùm mil o ddynion â phùm torth a dau bysgodyn, nac ychwaith yn rhodio ar y môr: ‡ a phe buasai calonau y dysgyblion yn yr agwedd y dylasent fod, ni buasai yn gymmaint syndod iddynt fod Iesu yn tawelu y gwynt. ‖ Mae yr hyn a elwir caledwch yma, weithiau yn cael ei briodoli i'r annuwiol, ac weithiau i'r duwiol, Matth. 16. 23; Rhuf. 8. 5, 6; 1 Cor. 3. 1.

53 Ac wedi iddynt ddyfod trosodd, hwy a ddaethant i [l] dir * Gennesaret, ac a làniasant.

l Mat. 14. 34—36. Luc 5. 1. Ioan 6. 24.

54 Ac wedi eu myned hwynt allan o'r llong, [m] hwy a'i hadnabuant ef yn ebrwydd.

m Salm 9. 10. Phil. 3. 10.

55 † Ac [n] wedi iddynt redeg trwy gwbl o'r gorror hwnnw, hwy a ddechreuasant ddwyn oddi amgylch mewn gwelyau rai cleifion, pa le bynnag y clywent ei fod ef.

n pen. 2. 1—3. a 3. 7—11. Mat. 4. 24.

56 Ac i ba le bynnag yr elai efe i mewn, i bentrefi, neu ddinasoedd, neu wlad, [o] hwy a osodent y cleifion yn yr heolydd, ac a attolygent iddo gael o honynt [p] gyffwrdd cymmaint ag [q] âg ymyl ei wisg ef: ‡ a chynnifer ag a gyffyrddasant âg ef, a iachawyd.

o Act. 5. 15. p pen. 3. 10. a 5. 27, 28. 2 Bren. 13. 21. Luc 6. 19. a 22. 51. Act. 19. 12. q Num. 15. 38, 39. Deut. 22. 12. Mat. 9. 20. Luc 8. 44.

* Genesaret oedd wlad ehang, ar y tu gorllewin i fôr Galilea, yr hwn a elwir weithiau Llyn Genesaret, oddiwrth enw y wlad; yma yr oedd Capernaum yn sefyll. † Mae tosturi y bobl hyn yn ganmoladwy iawn; ac yn dangos i ninnau ein dyledswydd o geisio gwneuthur pob daioni a fedrom i'n cyd-grëaduriaid: yn enwedig i'w heneidiau, trwy ymdrechu eu dwyn at Iesu, y Meddyg rhad ac anffaeledig. Rhyw fath o welyau ar glwydi, neu ar rywbeth felly, a ddygai pedwar o ddynion ar ysgwyddau: gwel ar Matth. 9. 2. ‡ Nid cyfhwrdd âg ymyl gwisg nac â chorph Iesu oedd yn iachâu y cleifion hyn; gwnaeth llawer hyny wrth ei groeshoelio ef: ond rhinwedd oedd yn myned allan o hóno ef, yn gyfatebol i ffydd y rhai oedd yn dyfod ato ef am iachâd. Felly eto; nid dyfod i'r addoliad, a gwrando y gair, sydd yn iachâu eneidiau dynion; ond nerth a rhinwedd dwyfol oddiwrth Ysbryd y gras, sydd yn iachâu eneidiau cleifion ac ymofyngar am iachawdwriaeth.

PEN. VII.

Y Phariseaid yn beïo ar y dysgyblion am fwytta heb ymolchi, &c.

*YNA yr ymgasglodd atto [a] y Phariseaid, a rhai o'r ysgrifenyddion a ddaethai o Jerusalem.

a pen. 3. 22. Mat. 15. 1. Luc 5. 17. a 11. 53, 54.

2 A phan welsant rai o'i ddisgyblion ef dwylaw † cyffredin (hynny ydyw, heb olchi yn bwytta bwyd, [b] hwy a argyhoeddasant.

b Dan. 6. 4, 5. Mat. 7. 3—5. a 23. 23—25.

3 Canys y Phariseaid, a'r holl Iuddewon oni bydd iddynt olchi *eu* dwylaw yn fynych ni fwyttânt; gan ddal [c] traddodiad yr hynafiaid.

c adn. 7—10, 13. Mat. 15. 2—6. Gal. 1. 14. Col. 2. 8, 21, 22. 1 Pedr 1. 18.

4 A *phan ddelont* o'r farchnad, [d] oni bydd iddynt ‡ ymolchi, ni fwyttânt. A llawer o bethau eraill y sydd, y rhai a gymmerasant i'w cadw; *megis* golchi cwppanau, ac ystenau, a efyddynau, a byrddau.

d Job 9. 30, 31. Salm 26. 6. Es. 1. 16. Jer. 4. 14. Mat. 27. 24. Luc 11. 38, 39. Ioan 2. 6. a 3. 25. Heb. 9. 10. Iago 4. 8. 1 Ioan 1. 7.

5 Yna y gofynodd y Phariseaid a'r ysgrifenyddion iddo, Paham [e] nad yw dy ddisgyblion yn rhodio yn ol traddodiad yr hynafiaid, ond bwytta eu bwyd â dwylaw heb olchi?

e pen. 2. 16—18. Act. 21. 21, 24. Rhuf. 4. 12. 2 Thes. 3. 6, 11.

6 Ond efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, [f] Da y prophwydodd Esaias am danoch chwi, [g] ragrithwyr, fel y mae yn ysgrifenedig. Y mae y bobl hyn [h] yn fy anrhydeddu i â'u gwefusau, ond eu calon sydd bell oddi wrthyf.

f Es. 29. 13. Mat. 15. 7—9. Act. 28. 25. g Mat. 23. 13—15. Luc 11. 39—44. h Ezec. 33. 31. Hos. 8. 2, 3. Ioan 5. 42. a 8. 41, 42, 54, 55. a 15. 24. 2 Tim. 3. 5. Tit. 1. 16. Iago 2. 14—17.

7 Eithr [i] ofer y maent yn fy addoli, gan ddysgu *yn lle* dysgeidiaeth, [k] orchymynion dynion.

i 1 Sam. 12. 21. Mal. 3. 14. Mat. 6. 7. a 15. 9. 1 Cor. 15, 14. 58. Tit. 3. 9. Iago 1. 26. a 2. 20. k Deut. 12. 32. Col. 2. 22. 1 Tim. 4. 1—3. Dat. 14. 11, 12. a 22. 18.

8 Canys, gan adael heibio orchymyn Duw, yr ydych yn dal [l] traddodiad dynion; sef golchiadau ystenau a chwppanau: a llawer eraill o'r cyffelyb bethau yr ydych yn eu gwneuthur.

l adn. 3, 4.

9 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [m] ‖ Gwych yr ydych yn rhoi heibio orchymyn Duw, fel y cadwoch eich traddodiad eich hunain.

m 2 Bren. 16. 10—16. Es. 24. 5. a 29. 13. Jer. 44. 16, 17. Dan. 7. 25. a 11. 36. Mat. 15. 3—6. 2 Thes. 2. 4.

10 Canys Moses a ddywedodd, [n] Anrhydedda dy dad a'th fam: [o] a'r hwn a felldithio dad neu fam, bydded farw y farwolaeth.

n pen. 10. 19. Ex. 20. 12. Deut. 5. 16. o Ex. 21. 17. Lef. 20. 9. Deut. 27. 16. Diar. 20. 20. a 30. 17. Mat. 15. 4.

11 Ac meddwch chwithau, Os dywed dyn wrth ei dad neu ei fam, [p] § Corban, hynny yw, Rhodd, trwy ba beth bynnag y ceit lês oddi wrthyf fi; *difai fydd.*

p Mat. 15. 5. a 23. 18. 1 Tim. 5. 4—8.

12 Ac nid ydych mwyach yn gadael iddo wneuthur dim i'w dad neu i'w fam:

13 [q] Gan ddirymmu gair Duw â'ch traddodiad eich hunain, yr hwn a draddodasoch chwi: a llawer [r] o gyffelyb bethau a hynny yr ydych yn eu gwneuthur.

q adn. 9. Es. 8. 20. Jer. 8. 8, 9. Hos. 8. 12. Mat. 5. 17—20. a 15. 6. Tit. 1. 14. r Ezec. 18. 14. Gal. 5. 21.

Gwel ar Matth. 15. 1—9. * Tybir i'r pethau a adroddwyd yn y bennod o'r blaen gymmeryd lle yn union o flaen y pasg yn Jerusalem, Ioan 6. 4. a 7. 2. ac i'r bobl y rhai a aethent o Galilea i gadw y pasg, sôn llawer yn Jerusalem am weithredoedd Iesu, yr hyn a gynhyr-

fel elyniaeth a chenfigen y Phariseaid a'r Ysgrifenydd-
Tybir hefyd nad aeth yr Iesu i'r pasg hwnw,
Ioan 7. 1.) gan hyny daeth y Phariseaid a rhai
Ysgrifenyddion o Jerusalem i Galilea i wylied arno
i veled a allent gael dim yn ei erbyn ef. † Cyff-
n, neu aflan, y cyfrifai yr Iuddewon bob peth ar nad
edi ei buro mewn modd dyladwy, a'i neillduo i
w. ‡ Bedyddio yw ystyr y gair Groeg a gyfieithir
"ymolchi," a "golchi:" nid tebyg iawn y byddai
uddewon yn trochi eu hunain yn gwbl ar yr achlys-
n hyn. A pha reswm sydd mewn trochi byrddau?
yn hytrach glythau, ar ba rai y lled orweddent wrth
wrdd i fwyta. || Pethau o ddyfais a dychymmyg
dion oedd y traddodiadau hyn, dros ben gorchymyn-
l Duw, (gwel ar Matth. 15. 1—9.) Yr oedd Iesu yn
w gorchymynion Duw yn fanol, ond yn gwrthwynebu
ddodiadau dynion, ac yn annog ei ddysgyblion i'w
thwynebu hefyd. Traddodiadau dynol, a phechad-
s hefyd, yw llawer o'r pethau sydd gan y pabyddion;
yr un sail iddynt yn ngair Duw. Gwawdiaith yw y
"Gwych" yn y nawfed adnod. "Rhoi heibio:"
heibio yn ddirmygus ac yn ddïystyrllyd yw meddwl
nir gwreiddiol. § "Corban" sydd air Hebraeg, ac a
fnyddir yn aml yn yr Hen Destament, am amryw
o offrymau sanctaidd. Mae yr un gair yn cael ei
eithu "trysorfa" yn Matth 27. 6. Felly mae "corban"
arwyddo rhoddion cyssegredig at wasanaeth y deml,
efyd y drysorfa lle cedwid y rhoddion hyny. Meddwl
dnod sydd fel hyn: os byddai i neb gymmeryd arno
segru ei feddiannau i Dduw, ac at wasanaeth y deml,
rhai y dylasai gynnorthwyo ei rieni; barnai yr Ys-
fenyddion a'r Phariseaid ef yn rhydd oddi wrth bob
ymau i gynnal neu gynnorthwyo ei rieni mwyach,
mòr hen, gwael, ac anghenus bynag y byddent: a
ment y neb a'u cynnorthwyai wedi hyn braidd yn
itigedig, am dòri adduned y corban. Gwel ychwaneg
y traddodiad drygionus hwn yn Matth. 15. 1—9.

14 ¶ * A [s] chwedi galw atto yr holl dyrfa,
a ddywedodd wrthynt, Gwrandewch chwi
arnaf, a deallwch.

s 1 Bren. 18. 21. a 22. 28. Salm 49. 1, 2. a 94. 8. Mat. 15. 10.
12. 1, 54—57. a 20. 45—47.

* Llefarodd Iesu yr adnodau blaenorawl wrth y Phar-
aid a'r Ysgrifenyddion; yn awr mae yn galw ato yr
l dyrfa, ac yn eu hannog i wrando yn ddifrifol ac yn
ëallus ar y pethau yr oedd yn myned i'w llefaru.

15 [t] * Nid oes dim allan o ddyn yn myned
mewn iddo, a ddichon ei halogi ef: [u] eithr y
thau sydd yn dyfod allan o honno, y rhai
nny yw y pethau sydd yn halogi dyn.

t t adn. 18—20. Lef. 11. 42—47. Act. 10. 14—16, 28. a 11. 8—10.
20, 21. Rhuf. 14. 17. 1 Cor. 10. 25. 1 Tim. 4. 3—5. Tit. 1. 15.
9. 10. a 13. 9. u adn. 20—23. Diar. 4. 23. Mat. 12. 34, 35.
16—20.

16 † Od [x] oes gan neb glustiau i wrando,
rrandawed.

x pen. 4. 9, 23. Mat. 11. 15. Dat. 2. 7, 11, 17, 29. a 3. 6, 13, 22.

* Mae yn wir y gallasai yr Iuddewon halogi eu hun-
trwy fwyta pethau ag oedd yn waharddedig dàn y
eddf; ac y gallwn ninnau eto, trwy fwyta neu yfed
hau niweidiol i'n hiechyd; neu gymmeryd pethau yn
ghymedrol, i lythineb a meddwdod. Ond wedi y
bol, o'r galon mae y chwant a'r blys i hyny yn dyfod;
o hyny mae yr halogrwydd. Ameau Iesu yn y geiriau,
e yn debyg oedd, dangos yr afreidrwydd a'r oferedd
ymolchi cyn bwyta; oblegid nid ymolchi er glan-
thdra ydoedd, ond ymolchi crefyddol. † Mae galw
wrandawiad cyn dywedyd y geiriau, ac eilwaith ar
eu llefaru, yn dangos fod y peth o bwys mawr i'r
randawwyr, ac yn deilwng o'u sylw.

17 A [y] phan ddaeth efe i mewn i'r tŷ oddi
th y bobl, ei ddisgyblion a ofynasant iddo
n y * ddammeg.

y pen. 4. 10, 34. Mat. 13. 10, 36. a 15. 15.

* Y ddammeg: sef y geiriau uchod yn adn. 15, y rhai oedd yn dywyll iddynt hwy: oblegid dyna feddwl y gair dammeg weithiau yn yr ysgrythyrau, Salm 49. 4, Ezec. 20. 49. Gellid meddwl fod geiriau uchod ein Hiachawdwr yn ddigon eglur; ond o herwydd hen arfer, a dygiad i fynu yn y cyfryw draddodiad, yr oeddynt yn dywyll i'r dysgyblion y pryd hwnw. Pedr a ofynodd, Matth. 15. 15.

18 Yntau a ddywedodd wrthynt, [z] * Ydych chwithau hefyd mor ddi-ddeall? † Oni wyddoch am bob peth oddi allan a êl i mewn i ddyn, na all hynny ei halogi ef;

z pen. 4. 13. Es. 28. 9, 10. Jer. 5. 4, 5. Mat. 15. 16, 17. a 16. 11. Luc 24. 25. Ioan. 3. 10. 1 Cor. 3. 2. Heb. 5. 11, 12.

19 Oblegid [a] nid yw yn myned i'w galon ef, ond i'r bol; ac yn myned allan i'r geudy, gan garthu yr holl fwydydd?

a Mat. 15. 17. 1 Cor. 6. 13. Col. 2. 21, 22.

20 Ac efe a ddywedodd, [b] Yr hyn sydd yn dyfod allan o ddyn, hynny sydd yn halogi dyn.

b adn. 15. Salm 41. 6. Hos. 7. 6. Mica 2. 1. Mat. 12. 34—37. Iago 1. 14, 15. a 3. 6. a 4. 1.

21 Canys oddi mewn, [c] allan o galon dynion, y daw [d] drwg-feddyliau, tòr-prïodasau, putteindra, llofruddiaeth,

c Gen. 6. 5. a 8. 21. Job 14. 4. a 15. 14—16. a 25. 4. Salm 58. 2, 3. Diar. 4. 23. Jer. 4. 14. a 17. 9. Mat. 15. 19. a 23. 25—28. Luc 16. 15. Act. 5. 4. a 8. 22. Rhuf. 7. 5, 8. a 8. 7, 8. Gal. 5. 19—21. Tit. 3. 3. Iago 1. 14, 15. a 4. 1—3. 1 Pedr 4. 2, 3. d Diar. 15. 26. Es. 59. 7. Ezec. 38. 10. Mat. 9. 4. Iago 2. 4.

22 Lladradau, cybydd-dod, drygioni, twyll, anlladrwydd, [e] drwg-lygad, cabledd, [f] balchder, [g] ynfydrwydd.

e Deut. 15. 9. a 28. 54, 56. 1 Sam. 18. 8, 9. Diar. 23. 6. a 28. 22. Mat. 20. 15. f 2 Cron. 32. 25, 26, 31. Salm 10. 4. Ob. 3, 4. 2 Cor. 10. 5. 1 Pedr 5. 5. g Diar. 12. 23. a 22. 15. a 24. 9. a 27. 22. Preg. 7. 25. 1 Pedr 2. 15.

23 Yr holl ddrwg bethau hyn sydd yn dyfod oddi mewn, ac [h] yn halogi dyn.

h adn. 15, 18, 20. 1 Cor. 3. 17. Tit. 1. 15. Judas 8.

* Mae Crist yma megys yn synu wrth annwybodaeth y dysgyblion, ac yn eu ceryddu yn dyner am yr annwybodaeth hòno; fel pe dywedasai, a fuoch chwi gyda mi er ys cyhyd o amser, ac a ddanfonais i chwi i ddysgu eraill, ac wedi y cwbl nis medrwch ddëall peth mòr eglur a hyn? Mae annwybodaeth yn fwy dïesgus mewn proffeswyr crefydd a chanlynwyr Crist, nac mewn dynion eraill. † Ar ol eu ceryddu felly yn dirion, mae yn eu dysgu, ac yn egluro y ddammeg iddynt. Mae yma amryw bechodau gweithredrol yn cael eu henwi, a'r rhai hyny oll wedi tarddu o'r galon: chwant, wedi ymddwyn, yn esgor ar bechod; hyny yw, yn y weithred. Enwa Marc ychwaneg o honynt na Matthew; eithr nid yw yr un o honynt yn enwi ond rhai yn lle y cwbl. Gwel sylwadau chwanegol ar Matth. 15. 18, 19, 20.

24 ¶ Ac [i] efe a gyfododd oddi yno, ac a aeth i gyffiniau [k] Tyrus a Sidon; ac a aeth i mewn i dŷ, [l] * ac ni fynnasai i neb wybod: eithr ni allai efe fod yn guddiedig.

i Mat. 15. 21. k Gen. 10. 15, 19. a 49. 13. Jos. 19. 28, 29. Es. 23. 1—4, 12. Ezec. 28. 2, 21, 22. l pen. 2. 1. a 3. 7. a 6. 31, 32. Es. 42. 2. Mat. 9. 28. 1 Tim. 5. 25.

25 † Canys pan glybu [m] gwraig, [n] yr hon yr oedd ei merch fechan âg yspryd aflan ynddi, sôn am dano, hi a ddaeth ac a [o] syrthiodd wrth ei draed ef:

m Mat. 15. 22. n pen. 9. 17—23. o pen. 1. 40. a 5. 22, 23, 33. Luc 17. 16. Act. 10. 25, 26. Dat. 22. 8, 9.

26 (A ‡ Groeges oedd y wraig, [p] || Syropheniciad o genedl) A hi a attolygodd iddo fwrw y cythraul allan o'i merch.

p Mat. 15. 22.

27 A'r Iesu a ddywedodd wrthi, [q] Gâd yn

gyntaf i'r plant gael eu digoni: canys nid cymhwys yw cymmeryd bara y plant, a'*i* daflu i'r cenawon cŵn.

q Mat. 7. 6. a 10. 5, 6. a 15. 23—28. Act. 22. 21, 22. Rhuf. 15. 8. Eph. 2. 12.

28 Hithau a attebodd ac a ddywedodd wrtho, § Gwir, *O* Arglwydd: [r] *ac* etto y mae y cenawon dàn y bwrdd yn bwytta o friwsion y plant.

r Salm 145. 16. Es. 45. 22. a 49. 6. Mat. 5. 45. Luc 7. 6—8. a 15. 30—32. Act. 11. 17, 18. Rhuf. 3. 29. a 10. 12. Eph. 3. 8.

29 Ac efe a ddywedodd wrthi, [s] Am y gair hwnnw dos ymaith; aeth y cythraul allan o'th ferch.

s Es. 57. 15, 16. a 66. 2. Mat. 5. 3. a 8. 9—13. 1 Ioan 3. 8.

30 Ac wedi [t] iddi fyned i'w thŷ, hi a gafodd fyned o'r cythraul allan, a'i merch wedi ei bwrw ar y gwely.

t Ioan 4. 50—52.

Mae Matthew 15. 21—28, yn adrodd yr hanes am y wraig hon yn helaethach na Marc: gwel y sylwadau a wnaed yno. * "Ni fynasai efe i neb wybod," rhag y tybid ei fod ef yn fwriadol yn myned at y cenedloedd ac yn esgeuluso yr Iuddewon. † Mae yn debyg nad oedd y wraig genedlig hon wedi cael dim manteision gwybodaeth erioed, ond yr hyn a gawsai hi trwy ddarllen yr Hen Destament; ac wrth gymharu gweithredoedd Iesu â'r prophwydoliaethau am y Messiah yno, yr oedd hi yn credu yn ddilys mai Iesu oedd y Messiah; ac yn ei gyfarch ef yn ddibetrus fel y cyfryw, adn. 28. Yr oedd hi nid yn unig yn wir gredadyn, ond hefyd yn gredadyn enwog.—Onid oes yma galondid mawr i ddosparthu yr ysgrythyrau. ‡ "Groeges:" un heb ei llwyr ddychwelyd at grefydd Israel, am hyny yn cael ei hystyried fel un o'r Cenedloedd. ‖ "Syrophenisiad:" Syrophenisia ydoedd un ai y rhan hyny o Phenisia ag oedd yn cyffinio â Syria, neu ynte gelwid y cwbl o Phenisia felly am ei bod wedi ei hennill gan, a'i huno â Syria, drwy fuddugoliaeth. Canaaneaid oedd y brodorion o'r dechreuad. § "Gwir:" mae y gair weithiau yn gydsyniadol, ac weithiau yn erfyniadol: yma mae yn bob un o'r ddau. Y peth mae y balch yn ei wrthod, y peth hyny mae y gostyngedig yn taer grefu am dano.

31 ¶ Ac efe a aeth drachefn ymaith [u] o dueddau Tyrus a Sidon, ac a ddaeth hyd fôr Galilea, trwy ganol terfynau [x] * Decapolis.

u adn. 24. Mat. 15. 29. x pen. 5. 20. Mat. 4. 25.

32 † A hwy a [y] ddygasant atto un byddar, âg attal dywedyd arno; ac a attolygasant iddo ddodi ei law arno ef.

y Mat. 9. 32, 33. Luc 11. 14.

33 Ac [z] wedi iddo ei gymmeryd ef o'r neilldu allan o'r dyrfa, ‡ efe a estynodd ei fysedd yn ei glustiau ef, ac wedi iddo boeri, efe a gyffyrddodd â'i dafod ef;

z pen. 5. 40. a 8. 23. 1 Bren. 17. 19—22. 2 Bren. 4. 4—6, 33, 34. Ioan 9. 6, 7.

34 ‖ A [a] chan edrych tu a'r nef, [b] efe a § ocheneidiodd, ac a ddywedodd wrtho, [c] * Ephphatha, hynny yw, [d] Ymagor.

a pen. 6. 41. Ioan 11. 41. a 17. 1. b pen. 8. 12. Es. 53. 3. Ezec. 21. 6, 7. Luc 19. 41. Ioan 11. 33, 35, 38. Heb. 4. 15. c pen. 5. 41. a 15. 34. d pen. 1. 41. Luc 7. 14. a 18. 42. Ioan 11. 43. Act. 9. 34, 40.

35 Ac [e] yn ebrwydd ei glustiau ef a agorwyd, a rhwym ei dafod a ddattodwyd; ac efe a lefarodd yn eglur.

e pen. 2. 11, 12. Salm 33. 9. Es. 32. 3, 4. a 35. 5, 6. Mat. 11. 5.

36 Ac [f] efe a waharddodd iddynt ddywedyd i neb: ond po mwyaf y gwaharddodd efe iddynt, mwy o lawer y cyhoeddasant.

f pen. 1. 44, 45. a 3. 12. a 5. 43. a 8. 26.

37 A [g] synnu a wnaethant † yn anfeidrol gan ddywedyd, [h] ‡ Da y gwnaeth efe bob peth: [i] y mae efe yn gwneuthur i'r byddariaid glywed, ac i'r mudion ddywedyd.

g pen. 1. 27. a 2. 12. a 4. 41. a 5. 42. a 6. 51. Act. 2. 7—12. 3. 10—13. a 14. 11. h Gen. 1. 31. Luc 23. 41. i Ex. 4.

Nid yw yr hanes uchod gan yr un o'r efengylwyr ond Marc. * Ystyr y gair Decapolis yw, Deg dinas; ac ehang a deg o ddinasoedd ynddi. Tybia rhai mai dy y gogledd a'r dwyrain i fôr Tiberias yr oedd Decapolis yn gorwedd; os felly, aeth Iesu lawer dros ei ffordd i ddyfod o dueddau Tyrus a Sidon i Galilea: ei arfer oedd cerdded oddi amgylch i wneuthur daioni. † oedd y dyn cythreulig wedi cyhoeddi trwy holl Decapolis yr hyn a wnaethai yr Iesu iddo ef, pen. 5. 20; yr hyn fu yn foddion i bawb wybod am allu gwyrthiol yr Iesu ac felly y dygwyd y byddar hwn ato. Tafod-rwym y ystyr y gair Groeg, meddant; tybia rhai nad oedd y dy hwn yn hollol fud, ond ei fod yn llefaru mòr afrwyd gan attal ar ei ymadrodd, fel nad allai braidd neb ddëall ef; tybia eraill ei fod yn hollol fud, a gell meddwl hyny am dano, wrth ddiwedd adn. 37. ‡ Gwe odd yr Iesu fod yn dda y tro hwn i arfer ffordd wahane i ddim a arferasai o'r blaen, er dangos nad oedd ef ddim yn rhwym wrth unrhyw foddion neilldu ol: ac ni oedd dim yn y moddion hyn chwaith, o'u rhan eu hun ain, yn tueddu at adferu clyw na llafar y dyn hwn Atebasant y dyben yn unig trwy allu dwyfol a gwyrthio y Cyfryngwr: yr un modd y gallasai efe ei iachâu â air yn unig, heb foddion yn y byd. ‖ Efe a edrychod tua'r nef, er dangos i ni bod ei anfoniad a'i awdurdo ef oddi uchod, ac i ddangos hefyd i ni, mai o'r nef mae i ni ddisgwyl am bob cymmorth. § Efe a ochen eidiodd wrth feddwl am effeithiau pechod ar blan dynion; i ddangos ei gydymdeimlad â'r dyn tlawd hwn ac i ddangos ei wir ewyllysgarwch am iddo gael iachâd * Gair Caldeaeg, medd *Guyse*, yw Ephphatha; ond dy wed *Scott* mai Syriaeg yw, ac nad yw yn gwahaniaeth fawr oddiwrth y gair Hebraeg o'r un meddwl, yr hy yw, Ymagor. Llefarodd Iesu y gair hwn wrth y dy gydag awdurdod ddwyfol; a chyda'r gair, yn ebrwydd e glustiau ef a agorwyd, a rhwym ei dafod a ddattodwyd ac efe a lefarodd yn eglur. A gair ei nerth y gwnaet efe y byd; â gair ei nerth mae yn cynnal y byd; ac gair ei nerth mae yn adferu ac yn adgyweirio rhy ranau, neu ddarnau o'r byd, a fyddo wedi adfeilio a anmharu. † Tu hwnt i fesur, yw y Saesoneg; mwy na uwchlaw mesur, meddant, yw y Groeg; a pha beth y *anfeidrol* ond peth tu hwnt, uwchlaw, a thros ben po mesur a chyfrif? ‡ Mae y ganmoliaeth rydd a chy hoeddus hon yn arwyddo mai Iesu oedd y Messiah y sicr, ac yn dangos fod y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion yn dra phechaduru yn eu gwrthwynebiad iddo.

PEN. VIII.

Crist yn porthi y bobl yn rhyfeddol.

YN y dyddiau hynny, [a] pan oedd y dyrfa y fawr iawn, ac heb ganddynt ddim i'w fwytta, y galwodd yr Iesu ei ddisgyblion atto ac a ddywedodd wrthynt,

a Mat. 15. 32.

2 Yr wyf fi [b] yn tosturio wrth y dyrfa oblegid y maent hwy dridiau weithian yn arc gyd â mi, [c] ac nid oes ganddynt ddim i'w fwytta:

b pen. 1. 41. a 5. 19. a 6. 34. a 9. 22. Salm 103. 13. Mica 19. Mat. 9. 36. a 14. 14. a 20. 34. Luc 7. 13. a 15. 20. Heb. 2. 1 a 4. 15. c Mat. 4. 2—4. a 6. 32, 33. Ioan 4. 6—8, 30—34.

3 Ac os gollyngaf hwynt ymaith ar e

hlwng i'w teiau eu hunain, [d] * hwy a lewyg-
ar y ffordd: canys rhai o honynt a ddaeth
ell.
d Barn. 8. 4—6. 1 Sam. 14. 28—31. a 30. 10—12. Es. 40. 31.
A'i ddisgyblion ef a'i hattebasant, [e] O ba
gall neb ddigoni y rhai hyn † â bara yma
yr anialwch?
e pen. 6. 52. Num. 11. 21—23. 2 Bren. 4. 42—44. a 7. 2. Salm
9, 20. Mat. 15. 33. Ioan 6. 7—9.
Ac efe a ofynodd iddynt, [f] Pa sawl torth
dd gennych? A hwy a ddywedasant, Saith.
f pen. 6. 38. Mat. 14. 15—17. a 15. 34. Luc 9. 13.
Ac efe a orchymynodd i'r dyrfa [g] eistedd
y llawr: ac a gymmerodd y saith dorth,
a ddiolchodd, ac a'*u* torrodd *hwynt*, ac a'*u*
ddes i'w ddisgyblion, fel y gosodent *hwynt*
eu bronnau; a gosodasant *hwynt* ger bron
obl.
g pen. 6. 36, 40. Mat. 14. 18, 19. a 15. 35, 36. Luc 9. 14, 15. a
7. Ioan 2. 5. a 6. 10. h pen. 6. 41—44. 1 Sam. 9. 13. Mat.
6. a 26. 26. Luc 24. 30. Ioan 6. 11, 23. Rhuf. 14. 6. 1 Cor. 10.
1. Col. 3. 17. 1 Tim. 4. 3—5.
Ac yr oedd ganddynt ychydig [i] bysgod
hain: ac wedi iddo fendithio, efe a barodd
di y rhai hynny hefyd ger *eu* bronnau
ynt.
i Luc 24. 41, 42. Ioan 21. 5, 8, 9.
8 A hwy a fwyttasant, [k] ac a ddigonwyd: a
y a godasant o'r briw-fwyd gweddill,
ih fasgedaid.
k adn. 19, 20. Salm 107. 8, 9. a 145. 16. Mat. 16. 10. Luc 1.
ioan 6. 11—13, 27, 32—35, 47—58. Dat. 7. 16, 17.
9 ‡ A'r rhai a fwyttasent oedd ynghylch
dair mil: ac efe a'u gollyngodd hwynt
aith.
awsom hanes y wyrth hon o'r blaen, yn Matthew
32—39: gwel y sylwadau yno. Mae yr hanes yn
gos gallu dwyfol a danfoniad dwyfol yr Arglwydd
u; ei dosturi tuag at blant dynion, a'i gydymdeimlad
er â hwynt, yn eu gwendidau a'u hanghenion corph-
, yn gystal ag ysbrydol; yn rhoddi i ni esampl o
a bendith ar ein hymberth wrth ei gymmeryd; ac yn
gos na ddylem ni fod yn rhy ragofalus pa beth a
âom a pha beth a yfom. Mae hefyd yn dangos i
gofala Duw rywfodd am y rhai hyny a'u hesgeulus-
eu hunain i'w ganlyn ef; ac hefyd y dylem ni fod
ofalus na wastraffom ni ddim o'r trugareddau mae
w yn roddi i ni. Dyma'r prif addysgiadau sydd yn
anes hyn. * Oni buasai fod perygl i'r bobl lewygu,
uasai Crist yn gwneyd y wyrth hon. Nid o rodres
wag-ogoniant yr oedd efe yn gwneyd ei wyrthiau;
o angen, ac er trugaredd i drueiniaid tlodion.
ae bara weithiau yn arwyddo pob math o ymborth;
yma rhaid ei gymmeryd yn llythyrenol, am fara yn
g. ‡ Pedair mil o wŷr, heblaw gwragedd a phlant,
dd Matthew 15. 38.
10 ¶ Ac [l] yn y man, wedi iddo fyned i
g gyd â'i ddisgyblion, efe a ddaeth i
rthau * Dalmanutha.
l Mat. 15. 39.
11 † A'r [m] Phariseaid a ddaethant allan, ac
ddechreuasant ymholi âg ef, [n] gan geisio
ddo arwydd o'r nef, [o] gan ei demtio ef.
m pen. 2. 16. a 7. 1, 2. Mat. 12. 38. a 16. 1—4. a 19. 3. a 21.
a 22. 15, 18, 23, 34, 35. Luc 11. 53, 54. Ioan 7. 48. n Luc
6. a 12. 54—57. Ioan 4. 48. a 6. 30. 1 Cor. 1. 22, 23. o pen.
15. Ex. 17. 2, 7. Deut. 6. 16. Mal. 3. 15. Luc 10. 25. Act. 5. 9.
or. 10. 9.
12 [p] ‡ Yntau, gan ddwys-ocheneidio yn ei
bryd, a ddywedodd, [q] Beth a wna y genhedl-
h yma yn ceisio arwydd? Yn wir meddaf
i chwi, [r] ‖ Ni roddir arwydd i'r genhedlaeth
yma.
p pen. 3. 5. a 7. 34. a 9. 19. Es. 53. 3. Luc 19. 41. Ioan 11.
33—38. q pen. 6. 6. Luc 16. 29—31. a 22. 67—70. Ioan 12. 37
—43. r Mat. 12. 39, 40. a 16. 4. Luc 11. 29, 30.
13 § Ac [s] efe a'u gadawodd hwynt, ac a
aeth i'r llong drachefn, ac a dynodd ymaith i'r
lân arall.
s Salm 81. 12. Jer. 23. 33. Hos. 4. 17. a 9. 12. Zec. 11. 8, 9.
Mat. 7. 6. a 15. 14. Luc 8. 37. Ioan 8. 21. a 12. 36. Act. 13. 45, 46
a 18. 6.
Gwel y sylwadau ar yr hanes hyn yn Matth. 16. 1—4.
* Parthau Magdala a ddywed Matthew 15. 39. Mae yn debyg mai lleoedd cyfagos oedd Magdala a Dalmanutha, ar lân ddwyreiniol môr Galilea. † Mynych y darllenwn am y Phariseaid yn ceisio arwydd gan Iesu. Oni chawsant hwy ddigon o arwyddion? Beth oedd ei holl wyrthiau ef, ond arwyddion o'i allu a'i ddanfoniad ddwyfol? Ond hwy a ewyllysient gael rhyw arwydd o'r nef, fel y rhoddasai Moses, Josua, ac Elias iddynt, gan feddwl drwy hyny wneuthur prawf o'i allu dwyfol ef. ‡ "Dwys-ocheneidio:" dyma yr unig fân yn y Testament Newydd mae y gair i'w gael. Dangosiad cryf ydyw o ddigter sanctaidd ein Harglwydd yn erbyn anghrediniaeth cyndyn, a rhagrith y Phariseaid; ac hefyd ei dosturi, yn gresynu drostynt, wrth eu gweled fel hyn yn ymroddi i'w dinystr eu hunain, ac yn twyllo eneidiau y bobl. ‖ Gan nad oedd ein Harglwydd byth yn gwneyd gwyrthiau i borthi blys a chwilfrydedd (*curiosity*) dynion, ond i gadarnâu eu ffydd, efe a wrthododd ddangos yr un arwydd i'r Phariseaid hyn. § Mae yn debyg iddo adael Dalmanutha heb na phregethu na gwneyd gwyrthiau: ac mae yn debygol fod y bobl yn dra rhagfarnus yn ei erbyn drwy y Phariseaid hyn, eu gauathrawon.
14 ¶ A'*r disgyblion* [t] a adawsant yn
* anghof gymmeryd bara, ac nid oedd gan-
ddynt gyd â hwynt ond un dorth yn y llong.
t Mat. 16. 5.
15 Yna [u] y gorchymynodd efe iddynt, gan
ddywedyd, [x] † Gwyliwch, ymogelwch rhag
[y] surdoes y Phariseaid, ‡ a surdoes [z] Herod.
u Num. 27. 19—23. 1 Cron. 28. 9, 10, 20. 1 Tim. 5. 21. a 6.
13. 2 Tim. 2. 14. x Mat. 16. 6, 11, 12. Luc 12. 1, 2, 15. y Ex.
12. 18—20. Lef. 2. 11. 1 Cor. 5. 6—8. z pen. 12. 13. Mat. 22.
15—18.
16 Ac [a] ymresymmu a wnaethant y naill
wrth y llall, gan ddywedyd, *Hyn sydd* oblegid
nad oes gennym fara.
a Mat. 16. 7, 8. Luc 9. 46. a 20. 5.
17 A phan [b] wybu yr Iesu, efe a ddywed-
odd wrthynt, Pa ymresymmu yr ydych, am
nad oes gennych fara? [c] onid ydych chwi etto
yn ystyried, nac yn deall? ydyw eich calon
etto gennych wedi caledu?
b pen. 2. 8. Ioan 2. 24, 25. a 16. 30. a 21. 17. Heb. 4. 12, 13.
Dat. 2. 23. c pen. 6. 52. a 16. 14. Es. 63. 17. Mat. 15. 17. a 16.
8, 9. Luc 24. 25. Heb. 5. 11, 12.
18 A chennych lygaid, [d] oni welwch? a
chennych glustiau, oni chlywch? ac onid
ydych yn cofio?
d pen. 4. 12. Deut. 29. 4. Salm 69. 23. a 115. 5—8. Es. 6. 9,
10. a 42. 18—20. a 44. 18. Jer. 5. 21. Mat. 13. 14, 15. Ioan 12. 40.
Act. 28. 26, 27. Rhuf. 11. 8.
19 Pan dorrais [e] y pum torth *hynny* ym
mysg y pum mil, pa sawl basgedaid yn llawn
o friw-fwyd a godasoch i fynu? Dywedasant
wrtho, Deuddeg.
e pen. 6. 38—44. Mat. 14. 17—21. Luc 9. 12—17. Ioan 6. 5
—13.
20 A phan *dorrais* [f] y saith yn mhlith y
pedair mil, llonaid pa sawl basged o friw-fwyd

a godasoch i fynu? A hwy a ddywedasant, Saith.

f adn. 1—9. Mat. 15. 34—38.

21 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [g] Pa fodd nad ydych yn deall?

g adn. 12. pen. 6. 52. a 9. 19. Salm 94. 8. Mat. 16. 11, 12. Ioan 14. 9. 1 Cor. 6. 5. a 15. 34.

Cawsom yr hanes uchod yn gyflawnach yn Matthew 16. 5—12: gwel y sylwadau yno. * Mae anghof y dysgyblion am beth mòr angenrheidiol a bara, yn dangos i ni wendid y natur ddynol, ac hefyd ein dyledswydd o ymddiried i Dduw dàn y cyfryw amgylchiadau dygwyddiadol. † Mae rhoddi y gocheliad ddwy waith, yn dangos pwys y peth, ac y dylasent hwy fod yn wyliadwrus ac yn ochelgar iawn. Rhaid i ni fod yn dra gwyliadwrus rhag y rhai hyny a lygrant eir Duw, o ba sefyllfa bynag y byddont, yn yr eglwys neu mewn cymdeithas ddynol. ‡ Surdoes y Saduceaid a ddywed Matthew 16. 6, 11, 12. Mae yn debyg fod Herod yn tueddu yn fawr at gyfeiliornadau y Saduceaid, am hyny dywedir surdoes Herod gan y naill efengylwr, a surdoes y Saduceaid gan y llall, yn arwyddo yr un cyfeiliornad. Sylwyd ar y pethau eraill yn yr adnodau uchod, o'r blaen, yn Matthew.

22 ¶ * Ac efe a ddaeth i [h] Bethsaida; a [i] hwy a ddygasant atto un dall, ac a ddeisyfiasant arno ar iddo [k] gyffwrdd âg ef.

h pen. 6. 45. Mat. 11. 21. Luc 9. 10. a 10. 13. Ioan 1. 44. a 12. 21. i pen. 2. 3. a 6. 55, 56. k pen. 5. 27—29. Mat. 8. 3, 15. a 9. 29.

23 † Ac wedi [l] ymaflyd yn llaw y dall, efe a'i tywysodd ef [m] allan o'r dref: ‡ ac wedi iddo [n] boeri ar ei lygaid ef, a dodi ei ddwylaw arno, efe a ofynodd iddo, a oedd efe yn gweled dim.

l Es. 51. 18. Jer. 31. 32. Act. 9. 8. Heb. 8. 9. m pen. 7. 33. Es. 42. 2. n Ioan 9. 6, 7. Dat. 3. 18.

24 Ac wedi edrych i fynu, efe a ddywedodd, [o] ‖ Yr ydwyf yn gweled dynion megis preniau yn rhodio.

o Barn. 9. 35. Es. 29. 18. a 32. 3. 1 Cor. 13. 9, 11, 12.

25 § Wedi hynny y gosododd efe *ei* ddwylaw drachefn ar ei lygaid ef, ac a barodd iddo edrych i fynu: ac efe a gafodd ei olwg, [p] ac efe a welai bawb o bell, ac yn eglur.

p Diar. 4. 18. Mat. 13. 12. Phil. 1. 6. 2 Pedr. 3. 18.

26 Ac efe a'i hanfonodd ef adref i'w dŷ, gan ddywedyd, [q] Na ddos i'r dref, ac na ddywed i neb yn y dref.

q pen. 5. 43. a 7. 36. Mat. 8. 4. a 9. 30. a 12. 16.

Marc yn unig sydd yn adrodd y wyrth hon. * Bethsaida oedd un o'r dinasoedd a fygythiodd yr Arglwydd Iesu am eu hanghredinaeth a'u caledwch yn wyneb ei weithredoedd nerthol ef, Matth. 11. 21; † ac fel arwydd o annheilyngdod y trigolion, efe a arweiniodd y dall hwn allan o'r dref cyn agor ei lygaid, ac a orchymynodd iddo na ddychwelai i'r dref drachefn, ond myned i'w dŷ ei hun. Gan mai Marc yn unig sydd yn crybwyll y wyrth hon, fel rhai pethau eraill yn y llyfr hwn, mae yn amlwg na ddylid ei ystyried ef fel byrâwr neu dalfŷrwr yn unig o efengyl Matthew, fel y gwnâ rhai. ‡ Mae yma eto foddion gwahanol yn cael eu defnyddio i wneyd y wyrth hon; poeri ar lygaid y dall, a dodi ei ddwylaw arno: ac eto gwyrth oedd; nid oedd dim yn y moddion eu hunain i ateb y fath ddyben. ‖ Mae y wyrth hon yn cael ei gwneyd yn raddol hefyd, nid yn berffaith ar unwaith; yn gyntaf mae y dyn yn gweled dynion fel prenau yn rhodio: nis gwyddai yn iawn wahaniaeth rhyngddynt â'r prenau oedd yn ganfod ar yr un pryd, ond yn unig ei fod yn eu gweled hwy yn symud. § Yna mae Iesu yn dodi ei ddwylaw drachefn ar ei lygaid ef, ac wedi hyny mae y wyrth yn berffaith: mae yn gweled pawb o bell, ac yn eglur. A welai bob peth, meddant yw ystyr y Groeg, pob gwrthrycha pethau a dynion hefyd.

27 ¶ A'r Iesu a aeth allan, efe a'i ddi gyblion, i [r] drefi * Cesarea Philippi: [s] ac ar ffordd efe a ofynodd i'w ddisgyblion, gan dd wedyd wrthynt, Pwy y mae dynion yn d wedyd fy mod i?

r Mat. 16. 13. s Luc 9. 18, 19.

28 A hwy a attebasant, [t] † Ioan Fedyddiw a rhai, [u] Elias; ac eraill, Un o'r prophwydi.

t pen. 6. 14—16. Mat. 14. 2. a 16. 14. Luc 9. 7—9. u pe 9. 11—13. Mal. 4. 5. Ioan 1. 21.

* Yr oedd Cesarea Philippi a'i hamgylchoedd dà raglawiaeth Phylip brawd Herod, a dywed *Josephus* f Phylip yn wr mòr hynaws a diniwed, fel y tybiodd rh fod yr Arglwydd Iesu yn myned yno er mwyn diogelw rhag ymosodiadau ei elynion mewn mànau erai † Tybiai Herod mai Ioan Fedyddiwr wedi adgyfodi oe Crist, neu ynte, enaid Ioan mewn corph arall. ‡ A "Elias neu un o'r prophwydi," gwel y sylwad ar Matt 16. 14.

29 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [x] On pwy yr ydych chwi yn dywedyd fy mod i A Phedr a attebodd ac a ddywedodd wrth [y] Ti yw y Crist.

x pen. 4. 11. Mat. 16. 15. Luc 9. 20. 1 Pedr 2. 7. y Ma 16. 16. Ioan 1. 41, 49. a 4. 42. a 6. 69. a 11. 27. Act. 8. 37. a 9. 2 1 Ioan 4. 15. a 5. 1.

30 Ac [z] efe a orchymynodd iddynt na ddy wedent i neb am dano.

z adn. 26. pen. 7. 36. a 9. 9. Luc 9. 21, 22.

Er mwyn gochelyd meithder afreidiol, cyfeiriwn darllenydd eto at yr hyn a ysgrifenwyd eisoes ar gyn nwysiad yr adnodau uchod yn Matth. 16. 15, 20. Barna yr henafiaid oll yn unfryd, mai o enau Pedr yr ysgrifen odd Marc ei hanes; a phwy a all gredu y buasai Ped na Marc yn gadael allan y geiriau "Ti yw Pedr," p buasent yn meddwl fod yr Eglwys Gristionogol i gael e sylfaenu ar y geiriau hyn? Nid felly y gwnaethant â cerydd a gafodd Pedr; cymmerasant ofal, fel dynio gonest a diduedd, i osod hyny i lawr, yn y drydedd ad nod ar ddeg ar hugain o'r bennod hon.

31 Ac [a] efe a ddechreuodd eu dysgu hwyn fod yn rhaid i Fab y dyn oddef llawer, [b] a wrthod gan yr henuriaid, a'r arch-offeiriaid, a ysgrifenyddion, a'i ladd, [c] * ac wedi tridia adgyfodi.

a pen. 9. 31, 32. a 10. 33, 34. Mat. 16. 21. a 17. 22, 23. a 2 17—19. Luc 9. 22. a 18. 31—34. a 24. 6, 7, 26, 44. b pen. 1 10. 1 Sam. 8. 7. a 10. 19. Salm 118. 22. Es. 53. 3. Mat. 21. 4 Luc 17. 25. Ioan 12. 48. Act. 3. 13—15. a 7. 35, 51, 52. c Ho 6. 2. Jona 1. 17. Mat. 12. 40. Ioan 2. 19. 1 Cor. 15. 4.

* "A chyfodi y trydydd dydd," medd Matthew 16. 21 "Ac *wedi* tridiau adgyfodi," medd Marc yma: ac rhwn y ddau, mae ychydig o wanhaniaeth yn ymddangos, pheth dyryswch hefyd, pan ystyriom na bu corph ei Harglwydd yn y bedd dri diwrnod cyfan. Sylwn un ne ddau o bethau ar y dyryswch ymddangosiadol hyn:— 1. Dywedir yn bendant ddeg o weithiau, i Grist gyfod neu y cyfodai *y trydydd* dydd: (Matth. 16. 21. a 17. 2 a 20. 19. Marc 9. 31. a 10. 34. Luc 9. 22. a 18. 33. 24. 7, 46. Act. 10. 40:) ac felly, gan mai dyma y d wediadau a ddefnyddir amlaf gan ein Harglwydd cyn farwolaeth, a chanddo ef â'i apostolion ar ol ei adgyfod iad—rhaid i'r dywediadau eraill sydd ychydig yn wahan ol, ac a ddefnyddir ond unwaith neu ddwy yn yr ysgryth yr, gael eu deall a'u hegluro mewn cysondeb â'r rha hyn. 2. Yn ol dull yr Iuddewon a'r Groegiaid hefyd lefaru, dywedir fod peth yn cael ei wneyd wedi hyn hyn o ddyddiau, misoedd, neu flynyddoedd, a fyddo y cael ei wneyd ar yr olaf o honynt.—(Deut. 14. 28. a 1 1. a 26. 12. a 31. 10. 2 Cron. 10. 5. 12.) "A bu, ar tridiau, gael o honynt hwy ef yn y deml," (Luc 2. 46. hyny yw, ar y trydydd dydd.—3. Deallai yr Iuddewo

d oedd "wedi," neu "ar ol tridiau," yn arwyddo dim
wy nac *ar y trydydd dydd.*—Oblegid, pan ddywedas-
i i Pilat, i Grist ddywedyd "Wedi tridiau y cyfodaf;"
ddeisyfiasant am gadw'r bedd ond "*hyd* y trydydd
ild," Matth. 27. 63, 64. Pe buasent yn meddwl y
dydd dydd yn gyfan, buasent yn gofyn am wyliadwr-
th hyd ddiwedd y trydydd dydd.

32 A'r ymadrodd hwnnw a ddywedodd efe
n eglur. [c] * A Phedr a ymaflodd ynddo,
a ddechreuodd ei geryddu ef.

d Ioan 16. 25, 29. e pen. 4. 38. Mat. 16. 22. Luc 10. 40.
n 13. 6—8.

33 Eithr wedi iddo [f] droi, ac edrych ar ei
isgyblion, [g] efe a geryddodd Pedr, gan ddy-
dyd, [h] † Dos ymaith yn fy ol i, Satan;
am nad wyt yn synied y pethau sydd o
duw, ond y pethau sydd o ddynion.

f pen. 3. 5, 34. Luc 22. 61. g Lef. 19. 17. 2 Sam. 19. 22.
m 141. 5. Diar. 9. 8, 9. Mat. 16. 23. Luc 9. 55. 1 Tim. 5. 20.
1. 13. Dat. 3. 19. h Gen. 3. 4—6. Job 2. 10. Mat. 4. 10.
4. 8. i Mat. 6. 31, 32. Rhuf. 8. 5—8. Phil. 3. 19. Iago 3.
—18. 1 Pedr 5. 1, 2. 1 Ioan 2. 15, 16.

* Er i Pedr ei broffesu ef yn Grist Mab y Duw byw
nydig iawn o'r blaen; mae yn amlwg yma nad oedd
addo ef a'r dysgyblion eraill ond syniadau go dywyll
ei Berson ef, natur a dyben ei waith, ei adgyfodiad
feirw, na threfn yr iachawdwriaeth: pe amgen ni
asai yn ei "geryddu" ef. † Sylwyd ar y cerydd hwn
gafodd Pedr o'r blaen, Matth. 16. 23. ‡ Ni ddylid
all y geiriau "am nad wyt yn synied" yma fel yn ar-
ddo hollawl anwybodaeth, difaterwch, a chasineb:
d anwybodaeth mewn rhan, diffyg o iawn ystyriaeth
iawn syniadau am bethau Duw.

34 ¶ * Ac wedi iddo [k] alw atto y dyrfa,
d â'i ddisgyblion, efe a ddywedodd wrthynt,
Y neb a fynno ddyfod ar fy ol i, ymwaded
ef ei hun, [m] a chyfoded ei groes, a [n] dilyned

k pen. 7. 14. Luc 9. 23. a 20. 45. l pen. 9. 43—48. Mat. 5.
30. a 7. 13, 14. a 16. 24. Luc 13. 24. a 14. 27, 33. Rhuf. 15. 1—
Cor. 8. 13. a 9. 19. Phil. 3. 7, 8. Tit. 2. 12. m pen. 10. 21.
t. 10. 38. a 27. 32. Ioan 19. 17. Act. 14. 22. Rhuf. 6. 6. a 8. 17.
Cor. 4. 9—13. a 15. 31. Gal. 2. 20. a 5. 24. a 6. 14. Phil. 3. 10.
1. 24. a 3. 5. 2 Tim. 3. 11. 1 Pedr 4. 1, 13. Dat. 2. 10.
Num. 14. 24. 1 Bren. 14. 8. Luc 14. 26. a 18. 22. Ioan 10. 27.
3. 36, 37. a 21. 19, 20. Heb. 13. 13. 2 Pedr 1. 14. 1 Ioan 3. 16.

* Llefarodd Iesu y pethau uchod wrth ei ddysgyblion
neilldu, yma mae yn galw y dyrfa ato, gan fod gan-
o rywbeth perthynol i bawb ei glywed. † Dyma
ysgyblaeth y tŷ, a deddf dysgyblion Iesu oll, yn mhob
an ac oes: ymwadu â hwy eu hunain, cyfodi eu croes,
ganlyn ef.

35 Canys pwy bynnag [o] a fynno gadw ei
nioes, a'i cyll hi: ond pwy bynnag a gollo ei
nioes [p] er fy mwyn i * a'r efengyl, hwnnw a'i
iddw hi.

o Esther 4. 11—16. Jer. 26. 20—24. Mat. 10. 39. a 16. 25. Luc
24. a 17. 33. Ioan 12. 25, 26. Act. 20. 24. a 21. 13. 2 Tim. 2. 11
3. a 4. 6—8. Heb. 11. 35. Dat. 2. 10, 11. a 7. 14—17. a 12. 11.
Mat. 5. 10—12. a 10. 22. a 19. 29. Luc 6. 22, 23. Ioan 15. 20, 21.
k. 9. 16. 1 Cor. 9. 23. 2 Cor. 12. 10. 2 Tim. 1. 8. 1 Pedr 4.
—16.

* "O'm plegid I," sydd gan Matthew (16. 25;) nid
yn crybwyll am yr efengyl. Pwy bynnag sydd yn
lli ei fywyd er mwyn gwir efengyl Crist, sydd yn ei
lli er mwyn Crist; gan hyny dylem wybod yn sicr beth
y wir efengyl.

36 Canys [q] pa [r] leshâd i ddyn, os ynnill yr
ll fyd, a * cholli ei enaid ei hun?

q Job 2. 4. Salm 49. 17—19. a 73. 18—20. Mat. 4. 8—10. a
26. Luc 9. 25. a 12. 19, 20. a 16. 19—23. Phil. 3. 7—9. Dat. 18.
8. r Job 22. 2. Mal. 3. 14. Rhuf. 6. 21. Heb. 11. 24—26.
go 1. 9—11.

37 Neu [s] pa beth a rydd dyn yn gyfnewid
n ei enaid?

s Salm 49. 7, 8. 1 Pedr 1. 18, 19.

* Er mai yr un gair gwreiddiol a gyfieithir "einioes" yn yr adnod o'r blaen, a gyfieithir "enaid" yn yr adnodau hyn; eto mae yn amlwg mai einioes, neu fywyd naturiol y corph yw ei feddwl yno, ac mai yr enaid, ysbrydol ac anfarwol yw ei feddwl yma. Gwel y sylwadau ar Matth. 16. 26.

38 * Canys pwy bynnag a fyddo [t] cywilydd
ganddo fi a'm geiriau yn yr [u] odinebus a'r
bechadurus genhedlaeth hon; [x] bydd cywilydd
gan Fab y dyn yntau hefyd, [y] pan ddêl y'n-
gogoniant ei Dad, gyd â'r angelion sanctaidd.

t Mat. 10. 32, 33. Luc 9. 26. a 12. 8, 9. Act. 5. 41. Rhuf. 1. 16.
Gal. 6. 14. 2 Tim. 1. 8, 12, 16. a 2. 12, 13. Heb. 11. 26. a 12. 2, 3.
a 13. 13. 1 Ioan 2. 23. u Mat. 12. 39. a 16. 4. Iago 4. 4. x pen.
14. 62. Dan. 7. 13. Mat. 16. 27, 28. a 24. 30. a 25. 31. a 26. 64. Ioan
1. 14. a 5. 27. a 12. 34. y Deut. 33. 2. Dan. 7. 10. Zec. 14. 5.
Mat. 13. 41. Ioan 1. 51. 1 Thes. 1. 7, 8. Judas 14, 15.

* Nid yw yn beth anhygoel nac annhebyg, fod ofn carcharau a dyoddefiadau, yn peri i rai wadu Crist, fel y gwnaeth Pedr; ond y mae cywilyddio ei arddel Ef, yr hwn mae angelion yn ei addoli, ac yn yr hwn mae holl deulu'r nef yn ymogoneddu, yn ymddangos yn beth braidd yn anghredadwy, ond i'r rhai sydd wedi cael adnabyddiaeth drylwyr o'r natur ddynol, a phrofiad o dwyll eu calonau eu hunain. Eto, efallai nad oes yr un pechod y mae pob gwir gristion yn cael ei demtio yn gryfach iddo na hwn; nac yr un brofedigaeth yn peri i'r fath nifer i weithredu yn *gyffredinol*, yn groes i'w goleuni ac argyhoeddiad eu cydwybodau, er mwyn dianc rhag gwaradwydd a gwatwar dynion, a'r rhai hyny yn aml eu hisraddolion, eu hymddybyniaid, a'u tylwyth cartrefol. Gan hyny mae priodoldeb y rhybudd difrifol hwn yn amlwg i bawb, ag sydd yn sylwi ar yr hyn sydd yn pasio o'u hamgylch yn mhlith pob gradd a sefyllfa o ddynion: ie, hyd yn nod yn yr eglwys mewn gwledydd yn proffesu cristionogaeth. Mae arddelwi Crist yn wirioneddol, ac yn fanol fel y dylid, yn sicr o'n gwneyd ni yn agored i wawd a gwatwar agos yn mhob màn; ac yr ofn rhag iddo yntau gywilyddio ein harddelwi ni yw y moddion priodol i'n cadw ni rhag ymollwng gyda'r brofedigaeth.

PEN. IX.

Gwedd-newidiad Crist, &c.

* AC efe a ddywedodd wrthynt, Yn wir yr
wyf yn dywedyd i chwi, * fod rhai o'r
rhai sydd yn sefyll yma, ni [b] phrofant angau,
hyd oni welant [c] deyrnas Dduw wedi dyfod
mewn nerth.

a Mat. 16. 28. Luc 9. 27. b Luc 9. 26. Ioan 8. 51, 52. Heb.
2. 9. c Luc 22. 30. Ioan 21. 23. Act. 1. 6, 7.

* Mae y geiriau hyn yn cyfeirio yn benaf at ddyfodiad rhagluniaethol Crist i ddinystrio Jerusalem; nis gellid dywedyd fod teyrnas Dduw, goruchwyliaeth yr efengyl, wedi dyfod mewn nerth, tra yr oedd Jerusalem, y deml, a'r oruchwyliaeth Iuddewig yn aros. Mae y meddwl uchod yn fwy naturiol na'r un arall, pan ystyriom, fod yr Arglwydd Iesu yma yn lled-arwyddo, y byddai y rhan fwyaf o'r rhai oedd yn ei wrando y pryd hwnw wedi meirw, pan ddclai teyrnas Dduw mewn nerth; ond fod yno rai ar ni phrofent angau nes i hyny gymmeryd lle. Dinystriwyd Jerusalem tua deugain mlynedd o'r amser hwn.

2 ¶ Ac [d] wedi chwe diwrnod, y cymmerth
yr Iesu [e] Pedr, ac Iago, ac Ioan, ac a'u dug
hwynt [f] i fynydd uchel, eu hunain o'r neilldu:
ac efe a [g] wedd-newidiwyd yn eu gŵydd hwynt.

d Mat. 17. 1, &c. Luc 9. 28, &c. e pen. 5. 37. a 14. 33.
2 Cor. 13. 1. f Ex. 24. 13. 1 Bren. 18. 42, 43. Mat. 14. 13. Luc
6. 12. g pen. 16. 12. Ex. 34. 29—35. Es. 33. 17. a 53. 2. Mat.
17. 2. Luc 9. 29. Ioan 1. 14. Rhuf. 12. 2. 2 Cor. 3. 2—10. Phil. 2.
6—8. a 3. 21. 2 Pedr 1. 16—18. Dat. 1. 13—17. a 20. 11.

3 [h] A'i ddillad ef a aethant yn ddisglaer,
[i] yn gannaid iawn fel eira; y fath [k] ni fedr un
pannwr ar y ddaear eu cannu.

h Salm 104. 1, 2. Dan. 7. 9. Mat. 28. 3. Act. 10. 30. i Salm 51. 7. a 68. 14. Es. 1. 18. Dat. 7. 9, 14. a 19. 8. k Mal. 3. 2, 3.

4 Ac [l] ymddangosodd iddynt [m] Elias, gyd â [n] Moses: ac yr oeddynt yn ymddiddan â'r Iesu.

l Mat. 11. 13. a 17. 3, 4. Luc 9. 19, 30, 31. a 24. 27, 44. Ioan 5. 39, 45—47. Act. 3. 21—24. 1 Pedr 1. 10—12. Dat. 19. 10. m 2 Bren. 2. 11, 12. n Deut. 34. 5, 6.

5 * A Phedr a attebodd ac a ddywedodd wrth yr Iesu, Rabbi, [o] da yw i ni fod yma: a gwnawn dair pabell; i ti un, ac i Moses un, ac i Elias un.

o Ex. 33. 17—23. Salm 63. 2, 3. Ioan 14. 8, 9, 21—23. Phil. 1. 23. 1 Ioan 3. 2. Dat. 22. 3, 4.

6 Canys nis gwyddai beth yr oedd yn ei ddywedyd: canys yr oeddynt wedi dychrynu. [p]

p pen. 16. 5—8. Dan. 10. 15—19.

7 A daeth [q] cwmmwl yn cysgodi drostynt hwy: a llef a ddaeth allan o'r cwmmwl, gan ddywedyd, [r] Hwn yw fy anwyl Fab; [s] gwrandewch ef.

q Ex. 40. 34. 1 Bren. 8. 10—12. Salm 97. 2. Dan. 7. 13. Mat. 17. 5—7. a 26. 64. Luc 9. 34—36. Act. 1. 9. Dat. 1. 7. r pen. 1. 11. Salm 2. 7. Mat. 3. 17. a 26. 63. a 27. 43, 54. Ioan 1. 34, 49. a 3. 16—18. a 5. 18, 22—25, 37. a 6. 69. a 9. 35. a 19. 7. a 20. 31. Act. 8. 37. Rhuf. 1. 4. 2 Pedr 1. 17. 1 Ioan 4. 9, 10. a 5. 11, 12, 20, 21. s Ex. 23. 21, 22. Deut. 18. 15—19. Act. 3. 22, 23. a 7. 37. Heb. 2. 1. a 12. 25, 26.

8 Ac [t] yn ddisymmwth, pan edrychasant o amgylch, ni welsant neb mwy, ond yr Iesu yn unig gyd â hwynt.

t Luc 9. 36. a 24. 21. Act. 8. 39, 40. a 10. 16.

9 A phan oeddynt yn dyfod i waered o'r mynydd, [u] efe a orchymynodd iddynt na ddangosent i neb y pethau a welsent, [x] hyd pan adgyfodai Mab y dyn o feirw.

u pen. 5. 43. a 8. 29, 30. Mat. 12. 19. a 17. 9. x adn. 30, 31. pen. 8. 31. a 10. 32—34. Mat. 12. 40. a 16. 21. a 27. 63. Luc 24. 46.

10 A [y] hwy a gadwasant y gair gyd â hwynt eu hunain, † gan gyd-ymholi [z] beth yw yr adgyfodi o feirw.

y Gen. 37. 11. Luc 2. 50, 51. a 24. 7, 8. Ioan 16. 17—19. z adn. 32. Mat. 16. 22. Luc 18. 33, 34. a 24. 25—27. Ioan 2. 19—22. a 12. 16, 33, 34. a 16. 29, 30.

Mae Matthew, Marc, a Luc, yn adrodd yr hanes hyn: gwel y sylwadau ar Matth. 17. 1—8. * Pe cawsai Pedr fyned i'r nef yn union y pryd hwnw, buasai diwedd am ei ddefnyddioldeb ar y ddaear. Ond gorfu arno ef fyw wedi hyn am lawer o flynyddoedd, yn nghanol trallodau a dyoddefiadau, a marw yn y diwedd ar y groes: eto bu yn offerynol i achub miloedd lawer, er gogoniant i Dduw trwyddo ef! Ac onid oedd hyn yn llawn digon o werth iddo fyw? † Nid oedd yr apostolion yn anghredu athrawiaeth yr adgyfodiad o feirw, ac nid oedd dim dyryswch neillduol ar eu meddyliau am ystyr gyffredinol y geiriau; oblegid hwy a welsant rai meirw yn cael eu hadgyfodi: ond yr oeddynt hwy wedi eu meddiannu â chymmaint o ragfarn yn erbyn i'r Messiah gael ei ladd, ac mòr sicr yn eu meddyliau mai Iesu oedd y Messiah, fel yr oeddynt yn tybied fod yn rhaid rhoddi rhyw ystyr ffugyrawl i'r geiriau: tybient hwy yn gyfeiliornus nas gallai efe farw yn *llythyrenol;* ac am hyny nas gallai gyfodi drachefn yn *llythyrenol.* Mae perygl mawr rhag deall rhai rhanau o'r ysgrythyr yn *gyfriniawl,* neu *allegawl,* ac felly myned i'w hysbrydoli; megys dammeg, neu hanes y Samariad, Luc 10. 30—37; ac y mae perygl mawr hefyd rhag cymmeryd rhai rhanau eraill yn eu hystyr *llythyrenol;* fel y gwna y pabyddion â'r geiriau "Hwn yw fy nghorph." Doethineb mawr, ac angenrheidiol iawn mewn dehonglydd yw, gwybod beth sydd i'w ddeall yn llythyrenol, a pha beth yn gyfriniol.

11 ¶ A hwy a ofynasant iddo, gan ddywedyd, [a] * Paham y dywed yr ysgrifenyddion, fod yn rhaid i Elias ddyfod yn gyntaf?

a adn. 4. Mal. 3. 1. a 4. 5. Mat. 11. 14. a 17. 10, 11.

12 † Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Elias yn ddiau gan ddyfod yn gyntaf a [b] edfryd bob peth; † a'r modd yr ysgrifenwyd am Fab y dyn, [c] y dioddefai lawer o bethau, ac y [d] dirmygid ef.

b pen. 1. 2—8. Es. 40. 3—5. Mal. 4. 6. Mat. 3. 1, &c. a 11. 2—18. Luc 1. 16, 17, 76. a 3. 2—6. Ioan 1. 6—36. a 3. 27, &c. c Salm 22. 1, &c. a 69. 1, &c. Es. 53. 1, &c. Dan. 9. 24—26. Zec. 13. 7. d Salm 22. 6, 7. a 69. 12. Es. 49. 7. a 50. 6. a 52. 14. a 53. 1—3. Zec. 11. 13. Luc 23. 11, 39. Phil. 2. 7, 8.

13 ‖ Eithr yr wyf yn dywedyd i chwi, [e] ddyfod Elias yn ddiau, [f] a gwneuthur o honynt iddo yr hyn a fynnasant, § fel yr ysgrifenwyd am dano.

e Mat. 11. 14. a 17. 12, 13. f pen. 6. 14—28. Mat. 14. 3—11. Luc 3. 19, 20. Act. 7. 52.

* Fel pe dywedasent, Ai y weledigaeth hon a gawsom ni yw y cwbl am ddyfodiad Elias? yr oeddem ni yn ol athrawiaeth yr ysgrifenyddion am dano, yn disgwyl iddo ddyfod yn fwy cyhoeddus, yn amlwg i bawb, a gwneuthur cyfnewidiad mawr mewn pethau gwladol, o flaen dyfodiad y Messiah. † "A edfryd:" hyny yw, a dry lawer oddi wrth annuwioldeb at wir addoliad a gwasanaeth Duw, fel y trôodd Elias yr Israeliaid oddi wrth Baal at yr ARGLWYDD. Mae y brophwydoliaeth yn Malachi 4. 6, yn cael ei hegluro gan yr angel yn Luc 1. 17. ‡ Mewn atebiad i'w hammheüaeth hwy am farwolaeth y Messiah, mae efe yn dangos o'r ysgrythyrau, fod hyny wedi cael ei ragfynegi am dano. ‖ Mae yn dangos hefyd fod Elias wedi dyfod, sef Ioan Fedyddiwr yn ysbryd a nerth Elias: ond am nas credodd yr ysgrifenyddion mai efe oedd yr Elias addawedig, hwy a'i merthyrasant ef. § "Fel yr ysgrifenwyd am dano:" tybir mai perthyn i ddyfodiad Ioan mae y geiriau uchod, ac nid i'w ferthyrdod: nis gwyddis am ddim a ysgrifenwyd yn nghylch ei farwolaeth ef. Dëallid yr adnod yn well fel hyn:—"Elias yn wir a ddaeth, megys yr ysgrifenwyd am dano, a gwnaethant iddo yr hyn a fynasant." Mae yn wir mai Herod a barodd ladd Ioan; ‡ ond yr oedd yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn ddigon boddlawn i hyny, ac mewn ewyllys yn cydweithredu.

14 ¶ * A [g] phan ddaeth efe at *ei* ddisgyblion, efe a welodd dyrfa fawr yn eu cylch hwynt, [h] a'r ysgrifenyddion yn cyd-ymholi â hwynt.

g Mat. 17. 14, &c. Luc 9. 37. h pen. 2. 6. a 11. 28. a 12. 14. Luc 11. 53, 54. Heb. 12. 3.

15 † Ac yn ebrwydd yr holl dyrfa, pan ganfuant ef, [i] a ddychrynasant, a chan redeg atto, a gyfarchasant iddo.

i adn. 2, 3. Ex. 34. 30.

16 Ac efe a ofynodd i'r ysgrifenyddion, [k] ‡ Pa gyd-ymholi yr ydych yn eich plith?

k pen. 8. 11. Luc 5. 30—37.

* Tra bu Crist a'r tri dysgybl ar y mynydd, yr oedd tyrfa wedi ymgasglu o amgylch y dysgyblion eraill; a'r Ysgrifenyddion wedi cymmeryd y fantais hòno i ymddadleu â hwy, gan obeithio eu dyrysu yn absenoldeb eu Harglwydd. † Efallai bod rhyw weddillion o ddisgleirdeb ei wedd-newidiad yn weledig o hyd ar ei wynebpryd ef, fel ar wyneb Moses gynt: nis gellir gwybod pa beth arall oedd yr achos o'r "dychryn" hwn. ‡ Mae yn debyg bod yr adnodau nesaf yn dangos beth oedd testyn y cyd-ymholi hyn; yr oedd y dysgyblion wedi methu a bwrw allan yr ysbryd aflan, (adn. 18.) ac am hyny yr oedd yr Ysgrifenyddion yn eu gwatwar, ac yn eu holi paham nas gallasent: ac efallai yn taeru mai trwy Beelzebub yr oedd eu Hathraw yn bwrw allan gythreuliaid.

17 Ac un o'r dyrfa a attebodd ac a ddy-
dodd, Athraw, [l] mi a ddygais fy mab attat,
g yspryd mûd ynddo:
l pen. 5. 23. a 7. 26. a 10. 13. Mat. 17. 15. Ioan 4. 47. m adn.
Mat. 12. 22. Luc 11. 14, 26.

18 A pha le bynnag y cymmero ef, efe a'i
wyga; ac yntau [n] a fwrw ewŷn, ac a [o] ys-
rnyga ddannedd, ac y mae yn dihoeni: a mi
ddywedais wrth dy ddisgyblion ar iddynt ei
w ef allan; [p] ac nis gallasant.
n adn. 20. Judas 13. o Job 16. 9. Salm 112. 10. Mat. 8. 12.
7. 54. p adn. 28, 29. pen. 11. 23. 2 Bren. 4. 29—31. Mat.
16, 19—21. Luc 9. 40.

19 Ac efe a attebodd iddynt, ac a ddywed-
d, [q] O genhedlaeth anffyddlawn, pa hyd y
ddaf gyd â chwi? pa hyd y goddefaf
wi? dygwch ef attaf fi.
q pen. 16. 14. Num. 14. 11, 22, 27. a 32. 13, 14. Deut. 32. 20.
m 78. 6—8, 22. a 106. 21—25. Mat. 17. 17. Luc 9. 41. a 24. 25.
n 12. 27. a 20. 27. Heb. 3. 10—12.

20 A hwy a'i dygasant ef atto. A phan
lodd ef, yn y man [r] yr yspryd a'i drylliodd
; a chan syrthio ar y ddaear, efe a ymdreigl-
d, dan falu ewŷn.
r adn. 18, 26. pen. 1. 26. a 5. 3—5. Job 1. 10, &c. a 2. 6—8.
4. 35. a 8. 29. a 9. 42. Ioan 8. 44. 1 Pedr 5. 8.

21 A gofynodd *yr Iesu* i'w dad ef, [s] Beth
dd o amser er pan ddarfu fel hyn iddo?
ntau a ddywedodd, Er yn fachgen.
s pen. 5. 25. Job 5. 7. a 14. 1. Luc 8. 43. a 13. 16. Ioan 5. 5,
9. 1, 20, 21. Act. 3. 2. a 4. 22. a 9. 33. a 14. 8.

22 A mynych y taflodd efe ef yn tân, ac i'r
froedd, fel y difethai efe ef: ond [t] os gelli di
im, [u] cymhorth ni, gan dosturio wrthym.
t pen. 1. 40—42. Mat. 8. 2, 8, 9. a 9. 28. a 14. 31. u pen.
9. Mat. 15. 22—28. a 20. 34. Luc 7. 13.

23 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, [x] Os gelli
gredu, pob peth a all fod i'r neb a gredo.
x pen. 11. 23. 2 Cron. 20. 20. Mat. 17. 20. a 21. 21, 22. Luc
6. Ioan 4. 48—50. a 11. 40. Act. 14. 9.

24 Ac yn y fan tad y bachgen, dan lefain
y wylofain, a ddywedodd, Yr wyf fi yn credu,
Arglwydd; [z] * cymhorth fy anghrediniaeth i.
y 2 Sam. 16. 12. 2 Bren. 20. 5. Salm 39. 12. a 126. 5. Jer. 14.
Luc 7. 38, 44. Act. 20. 19, 31. 2 Cor. 2. 4. 2 Tim. 1. 4. Heb. 5,
12. 17. z Luc 17. 5. Eph. 2. 8. Phil. 1. 29. 2 Thes. 1. 3.
Heb. 12. 2.

25 A phan welodd yr Iesu fod y dyrfa yn
d-redeg atto, [a] efe a geryddodd yr yspryd
an, gan ddywedyd wrtho, [b] *Tydi* yspryd
ud a byddar, [c] yr wyf fi yn gorchymyn i ti,
rred allan o hono, ac na ddos mwy iddo ef.
a pen. 1. 25—27. a 5. 7, 8. Zec. 3. 2. Mat. 17. 18. Luc 4. 35,
a 9. 42. Judas 9. b Es. 35. 5, 6. Mat. 9. 32, 33. a 12. 22.
11. 14. c Luc 8. 29. Act. 16. 18.

26 Ac wedi *i'r yspryd* [d] lefain, a dryllio
wer arno ef, efe a aeth allan: ac yr oedd efe
un marw, fel y dywedodd llawer ei farw ef.
d adn. 18, 20. pen. 1. 26. Ex. 5. 23. Dat. 12. 12.

27 A'r Iesu [e] a'i cymmerodd ef erbyn ei
w, ac a'i cyfododd; ac efe a safodd i fynu.
e pen. 1. 31, 41. a 5. 41. a 8. 23. Es. 41. 13. Act. 3. 7. a 9. 41.

28 Ac wedi iddo fyned i mewn i'r tŷ, ei
isgyblion a [f] ofynasant iddo o'r neilldu, [g] Pa-
m na allem ni ei fwrw ef allan?
f pen. 4. 10, 34. Mat. 13. 10, 36. a 15. 15. g Mat. 17.
20.

29 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [h] Y rhyw
n ni all er dim ddyfod allan, ond [i] trwy
ddi ac [k] ympryd.
h Mat. 12. 45. Luc 11. 26. i 1 Br 2. 20—22. 2 Bren.
4. 33, 34. Mat. 17. 21. Act. 9. 40, 41. 2 Cor. 12. 8. Eph. 6. 18. Iago
5. 15. k Dan. 9. 3. Act. 14. 23. 2 Cor. 6. 5. a 11. 27.

Gwel sylwadau ar yr hanes rhyfedd uchod yn Matth. 17. 14—21. Sylwn yma ar yr addysgiadau canlynol oddi wrth yr hanes:—1. Mawr ddaioni Duw yn ein cadw ni rhag gallu ysbrydion drwg; a gofal beunyddiol ei ragluniaeth yn gwarchod drosom: pa beth arall a gadwodd y dyn hwn rhag cael ei ddistrywio gan y tân a'r dwfr; i'r rhai y taflai yr ysbryd aflan ef? 2. Po byraf fyddo amser y diafol, mwyaf y mae yn ymgyuddeiriogi, adn. 20. Mae hyn yn wir am y diafol ei hun, ac am ei offerynau hefyd, gwel Dat. 12. 12. Fel hyn ni a welwn ddynion yn aml yn amser eu tröedigaeth, yn cyfarfod â'r profedigaethau cryfaf. 3. Nid ar Grist mae y bai, ond arnom ni ein hunain, os nad ydym yn derbyn y trugareddau hyny oddi wrtho ef ag sydd ganddo; a'r rhai mae arnom eu hangen, ac yr ydym yn eu gofyn. "Os gelli di gredu," ebai efe, "pob peth a all fod i'r neb a gredo," adn. 23. 4. Mae Duw yn gwobrwyo ffydd wàn, lle mae gwir ddymuniad am gynnydd arni. Ffydd wàn oedd gan y dyn tlawd hwn, pan ddywedai wrth Grist "Os gelli ddim;" eto, am ei bod yn ddiragrith er yn wàn, gwobrwyodd yr Arglwydd hi, ac a'i cryfhâodd. 5. Mae iachâd ein cyrph a'n heneidiau, mewn rhai amgylchiadau, yn gofyn gweddïau ac erfyniadau taerach, a mwy anghyffredin, ger bron Duw; yn fwyaf enwedigol lle mae y drwg yn reddfol, yn wrthnysig, a chwedi hen wreiddio. * Cymmorth fi yn erbyn fy annghrediniaeth: neu, cymmorth fi i gredu lle yr wyf yn fŷr o gredu. Ni buasai gwiw gweddïo fel hyn ar neb ond ar Berson Dwyfol.

30 ¶ * Ac wedi ymadael oddi yno, hwy a
ymdeithiasant [l] trwy Galilea: [m] ac ni fynnai
efe wybod o neb.
l Mat. 17. 22, 23. m adn. 9. pen. 6. 31, 32.

31 † Canys yr oedd efe yn dysgu ei ddis-
gyblion, ac yn dywedyd wrthynt, [n] Y traddodid
Mab y dyn i ddwylaw dynion, ac y lladdent
ef; ac wedi ei ladd, yr adgyfodai y trydydd
dydd.
n adn. 12. pen. 8. 31. Mat. 16. 21. a 20. 18, 19, 28. a 21. 38,
39. a 26. 2. Luc 9. 44. a 18. 31—33. a 24. 26, 44—46. Ioan 2. 19.
a 3. 14. a 10. 18. Act. 2. 23, 24. a 4. 27, 28. 2 Tim. 2. 12.

32 ‡ Ond [o] nid oeddynt hwy yn deall yr
ymadrodd, ac [p] ofni yr oeddynt ofyn iddo.
o adn. 10. Luc 2. 50. a 9. 45. a 18. 34. a 24. 45. p pen. 7.
18. a 8. 17, 18, 33. a 16. 14. Ioan 4. 27. a 16. 19.

* Yr oedd Crist yn awr yn dechreu cychwyn i'w daith tua Jerusalem, erbyn y Pasg pryd yr aberthwyd ef: ac yr oedd yn chwennych myned trwy Galilea mòr ddirgel ag y gallai, er mwyn cael hamdden gwell i ymddiddan â'i ddysgyblion yn nghylch amryw bethau. † Fel yr oedd amser ei ddyoddefaint ef yn nesâu, yr oedd efe yn crybwyll yn amlach wrth ei ddysgyblion am hyny, i gadarnâu eu meddyliau hwy pan ddelai y peth i ben. ‡ Ond er mòr eglur yr oedd efe yn dywedyd wrthynt am ei farwolaeth a'i adgyfodiad, y cyfryw oedd eu rhagfarn hwy, fel y sylwyd ar y ddegfed adnod, fel nas gallent ei ddëall, ac yr oeddynt yn ofni gofyn iddo gan gywilydd o'u dallineb, a'u hannwybodaeth.

33 ¶ Ac [q] efe a ddaeth i Capernaum: a
phan oedd efe yn y tŷ, efe a ofynodd iddynt,
[r] * Beth yr oeddych yn ymddadleu yn eich
plith eich hunain ar y ffordd?
q Mat. 17. 24. r pen. 2. 8. Salm 139. 1—4. Ioan 2. 25. a
21. 17. Heb. 4. 13. Dat. 2. 23.

34 Ond hwy a dawsant â sôn: † canys
[s] ymddadleuasent â'u gilydd ar y ffordd, pwy *a*
fyddai fwyaf.
s Mat. 18. 1. a 20. 21—24. Luc 9. 46—48. a 22. 24. Rhuf. 12.
10. Phil. 2. 3—7. 1 Pedr 5. 3. 3 Ioan 9.

* Yn ddirgelaidd, rhwng y dysgyblion â'u gilydd, yn ddïau, y bu y ddadl hon; eto e wyddai yr Iesu yn hollawl am dani, ac yn nghylch pa beth yr oeddynt yn ym-

ddadleu. † Y ddadl oedd, yn nghylch blaenoriaeth ac uchafiaeth yn mreiniaeth y Messiah; yr hon a ddychymmygent hwy o hyd a fyddai yn dymmorawl, ac o'r byd hwn. Tra yr oedd Iesu yn meddwl am ei farwolaeth boenus, yr oeddynt hwythau yn dadleu pwy a fyddai fwyaf. Gwel y sylwadau ar Matth. 18. 1.

35 Ac efe a eisteddodd, ac a alwodd y deuddeg, ac a ddywedodd wrthynt, [t] * Os myn neb fod yn gyntaf, efe a fydd olaf o'r cwbl, a gweinidog i bawb.

t pen. 10. 42—45. Diar. 13. 10. Jer. 45. 5. Mat. 20. 25—28. Luc 14. 10, 11. a 18. 14. Iago 4. 6.

36 † Ac [u] efe a gymmerth fachgennyn, ac a'i gosododd ef yn eu canol hwynt: ac wedi iddo ei gymmeryd ef yn ei freichiau, efe a ddywedodd wrthynt,

u pen. 10. 16. Mat. 18. 2. a 19. 14, 15.

37 ‡ Pwy bynnag [x] a dderbynio un o'r cyfryw fechgyn yn fy enw i, sydd yn fy nerbyn i: a phwy bynnag [y] a'm derbyn i, nid myfi y mae yn ei dderbyn, ond yr hwn a'm danfonodd i.

x Mat. 10. 40—42. a 18. 3—5, 10. a 25. 40. Luc 9. 48. y Luc 10. 16. Ioan 5. 23. a 10. 30. a 12. 44, 45. a 14. 21—23. 1 Thes. 4. 8.

Gwel y sylwadau ar Matth. 18. 2—6. Dyben yr Arglwydd Iesu yn y peth hyn mae yn amlwg oedd, attal awyddfryd ac uchel-gais ei ddysgyblion. Os oedd rhyw flaenoriaeth i fod yn mhlith yr apostolion, pa ham y bu Crist yn ddistaw yn nghylch y cyfryw beth ar yr achlysur hwn? Neu os oedd efe wedi rhoddi y flaenoriaeth i Pedr yn nghlyw y lleill, pa raid fod dadl yn awr yn nghylch y pwnc? * Mae yn rhaid bod rhyw rai yn blaenori eu gilydd yn sicr yn yr eglwys, heb hyny ni bydd trefn; ond "*mynu* bod yn gyntaf" a waherddir yma: ni ddylai gweinidogion, na neb arall yn yr eglwys, awyddu am flaenoriaeth; a'r rhai mwyaf eu hawydd am flaenoriaeth, yn gyffredin, yw y rhai mwyaf anaddas iddi, a mwyaf annheilwng o hóni. † Yna mae efe yn gosod bachgenyn, plentyn bychan, yn eu canol hwynt, fel esampl o ddiniweidrwydd ac ysbryd difalch a diawyddgais. ‡ A phwy bynag a dderbynio ddyn neu ddynion duwiol, o ysbryd isel felly, sydd yn derbyn Iesu, ac nid Iesu yn unig ond y Tad hefyd, yr hwn a'i hanfonodd ef. Gwel ychwaneg ar Matthew fel y dywedwyd uchod.

38 ¶ Ac Ioan a'i hattebodd ef, gan ddywedyd, [z] * Athraw, ni a welsom un yn bwrw allan gythreuliaid yn dy enw di, yr hwn nid yw yn ein dilyn ni; † a ni a waharddasom iddo, am nad yw yn ein dilyn ni.

z Num. 11. 26—29. Luc 9. 49, 50. a 11. 19.

39 ‡ A'r Iesu a ddywedodd, [a] Nâ waherddwch iddo; canys [b] nid oes neb a wna wyrthiau yn fy enw i, ac a all [c] yn y fan roi drygair i mi.

a pen. 10. 13, 14. Mat. 13. 28, 29. Phil. 1. 18. b Mat. 7. 22, 23. Act. 19. 13—16. 1 Cor. 9. 27. a 13. 1, 2. c 1 Cor. 12. 3.

40 Canys [d] y neb nid yw i'n herbyn, o'n tu ni y mae.

d Mat. 12. 30. Luc 11. 23.

* Gellir gweled ychydig o'r hunan uchod eto yn y peth hyn a adrodda Ioan: gwaharddai y dysgyblion i'r dyn fwrw allan gythreuliaid, er gwneyd hyny yn enw Iesu, yn unig am nad oedd yn canlyn gyda hwynt: fel pe na buasai yn iawn i neb arall wneyd y cyfryw beth ond hwy.—Yma gallwn ymholi yn fŷr, pa fodd yr oedd y dyn hwn yn gallu bwrw allan gythreuliaid, ac heb fod yn ddysgybl neu ganlynwr i'r Iesu. 1. Mae yn amlwg nad oedd y dyn hwn ddim yn elyn i Grist, na'i efengyl, wrth yr hyn a ddywed Iesu ei hun yn adn. 39, a'r 40. 2. Mae yn amlwg mai nid gweithrediadau achubol yr Ysbryd Glân oedd y gallu i fwrw allan gythreuliaid: gallodd llawer wneuthur hyny ag oedd yn weithredw anwiredd ar yr un pryd, gwel Matth. 7. 22. 3. Mae amlwg mai nid dyn fel meibion Scefa (Act. 19. 14, 16.) oedd y dyn; oblegid gorchfygodd yr ysbryd dr y rhai hyny, er eu bod yn defnyddio enw yr Iesu. Yr oedd yr amser hwnw yn amser nodedig am ddoni gwyrthiol ac anghyffredin yr Ysbryd Glân: ac nid oed ryfedd os oedd rhai, yn yr amser hwn er gogonia Duw, yn derbyn rhai briwsion o'r dawn helaethfaw hyny, er nad oeddynt ond dysgyblion anmherffaith, e heb fod yn elynion, gwel Matth. 12. 27. 5. Tybia rha er nad oedd y dyn hwn yn canlyn Crist a'i ddysgyblio yn gyson; ei fod er hyny wedi derbyn yr efengyl, ac y bleidiol iddi: neu ynte y buasai yn un o ddysgyblio Ioan, a'i fod yn gyfaill ac yn ewyllysiwr da i Grist Priod-fab. † Yr oedd dau ddrwg yn ngwaith y dysgyb ion yn gwahardd iddo:—1. Eiddigeddu yn ddiacho dros Grist: fel y gwnaeth Josua dros Moses, Num 11. 28, 29; a dysgyblion Ioan dros eu hathraw, Ioan 26. 2. Cyfyngu doniau Crist iddynt hwy eu hunain hyny o ddysgyblion ag oedd yn ei ganlyn ef yn amlwg yr hyn mae llawer o ddynion da eto yn bur dueddol wneyd. Llawer gwell oedd ysbryd Paul yn Phil. 1 15—18. ‡ Mae Crist yn peri i'r dysgyblion na wa harddent y dyn, ac yn sicrâu nad oedd efe yn ei erbyn ef, ond gydag ef. Os na bydd dyn yn elyn amlwg Grist, dylid gobeithio mewn barn cariad ei fod yn gyfail iddo; o leiaf cyn belled ag na chaffo ei ddigaloni mewn gwneyd daioni.

41 Canys [e] pwy bynnag a roddo i chwi i'w yfed gwppanaid o ddwfr yn fy enw i, [f] am eich bod yn perthyn i Grist, yn wir meddaf i chwi Ni chyll efe ei obrwy.

e Gwel ar Mat. 10. 42. a 25. 40. f Ioan 19. 25—27. Rhuf 8. 9. a 14. 15. 1 Cor. 3. 23. a 15. 23. 2 Cor. 10. 7. Gal. 3. 29. a 5. 24

* Cawsom y geiriau hyn o'r blaen yn Matth. 10. 42 "Yn enw dysgybl" a ddywedir yno; "yn fy enw I, am eich bod yn perthyn i Grist," a ddywedir yma. Mae y geiriau yma yn eglurâd ar y geiriau yno; "perthyn i Grist" yw bod dan "enw dysgybl."

42 * A phwy bynnag a [g] rwystro un o'r rhai bychain *hyn* sydd yn credu ynof fi, [h] gwell oedd iddo osod maen melin o amgylch ei wddf, a'i daflu i'r môr.

g Mat. 18. 6, 10. Luc 17. 1, 2. Rhuf. 14. 13, 15, 21. a 16. 17 1 Cor. 8. 10—13. a 10. 32, 33. 2 Cor. 6. 3. Phil. 1. 10. 1 Tim. 5. 14 15. 2 Pedr 2. 2. h Mat. 25. 45, 46. Act. 9. 4. a 26. 11—14 2 Thes. 1. 6—9. Dat. 6. 9, 10. a 16. 6, 7.

43 * Ac [i] os dy law a'th rwystra, tòr h ymaith: gwell yw i ti fyned i mewn i'r bywyd yn [k] anafus, nag â dwy law gennyt fyned uffern, i'r tân anniffoddadwy.

i Deut. 13. 6—8. Mat. 5. 29, 30. a 18. 8, 9. Rhuf. 8. 13. 1 Cor 9. 27. Gal. 5. 24. Col. 3. 5. Tit. 2. 12. Heb. 12. 1. 1 Pder 2. 1 k Mat. 15. 30, 31. Luc 14. 13, 21.

44 † Lle [l] nid yw eu pryf hwynt yn marw, [m] na'r tân yn diffodd.

l adn. 46, 48. Es. 66. 24. m Es. 33. 14. Mat. 3. 12. a 25. 41 46. 2 Thes. 1. 9. Dat. 14. 10. 11. a 20. 10, 15. a 21. 8.

45 Ac os [n] dy droed a'th rwystra, tòr e ymaith: gwell yw i ti fyned i mewn i'r bywyd yn gloff, nag â dau droed gennyt dy daflu uffern, i'r tân anniffoddadwy.

n adn. 43, 44.

46 [o] Lle nid yw eu pryf hwynt yn marw, na'r tân yn diffodd.

o Luc 16. 24—26.

47 Ac os [p] dy lygad a'th rwystra, bwrw e ymaith: ‡ gwell yw i ti fyned i mewn i deyrnas Dduw yn un-llygeidiog, nag â dau lygad gennyt dy daflu i dân uffern:

p Ger 3. 6. Job 31. 1. Salm 119. 37. Mat. 5. 28, 29. a 10 37—39. Luc 14. Gal. 4. 15. Phil. 3. 7, 8.

48 Lle nid yw eu pryf hwynt yn marw, na'r
y yn diffodd.
Mae yn debyg i'r Arglwydd Iesu ddywedyd y geiriau
ddwy waith; unwaith yn ei bregeth ar y mynydd,
ith. 5. 29, 30; ac unwaith wrth ei ddysgyblion wedi
y, Matth. 18. 7, 8, 9. Yr oedd efe yn ystyried y
er o bwys mawr, mae yn debyg, ac yn gweled mai
hawdd iawn oedd gan ei ddysgyblion ddysgu y wers
d hon o hunan-ymwadiad. Mae Marc yn helaeth-
ar y mater hwn nag yr un o'r ddau le yn Matthew,
n defnyddio ymadroddion cryfach; ond yr un peth
n sylwedd a ddysgir yn y tri lle, sef, bod yn well i
mwadu â ni ein hunain mewn rhyw bethau, na pher-
. ein iachawdwriaeth dragywyddol drwy borthi ein
iau cnawdol. Dywed *Demosthenes* am Phylip o
edon, tad Alexander Fawr, wedi iddo golli un llygad,
cysswllt ei forddwyd, a'i gloffi yn ei law a'i goes; ei
yn llwyr foddlawn i ymadael âg unrhyw ran o'i
oh, ond iddo gyda'r gweddill o hono gael byw mewn
nydedd a mawredd. "A hwynt-hwy fel y derbyn-
goron lygredig, eithr nyni un anllygredig," 1 Cor.
4—27. Os bydd unrhyw ddyn neu beth mòr anwyl
fnyddiol i ni â llaw neu lygad, (adn. 47.) ac eto yn
ystr i ni mewn crefydd a duwioldeb, dylem gilio
i wrth y dyn hwnw; ac ymwadu â'r peth hwnw.
ir y dylem ddëall hyn yn mlaenaf am ddynion, ac
iil am bethau, a fyddo yn rhwystr i ni. † Diammau
gorbicrwydd chwerw cydwybod euog, yw y pryf an-
ol hwn, ac mai digofaint tragywyddol Duw, yw y tân
iffoddawl. Mae pob un o'r ddau beth yn llwyr groes
thrawiaeth oerlled o ddiddymiad, neu ddihanfodiad
naid, ac hefyd i'r athrawiaeth ynfyd arall o adferiad
b i ddedwyddwch yn y diwedd: oblegid, pe gwir yr
rawiaethau hyn, byddai y pryf farw, a diffoddai y tân.
edir mai cyfeiriad sydd yma at y ddwy ffordd oedd
yr henafiaid i wneyd â chyrph meirw; claddu â
gi. Wrth gladdu y corph naturiol, bydd y pryf farw
bryd o newyn, wedi ysu a bwyta y corph i gyd; ond
nghospedigaeth yr annuwiol, bydd defnydd tragy-
dol i bryf cydwybod i ymborthi arno. Wrth losgi y
bh naturiol, e ddiffydd y tân rywbryd, wedi llosgi y
bh i gyd; ond yn nghospedigaeth yr annuwiol yn
rn, bydd y dyn, gorph ac enaid, yn anfarwol; a bydd
faint Duw yn parâu yn dragywyddol, ac heb byth
ei foddloni na'i droi ymaith. Gwel Esay 66. 24;
les. 7. 17; Judith 16. 17. Yr oedd syniad tebyg i
hefyd gan rai o'r hen baganiaid gynt, pan ddywed-
fod madruddyn cefn yr annuwiol yn troi yn sarph,
neidr ofnadwy a cholynog, ar ol iddo farw; gan
lwl yn ddïau, euogrwydd ei gydwybod ef. ‡ Mae yn
nad â neb i'r bywyd yn unllygeidiog, yn gloff, nac
wn un modd yn anafus; gan y bydd cyrph y saint oll
berffaith yn yr adgyfodiad, yn un ffurf â chorph
oneddus Iesu. Ond pe gorfyddai myned felly i'r
yd; byddai hyny yn well na myned yn gorph cyfan
n uffern.

49 Canys pob un a * helltir â thân, [q] a
bb aberth a helltir â halen.
[q] Lef. 2. 13. Ezec. 43. 24.
Neu ysu a difa â thân, canys mae yr un gair Hebr-
meddant yn arwyddo halltu, ac ysu a difa hefyd.
yr adnod uchod yn ddyrys iawn, ac ar yr
pryd yn angenrheidiol iawn ei ëall: rhy faith
wer fyddai crybwyll yma yr amrywiol ddehongl-
au a roddwyd arni gan wahanol ddynion. Yn
af peth, dylai y neb a fyno ei ëall fwrw golwg
ol ar y chwech adnod flaenorawl, lle mae Crist yn
og ei ddysgyblion i farweiddio gweithredoedd y
ph, dàn y syniad o dòri y llaw, y troed, a thynu y
ad, a fyddo yn rhwystro. Dylid hefyd ystyried y
ddf yn nghylch halltu offrymau, Lefit. 2. 13. Ac
a, dylid ystyried ansawdd ac effeithiau halen a thân.
halen drwy sychu i fynu y gormod lleithder sydd
yn cig, yn ei gadw ef rhag braenu; yn ei wneyd yn
blasus; ac ar yr aberthau gynt, yn peri iddynt losgi

yn fwy angerddol ar yr allor. Felly mae goruchwyliaethau sancteiddhâol Ysbryd a gras Duw, yn marweiddio llygredigaethau y saint ac yn eu puro; yn eu gwneyd hwy a'u gwasanaeth yn gymmeradwy fel arogl peraidd ger bron Duw; ac yn eu gwneyd yn fwy ysbrydol ac angerddol yn eu haddoliad i Dduw. Mae halen hefyd yn boenus ar gnawd byw; ac felly mae y goruchwyliaethau uchod ar lygredigaethau natur. Natur y tân yw dosparthu y pethau anghyfunryw sydd mewn sylweddau cyfansawdd, a pheri poen a llosgiad: felly mae gras Duw yn gwneyd ar y credadyn. Yn drydydd, rhaid ystyried mai yr un yw y "pob un" yn rhan flaenaf yr adnod, a'r "pob aberth" yn y rhan ddiweddaf o hóni: oblegid mae pob dyn a dynes ar y ddaear yn aberth i Dduw, neu bydd raid iddynt fod felly mewn rhyw ystyr. Mae dynion duwiol, nid yn unig yn offeiriaid, ond hefyd yn aberthau gwirfodd iddo ef, Rhuf. 12. 1. A dynion annuwiol, er nad ydynt yn offeiriaid, eto byddant yn aberthau, fel yr aberth yn Bozrah, Isaiah 34. 6; ac yn ngwlad y gogledd wrth Euphrates, Jer. 46. 10. Gwel hefyd Ezec. 39. 17. Zeph. 1. 7. Caiff y rhai hyn eu halltu â halen barnedigaethau Duw, ac â thân ei ddigofaint yn dragywyddol. Bydd yn natur y tân a'r halen yma, boeni a llosgi, ac hefyd cadw yr annuwiol mewn bod, i gael ei boeni yn dragywyddol. Felly mae gan Dduw dân a halen y rhaid i bawb eu dyoddef: tân a halen i buro ei saint; a thân a halen i boeni ac i ddifa ei wrthwynebwyr. Bernwch chwi pa un sydd oreu ei ddyoddef, ai y boen o farweiddio y cnawd yma, ai ynte tân uffern byth mewn byd a ddaw: oblegid rhaid i bawb ddyoddef un o'r ddau.

50 [r] * Da *yw* yr halen: ond os bydd yr halen yn ddihallt, â pha beth yr helltwch ef? [s] † Bid gennych halen ynoch eich hunain, [t] ‡ a byddwch heddychlawn â'ch gilydd.

r Job. 6. 6. Mat. 5. 13. Luc. 14. 34, 35. s Eph. 4. 29. Col. 4. 6. t Salm 133. 1. Ioan 13. 34, 35. a 15. 17, 18. Rhuf. 12. 18. a 14. 17—19. 2 Cor. 13. 11. Gal. 5. 14, 15, 22. Eph. 4. 2—6, 31, 32. Phil. 1. 27. a 2. 1—3. Col. 3. 12, 13. 2 Tim. 2. 22. Heb. 12. 14. Iago 1. 20. a 3. 14—18. 1 Pedr. 3. 8, 9.

* Sylwyd ar ran flaenaf yr adnod hon eisoes yn Matth. 5. 13. Gan i'n Harglwydd sôn am halen yn yr adnod o'r blaen, mae efe yma yn gwneuthur defnydd pellach o'r gymhariaeth, ond ychydig yn wahanol i ystyr y geiriau yn Matthew: yno yr apostolion oedd yr halen; † yma gorchymynir iddynt fod ganddynt halen ynddynt eu hunain. Nis gallent fod yn halen i eraill heb eu bod hwy eu hunain wedi eu halltu yn gyntaf â grasau a goruchwyliaethau yr Ysbryd. ‡ Un o effeithiau halen yw, uno a chlymu y cig y rhodder ef arno; felly mae gras Duw yn uno y saint â'u gilydd mewn cariad a heddwch.

PEN. X.

Crist yn ymresymu â'r Phariseaid yn nghylch ysgar, &c.

[a] * AC efe a gyfododd oddi yno, ac a aeth i dueddau Judea, [b] † trwy y tu hwnt i'r Iorddonen; a'r bobloedd a gyd-gyrchasant atto ef drachefn: ac fel yr oedd yn arferu, [c] efe a'u dysgodd hwynt drachefn.

a Mat. 19. 1. b Ioan 10. 40. a 11. 7. c Preg. 12. 9. Jer. 32. 33. Ioan 18. 20.

Nid oes yn y bennod hon braidd ddim ar nas cawsom o'r blaen, yn Matthew y bedwaredd-ar-bymtheg. * Llefarodd Crist y pethau yn y bennod o'r blaen yn Galilea; yn awr mae yn gadael Galilea, ac yn dyfod i dueddau Judea ar ei daith ddiweddaf i Jerusalem. † Mae *Beza*, a rhai beirniaid eraill yn dewis cyfieithu y geiriau "trwy y tu hwnt i'r Iorddonen," "Gyda glànau yr Iorddonen;" oblegid mai yr Iorddonen oedd terfyn Judea, ac nad dim o'i thueddau yr ochr arall iddi. Gwel ar Matth. 19. 1.

2 ¶ [d] A'r Phariseaid wedi dyfod attô, a ofynasant iddo, [e] * Ai rhydd i wr roi ymaith ei wraig? [f] gan ei demtio ef.

d pen. 8. 15. Mat. 9. 34. a 15. 12. a 23. 13. Luc 5. 30. a 6. 7. a 7. 30. a 11. 39, 53, 54. a 16. 14. Ioan 7. 32, 48. a 11. 47, 57. e Mal. 2. 16. Mat. 5. 31, 32. a 19. 3. 1 Cor. 7. 10, 11. f pen. 8. 11. Mat. 16. 1. a 22. 35. Ioan 8. 6. 1 Cor. 10. 9.

* Am bob achos, medd Matthew 19. 3, hyny yw am unrhyw achos: oblegid felly y dehonglai y Phariseaid y ddeddf yn nghylch ysgariaeth, Deut. 24. 1.

3 Yntau a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, [g] * Beth a orchymynodd Moses i chwi?

g Es. 8. 20. Luc 10. 25, 26. Ioan 5. 39. Gal. 4. 21.

4 A hwy a ddywedasant, [h] Moses a ganiattâodd ysgrifenu llythyr ysgar, a'i gollwng hi ymaith.

h Deut. 24. 1—4. Es. 50. 1. Jer. 3. 1. Mat. 1. 19. a 5. 31, 32. a 19. 7.

5 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, [i] O achos eich calongaledwch chwi yr ysgrifenodd efe i chwi y gorchymyn hwnnw:

i Deut. 9. 6. a 31. 27. Neh. 9. 16, 17, 26. Mat. 19. 8. Act. 7. 51. Heb. 3. 7—10.

6 Ond o [k] ddechreuad y grëadigaeth, [l] yn wrryw a banyw y gwnaeth Duw hwynt.

k Gen. 1. 1. 2 Pedr 3. 4. l Gen. 1. 27. a 2. 20—23. a 5. 2. Mal. 2. 14—16.

7 Am [m] hyn y gâd dyn ei dad a'i fam, ac y glŷn wrth ei wraig;

m Gen. 2. 24. Mat. 19. 5, 6. Eph. 5. 31.

8 A hwy ill dau a fyddant [n] un cnawd: fel nad ydynt mwy ddau, ond un cnawd.

n 1 Cor. 6. 16. Eph. 5. 28.

9 Y peth [o] gan hynny a gyssylltodd Duw, na wahaned dyn.

o Rhuf. 7. 1—3. 1 Cor. 7. 10—13.

* "Beth a orchymynodd Moses?" Dywed Matthew 19. 7. mai y Phariseaid a ofynasant iddo ef "Pa ham y gorchymynodd Moses, &c.?" Gellir cysoni hyn drwy dybied iddynt hwy yn gyntaf ofyn "Pa ham y gorchymynodd Moses?" ac yna iddo yntau ofyn iddynt hwythau, Beth oedd geiriau Moses yn yr achos hwn? Ac wedi iddynt eu hadrodd, mae efe yn dangos yr achos i Moses roddi iddynt y caniatâd hwn, adn. 5. Gwel y sylwadau ar Matth. 19. 3—9.

10 Ac [p] yn y tŷ drachefn ei ddisgyblion a ofynasant iddo am yr un peth.

p Gwel ar pen. 4. 10. a 9. 28, 33.

11 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [q] * Pwy bynnag a roddo ymaith ei wraig, ac a briodo un arall, y mae yn godinebu yn ei herbyn hi.

q Mat. 5. 31, 32. a 19. 9. Luc 16. 18. 1 Cor. 7. 4, 10, 11. Heb. 13. 4.

12 † Ac os gwraig a ddyry ymaith ei gwr, a phriodi un arall, y mae hi yn godinebu.

* Ond am odineb, medd Matthew 5. 32. a 19. 9. † Gan Marc yn unig mae y ddeuddegfed adnod, yn nghylch y wraig. Yr oedd hyn yn cael ei wneyd yn aml, ac yn y modd mwyaf digywilydd, gan wragedd y Rhufeiniaid: ac er nad oedd un gyfraith yn mhlith yr Iuddewon i'r wraig roddi ymaith ei gwr a phriodi un arall; eto yr oeddynt yn ei wneyd yn aml. Rhoddodd Salome, chwaer Herod Fawr lythyr ysgar i Costobarus ei gwr; ac yn ol ei hesampl hi, rhoddodd Herodias lythyr ysgar i Phylip ei gwr, a llawer eraill: ac mae yn amlwg yn *Josephus* i'w wraig ef ei hun roddi llythyr ysgar iddo. Ond dëaller, mai nid "o achos godineb" y bu hyn; buasai yn gyfreithlawn felly; oblegid mae yn amlwg yma fod Crist yn gosod y gwŷr a'r gwragedd ar yr un tir, ac yr un ddeddf i'r naill ac i'r llall.

13 ¶ * A [r] hwy a ddygasant blant bychain atto, fel y cyffyrddai efe â hwynt: a'r [s] disgyblion a geryddasant y rhai oedd yn [t] dwyn *hwynt*.

r Mat. 19. 13—15. Luc 18. 15, 16. s adn. 48. pen. 9. 5. Exod. 10. 9—11. Deut. 31. 12, 13. Joel 2. 16.

14 † A'r Iesu pan welodd *hynny*, [t] fu ar[illegible] foddlawn, ac a ddywedodd wrthynt, [u] Gadewch[illegible] i blant bychain ddyfod attaf fi, ac na waherdd[illegible] wch iddynt: [x] canys eiddo y cyfryw rai y[illegible] teyrnas Dduw.

t pen. 3. 5. a 8. 33. Luc 9. 54—56. Eph. 4. 26. u Gen. 1[illegible] 7, 10—14. Num. 14. 31. Deut. 4. 37. a 29. 11, 12. 1 Sam. 1. 11, 2[illegible] 27, 28. Salm 78. 4. a 115. 14, 15. Es. 65. 23. Jer. 32. 39, 40. L[illegible] 18. 15, 16. Act. 2. 39. a 3. 25. Rhuf. 11. 16, 28. 1 Cor. 7. 14. 2 Tim[illegible] 1. 5. a 3. 15. x Salm 131. 1, 2. Mat. 18. 4. a 19. 14. 1 Cor. 1[illegible] 20. 1 Pedr 2. 2.

15 ‡ Yn wir meddaf i chwi, [y] Pwy bynna[illegible] ni dderbynio deyrnas Dduw fel dyn bach, ni [illegible] â efe i mewn iddi.

y Mat. 18. 3. Luc 18. 17. Ioan 3. 3—6.

16 ‖ Ac [z] efe a'u cymmerodd hwy yn e[illegible] freichiau, *ac* a roddes *ei* ddwylaw arnynt, a [illegible] a'u bendithiodd.

z Gen. 48. 14—16. Deut. 28. 3. Es. 40. 11. Luc 2. 28—34. 24. 50, 51. Ioan 21. 15—17.

Cawsom yr hanes hwn, ond yn fyrach, yn Matth. 19. 13—15. Yr oedd tiriondeb Crist yma tuag at y plan[illegible] bychain yn foddâol iawn i'r rhieni; a diammau bod [illegible] côf am ei hynawsedd ef yn effeithio yn barhâus ar [illegible] plant eu hunain: a rhaid bod yr olwg yn addysgiadol a[illegible] yn galonogus i bobl ieuainc eraill a allai fod yno y[illegible] bresenol. Er nad yw yr hanes yma yn brawf ac y[illegible] sylfaen union-gyrchol bedydd babanod; eto mae y[illegible] tueddu yn fawr at hyny; ac yn galondid i rieni cristion[illegible] ogol i ddwyn eu plant at Grist, i ofyn ei fendith arnynt [illegible] a'u cyflwyno iddo yn yr ordinhad hòno. * Dywedir fo[illegible] yr enwog Ignatius, esgob Antioch wedi hyny, yn un o'[illegible] plant hyn. † Gallasai Crist fod yn fwy anfoddlawn i'[illegible] dysgyblion, gan iddo mor ddiweddar (pen. 9. 36, 37,) [illegible] gymmeryd plentyn a'i osod yn eu canol hwynt, a thyst[illegible] iolaethu fod yn rhaid iddynt hwy fod yn debyg i'r cyf[illegible] ryw. ‡ Nid yw y bymthegfed adnod gan Matthew n[illegible] Luc: wrth deyrnas Dduw y deallir gair Duw, neu y[illegible] hytrach gras Crist yn yr efengyl. ‖ Pa rieni duwiol n[illegible] ddymunant iddo gymmeryd eu plant yn mreichiau e[illegible] drugaredd, dodi ei ddwylaw arnynt, a'u bendithio?

17 ¶ Ac [a] wedi iddo fyned allan i'r ffordd, [b] * rhedodd un atto, a [c] gostyngodd iddo, ac a[illegible] ofynodd iddo, [d] O, † Athraw da, [e] ‡ beth a[illegible] wnaf fel yr etifeddwyf [f] fywyd tragywyddol?

a Mat. 19. 16. Luc 18. 18, &c. b pen. 9. 25. Mat. 28. 8. Ioan 20. 2—4. c pen. 1. 40. Dan. 6. 10. Mat. 17. 14. d pen. 12. 14. Ioan 3. 2. e Ioan 6. 28. Act. 2. 37. a 9. 6. a 16. 30. Rhuf. 10. 2—4. f Ioan 5. 39. a 6. 27, 40. Rhuf. 2. 7. a 6. 23. 1 Ioan 2. 25.

* Dywed Luc 18. 18, mai rhyw lywodraethwr ydoedd [illegible] a dywed Matthew 19. 22, mai gwr ieuanc ydoedd. † Dy[illegible] wedir fod y Rabbiniaid Iuddewig yn fawr iawn am y[illegible] enwad hwn, yr hyn a ddengys neillduol briodoldeb [illegible] atebiad ein Hiachawdwr yn yr adnod nesaf. ‡ Mae y[illegible] gofyniad yn dangos ei fod yn credu y fath beth â bywy[illegible] tragywyddol, ei fod yn ei chwennychu, ac yn ewyllysga[illegible] i wneyd rhywbeth tuag at ei etifeddu.

18 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, [g] Paham y[illegible] gelwi fi yn dda? * nid *oes* neb da ond un, [h] *sef* Duw.

g Mat. 19. 17. Luc 18. 19. Ioan 5. 41—44. Rhuf. 3. 12. h 1 Sam. 2. 2. Salm 36. 7, 8. a 119. 68. Iago 1. 17. 1 Ioan 4. 8. 16.

* Nid oes neb ond Duw yn dda yn ystyr berffaith [illegible] helaethaf y gair: *erioed* yn dda; *goruwch pawb* yn dda, [illegible] ac yn *berffaith* dda. Mae Crist yma yn ceryddu y dy[illegible] am ei alw ef yn Dduw (neu wrth enw cystal â hyny) a[illegible] eto heb gredu ei fod ef yn Dduw.

19 Ti [i] a wyddost y gorchymynion, [k] Na[illegible] odineba, Na ladd, Na ladratta, Na cham-

stiolaetha, [l] * Na cham-golleda, Anrhydedda
dad a'th fam.

i pen. 12. 28—34. Es. 8. 20. Mat. 5. 17—20. a 19. 17—19. Luc
6—28. a 18. 20. Rhuf. 3. 20. Gal. 4. 21. k Ex. 20. 12—17.
t. 5. 16—24. Rhuf. 13. 9. Gal. 5. 14. Iago 2. 11. l 1 Cor. 6.
. 1 Thes. 4. 6.

20 Yntau a attebodd ac a ddywedodd wrtho,
nraw, [m] † y rhai hyn i gyd a gedwais o'm
uengctid.

m Es. 58. 2. Ezec. 5. 14. a 33. 31. Mat. 19. 20. Luc 10. 29. a
1, 12. Rhuf. 7. 9. Phil. 3. 6. 2 Tim. 3. 5.

Tybir fod hyn yn cael ei roddi yma yn lle y degfed
hymyn, gan fod chwennych eiddo un arall yn arwain
neyd anghyfiawnder âg ef, ac fel hyny ei gam-golledu
Mae y gair hefyd yn arwyddo attal, neu gadw yn ol,
hyw beth, pan fyddo yn ddyledus. † O ran y llyth-
n, a'r ymddygiad allanol, efallai; neu yn ol y
ongliad a roddai y dysgawdwyr Iuddewig y pryd
uw ar y gyfraith.

21 A'r Iesu gan edrych arno, [n] a'i * hoffodd,
a ddywedodd wrtho, [o] † Un peth sydd ddi-
giol i ti: dos, [p] gwerth yr hyn oll sydd gen-
, a dyro i'r tlodion; a thi a gai [q] drysor yn
uef: a thyred, ‡ *a* [r] chymmer i fynu y groes,
ilyn fi.

n Gen. 34. 19. Es. 63. 8—10. Luc 19. 41. 2 Cor. 12. 15.
uc 10. 42. a 18. 22. Dat. 2. 4, 14, 20. p Diar. 23. 23. Mat.
44—46. a 19. 21. Luc 12. 33. Act. 2. 45. a 4. 34—37. q Mat.
9—21. Luc 16. 9. 1 Tim. 6. 17—19. Heb. 10. 34. 1 Pedr 1. 4, 5.
n. 8. 34. Mat. 16. 24. Luc 9. 23. Ioan 12. 26. a 16. 33. Rhuf. 8.
8. 2 Tim. 3. 12.

22 || Ac efe a [s] bruddhâodd wrth yr ymad-
ld, ac a aeth ymaith yn athrist: [t] canys yr
dd ganddo feddiannau lawer.

s pen. 6. 20, 26. Mat. 19. 22. a 27. 3, 24—26. Luc 18. 23.
or. 7. 10. 2 Tim. 4. 10. t Gen. 13. 5—11. Deut. 6. 10—12. a
4—14. Job 21. 7—15. Ezec. 33. 31. Mat. 13. 22. Luc 12. 15.
. 5. 5. 1 Tim. 6. 9, 10. 1 Ioan 2. 15, 16.

Yr oedd rhyw hawddgarwch naturiol yn y llywodr-
wr ieuanc hwn, wrth gymharu ei ymddygiad ef â'r
rifenyddion a'r Phariseaid, a llawer eraill, ag oedd
ennyn tosturi ein Harglwydd tuag ato; a chan ei fod
n mhob peth yr un ffunud â ninnau, ond heb bechod,
wn feddwl ei fod yn teimlo cariad ato, yn debyg fel
ydd gweinidogion duwiol yn teimlo tuag at rai o'u
andawyr a fyddo yn serchog, yn foesol, ac yn gared-
ond y rhai nid ydynt yn bresenol yn eu hystyried yn
grefyddol. † Er ei hoffi ef felly, mae Crist yn
gos iddo ei fod yn ddiffygiol; mai cyflawnder y gyf-
h yw cariad: a bod y cariad hwnw yn dyfod â dyn i
di ufudd-dod cyffredinol ac ewyllysgar i holl ewyllys
w. ‡ Y groes, yw rhyw brawf, neu ddyoddefaint a
r ei ochelyd drwy gilio oddiar lwybr dyledswydd, nid
o hyny. Cafodd Iesu y groes ar ei ffordd; cymmer-
d hi i fynu, dygodd hi, a hoeliwyd ef arni; heb gilio
n ar y neilldu rhaddi. Nid oedd yr Arglwydd Iesu
gofyn y pethau uchod gan y gwr ieuanc fel ammod-
neu sail ei gymmeradwyaeth gyda Duw; ond fel
iolaeth a phrawf, o wir dduwioldeb. || Er lleied
d y prawf, yr oedd yn ormod i'r gwr ieuanc hawdd-
a goludog hwn: aeth ymaith yn brudd, yn athrist,
yn siomedig.

23 ¶ A'r Iesu [u] a edrychodd o'*i* amgylch,
a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, [x] Mor
hawdd yr â y rhai y mae golud ganddynt
deyrnas Dduw!

u pen. 3. 5. a 5. 32. x Mat. 19. 23—26. Luc 18. 24. 1 Cor.
6. Iago 2. 5. a 4. 4. y adn. 15. Mat. 18. 3. Ioan 3. 5. 2 Pedr
1.

24 * A'r disgyblion a [z] frawychasant wrth
eiriau ef. Ond yr Iesu a attebodd drachefn,
a ddywedodd wrthynt, [a] O blant, mor an-
wdd yw i'r rhai sydd â'u [b] † hymddiried yn
golud fyned i deyrnas Dduw!

z Mat. 19. 25. Luc 18. 26, 27. Ioan 6. 60. a Ioan 13. 33.
a 21. 5. Gal 4. 19. 1 Ioan 2. 1. a 4. 4. a 5. 21. b Job 31. 24, 25.
Salm 17. 14. a 49. 6, 7. a 52. 7. a 62. 10. Diar. 11. 28. a 18. 11. a
23. 5. Jer. 9. 23. Ezec. 28. 4, 5. Hab. 2. 9. Zeph. 1. 18. Luc 12. 16
—21. a 16. 14. 1 Tim. 6. 17. Iago 5. 1—3.

25 Y mae [c] yn haws i gamel fyned trwy
grai y nodwydd, nag i oludog fyned i mewn i
deyrnas Dduw.

c Jer. 13. 23. Mat. 7. 3—5. a 19. 24, 25. a 23. 24. Luc 18. 25.

26 A hwy a synnasant [d] yn ddirfawr, gan
ddywedyd wrthynt eu hunain, [e] A phwy a all
fod yn gadwedig?

d pen. 6. 51. a 7. 37. 2 Cor. 11. 23. e Luc 13. 23. a 18. 26.
Act. 16. 31. Rhuf. 10. 9—13.

27 A'r Iesu, wedi edrych arnynt, a ddy-
wedodd, [f] Gyd â dynion ammhosibl *yw*, ac nid
gyd â Duw: [g] canys pob peth sydd bosibl gyd
â Duw.

f Gen. 18. 13, 14. Num. 11. 21—23. 2 Bren. 7. 2. Zec. 8. 6.
Mat. 19. 26. Luc. 18. 27. g Job 42. 2. Jer. 32. 17, 27. Luc 1.
37. Phil. 3. 21. Heb. 7. 25. a 11. 19.

* Yn Matthew 19. 25, gwelwn yr achos o'r braw yma: sỳnu a ddywedir yno, a dywedyd "Pwy gan hyny a all fod yn gadwedig?" Tybiai y dysgyblion fod golud yn arwydd o gariad ac ewyllys da Duw, ac yn un o fendithion teyrnas y Messiah. † Nid mewn meddu cyfoeth mae y perygl; ond mewn ymddiried ynddo: a'r anhawsdra yw, meddu cyfoeth, a pheidio ymddiried ynddo. Gwel ychwaneg ar Matth. 19. 16—26.

28 ¶ Yna y dechreuodd Pedr ddywedyd
wrtho, [h] Wele, nyni a adawsom bob peth, ac a'th
ddilynasom di.

h pen. 1. 16—20. Mat. 19. 27—30. Luc 14. 33. a 18. 28—30.
Phil. 3. 7—9.

29 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd,
Yn wir meddaf i chwi, [i] Nid oes neb a'r a
adawodd dŷ, neu frodyr, neu chwiorydd, neu
dad, neu fam, neu wraig, neu blant, neu diroedd,
[k] o'm hachos i a'r efengyl,

i Gen. 12. 1—3. a 45. 20. Deut. 33. 9—11. Luc 22. 28—30.
Heb. 11. 24—26. k pen. 8. 35. Mat. 5. 10, 11. a 10. 18. 1 Cor.
9. 23. Dat. 2. 3.

30 A'r ni dderbyn [l] y càn cymmaint yr
awrhon y pryd hwn, dai, a brodyr, a chwïor-
ydd, a mammau, a phlant, a thiroedd, [m] * yn-
ghyd âg erlidiau; ac yn y byd a ddaw, [n] fywyd
tragywyddol.

l 2 Cron. 25. 9. Salm 84. 11. Diar. 3. 9, 10. a 16. 16. Mal. 3.
10 Mat. 13. 44—46. 2 Cor. 6. 10. a 9. 8—11. Phil. 3. 8. 2 Thes.
2. 16. 1 Tim. 6. 6. 1 Ioan 3. 1. Dat. 2. 9. a 3. 18. m Mat. 5. 11,
12. Ioan 16. 22, 23. Act. 5. 41. a 16. 25. Rhuf. 5. 3. Iago 1. 2—4,
12. a 5. 11. 1 Pedr 4. 12—16. n Ioan 10. 23. Rhuf. 6. 23. 1 Ioan
2. 25.

31 Ond [o] llawer o'r rhai cyntaf a fyddant ddi-
weddaf; a'r diweddaf *fyddant* gyntaf.

o Mat. 8. 11, 12. a 19. 30. a 20. 16. a 21. 31. Luc 7. 29, 30, 40
—47. a 13. 30. a 18. 11—14. Act. 13. 46—48. Rhuf. 9. 30—33.

Gwel y sylwadau ar Matth. 19. 27—30. * "Yn nghyd âg erlidiau:" nid yw y geiriau hyn ddim yn Matthew. Gellir eu darllen, "Er cael erlidiau:" ie, yn nghanol erlidiau; oblegid, "lle mae dyoddefiadau yn amlâu, mae diddanwch hefyd yn amlâu," 2 Cor. 1. 5. Mae yn wir nas gellir deall yr addewid yn llythyrenol; ond fel y mae yn cyfeirio at fendithion annhraethol fwy na chydwerth; yn mhlith pa rai, gellir cyfrif cyfeillion crefyddol caredig a gwerthfawr. Mỳn rhai ddarllen y geiriau uchod "Ar ol erlidiau;" ond dywed eraill nas goddef y geiriau gwreiddiol eu trôi felly.

32 ¶ [p] Ac yr oeddynt ar y ffordd yn myned
i fynu i Jerusalem; ac yr oedd yr Iesu yn
myned o'u blaen hwynt: a [q] hwy a frawychas-
ant; ac fel yr oeddynt yn canlyn, yr oedd ar-
nynt ofn. [r] * Ac wedi iddo drachefn gym-

meryd y deuddeg, efe a ddechreuodd fynegi iddynt y pethau a ddigwyddent iddo ef:

p Mat. 20. 17. Luc 18. 31. q Zec. 3. 8. Luc 9. 51. Ioan 11. 8, 16. r pen. 4. 34. Mat. 11. 25. a 13. 11. Luc 10. 23, 24.

33 *Canys* wele, yr ydym ni yn myned i fynu i Jerusalem; [s] a Mab y dyn a draddodir i'r arch-offeiriaid, ac i'r ysgrifenyddion; a hwy a'i [t] condemniant ef i farwolaeth, ac a'i [u] traddodant ef i'r Cenhedloedd:

s pen. 8. 31. a 9. 31. Mat. 16. 21. a 17. 22, 23. a 20. 17—19. Luc 9. 22. a 18. 31—33. a 24. 6, 7. t pen. 14. 64. Mat. 26. 66. Act. 13. 27, 28. Iago 5. 6. u pen. 15. 1. Mat. 27. 2. Luc 23. 1, 2, 21. Ioan 18. 28. a 19. 11. Act. 3. 13, 14.

34 A hwy a'i [x] gwatwarant ef, ac a'i fflangellant, ac a [y] boerant arno, ac a'i lladdant: [z] a'r trydydd dydd yr adgyfyd.

x pen. 14. 65. a 15. 17—20, 29—31. Salm 23. 6—8. Es. 53. 3. Mat. 27. 27—44 Luc 22. 63—65. a 23. 11, 35—39. Ioan 19. 2, 3. y pen. 14. 65. Job 30. 10. Es. 50. 6. Mat. 26. 67. z Salm 16. 10. Hos. 6. 2. Jona 1. 17. a 2. 10. Mat. 12. 39, 40. 1 Cor. 15. 4.

* Dyma'r drydedd waith, o leiaf, i'r Arglwydd Iesu rag-fynegi i'w ddysgyblion am ei ddyoddefaint; ac mae efe y tro hwn yn mynegi yn eglurach ac yn fanylach nac yr un tro o'r blaen. Mae yn crybwyll offerynau ei ddyoddefaint; yr arch-offeiriaid, yr ysgrifenyddion, a'r Cenedloedd, sef y Rhufeiniaid, yr un efallai â'r *pechaduriaid* yn Matth. 26. 45, gwel y sylwad yno, a Judas ei draddodwr cyntaf. Yna mae yn dangos dull ei ddyoddefaint; ei draddodi, ei gondemnio, ei watwar, ei fflangellu, poeri arno, a'i ladd. Er ei fod yn gwybod y pethau a ddygwyddent iddo yn Jerusalem, yr oedd yn myned yno er hyny yn hyf, ac yn blaenu ar ei ddysgyblion; y rhai oedd yn synu yn frawychus wrth ei benderfyniad a'i wroldeb, ac yn ofni y peryglon y byddent hwy eu hunain yn agored iddynt wrth ei ganlyn ef. Dywed Luc 18. 34, na ddeallodd ei ddysgyblion ddim o'r pethau a ddywedodd efe: ond yr oeddynt yn gwrando erbyn yr amser i ddyfod; bu y geiriau hyn o les iddynt gwedi hyny, pan welsant eu cyflawni. Nid yw geiriau pregethwr yn myned ar goll i gyd, er nad ydynt ar y pryd yn cael eu gwrando a'u credu.

35 ¶ * A [a] daeth atto [b] Iago ac Ioan, meibion Zebedëus, gan ddywedyd, Athraw, [c] ni a fynnem wneuthur o honot i ni yr hyn a ddymunem.

a pen. 1. 19, 20. a 5. 37. a 9. 2. a 14. 33. b Mat. 20. 20, &c. c 2 Sam. 14. 4—11. 1 Bren. 2. 16, 20.

36 Yntau a ddywedodd wrthynt, [d] Beth a fynnech i mi ei wneuthur i chwi?

d adn. 51. 1 Bren. 3. 5, &c. Ioan 15. 7.

37 Hwythau a ddywedasant wrtho, Caniattâ i ni [e] eistedd, un ar dy ddeheulaw, a'r llall ar dy aswy, [f] yn dy ogoniant.

e pen. 16. 19. 1 Bren. 22. 19. Salm 45. 9. a 110. 1. f pen. 8. 38. Mat. 25. 31. Luc 24. 26. 1 Pedr 1. 11.

38 Ond yr Iesu a ddywedodd wrthynt, [g] Ni wyddoch pa beth yr ydych yn ei ofyn: a ellwch chwi [h] yfed o'r cwppan yr wyf fi yn ei yfed? a'ch [i] bedyddio â'r bedydd y'm bedyddir i âg ef?

g 1 Bren. 2. 22. Jer. 45. 5. Mat. 20. 21, 22. Rhuf. 8. 26. Iago 4. 3. h pen. 14. 36. Salm 75. 8. Es. 51. 22. Jer. 25. 15. Mat. 26. 39. Luc 22. 42. Ioan 18. 11. i Luc 12. 50.

39 A hwy a ddywedasant wrtho, [k] Gallwn. A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, [l] Diau yr yfwch o'r cwppan yr yfwyf fi; ac y'ch bedyddir â'r bedydd y bedyddir finnau:

k pen. 14. 31. Ioan 13. 37. l Ioan 15. 20. Act. 12. 2. Col. 1. 24. Dat. 1. 9.

40 Ond [m] eistedd ar fy neheulaw a'm haswy, nid eiddof fi ei roddi; † ond i'r rhai y darparwyd.

m Mat. 20. 23. a 25. 34. Ioan 17. 2, 24.

41 A phan glybu y deg, [n] hwy a ddechreuasant fod yn anfoddlawn ynghylch Iago ac Ioan.

n pen. 9. 33—36. Diar. 13. 10. Mat. 20. 24. Luc 22. 24. Rh. 12. 10. Phil. 2. 3. Iago 4. 5, 6.

Gwel y sylwadau ar yr hanes uchod yn Matth. 20. 20—24. * Dywed Matthew i fam meibion Zebedëus ddyfod at yr Iesu gyda ei meibion. Nid oes yn hyny ddim anghysondeb o bwys; ond bod Matthew yn adrodd peth mae Marc yn ei adael allan. Hefyd mynych dywedwn fod peth yn cael ei wneyd genym ni er hunain, a wnair gan rywun arall drosom ni, ac ar ei deisyfiad. Er bod y dysgyblion yn methu a deall a farwolaeth ac adgyfodiad Iesu yn yr adnodau o'r blaen eto, yr oeddynt yn sicr yn eu meddyliau, beth bynag ddyoddefai efe, y deuai i'w freniniaeth yn y diwedd, hòno yn un ddaearol yn ol eu tyb hwy; am hyny chwenychai y ddau frawd hyn gael bod yn nesaf ato ef yn ei freniniaeth. † "Ond i'r rhai y darparwyd gan fy Nhad" medd Matthew.

42 A'r Iesu a'u galwodd hwynt atto, ac a ddywedodd wrthynt, [o] * Chwi a wyddoch fod y rhai a dybir eu bod yn llywodraethu ar y Cenhedloedd, yn tra-arglwyddiaethu arnynt; a'i gwŷr mawr hwynt yn tra-awdurdodi arnynt.

o Mat. 20. 25. Luc 22. 25. 1 Pedr 5. 3.

43 Eithr [p] nid felly y bydd yn eich plith chwi: ond [q] pwy bynnag a ewyllysio fod yn fawr yn eich plith, bydded weinidog i chwi;

p Ioan 18. 36. Rhuf. 12. 2. q pen. 9. 35. Mat. 20. 26, 27. a 23. 8—12. Luc 9. 48. a 14. 11. a 18. 14. Ioan 13. 13—18. 1 Cor. 9. 19—23. Gal. 5. 13. 1 Pedr 5. 5, 6.

44 A phwy bynnag o honoch a fynno fod yn bennaf, † bydded was i bawb.

45 Canys [r] ni ddaeth Mab y dyn i'w wasanaethu, ond i wasanaethu, [s] ‡ ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer.

r Mat. 20. 28. Luc 22. 26, 27. Ioan 13. 14. Phil. 2. 5—8. Heb. 5. 8. s Es. 53. 10—12. Dan. 9. 24, 26. 2 Cor. 5. 21. Gal. 3. 13. 1 Tim. 2. 4—6. Tit. 2. 14. 1 Pedr 1. 19.

* Y rhai sydd yn llywodraethu ar y cenedloedd, maen yn derbyn elw a budd oddi wrth eu deiliaid, ac yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal yn eu mawredd a'u gwychder ganddynt: ond yn yr awdurdod a roddaf fi i chwi a'ch olynwyr, bydd yn hollawl fel arall; rhaid i chwi wasanaethu a gweini ar y rhai y byddwch yn llywodraethu arnynt. A pho uwchaf y caffoch eich derchafu mewn mawredd ac awdurdod eglwysig, mwyaf i gyd fydd baich y swydd a'r gwasanaeth a orwedd arnoch, i weini gyfreidiau eich holl is-raddolion, a'u diwallu hwynt. † Mae graddiaeth yma, nad ydys yn ei ystyried yn gyffredin. Y gair gweinidog, yn yr adnod o'r blaen sydd enw a ellir ei roddi ar unrhyw ddyn, a fyddo yn gweini ar eraill yn achlysurol, neu ynte yn gyson mewn rhyw wasanaeth neillduol; ond mae y gair a'i gyfleithiad yma "gwas," yn arwyddo un y byddo ei holl waith yn gwasanaethu, a'r hwn yn wir a fyddo yn eiddo a meddiant rhywun arall fel caethwas. Ac mae y geiriau "bawb" hefyd yn chwanegu y graddiaeth, ac yn darostwng gweinidog yr efengyl i sefyllfa isel iawn. "Bydded was i *chwi*," medd Matthew, yma "Bydded was i *bawb*."

46 ¶ A [t] hwy a ddaethant i Jericho. * A chwi fel yr oedd efe yn myned allan o Jericho, efe a'i ddisgyblion, a bagad o bobl, † Bartimëus ddall, mab Timëus, oedd yn eistedd ar fin y ffordd, [u] yn cardotta.

t Mat. 20. 29, &c. Luc 18. 35, &c. u Luc 16. 20, 22. Ioan 9. 8. Act. 3. 2, 3.

47 A phan glybu mai yr [x] Iesu o Nazareth ydoedd, efe a ddechreuodd lefain, a dywedyd, Iesu, [y] mab Dafydd, trugarhâ wrthyf.

x Mat. 2. 23. a 21. 11. a 26. 71. Luc 4. 16. a 18. 36, 37. Ioan 5. a 7. 41, 52. a 19. 19. Act. 6. 14. y Es. 9. 6, 7. a 11. 1. 23. 5, 6. Mat. 1. 1. a 9. 27. a 12. 23. a 15. 22. a 20. 30. a 21. 9. 42—45. Act. 13. 22, 23. Rhuf. 1. 3, 4. Dat. 22. 16.

48 A [z] llawer a'i ceryddasant ef, i *geisio* *tenddo* dewi: [a] ond efe a lefodd yn fwy o la-
r, ‡ Mab Dafydd trugarhâ wrthyf.

z pen. 5. 35. Mat. 19. 13. a 20. 31. Luc 18. 39. a pen. 7. 29. Gen. 32. 24—28. Jer. 29. 13. Mat. 15. 23—28. Luc 11. 5—a 18. 1, &c. Eph. 6. 18. Heb. 5. 7.

49 A'r Iesu [b] a safodd, ac a archodd ei alw
A hwy a alwasant y dall, gan ddywedyd
tho, [c] Cymmer galon; cyfod: y mae efe yn
alw di.

b Salm 86. 15. a 145. 8. Mat. 20. 32—34. Luc 18. 40. Heb. 2. a 4. 15. c Ioan 11. 28.

50 Ond efe, [d] wedi taflu ei gochl ymaith, a
fododd, ac a ddaeth at yr Iesu.

d Phil. 3. 7—9. Heb. 12. 1.

51 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd
tho, [e] Beth a fynni i mi ei wneuthur i ti?
r dall a ddywedodd wrtho, Athraw, caffael o
mof fy ngolwg.

e adn. 36. 2 Cron. 1. 7. Mat. 6. 8. a 7. 7, 8. Luc 18. 41—43. 4. 4. 6.

52 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Dos
naith: [f] dy ffydd a'th iachâodd. Ac yn y
nn [g] y cafodd efe ei olwg, [h] ac efe a ddilyn-
d yr Iesu ar hyd y ffordd.

f pen. 5. 34. Mat. 9. 22, 28—30. a 15. 28. Luc 7. 50. a 8. 48. en. 8. 25. Salm 33. 9. a 146. 8. Es. 29. 18, 19. a 35. 5. a 42. 16 8. Mat. 11. 5. a 12. 22. a 21. 14. Ioan 9. 5—7, 32, 39. Act. 26. h pen. 1. 31. Luc 8. 2, 3.

Mewn darn o hanes eglur fel hyn, nid oes dim yn
yrys ac eisiau ei eglurâu: heblaw hyny, yr ydys
di sylwi eisoes ar yr un mater yn Matth. 20. 29—34.
Dywed Matthew fod dau deillion, ond nid yw yn enwi
un o honynt: un a grybwylla Luc 18. 35, yr un modd
Marc, ond nid yw efe yn ei enwi. Nid oes yma ddim
ghysondeb; mae yn ddiammau bod yno ddau fel y
wed Matthew, ond bod un o'r ddau mewn rhyw ystyr
fwy nodedig na'r llall, ac am hyny yn cael ei grybwyll
n Marc a Luc, heb sôn dim am y llall. Gwel yn
nellach ar Matthew, fel y soniwyd uchod. † Mab
mëus ydyw ystyr Bartimëus, felly mae y geiriau a
nlyn yr enw yn eglurhâd ar yr enw. *Bar* yn y
riaeg, sydd gyfystyr â *Ben* yn yr Hebraeg, a phob un
arwyddo *mab* yn ein iaith ni. Cawn y gair Syriaeg
ar yn flaenddodyn i amryw enwau yn yr ysgrythyr, a
eb a arwydda fel y sylwyd, yn mhob mân. ‡ Arglwydd,
o Dafydd, sydd yn Matth. 20. 31: dywedir yno fod dau
eillion, ac efallai i un o honynt ddefnyddio y gair
glwydd; ac i'r llall, y Bartimëus hwn, ddefnyddio y
ir *Iesu;* neu ynte dywedasant y naill air y tro cyntaf,
gair arall yr ail dro, wrth lefain am drugaredd: pa
dd bynag am hyny, wrth ddywedyd Mab Dafydd yr
ddynt hwy yn addef Iesu yn Fessiah, fel y sylwyd yn
lle a nodwyd yn Matthew.

PEN. XI.

Crist yn marchogaeth i Jerusalem, &c.

C [a] wedi eu dyfod yn agos i Jerusalem, i
Bethphage a * Bethania, [b] hyd fynydd yr
lew-wydd, [c] efe a anfonodd ddau o'i ddisgybl-
n,

a Mat. 21. 1. Luc 19. 29. b pen. 13. 3. 2 Sam. 15. 30. Zec. 14. Mat. 24. 3. a 26. 30. Ioan 8. 1. Act. 1. 12. c Gwel ar pen. 7. a 14. 13.

* Nid yw Matthew 21. 1, yn sôn dim am Bethania: f Lazarus, Mair, a Martha, ydoedd, Ioan 11. 1, tua ymtheg ystad, sef yn agos i ddwy filltir o Jerusalem, nn 11. 18. O ryw fân yn agos i Bethania yr esgyn-odd Iesu i'r nef, Luc 24. 50. Ond tybia rhai mai darn o fynydd yr Olewydd a feddylir yma wrth Bethania, yn hytrach na'r dref, a bod Bethphage megys pentref cydiol â Jerusalem, yn nghŵr pellaf pa un yr oedd Bethania. neu y rhan hyny o'r mynydd a elwid felly oddi wrth dref Bethania, yn dechreu. Wrth fod Iesu yn dyfod o Jericho i Jerusalem drwy y lleoedd hyn, ac am yr enwir Bethphage yn gyntaf yn y fân hon, a Bethania yn ail: gellid meddwl mai Bethphage oedd yn nesaf i Jericho, a Bethania yn nesaf i Jerusalem: ond fel arall y dywedir eu bod, ac fel arall y dangosir hwy ar y *mapiau;* Bethania yn agosaf i Jericho, a Bethphage yn agosaf i Jerusalem.

2 Ac a ddywedodd wrthynt, [d] Ewch ymaith i'r pentref *sydd* gyferbyn â chwi: ac yn y man wedi y deloch i mewn iddo, chwi a gewch ebol wedi ei rwymo, † ar yr hwn nid eisteddodd neb; gollyngwch ef yn rhydd, a dygwch ymaith.

d Mat. 21. 2, 3. Luc 19. 30, 31.

* Mae Matthew 21. 2, yn sôn am asen ac ebol; nid yw yr efengylwyr eraill yn sôn dim ond am yr ebol: asynyn, medd Ioan 12. 14. † Yr oedd y paganiaid, wrth oleuni natur, yn arfer defnyddio pethau at wasanaeth crefyddol, na ddefnyddiasid erioed o'r blaen at unrhyw wasanaeth cyffredin. Felly y Philistiaid, wrth ddanfon yr arch adref, ar fènn newydd, yn cael ei thynu gan ddwy fuwch flith, y rhai nid aethai iau arnynt, 1 Sam. 6. 7. Yr oedd rhagwybodaeth fanol fel hyn o gynnifer o bethau bychain a damweiniol, yn ddiau yn synu y cenadon yn fawr, ac yn gadernid i ffydd y dysgyblion oll. Dygwyddodd llawer o bethau cyffelyb i hyn ychydig cyn i Iesu ddyoddef, y rhai a'u hystyried yn y golygiad hyn, ydynt neillduol o ardderchog.

3 Ac os dywed neb wrthych, Paham y gwnewch hyn? dywedwch, [e] * Am fod yn rhaid i'r Arglwydd wrtho; [f] ac yn ebrwydd efe a'i denfyn yma.

e Salm 24. 1. Act. 10. 36. 2 Cor. 8. 9. Heb. 2. 7—9. f pen. 14. 15. 1 Cron. 29. 12—18. Salm 110. 3. Act. 1. 24.

4 A hwy a aethant ymaith, [g] ac a gawsant yr ebol yn rhwym wrth y drws oddi allan, mewn croes-ffordd; ac a'i gollyngasant ef yn rhydd.

g Mat. 21. 6, 7. a 26. 19. Luc 19. 32—34. Ioan 2. 5. Heb. 11. 8.

5 A rhai o'r rhai oedd yn sefyll yno a ddywedasant wrthynt, Beth a wnewch chwi, yn gollwng yr ebol yn rhydd?

6 A hwy a ddywedasant wrthynt fel y gorchymynasai yr Iesu: † a hwy a adawsant iddynt fyned ymaith.

Sylwyd eisoes ar yr hanes uchod yn Matth. 21. *"I'r Arglwydd:" nis gwyddom am un mân lle mae y gair *(o Curios)* yn cael ei ddefnyddio fel hyn gyda'r bannod, ac heb nac enw na rhagenw, i lefaru am neb arall, ond yr Arglwydd Iesu; oddigerth pan ei defnyddier i lefaru am y Duw gogoneddus yn unig. † Cafodd y dysgyblion bob peth fel y dywedasai yr Iesu; ac eto, digon gwàn oedd eu ffydd hwynt ynddo ef hyd ar ol ei adgyfodiad o feirw. Tebygid fod tair gradd yn ffydd credinwyr y dyddiau hyny:—1. Credent fod Iesu yn brophwyd mawr, ac wedi derbyn gallu mawr gan Dduw. 2. Addefent ef fel Messiah, fel Mab Dafydd; ac, yn awr ac eilwaith, dywedent ambell i air, fel pe byddent yn credu ei fod ef yn Fab Duw. 3. Ac yn olaf, hwy a ddaethant i grediniaeth gadarn ei fod ef yn wir Dduw, yn gystal a dyn.

7 A hwy a ddygasant [h] yr ebol at yr Iesu, [i] ac a fwriasant eu dillad arno; * ac efe a eisteddodd arno.

h Zec. 9. 9. Mat. 21. 4, 5. Luc 19. 35. i 2 Bren. 9. 13. Mat. 21. 7, 8. Luc 19. 36. Ioan 12. 12—16.

8 A llawer a daenasant eu dillad ar hyd y ffordd: ac eraill a [k] dorrasant gangau o'r gwŷdd, ac a'*u* taenasant ar y ffordd.

k Lef. 23. 40.

9 A'r rhai oedd yn myned o'r blaen, a'r rhai oedd yn dyfod ar ol, a lefasant, gan ddywedyd, [l] Hosanna: † Bendigedig *fyddo* yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd.

l Salm 118. 25, 26. Mat. 21. 9. a 23. 39. Luc 19. 37, 38. Ioan 12. 13. a 19. 15.

* Yr oedd yr Arglwydd wedi gwahardd meirch yn Israel, Deut. 17. 16. a phan ddarfu i Solomon, a thywysogion eraill ar ei ol ef, amlhâu meirch, hwy a gawsant eu ceryddu gan y prophwydi a'u cospi gan Dduw, (gwel Isaiah 26. 7. a 31. 1. a Hos. 14. 3.) Yr oedd asynod y Dwyrain yn fwy, ac yn harddach crëaduriaid, nag asynod ein gwlad ni; a byddai y dynion enwocaf, ac ar yr achlysuron mwyaf nodedig, yn marchogaeth arnynt. Gwel Gen. 22. 3. Exod. 4. 10. Barn. 5. 10. a 10. 4. 2 Sam. 16. 2. a 17. 23. a 19. 26. Marchogai Dafydd ar fules, a gorchymynodd i Solomon wneyd yr un modd ar ddydd ei goroniad, 1 Bren. 1. 33, 34. Felly mae yr holl wawd a geisiwyd ei wneyd o'r hanes uchod am ein Iachawdwr, yn syrthio ar bennau y rhai a watwarant y pethau ni ddëallant. Mae yn ymddangos bron yn wyrth, bod ebol ieuanc felly yn cymmeryd ei farchogaeth yn hyddof gan yr Arglwydd Iesu. † Heblaw cyflawni y brophwydoliaeth yn Zech. 9. 9, mae yn bur debyg bod y Cyfryngwr yn bwriadu y tro hwn i ddangos mai efe oedd y Brenin a osododd Duw ar Sion ei fynydd sanctaidd; ac hefyd i ddangos nad oedd ei freniniaeth ef ddim o'r byd hwn: pe buasai, buasai croesaw a gweinyddiad mwy rhwysgfawr iddo. Ni osododd neb y tro hwn yn ei erbyn fel hòniad i freniniaeth.

10 * Bendigedig *yw* [m] y deyrnas sydd yn dyfod yn enw Arglwydd ein tad Dafydd: Hosanna [n] yn y goruchaf.

m Es. 9. 6, 7. Jer. 33. 15—17, 26. Ezec. 34. 23, 24. a 37. 24, 25. Hos. 3. 5. Amos 9. 11, 12. Luc 1. 31—33. n Salm 148. 1. Luc 2. 14. a 19. 38—40.

* Sefydler teyrnas y Messiah, a addawyd i'n tad Dafydd, a bydded yn llwyddiannus a blodeuog am hir amser.—Mwy cyffredin y dywedai yr Iuddewon "ein tad Abraham;" ond am fod y Messiah yn fab Dafydd, hwy a ddywedent "ein tad Dafydd" yma, gyda golwg ar y Messiah.

11 A'r [o] Iesu a aeth i mewn i Jerusalem, ac i'r deml: * ac wedi iddo edrych ar bob peth o'i amgylch, a hi weithian yn hwyr, [p] efe a aeth allan i Bethania gyd â'r deuddeg.

o Mal. 3. 1. Mat. 21. 10—12, 14—16. Luc 19. 41—45. p Mat. 21. 17. Luc 21. 37, 38. Ioan 8. 1, 2.

12 ¶ A [q] thrannoeth, wedi iddynt ddyfod allan o Bethania, [r] yr oedd arno chwant bwyd.

q Mat. 21. 18. r Mat. 4. 2. Luc 4. 2. Ioan 4. 6, 7, 31—33. a 19. 38. Heb. 2. 17.

13 Ac [s] wedi iddo ganfod o hirbell ffigysbren âg arno ddail, efe a aeth *i* [t] *edrych* a gaffai ddim arno. A phan ddaeth atto, ni chafodd efe ddim ond dail: † canys nid oedd amser ffigys.

s Mat. 21. 19. Luc 13. 6—9. t Ruth 2. 3. 1 Sam. 6. 9. Luc 10. 31. a 12. 6, 7.

14 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, [u] Na fwyttâed neb ffrwyth o honot byth mwy. A'i ddisgyblion ef a glywsant.

u adn. 20, 21. Es. 5. 5, 6. Mat. 3. 10. a 7. 19. a 12. 33—35. a 21. 19, 20, 33, 44. Ioan 15. 6. Heb. 6. 4—8. a 10. 26—31. 2 Pedr 2. 20—22. Dat. 22. 11.

15 ¶ A hwy a ddaethant i Jerusalem. [x] A'r Iesu a aeth i'r deml, ac a ddechreuodd fwrw allan y rhai a werthent ac a brynent y y deml; ac a ymchwelodd [y] drestlau yr arian wyr, a chadeiriau y gwerthwyr colommenod:

x Mat. 21. 12—16. Luc 19. 45, 46. Ioan 2. 13—17. y Deu. 14. 25, 26.

16 Ac ni adawai *efe* i neb ddwyn llest trwy y deml.

17 Ac efe a'u dysgodd, gan ddywedy wrthynt, [z] Onid yw yn ysgrifenedig, Y gelwi fy nhŷ i yn dŷ gweddi i'r holl genhedloedd ond chwi a'i gwnaethoch yn ‡ [a] ogof lladron.

z 1 Bren. 8. 41—43. Es. 56. 7. a 60. 7. Luc 19. 46 a Je 7. 11. Hos. 12. 7. Ioan 2. 16.

18 A'r ysgrifenyddion a'r arch-offeiriaid glywsant *hyn*, [b] ac a geisiasant pa fodd y di fethent ef: canys yr oeddynt [c] yn ei ofni ef am fod yr holl bobl yn [d] synnu oblegid e athrawiaeth ef.

b pen. 3. 6. a 12. 12. a 14. 1, 2. Es. 49. 7. Mat. 21. 15, 38, 39 45, 46. a 26. 3, 4. Luc 19. 47. Ioan 11. 53—57. c adn. 32. pen. 6. 20. 1 Bren. 18. 17, 18. a 21. 20. a 22. 8, 18. Mat. 21. 46. Act. 24 25. Dat. 11. 5—10. d pen. 1. 22. Mat. 7. 28. Luc 4. 22. Ioan 7. 46.

19 A [e] phan aeth hi yn hwyr, efe a aeth allan o'r ddinas.

e adn. 11. Luc 21. 37. Ioan 12. 36.

* Mae yn annodd meddwl na wnaeth Crist ddim ond "edrych ar bob peth o'i amgylch" y diwrnod cyntaf y aeth efe i Jerusalem; a dywed Matthew yn amlwg iddo fyned i mewn i deml Dduw, bwrw allan bawb a'r oedd yn gwerthu ac yn prynu, dymchwel byrddau y newidwyr arian, a chadeiriau y rhai oedd yn gwerthu colommenod, ac iachâu cloffion a deillion yno, ac oll y diwrnod cyntaf, cyn iddo felltithio y ffigysbren bore dranoeth. Ond yn yr adnodau uchod, dywed Marc mai tranoeth y gwnaeth efe y pethau a enwyd, ar ol melltithio y ffigysbren; yr hyn sydd yn peri bod y ddau efengylwr yn ymddangos yn anghyson â'u gilydd. I gysoni yr anghytundeb ymddangosiadol hyn, gellid sylwi yn un peth, nad yw yr efengylwyr ddim bob amser yn gofalu am osod i lawr drefn *amser* yn fanol iawn; ond yn adrodd y *pethau* a wnaed gan Iesu, heb fod yn ofalus iawn am y *pryd* y gwnaed hwynt. Tybir hefyd iddo wneyd yr un pethau ddwywaith, sef ar y ddau ddiwrnod; a bod Matthew yn crybwyll y diwrnod cyntaf, heb sôn am yr ail, a Marc yn crybwyll yr ail, heb sôn am y cyntaf. Mae yn bur debygol mai felly yr oedd: er bwrw y prynwyr a'r gwerthwyr allan y diwrnod cyntaf, yr oedd yn dra naturiol iddynt ddyfod yno dranoeth; ac mòr naturiol i Grist eu bwrw allan dranoeth: gwnaeth felly dair blynedd cyn y tro hwn, sef y pasg cyntaf o'i weinidogaeth, Ioan 2. 13—17. † "Canys nid oedd amser ffigys:" nid oedd amser *casglu* ffigys, yw meddwl y geiriau; fel "amser ffrwythau" yn Matth. 21. 34, sef amser casglu ffrwythau, yn sicr. Mae ffrwyth y ffigysbren yn ymddangos o flaen y dail; gwelodd Iesu ddail ar y ffigysbren hwn, am hyny yr oedd yn naturiol iddo ddisgwyl cael ffrwyth arno; gan fod y ffigysbren wedi deilio, heb ddim ffrwyth arno, ac amser casglu y ffrwythau heb ddyfod, nid oedd gwiw disgwyl ffrwyth arno mwyach y tymmor hwnw. Y ddau beth uchod sydd yn unig yn ddyrys yn yr adnodau hyn, gweled y darllenydd yn ychwaneg yn Matthew 21. ‡ Mae yn bur debyg fod llawer o ladron yn ymgasglu yn mhlith y dorf yn y lle a enwir, fel mewn cynnulliad mawr o ddynion yn ein dinasoedd nimnau; ac heblaw hyny, nid oedd llawer o'r gwerthwyr a'r arianwyr a grybwyllir yn adn. 15. fawr gwell na lladron, herwydd yr anghyfiawnder a arferent; ac heblaw hyny hefyd, yr oeddynt yn lladrata rhan o dŷ Dduw, i gynnal eu masnach eu hunain. Yn nghyntedd y Cenedloedd yr oedd y farchnadfa hon, a chynnelid hi yno o ddirmyg ar y Cenedloedd, er y deuent yno i addoli yr un Duw â'r Iuddewon eu hunain.

10 ¶ A'r bore, wrth fyned heibio, [f] hwy a
sant y ffigysbren wedi crino o'r gwraidd.
f Gwel ar adn. 14.—Job 18. 16, 17. a 20. 5—7. Es. 5. 4. a 40.
Mat. 13. 6. a 15. 13. a 21. 19, 20. Ioan 15. 6. Heb. 6. 8. Judas

11 * A Phedr, wedi adgofio, a ddywedodd
ao, Athraw, wele, y ffigysbren a [g] felldith-
, wedi crino.
g Diar. 3. 33. Zec. 5. 3, 4. Mat. 25. 41. 1 Cor. 16. 22.

22 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd
nynt, [h] † Bydded gennych ffydd yn Nuw.
h pen. 9. 23. 2 Cron. 20. 20. Salm 62. 8. Es. 7. 9. Ioan 14. 1.
1.

23 Canys yn wir yr wyf yn dywedyd i
ji, [i] Pwy bynnag a ddywedo wrth y mynydd
, Tyner di ymaith, a bwrier di i'r môr;
mid ammheuo yn ei galon, ond credu y daw
n y pethau a ddywedo efe; [k] beth bynnag
dywedo, a fydd iddo.
i Mat. 17. 20. a 21. 21, 22. Luc 17. 6. 1 Cor. 13. 2. j Mat.
. Rhuf. 4. 18—25. Heb. 11. 17—19. Iago 1. 5, 6. k Salm
Ioan 14. 13. a 15. 7.

wel ar Matth. 21. 20. * Prif amcan yr Arglwydd
yn melltithio y ffigysbren hwn, yn ol meddwl rhai
, dangos i'w ddysgyblion drwy gysgod, y farn a
mai ar y genedl Iuddewig am ei diffrwythder, yn
d â'r canlyniad o ddiffrwythder ysbrydol pawb.
tybia eraill mai ei amcan oedd, yn gyntaf, dangos
lu dwyfol ei hun, ac yn ail, dangos i'w bobl nerth
ffaith ffydd. † Am hyny mae yn gorchymyn i'w
gyblion fod ganddynt ffydd yn Nuw: hyny yw,
r cadarn yn ei allu a'i wirionedd ef, yn eu galluogi
nt i gyflawni y pethau a gymmerent arnynt eu
yd yn ei enw ef.

24 Am hynny meddaf i chwi, [l] Beth byn-
oll a geisioch wrth * weddio, † credwch y
pyniwch, ac efe fydd i chwi.
l Mat. 7. 7—11. a 18. 19. a 21. 22. Luc 11. 9—13. a 18. 1—8.
16. 23—27. Iago 5. 15—18. 1 Ioan 3. 22. a 5. 14, 15.

25 A phan [m] safoch i weddio, [n] ‡ maddeu-
, o bydd gennych ddim yn erbyn neb;
l y maddeuo eich Tad yr hwn sydd yn y
wedd i chwithau eich camweddau.
m Zec. 3. 1. Luc 18. 11. Dat. 11. 4. n Mat. 6. 12, 14, 15.
23—35. Luc 6. 37. Eph. 4. 32. Col. 3. 13. Iago 2. 13.

26 Ond os chwi ni faddeuwch, eich Tad yr
sydd yn y nefoedd ni faddeu chwaith eich
weddau chwithau.
Ilwyd ar athrawiaeth yr adnodau hyn o'r blaen:
Matth. 6. 14. a 7. 7. a 21. 22. * Y ddyledswydd a
ymynir yma yw gweddio: † yn ail, credu y derbyn-
yr hyn y gweddiom am dano: ‡ yn drydydd, gweddio
n ysbryd maddeugar: || yn olaf, bod genym obaith
hyderus am faddeuant a thrugaredd ein hunain. Y
au uchod ydynt yr addysgiadau sydd *i ni* yn y geiriau;
postolion yr oeddynt yn wahanol, fel yn cyfeirio at
northwyon gwyrthiol oedd raid iddynt hwy weddio
danynt. Arferai yr Iuddewon weddio yn eu sefyll
ml: gwel Zech. 3. 1; Luc 18. 11, 13; Dat. 11. 4.

27 ¶ A hwy a ddaethant drachefn i Jeru-
m: ac [o] fel yr oedd efe yn rhodio yn y
l, yr [p] * arch-offeiriaid, a'r ysgrifenyddion,
† henuriaid, a ddaethant atto,
o Mal. 3. 1. Mat. 21. 23—27. Luc 20. 1—8. Ioan 10. 23. a 18.
p pen. 14. 1. Salm 2. 1—5. Act. 4. 5—8, 27, 28.

28 ‡ Ac a ddywedasant wrtho, [q] Trwy ba
urdod yr wyt ti yn gwneuthur y pethau
? a phwy a roddes i ti yr awdurdod hon i
euthur y pethau hyn?
q Ex. 2. 14. Num. 16. 3, 13. Act. 7. 27, 28, 38, 39, 51.
Tybir fod "arch-offeiriaid" yn aml yn meddwl, y rhai mwyaf enwog o deulu Aaron, a blaenoriaid y gwahanol ddosparthiadau o'r offeiriaid, &c. † Yr henuriaid mae yn debyg oedd aelodau y Cyngor, neu y Senedd fawr yn Jerusalem: iddynt hwy yn benaf y perthynai sylwi ar ymddygiad Crist yn puro y deml. ‡ Daeth torf fawr o'r rhai hyn mae'n debyg ato ef, gan feddwl ei frawychu ef, a dàl arno os caent ryw gyfle i hyny yn ei ymadroddion ef.

29 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd
wrthynt, [r] A minnau a ofynaf i chwithau un
gair; ac attebwch fi, a mi a ddywedaf i chwi
trwy ba awdurdod yr wyf yn gwneuthur y
pethau hyn.
r Es. 52. 13. Mat. 21. 24. Luc 20. 3—8.

30 [s] Bedydd Ioan, ai o'r nef yr oedd, ai o
ddynion? attebwch fi.
s pen. 1. 1—11. a 9. 13. Mat. 3. Luc 3. 1—20. Ioan 1. 6—8, 15—36. a 3. 25—36.

31 Ac ymresymmu a wnaethant wrthynt eu
hunain, gan ddywedyd, Os dywedwn, O'r nef;
efe a ddywed, [t] Paham gan hyny na chredech
iddo?
t Mat. 11. 7—14. a 21. 25—27, 31, 32. Ioan 1. 15, 29, 34, 36. a 3. 29—36.

32 Eithr os dywedwn, o ddynion; [u] yr oedd
arnynt ofn y bobl: [x] canys pawb oll a gyfrifent
Ioan mai prophwyd yn ddiau ydoedd.
u pen. 6. 20. a 12. 12. Mat. 14. 5. a 21. 46. Luc 20. 19. a 22. 2. Act. 5. 26. x Mat. 3. 5. a 21. 31, 32. Luc 7. 26—29. a 20. 6—8. Ioan 10. 41.

33 A hwy a attebasant ac a ddywedasant
wrth yr Iesu, [y] Ni wyddom ni. A'r Iesu a
attebodd ac a ddywedodd wrthynt hwythau,
[z] Ac ni ddywedaf finnau i chwithau trwy ba awdurdod yr wyf yn gwneuthur y pethau hyn.
y Es. 6. 9, 10. a 29. 9—14. a 42. 19, 20. a 56. 10. Jer. 8. 7—9. Hos. 4. 6. Mal. 2. 7, 8. Mat. 15. 14. a 23. 16—26. Ioan 3. 10. Rhuf. 1. 18—22, 28. 2 Cor. 3. 15. a 4. 3, 4. 2 Thes. 2. 10—12. z Job 5. 13. Diar. 26. 4, 5. Mat. 16. 4. a 21. 27. Luc 20. 7, 8. a 22. 66—69. Ioan 9. 27.

Sylwyd ar hyn yn Matth. 21. 24—27. Cyfrifai pawb Ioan yn brophwyd; am hyn pe gwadasai y rhai hyn ef, yr oedd arnynt ofn y bobl: ped addefasent ei fedydd, buasent yn eu condemnio eu hunain, am na chredasent iddo. Rhwng y ddau beth, gwell ganddynt addef nas gwyddent, ac felly rhoi cyfle i Grist beidio eu hateb.

PEN. XII.

Dammeg y winllan.

AC [a] efe a ddechreuodd ddywedyd wrthynt
ar ddammegion. [b] * Gwr a [c] blannodd
winllan, [d] ac a ddododd gae o'i hamgylch, ac a
gloddiodd *le i'r* gwin-gafn, ac a adeiladodd
dŵr, [e] ac a'i gosododd hi allan i lafurwyr, [f] ac a
aeth oddi cartref.
a pen. 4. 2, 11—13, 33, 34. Ezec. 20. 49. Mat. 13. 10—15, 34, 35. a 21. 28—33. a 22. 1—14. Luc 8. 10. b Mat. 21. 33—40. Luc 20. 9—15. c Salm 80. 8—16. Es. 5. 1—4. Jer. 2. 21. Luc 13. 6—9. Ioan 15. 1—8. Rhuf. 11. 17—24. d Neh. 9. 13, 14. Salm 78. 68, 69. a 147. 19, 20. Ezec. 20. 11, 12, 18—20. Act. 7. 38, 46, 47. Rhuf. 3. 1, 2. a 9. 4, 5. e Can. 8. 11, 12. Es. 7. 23. f pen. 13. 34. Mat. 25. 14. Luc 15. 13. a 19. 12.

2 Ac efe a anfonodd [g] was [h] mewn amser at
y llafurwyr, i dderbyn gan y llafurwyr o ffrwyth
y winllan.
g Salm 1. 3. Mat. 21. 34. Luc 20. 10. h Barn. 6. 8—10. 2 Bren. 17. 13. 2 Cron. 36. 15. Ezra 9. 11. Jer. 25. 4, 5. a 35. 15. a 44. 4. Zec. 1. 3—6. a 7. 7. Heb. 1. 1.

3 A [i] hwy a'*i* daliasant *ef*, ac a'i baeddasant,
[k] ac a'*i* gyrrasant ymaith yn wag-*law*.
i 1 Bren. 18. 4, 13. a 19. 10, 14. a 22. 27. 2 Cron. 16. 10. a 24 19—21. a 36. 16. Neh. 9. 26. Jer. 2. 30. a 20. 2. a 26. 20—24. a 29.

26. a 37. 15, 16. a 38. 4—6. Mat. 23. 34—37. Luc 11. 47—51. a 13. 33, 34. Act. 7. 52, 59. 1 Thes. 2. 15. Heb. 11. 36, 37. k Jer. 44. 4, 5, 16. Dan. 9. 10, 11. Zec. 7. 9—13. Luc 20. 10—12.

4 A thrachefn yr anfonodd efe attynt was arall: a hwnnw y taflasant gerrig atto, ac yr archollasant *ei* ben, ac a'*i* gyrrasant ymaith yn ammharchus.

5 A thrachefn yr anfonodd efe un arall; [l] a hwnnw a laddasant: a llawer eraill; gan faeddu rhai, a lladd y lleill.

l pen. 9. 13. Mat. 5. 12. a 21. 35, 36. a 22. 6. Luc 6. 22, 23, 26.

6 Am hynny etto, a chanddo [m] un mab, [n] ei anwylyd, efe a anfonodd hwnnw hefyd attynt yn ddiweddaf; gan ddywedyd, [o] Hwy a barchant fy mab i.

m Salm 2. 7. Mat. 1 23. a 11. 27. a 26. 63. Ioan 1. 14, 18. 34, 49. a 3. 16—18. 1 Ioan 4. 9. a 5. 11, 12. n pen. 1. 11. a 9. 7. Gen. 22. 2, 12. a 37. 3, 11—13. a 44. 20. Es. 42. 1. Mat. 3. 17. a 17. 5. Luc 3. 22. a 9. 35. Ioan 3. 35. o Salm 2. 12. Ioan 5. 23. Heb. 1. 6. Dat. 5. 9—13.

7 Ond y llafurwyr hynny a ddywedasant yn eu plith eu hunain, [p] Hwn yw yr etifedd; deuwch, lladdwn ef, a'r etifeddiaeth fydd eiddom ni.

p adn. 12. Gen. 3. 15. a 37. 20. Salm 2. 2, 3. a 22. 12—15. Es. 49. 7. a 53. 7, 8. Mat. 2. 3—13, 16. Ioan 11. 47—50. Act. 2. 23. a 5. 28. a 7. 52. a 13. 27, 28.

8 A hwy a'i daliasant ef, ac a'*i* lladdasant, ac [q] a'*i* bwriasant allan o'*r* winllan.

q Mat. 21. 33, 39. Luc 20. 15. Heb. 13. 11—13.

9 Beth [r] gan hynny a wna arglwydd y winllan? [s] efe a ddaw, ac a ddifetha y llafurwyr, [t] ac a rydd y winllan i eraill.

r Mat. 21. 40, 41. s Lef. 26. 15—18, 23, 24, 27, 28. Deut. 4. 26, 27. a 28. 15, &c. 61. Jos. 23. 15. Es. 5. 5—7. Dan. 9. 26, 27. Zec. 13. 7—9. Mat. 3. 9—12. a 12. 45. a 22. 7. a 23. 34—38. Luc 19. 27, 42—44. a 20. 15, 16. t Es. 29. 17. a 32. 15, 16. a 65. 15. Mal. 1. 11. Mat. 8. 11—13. a 21. 43. Act. 13. 46—48. a 28. 23—28. Rhuf. 9. 30—33. a 10. 20, 21. a 11. 1, &c.

10 [u] Oni ddarllenasoch yr ysgrythyr hon? [x] Y maen a wrthododd yr adeiladwyr, *hwn* a wnaethpwyd yn ben y gongl.

u adn. 26. pen. 2. 25. a 13. 14. Mat. 12. 3. a 19. 4. a 21. 16. a 22. 31. Luc 6. 3. x Salm 118. 22, 23. Es. 28. 16. Mat 21. 42. Luc 20. 17, 18. Act. 4. 11, 12. Rhuf. 9. 33. Eph. 2. 20—22. 1 Pedr 2. 7, 8.

11 Hyn [y] a wnaethpwyd gan yr Arglwydd; a rhyfedd yw yn ein golwg ni.

y Num. 23. 23. Hab. 1. 5. Act. 2. 12, 32—36. a 3. 12—16. a 13. 40, 41. Eph. 3. 8—11. Col. 1. 27. 1 Tim. 3. 16.

12 A hwy a geisiasant ei ddala ef; [z] ac yr oedd arnynt ofn y dyrfa: † canys hwy [a] a wyddent mai yn eu herbyn hwy y dywedasai efe y ddammeg: a hwy a'i gadawsant ef, ac a aethant ymaith.

z pen. 11. 18, 32. Mat. 21. 26, 45, 46. Luc 20. 6, 19. Ioan 7. 25, 30, 44. a 2 Sam. 12. 7, &c. 1 Bren. 20. 38—41. a 21. 17—27.

Adroddir y ddammeg hon gan Matthew 21. 33—46; a chan Luc 29. 9—18. * Yr eglwys Iuddewig oedd y winllan yma, fel yn Esaiah 5. 1—7. yr hon a gauodd Duw o amgylch â'i ragluniaeth, ac a'i cynnysgaeddodd â phob moddion angenrheidiol er dwyn ffrwyth. Y llafurwyr oedd blaenoriaid yr eglwys, y gweision a ddanfonwyd i dderbyn y ffrwythau oedd y gwir brophwydi, 2 Cron. 36. 16, a'r mab a ddanfonwyd yn olaf oedd Crist, y Messiah. Mae y rhan olaf o'r ddammeg yn brophwydol, yn rhag-fynegi yr hyn a wnaid i'r Mab, ac hefyd dinystr yr eglwys a'r genedl Iuddewig, mynediad yr efengyl i blith y Cenedloedd, y rhai a'i derbynient hi, a'r Cyfryngwr drwyddi, yn fwy rhwydd na'r Iuddewon; ac fel hyny y byddai efe yn Ben i eglwys lawer llïosocach a mwy gogoneddus yn ol prophwydoliaeth a addefid gan yr Iuddewon eu hunain, Salm 118. 22. † Gwyddai yr arch-offeiriaid a'r henuriaid mai yn eu herbyn hwy y llefarodd Iesu y ddammeg hon; ac ni oedd ryfedd, oblegid yn ol yr adroddiad yn Matth. 2 43, dywedodd Iesu hyny wrthynt yn hollawl amlw Gwel ar Math. 21. 33—46.

13 ¶ A [b] hwy a anfonasant atto rai o' Phariseaid, ac o'r [c] Herodianiaid, i'w * rwyd ef yn ei ymadrodd.

b Salm 38. 12. a 56. 5, 6. a 140. 5. Es. 29. 21. Jer. 18. 18. Ma 22. 15, 16. Luc 11. 54. a 20. 20. c pen. 3. 6. a 8. 15. Mat. 16.

14 Hwythau, pan ddaethant, a ddywedas ant wrtho, [d] Athraw, [e] ni a wyddom dy fod di y eirwir, ac [f] nad oes arnat ofal rhag neb: [g] cany nid wyt ti yn edrych ar wyneb dynion, ond y wyt yn dysgu ffordd Duw mewn gwirionedd [h] † Ai cyfreithlawn rhoi teyrnged i Cesar, ai ni *yw?* a roddwn, ai ni roddwn *hi?*

d pen. 14. 45. Salm 12. 2—4. a 55. 21. a 120. 2. Diar. 26 23—26. Jer. 42. 2, 3, 20. e Ioan 7. 18. 2 Cor. 2. 17. a 4. 2. a 5 11. 1 Thes. 2. 4. f Deut. 33. 9, 10. 2 Cron. 18. 13. Es. 50. 7—9 Jer. 15. 19—21. Ezec. 2. 6, 7. Mica 3. 8. 2 Cor. 5. 16. Gal. 1. 10 a 2. 6, 11—14. g Ex. 23. 2—6. Deut. 16 19. 2 Cron. 19. 7 h Ezra 4. 12, 13. Neh. 9. 37. Mat. 17. 25—27. a 22. 17. Luc 20 22. a 23. 2. Rhuf. 13. 6, 7.

15 Ond efe, [i] gan wybod eu rhagrith hwynt a ddywedodd wrthynt, [k] Paham y temtiwch fi dygwch i mi geiniog, fel y gwelwyf *hi.*

i Mat. 22. 18. Luc 20. 23. Ioan 2. 24, 25. a 21. 17, Heb. 4. 13 Dat. 2. 23. k pen. 10. 2. Ex. 17. 2. Act. 5. 9. 1 Cor. 10. 9.

16 A hwy a'*i* dygasant. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Eiddo pwy *yw* y [l] ddelw hon a'r argraff? A hwy a ddywedasant wrtho, Eiddo Cesar.

l Mat. 22. 19—22. Luc 20. 24—26. 2 Tim. 2. 19. Dat. 3. 12.

17 ‡ A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, [m] Rhoddwch yr eiddo Cesar i Cesar, [n] a'r eiddo Duw i Dduw. [o] A rhyfeddu a wnaethant o'i blegid.

m Diar. 24. 21. Rhuf. 13. 7. 1 Pedr 2. 17. n adn. 30. Diar. 23. 26. Act. 4. 19, 20. Rhuf. 6. 13. a 12. 1. 1 Cor. 6. 19, 20. 2 Cor. 5. 14, 15. o Job 5. 12, 13. Mat. 22. 22, 33, 46. 1 Cor. 14. 24, 25.

Cyfeiriwn y darllenydd eto at y sylwadau a wnair ar gynnwysiad yr adnodau uchod yn Matth. 22. 15—22. Dywed *Josephus* i Judas y Galilead annog y bobl i wrthryfel, gan ddywedyd wrthynt mai Duw oedd eu hunig Dywysog hwy, ac na ddylent addef yr un dyn felly; bod talu teyrnged pan ei gofynid ganddynt hwy, yn broffes amlwg o gaethiwed a gwarogaeth; ac ei bod yn ddyledswydd arnynt hwy i amddiffyn eu rhyddid. Trwy hyn efe a gododd derfysg a gwrthryfel mawr yn mhlith yr Iuddewon, ac a fu yn achos o ddrygau aneirif i'r genedl. Efallai bod y Phariseaid a'r Herodianiaid yn drwg-dybied fod yr Iesu o'r blaid hòno, ac yn fwy felly am y gelwid ef yn Galilead. * Rhwydo fel y bydd helwyr yn ceisio dàl eu helwriaeth yn eu maglau. † Pe dywedasai—Cyfreithlawn, dywedasent hwythau ei fod yn anffyddlawn i'w genedl; pe dywedasai—Anghyfreithlawn, buasent yn ei gyhuddo o anffyddlondeb i Cesar: ped atebasai y naill ffordd neu y llall, buasent yn beio arno am ryfygu cymmeryd arno ei hun benderfynu y pwnc. ‡ Atebodd ein Harglwydd mewn doethineb, ac ar yr un pryd mewn mwyneidd-dra doethineb, a rhoddodd ateb addysgiadol iawn i ofyniad cecrus.

18 ¶ [p] Daeth y Saduceaid hefyd atto, y rhai [q] a ddywedant nad oes adgyfodiad; a gofynasant iddo, gan ddywedyd,

p Mat. 22. 23, &c. Luc 20. 27, &c. q Act. 4. 1, 2. a 23. 6—9. 1 Cor. 15. 13—18. 2 Tim. 2. 18.

* Cafodd y Saduceaid eu henw, mae'n debygol, oddi wrth un Sadoc, dysgybl i *Antigonus Sochæus.* Dywedir mai yr achos o'u cyfeiliornad oedd, bod eu hathraw yn dysgu iddynt, na ddylent wasanaethu Duw fel gweision am gyflog. Oddi ar hyny adeiladasant hwythau eu hathrawiaeth, nad oes dim adgyfodiad, na dim gwobrau

hospedigaethau mewn byd i ddyfod. Gwadent adfiddiad y corph, anfarwoldeb yr enaid, bodoliaeth ilion ac ysbrydion, Act. 23. 8; priodolent bob peth i ylys rydd, gan wadu tynged ac arfaeth; gwrthodent iddodiadau, ac ni addefent ddim yn Ysgrythyr ond pùm Moses. Math o dduwinyddion rhesymol oeddynt, hredent ddim ond a allent ei amgyffred â'u rheswm, ag oedd yn amlwg i'w synwyrau; ac yr oedd eu yn addas ragorol i chwantau dynion, y rhai nid t yn chwennych cael eu haflonyddu â meddyliau am rall.

29 Athraw, Moses a ysgrifenodd i ni, [r] O id marw brawd neb, a gadu ei wraig, ac heb plant, am gymmeryd o'i frawd ei wraig ef, modi had i'w frawd.

r Gen. 38. 8. Deut. 25. 5—10. Ruth. 4. 5.

30 [s] Yr oedd gan hynny saith o frodyr: a'r taf a gymmerth wraig; a phan fu farw, ni wodd had.

s Mat. 22. 25—28. Luc 20. 29—33.

31 A'r ail a'i cymmerth hi, ac a fu farw, ac adawodd yntau had: a'r trydydd yr un dd.

32 A hwy a'i cymmerasant hi ill saith, ac adawsant had. Yn ddiweddaf o'r cwbl bu w y wraig hefyd.

33 * Yn yr adgyfodiad gan hynny, pan yfodant, gwraig i ba un o honynt fydd hi? ys y saith a'i cawsant hi yn wraig.

34 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd hynt, [t] † Onid am hyn yr ydych yn cyfeilii, [u] am nad ydych yn gwybod yr ysgryrau, [x] na gallu Duw?

t Es. 8. 20. Jer. 8. 7—9. Hos. 6. 6. a 8. 12. Mat. 22. 29. Ioan a 20. 9. Act. 17. 11. Rhuf. 15. 4. 2 Tim. 3. 15—17. u Job 35—27. Es. 25. 8. a 26. 19. Ezec. 37. 1—14. Dan. 12. 2. Hos. a 13. 14. x pen. 10. 27. Gen. 18. 14. Jer. 32. 17. Luc 1. 37. 1. 19, 20. Phil. 3. 21.

35 Canys pan adgyfodant o feirw, ni wreicint, ac ni ŵrant; [y] eithr y maent fel yr elion sydd yn y nefoedd.

y Mat. 22. 30. Luc 20. 35, 36. 1 Cor. 15. 42—54. Heb. 12. 22, Ioan 3. 2.

36 Ond am y meirw, yr adgyfodir hwynt; oni ddarllenasoch chwi [a] yn llyfr Moses, y ld y llefarodd Duw wrtho yn y berth, gan wedyd, [b] Myfi *yw* Duw Abraham, a Duw ac, a Duw Jacob?

z adn. 10. Mat. 22. 31, 32. a Ex. 3. 2—6, 16. Luc 20. 37. 37. 30—32. b Gen. 17. 7, 8. a 26. 24. a 28. 13. a 31. 42. a a 33. 20. Es. 41. 8—10.

37 [c] || Nid yw efe Dduw y meirw, ond Duw dhai byw: [d] § am hynny yr ydych chwi yn eiliorni yn fawr.

c Rhuf. 4. 17. a 14. 9. Heb. 11. 13—16. d adn. 24. Diar. 7. Heb. 3. 10.

YY wir ddadl oedd, pa un a gyfodai cyrph y meirw ai io? nid pa un a godent gyda'r un ansoddau, serchu a gallnoedd, ag oedd ganddynt yn y byd hwn. ir hwynt yn gyrph anianol, cyfodant yn gyrph ydol, heb ddim ynddynt yn eu tueddu i weithredoedd edd yn angenrheidiol yn unig er cynnaliaeth bywyd riol; megys diwallu newyn a syched, tuedd at briodr parâu poblogaeth y byd: pa raid hyny pan fyddo oll genedlaethau wedi cael eu sefydlu mewn byd ywyddol? † Dangosodd y gwŷr dysgedig hyn eu ain yn benbyliaid, yn hollawl annwybodus am y y daethent i ddadlau yn ei gylch. Dylasent yn af brofi y bydd angen am wragedd, neu y fath beth ariodas, yn y byd i ddyfod. ‡ Ar yr un pryd, mae rglwydd Iesu yn profi yr adgyfodiad o Lyfrau Moses, yr unig lyfrau a addefent hwy yn air Duw. || Heb adgyfodiad, ni byddai Abraham yn Abraham, Isaac yn Isaac, na Jacob yn Jacob. § Y geiriau olaf hyn yw y gwahaniaeth mwyaf rhwng Marc a Matthew; nid ydynt yn Matthew: maent yn dystiolaeth gref yn erbyn y Saduceaid a'u hathrawiaeth gyfeiliornus. Lle mae Marc yn ysgrifenu debycaf i Matthew, mae yn amlwg, wrth gymharu y ddau â'u gilydd, mai nid ail-adrodd ar ol Matthew a wnaeth efe. Yn wir, mae gwahaniaeth y *geirweddiad* yn yr Efengylwyr, yn amlycach o lawer yn yr iaith wreiddiol, nac yn ein cyfieithiad ni, nac ychwaith yn yr un cyfieithiad arall, efallai. Gwel y nodau ar Matth. 22. 24—33.

38 ¶ * Ac [e] un o'r ysgrifenyddion a ddaeth, wedi eu clywed hwynt yn ymresymmu, a gwybod atteb o honno iddynt yn gymhwys, ac a ofynodd iddo, [f] † Pa un yw y gorchymyn cyntaf o'r cwbl?

e Mat. 22. 34—40. f Mat. 5. 19. a 19. 18. a 23. 23. Luc 11. 42.

39 ‡ A'r Iesu a attebodd iddo, Y cyntaf o'r holl orchymynion *yw*, [g] Clyw, Israel; Yr Arglwydd ein Duw, un Arglwydd yw:

g adn. 32, 33. Deut. 6. 4, 5. a 10. 12. a 30. 6. Diar. 23. 26. Mat. 10. 37. Luc 10. 27. 1 Tim. 1. 5.

40 A châr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl, ac â'th holl nerth. || Hwn yw y gorchymyn cyntaf.

41 § A'r ail *sydd* gyffelyb iddo; [h] Câr dy gymmydog fel ti dy hun. * Nid oes orchymyn arall mwy na'r rhai hyn.

h Lef. 19. 13. Mat. 7. 12. a 19. 18, 19. a 22. 39. Luc 10. 27, 36, 37. Rhuf. 13. 8, 9. 1 Cor. 13. 4—8. Gal. 5. 14. Iago 2. 8—13. 1 Ioan 3. 17—19. a 4. 7, 8, 21.

42 † A dywedodd yr ysgrifenydd wrtho, Da, Athraw, mewn gwirionedd y dywedaist, [i] mai un Duw sydd, ac nad oes arall ond efe:

i Deut. 4. 39. a 5. 7. a 6. 4. Es. 44. 8. a 45. 6, 14, 18, 21, 22. a 46. 9. Jer. 10. 10—12.

43 A'i garu ef â'r holl galon, ac â'r holl ddeall, ac â'r holl enaid, ac â'r holl nerth, a charu *ei* gymmydog megis ei hun, [k] sydd fwy na'r holl boeth-offrymau a'r aberthau.

k 1 Sam. 15. 22. Salm 50. 8—15, 23. Diar. 21. 3. Es. 1. 11—17. a 58. 5—7. Jer. 7. 21—23. Hos. 6. 6. Amos 5. 21—24. Mica 6. 6—8. Mat. 9. 13. a 12. 7. 1 Cor. 13. 1—3.

44 ‡ A'r Iesu, pan welodd iddo atteb yn synhwyrol, a ddywedodd wrtho, [l] || Nid wyt ti bell oddi wrth deyrnas Dduw. [m] Ac ni feiddiodd neb mwy ymofyn âg ef.

l Mat. 12. 20. Rhuf. 3. 20. a 7. 9. Gal. 2. 19, 20. m Job 32. 15, 16. Mat. 22. 46. Luc 20. 40. Rhuf. 3. 19. Col. 4. 6. Tit. 1. 9—11.

* Dywed Matthew 22. 35, bod yr "ysgrifenydd," y "cyfreithiwr," neu y dysgawdwr hwn o'r gyfraith, yn un o'r rhai a ymgynnullasant yn nghyd i gyd-ymgyngori pa fodd i fyned yn mlaen yn erbyn Iesu, ac iddo ofyn yr holiad hwn iddo "gan ei demtio ef;" er gwybod o hóno iddo ateb y Saduceaid yn gymmwys. Nid oedd efe ddim heb ragfarn yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid eraill; ond mae yn amlwg fod ganddo wybodaeth helaethach a syniadau cywirach am grefydd, na'r lleill o honynt. † Yr oedd gan yr Iuddewon lawer o ddadleuon ofer yn nghylch y pwnc hwn, addas i'w traddodiadau hwy, a'u cyflawniadau coel-grefyddol oddi ar y traddodiadau hyny. ‡ Nid yw ein Harglwydd yn sylwi dim ar y dadleuon hyny, ond yn ateb y gofyniad yn uniongyrchol; gan gyfeirio yr Ysgrifenydd at y crynodeb o orchymynion y llech gyntaf, a roddodd Moses yn Deut. 6. 4, 5. || "Hwn," ebai efe, "yw y gorchymyn cyntaf;" am ei fod o'r pwys a'r rhwymedigaeth mwyaf sydd

bosibl, ac yn cynnwys ynddo yr holl orchymynion eraill. § Yna dywedodd, mai y rhëol o garu ein cymmydog fel ni ein hunain oedd yr ail, a'r nesaf o ran ei bwys: ac yn gyffelyb o ran ei roddiad, ei natur, a'i rwymedigaethau i'r llall. * Yna tystiolaethodd, nad oedd orchymyn arall mwy na'r rhai hyn; yr hyn oedd dystiolaeth yn erbyn y pwys gormodol a roddai yr Iuddewon ar eu traddodiadau, gan eu dyrchafu uwchlaw gair Duw. † Ac addefai yr ysgrifenydd hwn ei hun, eu bod yn "fwy na'r holl boeth-offrymau a'r aberthau;" yr hyn oedd addefiad cwbl groes i dyb gyfeiliornus y dysgawdwyr Iuddewig, bod aberthau a phoeth-offrymau yn iawn am dòri, neu beidio a chadw, y gorchymynion. Nid oedd y rhai hyn oll ond aneffeithiol a diles, oddigerth fel y byddent yn brawf o edifeirwch, ffydd yn yr Iachawdwr addawedig, ac fel y byddent yn arwain i ufuddod moesol ‡ Pan glywodd Iesu y dyn yn ateb mòr gall, ac mòr addas, ac fel dyn ag oedd yn dëall natur gwir grefydd, ac ysbrydolrwydd a rhagoroldeb y ddeddf foesol; efe a dystiolaethodd, "nad oedd efe bell oddi wrth deyrnas Dduw." Efallai i'r dyn hwn ddyfod yn ddysgybl wedi hyny i'r Arglwydd Iesu. Nid yw dyfyniad y y gorchymyn cyntaf yma, yn hollawl o'r Hebraeg, nac o gyfeithiad y Deg a thriugain, ond mae yn amlwg yn cynnwys meddwl y geiriau. Mae y geiriau "â'th holl feddwl," (adn. 30.) neu "â'r holl ddëall," (adn. 33.) yn chwanegiad; ac yn dangos mai holl alluoedd yr enaid rhesymol a feddylir. Gwel ar Matth. 22. 34—40. ‖ Nid oedd bell o gymmeradwyo a derbyn athrawiaeth Crist, pryd yr oedd yr holl Ysgrifenyddion eraill yn ei gwrthod hi gyda'r rhagfarn eithaf: ni ddywedir gan Matthew na Marc, beth a ddaeth o'r dyn hwn ar ol hyn, a ganlynodd ef Grist neu beidio.

35 ¶ A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd, [n] wrth ddysgu yn y deml, [o] * Pa fodd y dywed yr ysgrifenyddion fod Crist yn fab Dafydd?

n pen. 11. 27. Luc 19. 47. a 20. 1. a 21. 37. Ioan 18. 20.
o Mat. 22. 42. Luc 20. 41—44. Ioan 7. 42.

36 Canys Dafydd ei hun a ddywedodd [p] † trwy yr Ysbryd Glân, [q] Yr Arglwydd a ddywedodd wrth ‡ fy Arglwydd, Eistedd ar fy neheulaw, hyd oni osodwyf dy elynion yn droed-faingc i'th draed.

p 2 Sam. 23. 2. Neh. 9. 30. Mat. 22. 43—45. Act. 1. 16. a 28. 25. 2 Tim. 3. 16. Heb. 3. 7, 8. a 4. 7. 1 Pedr 1. 11. 2 Pedr 1. 21.
q Salm 110. 1. Act. 2. 34—36. 1 Cor. 15. 25. Heb. 1. 13. a 10. 12, 13.

37 Y mae Dafydd ei hun, gan hynny, yn ei alw ef yn Arglwydd; [r] ac o ba le y mae efe yn fab iddo? [s] A llawer o bobl a'i gwrandawent ef yn ewyllysgar.

r Mat. 1. 23. Rhuf. 1. 3, 4. a 9. 5. 1 Tim. 3. 16. Dat. 22. 16.
s Mat. 11. 5, 25. a 21. 46. Luc 19. 48. a 21. 38. Ioan 7. 46—49. Iago 2. 5.

* Gofynodd Iesu hyn i'r Phariseaid (Matth. 22. 41.) y rhai oedd yn mhell o addef fod Crist yn Dduw-ddyn, na disgwyl yn wir y byddai y Messiah felly. Pe buasent yn addef Crist, ac undeb personol y ddwy natur ynddo ef, buasai yr ateb yn hawdd. † "Yn yr Ysbryd" a ddywed Matthew: mae geiriau Marc yn egluro Matthew. Mae y geiriau hyn yn deilwng o sylw y rhai a daerant nad ysgrifenodd Dafydd y Salmau mewn ysbryd prophwydoliaeth. ‡ Mae y geiriau hyn yn dangos hanfodiad Dafydd mewn byd arall, ac hefyd awdurdod y Messiah yn y byd hwnw, i'r hwn y symmudwyd Dafydd drwy angau. Heb hyny, pa gymmaint bynag o Arglwydd a allasai fod, nis gallai fod yn Arglwydd Dafydd; mwy nac y gallasai Julius Cesar fod yn arglwydd Romulus, o herwydd iddo deyrnasu yn Rhufain saith gant o flynyddoedd wedi marw Romulus. Rhaid bod y ddau mewn *bod*, ac un o'r ddau mewn awdurdod; cyn y gall y naill fod yn Arglwydd y llall. Mae y geiriau yn profi hefyd, fod gan y Messiah awdurdod ar Dafydd, pan oedd yn ysgrifenu y ddegfed Salm wedi y cant. Gwel Matth. 22. 41—46.

38 ¶ Ac efe a [t] ddywedodd wrthynt yn athrawiaeth, [u] Ymogelwch rhag yr ysgrifenyddion, [x] * y rhai a chwennychant rodio mewn gwisgoedd llaesion, a chael cyfarch yn marchnadoedd,

t pen. 4. 2. u Mat. 10. 17. a 23. 1—7. Luc 20. 45—
x Mat. 6. 5. Luc 11. 43. a 14. 7—11. 3 Ioan 9.

39 A'r [y] prif-gadeiriau yn y synagogau, a prif-eisteddleoedd mewn swpperau;

y Iago 2. 2, 3.

40 Y rhai [z] sydd yn llwyr-fwytta tai gwraig edd gweddwon, ac mewn rhith yn [a] hir-weddio y rhai hyn a dderbyniant farnedigaeth fwy.

z Ezec. 22. 25. Mica 2. 2. a 3. 1—4. Mat. 23. 14. Luc 20. 4
a Mat. 6. 7. a 11. 22—24. a 23. 33. Luc 12. 47, 48.

Po mwyaf gwag a diwerth a fyddo dynion, mwy i gyd y maent yn ceisio eu derchafu eu hunain drwy e gwisgiadau; un ai trwy sobrwydd eu gwisgiad, neu e gwerthfawrogrwydd a'u gorwychder. O'r tu arall m dynion o wir deilyngdod yn dïystyru pethau felly, f darlun hardd, wedi ei dynu yn dda, nid oes raid idd wrth lythyrenau a geiriau i ddywedyd pwy neu pa bet ydyw. Gwel ar Matth. 23. 5—7, 14.

41 ¶ * A'r Iesu a [b] eisteddodd gyferby a'r drysorfa, ac a edrychodd pa fodd yr oedd bobl yn bwrw arian i'r drysorfa: a chyfoethog ion lawer a fwriasant lawer.

b Mat. 27. 6. Luc 21. 1. Ioan 8. 20.

42 † A rhyw wraig weddw dlawd a ddaeth ac a fwriodd i mewn ddwy hatling, yr hyn y ffyrling.

43 Ac efe a alwodd ei ddisgyblion atto, a a ddywedodd wrthynt, Yn wir yr wyf yn dy wedyd i chwi, [c] ‡ fwrw o'r wraig weddw dlaw hon i mewn fwy na'r rhai oll a fwriasant i' drysorfa.

c Ex. 35. 21—29. Mat. 10. 42. Act. 11. 29. 2 Cor. 8. 12. a
6—8.

44 Canys *hwynt-hwy* oll a [d] fwriasant o' hyn a oedd y'ngweddill ganddynt: ond hon o heisiau a fwriodd i mewn yr hyn oll a fedda ‖ *sef* [e] ei holl fywyd.

d pen. 14. 8. 1 Cron. 29. 2—17. 2 Cron. 24. 10—14. a 31. 5
10. a 35. 7, 8. Ezra 2. 68, 69. Neh. 7. 70—72. 2 Cor. 8. 2, 3. Phi
4, 10—17. e Luc 8. 43. a 15. 12, 30. a 21. 2—4.

Dyma yr unig ddarn o hanes yn y bennod hon a'r n chawsom yn Matthew: ni a'i cawn yn Luc 21. 1—4. E dëall yr hanes hwn yn well, rhaid i ni wybod fod yn deml, (lle yr oedd Crist yn awr) Drysorfa, neu y hytrach Drysorfëydd. Dywed yr enwog *Dr. Lightfo* fod yno ystafelloedd trysorawl, a elwid *Lesacoth*, a thr ar-ddeg o flychau trysorawl, a elwid *Shopheroth*, a elwid oll wrth yr enw cyffredin *corban*, neu *corbana* Yr oedd dau o'r blychau hyn i dderbyn yr hanner *sicla* y rhai yr oedd pob Israeliad i'w talu yn ol y ddedd Exod. 30. 12, 13. Yr oedd yr un-ar-ddeg eraill, a ysgrifen arnynt yn dangos pa arian a roddid ynddyn 1. I dderbyn gwerth y pâr o ddurturod, neu y dda gyw colommen. 2. I'r poeth-offrwm o adar. 3. I dde byn yr arian a offrymid i brynu coed i'r allor. 4. I arian a roddid i brynu Thus. 5. I'r rhai a offrymen aur at y Drugareddfa. 6. I weddill yr arian am y pech aberth. 7. I weddill yr arian am yr offrwm dros gan wedd. 8. I'r gweddill am offrwm o adar. 9. I'r gweddi o offrwm Nazaread. 10. I weddill aberth dros gamwed y gwahan-glwyfus. 11. I bwy bynag a offrymai offrw o eidionau. Nid oedd rhwymau ar yr Israeliaid ddarpar yr offrymau eu hunain; gallent ddwyn eu gwert yn arian, a gadael i'r offeiriad eu prynu; ac os bydd

ddill, dros ben gwerth yr offrwm, bwrid hyny i'r neu y llall o'r blychau hyn. Rhoddid y blychau rhan hyny o'r deml a elwid cyntedd y gwragedd; am nad oedd neb ond gwragedd i ddyfod yno; ond nad oedd y benywaid i fyned dim yn mhellach: ys yr oedd cyntedd y cenedloedd (i'r hwn y deuai dewon hefyd) yn cael ei alw felly, am na oddefid i'r edloedd fyned dim yn mhellach. * Eisteddodd yr wydd Iesu felly, fel y gallai weled dynion yn bwrw offrymau i un o'r blychau hyn. Gwelai lawer o dewon cyfoethogion yn bwrw llawer o arian, neu neu bres, i mewn; ond pres oedd fwyaf mewn iad. † Yn mhlith eraill "daeth yno wraig weddw d, ac a fwriodd i mewn ddwy hatling, yr hyn dyrling." Dywed *Dr. Lightfoot* mai pwys hanner yn o haidd oedd hatling, ac felly nid oedd dwy ng, neu lodwedd (ffyrling) y wraig weddw ond s un gronyn o haidd. ‡ Nid oedd hyn fawr i gyd, yr oedd y cwbl a feddai hi; ac yr oedd yn fwy mewn hariaeth nac offrymau y cyfoethogion: ac efallai yn id o galon mwy ewyllysgar a gwirfoddawl na'r eiut hwy. ‖ Ei holl fywyd am y diwrnod hwnw, medd ; dywedent mai dwy hatling a gyfrifid yn gyffredin ynnaliaeth dyn tlawd am ddiwrnod. Gellir gweled yr hanes hyn, 1. Nad yw y dynion tlotaf ddim nesgusodi oddi wrth weithredoedd da, 2 Cor. 8. 2, 3. od Duw yn ei gymmeradwyaeth o'n gweithredoedd drych ar y galon, nid ar ba gymmaint ydym yn ei yd, 2 Cor. 8. 12.

PEN. XIII.

Crist yn rhagfynegi dinystr y deml.

C [a] fel yr oedd efe yn myned [b] allan o'r deml, un o'i ddisgyblion a ddywedodd wrtho, thraw, edrych pa ryw feini, a pha fath iladau *sydd yma.*

a Mat. 24. 1. Luc 21. 5. b Ezec. 7. 20—22. a 8. 6. a 10. 4, 11. 22, 23. Mal. 3. 1, 2.

† A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd tho, A weli di yr adeiladau mawrion hyn? edir maen ar faen, a'r nis dattodir.

c 1 Bren. 9. 7, 8. 2 Cron. 7. 20, 21. Jer. 26. 18. Mica 3. 12. 24. 2. Luc 19. 41—44. a 21. 6. Act. 6. 14. Dat. 11. 2.

Cyssylltodd y dysgyblion ddinystr Jerusalem â dydd rn ddiweddaf, fel pethau oedd i gymmeryd lle yr un ; am nad oedd ganddynt wybodaeth well am y au tywyll hyn: a rhoddodd hyn achlysur i Grist ru am bob un o'r ddau beth. Mae dadfeiliad a darddigaeth pethau gwychion y byd hwn, yn fwy addas yrdodau dysgyblion Iesu, na'u mawredd a'u gwych- yn enwedig pan maent yn eiddo dynion pechadur- Turia pechod dàn yr adeiladau mwyaf enwog, a rmchwel hwynt. Da yw i gristionogion beidio gosod ualonau arnynt.

Ac [d] fel yr oedd efe yn eistedd ar fynydd Olew-wydd, gyferbyn a'r deml, [e] Pedr, ac o, ac Ioan, ac Andreas, a ofynasant iddo neilldu,

d Mat. 24. 3. e pen. 1. 16—19. a 5. 37. a 9. 2. a 10. 35. a 3. Ioan 1. 40, 41. f pen. 4. 34. Mat. 13. 10, 36.

* Dywed i ni [g] pa bryd y bydd y pethau ? a pha arwydd *fydd* pan fo y pethau hyn ar ddibenu?

g Dan. 12. 6, 8. Luc 21. 7. Ioan 21. 21, 22. Act. 1. 6, 7.

Mae Matthew 24. 3, yn gosod dau beth yn ychwaneg r holiad uchod; "Pa arwydd fydd o'th ddyfodiad, ac diwedd y byd?" Mae ar y dynion gorau awydd r am wybod y dyfodiant, pa beth a fydd ar ol hyn. ein Hiachawdwr drwy yr holl bennod hon yn ateb gofyniad hyn, (yn ol Matthew) neu yr un gofyniad , (yn ol Marc a Luc.) Ceisiodd rhai wahaniaethu gywraint rhwng dinystr Jerusalem a diwedd y byd, a'r arwyddion mae Crist yn roddi o flaen pob un o honynt: ond yn sicr, y dehonglwyr hyny sydd yn barnu orau, y rhai a ddeallant ddinystr Jerusalem fel cysgod o ddiwedd y byd, a bod rhag-arwyddion y naill yn rhag-arwyddion y llall hefyd. Gallwn yn ddiau ddisgwyl am lawer, os nid yr holl arwyddion, a fu o flaen dinystr Jerusalem, i ddyfod eto o flaen diwedd y byd.

5 A'r Iesu a attebodd iddynt, ac a ddechreuodd ddywedyd, [h] Edrychwch rhag twyllo o neb chwi.

h Jer. 29. 8. Mat. 24. 4, 5. Luc 21. 8. 1 Cor. 15. 33. Eph. 5. 6. Col. 2. 8. 2 Thes. 2. 3. 1 Ioan 4. 1.

6 * Canys [i] llawer un a ddaw yn fy enw i, gan ddywedyd, Myfi yw *Crist;* [k] ac a dwyllant lawer.

i adn. 22. Jer. 14. 14. a 23. 21—25. Ioan 5. 43. k adu. 22. Mat. 24. 5, 11, 23, 24. Act. 5. 36—39.

* Dyma yr arwydd cyntaf; cyflawnwyd hwn o flaen dinystr Jerusalem, cafodd ei gyflawni o hyny hyd eto; ac efallai y bydd y cyfryw dwyllwyr yn aml iawn cyn diwedd y byd. Gwel y sylwadau ar Matth. 24. 4, 5.

7 * Ond [l] pan glywoch am ryfeloedd, a sôn am ryfeloedd, na chyffröer chwi: [m] canys rhaid *i hynny* fod; ond nid *yw* y diwedd etto.

l Salm 46. 1—3. a 112. 7. Es. 8. 12. Jer. 4. 19—21. a 51. 46. Mat. 24. 6, 7. Luc 21. 9—11. m 2 Sam. 14. 14. Mat. 18. 7. Act. 17. 3.

8 Canys [n] cenedl a gyfyd yn erbyn cenedl, a theyrnas yn erbyn teyrnas: a daear-grynfâau fyddant mewn mannau, a [o] newyn a thrallod fyddant.

n 2 Cron. 15. 6. Es. 19. 2. Jer. 25. 32. Hag. 2. 22. Zec. 14. 13. Dat. 6. 4. o Act. 11. 28. p Mat. 24. 8.

* "A nodau" medd Matthew 24. 7; "a heintiau, a phethau ofnadwy, ac arwyddion a fydd o'r nef," medd Luc 21. 11. Dyma dri neu bedwar o arwyddion eto wedi eu gosod yn nghyd! 1. Cenedl yn codi yn erbyn cenedl, a theyrnas yn erbyn teyrnas: rhyfeloedd a sôn am ryfeloedd, a therfysgoedd mawrion yn mysg cenedloedd. 2. Newyn, heintiau, nodau, a daear-grynfâau. 3. Arwyddion a drychiolaethau ofnadwy yn yr awyr, a'r wybrenau. E fu y cyfryw bethau, medd *Josephus*, o flaen dinystr Jerusalem; ac mae yn bur debygol y bydd y cyfryw bethau eto o flaen diwedd y byd yn fwy nac erioed o'r blaen. Mae drychiolaethau ofnadwy, ac arwyddion mawrion o'r nef, yn myned yn gyffredin o flaen barnedigaethau trymion Duw ar leoedd; felly nid yw y sylw a wnaed arnynt gan baganiaid (fel y dywedir i ni gan *Livy* ac eraill,) ond megys darn o grefydd anianol. A chan fod Crist yn enwi y pethau hyn, fel arwyddion o ddinystr Jerusalem yn gyntaf, ac yna o ddiwedd y byd; dylai cristionogion meddylgar eu dàl mewn ofn crefyddol, ond nid cymmeryd arnynt eu hegluro yn fanol na phrophwydo oddi wrthynt. Yn sicr dylem eu hystyried fel rhag-argoelion o ryw waith mawr o eiddo Duw; ac yn gyffredin o ryw farn drom ar annuwiolion.

9 ¶ [p] Dechreuad gofidiau *yw* y pethau hyn. Eithr [q] edrychwch chwi arnoch eich hunain: * canys traddodant chwi i'r cynghorau, ac i'r synagogau; chwi a faeddir, ac a ddygir ger bron rhaglawiaid a brenhinoedd o'm hachos i, [r] er tystiolaeth iddynt hwy.

q adn. 5. Mat. 10. 17, 18. a 23. 34—37. a 24. 9, 10. Luc 21. 16—18. Ioan 15. 20. a 16. 2. Act. 4. 1—21. a 5. 17—40. a 6. 11—15. a 7. 54—60. a 8. 1—3. a 9. 1, 2, 13, 14, 16. a 12. 1—3. a 16. 20—24 a 21. 11, 31—40. a 22. 19, 20. a 23. 1, 2. a 24. 1, &c. a 25. a 26 1 Cor. 4. 9—13. 2 Cor. 11. 23—27. Phil. 1. 29. 2 Thes. 1. 5. Dat. 1. 9. a 2. 10, 13. a 6. 9—11. r pen. 1, 44. a 6. 11. Mat. 10. 18. Luc 9. 5.

Gyda golwg ar yr apostolion eu hunain, cyflawnwyd y pethau hyn yn hollawl cyn dinystr Jerusalem: galwyd Pedr ac Ioan o flaen y cyngor, Act. 4. 6, 7; Iago a Pedr o flaen Herod, Act. 12. 2, 3; Paul o flaen Nero, yn gystal ag o flaen y rhaglawiaid Rhufeinig, Galo, Felix, s Festus, Act. 18. 12. a 24. a 25. a 28. Ond gyda golwg

ar eraill mae y geiriau yn cynnwys arwydd o ddiwedd y byd; erledigaeth gweinidogion Crist a phobl Dduw, am bregethu a phroffesu yr efengyl. Gwel ar Matth. 24. 9.

10 Ac [s] y mae yn rhaid yn gyntaf bregethu yr efengyl ym mysg yr holl genhedloedd.

s pen. 16. 15. Mat. 24. 14. a 28. 18, 19. Rhuf. 1. 8. a 10. 18. a 15. 19. Col. 1. 6, 23.

* Arwydd o flaen diwedd y byd, debygid yw hwn; oblegid cyn dinystr Jerusalem, ni phregethwyd yr efengyl i'r *holl* genedloedd, oddigerth fel y mae y gair *holl* yn arwyddo *llawer*. Caiff yr efengyl ei phregethu i'r *holl* genedloedd, cyn diwedd y byd, yn ddiau.

11 Ond pan ddygant *chwi*, [t] a'ch traddodi, [u] * na rag-ofelwch beth a ddywedoch, ac † na fyfyriwch: eithr pa beth bynnag [x] a rodder i chwi yn yr awr honno, hynny dywedwch: canys nid chwychwi sydd yn dywedyd, [y] ond yr Ysbryd Glân.

t adn. 9. Mat. 10. 17, 21. Act. 3. 13. u Ex. 4. 10—12. Jer. 1. 6—9. Dan. 3. 16—18. Mat. 10. 19, 20. Luc 12. 11, 12. a 21. 14, 15. Act. 2. 4. a 4. 8, &c. 31. a 6. 10, 15. a 7. 55. x Es. 50. 4. Ioan 3. 27. Eph. 6. 19, 20. Iago 1. 5. y 2 Sam. 23. 2. 1 Cor. 2. 13. Eph. 3. 5. 1 Pedr 1. 12.

* Na rag-ofelwch yn ormodol, i'ch terfysgu eich hunain. † Na rag-fyfyriwch fel y bydd areithwyr cyhoeddus yn gwneyd, neu ysgolheigion pan fyddo raid iddynt draddodi areithiau ar faterion gosodedig o flaen eu hathrawon. Gwel yn helaethach ar Matth. 10. 19, 20.

12 [z] * A'r brawd a ddyry frawd i farwolaeth, a thad ei blentyn: a phlant a gyfyd yn erbyn *eu* rhieni, ac a'u rhoddant hwy i farwolaeth.

z Ezec. 38. 21. Mica 7. 4—6. Mat. 10. 21. a 24. 10. Luc 12. 52, 53. a 21. 16.

13 A [a] chwi a fyddwch gâs gan bawb er mwyn fy enw i: [b] eithr y neb a barhâo hyd y diwedd, hwnnw a fydd cadwedig.

a Mat. 5. 11, 12. a 24. 9. Luc 6. 22. a 21. 17. Ioan 15. 18, 19. a 17. 14. 1 Ioan 3. 13. b Mat. 10. 22. a 24. 13. Rhuf. 2. 7. Gal. 6. 9. Heb. 3. 14. a 10. 39. Iago 1. 12. Dat. 2. 10. a 3. 10.

* Nid oes yma ddim ond helaethiad ar yr arwyddion a enwyd yn adn. 9; ac a gyflawnwyd yn yr erledigaeth Iuddewig greulawn cyn dinystr Jerusalem; yn yr erledigaeth baganaidd am dri chan mlynedd wedi Crist; yn yr erledigaethau pabaidd wedi hyny; ac a gyflawnir eto, efallai, cyn diwedd y byd. Gwel Matth. 24. 10.

14 ¶ * Ond pan weloch chwi [c] y ffieiddra anghyfanneddol, yr hwn a ddywedwyd gan Daniel y prophwyd, † wedi ei osod [d] lle nis dylid, [e] (y neb a ddarlleno, dealled) [f] yna y rhai a fyddant yn Judea, ffoant i'r mynydd-oedd:

c Dan. 8. 13. a 9. 27. a 12. 11. Mat. 24. 15, &c. Luc 21. 20—22. d Galar. 1. 10. Ezec. 44. 9. e Mat. 13. 51. Act. 8. 30, 31. 1 Cor. 14. 7, 8, 20. Dat. 1. 3. a 13. 18. f Luc 21. 21—24.

15 [g] A'r neb a fyddo ar ben y tŷ, na ddisgyned i'r tŷ, ac nac aed i mewn i gymmeryd dim o'i dŷ.

g Gen. 19. 15—17, 22, 26. Job 2. 4. Diar. 6. 4, 5. a 22. 3. Mat. 24. 16—18. Luc 17. 31—33. Act. 27. 18, 19, 38. Phil. 3. 7, 8. Heb. 11. 7.

16 A'r neb a fyddo yn y maes, na throed yn ei ol i gymmeryd ei wisg.

17 Ond [h] gwae y rhai beichiog, a'r rhai yn rhoi bronnau, yn y dyddiau hynny.

h Deut. 28. 56, 57. Galar. 2. 19, 20. a 4. 3, 4, 10. Hos. 9. 14. a 13. 16. Mat. 24. 19—21. Luc 21. 23. a 23. 29.

18 Ond gweddïwch na byddo eich ffoedigaeth yn y gauaf.

19 Canys [i] yn y dyddiau hynny y bydd gorthrymder, y cyfryw ni bu y fath [k] o ddechreu y creadwriaeth a greodd Duw, hyd pryd hwn, ac ni bydd chwaith.

i Deut. 28. 59. a 29. 22—28. Es. 65. 12—15. Galar. 1. 12. a 13. a 4. 6. Dan. 9. 12. a 12. 1. Joel 2. 2. Mat. 24. 21. Luc 21. —24. k Deut. 4. 32.

20 Ac oni bai fod i'r Arglwydd fyrhâu dyddiau, ni chadwesid un cnawd: ‡ eithr [l] mwyn yr etholedigion a etholodd, efe a fyrhâodd y dyddiau.

l Es. 1. 9. a 6. 13. a 65. 8, 9. Zec. 13. 8, 9. Mat. 24. 22. Rh 11. 5—7, 23, 24, 28—32.

* Mae yr arwydd hwn yn perthyn yn amlwg i ddinys Jerusalem, ac heb ddim perthynas iddo a'r a wyddo â diwedd y byd. Prophwydodd Daniel am yr arwy hwn, Dan. 8. 13. a 9. 27. a 12. 11: a dywed Luc, 2 20, yn amlwg pa beth ydoedd; "Jerusalem wedi hamgylchu gan luoedd," sef lluoedd y Rhufeiniaid, rhai oeddynt ffiaidd fel paganiaid ac eilun-addolwy Felly yr arwydd oedd hyn:—Pan weloch luoedd Rhufeiniaid yn gwarchae ar Jerusalem, bydded sicr chwi y dyry Duw hi i'w meddiant hwy yn fuan, pa foc bynag y gwag-obeithio dynion y gallant ddâl yn e herbyn a'u gyru ymaith. † Yr oedd Jerusalem a'r hc wlad o amgylch, yn ddaear sanctaidd; ac ni chaniatê i ddim a berthynai i eilunaddoliaeth ddyfod yn ag yno. ‡ Nid y cristionogion a ffoisant allan o Judea y nechreu y trallodau hyny a feddylir wrth yr etholedi ion yma; ni buasai dim niwed iddynt hwy o barhâd drygau hyn ar yr Iuddewon: gan hyny, yr had etholec ig, ag oedd i gyfodi o weddill yr Iuddewon, mewn oe oedd i ddyfod, yn amlwg a feddylir. (Gwel Isaiah 13. a 65. 8, 9, 10.) Gwel y sylwadau ar Matth. 2 15—22.

21 Ac yna [m] os dywed neb wrthych, Wele llyma y Crist; neu, Wele, accw; na chredwch

m Deut. 13. 1—3. Mat. 24. 5, 23—25. Luc 17. 23, 24. a 21. Ioan 5. 43.

22 * Canys gau-Gristiau a gau-brophwyd a gyfodant, ac a ddangosant arwyddion a rhy feddodau, i hudo ymaith, [n] pe *byddai* bosib ïe, yr etholedigion.

n adn. 6. Mat. 24. 24. Ioan 10. 27, 28. 2 Thes. 2. 8—1 2 Tim. 2. 19. 1 Ioan 2. 19, 26, 27. Dat. 13. 8, 13, 14. a 17. 8.

23 † Eithr [o] ymogelwch chwi: [p] wele, rhag ddywedais i chwi bob peth.

o adn. 5, 9, 33. Mat. 7. 15. Luc 21. 8, 34. 2 Pedr 3. 1 p Es. 44. 7, 8. Ioan 14. 29. a 16. 1—4.

* Hanes dinystr Jerusalem, a'r amseroedd union gyrchol o flaen hyny, gan *Josephus* ac eraill, a rydd y eglurhad gorau ar yr adnodau hyn. Yr oedd disgwylia mawr yn mhlith yr Iuddewon am Grist, sef y Messiah yn y dyddiau hyny, ac y mae disgwyliad felly o hyd ond nid oeddynt hwy yn meddwl mai Duw-ddyn fyddai, i waredu ei bobl oddi wrth eu pechodau; gosod i fynu deyrnas ysbrydol yn y byd; eithr disgwy ient hwy dywysog daearol, yr hwn a hanai o dŷ Dafydd i'w hadferu hwynt i'w rhyddid a'u breintiau gwlado Felly yr oedd yr enw Crist, yn enw cyflëus iawn i gasgl a chefnogi unrhyw derfysg-blaid wrthryfelgar; yn enw edig os gallai y blaenor a'i cymmerai ddangos, trwy wi neu anwir, ei fod ef yn hanu o dŷ a thylwyth Dafydd Ychydig cyn dinystr Jerusalem, ymddangosodd llawe o'r gau gristiau hyn, tynasant luoedd o bobl ar eu ho a thrwy godi terfysgoedd a gwrthryfeloedd buont y foddlon i brysuro dinystr y genedl. † Gwyddai yr Iest fod gradd o'r cyfeiliornad cyffredin hwn yn meddylia ei ddysgyblion; am hyny rhybuddiai hwynt i wylie rhag hudoliaeth y cyfryw dwyllwyr i'w dinystr eu hunain

24 ¶ Ond [q] yn y dyddiau hynny, wedi y gorthrymder hwnnw, * y tywylla yr haul, a'r lloer ni rydd ei goleuni.

q Es. 13. 10. a 24. 20—23. Jer. 4. 23—25. Ezec. 32. 7. Joel 2 30, 31. Amos 5. 20. Zeph. 1. 14—18. Mat. 24. 29. Luc 21. 25—27 Act. 2. 19, 20. Dat. 6. 12—14. a 20. 11.

5 A ser y nef a syrthiant, a'r nerthoedd
l yn y nefoedd a siglir.

6 † Ac yna y gwelant [r] Fab y dyn yn
bd yn y cymmylau, gyd â gallu mawr a
oniant.

r pen. 8. 38. a 14. 62. Dan. 7. 13, 14. Mat. 16. 17. a 24. 30. a
.. Act. 1. 11. 2 Thes. 1. 7—10. Dat. 1. 7.

7 Ac yna [s] yr enfyn efe ei angelion, [t] ac y
null [u] ei etholedigion oddi wrth y pedwar
nt, [x] o eithaf y ddaear hyd eithaf y nef.

s Mat. 13. 41, 49. a 24. 31. Luc 16. 22. Dat. 7. 1—3. a 15. 6.
t Gen. 49. 10. Mat. 25. 31, 32. Ioan 10. 16. a 11. 52. 1 Thes.
—17. 2 Thes. 2. 1. Dat. 7. 5—9. u adn. 20, 22. Es. 65. 9.
24. 22, 24, 31. Luc 18. 7. Rhuf. 8. 33. Col. 3. 12. 2 Tim. 2.
Pedr 1. 2. x Deut. 30. 4. Mat. 12. 42.

hae ein Harglwydd debygid o hyd, yn sôn am ddin-
Jerusalem, yr hyn yw ei brif destyn, fel cysgod o
edd y byd. Trwy gyd-gymmysgu y ddau beth fel
yn ddoeth ac yn gywraint, mae efe yn rhoddi rhy-
lion pwysig i'w wrandawwyr union-gyrehol, yr Iu-
von; ac ar yr un pryd yn rhoddi gwers ddifrifol i'w
ynwyr mewn amser i ddyfod: felly nid oedd budd-
eb ei rybuddion yn cael eu cyfyngu i un achlysur,
i un tô, neu genedl, o ddynion; ond hefyd i'r holl
eristionogol, hyd ddiwedd amser. * Mae tywyllu yr
, a'r lloer, a syrthiad y ser, yn ol iaith y prophwydi,
nrwyddo dinystr cenedloedd, a'r cyfnewidiadau a
r ynddynt; megis dinystr Babilon, Isaiah 13. 10;
ddangos y cyfnewidiad a wnaeth rhagluniaeth Duw
inystr yr Aipht, Ezec. 32. 7; ac hefyd i arwyddo y
ewidiad a wnaeth Duw yn y byd trwy osod i fynu yr
gyl, Joel 2. 31. Felly mae dehonglwyr yn dëall y
au hyn fel yn arwyddo dinystr yr Iuddewon; yr hyn
aeth gyfnewidiad mawr yn y wladwriaeth a'r eglwys
lewig: ac yn arwyddo y cyfnewidiad mawr a wnaed,
osod i fynu yr eglwys efengylaidd. † Ond y mae
26, 27, yn ein tueddu yn hytrach i feddwl mai at
edd y byd y maent yn cyfeirio: mae "gweled Mab
n," ac "anfoniad yr angelion," yn cytuno felly âg
ythyrau eraill sydd yn sôn am ddydd y farn, fel mae
ebycach mai at yr amser hwnw mae yr adnodau hyn
cyfeirio. (Gwel Matth. 13. 41. 1 Cor. 15. 52.
nes. 4. 16. Dat. 1. 7.) Gwel ar Matth. 24. 29—31.

8 Ond [y] dysgwch ddammeg oddi wrth y
ysbren: Pan fo ei gangen eisoes yn dyner,
ddail yn torri allan, chwi a wyddoch fod yr
yn agos:

y Mat. 24. 32, 33. Luc 21. 29—31.

9 Ac felly chwithau, pan weloch y pethau
wedi dyfod, [z] gwybyddwch ei fod yn agos,
n y drysau.

z Ezec. 7. 10—12. a 12. 25—28. Heb. 10. 25—37. Iago 5. 9.
lir 4. 17, 18.

0 Yn wir yr wyf yn dywedyd i chwi,
ll â yr * oes hon heibio, hyd oni wneler y
nau hyn oll.

Mat. 16. 28. a 23. 36. a 24. 34. Luc 21. 32.

1 [b] Nef a daear a ânt heibio: ond [c] y
iau mau fi nid ânt heibio ddim.

b Salm 102. 25—27. Es. 51. 6. Mat. 5. 18. a 24. 35. Heb. 1.
22. 2 Pedr 3. 10—12. Dat. 20. 11. c Num. 23. 19. Jos. 23.
. Salm 19. 7. Es. 40. 8. Zec. 1. 6. Luc 21. 33. 2 Tim. 2. 13.
.. 2.

hae yr adnodau hyn bron air yn air yn Matth. 24. 32,
4: gwel y sylwadau a wnaed yno. * "Yr oes hon:"
genedlaeth hon," a ddywed Matthew.

2 ¶ * Eithr [d] am y dydd hwnnw a'r awr
wyr neb, na'r angelion sydd yn y nef,
na'r Mab, ond y Tad.

d adn. 26, 27. Mat. 24. 36—42. a 25. 6, 13, 19. Act. 1. 7.
es. 5. 2. 2 Pedr 3. 10. Dat. 3. 3. e Dat. 1. 1.

33 [f] Ymogelwch, ‡ gwyliwch, a gweddïwch: canys ni wyddoch pa bryd y bydd yr am er.

f adn. 23, 35—37. pen. 14. 37, 38. Mat. 24. 42—44. a 25. 13. a 26. 40, 41. Luc 21. 34—36. Rhuf. 13. 14. 1 Cor. 16. 13. Eph. 6. 18 1 Thes. 5. 5—8. Heb. 12. 15. 1 Pedr 4. 7. a 5. 8. Dat. 3. 2. a 16. 15.

* Cadwodd Duw wybodaeth o'r dydd diweddaf oddi wrthym ni, fel y byddo i ni wylio ein holl ddyddiau. † "Na'r Mab:" nid oedd yr wybodaeth sicr o amser pendant y dydd diweddaf, na dinystr Jerusalem, yn un ran o'r datguddiad a dderbyniodd y Mab yn ei natur ddynol, i'w gyfranu i'w eglwys: ni ddatguddiwyd hyny i'w natur ddynol ef trwy eneiniad yr Ysbryd Glân. Nis gallwn ni ddëall llawer o bethau a berthynant i undeb dirgeledig ei Berson dwyfol â'i natur ddynol ef; ac ni ddylem feiddio hyll-drèmu yn mhellach iddynt. Mae y "Mab" yma i'w ystyried fel y Prophwyd a ddanfonwyd i'r byd, i amlygu ewyllys y Tad; felly yr oedd yn cyhoeddi i'r byd, nid y pethau a wyddai y Gair, neu a oedd yn ddysgu; ond yr hyn ag oedd Ysbryd Duw yn ddatguddio iddo. Ioan 3. 34, 35. a 5. 20. a 12. 49. a 14. 10. Mae y Mab yn llefaru hyn yn ei natur ddynol, ac yn ei swydd brophwydol. Nid oedd yr Ysbryd wedi datguddio y "dydd" hwn iddo; ac nid oedd yntau wedi cael ei ddanfon i'w ddatguddio. Fel Person Dwyfol, gwyddai Crist bob peth, fel y Tad; ond o ran ei ddynoliaeth, yr oedd efe yn derbyn ei wybodaeth yn ol ewyllys Duw: yn yr ystyr hyny dywedir iddo ef gynnyddu mewn doethineb, yr hyn nis gallasai pe buasai o angenrheidrwydd yn gwybod pob peth, trwy undeb ei ddynoliaeth â'i Berson Dwyfol. Gwas y Tad oedd y Messiah fel Messiah; (Isa. 42. 1.) ac fel gwas y Tad, yr oedd yn cyfeirio yn fynych at ewyllys a gorchymyn y Tad, mewn perthynas iddo ei hun: gwel Ioan 5. 19. a'r sylwad olaf yno. ‡ Gwylio sydd beth cyferbyniol i gysgu. Y mae ewsg naturiol a chwsg ysbrydol: yr olaf a feddylir yn benaf yma, sef ymdrech dyfal a pharâus yn erbyn pechod.

34 * *Canys mab y dyn sydd* [g] fel gwr yn ymdaith i bell, wedi gadael ei dŷ, a rhoi † awdurdod i'w weision, [h] ac i bob un ei waith ei hun, [i] a gorchymyn [k] i'r drysawr wylio.

g Mat. 25. 14, &c. Luc 19. 12—17. h Rhuf. 12. 4—8. a 13. 6. 1 Cor. 3. 5—10. a 12. 4—31. a 15. 58. Col. 3. 24. a 4. 1. i Ezec. 3. 17—21. a 33. 2—9. Mat. 24. 45—47. Luc 12. 36—40. Act. 20. 29—31. k Mat. 16. 19. Ioan 10. 3. Dat. 3. 7.

35 [l] Gwyliwch gan hynny (canys nis gwyddoch pa bryd y daw meistr y tŷ, ‡ yn yr hwyr, ai hanner nos, ai ar ganiad y ceiliog, ai y boreuddydd)

l adn. 33.

36 Rhag iddo ddyfod yn ddisymmwth, [m] a'ch cael chwi yn cysgu.

m pen. 14. 37, 40. Diar. 6. 9—11. a 24. 33, 34. Can. 3. 1. a 5. 2. Es. 56. 10. Mat. 24. 48—51. a 25. 5. Luc 21. 34. a 22. 45. Rhuf. 13. 11—14. Eph. 5. 14. 1 Thes. 5. 6, 7.

37 A'r hyn yr wyf yn eu dywedyd wrthych chwi, [n] yr wyf yn eu dywedyd wrth bawb, || Gwyliwch.

n Luc 12. 41—46.

* Nid yw y geiriau "Canys Mab y dyn sydd," ddim yn y Groeg: ond y maent yn angenrheidiol i wneyd y synwyr yn y cyfieithiad. † Y "gweision" yma yw yr apostolion yn mlaenaf, yna gweinidogion y gair, goruchwylwyr ar ddirgeledigaethau Duw. Mae i'r rhai hyn "awdurdod" i athrawiaethu, i urddo gweinidogion, i dderbyn aelodau i'r eglwys, i weinyddu y sacramentau, ac i ymdrin a phob achos dysgyblaethol yn yr eglwys. ‡ Naw o'r gloch, hanner nos, tri yn y bore, a chodiad yr haul. || Mae "gwylied" yn cael ei orchymyn ddwywaith yn yr adnodau hyn eto fel yn adn. 33, ac yn arwyddo yr un peth: sonia am bechod dàn y gymhariaeth o gwsg, adn. 36, a sancteiddrwydd dàn y gymhariaeth o wylio. Dyledswydd *pawb* yw gwylio.

PEN. XIV.

Cyd-fwriad yn erbyn Crist, &c.

* AC wedi [a] deuddydd yr oedd [b] y pasc, a *gwyl* y bara croyw: [c] a'r arch-offeiriaid a'r ysgrifenyddion a geisiasant pa fodd y dalient ef [d] trwy dwyll, ac y lladdent ef.

a Mat. 26. 2. Luc 22. 1, 2. Ioan 11. 53—57. b Ex. 12. 6—20. Lef. 23. 5—7. Num. 28. 16—25. Deut. 16. 1—8 c Salm 2. 1—5. Ioan 11. 47. Act. 4. 25—28. d Salm 52. 3. a 62. 4, 9. a 64. 2—6. Mat. 26. 4.

2 Eithr dywedasant, [e] Nid ar yr wyl, [f] rhag bod cynhwrf ym mhlith y bobl.

e Diar. 19. 21. a 21. 30. Galar. 3. 37. Mat. 26. 5. f pen. 11. 18, 32. Luc 20. 6. Ioan 7. 40. a 12. 19.

* Rhaid bod hyn ar ein dydd Mawrth ni, oblegid dydd Gwener oedd y pasg, pan oedd gwyl y bara croyw yn dechreu. Gwel ar Matth. 26. 1, 2, 3.

3 ¶ * A [g] phan oedd efe yn Bethania, yn nhŷ Simon y gwahan-glwyfus, ac efe yn eistedd i fwytta, daeth gwraig a chanddi flwch [h] o ennaint o † nard gwlyb gwerthfawr; a hi a ‡ dorrodd y blwch, ac a'i tywalltodd ar ei ben ef.

g Mat. 26. 6, 7. Ioan 11. 2. a 12. 1—3. h Can. 4. 13, 14. a 5. 5. Luc 7. 37, 38.

4 Ac [i] yr oedd rhai yn anfoddlawn ynddynt eu hunain, ac yn dywedyd, [k] I ba beth y gwnaethpwyd y golled hon o'r ennaint?

i Preg. 4. 4. Mat. 26. 8, 9. Ioan 12. 4, 5. k Ex. 5. 4—8. Mal. 1. 12, 13.

5 Oblegid fe a allasid gwerthu hwn uwch law ‖ tri chàn ceiniog, [l] a'u rhoddi i'r tlodion. [m] A hwy a ffrommasant yn ei herbyn hi.

l Ioan 12. 5, 6. a 13. 29. Eph. 4. 28. m Ex. 16. 7, 8. Deut. 1. 27. Salm 106. 25. Mat. 20. 11. Luc 15. 2. Ioan 6. 43. 1 Cor. 10. 10. Phil. 2. 14. Judas 16.

6 A'r Iesu a ddywedodd, [n] Gadewch iddi; paham y gwnewch flinder iddi? hi a wnaeth [o] weithred dda arnaf fi.

n Job 42. 7, 8. Es. 54. 17. 2 Cor. 10. 18. o Mat. 26. 10. Ioan 10. 32, 33. Act. 9. 36. 2 Cor. 9. 8. Eph. 2. 10. Col. 1. 10. 2 Thes. 2. 17. 1 Tim. 5. 10. a 6. 18. 2 Tim. 2. 21. a 3. 17. Tit. 2. 7, 14. a 3. 8, 14. Heb. 10. 24. a 13. 21. 1 Pedr 2. 12.

7 Canys [p] bob amser y cewch y tlodion gyd â chwi: a phan fynnoch y gellwch wneuthur da iddynt hwy: [q] ond myfi ni chewch bob amser.

p Deut. 15. 11. Mat. 25. 35—45. a 26. 11. Ioan 12. 7, 8. 2 Cor. 9. 13, 14. Philemon 7. Iago 2. 14—16. 1 Ioan 3. 16—19. q Ioan 13. 33. a 16. 5, 28. a 17. 11. Act. 3. 21.

8 [r] § Hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth: [s] hi a achubodd y blaen i enneinio fy nghorph erbyn y claddedigaeth.

r 1 Cron. 28. 2, 3. a 29. 1—17. 2 Cron. 31. 20, 21. a 34. 19—33. Salm 110. 3. 2 Cor. 8. 1—3, 12. s pen. 15. 42—47. a 16. 1. Luc 23. 53—56. a 24. 1—3. Ioan 12. 7. a 19. 32—42.

9 Yn wir meddaf i chwi, [t] Pa le bynnag y pregether yr efengyl hon yn yr holl fyd, *yr hyn* a wnaeth hon hefyd a adroddir, er [u] coffa am dani.

t pen. 16. 15. Mat. 26. 12, 13. u Num. 31. 54. Salm 112. 6—9. Zec. 6. 14.

* Dywed Ioan 12. 1—9, mai chwe' diwrnod cyn y pasg y bu y pethau a adroddir yn yr adnodau uchod: gan hyny tybir fod Matthew 26. 6—13, a Marc yma, wedi gosod yr hanes ychydig allan o amser; oblegid nid yw yn debygol i'r un pethau yn hollawl gymmeryd lle ddwywaith o fewn pedwar diwrnod. Nid yw na Matthew na Marc yn dywedyd mai o fewn deuddydd i'r pasg y bu hyn; nid ydynt hwy ond yn adrodd yr hanes ar ol rhyw bethau eraill a gymmerth le yr amser hwnw. Dygwyddodd pan oedd Iesu yn Bethania: sef ar ryw noswaith rhwng ei ddyfodiad ef i Bethania y tro hwn! â'r pasg: a diammau mai y noson gyntaf oedd, wed diwedd y sabbath Iuddewig: y noson cyn i Grist farchog aeth i Jerusalem. † Dywedir mai llysieuyn per-aroglaid yw y nard, ac iddo amryw dywysenau breision. Ma yn debyg mai nôdd, neu sûdd, y tywysenau hyny, wed ei buro a'i gyffeithio yn ennaint gwlyb, oedd y nar a sonir yma. Efallai bod Mair yn arfer prynu a gwertht pethau drudfawr fel hyn, neu ei bod yn defnyddic y fath beth ei hun cyn iddi ddewis y rhan dda: pa fodd bynag, nid oedd yn ormod ganddi enneinio yr Iesu â'r blychaid hwn, fel cydnabyddiaeth iddo am yr holl gymmwynasau a wnaethai iddi hi, ei brawd, a'i chwaer. ‡ Dywed rhai nad yw y gair Groeg ddim o angenrheidrwydd yn arwyddo tòri, ond yn hytrach ysgwyd y blwch nes cael yr ennaint yn ddigon teneu a hylif i'w dywallt ar ben y Cyfryngwr. ‖ "Tri chàn ceiniog:" tua naw punt a phymtheg swllt o'n harian ni. "Ceiniog:" *Denarius* oedd y pryd hwnw gyflog gweithiwr am ddiwrnod yn y cynhauaf, (Matth. 20. 2.) gan hyny, yr oedd yn gystal mewn *gwerth*, nid mewn *pwysau*, a thri swllt o leiaf, o arian y wlad hon yn bresenol; gan y prynai gymmaint a hyny o angenrheidiau bywyd. Gan hyny yr oedd tri chàn ceiniog yn ymddangos yn swm mawr am y nard hwn. § Gwnaeth Mair "yr hyn a allodd" i ddangos ei chariad at Iesu, a'i rhwymedigaethau iddo; ond nid gwneyd "yr hyn a allodd" i osod ei chyfiawnder ei hun, a gwrthod ymostwng i gyfiawnder Duw, fel llawer.

10 ¶ * A [x] Judas Iscariot, [y] un o'r deuddeg, a aeth ymaith at yr arch-offeiriaid, i'w fradychu ef iddynt.

x Mat. 26. 14—16. Luc 22. 3—6. Ioan 13. 2, 30. y Salm 41. 9. a 55. 12—14. Mat. 10. 4. Ioan 6. 70, 71.

11 A phan glywsant, [z] bu lawen ganddynt, [a] ac a addawsant roi arian iddo. [b] Yntau a geisiodd pa fodd y gallai yn gymhwys ei fradychu ef.

z Hos. 7. 3. Luc 22. 5. a 2 Bren. 5. 26. Diar. 28. 21, 22. Mat. 26. 15. 1 Tim. 6. 10. 2 Pedr 2. 14, 15. Judas 11. b Luc 22. 5, 6.

Gwel ar Matth. 26. 14, 15, 16. * Nid oes sicrwydd ar ba ddiwrnod yr aeth Judas gyntaf at yr arch-offeiriaid; ond mae yn debygol iddo fyned ddeuddydd cyn y pasg, pan oeddynt hwy yn ymgynghori pa fodd i ddàl yr Iesu, i'w roddi ef i farwolaeth. Yr oedd y diafol cyn hyn wedi gosod y peth yn ei galon ef; ond gellir meddwl iddo betruso am amser, pa un a gyflawnai efe ei fwriad neu beidio, eithr diafol a thrachwant am arian a gariodd y dydd.

12 ¶ [c] A'r dydd cyntaf o *wyl* y bara croyw, pan aberthent y pasc, dywedodd ei ddisgyblion wrtho, [d] I ba le yr wyt ti yn ewyllysio i ni fyned i barottôi i ti, i fwytta y pasc?

c Ex. 12. 6, 18. a 13. 3. Lef. 23. 5, 6. Num. 28. 16—18. Deut. 16. 1—4. Mat. 26. 17. Luc 22. 7. d Mat. 3. 15. Luc 22. 8, 9. Gal. 4. 4.

13 Ac efe a anfonodd ddau o'i ddisgyblion, ac a ddywedodd wrthynt, [e] * Ewch i'r ddinas; a chyferfydd â chwi ddyn yn dwyn ystenaid o ddwfr: dilynwch ef.

e Mat. 8, 9. a 26. 18, 19. Luc 19. 30—33. a 22. 10—13. Ioan 2. 5. a 15. 14. Heb. 5. 9.

14 A pha le bynnag yr êl i mewn, dywedwch wrth wr y tŷ, [f] Fod yr Athraw yn dywedyd, † Pa le y mae y lletty, lle y gallwyf, mi a'm disgyblion, fwytta y pasc?

f pen. 10. 17. a 11. 3. Ioan 11. 28.

15 Ac [g] efe a ddengys i chwi [h] oruwch-ystafell fawr wedi ei thaenu yn barod: yno parottôwch i ni.

g 2 Cron. 6. 30. Salm 110. 3. Diar. 16. 1. a 21. 1, 2. Ioan 2. 24, 25. a 21. 17. 2 Tim. 2. 19. Heb. 4. 13. h Act. 1. 13. a 20. 8.

16 A'i ddisgyblion a aethant, ac a ddaeth-
t i'r ddinas; [i] ac a gawsant megis y dywed-
ai efe wrthynt: ac a barottoisant y pasc.
i Luc 22. 13, 35. Ioan 16. 4.
Gwel ar Matth. 26. 17, 18, 19. * Pe daethai y
u ddysgybl i'r lle a enwyd yn gynt neu yn ddiwedd-
ch nag y daethant, buasai y dyn a'r ystenaid ddwfr
ai heb ddyfod neu wedi myned. Ond gwyddai
Arglwydd Iesu fod rhyw wr, o berchen tŷ cyflëus yn
usalem, yn hoff o hóno ef. Gwyddai y danfonai
wr hwnw ei was ar ryw amser pennodawl o'r dydd i
bfyn ystenaid o ddwfr; y cyfarfyddai y dysgyblion ag
ar eu mynediad i'r ddinas, ac wrth ei ganlyn ef
ent hyd i'r gwr yr oeddynt yn ei geisio; ac wrth enwi
Harglwydd fel "Yr Athraw," y caniatâai gwr y
ddynt oruwch-ystafell fawr wedi ei thaenu yn barod;
wedi ei dodrefnu â bwrdd, glythau, a phobpeth
addas i'r achlysur. Mawr oedd syndod y dysgyblion
h rag-wybodaeth Crist, a'i awdurdod ar galonau, pan
sant hyn oll yn dyfod i ben. † "Pa le mae y lletty?"
llai fod pob perchen tŷ yn Jerusalem, a'r a allai, yn
cadw ystafell yn ei dŷ i'r perwyl hyn, er groesawi ei
illion a ddeuent i fynu i gadw y pasg. Ystafell
ëus ar llofft y tŷ, a llawr-len *(carpet)* wedi ei thaenu
y llawr, a rhyw orchudd wedi ei daenu ar y meinciau
uwyth hefyd, ar y rhai yr eisteddai y dynion yn
lled-orwedd wrth y bwrdd, i fwyta y pasg.

17 A [k] phan aeth hi yn hwyr, efe a ddaeth
ld â'r deuddeg.
k Mat. 26. 20. Luc 22. 14.

18 Ac [l] fel yr oeddynt yn eistedd, ac yn
ytta, yr Iesu a ddywedodd, [m] Yn wir meddaf
chwi, [n] Un o honoch, * yr hwn sydd yn
ytta gyd â myfi, a'm bradycha i.
l Mat. 26. 21. m adn. 9, 25. pen. 3. 28. a 6. 11. a 8. 12. a
. 41. a 10. 15, 29. Mat. 5. 18. a 6. 2, 5, 16. Luc 4. 24. a 11. 51.
n 1. 51. a 3. 3, 5, 11. a 5. 19, 24, 25. a 6. 26, 32, 47. a 13. 38. a
16. n Salm 41. 9. a 55. 13, 14. Ioan 6. 70, 71. a 13. 21.
Nid oedd hyn yn ddigon i nodi y person, canys yr
dynt oll yn bwyta gydag ef; ond dywedai Iesu hyn i
ungos echrysder y bai, cael ei fradychu gan un oedd
bwyta gydag ef, ac yn bwyta y *pasg* hefyd; ac yn hyn
lawnwyd y geiriau yn Salm 41. 9.

19 Hwythau a ddechreuasant dristâu, [o] a
wedyd wrtho bob yn un ac un, Ai myfi?
arall, Ai myfi?
o Mat. 26. 22. Luc 22. 21—23. Ioan 13. 22.

20 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrth-
t, [p] Un o'r deuddeg, [q] yr hwn sydd yn
lychu gyd â mi yn y ddysgl, *yw efe.*
p adn. 43. Mat. 26. 47. Luc 22. 47. Ioan 6. 71. q Mat. 26.
Ioan 13. 26.

21 Mab y dyn yn wir sydd [r] yn myned
naith, fel y mae yn ysgrifenedig am dano:
nd gwae y dyn hwnnw trwy yr hwn y brad-
hir Mab y dyn: [t] da fuasai i'r dyn hwnnw pe
s ganesid.
r adn. 49. Gen. 3. 15. Salm 22. 1, &c. a 69. 1, &c. Es. 52. 14.
s. Dan. 9. 24, 26. Zec. 13. 7. Mat. 26. 54, 56. Luc 22. 22. a 24. 26,
44. Ioan 19. 28, 36, 37. Act. 2. 23. a 4. 27, 28. a 13. 27—29.
alm 55. 15. a 109. 6—20. Mat. 18. 7. a 27. 3—5. Act. 1. 16—
25. t Mat. 26. 24, 25.
Gwel ar Matth. 26. 20—25. Mae yr adnodau hyn a'r
adau yn Matthew yr un peth, ond yn unig bod Mat-
w (26. 25.) yn nodi Judas allan fel y bradwr, yr hyn
chrybwyllir yma.

22 ¶ Ac [u] fel yr oeddynt yn bwytta, yr
su a gymmerodd fara, [x] ac a'*i* bendithiodd,
a'*i* torrodd, ac a'*i* rhoddes iddynt: ac a
ywedodd, * Cymmerwch, bwyttêwch: [y] hwn
fy nghorph.
u Mat. 26. 26—29. Luc 22. 19, 20. 1 Cor. 10. 16, 17. a 11. 23
—29. x pen. 6. 41. Luc 24. 30. Ioan 6. 23. y adn. 24. Gen.
41. 26, 27. Zec. 5. 7, 8. Luc 22. 20. 1 Cor. 10. 4. Gal. 4. 25.

23 Ac wedi iddo gymmeryd y cwppan, [z] a
rhoi diolch, efe a'i rhoddes iddynt: [a] a hwynt
oll a yfasant o hono.
z adn. 22. Luc 22. 17. Rhuf. 14. 6. 1 Cor. 10. 16. a Mat.
26. 27.

24 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [b] Hwn yw
fy ngwaed i o'r testament newydd, [c] yr hwn a
dywelltir dros lawer.
b Ex. 24. 8. Zec. 9. 11. 1 Cor. 11. 25. Heb. 9. 15—23. a 13.
20, 21. c pen. 10. 45. Dat. 5. 8—10. a 7. 9—17.

25 Yn wir yr wyf yn dywedyd wrthych,
[d] nad yfaf mwy o ffrwyth y winwydden, hyd y
dydd hwnnw pan yfwyf ef [e] yn newydd yn
nheyrnas Dduw.
d Salm 104. 15. Mat. 26. 29. Luc 22. 16—18, 29, 30. e Joel
3. 18. Amos 9. 13. Zec. 9. 17.

26 ¶ Ac wedi iddynt [f] ganu mawl, [g] hwy a
aethant allan i fynydd yr Olew-wydd.
f Salm 47. 6, 7. Act. 16. 25. 1 Cor. 14. 15. Eph. 5. 18—20.
Col. 3. 16. Iago 5. 13. Dat. 5. 9. g Mat. 26. 30. Luc 22. 39.
Ioan 18. 1—4.

Gwel ar Matth. 26. 26—30. * Dywedir eu bod
yn bwyta o'r blaen, adn. 18. Bwyta'r pasg oedd hwnw,
bwyta o swpper yr Arglwydd oedd hwn. Gan fod Crist
yn gorchymyn iddynt gymmeryd, a bwyta, ac yfed,
yn union ar ol pryd cyflawn ar oen y pasg, mae yn
amlwg ei fod yn bwriadu y sefydliad hwn, nid er
lluniaeth corphorawl, ond i ddybenion ysbrydol, y rhai
a atebid trwy fwyta ac yfed yr ychydig lleiaf o fara
a gwin, gyda gweithrediad y grasau perthyńol i'r or-
dinâd hòno. Ac mae hyn yn naturiol yn arwain un i
feddwl, y gwna ychydig o ddwfr y tro yn y bedydd, yn
gystal ag ychydig fara a gwin yn yr ordinâd arall:
arwyddion yw pob un.

27 * A dywedodd yr Iesu wrthynt, [h] Chwi
a rwystrir oll o'm plegid i y nos hon: [i] canys
ysgrifenedig yw, Tarawaf y bugail, a'r defaid a
wasgerir.
h Mat. 26. 31. Luc 22. 31, 32. Ioan 16. 1, 32. 2 Tim. 4. 16.
i Zec. 13. 7.

28 Eithr [k] wedi i mi adgyfodi, mi a âf o'ch
blaen chwi i Galilea.
k pen. 16. 7. Mat. 16. 21. a 26. 32. a 28. 7, 10, 16. Ioan 21. 1.
1 Cor. 15. 4—6.

29 Ond Pedr a ddywedodd wrtho, [l] Pe
byddai pawb wedi eu rhwystro, etto ni *byddaf*
fi.
l Mat. 26. 33—35. Luc 22. 33, 34. Ioan 13. 36—38. a 21. 15.

30 A dywedodd yr Iesu wrtho, Yn wir yr
ydwyf yn dywedyd i ti, [m] Heddyw, o fewn y
nos hon, [n] † cyn canu o'r ceiliog ddwywaith, y
gwedi fi deirgwaith.
m Gen. 1. 5, 8, 13, 19, 23. n adn. 66—72. Mat. 26. 69—
75. Luc 22. 54—62. Ioan 18. 17, 25—27. 1 Cor. 10. 12.

31 ‡ Ond [o] efe a ddywedodd yn helaethach
o lawer, Pe gorfyddai i mi farw gyd â thi, ni'th
wadaf ddim. [p] A'r un modd y dywedasant oll.
o 2 Bren. 8. 13. Job 40. 4, 5. Salm 30. 6. Diar. 16. 18. a 28.
26. a 29. 23. Jer. 10. 23. a 17. 9. p Ex. 19. 8. Deut. 5. 27—29.

Gwel ar Matth. 26. 31—35. * Rhag-ddywedodd Crist
wrthynt y gadawent hwy ef oll, ond ni ddywedodd y
gadawai efe hwynt byth. † "Cyn canu o'r ceiliog
ddwywaith:" Ar ol i ti ei glywed unwaith ni chymmeri
rybudd; a chyn iddo ganu ddwywaith ti a ail droseddi;
ïe, ti a wnai hyny deirgwaith, a phob tro yn waeth
waeth. ‡ "Efe a ddywedodd yn helaethach:" yn fwy
angerddol: mae yn anodd cael gair yn ein iaith ni
i osod allan gyflawn bwys a grym y gair gwreiddiol
Mae holl amgylchiadau hunan-ymddiried a chwymp
echryslawn Pedr, yn gyflawn ac yn rymus iawn gan
Marc, yr hwn a ysgrifenodd ei efengyl meddant, wrth

gyfarwyddyd union-gyrchol Pedr; ond mae amgylchiadau ei edifeirwch yn cael myned drostynt lawer yn fyrach.

32 A [q] hwy a ddaethant i le yr oedd ei enw Gethsemane: ac efe a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, Eisteddwch yma, [r] tra fyddwyf yn gweddïo.

q Mat. 26. 36. Luc 22. 39. Ioan 18. 1. r adn. 36, 39. Salm 18. 5, 6. a 22. 1, 2. a 88. 1—3. a 109. 4.

33 Ac efe a gymmerth gyd âg ef [s] Pedr, ac Iago, ac Ioan, [t] ac a ddechreuodd ymofidio, a thristâu yn ddirfawr.

s pen. 1. 16—19. a 5. 37. a 9. 2. t Salm 38. 11. a 69. 1—3. a 88. 14—16. Es. 53. 10. Mat. 26. 37, 38. Luc 22. 44. Heb. 5. 7.

34 Ac *efe* a ddywedodd wrthynt, [u] Y mae fy enaid yn athrist hyd angau: arhoswch yma, [x] a gwyliwch.

u Es. 53. 3, 4, 12. Galar. 1. 12. Ioan 12. 27. x adn. 37, 38. pen. 13. 35—37. Eph. 6. 18, 19. 1 Pedr 4. 7. a 5. 8.

35 Ac efe a aeth ychydig ym mlaen, [y] ac a syrthiodd ar y ddaear, ac a weddïodd, o bai bosibl, ar fyned yr awr honno oddi wrtho.

y Gen. 17. 3. Deut. 9. 18. 1 Cron. 21. 15, 16. 2 Cron. 7. 3. Mat. 26. 39. Luc 17. 15, 16. Act. 10. 25, 26. Dat. 4. 10. a 5. 14.

36 Ac efe a ddywedodd, [z] * Abba, Dad, [a] pob peth *sydd* bosibl i ti: [b] tro heibio y cwppan hwn oddi wrthyf: [c] eithr nid y peth yr ydwyf fi yn ei ewyllysio, ond y peth yr ydwyt ti.

z Mat. 6. 9. Rhuf. 8. 15, 16. Gal. 4. 6. a pen. 10. 27. Gen. 18. 14. Jer. 32. 27. 2 Tim. 2. 13. Tit. 1. 2. Heb. 6. 18. b Luc 22. 41, 42. c Salm 40. 8. Ioan 4. 34. a 5. 30. a 6. 38, 39. a 12. 27. a 18. 11. Phil. 2. 8. Heb. 5. 7, 8.

37 Ac efe a ddaeth, [d] ac a'u cafodd hwy yn cysgu; ac a ddywedodd wrth Pedr, [e] Simon, † ai cysgu yr wyt ti? [f] oni allit wylio un awr?

d adn. 40, 41. Luc 9. 31, 32. a 22. 45, 46. e adn. 29—31. 2 Sam. 16. 17. Jona 1. 6. Mat. 25. 5. a 26. 40. 1 Thes. 5. 6—8. f Jer. 12. 5. Heb. 12. 3.

38 [g] Gwyliwch a gweddïwch, rhag eich myned mewn temtasiwn. [h] Yr ospryd yn ddïau *sydd* barod, ond y cnawd *sydd* wan.

g adn. 34. Mat. 24. 42. a 25. 13. a 26. 41. Luc 21. 36. a 22. 40, 46. 1 Cor. 16. 13. 1 Pedr 5. 8. Dat. 3. 2, 3, 10. h Rhuf. 7. 18—25. Gal. 5. 17. Phil. 2. 12.

39 Ac [i] wedi iddo fyned ymaith drachefn, efe a weddïodd, gan ddywedyd yr un ymadrodd.

i Mat. 6. 7. a 26. 42—44. Luc 18. 1. 2 Cor. 12. 8.

40 Ac wedi iddo ddychwelyd, efe a'u cafodd hwynt drachefn yn cysgu; canys yr oedd eu llygaid hwynt wedi trymhâu: [k] ac ni wyddent beth a attebent iddo.

k pen. 9. 33, 34. Gen. 44. 16. Rhuf. 3. 19.

41 Ac efe a ddaeth y drydedd waith, ac a ddywedodd wrthynt, [l] Cysgwch weithian, a gorphwyswch: ‡ digon yw; [m] daeth yr awr: wele, [n] yr ydys yn bradychu Mab y dyn i ddwylaw pechaduriaid.

l pen. 7. 9. Barn. 10. 14. 1 Bren. 18. 27. a 22. 15. 2 Bren. 3. 13. Preg. 11. 9. Ezec. 20. 39. Mat. 26. 45, 46. m Ioan 7. 30. a 8. 20. a 12. 23, 27. a 13. 1. a 17. 1. n adn. 10, 18. pen. 9. 31. a 10. 33, 34. Mat. 26. 2. Ioan 13. 2. Act. 7. 52.

42 Cyfodwch, awn; wele, y mae yr hwn sydd yn fy mradychu yn agos.

Gwel ar Matth. 26. 36—46. * O Dad, mi a wn fod pob peth yn bosibl i'th hollalluogrwydd di. Pan ymgynghorwyf â gwendid dynol, mi a garwn i'r dyoddefaint chwerw hyn gael ei symmud; ond ni wna y dymuniadau gweiniaid hyn ddim o'r tro i mi yn awr; yr wyf yn darostwng, ac mi a wnaf ddarostwng, fy ewyllys ddynol I yn ewyllysgar, i'th ewyllys ddwyfol di. Fel yr oedd Crist yn dyoddef dychryniadau echryslawn mellti Duw drosom ni, yn y cnawd hwnw a gymmerodd efe ein mwyn ni, efe a gymmerodd y cwpan o law ei Dad. chan ei fod ef yn gyfiawn, efe a'i hyfodd oll dros y rh anghyfiawn. Gair Syriaeg, neu Syriaeg-Caldeaeg, me rhai, yw Abba, yn arwyddo Tad; ond mewn ffor o neillduol anwyldeb a hyder. Er mai gair Syriaeg i y sylwyd yw Abba, eto defnyddid ef yn mhlith Iuddewon; ond dywedir na cha'i yr un plentyn Iuddew ddywedyd Abba wrth ei dad, oni byddai y plentyn hwn yn Hebrêad diledryw o dad a mam, ac heb fod o forw gaeth hefyd. Er bod Iesu yn was, ac mewn agwe *caeth* was y pryd hwn, eto priod ac anwyl Fab Du oedd efe; am hyny dywedai Abba, Dad, yn ei iseld mwyaf.—Tad, ar ol Abba, sydd gyfieithiad o'r gair Abb yma ac yn Rhuf. 8. 15, a Galat. 4. 6. † Tydi, ag oed ond yr awr hon yn proffesu y fath gariad a dianwada wch, a elli di gysgu? Yn yr agwedd hon o ddirfaw dristwch y dywedais fy mod yn adn. 34, a elli di fod m ddiofal a difater a chysgu, wedi i mi fod yn absenol a gyn lleied amser? "Digon yw:" yn y fân hon yn uni yn y Testament Newydd mae y gair fel hyn yn anmhe sonawl. Mae fy ngorchymyn I i chwi, i wylio, a'c cysgu chwithau, ar ben: "digon yw," nis gall eic gwylio mwyach fod o un gwasanaeth i mi.

43 ¶ Ac yn y man, [o] ac efe etto yn llefar daeth Judas, un o'r deuddeg, [p] a chyd âg e dyrfa fawr â chleddyfau a ffyn, oddi wrth y arch-offeiriaid, a'r ysgrifenyddion, a'r henur iaid.

o Mat. 26. 47. Luc 22. 47, 48. Ioan 18. 3—9. Act. 1. 1 p Salm 2. 1, 2. a 3. 1. a 22. 11—13.

44 A'r hwn a'i bradychodd ef a roddasa [q] arwydd iddynt, gan ddywedyd, [r] Pwy bynna a gusanwyf, hwnnw yw: * deliwch ef, [s] dygwch ymaith yn sicr.

q Ex. 12. 13. Jos. 2. 12. Phil. 1. 28. 2 Thes. 3. 17. r 2 Sam 20. 9, 10. Salm 55. 20, 21. Diar. 27. 6. Mat. 26. 48—50. s 1 Sam 23. 22, 23. Act. 16. 23.

45 A phan ddaeth, yn ebrwydd efe a aet atto, ac a ddywedodd, [t] Rabbi, Rabbi; ac a cusanodd ef.

t pen. 12. 14. Es. 1. 3. Mal. 1. 6. Mat. 23. 8—10. Luc 6. 4 Ioan 13. 13, 14. a 20. 16.

Gwel ar Matth. 26. 47—50. * Efallai bod Judas y meddwl y buasai Crist yn dianc yn wyrthiol y tro hwn fel y gwnaethai rai troion o'r blaen; ac fel pe dywedasa Cymmerwch ofal ato, mae efe wedi dianc yn rhyfed iawn rai gweithiau cyn hyn, os collwch chwi ef ar ol mi ei draddodi ef i'ch dwylaw, nid fy mai I fydd hyny edrychwch chwi.

46 ¶ A [u] hwythau a roisant eu dwylaw arno, ac a'i daliasant ef.

u Barn. 16. 21. Galar. 4. 20. Ioan 18. 12. Act. 2. 23.

47 A [x] rhyw un o'r rhai oedd yn sefyll ge llaw, a dynodd ei gleddyf, ac a darawodd wa yr arch-offeiriad, ac a dorrodd ymaith ei glus ef.

x Mat. 26. 51—54. Luc 22. 49—51. Ioan 18. 10, 11.

48 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedod wrthynt, [y] Ai megis at leidr y daethoch allan â chleddyfau ac â ffyn, i'm dala i?

y 1 Sam. 24. 14, 15. a 26. 18. Mat. 26. 55. Luc 22. 52, 53.

49 Yr [z] oeddwn i beunydd gyd â chwi y athrawiaethu yn y deml, ac ni'm daliasoch [a] ond rhaid yw cyflawni yr ysgrythyrau.

z pen. 11. 15—18, 27. a 12. 35. Mat. 21. 23, &c. Luc 19. 4 48. a 20. 1, 2. a 21. 37, 38. Ioan 7. 28—30, 37. a 8. 2, 12. a 10. 2 a 18. 20. a Salm 22. 1—21. a 69. Es. 53. Dan. 9. 24—26. Ma 26. 54, 56. Luc 24. 25—27, 44, 45.

50 * A [b] hwynt oll a'i gadawsant ef, ac ffoisant.

o adn. 27. Job 19. 13, 14. Salm 38. 11. a 88. 7, 8, 18. Ioan 16. 18. 8, 9. 2 Tim. 4. 16.
wel ar Matth. 26. 47—50. Nid oes yma ddim a'r ydys wedi sylwi arno yn Matthew. * Dywed Mat- 26. 56, mai y "dysgyblion" a'i gadawsant: hwynt i'i gadawsant ef, Pedr a chwbl; ac nid gadael yn , ond ffoi hefyd. Mor hollawl y cyflawnwyd yr hyn ywedasai yr Iesu, adn. 27.

11 * A rhyw wr ieuangc oedd yn ei ddilyn wedi ymwisgo â llian main ar ei gorph th; † a'r gwŷr ieuaingc a'i daliasant ef.

12 A [c] hwn a adawodd y llian, ac a ffôdd i wrthynt yn noeth.
c pen. 13. 14—16. Gen. 39. 12. Job 2. 4.

id oes yr un ond Marc yn adrodd y darn hyn o es. Gallwn weled yma mòr gynddeiriog yw ysbryd lligaeth; dyma wr ieuanc yn cael ei ddàl heb neb yn ood am ba beth; nid oedd yr un prawf ei fod yn un anlynwyr Iesu. Dywedir am y fad felen *(basilisk)* idia hi at lun dyn: felly y gwnaeth y rhai hyn. mmau fod gallu dirgelaidd Crist yn gweithio i'w sgyblion gael dianc, pan ddelid y gwr ieuanc hwn chymmaint awyddfryd. * Rhyw wr ieuanc oedd yn neu yn lletya yn agos i Gethsemane: wrth glywed t a therfysg y milwyr a'r dyrfa, tybir iddo neidio o'i heb ddim ond llen-llian am dano i weled beth y terfysg hwnw. † Wrth sylwi ar hwn yn canlyn oedd y dysgyblion oll wedi ffoi, daliodd y milwyr an dybied mai un o ddysgyblion Iesu ydoedd.

13 ¶ * A [d] hwy a ddygasant yr Iesu at yr h-offeiriaid: [e] a'r holl arch-offeiriaid, a'r uriaid, a'r ysgrifenyddion, a ymgasglasant l âg ef.
d Es. 53. 7. Mat. 26. 57. Luc 22. 54. Ioan 18. 13, 14, 24. n. 15. 1. Mat. 26. 3. Act. 4. 5, 6.

14 A [f] Phedr a'i canlynodd ef o hirbell, d yn llys yr arch-offeiriad; [h] ac yr oedd yn eistedd gyd â'r gwasanaethwyr, [i] ac yn dwymno wrth y tân.
f adn. 29—31, 38. 1 Sam. 13. 7. Mat. 26. 58. g Ioan 18. 16. h 1 Bren. 19. 9, 13. Luc 22. 55, 56. Ioan 18. 18, 25. c 22. 44.

15 A'r arch-offeiriaid a'r holl gynghor a isiasant dystiolaeth yn erbyn yr Iesu, i'w ef i'w farwolaeth; [l] † ac ni chawsant.
k 1 Bren. 21. 10, 13. Salm 27. 12. a 35. 11. Mat. 26. 59, 60. 6. 11—13. a 24. 1—13. l Dan. 6. 4. 1 Pedr 3. 16—18.

16 Canys llawer a ddygasant gau-dystiol- h yn ei erbyn ef; ‡ eithr nid oedd eu tiolaethau hwy yn gyson.

17 A rhai a gyfodasant [m] ac a ddygasant n-dystiolaeth yn ei erbyn, gan ddywedyd,
m pen. 15. 29. Jer. 26. 8, 9, 18. Mat. 26. 60, 61. a 27. 40. Ioan 6—21. Act. 6. 13, 14.

18 Ni a'i clywsom ef yn dywedyd, Mi a inystriaf y deml hon o waith dwylaw, ac wn tridian yr adeiladaf arall [n] heb fod o ith llaw.
n Dan. 2. 34, 45. Act. 7. 48. 2 Cor. 5. 1. Heb. 9. 11, 24.

19 ‖ Ac [o] etto nid oedd eu tystiolaeth hwy lly yn gyson.
o adn. 56.

20 A chyfododd yr arch-offeiriad, yn y ol, ac a ofynodd i'r Iesu, gan ddywedyd, Oni attebi di ddim? beth y mae y rhai hyn ei dystiolaethu yn dy erbyn?
p pen. 15. 3—5. Mat. 26. 62, 63. Ioan 19. 9, 10.

21 Ac [q] efe a dawodd, ac nid attebodd ddim. rachefn yr arch-offeiriad a ofynodd iddo, ac a ddywedodd wrtho, [r] Ai tydi yw Crist, § [s] Mab y Bendigedig?
q Salm 39. 1, 2, 9. Es. 52. 7. Mat. 27. 12—14. Act. 8. 32. 1 Pedr 2. 23. r pen. 15. 2. Mat. 11. 3—5. a 16. 16. a 26. 63, 64. Luc 22. 67—70. Ioan 10. 24 a 18. 37. s Salm 2. 7. a 119. 12. Es. 9 6, 7. Mat. 3. 17. a 8. 29. Ioan 1. 34, 49—51. a 5. 18—25. a 10. 30 31, 36. a 19. 7. 1 Tim. 1. 11. a 6. 15.

22 A'r Iesu a ddywedodd, [t] Myfi yw: a chwi a gewch weled [u] Mab y dyn yn eistedd ar ddeheulaw y gallu, ac yn dyfod y'nghymmylau y nef.
t pen. 15. 2. Mat. 26. 64. a 27. 11. Luc 23. 3. u pen. 13. 26. a 16. 19. Salm 110. 1. Dan. 7. 13, 14. Mat. 24. 30. Luc 22. 69. Act. 1. 9—11. 2 Thes. 1. 7—10. Heb. 1. 3. a 8. 1. a 10. 12, 13. a 12. 2. Dat. 1. 7. a 20. 11.

23 Yna yr arch-offeiriad, gan rwygo [x] ei ddillad, a ddywedodd, Pa raid i ni mwy wrth dystion?
x Es. 36. 22. a 37. 1. Jer. 36. 23, 24. Act. 14. 13, 14.

24 Chwi [y] a glywsoch y cabledd: beth dybygwch chwi? A hwynt oll a'i condemniasant ef, ei fod yn euog o farwolaeth.
y Lef. 24. 16. 1 Bren. 21. 9—13. Mat. 26. 65, 66. Luc 22. 71. Ioan 5. 18. a 8. 58, 59. a 10. 31—33. a 19. 7.

25 *A [z] dechreuodd rhai boeri arno, a chuddio ei wyneb, a'i gernodio; a dywedyd wrtho, Prophwyda. A'r gweinidogion a'i tarawsant ef â gwiail.
z pen. 15. 19. Num. 12. 14. Job 30. 10. Es. 50. 6. a 52. 14. a 53. 3. Mica 5. 1. Mat. 26. 67, 68. Luc 22. 63, 64. Ioan 18. 22. a 19. 3. Act. 23. 2. Heb. 12. 2.

Gwel ar Matth. 26. 57—69. Gan gymmaint oedd gelyniaeth yr arch-offeiriaid yn erbyn Iesu, cadwasant gyngor drwy y nos, yr oedd yn groes i bob rheolau a threfn: ac wedi ei gondemnio ef ganddynt hwy, danfonasant at Pilat yn foreu dranoeth; yr hwn oedd ddydd gwŷl sanctaidd: yr oedd hyny hefyd yn groes i bob rheol, ac fel hyn yr oeddynt yn diolch i Dduw am eu dwyn allan o wlad yr Aipht. † Yr oedd hyn yn brawf da o ddiniweidrwydd Iesu, gan na chaid neb i dystiolaethu yn ei erbyn er eu ceisio, a chynnyg gwobr da iddynt yn ddiammau hefyd. Gellir gweled yma hefyd awdurdod ddirgelaidd Duw ar feddyliau a chydwybodau dynion: oni buasai hyny, cawsid digon o gau-dystion am arian. Efallai hefyd bod y wyrth o daro y swyddogion i'r llawr (Ioan 18. 6.) wedi dychrynu pawb, fel yr oedd arnynt ofn dyfod yn mlaen i dystiolaethu dim ar gam yn erbyn Iesu, er cymmaint oedd hudoliaeth y wobr. ‡ Nid oedd eu tystiolaeth yn *gyfatebol* i'r cyhuddiad a ddygid yn ei erbyn ef, ei fod yn haeddu marw; neu ynte, nid oedd yn ddigonol i'w roddi ef i farwolaeth; am nad oeddynt yn cyd-dystiolaethu â'u gilydd, neu am nad oeddynt yn ei gyhuddo ef o fai teilwng o angeu wrth y gyfraith. ‖ Efallai bod un yn tystiolaethu iddo ddywedyd y *gallai* efe ddinystrio y deml, a'r llall yn tystiolaethu iddo ddywedyd y *gwnai* efe ei dinystrio hi: ond ni ddywedasai yr Iesu yr un o'r ddau beth, Ioan 2. 19. § Mab Duw a feddylir; ac yn llyfrau yr Iuddewon, mynych y cair y gair Bendigedig fel enw ar Dduw. * Yn arwydd o'i gondemniad ef: pan gondemnid dyn, teflid sach dros ei holl ben ef; ond yma cuddio gwyneb Iesu a wnâed, ei lygaid medd Luc 22. 64, efallai â chadach neu rwymyn o ryw fath.

26 ¶ Ac [a] fel yr oedd Pedr yn y llys i waered, daeth [b] un o forwynion yr arch-offeiriad:
a adn. 54. Mat. 26. 58, 69, 70. Luc 22. 55—57. b Ioan 18. 15—18.

27 A phan ganfu hi Pedr yn ymdwymno, hi a edrychodd arno, ac a ddywedodd, Tithau hefyd oeddit gyd â'r [c] Iesu o Nazareth.
c pen. 10. 47. Mat. 2. 23. a 21. 11. Ioan 1. 45—49. a 19. 19. Act. 10. 38.

28 Ac [d] efe a wadodd, gan ddywedyd, Nid

adwaen i, ac ni wn i beth yr wyt yn ei ddywedyd. Ac [e] efe a aeth allan i'r porth; [f] a'r ceiliog a ganodd.

d adn. 29—31. Ioan 13. 36—38. 2 Tim. 2. 12, 13. e Mat. 26. 71, 72. f adn. 30.

69 A phan welodd y llangces ef drachefn, [g] hi a ddechreuodd ddywedyd wrth y rhai oedd yn sefyll yno, Y mae hwn *yn un* o honynt.

g adn. 38. Luc 22. 58. Ioan 18. 25. Gal. 6. 1.

70 Ac efe a wadodd drachefn. Ac [h] ychydig wedi, y rhai oedd yn sefyll ger llaw a ddywedasant wrth Pedr drachefn, Yn wir yr wyt ti *yn un* o honynt: [i] canys Galilead wyt, a'th leferydd sydd debyg.

h Mat. 26. 73, 74. Luc 22. 59, 60. Ioan 18. 26, 27. i Barn. 12. 6. Act. 2. 7.

71 Ond [k] efe ddechreuodd regu a thyngu, * Nid adwaen i y dyn yma yr ydych chwi yn dywedyd am dano.

k 2 Bren. 8. 12—15. a 10. 32. Jer. 17. 9. 1 Cor. 10. 12.

72 A'r [l] ceiliog a ganodd yr ail waith. A [m] Phedr a gofiodd y gair a ddywedasai yr Iesu wrtho, Cyn canu o'r ceiliog ddwywaith, ti a'm gwedi deirgwaith. [n] A chan ystyried hynny, efe a wylodd.

l adn. 30, 68. Mat. 26. 34, 74. m 2 Sam. 24. 10. Salm 119. 59, 60. Jer. 31. 18—20. Ezec. 16. 63. a 36. 31. Luc 15. 17—19. a 22. 60, 61. n Ezec. 7. 16. Mat. 26. 75. Luc 22. 62. 2 Cor. 7. 10.

Sylwyd ar yr hanes galarus hwn o'r blaen yn Matth. 26. 69—75. Mae yr holl efengylwyr yn ei adrodd; ond nid oes yr un o honynt yn fanylach na Marc yr hwn a ysgrifenodd fel y crybwyllwyd eisoes, o enau Pedr ei hun; a dywedir i Pedr adolygu holl efengyl Marc yn fanol ar ol iddo ef ei hysgrifenu. * "Nid adwaen I y dyn:" Gan fod Iesu yn berson mòr gyhoeddus, a phawb agos yn ei adwaen ef, yr oedd Pedr yn ffol iawn yn taeru *nad adwaenai* ef: gallasai feddwl na choeliai neb mo hòno yn hyny. Nid oedd achos am yr anwiredd hwn; a phan elo dynion unwaith dros derfynau y gwirionedd, hwy a ânt yn mhellach nag y byddo raid. Yr oedd haeriad mòr bell ac anhygoel a hwn, yn fwy tebyg o'i ddàl ef yn gelwyddog na'i ddieuogi. Gallwn sylwi ar yr addysgiadau hyn oddiwrth yr hanes:—1. Fod Duw yn aml yn arfer moddion gwael iawn i dynu i lawr ein balchder a'n hunan-ymddiried ni. Dyma Pedr, yr apostol mawr, yn cael ei ddarostwng drwy forwynig. 2. Gwelwn mòr naturiol y mae un pechod yn arwain i bechod arall. Dyma Pedr yn gyntaf yn dywedyd celwydd; ac o gelwydd yn myned i regu a thyngu. 3. Gwelwn mòr angenrheidiol yw i'r neb a fyno gilio rhag pechod, gilio hefyd o gymdeithas pechaduriaid. Cyfaill ydwyf fi (ebe Dafydd) i'r rhai oll a'th ofnant. 4. Gwelwn mòr fuddiol yw geiriau Duw erbyn yr amser a ddaw; er nad ydym yn bresenol yn meddwl fawr am danynt. "A Phedr a gofiodd y gair." 5. Gwelwn mòr wahanol yw pechu y saint a phechu yr annuwiolion, o ran y canlyniad. Mae Judas yn pechu, yn edifarâu, ac yn ymgrogi. Mae Pedr yn pechu, yn myned allan, ac yn wylo yn chwerw dost. Edifarâodd Judas i farwolaeth: edifarâodd Pedr i fywyd.

PEN XV.

Dwyn yr Iesu yn rhwym, ac achwyn arno ger bron Pilat, &c.

AC [a] yn y fan y bore, yr ymgynghorodd yr arch-offeiriaid gyd â'r henuriaid a'r ysgrifenyddion, * a'r holl gynghor: ac wedi iddynt † rwymo yr Iesu, hwy a'*i* dygasant *ef* ymaith, [b] ‡ ac a'*i* traddodasant at Pilat.

a Salm 2. 2. Mat. 27. 1, 2. Luc 22. 66. Act. 4. 5, 6, 25—28. b pen. 10. 33, 34, Mat. 20. 18, 19. Luc 18. 32, 33. a 23. 1, 2. Ioan 18. 28. Act. 3. 13.

* Yr "holl gyngor" hwn oedd y senedd fawr, sef *sanhedrim*, yn Jerusalem. Buont wrthi drwy y nos, a chwedi ychydig seibiant, daethant holl yn nghyd yn bore: "yn y *fân* y bore;" sef yn fore iawn. † Yr oedd ynt hwy wedi euog-farnu yr Iesu cyn belled ag yr oedd awdurdod ganddynt *hwy*, ac felly yn ei "rwymo" ef fel drwg-weithredwr euog. ‡ Gan fod yr Iuddewon yn awdurdod lywodraeth y Rhufeiniaid, nid oedd ganddynt awdurdod i roddi Iesu i farwolaeth heb i Pilat hefyd osod rhyw rith o gollfarn arno. Traddodasant hwy ef i'r Rhufeiniaid, ac am y weithred hòno, traddododd Duw hwythau i'r Rhufeiniaid wedi hyny. Rhoddwyd ef yn rhwym yn anghyfiawn ger bron barnwr daearol fel y rhyddhêid ei bobl yn gyfiawn ger bron brawdle Duw, ac yn ngŵydd ei angelion ef.

2 A gofynodd Pilat iddo, [c] Ai ti yw Brenhin yr Iuddewon? Yntau a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Yr wyt ti yn dywedyd.

c Mat. 2. 2. a 27. 11. Luc 23. 3. Ioan 18. 33—37. a 19. 19—22. 1 Tim. 6. 13.

3 A'r [d] arch-offeiriaid a'i cyhuddasant ef o lawer o bethau: [e] eithr nid attebodd efe ddim.

d Mat. 27. 12. Luc 23. 2—5. Ioan 18. 29—31. a 19. 6, 7, 12. e adn. 5. pen. 14. 60, 61. Es. 53. 7.

4 A Philat drachefn a ofynodd iddo, gan ddywedyd, [f] Onid attebi di ddim? wele faint o bethau y maent yn eu tystiolaethu yn dy erbyn.

f Mat. 26. 62. a 27. 13. Ioan 19. 10.

5 * Ond yr Iesu etto nid attebodd ddim; fel y [g] rhyfeddodd Pilat.

g Salm 71. 7. Es. 8. 18. Zec. 3. 8. Mat. 27. 14. 1 Cor. 4. 9.

6 Ac [h] ar yr wyl *honno* y gollyngai efe yn rhydd iddynt un carcharor, yr hwn a ofynent iddo.

h Mat. 26. 2, 5. a 27. 15. Luc 23. 16, 17. Ioan 18. 39, 40. Act. 24. 27. a 25. 9.

7 Ac [i] yr oedd *un* a elwid Barrabas, yr hwn oedd yn rhwym gyd â'i gyd-derfysgwyr, y rhai yn y derfysg a wnaethent lofruddiaeth.

i Mat. 27. 16. Luc 23. 18, 19, 25.

8 A'r dyrfa gan groch-lefain, a ddechreuodd ddeisyf *arno wneuthur* fel y gwnaethai bob amser iddynt.

9 A Philat a attebodd iddynt, gan ddywedyd, [k] A fynnwch chwi i mi ollwng yn rhydd i chwi Frenhin yr Iuddewon?

k Mat. 27. 17—21. Ioan 18. 39. a 19. 4, 5, 14—16. Act. 3. 13—15.

10 (Canys efe a wyddai mai o genfigen y traddodasai yr arch-offeiriad ef)

l Gen. 4. 4—6. a 37. 11. 1 Sam. 18. 8, 9. Diar. 27. 4. Preg. 4. 4. Mat. 27. 18. Iago 3. 14—16. a 4. 5. 1 Ioan 3. 12.

11 [m] † A'r arch-offeiriaid a gynhyrfasent y bobl, fel y gollyngai efe yn hytrach Barabbas yn rhydd iddynt.

m Hos. 5. 1. Mat. 27. 20. Ioan 18. 40.

12 A Philat a attebodd ac a ddywedodd drachefn wrthynt, [n] Beth gan hynny a fynnwch i mi ei wneuthur *i'r hwn* [o] yr ydych yn ei alw Brenhin yr Iuddewon?

n Mat. 27. 22, 23. Luc 23. 20—24. Ioan 19. 14—16. o adn. 1, 2. pen. 11. 9—11. Salm 2. 6, 7. Es. 9. 6, 7. Jer. 23 5, 6. Zec. 9. 9. Mat. 2. 2—4. a 21. 5. Luc 23. 2.

13 A hwythau a lefasant drachefn, Croeshoelia ef.

14 † Yna Pilat a ddywedodd wrthynt, [p] Ond pa ddrwg a wnaeth efe? [q] A hwythau a lefasant fwy-fwy, Croeshoelia ef.

o Es. 53. 9. Mat. 27. 4, 19, 24, 54. Luc 23. 4, 14, 15, 21, 22, 41. Ioan 18. 38. a 19. 6. Heb. 7. 26. 1 Pedr 1. 19. q Salm 69. 4. 53. 3. Mat. 27. 23—25. Luc 23. 23, 24. Ioan 19. 12—15. Act. 3—57. a 19. 34. a 22. 22, 23.

55 ¶ A Philat r yn chwennych boddloni y l, a ollyngodd yn rhydd iddynt Barabbas; Iesu, s wedi iddo *ei* fflangellu, a draddododd i'w groeshoelio.

r Diar. 29. 25. Es. 57. 11. Mat. 27. 26. Luc 23. 24, 25. Ioan 6. Act. 24. 27. a 25. 9. Gal. 1. 10. s pen. 10. 34. Salm 129. 3. 50. 6. Mat. 20. 19. a 27. 26. Luc 18. 33. Ioan 19. 1. 1 Pedr

56 t A'r milwyr a'i dygasant ef i fewn y , a elwir u ‡ Pretorium: a hwy a alwasant hyd yr holl fyddin.

t Mat. 27. 27. u Ioan 18. 28, 33. a 19. 9.

57 Ac x a'i gwisgasant ef â phorphor, ac a hasant goron o ddrain, ac a'i dodasant am en;

x Mat. 27. 28—30. Luc 23. 11. Ioan 19. 2—5.

58 Ac a ddechreuasant gyfarch iddo, y Hen- ih well, Brenhin yr Iuddewon.

y adn. 29—32. Gen. 37. 10, 20. Mat. 27. 42, 43. Luc 23. 36, 37. 19. 14, 15.

59 A z hwy a gurasant ei ben ef â chorsen, a boerasant arno, a a chan ddodi *eu* gliniau wr, || a'i haddolasant ef.

z pen. 9. 12. a 14. 65. Job 30. 8—12. Salm 22. 6, 7. a 35. 15— 69. 12, 19, 20. Es. 49. 7. a 50. 6. a 52. 14. a 53. 3—5. Mica 5. at. 20. 18, 19. Luc 18. 32, 33. Heb. 12. 2, 3. a 13. 13. a Gen. 3. a 43. 28. 1 Bren. 19. 18. Esther 3. 2—5. Es. 14. 23. Rhuf. a 14. 10, 11. Phil. 2. 10.

60 Ac wedi iddynt ei watwar ef, hwy a osgasant y porphor oddi am dano, ac a'i sgasant ef â'i ddillad ei hun, b ac a'i dygas- allan i'w groeshoelio.

o Mat. 27. 31. Ioan 19. 16.

wel ar Matth. 27. 2, 3, 4, &c. * Nid atebodd ddim "Yr wyt ti yn dywedyd," adn. 2. Neu, yr Iesu mwy- nid atebodd ddim: yr oedd efe wedi ateb unwaith hyn, yn adn. 2, ond nid atebodd efe ddim ar ol w: nid atebodd ychwaneg, meddant yw ystyr y eg. † Heblaw bod Barabbas yn ddyn nodedig o rgionus bob amser, yr oedd efe wedi bod yn euog drwg pennodol hwnw y cam-gyhuddent hwy Iesu o o; sef blaenori torf mewn gwrthryfel yn erbyn y feiniaid, a chwedi gwneyd llofruddiaeth yn yr ym- h. Eto, dewiswyd y dyn hwn i'w ollwng yn rhydd, ytrach na'r Iesu daionus a sanctaidd! Llys lle yr rai y swyddog Rhufeinig a elwid *Pretor*, eistedd i roddi a ar achosion a ddygid ger ei fron ef: *Praitôrion* yw nir uchod yn y Groeg, yn ol y Lladin y mae genym || Er y byddid yn addoli emprwyr Rhufain yn aml, ystyr fanylaf y gair; mae yn ddiammau mai mewn wd yr oedd y milwyr yn addoli ein Harglwydd yma. i ni sylwi ar yr hanes uchod eisoes yn Matthew, gwnawn yma ond crybwyll rhyw ychydig bethau edin. 1. Gwelwn pa gymmaint mwy o diriondeb a odd Iesu gan bagan cenedlig, nac a gafodd efe gan rch-offeiriad Iuddewig: ac nid tiriondeb yn unig, cyfiawnder hefyd. 2. Gwelwn pa mòr ofalus y bu t ar ei wyliadwriaeth, i beidio a dywedyd dim gyhuddo ei hun. 3. Gwelwn ddrygioni ofnadwy yr iriaid hyn, yn dewis terfysgwr a llofrudd o flaen dyn wed. 4. Gwelwn wendid calon lygredig, yn methu âl yn ngwyneb profedigaeth gyffredin. Gwyddai t mai diniwed oedd Crist, ac mai o genfigen yr lid yn ei erlid; ac eto yr oedd mòr wael ag ofni uasai yr Iuddewon yn ei gam-gyhuddo ef wrth orwr Rhufain. 5. Gwelwn mai y mater ar ba un ndemniwyd Crist oedd, ei grybwylliad am ei fren- eth ysbrydol, yn ac ar ei eglwys: oblegid efe a odd bob hawl i bob rhyw freniniaeth ddaearol yn ar ger bron Pilat, fel y sonir gan yr efengylwyr ll. 6. Gwelwn mòr gywir y mae geiriau Crist, trwy drefn rhagluniaeth Duw, yn cael eu cyflawni. Efe a ddywedodd y traddodid ef i'r Cenedloedd, y gwatworid ef, y poerid arno, y fflangellid ef, ac y lleddid ef: yn awr dyma hyny oll yn cael eu cyflawni. 7. Gwelwn fel y gwnaeth Iesu ein holl ddyfroedd chwerwon ni yn felus. Efe a sancteiddiodd bob croes, ac a dynodd y felltith o honynt. Meddyginiaeth i ni ydynt oll; ac os dyoddefwn, ni a deyrnaswn hefyd gydag ef.

21 A c hwy a gymhellasant un Simon d o Cyrene, yr hwn oedd yn myned heibio, wrth ddyfod o'r wlad, * *sef* tad † Alexander e a Ruphus, f i ddwyn ei groes ef.

c Mat. 27. 32. Luc 23. 26. d Act. 2. 10. a 6. 9. a 11. 20. a 13. 1. e Rhuf. 16. 13. f Luc 14. 27. Ioan 15. 18—20.

22 A hwy a'i harweiniasant ef i le *a elwid* g Golgotha; yr hyn o'i gyfieithu yw, Lle y benglog:

g Mat. 27. 33. Luc 23. 27—33. Ioan 19. 17.

23 Ac h a roisant iddo i'w yfed ‡ win myrllyd: i eithr efe nis cymmerth.

h Mat. 27. 34. Luc 23. 36. Ioan 19. 28—30. i pen. 14. 25. Mat. 26. 29. Luc 22. 18.

24 Ac wedi iddynt ei k groeshoelio, l hwy a rannasant ei ddillad ef, gan fwrw coelbren arnynt, beth a gai pob un.

k Deut. 21. 23. Salm 22. 16, 17. Es. 53. 4—8. Act. 5. 30. 2 Cor. 5. 21. Gal. 3. 13. 1 Pedr 2. 24. l Salm 22. 18. Mat. 27. 35, 36. Luc 23. 34. Ioan 19. 23, 24.

25 || A'r m drydedd awr oedd hi, a hwy a'i croeshoeliasant ef.

m adn. 33. Mat. 27. 45. Luc 23. 44. Ioan 19. 14. Act. 2. 15.

26 § Ac n yr oedd ysgrifen ei achos ef wedi ei hargraphu, o BRENHIN YR IUDDEWON.

n Deut. 23. 5. Salm 76. 10. Diar. 21. 1. Es. 10. 7. a 46. 10. o Salm 2. 6. Zec. 9. 9. Mat. 2. 2. a 27. 37. Luc 23. 37, 38. Ioan 19. 18—22.

27 A p hwy a groeshoeliasant gyd âg ef ddau leidr; un ar y llaw ddehau, ac un ar yr aswy iddo.

p Mat. 27. 38. Luc 23. 32, 33. Ioan 19. 18.

28 A'r q ysgrythyr a gyflawnwyd, yr hon a ddywed, Ac efe a gyfrifwyd gyd â'r rhai anwir.

q Es. 53. 12. Luc 22. 37. Heb. 12. 2.

29 A'r r rhai oedd yn myned heibio a'i cablasant ef, gan ysgwyd eu pennau, a dywedyd, s Och, tydi yr hwn wyt yn dinystrio y deml, ac yn *ei* hadeiladu mewn tridiau,

r Salm 22. 7, 8, 12—14. a 35. 15—21. a 69. 7, 19, 20, 26. a 109. 25. Galar. 1. 12. a 2. 15. Mat. 27. 39, 40. s pen. 14. 58. Gen. 37. 19, 20. Mat. 26. 61. Ioan 2. 18—22.

30 Gwared dy hun, a disgyn oddi ar y groes.

31 Yr un ffunud t yr arch-offeiriaid hefyd yn gwatwar, a ddywedasant wrth eu gilydd, gyd â'r ysgrifenyddion, u Eraill a waredodd, ei hun nis gall ei wared.

t Salm 2. 1—4. a 22. 16, 17. Mat. 27. 41—43. Luc 23. 35—37. u Ioan 11. 47—52. a 12. 23, 24. 1 Pedr 3. 17, 18.

32 x Disgyned Crist, Brenhin yr Israel, yr awrhon oddi ar y groes, fel y gwelom, ac y credom. y A'r rhai a groeshoeliesid gyd âg ef, a'i difenwasant ef.

x pen. 14. 61, 62. Es. 44. 6. Zeph. 3. 15. Zec. 9. 9. Ioan 1. 49. a 12. 13. a 19. 12—15. a 20. 25—29. y Mat. 27. 44. Luc 23. 39—43

Gwel ar Matth. 27. 32, &c. * Mae rhai yn sylwi, lle byddo yr ysgrythyr yn dynodi y *tad* wrth y *mab*, neu y *meibion*, fod rhyw enwogrwydd yn y *mab* neu y *meibion*, mwy nac yn y tad. Tybir mai pagan oedd Simon

ei hun, ond am hyny nid oes sicrwydd. † Efallai mai yr Alexander hwn a grybwyllir yn Act. 19. 33; yr hwn a erlidiwyd gan yr Iuddewon; ac mai y Ruphus hwn yw yr hwn mae Paul yn ei gyfarch yn Rhuf. 16. 13, gan ei alw yn "etholedig yn yr Arglwydd." Bernir mai yn Rhufain yr ysgrifenodd Marc ei efengyl, a bod Alexander a Ruphus yno yn yr amser hwnw; ac iddo ef eu henwi hwy fel rhai a allent ddwyn tystiolaeth am wirionedd y rhan hon o'r hanes. ‡ "Gwinegr yn gymmysgedig â bustl" a ddywed Matthew 27. 34. Dywedir y byddai gwragedd anrhydeddus yn Jerusalem yn darpar rhyw gymmysglyn o'r fath hyn i'w roddi i ddrwg-weithredwyr pan fyddent yn myned i ddyoddef, er lleiâu eu poenau drwy ferwino eu teimladau: ond ni fynai yr Iesu mo hôno; gan ei fod yn myned i yfed cwpan chwerw digofaint ei Dad am ein pechodau ni, ni fynai ddim i farweiddio ei deimladau er lliniaru ei boenau. Tybir mai mewn tosturi y rhoddwyd y gwin myrllyd hwn iddo, gan ei gyfeillion; ac mai mewn gwawd a chreulondeb y rhoddwyd y gwinegr yn gymmysgedig â bustl, yn Matthew, iddo, gan ei elynion. Gwel y sylwadau ar Matth. 27. 34. ‖ "Ac yn nghylch y chwched awr," medd Ioan 19. 14. Y drydedd awr y galwai yr Iuddewon yr holl amser o naw o'r gloch y bore hyd ddeuddeg. Gwel ar Matth. 27. 45. § Dywedir hyn yn ol arfer y Rhufeiniaid o osod trosedd y drwg-weithredwr yn ysgrifenedig ar astell, i'w dwyn o'i flaen ef i'r dienyddle, neu ei hoelio wrth y pren dyoddef.

33 A [z] phan ddaeth y chwched awr, * y bu [a] tywyllwch ar yr holl ddaear hyd y nawfed awr.

z adn. 25. Mat. 27. 45. Luc 23. 44, 45. a Salm 105. 28. Es. 50. 3, 4. Amos 8. 9, 10.

34 Ac [b] ar y nawfed awr y dolefodd yr Iesu â † llef uchel, gan ddywedyd, [c] ‡ Eloi, Eloi, lama sabachthani? yr hyn o'i gyfieithu yw, Fy Nuw, fy Nuw, [d] ‖ paham y'm gadewaist?

b Dan. 9. 21. Luc 23. 46. Act. 10. 3. c Salm 22. 1. Mat. 27. 46. Heb. 5. 7. d Salm 27. 9. a 42. 9. a 71. 11. Es. 41. 17. Galar. 5. 20.

35 A rhai o'r rhai a safent ger llaw, pan glywsant, a ddywedasant, Wele, [e] y mae efe yn galw ar Elias.

e pen. 9. 11—13. Mat. 17. 11—13. a 27. 47—49.

36 Ac un a redodd, [f] ac a lanwodd yspwng yn llawn o finegr, ac a'i dododd ar gorsen, ac a'i diododd ef, gan ddywedyd, Peidiwch, edrychwn a ddaw Elias i'w dynnu ef i lawr.

f adn. 23. Salm 69. 21. Luc 23. 36. Ioan 19. 28—30.

37 A'r [g] Iesu a lefodd â llef uchel, ac a ymadawodd â'r yspryd.

g Mat. 27. 50. Luc 23. 46. Ioan 19. 30.

38 A [h] llen y deml a rwygwyd yn ddwy, oddi fynu hyd i waered.

h Ex. 26. 31—34. a 40. 20, 21. Lef. 16. 2, &c. 2 Cron. 3. 8—14. Mat. 27. 51—53. Luc 23. 45. Heb. 4. 14—16. a 6. 19. a 9. 3—12. a 10. 19—23.

39 A phan [i] welodd y canwriad, yr hwn oedd yn sefyll ger llaw gyferbyn âg ef, ddarfod iddo, yn llefain felly ymado â'r yspryd, [k] efe a ddywedodd, Yn wir Mab Duw oedd y dyn hwn.

i adn. 44. Mat. 8. 5—10. Act. 10. 1, 2. a 27. 1—3, 43. k Mat. 27. 43, 54. Luc 23. 47, 48.

40 Ac yr oedd hefyd [l] wragedd yn edrych o hirbell: ym mhlith y rhai yr oedd [m] Mair Magdalen, a [n] Mair mam Iago fychan, a Jose, [o] a Salome;

l Salm 38. 11. Mat. 27. 55, 56. Luc 23. 49. Ioan 19. 25—27. m pen. 16. 9. Mat. 28. 1. Luc 8. 2. Ioan 20. 11—18. n adn. 47. pen. 16. 1. Mat. 13. 55. a 27. 55, 61. Ioan 19. 25. 1 Cor. 9. 5. Gal. 1. 19. Iago 1. 1. o pen. 16. 1.

41 Y rhai hefyd, pan oedd efe yn Galilea, a'i dilynasent ef, ac [p] a weiniasent iddo; gwragedd eraill lawer, y rhai a ddaethent gyda'g ef i fynu i Jerusalem.

p Mat. 27. 56. Luc 8. 2, 3.

* Yr oedd digofaint Duw, wrth ddïal ein pechodau ni, ar ein Machnïydd, yn cael ei ddangos yn ofnadwy yn tywyllwch erchyll hwn. Am y geiriau "ar yr holl ddaear," gwel ar Matth. 27. 45. † Dyma Fab Duw yn ei ymdrech nerthol â satan, â phechod, ac âg angeu; oll wedi eu harfogi â melltith ofnadwy Duw; ei gorph yn grogedig ar y groes, yn orthrymedig gan annhraethol arteithiau, a'i enaid megys yn soddi i ddyfnderoedd uffern; wele ef yn dolefain â llef uchel: ac er iddo gael clwyf gan angeu, fel ag yr amddifadwyd ef o fywyd an ychydig; eto trwy daraw pethau uchod a phethau isod trwy rwygo llèn y deml, a mynu tystiolaeth o'i blaid enau ei ddienyddwyr; mae efe megys yn tystiolaethu i'w elynion, y rhai oedd o hyd yn parâu yn galed ac yn ei watwar ef, y dangosai efe ei hun yn Fuddugoliaethwr yn fuan iawn. Nid aml y clywyd neb erioed yn dolefain â llef uchel wrth farw; ond pan oedd Iesu yn wâr yr oedd yn gadarn: a hyn a barodd i'r canwriad dystiolaethu "yn wir Mab Duw oedd y dyn hwn!" Am ddywedyd mai Mab Duw oedd, y croeshoeliwyd Iesu, ac yn awr dyma y canwriad yn tystio yr un peth wedi ei groeshoelio. Cywilyddied y rhai a wadant ei wir Dduwdod a'i wir Faboliaeth ef. ‡ Mae Matthew yn rhoddi yr Hebraeg, Eli; a Marc yn rhoddi y Syriaeg-Caldêaidd, Eloi, ond yr un yw y gair. ‖ Pa ham y'm gadewaist yn y fath ddwylaw medd rhai, yn amddifad o bob cysur medd eraill: gwel helaethach sylwadau ar Matth. 27. 46.

42 ¶ Pan [q] ydoedd hi weithian yn hwyr, (am ei bod hi yn ddarpar-wyl, sef y dydd cyn y sabbath)

q Mat. 27. 57, 62. Luc 23. 50—54.

43 Daeth Joseph o Arimathea, [r] * cynghorwr pendefigaidd, [s] yr hwn oedd yntau yn disgwyl am deyrnas Dduw; [t] ac a aeth yn † hyf i mewn at Pilat, ac a ddeisyfodd gorph yr Iesu.

r pen. 10. 23—27. s Luc 2. 25, 38. a 23. 51. t pen. 14. 54, 66, &c. Mat. 19. 30. a 20. 16. Act. 4. 8—13. Phil. 1. 14.

44 ‡ A [u] rhyfedd oedd gan Pilat o buasai efe farw eisoes: ac wedi iddo alw y canwriad atto, ‖ efe a ofynodd iddo a oedd efe wedi marw eisoes meityn.

u Ioan 19. 31—37.

45 A phan wybu gan y canwriad, [x] efe a roddes y corph i Joseph.

x Mat. 27. 58. Ioan 19. 38.

46 Ac efe a brynodd lïan main, [y] ac a'i tynnodd ef i lawr, ac a'i hamdôodd yn y llïan main, [z] ac a'i dododd ef mewn bedd [a] § a naddasid o'r graig; [b] ac a dreiglodd faen ar ddrws y bedd.

y Mat. 27. 59, 60. Luc 23. 53. Ioan 19. 38—42. z Es. 53. 9. a Es. 22. 16. b pen. 16. 3, 4. Mat. 27. 60. a 28. 2. Ioan 11. 38.

47 A [c] Mair Magdalen a Mair mam Jose, a edrychasant pa le y dodid ef.

c adn. 40. pen. 16. 1. Mat. 27. 61. a 28. 1. Luc 23. 55, 56. a 24. 1, 2.

* Aelod o'r Senedd, neu gynghorlys uwchaf y genedl Iuddewig. Dywed Luc 23. 51, na chytunasai Joseph â'u cyngor ac â'u gweithred hwynt: wrth hyny rhaid efe fod yn un yn y cyngor, heb hyny nis gallasai anghytuno. † Rhaid bod hyfdra Joseph yn fawr iawn; oblegid wrth ofyn corph yr Iesu, nis gallasai lai na'i ddangos ei hun yn groes i'r holl Iuddewon yn gyhoeddus: ac hyd yn nod i Pilat ei hun. ‡ Buasai yr Iesu chwech awr o leiaf ar y groes, mewn poen dirfawr; ac mae yn rhyfedd gan

os bu efe farw eisoes. Byddai rhai yn byw ddeu-
ld neu dri, meddant; ond yr oedd Iesu wedi gorphen
iaith. ‖ Yr oedd gofal manwl Pilat am sicrwydd o
olaeth Crist, yn cauad allan bob dadl yn nghylch ei
rancedigaeth ef wedi hyny. Heb hyn, gallasai yr
ewon daeru nad oedd efe ddim wedi gwir farw, ac
gwadu ei adgyfodiad gwirioneddol o feirw. Nid
dim hanes i neb o honynt byth gynnyg taeru na bu
ddim marw yn wirioneddol. § Neu mewn craig:
feriad yr Iuddewon, a'r rhan fwyaf o'r Cenedloedd
einiol, oedd darpar eu beddau mewn creigiau. Am
eddill o'r adnodau hyn, gwel Matth. 27. 57—61.

PEN. XVI.

Angel yn mynegi adgyfodiad Crist, &c.

OC [a] wedi darfod y *dydd* sabbath, [b] Mair
Magdalen, a Mair *mam* Iago, a Salome,
brynasant [c] ber-aroglau, i ddyfod i'w en-
nio ef.

a pen. 15. 42. Mat. 28. 1. Luc 23. 54, 56. a 24. 1. Ioan 19. 31.
1. b pen. 15. 40, 47. Luc 24. 10. Ioan 19. 25. c pen.
. 8. 2 Cron. 16. 14. Ioan 19. 40.

Prynasant y per-aroglau yr hwyr cyn dechreu y
ath, yn union wedi gorphen claddu, Luc 23. 55,
ond tybir wrth yr adnod hon, iddynt brynu ychwan-
ilwaith wedi darfod y sabbath, sef wedi machlud
. Rhai a ganlynasent yr Iesu o Galilea oedd y
agedd da hyn, wrth weled ei gladdu ef mewn brys
y sabbath, ac heb iddo gael ei ber-arogli a'i enein-
mewn modd dyladwy, meddyliasant wneyd hyny
well wedi diwedd y sabbath; ond erbyn dyfod at
edd ar yr amcan da hwn, yr oedd ef wedi codi
fyw, ac yn anllygredig hefyd, heb eu per-aroglau

2 * Ac [d] yn fore iawn, y *dydd* cyntaf o'r
hnos, y daethant at y bedd, a'r haul wedi
i.

d Mat. 28. 1. Luc 24. 1. Ioan 20. 1.

"Yn fore iawn—a'r haul wedi codi," medd Marc
. "A hi yn dyddâu," medd Matthew 28. 1. "Ar
uddydd," medd Luc 24. 1. "A hi eto yn dywyll,"
d Ioan 20. 1. Cychwynasant pan oedd hi eto
dywyll, efallai; a daethant at y bedd gyda bod yr
ll yn dechreu codi. Ond gwel ar Matth. 28. 1.

3 A hwy a ddywedasant wrth eu gilydd,
Pwy a dreigla i ni y maen ymaith oddi
h ddrws y bedd?

e pen. 15. 46, 47. Mat. 27. 60—66.

4 † (A phan edrychasant, [f] hwy a ganfuant
y maen wedi ei dreiglo ymaith) canys yr
d efe yn fawr iawn.

f Mat. 28. 2—4. Luc 24. 2. Ioan 20. 1.

Nis gwyddent hwy ddim am y wyliadwriaeth a'r sel
maen; gwnaed hyn ar y dydd sabbath (Matth. 27.
—66.) yn ddiarwybod iddynt hwy. Pe buasent yn
bod am hyny, buasai eu gofid yn fwy. † Ond yr oedd
uwystr a wyddent, a'r rhwystrau ni wyddent hefyd,
i cael eu symmud ymaith erbyn iddynt hwy ddyfod

5 Ac [g] wedi iddynt fyned i mewn i'r bedd,
wy a welsant [h] fab ieuangc yn eistedd o'r
dehau, wedi ei ddilladu â gwisg wenllaes;
a ddychrynasant.

g Luc 24. 3. Ioan 20. 8. h Dan. 10. 5, 6. Mat. 18. 3
m. 6. 49, 60. Dan. 8. 17. a 10. 7—9, 12. Luc 1. 12, 29, 30.

6 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [k] Na ddy-
rynwch. [b] Ceisio yr ydych yr [m] Iesu o
azareth, yr hwn a groeshoeliwyd: [n] efe a
fododd; nid yw efe yma: wele y man y
llasant ef.

k Mat. 14. 26, 27. a 28. 4, 5. Dat. 1. 17, 18. 1 Salm 105.
3, 4. Diar. 8. 17. m Ioan 19. 19, 20. Act. 2. 22, 23. a 4. 10. a
10. 38—40. n pen. 9. 9, 10. a 10. 34. Mat. 12. 40. a 28. 6, 7.
Luc 24. 4—8, 20—27, 46. Ioan 2. 19—22. 1 Cor. 15. 3—7.

7 Eithr ewch ymaith, [o] dywedwch i'w ddis-
gyblion ef, ac i † Pedr, ei fod ef yn myned
o'ch blaen chwi i Galilea: [p] yno y cewch ei
weled ef, fel y dywedodd i chwi.

o pen. 14. 50, 66—72. Mat. 28. 7. 2 Cor. 2. 7. p pen. 14.
28. Mat. 26. 32. a 28. 10, 16, 17. Ioan 21. 1. Act. 13. 31. 1 Cor.
15. 5.

8 Ac [q] wedi myned allan ar frys, hwy a
ffoisant oddi wrth y bedd; [r] canys dychryn a
syndod oedd arnynt. [s] Ac ni ddywedasant
ddim wrth neb: canys yr oeddynt wedi ofni.

q Mat. 38. 8. Luc 24. 9—11, 22—24. r adn. 5, 6. Luc 24.
37. s 2 Bren. 4. 29. Luc 10. 4.

* Dywed Luc a Ioan iddynt weled dau angel, nid
yw Matthew a Marc yn crybwyll ond am un. Yr oedd
yr angel yn ymddangos fel dyn, ac fel mab ieuanc, wedi
ei ddilladu mewn gwisg wen-llaes, arwydd o burdeb a
diniweidrwydd; ond mae yn debyg fod ei ymddangosiad
i'r milwyr yn llawer mwy mawreddus a dychrynadwy.
Dywed Matthew iddo eistedd ar y maen: efallai iddynt
ei weled ar y maen ac yn y bedd hefyd, mae symmud-
iadau angelion yn gyflym iawn, ac yn anghanfodadwy
i'n llygaid ni. Ymddangosodd yr angel felly i'r gwrag-
edd fel na ddychrynai hwynt, a chan mai adrodd ei
ymddiddan ef â'r gwragedd oedd unig amcan Matthew
a Marc, nid ydynt yn crybwyll ond am un o'r ddau
a grybwyllir gan Luc a Ioan. † Wrth gysuro a chyfar-
wyddo y gwragedd hyn mae yr angel yn crybwyll Pedr
wrth ei enw, rhag y buasai efe yn tybied ei fod wedi
cael ei wrthod am wadu ei Arglwydd. Ac yn enwedig i
Pedr, medd un gwr, rhag ei lyncu ef gan ormod tristwch,
herwydd gwadu ei Arglwydd. ‡ Teimlad y gwragedd
oedd dychryn a syndod, ond buan y trôdd i lawenydd a
syndod.

9 ¶ A'r *Iesu*, wedi adgyfodi y bore [t] y *dydd*
cyntaf o'r wythnos, [u] a ymddangosodd yn
gyntaf i * Mair Magdalen, [x] o'r hon y bwriasai
efe allan † saith o gythreuliaid.

t Ioan 20. 19. Act. 20. 7. 1 Cor. 16. 2. Dat. 1. 10. u pen.
15. 40, 47. Luc 24. 10. Ioan 20. 14—18. x Luc 8. 2.

10 ‡ Hithau a aeth ac a fynegodd i'r rhai a
fuasent gyd âg ef, [y] ac oeddynt mewn galar ac
wylofain.

y pen. 14. 72. Mat. 9. 15. a 25. 75. Luc 24. 17. Ioan 16. 6,
20—22.

11 ‖ A hwythau, pan glywsant ei fod ef yn
fyw, ac iddi hi ei weled ef, [z] ni chredent.

* Tybir mai oddi wrth le ei genedigaeth, neu ei
phreswylfod, y gelwir y wraig dduwiol hon Mair Mag-
dalen, sef Mair o Magdala; fel y gelwir Iesu o Nazareth
yn Nazaread, Matth. 2. 23. † Tybia rhai mai fel cosp
am ei phechodau yn ei hieuenctid y goddefwyd i'r
cythreuliaid feddiannu Mair; ond nid oes yr un sail i
feddwl hyny am dani hi mwy nac am eraill a feddiennid
gan gythreuliaid. Tybir hefyd gan lawer mai hi oedd
y "bechadures" a sonir yn Luc 7. 36—50, ond yr
un mòr ddisail â'r peth arall. ‡ Rhaid i hyn ddygwydd
cyn dychweliad y gwragedd eraill oddi wrth y bedd;
oblegid ymddangosodd yr Iesu iddynt hwythau hefyd ar
y ffordd, Matth. 28. 9, 10. ‖ Mae y galar hwn a pheidio
credu Mair, yn dangos leied a ddaliasai yr apostolion
ar yr hyn a ddywedasai Crist am ei adgyfodiad, ac hefyd
leied oeddynt hwy yn ddisgwyl am iddo adgyfodi.

12 ¶ Ac wedi hynny [a] yr ymddangosodd
efe * mewn gwedd arall i ddau o honynt, *a*
hwynt yn ymdeithio, ac yn myned i'r wlad.

z adn. 13, 14. pen. 9. 19. Ex. 6. 9. Job 9. 16. Luc 24. 11, 23
—35.

13 A [b] hwy a aethant ac a fynegasant i'r
lleill: [c] ac ni chredent iddynt hwythau.

a Luc 24. 13—32.

b Luc 24. 33—35. c Luc 16. 31. Ioan 20. 8, 25.

Cawn hanes helaeth iawn am yr ymddangosiad hwn yn Luc 24. 13—36. * Gwelodd ein Harglwydd yn dda i newid ei wedd y tro hwn, fel na wybyddai y ddau ddysgybl am ychydig pwy ydoedd. Yr achos oedd, cael ymddiddan â hwynt; fel yr adroddir yn Luc. Ond pa fath oedd y wedd arall hon, nis gallwn ni wybod: nid mwy gogoneddus o lawer nâ chynt ydoedd, debygem, pe amgen nis gallasai y ddau ddysgybl ddàl yr olwg arno.

14 ¶ * *Ac* ar ol hynny [d] efe a ymddangosodd i'r un ar ddeg, a hwy yn eistedd i fwytta; [e] ac a ddannododd iddynt eu [f] hanghrediniaeth, a'u calon-galedwch, † am na chredasant y rhai a'i gwelsent ef wedi adgyfodi.

d Luc 24. 36—43. Ioan 20. 19, 20. e pen. 7. 18. a 8. 17, 18. Mat. 11. 20. a 15. 16, 17. a 16. 8—11. a 17. 20. Luc 24. 25, 38, 39. Ioan 20. 27, Dat. 3. 19. f Num. 14. 11. Salm 95. 8—11. Heb. 3. 7, 8, 15—19.

* Mae yn debyg mai dyma yr ymddangosiad a grybwyllir yn Luc 24. 36. a Ioan 20. 19. Gwel y nodau yno, os felly nid oedd ond deg yn nghyd, oblegid yr oedd Thomas yn absenol y tro hwnw. Crybwyllir yr apostolion oll, er bod un o honynt yn eisiau y tro hwnw. Ond tybia eraill mai rhyw ymddangosiad ar ol noson ei adgyfodiad a feddylir yma. † "Efe a ddannododd iddynt:" nid yn unig am na chredasent ei rag-ddywediadau ef cyn iddo farw, yr adgyfodai, ond yn benaf am na chredasent dystiolaeth y rhai a'i gwelsent ef *wedi* adgyfodi.

15 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [g] * Ewch [h] i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur.

g Mat. 10. 5, 6. a 28. 19. Luc 14. 21—23. a 24. 47, 48. Ioan 20. 21. 1 Ioan 4. 14. h pen. 13. 10. Salm 22. 27. a 67. 1, 2. a 96. 3. a 98. 3. Es. 42. 10—12. a 45. 22. a 49. 6. a 52. 10. a 60. 1—3. Luc 2. 10, 11, 31, 32. Act. 1. 8. Rhuf. 10. 18. a 16. 26. Eph. 3. 17. Col. 1. 6, 23. Dat. 14. 6.

16 † Y neb [i] a gredo ac [k] a fedyddier a fydd cadwedig: [l] eithr y neb ni chredo a gondemnir.

i pen. 1. 15. Luc 8. 12. Ioan 1. 12, 13. a 3. 15, 16, 18, 36. a 5. 24. a 6. 29, 35, 40. a 7. 37, 38. a 11. 25, 26. a 12. 46. a 20. 31. Act. 10. 43. a 13. 39. a 16. 31. Rhuf. 3. 26. a 4. 24. Heb. 10. 38, 39. 1 Pedr 1. 21. 1 Ioan. 5. 10—13. k Mat. 28. 19. Act. 2. 38, 41. a 8. 36—39. a 22. 16. Rhuf. 10. 9—14. 1 Pedr 3. 21. l Ioan 3. 18, 19, 36. a 8. 24. a 12. 47, 48. Act. 13. 46. 2 Thes. 1. 8. Dat. 20. 15. a 21. 8.

17 ‡ A'r [m] arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant; [n] Yn fy enw i y bwriant allan gythreuliaid; [o] || *ac* â thafodau newyddion y llefarant;

m Ioan 14. 12. n Luc 10. 17. Act. 5. 16. a 8. 7. a 16. 18. a 19. 12—16. o Act. 2. 4—11, 33. a 10. 46. a 19. 6. 1 Cor. 12. 10, 28, 30. a 14. 5—26.

18 [p] § Seirph a godant ymaith, [q] ac os yfant ddim marwol, ni wna iddynt ddim niwed; [r] ar y cleifion y rhoddant eu dwylaw, a hwy a fyddant iach.

p Gen. 3. 15. Salm 91. 13. Luc 10. 19. Act. 28. 3—6. Rhuf. 16, 20. q 2 Bren. 4. 39—41. r Act. 3. 6—8, 12, 16. a 4. 10, 22, 30. a 5. 15, 16. a 9. 17, 18, 34, 40—42. a 19. 12. a 28. 8, 9. 1 Cor. 12. 9. Iago 5. 14, 15.

Er eu ceryddu yn yr adnod o'r blaen, mae efe yma drugarog yn adnewyddu ei ddewisiad o honynt fel apostolion, ac yn eu danfon i'r holl fyd i bregethu yr efengyl i bob crëadur. Mae yn debyg mai nid yn yr ymddangosiad a enwir yn adn. 14, y rhoddodd efe y gorchymyn hwn iddynt, ond ryw amser wedi hyny, ychydig cyn esgyniad. * Mae yn ddïau na ddëallodd y dysgyblion y gorchymyn hwn yn helaethder ei feddwl am hir o amser wedi hyn: gweledigaeth Pedr yn Joppa a ddangosodd iddynt hwy fod y cenedloedd i gael pregethu yr efengyl iddynt. Mae y geiriau yn rhwymo holl weinidogion y gair yn mhob oes, i bregethu yr efengyl, yr *efengyl*, nid rhyw beth arall, yn mhob màn hyd eithaf eu gallu: ac maent yn rhwymo Cristionogion hefyd i eu cynnorthwyo i hyny, drwy gynnaliaeth gorphorol a chymmorth o gweddïau. † Dyledswydd y rhai a glywant yr efengyl a'u braint annhraethol hefyd, yw, ei chredu; a derbyn Crist yn ei holl swyddau er eu hiachawdwriaeth, ac yn ôstwng i ordinadau yr efengyl, fel moddion o ordeinio Crist ac er eu lles ysbrydol hwythau. ‡ A fyddant y cyd-fyned â hwynt, yn cyd-weithio a grybwyllir yn adn. 20.—Gan mai pethau perthynol i'r apostolion a'r oed apostolaidd, oedd yr arwyddion a enwir yma, ac nad y y cyfryw bethau yn bresenol, afraid yw helaethu arnyn yma. Cofiwn fod y pregethu, y credu, a'r bedyddio, y bethau angenrheidiol ac arosol o hyd. || Sef mewn ieithoedd newyddion iddynt hwy eu hunain, fel y bu ddydd y Pentecost. § Fel y gwnaeth Paul yn Act. 28.

19 ¶ * Ac felly [s] yr Arglwydd, wedi llefaru wrthynt, [t] a gymmerwyd i fynu i'r ne [u] † ac a eisteddodd ar ddeheulaw Duw.

s Mat. 28. 18—20. Luc 24. 44—50. Ioan 21. 15, 22. Act. 1. 2, 3. t Luc 9. 51. a 24 50, 51. Ioan 13. 1. a 16. 28. a 17. 4, 5, 13. Act. 1. 10, 11. a 2. 33. a 3 21. Eph. 1. 20—22. a 4. 8—11. Heb. 1. 3. a 4. 14. a 6. 20. a 7. 26. a 8. 1. a 9. 24. a 10. 12, 13, 19—22. 12. 2. 1 Pedr 3. 22. Dat. 3. 21. u Salm 110. 1. Act. 7. 55, 56. 1 Cor. 15. 24, 25.

* Ni soniodd Matthew nac Ioan ddim am esgyniad ein Harglwydd, na Marc yma ond yn fŷr iawn: Luc sydd yn rhoddi yr hanes helaethaf am hyn, Luc 24. 50, 51. Cawn achlysur i sylwi ar ei esgyniad pan ddelom at y hanes yno; ac yn Act. 1. 9. † Wedi ei wisgo â'r ar rhydedd a'r awdurdod mwyaf, yn y nef ac ar y ddaear Matth. 28. 18.

20 * A [x] hwythau a aethant allan, ac bregethasant ym mhob man, [y] a'r Arglwydd yn cyd-weithio, ac yn cadarnhâu y gair, trwy arwyddion y rhai oedd yn canlyn. † Amen.

x Act. 2.—pen. 28. y Act. 4. 30. a 5. 12. a 8. 4—6. a 14. 3 8—10. Rhuf. 15. 19. 1 Cor. 2. 4, 5. a 3. 6—9. 2 Cor. 6. 1. Heb 2. 4.

* Yma mae hanes holl oes yr apostolion o hyn allan wedi ei grynhöi mewn un adnod; ac Actau yr Apostolion yw yr agoriad gorau arni. Cyflawnodd ein Harglwydd ffyddlawn a hollalluog ei addewid iddynt, Matth. 28. 20. † Mae y gair "Amen" yn arwyddo dymuniad gwresog yr efengylwr, ar fod yr un gallu, a phresenoldeb grasol Crist, a'r un llwyddiant ar bregethiad yr efengyl yn mhob màn, bob amser, hyd ddiwedd y byd.

YR EFENGYL

YN OL

SANT LUC.

PEN. I.

Rhagymadrodd yr holl efengyl, &c.

N gymmaint a darfod i * lawer gymmeryd
mewn llaw osod allan mewn trefn draeth-
am [a] y pethau a gredir yn ddiammeu yn
lith,

[a] Ioan 20. 31. Act. 1. 1—3. 1 Tim. 3. 16. 2 Pedr 1. 16—19.

† Megis y traddodasant hwy i ni, y rhai
ynt eu hunain o'r ‡ dechreuad [b] yn gweled,
yn weinidogion y gair:

[b] pen. 24. 48. Ioan 15. 27. Act. 1. 3, 8, 21, 22. a 4. 20. a 10. 39
Heb. 2. 3. 1 Ioan 1. 1—3. c Act. 26. 16. Rhuf. 15. 16.
. 7, 8. Col. 1. 23—25.

d || Minnau a welais yn dda, § wedi i mi
rn pob peth yn ddyfal o'r * dechreuad,
lifenu [e] † mewn trefn attat, [f] ‡ O ardderch-
f Theophilus,

[d] Act. 15. 19, 25, 28. 1 Cor. 7. 40. a 16. 12. e adn. 1. Salm
a 50. 21. Preg. 12. 9. Act. 11. 4. f Act. 1. 1. a 23. 26. a
a 26. 25.

Fel y [g] cait wybod sicrwydd am y pethau
|| ddysgwyd ynddynt.

[g] Ioan 20. 31. 2 Pedr 1. 15, 16.

ybir i Matthew a Marc ysgrifenu o flaen Luc; ond
ellir eu galw hwy "llawer:" ac ysgrifenodd Mat-
o leiaf oddi ar ei wybodaeth bersonol ei hun,
stal a thàn gyfarwyddyd yr Ysbryd Glân. Gan
rhaid fod y "llawer" yma yn cyfeirio at ryw han-
eraill a ysgrifenasid am Iesu, gan ddynion cywir
benion, efallai, ond heb fod dàn ysbrydoliaeth
yn ysgrifenu oddi ar draddodiad a glywsent gan
Gan fod *llawer* wedi ysgrifenu fel hyn mòr fuan,
nyny yn brawf fod rhywbeth yn y grefydd Grist-
ol, ag oedd yn deffroi sylw dynion o bob graddau
thoriad cyntaf allan, a bod darllen awyddus ar y
n. † Tybir mai perthyn i'r adnod flaenaf mae yr
nod, ac nid i'r drydedd; yn dangos pa fodd y
y "llawer" a soniwyd o'r blaen eu gwybodaeth
m a ysgrifenasant. Eto, mae yn ddiammau mai
r un moddion y cafodd Luc ei wybodaeth yntau.
hreuad gweinidogaeth Iesu a feddylir yma, ac nid
euad ei oes. || Gwyddai Luc fod llawer o an-
feithrwydd yn y traethodau a soniodd, ac mae yn
r i'r Ysbryd Glân a'i cyfarwyddodd *wrth* ysgrifenu,
hyrfu ef hefyd *i* ysgrifenu. § Mae y geiriau
ddiol yn arwyddo y darchwiliad manylaf, i gael
daeth berffaith gywir o'r holl bethau mae efe yn
drodd. * Mae y bummed adnod yn dangos pa
hreuad" a feddylir yma, sef beichiogiad Elisa-
a genedigaeth Ioan Fedyddiwr. Dywedir fod
a gyfeithir yma "o'r dechreuad," yn arwyddo
wchod, neu *o'r nef;* a bod Luc yma yn dangos
philus, ei fod ef yn cael ei ddysgu a'i ysbrydoli
f i ysgrifenu, heblaw ei chwiliad manwl ei hun;
hyny y gallai efe ymddybynu ar gywirdeb a gwir-
yr hanes. † Ni ddylid casglu oddi yma (fel y
rhai) fod yr efengylwyr eraill wedi ysgrifenu yn ddi-drefn, ac y dylid trefnu eu gwaith hwy wrth efengyl Luc: od oes ganddo ef ryw olwg ar ysgrifeniadau rhai eraill, y "llawer," a grybwyllodd efe yn yr adnod flaenaf oeddynt. ‡ Ystyr y gair Theophilus yw *Carwr Duw;* a thybiodd rhai mai at y saint yn gyffredinol, fel rhai yn *caru Duw* yr oedd efe yn ysgrifenu: ond tyb ry gyfriniol a dychymmygol yw hyny. Mae yn ddiammau mai enw personol, rhyw ddyn o urddas ac enwogrwydd, yn y byd ac yn yr eglwys hefyd, oedd y Theophilus yma. Mae yr un enw cyfarchiad "O ardderchocaf" a ddefnyddir yma, yn cael ei roddi i Ffelix, a Festus, Act. 24. 3. a 26. 25: ond nid oeddent hwy mòr deilwng o hóno a'r Theophilus hwn: yr oedd hwn yn ateb i'w enw, yn gwir *garu Duw.* Gwelwn yma, nad yw Cristionogaeth ddim yn gwarafun rhoddi enwau o barch i wŷr mawr yn y byd hwn. || Mae y gair a gyfieithir "dysgwyd" yma, yn arwyddo dysgeidiaeth ddechreuol yn egwyddorion dechreuol crefydd, lle byddai y dychweledigion ieuainc i gael eu dysgu yn fanylach wedi hyny, a'u cadarnâu yn yr athrawiaeth. Gan fod Luc yn *ysgrifenu* y darn hyn o'r ysgrythyr i Theophilus, mae yn amlwg nad oedd dim meddwl y pryd hyny am wahardd y gair sanctaidd i'r llëygion.

5 YR oedd yn nyddiau [h] * Herod, brenhin
Judea, ryw offeiriad a'i enw † Za-
charïas, [i] o ddyddgylch Abïa: a'i wraig *oedd* o
ferched Aaron, a'i henw ‡ Elisabeth.

h Mat. 2. 1. i 1 Cron. 24. 10, 19. Neh. 12. 4, 17.

* Herod Fawr, neu Herod mab Antipater, oedd hwn; ac nid yr Herod a grybwyllir yn pen. 3. 1: mab i hwn oedd hwnw. Ymladdodd Herod ei ffordd i'r freniniaeth ar yr Iuddewon (dàn Ymherawdwr Rhufain) drwy ladd y seneddwyr Iuddewig, yn llaw y rhai yr oedd y llywodraeth o'r blaen: felly yn ei amser ef cyflawnwyd prophwydoliaeth Jacob, Gen. 49. 10, ac yn ei amser ef y daeth y Silo. † Nid arch-offeiriad oedd Zacharïas, fel y tybiodd rhai; wrth ran, neu goelbren, yr oedd Zacharïas yn arogl-darthu, nid felly yr arch-offeiriad, ond trwy olyniaeth: byddai yr arch-offeiriad yn arogl-darthu yn y sancteiddiolaf; ond nid aeth Zacharïas i mewn yno: offeiriad o ddydd-gylch Abïah, sef yr wythfed dosparth, (1 Cron. 24. 10.) oedd Zacharïas; ond nid oedd yr Arch-offeiriad o unrhyw ddydd-gylch, neu ddosparth. Yr oedd pedwar ar hugain o'r dosparthau hyn, (gwel 1 Cron. 24. 7—19,) a phob dosparth yn dechreu ar y dydd sabbath, ac yn parâu i weini hyd y sabbath nesaf, 2 Cron. 23. 8: mil yn dyfod i mewn a mil yn myned allan bob sabbath. Yr oedd hyn yn dangos gofal am waith y cyssegr, ac yn ei wneyd yn ysgafn i bob un. Dïau mai yn ol gorchymyn Duw y trefnodd Dafydd fel hyn. ‡ Ystyr y gair Hebraeg Elisabeth yw *gorphwysfa,* neu *gyflawnder,* neu *lw,* neu *wïalen* Duw. Yr un yw âg enw gwraig Aaron, Exod. 6. 23. Nid oedd raid i'r offeiriaid briodi gwragedd o'u llwyth eu hunain fel y llwythau eraill, am nad oedd etifeddiaeth iddynt fel i'r llwythau eraill. Priododd Jehoiada yr offeiriad, Joseba, merch y brenin Jehoram, o lwyth Judah, yn wraig iddo, 2 Cron. 22. 11. Dywedir yma fod Elisabeth o ferched

Aaron, yn unig i ddangos ardderchawgrwydd ei gwaedoliaeth hi.

6 * Ac yr oeddynt ill dau [k] yn gyfiawn ger bron Duw, [l] † yn rhodio yn holl orchymynion a deddfau yr Arglwydd, [m] yn ddïargyhoedd.

k pen. 16. 15. Gen. 6. 9. a 7. 1. Job 1. 1, 8. a 9. 2. Rhuf. 3. 9–25. Phil. 3. 6—9. Tit. 3. 3—7. l 1 Bren. 9. 4. 2 Bren. 20. 3. Salm 119. 6. Act. 24. 16. 2 Cor. 1. 12. Tit. 2. 11—14. 1 Ioan 2. 3, 29. a 3. 7. m Phil. 2. 15. Col. 1. 22. 1 Thes. 3. 13. 2 Pedr 3. 14.

* Ond y mae yma well canmoliaeth i Zacharïas ac Elisabeth nac yn unig eu bod o deulu Aaron: "yr oeddynt ill dau yn gyfiawn." "Yn gyfiawn ger bron Duw;" nid yn eu golwg eu hunain fel y Phariseaid; nac yn ymfoddloni ar *ymddangos* felly yn unig yn ngolwg dynion, fel y rhagrithwyr. Yr oeddynt yn gyfiawn trwy ffydd, a thrwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist iddynt, fel Abraham, a phawb eraill ag sydd yn wir gyfiawn. Heb hyny nid oes neb cyfiawn, nac oes un. † Efallai bod "holl orchymynion a deddfau yr Arglwydd" yma yn arwyddo, yr holl ddeddf foesol, a'r holl ddeddfau seremonïol. Mae y gair a gyfieithir yma "deddfau," yn cael ei gyfieithu "defodau" yn Heb. 9. 1, 10; sef defodau seremoniol gwasanaeth Duw dàn yr hen oruchwyliaeth. Ac nis gallai y ddau hyn fod yn gyfiawn ger bron Duw heb ufadd-dod ddïargyhoedd i'w holl orchymynion a'i osodiadau ef. Rhaid i esgobion fod yn ddïargyhoedd, a'u gwragedd hefyd. Gyda bod yn gyfiawn ger bron Duw, yr oeddynt yn ddïargyhoedd ger bron dynion; nid oedd neb a allai roddi dim bai yn eu herbyn, o ran eu hymarweddiad allanol: prawf da o fod yn gyfiawn ger bron Duw, trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist a thrwy gyfranogiad o egwyddor gyfiawn, yw bod fel y rhai hyn yn ddïargyhoedd ger bron dynion.

7 * Ac [n] nid oedd plentyn iddynt, am fod Elisabeth yn ammhlantadwy, ac yr oeddynt wedi myned ill dau [o] mewn gwth o oedran.

n Gen. 15. 2, 3. a 16. 1, 2. a 25. 21. a 30. 1, 2. Barn. 13. 2, 3. 1 Sam. 1. 2, 5—8. o Gen. 17. 17. a 18. 11. 1 Bren. 1. 1. 2 Bren. 4. 14—16. Rhuf. 4. 19, 20. Heb. 11. 11, 12.

* Un o ddybenion priodas o'r dechreuad oedd, cenedlu plant, Gen. 1. 28: y fendith ddaearol fwyaf yw cael plant, ac nid oes dim yn fwy dymunol gan ddynion na chael plant. Ond y mae Duw wedi gweled bod yn dda lawer gwaith, i attal y fendith hòno oddi wrth rai o'r dynion duwiolaf: oddi wrth rai yn hollawl, ac oddi wrth eraill am hir o amser; megys Sarah, ac Elisabeth yma. Addewid Duw i Abraham oedd, y byddai ei had yn llïosog; ac yr oedd bod yn ddiblant yn warth ac yn ofid mawr yn mhlith yr Iuddewon: prin y tybid y cyfryw rai, nac y tybient eu hunain, yn wir blant i Abraham. Dewisodd Duw yr Elisabeth anmhlantadwy hon i fod yn fam i Ioan Fedyddiwr: ac y mae yn nodedig, fod amryw o'r gwragedd anmhlantadwy yn yr ysgrythyr, wedi esgor ar ddynion enwog iawn pan roddodd Duw blant iddynt. Felly Sarah, Rachel, Hannah, gwraig Manoah, ac Elisabeth yma. Byddai aml-wreigiaeth ac ysgariaeth yn beth cyffredin yn mhlith yr Iuddewon lle byddai gwraig anmhlantadwy; ond ni bu Zacharïas dduwiol yn euog o'r un o'r cyfryw bethau.

8 * A bu, ac [p] efe yn gwasanaethu swydd offeiriad ger bron Duw, [q] yn nhrefn ei ddyddgylch ef,

p Ex. 28. 1, 41. a 29. 1, 9, 44. a 30. 30. Num. 18. 7. 1 Cron. 24. 2. 2 Cron. 11. 14. q adn. 5. 1 Cron. 24. 19. 2 Cron. 8. 14. a 31. 2, 19. Ezra 6. 18.

9 Yn ol arfer swydd yr offeiriaid, [r] ddyfod o † ran iddo arogldarthu yn ol ei fyned i deml yr Arglwydd.

r Ex. 30. 7, 8. a 37. 25—29. Num. 16. 40. 1 Sam. 2. 28. 1 Cron. 6. 49. a 23. 13. 2 Cron. 26. 16—18. a 29. 11. Heb. 9. 6, 7.

* Yr oedd llawer iawn o wasanaeth dwyfol i'w gyflawni yn y deml bob dydd, a nifer mawr o offeiriaid yn mhob dosparth i'w gyflawni, a phob un yn cael ei waith ei hun wrth goelbren, 1 Cron. 25. 8. Neh. 10. 34. † Daeth i ran Zacharïas i arogl-darthu y tro hwn ar allor yr arogl-darth, yr hon oedd o flaen y wahanlen y y cyssegr, nid yn y sancteiddiolaf. Yr oedd y ddeddf yn gorchymyn arogl-darthu fore a hwyr yn wastadol Exod. 30. 6—8; yr hyn oedd gysgod addas a pharâus eiriolaeth Crist yn y nef. Tybir fod cyfeiriad at y arogl-darthu hwn yn Dat. 8. 1—4.

10 * A [s] holl lïaws y bobl oedd † allan y gweddio ar awr yr ‡ arogl-darthiad.

s Lef. 16. 17. Heb. 4. 14—16. a 9. 24. Dat. 8. 3, 4.

* Trefn y gwasanaeth beunyddiol oedd fel hyn medd ant: Dwy waith yn y dydd yr âai yr offeiriaid gweinydd ol i mewn i'r deml i arogl-darthu yn ol y ddeddf, Exod 30. 7. Pan elent i mewn, cenid cloch, i hysbysu ei bo yn awr weddi. Yna, yn 1. Aai offeiriaid eraill y dos parth hwnw i mewn. 2. Yna, y Lefiaid. 3. Eu dynion sefydlog, y rhai oedd yn cynnrychioli holl gynnulleidf meibion Israel, ac a osodent eu dwylaw ar yr anifail aberthid. 4. Yna yr holl bobl a ewyllysient fyned yn i weddio: ac yn gyffredin byddai llawer iawn yn mynedgwel Act. 3. 1. † Nid "allan" o'r deml a fyddylir; ond "allan" o'r cyssegr, ac yn y cyntedd pennodawl i Israel Nid oedd yr un dyn i fod yn y cyssegr y pryd hwn ond yr arogldarthwr, Lefit. 16. 17. Iesu yw yr unig eiriol wr drosom ni gyda'r Tad. ‡ Mae perthynas rhwng ei gweddïau ni âg eiriolaeth Iesu, "*gyda* gweddïau yr holl saint" yr oedd yr arogl-darth yn cael ei offrymu yn Dat 8. 3. Gyda golwg ar hyn mae gweddi yn cael ei chym haru i arogl-darth yn aml, Salm 141. 2. Mal. 1. 11.

11 * Ac [t] ymddangosodd iddo angel yr Arglwydd yn sefyll o'r † tu dehau i [u] allor y arogl-darth.

t adn. 19, 28. pen. 2. 10. Barn. 13. 3, 9. Act. 10. 3, 4. Heb 1. 14. u Ex. 30. 1—6. a 37. 25—29. a 40. 26, 27. Lef. 16. 18 Dat. 8. 3. a 9. 13.

* Mae rhai yn dywedyd nad ymddangosodd angel i offeiriad wrth weini ei swydd erioed, hyd pan gollwyd yr Urim a'r Thummim; ac eraill yn sylwi mai wrth weini eu swydd yr ymddangosasant iddynt wedi hyny † Ar law ddehau yr offeiriad a feddylir wrth y "tu dehau i allor yr arogl-darth" yma. Yr oedd y sancteiddiolaf yn mhen gorllewinol y deml, ac wyneb Zacharïas tuag yno; gan hyny, os ar ei law ddehau ef a feddylir, rhaid fod yr angel ar yr ochr ogleddawl i'r cyssegr, ac nid yr ochr ddehau, fel y gallem ni feddwl wrth y darllenia Cymraeg. *Right side*, yw y Saesoneg, ac nid *south side* Felly hefyd, mae yn debyg, y rhaid i ni ddeall, Exod 10. 3.

12 * A Zacharïas, pan ganfu, [x] a gythryblwyd, ac ofn a syrthiodd arno.

x adn. 29. pen. 2. 9, 10. Barn. 6. 22. a 13. 22. Job 4. 14, 15 Dan. 10. 7. Marc 16. 5. Act. 10. 4. Dat. 1. 17.

* Mae y dynion gorau yn dueddol i ofni wrth weled pethau sydyn ac anarferol, ac yn enwedig wrth ymddangosiadau ysbrydol a goruwch-naturiol. Felly Manoah a'i wraig, Barn. 13. 20. Felly Daniel, Dan. 10. 7, 8 Felly Paul, Act. 9. 3, 4. Nid dyben Duw yw dychryn ei bobl; ond mae yn iawn iddo ef amlygu ei fawredd a'n gwneyd ninnau yn deimladwy o wendid ein meddyliau a'n llestri pridd. Trugaredd yw, ei fod yn defnyddio dynion, a dorwyd allan o'r clai fel ni ein hunain i drosglwyddo ei feddwl i ni. Tybir na bu ymddangosiad angel, mwy na phrophwyd, o'r blaen er ys 400 o flynyddoedd; ond yn awr o flaen dyfodiad y Messiah ymddangosodd angel, i ddarpar y bobl fel hyn i'w dderbyn ef a'i deyrnas; eithr ofnodd Zacharïas pan e canfu, gan weledigaeth mòr ogoneddus ac anarferol.

13 Eithr yr angel a ddywedodd wrtho [y] * Nac ofna, Zacharïas: † canys [z] gwrandawyd dy weddi; [a] a'th wraig ‡ Elisabeth a ddwg i t fab, [b] a thi a elwi ei enw ef ‖ Ioan.

y pen. 24. 36—40. Barn. 6. 23. Dan. 10. 12. Mat. 28. 5. Mar 16. 6. z Gen. 25. 21. 1 Sam. 1. 20—23. Salm 118. 21. Act. 10 31. a Gen. 17. 10. a 18. 14. Barn. 13. 3—5. 1 Sam. 2. 21 2 Bren. 4. 16, 17. Salm 113. 9. a 127. 3—5. b adn. 60—63. pen 2. 21. Gen. 17. 19. Es. 8. 3. Hos. 1. 4, 6, 9, 10 Mat. 1. 21.

Nid yw yr Arglwydd mawr a grasol byth yn gadael
eidiau ei bobl soddi gan eu hofnau, na'u llyncu i
gan ormod tristwch. Y gair cyntaf a ddywedodd
ngel oedd, "Nac ofna Zacharias;" nid cenadwr
ydwyf fi, ac nid cenadwri ddrwg sydd genyf: eithr
dwr da ydwyf, a chenadwri a bair i ti lawenychu a
loeddu yn y màn, sydd genyf. † "Gwrandawyd dy
ti:" diammau i Zacharias ac Elisabeth hefyd weddio
er am blant; ond wrth eu bod yn awr ill dau mewn
o oedran, mae yn naturiol i ni feddwl eu bod wedi
roddi heibio weddio am hyny, gan benderfynu eu
yn rhy hen, ac nad oedd yn un â meddwl Duw eu
b yn hyny. Ond nid yw Duw byth yn anghofio
ldiau ei bobl; ac nid yw byth yn rhy ddiweddar
ef eu hateb, os gwel efe yn dda i wneyd hyny.
tybia rhai mai y weddi oedd Zacharias yn weddio
yd hwnw, drosto ei hun a'r bobl, ac am ddyfodiad
essiah, a feddylir yma. ‡ Beth bynag oedd y weddi,
a yr atebiad yn cynnwys pob un o'r golygiadau
od: mab i Zacharias, yn atebiad i'w hen weddiau, a
redwr i Israel yn ateb i'w weddi bresenol. Un
edd yw Duw pan ddelo i ateb gweddiau: ateb yn
awn a wna efe, nis gallwn ofyn gormod ganddo.
awn, neu ewyllys da Duw, yw Ioan; yr un enw yw
nnan, yn 1 Cron. 3. 15; 6. 9; 12. 12; yn arwyddo
dâu, rhoi achos gorfoledd, trwy wrando gweddiau a
niatâu deisyfiadau, fel y dywedir yn Isa. 30. 19, 20,
efyd yn yr adnod nesaf o'r bennod hon.

14 * A [c] bydd i ti lawenydd a † gorfoledd;
llawer a lawenychant am ei enedigaeth ef.

c adn. 58. Gen. 21. 6, 7. Diar. 15. 20. a 23. 15, 16, 24, 25.

Nid llawenydd a gorfoledd cyffredin serchiadau
ur a feddylir yma, o herwydd cael plentyn, o herwydd
rael mewn henaint, ac wedi hir anmhlantadrwydd;
llawenydd o natur mwy ysbrydol, oblegid helaeth-
dd gras Duw ar Ioan, ei swydd ef fel rhag-flaenor y
ssiah, a'i ddefnyddioldeb mawr yn ei weinidogaeth.
d efe i ti yn llawenydd: a gorfoledd: felly *Pool* ar
l y ddalen. Mab doeth a wna dad llawen. † "Gor-
dd:" mae y gair gwreiddiol yn arwyddo llawenydd
surol, neidio a llàmu o lawenydd. ‡ Gwel adn. 58.
oan 5. 35, mae yr adnodau hyny yn dangos cyflawn-
o ddiwedd yr adnod hon.

15 * Canys [d] mawr fydd efe y'ngolwg yr
glwydd, [e] † ac nid ŷf na gwin na diod gad-
; ‡ ac efe a [f] gyflawnir o'r Yspryd Glân,
|| o groth ei fam:

d pen. 7. 28. Gen. 12. 2. a 48. 19. Jos. 3. 7. a 4. 14. 1 Cron.
8. a 29. 12. Mat. 11. 9—19. Ioan 5. 35. e pen. 7. 33. Num.
—4. Barn. 13. 4—6. Mat. 11. 18. f Zec. 9. 15. Act. 2. 4,
1-18. Eph. 5. 18. g Salm 22. 9. Jer. 1. 5. Gal. 1. 15.

16 § A [h] llawer o blant Israel a dry efe at
Arglwydd eu Duw.

h adn. 76. Es. 40. 3—5. a 49. 6. Dan. 12. 3. Mal. 3. 1. Mat.
—6. a 21. 32.

Dyn gwladaidd, isel, a diaddurn oedd Ioan, mab i
iriad cyffredin, heb ddim gwell enw nag Ioan
dyddiwr, yn byw gan mwyaf yn y diffaethwch, ac nid
mhlasau breninoedd, a'i ddillad o flew camel a
egys croen, ac nid dillad esmwyth, yn ddigyfrif a
styrllyd iawn yn ngolwg mawrion y byd:—ac eto yr
dd yn fawr yn ngolwg yr Arglwydd:—nid fel yr
ych dyn yr edrych Duw; yr oedd Dafydd yn y gorlan
fwy yn ngolwg Duw, na Saul ar ei orsedd. Yr oedd
n yn fawr yn ngolwg yr Arglwydd o herwydd ei ras
dduwioldeb personol, ac o herwydd ei lafur a'i
efnyddioldeb gweinidogaethol. Duwioldeb, ac nid
wredd bydol, sydd yn gwneuthur dynion o hyd yn
r yn ngolwg Duw; a'i gymmeradwyaeth ef yw y gym-
radwyaeth orau. † Dyma gyfraith y Nazareaid, Num.
2, 3: ac yma mae yn arwyddo hollawl ymroddiad ac
gyssegriad Ioan i Dduw a'i waith. Gwaherddir i'r
piriaid yfed gwin na diod gadarn wrth weinyddu
swydd, dàn boen marwolaeth, Lefit. 10. 9. Ni
ylai gweinidog yr efengyl fod yn wingar, 1 Tim. 3. 3.
Tit. 1. 7: a phwy bynag a fyddo felly, nis gall fod
yn "fawr yn ngolwg yr Arglwydd." ‡ "Na feddwer
chwi gan win," medd yr apostol, Ephes. 5. 18, "eithr
llanwer chwi â'r Ysbryd:" felly y bu i Ioan; efe a gyf-
lawnwyd o'r Ysbryd Glân. || Mewn anwiredd y llun-
iwyd ef fel eraill, ond cafodd ei adgenedlu a'i lenwi
â doniau yr Ysbryd wrth neu cyn ei eni, adn. 41.
§ "Llawer o *blant Israel*," nid llawer o baganiaid. Yr
oedd proffes o'r gwir Dduw gan blant Israel o'r blaen;
ond yr oedd llawer o ffurfioldeb, rhagrith, ofer goelion,
tywyllwch, a drwg-fuchedd yn eu plith er hyny, ac
eisiau troi at Dduw trwy gredu yn ei Fab y Messiah.
Bu Ioan yn offerynol i droi llawer felly, yn ol y
brophwydoliaeth am dano, Mal. 4. 6. Odid nad oes
llawer o broffeswyr eto ag eisiau eu troi.

17 * Ac efe a â [i] o'i flaen ef [k] † yn yspryd
a [l] nerth Elias, ‡ i [m] droi calonnau y tadau at
y plant, [n] || a'r anufudd i ddoethineb y cyfiawn;
[o] i ddarparu i'r Arglwydd § bobl barod.

i adn. 16. Ioan 1. 13, 23—30. a 3. 28. k Mal. 4. 5. Mat. 11.
14. a 17. 11, 12. Marc 9. 11—13. Ioan 1. 21—24. Dat. 20. 4.
l 1 Bren. 17. 1. a 18. 18. a 21. 20. 2 Bren. 1. 4—6, 16. Mat. 3. 4,
7—12. a 14. 4. m pen. 3. 7—14. Mal. 4. 6. n Es. 29. 24.
Mat. 21. 29—32. 1 Cor. 6. 9—11. o 1 Sam. 7. 5. 1 Cron. 29. 18.
2 Cron. 29. 36. Salm 10. 17. a 78. 8. Am. 4. 12. Act. 10. 33. Rhuf.
9. 23. Col. 1. 12. 2 Tim. 2. 21. 2 Pedr 3. 11—14. 1 Ioan 2. 28.

"Ac *efe*," sef Ioan, "a â o'i flaen *ef*," y Messiah, yr
nwn a elwir yn Arglwydd Dduw plant Israel yn niwedd
yr adnod o'r blaen. Nid myned o flaen y Tad yr oedd
Ioan, ond o flaen y Messiah, Iesu Grist, Mab y Tad.
A pha fodd y gellid ei alw ef yn Arglwydd Dduw plant
Israel, heb ei fod yn wir Dduw? † Gyda gwroldeb,
gwresawgrwydd, *(zeal)* sancteiddrwydd, ac â meddwl
wedi ei farweiddio i bob elw a mwyniant daearol, yn
gyffelyb i'r prophwyd enwog Elias: mòr debyg iddo fel
y prophwydwyd am dano dàn yr enw Elias. Sylwa
rhai, lle mae "nerth" yn cael ei chwanegu at y gair
"ysbryd," neu yr Ysbryd Glân, ei fod yn arwyddo mesur
mwy na chyffredin o nerth a dylanwadau yr Ysbryd
Glân. Gwel adn. 35. Act. 10. 38. 1 Cor. 2. 4. 1 Thes.
1. 5. ‡ "*At* y plant:" tybir fod yma gyfeiriad at yr
anghydfod a'r ymraniadau oedd yn mhlith yr Iuddewon,
hyd yn nod rhwng rhieni a phlant, o herwydd yr am-
rywiol bleidiau crefyddol oedd yn eu plith: pan oedd-
ynt yn cael eu troi drwy weinidogaeth Ioan, yr oedd yr
anghydfod a'r ymraniadau hyny yn darfod, a hwythau
yn dyfod i gymmod â'u gilydd fel un corph yn Nghrist.
Cymmodi dynion â Duw ac â'u gilydd yw gwaith yr
Efengyl. Dywed rhai y gellir darllen y geiriau "Y
tadau *â'r* plant; sef troi ieuenctid â hen bobl, rhai o
bob oedran. Cymmered y darllenydd ei ddewis o'r
ddau olygiad, mae pob un o'r ddau yn naturiol, ac yn
dangos effeithiau gwerthfawr yr efengyl. || Gellir dywed-
yd mai Iesu Grist ei hun yw y Cyfiawn, ei efengyl a'i gref-
ydd ef yw y ddoethineb; a phan ddelo yr anufudd i ymos-
twng iddo ef, i dderbyn yr efengyl, ac i gofleidio gwir
grefydd o'i galon, dyna'r pryd y trôir ef i ddoethineb y cyf-
iawn: fel hyny y caiff yr anufuddion eu darpar yn bobl
barod i'r Arglwydd. Y cyfiawn yw pob gwir gredadyn
hefyd. § Mae y gair gwreiddiol, meddant, yn arwyddo
byddin o filwyr, wedi eu harfogi a'u diwallu â phob
angenrheidiau, yn barod i ryfel; neu long, wedi ei
darpar â lluniaeth a phob taclau angenrheidiol, yn
barod i hwylio i'w môr-daith.

18 * A dywedodd Zacharias wrth yr angel,
[p] † Pa fodd y gwybyddaf fi hyn? [q] canys hen-
afgwr wyf fi, a'm gwraig hefyd mewn gwth o
oedran.

p adn. 34. Gen. 15. 8. a 17. 17. a 18. 12. Barn. 6. 36—40. Es.
38. 22. q adn. 7. Num. 11. 21—23. 2 Bren. 7. 2. Rhuf. 4.
19—21.

* Dyma lais rheswm anianol, yn ammau addewid
Duw trwy anghrediniaeth: a thrwy fesur gallu Duw yn
ol syniadau dynol, braidd yn rhoddi terfyn i Sanct yr
Israel. Felly y gwnaeth Abraham, Gen. 17. 17; a Mair

yn y bennod hon, adn. 34. Un yn rhy hen, a'r llall yn wyryf, heb adnabod gwr; eto pob peth yn bosibl gyda Duw. Un rhyfedd yw Duw! † "Pa fodd y gwybyddaf?" Trwy ymddangosiad a thystiolaeth yr angel: trwy gredu yr addewid, a disgwyl hyd amser ei chyflawniad. Buasai hyny yn well nac ymresymu, ammau, a rhyfygu gofyn arwydd: ti a gai arwydd, ond gwell fyddai bod heb ei gael.

19 A'r angel gan atteb a ddywedodd wrtho, [r] * Myfi yw Gabriel, † yr hwn wyf yn sefyll ger bron Duw, ‡ ac a anfonwyd i lefaru wrthyt, [s] ac i fynegi i ti y newyddion da hyn.

r adn. 26. Dan. 8. 16. a 9. 21—23. Mat. 18. 10. Heb. 1. 14. s pen. 2. 10.

20 ‖ Ac wele, [t] ti a fyddi fud ac heb allu llefaru hyd y dydd y gwneler y pethau hyn, [u] am na chredaist i'm geiriau i, [x] y rhai a gyflawnir yn eu hamser.

t adn. 22, 62, 63. Ex. 4. 11. Ezec. 3. 26. a 24. 27. u adn. 45. Gen. 18. 10—15. Num. 20. 12. 2 Bren. 7. 2, 19, 20. Es. 7. 9. Marc 9. 19. a 16. 14. Dat. 3. 19. x Rhuf. 3. 3. 2 Tim. 2. 13. Tit. 1. 2. Heb. 6. 18.

* Sylwir gan rai, nad oes dim hanes am *enw* unrhyw angel cyn y caethgludiad i Babilon. Efallai nad oes dim enwau ar angelion fel ar ddynion; ond eu bod yn cymmeryd enwau pan ymddangosont i ddynion, arwyddol o natur eu swydd. Ystyr y gair Gabriel yw Gallu, neu Nerth Duw. Gallu Duw yw yr efengyl; ac ymddengys mai dwyn rhyw newyddion i ddynion oedd prif waith y Gabriel hwn. Yn Daniel 8. 16. a 9. 21, ni a'i cawn ef yn rhag-fynegi dyfodiad y Messiah, a gwaith iachawdwriaeth dynion: a diammau ei fod yn cyfeirio Zacharias yma at y prophwydoliaethau hyny, pan mae yn dywedyd, "Myfi yw Gabriel." † "Sefyll ger bron Duw," yn agos i orsedd Duw, i dderbyn ei orchymyn ef, ac i wneuthur ei air ef: fel un o brif weision brenin yn ei lys breninol. ‡ Cenad anfonedig yw ystyr y gair angel, a gweinidogion Duw y gelwir angelion, Salm 103. 21. a 104. 4. Danfonodd Duw yr angel Gabriel at Zacharias yn y deml, lle nid oedd angelion drwg yn arfer ymddangos; ac yn nghylch pryd yr offrwm prydnawnol, fel yr ymddangosai i Daniel gynt. ‖ Gofynodd Abraham arwydd, Gen. 15. 8; a Gedeon, Barn. 6. 17; a chafodd pob un o honynt ateb heb ddim yn debyg i gerydd yn yr ateb: ond efallai bod Duw yn gweled rhywbeth yn nghalon Zacharias nad oedd yn eu calonau hwy, ac am hyny yn rhoddi y cerydd byr ac ysgafn hwn arno. Nid yw efe yn gwneyd cam â gwr yn ei fater. Mae y dywediad cyntaf yn gadarnâol, a'r ail yn nacâol; ac yn yr Hebraeg pan gyssylltir y nacâol â'r cadarnâol, mae yr ymadrodd yn cynnwys y cadarnâd cryfaf a ddichon fod, neu y gwirionedd mwyaf sicr.

21 * Ac yr oedd y bobl [y] yn disgwyl am Zacharias: † a rhyfeddu a wnaethant ei fod ef yn aros cyhyd yn y deml.

y Num. 6. 23—27.

22 A phan ddaeth efe allan, ni allai efe lefaru wrthynt; ‡ a hwy a wybuant weled o hono weledigaeth yn y deml: ac [z] yr oedd efe yn gwneuthur amnaid iddynt; ‖ ac *efe* a arhosodd yn fud.

z Ioan 13. 24. Act. 12. 17. a 19. 33. a 21. 40.

23 § A bu, cyn gynted ag y [a] cyflawnwyd dyddiau ei weinidogaeth ef, fyned o hono i'w dŷ ei hun.

a 2 Bren. 11. 5—7. 1 Cron. 9. 25

* Byddai yr offeiriad yn arfer bendithio y bobl ar ei ddyfodiad allan o'r cyssegr: gwel eiriau y fendith yn Num. 6. 24, 25, 26. Gwel hefyd Lefit. 9. 22, 23. † Nis gallasai yr ymddiddan uchod â'r angel barâu ond ychydig funudau; ond mae yn debygol i Zacharias aros yn y deml dros ryw ennyd wedi i'r angel ymadael, un ai mewn braw a syndod, neu ynte mewn myfyrdod a gweddïau. Efallai ei fod wedi ei lyncu i fynu gan y weledigaeth a'r pethau a glywsai fel nas gwyddai pa hyd yr oedd wedi aros. Nid arosai yr offeiriad y hir yn y deml i arogl-darthu, rhag y tybiai y bobl allan iddo gael ei ladd gan ddigter Duw: felly y dywed rhai dynion. ‡ Wrth yr arwyddion o fraw a synedigaeth oedd ar wynebpryd Zacharias, neu yntau wrth ryw arwydd neu amnaid a roddodd efe iddynt, hwy a wybuant iddo weled rhyw weledigaeth ryfedd yn y deml. ‖ Mae y gair gwreiddiol yn arwyddo byddar hefyd; ac wrth adn. 62, mae yn ymddangos fod Zacharias yn fyddar yn ogystal ac yn fud. § Nid oedd mudanrwydd yn un o'r anafau corphorol ag oedd yn anaddasu dynion i'r offeiriadaeth: a chan mai gwaith y dwylaw yn fwy na'r llefaru erydd oedd gwaith Zacharias; efe a arosodd i gyflawni ei amser, ac yna ymadawodd i'w dŷ ei hun, yn un o ddinasoedd Judea, adn. 39. Yr oedd llettyau i'r offeiriaid o amgylch y deml dros yr amser y byddent yn gweini.

24 Ac ar ol y dyddiau hynny y cafodd Elisabeth ei wraig ef feichiogi, ac a * ymguddiodd bùm mis, gan ddywedyd,

25 † Fel hyn [b] y gwnaeth yr Arglwydd i mi yn y dyddiau yr edrychodd arnaf, [c] ‡ i dynnu ymaith fy ngwaradwydd ym mhlith dynion.

b adn. 13. Gen. 21. 1, 2. a 25. 21. a 30. 22. 1 Sam. 1. 19, 20. a 2. 21, 22, Heb. 11. 11. c Gen. 30. 23. 1 Sam. 1. 6. Es. 4. 1. a 54. 1—4.

* Buan y dëallodd Elisabeth y cyflawnai Duw ei addewid. Hi a "ymguddiodd:" hi a guddiodd y weledigaeth a'r addewid a gawsai ei phriod, rhag y barnai ei chymmydogion hi yn ynfyd o roddi coel i beth mòr anhygoel ac annhebyg. Hi a'i cuddiodd ei hun rhag i neb feddwl ei bod yn ymffrostio yn wageddus o'i beichiogi: ac hefyd rhag y dygwyddai unrhyw halogiad seremoniol, trwy gyfhwrdd â rhyw beth aflan; canys Nazaread i Dduw o'r groth oedd y plentyn. Gwel Barn. 13. 4. Ac yn olaf hi a ymguddiodd fel y gallai ymroddi i weddïau a diolchgarwch am y fath drugaredd fawr ac annisgwyliadwy. Er ymguddio oddi wrth ddynion, nid oedd yn ymguddio oddi wrth Dduw. † Mae y wraig dduwiol hon yn priodoli y cwbl i allu a daioni Duw, ac felly yr oedd. ‡ Soniwyd o'r blaen (adn. 7.) bod anmhlantadrwydd yn waradwydd yn Israel; yn enwedig yn llwythau Judah a Lefi: yr oedd y Messiah i ddyfod o'r naill, a'r offeiriadaeth yn perthyn i'r llall. Pe buasai y gainc wrrywaidd yn pallu o deulu Aaron, buasai diwedd ar yr offeiriadaeth, ac o ganlyniad diwedd ar wasanaeth Duw ac ar grefydd. Trugaredd fawr fod Duw trwy ryw oruchwyliaethau, yn tynu ymaith warth a gwaradwydd ei bobl, beth bynag fyddo wedi bod yn achos o'r gwarth ac o'r gwaradwydd hwnw.

26 ¶ * Ac yn [d] y chweched mis [e] † yr anfonwyd yr angel Gabriel oddi wrth Dduw, [f] i ddinas yn Galilea a'i henw ‡ Nazareth,

d adn. 24. e adn. 19. f pen. 2. 4. Mat. 2. 23. Ioan 1. 45, 46. a 7. 41, 42.

27 ‖ At [g] forwyn wedi ei § dyweddïo i wr a'i enw Joseph, o dŷ Dafydd; ac enw y forwyn *oedd* Mair.

g pen. 2. 4, 5. Gen. 3. 15. Es. 7. 14. Jer. 31. 22. Mat. 1. 21, 23.

* Y chweched mis o feichiogiad Elisabeth, oedd y chweched mis yma. Gwel adn. 36. † Dyma yr un angel, Gabriel, eto yn cael ei anfon at Mair. Mae yn debyg mai pethau perthynol i'r Messiah ydoedd prif weinidogaeth yr angel sanctaidd hwn. Od oes graddau yn mhlith angelion, fel y bernir fod, mae yn bur debyg mai un o'r rhai penaf oedd y Gabriel hwn, gan mai efe a ddanfonid ar negesau mòr oruchel. Ar ddanfoniad Duw yr oedd yn dyfod; nid yw yr angelion yn syflyd nac yma na thraw, ond fel y danfono Duw hwynt. ‡ Dinas yn llwyth Zabulon oedd Nazareth, ac mòr wael

el, fel na ddisgwylid dim da o hóni, Ioan 1. 46. oedd yn rhaid i'r Messiah gael ei eni o *forwyn*, . 14: a morwyn o dŷ *Dafydd*: heb hyny ni buasai steb i'r prophwydoliaethau am dano. § Sylwyd yweddïo o'r blaen, Matth. 1. 18. Trefnodd doeth- Duw bod y forwyn hon wedi ei dyweddïo, fel ddai i Iesu dad cyfrifedig yn Joseph, er nad oedd naturiol iddo. Gwel ar Matth. 1. 18.

33 * A'r angel a ddaeth i mewn atti, ac a wedodd, [h] † Henffych well, yr hon a ‡ gef- ras; [i] yr Arglwydd *sydd* gyd â thi: [k] ben- id *wyt* ym mhlith gwragedd.

Dan. 9. 21—23. a 10. 19. i Barn. 6. 12. Es. 43. 5. Jer. 19. Act. 18. 10. k adn. 42. pen. 11. 27, 28. Barn. 5. 24. 31. 29—31. Mat. 12. 48—50.

Cedwid morwynion wedi eu dyweddïo yn gyffredin hai eu rhieni hyd ddydd y briodas: yno y daeth ngel at Mair. Sonia Luc yma am ddyfodiad yr l at Mair cyn iddi feichiogi, a sonia Matthew, pen. , am ei ddyfodiad at Joseph, wedi i Mair ddechreu niogi. † "Henffych well:" hyny yw, llawenycha a lledda am yr anrhydedd a fwriedir i ti; nid yn unig wraig rasol, ond fel mam y Messiah. Nid addoli yr oedd yr angel wrth ddywedyd fel hyn, fel na y Pabyddion ynfyd; ond ei chyfarch fel pe chai rhyw uchelwr ddyn tlawd ar ei dderchafiad w anrhydedd nad oedd iddo o'r blaen. ‡ Mae ddïau bod Mair wedi cael gras cadwedigol; ond nid a feddylir yn benaf wrth ras yn y màn yma: eithr nytrach y dewisiad grasol a wnaeth Duw o hóni n anad neb arall i fod yn fam i'r Iesu.

29 * A hithau, pan ei gwelodd, [l] a gy- yblwyd wrth ei ymadrodd ef, [m] † a meddyl- . wnaeth [n] pa fath gyfarch oedd hwn.

adn. 12. Marc 6. 49, 50. a 16. 5, 6. Act. 10. 4. m adn. 66. 2. 19, 51. n Barn. 6. 13—15. l Sam. 9. 20, 21. Act. 10.

Wrth weled gweledigaeth mòr ogoneddus a gor- n-naturiol, nid rhyfedd i Mair gael ei chythryblu: tebygid wrth rediad y geiriau i ymadrodd yr angel nythryblu hi yn fwy na'r olwg arno. † Efallai iddi mai twyll rhyw ysbryd aflan wedi ymrithio ydoedd, rudo hi i falchder a gwagedd: neu os gwir ydoedd, n a allasai meddwl y fath gyfarch mawreddus fod, hi forwyn dlawd.

30 A dywedodd yr angel wrthi, [o] Nac ofna, ir: * canys ti a gefaist ffafr gyd â Duw.

o adn. 13. pen. 12. 32. Es. 41. 10, 14. a 43. 1—4. a 44. 2. Mat. . Act. 18. 9, 10. a 27. 24. Rhuf. 8. 31, 32. Heb. 13. 6.

Mae y geiriau hyn, "ti a gefaist ffafr," yn egluro ddwl y geiriau, "ti a gefaist ras," yn adnod 28: rn dangos i Mair mai nid ar ddyben drwg y daeth yr el ati, ac mai nid cenadwri ddrwg oedd ganddo i'w addodi iddi.

31 Ac wele, [p] * ti a gei feichiogi yn dy eth, † ac a esgori ar fab, [q] ‡ ac a elwi ei enw IESU

p adn. 27. Es. 7. 14. Mat. 1. 23. Gal. 4. 4. q adn. 13. pen. . Mat. 1. 21, 25.

32 ‖ Hwn [r] fydd mawr, § ac a elwir [s] yn b y Goruchaf: [t] * ac iddo y rhydd yr Ar- wydd Dduw orseddfa ei dad Dafydd.

r adn. 15. pen. 3. 16. Mat. 3. 11. a 12. 42. Phil. 2. 9—11. dn. 35. Marc 5. 7. a 14. 61. Ioan 6. 69. Act. 16. 17. Rhuf. 1. 4. 5. 1. 2—6. t 2 Sam. 7. 12, 13. Salm 132. 11. Es. 9. 6, 7. a 5. Jer. 23. 5, 6. a 33. 15—17. Ezec. 17. 22—24. a 34. 23, 24. a 24, 25. Amos 9. 11, 12. Mat. 28. 18. Ioan 3. 35, 36. a 5. 21—29. . 34. Act. 2. 30, 36. Eph. 1. 20—23. Dat. 3. 7.

33 † Ac [u] efe a deyrnasa [x] ar ‡ dŷ Jacob yn agywydd; ‖ ac ar ei frenhiniaeth ni bydd wedd.

u Salm 45. 6. a 89. 35—37. Dan. 2. 44. a 7. 13, 14, 27. Ob. 21. a 4. 7. 1 Cor. 15. 24, 25. Heb. 1. 8. Dat. 11. 15. a 20. 4—6. a 3—5. x Rhuf. 9. 6. Gal. 3. 29. a 6. 16. Phil. 3. 3.

* Dyma eto eglurâd pellach ar y "gras," adn. 28, a'r "ffafr," adn. 30, sef beichiogi ac esgor ar y Messiah. † Mae yn y geiriau hyn gyfeiriad amlwg at Esay 7. 14, a chyflawniad hefyd o'r brophwydoliaeth nodedig hòno. "Morwyn a fydd feichiog, ac a esgor ar Fab." "Ti a gai feichiogi—ac a esgori ar Fab." ‡ Sylwyd ar yr enw hwn o'r blaen, Matth. 1. 21. Bu dau o'r enw o'r blaen, ac yr oedd y ddau yn gysgodau o'r Iesu hwn: Josua, a ddug Israel i Ganaan; a Jesua, arweinydd y caethion o Babilon, Ezra 2. 2. Emmanuel, oedd ei enw yn Esay 7. 14: nid oedd yr enw hwnw yn perthyn i'r un o'r cysgodau o hóno; *Efe* yn unig sydd yn "Dduw gyda ni," yn ein natur ni, ac o'n plaid ni. ‖ "Mawr" uwchlaw pawb o'i holl gysgodwyr, uwchlaw pawb o'r holl angelion, dyrchafwr y faner yn mhlith deng mil, ac yn rhagori ar ddeng mil; un yn ffurf Duw, yn ogyfuwch â Duw, ac uwchlaw pawb *yn* Dduw bendigedig yn oes oesoedd. Gwel ei fawredd yn ei enwau, yn Esay 9. 6. § Rhaid ei *fod* ef yn Fab y Goruchaf, pe amgen nis gellid ei *alw* ef felly. Mab o dragywyddoldeb, ac fei Person Dwyfol, o'r un hanfod â'r Tad. Cymhara Salm 2. 7, â Diar. 8. 24. Nid Mab *o herwydd* ei ddyn- oliaeth, ond yr hwn *oedd* yn Fab a *gymmerodd* ddynol- iaeth, ac a gydnabyddir, ac a elwir, yn Fab Duw, yn y ddynoliaeth hòno. Gwareded yr Arglwydd daionus ni, rhag cyfeiliorni yn nghylch dwyfol a thragywyddol Fab- oliaeth ein Gwaredwr mawr, a gwadu yr athrawiaeth oblegid nas medrwn ei dëall! "Beth yw enw ei Fab ef, os gwyddost?" * Fel yr oedd Iesu yn Fab Duw fel Person Dwyfol, felly yr oedd yn Fab Dafydd o ran ei natur ddynol: efe a "wnaed o had Dafydd o ran y cnawd," Rhuf. 1. 3. Gan nad oedd Joseph ond tad cyfrifedig Iesu, rhaid bod Mair hefyd o dŷ a theulu Dafydd; heb hyny, ni buasai y Cyfryngwr yn Fab Dafydd, ac o'i had ef. † Mae llawer o brophwydol- iaethau yr Hen Destament am hyn: gwel y cyfeiriadau *t, u, x*. Dëall y prophwydoliaethau hyny am lywodr- aeth dymmorawl, a barodd i'r Iuddewon feddwl y byddai y Messiah yn frenin daearol. ‡ Jacob ydoedd tad union-gyrchol y deuddeg llwyth; am hyny mae yr holl genedl Iuddewig yn aml yn myned dàn yr enw "tŷ Jacob." Rhaid i ni ddëall mai nid tŷ Jacob yn ol y cnawd a feddylir yma; eithr holl Israel ysbrydol Duw, o bob cenedl dàn y nef. Tybia y cyfieithydd, (er nad yw y dyb hòno yn yr un o'i Awduron,) y cyflawnir yr addewid hon yn llythyrenol; a bod y geiriau felly, yn cynnwys prophwydoliaeth, neu addewid, o alwad yr Iuddewon yn y dyddiau diweddaf. ‖ Felly y prophwyd- odd Esay, 9. 7; a Daniel, 2. 44. Dros ychydig amser y teyrnasodd Dafydd; ond hwn yn dragywydd. Lludd- iodd marwolaeth Dafydd; ond trwy ei farwolaeth yr aeth Mab Dafydd i'r orsedd. Byw y mae yn oes oesoedd, a theyrnasu a wnâ yn dragywydd!

34 A Mair a ddywedodd wrth yr angel, [y] * Pa fodd y bydd hyn, † gan nad adwaen i wr?

y Barn. 13. 8—12. Act. 9. 6.

* Tybia rhai mai nid o ammheuaeth y gofynodd Mair fel hyn, ond o syndod parchus, a chwennychiad naturiol, am gael gwybod yn fanylach pa fodd y cyf- lawnid y fath beth, a hi yn wyryf, ac heb adnabod gwr. Gellir meddwl, wrth atebiad digerydd yr angel, mai felly yr oedd; ac nad oedd dim beius yn ei gofyniad, nac yn ei hysbryd yn gofyn. Tybia eraill ei bod yn ammheüus, a'i gofyniad i'w feïo, ond ei bod yn esgus- odol gan na bu y cyfryw beth erioed o'r blaen. † Mae yn amlwg ei bod hi yn dëall wrth eiriau yr angel, fod y peth hyn i gymmeryd lle yn ei gwyryfdod hi, ac nid trwy, a chwedi iddi adnabod gwr.

35 A'r angel a attebodd ac a ddywedodd wrthi, [z] * Yr Ysbryd Glân a ddaw arnat ti, † a nerth y Goruchaf a'th ‡ gysgoda di: am hynny hefyd [a] y ‖ peth sanctaidd a aner o honot ti, § a elwir [b] yn Fab Duw.

z adn. 27. 31. Mat. 1. 20. a Job 14. 4. a 15. 16. a 25. 4.

Salm 51. 5. Eph. 2. 3. Heb. 4. 15. a 7. 26—28. b adn. 32. Salm 2. 7. Mat. 14. 33. a 26. 63, 64. a 27. 54. Marc 1. 1. Ioan 1. 34, 49. a 20. 31. Act. 8. 37. Rhuf. 1. 4. Gal. 2. 20.

* Gwaith yr Ysbryd Glân oedd ffurfio dynoliaeth Iesu, ond gweithred y Mab ei hun oedd ymuno yn bersonol â'r ddynoliaeth hòno, yn ei ffurfiad. † Pa un ai *enw* arall ar yr Ysbryd Glân, yw "nerth y Goruchaf" yma, ai ynte geiriau yn dangos nerthol weithrediad yr Ysbryd Glân ar Mair yn nghenedliad dynoliaeth y Cyfryngwr, ydynt, mae yn anhawdd penderfynu. Dywed *Pool* mai *enw* arall ydyw; nid oes yr un o'r Awdwyr eraill yn sylwi yn fanol ar y geiriau. Nerth yr Ysbryd Glân (mewn undeb â'r Personau Dwyfol eraill) a grëodd ac a ffurfiodd y byd yn y dechreuad, Gen. 1. 2; Salm 33. 6. Mae nerth cyffredin yr Ysbryd Glân yn ffurfiad pob plentyn yn y groth, Job 10. 8—11; Salm 139. 15. Ond mae y geiriau yn y fàn yma yn arwyddo, nerth neilldduol ac anghyffredin yr Ysbryd Glân; yn newid trefn a rhawd anian, yn cenedlu dynoliaeth sanctaidd y Cyfryngwr, yn mru morwyn halogedig fel pawb eraill wrth natur, a hyny hefyd heb iddi adnabod gwr. ‡ Gair gwylaidd a gweddus yw hwn, yn arwyddo gweithrediad nerthol a dirgelaidd yr Ysbryd Glân, yn nghenedliad dynoliaeth Iesu, heb i Mair adnabod gwr. || Y "*peth* sanctaidd" a grybwyllir yma oedd, dynoliaeth Iesu. Nid oedd dynoliaeth Crist yn *berson*, a'i hystyried ar ei phen ei hun; am hyny dywed yr angel y "*peth* sanctaidd," ac nid *person* sanctaidd. Dynoliaeth sanctaidd, berffaith sanctaidd, ydoedd, a dynoliaeth mewn undeb sylweddol â Pherson Mab Duw: heb y ddau beth, yr undeb a'r sancteiddrwydd uchod, nis gallasai fod yn aberth dros ein pechodau ni. § "A elwir" felly, nid am nad oedd felly drwy dragywyddol genedliad; (nid am hyny mae yr angel yn llefaru yma,) ond am fod y Gair, tragywyddol Fab Duw, yr hwn oedd yn y dechreuad, wedi cael ei wneuthur fel hyn yn gnawd, a chwedi ymuno yn bersonol â chig a gwaed, caiff yr holl berson ei alw, yn Fab Duw.

36 Ac wele, [c] * Elisabeth dy gares, y mae hithau wedi beichiogi ar fab yn ei henaint: a hwn yw y chweched mis iddi hi yr hon a elwid yn ammhlantadwy

c adn. 24—26.

37 † Canys [d] gyd â Duw ni bydd dim yn ammhosibl.

d pen. 18. 27. Gen. 18. 14. Num. 11. 23. Job 12. 2. Jer. 32. 17, 27. Zec. 8. 6. Mat. 19. 26. Marc 10. 27. Phil. 3. 21.

* Rhyfedd y sylw manol mae Duw yn gymmeryd o blant dynion: mae efe yn gwybod pwy yw ein ceraint a'n perthynasau ni. Er bod Elisabeth o dŷ Aaron a Mair o dŷ Dafydd, ac felly o ddau lwyth gwahanol, o ran eu tadau; eto gallent fod yn geraint (cyfnitherod, yn ol y Saesoneg) o ran eu mamau: byddai teuluoedd Dafydd ac Aaron yn aml yn cyd-ymbrïodi; ac yr oedd y cyd-gymmysgiad hyn, efallai, yn rhag-gysgodi undeb y swydd freninol a'r swydd offeiriadol, yn mherson y Messiah. Mae y gair a gyfieithir cares yma, yn arwyddo rhyw berthynas o bell yn gystal a chyfnither, gwel adn. 58, 61. a pen. 2. 44. Marc 6. 4. Rhuf. 9. 3. † Dyben yr angel yn crybwyll am feichiogiad Elisabeth oedd, cadarnâu ffydd Mair. Yr oedd geni plentyn i Elisabeth yn ei henaint, ac wedi ei chyfrif yn anmhlantadwy, yn wyrth fawr; ond yr oedd geni plentyn i Mair heb adnabod gwr yn wyrth fwy: eto, yr oedd yn ddigon hawdd i Dduw wneyd pob un o'r ddau. Gyda Duw ni bydd dim yn anmhosibl.

38 * A dywedodd Mair, [e] Wele wasanaethyddes yr Arglwydd; bydded i mi yn ol dy air di. A'r angel a aeth ymaith oddi wrthi hi.

e 2 Sam. 7. 25—29. Rhuf. 4. 20, 21.

* Dywedais unwaith, ond nid atebaf, ebai Job 40. 5. Yn gyffelyb Mair yma; fel pe dywedasai, ni ddadleuaf ddim yn chwaneg, wele "wasanaethyddes yr Arglwydd, bydded i mi yn ol dy air di:" iaith gostyngeiddrwydd, ffydd, ymroddiad i ewyllys Duw, a gweddi am gyflawniad o'i addewid. Nis gallasai lai nac ofni y buasai ei beichiogi yn ei gosod yn agored i ddrwg-dybiaeth gwarth ac enllib, llawer o brofedigaethau, ac yn wir llawer o enbydrwydd hefyd; ond hi a ymroddodd yn ostyngedig i ewyllys Duw. Mae yn dra thebygol mai ar yr amser pennodol hwn y daeth yr Ysbryd Glân arni ac y dechreuodd feichiogi.

39 ¶ A Mair a gyfododd yn y dyddiau hynny, ac a aeth [f] i'r mynydd-dir ar frys, * i ddinas o Juda;

f Jos. 10. 40. a 15. 48—59. a 21. 9—11.

40 Ac a aeth i mewn i dŷ Zacharïas, ac a gyfarchodd well i Elisabeth.

* Tybir mai Hebron oedd y ddinas hon, yr hon a roddasid i deulu Aaron, Jos. 21. 10, 11; os felly, yr oedd gan Mair yn agos i gàn milltir o daith o Nazareth yno i pedwar ugain a deg o leiaf; gan fod Hebron 22 milltir i'r dehau o Jerusalem, a Nazareth 70 i'r gogledd 75 medd rhai. Mae yn debyg i Mair fyned yno i holi ai gwir oedd yr hyn a ddywedasai yr angel wrthi am Elisabeth; i gyd-lawenychu â hi am ei gobaith o blentyn; i gael cadarnâu ei ffydd ei hun yn rhagor, yr hon oedd eisoes yn gryfach na ffydd Zacharïas yr hen offeiriad, pan roed yr addewid iddo ef; ac, efallai, iddi fyned yno i fynegi y weledigaeth a geiriau yr angel i Zacharïas ac Elisabeth, fel y gallai y ddau barchus hyn gymmeryd ei phlaid hi os deuai drwg-dybiaeth a gwarth arni pan welid ei beichiogi hi.

41 A bu, pan glybu Elisabeth gyfarchiad Mair, [g] * i'r plentyn yn ei chroth hi lammu: ac Elisabeth [h] a lanwyd o'r Ypsryd Glân.

g adn. 15, 44. Gen. 25. 22. Salm 22. 10. h adn. 67. pen. 4. 1. Act. 2. 4. a 4. 8. a 6. 3. a 7. 55. Eph. 5. 18. Dat. 1. 10.

* Peth cyffredin yw i blant ysgogi yn y groth wedi y delont yn fyw, ond yr oedd yr ysgogiad hwn yn fwy na chyffredin, "llàmu;" ac achos mwy na chyffredin iddo: gweithrediad nerthol yr Ysbryd Glân ydoedd, ar y fam ac ar y plentyn hefyd. Yn adn. 44, dywed Elisabeth i'r plentyn "làmu o *lawenydd*," fel pe buasai yn gwybod bod y Messiah yn bresenol, yr hwn yr oedd efe i fod yn rhagflaenor iddo.

42 A llefain a wnaeth â llef uchel, a dywedyd, [i] * Bendigedig *wyt* ti ym mhlith gwragedd, † a [k] bendigedig *yw* ffrwyth dy groth di.

i adn. 28, 45, 48. Barn. 5. 24. k pen. 19. 38. Gen. 22. 18. Salm 21. 6. a 45. 2. a 72. 17—19. Act. 2. 26—28. Rhuf. 9. 5. Heb. 12. 2.

* Mae Elisabeth yn dywedyd yr un geiriau wrth Mair ag a ddywedasai yr angel wrthi o'r blaen, adn. 28. Yn mhell o eiddigeddu wrth ei chares ieuanc, mae hi yn gorfoleddu yn ei braint hi, fel un enwog yn mhlith dynion, ac un wedi cael ei breintio yn fawr iawn gan Dduw. † Er mai yr un gair, "bendigedig," a ddefnyddir am Grist ac am Mair; eto, rhaid i ni ei ddëall mewn ystyr llawer uwch yma; enneiniwyd Crist âg olew llawenydd uwchlaw ei gyfeillion, ac mae yn fendigedig mewn ystyr wahanol i'r un crëadur: mae cyflawnder y Duwdod yn preswylio ynddo ef yn gorphorol.

43 * Ac [l] o ba le *y mae* hyn i mi, fel y delai † mam [m] fy Arglwydd attaf fi?

l pen. 7. 7. Ruth 2. 10. 1 Sam. 25. 41. Mat. 3. 14. Ioan 13. 6—8. Phil. 2. 3. m pen. 20. 42—44. Salm 110. 1. Ioan 20. 28. Phil. 3. 8.

* Er bod Elisabeth yn uwch na Mair, o ran oedran, sefyllfa, a chyfrifoldeb; eto, fel mam yr Arglwydd, mae yn ei pharchu hi â blaenoriaeth, ac yn ei chyfrif yn anrhydedd fod benyw mòr ardderchog yn ymweled â hi. † Mae y geiriau hyn yn gydnabyddiaeth o Dduwdod a dynoliaeth Crist: "Arglwydd," dyna Dduwdod; "*mam* fy Arglwydd," dyna ddynoliaeth. Maent hefyd yn gydnabyddiaeth o undeb y ddwy natur yn Mherson yr un Cyfryngwr.

54 * Canys wele, er cynted y daeth lleferydd gyfarchiad di i'm clustiau, [n] y plentyn ymmodd o lawenydd yn fy nghroth.

n adn. 41.

Mae yr adnod hon yn dangos yn eglur, fod Elisabeth ystyried, mai cynhyrfiad goruwch-naturiol yr Ysbryd a a barodd i'r plentyn làmu yn ei chroth hi, megys ydnabyddiaeth o'i Arglwydd, ac addoliad iddo.

55 * A [o] bendigedig *yw yr* hon a gredodd: ys bydd cyflawniad o'r pethau a ddywedwrthi gan yr Arglwydd.

o adn. 20. pen. 11. 27, 28. 2 Cron. 20. 20. Ioan 11. 40. a

Tybir fod yma gyfeiriad at ammheüaeth Zacharias, dd Elisabeth o herwydd y cerydd oedd arno ef am ammheüaeth hyny: ond ei bod o dynerwch a thostiaag ato yn gochel enwi y peth. Pob gwraig ith a fydd gynnil iawn o grybwyll beïau ei phriod, agofidia o'u herwydd. Nid o herwydd bod Mair yn i'r Messiah yr oedd hi yn fendigedig yn gymmaint; ei dedwyddwch oedd, credu tystiolaeth yr angel ddibetrusder, ac yn enwedig credu yn y Messiah v fel ei Gwaredwr. Trwy gredu felly, yr oedd yn ydeddu Duw, ac yn derbyn ei thrugareddau yn ymmysg â cheryddon. Peth nodedig oedd i Mair nc a dibrofiad, gredu addewid mòr anhygoel i m, pan oedd Zacharias, hen offeiriad duwiol iawn a ffiadol, yn petruso wrth addewid nad oedd mòr agoel o lawer. Dywedodd Elisabeth y geiriau hyn yn i Mair gael amser i fynegi dim iddi; gan hyny ll mai trwy ysbryd prophwydoliaeth y cawsai hi wybodaeth. Yr oedd hyn yn gadernid mawr i ffydd ; a thystiolaeth dau ddyn mòr enwog a Zacharias ac abeth yn tueddu yn rhagorol i'w hamddiffyn hi rhag ith o herwydd ei beichiogi. Yr oedd yn werth iddi il cyn belled ffordd.

56 ¶ A dywedodd Mair, [p] Y mae fy * enaid † mawrhâu yr Arglwydd,

p 1 Sam. 2. 1. Salm 34. 2, 3. a 35. 9. a 103. 1, 2. Es. 24. 15, 45. 25. a 61. 10. Hab. 3. 17, 18. Rhuf. 5. 11. 1 Cor. 1. 31. 2. 14. Phil. 3. 3. a 4. 4. 1 Pedr 1. 8.

57 A'm hyspryd a lawenychodd yn [q] ‡ Nuw achawdwr.

q pen. 2. 11. Es. 12. 2, 3. a 45. 21, 22. Zeph. 3. 14—17. Zec. 1 Tim. 1. 1. Tit. 2. 10, 13. a 3. 4—6.

farfod rhyfedd oedd hwn, rhwng y ddwy wraig, ac aml y bu ei fath yn mhlith gwragedd. Pethau edd Duw yn unig oedd testyn yr holl ymddiddan, a ymodd dylanwad grymus iawn o Ysbryd Duw ar abeth a Mair, hyd onid oeddynt yn tòri allan i iithio Duw mewn llef gorfoledd. Diammau fod an Elisabeth wedi cryfâu ffydd Mair yn fawr iawn; 'n ngrym y ffydd hòno mae yn canu yr anthem eddus hon. Mae y rhan fwyaf o eiriau y gân hon eu cymmeryd allan o ysgrythyrau yr Hen Destment, yr hyn a ddengys bod y forwyn dduwiol yn lysg iawn yn yr ysgrythyrau. Mae llawer o'r gân ebyg iawn i gân Hannah gynt, a'r achlysur yn debyg ld, ond bod hwn yn rhyfeddach o lawer na hwnw. d rhyw ddau beth gwahanol mewn dyn yw enaid ac yd, ond dau enw ar yr un peth: yr enaid yw yr yd, a'r ysbryd yw yr enaid. Mae Mair yn gosod ei alluoedd, sef ei holl galon, ar waith i foli Duw, fel edd yn Salm 103. 1, 2. Pa beth a dâl ein holl wniadau ni heb y galon? † Nid yr un fath y mae yn mawrâu Duw, ag y mae Duw yn mawrâu dyn: gallwn ni ond priodoli mawredd iddo ef, nis gallwn neyd yn fwy nac ydyw: mae efe yn mawrâu dyn yn oneddol, trwy ei ddercharu o'i waeledd dechreuol,

58 ‡ Duw yr Iachawdwr hwn oedd Crist, ar noliaeth yr hwn yr oedd Mair yn feichiog y pryd w. Yr oedd yn llawenychu ynddo, nid am ei fod i chroth, ond am ei bod hi yn credu ynddo, ac ynyn trigo trwy ffydd yn ei chalon.

59 Canys efe a [r] edrychodd ar * waeledd ei wasanaethyddes: oblegid, wele, † o hyn allan [s] yr holl genhedlaethau a'm geilw yn wynfydedig.

r 1 Sam. 1. 11. a 2. 8. 2 Sam. 7. 8, 18, 19. Salm 102. 17. a 113. 7, 8. Es. 66. 2. 1 Cor. 1. 26—28. Iago 2. 5, 6. s adn. 28, 42. pen. 11. 27. Gen. 30. 13. Mal. 3. 12.

* Nid gwaeledd pechadurus a feddylir yma, ond amgylchiadau isel-radd Mair yn y byd. Er ei bod hi o dŷ Dafydd, ac felly o'r gwaed breninol, eto yr oedd tŷ Dafydd wedi myned yn isel iawn yn y byd yr amser hwnw: pe amgen ni buasai Joseph yn saer llawd, a Mair yn wraig i'r saer llawd hwnw. Disgwyliai yr Iuddewon y Messiah o ryw deulu enwog ac anrhydeddus, ond gwelodd Duw yn dda ei ddwyn ef allan o'r teulu llawd ac anenwog hwn, a dyma arfer Duw yn aml, er mawrâu ei ras, a chuddio balchder ac ymffrost oddi wrth ddyn. † Lle yr oedd Mair yn anenwog o'r blaen, daeth hyn â hi i enwogrwydd tra parâo'r byd. Yr oedd yn wynfydedig ynddi ei hun fel credadyn, ac yn wynfydedig yn nghyfrif eraill fel mam yr hwn a ddaeth i'r byd i wneuthur miloedd yn wynfydedig. Nid braint fechan yw, bod Duw yn rhoddi i ni enw yn y byd; a hyny nid am ein hoes ni, ond am oesoedd a chenedlaethau i ddyfod.

60 * Canys [t] yr hwn sydd alluog a [u] † wnaeth i mi fawredd; [x] a sanctaidd *yw* ei enw ef.

t Salm 24. 8. Es. 1. 24. a 63. 1. Jer. 10. 6. a 20. 11. u Salm 71. 19—21. a 126. 2, 3. Marc 5. 10. x Ex. 15. 11. 1 Sam. 2. 2. Salm 99. 3, 9. a 111. 9. Es. 6. 3. a 57. 15. Dat. 4. 8. a 15. 4.

Mae Mair trwy yr holl gân hon yn priodoli yr holl fawredd a wnaed â hi, i ddaioni Duw, a dim iddi ei hun na'i thad Dafydd. Felly y gwnai Dafydd ei hun, Salm. 115. 1, ac felly y gwnâ yr holl waredigion byth. * Yr hwn sydd alluog a *all* wneyd mawredd; ac o bob mawredd a wnaeth erioed, dyma y mawredd mwyaf a wnaeth: gwneyd y Gair yn gnawd, ac wedi hyny ei wneyd dàn y ddeddf, ac yn aberth dros bechod. † Nid oes yma yr un sail i'r mawredd pabaidd a wnair i Mair gan eglwys Rhufain yn awr.

61 [y] * A'i drugaredd *sydd* yn oes oesoedd ar y rhai a'i † hofnant ef.

y Ex. 20. 6. a 34. 6, 7. Salm 31. 19. a 85. 9. a 103. 11, 17. a 115. 13. a 118. 4. a 145. 19. a 147. 11. Mal. 3. 16—18. Dat. 19. 5.

* Gwedi bendithio Duw am ei fawredd, a'i drugaredd iddi hi ei hun, mae Mair yma yn ehangu ei golygiadau am drugaredd Duw a bendithion yr iachawdwriaeth i eraill, o oes i oes tra parâo'r byd. † Yn ol iaith yr Hen Destament, mae y cwbl o ddduwioldeb yn cael ei gosod allan yn aml dàn y geiriau "Ofni Duw." Tybyg i'r adnod hon yw Salm 103. 17.

62 * Efe a [z] wnaeth gadernid â'i fraich: [a] efe a wasgarodd y rhai † beilchion ym [b] mwriad eu calon.

z Ex. 15. 6, 7, 12, 13. Deut. 4. 34. Salm 89. 13. a 98. 1. a 118. 15, 16. Es. 40. 10. a 51. 9. a 52. 10. a 63. 12. Dat. 18. 8. a Ex. 15. 9—11. a 18. 11. 1 Sam. 2. 3, 4, 10. Job 40. 9—12. Salm 2. 1—6. a 33. 10. a 89. 10. Es. 10. 12—19. Jer. 48. 29, 30. Dan. 4. 37. a 5. 23, &c. 1 Pedr 5. 5. b Gen. 6. 5. a 8. 21. Deut. 29. 19, 20. Rhuf. 1. 21. 2 Cor. 10. 5.

63 Efe a [c] dynnodd i lawr y cedyrn o'u heisteddfâau, ‡ ac a ddyrchafodd y rhai isel-radd.

c 1 Sam. 2. 4, 6—8. Job 5. 11—13. a 34. 24—28. Salm 107. 40, 41. a 113. 7, 8. Preg. 4. 14. Ezec. 17. 24. Amos 9. 11. Marc 6. 3. Iago 1. 9, 10. a 4. 10.

Yn yr adnodau hyn mae Mair yn crybwyll am allu a chyfiawnder Duw, wedi sôn am ei fawredd, ei ogoniant, a'i drugaredd, yn yr adnodau o'r blaen. * Gwelir nerth dyn yn ngweithredoedd ei fraich: nid oes i Dduw fraich. aelodau na rhanau, fel dyn; ond priodolir aelodau a rhanau iddo yn yr ysgrythyrau, er mwyn i ni ddeall yn well am dano: felly braich yma a arwydda ei nerthol allu ef. † Beilchion yn aml yn yr ysgrythyr a arwyddant, annuwiolion; ond beilchion yn ystyr fanol y gair, a ar-

wydda, ddyn o feddyliau uchel am dano ei hun: ac nid oes dim y mae dyn balch yn dangos ei falchder yn fwy ynddo, nag mewn canlyn dychymmygion neu fwriad ei galon ei hun. Ond y mae Duw yn drech na'r beilchion yn hyny. Gwel Exod. 18. 11. Mae yn eu gwasgaru, yn eu tynu i lawr o'u heisteddfâau: felly y gwnaeth â Pharaoh, Nebucodonozor, &c. ‡ Lle mae efe yn tynu i lawr y beilchion, mae yn derchafu y rhai isel-radd: felly y gwnaeth â Joseph, Moses, Dafydd, a Daniel. Fel hyn mae yn dangos ei allu a'i ben-arglwyddiaeth ar ddynion, mae yn gwneuthur fel y mỳno â phawb, ac yn gwneuthur pob peth yn anfeidrol gyfiawn, doeth, a da.

53 [d] * Y rhai newynog a lanwodd efe â phethau da; [e] ac efe a anfonodd ymaith y † rhai goludog yn weigion.

d pen. 6. 21. 1 Sam. 2. 5. Salm 34. 10. a 107. 8, 9. a 146. 7. Ezec. 34. 29. Mat. 5. 6. Ioan 6. 11—13, 35. Iago 2. 5. Dat. 7. 16, 17. e pen. 6. 24. a 12. 16—21. a 16. 19—25. a 18. 11—14, 24, 25. 1 Cor. 1. 26. a 4. 8. Iago 2. 6. a 5. 1—6. Dat. 3. 17, 18.

Yma mae Mair yn canmol uniondeb Duw yn ei lywodraeth ar y byd, yn cyfartalu dynion, mewn rhyw fesur, â'u gilydd, fel na byddai i awydd ysglyfaethus rhai fyned a'r cwbl iddynt eu hunain: Tybia rhai mai yr un meddwl sydd i'r adnod hon â geiriau Crist yn ei bregeth ar y mynydd, Matth. 5. 6, ac i'w deall mewn ystyr ysbrydol fel y geiriau hyny. * Tybia eraill mai yr Iuddewon yn eu cyflwr isel a dirywedig yr amser hwnw, a feddylir yma wrth y rhai newynog; † ac mai eu gelynion oedd yn eu gorthrymu oedd y rhai goludog. Diammau hefyd y gellir deall derbynwyr a gwrthodwyr y Messiah, wrth y newynog a'r goludog yma. Mae y gair a gyfieithir "anfon ymaith" yn arwyddo, troi allan dros y drws: ac felly yn dangos mai deiliaid Duw yw pawb, hyd yn nòd y mwyaf goludog, ac y gall efe eu diosg, eu difeddiannu, a'u troi allan pryd y mỳno. Syniad prydferth ac addas iawn ar y geiriau yw hyna.

54 * Efe [f] a gynnorthwyodd ei was † Israel, ‡ gan gofio *ei* drugaredd;

f adn. 70—75. Salm 98. 3. Es. 44. 21. a 46. 3, 4 a 49. 14—16. a 54. 6—10. a 63. 7—16. Jer. 31. 3, 20. a 33. 24—26. Mica 7. 20. Zeph. 3. 14—20. Zec. 9. 9—11.

55 Fel [g] y dywedodd wrth ein tadau, Abraham a'i had, ‖ yn dragywydd.

g Gen. 12. 3. a 17. 19. a 22. 18. a 26. 4. a 28. 14. Salm 105. 6—10. a 132. 11—17. Rhuf. 11. 28, 29. Gal. 3. 16, 17.

Yn yr adnodau hyn, mae Mair yn canmol trugaredd Duw, yn nghyd â'i wirionedd: ac yn cyfeirio yn fwyaf pennodawl at ei drugaredd yn nanfoniad y Gwaredwr, yn ol ei addewid i Abraham, ac i amryw eraill o Israel wedi hyny. * Mae y gair a gyfieithir yma "cynnorthwyodd," yn arwyddo "cynnaliodd," neu a ddyrchafodd i fynu â'i law. Felly y gwnaeth Duw âg Israel ei was, ei fab hoff, a phlentyn ei hyfrydwch, yn mhob oes; "efe a'u dygodd hwynt, ac a'u harweiniodd, yr holl ddyddiau gynt," hyd oni ddaeth y Messiah, eu cymmorth a'u gwaredydd. † Ond wrth Israel yma, rhaid i ni ddeall y rhai crediniol o Israel: hwy oedd plant yr addewid o'r Messiah, a hwy oedd yn iawn ddisgwyl am gyflawniad o hòni. ‡ Yn ei drugaredd y gwnaeth Duw hyn oll, nid o herwydd dim teilyngdod yn Israel ei was. Yn ei drugaredd y galwodd efe Abraham, y rhoddodd yr addewid iddo; yn ei drugaredd y cynnaliodd efe ei had ef drwy yr holl oesoedd; a thrwy gofio ei drugaredd, neu yr addewid a roes efe yn ei drugaredd, y danfonodd efe ei Fab yn nghyflawnder yr amser. ‖ Trugaredd dragywydd yw trugaredd Duw, nid yw efe byth yn anghofio ei drugaredd. Gwel Salm 136. 1, &c. Dywed *Doddridge* y dylai y rhan flaenaf o adn. 55, fod o fewn cromfachau: ac fel hyny cofio ei drugaredd yn dragywydd yw hi: i "gofio ei drugaredd" y perthyna "yn dragywydd."

56 * A Mair a arhosodd gyd â hi ynghylch tri mis, ac a ddychwelodd i'w thŷ ei hun.

* Arosodd Mair gydag Elisabeth hyd amser esgoriad yr olaf: tybia rhai iddi aros hyd wedi yr esgoriad; a thybia eraill iddi fyned ymaith cyn i hyny gymmeryd lle; fel na byddai i'r gwragedd a ddeuent yno ar y achlysur nodedig hwnw, gymmeryd sylw o'i beichiog hi, yr hyn oedd raid ei fod yn lled amlwg erbyn hyn Yn y fàn yma mae yr hanes a gynnwysir yn Matth. 1 18—21, yn dyfod i mewn. Gwel y sylwadau yno.

57 ¶ A [h] chyflawnwyd tymp Elisabeth esgor, * a hi a esgorodd ar fab.

h adn. 13. pen. 2. 6, 7. Gen. 21. 2, 3. Num. 23. 19.

58 [i] † A'i chymmydogion a'i chenedl a gly bu fawrhâu o'r Arglwydd ei drugaredd arni [k] a hwy a gyd-lawenychasant â hi.

i adn. 25. Ruth 4. 14—17. Salm 113. 9. k adn. 14. Gen 21. 6. Es. 66. 9, 10. Rhuf. 12. 15. 1 Cor. 12. 26.

* Dyma gyflawniad hollawl o'r addewid: ni syrth y un o eiriau Duw i'r llawr. † Hen arferiad yn mhol gwlad, mae yn debyg, yw ymgynnull i lawenychu a enedigaeth plentyn, ac yn debyg o barhâu hyd ddiwed y byd. Ond yn gyffredin mae cynnulliadau ar y fat achlysuron yn ein gwlad a'n dyddiau ni, yn bur wahan ol i'r cynnulliad hwn yn nhŷ Zacharias ac Elisabeth Llawenychu yn sanctaidd, a bendithio Duw am y rhodd. oedd yno; ychydig o hyny, ysywaeth, sydd yn mhlith ein gwragedd crefyddol ni. Ac heb hyny, tebycach i gynnulliad paganiaid na christionogion yw y cynnulliad.

59 * A bu, [l] ar yr wythfed dydd hwy a ddaethant i enwaedu ar y dyn bach; † ac a'i galwasant ef Zacharias, ‡ yn ol enw ei dad.

l pen. 2. 21. Gen. 17. 12. a 21. 3, 4. Lef. 12. 3. Act. 7. 8. Phil. 3. 5.

60 ‖ A'i fam a attebodd ac a ddywedodd, [m] Nid *felly;* § eithr Ioan y gelwir ef.

m adn. 13. 2 Sam. 12. 25. Es. 8. 3. Mat. 1. 25.

61 Hwythau a ddywedasant wrthi, Nid oes neb o'th genedl a elwir ar yr enw hwn.

* Yr oedd deddf yr enwaediad yn gorchymyn yn fanol i enwaedu ar yr wythfed dydd, Gen. 17. 12. Lefit. 12. 3: ond nid oes genym un gorchymyn pwy oedd i enwaedu, na pha le. Enwaedodd Sephorah, gwraig Moses, ar ei mab, ar y ffordd yn y lletty, Exod. 4. 24, 25. Dywedir y byddent arferol wedi hyny o enwaedu yn y synagog; ond nid oes yr un gorchymyn dwyfol am hyny: ac mae yn bur debygol mai gartref, yn nhŷ Zacharias, yr enwaedwyd ar Ioan; oblegid yr oedd ei fam yn bresenol, ac nid yw yn debyg y gallasai hi fyned allan mòr fuan ag wyth niwrnod wedi esgor. † Byddent arferol o enwi y plant wrth eu henwaedu: oblegid, tebygir, mai ar ei enwaediad y tröwyd enw Abram, tad y ffyddloniaid, yn Abraham. Byddid yn datgan yr enw wrth enwaedu; ond gellid enwi heb enwaedu, ac enwaedu heb enwi: nid oes genym hanes i wraig Moses enwi ei mab pan enwaedodd ef. Felly eto wrth fedyddio: nid yw enwi y plentyn yn un ran hanfodol o fedydd; dim ond ei fedyddio wrth yr enw oedd iddo o'r blaen: a dylai y gweinidog ofalu am drefnu ei lais felly, fel y dangoso nad yw ond llefaru wrth y plentyn, neu y person a fedyddir, wrth ei enw o'r blaen. ‡ Nid oes genym hanes yn yr Hen Destament am neb yn Israel yn cael ei alw wrth enw ei dad: ond yr oedd hyny y pryd hwn wedi dyfod yn arferiad; (megys Herod a'i eppil) ac yr oedd y ceraint hyn yn ei fwriadu o barch i Zacharias, yn enwedig gan ei fod yn awr yn hen iawn. ‖ Tybir i Zacharias amlygu i Elisabeth yr enw a roddasai yr angel iddo ef; neu ynte, iddi hi ei hun gael datguddiad goruwchnaturiol o hyny. § Ystyr y gair Ioan yw Gras, neu Rhodd Duw; neu, Duw sydd rasol: enw addas iawn i bregethwr cyntaf goruchwyliaeth gras, a'r hwn a ddywedai, "Wele Oen Duw," yr hwn sydd yn llawn gras a gwirionedd. Onid yw enwau felly yn fwy addas yn mhlith cristionogion, nac enwau hen dduwiau a duwiesau cenedlig paganaidd, ac afian: megys *Fortuna, Diana, Gwenog &c.?* Am adn. 61, nid oes achos am eglurâd arni.

62 [n] * A hwy a wnaethant amnaid ar ei dad ef, † pa fodd y mynnai efe ei enwi ef.

n adn. 22.

5 Yntau a alwodd am [o] argraff-lech, ac a
fenodd, gan ddywedyd, ‡ Ioan yw ei enw
A rhyfeddu a wnaethant oll.

o Diar. 3. 3. Es. 30. 8. Jer. 17. 1. Hab. 2. 2.

ybir wrth hyn, fod Zacharïas yn fyddar yn gystal
fud, pe amgen, ni buasai eisiau "amnaid" arno:
id llefaru wrtho pe buasai yn clywed. † Gan y tad
ld hawl i enwi y plentyn; ac felly y dylai fod eto
fedyddio. ‡ Dyna y geiriau a ysgrifenodd efe:
yr enw a roddodd yr angel: gan hyny nid oes dim
fod yn nghylch y peth.

* Ac [p] agorwyd ei enau ef yn ebrwydd,
hfod ef; [q] ac efe a lefarodd, † gan fendith-
uw.

p adn. 20. Ex. 4. 15, 16. Salm 51. 15. Jer. 1. 9. Ezec. 3. 27.
1. a 33. 22. Mat. 9. 33. Marc 7. 32—37. q Salm 30. 7—
18. 18, 19. Es. 12. 1. Dan 4. 34—37.

yd y dydd y gwnelid y pethau hyn y rhoed y
i arno, adn. 20; ac ar y dydd y cyflawnwyd hwynt,
d y wialen oedd arno. † Efe a fendithiodd Dduw
ddaioni a'i ffyddlondeb i'w addewid, yn rhoddi y
yn iddo, efe a gydnabyddodd uniondeb ei gerydd,
dioichodd i Dduw am iddo ei dùnu ymaith.

6 * A [r] daeth ofn ar bawb oedd yn trigo
u cylch hwy: a thrwy holl [s] fynydd-dir
a y cyhoeddwyd y † geiriau hyn oll.

r gen. 7. 16. Act. 2. 43. a 5. 5, 11. a 19. 17. Dat. 11. 11.
39. Jos. 10. 6, 40.

6 A phawb a'r a'u clywsant, [t] a'u gosodas-
yn eu calonnau, gan ddywedyd, ‡ Beth
y bachgennyn hwn? [u] || A llaw yr Ar-
dd oedd gyd âg ef.

t gen. 2. 19, 51. a 9. 44. Gen. 37. 11. Salm 119. 11. u adn.
n. 2. 40. Gen. 39. 2. Barn. 13. 24, 25. 1 Sam. 2. 18. a 16. 18.
. 18. 46. Act. 11. 21.

blaw y pethau uchod a enwyd, tybir i Zacharïas
ii hefyd holl amgylchiadau y weledigaeth a gawsai
leml; hyd oni ddaeth arswyd a sỳndod sanctaidd
wb ag oedd yn bresenol, wrth glywed am y fath
u rhyfedd a goruwch-naturiol. Ac nid y peth
a'u sỳnodd, efallai, oedd iddo ef gael ei leferydd
disymmwth. † "Y geiriau," neu y pethau, "hyn
dull Hebrëaidd o lefaru, yn rhoddi geiriau am
u, sef y pethau a adroddasai Zacharïas: cyhoedd-
nwy drwy yr holl ardaloedd lle yr oedd Zacharïas
w, a chyhoeddwyd gwaeth pethau lawer gwaith.
oedd yn naturiol i bawb ddisgwyl, y buasai plentyn
wsid mewn modd mòr rhyfeddol, fod yn rhyw
yn anghyffredin, ac a rhyw waith anghyffredin
|| Ac felly y gwelwyd; bu llaw yr Arglwydd yn
g arno; yn ei gynnydd corphorol, yn ei gynneddf-
turiol, ac yn ei ddoniau a'i dueddiadau grasol a
bl, uwchlaw ei oedran, ac uwchlaw plant eraill yn
din. Am law yr Arglwydd, tro at y cyfeiriadau
y llythyren *u*.

7 ¶ * A'i dad ef Zacharïas a [x] gyflawn-
o'r Yspryd Glân, † ac a brophwydodd,
ddywedyd,

x adn. 15, 41. Num. 11. 25. 2 Sam. 23. 2. Joel 2. 28. 2 Pedr
1.

Ti ddylem ni feddwl fod Zacharïas yn amddifad o'r
rd Glân o'r blaen; mae adn. 6 yn dangos yn am-
Ond efallai i'w ammheuaeth ef o addewid yr angel,
u yr Ysbryd Glân; ac iddo gael ei adael yn am-
l o'i ddylanwadau nerthol a'i ddiddanwch ef hyd y
hwn. † Daeth yr Ysbryd Glân arno y tro hwn yn
ol iawn ac mewn modd anghyffredin; yn debyg
byddai yn dyfod ar yr hen brophwydi gynt, yn
rd prophwydoliaeth. Ac yn yr adnodau nesaf, mae
agfynegi pethau am ei fab Ioan ac hefyd am Grist.
efe hefyd yn cymhwyso atynt hwy, y pethau a ddy-
yd am bob un o'r ddau gan y prophwydi o'r blaen.
rhai, bod y gàn hon yn grynodeb o'r hen bro-
phwydoliaethau oll; ac hefyd ei bod yn cynnwys talfyr-
iad o holl athrawiaeth yr Efengyl.

68 [y] * Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw
Israel: † canys [z] efe a ymwelodd, ac a wnaeth
ymwared i'w bobl;

y Gen. 9. 26. a 14. 20. 1 Bren. 1. 48. 1 Cron. 29. 10, 20. Salm
72. 17—19. a 106. 48. Eph. 1. 3. 1 Pedr 1. 3. z pen. 7. 16. a
19. 44. Ex. 3. 16, 17. a 4. 31. Salm 111. 9. Eph. 1. 7.

69 ‡ Ac *efe* a ddyrchafodd [a] gorn iachawd-
wriaeth i ni, [b] || yn nhŷ Dafydd ei wasanaeth-
wr;

a 1 Sam. 2. 10. 2 Sam. 22. 3. Salm 18. 2. a 132. 17, 18. Ezec.
29. 21. b 2 Sam. 7. 26. 1 Bren. 11. 13. Salm 89. 3, 20, &c. Es.
9. 6, 7. a 11. 1—9. Jer. 23. 5, 6. a 33. 15—26. Ezec. 34. 23, 24. a
37. 24, 25. Amos 9. 11. Marc 11. 10. Rhuf. 1. 3. Dat. 22. 16.

70 § Megis y [c] llefarodd trwy enau ei sanct-
aidd brophwydi, [d] y rhai oedd o ddechreuad y
byd:

c 2 Sam. 23. 2. Marc 12. 36. Act. 28. 25. Heb. 3. 7. 2 Pedr 1.
21. Dat. 19. 10. d pen. 24. 26, 27, 44. Gen. 3. 15. a 12. 3. a 49.
10. Dan. 9. 24—27. Act. 3. 22—24. 1 Pedr 1. 12.

* "Arglwydd Dduw Israel" yw y *gwir* Dduw, mewn
ffordd o ragoriaeth, ac anfeidrol uchafiaeth ar bob duw-
iau eraill, Ezra 1. 3. "Arglwydd Dduw Israel" hefyd, i
arwyddo ei fod yn Dduw cyfammodol Israel: mae efe
yn Arglwydd yr holl ddaear; ond y mae mewn cyfam-
mod âg Israel, i fod yn Dduw iddynt ac i ofalu am
danynt. † Efallai bod yma olwg ar holl ymweliadau
Duw â'i bobl a'i waredigaethau iddynt o oes i oes; ond
yn benaf ar yr amser hwnw, danfoniad y Messiah.
‡ Mae cyrn anifeiliaid yn harddwch ac yn amddiffyniad
iddynt: felly corn iachawdwriaeth a arwydda iachawd-
wriaeth gadarn, ogoneddus a hardd: iachawdwriaeth a'i
hamddiffyn ei hun, a ddarostwng ei holl elynion, a
hardda ac a brydfertha ei holl wrthddrychau, ac a fydd
yn ogoniant annhraethol byth i'w Hawdwr bendigedig.
Sonir am y Messiah dàn y gymhariaeth hon yn yr ys-
grythyrau canlynol, 1 Sam. 2. 10; 2 Sam. 22. 3; Salm
89. 24; á 132. 17. Byddai milwyr gynt yn gwisgo corn
o ddur ar eu penau: gorwedd yn wastad a wnâi yn
gyffredin, ond wedi ennill y fuddugoliaeth, hwy a'i
dyrchafent yn syth i fynu: cyfeiriad at hyna sydd yn y
fàn hon, ac yn mhob màn lle y sonir am ddyrchafu y
corn, ac hefyd at anifeiliaid a amddiffynent eu hunain
â'u cyrn. || Mae hyn yn cytuno â'r prophwydoliaethau
am Grist, mai o had neu dylwyth Dafydd y deuai: gwel
y cyfeiriadau dàn y llythyren *b*. Yr oedd tŷ Dafydd y
pryd hwn yn isel iawn; ond nid yn rhy isel i Dduw
dderchafu corn iachawdwriaeth yn ogoneddus iawn o
hóno. § Had y wraig oedd yr addewid, neu y brophwyd-
oliaeth gyntaf; wedi hyny had Abraham; yna o lwyth
Judah; ac yn olaf o dŷ Dafydd: felly y prophwydodd
dynion, ac felly y cyflawnodd Duw. Gwel *c. d.* Nid
oes i ni feddwl *fod* rhes o brophwydi yn ddibaid o
ddechreuad y byd, a phob un o honynt yn prophwydo
am Grist; nis gellir profi hyny: ond meddwl Zacharïas
yw, bod y cyffredinolrwydd o'r prophwydoliaethau, yn
mhob oes, yn cyfeirio at y tro mawr hwn.

71 * Fel [e] y byddai i ni ymwared rhag ein
gelynion, ac o law pawb o'n caseion;

e adn. 74. Deut. 33. 29. Salm 106. 10, 47. Es. 14. 1—3. a 44.
24—26. Jer. 23. 6. a 30. 9, 10. a 32. 37. Ezec. 28. 26. a 34. 25, 28.
a 38. 8. Zeph. 3. 15—20. Zec. 9. 9, 10. 1 Ioan 3. 8.

72 † I [f] gwblhâu y drugaredd â'n tadau,
[g] ac i gofio ei sanctaidd gyfammod.

f adn. 54, 55. Gen. 12. 3. a 22. 18. a 26. 4. a 28. 14. Salm 98.
3. Act. 3. 25, 26. Rhuf. 11. 28. Heb. 6. 13—18. g Gen. 17. 4—
9. Lef. 26. 42. Salm 105. 8. a 106. 45. a 111. 5. Ezec. 16. 8, 60.
Gal. 3. 15—17.

* Wrth yr "ymwared" hwn, deallai y rhan fwyaf o'r
Iuddewon, ymwared tymmorawl, ac oddi wrth elynion
dynol: nid oeddynt yn deall mai teyrnas ysbrydol a
fyddai teyrnas y Messiah; ac ymwared oddiwrth elynion
ysbrydol, byd, cnawd, a diafol, angau ac uffern. Gan
fod Zacharïas yn llefaru yma drwy ysbrydoliaeth Duw;
tybir ei fod yn deall am yr ymwared yn ei ystyr ysbryd-

ol: ond tybia eraill nad oedd efe yn hollawl yn deall ei eiriau ei hun, ond ei fod yn llefaru fel y cynhyrfid ef gan yr Ysbryd Glân. Mae yn bur sicr nad oedd rhai o'r hen brophwydi, weithiau, ddim yn deall y pethau a roddid iddynt gan yr Ysbryd Glân i'w llefaru, 1 Pedr 1. 10, 11. Ond nid oedd hyny yn tynu dim oddi wrth wirionedd anffaeledig eu prophwydoliaethau; nid ar eu dëall hwy o honynt yr oedd eu gwirionedd yn ymddybynu, ond ar ysbrydoliaeth Duw. † Yma y mae y cwbl yn cael ei briodoli i drugaredd a ffyddlondeb Duw: ei drugaredd, yn edrych ar ei grëaduriaid mewn caledi a thrueni; a'i ffyddlondeb, yn cofio ac yn cyflawni ei sanctaidd gyfammod, yr hyn a eglurir yn mhellach yn yr adnod ganlynol.

73 * Y [h] llw a dyngodd efe wrth ein tad Abraham, † ar roddi i ni,

h Gen. 22. 16. a 24. 7. a 26. 3. Deut. 7. 8, 12. Salm 105. 9. Jer. 11. 5. Heb. 6. 16, 17.

* Yn gyntaf, rhoddodd Duw ei *air* i Abraham, Gen. 18. 18; gwedi hyny cadarnâodd ei air trwy *lw*, Gen. 22. 16. Dyma'r ddau beth dianwadal a sonir gan yr apostol yn Heb. 6. 17, 18; ei air, a'i lw: a'r llw hwnw hefyd wedi ei dyngu iddo ei hun, Heb. 6. 13. † Mae Crist a'i holl fendithion wedi eu rhoddi yn gyntaf i Abraham, yna i'w holl had crediniol ef, ac wedi hyny i bawb a gredant, Cenedloedd yn gystal ag Iuddewon.

74 [i] * Gwedi ein rhyddhâu o law ein gelynion, † ei wasanaethu ef yn ddïofn,

i adn. 71. Es. 35. 9, 10. a 45. 17. a 54. 13, 14. a 65. 21—25. Ezec. 34. 25—28. a 39. 28, 29. Zeph. 3. 15—17. Zec. 9. 8—10. Rhuf. 6. 22. a 8. 15. 2 Tim. 1. 7. Heb. 2. 15. Dat. 2. 10.

75 ‡ Mewn [k] sancteiddrwydd a chyfiawnder ger ei fron ef, holl ddyddiau ein bywyd.

k Deut. 6. 2. Salm 105. 44, 45. Jer. 31. 33, 34. a 32. 39, 40. Ezec. 36. 24—27. Mat. 1. 21. Eph. 1. 4. a 2. 10. a 4. 24. 1 Thes. 4. 1, 7. 2 Thes. 2. 13. 2 Tim. 1. 9. Tit. 2. 11—14. 1 Pedr 1. 15, 16. 2 Pedr 1. 4—8.

* Am y gelynion, a'r rhyddâd oddi wrthynt, a sonir yma, gwel ar adnod 71. Pe cawsai yr Iuddewon eu gwaredu, neu eu rhyddâu, y pryd hwnw, o law eu holl elynion tymmorawl fel yr oeddynt yn disgwyl, a dim ond hyny; nid oedd nemawr o duedd i wasanaethu Duw mewn sancteiddrwydd a chyfiawnder ynddynt. Yr oeddynt dàn gaethiwed gan elynion ysbrydol cryfach, a mwy niweidiol o lawer, ac angen eu rhyddâu o law y rhai hyny yn fwy na dim. † Mae teimlad ofnus ac euog yn y galon, o ddigofaint Duw a melltith ei ddeddf, yn anaddasu ac yn rhwystro'r enaid i wasanaethu Duw yn rhydd ac ysbrydol, fel y gwelir yn y gwas drwg a diog yn Matth. 25. 25. O'r tu arall, lle mae yr enaid yn ei heddwch, dàn ei amddiffyn, ac yn mwynâu ei drugaredd a'i ras; mae yno ryddid mabaidd ac ysbrydol i'w wasanaethu ef yn ddïofn. ‡ Rhyddid sanctaidd a chyfiawn yw rhyddid yr efengyl, a rhyddid sydd yn rhwymo y credadyn i sancteiddrwydd a chyfiawnder yw, nid ei adael i fyw yn benrhydd, yn gnawdol a llygredig. Cynnysgaethed Duw ni â'r sancteiddrwydd a'r cyfiawnder hyn, holl ddyddiau ein bywyd, ac yn y diwedd â bywyd tragywyddol!

76 * A thithau, fachgennyn, [l] † a elwir yn brophwyd i'r [m] ‡ Goruchaf: || canys [n] ti a âi o flaen wyneb yr Arglwydd, i barottôi ei ffyrdd ef;

l pen. 7. 28. Mat. 14. 5. a 21. 26. Marc 11. 32. m adn. 32, 35. pen. 6. 35. Salm 87. 5. Act. 16. 17. n adn. 16, 17. pen. 3. 4—6. Es. 40. 3—5. Mal. 3. 1. a 4. 5. Mat. 3. 3, 11. a 11. 10. Marc 1. 2, 3. Ioan 1. 23, 27. a 3. 28. Act. 13. 24, 25.

* Gwedi clodfori Duw yn felus am ddanfon ei Fab i'r byd, mae Zacharias yma yn troi i lefaru am ei fab ei hun, Ioan, ac yn rhagfynegi yr hyn a gymmerth le tua deng mlynedd ar hugain wedi hyny: oblegid mae yn debygol, na ddechreuodd Ioan ei weinidogaeth hyd onid oedd yn ddeg ar hugain oed, yr oedran offeiriadol. Dyna'r oedran y dechreuodd Crist ei hun ei weinidogaeth, pen. 3. 23. † Yr oedd ysbryd prophwydoliaeth wedi ymadaw o Israel er ys tri neu bedwar cant o flynyddoedd; ac yn awr yn dechreu dychwelyd. Yr oedd Zacharias (yn gystal â Simeon, Anna, ac eraill) dan e ddylanwadau, ac efe a brophwydodd am Ioan a Chris Yr oedd Ioan yn brophwyd, a "mwy na prophwyd;" ef a brophwydodd beth a wnâi Crist, ac a'i dangosodd i bobl wedi dyfod. ‡ Crist ei hun yw y "Goruchaf" yma Felly y gelwir ef gan Ioan, a rhaid ei fod yn wir Dduw cyn y gallai fod yn Oruchaf. || Crist hefyd yw yr Arglwydd; oblegid o flaen wyneb Crist yr oedd Ioan yn myned, i barotôi ei ffyrdd *Ef*. Pa fodd yr â Sosiniaeth dros eiriau fel hyn? onid oes yma gwlwm annattodaw i wadwyr Duwdod Iesu.

77 * I [o] roddi gwybodaeth iachawdwriaeth i'w bobl, trwy [p] faddeuant o'u pechodau.

o pen. 3. 3, 6. Marc 1. 3, 4. Ioan 1. 7—9, 15—17, 29, 34. a 3 27—36. Act. 19. 4. p pen. 7. 47—50. Act. 2. 38. a 3. 19. a 10 43. a 13. 38, 39. Rhuf. 3. 25. a 4. 6—8. Eph. 1. 7.

* I bregethu yn erbyn hunan-gyfiawnderau yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid; i bregethu edifeirwch i bawb i bregethu Oen Duw yn tynu ymaith bechodau y byd; ac i bregethu maddeuant pechodau i'r penaf o bechaduriaid yn ei enw a thrwy ei waed a'i aberth ef. Dyma "barotôi ei ffyrdd ef;" dyma "roddi gwybodaeth iachawdwriaeth;" dyma swm gweinidogaeth Ioan, a dyma swm gweinidogaeth holl genadon anfonedig Duw. Crist ei hun, medd rhai, a feddylir wrth iachawdwriaeth yn y fàn yma, fel yn adn. 69. pen. 2. 30.

78 * O herwydd [q] tiriondeb trugaredd ein Duw; trwy yr hon yr ymwelodd â ni † godiad haul o'r uchelder,

q Es. 63. 7. Ioan 3. 16. Eph. 2. 4, 5. 1 Ioan 4. 9, 10.

* "Tiriondeb trugaredd," neu ymysgaroedd trugaredd ein Duw. Hebrëaeth gref yw y geiriau, yn arwyddo tra thosturi Duw tuag at bechaduriaid colledig. Gwel Gen. 43. 30; 1 Bren. 3. 26. † Gwawr-ddydd yw y gair hwn yn ol y Saesoneg. Mae y gair Groeg yn arwyddo y rhan ddwyreiniol o'r wybren, lle mae gwawr y bore yn dechreu tywynu: ac felly gellir meddwl fod gwawr-ddydd yn fwy addas i agwedd ddechreuol pethau yr amser hwnw, na chodiad haul. Beth bynag am y gair, Crist yn ei Berson, ei efengyl, a'i ras, a feddylir.

79 I [r] lewyrchu i'r rhai sydd * yn eistedd mewn tywyllwch [s] a chysgod angau, [t] i gyfeirio ein traed i ffordd tangnefedd.

r pen. 2. 32. Es. 9. 2. a 42. 7, 16. a 49. 6. a 60. 1—3. Mat. 4. 16. Ioan 1. 9. a 8. 12. a 9. 5. a 12. 46. Act. 26. 18. Eph. 5. 8. 1 Thes. 5. 4, 5. 1 Ioan 1. 5—7. s Job 3. 5. a 10. 22. Salm 23. 4. a 44. 19. a 107. 10, 14. Jer. 2. 6. t Salm 25. 8—10, 12, 13. a 85. 10—13. Diar. 3. 17. a 8. 20. Es. 48. 17, 18, 22. a 57. 19—21. a 59. 8. Jer. 6. 16. Mat. 11. 28, 29. Rhuf. 3. 17.

Dyma ddyben Crist yn ymweled â ni:—* Cyfeiriad sydd yn y geiriau hyn at ddrwg-weithredwyr dàn gollfarn, yn eistedd mewn celloedd tywyll tàn-ddaearol, yn aros dydd eu dienyddiad: i lewyrchu ac i ryddâu y fath hyn y daeth Iesu. Mae y geiriau yn cael eu dywedyd am yr Iuddewon yn Es. 9. 1, 2. Matth. 4. 14, 15, 16. a phwy bynag a ddarlleno eu hanes gresynol yr amser hwn, (yn enwedig Iuddewon Galilea, lle y pregethodd Crist fwyaf) yn *Josephus*, a genfydd fod y dysgrifiad yn briodol iawn. Os oedd yn briodol i'r Iuddewon, pa faint mwy i'r cenedloedd paganaidd y rhai oedd drwy holl oesoedd y byd wedi eu gadael i soddi mewn tywyllwch, halogrwydd a phob trueni? Ond e ddaeth Iesu i fod yn oleuni i'r cenedloedd, ac yn iachawdwriaeth hyd eithaf y ddaear. Bendigedig fyddo Duw am hyny!

80 * A'r [u] bachgen a gynnyddodd, † ac a gryfhawyd yn yr ysbryd, [x] ac a fu ‡ yn y diffaethwch || hyd y dydd [y] yr § ymddangosodd efe i'r Israel.

u adn. 15. pen. 2. 40, 52. Barn. 13. 24, 25. 1 Sam. 3. 19, 20. x Mat. 3. 1. a 11. 7. Marc 1. 3, 4. y Ioan 1. 31.

* Efe a gynnyddodd mewn corpholaeth, mewn doniau naturiol, ac mewn cynneddfau cryfion, a meddwl dewr a grymus. † Efe a gynnyddodd hefyd mewn gras

† wrder ysbrydol, i wynebu ar ei waith mawr, ac ar
rwystrau a gwrthwynebiadau dynion anhywaith, yn
einidogaeth. ‡ Efallai i'w rieni farw pan oedd Ioan
euanc, (yr oeddynt yn hen pan aned ef;) pa fodd
g am hyny, nid oes dim hanes am iddo gael ei
yn i fynu yn ddysgedig fel mab i offeiriad, nac ei fod
n unrhyw wasanaeth sanctaidd yn y deml. Am
geidiaeth ddynol nid oedd arno ef ei heisiau;
edd dàn ddysgeidiaeth well, sef dàn ysbrydoliaeth
. Yr oedd y diffaethwch, sef ardal o ychydig
ogaeth, yn fwy cydnaws â'i dueddiadau neillduedig
fyrgar ef. Wrth fyw felly, yr oedd yn ennill enw
ei hun am farweiddiad i'r byd, a sancteiddrwydd
d; yn ymarfer â chaledi erbyn gwrthwynebiadau ac
harch yn ei weinidogaeth; ac yn ddigon pell oddi
Grist, fel nas gallai neb ddywedyd ei fod yn bleid-
iddo, a bod rhyw gyngrair rhyngddynt o'r blaen,
n ei gyhoeddi ef fel Oen Duw, Messiah, &c. Tybir
anialwch Ziph neu Maon (1 Sam. 23. 24, 25,) oedd
ffaethwch hwn; os felly yr oedd tua chàn milltir
g Ioan yno a Christ yn Nazareth. || Y dydd y
reuodd efe ei weinidogaeth gyhoeddus, pan oedd
leg ar hugain oed. § Mae y gair a gyfleithir yma
addangos" yn arwyddo *urddiad* rhyw swyddog cy-
ldus i'w swydd. Nid anghofia rhai byth mo'r dydd
chreuasant eu cenadwri fawr dros Dduw!

PEN. II.

ugustus yn trethu holl ymerodraeth Rhufain, &c.

1 U hefyd yn y * dyddiau hynny, fyned
gorchymyn allan oddi wrth [a] † Augustus
sar, [b] ‡ i drethu yr || holl fyd.

a pen. 3. 1. Act. 11. 28. a 25. 11, 21. Phil. 4. 22. b Mat. 4. Marc 14. 9. a 16. 15. Rhuf. 1. 8.

2 § (Y [c] trethiad yma a wnaethpwyd gyntaf
oedd Cyrenius yn [d] rhaglaw ar Syria)

c Act. 5. 37. d pen. 3. 1. Act. 13. 7. a 18. 12. a 23. 26. a 0.

3 * A phawb a aethant i'w trethu, [e] bob un
ddinas ei hun.

e adn. 4.

Y dyddiau y ganed Ioan Fedyddiwr, neu rhwng
y â genedigaeth Crist. † Neu Cesar Augustus yn y
soneg: aeth hwn yn ymherawdwr Rhufain meddant
mlynedd cyn geni Crist, a bu farw yn mhen 14
edd wedi geni Crist. Bu llawer o'r Cesareaid yn
herawdwyr Rhufain un ar ol y llall, Augustus Cesar
d yr ymherawdwr yr amser hwn. ‡ Mae y gair
yfleithir trethu yma, yn arwyddo ysgrifenu enwau
gofrestru yn gyhoeddus: ac felly y defnyddir ef yn
b. 12. 23. || Mae dadl yn mhlith dysgedigion, pa un
holl ymherodraeth Rhufain a feddylir yma wrth yr
ll fyd," ai ynte holl wlad Israel a feddylir, yr hon oedd
yd hwnw yn un deyrnas, dan lywodraeth Herod, ond
anwyd wedi hyny yn wahanol daleithiau, gwel pen.
. § Gan mai yn mhen blynyddoedd wedi hyn y bu
enius yn rhaglaw ar Syria, mae yr adnod hon
ddyrys: dywed rhai y gellir ei darllen "*cyn* bod
enius yn rhaglaw," yn lle "*pan* oedd." Mae eraill
lywedyd fel hyn:—ddarfod cofrestru, neu gymmeryd
rif o nifer y bobl, tuag amser genedigaeth Ioan; ond
chodwyd mo'r dreth arnynt hyd onid oedd Cyrenius
rhaglaw ar Syria. Ac yn ol yr agoriad yna, mae yr
nod gyntaf yn sôn am y cofrestriad, a'r ail adnod yn
am y trethiad a wnaed yn ol y cofrestriad hwnw, a
bb un o honynt yn gyson â hanes *Josephus* am y
ter hwn. * Yr oedd pawb i gael eu cyfrif, a phawb i
ed i'w ddinas ei hun, sef prif ddinas ei lwyth, neu ei
n teulu, i gael ei gyfrif. Gwelwn ddau beth ynddynt:
Mawredd a balchder calon Cesar yn mynu cyfrif
hrethu ei holl ddeiliaid. 2. Gwelwn fel y goruwch-
rodraethodd Duw y peth hwn i gyflawni ei arfaeth a'i
sef geni yr Iesu yn Bethlehem. 3. Gwelwn hefyd,

fod y deyrn-wialen *yn* ymadael o Judah pan ddaeth y Silo: mae y trethu hwn yn dangos ei bod yn llaw estroniaid.

4 * A [f] Joseph hefyd a aeth i fynu o Galilea, o [g] ddinas Nazareth, i Judea, [h] i ddinas Dafydd, yr hon a elwir † Bethlehem (am [i] ei fod o dŷ a thylwyth Dafydd)

f pen. 1. 26, 27. a 3. 23. g pen. 4. 16. Mat. 2. 23. Ioan 1. 46. h Gen. 35. 19. a 48. 7. Ruth 1. 19. a 2. 4. a 4. 11, 17, 21, 22. 1 Sam. 16. 1. a 17. 12, 58. a 20. 6. Mica 5. 2. Mat. 2. 1—6. Ioan 7. 42. i pen. 1. 27. a 3. 23—31. Mat. 1. 1—17.

5 ‡ I'w drethu gyd â [k] Mair, yr hon a ddy-
weddiasid yn wraig iddo, yr hon oedd yn
feichiog.

k Deut. 22. 22—27. Mat. 1. 18, 19.

6 || A [l] bu, tra yr oeddynt hwy yno, [m] cyf-
lawnwyd y dyddiau i esgor o honi.

l Salm 33. 11. Diar. 19. 21. Mica 5. 2. m pen. 1. 57. Dat. 12. 1—5.

* Bernir fod gan Joseph a Mair tua 60 neu 70 o filltiroedd i deithio o Nazareth i Bethlehem. Yr oedd Galilea yn wlad isel a gwastad, a Judea yn fwy uchel a mynyddig, gan hyny ar i *fynu* yr aid o Galilea i Judea; ac yn adn. 51. sonir am fyned i *waered* o Jerusalem yn Judea, i Nazareth yn Galilea. † Bethlehem oedd ddinas llwyth Judah, a dinas Dafydd; a chàn eu bod hwythau o dŷ a thylwyth Dafydd, rhaid oedd myned yno i gael eu trethu; ac felly cyflawni cyngor Duw yn ddiarwybod iddynt eu hunain, ac yn ddiarwybod i Cesar, er yn ol gorchymyn Cesar. ‡ Byddai y Rhufeiniaid yn cofrestru gwragedd a phlant bach yn gystal â gwŷr; ac o ufudd-dod i'r llywodraeth wladol aeth Mair i Bethlehem fel yr oedd, er y gallesid disgwyl y buasai ei chyflwr yn ei hesgusodi. Rhaid oedd cyflawni gair Duw. Sylwa rhai fod hyn yn brawf fod Mair yn etifeddes, pa mòr dlawd bynag oedd hi; o blegid heb hyny dywedant nad oedd raid iddi hi fyned i Bethlehem i'w threthu hi y pryd hwn. A chan iddi hi a Joseph fyned i'r un fàn, dangosir ei bod hi ac yntau o'r un llwyth; ac ni cha'i hi fel etifeddes briodi allan o'i llwyth ei hun. || Gan i Mair esgor ar amser y trethiad, neu y cofrestriad hwn, mae yn debyg i'r "dyn bach" gael ei drethu, neu ei gofrestru hefyd. Fel hyny cafodd ei wneyd yn ddeiliad ymherodraeth Rhufain, ei eni mewn agwedd gwas, a'i wneuthur dàn y ddeddf ymherodraethol yn gystal a deddf Duw. Ac fel hyny hefyd yr oedd cof-nodiad sicr a swyddol ar gael, mai yn Bethlehem y ganed ef, yn gyfatebol i'r brophwydoliaeth.

7 * A [n] hi a esgorodd ar ei mab cyntaf-
anedig, [o] † ac a'i rhwymodd ef mewn ‡ cadach-
au, ac a'i || dododd ef yn y preseb; am nad
oedd iddynt le yn y [p] § lletty.

n Es. 7. 14. Mat. 1. 25. Gal. 4. 4. o adn. 11, 12. Salm 22. 6. Es. 53. 2, 3. Mat. 8. 20. a 13. 55. Ioan 1. 14. 2 Cor. 8. 9. p pen. 10. 34. Gen. 42. 27. a 43. 21. Ex. 4. 24.

* Yn ol y Groeg, meddant, "ei mab, y cyntaf-anedig." Mae yn wir iawn mai mab cyntaf-anedig Mair oedd Crist; ond mae yn wir hefyd, ei fod ef *y* Cyntaf-anedig mewn ystyr arall, a llawer uwch na hyny, Heb. 1. 6. Col. 1. 15. Fel y Cyntaf-anedig yr oedd yn sanctaidd i'r Arglwydd, ac yn blaenori fel Offeiriad, Brenin, a Phrophwyd mawr, yn mhlith brodyr lawer. † Dywedir iddi hi ei hun ei rwymo ef, &c., wrth yr hyn y meddylia rhai, na phrofodd hi ddim o boenau esgor, neu ynte, iddi gael nerth rhyfeddol ac anarferol ar y cyfryw achlysur. Pa fodd bynag am hyny, mae yn debyg nad oedd yno neb arall (ond Joseph) i'w chynnorthwyo hi yn ei hamgylchiad. Pan ddaeth Iesu nid oedd neb i'w dderbyn, yn yr ystyr hyn; ac o'r bobl nid oedd neb gydag ef. ‡ Nid oes achos rhoddi yr ystyr waethaf i'r gair cadachau, fel y gwnair yn rhai parthau o Gymru: nid yw y gair o angenrheidrwydd yn arwyddo carpiau neu fratiau gwaelion; ac y mae digon o bethau eraill yn yr hanes i ddangos tlodi ac iselder Iesu heb gymmorth y gair cadachau yn ei ystyr waethaf. Cymmerodd Mair

yn ddïau y cyfryw bethau a allasai gael yn ei hamgylchiad anghyflëus y pryd hwnw. ‖ Peth cyffredin yn ngwledydd y dwyrain oedd, ac ydyw eto, i deithwyr a'u hanifeiliaid gyd-orphwys am y nos yn yr un tŷ, a thàn yr un gronglwyd. Gan mai tref fechan a gwael yn awr oedd Bethlehem, a llawer o ddïeithriaid wedi cyrchu yno y pryd hwn; nid rhyfedd i ddynion mòr dlawd â Joseph a Mair fod heb gael lle yn y llety. Gŵyr pawb mai i anifeiliaid y mae preseb: heblaw hyny, mae y gair am breseb yn y fân hon meddant, yn arwyddo tŷ neu le anifeiliaid hefyd; a thybia rhai nad oedd ond gogof wael naturiol mewn craig, fel yr oedd gogofau lawer yn y wlad hòno. § Dywedir fod tri math o leoedd i letya yn y gwledydd hyny, un i ddynion yn unig, ac yn lle cysurus; yr ail i ddynion a'u hanifeiliaid, ond gyda rhyw ddarpariadau cysurus i'r dynion; a'r trydydd i ddynion a'u hanifeiliaid, heb ddim darpariad i'r dynion mwy nag i'r anifeiliaid. Am y cyntaf y dywedir uchod, nid oedd lle i Mair yn y llety gorau hwnw; a digon tebyg mai y trydydd, a'r gwaethaf, a gafodd hi, er ei bod ar ei thymp i esgor, ac i esgor ar y Messiah hefyd. Yr oedd hyn megys blaen-brawf i'r Cyfryngwr pa dderbyniad a gaffai yn y byd hwn: na ddisgwylied ei ganlynwyr lawer gwell.

8 ¶ * Ac yr oedd yn y wlad honno † fugeiliaid [q] yn aros yn y maes, ac yn ‡ gwylied eu praidd liw nos.

q Gen. 31. 39, 40. Ex. 3. 1, 2. 1 Sam. 17. 34, 35. Salm 78. 70, 71. Ezec. 34. 8. Ioan 10. 8—12.

* Gwlad i borfâu praidd oedd o amgylch Bethlehem, fel y gwelwn yn 1 Sam. 17. 15. † O herwydd lladron a chrëaduriaid ysglyfaethus, yr oedd yn angenrheidiol gwylied y praidd yno ar hyd nos, a dywedir fod gan y bugeiliaid fythod bychain ar hyd y maesydd i hyny. ‡ Gwylied ar gylch, neu bob yn ail, yw meddwl y gair, fel milwyr yn cylchynu eu gilydd.

9 Ac [r] wele, * angel yr Arglwydd a † safodd ger llaw iddynt, [s] ‡ a gogoniant yr Arglwydd a ddisgleiriodd o'u hamgylch: [t] ‖ ac ofni yn ddirfawr a wnaethant.

r pen. 1. 11, 28. Barn. 6. 11, 12. Mat. 1. 20. Act. 27. 23. 1 Tim. 3. 16. s Ex. 16. 7, 10. a 40. 34, 35. 1 Bren. 8. 11. Es. 6. 3. a 35. 2. a 40. 5. a 60. 1. Ezec. 3. 23. Ioan 12. 41. 2 Cor. 3. 18. a 4. 6. Dat. 18. 1. t pen. 1. 12. Es. 6. 4, 5. Act. 22. 6—9. a 26. 13, 14. Heb. 12. 21. Dat. 20. 11.

* Mae yn bur debygol mai yr angel Gabriel oedd hwn eto, yr hwn a ymddangosasai o'r blaen i Zacharïas a Mair, ac i Daniel amryw gannoedd o flynyddoedd cyn hyny, a phob tro ar ryw neges perthynol i'r Messiah a'i deyrnas. † Tybir mai sefyll yn yr awyr, ychydig uwchlaw y bugeiliaid a wnaeth yr angel, ac nid sefyll ar y ddaear: yr un modd y gall ysbryd sefyll yn yr awyr ac ar y ddaear. ‡ Mae yn ddiammau bod yr angel ei hun yn ogoneddus iawn; ond yma gogoniant yr Arglwydd a ddywedir. Rhaid fod y disgleirdeb yn fwy tanbaid a gogoneddus na disgleirdeb yr angel ei hun; rhywbeth tebyg i'r arwydd o'r presenoldeb dwyfol a welid gynt dàn yr hen oruchwyliaeth. ‖ Mae yn debyg mai dynion duwiol oedd y bugeiliaid hyn; oblegid i'r cyfryw mae yr Arglwydd yn hysbysu ei ddirgelwch, Salm 25. 14. Gwael iawn oedd genedigaeth Iesu o ran pob amgylchiad daearol; ond gogoneddus iawn o ran pethau nefol: llu nefol, anthem nefol, a gogoniant dwyfol. Bugeiliaid yn ddyfal ar eu gorchwyl oedd y bugeiliaid hyn, nid segurwyr oeddynt: na ddisgwylied bugeiliaid segur y cânt fawr o'r nefoedd.

10 A'r angel a ddywedodd wrthynt, * [u] Nac ofnwch:- canys wele [x] yr wyf fi yn † mynegi i chwi ‡ newyddion da o lawenydd mawr, ‖ yr hwn a fydd [y] i'r holl bobl.

u pen. 1. 13, 30. Dan. 10. 11, 12, 19. Mat. 28. 5. Dat. 1. 17, 18. x pen. 1. 19. a 8. 1. Es. 40. 9. a 41. 27. a 52. 7. a 61. 1. Act. 13. 32. Rhuf. 10. 15. y adn. 31, 32. pen. 24. 47. Gen. 12. 3. Salm 67. 1, 2. a 98. 2, 3. Es. 49. 6. a 52. 10. Mat. 28. 18. Marc 16. 15. Rhuf. 15. 9—12. Eph. 3. 8. Col. 1. 23.

11 § Canys [z] ganwyd i chwi heddyw [a] Geidwad yn ninas Dafydd, [b] yr hwn yw Crist [c] y Arglwydd.

z pen. 1. 69. Es. 9. 6. Mat. 1. 21. Gal. 4. 4, 5. 2 Tim. 1. 9, 10. Tit. 2. 10—14. a 3. 4—7. 1 Ioan 4. 14. a Gwel ar adn. 4. b adn. 26. pen. 20. 41, 42. Gen. 3. 15. a 49. 10. Salm 2. 2. Dan. 9. 24—26. Mat. 1. 16. a 16. 16. Ioan 1. 41, 45. a 6. 69. a 7. 25—27. 41. a 20. 31. Act. 2. 36. a 17. 3. 1 Ioan 5. 1. c pen. 1. 43. 20. 42—44. Act. 10. 36. 1 Cor. 15. 47. Phil. 2. 11. a 3. 8. Col. 2. 6.

12 * A hyn *fydd* [d] arwydd i chwi; Chwi a gewch y dyn bach wedi ei rwymo mewn cadachau, *a'i* ddodi yn y preseb.

d Ex. 3. 12. 1 Sam. 10. 2—7. Salm 22. 6. Es. 53. 1, 2.

* Felly y dywedodd wrth Zacharias, pen. 1. 13; wrth Mair, 1. 30; ac wrth y gwragedd wrth y bedd, Matth. 28. 5. Yr oeddynt oll yn ofni, ac yr oedd yn naturiol iddynt ofni; ond nid oedd achos i neb o honyn ofni. † I'r bugeiliaid llodion y gwelodd Duw yn ddi hysbysu genedigaeth y Messiah, ac nid i'r gwŷr mawr a phenaethiaid y bobl: felly y rhyngodd bodd yn ei olwg, ac fel hyny yr oedd yn tywallt dirmyg ar bob mawredd dynol. I ddynion ag oedd yn fugeiliaid wrth eu galwedigaeth yr addawyd ef gynt, Gen. 4. 3; ac i fugeiliaid yr hysbyswyd ei enedigaeth pan ddaeth. ‡ "Newyddion da:" efengyl, ac efengylu, yw y ddau air hyn mewn mànau eraill; ac efengyl bur a gwerthfawr oedd y newyddion da hyn, ac efengylu oedd eu mynegi. ‖ Nid i'r bugeiliaid yn unig, yr oedd y newyddion da o lawenydd mawr hyn, nac i'r genedl Iuddewig yn unig; ond i bawb a'u clywont ac a'u credont, yn mhlith pob cenedl dàn y nef, Matth. 24. 14. § I chwi, ac i bawb eraill, fel dynion, fel pechaduriaid, ac fel credinwyr; i *chwi, ddynion*, ac nid i'r angelion syrthiedig, y ganwyd Ceidwad: Ceidwad rhag digofaint Duw, rhag satan, pechod, ac angau tragywyddol: ganwyd i chwi Geidwad; y Messiah addawedig a disgwyliedig, Arch-offeiriad, Brenin, a Phrophwyd eneiniedig Israel; ïe, Arglwydd y gogoniant, Arglwydd pawb oll, yr Arglwydd o'r nef, Duw wedi ymddangos yn y cnawd. Bendigedig fyddo enw Duw Jehofah am y fath Geidwad! * Fel pe dywedasai yr angel, Ewch i Bethlehem i ymofyn am dano; a pha le bynag y caffoch faban newydd ei eni, wedi ei rwymo mewn cadachau, a'i ddodi mewn *preseb*, hwnw yw efe; nid oes yr un arall yno mewn agwedd mòr isel a thlodaidd: ac na fydded ei dlodi a'i iselder yn dramgwydd i chwi, nac yn rhwystr i chwi gredu ynddo: eich Ceidwad, Crist yr Arglwydd, ac etifedd pob peth, ydyw yn sicr.

13 * Ac yn ddisymmwth yr oedd gyd â'r angel [e] lïaws o † lu nefol, yn ‡ moliannu Duw, ac yn dywedyd,

e Gen. 28. 12. a 32. 1, 2. 1 Bren. 22. 19. Job 38. 7. Salm 68. 17. a 103. 20. a 148. 2. Es. 6. 2, 3. Ezec. 3. 12. Dan. 7. 10. Luc 15. 10. Eph. 3. 10. Heb. 1. 14. 1 Pedr 1. 12. Dat. 5. 11.

14 ‖ [f] Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, [g] ac ar y ddaear tangnefedd, [h] i ddynion ewyllys da.

f pen. 19. 38. Salm 69. 34, 35. a 85. 9—12. a 96. 11—13. Es. 44. 23. a 49. 13. Ioan 17. 4. Eph. 1. 6. a 3. 20, 21. Phil. 2. 11. Dat. 5. 13. g pen. 1. 79. Es. 9. 6, 7. a 57. 19. Jer. 23. 5, 6. Mica 5. 5. Zec. 6. 12, 13. Ioan 14. 27. Act. 10. 36. Rhuf. 5. 1. 2 Cor. 5. 18—20. Eph. 2. 14—18. Col. 1. 20. Heb. 13. 20, 21. h Ioan 3. 16. Tit. 3. 4—7. 1 Ioan 4. 9, 10.

* Hysbyswyd genedigaeth Crist gan un angel; ond yr oedd yn rhaid cael lïaws o angelion i gyd-ganu mawlwers ei enedigaeth ef. † Lluoedd Duw y gelwir yr angelion yn Salm 103. 20, 21; o herwydd eu nifer, eu trefn, a'u gwasanaeth. ‡ Moliannu Duw yn ddibaid nos a dydd, yw gwaith yr angelion yn y drydedd nef; a moliannu Duw yw eu hoff waith hwynt pa le bynag y byddont. ‖ Gellir ystyried y geiriau hyn yn *fynegiadol:* fel pe buasai yr angelion yn dywedyd, fod peth wedi cymmeryd lle y diwrnod hwnw, a fyddai yn ogoniant i Dduw mwy na'i holl weithredoedd eraill erioed: ac y byddai lles anfeidrol i ddynion hefyd o enedigaeth y Messiah. Neu, gellir eu hystyried yn *rhoddedigol:*

dd gogoniant yn y goruchaf i Dduw; a *bydded* nefedd ac ewyllys da i ddynion ar y ddaear. Yn y uchaf a feddylir, y drydedd nef, (2 Cor. 12. 2.) ac y gair gwreiddiol yn y rhif lïosog, goruchafion; am yw y gair Hebraeg am nef, byth yn y rhif unigol dant. Mae tòriadau bỳrion, a disymmwth y gân, iodol iawn i wresawgrwydd seraphaidd yr angelion, yn gwneyd y geiriau yn anhawdd eu dëall yn wn. Mae yn ddïau, bod gogoniant anfeidrol i w, a lles anfeidrol i ddynion, yn deilliaw o'r iachriaeth fawr.

15 A bu, * pan aeth yr angelion ymaith wrthynt [i] i'r nef, y bugeiliaid hwythau a wedasant wrth eu gilydd, † [k] Awn hyd ilehem, a gwelwn y peth hwn a wnaethdd, yr hwn a hysbysodd yr Arglwydd i ni.

i pen. 24. 51. 2 Bren. 2. 1, 11. 1 Pedr 3. 22. k Ex. 3. 3. l 111. 2. Mat. 2. 1, 2, 9—11. a 12. 42. Ioan 20. 1—10.

16 A hwy a ddaethant [l] ar frys; ‡ ac a wsant Mair a Joseph, a'r dyn bach yn wedd yn y preseb.

l pen. 1. 39. Preg. 9. 10. m Gwel ar adn. 7, 12. a 19. 32. 13.

17 ‖ A phan welsant, [n] hwy a gyhoeddasant gair a ddywedasid wrthynt am y bachgen.

n adn. 38. pen. 8. 39. Salm 11. 9, 10. a 66. 16. a 71. 17, 18. 3. 16. Ioan 1. 41—46. a 4. 28, 29.

18 A phawb a'r a'*i* clywsant, [o] a ryfeddasant y pethau a ddywedasid gan y bugeiliaid nynt.

o adn. 33, 47. pen. 1. 65, 66. a 4. 36. a 5. 9, 10. Es. 8. 18.

19 Ond Mair traddodi eu neges, a chyflawni eu gorchwyl, yr angelion yn ol i'r nef; i glodfori Duw yno, ac i wni ei air ef mewn rhyw wasanaeth arall. † Er ei eto yn nos, nid oedodd y bugeiliaid duwiol hyn d yn y fàn i Bethlehem. Nid oedd ammheüaeth ldynt o wirionedd a mawredd y peth, ac yr oeddynt icr mai yr Arglwydd, trwy ei angel, a'i hysbysodd nt. ‡ Ni bu eu hymofyniad yn ofer, hwy a gawsant peth fel y dywedasid iddynt. Nid yw datguddiedthau dwyfol byth yn twyllo y neb a'u credont: edd a daear a ânt heibio; ond nid â dim a lefarodd heibio, heb ei gwblâu oll. ‖ Gan na chawsant un hymyn i dewi, hwy a wnaethant yn iawn, ac fel edd yn naturiol iddynt, i gyhoeddi y peth rhyfedd yn mhob màn. Dyma bregethwyr dynol cyntaf t yn y cnawd. § "Y gair" fod y Messiah wedi ni: y cwbl a fynegodd yr angel iddynt, cân y nefol, efallai; ac hefyd y cwbl a ddywedodd Joseph air wrthynt. Rhyfeddodd pawb a glywsant, ond nis ldom a gredodd neb yn wirioneddol ai peidio. ith naturiol yw rhyfeddu, ond rhaid cael gweithredmerth Duw i gredu.

20 * Eithr [p] Mair a gadwodd y pethau hyn † gan *eu* hystyried yn ei chalon.

p adn. 51. pen. 1. 66. a 9. 43, 44. Gen. 37. 11. 1 Sam. 21. 12. 4. 4. Hos. 14. 9.

20 ‡ A'r bugeiliaid a ddychwelasant, [q] ‖ gan neddu a moliannu Duw am yr holl bethau lywsent ac a welsent, fel y dywedasid wrth-

q pen. 18. 43. a 19. 37, 38. 1 Cron. 29. 10—12. Salm 72. 17—106. 48. a 107. 8, 15, 21. Es. 29. 19. Act. 2. 46, 47. a 11. 18.

‡ Y pethau a ddywedasai yr angel wrthi hi ei hun; y au a ddywedasai wrth Joseph, Matth. 1. 20, 21; y au a ddywedasai wrth y bugeiliaid; yn nghyd cyflawniad rhyfedd o honynt oll. † Gwelwn wadol effeithiau yr un pethau ar wahanol ddynion: edd y bobl yn rhyfeddu am y peth hwn fel rhyw dro hyffredin; ond cadwodd Mair y peth yn ei chalon, ei ddwfn ystyried: nid peth arwynebol a diflanedig dymmer oedd iddi hi. ‡ Dychwelödd y bugeiliaid at eu galwedigaeth: nid yw crefydd yn peri i ddynion anghofio ac esgeuluso dyledswyddau eu sefyllfâoedd. ‖ Gan ogoneddu a moliannu Duw: dyma ddechreu y "llawenydd mawr" a soniodd yr angel; ond ni ddaw diwedd arno byth. Mae gwir ffydd yn dwyn llawenydd a diolchgarwch: a gellir mwynâu Duw a'i ogoneddu yn mhob sefyllfa, ar y maes yn gystal ac yn y deml.

21 ¶ * A phan [r] gyflawnwyd wyth niwrnod i † enwaedu ar y dyn bach, [s] galwyd ei enw ef ‡ IESU, yr hwn a enwasid gan yr angel cyn ei ymddwyn ef yn y groth.

r pen. 1. 59. Gen. 17. 12. Lef. 12. 3. Mat. 3. 15. Gal. 4. 4, 5. Phil. 2. 8. s pen. 1. 31. Mat. 1. 21, 25.

* Pan ddaeth yr wythfed dydd, neu ar yr wythfed dydd, nid wedi i'r wythfed dydd ddarfod: buasai hyny yn nawfed dydd. Mae hyn yn egluro y geiriau "wedi tridiau," Marc 8. 31. † Gan fod Iesu uwchlaw y ddeddf, ac yn ddeddf-roddwr, fel Duw; ac yn berffaith a hollawl ddibechod, fel dyn; nid oedd *raid* ei enwaedu ef fel dynion eraill: ond ar amryw ystyriaethau eraill yr oedd hyny yn angenrheidiol. Ni chyfrifasid ef yn wir fab i Abraham, heb enwaediad; nis gallasai fod yn aelod gweledig o'r eglwys Iuddewig, heb enwaediad; ac nis gallasai fod yn weinidog i'r enwaediad (Rhuf. 15. 8.) heb ei fod wedi cael ei enwaedu ei hun. Eto, yr oedd efe wedi ei wneuthur dàn y ddeddf; ac fel ein Machnïydd a'n Hesampl ni, gwnaed ef yn ddarostyngedig i'w holl ddefodau hi. Wrth gael ei enwaedu, dangosodd ei hun yn ddyledwr i gadw yr holl ddeddf: Galat. 5. 3; ac yr oedd enwaediad, *yn ei achos ef*, yn ernes o'i holl ddyoddefiadau o hyny allan: yn ddechreuad y gwaith aberthawl, a orphenodd efe ar y groes. ‡ Am yr enw IESU, gwel ar Matth. 1. 21.

22 * Ac wedi cyflawni [t] dyddiau ei † phuredigaeth ‡ hi, yn ol deddf Moses, ‖ hwy a'i dygasant ef i Jerusalem, i'*w* gyflwyno i'r Arglwydd;

t Gwel ar Lef. 12. 2—6.

23 (Fel yr ysgrifenwyd yn neddf yr Arglwydd, [u] § Pob gwrryw cyntaf-anedig a elwir yn sanctaidd i'r Arglwydd)

u Ex. 42. 2, 12—15. a 22. 29. a 34. 19. Num. 3. 13. a 8. 16, 17. a 18. 15.

24 Ac i roddi aberth, yn ol yr hyn a ddywedwyd yn neddf yr Arglwydd, [x] * Pâr o durturod, neu ddau gyw colommen.

x Lef. 12. 6—8. 2 Cor. 8. 9.

* Mae yr adnodau hyn yn crybwyll am ufudd-dod Mair i ddau orchymyn: un am buredigaeth gwraig ar ol esgor, Lefit. 12. 2—5; a'r llall am gyssegru y plentyn i'r Arglwydd, Exod 13. 2. a 22. 29. a 34. 19. Dyddiau y puredigaeth ar blentyn gwrryw oedd, deugain niwrnod, ac ar fenyw, pedwar ugain. † Mae yn bur debygol nad oedd achos am buredigaeth ar Mair fel ar wragedd eraill; eto nid oedd hi yn chwennych cael ei hesgusodi, ond yn ymostwng yn mhob peth i ddeddf Duw. ‡ Dywedir mai *hwynt*, ac nid "*hi*," sydd mewn rhai hen ysgrifau da o'r Testament Groeg yma; sef puredigaeth Mair â Iesu. Ond nid yw hyny yn arwyddo dim halogrwydd pechadurus ynddo ef, gan nad oedd y puredigaeth yma ddim ond cydffurfiad â defod seremonïol, er cael derbyniad i gynnulleidfa pobl Dduw; ac i'r hyn yr oedd yn rhaid i Grist yn ei natur ddynol ymostwng er cyflawni pob cyfiawnder. ‖ Yr oedd pob cyntaf-anedig i gael ei gyflwyno i'r Arglwydd, yn Jerusalem, ac wedi hyny ei brynu am bùm sicl, (tua deuddeg a chwech o'n harian ni) a Duw yn cymmeryd y Lefiaid yn eu lle. Gwel y cyfeiriadau am y deddfau hyn. § Nid ail-adroddiad cywir o unrhyw adnod yn yr Hen Destament yw y geiriau hyn; ond crynöad o feddwl cyffredin amryw adnodau. * Oen blwydd, a chyw colomen, neu ddurtur, oedd yr aberth; ond lle nas gellid cyrhaedd gwerth oen, dwy ddurtur, neu ddau gyw colomen, Lefit.

12. 6, 8. Nis gallai Joseph a Mair gyrhaedd ond yr offrwm gwaelaf, mòr fawr oedd eu tlodi a'u hiselder.

25 Ac wele, yr oedd gwr yn Jerusalem, * a'i enw Simeon; † a'r gwr hwn *oedd* [y] gyfiawn a duwiol, [z] yn disgwyl am § ddiddanwch yr Israel: [a] || a'r Yspryd Glân oedd arno.

y pen. 1. 6. Gen. 6. 9. Job 1. 1, 8. Dan. 6. 22, 23. Mica 6. 8. Act. 10. 2, 22. a 24. 16. Tit. 2. 11—14. z adn. 38. Es. 25. 9. a 40. 1. Marc 15. 43. a pen. 1. 41, 67. Num. 11. 25, 29. 2 Pedr 1. 21.

26 § Ac [b] yr oedd wedi ei hysbysu iddo gan yr Yspryd Glân, na [c] welai efe angau, cyn iddo weled [d] Crist yr Arglwydd.

b Salm 25. 14. Amos 3. 7. c pen. 9. 27. Salm 89. 48. Ioan 8. 51. Heb. 11. 5. d Salm 2. 2, 6. Es. 61. 1. Dan. 9. 24—26. Ioan 1. 41. a 4. 29. a 20. 31. Act. 2. 36. a 9. 20. a 10. 38. a 17. 3. Heb. 1. 8, 9.

27 * Ac efe a ddaeth [e] trwy yr yspryd i'r deml: a phan [f] ddug ei rieni y dyn bach Iesu, [g] i wneuthur drosto yn ol defod y gyfraith;

e pen. 4. 1. Act. 8. 29. a 10. 19. a 11. 12. a 16. 7. Dat. 1. 10. a 17. 3. f adn. 41, 48, 51. g Gwel ar adn. 22.

28 † Yna [h] efe a'i cymmerth ef yn ei freichiau, [i] ‡ ac a fendithiodd Dduw, ac a ddywedodd,

h Marc 9. 36. a 10. 16. i adn. 13, 14, 20. pen. 1. 46, 64, 68. Salm 32. 11. a 33. 1. a 105. 1—3. a 135. 19, 20.

* Mae rhai dynion wedi bod yn hoff iawn o feddwl mai rhyw ŵyr mawr yn y byd, oedd y duwiolion enwog a grybwyllir yn y Bibl. Tybia y dynion hyny mai un felly oedd Simeon: dywed rhai mai Rabbi enwog ydoedd, mab Hillel, a thad Gamaliel: ond heb un sail yn y byd. Mỳn eraill mai rhyw offeiriad enwog oedd; ac mai wrth gyflwyno Crist gan ei rieni i'r Arglwydd, y derbyniodd efe ef yn ei freichiau (adn. 28.) yn ngweinyddiad rheolaidd ei swydd. Nid oes sail i hyny ychwaith. Gan nad amlygasid Crist eto i neb ond i dlodion, mae yn debycach mai rhyw hen wr tlawd duwiol yn Jerusalem oedd y Simeon hwn. † Dywedir ei fod yn gyfiawn ac yn dduwiol: yr oedd hyny yn fwy enwogrwydd iddo na bod yn Rabbi na dim arall, heb dduwioldeb. ‡ Dyddanwch yr Israel oedd y Messiah. Trwy addewidion a phrophwydoliaethau am y Messiah, y byddai y prophwydi yn dyddanu pobl Dduw gynt yn eu holl orthrymderau; dyddiau diddanwch y galwent hwy, ac y geilw yr Iuddewon eto, ddyddiau y Messiah; a pheth cyffredin iawn ganddynt hwy yw tyngu, mỳn eu dymuniad am weled y diddanwch hwn. || Yr oedd yr Ysbryd Glân wedi disgyn ar Simeon, nid fel ar dduwiolion yn gyffredin; ond yn anghyffredin, yn ysbryd prophwydoliaeth: § dangosasai iddo y caffai weled Crist yn y cnawd cyn marw. * Fel hyn trwy gynnyrfiad yr Ysbryd y daeth efe i'r deml ar y pryd yr oedd Joseph a Mair yn cyflwyno Iesu yno; ac fel hyny cafodd weled cyflawniad cyntaf 'un brophwydoliaeth nodedig am dano, Hag. 2. 6—9. † Yr Ysbryd Glân yr hwn oedd arno, ac a'i tueddodd ef i ddyfod i'r deml y pryd hwn, a ddangosodd iddo yn ddïau, mai y dyn bach Iesu oedd y Messiah mawr: ac efe a'i cymmerodd ef yn ei freichiau, yn arwydd o'i wir grediniaeth ynddo, ac o'i fawr gariad ato. Breichiau corph yn arwyddo breichiau ffydd a chariad. ‡ Efe a fendithiodd Dduw am ei drugaredd iddo ef a'i bobl, ac am gyflawniad o'i addewid yn nanfoniad y Messiah.

29 * Yr awr hon, Arglwydd, [k] y gollyngi dy was mewn tangnefedd, [l] † yn ol dy air:

k Gen. 15. 15. a 46. 30. Salm 37. 37. Es. 57. 1, 2. Phil. 1. 23. Dat. 14. 13. l adn. 26.

30 ‡ Canys [m] fy llygaid a welsant dy iachawdwriaeth,

m Gwel ar adn. 10, 11.—pen. 3. 6. Gen. 49. 18. 2 Sam. 23. 1—5. Es. 49. 6. a 52. 10. Act. 4. 10—12.

31 || Yr hon [n] a barottoaist ger bron wyneb yr holl bobloedd;

n Salm 96. 1—3, 10—13. a 97. 6—8. a 98. 2, 3. Es. 42. 1—4, 10—12. a 45. 21—25. a 62. 1, 2.

32 [o] Goleuni i oleuo y Cenhedloedd, [p] § gogoniant dy bobl Israel.

o Es. 9. 2. a 42. 6, 7. a 49. 6. a 60. 1—3, 19. Mat. 4. 16. Ac 13. 47. a 28. 28. Rhuf. 15. 8, 9. p Salm 85. 9. Es. 4. 2. a 45. 2. a 60. 19. Jer. 2. 11. Zec. 2. 5. 1 Cor. 1. 31. Dat. 21. 23.

* "Dos mewn heddwch" oedd gyfarchiad ymadawo cyffredin, ac efallai mai cyfeiriad at hyny sydd y y geiriau hyn. Geiriau go debyg i eiriau yr hen Jaco gynt, pan welodd efe ei fab Joseph, Gen. 46. 30, on wedi eu llefaru yma ar achlysur llawer mwy pwysig Dywedir fod y gair a gyfieithir yma "gollwng" y arwyddo rhyddâd, a maddeuant; gwaredigaeth, a goll yngdod; megys o gaethiwed a thrueni; ac a ddefnyddi gan y *Deg a thriugain* i arwyddo marwolaeth dynion duwiol. Mae yr hen Simeon yma yn addef Duw yn Ar glwydd ei fywyd, yr hwn yn unig oedd ag awdurdod gan ddo i barâu ei einioes, neu roddi terfyn arni: mae yn ei gydnabod ei hunan yn hen wr, wedi ei ddigoni â hir ddyddiau, yn ewyllysio gorphwys oddiwrth helbulon y fuchedd hon; ond yn crefu am gael ei ollwng mewn *tangnefedd*, hyny yw, yn ddedwydd yn heddwch Duw Gwel Gen. 15. 15. 2 Bren. 22. 20. Salm 4. 8. † Sef yn addewid a grybwyllir yn adnod 26. Nis gallai farw mewn tangnefedd heb weled cyflawniad o air Duw, yn yr hwn y gobeithiasai. ‡ Crist yr Iachawdwr, a feddylir yma wrth iachawdwriaeth; oblegid fod holl iachawdwriaeth pechaduriaid yn cymherfeddu yn ei Berson ef, yr hwn sydd "Dduw wedi ymddangos yn y cnawd." Mae addewidion a bendithion yr iachawdwriaeth, wedi eu trysori ynddo ef; ac yn cael eu rhoddi ganddo ef trwy weinidogaeth yr Ysbryd i'r credinwyr. Addawyd i Simeon y caffai efe weled y Messiah yn gorphorol, â'i lygaid corphorol, ac yna marw yn fuan: ac nis gallai yr hen gredadyn duwiol farw "mewn tangnefedd" heb gael hyny: efe a'i cafodd. Nis gall neb o honom ninnau farw mewn tangnefedd heb weled iachawdwriaeth Duw trwy ffydd, ac â llygad ysbrydol. || Peth o arfaeth dragywyddol a darpariad grasol Duw, yw yr iachawdwriaeth; o ran y Person a'r holl fendithion hefyd. Pethau cuddiedig o ddechreuad y byd oeddynt, wedi eu selio yn mhlith y pethau penaf o drysorau Duw; ond pethau i'w dwyn i oleuni mewn amser, yn enwedig yn nghyflawnider yr amser, a phethau i oleuo dynolryw yn mhlith pob cenedl dàn y nef. § Er i'r rhan fwyaf o'r genedl Iuddewig wrthod y Messiah a'i weinidogaeth, pan ddaeth ac hyd yn hyn; eto eu prif anrhydedd a'u gogoniant hwy oedd, iddo ef gael ei eni o honynt, gweinidogaethu yn eu plith, ac i'w efengyl ef gael ei danfon o'u plith hwy at yr holl genedloedd. Mae yr holl wir gredinwyr eto, yn ystyried eu perthynas â Christ eu hanrhydedd penaf, ac y maent yn ymogoneddu ynddo ef. Po mwyaf yr ymogoneddo dynion yn Nghrist, mwyaf y gogoneddа Crist hwythau.

33 * Ac [q] yr oedd Joseph a'i fam ef yn rhyfeddu † am y pethau a ddywedwyd am dano ef.

q adn. 48. pen. 1. 65, 66. Es. 8. 18.

* Nid rhyfeddu am nad oeddent yn credu; ond am eu bod yn credu yr oeddent yn rhyfeddu: mae Crist i fod yn rhyfeddol yn (neu i'w ryfeddu gan) y rhai oll sydd yn credu. † Yr *holl* bethau a ddywedasid am dano; gan yr angel wrth Mair, wrth Joseph, wrth Zacharias, wrth y bugeiliaid; hefyd dyfodiad ac offrymau y doethion, a geiriau Simeon yn awr. Pa un bynag a oeddynt yn dëall y cwbl yn drwyadl ai peidio, yr oedd pobpeth, erbyn eu rhoi at eu gilydd, yn peri iddynt ryfeddu. Tybia rhai, nad oedd neb yn dëall yn hollawl fod Iesu Grist yn dragywyddol Fab Duw, hyd onid eglurwyd ef felly trwy yr adgyfodiad oddi wrth y meirw, Rhuf. 1. 4. Ioan Fedyddiwr oedd y goleuaf yn y peth hyn: bu llawer o bethau tywyll a sigledig yn Pedr, ar ol ei gyffes yn Matth. 16. 16.

34 A Simeon [z] a'u bendithiodd hwynt, ac a ddywedodd wrth Mair ei fam ef, * Wele, hwn

sodwyd yn gwymp [t] ac yn gyfodiad i lawer
srael, ac [u] yn † arwydd yr hwn y dywedir
i erbyn;

Gen. 14. 19. a 47. 7. Ex. 39. 43. Lef. 9. 22, 23. Heb. 7. 1, 7.
8. 14, 15. Hos. 14. 9. Mat. 21. 44. Ioan 3. 20. a 9. 29. Rhuf.
33. 1 Cor. 1. 23, 24. 2 Cor. 2. 15, 16. 1 Pedr 2. 7, 8. t Act.
41. a 3. 15—19. a 6. 7. a 9. 1—20. u Salm 22. 6—8. a
12. Es. 8. 18. Mat. 11. 19. a 26. 65—67. a 27. 40—45, 63.
.. 18. a 8. 48—52. a 9. 24—28. Act. 4. 26, 27. a 13. 45. a 17.
24. 5. a 28. 22. 1 Cor. 1. 23. Heb. 12. 1—3. 1 Pedr 4. 14.

6 ‡ (A [x] thrwy dy enaid di dy hun hefyd
ı cleddyf) [y] ‖ fel y datguddir meddyliau
er o galonnau.

Salm 42. 10. Ioan 19. 25. y pen. 16. 14, 15. Deut. 8. 2.
12. 24—35. Ioan 8. 42—47. a 15. 22—24. Act. 8. 21—23.
11. 19. 1 Ioan 2. 19.

m nad oes achos egluro ar y rhan flaenaf o'r adnod,
ychydig ar y geiriau nesaf. * Cwymp i'r anghred-
yn Israel, mewn pechod a thàn farn Duw: pechod
peidio credu ynddo, a barn ofnadwy a ddaeth
at am hyny. Codiad i'r rhai a gredent ynddo; sef
d o gyflwr o bechod a thrueni, i gyfiawnder,
eiddrwydd, a bywyd tragywyddol yn y diwedd.
os yr un dynion a feddylir yma wrth y llawer, rhaid
y geiriau fel hyn: cwymp, trwy eu hanghrediniaeth
wrthodiad o Grist, am ryw yspaid o amser; a chod-
rwy eu gwaredu o'r anghrediniaeth gwedi hyny,
wyn i gredu ynddo a gwneyd derbyniad o hóno.
esu hefyd yn achlysur o gwymp i lawer o'i ganlyn-
newn trallodau, erlidiau, a marwolaeth; ond bu eu
ap yn gyfodiad tragywyddol a gwynfyddedig iddynt.
ld Pedr ei hun gwymp a chyfodiad, yn llys yr
offeiriad. † Mae y gair a gyfieithir yma ar-
, yn arwyddo rhyw *nód*, a osoder i saethu ato;
yn sydd yn dangos yn rhagorol fel yr oedd llid
frwysder uffernol yn ymosod ar berson ac enw
pan ddyoddefodd efe gyfryw ddywedyd yn ei erbyn
bechaduriaid, Heb. 12. 3. ‡ Fel mam dyner a
bl, mae yn ddiammau bod pob anmharch a gafodd
yn enwedig ei ddyoddefiadau olaf ar y groes,
yned fel cleddyf trwy enaid Mair. Mae yn debyg
hi ei hun gael ei herlid hefyd, a dywed un
enafiaid, *Epiphanius*, iddi ddyoddef merthyrdod.
einidogaeth yr efengyl yw gwyntyll Duw i lanâu ei
dyrnu; ac erledigaeth yw gogr Duw i nithio yr
si: mae y pethau hyn yn dangos beth yw calonau
on.

35 * Ac yr oedd Anna [z] † brophwydes,
eh Phanuel, o lwyth [a] Aser; [b] hon oedd
annus iawn, ac a fuasai fyw gyd â gwr
ith mlynedd o'i morwyndod;

Ex. 15. 20. Barn. 4. 4. 2 Bren. 22. 14. Act. 2. 18. a 21. 9.
12. 1. a Gen. 30. 13. Dat. 7. 6. b Job 5. 26. Salm

36 ‖ Ac *a fuasai* yn weddw ynghylch ped-
a phedwar ugain mlynedd, [c] § yr hon nid
llan o'r deml, [d] ond gwasanaethu *Duw*
n ymprydiau a gweddïau ddydd a nos.

Ex. 38. 8. 1 Sam. 2. 22. Salm 23. 6. a 27. 4. a 84. 4, 10. a
a 135. 1, 2. Dat. 3. 12. d Salm 22. 2. Act. 26. 7. 1 Tim.
Dat. 7. 15.

37 * A hon [e] hefyd yn yr awr honno, gan
ll ger llaw, [f] a foliannodd yr Arglwydd, ac
farodd am dano ef wrth y rhai oll oedd
n disgwyl ymwared yn Jerusalem.

adn. 27. f adn. 28—32. pen. 1. 40, &c, 64, &c. 2 Cor. 9.
h. 1. 3. g adn. 25. pen. 23. 51. a 24. 21. Marc 15. 43.

falodd Duw am gael digon o dystion o enedigaeth
Harglwydd: heblaw yr angelion, y doethion, y
liaid, a Simeon, dyma un arall yn cael ei chwanegu.
ydoedd Anna, wrth ei henw; merch i ryw ŵr
ol o'r enw Phanuel, o lwyth Aser. Aser ydoedd un
eg llwyth a wrthryfelodd oddi wrth dŷ Dafydd
nser Rehoboam, ac a gaethgludwyd i Assyria wedi
Er i'r llwyth yn gyffredin gilio oddi wrth addoliad y gwir Dduw; eto dychwelodd rhai teuluoedd a phersonau, ac a lynasant wrth lwyth Judah, ac wrth addoliad y gwir Dduw. Gwel Jer. 50. 4, 5: ac fel hyn yr oedd gweddill yn ol etholedigaeth gras, o bob llwyth. † Prophwydo, yn yr Hen Destament, oedd rhagfynegi pethau i ddyfod; ond yn y Testament Newydd mae yn arwyddo, amlygu ewyllys Duw i ddynion. Bu amryw o wragedd yn brophwydesau; Miriam, Deborah, a Huldah: ac yr oedd yr Anna hon yn brophwydes, ac yn cael ei hystyried felly, mae yn debyg, gan bawb a'i hadwaenai, felly yr oedd ei thystiolaeth yma yn deilwng o sylw a chred pawb. ‡ Sef saith mlynedd o'i morwyndod i'w gweddwdod; o ddydd ei phriodas hyd farwolaeth ei gwr: saith mlynedd y bu yn wraig briod. Tybia rhai mai pedair a phedwar ugain mlynedd oed oedd hi o gwbl yr amser hwn; ond dywed y gair yma yn amlwg, iddi fod yn nghylch hyny yn *weddw;* rhoddwn y saith mlynedd y bu hí "byw gyda gwr" at hyny, dyna unar-ddeg a phedwar ugain; a rhaid ei bod o bymtheg i ugain, o leiaf, yn priodi; ac fel hyny yr oedd hi yn awr dros gant oed. Gellir meddwl ei bod felly, wrth y geiriau "oedranus iawn." ‖ Hyny yw, yr oedd hi yn byw yn ymyl y deml, ac yn gyson yno ar amserau yr addoliad fore a hwyr: ac, efallai, pan fyddai yr offeiriaid yn moliannu Duw yn ngwyliadwriaethau y nos. Salm 119. 62. a 134. 1, 2. Ai ni chyfyd y wraig dduwiol, "oedranus iawn" hon, yn y farn, yn erbyn llawer o "ferched diofal" a "gwragedd diwaith" ein gwlad ni, y rhai a gymmerant arnynt fod yn grefyddol? § Nis gwyddom beth a lefarodd hi; ond yn sicr rhywbeth da "am dano ef:" efallai mai cyd-ganu â Simeon a wnaeth, gan eu bod ill dau o'r un ysbryd, a thàn yr un ysbrydoliaeth. * Dyma olwg brydferth ar ddau hen bererin ar fin y bedd, ar drothwy y nefoedd! tirfion ac iraidd oeddynt. Salm 22. 14. Zec. 8. 4, 5. † Dysgwyl ymwared ysbrydol, nid ymwared tymmorol, fel y cyffredin o'r Iuddewon. Yr oedd gan Dduw rai felly yn Israel o hyd.

39 * Ac wedi iddynt [h] orphen pob peth yn
ol deddf yr Arglwydd, hwy a ddychwelasant i
Galilea, i'w dinas eu hun Nazareth.

h adn. 21—24. pen. 1. 6. Deut. 12. 32. Mat. 3. 15. Gal. 4. 4, 5.
i adn. 4. Mat. 2. 22, 23.

* Nid yw Luc yn sôn dim am ddyfodiad y doethion, na ffoad y teulu sanctaidd i'r Aipht: mae yn sicr mai rhwng y tro hwn yn y deml â'r dychweliad i Nazareth, y cymmerth y ddau beth hyny le, yn nghyd â lladd plant Bethlehem hefyd. Tybir i Joseph ddychwelyd o Jerusalem y tro hwn i Bethlehem, ac iddo aros yno flwyddyn neu ragor, pryd y daeth y doethion atynt: iddo ffoi o Bethlehem i'r Aipht; a dychwelyd o'r Aipht i Nazareth. Tybia rhai hefyd iddo ef ar y cyntaf fwriadu dychwelyd o'r Aipht i Bethlehem, gan feddwl mai yno y dylasai y Mab bychan gael ei ddwyn i fynu: ac mae y geiriau "efe a ofnodd fyned yno," (sef Judea) Matth. 2. 22, yn ein tueddu i feddwl felly. Beth bynag am yr amser a bwriad Joseph, mae yn amlwg mai dyma drefn y pethau, a symmudiadau y teulu.

40 [k] * A'r bachgen a gynnyddodd, † ac a
[l] gryfhâodd yn yr yspryd, [m] ‡ yn gyflawn o
ddoethineb: [n] ‖ a gras Duw oedd arno ef.

k adn. 52. Barn. 13. 24. 1 Sam. 2. 18, 26. a 3. 19. Salm 22. 9, 9. Es. 53. 1, 2. l pen. 1. 80. Eph. 6. 10. 2 Tim. 2. 1. m adn. 47. Es. 11. 1—5. Col. 2. 2, 3. n Salm 45. 2. Ioan 1. 14. Act. 4. 33.

Mae yr adnod hon yn cynnwys y cwbl a gawn weithian o hanes Iesu hyd onid oedd yn ddeuddeg oed. * Yr oedd Iesu yn cynnyddu mewn corpholaeth fel pob dyn arall: nid dyfod i'r byd yn wr perffaith ei faintioli, fel y crëwyd yr Adda cyntaf, a wnaeth efe, ond cynnyddu. Nid cynnyddu o ran ei Dduwdod, nid oedd dichon hyny; ond o ran corpholaeth. † Nid yn yr Ysbryd Glân a feddylir, eithr ei ysbryd ef ei hun, sef ei enaid, neu gynneddfau ei enaid rhesymol. Yr oedd yn amlwg bod galluoedd ei enaid dynol ef yn ymagor,

a phob cynneddf a thuedd sanctaidd yn cryfâu yn gyfatebol i hyny. ‡ Yr oedd efe hefyd yn cynnyddu mewn doethineb a gwybodaeth, fel yr oedd ei holl eiriau a'i ymddygiadau yn berffaith gyd-ffurfiol â deddf sanctaidd Duw. || Mae gras weithiau yn arwyddo ansawdd, neu egwyddor sanctaidd yn y galon; a phryd arall hoffder ac ewyllys da Duw: yn mhob un o'r ddwy ystyriaeth, yr oedd gras Duw ar Iesu. Am undeb y Duwdod â'r ddynoliaeth, a gweithrediad y Duwdod ar y ddynoliaeth, rhaid i ni addef nas gwyddom ddim. "Yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb," yw hi yma!

41 ¶ * A'i rïeni ef [o] a aent i Jerusalem bob blwyddyn ar [p] wyl y pasc.

o Ex. 23. 14—17. Deut. 12. 5—7, 11, 18. a 16. 1—8. 1 Sam. 1. 3, 21. p Ex. 12. 14. Lef. 23. 5. Num. 28. 16. Ioan 2. 13. a 6. 4. a 11. 55. a 13. 1.

* Yr oedd y ddeddf yn gorchymyn i'r holl wrrywiaid yn Israel ag oedd mewn oed, ymddangos yn Jerusalem ger bron yr Arglwydd dair gwaith yn y flwyddyn, ar dair gŵyl arbenig, a gŵyl y pasg oedd un o honynt. Nid oedd *gorchymyn* i'r gwragedd fyned; ond byddai llawer o'r rhai duwiolaf o honynt yn myned, yn enwedig ar ŵyl y pasg; felly y gwnai Hannah, 1 Sam. 1. 5, 6, 7; ac felly y gwnai Mair yma: "a'i rieni ef," nid Joseph yn unig.

42 * A phan oedd efe yn ddeuddeng mlwydd oed, hwynt-hwy a aethant i fynu i Jerusalem † yn ol defod yr wyl.

* Dywed y dysgawdwyr Iuddewig mai deuddeg oed oedd yr oedran, yr oedd yn rhaid i fechgyn fyned i Jerusalem i gadw y gwyliau hyny: mai y pryd hwnw yr oeddynt yn dyfod dàn iau y gyfraith, ac yn rhwym i gyflawni dyleds wyddau aelodau eglwysig fel rhai mewn oed. † Sef bod yno tua'r pedwerydd dydd-ar-ddeg o'r mis, Nisan, a gwneuthur fel yr oedd yn orchymynedig yn mhob peth.

43 * Ac wedi [q] gorphen y dyddiau, a hwy yn dychwelyd, † arhosodd y bachgen Iesu yn Jerusalem; ‡ ac ni wyddai Joseph a'i fam ef.

q 2 Cron. 30. 21—23. a 35. 17.

44 || Eithr gan dybied ei fod ef [r] yn y fintai, § hwy a aethant daith diwrnod; ac a'i ceisiasant ef ym mhlith *eu* cenedl *a'u* cydnabod.

r Salm 42. 4. a 122. 1—4. Es. 2. 3.

45 A phryd na chawsant ef, hwy a ddychwelasant i Jerusalem, gan ei geisio ef.

* Yr oedd gŵyl y bara croyw yn para saith niwrnod, Lefit. 23 4—8. † Mae yn debygol mai dyma y tro cyntaf i'r bachgen Iesu fod yn Jerusalem er pan gyflwynwyd ef yno i'r Arglwydd yn faban; ac nid rhyfedd fod un o'i dueddiadau crefyddol ef, yn hoffi aros mewn lle mòr fanteisiol i gynnyddu mewn gwybodaeth o gyfraith a gwasanaeth ei dad. Mae yn sicr mai hyny a'i cadwodd *ef* yno, ac nid segurdod, chwilfrydedd, ac anufudd-dod i'w rïeni. ‡ Efallai fod peth esgeuluadra wedi bod yn ei rïeni, na buasent yn chwilio yn fanylach am dano cyn cychwyn o Jerusalem: ond gan ei fod ef mòr ufudd a gofalus bob amser, ni thybiasant nad oedd efe gyda hwynt yn y fintai. || Byddai torfeydd lliosog yn dyfod i Jerusalem ar y gwyliau hyn o bob parth o'r wlad, ac yn cyd-ymdeithio yn finteioedd wrth fyned a dychwelyd. Tybiai ei rïeni fod Iesu yn y dorf yn rhywle, un ai gyda ei gyfoedion ieuainc neu gyda rhai o'i geraint. Neu os oedd y gwŷr a'r gwragedd yn teithio ar wahân, efallai bod Joseph yn tybied ei fod gyda Mair, a Mair yn tybied ei fod gyda Joseph. § Aethant yn mlaen yr holl ddiwrnod cyntaf, gan ei geisio ef yn y fintai, ac heb ei gael: yna dychwelasant yr holl ffordd hòno yn ol i Jerusalem, yr hyn a wnaeth ddiwrnod arall iddynt, gan ei geisio ef yn mhob màn, ond heb ei gael.

46 * A bu, [s] ar ol tridiau, gael o honynt hwy ef † yn y deml, ‡ yn eistedd y'nghanol [t] y doctoriaid, [u] yn gwrando arnynt, ac yn eu || holi hwynt.

s adn. 44, 45. 1 Bren. 12. 5, 12. Mat. 12. 40. a 16. 21. a 27 63, 64. t pen. 5. 17. Act. 5. 34. u Es. 49. 1, 2. a 50. 4.

* Gwedi treulio dau ddiwrnod mewn ymdaith a dychwelyd; ar y trydydd dydd, efallai tua'r hwyr, hwy a'i cawsant ef, er eu mawr lawenydd ar ol eu holl ofid. † Nid yn nhŷ neb rhyw gydnabod iddynt, nac yn y mànau lle byddai plant yn ymgyfarfod i chwarae, nac ychwaith yn crwydro yn unig a hiraethlon o herwydd colli ei rïeni, y cawsant ef; ond mewn rhyw ystafell o'r deml, lle byddai dysgawdwyr y gyfraith yn arfer eistedd i ymresymu yn nghylch y ddeddf, ac i ddysgu eu dysgyblion yn y ddeddf trwy holi ac ateb, a thrwy egluro pethau dyrys iddynt, yn ol eu dull arwynebol hwy o egluro. ‡ Byddai y doctoriaid hyn yn eistedd ar feinciau, neu gadeiriau dyrchafedig, ar ddull hanner cylch, a'u dysgyblion yn eistedd goris iddynt, wrth eu traed. Fel hyny dywedir i Paul gael ei ddwyn i fynu wrth draed Gamaliel, Act. 22. 3; ac fel hyny yr oedd Iesu yn eistedd yn eu canol; wrth eu traed, nid ar y meinciau gyda hwynt, ni chydsaif hyny mewn modd yn y byd ag ieuenctid, gwylder, a gostyngeiddrwydd yr Iesu addfwyn, ac ni oddefasid y fath beth gan y doctoriaid hunanol ac uchel-frydig hyn. || Holi yn ostyngedig, er mwyn gwybodaeth, nid holi yn ddadleugar, hŷf, a digywilydd, yr oedd efe. Yn hyn gadawodd esampl i bobl ieuainc i ymofyn â rhai henach na hwynt am bethau nas gwyddant hwy. Yr oedd hyn yn beth arferedig gan ddysgyblion y doctoriaid Iuddewig, ac yn ganiatâol i'r neb a fynai eu holi hwynt; ïe yr oeddynt yn annog pawb i ofyn pethau iddynt, ac yr oedd yn hoff ganddynt addysgu trwy ateb holiadau y rhai a fyddent bresenol.

47 [x] * A synnu a wnaeth ar bawb a'r a'i clywsant ef, † o herwydd ei ddeall ef a'i attebion.

x pen. 4. 22, 32. Mat. 7. 28. Marc 1. 22. Ioan 7. 15, 46.

* Synu i'r gradd eithaf, tu hwnt i fesur, yw meddwl y gair. † Nid yn unig yr oedd ei ddëall ef a'i atebion uwchlaw ei oed; ond yr oedd uwchlaw y cyffredin o ddynion mewn oed: uwchlaw y doctoriaid eu hunain, ïe, rhywbeth uwchlaw dynoliaeth yn gwbl! Fel hyn gwelodd yn dda i belydru rhai tywyniadau bore o'i Dduwdod mawr, er parotôi yr Iuddewon i ddysgwyl am dano, ac i'w dderbyn pan ddelai yn fwy amlwg yn ei weinidogaeth gyhoeddus. Gallasai y doctoriaid fyned i lawr, i'r canol; a'i osod yntau ar y fainc uchaf.

48 * A phan welsant ef, bu aruthr ganddynt. † A'i fam a ddywedodd wrtho, Fy mab, paham y gwnaethost felly â ni? wele, ‡ dy dad a minnau yn || ofidus a'th geisiasom di.

* Sef pan welodd ei rïeni ef; yn y fath le, yn y fath gymdeithas, gyda'r fath waith yn gofyn y fath holion, yn rhoddi y fath atebion, ac yn wrthych y fath sylw a syndod; bu aruthr ganddynt: aruthr dros ben, fel y gair synu yn yr adnod o'r blaen. † Mae yn bur debygol nad oedd ei rïeni yn deall nac yn gwybod yn gwbl eglur y pryd hwn, mai "Duw wedi ymddangos yn y cnawd" oedd efe; pe amgen ni buasai mòr aruthr ganddynt, ac ni buasai ei fam yn dywedyd fel hyn wrtho. Pa fodd bynag, yr oedd hi yn llefaru fel mam; a chyda theimladau mam mewn cyfryw amgylchiad. ‡ Mae hyn yn anrhydedd i dynerwch a gofal Joseph; er nad oedd ond tad yn nghyfraith i Iesu, eto dengys y geiriau ei fod yn ei garu fel pe buasai fab naturiol, ac mòr ofidus o'i golli ag oedd ei fam ei hun. || Gofid o'r fath chwerwaf, a mwyaf llym-dost, yw meddwl y gair: pwy bynag a gollasant blentyn yn anwyl iawn mewn cyffelyb amgylchiad, gallant wybod rhywbeth am y gofid hwn.

49 Ac efe a ddywedodd wrthynt, * Paham

eisiech fi? † oni wyddech fod yn rhaid i
fod ynghylch [y] y pethau a berthyn i'm
?

a adn. 48. Salm 40. 8. Mal. 3. 1, 2. Mat. 21. 12. Ioan 2. 16, 4. 34. a 6. 38. a 8. 29.

D ‡ A hwy [z] ni ddeallasant y gair a ddy-
asai efe wrthynt.

pen. 9. 45. a 18. 34.

Dywed rhai y gellir darllen y geiriau—"oni wydd-
od yn rhaid i mi fod yn nhŷ fy Nhad?" ac yna y
iiad yw, "Paham y ceisiech fi yn un-màn arall
yn nhŷ fy Nhad?" "Yno y mae fy ngwaith I, yn
dch y pethau a berthyn i'm Tad." † Pa fodd
g am ddarlleniad y geiriau uchod, mae ateb Iesu
angos, y dylasai ei rïeni wybod fod Duw yn Dad
ef; y dylasai efe fod yn ymddarpar at waith ei
nefol yn hytrach na dychwelyd gyda ei rïeni na-
l; ac y buasai ei Dad nefol yn gofalu am dano ef,
iddynt hwy ofidio o'i blegid. Dylasent wybod y
Lu hyn drwy dystiolaeth yr angel i bob un o hon-
‡ Eto ni ddeallasant ei eiriau ef. Nid oeddynt
eall am ei ddwyfol a'i dragywyddol Faboliaeth, na
ysbrydol ei waith. Dywedasai yr angel y rhodd-
rseddfa Dafydd ei dad iddo, (Luc 1. 32.) ac yr
nt hwythau yn meddwl mai gyda thywysogion y
iwn y dylasai bod ei waith, yn hytrach nac yn y
yn mhlith y Doctoriaid.

1 * Ac efe a aeth i waered gyd â hwynt,
a ddaeth i Nazareth, [b] ac a fu † ostyngedig
nt. ‡ A'i fam ef [c] a gadwodd yr holl
u hyn yn ei chalon.

adn. 39. b Mat. 3. 15. Marc 6. 3. Eph. 5. 21. a 6. 1, 2. 2. 21. c adn. 19. Gen. 37. 11. Dan. 7. 28.

Er i Iesu ddangos ei hun yn llawn cydradd â'r
briaid, ïe, a mwy na hyny, yn Fab Duw, yn yr
dau o'r blaen; eto, mae yr adnod hon yn ei ddan-
n blentyn ufudd a gostyngedig: nid oedd uwchlaw
ed gyda ei rïeni tlodion i breswylio yn Nazareth
ll. Nid oes dim ychwaneg o sôn am dano hyd
oedd tua deg ar hugain oed: tybir iddo ennill ei
rwy chwys ei wyneb, yn yr un gelfyddyd galed ac
'i dad cyfrifedig Joseph. Nid oedd achos am ys-
n sicr, ar yr hwn a fedrai ymresymu â'r Doctoriaid
leuddeg oed; ac mae yn debyg nas gallai ei rïeni
on ei gadw mewn ysgolion, ac nid oedd yntau yn
segurdod. † Mae ei ymostyngiad *ef* i'w rïeni yn
pl nodedig i blant o bob graddau i anrhydeddu eu
ni, a bod yn ostyngedig iddynt. Nid da gan Iesu
anufudd. ‡ Er nad oedd yn eu deall, cadwodd
at yn ei chalon i'w deall. Un yn gwrando erbyn
mser a ddeuai oedd Mair. Hi a gafodd ddeall
eth wedi hyny.

2 * A'r [d] Iesu a gynnyddodd mewn doeth-
a chorpholaeth, [e] † a ffafr gyd â Duw ‡ a
ion.

adn. 40. pen. 1. 80. 1 Sam. 2. 26. e Diar. 3. 3, 4. Act. 7. Rhuf. 14. 18.

Gwel ar adn. 40. † Mai y gair hwn yn egluro beth
"gras Duw" yn adn. 40. ‡ Yr oedd pobpeth yn-
ef yn ennill cariad a pharch ei gymmydogion.
òr hoff gan Dduw a dynion yw plant da, a phobl
nc duwiol!

PEN. III.

Pregeth a bedydd Ioan, &c.

YN y bymthegfed flwyddyn o ymerodraeth
[a] Tiberius Cesar, a [b] † Phontius Pilat yn
glaw Judea, a [c] Herod yn ‡ detrarch Gali-
[d] a'i frawd Phylip yn detrarch Iturea, a
ad Trachonitis, a Lysanias yn detrarch
lene,

pen. 2. 1. b pen. 23. 1—4, 24, 25. Gen. 49. 10. Act. 4. 27. a 23. 26. a 24. 27. a 26. 30. c adn. 19. pen. 9. 7. a 23. 6—11. d Mat. 14. 3. Marc 6. 17.

2 * || Dan yr arch-offeiriaid Annas a Cha-
iaphas, [f] § y daeth gair Duw at Ioan, mab
Zacharïas, [g] yn y diffaethwch.

e Ioan 11. 49—51. a 18. 13, 14, 24. Act. 4. 6. f pen. 1. 59—63. Jer. 1. 2. a 2. 1. Ezec. 1. 3. Hos. 1. 1, 2. Jona 1. 1. Mica 1. 1. Zeph. 1. 1. g pen. 1. 80. Es. 40. 3. Mat. 3. 1. a 11. 7. Marc 1. 3. Ioan 1. 23.

Gwedi i'r Efengylwr Luc roddi hanes genedigaeth Ioan, ac wedi hyny hanes genedigaeth Crist, yn y pennodau o'r blaen; mae efe yma yn rhoddi hanes bŷr o weinidogaeth Ioan yn gyntaf, ac yna yn myned yn mlaen at weinidogaeth yr Arglwydd Iesu. Rhaid i ni sylwi fod tua deunaw mlynedd o amser rhwng diwedd yr ail bennod â dechreu hon: gadawsom Grist yno yn ddeuddeng mlwydd oed, ac yma mae yn nghylch dechreu ei ddeng mlwydd ar hugain, adn. 23. * Tiberias Cesar oedd y trydydd o'r Cesariaid ac yn Nai i Augustus Cesar. Bu yn gyd-ymherawdwr â'i ewythr dair blynedd cyn marw yr olaf; a chyfrifir y pymtheng mlynedd hyn o ddechreuad y tair blynedd hyny meddant, ac nid o amser marwolaeth Augustus. † Tra bu Herod Fawr byw, yr oedd gwlad Canaan a'i hamgylchoedd yn un frenhiniaeth, yn cael ei llywodraethu ganddo ef dàn y Rhufeiniaid; ond yn fuan ar ol ei farwolaeth ef rhanodd y Rhufeiniaid hi yn bedair dosparth, neu raglawiaeth, fel eu henwir uchod, a'r personau a enwir uchod oedd yn rhaglawiaid pan ddechreuodd Ioan a Christ eu gweinidogaeth. ‡ Gelwir y rhai hyn yn Detrarchiaid, am eu bod yn llywodraethu ar y bedwerydd ran o'r wlad a fuasai o'r blaen yn un freniniaeth: neu ynte, am mai y bedwerydd radd oedd eu swydd a'u sefyllfa hwynt, o'r llywodraethwyr Rhufeinig: tair gradd o swyddwyr uwchlaw iddynt. || Yr oedd y deyrnwïalen wedi ymadael o Judah yn hollawl y pryd hyn, a phobpeth wedi eu dadymchwelyd mewn gwlad ac eglwys. Gwelsom y wlad wedi ei rhanu, a thàn lywodraeth estroniaid; ac yn awr dyma ddau arch-offeiriaid, yn cael eu galw felly beth bynag, lle na ddylasai fod ond un: a'r rhai hyny yn cael eu dewis a'u troi allan yn flynyddawl, neu yn amlach wrth fympwy y Rhufeiniaid; lle dylasent fod yn eu swydd am eu hoes. § Yn yr amseroedd terfysglyd a blinion hyn, y daeth gair Duw at Ioan, fel at yr hen brophwydi gynt, i'w ddanfon i'r weinidogaeth: a hyny o'r diffaethwch unig, nid o blith yr offeiriaid a'r Doctoriaid yn Jerusalem. Mae hyn yn dysgu i ni hefyd, na ddylai neb gymmeryd yr anrhydedd hwn iddo ei hun heb ei alw gan Dduw; na llefaru yn enw yr Arglwydd, heb i air Duw ddyfod ato.

3 * Ac efe a ddaeth i bob [h] goror yn
nghylch yr Iorddonen, [i] gan bregethu † bedydd
edifeirwch, er maddeuant pechodau.

h Mat. 3. 5, 6. Marc 1. 5. Ioan 1. 28. a 3. 26. i Mat. 3. 6, 11. Marc 1. 4. Ioan 1. 31—33. Act. 13. 24. a 19. 4. a 22. 16.

Am weinidogaeth Ioan, gwel ar Matth. 3. 1, 2. Marc 1. 4. * "Yn niffaethwch Judea" medd Matthew; yno y dechreuodd, ac oddi yno y daeth yn mlaen "i bob goror o amgylch yr Iorddonen." † Nid oedd Ioan yn pregethu mai bedydd oedd edifeirwch, nac ychwaith fod maddeuant pechodau o angenrhaid yn nglŷn wrth fedydd; ond mai edifeirwch oedd y ffordd i gael maddeuant, a bod bedydd yn arwydd allanol o hono.

4 * Fel y mae yn ysgrifenedig yn llyfr
ymadroddion Esaias y prophwyd, yr hwn sydd
yn dywedyd, [k] Llef un yn llefain yn y † diff-
aethwch, [l] ‡ Parottowch ffordd yr Arglwydd,
gwnewch ei lwybrau ef yn uniawn.

k Es. 40. 3—5. Mat. 3. 3. Marc 1. 3. Ioan 1. 23. l pen. 1. 16, 17, 76—79. Es. 57. 14. a 62. 10. Mal. 4. 6. Ioan 1. 7, 26—36. a 3. 28—36.

5 || Pob [m] pant a lenwir, a phob mynydd a
bryn a ostyngir, [n] a'r gŵyr-geimion a wneir yn
uniawn, a'r geirwon yn ffyrdd gwastad;

m pen. 1. 51—53. Es. 2. 11—17. a 35. 6—8. a 40. 4. a 49. 11. a 61. 1—3. Ezec. 17. 24. Iago 1. 9—11. n Es. 42. 16. a 45. 2. Heb. 12. 12, 13.

6 § A [o] phob cnawd a wêl iachawdwriaeth Duw.

o pen. 2. 10, 11, 30—32. Salm 98. 2, 3. Es. 40. 5. a 49. 6. a 52. 10. Marc 16. 15, 16. Rhuf. 10. 18.

* Yn Isaiah 40, yr oedd y prophwyd yn cysuro y rhai duwiol yn mhlith yr Iuddewon, âg addewid o ddychweliad o Babilon (adn. 1, 2.) trwy law Cyrus. Yr oedd Cyrus yn hyny yn gysgod o Grist, a gwaredigaeth yr Iuddewon drwyddo ef, yn gysgod o waredigaeth fawr yr eglwys trwy y Messiah. † Yr oedd gwlad Judea wedi myned i raddau mawr yn ddiffaethwch ac yn anghyfannedd-dra yn yspaid y 70 mlynedd o gaethiwed, Is. 1. 7, 8; a chyflwr moesol, gwladol, ac eglwysig y genedl, wedi myned yn ddiffaethwch mwy anial tua'r amser y daeth y Messiah: yr hyn a arwyddir medd rhai, wrth fod Ioan yn pregethu yn y diffaethwch. ‡ Gwel pen. 1. 17, 76. Cyfeiriad sydd yma at y dull y byddai herodr *(herald)* yn myned o flaen tywysog neu frenin mawr, i gyhoeddi ei ddyfodiad: un felly oedd Ioan o flaen Crist. || Trwy nerth Ysbryd a gras Duw, bydd yr efengyl yn fuan mòr fuddugoliaethus, fel y bydd holl agwedd y byd megys yn cael ei gyfnewid, fel pe bwrid y mynyddoedd i'r pantau, a holl wyneb y ddaear yn cael ei gwastadâu. Bydd pob rhwystrau yn cael eu symmud oddi ar ffordd yr efengyl; holl gedyrn annuwiol y byd yn cael eu darostwng; ac achos a phobl isel y Cyfryngwr yn cael eu derchafu. Duw yw y pen gweithiwr yn hyn; ond caiff pryf Jacob y fraint o fod yn ei wasanaeth i ddyrnu y mynyddoedd. § Gogoniant yr Arglwydd a ddatguddir, medd Is. 40. 5, sef ei ogoniant yn iachawdwriaeth ei bobl. Wele yma addewid gadarn o bregethiad yr efengyl drwy yr holl fyd.

7 * Am hynny efe a ddywedodd wrth y bobl oedd yn dyfod i'w bedyddio ganddo, [p] O genhedlaeth gwiberod, pwy a'ch rhag-rybuddiodd chwi [q] i ffoi oddi wrth y digofaint sydd ar ddyfod?

p Gen. 3. 15. Salm 58. 4, 5. Es. 59. 5. Mat. 3. 7—10. a 23. 33. Ioan 8. 44. Act. 13. 10. 1 Ioan 3. 8—10. q 1 Thes. 1. 10. Heb. 6. 18.

8 Dygwch gan hynny [r] ffrwythau addas i edifeirwch; † ac na ddechreuwch ddywedyd ynoch eich hunain, [s] Y mae gennym ni Abraham yn dad: canys yr wyf yn dywedyd i chwi, y dichon Duw [t] o'r cerrig hyn godi plant i Abraham.

r Es. 1. 16—18. Ezec. 18. 27—31. Act. 26. 20. 2 Cor. 7. 10. 11. Gal. 5. 22—24. Phil. 1. 11. Heb. 6. 7, 8. s pen. 13. 28, 29, a 16. 23—31. Es. 48. 1, 2. Jer. 7. 4—10. Ioan 8. 33, 39. Rhuf. 4. 16. a 9. 7. t pen. 19. 40. Jos. 4. 3—8. Mat. 8. 11, 12. a 21. 43. Gal. 3. 28, 29.

9 Ac [u] yr awrhon y mae y fwyell wedi ei gosod ar wreiddyn y prennau: pob pren gan hynny a'r nid yw yn dwyn ffrwyth da, a gymmynir i lawr, ac a fwrir yn tân.

u pen. 23. 29—31. Es. 10. 33, 34. Ezec. 15. 2—4. a 31. 18. Dan. 4. 14, 23. Mat. 3. 10. a 7. 19. Ioan 15. 6. Heb. 10. 28, 29. a 12. 29.

Cawsom y tair adnod hyn bron air yn air yn Matth. 3. 7—10. Gwel y sylwadau yno. * Dywed Matthew mai wrth y Phariseaid a'r Saduceaid y dywedodd: wrthynt hwy yn benaf; ond llefarodd hefyd lle clywai yr holl bobl, ac yr oedd y pethau yn perthyn i'r holl bobl mewn ystyr îs. † "Ac na ddechreuwch:" peidiwch a myned yn awr, fel y byddwch yn arfer bob amser, i ddadlau mai plant Abraham ydych, oblegid nid ateb hyny un dyben yn y byd i chwi.

10 * A'r bobloedd a ofynasant iddo, gan ddywedyd, [x] † Pa beth gan hynny a wnawn ni?

x adn. 8. Act. 2. 37. a 9. 6. a 16. 30.

11 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, [y] ‡ Y neb sydd ganddo ddwy bais, rhoded ed i'r neb sydd heb yr un; a'r neb sydd gan ddo fwyd, gwnaed yr un modd.

y pen. 11. 41. a 18. 22. a 19. 8. Es. 58. 7—11. Dan. 4. 27. Mat. 25. 40. Marc 14. 5—8. Ioan 13. 29. Act. 10. 2, 4, 31. 2 Cor. 8. 3—14. 1 Tim. 6. 18. Heb. 6. 10. Iago 1. 27. a 2. 15—26. 1 Ioan 3. 17. a 4. 20.

* Tra yr oedd y Phariseaid a'r cyfreithwyr yn d ystyru cyngor Duw trwy Ioan, Luc 7. 30, cafodd effai debygid ar y bobl; † ac a'u dygodd i ofyn, "Pa be gan hyny a wnawn ni?" "Dygwch ffrwythau addas edifeirwch," ebai Ioan; "Pa beth yw y ffrwythau add i hyny," ebai y bobl, pa beth a wnawn ni? Dyle feddwl mewn barn cariad eu bod yn gofyn mewn tall a gwasgfa, fel y tair mil ar ddydd y pentecost, ac nid gecrus a dadleugar. ‡ Efallai na ddylid deall y geiria hyn yn *fanol*, ac yn *llythyrenol*; y rhaid i bawb a fedd ddwy bais roddi un o honynt i'r neb sydd heb un, &c ond pa fodd bynag y dealler hwynt, maent yn sicr y gorchymyn mwy o haelioni ac elusengarwch nac y syd yn gyffredin yn mhlith cristionogion. Nid pregeth hyn yn sail iachawdwriaeth yr oedd Ioan; ond f prawf o ffrwyth edifeirwch, ac fel arwydd fod calona dynion wedi eu troi oddi wrth garu y byd a'i foethau, garu Duw a'u cymmydog.

12 [z] * A'r publicanod hefyd a ddaethan i'w bedyddio, ac a ddywedasant wrtho, Athraw beth a wnawn ni?

z pen. 7. 29, 30. a 15. 1, 2. a 18. 13, 14. Mat. 21. 31, 32.

13 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [a] † N cheisiwch ddim mwy nag sydd wedi ei osod chwi.

a pen. 19. 8. Salm 18. 23. Diar. 28. 13. Es. 1. 16, 17. a 55. 7. Ezec. 18. 21, 22, 27, 28. Mica 6. 8. Mat. 7. 12. Eph. 4. 28. Ti 2. 11, 12. Heb. 12. 1.

* Am y publicanod gwel ar Matth. 5. 46. † Nid y Ioan yma yn beio ar *swydd* y publicanod; os yw y iawn gosod trethi, fel mae yn sicr ei fod, mae yn iaw hefyd gosod rhywrai i gasglu y trethi hyny: ond cy eirio y mae efe at anghyfiawnder y publicanod yn casgliad o honynt; yn ceisio mwy nac oedd wedi ei ad ael iddynt: mwy nac oedd y dreth osodedig ar bob un Gwneyd cyfiawnder yn eu swydd oedd ffrwyth addas edifeirwch iddynt hwy: fel y gwelwn yn nhröedigaet Zacchëus, Luc 19, 8.

14 [b] * A'r milwyr hefyd a ofynasant iddo gan ddywedyd, A pha beth a wnawn ninnau Ac efe a ddywedodd wrthynt, † Na fyddwc draws wrth neb, ac na [c] ‡ cham-achwynwch *a neb*; [d] || a byddwch foddlawn i'ch cyflogau.

b Mat. 8. 5. Act. 10. 7. c pen. 19. 8. Ex. 20. 16. Tit. 2. Dat. 12. 10. d Phil. 4. 11. 1 Tim. 6. 8—10. Heb. 13. 5, 6.

Mae yn angenrheidiol i weinidog yr efengyl fod y ffyddlawn a medrus i iawn gyfranu gair y gwirioned ac i roddi i bob un yn ol yr hyn a berthyn iddo, he ofni na derbyn wyneb neb. Y cyfryw un oedd Ioa * Dywed *Pool* mai Rhufeiniaid oedd y milwyr hyn, o dywed *Scott* a *Doddridge* mai Iuddewon oeddynt y gwasanaethu yn y fyddin Rufeinig, a bod llawer o ho ynt felly. Pe buasent Rufeiniaid paganaidd, mae y debyg y buasai Ioan yn gyntaf peth, yn eu hannog ofni ac addoli y gwir Dduw, yn lle eilunod meirwo † Mae y gair a gyfieithir "traws," yma yn arwydd ymafaelyd yn ffyrnig mewn un gerfydd ei wddf; felly yn ddarluniad pur gywir o drahausder y dynio gwaedwyllt hyny. ‡ Na cham-achwynwch ar ddynio diniwed a dieuog er gwneuthur elw o honynt, yr hy oedd beth cyffredin, mae yn debyg, yn y dyddiau hyn Neu na cham-achwynwch ar neb o'ch cyd-filwyr o ge figen a dygasedd atynt. || "Byddwch foddlawn f cyflogau" heb godi yn wrthbleidiol a therfysglyd yn erby eich uwchafiaid, na cham-achwyn ar eraill i chwaneg eich eiddo. Dyma ddyledswydd bresenol, a ffrwyth edifeirwch y milwyr, nid dyma sail eu hiachawdw

t nac yr oll o'r dyledswyddau perthynol i'w hiachwriaeth. Nid oedd Ioan yn dywedyd dim yn erbyn y rhai hyn; ond yn erbyn eu camymddygiad hwy wydd. Gallwn weled amryw bethau yma am naifeirwch:—1. Lle bynag y mae gwir edifeirwch, y no hefyd ffrwythau addas i edifeirwch. 2. Bod rredoedd o drugaredd a chyfiawnder yn ffrwythau i edifeirwch: heb y rhai hyn, nid oes dim o hóni. 1 gwir edifeirwch i'w gweled yn oreu, yn ein casini at, a'n hymadawiad oddi wrth, y pethau pechs y buom gynt yn chwannog iddynt: a'r rhai mae ymmerau ac amgylchiadau ein bywyd yn ein rd o hyd yn agored iddynt. 4. Heb y ffrwythau nad oes genym ddim tystiolaeth na dangosiad eirwch a ffydd, nac o unrhyw egwyddor rasol yn y

* Ac fel yr oedd y bobl yn disgwyl, a b yn meddylied yn eu calonnau † am . ai efe oedd y Crist;

welai yr Iuddewon fod y deyrn-wialen yn awr ymadaw o Judah; gwyddent hefyd fod wythnosau l wedi terfynu, am hyny yr oedd disgwyliad linol yn eu plith am y Messiah. ‡ Yr oedd o honynt wedi clywed am enedigaeth ryfedd dywediad yr angel am dano cyn ei eni, dywediad 1 Zacharias am dano wrth ei enwaedu; ac yr oedd wedi sylwi ar ei sancteiddrwydd, a'i fywyd diaidd, arbedol a llym-dost, trwy holl flynyddoedd cienctid: ac wrth ystyried hyny, yn nghyd â'i logaeth ryfeddol o finiog a nerthol, yr oeddynt yn u ai nid Ioan ei hun oedd y Messiah.

; * Ioan a attebodd, gan ddywedyd wrthbll, [e] † Myfi yn ddïau ydwyf yn eich beio chwi â dwfr: ‡ ond y mae un cryfach nyfi yn dyfod, yr hwn nid wyf fi deilwng i tod carrai ei esgidiau: [f] || efe a'ch bedyddia â'r Ysbryd Glân, [g] ac â thân.

Mat. 3. 11. Marc 1. 7, 8. Ioan 1. 26, 33. Act. 1. 5. a 11. 16. a 5. a 19. 4, 5. f Diar. 1. 23. Es. 32. 15. a 44. 3, 4. Ezec. 36. 25. 28, 29. Ioan 7. 38. Act. 2. 33. a 10. 44, 47. a 11. 15. 1 Cor. g Es. 4. 4. Zec. 13. 9. Mal. 3. 2, 3. Act. 2. 3, 4, 17, 18.

7 Yr hwn [h] *y mae* ei wyntyll yn ei law, ac a lwyr-lanhâ ei lawr dyrnu, [i] ac a gasgl y nith i'w ysgubor; [k] ond yr us a lysg efe â anniffoddadwy.

Jer. 15. 7. Mat. 3. 12. i Mica 4. 12. Mat. 13. 30. k Salm 21. 9, 10. Marc 9. 43—49.

8 A [l] llawer o bethau eraill a gynghorodd nac a bregethodd i'r bobl.

l Ioan 1. 15, 29, 34. a 3. 29—36. Act. 2. 40.

Rhoddes Ioan foddlonrwydd buan iddynt oll, mai efe oedd y Messiah: nid oedd efe yn ceisio gogoneddo ei hun ond i'w Arglwydd. † Tybia rhai mai y geiriau oedd Ioan yn ddywedyd wrth fedyddio an, ac felly yr oedd efe yn eu bedyddio hwy i ffydd yr hwn oedd ar ddyfod, fel y dywedir yn Act. ‡ Yr oedd Crist yn gryfach, neu ragorach nac yn ei Berson, yn ei ddoniau, yn ei swydd, ac yn eithredoedd nerthol: gwel Ioan 10. 41. || Mae yn cyfyngu y geiriau hyn at ddisgyniad yr Ysbryd ar yr apostolion ar ddydd y pentecost yn unig; mae yn debycach eu bod yn cyfeirio at effeithiau liol, puredigol, a thraws-ffurfiol yr Ysbryd Glân ar au y saint yn gyffredinol, o'r hyn yr oedd dydd ntecost megys ernes. Mae y bedydd hwn yn fwy hiol na bedydd Ioan, o gymmaint ag y mae y tân wy effeithiol na dwfr, yn y cymmwysiad allanol onynt at y corph. Nid y bedydd efengylaidd, edinol, mae Ioan yn roddi mewn cyferbyniad i'w ld ei hun yma; ond gwaith Crist yn bedyddio â'r yd Glân, fel y soniwyd uchod. Mae y bedydd ionogol a bedydd Ioan yr un peth o ran sylwedd, o yr elfen, ac o ran yr arwyddocâd: dim ond gwahaniaeth yn ngeiriau y gweinyddiad; ac un yn bedyddio i ffydd yr hwn oedd i ddyfod, a'r llall i ffydd yr hwn sydd wedi dyfod. Nis gwyddom i'r apostolion hyny a alwyd yn amser gweinidogaeth Ioan, gael yr un bedydd ond bedydd Ioan. Ni fedyddiodd Crist ei hun neb, Ioan 4. 2, ac nid yw yn ymddangos i'r apostolion fedyddio eu gilydd. § Gwel ar Matth. 3. 12. Gwelwn wrth adn. 18, na roddwyd i ni gan yr efengylwyr, ond crynodeb o swm a dull gweinidogaeth Ioan; eu prif amcan hwy oedd rhoddi hanes yr Arglwydd Iesu.

19 * Ond [m] Herod y tetrarch, pan geryddwyd ef ganddo am Herodias gwraig Phylip ei frawd, ac am yr holl ddrygioni a wnaethai Herod,

m Diar. 9. 7, 8. a 15. 12. Mat. 11. 2. a 14. 3, 4. Marc 6. 17, 18.

20 † A chwanegodd [n] hyn hefyd heb law y cwbl, ac a gauodd ar Ioan yn y carchar.

n pen. 13. 31—34. 2 Bren. 21. 16. a 24. 4. 2 Cron. 24. 17—22. a 36. 16. Neh. 9. 26. Jer. 2. 30. Mat. 21. 35—41. a 22. 6, 7. a 23. 31—33. 1 Thes. 2. 15, 16. Dat. 16. 6.

Gallwn weled yma nad yw yr efengylwyr yn gofalu am gadw yn fanol at drefn amser y dygwyddiadau a adroddant: rhoddir hanes carchariad Ioan yma o flaen bedyddiad Crist ganddo yn yr adnodau canlynol; yr hyn nis gall fod yn gyson â threfn amser. * Pe buasai Phylip wedi marw, buasai yn anghyfreithlawn, ac yn llosgach annaturiol a ffiaidd, i Herod gymmeryd ei wraig ef; ond yr oedd efe yn fyw, a chanddo ferch o Herodias, a chan Herod ei wraig ei hun hefyd, yr hon a ỳrodd efe ymaith i gymmeryd yr aflanes hon. Mae yr hanes yn gyflawnach gan Matth. 14. 3—12, gwel y sylwadau yno. † Yr oedd y weithred hon o'r eiddo Herod, yn ei ddangos wedi caledu yn anfeddyginiaethol yn ei ddrygioni, ac yn cyflawni yn gyflym fesur ei anwiredd. Peth dychryllyd oedd bod gwaed y Bedyddiwr sanctaidd yn gwaeddi am ddïal arno.

21 ¶ A bu, pan oeddid yn bedyddio yr holl bobl, [o] a'r Iesu yn ei fedyddio hefyd, [p] ac yn gweddïo, [q] agoryd y nef,

o Mat. 3. 13—15. Marc 1. 9. p pen. 9. 28, 29. Ioan 12. 27, 28. q Mat. 3. 16, 17. Marc 1. 10, 11. Ioan 1. 32—34.

22 A disgyn o'r Ysbryd Glân mewn * rhith corphorol, megis colommen, arno ef; † a dyfod llef o'r nef yn dywedyd, [r] Ti yw fy anwyl Fab; ynot ti y'm boddlonwyd.

r pen. 9. 34, 35. Salm 2. 7. Es. 42. 1. Mat. 12. 18. a 17. 5. a 27. 43. Col. 1. 13. 1 Pedr 2. 4. 2 Pedr 1. 17, 18.

Mae Matthew, Marc, a Luc, yn adrodd am fedyddiad yr Arglwydd Iesu. Gwel ar Matth. 3. 13—17. a Marc 1. 9—11. * Mae yn amlwg bod yno ryw ymddangosiad, ar ddull sylwedd corphorol, yn disgyn ar Grist, fel colomen yn disgyn ar y llawr: yr un ffurf, efallai, yn gystal ag yr un ysgogiad a cholomen. † Tair gwaith y daeth llef o'r nef, i dystiolaethu am Grist, a phob tro pan oedd efe yn gweddïo, neu yn fuan iawn ar ol hyny. Y fàn hon ydyw un o honynt; a pen. 9. 28, 35; Ioan 12. 27, 28. Tybir mai gweddïo am y dystiolaeth hon yr oedd Crist yma, adn. 21. Mae yn angenrheidiol bod gweddïo wrth fedyddio: gweddïodd Crist i sancteiddio yr ordinâd, ac i roddi esampl i ninnau wrth ei gweinyddu. Ordinâd i weddïo ydyw, ac nid i wneyd areithiau dadleugar yn ei chylch.

23 * A'r Iesu ei hun oedd ynghylch dechreu [s] ei ddengmlwydd ar hugain oed, [t] mab † (fel y tybid) i Joseph, ‡ *fab* Eli,

s Gen. 41. 46. Num. 4. 3, 35, 39, 43, 47. t pen. 4. 22. Mat. 13. 55. Marc 6. 3. Ioan 6. 42.

* Dywedir yma yn amlwg mai *dechreu* bod yn nghylch ei ddeng mlwydd ar hugain yr oedd Iesu pan fedyddiwyd ef; ond y mae peth dadl yn mhlith y beirniaid, pa un ai dechreu ei ddeng mlwydd ar hugain a feddylir, ai ynte llawn deng mlwydd ar hugain: a dywedant fod

rhyw amwysedd yn y geiriau Groeg yn peri ammheüaeth felly. Nid yw y peth o ganlyniad yn y byd. † Nid oedd Joseph dad naturiol i Iesu; ond tybiai yr Iuddewon ei fod, ac efallai nad oedd yntau a Mair yn barnu yn ddoeth i ddywedyd dim yn amgen wrthynt. ‡ Dywedir mai tad Mair oedd yr Eli (neu yr Heli) hwn, ac nid tad Joseph, a bod Joseph yn cael ei alw yn fab iddo fel yr oedd wedi ei briodi â'i ferch ef. Mae un o'r hen Rabbiniaid Iuddewig yn galw Mair yn bennodawl, yn ferch Eli. Dywedir hefyd yn Matth. 1. 16, mai "Jacob a genedlodd Joseph;" felly mae yn rhaid mai fel y dywedwyd uchod y mae efe yn fab Eli yma. Rhoddir achau Crist yn llinell Joseph, ei dad cyfrifedig, yn Matthew; ac yma rhoddir ei achau yn llinell naturiol ei fam, yr hyn sydd eto yn profi mai tad Mair oedd Eli, ac nid tad Joseph, namyn fel y dywedwyd. Enwau y gwrrywiaid yn unig a roddid yn yr ach-lyfrau Iuddewig; dyna paham mae Joseph yma yn lle Mair. Sylwyd ar pen. 2. 5, fod Mair yn etifeddes, a phan briodai un etifeddes yn Israel, byddai raid iddo fyned drosodd megys, i deulu ei dad-yn-nghyfraith, a chael ei gyfrif yn fab iddo ef: fel hyn gelwir Joseph yn fab Eli, yr hwn oedd dad Mair, ac nid ei dad naturiol ef.

24 *Fab* Matthat, *fab* Lefi, *fab* Melchi, *fab* Janna, *fab* Joseph,

25 *Fab* Mattathïas, *fab* Amos, *fab* Naum, *fab* Esli, *fab* Naggai,

26 *Fab* Maath, *fab* Mattathïas, *fab* Semei, *fab* Joseph, *fab* Juda,

27 *Fab* Joanna, *fab* Rhesa, *fab* Zorobabel, *fab* Salathiel, *fab* Neri,

28 *Fab* Melchi, *fab* Adi, *fab* Cosam, *fab* Elmodam, *fab* Er,

29 *Fab* Jose, *fab* Elïezer, *fab* Jorim, *fab* Matthat, *fab* Lefi,

30 *Fab* Simeon, *fab* Juda, *fab* Joseph, *fab* Jonan, *fab* Elïacim,

31 *Fab* Melea, *fab* Maïnan, *fab* Mattatha, *fab* [u] Nathan, *fab* Dafydd,

u 2 Sam. 5. 14. 1 Cron. 3. 5. a 14. 4.

32 [x] *Fab* Jesse, [y] *fab* Obed, *fab* Booz, *fab* Salmon, *fab* Naasson,

x Ruth 4. 18—22. 1 Sam. 17. 58. a 20. 31. 1 Bren. 12. 16. 1 Cron. 2. 13—15. Salm 72. 20. Es. 11. 1, 2. Mat. 1. 3—6. Act. 13. 22, 23. y Num. 1. 7. a 2. 3. a 7. 12. 1 Cron. 2. 11, 12.

33 *Fab* [z] Aminadab, *fab* Aram, *fab* [a] Esron, *fab* [b] Phares, *fab* [c] Juda,

z Ruth 4. 19, 20. 1 Cron. 2. 9, 10. Mat. 1. 3, 4. a Gen. 46. 12. Num. 26. 20, 21. b Gen. 38. 29. Ruth 4. 12. 1 Cron. 2. 4, 5. a 9. 4. c Gen. 29. 35. a 49. 8—10. Mat. 1. 2.

34 *Fab* Jacob, [d] *fab* Isaac, *fab* Abraham, *fab* [e] Thara, *fab* Nachor,

d Gen. 21. 8. a 25. 26. 1 Cron. 1. 34. Mat. 1. 2. Act. 7. 8. e Gen. 11. 24—32. Jos. 24. 2. 1 Cron. 1. 24—28.

35 *Fab* [f] Saruch, *fab* Ragau, *fab* [g] Phalec, *fab* [h] Heber, *fab* [i] Sala,

f Gen. 11. 18—21. g Gen. 10. 25. h Gen. 11. 16, 17. i Gen. 10. 24. a 11. 12—15.

36 *Fab* Cainan, *fab* Arphaxad, *fab* [k] Sem, *fab* [l] Nöe, *fab* Lamech,

k Gen. 5. 32. a 7. 13. a 9. 18, 26, 27. a 10. 21, 22. 1 Cron. 1. 17. l pen. 17. 27. Gen. 5. 29, 30. a 6. 8—10, 22. a 7. 1, 23. a 8. 1. a 9. 1. Ezec. 14. 14. Heb. 11. 7. 1 Pedr 3. 20. 2 Pedr 2. 5.

37 *Fab* [m] Mathusala, *fab* Enoch, *fab* Jared, *fab* Maleleel, *fab* Cainan,

m Gen. 5. 6—28. 1 Cron. 1. 1—3.

38 *Fab* Enos, *fab* Seth, [n] *fab* Adda, *fab* [o] Duw.

n Gen. 4. 25, 26. a 5. 3. o Gen. 1. 26, 27. a 2. 7. a 5. 1, 2. Es. 64. 8. Act. 17. 26—29. 1 Cor. 15. 45.

Ar yr achau hyn, nis gallwn wneyd ond rhyw sylwadau cyffredinol eto fel ar Matth. 1. 2—17; ac yn gy sylwn ar y gwahaniaeth sydd rhwng Matthew a neu yn hytrach rhwng Luc a Matthew. 1. Mae Matt yn rhoddi achau breninol Crist, yn llinell Joseph dad cyfrifedig, fel y sylwyd o'r blaen: mae Luc rhoddi ei achau naturiol, yn llinell Mair, ei fam na iol. 2. Mae Matthew yn dechreu i fynu, ac yn dyf lawr; a Luc yn dechreu i lawr, ac yn myned i f 3. Mae Matthew yn cyfrif wrth dair yspaid, pob o bedair cenedlaeth ar ddeg; nid oes dim dosparthi au felly gan Luc. 4. Mae Matthew yn rhoddi acha Cyfryngwr cyn sôn dim am ei genedliad a'i enedigae mae Luc yn rhoddi hanes ei genedliad, ei eni, fedyddio, yn gyntaf; yna ei achau. 5. Mae Matthew olrhain ei achau o Abraham, am ei fod yn bwria ei efengyl yn benaf i'r Iuddewon, felly yn ei br yn fab i Abraham; mae Luc yn eu holrhain hyd Ad tad cyffredin holl ddynolryw, am ei fod yn bwria ei hanes i'r holl fyd, drwy yr hyn hefyd mae yn dang henafiaeth yr efengyl, ac nad i had Abraham yn uni mae hi.

Heblaw y gwahaniaethau uchod, mae rhai pethau *ymddangos* yn anghyson â'u gilydd yn y ddwy ach-rês rhai a ellir yn hawdd eu cysoni, debygid, ond ystyri y pethau canlynol:—1. Eu bod oll yn gorwedd yn hyn sydd gan Luc o adn. 23, hyd adn. 32, ac o'r rh olaf o adn. 34, hyd y diwedd: felly, yn adn. 32, a rhan o 34, nid oes genym ddim i'w gysoni. 2. N yw y gair "*Mab*" ddim yn y Groeg, ond yn adn. 23, unig; lle y dywedir fod Crist yn "fab i Joseph:" o hy yn mlaen gosodwyd ef i mewn gan y cyfieithwyr mhob màn, fel y gwelir wrth ei fod mewn llythyren meinion Italaidd. Felly mae y Groeg yn rhedeg hyn:—Mab i Joseph, o Eli, o Matthat, o Lefi, o Melc &c.: yr hyn a dŷr ymaith y gwrthddadl cyntaf; pa fo y gallai Joseph fod yn fab Jacob, fel y dywed Matthe ac yn fab Eli, fel y dywed Luc. Dywedwyd eiso pa fodd yr oedd Joseph yn fab Eli, yn nghyd a'r ach o osod ei enw ef fel y cyfryw yn ysgrif gyhoedd yr achau. Gwel y sylw diweddaf ar adn. 23. Tyb rhai hefyd, i Eli ei fabwysiadu ef yn fab iddo, heb la ei fod yn fab yn nghyfraith. 3. Ystyriwn, fod Luc yn yn olrhain achau Crist, nid o'i dad tybiedig, Joseph ond o Mair ei wir fam. Gwedi iddo roddi y fath han am ei genedliad rhyfedd a goruwch-naturiol o'r blae nid yw yn debyg ei fod yma yn myned i olrhain achau ef o Joseph, yr hwn nid oedd dad iddo: ac y m hyn yn ddangosiad têg i ni, pa fodd mae yr enwau m wahanol gan y ddau Efengylwr o amser Dafydd h enedigaeth Crist. Mae Matthew, yn olrhain ach Joseph, o Solomon fab Dafydd, a'i olynwr yn y freni iaeth; a Luc yn olrhain achau Mair o Nathan, m arall i Dafydd, 1 Crón. 3. 5. Felly, o amser Dafyd fynu, mae y llinach ag oedd yn un hyd hyny, ymranu; a Matthew yn olrhain un gangen yn â Joseph, a Luc yn olrhain y gangen arall yn â Mair. O Dafydd i lawr, mae y ddau Efengylwr cytuno, a chanddynt yr un enwau; ond bod Luc y dywedwyd, yn myned yn mhellach na Matthew: m ef yn myned trwy y cyn-ddylifiaid hyd Adda; a Matth yn dechreu yn Abraham. Mae y sylw uchod hefyd atebiad i wrthddadl arall; sef gwahaniaeth rhif y p sonau gan y ddau Efengylwr, o Joseph hyd Zorobabe (a gadael y ddau hyny allan.) Nid yw Matthew cyfrif ond naw; a Luc yma yn cyfrif deunaw, o ad 23—28. O Zorobabel hyd Dafydd, mae Luc yn cyfr dau ar hugain; a Matthew, dim ond pedwar ar dde gan adael tri brenin o hanner gwaed Ahab allan; Aha ïah, Joas, ac Amaziah. Yr oedd Matthew yn enwi ac gadael allan dàn gyfarwyddyd uniongyrchol yr Ysbr Glân, ac mae yn ddiddadl bod Luc felly hefyd. Mae debyg hefyd, eu bod yn cymmeryd yr enwau fel oeddynt ar y cofrestrau oedd ger bron pob un o hony 4. Rhaid sylwi, mai peth cyffredin iawn yn mhlith yr I ddewon oedd bod dau enw ar yr un dyn, ac weithi

paae hyn yn cyfrif am y gwahaniaeth sydd yn adn. 1: y dywedir fod Rhesa yn fab Zorobabel, pryd y datthew 1. 13, yn dywedyd, "Zorobabel a genedl-Dïud." Mae yn amlwg fod Abraham yn fab Terah, hara, a Therah yn fab Nachor, yn Gen. 11. 24, bd Saruch neu Serug, yn fab Reu neu Ragau, 1. 11. 20: fod Reu yn fab Peleg, (Phalec yma, 5.) a Pheleg yn fab Heber, a Heber yn fab Sala, 1. 11. 18; 1 Cron. 1. 25. Ond yn Gen. 11. 12, ni llenwn mai mab Arphaxad oedd Sala; lle y ir yma, (adn. 35, 36,) ei fod yn fab Cainan, inan yn fab Arphaxad. Mae yr anhawsdra hyn yrysu llawer o ddynion dysgedig, ac mae yn am- (medd *Pool,)* a ddarfu i neb foddloni ei hun erioed eto. Nid yw yn debygol fod Luc yn o gwaith Moses; y cyfrif goreu a ellir ei roddi am wch, efallai, yw, bod cyfieithiad y *Deg a thriugain* m. 11. 12, yn hollawl yr un peth â Luc yma: yn sicr fod Luc yn canlyn y cyfieithiad hwnw, yn in, yn ei ddyfyniadau o'r Hen Destament. Y oreu am dani yw, nad yw y pwnc o bwys mawr; ai amcan yr Efengylwr yw olrhain achau Crist dda, y rhai sydd yr un mòr eglur, pa un bynag a m ni Sala yn fab union-gyrchol Arphaxad, ai n wyr iddo, o Cainan. Mae y rhan arall o'r yn adn. 36, 37, 38; yn berffaith gyson â Gen. cc., a 6. 10: felly debygid nad oes dim anhawsdra ni y ddau Efengylwr, ond i ni ystyried bod un yn achau Joseph, a'r llall yn rhoddi achau Mair. ddadleua rhai yn erbyn Luc, am fod achau Mair l eu holrhain ganddo ef o Nathan fab Dafydd, 31.) ac nid o Solomon; gan feddwl mai o Solo- r oedd y Messiah i ddyfod. Yr oedd Solomon yn l nodedig o Grist, a sonir am dano fel y cyfryw, . 7. 12—16; Salm 72. a 89. 19—37: ond ni dir yn un màn wrth Dafydd, "Yn Solomon y i ti had," fel y dywedwyd wrth Abraham am Isaac, 1. 12. Y cwbl a ddywedwyd oedd, y byddai Crist Dafydd; ac yr oedd felly o Nathan yn gystal a phe o Solomon. Enwir Solomon yn achau Joseph datth. 1. 6; a chrybwyllwyd o'r blaen mai yn y frawd hyn, Solomon a Nathan yr ymranodd yr yn ddwy gangen: Joseph o un, a Mair o'r llall. Adda felly herwydd ei grëu gan Dduw, ac heb do dad naturiol, fel i'w had ar ei ol ef. Gan es ond sylw bŷr a chyffredin iawn ar yr achau atthew; a chan nas dygwyddodd i'r Cyfieithydd braidd ddim ar y rhanau hyn o'r Ysgrythyr yn yr ymraeg; tybia y gall hyn fod o ryw foddlonrwydd sanaeth i'w gydwladwyr un-iaith.

PEN. IV.

Temtiad ac ympryd Crist, &c.

IR [a] Iesu yn [b] llawn o'r Ysbryd Glân, † a ddychwelodd oddi wrth yr Iorddonen, a arweiniwyd gan yr ysbryd [d] i'r anial-

Mat. 4. 1. b adn. 14, 18. pen. 3. 22. Es. 11. 2—4. a 61. 3. 16. Ioan 1. 32. a 3. 34. Act. 1. 2. a 10. 38. c pen. 2. ren. 18. 12. Ezec. 3. 14. Marc 1. 12. Act. 8. 39. d 1 Bren. Marc 1. 13.

rth yr Ysbryd Glân yma mae i ni ddëall, doniau bryd Glân; yn ol y brophwydoliaeth am dano, .. 1, 2. Mae doniau yr Ysbryd Glân yn aml yn rythyrau yn cael eu galw, yr Ysbryd: Act. 2. 4; a a 10. 44. Dywedir yn yr Ysgrythyr fod eraill, v Crist, yn llawn o'r Ysbryd Glân; megys Zachar- uc 1. 67; Ioan Fedyddiwr, Luc 1. 15; Elisabeth, 41; y saith hyny yn Act. 6. 3, 5; ac amryw eraill. awsant hwy oll ond eu mesur; ond nid wrth fesur des Duw iddo ef yr Ysbryd, Ioan 3. 34. † Yn yr nen y bedyddiesid ef gan Ioan, Matth. 3. 13. 1 ar Matth. 4. 1.

Yn cael [e] ei demtio gan ddiafol [f] ddeugain niwrnod. [g] * Ac ni fwyttâodd efe ddim o fewn y dyddiau hynny: ac wedi eu diweddu hwynt, [h] ar ol hynny y daeth arno chwant bwyd.

e Ex. 24. 18. a 34. 28. Deut. 9. 9, 18, 25. 1 Bren. 19. 8. Mat. 4. 2. f Gen. 3. 15. 1 Sam. 17. 16. Heb. 2. 18. g Esther 4. 16. Jona 3. 7. h Mat. 21. 18. Ioan 4. 6. Heb. 4. 15.

* Nid ymatal oddi wrth ryw fath o fwydydd, neu am ryw ran o bob dydd, a wnaeth efe, fel y bydd llawer yn ymprydio; ond ymatal yn hollawl yr holl ddyddiau hyny: "ni fwytâodd efe *ddim.*" Felly Moses, rhoddwr y ddeddf, Exod. 34. 28; Elias, adferwr y ddeddf, 1 Bren. 19. 8; a Christ, diwedd y ddeddf. Gwel ar Matth. 4. 2.

3 A dywedodd diafol wrtho, [i] Os mab Duw ydwyt ti, dywed wrth y garreg hon fel y gwneler hi yn fara.

i pen. 3. 22. Mat. 4. 3.

4 A'r Iesu a attebodd iddo, gan ddywedyd, [k] * Ysgrifenedig yw, [l] Nad ar fara yn unig y bydd dyn fyw, ond ar bob gair Duw.

k adn. 8, 10. Es. 8. 20. Ioan 10. 34, 35. Eph. 6. 17. l pen. 22. 35. Ex. 23. 25. Deut. 8. 3. Jer. 49. 11. Mat. 4. 4. a 6. 25, 26, 31.

Gwel ar Matth. 4. 3, 4. * Mae yn werth sylwi fel y mae Crist yn hòni awdurdod yr Ysgrythyrau yma: er ei fod yn llawn o'r Ysbryd Glân, eto mae yn gwneyd yr Ysgrythyr yn rhëol ei ymddygiad.

5 A diafol, [m] wedi ei gymmeryd ef i fynu i fynydd uchel, * a ddangosodd iddo holl deyrn-asoedd y ddaear [n] † mewn munud awr.

m Mat. 4. 8, 9. 1 Cor. 7. 31. Eph. 2. 2. a 6. 12. 1 Ioan 2. 15, 16. n Job 20. 5. Salm 73. 19. 1 Cor. 15. 52. 2 Cor. 4. 17.

6 A diafol a ddywedodd wrtho, [o] I ti y rhoddaf yr awdurdod hon oll, [p] a'u gogoniant hwynt: ‡ canys i mi y rhoddwyd; [q] ac i bwy bynnag y mynnwyf y rhoddaf finnau hi.

o Ioan 8. 44. 2 Cor. 11. 14. Dat. 12. 9. a 20. 2, 3. p Esther 5. 11. Es. 5. 14. a 23. 9. 1 Pedr 1. 24. q Ioan 12. 31. a 14. 30. Dat. 13. 7.

7 ‖ Os tydi gan hynny a addoli o'm blaen, eiddot ti fyddant oll.

8 § A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, [r] Dos ymaith, Satan, yn fy ol i; [s] canys ysgrifenedig yw, Addoli yr Arglwydd dy Dduw, ac ef [t] yn unig a wasanaethi.

r Mat. 4. 10. a 16. 23. Iago 4. 7. 1 Pedr 5. 9. s adn. 4. Deut. 6. 13. a 10. 20. Mat. 4. 10. Dat. 19. 10. a 22. 9. t 1 Sam. 7. 3. 2 Bren. 19. 15. Salm 83. 18. Es. 2. 11.

* Gwedi methu yn ei demtasiwn o "chwant y cnawd," mae diafol yn ymgais eto beth a all wneyd â hudoliaeth o "chwant y llygad;" ond mae hon yn methu hefyd: yr oedd gan Iesu lygad yn ei ben, ond nid oedd chwant yn ei galon ef. † Sylwyd ar Matth. 4. 9, mai lledrith, efallai, oedd yr holl weledigaeth hon; ac mae y geiriau hyn "mewn munud awr," y rhai nid ydynt gan Matthew, yn profi hyny, mai lledrith a gwag-hudoliaeth oedd y cwbl. ‡ Nid yw y rhan olaf o'r adnod hon ychwaith gan Matthew: beth a allwn ddisgwyl ond celwydd gan dad y celwydd? Nid i ddiafol, ond i ddyn, y rhoddwyd arglwyddiaeth y byd hwn; nis gallasai efe ddrygu Job heb ganiatâd, na chymmaint a myned i mewn i'r moch: llai o lawer arglwyddiaethu ar y byd, a'i roddi i'r neb y mỳno efe. ‖ "A'm haddoli I," medd Matthew, yr hyn sydd yn egluro addoli o'm blaen, yn y fàn hon. § Gwel ar Matth. 4. 10. Yr ail demtasiwn hon sydd yn olaf gan Matthew; a'r olaf yma sydd yn ail yno. Tybir mai trefn Matthew sydd yn ei lle: o herwydd y gair "Yna," yn adn. 5, a'r gair "Trachefn," yn adn. 8: ac hefyd "Yna y gadawodd y diafol ef," adn. 11, ar ddiwedd y demtasiwn ar ben y pinacl.

9 * Ac efe [u] a'i dug ef i Jerusalem, ac a'i gosododd [x] ar binacl y deml, ac a ddywedodd

wrtho, [y] † Os mab Duw ydwyt, bwrw dy hun i lawr oddi yma.

u Job 2. 6. Mat. 4. 5. x 2 Cron. 3. 4. y adn. 3. Mat. 4. 6. a 8. 29. Rhuf. 1. 4.

10 Canys [z] ysgrifenedig yw, [a] Y gorchymyn efe i'w angelion o'th achos di, a'r dy gadw di:

z adn. 3, 8. 2 Cor. 11. 14. a Salm 91. 11, 12. Heb. 1. 14.

11 Ac y cyfodant di yn *eu* dwylaw, rhag i ti un amser daro dy droed wrth garreg.

12 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Dywedwyd, [b] Na themtia yr Arglwydd dy Dduw.

b Deut. 6. 16. Salm 95. 9. a 106. 14. Mal. 3. 15. Mat. 4. 7. 1 Cor. 10. 9. Heb. 3. 8, 9.

* Gwel ar Matth. 4. 5, 6, 7. Y ddinas sanctaidd gan Matthew, yw Jerusalem gan Luc. † Gwedi methu yn hudoliaethau "chwant y cnawd, a chwant y llygad," mae diafol yn cynnyg ar Iesu yma â hudoliaeth "balchder y bywyd;" yn ei osod yn ddigon uchel ar ben y pinacl, gan obeithio y bwriai ei hun i lawr; ond methodd yn hyn hefyd. Amcan y diafol bob amser wrth godi dynion, yw eu taflu i lawr; ond amcan Duw wrth ddarostwng ei blant ef, yw eu cyfodi, a'u derchafu mewn amser cyfaddas. Nid oes braidd yr un brofedigaeth yn cyfarfod â dynion, nad yw o natur y naill neu y llall o demtasiynau Crist: un ai anymddiried i Dduw, chwant am bethau darfodedig, neu falchder a gwag-ogoniant. Os oedd y gelyn mòr ddyfal yn temtio Crist, gallwn fod yn sicr nad yw efe ddim yn llai dyfal yn ein temtio ninnau.

13 * Ac [c] wedi i ddiafol orphen yr holl demtasiwn, † efe a ymadawodd âg ef dros amser.

c Mat. 4. 11. Ioan 14. 30. Heb. 4. 15. Iago 4. 7.

* Wrth y geiriau "yr holl demtasiwn," tybia rhai i'r diafol ddefnyddio ychwaneg o demtasiynau nag a enwir yma. † Hyd amser dyoddefaint Iesu, medd rhai; ond mae yn rhyfedd os bu y diafol yn llonydd hyd hyny: mae yn sicr na bu trwy ei offerynau, beth bynag am demtasiynau digyfrwng. Mae yn bur sicr i ddiafol ymosod ar Grist yn Gethsemane, canys yno yr oedd Iesu pan ddywedodd wrth yr Iuddewon, "Yn awr yw eich awr chwi, a gallu y tywyllwch:" pen. 22. 53.

14 ¶ A'r Iesu [d] a ddychwelodd trwy * nerth yr ysproyd † i Galilea: [e] a sôn a aeth am dano ef trwy yr holl fro oddi amgylch.

d Mat. 4. 12. Marc 1. 14. Ioan 4. 43. Act. 10. 37, 38. e Mat. 4. 23—25. Marc 1. 28.

15 ‡ Ac [f] yr oedd efe yn athrawiaethu yn eu synagogau hwynt, [g] || ac yn cael anrhydedd gan bawb.

f adn. 16. pen. 13. 10. Mat. 4. 23. a 9. 35. a 13. 54. Marc 1. 39. g Es. 55. 5. Mat. 9. 8. Marc 1. 27, 45.

* Ynfytach nag ynfydrwydd yw tybied mai trosglwyddo Iesu trwy yr awyr i Galilea, a feddylir wrth "ddychwelyd trwy nerth yr Ysbryd" yma. Nerth yr Ysbryd oedd gweithrediad cryf yr Ysbryd ar ei feddwl ef, yn ei dueddu i fyned i Galilea; neu y gwyrthiau nerthol a wnaeth efe, efallai ar ei ffordd yno; neu ynte y nerth oedd yn myned gyda ei eiriau ef at galonau a chydwybodau ei wrandawyr yn mhob màn: neu, efallai, pob un o'r tri pheth. † Dywed Matth. 4. 12. a Marc 1. 14, mai clywed ddarfod carcharu Ioan a barodd i Iesu fyned i Galilea; ond tybir mai am ail fynediad i Galilea y soniant hwy yno, er eu bod yn crybwyll y peth yn union ar ol ei demtiad ef, yr un modd a Luc yma. Tybir hefyd mai ei fynediad i Galilea y Cenedloedd a sonir ganddynt hwy, lle yr oedd Phylip brawd Herod yn detrarch, ac nid y rhan o Galilea lle yr oedd Herod ei hun yn llywodraethu; buasai myned i lywodraeth Herod, yn union ar garchariad Ioan, yn beryglus; ac megys rhedeg i safn profedigaeth, yr hyn ni wnaeth Iesu erioed, hyd oni ddaeth ei awr ef. ‡ Yr oedd y gair am Iesu ei fod yn brophwyd, am hyny yr oe rhyddid iddo i athrawiaethu yn y synagogau yn mh màn. || Yn cael gogoniant gan bawb yw ystyr y geiri Groeg, ac felly mae y cyfieithiad Saesoneg; ond g nad oedd yno nemawr (chwaithach "pawb") yn cre ynddo fel Duw, i'w ogoneddu felly, gwell yw y g anrhydedd. Pregethwr yn cael gogoniant, sydd ym rodd dieithr i ni.

16 ¶ * Ac efe a ddaeth [h] i Nazareth, lle magesid ef: ac [i] yn ol ei arfer, efe a aeth synagog ar y sabbath, [k] † ac a gyfododd i fy i ddarllen.

h pen. 1. 26, 27. a 2. 39, 51. Mat. 2. 23. a 13. 54. Marc 6. i adn. 15. pen. 2. 42. Act. 17. 2. k Act. 13. 14—16.

* Gwedi hir ymdaith, a phregethu mewn llawer fànau, daeth o'r diwedd i Nazareth, ei ddinas ei hun fàn lle ei magwyd ef. † Nid oes genym ddim hau bod Iesu yn "darllen" yn yr un synagog arall, ond yn yn Nazareth: yr achos mae'n debyg oedd, nad oedd e ddim yn aelod o un synagog arall ond hon. Dyw y dysgedigion Iuddewig nad oedd dim rhyddid i nei ddarllen mewn synagog, ond rhywun ag oedd yn aelo o'r synagog *hòno.* O herwydd ei fawr enwogrwy yr oedd yn cael athrawiaethu yn mhob synagog. N a *safodd* i fynu i ddarllen: rhaid i'r darllenydd a'r bo oll *sefyll* i fynu, pan ddarllenid yr ysgrythyrau yn synagog; (gwel Neh. 8. 4, 5.) ond pan fyddai un y cynghori neu athrawiaethu, efe a eisteddai i hyn a'r gwrandâwyr hefyd: gwel adn. 20, 21.

17 * A rhodded atto [l] lyfr y prophwy Esaias: † Ac wedi iddo agoryd y llyfr, ‡ efe gafodd [m] y lle yr oedd yn ysgrifenedig,

l pen. 20. 42. Act. 7. 42. a 13. 15, 27. m Es. 61. 1—3.

18 [n] || Ysproyd yr Arglwydd *sydd* arnaf f o herwydd iddo [o] fy enneinio i; [p] i bregeth i'r tlodion yr anfonodd fi, i [q] iachâu y dryllied ig o galon, [r] i bregethu gollyngdod i'r caethio [s] a chaffaeliad golwg i'r deillion, i ollwng y rha [t] ysig mewn rhydd-deb;

n Salm 45. 7. Es. 11. 2—5. a 42. 1—4. a 50. 4. a 59. 2 o Salm 2. 2, 6. Dan. 9. 24. Ioan 1. 41. Act. 4. 27. a 10. 3 p pen. 6. 20. a 7. 22. Es. 29. 19. Zeph. 3. 12. Zec. 11. 11. Mat. 3. a 11. 5. Iago 2. 5. q 2 Cron. 34. 27. Salm 34. 18. a 51. 17. 147. 3. Es. 57. 15. a 66. 2. Ezec. 9. 4. r Salm 102. 20 a 10 10—16. a 146. 7. Es. 42. 7. a 45. 13. a 49. 9, 24, 25. a 52. 2, 3. Ze 9. 11, 12. Col. 1. 13. s Salm 146. 8. Es. 29. 18, 19. a 32. 3. a 3 5. a 42. 16—18. a 60. 1, 2. Mal. 4. 2. Mat. 4. 16. a 9. 27—30. a 1 5. Ioan 9. 39—41. a 12. 46. Act. 26. 18. Eph. 5. 8—14. 1 Thes. 5, 6. 1 Pedr 2. 9. 1 Ioan 2. 8—10. t Gen. 3. 15. Es. 42. 3. Ma 12. 20.

19 § I [u] bregethu blwyddyn gymmeradw yr Arglwydd.

u pen. 19. 42. Lef. 25. 8—13, 50—54. Num. 36. 4. Es. 61. a 63. 4. 2 Cor. 6. 1.

Rholiau o grwyn teg ysgrifenedig wedi eu rholiaw a ddau bren, un wrth bob pen i'r croen, oedd llyfr yr Iuddewon, fel y gwelir llyfrau yr Hen Destament e ganddynt yn eu synagogau; ac nid llyfrau wedi eu plyg ar ddull ein llyfrau ni. * Gorchwyl gweinidog y syn gog oedd dwyn y llyfr a fyddai i'w ddarllen, a'i osc o flaen yr hwn oedd i'w ddarllen. Yr oedd pob u o lyfrau y gyfraith, ac o'r prophwydi mwyaf, yn un rho o groen (memrwn) ar ei ben ei hun; a llyfr y prophwy Esaiah a roddwyd at Iesu, i'w ddarllen y diwrnod hwnw yr oedd rhan o'r gyfraith wedi ei darllen o'r blae † Agoryd y llyfr oedd dadrolio y croen hyd at y dda ben, fel y sylwyd uchod. ‡ Nis gwyddis pa un ai Ies ei hun a ddewisodd ddarllen y rhan hon, Es. 61. 1—3 ai ynte y rhan hon oedd i gael ei darllen mewn tre y diwrnod hwnw. || Dywedir nad yw y geiriau f y maent yma, yr un fath yn hollawl â'r Hebraeg, nac â Deg a thriugain chwaith: ond nid oes gwahaniaet o bwys rhyngddynt a'r naill na'r llall o honynt. Ma amryw bethau yn yr adnodau yn Esaiah nad ynt yma amryw bethau wedi eu geirio yn wahanol yn y ddau le

chaffaeliad golwg i'r deillion" wedi ei chwanegu
cyfeiriad meddant at garcharorion wedi eu lly-
rio a thynu eu llygaid. Nid oes neb ond yr
ydd Iesu a fedr wared y fath drueiniaid (yn ys-
t) ac adferu eu golwg iddynt. § Jubili fawr
gyl yw y flwyddyn gymmeradwy hon: blwyddyn i
yd ddiwedd y byd, hyd oni ryddâer holl bryned-
Iesu: cymhara Lefit. 25. 9, 10. a Salm 89. 15.

* Ac wedi iddo gau y llyfr, [x] † a'i roddi
weinidog, [y] ‡ efe a eisteddodd. [z] || A llyg-
pawb oll yn y synagog oedd yn craffu

adn. 17. Mat. 20. 26—28. y pen. 5. 3. Mat. 5. 1, 2. a 13.
an 8. 2. Act. 13. 14—16. a 16. 13. z pen. 19. 48. Act.

Ac efe a ddechreuodd ddywedyd wrth-
[a] § Heddyw y cyflawnwyd yr ysgrythyr
yn eich clustiau chwi.
en. 10. 23, 24. Mat. 13. 14. Ioan 4. 25, 26. a 5. 39. Act. 2.
29—33. a 3. 18.
nad y llyfr oedd ei rolio i fynu ar y ddau rolbren
yd, † ac yna ei roddi at weinidog y synagog,
yr hwn oedd ei ddwyn ymaith a'i roddi i'w gadw
le priodol. ‡ Arfer y dysgawdwyr Iuddewig oedd
i fynu i ddarllen, ac eistedd pan fyddent yn
iriaethu: gwnaeth Iesu yr un modd, yn ol defod ei
|| Gwyddai yr Iuddewon mai prophwydoliaeth
Messiah oedd y geiriau a ddarllenasai Iesu, ac yr
nt yn disgwyl yn awyddus am glywed pa fath
d a roddai efe ar eiriau mòr nodedig. Yr oedd-
di clywed hefyd erbyn hyn, am y pethau a wnaeth-
st yn Capernaum, (adn. 23,) pethau tebyg i'r hyn
llenasai yn Esaiah; felly wrth gymharu ei weith-
ld ef â'i destyn, efallai eu bod braidd yn dechreu
wl mai efe ei hun oedd y Messiah. § Yr oedd
ystal a dywedyd yn bendant, mai efe ei hun oedd
on y prophwydasai Esaiah am dano yn y geiriau
. Nid oes yma ond rhan, neu ragymadrodd, o'r
. ddywedodd Iesu ar yr achlysur hwn: "efe a
reuodd ddywedyd." Mae yn ddïammau iddo lef-
n helaeth ar y geiriau, fel yr oeddynt yn cynnwys
edd a gwaredigaeth ysbrydol i bechaduriaid caeth-
deillion, gan wasgu yn ddifrifol ar ei wrandawyr
-geisio y bendithion gwerthfawr hyn.

* Ac yr oedd pawb yn dwyn tystiolaeth
ac yr oeddynt yn rhyfeddu am y [b] † geir-
grasusol a ddeuai allan o'i enau ef. A
a ddywedasant, [c] ‡ Onid hwn yw mab
oh?
pen. 2. 47. a 21. 15. Salm 45. 2, 4. Diar. 10. 32. a 16. 21. a
Preg. 12. 10, 11. Can. 5, 16. Es. 50. 4. Mat. 13. 54. Marc
oan 7. 46. Act. 6. 10. Tit 2. 8. c Mat. 13. 55, 56. Marc
an 6. 42.
ystiolaeth i ba beth? Nid mai efe oedd y Messiah
b y Duw byw; dim ond canmol ei bregeth ef
or y brophwydoliaeth: yr oeddent yn rhyfeddu
iddoethineb ymadrodd un mòr isel a diddysg ag
ddent yn Nazareth ei fod ef; ond nid oeddynt
du ynddo. Cair llawer eto a ryfeddant ac a gan-
t bregethau, a doniau pregethwyr, ond ni dder-
nt eu geiriau, ac ni chredant i fywyd. † Y geiriau
yn llythyrenol yn ol y Groeg: yr oeddynt yn
grasol o ran eu cynnwysiad, ac hefyd o ran
ledd a graslonrwydd eu traddodiad: "ni lefarodd
rioed fel y dyn hwn" oedd tystiolaeth calon y
‡ Yn hyn yr oedd yr holl ryfeddod yn dybenu
cwbl, "Onid hwn yw mab Joseph?" Pa fodd y
a ddisgwyl na chredu mai hwn yw y Messiah?
agfarn ac anghrediniaeth!

* Ac efe a ddywedodd wrthynt, Yn
wl y dywedwch y ddïareb hon wrthyf,
meddyg, iachâ di dy hun: [e] † y pethau a
glywsom ni eu gwneuthur yn Capernaum,
‡ gwna yma hefyd yn [g] dy wlad dy hun.
d pen. 6. 42. Rhuf. 2. 21, 22. e Mat. 4. 13, 23. a 11. 23.
Ioan 4. 48. f Ioan 2. 3, 4. a 4. 28. a 7. 3, 4. Rhuf. 11. 34, 35.
2 Cor. 5. 16. g Mat. 13. 54. Marc 6. 1.

24 Ac efe a ddywedodd, Yn wir meddaf i
chwi, [h] || Nad yw un prophwyd yn gymmerad-
wy yn ei wlad ei hun.
h Mat. 13. 57. Marc 6. 4, 5. Ioan 4. 41. Act. 22. 3, 18—22.
* Er bod llygaid pawb yn y synagog yn craffu arno ef, ac arwyddion o syndod a chymmeradwyaeth yn ddïammau yn amlwg yn ngwynebau llawer; eto gwyddai yr Iesu am y rhwystr, y rhagfarn, a'r anghrediniaeth, oedd yn nghalonau llawer o honynt: ac efallai hefyd iddo glywed y geiriau, "Onid hwn yw mab Joseph." † Mae hyn yn dangos i Grist fod yn pregethu ac yn gwneyd gwyrthiau yn Capernaum a mànau eraill cyn iddo ddyfod i Nazareth. Efallai mai y wyrth yn Cana Galilea oedd y gyntaf a wnaeth ar ol ei demtiad, Ioan 2. 1—11; wedi hyny dywedir iddo fyned i Capernaum, lle nid arosodd nemawr o ddyddiau, Ioan 2. 12. ‡ Fel pe dywedasent, Prin yr ydym ni yn credu i ti allu gwneyd gwyrthiau erioed yn un màn; ac oni wnai wyrthiau yn ein golwg ni, ni chredwn i ti. Hefyd, os gwnaethost ti wyrthiau mewn mànau eraill, pa ham na wnai yma? ti a ddylit yn sicr iachâu y cleifion, &c., yn dy gymmydogaeth dy hun o flaen mànau eraill, mwy pellenig ac estronaidd. Fel hyn yr oedd y rhai digred yma yn traws-siarad yn erbyn Iesu, ac fel pe buasent yn ei heriaw ef i wneyd gwyrthiau er boddloni ei mympwy hwynt. || Sylwyd ar hyna eisoes, yn Matth. 13. 57. Dyn isel-radd a thlawd iawn oedd Iesu mewn cymhariaeth i lawer yn Nazareth, am hyny yr oeddent yn ei ddirmygu. Bu yn dristwch i lawer pregethwr da lawer gwaith, orfod meddwl ei fod yn iselach na phawb agos o'i wrandawyr, ond yn unig tra byddai yn yr areithfa.

25 * Eithr mewn gwirionedd meddaf i
chwi, [i] Llawer o wragedd gweddwon oedd yn
Israel yn nyddiau Elïas, [j] pan gauwyd y nef
† dair blynedd a chwe mis, fel y bu newyn
mawr trwy yr holl dir;
i pen. 10. 21. Es. 55. 8. Mat. 20. 15. Marc 7. 26—29. Rhuf. 9.
15, 20. Eph. 1. 9, 11. j 1 Bren. 17. 1. a 18. 2. Iago 5. 17.

26 Ac nid at yr un o honynt yr anfonwyd
Elïas, [k] ond i ‡ Sarepta yn Sidon, at wraig
weddw.
k 1 Bren. 17. 9, &c. Ob. 20.

27 A llawer o wahan-gleifion oedd yn Is-
rael yn amser [l] Elisëus y prophwyd; ac ni
lanhâwyd yr un o honynt, [m] ond [n] || Naaman y
Syriad.
l 1 Bren. 19. 19—21. m Mat. 12. 4. Ioan 17. 12. n 2 Bren.
5. Job 21. 22. a 33. 13. a 36. 23. Dan. 4. 35.
* Mae Crist yma yn hòni fod ganddo ef hawl, i gyfranu ei ddoniau, a gwneyd ei wyrthiau, fel y gwelai efe yn dda; yn y lle, ac ar y neb, y gwelai yn dda: ac nad oedd ef wrth wneuthur felly, yn gwneyd dim ond yr hyn a wnaethai Duw trwy yr hen brophwydi o'i flaen ef: ac yn dangos hyny yn y ddau amgylchiad a enwa, 1 Bren. 17. 9; a 2 Bren. 5. 14. † Nid yw yr Hen Destament yn penderfynu yr amser; (1 Bren. 17. 1. a 18. 1.) ond mae yn debyg fod hanes gan yr Iuddewon mai hyny ydoedd. Felly hefyd y dywed Iago 5. 17. Mae rhai yn sylwi fod rhywbeth nodedig yn yr amser hwnw, fel yr oedd yn cytuno âg amser gweinidogaeth Crist ar y ddaear; Elias yn cauad y nefoedd am dair blynedd a chwe' mis, fel na byddai na gwlith na gwlaw; a Christ yn agoryd y nefoedd megys, am yr un yspaid, a'i athrawiaeth yn defnynu fel gwlaw, a'i ymadrodd yn dyferu fel gwlith, Deut. 32. 2. ‡ Un o ddinasoedd y Cenedloedd oedd Sarepta, oddi allan i derfynau Israel; ac mae yn debyg mai un o'r Cenedl-

oedd y wraig weddw hon. Elias oedd y cyntaf o'r prophwydi a ddanfonodd Duw erioed i blith y Cenedloedd; ond trwy drugaredd nid yr olaf. || Cenedl-ddyn oedd y Naaman hwn hefyd, ac un o genedl elynol i Israel a'u Duw. Nid yw y geiriau "oedd yn Israel" (adn. 25, 27,) yn dangos bod y wraig weddw o Sarepta yn Israel, na Naaman y Syriad chwaith: nid oedd yr un o honynt hwy yn Israel nac o Israel. Gwelwn yn yr adnodau hyn dri pheth:—1. Rhadlonrwydd a phenarglwyddiaeth doniau Duw: mae efe yn trugarâu wrth y neb y mỳno. 2. Mai bai dynion eu hunain yw, na dderbyniant ei ddoniau a'i fendithion ef. Ni dderbyniai yr Israeliaid Elias; nid ymofynai y gwahangleifion am lanâd gan Eliseus; ac ni chredai trigolion Nazareth yma i Grist. 3. Gwelwn "nad yw Duw dderbyniwr wyneb; ond yn mhob cenedl, y neb sydd yn ei ofni ef, ac yn gweithredu cyfiawnder, sy gymmeradwy ganddo ef." Act. 10. 34, 35.

28 A'r rhai oll yn y synagog, wrth glywed y pethau hyn, [o] a * lanwyd o ddigofaint;

o pen. 6. 11. a 11. 53, 54. 2 Cron. 16. 10. a 24. 20, 21. Jer. 37. 15, 16. a 38. 6. Act. 5. 33. a 7. 54. a 22. 21—23. 1 Thes. 2. 15, 16.

29 Ac a godasant i fynu, [p] † ac a'i bwriasant ef allan o'r ddinas, ac a'i dygasant ef hyd ar ‡ ael y bryn yr hwn yr oedd eu dinas wedi ei hadeiladu arno, [q] || ar fedr ei fwrw ef bendramwnwgl i lawr.

p Ioan. 8. 37, 40, 59. a 15. 24, 25. Act. 7. 57, 58. a 16. 23, 24. a 21. 28—32. q 2 Cron. 25. 12.

30 § Ond efe, [r] gan fyned trwy eu canol hwynt, a aeth ymaith;

r Ioan 8. 59. a 10. 39. a 18. 6, 7. Act. 12. 18.

* O Nazareth annedwydd! Nis medrai y trigolion ddyoddef athrawiaeth iachus. Nis medrent ddyoddef clywed eu bod hwy yn annheilwng o wyrthiau Crist; eu bod cyn waethed â'u henafiaid yn amser Elias ac Eliseus; bod y cenedloedd yn rhagori arnynt hwy: nis medrent ddyoddef athrawiaeth penarglwyddiaethol ras; ac yn enwedig nis medrent ddyoddef clywed, y gwrthodai Duw hwy am eu hanghrediniaeth, ac y caffai y cenedloedd fwynâu bendithion teyrnas y Messiah. Y pethau uchod oedd yn ymadrodd Iesu, ac am y pethau uchod y llanwyd hwythau o ddigofaint. Mae rhai o'r pethau uchod yn anarchwaethus iâwn eto gan lawer o ddynion yn ein gwlad ni. † Yn gyffelyb i hyn y gwnaethant â Paul wedi hyn, am iddo sôn am fyned at y cenedloedd. Act. 22. 21, 21. Yr oedd y ddau amgylchiad hyn yn gyflawniad o hen brophwydoliaeth; cymhara Deut. 32. 21, â Rhuf. 10. 19. ‡ Dywed teithwyr mai ar wastadedd bychan rhwng dau fryn yr oedd Nazareth; ond pan ddywedo teithwyr yn groes i'r efengylwyr, rhaid i ni wrthod dywediad y teithwyr hyny. Ar fryniau yr oedd dinasoedd yr Iuddewon gan mwyaf, ac ar fryn yr oedd Nazareth yn ddiammau yn amser ein Iachawdwr; ond yn mhen oesoedd wedi hyny dichon i hòno adfeilio, ac yr adeiladwyd Nazareth arall mewn pant, fel y dywed y teithwyr a grybwyllwyd. || Pan ystyriom pwy oedd y Person, Mab Duw; beth a fwriadent wneyd iddo, ei dorfynyglu; a bod yr holl derfysg hyn ar y dydd sabbath, yn tori allan yn y synagog, ac ar amser addoliad dwyfol, mae yn rhaid bod y dynion mewn nwydau cynddeiriog i'r eithaf. § Aeth allan yn wyrthiol, trwy wedd-newidio ei hun, gwneyd ei hun yn anweledig, dallu eu llygaid hwy, neu trwy rỳm gwyrthiol a goruwch-naturiol. Gallasai efe wneyd yr un a fynai o'r pethau uchod.

31 * Ac [s] a ddaeth i waered i Capernaum, dinas yn Galilea: [t] † ac yr oedd yn eu dysgu hwynt ar y dyddiau sabbath.

s Mat. 4. 13. Marc 1. 21. t Mat. 10. 23. Act. 13. 50—52. a 14. 1, 2, 6, 7, 19—21. a 17. 1—3, 10, 11, 16, 17. a 18. 4. a 20. 1, 2, 23, 24.

32 ‡ A [u] bu aruthr ganddynt wrth ei athrawiaeth ef: canys ei ymadrodd ef oedd gyd âg awdurdod.

u adn. 36. Jer. 23. 28, 29. Mat. 17. 28, 29. Marc 1. 22. Ioan 6. 63. 1 Cor. 2. 4, 5. a 14. 24, 25. 2 Cor. 4. 2. a 10. 4, 5. 1 Thes. 1. 5. Tit. 2. 15. Heb 4. 12, 13.

* Yr oedd Capernaum yn y Galilea arall, dan ragla iaeth Phylip brawd Herod. † Soniwyd o'r blaen f rhyddid i'r Iesu ddysgu yn y synagogau yn mhob ma a'i hoff waith, a'i arferiad cyson yntau oedd gwne felly. Pwy bynag fyddo yn rhy fawr, neu yn rhy ddi i bregethu, nid oedd Iesu, Bugail mawr ac Esgob e heneidiau ni felly. ‡ Un peth yw aruthro, peth ar yw credu: nid oes yma eto ddim sôn am gredu.

33 ¶ * Ac [x] yn y synagog yr oedd dyn chanddo yspryd cythraul aflan; ac efe a waedd odd â llef uchel,

x Marc 1. 23.

34 Gan ddywedyd, Och, [y] beth sydd i ni wnelom â thi, Iesu o Nazareth? [z] a ddaetho ti i'n dyfetha ni? † Myfi a'th adwaen pw ydwyt; [a] Sanct Duw.

y adn. 41. pen. 8. 28. Mat. 8. 29. Marc 1. 24, 34. a 5. z Gen. 3. 15. Heb. 2. 14, 15. 1 Ioan 3. 8. Dat. 20. 2. a pen. 35. Salm 16. 10. Dan. 9. 24. Act. 2. 27. a 4. 27. Dat. 3. 7.

35 ‡ A'r [b] Iesu a'i ceryddodd ef, gan ddy wedyd, Distawa, a dos allan o hono. A cythraul, wedi [c] ei daflu ef i'r canol, a aet allan o hono, || heb wneuthur dim niwed idd

b adn. 39, 41. Salm 50. 16. Zec. 3. 2. Mat. 8. 26. a 17. 1 Marc 3. 11, 12. Act. 16. 17, 18. c pen. 9. 39, 42. a 11. 22. Mar 1. 26. a 9. 26. Dat. 12. 12.

36 A [d] daeth braw arnynt oll: a chyd-ym ddiddanasant â'u gilydd, gan ddywedyd, * P ymadrodd *yw* hwn? gan ei fod ef trwy awd urdod a nerth yn gorchymyn yr yspryd io aflan, a hwythau yn myned allan.

d Mat. 9. 33. a 12. 22, 23. Marc 1. 27. a 7. 37. e adn. 3 pen. 10. 17—20. Marc 16. 17—20. Act. 19. 12—16.

37 A [f] sôn am dano a aeth allan i bob ma o'r wlad oddi amgylch.

f adn. 14. Es. 52. 13. Mat. 4. 23—25. a 9. 26. Marc 1. 28, 4 a 6. 14.

Cawsom yr hanes hyn o'r blaen, yn Marc 1. 23—28 gwel y sylwadau yno. * Peth rhyfedd fod Luc, ac ynta yn physygwr (Colos. 4. 14,) yn dywedyd "ysbryd cyth raul aflan," os nad oedd dim ond lloerigrwydd ar dyn hwn, fel y taera rhai. † Yr oedd y diafol yn gorfo cyffesu fel hyn, gan y dychryn oedd arno; neu, ynte, y oedd yn ei wneyd yn fwriadol, i wneuthur cymmeria Crist yn fwy drwg-dybus gan yr Iuddewon: ac efalla mai oddi ar hyn yr oedd y phariseaid yn cymmeryd ach lysur i waradwyddo y Cyfryngwr, a dywedyd mai trw Beelzebub penaeth y cythreuliaid yr oedd efe yn bwrw allan gythreuliaid. ‡ Mae yn sicr nad oedd gan Iesu ddim diolch iddo am ei gyffes, ac nad oedd arno e ddim eisiau tystiolaeth tad y celwydd, hyd yn nod i'r gwirionedd. || Dywed Marc 1. 26, i'r "ysbryd aflan e rwygo ef," neu ei ddirdynu yn ofnadwy; "ei daflu i'r canol," medd Luc yma. Mae yn debyg iddo wneyd po un o'r ddau; ei ddirdynu yn gyntaf, ac wedi hyny e daflu yn ffyrnig i'r canol, pan welodd nas gallai gadw meddiant o hòno yn hwy: a diammau mai llaw ddir gelaidd Iesu, a'i hataliodd heb wneuthur dim niwe iddo.

38 ¶ [g] A phan gyfododd *yr Iesu* o'r syna gog, efe a aeth i mewn i dŷ Simon. * Ac y oedd chwegr Simon yn † glaf o gryd blin [h] a hwy a attolygasant arno drosti hi.

g Mat. 8. 14, 15. Marc 1. 29—31. 1 Cor. 9. 5. h pen. 7. 3 4. Mat. 15. 23. Ioan 11. 3, 22. Iago 5. 14, 15.

39 Ac efe a safodd uwch *ei phen* hi, [i] ac ‡ geryddodd y cryd; a'r *cryd* a'i gadawod hi: ac yn y fan hi a gyfododd, [k] ac a wasan aethodd arnynt hwy.

i adn. 35. pen. 8. 24. k pen. 8. 2, 3. Salm 116. 12. 2 Cor. 4. 15.

swsom yr hanes hwn o'r blaen, yn Matth. 8. 14, 15; Marc 1. 29—31. Gwel y sylwadau yno. * Mae hyn olwg yr erbyn athrawiaeth ddrygionus y pabyddion, gwahardd i offeiriaid briodi; mae yn eglur yma fod Pedr wraig. Gwel hefyd 1 Cor. 9. 5. † Yn glaf, a cadw ei gwely, yw ystyr y gair Groeg. ‡ Mae y cymmaint o briododdeb yn hyn, â dywedyd iddo allu y gwyntoedd â'r môr, Matth. 8. 26. Nid oedd rhag i'r Iuddewon feddwl mai *person* oedd y Mesel yr ysprydaflan.

¶ A [l]phan fachludodd yr haul, pawb oedd ganddynt rai cleifion o amryw glefydau'u dygasant hwy ato ef; [m]ac efe a roddes ylwylaw ar bob un o honynt, ac a'u hiachâu hwynt.

l Mat. 8. 16, 17. Marc 1. 32—34. m pen. 7. 21—23. Mat. 14. a 11. 5. a 14. 13, 14. Marc 3. 10. a 6. 5, 55, 56. Act. 5. 15. 12.

A'r cythreuliaid hefyd a aethant allan o [n]dan lefain a dywedyd, [o] * Ti yw Crist, Mab Duw. Ac efe a'u ceryddodd hwynt, ac ddiawai iddynt ddywedyd y gwyddent mai Iesu y Crist.

n adn. 34. Marc 1. 34. a 3. 11. o Mat. 8. 29. a 26. 63. Ioan 6. Act. 16. 17, 18. Iago 2. 19.

Mel ar Marc 1. 32, 33, 34, lle cawn yr un hanes. Iesu oedd hi yma eto, neu ynte o dra mic iddo, fel Iesu ar adn. 34.

* Ac [p]wedi ei myned hi yn ddydd, efe aeth allan, ac a gychwynodd i le diffaeth: a'r bobloedd a'i ceisiasant ef; a hwy a daethant hyd atto, [r]ac a'i ‡ hattaliasant ef rhag myned ymaith oddi wrthynt.

p pen. 6. 12. Marc 1. 35. Ioan 4. 34. q Mat. 14. 13, 14. Marc 1. 37, 45. a 6. 33, 34. Ioan 6. 24. r pen. 8. 37, 38. a 24. Ioan 4. 40.

Ac efe a ddywedodd wrthynt, [s] || Yn wir mae yn rhaid i mi bregethu teyrnas Duw i ddinasoedd eraill hefyd: canys [t]i hyn yr anfonwyd.

s Marc 1. 14, 15, 38, 39. Ioan 9. 4. Act. 10. 38. 2 Tim. 4. 2. Luc 12. 1—4. a 48. 16. a 61. 1—3. Ioan 6. 38—40. a 20. 21.

Ac [u]yr oedd efe yn pregethu yn synagogau Galilea.

u adn. 15. Mat. 4. 23. Marc 1. 39.

Mel ar Marc 1. 35—39. * "A'r bore yn blygeiniol iawn medd Marc 1. 35. Dywedir y gellid darllen y gair gwreiddiol, "Ac fel yr oedd y dydd yn dyfod:" Mae yn arwyddo yr amser oedd *eisoes wedi dyfod*, ac nid yr amser oedd wrth law *yn dyfod*. Fel hyny mae yma Luc yn gyson; "plygeiniol iawn" ydoedd, ac nid oedd y dydd *yn* dyfod. Tybia rhai (er cysoni y Ffeffengylwr) fod Marc yn sôn am yr amser y *cododd* yna bod Luc yn sôn am yr amser yr *aeth allan*: Tybia eraill nad oes dim sail i feddwl felly, na chwr o rŷm yn y pwnc pe byddai sail. † Dywed Luc. 36, 37, i Simon a'r rhai oedd gydag ef ei ddilyn iddywedwyd fod pawb yn ei geisio ef. Efallai i Simon hai oedd gyd ag ef, a'r bobloedd hefyd, ei ddilyn ef: ynte, mai y bobloedd oedd y rhai oedd gyda Simon. Ofes anghysondeb o bwys yn y byd yn y fàn yma. a ymaflasant yn gadarn ynddo, ac a fynent ei pe gallasent, fel yr arosai yn eu hardal hwy, i hu ac iachâu eu cleifion: neu efallai eu bod yn yl yn awyddus am iddo osod i fynu ei freniniaeth orawl yn fuan, ac am ddangos eu pleidgarwch r rhyw fanteision iddynt eu hunain dàn y freninòno. || Dyma waith mawr Crist, mwy na gwneyd niau na dim arall: a'r hyn oedd waith Iesu a yn sicr fod yn waith mawr ei holl weinidogion pregethu teyrnas Dduw. Na finer byth ar y hwn.

LUC. V.

Crist yn dysgu y bobl ullan o long Pedr, &c.

* BU hefyd, [a]a'r bobl yn pwyso atto i wrando gair Duw, yr oedd yntau yn sefyll yn ymyl [b] † llyn Gennesaret;

a pen. 8. 45. a 12. 1. Mat. 11. 12. Marc 3. 9. a 5. 24. b Num. 34. 11. Jos. 12. 3. Mat. 14. 34. Marc 6. 53.

2 Ac efe a welai ddwy long yn sefyll ‡ wrth y llyn: a'r pysgodwyr a aethent allan o honynt, ac oeddynt yn [c] golchi *eu* rhwydau.

c Mat. 4. 21. Marc 1. 19.

* Gadawsom Grist yn pregethu yn synagogau Galilea yn niwedd y bennod o'r blaen; ac yma ni a'i cawn eto yn sefyll yn ymyl llyn Gennesaret, yn yr un wlad, ac wrth yr un gwaith hoff, ac yr un mòr boblogaidd: canys yr oedd y bobl yn *pwyso* ato i wrando gair Duw. Ond efallai i'r pethau a adroddir yma ddygwydd o flaen yr hanes yn y bedwaredd bennod, o ran trefn amser: felly y gosodir hwynt i lawr gan y *Dr. Doddridge* o leiaf. Gwel ei daflen amseryddawl. † Llyn Gennesaret, Môr Tiberias, a Môr Galilea, oeddynt dri enw ar yr un Llyn: gelwid ef felly oddi wrth enwau y gwahanol diroedd, neu fanau, oedd o amgylch iddo. Rhy faith fyddai manylu arnynt yma. ‡ Ar y llyn fuasai mwyaf priodol, ac wrth y lan.

3 Ac efe a aeth i mewn i un o'r llongau, [d]yr hon oedd eiddo * Simon, ac a ddymunodd arno wthio ychydig oddi wrth y tir. Ac [e]efe a eisteddodd, ac a ddysgodd y bobloedd allan o'r llong.

d Mat. 4. 18. Ioan 1. 41, 42. e Mat. 13. 1, 2. Marc 4. 1, 2. Ioan 8. 2.

4 A phan beidiodd â llefaru, efe a ddywedodd wrth Simon, [f]Gwthia i'r dwfn, a bwriwch eich rhwydau am helfa.

f Mat. 17. 27. Ioan 21. 6.

5 A Simon a attebodd ac a ddywedodd wrtho, O Feistr, [g]er i ni boeni ar hŷd y nos, ni ddaliasom ni ddim: [h]etto ar dy air di mi a fwriaf y rhwyd.

g Salm 127. 1. Ioan 21. 3. h pen. 6. 46—48. 2 Bren. 5. 10—14. Ezec. 37. 4—7. Ioan 2. 5. a 15. 14.

6 Ac wedi iddynt wneuthur hynny, [i]hwy a ddaliasant liaws mawr o bysgod: † a'u rhwyd hwynt a rwygodd.

i 2 Bren. 4. 3—7. Preg. 11. 6. Ioan 21. 6—11. Act. 2. 41. a 4. 4. 1 Cor. 15. 58. Gal. 6. 9.

7 A hwy a anneidiasant ar *eu* cyfeillion, oedd yn y llong arall, [k]i ddyfod i'w cynnorthwyo hwynt. A hwy a ddaethant; a llanwasant y ddwy long, onid oeddynt hwy ar soddi.

k Act. 11. 25, 26. Rhuf. 16. 2—4. Gal. 6. 2. Phil. 4. 3.

8 A Simon Pedr, pan welodd *hynny*, [l]a syrthiodd wrth liniau yr Iesu, gan ddywedyd, [m] ‡ Dos ymaith oddi wrthyf; canys [n]dyn pechadurus wyf fi, O Arglwydd.

l Mat. 2. 11. Ioan 11. 32. Act. 10. 25, 26. Dat. 1. 17. a 22. 8, 9. m Ex. 20. 19. Barn. 13. 22. 1 Sam. 6. 20. 2 Sam. 6. 9. 1 Bren. 17. 18. 1 Cron. 13. 12. Dan. 10. 16, 17. Mat. 17. 6. n Job 40. 4. a 42. 5, 6. Es. 6. 5. Mat. 8. 8.

9 Oblegid [o]braw a ddaethai arno ef, a'r rhai oll oedd gyd âg ef, o herwydd yr helfa bysgod a ddaliasent hwy:

o pen. 4. 32, 36. Marc 9. 6.

10 A'r un ffunud ar [p]Iago ac Ioan hefyd, meibion Zebedëus, y rhai oedd [q]gyfrannogion â Simon. A dywedodd yr Iesu wrth Simon, Nac ofna: [r] || o hyn allan y dèli ddynion.

p pen. 6. 14. Mat. 4. 21. a 20. 20. q adn. 7. 2 Cor. 8. 23. r Ezec. 47. 9, 10. Mat. 4. 19. a 13. 47. Marc 1. 17. Act. 2. 4.

11 Ac wedi iddynt ddwyn y llongau i dir, [s] hwy a adawsant bob peth, ac a'i dilynasant ef.

s pen. 18. 28—30. Mat. 4. 20. a 10. 37. a 19. 27. Marc 1. 18—25. a 10. 21, 29, 30. Phil. 3. 8.

* Yr oedd Crist yn gydnabyddus â Simon, ac âg amryw o'r pysgodwyr tlodion hyn o'r blaen; a thybir eu bod wedi eu galw o'r blaen, a chwedi bod yn canlyn Crist o'r blaen, ond nad oeddynt wedi gadael pob peth i'w ganlyn ef yn hollawl ac yn wastadol tàn y tro hwn. adn. 11. Mae genym hanes am alwad amryw o'r apostolion hyn yn Matth. 4. 18—22; a Marc 1. 16—20: tybia rhai mai eu galwad cyntaf, a grybwyllwyd uchod, sydd yno; ac mai eu galwad yr ail waith, i adael pob peth, sydd yn yr adnodau hyn. Tybia eraill mai yr un alwad a adroddir yma âg yn Matthew a Marc. † Hi a ddechreuodd rwygo, pe rhwygasai yn hollawl, ni ddaliasent hwy ddim pysgod â hi, fel y dywedir yn yr adnod nesaf iddynt wneyd. ‡ Dychrynodd Pedr gymmaint, debygid, fel nas gwyddai braidd beth oedd yn ddywedyd; er na lefarodd ddim ychwaith, ond yr hyn oedd yn naturiol i ddyn pechadurus ei ddywedyd, wrth feddwl ei fod yn mhresenoldeb y Duw sanctaidd a hollalluog. || Cyflawnwyd hyn yn nodedig yn nhrôedigaeth y tair mil wrth bregeth gyntaf Pedr ar ol adgyfodiad Crist. Dàl yn fyw i gadw yn fyw, meddant, yw ystyr y gair gwreiddiol; gyda chyfeiriad at ddàl pysgod ac anifeiliaid, nid i'w lladd, ond i'w cadw i liosogi mewn llynoedd a maesydd caüedig. Act. 2. 41. Gan nad oes achos sylwi yn feirniadol ar yr hanes eglur uchod, crybwyllwn ychydig addysgiadau oddi wrth y cwbl.—1. Gwelwn pa mòr dda o beth yw, bod dynion yn llafurus ac yn ddiwyd gyda eu galwedigaethau gonest, pa mòr isel bynag y byddo y galwedigaethau hyny. Yno mae Duw yn cyfarfod â dynion â bendithion. 2. Mae ein dyledswydd ni yw ufuddhâu i orchymyn Duw, pa mòr resymol neu afresymol, manteisiol neu anfanteisiol bynag y byddo hyny yn ymddangos i ni ein hunain. 3. Gwelwn o ba le mae y fendith yn dyfod, bydded ein llafur ni y peth a-fyddo. 4. Gwelwn mai gwaith gweinidogion yr efengyl yw dàla dynion: ennill eneidiau i Dduw. 5. Gwelwn mòr nerthol yw galwad Duw: hwy a adawsant bob peth, ac a'i dilynasant ef.

12 ¶ A bu, fel yr oedd efe * mewn rhyw ddinas, wele [t] wr [u] yn llawn o'r gwahanglwyf: a phan welodd efe yr Iesu, [x] efe a syrthiodd ar *ei* wyneb, ac [y] a ymbiliodd âg ef, gan ddywedyd, O Arglwydd, [z] os ewyllysi, ti a elli fy nglanhâu.

t Mat. 8. 2—4. Marc 1. 40—45. u pen. 17. 12. Ex. 4. 6. Lef. 13. a 14. Num. 12. 10—12. Deut. 24. 8. 2 Bren. 5. 1, 27. a 7. 3. 2 Cron. 26. 19, 20. Mat. 26. 6. x pen. 17. 16. Lef. 9. 24. Jos. 5. 14. 1 Bren. 18. 39. 1 Cron. 21. 16. y pen. 17. 13. Salm 50. 15. a 91. 15. Marc 5. 23. z Gen. 18. 14. Mat. 8. 8, 9. a 9. 28. Marc 9. 22—24. Heb. 7. 25.

13 Yntau a estynodd *ei* law, ac a gyffyrddodd âg ef, gan ddywedyd, [a] Yr wyf yn ewyllysio; bydd lân. Ac yn [b] ebrwydd y gwahanglwyf a aeth ymaith oddi wrtho.

a Gen. 1. 3, 9. Salm 33. 9. Ezec. 36. 25—27, 29. Hos. 14. 4. Mat. 9. 29, 30. b pen. 4. 39. a 8. 54, 55. Ioan 4. 50—53.

14 Ac [c] efe a orchymynodd iddo na ddywedai i neb: eithr dos *ymaith,* [d] a dangos dy hun i'r offeiriad, [e] ac offrwm dros dy lanhâd, fel y gorchymynodd Moses, [f] er tystiolaeth iddynt.

c Mat. 8. 4. a 9. 30. a 12. 16. d pen. 17. 14. Lef. 13. 2, &c. e Lef. 14. 4, 10, 21, 22. f pen. 9. 5. Mat. 10. 18. Marc 1. 44. a 6. 11.

15 [g] A'r gair am dano a aeth yn [h] fwy ar led: [i] a llawer o bobloedd a ddaethant ynghyd i'w wrando ef, ac i'w hiachâu ganddo o'u clefydau.

g Diar. 15. 33. 1 Tim. 5. 25. h Mat. 4. 23—25. a 9. 2[illegible] Marc 1. 28, 45. i pen. 12. 1. a 14. 25. Mat. 15. 30, 31. Mar[illegible] 2. 1, 2. Ioan 6. 2.

Gwel ar Matth. 8. 2—4; a Marc 1. 40—45. Dywe[illegible] Matthew 8. 5; a Marc 2. 1, i'r Iesu fyned i mewn [illegible] Capernaum ar ol gwneyd y wyrth hon; felly mae y[illegible] debygol mai Capernaum oedd y "rhyw ddinas" hon[illegible] ond tybia eraill i'r gwrthwyneb. Mae yn amlwg wrt[illegible] Matthew a Marc hefyd mai nid o *fewn* y ddinas yn hol[illegible] awl y glanâodd efe y gwahanglwyfus; ond *wrth* neu y[illegible] *ymyl* y ddinas, cyn myned i mewn: o fewn y terfyna[illegible] perthynol i'r ddinas; canys nis goddefid i'r gwahan[illegible] glwyfus fyned i *mewn i'r* ddinas. Lefit. 13. 46. 2 Bren[illegible] 7. 3. Luc 17. 12.

16 ¶ * Ac [k] yr oedd efe yn cilio o'r neilldu[illegible] yn y diffaethwch, ac yn gweddio.

k pen. 6. 12. Mat. 14. 23. Marc 1. 35, 36. a 6. 46. Ioan 6. 15.

* Nid myned i'r marchnadoedd ac i gonglau yr heol[illegible] ydd yr oedd Iesu i weddio; ond cilio i'r diffaeth, i le[illegible] oedd unig llonydd. Nid efe a giliodd, am unwaith, y[illegible] y gair, ond yr oedd yn cilio: peth arferol ganddo e[illegible] oedd gwneyd felly. Os oedd *ef,* yr hwn oedd yn ddi[illegible] bechod yn gwneyd felly, pa faint mwy y dylem ni bech[illegible] aduriaid truenus wneyd felly? Os oedd *ef,* yr hw[illegible] oedd mòr llawn o waith cyhoeddus yn mynu amser [illegible] wneyd felly, pa faint mwy y dylem ni, y rhai y mae genyn[illegible] lawer o hamdden, ac amser ar ein dwylaw, wneyd felly [illegible] Os oedd *ef* yn cael hyfrydwch mewn cymdeithas â Du[illegible] yn y dirgel, mae yn sicr bod yn werth i ninnau geisio[illegible] yr hyfrydwch hyny, ac y gallem ei gael pe byddem y[illegible] fwy ysbrydol. O'r cyhoedd i'r dirgel, ac o'r dirgel i'[illegible] cyhoedd, ydoedd llwybr Iesu gyda'r gwaith mawr, ac y[illegible] hyn efe a adawodd esampl i'w holl weision cyhoeddu[illegible] yn enwedig, fel y dilynent ei ol ef. Ni byddai efe byth[illegible] yn llai unig na phan fyddai yn unig, nac byth yn lla[illegible] segur na phan fyddai ar ei hamdden.

17 * A bu ar ryw ddiwrnod, fel yr oedd efe yn athrawiaethu, [l] fod Phariseaid a doctoriaid y gyfraith yn eistedd *yno,* y rhai a ddaethent o bob pentref yn Galilea, a Judea, [m] a Jerusalem: † ac [n] yr oedd gallu yr Arglwydd i'w hiachâu ‡ hwynt.

l adn. 21, 30. pen. 7. 30. a 11. 52—54. a 15. 2. m Mat. 15. [illegible] Marc 3. 22. a 7. 1. n pen. 6. 19. a 8. 46. Mat. 11. 5. Marc 1[illegible] 18. Act. 4. 30. a 19. 11, 12.

* Yr oedd rhai o'r gwŷr hyn o amgylch Iesu agos bob amser, ac yn mhob màn, un ai i borthi eu chwilfryded[illegible] wrth ei glywed ef a gweled ei wyrthiau, neu ynte i'w demtio ef, a cheisio ei faglu yn fradychus, fel y caen[illegible] beth i achwyn arno. Y tro hwn yr oedd yno lawer iaw[illegible] o honynt o bob dinas a phentref yn Galilea, Judea, a[illegible] hyd yn nod o Jerusalem. Yr oedd Iesu wedi dynoeth[illegible] eu dull arwynebol hwy o egluro a dehongli y gyfraith[illegible] yn ddiweddar, yn ei bregeth ar y mynydd; ac yr oed[illegible] hyny wedi eu cyffrôi hwythau: felly yr oeddent an[illegible] gael rhywbeth i achwyn arno ger bron y cyngor maw[illegible] yn Jerusalem, pan ddelai efe yno yn fuan i wŷl y pasg[illegible] † Yr oedd gallu yr Arglwydd yn Nghrist bob amser fe[illegible] yr oedd yn Berson dwyfol; ond nid oedd bob amser y[illegible] gweithredu i wneyd gwyrthiau. Byddai y rhan fynychu[illegible] yn gwneyd gwyrthiau ar ol gorphen pregethu. ‡ Pw[illegible] oedd yr "hwynt" yma? Nid y Phariseaid a Doctoriai[illegible] y gyfraith yn sicr; nid oes hanes i Iesu iachâu neb o'[illegible] rhai hyny erioed; nid i ymofyn iachâd y daeth y rha[illegible] hyn yn bresenol ato ef; daethai llawer o honynt o bell[illegible] gan hyny nid oedd afiechyd arnynt; ac nid oedd gan[illegible] ddynt ffydd yn Iesu i gael iachâd. Gan hyny rhywra[illegible] eraill oedd yr "hwynt" yma, er nad enwir mo honyn[illegible] o'r blaen yn yr hanes. Gwel adnodau cyffelyb yn Salm[illegible] 99. 8. Moses ac Aaron a "wrandawyd" ac a "arbed[illegible] wyd;" a gwrthryfelwyr eraill y dialwyd arnynt, er na[illegible] enwir hwynt. Eilwaith Math. 11. 1. Nid dinasoedd[illegible] y dysgyblion tlodion a feddylir, er mai hwy a enwir y[illegible] yr adnod; ond dinasoedd yr Iuddewon, er nad oes sò[illegible] am danynt o'r blaen yn yr adnod.

18 ¶ Ac wele [o] wŷr yn dwyn mewn gwely
a ag oedd glaf o'r parlys: ag hwy a geisias-
ei ddwyn ef i mewn, a'i ddodi ger ei fron

o Mat. 9. 2—8. Marc 2. 3—12. Ioan 5. 5, 6. Act. 9. 33.

19 A phan na fedrent gael pa ffordd y
int ef i mewn, o achos y dyrfa, [p] * hwy a
ngasant ar [q] nen y tŷ, ac a'i gollyngasant
waered yn y gwely trwy y pridd-lechau,
canol ger bron yr Iesu.

p Marc 2. 4. q Deut. 22. 8. 2 Sam. 11. 2. Jer. 19. 13. Mat.

20 A phan [r] welodd efe eu † ffydd hwynt,
a ddywedodd wrtho, [s] Y dyn, maddeuwyd
dy bechodau.

r Gen. 22. 12. Ioan 2. 25. Act. 11. 23. a 14. 9. Iago 2. 18.
7. 48. Salm 90. 7, 8. a 107. 17, 18. Es. 38. 17. Mat. 9. 2.
2. 5. Ioan 5. 14. 2 Cor. 2. 10. Col. 3. 13. Iago 5. 14, 15.

21 [t] A'r ysgrifenyddion, a'r Phariseaid a
hreuasant ymresymmu, gan ddywedyd,
yw hwn sydd yn dywedyd [u] cabledd? [x] pwy
ichon faddeu pechodau ond Duw yn unig?

t adn. 17. pen. 7. 49. Marc 2. 6, 7. u Lef. 24. 16. 1 Bren.
—14. Mat. 9. 3. a 26. 65. Ioan 10. 33. Act. 6. 11—13.
34. 6, 7. Salm 103. 3. Es. 43. 25. a 44. 22. Dan. 9. 9, 19.
v. 19. Rhuf. 8. 33.

22 A'r Iesu, [y] yn gwybod eu hymresymiad-
wwynt, a attebodd ac a ddywedodd wrthynt,
resymmu yn eich calonnau yr ydych?

1 Cron. 28. 9. Salm 139. 2. Diar. 15. 26. Es. 66. 18. Ezec.
Mat. 9. 4. a 12. 25. Heb. 4. 12. Dat. 2. 23. z pen. 24.
arc 8. 17. Act. 5. 3.

23 Pa un [a] hawsaf, ai dywedyd, Maddeuwyd
y bechodau; ai dywedyd, Cyfod, a rhodia?

Mat. 9. 5. Marc 2. 9.

24 Ond fel y gwypoch [b] fod gan Fab y dyn
lurdod ar y ddaear i faddeu pechodau,
efe wrth y claf o'r parlys) [d] Yr wyf yn
edyd wrthyt, Cyfod, [e] a chymmer dy wely,
s i'th dŷ.

a Dan. 7. 13. Mat. 16. 13. a 25. 31. a 26. 64. Ioan 3. 13. a 5.
at. 1. 13. c Es. 53. 11. Mat. 9. 6. a 28. 18. Ioan 5. 22, 23.
2. a 20. 22, 23. Act. 5. 31. d adn. 13. pen. 7. 14. a 8. 54.
11. 43. Act. 3. 6—8. a 9. 34, 40. a 14. 10. e Ioan 5. 8—12.

25 Ac [f] yn y man y cyfododd efe i fynu yn
gŵydd hwynt; ac efe a gymmerth yr hyn
orweddai arno, ac a aeth ymaith i'w dŷ ei
, [g] gan ogoneddu Duw.

f adn. 13. Gen. 1. 3. Salm 33. 9. g pen. 13. 13. a 17. 15—
18. 43. Salm 50. 23. a 103. 1—3. a 107. 20—22. Ioan 9. 24.

26 A syndod a ddaeth ar bawb, [h] a hwy a
neddasant Dduw; [i] a hwy a lanwyd o ofn,
ddywedyd, Gwelsom bethau ‡ anhygoel
lyw.

h pen. 7. 16. Mat. 9. 8. a 12. 23. Marc 2. 12. Act. 4. 21. Gal.
i pen. 8. 37. Jer. 33. 9. Hos. 3. 5. Mat. 28. 8. Act. 5. 11

wel ar Matth. 9. 2—8; a Marc 2. 3—12. * Sylwyd
laen, mai gwastad oedd penau tai yr Iuddewon; a
grisiau i fyned i'w penau oddi allan; canllawiau o
lch y penau, rhag i neb syrthio drosodd, Deut. 22.
math o ddrws o ddellt (a phridd-lechau drosto)
canol, i ollwng unrhyw beth i waered i'r tŷ drwyddo.
ren. 1. 2. Yr hyn a gyfieithir "torri trwodd" yn
2. 4, a arwydda "tynu allan" yn hytrach; sef tynu
vs hwnw allan i ollwng y dyn claf i mewn drwyddo:
hefyd y cyfieithir yr un gair yn Galat. 4. 15. † Mae
mlwg mai gallu a daioni Duw ydoedd gwrthrych y
hon; eithr nid yn deilliaw o Grist yn ddechreuol,
uw tragywyddol, ond fel offeryn, trwy yr hwn yr
Duw yn gweithredu ei allu, ac yn cyfrann ei dda-
i ddynion mewn amgylchiadau gresynus fel y dyn
tlawd hwn. ‡ Pethau tu hwnt i bob dysgwyliad, pethau na buasem byth yn meddwl am danynt, pethau nas credasem y gallai neb eu gwneyd oni buasai i ni eu gweled, a phethau nas gwyddom eto pa fodd eu gwnaed. *Paradoxa* yw y gair Groeg a gyfieithir "anhygoel" yma, ac o'r gair hwnw mae y Saeson wedi gwneyd eu gair *Paradox*. Gwel ychwaneg yn y manau a grybwyllwyd: Matthew a Marc.

27 ¶ Ac ar ol y pethau hyn yr aeth efe
allan, [k] ac a welodd bublican, a'i enw * Lefi,
yn eistedd wrth y † dollfa: ac efe a ddywed-
odd wrtho, [l] Dilyn fi.

k Mat. 9. 9 a 10. 3. Marc 2. 14. a 3. 18. l pen. 18. 22.
Mat. 4. 19—21. a 8. 22. a 16. 24. Ioan 1. 43. a 12. 26. a 21. 19—22.

28 Ac efe [m] a adawodd bob peth, ac a gyf-
ododd i fynu, ac a'i dilynodd ef.

m adn. 11. pen. 9. 59—62. 1 Bren. 19. 19—21. Mat. 19. 22
—27.

29 A [n] gwnaeth Lefi iddo ‡ wledd fawr yn
ei dŷ: [o] ac yr oedd tyrfa fawr o bublicanod ac
eraill, yn eistedd gyd â hwynt ar y bwrdd.

n Ioan 12. 2. o Mat. 9. 10. Marc. 2. 15. 1 Cor. 5. 9—11. a
10. 27.

30 Eithr [p] eu hysgrifenyddion a'u Phari-
seaid hwynt a furmurasant yn erbyn ei ddis-
gyblion ef, gan ddywedyd, Paham yr ydych
chwi yn bwytta ac yn yfed gyd â phublicanod
a phechaduriaid?

p adn. 17, 21. pen. 7. 29, 30, 34, 39. a 15. 1, 2. a 18. 11. a 19.
7. Es. 65. 5. Mat. 21. 28—32. Marc 7. 3.

31 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd
wrthynt, [q] Nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg;
ond i'r rhai cleifion.

q Jer. 8. 22. Mat. 9. 12, 13. Marc 2. 17.

32 [r] Ni ddaethum i alw rhai cyfiawn, ond
pechaduriaid i edifeirwch.

r pen. 4. 18, 19. a 15. 7, 10. a 18. 10—14. a 19. 10. a 24. 47.
Es. 55. 6, 7. a 57. 15. Mat. 18. 11. Act. 2. 38. a 3. 19, 26. a 5. 31. a
17. 30. a 20. 21. a 26. 18—20. 1 Tim. 1. 15, 16. 2 Tim. 2. 25, 26.

Gwel ar Matth. 9. 9—13; a Marc 2. 14—17. * Matthew y gelwir y publican hwn yn Matthew, a Lefi yn Marc a Luc: peth cyffredin oedd bod dau enw ar yr un dyn yn mhlith yr Iuddewon. Efe oedd ysgrifenydd y gyntaf o'r pedair efengyl. † Tybir mai ei waith ef oedd derbyn y doll a godid am drosglwyddo nwyddau yn ol ac yn mlaen dros fôr Galilea. ‡ "A bu ac efe yn eistedd i fwyta yn y tŷ," medd Matthew ei hun, pen. 9. 10; nid yw yn sôn am "wledd fawr." Nid da gan ddynion duwiol sôn am eu gweithredoedd da a'u rhagoriaethau eu hunain; ond mae yn weddus i eraill a'u gwelont grybwyll am danynt, er esampl o haelioni a llettygarwch. Gan i ni sylwi eisoes ar yr hanes hyn, cyfeiriwn y darllenydd at y lleoedd a enwyd.

33 ¶ * A hwy a ddywedasant wrtho, [s] Pa-
ham y mae disgyblion Ioan yn ymprydio yn
fynych, [t] ac yn gwneuthur gweddïau, a'r un
modd yr eiddo y Phariseaid; ond yr eiddot ti
yn bwytta ac yn yfed?

s pen. 18. 12. Es. 58. 3—6. Zec. 7. 6. Mat. 9. 14—17. Marc 2.
18—22. t pen. 11. 1. a 20. 47. Diar. 28. 9. Es. 1. 15. Mat. 6. 5,
6. a 23. 14. Marc 12. 40. Act. 9. 11. Rhuf. 10. 2, 3.

34 Yntau a ddywedodd wrthynt, † A ell-
wch chwi beri [u] i blant yr ystafell briodas ym-
prydio, tra fyddo y [x] briodas-fab gyda hwynt?

u Barn. 14. 10, 11. Salm 45. 14. Can. 2. 6, 7. a 3. 10, 11. a 5.
8. a 6. 1. Mat. 25. 1—10. Dat. 19. 7—9. x Salm 45. 10—16. Es.
54. 5. a 62. 5. Zeph. 3. 17. Mat. 22. 2. Ioan 3. 29. 2 Cor. 11. 2.
Eph. 5. 25—27.

35 ‡ Ond y dyddiau a ddaw, [y] pan ddyger
y briodas-fab oddi arnynt; [z] ac yna yr ym-
prydiant yn y dyddiau hynny.

y pen. 24. 17—21. Dan. 9. 26. Zec. 13. 7. Ioan 12. 8. a 13. 33.

a 14. 3, 4. a 16. 4—7, 16—22, 28. a 17. 11—13. Act. 1. 9. a 3. 21. z Mat. 6. 17, 18. Act. 13. 2, 3. a 14. 23. 1 Cor. 7. 5. 2 Cor. 11. 27.

36 ¶ Ac efe a ddywedodd hefyd ddammeg wrthynt: [a] || Ni rydd neb lain o ddilledyn newydd mewn hen ddilledyn: os amgen, y mae y newydd yn gwneuthur rhwygiad, a'r llain o'r newydd ni chyttuna â'r hen.

a Mat. 9. 16, 17. Marc 2. 21, 22.

37 Ac nid yw neb yn bwrw gwin newydd i [b] hen gostrelau: os amgen, y gwin newydd a ddryllia y costrelau, ac efe a red allan, a'r costrelau a gollir.

b Jos. 9. 4, 13. Salm 119. 83.

38 Eithr [c] gwin newydd sydd raid ei fwrw mewn costrelau newyddion; a'r ddau a gedwir.

c Ezec. 36. 26. 2 Cor. 5. 17. Gal. 2. 4, 12—14. a 4. 9—11. a 5. 1—6. a 6, 13, 14. Phil. 3. 5—7. Col. 2. 19—23. 1 Tim. 4. 8. Heb. 8. 8—13. a 13. 9, 10. Dat. 21. 5.

39 Ac nid oes neb gwedi iddo yfed *gwin* hen, a chwennych y newydd yn y fan: canys efe a ddywed, [d] § Gwell yw yr hen.

d Jer. 6. 16. Marc 7. 7—13. Rhuf. 4. 11, 12. Heb. 11. 1, 2, 39.

Gwel ar Matth. 9. 14—17; a Marc 2. 18—22. * Dysgyblion Ioan eu hunain oedd yr "hwy" yma, medd Matthew 9. 14; dysgyblion Ioan â'r phariseaid, medd Marc 2. 18: mae yn debyg bod y ddwy blaid yno; ond efallai mai dysgyblion Ioan a ofynodd, fel genau dros y phariseaid. Nid oeddent hwy yn meddwl drwg, ond yr oedd y phariseaid; o lid at Iesu yr oeddent yn annog dysgyblion Ioan i ofyn, fel y gallent iselu cymmeriad Crist yn nghyfrif y bobl. Mynych y tynir dynion diniwed i mewn yn ddiarwybod iddynt eu hunain, gan eu cyfrwysach, er cyflawni eu dybenion dichellgar a bradychus hwy. Heblaw hyny, mae yn bur hoff genym fod ein plaid ni yn rhëol i eraill; ac i bawb eraill gyd-ffurfio â'n defodau ni. Efallai bod ychydig o hyny yn nysgyblion Ioan. † Gallasai Iesu ddywedyd wrthynt mai efe oedd eu rheol hwy, ac nid hwy yn rheol iddo ef; ond efe a'u hattebodd yn fwy addfwyn a llednais. Yr oedd Ioan a'i ddysgyblion yn cyd-ffurfio mewn rhan fawr â defodau yr hen oruchwyliaeth, yr hon oedd agos a diflanu; ond daeth Crist i ddwyn i mewn oruchwyliaeth arall, a gwell na'r eiddo Moses. ‡ Fel pe dywedasai yr Iesu, Dyma'r cwbl o amser llawenychu a gaiff fy nysgyblion I, tra yr wyf fi gyda hwynt; pan ymadawyf fi â hwynt, cânt ddigon o alaru ac ymprydio y pryd hwnw. Ac heblaw hyny, nid ydynt ond dysgyblion ieuainc; a byddai yn resyn eu digaloni hwynt ar y dechreu â gormod o galedi, rhag iddynt gael eu hudo i droi yn ol. Hwyrach bod Crist yma yn gweled tuedd gormodol yn nysgyblion Ioan, i geisio cyd-gyssylltu yr hen oruchwyliaeth â'r newydd: ac mae yn sicr bod gormod o hyn yn y gau-athrawon luddewig yn amser yr apostolion. ||Mae y syniad diweddaf uchod efallai yn newydd; ond y mae yn ymddangos yn bur amlwg yn y gymhariaeth o frethyn hen a newydd. § Fel mae hen win, pur a gloyw, yn fwy blasus ac iachus na gwin newydd; felly mae hen wirioneddau sylfaenol ac iachus yr efengyl, yn well nac athrawiaethau newydd, amryw a dieithr, o ddychymygion dynion: ie, yn well na gosodiadau Moses ei hun, y rhai ni thalent eu cymysgu â hen athrawiaeth bur yr efengyl, crefydd Abel, Enoch, Noah, Abraham, &c. Nid hawdd gan ddynion newid eu hen grefydd a'u hen arferion ar unwaith, am grefydd ac arferion newydd: felly y dehonglir yr adnod hon yn gyffredin.

PEN. VI.

Crist yn argyhoeddi dallineb y Phariseaid, &c.

* ABU ar [a] yr ail prif sabbath, [b] fyned o hóno trwy yr ŷd: [c] a'i ddisgyblion a dynnasant y tywys, ac a'u bwyttasant, gwedi *eu* rhwbio â'*u* dwylaw.

a Ex. 12. 15, 16. Lef. 23. 7, 10, 11, 15. Deut. 16. 9. b Mat. 12. 1. Marc 2. 23. c Deut. 23. 25.

2 A rhai o'r Phariseaid a ddywedasant † wrthynt, [d] Paham yr ydych yn gwneuthur yr hyn [e] nid yw gyfreithlawn ei wneuthur ar y sabbathau?

d adn. 7—9. pen. 5. 33. Mat. 12. 2. a 15. 2. a 23. 23, 24. Marc 2. 24. Ioan 5. 9—11, 16. a 9. 14—16. e Ex. 20. 10. a 31. 15. 35. 2. Num. 15. 32—35.

3 A'r Iesu gan atteb iddynt, a ddywedodd, [f] Oni ddarllenasoch hyn chwaith, [g] yr hyn a wnaeth Dafydd, pan oedd chwant bwyd arno ef, a'r rhai oedd gyd âg ef:

f Mat. 12. 3, 5. a 19. 4. a 21. 16, 42. a 22. 31. Marc 2. 25. a 12. 10, 26. g 1 Sam. 21. 3—6. Mat. 12. 3, 4. Marc 2. 25, 26.

4 Y modd yr aeth efe i mewn i dŷ Dduw, ac y cymmerth ac y bwyttaodd y bara gosod, ac a'i rhoddes hefyd i'r rhai oedd gyd âg ef, [h] yr hwn nid yw gyfreithlawn ei fwytta, ond i'r offeiriaid yn unig?

h Lef. 24. 5—9.

5 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [i] Y mae Mab y dyn yn Arglwydd ar y sabbath hefyd.

i Mat. 12. 5—8. Marc 2. 27, 28. a 9. 7. Dat. 1. 10.

Gwel ar Matth. 12. 1—8; a Marc 2. 23—28. * "Yr ail prif sabbath:" "yr ail sabbath wedi y cyntaf" ydyw yn ol y cyfieithiad Saesoneg: nid yw y gair "prif" ganddynt hwy; na'r geiriau "wedi y cyntaf" genym ninnau. Dywedir fod y gair Groeg *(Deuteropróton)* yn anhawdd iawn i ddeall ei feddwl, ac mai dyna'r achos o'r gwahaniaeth yn y cyfieithiadau. O herwydd yr anhawsdra uchod yn y *gair*, mae yn anhawdd gwybod hefyd pa sabbath a feddylir; ond barn ein Hawdwyr yw, mai y sabbath cyntaf ar ol yr ail dydd o ŵyl y bara croyw a feddylir. O'r sabbath cyntaf ar ol yr ail dydd o'r bara croyw, cyfrifid saith wythnos hyd y pentecost, Lefit. 23. 15, a'r sabbath a enwir yma ydoedd yr ail o'r "saith sabbath cyflawn" hyny, mae yn debyg. Gan fod y peth yn ddyrys i'r dysgedigion, ac o ychydig bwys, ni ddywedwn ychwaneg yn ei gylch; ond yn unig mai haidd oedd y tywys a dynodd y dysgyblion tlodion, oblegid y grawn hwnw oedd yn addfed yn ngwlad Judea, meddant, y pryd hwn. † Dywed Matthew a Marc mai wrth Grist ei hun y dywedodd y phariseaid: gall pob un fod yn gywir; dywedasant yn gyntaf wrth Grist, wedi hyny wrth ei ddysgyblion, neu ynte i'r gwrthwyneb. Sylwyd ar y pethau eraill o'r blaen.

6 ¶ A bu [k] hefyd ar sabbath arall, [l] iddo fyned i mewn i'r synagog, ac athrawiaethu: [m] ac yr oedd yno ddyn â'i law ddehau wedi gwywo.

k Mat. 12. 9—14. Marc 3. 1—6. l pen. 4. 16, 31. a 13. 10. Mat. 4. 23. m 1 Bren. 13. 4. Zec. 11. 17. Ioan 5. 3.

7 A'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid [n] a'i gwyliasant ef, a iachâi efe ef ar y *dydd* sabbath; [o] fel y caffent achwyn yn ei erbyn ef.

n pen. 13. 14. a 14. 1—6. Salm 37. 32, 33. a 38. 12. Es. 29. 21. Jer. 20. 10. Marc 3. 2. Ioan 5. 10—16. a 9. 16, 26—29. o pen. 11. 53, 54. a 20. 20. Mat. 26. 59, 60.

8 Eithr [p] efe a wybu eu meddyliau hwynt, ac a ddywedodd wrth y dyn oedd â'r llaw wedi gwywo, [q] * Cyfod i fynu, a saf yn y canol. Ac efe a gyfododd i fynu, ac a safodd.

p pen. 5. 22. 1 Cron. 28. 9. a 29. 17. Salm 44. 21. Ioan 2. 24. a 21. 17. Heb. 4. 13. Dat. 2. 23. q Es. 42. 4. Ioan 9. 4. Act. 20. 24. Phil. 1. 28. 1 Pedr 4. 1.

9 Yr Iesu am hynny a ddywedodd wrthynt, Myfi a ofynaf i chwi, [r] Beth sydd gyfreithlawn ar y sabbathau? gwneuthur da, ynte gwneuthur drwg? [s] † cadw einioes, ai ‡ colli?

r pen. 14. 3. Mat. 12. 12, 13. Marc 3. 4. Ioan 7. 19—23. s pen. 9. 56.

) Ac [t] wedi edrych arnynt oll oddi am-
n, efe a ddywedodd wrth y dyn, [u] Estyn
aw. Ac efe a wnaeth felly: a'i law ef a
d yn iach fel y llall.

Marc 3. 5. u Ex. 4. 6, 7. 1 Bren. 13. 6. Salm 107. 20.
. 8.

|| A [x] hwy a lanwyd o ynfydrwydd, [y] ac
dddiddanasant y naill wrth y llall, pa beth
aent i'r Iesu.

pen. 4. 28. Salm 2. 1, 2. Preg. 9. 3. Act. 5. 33. a 7. 54. a 26.
y Mat. 12. 14, 15. a 21. 45, 46. Ioan 7. 1. a 11. 47, 48. Act.
6. a 5. 33, 34.

el ar Matth. 12. 10—14; a Marc 3. 1—6. * Efallai
wrth glywed y gorchymyn hwn am i'r dyn gyfodi,
ll yn y canol, y darfu iddynt hwy feddwl yr iachâai
ef, ac mai ar hyny y gofynasant iddo "Ai rhydd
i ar y sabbathau?" Matth. 12. 10. † Trwy nerth
ddehau yr oedd y dyn yn ennill ei fywioliaeth;
'cadw einioes" mewn ystyr oedd ei hadferu iddo.
olygiad yr hen dduwinyddion ar y geiriau uchod
y einioes," yn y màn yma. ‡ Yn ol y golygiad
ddaf ar "gadw einioes," rhaid rhoddi golygiad cy-
ar "golli" hefyd: pe buasai Crist yn peidio iachâu
dyn hwn, ac yntau yn gallu gwneyd hyny, buasai
ystyr yn euog o "golli" ei einioes ef. Ond tybir
gair "colli" yn y màn yma yn cyfeirio at y bwriad
aidd oedd yn nghalonau y phariseaid hyn i ladd
glwydd Iesu. ' Ai cyfreithlon oedd hyny ar y
thau?' || "Ynfydrwydd:" wedi gweled y wyrth a
y ddadl ar dir rheswm teg, hwy a aethant yn yn-
gyndeiriogrwydd: felly yr arwydda y gair. Pan
ger dynion annuwiol trwy resymau, maent yn
io, ac yn myned i nwydau drwg a chynddeiriog;
gys â chleddyf yn tori clymau nas medrant eu
d. Nôd sicr o achos drwg, ac o feddyliau gwael
ynol.

* A bu yn y dyddiau hynny, [z] fyned o
ef allan i'r mynydd i weddïo; [a] a pharhâu
d y nos yn gweddïo Duw.

Salm 55. 15—17. a 109. 3, 4. Dan. 6. 10. Marc 1. 35. a 14.
. Heb. 5. 7. a Gen. 32. 24—26. Salm 22. 2. Mat. 14. 23
Marc 6. 46—48. Col. 4. 2.

ywedir y byddai gan yr Iuddewon leoedd i weddïo
nynyddoedd, ac ar lànau afonydd: math o adeil-
heb ddim tô na chromnen iddynt, ond wedi eu
o amgylch â choed. Tybia tri o'n Hawdwyr mai
o'r adeiladau hyny yr aeth yr Iesu yma i weddïo.
rn wir mae *Proseucha* y gelwid y lleoedd hyny, ac
rn wir hefyd bod y gair hwnw yn yr adnod hon yn
eg, ond gyda therfyniad gwahanol, *Proseuxasthai.*
y cwbl ni chydsynia *Pool* â golygiadau yr Awdwyr
am y peth hwn; ond nid yw o ganlyniad yn y
ni. Cydsyniant oll fod Iesu yn arfer gweddïo
r, ar hyd nos, yn aml drwy yr holl nos ac yn neill-
g ar ei ben ei hun. Yma mae yn treulio y nos
gweddi cyn neilluo ei ddeuddeg apostol, yr hyn
ngys i ni mai gorchwyl sobr a phwysig yw neilluo
idogion yr efengyl i'w gwaith mawr.

¶ A [b] phan aeth hi yn ddydd, efe a
dd atto ei ddisgyblion: ac o honynt efe
holodd [c] * ddeuddeg, y rhai hefyd a en-
d efe yn [d] apostolion;

pen. 9. 1, 2. Mat. 9. 36—38. a 10. 1—4. Marc 3. 13—19. a
c pen. 22. 30. Mat. 19. 28. Dat. 12. 1. a 21. 14. d pen.
Eph. 2. 20. a 4. 11. Heb. 3. 1. 2 Pedr 3. 2. Dat. 18. 20.

[e] † Simon (yr hwn hefyd a enwodd efe
) ac [f] Andreas ei frawd; [g] Iago, ac Ioan;
ylip, a Bartholomëus;

pen. 5. 8. Ioan 1. 40—42. a 21. 15—20. Act. 1. 13. 2 Pedr 1.
Mat. 4. 18. Ioan 6. 8. g pen. 5. 10. Mat. 4. 21. Marc 1.
a 5. 37. a 9. 2. a 14. 33. Ioan 21. 20—24. Act. 12. 2.
10. 3. Ioan 1. 45, 46. a 6. 5. a 14. 8, 9. Act. 1. 13.

[h] [i] Matthew, a [k] Thomas; [l] Iago *mab*
phëus, a [n] Simon a elwir Zelotes;

i pen. 5. 27. Mat. 9. 9. k Ioan 11. 16. a 20. 24—29.
1 Act. 15. 13. Gal. 1. 19. a 2. 9. Iago 1. 1. m Mat. 10. 3. Marc
2. 14. a 3. 18. Act. 1. 13. n Mat. 10. 4. Marc 3. 18. Act.
1. 13.

16 [o] Judas *brawd* Iago, [p] a Judas Iscariot,
yr hwn hefyd a aeth yn fradwr.

o Mat. 10. 3. Marc 3. 18. Ioan 14. 22. Judas 1. p Mat.
26. 14—16. a 27. 3—5. Ioan 6. 70, 71. Act. 1. 16—20, 25.

* Nifer yr apostolion oedd deuddeg, yn ol rhifedi
deuddeg llwyth Israel, a hanasant o ddeuddeg mab
Jacob. Y deuddeg hyn, dàn Grist, oeddynt dadau ys-
brydol eglwys y Testament Newydd, yn ennill dynion
drwy yr efengyl. † Gan i ni gyfarfod â'r enwau hyn
ddwy waith o'r blaen, (Matth. 10. 2—4; a Marc 3.
14—19,) a sylwi ychydig arnynt yn y ddau le; cyfeir-
iwn y darllenyddion at y mànau hyny.

17 ¶ * Ac efe a aeth i waered gyd â
hwynt, ac a safodd mewn gwastattir; a'r dyrfa
o'i ddisgyblion, [q] a lliaws mawr o bobl o holl
Judea a Jerusalem, ac o [r] duedd môr Tyrus a
Sidon, [s] y rhai a ddaeth i wrando arno, ac i'w
hiachâu o'u clefydau;

q Mat. 4. 23—25. a 12. 15. r Mat. 11. 21. a 15. 21. Marc
3. 8. a 7. 24—31. s pen. 5. 15. Mat. 14. 14.

18 † A'r rhai a [t] flinid gan ysprydion aflan:
a hwy a iachâwyd.

t Mat. 15. 22. a 17. 15. Act. 5. 16.

19 A'r holl dyrfa [u] oedd yn ceisio cyffwrdd
âg ef; [x] am fod ‡ nerth yn myned o hono
allan, || ac yn iachâu pawb.

u 2 Bren. 13. 21. Mat. 9. 20, 21. a 14. 36. Marc 3. 10. a 6. 56.
a 8. 22. Act. 5. 15, 16. a 19. 12. x pen. 8. 45, 46. Marc 5. 30.
1 Pedr 2. 9.

* Tybir fod y mynydd a sonir yn adn. 12, yn rhywle
gerllaw môr Galilea: os felly, yr oedd gan y lliaws pobl
hyn ffordd bell iawn i ddyfod at Iesu, o Judea a Jera-
salem yn y dehau, ac o dueddau Tyrus a Sidon, tua'r
gogledd-orllewin, ar làn môr y canoldir. Dyma beth
oedd crwydro o fôr i fôr i geisio gair yr Arglwydd. fel y
dywed Amos 8. 12: ond yr oeddynt yn ei gael yma yn
ei burdeb; felly nis gall hyn fod yn gyflawniad o'r
brophwydoliaeth hòno, oblegid dywedir yno, "ac nis
cânt." † Mae rhai yn gwahaniaethu rhwng ysbrydion
aflan ac ysbrydion drwg, ond yn hollawl afreidiol a
disail. Dywedant bod yr ysbrydion aflan yn cael eu
galw felly, am eu bod yn gyru dynion i blith y beddau,
ac felly yn eu gwneyd yn aflan seremoniol. Ysbryd
drwg yw pob ysbryd aflan, ac ysbryd aflan yw pob ys-
bryd drwg. ‡ Y gair a gyfieithir "nerth" yma, a
gyfieithir "rhinwedd" yn Marc 5. 30; a Luc 8. 46:
gair arall, cwbl wahanol, a gyfieithir "rhinwedd" yn
Phil. 4. 8; 1 Pedr 2. 9; 2 Pedr 1. 3, 5. Nerth a ddyl-
asai fod yn y mànau uchod yn Marc a Luc fel yn adn.
19 yma, ac nid rhinwedd. || Gan fod Iesu yn iachâu
pawb, mae yn resyn nad elai pawb ato am iachâd: yr
oedd y dynion hyn yn fwy awyddus am iachâd i'w cyrph,
nac ydym ni am iachâd i'n heneidiau.

20 ¶ Ac [y] efe a ddyrchafodd ei olygon ar
ei ddisgyblion, ac a ddywedodd, [z] Gwyn eich
byd y * tlodion: [a] canys eiddoch chwi yw
teyrnas Dduw.

y Mat. 12. 49, 50. Marc 3. 34, 35. z adn. 24. pen. 4. 18.
a 16. 25. 1 Sam. 2. 8. Salm 37. 16. a 113. 7, 8. Diar. 16. 19. a 19.
1. Es. 29. 19. a 57. 15, 16. a 66. 2. Zeph. 3. 12. Zec. 11. 11. Mat.
11. 5. Ioan 7. 48, 49. 1 Cor. 1. 26—29. 2 Cor. 6. 10. a 8. 2, 9.
1 Thes. 1. 6. Iago 1. 9, 10. a 2. 5, 6. Dat. 2. 9. a pen. 12. 32. a
13. 28. a 14. 15. Mat. 5. 3, 10. Act. 14. 22. 1 Cor. 3. 21—23. 2 Thes.
1. 5. Iago 1. 12.

21 † Gwyn eich byd y [b] rhai ydych yn
dwyn newyn yr awrhon: [c] canys chwi a ddi-
gonir. ‡ Gwyn eich byd y [d] rhai ydych yn
wylo yr awrhon: [e] canys chwi a chwerddwch.

b adn. 25. pen. 1. 53. Salm 42. 1, 2. a 143. 6. Es. 55. 1, 2. 1 Cor. 4. 11. 2 Cor. 11. 27. a 12. 10. c Salm 17. 15. a 63. 1—5. a 65. 4. a 107. 9. Es. 25. 6. a 44. 3, 4. a 49. 9, 10. a 65. 13. a 66. 10. Jer. 31. 14, 25. Mat. 5. 6. Ioan 4. 10. a 6. 35. a 7. 37, 38. Dat. 7. 16, 17. d adn. 25. Salm 6. 6—8. a 42. 3. a 119. 136. a 126. 5, 6, 36. Preg. 7. 2, 3. Es. 30. 19. a 57. 17, 18. a 61. 1—3. Jer. 9. 1. a 13. 17. a 31. 9, 13, 18—20. Ezec. 7. 16. a 9. 4. Mat. 5. 4. Ioan 11. 35. a 16. 20, 21. Rhuf. 9. 1—3. 2 Cor. 1. 4—6. a 6. 10. a 7. 10, 11. Iago 1. 2—4, 12. 1 Pedr 1. 6—8. Dat. 21. 3, 4. e Gen. 17. 17. a 21. 6. Salm 28. 7. a 30. 11, 12. a 126. 1, 2. Es. 12. 1, 2. a 65. 14.

22 ‖ Gwyn eich byd [f]pan y'ch casâo dynion, a phan [g]y'ch § didolant *oddi wrthynt*, ac y'*ch* gwaradwyddant, ac y * bwriant eich enw allan megis drwg, [h]er mwyn Mab y dyn.

f Mat. 5. 10—12. a 10. 22. Marc 13. 9—13. Ioan 7. 7. a 15. 18—20. 2 Cor. 11. 22—26. Phil. 1. 28—30. 1 Thes. 2. 2, 14, 15. 2 Tim. 3. 11, 12. 1 Pedr 3. 14. a 4. 12—16. g pen. 20. 15. Es. 65. 5. a 66. 5. Ioan 9. 22—28, 34. a 12. 42. Act. 22. 22. a 24. 5. h pen. 21. 17. Mat. 10. 18, 22, 39. Act. 9. 16. 1 Cor. 4. 10, 11.

23 [i] † Byddwch lawen y dydd hwnnw, a [k]llemmwch: canys wele, [l]eich gwobr *sydd* fawr yn y nef; [m]oblegid yr un ffunud y gwnaeth eu tadau hwynt i'r prophwydi.

i Act. 5. 41. Rhuf. 5. 3. 2 Cor. 12. 10. Col. 1. 24. Iago 1. 2. k pen. 1. 41, 44. 2 Sam. 6. 16. Es. 35. 6. Act. 3. 8. a 14. 10. l adn. 35. Mat. 5. 12. a 6. 1, 2. 2 Thes. 1. 5—7. 2 Tim. 2. 12. a 4. 7, 8. Heb. 11. 6, 26. 1 Pedr 4. 13. Dat. 2. 7, 10, 11, 17, 26. a 3. 5, 12. a 21. 7. m 1 Bren. 18. 4. a 19. 2, 10, 14. a 21. 20. a 22. 8, 27. 2 Bren. 6. 31. 2 Cron. 36. 16. Neh. 9. 26. Jer. 2. 30. Mat. 21. 35, 36. a 23. 31—37. Act. 7. 52. 1 Thes. 2. 14, 15. Heb. 11. 36, 37.

Tybia rhai mai yr un bregeth yw hon â hòno a adroddir gan Matthew, pen. 5. 6, 7. Tybir hyny o herwydd dau beth:—1. Dywedir mai ar fynydd y pregethwyd hòno; pregethwyd hòn ar wastattir, wedi dyfod i waered o'r mynydd: sef ar ryw fàn gwastad iselach na phen y mynydd, lle y dechreuodd Iesu ei bregeth, meddant hwy. 2. Tybir mai yr un bregeth yw, o blegid fod llawer o'r ymadroddion yr un fath, neu yn bur gyffelyb gan Luc ac yn Matthew. Ond tybia eraill, ar seiliau cryfach, mai nid yr un bregeth yw, er bod ynddi lawer o ymadroddion yn gyffelyb. 1. Dywedant mai nid yr un lle oedd y gwastattir hwn â'r mynydd yn Matthew. 2. Nid yr un gwrandawyr: yn Matthew yr oeddynt o Galilea, a Decapolis, a Jerusalem, a Judea, ac o'r tu hwnt i'r Iorddonen: yma maent o Judea a Jerusalem, ac o duedd môr Tyrus a Sidon. 3. Mae gwahaniaeth mawr rhwng adroddiad y ddau efengylwr; nid yw Luc yn sôn dim am yr agoriad ar y gyfraith, elusen, gweddi, ac ympryd. Mae gan Luc yma bedair gwae, (adn. 24, 25, 26) nad ydynt gan Matthew. Mae gan Matthew wyth "gwyn eu byd;" nid oes gan Luc ond pedwar, a'r rhai hyny wedi eu geirio yn bur wahanol i Matthew. 4. Nid yw yr amser ychwaith yn cyfateb yn y ddau efengylwr. Mae Luc yn adn. 15, yn enwi Matthew yn un o'r deuddeg, cyn y bregeth hon; ond yn Matthew mae y bregeth yn mhell cyn iddo ef gael ei alw. Gallesid enwi amryw bethau eraill, i brofi nad yr un bregeth yw hon yn Luc, â hòno yn Matthew, ond mae hyna yn llawn digon: mae yn bur debygol mai pregeth arall oedd hon, mewn lle, ar amser, ac i wrandawyr gwahanol; er fod amryw o'r un gwirioneddau pwysig ynddi ag oedd yn y bregeth a adroddir gan Matthew. Os yw pregethau dynion yn werth eu hail draddodi, neu ryw ranau o honynt yn gymmysg â phregethau eraill; pa faint mwy pregethau y Cyfryngwr mawr ei hun? * "Y tlodion yn yr ysbryd," medd Matthew; dyna'r tlodi mae gwynfyd yn perthyn iddo. Gwel ar hyn yn Matthew 5. 3. † Hwn yw y pedwerydd gwyn fyd yn Matthew 5. 6. Gwel ar y geiriau yno. ‡ Hwn yw yr ail wyn fyd yn Matthew 5. 4: y rhai sydd yn galaru yw yno. Galar hyd at wylo; galar mawr i'r gradd eithaf. Gwel ar Matthew. ‖ Mae hwn megys yn cynnwys y ddau wyn fyd olaf yn Matthew 5. 10, 11; er nad yw wedi ei eirio yn hollawl fel yr un o honynt yno. Gwel ar y ddwy adnod a nodwyd, yno. § Sef eu didol hwy o'u cymdeithas, fel pe byddent Genedloedd, ac yn euwedig eu didol o'u cyfarfodydd crefyddol hwynt, yn y deml a'r synagogau. * Tybia rhai fod hyn yn golygu y mwyaf o ddau esgymuniad yn mhlith yr Iuddewon, trwy yr hwn byddai dyn yn cael ei roddi i fynu i ddistrywio Gwel ar Ioan 9. 34. † Mae yr adnod hon yn cyfateb Matth. 5. 12: gwel y sylwadau yno. Am y didol, gwaradwyddo, a bwrw allan yr enwau, yn adn. 22, ni oes achos am well agoriad ar y geiriau, na hanes driniaeth a gafodd yr apostolion, yr hon a ddarllenwi yn Llyfr yr Actau: gan hyny awn yn mlaen at y adnodau nesaf.

24 * Eithr [n]gwae chwi y cyfoethogion: [o]canys derbyniasoch eich diddanwch.

n pen. 12. 15—21. a 18. 23—25. Job 21. 7—15. Salm 49. 6, 16—19. a 73. 3—12. Diar. 1. 32. Jer. 5. 4—6. Amos 4. 1—3. a 1—6. 1 Tim. 6. 17. Iago 2. 6. a 5. 1—6. Dat. 18. 6—8. o pen. 16. 19—25. Mat. 6. 2, 5, 16.

* Nid am eich bod yn gyfoethogion o bethau y byd hwn, ond am nad ydych yn gyfoethogion tuag at Dduw heb feddu y gwir gyfoeth. Am eich bod yn edrych a eich cyfoeth fel eich rhan, a'ch holl ddyddanwch: nen am eich bod yn eich tyb eich hunain yn gyfoethog o hunan-gyfiawnder. "Yr hyn *oedd elw* i mi," medd Paul, Phil. 3. 7.

25 * Gwae [p]chwi y rhai llawn: † canys [q]chwi a ddygwch newyn. ‡ Gwae chwi [r]y rhai a chwerddwch yr awr hon: [s] ‖ canys chwi a alerwch ac a wylwch.

p Deut. 6. 11, 12. 1 Sam. 2. 5. Diar. 30. 9. Phil. 4. 12, 13. Dat. 3. 17. q Es. 8. 21. a 9. 20. a 65. 13. r pen. 8. 53. 16. 14, 15. Salm 22. 6, 7. Diar. 14. 13. Preg. 2. 2. a 7. 3, 6. Iago 4. 9. s pen. 12. 20. a 13. 28. Job 20. 5—7. a 21. 11—13. Salm 49. 19. Es. 21. 3, 4. a 24. 7—12. Dan. 5. 4—6. Amos 8. 10. Nah. 1. 10. Mat. 22. 11—13. 1 Thes. 5. 3. Dat. 18. 7—11.

* Llawn o hunan, llawn o foethau a mwyniant cnawdol, llawn o grefydd ac eto heb ddim crefydd, fel hwnw yn Dat. 3. 17. † Daw amser pryd na byddo genych ddim, ac nas cewch ddim byth, cymmaint a dafn o ddwfr oer: dyna ran o'ch gwae, ond nid eich holl wae.— ‡ Chwi, y rhai sydd yn llawenychu ac yn chwerthin yn gnawdol, ac ni wasgodd eich pechodau arnoch erioed i alaru o'u herwydd; ac nis gwyddoch ddim ychwaith am lawenydd ysbrydol, yn yr Ysbryd Glân. A chwi, y rhai a chwerddwch yn watwarus am ben pob bygythiad, pob rhybudd, a phob peth sobr a glywoch; ac hyd yn nod a chwerddwch yn awr am ben yr hyn ydwyf fi yn ddywedyd wrthych. ‖ Gwae chwi, canys e droir eich chwerthin ynfyd a gwatwarus chwi yn alar, a'ch llawenydd cnawdol ac annuwiol chwi yn dristwch o'r fath trymaf. Felly y bydd yn ninystr Jerusalem yn fuan, felly y bydd yn uffern byth.

26 * Gwae chwi [t]pan ddywedo pob dyn yn dda am danoch: † canys [u]felly y gwnaeth eu tadau hwynt i'r gau brophwydi.

t Mica 2. 11. Ioan 7. 7. a 15. 19. Rhuf. 16. 18. 2 Thes. 2. 8—12. Iago 4. 4. 2 Pedr 2. 18, 19. 1 Ioan 4. 5, 6. Dat. 13. 3, 4. u 1 Bren. 22. 6—8, 13, 14, 24—28. Es. 30. 10. Jer. 5. 31. 2 Pedr 2. 1—3.

* Mae gair da pawb yn sicr yn ddymunol, os gellir e gael ar lwybr uniondeb a sancteiddrwydd: ond nis gelli cael gair da pawb heb foddâu pawb; ac nis gellir bodd âu pawb, heb wyro oddi ar y llwybr hwnw: mawrygw wynebau dynion er mwyn budd, prophwydo pethau es mwyth i ddynion yn eu pechodau, er mwyn rhyngu eu bodd, ac er mwyn cael canmoliaeth a chlod ganddyn † Felly y gwnâi y gau-brophwydi gynt, felly y gwn gau-athrawon cnawdol eto; ac yn erbyn y fath ymddyg iad anonest a hyn i gael gair da gan bawb, y mae Cris yn cyhoeddi y gwae yma. Pan ddelo efe i ofyn gwae eneidiau ar law y fath athrawon a hyn, dyna pa bryd gwybyddir beth fydd y gwae.

27 ¶ Ond yr wyf yn dywedyd [x]wrthych chwi y rhai ydych yn gwrando, [y] * Cerwch eich gelynion; [z] † gwnewch dda i'r rhai a'ch casânt:

x pen. 8. 8, 15, 18. Marc 4. 24. y adn. 35. pen. 23. 34. Ex 23. 4, 5. Job 31. 29—31. Salm 7. 4. Diar. 24. 17. a 25. 21, 22. Mat 5. 43—45. Act. 7. 60. Rhuf. 12. 17—21. 1 Thes. 5. 15. z adn 22. Act. 10. 38. Gal. 6. 10. 3 Ioan 11.

23 [a] Bendithiwch y rhai a'ch melldithiant, weddïwch dros y rhai a'ch [b] drygant.

d Rhuf. 12. 14. 1 Cor. 4. 12. Iago 3. 10. 1 Pedr 3. 9. b Ezec. a 36. 5. Act. 14. 5.

wsom y darn hyn o'r bregeth yr Matth. 5. 44. y sylwadau yno. * Dysgai y Rabbiniaid Iuddewig sgyblion garu eu cyd-genedl, eu perthynasau a'u llion, a neb arall: ond y mae dysgeidiaeth Iesu yn ri llawer yma, cymmaint ag y mae gras a duwiolm rhagori ar anian lygredig a deddfol. † Dymuno th iddynt, gweddïo am fendith arnynt, a gwneyd aioni iddynt; a hyny yn wyneb eu cas, eu mellan a'u drygau hwynt. Dyma beth yw eu caru: beth yw pentyrru marwor tanllyd ar eu penau: a beth yw gorchfygu drygioni trwy ddaioni.

24 * Ac [c] i'r hwn a'th [d] darawo ar y *naill* , cynnyg y llall hefyd; [e] ac i'r hwn a go ymaith dy gochl, na wahardd dy bais ld.

Mat. 5. 39. d pen. 22. 64. 2 Cron. 18. 23. Es. 50. 6. 3. 30. Mica 5. 1. Mat. 26. 67. Ioan 18. 22. Act. 23. 2. 1 Cor. 2 Cor. 11. 20. e 2 Sam. 19. 30. Mat. 5. 40, 41. 1 Cor. 6. o. 10. 34.

el ar Matth. 5. 39, 40. * Taro ar y gern, a dwyn h y cochl, oeddynt eiriau diarhebol, mae'n debyg, wyddo rhyw sarhâd trwm ar y person neu ar ei annau. Yr oedd yr Iuddewon y pryd hwnw dan lraeth paganiaid, a'u materion yn cael eu barnu swyddogion paganaidd; gwell iddynt ddyoddef nac ymgyfreithio o flaen rhai felly: yn enwedig a ysbryd dialgar. Gwel 1 Cor. 6. 7

25 * A [f] dyro i bob un a geisio gennyt; chan y neb a fyddo yn dwyn yr eiddot, hais eilchwyl.

adn. 38. pen. 11. 41. a 12. 33. a 18. 22. Deut. 15. 7—10. H1. 1. a 112. 9. Diar. 3. 27, 28. a 11. 24, 25. a 21. 26. a 22. 9. 11. 1, 2. Es. 58. 7—10. Ezec. 18. 16. Act. 20. 35. 2 Cor. 8. 6—14. Eph. 4. 28. g Ex. 22. 26, 27. Neb. 5. 1—19. 5. 12. a 18. 27—30, 35.

Nid oes i ni ddeall y geiriau hyn yn ol ystyr fanylaf hyren o honynt; pe rhoddai dyn i *bob un a geisio*, b ddim i'w roddi yn fuan. Dyledswydd gyntaf y on yw gofalu am yr eiddo ei hun, sef ei deulu; eulu y ffydd, ac achos Duw; ac wedi hyny cyfranu bdion, yn ol ei allu ef a'u hangen hwythau, heb thur gwahaniaeth rhwng cyfeillion a gelynion. eb fyddo yn ei dwyn ar lôg neu echwyn, os na ganddo fodd i'w talu yn ol, na fydd galed wrtho, ner ganddo yr hyn a allo dalu, a phan y gallo. Un yn erbyn yr Iuddewon oedd, eu bod yn *mynu* eu ddyledion. Neu os dwyn o drais a lladrad, yw y yn" yma, gwell, a mwy cristionogol, yw i ddyn fod golled, na'i ddangos ei hun yn llewaidd ac yn rugaredd, tuag at ei gyd-grëadur.

26 * Ac [h] fel y mynnech wneuthur o ddyni chwi, gwnewch chwithau iddynt yr un ud.

Mat. 7. 12. a 22. 39. Gal. 5. 14. Iago 2. 8—16.

wel ar Matth. 7. 12. * Nid fel y gwnelo dynion i nd fel y dymunem iddynt wneuthur, y dylem ni thur i eraill. Mae yr adnod hon yn eglurâd ar nod o'r blaen, ac ar rai gorchymynion eraill am d a thiriondeb yn y bennod hon.

27 * Ac [i] os cerwch y rhai a'ch carant ithau, [k] † pa ddiolch fydd i chwi? oblegid nae pechaduriaid hefyd yn caru y rhai a'u hwythau.

Mat. 5. 46, 47. k 1 Pedr 2. 19, 20.

28 Ac os gwnewch dda i'r rhai a wnant dda withau, pa ddiolch fydd i chwi? oblegid y y pechaduriaid hefyd yn gwneuthur yr un n.

29 Ac [l] os rhoddwch echwyn i'r rhai yr ydych yn gobeithio y cewch chwithau ganddynt, pa ddiolch fydd i chwi? oblegid y mae y pechaduriaid hefyd yn rhoddi echwyn i bechaduriaid, fel y derbyniont y cyffelyb.

l adn. 35. pen. 14. 12—14. Deut. 15. 8—11. Mat. 5. 42.

Gwel ar Matth. 5. 46, 47. * Nid oes achos am eglurâd chwanegol ar y geiriau uchod; maent yn eglur iawn fel y maent: nid o eisiau eu deall y mae crefyddwyr heb ymddwyn yn gyfatebol iddynt, ond o eisiau mwy o ras. Dylai dynion crefyddol dalu mwy o ufuddod i orchymynion pendant Duw, na'r rhai nad oes ganddynt ddim ond goleuni natur a theimladau natur i'w cyfarwyddo a'u llywodraethu. † Mae y gair a gyfieithir "diolch" yn y tair adnod uchod, yn cael ei gyfieithu "gras" mewn mànau eraill, (gwel 1 Pedr 2. 20.) Felly gellir darllen y geiriau, "Pa ras yw:" pa anrhydedd sydd i chwi, gristionogion, os na wnewch ddim mwy na rhai digrefydd? Pa arwydd sydd genych eich bod yn ddynion grasol? Pa sail sydd genych i obeithio eich bod yn gymmeradwy gyda Duw?

35 * Eithr [m] cerwch eich gelynion, a gwnewch dda, a rhoddwch echwyn, † heb obeithio dim drachefn; a'ch gwobr a fydd mawr, [n] ‡ a phlant fyddwch i'r Goruchaf: [o] || canys daionus yw efe i'r rhai anniolchgar a drwg.

m adn. 27—31. Lef. 25. 35—37. Salm 37. 26. a 112. 5. Diar. 19. 17. a 22. 9. Rhuf. 5. 8—10. 2 Cor. 8. 9. n Mat. 5. 44, 45. Ioan 13. 35. a 15. 8. 1 Ioan 3. 10—14. a 4. 7—11. o Salm 145. 9. Act. 14. 17.

36 § Byddwch gan hynny [p] drugarogion, megis ag y mae eich Tad yn drugarog.

p Mat. 5. 48. Eph. 4. 31, 32. a 5. 1, 2. 1 Pedr 1. 15, 16.

* Gwelsom beth yw caru ein gelynion o'r blaen, yn adn. 27, 28: gwneyd da iddynt, eu bendithio, a gweddïo drostynt; a dyma rai o'r un pethau yn cael eu gorchymyn eto. Mae gorchymyn y pethau hyn drachefn a thrachefn fel hyn, yn dangos dau beth: 1. Mai gwers anhawdd, a chaled iawn i natur dyn ei dysgu yw y wers hon; ac yn 2. Fod yr Arglwydd Iesu yn sefyll yn gadarn dros y mater, ac y rhaid i'w holl ddysgyblion ef ddysgu y wers galed hon, cyn y gallont fod yn ddysgyblion teilwng iddo. † Heb obeithio dim gan ddyn, ond ymddiried yn Nuw, y gwna efe i fynu y golled, un ai mewn pethau tymmorawl neu ysbrydol yma, neu ynte mewn gogoniant yn y byd a ddaw. ‡ Nid y gweithredoedd da hyn a *wná* neb yn blant i'r Goruchaf; ond *trwy* y gweithredoedd da hyn y *dangoswch*, ac y *profwch*, eich *bod* yn blant i'r Goruchaf. || Un da i'w elynion yw Duw; a thrwy debygu i'w tad, y mae pob plant yn dangos plant i bwy ydynt. § Yn ei drugaredd tuag at bechadur, mae Duw yn dangos gogoniant ei holl briodoliaethau; ac mewn trugaredd mae dynion yn eu dangos eu hunain debycaf i Dduw o ddim arall.

37 [q] * Ac na fernwch, ac ni'ch bernir: na chondemniwch, ac ni'ch condemnir: [r] † maddeuwch, a maddeuir i chwithau:

q Es. 65. 5. Mat. 7. 1. Rhuf. 2. 1, 2. a 14. 3, 4, 10—16. 1 Cor. 4. 3—5. Iago 4. 11, 12. r pen. 17. 3, 4. Mat. 5. 7. a 6. 14, 15. a 18. 35. Marc 11. 25, 26. 1 Cor. 13. 4—7. Eph. 4. 32. Col. 3. 13.

* Gwel ar Matth. 7. 1. † Gwel ar Matth. 6. 14. Yn ol ein hysbryd a'n hymddygiad ni, yn gyffredin, tuag at eraill, y bydd ysbryd ac ymddygiad eraill tuag atom ninau. A pha rhyfedd? onid dyna ein haeddiant? Ac odid nad felly y bydd hefyd yn y farn.

38 Rhoddwch, [s] * a rhoddir i chwi: † mesur da, dwysedig, ac wedi ei ysgwyd, ac yn myned trosodd, a roddant yn eich [t] ‡ mynwes: canys [u] â'r un mesur ag y mesuroch, y mesurir i chwi drachefn.

s adn. 30. Deut. 15. 10. Ezra 7. 27, 28. Job 31. 16—20. a 42. 11, 12. Diar. 3. 9, 10. a 10. 22. a 19. 17. a 22. 9. Preg. 11. 1, 2. 2 Cor. 8. 14, 15. a 9. 6—8. Phil. 4. 17—19. t Salm 79. 12.

u Deut. 19. 16—21. Barn 1. 7. Esther 7. 10. a 9. 25. Salm 18. 25, 26. a 41. 1, 2. Mat. 7. 2. Marc 4. 24. Iago 2. 13. Dat. 16. 5, 6.

Am haelioni mewn elusenau y sonir yma, nid am gyfiawnder mewn gwerthu: rhoddi yn llawen, yn rhywiog, ac yn helaeth, nid rhith o roddi, yn grintachus, ac yn gybyddlyd. * Pa faint bynag a rodder oddi ar iawn egwyddor, o ufudd-dod i orchymyn Duw, a thosturi tuag at yr anghenog, e ofala Duw am ei dalu yn ol trwy ryw foddion, megys ar ei bedwerydd. Yr hwn sydd yn hau yn helaeth, a fêd hefyd yn helaeth; ac o'r tu arall, yr hwn sydd yn hau yn brin a fêd hefyd yn brin. † Mesur da, wedi ei wasgu i lawr, yw y Saesoneg; sef mesur o ŷd, neu unrhyw beth sych, a wasgid neu a ddylesid ei wasgu yn y llestr, er rhoddi llawn fesur i'r prynwr. ‡ "Mynwes," neu yr arffed: cyfeiriad sydd yma at y mentyll a wisgai yr Iuddewon, yn y rhai y gellid dodi cryn lawer o ŷd. Gwel Ruth 3. 15. Cyfneithir yr un gair weithiau mynwes ac weithiau arffed.

39 * Ac efe a ddywedodd ddammeg wrthynt: [x] † A ddichon y dall dywyso y dall? [y] ‡ oni syrthiant ill dau yn y clawdd?

x Es. 9. 16. a 56. 10. Mat. 15. 14. a 23. 16—26. Rhuf. 2. 19. 1 Tim. 6. 3—5. 2 Tim. 3. 13. y Jer. 6. 15. a 8. 12. a 14. 15, 16. Mica 3. 6, 7. Zec. 11. 15—17. Mat. 23. 33.

* Wrth ddammeg yma, a mànau eraill hefyd, y meddylir, dywediad yn arwyddo mwy nag mae y geiriau yn grybwyll yn naturiol. † Cyfeiriad union-gyrchol y ddammeg sydd, at y dysgawdwyr Iuddewig, y rhai oeddent yn anwybodus eu hunain am Grist a'r efengyl, a'r werin anwybodus yn cymmeryd eu tywys ganddynt. A allai y dysgawdwyr Iuddewig ddysgu i eraill, yr hyn ni wyddent hwy eu hunain? Na allent yn sicr. Hyna yw meddwl y gofyniad, ond pe dywedasai Crist hyna mewn geiriau noeth ac eglur, buasai yn cynhyrfu llid y dysgawdwyr hyny; o ba herwydd, traddodai y gwirionedd am danynt mewn dammeg fel hyn. ‡ Oni syrthia y naill â'r llall yn nghlawdd anghrediniaeth, a thàn farn ofnadwy Duw. Os oedd tywysogion deillion yn beryglus y pryd hwnw, felly y maent eto; gan hyny mae yn angenrheidiol iawn i ddynion ofalu pwy a pha beth a wrandawont.

40 [z] * Nid yw y disgybl uwch law ei athraw: † eithr pob un perffaith a fydd fel ei athraw.

z Mat. 10. 24, 25. Ioan 13. 16. a 15. 20.

* Os dall fydd yr athraw, dall o anghenrhaid fydd y dysgybl; nis gall y dysgybl fod yn oleu iawn, os eistedd efe dàn weinidogaeth athraw tywyll ac anfedrus: "yr un fath bobl ac offeiriaid." Hos. 4. 9. † Nis gall y perffeithiaf o ddysgyblion y tywysogion deillion ond cyrhaedd at eu hathrawon, ni wiw dysgwyl iddynt ragori ar eu dysgawdwyr. Ond tybia rhai mai Crist yw yr "athraw" yn niwedd yr adnod; a phawb sydd yn berffaith, hyny yw, yn rhagori fwyaf mewn duwioldeb, a fydd yn debyg iddo ef.

41 * A [a] phaham yr wyt ti yn edrych ar y brycheuyn sydd yn llygad dy frawd, [b] ac nad ydwyt yn ystyried y trawst sydd yn dy lygad dy hun?

a Mat. 7. 3—5. Rhuf. 2. 1, 21—24. b 2 Sam. 12. 5—7. a 20. 9, 10, 20, 21. 1 Bren. 2. 32. 1 Cron. 21. 6. Salm 36. 2. Jer. 17. 9. Ezec. 18. 28. Ioan 8. 7, 40—44. Iago 1. 24.

42 Neu pa fodd y gelli di ddywedyd wrth dy frawd, *Fy* mrawd, gâd i mi dynnu allan y brycheuyn sydd yn dy lygad, a thithau heb weled y trawst sydd yn dy lygad dy hun? [c] † *O* ragrithiwr, [d] bwrw allan y trawst o'th lygad dy hun yn gyntaf; ac yna [e] y gweli yn eglur dynnu allan y brycheuyn sydd yn llygad dy frawd.

c pen. 13. 15. Mat. 23. 13—15. Act. 8. 21. a 13. 10. d pen. 22. 32. Salm 50. 16—21. a 51. 9—13. Mat. 26. 75. Act. 2. 38. a 9. 9—20. 2 Cor. 5. 18. 1 Thes. 2. 10—12. Philemon 10, 11. e Mat. 6 22, 23. 2 Tim. 2. 21. 2 Pedr 1. 9. Dat. 3. 17, 18.

* Gwel ar Matth. 7. 3—5. Nid oes genym ddim i ymhelaethu yma, ond yn unig dywedyd, yr hwn a gym mero arno ddiwygio eraill, dechreued yn gyntaf gartref † nid yw ei lafur a'i swyddgarwch heb hyny ond y rhag rith mwyaf digywilydd.

43 * Canys [f] nid yw pren da yn dwyn ffrwyth drwg; na phren drwg yn dwyn ffrwyth da.

f Salm 92. 12—14. Es. 5. 4. a 61. 3. Jer. 2. 21. Mat. 3. 10 a 7. 16—20. a 12. 33.

44 Oblegid pob pren a adwaenir wrth e ffrwyth ei hun: [g] canys nid oddi ar ddrain casglant ffigys, nac oddi ar berth yr helian rawnwin.

g Gal. 5. 19—23. Tit. 2. 11—13. Iago 3. 12. Judas 12.

45 Y [h] dyn da, o ddaionus [i] drysor ei galon a ddwg allan ddaioni; [k] a'r dyn drwg, o ddryg ionus drysor ei galon, a ddwg allan ddrygioni [l] canys o helaethrwydd y galon y mae ei enau yn llefaru.

h Salm 37. 30, 31. a 40. 8—10. a 71. 15—18. Diar. 10. 20, 21 a 12. 18. a 15. 23. a 22. 17, 18. Ioan 7. 38. Eph. 4. 29. a 5. 3, 4, 19 Col. 4. 6. i 2 Cor. 4. 6, 7. Eph. 3. 8. Col. 3. 16. Heb. 8. 10 k Salm 12. 2—4. a 41. 6, 7. a 52. 2—4. a 59. 7, 12. a 64. 3—8. 140. 5. Jer. 9. 2—5. Act. 5. 3, 4. a 8. 19—23. Rhuf. 3. 13, 14. Iago 3. 5—8. Judas 15. l Mat. 12. 34—37.

Gwel ar Matth. 7. 16—20. * Mae y 45 adnod yn eglurâd gwell ar y 43 adnod, na dim a allwn ni ddywedyd arni. Cyffelybir dynion yma i brenau; y galon yw y gwreiddyn, oddi yno y mae pobpeth yn dyfod allan; a'r ymarweddiad allanol yw y ffrwyth, yn tarddu o'r gwreiddyn hwnw. Os bydd y gwreiddyn, sef y galon, yn dda, wedi ei gwneyd felly gan ras Duw; yna bydd y ffrwyth, sef y fuchedd, yn dda; yn dwyn ffrwythau sancteiddrwydd, er gogoniant a moliant i Dduw.

46 ¶ [m] * Paham hefyd yr ydych yn fy ngalw i, Arglwydd, Arglwydd, ac nad ydych yn gwneuthur yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd?

m pen. 13. 25—27. Mal. 1. 6. Mat. 7. 21—23. a 25. 11, 24, 44. Ioan 13. 13—17.

47 Pwy bynnag [n] a ddêl attaf fi, [o] ac a wrendy fy ngeiriau, [p] ac a'u gwnelo hwynt, mi a ddangosaf i chwi i bwy y mae efe yn gyffelyb.

n pen. 14. 26. Es. 55. 3. Mat. 11. 28. Ioan 5. 40. a 6. 35, 37, 44, 45. 1 Pedr 2. 4. o Mat. 7. 24, 25. a 17. 5. Ioan 8. 52. a 9. 27, 28. a 10. 27. p pen. 8. 8, 13. a 11. 28. Mat. 11. 29, 30. a 12. 50. Ioan 13. 17. a 14. 15, 21—24. a 15. 9—14. Rhuf. 2. 7—10. Heb. 5. 9. Iago 1. 22—25. a 4. 17. 2 Pedr 1. 10. 1 Ioan 2. 29. a 3. 7. Dat. 22. 14.

48 † Cyffelyb yw i ddyn yn adeiladu tŷ, yr hwn a gloddiodd, ac a aeth yn ddwfn, [q] ac a osododd ei sail ar y [r] graig: a phan ddaeth llifeiriant, y llifddyfroedd a gurodd ar y tŷ hwnnw, ac ni allai ei siglo; canys yr oedd wedi ei seilio ar y graig.

q Diar. 10. 25. Es. 28. 16. 1 Cor. 3. 10—12. Eph. 2. 20. 2 Tim. 2. 19. r Deut. 32. 15, 18, 31. 1 Sam. 2. 2. 2 Sam. 22. 2, 32, 47. a 23. 3. Salm 95. 1. Es. 26. 4. 1 Pedr 2. 4—6. s 2 Sam. 22. 5. Salm 32. 6. a 93. 3, 4. a 125. 1, 2. Es. 59. 19. Nah. 1. 8. Ioan 16. 33. Act. 14. 22. Rhuf. 8. 35—38. 1 Cor. 3. 13—15. a 15. 55—58. 2 Pedr 3. 10—14. 1 Ioan 2. 28. Dat. 6. 14—17. a 20. 11—15.

49 Ond yr hwn [t] a wrendy, ac ni wna, cyffelyb yw i ddyn a adeiladai dŷ ar y ddaear, heb sail; [u] ar yr hwn y curodd y llif-ddyfroedd, [x] ac yn y fan y syrthiodd: a [y] chwymp y tŷ hwnnw oedd fawr.

t adn. 46. pen. 8. 5—7. a 19. 14, 27. Jer. 44. 16, 17. Ezec. 33. 31. Mat. 21. 29, 30. a 23. 3. Ioan 15. 2. Iago 1. 22—24. a 2. 17—26. 2 Pedr 1. 5—9. 1 Ioan 2. 3, 4. u Mat. 13. 20—22. a 24. 10. Act. 20. 29. a 26. 11. 1 Thes. 3. 5. x Mat. 12. 43—45. Marc 4. 17. 1 Ioan 2. 19. y pen. 10. 12—16. a 11. 24—26. a 12. 47. Heb. 10. 26—29. 2 Pedr 2. 20—22.

Gwel ar Matth. 7. 24—27. * Miloedd o broffeswyr crefydd, o bob plaid a chredo, a syrthiant dàn gon-

rlad pan y barnir hwynt wrth y geiriau sobr ac
aethol bwysig hyn! Pan bwyser hwynt yn y clor-
yhyn, hwy a gair yn brin! Llawer a alwant Grist
rglwydd, ond heb wneuthur yr hyn mae efe yn
wlyd: gwrandâwant ond nis gwnânt. Ië, y mae
ld lawer, o rai sydd yn wahanol iawn eu medd-
enewn pethau eraill, yn cytuno yn hyn, i wneuthur
edd Duw yn yr efengyl, yn esgus, neu ddadl, am
aso rhoddi ufudd-dod manwl i'w orchymynion ef;
achlysur hefyd i beidio edifarâu am yr esgeulus-
nw a llawer o bechodau eraill, cyd na byddont
thus o anfoesol. Fel hyn y mae llawer yn wrth-
olion *(Antinomians)* ymarferol, pan y maent ar
oryd, yn gwaeddi yn haerllug yn erbyn athraw-
ddiad ras yr efengyl, fel yn arwain i ben-rhyddid a
ddeddfoldeb. † Swm yr adnodau hyn yw, na
eb sylfaenu eu gobaith am iachawdwriaeth, ar
dim, ond ar Grist yn unig: nac ar Grist ychwaith,
gais gwirioneddol am gadw ei orchymynion a'i
ef. Ofer yw eu gobaith: ac er y gallant hwyrach
yd oni ddêl ystormydd o drallodion a phrofedig-
, neu efallai hyd angau; eto pan ddelont i farw,
cyn hyny, hwy a gollant eu gobaith, ac a welant
-gymmeriad mawr! "Pa obaith sydd i'r rhag-
—pan dyno Duw ei enaid ef allan?" Job 27. 8.

PEN. VII.

Ffydd y canwriad, &c.

a [a] wedi iddo orphen ei holl ymadroddion
e y clywai y bobl, [b] efe a aeth i mewn i
naum.

a at. 7. 28, 29. b Mat. 8. 5—13.

A [c] gwas rhyw ganwriad, [d] yr hwn oedd
ganddo, [e] oedd yn ddrwg ei hwyl, ym
marw.

n. 23. 47. Mat. 27. 54. Act. 10. 1, 2. a 22. 26. a 23. 17. a
13. d Gen. 24. 2—14, 27, 35—49. a 35. 8. a 39. 4—6.
5. 2, 3. Job 31. 15. Act. 10. 7. Col. 3. 22—25. a 4. 1.
. 42. Ioan 4. 46, 47. a 11. 2, 3.

A phan glybu efe sôn am yr Iesu, * efe
nfonodd atto henuriaid yr Iuddewon,
uttolwg iddo ddyfod a iachâu ei was ef.

m. 8. 41. a 9. 38. Mat. 8. 5. Ioan 4. 47. Philemon 10.

Y rhai pan ddaethant at yr Iesu, a
gasant arno yn daer, gan ddywedyd, O-
y mae efe yn [g] haeddu cael gwneuthur
pt hyn iddo.

in. 6, 7. pen. 20. 35. Mat. 10. 11, 13, 37, 38. Dat. 3. 4.

Canys [h] y mae efe yn caru ein cenedl ni,
a adeiladodd i ni synagog.

Bren. 5. 1. 2 Cron. 2. 11, 12. Gal. 5. 6. 1 Ioan 3. 14. a 5.
i 1 Cron. 29. 3, &c. Ezra 7. 27, 28. 1 Ioan 3. 18, 19.

A'r [k] Iesu a aeth gyd â hwynt. Ac efe
an heb fod neppell oddi wrth y tŷ, y can-
a anfonodd gyfeillion atto, gan ddywed-
ho, Arglwydd, [l] na phoena; [m] canys nid
i deilwng i ddyfod o honot dan fy
nglwyd:

at. 20. 28. Marc 5. 24. Act. 10. 38. l pen. 8. 49.
k. pen. 5. 8. a 15. 19—21. Gen. 32. 10. Diar. 29. 23. Mat.
5. 26, 27. Iago 4. 6, 10.

D herwydd paham ni'm tybiais fy hun
eilwng i ddyfod attat: [n] eithr dywed y
a iach fydd fy ngwas.

en. 4. 36. a 5. 13. Ex. 15. 26. Deut. 32. 39. 1 Sam. 2. 6.
. 9. a 107. 20. Marc 1. 27.

- Canys dyn wyf finnau wedi fy ngosod
awdurdod, a chennyf filwyr danaf: ac
af wrth hwn, [p] Dos, ac efe a â; ac wrth
Tyred, ac efe a ddaw; ac wrth fy ngwas,
hyn, ac efe a'i gwna.

o Act. 22. 25, 26. a 23. 17, 23, 26. a 24. 23. a 25. 26. p Act. 10. 7, 8. Col. 3. 22. 1 Tim. 6. 1, 2.

9 Pan glybu yr Iesu y pethau hyn, [q] efe a
ryfeddodd wrtho, ac a drôdd, ac a ddywedodd
wrth y bobl oedd yn ei ganlyn, Yr ydwyf yn
dywedyd i chwi, Ni chefais gymmaint ffydd,
[r] na ddo yn yr Israel.

q Mat. 8. 10. a 15. 28. r Salm 147. 19, 20. Mat. 9. 33. Rhuf. 3. 1—3. a 9. 4, 5.

10 A'r rhai a anfonasid, wedi iddynt ddy-
chwelyd i'r tŷ, [s] a gawsant y gwas a fuasai
glaf, yn holliach.

s Mat. 8. 13. a 15. 28. Marc 9. 23. Ioan 4. 50—53.

Gwel ar Matth. 8. 5—10. * Dywed Matthew i'r canwriad ei hun ddyfod at yr Iesu, ac yma dywedir mai danfon henuriaid yr Iuddewon a wnaeth. (Gwel adn. 7.) Gellid dywedyd yn ddigon priodol iddo ef ei hun wneyd yr hyn a wnaeth eraill drosto ef, ar ei ddeisyfiad ac yn ei enw: dywedir felly yn gyffredin eto. Yn adn. 5, dywedai yr Iuddewon i'r canwriad hwn adeiladu synagog iddynt: eraill a wnaethant hyny yn ddiammau, ac nid y gwr boneddig ei hun: felly nid oes yma ddim anghysondeb o bwys. † Tybir fod golwg y canwriad yma ar yr hyn a ddarllenasai efe am awdurdod Duw Israel ar glefydau, (Gwel Deut. 7. 15. a 32. 39. 1 Sam. 2. 6.) os felly, rhaid ei fod yn credu fod Iesu yn Berson dwyfol, mai efe oedd Duw Israel; a bod ganddo awdurdod ar glefydau, fel yr oedd ganddo yntau ar ei filwyr. Gallwn sylwi ar rai pethau addysgiadol yn mhellach oddi wrth yr hanes uchod:—1. Tiriondeb y canwriad tuag at ei was, er dangos i ni, Gristionogion, fod yr un modd. 2. Buddioldeb gweithredoedd da; adeiladodd y canwriad hwn synagog i'r Iuddewon, a bu hyny yn foddion iddo ennill eu cariad hwythau tuag ato, ac i fyned drosto at Grist. Ac nid y peth lleiaf ei bwys yn yr hanes yw, y llwybr hynaws a gymmerodd y gwr hwn i ladd rhagfarn, ac ennill cariad, yr Iuddewon tuag ato. 3. Gostyngeiddrwydd y gwr mawr hwn, fel y sylwyd yn Matthew, nid ystyriai ei hun yn deilwng i ddyfod at Iesu, nac i'r Iesu ddyfod i'w dŷ yntau. 4. Ei ffydd ef, yn naioni a gallu dwyfol yr Arglwydd Iesu. Ac os yw y sylw a wnaed uchod ar adn. 8, yn gywir, rhaid ei fod yn credu yn ei wir Dduwdod ef. 5. Effeithiau ffydd yn Nuw, a'i chymmeradwyaeth gyda Duw: iachâodd Crist y gwas, a chanmolodd ffydd y canwriad rhagor ffydd yr holl Israel, (adn. 9.) neu y cyffredin o Israel, er eu bod hwy yn llawer mwy eu manteision na'r canwriad cenedlig hwn.

11 ¶ A bu drannoeth, [t] iddo ef fyned i
ddinas a elwid * Naïn; a chyd âg ef yr aeth
llawer o'i ddisgyblion, a thyrfa fawr.

t Act. 10. 38.

12 † A phan ddaeth efe yn agos at borth y
ddinas; wele un marw a ddygid ‡ allan, ‖ *yr*
hwn oedd [u] unig fab ei fam, a honno yn
[x] weddw: [y] a bagad o bobl y ddinas oedd gyd
â hi.

u pen. 8. 42. Gen. 22. 2, 12. 2 Sam. 14. 7. 1 Bren. 17. 9, 12, 18, 23. 2 Bren. 4. 16, 20. Zec. 12. 10. x Job 29. 13. Act. 9. 39, 41. 1 Tim. 5. 4, 5. Iago 1. 27. y pen. 8. 52. Ioan 11. 19.

13 § A'r Arglwydd pan y gwelodd hi, [z] a
gymmerodd drugaredd arni, ac a ddywedodd
wrthi, [a] * Nac wyla.

z Barn. 10. 16. Salm 86. 5, 15. a 103. 13. Es. 63. 9. Jer. 31. 20. Galar. 3. 32, 33. Marc 8. 2. Ioan 11. 33—35. Heb. 2. 17. a 4. 15. a pen. 8. 52. Jer. 31. 15, 16. Ioan 20. 13, 15. 1 Cor. 7. 30. 1 Thes. 4. 13.

14 A phan ddaeth *attynt*, efe † a gyffyrdd-
odd â'r elor: (a'r rhai oedd yn ei dwyn, a
safasant) Ac efe a ddywedodd, [b] Y mab ieu-
angc, ‡ yr wyf yn dywedyd wrthyt, Cyfod.

b pen. 8. 54, 55. 1 Bren. 18. 21. Job 14. 12, 14. Salm 33. 9. Es. 26. 19. Ezec. 37. 3—10. Ioan 5. 21, 25, 28, 29. a 11. 25, 43, 44. Act. 9. 40, 41. Rhuf. 4. 17. Eph. 5. 14.

15 ‖ A'r marw a gyfododd yn ei eistedd, ac a ddechreuodd lefaru. [c] Ac efe a'i rhoddes i'w fam.

c 1 Bren. 17. 23, 24. 2 Bren. 4. 34—37.

* Nid oes genym hanes i Grist fyned i Naïn erioed ond y tro yma. Dinas ydoedd, meddant, yn nghŵr eithaf terfynau llwyth Issachar, tua Samaria; felly yr oedd gan Grist tua thair milltir ar ddeg i deithio yno o Capernaum: ond nid oedd hyny yn ormod gan Fab Duw ei gerdded i wneuthur daioni. † Tybir iddo fyned yno yn y prydnawn, tuag amser claddu; a'i neges oedd, cyfodi mab y wraig weddw. ‡ Arferai yr Iuddewon gladdu eu meirw allan o'r dinasoedd, nid o fewn eu dinasoedd fel gyda ni. ‖ Amgylchiad trwm ac athrist ydoedd hwn; y fam yn weddw, a hwn ei hunig blentyn yn myned i'w gladdu. Felly y diffoddid ei marworyn hi, yr hwn a adawyd, heb adael i'w gwr nac enw nac eppil ar wyneb y ddaear. 2 Sam. 14. 7. Yr oedd yn ddefod rwymedig yn mhlith yr Iuddewon, i bwy bynag a gyfarfyddai â chorph yn myned i'w gladdu, i fyned gyda'r cynhebrwng ac ymuno yn y galar. § Ond dyma yr adgyfodiad mawr, ac Arglwydd y bywyd ei hun, yn dyfod i gymmeryd plaid y weddw dlawd ac unig; ac ar y ffordd, rhwng y tŷ a'r bedd, yn ymladd brwydr âg angeu, ac yn achub oenig y wraig weddw megys o'i safn ef, yn y fàn cyn iddo fyned âg ef i'w ffau: a hyny o'i wir dosturi ei hun, heb i neb geisio ganddo. Gallwn ni weled yn hyn, y dylem wneyd pa ddaioni a allom o honom ein hunain, heb aros i neb geisio genym. * Nid yw yr Arglwydd Iesu yma yn attal, neu yn gwarafun wylo, wrth i ni gladdu ein perthynasau a'n cyfeillion; mae yn rhaid i deimladau natur gael eu ffordd yn hyny, ac e wylodd Iesu ei hun wrth fedd ei gyfaill Lazarus. Ond dywedodd wrth y weddw hon, "Nac wyla," am y caffai weled yn fuan iawn nad oedd achos iddi wylo, y trôid ei dagrau hi yn orfoledd yn adgyfodiad sydyn ac annysgwyliadwy ei mab. † Nid â'r corph marw, am y barnai yr Iuddewon y buasai hyny yn rhyfygus iawn, i gyffwrdd â'r marw heb achos; am yr halogai yn seremoniol, y neb a gyffyrddai â'r marw. ‡ Nid, yr wyf yn dywedyd wrthyt, yn enw Duw, cyfod, fel y dywedai yr apostolion, (Act. 3. 6, 16. a 16. 18:) ond dywedyd fel Duw anfeidrol, yn ei enw anfeidrol ei hun, "Cyfod." ‖ Cerddodd gallu dwyfol gyda'r gair, fel wrth greu y byd; a chyfododd y marw yn nerth bywyd ac yn ei gyflawn iechyd, er gorfoledd i'w fam, a syndod yn ddiau i'r "bagad" oedd o amgylch. Ni byddai yr Iuddewon yn rhoi y marw mewn arch gauedig, fel yn ein gwlad ni, am hyny gallai y marw hwn gyfodi yn ei eistedd ar yr elor, fel y dywedir yma iddo wneyd. Mae yn amlwg yn hanes adgyfodiad Lazarus, ac yn hanes claddu ac adgyfodi Crist ei hun, na chladdwyd yr un o'r ddau mewn arch,dim ond eu hamdôi mewn llieiniau.

16 * Ac [d] ofn a ddaeth ar bawb: † a [e] hwy a ogoneddasant Dduw, gan ddywedyd, [f] ‡ Prophwyd mawr a gyfododd yn ein plith; ac, [g] Ymwelodd Duw â'i bobl.

d pen. 5. 8, 26. a 8. 37. Jer. 33. 9. Mat. 28. 8. Act. 5. 5, 11—13. e pen. 2. 20. Mat. 9. 8. a 15. 31. Gal. 1. 24. f adn. 39. pen. 9. 19. a 24. 19. Ioan 1. 21, 25. a 6. 14. a 7. 40, 41. a 9. 17. Act. 3. 22, 23. a 7. 37. g pen. 1. 68. a 19. 44. Ex. 4. 31. Salm 65. 9. a 106. 4, 5.

17 ‖ A'r [h] gair hwn a aeth allan am dano trwy holl Judea, a thrwy gwbl o'r wlad oddi amgylch.

h pen. 4. 14. Mat. 4. 24. a 9. 31. Marc 1. 28. a 6. 14.

* Dyna'r effeithiau oedd ar bawb *yno* y *pryd hwnw;* ond taerodd anghredwyr lawer gwaith wedi hyny, yn mhen cannoedd o flynyddoedd, nad oedd y gwr ieuanc wedi marw, ond mai mewn llêwyg yn unig yr oedd, ac felly nad oedd hon wyrth yn y byd: fel pe gwyddent hwy yn well na'r lliaws pobl oedd yno yn bresenol, y rhai ni buasent yn ei gladdu, mae yn debygol, heb fod yn sicr ei fod wedi llwyr a gwir farw. † Arferai y dysgawdwyr Iuddewig ddywedyd, fod agoriadau y cym ylau, y groth, a'r bedd, yn llaw Duw; gan hyny ni gallai y bobl hyn ddim llai na gweled mawredd a lla Duw yn y wyrth ryfedd hon. ‡ Cydnabuant fod Ies yn Brophwyd, yn Brophwyd mawr; a chydnabuant fo ei ddanfoniad ef yn ymweliad grasol Duw â'i bol Israel. Ond pa un a gredasant ynddo fel Mab Duw, Messiah, nis gwyddom: mae pob ofni, moliannu, rhy feddu, a chyffesu, heb hyny, yn annigonol i gadw y enaid. ‖ Yr oedd y wyrth mòr amlwg, mòr ddiammheu ol, ac mòr rhyfedd, fel nad oedd modd peidio siarad ar dani drwy yr holl wlad, er anrhydedd i Grist gan rai, chenfigen oddiwrth lawer eraill.

18 [i] A'i ddisgyblion a fynegasant i Ioa hyn oll.

i Gwel ar Mat. 11. 2—6.—Ioan 3. 26.

19 ¶ * Ac Ioan, wedi galw [k] rhyw ddau o' ddisgyblion atto, a anfonodd at yr Iesu, ga ddywedyd, [l] Ai ti yw yr hwn sydd yn dyfod ai un arall yr ŷm yn ei ddisgwyl?

k pen. 10. 1. Jos. 2. 1. Marc 6. 7. Act. 10. 7, 8. Dat. 11. 3 l Gen. 3. 15. a 22. 18. a 49. 10. Deut. 18. 15—18. Salm 110. 1—4 Es. 7. 14. a 9. 6, 7. a 11. 1. a 40. 10, 11. a 59. 20, 21. Jer. 23. 5, 6 Dan. 9. 24—26. Mica 5. 2. Hag. 2. 7. Zec. 9. 9. Mal. 3. 1—3. a 4 2. Ioan 4. 25.

20 A'r gwŷr pan ddaethant atto, a ddywed asant, Ioan Fedyddiwr a'n danfonodd ni atta ti, gan ddywedyd, Ai ti yw yr hwn sydd yn dyfod? ai arall yr ŷm yn ei ddisgwyl?

21 * A'r awr honno efe a iachâodd lawe oddi wrth glefydau, a [m] phlâau, ac ysprydion drwg; ac i lawer o ddeillion ‡ y rhoddes efe eu golwg.

m 1 Bren. 8. 37. Salm 90. 7—9. Marc 3. 10. a 5. 29, 34. 1 Cor 11. 30—32. Heb. 12. 6. Iago 5. 14, 15.

22 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Ewch a mynegwch i Ioan y pethau a welsoch ac a glywsoch; [n] fod y deillion yn gweled eilwaith, [o] y cloffion yn rhodio, [p] y gwahanglwyfus wedi eu glanhâu, [q] y byddar iaid yn clywed, [r] y meirw yn cyfodi, [s] ‖ y tlodion yn derbyn yr efengyl.

n adn. 21. pen. 18. 35—43. Job 29. 15. Salm 146. 8. Es. 29 18, 19. a 32. 3, 4. a 35. 5, 6. a 42. 6, 7, 16. a 61. 1—3. Jer. 31. 8 Mat. 9. 28—30. a 21. 14. Ioan 9. 30—33. Act. 26. 18. o Mat 15. 30, 31. Act. 3. 2—8. a 8. 7. a 14. 8—10. p Gwel ar pen. 5 12—15. a 17. 12—19. q Es. 43. 8. Marc 7. 32—37. r Gwe ar adn. 14, 15. pen. 8. 53—55. s pen. 4. 18. Zeph. 3. 12. Iago 2. 5.

23 § A [t] gwyn ei fyd y neb ni rwystrir yno fi.

t pen. 2. 34. Es. 8. 14, 15. Mat. 11. 6. a 13. 57, 58. Ioan 6. 6 —66. Rhuf. 9. 32, 33. 1 Cor. 1. 22, 23. a 2. 14. 1 Pedr 2. 7, 8.

Gwel ar Matth. 11. 2—6. * Sylwyd yn Matthew, ma er mwyn ei ddysgyblion y danfonodd Ioan hwy at Gris ar y neges hwn, ac nid er ei fwyn ei hun; i'w cadarnâ hwy yn y ffydd mai Iesu oedd y Messiah, ac nid i fodd loni ei feddwl ei hun, yr hwn oedd wedi cael digon dystiolaeth o hyny eisoes, wrth ei fedyddio ef. On bu rhai a dybiasant, fod ammheüaeth wedi codi y meddwl Ioan ei hun yn ei hir garchariad: eithr n oes sail i dybied felly am dano ef. † Pa olwg ryfedd rydd yr adnod hon i ni ar rifedi ac amrywiaethau gwyrthiau a wnaeth ein Harglwydd! Onid oedd ym ddigon o dystiolaeth, mai efe yn sicr oedd yr hwn oed ar ddyfod? ‡ Mae y gair rhoddi yma, yn dangos mo werthfawr oedd i'r deillion gael eu golwg; ac mo rhwydd, rhad, a grasol, yr oedd ein Harglwydd yn rhodd eu golwg iddynt. ‖ Y tlodion yn cael pregethu y efengyl iddynt, medd Matthew, yr oedd pob un o'r dda ddywediad yn wir; yr oeddent yn cael pregethu yr e engyl iddynt, ac yr oeddynt yn derbyn yr efengyl a bre gethid. Dau beth mawr yw hyn; nis gellir derbyn y efengyl heb gael ei phregethu i ni; ond, O'r nifer syd

ig gwlad ni yn cael ei phregethu iddynt, ac heb
hwniad iddi ganddynt! Nid oedd nemawr ond y
n yn ei derbyn y pryd hwnw mwy nac yn awr:
edodd neb o'r penaethiaid iddo," ebai y pharise-
y ymffrostgar. § Os gwŷn fyd y neb ni rwystrir
, pa faint mwy gwŷn fyd y rhai a gredant ynddo
derbyniant yn eu calon? Ond efallai nad oes
e canol rhwng y ddau beth; ond bod pob dyn un
mrwystro ynddo neu yn credu ynddo.

¶ * Ac wedi i genhadau Ioan fyned
h, efe a ddechreuodd ddywedyd wrth y
edd am Ioan, [u] Beth yr aethoch allan i'r
ethwch i'*w* weled? [y] † Ai corsen yn
gan wynt?

Gwel ar Mat. 11. 7, 8. x pen. 1. 80. a 3. 2. Mat. 3. 1—
c 1. 4, 5. Ioan 1. 23. y Gen. 49. 4. 2 Cor. 1. 17—20.
1 14. Iago 1. 6—8. 2 Pedr 2. 17. a 3. 17.

Ond pa beth yr aethoch allan i'*w* weled?
dyn wedi ei ddilladu â dillad esmwyth?
, y rhai sydd yn arfer dillad anrhydedd-
moethau, [a] mewn palasau brenhinoedd y
t.

2 Bren. 1. 8. Es. 59. 17. Mat. 3. 4. 1 Pedr 3. 3, 4. a 1 Bren.
Esther 4. 2. a 5. 1. a 8. 15. Mat. 6. 29.

Eithr beth yr aethoch allan i'*w* weled?
prophwyd? Yn ddiau meddaf i chwi, [c] a
r mwy na phrophwyd.

en. 1. 76. a 20. 6. c pen. 16. 16. Gwel ar Mat. 11. 9—
an 3. 26, &c. a 5. 35.

Hwn yw *efe* am yr un yr ysgrifenwyd,
lle, yr wyf fi yn anfon fy nghennad o
dy wyneb, yr hwn a barrottöa dy ffordd
flaen.

en. 1. 16, 17, 76. Es. 40. 3. Mal. 3. 1. a 4. 5, 6. Ioan 1. 23.

Canys meddaf i chwi, [e] Ym mhlith y
a aned o wragedd, nid oes brophwyd mwy
Ioan Fedyddiwr: [f] eithr yr hwn sydd leiaf
heyrnas Dduw, sydd fwy nag ef.

en 1. 14, 15. a 3. 16. f pen. 9. 48. a 10. 23, 24. Mat. 11.
13. 16, 17. Eph. 3. 8, 9. Col. 1. 25—27. Heb. 11. 39, 40.
1 1. 10—12.

el ar Matth. 11. 7—11. * "Wedi i genadau Ioan
ymaith:" Ni roddodd Iesu y ganmoliaeth hon i
yn nghlyw y cenadau, rhag y tybiai neb ei fod yn
eithio iddo, er mwyn i Ioan ei ganmol yntau, ac i
yd rhoddi achlysur i'r fath dyb, ni bu dim gohebiaeth rhyngddo âg Ioan yn y carchar, ac ni wnaeth efe
tuag at ei ryddâu ef. † Mae yn annhebyg iawn
y pethau a ddywedir yma am Ioan fod unrhyw
neüaeth yn ei feddwl ef ei hun am Grist. Gwel y
w ar adn. 19. Am y pethau eraill yn yr hanes
l, gwel y sylwadau ar Matthew 11. 7—11.

29 A'r holl * bobl a'r oedd yn gwrando, a'r
ublicanod, [g] a ‡ gyfiawnhasant Dduw,
edi eu bedyddio â bedydd Ioan.

g adn. 35. Barn. 1. 7. Salm 51. 4. Rhuf. 3. 4—6. a 10. 3. Dat.
n 16. 5. h pen. 3. 12. Mat. 21. 31, 32.

30 || Eithr y Phariseaid a'r cyfreithwyr yn
erbyn eu hunain a ddiystyrasant [i] gynghor
, heb eu bedyddio ganddo.

i Act. 20. 27. Eph. 1. 11.

Ei yw yr adnodau hyn gan Matthew, a thybia rhai
sylwadau Luc ei hun ar deimladau y rhai oedd yn
yn gwrando ar ganmoliaeth Crist i Ioan ydynt, ac
eiriau Crist am wrandawyr Ioan: ond mae y duw-
lion goreu yn tybied mai geiriau Crist am wran-
r Ioan ydynt. * Diystyrai y phariseaid a'r Doctor-
ty "bobl," fel rhai anllythyrenog ac anwybodus.
Ioan 7. 49. † Diystyrent y publicanod ynte yn
lfel rhai anfad o ddrygionus ac ysgymun. ‡ A gyf-
nasant Dduw, trwy gydnabod y farn a fygythiai
trwy addef yr angenrheidrwydd o edifeirwch a

diwygiad, a thrwy dderbyn, mewn rhyw fesur, dystiolaeth Ioan am Iesu fel Messiah: ac yr oedd cymmeryd eu bedyddio yn arwydd proffesedig o'r pethau uchod a enwyd. || Ond diystyrodd y gwŷr mawr a dysgedig holl weinidogaeth Ioan, er ei fod wedi ei anfon gan Dduw ac yn cyhoeddi meddwl a chyngor Duw. Ni dderbynient ei eiriau, ac nid ymostyngent i gymmeryd eu bedyddio ganddo, yr hyn ymddygiad oedd yn eu herbyn, ac yn chwanegu eu pechod a'u condemniad yn y diwedd.

31 ¶ † A dywedodd yr Arglwydd, [k] I bwy gan hynny y cyffelybaf ddynion y genhedlaeth hon? ac i ba beth y maent yn debyg?

k Galar. 2. 13. Mat. 11. 16. Marc 4. 30.

32 [l] Tebyg ydynt i [m] blant yn eistedd yn y farchnad, ac yn llefain wrth eu gilydd, ac yn dywedyd, Canasom bibau i chwi, ac ni ddawnsiasoch; cwynfanasom i chwi ac ni wylasoch.

l Diar. 17. 16. Es. 28. 9—13. a 29. 11, 12. Jer. 5. 3—5. Gwel ar Mat. 11. 16—19. m Zec. 8. 5.

33 Canys [n] daeth Ioan Fedyddiwr heb na bwytta bara, nac yfed gwin; a chwi a ddywedwch, [o] Y mae cythraul ganddo.

n pen. 1. 15. Jer. 16. 8—10. Mat. 3. 4. Marc 1. 6. o Mat. 10. 25. Ioan 8. 48, 52. a 10. 20. Act. 2. 13.

34 Daeth Mab y dyn [p] yn bwytta ac yn yfed; ac yr ydych yn dywedyd, Wele ddyn glwth, ac yfwr gwin, [q] cyfaill publicanod a phechaduriaid.

p pen. 5. 29. a 11. 37. a 14. 1. Ioan 12. 2. q pen. 15. 2. a 19. 7. Mat. 9. 11.

35 † A [r] doethineb a gyfiawnhâwyd gan bawb o'i phlant.

r adn. 29. Diar. 8. 32—36. Hos. 14. 9. Mat. 11. 19. 1 Cor. 2. 14, 15.

Gwel ar Matth. 11. 16—19. * Er mòr wahanol oedd dull Ioan a Christ yn byw, y naill yn arbedus iawn mewn bwyta ac yfed, ac yn arwain bywyd didryfaidd a neillduedig; a'r llall yn bwyta ac yn yfed yn rhydd ac yn gymdeithasgar; eto nid oedd y naill na'r llall yn boddâu dynion anfoddawg y genedlaeth hòno. † Eto, yr oedd gan Dduw ei weddill y pryd hwnw, o blith y werin bobl a'r publicanod, adn. 29.; ac yr oedd y gweddill hyny yn cyfiawnâu gweinidogaeth Ioan, ac yn cyfiawnâu Crist, Doethineb Personol Duw, a'i athrawiaeth hefyd.

36 ¶ * Ac un o'r Phariseaid a ddymunodd arno fwytta gyd âg ef: [s] † ac yntau a aeth i dŷ y Pharisead, ac a eisteddodd i fwytta.

s adn. 34. pen. 11. 37. a 14. 1.

Sonia Matth. 26. 7, a Marc 14. 3, am Iesu yn nhŷ rhyw Simon; ond hanes arall sydd yno, lle arall, amser arall, a rhyw Simon arall. Gwel ar y mànau hyny. * Yr oedd hyn yn garedigrwydd mawr mewn pharisead; gelynion gwaethaf Iesu oedd y blaid hòno yn gyffredin. Mae yn debyg fod yr ymadroddion wedi cael effaith go rymus ar ei feddwl ef, ac eto bod ei ragfarn ef yn fawr yn erbyn Iesu, ac yn ammheüus iawn ai phrophwyd oedd efe, (gwel adn. 39;) am hyny ewyllysiai gael y cyfle hwn i ddàl yn graff a manwl ar bob gair ac ymddygiad o'r eiddo ef yn ei dŷ ac wrth ei fwrdd: ac mae yn debyg bod yno amryw eraill o'r un meddwl. † Gan fod Iesu yn ewyllysio defnyddio pob cyfle i wneuthur daioni, efe a aeth yn rhwydd gydag ef. Medrai ef fyned i bob màn heb gael ei lygru, na llygru eraill, ond gadawai ryw arogl peraidd ar ei ol pa le bynag yr elai; da fyddai i ni fod yn debyg iddo yn hyn hefyd.

37 * Ac wele, gwraig yn y ddinas, [t] yr hon † oedd bechadures, pan wybu hi fod yr Iesu yn eistedd ar y bwrdd yn nhŷ y Pharisead, [u] ‡ a ddug flwch o ennaint:

t adn. 39. pen. 5. 30. a 18. 13. a 19. 7. Mat. 21. 31. Ioan 9. 24, 31. Rhuf. 5. 8. 1 Tim. 1. 9, 15. 1 Pedr 4. 18. u Mat. 26. 7. Marc 14. 3. Ioan 11. 2. a 12. 2, 3.

38 ‖ A chan sefyll wrth ei draed ef o'r tu
ol, [x] § ac wylo, *hi* a ddechreuodd [y] olchi ei
draed ef â dagrau, * ac a'*u* sychodd â gwallt
ei phen: † a hi a gusanodd ei draed ef, [z] ac
a'*u* hirodd â'r ennaint.

x pen. 6. 21. a 22. 62. Barn. 2. 4, 5. Ezra 10. 1. Salm 6. 6—8. a 38. 18. a 51. 17. a 126. 5, 6. Es. 61. 3. Jer. 31. 9, 18—20. Joel 2. 12. Zec. 12. 10. Mat. 5. 4. 2 Cor. 7. 10, 11. Iago 4. 9. y adn. 44. Gen. 18. 4. Ioan 13. 4, 5. z adn. 45, 46. Preg. 9. 8. Can. 1. 3. Es. 57. 9.

* Nis gwyddom pwy oedd y wraig hon, ac nid oes un sail i feddwl mai Mair Magdalen ydoedd, fel y dywed rhai; gwraig drallodus iawn oedd hòno, yn hytrach na phechadurus. † Pechadures nodedig, o'r fath waethaf: felly yr arwydda y gair *amartôlos*, a phan ei dywedir am fenywaid, mae yn arwyddo y pechod o anniweirdeb. Hi a *fuasai* yn bechadures fawr, eithr nid oedd felly yn bresenol, ond yn nghyfrif y bobl oedd yn y tŷ, y rhai ni wyddent, efallai, am y cyfnewidiad grasol a wnaethid arni, neu ni chredent. Anodd gan ddynion heb eu cyfnewid eu hunain, yn enwedig dynion deddfol, gredu fod cyfnewidiad gwirioneddol yn cael ei wneyd ar eraill, yn enwedig pechaduriaid mawrion. ‡ Mae yn debyg y byddai y wraig hon yn arfer defnyddio ennaint i ddyben gwahanol iawn o'r blaen; sef i'w haddurno ei hun er hudo eraill, (Gwel Diar. 7. 17;) ond yma mae yn cael ei gyssegru i enneiniaw traed yr Arglwydd Iesu, yr hwn a gymmerasai drugaredd arni. ‖ Byddai yr Iuddewon yn eistedd wrth y bwrdd yn wahanol i ni; sef yn eu lled-orwedd ar feinciau hirion, a'u traed allan, y blaenaf tu ol i'r ail, a phen yr ail yn mynwes y blaenâf. Fel hyny yr oedd yn hawdd i'r wraig hon ddyfod at draed yr Iesu o'r tu ol iddo. Dylid sylwi hefyd mai sandalau a wisgent hwy, a bod y rhai hyny wedi eu diosg yn y tŷ. § Yr oedd y dagrau hyn yn ddagrau o wir edifeirwch; dagrau o lawenydd; dagrau o gariad; a dagrau o dra diolchgarwch; am y drugaredd a'r maddeuant a gawsai hi; ac yr oedd yno *ffrydiau* o honynt, digon i *olchi* traed yr Arglwydd Iesu. * Dyma'r gwallt hefyd, a ddefnyddiasai hi o'r blaen, fel yr ennaint, i ddybenion hudol ac anllad, yn cael ei ddefnyddio yn awr yn llawethau hirion, i sychu traed blinedig yr Arglwydd Iesu. † Mae cusanu yn yr ysgrythyrau yn arwyddo cariad, ymostyngiad, yn enwedig cusanu y traed, ac yn arwyddo addoliad. Felly yr oedd yma, yn arwyddo pob un o'r tri pheth, a hyny yn eithaf diragrith a gwresoglawn. Dylasai Simon olchi traed Iesu, enneinio ei ben, a'i gusanu: felly y gwnai yr Iuddewon â'u gwahoddedigion cyn bwyta; ond yr oedd Mab Duw a'i ddysgyblion yn rhai rhy isel a dirmygus gan y pharisead balch hwn i gyflawni y defodau hyny o lettygarwch iddynt. Cafodd y bechadures hon y rhagorfraint o wneyd hyny i Grist

39 * A phan welodd y Pharisead, yr hwn
a'i gwahoddasai, [a] efe a ddywedodd ynddo ei
hun, gan ddywedyd, [b] † Pe bai hwn brophwyd,
[c] efe a wybuasai pwy, a pha fath wraig *yw yr*
hon sydd yn cyffwrdd âg ef: ‡ canys pechad-
ures yw hi.

a pen. 3. 8. a 12. 17. a 16. 3. a 18. 4. 2 Bren. 5. 20. Diar. 23. 7. Marc 2. 6, 7. a 7. 21. b adn. 16. Ioan 7. 12, 40, 41, 47—52. c adn. 37. pen. 15. 2, 28—30. a 18. 9—11. Es. 65. 5. Mat. 9. 12, 13. a 20. 16. a 21. 28—31.

* Gwelwn yma mòr hawdd yw gan ddynion heb gariad Duw yn eu calonau, dramgwyddo, lle nad oes un achos gwirioneddol o dramgwydd yn bod. † Rheswm gwael oedd hwn gan y pharisead; nis gwyddai y prophwydi mwy na dynion eraill beth oedd dynion ar yr olwg gyntaf, ond fel y datguddiai Duw iddynt, neu fel y gwelent yn eu geiriau a'u bucheddau hwynt. ‡ Os oedd hi wedi bod yn bechadures, onid allasai hi fod wedi ei throi? ac onid oedd ei hymddygiad hi yn awr yn profi ei bod wedi ei throi. Hefyd, pe buasai hi y pryd hwnw yn bechadures, eto, a allasai hi ddim cyfhwrdd â Christ? Pwnc pharisead hollawl oedd hwn; golygent hwy bawb ar nad oedd o'u plaid hwy, a phawb nodedig am ryw bechodau, fel y gwahan-gleifion; ac nad allai neb gyfhwrdd â hwy heb gael ei aflanâu yn y cyfhyrddiad. Dywedir am y Samariaid, pan welent Iuddew neu Gristion yn dyfod i'w cyfarfod, gwaeddent o bell arno, "Na chyfhwrdd â mi." Gwel hefyd Esaiah 65. 5.

40 * A'r Iesu [d] gan atteb a ddywedodd
wrtho, Simon, y mae gennyf beth i'w ddywed-
yd wrthyt. Yntau a ddywedodd, [e] Athraw,
dywed.

d pen. 5. 22, 31. a 6. 8. Ioan 16. 19, 30. e pen. 18. 18. a 20. 20, 21. Ezec. 33. 31. Mal. 1. 6. Mat. 7. 22. a 26. 49. Ioan 3. 2. a 13. 13.

41 [f] † Dau ddyledwr oedd i'r un echwynwr:
[g] y naill oedd arno bùn can [h] ceiniog o ddyled,
[i] a'r llall ddeg a deugain.

f pen. 11. 4. a 13. 4. Es. 50. 1. Mat. 6. 12. a 18. 23—25. g adn. 47. Rhuf. 5. 20. 1 Tim. 1. 15, 16. h Mat. 18. 28. i pen. 12. 48. Num. 27. 3. Jer. 3. 11. Ioan 15. 22—24. Rhuf. 3. 23. 1 Ioan 1. 8—10.

42 ‡ A [k] phryd nad oedd ganddynt ddim i
dalu, [l] ‖ efe a faddeuodd iddynt ill dau. Dywed
gan hynny, pwy o'r rhai hyn a'i câr ef yn
fwyaf?

k Salm 49. 7, 8, Mat. 18. 25, 26, 34. Gal. 3. 10. l Salm 32. 1—5. a 51. 1—3. a 103. 3. Es. 43. 25. a 44. 22. Jer. 31. 33, 34. Dan. 9. 18, 19. Mica 7. 18—20. Mat. 6. 12. Act. 13. 38, 39. Rhuf. 3. 24. a 4. 5—8. a 11. 6. Eph. 1. 7. a 4. 32. Col. 3. 13.

43 A Simon a attebodd ac a ddywedodd,
[m] Yr wyf fi yn tybied mai yr hwn y maddeu-
odd efe iddo fwyaf. Yntau a ddywedodd
wrtho, [n] Uniawn y bernaist.

m adn. 47. 1 Cor 15. 9, 10. 2 Cor. 5. 14, 15. 1 Tim. 1. 13—16. n pen. 10. 28. Marc 12. 34.

44 § Ac efe a drôdd at y wraig, ac a ddy-
wedodd wrth Simon, [o] A weli di y wraig hon?
mi a ddaethum i'th dŷ di, [p] ac ni roddaist i mi
ddwfr i'm traed: ond hon a olchodd fy nhraed
â dagrau, ac a'*u* sychodd â gwallt ei phen.

o adn. 37—39. p Gen. 19. 2. Barn. 19. 21. 1 Sam. 25. 41. 1 Tim. 5. 10. Iago 2. 6.

45 [q] Ni roddaist i mi gusan: ond hon, er
pan ddaethum i mewn, ni pheidiodd â chusanu
fy nhraed.

q Gen. 29. 11. a 33. 4. 2 Sam. 15. 5 a 19. 39. Mat. 26. 48. Rhuf. 16. 16. 1 Cor. 16. 20. 1 Thes. 5. 26.

46 Fy mhen [r] âg olew nid iraist: ond hon
a irodd fy nhraed âg ennaint.

r Ruth 3. 3. 2 Sam. 14. 2. Salm 23. 5. a 104. 15. Preg. 9. 8. Dan. 10. 3. Amos 6. 6. Mica 6. 15. Mat. 6. 17.

47 O herwydd paham y dywedaf wrthyt,
[s] Maddeuwyd ei haml [t] bechodau hi; * oblegid
[u] hi a garodd yn fawr: ond y neb y maddeuer
ychydig iddo, a gâr ychydig.

s adn. 42. pen. 5. 20, 21. Ex. 34. 6, 7. t Es. 1. 18. a 55. 7. Ezec. 16. 63. a 36. 29—32. Mica 7. 19. Act. 5. 31. Rhuf. 5. 20. 1 Cor. 6. 9—11. 1 Tim. 1. 14. 1 Ioan 1. 7. u adn. 43. Mat. 10. 37. Ioan 21. 15—17. 2 Cor. 5. 14. Gal. 5. 6. Eph. 6. 24. Phil. 1. 9. 1 Ioan 3. 18. a 4. 19. a 5. 3.

48 Ac efe a ddywedodd wrthi, Maddeuwyd
i ti dy bechodau.

* Mae y wers bwysig a roddir yma i'r Pharisead, yn brawf eglur fod Iesu yn brophwyd mewn gwirioneddd; ac y gwyddai efe beth a ddywedasai efe "ynddo ei hun," er nas dywedasai allan yn glywedig i neb. † Yr echwynwr yma yw Duw; y dyledwr mwyaf oedd y bechadures hon, ac eraill cyffelyb iddi; y dyledwr lleiaf, efallai, oedd Simon ei hun, ac eraill tebyg iddo, nad oeddent yn bechaduriaid gwarthus, fel y buasai y wraig hon. ‡ Er eu bod yn wahanol o ran swm eu dyledion; eto yr oeddent ar yr un tir o ran modd i dalu: nid oedd gan yr un o honynt ddim i dalu. ‖ "Duw parod i faddau" ydyw yr Arglwydd; ac ar dir maddeuant rhad mae yn

i'r dyn mwyaf deddfol a moesol gael ei achub, yn
d â'r penaf o bechaduriaid. Oddi wrth y ddammeg
l, gofyniad Crist, ac atebiad Simon, gallwn dynu
lysgiadau canlynol:—1. Nad yw pob math o bech-
aid ddim yn hollawl yr un peth yn ngolwg Duw:
awb yn euog, ond y mae gwahanol raddau o euog-
d. 2. Bydded pechodau dynion y peth a fyddont,
neu lai, ychydig neu lawer, mae yn rhaid i'r rhai
gael trugaredd a maddeuant rhad gan Dduw.
d Duw yn maddau pechodau yn rhad, ac o'i
ld, pa un bynag ai ychydig ai llawer a fyddont.
au yn rhwydd, yw ystyr y gair gwreiddiol yma.
wed Crist yma mai y maddeuant a gafodd y ddau
dwr, yw yr achos o'u cariad. Nid maddau am
eithr caru am faddau ydoedd. 5. Bod cariad
yn canlyn maddeuant mawr. Ni bydd pechadur
(yr hwn a fu felly) byth yn foddlawn iddo ei hun
feddwl iddo gael maddeuant mawr, os na theimla
galon yn gynhes iawn o gariad at Dduw. 6. Bydd
gariad at Dduw a Christ i'w weled yn amlwg mewn
math o weithredoedd cyfaddas i'w amlygu a'i
gos ef. § Oddi yma yn mlaen mae Crist yn de-
i y ddammeg; yn argyhoeddi y Pharisead o'i
g o ddyledswyddau cyffredin llettygarwch, ac yn
ol y bechadures am gyflawni yr hyn a esgeulusas-
non. Gwelwn yma yr addysgiadau canlynol:—
th bynag a fuasai y wraig hon gynt, nid oedd
awr ddim yn gymmaint pechadures ag y tybiai y
sead: maddeuwyd ei haml bechodau hi. 2. Gan
nw fel hyn faddau cymmaint iddi, efe a ennynodd
gariad mawr yn ei chalon hi tuag ato ei hun.
d y cariad hwn yn gweithio yn ei chalon hi mewn
fesur o gyfatebolrwydd i gariad Duw tuag ati: am
hi a garodd yn fawr. 4. Y dylai cariad dynion
at Dduw, fod yn gyfatebol i gariad Duw tuag
hwy. 5. Bod cariad mawr at Dduw yn dyfod
iimlad i'r enaid o gariad mawr Duw tuag atom ni,
14. 21. * Nid yw y gair "oblegid" yma, yn
ldo mai o herwydd cariad y wraig y maddeuwyd
byddai hyny yn groes i'r holl wirionedd ac yn
wyneb i athrawiaeth iachus. Gellid cyfieithu y
au fel hyn yn llawn cystal: Maddeuwyd ei haml
odau hi; *am hyny* hi a garodd yn fawr. Gwel
ddiad tebyg yn Hos. 9. 15. Nid *am* i Dduw gasâu
bl yr oeddent yn ddrygionus yn Gilgal; ond am
ygioni yno y casâodd Duw hwynt.

9 * A'r rhai oedd yn cyd-eistedd i fwytta
echreuasant ddywedyd ynddynt eu hunain,
y yw hwn sydd yn maddeu pechodau
ld ?

pen. 5. 20, 21. Mat. 9. 3. Marc 2. 7.

Mae yn debygol mai y Phariseaid oedd y rhai hyn,
herwydd eu hanghrediniaeth ynddo fel Messiah, a
nt ei fod yn cablu wrth ddywedyd y fath eiriau.
ond Duw a all faddau pechodau? Gwir; eithr Duw
hwn.

10 * Ac efe a ddywedodd wrth y wraig,
Dy ffydd a'th gadwodd; [z] dos mewn tang-
hefd.

pen. 8. 48. a 18. 42. Mat. 9. 22. Marc 5. 34. a 10. 52. Eph.
10. Iago 2. 14—26. z Preg. 9. 7. Rhuf. 5. 1, 2.

ar cadarnâu y wraig yn yr hyn a ddywedasai wrthi
aen, adn. 48, ac heb ddofi dim am rwgnachrwydd
ariseaid, mae efe yma eto yn dywedyd, Dy ffydd
adwodd, dos mewn tangnefedd. † Cadwedigaeth
wrth bechod, a chadwedigaeth i fywyd tragywyddol
cadw yn y fàn hon. Priodolir cadwedigaeth i
fel yr achos offeryn ol, nid fel yr achos haeddian-
nac ammodol. Ffydd sydd yn derbyn Crist fel
wad, ffydd sydd yn cyflawnâu y pechadur, neu yn
ch trwy ffydd y cyflawnêir ef, ac felly trwy ffydd
wir ef. ‡ Dos mewn tangnefedd â Duw, ac mewn
nefedd yn dy gydwybod dy hun. Beth bynag a
lio neu a ddywedo y Phariseaid diystyrllyd hyn,
dos di mewn tangnefedd: maddeuwyd dy bechodau ac
un o blant y tangnefedd ydwyt.

PEN. VIII.

Y gwragedd yn gweini o'u golud i Grist.

1 * ABU wedi hynny, [a] iddo fyned trwy bob
dinas a thref, gan bregethu, [b] ac efengylu
teyrnas Dduw: [c] † a'r deuddeg *oedd* gyd âg
ef;

a pen. 4. 43, 44. Mat. 4. 23. a 9. 35. a 11. 1. Marc 1. 39. Act. 10. 38. b pen. 2. 10, 11. a 4. 18. Es. 61. 1—3. Mat. 13. 19. Act. 13. 32. Rhuf. 10. 15. c pen. 6. 14—16. Mat. 10. 2—4. Marc 3. 16—19.

2 A [d] gwragedd rai, a'r a iachesid oddi wrth
ysprydion drwg a gwendid; ‡ Mair yr hon a
elwid Magdalen, [e] o'r hon yr aethai saith gy-
thraul allan;

d pen. 23. 27. Mat. 27. 55, 56. Marc 15. 40, 41. a 16. 1. Ioan 19. 25. Act. 1. 14. e Marc 16. 9.

3 [f] || Joanna, gwraig Chusa, [g] goruchwyliwr
Herod; § a Susanna, a llawer eraill, * y rhai
oedd yn gweini iddo [h] o'r pethau oedd gan-
ddynt.

f pen. 24. 10. g pen. 9. 7—9. Ioan 4. 46—53. Act. 13. 1. Phil. 4. 22. h 1 Cron. 29. 14. Es. 23. 18. Mat. 2. 11. a 25. 40. a 26. 11. Act. 9. 36—39. 2 Cor. 8. 9. 1 Tim. 5. 10.

* Sylwyd o'r blaen yn y gwaith hwn, a sylwn yma eto, mai pregethu yr efengyl oedd gorchwyl mawr, ïe, prif waith yr Arglwydd Iesu. Nid oedd gwneuthur gwyrthiau ond ail beth ganddo ef, er cadarnâu ei athrawiaeth; a lle ni dderbynid ei weinidogaeth, yno ni wnai efe wyrthiau. Mae yn rhyfedd fod neb ag sydd yn darllen yr efengyl, yn tybied fod gweinyddu yr ordinadau yn fwy peth na phregethu, nid yw hyny i'w weled yn esampl Crist na'i apostolion. † Gydag ef fel ei ganlynwyr gwastadol, fel ei deulu uniongyrchol, ac fel ei weision swyddol. Gydag ef, weithiau yn gwrando, ac weithiau yn pregethu eu hunain, bob yn ddau a dau: eto gweithio gydag ef yr oeddynt, ac yntau gyda hwythau. ‡ Tybia llawer mai yr un oedd hon â'r bechadures yn y bennod o'r blaen, ond yn hollol ddisail: nid oes un enw ar hòno ond pechadures, ac nis gall neb brofi i'r Mair hon fod yn bechadures mwy na chyffredin; canys blinder mawr iddi hi, ac nid ei phechod, oedd ei bod wedi ei meddiannu gan gythreuliaid. || Tybia rhai mai y Chusa hwn (a'i wraig Joanna) oedd y pendefig hwnw yr iachâodd Iesu ei fab, Ioan 4. 46—54. Pa un bynag am hyny, mae yn sicr mai gwraig uchel-radd a chyfrifol oedd y Joanna hon, ac mai gwraig dduwiol hefyd oedd. Mae gan Grist ei etholedigion yn mhob màn; Joseph yn llŷs Pharaoh; Daniel a'r tri llanc yn llŷs Nebuchodonozor; saint yn nheulu Cesar, Phil. 4. 22; a'r Joanna hon yn llŷs Herod. Mae yn debyg fod Chusa ei gwr yn foddlawn iddi wrando ar Grist a'i ganlyn; ond pa un bynag am hyny, hi a wyddai, er bod ganddo awdurdod ar ei chorph, nid oedd ganddo ddim ar ei henaid mewn pethau crefyddol. § Nis gwyddom pwy oedd hon, gan nad oes dim sôn am dani ond yn y fàn hon, a dim ond ei henw yma: mae yn debyg fod y tair uchod yn wragedd o beth meddiannau, pob un wedi cael eu hiachâu gan Grist fel y dywedir yn adn. 2, ac yn awr hwy a weinyddent iddo ef o'r pethau oedd ganddynt. * Gan i Fab Duw ddyfod er ein mwyn ni yn dlawd, ac nad oedd yn gweled yn dda ei gynnal ei hun trwy wyrthiau, ymostyngodd i gael ei borthi gan y gwragedd tirion hyn. Yr oeddynt hwythau yn ei gweled yn rhagor-fraint fawr gael gwneyd rhyw gymmwynas, i'r hwn a wnaethai gymmaint erddynt hwy yn dymmorawl ac yn ysbrydol. Nid oes dim hanes am y gwrrywaid yn gwneyd dim fel hyn iddo.

4 ¶ Ac [i] wedi i lawer o bobl ymgynnull

ynghyd, a chyrchu atto o bob dinas, efe a ddywedodd ar ddammeg:

i Mat. 13. 2. Marc 4. 1, &c.

5 Yr [k] hauwr a aeth allan i hau ei had: ac wrth hau, peth [l] a syrthiodd ar ymyl y ffordd; * ac a fathrwyd, [m] ac ehediaid y nef a'i bwyttâodd.

k adn. 11. Mat. 13. 3, 4, 18, 19, 24—26, 37. Marc 4. 2—4, 15, 26—29. l adn. 12. Heb. 2. 1. Iago 1. 23, 24. m Gen. 15. 11.

6 A pheth arall a syrthiodd ar [n] y graig; a phan eginodd, y gwywodd, am nad oedd iddo wlybwr.

n adn. 13. Jer. 5. 3. Ezec. 11. 19. a 36. 26. Amos 6. 12. Mat. 13. 5, 6, 20, 21. Marc 4. 5, 6, 16, 17. Rhuf. 2. 4, 5. Heb. 3. 7, 8, 15.

7 A pheth arall a syrthiodd ym mysg [o] drain; a'r drain a gyd-dyfasant, ac a'i tagasant ef.

o adn. 14. pen. 21. 34. Gen. 3. 18. Jer. 4. 3. Mat. 13. 7, 22. Marc 4. 7, 18, 19. Heb. 6. 7, 8.

8 A [p] pheth arall a syrthiodd ar dir da; ac a eginodd, ac a ddug ffrwyth [q] ar ei ganfed. Wrth ddywedyd y pethau hyn, efe a lefodd, [r] Y neb sydd â chlustiau ganddo i wrando, gwrandawed.

p adn. 15. Mat. 13. 8, 23. Marc 4. 8, 20. Ioan 1. 12, 13. a 3. 3—5. Eph. 2. 10. Col. 1. 10. q Gen. 26. 12. r Diar. 1. 20—23. a 8. 1. Mat. 11. 15. a 13. 9. Dat. 2. 7, 11.

9 A'i ddisgyblion a ofynasant iddo, gan ddywedyd, [s] Pa ddammeg oedd hon?

s Hos. 6. 3. Mat. 13. 10, 18, 36. a 15. 15. Marc 4. 10, 34. a 7. 17, 18. Ioan 15. 15.

10 Yntau a ddywedodd, [t] I chwi y rhoddwyd gwybod dirgeloedd teyrnas Dduw: eithr i eraill ar ddammegion: [u] fel yn gweled na welant, ac yn clywed na ddeallant.

t pen. 10. 21—24. Salm 25. 14. Mat. 11. 25. a 13. 11, 12. a 16. 17. Marc 4. 11, 12. Rhuf. 16. 25, 26. 1 Cor. 2. 7—11. a 12. 11. Eph. 3. 3—9. Col. 1. 26—28. a 2. 2. 1 Tim. 3. 16. 1 Pedr 1. 10—12. u Deut. 29. 4. Es. 6. 9, 10. a 29. 14. a 44. 18. Jer. 5. 21. Mat. 13. 14—17. Ioan 12. 40. Act. 28. 26, 27. Rhuf. 11. 7—10.

11 A dyma y ddammeg: [x] Yr had yw gair Duw.

x Es. 8. 20. Mat. 13. 19. Marc 4. 14. 1 Cor. 3. 6, 7, 9—12. Iago 1. 21. 1 Pedr 1. 23—25.

12 A'r rhai [y] ar ymyl y ffordd, ydyw y rhai sydd yn gwrando: [z] wedi hynny y mae y diafol yn dyfod, ac yn dwyn ymaith y gair o'u calon hwynt, † rhag iddynt gredu, a bod yn gadwedig.

y adn. 5. Diar. 1. 24—26, 29. Mat. 13. 19. Marc 4. 15. Iago 1. 23, 24. z 2 Thes. 2. 9—14. Dat. 12. 9.

13 A'r rhai ar y graig, *yw y rhai* pan glywant, [a] a dderbyniant y gair yn llawen; [b] a'r rhai hyn nid oes ganddynt wreiddyn, [c] y rhai sydd yn credu dros amser, ac yn amser profedigaeth yn cilio.

a Salm 106. 12—14. Es. 58. 2. Ezec. 33. 32. Mat. 13. 20, 21. Marc 4. 16, 17. a 6. 20. Ioan 5. 35. Gal. 4. 15—20. b Job 19. 28. Diar. 12. 3, 12. Eph. 3. 17. Col. 2. 7. Judas 12. c pen. 22. 31, 32. Hos. 6. 4. Ioan 2. 23—25. a 8. 30—32. a 12. 42, 43. a 15. 2, 6. Act. 8. 13—23. 1 Cor. 13. 2. a 15. 2. Col. 1. 23. 1 Thes. 3. 5. 1 Tim. 1. 19. 2 Tim. 2. 18, 19. Heb. 10. 39. Iago 2. 26. 2 Pedr 2. 20, 22. 1 Ioan 2. 19.

14 A'r hwn a syrthiodd ym mysg drain, yw y rhai a wrandawsant; ac wedi iddynt fyned ymaith, [d] hwy a dagwyd gan ofalon, a golud, a melyswedd buchedd, [e] ac nid ydynt yn dwyn ffrwyth i ‡ berffeithrwydd.

d adn. 7. pen. 16. 13. a 17. 26—30. a 18. 24, 25. a 21. 34. Mat. 6. 24, 25. a 13. 22. Marc 4. 19. 1 Tim. 6. 9, 10, 17. 2 Tim. 4. 10. 1 Ioan 2. 15, 16. e pen. 13. 6—9. Ioan 15. 6.

15 A'r hwn ar y tir da, yw y rhai hyn, y rhai [f] â chalon ‖ hawddgar a da, ydynt yn gwrando y gair, [g] ac yn ei gadw, ac [h] yn dwyn ffrwyth trwy § amynedd.

f pen. 6. 45. Deut. 30. 6. Salm 51. 10. Jer. 31. 33. a 32. 39. Ezec. 36. 26, 27. Rhuf. 7. 18. Eph. 2. 8. Iago 1. 16—19. 1 Pedr 2. 1, 2. g pen. 11. 28. Job 23. 11, 12. Salm 1. 1—3. a 119. 11, 127—129. Diar. 3. 1. Jer. 15. 16. Ioan 14. 15, 21—24. a 15. 10. 1 Cor. 7. 19. Heb. 2. 1. Iago 1. 22—25. 1 Ioan 2. 3. h Mat. 24. 13. Rhuf. 2. 7. a 6. 22. a 7. 4. Gal. 5. 22—26. Phil. 1. 11. a 3. 13—15. Col. 1. 6, 10. Heb. 6. 11, 12. a 10. 36. Iago 5. 7, 8.

Ni a gawsom y ddammeg hon yn Matth. 13, a Marc 4. Gwel y sylwadau yn y lleoedd hyny. * "Ac a fathrwyd:" ni chrybwyllir hyn gan Matthew na Marc, ac mae yn debyg ei fod yn arwyddo y diystyrwch mwyaf ar yr had dwyfol, a'r difaterwch mwyaf yn y gwrandawyr am dano: pob aderyn allan yn ei ddifa, a phob chwant ffiaidd yn ei fathru: nid rhyfedd iddo fyned yn ddiffrwyth. † Mae y cyssylltiad anwahanol rhwng credu âg iachawdwriaeth, ac anghredu â cholledigaeth, yn cael ei nodi yma yn amlwg iawn. Dangosir i ni yn y geiriau hefyd, bod hyny yn dra gwybodus i satan, ac ei fod ef yn arfer pob moddion i feithrin rhagfarn yn meddyliau dynion yn erbyn yr efengyl, ac i'w gwneyd yn ddibris o hóni. ‡ Pa beth bynag a ddyfethir cyn dyfod i'w gyflawn dŵf, a chyn y byddo yn addas i'w ddefnyddio, nid yw yn dyfod i berffeithrwydd: a phobpeth mewn crefydd, ag sydd yn fŷr o ffrwythlondeb mewn gweithredoedd da, yn ol yr amser a'r cyfleusderau a gaffer, y mae fel ŷd yn gwywo cyn addfedu. ‖ Gonest a da yn ol y Saesoneg: mae yn debyg fod y gair gwreiddiol o ystyr helaeth, yn arwyddo gonestrwydd a hawddgarwch. Nid oes yr un o'r ddau gan ddyn wrth natur, eithr trwy ras yn unig. Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynom ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef. § "Trwy amynedd," neu barâd: efe sydd yn dwyn ffrwyth i berffeithrwydd, ac yr hwn a barâo hyd y diwedd a fydd cadwedig.

16 ¶ Nid yw neb [i] wedi goleu canwyll, yn ei chuddio hi â llestr, neu yn *ei* dodi dan wely; eithr yn ei gosod ar ganhwyllbren, fel y caffo y rhai a ddêl i mewn weled y goleuni.

i pen. 40. 33. Mat. 5. 15, 16. Marc 4. 21, 22. Act. 26. 18. Phil. 2. 15, 16. Dat. 1. 20. a 2. 1. a 11. 4.

Gwel ar Matth. 5. 15. a Marc 4. 21. Mae Marc yn adrodd y geiriau fel gofyniad Crist, "A ddaw canwyll i'w dodi dàn lestr, &c.?" a Luc yma, yr un modd â Matthew, yn eu hadrodd fel dywediad nacâol. Mae yn bur debygol i Grist ail ddywedyd y geiriau, y tro cyntaf yn y naill ffordd, a'r ail dro y ffordd arall: fel hyny yr oedd yn eu hargraffu yn ddwysach ar feddyliau ei ddysgyblion, ac fel hyny yr oedd yr efengylwyr yn gyson â'u gilydd.

17 * Canys [k] nid oes dim dirgel, a'r ni bydd amlwg; na dim cuddiedig, a'r nis gwybyddir, ac na ddaw i'r goleu.

k pen. 12. 2, 3. Mat. 10. 26, 27. 1 Cor. 4. 5.

Gwel ar Matth. 10. 26, 27. a Marc 4. 22. * Nid amcanion dirgelaidd a gweithredoedd y tywyllwch sydd genym ni, myfi a'm dysgyblion; ond pethau a ddalient eu chwilio yn y goleuni mwyaf cyhoedd: ein hamcan ni yw goleuo'r byd, diwygio dynion, a thrwy hyny eu hachub. Er fy mod I yn llefaru mewn dirgelwch, a thrwy ddammegion yn awr; daw yr amser yn fuan pryd y traddodir yr un gwirioneddau yn fwy golau, yn fwy cyhoedd, ac heb ddammegion.

18 [l] Edrychwch am hynny pa fodd y clywoch: [m] canys pwy bynnag y mae ganddo, y rhoddir iddo; a'r neb nid oes ganddo, [n] ie, * yr hyn y mae yn tybied ei fod ganddo, a ddygir oddi arno.

l pen. 9. 44. Deut. 32. 46, 43. Diar. 2. 2—5. Marc 4. 23, 24. a 13. 14. Act. 10. 33. a 17. 11. Heb. 2. 1. Iago 1. 19—22. 1 Pedr 2. 1, 2. m pen. 19. 26. Mat. 13. 12. a 25. 29. Marc 4. 25. Ioan 15. 2. n pen. 12. 20, 21. a 16. 2—4, 19—25. Mat. 7. 22, 23. 1 Cor. 13. 1—3.

vel ar Matth. 13. 12. a Marc 4. 25. * "Yr hyn yn tybied ei fod ganddo:" nid yw hyn gan yr hylwyr eraill, ac y mae Luc yma yn egluro Matthew ere. Pa beth bynag o ddawn naturiol, dysgeid-, golud, awdurdod, enw, gwybodaeth grefyddol, nu ysbrydol, ïe, hyd yn nod gallu i wneyd gwyrth- gafodd dynion, neu a gaffont eto; os na bydd ylynt wir ras sancteiddiol ac achubol, nid oes ylynt ond y rhith o bobpeth, a hwy a ddygir oddi t yn fuan. Mae pethau da nefol yn gwaelu wrth rbed, ond yn cynnyddu wrth eu defnyddio.

9 ¶ °Daeth atto hefyd *ei* fam a'i frodyr; allent ddyfod hyd atto gan y dorf.
Mat. 12. 46—50. Marc 3. 21, 31—35.

10 A mynegwyd iddo *gan rai*, yn dywed- Ŷ mae dy fam ᵖa'th frodyr yn sefyll allan, wyllysio dy weled.
Mat. 13. 55, 56. Marc 6. 3. Ioan 7. 3—6. Act. 1. 14. 1 Cor. al. 1. 19.

Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrth- ᵃ * Fy mam i a'm brodyr i yw y rhai hyn ii yn gwrando gair Duw, ac yn ei wneu-
pen. 11. 27, 28. Mat. 25. 40, 45. a 28. 10. Ioan 15. 14, 15. 7. 2 Cor. 5. 16. a 6. 18. Heb. 2. 11—13. r adn. 15. Mat. 26. a 17. 5. Ioan 6. 28, 29. a 13. 17. Iago 1. 22. 1 Ioan 2. 22, 23. 3 Ioan 11.
el ar Matth. 12. 46—50. a Marc 3. 31—35. lai bod Crist yn bwriadu y geiriau hyn fel rhy- dwys i'w berthynasau, i wylied rhag yr anghred- ih hyny a fu yn hir yn llywodraethu arnynt wedi Gwel Ioan 7. 3—10. Diammau eu bod yn gerydd it am eu hanghrediniaeth presenol.

12 ¶ A bu ar ryw ddiwrnod, ˢac efe a aeth g, efe a'i ddisgyblion: a dywedodd wrth- ᵗAwn trosodd i'r tu hwnt i'r llyn. A a gychwynasant.
Mat. 8. 18, 23—27. Marc 4. 35—41. Ioan 6. 1. t Mat. Marc 5. 21. a 6. 45. a 8. 13.

13 Ac fel yr oeddynt yn hwylio, ᵘefe a odd: ˣa chawod o wynt a ddisgynodd ar y ; ac yr oeddynt yn llawn *o ddwfr*, ac n enbydrwydd.
Salm 44. 23. Es. 51. 9. Heb. 4. 15. x Salm 93. 3, 4. a —30. a 124. 2—4. a 148. 8. Es. 54. 11. Act. 27. 4—20.

14 A hwy a aethant atto, ac a'i deffroisant an ddywedyd, ʸO Feistr, Feistr, darfu am rm. ᶻAc efe a gyfododd, ac a geryddodd wynt a'r tonnau dwfr: a hwy a beidiasant, a aeth yn dawel.
Salm 69. 1, 2. a 116. 3, 4. a 142. 4, 5. Galar. 3. 54—56. Jona . Mat. 14. 30. 2 Cor. 1. 9, 10. z Salm 65. 7. a 104. 6—9. 25—29. Es. 50. 2. Jer. 5. 22. Nah. 1. 4.

15 Ac efe a ddywedodd wrthynt, ᵃ * Pa le ae eich ffydd chwi? A hwy ᵇwedi ofni, a ldasant, gan ddywedyd wrth eu gilydd, yw hwn, gan ei fod yn gorchymyn i'r ntoedd ac i'r dwfr hefyd, a hwythau yn dhâu iddo?
pen. 12. 28. Mat. 6. 30. a 8. 26. a 14. 31. a 17. 20. Marc 4. Ioan 11. 40. b Gen. 1. 9, 10. Jos. 10. 12—14. Job 38. Diar. 8. 29. a 30. 4.

wsom yr hanes uchod hefyd, yn Matth. 8. 23—27. Marc 4. 35—41. Gwel y sylwadau yno. * Yr gan y dysgyblion ffydd, ond nid oedd mewn hrediad pan oedd fwyaf o'i hangen. Fel pe buasai wedi gadael ei arfau ar ol pan fyddai yn myned i ryfel. Pa le mae eich cleddyf? Pa le mae tarian? fyddai raid fod y gofyniad cyffredin.

16 ¶ A hwy a hwyliasant i ᶜwlad y Gadar-eniaid, yr hon sydd o'r tu arall, ar gyfer Galilea.
c Mat. 8. 28, &c. Marc 5. 1.

27 Ac wedi iddo fyned allan i dir, ᵈcyfarfu âg ef ryw wr o'r ddinas, yr hwn oedd ganddo gythreuliaid er ys talm o amser; ᵉac ni wisgai ddillad, ac nid arhosai mewn tŷ, ᶠond yn y beddau.
d Marc 5. 2—5. e 1 Sam. 19. 24. f Num. 19. 16. Es. 65. 4.

28 *Hwn*, wedi gweled yr Iesu, ᵍa dolefain, a syrthiodd i lawr ger ei fron ef, ac a ddywed- odd â llef uchel, ʰBeth sydd i mi â thi, *O* Iesu, Fab Duw goruchaf? ⁱyr wyf yn attolwg i ti na'm poenech.
g pen. 4. 33—36. Mat. 8. 29. Marc 1. 24—27. a 5. 6—8. Act. 16. 16—18. h adn. 37, 38. i Es. 27. 1. 2 Pedr 2. 4. 1 Ioan 3. 8. Dat. 20. 1—3.

29 (Canys efe a ᵏorchymynasai i'r yspryd aflan ddyfod allan o'r dyn. Canys llawer o amserau y ˡcipiasai ef: ac efe a gedwid yn rhwym â chadwynau, ac â llyffetheiriau; ac wedi dryllio y rhwymau, efe a yrrwyd gan y cythraul i'r diffaethwch)
k Marc 5. 8. Act. 19. 12—16. l pen. 9. 39, 42. Marc 5. 3—5. a 9. 20—26. 2 Tim. 2. 25, 26.

30 A'r Iesu a ofynodd iddo, gan ddywedyd, Beth yw dy enw di? Yntau a ddywedodd, ᵐLleng: canys ⁿllawer o gythreuliaid a aeth- ent iddo ef.
m Mat. 26. 53. Marc 5. 9. n adn. 2. Mat. 8. 29. Marc 16. 9.

31 A °hwy a ddeisyfasant arno, na orchym- ynai iddynt fyned ᵖi'r * dyfnder.
o adn. 28. Job 1. 11. a 2. 5. Phil. 2. 10, 11. p Mat. 25. 41. Dat. 9. 2. a 19. 20. a 20. 2, 3, 14, 15.

32 Ac yr oedd ᵠyno genfaint o foch lawer yn pori ar y mynydd: a hwynt-hwy ʳa attol- ygasant iddo adael iddynt fyned i mewn i'r rhai hynny. † Ac ˢefe a adawodd iddynt.
q Lef. 11. 7. Es. 65. 4. a 66. 3. Mat. 8. 30—33. Marc 5. 11 —13. r Job 1. 10. Salm 62. 11. Ioan 19. 11. 1 Ioan 4. 4. s 1 Bren. 22. 22. Job 1. 12. a 2. 6. Dat. 20. 7.

33 A'r cythreuliaid a aethant allan o'r dyn, ac a aethant i mewn i'r moch: ᵗa'r genfaint a ruthrodd oddi ar y dibyn i'r llyn, ac a foddwyd.
t Ioan 8. 44. 1 Pedr 5. 8. Dat. 9. 11.

34 A phan welodd y meichiaid yr hyn a ddarfuasai, ᵘhwy a ffoisant, ac a aethant ac a fynegasant yn y ddinas, ac yn y wlad.
u Mat. 8. 33. a 28. 11. Marc 5. 14. Act. 19. 16, 17.

35 A hwy a aethant allan i weled y peth a wnelsid; ac a ddaethant at yr Iesu, ˣac a gaw- sant y dyn, o'r hwn yr aethai y cythreuliaid allan, ʸyn ei ddillad, a'i iawn bwyll, ᶻyn eis- tedd wrth draed yr Iesu: a hwy a ofnasant.
x Es. 49. 24, 25. a 53. 12. Heb. 2. 14, 14. 1 Ioan 3. 8. y pen. 2. 46. a 10. 39. Marc 5. 15. Act. 22. 3. z adn. 27. pen. 15. 17.

36 A'r rhai a welsent, a fynegasant hefyd iddynt pa fodd yr iachasid y cythreulig.

37 ¶ A'r holl liaws o gylch gwlad y Gad- areniaid ᵃa ddymunasant arno fyned ymaith oddi wrthynt; am eu bod mewn ofn mawr. ᵇAc efe wedi myned i'r llong, a ddychwelodd.
a adn. 28. pen. 5. 8. Deut. 5. 25. 1 Sam. 6. 20. 2 Sam. 6. 8, 9. 1 Bren. 17. 18. Job 21. 14, 15. Mat. 8. 34. Marc 5. 17. Act. 16. 39. b pen. 9. 5, 56. a 10. 10, 11, 16.

38 A'r gwr o'r hwn yr aethai y cythreuliaid allan, ᶜa ddeisyfodd arno gael bod gyd âg ef:

‡ eithr yr Iesu a'i danfonodd ef ymaith, [d] gan ddywedyd,

c adn. 28, 37. Salm 27. 4. a 32. 7. Marc 5. 18. Phil. 1. 23. d Ex. 12. 25—27. a 13. 8, 9, 14—16. Salm 71. 17, 18. a 78. 3—6. a 107. 21, 22, 31, 32. a 111. 2—4. a 145. 3—12. Es. 63. 7—13. Marc 5. 19, 20. Act. 9. 13—16. Gal. 1. 23, 24. 1 Tim. 1. 13—16.

39 Dychwel i'th dŷ, a dangos faint o bethau a wnaeth Duw i ti. Ac efe a aeth, [e] dan bregethu trwy gwbl o'r ddinas, faint a wnaethai yr Iesu iddo.

e pen. 17. 15—18. Deut. 10. 21. Salm 66. 16. a 126. 2, 3. Dan. 4. 1—3, 34—37. Marc 1. 45. Ioan 4. 29.

40 A bu, [f] pan ddychwelodd yr Iesu, [g] dderbyn o'r bobl ef: canys yr oeddynt oll [h] yn disgwyl am dano ef.

f Mat. 9. 1. Marc 5. 21. g pen. 5. 1. a 19. 6, 37, 38, 48. Marc 6. 20. a 12. 37. Ioan 5. 35. h Diar. 8. 34. Act. 10. 33.

Ni a gawsom yr holl hanes uchod o'r blaen, yn Matth. 8. 28—34, ac yn Marc 5. 1—20. * "Dyfnder:" uffern, y pydew diwaelod, Dat. 20. 3; carchar tragywyddol yr ysbrydion syrthiedig. Mae Duw weithiau yn goddef i rai o honynt grwydro'r byd hwn, a phryd arall yn ei gyfiawnder a'i allu dwyfol yn eu danfon yn ol i'w carchar poenus. Deisyfiad cyntaf y diafol oedd "Yr wyf yn attolwg i ti na'm poenech." "A ddaethost ti yma i'n poeni ni cyn yr amser?" (Matth. 8. 29;) gan ofni fod Crist wedi dyfod i'r byd i'w bwrw hwy yn ddioed i gadwynau uffern; a'u caethiwo yn y poenau hyny yr oeddent hwy yn tybied na chaent fyned iddynt cyn dydd y farn: y cais nesaf oedd mewn geiriau eglur, na orchymynai efe iddynt fyned i uffern. Pe buasai efe yn gorchymyn, buasai raid myned; ac felly y bydd yn y dydd diweddaf. Nid dyfnder y môr a feddylir, oblegid aeth y cythreuliaid yno o honynt eu hunain, wedi iddynt gael caniatâd gan Grist i fyned i'r moch. † Pa ham y gadawodd efe iddynt? I ddangos ei hun yn ben Arglwydd ar bawb; i gospi y Gadareniaid am eu dirmyg ar gyfraith Duw; ac i ddangos ynfydrwydd dynion annuwiol yn caru eu moch yn fwy nac iachawdwriaeth eu heneidiau. ‡ Caniatâodd Iesu eu deisyfiad i'r cythreuliaid ac i'r Gadareniaid, er eu gwae; ond ni chaniatâodd ei ddeisyfiad i'r dyn a waredasai o feddiant y cythreuliaid: rhodd orchwyl i hwnw i ganmol Duw yn mhlith ei dylwyth.

41 ¶ Ac wele, [i] daeth gwr a'i enw Jairus; ac efe oedd [k] lywodraethwr y synagog: [l] ac efe a syrthiodd wrth draed yr Iesu, [m] ac a attolygodd iddo ddyfod i'w dŷ ef:

i Mat. 9. 18—25. Marc 5. 22. k pen. 13. 14. Act. 13. 15. a 18. 8, 17. l pen. 5. 8. a 17. 16. Dat. 5. 8. m Mat. 8. 7, 8. Marc 5. 23. Ioan 4. 46—49. a 11. 21. Act. 9. 38.

42 * O herwydd yr oedd iddo [n] ferch uniganedig, ynghylch deuddeng mlwydd oed, [o] a hon oedd yn marw [p] (Ond fel yr oedd efe yn myned, y bobloedd a'i gwasgent ef.

n pen. 7. 12. Gen. 44. 20—22. Job 1. 18, 19. Zec. 12. 10. o Job 4. 20. Salm 90. 5—8. a 103. 15, 16. Preg. 6. 12. Ezec. 24. 16, 25. Rhuf. 5. 12. p adn. 45. Marc 5. 24.

43 ¶ A gwraig [q] yr hon oedd mewn diferlif gwaed er ys [r] deuddeng mlynedd, yr hon [s] a dreuliasai ar physygwyr ei holl fywyd, † ac nis gallai gael gan neb ei hiachâu,

q Lef. 15. 25, &c. Mat. 9. 20—22. Marc 5. 25. r adn. 27. pen. 13. 11, 16. Marc 9. 21. Ioan 5. 5, 6. a 9. 1, 21. Act. 3. 2. a 4. 22. a 14. 8—10. s Salm 108. 12. Es. 2. 22. a 55. 1—3. Marc 5. 26. a 9. 18, 22.

44 A ddaeth [t] o'r tu cefn, ac a [u] gyffyrddodd âg ymyl ei wisg ef: [x] ac yn y fan y safodd diferlif ei gwaed hi.

t pen. 7. 38. u Deut. 22. 12. Marc 5. 27, 28. a 6. 56. Act. 5. 15. a 19. 12. x pen. 13. 13. Ex. 15. 26. Mal. 4. 2.

45 A dywedodd yr Iesu, ‡ Pwy *yw* a gyffyrddodd â mi? Ac a phawb yn gwadu, y dywedodd Pedr, a'r rhai oedd gyd âg ef, *O* Feistr, [y] y mae y bobloedd yn dy wasgu, ac yn *dy* flino; ac a ddywedi di, Pwy *yw* a gyffyrddodd â mi?

y pen. 9. 13. Marc 5. 30—32.

46 ‖ A'r Iesu a ddywedodd, Rhyw un a gyffyrddodd â mi: [z] canys mi a wn fyned rhinwedd allan o honof.

z pen. 6. 19. 1 Pedr 2. 9.

47 A phan welodd y wraig nad oedd hi guddiedig, [a] hi a ddaeth dan grynu, ac a syrthiodd ger ei fron ef, [b] ac a fynegodd iddo, y'ngwydd yr holl bobl, am ba achos y cyffyrddasai hi âg ef, ac fel yr iachasid hi yn ebrwydd.

a 1 Sam. 16. 4. Salm 2. 11. Hos. 13. 1. Hab. 3. 16. Mat. 28. 8. Marc 5. 33. Act. 16. 29. 1 Cor. 2. 3. 2 Cor. 7. 15. Phil. 2. 12. Heb. 12. 28. b pen. 17. 15, 16. Salm 66. 16.

48 Yntau a ddywedodd wrthi, [c] Cymmer gysur, ferch; [d] dy ffydd a'th iachâodd: [e] dos mewn tangnefedd)

c Mat. 9. 2, 22. a 12. 20. 2 Cor. 6. 18. d pen. 7. 50. a 17. 19. a 18. 42. Mat. 8. 13. Marc 5. 34. Act. 14. 9. Heb. 4. 2. e Ex. 4. 18. 1 Sam. 1. 17. 2 Bren. 5. 19.

49 ¶ Ac [f] efe etto yn llefaru, daeth un o *dy* llywodraethwr y synagog, gan ddywedyd wrtho, Bu farw dy ferch: [g] na phoena mo'r Athraw.

f adn. 41, 42. Mat. 9. 23—26. Marc 5. 35. g pen. 7. 6. a 11. 7. Es. 7. 12. Marc 5. 35.

50 A'r Iesu pan glybu *hyn*, a'i hattebodd ef, gan ddywedyd, Nac ofna: [h] cred yn unig, a hi a iachêir.

h adn. 48. Es. 50. 10. Marc 5. 36. a 9. 23. a 11. 22—24. Ioan 11. 25, 40. Rhuf. 4. 17, 20.

51 Ac wedi ei fyned ef i'r tŷ, [i] ni adawodd i neb ddyfod i mewn, [k] ond Pedr, ac Iago, ac Ioan, a thad yr eneth a'i mam.

i 1 Bren. 17. 19—23. 2 Bren. 4. 4—6, 34—36. Es. 42. 2. Mat. 6. 5, 6. Act. 9. 40. k pen. 6. 14. a 9. 28. Marc 5. 37—40. a 14. 33.

52 Ac [l] wylo a wnaethant oll, a chwynfan am dani. Eithr efe a ddywedodd, Nac wylwch: [m] nid marw hi; eithr cysgu y mae.

l Gen. 23. 2. a 37. 34, 35. 2 Sam. 18. 33. Jer. 9. 17—21. Ezec. 24. 17. Zec. 12. 10. m Marc 5. 38, 39. Ioan 11. 4, 11—13.

53 A hwy [n] a'i gwatwarasant ef, [o] am iddynt wybod ei marw hi.

n pen. 16. 14. Job 12. 4. a 17. 2. Es. 53. 3. o Marc 15. 44, 45. Ioan 11. 39. a 19. 33—35.

54 § Ac [p] efe a'u bwriodd hwynt oll allan, ac [q] a'i cymmerth hi erbyn ei llaw, ac a lefodd, gan ddywedyd, [r] Herlodes, cyfod.

p adn. 51. Marc 5. 40. q Jer. 31. 32. Mat. 9. 25. Marc 1. 31. a 5. 41. a 8. 23. a 9. 27. r pen. 7. 14, 15. Ioan 5. 21, 28, 29. a 11. 43. Act. 9. 40. Rhuf. 4. 17.

55 [s] * A'i hyspryd hi a ddaeth drachefn, a hi a gyfododd yn ebrwydd: [t] † ac efe a orchymynodd roi bwyd iddi.

s 1 Bren. 17. 21—23. Ioan 11. 44. t pen. 24. 41—43. Marc 5. 43. Ioan 11. 44.

56 A synnu a wnaeth ar ei rhieni hi: ac [u] efe a orchymynodd iddynt, na ddywedent i neb y peth a wnaethid.

u pen. 5. 14. Mat. 8. 4. a 9. 30. Marc 5. 42, 43.

Cawsom y ddau ddarn hyn o hanes o'r blaen, yn Matth. 9. 18—26, ac yn Marc 5. 22—43; gwel y sylwadau yno. * Nid yw yr efengylwyr eraill yn crybwyll mai ei unig-anedig oedd hi, yr oedd hyny yn gwneyd y galar yn fwy. † Yr oedd medr ac ymgais yr holl feddygon wedi methu, felly yr oedd ei gobaith hi yn y

yd hwn wedi cwbl ddarfod. Yr oedd ei chlefyd yn
en; ei gwendid a'i phoenau yn fawr; ei holl fedd-
annau wedi eu gwario yn ofer ar feddygon; a hithau
eb fod ddim gwell, ac yn yr agwedd hòno wedi syrthio
dlodi yn chwanegol at ei holl ofidiau eraill. Crybwyll-
r pethau fel hyn yn aml gan yr efengylwyr am rai
iachâwyd gan Iesu, i ddangos ei dosturi a'i dyner
rugareddau ef tuag at bechaduriaid truenus, yn nghyd
'n cyflwr annobeithiol ninnau fel pechaduriaid, oni
a'i ei ras a'i drugareddau ef. ‡ Nid am nas gwyddai
r Iesu pwy a gyfhyrddasai âg ef y gofynodd efe fel
yn; ond i'r dyben o wneuthur y wyrth yn amlwg
r dyrfa, buasai yn ddirgel ac yn ddiarwybod iddynt
wy oni buasai y gofyniad cyhoeddus hwn. || Gallu ac
wyllys da Crist a iachâodd y wraig, ac nid ei gwaith hi
n cyfhwrdd âg ef: ac eto nid heb hyny. Trwy foddion
ryw fath y mae Duw yn gweithredu; ein dyledswydd
ii yw arfer y moddion, a'i waith yntau yw danfon
fendith. § Oll ond yr apostolion a rhieni yr eneth.
Marc 5. 40. * Mae y geiriau hyn yn brawf cadarn bod
r enaid anfarwol yn hanfodi ar wahân oddi wrth
corph ar ol marw; ac ei fod yn dychwelyd, ac yn cael
ì ail-uno â'r corph, yn yr adgyfodiad. Nid crëu
sbryd arall a wnaeth Crist yma, ond galw yn ol yr
sbryd oedd wedi ymadael: efe yw y Crëawdwr, efe
efyd yw yr adgyfodiad a'r bywyd. Mae yn amlwg yma
efyd, mai nid rhyw iredd, neu nwy corphorawl, yr hyn
eilw y meddygon, *crasis*, yw yr enaid, fel y taera
efnyddiodron *(Materialists)* digred; yr oedd y corph,
phob peth o'r corph yno; ond yr oedd yr ysbryd
n absenol, nes i Fab Duw ei ddychwelyd yn ol. † Er
r eneth gael ei chyfodi yn wyrthiol, ac mewn perffaith
ym ac iechyd; eto nid oedd i gael ei chynnal yn
yrthiol, ond yn y ffordd gyffredin, trwy roddi bwyd
ldi. Mae yn debyg na fwytasai hi nemawr er ys tro
n ei chlefyd.

PEN. IX.

Crist yn anfon ei apostolion, &c.

A C [a] efe a alwodd ynghyd ei ddeuddeg dis-
gybl, † ac [b] a roddes iddynt feddiant ac
wdurdod ar yr holl gythreuliaid, ac i iachâu
defydau.

a pen. 6. 13—16. Mat. 10. 2—5. Marc 3. 14—19. a 6. 7—13.
pen. 10. 19. Mat 10. 1. a 16. 19. Marc 6. 7. a 16. 17, 18. Ioan
4. 12. Act. 1. 8. a 3. 16. a 4. 30. a 9. 34.

2 Ac efe a'u hanfonodd hwynt [c] i bregethu
yrnas Dduw, ac i iachâu y rhai cleifion.

c pen. 10. 11. a 16. 16. Mat. 3. 2. a 10. 7. a 13. 19. a 24. 14.
Marc 1. 14, 15. a 16. 15. Heb. 2. 3, 4.

3 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [d] Na chym-
nerwch ddim i'r daith, na ffyn, nac ysgrepan,
a bara, nac arian; ac na fydded gennych
ddwy bais bob un.

d pen. 10. 4. a 22. 35. Salm 37. 3. Mat. 10. 9, 10. Marc 6. 8,
2 Tim. 2. 4. e pen. 3. 11. a 5. 29. a 12. 28.

4 Ac [f] i ba dŷ bynnag yr eloch i mewn,
arhoswch yno, ac oddi yno ymadêwch.

f pen. 10. 5—8. Mat. 10. 11. Marc 6. 10. Act. 16. 15.

5 A [g] pha rai bynnag ni'ch derbyniant, pan
lloch allan o'r ddinas honno, [h] ysgydwch hyd
n nôd y llwch oddi wrth eich traed, [i] yn
ystiolaeth yn eu herbyn hwynt.

g adn. 48. pen. 10. 10—12, 16. Mat. 10. 14, 15. Marc 6. 11. a
37. Act. 13. 51. a 18. 6. h adn. 53—56. Neh. 5. 13. i pen.
14. Mat. 10. 18.

6 Ac wedi iddynt fyned allan, hwy a aeth-
int trwy y trefi, [k] gan bregethu yr efengyl, a
iachâu ym mhob lle.

k adn. 1, 2. Marc 6. 12, 13. a 16. 20. Act. 4. 30. a 5. 15.

7 ¶ A [l] Herod y tetrarch a glybu y cwbl oll
a wnaethid ganddo; * ac [m] efe a betrusodd, am
fod rhai yn dywedyd gyfodi Ioan o feirw;

l Job 18. 11, 12. Salm 73. 19. Mat. 14. 1—12. Marc 6. 14—28.
m pen. 21. 25. Es. 22. 5. Mica 7. 4.

* Cawsom hanes dewisiad y deuddeg dysgybl hyn o'r blaen, yn nghyd a'u henwau; pen. 6. 13—16, a Marc 3. 14—19. Nid yw Matthew yn sôn am eu hetholiad, ond eu danfoniad yn unig. Matth. 10. 1—15: mae Marc a Luc yn sôn am bob un o'r ddau. Dewisodd Iesu hwynt ar y cyntaf i fod gydag ef, i ddysgu ganddo, ac i fod yn dystion o'r hyn a lefarodd ac a wnaeth efe. † Gwedi bod gydag ef felly am ryw yspaid, efe a'u danfonodd hwynt allan i bregethu yr efengyl, ac a roddodd iddynt allu i gadarnâu eu hathrawiaeth trwy lawer o wyrthiau, bwrw allan gythreuliaid ac iachâu clefydau. Derbyniasant y gallu hwn yn union-gyrchol gan Grist ei hun, yn yr hwn yr oedd yn gynhenid erioed, fel yr oedd yn Un â'r Tad, fel yr oedd yn Dduw wedi ymddangos yn y cnawd; yn gystal ag wedi ei roddi iddo fel Cyfryngwr. ‡ Aroswch yno, os bydd yn gyfleus, hyd oni ymadawoch o'r ddinas hòno. Na threiglwch o dŷ i dŷ, pen. 10. 7; mae treiglo llawer o dŷ i dŷ heb achos, yn niweidiol, mae'n debyg, i weinidogion y gair, ac yn niweidiol i'r eglwysi hefyd. Mae yn arwain i segurdod a diffyg llafur; i dderbyn llawer o chwedlau gwrachïaidd, ofer, a niweidiol; mae yn arwain i lythineb a melus-wedd buchedd; ac weithiau yn arwain i syrthiadau gwaradwyddus. Am y cyfarwyddiadau eraill yn yr adnodau uchod, gwel ar Matth. 10. 7—14. a Marc 6. 7—11.

8 A [n] rhai eraill, ymddangos o Elïas; a rhai
eraill, mai prophwyd, un o'r rhai gynt, a ad-
gyfodasai.

n adn. 19. Mat. 17. 10. Marc 6. 15. a 8. 28. Ioan 1. 21.

9 A Herod a ddywedodd, [o] Ioan a dorrais i
ei ben: ond pwy ydyw hwn yr wyf yn clywed
y cyfryw bethau am dano? [p] † Ac yr oedd
efe yn ceisio ei weled ef.

o adn. 7. p pen. 13. 31, 32. a 23. 8.

Gwel ar Matth. 14. 1—12, a Marc 6. 14—29. * Cydwybod euog oedd yn peri i Herod fod yn anesmwyth; ofni mai Ioan wedi adgyfodi o feirw oedd Crist, ac y dialai efe arno ef am dori ei ben ef. Mae y gair a gyfieithir yma petruso, yn arwyddo cymysg o ammheuaeth ac ofn. Felly yr oedd meddyliau Herod yma, yr oedd yn ammau ai Ioan oedd Iesu, ac yn ofni os Ioan oedd. † Efe a ewyllysiai ei weled, i gael sicrwydd ai Ioan ydoedd, neu ynte i gael esmwythder i'w feddwl euog trallodus os nid Ioan ydoedd. Nid oes genym hanes iddo gael ei weled, nes i Pilat ei ddanfon ef atto ar ol ei holi, pen. 23. 8.

10 ¶ [q] * A'r apostolion, wedi dychwelyd, a
fynegasant iddo y cwbl a wnaethent. † Ac
[r] efe a'u cymmerth hwynt, ac a aeth o'r neill-
du, i le anghyfannedd yn perthynu i'r ddinas
a elwir [s] Bethsaida.

q pen. 10. 17. Zec. 1. 10, 11. Marc 6. 30. Heb. 13. 17. r Mat.
14. 13. Marc 2. 7. a 6. 31, 32. s Mat. 11. 21. Marc 6. 45. Ioan
1. 44.

11 ‡ A'r bobloedd [t] pan wybuant, a'i dilyn-
asant ef: [u] ac efe a'u derbyniodd hwynt, ac a
lefarodd wrthynt [x] am deyrnas Dduw, ac a
iachâodd y rhai oedd arnynt eisiau eu hiachâu.

t Mat. 14. 14. Marc 6. 33, 34. u Es. 61. 1. Ioan 4. 34.
Rhuf. 15. 3. 2 Tim. 4. 2. x pen. 8. 1, 10. Mat. 22. 31, 43.

* Yn yr adnodau blaenaf o'r bennod hon cawsom hanes am anfoniad yr apostolion; yma cawn hanes eu dychweliad o'u taith, i roddi cyfrif o'u gweithredoedd i'w Harglwydd. † Dyben ein Harglwydd yn eu cymmeryd i'r lle anghyfannedd hwn efallai, oedd, rhoddi ychydig seibiant i'w ddysgyblion ar ol eu llafur, a dysgu rhyw bethau yn mhellach iddynt yn nghylch eu gwaith. ‡ Ni bu ar Grist erioed ddiffyg gwrandawyr, nac erioed eisiau

calon i'w derbyn a gwneuthur pob daioni iddynt, i'w cyrph a'u heneidiau: a thrwy wneyd daioni i'w cyrph yr oedd yn eu dênu atto i gael daioni i'w heneidiau. Fel hyn mae yn angenrheidiol dênu dynion anwybodus i wrando yr efengyl, trwy ryw gymmwynasau tymmorawl, fel dênu plant i ddysgu.

12 [y] A'r dydd a ddechreuodd hwyrhâu; a'r deuddeg a ddaethant ac a ddywedasant wrtho, [z] Gollwng y dyrfa ymaith, fel y gallont fyned i'r trefi, ac i'r wlad oddi amgylch, i lettya, ac i gael bwyd: [a] canys yr ydym ni yma mewn lle anghyfannedd.

y Mat. 14. 15. Marc 6. 35, 36. Ioan 6. 5. z Mat. 15. 23, 32. a Salm 78. 19, 20.

13 Eithr efe a ddywedodd wrthynt, [h] Rhoddwch chwi iddynt *beth* i'w fwytta. A hwythau a ddywedasant, [c] Nid oes gennym ni ond pum torth, a dau bysgodyn, oni bydd i ni fyned a phrynu bwyd i'r bobl hyn oll.

b 2 Bren. 4. 42, 43. Mat. 14. 16, 17. Marc 6. 37, 38. Ioan 6. 5—9. c Num. 11. 21—23. Diar. 11. 24, 25.

14 Canys yr oeddynt ynghylch pum mil o wŷr. Ac efe a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, [d] Gwnewch iddynt eistedd yn fyrddeidiau, bob yn ddeg a deugain.

d Marc 6. 39, 40. a 8. 6.

15 Ac felly y gwnaethant; a *hwy* a wnaethant iddynt oll eistedd.

16 Ac efe a gymmerodd y pum torth, a'r ddau bysgodyn, [e] ac a edrychodd i fynu i'r nef, [f] ac a'*u* bendithiodd hwynt, ac a'*u* torodd, ac a'*u* rhoddodd i'r disgyblion i'w gosod ger bron y bobl.

e Salm 121. 1, 2. Mat. 14. 19. Marc 7. 34. f pen. 22. 19. a 24. 30. Mat. 15. 36. Ioan 6. 11, 23. Act. 27. 35. Rhuf. 14. 6. 1 Cor. 10. 30. a 11. 24. 1 Tim. 4. 4, 5.

17 A hwynt-hwy oll a [g] fwyttasant, ac a gawsant ddigon: [h] a chyfodwyd a weddillasai iddynt o friw-fwyd, ddeuddeg basgedaid.

g Salm 37. 16. Diar. 13. 25. Mat. 14. 20, 21. a 15. 37, 38. Marc 6. 42—44. a 8. 8, 9. h 2 Bren. 4. 44. Mat. 16. 9, 10. Marc 8. 19, 20. Ioan 6. 11—13. Phil. 4. 18, 19.

Adroddir y wyrth hon gan yr Efengylwyr oll. Gwel Matth. 14. 15—21; Marc 6. 35—35; a chawn hi eto yn helaethach yn Ioan 6. 5—14. Gwel y sylwadau ar y lleoedd hyny, yn benaf ar Matthew.

18 ¶ Bu hefyd, [i] fel yr oedd efe yn gweddio * ei hunan, fod ei ddisgyblion gyd âg ef: ac efe a ofynodd iddynt, gan ddywedyd, [k] Pwy y mae y bobl yn dywedyd fy mod i?

i pen. 11. 1. a 22. 39—41. Mat. 26. 36. k Mat. 16. 13, 14. Marc 8. 27—30.

19 Hwythau gan atteb a ddywedasant, [l] Ioan Fedyddiwr: ond eraill, mai Elias; ac eraill, mai [m] rhyw brophwyd o'r rhai gynt a adgyfododd.

l Gwel ar adn 7, 8.—Mal. 4. 5. Ioan 1. 21, 25. m Marc 6. 15. Ioan 7. 40. a 9. 17.

20 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [n] † Ond pwy yr ydych chwi yn dywedyd fy mod i? A Phedr gan atteb a ddywedodd, [o] Crist Duw.

n Mat. 5. 47. a 16. 15. a 22. 42. o pen. 22. 67. Mat. 16. 16, 17. a 26. 63. Marc 8. 29. a 14. 61. Ioan 1. 41, 49. a 4. 29, 42. a 6. 69. a 7. 41. a 11. 27. a 20. 31. Act. 8. 37. a 9. 22. a 17. 3. 1 Ioan 5. 1.

21 Ac [p] efe a roes orchymyn arnynt, ac a archodd *iddynt* na ddywedent hynny i neb.

p Mat. 16. 20. a 17. 9. Marc 8. 31.

22 ‡ Gan ddywedyd, [q] Mae yn rhaid i Fab y dyn oddef llawer, a'i wrthod gan yr henuriaid, a'r arch-offeiriaid, a'r ysgrifenyddion, a'i ladd, a'r trydydd dydd adgyfodi.

q adn. 44. pen. 18. 31—34. a 24. 7, 26. Gen. 3. 15. Salm 2[illegible] a 69. Es. 53. Dan. 9. 26. Zec. 13. 7. Mat. 16. 21. a 17. 12. Mar[illegible] 8. 31. a 9. 31. a 10. 33, 34. Act. 4. 25—28. a 13. 27—29. 1 Co[illegible] 15. 4. 1 Pedr 1. 11.

Gwel ar Matth. 16. 13—20. Dywed Matthew mai y[illegible] Cesarea Philippi y bu yr ymddiddan uchod: gwel [illegible] sylwadau yno. * Ei hunan heb y torfeydd, mae y[illegible] debyg a feddylir; canys dywedir bod ei ddysgyblio[illegible] gydag ef. † Er bod y byd yn anwadol ac yn ansefydlo[illegible] gan amryw dybiau cyfeiliornus, eto ni ddylai y gwi[illegible] ionedd gael ei ddïystyru er hyny; ond yn hytrach dyli[illegible] ei geisio yn ddyfalach, a gwneyd proffes o hóno yn fw[illegible] dïanwadal. ‡ Nid yw yr adnod hon (22) gan yr efen[illegible] ylwyr eraill, ac efallai mai hyn yw y rheswm am y gw[illegible] harddiad yn adn. 21; pe buasai ei ddysgyblion yn [illegible] gyhoeddi ef yn "Grist Duw," a'r bobl yn credu ynddo[illegible] ac yn ei weled yn dyoddef ac yn cael ei ladd wedi hyn; [illegible] buasai hyny yn debyg o ysgwyd eu ffydd hwy ynddo e[illegible] am hyny dewisai gadw y peth yn ddirgel hyd onid e[illegible] lurid ef yn Fab Duw mewn gallu trwy yr adgyfodia[illegible] oddi wrth y meirw. Ar yr un pryd, yr oedd ei dystio[illegible] aeth a'i weithredoedd ef ei hun yn ddigon i wneyd paw[illegible] yn ddïesgus.

23 ¶ Ac efe a ddywedodd wrth bawb, [r] O[illegible] ewyllysia neb ddyfod ar fy ol i, [s] * ymwade[illegible] âg ef ei hun, † a choded ei groes [t] ‡ beunydd[illegible] a dilyned fi.

r pen. 14. 26, 27. Mat. 10. 38, 39. a 16. 22—25. Marc 8. 34[illegible] 38. Ioan 12. 25, 26. 2 Tim. 3. 12. s Tit. 2. 12. t 1 Cor. 1[illegible] 30, 31.

24 Canys pwy bynnag [u] a ewyllysio gad[illegible] ei einioes, a'i cyll; ond pwy bynnag a gollo [illegible] einioes o'm hachos i, hwnnw a'i ceidw hi.

u pen. 17. 33. Act. 20. 23, 24. Heb. 11. 35. Dat. 2. 10. a 12. 1[illegible]

Cawsom yr un geiriau yn Matth. 16. 24, 25; ac y[illegible] Marc 8. 34, 35. * Mae hunan-ymwadiad yn cynnwy[illegible] yn 1. Ymwrthodiad â phob peth ac sydd yn foddâol ga[illegible] ein natur lygredig ni ein hunain; nid yn unig peth[illegible] pechadurus ynddynt eu hunain, ond hefyd pethau cy[illegible] reithlawn, os byddant ar ein ffordd, ac yn rhwystr i [illegible] ganlyn Crist â'n holl galon. 2. Ymwrthod â phob hu[illegible] oliaeth, ac â phob moddion a ddefnyddio dynion, e[illegible] cyfeillion goreu, a'n perthynasau anwylaf, i geisio e[illegible] dênu ni oddiwrth grefydd sanctaidd Mab Duw. 3. D[illegible] i fynu yn gadarn yn wyneb pob bygythion, a phob d[illegible] oddefiadau oddiwrth eraill; ïe, pe byddent swyddw[illegible] gwladol gelynol i'r efengyl. Er y dylem ymostwng [illegible] awdurdodau gwladol mewn pethau gwladol, eto, ni dd[illegible] lem fod yn anffyddlawn i'r Brenin Iesu i fod yn ffyd[illegible] lawn i neb croes i'w deyrnas ef. † Fel y byddai y rh[illegible] a groeshoelid yn gorfod dwyn eu croesau eu hunain i [illegible] y dienyddiad. ‡ Gair o bwys mawr yw hwn; fel y m[illegible] dydd ar ol dydd yn dyfod, felly mae rhyw groes ar [illegible] croes yn dyfod bob dydd i'r credadyn.

25 * Canys [x] pa lesâd i ddyn, er ynnill [illegible] holl fyd, a'i ddifetha ei hun, neu [y] fod wedi [illegible] golli?

x pen. 4. 5—7. a 12. 19—21. a 16. 24, 25. Salm 49. 6—8. M[illegible] 16. 26. Marc 9. 43—48. Act. 1. 18, 25. 2 Pedr 2. 15—17. Dat. [illegible] 7, 8. y Mat. 13. 48, 50. 1 Cor. 9. 27.

Gwel ar Matth. 16. 26; a Marc 8. 36. * Cael byw [illegible] naturiol y corph, sef cael ei arbed, trwy wadu Crist; [illegible] cholli bywyd tragywyddol yr enaid: cyfnewid gwael [illegible] hyny: pa lesâd a fydd yn y diwedd?

26 Canys [z] pwy bynnag fyddo cywily[illegible] ganddo fi a'm geiriau, [a] hwnnw fydd gywily[illegible] gan Fab y dyn, [b] * pan ddelo yn ei ogonia[illegible] ei hun, a'r Tad, † a'r angelion sanctaidd.

z pen. 12. 8, 9. Salm 22. 6—8. Es. 53. 3. Mat. 10. 32, [illegible] Marc 8. 38. Ioan 5. 44. a 12. 43. Rhuf. 1. 16. 2 Cor. 12. 10. G[illegible] 6. 14. 2 Tim. 1. 12. Heb. 11. 26. a 13. 13. 1 Pedr 4. 14—16. D[illegible] 3. 5. a pen. 13. 25—27. Mat. 7. 22, 23. Dat. 21. 8. b D[illegible] 7. 10. Mat. 16. 27. a 24. 30, 31. a 25. 31. a 26. 64. 2 Thes. 1. 8— [illegible] Judas 14. Dat. 1. 7. a 20. 11.

27 Eithr [c] dywedaf i chwi yn wir, Y mae
rhai o'r sawl sydd yn sefyll yma a'r ni [e] ar-
ywaethant angau, hyd oni [f] welont deyrnas
Duw.

c Marc 9. 1. Ioan 14. 2. a 16. 7. d Ioan 21. 22, 23. e pen.
26. Ioan 8. 51, 52. Heb. 2. 9. f pen. 22. 18. Marc 14. 25.

Gwel ar Matth. 16. 27, 28; a Marc 8. 38; a 9. 1.
Ymddangosiad personol a chyfryngol Iesu, yr hwn a ddeng-
ys efe trwy gyfrwng ei natur ddynol, pan ddelo i gyf-
arwni a pherffeithio dybenion gogoneddus ei gnawdoliad.
Sibir bod yma gyfeiriad at y *shechinah* gynt, yr hwn a
elwid *gogoniant Duw Israel, a gweleddiad cyffelybrwydd*
gogoniant yr Arglwydd. Gwel Daniel pen. 1. a 10.
Sibir mai y Gair, sef Mab Duw, oedd fel hyn yn ym-
dangos; ac ar ol ei esgyniad, gwisgwyd ef drachefn
â gogoniant hwnw, felly yr oedd yn ogoniant y Mab
a gystal â gogoniant y Tad: gan eu bod yn un mewn
cnfod, maent yn un mewn gogoniant hefyd; a dengys
had ei Fab yn ogoneddus fel ef ei hun yn y dydd
eveddaf ar gyhoedd yr holl fydoedd. † Gallwn sylwi
ryfyd, fod y cherubiaid, a'r pethau byw, i'w gweled yn
ymddangosiadau gogoneddus a soniwyd, fel gwein-
ggion rhagluniaeth a gosgordd weinyddawl Mab Duw;
hyda chyfeiriad at hyny mae Crist yn llefaru yma am
angelion sanctaidd, y rhai a ddeuant gyd ag ef ddydd
barn, i wneuthur ei air ef, ac i'w glodfori. Sylwyd ar
hyn sydd yn adn. 27 o'r blaen, Matth. 16. 28.

28 ¶ A bu, [g] * ynghylch wyth niwrnod
ddi y geiriau hyn, [h] gymmeryd o hono ef
Pedr, ac Ioan, ac Iago, a myned i fynu [i] i'r
mynydd i weddïo.

g Mat. 17. 1. Marc 9. 2. h pen. 8. 51. Mat. 26. 37—39.
Marc 14. 33—36. 2 Cor. 13. 1. i adn. 18. pen. 6. 12. Salm 109.
Marc 1. 35. a 6. 46. Heb. 5. 7.

29 Ac fel yr oedd efe yn gweddïo, [k] † gwedd
wynebpryd ef a newidiwyd, a'i wisg *oedd*
yn wen ddisglaer.

k Ex. 34. 29—35. Es. 33. 17. a 53. 2. Mat. 17. 2. Marc 9. 2,
Ioan 1. 14. Act. 6. 15. Phil. 3. 7, 8. 2 Pedr 1. 16—18. Dat. 1.
—16. a 20. 11.

30 Ac wele, dau wr a gyd-ymddiddanodd
ef, [l] y rhai oedd Moses ac [m] Elias.

l pen. 24. 27, 44. Mat. 17. 3, 4. Marc 9. 4—6. Ioan 1. 17.
Ruf. 3. 21—23. 2 Cor. 3. 7—11. Heb. 3. 3—6. m adn. 19. pen.
17. Iago 5. 17, 18.

31 [n] Y rhai a ymddangosasant mewn go-
oniant, ac [o] a ddywedasant am ei ‡ ymadaw-
ll ef, yr hwn a gyflawnai efe yn Jerusalem.

n 2 Cor. 3. 18. Phil. 3. 21. Col. 3. 4. 1 Pedr 5. 10. o adn.
pen. 13. 32—34. Ioan 1. 29. 1 Cor. 1. 23, 24. 1 Pedr 1. 11, 12.
Rut. 5. 6—12. a 7. 14.

32 A Phedr, a'r rhai oedd gyd âg ef,
oeddynt wedi trymhâu gan gysgu: a phan
dihunasant, [q] hwy a welsant ei ogoniant ef, a'r
dau wr y rhai oedd yn sefyll gyd âg ef.

p pen. 22. 45, 46. Dan. 8. 18. a 10. 9. Mat. 26. 40—43. q Ex.
34. 18—23. Es. 60. 1—3, 19. Ioan 1. 14. a 17. 24. 2 Pedr 1. 16.
Ioan 3. 2. Dat. 22. 4, 5.

33 A bu, a hwy yn ymadaw oddi wrtho ef,
dywedyd o Pedr wrth yr Iesu, *O* Feistr, [r] da
w i ni fod yma: [s] gwnawn dair pabell; un i ti,
un i Moses, ac un i Elias: heb wybod beth
oedd yn ei ddywedyd.

r Salm 4. 6, 7. a 27. 4. a 63. 2—5. Ioan 19. 8, 9. 2 Cor. 4. 6.
Mat. 17. 4. Marc 9. 5, 6.

34 Ac fel yr oedd efe yn dywedyd hyn,
daeth cwmmwl ac a'u cysgododd hwynt: [u] a
hwynt-hwy a ofnasant wrth fyned o honynt i'r
cwmmwl.

t Ex. 14. 19, 20. a 40. 34—38. Salm 18. 9—11. Es. 19. 1. Mat.
5—7. Marc 9. 7, 8. u Barn. 6. 22. a 13. 22. Dan. 10. 8. Dat.
17.

35 A daeth llef allan o'r cwmmwl, gan ddy-
wedyd, [x] Hwn yw fy Mab anwyl; [y] ‖ gwrand
êwch ef.

x pen. 3. 22. Mat. 3. 17. Ioan 3. 16, 35, 36. 2 Pedr 1. 17, 18
y Deut. 18. 18, 19. Es. 55. 3, 4. Ioan 5. 22—24. Act. 3. 22, 23.
Heb. 2. 3. a 3. 7, 8, 15. a 5. 9. a 12. 25, 26.

36 Ac wedi bod y llef, cafwyd yr Iesu yn
unig. [z] A hwy a gelasant, ac ni fynegasant i
neb y dyddiau hynny ddim o'r pethau a wel-
sent.

z Preg. 3. 7. Mat. 17. 9. Marc 9. 9, 10.

Gwel ar Matth. 17. 1—9: a Marc 9. 2—10. * Chwe
niwrnod medd Matthew a Marc; gwel hyny wedi ei
gysoni yn Matth. 17. 1. † Rhag i'r dysgyblion feddwl
yn isel am dano, ac fel eraill ymrwystro wrtho, o her-
wydd ei agwedd wael yn y cnawd; mae Crist yma yn
dangos iddynt mai peth gwirfoddawl oedd hyny, ac ar
yr un pryd, mae yn dangos iddynt ei fawredd a'i ogo-
niant nefol am ychydig amser. ‡ Ei farwolaeth, yn ol y
Saesoneg: *Exodon* yw y gair Groeg, yn arwyddo ymad-
awiad. Ymadawiad drwy farwolaeth oedd ymadawiad
Iesu, ac am ei farwolaeth, a'r aberth mawr dros bech-
odau a wnelai efe trwy farwolaeth, yr oedd yr ymddi-
ddan rhwng Moses ac Elias âg ef yma. Mae ymadael
â'r byd a'r bywyd hwn yn dyfod i ran pawb yn gyffredin,
ac yn cael ei ddywedyd am bawb yn gyffredin, gyda
golwg ar eu marw; ond *cyflawni* ei ymadawiad oedd
briodol i Grist yn unig, oblegid ei farwolaeth ef oedd
prif destyn mawr y prophwydoliaethau, ac wrth farw yr
oedd efe yn cyflawni y prophwydoliaethau hyny. Yr
oedd gan Iesu hefyd awdurdod i roddi ei einioes i lawr, ac
yr oedd yn ei rhoddi i lawr o'i fodd; (Ioan 10. 18.) ac yn yr
ystyr hyny yr oedd *cyflawni* ei ymadawiad yn ymadrodd
priodol am ei farw ef, ac nis gall fod yn briodol am farw
neb arall. Ar sail yr aberth hwnw y cawsent hwy fyned
i'r gogoniant, gan hyny nid rhyfedd bod yn hoff gan-
ddynt ymddiddan am dano: a phe iawn ddëallesid eu
gweinidogaeth hwynt pan oeddynt yn y byd, gwelsid
mai cyfeirio dynion at yr aberth hwnw yr oeddynt.
"Wele Oen Duw, &c." oedd eu gweinidogaeth hwy fel
Ioan Fedyddiwr a'r holl apostolion. ‖ Dyma orchymyn
mawr a phenaf Duw i bechaduriaid yn yr efengyl, heb
ufudd-dod i hwn ofer yw pob peth arall.

37 ¶ A darfu [a] drannoeth, pan ddaethant i
waered o'r mynydd, i dyrfa fawr gyfarfod âg
ef.

a Mat. 17. 14—21. Marc 9. 14—29.

38 Ac wele, gwr o'r dyrfa a ddolefodd, gan
ddywedyd, O Athraw, yr wyf yn attolwg i ti,
[b] edrych ar fy mab; [c] * canys fy unig-anedig
yw.

b pen. 7. 12. a 8. 41, 42. Mat. 15. 22. Ioan 4. 47. c Gen.
44. 20. Zec. 12. 10.

39 † Ac [d] wele, y mae yspryd yn ei gym-
meryd ef, ac yntau yn ddisymmwth yn
gwaeddi; ac y mae yn ei ddryllio ef, hyd oni
falo ewŷn; a braidd yr ymedy oddi wrtho,
wedi iddo ei ysigo ef.

d pen. 4. 35. a 8. 29. Marc 5. 4, 5. a 9. 20, 26. Ioan 8. 44.
1 Pedr 5. 8. Dat. 9. 11.

40 A mi a ddeisyfais ar dy ddisgyblion di
ei fwrw ef allan; [e] ac nis gallasant.

e adn. 1. pen. 10. 17—19. 2 Bren. 4. 31. Mat. 17. 20, 21. Act.
19. 14—16.

41 A'r Iesu gan atteb a ddywedodd, [f] O
genhedlaeth anffyddlawn [g] a throfaus, [h] pa hŷd
y byddaf gyd â chwi, [i] ac y'ch goddefaf? [k] dwg
dy fab yma.

f pen. 8. 25. Marc 9. 19. Ioan 20. 27. Heb. 3. 19. a 4. 2, 11.
g Deut. 32. 5. Mat. 3. 7. a 12. 39, 45. a 16. 4. a 23. 36. Act. 2. 40.
h Ex. 10. 3. a 16. 28. Num. 14. 11, 27. Jer. 4. 14. Mat. 17. 17.
Ioan 14. 9. i Act. 13. 18. Rhuf. 2. 4. Heb. 3. 9—11. k 2 Bren.
5. 8. Mat. 11. 28. Marc 10. 14, 49. Heb. 7. 25.

42 Ac fel yr oedd efe etto yn dyfod, [l] y

cythraul a'i rhwygodd ef, ac a'*i* drylliodd: a'r Iesu a geryddodd yr yspryd aflan, ac a iachâodd y bachgen, [m] ac a'i rhoddes ef i'w dad.

l adn. 39. Marc 1. 26. a 9. 20, 26, 27. Dat. 12. 12. m pen. 7. 15. 1 Bren. 17. 23. 2 Bren. 4. 36, 37. Act. 9. 41.

Gwel ar Matth. 17. 14—18; a Marc 9. 14—27. * Luc yn unig sydd yn dywedyd hyn; mewn ychydig o eiriau, ond mewn modd a ennyn dosturi yn y darllenydd, a diau iddynt effeithio felly ar feddwl tosturiol yr Arglwydd Iesu. ‡ Wrth ddarllen yr adnod hon, dylid gwahaniaethu yn fanwl rhwng yr ysbryd a'r bachgen, gweithrediadau yr ysbryd, ac effeithiau y gweithrediadau hyny ar y bachgen. Heb hyny nis gellir canfod yn eglur yr hyn a wnai yr ysbryd â'r hyn a wnâi y bachgen: mae o bwys hefyd i weled mai gwir feddiant gan ysbryd drwg ydoedd, ac nid lloerigrwydd yn unig. Gwel Matth. 17. 15.

43 ¶ A [n] brawychu a wnaethant oll gan * fawredd Duw. † Ac a phawb yn rhyfeddu am yr holl bethau a wnaethai yr Iesu, efe a ddywedodd wrth ei ddisgyblion,

n pen. 4. 36. a 5. 9, 26. a 8. 25. Marc 6. 51. Act. 3. 10—13.

44 [o] ‡ Gosodwch chwi yn eich clustiau yr ymadroddion hyn: [p] canys Mab y dyn a draddodir i ddwylaw dynion.

o pen. 1. 66. a 2. 19, 51. Es. 32. 9, 10. Ioan 16. 4. 1 Thes. 3. 3, 4. Heb. 2. 1. a 12. 2—5. p adn. 22. pen. 18. 31. a 24. 6, 7, 44. Mat. 16. 21. a 17. 22, 23. a 20. 18, 19. a 21. 38, 39. a 26. 2. Marc 8. 31. a 9. 31. Ioan 2. 19—22. a 19. 11. Act. 2. 23. a 3. 13—15. a 4. 27, 28.

45 ‖ Eithr [q] hwy ni wybuant y gair hwn, ac yr oedd yn guddiedig oddi wrthynt, § fel nas deallent ef: ac yr oedd arnynt arswyd ymofyn âg ef am y gair hwn.

q adn. 46. pen. 18. 34. Mat. 16. 22. Marc 8. 16—18, 32, 33. a 9. 10, 32. Ioan 12. 16, 34. a 14. 5. a 16. 17, 18. 2 Cor. 3. 14—16.

* Mawredd gallu Duw yn y wyrth ar y lloerig. † Darllenwn yn aml am y bobl yn rhyfeddu wrth weithredoedd Crist; ond anfynych y darllenwn am danynt yn ei dderbyn fel Ceidwad, ac yn ei addef fel Crist. ‡ Yn ol y Saesoneg, "Gadêweh i'r ymadroddion hyn soddi yn ddwfn yn eich clustiau:" ac na fydded i ddim damweiniau a ddygwyddo yn ol hyn beri i chwi eu hanghofio; oblegid chwi a gewch weled pethau gwahanol iawn cyn bo hir; canys Mab y dyn a draddodir i ddwylaw dynion. ‖ Yr oeddent yn dëall y geirian, ond nis gwyddent pa fodd i'w cysoni â'u traddodiadau hwy, y byddai i'r Messiah fyw byth, ac â'r pethau mawrion a ddysgwylient hwy oddi wrtho. Mewn oesoedd gwedi, dychymmygodd yr Iuddewon ddau Fessiah. Messiah mab Joseph, yr hwn oedd i farw; a Messiah mab Dafydd, yr hwn oedd i fuddugoliaethu, ac i fyw yn oes oesoedd. § Fel nas medrent ei amgyffred yn drwyadl. Nid yw yn anmhriodol meddwl, fod rhagfynegiadau yn cael eu llefaru mewn dull fel nas deallid hwy ar y pryd hwnw; ond eto, mewn modd a wnâi iddynt gael argraff ar y meddwl, a pheri eu cofio, hyd oni lwyr ddëallid hwynt yn y cyflawniad o honynt.

46 ¶ [r] * A dadl a gyfododd yn eu plith, pwy a fyddai fwyaf o honynt.

r pen. 14. 7—11. a 22. 24—27. Mat. 18. 1. a 20. 20—22. a 23. 6, 7. Marc 9. 33—37. Rhuf. 12. 3, 10. Gal. 5. 20, 21, 25, 26. Phil. 2. 3, 14. 3 Ioan 9.

47 A'r Iesu, [s] † wrth weled meddwl eu calon hwynt, [t] a gymmerth fachgennyn, ac a'i gosododd yn ei ymyl,

s pen. 5. 22. a 7. 39, 40. Salm 139. 2, 23. Jer. 17. 10. Ioan 2. 25. a 16. 30. a 21. 17. Heb. 4. 13. Dat. 2. 23. t Mat. 18. 2—4. a 19. 13—15. Marc 10. 14, 15. 1 Cor. 14. 20. 1 Pedr 2. 1, 2.

48 Ac a ddywedodd wrthynt, [u] Pwy bynnag a dderbynio y ‡ bachgennyn hwn yn fy enw i, sydd yn fy nerbyn i; a phwy bynnag a'm derbynio i, sydd yn derbyn yr hwn a'm hanfonodd i: canys [x] yr hwn sydd leiaf yn eich plith chwi oll, ‖ hwnnw a fydd mawr.

u pen. 10. 16. Mat. 10. 40—42. a 18. 5, 6, 10, 14. a 25. 40, 45. Marc 9. 37. Ioan 12. 44, 45. a 13. 20. a 14. 21. 1 Thes. 4. 8. x pen. 7. 28. a 22. 30. Diar. 18. 12. Mat. 19. 28. a 23. 11, 12. 1 Pedr 5. 3, 4, 6. Dat. 3. 21. a 21. 14.

Gwel ar Matth. 18. 1—6; a Marc 9. 33—37. * M y ddadl hon yn dangos yr angenrheidrwydd am y cyng yn adn. 23; ac am osod yr ymadroddion o'r blaen a eu clustiau, adn. 44. † Pa fodd y gallasai Iesu wel meddwl eu calon hwynt heb ei fod yn Dduw hollw bodol? Pwy ond Duw a fedr weled meddwl? ‡ " bachgenyn hwn:" hyny yw, rhywun gostyngedig ac is fryd *fel* y bachgenyn hwn: rhaid dëall Luc yma, yn Matthew 18. 3. ‖ "Hwnw a fydd mawr:" neu fwy medd rhai: bydd y gwir gristion lleiaf yn fawr yn y n yn uwch na holl rai mawrion y ddaear, ac yn ogyd-ra â'r angelion.

49 ¶ Ac Ioan a attebodd ac a ddywedod *O* Feistr, * [y] ni a welsom ryw un yn dy enw yn bwrw allan gythreuliaid; ac a wharddaso iddo, am nad oedd yn canlyn gyd â ni.

y Num. 11. 27—29. Marc 9. 38—40. a 10. 13, 14. Act. 4. 19. a 5. 28. 1 Thes. 2. 16. 3 Ioan 9, 10.

50 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, [z] Na w herddwch *iddo:* [a] canys y neb nid yw i'n he byn, trosom ni y mae.

z Jos. 9. 14. Diar. 3. 5, 6. Mat. 13. 28—30. a 17. 24—26. Ph 1. 15—18. a pen. 11. 23. Mat. 12. 30. Marc 9. 41. 1 C 12. 3.

Gwel ar Marc 9. 38—40. * Mae yn amlwg wrth y dysgyblion, ac wrth orchymyn Iesu iddynt yn ei ate fod y dyn hwn yn bwrw allan gythreuliaid, ac ei fod y gwneyd hyny oddi ar egwyddor dda: yr oedd hefyd eu bwrw allan yn enw y Messïah; ond pa un a oe efe yn credu ac yn cydnabod mai Iesu o Nazareth oe y Messiah, ai nid oedd, nis gallwn ni wybod. Tyb mai un o ddysgyblion Ioan Fedyddiwr oedd efe, ac fod yn bwrw allan gythreuliaid drwy ffydd yn y Messïa yr hwn y dywedai Ioan ei fod ar ymddangos yn y by Mewn achosion ac amgylchiadau anghyffredin, ni ddyl bod yn rhy fyrbwyll i feïo nac i gymmeradwyo. Llaw gwaith y gwelwn bethau da ynddynt eu hunain, yn ca eu gwneyd gan ddynion nrs gwyddom beth yw eu he wyddor, na pha beth sydd yn eu cynnyrfu; a doethin yw i ni fod yn araf cyn eu barnu, pa un ai da ai drwg maent yn gwneyd. Gwel vchwaneg ar y mater uch yn Marc fel y soniwyd.

51 ¶ * A bu, pan gyflawnwyd y dyddia [b] y cymmerid ef i fynu, [c] † yntau a roddes fryd ar fyned i Jerusalem.

b pen. 24. 51. 2 Bren. 2. 1—3, 11. Marc 16. 19. Ioan 6. 62. 13. 1. a 16. 5, 28. a 17. 11. Act. 1. 2, 9. Eph. 1. 20. a 4. 8—1 1 Tim. 3. 16. Heb. 6. 20. a 12. 2. 1 Pedr 3. 22. c pen. 12. 5 Es. 50. 5—9. Act. 20. 22—24. a 21. 11—14. Phil. 3. 14. 1 Pedr 4.

* Esgyniad Crist i'r gogoniant a feddylir yma wr gymmeryd i fynu: mae ei farwolaeth boenus yn gy nwysedig megys, yn yr ymadrodd hwn, er na chrybwyll mo hóni, er dangos i ni, efallai, mai ei ogoneddis oedd y peth mwyaf yn ngólwg Iesu, ac nad oedd ei dd oddefaint a'i farwolaeth ond megys camau, neu foddio parotôawl i hyny. † Gwyddai Iesu yn dda beth oed yn ei aros ef yn Jerusalem, y gorfyddai iddo ddyodd a marw yno; eto rhoddes ei fryd ar fyned yno, gan gym maint ei awydd i orphen ei waith mawr ar y ddaear, myned i'w ogoniant. Rhoddi ei einioes i lawr o hón ei hun yr oedd efe; nid oedd neb ac nid allasai neb, dwyn hi oddi arno.

52 * Ac [d] efe a ddanfonodd genhadau flaen ei wyneb: [e] a hwy wedi myned, a aethan i mewn i † dref [f] y Samariaid, i barottôi idd ef.

d pen. 7. 27. a 10. 1. Mal. 3. 1. e Mat. 10. 5. f pen. 1 33. a 17. 16. 2 Bren. 17. 24—33. Ezra 4. 1—5. Ioan 8. 48.

53 ‡ Ac [g] nis derbyniasant hwy ef, oblegid
d ei wyneb ef yn tueddu tu a Jerusalem.
g adn. 48. Ioan 4. 4, 9, 40—42.

* I fynegi pwy oedd yn dyfod, ac i ddarpar lluniaeth
dletty fel y byddai yr achos yn gofyn. † Pa un ai
nas Samaria neu ryw ddinas yn perthyn i'r Samariaid
lid hon, nis gwyddom: yr oedd Galilea yn ngogledd
lad Canaan. Jerusalem yn y dehau, a Samaria yn y
nol rhwng y ddwy; felly yr oedd ffordd Iesu o Galilea
erusalem trwy wlad y Samariaid. ‡ Gwyddai y Sa-
riaid am Iesu mai prophwyd enwog oedd; ond am
el ei wyneb tua Jerusalem, i addoli yno, ni dderbynient
y ef; oblegid yr oedd efe drwy hyny yn condemnio
gau-addoliad hwy ar fynydd Garizim. Am yr ym-
ael oedd rhwng y Samariaid a'r Iuddewon, cawn
wi eto yn fanylach pan ddelom at Ioan, pen. 4. 9, 20.
mòr ynfyd oedd y trueiniaid hyn yn gwrthod Iesu!
y a wyr pa faint o fendithion a gollasant?

54 * A'i ddisgyblion ef, Iago ac Ioan, pan
elsant, a ddywedasant, Arglwydd, [h] † a fynni
ddywedyd o honom am ddyfod [i] tân i lawr
nef, a'u difa hwynt, megis y gwnaeth
ias?

h 2 Sam. 21. 2. 2 Bren. 10. 16, 31. Iago 1. 19, 20. a 3. 14—18.
i Bren. 1. 10—14. Act. 4. 29, 30. Dat. 13. 3.

* Yn Samaria y galwodd Elias am dân o'r nef, ac
llai yn y fàn hon; a hyny mae yn debyg a barodd i'r
au ddysgybl feddwl am y cyfryw beth yma mwy nag
wn mànau eraill, lle cawsai eu Harglwydd waeth
niaeth nag a gawsai yma. † Tybient hwy fod y gallu
yrthiol a roddasai Crist iddynt, yn ddigon i wneyd
n ond cael ei gennad ef: tybient hefyd fod yn iawn
dynt wneyd felly, a bod eu heiddigedd dros eu Hathraw
ganmoladwy iawn. Ond yr oedd gwahaniaeth mawr
wng amgylchiad Elias â'r amgylchiad presenol: erlid
as oedd amcan Ahaziah; nid oedd y Samariaid yn
id Crist, er nas derbynient ef: yr oedd Ahaziah yn
id yn groes i'w oleuni a'i wybodaeth; yn eu han-
ybodaeth yr oedd y Samariaid truain hyn yn gwrthod
su, ac o bleid-farn gref dros eu crefydd eu hunain.

55 * Ac efe a drodd, [k] ac a'u ceryddodd
wynt; ac a ddywedodd, [l] Ni wyddoch o ba
pryd yr ydych chwi.

k 1 Sam. 24. 4—7. a 26. 8—11. 2 Sam. 19. 22. Job 31. 29—31.
ar. 9. 8. Mat. 16. 23. Dat. 3. 19. l Num. 20. 10—12. Job 2.
a 26. 4. a 34. 4—9. a 35. 2—4. a 42. 6. Jer. 17. 9. Mat. 26. 33,
51. Ioan 16. 9. Act. 23. 3—5. a 26. 9—11. Iago 3. 10. 1 Pedr
.9.

56 † Canys [m] ni ddaeth Mab y dyn i ddis-
wylio eneidiau dynion, ond i'w cadw. [n] A
wy a aethant i dref arall.

m pen. 19. 10. Mat. 18. 11. a 20. 28. Ioan 3. 17. a 10. 10. a
47. 1 Tim. 1. 15. n pen. 6. 27—31. a 22. 51. a 23. 34. Mat.
39. Rhuf. 12. 21. 1 Pedr 2. 21—23.

* Yn lle caniatâu iddynt en dymuniad creulawn, mae
Iesu addfwyn yn ceryddu Iago ac Ioan am gynnyg y
th weithred ethrywllt; ac yn dywedyd wrthynt nas
yddent o ba ysbryd yr oeddynt: yr oeddynt hwy am
ystrywio dynion mewn ysbryd dialgar poeth, yn lle
isio eu gorchfygu a'u hennill trwy diriondeb a hyn-
sedd. Beth bynag am Iago, yr oedd yn rhyfedd bod
r mòr enwog am addfwynder a Ioan, wedi myned i'r
bryd hwn. Efallai mai y fendith a gafodd drwy y
rydd hwn a'i gwnaeth mòr hynod am ei hynawsedd
di hyny drwy ei oes. † Dyben Iesu yn dyfod i'r byd,
atur goruchwyliaeth dirion yr efengyl yw, cadw en-
iliau dynion, ac nid eu dystrywio fel y mynech chwi
neyd: gwneuthur pob daioni i'w cyrph a'u heneidiau,
fel hyny eu hennill a'u hachub. Mae pob creulon-
b a gorfod yn groes i ysbryd yr efengyl; ac ni lwydda
b felly byth gyda dynion annwybodus i'w hennill.
ae rhai yn gwrthod y geiriau hyn, gan farnu mai
wanegiad ydynt at ysgrif gyntefig Luc: ond y maent
wirionedd, mae y cyd-destynau yn eu gofyn, ac maent
gyfystyr â'r gwirionedd gwerthfawr, ddyfod Mab y
dyn i geisio ac i gadw yr hyn a gollasid: a gwel hefyd
eu cyffelyb yn Ioan 3. 17.

57 ¶ A bu, a hwy yn myned, ddywedyd o
[o] * ryw un ar y ffordd wrtho ef, Arglwydd, mi
a'th ganlynaf i ba le bynnag yr elych.

o Ex. 19. 8. Mat. 8. 19, 20. Ioan 13. 37.

58 A'r [p] Iesu a ddywedodd wrtho, [q] † Y
mae gan y llwynogod ffaüau, a *chan* adar yr
awyr nythod; ond gan Fab y dyn nid oes lle
y rhoddo *ei* ben i lawr.

p pen. 14. 26—33. a 18. 22, 23. Jos. 24. 19—22. Ioan 6. 60—66. q Salm 84. 3. 2 Cor. 8, 9. Iago 2. 5.

Gwel ar Matth. 8. 19, 20. * Yno dywedir mai un o'r ysgrifenyddion oedd y "rhywun" hwn. † Byddai yn burion i'r rhai mae ganddynt dai gwychion, ac yn tybied eu bod yn werth ymffrostio ynddynt, neu eu bod yn bethau addas i ddynion ymfawrygu o'u herwydd, gan ddïystyru eu brodyr tlodion sydd heb y cyfryw gyfleusderau cysurus yn y bywyd hwn, byddai yn burion iddynt, meddaf, feddwl am y testyn hwn. Gwel ychwaneg ar Matthew.

59 * Ac efe a ddywedodd wrth un arall,
[r] Dilyn fi. Ac yntau a ddywedodd, Arglwydd,
[s] gâd i mi yn gyntaf fyned a chladdu fy nhad.

r Mat. 4. 19—22. a 9. 9. a 16. 24. s Hag. 1. 2. Mat. 6. 33. a 8. 21, 22.

60 Eithr yr Iesu a ddywedodd wrtho,
[t] † Gâd i'r meirw gladdu eu meirw; [u] ‡ ond
dos di a phregetha deyrnas Dduw.

t pen. 15. 32. Eph. 2. 1, 5. 1 Tim. 5. 6. Dat. 3. 1. u Ioan 21. 15—17. 1 Cor. 9. 16. 2 Cor. 5. 16—18. 2 Tim. 2. 3, 4. a 4. 2, 5.

Gwel ar Matth. 8. 21, 22. * Mae gras yn rhad ac yn ben-arglwyddiaethol; cynnygiodd yr ysgrifenydd ganlyn Crist, ond ni roddodd efe annogaeth iddo: wrth un arall, na wnaeth y cyfryw gynnyg, mae efe yn dywedyd, "Dilyn fi," ac ni chymmerai un esgusodiad. † Nis gallwn wneyd synwyr yn y byd o'r geiriau hyn, heb dybied mai meirw mewn ystyr ysbrydol neu foesol, a feddylir wrth y gair "meirw" yn y lle cyntaf o'r ddau: meirw fel yn Ephes. 2. 1, 5; Colos. 2. 13; 1 Tim. 5. 6. Tybiodd rhai gwŷr da, mai darluniad o gyflwr gwael y cenedloedd paganaidd, fel y cyfryw, yw yr ysgrythyrau a grybwyllwyd; ond mae yr adnod hon yn gwrth-brofi hyny, oblegid am Iuddewon y dywedir yma eu bod yn feirw. Nid rhyfedd i Grist warafun i'r dyn hwn fyned i gymdeithas y cyfryw rai, hyd yn nod i gladdu ei dad; gwyddai yn dda y caffai eu cyfeillach effaith ddrwg ar ei dueddiadau crefyddol ef, i'w rwystro i ganlyn Crist. † Mae yn debyg iddo fyned ar y gorchymyn hwn, heb ammau ychwaneg.

61 Ac un arall hefyd a ddywedodd, Mi a'th
ddilynaf di, O Arglwydd; [x] * ond gâd i mi yn
gyntaf ganu yn iach i'r rhai sydd yn fy nhŷ.

x pen. 14. 18—20, 26. Deut. 33. 9. 1 Bren. 19. 20. Preg. 9. 10. Mat. 10. 37, 38.

62 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, [y] † Nid
oes neb a'r sydd yn rhoi ei law ar yr aradr, ac
yn edrych ar y pethau sydd o'i ol, yn gym-
mwys i deyrnas Dduw.

y pen. 17. 31, 32. Salm 78. 8, 9. Act. 15. 37, 38. 2 Tim. 4. 10, Heb. 10. 38. Iago 1. 6—8. 2 Pedr 2. 20—22.

Nid yw Matthew yn sôn am y trydydd person hwn. * Mae dysgedigion yn ammau, pa un ai canu yn iach i'r rhai sydd yn fy nhŷ, ai ynte trefnu pethau, a phersonau yn fy nhŷ, a ddylai y geiriau hyn fod, yn ol iawn gyfieithiad. Pa un bynag o'r ddau, maent yn dangos gormod o fydolrwydd meddwl yn y gwr a'u llefarodd, ac efallai petrusder meddwl hefyd, pa un ai canlyn Crist a wnâi efe, ai ynte dychwelyd at y byd a'r eiddo. † Mae yn debyg mai ymadrodd diarebol oedd hwn, yn arwyddo dyn diofal ac anmhenderfynol yn ei orchwyl. Mae y cyfryw ddyn yn anghymhwys iawn gyda chrefydd, yn enwedig at waith y weinidogaeth: nis gall neb wneyd ei

orchwyl yn iawn, os bydd ei fryd a'i feddwl gyda rhywbeth arall. Rhaid i'r aradwr edrych yn mlaen ar ei waith, heb hyny ni bydd ei gwysau yn uniawn, nac o iawn ddyfnder; felly gweinidog yr efengyl, os gelwir ef unwaith oddi wrth alwedigaethau bydol at wasanaeth Duw yn ngweinidogaeth yr efengyl, mae efe yn rhwym i roddi ei holl fryd a'i holl ddiwydrwydd at hyny; mae hyny yn ddigon i'r holl ddyn, ei holl nerth a'i holl amser: nid oes achos iddo am ddim arall i feddwl am dano; pethau y tu ol iddo ef yw holl bethau y byd. Nid am fod Duw yn gwahardd i'w weinidogion i ennill eu bara trwy lafur eu dwylaw os bydd *raid* hyny, fel y gwnaeth Paul; ond lle na byddo *gwir* angenrheidrwydd, ni ddylent ymddyrysu gyda phethau y bywyd hwn, fel ag i wneyd galwedigaeth o hónynt, ac ymrwystro yn eu gorchwyl mawr o iawn-gyfranu gair y gwirionedd. Da fyddai i'r eglwysi ped ystyriai holl weinidogion y gair y wers bwysig sydd yn yr adnod hon.

PEN. X.

Crist yn anfon deg dysgybl a thriugain i wneuthur gwyrthiau, ac i bregethu.

*WEDI [a] y pethau hyn, yr ordeiniodd yr Arglwydd [b] ddeg a thriugain eraill hefyd, † ac a'u danfonodd hwynt [c] bob yn ddau o flaen ei wyneb ‡ i bob dinas a man [d] lle yr oedd efe ar fedr dyfod.

a Mat. 10. 1. b Num. 11. 16, 24—26. c Act. 13. 2—4. Dat. 11. 3—10. d pen. 1. 17, 76. a 3. 4—6. a 9. 52.

* Tua blwyddyn cyn hyn (medd *Dr. Guyse*) danfonodd Iesu allan ei ddeuddeg apostol, yn ol rhifedi y deuddeg patriarch, a deuddeg llwyth Israel: ac yn awr, o herwydd bod y cynhauaf yn fawr, a'i amser yntau ar y ddaear yn fŷr, mae yn ordeinio deg a thriugain eraill hefyd, yn ol rhifedi deg a thriugain henuriaid Israel, i fod fel cynnorthwywyr i'r apostolion, yn awr ac wedi esgyniad Crist hefyd. Eraill heblaw y deuddeg apostol a feddylir, canys nid oes deg a thriugain wedi eu danfon o flaen y rhai hyn. Diammau bod llawer o bregethwyr cyntaf yr efengyl o'r fintai hon; a thybia rhai bod Luc, ysgrifenydd yr efengyl hon yn un o hónynt: ond nid oes un sail i hyny; oblegid nid yw eu henwau wedi eu crybwyll. † Creadur cymdeithasgar ydyw dyn, ac nid da bod dyn ei hunan: am hyny danfonodd Crist y deg a thriugain hyn bob yn ddau, fel y danfonodd Duw Moses ac Aaron i lŷs Pharaoh; fel y byddent yn gymdeithas, yn gysur, ac yn ddyddanwch i'w gilydd; fel y gallent gryfâu breichiau eu gilydd, ac fel y byddent yn dystion dros eu gilydd. ‡ Tybir mai tua hanner blwyddyn o amser oedd gan Grist mwyach, ac yr oedd yn bwriadu gwneuthur un daith yn ychwaneg drwy holl Galilea, cyn eu gadael a myned i Jerusalem i ddyoddef a marw. Danfonodd y cenadau hyn i ddarpar y bobl erbyn ei ddyfodiad ef ei hun. Lle bynag y mae Crist yn danfon ei weinidogion, mae efe ei hun ar fedr dyfod yno: meddwl hyny a fydd yn galondid i'w weinidogion i fyned.

2 Am hynny efe a ddywedodd wrthynt, [e] * Y cynhauaf yn wir *sydd* fawr, ond [f] y gweithwyr [g] yn anaml: [h] gweddiwch gan hynny [i] ar Arglwydd y cynhauaf, am ddanfon allan † weithwyr i'w gynhauaf.

e Mat. 9. 37, 38. Ioan 4. 35—38. 1 Cor. 3. 6—9. f Mat. 20. 1. Marc 13. 34. 1 Cor. 15. 10. 2 Cor. 6. 1. Phil. 2. 25, 30. Col. 1. 29. a 4. 12. 1 Thes. 2. 9. a 5. 12. 1 Tim. 4. 10, 15, 16. a 5. 17, 18. 2 Tim. 2. 3—6. a 4. 5. Philemon 1. g 1 Bren. 18. 22. a 22. 6—8. Es. 56. 9—12. Ezec. 34. 2—6. Zec. 11. 5, 17. Mat. 9. 36. Act. 16. 9, 10. Phil. 2. 21. Dat. 11. 2, 3. h 2 Thes. 3. 1. i pen. 9. 1. Num. 11. 17, 29. Salm 68. 11. Jer. 3. 15. Marc 16. 15, 20. Act. 8. 4. a 11. 19. a 13. 2, 4. a 20. 28. a 22. 21. a 26. 15—18. 1 Cor. 12. 28. Eph. 4. 7—12. 1 Tim. 1. 12—14. Heb. 3. 6. Dat. 2. 1.

* Dywedodd Iesu yr un geiriau yn union cyn danfon y deuddeg, gwel ar Matth. 9. 37, 38. † Pawb a ddanfonodd Iesu, y deuddeg a'r deg a thriugain, *gweithwyr* oeddynt yn nghynhauaf yr Arglwydd. Nid yw efe eto yn anfon neb ond gweithwyr; a'r gweinidogion hy[illegible] nid ydynt *weithwyr*, a gweithwyr difefl hefyd, nid ydy[illegible] o'i ddanfoniad ef: dringo i'r winllan a wnaethant ry[illegible] ffordd arall.

3 Ewch: wele, [k] yr wyf fi yn eich danfo[illegible] chwi fel ŵyn ym mysg [l] bleiddiaid.

k Salm 22. 12—16, 21. Ezec. 2. 3—6. Mat. 10. 16, 22. Io[illegible] 15. 20. a 16. 2. Act. 9. 2, 16. l Zeph. 3. 3. Mat. 7. 15. Ioan [illegible] 12. Act. 20. 29.

4 [m] Na ddygwch gôd, nac ysgrepan, nac e[illegible] gidiau; [n] * ac na chyferchwch well i neb ar [illegible] ffordd.

m pen. 9. 3. a 22. 35. Mat. 10. 9, 10. Marc 6. 8, 9. n pe[illegible] 9. 59, 60. Gen. 24. 33, 56. 1 Sam. 21. 8. 2 Bren. 4. 24, 29.

Gwel ar y cyfarwyddiadau hyn yn Matth. 10. 9, 1[illegible] 16: nid oes achos helaethu yma. * Nid yw y geiri[illegible] hyn gan Matthew: yr oedd eu gwaith hwynt yn fawr [illegible] yn bwysig, eu hamser yn fŷr ac yn werthfawr; am hy[illegible] ni ddylent ei dreulio mewn cyfarchiadau afraid, [illegible] mewn siaradach ofer a dianghenrhaid: yr oedd go[illegible] chymyn y brenin ar ffrwst. 1 Sam. 21. 8. Gwel hef[illegible] 2 Bren. 4. 29. Nid oedd Iesu am i'w ddysgyblion f[illegible] yn anfoesgar tuag at neb, ond yr oedd llawer o ddefo[illegible] au ffurfiol mewn cyfarchiadau yn y wlad hòno, a fuas [illegible] yn rhwystr mawr iddynt hwy yn ngwaith eu Harglwyd[illegible]

5 Ac [o] i ba dŷ bynnag yr eloch i mewn, y[illegible] gyntaf dywedwch, Tangnefedd i'r tŷ hwn.

o pen. 19. 9. 1 Sam. 25. 6. Es. 57. 19. Mat. 10. 12, 13. A[illegible] 10. 36. 2 Cor. 5. 18—20. Eph. 2. 17.

6 Ac o [p] bydd yno * fab tangnefedd, eic[illegible] tangnefedd a orphwys arno: os amgen, [q] hi [illegible] ddychwel attoch chwi.

p 1 Sam. 25. 17. Eph. 2. 2, 3. a 5. 6. 1 Pedr 1. 14. q Sal[illegible] 35. 13. 2 Cor. 2. 15, 16.

7 Ac [r] yn y tŷ hwnnw arhoswch, gân fwytt[illegible] ac yfed y cyfryw bethau ag *a gaffoch* gan[illegible] ddynt: [s] canys teilwng yw i'r gweithiwr [illegible] gyflog. † Na threiglwch o dŷ i dŷ.

r pen. 9. 4. Mat. 10. 11. Marc 6. 10. Act. 16. 15, 34, 4[illegible] s Deut. 12. 12, 18, 19. Mat. 10. 10. 1 Cor. 9. 4—15. Gal. 6. 6. Ph[illegible] 4. 17, 18. 1 Tim. 5. 17, 18. 2 Tim. 2. 6. 3 Ioan 5—8.

* Gwel ar Matth. 10. 11—13, a Marc 6. 10, 11; ma[illegible] yr addysgiadau o ran sylwedd yma ac yno, ond eu bo[illegible] yn gwahaniaethu ychydig mewn geiriau. * "Ma[illegible] tangnefedd:" un parod ac ewyllysgar i dderbyn cenad[illegible] wri tangnefedd gan y deg a thriugain hyn; un y[illegible] chwennych cymmod â Duw, a mwynâu tangnefedd Du[illegible] yn ei enaid; ac un tangnefeddus a thirion tuag [illegible] genadon anfonedig Iesu. Os byddai rhyw dda ne[illegible] ddrwg yn neillduol mewn dyn, mab y peth hwnw [illegible] gelwid ef, yn ol priod-ddull yr Hebraeg. † Gwel a[illegible] pen. 9. 4, *nôd* ‡.

8 A pha ddinas bynnag yr eloch iddi, [illegible] [t] hwy yn eich derbyn, [u] * bwyttewch y cyfryw[illegible] bethau ag a rodder ger eich bronnau:

t adn. 10. pen. 9. 48. Mat. 10. 40. Ioan 13. 20. u 1 Co[illegible] 10. 27.

9 Ac [x] iachêwch y cleifion a fyddo ynddi, [illegible] dywedwch wrthynt, [y] Daeth teyrnas Dduw y[illegible] agos attoch.

x pen. 9. 2. Mat. 10. 8. Marc 6. 13. Act. 28. 7—10. y adn[illegible] 11. pen. 17. 20, 21. Dan. 2. 44. Mat. 3. 2. a 4. 17. a 10. 7. Marc 4[illegible] 30. Ioan 3. 3, 5. Act. 28. 28, 31.

10 Eithr pa ddinas bynnag yr eloch iddi, [illegible] hwy heb eich derbyn, [z] ewch allan i'w heolydd, [illegible] a dywedwch,

z pen. 9. 5. Mat. 10. 14. Act. 13. 51. a 18. 6.

11 Hyd yn nod y llwch, yr hwn a lynodd [illegible] wrthym o'ch dinas, yr ydym yn ei sychu y-[illegible] maith i chwi: [a] er hynny gwybyddwch hyn, [illegible] fod teyrnas Dduw wedi nesâu attoch.

a adn. 9. Deut. 30. 11—14. Act. 13. 26, 40, 46. Rhuf. 10. 8, [illegible] 21. Heb. 1. 3.

12 Eithr dywedaf wrthych, [b] mai † es-
mwythach fydd i Sodom yn y dydd hwnnw,
nag i'r ddinas honno.

b Galar. 4. 6. Ezec. 16. 48—50. Mat. 10. 15. a 11. 24. Marc 6. 11.

Gwel ar Matth. 10. 11—15, a Marc 6. 10, 11.

Gwelwn oddi wrth y gorchymyn hwn—1. Na ddylai weinidogion y gair ddim bod yn rhy dra-gofalus am wioliaeth; fel mae y gweithiwr yn deilwng o'i fwyd, lly e ofala yr hwn sydd yn ei ddanfon ef i'w gynhauaf n iddo gael ei borthi: gofaled ef am ei waith, i flawni ei weinidogaeth. 2. Na ddylai gweinidogion efengyl, mewn dinasoedd a thai, ddim cymdeithasu glythion a meddwon; ond â'r rhai teilwng, hyd y llont eu hadnabod: rhai tebyg i'w Harglwydd a'u eistr a ddylai eu cymdeithion hwy fod. 3. Y rhai wyaf teilwng yn mhob màn yw, y rhai mwyaf eu wybodaeth am, a mwyaf eu cariad at, yr Arglwydd su. 4. Dylai gweinidogion Crist ymddwyn yn hardd yn llednais yn mhob màn; dymuno yn dda i bawb, a nneyd pob da a allont i bawb. 5. Ni ddylai gweinidgion yr efengyl wneuthur eu boliau yn dduwiau—bwytêwch y cyfryw bethau ag a rodder ger eich bron-i," medd Iesu. 6. Mae ganddynt warant ysgrythyrol gymmeryd, ac i ddefnyddio at eu hangenrheidiau; hyn a roddo dynion iddynt. 7. Mae Crist yn dis-wyl i'w bobl gynnal ei weinidogion ef, nid cam-attal rflog y gweithwyr, na chau safn yr ych sydd yn dyrnu ŷd: nid gwneyd yn well o'u gwasanaeth-ddynion mmorawl, nag o'r rhai sydd yn llafurio dros eu neidiau. Gwneyd yn anghyfiawn â'r rhai hyn yw wneyd yn anghyfiawn â chenadon a gweision Crist. Peidio rhoddi bywioliaeth i weinidogion yr efengyl w peidio eu derbyn hwynt; hyny yw, os bydd y bobl n gallu. 9. Nid yw dynion wrth beidio derbyn yr efengyl yn gwneyd dim niwed i'w gweinidogion hi; ddychwel eu tangnefedd hwy arnynt eu hunain: yddant hwy yn ber-arogl Crist i Dduw, hyd yn nod yn rhai colledig. 10. Er gwrthod o ddynion yr efengyl, o cânt wybod fod teyrnas Dduw wedi dyfod yn agos ynt: os nad ymostyngant i deyrnas ei ras ef, cânt nostwng i deyrnas ei allu a'i gyfiawnder. 11. Mae wirnod yn dyfod pryd y caiff dynion a wrthodasant efengyl, ac a ddirmygasant genadon Crist, wybod, buasai yn well iddynt fyw yn Sodom pan losgwyd hi thân a brwmstan, na byw yn ngwlad efengyl. Clywed chryned pawb sydd yn byw yn ein gwlad ac yn ein yddiau ni, a thorent ymaith eu pechodau trwy wir lifeirwch mewn pryd, rhag iddynt fyned i uffern dàn anfantais fwyaf. † Peth gwahanol iawn i wir iach-wdwriaeth yw yr "esmwythach" hyn; ac eto dyna'r wbl a ddywed Crist yn ddaionus am gyflwr y pagan-id yn nydd y farn.

13 [c] Gwae di, Chorazin: gwae di, Beth-aida: [d] canys pe gwnaethid yn [e] Tyrus a Sidon gweithredoedd nerthol [f] a wnaethpwyd yn ich plith chwi, hwy a [g] edifarhasent er ys hlm, gan eistedd mewn sachlïan a lludw.

c Mat. 11. 20—22. d Ezec. 3. 6, 7. Act. 28. 25—28. Rhuf. 29—33. a 11. 8—11. 1 Tim. 4. 2. e Es. 23. Ezec. 26—28. pen. 9. 10—17. Marc 8. 22—26. g Job 42. 6. Es. 61. 3. Dan. 3. Jona 3. 5, 6.

14 Eithr [h] esmwythach fydd i Tyrus a idon yn y farn, nag i chwi.

h pen. 12. 47, 48. Amos 3. 2. Ioan 3. 19. a 15. 22—25. Rhuf. 1, 27.

15 A thithau, [i] Capernaum, [k] yr hon a ddyr-hafwyd hyd y nef, [l] * a dynnir i lawr hyd yn ffern.

i pen. 7. 1, 2. Mat. 4. 13. k Gen. 11. 4. Deut. 1. 28. Es. 13, 14. Jer. 51. 53. Ezec. 28. 12—14. Ob. 4. Mat. 11. 23. pen. 13. 28. Es. 5. 14. a 14. 15. Ezec. 26. 20. a 32. 18, 20, 27. Mat. 10. 28. 2 Pedr 2. 4.

Gwel ar Matth. 11. 21—23. * Neu yn hytrach a rthir i lawr: tebyg i Dat. 18. 21.

16 * Y neb [m] sydd yn eich gwrando chwi, sydd yn fy ngwrando i; a'r neb sydd yn eich [n] dirmygu chwi, sydd yn fy nirmygu i; † a'r neb sydd yn fy nirmygu i, [o] sydd yn dirmygu yr hwn a'm hanfonodd i.

m pen. 9. 48. Mat. 10. 40. a 18. 5. Marc 9. 37. Ioan 12. 44, 48. a 13. 20. 1 Thes. 4. 8. n Ex. 16. 7, 8. Num. 14. 2, 11. a 16. 11. o Mal. 1. 6. Ioan 5. 22, 23. 1 Thes. 4. 8.

* Gwel ar Matth. 10. 40. Mae gwrthod cenadwr, neu ei drin yn ddirmygus, yn dramgwydd i'r brenin a'i danfonodd ef, 2 Sam. 10. 2—6. Yr apostolion a'r deg a thriugain hyn oeddynt genadau a chynnrychiolwyr Crist, ac yr oedd y neb a'u gwrthodai, ac a'u dirmygai hwynt, mewn gwirionedd yn ei wrthod ac yn ei ddirmygu ef. † Yr oedd Crist ei hun yn Apostol y Tad, yn Genadwr drosto at ddynion, ac yn Ddisgleirdeb ei ogoniant ef; felly yr oedd ei wrthod a'i ddirmygu ef yn wrthod a dirmygu y Tad. Yr oedd galluoedd gwyrthiol y cenadon cyntefig hyn i Grist, yn gwneyd eu hachos hwy yn neilldiuol; ond yn mhob oes, gwrthodir a dirmygir Iesu gan ddynion, trwy y dirmyg a dywelltir ar ei weinidogion ffyddlawn a dilyn-wiw: a thrwy ei ddirmygu ef yn ei genadon, mae dynion yn dangos eu dirmyg ar Dduw ei hun, a'u gelyniaeth yn ei erbyn ef.

17 ¶ * A'r deg a thriugain [p] a ddychwel-asant gyd â † llawenydd, gan ddywedyd, Arglwydd, ‡ hyd yn nôd y cythreuliaid a ddar-ostyngir i ni, ‖ yn dy enw di.

p adn. 1—9. pen. 9. 1. Rhuf. 16. 20.

* Darllenasom am y deuddeg yn dychwelyd o'u llafur i roddi cyfrif i'w Harglwydd, (pen. 9. 10;) felly y gwnaeth y deg a thriugain yma, ar amser, ac mewn lle, a bennodasid iddynt yn ddiammau gan Grist. † Pa un a oedd gormod o gnawd yn y llawenydd hwn ai nid oedd, nis gwyddom yn hollol; llawenâu yn y gallu a roddes Crist iddynt *hwy*, yn hytrach na llawenâu am fod gallu Crist yn cael ei egluro, a'r gwirionedd yn cael ei gadarnâu trwy y gwyrthiau hyn. Mae perygl mawr rhag fod pregethwyr yr efengyl yn llawenâu yn eu llwyddiant eu hunain, yn lle llawenâu yn llwyddiant yr efengyl a gogoniant Crist: màn cul iawn yw y màn yma, hawdd i ddyn duwiol gam-gymmeryd am dano ei hun. ‡ Nid oedd sôn am awdurdod ar gythreuliaid yn eu danfoniad hwy, dim ond iachâu y cleifion, adn. 9; gan hyny yr oedd syndod yn eu llawenydd, megys am beth nad oeddynt wedi meddwl am dano. ‖ Sylw-yd o'r blaen, yn rhyw le, mai yn enw Crist yr oedd yr apostolion oll yn gwneyd eu gwyrthiau; ond Crist ei hun yn ei enw ei hun.

18 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [q] * Mi a welais Satan megis † mellten, ‡ yn syrthio o'r nef.

q Ioan 12. 31. a 16. 11. Heb. 2. 14. 1 Ioan 3. 8. Dat. 9. 1. a 12. 7, 8. a 20. 2.

* Diammau bod yma gyfeiriad at syrthiad Satan, a'r angelion drwg eraill, o'r nef yn eu gwrthgiliad dechreuol: yr oedd Mab Duw yn eu gweled yn syrthio y pryd hwnw, efe a'u bwriodd i lawr, gyda rhuthr ofnadwy i uffern. Gwelodd hwynt hefyd, yn ei holl-wybodaeth ddwyfol, yn syrthio o flaen y deg a thriugain hyn; ei enw a'i allu ef oedd yn peri hyny. Mae yn debyg bod yma hefyd ragfynegiad am syrthiad Satan o ran ei lywodraeth a'i deyrnas, o flaen gweinidogaeth yr efengyl pa le bynag y pregethid hi ar ol esgyniad Iesu. † Syrthiodd Satan yn sydyn, fel mellten, yn Galilea o flaen y pregethwyr hyn; ac nid oedd hyny ond rhag-arwydd, a dechreuad, o'i syrthiad ef yn y gwledydd paganaidd yn fuan ac yn sydyn iawn, o flaen pregethiad yr efengyl. Lle bynag y swnio taran yr efengyl, nis gall Satan sefyll, ond efe a syrthia fel mellten. Gan hyny taraner hi.

19 * Wele, [r] yr ydwyf fi yn rhoddi i chwi

awdurdod † i sathru ar seirph, ac ysgorpionau, ac ar holl gryfder y gelyn; [s] ac nid oes dim a wna ddim niwed i chwi.

r Salm 91. 13. Es. 11. 8 Ezec. 2. 6. Marc 16. 18. Act. 28. 5. Rhuf. 16. 20. s pen. 21. 17, 18. Rhuf. 8. 31—39. Heb. 13. 5, 6. Dat. 11. 5.

* Mae Crist yma yn adnewyddu ac yn cadarnâu ei addewid i'r pregethwyr hyn. † Tybir mai cyfeirio yr oedd efe yma at Salm 91. 13: ac efallai at yr hyn a ddywedasai Duw wrth y sarph yn Eden hefyd, Gen. 3. 15. Cafodd Paul gyflawniad llythyrenol o'r geiriau hyn, gwel Act. 28. 3, 5; ac efallai i lawer o bregethwyr yr oes apostolaidd gael cyffelyb gyflawniad o honynt, ond nad oes genym ni hanes am hyny. ‡ Wrth syrthio o'r nef yma y meddylir, syrthio o fawredd ac uchder ei lywodraeth ar ddynion: fel y dywed y prophwyd am frenin Babilon, "Pa fodd y syrthiaist o'r nefoedd, Lucifer?" Esay 14. 12. Ymadrodd cyffredin am syrthiad rhyw un mawr.

20 * Eithr [t] yn hyn na lawenhêwch, fod yr ysprydion wedi eu darostwng i chwi; † ond llawenhêwch yn hytrach, am fod [u] eich enwau yn ysgrifenedig yn y nefoedd.

t Mat. 7. 22, 23. a 10. 1. a 26. 24. a 27. 5. 1 Cor. 13. 2, 3. u Ex. 32. 32. Salm 69. 28. Es. 4. 3. Dan. 12. 1. Phil. 4. 3. Heb. 12. 23. Dat. 3. 5. a 13. 8. a 20. 12, 15. a 21. 27.

* Na lawenhewch yn ormodol, na lawenhewch am hyn yn fwy na dim arall, mae i chwi ragorfraint arall, mwy gwerthfawr nag awdurdod ar gythreuliaid; yn "hytrach" llawenhewch am hòno. Cair gweled yn y dydd diweddaf, y bydd llawer wedi bod yn bwrw allan gythreuliaid ac yn gwneyd gwyrthiau yn fy enw I, a hwy eu hunain yn golledig yn y diwedd, Matth. 7. 21—23. † Ond llawenhewch chwi yn hytrach am eich bod yn anwyl gan Dduw, wedi eich galw i fod yn saint, yn etifeddion bywyd tragywyddol; ac fel y cyfryw, bod eich enwau yn ysgrifenedig yn y nefoedd. Nis gellir meddwl wrth y dywediad hwn, fod pawb o'r deg a thriugain hyn yn ddynion duwiol ac yn gadwedig: yr oedd un "mab y golledigaeth" yn mhlith y deuddeg, ac nid yw yn debyg iawn fod y deg a thriugain heb yr un yn eu plith. Amcan yr Arglwydd Iesu oedd, dangos yn mha beth y dylasent lawenychu fwyaf, ac nid tystiolaethu am gadwedigaeth pob un o honynt yn bersonol.

21 ¶ * Yr awr honno [x] yr Iesu a lawenychodd yn yr yspryd, ac a ddywedodd, [y] Yr wyf yn diolch i ti, O Dad, [z] Arglwydd nef a daear, [a] am guddio o honot y pethau hyn oddi wrth y doethion a'r deallus, [b] a'u datguddio o honot i rai bychain: [c] yn wir, O Dad; oblegid felly y gwelid yn dda yn dy olwg di.

x pen. 15. 5, 9. Es. 53. 11. a 62. 5. Zeph. 3. 17. y Mat. 11. 25, 26. Ioan 11. 41, 42. a 17. 24—26. z Salm 24. 1. Es. 66. 1. a Job 5. 12—14. Es. 29. 14. 1 Cor. 1. 19—26. a 2. 6—8. a 3. 18—20. 2 Cor. 4. 3, 4. Col. 2. 2, 3. b Salm 8. 2. a 25. 14. Es. 29. 18, 19. a 35. 8. Mat. 13. 11—16. a 16. 17. a 21. 16. Marc 10. 15. 1 Cor. 1. 27—29. a 2. 6, 7. 1 Pedr 2. 1, 2. c Eph. 1. 5, 11.

22 [d] Pob peth a roddwyd i mi gan fy Nhad: [e] † ac ni wyr neb pwy yw y Mab, ond y Tad; na phwy yw y Tad, ond y Mab, a'r neb y mynno y Mab *ei* ddatguddio iddo.

d Mat. 11. 27. a 28. 18. Ioan 3. 35. a 5. 22—27. a 13. 3. a 17. 2, 10. 1 Cor. 15. 24. Eph. 1. 21, 22. Phil. 2. 9—11. Heb. 2. 8. e Ioan 1. 18. a 6. 44—46. a 10. 15. a 17. 5, 26. 2 Cor. 4. 6. 1 Ioan 5. 20. 2 Ioan 9.

Gwel ar Matth. 11. 25—27. * Llawenychodd yr Iesu sanctaidd, yn yr olwg ar lwyddiant mawr yr efengyl, iachawdwriaeth eneidiau dynion, a'r gogoniant a ddeuai i Dduw o hyny: llawenychodd o ran y pethau eu hunain, a llawenychodd o ran yr offerynau drwy ba rai y dygid hwy oddi amgylch. † Nid am yr hyn oedd y Mab i'w wneyd neu i'w ddyoddef y dywedir hyn; ond am ei natur, ei ragoriaeth, a'i fawredd Dwyfol: yr un modd a'r geiriau canlynol, "na phwy yw y Tad; maent yn golygu ei natur, ei ragoriaeth, a'i fawredd Dwyfol, datguddiedig i ni yn mherson Iesu Grist. Pwy bynag a geisio y Tad heb y Mab, mae efe y crwydro allan o'r ffordd.

23 ¶ Ac efe a drodd at *ei* ddisgyblion, a a ddywedodd o'r neilldu, [f] Gwyn fyd y llygaid sydd yn gweled y pethau yr ydych chwi yn eu gweled.

f Mat. 13. 16, 17.

24 * Canys yr wyf yn dywedyd i chwi, [g] ewyllysio o lawer o brophwydi a brenhinoedd weled y pethau yr ydych chwi yn eu gweled, ac nis gwelsant; a chlywed y pethau yr ydych chwi yn eu clywed, ac nis clywsant.

g Ioan 8. 56. Heb. 11. 13, 39. 1 Pedr 1. 10, 11.

Gwel ar Matth. 13. 16, 17. * Chwennychodd brenhinoedd, yn gystal â phrophwydi a rhai cyfiawn, weled Messiah addawedig, a chlywed ei athrawiaeth rasol ef ond buont feirw cyn iddo ddyfod. Yr oedd Dafydd yn broffwyd, yn gystal ac yn frenin yn Israel: yr oedd Moses yn frenin yn Israel: (Jesurun, ymyl y ddalen Deut. 33. 4, 5:) ac yr oedd Solomon yn un o'r ysgrifenwyr ysbrydoledig. Os oedd braint yr apostolion yn fawr y pryd hwnw, yr oedd yn fwy wedi hyny; ar ol esgyniad Crist a thywalltiad yr Ysbryd Glân arnynt: a'r braint ninnau yn fwy hefyd.

25 ¶ Ac wele, [h] rhyw * gyfreithiwr a goddodd, gan ei † demtio ef, a dywedyd, [i] Athraw ‡ pa beth a wnaf i gael etifeddu bywyd tragywyddol?

h pen. 7. 30. a 11. 45, 46. Mat. 22 35. i pen. 18. 18. Mat 19. 16. Act. 16. 30, 31.

26 Yntau a ddywedodd wrtho, [k] Pa beth sydd ysgrifenedig yn y gyfraith? ‖ pa fodd y darlleni?

k Es. 8. 20. Rhuf. 3. 19. a 4. 14—16. a 10. 5. Gal. 3. 12, 13, 21, 22.

27 Ac efe gan atteb a ddywedodd, [l] Ti a geri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl nerth, ac â'th holl feddwl; [m] § a'th gymmydog fel ti dy hun.

l Deut. 6. 5. a 10. 12. a 30. 6. Mat. 22. 37—40. Marc 12. 30, 31, 33, 34. Heb. 8. 10. m Lef. 19. 18. Mat. 19. 19. Rhuf. 13. 9. Gal. 5. 13, 14. Iago 2. 8. 1 Ioan 3. 18.

28 Yntau a ddywedodd wrtho, [n] * Ti a attebaist yn uniawn: [o] † gwna hyn, a byw fyddi.

n pen. 7. 43. Marc 12. 34. o Lef. 18. 5. Neh. 9. 29. Ezec. 20. 11, 13. Mat. 19. 17. Rhuf. 3. 19, 20. a 10. 4, 5. Gal. 3. 12, 13.

29 ‡ Eithr efe, [p] yn ewyllysio ei gyfiawnhâu ei hun, a ddywedodd wrth yr Iesu, [q] A phwy yw fy nghymmydog?

p pen. 16. 15. a 18. 9—11. Lef. 19. 34. Rhuf. 10. 3. q adn. 36. Mat. 5. 43, 44.

Mae hanes tebyg i'r hanes uchod yn Matth. 22. 35—40; ac yn Marc 12. 28—34; ond y mae amryw bethau yn amrywiol rhwng yr adnodau hyn âg yno, fel y mae yn ammheüs ai yr un hanes sydd yma ac yn y mànau hyny. * Swydd y cyfreithwyr oedd ysgrifenu, darllen, ac egluro y gyfraith i'r bobl, allan o Lyfrau Moses. † Y cyfreithwyr hyn oeddynt elynion cryfion i Grist, a dyben hwn oedd ei demtio ef: ei brofi ef, medd rhai; i gael gweled pa faint o wybodaeth oedd ganddo ef mewn pethau ysbrydol a dwyfol: ei faglu ef, medd eraill; gan obeithio cael achlysur i achwyn arno am ryw gyfeiliornad. ‡ Gofyniad pwysig a da, oedd y gofyniad ynddo ei hun; ond y mae lle i feddwl nad oedd fawr o bwys ar feddwl y dyn hwn wrth ei ofyn, na bod ei ddyben yn dda ychwaith: gwr oedd hwn, fel Paul cyn ei dröedigaeth, "yn fyw heb y ddeddf," er maint oedd yn drin ar y ddeddf, (gwel adn. 29.) ‖ Priodol iawn

ddi i Grist ofyn i'r cyfreithiwr hwn, "Pa fodd y
lrlleni;" oblegid yr oedd y geiriau a grybwylla efe yn
ateb, yn cael eu darllen bob dydd yn eu synagogau
ynt: ac y mae y rhan hon o'r ysgrythyr yn cael
darllen eto gan yr holl gynnulleidfa, yn eu gwasan-
th boreuol a phrydnawnol; ac a elwir *Shemah*, oddi
th y gair cyntaf. § Ond y mae yn beth pur nodedig,
bod yn gadael allan y rhan hòno, "A'th gymmydog
ti dy hun." * "Ti a atebaist yn uniawn;" dyna
swm yr holl gyfraith: † a phe cadwasai efe y ddau
hymyn hyn yn berffaith, buasai ganddo hawl i fywyd
gyfoeddol: ond y mae hyny yn gynnwysedig hefyd yn
eb Iesu; os methai efe mewn un pwnc, neu os oedd
di methu, nad oedd dim dichon iddo gael bywyd *yn y*
rdd hon; ond ei fod yn cael ei euog-farnu gan y
fraith fel troseddwr. ‡ Mae yn debyg fod y cyfreith-
r yn gweled hyn; ac wrth ei ganfod ei hun yn debyg
gael ei faglu yn ei rwyd ei hun, ac eto "yn ewyllysio
gyfiawnâu ei hun," efe a aeth heibio i'r gorchymyn
"garu Duw â'r holl galon," i ofyn, "Pwy yw fy
hymmydog?" Wrth gymmydog, dëallai yr ysgrifen-
dion hyn, eu cenedl eu hunain, eu plaid, eu perthyn-
au, a'u cyfeillion, yn unig; ac nid ystyrient eu hunain
rhwym i garu neb arall o gwbl: dysgent hwy y bobl
eu hathrawiaeth, y gallent gasâu eraill.

30 A'r Iesu gan atteb a ddywedodd, * Rhyw
lyn oedd yn myned i waered o Jerusalem i
ericho; † ac a syrthiodd ym mysg lladron, y
nai wedi ei ddiosg ef, [r] a'*i* archolli, a aethant
maith, gan *ei* adael yn hanner marw.

r Salm 88. 4, 5. Jer. 51. 52. Galar. 2. 12. Ezec. 30. 24.

31 ‡ Ac [s] ar ddamwain rhyw [t] offeiriad a
ddaeth i waered y ffordd honno: a phan ei
welodd, [u] efe a aeth o'r tu arall heibio.

s Ruth 2. 3. 2 Sam. 1. 6. Preg. 9. 11. t Jer. 5. 31. Hos. 5.
a 6. 9. Mal. 1. 10. u Job 6. 14—21. Salm 38. 10, 11. a 69. 20.
142. 4. Diar. 21. 13. a 24. 11, 12. Iago 2. 13—16. 1 Ioan 3. 16—18.

32 ‖ A'r un ffunud Lefiad hefyd, wedi
yfod i'r fan, [x] a'*i* weled *ef*, a aeth o'r tu arall
eibio.

x Salm 109. 25. Act. 18. 17. 2 Tim. 3. 2.

33 § Eithr rhyw [y] Samariad, wrth ymdaith,
ddaeth atto ef: a phan ei gwelodd, [z] a dostur-
odd,

y pen. 9. 52, 53. a 17. 16—18. Diar. 27. 10. Jer. 38. 7—13. a
. 16—18. Ioan 4. 9. a 8. 48. z pen. 7. 13. Ex. 2. 6. 1 Bren.
50. Mat. 18. 33.

34 Ac [a] a aeth atto, ac [b] a rwymodd ei ar-
hollion ef, * gan dywallt ynddynt olew a
win; ac a'i gosododd ef ar ei anifail ei hun,
c a'i dug ef [c] i'r † lletty, ac a'i hamgeleddodd.

a adn. 34. Ex. 23. 4, 5. Diar. 24. 17, 18. a 25. 21, 22. Mat. 5.
3—45. Rhuf. 12. 20, 21. 1 Thes. 5. 15. b Es. 1. 5, 6. Marc 14.
c pen. 2. 7. Gen. 42. 27. Ex. 4. 24.

35 A thrannoeth wrth fyned ymaith, efe a
ynnodd allan ‡ ddwy geiniog, ac a'*u* rhoddes
i'r llettywr, ac a ddywedodd wrtho, Cymmer
fal drosto: a [e] pha beth bynnag a dreuliech
n ychwaneg, pan ddelwyf drachefn, mi a'i
alaf i ti.

d Rhuf. 16. 23. e pen. 14. 13, 14.

36 Pwy gan hynny o'r tri hyn, [f] yr ydwyt
yn tybied [g] ei fod yn gymmydog i'r hwn a
yrthiasai ym mhlith y lladron?

f pen. 7. 42. Mat. 17. 25. a 21. 28—31. a 22. 42. g adn. 29.

37 Ac efe a ddywedodd, [h] ‖ Yr hwn a
naeth drugaredd âg ef. A'r Iesu am hynny
ddywedodd wrtho, [i] § Dos, a gwna dithau yr
n modd.

h Mat. 20. 28. 2 Cor. 8. 9. Eph. 3. 18, 19. a 5. 2. Heb. 2. 9—
5. Dat. 1. 5. i pen. 6. 32—36. Ioan 13. 15—17. 1 Pedr 2. 21.
Ioan 3. 16—18, 23, 24. a 4. 10, 11.

Dammeg y gelwir yr hyn a adroddir yn yr adnodau uchod yn gyffredin, oud mae y peth yn cael ei adrodd fel hanes gwirioneddol, ac efallai mai felly yr oedd. Fel hyn y gwelodd Iesu yn dda i ateb gofyniad y cyfreithiwr "Pwy yw fy nghymmydog," neu yn hytrach rhoddi cyfle iddo ef ei ateb ei hun. * Yr oedd Jericho yn llwyth Benjamin, tua deunaw milltir neu ragor i'r dwyrain o Jerusalem, ac yn sefyll mewn pant, neu ddyffryn; am hyny dywedir yn briodol fod y dyn yn myned i *waered* o Jerusalem yno. † Dywedir bod llawer o'r ffordd o Jerusalem i Jericho, trwy anialwch, a rhwng creigiau, ac felly yn fanteisiol iawn i ladron ac yspeilwyr, y rhai oedd yn finteioedd y ffordd hòno. ‡ Dywed yr haneswyr Iuddewig bod tua deuddeng mil o offeiriaid a Lefiaid yn byw yn Jericho, y rhai a ddeuent i Jerusalem i weini yn eu cylchoedd: felly yr oedd llawer o'r rhai hyn yn mynych dramwy y ffordd hòno wrth fyned a dychwelyd. ‖ Wrth y Lefiaid y mae i ni ddëall yn benaf, y rhai hyny o hiliogaeth Lefi trwy Cohath, ag oedd yn gweini yn ngoruchwylion iselaf y deml, mewn darostyngiad i'r offeiriaid, 1 Cron. 23. 6—32. § Mae llawer o briododdeb yn nygiad y Samariad i mewn yma: yr oedd rhagfarn a gelyniaeth gref rhwng y Samariaid â'r Iuddewon, a'r naill blaid yn dra dirmygus o'u gilydd; ac eto mae y Samariad hwn yn anghofio yr holl ragfarn, y gelyniaeth, a'r dirmyg hyny, ac yn tosturio wrth y dyn truan, er mai Iuddew ydoedd, yr hyn ni wnaethai yr offeiriad a'r Lefiad, er eu bod yn gyd-genedl ac yn weinidogion crefydd. * Mae yn debyg y byddid yn arfer defnyddio olew a gwin wedi eu cymmysgu, i iachâu archollion newydd eu cael: yn y wlad hòno byddai teithwyr yn cymmeryd olew a gwin gyda hwy fel rhan o'u lluniaeth, ac o'r hyn oedd gan y Samariad felly ar ei daith, y tywalltodd efe yn archollion y dyn a grybwyllir. † *Pandocheion* yw y gair am letty yn y fàn hon, yn arwyddo derbyn pawb a ddelo; gair arall sydd am letty yn pen. 2. 7. gwel y sylwadau yno. ‡ Tua phymtheg ceiniog o'n harian ni: efallai mai hyn oedd y cwbl a feddai y Samariad, neu a allai hebgor y pryd hwnw; yr hyn sydd yn dangos nad oedd efe ddim yn ŵr cyfoethog, ac felly yr oedd ei garedigrwydd yn fwy nodedig. ‖ Nis gallai y cyfreithiwr lai nag addef mai y Samariad oedd y cymmydog; ac fel hyny gwnaeth Crist iddo ateb ei ofyniad ei hun. § Gwna dithau fel y Samariad hwnw; dangos ysbryd tosturiol a chymmwynasgar, nid yn unig at rai o'th blaid a'th grefydd dy hun; ond hefyd at ddieithriaid a gelynion. Heb hyny na chymmer arnat dy fod yn cadw y ddeddf yn berffaith, ac na hòna hawl i fywyd tragywyddol am dy ufudd-dod iddi. Mae dynion duwiol a da wedi defnyddio y ddammeg, neu yr hanes uchod, i osod allan gyflwr truenus pechadur drwy bechod, anallu y ddeddf i'w achub ef, a thosturi a gras y Cyfryngwr tuag ato. Ond nid oes achos am y geiriau hyn i hyny, mae digon o ysgrythyrau eraill i ddangos y pethau hyny; ac nid i'r dyben hyny y llefarodd Iesu y geiriau hyn, eithr i ddangos i ni pwy a ddylem ystyried yn gymmydog i ni, beth yw ein dyledswyddau ni at ein cymmydogion, ac i ddangos bod y Samariad dirmygus hwn yn cyflawni y gyfraith yn well na'r rhai oedd yn ddysgawdwyr y gyfraith.

38 ¶ A bu, a hwy yn ymdeithio, ddyfod o
hono i [k] ryw * dref: a rhyw wraig, a'i henw
Martha, [l] † a'i derbyniodd ef i'w thŷ.

k Ioan 11. 1—5. a 12. 1—3. l pen. 8. 2, 3. Act. 16. 15.
2 Ioan 10.

39 Ac i hon yr oedd chwaer a elwid Mair,
[m] ‡ yr hon hefyd a eisteddodd wrth draed yr
Iesu, ac a wrandawodd ar ei ymadrodd ef.

m pen. 2. 46. a 8. 35. Deut. 33. 3. Diar. 8. 34. Act. 22. 3.

* Mae yn bur sicr mai Bethania oedd y dref hon, lle o fewn dwy filltir i Jerusalem, lle yr oedd Lazarus, Mair, a Martha yn byw, Ioan 11. 1, 18. † Efallai bod y teulu duwiol hwn yn adnabod Iesu o'r blaen; pa fodd

bynag am hyny, yr oedd yn dda ganddynt ei groesawu ef i'w tŷ y tro hwn. ‡ Tra yr oedd Martha yn darpar rhyw ymgeledd corphorol i'r Iesu, yr oedd yntau yn ol ei arfer yn mhob màn yn pregethu newyddion da yr efengyl, ac felly yn arlwyo'r wledd o basgedigion breision, i Mair yr hon a eisteddai wrth ei draed ef i wrando yn [illegible] arferiad dysgyblion y dysgawdwyr Iuddewig.

40 Ond Martha oedd [n] * drafferthus ynghylch llawer o wasanaeth: a chan sefyll ger llaw, † hi a ddywedodd, Arglwydd, [o] onid oes ofal gennyt am [p] i'm chwaer fy ngadael i fy hun i wasanaethu? dywed wrthi gan hynny am fy helpio.

n pen. 12. 29. Ioan 6. 27. o Mat. 14. 15. a 16. 22. Marc 3. 21. p pen. 9. 55. Jona 4. 1—4.

* Mae y gair gwreiddiol yn arwyddo dyn yn cael ei dynu mewn gwahanol ffyrdd, ac at fwy na mwy o bethau ar yr un waith, a'r meddwl yn dyrysu rhyngddynt heb wybod beth i wneyd gyntaf. Cariad Martha at Iesu yn ddïammau oedd yn peri iddi drafferthu cymmaint: ond nid oedd raid iddi; buasai efe yn foddlawn ar lai o arlwy, ac yn well ganddo ei gweled hi yn fwy awyddus am wrando ei ymadroddion, na'i gweled yn ymdrafferthu cymmaint yn nghylch bwydydd. † Efallai bod ei thymmerau hi wedi cyffrôi braidd yn ormod, wrth yr hyn a dybiai hi yn ddifaterwch yn ei chwaer, ac iddi ddywedyd y geiriau hyn gydag ychydig gormod o boethni.

41 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthi, Martha, [q] * Martha, gofalus a thrafferthus wyt ynghylch [r] llawer o bethau:

q pen. 8. 14. 1 Cor. 7. 32—35. Phil. 4. 6. r Preg. 6. 11. Mat. 6. 25—34.

42 † Eithr [s] un peth sydd angenrheidiol. A Mair a [t] ddewisodd y [u] rhan dda, [x] yr hon ni ddygir oddi arni.

s pen. 18. 22. Salm 27. 4. a 73. 25. Preg. 12. 13. Ioan 17. 3 Gal. 5. 6. Col. 2. 10, &c. 1 Ioan 5. 11, 12. t Deut. 30. 19. Jos. 24 15, 22. Salm 17. 15. a 119. 30, 111, 173. u Salm 16. 5, 6. a 142 5. x pen. 8. 18. a 12. 20, 33. a 16. 2, 25. Ioan 4. 14. a 5. 24. a 10. 27, 28. Rhuf. 8. 35—39. Col. 3. 3, 4. 1 Pedr 1. 4, 5.

* Nid yr un gair Groeg a gyfleithir yma "trafferthus" a'r gair yn adn. 40; *periespâto* yw y gair yno, *turbasê* ydyw yma, ac yma yn unig y defnyddir ef yn y Testament Newydd. Mae yn arwyddo sefyllfa aflonydd a dïorphwys dyn mewn tyrfa derfysglyd, ac yn methu a sefyll yn ei unfan gan y taflu fydd arno gan y dyrfa. Felly yr oedd Martha gan drafferth ei gorchwylion, ac felly yr oedd ei hysbryd hefyd y pryd hwn. † Un ddysglaid, neu un math o fwyd, medd rhai: mae hyny yn wir; ond y mae yn syniad rhy wael am feddwl y geiriau hyn, ac yn mhell oddi wrth feddwl Iesu pan y llefarodd hwynt. Bywyd o fyfyrdodau sanctaidd ar bethau ysbrydol, medd eraill; mae hyny yn dda iawn; ond a oedd Mair yn treulio ei holl fywyd fel hyny, heb wneuthur dim arall? nac oedd yn ddïau; rhaid i'r dyn mwyaf ysbrydol a duwiol, tra byddo yn y byd hwn, wneuthur rhywbeth at ei gynnaliaeth, ac nid eistedd i lawr i fyfyrio yn unig. Gwell yw deall y peth yn gyffredinol, am ofal yn nghylch yr enaid erbyn tragywyddoldeb: adnabyddiaeth o Grist a'r athrawiaeth fawr am fywyd tragywyddol, yr hon oedd efe yn bregethu i Mair. Dylai pob trafferth arall roddi ffordd a lle i'r gofal am iachawdwriaeth yr enaid; a pha beth bynag a goller yn dymmorawl drwy hyny, mae gan yr enaid ran dda, ac elw mawr, yr hwn ni ddygir byth oddi arno. Cam mawr â Martha yw ei gosod hi allan fel dynes fydol drafferthus, a chwbl ddifater am grefydd; mae yn ddïau mai gwraig dduwiol oedd hi, yn caru yr Arglwydd Iesu, ac o gariad ato yr oedd hi yn trafferthu i wneyd ymgeledd a chroesaw iddo. Mae yn bryd weithian i weinidogion y gair i wybod gwell, na thrin Martha fel y gwnâ llawer yn areithfâoedd ein gwlad ni.

PEN. XI.

Crist yn dysgu pa fodd i weddïo, &c.

* A BU, [a] ac efe mewn rhyw fan yn † gweddïo, pan beidiodd, ddywedyd ‡ un o'i ddisgyblion wrtho, Arglwydd, [b] dysg ni weddïo, ‖ megis ag y dysgodd Ioan i'w ddisgyblion.

a pen. 6. 12. a 9. 18, 28. a 22. 39—45. Heb. 5. 7. b Salm 10. 17. a 19. 14. Rhuf. 8. 26, 27. Iago 4. 2, 3. Judas 20.

* Holl waith Iesu, trwy ystod ei weinidogaeth gyfan, hoeddus, oedd athrawiaethu i'r bobl, a chymdeithas â Duw mewn gweddïau: ac y ddau beth hyn a ddylai fod yn brif waith holl weinidogion y gair. Nid gweddïau yn ddirgel oedd y gweddïo hyn; ond gweddïo gyda eraill ddysgyblion fel ei deulu, math o addoliad teuluaidd ydoedd: ac nid oedd gwaeth gan Iesu pa le y gweddïai na pha le y pregethai: "mewn *rhyw* fàn." ‡ Rhyw un o'r deg a thriugain, efallai, yr hwn nid oedd gyd âg e yn clywed ei bregeth ar y mynydd; oblegid yn hòn efe a roddasai i'w wrandawyr ffurf o weddi. ‖ Bydda pob prif athraw Iuddewig yn dysgu ffurf o weddi i'w ddysgyblion, i wahaniaethu ei ddysgyblion ef oddiwrth ddysgyblion rhyw athraw arall: dysgodd Ioan, mae'n debyg, ffurf felly i'w ddysgyblion ef, er nad oes genym hanes am dani; a mynai y dysgybl hwn i Grist wneyd yr un modd, heb wybod ei fod wedi gwneyd felly eisoes yn ei bregeth ar y mynydd.

2 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [c] Pan weddïoch, dywedwch, [d] Ein Tad, [e] yr hwn wyt yn y nefoedd, [f] Sancteiddier dy enw. [g] Deued dy deyrnas. [h] Gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.

c Preg. 5. 2. Hos. 14. 2. Mat. 6. 6—8. d Es. 63. 16. Mat. 6. 9. Rhuf. 1. 7. a 8. 15. 1 Cor. 1. 3. 2 Cor. 1. 2. Gal. 1. 4. Eph. 1 2. Phil. 1. 2. a 4. 20. Col. 1. 2. 1 Thes. 1. 1, 3. a 3. 11—13. 2 Thes. 1. 1, 2. a 2. 16. e 2 Cron. 20. 6. Salm 11. 4. Preg. 5. 2. Dan. 2 28. Mat. 5. 16. a 10. 32. f Lef. 10. 3. a 22. 32. 1 Bren. 8. 43 2 Bren. 19. 19. Salm 57. 11. a 72. 18, 19. a 108. 5. Ezec. 36. 23 Hab. 2. 14. Dat. 15. 4. g pen. 10. 9—11. Es. 2. 2—5. Dan. 2 44. a 7. 18, 27. Dat. 11. 15. a 19. 6. a 20. 4. h Salm 103. 20 Es. 6. 2, 3. Mat. 6. 10.

3 [i] Dyro i ni o * ddydd i ddydd ein bara beunyddiol.

i Ex. 16. 15—22. Diar. 30. 8. Es. 33. 16. Mat. 6. 11, 34. Ioan 6. 27—33.

4 A [k] maddeu i ni ein † pechodau: [l] canys yr ‡ ydym ninnau yn maddeu i bawb sydd yn ein dyled. Ac [m] nac arwain ni i brofedigaeth; [n] eithr gwared ni rhag drwg.

k 1 Bren. 8. 34, 36. Salm 25, 11, 18. a 32. 1—5. a 51. 1—3. a 130. 3, 4. Es. 43. 25, 26. Dan. 9. 19. Hos. 14. 2. Mat. 6. 12. 1 Ioan 1. 8—10. l Mat. 6. 14, 15. a 18. 35. Eph. 4. 31, 32. Col. 3. 13. Iago 2. 13. m pen. 8. 13. a 22. 46. Mat. 6. 13. a 26. 41. 1 Cor. 10. 13. 2 Cor. 12. 7, 8. Dat. 2. 10. a 3. 10. n Gen. 48. 16. Salm 121. 7. Ioan 17. 15. 2 Thes. 3. 3. 2 Tim. 4. 18.

Gwel ar Matth. 6. 9—13. Heblaw bod y fawl-wers, neu y gogon-air, *(Doxology)* sydd yn Matthew wedi ei adael allan yma, mae ychydig o amrywiaethau eraill mewn geiriau rhwng Luc a Matthew, y rhai nid ydynt o bwys. Adroddodd Matthew y weddi fel y traddododd Crist hi yn ei bregeth ar y mynydd; ac adroddodd Luc hi fel y traddododd Crist hi y tro hwn yn atebiad i gais y dysgybl, felly Crist ei hun, ac nid y ddau efengylwr sydd wedi gwneyd y gwahaniaeth. * "Beunyddiol" yw y gair yn Matthew; o ddydd i ddydd yma: nid yw hyny fawr o wahaniaeth: "o ddydd i ddydd" yw "beunyddiol." † "Dyledion" yw y gair yn Matthew;" "pechodau" yma: nid yw hyny ddim gwahaniaeth o bwys; dyled yw pechod, a dyled drom hefyd. ‡ "Fel y maddeuwn" sydd yn Matthew; "canys yr ydym yn maddau" sydd yma. Sylwir bod y weddi hon yn addas ac yn briodol iawn i'r amser, a goruchwyliaeth yr amser hyny: ac y mae yn sicr yn grynodeb o ddeisyfiadau addas iawn i bob dyn yn mhob oes a sefyllfa, fel mae yn cynnwys pob peth a allwn ni ei ofyn, drosom ein

nain ac eraill, yn y byd hwn ac erbyn y byd a ddaw.
efuyddir y weddi hon yn aml yn ngwasanaeth yr
glwys sefydledig; ac er mòr rhagorol ydyw, eto, y cyf-
w yw dirmyg rhai dynion ar yr Eglwys hòno, fel y
liddiant ddywedyd yn erbyn hyd yn nod gweddi yr
glwydd, yn eu hanmharch ar wasanaeth yr hen Eglwys
adol. Gobeithiai *Doddridge* addfwyn, er mai Ym-
illduwr ydoedd, nad oedd ond ychydig yn ei amser
o unrhyw blaid grefyddol, a chymaint o ysbryd rhag-
rn a beio ynddynt. Da pe gellid gobeithio bod llai
th y dyddiau hyn: a da bod genym oll, ryw bethau
ell yn ein pregethau cyhoeddus, yn enwedig na lladd
yr hen Eglwys sefydledig.

5 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [o] Pwy o
onoch fydd iddo gyfaill, ac a â atto * hanner
os, ac a ddywed wrtho, *O* gyfaill, moes i mi
dair torth yn echwyn:

o pen. 18. 1—8.

6 Canys cyfaill i mi a ddaeth attaf wrth
mdaith, ac nid oes gennyf ddim i'w ddodi ger
fron ef:

7 Ac yntau oddi mewn a ettyb ac a ddy-
ed, [p] Na flina fi: [q] yn awr y mae y drws yn
auad, a'm plant gyd â mi yn y gwely; ni
llaf godi a'u rhoddi i ti.

p pen. 7. 6. Gal. 6. 17. q pen. 13. 25. Mat. 25. 10.

8 Yr wyf yn dywedyd i chwi, Er na chyfyd
fe a rhoddi iddo, am ei fod yn gyfaill iddo;
to [r] o herwydd ei ‡ daerni, efe a gyfyd ac a
ydd iddo gynnifer ag y sydd arno eu heisieu.

r pen. 18. 4—8. Gen. 32. 26. Mat. 15. 22—28. Rhuf. 15. 30.
Cor. 12. 8. Col. 2. 1 a 4. 12.

9 Ac [s] yr ydwyf yn dywedyd i chwi, [t] || Go-
ynwch, a rhoddir i chwi; [u] ceisiwch, a chwi a
ewch; [x] curwch, ac fe a agorir i chwi.

s pen. 13. 24. Mat. 6. 29. a 21. 31. Marc 13. 37. Dat. 2. 24.
Salm 50. 15. a 118. 5. Jer. 33. 3. Mat. 7. 7, 8. a 21. 22. Marc 11.
Ioan 4. 10. a 14. 13. a 15. 7, 16. a 16. 23, 24. 2 Cor. 12. 8, 9.
eb. 4. 16. Iago 1. 5, 6. a 5. 15, 16. 1 Ioan 3. 22. a 5. 14, 15.
pen. 13. 24. Salm 27. 4, 8. a 34. 4, 10. a 105. 3, 4. Can. 3. 1—4.
5. 6. Es. 45. 19. a 55. 6, 7. Jer. 29. 12, 13. Dan. 9. 3. Amos 5.
—6. Ioan 1. 45—49. Act. 10. 4—6. Rhuf. 2. 7. Heb. 11. 6. x pen.
3. 25. 2 Cor. 6. 2.

Meddwl eglur ein Harglwydd yn y ddammeg hon yw,
dylem ni nid yn unig *gweddïo*, ond hefyd bod yn *daer*
yda Duw yn ein gweddïau. Parâu mewn gweddi, Col.
2: bod yn wyliadwrus at hyn yma, Ephes. 6. 18.
Yn ngwledydd poethion y dwyrain, byddid yn arfer
eithio yn yr hwyr, ac efallai tàn hanner nos; felly peth
figon naturiol oedd i'r ymdeithydd hwn ddyfod at ei
yfaill mewn pryd a dybiem ni yn anamserol; a chan
ad oedd ganddo yntau ddim yn barod i'w groesawu ef,
c yn chwennych bod yn llettygar, peth digon naturiol
edd iddo fyned at ei gyfaill i geisio echwyn ganddo.
Gallem ni feddwl fod hyn yn llawer i'w geisio ar un-
raith, er mwyn un dyn, a hwnw ar ei daith heb aros
nd tàn y bore; eithr dywedir nad oedd torthau yr
uddewon ond bychain iawn, fel teisenau bychain ein
wlad ni: os felly, yr oedd porthi y torfêydd âg ychydig
orthau, yn wyrthiau mwy rhyfedd nag y meddyliasom
ni. ‡ Mae y gair Groeg *(anaideian)* a gyfieithir yma
taerni," yn arwyddo digywilydd-dra: bod yn ddigy-
wilydd o daer, un na chymmero ei nacâu. Ond mewn
weddi, mae yn arwyddo taerineb a hyfdra sanctaidd
dyn anghenus, fel Jacob, "Ni'th ollyngaf oni'm ben-
lithi," Gen. 32. 26. || Am adn. 9, gwel ar Matth. 7. 7.

10 * Canys [y] pob un sydd yn gofyn, sydd
yn derbyn; a'r neb sydd yn ceisio, sydd yn
cael; ac i'r hwn sydd yn curo, yr agorir.

y pen. 18. 1. Salm 31. 22. Galar. 3. 8, 18, 54—58. Jona 2. 2—
8. Iago 4. 3. a 5. 11.

11 † Os [z] bara a ofyn mab i un o honoch
chwi sy dad, a ddyry efe garreg iddo? ac os
pysgodyn, a ddyry efe iddo sarph yn lle pysg-
odyn?

z Es. 49. 15. Mat. 7. 9, 10.

12 Neu os gofyn efe ŵy, a ddyry efe
‡ [a] ysgorpion iddo?

a pen. 10. 19. Ezec. 2. 6. Dat. 9. 10.

13 Os chwychwi gan hynny, [b] || y rhai
ydych ddrwg, [c] a fedrwch roi rhoddion da i'ch
plant chwi; [d] pa faint mwy y rhydd *eich*
[e] Tad o'r nef [f] yr § Ysbryd Glân i'r rhai a
ofyno ganddo?

b Gen. 6. 5, 6. a 8. 21. Job 15. 14—16. Salm 51. 5. Ioan 3. 5,
6. Rhuf. 7. 18. Tit. 3. 3. c Es. 49. 15. Mat. 7. 11. Heb. 12. 9,
10. d Mat. 6. 30. Rhuf. 5. 9, 10, 17. a 8. 32. 2 Cor. 3. 9—11.
e adn. 2. pen. 15. 30—32. Mat. 5. 16, 45. a 6. 14, 32. f Diar. 1.
23. Es. 44. 3, 4. Ezec. 36. 27. Joel 2. 28. Mat. 7. 11. Ioan 4. 10. a
7. 37—39.

Gwel ar Matth. 7. 8—11. * Mae gan Dduw gyflawnder o bob bendith, ac y mae ganddo galon i gyfranu, yn haelionus i bawb; eto, nis gallwn ni ddysgwyl eu cael heb ofyn: mae efe yn dysgwyl i ni ofyn, Ezec. 36. 37. † Mae Crist yma yn cyfeirio at deimladau rhïeni naturiol tuag at eu plant, a'u parodrwydd hwy i roddi pethau angenrheidiol i'w plant pan ofynont ganddynt, er dangos tosturi Duw tuag at ei blant ef, a'i barodrwydd i roddi pob daioni iddynt. Fel y tosturia tad wrth ei blant, (ïe, a llawer mwy,) felly y tosturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef, Salm 103. 13. ‡ Crëadur bychan, duaidd, yw yr ysgorpion, o ryw y nadroedd; a'i gorph yn debyg ei lun i ŵy: dywedir ei bod yn dra gwenwynig ac yn ddrwg iawn. Wrth gyssylltu ŵy â'r ysgorpion, mae yn ddïau bod yr Arglwydd Iesu yn cyfeirio at lun ei chorph hi. || Drwg yw pawb wrth naturiaeth; a drwg yw y dynion gorau, a duwiolaf, mewn cymhariaeth i Dduw, yr hwn sydd yn berffaith ac yn anfeidrol dda. § "Pethau da," a ddywed Matthew 7. 11; ac yma yr "Ysbryd Glân." I bwy bynag y rhoddo Duw yr Ysbryd Glân, efe a rydd bob peth da arall, amserol a thragywyddol: rhoddi yr Ysbryd Glân yw rhoddi blaenffrwyth, a gwystl pob peth da. Mae dylanwadau yr Ysbryd Glân o ddau fath: ei ysbrydoliad uniongyrchol ef ar y prophwydi a'r apostolion; a'i weithrediadau sancteiddiol ef ar y saint.

14 ¶ Ac yr oedd efe [g] yn bwrw allan gythraul, * a hwnnw oedd fud. † A bu, wedi i'r cythraul fyned allan, i'r mudan lefaru; a'r bobloedd a ‡ ryfeddasant.

g Mat. 9. 32, 33. a 12. 22, 23. Marc 7. 32—37.

* Dywedir bod y cythraul yma yn fud, o herwydd ei effaith ef ar y dyn, yn attal ei leferydd ef. † Yr oedd hyn yn brawf eglur mai y cythraul oedd yn attal lleferydd y dyn o'r blaen. ‡ Rhyfeddod oedd, gweled dyn yn bwrw allan gythraul: ac yn enwedig dyn o ymddangosiad mòr wael ag oedd Iesu.

15 Eithr rhai o honynt a ddywedasant,
[h] Trwy Beelzebub, pennaeth y cythreuliaid, y
mae efe yn bwrw allan gythreuliaid.

h Mat. 9. 34. a 12. 24—30. Marc 3. 22—30. Ioan 7. 20. a 8.
48, 52. a 10. 20.

16 Ac eraill, [i] gan *ei* demtio, a geisiasant
ganddo arwydd o'r nef.

i Mat. 12. 38, 39. a 16. 1—4. Marc 8. 11, 12. Ioan 6. 30. 1 Cor.
1. 22.

17 Yntau, [k] yn gwybod eu meddyliau
hwynt, a ddywedodd wrthynt, [l] Pob teyrnas
wedi ymrannu yn ei herbyn ei hun, a anghyf-
anneddir; a thŷ yn erbyn tŷ, a syrth.

k Mat. 9. 4. a 12. 25. Marc 3. 23—26. Ioan 2. 25. Dat. 2. 23.
1 2 Cron. 10. 16—19. a 13. 16, 17. Es. 9. 20, 21. a 19. 2, 3.

18 Ac os [m] Satan hefyd sydd wedi ymrannu
yn ei erbyn ei hun, pa fodd y saif ei deyrnas
ef? gan [n] eich bod yn dywedyd, mai trwy

Beelzebub yr wyf fi yn bwrw allan gythreuliaid.

m Mat. 12. 26. n adn. 15. Mat. 12. 31—34. Iago 3. 5—8.

19 Ac os trwy Beelzebub yr wyf fi yn bwrw allan gythreuliaid, [o] trwy bwy y mae eich plant chwi yn eu bwrw hwynt allan? am hynny [p] y byddant hwy yn farnwyr arnoch chwi.

o pen. 9. 49. Mat. 12. 27, 28. p adn. 31, 32. pen. 19. 22. Job 15. 6. Mat. 12. 41, 42. Rhuf. 3. 19.

20 Eithr os myfi trwy [q] * fys Duw ydwyf yn bwrw allan gythreuliaid, diammeu [r] ddyfod teyrnas Dduw attoch chwi.

q Ex. 8. 19. Mat. 12. 28. r pen. 10. 9, 11. Dan. 2. 44. Act. 20. 25. a 28. 23—28. 2 Thes. 1. 5.

21 Pan fyddo un [s] † cryf arfog yn cadw ei neuadd, ‡ y mae yr hyn sydd ganddo mewn heddwch:

s Gwel ar Mat. 12. 29. Marc 3. 27.

22 ‖ Ond [t] pan ddêl un cryfach nag ef arno, a'i orchfygu, efe a ddwg ymaith ei holl arfogaeth ef yn yr hon yr oedd yn ymddiried, ac a ran ei anrhaith ef.

t Gen. 3. 15. Es. 27. 1. a 49. 24, 25. a 53. 12. a 63. 1—4. Col. 2. 15. 1 Ioan 3. 8. a 4. 4. Dat. 20. 1—3.

23 Y neb [u] nid yw gyd â mi, sydd yn fy erbyn: a'r neb nid yw yn casglu gyd â mi, sydd yn gwasgaru.

u pen. 9. 50. Mat. 12. 30. Dat. 3. 15, 16.

Gwel ar Matth. 9. 34, 35, a 12. 24—27; ac ar Marc 3. 22—27. * "Bys Duw:" cyfeiriad, efallai, at yr hyn a ddywedasai y swynwyr yn yr Aipht, pan ragorodd Moses arnynt, Exod. 8. 19. "Ysbryd Duw" ydyw yn Matthew 12. 28. Os medr Duw wneyd y fath beth â'i *fys*, pa beth ni wna pan ddiosgo efe *fraich* ei gadernid? † Y cryf yma yw diafol; ei neuadd yw y galon; ei arfogaeth yw tywyllwch, cyfeiliorni, rhagfarn, balchder, a thrachwantau y pechadur. ‡ Mae cydwybod gysglyd y pechadur mewn heddwch, heb weled na theimlo ei berygl; a thra byddo felly, mae diafol mewn heddwch, yn sicr o'i feddiant, ac heb ofn colli ei ysglyfaeth. ‖ Yr un cryfach nac ef yn dyfod arno yw Mab Duw, y Gwaredwr cryf, yr hwn sydd gadarn i iachâu. Gwel ychwaneg ar Matthew.

24 Pan [x] êl yr yspryd aflan allan o ddyn, [y] efe a rodia mewn [z] lleoedd sychion, [a] gan geisio gorphwysdra: a phryd na chaffo, efe a ddywed, [b] Mi a ddychwelaf i'm tŷ o'r lle y daethum allan.

x Mat. 12. 43—45. y Job 1. 7. a 2. 2. 1 Pedr 5. 8. z Barn. 6. 37—40. Salm 63. 1. Es. 35. 1, 2, 7. a 41. 17—19. a 44. 3. Ezec. 47. 8—11. Eph. 2. 2. a Diar. 4. 16. Es. 48. 22. a 57. 20, 21. b Marc 5. 10. a 9. 25.

25 A phan ddêl, [c] y mae yn *ei* gael wedi *ei* ysgubo a'*i* drefnu.

c 2 Cron. 24. 17—22. Salm 36. 3. a 81. 11, 12. a 125. 5. Mat. 12. 44, 45. 2 Thes. 2. 9—12. 2 Pedr 2. 10—19. Judas 8—13.

26 Yna yr â efe, ac y cymmer atto saith yspryd eraill [d] gwaeth nag ef ei hun; a hwy a ânt i mewn, ac a arhosant yno: [e] a diwedd y dyn hwnnw fydd gwaeth nâ'i ddechreuad.

d Mat. 23. 15. e Zeph. 1. 6. Mat. 12. 45. Ioan 5. 14. Heb. 6. 4—8. a 10. 26—31. 2 Pedr 2. 20—22. 1 Ioan 5. 16. Judas 12, 13.

Gwel ar Matth. 12. 43—45. Ysgrifenwyd yn lled faith ar y ddammeg hon yn Matthew; ni wnawn ond ychydig o sylwadau yn mhellach yma:—1. Gall yr ysbryd aflan mewn rhyw ystyr a gradd, fyned allan o ddynion, ac eto eu bod hwy yn ei feddiant ef ar yr un pryd, *ei dy ef* ydynt o hyd. 2. Er cael o'r ysbryd aflan allan, mae efe o hyd yn aflonydd ac yn ddiorphwys, hyd nes caffo (os bydd dichon) ail feddiant hollawl ar y dynion hyny. 3. Os byth y caiff efe yr ail feddiant hwnw, mae diwedd y cyfryw ddynion yn sicr o fod yn llawer gwaeth na'u dechreuad. Oni welwyd rhai felly yn ngwl[illegible] efengyl?

27 ¶ A bu, fel yr oedd efe yn dywedy[illegible] hyn, rhyw wraig o'r dyrfa a gododd ei llef, a[illegible] a ddywedodd wrtho, [f] * Gwyn fyd y groth a'[illegible] ddug di, a'r bronnau a sugnaist.

f pen. 1. 28, 42, 48.

28 Ond efe a ddywedodd, [g] † Yn hytrac[illegible] gwyn fyd y rhai sydd yn gwrando gair Duw ‡ ac yn ei gadw.

g pen. 6. 47, 48. a 8. 21. Salm 1. 1—3. a 112. 1. a 119. 1—6. 128. 1. Es. 48. 17, 18. Mat. 7. 21—25. a 12. 48—50. Ioan 13. 17. Iago 1. 21—25. 1 Ioan 3. 21—24. Dat. 22. 14.

* Effeithiodd gwyrthiau daionus Crist, awdurdod [illegible] athrawiaeth, sancteiddrwydd ei ymarweddiad, a doeth[illegible] der ei atebion i'w wrthwynebwyr, ar ryw wraig yn [illegible] dyrfa i'r fath raddau; fel nas gallai lai na gwaeddi alla[illegible] yn nghanol y dyrfa, "Gwyn fyd y groth a'th ddug di[illegible] a'r bronau a sugnaist." O mòr ddedwydd y rhaid bo[illegible] mam y fath fab ardderchog! † Nid yw Iesu yn gwadu[illegible] dedwyddwch ei fam; ond mai nid yn ei bod yn fan[illegible] iddo ef yr oedd ei dedwyddwch yn gynnwysedig, eith[illegible] mewn gwrando a chadw ei eiriau. ‡ Mae pwys i'w[illegible] roddi ar y gair cadw yma: ni ddaw gwynfyd i neb bytl[illegible] wrth wrando yn unig, heb wrando a chadw.

29 ¶ Ac [h] wedi i'r bobloedd ymdyrru yn[illegible] ghyd, efe a ddechreuodd ddywedyd, [i] Y gen[illegible] hedlaeth hon sydd ddrwg: [k] * y mae hi yn[illegible] ceisio arwydd: † ac arwydd ni roddir iddi, ond[illegible] arwydd Jonas y Prophwyd.

h pen. 12. 1. a 14. 25, 26. i adn. 50. pen. 9. 41. Es. 57. 3. 4. Mat. 3. 7. a 23. 34—36. Marc 8. 38. Ioan 8. 44. Act. 7. 51, 52. k Mat. 12. 38, 39. a 16. 1—4. Marc 8. 11, 12. Ioan 2. 18. a 6. 30. 1 Cor. 1. 22.

30 Canys [l] fel y bu Jonas yn arwydd i'r Ninifeaid, felly y bydd Mab y dyn hefyd i'r genhedlaeth hon.

l pen. 24. 46, 47. Jona 1. 17. a 2. 10. a 3. 3, &c. Mat. 12. 40.

31 [m] Brenhines y dehau a [n] gyfyd yn y farn gyd â gwyr y genhedlaeth hon, ac a'u condemnia hwynt: am iddi hi ddyfod o eithafoedd y ddaear i wrando doethineb Solomon; ac wele, [o] un mwy nâ Solomon yma.

m 1 Bren. 10. 1, 2. 2 Cron. 9. 1. Mat. 12. 42. n Es. 54. 17. Jer. 3. 11. Rhuf. 2. 27. Heb. 11. 7. o pen. 3. 22. a 9. 35. Es. 9. 6, 7. Col. 1. 15—19.

32 [p] Gwyr Ninife a godant i fynu yn y farn gyd â'r genhedlaeth hon, ac a'i condemniant hi: am iddynt edifarhâu wrth bregeth Jonas: ac wele, [q] un mwy nâ Jonas yma.

p Jona 3. 5—10. q Jona 1. 2, 3. a 4. 1—4, 9. Heb. 7. 26.

Gwel ar Matth. 12. 39—42. * Yma mae Crist yn ateb y rhai oedd yn ei demtio ef, drwy geisio arwydd ganddo, yn adn. 16. Dywed Matthew, 12. 38, mai rhai o'r Ysgrifenyddion a'r Phariseaid oeddynt. Daeth y Saduceaid a'r Phariseaid hefyd ato dro arall, gan geisio arwydd o'r nef ganddo. Matth. 16. 1. Gwel yno. † Yr oedd Crist yn ddigon parod i wneyd gwyrthiau er lles i ddynion, ac er cadarnâu ffydd ei wrandawyr; ond nid i foddâu chwilfrydedd anghredinwyr cecrus. Heblaw hyny, nid oedd yn amser eto i ddangos arwydd o'r *nef*; hwy a gawsant arwydd o'r nef er eu gwae yn ninystr Jerusalem, ac e geir y cyfryw eto yn ninystr mawr diweddaf y byd hwn. Matth. 24. 30; 26. 64; Dat. 1. 7.

33 Ac nid yw neb [r] wedi goleu canwyll, yn *ei* gosod mewn lle dirgel, na than lestr; eithr ar ganwyllbren, [s] fel y gallo y rhai a ddelo i mewn weled y goleuni.

r pen. 8. 16, 17. Mat. 5. 15. Marc 4. 21, 22. s Mat. 5. 16. a 10. 27. Ioan 11. 9. a 12. 46. Phil. 2. 15, 16.

Gwel ar Matth. 5. 15. Cawsom yr un geiriau o'r

ten hefyd yn pen. 8 16. Tybia rhai fod Crist yn
hyddio y geiriau yn y fân hon fel rheswm paham na
angosai efe arwydd o'r nef i'r Phariseaid; pe buasai
gweyd hyny, ni buasai ddim gwell na goleuo can-
ll, a'i dodi dàn lestr; ni welent hwy ddim am na
ent weled. Tybia eraill mai cyfeirio y mae yma at
nfyd y rhai sydd yn gwrando gair Duw, ac yn ei gadw,
n. 28; oblegid ymarferiad, a rhoddi goleuni i eraill
dyben pob gwrando. Tybia eraill eto, mai rhoddi
ddiad i'r Phariseaid y mae Crist yn y geiriau hyn;
fod ef wedi goleuo canwyll yn y byd, na fedrant hwy
holl elyniaeth ddim ei diffoddi, ei chuddio na'i
tal i oleuo. Da yw pob un.

334 [t] * Canwyll y corph yw y llygad: † am
nny pan fyddo dy lygad yn [u] syml, dy holl
rph hefyd fydd oleu; [x] ond pan fyddo *dy*
gad yn ddrwg, dy gorph hefyd fydd dywyll.

t Salm 119. 18. Mat. 6. 22, 23. Marc 8. 18. Act. 26. 18. Eph. 7, 18. u Act. 2. 46. 2 Cor. 1. 12. a 11. 3. Eph. 6. 5. Col. 3. x Gen. 19. 11. 2 Bren. 6. 15—20. Salm 81. 12. Es. 6. 10. 9, 10. a 42. 19, 20. a 44. 18. Jer. 5. 21. Marc 4. 12. Act. 13. 11. uf. 11. 8—10. 2 Cor. 4. 4. 2 Thes. 2. 9—12.

35 [y] ‡ Edrych am hynny rhag i'r goleuni
ddd ynot fod yn dywyllwch.

y Diar. 16. 25. a 26. 12. Es. 5. 20, 21. Jer. 8. 8, 9. Ioan 7. 48, a 9. 39—41. Rhuf. 1. 22. a 2. 19—23. 1 Cor. 1. 19—21. a 3. 18. l Iago 3. 13—17. 2 Pedr 1. 9. a 2. 18, 19. Dat. 3. 17, 18.

36 Os dy holl gorph gan hynny *sydd* oleu,
eb un rhan dywyll ynddo, [z] bydd y cwbl yn
eu, megis pan fo canwyll â'i llewyrch yn dy
euo di.

z Salm 119. 97—105. Diar. 1. 5. a 2. 1—11. a 4. 18, 19. a 20. l Es. 42. 16. Hos. 6. 3. Mat. 13. 11, 12, 52. Marc 4. 24, 25. Eph. 14, 15. Col. 3. 16. 2 Tim. 3. 15—17. Heb. 5. 14. Iago 1. 25. Pedr 3. 18.

Gwel ar Matth. 6. 22, 23. * Peth cyffredin iawn gan
hen ysgrifenwyr goreu, oedd galw y llygaid yn oleu-
au y corph, fel y gwnaeth ein Harglwydd yma. † Os
dd y llygad yn iach a goleu, mae yn cyfarwyddo yr
oll gorph yn iawn, ac yn dangos pob gwrthrych fel y
lai; ond os drwg a thywyll fydd y llygad, faint bynag
ddo y goleuni o amgylch, nid yw ddim lles i'r corph
y pethau uchod, ond yn niwed, yn ei ddyrysu, ac yn
dywys ar gyfeiliorn. ‡ Felly yn ysbrydol; os bydd
deall yn oleu, wedi ei oleuo gan yr Ysbryd Glân,
ae yr enaid yn canfod ei ffordd yn iawn, yn rhodio
egys wrth liw dydd, ac yn gweled pob gwrthddrych y
peth ydyw, ac fel y dylai: mae yn gweled pechod yn
anferthwch, a phethau mawrion Duw yn eu go-
niant. O'r tu arall, os bydd dynion, fel yr oedd
Phariseaid hyn, wedi eu dallu gan ragfarn a phechod,
s gwelant ddim yn ysbrydol, neu ddim fel y dylent,
bod yn nghanol moddion goleuni. Anghenrheidiol
wn yw y cynghor, "Edrych am hyny, rhag i'r goleuni
dd ynot fod yn dywyllwch."

37 ¶ Ac fel yr oedd efe yn llefaru, * [a] rhyw
harisead a ddymunodd arno giniawa gyd âg
f. Ac wedi iddo ddyfod i mewn, efe a eis-
eddodd i fwytta.

a pen. 7. 36. a 14. 1. 1 Cor. 9. 19—23.

* Dyma'r ail waith yr ydym yn darllen am Pharisead
m gwahodd Crist i fwyta gydag ef. Gelynion gwaethaf
rist oedd y Phariseaid yn gyffredin; eto nid oedd efe
n gwrthod myned i fwyta gyda Phariseaid: yr oedd efe
n gwneyd ei hun yn bob peth i bawb, fel y gallai yn
ollawl gadw rhai.

38 * A'r Pharisead pan welodd, [b] † a ry-
eddodd nad ymolchasai efe yn gyntaf o flaen
iniaw.

b Mat. 15. 2, 3. Marc 7. 2—5. Ioan 3. 25.

* Am y traddodiad o ymolchi cyn bwyta, gwel ar
Matth. 15. 2: gwel hefyd Marc 7. 3. Beiodd y Phar-
seaid o'r blaen, yn y mànau a nodwyd, ar ddysgyblion
esu; ac yn awr dyma y Pharisead hwn yn beio ar Grist
ei hun yn ei wyneb. Efallai mai ei fwriad yn ei wa-
hodd oedd cael hyn neu rywbeth arall cyflelyb yn ei
erbyn: ond gwyddai Iesu beth oedd yn ei galon ef, a
rhoddodd iddo wers lèm am ei draddodiadau a'i ragrith,
yn yr adnodau canlynol. † Mae arnom oll chwant bod
yn anffaeledig, am hyny nis gallwn oddef i eraill fod
yn wahanol i *ni* mewn *defodau*, y rhai nid oes un syl-
faen iddynt yn ngair Duw: ac mae yn rhyfedd genym
na welai eraill yr un modd a *ni*, ac ymddwyn yn mhob
peth wrth ein rheolau *ni*.

39 A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho, [c] Yn
awr chwychwi y Phariseaid ydych yn glanhâu
y tu allan i'r cwppan a'r ddysgl; [d] ond eich tu
mewn sydd yn llawn o [e] drais a drygioni.

c Mat. 23. 25, 26. Gal. 1. 14. 2 Tim. 3. 5. Tit. 1. 15, 16. d pen. 16. 15. Gen. 6. 5. 2 Cron. 25. 2. a 31. 20, 21. Diar. 26. 25. a 30. 12. Jer. 4. 14. Mat. 12. 33—35. a 15. 19. Ioan 12. 6. a 13. 2. Act. 5. 3. a 8. 21—23. Iago 4. 8. e Salm 22. 13. Ezec. 22. 25, 27. Zeph. 3. 3. Mat. 7. 15.

40 *O* [f] ynfydion, [g] onid yr hwn a wnaeth yr
hyn sydd oddi allan, a wnaeth yr hyn sydd o
fewn hefyd?

f pen. 12. 20. a 24. 25. Salm 14. 1. a 75. 4, 5. a 94. 8, 9. Diar. 1. 22. a 8. 5. Jer. 5. 21. Mat. 23. 17, 26. 1 Cor. 15. 36. g Gen. 1. 26, 27. a 2. 7. Num. 16. 22. Salm 33. 15. a 94. 9, 10. Zec. 12. 1. Heb. 12. 9.

Mae Duw, yr hwn a grêodd yr enaid, ac sydd yn ei ad-
nabod yn drwyadl, yn ffieiddio pob pechod, ac yn caru
purdeb a gwirionedd oddi mewn uwchlaw pobpeth; gan
hyny ynfydrwydd o'r mwyaf yw meddwl y gwna defodau
allanol y tro i ryngu ei fodd ef, tra mae cybydd-dod,
balchder ac uchel-gais, dïal a phob nwydau gwenwynig
eraill, neu chwantau cnawdol, yn cadw meddiant yn y
galon, ac yn cael eu coledd a'u cyflawni.

41 [h] Yn hytrach rhoddwch elusen o'r
* pethau sydd gennych: † ac wele, [i] pob peth
sydd lân i chwi.

h pen. 12. 33. a 14. 12—14. a 16. 9. a 18. 22. a 19. 8. Deut. 15. 8—10. Job 31. 16—20. Salm 41. 1. a 112. 9. Diar. 14. 31. a 19. 17. Preg. 11. 1, 2. Es. 58. 7—11. Dan. 4. 27. Mat. 5. 42. a 6. 1—4. a 25. 34—40. a 26. 11. Act. 9. 36—39. a 10. 31, 32. a 11. 29. a 24. 17. 2 Cor. 8. 7—9, 12. a 9. 6—15. Eph. 4. 28. Heb. 6. 10. a 13. 16. Iago 1. 27. a 2. 14—16, 1 Ioan 3. 16, 17. i Act. 10. 15. Rhuf. 14. 14—18. 1 Tim. 4. 4, 5. Tit. 1. 15.

Golchodd Pilat ei ddwylaw, eto nid oedd yn ddïeuog;
a golchai y Phariseaid hyn eu dwylo yn fynych, eto nid
oeddynt yn lân: i'r rhai halogedig a diffydd nid pur
dim, cyflawnent hwy a fynont o ddefodau ofergoelus.
Ar ol i'n Harglwydd argyhoeddi y Phariseaid yn llym
am eu rhagrith a'u halogrwydd tumewnol yn yr adnodau
o'r blaen, a'u hannog i burdeb calon; mae yma yn eu
galw at weithredoedd o drugaredd ac elusen, fel ffrwyth-
au gwir edifeirwch ac uniondeb oddi mewn, fel y byddai
bendith iddynt ar y pethau oedd ganddynt. * Trwy
anghyfiawnder a thrais yr oedd y Phariseaid wedi cael
llawer o'r pethau oedd ganddynt: yr oeddynt i adferu y
pethau hyny yn ol hyd ag yr oedd dichon, fel Zachëus,
Luc 19. 8, ac i roddi mewn elusenau fel yntau yn ol eu
gallu. † Meddiannau bydol yw y "pob peth" yma; a
bendith Duw arnynt yw eu bod yn lân, neu wedi eu
sancteiddio i'w perchenogion: yn gyfreithlon.

42 Eithr [k] gwae chwi y Phariseaid: [l] * can-
ys yr ydych chwi yn degymmu y mintys, a'r
ryw, a phob llysieuyn, [m] † ac yn myned heibio
i farn a chariad Duw. ‡ Y pethau hyn oedd
raid eu gwneuthur, [n] ac na adewid y lleill heb
wneuthur.

k Mat. 23. 13—15, 23. l pen. 18, 12. m Deut. 10. 12, 13. 1 Sam. 15. 22. Diar. 21. 3. Es. 1. 10—17. a 58. 2—6. Jer. 7. 2—10, 21, 22. Mica 6. 8. Mal. 1. 6. a 2. 1. Ioan 5. 42. Tit. 2. 11, 12. 1 Ioan 4. 20, 21. n Lef. 27. 30—33. 2 Cron. 31. 5—10. Neh. 10. 37, 38. Preg. 7. 18. Mal. 3. 8—10.

Gwel ar Matth. 23. 23. Mae dau nôd mawr ar rag-
rithwyr: * Bod yn fwy manwl a gwresog i gyflawni
defodau a thraddodiadau dynion, † nac i gadw deddf

foesol Duw. 2. ‡ Bod yn fwy manwl yn y pethau lleiaf nac yn y pethau mwyaf mewn pethau moesol. Nid oes yr un o orchymynion Duw mòr fychan ag y gallwn ni ei esgeuluso, ei ddïystyru, neu anufuddâu iddo; eto mae gwahaniaeth mewn dyledswyddau, a dylem ni roddi yr ystyriaeth benaf i'r rhai mwyaf o flaen y rhai lleiaf.

43 Gwae chwi y Phariseaid; [o] canys yr ydych yn * caru y prif-gadeiriau yn y synagogau, a chyfarch yn y marchnadoedd.

o pen. 14. 7—11. a 20. 46. Diar. 16. 18. Mat. 23. 6, 7. Marc 12. 38, 39. Rhuf. 12. 10. Phil. 2. 3. Iago 2. 2—4. 3 Ioan 9.

Gwel ar Matth. 23. 6, 7. * Nid bod y Phariseaid yn *cymmeryd* y prif gadeiriau hyn oedd eu bai, ond eu bod yn eu "*caru.*" Awdwr trefn yw Duw; ac yr ydym ni yn rhwym i roddi parch lle y mae parch yn ddyledus: ond y mae balchder ac uchel-fryd yn bechodau ffiaidd, yn y rhai a gymmerant arnynt fod yn ddysgawdwyr gostyngeiddrwydd.

44 Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr; [p] am eich bod fel * beddau anamlwg, a'r dynion a rodiant *arnynt* heb wybod *oddi wrthynt.*

p Num. 19. 16. Salm 5. 9. Hos. 9. 8. Mat. 23. 27, 28. Act. 23. 3.

Gwel ar Matth. 23. 27. Mae yn debyg mai ar amser arall, a thàn amgylchiadau eraill y cyhoeddodd Iesu y gwaëau yn Matthew: * "Beddau wedi eu gwŷnu" sydd yno; "beddau anamlwg" yma. Galwai hwynt yn feddau wedi eu gwŷnu yno, i ddangos eu rhagrith personol hwy eu hunain; geilw hwynt yn feddau anamlwg yma, i ddangos eu bod yn achos i eraill gael eu tramgwyddo a'u halogi wrthynt: yr oedd cyfhwrdd â bedd yn halogi dàn yr hen oruchwyliaeth, Num. 19. 16; felly yr oedd y Phariseaid yn halogi dynion yn foesol â'u traddodiadau a'u gau-athrawiaethau. Eu hymadrodd hwy a ysai fel cancr, a hyny heb yn wybod i'r bobl a dybient yn well am danynt: beddau anamlwg oeddynt.

45 ¶ Ac un o'r * cyfreithwyr a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Athraw, wrth ddywedyd hyn, [q] † yr wyt ti yn ein gwaradwyddo ninnau hefyd.

q 1 Bren. 22. 8. Jer. 6. 10. a 20. 8. Amos 7. 10—13. Ioan 7. 7, 48, 49. a 9. 40, 41.

* Dylesid sylwi o'r blaen ar pen. 10. 25, mai nid cyfreithwyr fel y meddyliwn ni am gyfreithwyr yn y wlad hon, oedd cyfreithwyr yn mhlith yr Iuddewon; eu gwaith hwynt oedd dehongli cyfraith Moses i'r bobl, dysgu yn y synagogau, a barnu am bethau crefyddol yn y llysoedd eglwysig, yn y *Sanhedrim.* Yr un dynion, dàn ddau enw, oedd yr ysgrifenyddion a'r cyfreithwyr, neu yn hytrach, y cyfreithwyr oeddynt flaenoriaid yr ysgrifenyddion; a chan i Grist grybwyll yr ysgrifenyddion gyda'r Phariseaid yn adn. 44, teimlodd y cyfreithiwr hwn yn drwm. † Tybiai y gwr hwn ei hun a'i frodyr uwchlaw pob sèn a cherydd, am hyny rhyfeddai bod Crist yn eu gosod hwy gyda'r Phariseaid yn y wae uchod, a beïai ef am waradwyddo corph ac urdd mòr anrhydeddus.

46 Yntau a ddywedodd, [r] * Gwae chwithau hefyd, y cyfreithwyr; † canys yr ydych yn llwytho dynion â beichiau anhawdd eu dwyn, ‡ a chwi nid ydych yn cyffwrdd â'r beichiau âg un o'ch bysedd.

r Es. 10. 1. Mat. 23. 2—4. Gal. 6. 13.

Gwel ar Matth. 23. 4. * Gwelwn mòr ddiofn, a didderbyn wyneb yr oedd Iesu yn ceryddu, ac yn iawn gyfranu gair y gwirionedd. † Dangosent i'r bobl eu dyledswyddau yn eithaf manol a llym-dost, mewn pethau moesol a seremoniol; ‡ ond yr oeddynt hwy eu hunain yn byw mewn esgeulusdod o'r dyledswyddau hyny. Nid oedd ganddynt ddim tynerwch tuag at eraill, ond yn eu llwytho â dyledswyddau celyd; ond yr oed[illegible] ynt yn dra gofalus am eu hesmwythdra eu hunain.

47 Gwae chwychwi; [s] canys yr ydych y[illegible] adeiladu beddau y prophwydi, a'ch tadau ch[illegible] a'u lladdodd hwynt.

s Mat. 23. 29—33. Act. 7. 51, 52. 1 Thes. 2. 15, 16.

48 * Yn wir [t] yr ydych yn tystiolaethu, a[illegible] yn gyd-foddlawn i weithredoedd eich tadau[illegible] [u] canys hwynt-hwy yn wir a'u lladdasant hw[illegible] a chwithau ydych yn adeiladu eu bedda[illegible] hwynt.

t Jos. 24. 22. Job 15. 6. Salm 64. 8. u 2 Cron. 36. 1[illegible] Mat. 21. 35—38. Heb. 11. 36—38. Iago 5. 10.

49 Am hynny hefyd y dywedodd [x] † doeth[illegible] ineb Duw, [y] Anfonaf attynt brophwydi a[illegible] apostolion, [z] a *rhai* o honynt a laddant ac [illegible] erlidiant.

x Diar. 1. 2, &c. a 8. 1—12. a 9. 1—3. 1 Cor. 1. 30. Col. 2. [illegible] y pen. 24. 47. Mat. 23. 34. Act. 1. 8. Eph. 4. 11. z pen. 21. 1[illegible] 17. Mat. 22. 6. Ioan 16. 2. Act. 7. 57—60. a 8. 1, 3. a 9. 1, 2. a 1[illegible] 1, 2. a 22. 4, 5, 20. a 26. 10, 11. 2 Cor. 11. 24, 25.

50 Fel y gofyner i'r [a] genhedlaeth ho[illegible] [b] waed yr holl brophwydi, yr hwn a dywalltwy[illegible] o ddechreuad y byd;

a Gen. 9. 5, 6. Num. 35. 33. 2 Bren. 24. 4. Salm 9. 12. E[illegible] 26. 21. Dat. 28. 20—24. b Jer. 7. 29.

51 O [c] waed Abel hyd waed [d] ‡ Zacharias yr hwn a laddwyd rhwng yr allor a'r deml [illegible] dïau meddaf i chwi, Gofynir ef i'r genhedlaeth hon.

c Gen. 4. 8—11. Heb. 11. 4. a 12. 24. 1 Ioan 3. 12. d 2 Cron. [illegible] 24. 21, 22. Zec. 1. 1. Mat. 23. 35.

Gwel ar Matth. 23. 29—36. * Tybiai y dynion hy[illegible] eu bod yn anrhydeddu yr hen brophwydi a laddesid y[illegible] fawr wrth adeiladu ac addurno eu beddau; ond yr oed[illegible] yr un gelyniaeth yn eu calon hwynt yn erbyn Crist, e[illegible] apostolion, a'r gwirionedd, ag oedd yn nghalonau e[illegible] henafiaid yn erbyn y prophwydi ffyddlawn; am hyn[illegible] nid oedd eu gwaith hwn o adeiladu y beddau ddim gwei[illegible] na chadw coffadwriaeth barâus o weithredoedd drwg e[illegible] tadau. Felly yr edrychai Iesu ar y peth, ac felly y dy[illegible] wedai am dano. † Yn Matthew 23. 34, Crist ei hun[illegible] sydd yn danfon; yma, "Doethineb Duw" sydd yn dan[illegible] fon; gan hyny Crist ei hun yw "Doethineb Duw" yn[illegible] y fàn hon, fel yn Diar. 8. a 1 Cor. 1. 24. Os wrth[illegible] ddoethineb Duw yn y lle hwn y deallir y *briodoledd* o[illegible] ddoethineb yn Nuw, mae yn anhawdd gwneyd synwyr[illegible] da o'r adnod. Sylwer hefyd, nad yw y geiriau a "ddy[illegible] wedodd Doethineb Duw," ddim i'w cael yn un màn yn[illegible] yr Hen Destament: Crist a'u dywedodd yn ei gyngor[illegible] a'i feddwl tragywyddol ei hun, ac yn awr â'i enau dynol[illegible] wrth y bobl hyn: "Anfonaf attynt, &c." ‡ Am y Zacharias hwn, gwel yr hyn a ddywedwyd ar Matth. 23. 35; ac felly am y pethau eraill yn yr adnodau uchod.

52 Gwae chwychwi, y cyfreithwyr: [e] canys chwi a ddygasoch ymaith * agoriad y gwybodaeth: nid aethoch i mewn eich hunain, a'r rhai oedd yn myned a waharddasoch chwi.

e pen. 19. 39, 40. Mat. 23. 13. Ioan 7. 47—52. a 9. 24—34. Act. 4. 17, 18. a 5. 40.

* Pan fyddid yn urddo Rabbi, neu ddysgawdwyr y gyfraith, yn mhlith yr Iuddewon, byddent yn rhoddi agoriad iddo; yn arwydd mai ei waith ef ydoedd agor ac egluro y gyfraith i'r bobl, ac yn arwydd hefyd o'i urddiad, a'i awdurdod swyddol ef i'r gwaith hwnw. Cyfeiriad at y ddefod hòno sydd yma. Yn lle iawn ddefnyddio yr agoriad hòno, yr oeddent hwy yn ei dwyn hi ymaith, yn cam egluro yr ysgrythyrau, ac yn arwain eu hunain a'r bobl ar gyfeiliorn. Tybia *Vitringa* mai rhyw un gwirionedd sylfaenol a feddylir yma wrth "agoriad y gwybodaeth;" yr hwn pe'i deallid, a arweiniai i bob gwirionedd arall. Holl ymgais yr ysgrifenyddion am ddyrysu meddyliau y bobl yn nghylch y

wirionedd, yn ddiammau a feddylir; ac yn enwedig eu
rmgais am dywyllu y prophwydoliaethau yn nghylch
Messiah. Gwel ar Matth. 23. 13.

53 Ac fel yr oedd efe yn dywedyd y pethau
yn wrthynt, * y dechreuodd yr ysgrifenydd-
n a'r Phariseaid [f] fod yn † daer iawn *arno,*
i annog [g] i ymadrodd am lawer o bethau:

f Salm 22. 12, 13. Es. 9. 12. g pen. 20. 20, 27. Jer. 18. 18.
20. 10.

54 Gan ei gynllwyn ef, a [h] cheisio hela
yw beth o'i ben ef, i gael achwyn arno.

h Salm 37. 32, 33. a 56. 5, 6. Mat. 22. 15, 18, 35. Marc 12. 13.

* Yn lle cywilyddio am eu rhagrith, eu gelyniaeth,
u cyfeiliornadau; a chymmeryd eu hargyhoeddi wrth
hyn a ddywedasai yr Iesu; ymgynddeiriogi mwy a
naethant hwy oll, a chyd-ymosod arno hyd ag oedd
iddynt, gan obeithio cael rywbeth i achwyn arno, un
ger bron y cyngor Iuddewig, ai ynte ger bron Pilat,
llywodraethwr Rhufeinaidd. † Ymosod arno yn ffyr-
g yw meddwl y geiriau Groeg, *(Deinôs enechein,)* fel
lwyr ar y pryf. Mae amryw o'r geiriau gwreiddiol a
defnyddir yma wedi eu cymmeryd oddiwrth helwriaeth,
dangos cynddeiriogrwydd, ffyrnigrwydd, a dichellion
frwys y bobl i geisio maglu Crist yn ei ymadroddion.
rth ystyried fod Iesu fel hyn ei hunan, yn nhŷ y
harisead, ac yn nghanol torf o Phariseaid ac ysgrifen-
ddion; yr oedd eu hannhegwch hyfaidd hwy yn ym-
od arno yn ymddangos yn fawr iawn, fel oen yn
ghanol bleiddiaid: ac yr oedd ei ddoethineb a'i wrol-
er yntau, yn sefyll ei dir, ac yn dywedyd ei feddwl
ôr hyf a didderbyn wyneb, yn ymddangos yn rhagorol
wn hefyd.

PEN. XII.

Crist yn pregethu i'w ddisgyblion am ochelyd rhagrith, &c.

YN y cyfamser, [a] † wedi i fyrddiwn o bobl
ymgasglu ynghyd, hyd oni [b] ymsathrai
naill y llall, efe a ddechreuodd ddywedyd
rth ei ddisgyblion, [c] ‡ Yn gyntaf, [d] gwyliwch
rnoch ‖ rhag surdoes y Phariseaid, [e] yr hwn
w rhagrith.

a pen. 5. 1, 15. a 6. 17. Act. 21. 20. b 2 Bren. 7. 17.
1 Cor. 15. 3. Iago 3. 17. d Mat. 16. 6—12. Marc 8. 15. 1 Cor.
7, 8. e adn. 56. pen. 11. 44. Job 20. 5. a 27. 8. a 36. 13. Es.
3. 14. Iago 3. 17. 1 Pedr 2. 1.

* Yn fuan iawn wedi i Grist fyned allan o dŷ y Phar-
sead y bu hyn, mae yn debyg. † Rhifedi terfynol am
nnherfynol: tyrfa aneirif. Efallai i'r fath dorf ddyfod
n nghyd gan ofn y gwnaid rhyw gam âg ef yn mhlith
ynnifer o'i elynion; neu ynte y gwnelai efe ryw wyrth
odedig ar yr achlysur hwnw. ‡ Yn bennaf, uwchlaw
ob peth arall, "gwyliwch," &c. ‖ Cawsom ocheliad
yffelyb yn Matthew 16. 6: yno *athrawiaeth* y Phariseaid
feddylid wrth eu rhagrith, adn. 12; yma eu *bucheddau*
feddylir, yn cymmeryd arnynt fod yn dra chrefyddol
ddi allan, ond yn ddirgel yn coledd serchiadau cnawd-
l a drwg-arferion.

2 * Canys [f] nid oes dim cuddiedig, a'r nas
atguddir; na dirgel, a'r nis gwybyddir.

f pen. 8. 17. Preg. 12. 14. Mat. 10. 26. Marc 4. 22. Rhuf. 2.
B. 1 Cor. 4. 5. 2 Cor. 5. 10. Dat. 20. 11, 12.

* Cawsom y geiriau hyn amryw weithiau o'r blaen, ac
r wahanol achlysuron; yma maent yn dangos yr ynfyd-
wydd o ragrith, ceisio cuddio calon ddrwg dân rith o
refydd a moesau da. Daw yr holl dwyll i'r golwg pan
datguddio Duw ddirgeloedd dynion, dydd y farn, neu
fallai cyn hyny i rai.

3 * Am hynny [g] pa bethau bynnag a ddy-
wedasoch yn y tywyllwch, a glywir yn y
goleu; a'r peth a ddywedasoch yn y glust
mewn ystafelloedd, a bregethir ar [h] bennau tai.

g Job 24. 14, 15. Preg. 10. 12, 13, 20. Mat. 12. 36. Judas 14.
15. h Mat. 10. 27.

* Cawsom debyg i hyn yn Matth. 10. 27. Gorchymyn
ydoedd yno, i'r dysgyblion i gyhoeddi yr efengyl; ond
yma dangos am ragrith y mae Crist, y pethau dirgelaf
a ddywedo neu a wnelo dynion rhagrithiol y deuent i'r
golwg yn y farn.

4 * Ac yr wyf yn dywedyd wrthych, [i] fy
nghyfeillion, [k] † Nac ofnwch y rhai sydd yn
lladd y corph, ac wedi hynny heb ganddynt
ddim mwy i'w wneuthur.

i Can. 5. 1, 16. Es. 41. 8. Ioan 15. 14, 15. Iago 2. 23. k Es.
51. 7, 8, 12, 13. Jer. 1. 8, 17. a 26. 14, 15. Ezec. 2. 6. Dan. 3. 16,
17. Act. 4. 13. a 20. 24. Phil. 1. 28. 1 Pedr 3. 14. Dat. 2. 10.

5 Ond [l] rhag-ddangosaf i chwi pwy a ofn-
wch: [m] ‡ Ofnwch yr hwn, wedi y darffo iddo
ladd, sydd âg [n] awdurdod ganddo i fwrw i
uffern; ïe, meddaf i chwi, Hwnnw a ofnwch.

l 1 Marc 13. 23. 1 Thes. 4. 6. m Diar. 14. 26. Jer. 5. 22. a
10. 7. Dat. 14. 7. a 15. 4. n Salm 9. 17. Mat. 10. 28. a 25. 41,
46. 2 Pedr 2. 4. Dat. 20. 14.

Gwel ar Matth. 10. 28. * Cryfâu ei ddysgyblion y
mae Crist yma i ddyledswyddau eu galwedigaeth, heb
ofni beth a wnelai y Phariseaid na neb arall iddynt.
I'r dyben hyny mae yn crybwyll dau reswm:—1. † Gwen-
did, neu allu terfynol eu gelynion: gallant ladd y corph,
ond ni allant ddim ychwaneg. 2. ‡ Mawr allu Duw, yr
hwn a all fwrw i uffern: dystrywio enaid a chorph yn
uffern medd Matthew. Yr eithaf a all dynion wneyd am
ffyddlondeb, yw lladd y corph; ond gall Duw ddystrywio
enaid a chorph yn uffern am anffyddlondeb. Gwelwn
yma, 1. Fod cosp ar ol y byd hwn: na dderfydd cosp
pawb ddim gyda marwolaeth eu cyrph. 2. Bod gan
ddynion gyrph ac eneidiau; ac y bydd cyrph ac eneid-
iau pechaduriaid yn yr adgyfodiad yn addas ac yn ddar-
ostyngedig i gosp. 3. Mai y ffordd rwydd i'n dwyn i'r
trueni hwnw yw, ofni digofaint dynion yn fwy na digo-
faint Duw.

6 [o] * Oni werthir pump o adar y tô er dwy
ffyrling, [p] ac nid oes un o honynt mewn
anghof ger bron Duw?

o Mat. 10. 29. p adn. 24, 27. Salm 50. 10, 11. a 113. 5, 6.
a 145. 15, 16. a 147. 9.

7 Ond [q] y mae hyd yn nôd blew eich pen-
nau chwi yn gyfrifedig oll. Am hynny nac
ofnwch: [r] † yr ydych chwi yn well nâ llawer o
adar y tô.

q pen. 21. 18. 1 Sam. 14. 45. 2 Sam. 14. 11. Mat. 10. 30. Act.
27. 34. r Job 35. 11. Salm 8. 6. Es. 43. 3, 4. Mat. 6. 26. a
10. 31.

Gwel ar Matth. 10. 29—31. * "Dau er ffyrling,"
medd Matthew; yma "pump er dwy ffyrling." Dyna
fel y gwerthid hwynt at yr aberthau gynt, mae'n debyg.
† Gwell fel dynion, gwell fel dynion duwiol a dysgyblion,
a gwell o lawer fel apostolion a chenadon Crist. Yn y
geiriau uchod mae trydydd rheswm Crist i galonogi ei
ddysgyblion yn eu gwaith: sef gofal Duw yn ei ragluni-
aeth am danynt, hyd yn nod yn y pethau manylaf, a
lleiaf, blew eu penau, pa faint mwy eu bywydau a'u
heneidiau.

8 Ac meddaf i chwi, [s] Pwy bynnag a'm
haddefo i ger bron dynion, Mab y dyn hefyd
a'i [t] haddef yntau ger bron angelion Duw.

s 1 Sam. 2. 30. a 119. 46. Mat. 10. 32, 33. Rhuf. 10. 9, 10.
Dat. 2. 13. a 3. 4, 5. t Mat. 25. 31—34. Judas 24, 25.

9 [u] A'r hwn a'm gwado i ger bron dynion,
[x] a wedir ger bron angelion Duw.

u pen. 9. 26. Mat. 10. 33. Marc 8. 38. Act. 3. 13, 14. 2 Tim. 2.
12. Dat. 3. 8. x pen. 13. 26, 27. Mat. 7. 23. a 25. 12, 41. 1 Ioan
2. 23, 28.

Gwel ar Matth. 10. 32, 33. Mae yma bedwerydd a
phummed rheswm, wedi eu cymmeryd oddiwrth wobr
a chosp y rhai a addefant neu a wadant Grist ger bron
dynion. Nis gall dim fod yn fwy mawryddig na'r olwg
hon a rydd Crist arno ei hun. † A wadir ganddo ef, a

ddirmygir gan yr holl fyd angylaidd, ac ni bydd lloches na gobaith iddo byth.

10 * A [y] phwy bynnag a ddywedo air yn erbyn Mab y dyn, fe a faddeuir iddo: † eithr i'r neb a gablo yn erbyn yr Ysbryd Glân, ni faddeuir.

y pen. 23 34. Mat. 12. 31, 32. Marc 3. 28, 29. 1 Tim. 1. 13. Heb. 6. 4—8. a 10. 26—31. 1 Ioan 5. 16.

Gwel ar Matth. 12. 31; Marc 3. 29. Mae dywedyd a chablu yn erbyn yr Ysbryd Glân yn fwy pechadurus na dywedyd yn erbyn Crist: cafodd llawer a ddywedasant yn erbyn Crist edifeirwch a thrugaredd, ond ni chafodd neb erioed a gablasant yn erbyn yr Ysbryd Glân. Mae dangosiad cryf o Dduwdod Crist â'r Ysbryd Glân yn y geiriau hyn. * Dywedyd yn erbyn Crist yn ei gyflwr o ddarostyngiad pan oedd ar y ddaear, efallai, yn benaf a feddylir yma; † a dywedyd, neu gablu yn erbyn yr Ysbryd Glân yn ei dywalltiadau nerthol, ar ol esgyniad Crist i'r gogoniant. Gwyliwn ni rhag pob un o'r ddau. Yr wyf yn peidio ei alw yn bechod yn erbyn yr Ysbryd Glân, (ebai un gwr) eithr yn gabledd; oblegid er bod pob cabledd yn bechod mewn ystyr gyffredin, eto cabledd y geilw ein Iachawdwr hwn: felly y gelwir ef gan bob un o'r efengylwyr, ac nis gelwir yn bechod yn erbyn yr Ysbryd Glân yn un màn yn yr ysgrythyr.—Heblaw y sylwad uchod, gallwn feddwl fod cabledd, yn enwedig cabledd yn erbyn Person Dwyfol, yn bechod o'r fath waethaf; mae pob cabledd yn bechod fel y sylwyd, ond y mae llawer pechod nad yw yn gabledd, yn yr ystyr fanol a phriodol o'r gair.

11 A [z] phan y'ch dygant i'r synagogau, ac *at* y llywiawdwyr, a'r awdurdodau, na ofelwch pa fodd, neu pa beth a atteboch, neu beth a ddywedoch:

z pen. 21. 12—14. Mat. 10. 17—20. a 23. 34. Marc 13. 9—11. Act. 4. 5—7. a 5. 27—32. a 6. 9—15.

12 Canys [a] yr Ysbryd Glân a ddysg i chwi yn yr awr honno beth sydd raid ei ddywedyd.

a pen. 21. 15. Ex. 4. 11, 12. Act. 4. 8. a 7. 2, &c. 55.

Gwel ar Matth. 10. 19; a Marc 13. 11. Nid oes genym ddim i'w chwanegu yma.

13 ¶ A rhyw un o'r dyrfa a ddywedodd wrtho, [b] * Athraw, dywed wrth fy mrawd am rannu â myfi yr etifeddiaeth.

b pen. 6. 45. Salm 17. 14. Ezec. 33. 31. Act. 8. 18, 19. 1 Tim. 6. 5.

14 Yntau a ddywedodd wrtho, [c] † Y dyn, [d] pwy a'm gosododd i yn farnwr, neu yn rhannwr arnoch chwi?

c pen. 5. 20. a 22. 58. Rhuf. 2. 1, 3. a 9. 20. d Ex. 2. 14. Ioan 6. 15. a 8. 11. a 18. 36.

Nid yw y geiriau hyn wedi eu gosod i lawr yn ddiddyben; os ydynt yn dysgu dim i ni hefyd, maent yn dysgu nad yw achosion gwladol yn perthyn dim i weinidogion yr efengyl i ymŷraeth â hwy: mae y gwaith hwnw yn ddigon iddynt hwy. * Mae yn debyg fod gan y bydol-ddyn hwn ryw ddychymmyg am Iesu fel Messiah, ac fel y cyfryw yr oedd yn meddwl mai breniniaeth o'r byd hwn oedd ei freniniaeth ef, ac y gwnâi efe ymŷraeth rhyngddo ef a'i frawd. † Wrth weled ei ysbryd bydol ef, mae yr Iesu yn ei geryddu yn llŷm, ac yn nacâu ei gais ef. Ni wnâi efe ymŷraeth o herwydd amryw bethau: 1. Am nas mŷnai feithrin y meddyliau cnawdol oedd gan yr Iuddewon am y Messiah, fel brenin daearol. 2. Am y mynai wahaniaethu rhwng y llywodraeth wladol a'r un eglwysig. 3. Er dysgu i ni wylied rhag y rhai sydd yn camddefnyddio proffes o'r efengyl, a'r enw o weinidogion, er eu manteision personol eu hunain. 4. Er dangos i ni nad oes gan weinidogion y gair ddim amser i ymŷraeth â phethau gwladol, gallant ei ddefnyddio i well dyben, a dylent wneyd hyny. 5. Er gochel tynu ei hun i brofedigaeth: pe buasai yn ymŷryd â'r mater hwn, buasai rhai o'i elynion yn barod i ddywedyd wrtho fel y dywedodd yr Hebrewr wrth Moses gynt, "Pwy a'th osododd di yn benaeth ac y[illegible] frawdwr arnom ni?" Exod. 2. 14. At hyny ma[illegible] cyfeiriad ei ateb ef.

15 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [e] * E[illegible] drychwch, ac † ymogelwch rhag ‡ cybydd[illegible] dod: [f] ‖ canys nid yw bywyd neb yn sefyll a[illegible] amlder y pethau sydd ganddo.

e pen. 8. 14. a 16. 14. a 21. 34. Jos. 7. 21. Job 31. 24, 25. Salm 10. 3. a 62. 10. a 119. 36, 37. Diar. 23. 4, 5. a 28. 16. Jer. 6. 13. 22. 17, 18. Mica 2. 2. Hab. 2. 9. Marc 7. 22. 1 Cor. 5. 10, 11. a 6. 10. Eph. 5. 3—5. Col. 3. 5. 1 Tim. 6. 9, 10. 2 Tim. 3. 2. Heb. 13. 5. 2 Pedr 2. 3, 14. f Salm 37. 16. Diar. 15. 16. a 16. 16. Preg. 4. 6—8. a 5. 10—16. Mat. 6. 25, 26. 1 Tim. 6. 6—8.

Gwyddai Iesu fod cybydd-dod yn un o'r ddau frawd[illegible] hyn, yn yr hwn oedd yn dàl yr etifeddiaeth, neu ynte yr[illegible] yr hwn oedd am iddo ranu âg ef: efallai yn mhob un[illegible] Oddi ar hyny cymmerodd achlysur i roddi y gocheliad[illegible] hwn i bawb ag oedd yno yn ei wrando. † Mae eiliaw[illegible] y gocheliad fel hyn yn dangos mai nwyd rŷmus iawn e[illegible] heffeithiau ar y cybydd yw ariangarwch, a bod yn dr[illegible] angenrheidiol hyd yn nod i ddynion duwiol i wylied[illegible] rhagddi. ‡ Cybydd-dod yw awydd anniwalladwy y galor[illegible] am gyfoeth, mwy nag sydd angenrheidiol, at gynnaliaeth[illegible] bywyd, a mwy nag mae Duw yn ei ragluniaeth yn rodd[illegible] i ni; yn nghyd ag ymrôad i'w fynu ryw ffordd os gelfir[illegible] cyfiawn neu anghyfiawn. Cybydd-dod hefyd yw atta[illegible] mwy nac y weddai o'r pethau sydd genym, lle mae cyf[illegible] iawnder, dyledswydd, dynoliaeth, ac elusengarwch, yn[illegible] galw arnom gyfranu. Byddai da i lawer o ddynion pu[illegible] grefyddol sylwi mwy nac y maent yn wneyd ar y gochel[illegible] iadau hyn. ‖ Nid yw dedwyddwch bywyd, nid yw parâd[illegible] bywyd, yn sefyll ar amlder y pethau sydd gan ddyn: ac[illegible] yn sicr nid yw bywyd tragywyddol yr enaid yn sefyll ar[illegible] y cyfryw bethau. Mae *ychydig* o bethau y byd hwn yn[illegible] angenrheidiol er cynnaliaeth bywyd; ond gwelwyd lawer[illegible] gwaith bod *amlder* o honynt yn fwy o niwed nac o les[illegible] i'r corph ac i'r enaid hefyd.

16 ¶ * Ac efe a draethodd wrthynt ddam-[illegible] meg, gan ddywedyd, [g] Tir rhyw wr goludog a[illegible] gnydiodd yn dda.

g Gen. 26. 12—14. a 41. 47—49. Job 12. 6. Salm 73. 3, 12. Hos. 2. 8. Mat. 5. 45. Act. 14. 17.

17 Ac efe a ymresymmodd ynddo ei hun, [illegible] gan ddywedyd, [h] Beth [i] a wnaf, am nad oes[illegible] gennyf le i gasglu fy ffrwythau iddo?

h adn. 22, 29. pen. 10. 25. a 16. 3. Act. 2. 37. a 16. 30. i adn. 33. pen. 3. 11. a 11. 41. a 14. 13, 14. a 16. 9. a 18. 22. a 19. 17. Preg. 11. 2. Es. 58. 7. Mat. 5. 42. Rhuf. 12. 13. 2 Cor. 9. 6—15. 1 Tim. 6. 17, 18. 1 Ioan 3. 16, 17.

18 Ac efe a ddywedodd, [k] Hyn a wnaf: Mi[illegible] a dynnaf i lawr fy ysguboriau, ac a adeiladaf[illegible] rai mwy; ac yno y casglaf fy holl ffrwythau, [illegible] a'm dâ.

k adn. 21. pen. 16. 4, 6. Salm 17. 14. Iago 3. 15.

19 A dywedaf wrth fy enaid, [l] Fy enaid, y[illegible] mae gennyt ddâ lawer wedi eu rhoi i gadw[illegible] [m] dros lawer o flynyddoedd: [n] gorphwys, bwyt-ta, ŷf, bydd lawen.

l Deut. 6. 11, 12. a 8. 12—14. Job 31. 24, 25. Salm 49. 5—13. a 52. 5—7. a 62. 10. Diar. 18. 11. a 23. 5. Es. 5. 8. Hos. 12. 8. Hab. 1. 16. Mat. 6. 19—21. 1 Tim. 6. 17. Iago 5. 1—3. m Job 14. 1. Diar. 27. 1. Iago 4. 13—15. n pen. 16. 19. a 21. 34. Job 21. 11—13. Preg. 11. 9. Es. 5. 11, 12. a 22. 13, 14. Amos 6. 3—6. 1 Cor. 15. 32. Phil. 3. 19. 1 Tim. 5. 6. 2 Tim. 3. 4. Iago 5. 5. 1 Pedr 4. 3. Dat. 18. 7.

20 Eithr [o] Duw a ddywedodd wrtho, [p] O[illegible] ynfyd, y nos hon y † gofynant dy enaid oddi[illegible] wrthyt; [q] ac eiddo pwy fydd y pethau a barot-töaist?

o pen. 16. 22, 23. Ex. 16. 9, 10. 1 Sam. 25. 36—38. 2 Sam. 13. 28, 29. 1 Bren. 16. 9, 10. Job 20. 20—23. Salm 73. 19, 20. a 78. 30, 31. Dan. 5. 1—6, 25—30. Nah. 1. 10. Mat. 24. 48—51. 1 Thes. 5. 3. p pen. 11. 40. Jer. 17. 11. q Esther 5. 11. a 8. 1, 2. Job 27. 16, 17. Salm 39. 6. a 49. 17—19. a 52. 5—7. Diar. 11. 4. a 28. 8. Preg. 2. 18—22. a 5. 14—16. Dan. 5. 28. 1 Tim. 6. 7.

21 Felly y mae [r] yr hwn sydd yn trysori

do ei hun, ac nid yw [s] ‡ gyfoethog tu ag at Dduw.

r adn. 33. pen. 6. 24. Hos. 10. 1. Mat. 6. 19, 20. Rhuf. 2. 5. 1 Tim. 6. 19. Iago 5. 1—3. s pen. 16. 11. 2 Cor. 6. 10. 1 Tim. 6. 8. Iago 2. 5. Dat. 2. 9.

* Dywed Luc wrthym mai dammeg yw y geiriau uchod, nid hanes gwirioneddol: eto, dammeg ydyw, sydd dangos pethau a ddygwyddant yn gyffredin yn y byd n; a dammeg yn tarddu yn naturiol iawn oddi ar y iriau o'r blaen. Oddi wrth y ddammeg hon, sylwn y pethau canlynol:—1. Bod Duw yn peri i'w haul lli ar y drwg a'r da, ac yn gwlawio ar y cyfiawn a'r ghyfiawn. Dyn anianol a bydol oedd hwn, ac heb l yn gyfoethog tuag at Dduw, (adn. 21.) ac eto parodd w i'w faesydd gnydio yn dda. 2. Bod chwanegiad oeth yn chwanegu gofal: mae y goludog hwn yn rfod dywedyd "beth a wnaf." Y gwahaniaeth rhwng lawd a'r cyfoethog yw hyn; mae y tlawd yn dywedyd, th a wnaf am gyfoeth; a'r goludog yn dywedyd, Beth wnaf â'm cyfoeth yn awr wedi i mi ei gael. 3. Cyfoeth nion bydol yw eu duw: y maent felly yn eu cyfrif y; ac y maent felly fel y maent yr unig ran a gânt y gan Dduw. 4. Mae goludoedd mawrion a mwynt y byd hwn, ag effeithiau dênus iawn iddynt: maent gwneyd dynion yn anewyllysgar iawn i farw; ac yn yllysio meddwl y byddant fyw am hir flynyddoedd. aent yn dênu i segurdod a sicrwydd cnawdol; ac yn iri i ddynion i ganu gorphwys-gan *(requiem)* yn ghyfreithlawn i'w heneidiau. Maent hefyd yn dênu oethusrwydd a llawenydd pechadurus, "Bwyta, ŷf, dd lawen," ebai hwn wrth ei enaid. 5. Yr hwn y ae fwyaf o bethau y byd ganddo, dichon y cymmerir enaid oddi wrtho mewn noswaith. 6. Nid yw dyn iim perchen ar bethau y byd hwn yn hwy nag y gallo dw meddiant daearol o honynt. 7. Pan fyddo dyn lludog farw, nis gŵyr efe pwy a feddianna ei gyfoeth: un ai ei fab ai estron; ac os ei fab, nis gŵyr efe pa ai doeth ai annoeth fydd efe. 8. Oddi wrth hyn oll elwn, mai ynfydrwydd o'r mwyaf yw i ddynion dreulw eu nerth a'u hamser i hel a chasglu trysorau ar y aear, ac ar yr un pryd esgeuluso, neu fod heb geisio, d yn gyfoethog tuag at Dduw. † Yr ysbrydion a anfonir gan Dduw i hyny. Tybiai rhai o'r doethion ganaidd fod y swydd hon yn perthyn i ryw ysbrydion agorach na dynion. ‡ Yn y gras sydd yn ei gyfiawnâu yn ei gymmeradwyo; ac yn y gras sydd yn ei sanctddio ac yn ei nerthu i ogoneddu Duw.

22 ¶ Ac efe a ddywedodd wrth ei * ddisyblion, Am hyn yr wyf yn dywedyd wrthych, Na chymmerwch † ofal am eich bywyd, beth fwyttäoch; nac am eich corph, beth a wisgch.

t adn. 29. Mat. 6. 25, &c. 1 Cor. 7. 32. Phil. 4. 6. Heb. 13. 5.

23 [u] Y mae y bywyd yn fwy na'r ymborth, r corph *yn fwy* na'r dillad.

u Gen. 19. 17. Job 1. 12. a 2. 4, 6. Diar. 13. 8. Act. 27. 18, 38.

24 Ystyriwch [x] y brain: canys nid ydynt yn uu, nac yn medi; i'r rhai nid oes gell, nac ysubor; ac y mae Duw yn eu porthi hwynt: O ba faint mwy yr ydych chwi yn well nâ'r dar?

x adn. 27. 1 Bren. 17. 1—6. Job 38. 41. Salm 145. 15, 16. a 7. 9. Mat. 6. 26. y adn. 7, 30—32. Job 35. 11. Mat. 10. 31.

25 A [z] phwy o honoch, gan gymmeryd ofal, ‡ a ddichon chwanegu un cufydd at ei aintioli?

z pen. 19. 3. Mat. 5. 36. a 6. 27.

26 Am hynny, oni ellwch wneuthur y peth leiaf, [a] paham yr ydych yn cymmeryd gofal m y lleill?

a adn. 29. Salm 39. 6. Preg. 7. 13. 1 Pedr 5. 7.

27 Ystyriwch [b] y lili, pa fodd y maent yn tyfu; Nid ydynt yn llafurio, nac yn nyddu; ac yr wyf yn dywedyd i chwi, [c] na wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r rhai hyn.

b adn. 24. Mat. 6. 28—30. Iago 1. 10, 11. c 1 Bren. 10. 1—13. 2 Cron. 9. 1—12.

28 Ac os yw Duw felly yn dilladu y llysieuyn, [d] yr hwn sydd heddyw yn y maes, ac y fory a deflir i'r ffwrn; pa faint mwy *y dillada efe* chwychwi, [e] O rai o ychydig ffydd.

d Es. 40. 6, 7. 1 Pedr 1. 24. e pen. 8. 25. Mat. 8. 26. a 14. 31. a 16. 8. a 17. 17, 20.

29 [f] Chwithau na cheisiwch beth a fwyttäoch, neu pa beth a yfoch; ac na fyddwch ammheüus.

f adn. 22. pen. 10. 7, 8. a 22. 35. Mat. 6. 31.

30 Canys [g] y pethau hyn oll y mae cenhedloedd y byd yn eu hargeisio: ac [h] y mae eich Tad chwi yn gwybod fod arnoch chwi eisiau y pethau hyn.

g Mat. 5. 47. a 6. 32. Eph. 4. 17. 1 Thes. 4. 5. 1 Pedr 4. 2—4. h adn. 32. Mat. 6. 1, 8, 32. a 10. 20. a 18. 14. Ioan 20. 17.

Gwel ar Matth. 6. 25—33. Cawsom y pethau hyn oll yno, a sylwyd yn fŷr yno arnynt. Mae yn debygol i'r Arglwydd Iesu fynych ddywedyd y pethau uchod, o herwydd y gwyddai efe fod tuedd cryf mewn dynion i ragofalon, bydolrwydd, a chybydd-dod: ac hefyd bod niwed mawr yn y cyfryw bethau i ddynion. * Gan nad oedd dysgyblion yr Arglwydd Iesu ond tlodion, gallent hwy feddwl nad oedd y ddammeg uchod yn nghylch y goludog yn perthyn nemawr iddynt hwy: am hyny mae efe yn dywedyd y geiriau hyn wrthynt hwy yn bennodol. † Nid gofal cymmedrol a dyledus a waherddir yma; ond, 1. Gofal anymddiriedol yn rhagluniaeth Duw. 2. Gofal a fyddo yn dyrysu ac yn gwylltu y galon, a fyddo yn peri fod dyn mewn petrusder gwastadol, ac anwadalu fel goruchionen *(meteor)*. 3. Gofal am bethau mawrion ac uchel, medd rhai. Mae yn sicr fod y gair gwreiddiol a gyfieithir ammheüus, yn adn. 29, yn arwyddo ysgogiadau afreolaidd ac anwadol goruchion yn yr awyr, neu y cymylau yn cael eu gŷru gan wyntoedd: ac yn debyg i hyny y mae meddyliau dynion rhagofalus, dàn ddygwyddiadau cyfnewidiol bywyd, tra maent yn ceisio ymladd eu ffordd eu hunain, ac heb ddysgu ymddiried i Dduw yn llwybr eu dyledswydd. 4. Unrhyw ofal a fyddo yn rhwystr i ni geisio yn gyntaf deyrnas Dduw. I arfogi meddyliau y dysgyblion yn erbyn y rhagofal uchod, mae ein Harglwydd Iesu yn crybwyll, yn 1. Eu hymddybyniad anghenrheidiol ar Dduw am eu *bywyd;* yr hyn sydd fwy nac ymborth a dillad. 2. Rhagluniaeth Duw, yr hon sydd dros ei holl grëaduriaid ef; pethau tyfol, glaswellt a blodau: pethau direswm, megys y brain; a pha faint mwy dros *ddyn.* 3. Oddi wrth yr ystyriaeth o oferedd ac aflesiant y gofal hwn; trwy yr hwn nis gallwn chwanegu cymmaint a chufydd at ein maintioli. 4. Trwy fod y cenedloedd yn gofalu am y pethau hyn; y dylai cristionogion ragori arnynt, am eu bod yn gwybod mwy, a chanddynt well gobaith ac addewidion na hwynt-hwy. 5. Yn olaf, am y gŵyr ein Tad nefol beth sydd yn angen ar ei blant, ac mae yn afresymol meddwl y gad efe hwy heb y pethau anghenrheidiol hyny. ‡ Neu 'estyn ei einioes un awr' medd rhai; a dywedant fod y gair am *faintioli* yn arwyddo hyny, ac *oed* neu *einioes* hefyd: eto mesur o hŷd unrhyw beth yw cufydd, ac nid mòr briodol ydyw i fesur *amser;* er hyny ni a welwn ymadrodd cyffelyb, yn Salm 39. 5. Chwanegi *cufydd* at faintioli corph dyn a fyddai chwanegiad mawr iawn, ac anferth bron; a hyny a barodd i rai dybied efallai, mai einioes a feddylir ac nid maintioli. Gwel ychwaneg ar Matthew

31 ¶ [i] * Yn hytrach ceisiwch deyrnas Dduw, † a'r pethau hyn oll a roddir i chwi yn chwaneg.

i pen. 10. 42. l Bren. 3. 11—13. Salm 34. 9, 10. a 37. 3, 19, 25. a 84. 11. Es. 33. 15, 16. Mat. 6. 33. Ioan 6. 27. Rhuf. 8. 31, 32. l Tim. 4. 8. Heb. 13. 5.

Gwel ar Matth. 6. 33. * "Yn *gyntaf* ceisiwch" medd Matthew; "yn *hytrach* ceisiwch" medd Luc yma: mae "hytrach" Luc yn egluro "cyntaf" Matthew; ac mae hefyd yn egluro meddwl ein Harglwydd pan ddywedodd "Na chymmerwch ofal am eich bywyd," adn. 22: hyny yw, na fydded pethau y bywyd hwn eich *unig* ofal, a'ch gofal *penaf;* ond gofelwch yn benaf, ac yn mlaenaf, am geisio teyrnas Dduw; y deyrnas a enwir yn yr adnod nesaf. † Os gwneir chwi yn gyfranogion o deyrnas Dduw, gellwch fod yn sicr y bydd i'r hwn a roes i chwi y peth mwyaf, roddi i chwi y pethau lleiaf hefyd.

32 * Nac ofna, [k] braidd bychan: [l] † canys rhyngodd bodd i'ch Tad roddi i chwi [m] y deyrnas.

k Can. 1. 7, 8. Es. 40. 11. a 41. 14. a 53. 6. Mat. 7. 15. a 18. 12—14. a 20. 16. Ioan 10. 26—30. l pen. 10. 21. Mat. 11. 26, 27. Eph. 1. 5—9. Phil. 2. 13. 2 Thes. 1. 11. m Jer. 3. 19. Rhuf. 6. 23. a 8. 28—32. 2 Thes. 1. 5. Heb. 12. 28. Iago 2. 5. 1 Pedr 1. 3—5. 2 Pedr 1. 11.

* "Praidd *bychan*" oedd y dysgyblion y pryd hwnw, ac ydyw y saint eto, mewn cymhariaeth i'r torfeydd dirifedi o annuwiolion sydd yn y byd. "*Praidd*" oeddynt hefyd, nid llewod: pethau gweiniaid, diniwed, a digon diamddiffyn. † Fel y cyfryw, nid oeddynt debyg iawn o ennill teyrnas iddynt eu hunain yn y byd hwn er pob gofalu; eto mae teyrnas anfeidrol well na'r holl fyd hwn yn eiddo iddynt: yn eiddo rhad iddynt, wedi ei *rhoddi;* yn eiddo sicr, trwy ewyllys eu Tad nefol, trwy gyfammod a llŵ dianwadol ac annhoredig Duw. Mae y gair a gyfieithir "rhyngodd bodd" yn arwyddo yr hyfrydwch annhraethadwy mae Duw yn gymmeryd yn ei arfaeth a'i gynghor tragywyddol ei hun; yn y ddarpariaeth rasol a wnaeth efe i'w etholedig bobl; ac yn enwedig yn y gogoniant a ddarparodd efe iddynt, a'r mawl tragywyddol a gaiff efe oddi wrthynt.

33 [n] * Gwerthwch yr hyn sydd gennych, a rhoddwch elusen: [o] † gwnewch i chwi byrsau y rhai ni heneiddiant; trysor yn y nefoedd, yr hwn ni dderfydd, lle ni ddaw lleidr yn agos, ac ni lygra pryf.

n pen. 18. 22. Mat. 19. 21. Act. 2. 45. a 4. 34, 35. 2 Cor. 8. 2. o pen. 16. 9. Hag. 1. 6. Mat. 6. 19—21. Ioan 12. 6. 1 Tim. 6. 17—19. Iago 5. 1—3.

34 ‡ Canys [p] lle y mae eich trysor chwi, yno y bydd eich calon hefyd.

p Mat. 6. 21. Phil. 3. 20. Col. 3. 1—3.

* Yn lle dilyn helwriaeth y byd hwn am ychwaneg, dylai canlynwyr Crist fod yn barod i ymadael hyd yn nod â'r hyn sydd ganddynt, os bydd Duw yn ei raglunaeth yn galw arnynt i hyny, er cymhorth ei achos ef, er cymhorth i rai o'i bobl dlodion ef, ac er elusengarwch cyffredin i ryw rai mewn angen. Efallai mai y cynghor hwn a dueddodd y dychweledigion ar ol dydd y pentecost i werthu eu meddiannau â'u da, i'w rhanu i bawb fel yr oedd yr eisiau ar neb. Act. 2. 45. Mae yn bur debyg bod rhai o'r "myrddiwn" oedd yn awr yn gwrando Crist, o nifer y tair mil a ddychwelwyd yn mhen ychydig fisoedd wedi hyny. † Mynych y mae hen godau tyllog yn colli yr arian a rodder ynddynt; felly yn aml y mae trysorau y byd hwn heb fendith Duw arnynt, Hag. 1. 6; ac felly yn enwedig y profodd cyfoethogion anghrediniol Judea cyn pen hir, pan yspeiliwyd hwy gan y Rhufeiniaid. Gofalu yn benaf am yr etifeddiaeth nefol, yw yr addysg i ni. ‡ Gwel ar Matth. 6. 21.

35 [q] * Bydded eich lwynau wedi eu hymwregysu, [r] † a'*ch* canhwyllau wedi eu goleu:

q l Bren. 18. 46. Diar. 31. 17, 18. Es. 5. 27. a 11. 5. Eph. 6. 14. l Pedr 1. 13. r Mat. 5. 16. a 25. 4—10. Phil. 2. 15.

36 A chwithau yn debyg i [s] ddynion yn disgwyl eu Harglwydd, pa bryd [t] y dychwel o'r neithior; fel [u] pan ddelo a churo, yr agoront iddo yn ebrwydd.

s pen. 2. 25—30. Gen. 49. 18. Es. 64. 4. Galar. 3. 25, 26. Mat. 24. 42—44. Marc 13. 34—37. Iago 5. 7, 8. 2 Pedr 1. 13—15. Judas 20, 21. t Mat. 22. 1, &c. a 25. 1, &c. u Can. 5. 5, 6. Dat. 3. 20.

* Mae geiriau blaenaf y ddeugeinfed adnod yn egluro meddwl y geiriau hyn. "Byddwch chwithau barod." Mae cyfeiriad llythyrenol y geiriau at y gwisgoedd llaes ion a wisgai pobl y dwyrain, ac y rhai oeddynt i'r gwregysu i fynu pan fyddent yn darpar at ryw orchwyl er mwy o hwylusder a chryfder at eu gwaith. Yma ma yn arwyddo rhoddi heibio bob helyntion bydol dianghen rhaid, a phob mwyniant cnawdol; ac ymroddiad y apostolion at waith yr Arglwydd o hyny allan. † Fell y canwyllau hefyd: gan y byddai y priodasau yn y no yn mhlith yr Iuddewon, nis gwyddid pa bryd y deua gwr y tŷ adref, am hyny yr oedd yn rhaid i'r gwasanaeth ddynion a'i dysgwylient ef fod yn wyliadwrus, a'u can wyllau yn goleuo pan y delai. Yr addysg yw, y dyla cristionogion fod yn effro, pob gras yn fywiog mewn gweithrediad, pob dyleds wydd yn cael ei chyflawni; a'u mater hwythau yn oleu rhyngddynt â Duw; fel pa bryd bynag y byddo galw am danynt, y byddo eu hysbryd yn gystal â'u cyflwr yn barod i dderbyn eu Harglwydd, a i fyned i mewn gydag ef i'w ogoniant.

37 [x] Gwyn eu byd y gweision hyny, y rhai a gaiff eu Harglwydd, pan ddêl, yn neffro: yn wir meddaf i chwi, [y] * Efe a ymwregysa, ac a wna iddynt eistedd i lawr i fwytta, ac a ddaw ac a wasanaetha arnynt hwy.

x adn. 43. pen. 21. 36. Mat. 24. 45—47. a 25. 20—23. Phil. 1 21, 23. 2 Tim. 4. 7, 8. 1 Pedr 5. 1—4. 2 Pedr 1. 11. a 3. 14. Dat 14. 13. y Es. 62. 5. Jer. 32. 41. Zeph. 3. 17. Ioan 12. 26. a 13 4, 5. 1 Cor. 2. 9. Dat. 3. 21. a 7. 17. a 14. 3, 4.

38 Ac os daw efe [z] ar yr † ail wyliadwriaeth, ac os ar y drydedd wyliadwriaeth y daw, a'*u* cael *hwynt* felly, gwyn eu byd y gweision hynny.

z Mat. 25. 6. 1 Thes. 5. 4, 5.

39 A [a] hyn gwybyddwch, pe gwybuasai gwr y tŷ pa awr y deuai y lleidr, efe a wyliasai, ac ni adawsai gloddio ei dŷ trwodd.

a Mat. 24. 43, 44. 1 Thes. 5. 2, 3. 2 Pedr 3. 10. Dat. 3. 3. a 16. 15.

40 [b] A chwithau gan hynny, byddwch barod: canys yr awr ni thybioch, y daw Mab y dyn.

b pen. 21. 34—36. Mat. 24. 42, 44. a 25. 13. Marc 13. 33—36. Rhuf. 13. 11, 14. 1 Thes. 5. 6. 2 Pedr 3. 12—14. Dat. 19. 7.

* Dywedir y byddai y priod-fab weithiau yn gweini ar y gwahoddedigion; ond yma arwyddocâd y geiriau yw, y rhydd yr Arglwydd Iesu anrhydedd mawr ar, a ddedwyddwch mawr idd, ei weision ffyddlawn ac effro, yn ei ddyfodiad. Y ddyledswydd a gymhellir yma yw, gwyliadwriaeth; sef gwyliadwriaeth ysbrydol: ymwadu â ni ein hunain o ran chwantau, gwylied rhag syrthio i bechodau; a bod yn effro ac yn llafurus yn ngwaith yr Arglwydd. Gwasgir y ddyledswydd hon arnom, yn 1. Drwy yr ystyriaeth o ansicrwydd yr amser y daw ein Harglwydd. 2. Y lles a fydd i'r rhai a wyliant: gwyn eu byd y gweision hyny, medd Crist. 3. Y wobr a gaiff y cyfryw gan eu Harglwydd: efe a wna iddynt eistedd i lawr i fwyta, ac a ddaw, ac a wasanaetha arnynt hwy. 4. Mae efe yn gwasgu y ddyledswydd hefyd drwy ystyriaeth o ofal cyffredinol dynion: os cânt hwy ryw awgrym o wybodaeth fod lleidr yn dyfod, hwy a wyliant, i ragflaenu y drwg. † Yr oedd yr ail o naw hyd ddeuddeg, a'r drydedd o ddeuddeg hyd dri yn y bore, wrth bedair gwyliadwriaeth yn y nos, o chwech yr hwyr i chwech y bore; neu wrth dair gwyliadwriaeth yn y nos, o bedair awr bob un, yr oedd yr ail o ddeg i ddau, a'r drydedd o ddau i chwech. Yr olaf oedd trefn y Rhufeiniaid, a'r gyntaf oedd trefn yr Iuddewon, ac yn ol y gyntaf y meddylir yma debygid; a'r gorchymyn ydoedd, i'r gweision fod yn effro i dderbyn eu Harglwydd, pa un bynag ai yn hwyr y nos ai yn y bore, y deuai efe o'r

thior: adn. 36. Ond cawsom y geiriau hyn o'r blaen
Matth. 24. 43.

41 ¶ A Phedr a ddywedodd wrtho, [c] Arwydd, * ai wrthym ni yr wyt ti yn dywedyd
ldammeg hon, ai wrth bawb hefyd?
c Marc 13. 37. a 14. 37, 38. 1 Pedr 4. 7. a 5. 8.

42 A'r Arglwydd a ddywedodd, [d] † Pwy yw
[e] goruchwyliwr ffyddlawn, a phwyllog, yr
n a esyd *ei* arglwydd [f] ‡ ar ei deulu, [g] i
ddi || cyfluniaeth *iddynt* [h] mewn pryd?
d pen. 19. 15—19. Mat. 24. 45, 46. a 25. 20—23. 1 Cor. 4. 1, Tit. 1. 7. e pen. 16. 1—12. Mat. 20. 8. 1 Pedr 4. 10. Tim. 3. 15. a 5. 17. Heb. 3. 5. a 13. 7, 17. g Jer. 23. 4. ec. 34. 3. Mat. 13. 52. Ioan 21. 15—17. Act. 20. 28. 1 Pedr 5. 4. h Diar. 15. 23. Es. 50. 4. 2 Tim. 4. 2.

43 Gwyn ei fyd y gwas hwnnw, [i] yr hwn y
ff ei arglwydd ef, pan ddel, yn gwneuthur
ly.
i adn. 37.

44 Yn wir meddaf i chwi, [k] § Efe a'i gosyd
yn llywodraethwr ar gwbl a'r y sydd eiddo.
k pen. 19. 17—19. a 22. 20, 30. Dan. 12. 2, 3. Dat. 3. 21.

45 * Eithr [l] os dywed y gwas hwnnw yn ei
lon, Y mae fy arglwydd yn oedi dyfod; a
chreu [m] curo y gweision a'r morwynion, [n] a
ytta ac yfed, a meddwi:
l Ezec. 12. 22, 27, 28. Mat. 24. 48—50. 2 Pedr 2. 3, 4. Es. 65. 5. Jer. 20. 2. Ezec. 34. 3, 4. 2 Cor. 11. 20. 3 Ioan 9, 10. t. 13. 7—10, 15—17. a 16. 6. a 17. 5, 6. a 18. 24. n Es. 56. —12. Ezec. 34. 8. Rhuf. 16. 18. Phil. 3. 18, 19. 2 Pedr 2. 13, 19. las 12. 13. Dat. 18. 7, 8.

46 [o] † Daw arglwydd y gwas hwnnw mewn
ydd nad yw efe yn disgwyl, ac ar awr nad yw
efe yn gwybod, ac a'i ‡ gwahana ef, [p] ac a esyd
ran ef gyd â'r [q] || anffyddloniaid.
o adn. 19, 20, 40. Dat. 16. 15. p Job 20. 29. Salm 11. 5. nt. 7. 22, 23. a 13. 41, 42, 49, 50. q Mat. 24. 51.

47 § A'r gwas hwnnw yr hwn [r] a wybu
wyllys ei arglwydd, ac nid ymbarottôdd, ac
wnaeth yn ol ei ewyllys ef, [s] a gurir â llawer
onnod.
r pen. 10. 12—15. Num. 15. 30, 31. Mat. 11. 22—24. Ioan 9. a 12. 48. a 15. 22—24. a 19. 11. Act. 17. 30. 2 Cor. 2. 15, 16. go 4. 17. s Deut. 25. 2, 3.

48 Eithr yr hwn [t] ni wybu, ac a wnaeth
ethau yn haeddu ffonnodiau, a gurir âg y-
ydig *ffonnodiau*. [u] Ac i bwy bynnag y
oddwyd llawer, llawer a ofynir ganddo; a
hyd â'r neb y gadawsant lawer, chwaneg a
fynant ganddo.
t Lef. 5. 17. Rhuf. 2. 12—16. 1 Tim. 1. 13. u pen. 16. 2, —12. Gen. 39. 8, &c. Mat. 25. 14—29. 1 Cor. 9. 17, 18. 1 Tim. 1. a 6. 20. Tit. 1. 3. Iago 3. 1.

Gwel ar Matth. 24. 45—51. * Ai wrthym ni yr apos-
lion yn unig, ai ynte wrth bawb yn gyffredin cystal a
nnau? † Mae ateb Iesu yn dangos, debygid, bod y
flammeg uchod yn nghylch gwylio yn perthyn i bawb
n gyffredin; ond yn benaf i'r apostolion a gweinidogion
gair, fel goruchwylwyr ffyddlawn a phwyllog. Ffydd-
wn a doeth yn Matthew; mewn teulu mawr, yn enw-
lig teulu Duw, mae y tri pheth yn dra anghenrheidiol,
yddlondeb, doethineb, a phwyll. Yr oedd y gofyniad
wn o'r eiddo Iesu, debygid yn dyfod adref yn rymus at
ydwybodau yr apostolion, ac yn peri i bob un holi ei
unan "Ai myfi yw efe?". ‡ Ar weision y teulu, medd-
nt, yw ystyr y gair Groeg: y gwas penaf, megys, yn y
eulu. || Mesur gosodedig o ŷd, yw ystyr y gair Groeg,
roddai y pen gwas at gynnaliaeth yr is-weision, neu
n hytrach y caeth-weision, am hyn a hyn o amser.
Dyma godiad uchel iawn i'r gwas ffyddlawn, o fod yn
ruchwyliwr ar gyfluniaeth gweision y teulu, i fod yn
ywodraethwr ar holl feddiannau ei Arglwydd. Codiad
ebyg i godiad Joseph ydyw hwn; ac yn arwyddo fel y
derchafa ac y gwobrwya Duw ei weision ffyddlawn, un ai yn y byd hwn neu yn yr hwn a ddaw, neu ynte bob un o'r ddau. * Os fel arall y try y goruchwyliwr allan, heb fod yn ffyddlawn a phwyllog, heb roddi eu cyfluniaeth i weision y teulu mewn pryd; ond dechreu curo y gweision a'r morwynion, a bwyta ac yfed gyda'r meddwon; fel y dywedir yn y blaen y gwna ei arglwydd iddo. Caeth-weision a chaeth-forwynion a feddylir, y rhai a drinid yn greulawn weithiau gan y pen gwas, neu y goruchwyliwr teuluaidd, yn enwedig pan fyddai efe yn ei feddwdod. † Daw arno pryd na byddo ei galon anghrediniol a diofal ef yn dysgwyl, ac a'i ffrewylla ef yn ofnadwy, yr hyn, tebygir, mae y gair ‡ gwahanu yn arwyddocâu yn y màn yma, ac nid rhwygo y dyn yn ddarnau ac efe yn fyw, fel y byddid yn gwneyd â rhai drwg-weithredwyr. Yr addysg yw, y bydd hi yn ofnadwy iawn mewn byd arall ar bregethwyr annuwiol, anfoesol, ac anffyddlawn. || Gyda'r anffyddloniaid y bydd lle y cyfryw yn uffern, oblegid anffyddloniaid oeddynt hwy yma. O frodyr yn y weinidogaeth, mae taranau cryfion a mellt ofnadwy yn y geiriau hyn; bydded i ni grynu, a gweddio am ffyddlondeb yn ein goruchwyliaeth! § Dyma rëol gyffredin Duw o ymddwyn tuag at ei grëaduriaid rhesymol: nid oes neb mòr annwybodus nad yw yn gwneyd llawer o bethau y gŵyr mai drwg ydynt; ac nad yw yn esgeuluso llawer o bethau y gŵyr y dylai eu gwneyd, gan hyny mae pob dyn yn ddiesgus ac yn haeddu coll-farn a chosp. Ond y mae barn Duw yn ol gwirionedd; yn ol graddau goleuni dynion, a'u dryganiaeth yn wyneb y goleuni hyny, felly y bydd eu cosp. Gwel Num. 15. 29, 30.

49 ¶ [x] * Mi a ddaethum i fwrw tân ar y
ddaear; [y] † a pheth a fynnaf os cynneuwyd ef
eisoes?
x adn. 51, 52. Es. 11. 4. Joel 2. 30, 31. Mal. 3. 2, 3. a 4. 1. Mat. 3. 10—12. y pen. 11. 53, 54. a 13. 31—33. a 19. 39, 40. Ioan 9. 4. a 11. 8—10. a 12. 17—19.

* Yr oedd pregethiad yr efengyl yn y byd tywyll, mewn rhyw ystyr yn debyg i gynneu tân mewn anialwch llawn o nadroedd a chreaduriaid gwenwynig. Tân sanctaidd a phurawl yw tân yr efengyl; ond yma, mae'n debyg mai tân digofaint dynion annuwiol a feddylir, eu gelyniaeth yn erbyn yr efengyl a'r holl erledigaethau a fu o'i hachos hi. Heblaw y golygiadau uchod, tybia rhai fod y geiriau yn golygu dinystr ysawl yr Iuddewon, trwy gleddyf a thân y Rhufeiniaid: ond mae eraill yn gwrthod y golygiad yna, a thân erledigaethau yn achos yr efengyl hefyd; tybiant mai nerth yr efengyl, a thân goruchwyliaeth yr Ysbryd gyda hi, yn unig a feddylir; mai tân yn yr ystyr hyny a fwriai Crist ar y ddaear, ac a fynai ef ei gynneu; ac nid y tân o erlid ar ei bobl, na'r tân o ddistryw ar yr Iuddewon. † A pha beth a fynaf, ond ei fod wedi ei gynneu eisoes? Felly yr oedd i raddau, yn ngelyniaeth yr ysgrifenyddion a'r phariseaid. Neu yn ol eraill, A pha beth a fynaf? O na byddai wedi ei gynneu eisoes! Ond ni bydd hyny yn hollawl nes ar ol i mi farw, esgyn i'r gogoniant, tywallt yr Ysbryd Glân, ac i'r efengyl gael ei phregethu gyda nerth. Nid dymuno'r tân yr oedd Iesu; ond dymuno i'r efengyl gael ei phregethu, er y byddai hyny yn foddion i gynneu y tân.

50 * Eithr [z] y mae gennyf fedydd i'm bed-
yddio âg ef, [a] † ac mor gyfyng yw arnaf hyd
oni orphener!
z Mat. 20. 17—22. Marc 10. 32—38. a Salm 40. 8. Ioan 4. 34. a 7. 6—8, 10. a 10. 39—41. a 12. 27, 28. a 18. 11. a 19. 30. Act. 20. 22.

Nid bedydd â dwfr ac â'r Ysbryd Glân oedd y bedydd hwn; yr oedd wedi cael hwnw eisoes, pan enneiniwyd ef i'w swydd brophwydol, yn nechreuad ei weinidogaeth. Ond wrth fedydd yma y meddylir yr holl ddyoddefiadau annhraethol yr aeth Iesu trwyddynt, pan dywalltodd efe ei waed ar y groes, a phan dywalltodd ei enaid i farwolaeth. Trwy y bedydd hwn yr aeth efe i'w swydd offeiriadol a'i swydd freninol, ac y cymmerth efe feddiant o'i

orsedd gyfryngol. † Fel y mae yn gyfyng ar wraig feichiog, pan mae ei gwewyr yn dechreu dyfod arni, gan ofn poen yr esgoreddfa, ac hefyd yn hiraethu am yr ymwared, a'r llawenydd a gaiff o eni dyn i'r byd; felly yr oedd yn gyfyng ar Iesu, ond i raddau anfeidrol fwy. Yr oedd ei ddynoliaeth yn ofni chwerwder marwolaeth; ac eto yr oedd yn hiraethu am weled ei ddyoddefiadau drosodd; fel y mawrêid y gyfraith, fel y gwneid iawn dros bechod, fel y sicrêid y cyfammod, fel y pregethid yr efengyl drwy yr holl fyd, ac fel y caffai yntau weled o lafur ei enaid a'i ddiwallu. Pe gellid rhoddi holl gyfyngder pawb yn un, ni byddai *ddim* mewn cymmariaeth i'w gyfyngder ef y pryd hwn! a'r cwbl yn ein hachos, ac yn ein deddfle ni!!

51 [b] * Ydych chwi yn tybied mai heddwch y daethum i i'w roddi ar y ddaear? † nag ê, meddaf i chwi; ond yn hytrach ymrafael.

b adn. 49. Zec. 11. 7, 8, 10, 11, 14. Mat. 10. 34—36. a 24. 7—10.

52 Canys bydd o hyn allan [c] bump yn yr un tŷ wedi ymrannu, tri yn erbyn dau, a dau yn erbyn tri.

c Salm 41. 9. Mica 7. 5, 6. Ioan 7. 41—43. a 9. 16. a 10. 19—21. a 15. 18—21. a 16. 2. Act. 13. 43—46. a 14. 1—4. a 28. 24.

53 Y tad a ymranna yn erbyn y mab, [d] a'r mab yn erbyn y tad; y fam yn erbyn y ferch, a'r ferch yn erbyn y fam; y chwegr yn erbyn ei gwaudd, a'r waudd yn erbyn ei chwegr.

d Zec. 13. 2—6. Mat. 10. 21. 22. a 24. 10.

* Tybiai pawb yn mhlith yr Iuddewon, a'r apostolion gyda hwynt hefyd y pryd hwn, mai i sefydlu heddwch gwladol a llwyddiant tymmorawl, yr oedd y Messiah yn dyfod. Felly yn ddiau y bydd yn y canlyniad; ond nid felly yr oedd i fod y pryd hwnw, yn ol dysgwyliad yr Iuddewon. † Mae yr adnodau hyn yn egluro beth oedd y tân a fwrid ar y ddaear yn adnod 49. Cawsom yr un pethau o'r blaen yn Matth. 10. 34, 35. Gwel y sylwadau yno.

54 ¶ Ac efe a ddywedodd hefyd wrth y bobloedd, [e] * Pan weloch gwmmwl yn codi o'r gorllewin, yn y fan y dywedwch, Y mae cawod yn dyfod: ac felly y mae.

e 1 Bren. 17. 44, 45. Mat. 16. 2.

55 † A [f] phan *weloch* y deheu-wynt yn chwythu, y dywedwch, Y bydd gwres: ac fe fydd.

f Job 37. 17.

56 ‡ O ragrithwyr, [g] chwi a fedrwch ddeall wynebpryd y ddaear a'r wybr: [h] ond yr amser hwn, pa fodd nad ydych yn ei ddeall?

g 1 Cron. 12. 32. Mat. 11. 25. a 16. 3. a 24. 32, 33. h pen. 19. 42—44. Dan. 9. 24—26. Hag. 2. 7. Mal. 3. 1. a 4. 2. Act. 3. 24—26. Gal. 4. 4.

Gwel ar Matth. 16. 2, 3. * Pan welai yr Iuddewon gwmwl yn codi o'r gorllewin, o fôr y canoldir; byddai yn arwydd go sicr o wlaw trwm: † a phan chwythai y gwynt o'r dehau, dros yr anialwch poeth-gras, byddai yn arwydd sicr o wres mawr. ‡ Dëallent hwy arwyddion felly yn burion, ond ni fynent ddëall y prophwydoliaethau am y Messiah, na'r arwyddion a wnaethai yr Iesu i ddangos mai efe oedd y Messiah; er eu bod yn amlach ac yn sicrach, na phob arwyddion naturiol o bethau tymmorol.

57 [i] * A phaham nad ydych, ie, o honoch eich hunain, yn barnu yr hyn sydd gyfiawn?

i Deut. 32. 29. Mat. 15. 10—14. a 21. 31, 32. Act. 2. 40. a 13. 26—38.

58 ¶ [k] † Canys tra fyddech yn myned gyd â'th wrthwynebwr at lywodraethwr, [l] gwna dy oreu ar y fiordd i gael myned yn rhydd oddi wrtho; rhag iddo dy ddwyn at y barnwr, [m] ac i'r barnwr dy roddi at y swyddog, ac i'r swyddog dy daflu [n] y'ngharchar.

k Diar. 25. 8, 9. Mat. 5. 23—26. l pen. 14. 31, 32. Ge 32. 3—28. 1 Sam. 25. 18—35. Job 22. 21. a 23. 7. Salm 32. 6. Dia 6. 1—5. Es. 55. 6. 2 Cor. 6. 2. Heb. 3. 7—13. m pen. 13. 24 28. Job 36. 17, 18. Salm 50. 22. n Mat. 18. 30. 1 Pedr 3. 1 Dat. 20. 7.

59 Yr wyf yn dywedyd i ti, [o] Nad âi [o] ddim oddi yno, ‡ hyd oni thelych, ïe, yr hai ling eithaf.

o pen. 16. 26. Mat. 18. 34. a 25. 41, 46. 2 Thes. 1. 3.

* Os cyssylltir yr adnod hon â'r adnodau blaenoro mae yn cynnwys cerydd ar yr Iuddewon am eu dalline ysbrydol: gan y medrent farnu a darogan mòr dd am wlaw a gwres, &c; pa ham nad arferent eu doethde a'u sylw craff i weled mai Iesu oedd y Messiah, y wyneb cymmaint o arwyddion. Neu, os cyssylltir y adnod â'r ddwy sydd yn ei chanlyn; mae yn cynnwy cerydd ar yr un dynion am beidio derbyn y Messiah a cheisio heddwch â Duw drwyddo ef. Barnu yr hy oedd gyfiawn fuasai barnu mai efe oedd y Messiah a barnu yr hyn oedd gyfiawn fuasai barnu mai trwydd ef yn unig yr oedd cymmod i'w gael â Duw. † Mewn rhyw ymrafael tymmorawl rhwng dyn a dyn, mae y naturiol i'r hwn fyddo ar y bai ymdrechu cael cymmo â'i wrthwynebwr cyn y byddo yn rhy ddiweddar: p faint mwy y dylasai yr Iuddewon hyn, eu hoffeiriaid, e hysgrifenyddion, a'u llywodraethwyr, roddi heibio e gwrthwynebiad i Grist, ei dderbyn ef fel eu Tywyso a'u Hiachawdwr; ac ymofyn am heddwch â Duw trwy ddo ef, cyn ei myned yn rhy ddiweddar? pe gwnaethen felly ni syrthiasai arnynt y dialeddau dychrynllyd pharâus a syrthiodd. Mae y geiriau yn cynnwy rhybudd dwys a difrif hefyd i bob dyn ag sydd alla o gymmod â Duw. ‡ Hyd byth bythoedd; oblegi ni thâl neb byth mo'r hatling leiaf, chwaithach y hatling eithaf, yn uffern.

PEN. XIII.

Crist yn pregethu edifeirwch, &c.

AC yr oedd yn bresenol y cyfamser hwnnw, rai yn mynegi iddo am y [a] * Galileaid, † y rhai y [b] cymmysgasai Pilat eu gwaed yn-ghyd â'u haberthau.

a Act. 5. 37. b Galar. 2. 20. Ezec. 9. 5—7. 1 Pedr 4. 17, 18.

2 A'r Iesu gan atteb a ddywedodd wrthynt, [c] ‡ Ydych chwi yn tybied fod y Galileaid hyn yn bechaduriaid mwy nâ'r holl Galileaid, am iddynt ddioddef y cyfryw bethau?

c adn. 4. Job 22. 5—16. Ioan 9. 2. Act. 28. 4.

3 Nac oeddynt, meddaf i chwi: eithr, [d] ‖ onid edifarhêwch, [e] chwi a ddifethir oll yn yr un modd.

d adn. 5. pen. 24. 47. Mat. 3. 2, 10—12. Act. 2. 38—40. a 3. 19. e pen. 19. 42—44. a 21. 22—24. a 23. 28—30. Mat. 12. 45. a 22. 7. a 23. 35—38. a 24. 21—29.

4 § Neu y deunaw hynny ar y rhai y [f] syrthiodd y tŵr [g] yn Siloam, ac a'u lladdodd hwynt: a ydych chwi yn tybied eu bod hwy yn bechaduriaid mwy nâ'r holl ddynion oedd yn cyfanneddu yn Jerusalem?

f Neh. 3. 15. Ioan 9. 7, 11. g 1 Bren. 20. 30. Job 1. 19.

5 Nac oeddynt, meddaf i chwi: eithr, [h] onid edifarhêwch, chwi a ddifethir oll yn yr un modd.

h adn. 3. Es. 28. 10—13. Ezec. 18. 30.

Mòr anhawdd yw cael gan ddynion wrando! megys yn nghanol y rhybuddion a'r ceryddon yn niwedd y bennod o'r blaen, dyma ryw rai yn barotach i siarad am eraill na gwrando drostynt eu hunain, yn mynegi iddo am y Galileaid a'r hyn a ddygwyddasai iddynt ryw bryd

blaen. * Yr unig grybwylliad sydd genym yn yr rythyr am y Galileaid hyn, ydyw y fân hon ac Act. 17. Tybir fod Judas eu blaenor a hwythau yn gwrth-ydnabod Cesar yn llywodraethwr ar yr Iuddewon, ac gwrthod talu teyrnged iddo fel y cyfryw. † Pan ethant i Jerusalem i aberthu ar un o'r gwyliau enig, tybir i Pilat y rhaglaw Rhufeinig beri i fintai o yr ruthro arnynt yn y deml, a'u lladd hwynt oll, elly cymmysgu eu gwaed hwŷ yn nghyd â'u haberth.

Tybia eraill mai Samariaid oeddynt, yn cael eu w yn Galileaid o herwydd eu bod yn ganlynwyr i Ju-y Galilead a'i blaid, ac mai wrth aberthu ar fynydd rizim, y lladdodd Pilat hwy, ac nid yn y deml yn usalem. ‡ Gwyddai Iesu feddyliau y bobl hyn, ient hwy fod y Galileaid hyn wedi bod yn euog ww bechodau dychrynllyd, gan i Dduw oddef i'r fath n drom ddyfod arnynt wrth aberthu. Yn debyg wny y tybiai cyfeillion Job am dano yntau dàn ei ctudd trwm. || Cyflawnwyd hyn yn llythyrenol: lladd-d llawer o filoedd o'r Iuddewon yn y deml ac o'i ngylch, ar ŵyl y pasg, am eu gwrthryfel yn erbyn y ifeiniaid: felly cymmysgwyd eu gwaed yn nghyd â'u berthau gan gleddyf y Rhufeiniaid, ac am yr un os â'r Galileaid hyn gan Pilat. § Nid oes genym m hanes am y tro anffodus hwn, ond yma yn unig. oir i hyn ddygwydd yn mhell o flaen y peth arall, llai oesoedd; a bod yr hanes o hyny ar gôf cyffredin yr Iuddewon. Y bobl a grybwyllodd wrth Grist am Galileaid, yma mae efe yn crybwyll wrthynt hwy am y nnaw hyn, fel rhag-ddangosiad, medd rhai, o'r lladdfa chrynllyd a fyddai ar yr Iuddewon trwy ddadym-welyd muriau a thyrau Jerusalem am eu penau, yn ei ystr diweddaf gan y Rhufeiniaid. Dylem sylwi, nad Crist yn penderfynu dim am gyflyrau y dynion hyn a; yr oeddynt yn bechaduriaid, ond nid yn bechad-aid *mwy* na llawer o rai eraill. Diammau ei fod a yn bwriadu rhybuddio pob dyn, yn mhob oes, ydd dinystr tragywyddol yn sicr o oddiwes pob dyn edifeiriol, pa genedl bynag, pa gymdeithas bynag, neu blaid bynag y perthyno efe iddi.

6 ¶ Ac efe a ddywedodd y ddammeg hon: [h]Yr oedd gan un [i] ffigysbren wedi ei blannu [k] ei winllan; [k] ac efe a ddaeth i † geisio wyth arno, ac nis cafodd.

i Salm 80. 8—13. Es. 5. 2—4. Jer. 2. 21. Mat. 21. 19, 20. arc 11. 12—14. k pen. 20. 10—14. Mat. 21. 34—40.

7 Yna efe a ddywedodd wrth y gwinllan-rdd, Wele, [l] ‡ tair blynedd yr ydwyf yn dyfod, n geisio ffrwyth ar y ffigysbren hwn; ac nid lwyf yn cael *dim:* [m] tòr ef i lawr; [n] || paham rmae efe yn diffrwytho y tir?

l Lef. 19. 23. a 25. 21. Rhuf. 2. 4, 5. m pen. 3. 9. Dan. 4. Mat. 3. 10. a 7. 19. Ioan 15. 2, 6. n Ex. 32. 10. Mat. 3. 9.

8 § Ond efe gan atteb a ddywedodd wrtho, Arglwydd, gâd ef y flwyddyn hon hefyd, hyd oni ddarffo i mi gloddio o'i amgylch, a wrw tail:

o Ex. 32. 11—13, 30—32. a 34. 9. Num. 14. 11—20. Jos. 7. 7 D. Jer. 14. 7—9, 13, &c. a 15. 1. a 18. 20. Joel 2. 17. Rhuf. 10. a 11. 14.

9 Ac os dwg efe ffrwyth, *da:* [p] onid ê, wedi hynny tòr ef i lawr.

p Ezra 9. 14, 15. Salm 69. 22—28. Dan. 9. 5—8. 1 Thes. 2. Dat. 15. 3, 4. a 16. 5—7.

Mae y ddammeg hon yn dyfod yn briodol iawn ar ol ymddiddan yn yr adnodau o'r blaen, er annog i ifeirwch rhag syrthio dàn farn Duw. * Y winllan na ydyw yr eglwys Iuddewig, a'r ffigysbren yn y nllan yw y genedl Iuddewig: gwel Es. 5. 1—7. eth cyffredin debygid oedd planu coed ffigys a gwin-rdd, yn yr un lle, neu ddarn o dir cauedig. † Yr oedd dwyreinwyr yn ofalus iawn am eu coed ffrwythau, erwydd yr ymddybynent arnynt am ymborth, yn fwy ac yn ein gwlad ni. ‡ Wrth y tair blynedd, tybia rhai tair blynedd o weinidogaeth Crist; ond ni chyd-saif hyny yn dda a'r flwyddyn chwanegol o arbediad i'r ffigysbren: oblegid arbedwyd yr Iuddewon ddeugain mlynedd ar ol yr amser yma. Tybia eraill mai at natur rhai coed ffigys mae cyfeiriad y tair blynedd, y rhai a fyddant sicr o ddwyn ffrwyth mewn tair blynedd os dygant ffrwyth byth. Gwel Lefit. 19. 23—25. || Mae prenau diffrwyth yn diffrwytho y tir, trwy eu bod yn cadw lle rhai eraill a ddygai ffrwyth, a thrwy sugno brasder y ddaear atynt eu hunain, ac felly ei ladrata megys oddi wrth brenau eraill. Felly mae proffeswyr diffrwyth, yn cadw lle rhai gwell yn yr eglwys, yn camddefnyddio ymgeledd a breintiau yr efengyl, ac efallai, yn attal bendithion Duw i ddisgyn ar eraill o'u hamgylch. § Tybia rhai mai Crist ei hun fel eiriolwr yw y gwinllanydd sydd yn dywedyd fel hyn: mae yn wir mai ei eiriolaeth ef yw yr achos o hirymaros Duw wrth bechaduriaid; ond tebycach yma mai efe sydd yn dyfod i geisio ffrwyth, gwel Marc 12. 6; ac heblaw hyny, nid oes dim "os" un amser am ei eiriolaeth na'i driniaeth ef, ac nid yw byth yn myned yn ofer yn y pen draw. Tebycach mai gweddïau taerion gweinidogion ffyddlawn yr efengyl a feddylir yma, y rhai sydd yn ddifrifol am attal dinystr a cholledigaeth dynion. * Cyfeiriad sydd yma, tebygir at weinidogaeth mwy rhagorol a nerthol y Testament Newydd ar ol esgyniad Crist i'r gogoniant, tywalltiad yr Ysbryd Glân ar yr apostolion, a gosodiad i fynu goruchwyliaeth yr efengyl yn berffaith ar y ddaear. Yr oedd y ddammeg yn perthyn i'r Iuddewon yn mlaenaf, ac yn llythyrenol; ond y mae yn perthyn i bob proffeswr diffrwyth yn eglwys Dduw eto. Tòri i lawr fydd i'r cyfryw.

10 Ac [q] yr oedd efe yn dysgu yn un o'r synagogau ar y sabbath.

q pen. 4. 15, 16, 44.

11 ¶ Ac wele, yr oedd gwraig ag ynddi [r] * yspryd gwendid [s] ddeunaw mlynedd, ac oedd [t] wedi cyd-grymmu, ac ni allai hi mewn modd yn y byd ymunioni.

r adn. 16. pen. 8. 2. Job 2. 7. Mat. 9. 32, 33. s pen. 8. 27, 43. Marc 9. 21. Ioan 5. 5, 6. a 9. 19—21. Act. 3. 2. a 4. 22. a 14. 8—10. t Salm 38. 6. a 42. 5. a 145. 14. a 146. 8.

12 Pan welodd yr Iesu hon, efe a'*i* galwodd *hi* atto, ac a ddywedodd wrthi, [u] *Ha* wraig, [x] rhyddhâwyd di oddi wrth dy wendid.

u pen. 6. 8—10. Salm 107. 20. Es. 65. 1. Mat. 8. 16. x adn. 16.

13 Ac [y] efe a roddes *ei* ddwylaw arni: [z] ac yn ebrwydd hi a unionwyd, ac a ogoneddodd Dduw.

y pen. 4. 40. Marc 6. 5. a 8. 25. a 16. 18. Act. 9. 17. z pen. 17. 14—17. a 18. 43. Salm 103. 1—5. a 107. 20—22. a 116. 16, 17.

* Mae yn amlwg bod yr Iuddewon yn gyffredin, yn ystyried pob clefydau dïeithr yn effeithiau rhyw ysbryd drwg. Efallai eu bod yn tybied felly oddiwrth y llaw fu gan satan yn nghystudd Job; oddi ar y cyfieithiad Groegaidd o Salm 91. 6. (Gwel ar Marc 14. 26; a 1 Sam. 16. 14.) Yr oeddynt hefyd yn ystyried fod "nerth marwolaeth" gan ddiafol, Heb. 2. 14: ac mae yn amlwg mai felly yr oedd mewn rhai clefydau, oddi wrth ateb ein Harglwydd yma, adn. 16, a geiriau Paul yn 1 Cor. 5. 5. Gan nad oes yn yr adnodau uchod ddim ychwaneg ag eisiau agoriad manol arno, sylwn yn gyffredinol ar yr hanes fel hyn: 1. Cyflwr cystuddiedig y wraig hon:—mewn gwendid; wedi cyd-grymu; heb allu mewn modd yn y byd ymunioni: felly am ddeunaw mlynedd; a hyny gan satan. 2. Ei hymdrech ffyddlawn hi yn myned i'r synagog, i addoliad Duw, i foddion gras, dàn ei holl gystudd hirfaith. Mae ambell un lled wael ei iechyd, yn gallu myned i bob màn ond i foddion gras; yno y collir hwy gyntaf, ac amlaf: ïe, dywed rhai eu bod yn afiach pryd na byddont, fel esgus am beidio dyfod. Dywedyd anwiredd ar Dduw!! 3. Ymddygiad yr Arglwydd Iesu tuag at y wraig hon: gwelodd hi;

osturiodd wrthi; galwodd hi ato; dadrwymodd ac iach-âodd hi. Atebodd y dyben iddi o'r diwedd ddyfod i'r synagog; cafodd ei llawn wobrwyo am ei hymdrech a'i ffyddlondeb, aeth adref ag iechyd yn ei chorph, ac â chân yn ei henaid.

14 [a] * A'r arch-synagogydd a attebodd [b] yn ddigllawn, † am i'r Iesu iachâu ar y sabbath, ac a ddywedodd wrth y bobl, [c] Chwe diwrnod sydd, yn y rhai y dylid gweithio: ar y rhai hyn gan hynny deuwch, a iachâer chwi; [d] ac nid ar y dydd sabbath.

a pen. 8. 41. Act. 13. 15. a 18. 8, 17. b pen. 6. 11. Ioan 5. 15, 16. Rhuf. 10. 2. c Ex. 20. 9. a 23. 12. Lef. 23. 3. Ezec. 20. 12. d pen. 6. 7. a 14. 3—6. Mat. 12. 10—12. Marc 3. 2—6. Ioan 9. 14—16.

* Am yr arch-synagogydd gwel ar Matth. 9. 18. Yr oedd tri o honynt yn mhob synagog, ac un o'r tri yn benaf. † Coel-grefyddol ac anghyson iawn oedd yr Iuddewon yn nghylch y sabbath: *coel-grefyddol*, am nas gwnaent lawer o bethau ag oedd yn rhydd eu gwneyd yn ol cyfraith Duw; megys iachâu y cleifion, amddiffyn eu hunain rhag eu gelynion, &c.: *anghyson*, am y gwnaent lawer o bethau eraill, ag oedd yn gofyn llawn cymmaint o lafur corphorol â'r pethau y petrusent eu gwneuthur, megys y cawn weled yn atebiad ein Harglwydd yn yr adnod nesaf. Digllawn at berson, athrawiaeth, a gogoniant Crist, oedd yr arch-synagogydd; nid oedd iachâu ar y sabbath ond lliw dros hyny.

15 Am hynny yr Arglwydd a'i hattebodd ef, ac a ddywedodd, [e] * *O* ragrithiwr, [f] † oni ollwng pob un o honoch ar y sabbath ei ŷch neu *ei* asyn o'r preseb, a'*i* arwain i'r dwfr?

e pen. 6. 42. Job 34. 30. Es. 29. 20. Mat. 15. 7, 14. Act. 8. 20—23. a 13. 9, 10. f pen. 14. 5. Ioan 7. 21—24.

16 Ac oni ddylai hon, [g] ‡ a hi yn ferch i Abraham, [h] ‖ yr hon a rwymodd Satan, wele ddeunaw mlynedd, [i] gael ei rhyddhâu o'r rhwym hwn ar y dydd sabbath?

g pen. 3. 8. a 16. 24. a 19. 9. Act. 13. 26. Rhuf. 4. 12—16. h adn. 11. Ioan 8. 44. 2 Tim. 2. 26. i adn. 12. Marc 2. 27.

* Mae galw y dyn fel hyn yn rhagrithiwr, yn brawf o wirionedd y sylw diweddaf a wnaed uchod. Cymmeryd arno fod yn eiddgar *(zealous)* dros gadw y sabbath yr oedd efe, ond mewn gwirionedd yn ddigllawn wrth Grist, ac am ei warthruddo ef yn ngwydd y bobl. Un o nodau rhagrithiwr yw, beïo ar eraill, ac efe ei hun yn gwneyd pethau mwy beïus. † Arferai y rhai mwyaf manylaidd o'r Iuddewon ddyfrâu eu hanifeiliaid ar y sabbath, ac yr oedd hyny yn gofyn mwy o lafur ac amser, nac a gymmerodd Crist i iachâu y wraig â gair a chyfhyrddiad. Yma mae Crist yn gosod crëadur rhesymol, a merch i Abraham, mewn cyferbyniad i ŷch neu asyn; ei bywyd a'i hiechyd hi, mewn cyferbyniad i syched anifail; ei deunaw mlynedd o afiechyd hi, mewn cyferbyniad i syched anifail am ddiwrnod: heb ystyried y cyferbyniadau yna, nis gellir gweled arddderchawgrwydd yr ateb. ‡ Merch o waedoliaeth Abraham; merch o gyfammod Abraham; merch ag addewidion Abraham yn perthyn iddi; ac, efallai, merch yn berchen ar ffydd Abraham. ‖ Ac eto merch i Abraham yn llaw y gelyn, wedi ei rhwymo gan satan am ddeunaw mlynedd. Pwy ond rhagrithiwr atgas a feïai ar weithred o gymmaint trugaredd a rhyddâu a gwaredu hon?

17 * Ac fel yr oedd efe yn dywedyd y pethau hyn, [k] ei holl wrthwynebwyr ef a † gywilyddiasant: [l] ‡ a'r holl bobl a lawen-ychasant am yr holl bethau gogoneddus a wnaid ganddo.

k pen. 14. 6. a 20. 40. Salm 40. 14. a 109. 29. a 132. 18. 2 Tim. 3. 9. l pen. 19. 37—40, 48. Ioan 12. 17, 18. Act. 3. 9—11. a 4. 21.

* Mae y geiriau "holl wrthwynebwyr" yn dangos bod yno eraill o'r un ysbryd erlidgar â'r arch-synagogydd.

† Nis gallasent yn iawn lai na chywilyddio wrth yr a[illegible] a gawsant; ond cywilyddio pell iawn oddi wrth ar[illegible] hoeddiad ydoedd; nid oes yma ddim yn debyg[illegible] edifeirwch, na gair o sôn am gyfaddef y bai, na gof[illegible] maddeuant gan Grist am y geiriau caledion a lefarw[illegible] yn ei erbyn. ‡ I'r gwrthwyneb, yr oedd llaweny[illegible] cyffredinol yn mhlith y bobl gyffredin; gwelsant radd [illegible] o ogoniant Crist yn ei weithredoedd gogoneddus, ac [illegible] ei atebion doethion i'w wrthwynebwyr: cawsant a[illegible] brofion mai efe oedd y Messiah addawedig.

18 ¶ Ac efe a ddywedodd, [m] I ba beth [illegible] mae [n] teyrnas Dduw yn debyg? ac i ba beth [illegible] cyffelybaf hi?

m adn. 20. pen. 7. 31. Galar. 2. 13. n pen. 17. 21. Ma[illegible] 4. 26, 30.

19 [o] * Tebyg yw i ronyn o had mwstard [illegible] yr hwn a gymmerodd dyn ac [p] a'*i* hauodd y[illegible] ei ardd; [q] ac efe a gynnyddodd, ac a aeth y[illegible] bren mawr, [r] ac adar yr awyr a nythasant y[illegible] ei ganghennau ef.

o Mat. 13. 31, 32. a 17. 20. Marc 4. 31, 32. p Can. 4. 1[illegible] 16. a 5. 1. a 6. 2. a 8. 13. Es. 58. 11. a 61. 11. Jer. 31. 12. q Sal[illegible] 72. 16, 17. Es. 2. 2, 3. a 9. 7. a 49. 20—25. a 51. 2, 3. a 53. 1, 10[illegible] 12. a 54. 1—3. a 60. 15—22. Ezec. 17. 22—24. a 47. 1—12. Dan. [illegible] 34, 35, 44, 45. Mica 4. 1, 2. Zec. 2. 11. a 8. 20—23. a 14. 7—9. Ac[illegible] 2. 41. a 4. 4. a 15. 14—18. a 21. 20. Rhuf. 15. 19. Dat. 11. 1[illegible] r Ezec. 31. 6. Dan. 4. 12, 21.

20 A thrachefn y dywedodd, I ba beth [illegible] cyffelybaf deyrnas Dduw?

21 [s] Cyffelyb yw i surdoes, yr hwn a gym[illegible] merodd gwraig ac a'i cuddiodd mewn tri mesu[illegible] o flawd, [t] hyd oni surodd y cwbl oll.

s Mat. 13. 33. t Job 17. 9. Salm 92. 13, 14. Diar. 4. 1[illegible] Hos. 6. 3. Ioan 4. 14. a 15. 2. 1 Cor. 5. 6. Phil. 1. 6, 9—11. 1 The[illegible] 5. 23, 24. Iago 1. 21.

Gwel ar Matth. 13. 31, 32, 33. * Dywedir fod [illegible] gronyn had mwstard yn cael ei hau mewn tir da, mewn [illegible] lle dewisol, mewn gardd, ac nid yn y maes agored [illegible] Gellir ystyried y ddammeg gyntaf yn ddangosiad [illegible] lwyddiant yr efengyl yn y byd; a'r ail o effeithiau gra[illegible] Duw yn y galon: neu, gellir ystyried y ddwy ddamme[illegible] yn ddangosiad o bob un o'r ddau beth. Yr ystyriaeth [illegible] gyntaf a roddir yn y sylwad ar Matth. 13. 31—33.

22 * Ac efe a dramwyodd [u] trwy ddinas-oedd a threfi, gan athrawiaethu, [x] † ac ym-deithio tu a Jerusalem.

u pen. 4. 43, 44. Mat. 9. 35. Marc 6. 6. Act. 10. 38. x pen [illegible] 9. 51. Marc 10. 32—34.

* Pa le bynag yr ymdeithiai Crist, ei waith ef yn [illegible] mhob màn oedd athrawiaethu. † Nis gwyddis yn iawn [illegible] pa un ai myned i Jerusalem erbyn gwyl y pasg yr oedd [illegible] Iesu yn y daith hon, ai ynte erbyn rhyw wyl arall. Mae [illegible] yn debygol na ddaeth ef ddim i Galilea mwyach tàn ar[illegible] ol ei adgyfodiad.

23 A dywedodd un wrtho, * Arglwydd, [illegible] [y] ai ychydig yw y rhai cadwedig? [z] Ac efe a[illegible] ddywedodd wrthynt,

y Mat. 7. 14. a 19. 25. a 20. 16. a 22. 14. z pen. 12. 13—15. a 21. 7, 8. Mat. 24. 3—5. Marc 13. 4, 5. Ioan 21. 21, 22. Act. 1. 7, 8.

24 ¶ [a] † Ymdrechwch am fyned i mewn [illegible] trwy [b] y porth cyfyng: [c] ‡ canys llawer, medd-af i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis [illegible] gallant.

a pen. 21. 36. Gen. 32. 25, 26. Mat. 11. 12. Ioan 6. 27. 1 Cor. 9. 24—27. Phil. 2. 12, 13. Col. 1. 29. Heb. 4. 11. 2 Pedr 1. 10. b Mat. 7. 13, 14. c Diar. 1. 24—28. a 14. 6. a 21. 25. Preg. 10. 15. Es. 1. 15. a 58. 2—4. Ezec. 33. 31. Marc 6. 18—20. Ioan 7. 34. a 8. 21. Rhuf. 9. 31—33. a 10. 3.

* Tybia rhai mai llwyddiant helaeth yr efengyl, dàn ddammegion y gronyn had mwstard a'r surdoes, a barodd i'r dyn ofyn fel hyn: fel pe dywedasai, Os llwydda yr efengyl felly, pa fodd y dywed rhai mai ychydig fydd y rhai cadwedig? Tybia eraill mai casglu oddiwrth athrawiaeth lèm Crist a wnaethai efe, mai

aydig a fyddai y rhai cadwedig. Efallai nad oedd
n y dyn ddim bwriad drwg yn gofyn; eto un o'r
estiynau ffol ydoedd, am hyny ni roddodd Iesu ateb
ion-gyrchol iddo. † Trôdd megys oddi wrth y dyn
nw at y lleill o'i amgylch, ac annogodd hwynt i ym-
chu myned i mewn trwy y porth cyfyng: fel pa un
ychydig ai llawer a fyddai y rhai cadwedig, y byddent
y eu hunain yn bersonol o'r nifer. Mae y gair
onisesthe) a gyfieithir "ymdrech," yn arwyddo ym-
ch â'r holl nerth, yn erbyn rhwystrau a gelynion, fel
wnair mewn rhyfel, ac y gwnaid yn y campiau gynt:
hyn sydd yn dangos yn addas ac yn ddeffrôus iawn
llawer o rwystrau a gelynion yn amgylchynu ffordd
ywyd, trwy ba rai mae yn rhaid i ni fyned trwy or-
est caled; ac eto dawn Duw yw bywyd tragywyddol,
nid teilyngdod ein hymdrechiadau ni. Gwel ar Matth.
13, 14. † Llawer a geisiant fyned i mewn yn eu
rdd eu hunain, deddfol neu benrhydd, nid yn ffordd
nctaidd ac efengylaidd Duw. Neu, llawer a geisiant
eu hamser eu hunain, pan fyddo yn rhy ddiweddar,
amser Duw i drugarâu wedi darfod.

25 [d] * Gwedi cyfodi gwr y tŷ, [e] a chau y
ws, a dechreu o honoch sefyll oddi allan, a
uro y drws, gan ddywedyd, [f] Arglwydd, Ar-
wydd, agor i ni; ac iddo yntau atteb a dy-
edyd wrthych, Nid adwaen ddim o honoch o
le yr ydych;

d Salm 32. 6. Es. 55. 6. 2 Cor. 6. 2. Heb. 3. 7, 8. a 12. 17. e Gen. 7. 16. Mat. 25. 10. f pen. 6. 46. Mat. 7. 21, 22. a 25. 12.

26 Yna y dechreuwch ddywedyd, [g] † Ni a
wyttasom ac a yfasom yn dy ŵydd di, a thi a
dysgaist yn ein heolydd ni.

g Es. 58. 2. 2 Tim. 3. 5. Tit. 1. 16.

27 ‡ Ac efe a ddywed, [h] Yr wyf yn dywed-
d i chwi, Nid adwaen chwi o ba le yr ydych:
ewch ymaith oddi wrthyf, *chwi* holl weithred-
yr anwiredd.

h Salm 1. 6. Mat. 7. 23. a 25. 12. 1 Cor. 8. 3. Gal. 4. 9. 2 Tim. 2. 19. i Salm 5. 6. a 6. 8. a 28. 3. a 119. 115. a 125. 5. Hos. 9. 15. Mat. 25. 41.

* Yma mae ein Gwaredwr grasol yn ei ddangos ei
lun megys yn eistedd wrth ddôr trugaredd, a hòno yn
gored, yn disgwyl am i bechaduriaid ymdrechu myned
mewn: ond wedi hir ddysgwyl wrth yr anedifeiriol a'r
nychweledig, mae yn codi ymaith ac yn cauad y drws,
eb ei agoryd byth mwy i'r cyfryw ddynion. "Ceisiwch
Arglwydd tra galler ei gael ef," medd y prophwyd;
y mae amser i ddynion i geisio yr Arglwydd, ei ras,
i drugaredd, yr hwn os esgeulusant, ni chânt fyned
yth i mewn i deyrnas nefoedd. Pan geisiont yn rhy
diweddar, "ni chant nesâu ato ef," efe a ddywed, Nid
dwaen chwi. † Gallai hyna fod yn wirionedd am rai
wrandawyr Crist y pryd hwnw: bu rhai o honynt,
lid, yn cyd-fwyta, âg ef; ac, efallai, yn ei wahodd ef
w tai i fwyta, ac yntau yn dysgu yn eu dinasoedd a'u
eolydd, ac eto ni chredasent ynddo. Llawer sydd eto
n gyffelyb, gyda ei waith a'i ordinadau ef; ond heb
redu ynddo erioed. Cyfeiriad efallai at fwyta ac yfed
'r aberthau hedd, a offrymasid i Dduw dan yr oruch-
yliaeth hòno; efallai hefyd y gallwn olygu rhai o'r
niloedd a borthwyd gan Grist yn wyrthiol, o nifer y
hai gwrthodedig hyn: gwel Ioan 6. 26. Gwylied y
hai a fwytânt o swper yr Arglwydd, rhag cael eu gwrthod
el y rhai hyn. ‡ Pan fyddo y rhai hyn yn pwyso ar eu
roffes a'u cyflawniadau am dderbyniad yn y diwedd,
iarddelwir hwy gan Iesu, a denfyn hwy ymaith fel
weithredwyr anwiredd. Peth dychrynllyd iawn yw
neddwl am ddynion yn mwynâu breintiau yr efengyl,
n gwisgo mantell crefydd, ac ar yr un pryd yn weith-
edwyr anwiredd yr holl amser dàn y fantell hòno. Pa
yfedd y caiff y cyfryw eu gwrthod yn y diwedd? Gwel
ar Matth. 7. 21—23.

28 * Yno y bydd [k] wylofain a rhingcian
dannedd, [l] † pan weloch Abraham, ac Isaac, a
Jacob, a'r holl brophwydi, yn [m] nheyrnas
Dduw, a [n] chwithau wedi eich bwrw allan.

k Salm 112. 10. Mat. 8. 12. a 13. 42, 50. a 22. 3. a 24. 51. a 25. 30. l pen. 16. 23. Mat. 8. 11. m pen. 14. 15. a 23. 42, 43. 2 Thes. 1. 5. 2 Pedr 1. 11. n pen. 10. 15. Dat. 21. 8. a 22. 15.

29 ‡ A [o] daw rhai o'r dwyrain, ac *o'r* gor-
llewin, ac o'r gogledd, ac *o'r* dehau, ac a eis-
teddant yn nheyrnas Dduw.

o Gen. 28. 14. Es. 43. 6. a 49. 6. a 54. 2, 3. a 66. 18—22. Mal. 1. 11. Marc 13. 27. Act. 28. 28. Eph. 3. 6—8. Col. 1. 6, 23.

Gwel ar Matth. 8. 11, 12. * Wylofain a rhincian dannedd, ydynt eiriau cyffredin i osod allan boenau y colledigion, yn enwedig gan Matth. 8. 12. a 13. 42, 50. a 22. 13. a 24. 51. a 25. 30: geiriau yn arwyddo y poenau a'r gloesion mwyaf dychrynllyd ydynt. † Un achos o'r poen hwnw i'r Iuddewon digred yr oedd Iesu yn llefaru wrthynt a fyddai, gweled henafiaid duwiol eu cenedl eu hunain yn y gogoniant, a hwythau wedi eu cauad allan byth am eu hangrediniaeth. ‡ Achos arall o'u poen, mwy na'r cyntaf mewn rhyw ystyr, fydd gweled y cenedloedd dïenwaededig yn y gogoniant, a hwythau a dybient eu hunain yn blant y deyrnas wedi eu cauad allan. Trydydd achos eu poen fydd, ystyriaeth ry ddiweddar, mai eu haughrediniaeth yn y Messiah, a'u gwrthodiad o hòno, fydd yr achos o'u colledigaeth dragywyddol.

30 * Ac wele, [p] olaf ydyw y rhai a fyddant
flaenaf, a blaenaf ydyw y rhai a fyddant olaf.

p Mat. 3. 9, 10. a 8. 11, 12. a 19. 30. a 20. 16. a 21. 28—31. Marc 10. 31.

* Llefarodd Crist y geiriau hyn amryw weithiau, ond nid bob amser yn yr un ystyr, nac i'r un dyben. Gwel ar Matth. 19. 30. a 20. 16; Marc. 10. 31. Mae yn debygol mai y cenedloedd, a grybwyllir yn adn 29, a feddylir wrth y rhai olaf a fyddant flaenaf yma; a'r Iuddewon digred yw y rhai blaenaf a fyddant olaf. Llawer o'r rhai sydd flaenaf eto mewn proffes, doniau, swyddau, a breintiau crefyddol, a fyddant olaf yn nydd y farn, ac, efallai, yn ol byth ac yn hollawl; a llawer o rai mwy ar ol na hwynt yma yn y pethau hyny, a fyddant flaenaf yn y dydd mawr hwnw. Ystyriaeth yw hon a ddylai beri i lawer o rai enwog grynu!

31 ¶ * Y dwthwn hwnnw y daeth atto ryw
Phariseaid, gan ddywedyd wrtho, [q] Dos allan,
a cherdda oddi yma: † canys y mae Herod
yn ewyllysio dy ladd di.

q Neh. 6. 9—14. Salm 11. 1, 2. Amos. 7. 12, 13.

32 Ac efe a ddywedodd wrthynt, ‡ Ewch a
dywedwch i'r [r] ‖ cadnaw hwnnw, § Wele, [s] yr
wyf yn bwrw allan gythreuliaid, ac yn iachâu
* heddyw ac y fory, a'r trydydd dydd [t] y'm
† perffeithir.

r pen. 3. 19, 20. a 9. 7—9. a 23. 8—11. Ezec. 13. 4. Mica 3. 1—3. Zeph. 3. 3. Marc 6. 26—28. s pen. 9. 7. Marc 6. 14. Ioan 10. 32. a 11. 8—10. t Ioan 17. 4, 5. a 19. 30. Heb. 2. 10. a 5. 9.

33 Er hynny [u] rhaid i mi ymdaith heddyw
ac y fory, a threnydd: [x] canys ni all fod y
derfydd am brophwyd allan o Jerusalem.

u Ioan 4. 34. a 9. 4. a 11. 54. a 12. 35. Act. 10. 38. x pen. 9. 53. Mat. 20. 18. Act. 13. 27.

* Nis gellir gwybod yn hollawl pa un ai dyfod o honynt eu hunain a wnaeth y phariseaid hyn, ai ynte Herod a'u danfonodd hwynt. Mae yn sicr mai nid o garedigrwydd at Iesu y daethant, ond i'r gwrthwyneb; gan obeithio ei ddychrynu ef o'r wlad hòno trwy fygwth Herod arno. Yr oedd ei glod ef yn ymledaenu yn Galilea, ac nis gallent hwy ddyoddef hyny: a thybir eu bod hwy wedi darpar rhwyd iddo yn Judea, ac yn chwennych ei brysuro ef yno, gan obeithio y syrthiai efe ynddi. † Yr oedd Herod wedi lladd Ioan Fedyddiwr,

ac yn ewyllysio, yn bwriadu, yn penderfynu, lladd Crist hefyd os gallai. Tybiai weithiau mai Ioan wedi adgyfodi ydoedd, Matth. 14. 2, ac yn ei ddychryn rhagddo, mỳnai ei ladd drachefn. Yr oedd y gair yn gyffredin hefyd mai Iesu oedd y Messiah, brenin yr Iuddewon, mỳnai Herod ei ladd am hyny. Diammau fod athrawiaeth lem, buchedd sanctaidd, a gweithredoedd nerthol Iesu yn peri anesmwythder i Herod a'r phariseaid hyn, ac y carai efe a hwythau gael ei wared ef rywfodd o Galilea. ‡ "Y cyfiawn a fydd hŷf megys llew:" felly yr oedd Iesu, nid oedd arno fawr o ofn Herod, gwyddai mai nid yn ei law ef yr oedd ei amser, ac mai nid yn Galilea y lleddid ef. || Creadur cyfrwys yw y cadno: ac un felly ydoedd Herod yn ei holl ymddygiad a'i lywodraeth: trwy hoced a chyfrwysdra yr oedd yn ei gadw ei hun mewn ffafr gyda'r Iuddewon a chyda Cesar hefyd. Creadur ysglyfaethgar yw y cadno; un felly oedd Herod: ysglyfaethodd wraig ei frawd i borthi ei chwantau anllad; ysglyfaethodd fywyd y Bedyddiwr sanctaidd i borthi ei ddïal a'i greulondeb ef a hithau. Yr oedd yn iawn i Iesu ei alw ef felly, wrth ei swydd fel prophwyd a cheryddwr. Gwel Jer. 1. 17, 18. § "Wele yr wyf fi yn bwrw allan gythreuliaid ac yn iachâu," beth sydd yn hyny yn haeddu i mi cael fy lladd, onid parch yn hytrach a ddylwn gael? "Wele yr wyf fi yn bwrw allan gythreuliaid ac yn iachâu; ac os wyf fi yn drech na chythreuliaid, gwell i Herod ystyried pwy mae yn ceisio ei ladd, rhag y bydd efe yn ymryson â mwy na'i gyfartal." * Nid tri o ddyddiau a feddylir yma yn sicr; oblegid yr oedd Iesu yn Galilea y pryd hyn, a bu fwy na hyny cyn myned i fynu i Jerusalem, ac wedi myned yno bu fwy na thri diwrnod cyn dyoddef a chael ei berffeithio. Ychydig amser yw ystyr y geiriau; felly hefyd mae i ni ddeall, Hos. 6. 2; a Dat. 2. 10. † Am y perffeithio hwn gwel Heb. 2. 10; a 5. 9. ‡ Yn Jerusalem y lladdwyd agos i bawb o'r prophwydi, ychydig a laddwyd yn un màn arall. Gan y senedd fawr, neu y cynghor, yn Jerusalem, yr oedd awdurdod i roddi barn marwolaeth ar bawb, yn enwedig prophwydi: ac yn Jerusalem yr oedd Iesu, y prophwyd mawr hwn, yn enwedig i gael ei ladd.

34 * O Jerusalem, [y] Jerusalem, yr hon wyt [z] yn lladd y prophwydi, ac yn llabyddio y rhai a anfonir attat; [a] pa sawl gwaith y mynnaswn gasglu [b] dy blant ynghyd, [c] † y modd *y casgl* yr iâr ei chywion dan *ei* hadenydd, [d] ac nis mynnech!

y pen. 19. 41, 42. Mat. 23. 37—39. z 2 Cron. 24. 21, 22. a 36. 15, 16. Neh. 9. 26. Jer. 2. 30. a 26. 23. Galar. 4. 13. Mat. 21. 35, 36. a 22. 6. Act. 7. 52, 59. a 3. 1. Dat. 11. 8. a Deut. 5. 29. a 32. 29. Salm 81. 10, 13. Es. 48. 17—19. a 50. 2. b pen. 19. 44. a 23. 28. Salm 149. 2. Galar. 1. 16. Joel 2. 23. Gal. 4. 25, 26. c Deut. 32. 11, 12. Ruth 2. 12. Salm 17. 8. a 36. 7. a 57. 1. a 91. 4. d pen. 15. 28. Neh. 9. 30. Salm 81. 11. Diar. 1. 24—30. Es. 30. 15. Jer. 6. 16. a 7. 23, 24. a 35. 14. a 44. 4—6. Hos. 11. 2, 7. Zec. 1. 4. Mat. 22. 3. Act. 3. 14, 15.

35 ‡ Wele, [e] eich tŷ a adewir i chwi yn anghyfannedd. Ac yn wir yr wyf yn dywedyd wrthych, [f] || Ni welwch fi, hyd oni ddêl yr amser pan ddywettoch, [g] Bendigedig *yw* yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd.

e pen. 21. 5, 6, 24. Lef. 26. 31, 32. Salm 69. 25. Es. 1. 7, 8. a 64. 10, 11. Dan. 9. 26, 27. Mica 3. 12. Zec. 11. 1, 2. a 14. 2. Act. 6. 13, 14. f Hos. 3. 4, 5. Ioan 7. 34—36. a 8. 22—24. a 12. 35, 36. a 14. 19—23. g pen. 19. 38—40. Salm 118. 26. Es. 40. 9—11. a 52. 7. Zec. 12. 10. Mat. 21. 9, 10. Marc 11. 9, 10. Ioan 12. 13. Rhuf. 10. 9—15. 2 Cor. 3. 15—18.

* Gwedi crybwyll o'r blaen, nas gallai fod y darfyddai am brophwyd allan o Jerusalem, mae yr Arglwydd Iesu yma megys yn galw i gof yr holl waed cyfiawn a dywalltwyd yno, ac yn gresynu yn ei ysbryd dros annuwioldeb y trigolion, caledrwydd eu calon, a'r farn drom oedd ar ddyfod arnynt. † Dywedir y dyoddef y iar farwolaeth i amddiffyn ei chywion; gyda chymmaint a hyny o serchawgrwydd y mynai Iesu gasglu pobl Jerusalem dàn ei adenydd, ond nis mynent hwy. Efallai bod yma gyfeiriad at yr eryr yn ysglyfaethu cywion yn iar, ac o hyny at ddifrod yr Iuddewon gan y Rhufeiniaid, y rhai oedd ag eryr ganddynt yn eu banerau. ‡ "Eich tŷ:" tŷ Duw, y deml, eich tai eich hunain a holl ddinas Jerusalem: gwnair oll yn anghyfannedd yn fuan gan y Rhufeiniaid, offerynau barn ofnadwy Duw. || Yn y caledi mawr hwnw, daw rhai o honoch i gydnabod mai myfi yr hwn a laddasoch oedd y Messiah, ond yn rhy ddiweddar; a byddai yn dda genych gael fy ail weled. A oes yma ddim cyfeiriad hefyd at alwad yr Iuddewon?

PEN. XIV.

Crist yn iachau y dropsi ar y sabbath.

BU hefyd, [a] pan ddaeth efe i dŷ un [b] * o bennaethiaid y Phariseaid ar y sabbath, i fwytta bara, [c] † iddynt hwythau ei wylied ef.

a pen. 7. 34—36. a 11. 37. 1 Cor. 9. 19—22. b Ioan 3. 1. Act. 5. 34. c pen. 6. 7. a 11. 53, 54. a 20. 20. Salm 37. 32. a 41. 6. a 62. 4. a 64. 5, 6. Diar. 23. 7. Es. 29. 21. Jer. 20. 10. Marc 3. 2.

2 ‡ Ac wele, yr oedd ger ei fron ef ryw ddyn yn glaf o'r dropsi.

3 A'r Iesu gan atteb a lefarodd wrth [d] y cyfreithwyr a'r Phariseaid, gan ddywedyd, [e] Ai rhydd iachâu ar y sabbath?

d pen. 11. 44, 45. e pen. 6. 9. a 13. 14—16. Mat. 12. 10. Marc 3. 4. Ioan 7. 23.

4 [f] A thewi a wnaethant. Ac efe a'*i* cymmerodd atto, ac a'i hiachâodd ef, ac a'*i* gollyngodd ymaith;

f Mat. 21. 25—27. a 22. 46.

5 Ac a attebodd iddynt hwythau, ac a ddywedodd, [g] Asyn neu ych pa un o honoch a syrth i bwll, ac yn ebrwydd nis tyn ef allan ar y dydd sabbath?

g pen. 13. 15. Ex. 23. 4, 5. Deut. 22. 4. Mat. 12. 11, 12.

6 || Ac [h] ni allent roi atteb yn ei erbyn ef am y pethau hyn.

h pen. 13. 17. a 20. 26, 40. a 21. 15. Act. 6. 10.

* Rhyw wr go fawr oedd y pharisead hwn, un o aelodau y Senedd yn Jerusalem, efallai; ond ei fod yn byw yn Galilea: neu, efallai, un o lywodraethwyr y synagog yn y lle hwnw, ac yn wr pur gyfrifol. Beth bynag ydoedd, ni phetrusai Crist fyned i'w dŷ ef ar wahoddiad: byddai efe weithiau yn bwyta gyda phariseaid, ac weithiau gyda phublicanod a phechaduriaid: gwnâi efe ei hun yn bob peth i bawb, fel y gallai gadw rhai. Mae yr un rhyddid yn ddïau i ninnau: nid yn nhai pwy y byddom yw y pwnc; ond pa beth a wnelom, neu a ddywedom, a pha fodd yr ymddygom yn mhob màn. † Peth arferol gan y Phariseaid oedd gwylied Iesu; ac mae yn debyg mai dyna ddyben y pharisead hwn yn ei wahodd ef i'w dŷ, fel y gallai efe a'i gyd-phariseaid ei wylied ef. ‡ Gwylied oedd eu hamcan hwy, gwneyd trugaredd â'r claf oedd ei amcan yntau; a hyny a wnaeth yn eu gŵydd hwynt oll, gan gyfiawnâu y weithred wrth ei chymharu â'u harferiad cyffredinol a chyfreithlawn hwy o godi asyn neu ych o'r ffos ar y dydd sabbath. || Efe a'u distawodd hwynt, ond nid argyhoeddodd hwynt: mae yn hawddach cauad genau dynion na symud eu rhagfarn: mỳn y rhagfarnllyd mae efe sydd iawn, er nas medr rheswm ddadleu dros y pwnc na'i gyfiawnâu.

7 ¶ Ac efe [i] a ddywedodd wrth y * gwahoddedigion † ddammeg, pan ystyriodd fel [k] yr oeddynt yn ‡ dewis yr eisteddleoedd uchaf; gan ddywedyd wrthynt,

i Barn. 14. 12. Diar. 8. 1. Ezec. 17. 2. Mat. 13. 34. k pen. 11. 43. a 20. 46. Mat. 23. 6. Marc 12. 38, 39. Act. 8. 18, 19. Phil. 2. 3. 3 Ioan 9.

* Mae yn debyg bod yno lawer o wahoddedigion: nid yw yn anghyfreithlawn i gyfeillion gyd-giniawa ar y

bath, ond dylent ofalu am eu hymddiddanion, eu
il yn addas i sancteiddrwydd y dydd. † Mae y gair
dammeg" yma i'w ystyried yn wahanol i'r peth yw
mmegion yn gyffredin: gwers, neu ddywediad doeth
yw yma, ac nid cyffelybiaeth o ryw beth naturiol i
h ysbrydol. ‡ Yr oedd hunan a balchder calonau y
hariseaid i'w weled yn amlwg hyd yn nod wrth y
rdd; yn tybied eu hunain yn well na'u gilydd ac yn
wis yr eistedd-leoedd uchaf. Ond nid oedd hyn oll
d cysgod o'u balchder ysbrydol hwy, yr hwn a gauodd
er o honynt allan o deyrnas nefoedd, ac sydd yn
nad llawer eto, heblaw yr anghydfod a'r niwed mae
wneyd mewn eglwysi.

8 Pan y'th wahodder gan neb i neithior,
mac eistedd yn y lle uchaf; rhag bod un an-
ydeddusach nâ thi wedi ei wahodd ganddo;
9 Ac i'r hwn a'th wahoddodd di ac yntau,
yfod a dywedyd wrthyt, Dyro le i hwn;
c yna dechreu o honot ti trwy gywilydd
mmeryd y lle isaf.

1 Esther 6. 6—12. Diar. 3. 35. a 11. 2. a 16. 18. Ezec. 28. 2—
Dan. 4. 30—34.

10 Eithr pan y'th wahodder, [m] dos ac eis-
dd yn y lle isaf; fel pan ddelo yr hwn a'th
hoddodd di, y gallo efe ddywedyd wrthyt,
cyfaill, † eistedd yn uwch i fynu. [n] Yna y
dd i ti glod y'ngŵydd y rhai a eisteddant
d â thi ar y bwrdd.

m 1 Sam. 15. 17. Diar. 15. 33. a 25. 6, 7. n Es. 60. 14.
t. 3. 9.

11 Canys [o] pob un a'r a'i dyrchafo ei hun,
ostyngir; a'r hwn sydd yn ei ostwng ei hun,
ddyrchefir.

o pen. 1. 51. a 18. 14. Job 22. 29. a 40. 10—12. Salm 18. 27.
138. 6. Diar. 15. 33. a 18. 12. a 29. 23. Es. 2. 11, 17. a 57. 15.
at. 23. 12. Iago 4. 6. 1 Pedr 5. 5.

* Mae yn ddiammau bod Iesu ei hun, y mwyaf o
onynt oll, wedi eistedd yn y lle isaf; ac wedi iachâu
chŵydd corphorol oedd yn ŷ claf o'r dropsi, mae yma
n ceisio iachâu y dropsi ysbrydol o falchder oedd yn
phariseaid hyn. Testyn y wers hon sydd yn Diar.
5. 6, 7. Gallwn weled dau neu dri o addysgiadau moes-
yn y ddammeg hon:—1. Nad yw cyfraith Crist ddim
n caniatâu i neb fod yn anfoesgar nac yn anfoneddig-
dd. 2. Y dylai dysgyblion Crist ofalu am eu gair da,
a wnelont ddim y byddo cywilydd iddynt o'i blegid.
Ei fod yn unol âg ewyllys Duw i ni roddi parch lle
ae parch yn ddyledus. 4. Mai y rhai isel-fryd, a'u
rostyngont eu hunain, yw y rhai a gânt eu derchafu
n hanrhydeddu gan Dduw a dynion. Dysged y gwir
ristion mai digon o anrhydedd iddo ef yw cael y lle
elaf, a'r gwasanaeth gwaelaf yn eglwys Dduw. † Mae
awer o helynt mewn gwleddoedd dwyreiniol, yn
ghylch gosod pob un o'r gwahoddedigion i eistedd yn
le priodol, yn ol ei radd a'i sefyllfa; a dywed un gwr
fu yn teithio yn *Persia*, iddo weled dyn a eisteddasai
ewn lle islaw ei radd a'i fawredd, yn cael ei symmud
eisteddfa uwch, neu bellach yn mlaen.

12 ¶ Ac efe a ddywedodd hefyd wrth yr
wn a'i gwahoddasai ef, [p] * Pan wnelych
iniaw neu swpper, na alw dy gyfeillion, na'th
rodyr, na'th geraint, na'*th* gymmydogion go-
udog; rhag iddynt hwythau eilchwyl dy wa-
odd dithau, [q] a gwneuthur taledigaeth i ti.

p pen. 1. 53. Diar. 14. 20. a 22. 16. Iago 2. 1—6. q pen.
32—36. Zec. 7. 5—7. Mat. 5. 46. a 6. 1—4, 16—18.

13 Eithr pan wnelych wledd, [r] galw y
llodion, yr efryddion, y cloffion, y deillion:

r adn. 21. pen. 11. 41. Deut. 14. 29. a 16. 11, 14. a 26. 12, 13.
Sam. 6. 19. 2 Cron. 30. 24. Neh. 8. 10, 12. Job 29. 13, 15. 16.
31. 16—20. Diar. 3. 9, 10. a 14. 31. a 31. 6, 7. Es. 58. 7, 10. Mat.
4. 14—21. a 15. 32—39. a 22. 10. Act. 2. 44, 45. a 4. 34, 35. a 9.
39. Rhuf. 12. 13—16. 1 Tim. 3. 2. a 5. 10. Tit. 1. 8. Philemon 7.
Heb. 13. 2.

14 A dedwydd fyddi; am nad oes ganddynt
ddim i dalu i ti: [s] † canys fe a delir i ti [t] yn
adgyfodiad y rhai cyfiawn.

s Diar. 19. 17. Mat. 6. 4. a 10. 41, 42. a 25. 34—40. Phil. 4.
18, 19. t pen. 20. 35, 36. Dan. 12. 2, 3. Ioan 5. 29. Act.
24. 15.

* Yr oedd y phariseaid yn bur rhodresgar yn eu
gwleddoedd yn gystal ag yn eu hymprydiau, yn gwneyd
pob un o'r ddau er mwyn cael eu gweled gan ddynion,
ac i dderbyn gogoniant gan eu gilydd. Byddai eu
gwleddoedd yn gostfawr a moethus, yr hyn oedd yn eu
gwneyd hwythau yn foethus ac yn analluog i fod yn
elusengar ac yn drugarog wrth y tlodion. Mae yr un
peth eto a'r un effaith iddo: lle mae llawer o wledda
costus a moethus, mae dynion o arferiad yn myned yn
flysig a danteithiol, ac yn eu tlodi eu hunain fel nas
gallant wneyd dim i gynnorthwyo y tlodion anghenus.
Gellid porthi llawer o dlodion drwy lai o gost nag a
wledda ychydig o rai goludog. † Rhaid bod y dyn yn
gyfiawn yn sicr, cyn cael ei dalu yn adgyfodiad y rhai
cyfiawn, ac nid cyfiawn trwy ei elusenau a'i weithred-
oedd da, eithr cyfiawn trwy ffydd yn Nghrist a'i gyfiawn-
der ef. Oddi wrth y cwbl sylwn:—1. Mai nid gweithred
o elusen yw gwledda rhai goludog, ond gweithred o
gyfeillgarwch a chymmydogaeth dda yn unig. 2. Na
ddylai y cyfryw wleddoedd fod os byddant yn ein tlodi,
ac yn ein hanalluogi i gynnorthwyo y tlodion. 3. Gall
y dyn duwiol ddysgwyl gwobr yn y nef am y gweithred-
oedd da a wnelo, os na chaiff ei wobrwyo ar y ddaear.
4. Mae Duw yn aml yn oedi gwobrwyo ei saint hyd ad-
gyfodiad y rhai cyfiawn, ond ni fetha eu gwobrwyo yno.

15 ¶ A phan glywodd rhyw un o'r rhai
oedd yn eistedd ar y bwrdd y pethau hyn, efe
a ddywedodd wrtho, [u] Gwyn ei fyd y neb a
* fwyttâo fara yn † nheyrnas Dduw.

u pen. 12. 37. a 13. 29. a 22. 30. Mat. 8. 11. a 25. 10. Ioan 6.
27, &c. Dat. 19. 9.

* Mae bwyta bara yn myned am bryd cyflawn, ac nid
am bryd cyffredin ychwaith, ond hefyd am wleddoedd,
lle byddo'r ymborth yn ddanteithiol iawn. † Nis gwyddis
yn iawn beth oedd y dyn hwn yn feddwl wrth deyrnas
nefoedd; pa un ai teyrnas ddaearol y Messiah, yn ol
dychymmygion cnawdol yr Iuddewon am dani, ai ynte
rhyw ddychymmyg mwy cnawdol byth am deyrnas y
gogoniant.

16 Ac yntau a ddywedodd wrtho, [x] Rhyw
wr a wnaeth * swpper mawr, ac a [y] wahoddodd
lawer:

x Diar. 9. 1, 2. Es. 25. 6. Jer. 31. 12—14. Zec. 10. 7. Mat. 23.
2—14. y Can. 5. 1. Es. 55. 1—7. Marc 16. 15, 16. Dat. 3. 20.
a 22. 17.

17 † Ac a ddanfonodd [z] ei was bryd swpper,
i ddywedyd wrth y rhai a wahoddasid, [a] Deu-
wch; canys weithian y mae pob peth yn barod.

z pen. 3. 4—6. a 9. 1—5. a 10. 1, &c. Diar. 9. 3—5. Mat. 3.
1, &c. a 10. 1, &c. Act. 2. 38, 39. a 3. 24—26. a 13. 26, 38, 39.
a Mat. 11. 27—29. a 22. 3, 4. Ioan 7. 37. 2 Cor. 5. 18—21. a 6. 1.

18 A hwy [b] oll a ddechreuasant yn un-*fryd*
ymesgusodi. Y cyntaf a ddywedodd wrtho,
[c] Mi a brynais dyddyn, ac y mae yn rhaid i
mi fyned a'i weled: attolwg i ti, cymmer fi yn
esgusodol.

b pen. 20. 4, 5. Es. 28. 12, 13. a 29. 11, 12. Jer. 5. 4, 5. a 6.
10, 16, 17. Mat. 22. 5, 6. Ioan 1. 11. a 5. 40. Act. 13. 45, 46. a 18.
5, 6. a 28. 25—27. c pen. 8. 14. a 17. 26—31. a 18. 24. Mat. 24.
38, 39. 1 Tim. 6. 9, 10. 2 Tim. 4. 10. Heb. 12. 16. 1 Ioan 2. 15, 16.

19 Ac arall a ddywedodd, ‡ Mi a brynais
bùm iau o ychain, ac yr ydwyf yn myned i'w
profi hwynt: attolwg i ti cymmer fi yn esgus-
odol.

20 Ac arall a ddywedodd, [d] Mi a briodais wraig; ac am hynny nis gallaf fi ddyfod.

d adn. 26—28. pen. 18. 29, 30. 1 Cor. 7. 29—31.

21 A'r gwas hwnnw, pan ddaeth *adref*, [e] a fynegodd y pethau hyn i'w arglwydd. Yna gwr y tŷ, [f] wedi digio, a ddywedodd wrth ei was, [g] Dos allan ar frys i heolydd ac ystrydoedd y ddinas, a dwg i mewn yma [h] y tlodion, a'r anafus, a'r cloffion, a'r deillion.

e pen. 9. 10. 1 Sam. 25. 12. Mat. 15. 12. a 18. 31. Heb. 13. 17. f adn. 24. Salm 2. 12. Mat. 22. 7, 8. Heb. 2. 3. a 12. 25, 26. Dat. 15. 1, &c. a 19. 15. g pen. 24. 47. Diar. 1. 20—25. a 8. 2—4. a 9. 3, 4. Jer. 5. 1. Zec. 11. 7, 11. Mat. 21. 28—31. Ioan 4. 39—42. a 7. 47—49. a 9. 39. Act. 8. 4—7. Iago 2. 5. h adn. 13. pen. 7. 22, 23. Mat. 11. 5, 28.

22 A'r gwas a ddywedodd, Arglwydd, [i] gwnaethpwyd fel y gorchymynaist; [k] ac etto y mae lle.

i Act. 1—9. k Ioan 14. 2. Eph. 3. 8. Col. 2. 9. 1 Tim. 2 5, 6. 1 Ioan 2. 2. Dat. 7. 4—9.

23 A'r arglwydd a ddywedodd wrth y gwas, [l] || Dos allan i'r prif-ffyrdd a'r cacau, [m] § a chymhell *hwynt* i ddyfod i mewn, fel y llanwer fy nhŷ.

l Salm 98. 3. Es. 11. 10. a 19. 24, 25. a 27. 13. a 49. 5, 6. a 66. 19, 20. Zec. 14. 8, 9. Mal. 1. 11. Mat. 21. 43. a 22. 9, 10. a 28. 19, 20. Act. 9. 15. a 10. 44—48. a 11. 18—21. a 13. 47, 48. a 18. 6 a 22. 21, 22. a 26. 18—20. a 28. 28. Rhuf. 10. 18. a 15. 9—12. Eph 2. 11—22. Col. 1. 23. m pen. 24. 29. Gen. 19. 2, 3. Act. 16. 15 Rhuf. 11. 13, 14. 1 Cor. 9. 19—23. 2 Cor. 5. 11, 20. a 6. 1. Col. 1 28. 2 Tim. 4. 2.

24 Canys yr wyf yn dywedyd i chwi, [n] na chaiff yr un o'r gwŷr hynny a wahoddwyd, brofi o'm swpper i.

n Diar. 1. 24—32. Mat. 22. 8. a 23. 38, 39. Ioan 3. 19, 36. a 8 21, 24. Act. 13. 46. Heb. 12. 25, 26.

Pa beth bynag oedd meddwl y gwr uchod wrth deyrnas Dduw, cymmerodd yr Arglwydd Iesu achlysur oddi ar hyny i lefaru dammeg bwysig iawn wrth bawb o honynt, yn yr hon mae yn dangos mai ychydig iawn o'r Iuddewon a welai y fraint o gael bwyta bara yn nheyrnas Dduw. Mae y swper mawr yn arwyddo y ddarpariaeth anfeidrol a wnaed i eneidiau dynion trwy yr iachawdwriaeth fawr sydd yn Nghrist. Mae y gwahoddiadau cyntaf yn arwyddo addewidion a phrophwydoliaethau am Grist a'r iachawdwriaeth, i'r Iuddewon gynt; gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr, a Christ ei hun a'i apostolion. Danfon y gwas bryd swper, i alw y rhai a wahoddasid pan oedd pob peth yn barod, a arwyddo, efallai, weinidogaeth yr apostolion a'r efengylwyr ar ol esgyniad Crist. Mae esgusodiad un-fryd y gwahoddedigion hyny yn arwyddo, gwrthodiad cyffredinol yr efengyl gan y genedl Iuddewig, yn enwedig gan eu penaethiaid, eu hathrawon, a'r Phariseaid. Danfon y gwas i heolydd ac ystrydoedd y ddinas wedi hyny a arwydda, efallai, llwyddiant yr efengyl yn mhlith y publicanod a phobl gyffredin yr Iuddewon, y rhai gwasgaredig mewn gwledydd eraill; yn nghyd â'r Cenedloedd a ddychwelasid at Iuddewaeth (proselytiaid.) Myned allan drachefn i'r prif-ffyrdd a'r caëau a arwydda, galwad y Cenedloedd, debygid, yn benaf, â'r rhai y llanwyd yr eglwys wedi hyny gan mwyaf, tra y cafodd yr Iuddewon, y rhai a wahoddwyd gyntaf, eu cauad allan o herwydd eu hanghrediniaeth. Ar yr un pryd, gellir cymhwyso yr holl ddammeg at bregethiad yr efengyl, yn nghyd a'r derbyniad neu y gwrthodiad mae yn gael, yn mhob gwlad ac oes.—Yr esgusodion a wnair yma, a gymmerwyd oll oddi wrth bethau cyfreithlawn ynddynt eu hunain; ond mae y dull a'r amser y gwnaed hwy yn dangos y dirmyg mwyaf ar y swper, ac ar yr hwn a'i gwnaeth hi. Beth a allasai fod yn fwy gorwag nag i un dyn fyned i weled ei dyddyn, ac arall i brofi ei ychen (ar ol eu prynu hefyd) yn union ar yr amser y gwahoddid hwy i'r swper; pan y gallasent yn hawdd oedi hyn hyd ryw amser arall: yr un mòr ddisail, ond yn fwy digywilydd, oedd esgus yr hwn a briodasai wraig, ac mae yn dangos fod yn well gan ddyn cnawd bob peth na Christ ac iachawdwriaeth ei enaid. * Y rhai o'r awduron Groegaidd mae y gair a gyfieithi swper, yn arwyddo boreu-bryd, pryd anghenrheidiol a waith, yn ol ystyr y gair; weithiau arwydda y nawn-bryd ciniaw; ond yn y Testament Newydd arwydda yr hwyr bryd. Yn hwyr-ddydd y byd hwn megys, y gorphenwy iachawdwriaeth fawr i fyd colledig, am hyny geilw Iesu hi yn *swper* mawr. † Gwel ar Matth. 23. 3. Yn *China* rhaid gwahodd yr un dynion dair gwaith o leiaf i wledd cyn y credant fod y gwahoddwr o ddifrif am iddyn ddyfod: pa sawl gwaith y gwahoddodd Duw lawer, i'r swper mawr ef? ‡ Defnyddid ychain yn mhob llafur waith yn y dwyrain, a mater o bwys mawr oedd eu prynu gelwid llawer yn nghyd i farnu am danynt, a phrofid e haddasrwydd hwy at waith yn mhob ffordd; ond yr oed y rhai hyn wedi eu prynu, gan hyny ni thalai esgus y dyn ddim. || Byddai teithwyr y dwyrain yn gorphwys i ddiluddedu eu hunain, dan y gwrychoedd gydag ymy y prif-ffyrdd; ac yma yr oedd y rhai hyny i gael e cymhell i'r wledd, er mai dieithriaid ar eu taith oedd ynt. § Cymhell hwynt, nid trwy fygwth a gorfod, nid oes un sail i gymhell dynion at grefydd felly yn y ysgrythyr; ond cymhell hwy trwy wahoddiadau taerion, a'u gwnelo i ddyfod yn ewyllysgar ac o'u bodd. Felly y dylai holl genadon yr efengyl gymhell pechaduriaid, yn enwedig pan welont rai yn ofni ac yn annobeithio am drugaredd a derbyniad gan faint eu heuogrwydd.

25 ¶ A [o] llawer o bobl a gyd-gerddodd âg ef: ac efe a droes, ac a ddywedodd wrthynt,

o pen. 12. 1. Ioan. 6. 24—27.

26 * Os [p] daw neb attaf fi, ac [q] ni chasâo ei dad, a'i fam, a'i wraig, a'i blant, a'i frodyr, a'i chwiorydd, ïe, a'i einioes ei hun hefyd, ni all efe fod yn ddisgybl i mi.

p Deut. 13. 6—8. a 33. 9. Salm 73. 25, 26. Mat. 10. 37. Phil. 3. 8. Dat. 12. 11. q Gen. 29. 30, 31. Deut. 21. 15. Job 7. 15, 16. Preg. 2. 17—19. Mal. 1. 2, 3. Ioan 12. 25. Rhuf. 9. 13.

27 A phwy bynnag [r] ni ddycco ei groes, a dyfod ar fy ol i, [s] ni all efe fod yn ddisgybl i mi.

r pen. 9. 23—25. Mat 10. 38. a 16. 24—26. Marc 8. 34—37. a 10. 21. a 15. 21. Ioan 19. 17. 2 Tim. 3. 12. s Mat. 13. 21. Act. 14. 22. 2 Tim. 1. 12.

* Sylwedd y geiriau uchod yw, nas gall neb fod yn wir ddysgybl i Grist, a roddo y flaenoriaeth i neb, nac i ddim arall, yn serchiadau ei galon: rhaid i Grist gael ei garu uwchlaw pawb, a phobpeth. Mae yn sicr na ddylid deall y geiriau yn eu hystyr gyfyng, a llythyrenol, pe felly, byddent yn gorchymyn i ni beth anmhosibl i natur; oblegid ni chasâodd neb erioed ei gnawd ei hun, eithr ei fagu a'i feithrin y mae. Gwyddai Iesu bod llawer yn ei ganlyn ef y pryd hwnw, adn. 25, a'i gadawai ef yn fuan, pan y rhwystrid hwy gan eu perthynasau anianol. Pan ddelo perthynasau yn ol y cnawd i fod yn rhwystr i ni i garu a chanlyn Crist, dylem eu casâu hwy yn hytrach na'i wadu ef, pa beth bynag a gostio hyny i ni, pe costiai i ni ein bywoliaeth, ïe ein heinioes. Gwel ar Matth. 10. 37, 38: mae yr adnodau hyny yn agoriad da ar yr adnodau hyn. Yr esgusodion yn adn. 18, 19, 20, oedd achlysur yr adnodau hyn, debygid.

28 ¶ * Canys pwy o honoch chwi [t] a'i fryd ar adeiladu tŵr, nid eistedd yn gyntaf, a [u] bwrw y draul, a oes ganddo a'*i* gorpheno?

t Gen. 11. 4—9. Diar. 24. 27. u adn. 33. Jos. 24. 19—24. Mat. 8. 20. a 10. 22. a 20. 22, 23. Act. 21. 13. 1 Thes. 3. 4, 5. 2 Pedr 1. 13, 14.

29 Rhag wedi iddo osod y sail, ac heb allu *ei* orphen, ddechreu o bawb a'*i* gwelant ei watwar ef,

30 Gan ddywedyd, [x] Y dyn hwn a ddechreuodd adeiladu, ac ni allodd ei orphen.

x Mat. 7. 27. a 27. 3—8. Act. 1. 18, 19. 1 Cor. 3. 11—15. Heb. 6. 4—8. a 10. 38. 2 Pedr 2. 19—22. 2 Ioan 8.

31 † Neu pa frenhin [y] yn myned i ryfel yn erbyn brenhin arall, nid eistedd yn gyntaf, ac ymgynghori a all efe â deng mil gyfarfod â'r hwn sydd yn dyfod yn ei erbyn ef âg ugain mil?

y 1 Bren. 20. 11. 2 Bren. 18. 20—22. Diar. 20. 18. a 25. 8.

32 ‡ Ac os amgen, tra fyddo efe ym mhell *addi wrtho*, efe a enfyn gennadwri, [z] ac a ceisyf ammodau heddwch.

z pen. 12. 58. 1 Bren. 20. 31—34. 2 Bren. 10. 4, 5. Job 40. 9. Mat. 5. 25. Act. 12. 20. Iago 4. 6—10.

33 ‖ Felly hefyd, [a] pob un o honoch chwithau nid ymwrthodo â chymmaint oll ag a feddo, a all fod yn ddisgybl i mi.

a adn. 26. pen. 5. 11, 28. a 18. 22, 23, 28—30. Act. 5. 1—5. a 19. 19—22. 2 Tim. 4. 10. 1 Ioan 2. 15, 16.

* Er dangos yn mhellach y mawr bwys o ganlyn Crist i'd y diwedd, yn nghyd a'r anhawsdra o wneyd hyny, ac efe yma yn arfer dwy gyffelybiaeth: 1. Dyn yn meiladu twr, yn fyrbwyll ac heb fodd i'w orphen; rhodd ei holl lafur a'i draul yn ofer, bydd yr adeilad anorphenol yn gof-arwydd parâus o'i ynfydrwydd ef, a chodd yntau yn wrthddrych gwawd a chwerthiniad pawb o amgylch. Felly y dyn a ddechreuo ar grefydd ac ymb barâu hyd y diwedd; bydd ei holl lafur yn ofer, a'i ymdrthgiliad yn ei wneyd yn ddirmygus gan bawb, ac yn ymgenus yn ei gydwybod ei hun. Cyfeiriad sydd yma mewn allai at un o'r tyrau hardd a chostfawr iawn, a adeiladai cyfoethogion y dwyrain er hyfrydwch, yn y rhai y meulient lawer o'u hamser. 2. † Yr ail gyffelybiaeth yw, brenin ynfyd a byrbwyll, yn myned i ryfel yn erbyn brenin arall, galluocach nac ef, a llawer amlach ei lu: ac odd, heb ystyried yr anghyfartalwch, a'r anmhosibldeb ydd iddo lwyddo i gael y fuddugoliaeth. Gwarth, a cholled, a dinystr, a gaiff efe; buasai yn llawer doethach ddo ddeisyf ammodau heddwch cyn anturio i faes y ymwaed. Myned yn ddysgybl i Grist yw cyhoeddi rhyfel yn erbyn byd, cnawd, a diafol; gelynion llawer rhy nerthfion i ni yn ein nerth ein hunain. Gan hyny, os ymgwd ydym ni yn deimladwy o'n gwendid ein hunain, ac ac ceisio help gan Dduw, nis gallwn sefyll ein tir, na ymnarâu hyd y diwedd; caledi, enbydrwydd, a cholled, a ddiaw o'r fath ryfel: ac er mai drwg yw bod dàn draed y fath elynion, eto os awn ni i geisio ymladd â hwy yn ein nerth ein hunain, ar broffes o grefydd yn unig, heb ymrionedd, gostyngeiddrwydd, a hollawl ymddybyniad i Grist, ni bydd y mater ddim gwell, eithr gwaeth. Am y "deisyf ammodau heddwch" yn y ddammeg, y wiw dysgwyl am ddim i ateb i hyny yn yr addysg; ond oes dim deisyf ammodau heddwch i fod â'r gelynion a enwyd uchod. ‖ Ymwrthod â phob peth os gorfodd, er mwyn Crist, ac yn hytrach nac ymwrthod â Christ: nid taflu pob galwedigaeth a meddiant cyfreithlawn ymaith a feddylir, byddai hyny yn groes i'n dyleddwydd yn y byd hwn: ymwrthod â'r cariad at y pethau a y galon, ac â'r pethau os bydd raid. Gwel Heb. 10. 34.

34 ¶ * Da *yw* yr halen: [b] † eithr o bydd halen yn ddiflas, ‡ â pha beth yr helltir ef?

b Mat. 5. 13. Marc 9. 49, 50. Col. 4. 6. Heb. 2. 4—8.

35 ‖ Nid yw efe gymmwys nac i'r tir, nac dr dommen; *ond* ei fwrw ef allan y maent. § Y neb sydd ganddo glustiau i wrando, gwrandawed.

c pen. 8. 8. a 9. 44. Mat. 11. 15. a 13. 9. Dat. 2. 7, 11, 17, 29. Gwel ar Matth. 5. 13; a Marc 9. 50. * Halen y daear yw proffeswyr yr efengyl os byddant yn wir Iuwiol, ac y maent yn dda iawn. † Mae pawb ag sydd ganddo enw o grefydd ganddynt yn proffesu eu bod yn halen, os efallai eu bod yn lled hallt a gwresog am ychydig; ond buan y maent yn oeri, yn diflasu, ac yn gwrthgilio. ‡ Pan elont felly, maent yn fwy caled, llygredig, a diobaith, yn gyffredin, na'r rhai ni wnaethant broffes erioed. ‖ Nid ydynt gymhwys i'r tir, yr eglwys; nid ydynt gymhwys i'r dòmen, y byd annuwiol: llygru pawb, yn mhob màn a wnant, a diles a gwrthodedig gan bawb, hyd yn nod gan annuwiolion yn gyffredin, ydynt. § Gan fod y pethau hyn felly, maent yn deilwng iawn o wrandawiad ac ystyriaeth pawb. Cryned pawb rhag cymeryd i fynu broffes o grefydd heb y gwirionedd, a throi wedi hyny yn halen diflas, mewn llygredigaeth, cyfeiliornadau, a gwrthgiliad. Diwedd-glo cyffredin Crist yw y geiriau hyn, ar ol rhyw ymadroddion pwysig a tyddo wedi eu llefaru.

PEN. XV.

Dammeg y ddafad a gollasid, &c.

* AC [a] yr oedd yr holl bublicanod a'r pechaduriaid yn nesâu atto ef, i wrando arno.

a pen. 5. 29—32. a 7. 29. a 13. 30. Ezec. 18. 27, 28. Mat. 9. 10—13. a 21. 28—31. Rhuf. 5. 20. 1 Tim. 1. 15.

2 [b] A'r Phariseaid a'r ysgrifenyddion a rwgnachasant, gan ddywedyd, Y mae hwn yn derbyn pechaduriaid, † ac yn bwytta gyd â hwynt.

b adn. 29, 30. pen. 5. 30. a 7, 34, 39. a 19. 7. Mat. 9. 11. Act. 11. 3. 1 Cor. 5. 9—11. Gal. 2. 12.

* Tybia rhai bod Crist yn awr yn Galilea y cenedloedd, y tu hwnt i'r Iorddonen, ac mai cenedloedd eilun-addolgar oedd y rhai a elwir yn bechaduriaid yma. † Ystyriai yr Iuddewon yn gyffredin ei bod yn groes i'r ddeddf, i Iuddew i fwyta gyda chenedl-ddyn dienwaededig; ac nid oes genym un prawf i Grist erioed fwyta gyda'r cenedloedd, pe amgen ni buasai ei apostolion yn petruso cymmaint yn nghylch y pwnc wedi hyny. Act. 10. 9—16, 27—33; a 11. 1—3. Yn hyn, fel mewn pethau eraill, yr oedd efe yn fanwl yn cadw y ddeddf. O herwydd yr amgylchiad hwn o fwyta gyda phechaduriaid mae eraill yn tybied mai nid cenedloedd oedd y pechaduriaid hyn, eithr Iuddewon; ond eu bod y fath waethaf o honynt. Pa un bynag am hyny, balchder calon y Phariseaid, eu dirmyg ar eraill, a'u gelyniaeth at Iesu, oedd yr achos o'r grwgnach hwn: ychydig oeddent hwy yn ofalu am bechaduriaid.

3 ¶ Ac efe a adroddodd wrthynt y ddammeg hon, gan ddywedyd,

4 Pa [c] ddyn o honoch [d] a chanddo gànt o ddefaid, ac os cyll un o honynt, nid yw yn gadael yr amyn un pùm ugain yn yr anialwch, ac yn myned ar ol yr hon a gollwyd, hyd oni chaffo efe hi?

c pen. 13. 15. Mat. 12. 11. Rhuf. 2. 1. d Salm 119. 176. Es. 53. 6. Jer. 50. 6. Ezec. 34. 8, 11, 12, 16, 31. Mat. 18. 12, 13. Ioan 10. 15, 16, 26—28. 1 Pedr 2. 25.

5 Ac [e] wedi iddo *ei* chael, [f] efe a'*i* dyd *hi* ar ei ysgwyddau ei hun [g] yn llawen.

e pen. 19. 9. a 23. 43. Es. 62. 12. Ioan 4. 34, 35. Act. 9. 1—16. Rhuf. 10. 20, 21. Eph. 2. 3—6. Tit. 3. 3—7. f Es. 40. 10, 11. a 46. 3, 4. a 63. 9. Mica 5. 4. Eph. 1. 19, 20. a 2, 10. a 3. 7. 1 Thes. 1. 5. 2 Tim. 2. 26. 1 Pedr 1. 5. g adn. 23, 24, 32. Es. 53. 10, 11. a 62. 5. Jer. 32. 41, 42. Ezec. 18. 23. a 33. 11. Mica 7. 18. Zeph. 3. 17. Ioan 15. 11. Heb. 12. 2.

6 A phan ddêl adref, efe a eilw ynghyd *ei* [h] gyfeillion a'*i* gymmydogion, gan ddywedyd wrthynt, Llawenhêwch gyd â mi; canys cefais fy nafad a gollasid.

h adn. 7, 10, 24. a 2. 13, 14. Es. 66. 10, 11. Ioan 3. 29. a 15. 14. Act. 11. 23. a 15. 3. Phil. 1. 4. a 2. 17. a 4. 1. 1 Thes. 2. 19. a 3. 7—9.

7 Yr wyf yn dywedyd i chwi, mai felly [i] y bydd llawenydd yn y nef am un pechadur a edifarhâo, *mwy* nag am onid un pùm ugain o rai cyfiawn, [k] y rhai nid rhaid iddynt wrth edifeirwch.

i adn. 32. pen. 5. 32. Mat. 18. 13. k adn. 29. pen. 16. 15. a 18. 9—11. Diar. 30. 12. Rhuf. 7. 9. Phil. 3. 6, 7.

Yn ateb i rwgnach y Phariseaid uchod, mae yr Arglwydd Iesu yn y bennod hon yn traddodi tair o ddammegion, y rhai ydynt oll yn cytuno mewn amryw o'r prif bethau, ond eu bod yn dangos y mater mewn gwahanol olygiadau, er mwyn ei ddeall yn eglurach. Mae y ddwy gyntaf o honynt yn dangos daioni a gras Duw yn ymofyn am ei bobl, yn mhlith y cenedloedd yn benaf; a'r llall yn dangos ei raslonrwydd yn eu derbyn ar eu dychweliad ato; a phob un yn dangos yr hyfrydwch mawr sy ganddo yn eu hiachawdwriaeth. Mae y seithfed adnod, yr olaf o'r ddammeg hon, yn agoriad i'r holl ddammeg: y ddafad golledig yw y pechadur, wedi ymadael â Duw, yn agored i enbydrwydd a cholledigaeth dragywyddol, oni ddygir ef yn ol, canys ni ddaw o hóno ei hun mwy na'r ddafad gyfr-golledig. Y dyn a aeth ar ol y ddafad golledig yw Iesu Grist, Bugail mawr y defaid; ei eiddo ef ydynt yn eu crwydriadau a'u cyflwr colledig, efe a'u hedwyn, ac a fyn afael ynddynt i'w dychwelyd ato ei hun. Mae efe yn ystyried dychwelyd un pechadur yn perthyn i'w swydd gymmaint a gofalu am yr holl rai sydd wedi eu dychwelyd, ac yn y gorlan. Ei dwyn hi ar ei ysgwyddau ei hun yn llawen a arwydda, fuddugoliaeth Crist ar elynion ysbrydol ei bobl ef, cyndynrwydd eu calonau hwy eu hunain, a'u llwyr adferiad hwy er gwaethaf holl hudoliaethau y byd hwn. Am y pùm ugain ond un o rai cyfiawn, y rhai nid rhaid iddynt wrth edifeirwch, mae gwahanol olygiadau ar y geiriau. 1. Yr angelion etholedig, medd rhai; y rhai ydynt berffaith gyfiawn, ac erioed felly; nid rhaid iddynt hwy wrth edifeirwch. 2. Y saint, medd eraill; y rhai sydd eisoes wedi eu dychwelyd, a chwedi edifarâu pan ddychwelwyd hwynt; nid rhaid iddynt hwy wrth edifeirwch fel y tro cyntaf, pan ddychwelwyd hwynt, ac fel y pechadur hwn a ddychwelir yn awr. 3. Y Phariseaid hunain-gyfiawn, medd arall; y rhai oedd yn tybied nad oedd raid iddynt wrth edifeirwch. Am yr ystyriaeth olaf hon, mae yn bur hawdd deall pa fodd y mae llawenydd yn y nef am un pechadur a edifarâo, yn fwy nag am onid un pùm ugain o rai cyfiawn; cyfiawn o'r fath hyn, cyfiawn yn eu golwg eu hunain: ond pa fodd y mae deall y fath eiriau gyda golwg ar yr angelion a'r saint? *At.* Mae yr angelion yn berffaith gyfiawn, ac nid rhaid iddynt wrth edifeirwch: eto, mae edifeirwch un pechadur ar y ddaear, wrth ystyried ei achosion a'i ganlyniadau, yn dwyn mwy o ogoniant i Dduw na chynnal angelion, am hyny mae y llawenydd yn fwy yn y nef o'i achubiaeth ef. Gyda golwg ar y saint, mae pob gwir gredadyn wedi bod yn achos o lawenydd yn y nef ar ei ddychweliad; ond y mae achos o lawenydd adnewyddol pan y mae un arall, ac un arall, yn cael eu dwyn i edifeirwch: fel am blentyn newydd eni, mae mwy o lawenydd am hwnw ar y pryd, nac am yr holl blant eraill a aned o'r blaen: neu am blentyn a fyddo newydd gael ei achub o ryw berygl mawr, o safn marwolaeth; mae mwy o lawenydd am hwnw, nac am yr holl blant eraill ar na buont yn ddiweddar yn y cyfryw berygl. Am lawenydd yn y nef, gan Dduw, yr angelion, a'r saint, y rhai nid oes deimladau a nwydau iddynt fel i ni ar y ddaear, rhy faith fyddai trin y cyfryw fater yma; digon i ni fod Mab Duw wedi dywedyd mai felly y mae: ymostyngodd efe i lefaru am bethau dwyfol ac ysbrydol i ni mewn dull dynol, a'n dyledswydd ninnau yw ei gredu.

8 ¶ Neu pa wraig, a chanddi ddeg * dryll o arian, os cyll hi un dryll, ni oleu ganwyll ac ysgubo y tŷ, [l]a cheisio yn ddyfal, hyd onis caffo *ef?*

l pen. 19. 10. Ezec. 34. 12. Ioan 10. 16. a 11. 52. Eph. 2. 17.

9 Ac wedi iddi *ei* gael, hi a eilw ynghyd *ei* chyfeillesau a'*i* chymmydogesau, gan ddywedyd, [m]Cyd-lawenhêwch â mi; canys cefais y dryll a gollaswn.

m adn. 6, 7.

10 Felly, meddaf i chwi, [n]y mae llawenydd y'ngŵydd angelion Duw am [o]un pechadur a edifarhâo.

n pen. 2. 10—14. Mat. 18. 10, 11. a 28. 5—7. Act. 5. 19, 20 a 10. 3—5. Heb. 1. 14. Dat. 5. 11—14. o pen. 7. 47. a 13. 5 2 Cron. 33. 13—19. Mat. 18. 14. Act. 11. 18. 2 Cor. 7. 10.

Mae y ddammeg hon yn debyg i'r un flaenorol, ac yr dangos y mawr werth sy gan Grist ar eneidiau ei ethol edig bobl. Ei eiddo ef ydynt, ffrwyth ei lafur a'i ddy oddefiadau; ac efe a ddefnyddia foddion addas, ac a'u gwna yn effeithiol, i gael gafael ynddynt, ac i'w dwyr i'w eglwys; ac yna gelwir pawb a'i carant ef i gyd lawenâu âg ef: felly bydd llawenydd yn ngŵydd angel ion Duw am un pechadur a edifarâo. Mae gwir edifeirwch pechadur yn cynnwys ei waredigaeth o dru eni tragywyddol, a'i wneuthur ef yn etifedd bywyd tragywyddol. Arwydd ydyw o fuddugoliaeth Iesu ar alluoedd y tywyllwch, ac effeithiau bendigedig ei aberth ef. Fel hyn cyfodir cof-arwydd er gogoniant trugaredd a gras Duw, yr hwn a barhâ byth bythoedd: a chwanegir addolwr i Dduw at ei eglwys, yr hwn a'i gogoneddai ef yn oes oesoedd. Gan hyny, gan fod yr angelion yn caru Duw ac yn casâu anwiredd, gan eu bod yn rhydd oddi wrth falchder, llid, a chenfigen, ac yn llawn daioni ac ewyllys da; rhaid y llawenychant yn annhraethadwy gyda'r Gwaredwr dwyfol, pan welont waith ei ras hyd yn nod ar un pechadur a edifarâo. * Tua gwerth naw ceiniog, meddant oedd y dryll arian; nid llawer; ond yr oedd y ddegfed ran o'r cwbl a feddai y wraig, ac yn werthfawr yn ei golwg; ond nid mòr werthfawr o lawer âg un enaid yn ngolwg ein Iesu mawr ni.

11 ¶ Ac efe a ddywedodd, [p] * Yr oedd gan ryw wr ddau fab:

p Mat. 21. 23—31.

12 A'r ieuangaf o honynt a ddywedodd wrth *ei* dad, † *Fy* nhad, [q]dyro i mi y rhan a ddigwydd o'r dâ. ‡ Ac efe a rannodd iddynt *ei* fywyd.

q Deut. 21. 16, 17. Salm 16. 5, 6. a 17. 14.

13 ‖ Ac ar ol ychydig ddyddiau y mab ieuangaf a gasglodd y cwbl ynghyd, [r]ac a gymmerth ei daith i wlad bell; ac yno [s]*efe* a wasgarodd ei ddâ, gan fyw yn afradlawn.

r 2 Cron. 33. 1—10. Job. 21. 13—15. a 22. 17, 18. Salm 10. 4—6. a 73. 27. Diar. 27. 8. Es. 1. 4. a 30. 11. Jer. 2. 5, 13, 17—19, 31. Mica 6. 3. Eph. 2. 13, 17. s adn. 30. pen. 16. 1, 19. Diar. 5. 8—14. a 6. 26. a 18. 9. a 21. 17, 20. a 23. 19—22. a 28. 7. a 29. 3. Preg. 11. 9, 10. Es. 22. 13. a 56. 12. Amos 6. 3—7. Rhuf. 13. 13, 14. 1 Pedr 4. 3, 4. 2 Pedr 2. 13.

14 § Ac wedi iddo dreulio y cwbl, y [t]coddodd newyn mawr trwy y wlad honno; ac yntau a ddechreuodd fod mewn eisieu.

t 2 Cron. 33. 11. Ezec. 16. 27. Hos. 2. 9—14. Amos 8. 9, 10.

15 * Ac [u]efe a aeth ac a lynodd wrth un o ddinaswyr y wlad honno; ac efe a'i hanfonodd ef i'w feusydd [x]i borthi moch.

u adn. 13. Ex. 10. 3. 2 Cron. 28. 22. Es. 1. 5. a 9. 10—13. a 57. 17. Jer. 5. 3. a 8. 4—6. a 31. 18, 19. 2 Tim. 2. 25, 26. Dat. 2. 21, 22. x pen. 8. 32—34. Ezec. 16. 52, 63. Nah. 3. 6. Mal. 2. 9. Rhuf. 1. 24—26. a 6. 22. 1 Cor. 6. 9—11. Eph. 2. 2, 3. a 4. 17—19. a 5. 11, 12. Col. 3. 5—7. Tit. 3. 3.

16 Ac [y]efe a chwennychai lenwi ei fol â'r † cibau a fwyttâi y moch; ‡ ac [z]ni roddodd neb iddo.

y Es. 44. 20. a 55. 2. Galar. 4. 5. Hos. 12. 1. Rhuf. 6. 19—21. z Salm 142. 4. Es. 57. 3. Jona 2. 2—8.

Yn y ddwy ddammeg o'r blaen, dangosir yn benaf gymmaint o beth yw edifeirwch yn ngolwg Duw, ei angelion, a'i weision; mae y ddammeg hon yn mhellach yn dangos natur edifeirwch, yn nghyd a'r derbyniad graslonaf mae yr edifeiriol yn gael gyda Duw, pa mòr afian a thruenus bynag y bu. Yn y dammegion o'r blaen, dangosir cyflwr peryglus a digymmorth pechaduriaid; ond yn hon dangosir eu hymddygiad ynfyd, gwrthryfelgar, ac anniolchgar. * Wrth y ddau fab, tybia rhai mai yr Iuddewon a'r Cenedloedd a feddylir; ond y mae

achlysur ar ba un y llefarwyd y ddammeg yn dangos
eglur, mai y Phariseaid a feddylir wrth y mab hynaf
benaf, ac mai y publicanod, ac Iuddewon anfoesol a
rrefydd eraill, a feddylir wrth y ieuangaf. Mewn
yr mwy cyffredinol, wrth y ddau fab gellir deall, y
i a fuont yn hir efallai o'u genedigaeth, yn aelodau
eledig o eglwys Dduw; ac y rhai a fuont yn hir
byw mewn gyrfa o bechod, ond a ddychwelwyd trwy
o'r diwedd. † Darluniad naturiol iawn yw hwn o
ddygiad ynfyd llawer o bobl ieuainc, yn blino ar
odraeth a rheolau tŷ eu tad fel yn rhy gaethiwus;
yn tybied y gallant hwy drin eu byd yn well eu hun-
.. Felly hefyd y mae dynolryw oll wrth natur, yn
wis ymadael â Duw, yn gwrthod ei ddeddfau a'i lyw-
raeth ef, ac yn byw yn ol helynt y byd hwn, ac yn ol
ddiadau eu natur halogedig. ‡ Mae yn eglur nas
lir, ac nas dylid, rhoddi pwys mawr ar y rhan hon
ddammeg, fel yn cyfeirio at oruchwyliaeth Duw
g at ddynion: nid yn ol yr hyn sydd ganddo (ei
yd) y mae efe yn cyfranu i ni, ond fel mae yn gwel-
yn dda; ac mae yn cyfranu i bawb yn llawer gwell
u haeddiant. Neu a ranodd iddynt fywioliaeth yn
rach, yr hyn oedd efe yn feddwl roddi yn awr yn ei
yd, i bob un o'i ddau fab: rhanu eu bywioliaeth hwy
eddylir, ac nid y tad yn rhanu ei holl fywioliaeth ei
n iddynt a rhyngddynt hwy; fel y gallwn weled eto,
a adn. 22, 23. || Felly y gwnaeth yr holl genedloedd:
fuan wedi iddynt gael eu gadael i oleuni natur, a
ai traddodiadau o ddatguddiedigaethau boreuaf Duw
dynion, aeth eu meddyliau a'u ffyrdd yn llygredig;
thiasant i eilun-addoliaeth, coel-grefydd, aflendid,
annuwioldeb; cam-ddefnyddiasant eu holl dalentau,
aethant yn ofer yn eu rhesymau. Felly hefyd y mae
haduriaid yn bersonol; pan eu gadawer iddynt eu
nain, camddefnyddiant eu trugareddau, rhedant i
rhyw ormod rhysedd a drygioni, a chollant bob
ddwl am Dduw a chrefydd. § Mae newyn y wlad, ac
gen y gwr ieuanc, yn dangos i ni natur a thuedd
ffrodus pleserau cnawdol ac annuwiol, yn nghyd a'r
eni a'r gwarth a ddaw o'u hir ganlyn: yn y diwedd
y a frathant fel seirph, ac a bigant fel nadroedd.
n y ddwy adnod hyn, 15, 16, mae tri pheth yn dan-
cyflwr yr afradlon yn isel ac yn druenus iawn:
Un o blant Abraham, (oblegid felly y dylem ei olygu)
gorfod myned i wasanaeth cenedl-ddyn, un o ddinas-
r, neu o frodorion y wlad bell. 2. Hwnw yn ei ddan-
ef i'w faesydd i borthi moch, creaduriaid aflan dàn
ddeddf Iuddewig, a ffiaidd iawn gan yr Iuddewon.
Chwennych llenwi ei fol â'r cibau a fwytâai y moch,
methu cael ei ddigon o hyny. Gwelwn yma y gwael-
d mawr y mae pechod yn dwyn dynion iddo, a hyny
aml yn y byd hwn. E wasg Duw ar bob pechadur a
flwo efe, yn debyg i'r afradlon hwn. † Mae rhai
dwyr dysgedig yn barnu, mai rhyw ffrwythau gwael,
lled felysion, yn tyfu ar bren a elwir y pren *carub*,
eddylir yma; ac yr hyn a eilw rhai Bara Sant Ioan:
wedant eu bod yn tyfu mewn cibau, neu blisg, hirion
heimion; ond mae yn ddiammau nad oedd y moch
cael ond y cibau yn unig pan oedd newyn yn y wlad,
ni châi yr afradlon mo hyny. Efallai mai gwarchad
fugeilio y moch yr oedd yr afradlon, a rhyw rai
ill yn eu porthi, y rhai ni roddent ddim o'r cibau
o ef yn ei newyn tost: neu os oedd ef yn porthi y
noch, ni feiddiai gymmeryd dim o'r cibau iddo ei
n, gan ofn rhai oedd uwchlaw iddo ef; ac ni roddai
b o honynt ddim iddo, hyd yn nod o'r cibau gwael a
tâai y moch.

17 * A [a] phan ddaeth atto ei hun, efe a
ywedodd, [b] † Pa sawl gwas cyflog o'r eiddo
nhad sydd yn cael eu gwala a'u gweddill o
a, a minnau yn marw o newyn?

a pen. 8. 35. a 16. 23. Salm 73. 20. Preg. 9. 3. Jer. 31. 19.
ec. 18. 28. Act. 2. 37. a 16. 29, 30. a 26. 11—19. Eph. 2. 4, 5. a
4. Tit. 3. 4—6. Iago 1. 16—18. b adn. 18, 19. Galar. 1. 7.

18 ‡ Mi [c] a godaf, ac a âf at fy nhad, ac a
ddywedaf wrtho, [d] *Fy* nhad, [e] || pechais [f] yn
erbyn y nef, ac o'th flaen dithau;

c 1 Bren. 20. 30, 31. 2 Bren. 7. 3, 4. 2 Cron. 33. 12, 13, 19. Salm 116. 3—7. Jer. 31. 6—9. a 50. 4, 5. Galar. 3. 18—22, 29, 40. Hos. 2. 6, 7. a 14. 1—3. Jona 2. 4. a 3. 9. d pen. 11. 2. Es. 63. 16. Jer. 3. 19. a 31. 20. Mat. 6. 9, 14, 15. a 7. 11. e pen. 18. 13. Lef. 26. 40, 41. 1 Bren. 8. 47, 48. Job 33. 27, 28. a 36. 8—10. Salm 25. 11. a 32. 3—5. a 51. 3—5. Diar. 23. 13. Mat. 3. 6. 1 Ioan 1. 8—10. f adn. 21. Dan. 4. 26.

19 Ac [g] mwyach nid ydwyf deilwng i'm
galw yn fab i ti: [h] § gwna fi fel un o'th weision
cyflog.

g pen. 5. 8. a 7. 6, 7. Gen. 32. 10. Job 42. 6. 1 Cor. 15. 9. 1 Tim. 1. 13—16. h Jos. 9. 24, 25. Salm 84. 10. Mat. 15. 26, 27. Iago 4. 8—10. 1 Pedr 5. 6.

Gwelsom yr afradlon yn yr adnodau o'r blaen yn ei gyflwr iselaf o wasanaeth a thrueni, ar ddarfod am dano; yn nesaf arweinir ni i ystyried ei adferiad ef. * Dechreuodd hyn "pan ddaeth efe ato ei hun," o'i ynfydrwydd a'i wallgof. Gwallgof oedd pan adawodd dŷ ei dad ar y cyntaf, gwallgof oedd yn gwasgaru ei dda, gan fyw yn afradlon, a gwallgof oedd na ddychwelasai i dŷ ei dad yn gynt. Gwallgof yw pob pechadur: mae ei ddeall, ei reswm, a'i gydwybod, yn gaeth-weision i'w chwantau ynfyd, aflan, a chynddeiriog, ac yntau yn gweithredu fel dyn allan o'i bwyll. † Gwedi dyfod ato ei hun, y peth cyntaf a ddaeth i'w feddwl oedd, ei druenus gyflwr yn y màn yr oedd, "yn marw o newyn." 2. Llawnder tŷ ei dad, yn nghyd a dedwydd gyflwr pawb ag oedd yno, hyd yn nod y gweision cyflog. 3. ‡ Penderfynodd godi yn ddïoed, a myned at ei dad, gan gyffesu yn ei erbyn ei hun ei anwireddau a'i ffolineb, a chrefu am faddeuant, a derbyniad i'r lle a'r gwasanaeth gwaelaf yn nhŷ ei dad. Wrth ffurfio y gyffes a'r weddi hon, dïammau fod côf am ddaioni a thynerwch ei dad yn ei galonogi, ac ar yr un pryd yn mwyhâu ei euogrwydd a'i ofid, iddo bechu yn erbyn tad mòr dirion. Tebyg i hyn yw adferiad pob pechadur; pan agoro Duw ei lygaid, a'i ddwyn ato ei hun, mae yn gweled ei gyflwr colledig ac andwyol; mae yn eael meddwl mawr am drugaredd Duw a'i ras yn Iesu Grist y Cyfryngwr; mae yn cael nerth i benderfynu dychwelyd at Dduw; ac mae yn gweddïo yn ostyngedig am faddeuant a derbyniad ganddo, gan gyfrif y lle, y gwasanaeth, a'r fywioliaeth waelaf yn nhŷ Dduw, yn wir fraint mewn cymhariaeth i'r byd oedd arno ef o'r blaen. || Mae hyn yn gydnabyddiaeth mai esmwyth oedd iau ei dad; mai gweithred o wrthryfel ynfyd oedd iddo ei bwrw hi ymaith; ac mae hefyd yn dangos fod ei galon ef yn deimladwy, nid yn unig o ffolineb ei ymddygiad, ond hefyd o'i fawr bechadurusrwydd a'i euogrwydd: mae yn dangos fod ofn Duw wedi dechreu cymmeryd gafael ynddo. Arferai yr Iuddewon gylch-ymadrodd fel hyn yn fynych, i ochel defnyddio enw mawr Duw, mewn gair noeth. § Pe na chawsai ond hyny, gwyddai yn dda y buasai yn llawer gwell arno na bod yn was cyflog yn y màn yr oedd: ond cafodd yn well na bod yn was cyflog.

20 * Ac efe a gododd, ac a aeth at ei dad.
[i] † A phan oedd efe etto ym mhell oddi wrtho,
ei dad a'i canfu ef, ‡ ac a dosturiodd, ac a
redodd, [k] ac a syrthiodd ar ei wddf ef, ac a'i
cusanodd.

i Deut. 30. 2—4. Job 33. 27, 28. Salm 86. 5, 15. a 103. 10—13. Es. 49. 15. a 55. 6—9. a 57. 18. Jer. 31. 20. Ezec. 16. 6—8. Hos. 11. 8. Mica 7. 18, 19. Act. 2. 39. Eph. 2. 13, 17. k Gen. 33. 4. a 45. 14, 15. a 46. 29. Act. 20. 37.

* Yn ei nerth ei hun y cododd yr afradlon, ac yr aeth at ei dad; ond rhaid i ni ddeall, mai nid felly mae pechadur yn dychwelyd at Dduw; y Tad sydd yn ei dynu ef, â thrugaredd, â rheffynau dynol, ac â rhwymau cariad. † Er bod ei dad yn hen, a'i olygon ni a feddyliwn wedi pallu; eto efe a ganfu ei fab afradlon dychweledig o bell, ac a'i hadnabu ef er gwaeled ei wedd, ac er mòr garpiog ei wisg. Mae cariad a thosturi mewn rhieni naturiol yn gweled yn mhell, ac yn graff; pa faint mwy cariad a thosturi ein Tad nefol! Efe sydd yn canfod y pechadur edi-

feiriol gyntaf; ac mae efe yn canfod yr ysgogiad lleiaf a dirgelaf am ddychweliad yn ei galon ef, efe a'i rhoddodd yno. Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynom ewyllysio a gweithredu, o'i ewyllys da ef. ‡ Mae y geiriau hyn oll yn ddarluniad priodol a naturiol iawn o ymddygiad tad tosturiol tuag at ei blentyn yn y fath amgylchiad, ac maent wedi eu rhoddi yma i ddangos parodrwydd rhyfeddol ein Tad nefol i dderbyn pechadur edifeiriol. A'i cusanodd drachefn a thrachefn, meddant, yw ystyr y gair Groeg, a chyda'r serch a'r gwresawgrwydd mwyaf hefyd.

21 A'r mab a ddywedodd wrtho, [l] * *Fy* nhad, pechais [m] yn erbyn y nef, ac o'th flaen dithau; ac nid ydwyf mwy deilwng i'm galw yn fab i ti.

l adn. 18, 19. Jer. 3. 13. Ezec. 16. 63. Rhuf. 2. 4. m Salm 51. 4. a 143. 2. 1 Cor. 8. 12.

Mae llawer yn bwriadu dychwelyd at Dduw dàn effeithiau argyhoeddiad a rhyw weithrediadau cyffredin ar eu meddyliau; ond nid ydynt byth yn cyflawni y bwriadau hyny. Lle byddo yr Ysbryd Glân yn gweithredu yn effeithiol ac yn achubol ar y meddwl, mae yn peri ewyllysio a gweithredu hefyd: bwriadodd yr afradlon hwn, a gwnaeth yr hyn a fwriadodd hefyd: yr ydym yn ei gael ef yma yn gweddio ger bron ei dad, y weddi hòno a fwriadodd yn y wlad bell. * Am y geiriau "Pechais yn erbyn y nef, &c." sylwasom o'r blaen. Nid oes yma ddim sôn am y rhan arall o'r weddi, "Gwna fi fel un o'th weision cyflog;" efallai i'w dad ei rwystro cyn iddo ddyfod at hyny, neu iddo weled nad oedd angen am dani, ei fod yn cael ei dderbyn fel mab.

22 A'r tad a ddywedodd wrth ei weision, * Dygwch allan [n] y wisg oreu, a gwisgwch am dano ef, a rhoddwch [o] fodrwy ar ei law, [p] ac esgidiau am *ei* draed,

n Salm 45. 13. a 132. 9, 16. Es. 61. 10. Ezec. 16. 9—13. Zec. 3. 3, 4. Mat. 22. 11, 12. Rhuf. 3. 22. a 13. 14. Gal. 3. 27. Eph. 4. 22—24. Dat. 3. 4, 5, 18. a 6. 11. a 7. 9, 13, 14. a 19. 8. o Gen. 41. 42. Esther 3. 10. a 8. 2. Rhuf. 8. 15. Gal. 4. 5, 6. Eph. 1. 13, 14. Dat. 2. 17. p Deut. 33. 25. Salm 18. 33. Can. 7. 1. Ezec. 16. 10. Eph. 6. 15.

23 † A dygwch [q] y llo pasgedig, a lleddwch *ef;* a bwyttâwn, ‡ a byddwn lawen.

q Gen. 18. 7. Salm 63. 5. Diar. 9. 2. Es. 25. 6. a 65. 13, 14. Mat. 22. 2, &c.

24 Canys [r] fy mab hwn oedd farw, ac a aeth yn fyw drachefn; *ac* [s] efe a gollesid, ac a gaed. [t] A hwy a ddechreuasant fod yn llawen.

r adn. 32. Mat. 8. 22. Ioan 5. 21, 24, 25. a 11. 25. Rhuf. 6. 13. a 8. 2. 2 Cor. 5. 14, 15. Eph. 2. 1, 5. Col. 2. 12. 1 Tim. 5. 6. Judas 12. Dat. 3. 1. s adn. 4, 8. pen. 19. 10. Gen. 45. 28. Jer. 31. 15—17. Mat. 18. 11—13. t adn. 7, 9, 10. Preg. 9. 7. a 10. 19. Es. 35. 10. a 66. 11. Jer. 31. 12—14. Rhuf. 12. 15. 1 Cor. 12. 26.

Yn lle gwgu mewn soriant ar yr afradlon, ei geryddu, neu wrando yn oerllyd ar ei gyffes edifeiriol; dyma y tad yn tori allan cyn iddo orphen, ac yn galw am y wisg oreu, &c. fel pe dywedasai, Digon, fy anwyl fab, mi a'th welaf yn fyw, wedi dychwelyd, ac yn edifeiriol, nid oes arnaf eisiau chwaneg! Felly ein Duw ni, gwrandaw-wr gweddi ydyw, a Duw parod i faddau. Dywedais, Cyffesaf,—ebai Dafydd, ond cyn iddo braidd wneyd hyn, yr Arglwydd a faddeuodd anwiredd ei bechod. * Gwisg hirllaes, hyd y traed, meddant oedd y *stolé*, a gyfieithir yma gwisg oreu: dywedir na byddai neb o'r gweision cyflog byth yn cael ei gwisgo; gwisg i'r plant oedd: felly yr oedd galw am y wisg oreu yma yn ddangosiad eglur ar yr unwaith mai fel mab yr oedd yr afradlon yn cael ei dderbyn, ac nid fel gwas cyflog. Felly hefyd yr oedd y fodrwy a'r esgidiau yn arwyddocâu, pethau i'r plant oeddynt, ac nid i'r gweision cyflog. Fel hyn mae y pechadur edifeiriol yn cael ei wisg oreu, mantell cyfiawnder Iesu; yn derbyn ysbryd mabwysiad; yn cael ei ddarpar drwy heddwch cydwybod, ac ymddybyniad ffyddiog ar drugaredd a gras yr efengyl, i rodio gyda hyfrydwch yn llwybrau yr efengyl. Rhyfedd y cyfnewidiad a ddaeth mewn ychydig amser i'r afradlon hwn: ychydig yn ol, yr oedd ei wisg yn garpiog, o[illegible] nad oedd yn hollawl noeth; yn awr dyma ef yn y wisg oreu: ychydig yn ol, yr oedd yn gaeth-was gwael hel[illegible] na modrwy nac esgidiau; yn awr dyma bob un o'r ddau[illegible] ganddo, fel arwyddion maboliaeth, cariad, rhyddid, a[illegible] anrhydedd: ychydig yn ol, chwennychai lenwi ei fol â' [illegible] cibau a fwytâai y moch; yn awr dyma efe yn gwledd[illegible] ar y llo pasgedig: ychydig yn ol, yr oedd galar, cywil[illegible] ydd, euogrwydd, ofn, ac angau yn ei gydwybod; yn aw[illegible] mae y pethau hyny oll wedi ffoi, ac yntau yn llawen a[illegible] yn gorfoleddu. Fel hyn a mwy o lawer, y gwna Duw [illegible] bawb a ddychwelant ato ef, ac oni ddylai ei eglwys a' [illegible] holl bobl lawenychu a gorfoleddu mwy nac y maent yn[illegible] wneyd, am bob pechadur a edifarâo? O na bydda[illegible] mwy o'r ddau beth hyn, clafychu a gorfoleddu, yn Sion [illegible] † Mewn gwledydd poethion ni leddid yr un creadur hyd[illegible] yn y fàn y byddai ei eisiau i'w fwyta; o herwydd n[illegible] chadwai cig braidd ddim amser mewn poethder felly[illegible] heb lygru a braenu: gwel Gen. 18. 7, 8. ‡ Nid llawen[illegible] ydd cnawdol, ysgafn, a masweddol oedd yma; eith[illegible] llawenydd sobr, crefyddol, ac eto llawenydd; a hyny c[illegible] eigion calon hefyd, a serch diragrith.

25 [u] * Ac yr oedd ei fab hynaf ef yn y maes; a phan ddaeth efe a nesâu at y tŷ, [x] efe a glywai gynghanedd a dawnsio.

u adn. 11, 12. x pen. 7. 32. Ex. 15. 20. 2 Sam. 6. 14. Salm 30. 11. a 149. 3. a 150. 4. Preg. 3. 4. Jer. 31. 4, 13.

26 Ac wedi iddo alw un o'r gweision, efe a[illegible] ofynodd beth oedd hyn.

27 Yntau a ddywedodd wrtho, [y] Dy frawd[illegible] a ddaeth; [z] a'th dad a laddodd y llo pasgedig, am iddo ei dderbyn ef yn iach.

y adn. 30. Act. 9. 17. a 22. 13. Philemon 16. z adn. 23.

28 [a] Ond efe a ddigiodd, † ac nid âi i mewn. ‡ Am hynny y daeth ei dad allan, ac a ymbiliodd âg ef.

a adn. 2. pen. 5. 30. a 7. 39. 1 Sam. 17. 28. a 18. 8. Es. 65. 5. a 66. 5. Jona 4. 1—3. Mat. 20. 11. Act. 13. 45, 50. a 14. 2, 19. a 22. 21, 22. 1 Thes. 2. 16. b pen. 13. 34. a 24. 47. Gen. 4. 5—7. Jona 4. 4, 9. 2 Cor. 5. 20.

29 ‖ Yntau a attebodd *ac* a ddywedodd wrth *ei* dad, [c] Wele, cynnifer o flynyddoedd yr ydwyf yn dy wasanaethu di, ac ni throsedd-ais i un amser dy orchymyn; ac [d] ni roddaist fynn erioed i mi, i fod yn llawen gyd â'm cyfeillion:

c pen. 17. 10. a 18. 9, 11, 12, 20, 21. 1 Sam. 15. 13, 14. Es. 58. 2, 3. Zec. 7. 3. Mat. 20. 12. Rhuf. 3. 20, 27. a 7. 9. a 10. 3. Phil. 3. 4—6. 1 Ioan 1. 8—10. Dat. 3. 17. d adn. 7. pen. 19. 21. Mal. 1. 12, 13. a 3. 14. Dat. 2. 17.

30 § Eithr pan [e] ddaeth dy fab hwn, yr hwn a [f] ddifâodd dy fywyd di gyd â phutteiniaid, ti a leddaist iddo ef y llo pasgedig.

e adn. 32. pen. 18. 11. Ex. 32. 7, 11. f adn. 13, 22, 23.

31 * Ac efe a ddywedodd wrtho, [g] Fy mab, yr wyt ti yn wastadol gyd â mi, a'r eiddo fi oll ydynt eiddot ti.

g pen. 19. 22, 23. Mat. 20. 13—16. Marc 7. 27, 28. Rhuf. 9. 4. a 11. 35.

32 [h] † Rhaid oedd llawenychu, a gorfoleddu: [i] ‡ oblegid dy frawd hwn ‖ oedd yn farw, ac a aeth yn fyw drachefn; ac a fu golledig, ac a gafwyd.

h pen. 7. 34. Hos. 14. 9. Jona 4. 10, 11. Rhuf. 3. 4, 19. a 15. 9—13. i adn. 24. Eph. 2. 1—10.

* Fel y mab hynaf hwn, yr oedd y Phariseaid yn grwgnach am fod Crist yn derbyn pechaduriaid; yr hyn oedd afresymol iawn pe buasent hwy mòr gyfiawn ag yr oeddent yn tybied eu bod. Felly yr Iuddewon wedi hyny, wrth weled yr efengyl yn myned at y cenedloedd, a hwy yn ei derbyn, ac yn cael eu dwyn i'r eglwys. Gwel yn enwedig Act. 13. 45; a 22. 21, 22, 23. Felly

y fyd y mae llawer eto, dynion o ysbryd Phariseaidd, a
ldo wedi byw yn lled foesol, a chrefyddol yn eu golwg
hunain; lled oerllyd yr edrychant ar bechaduriaid
wrion yn dychwelyd, ac yn cael eu derbyn i eglwys
iluw. Tramgwyddant hefyd yn fawr, wrth yr athraw-
eth o rad a phen-arglwyddiaethol ras Duw i'r gwaethaf
annheilyngaf o bechaduriaid. † Nid âi y mab hynaf
yn i mewn:—felly y Phariseaid, ni dderbynient Grist
n ei fod ef yn derbyn pechaduriaid ac yn bwyta gyda
ynt. Felly yr Iuddewon yn gyffredin, nid âent i
newn i eglwys y Testament Newydd am fod y cenedl-
dd yn cael eu derbyn iddi. Ac felly llawer eto, o
rwydd yr athrawiaeth a soniwyd, tramgwyddant mòr
wr, rai o honynt, fel y gwrthodant Grist a'r efengyl
y dinystr eu hunain. ‡ Eto nid yw Duw yn cymmeryd
gwrthodiad cyntaf; ond y mae yn para megys i ym-
l â hwy am ddyfod i gymmod âg ef. || Fel y mab
rnaf hwn, tybiai y Phariseaid eu bod yn gwneuthur
wer o wasanaeth i Dduw, ac yn cadw ei orchymynion ef
fanol iawn; ond nad oedd efe ddim wedi bod mòr dda
dynt hwy ag y dylasai fod: tybient hwy mai i'r genedl
ddewig y dylasai holl fendithion teyrnas y Messiah
rthynu; edrychent ar y cenedloedd a'r pechaduriaid
da'r dirmyg mwyaf, yn annheilwng o gael eu hystyr-
d fel brodyr, a chyd-gyfranogion o freintiau teyrnas y
essiah; ac ni allent oddef meddwl iddynt gael eu
wneyd yn gystal â hwy, llawer llai cael eu breintio yn
wch na hwy. Tebyg i hyn eto yw ysbryd ac ymddyg-
d proffeswyr deddfol a hunan-gyfiawn: beïant yn
ligywilydd ar oruchwyliaethau gras Duw; a gwrthod-
nt gynnygion grasol yr efengyl iddynt eu hunain.
"Dy fab hwn:" yr oedd y mab hynaf yn rhy falch, yn
ay ddig, ac yn rhy ddeddfol, i arddelwi yr afradlon fel
rawd iddo ef. Er bod y cyhuddiad yn ei erbyn yn rhy
ir, eto annaturiol iawn ydoedd o enau y naill frawd yn
byn y llall: yr un modd, ac yr un mòr annaturiol, y
wgnachai y Phariseaid yn erbyn y pechaduriaid, ac y
wgnachai yr Iuddewon yn gyffredin yn erbyn y
nedloedd. Yr oedd digon yn yr efengyl iddynt oll,
nd nid âent hwy i mewn. * Mae y tad yn ymresymu
n dirion ac yn amyneddgar iawn â'r mab anynad hwn:
l pe dywedasai, Cŵyn anghyfiawn a diachos yw dy
ŵyn di, myfi a ofelais am danat ti bob amser hyd yma;
efaist ran o fywioliaeth fras a chyflawn bob dydd; ac
n awr, nid wyf yn bwriadu dy ddietifeddu di, na'th
lodi mewn un modd wrth dderbyn fy mab afradlon,
ae digon i bob un o honoch. Felly bu Duw yn dda
wn i'r Iuddewon am oesoedd lawer, pan oedd y cen-
dloedd yn cael eu gadael megys yn y wlad bell, ac heb
d yn gyfranogion o'u breintiau hwy: ac ni ddylasent
wgnach pan ddaeth amser Duw i alw y cenedloedd,
nd cyd-lawenâu âg ef yn hytrach. † Rhaid llawen-
chu: rhaid gan Dduw, rhaid gan angelion, a rhaid
an bob enaid gwir rasol. Rhaid wrth reswm ar y fath
chlysur nodedig, a rhaid yn ol pob teimlad o gariad
c ewyllys da. ‡ Dy fab hwn, ebai y mab hynaf, yn
diystyrllyd; digon gwir, ebai y tad, nid wyf fi am ei
adu, ac mae yn ofidus genyf dy glywed di yn ei ddir-
nygu: fy mab I ydyw, a dy frawd dithau ydyw, wedi y
wbl. Mae iaith y tad yma yn dangos i ni, y dylai y
ynion gorau edrych ar y pechaduriaid gwaethaf mewn
hyw ystyr yn frodyr iddynt, ac yn enwedig pan welont
yw argoel o ddychweliad iddynt. || "Oedd farw:" Ar
yna gwel Ephes. 2. 1. a 5. 14. a 1 Tim. 5. 6. Byddai
arwolaeth naturiol eu plant yn llai gofidus i rieni
uwiol, na'u gweled yn troi allan fel y gwnaethai yr
fradlon hwn.

Oddi wrth y ddammeg hon i gyd gwelwn y pethau
anlynol:—1. Cyflwr cyntefig dyn; fel plentyn yn nhŷ
i dad, yn ddedwydd ac heb eisiau dim. 2. Truenusaf
yflwr dynion syrthiedig; yn enwedig y rhai a redant i
rmod rhysedd, y rhai tra annuwiol. 3. Y wir ffordd o
ddychweliad pechaduriaid at Dduw, trwy edifeirwch,
yfaddef y bai a'i adael, a chrefu am faddeuant. 4. Par-
drwydd grasol Duw i dderbyn pechaduriaid edifeiriol;
a'i ryfeddol diriondeb atynt wrth eu derbyn. 5. Yr
eiddig sydd yn nghalonau dynion deddfol, a rhai dynion
da, weithiau, efallai, pan dybiont fod eraill yn derbyn
mwy o diriondeb a chariad gan Dduw na hwynt-hwy.
6. Amynedd ac addfwynder Duw yn ymddwyn tuag atom
ni, yn wyneb ein gwendidau a'n tymherau anfoddog a
grwgnachlyd.

PEN. XVI.

Dammeg y goruchwyliwr anghyfiawn.

AC efe a ddywedodd hefyd wrth ei ddisgyblion, * Yr oedd [a] rhyw wr goludog, † yr hwn oedd ganddo [b] oruchwyliwr; a hwn a gyhuddwyd wrtho, ei fod efe megis [c] yn afradloni ei ddâ ef.

a Mat. 18. 23, 24. a 25. 14, &c. b pen. 8. 3. a 12. 42. Gen. 15. 2. a 43. 19. 1 Cron. 28. 1. 1 Cor. 4. 1, 2. Tit. 1. 7. 1 Pedr 4. 10. c adn. 19. pen. 15. 13, 30. a 19. 20. Diar. 18. 9. Hos. 2. 8. Iago 4. 3.

2 Ac efe a'i galwodd ef, ac a ddywedodd wrtho, [d] || Pa beth yw hyn yr wyf yn ei glywed am danat? [e] dyro gyfrif o'th oruchwyliaeth: [f] canys ni elli fod mwy yn oruchwyliwr.

d Gen. 3. 9—11. a 4. 9, 10. a 18. 20, 21. 1 Sam. 2. 23, 24. 1 Cor. 1. 11. 1 Tim. 5. 24. e Preg. 11. 9, 10. a 12. 14. Mat. 12. 36. Rhuf. 14. 12. 1 Cor. 4. 5. 2 Cor. 5. 10. 1 Pedr 4. 5. Dat. 20. 12. f pen. 12. 20. a 19. 21—26.

* Wrth y gwr goludog yn y ddammeg hon, mae i ni ddeall, Duw; yr hwn sydd berchenog pob peth, yn y nefoedd ac ar y ddaear. † Wrth y goruchwyliwr mae i ni ddeall, dynion; y rhai yr ymddiriedodd Duw gyflawnder o bethau tymorol iddynt. ‡ Wrth y da, mae i ni ddeall, golud y byd hwn, yr hwn a gam-ddefnyddir; neu unrhyw beth y galler gwneyd defnydd da neu ddrwg o hóno; megys aelodau a synwyrau ein cyrph, yn enwedig y tafod; cynneddfau yr enaid; iechyd, grym, doniau, dysgeidiaeth, &c. yn nghyd a phob rhan o'n cyfoeth, pa un bynag ai ychydig ai llawer a fyddo. || Gŵyr Duw yn dda pa ddefnydd mae pob dyn yn wneyd o'i drugareddau ef; geilw bawb o honom i gyfrif manol, a thrŷ y rhai anffyddlawn allan o'u goruchwyliaeth yn angeu, os nid cyn hyny.

3 A'r goruchwyliwr [g] a ddywedodd ynddo ei hun, [h] * Pa beth a wnaf? canys y mae fy arglwydd yn dwyn yr oruchwyliaeth oddi arnaf: [i] † cloddio nis gallaf, *a* [k] chardotta sydd gywilyddus gennyf.

g pen. 18. 4. Esther 6. 6. h pen. 12. 17. Es. 10. 3. Jer. 5. 31. Hos. 9. 5. Act. 9. 6. i Diar. 13. 4. a 15. 19. a 18. 9. a 19. 15. a 21. 25, 26. a 24. 30—34. a 26. 13—16. a 27. 23—27. a 29. 21. 2 Thes. 3. 11. k pen. 16. 20, 22. Diar. 20. 4. Marc 10. 46. Ioan 9. 8. Act. 3. 2.

4 [l] ‡ Mi a wn beth a wnaf, fel, pan y'm bwrier allan o'r oruchwyliaeth, y derbyniont fi i'w tai.

l Diar. 30. 9. Jer. 4. 22. Iago 3. 15.

* Nis gallai y goruchwyliwr hwn wadu y cyhuddiad, na dal gafael yn yr oruchwyliaeth yn hwy: felly dynion anffyddlawn, ni bydd ganddynt ddim i wneyd ond myned yn fud pan ddelo Duw i gyfrif â hwynt, a chymmeryd eu diosg o bob peth oedd ganddynt. † Cloddio, y gwaith caletaf; a chardota, y fywioliaeth iselaf a thlotaf: nid arferasai y goruchwyliwr hwn y naill nac y llall o honynt erioed, ac yr oedd yn annodd iawn plygu at yr un o honynt yn awr, wedi byw cyhyd yn esmwyth ac yn foethus ar dda ei arglwydd. Tebyg i hyn yw y pechadur yn ei galedi, nis gŵyr pa beth i wneyd; mae yn gweled erbyn hyn nas *gall* weithio allan ei iachawdwriaeth ei hunan, ac hefyd mae yn rhy falch a gwarsyth i'w cheisio trwy faddeuaut a thrugaredd rad gan Dduw. ‡ Gwedi myned o ystyriaeth, penderfynodd y dyn hwn pa beth i wneyd, er cael ei gynnal gan ddeiliaid ei arglwydd ar ol colli yr oruchwyliaeth: ac yr oedd ei ddyfais ddiweddaf hon mòr anghyfiawn ag y buasai ei oruchwyliaeth yr holl amser o'r blaen; gwneyd yn anonest âg eiddo ei

arglwydd. Gwedi eu hudo fel hyn i fod yn gyfranog o'r twyll, nis gallent hwy ei gyhuddo ef wrth eu harglwydd neb eu cyhuddo eu hunain hefyd: ac os nacâent unrhyw amser ei dderbyn ef i'w tai, a'i gynnorthwyo ef yn ei angen, yr oedd yn ei allu ef eu cyhuddo hwy er eu mawr niwed a gwarth i'w henwau da.

5 Ac wedi iddo alw atto bob un o [m] ddyledwyr ei arglwydd, efe a ddywedodd wrth y cyntaf, Pa faint sydd arnat ti o ddyled i'm harglwydd?

m pen. 7. 41, 42. Mat. 18. 24.

6 Ac efe a ddywedodd, * Càn mesur o olew. † Ac efe a ddywedodd wrtho, [n] Cymmer dy ysgrifen, ac eistedd ar frys, ac ysgrifena ddeg a deugain.

n adn. 9, 12. Tit. 2. 10.

7 Yna y dywedodd wrth *un* arall, A pha faint o ddyled sydd arnat tithau? Ac efe a ddywedodd, [o] ‡ Càn mesur o wenith. Ac efe a ddywedodd wrtho, Cymmer dy ysgrifen, ac ysgrifena bedwar ugain.

o pen. 20. 9, 10. Can. 8. 11, 12.

8 ‖ A'r arglwydd a ganmolodd y [p] goruchwyliwr anghyfiawn, am iddo [q] wneuthur yn gall: [r] oblegid y mae § plant y byd hwn [s] yn gallach yn eu cenhedlaeth nâ * [t] phlant y goleuni.

p adn. 10. pen. 18. 6. q adn. 4. Gen. 3. 1. Ex. 1. 10. 2 Sam. 13. 3. 2 Bren. 10. 19. Diar. 6. 6—8. r pen. 20. 34. Salm 17. 14. 1 Cor. 3. 18, 19. Phil. 3. 19. s Salm 49. 10—19. Mat. 17. 26. t Ioan 12. 36. Eph. 5. 8. 1 Thes. 5. 5. 1 Pedr 2. 9. 1 Ioan 3. 10.

* Y *mesur* hwn oedd yr un â *bath* yr Hen Destament tybir, yn cynnwys tua phedair galwyn a hanner meddant; felly yr oedd y càn mesur yn cynnwys 450 o alwyni, neu ragor medd rhai. † Yn hyn yr oedd y twyll, y goruchwyliwr anghyfiawn yn annog dyledwyr ei arglwydd i ysgrifenu y ddyled yn llawer llai nac ydoedd, ac efe ei hun yn ysgrifenu yr un peth yn ddiammau yn ei gyfrifon yntau. Pa le mae cydwybod a gonestrwydd y dynion a wnelont fel hyn, a pha le mae eu meddwl am holl-wybodaeth Duw, a dydd mawr y cyfrif? ‡ Y mesur hwn oedd yr un â homer, neu corus yr Hen Destament tybir, a chynnwysai y càn mesur 560 o'r mesurau a elwir *bushels* yn y wlad hon meddant. Mewn olew ac ŷd y byddid yn talu ardreth tiroedd i'w perchenogion efallai, ac yr oedd y dynion uchod yn nyled eu harglwydd debygid, o'r mesurau a enwyd o olew a gwenith. ‖ Canmol *cyfrwysder* y goruchwyliwr anghyfiawn a wnaeth ei arglwydd, ac nid canmol y weithred ynddi ei hun: am iddo wneuthur yn *gall*, nid am iddo wneuthur yn anghyfiawn: ei gallineb ef, a'i ofal yn darpar iddo ei hun, yw y peth a roddir i ni i'w ddynwared yn y ddammeg, ac nid ei anonestrwydd ef. § "Plant y byd hwn:" y rhai mae eu rhan yn y bywyd yma, y rhai mae eu holl fasnach yn mhethau y byd hwn, ac nid ydynt yn ymofyn dim am y byd a ddaw. * "Plant y goleuni:" proffeswyr yr efengyl, y rhai sydd yn derbyn goleu yr efengyl, a chwedi eu troi gan yr efengyl o dywyllwch i oleuni. Mae plant y byd hwn yn gallach na phlant y goleuni: hyny yw, yn fwy doeth a chyfrwys i drin y byd hwn nag ydyw dynion duwiol; neu, yn gallach ac yn fwy diwyd i drin y byd hwn, nag ydyw plant y goleuni gyda gwaith Duw, ac achos mwy pwysig eu heneidiau. Mae hyn yn gywilydd i blant y goleuni.

9 Ac yr wyf yn dywedyd i chwi, [u] * Gwnewch i chwi gyfeillion [x] o'r mammon anghyfiawn: † fel, [y] pan fo eisieu arnoch, y'ch derbyniont [z] i'r tragywyddol bebyll.

u pen. 11. 41. a 14. 14. Diar. 19. 17. Es. 58. 7, 8. Dan. 4. 27. Mat. 6. 19. a 25. 35—40. Act. 10. 4, 31. 2 Cor. 9. 12—15. 1 Tim. 6. 17—19. 2 Tim. 1. 16—18. x adn. 11, 13. Mat. 6. 24. y Salm 73. 26. Preg. 12. 3—7. Es. 57. 16. z 2 Cor. 4. 17, 18. a 5. 1 1 Tim. 6. 18, 19. Judas 21.

* Mae y gair mammon yn arwyddo golud, duw y golud, neu lawnder, yn mhlith y Groegiaid oedd mammon. Tybir mai nid golud wedi ei gasglu trwy anghyfiawnder a feddylir yma wrth y mammon anghyfiawn; ond yn hytrach golud darfodedig, twyllodrus, sydd mòr aml yn siomi ei berchenog, mewn cyferbyniad i'r gwir olud yn adn. 11. Gwnewch i chwi gyfeillion o hóno, fel y gwnaeth y goruchwyliwr anghyfiawn, ond nid mewn ffordd anghyfiawn fel efe: Gwnewch Dduw yn gyfaill; nid trwy haeddu dim ar ei law ef, ond trwy ufuddâu i'w ewyllys ef mewn iawn ddefnyddiad o'ch golud. Gwnewch y duwiolion tlodion yn gyfeillion, fel y caffoch eu gweddïau drosoch. † Pan ddeloch i farw, pan fyddo arnoch eisiau pethau nas gall golud y byd hwn eu rhoddi, y'ch derbyniont i'r tragywyddol bebyll. Cyfeiriad sydd yma at y goruchwyliwr yn dywedyd, "Fel y derbyniont fi i'w tai." Y tragywyddol bebyll yw y nef, tŷ ein Tad, lle mae llawer o drigfanau: derbynir y saint yno gan y Drindod, gan yr angelion, a chan y credinwyr tlodion hyny a gynnorthwyasant hwy â'u golud yn y byd hwn. Ond trwy Grist yn unig y bydd y derbyniad.

10 * Y neb sydd [a] ffyddlawn yn y lleiaf, sydd ffyddlawn hefyd mewn llawer; [b] a'r neb sydd anghyfiawn yn y lleiaf, sydd anghyfiawn hefyd mewn llawer.

a adn. 11, 12. pen. 19. 17. Mat. 25. 21, 23. Heb. 3. 2. b Ioan 12. 6. a 13. 2, 27.

* Yn gyffredin felly y mae: fel y byddo ffyddlondeb neu anffyddlondeb dynion mewn pethau bychain, felly y bydd mewn pethau mwy; ac yn ol ei ffyddlondeb dyrchefir gwas o sefyllfa isel i un a fyddo uwch: nid oes neb doeth a wna hyny â gwas twyllodrus, anffyddlon.

11 Am hynny, oni buoch ffyddlawn [c] yn y * mammon anghyfiawn, pwy a ymddiried i chwi am [d] † y gwir *olud?*

c adn. 9. d pen. 12. 33. a 18. 22. Diar. 8. 18, 19. Eph. 3. 8. Iago 2. 5. Dat. 3. 18.

* Am y mammon anghyfiawn sylwyd o'r blaen ar adn. 9: golud anwadal yw, yr hwn er ei gael yn gyfiawn, efallai, a ddefnyddir yn aml yn ddigon anghyfiawn, wrth ei attal yn fwy nag a weddai, neu ei dreulio ar ein melus chwantau. † Y gwir olud yw y bendithion hyny sydd yn ardderchogi ac yn llawn ddigoni yr enaid byth. Os na byddwn ni ffyddlawn mewn golud bydol, y peth lleiaf, i'w iawn ddefnyddio; pa fodd y gallwn ddysgwyl y rhydd Duw i ni bethau mwy gwerthfawr y nefoedd? a pha sail sydd genym i feddwl ein bod yn feddiannol arnynt eisoes?

12 * Ac oni buoch ffyddlawn [e] yn yr eiddo arall, † pwy a rydd i chwi [f] yr eiddoch eich hun?

e pen. 19. 13—26. 1 Cron. 29. 14—16. Job 1. 21. Ezec. 16. 16—21. Hos. 2. 8, 9. Mat. 25. 14—29. f pen. 10. 42. Col. 3. 3, 4. 1 Pedr 1. 4, 5.

* Eiddo arall yw pethau y byd hwn, nid eiddo y cyfoethogion, goruchwylwyr ydynt hwy: eiddo Duw, i'w defnyddio yn ol ei ewyllys ac er ei ogoniant ef; eiddo y tlodion hefyd, er eu diwallu a'u dianghenu. † Eiddo Duw yw gras yn gystal a golud bydol; ond ar ol ei gael, mae yn eiddo yr enaid a'i caffo, yn rhan na ddygir byth oddi arno. Mae llawer o rasau y saint i'w defnyddio at wasanaeth eraill, ond am gyfiawnâd a sancteiddiad yn enwedig, eu heiddo hwy eu hunain ydynt. Y dyn anffyddlawn mewn pethau bydol, pa fodd y gall ddysgwyl grasau ysbrydol? Tybir fod yn yr adnod hon gyfeiriad at yr arfer o wobrwyo goruchwylwyr ffyddlawn, drwy roddi iddynt hwy ran o'r etifeddiaeth yn eiddo eu hunain.

13 ¶ [g] Ni ddichon un gwas wasanaethu dau arglwydd: canys naill ai efe a [h] gasâ y naill, ac a gâr y llall: ai efe a lŷn wrth y naill,

a * ddirmyga y llall: ni ellwch wasanaethu
aw a mammon.

g pen. 9. 50. a 11. 23. Jos. 24. 15. Mat. 4. 10. a 6. 24. Rhuf. 5—22. a 8. 5—8. Iago 4. 4. 1 Ioan 2. 15, 16. h pen. 14. 26. Gwel ar Matth. 6. 24. * "Dirmygu" sydd yma, esuluso yn Matthew; ond yr un gair Groeg (*kataphronw*) sydd yn y ddau le; dirmygu yw.

14 * A'r Phariseaid hefyd, [i] y rhai oedd
angar, a glywsant y pethau hyn oll, † ac a'i
watwarasant ef.

i pen. 12. 15. a 20. 47. Es. 56. 11. Jer. 6. 13. a 8. 10. Ezec. 22. 29. a 33. 31. Mat. 23. 14. k pen. 8. 53. a 23. 35. Salm 35. 16. a 119. 51. Es. 53. 3. Jer. 20. 7, 8. Heb. 11. 36. a 12. 2, 3.

Heblaw y chwant o ariangarwch, yr hyn sydd ry
ddol i bawb; yr oedd yn bwnc mawr yn nghredo y
ariseaid, mai y cyfoethogion yn unig oedd yn dded-
ld, ac yn fendigedig gan Dduw; a bod yr holl ddynion
lion yn felldigedig, Ioan 7. 48, 49. Tybia rhai mai
a golwg ar y dyb gyfeiliornus hòno y bendithiodd
st y tlodion, pen. 6. 29. † Mae y gair a gyfieithir
atwar yma, yn arwyddo gwatwar gyda'r dirmyg mwy-
ggwatwar a llaesu gwefl arno, Salm 22. 7. Yr oedd
riau Crist yn taro yn erbyn eu cred, eu hathrawiaeth,
chwant, a'u harferion hwy, am hyny ni allent eu
idef heb watwar.

15 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [l] * Chwy-
wi yw y rhai sydd yn eich cyfiawnhâu eich
nain ger bron dynion; [m] † eithr Duw a ŵyr
h calonnau chwi: [n] ‡ canys y peth sydd
hel gyd â dynion, sydd ffiaidd ger bron
iw.

l pen. 10. 29. a 11. 39, 40. a 18. 11, 12, 21. a 20. 20, 47. Diar. 6. Mat. 6. 2, 5, 16. a 23. 5, 25—27. Rhuf. 3. 20. Iago 2. 21—25. 1 Sam. 16. 7. 1 Cron. 29. 17. 2 Cron. 6. 30. Salm 7. 9. a 139. 1, er. 17. 10. Ioan 2. 25. a 21. 17. Act. 1. 28. a 15. 8. 1 Cor. 4. 5. 2. 23. n Salm 10. 3. a 49. 13, 18. Diar. 16. 5. Es. 1. 10—Amos 5. 21, 22. Mal. 3. 15. 1 Pedr 3. 4. a 5. 5.

* Trwy rith o grefydd, a manylrwydd mewn cyflawn-
au traddodiadol, ymddangosai y Phariseaid yn gyf-
yn ger bron dynion, a thybiai y werin annwybodus
bod yn gyfiawn iawn; † ond yr oedd Duw yn gweled
wy y rhith allanol, ac yn canfod llygredigaeth, arian-
rwch, a chybydd-dod eu calonau hwy, ac felly y mae
. ‡ Nid un peth, ond y mae llawer iawn o bethau,
nel yn ngolwg dynion, yn dra ffiaidd yn ngolwg Duw.
oedd y Phariseaid a'u cyflawniadau deddfol a rhag-
niol yn uchel yn ngolwg dynion, yn eu golwg eu
nain ac eraill, ond yr oeddynt hwy a'u cyflawniadau
ffiaidd yn ngolwg Duw. Gwael iawn yw bod yn
nel yn ngolwg dynion, a bod ar yr un pryd yn ffiaidd
ngolwg Duw.

16 [o] * Y gyfraith a'r prophwydi *oedd* hyd
an: † er y pryd hwnnw [p] y pregethir teyrnas
dduw, [q] ‡ a phob dyn sydd yn ymwthio iddi.

o adn. 29, 31. Mat. 11. 9—14. Ioan 1. 45. Act. 3. 18, 24, 25. pen. 9. 2. a 10. 9, 11. Mat. 3. 2. a 4. 17. a 16. 7. Marc 1. 14. pen. 7. 26—29. Mat. 21. 32. Marc 1. 45. Ioan 11. 48. a 12. 19.

* Paràodd goruchwyliaeth yr Hen Destament hyd
an, i gysgodi Crist, ac i brophwydo am dano: y gyf-
ith, a'r prophwydi i egluro a phregethu y gyfraith.
Ni pharàodd yr oruchwyliaeth ddim ond hyd Ioan;
pryd hyny y mae teyrnas Dduw, gwirioneddau gol-
nch am y Messiah a'i deyrnas, yn cael eu pregethu;
ac er eich bod chwi y Phariseaid yn gwatwar, y mae
wer iawn yn ymwthio, megys er eich gwaethaf chwi,
newn i deyrnas y Messiah. Cawsom sylwedd yr adnod
n o'r blaen, yn Matth. 11. 12, 13; gwel y sylwadau
o.

17 [r] * A haws yw i nef a daear fyned
eibio, [s] nag i un tippyn o'r gyfraith ballu.

r pen. 21. 33. Salm 102. 25—27. Es. 51. 6. Mat. 5. 18. 2 Pedr 10. Dat. 20. 11. a 21. 1, 4. s Es. 40. 8. Rhuf. 3. 31. 1 Pedr 25.

* Er bod goruchwyliaeth newydd yn dyfod i mewn,
b ni ddylid meddwl bod hon yn groes i gyfraith Moses;
oblegid haws i nef a daear fyned heibio nag i un tippyn (yr un darn lythyren) o'r gyfraith ballu, heb ateb ei dyben bwriadol. Cyflawnwyd yr holl ddeddf seremoniol yn Nghrist y sylwedd mawr a gysgodai; mawrygwyd yr holl ddeddf foesol yn ei ufudd-dod a'i angeu ef; a chadarnhawyd hi yn ei chyflawn awdurdod yn y grefydd bur a sanctaidd a osododd efe i fynu; ac amddiffynwyd hi hefyd rhag y gau agoriadau a roddwyd arni gan y doctoriaid Iuddewig.

18 Pwy bynnag [t] a ollyngo ymaith ei
wraig, ac a briodo un arall, y mae efe yn
godinebu; a phwy bynnag a briodo yr hon a
ollyngwyd ymaith oddi wrth *ei* gwr, y mae efe
yn godinebu.

t Mat. 5. 32. a 19. 9. Marc 10. 11, 12. 1 Cor. 7. 4, 10—12.

Gwel y sylwadau ar Matth. 5. 32; a 19. 9. Ysgariaethau anghyfreithlawn yr Iuddewon oedd yn tori y gyfraith, nid athrawiaeth sanctaidd Iesu.

19 ¶ * Yr oedd rhyw [u] wr goludog, [x] † ac
a wisgid [y] â phorphor a llian main, ac yr oedd
yn cymmeryd byd da yn helaethwych beun-
ydd:

u pen. 12. 16—21. a 18. 24, 25. Iago 5. 1—5. x adn. 1. pen. 15. 13. Job 21. 11—15. Salm 73. 3—7. Ezec. 16. 49. Amos 6. 4—6. Dat. 17. 4. a 18. 7, 16. y Barn. 8. 26. Esther 8. 15. Ezec. 16. 13. a 27. 7. Marc 15. 17, 20.

20 ‡ Yr oedd hefyd [z] ryw gardottyn, a'i
enw [a] Lazarus, yr hwn [b] a fwrid wrth ei borth
ef [c] yn gornwydlyd,

z pen. 18. 35—43. 1 Sam. 2. 8. Iago 1. 9. a 2. 5. a Ioan 11. 1. b Act. 3. 2. c adn. 21. Job 2. 7, 8. Salm 34. 19. a 73. 14. Es. 1. 6. Jer. 8. 22.

21 [d] Ac yn chwennychu cael ei borthi [e] â'r
briwsion a syrthiai oddi ar fwrdd y gwr cyf-
oethog; ‖ ond y cŵn a ddaethant, ac a lyfas-
ant ei gornwydydd ef.

d 1 Cor. 4. 11. 2 Cor. 11. 27. e Mat. 15. 27. Marc 7. 28. Ioan 6. 12.

22 A bu, [f] i'r cardottyn farw, [g] a'i ddwyn
gan yr angelion [h] § i fynwes Abraham. [i] A'r
goludog hefyd a fu farw, [k] ac a gladdwyd:

f Job 3. 13—19. Es. 57. 1, 2. Dat. 14. 13. g Salm 91. 11, 12. Mat. 13. 38—43. a 24. 31. Heb. 2. 14. h Mat. 8. 11. Ioan 13. 23. a 21. 20. i pen. 12. 20. Job 21. 13, 30—32. Salm 49. 6—12, 16—19. a 73. 18—20. Diar. 14. 32. Marc 8. 36, 37. Iago 1. 11. 1 Pedr 2. 24. k 2 Bren. 9. 34, 35. Preg. 8. 10. Es. 14. 18. a 22. 16.

Gwedi ceryddu yr Iuddewon yn yr adnodau o'r blaen, mae Crist yma yn dychwelyd i ymadrodd yn mhellach yn nghylch yr iawn ddefnyddiad o gyfoeth bydol. Mŷn rhai mai dammeg yw y geiriau; mŷn eraill mai hanes gwirioneddol ydynt am bethau oedd wedi dygwydd: efallai y gallwn eu hystyried yn bob un o'r ddau yn ddigon priodol. * Y rhai a dybiant mai hanes yw, a ddywedant mai Herod oedd y gwr goludog; ac mai rhyw ddyn tlawd duwiol, a adwaenid fel cardotyn yn y dyddiau hyny, oedd Lazarus. Ystyr y gair Lazarus, meddant yw, cynnorthwy Duw; neu, yr hwn mae Duw yn gymhorth iddo. Dyn digymhorth, medd *Doddridge*. *Dives* yw y gair Lladin am *oludog* yn y fàn hon, ac yn mhob màn arall efallai; ac am hyny gelwir y ddammeg hon yn ddammeg Dives a Lazarus, gan y Cymry a'r Saeson hefyd; pryd nas gŵyr ond ychydig o honynt beth yw ystyr y gair *Dives*, na pha iaith ydyw. † Darlunir gwisg y gwr goludog hwn o'r fath mwyaf drudfawr a gorwych; a'i ymborth o'r fath mwyaf danteithiol a moethus. Fel hyn mae y rhan fwyaf o fawrion y byd hwn yn gwario eu holl drysorau arnynt eu hunain, er ymddangos yn anrhydeddus yn y byd, ac er porthi eu chwantau blysig ac anifeilaidd, heb ystyried dim am y tlodion, dydd y cyfrif, nac uffern y lle poenus hwnw. Tybir mai breninoedd a rhai o'r gwaed breninol, yn unig a wisgent borphor unwaith; ac yn amser Crist, nid oedd ond uchelwyr goludog yn ei wisgo. ‡ Darlunir y cardotyn yn resynol iawn, yn dlawd, yn newynog, yn

gornwydlyd, ac yn noeth; pe amgen ni allasai y cŵn lyfu ei gornwydydd ef. Chwennychai gael ei borthi â'r briwsion oddi ar fwrdd y goludog: nid oes hanes iddo gael dim; a dywedir bod y geiriau *ni roddodd neb iddo* mewn rhai cyfieithiadau. || Beth bynag oedd effaith hyn ar gornwydydd y cardotyn, mae yn amlwg mai i'r dyben o ddangos gresyni ei sefyllfa ef y dywedir i'r cŵn ddyfod a'u llyfu hwynt. Yn lle "*ond* y cŵn a ddaethant," dylid cyfieithu y geiriau Groeg *(alla kai,)* "*ïe*, y cŵn a ddaethant," medd amryw ddysgedigion. § "Mynwes Abraham" ydoedd ymadrodd drwy ba un y gosodai yr Iuddewon allan ddedwyddwch eneidiau y rhai cyfiawn, yn y fàn y byddent feirw; dywedent y byddent yn cael eu dwyn yno gan angelion da. Yr oedd hyn yn deilliaw oddiwrth arfer yr Iuddewon o eistedd, neu yn hytrach o led-orwedd yn eu gwleddoedd, y naill a'i ben yn mynwes y llall. (Gwel ar Luc 7. 38.) Fel hyn cafodd Lazarus, y cardotyn tlawd, yr anrhydedd a'r dedwyddwch o fyned yn nesaf at Abraham, tad y ffyddloniaid, a chyfaill Duw, yn y nef, er bod yma wrth borth y gwr goludog yn crefu am ei dammaid. Tebyg i hyn yw hi ar lawer o blant anwylaf Duw yn y byd hwn; ond wedi marw, e dry pethau yn llawer iawn gwell.

23 * Ac [l] yn uffern efe a gododd ei olwg, ac efe [m] mewn poenau, [n] † ac a ganfu Abraham o hirbell, ‡ a Lazarus yn ei fynwes.

l Salm 9. 17. a 16. 10. a 49. 15. a 86. 13. Diar. 5. 5. a 7. 27. a 9. 18. a 15. 24. Es. 14. 9, 15. Mat. 5. 22, 29. a 18. 9. a 23. 33. 1 Cor. 15. 55. 2 Pedr 2. 4. Dat. 20. 13, 14. m adn. 28. pen. 8. 28. Mat. 8. 29. Dat. 14. 10, 11. a 20. 10. n pen. 13. 28, 29. Mat. 8. 11, 12.

24 || Ac efe a lefodd, ac a ddywedodd, [o] O dad Abraham, [p] trugarhâ wrthyf, a danfon Lazarus, i drochi pen ei fŷs [q] mewn dwfr, [r] ac i oeri fy nhafod: [s] § canys fe a'm poenir yn y fflam hon.

o adn. 30. pen. 3. 8. Mat. 3. 9. Ioan 8. 33—39, 53—56. Rhuf. 4. 12. a 9. 7, 8. p 1 Sam. 28. 16. Es. 27. 11. Iago 2. 13. q Es. 41. 17, 18. a 65. 13, 14. Ioan 4. 10, 14. a 7. 37. Dat. 7. 16, 17. a 22. 1. r Zec. 14. 12. Iago 3. 6. s Es. 66. 24. Mat. 25. 41. Marc 9. 43—49. 2 Thes. 1. 8. Dat. 14. 10, 11. a 19. 20. a 20. 15.

Nid yw angeu dderbyniwr wyneb; ac nis gall holl gyfoeth, mawredd, gwychder, a moethau y byd hwn ei gadw ymaith: ond, yn hytrach, niweidio yr iechyd a byrâu y dyddiau y mae y pethau hyny yn aml, o'u harfer yn anghymmedrol. Gwelsom yn niwedd yr adnod o'r blaen i'r goludog farw, a chael ei gladdu: gyda llawer iawn o rwysg ofer mae yn debyg; a llawer o sôn am ei waedoliaeth uchel, ei *ditlau* anrhydeddus, ei weithredoedd campus, ei rinweddau da, a'i fywioliaeth uchel a thywysogaidd. Ond dacw ef yn y bedd; yn braenu yn ffiaidd, ac yn ymborth i'r pryfed, heb ddim ond maen cerfiedig i gadw coffadwriaeth annheilwng am dano am ychydig flynyddoedd. Enw y drygionus a bydra. * Ond O yr enaid anfarwol, annuwiol, ac annedwydd iawn erbyn hyn! yn uffern efe a gododd ei olwg! Mae y gair Groeg *(Hades)* a gyfieithir uffern, yn arwyddo ystad y meirw neu y byd anweledig, byd yr ysbrydoedd, anweledig i ddynion: ond yma mae yn arwyddo uffern yn ei hystyr briodol, lle y colledigion, y lle poenus hwnw. † Rhaid i ni ystyried fod yr Arglwydd Iesu yn llefaru agos y cwbl oddi yma yn mlaen mewn dull dynol, ac ymadrodd benthyciol, er mwyn ein deall a'n hamgyffred ni: megis y goludog yn gweled Abraham, yn ymddiddan âg ef, yn crefu am ddwfr oer i oeri ei dafod, &c., &c. Nid oedd corph gan y naill nac y llall, i weled, i deimlo, nac i lefaru: dysgrifiad benthyciol yw y cwbl, i osod allan ddedwyddwch ac annedwyddwch dynion yn y byd arall. ‡ Yr oedd gweled un mòr dlawd a dïystyrllyd a Lazarus yn mynwes Abraham yn ddiammau yn chwanegu llawer at ofid y gwr goludog, yn enwedig wrth gofio ei galedwch tuag ato. || Dyma yr unig fàn yn yr ysgrythyrau lle y darllenwn am ddim byd yn debyg i weddïo ar un o'r saint; ac aflwyddo a wnaeth y weddi hon. Nid oedd ei gwrthddrych yn iawn, Abraham ac nid Duw: nid oedd ei hamser yn iawn, wedi marw ac nid yn fyw: nid oedd ei lle yn iawn, yn uffern ac nid ar y ddaear: ac nid oedd ei thestyn yn iawn, dwfr oer i oeri y tafod: ac nid gras i sancteiddio y galon. Felly y galwai y Iuddewon Abraham, a balch iawn oeddynt fod Abraham yn dad iddynt; ond yma dangosir un o blant Abraham o ran y cnawd, wedi myned i uffern am byth. Os oedd llawer o'r Iuddewon yn gwrando y ddammeg hon, y oedd yn sŷn ganddynt glywed yn ddïammau, fod un o had Abraham wedi myned i'r lle poenus hwnw; canys prin y credent hwy, nad âi holl had Abraham i'r un màn ag yntau. § Wrth y deisyfiad hwn, gwelwn mae nid myned i ryw gwsg marwaidd y mae eneidiau dynion yn angau fel y breuddwydia rhai; mae yma deimlad effro a phoenus; a buasai yn dda gan y goludog gael diferyn o ddwfr gan yr hwn ni roddasai iddo friwsionyn o fara.

25 Ac Abraham a ddywedodd, *Ha* [t] * fab, [u] † coffa i ti dderbyn [x] ‡ dy wŷnfyd yn dŷ fywyd, [y] || ac felly Lazarus ei adfyd; ac yn awr y diddenir ef, ac y poenir dithau.

t adn. 24. u adn. 23. Galar. 1. 7. Dan. 5. 22, 23, 30. Marc 9. 46. x pen. 6. 24. Job 21. 13, 14. a 22. 18. Salm 17. 14. a 37. 35, 36. a 49. 17. a 73. 7, 12—20. Rhuf. 8. 7. Phil. 3. 19. 1 Ioan 2. 15, 16. y adn. 20. Ioan 16. 33. Act. 14. 22. 1 Thes. 3. 3, 4. Heb. 11. 25, 26. Dat. 7. 14.

26 § Ac heb law hyn oll, [z] rhyngom ni a chwithau y sicrhâwyd gagendor mawr: fel na allo y rhai a fynnent, dramwy oddi yma attoch chwi; [a] na'r rhai oddi yna, dramwy attom ni.

z 1 Sam. 25. 36. Salm 49. 14. Mal. 3. 18. 2 Thes. 1. 4—10. Iago 1. 11, 12. a 5. 1—7. a pen. 12. 59. Salm 50. 22. Mat. 25. 46. Ioan 3. 36. 2 Thes. 1. 9. Dat. 20. 10. a 22. 11.

* Geilw Abraham y coll-ddyn hwn yn "fab:" gallai fod felly yn ol y cnawd; yn broffeswr o'r grefydd Iuddewig, ac yn gyfranog o freintiau had Abraham pan oedd yn y byd; ac yr oedd meddwl am hyny yn uffern yn ddïau yn chwanegu ei boenau. Bydd yn ofnadwy i blant dynion duwiol os ânt i'r lle poenus hwnw. † Gellir cofio yn uffern, mae yn debyg; a chofio fydd yn gwneyd i fynu lawer o boen y colledigion yno: pe gallent anghofio llawer o bethau byddai yn llai poenus ar y gydwybod. ‡ Nid derbyn gwynfyd a ddywedir, ond "*dy*" wynfyd; yr unig wynfyd a ddewisai efe, digon o fawredd, gwychder, a mwyniant bydol a chnawdol: hyny a chwennychodd efe, a hyny a gafodd; ac wedi cael hyny, nid oedd gwiw iddo ddysgwyl ychwaneg mwyach. || Dyoddefodd Lazarus ei adfyd yn dawel ac amyneddgar, ac yn awr yr oedd tymmor ei adfyd ef, yn gystal a thymmor gwynfyd y goludog, wedi darfod; ac yr oedd ef i gael ei ddyddanu yn y nefoedd, a'r goludog i gael ei boeni yn uffern. Nid am ei fod yn oludog yr oedd y naill yn cael ei boeni, ond am ei fod yn annuwiol: ac nid o herwydd ei adfyd yr oedd y llall yn cael ei ddyddanu, ond am ei fod yn dduwiol ac yn ofni Duw. § Arferai y Groegiaid ddywedyd fod afon ddirfawr rhwng y rhai dedwydd a'r colledigion yn y byd arall, oddi ar lànau yr hon gallent weled eu gilydd ac ymddiddan, ond nas gallent byth ei chroesi y naill at y llall. Y cwbl a feddylir yma yw, bod sefyllfa pob dyn wedi ei sicrâu byth yn y byd arall, ac na bydd dim cyfnewid ar neb. Beth a ddywed y rhai sydd yn dàl adferiad y colledigion o uffern, am y gagendor fawr ac annhrosadwy hon?

27 Ac efe a ddywedodd, * Yr wyf yn attolwg i ti gan hynny, O dad, ddanfon o honot ef i dŷ fy nhad:

28 † Canys y mae i mi bump o frodyr: fel y tystiolaetho iddynt hwy, [b] ‡ rhag dyfod o honynt hwythau hefyd i'r lle poenus hwn.

b Salm 49. 12, 13.

* Dyma ail weddi aflwyddiannus y goludog annobeithiol: gwyddai fod tramwyfa o'r nef i'r ddaear os nad

edd yr un o'r nef i uffern; a chwennychai i Lazarus rned i'r ddaear i rybuddio ei frodyr, &c. † Gan nad ses dim sôn am wraig a phlant, dim ond pump o odyr yn byw yn nghyd yn nhŷ eu tad, gellid meddwl d yr Arglwydd Iesu yn bwriadu dangos y crëadur esynol hwn, fel llawer o foneddigion ieuainc yn ein yddiau ninnau, yn dyfod i feddiant o'i etifeddiaeth yn uanc, yn dinystrio ei hun drwy anghymmedroldeb a ormod rhysedd, ac yn gadael ei feddiannau i'w frodyr uangach. ‡ Gan nad oes cariad, serchiadau naturiol, a thosturi, yn uffern; tybir mai nid er mwyn ei odyr, ond er ei fwyn ei hun mae efe am eu rhybuddio nag myned o honynt i'r lle poenus hwnw. Gwyddai ldo ef fod yn foddion i'w llygru, a'u tynu i bechodau, gwyddai os yno y deuent y byddai eu presenoldeb yn uwanegu ei boenau ef. Efallai mai prif amcan y eiriau yw dangos, er bod dynion annuwiol tra byddont ma, yn gwawdio uffern, ac yn dirmygu duwiolion; o, pan elont i uffern, eu bod yn gweled eu cam-gym- eriad dychrynllyd; ac od oes ynddynt y gradd lleiaf o ynerwch a thosturi, dymunent rybuddio pawb rhag eu yfod i'r lle ofnadwy hwnnw. Tebyg i'r sylw olaf hwn w golygiad *Pool.*

29 Abraham a ddywedodd wrtho, [c] * Y mae ganddynt Moses a'r prophwydi: gwran- awant arnynt hwy.

c adn. 16. Es. 8. 20. Mal. 4. 2—4. Ioan 5. 39—45. Act. 15. 21. 17. 11, 12. 2 Tim. 3. 15—17. 2 Pedr 1. 19—21.

* Fel pe dywedasai Abraham, Mae y deisyfiad yn resymol; nid â Duw ddim allan o'i lwybr cyffredin i gyhoeddi dynion: trwy ei air mae efe yn arfer gwneyd yny. Mae y deisyfiad hefyd yn ddiangenrhaid; mae nddynt Moses a'r prophwydi, yr Hen Destament; ac mae pob peth yno ag sydd wir angenrheidiol er tröed- gaeth ac achubiaeth dynion: dangosant anfarwoldeb enaid; adgyfodiad y meirw; nef ac uffern; dydd y rn; dyledswyddau dynion, a threfn Duw o gadw echaduriaid trwy aberthiad ei Fab; ac nis gallai azarus ddywedyd dim ychwaneg iddynt ped elai atynt. wrandawant ar Moses a'r prophwydi.

30 Yntau a ddywedodd, * Nag ê, y tad Abraham: eithr os â un oddi wrth y meirw ttynt, hwy a [d] edifarhânt.

d pen. 13. 3, 5. Dat. 16. 9—11.

31 Yna *Abraham* a ddywedodd wrtho, Oni wrandawant ar Moses a'r prophwydi, † ni chredant [f] chwaith pe codai un oddi wrth y meirw.

e Ioan 11. 43—53. a 12. 10, 11. f Gen. 9. 27. Act. 19. 8. a 6. 28. a 28. 23. 2 Cor. 5. 11.

* Rhyfedd ofered yw dychymygion dynion, yn tybied u ffordd eu hunain yn well na ffordd Duw. Tybia awer yn y byd hwn eto, pe caid rhyw bethau rhyfedd, goruwch-naturiol, yr effeithiai hyny er tröedigaeth ddynt hwy ac eraill; pryd y mae gweinidogaeth y gair, r unig foddion a drefnodd Duw, yn ddibris yn eu olwg, ac yn ddieffaith ar eu calonau. Efallai nad es yr un adnod o fewn y Bibl yn dangos mwy o aledrwydd calon dyn, na'r adnod olaf hon: nac yr un dnod yn edrych yn fwy dychrynllyd ac ofnadwy ar dynion sydd yn arfer darllen a gwrando y gair, ac yn ara yn anedifeiriol ac yn anghrediniol.

PEN. XVII.

Am ochelyd rhwystrau, &c

AC efe a ddywedodd wrth y disgyblion, [a] Ni all na ddêl * rhwystrau; ond gwae *efe* rwy yr hwn y deuant.

a Mat. 16. 23. a 18. 7. Rhuf. 14. 13, 20, 21. a 16. 17. 1 Cor. 8. 3. a 10. 32. a 11. 19. 2 Thes. 2. 10—12. Dat. 2. 14, 20. a 13. 4, &c.

2 [b] Gwell fyddai iddo pe rhoddid maen melin o amgylch ei wddf ef, a'i daflu i'r môr, nag iddo rwystro [c] un o'r rhai bychain hyn.

b Mat. 18. 6. a 26. 24. Marc 9. 42. 1 Cor. 9. 15. 2 Pedr 2. 1—3. c Es. 40. 11. Zec. 13. 7. Mat. 18. 3—5, 10, 14. Ioan 21. 15. 1 Cor. 8. 11, 12. a 9. 22.

Gwel ar Matth. 18. 6—9; a Marc 9. 42. * *Scandala* yw y gair Groeg a gyfieithir yma "rhwystrau;" a defnyddir ef yn y Testament Newydd mewn gwahanol ystyriaethau: yn gyffredin mae yn arwyddo unrhyw beth a fyddo yn achos o niwed i arall, un ai i'w gorph neu i'w feddwl; ac yn y fàn hon tybir ei fod yn arwyddo y blaenaf, sef yr erlidiau a fyddai raid i ddysgyblion Iesu ddyoddef o herwydd crefydd. Efallai bod y gair yn golygu hefyd, gau athrawiaethau, drwg-fucheddau, a gwrthgiliadau proffeswyr cnawdol a rhagrithiol, yr hyn a ddygai warth ar grefydd, ac a ofidiai feddwl y gwir broffeswyr. Fel yna mae y gair yn golygu y ddau beth. Tröed y darllenydd am ychwaneg, at y sylwad yn Matthew.

3 ¶ [d] * Edrychwch arnoch eich hunain: [e] † os pecha dy frawd yn dy erbyn, [f] ceryddа ef; ac os edifarhâ efe, maddeu iddo.

d pen. 21. 34. Ex. 34. 12. Deut. 4. 9, 15, 23. 2 Cron. 19. 6, 7. Eph. 5. 15. Heb. 12. 15. 2 Ioan 8. e Mat. 18. 15—17. f Lef. 19. 17. Salm 141. 5. Diar. 9. 8, 9. a 17. 10. a 27. 5, 6. Gal. 2. 11—14. Iago 5. 19, 20.

4 Ac [g] os pecha yn dy erbyn seithwaith yn y dydd, a seithwaith yn y dydd droi attat, gan ddywedyd, [h] Y mae yn ‡ edifar gennyf; maddeu iddo.

g Mat. 18. 21, 22, 35. 1 Cor. 13. 4—7. Eph. 4. 31, 32. Col. 3. 12, 13. h Mat. 5. 44. a 6. 12, 14, 15. a 18. 16, 17. Rhuf. 12. 20, 21. 2 Thes. 3. 13, 14.

* Nid oddiwrth y byd erlidgar yn unig mae y perygl, nac oddi wrth broffeswyr rhagrithiol ychwaith; mae perygl yn mhlith dynion gwir dduwiol, brodyr, rhag iddynt dramgwyddo eu gilydd, a myned i ysbryd chwerw ac anfaddeugar tuag at eu gilydd, yr hyn a wna grefydd yn isel iawn yn ngolwg y rhai dieithr i'w gwerth a'i rhinweddau. † Cawn yr un pethau yn Matth. 18. 15—17, 21, 22: caiff y darllenydd sylwadau lled helaeth ar y mater hwn yn y mànau hyny, afraid ysgrifenu yr un pethau yma eto. ‡ Dylem faddau i'r rhai nad edifarhaont, cyn belled a gweddïo drostynt, peidio dïal arnynt, a gwneyd pob da a allom iddynt; ond am gymmeryd y cyfryw ddynion yn *gyfeillion mynwesol* i ni, mae yn sicr nad oes galwad arnom i wneyd hyny.

5 A'r apostolion a ddywedasant wrth yr Arglwydd, [i] * Anghwanega ein ffydd ni.

i Marc 9. 24. 2 Cor. 12. 8—10. Phil. 4. 13. 2 Thes. 1. 3. Heb. 12. 2. 1 Pedr 1. 22, 23.

* Pa beth bynag a barodd i'r cyfieithwyr roddi y gair hwn fel hyn mewn dull nacâol, mae yn amlwg mai "Chwanega ein ffydd ni" a ddylai fod: ac felly y cyfieithir yn mhob màn arall. Gwyddai y dysgyblion mai gwaith anhawdd i natur a theimladau dynol oedd maddau; nas gallent wneyd hyny heb ffydd yn gweithio trwy gariad; a gwyddent nad oedd neb ond yr "Arglwydd" a fedrai roddi a chwanegu y ffydd hòno iddynt. Mae rhai o'r Sosiniaid eu hunain wedi addef, bod gwaith y dysgyblion fel hyn yn gofyn chwanegiad ffydd gan Iesu, yn brawf mai Duw oedd efe: neu o leiaf eu bod hwy yn credu ei fod yn Dduw. Da iawn ped addefai pawb o honynt yr un modd.

6 * A'r Arglwydd a ddywedodd, [k] Pe byddai gennych ffydd [l] gymmaint a gronyn o had mwstard, chwi a ellych ddywedyd † wrth y sycamorwydden hon, Ymddadwreiddia, a phlaner di yn y môr; a hi a ufuddhâi i chwi.

k Mat. 17. 20, 21. a 21. 21. Marc 9. 23. a 11. 22, 23. 1 Cor. 13. 2. l pen. 13. 19. Mat. 13. 31, 32.

* Cawsom eiriau tebyg i'r adnod hon yn Matth. 17. 20, gwel y sylwad yno. Amcan yr Arglwydd Iesu yma yw, dangos y gall ei bobl wneuthur y pethau mwyaf anhawdd trwy ei nerth a'i gynnorthwy ef. "Digon i ti

fy ngras I," medd Crist wrth Paul; "yr wyf yn gallu pob peth," medd yntau, "trwy Grist yr hwn sydd yn fy nerthu I." Mae mòr anhawdd i ddyn anianol a balch faddau pan y digier ef, ag ydyw dadwreiddio pren, a'i blanu yn y môr, a hyny â gair ei enau; ond trwy ffydd yn sugno ei chynnorthwyon o Grist, ac yn tymheru y dyn i ysbryd maddeugar, gall faddau yn hawdd iawn. Dywedir fod sycamorwydden y wlad hòno yn un o'r coed anhawddaf ei dadwreiddio, herwydd hŷd a phraffder ei gwreiddiau, a'i gafael yn y ddaear: hyny efallai a barodd i Grist enwi y pren hwn rhagor un pren arall, yn fwy na bod sycamorwydden y pryd hwnw yn ei ymyl ef.

7 Eithr [m] pwy o honoch chwi ag iddo was yn aredig, neu yn bugeilio, a ddywed wrtho yn y man pan ddêl o'r maes, Dos ac eistedd i lawr i fwytta?

m pen. 13. 15. a 14. 5. Mat. 12. 11.

8 Ond yn hytrach a ddywed wrtho, [n] Arlwya i mi i swpperu, [o] ac ymwregysa, a gwasanaetha arnaf fi, nes i mi fwytta ac yfed; ac wedi hynny y bwyttâi ac yr yfi dithau?

n Gen. 43. 16. 2 Sam. 12. 20. o pen. 12. 37.

9 Oes ganddo ddiolch i'r gwas hwnnw, am wneuthur o hono y pethau a orchymynasid iddo? Nid wyf yn tybied.

10 * Felly chwithau hefyd, [p] gwedi i chwi wneuthur y cwbl oll ag a orchymynwyd i chwi, dywedwch, † Gweision anfuddiol ydym: oblegid yr hyn a ddylasem ei wneuthur, a wnaethom.

p 1 Cron. 29. 14—16. Job 22. 2, 3. a 35. 6, 7. Salm 16. 2, 3. Es. 6. 5. a 64. 6. Mat. 25. 30, 37—40. Rhuf. 3. 12. a 11. 35. 1 Cor. 9. 16, 17. a 15. 9, 10. Phil. 3. 8, 9. 1 Pedr 5. 5, 6.

* Mae yr olaf o'r pedair adnod uchod yn agoriad i'r lleill, ac yn eglurâad arnynt. Dyledswydd dynion yw edifarâu am droseddu yn erbyn eu gilydd, a maddeu i'w gilydd; a chan mai eu dyledswydd yw gwneyd hyny, a phob peth arall gorchymynedig, nid ydynt drwy hyny yn haeddu dim gan Dduw, ac nid oes ganddo ddiolch iddynt, mwy nag sydd gan feistr i'w was am wneuthur ei orchwyl priodawl. † Caeth-was yw ystyr y gair Groeg, ac nid gwas cyflog.

Heb sylwi yn fanylach ar yr adnodau eglur hyn, gallwn gymmeryd yr addysgiadau canlynol:—1. Mai eiddo Duw ydym yn hollol; ein hamser, ein nerth, a'n doniau, ac y dylem garu Duw â'n holl galon a'i ogoneddu ef. 2. Na ddylai ein llafur ni dros Dduw ddim peidio, hyd oni pheidio ef a gorchymyn; hyd oni wnelom y cwbl o'i ewyllys datguddiedig ef. 3. Pan wnelom y cwbl oll a allom, ac sydd yn ddyledswydd arnom, nad ydym yn *haeddu* dim ar law Duw. 4. Bod yn iawn i Dduw oedi ein gwobrwyo ni hyd oni wnelom yr oll a orchymynodd efe i ni. 5. Pan gaffom ein gwobrwyo, nid gwobrwy o ddyled a diolch a fydd, ond gwobrwy o ras. Yma mae Crist yn distrywio dwy gau-athrawiaeth: athrawiaeth teilyngdod gweithredoedd da, y deddfolion; ac athrawiaeth gweithredoedd dros ben digon, y pabyddion.

11 ¶ * Bu hefyd, [q] ac efe yn myned i Jerusalem, fyned o hono ef trwy ganol Samaria i Galilea.

q pen. 9. 51, 52. Ioan 4. 4.

12 † A phan oedd efe yn myned i mewn i ryw dref, cyfarfu âg ef ddeg o wŷr gwahangleifion, [r] ‡ y rhai a safasant o hirbell:

r pen. 5. 12. a 18. 13. Lef. 13. 45, 46. Num. 5. 2, 3. a 12. 14. 2 Bren. 5. 27. a 7. 3. 2 Cron. 26. 20, 21.

13 A hwy a godasant *eu* llef, gan ddywedyd, ‖ Iesu Feistr, [s] trugarhâ wrthym.

s pen. 18. 38, 39. Mat. 9. 27. a 15. 22. a 20. 30, 31. Marc 9. 22.

* Ffordd agosaf Crist o Galilea i Jerusalem ydoedd trwy Samaria; ond dywedir fod y geiriau "trwy ganol" yn arwyddo, rhwng terfynau y ddwy wlad. † Am y gwahan-glwyf, gwel ar Matth. 8. 2. Ni chaniataid i'r gwahan-gleifion hyn ddyfod i mewn i'r dref, am hyny cyfarfu yr Iesu â hwynt y tu allan iddi. Efallai eu bod yn gwybod ei fod ef i ddyfod y ffordd hòno, ac wedi dyfod o fwriad i gyfarfod âg ef i ddeisyfu cael eu glanâu ganddo. ‡ Gallai y gwahan-gleifion gymdeithasu â'u gilydd, mae yn debyg, ond ni feiddient gymdeithasu â dynion eraill, na dyfod yn agos atynt: dyna'r achos fod y rhai hyn yn "sefyll o hirbell," ac yn "llefain" ar yr Iesu. ‖ Yr oeddynt wedi clywed yn ddiau am wyrthiau yr Iesu, ac yn credu y gallai efe eu glanâu hwy; ond pa un a oeddent yn credu ynddo yn gadwedigol, ac fel Messiah, ai nid oeddynt, nis gwyddom.

14 * A phan welodd efe *hwynt*, efe a ddywedodd wrthynt, [t] † Ewch a dangoswch eich hunain i'r offeiriaid. ‡ A bu [u] fel yr oeddynt yn myned, fe a'*u* glanhâwyd hwynt.

t pen. 5. 14. Lef. 13. 1, &c. a 14. 2, &c. Mat. 3. 15. a 8. 4. u Mat. 8. 3. Ioan 2. 5. a 4. 50—53. a 9. 7. a 11. 40.

* Wrth weled eu hagwedd druenus, eu taerineb, a'u ffydd, e dosturiodd yr Iesu wrthynt: yr un mòr barod yw efe i dosturio eto wrth bechaduriaid llawn o'r gwahan-glwyf ysbrydol, pechod. † Felly yr oedd y ddeddf, (Lefit. 14. 2.) i'r gwahan-glwyfus fyned a'i ddangos ei hun i'r offeiriad, fel y barnai efe pa un a oedd yn lânai nid oedd, ac fel yr offrymai y pethau dros ei lanâd. Yr oedd yn rhaid myned i Jerusalem ar yr achos hwn, oblegid nid oedd offrymu i fod yn un man arall. Gorchymynodd Iesu iddynt fyned at yr offeiriad i ddau beth; 1. I anrhydeddu y ddeddf a osodasai ei Dad, ac yn 2, Fel y byddai barn yr offeiriad yn dystiolaeth eu bod wedi eu glanâu; ac fel hyny cadarnâu y wyrth fel nas gallai neb ei gwadu. ‡ Yr un modd y gallai Crist eu glanâu o bell ac o agos: cyfhwrdd â'r gwahan-glwyfus a wnaeth yn Matth. 8. 3.

15 * Ac [x] un o honynt, pan welodd ddarfod ei iachâu, a ddychwelodd, gan foliannu Duw â llef uchel.

x adn. 17, 18. 2 Cron. 32. 24—26. Salm 30. 11, 12. a 103. 1—4. a 107. 20—22. a 116. 12—15. a 118. 18, 19. Es. 38. 19—22. Ioan 5. 14. a 9. 38.

16 Ac [y] efe a syrthiodd ar *ei* wyneb wrth ei draed ef, † gan ddiolch iddo. [z] A Samariad oedd efe.

y pen. 5. 8. Gen. 17. 3. Mat. 2. 11. Marc 5. 33. Ioan 5. 23. Act. 10. 25, 26. Dat. 4. 10. a 5. 14. a 19. 1, 5, 10. z pen. 9. 52—56. a 10. 32—35. Ioan 4. 9, 21, 22, 39—42. a 8. 48. Act. 1. 8. a 8. 5, &c.

* Tybia rhai iddynt oll fyned at yr offeiriad, a chyflawni pob peth yno yn ol y ddefod, ond na ddaeth ond un yn ol i ddiolch i'r Iesu. Tybia eraill nad aeth y Samariad ddim at yr offeiriad: nad edrychai yr offeiriad ddim arno ef am mai Samariad oedd, ac na chaniatêid iddo offrymu yn Jerusalem dros ei lanâd. Pa fodd bynag am hyny, cymmerodd ef y ffordd oreu i ddangos ei ddiolchgarwch. † Sylwa rhai bod "diolch i Dduw," yn adn. 15, a "diolch i'r Iesu," yn adn. 16, yn brawf fod y Samariad hwn yn credu bod yr Iesu yn Dduw: ond tybia eraill yn wahanol, a dywedant nad oes dim yn yr hanes oll yn profi bod yn yr un o honynt uwch meddyliau am Iesu na phrophwyd mawr, ac offeryn, trwy yr hwn yr oedd Duw yn gweithio. Peth cyffredin yn ngwledydd y dwyrain oedd syrthio ar y gwyneb i ddangos parch dynol yn unig.

17 A'r Iesu gan atteb a ddywedodd, Oni lanhâwyd y dêg? [a] ond pa le *y mae* y naw?

a Gen. 3. 9. Salm 106. 13. Ioan 8. 7—10. Rhuf. 1. 21.

18 * Ni chaed a ddychwelasant [b] i roi gogoniant i Dduw, [c] † ond yr estron hwn.

b Salm 29. 1, 2. a 50. 23. Es. 42. 12. Dat. 14. 7. c Mat. 8. 10, 11. a 15. 24, 28. a 19. 30. a 20. 16.

* Efallai i'r naw wneyd rhyw ffurf o dalu diolch i Dduw yn y deml; ond esgeulusasant dalu diolch i'r Iesu eu cymmwynaswr union-gyrchol. Sylwodd yr Iesu

hyn yn gyhoeddus, efallai i geryddu yr Iuddewon, ac canmoliaeth i'r Samariad. Mae y gwahan-gleifion yn ddangosiad lled gywir o ddynolryw; nid oes wr mwy nac un o bob deg, yn diolch fel y gweddai, n drugareddau nodedig a dderbyniwyd. Llawer a lant ar eu gwelyau, ond ni ddiolchant fawr pan gafftt godi. Felly y cyfrifai yr Iuddewon y Samariaid, a amariad oedd hwn; (adn. 16.) ond mae yn debyg ai Iuddewon oedd y naw eraill, y rhai er hyny ni ont ddiolchgar fel hwn.

19 Ac efe a ddywedodd wrtho, Cyfod, a os ymaith: [d] * dy ffydd a'th iachâodd.

d pen. 7. 50. a 8. 48. a 18. 42. Mat. 9. 22. Marc 5. 34. a 52.

* * Yr oedd gan y gwahan-gleifion hyn oll ffydd i gael châd, ond yr oedd rhywbeth mwy na hyny yn ffydd y amariad hwn: efallai iddo gredu yn Iesu fel y Messiah, eidwad pechaduriaid, a chael iachawdwriaeth i'w enaid a gystal a glanâd i'w gorph. Mae Crist yn prisio ffydd bobl yn ol ei natur, yn ol y goleu a gawsant, ac yn ol gwrthwynebiadau a brofasant.

20 ¶ * A phan ofynodd y Phariseaid iddo, pa bryd y deuai teyrnas Dduw, efe a attebodd ddynt, ac a ddywedodd, † Ni ddaw teyrnas Dduw wrth ddisgwyl.

e pen. 10. 11. a 16. 16. a 19. 11. Act. 1. 6, 7.

* * Soniodd Crist amryw weithiau, ac loan o'i flaen ef am ddyfodiad teyrnas Dduw, ac nis gallasai y Phariseid wadu nad oedd athrawiaeth, gwyrthiau, a holl weinidogaeth Iesu, yn debyg i'r hyn a allesid ddysgwyl gan Messiah, ac yn brofion lled gryfion mai efe oedd y Messiah: am hyny gofynent iddo pa bryd y deuai teyrnas Dduw. Tybiai rhai mai mewn gwatwor a dirmyg yr oeddynt yn gofyn; ond tybia eraill mai o wir uwennychiad cael gwybod, ond eu bod yn dra dychymygol eu tyb am deyrnas Dduw. † Nid wrth ddysgwyl i yr ydych chwi yn dysgwyl, y daw hi; nid mewn awysg a mawredd allanol fel teyrnasoedd y byd hwn: id mewn ymddangosiad allanol, fel coroniad brenin, eu ryw fuddugoliaeth fawr fel y tybiwch chwi. Gwel dn. 21, 23, 26, 30.

21 * Ac ni ddywedant, [f] Wele yma; neu, Wele accw: † canys wele, [g] teyrnas Dduw, 'ch mewn chwi y mae.

f pen. 21. 8. Mat. 24. 23—28. Marc 13. 21—23. g Rhuf. 14. 17. Col. 1. 27.

* Pan ddelo teyrnas Dduw, ni ddywedir mai yn y dinas hon, neu yn y dref arall, y bydd y Messiah wedi osod ei orsedd i fyny, ac yn cadw ei lys; nid peth aearol felly a fydd ei deyrnas ef. † Neu yn eich plith chwi: gwel Ioan. 1. 26. Peth ysbrydol fydd teyrnas Dduw, yn anweledig i lygaid o gnawd; ond yn gweithio m dumewnol yn nghalonau dynion. Mae y deyrnas on eisoes wedi dechreu yn nghalonau amryw o'm ysgyblion I, y rhai sydd yn eich plith chwi, yn eich anol, ac o fewn eich gwlad. Nis gellir deall y geiriau o'ch mewn chwi" am y Phariseaid eu hunain; oblegid id oedd o'u mewn hwy a hwy yn anghrediniol: am yny tybia rhai bod Crist yn troi at ei ddysgyblion gyda i fod yn dywedyd y geiriau hyn, ac yn eu llefaru wrthmt hwy. Os Crist ei hun, ei weinidogaeth a'i wyrthiau, feddylir wrth deyrnas Dduw yma, yr oedd eisoes o *ewn gwlad* yr Iuddewon, er na fynent hwy ei gweled.

22 Ac efe a ddywedodd wrth y disgyblion, * Y dyddiau a ddaw [h] pan chwennychoch weled un o ddyddiau Mab y dyn, ac nis gwelwch.

h pen. 5. 35. a 13. 35. Mat. 9. 15. Ioan 7. 33—36. a 8. 21—24. 12. 35. a 13. 33. a 16. 5—7, 16—22. a 17. 11—13.

* Fel pe dywedasai yr Iesu wrth ei ddysgyblion, Er mai trallodus yw hi arnoch chwi yn awr, a mi, y Priodfab, Mab y dyn, gyda chwi; eto hi a â yn llawer mwy trallodus arnoch cyn bo hir, pan gymmerer y Priod-fab oddi wrthych: y pryd hwnw byddai yn dda genych pe gwelech amser fel yr amser hwn, a Mab y dyn gyda chwi fel y mae yn awr. Cyfeiriad sydd yma yn ddiau at yr erlidiau, a'r trallodau a gaffai y dysgyblion ar ol esgyniad Crist, yn nghyd a'r drygfyd mawr ofnadwy oedd i ddyfod ar yr holl genedl Iuddewig. Presenoldeb Crist yn y cnawd, a feddylir yma wrth un o ddyddiau Mab y dyn.

23 * A hwy a ddywedant wrthych, [i] Wele yma; neu, Wele accw: † nac ewch, ac na chanlynwch *hwynt.*

i adn. 21. Mat. 24. 23—26. Marc 13. 21—23.

24 Canys [k] megis y mae y fellten a fellten-na o'r naill *ran* dan y nef, yn disgleirio hyd y *rhan* arall dan y nef; felly y bydd Mab y dyn hefyd [l] yn ei ddydd ef.

k Job 37. 3, 4. Zec. 9. 14. Mat. 24. 27. l Mal. 3. 1, 2. a 4. 1, 2. Mat. 24. 30. a 25. 31. a 26. 64. 1 Thes. 5. 2. 2 Thes. 2. 2, 8. Iago 5. 8. 2 Pedr 3. 10.

* Ychydig o flaen dinystr Jerusalem yr oedd agos i bob dyn ychydig uwch na'r cyffredin bobl yn cymmeryd arno mai efe oedd y Messiah: a chyfryw oedd dallineb ac ynfydrwydd yr Iuddewon, fel yr oedd peth aneirif o honynt yn myned ar ol pob un o'r twyllwyr hyn, gan gredu mai hwy oedd Crist, y Messiah. Am na dderbyniasent y gwir Grist, rhoddodd Duw hwynt i fynu i amryfusedd cadarn i gredu celwydd. Yr oedd Iesu yn rhag-weled y byddai hyd yn nod ei ddysgyblion ef mewn perygl o gael eu twyllo, am hyny mae yn eu rhagrybuddio hwy yma. Cawsom y pethau sydd yn y ddwy adnod uchod, yn Matth. 24. 23, 27. Gwel y nodau yno.

25 * Eithr yn gyntaf [m] rhaid iddo ddioddef llawer, † a'i [n] wrthod gan y genhedlaeth hon.

m pen. 9. 22. a 18. 31, 33. a 24. 25, 26, 46. Mat. 16. 21. a 17. 22, 23. a 20. 18, 19. Marc 8. 31. a 9. 31. a 10. 33. n 1 Sam. 8. 7. a 10. 19. Es. 53. 3. Mat. 21. 42. Marc 12. 10. Ioan 1. 11. a 12. 38.

* "Yn gyntaf," sef cyn i Grist ddyfod fel y fellten, adn. 27, yn sydyn, ac yn ofnadwy, i ddial ar yr Iuddewon ei wrthodwyr a'i leiddiaid, ac i amddiffyn a llwyddo yr efengyl dros yr holl fyd. Nid oedd yr Iuddewon wedi cyflawni mesur eu hanwiredd nes iddo ef ddyoddef, ac nid oedd yntau wedi gorphen gwaith y prynedigaeth, a derbyn pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear, nes iddo ddyoddef. † Rhaid i wrthodiad a chroeshoeliad y Messiah flaenori, a gwneuthur ffordd, i sefydliad ei deyrnas ef, a dinystr ei elynion.

26 * Ac [o] megis y bu yn nyddiau Noë, felly y bydd hefyd yn [p] nyddiau Mab y dyn.

o Gen. 7. 7—23. Job 22. 15—18. Mat. 24. 37—39. Heb. 11. 7. 1 Pedr 3. 19, 20. 2 Pedr 2. 5. a 3. 6. p adn. 22, 24. pen. 18. 8.

27 [q] Yr oeddynt yn bwytta, yn yfed, yn gwreicca, yn gŵra, hyd y dydd yr aeth Noë i mewn i'r arch; a daeth y diluw, ac a'u difethodd hwynt oll.

q pen. 12. 19, 20. a 16. 19—23. Deut. 6. 10—12. a 8. 12—14. 1 Sam. 25. 36—38. Job 21. 9—13. Es. 21. 4. a 22. 12—14. 1 Thes. 5. 1—3.

28 [r] Yr un modd hefyd ag y bu yn nyddiau Lot: yr oeddynt yn bwytta, yn yfed, yn prynu, yn gwerthu, yn plannu, yn adeiladu;

r Gen. 13. 13. a 18. 20, 21. a 19. 4—15. Ezec. 16. 49, 50. Iago 5. 1—5.

29 Eithr [s] y dydd yr aeth Lot allan o Sodoma, y gwlawiodd tân a brwmstan o'r nef, ac a'u difethodd hwynt oll:

s Gen. 19. 16—25. Deut. 29. 23—25. Es. 1. 9. a 13. 19. Jer. 50. 40. Hos. 11. 8. Amos 4. 11. Zeph. 2. 9. Mat. 11. 23, 24. 2 Pedr 2. 6. Judas 7. Dat. 11. 8.

30 † Fel hyn y bydd [t] yn y dydd y datguddir Mab y dyn.

t adn. 24. pen. 21. 22, 27, 34—36. Mat. 24. 3, 27—31. a 26. 64. Marc 13. 26. 2 Thes. 1. 7. 1 Pedr 1. 13. Dat. 1. 7.

Gwel ar Matth. 24. 37—39. * Fel yr oedd trigolion yr hen fyd, heb gymmeryd eu rhybuddio gan Noah, ond

yn myned yn mlaen yn ddiofal yn eu bydolrwydd, eu pleserau a'u drygioni; ac fel yr oedd y Sodomiaid, heb gymmeryd eu rhybuddio gan Lot, ond yn canlyn eu chwantau a'u harferion ffiaidd, hyd oni syrthiodd barnau ofnadwy Duw, ar y naill a'r llall o honynt: felly y bu yr Iuddewon, ni wrandawent ar rybuddion Crist a'i apostolion, ond parâu yn ddigred a chyndyn, i ganlyn eu galwedigaethau a'u pechodau, a dysgwyl am Fessiah yn waredwr tymmorawl, hyd oni ddaeth barn Duw arnynt am wrthod y gwir Fessiah. Fel y darparasai Duw arch i Noah, a Soar i Lot, felly y gofalodd efe am loches i ganlynwyr Iesu yn y dinystr mawr a fu ar Jerusalem a'r genedl Iuddewig, fel na syrthiodd yr un o honynt hwy, meddir, yn y difrod erchyll ac ysgubawl hwnw. Nid oes dim arwyddion mwy sicr o farn a dinystr ar ddynion a gwledydd, na diofalwch, a bywyd penrhydd mewn glythineb, moethau, a thrythyllwch; a hyny yn wyneb y rhybuddion a roddir gan genadon Duw. Er mai at ddinystr Jerusalem a diwedd y byd y cyfeirir yn benaf yn yr adnodau uchod; eto maent yn rhybuddion addas iawn i bawb, ac yn mhob oes a gwlad: a da fyddai i drigolion Prydain (y Cymry hefyd) wrando arnynt y dyddiau diofal a moethus hyn.

31 * Yn y dydd hwnnw [u] y neb a fyddo ar ben y tŷ, a'i ddodrefn o fewn y tŷ, na ddisgyned i'w cymmeryd hwynt; a'r hwn *a fyddo* yn y maes, yr un ffunud na ddychweled yn ei ol.

u Job 2. 4. Jer. 45. 5. Mat. 6. 25. a 16. 26. a 24. 17—21. Marc 13. 14—16. Phil. 3. 7, 8.

* Cawsom y geiriau hyn o'r blaen, yn Matth. 24. 17, 18, gwel y sylwad yno. Perthyn y maent i ddinystr Jerusalem yn unig, a rhybudd Crist ydynt i'w ddysgyblion, pa beth i wneyd yn y dinystr hwnw. Buont o les iddynt pan ddaeth yr amser: ffoi a wnaethant, a thrwy ffoi yr achubasant eu heinioes.

32 [x] * Cofiwch wraig Lot.

x Gen. 19. 17, 26. 1 Cor. 10. 6—12. Heb. 10. 38, 39. 2 Pedr 2. 18—22.

* Pa mòr anhawdd bynag a fyddai ganddynt ffoi a gadael eu cwbl ar ol, fel gwraig Lot; eto ffoi a fyddai raid, rhag i farn Duw eu dàl hwy fel hithau wrth oedi a chwennychu myned a'u meddiannu gyda hwynt. Edrych yn ol ar ei meddiannau cyfreithlawn a wnaeth gwraig Lot, a hyny a waherddir yma, yn adn. 31; pa faint mwy y dylem ni ymadael yn hollawl â phob pleserau anghyfreithlawn a phechadurus, a dïanc at Iesu am ein heinioes. Rhybudd dwys iawn yw y geiriau hyn, a theilwng o'n sylw mwyaf difrifol ni, bawb o honom.

33 * Pwy bynnag [y] a geisio gadw ei einioes, a'i cyll; † a phwy bynnag a'i cyll, a'i bywhâ hi.

y pen. 9. 24, 25. Mat. 10. 39. a 16. 25. Marc 8. 35—37. Ioan 12. 25. Dat. 2. 10.

* Pwy bynag a wado ei grefydd, neu a arfero ryw foddion croes i orchymyn Iesu, i gadw ei einioes naturiol, bydd yn sicr o'i cholli; deil y farn a'r dinystr ef er dim a wnelo. † Ond pwy bynag a wnelo yn ol ei orchymyn ef, pa faint bynag a fyddo ei berygl, efe a achub ei einioes: neu pe collai rhyw un ei einioes naturiol, ni bydd er hyny ar ei golled, efe a gaiff fywyd tragywyddol. Gwel ar Matth. 10. 39. a 16. 25. a Marc 8. 35.

34 [z] Yr wyf yn dywedyd i chwi, [a] * Y nos honno y bydd [b] † dau yn yr un gwely; y naill a gymmerir, a'r llall a adewir.

z pen. 13. 3, 5, 24. Es. 42. 9. Mat. 24. 25. Marc 13. 23. Ioan 14. 29. a Mat. 24. 40, 41. b Salm 26. 9. a 28. 3. Jer. 45. 5. Ezec. 9. 4—6. Mal. 3. 16—18. Rhuf. 11. 4—7. 1 Thes. 4. 16, 17. 2 Pedr 2. 9.

35 Dwy a fydd [c] yn malu yn yr un lle; y naill a gymmerir, a'r llall a adewir.

c Ex. 11. 5. Barn. 16. 21.

36 Dau a fyddant yn y maes; y naill a gymmerir, a'r llall a adewir.

* "Y nos hòno:" rhyw noson nodedig yn amser dinystr Jerusalem: neu, efallai, nos mewn ystyr gyffelybiaethol, yn arwyddo trymder gofid yr Iuddewon yn y dinystr hwnw. † Os yw y deuoedd hyn i'w deall yn llythyrenol, rhaid deall hefyd bod yr un a gymmerid o bob dau gan y gelynion, yn anghredadyn; a'r hwn a adewid, yn gredadyn, a Duw yn trefnu ffordd o ddiangfa iddo mewn modd rhyfedd ac annysgwyliadwy. Amcan y geiriau oedd, dangos gofal Iesu am ei eiddo ef yn y drygfyd mawr hwnw oedd ar ddyfod: er eu bod blith draphlith âg anghredinwyr, megys yn cyd-gysgu yn yr un gwely, yn cyd-falu yn yr un felin, ac yn cyd-weithio yn yr un maes; eto gofalodd Duw am danynt hwy yn rhyfedd fel na chymmerwyd yr un o honynt. Felly y bydd hi eto yn niwedd y byd hwn; er bod dynion da a drwg yn byw yn gymmysg a'u gilydd yma, yn yr un teuluoedd, yn yr un gorchwylion a galwedigaethau, ac yn aelodau gweledig o'r un eglwysi, y pryd hwnw gwahenir hwy yn hollawl ac am byth, cymmerir y naill i'r nef, a gyrir y lleill i uffern. Gwel ar Matth. 24. 40, 41. Dywed *Pool* nad yw adn. 36, yn y rhan fwyaf o'r argraffiadau Groeg: nid yw yn yr un o'r ddau argraffiad sydd gan gyfieithydd y sylwadau hyn.

37 * A hwy a'attebasant ac a ddywedasant wrtho, † Pa le, Arglwydd? Ac efe a ddywedodd wrthynt, [d] ‡ Pa le bynnag *y byddo* y corph, yno yr ymgasgl yr eryrod.

d Job 39. 29, 30. Dan. 9. 26, 27. Amos 9. 1—4. Zec. 13. 8, 9. a 14. 2. Mat. 24. 28. 1 Thes. 2. 16. Dat. 19. 17, 18.

* Yr "hwy" yma oedd y dysgyblion, mae yn debyg, oblegid wrthynt hwy y llefarodd Crist yr adnodau blaenorawl. Gwel adn. 22. † Pa le, Arglwydd, yr holl ddinystr hyn ar y naill law, a'r diogelwch rhyfedd hyn ar y llaw arall? ‡ Y genedl Iuddewig yw y corph yma, y gelain yn Matth. 24. 28; a lluoedd y Rhufeiniaid yw yr eryrod, am fod llun eryrod ar eu banerau rhyfel, ac am eu bod fel eryrod yn ysglyfaethgar. Yn ol y meddwl uchod gwlad Judea oedd y lle, a dinas Jerusalem yn enwedig, am mai yno yr oedd cynnulliad yr Iuddewon pan ddaeth y Rhufeiniaid arnynt. Gellir sylwi hefyd, fod barnedigaethau Duw, pan ddanfono efe hwynt allan, fel eryrod yn graff eu golwg i fynu gafael ar bechaduriaid ysdyfnig; ac fel eryrod yn gyflym ac yn gryfion i ddàl ac i ddifrodi eu hysglyfaeth. Gwel ychwaneg ar Matth. 24. 28.

PEN. XVIII.

Am y weddw daer.

AC efe a ddywedodd hefyd ddammeg wrthynt, [a] * fod yn rhaid gweddïo yn wastad, [b] † ac heb diffygio;

a pen. 11. 5—8. a 21. 36. Gen. 32. 9—12, 24—26. Job 27. 8—10. Salm 55. 16, 17. a 86. 3. a 142. 5—7. Jer. 29. 12, 13. Rhuf. 12. 12. Eph. 6. 18. Phil. 4. 6. Col. 4. 2, 12. 1 Thes. 5. 17. b Salm 27. 13. Jona 2. 7. Gal. 6. 9. Heb. 12. 3—5.

Mae yn debyg bod yr Arglwydd Iesu yn annog ei ddysgyblion i "weddïo yn wastad ac heb ddiffygio" yma, gyda golwg ar yr amseroedd blinion a soniodd am danynt yn y bennod o'r blaen; ond mae yn angenrheidiol i bobl Dduw "weddïo yn wastad ac heb ddiffygio" yn mhob oes, yn mhob màn, ac yn mhob amgylchiad. * Gweddïo yn wastad, o ran yr amserau gosodedig i weddïo; yn ddirgel, yn deuluaidd, ac yn gyhoeddus, fel y byddai aberthau gwastadol yn y deml gynt. Gweddïo yn wastad, o ran bod mewn ysbryd gweddi yn wastadol; fel y byddai tân ar yr allor gynt bob amser, ddydd a nos, er na byddai aberthu yn ddibaid. † Gweddïo heb ddiffygio wrth weled blinderau a gofidiau yn parâu ac yn chwanegu; heb ddiffygio wrth fod Duw yn ymguddio, ac yn oedi ateb; heb ddiffygio gan ddigalondid, marweidd-dra, hudoliaethau, a gwrthgiliadau llygredig. Gŵyr pawb o blant Duw fod aneirif o bethau yn tueddu i beri iddynt ddiffygio yn eu gweddïau; ond dàl ati, gweddïo yn wastad ac heb ddiffygio a

chymynir yma, a'r gweddïa hyny a lwyddo yn y weddw.

2 2 Gan ddywedyd, * Yr oedd rhyw farnwr mewn rhyw ddinas, [c] yr hwn nid ofnai Dduw, ni [d] pharchai ddyn.

c adn. 4. Ex. 18. 21, 22. 2 Cron. 19. 3—9. Job 29. 7—17. Salm 1 1—4. Jer. 22. 16, 17. Ezec. 22. 6—8. Mica 3. 1—3. Rhuf. 3. —18. d Diar. 29. 7. Es. 33. 8.

3 † Yr oedd hefyd [e] yn y ddinas honno raig weddw; ‡ a hi a ddaeth atto ef, gan dywedyd, [f] Dïal fi ar fy ngwrthwynebwr.

e Deut. 27. 19. 2 Sam. 14. 5, &c. Job 22. 9. a 29. 13. Es. 1. 2 21—23. Jer. 5. 28. f adn. 7, 8. Rhuf. 13. 3, 4.

4 ‖ Ac efe nis gwnai dros amser: eithr edi hynny [g] efe a ddywedodd ynddo ei hun, r nad ofnaf Dduw, ac na pharchaf ddyn;

g pen. 12. 17. a 16. 3. Heb. 4. 12, 13.

5 § Etto [h] am fod y weddw hon yn peri i ïi flinder, mi a'i dïalaf hi; rhag iddi yn y diedd ddyfod a'm [i] syfrdanu i.

h pen. 11. 8. Barn. 16. 16. 2 Sam. 13. 24—27. i adn. 39. Mat. 15. 23. Marc 10. 47, 48.

6 A'r Arglwydd a ddywedodd, Gwrandewch eth a ddywed y barnwr anghyfiawn.

7 Ac oni [l] ddïal [k] Duw ei etholedigion, sydd yn llefain arno ddydd a nos, [n] er ei fod n hir oedi drostynt?

k pen. 11. 13. Mat. 7. 11. l 1 Sam. 24. 12—15. a 26. 10, Salm 9. 18. a 10. 15—18. a 54. 1—7. Jer. 20. 11—13. 2 Thes. 6, 7. Dat. 6. 10, 11. a 18. 20. m pen. 2. 37. Salm 88. 1. Thes. 3. 10. 1 Tim. 5. 5. 2 Tim. 1. 3. Dat. 7. 15. n Salm 13. 2. Hab. 2. 3. Heb. 10. 35—37.

8 Yr wyf yn dywedyd i chwi, [o] y dïal efe wynt ar frys. * Eithr [p] Mab y dyn, pan dêl, a gaiff efe ffydd ar y ddaear?

o Salm 46. 5. a 143. 7—9. 2 Pedr 2. 3. a 3. 8, 9. p Mat. 9—13, 24. 1 Thes. 5. 1—3. Heb. 10. 23—36. Iago 5. 1—8.

Yn yr adnodau hyn mae y ddammeg a soniwyd yn yr nod gyntaf, i ddangos llwyddiant gweddi wastadol, ac eb ddiffygio; ac mae y seithfed adnod a rhan o'r wyth d, yn agoriad ar y ddammeg oll. * Yn y ddammeg ybwyllir am ryw farnwr nad ofnai Dduw, ac ni pharchai yn; gan hyny barnwr anghyfiawn oedd. Gwel 2. Sam. 3. 3. Mewn cyferbyniad i hwn mae Duw yn farnwr fiawn, ac yn barnu yn gyfiawn yn ei amser ei hun. Yn y ddammeg crybwyllir am wraig weddw, wedi el cam gan ryw wrthwynebwr; i ddangos y cam a ffai dysgyblion Iesu gan yr Iuddewon digred, a'r cam ae ei bobl ef yn gael gan erlidwyr yn mhob oes. Mae y wraig weddw hon yn ymbil yn daer ac yn barâus n i'r barnwr ei dïal hi (mynu cyfiawnder iddi yw ystyr gair *ekdikêson*, ac nid dïal) ar ei gwrthwynebwr; i dangos mai rhoddi ein hachos i Dduw yw ein lle ni an ein gorthrymer, a gweddïo arno ef am gymmeryd n plaid: iddo ef y perthyn dïal, ac efe a dâl. ‖ Anyfiawnder yn y barnwr hwn oedd oedi dïal y wraig eddw ar ei gwrthwynebwr; ond amcan y rhan hyn o'r ammeg yw, dangos bod Duw yn hir-ymarhôus tuag at elynion, ac mai lle ei bobl yw gweddïo yn wastad ac eb ddiffygio, er ei fod ef yn hir oedi ateb. § Gan i'r arnwr anghyfiawn ddïal o'r diwedd, pa faint mwy y wna Duw, y Barnwr cyfiawn ddïal cam ei blant anwyl r eu gelynion? * Gellir cymmeryd y geiriau diweddaf yn mewn gwahanol olygiadau:—Pan ddelai Mab y dyn ddïal ar yr Iuddewon yn ninystr Jerusalem, ni châai fe nemawr o ffydd ar y ddaear, sef gwlad Judea; yr edd holl gorph y genedl Iuddewig agos i gyd, wedi ngaledu mewn anghrediniaeth, a llawer o'r rhai a aasent unwaith yn proffesu ffydd yn Nghrist y Messiah, edi gwadu y ffydd hòno trwy erlidiau, neu wrthgiliadau y byd a'i bleserau. Gall fod cyfeiriad yn y geiriau efyd, at wendid cyffredinol ffydd y saint, mewn profedgaethau a chystuddiau, tra maent yn hir ddysgwyl am r Arglwydd ddyfod i'w cynnorthwyo a'u gwared. Tybir na bydd nemawr o wir grefydd a bywiol ffydd ar y ddaear pan ddelo Mab Duw i lwyddo ei efengyl a'i deyrnas yn nechreuad y milflwyddiant: a thybia rhai hefyd, y bydd rhyw ysbaid o amser ar ol y milflwyddiant dedwydd hyny, yn union o flaen diwedd y byd, a dydd mawr y farn, pryd y bydd llawer iawn o annuwiaeth ac anghrediniaeth ar y ddaear, a gwir ffydd yn brin iawn yn nyfodiad Mab y dyn.

9 * Ac efe a ddywedodd y ddammeg hon hefyd wrth y rhai [q] oedd yn hyderu arnynt eu hunain eu bod yn gyfiawn, [r] ac yn dïystyru eraill:

q pen. 10. 29. a 15. 29. a 16. 15. Diar. 30. 12. Es. 65. 5. a 66. 5. Ioan 9. 28, 34. Rhuf. 7. 9. a 9. 31, 32. a 10. 3. Phil. 3. 4—6. r adn. 11. pen. 7. 39. a 15. 2, 30. a 19. 7. Ioan 7. 47—49. a 8. 48. Act. 22. 21, 22. Rhuf. 14. 10.

Heblaw gweddïo yn wastad ac heb ddiffygio, mae yn angenrheidiol hefyd i ni gael gostyngeiddrwydd, hunanymwadiad, a theimlad o'n cyflwr gwael truenus wrth fyned ger bron Duw. Hyny a ddangosir i ni yn y ddammeg nesaf a ganlyn. * Y Phariseaid a'u dysgyblion oedd y rhai oedd yn hyderu arnynt eu hunain eu bod yn gyfiawn, ac yn dïystyru eraill. Mae llawer o'r teulu yn y byd eto, yn mhlith pob plaid o grefyddwyr: byddai yn dda iddynt ddarllen y ddammeg hon yn aml, ac yn grynedig.

10 * Dau wr a aeth i [s] † fynu i'r deml i ‡ weddïo; un yn [t] Pharisead, a'r llall yn publican.

s peñ. 1. 9, 10. a 19. 46. 1 Bren. 8. 30. Act. 3. 1. t pen. 7. 29, 30. Mat. 21. 31, 32. Act. 23. 6—8. a 26. 5. Phil. 3. 5.

* Dau wr a enwir, un yn Pharisead a'r llall yn publican; ond mae y ddau hyn yn cynnrychioli yr holl rai hunan-gyfiawn ar y naill law, a'r holl bechaduriaid edifeiriol ar y llaw arall. † Yr oedd y deml yn sefyll ar le uchel, am hyny dywedir eu bod yn myned i *fynu*. ‡ Yr oedd amserau pennodol i fyned i'r deml i weddïo, fel y gallwn weled yn Act. 3. 1. Yr oedd gwaith pob un o'r ddau hyn yn dda, gweddïo; ond yr oedd eu hysbrydoedd hwy yn cyflawni y gwaith yn wahanol iawn.

11 Y Pharisead o'i [u] * sefyll a † weddïodd ‡ rhyngddo ag ef ei hun fel hyn; [x] O Dduw, yr wyf yn dïolch i ti ‖ nad wyf fi [y] fel *y mae* dynion eraill, yn drawsion, yn anghyfiawn, yn odinebwyr; neu, fel y publican hwn chwaith.

u Salm 134. 1. a 135. 2. Mat. 6. 5. Marc 11. 25. x Jer. 2. 23, 35. Ezec. 33. 31. Mica 3. 11. 1 Cor. 4. 7, 8. a 15. 9, 10. 1 Tim. 1. 12—16. Dat. 3. 17. y pen. 20. 47. Mat. 3. 7—10. a 19. 18—20. Gal. 3. 10. Phil. 3. 6. Iago 2. 9—12.

* Nid oedd sefyll, ynddo ei hunan, yn feïus; ond tybir fod y Pharisead hwn yn sefyll yn y mân mwyaf amlwg, er mwyn cael ei weled yn gweddïo gan eraill, a chael ei ganmol am ei grefyddgarwch. Efallai ei fod yn sefyll o'r neilldu hefyd, rhag cael ei halogi gan eraill, yn enwedig gan y publican. † Mae yn wir fod dïolchgarwch mewn gweddi; ond yn y weddi hon nid oes dim ond dïolchgarwch oer, ffurfiol a deddfol: nid oes yma yr un deisyfiad, yr hyn yw prif sylwedd gweddi. ‡ Rhyngddo ag ef ei hun yr oedd y Pharisead yn gweddïo, nid oedd dim rhyngddo â Duw, ond y ffurf yn unig. ‖ Mae yn iawn i ni ddïolch i Dduw am ei ras attaliol yn ein gweddïau; ond wrth wneyd hyny, dylem ddywedyd y gwir, nid dywedyd ein bod yn well nac ydym: a dylem hefyd beidio a dadleu ein daioni hyn fel cyfiawnder ger bron Duw. Yr oedd y Pharisead hwn yn ymfalchïo yn ei ddaioni, yn gwneyd cyfiawnder o hòno; yr oedd yn dirmygu ei gymmydog, er ei fod ef ei hun mewn pethau eraill efallai yn fwy pechadur nag y buasai y publican erioed.

12 [z] * Yr wyf yn ymprydio ddwywaith yn yr wythnos; [a] † yr wyf yn degymmu cymmaint oll ag a feddaf.

z pen. 17. 10. Num. 23. 4. 1 Sam. 15. 13. 2 Bren. 10. 16. Es. 1. 15. a 58. 2, 3. Zec. 7. 5, 6. Mat. 6. 1, 5, 16. a 9. 14. a 15. 7—9. Rhuf. 3. 27. a 10. 1—3. 1 Cor. 1. 29. Gal. 1. 14. Eph. 2. 9. 1 Tim.

4. 8. a pen. 11. 42. Lef. 27. 30—33. Num. 18. 24. Mal. 3. 8. Mat. 23. 23, 24.

Yr oedd hwn fel pe dywedasai wrth Dduw, Yr wyf fi yn ddyn mwy crefyddol na chyffredin, yn ymprydio ddwywaith bob wythnos, ac yn degymu y cwbl a feddaf at achosion crefydd, pa un bynag a ydyw y gyfraith yn gofyn hyny ai peidio. * Dywedir y byddai y Phariseaid yn ymprydio ar yr ail a'r pùmmed dydd o'r wythnos; ac mai oddi ar hyny y daeth rhai cristionogion i ymprydio dydd Mercher a dydd Gwener. † Ar y geiriau *cymmaint oll* mae y pwys i'w roddi; nid oedd y ddeddf yn gofyn degymu pob peth; felly yr oedd hwn yn ymffrostio wrth Dduw ei fod yn gwneyd mwy nag oedd Duw yn ofyn ganddo.

13 * A'r publican, [b] gan sefyll o hirbell, ni fynnai gymmaint a chodi ei olygon tu a'r nef; [c] eithr efe a gurodd ei ddwyfron, gan ddywedyd, [d] † O Dduw, bydd drugarog wrthyf [e] bechadur.

b pen. 5. 8. a 7. 6, 7. a 17. 12. Ezra 9. 6. Job 42. 6. Salm 11. 12. Es. 6. 5. Ezec. 16. 63. Dan. 9. 7—9. Act. 2. 37. c pen. 23. 48. Jer. 31. 18, 19. 2 Cor. 7. 11. d Salm 25. 7, 11. a 41. 4. a 51. 1—3. a 86. 15, 16. a 119. 41. a 130. 3, 4, 7. Dan. 9. 5, 9—11, 18, 19. Heb. 4. 16. a 8. 12. e pen. 15. 18—21. a 23. 40—43. 2 Cron. 33. 12, 13, 19, 23. Salm 106. 6. Es. 1. 18. a 64. 5, 6. Mat. 9. 13. Rhuf. 5. 8, 20, 21. 1 Tim. 1. 15. 1 Ioan 1. 8—10.

* Mae gostyngeiddrwydd, hunan-ymwadiad, ac yspryd drylliog ac edifeiriol y publican, i'w gweled mewn amryw bethau yn yr adnod hon:—1. Yn ei waith yn sefyll o hirbell; efallai yn nghyntedd y cenedloedd, heb ystyried ei hun yn deilwng o ddyfod i blith pobl Dduw, yn enwedig y Pharisead crefydd-fawr a rhith-sancteiddiol hwn. 2. Ni fynai gymmaint a chodi ei olygon tua'r nef; tybiai yn rhyfygus iddo edrych tuag at y Duw hwnw y gwrthryfelasai yn ei erbyn, ac yr haeddasai ei lid a'i sòriant byth. 3. Curo ei ddwyfron; fel dyn teimladwy o bla ei galon, o ddrygioni ei fuchedd, ac o drueni andwyol ei gyflwr. 4. Yn ei gyfaddefiad difrifol; addefai gyda gwasgfa drom mai pechadur oedd: nid pechadur cyffredin, fel eraill o ddynolryw; ond pechadur yn ystyr eithaf a gwaethaf y gair. Gwel y sylwad ar Matth. 9. 10. † Bydd gymmodlawn, neu gymmodadwy â mi trwy aberth, neu gwneler iawn neu gymmod drosof fi; yr wyf yn bechadur, ac nis gellir fy achub ond yn y ffordd hòno: mae y gair Groeg am *drugarog* yn y fàn hon, yn arwyddo trugaredd a chymmod trwy aberth ac iawn meddant. Mae ei ffydd ef yn amlwg hefyd: yr oedd yn credu bod gan Dduw drugaredd iddo er cymmaint pechadur a fuasai. Yr oedd yn gwybod fod gan Dduw ffordd gyfiawn ac anrhydeddus iddo ei hun, i drugarâu wrtho, sef trwy iawn y Cyfryngwr, ac yr oedd ei lygaid tuag at y drugareddfa, cysgod o'r iawn hwnw. O ganlyniad yr oedd yn gweddio yn daer am y drugaredd hòno.

14 * Dywedaf i chwi, [f] † Aeth hwn i waered i'w dŷ, [g] wedi ei gyfiawnhâu ‡ *yn fwy* nâ'r llall: [h] ‖ canys pob un a'r y sydd yn ei ddyrchafu ei hun, a ostyngir; a phob un a'r sydd yn ei ostwng ei hun, a ddyrchefir.

f pen. 5. 24, 25. a 7. 47—50. 1 Sam. 1. 18. Preg. 9. 7. g pen. 10. 29. a 16. 15. Job 9. 20. a 25. 4. Salm 143. 2. Es. 45. 25. a 53. 11. Rhuf. 3. 20. a 4. 5. a 5. 1. a 8. 33. Gal. 2. 16. Iago 2. 21—25. h pen. 1. 52. a 14. 11. Ex. 18. 11. Job 22. 29. a 40. 9—13. Salm 138. 6. Diar. 3. 34. a 15. 33. a 16. 18, 19. a 18. 12. a 29. 23. Es. 2. 11—17. a 57. 15. Dan. 4. 37. Hab. 2. 4. Mat. 5. 3. a 23. 12. Iago 4. 6, 10. 1 Pedr 5. 5.

* "Dywedaf i chwi," ebai Crist, pa feddyliau bynag oedd gan y ddau hyn am danynt eu hunain, neu am eu gilydd; a pha feddyliau bynag oedd gan eraill am bob un o honynt; † aeth y publican tlawd hwn i'w dŷ wedi ei gyfiawnâu gan Dduw, wedi maddau ei bechodau, a chwedi cael trugaredd a'i gymmeradwyo yn yr Anwylyd ‡ Cafodd ei gyfiawnâu yn *fwy* na'r llall; cyfiawnder Crist oedd gan y publican, ei gyfiawnder ei hun oedd gan y Pharisead: cyfiawnder perffaith oedd gan y publican, cyfiawnder anmherffaith iawn, bratiau budron oedd gan y Pharisead: Duw oedd wedi cyfiawnâu y publican, ef ei hun oedd yn cyfiawnâu y Pharisead. Yn *hytrach* na'r llall, yw y geiriau yn ol y Saesoneg. Gellid darllen y geiriau "ac *nid* y llall," oblegid nid oedd y Pharisead yn gyfiawn o gwbl, ond yn ei dyb ei hun. ‖ Gwel ar y rhan olaf o'r adnod ar Matth. 23. 12.

15 ¶ A [i] hwy a ddygasant atto blant bychain hefyd, fel y cyffyrddai efe â hwynt: a'r disgyblion pan welsant, [k] a'u ceryddasant hwy.

i 1 Sam. 1. 24. Mat. 19. 13—15. Marc 10. 13—16. k pen. 9. 49, 50, 54.

16 Eithr yr Iesu a'u galwodd hwynt atto, ac a ddywedodd, [l] Gadewch i'r plant bychain ddyfod attaf fi, ac na waherddwch hwynt: [m] canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas Dduw.

l Gen. 17. 10—14. a 21. 4. Deut. 29. 11. a 31. 12. 2 Cron. 20. 13. Jer. 32. 39. Act. 2. 39. 1 Cor. 7. 14. m Mat. 18. 3, 4. 1 Cor. 14. 20. 1 Pedr 2. 2.

17 Yn wir meddaf i chwi, [n] Pwy bynnag ni dderbynio deyrnas Dduw * fel dyn bach, nid â efe i mewn iddi.

n Salm 131. 1, 2. Marc 10. 15.

Gwel ar yr adnodau uchod ar Matth. 19. 13—15. a pen. 18. 3. a Marc 10. 13—16. Nid oes genym ddim i'w chwanegu yma, ond yn unig mai un o addewidion teyrnas y Messiah oedd, bod i Dduw dywallt ei Ysbryd ar bad ei bobl, a'i fendith ar eu hiliogaeth, Esay. 44. 3; ac efallai bod golwg rhïeni y plant hyn ar yr addewid hòno: os felly rhaid eu bod yn credu mai Iesu oedd y Messiah. Rhaid i ddynion gael eu gwneyd yn ddiniwed ac isel-fryd trwy ras, fel plant bychain, cyn y derbyniant deyrnas Dduw, ac yr ânt i mewn iddi: gwel ychwaneg ar Matth. 18. 3.

18 ¶ [o] A rhyw lywodraethwr a ofynodd iddo, gan ddywedyd, [p] Athraw da, [q] wrth wneuthur pa beth yr etifeddaf fi fywyd tragywyddol?

o Mat. 19. 16. Marc 10. 17. p pen. 6. 46. Ezec. 33. 31. Mal. 1. 6. Ioan 13. 13—15. q pen. 10. 25. Act. 2. 37. a 16. 30.

19 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, [r] Paham y'm gelwi yn dda? nid *oes* neb yn dda ond un, *sef* Duw.

r pen. 1. 35. a 11. 13. Job 14. 4. a 15. 14—16. a 25. 4. 1 Tim. 3. 16. Heb. 7. 26. Iago 1. 17.

20 Ti a [s] wyddost y gorchymynion, [t] Na odineba, Na ladd, Na ladratta, Na ddwg gam dystiolaeth, Anrhydedda dy dad a'th fam.

s pen. 10. 26—28. Es. 8. 20. Mat. 19. 17—19. Marc 10. 18, 19. Rhuf 3. 20. a 7. 7—11. t Ex. 20. 12—17. Deut. 5. 16—21. Rhuf. 13. 9. Gal. 3. 10—13. Eph. 6. 2. Col. 3. 20. Iago 2. 8—11.

21 Ac efe a ddywedodd, [u] Hyn oll a gedwais o'm hieuengctid.

u adn. 11, 12. pen. 15. 7, 29. Mat. 19. 20, 21. Marc 10. 20, 21. Rhuf. 10. 2, 3. Phil. 3. 6.

22 A'r Iesu pan glybu hyn, a ddywedodd wrtho, Y mae [x] un peth etto yn ol i ti: [y] gwerth yr hyn oll sydd gennyt, a dyro i'r tlodion; a thi a gai drysor yn y nef: [z] a thyred, canlyn fi.

x pen. 10. 42. Salm 27. 4. Phil. 3. 13. 2 Pedr 3. 8. y pen. 12. 33. a 16. 9. Mat. 6. 19, 20. Act. 2. 44, 45. a 4. 34—37. 1 Tim. 6. 18, 19. z pen. 9. 23, 57—62. Mat. 19. 21, 27, 28.

23 Ond pan glybu efe y pethau hyn, [a] efe a aeth yn athrist: canys yr oedd efe yn gyfoethog iawn.

a pen. 8. 14. a 12. 15. a 19. 8. a 21. 34. Barn. 18. 23, 24. Job 31. 24, 25. Ezec. 33. 31. Mat. 19. 22. Marc 10. 22. Eph. 5. 5. Phil. 3. 8. Col. 3. 5. 1 Ioan 2. 15, 16.

24 A'r Iesu, pan welodd [b] ef wedi myned yn athrist, a ddywedodd, [c] Mor anhawdd yr â y rhai y mae golud ganddynt i mewn i deyrnas Dduw!

b Marc 6. 26. 2 Cor. 7. 9, 10. c Deut. 6. 10—12. a 8. 11—
). Salm 10. 3, 4. a 73. 5—12. Diar. 18. 11. a 30. 9. Jer. 2. 31. a
5. Mat. 19. 23—25. Marc 10. 23—27. 1 Cor. 1. 26, 27. 1 Tim. 6.
10. Iago 2. 5—7. a 5. 1—6.

25 Canys haws yw [d] i gamel fyned trwy
rai y nodwydd ddur, nag i oludog fyned i
nefoedd y deyrnas Dduw.

d Mat. 23. 24.

26 A'r rhai a glywsent a ddywedasant, [e] A
dhwy a all fod yn gadwedig?

e pen. 13. 23.

27 Ac efe a ddywedodd, [f] Y pethau sydd
mmhosibl gyd â dynion, sydd bosibl gyd â
Duw.

f pen. 1. 37. Gen. 18. 14. Job 42. 2. Jer. 32. 17. Dan. 4. 35.
ec. 8. 6. Mat. 19. 26. Eph. 1. 19, 20. a 2. 4—10.

Cawsom yr hanes uchod yn gyflawn yn Matth. 19.
26—26; ac hefyd yn Marc 10. 17—27. Gwel y sylwad-
au yno, yn enwedig ar Matthew. Gallwn sylwi ar am-
ryw o bethau buddiol oddi wrth yr hanes hwn na sylwyd
arnynt o'r blaen yn Matthew na Marc:—1. Gallwn
weled pa can belled y dichon i ddyn fyned, ac eto bod
yn fŷr o gyflwr da, ac ysbrydol. Dichon iddo wybod
ad oes dim yn y bywyd hwn a'i gwna ef yn wir dded-
wydd: dichon iddo ddymuno iachawdwriaeth a bywyd
tragywyddol: gall fyned yn mhell mewn cadw gorchym-
nion Duw, o ran y llythyren o honynt: dichon iddo
ddyfod at weinidogion yr efengyl i gael ei ddysgu
yn fanylach. Ond yn hyn efe a balla; ni ddaw at
Grist, fel y caffo fywyd, ond efe a ddychymmyga y dylai
wneyd rhywbeth i deilyngu bywyd: nid yw yn iawn
ldeall y gyfraith, ac nad oes dim myned i'r nef y ffordd
dòno, heb ei chadw hi yn berffaith; am hyny mae yn
lychymmygu ei fod mewn gwell cyflwr nac y mae efe.
2. Mae yr hanes yn dysgu hyn i ni; nad oes dim myned
i'r nef trwy weithredoedd, oddigerth trwy ufudd-dod
ddlawn a pherffaith i holl ewyllys ddatguddiedig Duw.
3. Fod gan bob rhagrithiwr ryw chwant, nas gall efe
mewn un modd ymwadu âg ef. Chwant y llywodraeth-
wr hwn oedd, cariad anghymmedrol at y byd a'i bethau:
y bydd ydoedd, a dàliodd yr Arglwydd Iesu ef yn ei
gybydd-dod wrth ymddiddan âg ef. 4. Mai peth an-
aawdd rhyfeddol yw i neb, yn enwedig dynion o fedd-
aannau mawr ar y ddaear, fyned i'r nef, er rhyw fath o
ddymuniad myned yno. 5. Er mòr anhawdd, ac an-
mhosibl gyda dynion, eto nid oes dim yn anmhosibl
gyda Duw: gall ef newid calon y cyfoethog, a'i thueddu
ato ei hun, yn gystal a chalon y tlawd. Mae mwy o
rwystrau i'r cyfoethog; ond pa un ai cyfoethogion ai
ffodion a fyddo dynion, heb ddylanwadau nerthol Duw
ar y galon, heb ei rydd ras ef, ni bydd yn gadwedig un
enaid.

28 * A dywedodd Pedr, [g] Wele, nyni a
adawsom bob peth, ac a'th ganlynasom di.

g pen. 5. 11. Mat. 4. 19—22. a 9. 9. a 19. 27. Marc 10. 28.
Phil. 3. 7—9.

29 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Yn wir
meddaf i chwi, [h] Nid oes neb a'r a adawodd
dŷ, neu rïeni, neu frodyr, neu wraig, neu
blant, er mwyn teyrnas Dduw,

h pen. 14. 26—28. Deut. 33. 9. Mat. 10. 37—39. a 19. 28—30.
Marc 10. 20—31.

30 † A'r nis derbyn [i] lawer cymmaint yn y
bryd hwn, ac yn y byd a ddaw fywyd tragy-
wyddol.

i pen. 12. 31, 32. Salm 37. 16. a 63. 4, 5. a 84. 10—12. a 119.
72, 103, 111, 127, 162. Rhuf. 6. 21—23. 1 Tim. 4. 8. a 6. 6. Heb.
3. 5, 6. Dat. 2. 17. a 3. 21.

Gwel ar Matth. 19. 27—29; ac ar Marc 10. 28, 29.
Tybia rhai fod gradd o falchder, yn gymmysg a gos-
yngeiddrwydd, yn Pedr wrth ddywedyd fel hyn, fel pe
buasai am ddangos ei ragoriaeth ei hun a'i gyd-ddysg-
yblion ar y llywodraethwr hwn: ond nid oes dim yn
atebiad y Cyfryngwr yn arwyddo hyny. † Nid llawer
cymmaint mewn *rhyw*, efallai, a feddylir; ond llawer
cymmaint o fendithion ysbrydol, a gwynfyd tragywydd-
ol, mwy gwerthfawr o beth anfeidrol na'r holl bethau
tymmorol a adawer i ganlyn Crist.

31 ¶ Ac efe a gymmerodd y deuddeg atto,
ac a ddywedodd wrthynt, [k] * Wele, yr ydym
ni yn myned i fynu i Jerusalem; [l] † a chyf-
lawnir pob peth a'r sydd yn ysgrifenedig trwy
y prophwydi am Fab y dyn.

k pen. 9. 22. a 24. 6, 7. Mat. 16. 21. a 17. 22, 23. a 20. 17—19.
Marc 8. 31. a 9. 30, 31. a 10. 32—34. l pen. 24. 44—46. Salm
22. a 69. Es. 53. Dan. 9. 26. Zec. 13. 7.

32 ‡ Canys efe a [m] draddodir i'r Cenhedl-
oedd, ac a [n] watwerir, ac a ammherchir, ac a
boerir arno:

m pen. 23. 11, 12. Mat. 27. 2. Marc 15. 1. Ioan 18. 30, 35.
Act. 3. 13, 14. n pen. 22. 63—65. a 23. 11, 35. Es. 50. 6. a 52.
14. a 53. 3. Mica 5. 1. Mat. 26. 67. a 27. 28—30. Marc 14. 65. a 15.
17—20. Ioan 18. 22. a 19. 1—5.

33 Ac wedi iddynt *ei* fflangellu, y lladdant
ef: [o] a'r trydydd dydd efe a adgyfyd.

o pen. 24. 7, 21—23. Mat. 27. 63, 64. 1 Cor. 15. 3, 4.

34 ‖ A [p] hwy ni ddeallasant ddim o'r pethau
hyn; a'r gair hwn oedd guddiedig oddi wrth-
ynt, ac ni wybuant y pethau a ddywedwyd.

p pen. 2. 50. a 9. 45. a 24. 25, 45. Marc 9. 32. Ioan 12. 16. a
16. 1—19.

Gwelwn yr holl bethau uchod yn cael eu cyflawni yn
gwbl, yn nyoddefiadau ein Hiachawdwr, fel yr elom yn
mlaen yn yr hanes; a rhaid ei fod ef yn hollwybodol i
allu eu rhagfynegu yma. * Yr oedd Iesu ar ei daith
ddiweddaf o Galilea i Jerusalem y pryd hwn: myned
yno i ddyoddef yr ydoedd. † Am y pethau a ysgrifenwyd
trwy y prophwydi, gwel y cyfeiriadau dàn y llythyren *l.*
‡ Buasai yn fwy naturiol meddwl, y buasai yr luddewon
eu hunain yn llofruddio Crist yn ddirgelaidd, mewn
brad, gan faint eu cynddeiriogrwydd i'w erbyn: neu ynte
yn ei labyddio ef â meini yn ol eu deddf eu hunain,
yn enwedig gan eu bod yn ei gyhuddo ef o gabledd, a
Philat yn rhoddi caniatâd iddynt i hyny, (Gwel Matth.
26. 65, 66; Ioan 18. 31; a 19. 7;) ond yr oedd yn
rhaid ei bod fel hyn fel y cyflawnid yr ysgrythyrau.
Cymhara Matth. 26. 56. â Ioan 19. 36. Toresid ei
esgyrn ef wrth ei labyddio, ond nid oedd hyny i fod.
‖ Yr oedd dallineb ac annwybodaeth y dysgyblion yn
hyn, yn tarddu oddi ar eu dychymmygion cyfeiliornus
hwy am y Messiah, mai brenin daearol a fyddai: nis
gallent gysoni hyny â'r driniaeth uchod. Mae yn an-
genrheidiol iawn i ni ystyried pa feddyliau sydd genym
yn nghylch pethau Duw: ac mae yn dda iawn i ni
wrando, pe na byddai ond erbyn yr amser a ddaw;
gwedi hyn cafodd y dysgyblion ddeall y pethau uchod
oll, ac yr oedd eu clywed yn awr yn gynnaliaeth iddynt
y pryd hwnw. Gwel ychwaneg ar Matth. 20. 17—19;
a Marc 10. 32—34.

35 ¶ A bu, [q] ac efe yn nesâu at Jericho, i
ryw ddyn dall fod yn eistedd yn ymyl y ffordd
yn [r] * cardotta:

q Mat. 20. 29, 30. Marc 10. 46, 47. r pen. 16. 20, 21.
1 Sam. 2. 8. Ioan 9. 8. Act. 3. 2.

Gwel ar Matth. 20. 29, 30; a Marc 10. 46. Sylwir
yn Matthew ar yr ymddangosiad o anghysondeb sydd
rhwng y tri Efengylwr yn yr hanes hwn. * Byddai y
cardoteion y darllenwn am danynt yn yr ysgrythyr yn
byw yn y lle, a'r gymmydogaeth, lle byddent yn gofyn
elusenau; ac felly adnabyddid hwynt, eu bod yn wir
wrthddrychau o elusen. Mae hyn yn wahanol iawn i
cardoteion *crwydraidd* ein gwlad a'n dyddiau ni, y rhai
sydd, lawer o honynt, yn ddynion twyllodrus a drwg.
Yn gyffredin, gwell yw cynnorthwyo a rhai a adwaenom,
na'r rhai nid adwaenom: pe gwnelid felly, byddai raid
i bob cardoteion aros yn eu hardal eu hunain; byddai
elusenau yn cael eu defnyddio yn fwy priodawl; byddai
achos crefydd a moesau da yn cael eu diogelu yn well;

a'r tlodion eu hunain yn cael eu cynnorthwyo yn helaethach.

36 A phan glybu efe y dyrfa yn myned heibio, [s] efe a ofynodd pa beth oedd hyn.
s pen. 15. 26. Mat. 21. 10, 11.

37 A [t] hwy a ddywedasant iddo, [u] Mai Iesu o Nazareth oedd yn myned heibio.
t Marc 2. 1—3. Ioan 12. 35, 36. 2 Cor. 6. 2. u pen. 2. 51. Mat. 2. 22. Ioan 1. 45. a 19. 19. Act. 2. 22. a 4. 10.

38 Ac efe a lefodd, gan ddywedyd, [x] Iesu, Mab Dafydd, trugarhâ wrthyf.
x Es. 9. 6, 7. a 11. 1. Jer. 23. 5, 6. Mat. 9. 27. a 12. 23. a 15. 22. a 21. 9, 15. a 22. 42—45. Rhuf. 1. 3. Dat. 22. 16.

39 A'r rhai oedd yn myned o'r blaen, [y] a'i ceryddasant ef i dewi: [z] eithr efe a lefodd yn fwy o lawer, Mab Dafydd, trugarhâ wrthyf.
y adn. 15. pen. 8. 49. a 11. 52. a 19. 39. z pen. 11. 8—10. a 18. 1. Gen. 32. 26—28. Jer. 29. 12, 13. Mat. 7. 7. a 26. 40—44. 2 Cor. 12. 8.

40 A'r Iesu [a] a safodd, ac a orchymynodd ei ddwyn ef atto. A phan ddaeth efe yn agos, efe a ofynodd iddo,
a Mat. 20. 31—34. Marc 10. 48—52.

41 Gan ddywedyd, [b] Pa beth a fynni di i mi ei wneuthur i ti? Yntau a ddywedodd, Arglwydd, cael o honof fy ngolwg.
b 1 Bren. 3. 5, &c. Mat. 20. 21, 22. Rhuf. 8. 25. Phil. 4. 6.

42 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, [c] Cymmer dy olwg: [d] * dy ffydd a'th iachâodd.
c Salm 33. 9. a 107. 20. Mat. 8. 3. a 15. 28. d pen. 7. 50. a 8. 48. a 17. 19.

43 † Ac allan o law [e] y cafodd efe ei olwg, [f] ac a'i canlynodd ef, gan ogoneddu Duw. A'r holl bobl, pan welsant, a roisant foliant i Dduw.
e Salm 146. 8. Es. 29. 18, 19. a 35. 5. a 42. 16. a 43. 8. Mat. 9. 28—30. a 11. 5. a 21. 14. Ioan 9. 5—7, 39, 40. Act. 26. 18. f pen. 4. 39. a 17. 15—18. Salm 103. 1—3. a 107. 8, 15, 21, 22, 31, 32. Es. 43. 7, 8, 21. Gal. 1. 24. 2 Thes. 1. 10—12. 1 Pedr 2. 9.

Gwel ar Matth. 20. 29—34; a Marc 10. 46—52.
* Gwelir yma eto, fel mewn amrai fànau eraill, gymmaint mae yr Arglwydd Iesu yn briodoli i ffydd: *Dy ffydd a'th iachâodd.* Mae yn sicr mai Crist drwy ei allu Dwyfol, a agorodd lygaid y dall; ond efe a wnaeth hyny ar weithrediad *ffydd*, yr hon oedd efe yn weled yn y dall: sef crediniaeth y gallai efe agor ei lygaid ef. Mae Crist yn gwobrwyo ffydd yn ei gweithrediadau lleiaf, a gwanaf, pa faint mwy yn ei gweithrediadau cryfach. Heblaw credu yn ngallu Crist i agoryd ei lygaid, mae yn debygol fod y dall hwn yn credu hefyd mai efe oedd y Messiah; mae yn ei alw yn Fab Dafydd, enw cyffredinol ar y Messiah yn mhlith yr Iuddewon yn mhob oes o amser Dafydd i fynu. † Mae yn werth sylw, mai gwaith priodawl i'n Hiachawdwr yn unig oedd agor llygaid y deillion. Nid oes hanes yn yr ysgrythyr i hyn gael ei wneyd gan brophwydi cyn ei ddyfodiad ef, na chàn yr apostolion ar ol ei esgyniad; ac nid yw hyn yn cael ei grybwyll yn mhlith y galluoedd gwyrthiol a roddwyd iddynt hwy. Tarawodd Eliseus ddynion â dallineb, mae yn wir, trwy weddio; a thrwy ei weddi ef cawsant agoryd eu llygaid drachefn, 2 Bren. 6. 18, 20; ond yr oedd hyn yn beth gwahanol iawn i agoryd llygaid rhai a anesid yn ddall, neu rai a aethent yn ddall drwy ddamweiniau neu glefydau. Goleuni y byd oedd ein Harglwydd Iesu.

PEN. XIX.

Am Zacchëus y publican.

A'R *Iesu* a aeth i mewn, ac a aeth trwy [a] Jericho.
a Jos. 2. 1. a 6. 1, &c. 26. 1 Bren. 16. 34. 2 Bren. 2. 18—22.
* Dinas enwog a chyfoethog iawn oedd Jericho, tuag wyth milltir i'r gorllewin i'r Iorddonen, a llai nag ugain i'r dwyrain o Jerusalem. Gwel Num. 22. 1. I Jericho y daeth yr yspïwyr gyntaf, Jos. 2. 2; a hon a gymmerwyd gyntaf gan yr Israeliaid, Jos. 6. Melltithiodd Josua y gwr a'i hail-adeiladai, Jos. 6. 26; a chyflawnwyd y felltith hòno yn mhen pùm cant ac ugain mlynedd wedi hyny, 1 Bren. 16. 34. Yr oedd Jericho yn sefyll mewn dyffryn bras a ffrwythlawn, yn ìs na Jerusalem, Luc 10. 30, a dywed y Rabbiniaid Iuddewig fod 12,000 o offeiriaid yn cyfanneddu yno. Dinas yn perthyn i randir llwyth Benjamin ydoedd.

2 Ac wele, wr a elwid wrth ei enw * Zacchëus, † *ac* efe oedd ben-publican, ‡ a [b] hwn oedd gyfoethog.
b pen. 18. 24—27. 2 Cron. 17. 5, 6.
* Tybir wrth yr enw mai Iuddew oedd y gwr hwn, fel Matthew y publican, ac amryw eraill o Iuddewon oedd yn y swydd hòno. † Sylwyd o'r blaen, mai casglwyr y deyrnged i Cesar oedd y publicanod hyn, ac yr oeddynt yn gas gan yr Iuddewon, yn un peth o herwydd eu bod yn orthrymus ac anghyfiawn yn eu gofynion, (Gwel ar Matth. 9. 9.) ac hefyd bod yn gas ganddynt hwythau dalu teyrnged i'r Rhufeiniaid eu darostyngwyr. Yr oedd y Zacchëus hwn yn brif swyddog, mae yn debyg, o fewn ei ddosparth ef, ac fel derbyniwr cyffredin y deyrnged. ‡ Tybir ei fod yn gyfoethog o'r blaen, cyn myned i'r swydd hon; oblegid ni roddid y swydd i neb, oni allent ymrwymo mewn swm mawr, na byddai y llywodraeth ddim mewn colled ar eu dwylo hwynt. Ond diammau iddo chwanegu llawer at ei gyfoeth wedi myned i'r swydd, trwy ei dâl swyddawl, a'i ofynion anghyfiawn: mae yn addef y peth diweddaf yn adn. 8.

3 * Ac [c] yr oedd efe yn ceisio gweled yr Iesu, pwy ydoedd; ac ni allai gan y dyrfa, [d] † am ei fod yn fychan o gorpholaeth.
c pen. 9. 7—9. a 23. 8. Ioan 12. 21. d pen. 12. 25.

4 Ac efe a redodd o'r blaen, [e] ac a ddringodd i [f] ‡ sycamorwydden, fel y gallai ei weled ef: oblegid yr oedd efe i ddyfod y ffordd honno.
e pen. 5. 19. f 1 Bren. 10. 27. Es. 9. 10. Amos 7. 14.
* Nid oedd yr ymgais hyn am weled yr Iesu ddim ond blys gwag a chwilfrydedd, *(curiosity,)* gan iddo glywed llawer o sôn am dano. Aeth llawer un i foddion gras heb ddim gwell egwyddor na dyben ganddynt, na'r Zacchëus hwn; ond cyfarfu Duw â hwy yn ei ras fel âg yntau, a'r dydd hwnw daeth iachawdwriaeth i'w calonau. † Zacchëus oedd yn fychan o gorpholaeth, mae yn amlwg, ac nid Iesu, fel y bydd rhai yn gwaggddadlau ar y gair hwn. ‡ Math o bren deuryw meddant oedd sycamorwydden yr ysgrythyr, a'i ddail yn debyg i ddail y morwydd, a'i ffrwyth yn debyg i ffrwyth y ffigysbren.

5 A phan ddaeth yr Iesu i'r lle, [g] * efe a edrychodd i fynu, ac a'i canfu ef; ac a ddywedodd wrtho, [h] Zacchëus, disgyn ar frys: [i] † canys rhaid i mi heddyw aros yn dy dŷ di.
g Ezec. 16. 6. Ioan 1. 48. a 4. 7—10. h Preg. 9. 10. 2 Cor. 6. 1, 2. i adn. 10. Gen. 18. 3—5. a 19. 1—3. Salm 101. 2, 3. Ioan 14. 23. Eph. 3. 17. Heb. 13. 2. Dat. 3. 20.

"Cafwyd fi gan y rhai ni'm ceisiasant" medd y Cyfryngwr yn Es. 65. 1, ac wele yma gyflawniad o hyny.
* Adwaenai Iesu Zacchëus er tragywyddoldeb fel un o'i ddefaid, a gwyddai fod ei enw yn ysgrifenedig yn llyfr y bywyd, am hyny daeth trwy Jericho y waith hon i'w alw ef. Edrychodd Iesu ar filoedd, heb i'w olwg effeithio dim yn rasol ac yn achubol arnynt; ond edrychiad rhyfedd oedd hwn, ac effeithiodd yn rhyfedd mewn mynydyn ar Zacchëus: edrychiad fel yr edrychiad ar Pedr ydoedd, ac o gyffelyb effaith. Gall Iesu gyfnewid pechadur â'i olwg yn gystal a thrwy ryw ffordd arall: a da iawn yw bod yn agos i'r mànau lle mae Iesu yn arfer dyfod, beth bynag fyddo yr egwyddor a'n tŷno ni

.. † Hwn yw y tro cyntaf y darllenwn i Grist wahodd
hun i dŷ neb, ac wedi myned efe a wnaeth fwy i
cchëus nac a ddysgwyliodd efe. Rhyfedd radlon-
ydd a chyfoeth gras Duw! nid yw yn ymofyn am wrth-
rych teilwng, ond mae yn gwneyd y gwrthddrych yn
lwng. Nid oedd yr hunan-wahoddiad hyn yn beth
ithr i Zacchëus, nac i neb yn y wlad hòno; oblegid
oedd llettygarwch yn ddyledswydd grefyddol bron yn
plith, am nad oedd lleoedd cyhoeddus i dderbyn
eithriaid fel yn ein gwlad ni. Pan elai gwr dïeithr ar
daith trwy bentref, a gweled tŷ go hardd a chysurus
olwg, efe a holai am berchen y tŷ; wedi ei gael, efe
estynai ei law iddo, a dywedai "Pererin," neu
eithiwr," a dim ond hyny; yna gwahoddid ef i
tedd, ac ar ol ei holi ychydig yn nghylch ei daith,
wellid ei angenrheidiau ef.

16 * Ac [k] efe a ddisgynodd ar frys, † ac a'i
rbyniodd ef [l] yn llawen.

k pen. 2. 16. Gen. 18. 6, 7. Salm 119. 59, 60. Gal. 1. 15, 16.
en. 5. 29. Es. 64. 5. Act. 2. 41. a 16. 15, 34.

* Chwilfrydedd a aeth a Zacchëus i fynu, ond cariad
Grist a ddaeth ag ef i lawr. † Derbyniodd ef yn
wen, yn gyntaf i'w galon, ac wedi hyny i'w dŷ. Diwr-
d llawen i bechadur yw y diwrnod mae yn derbyn
rist; a dechreu llawenydd yw na dderfydd byth. Pan
ae Iesu yn dyfod i'r galon, nid yw efe yn dyfod a dim
stwch gydag ef, dim ond pethau da, ac o lawenydd
awr.

17 A phan welsant, [m] * grwgnach a wnaeth-
nt oll, gan ddywedyd, † Fyned o hono ef i
ewn i lettya at wr ‡ pechadurus.

m pen. 5. 30. a 7. 34, 39. a 15. 2. a 18. 9—14. Mat. 9. 11. a
. 28—31.

* Dyma yr ben deulu byth wrth yr un gorchwyl;
th bynag a wnelai yr Iesu, grwgnach a wnelent hwy.
awdd i ni adnabod y llais, mai y Phariseaid oedd y
rwgnachwyr hyn: yr oedd arnynt hwy lawer mwy o
'n cymdeithasu â phechaduriaid, na bod yn bechadur-
id eu hunain. † Sylwasom o'r blaen (adn. 1,) fod
iloedd o offeiriaid a Lefiaid yn Jericho; nid oedd neb
honynt yn gwahodd Iesu i'w dŷ, ac eto grwgnachent
n ei fod yn myned i dŷ Zacchëus. ‡ Gyda'r pechad-
riaid y cyfrifent hwy y publicanod oll, a dïammau bod
acchëus o'r blaen yn dra phechadurus.

18 A Zacchëus a safodd, ac a ddywedodd
rth yr Arglwydd, [n] Wele, hanner fy nâ, * O
rglwydd, † yr ydwyf yn ei roddi i'r tlodion;
[o] os dygais ddim o'r eiddo neb trwy [o] ‡ gam-
chwyn, [p] ‖ yr ydwyf yn ei dalu ar ei bedwer-
dd.

n pen. 3. 8—13. a 11. 41. a 12. 33. a 16. 9. a 18. 22, 23. Act.
44—46. a 4. 34, 35. 2 Cor. 8. 7, 8. 1 Tim. 6. 17, 18. Iago 1. 10,
. o pen. 3. 14. p Ex. 22. 1—4. Lef. 6. 1—6. 1 Sam. 12.
2 Sam. 12. 6. Diar. 6. 31.

* Gellid meddwl wrth fod Zacchëus yn galw Iesu yn
rglwydd, ei fod erbyn hyn wedi cael gwir ddatguddiad
o adnabyddiaeth o hòno, ac yn gwir gredu ynddo fel
Messiah a Mab y Duw byw. † Gweithredoedd o gyfiawn-
er a thrugaredd yw ffrwythau cyntaf edifeirwch: mae
byd, a chariad at y byd, yn myned allan o'r galon, cyn
ynted ag y delo cariad Crist i mewn iddi; mae yr
maid yn gweled nas gall wasanaethu Duw â mammon.
Iid oes un ddeddf yn gofyn am i ddyn roddi hanner ei
da i'r tlodion; ond y mae cariad at Grist yn ehangu y
alon, yn gwneyd y cybydd yn hael, ac yn caru rhoddi
nesur llawn, da, dwysedig, ac yn myned drosodd.
Byddai y publicanod yn gofyn mwy nac oedd gyf-
awn, ac os gwrthwynebid y gofynion hyny, cam-
chwynent arnynt wrth y Rhufeiniaid fel yn anufudd i'r
lywodraeth. ‖ Talu yn ol ar ei bedwerydd oedd yr
ithaf oedd y gyfraith Iuddewig yn ofyn, hyd yn nod
hewn achosion o dwyll lledradaidd, oddigerth lle byddai
rch wedi ei ladd neu ei werthu, a'i berchenog wedi
olli ei wasanaeth, ac yn anoddach cael allan y lledrad.
Gwel y cyfeiriadau *p*, ac yn enwedig Exod. 22. 1; 2 Sam. 12. 6. Dïammau i Zacchëus dalu yn ol yr eiddo a gam-gasglasai yn gyntaf, ac wedi hyny rhoddi i'r tlodion; oblegid mae Duw yn hoffi cyfiawnder, ac yn casâu trais yn boeth-offrwm: mae pob dyn gwir ddychweledig yn dysgu bod yn gyfiawn, cyn bod yn hael. Rhaid bod Zacchëus yn bur gyfoethog os oedd ganddo fodd i fyw ar ol talu i bawb y gwnaethai gam â hwynt ar ei bedwerydd, a rhoddi hanner y gweddill rhwng y tlodion.

19 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, [q] * Heddyw
y daeth iachawdwriaeth i'r † tŷ hwn, [r] ‡ o
herwydd ei fod yntau yn fab i Abraham.

q pen. 2. 30. a 13. 30. Ioan 4. 38—42. Act. 16. 30—32. 1 Cor.
6. 9—11. 1 Pedr 2. 10. r pen. 13. 16. Rhuf. 4. 11, 12. Gal. 3. 7,
14, 29.

20 [s] ‖ Canys Mab y dyn a ddaeth i geisio
ac i gadw yr hyn a gollasid.

s pen. 5. 31, 32. a 15. 4—7, 32. Mat. 1. 21. a 9. 12, 13. a 10. 6.
a 15. 24. a 18. 11. 1 Tim. 1. 13—16. Heb. 7. 25. 1 Ioan 4. 9—14.

* Wrth "iachawdwriaeth" yma, gellir meddwl Crist
ei hunan, awdwr iachawdwriaeth. Isa. 49. 6; Luc 2.
29, 30: neu, fel yn fwyaf cyffredin, bendithion yr iach-
awdwriaeth, Act. 4. 12: neu ynte, addewidion efengyl
yr iachawdwriaeth, Ioan 4. 22; Act. 28. 28. † Wrth dŷ
Zacchëus yma, mae rhai yn deall, efe a'i holl deulu.
Pan mae Duw yn tywallt olew gras ar y pen-teulu, mae
yn peri iddo ddisgyn hyd y godre, o leiaf mewn breint-
iau allanol teuluaidd. Yr oedd cyfammod Duw âg
Abraham ac â'i *had:* mae bendith yn dyfod ar genedl-
oedd cyfain, a theuluoedd, pan fyddo eu pendodau yn
derbyn yr efengyl. ‡ "Gwr pechadurus," ebai y grwg-
nachwyr (adn. 7.) mab i Abraham, ebai Iesu: wrth hyn
yr oedd yn amddiffyn Zacchëus, fel dyn dychweledig; ac
yn ei amddiffyn ei hun hefyd, yn ei waith yn myned i'w
dŷ ef. Yr oedd efe yn fab i Abraham o waedoliaeth
naturiol, ac erbyn hyn yn fab i Abraham o ran ffydd
wirioneddol, ac yn dechreu cerdded llwybrau ffydd
Abraham. ‖ Fel pe dywedasai yr Iesu, grwgnachwch
chwi faint a fynoch, yr wyf fi gyda fy ngorchwyl priod-
ol, i geisio y colledig hwn y daethum I i Jericho; mi
a'i cefais, ac yn awr mae yn gadwedig. Gwel ar Matth.
18. 11.

21 ¶ Ac a hwy yn gwrandaw ar y pethau
hyn, efe a chwanegodd, ac * a ddywedodd
ddammeg, am ei fod ef yn agos i Jerusalem,
† ac am [t] iddynt dybied yr ymddangosai teyrn-
as Dduw yn y fan.

t pen. 17. 20. Act. 1. 6. 2 Thes. 2. 1—3.

* Mae hon yn debyg i ddammeg y talentau, yn Matth.
25. 14—30, eto cair hi yn wahanol i hòno mewn amryw
bethau, fel y gellir gweled wrth gymharu y ddwy â'u
gilydd † Wrth i'r bobl glywed y pethau uchod, yn en-
wedig adn. 10, tybiasant fod y geiriau "Mab y dyn," a
"chadw yr hyn a gollasid," yn eiriau tebyg i'r eiddo y
Messiah, a bod Iesu wrth arfer y fath eiriau yn hòni
mai efe oedd y Messiah. Gan ei fod yn awr ar ei daith
i Jerusalem, y ddinas freninol, tybient ei fod yn myned
yno i'w amlygu ei hun fel Messiah, ac i osod ei freniniaeth i fynu yn ddïoed. Wrth weled fod y meddyliau hyn ganddynt, mae efe yn traethu y ddammeg ganlynol i ddangos ei wrthodiad, ei ymadawiad, a'i ddychweliad eilwaith, cyn gosod i fynu ei deyrnas.

22 Am hynny y dywedodd efe, [u] * Rhyw
wr boneddig a aeth i [x] wlad bell [y] i dderbyn
teyrnas iddo ei hun, [z] ac i ddychwelyd.

u Mat. 25. 14—30. Marc 13. 34—37. x pen. 20. 9. a 24.
51. Mat. 21. 38. Marc 12. 1. a 16. 19. Act. 1. 9, 10. y Mat. 28.
18. Ioan 18. 37. 1 Cor. 15. 25. Eph. 1. 20—23. Phil. 2. 9—11.
1 Pedr 3. 22. z Act. 1. 11. a 17. 31. Heb. 9. 28. Dat. 1. 7.

23 † Ac wedi galw [a] ei ddeg gwas, [b] efe a
roddes iddynt ddeg ‡ punt, ac a ddywedodd
wrthynt, Marchnattêwch hyd oni ddelwyf.

a Mat. 25. 14. Ioan 12. 26. Gal. 1. 10. Iago 1. 1. 2 Pedr 1. 1.

b Mat. 25. 15. Rhuf. 12. 6—8. 1 Cor. 12. 7—11, 28, 29. 1 Pedr 4. 9—11.

14 ‖ Eithr [c] ei ddinaswŷr a'i casasant ef, ac a ddanfonasant gennadwri ar ei ol ef, gan ddywedyd, Ni fynnwn ni hwn i deyrnasu arnom.

c adn. 27. 1 Sam. 8. 7. Salm 2. 1—3. Es. 49. 7. Zec. 11. 8. Ioan 1. 11. a 15. 23, 24. Act. 3. 14, 15. a 4. 27, 28. a 7. 51, 52.

15 § A bu, pan ddaeth efe yn ei ol, [d] wedi derbyn y deyrnas, erchi o hono ef alw y gweision hyn atto, i'r rhai y rhoddasai efe yr arian, [e] fel y gwybyddai beth a elwasai bob un wrth farchnatta.

d Salm 2. 4—6. e pen. 12. 48. a 16. 2, &c. Mat. 18. 23, &c. a 25. 19. Rhuf. 14. 10—12. 1 Cor. 4. 1—5.

16 A daeth y cyntaf, gan ddywedyd, [f] Arglwydd, dy bunt a ynnillodd ddeg punt.

f 1 Cron. 29. 14—16. 1 Cor. 15. 10. Col. 1. 28, 29. 2 Tim. 4. 7, 8. Iago 2. 18—26.

17 Yntau a ddywedodd wrtho, [g] Da, was da: am i ti [h] fod yn ffyddlawn yn y lleiaf, bydded i ti awdurdod ar ddeg dinas.

g Gen. 39. 4. 1 Sam. 2. 30. Mat. 25. 21. Rhuf. 2. 29. 1 Cor. 4. 5. 2 Tim. 2. 10. 1 Pedr 1. 7. a 5. 4. h pen. 16. 10. a 22. 30. Dat. 2. 26—29.

18 A'r ail a ddaeth, gan ddywedyd, Arglwydd, [i] dy bunt di a wnaeth bùm punt.

i Mat. 13. 23. Marc 4. 20. 2 Cor. 8. 12.

19 Ac efe a ddywedodd hefyd wrth hwnnw, [k] Bydd dithau ar bùm dinas.

k Es. 3. 10. 1 Cor. 3. 8. a 15. 41, 42, 58. 2 Cor. 9. 6. 2 Ioan 8.

20 Ac un arall a ddaeth, gan ddywedyd, [l] Arglwydd, wele dy bunt, yr hon oedd gennyf wedi ei dodi mewn napcyn:

l adn. 13. pen. 3. 9. a 6. 46. Diar. 26. 13—16. Mat. 25. 24. Iago 4. 17.

21 Canys [m] mi a'th ofnais, [n] am dy fod yn wr tost: yr wyt ti yn cymmeryd i fynu y peth ni roddaist i lawr, ac yn medi y peth ni heuaist.

m Ex. 20. 19, 20. 1 Sam. 12. 20. Mat. 25. 25. Rhuf. 8. 15. 2 Tim. 1. 7. Iago 2. 19. 1 Ioan 4. 18. n 1 Sam. 6. 19—21. 2 Sam. 6. 9—11. Job 21. 14, 15. Ezec. 18. 25—29. Mal. 3. 14, 15. Rhuf. 3. 7. Judas 15.

22 Yntau a ddywedodd wrtho, [o] O'th enau dy hun y'th farnaf, tydi was drwg. [p] Ti a wyddit fy mod i yn wr tost, yn cymmeryd i fynu y peth ni roddais i lawr, ac yn medi y peth ni heuais:

o 2 Sam. 1. 16. Job 15. 5, 6. Mat. 12. 37. a 22. 12. Rhuf. 3. 19. p Mat. 25. 26, 27.

23 *A* phaham na roddaist fy arian i i'r bwrdd *cyfnewid,* fel pan ddaethwn y gallaswn ei gael gyd â [q] llog?

q Ex. 22. 25—27. Deut. 23. 19, 20.

24 Ac efe a ddywedodd wrth y rhai oedd yn sefyll ger llaw, [r] Dygwch oddi arno ef y bunt, a rhoddwch i'r hwn sydd â deg punt ganddo.

r pen. 12. 20. a 16. 2.

25 (A hwy a ddywedasant wrtho, [s] Arglwydd, y mae ganddo ef ddeg punt)

s pen. 16. 2. 2 Sam. 7. 19. Es. 55. 8, 9.

26 Canys yr wyf fi yn dywedyd i chwi, [t] mai i bob un y mae ganddo, y rhoddir iddo; [u] eithr oddi ar yr hwn nid oes ganddo, y dygir oddi arno, ïe, yr hyn sydd ganddo.

t pen. 8. 18. Mat. 13. 12. a 25. 28, 29. Marc 4. 25. Ioan 15. 1—3. u pen. 16. 3. 1 Sam. 2. 30. a 15. 28. 2 Sam. 7. 15. Salm 109. 8. Ezec. 44. 12—16. Mat. 21. 43. Act. 1. 20. 2 Ioan 8. Dat. 2. 3. a 3. 11.

27 A *hefyd* [x] fy ngelynion hynny, y rhai ni fynnasent i mi deyrnasu arnynt, dygwch hwynt yma, a lleddwch ger fy mron i.

x adn. 14, 42—44. pen. 21. 22, 24. Num. 14. 36, 37. a 16. 36—35. Salm 2. 3—5. a 21. 8, 9. a 69. 22—28. Mat 21. 37—41. a 22. 7. a 23. 34—36. 1 Thes. 2. 15, 16.

* Cyfeiriad sydd yma at freninoedd, neu raglawiaid Judea, yn myned i Rufain i dderbyn eu hawdurdod freninol gan yr Ymherawdwr. Hyny yw meddwl llythyrenol y geiriau: ond yn ysbrydol, Crist yw y gwr boneddig; ei esgyniad i'r nef yw myned i'r wlad bell; ac ar ei esgyniad, wedi gorphen pob dyoddefaint, y rhoddwyd pob awdurdod iddo yn y nef ac ar y ddaear. † Wrth y deg gwas mae i ni ddeall dysgyblion proffesedig Iesu, y rhai nid oeddynt ond ychydig mewn cymhariaeth i liaws ei elynion, a'i ddeiliaid eraill yn y gogoniant. Tri gwas sydd yn Matthew, a phùm talent i un, dwy i'r ail, ac un i'r trydydd; yma deg gwas a deg punt, sef punt i bob un o honynt, y naill fel y llall: hefyd yr oedd y *talentau* yn Matthew yn llawer mwy na'r *punnoedd* yma. ‡ Tybia rhai fod y bunt yma yn dair punt a hanner coron o'n harian ni; eraill ei bod yn saith bunt a deg swllt; ac eraill ei bod yn naw punt. Beth bynag oedd y swm, mae yn arwyddo y doniau, y manteision, a'r breintiau, a roddodd Crist i'w ddysgyblion ar ei ymadawiad, trwy iawn ddefnyddio pa rai, yr oeddent i brofi eu ffyddlondeb fel gweision, i ogoneddu eu Harglwydd, ac i wneuthur daioni tra byddent ar y ddaear. Gwel ar ddammeg y talentau yn Matth. 25. 14—30. ‖ Y dinaswyr a'i casasant ef oedd yr Iuddewon anghrediniol, y rhai a waeddent "Ymaith ag ef," "Nid oes i ni frenin ond Cesar," &c. Peth cyffredin iawn oedd danfon cenadwyr i Rufain o ddinasoedd a thaleithiau, i wrthwynebu y neb a geisient freniniaethu arnynt, os na byddent yn foddlawn iddynt. Pan aeth *Archelaus,* mab ac olynydd Herod Mawr i Rufain i geisio y freniniaeth ar Judea wedi marw ei dad, danfonodd ei wrthwynebwyr genadwri ar ei ol ef fel y dywedir yma: ond er hyny efe a lwyddodd i gael y freniniaeth, a phan ddychwelodd, efe a ddialodd yn ofnadwy ar ei wrthwynebwyr hyny: fel y dywedir yn adn. 27. Rhoddir hanes am hyn gan *Josephus,* a thybir mai y tro hwn oedd yn ngolwg yr Arglwydd Iesu yn y ddammeg hon, canys yn ei amser ef y bu hyn, pan oedd ef yn blentyn bychan: gwel Matth. 2. 22. § Gall y sylw canlynol wasanaethu fel agoriad ar y cyfrif yma rhwng Iesu â'i ddinasyddion a'i weision:—Mae tri math o bobl yn yr eglwys: yn gyntaf y rhai nid adwaenant Grist, ac ydynt yn gwrthryfela yn ei erbyn: yn ail, y rhai yn ol eu galwedigaeth, ydynt yn ffyddlawn ac yn ddiwyd yn defnyddio y pethau hyny a roddodd efe iddynt, er ei ogoniant ef a lles eu cyd-grëaduriaid: ac yn drydydd, y rhai ydynt yn farwaidd, yn ddiog, yn anffyddlawn, ac heb wneuthur dim daioni. Pan ddel yr Arglwydd, efe a dywallt ddial cyfiawn ar y cyntaf: efe a fendithia ac a wobrwya yr ail, yn ol eu llafur a'u ffyddlondeb: ac efe hefyd a gospa y trydydd, fel rhai diles a diddefnydd; sef y rhai a dreuliant fywyd ofer mewn rhesymau ac ystyriaethau cnawdol.

28 ¶ Ac wedi iddo ddywedyd y pethau hyn, [y] * efe a aeth o'r blaen, gan fyned i † fynu i Jerusalem.

y pen. 9. 51. a 12. 50. a 18. 31. Salm 40. 6—8. Marc 10. 32—34. Ioan 18. 11. Heb. 12. 2. 1 Pedr 4. 1.

* Sylwodd Marc 10. 32, fod Iesu yn "myned o'r blaen;" ac mae Luc yma yn sylwi yr un peth: er dangos i ni yn ddiammau, ei barodrwydd a'i esgudrwydd ef i ddyoddef dros ei bobl yn Jerusalem. † Sylwyd o'r blaen, fod Jericho yn sefyll ar ìs tir na Jerusalem, am hyny dywedir fod Iesu yn myned i *fynu* i Jerusalem.

29 Ac fe a ddigwyddodd [z] pan ddaeth efe yn agos at Bethphage a [a] Bethania, i'r mynydd a elwir Olew-wydd, efe a anfonodd ddau o'i ddisgyblion,

z Mat. 21. 1, &c. Marc 11. 1, &c. Ioan 12. 12—16. a adn. pen. 21. 37. a 22. 39. a 24. 50. Zec. 14. 4. Act. 1. 12.

30 Gan ddywedyd, [b] Ewch i'r pentref ar ch cyfer; yn yr hwn, gwedi eich dyfod i ewn, chwi a gewch ebol yn rhwym, ar yr wn nid eisteddodd dyn erioed: gollyngwch , a dygwch yma.

b adn. 32. pen. 22. 8—13. 1 Sam. 10. 2—9. Ioan 14. 29.

31 Ac os gofyn neb i chwi, Paham yr lych yn *ei* ollwng? fel hyn y dywedwch rtho, Am [c] fod yn rhaid i'r Arglwydd wrtho.

c Salm 24. 1. a 50. 10—12. Mat. 21. 2, 3. Marc 11. 3—6. Act. 36.

32 A'r rhai a ddanfonasid a aethant ymaith, a gawsant fel y dywedasai efe wrthynt.

33 Ac fel yr oeddynt yn gollwng yr ebol, berchennogion a ddywedasant wrthynt, Paam yr ydych yn gollwng yr ebol?

34 A hwy a ddywedasant, [d] Mae yn rhaid r Arglwydd wrtho ef.

d Zec. 9. 9. Ioan 10. 35. a 12. 16. 2 Cor. 8. 9.

Cawsom yr hanes hyn yn Matth. 21. 1—3; a Marc 1. 1—3: gwel y sylwadau yno.

35 A hwy a'i dygasant ef at yr Iesu: ac wedi iddynt fwrw eu dillad ar yr ebol, hwy a ddodasant yr Iesu arno.

e 2 Bren. 9. 13. Mat. 21. 7, 8. Marc 11. 7, 8. Gal. 4. 15, 16.

36 Ac fel yr oedd efe yn myned, hwy a aenasant eu dillad ar hŷd y ffordd.

37 Ac weithian, ac efe yn nesâu [f] at ddisynfa mynydd yr Olew-wydd, [g] dechreuodd r holl lïaws disgyblion lawenhâu a chlodfori Duw â llef uchel, am yr holl weithredoedd erthol a welsent;

f adn. 29. Marc 13. 3. a 14. 26. g pen. 7. 16. Ex. 15. 1, c. Barn. 5. 1, &c. 2 Sam. 6. 2—6. 1 Bren. 8. 55, 56. 1 Cron. 15. a 16. 4, &c. 2 Cron. 29. 38—30, 36. Ezra 3. 10—13. Salm 106. 2, 13. Ioan 12. 12, 13.

38 Gan ddywedyd, [h] Bendigedig *yw* y Brenhin sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd: Tangnefedd yn y nef, a [k] gogoniant yn y goruchaf.

h pen. 13. 35. Salm 72. 17—19. a 118. 22—26. Zec. 9. 9. Mat. 21. 9. Marc 11. 9, 10. i pen. 2. 10—14. Eph. 2. 14—18. Col. 1. 20. k Eph. 1. 6, 12. a 3. 10, 21. 1 Tim. 1. 17. 1 Pedr 1. 12. Dat. 9—14. a 19. 1—6.

Gwel ar Matth. 21. 6—9; a Marc 11. 7—10. Marc ydd helaethaf.

39 A rhai o'r Phariseaid o'r dyrfa a ddywedasant wrtho, Athraw, [l] * cerydda dy ddisgyblion.

l Es. 26. 11. Mat. 23. 13. Ioan 11. 47, 48. a 12. 10, 19. Act. 4. 1, 2, 16—18. Iago 4. 5.

40 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Yr ydwyf yn dywedyd i chwi, † Pe tawai r rhai hyn, [m] y llefai y cerrig yn y fan.

m Salm 96. 11. a 98. 7—9. a 114. 1—8. Es. 55. 12. Hab. 2. 11. Mat. 3. 9. a 21. 15, 16. a 27. 45, 51—54. 2 Pedr 2. 6.

* Rhyfedd mòr anfoddog oedd y Phariseaid gwenwynig hyn, yn eiddigeddu wrth yr ychydig barch hyn a gafodd Iesu: dyfod i'r ddinas ar *ebol asyn*, dillad dano n lle cyfrwy a seirch gwychion, a thyrfa o bobl dlodion ydag ef, yn taenu eu dillad a changau o'r gwŷdd ar hyd ffordd, ac yn ei glodfori ef; eto mynent hwy roddi aw ar y rhai hyn. † Yr oedd yr amrywiol wyrthiau a wnaethai yr Iesu, yn enwedig codi Lazarus o feirw ychydig o'r blaen, a chyflawniad amlwg hen brophwydoliaethau ynddo ef, yn profi mòr eglur mai efe oedd y Messiah; fel pe gwrthodasai yr Iuddewon ei addef a'i anrhydeddu ef fel y cyfryw, defnyddiasid rhyw foddion eraill, mòr rhyfedd i'r Phariseaid a phe llefarasai y cerig, i'w ddatgan ef yn Frenin Israel, ac yn Arglwydd y gogoniant. Geiriau diarebol yw y geiriau; ond at alwad y cenedloedd, mae yn debyg, y cyfeirir. Pan fyddo y rhai a ddylent fod yn bregethwyr penaf yr efengyl, yn oedi ac yn gohirio, e gyfyd Duw rywrai eraill, anarferol, er yn waethaf iddynt hwy. Gellir sylwi yma, fod Crist tua diwedd ei oes yn fwy rhydd i amlygu pwy ydoedd, nid oedd yn gwarafun i neb ei gyhoeddi, fel o'r blaen; ac yma mae yn ei addef ei hun yn Fab Dafydd, yn Frenin Israel.

41 ¶ * Ac wedi iddo ddyfod yn agos, *pan* welodd efe y ddinas, [n] efe a wylodd drosti,

n Salm 119. 53, 136, 158. Jer. 9. 1. a 13. 17. a 17. 16. Hos. 11. 8. Ioan 11. 35. Rhuf. 9. 2, 3.

* Pan ddaeth Iesu i olwg Jerusalem, a gweled mawredd a gwychder y lle, a meddwl am yr holl waed cyfiawn a dywalltesid yno, ac am ei waed ei hun a dywalltai y trigolion yn fuan, nis gallai lai nag wylo wrth y fath annuwioldeb, ac wrth y farn drom oedd i syrthio ar y ddinas o herwydd yr annuwioldeb hwnw. Yn lle dychrynu ac wylo wrth feddwl am ei boenau annhraethawl ei hun, wylo dros eraill yr oedd Iesu: yn eu holl gystudd hwynt efe a gystuddiwyd.

42 Gan ddywedyd, [o] * Pe gwybuasit dithau, † ïe, [p] yn dy ddydd hwn, [q] ‡ y pethau *a berthynent* i'th heddwch! [r] ‖ eithr y maent yn awr yn guddiedig oddi wrth dy lygaid.

o Deut. 5. 29. a 32. 29. Salm 81. 13. Es. 48. 18. Ezec. 18. 31, 32. a 33. 11. p adn. 44. Salm 32. 6. Es. 55. 6. Ioan 12. 35, 36. 2 Cor. 6. 1, 2. q pen. 1. 77—79. a 2. 10—14. a 10. 5, 6. Act. 10. 36. a 13. 46. Heb. 3. 7. a 10. 26—29. a 12. 24—26. r Es. 6. 9, 10. a 29. 10—14. a 44. 18. Mat. 13. 14, 15. Ioan 12. 38—41. Act. 28. 25—27. Rhuf. 11. 7—10. 2 Cor. 3. 14—16. a 4. 3, 4. 2 Thes. 2. 9—12.

* Mae geiriau a lefarer dàn weithrediad teimladau cryfion, yn aml yn sydyn ac anmherffaith: felly mae y geiriau hyn; gellid eu darllen, O na wybuasit tithau, &c., fel dymuniad gwresog a difrifol Iesu. † Sef yr amser y bu Iesu yn pregethu iddynt, (nid dydd ei fynediad i Jerusalem) dyma ddydd yr Iuddewon; canys yn eu plith hwy y treuliodd Iesu ei holl amser a'i lafur, ac felly gweinidogion cyntaf yr efengyl hefyd. "Dy ddydd hwn:" gwedi dy holl galedwch a'th gyndynrwydd o oes i oes, O na byddai i ti ystyried a dychwelyd o'r diwedd, yn y darn bychan hwn o dy ddydd sydd heb ei orphen! ‡ Y pethau a berthynant i dy lwyddiant a'th ddedwyddwch tymmorol, fel dinas a gwladwriaeth, ac hefyd y pethau a berthynant i dy heddwch â Duw, a'th fywyd tragywyddol. ‖ Ond yr oedd dydd Jerusalem wedi darfod, ei barn wedi ei phenderfynu, ei llygaid wedi eu dallu, ei chalon wedi ei chaledu, a phobpeth tueddol i'w dedwyddwch wedi eu cuddio yn farnol oddi wrthi! Ni oddef Duw i'w Ysbryd ymryson â dyn yn dragywydd. Pan mae dynion yn hir gauad eu llygaid oddi wrth y pethau a berthynant i'w heddwch, mae Duw o'r diwedd yn eu cuddio yn gyfiawn oddi wrthynt. Nid oes i neb ychwaneg na'i *ddydd*, ei dymor o ras: pa faint yw hwnw nis gŵyr neb dynion, os cwsg efe hwnw allan, mae ei gyflwr yn annobeithiol, ac yn anfeddyginiaethol byth!

43 * Canys [s] daw y dyddiau arnat, a'th † elynion a [t] fwriant glawdd o'th amgylch, ac a'th amgylchant, ac a'th warchaëant o bob parth;

s pen. 21. 20—24. Deut. 28. 49—58. Salm 37. 12, 13. Dan. 9. 26, 27. Mat. 22. 7. a 23. 37—39. Marc 13. 14—20. 1 Thes. 2. 15, 16. t Es. 29. 1—4. Jer. 6. 3—6.

44 ‡ Ac [u] a'th wnant yn gyd-wastad â'r llawr, [x] a'th blant o'th fewn; ac ni [y] adawant ynot faen ar faen: [z] ‖ o herwydd nad adnabuost amser dy ymweliad.

u 1 Bren. 9. 7, 8. Mica 3. 12. x pen. 13. 34. Mat. 23. 37 y Mat. 24. 2. Marc 13. 2. z adn. 42. pen. 1. 68. Ioan 3. 18—21. 1 Pedr 2. 12.

* Daeth y dyddiau ofnadwy hyn cyn pen deugain mlynedd, a chyflawnwyd pobpeth fel eu rhagfynegir yma. † Pan ddaeth Fespasian i warchae ar Jerusalem, parodd i'w filwyr amgylchu Jerusalem o amgylch ogylch, felly cadwent y trigolion i mewn o bob tu. Ac er y tybid ei fod yr orchwyl annichonadwy bron, i adeiladu mur o amgylch yr holl ddinas; eto, trwy i Titus annog ei filwyr i gynnyg ar y fath orchwyl, mewn tri diwrnod hwy a adeiladasant fur o bedair ystâd ar bymtheg ar hugain, ac arno dri ar ddeg o gestyll; ac felly torasant ymaith bob gobaith i neb o'r Iuddewon allu dianc o'r ddinas. Ffôs ddofn wedi ei chloddio yn y ddaear yw *clawdd;* ac heblaw y mur a grybwyllwyd uchod, mae yn debyg fod clawdd neu ffôs hefyd yn rhedeg gyda'r mur, o fewn iddo efallai; ac o herwydd y clawdd a'r mur, yr oedd yn anmhosibl i'r Iuddewon ddianc allan, nac i neb ddwyn lluniaeth na dim cynnorthwy i mewn iddynt. Gallwn feddwl mai o'r ddaear neu y pridd a godid o'r clawdd, y gwnaid y mur o amgylch iddo; canys nid mur cerig ydoedd, yn cael ei adeiladu mewn tri diwrnod fel y sylwyd uchod. ‡ Gwedi i Titus orchymyn i'w filwyr dynu i lawr yr adeiladau, a dadymchwelyd y ddinas, hwy a wnaethant hyny mòr llwyr, trwy ei gwastadâu oll oddigerth tri o dyrau, fel yr oedd pawb a'i gwelai yn sicr yn eu meddyliau nad adeiledid mo honi byth drachefn. Yn nyddiau Julian y Gwrthgiliwr, dadymchwelwyd y tri thŵr hyn hefyd yn gyd-wastad a'r llawr. || Hyn oll a fu, am nad adnabu yr Iuddewon amser eu hymweliad: ymweliad grasol Duw, drwy weinidogaeth ei brophwydi, ei Fab, a'i apostolion; nac ymweliad barnedigaethol Duw, i edifarâu, a dychwelyd ato i geisio trugaredd ac arbediad ganddo. Dirmygu yr efengyl yw yr achos mawr o'r holl drueni sydd yn dyfod ar ddynion yn y bywyd hwn, ac a ddaw arnynt yn y byd ar ol hwn.

45 Ac efe [a] a aeth i mewn i'r deml, ac a ddechreuodd fwrw allan y rhai oedd yn [b] gwerthu ynddi, ac yn prynu;

a Mat. 21. 12, 13. Marc 11. 15—17. Ioan 2. 13—16. b Deut. 14. 25, 26.

46 Gan ddywedyd wrthynt, [c] Y mae yn ysgrifenedig, Fy nhŷ i, tŷ gweddi yw: eithr chwi a'i gwnaethoch yn * ogof lladron.

c Salm 93. 5. Es. 56. 7. Jer. 7. 11. Ezec. 43. 12. Hos. 12. 7. Mat. 23. 14.

Cawsom yr hanes hwn o'r blaen yn Matth. 21. 12, 13. a Marc 11. 15—17. Gwel y sylwadau yno, yn enwedig ar Matthew. Gwel ar Matth. 21. 13, a Marc 11. 17. yn benaf.

47 [d] * Ac yr oedd efe beunydd yn † athrawiaethu yn y deml: [e] ‡ a'r arch-offeiriaid, a'r ysgrifenyddion, a phennaethiaid y bobl, a geisient ei ddifetha ef;

d pen. 21. 37, 38. Mat. 21. 23. Marc 11. 27, &c. Ioan 18. 20. e Mat. 26. 3, 4. Marc 12. 12. a 14. 1. Ioan 7. 19, 44. a 8. 37—40. a 10. 39. a 11. 53—57.

48 [f] || Ac ni fedrasant gael beth a wnaent: § canys yr holl bobl oedd yn glynu wrtho i wrando arno.

f pen. 20. 19, 20. a 22. 2—4. Mat. 22. 15, 16.

* Am ychydig ddyddiau y bu efe yn athrawiaethu yn y deml; oblegid yn Ioan 12. 1, gwelwn mai chwe diwrnod cyn y pasg y daeth efe i Bethania, ac ar ddydd y pasg y bu farw. Rhwng y ddau ddiwrnod hyn, treuliai y dydd yn Jerusalem, a'r nos yn Bethania. † Yn yr ychydig ddyddiau hyny, yr oedd efe yn athrawiaethu am natur a dyben ei farwolaeth; am anghrediniaeth a gwrthodiad yr Iuddewon; am alwad y cenedloedd; ei ddwyfol awdurdod ei hun; am ei ddyfodiad i farnu y byd yn y dydd olaf; yn nghyd ag amryw bethau eraill perthynol iddo ei hun a'i waith achubol; fel y cawn hwy yn ysgrifenedig yn y bennod nesaf, ac yn Matth. 21; 22; 23; 24; 25; a Marc 11; 12; a Ioan 12. 20, hyd ddiwedd y bennod. ‡ Gan mai pethau felly oedd efe yn athrawiaethu, nid rhyfedd bod ei elynion am ei ddyfetha ef; nid oedd y pethau hyny oll fawr llai na chableddau yn eu golwg hwy. || Pe gallasent ei dori ef ymaith yn ddirgel, ac yn ddiberygl iddynt eu hunain, hyny a wnaethent; ond nis gallent hyny, oblegid fod cymmaint o bobl yn glynu wrtho i wrando arno. § Glynu, neu grogi wrth ei wefusau ef, yw ystyr gyflawn y geiriau gwreiddiol; sef gwrando arno gyda hoffder a hyfrydwch mawr.

PEN. XX.

Crist yn profi ei awdurdod, trwy ymofyn am fedydd Ioan.

A DIGWYDDODD [a] ar un o'r dyddiau hynny, ac efe yn dysgu y bobl yn y deml, ac yn pregethu yr efengyl, [b] * ddyfod arno yr arch-offeiriaid a'r ysgrifenyddion, gyd â'r henuriaid,

a pen. 19. 47, 48. Marc 11. 27. Ioan 18. 20. b 1 Cron. 24.

2 A llefaru wrtho, gan ddywedyd, [c] Dywed i ni, † Trwy ba awdurdod yr wyt yn gwneuthur y pethau hyn? [d] neu pwy yw yr hwn a roddodd i ti yr awdurdod hon?

c pen. 19. 35—40, 45, 46. Mat. 21. 23—27. Marc 11. 28—33. d Ex. 2. 14. Ioan 2. 18. a 5. 22—27. Act. 4. 7—10. a 7. 27, 35—39, 51.

* Aelodau o'r Senedd fawr, neu y Cyngor yn Jerusalem, oedd y rhai hyn oll, a gelynion penderfynol i Grist oeddynt. Daethant arno ef yn sydyn, yn un corph, ac yn holl awdurdod eu swydd, gan feddwl ei ddychrynu ef, trwy ofyn iddo yn sàrug, yn drahâus, ac yn rhithawdurdodawl am ei awdurdod ef i wneyd y fath bethau. † Trwy ba awdurdod y daethost ti i Jerusalem gyda'r fath rwysg a banllefau y bobl? Trwy ba awdurdod y bwriaist ti allan y prynwyr a'r gwerthwyr o'r deml? A thrwy ba awdurdod yr wyt ti yn pregethu athrawiaethau newyddion a dieithr yma, ac yn dywedyd yn erbyn pethau sydd wedi eu hen sefydlu er ys oesoedd, gan iselu ein cymmeriad ni yn ngolwg y bobl? Attolwg pwy a gymmerai arno roddi yr awdurdod hon i ti? a thrwy ba awdurdod y beiddi di wneyd y cyfryw bethau a hyn? Gwel ar Matth. 21. 23.

3 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, [e] A minnau a ofynaf i chwithau un gair; a dywedwch i mi.

e pen. 22. 68. Mat. 15. 2, 3. Col. 4. 6.

4 [f] * Bedydd Ioan, [g] ai o'r nef yr ydoedd, ai o ddynion?

f pen. 7. 28—35. Mat. 11. 7—19. a 17. 11, 12. a 21. 25—32. Ioan 1. 6, 19—28. g pen. 15. 18. Dan. 4. 25, 26.

5 Eithr hwy a ymresymmasant yn eu plith eu hunain, gan ddywedyd, Os dywedwn, O'r nef; efe a ddywed, [h] Paham gan hynny na chredech ef?

h Ioan 1. 15—18, 30, 34. a 3. 26, 36. a 5. 33—35. Act. 13. 25.

6 Ac os dywedwn, O ddynion; [i] yr holl bobl a'n llabyddiant ni: [k] canys y maent hwy yn cwbl-gredu fod Ioan yn brophwyd.

i Mat. 21. 26, 46. a 26. 5. Marc 12. 12. Act. 5. 26. k pen. 1. 76. a 7. 26—29. Mat. 14. 5. Ioan 10. 41.

7 † A hwy a attebasant, [l] nas gwyddent o ba le.

l Es. 6. 9, 10. a 26. 11. a 29. 9—12, 14. a 41. 28. a 42. 19, 20. a 44. 18. Jer. 8. 7—9. Zec. 11. 15, 17. Mal. 2. 7—9. Ioan 3. 19, 20. a 9. 39. 2 Thes. 2. 10—12. 2 Tim. 3. 8, 9. 2 Pedr 3. 3.

8 A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, [m] Ac nid wyf finnau yn dywedyd i chwi trwy ba awdurdod yr wyf yn gwneuthur y pethau hyn.

m pen. 22. 68. Job 5. 12, 13. Diar. 26. 4, 5. Mat. 15. 14. a 16. 4. a 21. 27. Marc 11. 33.

Gwel ar Matth. 21. 24—27; a Marc 11. 29—33.

* Sylwedd gofyniad ein Hiachawdwr oedd hyn; O ba le

cawsai Ioan ei awdurdod? Yr oedd efe yn pregethu
yn bedyddio, pwy a roddodd iddo ei awdurdod?
anfonasent hwy ofyniad cyffelyb at Ioan, Ioan 1. 19—
2: ai cyffredin, ai anghyffredin oedd awdurdod Ioan?
ae yn amlwg mai nid ganddynt hwy y cawsai efe ei
wdurdod; pe amgen ni ddanfonasent ato i ofyn pwy
dd efe. Mae yn amlwg gan hyny iddo ei chael o'r
ef; ac yn awr os addefent hwy alwad Ioan o'r nef, pa
nm nad addefent alwad ac awdurdod Iesu felly hefyd?
ystiolaethai Ioan yn helaeth am dano, a phrofodd
utau ei ddwyfol anfoniad trwy lawer o weithredoedd
erthol, yr hyn ni wnaethai Ioan. Gwel Ioan 10. 41.
Yr oedd y gofynwyr trahâus yn gweled y pethau uchod
l: gwyddent os addefent weinidogaeth Ioan o'r nef, y
yddent yn eu gosod eu hunain yn agored i gerydd am
eidio credu tystiolaeth Ioan am Grist; gan hyny dew-
asant ddywedyd nas gwyddent, er eu bod wrth hyny
n dywedyd anwiredd: a gwrthododd Iesu eu boddloni
wythau.

9 ¶ Ac efe a ddechreuodd ddywedyd y
ddammeg hon wrth y bobl: * Rhyw wr a
blannodd winllan, [p] ac a'i gosododd i [q] lafur-
yr, ac [r] a aeth oddi cartref dros dalm o
mser.

n Mat. 21. 33. Marc 12. 1. o Salm 80. 8—14. Es. 5. 1—4.
er. 2. 21. Ioan 15. 1—8. 1 Cor. 3. 6—9. p Can. 8. 11, 12.
Deut. 1. 15—18. a 16. 18. a 17. 8—15. r pen. 19. 12.

10 Ac [s] mewn amser efe a [t] anfonodd was at
llafurwyr, fel y rhoddent iddo o ffrwyth y
inllan: eithr y llafurwyr [u] a'i curasant ef, ac
'i hanfonasant ymaith yn wag-*law*.

s Salm 1. 3. Jer. 5. 24. Mat. 21. 34—36. Marc 12 2—5.
Barn. 6. 8—10. 2 Bren. 17. 13. 2 Cron. 36. 15, 16. Neh. 9. 30. Jer.
5. 3—7. a 26. 2—6. a 35. 15. a 44. 4, 5. Hos. 6. 4—6. Zec. 1. 3—6.
7. 9—13. u pen. 11. 47—50. a 42. 34. 1 Bren. 22. 24. 2 Cron.
6. 10. a 24. 19—21. Neh. 9. 26. Jer. 2. 30. a 20. 2. a 26. 20—24.
29. 26, 27. a 37. 15, 16. a 38. 4—6.

11 Ac efe a chwanegodd anfon gwas arall:
eithr hwy a gurasant ac a [x] ammharchasant
wnnw hefyd, [y] ac a'i hanfonasant ymaith yn
wag-*law*.

x Mat. 23. 30—37. Act. 7. 52. 1 Thes. 2. 2. Heb. 11. 36, 37.
Hos. 10. 1.

12 Ac efe a chwanegodd anfon y trydydd:
hwy a glwyfasant hwn hefyd, ac a'i bwriasant
f allan.

13 Yna y dywedodd arglwydd y winllan,
Pa beth a wnaf? [a] Mi a anfonaf fy anwyl
ab: [b] fe allai pan welant ef, y parchant *ef*.

z Es. 5. 4. Hos. 6. 4. a 11. 8. a pen. 9. 35. Mat. 3. 17. a
. 5. Ioan 1. 34. a 3. 16, 17, 35, 36. Rhuf. 8. 3. Gal. 4. 4. 1 Ioan
9—15. b Jer. 36. 3, 7.

14 Eithr y llafurwyr, pan welsant ef, [c] a
mresymmasant â'u gilydd, gan ddywedyd,
Hwn yw [d] yr etifedd: deuwch, [e] lladdwn ef,
fel y byddo yr etifeddiaeth yn eiddom ni.

c adn. 5. Mat. 16. 7. a 21. 25. d Salm 2. 1—6. a 89. 27.
Mat. 2. 2—16. Heb. 1. 2. e adn. 19. pen. 19. 47. a 22. 2. Gen.
. 18—20. Ioan 11. 47—50. Act. 3. 15.

15 A [f] hwy a'i bwriasant ef allan o'r winllan,
c a'i lladdasant. [g] Pa beth gan hynny a wna
rglwydd y winllan iddynt hwy?

f Heb. 13. 12. g Mat. 21. 37—40. Marc 12. 6—9.

16 ‡ Efe a ddaw ac a [h] ddifetha y llafurwyr
yn, ac a rydd ei winllan i eraill. ‖ A phan
clywsant hyn, hwy a ddywedasant, Na atto
Duw.

h pen. 19. 27. Salm 2. 8, 9. a 21. 8—10. Mat. 21. 41. a 22. 7.
Act. 13. 46.

17 Ac efe a [i] edrychodd arnynt, ac a ddy-
wedodd, [k] Beth gan hynny yw hyn a ysgrifen-
wyd, [l] Y maen a wrthododd yr adeiladwyr, hwn
a wnaethpwyd yn ben y gongl?

i pen. 19. 41. a 22. 61. Marc 3. 5. a 10. 23. k pen. 22. 37.
a 24. 44. Ioan 15. 25. l Salm 118. 22. Es. 28. 16. Zec. 3. 9.
Mat. 21. 42. Marc 12. 10, 11. Act. 4. 11. 1 Pedr 2. 7, 8.

18 § Pwy bynnag [m] a syrthio ar y maen
hwnnw, a ddryllir: ac ar bwy bynnag y syrth-
io, efe a'i mâl ef.

m Es. 8. 14, 15. Dan. 2. 34, 35, 44, 45. Zec. 12. 3. Mat. 21. 44.
1 Thes. 2. 16.

Cawsom y ddammeg hon o'r blaen, yn Matth. 21. 33—44: a Marc 12. 1—12. * Ei dyben amlwg yw, dangos cyfiawn farn Duw ar yr Iuddewon, am erlid a lladd y prophwydi, Ioan Fedyddiwr, a Christ ei hun, yr hwn a leddid ganddynt cyn pen ychydig ddyddiau. Mae yn dangos y dadeglwysai, ac y dinystriai Duw hwynt, ac y cyfodai iddo ei hun eglwys yn mysg y cenedloedd: ac nad oedd hyn ddim mwy nag a brophwydwyd am dano yn Salm 118. 22. † Peth annhebygol iawn oedd, y goddefai perchenog gwinllan i leiddiad ei fab gadw meddiant yn yr etifeddiaeth, os oedd ganddo allu i'w difeddiannu a'u cospi hwynt. Mae hyn yn dangos *ynfydrwydd* eithaf, yn gystal a drygioni echryslawn, yr archoffeiriaid a'r llywodraethwyr yn yr ymddygiad y penderfynasant arno tuag at Grist. ‡ Yn ol Matth. 21. 41, yr archoffeiriaid a'r ysgrifenyddion sydd yn dywedyd hyn: addefent hwy fod y llafurwyr yn haeddu y gosp fwyaf ofnadwy; ‖ ond pan ddeallasant fod ein Harglwydd yn ei chymhwyso atynt hwy, ac yn eu heuog-farnu yn ol eu dedfryd eu hunain, (fel y dywedasai Nathan wrth Dafydd, Ti yw y gwr,) dywedasant, "Na atto Duw." Ni fynent addef eu heuogrwydd, nac ychwaith disgwyl am y fath ganlyniadau o'u hym ddygiad. § Heblaw a sylwyd ar Matth. 21. 44, gellir sylwi yma eto, bod yn yr adnod hon gyfeiriad, efallai, at y gwrthwynebiad dygn a pharâus a ddangosodd yr Ymherodraeth Rufeinig yn ei holl ffurfiau, ac yn mhob oes, i Grist a'i achos: yn nghyd â'i dinystr ofnadwy hi yn y diwedd. Mae y geiriau hefyd yn rhagfynegi dinystr a thrueni yr Iuddewon; yn nghyd â chospedigaeth ddychrynllyd holl erlidwyr crefydd yn gyffredinol.

19 ¶ A'r arch-offeiriaid a'r ysgrifenyddion
[n] a geisiasant roddi dwylaw arno yr awr honno;
ac yr oedd arnynt ofn y bobl: canys gwybuant
mai yn eu herbyn hwynt y dywedasai efe y
ddammeg hon.

n adn. 14. pen. 19. 47, 48. Mat. 21. 45, 46. a 26. 3, 4. Marc
12. 12.

20 A [o] hwy a'i gwyliasant *ef*, ac a yrrasant
gynllwynwyr, y rhai a [p] gymmerent arnynt eu
bod yn gyfiawn; fel y dalient ef yn ei ymad-
rodd, [q] i'w draddodi ym meddiant, ac awdurdod
y rhaglaw.

o Salm 37. 32, 33. a 38. 12. Es. 29. 20, 21. Jer. 11. 19. a 18.
18. a 20. 10. Mat. 22. 8. Marc 12. 15. p 2 Sam. 14. 2. 1 Bren.
14. 2—6. Salm 66. 3. a 81. 15. 2 Pedr 2. 3. q Mat. 27. 2. Ioan
18. 28—32.

* Nid oes dim yn yr adnodau hyn nad ydym wedi ei gael eisoes, yn Matth. 21. 45, 46; a Marc 12. 12, 13. Gwel y nodau yno. Mae yr hanes yn dangos i ni, fel mewn drych, dueddiadau dynion drygionus, wedi eu llenwi â llid yn erbyn yr efengyl. Maent bob amser yn ceisio dinystrio y rhai a berthynant mewn rhyw fodd i Grist; ac, i gyflawni eu hamcan, ni thybiant unrhyw foddion yn annheg: eu prif ddichell hwy yw ceisio dangos crefyddwyr yn ddynion peryglus i'r llywodraeth wladol; fel yr oedd y rhai'n yn ceisio rhwydo Crist yn ei ymadrodd, i'w draddodi ef i'r rhaglaw. Y moddion olaf sydd gan gau-brophwydi i ddyfetha y gwir brophwydi yw, eu cyhuddo hwynt o deyrnfradwriaeth a gwrthryfel, os gallant.

21 A hwy a ofynasant iddo ef, gan ddy-
wedyd, [r] Athraw, ni a wyddom mai [s] uniawn yr
ydwyt ti yn dywedyd, ac [t] nad wyt yn derbyn

wyneb, eithr yn dysgu ffordd Duw mewn gwirionedd.

r Salm 12. 2. a 55. 21. Jer. 42. 2, 3. Mat. 22. 16. a 26. 49, 50. Marc 12. 14. Ioan 3. 2. s 2 Cor. 2. 17. Gal. 1. 10. 1 Thes. 2. 4, 5. t 2 Cron. 19. 7. Job 34. 19. Act. 10. 34, 35. Gal. 2. 6.

22 * Ai [u] cyfreithlawn i ni roi teyrnged i Cesar, ai nid yw?

u Deut. 17. 15. Ezra 4. 13, 19—22. a 9. 7. Neh. 5. 4. a 9. 37. Mat. 22. 17—21. Marc 12. 14—17. Act. 5. 37.

23 Ac [x] efe a ddeallodd eu cyfrwysdra hwy, ac a ddywedodd wrthynt, [y] Paham y temtiwch fi?

x pen. 5. 22. a 6. 8. a 11. 17. Ioan 2. 24, 25. 1 Cor. 3. 19. Heb. 4. 13. y adn. 20. pen. 11. 16, 53, 54. Salm 95. 9. Mat. 16. 1. a 22. 18. 1 Cor. 10. 9.

24 Dangoswch i mi geiniog. Llun ac argraff pwy sydd arni? A hwy a attebasant ac a ddywedasant, [z] Yr eiddo Cesar.

z adn. 22. pen. 2. 1. a 3. 1. a 23. 2. Act. 11. 28. a 25. 8—12. a 26. 32. Phil. 4. 22.

25 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [a] † Rhoddwch chwithau yr eiddo Cesar i Cesar, [b] a'r eiddo Duw i Dduw.

a Diar. 24. 21. Mat. 17. 27. a 22. 21. Marc 12. 17. Rhuf. 13. 6, 7. 1 Pedr 2. 13—17. b Act. 4. 19, 20. a 5. 29. 1 Cor. 10. 31. 1 Pedr 4. 11.

26 Ac ni [c] allasant feio ar ei eiriau ef ger bron y bobl: [d] a chan ryfeddu wrth ei atteb ef, hwy a dawsant â sôn.

c adn. 20, 39, 40. Job 5. 12, 13. Diar. 26. 4, 5. 2 Tim. 3. 8, 9. d pen. 13. 17. Mat. 22. 12, 22, 34. Rhuf. 3. 19. Tit. 1. 11.

Cawsom y darn hyn o hanes hefyd, yn Matth. 22. 16—22; a Marc 12. 13—17. Gwel y sylwadau yno. * Holent ef am y cyfreithlondeb o dalu teyrnged i Cesar; gan obeithio os gwadai efe ei bod yn ddyledus oddi wrth yr Iuddewon, y gallent ei gyhuddo ef fel gelyn i Cesar; oblegid gwyddent nad oedd gwiw myned a dadleuon yn nghylch eu cyfraith hwy eu hunain at y plant Galio hyn, y Rhufeiniaid, nid oeddent hwy yn gofalu am ddim o'r pethau hyny. † Byddai da i bob dynion crefyddol, yn enwedig gweinidogion yr efengyl, pan holer hwynt am bethau gwladol, a phan fydder yn gwylied yn ddichellgar arnynt, ymddwyn yn debyg i'n Harglwydd yn y peth hyn; peidio ymyraeth a phethau gwladol dadleugar, ac hefyd peidio bod yn fud, rhag drwg-dybio eu ffyddlondeb; ond dangos yn amlwg, y dylid talu ufudd-dod a threth, hyd yn nod i ormeswyr a phaganiaid, tra byddont mewn awdurdod; oddigerth lle byddo rhwymau uwch o ufudd-dod i Dduw, yn gofyn y gwrthwyneb.

27 ¶ [e] A rhai o'r Saduceaid (y rhai sydd yn gwadu nad oes adgyfodiad) a ddaethant atto ef, ac a ofynasant iddo,

e Mat. 16. 1, 6, 12. a 22. 23. Marc 12. 18. Act. 4. 1, 2. a 5. 17. a 23. 6—8. 1 Cor. 15. 12. 2 Tim. 2. 17, 18.

28 Gan ddywedyd, Athraw, [f] Moses a ysgrifenodd i ni, Os byddai farw brawd neb, ac iddo wraig, a marw o hono yn ddi-blant, ar gymmeryd o'i frawd ei wraig ef, a chodi had i'w frawd.

f Gen. 38. 8, 11, 26. Deut. 25. 5—10. Ruth 1. 11, 12.

29 Yr oedd gan hynny saith o frodyr: a'r cyntaf a gymmerodd wraig, [g] ac a fu farw yn ddi-blant.

g Lef. 20. 20. Jer. 22. 30.

30 A'r ail a gymmerth y wraig, ac a fu farw yn ddi-blant.

31 A'r trydydd a'i cymmerth hi: ac yr un ffunud y saith hefyd, ac ni adawsant blant, ac a fuont feirw.

32 Ac yn ddiweddaf oll [h] bu farw y wraig hefyd.

h Barn. 2. 10. Preg. 1. 4. a 9. 5. Heb. 9. 27.

33 [i] Yn yr adgyfodiad gan hynny gwraig i bwy un o honynt yw hi? canys y saith a'i cawsant hi yn wraig.

i Mat. 22. 24—28. Marc 12. 19—23.

34 A'r Iesu gan atteb a ddywedodd wrthynt, [k] * Plant y byd hwn [l] sydd yn gwreicca, ac yn gŵra:

k pen. 16. 8. l pen. 17. 27. 1 Cor. 7. 2, &c. Eph. 5. 31. Heb. 13. 4.

35 Eithr y rhai [m] a gyfrifir yn deilwng i [n] gael y byd hwnnw, a'r adgyfodiad oddi wrth y meirw, [o] nid ydynt nac yn gwreicca, nac yn gŵra.

m pen. 21. 36. Act. 5. 41. 2 Thes. 1. 5. Dat. 3. 4. n Dan. 12. 2, 3. Ioan 5. 29. Act. 24. 15. Heb. 11. 35. o Mat. 22. 29, 30. Marc 12. 24, 25.

36 Canys nis [p] gallant farw mwy: oblegid [q] † cyd-stad ydynt â'r angelion; [r] ‡ a phlant Duw ydynt, gan eu bod yn blant yr adgyfodiad.

p Es. 25. 8. Hos. 13. 14. 1 Cor. 15. 26, 42, 53, 54. Phil. 3. 21. 1 Thes. 4. 13—17. Dat. 20. 6. a 21. 4. a 22. 2—5. q Zec. 3. 7. Mat. 22. 30. Marc 12. 25. Dat. 5. 6—14. a 7. 9—12. a 22. 9. r Rhuf. 8. 19—23. 1 Ioan 3. 2.

37 Ac y cyfyd y meirw, [s] Moses hefyd a hysbysodd wrth y berth, [t] pan yw ef yn galw yr Arglwydd yn Dduw Abraham, ac yn Dduw Isaac, ac yn Dduw Jacob.

s Ex. 3. 2—6. Deut. 33. 16. Act. 7. 30—32. t Gen. 17. 7. a 28. 13, 21. a 32. 9. Mat. 22. 30—33. Marc 12. 26, 27.

38 Ac nid yw efe [u] Dduw y meirw, ond y byw: [x] canys pawb sydd fyw iddo ef.

u Es. 16. 5—11. a 23. 23—26. a 145. 1, 2. Heb. 11. 16. x Ioan 6. 57. a 11. 25, 26. a 14. 19. Rhuf. 6. 22, 23. a 14. 7—9. 2 Cor. 6. 16. a 13. 4. Col. 3. 3, 4. Dat. 7. 15—17. a 22. 1.

Gwel ar Matth. 22. 23—33; a Marc 12. 18—27. * Y rhai sydd yn byw yn y byd hwn, a feddylir yma wrth "blant y byd hwn," pa un bynag ai duwiol ai annuwiol a fyddont; ac nid yr annuwiolion yn unig, mewn cyferbyniad i'r duwiolion. † "Cyd-ystad a'r angelion:" *fel* angelion Duw, yn Matth. 22. 30; a Marc 12. 25. Pa fodd y bydd y saint *fel* angelion Duw, gwel ar y lle a enwyd yn Matthew. Diammau y bydd gwahaniaeth ac anghydraddoliaeth rhwng y saint a'r angelion yn y gogoniant, er y byddant oll yn un corph a chymdeithas ogoneddus; ond yn y pwnc o wreica a gwra, ni bydd dim gwahaniaeth: bydd hyny wedi darfod gyda'r saint, ni bydd achos am dano, na thueddiad iddo. ‡ Yr oeddynt yn blant Duw o'r blaen, ond plant dan eu hoed megys oeddynt; yn yr adgyfodiad maent yn dyfod i'w cyflawn oed, i fwynâd cyflawn o'u hetifeddiaeth dragywyddol, ac yn cael eu harddelwi yn gyhoeddus gan Dduw fel ei blant anwyl.

39 * Yna rhai o'r ysgrifenyddion gan atteb a ddywedasant, Athraw, [y] da y dywedaist.

y Mat. 22. 34—40. Marc 12. 28—34. Act. 23. 9.

40 [z] † Ac ni feiddiasant mwyach ofyn dim iddo ef.

z Diar. 26. 5. Mat. 22. 46. Marc 12. 34.

* Yr ysgrifenyddion oeddynt yr Athrawon Iuddewig o blaid y Phariseaid, a gwrthwynebwyr y Saduceaid. Distawodd Iesu yr Herodianiaid o'r blaen yn nghylch y deyrnged, (adn. 26.) distawodd y Saduceaid yma; ac efe a ddistawa yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid eto yn yr adnodau canlynol. † Ni feiddiasant gan gywilydd, gwyddent mai hwy a ga'i y gwaethaf o bob gofyniad a dadl.

41 ¶ Ac efe a ddywedodd wrthynt, [a] Pa

ôdd y maent yn dywedyd fod [b] Crist yn fab i Dafydd?

a Mat. 22. 41, 42. Marc 12. 35. b pen. 18. 38, 39. Es. 9. 7. a 11. 1, 2. Jer. 23. 5, 6. a 33. 15, 16, 21. Mat. 1. 1. Ioan 7. 42. tt. 2. 30. Rhuf. 1. 3, 4. Dat. 22. 16.

42 Ac y mae Dafydd [c] ei hun yn dywedyd m llyfr y Psalmau, [d] Yr ARGLWYDD a ddywedodd wrth fy Arglwydd, Eistedd ar fy neuolaw,

c pen 24. 44. 2 Sam. 23. 1, 2. Mat. 22. 43. Marc 12. 36, 37. tt. 1. 20. a 13. 33—35. Heb. 3. 7. d Salm 110. 1. Mat. 22. 44, . Act. 2. 34, 35. 1 Cor. 15. 25. Heb. 1. 13.

43 Hyd oni osodwyf [e] dy elynion yn droedainge i'th draed di.

e pen. 19. 27. Salm 2. 1—9. a 21. 8—12. a 72. 9. a 109. 4—20. 110. 5, 6. Dat. 19. 14—21

44 * Y mae Dafydd gan hynny yn ei alw ef m Arglwydd; [f] † a pha fodd y mae efe yn ‡ fab ddo?

f pen. 1. 31—35. a 2. 11. Es. 7. 14. Mat. 1. 23. Rhuf. 9. 5. al. 4. 4. 1 Tim. 3. 16. Dat. 22. 16.

* Felly y gwnaeth yn adn. 42, yr hon a gymmerwyd Salm 110. 1. Mae y geiriau yn brawf o hanfodiad naid Dafydd mewn byd arall, ac hefyd o awdurdod y Messiah Mab Dafydd ar y byd annweledig hwnw, i'r hwn symmudwyd Dafydd trwy farwolaeth. Heb hyny, pa aòr fawr bynag y gallai y Messiah fod fel brenin, nis ellid yn briodol ei alw ef yn Arglwydd Dafydd; mwy ac y gellid galw *Julius Cesar* yn arglwydd *Romulus*, erwydd iddo deyrnasu yn Rhufain 700 o flynyddoedd edi marw hwnw, a gwneuthur helaethiad dirfawr ar erfynau yr amherodraeth hòno, a sefydlwyd gyntaf gan *Romulus*. † Yr oedd Crist fel Person Dwyfol, neu fel Duw, n Arglwydd Dafydd; ond fel dyn, yr oedd yn fab Dafydd: yr oedd efe yn wreiddyn a hiliogaeth Dafydd, fel y ywedir yn Dat. 22. 16. Gwel ar yr adnodau hyn yn Matth. 22. 41—45; a Marc 12. 35—37. ‡ Buasai yr ateb n hawdd ped addefasent hwy fod Iesu yn Fab Duw o ran i Berson, ac yn Fab Dafydd o ran y cnawd, ond nid addefent hwy felly, gan hyny nis gallent ateb pa fodd r oedd efe yn Arglwydd Dafydd ac yn Fab Dafydd efyd. Mae Iesu yn Fab Dafydd o ran y cnawd, ond n Arglwydd Dafydd fel y mae yn dragywyddol Fab uw. Yma dyrysodd a distawodd Iesu ei holl wrthynebwyr, Matth. 22. 46.

45 ¶ [g] Ac a'r holl bobl yn clywed, efe a dywedodd wrth ei ddisgyblion,

g Mat. 15. 10. a 23. 1, 2. Marc 8. 34. 1 Tim. 5. 20.

46 [h] * Ymogelwch rhag yr ysgrifenyddion, y rhai a ewyllysiant rodio mewn dillad llaesion, ac a garant gyfarchiadau yn y marchnadoedd, a'r prif-gadeiriau yn y synagogau, a'r prif-eisteddleoedd yn y gwleddoedd;

h pen. 12. 1. Mat. 16. 6. Marc 8. 15. 2 Tim. 4. 15. i pen. 11. 43. a 14. 7. Diar. 29. 22. Mat. 23. 5—7. Marc 12. 38, 39. Rhuf. 12. 10. Phil. 2. 3—5. 3 Ioan 9.

47 Y rhai [k] sydd yn llwyr-fwytta tai gwraggedd gweddwon, [l] ac mewn rhith yn hir-weddio: * y rhai hyn a dderbyniant farn fwy.

k Jer. 7. 6—10. Ezec. 22. 7. Amos 2. 7. á 8. 4—6. Mica 2. 2, , 9. a 3. 2, 3. Mat. 23. 14. Marc 12. 40. l pen. 12. 1. Ezec. 33. 1. Mat. 23. 26—28. 1 Thes. 2. 5. 2 Tim. 3. 2—5. Tit. 1. 16. n pen. 10. 12—14 a 12. 47, 48. Mat. 11. 22—24. Iago 3. 1.

*Gwel ar Matth. 23. 6, 7, 14; a Marc 12. 38—40. Dylid ymogelyd rhag esamplau gweinidogion uchelfrydig, awyddus, a chybyddlyd. Yr oedd dillad y doctoriaid Iuddewig i orchuddio yr holl gorph, hyd yn nod ayd y sodlau, ond dim yn mhellach; ond nid oeddynt awy bob amser yn cadw at y rhëol hon, yr oedd gan rai honynt odre yn llusgo ar hyd y llawr ar eu ol. O alchder yn ddiau yr oedd hyn, a'r balchder hwnw a waherddir i ddysgyblion Iesu yma. Dylai gweinidogion ymwahaniaethu oddi wrth y bobl, ac oddi wrth eraill, yn eu dysgeidiaeth yn fwy nac yn eu dillad; nid yn unig yn eu gwisgiad, ond hefyd yn eu hymarweddiad; nid yn addurn allanol y corph, ond mewn purdeb meddwl a chalon. Am agoriad manylach tröed y darllenydd at y mànau a nodwyd uchod.

PEN. XXI.

Crist yn canmol y weddw dlawd.

AC wedi iddo edrych i fynu, [a] * efe a ganfu y rhai goludog yn bwrw eu rhoddion [b] i'r drysorfa.

a Marc 7. 11—13. a 12. 41—44. b Jos. 6. 19, 24. 1 Bren. 14. 26. 2 Bren. 24. 13. 2 Cron. 36. 18 Neh. 13. 13. Mat. 27. 6. Ioan 8. 20.

2 Ac efe a ganfu hefyd † ryw wraig weddw dlawd yn bwrw yno ddwy hatling.

3 Ac efe a ddywedodd, [c] Yn wir meddaf i chwi, fwrw o'r wraig weddw dlawd hon i mewn [d] fwy nâ hwynt oll.

c pen. 4. 25. a 9. 27. a 12. 44. Act. 4 27. a 10. 34. d Ex. 35. 21—29. Marc 12. 43, 44. a 14. 8, 9. 2 Cor. 8. 2, 3, 12. a 9. 6, 7.

4 Canys y rhai hyn oll o'r hyn oedd weddill ganddynt a fwriasant at offrymmau Duw: eithr hon o'i phrinder a fwriodd i mewn [e] yr holl fywyd a oedd ganddi.

e pen. 8. 48. a 15. 12. Act. 2. 44, 45. a 4. 34.

Cawsom y darn hyn o hanes yn Marc 12. 41—44: gwel y sylwadau yno. * Y drysorfa oedd le, neu flwch, lle derbynid cyfraniadau gwirfoddawl yr addolwyr a ddeuent i Jerusalem ar y gwyliau arbenig; a'r arian a deflid iddi a ddefnyddid i brynu coed at wasanaeth yr allor, halen at yr offrymau, ac angenrheidiau eraill, nad oedd darpariaeth iddynt modd arall. Efallai bod yr aberthau cyffredin, a'r arogl-darth, yn cael eu prynu â'r arian hyn hefyd; a bod rhan o honynt yn cael eu defnyddio i adgyweirio y deml, a'r adeiladau o'i hamgylch, perthynol iddi. Efallai mai yr addolwyr o bell, yn benaf, a fwrient eu harian i'r drysorfa ar y prif-wyliau; gan fod dynion cyfagos yn cael cyfle i wneyd hyny ar brydiau eraill. Gwel sylw manylach ar y lle a enwyd yn Marc. Un *druenus*, neu *resynol* a thlawd, yw ystyr y Groeg meddant; a chan mai dwy hatling ydoedd holl fywyd hon, rhaid ei bod hi yn dlawd eithaf.

5 ¶ Ac [f] fel yr oedd rhai yn dywedyd am y deml, ei bod hi wedi ei harddu â * meini teg a † rhoddion, efe a ddywedodd,

f Mat. 24. 1. Marc 13. 1. Ioan 2. 20.

6 ‡ Y pethau hyn yr ydych yn edrych arnynt, daw y dyddiau yn y rhai [g] ni adewir maen ar faen, a'r nis dattodir.

g pen. 19. 44. 1 Bren. 9. 7—9. 2 Cron. 7. 20—22. Es. 64. 10, 11. Jer. 7. 11—14. a 26. 6, 9, 18. Iago 2. 6—8. a 4. 1. a 5. 18. Ezec. 7. 20—22. Dan. 9. 26, 27. Mica 3. 12. Zec. 11. 1. a 14. 2. Mat. 24. 2. Marc 13. 2. Act. 6. 13, 14.

* Dywed *Josephus* bod rhai o'r meini hyn yn bùm cufydd a deugain o hyd, yn bùm cufydd o uchder, ac yn chwe cufydd o led; a bod eu mynor can wŷned, fel yr ymddangosai yr holl deml fawr o bell, fel mynydd o eira. † Mae tri gair yn y Groeg am rodd.—*Dôra*, yn arwyddo unrhyw rodd, o arian neu lestri, y rhai a offrymai dynion.—*Anathemata*, yn arwyddo pethau wedi eu diofrydu, neu eu rhoddi yn felltith, fel Jericho a'r cwbl oedd ynddi.—*Anathêmata*, (dim ond ê hir yn lle y fèr,) yn arwyddo rhoddion neu anrhegion i Dduw, i'w crogi i fynu mewn teml, fel addurniadau amlwg i bawb. Y gair olaf a ddefnyddir yma, a dywed haneswyr fod rhoddion lawer, o aur pur a gwerthfawr, yn crogi ar hyd parwydydd a cholofnau y deml yn Jerusalem, heblaw y goludoedd aneirif oedd yn y trysorfâau. Yn mysg pethau eraill drudfawr, yr oedd yno fwrdd aur gwerthfawr, yr hwn a roddasai *Pompey* yn anrheg, a llawer o winwydd aur, o wneuthuriad rhagorol o gelfydd, ac o faintioli dirfawr: dywed *Josephus* fod eu pyngau cyn

dàled â dyn cyffredin. † Cyflawnwyd y daroganiad athrist hwn cyn pen deugain mlynedd; ac yn ninystr y deml, dinystriodd Duw gau hyder yr Iuddewon, y rhai a ymddiriedent iddi fel noddfa gyssegredig rhag rhagluniaeth Duw, neu ei gyfiawnder yn hytrach. Yr oedd ei dinystr hefyd yn gospedigaeth drom arnynt hwy am halogi lle sanctaidd Duw; ac yr oedd ei dinystr hefyd yn dangos iddynt, fod Duw y pryd hwnw yn rhoddi terfyn ar bob cysgodau o'r Messiah, ac ar holl wasanaeth ac addoliad yr hen oruchwyliaeth.

7 * A hwy a ofynasant iddo, gan ddywedyd, Athraw, [h] pa bryd gan hynny y bydd y pethau hyn? [i] † a pha arwydd *fydd* pan fo y pethau hyn ar ddyfod?

h adn. 32. Dan. 12. 6, 8. Mat. 24. 3. Marc 13. 3, 4. Ioan 21. 21, 22. Act. 1. 6, 7. i adn. 20, 21, 27, 28. Mat. 24. 15, 16. Marc 13. 14.

* Pedr, Iago, Ioan ac Andreas a ofynasant iddo, medd Marc 13. 3. † Pa arwydd fydd o'th ddyfodiad, ac o ddiwedd y byd, medd Matth. 24. 3. Sylwyd o'r blaen yn Matthew, fod yn anhawdd gwahaniaethu rhwng y rhag-arwyddion o ddinystr Jerusalem, a'r rhag-arwyddion o ddiwedd y byd: barna duwinyddion bod Duw yn bwriadu y blaenaf i fod fel cynllun o'r olaf; a dïammau fod Iesu yn crybwyll am bob un o'r ddau yma, megys yn blith draphlith a'u gilydd.

8 Ac efe a ddywedodd, [k] Edrychwch na thwyller chwi: [l] * canys llawer a ddeuant yn fy enw i, gan ddywedyd, Myfi yw *Crist;* † a'r amser a nesâodd: nac ewch gan hynny ar eu hol hwynt.

k Jer. 29. 8. Mat. 24. 4, 5, 11, 23—25. Marc 13. 5, 6, 21—23. 2 Cor. 11. 13—15. 2 Thes. 2. 3, 10, 11. 2 Tim. 3. 13. 1 Ioan 4. 1. Dat. 12. 9. l Ioan 5. 43. Act. 5. 36, 37. a 8. 9, 10.

Gwel ar Matth. 24. 4, 5; a Marc 13. 5, 6. * Nid yn fy enw I fel dysgyblion i mi; ond yn fy enw I fel Messiah, gan haeru mai hwy yw Crist y Messiah. Daeth llawer o'r cyfryw o'r amser hwn hyd ddinystr Jerusalem; a thybir y daw llawer o'r fath dwyllwyr eto cyn diwedd y byd. † Sef amser ymddangosiad y twyllwyr uchod.

9 A [m] phan glywoch sôn am ryfeloedd a therfysgoedd, na chymmerwch fraw: canys rhaid i'r pethau hyn fod yn gyntaf; [n] ond ni *ddaw* y diwedd yn y man.

m adn. 18, 19. Salm 27. 1—3. a 46. 1, 2. a 112. 7. Es. 8. 12. a 51. 12, 13. Jer. 4. 19, 20. Mat. 24. 6—8. Marc 13. 7, 8. n adn. 8, 28.

10 Yna y dywedodd efe wrthynt, [o] Cenedl a gyfyd yn erbyn cenedl, a theyrnas yn erbyn teyrnas:

o 2 Cron. 15. 5, 6. Hag. 2. 21, 22. Zec. 14. 2, 3, 13. Marc 13. 8. Act. 2. 19, 20. a 11. 28. Heb. 12. 27. Dat. 6. 2—12.

11 A daear-grynfâau mawrion a fyddant yn amryw leoedd, a newyn, a heintiau, * a phethau ofnadwy, [p] ac arwyddion mawrion a fydd o'r nef.

p adn. 25—27. Mat. 24. 29, 30.

Gwel ar Matth. 24. 6—8; a Marc 13. 7—9. * Rhydd *Josephus* hanes manol am lawer o ymddangosiadau dychrynllyd yn yr wybr; megys seren ar ddull cleddyf tanllyd yn hofian uwch ben Jerusalem, a byddinoedd brwydrawl yn ymddangos yn yr awyr. Gwelwyd porth, neu ddôr mawr y deml, yr hwn braidd y gallai ugain o ddynion ei gauad, ac hwn oedd wedi ei sicrau â byllt a bàrau, yn ymagor o hóno ei hun, i ollwng y gelynion i mewn: canys felly, medd *Josephus*, yr oedd ein doethion ni yn deall yr arwydd hwn. Pan oedd yr offeiriaid yn myned i'r deml ganol nos ar ŵyl y Pentecost, i gyflawni eu gwasanaeth, clywsant yn gyntaf fath o drwst, megys rhywrai yn symmud o'r lle; ac yna llais yn dywedyd, Gadêwch i ni ffoi, a myned ymaith. Pedair blynedd cyn dechreuad y rhyfel, ar ŵyl y pebyll, dechreuodd un Jesus lefain, 'Llef yn erbyn Jerusalem a'r deml; llef yn erbyn yr holl bobl; gwae, gwae iddynt;' ac efe a barâodd yn llefain fel hyn am o gylch saith mlynedd. Mae *Tacitus*, hanesydd Rhufeinig, fel hyn yn crynhôi yr hanes: "Gwelid byddinoedd yn ymgyfarfod yn y cymylau; gwelid arfau yn dysgleirio; ymddangosai y deml megys yn wèn fflam, a thân yn dyfod o'r cymylau; a chlywid llais dwyfol yn dywedyd, fod y Duwdod yn gadael y lle; a chlywid trwst mawr, megys ei ymadawiad ef." Iuddew oedd *Josephus*, yr hwn ni dderbyniodd Gristionogaeth erioed; a phagan dysgedig oedd *Tacitus*, yr hwn oedd yn casâu ac yn gwatwar y grefydd Gristionogol.—Y pethau hyn, a phethau rhyfedd ac anghyffredin eraill, a barasant ddychryn mawr yn mhlith yr Iuddewon; ac oeddynt yn arwyddion fod eu drygfyd a'u dinystr hwynt yn agosâu.

12 Eithr [q] o flaen hyn oll, * hwy a roddant eu dwylaw arnoch, ac a'*ch* erlidiant, gan *eich* traddodi i'r synagogau, ac i garcharau, wedi eich dwyn ger bron brenhinoedd a llywodraethwyr o achos fy enw i.

q pen. 11. 49—51. Mat. 10. 16—25. a 22. 6. a 23. 34—36. a 24. 9, 10. Marc 13. 9—13. Ioan 15. 20. a 16. 2, 3. Act. 4. 3—7. a 5. 17—19, 40. a 6. 12—15. a 7. 57—60. a 8. 3. a 9. 4. a 12. 1—4. a 16. 22—26. a 21. 30, 31. a 22. 30. a 24. 1, &c. a 25. 1, 2, 11, 12, 22—25. a 26. 2, &c. 1 Thes. 2. 15, 16. 1 Pedr 4. 12—14. Dat. 2. 10.

* Gwelir cyflawniad o hyn oll yn Actau, neu Weithredoedd yr apostolion. Gwel Act. 4. 3, &c. a 5, 18, &c. a 16. 24. Pa faint o hyn a welir cyn diwedd y byd, amser a raid ddangos; er fod prophwydoliaethau yr ysgrythyr yn dywedyd digon am hyny hefyd.

13 [r] * Eithr fe a ddigwydd i chwi yn dystiolaeth.

r Phil. 1. 28. 1 Thes. 3. 3, 4. 2 Thes. 1. 5.

* Drwy gael eich dwyn ger bron breninoedd a llywodraethwyr, cewch gyfle i dystiolaethu yr efengyl iddynt hwy: bydd eich gweinidogaeth o'r efengyl, a'ch ymddygiad addas i'r efengyl dàn y cyfryw erlidiau, yn dystiolaeth amlwg i bawb, o ddaioni yr efengyl, o'i heffeithiau daionus arnoch chwi, ac o uniondeb eich achos chwi, er maint a ddywedir yn ei erbyn. Eto, bydd yn dystiolaeth i *chwi;* wrth weled cyflawniad felly o'r pethau a rag-fynegais i chwi, bydd eich ffydd yn cael ei chadarnâu ynof: gwna y pethau hyny eich ffydd, eich amynedd, a'ch dïysgogrwydd yn fwy amlwg: cewch dystiolaeth y byddaf fi gyda chwi, i'ch cynnorthwyo a'ch gwared: a bydd yn dystiolaeth i chwi hefyd, mai nid yn y bywyd hwn y mae i chwi ddysgwyl eich rhan a'ch dedwyddwch, ond yn y byd a ddaw. "Fe a ddygwydd:" fe a dry, yn ol y Saesoneg. *Apobêsetai* yw y gair Groeg, yma ac yn Phil. 1. 19; cyfieithir ef "dygwydd" yn y ddau le yn Gymraeg, a trŷ *(turn)* yn Saesoneg.

14 [s] * Am hynny rhoddwch eich bryd ar na rag-fyfyrioch beth a atteboch.

s pen. 12. 11, 12. Mat. 10. 19, 20. Marc 13. 11.

15 [t] † Canys myfi a roddaf i chwi enau a doethineb, [u] ‡ yr hon nis gall eich holl wrthwynebwyr na dywedyd yn ei herbyn, na'i gwrth-sefyll.

t pen. 24. 45. Ex. 4. 11, 12. Diar. 2. 6. Jer. 1. 9. Act. 2. 4. a 4. 8—13, 31—33. Eph. 6. 19. Col. 4. 3, 4. Iago 1. 5. u Act. 6. 10. a 24. 25. a 26. 28. 2 Tim. 4. 16, 17.

Gwel ar Matth. 10. 19, 20; a Marc 13. 11. * Rhoddi gocheliad i'w ddysgyblion y mae Crist yma i beidio ymddiried yn eu doethineb eu hunain pan ddygid hwy gerbron brawdlëoedd, ac i beidio ag ofni na rhag-ofalu, ond ymddiried eu hachos yn hollawl iddo ef a'i Ysbryd. † Mae yr addewid hon yn cynnwys doethineb, ymadrodd, a hyfder a gwroldeb meddwl, i'r apostolion. Gwelwn gyflawniad nododig o'r addewid hon, pan alwyd Pedr ac Ioan gerbron y llywodraethwyr yn achos y cloff a iachasid, Act. 4. 5—21. ‡ Nis gallant ddywedyd dim gwirioneddol yn ei herbyn. Felly y bu yn yr amgylchiad a ddyfynwyd, gwel adn. 14.

16 [x] A chwi a fradychir, ïe, gan rïeni, a

rodyr, a cheraint, a chyfeillion; [y] ac *i rai* o
monoch y parant farwolaeth.

x Jer. 9. 4. a 12. 6. Mica 7. 5, 6. Mat. 10. 21. Marc 13. 12. Act. 7. 59. a 12. 2. a 26. 10, 11. Dat. 2. 13. a 6. 9. a 12. 11.

17 * A [z] chas fyddwch gan bawb [a] o herwydd fy enw i.

z Mat. 10. 22. a 24. 9. Marc 13. 13. Ioan 7. 7. a 15. 19, 20. a 17. 14. a pen. 6. 22. Mat. 5. 11. Ioan 15. 21. Act. 9. 16. 2 Cor. 5, 11. a 12. 10. Phil. 1. 29. 1 Pedr 4. 14. Dat. 2. 3.

Gwel ar Matth. 24. 9, 10; a Marc 13. 12, 13. * Nid
n unig yr apostolion, ond yr holl brif-gristionogion
efyd, ar ol eu dyddiau hwy, oedd yn cael eu casâu yn
yffredinol, yn fwy na phob crefyddau a phleidiau eraill
n mhlith y paganiaid, er eu bod yn fwy diniwed ac yn
wy daionus na neb. Beth oedd yr achos o hyn? ond
od yr efengyl sanctaidd yn tystiolaethu yn erbyn pob
au grefydd, a bod syniad y cnawd yn mhawb, yn elyn-
aeth yn erbyn Duw.

18 [b] * Ond ni chyll blewyn o'ch pen chwi.

b pen. 12. 7. 1 Sam. 14. 45. a 25. 29. 2 Sam. 14. 11. Mat. 10. 30. Act. 27. 34.

Mae Crist yma yn addaw i'w ddysgyblion, pa beth
ynag a ddygwyddo iddynt ar amserau eraill, eto, yn y
dyddiau hyn o ddïal" ar yr Iuddewon, neu yn amser
inystr y ddinas a'r deml, na byddai i neb o honynt hwy
ael eu colli yn y gwarchae a'r difrod hwnw. Tybir
nai dyna ystyr lythyrenol y geiriau; ond gellir eu cym-
wyso yn helaethach: faint bynag a ddyoddefa cristion-
gion drwy erlid yn y byd hwn, ni byddant ddim ar eu
olled yn y diwedd, na'u gelynion ddim ar eu hennill.
Oyoddefodd yr apostolion ferthyrdod yn y diwedd, ond
i buont ddim ar eu colled, yn hytrach trôdd yn elw
nawr iddynt.

19 * Yn eich [c] amynedd † meddiennwch
ïch eneidiau.

c pen. 8. 15. Salm 27. 13, 14. a 37. 7. a 40. 1. Rhuf. 2. 7. a 8. 25. a 15. 4, 5. 1 Thes. 1. 3. 2 Thes. 3. 5. Heb. 6. 11, 12, 15. a 10. 36. Iago 1. 3, 4. a 5. 7—11. Dat. 1. 9. a 2. 2, 3. a 3. 10. a 13. 10. a 14. 12.

* Mae dau fath o amynedd: un yn *oddefol;* yr hon a
relir yn ngwroldeb llonydd, a dirwgnach cristion-
gion, yn dyoddef y drygau hyny a welo Duw yn dda
u trefnu iddynt. Y llall yn *weithredol;* yr hon a gan-
wddir yn eu gwaith yn credu addewidion Duw, ac yn
ysgwyl yn dawel am gyflawniad o honynt. † Meddien-
wch eich eneidiau mewn tawelwch a thangnefedd;
newn gwroldeb sanctaidd ac ymostyngiad diddig; ac
newn pob hir-ymaros ac amynedd; gan ymddiried yn
'yddiog mai megys eich dyddiau y bydd eich nerth.
ydd agwedd fel hyn ar eich ysbryd yn harddwch i'r
fengyl, yn gysur i chwi eich hunain, ac yn foddion i
hwi beidio dyrysu a gwylltio yn y terfysgoedd a'r
nbydrwydd a ddaw arnoch: bydd meddiannu eich
neidiau yn radd mawr o ddïogelwch i chwi.

20 * A [d] phan weloch Jerusalem wedi ei
amgylchu gan luoedd, † yna gwybyddwch
od ei hanghyfannedd-dra hi wedi nesâu.

d adn. 7. pen. 19. 43. Dan. 9. 27. Mat. 24. 15. Marc 13. 14.

21 ‡ Yna y rhai fyddant yn Judea, [e] ffoant
r mynyddoedd; [f] a'r rhai a fyddant yn ei
hanol hi, ymadawant: a'r rhai a fyddant yn y
neusydd, nac elont i mewn iddi.

e pen. 17. 31—33. Gen. 19. 17—22, 26. Ex. 9. 20, 21. Diar. 22. 3. Mat. 24. 16—18. Marc 13. 15, 16. f Num. 16. 26. Jer. 6. 1. a 35. 11. a 37. 12, 13. Dat. 18. 4.

22 ‖ Canys [g] dyddiau dïal yw y rhai hyn,
i gyflawni yr holl bethau a ysgrifenwyd.

g Es. 34. 8. a 61. 2. Jer. 51. 6. Rhuf. 2. 5. 2 Pedr 2. 9. a 3. 7. Lef. 26. 14—33. Deut. 28. 15—68. a 29. 19—28. a 32. 34, 43. Salm 69. 22—28. a 149. 7—9. Es. 65. 12—16. Dan. 9. 26, 27. Zec. 11. 1, &c. Mal. 4. 1. Marc 13. 19, 20.

* Ar ol esgyniad ein Harglwydd, gwrthryfelodd yr
Iuddewon yn fynych iawn yn erbyn y Rhufeiniaid, dan
ywodraethau Felix, Festus, Albinus, a Florus, fel y
enderfynodd y Rhufeiniaid o'r diwedd eu distrywio
wynt, ac i'r dyben hyny danfonwyd Titus Vespasian a
byddin i'w herbyn, yr hwn a amgylchodd ac a gymmer-
odd y ddinas. † Yr oedd Crist yn rhag-weled y byddai
rhai yn gau-brophwydo gwaredigaeth i'r Iuddewon hyd
yn nod pan fyddai wedi ei gwarchae, ac felly yn annog
y bobl i ddàl allan hyd y diwedd. Mae yn annog ei
ddysgyblion i beidio credu y gau-brophwydi hyn, ond
dianc am eu heinioes. Gwelwyd wedi hyny, na chododd
y Rhufeiniaid mo'r gwarchae ar ol ei osod, hyd oni
ddinystriwyd y ddinas a'r deml. ‡ Am y pethau sydd
yn yr adnod hon, gwel ar Matth. 24. 16—18. ‖ Dydd-
iau i hir amynedd Duw tuag at y genedl war-galed a
phechadurus hon ddarfod, a dyddiau i'w ddigllonedd
cyfiawn ef fflamio allan am eu penau, fel y byddai i'r
holl ddifrod ofnadwy a fygythiwyd mòr aml yn mhroph-
wydoliaethau yr Hen Destament, gael ei dywallt arnynt
er eu llwyr ddinystrio.

23 * Eithr [i] gwae y rhai beichiogion, a'r
rhai yn rhoi bronnau, yn y dyddiau hynny:
† canys bydd [k] angen mawr yn y tir, a digof-
aint ar y bobl hyn.

i pen. 23. 29. Deut. 28. 56, 57. Galar. 4. 10. Hos. 9. 12—17. a 13. 16. Mat. 24. 19. Marc 13. 17. k pen. 19. 27, 43, 44. Mat. 21. 41, 44. 1 Thes. 2. 16. Heb. 10. 26—31. Iago 5. 1. 1 Pedr 4. 17, 18.

24 ‡ A hwy a syrthiant trwy fin y cleddyf,
[l] a chaeth-gludir hwynt at bob cenhedlaeth:
[m] ‖ a Jerusalem a fydd wedi ei mathru gan y
Cenhedloedd, [n] § hyd oni chyflawner amser y
Cenhedloedd.

l Deut. 28. 64—68. m Es. 5. 5. a 63. 18. Galar. 1. 15. Dat. 11. 2. n Es. 66. 12, 19. Dan. 12. 7. Mal. 1. 11. Rhuf. 11. 25.

* Am y rhan gyntaf o adn. 23, gwel ar Matth. 24. 19.
† Canys bydd caledi *(distress)* mawr, yn ol y Saesoneg.
Mae y gair gwreiddiol yn arwyddo, efallai, pob math o
galedi, angen, cyfyngder, a gorthrymder; a diammau
fod pob math o galedi ar yr Iuddewon y pryd hwn,
oblegid yr oedd digofaint Duw wedi dyfod arnynt hyd
yr eithaf, 1 Thes. 2. 16. ‡ Dywedir i *un cant ar ddeg
o filoedd* o Iuddewon gael eu lladd yn ninystr Jerusalem,
heblaw lluoedd dirfawr mewn mànau eraill. Gwerth-
wyd agos i *gan mil* o honynt yn gaethion, am y prisiau
gwaelaf ac i'r gwasanaeth caethaf a chaletaf, yn ol Deut.
28. 68. Gwasgarodd Titus Vespasian laweroedd o
honynt ar hyd y taleithiau Rhufeinig, i'w difetha yn y
chwareudai, gan y cleddyf, a chan y bwystfilod gwylltion: ond y rhai oedd dàn ddwy ar bymtheg oed a
werthwyd. ‖ O amser dinystr Jerusalem, cafodd ei
mathru gan y Cenedloedd, y Rhufeiniaid, y Saraceniaid,
a'r Frankiaid: ac yn awr methrir hi gan y Turkiaid.
Gwnaed deddf gan y gorchfygwyr Rhufeinig, na chaffai
yr un Iuddew aros yn ei hen etifeddiaeth, na dyfod i
olwg Jerusalem. § Wrth "amser y cenedloedd," mae
rhai yn deall yr holl amser o ddinystr Jerusalem hyd
ddiwedd y byd. Eraill yr holl amser tra byddo yr efengyl yn cael ei thaenu dros y byd. Eraill, yr holl
amser o ddinystr yr Iuddewon hyd eu galwad a'u had-
feriad, y pryd, medd Paul, y daw cyflawnder y cenedl-
oedd i mewn, Rhuf. 11. 25, 26. Ond tybia eraill
(a hon yw y dyb gywiraf, efallai,) mai amser amynedd
Duw tuag at y cenedloedd sydd yn awr yn perchenogi
ac yn mathru Jerusalem a gwlad Canaan, a feddylir.
Fel y mae yr Iuddewon wedi cyflawni mesur eu hanwir-
edd, a digofaint Duw wedi dyfod arnynt, felly caiff y
cenedloedd eu hamser hefyd. Cafodd y Rhufeiniaid
eu hamser; ac yn awr mae y Turkiaid yn cael eu ham-
ser: ond mae eu hawr-wydr hwy bron a rhedeg oll, bydd
cyflawniad ar eu hamser hwy hefyd. Pa un ai rhyw
Farbariaid eraill, ai ynte, Iuddewon neu Gristionogion,
a gaiff feddiannu y wlad wedi hyny, amser fydd y
dehonglydd gorau; tybia rhai yn gryf y caiff yr Iuddew-
on ei hadfeddiannu ar eu dychweliad i Gristionogaeth.

25 ¶ ° * A bydd arwyddion yn yr haul, a'r
lleuad, a'r sêr; ac ar y ddaear ing cenhedl-

oedd, [p] gan gyfyng-gynghor; [q] a'r môr a'r tonnau yn rhuo;

o Es. 13. 10, 13, 14. a 24. 23. Jer. 4. 23. Ezec. 32. 7, 8. Joel 2. 30, 31. Amos 8. 9, 10. Mat. 27. 45. Marc 13. 24—26. a 15. 33. Act. 2. 19, 20. 2 Pedr 3. 10—12. Dat. 6. 12—14. a 20. 11. p Es. 22. 4, 5. Mica 7. 4. q Salm 46. 3. a 93. 3, 4. Es. 5. 30. a 51. 15.

26 [r] † A dynion yn llewygu gan ofn, a disgwyl am y pethau sydd yn dyfod ar y ddaear: [s] oblegid nerthoedd y nefoedd a ysgydwir.

r Lef. 26. 36. Deut. 28. 32—34, 65—67. Heb. 10. 26, 27. s Mat. 24. 29. Marc 13. 25.

* Tybia rhai mai yr un arwyddion yw y rhai hyn a'r rhai a grybwyllwyd o'r blaen, adn. 11, ond eu bod yn ymddangos yn niwedd y dinystr yn gystal ag o'i flaen. Tybia eraill mai yn ffugyrol, neu gyffelybiaethol, y dylem eu deall yma, fel mewn llawer o fànau eraill yn yr Hen Destament; yn arwyddo dattodiad a dadymchweliad pob peth, mewn gwlad ac eglwys, yn mhlith yr Iuddewon. Gwel Joel 2. 31. a 3. 15, 16. Mae y pethau a grybwyllir yma yn perthyn hefyd i ddydd y farn ddiweddaf, yn sicr; o flaen yr hwn yr ymddengys y fath ryfeddodau aruthrol, 2 Pedr 3. 10, 12. † Fel yr oedd yr Iuddewon yn llewygu gan ofn y pryd hwnw, felly y bydd pechaduriaid annuwiol yn llewygu gan ofn yn nydd mawr ac ofnadwy yr Arglwydd, pan ddel efe i ddïal ar ei elynion.

27 * Ac yna y [t] gwelant Fab y dyn yn dyfod mewn cwmmwl, [u] gyd â gallu a gogoniant mawr.

t Dan. 7. 13. Mat. 26. 64. Marc 13. 26. Act. 1. 9—11. Dat. 1. 7. a 14. 14. u Mat. 16. 27, 28. a 25. 31.

Gwel ar Matth. 24. 30. a Marc 13. 26. * Arwydd Mab y dyn medd Matthew: tybir mai y drychiolaethau ofnadwy a grybwyllwyd yn adn. 11, 25, a feddylir, ac mai hyny yw y gwir agoriad ar y geiriau hyn, os at amser dinystr Jerusalem y maent yn cyfeirio. Mawr y taerai yr Iuddewon am arwydd o'r nef gan Grist, dyma arwydd iddynt o'r diwedd er eu gwae.

28 * A phan ddechreuo y pethau hyn ddyfod, [x] edrychwch i fynu, a chodwch eich pennau; [y] canys y † mae eich ymwared yn nesâu.

x Salm 98. 5—9. Es. 12. 1—3. a 25. 8, 9. a 60. 1, 2. y Rhuf. 8. 23. Eph. 1. 14. a 4. 30.

* Fel yr oedd dinystr yr Iuddewon yn dwyn ymwared i'r cristionogion a erlidid ganddynt, ac felly yn achos o galondid iddynt hwy; felly y bydd "distryw yr anwir ddynion" yn y dydd diweddaf, yn dwyn gwaredigaeth hollawl i'r saint, oddiwrth angeu a phob gelyn. † Pan ddiddymwyd y Sanhedrim Iuddewig, cafodd y Cristionogion Iuddewig ymwared mawr oddi wrth erledigaeth y llys hwnw, a thaenwyd yr efengyl yn llawer helaethach nac o'r blaen, ac yn llawer mwy diberygl.

29 Ac efe a ddywedodd ddammeg iddynt; [z] Edrychwch ar y ffigysbren, a'r holl brennau;

z Mat. 24. 32—35. Marc 13. 28—30.

30 Pan ddeiliant hwy weithian, chwi a welwch ac a wyddoch o honoch eich hun, fod yr haf yn agos.

31 Felly chwithau, [a] pan weloch y pethau hyn yn digwydd, gwybyddwch [b] fod teyrnas Dduw yn agos.

a pen. 12. 51—57. Mat. 16. 1—4. b Heb. 10. 37. Iago 5. 9. 1 Pedr 4. 7.

32 Yn wir meddaf i chwi, [c] Nid â yr oes hon heibio, hyd oni ddêl y cwbl i ben.

c pen. 11. 50, 51. Mat. 16. 28. a 23. 36. a 24. 34. Marc 13. 30.

33 [d] Y nef a'r ddaear a ânt heibio; ond fy ngeiriau i nid ânt heibio ddim.

d Salm 102. 26. Es. 51. 6. Mat. 5. 18. a 24. 35. Marc 13. 31. 1 Pedr 1. 25. 2 Pedr 3. 7—14. Dat. 20. 11.

Cawsom y ddammeg hon yn Matth. 24. 32—35. a Marc 13. 28—31. Yn y tymor eilir, *(spring)* yn union o flaen y pasg, y llefarodd Iesu y geiriau hyn; felly, yn ol ei arfer, cymmerodd achlysur oddiwrth dymmor y flwyddyn, pan oedd y coedydd oll yn blaguro ar hyd mynydd yr Olew-wydd, lle yr oeddynt pryd hyny (Matth. 24. 3.) i ddefnyddio y gyffelybiaeth hon. Gwel yn mhellach ar y mànau a enwyd. Bu yr apostol Ioan, ac amryw eraill yn ddïau o'r oes hòno, byw i weled dinystr Jerusalem, yn mhen deugain mlynedd o'r pryd hwn.

34 ¶ [e] * Ac edrychwch arnoch eich hunain, [f] rhag i'ch calonnau un amser drymhau trwy [g] lythineb a meddwdod, a [h] gofalon y bywyd hwn, a [i] dyfod y dydd hwnnw arnoch yn ddisymmwth.

e adn. 8. pen. 17. 3. Marc 13. 9. Heb. 12. 15. f pen. 12. 45. Lef. 10. 9, 10. Diar. 21. 4, 5. Es. 28. 7, 8. a 56. 10—12. Hos. 4. 11, 12. Rhuf. 13. 11—13. 1 Thes. 5. 6. 1 Pedr 4. 3—7. g Deut. 29. 19, 20. 1 Sam. 25. 36. Es. 28. 2, 3. 1 Cor. 5. 11. a 6. 10. Gal. 5. 20, 21. h pen. 8. 14. a 10. 41. Mat. 13. 22. Marc 4. 19. Phil. 4. 6. i pen. 12. 46. Salm 35. 8. Mat. 24. 39—50. Marc 13. 35—37. 1 Thes. 5. 2—4. 2 Pedr 3. 14. Dat. 3. 3.

35 [k] † Canys efe a ddaw fel magl, ar warthaf pawb oll a'r [l] sydd yn trigo ar wyneb yr holl ddaear.

k Salm 11. 6. Preg. 9. 12. Es. 24. 17, 18. Jer. 48. 43, 44. Dat. 16. 15. l pen. 17. 37. Gen. 7. 4. Act. 17. 26.

36 [m] Gwyliwch gan hynny a [n] gweddïwch bob amser, a'r gael eich [o] cyfrif yn ‡ deilwng i ddiangc rhag y pethau hyn oll sydd ar ddyfod, || ac i [p] sefyll ger bron Mab y dyn.

m pen. 12. 37—40. Mat. 24. 42. a 25. 13. a 26. 41. Marc 13. 33, 37. 1 Cor. 16. 13. 2 Tim. 4. 5. 1 Pedr 4. 7. a 5. 8. n pen. 18. 1. Job 27. 10. Act. 10. 2. Eph. 6. 18, 19. Col. 4. 2. 1 Thes. 5. 17. o pen. 20. 35. 2 Thes. 1. 5, 6. p Salm 1. 5. Mal. 3. 2. Eph. 6. 13, 14. 1 Ioan 2. 28. Judas 24.

Mae y gocheliadau a'r cynghorion hyn yn cael eu cyfeirio yn y lle blaenaf, at y cristionogion hyny oedd yn byw yn amser dinystr Jerusalem, amryw o ba rai oedd yn gwrando yn awr ar Grist, ac yn ddynion ieuainc y pryd hwnw, a holl bleserau a gofalon y byd o'u blaen; ond y maent yn perthyn hefyd i gristionogion yn mhob oes, oblegid mae yr un tueddiadau i feluswedd a gofalon yn mhawb, yr un hudoliaethau a phrofedigaethau i bawb, ac nis gwyr neb pa bryd y daw y dydd hwnw, sef dydd marw a barn, arno. Gellir dywedyd yr un peth am y cristionogion a fyddant byw yn mlaen dydd y farn ddiweddaf. * Mae pob gormodedd mewn bwyta ac yfed yn lythineb a meddwdod yn nghyfrif Duw, ac yn trymâu y galon, ac yn ei anhwyluso yn fawr at wasanaeth Duw, a gwyliadwriaeth ysbrydol sanctaidd. Am y gofalon a waherddir yma, gwel ar Luc 12. 22. Mae gofalon bydol gormodol hefyd, nid yn unig yn trymâu, ond hefyd yn ei gwânu â llawer o drallodion, ac yn dra niweidiol i ysbryd gwyliadwriaeth a gweddi. † Daeth lluoedd y Rhufeiniaid i mewn i Judea ac o amgylch Jerusalem pryd nad oedd neb yn dysgwyl; a daliwyd yr Iuddewon yn mhob màn "fel aderyn yn magl yr adarwr:' yn gyffelyb i hyny mae angau yn dyfod "ar warthaf pawb oll ag sydd yn trigo ar wyneb yr holl ddaear," mewn cyflwr anmharod; ac felly y daw dydd y farn. Holl Judea, neu wlad yr Iuddewon, medd rhai; ond tybia eraill fod yma grybwylliad o'r amryw ryfeloedd a'r trallodion a ddeuai o amser i amser, ar holl amherodraeth Rhufain. ‡ Mae *teilwng*, weithiau yn ystyr ysgrythyrol y gair, yn arwyddo anrhydedd a rodder ar un, megis y dywedir am fod yn deilwng i ddyoddef anmharch o achos enw Crist, Act. 5. 41. Prydiau eraill, mae yn arwyddo yr hyn sydd addas, ac yn gweddu; megis y dywedir ein bod yn rhodio yn deilwng i Dduw, &c. 1 Thes. 2. 12; Ephes. 4. 1; Luc 3. 8. Felly bod yn deilwng i ddïanc, &c., yw cael yr anrhydedd o hyny, a bod yn gymhwys ac yn barod i hyny. Peth i weddïo am dano ydyw, gan hyny "rhodd Duw ydyw," ac nid haeddiant dyn. || Cafodd miloedd o'r Iuddewon ddïanc drwy y naill ragluniaeth a'r llall; y rhai ni chawsant mewn un modd sefyll gerbron Mab y dyn: mae yma

iangfa dymmorawl a diogelwch cyflwr tragywyddol yfyd. Yr annuwiolion ni safant yn y farn.

37 [q] * A'r dydd yr ydoedd efe yn athrawethu yn y deml; a'r nos yr oedd efe yn yned ac yn aros yn y mynydd a elwid yr Dlew-wydd.

q pen. 22. 39. Mat. 21. 17. Marc 11. 12. Ioan 12. 1. r pen. 37. Zec. 14. 4. Mat. 26. 30. Act. 1. 12.

38 [s] † A'r holl bobl a fore-gyrchent atto efe y deml, i'w glywed ef.

s Ioan 8. 2.

Mae yr adnodau hyn yn dangos i ni pa fodd y treulld Crist ei ddyddiau diweddaf, er pan ddaeth i Jeruem hyd ei groeshoeliad. * Treuliai y dydd i bregethu y deml, a threuliai y nos yn gweddio ar fynydd yr ew-wydd, efallai yn ngardd Gethsemane; oddigerth ychydig a orphwysai er dadebru natur, efallai yn nhŷ azarus, Mair a Martha. Dylai gweinidogion yr efengyl ysgu oddiwrth hyn, mai pregethu, myfyrio, a gweddio, eu prif orchwylion hwy. † Nid y penaethiaid, ond obl; y gwerinos tlodion. Er gwrando yn awyddus no, eto, pan welodd y rhai hyn nad oedd efe ddim yn nmeryd arno fawredd allanol fel brenin, ond yn ddef i'w elynion ei ddàl a'i anmharchu ef, troisant ythau yn ei erbyn, lawer o honynt, a gwaeddasant la'r dyrfa, "Croeshoelier ef!"

PEN. XXII.

Yr Iuddewon yn cyd-fwriadu yn erbyn Crist.

[a] * NESAODD gwyl y † bara croyw, yr hon a elwir y pasc.

a Ex. 12. 6—23. Lef. 23. 5, 6. Mat. 26. 2. Marc 14. 1, 2, 12. n 11. 55—57. 1 Cor. 5. 7, 8.

2 [b] A'r arch-offeiriaid a'r ysgrifenyddion a iisiasant pa fodd y difethent ef: oblegid yr ldd arnynt ofn y bobl.

b pen. 19. 47, 48. a 20. 19. Salm 2. 1—5. Mat. 21. 38, 45, 46. 5. 3—5. Ioan 11. 47—53, 57. Act. 4. 27.

Gwel ar Matth. 26. 1—5; a Marc 14. 1, 2. * Wedi eddydd, medd Matthew a Marc yn y mànau uchod. Bara croyw oedd gan Israel yn eu Pasc cyntaf yn yr bht, am nad oedd amser y pryd hwnw iddynt lefeinio toes, cyn myned allan o'r Aipht; o hyny allan bara yw oedd gorchymyn Duw iddynt, a gŵyl y bara croyw gelwid y Pasc yn gyffredin; yr hon ŵyl a barâai am th niwrnod wedi *dydd* y Pasc, neu y *nos* yn hytrach.

3 ¶ [c] * A Satan a aeth i mewn i Judas, yr rn a gyfenwid Iscariot, [d] yr hwn oedd o iedi y deuddeg.

c Ioan 6. 70, 71. a 12. 6. a 13 2, 27. Act. 5. 3. d adn. 21. .. 6. 16. Salm 41. 9. a 55. 12—14. Mat. 26. 23. Marc 14. 18—20. n 13. 18, 26.

4 Ac efe [e] a aeth ymaith, ac a ymddiddanid â'r arch-offeiriaid a'r † blaenoriaid, pa ldd y bradychai efe ef iddynt.

e Mat. 26. 14. Marc 14. 10, 11.

5 Ac yr oedd yn llawen ganddynt: [f] ‡ a y a gyttunasant ar roddi arian iddo

f Zec. 11. 12, 13. Mat. 26. 15, 16. a 27. 3—5. Act. 1. 18. a 8. 1 Tim. 6. 9, 10. 2 Pedr 2. 3, 15. Judas 11.

6 ‖ Ac efe a addawodd, ac a geisiodd amser lfaddas i'w fradychu ef iddynt yn absen y lbl.

7 ¶ § A daeth [g] dydd y bara croyw, ar yr rn yr oedd rhaid lladd y pasc.

g adn. 1. Ex. 12. 6, 18. Mat. 26. 17. Marc 14. 12.

8 Ac [h] efe a anfonodd Pedr ac Ioan, gan ywedyd, [i] Ewch, parottôwch i ni y pasc, fel lbwyttâom.

h Marc 14. 13—16. i pen. 1. 6. Mat. 3. 15. Gal. 4. 4, 5.

9 A hwy a ddywedasant wrtho, Pa le y mynni barottôi o honom?

10 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [k] Wele, pan ddeloch i mewn i'r ddinas, cyferfydd â chwi ddyn yn dwyn ystenaid o ddwfr: canlynwch ef i'r tŷ lle yr êl efe i mewn.

k pen. 19. 29, &c. 1 Sam. 10. 2—7. Mat. 26. 18, 19. Ioan 16. 4. Act. 8. 26—29.

11 A dywedwch wrth wr y tŷ, [l] Y mae yr Athraw yn dywedyd wrthyt, [m] Pa le y mae y lletty, lle y gallwyf fwytta y pasc gyd â'm disgyblion?

l pen. 19. 31, 34. Mat. 21. 3. Ioan 11. 28. m pen. 19. 5. Dat. 3. 20.

12 Ac [n] efe a ddengys i chwi [o] oruwchystafell fawr, wedi ei thaenu: yno parottôwch.

n Ioan 2. 25. a 21. 17. Act. 16. 14, 15. o Act. 1. 13. a 20. 8.

13 A [p] hwy a aethant, ac a gawsant fel y dywedasai efe wrthynt: ac a barottoisant y pasc.

p pen. 21. 33. Ioan 2. 5. a 11. 40. Heb. 11. 8.

14 A [q] phan ddaeth yr awr, efe a eisteddodd i lawr, a'r deuddeg apostol gyd âg ef.

q Deut. 16. 6, 7. Mat. 26. 2. Marc 14. 17.

Gwel ar Matth. 26. 17—20; a Marc 14. 12—17. * Trefnodd Duw, yn ei ryfedd ragluniaeth, i satan, offeryn distryw dynion, fod yn offeryn er iachawdwriaeth dynion. Nid i'w feddiannu ef yn yr un modd â'r rhai cythreulig y darllenwn am danynt, ond i gynhyrfu cybydd-dra ei galon ef i fradychu ei Arglwydd am arian. † A'r *Capteniaid* yw y Saesoneg, a thybir mai swyddogion isel-radd yn perthyn i'r deml oeddynt, yn flaenoriaid y dosparthau o'r offeiriaid a'r Lefiaid, ac eu hunain dan lywodraeth un uwchlaw iddynt, yr hwn a elwir blaenor y deml yn Act. 4. 1; 5. 24. ‡ Cynnygiodd yr offeiriaid bris cyn lleied (deg ar hugain) i ddangos eu dirmyg ar Iesu; a goddefodd Duw i Judas, er cymmaint oedd o gybydd, i gymmeryd swm mòr fychan; (er y gallasai yn hawdd godi y pris yn uwch:) fel y byddai i brophwydoliaeth Zechariah gael ei chyflawni, lle mae y "pris" yn cael ei enwi yn bennodol, Zech. 11. 12, 13. ‖ Mae y gair a gyfieithir addaw yma, yn cael ei gyfieithu dïolch hefyd mewn mànau eraill; (gwel Matth. 11. 25,) ond er mòr gybyddlyd a gwael oedd Judas, prin y gallwn feddwl iddo *dïolch* i'r offeiriaid am swm mòr fychan a diwerth. § Mae yn werth sylwi, i Grist yr hwn a gysgodid drwy oen y pasg, ddyoddef ar y pasg hwn er gwaredigaeth ei bobl; ac iddo gael ei ddal ar y dydd pennodol y gwaredwyd Israel o'r Aipht, sef ar y pymthegfed o fis Nisan. Gwel Num. 33. 3.

15 Ac efe a ddywedodd wrthynt, * Mi a chwennychais yn fawr fwytta y pasc hwn gyd â chwi cyn dïoddef o honof.

16 † Canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, [r] Ni fwyttâf fi mwyach o hono, [s] hyd oni chyflawner yn nheyrnas Dduw.

r adn. 18—20. s adn. 30. pen. 12. 37. a 14. 15. Ioan 6. 27, 50—58. 1 Cor. 5. 7, 8. Heb. 10. 1—10.

17 Ac [t] wedi iddo gymmeryd y cwppan, [u] a rhoddi dïolch, efe a ddywedodd, Cymmerwch hwn, a rhennwch yn eich plith:

t Salm 23. 5. a 116. 13. Jer. 16. 7. u adn. 19. pen. 9. 16. Deut. 8. 10. 1 Sam. 9. 13. Rhuf. 14. 6. 1 Tim. 4. 4, 5.

18 Canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, [x] nad yfaf o [y] ffrwyth y winwydden, [z] ‡ hyd oni ddêl teyrnas Dduw.

x adn. 16. Mat. 26. 29. Marc 14. 23. a 15. 23. y Barn. 9. 13. Salm 104. 15. Diar. 31. 6, 7. Can. 5. 1. Es. 24. 9—11. a 25. 6. a 55. 1. Zec. 9. 15, 17. Eph. 5. 18, 19. z pen. 9. 27. a 21. 31. Dan. 2. 44. Mat. 16. 18. Marc 9. 1. Act. 2. 30—36. Col. 1. 13.

19 ¶ Ac [a]wedi iddo gymmeryd bara, a [b]rhoi diolch, efe a'*i* torrodd, ac a'*i* rhoddes iddynt, gan ddywedyd, [c]Hwn yw fy nghorph yr hwn yr ydys [d]yn ei roddi drosoch: [e]gwnewch hyn er coffa am danaf.

a Mat. 26. 26—28. Marc 14. 22—24. 1 Cor. 11. 23—29. b adn. 17. pen. 24. 30. Ioan 6. 23. 1 Thes. 5. 18. c adn. 20. Gen. 41. 26, 27. Ezec. 37. 11. Dan. 2. 38. a 4. 22—24. Zec. 5. 7, 8. 1 Cor. 10. 4. Gal. 4. 25. d Ioan 6. 51. Gal. 1. 4. Eph. 5. 2. Tit. 2. 14. 1 Pedr 2. 24. e Salm 78. 4—6. a 111. 4. Can. 1. 4. 1 Cor. 11. 24, 25.

20 ‖ Yr un modd y cwppan hefyd wedi swpperu, gan ddywedyd, [f]§ Y cwppan hwn *yw* y testament newydd yn fy ngwaed i, yr hwn yr ydys yn ei dywallt drosoch.

f Ex. 24. 8. Zec. 9. 11. 1 Cor. 10. 16—21. a 11. 25. Heb. 8. 6—13. a 9. 17—23. a 12. 24. a 13. 20.

21 ¶ Eithr wele, [g]law yr hwn sydd yn fy mradychu gyd â mi ar y bwrdd.

g Job 19. 19. Salm 41. 9. Mica 7. 5, 6. Mat. 26. 21—23. Marc 14. 18—20. Ioan 13. 18, 19.

22 Ac [h]yn wir y mae Mab y dyn yn myned, * megis y mae wedi ei luniaethu: [i]eithr gwae y dyn hwnnw trwy yr hwn y bradychir ef.

h pen. 24. 25—27, 46. Gen. 3. 15. Salm 22. a 69. Es. 53. Dan. 9. 24—26. Zec. 13. 7. Mat. 26. 24, 53, 54. Marc 14. 21. Act. 2. 23. a 4. 25—28. a 13. 27, 28. a 26. 22, 23. 1 Cor. 15. 3, 4. 1 Pedr 1. 11. i Salm 55. 12—15. a 69. 22—28. a 109. 6—15. Mat. 27. 5. Ioan 17. 12. Act. 1. 16—25. 2 Pedr 2. 3.

23 Hwythau a ddechreuasant [k]ymofyn yn eu plith eu hunain, pwy o honynt oedd yr hwn a wnai hynny.

k Mat. 26. 22. Marc 14. 19. Ioan 13. 22—25.

Gwel ar Matth. 26. 20—30. * Gwyddai yr Iesu yn sicr y byddai raid iddo fyned dàn ei ddyoddefiadau mwyaf poenus ac annhraethadwy, yn y fàn ar ol y pasg hwn: eto yr oedd yn mawr hiraethu am ei ddyfodiad, fel y gallai ddechreu ar y frwydr hòno, yr hon a ddybenai yn sicr mewn buddugoliaeth ogoneddus, er y canlyniadau mwyaf dedwydd i'w bobl byth bythoedd. Ac yr oedd yn chwennychu bwyta y pasg hwnw gyda ei ddysgyblion "cyn dyoddef o hòno;" fel y gallai agor ei feddwl yn fwy amlwg iddynt, a llefaru y cyfryw bethau a dueddai i'w parotôi hwythau hefyd, erbyn y profedigaethau oedd o'u blaen. Gwel Ioan 13. a 14. a 15. a 16. † Mynegodd iddynt hefyd na chyfranogai efe o'r wledd sanctaidd hòno mwyach, hyd oni chyflawnid ei meddwl cysgodol hi yn ei aberth a'i iawn ef; yn natguddiad eglur ei efengyl, ac yn sefydliad ei deyrnas ysbrydol. ‡ Hyny yw, hyd oni byddai goruchwyliaeth yr efengyl wedi llawn ddyfod, ac wedi ei sefydlu yn y byd. ‖ Dywedir i Grist "gymmeryd y cwpan" o'r blaen, adn. 17; cwpan y pasg oedd hwnw, a chwpan swper yr Arglwydd oedd hwn, ar ol gorphen y pasg. Efallai iddo brofi o'r cyntaf, fel rhan o *arferiad*, er nad oedd hyny yn ofynol yn ol y *ddeddf;* ond nid yfodd efe ddim o'r gwin, a ddefnyddid er cof sacramentaidd o'i farwolaeth ef: nid oedd raid iddo ef wrtho, na'r bara hwnw chwaith. Dywedir yma "*wedi* swperu," i ddangos nad oedd y cwpan hwn yn perthyn dim i wasanaeth y pasg. § Enwir y cwpan yma am y *gwin* yn y cwpan; a dywedir mai y "Testament Newydd yn ngwaed Iesu" ydyw, fel y mae yn arwyddo gwaed yr Emmanuel. Gwel yn helaethach ar hyna yn Matth. 26. 28. Cadwyd y pasg Iuddewig *unwaith* mewn dysgwyliad, cyn gwaredigaeth Israel o'r Aipht; a chadwyd swper yr Arglwydd unwaith, cyn i'r iawn gael ei dalu. * Fel y mae yn ysgrifenedig, medd yr efengylwyr eraill: am ei fod wedi ei *luniaethu* yr oedd wedi ei *ysgrifenu.* Nis gwyddai Judas beth oedd wedi ei luniaethu, ac nid oedd yn deall yr hyn oedd wedi ei ysgrifenu, nac yn meddwl fawr am dano y pryd hwn; am hyny nis gallasai y naill na'r llall effeithio dim ar ei rydd-weithrediad a'i gyfrifoldeb ef, o ganlyniad nid oedd y lluniaethu na'r ysgrifenu yn esgus dros ei ymddygiad drygionus ef. Er bod arfaeth Duw o angenrheidrwydd i gael ei chyflawni; eto nid yw yn esgusodi bai yr offeryn: a rhyfedd bod dynion yn dadleu fel arall.

24 ¶ * A bu [l]ymryson yn eu plith, pwy o honynt a debygid ei fod yn fwyaf.

l pen. 9. 46. Mat. 20. 20—24. Marc 9. 34. a 10. 37—41. Rhuf. 12. 10. 1 Cor. 13. 4. Phil. 2. 3—5. Iago 4. 5, 6. 1 Pedr 5. 5, 6.

* Clywsom am beth fel hyn yn mhlith y dysgyblion o'r blaen; pen. 9. 46; Matth. 18. 1. a 20. 20—24; Marc 9. 33, 34. Ond rhyfedd iawn fod dadl o'r fath hyn ganddynt yn y fath le, ac ar y fath achlysur; yn y fàn wedi bwyta y pasg, cyfranogi o swper yr Arglwydd, clywed am ei ddyoddefiadau mawrion, ac hefyd y profedigaethau oedd yn eu haros hwy eu hunain. Mae yn debyg iddynt ollwng pobpeth yn anghof ond y deyrnas a soniasai Crist am dani adn. 16, 18: yr oeddynt yn golygu hòno yn un ddaearol, ac felly yn ymryson pwy a fyddai fwyaf ynddi, yn nesaf at Grist, y Brenin. Dyna olygiadau *Scott* ar y lle; ond tybia tri eraill o'n Hawdwyr mai y ddadl a fuasai o'r blaen a grybwyllir yma gan Luc megys allan o'i lle; a dywed *Pool* y gellid cyfieithu y gair Groeg, *Egeneto*, A *buasai*, yn hytrach nac A *bu.* Dywed *Doddridge* mai yn union o flaen swper y bu, ac nid ar ei ddiwedd.

25 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [m]Y mae brenhinoedd y Cenhedloedd yn * arglwyddiaethu arnynt; a'r rhai sydd mewn awdurdod arnynt, a elwir yn † bendefigion.

m Mat. 20. 25—28. Marc 10. 41—45.

26 Ond [n]na *fyddwch* chwi felly: eithr y mwyaf yn eich plith chwi, bydded megis yr ieuangaf; a'r pennaf, megis yr hwn sydd yn gweini.

n Mat. 18. 3—5. a 23. 8—12. Rhuf. 12. 2. 1 Pedr 5. 3.

27 Canys [o]pa un fwyaf, ai yr hwn sydd yn eistedd ar y bwrdd, ai yr hwn sydd yn gwasanaethu? onid yr hwn sydd yn eistedd ar y bwrdd? ‡ eithr yr ydwyf fi yn eich mysg fel un yn gwasanaethu.

o pen. 12. 37. a 17. 7—9. Mat. 20. 28. Ioan 13. 5—16. 2 Cor. 8. 9. Phil. 2. 7, 8.

Gwel ar Matth. 20. 25—28. * Mae y ddau air gwreiddiol a gyfieithir yma "arglwyddiaethu," ac "awdurdod," yn arwyddo llywodraethu ac awdurdodi yn dra-arglwyddiaethol a gorthrymus: fel y mae perchenog caeth-weision yn trin ei gaethion. † "Pendefigion," (*Euergetai:*) ystyr y gair Groeg yw, Cymmwynaswyr. Enw un o freninoedd mwyaf trahâus, creulonaf, a mwyaf gorthrymus yr Aipht oedd, *Ptolemæus Euergetus;* y Cymmwynaswr: ond nid oedd yr apostolion i gymmeryd arnynt yr enw cymmwynaswyr, drwy awyddu am fawredd, ac arferyd tra-arglwyddiaeth; ond bod yn barod i'r gwasanaeth iselaf a gwaelaf, drwy yr hwn y gallent wneuthur gwir ddaioni i eraill; a hyn hefyd heb eithrio yr hynaf, a'r mwyaf enwog o honynt. ‡ Cyfeirio y mae Crist yma at ei waith yn golchi traed ei ddysgyblion, mae yn debyg, yr hyn oedd yn wneyd pan oedd yn llefaru y geiriau hyn: felly mae efe yn dysgu gostyngeiddrwydd drwy athrawiaeth ac anghraifft hefyd.

28 * A chwychwi yw y rhai a [p]arhosasoch gyd â mi yn fy mhrofedigaethau.

p Mat. 19. 28, 29. a 24. 13. Ioan 6. 67, 68. a 8. 31. Act. 1. 25. Heb. 2. 18. a 4. 15.

29 † Ac [q]yr wyf fi yn ordeinio i chwi deyrnas, megis yr ordeiniodd fy Nhad i minnau;

q pen. 12. 32. a 19. 17. Mat. 24. 47. 2 Tim. 2. 12. Iago 2. 5. Dat. 21. 14.

30 [r] ‡ Fel y bwyttâoch ac yr yfoch ar fy mwrdd i yn fy nheyrnas, [s] ‖ ac yr eisteddoch ar orseddfeydd, yn barnu deuddeg llwyth Israel.

r adn. 16—18. pen. 12. 37. a 14. 15. 2 Sam. 9. 9, 10. a 19. 28. t. 19. 9. s Salm 49. 14. 1 Cor. 6. 2, 3. Dat. 2. 26, 27. a 3. 21. . 4.

* Fel pe dywedasai yr Iesu, Hyd yn hyn buoch gyda yn fy mhrofedigaethau, yn fy anmharch, a'm dyoddefiadau, lle ni welsoch ynof fi ddim yn debyg i rwysg a rwredd y byd hwn, nac ymgais am hyny: ni roddais chwaith ddim addewidion i chwithau, y caech fwyn y cyfryw bethau, ac eto ni ddigalonasoch fy nghanlyn a glŷnu gyda mi: ewch yn mlaen gan hyny, er y oddefiadau yn mhellach a welwch ynof fi, ac a raid i wi fyned drwyddynt eich hunain ar ol hyn, gan ysgwyl pethau llawer gwell yn mhob ystyr, na chyfoeth gwychder y byd hwn. † Er na chewch chwi, yr un o noch, y mawredd daearol y buoch yn ymryson am no; eto chwi a gewch deyrnas dragywyddol ar ol y d hwn. Fel yr ordeiniodd (neu y cyfammododd, yn y Groeg) fy Nhad i mi deyrnas ar ol gorphen dyoddef nonof; felly yr wyf finnau yn ordeinio, megys drwy fammod, rhoddi i chwithau deyrnas ac anrhydedd yn ogoniant, fel gwobrwy grasol am eich ymlyniad ffyddwn wrthyf, a'ch llafur yn achos fy nheyrnas ar y aear. ‡ Mynych y mae dedwyddwch y nef yn cael ei od allan dàn y gymhariaeth o wledd, bwyta ac yfed; yma bwyta ac yfed gyda'r Brenin, fel y mae rhyw naeth buddugoliaethus yn galw ei gadbeniaid dewrion gyfeillion dewisol, i wledda gydag ef ar ei fwrdd ei un. || Am y rhan olaf hyn o adn. 30, gwel ar Matth. . 28. Wrth y geiriau hyn mae rhai yn deall awdurdod apostolion ar yr eglwys Gristionogol: addefir bod yr durdod hôn yn perthyn iddynt hwy, ac mewn rhyw yr iddynt hwy yn unig; (gwel ar Matth. 16. 19; a . 18. Ioan 20. 23.) eto, mae yn debygol mai rhyw anydedd a rhagoriaeth neilluol yn y byd a ddaw, a ldylir yn fwyaf union-gyrchol.

31 ¶ A'r Arglwydd a ddywedodd, t * Sion, Simon, wele, u † Satan a'ch ceisiodd wi, x ‡ i'*ch* nithio fel gwenith:

t pen. 10. 41. Act. 9. 4. u Job 1. 8—11. a 2. 3—6. Zec. 3. 1 Pedr 5. 8. Dat. 12. 10. x Amos 9. 9.

32 Eithr y mi a weddïais drosot, z || na iliffygiai dy ffydd di: a § tithau pan y'th roër, b cadarnhâ dy frodyr.

y Zec. 3. 2—4. Ioan 14. 19. a 17. 9—11, 16—21. Rhuf. 5. 9, a 8. 32—34. Heb. 7. 25. 1 Pedr 1. 5. 1 Ioan 2. 1, 2. z pen. 13. 2 Tim. 2. 18. Tit. 1. 1. Heb. 12. 15. 2 Pedr 1. 1. 1 Ioan 2. a adn. 61, 62. Mat. 18. 3. a 26. 75. Marc 14. 72. a 16. 7. t. 3. 19. b Salm 32. 3—6. a 51. 12, 13. Ioan 21. 15—17. Cor. 1. 4—6. 1 Tim. 1. 13—16. Heb. 12. 12, 13. 1 Pedr 1. 13. a 8—10. 2 Pedr 1. 10—12. a 3. 14, 17, 18.

* Efallai bod Crist yn galw Pedr wrth ei hen enw, mon, yma, gyda chyfeiriad at ei anwadalwch ef yn y nwf oedd o'i flaen: nid da yr oedd enw Pedr, (Craig,) gweddu iddo, ac yntau mòr wàn a meddal yn wyneb bfedigaeth. Cyfeiriodd Iesu ei ymadrodd at Pedr yn naf, ac yn dra phwysig, am y gwyddai ei fod ef yn f iawn yn ei feddwl ei hun; ond y mae yn llefaru tyd wrth y dysgyblion oll, oblegid y mae yn troi yr adrodd yn union i'r rhif liosog: satan a'*ch* ceisiodd *wi*. † Satan, y gwrthwynebwr, a'ch ceisiodd, fel y siodd efe Job gynt, a diammau fod yma gyfeiriad at mes Job 1. 2. Nis gall satan wneyd dim i neb, ond y caffo ganiatâd, neu oddefiad gan Dduw, ac nid yw esgeuluso yr un adeg i geisio hyny, 1 Pedr 5. 8. hwennychai nithio y dysgyblion oll fel gwenith; trwy hyrfu eu meddyliau â'i ymosodiadau tumewnol, wn cyd-weithrediad â'u profedigaethau allanol, fel y chir gwenith mewn gogr. Efallai bod satan yn beithio gorchfygu rhai o honynt yn hollol; neu ynte wyn y fath warth ar eu henwau, ag a fyddai yn rhwystr defnyddioldeb byth wedi hyny, ac yn ddigalondid ffidus i'w meddyliau hwy eu hunain. Beth bynag ld ei fwriadau ef, caniatâodd yr Arglwydd iddo fel hyn profi hwynt, ac i oruwch-lywodraethu hyny er lles ffynt yn ol llaw. || Nid diffygio fel y mae nerth yn ffygio mewn afiechyd a feddylir: diffygiodd eu ffydd ynt oll fel hyny, a ffydd Pedr yn enwedig: ond diffygio fel y mae *bywyd* yn diffygio yn *marwolaeth;* ni ddiffygiodd ffydd neb o honynt, hyd yn nod yr eiddo Pedr, fel hyny. § Hyny yw, pan adfero yr Ysbryd Glân di o'th gwymp, a pheri i ti weled dy gyfeiliorni, cadarnâ dy frodyr. Cafodd y gorchymyn hwn ei lawn effaith ar Pedr yn fuan, a thrwy ei oes: ar ol iddo wylo ac ymofidio am ei fai, mae yn ddïammau iddo fyned yn ddïoed i gasglu yn nghyd ei frodyr gwasgaredig, i gryfâu eu meddyliau, ac i'w hannog i beidio ag ymadael o Jerusalem hyd fore y trydydd dydd, pryd yr oedd ef ei hun wrth fedd ein Harglwydd yn fore iawn. Gwedi hyny cawn ef yn ei epistolau yn cadarnâu y saint mewn erlidiau a gorthrymderau yn aml iawn. Gwel 1 Pedr 1. 6, 7. a 2. 19, 20. a 3. 14—18. a 4. 12—19. a 5. 8—10. Yn ei ail epistol mae yn rhoddi amryw gynghorion i ochel cyfeiliornadau, mwy peryglus mewn rhai amgylchiadau, nac erledigaethau. Gwel 2 Pedr 1. 10, 12. a 2. 1, 2, 20. 21. a 3. 2, 17. *Egluro y testyn* yw prif amcan y gwaith hwn, rhaid i'r darllenydd dŷnu ei addysgiadau ei hun.

33 * Ac efe a ddywedodd wrtho, Arglwydd, c yr ydwyf fi yn barod i fyned gyd â thi i garchar, ac i angau.

c 2 Bren. 8. 12, 13. Diar. 28. 26. Jer. 10. 23. a 17. 9. Mat. 20. 22. a 26. 33—35, 40, 41. Marc 14. 29, 31, 37, 38. Ioan 13. 36, 37. Act. 20. 23, 24. a 21. 13.

34 Yntau a ddywedodd, Yr wyf yn dywedi ti, Pedr, d Na chân y ceiliog † heddyw, nes i ti wadu dair gwaith yr adweini fi.

d Mat. 26. 34, 74. Marc 14. 30, 71, 72. Ioan 13. 38. a 18. 27.

Cawn hyn yn helaethach yn Matth. 26. 33—35. a Marc 14. 27—30, gwel y sylwadau yno. * Ni wrandawai Pedr y pryd hwn ar rybuddion ei Arglwydd; yr oedd yn sicr fod ei fwriad yn dda, ac yr oedd yn ymddiried gormod i'w galon ei hun. † "Y *nos hon*," medd Matthew, a Marc; "*heddyw*," medd Luc yma. Wrth fod yr Iuddewon yn nghyfrifiad eu diwrnodau, yn eu dechreu yn yr hwyr, fel y dywed Moses, "A'r hwyr a fu, a'r boreu y fu, y dydd cyntaf," Gen. 1. 5, &c. gallai Luc yn ddigon priodol alw *heddyw* ar yr amser mae Matthew a Marc yn ei alw y *nos hon:* un diwrnod y cyfrifent hwy y nos â'r dydd canlynol.

35 Ac efe a ddywedodd wrthynt, e * Pan y'ch anfonais heb na phwrs, na chôd, nac esgidiau, f a fu arnoch eisieu dim? A hwy a ddywedasant, Na ddo ddim.

e pen. 9. 3. a 10. 4. Mat. 10. 9, 10. Marc 6. 8, 9. f pen. 12. 29—31. Gen. 48. 15. Deut. 8. 2, 3, 16. Salm 23. 1. a 34. 9, 10. a 37. 3. Mat. 6. 31—33.

36 Yna y dywedodd wrthynt, g † Ond yn awr y neb sydd ganddo bwrs, cymmered; a'r un modd gôd: a'r neb nid oes ganddo, gwerthed ei bais, a phryned gleddyf.

g Mat. 10. 22—25. Ioan 15. 20. a 16. 33. 1 Thes. 2. 14, 15. a 3. 4. 1 Pedr 4. 1.

37 Canys yr wyf yn dywedyd i chwi, h ‡ Fod yn rhaid etto gyflawni ynof fi y peth hwn a ysgrifenwyd; *sef,* i A chyd â'r anwir y cyfrifwyd ef. Canys y mae diben i'r pethau am danaf fi.

h adn. 22. pen. 18. 31. a 24. 44—46. Mat. 26. 54—56. Ioan 10. 35. a 19. 28—30. Act. 13. 27—29. i pen. 23. 32. Es. 53. 12. Marc 15. 27, 28. 2 Cor. 5. 21. Gal. 3. 13.

38 A hwy a ddywedasant, Arglwydd, || wele ddau gleddyf yma. Ac efe a ddywedodd wrthynt, k § Digon yw.

k Mat. 26. 52—54. Ioan 18. 36. 2 Cor. 10. 3, 4. Eph. 6. 10—18. 1 Thes. 5. 8. 1 Pedr 5. 9.

Dyma eiriau diweddaf Crist wrth ei ddysgyblion yn yr ystafell lle buont yn bwyta y pasg, yn y fàn cyn iddo fyned allan i wynebu y frwydr fawr. Gwel adn. 39. * Tra yr oedd efe gyda hwy, ac yn eu danfon allan bob yn ddau a dau i bregethu, yr oedd ei ragluniaeth ddirgelaidd ef yn gofalu am danynt, yn eu hamddiffyn rhag

pob gelynion, ac yn agoryd calonau dynion yn mhob màn i'w derbyn i'w tai, a diwallu eu hangen, er nad oeddynt hwy wedi darpar dim yn flaenorawl; fel na bu eisiau dim arnynt, yn ol eu cyfaddefiad eu hunain. † Er y byddai i'r un ragluniaeth ddwyfol i ofalu am danynt o hyd; eto yr oedd cyfnewidiad mawr er gwaeth, i fod ar bethau o'r awr hòno allan. O hyn allan, fel pe dywedasai yr Iesu, chwi a fyddwch mòr ddigyfeillion ac agored i beryglon, fel y bydd yn anghenrheid i chwi wrth arian ac ymborth yn mlaen llaw, er diwallu angenrheidiau bywyd; a chleddyfau hefyd, i'ch amddiffyn eich hunain rhag y gelynion sydd yn dyfod arnoch: ïe, bydd eich enbydrwydd mòr dra dirfawr, fel y bydd yn dda genych ymadael â'ch peisiau oddi am eich cefnau am gleddyfau i'ch amddiffyn eich hunain. Nid yn llythyrenol y dylem ddeall hyn am y cleddyfau, yn sicr, fel pe buasai yr Arglwydd Iesu yn gorchymyn i'w ddysgyblion gymmeryd y fath arfau; mae hyny yn groes i'r cerydd a roddodd wedi hyn i Pedr am ddefnyddio ei gleddyf, yn groes i holl rediad ac ysbryd yr efengyl, ac yn groes i arferiad yr apostolion trwy eu hoes wedi hyn. Cyffelybiaethol yw yr holl adnod, yn dangos bod yr apostolion fel byddin o filwyr, yn myned allan i ryfel poeth ysbrydol, y byddai eu gelynion yn gryfion ac yn llidiog, eu perygl yn fawr iawn; ac y byddai yn angenrheidiol iddynt hwythau wrth bob darpariad ac arfogaeth ysbrydol. ‡ Yr oedd y frwydr i ddechreu y noson hòno, a'r ymosodiad cyntaf i gael ei wneyd ar y Tywysog mawr ei hun. Rhaid cyfiawni ynof fi, ebai Iesu, y peth a ysgrifenwyd yn Llyfr Es. 53. 12, rhaid fy nwyn I ger bron swyddogion a llywiawdwyr fel drwg-weithredwr, a'm croeshoelio rhwng dau leidr, fel pe byddwn y gwaethaf o'r tri. Arnoch chwithau yr ymosodir yn nesaf; gallwch feddwl pa dderbyniad a gewch, pan eloch allan yn enw, a thrwy awdurdod un a groeshoeliwyd fel drwg-weithredwr; ac eto yn galw am ffydd ac ufudd-dod i hwnw fel Iachawdwr hollalluog. || Tybir i'r dysgyblion ddwyn y ddau gleddyf hyn gyda hwy ar eu taith o Galilea, i'w hamddiffyn eu hunain rhag yspeilwyr. § Mae hyn yn dangos mai nid am gleddyfau yn yr ystyr lythyrenol yr oedd Iesu yn meddwl yn adn. 36; pe felly, ni ddywedasai yma fod dau yn ddigon rhwng y dysgyblion oll. Yr oedd y ddau hyn o arfau milwriaeth gnawdol yn ddigon, a mwy na digon; defnyddiodd Pedr yn ei wylltineb un o honynt, ac yr oedd hyny yn ormod. Digon wedi ei ddywedyd yn nghylch cleddyfau medd rhai, oblegid nid am gleddyfau felly yr oedd Iesu yn meddwl: ymadrodd diarebol oedd gwerthu pais a phrynu cleddyf, (adn. 36.) fel cynghor i ymadael â pheth llai rheidiol i ddarpar peth mwy rheidiol; deallodd y dysgyblion hyn am gleddyfau yn yr ystyr lythyrenol, ac ni welodd Iesu yn angenrheidiol dywedyd dim yn mhellach ar y mater, ond yn unig Digon yw.

39 ¶ [l] Ac wedi iddo fyned allan, efe a aeth, [m] yn ol ei arfer, * i fynydd yr Olewwydd; a'i ddisgyblion hefyd a'i canlynasant ef.

l Mat. 26. 36—38. Marc 14. 32—34. Ioan 18. 1, 2. m pen. 21. 37. Marc 11. 11, 19. a 13. 3.

Dywed Matthew a Marc iddo fyned i le a elwid Gethsemane; nid oes dim anghysondeb yn hyny; oblegid pa un bynag ai pentref, ai gardd, neu ddyffryn, mae Gethsemane yn arwyddo o ran lle, cytuna pawb mai wrth droed mynydd yr Olew-wydd yr oedd. Arferai Crist a'i ddysgyblion fyned yno i weddio bob nos er pan ddaethant i Jerusalem, ac oddi yno i lettya yn Bethania. Nid oedd Judas gyda hwynt y tro hwn.

40 A phan ddaeth efe i'r man, efe a ddywedodd wrthynt, [n] * Gweddïwch nad eloch mewn profedigaeth.

n adn. 46. pen. 11. 4. 1 Cron. 4. 10. Salm 17. 5. a 19. 13. a 119. 116, 117, 133. Diar. 30. 8, 9. Mat. 6. 13. a 26. 41. Marc 14. 38. 2 Cor. 12. 7—18. Eph. 6. 18, 19. 1 Pedr 4. 7. a 5. 8, 9. Dat. 3. 10.

* Dyma ran o'r arfogaeth oedd Iesu yn feddwl yn adn. 36; Gweddïwch; a bydded hyn eich prif ddeisyfiad, Nac arwain ni i brofedigaeth. Mae taer weddïau yn amddiffyniad sicr i ni yn wyneb rhuthrau mwya enbyd ein gelynion: Llawer a ddichon taer a dyfa weddi y cyfiawn. Mae holl hanes y nos dymhestlog hon, yn dangos yr angenrheidrwydd o'r cyngor.

41 * Ac efe a dynnodd oddi wrthynt tu ag ergyd carreg; [o] ac wedi iddo fyned ar e liniau, efe a weddïodd,

o Mat. 26. 39. Marc 14. 35.

* Pa un ai oddi wrth yr wyth, gan gymmeryd Pedr Iago, ac Ioan gydag ef, ai ynte oddi wrth yr wyth a'r tr hyny hefyd, nis gwyddom. Tybia rhai fod Pedr, Iago ac Ioan, gydag ef; ac mai hwy a adroddodd eiriau e weddi ef: ond tebycach iddo dynu oddiwrth bawb honynt; a diammau y gallesid clywed ei "lefain cryf" ef am fwy nac ergyd careg o bellder, a deall ei eiriau yn ddigon eglur.

42 Gan ddywedyd, [p] O Dad, os ewyllysi droi heibio y [q] * cwppan hwn oddi wrthyf: er hynny [r] nid fy ewyllys i, ond yr eiddot ti a wneler.

p Mat. 26. 42, 44. Marc 14. 36. Ioan 12. 27, 28. q adn. 17—20. Es. 51. 17, 22. Jer. 25. 15, &c. Mat. 20. 22. Ioan 18. 11. r Salm 40. 8. Ioan 4. 34. a 5. 30. a 6. 38. Heb. 10. 7—10.

Gwel ar Matth. 26. 39—46; a Marc 14. 36—42.

* Peth cyffredin yn yr ysgrythyrau yw arwyddo dyddanwch neu gystudd dàn y gymhariaeth o gwpan; oddiwrth arferiad y penteulu, neu lywodraethwr gwleddoedd yn Israel, i roddi cwpan i'r plant, neu i'r gwahoddedigion, yn cynnwys y ddiod a fwriadai efe iddynt ei hyfed. Dywedir y byddai yn arferiad yn rhai o wledydd y dwyrain (ond nid yn Israel, ar y wyddom) i roddi cwpanaid o wenwyn i ddrwg-weithredwyr i'w rhoddi i farwolaeth. Nid yfodd neb erioed gwpanaid mòr chwerw ag a yfodd Iesu; ac eto, *efe a'i hyfodd!* Gwel yr ysgrythyrau cyfeiriol (*q.*) a berthyn i'r cwpan yn yr adnod uchod.

43 [s] * Ac angel o'r nef a ymddangosodd iddo, [t] † yn ei nerthu ef.

s pen. 4. 10, 11. Salm 91. 11, 12. Mat. 4. 6, 11. a 26. 53. 1 Tim. 3. 16. Heb. 1. 6, 14. t adn. 32. Deut. 3. 28. Job 4. 3, 4. Es. 35. 3, 4. Dan. 10. 16—19. a 11. 1. Act. 18. 23. Heb. 2. 17.

44 [u] ‡ Ac efe mewn ymdrech meddwl, a weddïodd yn ddyfalach: [x] || a'i chwŷs ef oedd fel defnynau gwaed yn disgyn ar y ddaear.

u Gen. 32. 24—28. Salm 22. 1, 2, 12—21. a 40. 1—3. a 69. 14—18. a 88. 1—18. a 130. 1, 2. a 143. 6, 7. Galar. 3. 53—56. Jona 2. 2, 3. Ioan 12. 27. Heb. 5. 7. x Es. 53. 10. Galar. 1. 12. Rhuf. 8. 32.

* Yr oedd ymddangosiad angel Duw i'n Hiachawdwr, pan oedd efe mewn ymdrech caled â galluoedd y tywyllwch, ac yn cael ei wasgu yn ofnadwy gan deimlad o ddigofaint Duw am ein pechodau ni, yn arwyddo fod buddugoliaeth yn nesâu. † Nis gallasai angel gyfranu nerth iddo ef yn *effeithiol*, hyd yn nod i'w enaid dynol; ond mae yn debyg y gallasai gynnyg rhyw ystyriaethau iddo er gwroli ei feddyliau, fel y gall y naill ddyn galonogi y llall: (gwel adn 32. Es. 35. 3. 4:) ac mae yn ddiammau ei fod yn rhan o ddarostyngiad ein Harglwydd, ac yn un prawf o'i hynawsedd gostyngedig, ei fod ef yn gweled yn dda fel hyn i gymmeryd ei "nerthu" gan "ysbryd gwasanaethgar," er bod holl angelion Duw yn ei addoli ef. ‡ Gan nad oedd dim arteithiau corphorol wedi eu dechreu ar Iesu eto, mae yn rhaid mai teimlad o ddigofaint Duw am bechodau ei bobl, yn nghyd âg ymosodiadau ysbrydol galluoedd y tywyllwch, oedd yr achos o'r "ymdrech meddwl" a'r chwŷs gwaedlyd hwn. Yr Arglwydd a roddes arno ef ein hanwireddau ni i gyd: cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef: a'r Arglwydd a fynai ei ddryllio ef, efe a'i clwyfodd! || Mae dysgedigion yn rhoddi hanes am rai dynion a chwysasant waed; yr hyn a ddygwyddodd bob amser dan y graddau mwyaf o boen, ac ing, a dychryn meddwl. Tybia rhai dynion duwiol ac enwog, fod byddin ofnadwy o gythreuliaid o amgylch Iesu y pryd hwn, a holl byrth uffern yn ymosod arno; gan obeithio os gallent ei orchfygu yma, y gallent luddias

wnniad y prophwydoliaethau a berthynent i ddull ac
ylchiadau ei farwolaeth ar y groes. Nid oes dim
hebygol yn y dyb uchod, er mai tyb ddynol yw.
ŷs tew tolchenog, fel defnynau gwaed, neu chwŷs
fel defnynau gwaed, herwydd fod gwaed yn gweithio
n yn gymmysg â'r chwŷs: y ddau beth uchod yw
dyliau llawer, ond dywed eraill na ddaw gwaed
un amser gyda chwŷs: *fel* defnynau gwaed a ddy-
rir, ac nis gwyddom ni pa fodd yr oedd hyn.

45 A phan gododd efe o'i weddi, a dyfod at
ddisgyblion, * efe a'u cafodd hwynt [y] yn
gu gan dristwch;

y Mat. 26. 40, 43. Marc 14. 37, 40, 41.

46 Ac a ddywedodd wrthynt, [z] † Paham yr
ch yn cysgu? codwch, a gweddïwch nad
ch mewn profedigaeth.

z adn. 40. pen. 21. 34—36. Diar. 6. 4—11. Jona 1. 6.

Tybia rhai o'r dynion a grybwyllwyd uchod hefyd,
gan yr ysbrydion drwg ryw law yn nghysgadrwydd
ysgyblion; ond nid yw yr efengylwyr yn dywedyd
am hyny, eithr yn ei briodoli i achos arall: "trist-
." † Gwel yn mhellach am yr hyn sydd yn yr
odau hyn, yn Matth. 26. 40, 41.

47 ¶ [a] Ac efe etto yn llefaru, wele dyrfa;
hwn a elwir [b] Judas, un o'r deuddeg, oedd
myned o'u blaen hwynt, ac a nesâodd at
Iesu, i'w gusanu ef.

a Mat. 26. 45—47. Marc 14. 41—43. Ioan 18. 2—9. b adn.
. Mat. 26. 14—16, 47. Marc 14. 10, 11, 43. Act. 1. 16—18.

48 * A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Judas,
â chusan yr wyt ti yn bradychu Mab y
n?

c 2 Sam. 20. 9, 10. Salm 55. 21. Diar. 27. 6. Mat. 26. 48—50.
c 14. 44—46.

wel ar Matth. 26. 47—50. a Marc 14. 43. * A wyt
n cymmeryd achlysur i'th frad diffaith oddiwrth fy
styngeiddrwydd a'm hynawsedd I, ac yn parâu yn yr
ydd rhagrithiol hwn o barch a chariad, hyd yn nod
y weithred o fradychu? *Tydi* yn bradychu, yn
ylychu *Mab y dyn*, ac yn ei fradychu *â chusan!!!*

49 A phan welodd y rhai oedd yn ei gylch
y peth oedd ar ddyfod, hwy a ddywedasant
ho, * Arglwydd, a darâwn ni â chleddyf?

50 ¶ [d] † A rhyw un o honynt a darawodd
yr arch-offeiriad, ac a dorroḍd ymaith ei
st ddehau ef.

d Mat. 26. 51—54. Marc 14. 47. Ioan 18. 10, 11. Rhuf. 12. 19.
r. 10. 4.

51 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd,
Goddefwch hyd yn hyn. [f] Ac efe a gy-
ddodd â'i glust, ac a'i hiachâodd ef.

e Ioan 17. 12. a 18. 8, 9. f Rhuf. 12. 21. 2 Cor. 10. 1.
dr 2. 21—23.

Tybiodd y dysgyblion mai erbyn yr amgylchiad hwn
edd Iesu yn sôn am ddarpar cleddyfau, yn adn. 36.
edr oedd hwn a ddefnyddiodd ei gleddyf: a Malchus
d enw gwas yr arch-offeiriad. Ioan 18. 10. Nid
yr un o'r efengylwyr eraill yn enwi Pedr yn y
hred hon, ond Ioan; rhag ofn y buasai hyny yn ei
d ef yn agored i erledigaeth, mae yn debyg; ond gan
yn mhell wedi marw Pedr yr ysgrifenodd Ioan ei
gyl, nid oedd achos am y fath ocheliad. Gweithred
raidd oedd gweithred Pedr, ond gweithred annoeth
yrbwyll oedd, dylasai aros i gael gorchymyn neu
arddiad ei Arglwydd. ‡ Tybia rhai mai wrth y
gyblion y dywedodd Iesu y geiriau hyn, i'w hattal
g gwneyd ychwaneg o niwed: ond tybia eraill mai
n y dyrfa a'r milwyr y llefarodd efe hwynt, i'w hattal
ynt rhag dïal ar y dysgyblion am yr hyn a wnaethai
lr: fel pe dywedasai esgusodwch y weithred fyrbwyll
, ac mi a iachâf glust y dyn yn y fàn. Tybia eraill
bod y dyrfa y pryd hwn yn myned i rwymo yr Iesu;
ac iddo yntau ddywedyd, "Goddefwch hyd yn hyn;" hyny yw, goddefwch i mi gael fy nwylo yn rhydd fel y cyfhyrddwyf â chlust Malchus i'w iachâu ef. Pa un bynag o'r golygiadau uchod a gymmerom, mae pob un o honynt yn dangos ysbryd tangnefeddus a daionus Iesu, hyd yn nod yn ei brofedigaethau mwyaf, a thuag at ei elynion creulonaf.

52 [g] A'r Iesu a ddywedodd wrth yr arch-offeiriaid, a [h] * blaenoriaid y deml, a'r henuriaid, y rhai a ddaethent atto, Ai fel at leidr y daethoch chwi allan, â chleddyfau ac â ffyn?

g Mat. 26. 55. Marc 14. 48, 49. h adn. 4. 2 Bren. 11. 15. Ioan 18. 12. Act. 5. 26.

53 Pan [i] oeddwn beunydd gyd â chwi yn y deml, nid estynasoch ddwylaw i'm herbyn: [k] † eithr hon yw eich awr chwi, [l] a gallu y tywyllwch.

i pen. 21. 37, 38. Mat. 21. 12—15, 23, 45, 46. Ioan 7. 25, 26, 30, 45, &c. k Barn. 16. 21—30. Job 20. 5. Ioan 16. 20—22. l Ioan 14. 30. Act. 26. 18. 2 Cor. 4. 3—6. Eph. 6. 12. Col. 1. 13. Dat. 12. 9—12.

Gwel ar Matth. 26. 55; a Marc 14. 48, 49. * Wrth "flaenoriaid y deml" yma, mae rhai yn deall blaenoriaid y gwyliadwriaethau a gadwai y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion ar gylch yn ngwahanol rodfèydd y deml. Cadwai yr offeiriaid wyliadwriaeth mewn tri lle yn y deml, a'r Lefiaid mewn un ar hugain o fànau: a gelwid eu blaenoriaid yn "flaenoriaid y deml." Tybia eraill mai cadbeniaid y milwyr Rhufeinig oeddynt yn cadw y gwarchawd yn nhŵr Antonia, ond a osodid wrth byrth y deml ar y prif ŵyliau, i attal terfysg ac i gadw heddwch. Mae yn dangos gradd mawr iawn o lid a chynddeiriogrwydd tuag at ein Harglwydd Iesu, pan y delai gwŷr mawr fel hyn, arch-offeiriaid, blaenoriaid, a henuriaid, gyda swyddogion a milwyr, i'w ddàl ef yn nyfnder nos. † Hon oedd yr awr yn yr hon y caniatêid i elynion Crist lwyddo; oblegid hwn oedd yr amser pennodol, y caffai satan awdurdod a gallu i ysigo sawdl Had y wraig, yr hwn o'r diwedd a ysigai ei ben yntau Yr awr hòno o'r nos efallai, yr amser mwyaf cymhwys i gyflawni un o weithredoedd y tywyllwch; heblaw yr awr arfaethol, i Dduw oddef i elynion Iesu ddyfod arno a'i ddàl ef.

54 ¶ A [m] hwy a'i daliasant ef, ac a'i harweiniasant, ac a'i dygasant i mewn i dŷ yr arch-offeiriad. [n] A Phedr a ganlynodd o hirbell.

m pen. 26. 57, 58. Marc 14. 53, 54. Ioan 18. 12—17, 24. n adn. 33, 34. 2 Cron. 32. 31.

55 Ac wedi iddynt [o] gynneu tân y'nghanol y neuadd, * a chyd-eistedd o honynt, [p] eisteddodd Pedr yntau yn eu plith hwynt.

o adn. 44. Ioan 18. 18. p Salm 1. 1. a 26. 4, 5. a 28. 3. Diar 9. 6. a 13. 20. 1 Cor. 15. 33. 2 Cor. 6. 15—17.

56 [q] † A phan ganfu rhyw langces ef yn eistedd wrth y tân, a dal sylw arno, hi a ddywedodd, Yr oedd hwn hefyd gyd âg ef.

q Mat. 26. 69. Marc 14. 66—68. Ioan 18. 17.

57 [r] Yntau a'i gwadodd ef, gan ddywedyd, *O* wraig, nid adwaen i ef.

r adn. 33, 34. pen. 12. 9. Mat. 10. 33. a 26. 70. Ioan 18. 25, 27. Act. 3. 13, 14, 19. 2 Tim. 2. 10—12. 1 Ioan 1. 9.

58 Ac ychydig wedi, [s] un arall a'i gwelodd ef, ac a ddywedodd, Yr wyt tithau hefyd *yn un* o honynt. A Phedr a ddywedodd, ‡ *O* ddyn, nid ydwyf.

s Mat. 26. 71, 72. Marc 14. 69, 70. Ioan 18. 25.

59 Ac ar ol megis yspaid un awr, rhyw un arall a [t] daerodd, gan ddywedyd, Mewn gwirionedd yr oedd hwn hefyd gyd âg ef: ‖ canys Galilead yw.

t Mat. 26. 73, 74. Marc 14. 69, 70. Ioan 18. 26, 27.

60 A Phedr a ddywedodd, Y dyn, nis gwn beth yr wyt yn ei ddywedyd. Ac yn y man, ac efe etto yn llefaru, [u] canodd y ceiliog.

u adn. 34. Mat. 26. 74, 75. Marc 14. 71, 72. Ioan 18. 27.

61 A'r Arglwydd [x] a drodd, ac a [y] § edrychodd ar Pedr. [z] A Phedr a gofiodd ymadrodd yr Arglwydd, fel y dywedasai efe wrtho, [a] Cyn canu o'r ceiliog, y gwedi fi deirgwaith.

x pen. 10. 41. Marc 5. 30. y Job 33. 27. Es. 57. 15—18. Jer. 31. 18—20. Hos. 11. 8. Act. 5. 31. z Ezec. 16. 63. a 36. 31, 32. Eph. 2. 11. Dat. 2. 5. a Mat. 26. 34, 75. Ioan 13. 38

62 A Phedr a aeth allan, [b] ac a wylodd yn chwerw-dost.

b Salm 38. 18. a 126. 5, 6. Jer. 31. 18. Ezec. 7. 16. Zec. 12. 10. Mat. 5. 4. a 26. 75. Marc 14. 72. 2 Cor. 7. 9—11.

Gwel ar Matth. 26. 69—75; a Marc 14. 66—72. * Dywed Ioan 18. 18, eu bod yn sefyll, a Phedr yn sefyll gyda hwynt. Mae'n debyg fod rhai o honynt yn sefyll a rhai yn eistedd; a chan fod Pedr yn aflonydd yn ei feddwl, yr oedd yn aflonydd hefyd yn ei gorph, weithiau yn eistedd ac weithiau yn sefyll yn eu plith. Nid yno y dylasai fod. † Nis gallwn feddwl i'r llances hon fod gyda'r dyrfa yn yr ardd yn dàl yr Iesu; gan hyny rhaid iddi amcanu Pedr wrth ei wynebpryd, neu rywbeth yn ei agwedd, ei fod yn un o gyfeillion Iesu: neu efallai iddi eu gweled gyda'u gilydd yn y deml neu rywle arall. ‡ "O ddyn:" yn ol Matthew a Marc, *morwynig* a ymosododd ar Pedr yr ail waith: eto y mae efe yma yn ateb i *ddyn*. Ond y mae Matthew yn ysgrifenu "A *hi* a ddywedodd wrth y rhai oedd yno;" a Marc, "Hi a ddechreuodd ddywedyd wrth y rhai oedd yn sefyll yno." Felly, dywedodd y forwynig wrth y rhai o'i hamgylch, a chyhuddodd rhyw *ddyn* o'r rhai hyny Pedr, ei fod gyda'r Iesu. Efallai i amryw o honynt ei gyd-gyhuddo ef, ond iddo ef ateb i ryw un yn bennodol, oblegid y mae Ioan yn ysgrifenu, "*Hwythau* a ddywedasant wrtho, &c." Pa mòr fawr y rhaid bod y bobl hyn yn rhyfeddu, pan welsant y dysgybl ofnus hwn, (canys y mae yn ddiammau i rai o honynt ei weled,) o fewn ychydig wythnosau wedi hyn, pan ddygwyd ef ac Ioan o flaen y cyngor, nid yn unig yn sefyll dros anrhydedd Iesu, ond hefyd yn cyhuddo penaethiaid a phrif ddynion y genedl, o ladd Tywysog y bywyd, ac yn eu rhybuddio hwynt o'u heuogrwydd a'u perygl o herwydd hyny. ‖ Un o Galilea oedd Iesu, ac yr oedd yn hawdd deall wrth dafodiaith Pedr, mai yn o Galilea oedd yntau: yr oedd "ei leferydd yn yn ei gyhuddo," ac ofer iddo wadu yr adwaenai efe un mòr gyhoeddus a Iesu, ac yntau yn dyfod o'r un wlad âg ef. § Gall pob dyn amgyffred i ryw radd, efallai, pa effaith a gafodd yr edrychiad hwn ar galon a gwynebpryd Pedr; ond y mae yn hollawl annichonadwy gosod allan yr effaith hyny mewn geiriau, nac ychwaith i'r lluniedydd goreu a fu yn y byd erioed ei ddarlunio. Gan hyny mae yr ysgrifenydd sanctaidd yn ddoeth iawn, nid yw yn ymgais am weithio ar ein tymherau a'n teimladau ni yn yr hanes; dim ond adrodd y gwirionedd noeth, heb unrhyw addurn na helaethiad.

63 ¶ [c] * A'r gwŷr oedd yn dal yr Iesu, [d] a'i gwatwarasant ef, gan *ei* daro.

c Mat. 26. 59—68. Marc 14. 55—65. Ioan 18. 22. d Job 16. 9, 10. a 30. 9—14. Salm 22. 6, 7, 13. a 35. 15, 16, 25. a 69. 7—12. Es. 49. 7. a 50. 6, 7. a 52. 14. a 53. 3. Mica 5. 1. Mat. 27. 28—31, 39—44. Marc 15. 16—20, 27—32. Heb. 12. 2. 1 Pedr 2. 23.

64 † Ac wedi iddynt [e] guddio ei lygaid ef, hwy a'i tarawsant ef ar ei wyneb, ac a ofynasant iddo, gan ddywedyd, ‡ Prophwyda, pwy yw yr hwn a'th darawodd di?

e Barn. 16. 21, 25.

65 A llawer o bethau eraill, [f] ‖ gan gablu, a ddywedasant yn ei erbyn ef.

f pen. 12. 10. Mat. 12. 31, 32. Act. 26. 11. 1 Tim. 1. 13, 14.

Gwel ar Matth. 26. 67, 68; a Marc 14. 65. * "Ymgasglodd efryddion yn fy erbyn," ebai Dafydd, Salm 35. 15: dyma gyflawniad o hyny, yn yr hwn yr oedd Dafydd yn gysgod o hóno, ac yn prophwydo am dano: efryddion oeddynt, (*abjects* yn Saesoneg,) rhai gwael a gresynol, eto yn anmharchu Mab Duw. † Mae Luc yn crybwyll y driniaeth hon cyn ei ddwyn ef i'r cyngor; Matthew a Marc yn union ar ol ei gondemnio ef fel yn euog o gabledd: mae yn debyg iddo gael ei anmharchu o'r blaen, ac iddo gael anmharch mwy enbyd drachefn, ar ol ei gondemnio gan y Sanhedrim, a Luc yn adrodd y tro cyntaf, heb sylwi ar yr ail, a Matthew a Marc yn adrodd yr ail, heb sylwi cymmaint ar y cyntaf. Rhyngddynt òll cawn yr hanes oll. ‡ Yr oedd chwarae cyffelyb i hyn gan blant; rhoddent un yn y canol a mwgwd ar ei lygaid, tarêwid ef gan rywun, gofynid iddo pwy a'i tarâwsai, ac ni ollyngid mo hóno o'r mwgwd hyd onid enwai ef yr hwn a'i tarawsai: tybir y gwnâed yn ol y chwarae plentynaidd hwnw â Christ yma, i'w ddirmygu ef ac i chwerthin am ei ben. ‖ Mae rhywbeth pur nodedig yn y geiriau hyn: cyhuddent hwy yr Iesu o gabledd, am iddo ddywedyd mai Mab Duw ydoedd; ond y mae Luc yn gosod y cyhuddiad hwnw yn eu herbyn hwy, am ei fod ef yn Fab Duw mewn gwirionedd. Cabledd ydoedd gwadu hyny, a mwy cabledd oedd ei gondemnio ef am hòni hyny.

66 ¶ [g] * A phan aeth hi yn ddydd, [h] ymgynnullodd henuriaid y bobl, a'r arch-offeiriaid, a'r ysgrifenyddion, ac a'i dygasant ef i'w cynghor hwynt.

g Mat. 27. 1. Marc 15. 1. h Salm 2. 1—3. Act. 25—28.

67 [i] Gan ddywedyd, † Ai ti yw Crist? dywed i ni. Ac efe a ddywedodd wrthynt, [k] Os dywedaf i chwi, ni chredwch ddim:

i Mat. 11. 3—5. a 26. 63. Marc 14. 61. Ioan 10. 24. k pen. 16. 31. Ioan 5. 39—47. a 8. 43—45. a 9 27, 28. a 10. 25, 26. a 12. 37—43.

68 [l] ‡ Ac os gofynaf hefyd *i chwi*, ni'm hattebwch, ac ni'*m* gollyngwch ymaith.

l pen. 20. 3—7, 41—44.

69 Ar ol hyn [m] y bydd Mab y dyn yn eistedd [n] ar ddeheulaw gallu Duw.

m Mat. 26. 64. Marc 14. 62. n Salm 110. 1. Dan. 7. 13, 14. Mat. 22. 44. Marc 16. 19. Act. 2. 34—36. a 7. 55, 56. Rhuf. 8. 34. Eph. 1. 20—23. a 4. 8—10. Col. 3. 1. Heb. 1. 3. a 8. 1. a 12. 2. 1 Pedr 3. 22. Dat. 22. 1.

70 A hwy oll a ddywedasant, [o] ‖ Ai Mab Duw gan hynny ydwyt ti? Ac efe a ddywedodd wrthynt, [p] § Yr ydych chwi yn dywedyd fy mod.

o pen. 4. 41. Salm 2. 7, 12. Mat. 3. 17. a 27. 43, 54. Ioan 1. 34, 49. a 10. 30, 36. a 19. 7. p pen. 23. 3. Mat. 26. 64. Marc 14. 62. a 15. 2. Ioan 18. 37.

71 Hwythau a ddywedasant, [q] Pa raid i ni mwyach wrth dystiolaeth? canys clywsom ein hunain o'i enau ef ei hun.

q Mat. 26. 65, 66. Marc 14. 63, 64.

Aeth Iesu dàn ddau brawf, neu holiad, cyn ei roddi i farwolaeth: un ger bron y Senedd Iuddewig; math o Lys Eglwysig, i brofi gau-brophwydi a chablwyr. Yr arch-offeiriad oedd y prif farnydd yn hwn. Y prawf arall a fu o flaen Pilat, y llywodraethwr Rhufeinig ar Judea y pryd hwn. Ei waith ef ydoedd profi achosion gwladol, pethau perthynol i heddwch y wladwriaeth, a'i hystyried yn rhan o'r ymherodraeth Rhufeinig. Nid yw yr adnodau hyn yn rhoddi hanes ond am y cyntaf o'r ddau; cabledd oedd y bai y cyhuddid Iesu yn euog o hóno yn y llys hwn. Nis gallwn gael hanes cyflawn am y naill na'r llall o'r profion hyn wrth ddarllen dim ond un o'r efengylwyr, rhaid eu darllen oll yn fanol, a'u cymharu a'u gilydd. * Yn ol Matthew a Marc, ail gynnulliad oedd hwn: ar ol i'r cyngor gondemnio yr Iesu, hwy a ymadawsant; ac a ymgynnullasant drachefn yn fore iawn, i'w ddwyn ef at Pilat, gwel pen. 23. 1. † Nid yw yn annhebyg i'r arch-offeiriad ofyn yr un holiadau i

ist yr ail waith, i gael gweled a safai efe at yr hyn a
ywedasai o'r blaen, ac fel y caffai aelodau y cyngor a
ygwyddai fod yn absenol yr holiad o'r blaen, glywed
atebion ef. ‡ Os gofynaf i chwi y rheswm paham na
edwch ni'm hatebwch; ac os gofynaf i chwi fy ngoll-
g I yn rhydd, nis gwnewch; am hyny pa ddyben i mi
wedyd dim? || "Mab y dyn," ebai Crist, Ai "Mab
w gan hyny ydwyt ti?" ebynt hwythau: y Messiah
ddynt hwy yn ddeall wrth bob un o'r ddau enwad.
e yn debyg bod ganddynt ryw amgyffred a dysgwyl-
, y byddai y Messiah yn Fab Duw ac yn Fab y dyn,
ny yw, yn Dduw-dyn. § O herwydd i'r Iesu alw "Mab
yn" arno ei hun, a sôn am "eistedd ar ddeheulaw
lu Duw," barnent ef yn euog o gabledd, am na chan-
ient mai efe oedd y Messiah. Mae yn anodd gwybod
fodd yr oeddent hwy yn deall yr enw Mab y dyn;
d fel y defnyddiodd Crist ef, yr oeddynt yn ystyried
fod ef yn ei wneuthur ei hun yn Dduw. Yn adn. 69,
e cyfeiriad amlwg at y dysgrifiad gogoneddus a wnair
fab y dyn yn Daniel 7. 13, 14; ac felly yr oedd yr
h-offeiriaid yn ei gymmeryd. Yr oedd yr olwg ar
u yn awr yn annhebyg iawn i'r person hwnw; ond
gallasai dim fod yn fwy addas, ofnadwy, a mawr-
lig, na'r fath rybudd yn yr amgylchiadau hyn. § Geir-
cyfystyr, yn ol dull yr Iuddewon o lefaru, a phe dy-
dasai, Ie, myfi yw.

PEN. XXIII.

Cyhuddo yr Iesu ger bron Pilat, &c.

'R * [a] holl lïaws o honynt a gyfodasant,
A ac a'i dygasant ef at Pilat:

a pen. 22. 66. Mat. 27. 1, 2. Marc 15. 1. Ioan 18. 28.

2 Ac [b] a ddechreuasant ei gyhuddo ef, gan
ywedyd, † Ni a gawsom hwn [c] yn gŵyrdroi
bobl, [d] ac yn gwahardd rhoi teyrnged i
sar, gan ddywedyd, [e] mai efe ei hun yw Crist
enhin.

b Marc 15. 3—5. Ioan 18. 30. c adn. 5. 1 Bren. 18. 17.
38. 4. Amos 7. 10. Act. 16. 20. a 17. 6, 7. a 24. 5. d pen.
20—25. 1 Bren. 21. 10—13. Salm 35. 11. a 62. 4. a 64. 3—6.
20. 10. a 37. 13—15. Mat. 22. 21. a 26. 59, 60. Marc 14. 55, 56.
24. 13. 1 Pedr 3. 16—18. e pen. 22. 69, 70. Marc 14. 61,
Ioan 19. 12.

3 A [f] Philat a ofynodd iddo, gan ddywed-
, Ai ti yw [g] Brenhin yr Iuddewon? Ac efe
atebodd iddo, ac a ddywedodd, Yr wyt ti yn
wedyd.

f Mat. 27. 11. Marc 15. 2. Ioan 18. 33—37. 1 Tim. 6. 13.
dn. 38. pen. 1. 32, 33. a 19. 38—40. Marc 15. 18, 32. Ioan 1.
a 19. 3, 19—21.

4 A dywedodd Pilat wrth yr arch-offeiriaid
bobl, [h] ‡ Nid wyf fi yn cael dim bai ar y
n hwn.

h adn. 14, 15. Mat. 27. 19, 24. Marc 15. 14. Ioan 18. 38. a 19.
6. Heb. 7. 26. 1 Pedr 1. 19. a 2. 22. a 3. 18.

5 [i] || A hwy a fuant daerach, gan ddywedyd,
mae efe yn cyffrôi y bobl, gan ddysgu trwy
ll Judea, [k] § wedi dechreu o Galilea hyd
na.

i adn. 23. pen. 11. 53. Salm 22. 12, 13, 16. a 57. 4. a 69. 4.
1. 27. 24. Ioan 19. 15. Act. 5. 33. a 7. 54, 57. a 23. 10. k pen.
4, 15. Mat. 4. 12—16, 23. Marc 1. 14. Ioan 1. 43. a 2. 11. a 7.
52. Act. 10. 37.

* Tybir mai swyddwyr eglwysig a gwladol yr Iuddew-
yn nghyd a'u gweision, oedd y lliaws hyn oll, oblegid
oedd y bobl cyffredin gan mwyaf yn bleidiol i'r Iesu;
hag eu hofn hwy y daliwyd ef yn y nos, yn absenol-
y bobl. Ar ol iddynt euog-farnu Crist yn y nos,
y sylwyd ar adn. 66, o'r bennod o'r blaen, maent
a yn ei ddwyn ef gerbron Pilat, i gael ei ail brawf.
n iddynt hwy ei gondemnio ef, pa raid oedd ei ail
fi ef fel hyn? 1. Tybia rhai mai o herwydd iddynt
eyd hyny yn hytrach mewn brys a therfysg, er ei
ddwyn ef ger bron y cyngor, (fel Act. 6. 12,) ac nid mewn modd cyfreithlawn a rheolaidd. 2. Er bod ganddynt hwy awdurdod i drin materion cyffredin eu hunain, â barnwyr o'u cenedl eu hunain; eto, y Rhufeiniaid oedd i drin materion o bwys, megys materion bywyd, drwy farnwyr o'r eiddynt hwy, gwel Ioan 18. 31. 3. Neu, yr oeddynt am roddi trosedd yn ei erbyn ef, sef terfysg a gwrthryfel, nad oedd i'w farnu ond gan y rhaglaw Rhufeinaidd yn unig. 4. Gan y gwyddent hwy y parch mawr oedd i Iesu gan y bobl yn gyffredin, efallai eu bod yn ewyllysio rhoddi y gwarth o'i farwolaeth ef ar Pilat, yn hytrach na'i gymmeryd arnynt eu hunain. 5. Beth bynag oedd yr achosion, mae yn sicr nas gallasai fod fel arall: yr oedd yn rhaid cyflawni pobpeth a ysgrifenwyd am dano ef, a phobpeth hefyd a rag-fynegasai efe am dano ei hun. † Yr oedd hyny yn gelwydd noeth a hollol: Matth. 22. 21. Gwyddent nad oedd dim gwiw sôn wrth Pilat, ar y cyntaf yn enwedig, ei fod ef yn hòni mai Mab Duw oedd; am hyny maent yn ceisio gwneyd i fynu ryw drosedd gwladol yn ei erbyn ef, ei fod "yn gŵyr-droi y bobl," nid yn unig yn eu hegwyddorion crefyddol, ond hefyd yn eu ffyddlondeb i'r llywodraeth Rufeinig: ei fod yn "gwahardd rhoi teyrnged i Cesar," er iddo ef ddywedyd ychydig o'r blaen, "Telwch yr eiddo Cesar i Cesar." Dengys hyn beth oedd eu dyben hwy yn gofyn yr holiad dichelldrwg hwnw iddo ef, Matth. 22. 15—22. Wrth fod Iesu yn hòni mai efe oedd y Messiah, "Crist Frenin," haerasant ei fod ef yn gwahardd rhoi teyrnged i Cesar, yn groes i'r atebiad pendant a roddasai efe ar y pwnc. ‡ Er i Pilat glywed o enau Crist ei hun mai efe oedd Brenin yr Iuddewon; (gwel y sylwad olaf ar pen. 22;) eto tystiolaethodd ei fod ef yn berffaith sicr mai diniwed ydoedd o ran y pethau a ddygid yn ei erbyn. Gallwn sylwi yma, i'n Harglwydd Iesu gael mwy o gyfiawnder ac uniondeb ar law *pagan*, nag a gafodd efe gan yr *Eglwyswyr Iuddewig:* condemniasant hwy ef heb un prawf, gwedi pob ymgais am gau-dystiolaeth; a cheisiasant ei ddyfetha ef iawn neu gam: ond defnyddiodd Pilat bob ymgais a moddion i'w ollwng ef yn rhydd. || Ni wnaeth ymgais Pilat ond ennyn eu taerineb hwy yn fwy: yr oeddynt yn ofni cael eu siomi, ac ni fynent er dim gael y gair eu bod yn ceisio rhoi dyn diniwed i farwolaeth. § Yr oedd amryw dwyllwyr a therfysgwyr wedi codi yn Galilea o bryd i bryd, a thrwy gode[illegible]eidiau a therfysgoedd, wedi rhoddi llawer o draf[illegible]h i'r Rhufeiniaid. Mae cyhuddwyr Iesu yma yn cyn[illegible]eryd y fantais ar hyny, gan ddywedyd ei fod yntau o Galilea, yn un o'r terfysgwyr hyny, ac wedi codi terfysg drwy yr holl wlad o Galilea i Jerusalem; gan gyfeirio, mae yn debyg, at ei ddyfodiad cyhoeddus ef i'r ddinas ychydig ddyddiau o'r blaen: mae yn debyg y gwyddai Pilat am hyny, ac hefyd ei waith yn pregethu yn y deml, yn groes i'w hawdurdod hwy.

6 A phan glybu Pilat sôn am Galilea, efe a
ofynodd ai [l] Galilead oedd y dyn.

l pen. 13. 1. Act. 5. 37.

7 * A phan wybu efe ei fod ef o [m] lywodraeth
Herod, efe a'i hanfonodd ef at Herod, yr hwn
oedd yntau yn Jerusalem y dyddiau hynny.

m pen. 3. 1. a 13. 31.

8 ¶ † A Herod, pan welodd yr Iesu, a law-
enychodd yn fawr: [n] canys yr oedd efe yn
chwennych er ys talm ei weled ef; oblegid iddo
glywed llawer am dano ef; [o] ac yr ydoedd yn
gobeithio cael gweled gwneuthur rhyw arwydd
ganddo ef.

n pen. 9. 7—9. Mat. 14. 1. Marc 6. 14. o pen. 4. 23.
2 Bren. 5. 3—6, 11. Act. 8. 19.

9 Ac efe a'i holodd ef mewn llawer o eiriau;
[p] ‡ eithr efe nid attebodd ddim iddo.

p pen. 13. 32. Salm 38. 13, 14. a 39. 1, 2, 9. Es. 53. 7. Mat. 7.
6. a 27. 14. Act. 8. 32. 1 Pedr 2. 23.

10 A'r arch-offeiriaid a'r ysgrifenyddion a safasant, [q] gan ei gyhuddo ef yn haerllug.
q adn. 2, 5, 14, 15. pen. 11. 53. Act. 24. 5.

11 ‖ A [r] Herod a'i filwyr, [s] wedi iddo ei ddïystyru ef, a'*i* watwar, § a'i wisgo â gwisg glaerwen, a'i danfonodd ef drachefn at Pilat.
r Act. 4. 27, 28. s pen. 22. 64, 65. Salm 22. 6. a 69. 19, 20. Es. 49. 7. a 53. 3. Mat. 27. 27—30. Marc 9. 12. a 15. 16—20.

12 ¶ A'r dwthwn hwnnw [t] yr aeth Pilat a Herod yn gyfeillion: * canys yr oeddynt o'r blaen mewn gelyniaeth â'u gilydd.
t Salm 83. 4—6. Mat. 16. 1. Dat. 17. 13, 14.
* Mae yn amlwg fod Pilat am ymwrthod â phenderfynu achos, yn yr hwn yr oedd ei farn a'i fantais ef yn debyg o fyned yn groes i'w gilydd. Ei farn ef oedd, mai diniwed oedd Iesu; a'i fantais oedd, ei gondemnio ef er rhyngu bodd yr Iuddewon. Can gynted gan hyny ag y deallodd efe mai un a fuasai yn byw dan lywodraeth Herod oedd Iesu, efe a'i danfonodd ef a'i gyhuddwyr at Herod, yr hwn oedd yntau wedi dyfod i Jerusalem i ŵyl y pasg. Llywodraeth Herod oedd yn Galilea, lle hefyd y treuliodd Iesu y rhan fwyaf o'i oes; felly yr oedd ef o lywodraeth Herod. Hwn a barodd dori pen Ioan Fedyddiwr, ond yr oedd yn grefyddol iawn yn cadw gŵyl y Pasc yn Jerusalem. † Yr oedd tri pheth yn peri i Herod lawenychu gweled yr Iesu, heb ddim da yn yr un o honynt:—1. Yr oedd wedi clywed llawer o sôn am dano; ac ysfa wag arno am weled y fath un. 2. Yr oedd ef wedi ofni mai Ioan Fedyddiwr wedi cyfodi o feirw ydoedd; ac yr oedd yn chwennych ei weled ef i benderfynu y petrusder hwnw. 3. Yr oedd yn gobeithio cael gweled gwneuthur rhyw arwydd ganddo, i foddloni ei chwilfrydedd gwag ef. ‡ Gan y gwyddai Iesu nad oedd nac egwyddor na dyben da gan Herod, ond chwennych cael ychydig ddifyrwch iddo ei hun a'i fawrion, a rhywbeth i siarad am dano, ni wnai efe gamddefnyddio ei allu Dwyfol i foddloni y fath dymher wageddus a gwatwargar, nac ychwaith gymmaint ag ateb yr un o'r holiadau a ofynai Herod iddo, na'r cyhuddiadau haerllug a roddid yn ei erbyn. ‖ Er bod Herod yn ddïau wedi cael ei siomi, a sòri, wrth ddistawrwydd Iesu; eto nid oedd yn dewis bod ag un llaw ganddo i'w roddi ef i farwolaeth: efallai bod ei gydwybod yn dra dychrynllyd o'i fewn o herwydd angeu Ioan Fedyddiwr. Gan hyny efe a ymfoddlonodd ar ei drin ef fel un dirmygus, ac islaw ei sylw: iselodd ei hun mòr fawr, ag uno â'i filwyr i'w ddiystyru a'i watwar ef. § Rhyw hen wisg wedi ei throi heibio, mae yn debyg, gan Herod neu un o'i wŷr llys oedd hon, a roddasant am Iesu i'w dremygu ef, a'i watwar, fel brenin yr Iuddewon. Gwisg wêch, ysplenydd, yw ystyr y gair Groeg, *(Lampran,)* meddant, ac nid yw o anghenrheidrwydd yn arwyddo gwisg glaer-wen o ran lliw: disail iawn hefyd yw y dychymmyg, mai yn arwydd o ddiniweidrwydd Iesu y rhoddes Herod hi am dano wrth ei ddanfon yn ol at Pilat. Triniaeth dra dirmygus a thrahaus oedd hon ar Fab Duw! * Gan fod Pilat yn Rhufeiniad paganaidd, a Herod yn Idumead dychweledig i'r grefydd Iuddewig, y ddau yn llywodraethu taleithiau cyffiniol, a phob un o honynt yn ddynion drygionus; nid rhyfedd yn y byd eu bod "mewn gelyniaeth a'u gilydd:" rhyfeddach o lawer oedd iddynt ymgymmodi y pryd hwn. Efallai mai ymrafael yn nghylch terfynau eu llywodraeth oedd yr achos o'u gelyniaeth; neu ynte y naill wedi bod yn gormesu ar lywodraeth y llall; ac efallai mai gwaith Pilat yn lladd y Galileaid, deiliaid Herod, a ddaethent i Jerusalem i aberthu ydoedd. Gwel Luc 13. 1. Cyfeillach y byd oedd eu cyfeillach wedi y cwbl, a gelyniaeth i Dduw, Iago 4. 4.

13 ¶ A [u] Philat, wedi galw ynghyd yr arch-offeiriaid, a'r llywiawdwyr, a'r bobl,
u Mat. 27. 21—23. Marc 15. 14. Ioan 18. 38. a 19. 4.

14 A ddywedodd wrthynt, Chwi a ddygasoch y dyn hwn attaf fi, [x] fel un a fyddai yn gŵyrdroi y bobl: ac wele, myfi a'*i* holais *ef* yn eich gŵydd chwi, [y] ac ni chefais yn y dyn hwn ddim bai, o ran y pethau yr ydych chwi yn ei gyhuddo ef am danynt:
x adn. 1, 2, 5. y adn. 4. Dan. 6. 4. Mat. 27. 4. 19, 24, 54. Act. 13. 28. Heb. 7. 26.

15 * Na Herod chwaith: canys anfonais chwi atto ef; ac wele, † dim yn haeddu marwolaeth nis gwnaed iddo.

16 ‡ Am hynny mi [z] a'i ceryddaf ef, ‖ ac a'i gollyngaf ymaith.
z Mat. 27. 26. Marc 15. 15. Ioan 19. 1—4. Act. 5. 40, 41.

17 § Canys [a] yr ydoedd yn rhaid iddo ollwng un yn rhydd iddynt ar yr wyl.
a Mat. 27. 15. Marc 15. 6. Ioan 18. 39.

18 * A'r [b] holl liaws a lefasant ar unwaith gan ddywedyd, [c] Bwrw hwn ymaith, a gollwng i ni Barabbas yn rhydd:
b Mat. 27. 16—18, 20—23. Marc 15. 7—14. Ioan 18. 40. Act 3. 14. c Ioan 19. 15. Act. 21. 36. a 22. 22.

19 (Yr hwn, am ryw [d] derfysg a wnaethid yn y ddinas, a llofruddiaeth, oedd wedi ei daflu i garchar)
d adn. 2, 5.

20 Am hynny Pilat [e] a ddywedodd wrthynt drachefn, gan ewyllysio gollwng yr Iesu yr rhydd.
e Mat. 14. 8, 9. a 27. 19. Marc 15. 15. Ioan 19. 12.

21 Eithr hwy a lefasant arno, gan ddywedyd, [f] Croeshoelia, croeshoelia ef.
f adn. 23. Mat. 27. 22—25. Marc 15. 13, 14. Ioan 19. 15.

22 Ac efe a ddywedodd wrthynt y † drydedd waith, [g] Canys pa ddrwg a wnaeth efe? ni chefais i ddim achos marwolaeth ynddo; [h] am hynny mi a'i ceryddaf ef, ac a'*i* gollyngaf yn rhydd.
g adn. 14, 20. 1 Pedr 1. 19. a 3. 18. h adn. 16.

23 Hwythau a fuont daerion â llefau uchel, gan ddeisyfu ei groeshoelio ef. A'u llefau hwynt, a'r arch-offeiriaid, a orfuant.
i adn. 5. Salm 22. 12, 13. a 57. 4. Zec. 11. 8.

24 A [k] Philat a farnodd wneuthur eu deisyfiad hwynt.
k Mat. 27. 26. Marc 15. 15. Ioan 19. 16.

25 Ac efe a ollyngodd yn rhydd iddynt yr hwn [l] am derfysg a llofruddiaeth a fwriasid y'ngharchar, [m] yr hwn a ‡ ofynasant: [n] eithr yr Iesu a draddododd efe i'w hewyllys hwynt.
l adn. 2, 5. Marc 15. 7. Ioan 18. 40. m 1 Sam. 12. 13. Marc 15. 6. Act. 3. 14. n Mat. 27. 26. Marc 15. 15.
* Yr oedd hyn yn brawf chwanegol o ddiniweidrwydd a dïeuogrwydd Iesu; pe buasai efe wedi gwneyd rhyw ddrwg cyhoeddus, "cyffroi y bobl," a chodi terfysg, yn Galilea, buasai Herod, llywodraethwr y wlad hòno, yn gwybod am dano: ond nid oedd dim o'r fath beth. † Hyny yw, ni wnaeth Herod ddim ag sydd yn profi fod yr Iesu hwn yn haeddu marwolaeth; eithr yn y gwrthwyneb, mae ymddygiad Herod tuag ato, yn ei ddanfon ef yn ol heb ei gondemnio, yn brawf na chafodd efe ddim yn haeddu marwolaeth ynddo. Mae geiriad yr adnod hon yn lled ddyrys, ond dyna ei meddwl. Mae cydrediad Herod â Philat yn y farn hon, yn ymddangos o bwys mawr; oblegid yr oedd Herod yn eithaf cydnabyddus â defodau a chrefydd yr Iuddewon. ‡ Cynnygiodd Pilat ei geryddu ef, fel nad arferai efe y geiriau hyny mwyach, a roddasent dramgwydd. ‖ Ar ol ei geryddu, cynnygiai ei ollwng ef yn rhydd, yn ol defod yr wyl hòno, gan feddwl y buasai hyny yn llai tramgwyddus i'r llywodraethwyr Iuddewig, o herwydd y buasai y weithred yn arwyddo bod Iesu yn haeddu cosp,

ei fod yn cael ei ollwng yn rhydd fel gweithred o
ndeb. § Yr ydoedd yn *arferol*, ac mewn dull yn
Nid oedd un gyfraith yn rhwymo Pilat i hyn;
fel y mae gweithredoedd o diriondeb yn gyffredin
ymmeradwy ac yn ennill cymmeradwyaeth i'r neb
gwnelo. Ymddengys y byddai y Rhufeiniaid yn
gwneyd hyn yn aml ar y cyntaf, i foddâu y rhai a
ostyngid ganddynt, ac yn awr yr oedd yn ddefod
lledig. * Gwelwn yma mòr ddychrynllyd yw gelyn-
dynion drygionus yn erbyn crefydd; dyma yr holl
s yn dewis dyn a fuasai yn euog o'r drygau mwyaf,
sg a llofruddiaeth, o flaen yr un mwyaf diniwed a
y byd erioed, ac yr hwn oedd yn amrywio oddi-
ynt hwy yn unig mewn rhyw bynciau crefyddol, a'r
hyny yn benaf yn nghylch traddodiadau dynol, a
moniau dibwys. Ond y gwir oedd, yr oedd efe yn
o gair Duw yn fanylach nac y goddefai eu chwant-
ddynt hwy ei egluro; ac yn byw bywyd gwahanol
i'r eiddynt hwy. Mae manylrwydd a sancteidd-
d athrawiaeth a buchedd, yn bethau sydd yn
deiriogi y byd yn erbyn gweinidogion a phroffeswyr
engyl. † Fel y dianrhydeddodd Pedr Grist drwy ei
n dair gwaith, er ei fod yn gwybod ac yn credu ei
n Fab Duw; felly mae Pilat, pagan cenedlig, yma
i anrhydeddu ef, drwy addef a thystiolaethu dair
th ei fod yn ddiniwed, er nad oedd efe yn credu
do fel Pedr. Ac mae yn ymddangos mai ar ol ei
diffyn ef dair gwaith y parodd Pilat ei fflangellu ef;
feddwl wrth hyny ennyn tosturi yr Iuddewon tuag
ac felly arbed ei groeshoelio ef. Gwel Matth. 27.
‡ Mae y geiriau "deisyfu," yn adn. 23, a "gofyn,"
dn. 25, yn eiriau llawn o egni grymus yn yr iaith
ddiol, ac yn dangos mai llid yr Iuddewon yn erbyn
oedd yn eu hannog hwy i fod mòr daer, ac nid eu
h i'r llywodraeth Rufeinig.

26 Ac fel yr oeddynt yn ei arwain ef ymaith,
y a ddaliasant un Simon [p] o Cyrene, yn
od o'r wlad, ac a ddodasant y groes arno ef,
dwyn ar ol yr Iesu.
p Mat. 27. 32. Marc 15. 21. Ioan 19. 16, 17. p Act. 2. 10.
5, 9. a 13. 1. q pen. 9. 23. a 14. 27.

27 ¶ * Ac yr oedd yn ei ganlyn ef lïaws
[r] o bobl, [r] ac o wragedd; y rhai hefyd oedd
cwynfan, ac yn galaru o'i blegid ef.
r adn. 55. pen. 8. 2. Mat. 27. 55, 56. Marc 15. 40.

28 † A'r Iesu, wedi troi attynt, a ddywed-
, [s] Merched Iesalem, na wylwch o'm
gid i: eithr wylwch o'ch plegid eich hunain,
blegid eich plant.
Can. 1. 5. a 2. 7. a 3. 5, 10. a 5. 8, 16. a 8. 4.

29 ‡ Canys wele, [t] y mae y dyddiau yn
od, yn y rhai y dywedant, [u] Gwyn eu byd
nai ammhlantadwy, a'r crothau ni eppilias-
a'r bronnau ni roisant sugn.
pen. 21. 23, 24. Mat. 24. 19. Marc 13. 17—19. u Deut.
3—57. Hos. 9. 12—16. a 13. 16.

30 [x] ‖ Yna y dechreuant ddywedyd wrth y
hyddoedd, Syrthiwch arnom; ac wrth y
niau, Cuddiwch ni.
x Es. 2. 19. Hos. 10. 8. Dat. 6. 16. a 9. 6.

31 § Canys os gwnant hyn [y] yn y pren îr,
beth a wneir yn y crîn?
y Diar. 11. 31. Jer 25. 29. Ezec. 15. 2—7. a 20. 47, 48. a 21.
m. 9. 26. Mat. 3. 12. Ioan 15. 6. Heb. 6. 8. 1 Pedr 4. 17, 18.
s 12.

Er bod y llïaws o'r Iuddewon yn gwaeddi am
eshoelio Crist, eto yr oedd llawer o bersonau a
ddynt wir barch iddo. Canlynodd llïaws mawr o'r
hyn ef, yn enwedig llawer o wragedd, pan oedd
myned i'w groeshoelio, gan ddangos eu cyd-ym-
nlad a'u gofid mewn galarnadau alaethus. † Yn
anol ei ofid mawr ei hun, trôdd Iesu i dosturio
wrth y galarwyr hyn, ac i'w cynghori, i beidio ag wylo
o'i blegid ef, ond o'u plegid eu hunain a'u plant: yr
oedd ef yn ymroddi yn hollawl i ewyllys y Tad, yn
myned i ddyoddef o'i fodd, ac yn sicr o weled diwedd
gorfoleddus yn fuan ar ei holl ddyoddefiadau, ac
effeithiau dedwydd o honynt hefyd; ond yr oedd dïal-
edd ofnadwy uwchlaw ei draethu, i ddyfod ar eu dinas
a'u cenedl hwy cyn pen nemawr o flynyddoedd, fel cosp-
edigaeth am eu haneirif bechodau, ac yn enwedig am y
weithred ysgeler ag oedd i gael ei chyflawni yn awr.
‡ Y gwragedd plantadwy a arferid eu cyfrif yn fwyaf
dedwydd; ond yr oedd y dyddiau yn nesâu, pryd y
cyfrifid y rhai anmhlantadwy yn ddedwyddaf: gan y
byddai raid i rïeni weled llofruddio eu plant yn greu-
lawn, neu eu gwerthu i gaethiwed, neu eu gweled yn
marw o newyn a haint; ïe, byddai mamau o dra newyn
a phrinder yn gorfod bwyta eu babanod eu hunain.
‖ Llawer, efallai, o'r rhai a fuasai yn gwaeddi "Croes-
hoelier ef," y bore hwnw, a fu yn "dywedyd wrth y
mynyddoedd Syrthiwch arnom, ac wrth y bryniau
Cuddiwch ni," yn mhen ychydig flynyddoedd wedi
hyny, yn y drygfyd mawr a ddaeth arnynt hwy a'u
plant. Mae y geiriau yn arwyddo parâd y drygfyd
hwnw; "yna y *dechreuwch* ddywedyd, &c." ond ni
bydd diwedd yn fuan iddo. "Syrthiwch arnom, &c."
i'n cuddio a'n llethu, fel y byddo terfyn buan ar ein
drygfyd a'n trueni hirfaith. Felly y gwaedda yr an-
nuwiolion yn nydd y farn ddiweddaf pan weiont eu
trueni tragywyddol yn dyfod arnynt, Hos. 10. 8; Dat.
6. 16, 17. § Dïareb am dda a drwg oedd hyn, pren îr y
galwai yr Iuddewon ddyn da, a phren crin y galwent
ddyn drwg. Os ydyw pechaduriaid Jerusalem yn
cael eu goddef i ymddwyn fel hyn mòr greulawn tuag
ataf fi sydd yn ddiniwed, ac heb haeddu dim drwg ar
eu dwylaw, pa faint mwy ofnadwy y telir iddynt hwy eu
hunain, sydd yn llwythog o bechodau, fel tanwydd yn
llawn parod i ddigofaint? Os yw y Rhufeiniaid yn
cael eu goddef, trwy annogiad yr Iuddewon, i fy an-
mharchu I fel hyn, a'm rhoddi i farwolaeth, a minnau
heb wneuthur dim yn eu herbyn; pa faint mwy y dïal-
ant hwy ar yr Iuddewon, fel offerynau a gweinyddion
digofaint Duw, pan gyflawno y genedl hono fesur ei
hanwiredd; a phan benderfyno y Rhufeiniaid ddïal
arnynt yn ddidrugaredd am eu terfysgoedd, eu gwrth-
ryfeloedd a'u caled gyndynrwydd?

32 [z] * Ac arweiniwyd gyd âg ef hefyd ddau
ddrwg-weithredwyr eraill, i'w rhoi i'w marwol-
aeth.
z pen. 22. 37. Es. 53. 12. Mat. 27. 38. Marc 15. 27, 28. Ioan
19. 18. Heb. 12. 2.

33 A [a] phan ddaethant i'r lle a elwir
† Calfaria, [b] yno y croeshoeliasant ef, a'r drwg-
weithredwyr; ‡ un ar y llaw ddehau, a'r llall
ar yr aswy.
a Mat. 27. 33, 34. Marc 15. 22, 23. Ioan 19. 17, 18. Heb. 13.
12, 13. b pen. 24. 7. Deut. 21. 23. Salm 22. 16. Zec. 12. 10
Mat. 20. 19. a 26. 2. Marc 10. 33, 34. Ioan 3. 14. a 12. 33, 34. a 18.
32. Act. 2. 23. a 5. 30. a 13. 29. Gal. 3. 13. 1 Pedr 2. 24.

Gwel Matth. 27. 33, 38; a Marc 15. 27, 28. * Mae
rhediad y geiriau fel y maent yma yn dangos bod Iesu
yn ddrwg-weithredwr, yn gystal a'i gyd-ddyoddefwyr
Gellid eu newid yn hawdd fel hyn, heb wneyd dim cam
â hwynt:—Ac arweiniwyd gydag ef hefyd ddau eraill,
drwg-weithredwyr, i'w rhoi i'w marwolaeth. (Felly y
mynai y Parch. T. Charles eu darllen: gwel ei sylw ar
waelod y ddalen dàn y gair Lladron. *Geiriadur.*)
Lladron y gelwir hwy gan Matthew a Marc; tybia rhai
nad lladron yn yr ystyr gyffredin oeddynt, eithr Iu-
ddewon a gymmerasent arfau i wrthwynebu y deyrnged
a godai y Rhufeiniaid, ac i yspeilio y Rhufeiniaid lle
bynag y gallent wneyd hyny, a'u lladd hefyd efallai, fel
mae y gair drwg-weithredwyr yn lled arwyddo. † Yr un
a Golgotha yr efengylwyr eraill, Luc yn unig sydd yn ei
alw Calfaria tybiwn: gwel sylwadau ar y ddau enw yn
Matth. 27. 33, ac am sefyllfa y lle hefyd. ‡ Fel hyn yr

oedd Iesu yn y canol, rhwng y ddau, yn ol Ioan 19. 18, fel pe buasai y gwaethaf o honynt oll.

34 ¶ A'r Iesu a ddywedodd, [c] * O Dad, maddeu iddynt: [d] † canys ni wyddant pa beth y maent yn ei wneuthur. [e] ‡ A hwy a rannasant ei ddillad ef, ac a fwriasant goelbren.

c adn. 47, 48. pen. 6. 27, 28. Gen. 50. 17. Salm 106. 16—23. Mat. 5. 44. Act. 7. 60. Rhuf. 12. 14. 1 Cor. 4. 12. 1 Pedr 2. 20—23. a 3. 9. d pen. 12. 47, 48. Ioan 15. 22—24. a 19. 11. Act. 3. 17. 1 Cor. 2. 8. 1 Tim. 1. 13. e Salm 22. 18. Mat. 27. 35, 36. Marc 15. 24. Ioan 19. 23, 24.

35 [f] A'r bobl a safodd yn edrych. ‖ A'r pennaethiaid hefyd gyd â hwynt a [g] § watwarasant, gan ddywedyd, Eraill a waredodd efe; * gwareded ef ei hun, os hwn yw [h] Crist, etholedig Duw.

f Salm 22. 12, 13, 17. Mat. 27. 38—43. Marc 15. 29—32. g pen. 16. 14. Gen. 37. 19, 20. Salm 4. 2. a 35. 15, 19—25. a 69. 7—12, 26. a 71. 11. Es. 49. 7. a 53. 3. Galar. 3. 14. h pen. 22. 67—70. Salm 22. 6—8. Es. 42. 1. Mat. 3. 17. a 12. 18. 1 Pedr 2. 4.

36 A'r milwyr hefyd [i] a'i gwatwarasant ef, gan ddyfod atto, a chynnyg iddo finegr,

i adn. 11. Salm 69. 21. Mat. 27. 29, 30, 34, 48. Marc 15. 19, 20, 36. Ioan 19. 28—30.

37 A dywedyd, Os tydi yw Brenhin yr Iuddewon, gwared dy hun.

38 [k] † Ac yr ydoedd hefyd ar-ysgrifen wedi ei ysgrifenu uwch ei ben ef, ‡ â llythyrenau Groeg, a Lladin, ac Hebraeg, HWN YW BRENHIN YR IUDDEWON.

k adn. 3. Mat. 27. 11, 37. Marc 15. 18, 26, 32. Ioan 19. 3, 19—22.

* Tybir i'r Arglwydd Iesu weddio y weddi hon pan oedd y milwyr ar waith yn hoelio ei draed a'i ddwylaw ef wrth y groes. Yn nghanol ei boenau mawrion i gyd, mae yn ymddangos ei fod ef yn gofidio mwy am bechod ei leiddiaid nac am ei ddioddefaint ei hun. † Y milwyr Rhufeinig yn benaf a feddylir: fel Rhufeiniaid paganaidd nis "gwyddent hwy beth oeddynt yn ei wneuthur;" ac yr oedd eu heuogrwydd yn llawer llai na'r eiddo yr arch-offeiriaid a phobl yr Iuddewon, y rhai oedd wedi cael ychwaneg o fanteision gwybodaeth. Yn lle achwyn a bygwth, mae yr Arglwydd Iesu yn defnyddio yr unig ddadl a allasai ei defnyddio, i leiâu euogrwydd ei ddienyddwyr creulawn, wrth weddio am faddeuant iddynt! Yn hyn yr oedd yn esampl berffaith i ni. Diammau i'w weddi lwyddo dros y rhai yr oedd efe mewn modd neillduol yn meddwl am danynt: efallai i'r milwyr pennodol hyny gael eu troi a'u hachub wedi hyny. Mae yn bur debyg i lawer o'r lliaws gael eu hachub hefyd, mewn atebiad i'r weddi hon, y rhai a fuasent yn gwaeddi "Croeshoelier ef," heb wybod beth oeddynt yn ei wneuthur; ac mewn rhyw ystyr, gellir ei chymhwyso at bawb a gyfiawnêir trwy ffydd yn ei waed ef. Un o'r pethau rhyfeddaf yn yr holl ŷd yw yr adnod hon! ‡ Dyma gyflawniad llythyrenol o eiriau Dafydd, Salm 22. 18; a hyny gan filwyr paganaidd nas gwyddent ddim am ei eiriau ef, nac eu bod yn eu cyflawni. Ni wnaed hyn â Dafydd erioed; llefaru yr oedd efe am Grist, ac megys yn Mherson Crist yn prophwydo am dano, fel yr oedd yn cael ei gynhyrfu gan yr Ysbryd Glân. ‖ Mae yn ddiammau bod llawer o'r offeiriaid a'r henuriaid yn y dorf hon: buasai yn chwith ganddynt ymgymmysgu â'r "bobl," y werin gyffredin ar unrhyw achlysur arall; ond yma yr oedd pob gwahaniaeth swyddau, graddau, ac urddau, wedi eu hanghofio; a dyledswyddau crefydd yn y deml wedi eu hanghofio hefyd, hyd yn nod ar y dydd mawr hwnw, gan eu hawydd i weled gwrthddrych eu casineb yn dyoddef. § Onid oedd hyn yn drais i'r eithaf ar holl ddeddfau crefydd, dynoliaeth, a gweddeidd-dra? gwatwar dyn yn y fath amgylchiad truenus a gresynol! Nid ydym yn darllen iddynt watwar y lladron; neb ond yr Iesu diniwed; ac nid ydym yn darllen ychwaith i neb ond yr arch-offeiriaid, y milwyr, a'r henuriaid, watwar Iesu. Mòr druenus yr â swyddogion eglwysig pan gollont ofn Duw! * Dywedasant hyn i'w anmharchu ef, i gyffrôi y bobl yn ei erbyn ef, ac i'w cyfiawnâu eu hunain yn ei ddwyn e i angau mòr warthus. Pe gwnaethai efe y wyrth hon at ei holl wyrthiau eraill, ni buasent hwy yn credu ynddo, (Matth. 27. 42,) gan gymmaint oedd caledrwydd eu calonau. Pe na buasai dim yn ngolwg Crist, on cadarnâu ei athrawiaeth drwy ddyoddef, (fel y taer Sosiniaid) buasai disgyn oddi ar y groes yn ateb dyben yn well na marw arni; ac efe a allasai wney hyny: ond gwneyd iawn dros bechod oedd ei brif amcan ef, ac yr oedd yn rhaid marw i hyny. † Byddai yn ar feriad rhoddi ysgrifen felly mewn amgylchiadau o gosp edigaeth anghyffredin; ond nid yw yr un o'r efengylwy yn dywedyd osod ysgrifen felly uwch ben y lladron ‡ Yn Lladin, er anrhydedd ymherodraeth Rhufain; yn y Groeg, er hysbysrwydd i'r Iuddewon Groegaidd, lliaw mawr o ba rai oedd wedi dyfod i Jerusalem ar yr wyl ac yn arfer yr iaith hòno; ac yn yr Hebraeg, am ma hòno oedd iaith gyffredin Jerusalem. Dywedir bod y ysgrifen ar fur y gwahaniaeth, yn y deml, fel hyn yn tair iaith; i wahardd dïeithriaid rhag dyfod o fewn y terfynau sanctaidd. Wele yr un ieithoedd yma, yn gwahodd (nid yn gwahardd) pawb at groes Crist.

39 ¶ [l] * Ac un o'r drwg-weithredwyr a'i grogasid a'i cablodd ef, gan ddywedyd, Os tyd yw Crist, gwared dy hun a ninnau.

l Mat. 27. 44. Marc 15. 32.

40 Eithr y llall a attebodd, [m] ac a'i ceryddodd ef, gan ddywedyd, [n] † Onid wyt ti yn ofn Duw, [o] gan dy fod dan yr un ddamnedigaeth?

m Lef. 19. 17. Eph. 5. 11. n pen. 12. 5. Salm 36. 1. Dat. 15. 4. o 2 Cron. 28. 22. Jer. 5. 3. Dat. 16. 11.

41 [p] ‡ A nyni yn wir yn gyfiawn; canys yn ydym yn derbyn yr hyn a haeddai y pethau a wnaethom: [q] eithr hwn ni wnaeth ddim allan o'i le.

p pen. 15. 18, 19. Lef. 26. 40, 41. Jos. 7. 19, 20. 2 Cron. 33. 12 Ezra 9. 13. Neh. 9. 3. Dan. 9. 14. Iago 4. 7. 1 Ioan 1. 8, 9 q adn. 47. pen. 22. 69, 70. Mat. 27. 4, 19, 24, 54. 1 Pedr 1. 19.

42 Ac efe a ddywedodd wrth yr Iesu, [r] ‖ Arglwydd, cofia fi [s] pan ddelych [t] i'th deyrnas.

r pen. 18. 13. Salm 106. 4, 5. Ioan 20. 28. Act. 16. 31. a 20 21. Rhuf. 10. 12—14. 1 Pedr 2. 6, 7. 1 Ioan 5. 1, 11—13. s pen 12. 8. Ioan 1. 49. Rhuf. 10. 9, 10. t pen. 24. 26. Salm 2. 6. Es. 9. 6, 7. a 53. 10—12. Dan. 7. 13, 14. 1 Pedr 1. 11.

43 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Yn wir meddaf i ti, [u] § Heddyw y byddi [x] gyd â mi [y] ym mharadwys.

u pen. 15. 4, 5, 20—24. a 19. 10. Job 33. 27—30. Salm 32. 5. a 50. 15. Es. 1. 18, 19. a 53. 11. a 55. 6—9. a 65. 24. Mica 7. 18. Mat. 20. 15, 16. Rhuf. 5. 20. 1 Tim. 1. 15, 16. Heb. 7. 25. x Ioan 14. 3. a 17. 24. 2 Cor. 5. 8. Phil. 1. 23. y 2 Cor. 12. 4. Dat. 2. 7.

* "A'r un peth hefyd a edliwiodd y *lladron* iddo," ebai Matth. 27. 44; "A'r *rhai* a groeshoeliasid gydag ef a'i *difenwasant* ef," ebai Marc 15. 32. Tybiodd llawer oddiwrth y geiriau uchod a ddyfynwyd, i'r *ddau* leidr ei watwar a'i ddifenwi ef, ond i un o honynt edifarâu gwedi hyny: pe felly, mae yn ddiammau y buasai Luc yn sylwi ar hyny, mewn hanes mòr fanol a'r eiddo ef. Mae y beirniaid manylaf, y rhan fwyaf o honynt, yn barnu na chablodd y *ddau* leidr ef; ond mai y peth a elwir yn gyffredin, cyfnewidiad rhif, y lliosog am yr unigol, sydd gan Matthew a Marc yn y lleoedd uchod, fel mewn amryw o fànau eraill. Pe buasai y *ddau* wedi cablu, diammau y cawsem gyfaddefiad y lleidr edifeiriol, o'r pechod pennodawl hwnw, yn nghyd a'i reswm pa ham y newidiodd ei feddwl mòr sydyn, wrth iddo geryddu ei gyd-ddyoddefydd. † O ran y bywyd hwn, nis gallasai yr un o honynt ofni dim mwy nag oeddynt yn ei ddyoddef y pryd hwnw; gan hyny rhaid fod "ofni Duw" yn y fàn yma, yn arwyddo crediniaeth y lleidr edifeiriol hwn o gyflwr a byd i ddyfod, yn nghyd a'r

..ios oedd gan ei gyd-ddyoddefydd i ofni digofaint ..w am ei bechodau mewn byd arall: dylasai gyfaddef ..bechodau, a llefain am drugaredd, ac nid cablu per-..n diniwed a goruchel oedd yn cyd-ddyoddef âg ef. ..m dano ei hun a'i gyd-ddyoddefydd yr oedd yn addef ..osp yn gyfiawn, oddiwrth Dduw a dynion; yr oedd-..y yn derbyn yr hyn a haeddai eu gweithredoedd: ond ..u ni wnaethai ddim allan o'i le. Pa fodd bynag yr ..ld y lleidr hwn wedi cael ei wybodaeth am Grist, yr ..ld yn gywir, ac o natur achubol: ymddiriedodd ef ..enaid iddo, a gwnaeth broffes gyhoeddus a diragrith ..lôno. ‖ Heblaw amddiffyn diniweidrwydd Iesu fel ..u, mae efe yn ei addef yn Arglwydd, yn Grist mab y ..w byw, ac yn Waredwr pawb a gredant ynddo. Fel ..hyfryw, mae yn gweddïo arno am drugaredd a bywyd ..gywyddol yn nheyrnas nef. Efallai mai gweddi ..ost dros ei ddïenyddwyr, y tywyllwch gwyrthiol ganol ..ld, a rhai pethau eraill a ddygwyddodd pan oedd ..st ar y groes, a fu yn foddion dychweliad y drwg-..ithredwr hwn. Beth bynag a fu y moddion, Ysbryd ..w a wnaeth y gwaith; efe a'i gwnaeth yn effeithiol, ..wn ychydig amser, ac mae y tro hwn yn ddangosiad ..enig o benarglwyddiaeth gras Duw yn achub y penaf ..echaduriaid. Mae gwylder yn gystal a ffydd y weddi ..n hefyd, yn deilwng iawn o'n sylw ni. § "Byddi gyda ..," ydynt eiriau a arferai pendefigion a gwŷr mawr, ..n fyddent yn gwahodd eu cyfeillion i wledda gyda ..ynt; ac mae y gair "paradwys," o'r dechreuad, yn ..yddo gardd o hyfrydwch, y cyfryw y byddai pen-..igion y dwyrain yn arfer gwneuthur eu gwleddoedd ..ddynt. Fel hyn mae llawer iawn o ymadroddion yr ..grythyr yn cyfeirio at ryw bethau a defodau, hysbys i ..ynion y pryd hwnw ac yn y gwledydd hyny, ond sydd ..hysbys i ni. Mae y golygiad uchod ar y geiriau dàn ..w, yn dangos addasrwydd a phrydferthwch tra rhag-..l ynddynt: Mab Duw, Arglwydd y gogoniant, yn ..ahodd pechadur euog, drwg-weithredwr ar y groes, i ..edda; i wledda gydag ef; ac i wledda gydag ef yn ..aradwys; yn ngwŷdd angelion Duw. Bendigedig ..th fyddo Duw am ei rad ras!

44 Ac [z] yr ydoedd hi ynghylch y chweched ..r, a [a] thywyllwch a fu ar yr holl ddaear hyd ..nawfed awr.

z Mat. 27. 45. Marc 15. 33. a Ex. 10. 21—23. Salm 105. ..; Joel 2. 31. Amos 5. 18. a 8. 9. Hab. 3. 8—11. Act. 2. 20.

45 A'r haul a dywyllwyd, [b] a llen y deml a ..ygwyd yn ei chanol.

b Ex. 26. 31. Lef. 16. 12—16. 2 Cron. 3. 14. Mat. 27. 51. Marc ..38. Eph. 2. 14—18. Heb. 6. 19. a 9. 3—8. a 10. 19—22.

46 ¶ A'r Iesu, gan [c] lefain â llef uchel, a ..ywedodd, [d] * O Dad, i'th ddwylaw di y ..rchymynaf fy yspryd. Ac [e] wedi iddo ddy-..edyd hyn, efe a drengodd.

c Mat. 27. 46—49. Marc 15. 34—36. d Salm 31. 5. Act. 7. ..1 Pedr 2. 23. e Mat. 27. 50. Marc 15. 37. Ioan 19. 30.

47 A'r canwriad, pan welodd y peth a ..naethpwyd, [f] a ogoneddodd Dduw, gan ddy-..edyd, † Yn wir yr oedd hwn yn wr cyfiawn.

f adn. 41. Mat. 27. 54. Marc 15. 39. Ioan 19. 7.

48 ‡ A'r holl bobloedd y rhai a ddaethent ..ghyd i edrych hyn, wrth weled y pethau a ..naethpwyd, a ddychwelasant, [g] gan guro eu ..y-fronnau.

g pen. 18. 13. Jer. 31. 19. Act. 2. 37.

49 A'i holl [h] gydnabod ef a safasant o hir-..ll, [i] ‖ a'r gwragedd y rhai a'i canlynasant ef ..Galilea, yn edrych ar y pethau hyn.

h Job 19. 13. Salm 38. 11. a 88. 18. i adn. 27, 55. pen. 8. ..Mat. 27. 55, 56, 61. Marc 15. 40, 41, 47. Ioan 19. 25—27.

Gwel ar Matth. 27. 45—56; a Marc 15. 33—39.
Ychydig iawn cyn hyn, mae yn debyg, y gwaeddasai Iesu, "Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?" ..edi hyny efallai iddo ddywedyd "Y mae syched arnaf;" yna, "Gorphenwyd;" ac yn olaf, "O Dad i'th ddwylaw di y gorchymynaf fy ysbryd." Mae y geiriau hyn, a'r hyn a ddywedodd efe wrth y lleidr, adn. 43, yn brawf o anfarwoldeb yr enaid, a'i wir fodoldeb mewn byd arall. † Hyny yw, Rhoddwyd y gwr hwn i farwolaeth yn anghyfiawn, am iddo ddywedyd ei fod yn Fab Duw, oblegid yr oedd efe yn Fab Duw yn sicr ac mewn gwirionedd. Yr oedd dychymmyg yn mhlith rhai o'r cenedloedd paganaidd, y byddai rhyw bethau aruthr yn dygwydd, yn enwedig ystormydd a daear-grynfâau, pan fyddai rhai o'r duwiau neu feibion y duwiau yn meirw. Gobeithio fod crediniaeth well, a mwy, na'r dychymmyg hŵnw, gan y canwriad hwn, er mai cenedl-ddyn ydoedd; ei fod yn gwir gredu mai Mab y Duw byw oedd Iesu. "Yn wir Mab Duw ydoedd hwn" sydd yn Matth. 27. 54, ac efallai i'r canwriad ddywedyd y ddau beth, ac ni ddywedodd ormod chwaith; canys yr oedd Iesu yn Fab Duw, ac yn wr cyfiawn. ‡ Mae yn ddïammau fod llawer o'r rhai a fuasent yn gwaeddi am groeshoelio Crist yn mhlith yr "holl bobloedd" hyn; ac eu bod wedi sŷnu yn aruthr wrth ei eiriau a'i ymddygiad ef ar y groes, a thrwy ryfeddodau mawrion a ddygwyddasent: gallwn feddwl i'w heuogrwydd a'u gofid o herwydd ei groeshoelio ef, barotôi y ffordd iddynt i gredu yr efengyl pan y pregethwyd hi ar ddydd y pentecost ac wedi hyny. Ond nid oes un dangosiad i'r offeiriaid, yr ysgrifenyddion, a'r llywodraethwyr, deimlo nac euogrwydd na gofid ar yr achlysur. ‖ Anrhydedd mawr ar y rhyw fenywaidd yw yr hyn a fynych ddywedir am ymlyniad y gwragedd wrth Grist yn ei deithiau, ei iseldER, a'i ofidiau.

50 ¶ Ac wele, [k] gwr a'i enw Joseph, yr hwn oedd gynghorwr, [l] gwr da a chyfiawn:

k Mat. 27. 57, 58. Marc 15. 42—45. l pen. 2. 25. Act. 10. 2, 22. a 11. 24.

51 * (Hwn [m] ni chyttunasai â'u cynghor ac â'u gweithred hwynt) o [n] Arimathea, dinas yr Iuddewon (yr hwn oedd yntau [o] yn disgwyl hefyd am deyrnas Dduw)

m Gen. 37. 21, 22. a 42. 21, 22. Ex. 23. 2. Diar. 1. 10. Es. 8. 12. n 1 Sam. 1. 1. o adn. 42. pen. 2. 25, 38. Gen. 49. 18. Marc 15. 43.

52 † Hwn [p] a ddaeth at Pilat, ac a ofynodd gorph yr Iesu.

p Ioan 19. 38—42.

53 Ac efe a'i tynnodd i lawr, [q] ‡ ac a'i hamdôdd mewn llïan main, ac a'i rhoddes mewn bedd wedi ei naddu mewn carreg, yn yr hwn ni roddasid dyn erioed.

q Es. 53. 9. Mat. 27. 59, 60. Marc 15. 46.

Gwel ar Matth. 27. 57, 58. * Efallai i Joseph absenoli ei hun o'r cyngor, pan welodd na byddai ei anghytuniad ef o ddim effaith. † "A aeth yn *hy* i mewn at Pilat," ebai Marc 15. 43; "A ddeisyfodd ar Pilat gael tŷnu i lawr gorph yr Iesu," medd Ioan 19. 38. Gweithred wrol oedd i wr cyfoethog a seneddwr ardderchog fel Joseph, ddangos ei gariad at Iesu yn gyhoeddus fel hyn, pan oedd efe dàn ei warth mwyaf; ac nis gallasai gwr mòr ddoeth ddim llai na rhag-weled, os byddai iddo adgyfodi, neu gael ei gymmeryd o'r bedd, y drwgdybid ac yr holid ef fel un a llaw ganddo yn y twyll o'i ddwyn ef ymaith. ‡ Wrth ystyried mòr fanol a chywraint y byddai yr Iuddewon yn amdôi eu cyrph meirw, mae yn ddïammau mai gweithred wyrthiol, neu oruwchnaturiol, oedd dattod y rhwymynau hyn pan gyfododd Iesu.

54 * A'r dydd hwnnw oedd [r] ddarpar-wyl, † a'r sabbath oedd yn nesâu.

r Mat. 27. 62. Ioan 19. 14, 31, 42.

* Pa ddarpariaeth bynag oedd yn cael ei wneyd gan yr Iuddewon yma, byddai yn dda iawn pe byddai hwyr y sadwrn yn fwy o ddarpar-wyl yn mhlith cristionogion, ac nid gadael i'w gorchwylion orthrymu ar derfynau y dydd sanctaidd, a'u anhwylusu hwythau at ei waith

sanctaidd ef. † A'r sabbath oedd yn gwawrio, yw ystyr lythyrenol y Groeg: *(kai sabbaton epephoske:)* eto diwedd y chweched dydd a dechreuad y seithfed *yn yr hwyr*, yn amlwg a feddylir. Tybia rhai fod y gair yn cyfeirio at y seren hwyr, a ddechreuai ddysgleirio y pryd hwnw. Eraill, ei fod yn cyfeirio at y lamp, neu y ganwyll, a oleuid yr amser hwnw, yr hon a alwent hwy, lamp y gwahaniaethiad, a phan oleuent hon yn eu teuluoedd, cyfrifent bod y sabbath yn dechreu. Mòr fanol oedd yr Iuddewon yn nghylch dechreuad eu sabbath: mòr fanol bu Joseph i orphen pob peth yn nghylch claddedigaeth Iesu erbyn, neu cyn, ei fod yn dechreu: ac mòr fanol y bu yr efengylwyr oll i grybwyll hyny.

55 [s] * A'r gwragedd hefyd, y rhai a ddaethent gyd âg ef o Galilea, a ganlynasant, ac a welsant y bedd, a pha fodd y dodwyd ei gorph ef.

s adn. 49. pen. 8. 2. Mat. 27. 61. Marc 15. 47.

56 A hwy a ddychwelasant, [t] ac a barottoisant bêr-aroglau ac ennaint; [u] † ac a orphwysasant ar y sabbath, yn ol y gorchymyn.

t pen. 24. 1. 2 Cron. 16. 14. Marc 16. 1. u Ex. 20. 8—10. a 31. 14. a 35. 2, 3. Es. 58. 13, 14. Jer. 17. 24, 25.

Gwel ar Matth. 27. 61. * Ar ol i Grist gael ei wrthwynebu gan ddiafol a'i holl offerynau, ac yn awr wedi marw; mae yn gadael dwy neu dair o wragedd tlodion megys yn mlaen a dannedd y frwydr, gan feddwl codi yn fuan iawn, ac heb fawr o orchest, i lwyr fuddugoliaethu ar yr holl wrthwynebwyr dychrynllyd hyn. † Gwedi ceisio pob peth yn barod erbyn y per-arogliad, gorphwysodd y gwragedd duwiol hyn o barch i'r sabbath, ac o ufudd-dod i orchymyn Duw. Pe byddai claddu neb yn gyfreithlawn ar y sabbath, buasai claddu a pher-arogli corph Iesu yn gyfreithlawn, ond mae yn ddïau nad oedd, ac nad yw y fath waith yn gyfreithlawn eto. Pa mòr anysgrythyrol a niweidiol yw yr arferiad rhy gyffredin hwn, (mewn rhai mànau,) o wneuthur dydd yr Arglwydd yn amser dewisol at gladdedigaethau; pa un bynag a fyddo hyny er cyfleusdra i'r offeiriad, neu ynte i'r bobl! Trwy hyn y mae llaweroedd yn cael eu cadw rhag myned i foddion gras, a llawer o lechodau yn cael eu hachlysuro drwy yr arferiad anghrefyddol hwn.

PEN. XXIV.

Y ddau angel yn mynegi adgyfodiad Crist i'r gwragedd oedd yn dyfod at y bedd.

A'R [a] * *dydd* cyntaf o'r wythnos, † ar y cynddydd, [b] ‡ hwy a ddaethant at y bedd, gan ddwyn y pêr-aroglau a barottoisent, a rhai gyd â hwynt.

a Mat. 28. 1. Marc 16. 1, 2. b adn. 10. pen. 8. 2, 3. a 23. 55, 56. Mat. 27. 55, 56. Marc 15. 40.

* Y dydd ar ol y sabbath, oedd y dydd cyntaf o'r wythnos Iuddewig; a'r dydd ar ol y sabbath, yn sicr, yw y dydd cyntaf o'r wythnos gristionogol: gan hyny pa fodd y taera llawer, mai y dydd cyntaf o'r wythnos yw y sabbath? Y dydd cyntaf o wythnos yr Iuddewon ydyw ein sabbath ni, rhaid addef; ond y dydd olaf o wythnos y cristionogion ydyw, rhaid addef hefyd. Gan ddarfod newid y sabbath, rhaid newid yr wythnos hefyd o ganlyniad. † Sylwyd ar wahaniaeth geiriad yr efengylwyr yn nghylch yr amser hwn, yn Matth. 28. 1; neu Marc 16. 2. ‡ "Hwy," sef y gwragedd a barotoisent ber-aroglau ac ennaint, pen. 23. 55, 56. yn nghyd ag eraill eu cyfeillesau, gwel yr efengylwyr eraill. Yr oeddynt hwy yn bwriadu dangos eu harwydd olaf o gariad at Grist, drwy ber-arogli ei gorph ef; ond nid oedd eisiau.

2 [c] * A hwy a gawsant y maen wedi ei dreiglo ymaith oddi wrth y bedd.

c Mat. 27. 60—66. a 28. 2. Marc 15 46, 47. a 16. 3, 4. Ioan 20. 1, 2.

* "Pwy a dreigla i ni y maen ymaith," ebynt hwy ar hyd y ffordd, Marc 16. 3; ond erbyn dyfod at y bedd, hwy a gawsant y rhwystr mwyaf hwnw wedi ei symmud ymaith. Am y modd y treiglwyd y maen ymaith, gwel Matth. 28. 2. Fel hyn mae plant Duw yn cael eu rhwystrau mwyaf wedi eu symmud yn aml erbyn y delont hwy i'w hymyl.

3 [d] * Ac wedi iddynt fyned i mewn, ni chawsant gorph yr Arglwydd Iesu.

d adn. 23. Marc 16. 5. Ioan 20. 6, 7.

* Mae yn debyg na welsant hwy yr un angel cyn eu myned i mewn; prin y buasent yn ddigon dewr a chalonog i fyned i mewn, pe buasent wedi gweled angelion; ond wrth ddyfod allan, wedi gweled nad oedd corph yr Iesu yno, ymddangosodd yr angelion iddynt. Gallent hwy weled nad oedd Iesu yno heb gymmorth angelion; ond nis gallent hwy wybod beth a ddaethai o hóno heb gael eu hysbysu gan angelion: ac nis gallasai neb ond angelion y pryd hwn, roddi yr hysbysrwydd hyny iddynt.

4 A bu, a hwy yn petruso am y peth hwn, wele, [e] * dau wr a safodd yn eu hymyl mewn † gwisgoedd disglaer.

e Gen. 18. 2. Mat. 28. 2—6. Marc 16. 5, 6. Ioan 20. 11, 12. Act. 1. 10.

5 Ac wedi [f] iddynt ofni, ‡ a gostwng *eu* hwynebau tu a'r ddaear, hwy a ddywedasant wrthynt, Paham yr ydych yn ceisio ‖ y byw ym mysg y meirw?

f pen. 1. 12, 13, 29. Dan. 8. 17, 18. a 10. 7—12, 16—19. Mat. 28. 3—5. Marc 16. 5, 6. Act. 10. 3, 4.

6 Nid yw efe yma, ond efe a gyfododd. [g] § Cofiwch pa fodd y dywedodd wrthych, ac efe etto yn Galilea,

g adn. 44—46. pen. 9. 22. a 18. 31—33. Mat. 12. 40. a 16. 21. a 17. 22, 23. a 20. 18, 19. a 27. 63. a 28. 6. Marc 9. 9, 10, 31, 32. a 10. 33, 34.

7 Gan ddywedyd, Rhaid yw rhoi Mab y dyn yn nwylaw dynion pechadurus, a'i groeshoelio, a'r trydydd dydd adgyfodi.

8 A [h] hwy a gofiasant ei eiriau ef;

h Ioan 2. 19—22. a 12. 16. a 14. 26.

Gwel ar Matth. 28. 5—7. * Dau angel mewn rhith neu wedd ddynol oedd y ddau wr yma. Ni welodd Mair Magdalen a'r Fair arall ond un angel, yn eistedd ar y maen a dreiglasai efe oddi ar ddrws y bedd, Matth. 28. 1. 2; ond ni welodd y gwragedd a grybwyllir yma yr un angel hyd ar ol eu dyfodiad o'r bedd, fel y sylwyd, pryd yr ymddangosodd dau iddynt. Mae yn debyg mai am ddau wahanol amser y sonia Matthew a Luc, ac efallai gwahanol wragedd hefyd. † Gwisgoedd yn dysgleirio fel mellten, yw arwyddocâd y gair *astraptousais:* golwg ry ogoneddus i gnawd, yn enwedig i wragedd ofnus; ond mae yn ddïammau eu bod yn cael eu nerthu i'w dàl. ‡ Nid ymostwng i addoli yr angelion; ond ymostwng o ofn dynol, neu am fod y fath ddysgleirdeb yn dallu eu llygaid; gwaharddai yr Iuddewon hyll-drèmu ar weledigaeth nefol. ‖ Y byw, neu, Efe sydd fyw: lle i'r meirw oedd y bedd, er nas claddesid neb erioed o'r blaen yn y bedd hwnw. § Wrth y dull cynnefin mae yr angelion yn crybwyll am yr hyn a ddywedasai yr Iesu wrth ei ganlynwyr yn Galilea; mae yn ymddangos eu bod hwy yno gyda hwynt yn eu teithiau o fàn i fàn, ac yn clywed yr hyn oedd Iesu yn ddywedyd, er eu bod yn anweledig. Diammau bod yr angelion eto yn nghynnulleidfäoedd y saint, ac yn mhob cyfeillach dduwiol o'r eiddynt; yn gorfoleddu yn mhob peth da, ac yn tristâu pan welont yr ymddiddanion yn myned yn wag ac yn anghrefyddol. Bydd yn lles i ni feddwl am hyny.

9 * Ac [i] a ddychwelasant oddi wrth y bedd, ac a fynegasant hyn oll i'r un ar ddeg, ac i'r lleill oll.

i adn. 22—24. Mat. 28. 7, 8. Marc 16. 7, 8.

10 A [k] Mair Magdalen, a Joanna, a Mair am Iago, a'r lleill gyd â hwynt, oedd y rhai iddywedasant y pethau hyn wrth yr apostol-n.

k pen. 8. 2, 3. Marc 15. 40, 41. a 16. 9—11. Ioan 20. 11—18.

11 † A'u geiriau a welid yn eu golwg hwynt [l] gwegi, ac ni chredasant iddynt.

l adn. 25. Gen. 19. 14. 2 Bren. 7. 2. Job 9. 16. Salm 126. 1. t. 12. 9, 15.

12 ‡ Eithr [m] Pedr a gododd i fynu, ac a dodd at y bedd; ac wedi ymgrymmu, efe a nfu y llieiniau wedi eu gosod o'r neilldu; ac aeth ymaith, gan ryfeddu rhyngddo ag ef ei nn am y peth a ddarfuasai.

m Ioan 20. 3—10.

Gwel ar Matth. 28. 8—10. Cawn yr hanes hwn yn laethach eto yn Ioan 20. 2—10. Nid yw Luc yn sôn m i'r gwragedd hyn weled Iesu ei hun, ar eu ffordd ddinas; fel y gwelodd y gwragedd a grybwyllir gan atthew 28. 9, 10. Mae hyn yn cadarnâu y dyb nad th y gwragedd oll ddim at y bedd gyda'u gilydd; idd-t ddychwelyd amryw weithiau, ac ar hyd amryw rdd; ac i rai o honynt fod wrth y bedd fwy nac un-ith. † Ni chredai yr apostolion dystiolaeth y gwrag-d hyn; tybient hwy mai dychymmyg, ac effeithiau n oedd y cwbl, ac nid gwirionedd: nid oeddynt hwy dysgwyl y fath beth ag adgyfodiad eu Harglwydd. oedd hyn yn mhell o fod yn anrhydeddus i'r apos-lion; yn brawf mai dynion oeddynt, ac mai gwagedd pob dyn pan fo ar y goreu. ‡ Eto, aeth Pedr at y dd, rhwng credu ac anghredu, ac a gafodd bobpeth l y dywedasai y gwragedd: cafodd y llieiniau wedi eu sod yn drefnus, ond ni chafodd gorph yr Iesu yno. ywed Ioan 20. 3, i ddysgybl arall fyned gyda Phedr, a ybir mai Ioan ei hun oedd hwnw. Gwragedd oedd y stion a'r cenadon cyntaf o adgyfodiad Crist; ac yr dd doethineb Duw i'w weled yn hyny:—pe buasai y rsgyblion eu hunain yn dystion cyntaf ei adgyfodiad, asai mwy o sail, neu achlysur o leiaf, gan yr arch-eiriaid i daeru mai hwy a'i dygasant ef ymaith, ac a cyhoeddi ei fod wedi adgyfodi. Yr oedd eu han-rediniaeth hwy hefyd o dystiolaeth y gwragedd, yn rawf i bawb nas gwyddent hwy ddim am ei adgyfodiad hyd onid oedd wedi adgyfodi: ac efallai mai i'r ben hyny, yn un peth y gadawodd Duw hwynt i ghredu.

13 ¶ Ac wele, [n] * dau o honynt oedd yn yned y dydd hwnnw i dref a'i henw † Em-aus, yr hon oedd ynghylch triugain ystâd ldi wrth Jerusalem.

n adn. 18. Marc 16. 12, 13.

Nid yw Matthew nac Ioan yn sôn dim am yr hanes nlynol, na Marc ond yn fŷr iawn, pen. 16. 12, 13. Mae llawer o feddyliau wedi bod gan ddynion pwy dd y ddau hyn: Cleopas oedd enw un o honynt mae amlwg, (adn. 18,) a myn rhai mai Luc oedd y llall; nd yn y bennod gyntaf a'r ail adnod, mae efe yn gwa-niaethu ei hun oddiwrth y rhai oedd yn "*gweled*," n hyny tybir nas gallasai efe fod yn un o honynt. ybia rhai mai Nathanael oedd y llall, ac eraill mai mon ydoedd, oddi wrth adn. 34. a 1 Cor. 15. 5. Ond ae y tybiau hyn i gyd mòr ddisail, fel mai yr unig ddysg a allwn gael oddi wrthynt yw, gweled gwagedd ansicrwydd dychymmygion a thraddodiadau. † Pen-ef yn agos i wyth milltir i'r gorllewin o Jerusalem oedd Emmaus. Efallai bod y ddau ddysgybl yn yned yno ar ryw neges, neu ymweliad, neu yn hytrach gael myned allan o swn a therfysg, dirmygion, an-harch, ac enbydrwydd eu gelynion; gan fwriadu myn-d yn mhellach i'r wlad, o herwydd y siomedigaeth a yfarfuant, a'r dyryswch yr oeddynt ynddo, yn nghylch u Harglwydd a'u Gwaredwr croesboeliedig.

14 ° * Ac yr oeddynt hwy yn ymddiddan â'u gilydd am yr holl bethau hyn a ddigwydd-asent.

o pen. 6. 45. Deut. 6. 7. Mal. 3. 16.

* Peth cyffredin yw i ddynion wrth gyd-deithio ar hyd y ffordd, ymddiddan am bethau hynod a fyddo wedi dygwydd, yn enwedig os bydd y pethau yn dwyn rhyw berthynas agos â hwynt, neu un o honynt. Felly y ddau yma: yr oedd pethau rhyfedd wedi dygwydd, a'r pethau hyny yn perthyn yn agos iddynt hwy; eu Harglwydd, yr hwn y gobeithient mai efe a waredai yr Israel, wedi ei groeshoelio fel drwg-weithredwr, wedi ei gladdu, a'r gair y bore hwnw ei fod wedi adgyfodi o'r bedd ac ymddangos yn fyw i rai o'r gwragedd. Pethau rhyfedd oedd y rhai hyn, ac am y rhai hyn yr ymddi-ddanent hwy ar hyd y ffordd.

15 A bu, fel yr oeddynt yn ymddiddan, * ac yn ymofyn â'u gilydd, [p] † yr Iesu ei hun hefyd a nesâodd, ac a aeth gyd â hwynt.

p adn. 36. Mat. 18. 20. Ioan 14. 18, 19.

* Dadleu y pwnc yn nghyd, yw ystyr y geiriau gwreiddiol, ymofyn ac ymresymu yr oeddynt, pa fodd y cyd-safai dyoddefaint a marwolaeth Iesu â'u dysgwyl-iadau hwy wrtho fel Messiah, neu frenin daearol, pa beth a fyddai y canlyniad o'hyny allan, gan fod y gair newydd ddyfod o'i adgyfodiad ef; ac efallai galw i'w cof ei eiriau yn Galilea, a gorchymyn yr angel i'r gwragedd, adn. 6, ac ymresymu yn nghylch meddwl y geiriau hyny. Gwel pen. 18. 31. † Efe a'u goddiweddodd hwy ar y ffordd, ac a gyd-gerddodd â hwynt. Mae yn dda bod yn ymddiddan am Grist, dyna y ffordd i ni gael ei gym-deithas ef gyda ni. Sonia llawer am y ddau ddysgybl hyn yn myned tuag Emmaus, fel dangosiad o ddynion yn gwrthgilio; ond yn dra anmhriodol: myned dàn ymddiddan am Grist yr oedd y rhai hyn; ymddiddan am y byd a'r cnawd y bydd gwrthgilwyr: gwyneb-drist oedd y rhai hyn; llawen, ïe ynfyd lawen, yw gwrthgil-wyr yn gyffredin: yr oedd Iesu gyda y rhai hyn, a hwythau yn caru ei gyfeillach, ac yn ei wahodd ef i aros gyda hwynt; nid yw efe gyda gwrthgilwyr, nid ydynt yn caru ei gymdeithas, nac yn ceisio ganddo aros; dywedant wrth Dduw, Cilia oddi wrthym.

16 [q] * Eithr eu llygaid hwynt a attaliwyd, fel nas adwaenent ef.

q adn. 31. 2 Bren. 6. 18—20. Marc 16. 12. Ioan 20. 14. a 21. 4.

* "Efe a ymddangosodd mewn *gwedd* arall," medd Marc 16. 12. Yr oedd ei gorph ef o'r un mesuriad, maint, lliw, a dull, yn ddiammau, ag ydoedd cyn ei farwolaeth; ac yr ydoedd yn wrthddrych y gallai llygaid dynol edrych arno; pe amgen ni buasai achos "attal eu llygaid" hwy. Nis gallwn ni wybod pa fodd y gwedd-newidiodd Iesu ei hun, na pha fodd yr attaliwyd llygaid y dysgyblion fel nad adwaenent ef. Gallwn weled yma fod gan Dduw awdurdod ar ein holl aelodau a'n syn-wyrau corphorol ni, a'n bod yn ddyledus iddo ef yn wastad am y defnydd o honynt. Dyben Crist yn ym-ddieithrio fel hyn y tro hwn oedd, cael clywed barn y dysgyblion eu hunain am dano ef a'i farwolaeth, a chael gwell mantais wedi hyny i'w ceryddu, eu hargyhoeddi, a'u cysuro hwynt allan o'r ysgrythyrau. Yr oeddynt yn ddigon cynnefin â llais Iesu, ond yma nid oeddynt yn adnabod ei lais ef ychwaith.

17 Ac efe a ddywedodd wrthynt, * Pa ryw ymadroddion yw y rhai hyn yr ydych yn eu bwrw at eu gilydd, dan rodio, [r] † ac yn wyneb-drist?

r Ezec. 9. 4—6. Ioan 16. 6, 20—22.

* Gwyddai Iesu feddyliau eu calonau hwynt, chwaith-ach eu hymadroddion; ond gofynodd fel hyn er mwyn ei ddieithrio ei hun, ac i dynu ymddiddan â hwy ar y pwnc, fel trwy eu hail-adroddiad o hóno y gallai efe eu dysgu hwynt. † Er attal eu llygaid hwy, yr oedd llygaid Iesu yn graff, a'i galon yn dosturiol: canfu dristwch yn

eu gwynebau, a chydymdeimlodd â hwy: yn eu holl gystudd hwynt, efe a gystuddiwyd.

18 Ac un *o honynt*, a'i enw [s] * Cleopas, gan atteb a ddywedodd wrtho, † A wyt ti yn unig yn ymdeithydd yn Jerusalem, ac ni wybuost y pethau a wnaethpwyd ynddi hi yn y dyddiau hyn?

s Ioan 19. 25.

19 Ac efe a ddywedodd wrthynt, ‡ Pa bethau? Hwythau a ddywedasant wrtho, [t] || Y pethau ynghylch Iesu o Nazareth, yr hwn oedd wr o brophwyd, [u] galluog mewn gweithred a gair ger bron Duw a'r holl bobl;

t pen. 7. 16. Mat. 21. 11. Ioan 6. 14. a 7. 40—42, 52. Act. 2. 22. a 10. 38. u Act. 7. 22.

* Cleopas oedd yr un ag Alphëus, tad Iago leiaf a Judas, dau o'r apostolion, pen. 6. 15, 16: dywedai yr henafiaid ei fod yn frawd i Joseph, tad cyfrifedig Iesu, a bod Mair ei wraig ef yn chwaer i Mair mam yr Iesu. † Yr oedd ŷ pethau a ddygwyddasent yn ddiweddar yn Jerusalem mòr amrywiol ac mòr rhyfeddol, fel yr oedd Cleopas yn sùnu fod un dyn heb wybod am danynt, pe na buasai ond ymdeithydd, wedi dyfod yn ddamweiniol trwy y ddinas. Nid oedd neb a wyddai yn well na Iesu am danynt. Ai ti yw yr unig berson sydd yn ymdeithydd yn Jerusalem, ac nis gwyddost; felly y geiriau Groeg. Os wyt ti heb wybod y pethau hyn, tydi yn sicr yw yr unig berson sydd heb eu gwybod. ‡ Cymmeryd arno fod yn ddieithr o hyd yr oedd Iesu, er eu tynu hwy i'r ymddiddan, ac i adrodd yr hyn yr ymresyment yn ei gylch. || Fel pe dywedasent, "Wele, os rhaid dywedyd, y pethau yn nghylch Iesu o Nazareth, yr hwn o *leiaf* a gyfrifid yn brophwyd mawr, ac yr oedd ei weithredoedd rhyfeddol ef wedi ennill iddo air gan yr holl bobl, ac yn dangos ei fod yn anwyl gan Dduw, a chwedi ei ddanfon ganddo ef."

20 * A'r modd [x] y traddododd yr arch-offeiriaid a'n llywodraethwyr ni ef i farn marwolaeth, ac a'i croeshoeliasant ef.

x pen. 22. 66—71. a 23. 1—5. Mat. 27. 1, 2, 20. Marc 15. 1. Act. 3. 13—15. a 4. 8—10, 27, 28. a 5. 30, 31. a 13. 27—29.

21 [y] † Ond yr oeddym ni yn gobeithio mai efe oedd yr hwn a waredai yr Israel. ‡ Ac heblaw hyn oll, heddyw yw y trydydd dydd er pan wnaethpwyd y pethau hyn.

y pen. 1. 68. a 2. 38. Salm 130. 8. Es. 59. 20. 1 Pedr 1. 18, 19. Dat. 5. 9.

* Er mòr enwog a daionus oedd yr Iesu hwn, eto y cyfryw oedd gelyniaeth yr arch-offeiriaid a'r henuriaid tuag ato, fel y daliasant ef, y condemniasant ef, ac a'i traddodasant i'r Rhufeiniaid i'w gondemnio hefyd, ac a'u rhoddasant ef i'r farwolaeth greulonaf a mwyaf gwarthus, rhwng dau leidr ar y groes. † Am y dysgyblion hyn eu hunain, yr oeddent hwy yn gobeithio, ac yn hyderus yn credu, mai efe oedd y Messiah a ddysgwylid i'r byd, i waredu yr Israel oddi wrth y Rhufeiniaid, a'u holl elynion o amgylch, ac i deyrnasu yn llwyddiannus arnynt fel Dafydd a Solomon. Mae yn amlwg nad oedd ganddynt hwy y pryd hwn, ddim syniadau cywir am Grist, fel Duw-ddyn yn un person, nac ychwaith am ei neges ef i'r byd fel Messiah, na natur ysbrydol ei freniniaeth ef: am hyny nid oedd ryfedd eu bod yn teimlo yn siomedig ac yn drist o herwydd ei farwolaeth ef, gan nas gallent gysoni hyny â'u dysgwyliad hwy iddo waredu yr Israel. ‡ Fel pe dywedasent, Mae yn wir i ni ei glywed ef yn sôn rhywbeth amryw weithiau am adgyfodi o feirw y trydydd dydd; ac yn awr dyma'r trydydd dydd wedi dyfod er pan fu efe farw. Dylasent aros a dysgwyl tàn yr hwyr; er bod y trydydd dydd wedi dechreu, nid oedd eto wedi myned drosodd. Lle mae ffydd i gredu mae amynedd i ddysgwyl.

22 [z] * A hefyd rhai gwragedd o honom ni a'n dychrynasant ni, gwedi iddynt fod yn fore wrth y bedd:

z adn. 9—11. Mat. 28. 7, 8. Marc 16. 9, 10. Ioan 20. 1, 2.

23 A phan na chawsant ei gorph ef, hwy a ddaethant, gan ddywedyd, weled o honynt weledigaeth o angelion, y rhai a ddywedent ei fod ef yn fyw.

24 † A rhai o'r rhai oedd gyd â nyni [a] a aethant at y bedd, ac a gawsant felly, fel y dywedasai y gwragedd: ond ef nis gwelsant.

a adn. 12. Ioan 20. 1—10.

* Yn wir ni a glywsom rywbeth y boreu heddyw, sydd yn dangos braidd ei fod ef wedi adgyfodi; ond y mae hyny yn chwanegu ein dyryswch a'n petrusder, gan nas gwyddom beth i wneyd o hòno: rhai gwragedd oedd yn arfer ei ganlyn ef gyda ni, a fuant yn fore iawn wrth y bedd, a dywedent na chawsant ei gorph ef yno; bod y maen wedi ei dreiglo ymaith, y bedd yn wag, a dywedent iddynt weled dau angel, y rhai a dystiolaethent ei fod ef yn fyw, ac wedi adgyfodi yn sicr. † Nid oedd y chwedl hon o'r eiddo y gwragedd ond "fel gwegi" yn ein golwg ni, ac nid oeddem yn eu credu, (adn. 11.) hyd onid aeth rhai o'r dynion o honom ni at y bedd, a chael fel y dywedasai y gwragedd: cawsant y bedd yn agored, cawsant y llieiniau amdo yn y bedd, wedi eu gosod yn drefnus o'r neilldu, ond Ef nis cawsant yno, nac yn farw nac yn fyw. Fel hyn, rhwng pobpeth, yr ydym ni wedi dychrynu, a dyrysu, fel nas gwyddom yn iawn pa beth i feddwl, i ddywedyd, nac i wneyd; ac nis gwyddom yn iawn ychwaith i ba beth yr ydym yn myned y ffordd hon tuag Emmaus, nac i ba le yr awn oddi yno. Gan mai rhai o Galilea oedd y rhan fwyaf, os nad yr oll, o ganlynwyr Iesu; nid yw yn debyg fod yr un o'r ddau hyn yn byw yn Emmaus, ond yn ddieithriaid ynddi. Pe gallai dyn gredu trwy ei nerth ei hun, fel y taera rhai y gall, yn sicr buasai y ddau ddysgybl hyn yn credu adgyfodiad Crist: yn sicr yr oedd ganddynt ewyllys i gredu; nid oedd dim a ddymunent yn fwy na'i adgyfodiad ef: ac yr oeddynt wedi cael digon o dystiolaethau, fel seiliau a moddion i gredu; tystiolaethau Crist ei hun cyn iddo farw, tystiolaeth y gwragedd, tystiolaeth yr angelion, ddau o honynt, a thystiolaeth dau o'u cyd-ddysgyblion, Pedr ac Ioan. Dyweded y dadleuwyr dros ewyllys rydd, galla dyn, beth oedd yn lluddias i'r rhai hyn gredu adgyfodiad Crist. Rhodd Duw yw ffydd, a gweithrediad nerth ei gadernid ef yw credu.

25 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [b] * O ynfydion, a hwyr-frydig o galon i gredu yr holl bethau a ddywedodd y prophwydi!

b Marc 7. 18. a 8. 17, 18. a 9. 19. a 16. 14. Heb. 5. 11, 12.

26 [c] † Onid oedd raid i Grist ddioddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant?

c adn. 46. Salm 22. a 69. Es. 53. Zec. 13. 7. 1 Cor. 15. 3, 4. Heb. 2. 8—10. 1 Pedr 1. 11.

27 [d] ‡ A chan ddechreu ar Moses, [e] a'r holl brophwydi, efe a esponiodd iddynt yn yr holl ysgrythyrau y pethau am dano ei hun.

d adn. 44. Gen. 3. 15. a 22. 18. a 49. 10. Num. 21. 6—9. Deut. 18. 15. Ioan 5. 39, 45—47. Act. 3. 22. a 7. 37. e adn. 25. Salm 16. 10. a 132. 11. Es. 7. 14. a 9. 6, 7. a 40. 10, 11. a 50. 6. a 52. 13, 14. a 53. Jer. 23. 5, 6. a 33. 14, 15. Ezec. 34. 23. a 37. 25. Dan. 9. 24—26. Mica 5. 2—4. Zec. 9. 9. a 13. 7. Mal. 3. 1—3. a 4. 2. Ioan 1. 45. Act. 3. 24. a 10. 43. a 13. 27—30. a 28. 23. Dat. 19. 10.

* Yr oeddynt yn ynfydion am eu bod yn gwrthod tystiolaeth addas; dylasent gredu Moses a'r prophwydi, os na chredent Grist ei hun, y gwragedd, yr angelion, a'u cyd-ddysgyblion. Yr oeddynt yn ynfydion am eu bod yn gweithredu yn erbyn eu cysur a'u lles eu hunain, trwy eu hanghrediniaeth a'u disylwant o Moses a'r prophwydi. Gallwn weled yma mai hwyr-frydig iawn yw y gorau o honom i gredu llawer o bethau ar dystiolaeth noeth gair Duw, heb ddim ond hyny. Yr oedd Crist yn eu galw hwy yn ynfydion mewn ffordd o gerydd cyfiawn

ynnt, ac er adferiad iddynt, ac nid mewn ffordd o
rmyg diachos a gwarthruddiad niweidiol, gan hyny
l oedd yn troseddu ei reol ei hun yn Matth. 5. 22.
d yr un gair sydd yma ac yn Matthew ychwaith, yn yr
th wreiddiol; *Móros*, neu *Móre* ydyw y gair yno, yn
wyddo digofaint ffirfawr, ac weithiau dirmyg: yma
oêtoi yw y gair, yn arwyddo ymresymiad a cheryddd.—
ddefnyddir y gair *Móros* mewn un màn yn yr holl
stament Newydd, wrth lefaru am ddyn neu ddynion,
d yn Matth. 5. 22. a 7. 26. a 23. 17, 19; er bod y
iriau *ynfyd* ac *ynfydion* yn digwydd yn aml yn ein
eithiad ni. † Rhaid er anrhydedd a gogoniant Duw,
aid o herwydd arfaeth a chyfammod tragywyddol, rhaid
cyflawni y prophwydoliaethau, a rhaid er achub
chaduriaid a etholwyd i'w hachub. ‡ Nid oes achos
ai fod mòr fanol, a chywrain, a meddwl (fel y medd-
a rhai,) fod dyoddefaint, adgyfodiad, a derchafiad
ist, bob un o honynt, yn cael eu rhagfynegu yn wa-
nrhedol yn mhob rhan o'r ysgrythyrau sanctaidd a
ybwyllir yma; mae yn ddigon os yw Moses yn rhoddi
yw grybwylliad am Grist, yr hyn mae y prophwydi yn
wyn yn mlaen wedi hyny; ac os crybwyllir am y
thau hyn gan y naill neu y llall o honynt, erbyn
oddi eu tystiolaethau oll at eu gilydd. Nid profi ei
gyfodiad trwy Moses a'r prophwydi y mae Iesu yma;
d profi fod Moses a'r prophwydi wedi rhagfynegi
oddefaint ac adgyfodiad y Messiah, ac nad oedd ei
lgyfodiad ef ddim yn beth anhygoel a gwrthyn i'w
edu. Profodd ef ei fod wedi adgyfodi drwy foddion
aill; trwy ddangos ei hun iddynt, a gadael iddynt ei
imlo.

28 Ac yr oeddynt yn nesâu i'r dref lle yr
eddynt yn myned: [f] * ac yntau a gymmerth
no ei fod yn myned ym mhellach.

f Gen. 19. 2. a 32. 26. a 42. 7. Marc 6. 48.

29 [g] † A hwy a'i cymhellasant ef, gan ddy-
edyd, Aros gyd â ni: canys y mae hi yn
wyrhâu, a'r dydd yn darfod. Ac efe a aeth i
aewn i aros gyd â hwynt.

g pen. 14. 23. Gen. 19. 3. 2 Bren. 4. 8. Act. 16. 15.

* Nid oedd dim ffuantrwydd, na dim yn ddau eiriog
n hyn, fel y lled-haera rhai; oblegid nid oedd ein
Arglwydd ond ymddwyn yn ol rhëolau moesgarwch a
oneddigeiddrwydd, fel y gweddai i ddyn dieithr wneyd,
l nad ymddangosai yn ymwthio ar gymdeithion anad-
abyddus iddo, ond gadael iddynt hwy ei wahodd ef
eu beidio: ac os dangosent hwy chwennychiad am
hwaneg o ymddiddan, yr oedd yn penderfynu yn ei
ddwl ei hun i aros gyda hwynt. † Hwy a grefasant
n daer arno aros gyda hwy am y nos, i gael ychwaneg
r gyfeillach felus a buddiol âg ef.

30 * A darfu, ac efe yn eistedd gyd a
wynt, [h] efe a gymmerodd fara, ac a'*i* bendith-
odd, ac a'*i* torrodd, ac a'*i* rhoddes iddynt.

h adn. 35. pen. 9. 16. a 22. 19. Mat. 14. 19. a 15. 36. a 26. 26.
Marc 6. 41. a 8. 6. a 14. 22. Ioan 6. 11, 23. Act. 27. 35.

31 [i] † A'u llygaid hwynt a agorwyd, a hwy
'i hadnabuant ef: ‡ ac efe a ddiflannodd allan
'u golwg hwynt.

i adn. 16. Ioan 20. 13—16.

* Mae Crist yn cael ac yn cymmeryd y flaenoriaeth
yda'r ddau ddysgybl hyn: efe sydd yn cymmeryd y
ara, yn ei fendithio, yn ei dori, ac yn ei roddi iddynt
wy. Nid bwyta sacramentaidd, ac nid bwyta gwyrth-
ol oedd yma, ond pryd o fwyd cyffredin, ac eto mae
esu yn bendithio yr ymborth: diammau mai hyn oedd
i arfer gyffredin ef, er siampl, i ninnau. † Tybia
hai mai wrth eiriau Crist yn bendithio y bara yr ad-
abuont hwy ef, am iddynt eu clywed ganddo lawer
gwaith o'r blaen; eraill mai wrth iddo gymmeryd y
laenoriaeth wrth y bwrdd: ond nid oes achos dychym-
mygu am y peth; eu "*llygaid hwynt a agorwyd*" medd
yr efengylwr, am hyny yr adnabuant ef. Yr un gallu
gwyrthiol a attaliodd eu llygaid o'r blaen, a'u hagorodd
yn awr. ‡ Nid diflanu fel lledrith neu ddrychiolaeth a
feddylir; ond diflanu drwy symmudiad buan a chwim-
wth allan o'u golwg, neu daflu megys gorchudd rhyng-
ddo ei hun â hwy nes iddo fyned allan o'r ystafell.
Gwedi meddyginiaethu eu hanghrediniaeth hwynt, a
dangos iddynt ei fod yn sicr wedi adgyfodi, efe a ym-
adawodd, fel un wedi gorphen ei neges yno.

32 * A hwy a ddywedasant wrth eu gilydd,
[k] † Onid oedd ein calon ni yn llosgi ynom tra
yr ydoedd efe yn ymddiddan â ni ar y ffordd,
a thra yr ydoedd efe [l] yn agoryd i ni yr ys-
grythyrau?

k Salm 104. 34. Diar. 27. 9, 17. Es. 50. 4. Jer. 15. 16. a 20. 9.
Ioan 6. 63. Heb. 4. 12. l adn. 45. Act. 17. 2, 3. a 28. 23.

* Yn y fàn wedi ei ddiflaniad ef, dechreuodd y ddau
ddysgybl a sùnu: sùnasant ei fod ef wedi adgyfodi ac
ymddangos iddynt hwy, sùnasant wrth effeithiau ei
ymadroddion ef ar hyd y ffordd, a sùnasant wrth eu
dallineb eu hunain na buasent yn ei adnabod ef yn
gynt. † Pregethwr rhyfedd oedd Iesu bob amser, llawer
rhagorach na'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid, a llawer
rhagorach na'i apostolion hefyd: medrai ef daflu y mar-
woryn i'r galon, ni fedrent hwy ond chwythu arno ar y
gorau. Mae llawer o ragor rhwng dull rhai dynion yn
pregethu a'u gilydd; mae ambell i fath o bregethu yn ei
natur, yn ddigon i rewi calonau dynion, a math arall yn
peri iddynt losgi, fel y ddau ddysgybl hyn. Ni a ddylem
yn wastad geisio pregethu ac agoryd yr ysgrythyrau, yn
y fath fodd ag a fyddo yn tueddu i beri i galonau ein
gwrandawwyr *losgi* ynddynt; ac nid eu gwneyd yn farw-
aidd, yn gysglyd, yn oer, ac yn galed: ac wedi y cwbl,
cydnabod mai gwaith Crist yw eu gwresogi, ar ol i ni
ddywedyd a allom. Lle bynag y mae enaid yn cael ei
"fedyddio â thân" dàn bregeth, y mae hefyd yn cael ei
"fedyddio â'r Ysbryd Glân:" nid â chlai a phoeryn y
mae Crist yn agor llygaid y deillion bob amser, er iddo
wneyd felly unwaith.

33 * A hwy a godasant yr awr honno, ac a
ddychwelasant i Jerusalem, [m] † ac a gawsant yr
un ar ddeg wedi ymgasglu ynghyd, a'r sawl
oedd gyd â hwynt,

m Ioan 20. 19—26.

34 ‡ Yn dywedyd, Yr Arglwydd a gyfod-
odd yn wir, [n] || ac a ymddangosodd i Simon.

n pen. 22. 54—62. Marc 16. 7. 1 Cor. 15. 5.

35 [o] § A hwythau a adroddasant y pethau *a*
wnaethesid ar y ffordd, a pha fodd yr adnabu-
wyd ef ganddynt wrth dorriad y bara.

o Marc 16. 12, 13.

* Er ei bod yn hwyr erbyn hyn, eto y cyfryw oedd
llawenydd y ddau ddysgybl, a'u hawydd i fynegi i'w
cyfeillion yr hyn a welsent, fel yr aethant yn eu hol i
Jerusalem yn ddioed. Mae cael Iesu yn dychwelyd
dynion i'w lle yn wastad, ac yn peri iddynt roddi llawer
cam yn eu hol yn aml. Nid oedd yma ddim dywedyd,
"Diosgais fy mhais, pa fodd y gwisgaf hi? golchais fy
nhraed, pa fodd y diwynaf hwynt?" dim esgusodion
gwag dros ddiogi. Yr oedd tân yn y galon yma, yn
hwylusu yr holl enaid, a'r corph hefyd. † Fel y mae
Paul (1 Cor. 15. 5,) yn galw yr apostolion yn ddeuddeg,
er bod Judas y deuddegfed wedi marw; felly mae Luc
yma yn eu galw yn un ar ddeg, er bod Thomas, yr unfed
ar ddeg, yn absenol y tro hwn, fel mae yn amlwg yn
Ioan 20. 24. Mae yn amlwg mai nid Simon oedd un
o'r ddau ddysgybl hyn; pe felly nis gallasent gael yr un
ar ddeg yn Jerusalem, a chyfrif Thomas yn un. Mae
yn amlwg hefyd mai nid dau o'r apostolion oedd y ddau
hyn, nac yr un honynt; oblegid hwy a gawsant yr un ar
ddeg apostolion yn Jerusalem: rhyw ddau o ddysgybl-
ion cyffredin Iesu oeddynt. ‡ "Yn dywedyd:" un ai
wrth eu gilydd pan aeth y ddau ddysgybl i mewn, neu
wrthynt hwy yn y fàn ar eu mynediad i'r ystafell: fel pe

dywedasent, O frodyr, pa le y buoch chwi? mae genym newyddion gogoneddus; yr Arglwydd a gyfododd yn wir, ac a ymddangosodd i Simon. ‖ Nid oes yr un o'r efengylwyr yn crybwyll am ymddangosiad Crist i Simon; ond y mae Paul yn dywedyd yn amlwg iddo ei weled ef cyn i'r deuddeg ei weled, 1 Cor. 15. 5. Mair Magdalen oedd y wraig gyntaf a'i gwelodd ef, Ioan 20. 14, 18; ac mae yn debyg mai Pedr oedd y dyn cyntaf, er nas gwyddom pa le, na pha amser o'r dydd, y gwelodd efe ef. Yr oedd hyn yn drugaredd fawr i Pedr, yr hwn a wadasai ei Arglwydd; a diammau mai er mwyn esmwythâu cydwybod ofidus Pedr, yr ymddangosodd yr Iesu iddo ef o flaen y lleill. "Duw parod i faddeu" yw efe. § Yna adroddodd y ddau ddysgybl y cyfan o'u taith; pa fodd y goddiweddai dyn hwy ar y ffordd, ei ymddiddanion hyfryd ef, yr effeithiau ar eu calonau hwy, a pha fodd yr adnabuant ef o'r diwedd wrth doriad y bara, mai yr Iesu ei hun ydoedd.

36 ¶ * Ac a hwy yn dywedyd y pethau hyn, [p] yr Iesu ei hun a safodd yn eu canol hwynt, ac a ddywedodd wrthynt, [q] † Tangnefedd i chwi.

p Marc 16. 14. Ioan 20. 19—23. q pen. 10. 5. Es. 57. 18, 19. Mat. 10. 13. Ioan 14. 27. a 16. 33. a 20. 26. 2 Thes. 3. 16. Dat. 1. 4.

* Dyma ymddangosiad cyntaf Iesu i'w ddysgyblion yn gynnulledig: sonia Marc am y tro hwn, pen. 16. 14. a Ioan 20. 19, 20. Cyfarfod rhyfedd oedd hwn; dyma gyssegriad y sabbath cristionogol cyntaf. Wedi dyfod i mewn a'r drysau yn gauad, fel y dywedir yn Ioan 20. 19, 26, ond pa fodd y daeth efe i mewn felly nis gŵyr neb ond ef ei hun: peth rhyfeddach nâ hyn o lawer, yw ei ddyfodiad ef i mewn i galon galed a chauedig pechadur, i drigo a gweithredu yn ei ras yno. † Nid dyfod i edliw a dannod, iddynt oll ei adael ef ar nos ei fradychiad, a wnaeth Iesu; ond dyfod i sicrâu iddynt ei fod wedi adgyfodi, ei fod yn maddau iddynt am ei adael, fod ei gariad yn parâu yn ddigyfnewid tuag atynt, ac i gyhoedd tangnefedd a phob bendith arnynt.

37 * Hwythau, [r] wedi brawychu ac ofni, a dybiasant weled o honynt † yspryd.

r pen. 16. 30. 1 Sam. 28. 13. Job 4. 14—16. Mat. 14. 26, 27. Marc 6. 49, 50. Act. 12. 15.

* Dywed Ioan 20. 19, fod y drysau yn gauad rhag ofn yr Iuddewon, gan hyny wrth weled Iesu yn eu canol, wedi dyfod yn sydyn, heb ddim trwst, a thrwy y drysau oedd yn gauad (wedi eu cloi neu eu bolltio oddi fewn, mae yn debyg) nid rhyfedd i'r dysgyblion frawychu ac ofni. Ofer yw ymholi pa fodd yr aeth efe i mewn; tybia rhai iddo fyned i mewn trwy y drysau yn wyrthiol heb eu hagor; ond tybied nad oedd ganddo wir gorph yw hyny, ac ni chyd-saif âg adn. 39. Onid oedd yn ddigon hawdd iddo ef ddadglöi y drysau, neu ŷru y byllt yn ol, yn wyrthiol, ac heb sŵn; ac ar ol myned i mewn, peri iddynt gauad drachefn yr un modd? Hyny sydd debycaf iddo wneyd. † Gwel ar Matth. 14. 26. Os nad oes ysbrydion yn ymddangos, rhaid i ni benderfynu bod y byd, a'r dynion goreu yn y byd, yn mhob oes, wedi camsynied a chael eu twyllo: a bod ychydig *Atheistiaid* annuwiol yn ddoethach na hwynt oll yn y peth hwn.

38 Ac efe a ddywedodd wrthynt, * Paham y'ch trallodir? [s] a phaham y mae meddyliau yn codi yn eich calonnau?

s Jer. 4. 14. Dan. 4. 5, 19. Mat. 16. 8. Heb. 4. 13.

39 [t] † Edrychwch fy nwylaw a'm traed, mai myfi fy hun ydyw. Teimlwch fi, a gwelwch: [u] canys nid oes gan yspryd gnawd ac esgyrn, fel y gwelwch fod gennyf fi.

t Ioan 20. 20, 25, 27. Act. 1. 3. 1 Ioan 1. 1. u pen. 23. 46. Num. 16. 22. Preg. 12. 7. 1 Thes. 5. 23. Heb. 12. 9.

40 Ac wedi iddo ddywedyd hyn, ‡ efe a ddangosodd iddynt *ei* ddwylaw a'*i* draed.

* Nid ceryddu ei ddysgyblion y mae Crist yma, ond eu cysuro a'u cryfâu hwynt, a dangos iddynt nad oedd dim achos ofni; mai efe ei hunan, eu hen gyfaill, ydoedd mewn gwirionedd, ac nid ysbryd. † Mae ein Hiachawdwr yma yn profi, mai ei *wir gorph* ef oedd yr hyn oedd yn ymddangos iddynt hwy, oblegid, 1. Yr oedd iddo *ranau perffaith;* dwylaw a thraed. 2. Oblegid y gellid ei weled. 3. Gellid ei deimlo. 4. Yr oedd iddo gnawd ac esgyrn, yr hyn nid oes gan ysbryd, pa fodd bynag y gallo ymrithio *fel* cnawd ac esgyrn. Mae yr adnod hon yn gref iawn yn erbyn dychymmyg y pabyddion am gorph Crist. ‡ Efallai bod ôl yr hoelion wedi eu gadael yn ei ddwylaw a'i draed ef, i'r dyben pennodawl o argyhoeddi ei ddysgyblion, a phrofi iddynt ei adgyfodiad ef: mae Ioan 20. 25, 27, yn gryf iawn o blaid y cyfryw dyb. Ond, pe buasai yr amgylchiad chwanegol hwn heb fod, buasai y pethau a grybwyllir yn adn. 39, yn llawn digon o dystiolaeth.

41 [x] * Ac a hwy etto heb gredu gan lawenydd, ac yn rhyfeddu, efe a ddywedodd wrthynt, [y] † A oes gennych chwi yma ddim bwyd?

x Gen. 45. 26—28. Job 9. 16. Salm 126. 1, 2. Ioan 16. 22. y Ioan 21. 5, 10—13.

42 ‡ A hwy a roisant iddo ddarn o bysgod-yn wedi ei rostio, ‖ ac o ddil mel.

43 Yntau a'*i* cymmerodd [z] § ac a'i bwyttâodd yn eu gŵydd hwynt.

z Act. 10. 41.

* Geiriau rhyfedd yw y rhai hyn, "Heb gredu gan lawenydd:" eto maent yn ddarluniad naturiol iawn o deimladau yr apostolion yn y cyfryw amgylchiad. Mae yma gyffro rhwng gras a theimladau natur; pe buasent yn llawenychu, eu ffydd oedd yr achos o'u llawenydd; eto yr oedd mawredd eu llawenydd yn rhwystr i'w ffydd: mòr beryglus yw gweithrediadau anghymmedrol ein tymherau ni. † Wrth eu gweled felly yn methu credu yn gadarn a dïysgog, i'r dyben o roddi iddynt ychwaneg o amser, ac hefyd ychwaneg o brawf, gofynodd Iesu am rywbeth i'w fwyta yn eu gwydd hwynt. ‡ Nid oedd yr ymborth ond gwael, ond yr oedd y cyfryw ag oedd ganddynt hwy, ni feddent ddim gwell, ac mae yn debyg na chawsai yr Iesu ddim gwell yn gyffredin yn nyddiau ei ymdaith yn y byd hwn. ‖ Tybia rhai mai math o deisen, neu fara, oedd yr hyn a elwir yma dil mel, wedi ei wneuthur, efallai, o grwybr, yn gymmysg â blawd. § Nid rhith o fwyta a wnaeth Iesu, ond bwyta mewn gwirionedd, ac yn ddiledrith, yn ddiau: nid bwyta i *gynnal* ei gorph a wnaeth, ond bwyta i *brofi* i'r dysgyblion bod ganddo gorph mewn gwirionedd. Na ryfyged cymhenwyr annuwiol geisio cylymau ar lafrwyn; drwy holi, Beth a ddaeth o'r bwyd hwn? &c. Dywedent hwy i ni yn gyntaf, beth a ddaeth o'r bwyd a fwytâodd yr angelion gydag Abraham? Gen. 18. 8, a dysgent gredu, y gallasai Duw yn hawdd ddiddymu y bwyd hwnw drachefn, yr hwn nid oedd anghenrheidiol er cynnaliaeth corph Crist, yn awr yr oedd wedi ei ysbryd-oli, a'i ryddâu oddi wrth bob dychwant naturiol: bwyta a wnaeth efe i brofi fod gwir gorph ganddo, wedi adgyfodi o'r bedd. Mae yn amlwg oddi wrth yr adnodau uchod, na ddylem ni ddim ymwrthod â thystiolaeth ein synwyrau, clywed, gweled, a theimlo, &c.; ac ei bod yn dra afresymol gofyn i ddynion gredu yn hollawl groes iddynt.

44 * Ac efe a ddywedodd wrthynt, [a] Dyma y geiriau a ddywedais i wrthych, [b] pan oeddwn etto gyd â chwi, [c] bod yn rhaid cyflawni pob peth a ysgrifenwyd [d] y'nghyfraith † Moses, [e] a'r prophwydi, [f] a'r psalmau, am danaf fi.

a adn. 6, 7. pen. 9. 22. a 18. 31—33. Mat. 16. 21. a 17. 22, 23. a 20. 18, 19. Marc 8. 31, 32. a 9. 31. a 10. 33, 34. b Ioan 16. 4, 5, 16, 17. a 17. 11—13. c adn. 26, 27, 46. Mat. 26. 54, 56. Ioan 19. 24—37. Act. 13. 29—31. 1 Cor. 15. 3, 4. d Gen. 3. 15. a 14. 18, 19. a 22. 18. a 49. 10. Lef. 16. 2, &c. Num. 21. 8, 9. a 35. 25. Deut. 18, 15—19. Ioan 3. 14, 15. a 5. 46, 47. Act. 3. 22—24. a 7. 37. Heb. 3. 5. a 7. 1—3. a 9. 8—12. a 10. 1. e Es. 7. 14. a 9. 6, 7. a 11. 1—10. a 28. 16. a 40. 1—11. a 42. 1—4. a 49. 1—8. a 50. 2—6. a 52. 13—15. a 53. a 61. 1—3. Jer. 23. 5, 6. a 33. 14, 15. Ezec. 17.

-24. a 34. 23, 24. Dan. 2. 44. a 7. 13, 14. a 9. 24—27. Hos. 1. 11. a 3. 5. Joel 2. 28—32. Amos 9. 11, 12. Mica 5. 1—4. Hag. —9. Zec. 6. 12, 13. a 9. 9. a 11. 8—13. a 12. 10. a 13. 7. a 14. Mal. 3. 1—3. a 4. 2—6. f Salm 2. a 16. 9—11. a 22. a 40. 8. a 69. a 72. a 88. a 109. 4-20. a 110. a 118. 22, 23. Ioan 5. Act. 17. 2, 3. 1 Pedr 1. 11. Dat. 19. 10.

* Gwedi profi ei adgyfodiad i'w ddysgyblion yn y dull nod, mae Crist yn myned yn mlaen yma i ddangos ondeb hyny a'r pethau a ddywedasai efe wrthynt ver gwaith o'r blaen, ac hefyd âg ysgrythyrau yr Hen stament. † Rhanai yr Iuddewon yr Hen Destament dri dosparth; y *gyfraith*, y *prophwydi*, a'r *ysgrifen-au* sanctaid[3], y rhai a alwent, yr *Hagiographa*. Yr ld y Salmau yn un o'r dosparth olaf, ac yn fwyaf dedig yn eu golwg hwy: felly wrth y tri enw hyn, e Crist yn meddwl yr holl Hen Destament.

45 g * Yna yr agorodd efe eu deall hwynt, y deallent yr ysgrythyrau.

g Ex. 4. 11. Job 33. 16. Salm 119. 18. Es. 29. 10—12, 18, 19. 16. 14. a 26. 18. 2 Cor. 3. 14—18. a 4. 4—6. Eph. 5. 14. Dat.

* Nid yn unig adrodd yr ysgrythyrau, a'u hegluro wn geiriau; ond efe a *agorodd ddeall* ei ddysgyblion y *deallent* yr ysgrythyrau hyny. Gall dynion wneyd ldau beth cyntaf; ond nis gall neb ond Iesu y Pro-wyd mawr wneyd y peth diweddaf. Nid agor eu deall b yr ysgrythyrau a wnaeth, ond trwy yr ysgrythyrau. wyddai efe nad oedd yr ysgrythyrau eu hunain yn igon i agor eu deall hwynt, heb ddylanwadau dwyfol la hwynt; gan hyny *efe* a agorodd eu deall hwynt. ae diafol yn twyllo yr eneidiau hyny, y rhai mae efe eu darbwyllo i daflu heibio yr ysgrythyrau, gan fedd-cael dysgeidiaeth yr Ysbryd hebddynt: trwy yr grythyrau mae efe yn dysgu, nid hebddynt, ac yn oes iddynt.

46 Ac efe a ddywedodd wrthynt, h * Felly ysgrifenwyd, ac felly yr oedd raid i Grist lioddef, a chyfodi o feirw y trydydd dydd:

h adn. 27, 44.

* Mae yr holl brophwydoliaethau dwyfol yn sicr, yn ffaeledig. Yr oedd yr Iuddewon yn erlid ein Iach-dwr yn llidiog ac o'u gwirfodd, hyd angeu; ac yr dd Duw yn sicr yn rhag-weled pa fodd y byddai eu wyllysiau hwy, ac yr oedd y diwedd yn cael ei gyf-wni yn ol hyny. Felly yr oedd yn rhaid i Grist yoddef. Gwel ar adn. 26.

47 i * A phregethu edifeirwch a † maddeu-ut pechodau ‡ yn ei enw ef k || ym mhlith yr oll genhedloedd, l § gan ddechreu yn Jerusa-m.

i Mat. 3. 2. a 9. 13. Act. 2. 38. a 3. 19. a 5. 31. a 11. 18. a 13. 39. a 17. 30, 31. a 20. 21. a 26. 20. k Salm 22. 27. a 67. 2—7. a 86. 9. a 98. 1—3. a 117. Es. 2. 1—3. a 11. 10. a 49. 6. a 52. 15. a 60. 1—3. a 66. 18—21. Hos. 2. 23. Mal. 1. 11. Mat. 8. 10, Act. 13. 46—48. a 18. 5, 6. a 28. 28. Rhuf. 10. 12—18. a 15. 16. Eph. 3. 8. Col. 1. 27. l pen. 13. 34. Es. 5. 4. Hos. 11. Mat. 10. 5, 6. Act. 3. 25, 26. a 13. 46. Rhuf. 5. 20. a 11. 26, 27. Eph. 1. 6.

48 m * Ac yr ydych chwi yn dystion o'r ethau hyn.

m Ioan 15. 27. Act. 1. 8, 22. a 2. 32. a 3. 15. a 4. 33. a 5. 32. 10. 39, 41. a 13. 31. a 22. 15. Heb. 2. 3, 4. 1 Ioan 1. 2, 3.

* Mae holl ddyledswydd fawr yr apostolion yn gyn-wysedig mewn ychydig eiriau yn adn. 47:—1. Pregethu edifeirwch a maddeuant pechodau. 2. Yn enw Iesu. Yn mhlith yr holl genedloedd. 4. Gan ddechreu yn rusalem. * *Edifeirwch;* sef galar duwiol am bech-d, dychweliad o bob ffyrdd drygionus, i fywyd o gyd-arfiad âg ewyllys Duw. † *Maddeuant pechodau;* sef eu hedifeirwch, a thrwy ffydd yn ngwaed Crist. ‡ *Yn w Iesu;* sef trwy awdurdod ac anfoniad Iesu, ac fel genadon ef; neu *yn enw Iesu* o ran teilyngdod ac wn. Nid *am* edifeirwch y mae cael maddeuant, ond wy aberth ac iawn Crist. || *Yn mhlith yr holl genedl-dd;* felly y prophwydwyd lawer gwaith; Salm 2. 8; s. 49. 6; Dan. 7. 14; Hos. 2. 23; Joel 2. 32. Darn ddatguddiad dwyfol oedd hyn, a gadwodd Iesu yn guddiedig mewn rhan fawr hyd y pryd hwn; wrth ddan-fon y deuddeg o'r blaen, Matth. 10. 5, gwarafunodd iddynt fyned i ffordd y cenedloedd. § *Gan ddechreu yn Jerusalem;* hyny yw, yn mhlith yr Iuddewon. Pro-phwydwyd am Iesu fel Brenin ar Sion, mynydd sanct-aidd Duw, Salm 2. 6; a 110. 2; Es. 2. 3; a 28. 16; a 60. 1. Yn gyfatebol i hyn ni a gawn yr *Apostolion* yn pregethu yn *Judea* yn unig; hyd oni wrthododd yr Iu-ddewon y gair, gan eu barnu eu hunain yn annheilwng o fywyd tragywyddol, yna troisant hwy at y cenedloedd, Act. 13. 38, 46. Yr oedd hyn yn anghenrheidiol i am-ryw bethau:—1. Fel y byddai i'r Iuddewon gael braint y cyntaf-anedig. 2. Fel y byddai i etholedigion Duw yn eu plith hwy gael eu galw rifedi mawr yno, cyn dyfetha'r genedl, ac fel blaen-ffrwyth gweinidogaeth yr efengyl. 3. Fel y caffai Iesu ei ddangos, a'i brofi yn fwy amlwg, fel Mab Duw a gwir Fessiah, yn y wlad lle y croeshoeliwyd ef. 4. Fel y byddai i'r efengyl gael taeniad cyflymach oddi yno i wledydd eraill. 5. Ac fel y byddai i'r pechaduriaid mwyaf, hyd yn nod y rhai y bu llaw ganddynt yn nghroeshoeliad Crist, a phawb eraill, lle y pregethid yr efengyl wedi hyny, gael eu calonogi i obeithio am adferiad ac iechydwriaeth, trwy oludoedd gras Duw yn y Cyfryngwr. * Gwedi gweled a chlywed pobpeth a berthyn i mi o'r dechreuad; wedi derbyn edifeirwch a maddeuant pechodau eich hunain; a chwedi eich dewis o flaen pawb eraill i dystiolaethu a phregethu y pethau hyn. Cofiwch mai hyn yw eich dyledswydd fawr chwi am eich oes, ac mai gwaith sobr iawn yw tystiolaethu dros Dduw, ac yn achos bywyd tragywyddol dynion.

49 ¶ * Ac wele, n yr ydwyf fi yn anfon addewid fy Nhad arnoch: o † eithr arhoswch chwi yn ninas Jerusalem, hyd oni wisger chwi â nerth o'r uchelder.

n Es. 44. 3, 4. a 59. 20, 21. Joel 2. 28. Ioan 14. 16, 17. a 15. 26. a 16. 7—16. o Es. 32. 15. Act. 1. 4, 8. a 2. 1—4.

* Addewid y Tad oedd yr Ysbryd Glân, yr hwn a dywalltwyd ar yr apostolion ar ddydd y pentecost. Am yr addewidion o hóno, gwel y cyfeiriadau *(n,)* y "nerth o'r uchelder" yw yn niwedd yr adnod. † Tybir mai ar ol i Grist ymddangos i'w ddysgyblion yn Galilea, y llef-arodd efe y geiriau hyn, er nad yw Luc yn sylwi dim ar hyny: oblegid mae efe yma yn peri iddynt aros yn Jerusalem, yr hyn a wnaethant hyd dywalltiad yr Ysbryd Glân.

50 ¶ Ac efe a'u dug hwynt allan p * hyd yn Bethania; q † ac a gododd ei ddwylaw, ac a'u bendithiodd hwynt.

p Marc 11. 1. Act. 1. 12. q Gen. 14. 18—20. a 27. 4. a 48. 9. a 49. 28. Num. 6. 23—27. Marc 10. 16. Heb. 7. 5—7.

51 Ac fe a ddarfu, tra yr oedd efe yn eu bendithio hwynt, r ymadael o hono ef oddi wrthynt, ‡ ac efe a ddygwyd i fynu i'r nef.

r 2 Bren. 2. 11. Marc 16. 19. Ioan 20. 17. Act. 1. 9. Eph. 4. 8—10 Heb. 1. 3.

Hyd derfynau Bethania, meddant, yw ystyr y geiriau gwreiddiol, ac nid hyd *yn* Bethania. Yr oedd Bethania yn nghylch pymtheg ystâd o Jerusalem; (Ioan 11. 18;) ond nid oedd y màn o ba le yr esgynodd Crist, ond taith diwrnod sabbath, (Act 1. 12.) tua hanner y pellder hyny. Felly, i gysoni yr hyn a ddywed Luc yma, â'r hyn a ddywed yn yr Actau, rhaid i ni feddwl mai hyd derfynau Bethania yr arweiniodd Iesu ei ddysgyblion; yr hyn oedd lawer yn nes i Jerusalem, ac yn rhan o fynydd yr Olew-wydd. † A dwylaw sanctaidd a dyrch-afedig, ac heb na digter na dadl yn ei galon, efe a fen-dithiodd ei ddysgyblion wrth eu gadael. Efe a *weddi-odd* am fendith iddynt, fel eu Cyfaill a'u Brawd; ac a *orchymynodd* am fendith arnynt, fel eu Brenin a'u Duw. ‡ Aeth Elias i'r nef mewn cerbyd tanllyd a chorwynt (2 Bren. 2. 11:) aeth Iesu i'r nef mewn cwmwl gogon-eddus, Act. 1. 9; ond gyda hyn o wahaniaeth hefyd; esgynodd Iesu yn ei nerth dwyfol ei hun, nis gallai

Elias heb gymmorth angel. Diammau fod angelion yn gweini i Grist ar ei esgyniad; ond er mawredd, nid o angen am eu cynnorthwy.

52 [a] * Ac wedi iddynt ei addoli ef, † hwy a ddychwelasant i Jerusalem, [t] ‡ gyd â llawenydd mawr:

s Mat. 28. 9, 17. Ioan 20. 28. t Salm 30. 11. Ioan 14. 28. a 16. 7. 22. 1 Pedr 1. 8.

53 || Ac yr oeddynt yn wastadol [u] yn y deml, § yn moli ac yn bendithio Duw, [x] Amen.

u Act. 2. 46, 47. a 5. 41 42. x Mat. 28. 20. Marc 16. 20. Dat. 22. 21.

Yr oedd yn fwy angenrheidiol i Grist esgyn i'r nef yn ngolwg ei apostolion, nac oedd iddo adgyfodi yn eu golwg; cawsant ei weled ef wedi adgyfodi, ond nis gallasent ei weled ef yn y nef a hwythau ar y ddaear, na gwybod i ba le yr aethai oni buasai iddynt ei weled yn myned. * Gwedi iddynt ei weled yn esgyn, hwy a'u haddolasant, fel eu Harglwydd a'u Duw. Nid ydym yn darllen yn un màn i'r apostolion *addoli* Crist o'r blaen; yr oedd eu ffydd yn awr wedi cyrhaeddyd ei gradd uwchaf, felly eu cariad a'u llawenydd hefyd. Yr oeddynt wedi gweled ei fawredd ef â'u llygaid, ac yn credu yn ddibetrus mai Crist Mab y Duw byw ydoedd, ac mae yn debyg na ddaeth cwmwl ar eu ffydd yn y pwnc hwn byth mwyach. Os oedd Iesu wedi esgyn i'r nef pan wnaethant hwy hyn, rhaid mai addoliad yn ystyr mwyaf priodol y gair ydoedd; oblegid nis medrwn amgyffred pa fodd y gallent hwy addoli un absenol, heb iddynt gredu ei fod ef rywfodd yn hysbys o'r hyn a wnâent hwy; neu, mewn gair, heb iddynt gredu ei fod ef yn Berson Dwyfol a hollwybodol. Ac nis gellir dywedyd iddynt hwy ei addoli ef fel hyn *pan oedd efe yn esgyn;* oblegid yn Act. 1. 9, 10. dywedir, eu bod hwy yn parâu i edrych yn ddyfal tua'r nef, hyd oni dderbyniodd cwmwl ef allan o'u golwg, ac hyd oni ddaeth y ddau angel i lefaru wrthynt: rhaid gan hyny debygem, mai ar ol ei esgyniad yr addolodd ei apostolion ef fel hyn. † Dychwelasant i Jerusalem yn ol gorchymyn eu Harglwydd, adn. 49, wedi eu rhybuddio gan yr angelion i hyny, Act. 1. 10, 11. ‡ Pan soniai Crist am adael ei ddysgyblion o'r blaen, byddai tristwch yn llenwi eu calonau; ond yn awr wedi iddo eu gadael, maent yn dychwelyd mewn llawenydd mawr. Yr oeddynt erbyn hyn wedi deall pethau yn well; wedi gweled eu Harglwydd wedi buddugoliaethu ar ei holl elynion, wedi esgyn yn orfoleddus i'w ogoniant; yr oeddynt yn dysgwyl yn ffyddiog am gyflawniad buan o'i addewidion ymadawol ef, yr hyn y barai helaethu ei deyrnas ef ar y ddaear, ac yr oeddynt yn dysgwyl cael myned yn y diwedd ar ei ol ef i'r gogoniant, i fod yn wastadol gydag ef. || Yn Act. 1. 12, 13, dywedir iddynt fyned i fynu i oruwch-ystafell, yma dywedir eu bod yn y deml: Luc a ddywedodd y ddau beth. Tybia rhai bod yr oruwch-ystafell hòno yn perthyn i'r deml, ac yn gydiol â hi, ond nid yw yn debyg fod yr offeiriaid yn ddigon cyfeillgar i ganiatâu hyny iddynt. Ond wrth y gair "gwastadol" yma, gellir deall eu bod yno yn wastadol y dydd, ar amserau gosodedig addoliad Duw; ac yn yr oruwch-ystafell y nos pan fyddai y deml yn gauad. Yr oeddynt yno ar bob amserau priodol, âent yno yn hytrach nag i un màn arall, gan mai yno yr arferai yr Iuddewon weddio a thalu diolch yn gyhoeddus a chynnulleidfâol; yn enwedig ar achlysuron o bwys, fel yr oedd yn awr gyda dysgyblion Iesu. § Mae yn ddiammau eu bod yn cyd-ganu â'r Lefiaid, fel y gwnai Israeliaid duwiol eraill; ond wrth y pethau oeddynt hwy wedi eu gweled, eu gwybod, a'u profi, mae yn rhaid eu bod wedi dysgu i ddefnyddio y Salmau a genid yno, mewn ystyr llawer mwy goruchel ac ysbrydol, nag y gallai y cyffredin o'r addolwyr. Amen, ebai yr apostolion; Amen, ebai ysgrifenydd yr efengyl hon; ac Amen, medd pob gwir gredadyn: felly y byddo, caffed Duw ei fawrygu byth am hyn oll!

YR EFENGYL

YN OL

SANT IOAN.

PEN. I.

Duwdod, dyndod, a swydd Iesu Grist.

[a] * YN y dechreuad † yr oedd [b] y Gair, ‡ a'r Gair oedd [c] gyd â Duw, [d] || a Duw oedd y Gair.

a Gen. 1. 1. Diar. 8. 22, 23. Eph. 3. 9. Col. 1. 17. Heb. 1. 10. a 7. 3. a 13. 8. Dat. 1. 8, 11. a 21. 6. a 22. 13. b adn. 14. 1 Ioan 1. 1, 2. a 5. 7. Dat. 19. 13. c adn. 18. pen. 16. 28. a 17. 5. Diar. 8. 22—30. 1 Ioan 1. 2. d pen. 10. 30—33. a 20. 28. Salm 45. 6. Es. 7. 14. a 9. 6. a 40. 9—11. Mat. 1. 23. Rhuf. 9. 5. Phil. 2. 6. 1 Tim. 3. 16. Tit. 2. 13. Heb. 1. 8. 2 Pedr 1. 1. 1 Ioan 5. 7, 20.

* Yn y dechreuad a sonia Moses, Gen. 1. 1; dechreuad amser: nis gellir priodoli dechreuad i ddim cyn hyny; tragywyddoldeb diddechreuad oedd y cwbl o'r blaen. † Tragywyddol Fab Duw, yr Arglwydd Iesu Grist, yw y Gair yma. Gelwir ef felly mewn llawer o fânau eraill: gwel y cyfeiriadau. Mae yr enw hwn yn addas iawn i Fab Duw; am ei fod yn arddangos rhywbeth o'i genedliad annhraethadwy ef, fel y mae y gair yn cael ei genedlu yn ein meddyliau ni, ac yn wir ddelw o honynt. Mae hefyd yn dangos ei swydd ef, fel Cyfryngwr, yn datguddio ewyllys y Tad i ddynion, ac yn datguddio y Tad ei hun, adn. 18. Matth. 11. 27. Yr oedd y Gair hwn *yn* y dechreuad, gan hyny rhaid ei fod *cyn* y dechreuad: heb ei fod *cyn* y dechreuad nis gallasai fod *yn* y dechreuad. Nid yn nechreuad yr efengyl, fel y taera y Sosiniaid; ond yn y dechreuad a enwyd uchod, fel mae yn amlwg wrth yr adnodau a ganlyn, yn enwedig y drydedd. ‡ Gyda Duw, felly y dywed Solomon am dano, Diar. 8. 27, 30. Mae hyn yn ei wahaniaethu oddi wrth bob creadur: pa greadur oedd *gyda* Duw *yn* y dechreuad? Neb! Yr oedd pethau eraill *o'r* dechreuad, nid oedd ond y Gair *yn* y dechreuad, yn undeb y Tad a'r Ysbryd. *Gyda* Duw. || Dysgid yr Iuddewon yn wastadol yn y synagogau, mai yr un peth oedd "Gair Duw" â Duw ei hun; ac mai trwy y Gair y "gwnaethpwyd pob peth:" yr hyn yn ddiammau oedd yr achos i Ioan draddodi dirgelwch mòr fawr mewn cyn lleied o eiriau, gan fod yr athrawiaeth yn ddigon hysbys i'r Iuddewon o'r blaen. Dangosir yn yr adnod hon, dragywyddol hanfod Crist; ei berthynas â'r Tad a'i breswyliad gyda'r Tad; ac undeb

o unrhywiaeth ei hanfod ef â'r eiddo y Tad. Un
ynt.

2 2 * Hwn oedd yn y dechreuad gyd â Duw.

* Yr oedd y Person Dwyfol hwn o hyd yn cyd-hanfodi
a anwahanol â'r Tad; nid yn unig cyn ei eni ef o for-
m, ond hefyd *yn* y dechreuad, er tragywyddoldeb, cyn
d yr un creadur. Gan ei fod felly, rhaid ei fod yn
duw, yn ystyr fwyaf prïodol y gair; oblegid beth a
asai fod gyda Duw cyn bod creaduriaid, ond Duw ei
n? neu, mewn geiriau eraill, Person Dwyfol, ag oedd
ddisgleirdeb gogoniant y Tad, yn wir lun ei Berson,
yn mhob ystyr yn ffurf Duw, ac yn ogyfuwch âg ef.
ae hyn yn hollawl ddadymchwelyd athrawiaeth ynfyd
hableddus y rhai hyny a ddywedant mai rhyw Dduw
na'r Tad yw Iesu, o herwydd ei swydd fel llywod-
ethwyr y byd. Dwyfoli crëadur sydd ynfydrwydd.

3 e * Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth;
hebddo ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaeth-
wyd.

e adn. 10. pen. 5. 17—19. Gen. 1. 1, 26. Salm 33. 6. a 102. 25.
. 45. 12, 18. Eph. 3. 9. Col. 1. 16, 17. Heb. 1. 2, 3, 10—12. a 3.
4. Dat. 4. 11.

* "Trwyddo ef," fel offeryn, medd gwadwyr gwir
duwdod Crist; ond nis gall hyny fod: crëu yw y
waith a grybwyllir yma, a chrëu pob peth; ac nis gall
llychymmyg am offeryn, neu îs-weithredydd dàn Dduw,
a y gwaith o grëu, byth gyd-sefyll âg unrhyw syniadau
n allu crëawl; yr hwn sydd o anghenrhaid yn wir
dwyfol ac anfeidrol, ac a briodolir yn wastad yn yr ys-
ythyrau i'r Goruchaf Dduw. Pe caniatêid mai fel
feryn yr oedd yn crëu, eto yr oedd *yn* y dechreuad
edi y cwbl; ac os felly, rhaid ei fod *cyn* y dechreuad,
fel hyny yn wir Dduw. Eto, os trwyddo ef y crëwyd
b peth, rhaid ei fod yn ddigrëedig ei hun; oblegid os
rëedig yw ef, nis gellir dywedyd i *bob* peth gael eu
rëu trwyddo ef: crewyd ef ei hun, y darn penaf, gan,
eu drwy, rywun arall! Rhaid i ni ymwrthod â'r fath
ddyliau, a chredu tystiolaeth gair Duw.

4 f * Ynddo ef yr oedd bywyd; g † a'r
ywyd oedd oleuni dynion:

f pen. 5. 21, 26. a 11. 25. a 14. 6. 1 Cor. 15. 45. Col. 3. 4.
Ioan 1. 2. a 5. 11. Dat. 22. 1. g adn. 8, 9. pen. 8. 12. a 9. 5.
12. 35, 46. Salm 84. 11. Es. 35. 4, 5. a 42. 6, 7, 16. a 49. 6. a 60.
—3. Mal. 4. 2. Mat. 4. 16. Luc 1. 78, 79. a 2. 32. Act. 26. 23.
Eph. 5. 14. 1 Ioan 1. 5—7. Dat. 22. 16.

* Yn y Gair hwn yr oedd bywyd: bywyd anianol,
sbrydol, a thragywyddol. Ynddo ef fel dwfr yn y ffyn-
n, fel goleuni yn yr haul. Ynddo ef yn hanfodol, o
nghenrheidrwydd, ac erioed. Efe yw ffynon a rhodd-
ir bywyd pob crëadur, o'r gwybedyn lleiaf hyd yr angel
rdderchocaf, ac efe sydd yn cynal bywyd yn mhawb.
nddo ef y mae bywyd ysbrydol ei holl saint: "Crist
in bywyd ni" yw efe. Ynddo ef hefyd y mae bywyd
ragywyddol: "hwn yw y gwir Dduw a'r bywyd tragy-
yddol." Ynddo ef yr *oedd* bywyd, a ddywed Ioan, nid
nddo ef y *mae* bywyd: yr oedd *ef yn* y dechreuad, ac
r oedd bywyd ynddo ef yn y dechreuad, gan hyny nid
i dderbyn a wnaeth fel y crëaduriaid; ac os nad ei
iderbyn a wnaeth fel y crëaduriaid, nid crëadur yw ef,
ithr Duw anfeidrol, a chrëawdwr pob peth oll. † Mae
fe fel Duw yn cyfranu bywyd i bob crëadur yn ol ei
ww; bywyd tyfol i'r coedydd a'r llysiau, bywyd anifeil-
ïdd i'r holl grëaduriaid direswm, bywyd dynol i ddyn-
on, a bywyd angylaidd i'r angelion: ond y mae efe
newn modd arbenig yn *oleuni* dynion. Pa beth bynag
aller ei alw yn *oleuni*, anianawl, deallawl, moesawl,
eu ysbrydawl, o hóno ef y mae; o'r ffynon hòno o
ywyd sydd ynddo ef: yn enwedig goleuni dyn syrth-
edig, i ddangos iddo y ffordd i fywyd tragywyddol a
wir ddedwyddwch.

5 h * A'r goleuni sydd yn llewyrchu yn y
ywyllwch; † a'r tywyllwch nid oedd yn ei
amgyffred.

h adn. 10. pen. 3. 19, 20. a 12. 36—40. Job 24. 13—17. Diar.
. 22, 29, 30. Rhuf. 1. 28. 1 Cor. 2. 14.

* Goleuni gweithredoedd Duw, mewn crëadigaeth a
rhagluniaeth; goleuni y cysgodau a'r prophwydol-
iaethau dàn yr hen oruchwyliaeth; goleuni gweinidog-
aeth Crist ei hun, Ioan Fedyddiwr a'r apostolion;
goleuni gweinidogaeth yr efengyl o hyny hyd yn awr;
ac, yn olaf, goleuni rheswm a chydwybodau dynion an-
ianol: mae y goleuni, neu y goleuadau hyn, wedi bod
yn llewyrchu, ac yn para i lewyrchu yn y tywyllwch;
hyny yw, mewn byd tywyll, ac i ddynion sydd yn dy-
wyllwch yn eu heneidiau. Tywyllwch oedd yr holl
genedloedd paganaidd, nid oedd yr Iuddewon nemawr
gwell; na ninnau yn awr tra yn ein cyflwr naturiol.
† Nid oedd y byd paganaidd yn adnabod nac yn amgy-
ffred dim yn iawn am Dduw yn wyneb ei weithredoedd;
nid oedd yr Iuddewon yn amgyffred fawr am Grist yn
wyneb y cysgodau o hóno, a'r prophwydoliaethau am
dano; nid oeddynt yn amgyffred mai Iesu o Nazareth
oedd y Messiah, y gwir Oleuni, pan ddaeth i'r byd, nac
yn wyneb ei weinidogaeth ef ei hun, Ioan na'r apostol-
ion; nid yw dynion anianol eto yn amgyffred pethau
Duw, er mai goleuni ydynt, yn wyneb yr efengyl. Mae
y geiriau hefyd yn gosod allan gyndynrwydd calonau
dynion yn gystal a'u tywyllwch; ni fynant amgyffred:
maent yn gwrthwynebu y goleuni, ac yn caru y tywyll-
wch yn fwy na'r goleuni. Gwel gyfeiriadau yr adnod.

6 ¶ i * Yr ydoedd gwr wedi ei anfon oddi
wrth Dduw, a'i enw k Ioan.

i adn. 33. pen. 3. 28. Es. 40. 3—5. Mal. 3. 1. a 4. 5, 6. Mat.
3. 1, &c. a 11. 10. a 21. 25. Marc 1. 1—8. Luc 1. 15—17, 76. a 3.
2, &c. Act. 13. 24, 25. k Luc 1. 13, 61—63.

* Ioan Fedyddiwr oedd hwn, nid Ioan yr efengylwr,
ysgrifenydd yr efengyl hon. Am ei anfoniad ef oddi
wrth Dduw, gwel ar ei hanes ef yn yr efengylwyr eraill,
yn enwedig ar Luc 1. 13—25, 57—80; a 3. 1, &c.
Llefara yr efengylwr am dano yn wahanol iawn i'r hyn
a ddywedodd am Grist, y Gair: yr oedd Ioan wedi ei
anfon oddiwrth Dduw; ond yr oedd y Gair yn y dechreu-
ad gyda Duw: gwr ydoedd Ioan; ond Duw oedd y Gair:
daeth Ioan i dystiolaethu am y Goleuni; ond yr oedd
goleuni yn y Gair: ïe Goleuni oedd y Gair.

7 * Hwn a ddaeth l yn dystiolaeth, † fel y
tystiolaethai am y Goleuni, m ‡ fel y credai
pawb trwyddo ef.

l adn. 19, 26, 27, 29, 32—34, 36. a 3. 26—36. a 5. 33—35. Act.
19. 4. m adn. 9. pen. 3. 26. Eph. 3. 9. 1 Tim. 2. 4. Tit. 2. 11.
2 Pedr 3. 9.

* Yn Mal. 3. 1, gelwir Ioan yn genad, i ddangos ei
awdurdod; yma gelwir ef yn dystiolaeth, i ddangos ei
waith: yr hyn hefyd yw gwaith pob gwir weinidog yr
efengyl. Ioan oedd y tyst cyntaf, ac a dystiolaethodd
am beth nas gwyddai y byd yn gyffredin ddim am dano;
y Messiah wedi dyfod. † Tystiolaethu am y Goleuni
oedd tystiolaethu am Grist. Crist oedd y Goleuni.
Goleuni yw Duw; Goleuni yw Crist: am hyny rhaid
bod Crist yn Dduw. ‡ Dyben Ioan yn tystiolaethu
oedd, fel y credai pawb ei dystiolaeth ef am Grist: neu
fel y credai pawb yn Nghrist trwy ei dystiolaeth ef.
Chwennychai Ioan i *bawb* gredu; ac yr oedd ei dysti-
aeth yn ddigon i bawb a'i clywodd; ond ychydig a
gredasant. Cael dynion i *gredu* yw amcan gweinidogion
yr efengyl, a chael *pawb* i gredu; ond mynych y
dywedant, Pwy a gredodd?

8 n * Nid efe oedd y Goleuni, eithr *efe a
anfonasid* fel y tystiolaethai am y Goleuni.

n adn. 20. pen. 3. 28.

* Yn eglurdeb ei athrawiaeth, yn ngwresawgrwydd ei
ysbryd, ac yn sancteiddrwydd ei fywyd, yr oedd Ioan
yn "ganwyll yn llosgi;" ond nid efe oedd y Goleuni:
tystiolaethu am y Goleuni yr oedd efe, ac yn derbyn ei
oleuni i hyny o Grist y Goleuni hanfodol ei hun.

9 o * Hwn ydoedd y gwir Oleuni, p † yr
hwn sydd yn goleuo pob dyn a'r y sydd yn
dyfod i'r byd.

o adn. 4. pen. 6. 32. a 14. 6. a 15. 1. Mat. 6. 23. 1 Ioan 1. 8.

a 5. 20. p adn. 7. pen. 8. 12. a 12. 46. Es. 8. 20. 1 Thes. 5. 4—7.

* Hwn, sef Crist, ydoedd y *gwir Oleuni*, mewn cyferbyniad i gau oleuni y doethion paganaidd, a goleuni gwàn y cysgodau Iuddewig, a dysgeidiaeth gyfeiliornus yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid. Hwn oedd y *gwir* Oleuni hefyd, mewn cyferbyniad i Ioan Fedyddiwr, a'r apostolion; y rhai nid oeddynt ond ei weinidogion ef, a thystion am dano. † Efe yw goleuni naturiol a rhesymol pob dyn a'r y sydd yn dyfod i'r byd, y fu, y sydd, a ddaw; ac efe yw goleuni ysbrydol pob dyn ag sydd yn cael ei oleuo felly, cenedloedd yn gystal ag Iuddewon. Goleuni ysbrydol a feddylir yn benaf, nid oedd y prophwydi ond yn goleuo yr Iuddewon, daeth Crist i fod yn Oleuni i oleuo y cenedloedd hefyd. Gellir darllen y geiriau fel hyn, meddant, Hwn yw y gwir Oleuni, yr hwn, gan ddyfod i'r byd, sydd yn goleuo pob dyn.

10 [q] * Yn y byd yr oedd efe, [r] † a'r byd a wnaethpwyd trwyddo ef; [s] ‡ a'r byd nid adnabu ef.

q adn. 18. pen. 5. 17. Gen. 11. 6—9. a 16. 13. a 17. 1. a 18. 33. Ex. 3. 4—6. Act. 14. 17. a 17. 24—27. Heb. 1. 3. r Gwel ar adn. 3.—Jer. 10. 11, 12. Heb. 1. 2. a 11. 3. s pen. 17. 25. Mat. 11. 27. 1 Cor. 1. 21. a 2. 8. 1 Ioan 3. 1.

* Yn y byd yr oedd efe, o ran ei holl-bresenoldeb dwyfol; yn y byd yr oedd efe, yn ei gynnal â gair ei nerth; yn y byd yr oedd efe, yn amlygu ei ewyllys dàn wahanol oruchwyliaethau, ac yn benaf drwy Moses; ac yn y byd yr oedd efe, yn ei amlygu ei hun weithiau megis mewn rhith o gnawd, cyn iddo ddyfod mewn gwir gnawd. † Dywedai y cyfeiliornwyr a elwid y *Gnosticks* mai rhyw Ysbryd drwg a wnaeth y byd; a bod Duw yr Hen Destament a Duw y Testament Newydd yn bersonau gwahanol a chroes i'w gilydd. Tybia rhai mai yn erbyn y cyfeiliornwyr hyny yr oedd Ioan yn cyfeirio y geiriau hyny; mae yn sicr y byddai llawer o'r hen dadau yn eu defnyddio yn erbyn y dychymmyg ynfyd-wyllt hwnw. ‡ Er mai Crist a wnaeth y byd, ac er ei fod yn y byd yn ei amlygu ei hun o oes i oes, fel y soniwyd uchod; eto, y fath oedd dallineb y byd fel nad adnabu ef. Nid adnabu y cenedloedd ef fel Duw a Chrëawdwr, ac nid adnabu yr Iuddewon ef, yn gyffredin, fel eu Duw cyfammodol, eu cyfathrachwr, a'u Messiah.

11 [t] * At ei eiddo ei hun † y daeth, [u] ‡ a'r eiddo ei hun nis derbyniasant ef.

t Mat. 15. 24. Act. 3. 25, 26. a 13. 26, 46. Rhuf. 9. 4, 5. a 15. 8. Gal. 4. 4. u pen. 3. 32. Es. 53. 2, 3. Luc 19. 14. a 20. 13—15. Act. 7. 51, 52.

* "Ei eiddo ei hun;" nid yn unig fel y rhan arall o'r byd yn gyffredin, trwy hawl crëedigaeth; ond mewn modd mwy neilldiol, fel yr oedd ef yn Dduw Israel, a'r Iuddewon yn bobl gyfammodol a phroffesedig iddo, ac yn berthynasau iddo o ran y cnawd. Mae y geiriau hyn yn dangos yn lled gryf, bod y genedl Iuddewig mewn rhyw ystyr, dàn ofal a gwarcheidwaeth neilldiol Crist cyn iddo ddyfod yn y cnawd. † Efe a ddaeth drwy y prophwydi, Es. 50. 2, drwy Ioan Fedyddiwr, ac o'r diwedd ei hunan, yn bersonol yn y cnawd. ‡ Ni chafodd Iesu fawr o dderbyniad gan yr Iuddewon fel dyn, tra bu yn aros yn eu plith; ond yma wrth dderbyn y meddylir credu ynddo fel Mab Duw, Gwaredwr, a Messiah: ni dderbyniodd ond ychydig o'r Iuddewon ef felly mae yn amlwg. At ei eiddo ei hun, *(Eis ta idia)*—A'r eiddo ei hun, *(Idioi.)* Mae y cyntaf yn cynnwys y deml, a phob peth a berthynai i addoliad Duw, a rhagor-freintiau neilldiol y genedl: a'r ail yn arwyddo yr Iuddewon yn unig, fel yn meddiannu y rhagor-freintiau hyny, ac felly drwy broffes ac iawn, yn bobl ac eiddo y Messiah. Nid oes dim gwahaniaeth yn y Gymraeg yn nwy ran yr adnod, ac nid yw ond bychan iawn yn y Groeg; eto nis gellir gweled grym y geiriau heb sylwi arno fel y nodwyd uchod.

12 [x] * Ond cynnifer ag a'i derbyniasant ef, [y] † efe a roddes iddynt allu i fod yn ‡ feibion i Dduw, [z] ‖ *sef* i'r sawl a gredant yn ei enw ef:

x Mat. 10. 40. a 18. 5. Col. 2. 6. y Es. 56. 5. Jer. 3. 19. Hos. 1. 10. Rhuf. 8. 14, 15. 2 Cor. 6. 17, 18. Gal. 3. 26. a 4. 6. 1 Ioan 3. 1. z pen. 2. 23. a 3. 18. a 20. 31. Mat. 12. 21. Act. 3. 16. 1 Ioan. 3. 23. a 5. 12, 13.

* Er nad oedd y genedl yn gyffredin yn derbyn Crist yn yr ystyr a enwyd uchod; eto yr oedd rhai yn ei dderbyn, yn credu ynddo, ac yn ymostwng mewn ufuddod iddo. † Mae y gair a gyfieithir yma "gallu," *(Exousia)* yn arwyddo hawl, braint, urddas, ac awdurdod. ‡ Yr oedd y mabwysiad gynt yn perthyn i'r Iuddewon yn unig, Rhuf. 9. 4; ond dàn yr efengyl mae yn perthyn i bawb a gredant yn Nghrist, cenedloedd yn gystal âg Iuddewon, Rhuf. 3. 29, 30. Galat. 3. 26—29. ‖ Wrth *enw* Crist, mae i ni ddeall Crist ei hun; a chredu yn ei enw ef yw credu yn ei Berson ef, a holl dystiolaeth y gair am dano ef. Credu yn ei enw ef yw yr unig ffordd i bechaduriaid gael eu gwneyd yn blant i Dduw, Galat. 3. 26.

13 * Y rhai [a] ni aned o [b] † waed, [c] ‡ nac o ewyllys y cnawd, [d] ‖ nac o ewyllys gwr, [e] § eithr o Dduw.

a pen. 3. 3. 1 Pedr 1. 3, 23. a 2. 2. 1 Ioan 3. 9. a 4. 7. a 5. 1, 4, 18. b pen. 8. 33—41. Mat. 3. 9. Rhuf. 9. 7—9. c Gen. 25. 22, 28. a 27. 4, 33. Rhuf. 9. 10—16. d Salm 110. 3. Rhuf. 9. 1—5. a 10. 1—3. 1 Cor. 3. 6. Phil. 2. 13. Iago 1. 18. e pen. 3. 6—8. Tit. 3. 5. 1 Ioan 2. 28, 29.

* "Y rhai ni aned o waed;" neu yn ol y Saesoneg, "Y rhai a aned, nid o waed." Rhai a aned o waed yw plant Duw yn gystal ag eraill; ond nid trwy yr enedigaeth o waed y gwnaethpwyd hwy yn blant i Dduw, eithr trwy fabwysiad ac ail-enedigaeth, genedigaeth o Dduw. Mae y Saesoneg yn eglurach na'r Gymraeg yma; eto mae y Gymraeg yn berffaith gyfymred â'r Groeg. † Mae y gair "gwaed" yn y rhif liosog *(aimatôn)* yn y Groeg: nid o waed, neu waedoliaeth, Abraham; nid o waed yr enwaediad; ac nid o waed yr aberthau Iuddewig: nid o waed yn yr un o'r ystyriaethau hyn, y mae neb yn cael y fraint o fod yn feibion i Dduw dàn yr efengyl. ‡ Nid o achau, neu ddisgyniad yn ol y cnawd; nid o'u hewyllys a'u dymuniad hwy na'u rhieni, yn ol y cnawd; ac nid o herwydd unrhyw ragoriaeth ynddynt hwy ar eraill yn ol y cnawd. ‖ Nid trwy y cynghorion na'r darbwylliadau dynol goreu a fedro y naill ddyn roddi i'r llall; nid o ddewisiad dyn anianol ei hunan; ac nid yn ol dull rhai dynion yn mabwysiadu plant o herwydd rhyw deilyngdod a rhagoriaeth a welent ynddynt. § Eithr o Dduw; o arfaeth a phen-arglwyddiaethol ewyllys da Duw, ac o weithrediad grasol a nerthol Ysbryd Duw, yn rhoddi bod i fywyd ysbrydol yn eu heneidiau; yn eu gwneyd yn gyfranogion o dduwiol anian; yn eu hadnewyddu i ddelw Duw; ac yn eu tueddu i ddewis pethau Duw, ac ymhyfrydu ynddynt.

14 [f] * A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, † ac a drigodd yn ein plith ni [g] ‡ (ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant [h] ‖ megis yr Unig-anedig oddi wrth y Tad) [i] § yn llawn gras a gwirionedd.

f adn. 1. Es. 7. 14. Mat. 1. 16, 20—23. Luc 1. 31—35. a 2. 11. Rhuf. 1. 3, 4. a 9. 5. 1 Cor. 15. 47. Gal. 4. 4. Phil. 2. 6—8. 1 Tim. 3. 16. Heb. 2. 14—17. a 10. 5. 1 Ioan 4. 2, 3. 2 Ioan 7. g pen. 2. 11. a 11. 40. a 12. 40, 41. a 14. 9. Es. 40. 5. a 53. 2. a 60. 1, 2. Mat. 17. 1—5. 2 Cor. 4. 4—6. Heb. 1. 3. 1 Pedr 2. 4—7. 2 Pedr 1. 17. h adn. 18. pen. 3. 16, 18. Salm 2. 7. Act. 13. 33. Heb. 2. 5. a 5. 5. 1 Ioan 4. 9. i adn. 16, 17. 2 Cor. 12. 9. Eph. 3. 8, 18, 19. Col. 1. 19. 1 Tim. 1. 14—16.

* Mae Ioan yn nesaf yn dangos pa *fodd* y daeth y Gair at yr "eiddo ei hun;" "gwnaethpwyd ef yn gnawd," hyny yw, efe a gymmerth gnawd, sef y cwbl o ddynoliaeth, corph ac enaid, i undeb â'i Berson Dwyfol ei hun. Gwnaethpwyd ef "yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus," daeth yn Ddyn, a darostyngodd ei hun i'r holl wendidau hyny a achlysurwyd trwy bechod, cyn belled ag y gallai hyny fod heb iddo ef gael ei lychwino yn y mesur lleiaf gan bechod. Mae y geiriau yn profi fod dwy natur yn wirioneddol yn Mherson y Cyfryngwr, Duwdod a dynoliaeth: nid *rhith* o ddynoliaeth, fel yn ei ymddangosiadau gynt, ond *gwir* ddynoliaeth, *cnawd.*

ae y gair cnawd yma yn arwyddo hefyd, mai nid
rson dynol a unwyd â Mab Duw, ond y *natur* ddynol:
hyn mae efe yn Iachawdwr i ddynolryw yn gyffredin,
b wahaniaeth cenedl nac iaith, oblegid gwnaethpwyd
yn *gnawd.* Nid troi y Duwdod yn gnawd, ond uno y
uwdod yn Mhrerson y Mab â chnawd. Dirgelwch yw
rn i'w gredu, ar dystiolaeth gair Duw, ond nid i'w
ngyffred gan reswm a deall dyn. Nis gallwn ni am-
ffred pa fodd mae ein cyrph a'n heneidiau ein hunain
di eu huno â'u gilydd; pa faint llai y gallwn amgyffred
undeb anamgyffredadwy hwn. † Mae cyfeiriad amlwg
y geiriau hyn at y *Shechinah,* neu yr arwydd disglaer
bresenoldeb Duw yn y babell gynt, yr hon oedd yn
sgod o gnawdoliad Crist, ac o'i drigiad, neu ei
belliad ef ar y ddaear. Y dangosiad egluraf a mwyaf
yfeddol o bresenoldeb Duw gyda dynion, dàn yr hen
uchwyliaeth oedd y Shechinah; a'r dangosiad mwyaf
yfedd ac eglur wedi hyny oedd, Mab Duw wedi ei
aeuthur yn gnawd, ac yn pabellu yn y cnawd yn
hlith dynion. ‡ Gwelodd yr apostolion raddau mawr
ogoniant ef yn ei athrawiaeth nefol, yn ei weithred-
dd nerthol; yn ei wedd-newidiad ar y mynydd, yn ei
gyfodiad o'r bedd, ac yn ei esgyniad i'r gogoniant:
elsant ei ogoniant hefyd trwy ddatguddiad ysbrydol
ddoethineb, ei allu, ei sancteiddrwydd, a'i ras, fel y
ae yr holl gredinwyr yn ei weled i ryw raddau. ‖ Nid
bygolrwydd yn unig mae y gair "megys" yn ei ar-
ddo yma; ond yr hyn ydoedd efe mewn gwirionedd:
oedd Ioan Fedyddiwr *megys* prophwyd; hyny yw, yr
dd yn brophwyd mewn gwirionedd, Matth. 14. 5:
widir y saint *megys* gan Ysbryd yr Arglwydd; hyny
v, gan Ysbryd yr Arglwydd ei hun, 2 Cor. 3. 18: wrth
chymyn i'r saint rodio *fel* plant y goleuni, dangosir
bod yn blant y goleuni mewn gwirionedd, Ephes. 5.
: felly yma, wrth ddywedyd fod Crist *megys* yr Unig-
edig oddi wrth y Tad, dywedir mai yr Unig-anedig
idi wrth y Tad ydyw efe mewn gwirionedd. § Llawn
ras a chariad; mewn cyferbyniad i'r ddeddf, yr hon
dd yn weinidogaeth lawn o ddychryn a digofaint,
weinidogaeth angau a damnedigaeth, 2 Cor. 3. 7, 9;
yr hon nid oedd ar y goreu ond cysgod daionus
ethau i ddyfod. Llawn o wirionedd; gan iddo ef ateb
n berffaith yr holl ammodau a roddwyd arno; myned
n ddiwedd y ddeddf, er cyfiawnder i bob un sydd yn
edu; ac fel yr oedd yr holl addewidion, cysgodau, a
rophwydoliaethau, yn cael eu cyflawni ynddo ef. Mae
adnod hon yn dangos Iesu yn ei fawredd fel Duw, yn
iselder fel dyn, ac yn ei ddwy natur fel Duw-ddyn a
hyfryngwr; rhaid i ni ystyried hyny cyn y gallom
wn-farnu y Person, ac iawn-ddeall y pethau a ddywed-
am y Person.

15 ¶ [k] * Ioan a dystiolaethodd am dano
f, ac a lefodd, gan ddywedyd, † Hwn oedd yr
n y dywedais am dano, ‡ Yr hwn sydd yn
yfod ar fy ol i, ‖ a aeth o'm blaen i: [l] § canys
r oedd efe o'm blaen i.

k Gwel ar adn. 7, 8, 29—34. pen. 3. 26—36. a 5. 33—36. Mat. 3.
1. Marc 1. 7. Luc 3. 16. l adn. 1, 2, 30. pen. 8. 58. a 17. 5.
Mar. 8. 22. Es. 9. 6. Mica 5. 2. Phil. 2. 6, 7. Col. 1. 17. Heb. 13.
l Dat. 1. 11, 17, 18. a 2. 8.

* Sef Ioan Fedyddiwr, a dystiolaethodd am dano ef;
Ioan yr efengylwr yn profi cysondeb ei dystiolaeth
hun â thystiolaeth yr Ioan hwnw. † Dywedodd Ioan
n dano pan oedd yn pregethu yn y diffaethwch, a phan
laeth Iesu ato i gael ei fedyddio ganddo. Can gynted
y gwelodd Ioan ef yn mhlith y dorf, er ei fod yn
ïeithr iddo o'r blaen, adn. 31, mae yn debyg iddo
ael rhyw argraff rymus ar ei feddwl mai efe oedd y
Iessiah; ac yn y fàn efe a lefodd yn orfoleddus a
wresog, mai Hwn oedd efe, am yr hwn y dywedasai efe
rthynt o'r blaen. ‡ O ran ei enedigaeth a dechreuad
ei waith cyhoeddus, yr oedd Iesu ar ol Ioan, yn
hob ystyriaeth arall yr oedd o'i flaen ef. ‖ Neu a
fodd flaenoriaeth arnaf fi, nid yn unig yn nhyb Ioan
edyddiwr ei hun, ond hefyd yn meddwl y Tad, yr holl brophwydi a lefarasant am dano, yr angelion, y doethion a ddaethent o'r dwyrain i'w addoli ef, a phawb a ddanfono efe i dystiolaethu am dano. § Mae efe yn deilwng iawn o'r holl flaenoriaeth hon ar Ioan, canys yr *oedd* efe o'i flaen ef, yn hanfodi erioed fel Duw a Thad tragywyddoldeb. Ioan oedd yr hynaf o'r ddau fel dyn; gan hyny nis gallwn wneyd synwyr na chywirdeb o'r geiriau hyn heb eu hystyried yn dystiolaeth o Dduwdod a thragywyddol hanfod y Messiah.

16 [m] * Ac o'i gyflawnder ef y derbyniasom
ni oll, [n] † a gras am ras.

m pen. 15. 1—5. Mat. 3. 11, 14. Luc 21. 15. Act. 3. 12—16. Rhuf. 8. 9. 1 Cor. 1. 4, 5. Eph. 4. 7—12. Col. 2. 3, 9. 1 Pedr 1. 11.
n Zec. 4. 7. Mat. 13. 12. Rhuf. 5. 2, 17, 20. Eph. 1. 6, 7. a 2. 5—10. a 4. 7. 1 Pedr 1. 2.

Tybia rhai mai parâd o dystiolaeth Ioan Fedyddiwr yw yr adnod hon a'r ddwy ganlynol; ond mae yn debycach mai geiriau Ioan yr Efengylwr ei hun ydynt, fel mae yn ymddangos yn newidiad ac amrywiad y geiriau eu hunain, ac addasrwydd eu cymhwysiad at Gristionogion yn hytrach nag at wrandawwyr Ioan Fedyddiwr, y rhan fwyaf o ba rai ni wyddent ddim am Grist, ac ni dderbyniasent eto ddim o'i gyflawnder ef. Hefyd mae y geiriau yn y tair adnod hyn yn cytuno â'r hyn a ddywedasai yr Efengylwr yn adn. 14, ac â'r hyn a ddywed efe yn 1 Ioan 4. 12. Mae rhai cyfleithiadau yn rhoddi adn. 15, mewn cromfachau, ac felly yn cyssylltu hon â'r bedwaredd ar ddeg. * Mae ynddo ef gyflawnder hanfodol fel Duw, a chyflawnder trysoredig fel Cyfryngwr; oblegid rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef. Am yr olaf y dywedir yma, ac nid am y cyntaf; oblegid anghyfranogol yw y cyntaf, ond mae yr ail yn gyfranogol i'r holl saint: mae fel yr ennaint gwerthfawr ar ben Aaron, yn disgyn ar hyd ymyl ei wisgoedd ef; mae pob cyflawnder o ddoniau ysbrydol yn ddifesur yn ac ar Iesu, y Pen, a'r Archoffeiriad mawr, ac yn disgyn ar bob credadyn yn ol ei le, ei radd, a'i fesur. † Gras am bob gras sydd yn Iesu; gras am bob gras sydd yn angen ar yr enaid; gras ar ras, hyny yw, cyflawnder o ras yn barâus, megys pentwr ar bentwr; gras cyfatebol yn ei ryw a'i natur, i bob gras sydd yn Iesu, fel y mae delw Iesu ar y derbynwyr o hóno, megys y mae delw yr argraff ar y cŵyr; eto, gras am ras, hyny yw, am fod Iesu yn rasol, ac o'i wir rad ras yn cyfranu pob gras i'w bobl.

17 [o] * Canys y gyfraith a roddwyd trwy
Moses, [p] † ond y gras a'r ‡ gwirionedd a
ddaeth trwy Iesu Grist.

o pen. 5. 45. a 9. 29. Act. 7. 38. a 28. 23. Rhuf. 3. 19, 20. a 5. 20, 21. 2 Cor. 3. 7—10. Gal. 3. 10—13, 17. Heb. 3. 5, 6. a 8. 8—12.
p pen. 14. 6. Gen. 3. 15. a 22. 18. Salm 85. 10. a 89. 1, 2. a 98. 3. Mica 7. 20. Luc 1. 54, 55, 68—79. Act. 13. 34—39. Rhuf. 3. 21—26. a 15. 8—12. 2 Cor. 1. 20. Heb. 9. 22. a 10. 4—10. a 11. 39, 40. Dat. 5. 8—10. a 7. 9—17.

Dywedwyd o'r blaen fod Iesu o flaen, neu yn fwy, nac Ioan Fedyddiwr; yma dangosir ef yn fwy na Moses y deddfwr enwog, a bod gogoniant ei weinidogaeth ef yn rhagori llawer ar yr eiddo Moses, yr hwn yr ymffrostiai yr Iuddewon eu bod yn ddysgyblion iddo. * Trwy Moses fel offeryn, ac fel cyfryngwr rhwng Duw ag Israel y rhoddwyd y gyfraith, pob cyfraith; y foesol, y seremoniol, a'r wladol: pobpeth a berthynai i'r oruchwyliaeth hòno, trwy Moses eu rhoddwyd. Ond yn y cwbl nid oedd dim a allasai achub pechadur; yr oedd gwirionedd yn y ddeddf foesol, ond nid oedd gras ynddi: yr oedd cysgod o ras yn y ddeddf seremoniol, ond nid oedd ynddi ddim gwirionedd, cysgod yn unig oedd. † Pob trugaredd a ddangoswyd i bechaduriaid mewn cyflawnâd a maddeuant; pob gras trwy yr hwn maent yn cael edifeirwch, ffydd, a sancteiddiad; pob tiriondeb a ddangoswyd i bob un o hil syrthiedig Adda, er eu cadwedigaeth ysbrydol a thragywyddol, trwy Iesu Grist, y Messiah addawedig, y daeth. ‡ Felly pob gwirionedd hefyd; efe oedd sylwedd yr holl gysgodau, gwirionedd yr holl addewidion, gwrthddrych yr holl brophwydoliaethau, canol-bwnc yr holl athrawiaeth, ffynon a maen

prawf yr holl wirionedd, a chyfrwng cyfraniad pob gras a bendith ysbrydol a gafodd pob dyn syrthiedig erioed. Yn ei ddyfodiad ef i'r byd hefyd, y daeth gras a gwirionedd yr efengyl i fwy o eglurdeb nac erioed o'r blaen, ac y tywalltwyd ysbryd gras a gwirionedd yn helaethach ar ddynion nac o'r blaen.

18 [q] * Ni welodd neb Dduw erioed: [r] † yr unig-anedig Fab, [s] ‡ yr hwn sydd ym mynwes y Tad, [t] || hwnnw a'*i* hysbysodd *ef*.

q pen. 6. 46. Ex. 33. 20. Col. 1. 15. 1 Tim. 1. 17. a 6. 16. 1 Ioan 4. 12, 20. r adn. 14. pen. 3. 16—18. 1 Ioan 4. 9. s pen. 13. 23. Diar. 8. 30. Es. 40. 11. Galar. 2. 12. Luc 16. 22, 23. t pen. 12. 41. a 14. 9. a 17. 6, 26. Gen. 16. 13. a 18. 33. a 32. 28—30. a 48. 15, 16. Ex. 3. 4—6. a 23. 21. a 33. 18—23. a 34. 5—7. Num. 12. 8. Jos. 5. 13—15. a 6. 1, 2. Barn. 6. 12—26. a 13. 20—23. Es. 6. 1—3. Ezec. 1. 26—28. Hos. 12. 3—5. Mat. 11. 27. Luc 10. 22. 1 Ioan 5. 20.

* Ni welodd neb hanfod Duw erioed, oblegid Ysbryd yw Duw am hyny nis gall llygaid o gnawd ei weled ef. Un anfeidrol yw Duw, am hyny nis gall yr un creadur meidrol ei weled ef, pa un bynag ai dyn ai angel a fyddo: ni welodd *neb* Dduw *erioed*. Dywedir i Dduw lefaru wrth Moses *wyneb yn wyneb*, Exod. 33. 11; Num. 12. 8; ond dywedai yr Arglwydd wrtho ar yr un pryd, *Ni elli weled fy wyneb, canys ni'm gwel dyn, a byw.* Exod. 33. 20. Yn Num: 12. 8, mae yn dywedyd pa fodd yr oedd hyn; *mewn gweledigaeth—cael edrych ar wedd yr Arglwydd;* sef gweled rhyw dywyniad disglaer a gogoneddus iawn, fel arwydd o bresenoldeb Duw, ond nid gweled yr YDWYF anfeidrol â'i lygaid corphorol. Ni welodd neb ychwaith mo gyngor tragywyddol Duw, fel y mae yn ei feddwl Dwyfol ef ei hun; na'i gyfammod tragywyddol, fel y mae wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr rhwng y Personau Dwyfol: nis gallai *neb*, dynion nac angelion, weled na gwybod y pethau tragywyddol a goruchel hyn, ond trwy ddatguddiad. † Dyma yr ail dro i ni gael yr enw neilduol hwn ar Iesu: "yr unig-anedig oddi wrth y Tad," adn. 14, ac yma, "yr unig-anedig Fab." Tybiai yr hen ddduwinyddion union-gred yn gyffredin fod yr enw "Mab Duw," ac "Unig-anedig Fab," yn perthyn i Grist gyda golwg ar ei Ddwyfol Bersonoliaeth ef; ond y mae llawer yn bresenol yn ymwrthod â'r dyb hòno, ac yn haeru nad yw yr enw "Mab Duw," ac "Unig-anedig Fab," yn perthyn dim iddo, ond gyda golwg ar ei natur ddynol, ei genedliad gwyrthiol, a'i swyddau a'i waith cyfryngol. Rhaid addef fod llawer wedi ymdrin, egluro, a dadlau llawer gormod yn nghylch y dirgelwch hwn, am yr hwn nis gallwn ni wybod dim ond yr hyn sydd wedi ei ddatguddio; a rhaid addef hefyd, nas gellir defnyddio y fath enwau perthynasol â Thad y Mab, pan eu priodolir i'r Personau Dwyfol, ond mewn ystyr ffugyrol, neu un anamgyffredadwy i ni, er cynnorthwy i'n deall egwan ni: gan hyny rhaid i ni beidio eu gwneyd yn sylfaen unrhyw benderfyniad anghyson â thragywyddoldeb, hunanhanfodiad, a gogyfuchder y Gair. Eto, ein meddwl yw, fod Crist yn cael ei alw wrth yr enwau uchod yn yr ysgrythyrau, gyda golwg ar ei *Ddwyfol Bersonoliaeth;* ac ei fod ef yn Fab Duw drwy genedliad tragywyddol, nas gall neb ei draethu, Diar. 8. 24, 25; Es. 53. 8. Mae llawer o eiriau, am gariad Duw yn rhoddi ei Fab drosom ni, yn cyfeirio debygid, nid at ei waith yn ei roddi ef i farwolaeth *pan yn ddyn;* ond at ei waith yn ei roddi ef i *fod yn ddyn* i'r dyben o'i roddi i farwolaeth. "Nid arbedodd ei *briod Fab;*" ac yr oedd y rhodd hon mòr anfeidrol, fel yr oedd yr apostol yn cyfrif pobpeth arall ond megys dim mewn cymhariaeth iddi. Yn wir nid yw yn ymddangos pa ham y dylasai efe gael ei alw yn Unig-anedig Fab Duw, o ran ei ddynoliaeth yn unig; oblegid yr oedd crëad Adda, a'r holl angelion, yn waith mòr ddwyfol a goruwch-naturiol ag oedd ffurfiad dynoliaeth Iesu: hefyd mae y geiriau "gogoniant megys yr unig-anedig oddi wrth y Tad," (adn. 14,) yn amlwg yn cyfeirio at ei Berson Dwyfol ef, ac nid at ei natur ddynol. Mae gwadu gwir a dwyfol Faboliaeth Crist, debygem, yn iselu ei Berson ef yn fawr, ac hefyd yn iselu llawer ar gariad y Tad yn y rhoddiad o hòno. ‡ Mae y geiriau hyn yn arwyddo ei breswyliad gwastadol ef gyda'r Tad, anwyldeb y Personau Dwyfol tuag at eu gilydd, a'u cymdeithas agos a hyfryd â'u gilydd yn wastadol. "Yr Unig-anedig Fab" a ddywedir yma sydd yn mynwes y Tad; a dywedir ei fod y *pryd hwnw* yn mynwes y Tad; "yr hwn *sydd* yn mynwes y Tad." Yn awr yr oedd dynoliaeth Crist ar y ddaear yn nyddiau ei ddarostyngiad, ond yr Unig-anedig Fab yn mynwes y Tad; am hyny rhaid mai y Person Dwyfol oedd yr Unig-anedig Fab, ac mai fel Person Dwyfol y mae efe yn Unig-anedig Fab Duw, Fel Mab Duw y mae efe yn *mynwes* y Tad; fel Cyfryngwr, eistedd ar ei ddeheulaw y mae. || Pob hysbysiad a gafwyd am Dduw erioed, a phob gweledigaeth a dangosiadau o'r Jehofah, trwy yr Unig-anedig Fab y cafwyd hwynt: ac yn nghyflawnder yr amser efe a ymddangosodd yn y cnawd i hysbysu y Tad, ei gyngor, ei ras, a threfn yr iachawdwriaeth fawr, i blant dynion. Oni ddylem ni roddi ystyriaeth barchus i awdurdod *Mab* Duw pan mae yn llefaru am ei *Dad!*

19 ¶ * A hon yw tystiolaeth Ioan, [u] † pan anfonodd yr Iuddewon o Jerusalem ‡ offeiriaid a Lefiaid i ofyn iddo, [x] || Pwy wyt ti?

u pen. 5. 33—36. Deut. 17. 9—11. a 24. 8. Mat. 21. 23—32. x pen. 10. 24. Act. 13. 25. a 19. 4.

Mae yr Efengylwr yma yn ail ddychwelyd, i adrodd tystiolaeth Ioan Fedyddiwr am Grist, ac am dano ei hun fel cenad, neu rag-flaenor Crist. * Yr oedd Ioan wedi bod yn tystiolaethu o'r blaen wrth ei wrandawwyr yn gyffredin, cyn bedyddio Crist; ond y mae hon yn dystiolaeth mwy cyhoeddus, ac i awdurdod gyhoeddus a swyddol. † Nid oes yr un o'r Efengylwyr eraill, ar a wyddom, yn crybwyll am y danfoniad hwn: tybir mai y Senedd, neu y Cyngor mawr yn Jerusalem, a ddanfonodd y cenadau hyn at Ioan; yr oedd yn perthyn i'r llys hwnw holi a phrofi pawb a gymmerent arnynt ddysgu yn gyhoeddus, er mynu gwybod eu hawdurdod a'u danfoniad, &c. ‡ Offeiriaid a Lefiaid oeddynt o ran eu swydd, a Phariseaid o ran y blaid grefyddol y perthynent iddi, adn. 24: felly rhwng y ddau beth yr oeddynt yn ddynion o gyfrifiad mawr ac uchel, ac o herwydd hyny y dewiswyd hwy i'w danfon ar y neges pwysig hwn. || Nid pwy wyt ti o ran person, mae yn debyg y gwyddent hwy mai mab Zacharias oedd Ioan; ond pwy wyt ti, ai tydi yw y Messiah ai nid e? Yr oeddynt hwy wedi clywed llawer o sôn am Ioan; ei ddull rhyfedd ef o fyw, ei weinidogaeth danllyd, y torfëydd oedd yn ei wrando, a'i ddull newydd ef yn bedyddio, fel yr oeddynt yn ammau ai efe oedd y Messiah dysgwyliedig. Neu pwy wyt ti, trwy ba awdurdod yr wyt ti yn dysgu ac yn bedyddio os nad wyt ti y Messiah? ni chefaist dy ddanfon yn y ffordd reolaidd ac arferol genym ni, a phwy a roddodd yr awdurdod hon i ti?

20 * Ac efe a gyffesodd, ac ni wadodd; a chyffesodd, [y] Nid myfi yw y Crist.

y pen. 3. 28—36. Mat. 3. 11, 12. Marc 1. 7, 8. Luc 3. 15—17.

* Nid yn unig yr oedd Ioan yn hunan-ymwadol, ond gellid meddwl ei fod hefyd yn ofni, rhag i neb o'r dyrfa feddwl mai efe oedd y Crist. Gwel Luc 3. 15, 16. Mae mynychu y geiriau fel hyn yn dangos ei fawr ofal ef am ddiddwyllo y gofynwyr a phawb oedd yn ei glywed, fel na byddai petrusder ar eu meddyliau. Gwahanol iawn oedd ef i'r twyllwyr hyny a ddywedent "Myfi yw Crist."

21 A hwy a ofynasant iddo, Beth ynte? [z] * Ai Elias wyt ti? † Yntau a ddywedodd, Nag ê. [a] ‡ Ai y Prophwyd wyt ti? || Ac efe a attebodd, Nag ê.

z Mal. 4. 5. Mat. 11. 14. a 17. 10—12. Luc 1. 17. a adn. 25. pen. 7. 40. Deut. 18. 15—18. Mat. 11. 9—11. a 16. 14.

* Soniasom eisoes, amryw weithiau, fod yr Iuddewon yn dysgwyl i Elias ymddangos yn bersonol ar y ddaear o flaen dyfodiad y Messiah: felly y deallent hwy Mal. 4. 5. † Nage, ebai Ioan, nid Elias yn bersonol ydwyf fi; nid yr Elias yr ydych chwi yn ei ddysgwyl, er fy nyfod

ysbryd a nerth y diwygiwr enwog hwnw, ac yn brophwyd fel yntau, a mwy nag ef. ‡ Tybia rhai mai y phwyd a sonir am dano yn Deut. 18. 18, oeddynt yn dwl, ac nad oeddynt yn deall mai y Messiah oedd y phwyd hwnw: tybia eraill mai un o'r hen brophwydi ii adgyfodi, neu enaid un o honynt wedi ei drosyddo i gorph arall, oeddynt yn feddwl: a thybia eraill i y prophwyd Jeremiah yn bennodol oeddynt yn dwl. Gwel ar Matth. 16. 14. || I hyn oll mae Ioan ateb, Nagê; nid yr un o'r prophwydi hyny oeddent y yn feddwl oedd efe, ac eto prophwyd, a mwy na ophwyd, ydoedd. Nid, Ai prophwyd wyt ti, oedd y yniad: ond, Ai *y* prophwyd wyt ti?

22 * Yna y dywedasant wrtho, Pwy wyt [b] fel y rhoddom atteb i'r rhai a'n danfonid. Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd am nat dy hun?

b 2 Sam. 24. 13.

Hyd yn hyn yr oedd atebion Ioan yn nacâol i gyd: yn awr maent hwy fel dynion wedi dyrysu, ac heb ood beth i feddwl am dano, yn gofyn am atebiad ur ac union-gyrchol, fel y gallent roddi ateb i'r ngor yn Jerusalem, yr hwn a'u danfonasai, ac i'r hwn oeddynt yn atebol am eu dychweliad.

23 Eb efe, [c] * Myfi *yw* llef un yn gwaeddi y diffaethwch, Unionwch ffordd yr Arwydd, [d] fel y dywedodd Esaias y prophwyd.

c pen. 3. 28. Mat. 3. 3. Marc 1. 3. Luc 1. 16, 17, 76—79. a 3. 5. d Es. 40. 3—5.

Cawsom y geiriau hyn o'r blaen, yn Matth. 3. 3; a rc 1. 3: gwel y sylwadau yno. * Dysgwyliai Ioan l y gwŷr eglwysig, yr aelodau seneddawl, a'r Pharnid tra chrefyddol hyn, yn deall yr ysgrythyr; ac yn bod mai am rag-flaenor y Messiah yr oedd Es. 40. yn prophwydo; ac y deallent mai rhag-flaenor y ssiah oedd efe wrth iddo ddywedyd "Myfi yw llef, " Mae gostyngeiddrwydd Ioan i'w weled yn brydh iawn yn yr atebiad hwn, pan mae yn dywedyd, Yn ell o fod yn Grist, nac Elias, nac yr un o'r hen brovydi, nid wyf fi ddim byd ond *llef*, dim ond sŵn, yr n cyn gynted ag yr amlygo yr hyn mae yn arwydd o no, mae yn marw, ac yn darfod yn yr awyr, ac nis veinir ef mwy.

24 * A'r rhai a anfonasid [e] oedd o'r Phariid.

e pen. 3. 1, 2. a 7. 47—49. Mat. 23. 13—15, 26. Luc 7. 30. a 39—44, 53. a 16. 14. Act. 23. 8. a 26. 5. Phil. 3. 5, 6.

Y Phariseaid oedd y blaid fanylaf yn eu crefydd oll bleidiau crefyddol yr Iuddewon, Act. 26. 5, a bir mai hwy oedd gan mwyaf yn gwneyd i fynu y *shedrim*. Hwy oedd y dynion gwresocaf dros y defn Iuddewig; ac ni oddefent chwanegu dim at yr oliad Iuddewig ond fel yr oeddynt hwy wedi derbyn, y nid rhyfedd eu bod yn eiddigus o Ioan, ac yn ei ii mòr fanol.

25 A hwy a ofynasant iddo, ac a ddywedasant wrtho, [f] * Paham gan hynny yr wyt ti yn flyddio, onid ydwyt ti [g] na'r Crist, nac Elias, na'r prophwyd?

f Mat. 21. 23. Act. 4. 5—7. a 5. 28. g Gwel ar adn. 20—Dan. 9. 24—26.

Goddefai y Phariseaid eu hunain i'r Messiah, neu Elias, neu un o'r hen brophwydi pe cyfodent, chwanegu neu gyfnewid pethau yn, addoliad Duw, ond nid neb ll: am hyny maent yn gofyn i Ioan pa fodd yr oedd yn beiddio gwneyd y fath gyfnewidiau, os nad oedd yr un o'r tri uchod a enwyd. Byddid yn arfer beddio, neu olchi, y cenedloedd o'r blaen ar eu dychwel, a'u derbyniad i'r eglwys Iuddewig, ond yr oedd n yn bedyddio Iuddewon, ac yn gwneyd dysgyblion onynt: yr hyn oedd beth newydd, ac anoddefol gan hariseaid hyn, heb fod Ioan yn Grist, yn Elias, neu rophwyd. Tybir fod bedydd Ioan yn ddangosiad amlwg fod yn rhaid i Iuddewon yn gystal a chenedloedd ddyfod yn broselytiaid i'r oruchwyliaeth newydd oedd y pryd hwnw yn ymagor ar y byd; a pha mòr sanctaidd bynag y tybient hwy eu hunain, eu bod mewn angen am gael eu golchi oddi wrth eu pechodau fel eraill.

26 Ioan a attebodd iddynt, gan ddywedyd, [h] * Myfi sydd yn bedyddio â dwfr; † ond y mae un yn sefyll yn eich plith chwi, [i] ‡ yr hwn nid adwaenoch chwi:

h Mat. 3. 11. Marc 1. 8. Luc 3. 16. Act. 1. 5. a 11. 16. i adn. 10, 11. pen. 8. 19. a 16. 3. a 17. 3, 25. Mal. 3. 1, 2. 1 Ioan 3. 1.

* Fel pe dywedasai Ioan, Yr ydych chwi yn cam-gymmeryd am fy medydd I yn gystal ag am danaf fi fy hunan: nis gwyddoch mai rhag-flaenor y Messiah ydwyf, ac nis gwyddoch mai fel y cyfryw yr wyf yn bedyddio. Nid gwneyd dysgyblion i mi fy hun yr ydwyf, ac nid eu bedyddio i broffes o unrhyw athrawiaeth newydd o'r eiddo fy hun: nid wyf fi ond bedyddio â dwfr fel arwydd o fedydd gwell, ac er darpar y bobl i dderbyn ac i ganlyn Blaenor annhraethol well. † Mae y Blaenor hwnw yn y byd eisoes, yn eich gwlad ac yn eich plith chwi, mae efe wedi bod yma yn cael ei fedyddio, ac efe a fydd yma yn fuan eto, adn. 29. ‡ Ond nid adwaenoch chwi ef, gymmaint ag wrth ei wyneb eto; nid yw efe eto wedi dechreu ei wneyd ei hun yn gyhoeddus, a phan wnelo, ni fynwch chwi ei adnabod fel y dylech ei adnabod. Mae un yn sefyll, (*estêken:*) e safodd un.

27 [k] * Efe yw yr hwn sydd yn dyfod ar fy ol i, yr hwn a aeth o'm blaen i; [l] † yr hwn nid ydwyf fi deilwng i ddattod carrai ei esgid.

k Gwel ar adn. 15, 30.—Act. 19. 4. l Mat. 3. 11. Marc 1. 7. Luc 3. 16.

* Gwel ar adn. 15. Mae y tri Efengylwyr eraill yn gosod y geiriau hyn yn union cyn bedyddiad Crist; felly mae yn debygol i Ioan eu hail ddywedyd wrth y cenadon hyn, ar ol bedyddio yr Iesu, ac y diwrnod cyn iddo ddychwelyd o'i demtiad yn yr anialwch, adn. 29. † Ymadrodd diarebol yw hwn, yn arwyddo y gwasanaeth iselaf a all un dyn wneyd i'r llall: dattod carai ei esgid, neu sandalau, a wisgid yn y wlad hòno.

28 Y pethau hyn a wnaethpwyd yn [m] * Bethabara, y tu hwnt i'r Iorddonen, [n] lle yr oedd Ioan yn bedyddio.

m pen. 10. 40. Barn. 7. 24. a 12. 5. n pen. 3. 23.

* *Ty y drysorfa*, neu *Ty y dramwyfa*, yw ystyr y gair Bethabara: lle ydoedd o du y dwyrain i'r Iorddonen, ac yn agos i'r fân lle yr aeth Joshua a phlant Israel drosodd i feddiannu y wlad.

29 ¶ * Trannoeth Ioan a ganfu † yr Iesu yn dyfod atto; ac *efe* a ddywedodd, [o] ‡ Wele Oen Duw, [p] || yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau § y byd.

o adn. 36. Gen. 22. 7, 8. Ex. 12. 3, &c. Num. 28. 3—10. Es. 53. 7. Act. 8. 32. 1 Pedr 1. 19. Dat. 5. 6, 8, 12, 13. a 6. 1, 16. a 7. 9, 10, 14, 17. a 12. 11. a 13. 8. a 14. 1, 4, 10. a 15. 3. a 17. 14. a 19. 7, 9. a 21. 9, 14, 22, 23, 27. a 22. 1—3. p Es. 53. 11. Hos. 14. 2. Mat. 20. 28. 1 Cor. 15. 3. 2 Cor. 5. 21. Gal. 1. 4. a 3. 13. 1 Tim. 2. 6. Tit. 2. 14. Heb. 1. 3. a 2. 17. a 9. 28. 1 Pedr 2. 24. a 3. 18. 1 Ioan 2. 2. a 3. 5. a 4. 10. Dat. 1. 5.

* Tranoeth wedi i Ioan ateb yr offeiriaid a'r Lefiaid a ddanfonesid ato. † Tybir mai dychwelyd o'r anialwch yr oedd Iesu y pryd hwn, ar ol bod yno yn cael ei demtio gan ddiafol am ddeugain niwrnod. Os felly nis gallwn feddwl ei fod ef yn y dorf pan oedd Ioan yn dywedyd, "Mae un yn sefyll yn eich plith chwi," oblegid 'gyrodd yr Ysbryd ef yn *ebrwydd* i'r diffeithwch ar ol ei fedyddio,' Marc 1. 12, a thranoeth ar ol yr ymddiddan uchod mae efe yn dychwelyd: felly *a safodd*, yw y gair, ac nid *yn sefyll*. Gwel ar adn. 26. Nid yw Ioan yn crybwyll dim am demtiad Crist, ond yn rhoddi ei hanes o'i demtiad yn mlaen. ‡ Fel pe dywedasai Ioan, (gan gyfeirio megys â'i fys at Iesu ar yr un pryd,) Dacw y Person yr oeddwn I yn sôn am dano; Dacw Oen Duw o flaen eich llygaid; edrychwch yn fanol arno, ac

edrychwch trwy ffydd arno am faddeuant o'ch holl bechodau. Gelwir ef yn *Oen*, i ddangos ei burdeb, ei ddiniweidrwydd, ei addfwynder, ei amynedd, a'i larieidd-dra: gelwir ef yn Oen hefyd, am ei fod yn sylwedd yr oen pasg, a'r holl ŵyn a aberthid yn y deml fore a hwyr, Lefit. 29. 38—42. Gelwir ef yn Oen *Duw*, i ddangos ei ragoroldeb mawr ef, ei berthynas agos â Duw, ei fod wedi ei ddarpar a'i ddanfon gan Dduw, ac ei fod wedi ei gyflwyno ei hun yn aberth cyssegredig i Dduw. Tybir fod llawer o offeiriaid yn gwrando Ioan y pryd hwn, ac ei bod yn agos i amser yr aberth beunyddiol; ac mai hyny a barodd iddo alw yr Iesu yn Oen Duw yn y fàn hon, er dangos iddynt hwy mai efe oedd sylwedd mawr eu holl aberthau. ‖ Oen Duw yn unig sydd yn tynu ymaith bechodau; ac mae efe yn gwneyd hyny trwy iddo roddi ei hun yn neddf-le pechaduriaid, cymmeryd eu hanwireddau yn gyfrifedig arno, dyoddef cospedigaeth eu heddwch ar y groes, aberthu ei hun a gwneuthur iawn drostynt, ac felly maddau a dileu pechod trwy ei waed ei hun. § Nid oedd yr ŵyn cysgodawl ond dros yr Iuddewon yn unig; eithr Oen Duw dros y byd; hyny yw, dros y Cenedloedd yn gystal â'r Iuddewon: cynnifer ag a gredant ynddo ef o bob llwyth, iaith, a chenedl. Dyna feddwl amlwg y geiriau.

30 * Hwn yw efe am yr hwn y dywedais i, [q] Ar fy ol i y mae gwr yn dyfod, yr hwn a aeth o'm blaen i: canys yr oedd efe o'm blaen i.

q Gwel ar adn. 15, 27. Luc 3. 16.

* Cawsom yr un geiriau yn adn 15, gwel y sylwadau yno. Yr oedd efe yn *hanfodi* o'm blaen I.

31 [r] * Ac myfi nid adwaenwn ef: [s] † eithr fel yr amlygid ef i Israel, [t] i hynny y daethum i, gan fedyddio â dwfr.

r adn. 33. Luc 1. 80. a 2. 39—42. s adn. 7. Es. 40. 3—5. Mal. 3. 1. a 4. 2—5. Luc 1. 17, 76—79. t Mat. 3. 6. Marc 1. 3—5. Luc 3. 3. Act. 19. 4.

* Er bod Crist a Ioan yn berthynasau agos i'w gilydd, a mam Crist yn gydnabyddus iawn â rhieni Ioan; eto trefnodd rhagluniaeth Duw iddynt hwy fod yn ddieithriaid i'w gilydd, ac yn hollawl anadnabyddus y naill i'r llall. Yr oedd hyn yn angenrheidiol; fel na chaffai neb achlysur i ddywedyd fod Ioan yn canmol ac yn derchafu Crist oddi ar ryw gyfeillgarwch blaenorawl rhyngddynt. Yr oedd Iesu yn byw yn Nazareth, tua 70 neu 75 milltir i'r gogledd o Jerusalem; a Ioan wedi cael ei ddwyn i fynu yn niffeithwch Judea, yn Hebron medd rhai, yr hyn oedd tua 22 milltir i'r dehau o Jerusalem: felly yr oedd yn agos i gàn milltir o ffordd rhyngddynt a'u gilydd. Trefnodd rhagluniaeth hefyd na ddaethant i gydnabyddiaeth â'u gilydd ar y gŵyliau yn Jerusalem: ni welsai Ioan mo Grist hyd oni ddaeth i'w fedydd ef, ac nid oes genym hanes iddo ei weled ar ol iddo ymadael i Galilea ar ol ei fedyddio. † Dyben gweinidogaeth Ioan oedd amlygu Crist i Israel; ond pa fodd y gallai efe wneyd hyny ac yntau heb ei adnabod ef ei hun yn ol y cnawd? Mae adn. 33 yn ateb i hyna, ac yn agoriad ar yr adnod hon. Gwyddai Ioan trwy ysbryd prophwydoliaeth, fod y Messiah yn y byd cyn iddo ddechreu ei weinidogaeth, er nas gwyddai mai Iesu ydoedd, nes cael amlygrwydd.

32 Ac Ioan a dystiolaethodd, gan ddywedyd, [u] * Mi a welais yr Yspryd yn disgyn megis colommen, o'r nef, ac efe a arhosodd arno ef.

u Mat. 3. 16. Marc 1. 10. Luc 3. 22.

* Yn y fàn *wedi* bedyddio yr Iesu y bu hyn, ac y gweloddd Ioan yr Ysbryd yn disgyn arno. Matth. 3. 16; Marc 1. 10; Luc 3. 22. Gwel y sylwadau ar y geiriau yno.

33 [x] A myfi nid adwaenwn ef; eithr yr hwn a'm hanfonodd i fedyddio â dwfr, efe a ddywedodd wrthyf, Ar yr hwn y gwelych yr Yspryd yn disgyn ac yn aros arno, [y] hwnnw yw yr un sydd yn bedyddio â'r Yspryd Glân.

x adn. 31. Mat. 3. 13—15. y pen. 3. 5, 34. Mat. 3. 11, 14. Marc 1. 7, 8. Luc 3. 16. Act. 1. 5. a 2. 4. a 10. 44—47. a 11. 15, 16. a 19. 2—6. 1 Cor. 12. 13. Tit. 3. 5, 6.

* Mae yn amlwg i Ioan gael rhyw ddangosiad dirgelaidd gan Dduw mai Iesu oedd y Messiah, cyn iddo ei fedyddio ef; efallai yn y màn cyntaf y gwelodd efe ef, ar ei ddyfodiad tuag ato: ac mai oddi ar hyny y dywedodd efe "Y mae arnaf fi eisiau fy medyddio genyt ti, ac a ddeui di ataf fi?" Matth. 3. 14. Dyben Ioan yma yw tystio nad oedd efe ddim yn adnabod Iesu cyn iddo ei weled yn dyfod i'w fedydd ef, mai trwy ddatgudd iad goruwch-naturiol oddi wrth Dduw y cawsai efe adnabyddiaeth o hono, ac fel hyny profi ac amlygu i'r Iuddewon mai efe oedd y Messiah.

34 A mi a welais, ac a dystiolaethais mai [z] hwn yw Mab Duw.

z adn. 18, 49. pen. 3. 16—18, 35, 36. a 5. 23—27. a 6. 69. a 10. 30, 36. a 11. 27. a 19. 7. a 20. 28, 31. Salm 2. 7. a 89. 26, 27. Mat. 3. 17. a 4. 3, 6. a 8. 29. a 11. 27. a 16. 16. a 17. 5. a 26. 63. a 27. 40, 43, 54. Marc 1. 1, 11. Luc 1. 35. a 3. 22. Rhuf. 1. 4. 2 Cor. 1. 19. Heb. 1. 1, 2, 5, 6. a 7. 3. 1 Ioan 2. 23. a 3. 8. a 4. 9, 14, 15. a 5. 9—13, 20. 2 Ioan 9. Dat. 2. 18.

* Mi a welais bob peth yn cymmeryd lle fel y rhagddangosasai Duw i mi, ac wedi gweled nis gallaswn lai na chredu; † wedi gweled a chredu nis gallaswn, ac nis gallaf eto, lai na thystiolaethu, bod y dyn hwn yn rhywbeth mwy na dyn, ei fod yn Fab Duw, oblegid clywais lef Duw o'r nef yn dywedyd, "Hwn yw fy anwyl Fab."

35 ¶ Trannoeth drachefn y safodd Ioan, [a] * a dau o'i ddisgyblion:

a pen. 3. 25, 26. Mal. 3. 16.

* Mae yn amlwg wrth adn. 40, mai Andreas oedd un o'r ddau hyn; ac efallai mai Ioan, ysgrifenydd yr efengyl hon oedd y llall: mae efe yn aml yn cuddio ei enw ei hun wrth ysgrifenu. Gwel Ioan 13. 23; a 20. 2. Yr oedd y ddau hyn yn ddysgyblion i Ioan, cyn iddynt ddechreu canlyn Crist.

36 A chan edrych ar yr Iesu yn rhodio, efe a ddywedodd, [b] Wele Oen Duw.

b Gwel ar adn. 29.—Es. 45. 22. a 65. 1, 2. Heb. 12. 2. 1 Pedr 1. 19, 20.

* Edrych yn graff, yw ystyr y gair gwreiddiol, yma ac yn adn. 42. † Sylwasom o'r blaen ar y geiriau Oen Duw, adn. 29, mae Ioan yma eto yn ei ddangos ef i'w wrandawyr, fel yr unig waredwr i'w heneidiau.

37 * A'r ddau ddisgybl a'i clywsant ef yn llefaru, [c] ac a ganlynasant yr Iesu.

c adn. 43. pen. 4. 39—42. Diar. 15. 23. Zec. 8. 21. Rhuf. 10. 17. Eph. 4. 29. Dat. 22. 17.

* Mae yn debyg fod y ddau ddysgybl hyn wedi credu o'r blaen fod y Messiah ar ymddangos, yn ol gweinidogaeth eu hathraw, Ioan, ond yma credasant mai Iesu oedd y Messiah hwnw. Gwedi clywed a chredu tystiolaeth Ioan am Iesu, hwy a'i canlynasant ef, nid fel ei apostolion eto, nac fel dysgyblion cyson chwaith; ond er mwyn ei ymddiddanion addysgiadol ef, a dyfod i fwy o gydnabyddiaeth âg ef.

38 [d] * Yna yr Iesu a droes; a phan welodd hwynt yn canlyn, efe a ddywedodd wrthynt, [e] Beth yr ydych chwi yn ei geisio? † A hwy ddywedasant wrtho ef, [f] Rabbi (yr hyn o'i gyfieithu yw, Athraw) [g] pa le yr wyt ti yn trigo?

d Luc 14. 25. a 15. 20. a 19. 5. a 22. 61. e pen. 18. 4, 7. a 20. 15, 16. Luc 7. 24—27. a 18. 40, 41. Act. 10. 21, 29. f adn. 49. pen. 3. 2, 26. a 6. 25. Mat. 23. 7, 8. g pen. 12. 21. Ruth 1. 16, 17. 1 Bren. 10. 8. Salm 27. 4. Diar. 3. 18. a 8. 34. a 13. 20. Can. 1. 7, 8. Luc 8. 38. a 10. 39.

* Mae y rhan flaenaf hon o'r adnod yn dangos hollwybodaeth a thiriondeb Iesu: yr oedd ef yn gwybod am y gogwyddiad bychan a dechreuol oedd yn meddyliau y ddau ddysgybl i fyned ar ei ol ef, ac mae yn sylwi ar hyny eto yn meddwl pob pechadur dychweledig. Efe a droes atynt, ac a ddechreuodd dynu siarad â hwynt i'r dyben o'u calonogi i ddyfod yn mlaen, a gwneyd eu deisyfiadau yn hysbys iddo ef. † Yr oedd eu gwaith yn

rch Crist wrth yr enw hwn, Rabbi, neu Athraw, yn
gos ar unwaith y parch mawr oedd ganddynt iddo,
u dymuniad o gael eu dysgu ganddo.

39 Efe a ddywedodd wrthynt, [h] Deuwch a
elwch. A hwy a ddaethant, * ac a welsant
yr oedd efe yn trigo, ac [i] † a arhosasant
l âg ef y diwrnod hwnnw: ‡ ac yr oedd hi
hylch y ddegfed awr.

h adn. 46. pen. 6. 37. a 14. 22, 23. Diar. 8. 17. Mat. 11. 28—
i pen. 4. 40. Act. 28. 30, 31. Dat. 3. 20.

Gan fod yr Iesu wrtho ei hun, ac yn ŵr dieithr yn
dal hòno o'r wlad, mae yn naturiol i ni feddwl fod
ddo ryw letty tlawd a gwael yno: nid yn mhell yn
u o'r màn lle yr oedd Ioan yn pregethu, fel y gallwn
lu wrth ei fod ef yn gwrando Ioan o ddydd i ddydd,
wy hyn yr oedd efe yn gosod anrhydedd ar wein-
aeth Ioan, ac yn cael cyfle i glywed a derbyn tyst-
eth Ioan am dano ei hun. † Buan y cafodd y ddau
sgybl hyn achos i ddywedyd, "Da yw i ni fod yma;"
o herwydd gwychder a llawnder y lletty, ond o her-
l cariad Crist a melusder yr ymddiddan: hwy a
asant gydag ef y gweddill o'r diwrnod hwnw, a
ia rhai mai y sabbath oedd y dydd nesaf, ac iddynt
gydag ef dros y sabbath hefyd. ‡ Os yn ol dull yr
flewon o gyfrif y diwrnod, sef o hwyr i hwyr, yr ys-
nodd Ioan, nid oedd fawr o'r diwrnod hwnw heb ei
dio; canys y ddegfed awr oedd pedwar o'r gloch yn
wdnawn, ac ar fachlud haul yr oedd y diwrnod nesaf
echreu. Ond tybia *Guyse*, gan i Ioan ysgrifenu ei
ggyl ar ol dinystr Jerusalem, ei fod yn arfer dull y
feiniaid o gyfrif oriau y dydd, ac felly mai deg o'r
lh yn y bore oedd y ddegfed awr.

40 [k] * Andreas, brawd Simon Pedr, oedd
o'r ddau a glywsent *hynny* gan Ioan, ac
dilynasent ef.

k pen. 6. 8. Mat. 4. 18. a 10. 2. Act. 1. 13.

Am alwad yr Andreas hwn a'i frawd Pedr i'r apos-
aeth, gwel Matth. 4. 18, 19; a Marc 1. 16, 17: ar
er arall y bu hyny, ac mewn lle arall: nid oedd
t yma ond yn eu gwahodd i weled pa le y llettyai

41 [l] * Hwn yn gyntaf a gafodd ei frawd ei
, Simon, ac a ddywedodd wrtho, † Nyni a
som [m] y Messïas; yr hyn o'i ddehongli
‡ Y Crist.

l adn. 36, 37, 45. pen. 4. 28, 29. 2 Bren. 7. 9. Es. 2. 3—5. Luc
38. Act. 13. 32, 33. 1 Ioan 1. 3. m pen. 4. 25. Dan. 9.
5.

Dyma ddau o'r dysgyblion beth bynag, Andreas a'r
gybl arall, wedi eu galw o flaen Pedr, ac un o hon-
yn foddion i ddwyn Pedr at yr Iesu: pa le yn awr
sail i'r flaenoriaeth goel-grefyddol a rydd y pabydd-
i Pedr?—Yr oedd Pedr yn ddyn mòr nodedig, fel y
odd Ioan yn addas hysbysu i ni, pwy a fu yn offeryn
ddwyn ef i gydnabyddiaeth â Christ ar y cyntaf; ac
Ioan ei hun oedd y dysgybl arall, fel y sylwyd ar
35, efallai ei fod yn bwriadu yr adnod hon fel
efiad gostyngedig, fod gwresawgrwydd Andreas yn y
hwn yn fwy na'r eiddo ef ei hun. † Mae yn ddiam-
u fod calon Andreas y pryd hwn dàn deimladau
ion o wresawgrwydd a gorfoledd, ac yn dywedyd
n ei frawd Pedr, "Nyni a gawsom y Messiah," yn
yg fel yr oedd y dysgyblion yn dywedyd wrth eu gil-
am adgyfodiad eu Harglwydd wedi hyny, Yr Ar-
ydd a gyfododd yn wir! ‡ Ac o'i ddehongl i Gymraeg,
wydda Eneiniog. Eneinid prophwydi, offeiriaid a
hinoedd gynt, ac mae yr enw hwn ar Iesu yn dangos
cysgodau o hòno ef oedd y rhai hyny, ac ei fod ef
i ei eneinio i gyflawni y swyddau hyny oll.

42 Ac efe a'i dug ef at yr Iesu. * A'r
u wedi edrych arno ef, a ddywedodd, [n] Ti
Simon [o] mab Jona: ti a [p] elwir Cephas, yr
n a gyfieithir Carreg.

n adn. 47, 48. pen. 2. 24, 25. a 6. 70, 71. a 13. 18. o pen.
21. 15—17. Mat. 16. 17. p 1 Cor. 1. 12. a 3. 22. a 9. 5. a 15. 5.
Gal. 2. 9.

* Yn adnod 44, dywedir bod Simon, yn gystal ag Andreas ei frawd a Phylip, o ddinas Bethsaida, lle go bell o Nazareth, lle y treuliasai yr Iesu agos ei holl oes hyd yn hyn; eto yr oedd efe yn ei adnabod ef yn dda, yn gwybod ei enw ac enw ei dad: holl-wybodaeth oedd yn llewyrchu yn hyn. † Ystyr y gair Simon yw, Gwrandawydd, neu un yn dysgu; newidiodd Crist ef i Cephas, gair Syriaeg; a Pedr, gair Groeg; a phob un o honynt yn arwyddo càreg; er dangos cadernid a gwroldeb Simon ar ol hyn, mewn ffydd, mewn athrawiaeth, mewn llafur, mewn ymlyniad wrth Grist a'i achos, ac yn olaf yn marwolaeth er mwyn ei enw ef. Tybia rhai i Simon gael ysbryd newydd o'r dydd hwn allan, gydag enw newydd.

43 ¶ * Trannoeth yr ewyllysiodd yr Iesu
fyned allan i Galilea: [q] ac efe a gafodd Phylip,
ac a ddywedodd wrtho, † Dilyn fi.

q Es. 65. 1. Mat. 4. 18—21. a 9. 9. Luc 19. 10. Phil. 3. 12.
1 Ioan 4. 19.

* Mae y gair gwreiddiol a gyfieithir yma "ewyllysio" yn arwyddo rhywbeth mwy nac ewyllysio yn unig; hoffi, chwennychu, penderfynu, ac ymdrechu, rhaid ei ddeall felly mewn llawer o fànau eraill. Tybir fod rhai am ddarbwyllo Iesu i aros yn hwy yn Bethabara, i dderbyn ychwaneg o dystiolaethau gan Ioan; neu fyned i Jerusalem, lle y tybient hwy y gallasai ddechreu ei weinidogaeth gyda mwy o anrhydedd iddo ei hun nac yn Galilea. Ond penderfynai efe fyned i Galilea; yno y magwyd ef, yno yr oedd yn bwriadu dechreu ei weinidogaeth, yno yr oedd yn meddwl gwneyd i fynu nifer ei apostolion, ac oddi yno gan mwyaf yr oedd yn bwriadu galw ei ddefaid. † Dilynodd Phylip ef yn y fàn, oblegid ni a'i cawn ef yn adn. 45, yn galw ar Nathanäel at Iesu. Pan ystyriom ni pa mòr sydyn y gadawodd amryw eu galwedigaethau i fyned ar ol Iesu, mae yn rhaid i ni feddwl fod rhyw allu nerthol yn disgyn arnynt gyda ei air ef, yn debyg fel y disgynodd ar Elisëus gynt. 1 Bren. 19. 19—21. Ei bobl ef a fyddant ewyllysgar yn nydd ei nerth.

44 [r] A Phylip oedd o [s] * Bethsaida, o
ddinas Andreas a Phedr.

r pen. 12. 21. a 14. 8, 9. Mat. 10. 3. Marc 3. 18. Luc 6. 14.
Act. 1. 13. s Mat. 11. 21. Marc 6. 45. a 8. 22. Luc 9. 10. a
10. 13.

* Tŷ y ffrwythau, medd rhai, yw ystyr y gair Bethsaida; tŷ y pysgodwyr, medd eraill; mae yn ddiammau bod yno lawer o bysgodwyr yn byw, o herwydd ei bod ar làn môr Galilea, o du y dwyrain iddo, ac yn agos i'w ben gogleddol. Dywed eraill eto mai tŷ yr helyddion yw ystyr y gair, o herwydd fod nifer mawr o geirw yn y wlad o amgylch yno, a llawer o'r trigolion yn eu hela. Yn Matth. 11. 21, gwelwn mai lle annuwiol iawn oedd Bethsaida; eto yr oedd gan Iesu rai o'i lestri etholedig yno: dyma dri o'r apostolion oddi yno.

45 * Phylip a gafodd Nathanäel, ac a
ddywedodd wrtho, [t] Cawsom yr hwn yr † ys-
grifenodd Moses yn y gyfraith, a'r prophwydi,
am dano, [u] ‡ Iesu o Nazareth, [x] mab Joseph.

t pen. 5. 45, 46. Gen. 3. 15. a 22. 18. a 49. 10. Deut. 18. 18—
22. Gwel ar Luc 24. 27, 44. u pen. 18. 5, 7. a 19. 19. Mat. 2.
23. a 21. 11. Marc 14. 67. Act. 2. 22. a 3. 6. a 10. 38. a 22. 8. a 26.
9. x Mat. 13. 55. Marc 6. 3. Luc 4. 22.

* Yn Ioan 21. 2, dywedir mai gwr o Cana yn Galilea, oedd y Nathanäel hwn; mae yn debyg ei fod yn adnabyddus o'r blaen i Phylip; ond pa un ai ar ddamwain y tarawodd efe wrtho yr awr, ai ynte myned i chwilio am dano a wnaeth, nis gwyddom. Diau fod yn llawen gan Phylip hysbysu iddo am y Messiah; a'i fod yn awyddus am iddo yntau ddyfod yn ganlynwr iddo. † Yr hwn a ddysgrifiwyd gan Moses yn y gyfraith, a'r prophwydi, medd *Doddridge*, sydd fwyaf cyson â'r Groeg. Efallai i Grist gyfeirio Phylip at y prophwydoliaethau am dano ei hun, yn y gyfraith a'r prophwydi, ac iddo eu hegluro

yn ei ymddiddan âg ef. ‡ Gan mai yn Nazareth yr oedd Iesu yn preswylio, a chan mai mab Joseph y cyfrifid ef yn gyffredin; yr oedd yn ddigon naturiol i Phylip ddywedyd am dano fel hyn: er bod llawer yn barnu iddo ddangos gwendid yn hyn, ei fod yn tybied mai mab Joseph ydoedd, ac mai yn Nazareth y ganed ef: mae yn sicr i'r geiriau diweddaf hyn godi rhagfarn yn meddwl Nathanäel yn erbyn Crist.

46 * A Nathanäel a ddywedodd wrtho, [y] A ddichon dim da ddyfod o Nazareth? † Phylip a ddywedodd wrtho, [z] Tyred a gwel.

y pen. 7. 41, 42, 52. Luc 4. 28, 29. z pen. 4. 29. Luc 12. 57. 1 Thes. 5. 21.

* Yr hyn a ddywedasai Phylip oedd, fod Andreas, Pedr, ac yntau, wedi cael y Messiah, ac mai Iesu o Nazareth mab Joseph oedd y Messiah hwnw: i hyny mae Nathanäel yn gwrthddadleu, nas gallai hyny fod; mai o Bethlehem yr oedd y Messiah i ddyfod, Mica 5. 2, ac nid o Nazareth: mae yn debyg nas gwyddai yr un o honynt y pryd hwn mai yn Bethlehem y ganesid Crist, ac nad oedd Joseph ond tad cyfrifedig, neu dad yn nghyfraith iddo. Er mai Galilead oedd Nathanäel ei hun, eto yr oedd ganddo feddwl mòr isel am Nazareth, fel y tybiai nas gallasai bendith mòr fawr, nac yn wir "dim da," ddyfod oddi yno. Wrth ystyried yr hanes a gawn am drigolion Nazareth gan yr efengylwyr, (Matth. 13. 54, &c.; Luc 4. 16, 28, 29.) gallwn weled eu bod yn haeddu y meddyliau isel hyn am danynt. Eto, er bod Nazareth yn fechan, yn anenwog, ac yn ddrygionus, nid oedd yn anmhosibl i Dduw ddwyn daioni oddi yno: ac efe a ddygodd y daioni mwyaf. † Gan nas gwyddai Phylip pa fodd i ateb gwrthddadl Nathanäel, nis gallasai wneyd yn well na chrefu arno ddyfod gyd ag ef at Iesu; i ymddiddan âg ef, ac yna barnu drosto ei hun. Dylai pob dyn call wneyd yr un modd, ac nid meithrin rhagfarn oddi ar chwedlau cyffredin: tyred a gwel sydd oreu.

47 Iesu a ganfu Nathanäel yn dyfod atto; ac a ddywedodd am dano, [a] * Wele Israeliad yn wir, [b] † yn yr hwn nid oes dwyll.

a pen. 8. 31, 39. Rhuf. 2. 28, 29. a 9. 6. Phil. 3. 3. b Salm 32. 2. a 73. 1. 1 Pedr 2. 1, 22. Dat. 14. 5.

Er cryfed oedd rhagfarn Nathanäel eto yn erbyn Iesu, yr oedd meddyliau mawr gan Iesu am dano ef; ac er cymmaint oedd ei anwybodaeth ef y pryd hwn am Iesu, dangosodd Iesu yn fuan ei fod yn ei adnabod ef yn drwyadl. * "Wele Israeliad yn wir" o ran gwaedoliaeth; "wele Israeliad yn wir" o ran crefydd; gwas ac addolwr Jehofah, Duw Israel; dyn gonest a chywir; dyn o ffydd a gweddi; Israeliad mewn gwirionedd, lle nad oes gan y rhan fwyaf o'i gymmydogion ond yr enw, a'r ffurf allanol o Israeliaid. † "Yn yr hwn nid oes dwyll:" nid oedd ei grefydd wedi ei lefeinio a'i suro â rhagrith; yr oedd efe yr un dyn ger bron Duw ag oedd yn ymddangos ger bron dynion; yr oedd ei ymarweddiad cyffredinol ef yn ddidwyll, yn ddihoced, ac yn onest; mewn gair, yr oedd efe yn grefyddwr iachus, yn ddyn cywir a duwiol mewn gwirionedd. Gwyddai Iesu yn dda am ragfarn Nathanäel yn ei erbyn ef; ond gwyddai hefyd mai oddiar ei annwybodaeth yr oedd hyny yn tarddu: am hyny mae yn canmol yr hyn oedd dda ynddo, ac fel hyny yn meddyginiaethu yr hyn oedd wael a diffygiol. E ddichon fod gwir ras a diragrithrwydd mewn dyn, er bod llawer o wendid o ran gwybodaeth: yn enwedig yn nechreu ei grefydd.

48 Nathanäel a ddywedodd wrtho, * Pa fodd y'm hadwaenost? Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, † Cyn i Phylip dy alw di, [c] ‡ pan oeddit tan y ffigysbren, mi a'th welais di.

c pen. 2. 25. Gen. 32. 24—30. Es. 65. 24. Mat. 6. 6. 1 Cor. 4. 5. a 14. 25. Dat. 2. 18, 19.

* Synodd Nathanäel yn fawr iawn pa fodd yr adwaenai Iesu ef mòr fanol, hyd yn nod agweddau ei galon a'i gyflawniadau dirgel gerbron Duw. Mae yn debyg fod gair da yn gyffredin gan y cymmydogion i Nathanäel am ei grefydd; pe amgen ni buasai ei wylder a'i hunanymwadiad yn goddef iddo ofyn fel hyn, Pa fodd y'm hadwaenost. † Dyma ddau brawf eto o holl-wybodaeth Crist; gwyddai i Phylip alw Nathanäel, a gwyddai mai dàn y ffigysbren yr oedd efe pan y galwodd Phylip ef. "Mi a'th welais," ebai efe; dyna holl-wybodaeth a holl-bresenoldeb hefyd. ‡ Prenau deiliog a chysgodfawr oedd y ffigys-brenau, fel y gallwn weled wrth fod ein rhieni cyntaf yn gwneuthur arffedogau o'u dail; ac yn y wlad boeth hòno, yn ngwres y dydd, byddai dynion yn eistedd danynt i orphwys, i ymddiddan, i fwyta, ac i ddarllen, gweddio, a myfyrio. Mae yn ddiammau mai y pethau olaf oedd Nathanäel yn wneyd pan y "gwelodd" Iesu ef yno: buasai rhyw ymdrin sobr a difrifol iawn rhwng ei enaid ef â Duw dàn y ffigysbren, a thybir fod Iesu yn cyfeirio at hyny yn ei ganmoliaeth o hòno yn adn. 47; ac ei fod yn adgofio hyny iddo yn y geiriau hyn. Efallai mai gweddio yn daer am ddyfodiad y Messiah y buasai, ac am iddo ef gael ei adnabod os oedd wedi dyfod; os felly, dyma ei weddi yn cael ei hateb yn fuan ac yn gyflawn.

49 Nathanäel a attebodd ac a ddywedodd wrtho ef, [d] * Rabbi, [e] † ti yw Mab Duw; ti yw [f] Brenhin Israel.

d Gwel ar adn. 38. e Gwel ar adn. 18, 34. Mat. 14. 33. f pen. 12. 13—15. a 18. 37. a 19. 19—22. Salm 2. 6. a 110. 1. Es. 9. 7. Jer. 23. 5, 6. Ezec. 37. 21—25. Dan. 9. 25. Hos. 3. 5. Mica 5 2. Zeph. 3. 15. Zec. 6. 12, 13. a 9. 9. Mat. 2. 2. a 21. 5. Luc 19. 38.

Diflanodd rhagfarn Nathanäel ar unwaith, yn hollol, ac am byth, wrth yr ymddiddan uchod; gwelodd yn eglur fod Iesu o Nazareth, mab Joseph, fel ei gelwid, yn fwy na dyn; yn athraw yn ystyr benaf o'r gair; yn Fab Duw ac yn Frenin Israel. Credodd ynddo fel y cyfryw â'i holl galon; penderfynodd ei ganlyn ac eistedd wrth ei draed i ddysgu ganddo; a chyffesodd ef yn ei holl enwau mwyaf goruchel yn ngŵydd pawb ag oedd yn y fàn hòno. Trôdd y "tyred a gwel" allan yn dda iddo ef. * Yr un peth yw *Rabbi* yma a *Rabboni* yn pen. 20. 16, ac yn arwyddo Athraw, fy Athraw; enw a roddid yn gyffredin yn yr oes hòno i'r dysgawdwyr Iuddewig, er *anrhydedd* iddynt. Gwel ar Matth. 23. 6—10. Dechreuodd y cyfryw enwau, meddant, tuag amser ein Hiachawdwr; mewn oesoedd boreuach a phurach, ni roddent y cyfryw enwau i'w hathrawon, neu eu prophwydi: tybient y pryd hwnw, nad oedd yn bosibl rhoddi enwau digon uchel, i gyfateb i fawredd ac urddas dynion ag oedd wedi cael eu danfon mewn modd neilldunol gan Dduw. Dywedant mai un *Hillel*, tuag amser Crist, oedd y cyntaf a gafodd yr enw hwn. *Rabban* a gyfrifid yr uwchaf; *Rabbi* y nesaf; a *Rabbi* yr iselaf. Ni pharâodd *Rabban*, meddant, ond dau càn mlynedd; a rhoddwyd ef i saith o ddynion ar ol *Hillel*. † Mab Duw, a Brenin Israel: dyma'r ddau beth a geisiai yr Iuddewon roddi yn erbyn Iesu; y naill yn gabledd yn erbyn Duw, a'r llall yn wrthryfel yn erbyn Cesar; am hyny rhaid fod llawer o wroldeb yn meddwl Nathanäel i wneuthur y fath gyffes, os oedd yn ngŵydd tyrfa gymmysgedig. Gallwn sylwi nad ammheüodd Crist ddim arno, ac nas ceryddodd ef am y fath gyffes o hòno.

50 * Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho ef, [g] O herwydd i mi ddywedyd i ti, Myfi a'th welais di dan y ffigysbren, a ydwyt ti yn credu? [h] † ti a gei weled pethau mwy nâ'r rhai hyn.

g pen. 20. 29. Luc 1. 45. a 7. 9. h pen. 11. 40. Mat. 13. 12. a 25. 29.

* Yn hytrach na'i geryddu, mae Iesu yma yn cymmeradwyo cyffes Nathanäel; ac megys yn rhyfeddu wrth ei ffydd a'i oleuni ef ar gyn lleied addysg, ac mewn cyn lleied amser. Ychydig fynydau yn ol, yr oedd efe yn llawn rhagfarn yn erbyn Iesu o Nazareth; yn awr dyma efe yn credu yn gadarn ynddo. † Tr hwn y mae ganddo y rhoddir, ac efe a gaiff helaethrwydd: ychydig o fanteision a gawsai Nathanäel hyd yn hyn; yma mae Crist yn addaw ychwaneg iddo, er prawf chwanegol o'i wy-

daeth a'i allu dwyfol ei hun, ac er cynnyddu a chadnâu ffydd Nathanäel ynddo. Wrth y "pethau mwy" addawir, rhaid i ni ddeall yr holl wyrthiau a wnaeth sist yn ngolwg ei ddysgyblion ar ol hyn, yn nghyd â'r m a enwir yn yr adnod nesaf.

51 Ac efe a ddywedodd wrtho, [i] * Yn wir n wir, † meddaf i chwi, [k] ‡ Ar ol hyn y welwch y nef yn agored, [l] ac angelion Duw n esgyn ac yn disgyn ar [m] Fab y dyn.

i pen. 3. 3, 5. a 5. 19, 24, 25. a 6. 26, 32, 47, 53. a 8. 34, 51, 58. 0. 1, 7. a 12. 24. a 13. 16, 20, 21, 38. a 14. 12. a 16. 20, 23. a 21. k Ezec. 1. 1. Mat. 3. 16. Marc 1. 10. Luc 3. 21. Act. 7. 56. 0. 11. Dat. 4. 1. a 19. 11. l Gen. 28. 12. Mat. 4. 11. Luc 22. a 24. 4. Act. 1. 10. 2 Thes. 1. 7—9. 1 Tim. 3. 16. Heb. 1. 14. das 14. m pen. 3. 13, 14. a 5. 27. a 12. 23, 24. Dan. 7. 13, Zec. 13. 7. Mat. 9. 6. a 16. 13—16, 27, 28. a 25. 31. a 26. 24. arc 14. 62. Luc 22. 69.

* * *Amen, Amen*, yw y geiriau hyn yn y Groeg a'r ebraeg, ac yn arwyddo *gwirionedd*. Dywedir nas fuyddir y gair hwn yn un màn yn yr Hen Destament d fel deisyfiad; ac yn y dull hwnw defnyddiai yr ddewon ef yn aml, a'r Cristionogion wedi hyny, ac eithiau ail ddywedent ef ar ddiwedd eu gweddïau. Yn Testament Newydd defnyddir ef i gadarnâu a sicrâu irionedd unrhyw beth, yn gystal ag fel deisyfiad; ac mae Ioan yn mhob màn yn ei ddywedyd ddwy-waith, nad yw yr Efengylwyr eraill ond unwaith. Cyfrifai henafiaid y gair fel *llw;* ond y mae dysgedigion diddarach yn barnu nad oes achos ei ystyried felly yn hob màn. Mae yn sicr y dylem ni ystyried y gair yn fân hon, a mànau eraill hefyd, nid yn unig yn sicrvydd o wirionedd yr hyn a ddywedir, ond hefyd mai y *yst ffyddlawn a chywir* sydd yn llefaru (Matth. 3. 14.) Gwelwn yma fod yr Arglwydd Iesu yn newid y rhif; echreuodd yr adnod yn llefaru wrth Nathanäel, ac yna ddd megys, i lefaru wrth y dysgyblion eraill hefyd. "Ar ol hyn," neu o hyn allan. Tybia rhai mai yn ngurol mae i ni ddeall y geiriau hyn; sef yr amlygdau rhyfeddol o Dduwdod Crist a gafodd y dysgyblon, yn ei weinidogaeth a'i wyrthiau ef, pethau mòr nyfedd a phe gwelsent angelion Duw yn esgyn ac yn isgyn arno. Tybia eraill fod y geiriau yn cyfeirio at yw ymddangosiadau o angelion a welodd y dysgyblion n gweini i Grist nad yw yr Efengylwyr yn rhoddi anes am danynt. Tybia eraill mai yr angelion a nddangosasant ar adgyfodiad Crist, ac yn enwedig ar esgyniad ef, a feddylir; a bod y Nathanäel hwn yn n o'r apostolion, wedi newid ei enw, a chyda'r apostolon eraill yn eu gweled. Tybia rhai mai yr un oedd athanäel â Bartholomeus, eraill mai yr un oedd â Matthias. Efallai bod cyfeiriad yma hefyd at ddydd y arn, pan ddaw Mab y dyn gyda'i angelion sanctaidd. Mae yn ddiammau fod golwg Crist ar ysgol Jacob, yn geiriau, a thybia rhai mai darllen y weledigaeth hòno buasai Nathanäel yn un peth dàn y ffigysbren, ac mai yny a barodd i Grist ddywedyd y geiriau hyn, fel ylwedd y weledigaeth hòno.

PEN. II.

Crist yn troi y dwfr yn win.

* A'R trydydd dydd yr oedd [b] priodas yn [c] † Cana Galilea: ‡ a mam yr Iesu edd yno.

a pen. 1. 43. b Gen. 1. 27, 28. a 2. 18—25. Salm 128. 1— Diar. 18. 22. a 19. 14. a 31. 10—12. Eph. 5. 30—33. 1 Tim. 4. —3. Heb. 13. 4. c pen. 4. 46. a 21. 2. Jos. 19. 28.

* Y trydydd dydd wedi i'r Iesu ddyfod i Galilea, ac ar l yr ymddiddan blaenorol rhyngddo â Nathanäel: yma ddechreuad buan ar ddangos y "pethau mwy," a addawodd yr Iesu yn pen. 1. 50. † Yr oedd amryw refydd o'r enw Cana; ond tybir mai pentref bychan edd y Cana yma, tua phedair milltir i'r gogledd o Nazareth. ‡ Tybir mai priodas i ryw berthynas i Mair edd hon, wrth ei bod hi yno, ac yn gofalu am win i'r wahoddedigion.

2 [d] * A galwyd yr Iesu hefyd [e] a'i ddisgyblion i'r briodas.

d Mat. 12. 19. Luc 7. 34—38. 1 Cor. 7. 39. a 10. 31. Col. 3 17. Dat. 3. 20. e Mat. 10. 40—42. a 25. 40, 47.

* Mae galw yr Iesu hefyd i'r briodas, yn cadarnâu y dyb mai priodas rhyw berthynas oedd. † Ni chawsom hanes yn y bennod o'r blaen ond am bump o ddysgyblion wedi eu galw eto gan Iesu; Andreas, a'r dysgybl arall, a'i canlynasant ef o làn yr Iorddonen; a Phedr, Phylip, a Nathanäel: mae yn debyg nad oedd ganddo ddim ychwaneg y pryd hwn. Cawsent hwy eu galw i'r briodas yn ddïau er ei fwyn ef, a threfnodd Duw fel hyny iddynt gael gweled ei wyrth gyntaf ef. Nis gommeddodd Crist anrhydeddu y briodas hon â'i bresenoldeb; er dangos i ni nad yw crefydd yn galw ar neb i ymwrthod â phethau cyfreithlawn ac anrhydeddus ynddynt eu hunain, er eu bod yn achlysuron o lawenydd a gwleddoedd. Ond cofiwn iddo ef ymddwyn yn gymmedrol ac yn weddaidd yn y briodas, a chymmerwn ef yn esampl yn hyny.

3 * A phan [f] ballodd y gwin, † mam yr Iesu a ddywedodd wrtho ef, [g] Nid oes ganddynt mo'r gwin.

f Salm 104. 15. Preg. 10. 19. Es. 24. 11. Mat. 26. 28, 29. g pen. 11. 3. Phil. 4. 6.

* Mae yn debyg mai tlodion oedd y rhai a briodesid, fel pawb o deulu a charennydd Mair a Iesu y pryd hwnw, ac nas gallasent ddarpar rhyw gyflawnder mawr o win: ac efallai mai annysgwyliadwy iddynt hefyd oedd dyfodiad Iesu yno o Judea, lle y buasai am gryn amser, ac mae yn sicr nad oeddynt yn gwybod o'r blaen am ei ddysgyblion, i ddarpar mewn pryd ar eu cyfer. Ystyriwn hefyd mai yn y nos y cynnaliai yr Iuddewon eu priodasau, ac nas gellid myned allan y pryd hwnw i brynu gwin. † Nis gallai mam yr Iesu fod yn hollawl ddïeithr i'w allu gwyrthiol ef, wedi yr holl bethau rhyfedd a glywsai hi am dano gan angelion a dynion o ysbryd prophwydoliaeth; ac nid yw yn annhebygol chwaith, iddo ef yn ei ddyddiau boreuach, wneuthur rhai gwyrthiau, neu debyg i wyrthiau, er cynnorthwyo ei rïeni tlodion, neu rai o'i gyfeillion: er i bawb a wyddent am y cyfryw ymgadw yn ofalus rhag eu cyhoeddi. Wrth ystyried y pethau uchod, mae yn bur debyg ei bod hi yn credu y gallai efe ddyfod a gwin ryw fodd yn wyrthiol, ac ei bod yn gobeithio y gwnâi efe hyny.

4 Iesu a ddywedodd wrthi, [h] * Beth sydd i mi *a wnelwyf* â thi, [i] wraig? [k] † ni ddaeth fy awr i etto.

h pen. 19. 26, 27. a 20. 13, 15. Mat. 15. 28. i Deut. 33. 9. 2 Sam. 16. 10. Luc 2. 49. 2 Cor. 5. 16. Gal. 2. 5, 6. k pen. 7. 6, 30. a 8. 20. a 12. 23. a 13. 1. Preg. 3. 1.

* Nid oes dim yn anmharchus yn ngwaith Crist yn llefaru wrth ei fam yn y dull hyn; felly y byddai yr Iuddewon yn arfer llefaru wrth y rhyw fenywaidd: ïe, byddai gwasanaethyddion isel yn llefaru felly wrth eu meistresi, hyd yn nod pendefigesau o'r gradd uchelaf. Fel hyn y llefarodd Crist wrth ei fam oddi ar y groes, gyda'r anwyldeb a'r tynerwch mwyaf, pen. 19. 26. Ar yr un pryd, mae y geiriau yn dangos fod Mair mewn mesur i'w beïo; am ei bod megys yn dysgwyl i Grist wneyd gwyrth o ufudd-dod iddi hi; ac maent yn rhybudd iddi, nad ymyro hi âg ef mewn peth felly. Gwaith ei Dad oedd y pethau hyny, ac nid oedd iddo ef a wnelai â hi mwy na rhywun arall yn y cyfryw bethau. Onid oes yma gerydd llym i'r pabyddion sydd yn gweddïo ar Mair am iddi orchymyn pethau i'w Mhab! † Ni ddaeth fy awr I eto i amlygu fy ngogoniant yn gyhoeddus, fel y gwnaf yn fuan yn Jerusalem, (adn. 13, &c.) beth bynag a wnelwyf yn ddirgel yn mhlith fy nghyfeillion: gan hyny gâd di y mater hwn yn hollawl i mi.

5 * Ei fam ef a ddywedodd wrth y gwasanaethwyr, [l] Beth bynnag a ddywedo efe wrthych, gwnewch.

l pen. 15. 14. Gen. 6. 22. Barn. 13. 14. Luc 6. 46—49. Act. 9. 6. Heb. 5. 9. a 11. 8.

* Ymostyngodd Mair yn dawel i'w cherydd, ond nid ammheüodd na wnâi efe ryw wyrth i gael gwin: am hyny mae hi yn peri i'r gwasanaethwyr wneyd pa beth bynag a ddywedai efe wrthynt, heb anufuddâu nac ymresymu dim âg ef nac â'u gilydd yn nghylch y mater.

6 Ac yr oedd yno chwech o ddyfr-lestri meini wedi eu gosod, [m] * yn ol defod puredigaeth yr Iuddewon, † y rhai a ddalient bob un ddau ffircyn neu dri.

m pen. 3. 25. Marc 7. 2—5. Eph. 5. 26. Heb. 6. 2. a 9. 10, 19. a 10. 22.

* Heblaw y golchiadau a'r puredigaethau gorchymynedig yn ngair Duw, yr oedd traddodiadau yr Iuddewon wedi chwanegu llawer iawn at hyny; fel yr oedd yn angenrheidiol cadw llawer o ddwfr yn y tai yn wastadol, er golchi traed, dwylo, a llestri: nid er glanweithdra a chysur, ond yn ofergoelus fel defodau crefyddol. Hyny, mae yn debyg, oedd yr achos bod cynnifer o lestri yn llawn o ddwfr yn y tŷ hwn yn awr. † Mesurau, yw ystyr y gair Groeg *(metrêtas)* a gyfieithir yma ffircyn; ac ni buasai fawr gwaeth, hwyrach, pe gadawsai y cyfieithwyr Cymreig ef fel yr oedd, na'i gyfieithu i air estron arall. Gan nas gwyddom ni ond ychydig am fesurau gwlŷb a sŷch yr Iuddewon, mae yn rhy anhawdd penderfynu pa faint a ddaliai y chwech dwfr-lestri hyn, ac nid yw yn angenrheidiol ychwaith er egluro y testyn. Mae yn rhaid y dalient lawer; nid er yfed y gwahoddedigion; ond er sicrâu gwirionedd y wyrth: pe na throisai Crist ond ychydig o hóno yn win, buasai rhywrai digred yn ammau y wyrth am na throisai y cwbl yr un modd, neu ynte, mai ei gael a wnaethai yn rhywle drwy dwyll, a dywedyd mai gwyrthiol oedd.

7 Iesu a ddywedodd wrthynt, [n] * Llenwch y dyfr-lestri o ddwfr. A hwy a'u llanwasant hyd yr ymyl.

n adn. 3, 5. Num. 21. 6—9. Jos. 6. 3—5. 1 Bren. 17. 13. 2 Bren. 4. 2—6. a 5. 10—14. Marc 11. 2—6. a 14. 12—17. Act 8. 26, &c.

* Parodd Iesu i'r *gwasanaethwyr* lenwi; i lenwi y *dyfr-lestri*, ac nid y llestri gwin oedd yn weigion; ac eu llenwi o *ddwfr* pur a digymmysg: yr oedd hyn oll er profi gwirionedd diammheuol y wyrth. † Gwnaeth y gwasanaethwyr hyn oll, yn ol cyngor Mair o'r blaen, a gorchymyn Crist yn awr: ac yr oeddynt hwy yn ddigon o dystion mai dwfr a roddesid yn y llestri, a hyny hyd yr ymyl fel nas gallesid rhoddi dim arall yn gymmysg.

8 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [o] * Gollyngwch yn awr, † a dygwch at lywodraethwr y wledd. A hwy a ddygasant.

o adn. 9. Diar. 3. 5, 6.

* Nid oes genym ddim hanes i Grist gyflwrdd â'r llestri nac â'r dwfr ei hun, na dywedyd gair o'i enau; dim ond gorchymyn i'r gwasanaethwyr lenwi, ac yna gollwng yn y fàn. Gallai ef wneyd ei wyrthiau fel y mynai; un ai drwy gyfhyrddiad, â gair ei nerth, neu heb yr un o'r ddau. † Llywodraethwr y wledd oedd un a ddewisid i'r swydd hòno; i ofalu am i bawb gael eu diwallu, na byddai neb yn yfed i ormodedd, ac i gadw trefn a gweddeidd-dra ar bawb yn y gymdeithas: tybia rhai mai offeiriad neu Lefiad a ddewisid yn gyffredin i'r swydd hòno. Parodd Iesu ddwyn y dwfr a droisid yn win at y llywodraethwr hwn fel y caffai *efe* farnu mai *gwin diledryw* yn sicr ydoedd: a pharodd i'r gwasanaethwyr ei ddwyn fel arferol, er cadw y wyrth yn gudd-iedig oddi wrth y llywodraethwr, hyd ar ol iddo ef roddi ei farn arno.

9 * A phan brofodd llywodraethwr y wledd y dwfr a wnaethid yn win, (ac ni wyddai o ba le yr ydoedd, eithr y gwasanaethwyr, y rhai a ollyngasent y dwfr, a wyddent) llywodraethwr y wledd a alwodd ar y priod-fab,

* Gwedi i'r llywodraethwr ei brofi, efe a wyddai mai *gwin* ydoedd; ond nis gwyddai pa fodd y daeth yn win. Gwyddai ei fod yn win rhagorol, gwell nac a gawsent o'r blaen; am hyny efe a alwodd y priod-fab, i ymresymu âg ef am roddi y gwin goreu yn olaf, yn groes i'r arfer gyffredin. Yr oedd hwn yn win perffaith, o ran lliw, blas, a phob ansawdd gwinawl; nid fel y taera y pabyddion fod y bara yn troi yn wir gorph Crist yn y Sacrament, ac eto yn aros yn fara, heb un cyfnewidiad ar ei liw, ei flas, ei sylwedd, na'i ansawdd. Ofer dadleu trawssylweddiad oddi ar y wyrth hon.

10 Ac a ddywedodd wrtho, Pob dyn a esyd y gwin da yn gyntaf; [p] ac wedi iddynt * yfed yn dda, yna un a fo gwaeth: [q] † tithau a gedwaist y gwin da hyd yr awr hon.

p Gen. 43. 34. Can. 5. 1. q Diar. 9. 1—6, 16—18. Luc 16. 25. Dat. 7. 16, 17.

* Mae yn wir fod y gair *(methusthósi)* a gyfieithir yma "yfed yn dda," yn arwyddo yfed i ormodedd, ac i feddwdod, mewn rhai mànau eraill; ond byddai yn anghyfiawn iawn i ni dybied ei fod yn arwyddo felly yn y fàn hon, bod y cymdeithion hyn wedi meddwi, bod Iesu yn gwneyd gwyrth i ddiwallu dynion oedd eisoes wedi yfed gormod, ac ei fod ef yn aros yn nghymdeithas dynion meddwon, ac yn eu cefnogi yn hyny. Mae yn fwy naturiol i ni feddwl ei fod yn arwyddo yma, yfed i'r gradd ag oedd yn rhoddi bywiogrwydd diniwed i'r ysbrydoedd: felly y defnyddir yr un gair yn y cyfieithiad Groeg o Gen. 43. 34; Can. 5. 1; a Hag. 1. 6. Gwedi y cwbl, sôn sydd yma am yr arferiad mewn gwleddoedd eraill yn gyffredin; ac nid dywedyd fod y cymdeithion *yma* wedi "yfed yn dda," beth bynag yw meddwl hyny. † Mae llywodraethwr y wledd yma, yn canmol y priod-fab am ei haelder mawrfrydig er nad oedd efe yn haeddu dim o hyny yn y peth hwn; ac hefyd yn cadarnâu gwirionedd y wyrth, er nas gwyddai efe eto mai gwyrth ydoedd. Ni bydd neb ar ei golled o roesawi Crist; dyma ddigon o dâl i'r priod-fab hwn, yn yr holl win oedd yn weddill ar ol y wledd.

11 [r] * Hyn o ddechreu gwyrthiau [s] a wnaeth yr Iesu yn Cana Galilea, † ac a [t] eglurodd ei ogoniant; [u] ‡ a'i ddisgyblion a gredasant ynddo.

r pen. 1. 17. Ex. 4. 9. a 7. 19—21. Preg. 9. 7. Mal. 2. 2. 2 Cor. 4. 17. Gal. 3. 10—13. s pen. 1. 50, 51. a 3. 2. a 4. 46. t pen. 1 14. a 5. 23. a 12. 41. a 14. 9—11, 13. Deut. 5. 24. Salm 72. 19. a 96. 3. Es. 40. 5. 2 Cor. 3. 18. a 4. 6. u pen. 11. 15. a 20. 30, 31. 1 Ioan 5. 13.

* Hyny yw, dyma y wyrth gyntaf a wnaeth Iesu ar ol ei fedyddio, a dechreu ar ei weinidogaeth gyhoeddus, ac yn Cana Galilea y gwnaeth efe hi. Efallai iddo wneyd rhai gwyrthiau dirgelaidd o'r blaen; mae yn sicr iddo wneyd llawer yn gyhoeddus wedi hyn, mewn mànau eraill. † "Egluro ei ogoniant *ei hun*," a fuasai orau. Ni ddywedir yn un màn, ac nis gellid dywedyd, fod y prophwydi yn egluro eu gogoniant eu hunain, na'r apostolion chwaith; nid trwy eu nerth eu hunain yr oeddynt hwy yn gwneyd eu gwyrthiau, eithr trwy nerth Duw; am hyny nid eu gogoniant eu hunain oeddynt yn egluro, eithr gogoniant Duw. Yr oedd Iesu yn gwneyd ei wyrthiau yn ei nerth Dwyfol ei hun; am hyny yr oedd yn egluro ei ogoniant ei hun. Eglurwyd ei ogoniant ef gan yr angelion a chan ddynion yn ei enedigaeth; gan y Tad a'r Ysbryd Glân yn ei fedydd; ond yma mae ef ei *hun* yn egluro ei ogoniant ei hun. ‡ Yr oedd ei ddysgyblion yn credu ynddo o'r blaen; ac mae y wyrth hon yn cryfâu eu crediniaeth ynddo: nid dechreu eu ffydd, ond cadarnâd, a gweithrediad eu ffydd, a feddylir.

12 ¶ * Wedi hyn efe a aeth i waered i [x] Capernaum, efe, † a'i fam, [y] a'i frodyr, a'i ddisgyblion: ‡ ac yno nid arhosasant nemmawr o ddyddiau.

x pen. 6. 17. Mat. 4. 13. a 11. 23. y pen. 7. 3—5. Mat. 12. 46. a 13. 55, 56. Marc 6. 3. Act. 1. 13, 14. 1 Cor. 9. 5. Gal. 1. 19.

* Dinas tua thaith diwrnod i'r dwyrain o Cana oedd Capernaum, ar làn môr Galilea: am ei mawredd mewn cyfoeth a breintiau gwel ar Matth. 11. 23. Hwn yw y tro cyntaf y darllenwn i Grist fyned yno fel gweinidog neu athraw cyhoeddus, gwedi hyn efe a wnaeth ei gartref yno gan mwyaf. Dywed *Jerome* mai porin y caid yno saith o fythod pysgodwyr tlodion yn ei amser ef: mòr llwyr y cyflawnwyd yr hyn a ddywedasai Crist yn Matth. 11. 23. † Myn rhai na bu yr un plentyn i Mair ond Iesu, ac mai rhyw berthynasau pellach na brodyr a ddylem ddeall yn mhob màn lle sonir am ei frodyr ef. Efallai bod y wyrth o droi y dwfr yn win wedi effeithio ar ei frodyr ef, i beri iddynt ei ganlyn; er iddynt gynnefino â'r cyfryw bethau wedi hyny, ac heb gredu ynddo, pen. 7. 5: neu efallai eu bod oll yn myned i fynu i Jerusalem y tro hwn i wyl y pasg, (adn. 13) ac yn myned gydag ef trwy Capernaum, er bod hyny lawer allan o'u ffordd. ‡ Yr achos nad arosasant mae yn debyg oedd, agosrwydd yr wyl a soniwyd yn Jerusalem.

13 ¶ [z] * A phasc yr Iuddewon oedd yn nagos: † a'r Iesu a aeth i fynu i Jerusalem;

z adn. 23. pen. 5. 1. a 6. 4. a 11. 55. Ex. 12. 6—14. Num. 28. 16—25. Deut. 16. 1—8, 16. Luc 2. 41.

* Gwel ychydig am ddefod y pasg ar Matth. 16. 20—225. † Yr oedd yn rhaid i'r holl wrrywiaid fyned i fynu i Jerusalem i gadw y pasg; a chan mai Iuddew, un o had Abraham, oedd Iesu o ran y cnawd, yr oedd yn ymostwng i holl orchymynion a gofyniadau y ddeddf seremoniol. Tybir i bedwar pasg ddygwydd rhwng bedydd Crist a'i farwolaeth, a bod Ioan yn crybwyll am danynt oll: gosodwn y mànau i lawr er mwyn byrda: pen. 2, 13; a 5. 1; a 6. 4; a 13. 1. Os cafodd efe ei fedyddio tua hanner blwyddyn cyn y blaenaf o'r pedwar, bu felly dair blynedd a hanner yn athrawiaethu yn gyhoeddus, fel y dywedir yn gyffredin ei fod.

14 [a] * Ac a gafodd yn y deml rai yn gwerthu ychain, a defaid, a cholommennod, † a'r newidwyr arian yn eistedd.

a Deut. 14. 23—26. Mat. 21. 12. Marc 11. 15. Luc 19. 45, 46.

Mae Matth. 21. 12, a Luc 19. 45, yn adrodd peth mòr debyg i'r hyn a adroddir yma fel y tybiodd rhai mai yr un tro a feddylir: ond mae yn amlwg mai dau dro gwahanol oeddynt; hwn ar y pasg cyntaf wedi bedyddio Crist, a'r tro a adroddir gan Matthew a Luc yn mhen tair blynedd wedi hyny, sef y pedwerydd pasg, ychydig ddyddiau cyn i Grist ddyoddef. Gwel ar Matth. 21. 12. * Rhaid fod marchnad ddirfawr iawn o'r anifeiliaid hyn ar y cyfryw amserau; oblegid dywed *Josephus* na byddai dim llai na 256,500 o greaduriaid yn cael eu haberthu ar un pasg. † Mae y gair *(kernatistas)* a gyfieithir yma "newidwyr arian," yn arwyddo darnau bychain, y rhai a newidid am ddarnau mwy, er cyfleusdra i bobl bellenig a ddeuent yno i aberthu a chadw y pasc: hanner siclau am siclau, y rhai a roddai pob un yn offrwm i'r Arglwydd yn y drysorfa, Exod. 30. 15. Nid oedd ychain, yn ystyr briodol y gair, i gael eu hoffrymu i'r Arglwydd; dim ond teirw a buwchod yn unig, Lefit. 22. 18—24.

15 * Ac wedi gwneuthur fflangell o fân reffynnau, † [b] efe a'u gyrrodd hwynt oll allan o'r deml, y defaid hefyd a'r ychain; ac a dywalltodd allan arian y newidwyr, ac a ddymchwelodd y byrddau;

b pen. 18. 6. Zec. 4. 6. 2 Cor. 10. 4.

* Dywedir nad oedd yn gyfreithlawn i neb ddyfod â ffòn o fewn cynteddau y deml; am hyny efallai mai â'r rheffynau hyn y byddid yn gỳru neu yn arwain yr anifeiliaid i'r farchnad, neu ynte yn eu cylymu yno er dïogelwch, nes yr aberthid hwy. Onid oes cyfeiriad at hyn yn Salm 118. 27? † Am yr achos i Grist wneyd hyn, gwel ar Matth. 21. 12—14. Efe a'u gỳrodd hwynt allan o'r *deml;* yr oedd y farchnad yn gyfreithlawn ac yn angenrheidiol, ond nid oedd yn gyfreithlawn nac yn angenrheidiol ei chynnal yn y *deml.* Heblaw bod y newidwyr arian yn codi usuriaeth anghyfreithlawn am newid; yr oedd yr offeiriaid hefyd yn cael elw mawr am ganiatâu lle i'r farchnad yn nghyntedd y *deml.* Cigyddwyd cannoedd o honynt hwythau fel anifeiliaid wedi hyny yn y deml, yn gosp am y llygredigaeth hyn. Os llygra neb deml Dduw, Duw a lygra hwnw.

16 Ac a ddywedodd wrth y rhai oedd yn gwerthu colommennod, * Dygwch y rhai hyn oddi yma; [c] † na wnewch [d] dŷ fy Nhad i yn ‡ dŷ marchnad.

c Es. 56. 5—11. Jer. 7. 11. Hos. 12. 7, 8. Mat. 21. 13. Marc 11. 17. Act. 19. 24—27. 1 Tim. 6. 5. 2 Pedr 2. 3, 14, 15. d pen. 5. 17, 18. a 8. 49. a 10. 29, 30. a 20. 17. Luc 2. 49.

* Gallasai efe ollwng y colomenod i ehedeg ymaith, er colled i'w perchenogion am danynt; ond ni fynai efe golledu na niweidio neb: am hyny mae yn peri iddynt hwy eu hunain eu cymmeryd hwy ymaith oddi yno. † Mae yn wir y byddai yr Iuddewon yn galw Duw yn Dad iddynt, Ioan 8. 41; ond rhaid i ni ddeall y geiriau hyn mewn ystyr uwch, mae Crist yma yn hóni ei hun yn gyhoeddus yn Fab Duw mewn ystyr briodol, a gwahanol i bawb eraill: yn yr ystyr a grybwyllwyd yn y sylwad ar pen. 1. 18. ‡ Er nad oes yr un tŷ addoliad i'w gystadlu â'r deml mewn sancteiddrwydd; eto ni ddylai dynion wneyd lle addoliad yn dŷ marchnad, i ymddiddan am bethau bydol o'i fewn nac o'i amgylch: llawer llai i gyhoeddi ffeiriau, &c. yn y fath le.

17 * A'i ddisgyblion a gofiasant fod yn ysgrifenedig, [e] Zêl dy dŷ di a'm hysodd i.

e Salm 69. 9. a 119. 139.

* Pwy a allasai feddwl wrth edrych ar agwedd allannol dlawd, iselaidd, a gwladaidd Iesu, y buasai y fath awdurdod yn myned gyda ei eiriau ef, a throi miloedd o ddynion allan ar unwaith, a llawer o'r rhai hyny yn ddiammau yn ddynion penaf, a mwyaf galluog, o ran swyddau ac awdurdod yn mhlith yr Iuddewon? Yr oedd y Duwdod mawr yn gweithredu yn y ddynoliaeth; ac nid oedd hyn ond peth bychan at fwrw lleng o gythreuliaid allan o'r dieflig, yr hyn a wnaeth efe wedi hyny â gair ei enau. Heblaw *dywedyd* ei fod yn Fab Duw, adn. 16, efe a *ddangosodd,* mewn *gweithred,* ei fod yn Fab Duw: a thybir mai y tro hwn a barodd i Nicodemus ddechreu meddwl yn fawr am dano, a dyfod ato yn fuan gwedi hyn, pen. 3. 1. * Mae yn debyg fod y dysgyblion yn ystyried y geiriau hyn o'r blaen yn brophwydoliaeth am y Messiah; (er eu bod yn wir mewn ystyr îs am Dafydd hefyd;) ac wrth weled *zel* (aidd) Crist y tro hwn yn cyfateb iddynt, cawsant brawf chwanegol mai efe oedd y Messiah.

18 ¶ * Yna yr Iuddewon a attebasant ac a ddywedasant wrtho ef, [f] † Pa arwydd yr wyt ti yn ei ddangos i ni, [g] gan dy fod yn gwneuthur y pethau hyn?

f pen. 6. 30. Mat. 12. 38. a 16. 1—4. Marc 8. 11. Luc 11. 29. g pen. 1. 25. Mat. 21. 23. Marc 11. 27, 28. Luc 20. 1, 2. Act. 4. 7. a 5. 28.

* Mae yn debyg i bobl gyffredin yr Iuddewon ddyfod ato, oblegid yr oeddynt hwy yn cael peth colled drwy aflonyddu eu marchnad, a'i symmud i le arall: ond tybia rhai mai y gwŷr mawr, aelodau y Sanhedrim, oedd yr Iuddewon hyn a ddaethant ato, yn llawn ymchwŷdd a digofaint, wrth weled dyn gwladaidd a dïeithr yn cymmeryd cymmaint arno, ac yn dadymchwelyd yr hyn oeddynt hwy yn ganiatâu, ac yn cael elw mawr oddi wrtho. Yr oedd yr ystafell lle yr eisteddai y Senedd hon ar fur y deml, mewn rhan oddi fewn, ac mewn rhan oddi allan, i'r terfynau cyssegredig. Lle gorwych ac ardderchog iawn ydoedd; a gelwid yr ystafell, *Lishcath-Aggazith,* oddi wrth balmant godidog ei llawr. Os oedd y Senedd yn eistedd yno y pryd hwnw, nid hir y buont cyn clywed am yr hyn a wnaethai yr Iesu. † Nis beiddient gyfiawnâu cadw y

farchnad yn y deml, na beïo chwaith ar yr hyn a wnaethai Crist; eisiau gwybod ei awdurdod oedd arnynt: os oedd efe wedi cael rhyw awdurdod uniongyrchol oddi wrth Dduw, mynent iddo wneyd rhyw wyrth o flaen eu llygaid hwy i brofi hyny. Onid oedd Salm 93. 5, yn ddigon o awdurdod iddo, pe buasent yn meddwl am y geiriau hyny? onid oedd mai *ty ei Dad* oedd y deml, yn ddigon o awdurdod iddo, pe credasent hwy mai Mab Duw ydoedd? Ac onid oedd y weithred ei hun yn ddigon o brawf o'i awdurdod ef?

19 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, [h] * Dinystriwch y deml hon, [i] ac mewn tridiau y [k] † cyfodaf hi.

h Mat. 26. 60, 61. a 27. 40. Marc 14. 58. a 15. 29. i Mat. 12. 40. a 27. 63. k pen. 5. 19. a 10. 17, 18. a 11. 25. Marc 8. 31. Act. 2. 24, 32. a 3. 15, 26. Rhuf. 4. 24. a 6. 4. a 8. 11. 1 Cor. 15. 3, 4, 12. Col. 2. 12. 1 Pedr 3. 18.

Gan y gwyddai yr Iesu mai o gecraeth yn unig yr oeddynt yn gofyn arwydd, ni roddai efe arwydd iddynt ond arwydd ei adgyfodiad, fel y dywedodd efe amryw weithiau wedi hyn, Matth. 12. 39, 40; Luc 11. 29. * Nid gorchymyn iddynt ddinystrio yr oedd Iesu yma; ond rhagfynegi mai hyny a wnaent: fel yr oeddynt wedi halogi y deml gysgodol, ac yntau wedi ei glanâu drwy allu ac awdurdod dwyfol; felly y byddai iddynt ddinystrio ei gorph ef, sylwedd y deml hòno, yn mhen tair blynedd; ac y byddai iddo yntau ei gyfodi, a thrwy hyny egluro ei hun yn Fab Duw, Rhuf. 1. 4. † Prïodolir adgyfodiad Crist weithiau i'r Tad, weithiau i'r Ysbryd, yma iddo ef ei hun: gweithred y tri Pherson yn un Duw ydoedd adgyfodi ei gorph ef. Gwelwn fel y cam-adroddwyd y geiriau hyn i geisio eu dwyn yn gyhuddiad yn ei erbyn ef yn mhen tair blynedd wedi hyn, Matth. 26. 61.

20 Yna yr Iuddewon a ddywedasant, * Chwe blynedd a deugain y buwyd yn adeiladu y deml hon; † ac a gyfodi di hi mewn tridiau?

* Deallai yr Iuddewon eiriau Crist yn llythyrenol, am y deml, ac nid am gorph Crist, adn. 21. Rhaid i ni ddeall mai nid y deml a adeiladasai Solomon oedd hon, nac ychwaith yr ail deml, a adeiladwyd ar y dychweliad o Babilon; ond y deml a adeiladodd Herod. Dechreuodd Herod adeiladu tua'r ddeunawfed flwyddyn o'i deyrnasiad, ac yr oedd hyny tua chwe' blynedd a deugain cyn yr ymddiddan hwn rhwng yr Iuddewon â Christ. Dywed *Josephus* fod gan Herod fil o gertwyni pedrolwynog yn cludo defnyddiau at y deml, a deng mil o'r gweithwyr mwyaf medrus, heblaw mil o offeiriaid, llawer o ba rai oedd wedi eu dysgu mewn saerniaeth coed a meini. Tybir i Herod orphen yr hyn oedd ef yn fwriadu mewn wyth neu naw mlynedd; ond aeth yr Iuddewon yn mlaen o hyd i wneuthur rhyw chwanegiadau a gwelliant, fel nad oedd y cyfan wedi ei orphen pan fu yr ymddiddan uchod: oblegid yn hir wedi hyn, dàn lywodraeth Florus, (o gylch 65 o oed Crist,) dywed Josephus fod y deml wedi ei gorphen, a'r gweithwyr wedi eu tâlu ymaith: felly mae yn ymddangos eu bod wrth y gwaith drwy holl weinidogaeth ac oes Crist. Gwel Ioan 8. 59; a 10. 31, pa fodd y cawsid cerig yn y deml i'w taflu at Grist, oddigerth bod rhyw ran o'r adeiladaeth yn myned yn mlaen. Wrth hyn ni a welwn, na bu y deml fawr o amser wedi ei llwyr orphen, hyd onid oedd wedi ei llwyr ddinystrio. † Er maint y synai ac yr anghredai yr Iuddewon, mae yn sicr y gallasai yr Iesu adeiladu y deml mewn tridiau; adeiladodd fydoedd lawer mewn chwe' diwrnod.

21 [l] * Ond efe a ddywedasai am [m] deml ei gorph.

l pen. 1. 14. Col. 1. 19. a 2. 9. Heb. 8. 2. m 1 Cor. 3. 16. a 6. 19. 2 Cor. 6. 16. Eph. 2. 20—22. 1 Pedr 2. 4, 5.

* Mae y gair *(Naon)* a gyfleithir yma ac yn adn. 19, 20, yn arwyddo y cyssegr, ar wahân oddiwrth y cynteddoedd a'r adeiladau perthynol i'r cyssegr, er mai nid felly yr oedd yr Iuddewon yma yn ei ddeall, ond am yr holl adeiladau i gyd. Yr oedd dau beth yn ngeiriau Crist yn adn. 19, yn profi ei Dduwdod; 1. Yr oedd yn sôn am ei gorph fel teml ei Dduwdod; ac yn 2. Yn hòni ei allu Dwyfol i adgyfodi ei gorph.

22 * Am hynny pan gyfododd efe o feirw, [n] ei ddisgyblion ef a gofiasant iddo ddywedyd hyn wrthynt hwy: [o] † a hwy a gredasant yr ysgrythyr, a'r gair a ddywedasai yr Iesu.

n adn. 17. pen. 12. 16. a 14. 26. a 16. 4. Luc 24. 7, 8, 44. Act. 11. 16. o adn. 11. pen. 20. 8. 9.

* Mae yn debyg nad oedd y dysgyblion eu hunain yn deall y pryd hwn, mai am deml ei gorph yr oedd Iesu yn dywedyd, mwy na'r Iuddewon eraill; ond ar ol ei adgyfodiad, hwy a gofiasant ei eiriau ac a'u deallasant. Ar ol ei adgyfodiad ef, ac yn enwedig ar ol ei esgyniad, a thywalltiad yr Ysbryd Glân, cofiodd y dysgyblion lawer o eiriau Crist, yn gystal â phrophwydoliaethau yr Hen Destament am dano, ac a'u deallasant yn well nac yr oeddynt yn eu deall o'r blaen. † "Yr ysgrythyr a'r gair a ddywedasai yr Iesu:" trwy gymharu prophwydoliaethau yr Hen Destament am angeu ac adgyfodiad y Messiah, â'r geiriau hyn ac eraill a ddywedasai yr Iesu ei hun wrthynt, yr oedd y naill yn egluro ac yn cadarnâu y llall, ac felly yn gymmorth iddynt hwy i ddeall a chredu y naill a'r llall, a chredu hefyd yn Iesu, mai efe oedd y gwir Fessiah.

23 ¶ * Ac fel yr oedd efe yn Jerusalem ar y pasc yn yr wyl, [p] † llawer a gredasant yn ei enw ef, wrth weled yr arwyddion a wnaethai efe.

p pen. 3. 2. a 6. 14. a 7. 31. a 8. 30, 31. a 12. 42, 43. Mat. 13. 20, 21. Marc 4. 16, 17. Luc 8. 13. Gal. 5. 6. Eph. 3. 16, 17. Iago 2. 19, 20.

* Mae yn amlwg wrth yr adnod hon, ac hefyd pen. 3. 2; a 4. 45, i'r Arglwydd Iesu wneuthur amryw wyrthiau y tro hwn yn Jerusalem, heblaw gyru allan y prynwyr a'r gwerthwyr o'r deml, er nad oes genym adroddiad am danynt. † Hwy a gredasant fod ei athrawiaeth ef yn wirionedd, a'i wyrthiau yn ddwyfol: felly hwy a gredasant ei fod ef ei hun yn rhyw brophwyd mawr, efallai iddynt gredu mai efe oedd y Messiah, rai o honynt; ond mae yn debyg nad oedd ganddynt ddim gwybodaeth iawn am y waredigaeth *ysbrydol* y daeth efe i'w chyflawni, nac o'u hangen eu hunain am ei iachawdwriaeth ef.

24 [q] * Ond nid ymddiriedodd yr Iesu iddynt am dano ei hun, [r] † am yr adwaenai efe hwynt oll;

q pen. 6. 15. Mat. 10. 16, 17. r pen. 1. 42, 46, 47. a 5. 42. a 6. 64. a 16. 30. a 21. 17. 1 Sam. 16. 7. 1 Cron. 28. 9. a 29. 17. Jer. 17. 9, 10. Mat. 9. 4. Marc 2. 8. Act. 1. 24. Heb. 4. 13. Dat. 2. 23.

* Gan y gwyddai yr Iesu nad oedd hyn ond effaith syndod disymwth, wrth weled ei wyrthiau ef, ac nad oedd ond credu amserol ac ansefydlog; nid ymddiriedodd efe ei hun i'r fath gredinwyr, ni dderbyniodd hwynt fel dysgyblion eraill, ac ni chyfeiliachodd lawer â hwynt; efallai y gwyddai y buasent hwy yn ymgais am ei wneuthur ef yn frenin, ac felly yn codi terfysg yn y ddinas, am hyny "nid ymddiriedodd ei hun iddynt." † Fel Duw holl-wybodol efe a'u hadwaenai hwynt oll, ac yr oedd hyn yn brawf o'i holl-wybodaeth ef, ac felly o'i wir Dduwdod.

25 * Ac nad oedd raid iddo dystiolaethu o neb *iddo* am ddyn: o herwydd yr oedd efe yn gwybod beth oedd mewn dyn.

* Prïodol i Dduw yn unig yw adnabod calonau a meddyliau dynion, 1 Bren. 8. 39; gan hyny os gwir y geiriau hyn, mae yn rhaid bod Iesu yn Dduw; canys yr oedd efe yn gwybod beth oedd *mewn* dyn. Dat. 2. 23. Mae y ddwy adnod olaf hyn yn ddangosiad pur eglur, nad oedd credu y bobl yn adn. 23, ddim yn wir gredu diffuant, ac y gwyddai Iesu hyny.

PEN. III.

Crist yn dysgu Nicodemus mor angenrheidiol yw adenedigaeth.

AC yr oedd dyn [a] o'r Phariseaid, a'i enw † Nicodemus, ‡ pennaeth yr Iuddewon:

a adn. 10. pen. 7. 47—49.

2 Yn mhlith y llawer a gredasant yn ei enw ef, mae yn debyg fod rhai o'r Phariseaid, o leiaf yr oedd y Nicodemus hwn yn un. * Sylwasom eisoes ar y Phariseaid ewn amryw fânau: gwel ar Matth. 3. 7; a 23. 13—33. ywed rhai eu bod yn cael eu henw o air Hebraeg sydd n arwyddo *egluro*, am y cymmerent arnynt egluro y fraith: dywed eraill ei fod yn deilliaw o air sydd yn wyddo *rhanu*, am y byddent hwy yn ymranu, neu yn neilldu eu hunain oddi wrth eraill. † *Nike*, Buddgoliaeth, *Démos*, pobl; felly Buddugoliaeth y bobl yw tyr yr enw Nicodemus. ‡ Yr oedd efe yn un o aelodau y Sanhedrim yn Jerusalem, ac felly, mae yn debyg, oedd yn cael ei alw yn benaeth yr Iuddewon. Gwel en. 7. 50.

2 [b] * Hwn a ddaeth at yr Iesu liw nos, ac ddywedodd wrtho, [c] † Rabbi, [d] ‡ nyni a yddom mai || dysgawdwr ydwyt ti wedi dyod oddi wrth Dduw: [e] § canys ni allai neb neuthur y gwyrthiau hyn yr wyt ti yn eu wneuthur, oni bai fod Duw gyd âg ef.

b pen. 7. 50. a 12. 42, 43. a 19. 38, 39. Barn. 6. 27. Es. 51. 7. hil. 1. 14. c adn. 26. pen. 1. 38. a 20. 10. d Mat. 22. 16. Marc 12. 14. e pen. 5. 36. a 7. 31. a 9. 16, 30—33. a 11. 47, 48. 12. 37. a 15. 24. Act. 2. 22. a 4. 16, 17. a 10. 38.

* Tybir mai ofn ei gyd-seneddwyr, a'i frodyr y Phariseaid, oedd yr achos i Nicodemus fyned at yr Iesu liw os; a chywilydd hefyd, ni fynai efe i neb ei weled ef, wr mòr fawr, yn myned at un mòr ddistadl a gwladaidd ir olwg arno, ag oedd Iesu. † Am y gair hwn gwel ar en. 1. 49; a Matth. 23. 7. Mae yn beth nodedig iawn od gwr mòr fawr a Nicodemus, yn rhoddi y fath enwad rhydeddus i un mòr isel ei ymddangosiad ag oedd Crist y pryd hwnw. ‡ "*Nyni* a wyddom:" mae yn debyg od llawer o'r Phariseaid ac aelodau y Cyngor, heblaw Nicodemus ei hun yn gorfod meddwl mai dysgawdwr wedi dyfod oddi wrth Dduw ydoedd Iesu; ond yn lle ei iderbyn ef fel y cyfryw, ei wrthod ef a wnaethant, a lidio wrtho fwy-fwy po mwyaf yr oedd efe yn ei amlygu i hun. || "Oddi wrth Dduw y daethost ti yn Ddysgwdwr," neu "i fod yn Ddysgawdwr." Nid oedd neb wedi "dyfod oddi wrth Dduw yn Ddysgawdwr" i'r Iuddewon er ys cannoedd o flynyddoedd o'r blaen, oddigerth Ioan Fedyddiwr; felly mae yr addefiad hwn yn parch mawr i Grist, ac yn ei osod o leiaf yn gyd-radd â'r hen brophwydi gynt: § ie yn uwch na hwynt; ebblegid ni ddarfu i neb o'r prophwydi gadarnâu eu nathrawiaeth, a phrofi eu dwyfol anfoniad, trwy y fath wyrthiau amlwg ag yr oedd efe gwedi gwneyd. Gwel oen. 9. 30, 33.

3 * Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, † Yn wir, yn wir, meddaf i ti, [g] ‡ Oddi eithr geni dyn o drachefn, [h] || ni ddichon efe weled teyrnas Dduw.

f Gwel ar pen. 1. 51. Mat. 5. 18.—2 Cor. 1. 19, 20. Dat. 3. 14. g adn. 5, 6. pen. 1. 13. Eph. 2. 1. Iago 1. 18. 1 Pedr 1. 3, 28. Ioan 2. 29. a 3. 9. a 5. 1, 18. h adn. 5. pen. 1. 5. a 12. 40. Deut. 29. 4. Jer. 5. 21. Mat. 13. 11—16. a 16. 17. 2 Cor. 4. 4.

* Sylwasom o'r blaen yn rhyw le, nad yw y gair "atebodd" ddim bob amser yn arwyddo ateb i ryw holiad blaenorol; eithr fel dechreuad rhyw ymadrodd arall: ac o ran dim a welwn ni yn y ddwy adnod flaenaf, felly y mae yma. Ond y mae rhai yn tybied bod Nicodemus wedi gofyn rhywbeth i'r Iesu nad yw Ioan wedi ei roddi i lawr: pa athrawiaeth oedd ef yn bregethu? medd rhai; ac yntau yn *ateb*, Oddi eithr geni dyn drachefn, ni addichon efe weled teyrnas Dduw: pa fodd y gall dyn fyned i mewn i deyrnas Dduw? medd eraill; ac yntau yn *ateb*, mai trwy adenedigaeth. Ond nid oes dim sail i'r tybiau yna; taro at y pethau mwyaf buddiol, pwysig, a mwyaf angenrheidiol i Nicodemus, yr oedd Iesu, heb aros am ofyniad yn y byd. † Am y geiriau hyn, gwel ar pen. 1. 51. defnyddir hwy yma i ddangos mawr bwys y peth mae Crist yn ei lefaru, ac i ddangos hefyd y dylem ni ystyried y peth pwysig hwnw yn ddifrifol. ‡ Gwyddai Crist bod y Phariseaid (a Nicodemus hefyd fel un o honynt hwy) yn ymorphwys llawer ar burdeb allanol, tra yr oedd y galon yn llawn o aflendid; am hyn mae efe yn cyfeirio Nicodemus yn uniongyrchol at ffynonell yr aflendid hwnw, ac yn dangos y rhaid cael puredd oddi fewn yn gystal ag oddi allan. Am athrawiaeth yr ail-eni, ni wiw dysgwyl helaethrwydd manol yn y gwaith hwn: nid bedydd yw ail-eni, fel y taerodd rhai; arwydd o hóno yw bedydd, ac mae yn ddiammau fod rhai wedi "gweled" a "myned i mewn i deyrnas Dduw" a'r nas cawsant eu bedyddio â dwfr erioed. Nid diwygiad allanol a moesau da ydyw; yr oedd hyn gan Nicodemus yn barod, ac e ddichon i ddyn fod yn foesol oddi allan ac eto yn rhagrithiwr yn ei galon. Gwneuthur dyn yn gyfranog o "dduwiol anian" ydyw ail-eni, yr hon nid oedd ganddo o'r blaen: cynghorwn ein darllenwyr i droi at yr ysgrythyrau cyfeiriol, dàn y llythyren *g*, am ychwaneg o oleu ar y pwnc. || Tybiai yr Iuddewon y caent hwy oll fyned i deyrnas y Messiah am eu bod yn had Abraham; a dysgwyliai y Phariseaid yn enwedig gael bod yno yn mlaenaf o bawb, ar sail eu manylrwydd crefyddol; ond dywed y Messiah ei hun wrth Nicodemus, y penaf o honynt, nad âi neb i mewn iddi heb ei eni drachefn. Nis gall neb ddyfod i'r eglwys ar y ddaear yn iawn ac yn wirioneddol heb ei ail-eni; nis gall neb brofi a mwynâu pethau Duw, a rhagor-freintiau ei deyrnas, heb ei ail-eni; ac nis gall neb fyned i'r deyrnas yn y gogoniant heb ei ail-eni.

4 Nicodemus a ddywedodd wrtho, [i] * Pa fodd y dichon dyn ei eni, ac efe yn hen? † a ddichon efe fyned i groth ei fam eilwaith, a'i eni?

i adn. 3. pen. 4. 11, 12. a 6. 53, 60. 1 Cor. 1. 8. a 2. 14.

* Mae yn debyg fod Nicodemus yn hen y pryd hwn; ond er ei fod yn hen mewn dyddiau, yn uchel mewn swyddau, ac yn ddysgawdwr yn Israel, yr oedd efe yn dra annwybodus am yr athrawiaeth hon. † Yr oedd efe yn deall y peth yn llythyrenol; ac yn methu amgyffred pa fodd y gallai hen ddyn fel efe fyned i groth ei fam drachefn, a'i eni: a phe buasai hyny yn bosibl, pa les a allasai y fath beth fod, i fyned i mewn i deyrnas Dduw. Nid aml y gwelwyd mwy o annwybodaeth yn neb erioed; eto mae yn amlwg ei fod ef yn dra diddichell, ac yn ddifrifol yn ewyllysio gwybod y gwirionedd.

5 Iesu a attebodd ac a ddywedodd, * Yn wir, yn wir, meddaf i ti, [k] † Oddi eithr geni dyn o ddwfr [l] ac *o*'r Ysbryd, [m] ‡ ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw.

k adn. 3. Es. 44. 3, 4. Ezec. 36. 25—27. Mat. 3. 11. Eph. 5. 26. Tit. 3. 4—7. 1 Pedr 1. 2. a 3. 21. 1 Ioan 5. 6—8. l pen. 1. 13. Rhuf. 8. 2. 1 Cor. 6. 11. 1 Ioan 1. 29. a 5. 1. m Mat. 5. 20. a 18. 3. a 28. 19. Luc 13. 3, 5, 24. Act. 2. 38. a 3. 19. Rhuf. 14. 17. 2 Cor. 5. 17, 18. Gal. 6. 15. Eph. 2. 4—10. 2 Thes. 2. 13, 14.

* Wrth weled mawr annwybodaeth Nicodemus, ei syndod wrth y fath athrawiaeth ag oedd Crist wedi draddodi iddo, ac ar yr un pryd ei fod yn ddifrifol am wybodaeth; mae Iesu yn dangos ei fod yntau yn ddigellwair yn y peth a ddywedasai, ac yr ail waith yn rhoddi ei *Amen*, *Amen*, i dystiolaethu mai felly y rhaid ei bod. † Yn y geiriau hyn mae Crist yn dangos gweithredydd a natur yr adenedigaeth yn fwy amlwg nag o'r blaen, yn adn. 3: oddi eithr i galon dyn gael ei glanâu â golchiad tufewnol yr Ysbryd Glân, yr hwn yr oedd dwfr yn arwydd o hóno yn wastad dàn yr hen oruchwyliaeth, nid â efe ddim i mewn i deyrnas Dduw. Tybia rhai mai bedydd, yr "arwydd gweledig oddi allan," a feddylir yma wrth y "dwfr;" ond dywed eraill

i'r gwrthwyneb, o herwydd fod y dwfr yn y fàn hon yn hanfodol i iachawdwriaeth yn gystal â'r Ysbryd; ac nis gellir dywedyd fod bedydd dwfr yn *hanfodol* i iachawdwriaeth. Rhaid i ni ddeall fod Crist yma yn llefaru wrth Iuddew, yr hwn oedd yn gynnefin iawn âg ysgrythyrau yr Hen Destament; ac yno mae gras a gweithrediadau glanâol yr Ysbryd Glân yn cael eu cymharu i ddwfr mewn llawer o fànau: "Tywalltaf ddyfroedd ar y sychedig, a ffrydiau ar y sychdir," dyna'r gymhariaeth: "tywalltaf fy Ysbryd ar dy hâd, a'm bendith ar dy hiliogaeth," dyna'r peth a arwyddocêid yn y gymhariaeth: "a hwy a dyfant megys yn mysg glaswellt," dyna yr aileni yn canlyn. Es. 44. 3, 4. Yr un modd hefyd mae effeithiau yr Ysbryd Glân yn cael eu gosod allan gan Ezeciel, 36. 25, 27, "Ac a daenellaf arnoch ddwfr glân fel y byddoch lân;" ac yn union wedi hyny, "Rhoddaf hefyd fy Ysbryd o'ch mewn." Tebygem fod yr ysgrythyrau uchod yn egluro yn dda iawn, beth yw y geni o ddwfr ac o'r Ysbryd, yn yr adnod dàn sylw. ‡ Myned i mewn i deyrnas Dduw sydd o'r un ystyr â gweled teyrnas Dduw yn adn. 3, gwel y sylwadau a wnaed yno.

6 [n] * Yr hyn a aned o'r cnawd, sydd gnawd; [o] † a'r hyn a aned *o*'r Yspryd, sydd yspryd.

n Gen. 5. 3. a 6. 5, 12. Job 14. 4. a 15. 14—16. a 25. 4. Salm 51. 10. Rhuf. 7. 5, 18, 25. a 8. 1, 4, 5—9, 13. Gal. 5. 16—21, 24. Eph. 2. 3. Col. 2. 11. o Ezec. 11. 19, 20. a 36, 26, 27. Rhuf. 8. 5, 9. 1 Cor. 6. 17. Gal. 5. 17. 1 Ioan 3. 9.

* Pwy a ddyry beth glân allan o beth aflan? Neb. Gan hyny pe byddai dichon i ddyn fyned i groth ei fam, a'i eni drachefn yn llythyrenol, a naturiol, yn ol dychymmyg Nicodemus; ni byddai efe ddim cymhwysach i deyrnas Dduw er hyny: geni o gnawd llygredig a fyddai hyny fel y waith gyntaf, a chnawd llygredig a fyddai y dyn er ei eni felly lawer o weithiau. Mae y gair cnawd yn cael ei ddefnyddio mewn llawer o fànau am y natur ddynol, ac mewn llawer o fànau hefyd am natur lygredig, yr ystyr olaf sydd iddo yma mae yn amlwg. † I'r gwrthwyneb, yr hwn a aned o'r Ysbryd sydd Ysbryd; hyny yw, sydd ddyn ysbrydol, yn meddiannu ar egwyddor ac anian ysbrydol, cyffelyb i'r hwn a'i gweithredodd ynddo: a pha beth bynag a wnelo efe oddi ar yr egwyddor hòno, ysbrydol yw; ei syniadau, ei rodiad, a'i gyflawniadau crefyddol, ysbrydol ydynt oll, ac yntau yn ddeiliad ysbrydol o deyrnas Dduw yma, ac yn gymhwys i fyned i mewn iddi yn y nef.

7 [p] * Na ryfedda ddywedyd o hono fi wrthyt, [q] † Y mae yn rhaid eich geni chwi ‡ drachefn.

p adn. 12. pen. 5. 28. a 6. 61—63. q adn. 3. Job 15. 14. Mat. 13. 33—35. Rhuf. 3. 9—19. a 9. 22—55. a 12. 1, 2. Eph. 4. 22—24. Col. 1. 12. Heb. 12. 14. 1 Pedr 1. 14—16, 22, 23. Dat. 21. 27.

* Mae dau fath o ryfeddu; un yn tarddu oddi ar anghrediniaeth, a'r llall yn effaith ffydd: y cyntaf yn ddïau a waherddir yma. Na ryfedda fod yn bosibl i ddyn gael ei ail-eni, ac na ryfedda fod hyny yn wir angenrheidiol i ti ac i bob dyn, cyn gallu gweled teyrnas Dduw a myned i mewn iddi. † Gair cymhariaethol yw "geni drachefn," i osod allan y cyfnewidiad ysbrydol sydd raid ei wneyd ar ddynion, ac y mae Crist o hyd yn dàl at y gymhariaeth: crybwyllwn ychydig bethau i ddangos ei haddasrwydd. 1. Pan mae plentyn yn cael ei eni i'r byd, er nad oes dim sylwedd newydd yn cael ei ddwyn i fod, eto y mae "crëadur newydd" yn cael ei ddwyn; ac y mae ei holl alluoedd, ei synwyrau, a'i aelodau, yn newydd, ac wedi eu haddasu i'r bywyd newydd mae efe wedi dechreu arno. Fel hyn, pan mae gras Duw yn cyfnewid calon pechadur, mae y person yn wir yr un; ond mae yn dyfod yn ddyn newydd, yn berchen ar alluoedd newyddion, amgyffrediadau, serchiadau, a thueddiadau, ac mae wedi cael ei ddarpar i wneyd defnydd newydd o'i holl aelodau, ei synwyrau, a'i alluoedd: mae yn dyfod i'r byd ysbrydol fel "creadur newydd;" ac yn dyfod yn alluog at waith a mwyniant ag oedd yn hollawl ddieithr iddo ef o'r blaen. 2. Pan mae plentyn yn cael ei eni, mae ganddo holl aelodau dyn mewn oedran a maint: ond y maent yn fychain ac yn weiniaid, ac mewn angen am driniaeth, ymgeledd, ac amser, cyn iddynt dyfu i'w priodol faint, ac yn addas i gyflawni eu priodoi orchwylion yn iawn. Felly y pechadur adgenedledig, mae ganddo sylwedd pob gwir egwyddorion a thueddiadau sanctaidd yn gyfranedig i'w enaid; ond y maent mewn cyflwr mabanaidd, a rhaid iddynt dyfu i fynu yn raddol, a chyda gofal ac ymgeledd ysbrydol, i faintioli ac addfedrwydd: mae yr ymgeledd hwn i'w gael, wedi ei ddarpar, ac mae y "bychan newydd eni," yn y byd ysbrydol yn gystal a'r byd naturiol, yn ei chwennychu, yn ei flasu, ac yn cynnyddu drwyddo. 3. Nis gall neb wybod pa fodd y ffurfir y plentyn yn y groth; ac nis gall neb ychwaith wybod pa fodd mae Duw yn cyfnewid calon pechadur, ac yn ei grëu o newydd. Mae efe yn gweithio trwy offerynau a moddion yn y ddau amgylchiad; ac yn mhob un o honynt y mae gwir genedliad yn cael ei wneyd drwy ei holl-alluawgrwydd ef. 4. Mae genedigaeth y plentyn yn blaenori gweithrediad ei synwyrau ef, ac yn arweiniad angenrheidiol i holl weithredoedd ei fywyd ef yn y byd: felly yr enedigaeth newydd, rhaid iddi flaenori holl weithredoedd y bywyd ysbrydol; hyd oni chymmero hyny le, nis gall y dyn na gweled, na chlywed, na llefaru, na rhodio, na gweithio, mewn modd ysbrydol. Ond pan aner plentyn byw, mae yn sicr o symmud a gweithredu; felly hefyd pan gaffo pechadur ei "eni drachefn," efe a edifarhâ, efe a greda, efe a gâr, efe a ufuddhâ, ac a addola. ‡ Mae y gair hwn o bwys, gan ei fod yn dangos y rhaid i ni fyned dros yr hyn oll a aeth heibio, ymwrthod â hwynt fel pethau diles, a dechreu o newydd.

8 [r] * Y mae y gwynt yn chwythu lle y mynno; a thi a glywi ei sŵn ef, ond ni wyddost o ba le y mae yn dyfod, nac i ba le y mae yn myned: [s] † felly y mae pob un a'r a aned o'r Yspryd.

r Job 37. 10—13, 16, 17, 21—23. Salm 107. 25, 29. Preg. 11. 4, 5. Ezec. 37. 9. Act. 2. 2. a 4. 31. 1 Cor. 2. 11. a 12. 11. s pen. 1. 13. Es. 55. 9—13. Marc 4. 26—29. Luc 6. 43, 44. 1 Ioan 2. 29. a 3. 8, 9.

Er nas gwyddai Nicodemus pa fodd y gallai dyn gael ei eni drachefn, eto nid oedd hyny ddim yn rheswm pa ham y dylai efe ammau y peth ei hun; oblegid yr oedd llawer o bethau yn bod yn y byd naturiol, nas medrai efe amgyffred pa fodd yr oeddynt yn bod, na pha beth oedd yr achos o honynt: felly y mae hefyd yn y byd ysbrydol o ras. * Mae y gwynt yn chwythu lle y mynno, o rau dyn; nis gŵyr dyn o ba le mae yn cyfodi na pha le mae yn diweddu; nis gŵyr pa ham y mae weithiau yn chwythu o un pwnc, a phryd arall yn chwythu o bwnc arall; nis gŵyr pa ham y mae weithiau yn chwythu yn gryf ac yn ystormus, a phryd arall yn chwythu yn fwy teg a thawel: er nas gŵyr dyn y pethau hyn, eto efe a ŵyr fod y gwynt yn chwythu; mae yn clywed ei sŵn ef, ac yn canfod ei effeithiau. † Felly mae pob un a aned o'r ysbryd; er nas gŵyr dyn pa fodd mae y gwaith yn cael ei wneyd, eto mae yn hawdd gwybod ei fod wedi cael ei wneyd; mae yn amlwg yn ei effeithiau sancteiddiol. Mae y gwynt yn chwythu yn gryf mewn un ardal, ac heb chwythu felly mewn ardal arall, yn hollawl fel y mỳno Duw; felly mae yr Ysbryd Glân, yn gweithredu ar un pechadur, ac yn gadael y pechadur arall, yn ei ymyl a thàn yr un bregeth, heb weithredu dim yn gadwedigol arno, yn ol ei ben-arglwyddiaeth ei hun. *Pneuma*, gwynt; *Pneumatos*, Ysbryd: yr un yw y gair gwreiddiol am wynt ac Ysbryd, yma fel yn mhob màn arall.

9 Nicodemus a attebodd ac a ddywedodd wrtho, [t] * Pa fodd y dichon y pethau hyn fod?

t adn. 4. pen. 6. 52, 60. Diar. 4. 18. Es. 42. 16. Marc 8. 24, 25. Luc 1. 34.

* Siarad annwybodaeth ac anghrediniaeth o hyd yr oedd Nicodemus: ar y cyntaf yr oedd yn deall am aileni yn naturiol a llythyrenol; ac yn awr, wedi iddo

all mai peth ysbrydol oedd, mae efe mòr dywyll ac
mhëus am y mater ag erioed. Pa fodd y gall dyn
ll ei eni drachefn? a pha fodd y gall y fath beth fod
nngenrheidiol iddo? Nid oedd efe wedi arfer clywed
tath athrawiaeth gan yr ysgrifenyddion a'r offeiriaid,
nid oedd wedi meddwl am dani ei hun, bod ei
gen arno, ond ymorphwys yr oedd efe yn nghyfiawn-
au y ddeddf.

10 Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho,
A wyt ti yn ddysgawdwr yn Israel, [x] † ac
wyddost y pethau hyn?

u Es. 9. 16. a 29. 10—12. a 56. 10. Jer. 8. 8, 9. Mat. 11. 25. a
14. a 22. 29. x Deut. 10. 16. a 30. 6. 1 Cron. 29. 19. Salm
3, 10. a 73. 1. Es. 11. 6—9. a 66. 7—9. Jer. 31. 33. a 32. 39, 40.
c. 11. 19. a 18. 31, 32. a 36. 25—27. a 37. 23, 24. Rhuf. 2. 28,
Phil. 3. 3. Col. 2. 11.

Mae yn debyg fod Nicodemus yn cael ei gyfrif yn
sgawdwr enwog yn Israel, yn gystal ac yn benaeth
Iuddewon, ac yn aelod o'r *Sanhedrim*. † Pa fodd y
dai efe eu gwybod os nad oedd y fath wirioneddau
cael eu dysgu gan yr Athrawon Iuddewig? Ateb;
an o'r Hen Destament: pa beth arall ond ail-eni a
dylir wrth enwaediad y galon, a orchymynir gan
ses, Deut. 10. 16; ac a addewir yn Deut. 30. 6? wrth
alon lân yr oedd Dafydd yn gweddïo am dani, Salm
10? ac wrth y galon newydd a'r ysbryd newydd, a
dewir yn Ezec. 36. 25, 26? Dylasai dysgawdwr yn
ael wybod rhywbeth am yr athrawiaeth oddi wrth yr
rrythyrau uchod a'u cyffelyb; ond yr oedd yr holl
id o Phariseaid yn ymboeni cymmaint gyda'u defod-
a'u traddodiadau gwaelion, a gweithredoedd y ddeddf,
nad oeddynt yn gwybod dim am y pethau ysbrydol,
mach, ac agosach hyn, nac yn sôn dim am danynt
h y bobl druain.

11 Yn wir, [y] yn wir, meddaf i ti, [z] * Mai
hyn a wyddom yr ydym yn ei lefaru, a'r
n a welsom yr ydym yn ei dystiolaethu;
a'n tystiolaeth ni nid ydych yn ei derbyn.

y adn. 3, 5. z adn. 13, 32—34. pen. 1. 18. a 7. 16. a 8. 14, 28,
38. a 12. 49. Es. 55. 4. Mat. 11. 27. Luc 10. 22. 1 Ioan 5. 6—
Dat. 1. 5. a 3. 14. a pen. 1. 11. a 5. 31—40, 43. a 12. 37, 38.
50. 2. a 53. 1. a 65. 2. Mat. 23. 37. Act. 22. 18. a 28. 23—27.
or. 4. 4.

* Sylwn fod Crist yma yn llefaru yn y rhif lïosog, er
d oedd ond efe ei hun wedi bod yn ymddiddan â
codemus: efe a'r Tad a'r Ysbryd, medd rhai; efe yn
faru oddi wrth y Tad, a thàn eneiniad yr Ysbryd,
felly y tri Pherson dwyfol yn cyd-dystiolaethu. Efe
Ioan Fedyddiwr, yn nghyd a'r holl wir brophwydi yn
ob oes, medd eraill: ac efallai mai dyna feddwl
wyaf priodol y geiriau yn y fàn hon. Mae y geiriau
cynnwys edliwiad a cherydd i Nicodemus a'i gyd-
ysgawdwyr Iuddewig, eu bod hwy yn llefaru yr hyn
welsent yn aml, ac yn tystiolaethu yr hyn ni wydd-
t: eu bod fel y gau athrawon yn 1 Tim. 1. 7, yn
yllysio bod yn athrawon o'r ddeddf, heb ddeall na pha
hau yr oeddynt yn eu dywedyd, nac am ba bethau yr
ddynt yn taeru. Mae yma gerydd hefyd iddynt am eu
nnwybodaeth o'r pwnc pennodol hwn, yr ail-eni; ac
e Crist yma yn ei amddiffyn ei hun a'i holl genadon
onedig, eu bod hwy yn gwybod yr hyn oeddynt yn ei
aru, ac yn llefaru yr hyn oeddynt yn wybod. "Gwy-
d," dyna y sicrwydd mwyaf yn y farn a'r deall;
weled" dyna y moddion goreu i gael y sicrwydd hyny.
oedd y prophwydi, yr apostolion, a holl wir weinidog-
n yr efengyl yn gwybod am y geni drachefn trwy y
ïr, trwy brofiad, a thrwy sylwi ar ei effeithiau yn
aill; a Christ yntau yn sicr, yn gwybod mewn ystyr
wer uwch. † Dylasent gredu y prophwydi, a derbyn
gwirionedd ganddynt fel prophwydi Duw; dylasent
edu Crist yn sicr, ar ei awdurdod ei hun; ond y
fryw oedd eu tywyllwch, eu caledrwydd, a'u hanghred-
iaeth, fel na dderbynient dystiolaeth y naill na'r llall.
ae yma wrthresymiad, y dylid sylwi arno:—Yr ydych
wi yn athrawiaethu pethau nis gwyddoch, ac yn cael
h credu; a ninnau yn athrawiaethu peth sicr, ac a
wyddom, ac nis derbyniwch chwi ein hathrawiaeth a'n
tystiolaeth ni.

12 * Os dywedais i chwi [b] bethau daearol,
a chwithau nid ydych yn credu; † pa fodd, os
dywedaf i chwi [c] bethau nefol, y credwch?

b adn. 3, 5, 8. 1 Cor. 3. 1, 2. Heb. 5. 11, 12. 1 Pedr 2. 1—3.
c adn. 13—17, 31—36. pen. 1. 1—14. 1 Cor. 2. 7—9. 1 Tim. 3. 16.
1 Ioan 4. 10, 14.

* Wrth bethau daearol yma y deallir, y cyfnewidiad grasol y bu Crist yn sôn am dano yn yr adnodau o'r blaen: geilw ef yn ddaearol, am mai ar y ddaear mae yn cael ei wneyd, am y gellir ei egluro trwy gymhariaethau daearol, geni dyn, chwythiad y gwynt, &c. ac am fod dynion ar y ddaear, trwy ras, yn gwybod rhyw faint am dano, ac yn brofiadol o hóno: peth daearol oedd, mewn cymhariaeth i bethau eraill mwy goruchel, ysbrydol, a dyfn-ddirgeledig, a allasai Crist lefaru am danynt, ac a lefarodd efe hefyd, yn yr adnodau nesaf. † "Pethau nefol:" Duwdod ei Berson ef ei hun; ei ddisgyniad o'r nef; ei gnawdoliad; ei bresenoldeb yn y nef er ei fod yn y cnawd ar y ddaear, adn. 13; ei dragywyddol Faboliaeth, adn. 16; dyben ei ddyfodiad i'r byd, ei dderchafu ar y groes fel yr achubai ni oddi wrth ein pechodau; a bywyd tragywyddol i'w gael trwy ffydd yn ei angau ef, a cholledigaeth dragywyddol i bawb a'i gwrthodant. Gellir ystyried y pethau oll fel *dyfnion bethau Duw*, yn cael eu hegluro i ni trwy yr Ysbryd; a phethau nas gall y dyn anianol eu deall na'u credu. Fel yr oedd llaeth a bwyd cryf yn athrawiaeth yr apostol, felly y mae pethau daearol a phethau nefol i'w hystyried yma.

13 [d] * Ac ni esgynodd neb i'r nef, [e] † oddi
eithr yr hwn a ddisgynodd o'r nef, [f] ‡ *sef* Mab
y dyn, ‖ yr hwn sydd yn y nef.

d pen. 1. 28. a 6. 46. Deut. 30. 12. Diar. 30. 4. Act. 2. 34.
Rhuf. 10. 6, 7. Eph. 4. 9, 10. e pen. 6. 33, 38, 51, 62. a 8. 42. a
13. 3. a 16. 28—30. a 17. 5. 1 Cor. 15. 47. f pen. 1. 18. Mat.
28. 20. Marc 16. 19, 20. Act. 20. 28. Eph. 1. 23. a 4. 10.

* Esgynasai Enoch ac Elïas i'r nef, oesoedd cyn i'r Iesu lefaru y geiriau hyn; ond nid esgynodd neb erioed ond Iesu i'r nef yn yr ystyr mae efe yn feddwl yma, sef i wybod y pethau nefol, adn. 12, i chwilio dirgelion arfaeth a chyngor Duw yn mherthynas i drefn iachawdwriaeth. Yn yr ystyr hyny y sonir am esgyn i'r nef yn Deut. 30. 12; Diar 30. 4; Rhuf. 10. 5—11. † Yr hwn a ddisgynodd o'r nef o ran ei gnawdoliaeth i ddysgu pethau nefol Duw i ddynion, ac i'w roddi ei hun yn aberth dros bechodau dynion. ‡ Mab y dyn ydoedd enw priodol i'r Messiah yn yr Hen Destament: Salm 80. 17; Dan. 7. 13. ‖ Mae Crist yn llefaru yma am dano ei hun dàn yr enw Mab y dyn, ac yn dywedyd ei fod fel y cyfryw y pryd hwnw yn y nef, pan yr oedd mewn gwirionedd ar y ddaear. O ran ei Dduwdod yr oedd yn y nef yn gystal ac ar y ddaear; o ran ei ddynoliaeth yr oedd ar y ddaear ac nid yn y nef: eto yr oedd undeb mòr agos a phersonol rhwng y Duwdod a'r ddynoliaeth, fel mae yr hyn sydd briodol i'r naill, sef holl-bresenoldeb, yn cael ei briodoli i'r llall hefyd. Nis gellir, ac nis dylid chwaith, rhoddi unrhyw agoriad arall ar y geiriau: ar y ddaear yr oedd dynoliaeth Crist y pryd hwnw; ac eto, o herwydd undeb y ddynoliaeth â'r Person Dwyfol, dywedai efe ei bod yn y nef. Yn yr un ystyr y dywedir ddarfod croeshoelio Arglwydd y gogoniant, 1 Cor. 2. 8; ac i'r eglwys gael ei phrynu â phriod waed Duw, Act. 20. 28: y ddynoliaeth a groeshoeliwyd, a gwaed y ddynoliaeth a dywalltwyd, ac eto priodolir pob un o'r ddau i'r Person Dwyfol. Dyma un o'r "pethau nefol," adn. 13.

14 ¶ [g] * Ac megis y dyrchafodd Moses y
sarph yn y diffaethwch, [h] † felly y mae yn
rhaid dyrchafu Mab y dyn:

g Num. 21. 7—9. 2 Bren. 18 4. h pen. 8. 28. a 12. 32—
34. Salm 22. 16. Mat. 26. 54. Luc 18. 31—33. a 24. 20, 26, 27, 44—
46. Act. 2. 23. a 4. 27, 28.

* Dyma ddywediad rhyfedd, yn y fàn ar ol y pethau gogoneddus a ddywedwyd am y Messiah yn yr adnod o'r blaen; ei dderchafu ef yn waradwyddus ar y groes!

Gwyddai Nicodemus a'r Iuddewon oll am y sarph bres yn dda iawn, ond mae yn debyg na wyddai ond ychydig iawn, os neb, o honynt, bod y sarph hòno yn gysgod o groeshoeliad y Messiah. Dysgwylient hwy i'r Messiah, pan ddelai, gael ei dderchafu i orsedd ogoneddus *ar y ddaear*, i fod yn frenin daearol; yn lle hyny, ei dderchafu ar y groes oedd iddo ef, er prynedigaeth ei bobl. † Mae y "*megys*" yn nechreu yr adnod, a'r *felly* yn y fàn hon, yn ateb i'w gilydd; ac yn dangos y gymhariaeth rhwng y cysgod a'r sylwedd: nid rhwng y sarph a Christ mae y gymhariaeth; ynfydrwydd, os nid cabledd, fyddai dywedyd felly: mae y gymhariaeth yn y pethau canlynol:—1. Peth o *drefniad dwyfol* oedd y sarph bres hon; un o *drefniad dwyfol* yw Crist i fod yn iachawdwr .2. Trefnwyd i'r sarph gael ei *derchafu* ar drostan yn nghanol y gwersyll; trefnwyd i Grist gael ei *dderchafu* ar y groes, megys ynghanol y byd. 3. Trwy *edrych* ar y sarph yr oedd yr Israeliaid i gael iachâd; trwy *gredu* yn Nghrist wedi ei groeshoelio, mae i bechaduriaid gael iachâd ysbrydol a bywyd tragywyddol.

15 [i] * Fel na choller [k] pwy bynnag a gredo ynddo ef, [l] † ond caffael o hono fywyd tragywyddol.

i adn. 16, 36. pen. 1. 12. a 6. 40, 47. a 11. 25, 26. a 12. 44—46. a 20. 31. Es. 45. 22. Marc 16. 16. Act. 8. 27. a 16. 30, 31. Rhuf. 5. 1, 2. a 10. 9—14. Gal. 2. 16, 20. Heb. 10. 39. 1 Ioan 5. 1, 11—13. k pen. 5. 24. a 10. 28—30. Mat. 18. 11. Luc 19. 10. Act. 13. 41. 1 Cor. 1. 18. 2 Cor. 4. 3. l pen. 17. 2, 3. Rhuf. 5. 21. a 6. 22, 23. 1 Ioan 2. 25. a 5. 13, 20.

Er mai derchafu ar y groes a feddylir yn benaf yn yr adnod o'r blaen; eto mae yn rhaid derchafu Crist yn y weinidogaeth hefyd, heb hyny nis gall neb gredu ynddo. * Mae dau beth rhyfedd yn dyfod i bechaduriaid trwy Grist wedi ei groeshoelio, a thrwy ffydd ynddo ef; sef, diangfa rhag colledigaeth a chael bywyd tragywyddol. Colledig a fuasai pawb byth oni buasai i Grist farw, dyna'r cyfiwr mae pawb yn dyfod i'r byd ynddo, ac nid oes fodd i gael ymwared o hóno ond trwy Grist a ffydd yn ei berson a'i aberth ef. † Mae pobpeth angenrheidiol er cadwedigaeth pechadur yn gynnwysedig yn y bywyd tragywyddol a grybwyllir yma; megys cyfiawnâd, maddeuant, ail-eni, sancteiddiad, dyddanwch ysbrydol, a holl ddedwyddwch y nefoedd yn y diwedd. Mae y pethau hyn oll i'w cael yn Nghrist, ac nid yn neb arall; a thrwy ffydd ynddo ef, nid trwy weithredoedd dynol nac unrhyw ffordd arall. Mae y drefn hon yn addas iawn i bechadur colledig, i ddysgwyl ei holl iachawdwriaeth o Dduw, ac i roddi yr holl ogoniant i Dduw.

16 ¶ [m] * Canys felly y carodd Duw y † byd, [n] fel y rhoddodd efe ei ‡ unig-anedig Fab, [o] ‖ fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol.

m Luc 2. 14. Rhuf. 5. 8. 2 Cor. 5. 19—21. Tit. 3. 4. 1 Ioan 4. 9, 10, 19. n pen. 1. 14, 18. Gen. 22. 12. Marc 12. 6. Rhuf. 5. 10. a 8. 32. o adn. 15. Mat. 9. 13. 1 Tim. 1. 15, 16.

* Dyma ffynon fawr ein holl iachawdwriaeth, cariad Duw; oddi yma y tarddodd ac y deilliodd pobpeth tuag at gadw pechadur: o hyn y rhoddodd Duw ei Fab, y rhodd gyntaf, benaf, ac yr hon oedd yn cynnwys yr holl roddion eraill er ein iachawdwriaeth. Mae yn rhaid bod y cariad hwn yn dragywyddol; oblegid mae yn blaenori rhoddiad y Mab, ac yn achos o hóno: mae yn rhaid ei fod yn rhad, yn ben-arglwyddiaethol, ac yn hunan-gynhyrfiol, gan mai cariad at wrthryfelwyr a byd colledig yw: mae yn rhaid ei fod yn annhraethol fawr, pan y rhoddai Duw ei Unig-anedig Fab i farw drosom ni. Eto, nis gallai y cariad hwn fod yn gariad o hoffder, hyfrydwch, ac anwyldeb; oblegid barnai Duw y gwrthddrychau yn deilwng o'i ddigofaint tragywyddol, ac yn haeddu ei gasineb sanctaidd; ac mòr euog, fel nas gallasai efe drugarâu wrthynt ar lwybr anrhydeddus, ond trwy farwolaeth ac aberth ei Fab ei hun; trefn, ag oedd yn arddangos haeddiant eu gwrthryfel hwy, yn fwy na phe buasai efe yn gosod holl ddynolryw dàn gospedigaeth dragywyddol. Gan hyny, rhaid mai cariad o ewyllys da, tosturi, a chymmwynasgarwch, oedd cariad Duw. Efe a "garodd y byd," nid yn unig i arfaethu maddau pechodau, ac i roddi y nefoedd i'r neb a edifarhâent; ond, (pryd y gwelodd efe anrhydedd ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd, megys yn gwrthwynebu trugaredd,) efe a roddodd "ei unig-anedig Fab," ei gyd-radd a'i ogyfuwch yn y ddwyfol hanfod, person o fawredd ac ardderchawgrwydd anfeidrol, ac o anwyldeb annhraethol ganddo ef ei hun, yr hwn nid oedd yr holl fydoedd ond megys dim mewn cymhariaeth iddo: efe a roddodd hwn i fod yn "gnawd," fel y gallai wneuthur iawn dros ein pechodau ni yn ein natur ni, trwy ddyoddef a marw ar y groes. Yn awr, gan fod y rhwystr wedi ei dynu oddi ar y ffordd, gall faddau, achub, a bendithio â bywyd tragywyddol, bawb o bob cenedl a gredant yn y Gwaredwr hwn, ond y rhai heb hyny a fuasent o angenrheidrwydd yn golledig byth. † Tybiai yr Iuddewon mai hwy yn unig oedd Duw yn garu; ac mai i'w hachub hwy yn unig y deuai y Messiah, ac i dywallt dirmyg ar bob cenedl arall er eu mwyn hwy. I wrthwynebu y dyb falch a chyfeiliornus hòno, mae ein Hiachawdwr yn dywedyd wrth Nicodemus, fod Duw wedi caru y *byd*, ac wedi rhoddi ei unig-anedig Fab dros y *byd:* hyny yw, cenedloedd yn gystal ag Iuddewon, a rhai o bob cenedl dàn y nef. Ynfydrwydd ac annhegwch mawr yw ceisio dirdynu yr adnod hon a'i chyffelyb i brofi prynedigaeth gyffredinol: mae yr adnod yn ei hegluro ei hun; y *byd* yn nechreu yr adnod yw, y *pwy bynag a gredo* yn y rhan arall o'r adnod. ‡ Am yr unig-anedig Fab, gwel ar pen. 1. 18. ‖ Am y rhan olaf o'r adnod, gwel ar adn. 15.

17 [p] * Oblegid ni ddanfonodd Duw ei Fab i'r byd, i ddamnio y byd, [q] ond fel yr achubid y byd trwyddo ef.

p pen. 5. 45. a 8. 15, 16. a 12. 47, 48. Luc 9. 56. q pen. 1. 29. a 6. 40. Es. 45. 21—23. a 49. 6, 7. a 53. 10—12. Zec. 9. 9. Mat. 1. 23. a 18. 11. Luc 2. 10, 11. a 19. 10. 1 Tim. 2. 5, 6. 1 Ioan 2. 2. a 4. 14.

* Cyfeiriad sydd yma at y dyb gyfeiliornus a didrugaredd oedd yn mhlith yr Iuddewon, y byddai i'r Messiah ddistrywio yr holl genedloedd pan ddelai i'r byd, am eu heilun-addoliaeth, eu hannuwioldeb, a'u creulondeb tuag atynt hwy o oes i oes. Mae Crist yn dangos i Nicodemus, mai nid hyny oedd dyben ei ddyfodiad ef; ond i achub y cenedloedd, "y byd," trwy yr efengyl. Yr oedd y byd yn haeddu ei ddamnio, ei goll-farnu, a'i ddystrywio; ond i achub y byd y daeth Iesu i'r byd. Yn ei ddyfodiad nesaf, efe a ddaw i ddamnio'r byd!

18 ¶ * Yr hwn sydd yn credu ynddo ef, [r] ni ddemnir: [s] † eithr yr hwn nid yw yn credu, a ddamniwyd eisoes; ‡ o herwydd na chredodd yn enw unig-anedig Fab Duw.

r adn. 36. pen. 5. 24. a 6. 40, 47. a 20. 31. Rhuf. 5. 1. a 8. 1, 34. 1 Ioan 5. 12. s Marc 16. 16. Heb. 2. 3. a 12. 25. 1 Ioan 5. 10.

* Yr hwn sydd yn credu, pwy bynag fyddo; Iuddew neu genedl-ddyn, cenedl-ddyn neu Iuddew; a pha faint a nifer bynag a fyddo ei bechodau, yr hwn sydd yn credu ni ddemnir. Mae pob rhyw bechod yn haeddu damnedigaeth, ac nis gall y ddeddf lai na damnio; hyny yw, euog-farnu y pechadúr sydd dani ac yn ei gafael: ond trwy gredu yn Iesu, mae y pechadur euog yn cael diangfa gyfiawn a chyfreithlawn oddi dani, ac o'i gafael; ac fel y llofrudd gynt yn ffoi i'r ddinas noddfa, felly mae yntau yn ffoi at Grist, ac yno ni ddemnir ef. † O'r tu arall, yr hwn nid yw yn credu yr efengyl, tystiolaeth Duw am ei Fab, ac felly credu yn y Mab yn wyneb y dystiolaeth; pwy bynag a fyddo, Iuddew yn gystal a'r cenedl-ddyn, efe a ddamniwyd eisoes. Mae pawb yn ddamniol o ran haeddiant o naturiaeth, wedi chwanegu hyny drwy weithredoedd drwg, ac yn

wedig drwy anghrediniaeth. "Efe a ddamniwyd soes," fel dyn wedi cael elwyf marwol: dywedir mai n marw yw er ei fod eto yn anadlu dros ychydig: eu fel drwg-weithredwr dàn ddedfryd marwolaeth, wedwn mai dyn marw yw, er ei fod eto heb ei ddi-yddio. ‡ Mynych y rhoddir enw gwr am y gwr ei nn; ond yma tybir fod enw Crist yn arwyddo mawr-ld ac ardderchawgrwydd y person a enwir: ac felly yn nl y defnyddir enw y Tad, neu Grist, i arwyddo awredd dwyfol y person a enwir.

19 [t] * A hon yw y ddamnedigaeth; † ddy-d goleuni i'r byd, ‡ a charu o ddynion y wyllwch yn fwy nâ'r goleuni: [u] || canys yr edd eu gweithredoedd hwy yn ddrwg.

t pen. 1. 4, 9—11. a 8. 12. a 9. 39—41. a 15. 22—25. Mat. 11. —24. Luc 10. 11—16. a 12. 47. Rhuf. 1. 32. 2 Cor. 2. 15, 16. Thes. 2. 12. Heb. 3. 12, 13. u pen. 5. 44. a 7. 17. a 8. 44, 45. 10. 26, 27. a 12. 43. Es. 30. 9—12. Luc 16. 14, 15. Act. 24. 21— Rhuf. 2. 8. 1 Pedr 2. 8. 2 Pedr 3. 3.

* Yr *achos* mwyaf o bob achos damnedigaeth yw, lyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch fwy na'r goleuni. Y *prawf* amlycaf o ddamnedig-eth, neu o fod dynion mewn cyflwr damniol yw, eu d yn caru y tywyllwch yn fwy na'r goleuni: i'r rhai *lledig* mae yr efengyl yn ynfydrwydd, ac mae hyny yn *awf* mai colledig ydynt: i'r rhai *colledig* mae hi yn iddiedig, ac mae ei bod felly yn *brawf* mai colledig ynt. Eto, hon yw y ddamnedigaeth; sef hyny yw, y damnedigaeth drymaf o bob damnedigaeth, fydd y damnedigaeth o wrthod y goleuni a charu y tywyllwch; r bobl a wnelont hyny a fyddant dàn y ddamnedig-eth drymaf o bawb. "Hon," *Auté* yw y gair Groeg; fieithir ef yn y rhyw fenywaidd yma genym ni, yn y nol-ryw *(this*, hyn,) y mae gan y Saeson. † Y go-uni oedd Crist ei hun, yr athrawiaeth oleu a bre-thodd ef ei hun, gweinidogaeth ei apostolion, gair wirionedd yr efengyl, a gweinidogaeth yr efengyl yn hob oes. ‡ Yr oedd yr Iuddewon yn caru tywyllwch seremonïau a thraddodiadau eu gau-athrawon yn fwy a goleuni Crist a'i apostolion: a'r cenedloedd yn caru wyllwch eilun-addoliaeth, paganiaeth, a choel-gref-ld, yn fwy na goleuni disglaer yr efengyl: ac felly ae pob dyn anianol eto, yn caru y tywyllwch yn fwy a'r goleuni. || Yr achos o hyny oedd, ac ydyw eto, od calonau a gweithredoedd dynion yn ddrwg: gweith-edoedd aflan y tywyllwch yw gweithredoedd drwg, ac is dyoddefant y goleuni, mae yn groes i'w natur, ac yn Honyddu y gydwybod.

20 [x] * O herwydd pob un a'r sydd yn wneuthur drwg, † sydd yn casâu y goleuni, c nid yw yn dyfod i'r goleuni, ‡ fel nad ar-yhoedder ei weithredoedd ef.

x pen. 7. 7. 1 Bren. 22. 8. Job 24. 13—17. Salm 50. 17. Diar. 29. a 5. 12. a 15. 12. Amos 5. 10, 11. Luc 11. 45. Iago 1. 23—25.

* Pob un sydd yn gwneuthur celfyddyd o bechod, yn wneuthur drwg yn rhyfygus, gan ei garu ac ymhyfrydu nddo. † Mae y cyfryw yn casâu y goleuni. Yn yr Hnod o'r blaen dywedir ei fod yn caru y tywyllwch yn *wy* na'r goleuni, yma dywedir nad yw yn caru y gol-uni o gwbl; ond yn ei gasâu: felly mae yr adnod hon n agoriad ar y geiriau *mwy na'r* yn yr adnod o'r blaen. weithred yr ewyllys, a'r serch, yw caru a chasâu; elly mae y pechadur yn caru y tywyllwch, a gweithred-edd y tywyllwch, o'i fodd; ac yn casâu y goleuni, a weithredoedd y goleuni, o'i fodd, ac o ddewisiad ei alon: ac am hyn y bydd ei ddamnedigaeth dròm ef. Mae gweled ffyrdd uniawn Duw yn dynoethi eu ffyrdd eimion hwy, ac yn dwys-bigo eu cydwybodau cysglyd, n attal iddynt goledd eu chwantau, ac yn brawychu eu hyfyg a'u hyder gau.

21 [y] * Ond yr hwn sydd yn gwneuthur wirionedd, † sydd yn dyfod i'r goleuni, [z] fel r eglurhaer ei weithredoedd ef, ‡ mai yn Nuw y gwnaed hwynt.

y pen. 1. 47. a 5. 39. Salm 1. 1—3. a 119. 80, 105. a 139. 23, 24. Es. 8. 20. Act. 17. 11, 12. z pen. 15. 4, 5. Es. 26. 12. Hos. 14. 8. 1 Cor. 15. 10. 2 Cor. 1. 12. Gal. 5. 22, 23. a 6. 8. Eph. 5. 9. Phil. 1. 11. a 2. 13. Col. 1. 29. Heb. 13. 21. 1 Pedr 1. 22. 2 Pedr 1. 5—10. 1 Ioan 2. 27—29. a 4. 12, 13, 15, 16. Dat. 3. 1, 2, 15.

* Rhoddir gwirionedd yma am bethau gwirioneddol: y dyn sydd yn ddiddwyll yn ei galon, ac yn amcanu at gywirdeb a gwirionedd yn ei farn a'i weithredoedd; † mae hwn yn caru y goleuni, yn gosod ei hun yn wyneb y goleuni, fel yn wyneb drych goleu, i gael ei brofi ei hun, ei egwyddor, ei farn, a'i weithredoedd, yn wyneb y maen prawf, y rheol ddwyfol a sefydlodd Crist y gwir Oleuni: i gael ei argyhoeddi lle yr oedd yn feius, ac i gael ei ddysgu a'i gyfarwyddo yn fanylach yn ngeiriau a gwirionedd Duw. ‡ Un peth yw bod gweith-redoedd dyn yn dda, peth arall yw eu bod yn cael eu "gwneyd yn Nuw;" sef trwy rinwedd undeb âg ef, trwy ras a dderbyniwyd ganddo ef, yn unol â'i ewyllys ef, er ei ogoniant ef, ac yn gymmeradwy ganddo ef. *Yn, gyda, yn ol*, neu *trwy* Dduw; mae y gair Groeg *(en)* yn cael ei gyfieithu, meddant, yn mhob un o'r ffyrdd uchod.

22 ¶ [a] * Wedi y pethau hyn, daeth yr Iesu a'i ddisgyblion i wlad Judea; † ac a arhosodd yno gyd â hwynt, [b] ‡ ac a fedyddiodd.

a pen. 2. 13. a 4. 3. a 7. 3. b adn. 26. pen. 4. 1, 2.

Yn yr adnod o'r blaen cawsom ddiwedd ymddiddan Crist â Nicodemus; ac e ymddengys ar ol hyn iddo ef gael gwir droedigaeth a dychweliad, pen. 7. 50, 51; a 19. 39. Tybia rhai fod y geiriau uchod am garu y tywyllwch yn fwy na'r goleuni, yn gerydd go dirion i Nicodemus am ddyfod at yr Iesu liw nos, (yn gystal ag fel gwers gyffredin i bawb,) ond mae yn bur debyg iddo ef garu y goleuni a dyfod i'r goleuni, trwy yr ymddiddan hwn, ac efe a wnaeth arddelwad hyfach a mwy diofn o Grist wedi hyn. * Jerusalem ydoedd brif-ddinas Judea, ac wedi gorphen yr ymddiddan â Nicodemus yn Jerusalem neu yn gyfagos, daeth yr Iesu a'i ddysgyblion allan i *wlad* Judea, efallai ar ei ffordd tua'i wlad ei hun, Galilea. † Pa faint bynag a arosodd efe yno, ni bu yn segur; ond yn pregethu, yn gwneyd gwyrthiau, ac yn troi llawer mae'n debyg. ‡ Nid oedd efe yn bedyddio nemawr, os neb, ei hun; eithr ei ddysgyblion oedd yn bedyddio, pen. 4. 2. Mae yn debyg nad oeddynt hwy ddim yn bedyddio y pryd hwn yn y dull y gorchymyn-odd efe iddynt wedi hyny; ond yn ol dull Ioan, ac fel arweiniad i sefydliad mwy perffaith o grefydd Crist: efallai eu bod yn bedyddio yn enw yr Iesu, fel Messiah; ond nid oedd y bedydd Cristionogol yn enw y Drindod wedi dechreu eto.

23 ¶ Ac yr oedd Ioan hefyd yn bedyddio yn * Ainon, [c] yn agos i Salim; [d] † canys dyfroedd lawer oedd yno: [e] a hwy a ddaethant, ac a'u bedyddiwyd.

c Gen. 33. 18. 1 Sam. 9. 4. d Jer. 51. 13. Ezec. 19. 10. a 43. 2. Dat. 1. 15. a 14. 2. a 19. 6. e Mat. 3. 5, 6. Marc 1. 4, 5. Luc 3. 7.

* Mae dysgedigion ar goll yn fawr mewn perthynas i'r lle hwn, Ainon; oblegid nad oes sôn am dano yn un rhan arall o'r ysgrythyr, ac nad yw i'w gael ar ddarlun-iau yr henafiaid o wlad Canaan. Tybiai rhai mai o du y dwyrain i'r Iorddonen yr oedd, ac eraill mai o du y gorllewin iddi, megys hefyd yr oedd Salim. Tybiai rhai mai tref, neu ddinas oedd; eraill mai afon; ac er-aill mai ardal helaeth o dir ydoedd, yn llawn o ffynonau a nentydd bychain; oblegid mai ffynon, meddant, yw ystyr y gair Ainon, neu Enon. † Dywedir fod y geiriau Groeg *(udata polla)* a gyfieithir yma "dyfroedd lawer," yn arwyddo llawer mewn rhifedi, yn gystal a llawer o ryw unpeth yn yr un màn; ac mai felly yr oedd yn Ainon, llawer o nentydd neu ffrydiau bychain, ac nid rhyw ddyfroedd mawrion yn rhedeg yn un afon. Os felly, nid oes yma fawr o sail i ddadlau dros fedyddio trwy drochiad, oblegid gallasai nad oedd yr un o'r nent-ydd hyn yn ddigon dwfn i hyny. O'r tu arall, yr oedd

amledd o nentydd bychain felly yn gyflëus iawn i fedyddio torfeydd lliosog, trwy eu gosod yn rhesi trefnus, a thywallt, neu daenellu y dwfr arnynt.

24 [f] * Canys ni fwriasid Ioan etto y'ngharchar.

f Mat. 4. 12. a 14. 3. Marc 6. 17. Luc 3. 19, 20. a 9. 7—9.

* Hyd yn hyn yr oedd Ioan a Christ yn cyd-weinidogaethu; ond nid hir y bu Ioan ar ol hyn heb gael ei fwrw yn ngharchar. Mae yr Efengylwr yma yn crybwyll am garchariad Ioan Fedyddiwr fel peth hollawl adnabyddus, ond nid yw yn un màn yn rhoddi hanes am ei garchariad na'i ferthyrdod; gwyddai fod yr efengylwyr eraill wedi gwneyd hyny; yr hyn sydd brawf mai ar eu hol hwy yr ysgrifenodd efe, ac mai fel adgyflenwad i'r eiddynt hwy yr oedd efe yn bwriadu ei efengyl.

25 ¶ *Yna y bu ymofyn rhwng *rhai* o ddisgyblion Ioan a'r Iuddewon, [g] ynghylch puredigaeth.

g pen. 2. 6. Mat. 3. 11. Marc 7. 2—5, 8. Heb. 6. 2. a 9. 10, 13, 14, 23. 1 Pedr 3. 21.

* Tra yr oedd Crist a Ioan yn pregethu ac yn bedyddio mewn gwahanol fànau, dechreuodd rhai o ddysgyblion Ioan, a rhai o'r Iuddewon anianol, ddadlau, yn nghylch rhagoriaeth bedydd Ioan ar y puredigaethau a'r golchiadau seremoniol a thraddodiadol, a arferid er ys cyhyd o oesoedd yn mhlith yr Iuddewon, yn enwedig y Phariseaid. Taerai y dysgyblion o blaid bedydd eu hathraw hwy, ei fod yn well na'r holl olchiadau Iuddewig; taerai yr Iuddewon o'r tu arall, mai afreidiol oedd bedydd Ioan, ac annigonol er puredigaeth; bod un arall yn cymmeryd arno osod i fynu fedydd newydd, a gwell na bedydd Ioan, a'i fod yn cael mwy o ddysgyblion; ac fel hyny na byddai dim diwedd ar bethau newydd, a pheryglus, a bod yn llawer gwell cadw at yr hen ddefodau sefydledig. Rhywbeth tebyg i hyny raid fod y ddadl.

26 * A hwy a ddaethant at Ioan, ac a ddywedasant wrtho, Rabbi, [h] † yr hwn oedd gyd â thi y tu hwnt i'r Iorddonen, [i] am yr hwn y tystiolaethaist ti, wele, y mae hwnnw yn bedyddio, [k] a phawb yn dyfod atto ef.

h Num. 11. 26—29. Preg. 4. 4. 1 Cor. 3. 3—5. Gal. 5. 20, 21. a 6. 12, 13. Iago 3. 14—18. a 4. 5, 6. i pen. 1. 7, 15, 26—36. k pen. 1. 7, 9. a 11. 48. a 12. 19. Act. 19. 26, 27.

* Sef dysgyblion Ioan, a fuasent yn ymddadleu â'r Iuddewon yn yr adnod o'r blaen. † Os edliwiodd yr Iuddewon iddynt fod Crist yn bedyddio ac yn cael mwy o ganlynwyr na'u hathraw hwy, fel y sylwyd ar adn. 25; gallwn feddwl eu bod wedi anfoddloni i Grist, ac yn eiddigeddu dros eu hathraw eu hunain, fel pe dywedasent wrtho, Ni a glywsom fod yr hwn a fedyddiwyd genyt ti, ac a ddylasai fod yn ddysgybl i ti, wedi myned yn athraw ei hun, yn bedyddio, ac yr holl wlad yn myned ar ei ol ef: felly yr wyt ti, trwy ddwyn tystiolaeth i hwnw, yn colli dy barch a'th boblogrwydd dy hun. Fel hyn yr oeddynt yn lled feïo ar Iesu, a chystal a dywedyd wrth Ioan, y dylasai efe alw yn ol y dystiolaeth a roddasai efe iddo: pe buasent hwy eu hunain yn ei chredu nid felly y buasent yn dywedyd.

27 Ioan a attebodd ac a ddywedodd, [l] * Ni ddichon dyn dderbyn dim, oni bydd wedi ei roddi iddo [m] o'r nef.

l Num. 16. 9—11. a 17. 5. 1 Cron. 28. 4, 5. Jer. 1. 5. a 17. 16. Amos 7. 15. Mat. 25. 15. Marc 13. 34. Rhuf. 1. 5. a 12. 6. 1 Cor. 1. 1. a 3. 5. a 4. 7. a 12. 11. a 15. 10. Gal. 1. 1. Eph. 1. 1. a 3. 7, 8. 1 Tim. 2. 7. Iago 1. 17. 1 Pedr 4. 10, 11. m Mat. 21. 25. Marc 11. 30, 31.

* Ioan a attebodd, Nid yw hyny wrthddadl yn y byd yn erbyn fy swydd a'm gweinidogaeth I; pa beth bynag a dderbyniais I fel cenadwri at ddynion, neu fel tystiolaeth am Grist, gan Dduw y derbyniais. Os ydyw yntau yn bedyddio, a phawb yn myned ar ei ol ef, mae hyny yn brawf ei fod wedi ei ddanfon oddi wrth Dduw; ac os yw dynion yn derbyn ei genadwri a'i fedydd ef, Duw sydd wedi rhoddi iddynt galon i hyny. Nid oes dim anghysondeb rhwng ei fedydd ef â'r eiddof finau; mae y ddau yn tueddu i'r un dyben, a phob un o honom wedi eu derbyn gan Dduw; mae fy medydd I yn ddarostyngol i'r eiddo ef, a'i fedydd ef yn gwellâu ac yn perffeithio yr eiddof fi. Mi a ddywedais i chwi yn wastad mai nid myfi oedd y Messiah; nad oeddwn I ond wedi fy anfon o'i flaen ef; tystiolaethais i chwi hefyd mai efe oedd Oen Duw, gan hyny pa ham eich trallodir am y peth hyn?

28 * Chwychwi eich hunain ydych dystion i mi, [n] ddywedyd o honof fi, Nid myfi yw y Crist, [o] eithr fy mod wedi fy anfon o'i flaen ef.

n pen. 1. 20, 25, 27. o pen. 1. 23. Mal. 3. 1. a 4. 4, 5. Mat. 3. 3, 11, 12. Marc 1. 2, 3. Luc 1. 16, 17, 76. a 3. 4—6.

* Heblaw hyny, mae genych chwi brawf ynoch eich hunain, "na ddichon dyn dderbyn dim oni bydd wedi ei roddi iddo o'r nef;" pe amgen, chwi a dderbyniasech fy nhystiolaeth i am Grist, ac a aethech ar ei ol ef eich hunain: chwi a wyddoch i mi dystiolaethu lawer gwaith mai efe oedd Crist, y Messiah, ac nad oeddwn i ond gwas, a chenad wedi ei ddanfon, i barotôi y ffordd o'i flaen, a darpar pobl barod iddo: gan hyny a fynech chwi i mi ei attal ef, neu sòri wrtho?

29 [p] * Yr hwn sydd ganddo y briod-ferch, yw y priod-fab: [q] † ond cyfaill y priod-fab, yr hwn sydd yn sefyll ac yn ei glywed ef, sydd yn ‡ llawenychu yn ddirfawr oblegid llef y priod-fab: [r] ‖ y llawenydd hwn mau fi gan hynny a gyflawnwyd.

p Salm 45. 9—17. Can. 3. 11. a 4. 10. Es. 54. 5. a 62. 4. 5. Hos. 2. 19, 20. Mat. 22. 2. 2 Cor. 11. 2. Eph. 5. 25—27. Dat. 19. 7—9. a 21. 9. q Barn. 14. 10, 11. Salm 45. 14. Can. 5. 1. Mat. 9. 15. r Es. 66. 11. Luc 2. 10—14. a 15. 6.

* Crist oedd y Priod-fab yma; a'r rhai oedd yn myned ar ei ol ef oedd y briod-ferch; ei eiddo ef oeddynt, ac nid eiddo Ioan. † Ioan oedd cyfaill y Priod-fab; yn ei garu, yn dymuno ei lwyddiant, ac yn gwneyd ei orau i ddarpar dysgyblion iddo. ‡ Fel mae cyfaill y priod-fab yn llawenychu o herwydd llwyddiant y priod-fab, felly yr oedd Ioan Fedyddiwr yn llawenychu wrth weinidogaeth Crist, a'i lwyddiant yn ennill dysgyblion. ‖ Fel pe dywedasai, yn hytrach na sòri ac eiddigeddu wrth y peth a ddywedasoch chwi, mae yn dda genyf ei glywed, heddyw y cyflawnwyd fy llawenydd. *Clywed llef y priod-fab:* tybir fod yma gyfeiriad at ryw ddefod neillduol yn mhriodasau yr Iuddewon. Mae rhai yn tybied fod yr adnod hon yn cyfeirio at yr athrawiaeth gyfrinlawl oedd yn mhlith yr Iuddewon, am *Tipherel*, yr Adda Mawr, neu y Messiah, yn ymbriodi â *Malcuth*, cynnulleidfa Israel, fel y priodwyd yr Adda daearol âg Efa. Gwel ragymadrodd yr *Esgob Patrick* i lyfr y Caniadau.

30 [s] * Rhaid ydyw iddo ef gynnyddu, [t] † ac i minnau leihâu.

s Salm 72. 17—19. Es. 9. 7. a 53. 2, 3, 12. Dan. 2. 34, 35, 44. 45. Mat. 13. 31—33. Dat. 11. 15. t Act. 13. 36, 37. 1 Cor. 3. 5. 2 Cor. 3. 7—11. Col. 1. 18. Heb. 3. 2—6.

* Haul yn codi ydyw ef, y seren ddydd ar ddiflanu ydwyf finnau. Rhaid iddo ef gynnyddu mewn anrhydedd ac enw, yn yr amlygiadau o'i ogoniant, yn lliosogrwydd ei ddysgyblion, ac yn helaethrwydd a gogoniant ei deyrnas. † Rhaid i minnau leiâu yn fy enw yn mhlith dynion, ac yn mhwysfawrogrwydd fy swydd a'm gweinidogaeth, fel rhag-flaenor iddo ef, yr hwn ni bydd raid iddo mwyach wrth fy nhystiolaeth i. Bydd i'w anrhydedd ef guddio yr eiddof fi fwy-fwy bob dydd; a phan ddarfyddo fy ngwaith i, e bery ei waith ef byth, ac a â ar gynnydd mawr.

31 [u] * Yr hwn a ddaeth oddi uchod, [x] sydd goruwch pawb oll; [y] † yr hwn sydd o'r ddaear, sydd o'r ddaear, ac am y ddaear y mae yn llefaru: [z] ‡ yr hwn sydd yn dyfod o'r nef, sydd goruwch pawb.

u adn. 13. pen. 8. 23. Eph. 4. 8—10. x pen. 1. 15, 27, 30. a 5. 21—25. Mat. 28. 18. Act. 10. 36. Eph. 1. 21. Phil. 2. 9—11.

'edr 3. 22. Dat. 19. 16. y adn. 12. 1 Cor. 15. 47, 48. Heb. 9. 9, 10. z pen. 6. 33, 51. a 16. 27, 28.

* Un a ddaeth oddi uchod (o'r nef, diwedd yr adnod) dd Iesu, o fynwes y Tad; am hyny yr oedd goruwch wb, dynion ac angelion: yn ei berson fel Duw; yn ogoniant fel Cyfryngwr; yn ei deyrnas a'i awdurdod; yn ardderchawgrwydd a grym ei weinidogaeth. † Un ddaear oedd Ioan, er ei fod wedi derbyn ei weinidogth a'i fedydd o'r nef; ac fel y cyfryw, dyn daearol yn ig oedd, ac nid oedd ei syniadau a'i ymadroddion d daearol, ond fel yr oedd yn cael ei ysbrydoli gan luw; ac nid oedd ei weinidogaeth ar y gorau ond earol, mewn cymhariaeth i weinidogaeth Iesu; yr n oedd yn llefaru am bethau mawrion Duw fel yr ldynt, ac oddi ar adnabyddiaeth drwyadl, hollawl, a ragywyddol o honynt. ‡ Daeth Iesu o'r nef a phethy nef yn ei galon; ac yr oedd yn eu dysgu gydag durdod ar y ddaear. O leied yw y pregethwr gorau yn ei gymharu â Iesu!

32 a * A'r hyn a welodd efe ac a glywodd, hynny y mae efe yn ei dystiolaethu: b ‡ ond dd oes neb yn derbyn ei dystiolaeth ef.

a adn. 11. pen. 5. 20. a 8. 26. a 15. 15. b adn. 26, 33. pen. 11. Es. 50. 2. a 53. 1. Rhuf. 10. 16—21. a 11. 2—6.

* Mae gweled a chlywed yn arwyddo yr wybodaeth hlycaf, a sicraf, a chyfryw wybodaeth oedd gan Iesu o ddwl a chyngor Duw. Fel Person Dwyfol yr oedd yn yngor tragywyddol; fel Cyfryngwr yr oedd yr Ysbryd os ben mesur wedi ei roddi iddo; ac fel dyn duwiol oedd mewn cymdeithas wastadol â Duw, ac felly yn el amlygiadau annhraethadwy i ni, o'i feddwl a'i yllys ef. † Y pethau a wyddai efe felly, ac a roddodd Tad iddo fel Prophwyd mawr yr eglwys, y pethau ny yr oedd efe yn eu traddodi ac yn eu tystiolaethu. Ac er cymmaint oedd eiddigedd dysgyblion Ioan wrth ws ei ganlynwyr ef, nid oedd ond ychydig iawn eto myned ar ei ol ef; nac ond ychydig o hyny wedi rbyn ei dystiolaeth ef yn wirioneddol yn eu calonau.

33 * Yr hwn a dderbyniodd ei dystiolaeth, c a seliodd mai geirwir yw Duw.

c Rhuf. 3. 3, 4. a 4. 18—21. 2 Cor. 1. 18. Tit. 1. 1, 2. Heb. 6. 18. 1 Ioan 5. 9, 10.

* Ond pob un a'i derbyniodd felly, a osododd ei sel th wirionedd Duw, o ran y cyflawniad o'i hen browydoliaethau a'i addewidion, ac a dystiolaethodd yn hoeddus, ei fod wedi eu cyflawni yn nanfoniad y essiah, ac y cyflawna efe bob peth arall mòr wired a ny. Tebyg i hyn yw y geiriau yn 1 Ioan 5. 10, "Yr n sydd yn credu yn Mab Duw, sydd ganddo y dystaeth ynddo ei hun: yr hwn nid yw yn credu yn Nuw, gwnaeth ef yn gelwyddog; oblegid na chredodd y stiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab." Mae dd yn Nghrist yn dwyn tystiolaeth i wirionedd Duw, yn ei selio; mae anghrediniaeth yn gwaradwyddo uw, ac mewn effaith yn dywedyd, mai celwyddog yw.

34 d * Canys yr hwn a anfonodd Duw, dd yn llefaru geiriau Duw; e † oblegid nid th fesur y mae Duw yn rhoddi *iddo ef* yr spryd.

d pen. 7. 16. a 8. 26—28, 40, 47. e adn. 17. pen. 1. 16. a 26. a 7. 37—39. a 15. 26. a 16. 7. Num. 11. 25. 2 Bren. 2. 9. lm 45. 7. Es. 11. 2—5. a 59. 21. a 62. 1—3. Rhuf. 8. 2. Eph. 3. n 4. 7—13. Col. 1. 19. a 2. 9, 10. Dat. 21. 6. a 22. 1, 16, 17.

* Fel yr oedd Crist wedi ei ddanfon o fynwes y Tad, oedd ei eiriau ef yn wir yn eiriau Duw, ac i'w credu ddiammheuol fel y cyfryw. † Ac fel Prophwyd awr yr eglwys, rhoddodd y Tad iddo ef yr Ysbryd, nid wrth fesur" fel i'r îs brophwydi; ond yn anfesur. i'w gyfranu ganddo ef i eraill a ddanfonid ganddo. anfonwyd y prophwydi a'r apostolion gan Dduw, ond d fel ei Fab, nac i'r un swydd a dyben: yr oeddynt wy yn llefaru geiriau Duw, pan fyddai Ysbryd Duw arnt, ond brydiau eraill eu geiriau eu hunain; eithr yr dd Crist bob amser yn llefaru geiriau anffaeledig uw. Mewn mesur y rhoddodd efe ei Ysbryd ar bawb aill, yn gyfatebol i'w gwaith, eu swyddau, a'r gwahanol oruchwyliaethau yr oeddynt yn byw danynt; ond ynddo ef yr oedd cyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol, eneiniwyd ef âg olew gorfoledd tu hwnt i'w gyfeillion. Yr oedd ffynon y cwbl ganddo ef ynddo ei hun, ac nid y ffrydiau yn unig.

35 f * Y mae y Tad yn caru y Mab, g † ac efe a roddodd bob peth yn ei law ef.

f pen. 5. 20, 22, 23. a 15. 9. a 17. 23, 24, 26. Diar. 8. 30. Es. 42. 1. Mat. 3. 17. a 17. 5. g pen. 13. 3. a 17. 2. Gen. 41. 44, 55. Salm 2. 8. Es. 9. 6, 7. Mat. 11. 27. a 28. 18. Luc 11. 22. 1 Cor. 15. 27. Eph. 1. 22. Phil. 2. 9—11. Heb. 1. 2. a 2. 8, 9. 1 Pedr 3. 22.

* Mae y Tad yn caru y Mab *fel ei Fab*, fel y mae o'r un hanfod a pherffeithiau âg ef ei hun: mae y Tad yn caru y Mab hefyd fel Cyfryngwr, ac yn ymhyfrydu ynddo ef a'i waith cyfryngol, oblegid ei fod drwy hyny yn gogoneddu Duw mòr fawr. † Am ei fod yn ei garu mòr fawr, ac yntau mòr deilwng o'r cariad hwnw, rhoddodd y Tad bob peth yn ei law ef; pob awdurdod yn nheyrnas rhagluniaeth, gras, a gogoniant: i ddarostwng ei elynion, i gyfranu pob doniau i'w bobl, ac i farnu dynion ac angelion yn y dydd diweddaf. Gallwn weled yma, fod golygiadau Ioan Fedyddiwr yn oleu ac yn gywir iawn am Grist: mae y geiriau uchod yn debyg iawn i'r hyn a ddywedodd Crist am dano ei hun mewn amryw fânau yn y llyfr hwn. Gwel y cyfeiriadau.

36 h * Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragywyddol: † a'r hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni i wêl fywyd; k eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef.

h adn. 15, 16. pen. 5. 24. a 6. 47—54. a 10. 28. Hab. 2. 4. Rhuf. 1. 17. a 8. 1. 1 Ioan 3. 14, 15. a 5. 11—14. i adn. 3. pen. 8. 51. Num. 32. 11. Job 33. 28. Salm 36. 9. a 49. 19. a 106. 4, 5. Luc 2. 30. a 3. 6. Rhuf. 8. 24, 25. Dat. 21. 8. k Salm 2. 12. Rhuf. 1. 18. a 4. 15. a 5. 9. Gal. 3. 10. Eph. 5. 6. 1 Thes. 1. 10. a 5. 9. Heb. 2. 3. a 10. 29 Dat. 6. 16, 17.

* Swm y cwbl gan hyny yw hyn, yr hwn sydd yn credu yn y Mab am fywyd tragywyddol, a gaiff fywyd tragywyddol drwy gredu: ïe, y mae ganddo fywyd tragywyddol y mynyd y credo. Credu y dystiolaeth *am* Grist, a thrwy hyny credu *yn* Nghrist, ac ymddiried ynddo ef fel Mab Duw a Gwaredwr: mae gan y cyfryw pwy bynag fyddo, fywyd tragywyddol, hawl sicr iddo; gwystl, ernes, a blaen-brofiad o hóno; yr hyn a'i dwg ef yn sicr i fwynâd cyflawn o hóno yn y nef. † I'r gwrthwyneb, pwy bynag o'r Phariseaid, dysgyblion Ioan, neu rywun arall a wrthodo Grist, heb gredu ynddo ac ufuddâu iddo, ni wêl fywyd, yma nac yn y byd a ddaw. Mae ei holl bechodau, ac yn enwedig ei anghrediniaeth, yn gorwedd arno; dedfryd gyfiawn y ddeddf yn ei erbyn; ac mae efe beunydd yn agored i'w chospedigaethau ofnadwy hi. *Pisteuón*, "credu;" *Apeithón*, "heb gredu:" heb ufuddâu, yn hytrach, yw meddwl y gair diweddaf; ac mae yr olaf yn egluro y cyntaf, ac yn dangos mai *egwyddor* effeithiol o wir ufudd-dod, yw y ffydd mae addewid o fywyd yn perthyn iddi. Mae yn amlwg mai annog ei ddysgblion i gredu yn Nghrist yr oedd Ioan, fel yr unig ffordd am eu bywyd.

PEN. IV.

Crist yn ymddiddan â gwraig o Samaria.

* PAN a wybu yr Arglwydd gan hynny glywed o'r Phariseaid b fod yr Iesu yn gwneuthur ac yn bedyddio mwy o ddisgyblion nag Ioan,

a Luc 1. 76. a 2. 11. a 19. 31, 34. Act. 10. 36. 1 Cor. 2. 8. a 15. 47. 2 Cor. 4. 5. Iago 2. 1. Dat. 19. 16. b pen. 3. 22, 26.

* Rhwng tystiolaeth Ioan Fedyddiwr am Grist, â'r gwyrthiau oedd Crist yn wneyd ei hun, yr oedd y fath argraff wedi ei wneyd ar feddyliau y bobl yn Jerusalem a gwlad Judea, fel yr oedd llu oedd o honynt yn myned ar ei ol ac yn cael eu bedyddio gan ei ddysgyblion ef. Parodd hyn gyffro yn mhlith y Phariseaid, y rhai oeddynt aelodau o'r senedd yn Jerusalem, a gelynion creulawn iddo yntau, ac aeth y peth mae yn debyg dàn sylw y *Sanhedrim*, pa beth a wnaid iddo er lluddias iddo

dynu cymmaint o ddysgyblion ar ei ol. Gwyddai yr Iesu hyny fel Duw, ac efallai ddarfod i ryw rai fynegi iddo hefyd.

2 [c] * (Er na fedyddiasai yr Iesu ei hun, eithr ei ddisgyblion ef)

c Act. 10. 48. 1 Cor. 1. 13—17.

* Nid oedd yr Iesu yn dewis bedyddio ei hun, efallai am y rhesymau a ganlyn:—1. Er dangos ei fawredd, fel Pen yr eglwys, ac yn mhob ystyr yn fwy na Ioan, yr hwn nid oedd ond gwas, ac felly yn bedyddio ei hun. 2. Er dangos ei fod ef ei hun yn bedyddio â'r Ysbryd Glân, ac felly yr oedd yn gadael i'w weision fedyddio â dwfr. 3. Fel nad ymddangosai yn ceisio anrhydedd iddo ei hun, trwy fedyddio yn ei enw ei hun. 4. Fel na roddai achlysur i ddynion ei daer-holi ai efe oedd y Messiah, wrth ei fod yn bedyddio yn ei enw ei hun. 5. Fel y gallai ymroddi i'r gwaith mwy pwysig o bregethu yr efengyl, a gadael i'w ddysgyblion fedyddio â dwfr. 6. Fel na byddai rhagfarn yn cael ei fagu yn erbyn y bedydd perffeithiach a sefydlodd efe gwedi hyn. 7. I ragflaenu dadlau ac eiddigedd yn mhlith ei ddysgyblion, am fod rhai wedi eu bedyddio ganddo ef, a rhai eraill ond gan ei weision anfonedig ef. 8. I ddangos nad yw cadernid ac effaith bedydd ddim yn ymddibynu ar fawredd a theilyngdod y gweinyddwr o hóno, ond ar fendith Duw ar yr iawn weinyddiad o hóno.

3 [d] * Efe a adawodd Judea, [e] † ac a aeth drachefn i Galilea.

d pen. 3. 22. a 10. 40. a 11. 54. Mat. 10. 23. Marc 3. 7. e pen. 1. 43.

* Tybir iddo fod yn Judea y tro hwn tua hanner blwyddyn, neu ragor; aeth allan o Jerusalem i wlad Judea yn fuan ar ol y pasg, pen. 3. 22; a dychwelodd i Galilea bedwar mis cyn y cynhauaf, pen. 4. 35. Yr oedd cynhauaf yr Iuddewon yn dechreu yn fuan iawn ar ol y pasg; Lefit. 23. 10, 15. gan hyny arosodd Crist yn Judea *o un pasg* hyd o fewn i bedwar mis i'r *pasg arall;* hyny yw, yn agos i *wyth mis:* felly rhaid bod y daith hon i Galilea yn nghanol y *gauaf*, efallai tua dechreu ein Rhagfyr ni. † Galilea oedd ei wlad ei hun, a thàn lywodraeth Herod; ac nid oedd gallu y Phariseaid a'r *Sanhedrim* yn gymmaint i'w erlid ef yno.

4 [f] * Ac yr oedd yn rhaid iddo fyned trwy † Samaria.

f Mat. 10. 5, 16. Luc 9. 51, 52. a 17. 11.

* Gan fod Samaria yn gorwedd rhwng Judea a Galilea, yr oedd rhaid naturiol iddo fyned trwyddi, oddigerth iddo fyned lawer iawn oddi amgylch, yr hyn nid oedd gyfleus iawn yr amser hyny o'r flwyddyn. Yr oedd gan Iesu fwriad dirgelaidd hefyd, myned trwy Samaria, ac yr oedd rhaid goruwch-naturiol iddo fyned i gyflawni hwnw: cawn weled yn y bennod hon beth ydoedd. † Nid dinas Samaria yn bennodol a feddylir, ond y wlad a elwid felly, ac a gyfanneddid gan Assyriaid yn gymmysg âg Iuddewon gwrthgiliedig. Yr oedd y bobl gymmysg hyn yn derbyn cyfraith Moses, ac yn addoli Duw Israel; ond gwadent ddwyfoldeb ysgrythyrau eraill yr Hen Destament, a chymmysgent lawer o eilun-addoliaeth paganaidd ac ofer-goelion yn eu haddoliad.

5 Efe a ddaeth gan hynny i ddinas yn Samaria a elwid * Sichar,[g] † ger llaw y rhandir a roddasai Jacob i'w fab Joseph.

g Gen. 33. 19. a 48. 22. Jos. 24. 32.

* Tybir mai yr un yw Sichar a Sichem, a grybwyllir yn Josh. 24. 32. ac amryw fànau eraill yn yr Hen Destament; ond o ddirmyg ar y Samariaid, galwai yr Iuddewon hi Sichar, y ddinas feddw, o herwydd meddwdod ei thrigolion. † Yr oedd gerllaw y rhandir a brynasai Iacob gan feibion Hamor, tad Sichem, Gen. 33. 19, ac a roddasai efe wedi hyny wrth farw yn etifeddiaeth i Joseph a'i blant, fel rhan goruwch ei frodyr. Cymhara Gen. 48. 22. â Josh. 24. 32. Yma y claddwyd Joseph, Josh. 24. 32. Yn agos yma yr oedd dyffryn Achor, yr hwn a roddwyd yn ddrws gobaith gyda golwg ar alwad y cenedloedd. Hos. 2. 15. Mae y cynllun cyntaf o'u gwaith yn credu yn Nghrist yn awr yn cael ei roddi yma; ac, (fel y mae *Dr. Lightfoot* yn sylwi ar Gen. 34. 9, a 35. 2,) yma y gwnaed y proselytiaid cyntaf at Eglwys Israel.

6 * Ac yno yr oedd ffynnon Jacob. † Yr Iesu gan hynny [h] yn ddiffygiol gan y daith, a [i] eisteddodd felly ar y ffynnon: [k] ‡ ac ynghylch y chweched awr ydoedd hi.

h Mat. 4. 2. a 8. 24. Heb. 2. 17. a 4. 15. i Luc 2. 7. a 9. 58. 2 Cor. 8. 9. k pen. 11. 9. Mat. 27. 45.

* Efallai mai Jacob a gloddiodd y ffynnon, fel y gwnaethai Abraham, Gen. 21. 30; ac Isaac, Gen. 26. 18—22, a'i fod ef, ei deulu, a'i anifeiliaid yn arfer yfed o hóni: mae yn debyg ei bod mewn cwr o'r maes a brynasai efe, ac felly ffynon Jacob y gelwid hi drwy yr oesoedd. † Dywedir hyn i brofi gwir ddynoliaeth ein Harglwydd, ei fod ef yn ddarostyngedig i holl wendidau dibechod y natur ddynol. Rhaid sylwi hefyd mai *cerdded* o amgylch y byddai efe; unwaith y clywsom iddo farchogaeth erioed. Gwel ar Matth. 21. 3. ‡ Dywed *Guyse* mai chwech o'r gloch yn yr hwyr oedd y chweched awr yma; ond dywed *Poole*, *Scott*, a *Doddridge*, mai hanner dydd oedd y chweched awr, o chwech y boreu: ac mae yr olaf yn sylwi ei bod yn dra phoeth ganol dydd yn y wlad hòno yn mis Rhagfyr, (gwel ar adn. 3.) er eu bod yn oer iawn yn y borenau. Rhwng y daith a'r gwres, ac efallai hefyd eisiau bwyd, (gwel adn. 8.) nid rhyfedd bod Iesu yn lluddedig gan y daith.

7 * Daeth gwraig o Samaria † i dynnu dwfr: ‡ a'r Iesu a ddywedodd wrthi, [l] || Dyro i mi i yfed.

l adn. 10. pen. 19. 28. Gen. 24. 43. 2 Sam. 23. 15—17. 1 Bren. 17. 10. Mat. 10. 42.

* Dywedir fod dinas Samaria tua dwy filltir o'r fàn hon; ond Samaria y gelwid yr holl ddosparth hyny o'r wlad, ac yn yr ystyr hyny, mae yn debyg, y gelwir hi yma yn wraig o Samaria. † Ceisio dwfr o'r ffynon oedd ei neges hi, nis gwyddai hi ddim am yr Iesu. Ac fel y cyfarfu Rebecca, Rachel, a Sephora, â'u gwahanol wŷr, Isaac, Jacob, a Moses, wrth fyned i dynu dwfr; felly y cyfarfu y wraig hon â Iesu yn ddiarwybod, fel y dyweddiid hi âg ef. Fel hyn bydd dynion yn cyfarfod â thrugaredd yn aml pryd na byddont yn meddwl, ac yn cael Duw pryd na byddont yn ymofyn am dano. ‡ Iesu yn ei ostyngeiddrwydd a'i ras sydd yn dechreu yr ymddiddan, gyd a bwriad o'i amlygu ei hun iddi, a'i gwneuthur yn gyfranog o'i iachawdwriaeth ef. || Yn ol traddodiadau y Phariseaid, ni chaniatêid i'r Iuddewon fenthycio dim gan y Samariaid, derbyn yr un gymmwynas ganddynt, cymmaint ag yfed o'u dwfr na bwyta tamaid o'u bara: rhwyment hwy na wnelent hyn dàn *anathema*, ac ystyrient y cyfryw beth can waethed a bwyta cig moch. Gan fod y cyfryw draddodiadau heb un sail iddynt yn neddf Duw nac mewn cyfiawnder, ac yn tueddu i niweidio deddfau cyfeillgarwch cyffredinol a dynoliaeth; mae Iesu yn eu dibrisio ac yn gofyn dwfr gan y wraig hon.

8 (* Canys ei ddisgyblion ef a aethent i'r ddinas [m] i brynu bwyd)

m pen. 6. 5—7. Luc 9. 13.

* Yn ol yr un traddodiadau yr oedd yn gyfreithlawn *prynu* gan y Samariaid, gan hyny nid oedd y dysgyblion yn petruso gwneyd hyn.

9 Yna y wraig o Samaria a ddywedodd wrtho ef, * Pa fodd yr ydwyt ti, a thi yn Iuddew, [n] yn gofyn diod gennyf fi, a myfi yn wraig o Samaria? [o] † oblegid nid yw yr Iuddewon yn ymgyfeillach â'r Samariaid.

n adn. 27. pen. 8. [illegible] Luc 10. 33. a 17. 16—19. o 2 Bren. 17. 24, &c. Ezra 4. Neh. 4. 1, 2. Luc 9. 52—56. Act. 1. 8.

* Gwyddai y wraig hon mai Iuddew oedd Iesu, un ai wrth ei wisg neu wrth ei dafodiaith, felly mae yn synu

fod ef yn gofyn cymmwynas ganddi hi, o herwydd y swm uchod, adn. 7, a pha fodd y gallai efe ddisgwyl ti hi wneyd yr un gymmwynas iddo. † Estron gen-, neu gymmysg o amryw genedloedd, oedd y Samar-d, wedi eu dwyn i mewn i wlad yr Iuddewon, 2. Bren. . 24; yr oeddynt wedi llygru y grefydd Iuddewig âg un-addoliaeth ac ofer-goelion er yn fore, 2 Bren. 17. —41; yr oeddynt wedi trin yr Iuddewon yn bur wg ar ol eu dychweliad o Babilon, Ezra 4. 1—6; . 6. 1—14; yr oeddynt wedi adeiladu teml ar fyn-d Garizim mewn gwrthwynebiad i deml Jerusalem; efallai, nad oedd dim a'u gwnaeth hwy yn fwy atgas irmygedig gan yr Iuddewon, na'r cynnyg ffiaidd hwnw wnaethent i Antiochus, o gyssegru y deml hòno i Iau, *upiter,*) a derbyn ei holl ddefodau eilun-addolgar ef; ayny mewn amser pan oedd yr Iuddewon yn dyoddef thrymder dirfawr yn amddiffyniad eu crefydd. Erbyn yried y pethau uchod oll, nid rhyfedd iawn fod yr idewon mòr ddigyfeillach â'r Samariaid.

10 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd rthi, p * Ped adwaenit ti ddawn Duw, q a wy yw yr hwn sydd yn dywedyd wrthyt, yro i mi i yfed; r tydi a ofynasit iddo ef, ac efe a roddasai i ti s ddwfr bywiol.

p pen. 3. 16. Es. 9. 6. a 42. 6. a 49. 6—8. Luc 11. 13. Rhuf. 8. 1 Cor. 1. 30. 2 Cor. 9. 15. q adn. 25. 26. pen. 9. 35—38. a 3. a 17. 3. 1 Ioan 5. 20. r 2 Cron. 33. 12, 13, 18, 19. Salm 17. Es. 55. 6—9. Luc 11. 8—10. a 18. 13, 14. a 23. 42, 43. Act. 1. Dat. 3. 17, 18. s adn. 14. pen. 6. 35, 51. a 7. 37—39. Ex. 6. Salm 36. 8, 9. a 46. 4. Es. 12. 3. a 35. 6. a 41. 17, 18. a 43. a 49. 10. a 55. 1—3. Jer. 2. 13. Ezec. 47. 1—9, 12. Zec. 14. 8. or. 10. 4. Dat. 7. 17. a 21. 6. a 22. 1, 2, 17.

* Tybir mai Crist ei hun a feddylir yma wrth "ddawn," *a rodd* Duw; a bod y geiriau nesaf, "A phwy yw yr n sydd yn dywedyd wrthyt," yn profi hyny. Gall y riau "dawn Duw" gynnwys hyny, neu ynte rad ras w yn gyffredinol, a'r holl fendithion ysbrydol sydd Nghrist i bechaduriaid. Pe buasai y wraig hon yn nabod dawn Duw yn ol yr ystyr uchod; yn adnabod gwerth, ei rhadlonrwydd, ei hangen ei hun o hóni, mai Iesu oedd y Messiah, y cyfranwr mawr o'r ddawn no, nid yn unig hi a roddasai ychydig ddwfr iddo er fod yn Iuddew; ond hi a ofynasai am ddwfr bywiol ddo ef. † Dwfr bywiol y galwai yr Iuddewon ddwfr ddedig, ffynon; mewn cyferbyniad i ddwfr marw, nydd, mewn llyn, yr hwn oedd ddiflas, afiach, a llygr-g, yn y wlad boeth hòno. Yma mae yn arwyddo yr oryd Glân a'i holl ddoniau grasol, yr hwn a addewid yr Hen Destament dan y gymhariaeth hon. Isa. 44. Ezec. 36. 25, 27. Er na roddai y wraig ychydig wfr naturiol i Iesu am ei fod yn Iuddew; eto yr oedd yn barod i roddi dwfr bywiol iddi hi, er mai gwraig Samaria ydoedd, a gwraig hefyd nad oedd fawr gwell phutain. Onid oedd yma ragor mawr rhwng y au?

11 * Y wraig a ddywedodd wrtho, Arwydd, t nid oes gennyt ti ddim i godi *dwfr,* pydew sydd ddwfn: † o ba le gan hynny mae gennyt ti y dwfr bywiol hwnnw?

t pen. 3. 4. 1 Cor. 2. 14.

* Gan i Grist lefaru am ei Ysbryd, ei ras, neu ei rawiaeth, yn *gyffelybiaethol;* mae y wraig dywyll a aganaidd hon yn ei ddëall yn *llythyrenol,* ac am ddwfr *uriol:* a chan y gwyddai hi fod y pydew yn ddwfn, cyfudd, medd rhai; 35 llath, medd eraill,) ac yntau ymdeithydd dïeithr heb ddim ganddo i godi dwfr; oedd yn synu o ba le y gallai efe gael y dwfr bywiol roddi iddi hi. † Gofyniad oedd hwn, tebyg i'r eiddo odemus, pen 3. 4; ac yn dangos mòr dywyll ac anybodus yw dynion am bethau ysbrydol, hyd oni uir hwy gan yr Ysbryd Glân.

12 u * Ai mwy wyt ti nâ † tad Jacob, yr n a roddodd i ni y pydew, ac efe ei hun a odd o hono, a'i feibion, a'i anifeiliaid?

u pen. 8. 53. Es. 53. 2, 3. Mat. 12. 42. Heb. 3. 3.

* Tybia rhai mai mewn diystyrwch at Grist yr oedd hi yn dywedyd y geiriau hyn; fel pe dywedasai, dyn doeth a gwybodus oedd ein tad Jacob, ac nis medrodd ef gael gwell dwfr yn yr holl wlad na'r pydew hwn; a phwy ydwyt ti sydd yn sôn am ddwfr arall, a gwell, ai mwy ydwyt ti na'n tad Jacob? Tybia eraill yn wahanol, ei bod hi erbyn hyn yn dechreu meddwl mai rhyw un go fawr a rhyfedd oedd Iesu, er tloted oedd yr olwg allanol arno; ond ni fynai ei fod ef yn fwy na Jacob. † Sylwyd o'r blaen, fod llawer o Iuddewon yn gymmysg â'r Samariaid hyn: efallai mai un o honynt oedd y wraig hon, ac y gallai fel hyny alw Jacob yn "dad." Heblaw hyny, byddai y Samariaid yn gyffredin yn arddelwi perthynas â'r Iuddewon, pan fyddai yr Iuddewon yn llwyddiannus, ond bob amser yn eu gwadu pan yn aflwyddiannus.

13 Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthi, x * Pwy bynnag sydd yn yfed o'r dwfr hwn, efe a sycheda drachefn:

x pen. 6. 27, 49. Es. 65. 13, 14. Luc 16. 24.

Mae yr Arglwydd Iesu yn myned heibio i'r gwagymffrost uchod heb wneuthur sylw yn y byd o hóno, fel yr aethai o'r blaen dros y geiriau yn adn. 9; ac yn prysuro i ddangos mai nid am ddwfr naturiol yr oedd efe yn sôn, ond am rywbeth goruwch-naturiol ac ysbrydol. * Tuag at hyny, mae yn dywedyd yn gyntaf am ddiffyg ac annigonoldeb y dwfr naturiol hwnw, er mòr werthfawr oedd; y gallai dyn sychedu drachefn, ar ol ei yfed; hyny yw, y byddai mòr sychedig drachefn yn mhen tipyn ag erioed, y gallai farw o syched, a cholli ei enaid yn y diwedd fel y goludog yn Luc 16. 24—26.

14 * Ond pwy bynnag a yfo o'r dwfr a roddwyf fi iddo, y ni sycheda yn dragywydd; † eithr y dwfr a roddwyf iddo, z a fydd ynddo yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragywyddol.

y pen. 6. 35, 58. a 11. 26. Es. 49. 10. Dat. 7. 16. z pen. 7. 38, 39. a 10. 10. a 14. 16—19. Rhuf. 5. 21. a 8. 16, 17. 2 Cor. 1. 22. Eph. 1. 13, 14. a 4. 30. 1 Pedr 1. 22, 23. 1 Ioan 5. 20.

* Yn nesaf mae Iesu yn dangos rhagoriaeth y "dwfr bywiol" oedd efe yn feddwl: pwy bynag a'i hyfai ni sychedai yn dragywydd; hyny yw, ni bydd prinder o hóno byth; po mwyaf y byddo enaid y credadyn yn sychedu am Dduw a'i bethau, mwyaf i gyd y caiff ei ddiwallu. Mae "sychedu drachefn," ac "ni sycheda yn dragywydd," i'w ddeall yma am y fath syched a wnelo i ddyn wànâu, llewygu, a marw, o eisiau diwallrwydd digonol; megys y dywedir am Israel, (Es. 48. 21.) *Ac ni sychedasant pan arweiniodd hwynt yn yr anialwch,* hyny yw, er eu bod yn sychedig iawn yn aml, ni buont feirw o syched, gan fod Duw yn eu diwallu hwynt yn wyrthiol â dwfr, i'w disychedu yn barâus. † Mae Ioan 7. 38, 39, yn rhagorol yn egluro y rhan hon o'r adnod; ac yn dangos mai nid o'r dyn ei hunan mae parâd a chyflawnder y dwfr bywiol, eithr o'r Ysbryd Glân, yr hwn a gaiff y rhai a gredant yn Iesu.

15 * Y wraig a ddywedodd wrtho, Arglwydd, a dyro i mi y dwfr hwn, fel na sychedwyf, ac na ddelwyf yma i godi *dwfr.*

a pen. 6. 26, 34. Salm 4. 6. Rhuf. 8. 5. 1 Cor. 2. 14. Iago 4. 3.

* Mae yn sicr bod y wraig o hyd heb ddeall, mai am bethau ysbrydol yr oedd yr Arglwydd Iesu yn llefaru; ac yr oedd yn dywedyd fel hyn, un ai mewn gwawd, gan feddwl mai peth ynfyd ac anmhosibl oedd yr hyn a ddywedasai Crist; neu ynte o ddifrif, gan feddwl ei fod ef yn llefaru am rywbeth er llesâd y corph, nad oedd yn adnabyddus iddi hi. Mòr wir yw geiriau yr apostol, "Y rhai sydd yn ol y cnawd, am bethau y cnawd maent yn syniaw." Rhuf. 8. 5.

16 Iesu a ddywedodd wrthi, b Dos, galw dy wr, a thyred yma.

b adn. 18. pen. 1. 42, 47, 48. a 2. 24, 25. a 21. 17. Heb. 4. 13. Dat. 2. 23.

* Mae hwn yn drôad priodol iawn ar yr ymddiddan;

gwyddai yr Arglwydd Iesu bod y wraig yn dywyll iawn, ac nid yn unig hyny, ond hefyd yn ysgafn iawn, ac braidd yn gwneyd cellwair o'r hyn oedd ef yn ddywedyd wrthi. Gan hyny yr oedd yn llawn bryd dyfod at ei dolur hi, a'i tharaw ar ei phechod, i'r dyben o'i hargyhoeddi hi, ac amlygu ei hunan yn mhellach iddi. Lle na byddo argyhoeddiad am bechod nid oes dim syched am fendithion ysbrydol, nis deallir hwynt ac nis gwelir gwerth ynddynt. Dechreu agor y clwyf yr oedd Iesu yma wrth ddywedyd, "Dos galw dy wr;" a hyny i'r dyben o'i iachâu.

17 * Y wraig a attebodd ac a ddywedodd, Nid oes gennyf wr. Iesu a ddywedodd wrthi, † Da y dywedaist, Nid oes gennyf wr:

* Teimlodd y wraig bechadurus yr ymadrodd uchod yn dyfod yn agos ati; ac i'r dyben o guddio ei gwarth a gochel yr ymddiddan, dywedodd "Nid oes genyf wr." † Ond po mwyaf yr oedd hi yn cilio, mwyaf yr oedd Iesu yn ei chanlyn, ac yn dynoethi ei phechod; "Da y dywedaist," ebai efe, "Nid oes genyf wr:" myfi a wn hyny yn dda, buasai yn fwy anrhydeddus i ti fod genyt wr, na byw mewn puteindra gydag un heb fod yn wr priodol i ti.

18 * Canys pump o wŷr a fu i ti; † a'r hwn sydd gennyt yr awrhon, [c] nid yw wr i ti: hyn a ddywedaist yn wir.

c Gen. 20. 3. a 34. 2, 7, 8, 31. Num. 5. 29. Ruth 4. 10, 11. Jer. 3. 20. Ezec. 16. 32. Marc 10. 12. Rhuf. 7. 3. 1 Cor. 7. 10, 11. Heb. 13. 4

* Tybia rhai i'r wraig hon fod yn briod â phump o wŷr a chael ei hysgar oddi wrthynt oll am odineb; ond nid oes dim yn ngeiriau Iesu yn edliw peth felly iddi, nid yw efe yn beio ar y pùm gwr a fuasai iddi, yr hyn yn ddiammau a wnaethai pe buasai hi wedi ymadael â hwy o achos godineb. Yr oedd yr odineb-wraig i gael ei chospi â marwolaeth, yn ol deddf Moses, pen. 8. 3—5; ac mae yn debyg y byddai y Samariaid yn parchu y ddeddf hòno cyn belled, na oddefent hwy ddim i wraig a ysgarid bùm gwaith am odineb, i ddianc yn hollawl ddigosp. Felly mae yn debyg mai ar ol marwolaeth y cyntaf yr oedd hi yn priodi yr ail, ac felly yn mlaen hyd y pùmmed: yr oedd hyny yn ddigon cyfreithlawn, er ei fod yn beth pur anarferol. † Caniatâai Iesu fod y lleill oll yn *wyr* cyfreithlawn, ond nid oedd hwn felly iddi hi. Mae hyn yn dangos fod rhyw gydnabyddiaeth gyhoeddus gerbron tystion, yn angenrheidiol i rwymiad priodas, ac yn ei gwahaniaethu oddi wrth odineb.

19 Y wraig a ddywedodd wrtho ef, Arglwydd, [d] mi a welaf mai [e] prophwyd wyt ti.

d adn. 29. pen. 1. 49. 2 Bren. 5. 26. a 6. 12. Luc 7. 39. 1 Cor. 14. 24, 25. e pen. 6. 14. a 7. 40. a 9. 17. Luc 7. 16. a 24. 19.

* Gwyddai y wraig nad oedd yn bosibl fod neb wedi dywedyd wrth Grist am y pethau hyn yn ei buchedd hi, gan hyny yn ei syndod wrth ei glywed ef yn ei darlunio mòr gywir, dywedai, "Mi a welaf mai prophwyd wyt ti," un y mae Duw yn datguddio dirgelion iddo, ac yntau yn ei datguddio i ddynion, yn debyg i'r hen brophwydi gynt. Nid oes dim yn ymddangos eto fod ganddi hi feddwl uwch na hyny am Iesu. Gallwn nodi tri argoel da eisoes ar y wraig hon:—1. Nid oedd yn gwadu ei phechod, fel Cain, Gehazi, ac Ananias a Saphira. 2. Nid yw yn ymddangos yn ymgynddeiriogi yn wyneb ei hargyhoeddi, fel yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid. 3. Nid yw yn ceisio esgusodi ei hun na lleiâu ei phechod.

20 [f] * Ein tadau a addolasant yn y mynydd hwn; [g] ac yr ydych chwi yn dywedyd mai yn Jerusalem y mae y man lle mae yn rhaid addoli.

f Gen. 12. 6, 7. a 33. 18—20. Deut. 27. 12. Jos. 8. 33—35. Barn. 9. 6, 7. 2 Bren. 17. 26—33. g Deut. 12. 5, 11. 1 Bren. 9. 3. 1 Cron. 21. 26. a 22. 1. 2 Cron. 6. 6. a 7. 12, 16. Salm 78. 68, 69. a 87. 1, 2. a 132. 13, 14.

Er fod y pethau uchod yn dda ynddi, eto mae yr adnod hon braidd yn dangos nad oedd yn hoff iawn ganddi yr ymddiddan, ac mae am ei droi at fater arall. Buasai yn well iddi wneyd defnydd o'r "prophwyd" i'w dysgu hi am achos ei henaid, na'i holi ef am bwnc nad oedd o gymmaint pwys iddi hi y pryd hwn ei wybod. * Mynydd Gerizim oedd y "mynydd hwn;" am y deml a'r addoliad yno, gwel ar adn. 9. Gan y byddai y Samariaid yn cymmeryd arnynt olrhain eu hachau [illegible] Jacob, mae yn amlwg mai Abraham, a Jacob, [illegible] meddwl y wraig wrth ddywedyd "ein tadau" yn y [illegible] hon, y rhai a adeiladasent allorau i addoli yr Arglw[illegible] yn y lle hwnw. Gen. 12. 6, 7; a 33. 18, 20. [illegible] tybia eraill mai ei henafiaid y Samariaid oedd hi yn f[illegible] wl wrth "ein tadau," y rhai a arferent addoli yno o oes [illegible] oes o amser Sanbalat yr hwn a adeiladodd y deml yno gyntaf. Gan i Abraham a Jacob adeiladu allorau yno yn mhell cyn adeiladu Jerusalem, a chan mai ar y mynydd hwnw, Gerizim, y gorchymynodd Duw gyhoeddi y bendithion, Deut. 27. 12; taerai y Samariaid mai yno y dylasai y deml fod: a thybir mai dyna pa ham yr oeddynt yn gwrthod llawer o'r Hen Destament, am ei fod yn dywedyd mòr bendant mai Jerusalem oedd y màn a ddewisodd Duw i'w addoli ynddo. Cymmaint oedd yr ymryson rhyngddynt hwy â'r Iuddewon yn nghylch y pwnc hwn, fel yr oedd y wraig hon, er maint ei hanfoes, yn boeth yn y ddadl.

21 [h] Iesu a ddywedodd wrthi hi, * O wraig, cred fi, † y mae yr awr yn dyfod, [i] pryd nad addoloch y Tad, [k] nac yn y mynydd hwn, nac yn Jerusalem.

h Ezec. 14. 3. a 20. 3. i Mal. 1. 11. Luc 21. 5, 6, 24. Act. 6. 14. 1 Tim. 2. 8. k adn. 23. pen. 14. 6. Mat. 28. 19. Eph. 2. 18. a 3. 14. 1 Pedr 1. 17.

* Fel pe dywedasai yr Iesu, Yr wyt ti wedi addef mai prophwyd ydwyf fi, gan hyny yr wyf yn galw arnat i sylwi ar, a chredu yr hyn a ddywedaf: † heb i mi ateb dy bwnc di yn union-gyrchol y naill ffordd na'r llall, mi a ddywedaf i ti beth a rydd derfyn ar y ddadl o bob tu yn fuan iawn; mae yr amser yn nesâu yn brysur iawn, pryd y dinystrir y ddwy deml, hòno yn Jerusalem a hon ar Gerizim, ac y derfydd y dull presenol o addoli y Tad yn y ddau le. Mae yn y geiriau yn sicr gyfeiriad at ddinystr holl wlad Canaan, diflaniad yr hen oruchwyliaeth, a gosodiad i fynu addoliad Duw yn ol trefn ragorach a pharâus yr efengyl.

22 * Chwychwi ydych yn addoli [l] y peth ni wyddoch; [m] † ninnau ydym yn addoli y peth a wyddom: [n] ‡ canys iachawdwriaeth sydd o'r Iuddewon.

l 2 Bren. 17. 27—29, 41. Ezra 4. 2, 3. Act. 17. 23, 30. m 2 Cron. 13. 10—12. Salm 147. 19. Rhuf. 3. 2. a 9. 5. n Gen. 49. 10. Salm 68. 20. Es. 12. 2, 6. a 46. 13. Zeph. 3. 16, 17. Zec. 9. 9. Heb. 7. 14.

* Felly y dywedir am eu henafiaid pan gyflëwyd hwy gyntaf yn Samaria, *nad adwaenent ddefod Duw y wlad*, 2 Bren. 17. 26. Nid oeddynt hwythau well na'u henafiaid; dychymmygion oedd ganddynt am Dduw, yn tybied mai rhyw dduw lläawl oedd, fel duwiau y paganiaid o'u hamgylch, ac nid Duw mawr y nefoedd a'r ddaear. Nis gallent fod yn amgen; oblegid yr oeddynt yn gwrthod llawer o lyfrau yr Hen Destament, ac yn llygru y lleill â gau-agoriadau. † Yr oedd yr ysgrythyrau sanctaidd gan yr Iuddewon gweinidogaeth y prophwydi o oes i oes; yr oedd ganddynt felly adnabyddiaeth ragorach na neb arall o'r gwir Dduw, ac yr oeddynt yn ei addoli ef yn ol ei orchymyn a chyfarwyddyd ei air. ‡ Yr oedd addewidion iachawdwriaeth mewn modd neillduol yn perthyn i'r Iuddewon, fel ei bobl gyfammodol; yr oedd moddion iachawdwriaeth yn eu plith; ac yr oedd yr Iachawdwr ei hunan yn deilliaw o honynt hwy.

23 [o] * Ond dyfod y mae yr awr, ac yn awr y mae hi, [p] † pan addolo y gwir addolwyr y Tad [q] mewn yspryd a [r] gwirionedd: [s] ‡ canys y cyfryw y mae y Tad yn eu ceisio i'w addoli ef.

en. 5. 25. a 12. 23. p Es. 1. 10—15. a 26. 8, 9. a 29. 13. 2. a 58. 2, 8—14. a 66. 1, 2. Jer. 7. 7—12. Mat. 15. 7—9. 11—13. q Rhuf. 1. 9. a 8. 15, 26. Gal. 4. 6. Eph. 6. 18. 3. Judas 20, 21. r Jos. 24. 14. 1 Sam. 12. 24. 1 Cron. Salm 17. 1. a 32. 2. a 51. 6. Es. 10. 20. Jer. 3. 10. a 4. 2. 447. 11. Diar. 15. 8. Can. 2. 14. Es. 43. 21. Ezec. 22. 30. 2. 9, 10.

aser goruchwyliaeth yr efengyl, yr hwn oedd wedi dechreu gwawrio ar y byd eisoes. † Nid ri y Samariaid y rhai ydych yn addoli y peth nis och; nid fel yr Iuddewon rhagrithiol, y rhai sydd orphwys ar eu hebyrth a'u cyflawniadau all-ac nid fel yr Iuddewon diragrith ychwaith, y rhai s ganddynt ond pethau cysgodol i addoli Duw ynt. Ond yn amser y diwygiad, sydd yn awr ar bydd holl wir addolwyr y Tad, o ba genedl byn-n mha le bynag, yn ei addoli ef drwy ordinhadau bl, â'u holl galon, drwy weithrediad grasau ys-a thrwy gymmorth a dylanwadau yr Ysbryd Glân i drefn ei hun. Mae "gwirionedd" mewn mànau n cael ei roddi mewn cyferbyniad i gysgodau a nniau, Ioan 1. 14, 17; Heb. 8. 2; a 9. 24. ‡ Yr Duw i gael ei amlygu yn awr fel Duw a Thad y h, ac ynddo ef yn Dad yr holl gredinwyr o bob ; ac yr oedd efe i "geisio," neu alw torfeydd ", "i'w addoli ef mewn ysbryd a gwirionedd."

t * Ysbryd *yw* Duw; † a rhaid i'r rhai ddolant ef, u addoli mewn ysbryd a gwir-d.

t Cor. 3. 17. 1 Tim. 1. 17. u 1 Sam. 16. 7. Salm 50. 13 3. a 51. 17. a 66. 18, 19. Es. 57. 15. Mat. 15. 8, 9. 2 Cor.

id Bod corphorol yw Duw, wedi ei wneyd i fynu ed, a chnawd, ac esgyrn, a chanddo synwyrau orol i ymhyfrydu mewn pethau gweledig a theim-. Ysbryd yw Duw, annghorphorol, annweledig, sanctaidd, hollbresenol, a hollawl gydnabyddus â nau a meddyliau mwyaf dirgelaidd dynion. † Am Rhaid i bawb a fynant ei addoli ef, ei addoli yn dol, yn bur, yn ddiragrith, ac yn ol y rheol a osod-efe, mewn cywirdeb a gwirionedd. Temlau ion, gwisgoedd drudion, aberthau lliosog, a sere-au allanol, nid oes dim yn addas ynddynt i'w natur nis gallent fod ond wedi eu trefnu dros amser, cysgodau o ddaionus bethau i ddyfod." Rhaid i d dyn, dàn ddylanwadau yr Ysbryd Glân, addoli a chael cymdeithas âg ef trwy y Cyfryngwr.

‡ * Y wraig a ddywedodd wrtho, Mi a fod y Messias yn dyfod, † yr hwn a Crist: y pan ddelo hwnnw, efe a fynega i ob peth.

adn. 42. pen. 1. 41, 42, 49. Dan. 9. 24—26. y adn. 29, ut. 18. 15—18.

id oedd y wraig yn ammau yr hyn a ddywedasai , ac eto nid oedd wedi cael ei chwbl foddloni de-; am hyny yr oedd yn penderfynu gadael y ddadl ni ddelai y Messiah, yr hwn a amlygai bob peth hylch addoliad Duw, pa le, a pha fodd yr oedd efe ei addoli. Tybia rhai mai Iuddewes ydoedd hi, d un o hiliogaeth yr Assyriaid, gan ei bod yn od am, ac yn dysgwyl, y Messiah: ond mae yn mau bod y Samariaid yn gyffredinol, yn gystal addewon, yn gwybod fod y Messiah i ddyfod, ac yn wyl am dano, a hyny yn yr amser pennodol hwnw. r hwn a elwir Crist," neu yr Eneiniog: tybia mai geiriau yr efengylwr yw y rhai hyn, wedi eu li i mewn er mwyn ei ddarllenwyr Groegaidd; ac geiriau y wraig, yr hon yn ddiammau oedd yn u yn iaith y wlad hòno, yr hyn oedd Syriaeg, neu en-iaith o'r Hebraeg.

6 * Iesu a ddywedodd wrthi hi, z Myfi, yr wyf yn ymddiddan â thi, † yw *hwnnw*.

pen. 9. 37. Mat. 16. 20. a 20. 15. Luc 13. 30. Rhuf. 10.

Yr oedd Crist yn dra gochelgar bob amser rhag dy-d yn noeth amlwg mai efe oedd y Messiah, wrth yr Iuddewon; rhag y buasai rhai o honynt am ei wneuthur ef yn frenin daearol, a rhai eraill yn ei gyhuddo ef wrth y Rhufeiniaid fel un yn hòni hawl i'r freniniaeth: ond gan nad oedd unrhyw berygl o'r fath hyny yma, mae efe yn addef yn amlwg ac yn ddiochel mai efe ei hun oedd y Messiah. Tybia rhai hefyd ei fod yn ei addef ei hun i'r wraig hon fel gwobr am ei gonestrwydd diddichell, a'i pharodrwydd i dderbyn ei eiriau, ac i gael ei dysgu ganddo. † Sylwa *Doddridge* fod manylrwydd yn yr atebiad; fod Iesu yn addef y *peth*, ond yn peidio a defnyddio yr *enw*.

27 ¶ * Ac ar hyn y daeth ei ddisgyblion; a † a bu ryfedd ganddynt ei fod ef yn ymddiddan â gwraig: ‡ er hynny ni ddywedodd neb, Beth a geisi? neu, Paham yr ydwyt yn ymddiddan â hi?

a adn. 9. Luc 7. 39.

* Sef o'r ddinas, wedi bod yn prynu bwyd, adn. 8. † Yn ol traddodiadau yr Iuddewon dywedir bod yn anghyfreithlawn i ddyn ymddiddan â gwraig ar y ffordd; ond mae yn debyg mai ei weled ef yn ymddiddan â gwraig *o Samaria*, a barodd iddynt hwy ryfeddu, oblegid hwy a wyddent nad oedd efe yn gwneyd fawr o gyfrif o draddodiadau y Phariseaid. Tybia rhai hefyd iddynt ddyfod i'w ymyl gyda ei fod ef yn addef iddi mai efe oedd y Messiah, ac iddynt ryfeddu ei fod yn ei amlygu ei hun felly i estrones, a Samariad hefyd, pryd yr oedd mòr ochelgar rhag gwneyd hyny i'w genedl ei hun. ‡ Pa fodd bynag, er cymmaint oedd eu rhagfarn yn erbyn y Samariaid, yr oedd ganddynt fwy o barch i'w Harglwydd, a boddlonrwydd i bob peth a wnelai, nac y beiddient ofyn iddo paham yr ymddiddanai â hi.

28 * Yna y wraig a b adawodd ei dwfr-lestr, ac a aeth i'r ddinas, ac a ddywedodd wrth y dynion,

b adn. 7. Mat. 28. 8. Marc 16. 8—10. Luc 24. 9, 10, 33, 34.

* Byddai teithwyr yn y wlad hòno yn dwyn math o lestri o grŵyn, neu ledr, gyda hwynt, i godi dwfr o ffynonydd neu bydewau dyfnion, ac i yfed o honynt ar eu teithiau. Sylwodd y wraig yn adn. 11, nad oedd gan Iesu y cyfryw lestr; ac yr oedd ei rhagfarn mòr gryf y pryd hwnw, fel na chaffai efe ddefnyddio ei dwfr-lestr hi, nac yfed o hóno; yn awr mae wedi ei gorchfygu a'i hennill gymmaint, fel mae yn gadael ei dwfr-lestr wrth y ffynon, iddo ef a'i ddysgyblion wneyd y defnydd a fynont o hóno, a hithau yn brysio i'r ddinas i ddechreu pregethu i'r dynion.

29 c * Deuwch, gwelwch ddyn yr hwn a ddywedodd i mi yr hyn oll a wneuthum; † onid hwn yw y Crist?

c adn. 17, 18. pen. 1. 41—49. 1 Cor. 14. 24, 25. Dat. 22. 17.

* Dechreuodd yn y fàn alw ar ddynion ei dinas, i ddyfod allan at y ffynon i weled dyn rhyfedd iawn; dyn a ddywedodd iddi lawer iawn o'r pethau dirgelaf a wnaethai yn ei bywyd, er ei fod yn ddyn hollawl ddieithr; ac nid oedd ammheüaeth ganddi nad allasai efe ddywedyd "pob peth" i'r manylrwydd mwyaf: dyn a ddywedodd bob peth gyda'r fath effaith argyhoeddiadol hefyd, fel yr oedd hi wedi gorfod cywilyddio ac edifarâu wrth ei wrando. † Fel pe dywedasai; Efe a addefodd i mi mai efe oedd y Crist, y Messiah; ac y mae pob peth yn ei ymddiddanion ef yn profi i mi mai efe yw y Crist mewn gwirionedd; ond deuwch, gwelwch ef, a gwrandewch arno eich hunain, ac yna bernwch chwi drosoch eich hunain.

30 d * Yna hwy a aethant allan o'r ddinas, ac a ddaethant atto ef.

d Es. 60. 8. Mat. 2. 1—3. a 8. 11, 12. a 11. 20—24. a 12. 40—42. a 20. 16. Luc 17. 16—18. Act. 8. 5—8. a 10. 33. a 13. 42. a 28. 28. Rhuf. 5. 20.

* Yn yr adnodau o'r blaen gwelsom y wraig hon, yr hon a aethai allan o'r ddinas yn fenyw anniwair, annwybodus, a rhagfarnllyd, trwy wyrth o ras yn dychwel-

yd yno, megys yn efengyles, i bregethu Crist i'w chymmydogion; a chyfryw oedd yr effaith a gafodd ei hymadroddion arnynt, fel yr aethant allan yn lluoedd i weled yr Iesu. Beth bynag oedd eu hegwyddor gynhyrfiol hwy y pryd hwn, mae yn bur sicr i lawer o honynt gael lles tragywyddol drwy y tro hwn, adn. 39—42.

31 ¶ * Yn y cyfamser y disgyblion † a attolygasant iddo, gan ddywedyd, [e] Rabbi, bwytta.

e Gen. 24. 33. Act. 16. 30—34.

* "Yn y cyfamser," sef tra bu y wraig yn myned i'r ddinas i ddywedyd wrth y dynion. † Mae yn ddïau bod Iesu yn newynog yn gystal ac yn lluddedig a sychedig, pan ddaeth at y ffynon gyntaf, ond erbyn hyn yr oedd wedi anghofio ei ludded, ei newyn, a'i syched, drwy ei ymddiddan â'r wraig, fel nad oedd yn dangos un tuedd at fwyta pan osodwyd bwyd ger ei fron.

32 Ac efe a ddywedodd wrthynt, [f] * Y mae gennyf fi fwyd i'w fwytta [g] yr hwn ni wyddoch chwi oddi wrtho.

f adn. 34. Job 23. 12. Salm 63. 5. a 119. 103. Diar. 18. 20. Es. 53. 11. Jer. 15. 16. Act. 20. 35. g Salm 25. 14. Diar. 14. 10. Dat. 2. 17.

* Y bwyd hwn oedd yr hyfrydwch a gawsai efe yn achubiaeth y wraig, ac oedd i'w gael eto yn fuan yn achubiaeth llawer o'r Samariaid, adn. 34; ac mae yn debyg na fwytâodd efe ddim nes iddo orphen ymddiddan â phobl y ddinas a ddaethant allan ato.

33 * Am hynny [h] y disgyblion a ddywedasant wrth eu gilydd, A ddug neb iddo *ddim* i'*w* fwytta?

h Mat. 16. 6—11. Luc 9. 45.

* Tybiai y dysgyblion mai am fwyd corphorol, a naturiol y dywedai, a synent o ba le y gallasai ei gael yn eu habsenoldeb hwy: prin y credent i'r wraig hon o Samaria roddi dim iddo, a phrin y credent hefyd y cymmerasai efe fwyd o'i llaw hi, er ei fod yn ymddiddan a hi. Gwelwn y cyffelyb annwybodaeth yn y dysgyblion yn Matth. 16. 6, 7; a Ioan 11. 11, 12. Mòr anhawdd yw i ni amgyffred pethau ysbrydol hyd onid agoro Duw ein llygaid.

34 * Iesu a ddywedodd wrthynt, [i] Fy mwyd i yw gwneuthur ewyllys yr hwn a'm hanfonodd, [k] a gorphen ei waith ef.

i adn. 32. pen. 6. 33. Salm 40. 8. Es. 61. 1—3. Luc 15. 4—6, 10. a 19. 10. Act. 20. 35. k pen. 5. 36. a 17. 4. a 19. 30. Heb. 12. 2.

* Heb eu ceryddu am eu tywyllwch, a chan dosturio yn rasol wrth eu gwendid a'u hannwybodaeth, mae efe yn egluro iddynt yma beth oedd efe yn feddwl wrth "fwyd" yn adn. 32: ewyllys y Tad, yr hwn a'i hanfonodd ef oedd, iddo lafurio, pregethu, gwneyd gwyrthiau, "cyflawni pob cyfiawnder," yn nghanol anhawsderau a phrofedigaethau; ac yn y diwedd, "gorphen ei waith" ar y ddaear, trwy ddyoddef a marw ar y groes. Dyma ei "fwyd" ef, yr oedd yn chwannog iddo, ac yn cael blas arno: yr oedd pob rhan o hóno yn hyfrydwch ac yn adfywiad i'w enaid; am fod Duw yn cael ei ogoneddu a dynion yn cael eu hachub drwy hyny. Mae yn ddïau fod cyfeiriad cyntaf y geiriau at achubiaeth y Samariaid y pryd hwnw; ond mae y geiriau "a gorphen ei waith ef," debygid yn cynnwys holl waith a dyoddefiadau y Cyfryngwr ar y ddaear.

35 * Onid ydych chwi yn dywedyd, Y mae etto bedwar mis, ac *yna* y daw y cynhauaf? Wele, yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych, † Dyrchefwch eich llygaid, ac edrychwch ar y meusydd; [l] canys gwynion ydynt eisoes *i*'r cynhauaf.

l adn. 30. Mat. 9. 37, 38. Luc 10. 2.

* Amser hau, yn naturiol, ydoedd y pryd hwnw; oblegid yn y wlad hòno nid oedd ond pedwar mis o amser hau hyd amser medi. † Nid maesydd naturiol y ddaear oedd Iesu yn feddwl; oblegid os amser hau ydoedd, nis gallasai y maesydd fod yn wynion i'r cynhauaf: a phe buasent yn wynion y pryd hwnw, nis gallasai fod pedwar mis i'r cynhauaf. Yn nechreuad yr adnod mae efe yn sôn am y cynhauaf naturiol; ond yn yr ail ran o'r adnod mae yn sôn am y cynhauaf ysbrydol: fel pe dywedasai, Yr ydych chwi yn llafurio fyda hyfrydwch i hau yr had naturiol yn y ddaear, ac yn mheu pedwar mis yn dysgwyl cael medi; ond yn y cynhauaf ysbrydol fel arall y mae, nid oes eto ond ychydig iawn o amser er pan ddechreuais i bregethu i'r wraig o Samaria, ac eisoes dacw luoedd o bobl y ddinas yn dyfod ataf, mae y maesydd yn *wynion* i'r cynhauaf, y bobl yn *addfed* i wrando a derbyn y gwirionedd, ac fy hyfrydwch penaf innau (ac a ddylai fod i chwithau hefyd) yw pregethu y gwirionedd iddynt.

36 [m] * A'r hwn sydd yn medi, sydd yn derbyn cyflog, † ac yn casglu ffrwyth i fywyd tragywyddol: [n] ‡ fel y byddo i'r hwn sydd yn hau, ac i'r hwn sydd yn medi, ‖ lawenychu ynghyd.

m Diar. 11. 30. Dan. 12. 3. Rhuf. 1. 13. 1 Cor. 9. 19—23. Phil. 2. 15, 16. 1 Thes. 2. 19, 20. 1 Tim. 4. 16. 2 Tim. 4. 7, 8. Iago 5. 19, 20. n 1 Cor. 3. 5—9.

* Cynllun yw hyn o'r gwaith hyfryd y cewch chwithau fod ynddo: mae yr amser yn agosâu i gynnull pobloedd at y Silo addawedig; ac fel mae y llafurwr ffyddlawn a diwyd sydd yn hau ac yn medi, yn derbyn cyflog gan ei feistr, felly y cewch chwithau gan Arglwydd y cynhauaf mawr: efe a'ch arddelwa chwi, ac a rydd i chwi lawer o hyfrydwch yn y gwaith ei hun; ac ar ol hyn, chwi a gewch fedi y ffrwyth mwyaf gwerthfawr o hóno, yn iachawdwriaeth dragywyddol eich eneidiau eich hunain, ac eneidiau y rhai a achubir trwy eich gweinidogaeth chwi. † Tybir fod yr Arglwydd Iesu yn y geiriau hyn yn cymharu gweinidog yr efengyl i fedelwr ystyriol; yr hwn a gynnelir yn ei waith lluddedig, nid yn unig drwy yr ystyriaeth o'i wobr personol ei hun, ond hefyd drwy yr ystyriaeth o'r lles a gaiff y wlad yn gyffredin o'r cynhauaf mae efe yn gasglu. ‡ Wrth yr hwn sydd yn hau yma y deallir yr hen brophwydi, Ioan Fedyddiwr, a Christ ei hun: ac wrth yr hwn sydd yn medi, yr apostolion a gweinidogion yr efengyl, y rhai a aethant i mewn i'w llafur hwynt megys. ‖ Yn nyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist bydd yr eneidiau a achubwyd ac a achubir, yn llawenydd ac yn goron gorfoledd yr holl lafurwyr hyn, 1 Thes. 2. 19.

37 * Canys yn hyn y mae y gair yn wir, [o] Mai arall yw yr hwn sydd yn hau, ac arall yr hwn sydd yn medi.

o Barn. 5. 3. Mica 6. 15. Luc 19. 21.

* Diareb, mae yn debyg, yn mhlith yr Iuddewon oedd y geiriau hyn, un yn hau ac arall yn medi; yn dangos byrder ac ansicrwydd bywyd, gallai un hau, a bod wedi marw cyn medi ei gnwd na chael mwynâd o hóno, ac arall yn mwynâu yr hyn ni lafuriodd am dano. Llafuriasai y prophwydi, a Ioan Fedyddiwr, ond buont feirw cyn cael gweled nemawr o ffrwyth eu llafur yma, cadwyd hyny i ddyddiau yr apostolion a'r efengyl.

38 [p] * Myfi a'ch anfonais chwi i fedi yr hyn ni lafuriasoch: [q] † eraill a lafuriasant, ‡ a chwithau a aethoch i mewn i'w llafur hwynt.

p Act. 2. 41. a 4. 4, 32. a 5. 14. a 6. 7. a 8. 4—8, 14—17. q pen. 1. 7. 2 Cron. 36. 15. Jer. 44. 4. Mat. 3. 1—6. a 4. 23. a 11. 8—13. Act. 10. 37, 38, 42, 43. 1 Pedr 1. 11, 12.

* Mi a'ch danfonais chwi i fedi yr hyn ni lafuriasoch *gyntaf;* † y prophwydi, Ioan Fedyddiwr, a mi fy hun a lafuriodd *gyntaf*, o'ch blaen chwi; ‡ nid ydych chwi ond megys cael eich danfon i fedi yr hyn a hauwyd ac y llafuriwyd wrtho gan eraill o'ch blaen chwi, yn enwedig yn mhlith yr Iuddewon. Fel yr oedd ysgrifeniadau y prophwydi, gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr, a Christ ei

nnan, wedi gosod sylfaen y tröedigaethau lliosog a naed gan yr apostolion yn mhlith Iuddewon a chen- loedd, ac wedi hwylusu eu gwaith, ac mewn dull wedi unner ei wneuthur yn barod iddynt; felly yr oedd nifer dychweledigion trwy weinidogaeth yr apostolion, ewn ychydig flynyddoedd, yn llawer iawn mwy nag a mewn llawer o oesoedd o'r blaen, trwy weinidogaeth rophwydi, Ioan Fedyddiwr, a Christ ei hunan.

39 ¶ [r] * A llawer o'r Samariaid o'r ddinas nno, † a gredasant ynddo, [s] ‡ o herwydd ir y wraig, yr hon oedd yn tystiolaethu, Efe a ddywedodd i mi yr hyn oll a wneuth- un.

r pen. 10. 41, 42. a 11. 45. s adn. 29, 42.

* Y "ddinas hòno" oedd Sichem, neu Sichar, ond yr ldd o fewn talaeth Samaria, ac o herwydd hyny gelwid ynt yn Samariaid, yn gystal â Sichemiaid. † Hyny , a gredasant mai efe oedd y Messiah, yn ol y syniad- oedd ganddynt hwy a'r Iuddewon y pryd hwnw am y essiah. Credasant ei fod ef yn rhyw brophwyd mawr, rhyw berson anarferol, ac yn debycach o fod yn ssiah na neb arall a glywsent hwy sôn am dano. lwn, mai credu *ynddo ef*, o herwydd gair y wraig, a ywedir yma; ac nid credu tystiolaeth y wraig am dano yn unig: am wirionedd, a natur achubol y credu hwn, s gallwn benderfynu. ‡ Mae yn bur debyg i Grist ywedyd i'r wraig fwy o'i "phethau," ac iddi hithau ywedyd wrth y dinasyddion fwy, nac a adroddir gan an yn y bennod hon.

40 * Am hynny pan ddaeth y Samariaid to ef, [t] hwy a attolygasant iddo aros gyd â wynt. [u] † Ac efe a arhosodd yno ddeuddydd.

t Gen. 32. 26. Diar. 4. 13. Can. 3. 4. Jer. 14. 8. Luc 8. 38. a 39. a 24. 29. Act. 16. 15. u Luc 19. 5—10. 2 Cor. 6. 1, 2. at. 3. 20.

* O herwydd geiriau y wraig o'r blaen, a'r hyn a ywsant ganddo ef ei hun wedi dyfod ato, syrthiodd eu ll ragfarn yn ei erbyn fel Iuddew i'r llawr, a gwahodd- ant ef i'w dinas fel y gallent wrando arno a chael cyfle iddangos eu caredigrwydd iddo. † Dau ddiwrnod: gon i ddangos nad oedd efe ddim yn dïystyru y rhai ewyllysient ddysgu ganddo er mai Samariaid oeddynt; dim ond dau ddiwrnod, fel nad esgeulusai yr Iuddew- , ac fel na roddai dramgwydd iddynt, trwy ymddangos fod yn caru y Samariaid yn fwy na hwynt. Yr oedd n yn ernes o'i drugaredd ef i'r cenedloedd; ond nid dd yr amser cyflawn wedi dyfod eto.

41 [x] * A mwy o lawer a gredasant ynddo , [y] † oblegid ei air ei hun.

x Gen. 49. 10. Act. 1. 8. a 8. 12, 25. a 15. 3. y pen. 6. 63. 7. 46. Mat. 7. 28, 29. Luc 4. 32. 1 Cor. 2. 4, 5. Heb. 4. 13.

* Mae yn debyg i lawer gredu yn awr a'r na chredas- t o'r blaen drwy dystiolaeth y wraig; ac i'r rhai a edasent y pryd hwnw yn wàn gredu yn gryfach y pryd wn. Yn wir, gellir meddwl wrth adn. 42, fod credu na i'w gymmeryd mewn ystyr wahanol i'r credu o'r laen, adn. 39; credu mai rhyw brophwyd mawr ydoedd, wnaethant yno, ond yma credasant mai efe oedd "Crist, chawdwr y byd." † Mae y credu hwn yn fwy hynod, blegid mai trwy *air* yr Iesu y credasant; nid oes dim n iddo wneyd dim gwyrthiau yno, i gadarnâu ei air: un peth yw i Iesu wneyd ei air yn effeithiol heb yrthiau, a thrwy wyrthiau; heb nerth ei Ysbryd ef rda'r gair, aneffeithiol fydd er y gwyrthiau mwyaf.

42 A *hwy* a ddywedasant wrth y wraig, Nid ydym ni weithian yn credu, oblegid dy madrodd di: [z] canys ni a'*i* clywsom *ef* ein unain, [a] † ac a wyddom mai hwn yn ddïau w y Crist, ‡ Iachawdwr y byd.

z pen. 1. 45—49. a 17. 8. Act. 17. 11, 12. a adn. 29. pen. 29. a 3. 14—18. a 6. 68, 69. a 11. 27. Es. 45. 22. a 52. 10. Luc 10, 11, 32. Act. 4. 12. Rhuf. 10. 11—13. 2 Cor. 5. 19. 1 Ioan 14.

* Yr achlysur cyntaf o ffydd y rhai hyn oedd ymad- roddion y wraig, yr achos neu y moddion nesaf oedd geiriau Crist ei hun, a'r achos effeithiol yn ddïau oedd gweithrediad Ysbryd Duw ar eu calonau, yn goleuo eu meddyliau yn ysbrydol â gwybodaeth yr efengyl, ac yn darostwng eu hewyllysiau i'w chredu ac ufuddâu iddi. Tebyg i hyn yw hi eto bob amser. † Nid gwybod ei fod ef yn *brophwyd*, ac nid rhyw *led-dybied* mai y Crist oedd, ond yr oeddynt yn "*gwybod*," yn "ddïau," mai efe oedd y *Crist*, y Messiah. Nid wrth y *pethau* a ddy- wedodd efe yn unig, yn ddïau, y daethant i wybod hyn, ond wrth y nerth a'r goleuni dwyfol oedd yn cyd-fyned â'r pethau hyny. ‡ Iachawdwr pawb a gredent ynddo ef, o genedloedd yn gystal ag Iuddewon. Efallai eu bod yn casglu oddiwrth Gen. 49. 10, *Ac ato ef y bydd cynulliad pobloedd*, y byddai i'r cenedloedd dderbyn rhyw fendithion trwy ddyfodiad y Messiah, ac y byddent mewn rhyw ffordd a'u gilydd yn ddarostyngedig iddo; ond nid oes un sail i feddwl eu bod hwy yn deall yr athrawiaeth o alwad y cenedloedd eilun-addolgar yn berffaith, yr hon athrawiaeth a fu yn ddirgelwch i'r apostolion eu hunain am yn hir wedi hyn. Efallai i'r Samariaid hyn roddi heibio addoli ar fynydd Gerizim o hyn allan, ac mai hyny a fu yn achos mewn rhan i eraill o'r Samariaid ei wrthod ef ar dro wedi hyn, Luc 9. 52, 53.

43 ¶ [b] * Ac ym mhen y ddeuddydd efe a aeth ymaith oddi yno, [c] † ac a aeth i Galilea.

b Mat. 15. 21—24. Marc 7. 27, 28. Rhuf. 15. 8. c adn. 46. pen. 1. 43. Mat. 4. 13.

* Gwelsom o'r blaen, adn. 3, mai ar ei daith o Judea i Galilea yr oedd Iesu y pryd hwn: am y ddau ddiwr- nod, gwel ar adn. 40. † Nid i Nazareth yn Galilea, ond i ryw barth arall: i Cana, efallai, adn. 46.

44 * Canys yr Iesu ei hun a dystiolaeth- odd, [d] nad ydyw prophwyd yn cael anrhydedd yn † ei wlad ei hun.

d Mat. 13. 57. Marc 6. 4. Luc 4. 24.

* Tystiolaethodd Iesu hyn amryw weithiau, gwel ar Matth. 13. 47; Marc 6. 4; Luc 4. 24. † Tybir mai Nazareth a ddylem ddeall yma wrth "ei wlad ei hun;" a bod y geiriau hyn yn brawf mai nid i Nazareth yr aeth efe pan ddywedir iddo fyned i Galilea, yn adn. 43. Heb ystyried felly, nis gallwn weled pa gyssylltiad sydd rhwng y geiriau hyn â'r adnod o'r blaen. Efe a aeth i *wlad* Galilea, ond nid i Nazareth, ei ddinas ei hun; a hyny am "nad ydyw prophwyd yn cael anrhydedd yn ei wlad ei hun."

45 * Yna pan ddaeth efe i Galilea, [e] y Galileaid a'i derbyniasant ef, [f] wedi iddynt weled yr holl bethau a wnaeth efe yn Jerusa- lem ar yr wyl: [g] † canys hwythau a ddaethant i'r wyl.

e Mat. 4. 23, 24. Luc 8. 40. f pen. 2. 13—16. a 3. 2. g Deut. 16. 16. Luc 2. 42—44. a 9. 53.

* Credodd y Samariaid ynddo wrth ei eiriau, heb weled dim gwyrthiau; derbyniodd y Galileaid ef o herwydd gweled ei wyrthiau, y rhai a wnaethai efe yn Jerusalem. Fel hyn yr oedd ffydd y Samariaid yn fwy ardderchog a chanmoladwy na ffydd y Galileaid. "Bendigedig yw yr hwn ni welodd, ac a gredodd." † Er bod y Galileaid yn byw yn mhell o Jerusalem, eto yr oeddynt yn cadw y gwyliau arbenig yno yn ol y gorchymyn.

46 * Felly yr Iesu a ddaeth drachefn i [h] Cana yn Galilea, lle y gwnaeth efe y dwfr yn win. † Ac yr oedd rhyw bendefig [i] yr hwn yr oedd ei fab yn glaf yn Capernaum.

h pen. 2. 1—11. a 21. 2. Jos. 19. 28. i Salm 50. 15. a 78. 34. Hos. 5. 15. Mat. 9. 18. a 15. 22. a 17. 14, 15. Luc 7. 2. a 8. 42.

* Gwedi pregethu mewn amryw drefydd a phentref- ydd ar ei daith, daeth Iesu i Cana, lle yr arosodd efe mae yn debyg am ryw faint o amser. † Mae y gair Groeg *(Basilikos)* a gyfieithir yma pendefig, yn arwyddo gweinidog, neu was brenin. Tybir mai Cusa, goruch- wyliwr Herod, a sonir am dano yn Luc 8. 3, ydoedd y

pendefig hwn, neu ynte Manaen, brawd-maeth Herod, a grybwyllir yn Act. 13. 1; pa un bynag am hyny, mae yn bur debyg mai un o wŷr llys Herod ydoedd, efallai rhyw berthynas iddo, a thybir ei fod wedi derbyn rhyw argraffiadau sobr drwy weinidogaeth Ioan Fedyddiwr.

47 ¶ [k] Pan glybu hwn ddyfod o'r Iesu o Judea i Galilea; * efe a aeth atto ef, [1] † ac a attolygodd iddo ddyfod i waered, a iachâu ei fab ef: ‡ canys yr oedd efe ym mron marw.

k Marc 2. 1—3. a 6. 55, 56. a 10. 47. 1 pen. 11. 21, 32. Salm 46. 1. Luc 7. 6—8. a 8. 41. Act. 9. 38.

* Dywed rhai fod pymtheg milltir o Capernaum lle yr oedd y pendefig hwn yn byw i Cana lle yr oedd yr Iesu: dywed eraill fod ychwaneg, taith diwrnod; ond nid oedd yn ormod gan dad i fyned yn achos ei blentyn. Os Iuddew oedd y pendefig hwn, fel y tybir wrth yr hyn a ddywed Iesu wrtho yn yr adnod nesaf, efallai iddo ef ei hun fod yn Jerusalem ar yr ŵyl ddiweddar, iddo weled rhai o wyrthiau yr Iesu yno, ac mai hyny a'i tueddodd ef i ddyfod ato ar yr achos hwn. † Nid cref iawn oedd ei ffydd ef yn Nghrist, pe amgen buasai yn credu y gallasai efe iachâu ei fab ef o'r màn yr oedd heb ddyfod i wared ato. Tebyg i Naaman y Syriad oedd ei ffydd a'i olygiadau ef y pryd hwn, gwel 2 Bren. 5. 11. ‡ Yn ol pob golwg ddynol "yr oedd efe yn mron marw," ond gwellâu a wnaeth.

48 * Yna Iesu a ddywedodd wrtho ef, [m] Oni welwch chwi arwyddion a rhyfeddodau, ni chredwch.

m adn. 41, 42. pen. 2. 18. a 12. 37. a 15. 24. a 20. 29. Num. 14. 11. Mat. 16. 1. a 27. 42. Luc 10. 18. a 16. 31. Act. 2. 22. 1 Cor. 1. 22.

* Gellid meddwl mai atebiad lled arw a didderbyn wyneb yw hwn i wr mawr, ac yn y fath amgylchiad; ond mae yn sicr y gwyddai Iesu fod achos am dano: ni chredai y Galileaid, a'r pendefig hwn gyda hwynt, heb weled arwyddion a rhyfeddodau; lle yr oedd y Samariaid wedi credu ynddo oblegid ei air yn unig, heb weled un arwydd. Mae hyny yn sicr, bod yn well gan Iesu y ffydd hòno bob amser, a gredai ei *air*, na'r ffydd oedd yn aros am ryw wyrth i gadarnâu y gair. Yr oedd efe yn gweled hefyd nad oedd y pendefig ddim yn dyfod ato gydag un dymuniad i glywed a chredu ei athrawiaeth ef, dim ond ar achos naturiol yn unig, adferiad ei fab: am hyny mae yn ei geryddu ef, ac nid ef yn unig, ond yr Iuddewon yn gyffredinol, y rhai oedd yn fwy am weled ei wyrthiau ef na chlywed a derbyn ei eiriau.

49 * Y pendefig a ddywedodd wrtho ef, O Arglwydd, [n] tyred i waered cyn marw fy machgen.

n Salm 40. 17. a 88. 10—12. Marc 5. 23, 35, 36.

* Mewn unrhryw amgylchiad llai ei bwys, mae yn debyg y buasai y gwr mawr yn tramgwyddo wrth yr ateb uchod, ac yn dangos ei anfoddlonrwydd; ond yr oedd amgylchiad ei fab mòr drwm ar ei feddwl, fel na wnaeth y cerydd ond chwanegu ei daerineb: eithr o hyd yn dangos gwendid ei ffydd, yn tybied fod presenoldeb personol Crist yn angenrheidiol er iachâd ei fachgen.

50 * Iesu a ddywedodd wrtho ef, [o] Dos ymaith; † y mae dy fab yn fyw. ‡ A'r gwr a gredodd y gair a ddywedasai Iesu wrtho, ac efe a aeth ymaith.

o pen. 11. 40. 1 Bren. 17. 13—15. Mat. 8. 13. Marc 7. 29, 30. a 9. 23, 24. Luc 17. 14. Act. 14. 9, 10. Rhuf. 4. 20, 21. Heb. 11. 19.

* Ni wnai ein Hiachawdwr ddigaloni ffydd y pendefig, nac ychwaith coledd ei gwendid: iachâodd ei fab ef o'r màn lle yr oedd, er gwobrwyo ei ffydd ef; ond nid âi gydag ef, fel na choleddai wendid ei ffydd ef. † Hyny yw mae dy fab wedi cael ei iachâu yr awr hon, (adn. 52, 53.) trwy fy ngallu dwyfol I, yr hwn fel Duw wyf holl-bresenol yn gystal a holl-alluog. ‡ Ar yr un pryd, e nerthodd Crist y pendefig i gredu ei air ef, am iachâd y bachgen, ond nis gwyddom pa beth a gredodd efe heblaw hyny.

51 * Ac fel yr oedd efe yr awrhon yn myned i waered, ei weision a gyfarfuant âg ef, ac a fynegasant, gan ddywedyd, [p] Y mae dy fachgen yn fyw.

p adn. 50, 53. 1 Bren. 17. 23.

* Nis gwyddai y gweision ddim beth oedd wedi dygwydd rhwng eu mheistr â'r Iesu; dyfod yr oeddent hwy â'r newydd da iddo, † fod y bachgen yn fyw, hyny yw, wedi ei adferu yn holliach, er nas gwyddent hwy pa fodd. Pa fodd y gellir gwadu Duwdod Iesu wrth ddarllen pethau fel hyn?

52 * Yna efe a ofynodd iddynt yr awr y gwellhasai arno. † A hwy a ddywedasant wrtho, Doe, ‡ y seithfed awr, y gadawodd y crŷd ef.

* Er cadarnâd ychwaneg i'w ffydd, gofynodd y pendefig i'w weision yr awr yn gymhwys y dechreuasai efe wellâu. † Hwythau a attebasant, Doe, y seithfed awr: nid gwellâu yn raddol a wnaeth; ond er syndod a gorfoledd i bawb, pan oedd pawb yn meddwl ei fod ef *yn* marw, wele ef yn holliach ar unwaith, mewn tarawiad amrant, a hyny heb un moddion meddygol mwy nac arferol. ‡ Dywed *Guyse* mai saith o'r gloch yn yr hwyr oedd y seithfed awr yma; ond dywed *Doddridge* mai un o'r gloch yn y prydnawn ydoedd. Am y gwahaniaeth hyn rhwng ein Hawduron, gwel ar pen. 1. 39, nid yw o bwys yn y fàn hon pa un o honynt sydd yn ei le.

53 * Yna y gwybu y tad mai [q] yr awr honno *oedd*, yn yr hon y dywedasai Iesu wrtho ef, Y mae dy fab yn fyw. [r] † Ac efe a gredodd, a'i holl dŷ.

q Salm 33. 9. a 107. 20. Mat. 8. 8, 9, 13. r Luc 19. 9. Act. 2. 39. a 16. 15, 34. a 18. 8.

* Gwybu y pendefig mai ar yr awr hòno, sef "y seithfed awr," y dydd o'r blaen, y dywedasai yr Iesu wrtho, *Mae dy fab yn fyw:* ac fel hyny gwybu mai gallu gwyrthiol Crist a'i iachâodd ef. † Pan gyrhaeddodd adref, a gweled ei fab yn fyw ac yn holliach, wedi i'r teulu adrodd iddo ef pa fodd y gwellasai, ac iddo yntau adrodd iddynt hwythau pa fodd y buasai rhyngddo â'r Iesu; ac yn enwedig pa bryd y dywedasai, *Mae dy fab yn fyw*, hwy a gredasant oll mai trwy allu gwyrthiol Crist y gwellâodd efe. Credasant fod Iesu yn fwy na dyn cyffredin, yn fwy na phrophwyd, yn Fab Duw. Credasant yn gadwedigol (medd *Poole*) a daethant yn Gristionogion: fel Lydia, Act. 16. 14, 15; Ceidwad y carchar, Act. 16. 34; a Chrispus, Act. 18. 8.

54 [s] * Yr ail arwydd yma drachefn a wnaeth yr Iesu, wedi dyfod o Judea i Galilea.

s pen. 2. 1—11.

* Dyma yr ail arwydd a wnaeth yr Iesu yn *Galilea;* yr oedd efe wedi gwneyd llawer yn Jerusalem o'r blaen. Gwel pen. 2. 23; a 3. 2; ac efe a wnaeth lawer yn Galilea ar ol hyn, Matth. 4. 23. Yr arwydd cyntaf yn Galilea (a'r cyntaf o gwbl wedi dechreu ei weinidogaeth gyhoeddus, pen. 2. 11.) oedd troi y dwfr yn win, a'r ail oedd hwn: yn Cana Galilea yr oedd Iesu pan wnaeth efe bob un o'r ddau; er mai yn Capernaum (yr hon oedd yn Galilea hefyd,) yr oedd gwrthddrych y wyrth hon. Nid oedd dim hanes y pryd hwn fod Crist wedi iachâu neb o bell fel hyn; gan hyny yr oedd credu ei air ef yn y màn lle yr oedd, yn ganmoliaeth i ffydd y pendefig, a chyflawniad y gair yn dangos mawredd gallu Mab Duw.

PEN. V.

Yr Iesu ar y dydd sabbath yn iachâu yr hwn a fuasai glaf namyn dwy flynedd deugain.

* WEDI hynny [a] yr oedd gwyl yr Iuddewon; † a'r Iesu a aeth i fynu i Jerusalem.

a a pen. 2. 13. Ex. 23. 14—17. a 34. 23. Lef. 23. 2. Deut. 16. 16. Act. 3. 15. Gal. 4. 4.

* Tybia rhai mai gŵyl y Pentecost oedd yr ŵyl hon, eraill mai gŵyl y pebyll oedd: ond mae yr awdwyr eu, a manylaf, (a'r holl awdwyr y cyfeithir y sylau hyn o honynt,) yn barnu yn unfryd, mai gŵyl y sg ydoedd, a'r ail basg ar ol bedyddiad Iesu. Gwel pen. 2. 13. † Byddai yr Iesu yn myned i Jerusalem gadw y gwyliau arbenig yno er dangos ufudd-dod i hymyn ei Dad, Exod. 23. 17. Deut. 16. 16. Er bod wer o draddodiadau a llygriad yn yr eglwys Iuddewig pryd hwnw, eto nid oedd Iesu yn cilio o'i chymun, ac nid oedd efe ychwaith yn cyflawni dim ond fodau gosodedig Duw. Mae yn ddiammau i'r Arwydd Iesu wneuthur llawer o bethau o'r pasg o'r en (pen. 2. 13) i hwn, nad ydynt yn ysgrifenedig n Ioan, ond a adroddir gan yr efengylwyr eraill.

2 Ac y mae yn Jerusalem, * wrth *farchnad* defaid, b † lyn, a elwir yn Hebraeg, ‡ Bethda, || ag iddo bùm porth:

b Es. 22. 9, 11.

* *Marchnad* y defaid, nid *porth* y defaid: oblegid, os ir a ddywed teithwyr, mae y lle a ddangosir fel llyn thesda, yn llawer agosach i'r deml nac y gallai *porth* defaid fod: ac felly hefyd y dangosir hi yn y darlunau o ddinas Jerusalem. Nid yw y gair Groeg yn wyddo na phorth na marchnad, ond rhyw le perthyni ddefaid; am hyny mae y gair *marchnad* mewn thyrenau Italaidd yn y cyfieithiadau. † Mae y gair roeg *(Kolumbethra)* a gyfieithir yma llyn, yn arwyddo sgliad o ddwfr, pwnt, baddon, lle i nofio ynddo. wedant fod dwy o'r cyfryw lynau o fewn cylch y nydd lle y safai y deml: hon ydoedd un, a Siloam, eddant, oedd y llall, pen. 9. 7. ‡ Tŷ trugaredd yw tyr y gair Bethesda; o herwydd y drugaredd fawr dd Duw yn wneyd â'r bobl, meddant, o rinweddu dwfr hwn ar amserau er iachâd iddynt. || Math o lfêydd colofnog, dàn dô; oedd y pyrth hyn, ar hyd nau y llyn, er cyfleusdra i'r rhai a ddeuent yno i lio ac i ymdrochi, ond a lenwid yn aml gan gleifion ddeuent yno am iachâd. Tybia *Dr. Lightfoot* mai am-onglog oedd ffurf y llyn, yna yr oedd porth i bob u o'i honglau.

3 * Yn y rhai y gorweddai lliaws mawr o ii cleifion, c deillion, cloffion, d gwywedigion, † yn disgwyl am gynhyrfiad y dwfr.

c Mat. 15. 30, 31. Luc 7. 22. d 1 Bren. 13. 4. Zec. 11. 17. Marc 3. 1—4. e Diar. 8. 34. Galar. 3. 26. Rhuf. 8. 25. Iago 5. 7.

* Yr oedd yma ddynion o bob math o glefydau, ac y an fwyaf o honynt, efallai, yn cael eu hystyried yn feddyginiaethol trwy un moddion cyffredin; † gan rny dygid hwy yma gan obeithio y caent iachâd yrthiol.

4 Canys angel oedd ar * amserau yn disgyn llyn, ac yn cynhyrfu y dwfr: yna yr hwn elai i mewn yn gyntaf ar ol cynhyrfu y wfr, g a âi yn iach o ba glefyd bynnag a ddai arno.

f Salm 119. 60. Diar. 6. 4, 5. Preg. 9. 10. Hos. 13. 13. Mat. 6. Luc 13. 24—28. a 16. 16. g 2 Bren. 5. 10—14. Ezec. 47. 8, Zec. 13. 1. a 14. 8. 1 Cor. 6. 11. 1 Ioan 1. 7.

* Gan nad yw yr Hen Destament yn sôn dim am y inwedd meddygol hyn yn y llyn, a chan nad oes dim n am dani yn y Testament Newydd ar ol hyn: gan d yw *Josephus*, na neb o'r haneswyr Iuddewig, eddant, yn sôn dim am dani; nis gallwn wybod pa tyd y dechreuodd na pha bryd y diweddodd y rhinedd gwyrthiol hyn. * Tybir mai ychydig cyn amser rist y dechreuodd, er dangos nad oedd Duw ddim edi llwyr roddi i fynu ei bobl, ond ei fod yn meddwl nweled â hwy yn fuan trwy ddanfon y Messiah dynt, yr hwn a iachâai lawer trwy ei wyrthiau, ac yn ngau yr hwn yr agorid ffynon i bechod ac aflendid, i mâu yr aflan, ac iachâu yr afiach oddi wrth y pla o bechod. Ynfyd a gwael iawn yw dychymmyg rhai, mai o herwydd golchi cyrph ac ymysgaroedd yr aberthau yn y llyn hon yr oedd y rhinwedd meddygol ynddi; ac mai rhyw genad a ddanfonai y Sanhedrim, neu yr offeiriaid, oedd yr angel oedd yn cynhyrfu y dwfr. Dywedir mai mewn ystafell o fewn y deml, y golchid yr aberthau, ac nid yn y llyn hon a ddarparasid i ddynion i ymdrochi er iechyd a glanweithdra: ac os felly yr oedd, peth rhyfedd na ddywedasai Ioan hyny, ac nid ysgrifenu fel y gwnaeth. Mae tri pheth yn profi mai goruwch-naturiol a gwyrthiol oedd y rhinwedd hwn: 1. Nid oedd y dwfr bob amser yn feddygol; ond ar ryw amserau, pan gynhyrfid ef gan yr angel. 2. Nid oedd i bawb o'r cleifion; ond i'r *un* a elai i mewn yn gyntaf ar ol cynhyrfu y dwfr. 3. Yr oedd yn rhinweddol i bob math o glefydau, yr hyn nis gallasai o naturiaeth fod. * Tybia rhai mai y tair gŵyl arbenig oedd yr "amserau" hyn; tybia eraill, bob sabbath; ac eraill, ar ryw awr bob dydd. Tebycach mai ar ryw amserau y gwelai Duw yn dda ydoedd, ac anhysbys i ddynion hyd oni welent gynhyrfiad y dwfr.

5 * Ac yr oedd rhyw ddyn yno, yr hwn a fuasai † glaf h ‡ namyn dwy flynedd deugain.

h adn. 14. pen. 9. 1, 21. Marc 9. 21. Luc 8. 43. a 13. 16. Act. 3. 2. a 4. 22. a 9. 33. a 14. 8.

* Nis gwyddom pwy oedd y dyn hwn, na pha beth oedd ei glefyd; rhywbeth nas gallai neb meddygon naturiol ei symmud yn ddïau oedd. † Dàn awdurdod gwendid, yn ol y Groeg: un o'r "gwywedigion," adn. 4, efallai ydoedd, wedi colli grym ei aelodau. ‡ Hyny yw, deunaw mlynedd ar hugain: bu gyhyd â hyny yn glaf, ond nid gyhyd â hyny ar làn y llyn.

6 * Yr Iesu, pan welodd hwn yn gorwedd, i † a gwybod ei fod ef *felly* yn hir o amser bellach, a ddywedodd wrtho, k ‡ A fynni di dy wneuthur yn iach?

i pen. 21. 17. Heb. 4. 13, 15. k Es. 65. 1. Jer. 13. 27. Luc 18. 41.

* Nid peth damweiniol oedd i Iesu weled hwn; i'r dyben o'i weled a'i iachâu yr aeth efe i'r fàn hono yn hytrach nac i un o'r pyrth eraill. † Yr oedd y truenyn hwn yn glaf er ys amryw flynyddoedd cyn geni yr Iesu; ac eto efe a wyddai fel Duw mawr pa bryd y dechreuasai ei glefyd: dewisodd iachâu hwn, o blith yr holl drueiniaid oedd yno yn gorwedd, yn un peth o dosturi tuag ato, ac hefyd am fod ei achos ef yn fwy annobeithiol na'r un arall, ac fel hyny byddai y wyrth yn fwy amlwg a nodedig. ‡ Gofynodd hyn i dynu sylw y claf. Pwy ni fyn ei wneyd yn iach? mae iechyd a bywyd yn felus ac yn werthfawr gan bawb, er y dywed llawer yn eu poen a'u profedigaeth, yn debyg i Jonah, bod yn well ganddynt farw na byw.

7 * Y claf a attebodd iddo, Arglwydd, l nid oes gennyf ddyn i'm bwrw i'r llyn, pan gynhyrfer y dwfr: ond tra fyddwyf fi yn dyfod, arall a ddisgyn m o'm blaen i.

l Deut. 32. 36. Salm 72. 12. a 142. 4. 2 Cor. 1. 8—10. m adn. 4. 1 Cor. 9. 24.

* Dyma ddyben arall Iesu yn gofyn i'r dyn a fynai efe ei wneuthur yn iach; ei dynu ef i ddywedyd ei gŵyn yn nghlyw pawb, pa mòr ddigymmorth a dïobaith ydoedd, fel y byddai ei iachâd yn wyrth mwy amlwg, nodedig, a sicr. † Mae yn debyg fod y dyn hwn yn dlawd iawn yn gystal ac yn glaf; pe buasai modd i dalu ganddo cawsai rywun i weini iddo, ac i gynnorthwyo ei fwrw i'r llyn fel eraill. Iaith dyn bron mewn annobaith yw y geiriau; ac mae yn debyg nad oedd efe eto yn disgwyl dim mwy gan Iesu, na gwneyd y gymmwynas o'i fwrw ef i'r llyn pan gynhyrfai y dwfr nesaf. Tebyg iawn i hwn yw pechadur ar ddarfod am dano, ond nid mòr awyddus am iachâd o lawer.

8 * Yr Iesu a ddywedodd wrtho, n Cyfod, † cymmer dy wely i fynu, a rhodia.

n Mat. 9. 6, 7. Marc 2. 11, 12. Luc 5. 24, 25. Act. 9. 34.

* Ewyllysiai yr Iesu ddangos i'r tlawd, ac i bawb o'i amgylch, fod y dwfr a'r angel yn derbyn eu gallu ganddo ef; ac y gallai efe â gair ei enau wneyd cymmaint erddo ef, ag a allai y dwfr wedi ei gynhyrfu gan yr angel. Dangosodd hefyd ei fod Ef yn gyfaill tosturiol iddo pan oedd pawb yn ei adael, heb ddyn a'i bwriai i'r llyn. † Gan mai y sabbath oedd y diwrnod hwnw, ac yn anghyfreithlawn cario beichiau, yr oedd gwaith y dyn hwn yn codi ei wely ac yn rhodio trwy y ddinas, yn sicr o dynu sylw pawb, ac felly gwneyd y wyrth yn dra chyhoeddus.

9 [o] * Ac yn ebrwydd y gwnaed y dyn yn iach; † ac *efe* a gododd ei wely, ac a rodiodd. [p] ‡ A'r sabbath oedd y diwrnod hwnnw.

o adn. 14. Marc 1. 31, 42. a 5. 29, 41, 42. a 10. 52. Act. 3. 7, 8. p adn. 10—12. pen. 7. 23. a 9. 14. Mat. 12. 10—13. Marc 3. 2—4. Luc 13. 10—16.

* Cerddodd gallu dwyfol gyda geiriau y Cyfryngwr, fel yr oedd y dyn yn berffaith iach yn y fàn, er syndod i'r holl dyrfa oedd yn y fàn hòno, adn. 13: gallasai efe yr un mòr hawdd iachâu yr holl gleifion oedd yno, ond gan mai un a fyddai yn arfer cael iachâd ar ol cynhyrfiad y dwfr, cadwodd yr Iesu at hyny, gan ddewis yr amgylchiad mwyaf dïobaith ac anhawdd: fel hyn yr oedd yn dangos ei allu a'i ben-arglwyddiaeth hefyd. † Yr oedd hyn yn brawf o'i lwyr iachâd ef, ac hefyd yn amlygiad cyhoedd o'r wyrth, gan ei fod, mae yn debyg, yn myned adref trwy rai o heolydd mwyaf poblogaidd y ddinas. ‡ Yr oedd hyn hefyd yn gwneyd y peth yn fwy cyhoeddus, ac yn peri mwy o holi yn ei gylch, gan nad oedd yn gyfreithlawn, yn ol llythyren y gyfraith, i ddwyn baich ar y sabbath.

10 ¶ * Am hynny yr Iuddewon a ddywedasant wrth yr hwn a wnaethid yn iach, Y sabbath yw hi: [q] † nid cyfreithlawn i ti godi *dy* wely.

q Ex. 20. 8—11. a 31. 12—17. Neh. 13. 15—21. Es. 58. 13. Jer. 17. 21, 27. Marc 2. 24. Luc 6. 2. a 23. 56.

* Tybir mai rhai o'r Phariseaid, ysgrifenyddion, a phenaethiaid y bobl, oedd yr Iuddewon gorfanylaidd hyn. † Mae yn wir nad oedd, yn ol llythyren fanol y ddeddf; ond yr oedd Mab y dyn yn Arglwydd ar y sabbath, ac nid oedd y peth yn bechod o'i wneyd wrth ei orchymyn ef. Yr oedd cecraeth y rhai hyn yn dangos diffyg eu ffydd yn Iesu, ac hefyd diffyg eu cariad tuag at eu cymmydog: dylasent yn hytrach gydlawenâu âg ef, a chlodfori Duw am y fath dro rhyfedd.

11 * Efe a attebodd iddynt, [r] Yr hwn a'm gwnaeth i yn iach, † efe a ddywedodd wrthyf, Cyfod dy wely, a rhodia?

r pen. 9. 16, 17. Marc 2. 9—11.

* Nis gallasai roddi gwell ateb iddynt; er nas gwyddai efe y pryd hwnw pwy oedd yr hwn a'i gwnaethai yn iach; eto yr oedd yn meddwl mai rhyw brophwyd mawr oddiwrth Dduw ydoedd, a bod yn ddigon cyfreithlawn iddo wneuthur gorchymyn y cyfryw un, er bod hyny yn groes i'w cyfraith hwy. † Efe, ïe, *Efe*, a ddywedodd wrthyf: tybir fod pwys-lais fel yna i'w roddi ar y gair, a bod y dyn yn ei ddywedyd yn debyg i hyna, i'w gyfiawnâu ei hun.

12 * Yna hwy a ofynasant iddo, [s] Pwy yw y dyn a ddywedodd wrthyt ti, Cyfod dy wely, a rhodia.

s Barn. 6. 29, 30. 1 Sam. 14. 38, 39. Mat. 21. 23. Rhuf. 10. 2.

* Nid gofyn pwy a'i gwnaethai ef yn iach yr oeddent hwy, ond pwy a ddywedasai wrtho am gyfodi ei wely: ni fynent sylwi ar y wyrth gan eu hawydd i ganlyn ar y trosedd. "Pwy yw y *dyn*," ebent hwy, mewn ffordd o ddirmyg, gan geisio haeru nad oedd efe mwy na dyn, ac am hyny nad oedd ganddo ddim awdurdod i orchymyn yr hyn a farnent hwy yn groes i'r ddeddf. Mae yn debyg y gwyddent hwy yn well na'r dyn pwy ydoedd, am hyny yr oeddynt yn holi yn fanylach i gael erlid arno. Eu hysbryd hwy oedd, peidio sylwi ar y weithred dda a wnaethid; ac ymgais am gael rhyw achlysur i feïo.

13 * A'r hwn a iachasid ni wyddai pwy oedd efe. † Canys yr Iesu [t] a giliasai o'r dyrfa oedd yn y fan *honno*.

t pen. 8. 59. Luc 4. 30. a 24. 31.

* Daethai Iesu fel gwr dïeithr at y llyn, ac mae yn debyg nas gwelsai y dyn hwn mo hono erioed o'r blaen. † Gan fod yn y fàn hòno dyrfa fawr ar y pryd, ymgiliodd yr Iesu yn y fàn ar ol iachâu y dyn i ganol y dyrfa; fel na byddai yn achlysur o derfysg, drwy fod rhai yn ei ganmol am y wyrth, ac eraill yn ei feïo am orchymyn i'r dyn godi ei wely.

14 * Wedi hynny yr Iesu a'i cafodd ef [u] yn y deml, ac a ddywedodd wrtho, Wele, ti a wnaethpwyd yn iach: [x] † na phecha mwyach, [y] rhag digwydd i ti ‡ beth a fyddo gwaeth.

u Lef. 7. 12. Salm 9. 13, 14. a 27, 6. a 66. 13—15. a 107. 20—22. a 116. 12—19. a 118. 18, 19. Es. 38. 20, 22. x pen. 8. 11. Ezra 9. 13, 14. Neh. 9. 28. 1 Pedr 4. 3. y adn. 5. Lef. 26. 23, 24, 27, 28. 2 Cron. 28. 22. Mat. 12. 45. Dat. 2. 21—23.

* Efallai mai yr un diwrnod oedd hwn ag yr iachâwyd ef, iddo fyned i'r deml yn y fàn ar ol myned a'i wely adref, i dalu dïolch i Dduw am ei iachâd rhyfeddol. Os felly, dylai rhai cristionogion gywilyddio yn wyneb y dyn hwn, y rhai a ânt agos i bob màn ar ol gwellâu o glefydau, cyn y deuant i'r deml i dalu dïolch i Dduw. † Tybir fod Iesu yn cyfeirio yma at ryw bechod, neu bechodau pennodawl, a wnaethai y dyn hwn yn ei ieuenctid, ac mai am y pechodau hyny y cystuddiwyd ef: er iddo eu cyflawni yn mhell cyn geni Crist (gwel ar adn. 6.) eto yr oedd efe yn eu gwybod ac yn argyhoeddi y dyn o honynt yma. ‡ Nis gallasai gwaeth o lawer fod yn y byd hwn, na'r deunaw mlynedd ar hugain o gystudd oedd efe wedi gael; gan hyny tybir fod Iesu yn ei rybuddio ef rhag digofaint Duw mewn byd arall. Pechod yw yr achos cyffredin o bob clefydau; buchedd sanctaidd yw y peth gorau er cadwedigaeth iechyd; mae gan Dduw gospedigaeth drymach am bechod na dim sydd yn dygwydd i bechaduriaid yn y bywyd hwn.

15 * Y dyn a aeth ymaith, [z] ac a fynegodd i'r Iuddewon, mai yr Iesu oedd [a] † yr hwn a'i gwnaethai ef yn iach.

z pen. 4. 29. a 9. 11, 12. Marc 1. 45. a adn. 12. pen. 9. 15, 25, 30, 34.

* Yn uniondeb a diniweidrwydd ei galon, yn ddïammau, yr aeth y dyn at yr Iuddewon i fynegi mai yr Iesu oedd; gan feddwl anrhydeddu yr Iesu drwy hyny, ac hefyd ei gyfiawnâu ei hun yn y gwaith o godi ei wely ar y sabbath ar orchymyn un mòr fawr. Rhy galed fyddai barnu mai i'r dyben o'i gyhuddo ef yr aeth, er y buasai yn ddoethach iddo beidio myned. † Nid oedd yr Iuddewon yn gwneyd dim sylw o'r iachâd wrth holi y dyn, adn. 12; dim ond Pwy a orchymynodd i ti godi dy wely? Yma nid yw yntau yn gwneyd dim sylw o godi y gwely; dim ond mynegi mai yr Iesu oedd yr hwn a'i gwnaethai ef yn iach: yr hyn sydd yn dangos mai nid o ddrwg-ewyllys i Grist yr oedd efe yn dywedyd am dano, ond er anrhydedd iddo.

16 * Ac am hynny yr Iuddewon a [b] erlidiasant yr Iesu, [c] ac a geisiasant ei ladd ef, oblegid iddo wneuthur y pethau hyn ar y sabbath.

b pen. 15. 20. Act. 9. 4, 5. c adn. 13. pen. 7. 19, 20, 25. a 10. 39. Mat. 12. 13, 40. Marc 3. 6. Luc 6. 11.

* Defnydd arall a wnaeth yr Iuddewon o'r hysbysrwydd; gan geisio lladd yr Iesu am y trosedd tybiedig o beri i'r dyn dori y sabbath, yr hyn oedd drosedd bywyd yn ol eu deddfau hwy. Y wyrth oedd yn eu pigo hwy, ac nid codi y gwely gymmaint; nid oedd hyny ond esgus dros y peth arall. Tybir iddynt ei ddwyn ef o flaen y Sanhedrim, ac mai yno y llefarodd efe yr adnodau canlynol, yr hyn sydd yn rhoddi golwg brydferth a mawreddig dros ben ar ei eiriau ef.

17 ¶ * Ond yr Iesu a'u hattebodd hwynt,
Y mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn,
a yr ydwyf finnau yn gweithio.

i pen. 9. 4. a 14. 10. Gen. 2. 1, 2. Salm 65. 6. Es. 40. 26. 10. 29. Act. 14. 17. a 17. 28. 1 Cor. 12. 6, 7. Col. 1. 16, 17. 1. 1. 3.

* Sef a atebodd i aelodau y Sanhedrim, fel y soniwyd od. Mae yn debyg iddynt hwy ei holi ef am iachâu n ar y sabbath, yn gystal ac am beri iddo godi ei ; gan geisio taeru yn ol eu harfer, fod hyny hefyd anghyfreithlawn: at y peth cyntaf mae Crist yn ürio yn ei ateb, ac nid at yr ail beth. † Gweithio sabbath oedd y pwnc mewn dadl, a gweithio ar y oath mae Crist yn sôn am dano: gorphwysodd y Tad sabbath oddi wrth y gwaith o greu; ond mae yn üthio yn wastadol yn ei ragluniaeth a'i ddaioni, ar y oath fel ar ddyddiau eraill; a gweithred o ddaioni a agaredd oedd iachâu y dyn claf, am hyny yr oedd gyfreithlawn i Grist ei gwneyd. ‡ Yma yr oedd st yn llefaru am dano ei hun fel yn un â'r Tad, wn hanfod a gweithrediadau; heb hyny byddai y swm yn colli ei rym a'i brydferthwch: ni wnaethai nn o'r tro i unrhyw greadur ymresymu fel hyn; ac e yn amlwg yn yr adnod nesaf, mai am undeb han- â'r Tad yr oedd yr Iuddewon yn deall y geiriau.

18 * Am hyn gan hynny yr Iuddewon a
isiasant yn fwy ei ladd ef, oblegid nid yn
ig iddo [e] dorri y sabbath, ond hefyd iddo
ywedyd fod [f] † Duw yn Dad iddo, gan ei
euthur ei hun yn ‡ gystal â Duw.

e pen. 7. 22, 23. Mat. 12. 5. f adn. 23. pen. 8. 54, 58. a 10. 33. a 14. 9, 23. Zec. 13. 7. Phil. 2. 6. Dat. 21. 22, 23. a 22. 1, 3.

* Yr oeddynt yn ei gyhuddo ef o'r blaen o dori y sab- th, ac o annog un arall i wneyd, yn ol eu barn hwy; yma, yn lle ymfoddloni i'w ymddiffyniad ef, tybiasent ll yr amryfusedd diweddaf yn waeth na'r cyntaf; ei ll ef yn haeru cabledd i gyfiawnâu drygioni, ei fod yn wneyd ei hun yn Fab Duw, i gyfiawnâu gweithio ar sabbath. Gan fod y ddau beth yn droseddau bywyd, oeddynt yn ceisio ei ladd ef, ac yn ddigon llidiog i rny. † Yr oedd holl genedl yr Iuddewon yn galw iw yn Dad iddynt, Ioan 8. 41; ond mae y geiriau (*Patera idion*) a gyfieithir "Fy Nhad," adn. 17, yn wyddo Tad mewn ystyr mòr briodol a neillduol, a phe nasai Iesu yn dywedyd yn bendant ei fod ef yn ogyf- wch â Duw. Felly yr oedd yr Iuddewon yn ei ddeall , pe amgen ni buasent yn ei farnu yn euog o gabledd. ir wahanol yw gwadwyr Duwdod Crist yn awr; ni nant hwy ddeall y geiriau yn un prawf o'i Dduwdod . Pa un ai yr hen Iuddewon, ai y Sociniaid diwedd- , oedd yn deall ei eiriau ef oreu? ‡ Cyfieithir y gair *on* gogyfuwch yn Phil. 2. 6.

19 Yna yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd
rthynt, [g] Yn wir, yn wir, meddaf i chwi,
* Ni ddichon y Mab wneuthur dim o hono
i hunan, eithr yr hyn a welo efe y Tad yn ei
neuthur: [i] † canys beth bynnag y mae efe
n ei wneuthur, hynny hefyd y mae y Mab yr
n ffunud yn ei wneuthur.

g adn. 24, 25. Gwel ar pen. 3. 3. h adn. 30. pen. 8. 28. a 4. a 12. 49. a 14. 10, 20. i pen. 14. 16—23. Gen. 1. 1, 26. Es. 4. 24. Col. 1. 16.—Cymhara adn. 22. gyda Salm 50. 6. 2 Cor. 5. 0.—a 2. 19. a 10. 18. gyda Act. 2. 24. Rhuf. 6. 4. 1 Cor. 15. 12. Pedr 3. 18.—ac adn. 21, 25, 26. gyda Eph. 1. 18, 19. a 2. 5.— c adn. 28, 29. pen. 11. 25, 26. gyda Rhuf. 8. 11. 2 Cor. 4. 14. Phil. 21. 1 Thes. 4. 14.—Salm 27. 14. a 138. 3. Es. 45. 24. gyda Cor. 12. 9, 10. Eph. 3. 16. Phil. 4. 13. Col. 1. 11.—Ex. 4. 11. Diar. 2. 6. gyda Luc 21. 15.—Jer. 17. 10. gyda Dat. 2. 23.

Pe buasai yr Iuddewon wedi cam-ddeall geiriau Crist n adn. 17, diammau y buasai ef yn dangos hyna yma; nd can belled o feio arnynt am gam-ddeall ei eiriau, mae fe yma yn amddiffyn, ac yn sefyll at, a thros, yr hyn a ddywedasai. * Fel mae y Tad â'r Mab yn un mewn anfod, natur, a phrïodoliaethau, felly y maent yn un mewn ewyllys, cyngor, a gweithrediad; ac mae yn anmhosibl i'r Mab wneuthur dim o hóno ei hunan, ar wahân oddi wrth yr hyn mae y Tad yn ei wneuthur. Gan fod y Mab yn hollawl adnabyddus o bob peth mae y Tad yn eu gwneuthur, mae efe yn cyd-weithredu â'r Tad, yn ei holl weithredoedd o grëadigaeth a rhagluniaeth; fel mae yr un mòr addas eu prïodoli hwy i'r Mab ac i'r Tad. † Beth bynag mae y Tad yn ei wneuthur, hyny hefyd mae y Mab yr *un ffunud* yn ei wneuthur: nid rhyw bethau *eraill, tebyg;* ond yr *un pethau,* ac yn yr *un modd.* Yn ol yr agoriad uchod, nid dangos isafiaeth y Mab mae y geiriau; ond dangos ei unoliaeth hanfodol ef â'r Tad, fel y mae gweithredoedd y naill yn weithredoedd y llall yr un ffunud. Efallai hefyd, bod y geiriau "o hóno ei hun," "a welo," &c. yn cyfeirio at allu ac awdurdod rhoddedigol y Mab, fel Cyfryngwr; a'i berffaith gyd-gordiad ef â'r Tad yn nghyflawniad trefn ogoneddus yr iachawdwriaeth yn ei holl ranau.

20 [k] * Canys y Tad sydd yn caru y Mab,
[l] † ac yn dangos iddo yr hyn oll y mae efe yn
ei wneuthur: ‡ ac efe a ddengys iddo ef
[m] weithredoedd mwy nâ'r rhai hyn, fel y rhy-
feddoch chwi.

k pen. 3. 35. Mat. 3. 17. a 17. 5. 2 Pedr 1. 17. l pen. 1. 18. a 10. 32. a 15. 15. Diar. 8. 22—31. Mat. 11. 27. Luc 10. 22. m adn. 21, 25, 29. a 12. 45—47.

* Fel ei briod Fab, trwy dragywyddol genedliad, ac fel Messiah, danfonedig ganddo ef i'r byd, i orphen y gwaith a roddwyd iddo i'w wneuthur; mae y Tad yn caru y Mab, â chariad o anfeidrol hyfrydwch ynddo. † Nid fel athraw yn dangos i blentyn, ei ysgolhaig; nac fel celfyddydwr yn dangos dirgelwch ei gelfyddyd i'w egwyddor-was; cymhariaethau rhy isel ac annheilwng yw y rhai yna oll: ond mae y geiriau yn dangos yr wybodaeth berffaith, gyflawn, ac anfeidrol oedd gan y Mab, o holl gyngor, ewyllys ac arfaeth Duw, fel yr oedd efe yn ei fynwes erioed, ac yn wr o'i gyngor. Maent hefyd yn arwyddo bod yr eneiniad oddi wrth y Sanctaidd hwnw arno ef, nid wrth fesur; a'i fod yn gwybod pob peth, nid fel y prophwydi gynt, y rhai nid oeddynt yn gwybod ond mewn rhan, nac yn prophwydo ond mewn rhan. ‡ Cyfeiriad sydd yma at y gwyrthiau chwanegol a wnâi y Cyfryngwr ar ol hyn, adgyfodi y meirw, &c. efe a ddengys iddo ef, trwy roddi ar ei feddwl ef eu gwneyd, ac a ddengys drwyddo ef, er syndod a rhyfeddod i bawb, hyd yn nod i'r rhai hyny ni chredent ynddo.

21 [n] * Oblegid megis y mae y Tad yn
cyfodi y rhai meirw, ac yn *eu* bywhâu;
[o] † felly hefyd y mae y Mab yn bywhâu y
rhai a fynno.

n Deut. 32. 39. 1 Bren. 17. 21, 22. 2 Bren. 4. 32—35. a 5. 7. Act. 26. 8. Rhuf. 4. 17—19. o pen. 11. 25, 43, 44. a 17. 2. Luc 7. 14, 15. a 8. 54, 55.

Mae yr adnod hon yn agoriad perffaith ar ddiwedd adn. 19; "hyny hefyd mae y Mab yr un ffunud yn ei wneuthur," sef yr un gweithredoedd. * Tybir mai nid at adgyfodiad cyffredinol y meirw yn y dydd diweddaf, mae cyfeiriad y geiriau hyn, ond at y rhai meirw a adgyfodwyd dàn yr Hen Destament. † Addefai yr Iuddewon mai Duw a gyfododd y rhai hyny, ac fel pe buasai Iesu yn dywedyd, Chwi a gewch fy ngweled innau yn codi rhai meirw ac yn eu bywâu, cyn y gadâwyf y byd hwn, yr hyn a brawf mai Duw ydwyf. Tybir fod codi a bywâu y meirw yn yr adnod hon, a rhoddi pob barn i'r Mab yn yr adnod nesaf, i'w deall mewn ystyr ehang, am holl lywodraeth Crist ar ei deyrnas yn y byd hwn, a chyfodi y meirw a barnu holl ddynolryw yn y byd a ddaw. Tybir hefyd ei fod ef yn helaethu ar bob un o'r pethau hyn yn yr adnodau canlynol, fel y cawn weled pan ddelom atynt.

22 [p] * Canys y Tad nid yw yn barnu neb;
† eithr efe a roddes bob barn i'r Mab:

p adn. 27. Salm 9. 7, 8. a 50. 3—6. a 96. 13. a 98. 9. Preg. 11.

9. a 12. 14. Mat. 16. 27. a 25. 31—46. a 28. 18. Act. 10. 42. a 17. 31. Rhuf. 2. 16. a 14. 10—12. 2 Cor. 5. 10. 2 Thes. 1. 7—10. 2 Tim. 4. 1. 1 Pedr 4. 5. Dat. 20. 11, 12.

* Ei hunan, hyny yw, yn ei Berson ei hun, nid yw y Tad yn barnu neb: nid yw yn barnu neb ond drwy y Mab, neb heb y Mab. † Efe roddes bob barn, sef holi weinyddiad y deyrnas gyfryngol yn yr eglwys, i'r Mab; a thrwy y Mab y barna efe y byd yn y dydd diweddaf. Felly mae yr holl ysgrythyrau sydd yn sôn am Dduw yn barnu y byd, i'w deall am y Mab, fel mewn undeb â'r Tad.

23 [q] * Fel yr anrhydeddai pawb y Mab, fel y maent yn anrhydeddu y Tad. [r] † Yr hwn nid yw yn anrhydeddu y Mab, nid yw yn anrhydeddu y Tad yr hwn a'i hanfonodd ef.

q pen. 14. 1. Salm 146. 3—5. Jer. 17. 5—7. Mat. 12. 21. Rhuf. 15. 12. 2 Cor. 1. 9. Eph. 1. 12, 13. 2 Tim. 1. 12.—Salm 2. 12. Es. 42. 8. a 43. 10. a 44. 6. Mat. 28. 19. Rhuf. 1. 7. 1 Cor. 1. 3. 2 Cor. 13. 14. 1 Thes. 3. 11—13. 2 Thes. 2. 16, 17. Heb. 1. 6. 2 Pedr 3. 18. Dat. 5. 8—14.—Mat. 10. 37. a 22. 37, 38. 1 Cor. 16. 22. Eph. 6. 24.—Luc 12. 8, 9. Rhuf. 6. 22. a 14. 7–9. 1 Cor. 6. 19. a 10. 31. 2 Cor. 5. 14, 19. Tit. 2. 14.—Es. 43. 11. a 45. 15, 21. Zec. 9. 9. Tit. 2. 13. a 3. 4—6. 2 Pedr 1. 1. r pen. 15. 23, 24. a 16. 14, 15. a 17. 10. Mat. 11. 27. Rhuf. 8. 9. 1 Ioan 2. 23. 2 Ioan 9.

* Fel Person Dwyfol, mae y Mab yn deilwng o'r un anrhydedd, addoliad, ac ufudd-dod â'r Tad; ac er iddo ddyfod yn y cnawd, ni chollodd ei hawl i hyny; oblegid ni pheidiodd a bod yn Dduw er ymgnawdoli: Duw a ymddangosodd yn y cnawd. Gosododd y Tad ef yn y swydd gyfryngol, nid i'w iselu, ond fel yr anrhydeddai pawb ef yn y swydd hòno fel y maent yn anrhydeddu y Tad. *Pawb* yn mhob màn, a'r a glywant sôn am dano. † Mae y Tad ei hun yn dysgwyl i bawb anrhydeddu Iesu fel y Messiah anfonedig, fel ei Fab ef, fel efe ei hun: a phwy bynag nid yw yn ei anrhydeddu felly, mae y Tad yn cyfrif hyny yn ddirmyg arno ef ei hun; nid yw y cyfryw yn anrhydeddu y Tad chwaith, tybied ef fel y mỳno.

24 * Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, [s] † Y neb sydd yn gwrando fy ngair i, ‡ ac yn credu i'r hwn a'm hanfonodd i, ‖ a gaiff fywyd tragywyddol, [t] § ac ni ddaw i farn; [u] eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd.

s. pen. 3. 16, 18, 36. a 6. 40, 47. a 8. 51. a 11. 26. a 12. 44. a 20. 31. Marc 16. 16. Rhuf. 10. 11—13. 1 Pedr 1. 21. 1 Ioan 5. 1, 11—13. t pen. 10. 27—30. Rhuf. 8. 1, 16, 17, 28—30, 33, 34. 1 Thes. 5. 9. 2 Thes. 2. 13, 14. 1 Pedr 1. 5. u 1 Ioan 3. 14.

* Dywedodd Iesu yn adn. 22, fod pob barn wedi ei rhoddi i'r Mab: yma mae efe ei hun yn llefaru fel y barnwr hwnw, ac yn dangos y rheol wrth ba un y barna efe. † Pwy bynag a glywo, a wrandawo, ac â'i galon a dderbynio, fy athrawiaeth I, yn enwedig y gwirionedd mai myfi yw Mab Duw, y gwir Fessiah; ‡ a phwy bynag a gredo i'm Tad yr hwn a'm danfonodd I, a'i dystiolaeth ef am danaf; ‖ a gaiff fywyd tragywyddol: mae ganddo hawl sicr i fywyd tragywyddol, mae wedi derbyn blaenffrwyth bywyd tragywyddol, ac efe a gaiff fyned i'r bywyd tragywyddol yn y nef. § Ni syrth efe dàn gondemniad y gyfraith byth mwy, nac yma nac yn y farn a ddaw: mae efe wedi myned drwodd eisoes, o gondemniad i gyfiawnâd bywyd, o farwolaeth ysbrydol i fywyd ysbrydol.

25 * Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, [x] † Y mae yr awr yn dyfod, ac yn awr y mae, [y] pan glywo y meirw lef Mab Duw: ‡ a'r rhai a glywant, a fyddant byw.

x pen. 4. 23. a 13. 1. a 17. 1. y adn. 21. Luc 9. 60. a 15. 24, 32. Rhuf. 6. 4. Eph. 2. 1, 5. a 5. 14. Col. 2. 13. Dat. 3. 1.

* Mae Iesu yma yn adnewyddu yr arwiredd pwysig, ac nid yw y tystiolaethau difrifol hyn mewn un modd yn ddiangenrhaid, pan ystyriem ni fawr bwys y mater, a pha mòr anhygoel oedd, bod yr un dirmygedig ar oedd yn sefyll ger bron y cyngor y pryd hwnw, yn Arglwydd y bywyd, ac yn Farnwr pawb oll. † Caiff rhai cyrph meirw eu cyfodi yn fuan iawn trwy lef Mab Duw, a chaiff llawer o feirw ysbrydol eu codi a'u bywâu trwy lef Mab Duw yn yr efengyl. Ni bydd yr ychydig gyrph meirw sydd gyfyd efe â'i lef naturiol, ond megys cysgod, neu ragarwyddlun, o'r eneidiau meirwon a gyfyd efe trwy yr efengyl. ‡ Daeth bywyd iddynt gyda'r llef, a hwy a fydd ant byw byth mwyach.

26 * Canys megis y mae gan y Tad [z] fywyd ynddo ei hunan, [a] † felly y rhoddes efe i'r Mab hefyd fod ganddo fywyd ynddo ei hun;

z Ex. 3. 14. Salm 36. 9. a 90. 2. Jer. 10. 10. Act. 17. 25. 1 Tim. 1. 17. a 6. 16. a pen. 1. 4. a 4. 10. a 7. 37, 38. a 8. 51. a 11. 26. a 14. 6, 19. a 17. 2, 3. 1 Cor. 15. 45. Col. 3. 3, 4. 1 Ioan 1. 1—3. Dat. 7. 17. a 21. 6. a 22. 1, 17.

* Mae y Tad yn hunan-hanfodol, a chanddo fywyd ynddo ei hun erioed, heb ei dderbyn gan neb erioed; ond efe yw ffynon bywyd naturiol, ysbrydol, a thragywyddol, ei holl greaduriaid. Felly y mae y Mab hefyd; mae ganddo fywyd ynddo ei hunan fel y Tad. † Ond pa fodd y mae deall y geiriau "Felly y *rhoddes* efe i'r Mab hefyd, fod ganddo fywyd ynddo ei hunan?" Tybia rhai dynion da, fod hyna yn cyfeirio at genedliad tragywyddol ac anamgyffredadwy y Mab, trwy yr hyn yr oedd yr un perffeithrwydd o fywyd yn cael ei roddi iddo ef ac oedd yn y Tad ei hun: a dywedant fod yr ymadrodd, "bywyd ynddo ei hun," yn cynnwys ystyr yr enw Jehofah, a bod Crist yn profi ei hun yn wir Jehofah, wrth ddywedyd fel hyn fod ganddo fywyd ynddo ei hun. Ond tebycach mai fel Cyfryngwr yr oedd efe yn dywedyd y geiriau hyn, ddarfod rhoddi iddo fywyd ynddo ei hun, i'w gyfranu i'w greaduriaid: a thybir fod pen. 1. 4, yn agoriad da ar y geiriau hyn.

27 [b] * Ac a roddes awdurdod iddo i † wneuthur barn hefyd, [c] ‡ o herwydd ei fod yn Fab dyn.

b Gwel ar adn. 22. Salm 2. 6—9. a 110. 1, 2, 6. 1 Cor. 15. 25. Eph. 1. 20—23. 1 Pedr 3. 22. c Dan. 7. 13, 14. Phil. 2. 7—11. Heb. 2. 7—9.

* Mae yn amlwg mai rhoddi iddo fel Cyfryngwr a feddylir yma; fel Person Dwyfol yn unig yr oedd pob awdurdod ganddo yn hanfodol, ac o angenrheidrwydd: lle bynag y darllenom am roddi rhywbeth i Grist, yn ei sefyllfa swyddol y rhaid i ni ei olygu ef. † I lywodraethu y byd, a'i farnu yn y dydd diweddaf; i waredu ei bobl rhag digofaint, ac i gospi ei holl elynion. ‡ Tybia rhai mai y meddwl yw, o herwydd mai efe yw had y wraig addawedig, Gen. 3. 15; Mab y dyn, yn Dan. 7. 13, 14; a bod yr enw Mab dyn, (yn y fàn hòn) yn arwyddo ei swydd gyfryngol ef. Mae yn amlwg fod y swydd o farnu pob dyn yn gofyn holl-wybodaeth, holl-alluawgrwydd, anfeidrol gyfiawnder, gwirionedd, a pherffeithrwydd: mae y pethau hyn yn hollawl anghyfranadwy i un creadur; ac nis gellir meddwl fod "Mab dyn" yn addas i ymddiried y fath waith yn *hollawl* iddo, ac i'w gyflawni yn briodol, ond ar y dyb ei fod ef hefyd yn Fab Duw, ac yn ogyfuwch â'r Tad. Nid yw y geiriau "Mab dyn," heb y bannod, yn un màn arall gan yr efengylwyr: Mab *y* dyn yw yn mhob màn arall.

28 [d] * Na ryfeddwch am hyn: [e] † canys y mae yr awr yn dyfod, yn yr hon y caiff pawb a'r sydd yn y beddau glywed ei leferydd ef:

d adn. 20. pen. 3. 7. Act. 3. 12. e pen. 6. 39, 40. a 11. 25. Job 19. 25, 26. Es. 26. 19. Ezec. 37. 1—10. Hos. 13. 14. 1 Cor. 15. 22, 42—54. Phil. 3. 21. 1 Thes. 4. 14—17. Dat. 20. 12.

* Mae yn debyg bod yr Arglwydd Iesu yn gweled arwyddion o syndod ar wynebau pawb yn y Cyngor, wrth ei glywed ef yn dywedyd y fath bethau mawrion am dano ei hun: ac yna mae yn dywedyd, Na ryfeddwch am hyn; sef yr awdurdod a gefais I gan fy Nhad i gyfodi ychydig feirw, ac i wneuthur barn a chyfiawnder yn y byd: † mae yr awr yn dyfod pryd y caiff holl blant Adda, y fu, y sydd, ac a ddaw, er eu bod wedi meirw ex ys miloedd o flynyddoedd, lawer o honynt, glywed lleferydd Mab Duw, yn eu cyfodi ac yn eu galw i'r farn gyffredinol.

9 f * A *hwy* a ddeuant allan: † y rhai a
daethant dda, i adgyfodiad bywyd; ‡ ond
mai a wnaethant ddrwg, i adgyfodiad barn.
f Dan. 12. 2, 3. Mat. 25. 31—46. Act. 24. 15. g Luc 14.
Rhuf. 2. 6—10. Gal. 6. 8—10. 1 Tim. 6. 18, 19. Heb. 13. 16.
Ir 3. 11.

Pa faint bynag o amser fyddo er pan fuont feirw, a
lleoedd bynag y byddo eu cyrph yn wasgaredig, a
edi troi yn bridd ac yn lludw; hwy a glywant y
rydd, a chyda'r lleferydd â bywyd iddynt, a hwy a
uant allan o'u beddau, o waelodion moroedd, ac o
e bynnag a byddont; corph Abel, yr hwn a fu farw
af, yn gystal a'r hwn a fyddo newydd drengi, pan
o yr Arch-angel ei lef uwch ben y byd. † Y rhai a
ethant dda, fel prawf o'u hedifeirwch, ffydd, cariad,
u bod yn grëaduriaid newydd; a gânt adgyfodiad
wydd i fywyd tragywyddol yn y nef. ‡ Ond y rhai a
ethant ddrwg, fel prawf mai rhai drwg o gyflwr ac
yddor oeddynt; rhaid iddynt hwythau hefyd adgy-
wrth y llef; eithr adgyfodiad i farn gondemniol, ac
espediga eth dragywyddol, fydd eu hadgyfodiad hwy.
am wneuthur da y cair bywyd tragywyddol: oblegid
ras yr ydys yn gadwedig, a dawn Duw yw bywyd
ywyddol: eto rhai yn gwneuthur da yw y rhai a'i
.

30 h * Ni allaf i wneuthur dim o honof fy
nan: † fel yr ydwyf yn clywed, i yr ydwyf
barnu: ‡ a'm barn i sydd gyflawn; k canys
ydwyf yn ceisio fy ewyllys fy hunan, ond
yllys y Tad yr hwn a'm hanfonodd i.
h adn. 19. pen. 8. 28, 42. a 14. 10. i pen. 8. 15, 16. Gen.
25. Salm 96. 13. Es. 11. 3, 4. Rhuf. 2. 2, 5. k pen. 4. 34. a
3. a 8. 50. a 17. 4. a 18. 11. Salm 40. 8. Mat. 26. 39. Rhuf. 15.
Heb. 10. 7—10.

Yn nechreu yr ymadrodd hwn, adn. 19, mae Iesu
dywedyd, "Ni ddichon y *Mab* wneuthur dim o hóno
unan," gan lefaru yn y trydydd person; yma mae
ail ddychwelyd at yr un mater, ac yn llefaru yn y
son cyntaf, "Nis gallaf *fi* wneuthur dim o honof fy
nan:" yr hyn sydd yn dangos mai efe ei hun oedd y
b. Mae yn anmhosibl iddo ef wneuthur dim, yn ei
th fel Cyfryngwr, oddi ar unrhyw egwyddor, unrhyw
ben, na thrwy unrhyw allu, gwahanol i'r Tad: undeb
llys a gweithrediad y Personau, yw yr hyn a feddyl-
+ Mae *clywed*, yn y fàn hon, yn myned am yr
odaeth fanylaf a mwyaf hollawl o bethau: os pethau
w, mae Crist fel Person Dwyfol yn eu gwybod oll
oed, ac fel Cyfryngwr yr oedd yn cael ei ddysgu yn-
ynt trwy yr Ysbryd oedd yn ddifesur arno: os pethau
ynion sydd i gael eu barnu ganddo, mae ganddo yr
bodaeth fanylaf o bob peth. ‡ Bydd barn Iesu yn
rffaith gyfiawn, oblegid barnu yn ol ewyllys Duw y
dd, nid yn ol rhyw ewyllys o'i eiddo ei hun, gwahanol
Tad, a llawer llai yn groes i'r eiddo y Tad. Gwneu-
ur ewyllys y Tad, y bydd ef wrth farnu, yn gystal ac
ei holl waith cyfryngol.

31 l * Os ydwyf fi yn tystiolaethu am danaf
hunan, † nid yw fy nhystiolaeth i wir.
l pen. 8. 13, 14, 54. Diar. 27. 2.

* Os myfi yn unig sydd yn dywedyd y pethau hyn am
anaf fy hun, ac heb allu dangos un prawf arall i gad-
mâu fy nhystiolaeth; yr wyf yn addef, yn ol arfer
ffredin dynion o farnu, nad yw hyn yn unig ddim yn
digon o brawf o'i gwirionedd: gan hyny, nis gadawaf
mater i orphwys ar hyn, ond âf yn mlaen i grybwyll
stiolaethau eraill. † Hyny yw, nid yw i'w derbyn fel
wir. Cymhara Ioan 8. 13, â 17.

32 ¶ m * Arall sydd yn tystiolaethu am
danaf fi; n † ac mi a wn mai gwir yw y dyst-
olaeth y mae efe yn ei thystiolaethu am danaf

m adn. 36, 37. pen. 1. 33. a 8. 17, 18. a 12. 28—30. Mat. 3. 17.
17. 5. Marc 1. 11. Luc 3. 22. n pen. 12. 50.

† Tybia *Guyse* a *Doddridge*, mai Ioan Fedyddiwr yw yr "arall" yma, ond tybia *Pool* a *Scott* yn hytrach, mai Duw Dad ydyw. † Os tystiolaeth y Tad ar fedyddiad Crist a feddylir, gwyddai Iesu mai y Duw digelwyddog oedd, ac am hyny bod ei dystiolaeth yn wir. Os tystiolaeth Ioan a feddylir, gwyddai mai gwir oedd hóno; oblegid Duw a'i danfonodd ef i dystiolaethu am ei Fab, ac oddi ar ddatguddiad a thystiolaeth Duw, yr oedd Ioan yn tystiolaethu. Gwel Ioan 1. 29—34.

33 o * Chwychwi a anfonasoch at Ioan,
p † ac efe a ddug dystiolaeth i'r gwirionedd.
o pen. 1. 19—27. p pen. 1. 6—8, 15—18, 29—34. a 3. 26
—36.

* Yr oeddech chwi yn cyfrif Ioan yn ddyn da, geirwir, ac yn brophwyd; a chwi a ddanfonasoch ddynion cyfrifol ato ef, i ofyn ai efe oedd y Messiah, pen. 1. 19; † tystiolaethodd Ioan i'r gwirionedd: tystiolaethodd mai nid efe ei hun oedd Crist, pen. 1. 20; tystiolaethodd mai cenad oedd efe o flaen Crist, pen. 1. 23; a thystiolaethodd mai myfi yn bersonol oedd Crist, pen. 1. 29, 34. Chwi a glywsoch y dystiolaeth hòno gan eich cenadon, ac odid nad yw y rhai hyny yn eich plith chwi yr awr hon yn y cyngor. Dyna un dystiolaeth a gawsoch chwi am danaf fi heblaw yr eiddof fy hun.

34 * Ond myfi nid ydwyf yn derbyn tyst-
iolaeth gan ddyn: † eithr y pethau hyn yr
ydwyf yn eu dywedyd, r fel y gwareder chwi.
q adn. 41. pen. 8. 54. r pen. 20. 31. Luc 13. 34. a 19. 10,
41, 42. a 24. 47. Rhuf. 10. 1, 21. a 12. 21. 1 Cor. 9. 22. 1 Tim. 2.
3, 4. a 4. 16.

* Hyny yw, nid oes arnaf ei heisiau er fy mwyn fy hun yn y mater hwn, mae genyf dystiolaeth uwch, a mwy anwadadwy i'w dwyn eto. † Yr oeddynt hwy yn ceisio ei ladd ef, ac felly tynu barn arnynt eu hunain; yr oedd yntau yn crybwyll tystiolaeth Ioan, a phob tystiolaeth, fel y dygai hwynt i gredu ynddo, ac felly eu gwaredu hwy rhag y pechod hwnw, a'r farn hòno. Efallai i rai o honynt gael eu gwaredu, mae yn debyg fod Nicodemus, a Joseph o Arimathea, yno y pryd hwnw.

35 s * Efe oedd ganwyll yn llosgi, ac yn
goleuo; t a chwithau oeddych ewyllysgar i
orfoleddu dros amser yn ei oleuni ef.
s pen. 1. 7, 8. Mat. 11. 11. Luc 1. 15—17, 76, 77. a 7. 28.
2 Pedr 1. 19. t pen. 6. 66. Ezec. 33. 31. Mat. 3. 5—7. a 11. 7—
9. a 13. 20, 21. Marc 6. 20. Gal. 4. 15, 16.

* Er mai nid y goleuni ei hun ydoedd Ioan, (pen. 1. 8.) eto yr oedd efe yn ganwyll oleu, yn ddyn mawr, yn llosgi yn ngwybodaeth a chariad y gwirionedd, ac hefyd mewn sancteiddrwydd calon ac ymarweddiad. "Efe oedd *ganwyll:*" efe oedd yr unig brophwyd, yn mha un y gorphenwyd yr hen oruchwyliaeth, ac y dechreuwyd yr oruchwyliaeth newydd: fel canwyll ar ddiwedd nos ac ar doriad gwawr. † Ar ei darawiad cyntaf ef allan, yr oeddych chwi yn gorfoleddu fod y fath ddyn wedi codi yn eich plith, yn myned allan wrth y miloedd i'w wrando ef; ond, dros amser, ac amser byr hefyd, y parâodd hyn; pan ddechreuodd efe eich ceryddu chwi yn llym am eich pechodau, a thystiolaethu yn amlwg am danaf fi, gadawsoch a gwrthodasoch ef, dywedasoch fod cythraul ganddo, ac o'r diwedd, chwi a oddefwch i Herod ei lofruddio ef yn greulawn ac yn anghyfiawn.

36 ¶ u * Ond y mae gennyf fi dystiolaeth
fwy nag Ioan: x † canys y gweithredoedd a
roddes y Tad i mi i'w gorphen, ‡ y gweithred-
oedd hynny y rhai yr ydwyf fi yn eu gwneu-
thur, sydd yn tystiolaethu am danaf fi, mai y
Tad a'm hanfonodd i.
u adn. 32. 1 Ioan 5. 9, 11, 12. x pen. 3. 2. a 9. 30—33. a
10. 25, 37, 38. a 11. 37, 38. a 14. 10, 11. a 15. 24. Mat. 11. 4, 5.

* Mwy nag Ioan, nid mwy na'r Tad, a grybwyllwyd yn adn. 32. † Y gweithredoedd oedd efe wedi wneyd, ac a wnâi efe ar ol hyn, er eu bod hwy yn ceisio ei ladd ef; ‡ byddai y gweithredoedd hyny mòr rhyfedd, mòr fawr, mòr dda, mòr sanctaidd, ac mòr anwadadwy

ddwyfol, fel y byddent yn ddigon o dystiolaeth mai Mab Duw oedd Iesu, mai efe oedd Messiah anfonedig y Tad, a bod ganddo ddigon o awdurdod i ddywedyd y pethau a ddywedodd am dano ei hun. Yr oeddynt yn ddigon hefyd i'w gwneyd hwy yn ddiesgus os na chredent ynddo.

37 * A'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd i, efe a [y] dystiolaethodd am danaf fi. [z] † *Ond* ni chlywsoch chwi ei lais ef un amser, ac ni welsoch ei wedd ef.

y pen. 6. 27. a 8. 18. Mat. 3. 17. Gwel ar adn. 32. z Gwel ar pen. 1. 18. a 14. 9. a 15. 24. Ex. 20. 19. Deut. 4. 12. 1 Tim. 6. 16. 1 Ioan 1. 1, 2. a 4. 12, 20.

* Ac i fyned eto yn mhellach, mae fy Nhad ei hun, yr hwn a'm danfonodd I fel Cyfryngwr a Messiah i'r byd, wedi tystiolaethu am danaf fi, trwy agoryd y nefoedd, a'r Ysbryd yn disgyn megys celomen, ac yn aros arnaf fi; a thrwy lef o'r nef yn dywedyd, Hwn ww fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd, Matth. 3. 16. 17. Dyma dystiolaeth anghyffredin, a chyfryw a fynech chwi eich hunain gael, sef arwydd gweledig o'r nef. † Ni chlywsoch chwi ei lais ef un amser, ac ni welsoch ei wedd ef, i dystiolaethu am neb o'r prophwydi, fel y tystiolaethodd am danaf fi. Neu, fel hyn, Ni chlywodd eich henafiaid chwi erioed lais y *Tad*, ac ni welsant ei wedd *ef*, dàn yr hen oruchwyliaeth: pa amlygiadau bynag o Dduw oedd yn cael eu gwneyd y pryd hwnw yn oruwch-naturiol, y *Mab* oedd yn eu gwneyd, ac nid y *Tad*. Gan i lawer o'r Iuddewon, a rhai o'r sawl oedd yn y cyngor y pryd hwnw, mae yn debyg, glywed llais y Tad, a gweled yr ymddangosiad gweledig a wnaeth efe, ar fedyddiad Crist; tybir mai nid am y personau neilldiol yr oedd efe yn ymddiddan â hwynt yr oedd efe yn dywedyd, ond am genedl yr Iuddewon, eu henafiaid hwynt, fel y soniwyd uchod.

38 [a] * Ac nid oes gennych chwi mo'i air ef yn aros ynoch: [b] † canys yr hwn a anfonodd efe, hwnnw nid ydych chwi yn credu iddo.

a adn. 42, 46, 47. pen. 8. 37, 46, 47. a 15. 7. Deut. 6. 6—9. Jos. 1. 8. Salm 119. 11. Diar. 2. 1, 2. a 7. 1, 2. Col. 3. 16. Iago 1. 21, 22. 1 Ioan 2. 14. b adn. 43. pen. 1. 11. a 3. 18—21. a 12. 44—48. Es. 49. 7. a 53. 1—3.

* Er i'r Tad dystiolaethu felly mewn geiriau eglur am danaf fi, ac er iddo dystiolaethu am danaf hefyd trwy y prophwydi; eto nid yw ei air ef yn yr un o'r ffyrdd hyn yn aros ynoch chwi, i wneuthur dim argraff sylweddol arnoch, ac i'ch dwyn i gredu ynof fi: † oblegid wedi y cwbl, ni chredwch ynof mai y Tad a'm danfonodd i'r byd.

39 ¶ [c] * Chwiliwch yr † ysgrythyrau; ‡ canys ynddynt hwy [d] yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragywyddol: ‖ a hwynthwy yw [e] y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi.

c adn. 46. pen. 7. 52. Deut. 11. 18—20. a 17. 18, 19. Jos. 1. 8. Salm 1. 2. a 119. 11, 97—99. Diar. 6. 23. a 8. 33, 34. Es. 8. 20. a 34. 16. Jer. 8. 9. Mat. 22. 29. Marc 12. 10. Luc 16. 29, 31. Act. 8. 32—35. a 17. 11. Rhuf. 3. 2. Col. 3. 16. 2 Tim. 3. 14—17. 2 Pedr 1. 19—21. d Deut. 32. 47. Salm 16. 11. a 21. 4. a 36. 9. a 133. 3. Dan. 12. 2. Mat. 19. 16—20. Luc 10. 25—29. Heb. 11. 16, 35. e adn. 32, 36. pen. 1. 45. Act. 26. 22, 23, 27. Rhuf 1. 2. 1 Pedr 1. 11. Dat. 19. 10. Gwel ar Luc 24. 27, 44.

* Goddefa y gair Groeg *(Ereunate)* ei gyfieithu, meddant, fel y mae yma, "chwiliwch," yn y modd gorchymynol; neu ynte, "Yr ydych yn chwilio," yn y modd mynegol. Yr oedd y bobl hyn yr oedd Iesu yn llefaru wrthynt yn awr, yn gynnefin iawn â'r ysgrythyrau, yr oeddynt yn eu darllen bob sabbath yn eu synagogau; yr oeddynt y pryd hwnw yn enwedig yn eu chwilio yn fanol am ddyfodiad y Messiah; a dywedir mai beirniadaeth fanol ar yr ysgrythyrau, a gyfrifid fel y gangen benaf o ddysgeidiaeth yn eu plith: yr oedd pob dysgeidiaeth arall yn ddirmygus yn eu golwg, ie, yn atgas gan y rhai mwyaf gwresog o honynt. † Ysgrythyrau yr Hen Destament a feddylir, y pryd hwnw nid oedd dim arall. ‡ Yr oeddynt hwy yn addef fod ffordd iachawdwriaeth a bywyd trugywyddol yn ddatguddiedig yn yr ysgrythyrau; ie, yr oeddynt yn meddwl ei fod ganddynt, mewn meddiant megys, am fod yr ysgrythyrau ganddynt yn eu dwylaw. ‖ Mae yr ysgrythyrau hyn yn eu cysgodau, eu haddewidion, a'u prophwydoliaethau, yn tystiolaethu am danaf fi, ac yr wyf yn foddlawn cael fy mhrofi genych chwi o ran fy mherson, fy muchedd, fy athrawiaeth, a fy ngwyrthiau, wrth y rhai hyn: chwiliwch yr ysgrythyrau.

40 [f] * Ond ni fynnwch chwi ddyfod attaf fi, [g] † fel y caffoch fywyd.

f adn. 44. pen. 1. 11. a 3. 19. a 8. 45, 46. a 12. 37—41. Salm 81. 11. Es. 49. 7. a 50. 2. a 53. 1—3. Mat. 22. 3. a 23. 37. Dat. 22. 17. g pen. 6. 27, 37, 40, 68, 69. a 7. 37, 38. a 11. 25, 26. Rhuf. 6. 23. 1 Ioan 5. 11—13.

Yn yr adnodau blaenorawl, rhoddodd Iesu bùmp o dystiolaethau am dano ei hun ger bron y Sanhedrim: tystiolaeth Ioan, ei dystiolaeth ei hun, tystiolaeth ei weithredoedd, tystiolaeth y Tad, a thystiolaeth yr ysgrythyrau. * Ac wedi y cwbl mae yn dywedyd, Ni fynwch ddyfod ataf fi, fel y caffoch fywyd. Ni fynwch weled yn yr ysgrythyrau mai myfi yw y Messiah, yn yr hwn yn unig y mae bywyd; ac o ganlyniad ni fynwch ddyfod ataf, sef credu ynof, fel y caffoch fywyd. † Ni fynwch ddyfod ataf fi fel y caffoch *fywyd;* y peth gwerthfawrocaf, a mwyaf ei bwys o bob peth; gwell genych farw yn eich pechodau, na dyfod ataf fi i gael bywyd. O ddallineb, balchder, a chyndynrwydd calon dyn!

41 [h] * Nid ydwyf fi yn derbyn gogoniant oddi wrth ddynion.

h adn. 34. pen. 6. 15. a 7. 18. a 8. 50, 54. 1 Thes. 2. 6. 1 Pedr 2. 21. 2 Pedr 1. 17.

* Nid oes arnaf eisiau, nid wyf yn cael, ac nid wyf yn ceisio, gogoniant gan ddynion; na chan y werin, na chennych chwi y rhai sydd benaethiaid y bobl. Nid wyf yn ymddangos yn y rhwysg a'r mawredd hwnw yr ydych chwi yn dysgwyl i'r Messiah ymddangos ynddo: fy unig amcan I yw, dyrchafu gogoniant Duw, a dwyn yn mlaen iachawdwriaeth ei bobl. Mae yr holl ymadrodd hwn i gyd, yn dangos yn rhagorol, pa mòr bell oedd Iesu i wenieithio i wŷr mawr a dysgedig, er mwyn cael ffafr yn eu golwg.

42 [i] * Ond myfi a'ch adwaen chwi, [k] † nad oes gennych gariad Duw ynoch.

i pen. 1. 47—49. a 2. 25. a 21. 17. Luc 16. 15. Heb. 4. 12, 13. Dat. 2. 23. k adn. 44. pen. 8. 42, 47, 55. a 15. 23, 24. Rhuf. 8. 7. 1 Ioan 2. 15. a 3. 17. a 4. 20.

* Er y gellwch chwi dwyllo eraill â'ch rhith o grefydd, eto ni thwyllwch mo honof fi; mi a'ch adwaen chwi drwy bob rhith. † Er eich bod chwi yn tybied eich bod yn caru Duw, ac yn gwneyd llawer o bethau o gariad ato, ac aidd *(zeal)* dros ei ogoniant; eto, mi a wn I nad oes genych gariad Duw yn eich calonau, mai caru y byd yr ydych, ac am hyny yr ydych yn fy nghasâu I. Dyma ddywedyd llym, a didderbyn wyneb, gan un mòr wael â Iesu o Nazareth wrth wŷr mawr a chyfoedd y Sanhedrim: pa le mae y gonestrwydd hyn yn ein dyddiau hi.

43 [l] * Myfi a ddaethum yn enw fy Nhad, ac nid ydych yn fy nerbyn i: [m] † os arall a ddaw yn ei enw ei hun, hwnnw a dderbyniwch.

l pen. 3. 16. a 6. 38. a 8. 28, 29. a 10. 25. a 12. 28. a 17. 4—6. Ex. 23. 21. Heb. 5. 4, 5. m Mat. 24. 5, 24. Act. 5. 36, 37. a 21. 38.

* Yr oedd Iesu yn eu plith yn enw ei Dad, yn gweithredu drwy ei awdurdod ef, yn dwyn ei ddelw ef, yn cyflawni ei air ef, yn ceisio ei ogoniant ef, a digon o dystiolaethau o'i anfoniad; ac eto ni dderbynient hwy ef: † ond pan ddelai eraill, twyllwyr, gan hòni mai hwy oedd y Messiah, heb un cyfryw dystiolaeth, ond gweithredu yn ol eu meddyliau eu hunain ac er eu gogoniant eu hunain; hwy a dderbynient y rhai hyny yn ewyllysgar, ac a'u canlynent: oblegid talai y twyllwyr hyny barch gwenieithiol iddynt, a chyfaddasent eu hymddygiad a'u hawl-hòniadau at eu rhagfarn a'u

chel-gais hwy. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at un archochebas, twyllwr nodedig yn yr oes ganlynol; am ulyn yr hwn, cospodd Adrian yr Iuddewon yn dra mdost. Ond ymddangosodd llawer o gau-gristiau blaw hwnw, ac mae yn debyg fod Iesu yn dywedyd u danynt oll yma.

44 n * Pa fodd y gellwch chwi gredu, o † y ai ydych yn derbyn gogoniant gan eich gilydd, p ac heb geisio y gogoniant *sydd* oddi rth Dduw yn unig?

n pen. 3. 20. a 8. 43. a 12. 43. Jer. 13. 23. Rhuf. 8. 7, 8. Heb. 12. o Mat. 23. 5. Gal. 5. 19—21. Phil. 2. 3. p 1 Sam. 2. 2 Cron. 6. 8. Mat. 25. 21—23. Luc 19. 17. Rhuf. 2. 7, 29. 1 Cor. 5. 2 Cor. 10. 18. Iago 2. 1. 1 Pedr 1. 7.

* *Moesol* oedd yr anallu, ac nid *naturiol:* diffyg yllys, neu iawn agwedd calon; nid diffyg *gallu natur-*. † Mae yn gyfreithlawn i rieni dderbyn anrhydedd m eu plant, meistriaid gan eu gweision, uchelwyr gan his-raddolion, a breninoedd gan eu deiliaid: nid rbyn gogoniant felly a feïir yma; ond balchder a wag-oganiant dynion, y rhai a wenieithient i'w gilydd, oeddynt awyddus am fawredd a gogoniant gan eu ydd, heb feddwl dim am fawrygu na gogoneddu Duw. unig ffordd i ogoneddu Duw fuasai credu yn Iesu, addef ef yn Fessiah, a pha fodd y gallai dynion hel-frydig fel y penaethiaid hyn gredu mai Mab Duw Messiah oedd un mòr wael a thlodaidd yr olwg arno Iesu o Nazareth oedd ger eu bron? Pa fodd y gallai nion mòr ddeddfol hefyd, ymwadu cyn belled â'u nnan-gyfiawnderau, ag ymddiried ynddo ef am fywyd agywyddol?

45 * Na thybiwch y cyhuddaf fi chwi wrth Tad: q † y mae a'ch cyhudda chwi, *sef* Moses, r ‡ yn yr hwn yr ydych yn gobeithio.

q pen. 7. 19. a 8. 5, 9. Rhuf. 2. 12, 17, &c. a 3. 19, 20. a 7. 9—.. 2 Cor. 3. 7—11. Gal. 3. 10. r pen. 8. 5, 6. a 9. 28, 29. Mat. .. 7, 8. Rhuf. 10. 5—10.

* Er fy mod I yn eich argyhoeddi ac yn eich ceryddu l hyn yn llym, na thybiwch mai hyn yw fy neges I i'r d, chwilio eich beïau chwi, a'ch cyhuddo ger bron y uad; † ni bydd raid i mi wneyd hyny, e wna Moses yny yn ddigonol: gan fod ysgrifeniadau Moses mòr awn o gysgodau, prophwydoliaethau, ac addewidion n y Messiah, a hwythau heb gredu yn y Messiah wrth pethau hyny, bydd ysgrifeniadau Moses yn sicr o'u huddo a'u condemnio hefyd yn y farn, am eu hangediniaeth a'u holl bechodau eraill. ‡ Ceryddu eu baith deddfol hwy mae yr Iesu yma, gobeithio ymgfiawnâu drwy y ddeddf. Am y gobaith hwn, gwel u hymffrost yn pen. 9. 28, 29. Dysgyblion Moses dym ni.

46 s * Canys pe credasech chwi i Moses, hwi a gredasech i minnau: t † oblegid am anaf fi yr ysgrifenodd efe.

s Gal. 2. 19. a 3. 10, 13, 24. a 4. 21—31. t Gen. 3. 15. a 2. 3. a 22. 18. a 28. 14. a 49. 10. Num. 21. 8, 9. a 24. 17, 18. Deut. 8. 18, 19. Act. 26. 22. Rhuf. 10. 4. Heb. 7.—10.

* Gwedi eu holl ymffrost o Moses, a'u holl obaith nddo, sef yn ei ysgrifeniadau ef, nid oeddynt hwy ond ysgyblion gwaelion iddo er y cwbl: pe buasent hwy n iawn ddeall Moses, ac yn ei iawn gredu ef, buasai n bur hawdd iddynt gredu mai Iesu oedd y Messiah; oblegid yr oedd ei holl ysgrifeniadau ef yn cyfeirio at, c yn rhag-ddangos y Messiah, ac yn cael eu cyflawni n berffaith ac yn amlwg yn Iesu.

47 u Ond os chwi ni chredwch i'w ysgrifeniadau ef, pa fodd y credwch i'm geiriau i?

u Luc 16. 29, 31.

Fel pe dywedasai yr Iesu, Yn awr yr wyf yn distewi, o yn eich gadael, heb fawr o obaith llwyddo gyda hwi; * oblegid os na chredwch chwi i ysgrifeniadau Moses, yr hwn mae genych gymmaint o barch iddo, be chwi, † pa fodd y gallaf fi ddysgwyl y credwch chwi m geiriau I, yr hwn wyf mòr ddirmygedig yn eich golwg: ïe, yr hwn yr oeddech ond yr awr hon yn ceisio ei ladd gan faint eich casineb ato. Er i Grist ddywedyd y pethau uchod mòr noeth a didderbyn wyneb ger bron y cyngor, eto yr oedd llaw ddirgelaidd Duw yn attal eu cynddeiriogrwydd ryw fodd, fel na chawsant wneuthur dim niwed iddo ef y tro hwn. Nid oedd ei awr ef wedi dyfod eto.

PEN. VI.

Crist yn porthi pùm mil o bobl â phùm torth, a dau bysgodyn.

*WEDI a y pethau hyn yr aeth yr Iesu b † dros fôr Galilea, hwnnw yw *môr* Tiberias.

a Mat. 14. 13. Marc 6. 31, 32. Luc 9. 10—12. b Num. 34. 11. Jos. 12. 3. Gwel ar Mat. 4. 18.—a 15. 29. Luc 5. 1. c adn. 33. pen. 21. 1.

Gadawsom yr Iesu yn niwedd y bennod o'r blaen, yn Jerusalem, yn gorphen ei ymadrodd ger bron y Sanhedrim. Yma yr ydym yn ei gael yn mhell oddi yno, yn myned dros fôr Galilea. Tybir fod yn agos i flwyddyn o amser rhwng yr hyn a adroddir yn y bennod o'r blaen â dechreu hon: gwel y sylw ar pen. 5. 1, ac adn. 6, o'r bennod hon. Gwnaeth yr Iesu lawer o bethau yn yr amser hwnw, nad yw Ioan yn sôn am danynt: crybwyllir hwy gan yr efengylwyr eraill; gwel Matth. pennodau 5—14; Marc 2—6; a Luc 6—9. Dewisodd Ioan ddisgyn ar yr hanes hyn, oblegid y bregeth faith a phwysig a'i canlynodd, yr hon nid adroddir gan yr un o'r efengylwyr eraill. * Yn ol y sylwad uchod nid "wedi y pethau" a adroddir yn y bennod o'r blaen a feddylir; ond wedi rhyw bethau a wnaeth yr Iesu a'r nid adroddir gan Ioan: wedi dienyddiad Ioan Fedyddiwr, a dychweliad yr apostolion o'u taith, y mae *Doddridge*, debygid, yn gosod yr hanes hyn. † Sylwyd amrai weithiau o'r blaen am fôr Galilea, fel y mae yn afreidiol sylwi yma eto.

2 d * A thyrfa fawr a'i canlynodd ef; † canys hwy a welsent ei arwyddion y rhai a wnaethai efe ar y cleifion.

d Mat. 4. 24, 25. a 8. 1. a 12. 15. a 13. 2. a 14. 14. a 15. 30, 31. Marc 6. 33.

* Yn Marc 6. 31, gwelwn i'r Iesu alw ar y dysgyblion eu hunain i fyned gydag ef o'r neilldu; ond yn adn. 33, o'r bennod hòno, ni a gawn fod tyrfa fawr yn ei ganlyn ef fel yma. † Yr oedd llawer yn ddïau yn ei ganlyn ef o chwilfrydedd *(curiosity)* yn unig, i gael gweled ychwaneg o'i wyrthiau ef, ac eraill er mwyn cael iachâd iddynt eu hunain neu eu cyfeillion: ychydig, efallai, oedd yn ei ganlyn ef o wir awydd am gael clywed ei athrawiaeth nefol.

3 e * A'r Iesu a aeth i fynu i'r mynydd, ac a eisteddodd yno gyd â'i ddisgyblion.

e adn. 15. Mat. 14. 23. a 15. 29. Luc 6. 12, 13. a 9. 28.

4 f † A'r pasc, gwyl yr Iuddewon, oedd yn agos.

f pen. 2. 13. a 5. 1. a 11. 55. a 12. 1. a 13. 1. Ex. 12. 6, &c.

Rhyw le anghyfannedd yn perthyn i Bethsaida oedd y mynydd hwn. Gwel Luc 9. 10. gwel hefyd ar Matth. 14. 14. † Tybir mai y trydydd pasg o weinidogaeth Iesu ydoedd hwn. Gwel ar pen. 2. 13. Yr oedd yn amser cyfleus a hyfryd iawn yn awr i bregethu ar y mynydd, gan ei bod yn dymmor eilir *(spring)* a'r haf yn nesâu: a chan fod y pasg yn nesâu, yr oedd y dyrfa yn llïosog, am fod y bobl tua'r amser hwnw ar eu taith o bob parth o'r wlad tua Jerusalem.

5 ¶ * Yna yr Iesu a ddyrchafodd *ei* lygaid, g ac a welodd fod tyrfa fawr yn dyfod atto; ac a ddywedodd wrth † Phylip, h O ba le y prynwn ni fara, fel y caffo y rhai hyn fwytta?

g pen. 4. 35. Mat. 14. 15. Marc 6. 34, 35. Luc 9. 12. h Mat. 15. 33. Marc 8. 2—4. Luc 9. 13.

Gwel hanes am y wyrth hon yn Matth. 14. 13, &c.;

Marc 6. 35, &c.; a Luc 9. 10, &c. * Mae yr efengylwyr eraill yn dywedyd mai ar ol pregethu i'r dyrfa, a iachâu eu cleifion, y dywedodd Iesu fel hyn wrth Phylip, tua'r hwyr. † Sylwyd ar adn. 3, mai rhyw le yn perthyn i Bethsaida oedd y lle yr oedd Iesu ynddo yn awr; ac un o Bethsaida oedd Phylip, (pen. 1. 44,) dyna pa ham y cyfeiriodd Iesu ei ofyniad ato *ef*, efallai, yn fwy na'r un arall: fel pe dywedasai, Yr wyt ti Phylip yn gynnefin yma, o ba le y prynwn ni fara i'r dyrfa hon.

6 (A hyn a ddywedodd efe [i] i'w brofi ef: canys efe a wyddai beth yr oedd efe ar fedr ei wneuthur)

i Gen. 22. 1. Deut. 8. 2, 16. a 13. 3. a 33. 8. 2 Cron. 32. 31.

* Nid am nas gwyddai pa beth i wneyd y gofynodd Iesu fel hyn i Phylip, canys efe a wyddai beth yr oedd ef ar fedr ei wneuthur; ond efe a ofynodd i brofi ei ffydd ef, a'i ufudd-dod, ac i dynu ei sylw ef a'r dysgyblion eraill yn fwy, at yr hyn yr oedd efe yn myned i'w wneyd.

7 Phylip a'i hattebodd ef, [k] * Gwerth dau can [l] ceiniog o fara nid yw ddigon iddynt hwy, † fel y gallo pob un o honynt gymmeryd ychydig.

k Num. 11. 21, 22. Marc 6. 37. l pen. 12. 5. Mat. 18. 28.

* Tua chwech punt a choron o'n harian ni, medd *Doddridge*, oedd y dau càn ceiniog hyn. Mae yn debyg bod hyny gan y dysgyblion fel trysor cyffredin cyd-rhyngddynt, ac mai hyny yn unig oedd ganddynt. Gwel ar Marc 6. 37. † Fel pe dywedasai Phylip, Pe prynem ni werth hyny o fara, o *fara* yn unig, heb ddim byd fel enllyn i'w fwyta gyd ag ef, ni byddai braidd ddim tammaid prawf i bob un o honynt. Yr oedd geiriau Phylip yn burion yn yr ystyr naturiol, ond mae yn amlwg nad oedd efe yn meddwl dim am allu gwyrthiol Crist.

8 Un o'i ddisgyblion a ddywedodd wrtho; [m] Andreas, brawd Simon Pedr,

m pen. 1. 40—44. Mat. 4. 18.

9 Y mae yma rhyw fachgennyn, [n] a chanddo bùm [o] torth haidd, a dau bysgodyn: [p] ond beth yw hynny rhwng cynnifer?

n Mat. 14. 17. a 16. 9. Marc 6. 38. a 8. 19. Luc 9. 13. o Deut. 8. 8. a 32. 14. 1 Bren. 4. 28. 2 Bren. 7. 1. Salm 81. 16. a 147. 14. Ezec. 27. 17. 2 Cor. 8. 9. Dat. 6. 6. p adn. 7. pen. 11. 21, 32. 2 Bren. 4. 42—44. Salm 78. 19, 20, 41.

10 A'r Iesu a ddywedodd, [q] Perwch i'r dynion eistedd i lawr. * Ac yr oedd glaswellt lawer yn y fan *honno*. † Felly y gwŷr a eisteddasant i lawr, ynghylch ‡ pùm mil o nifer.

q Mat. 14. 18, 19. a 15. 35, 36. Marc 6. 39—41. a 8. 6, 7. Luc 9. 14—16.

11 A'r Iesu a gymmerth y torthau, [r] ac wedi iddo ddiolch, efe a'*u* rhannodd i'r disgyblion, a'r disgyblion i'r rhai oedd yn eistedd; felly hefyd o'r pysgod, cymmaint ag a fynnasant.

r adn. 23. 1 Sam. 9. 13. Luc 24. 30. Act. 27. 35. Rhuf. 14. 6. 1 Cor. 10. 31. 1 Thes. 5. 18. 1 Tim. 4. 4, 5.

12 [s] Ac wedi eu digoni hwynt, efe a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, Cesglwch y briwfwyd gweddill, [t] fel na choller dim.

s Neh. 9. 25. Mat. 14. 20, 21. a 15. 37, 38. Marc 6. 42—44. a 8. 8, 9. Luc 1. 53. a 9. 17. t Diar. 18. 9. Luc 15. 13. a 16. 1.

13 Am hynny hwy a'*u* casglasant, [u] ac a lanwasant ddeuddeg basgedaid o'r briwfwyd o'r pùm torth haidd a weddillasai gan y rhai a fwyttasent.

u 1 Bren. 17. 15, 16. 2 Bren. 4. 2—7. 2 Cron. 25. 9. Diar. 11. 24, 25. 2 Cor. 9. 8, 9. Phil. 4. 19.

* Gan fod yr hanes uchod yr un peth o ran sylwedd â'r hyn a adroddwyd gan yr efengylwyr eraill, ni wnawn ond cyfeirio y darllenwyr at y mànau hyny er mwyn byrdra, ac awn yn mlaen i sylwi ar bethau eraill yn y bennod hon nad adroddir gan Matthew, Marc, a Luc. * Ar y tymmor hwn o'r flwyddyn (gwel ar adn. 3,) mae yn ddïammau bod yno lawer o laswellt hyfryd. † Eisteddasant yn fyrddeidiau, medd Marc 6. 39; hyny yw, yn rhesi; a lle i'r dysgyblion i gerdded rhyngddynt i ddosparthu y bwyd iddynt. Tybir eu bod yn hanner cant o resi, a chant o ddynion yn mhob rhes, yr hyn a wna bùm mil union. Un yn caru trefn a glanweithdra oedd Iesu; mae trefn yn amlwg yn ngosodiad y dynion i eistedd fel y sylwyd, a glanweithdra i'w weled yn eu gosod i eistedd ar y glaswellt: nid am ddim y crybwyllwyd hyny. ‡ Pùm mil heblaw gwragedd a phlant, medd Matth. 14. 21: rhaid bod y rhai hyny yn rhyw le arall, ar eu pennau eu hunain.

14 * Yna y dynion, pan welsant yr arwydd a wnaethai yr Iesu, a ddywedasant, [x] Hwn yn ddïau yw y prophwyd oedd ar ddyfod i'r byd.

x pen. 1. 21. a 4. 19, 25, 42. a 7. 40. Gen. 49. 10. Deut. 18. 15—18. Mat. 21. 11. Luc 7. 16. a 24. 19. Act. 3. 22—24. a 7. 37.

* Nis gwnaethai Moses, na neb o'r prophwydi, y fath arwydd â hwn erioed: ac yr oedd yn amlwg i'r dyrfa fod yn rhaid cael gallu crëawl i'w wneyd. † Hyny yw, nid *rhyw* brophwyd; ond "*y* Prophwyd oedd ar ddyfod i'r byd," sef y Messiah mawr ei hun: dysgwyliai yr Iuddewon y byddai y Messiah yn Brophwyd yn gystal ac yn Frenin.

15 ¶ * Yr Iesu gan hynny, [y] pan wybu eu bod hwy ar fedr dyfod, [z] a'i gipio ef i'w wneuthur yn frenhin, [a] † a giliodd drachefn i'r mynydd, ei hunan yn unig.

y pen. 2. 24, 25. Heb. 4. 13. z pen. 7. 3, 4. a 12. 12, 13, Marc 11. 9, 10. Luc 19. 38. a pen. 5. 41. a 18. 36. Mat. 14. 22, 23. Marc 6. 46, 47.

Sonia Matthew a Marc i Grist fyned i'r mynydd ei hunan ar ol y wyrth hon; ond nid oes un o honynt yn dywedyd yr achos o hyny. * Sylwyd amryw weithiau o'r blaen, mai fel brenin daearol yr oedd yr Iuddewon yn dysgwyl y Messiah, i'w gwaredu hwy rhag eu holl elynion daearol, a rhag y Rhufeiniaid yn enwedig yr amser hwnw: pan gredodd y dyrfa hon mai Iesu oedd y Messiah, meddyliasant am ei wneyd ef yn frenin yn y fàn, a hyny o drais; gan beri iddo, bodd neu anfodd, gymmeryd y swydd hòno arno. Tybiasant, mae yn debyg, eu bod hwy yn ddigon o nifer iddo ddechreu; a thybient y gallai efe gynnal y fyddin fwyaf lliosog a ymrestrai dàn ei faner, drwy wyrthiau; heb ddim costiau eraill yn y byd, a buddugoliaethu hefyd ar bawb. † Pan wybu yr Iesu hyny, efe a ddanfonodd ei ddysgyblion ymaith, rhag iddynt ymuno â'r dyrfa yn y gyfryw weithred ffol ac enbyd, ac a giliodd ei hunan i'r mynydd, yn ddïarwybod i bawb o honynt, mae yn debyg. Gwel ar Matth. 14. 22.

16 * A phan hwyrhâodd hi, ei ddisgyblion a aethant i waered at y môr.

* Adroddir y darn hwn o'r hanes yn helaethach gan yr efengylwyr eraill, Matth. 14. 23—34; a Marc 6. 46—53. Gwel y sylwadau yno.

17 Ac wedi iddynt ddringo i long, [b] hwy a aethant dros y * môr i † Capernaum. Ac yr oedd hi weithian yn dywyll, ‡ a'r Iesu ni ddaethai attynt hwy.

b adn. 24, 25. pen. 2. 12. a 4. 46. Marc 6. 45.

18 [c] A'r môr, gan wynt mawr yn chwythu, a gododd.

c Salm 107. 25. a 135. 7. Mat. 14. 24.

19 Yna, [d] wedi iddynt rwyfo ynghylch || pump ar hugain neu ddeg ar hugain o [e] ystadiau, [f] hwy a welent yr Iesu yn rhodio ar y môr, ac yn nesâu at y llong; ac a ofnasant.

d Ezec. 27. 26. Jona 1. 13. Marc 6. 47, 48. e pen. 11. 18. Luc 24. 13. Dat. 14. 20. a 21. 16. f pen. 14. 18. Job 9. 8. Salm 29. 10. a 93. 4. Mat. 14. 25, 26. Marc 6. 49. Luc 24. 36—39.

20 Ond efe a ddywedodd wrthynt, [g] Myfi
; nac ofnwch.
g Es. 41. 10, 14. a 43. 1, 2. a 44. 8. Mat. 14. 27—31. Marc 6.
a 16. 6. Dat. 1. 17, 18.
21 [h] Yna y derbyniasant ef yn chwanog i'r
ng: § ac yn ebrwydd yr oedd y llong wrth
tir yr oeddynt yn myned iddo.
h Salm 24. 7—10. Can. 3. 4. Mat. 14. 32, 33. Marc 6. 51. Dat.
0.

* Wrth y "môr" yma y meddylir, môr Galilea, neu
i Tiberias, neu Genesaret. † Yn Marc 6. 45, dywed-
mai "i'r làn arall i Bethsaida" y parodd yr Iesu i'w
wsgyblion fyned; a chan ei fod ef a hwythau y pryd
mw yr un tu i'r môr, neu llyn, â Bethsaida, tybir fod
ich neu grigyll o'r môr yn rhedeg i mewn i'r wlad
ngddynt hwy a dinas Bethsaida: ac wrth geisio
esi y crigyll hwnw, i'r gwynt eu chwythu allan i'r
r, ac iddynt yn y diwedd ddyfod i Capernaum, yr hon
ld ar làn gorllewinol y môr, gyferbyn â Bethsaida.
s gwyddis pa fodd i gysoni Marc a Ioan yn y ddau le
n heb dybied mai felly yr oedd. Gwedi y cwbl mae
sgedigion yn addef nas gwyddant yn sicr pa du i'r
ôr yr oedd Bethsaida yn sefyll. ‡ Yn adn. 15, gwel-
m i'r Iesu gilio i'r mynydd ei hunan, i'r dyben o gym-
ithasu â Duw yn ddirwystr, i brofi ffydd ei ddysgybl-
n, i ddangos ei fawredd dwyfol yn rhodio ar y môr, a
wy geryddu y gwynt â'r tonau i dawelwch. || Ychydig
wy na thair milltir oedd hyny: buont o ddechreu y
s hyd y bedwerydd wylfa (Matth. 14. 25.) yn rhwyfo
ny; yn erbyn y gwynt, mae yn debyg; gan geisio
ned i mewn i Bethsaida, neu i ymgadw rhag y làn, a
ael llong-ddrylliad ar leoedd geirwon: ped ymollyng-
ent gyda'r gwynt, ni buasai achos rhwyfo; ac y mae
atthew 14. 24, yn dywedyd mai gwynt *gwrthwynebus*
oedd. § Mae iaith yr efengylwr yma fel pe byddai yn
ngos mai peth gwyrthiol oedd eu bod wrth y tir mòr
rwydd. Gwel yn helaethach ar yr hanes hwn ar y
ànau uchod a enwyd dàn adn. 16.

22 ¶ * Trannoeth, pan welodd y dyrfa
edd yn sefyll y tu hwnt i'r môr, † nad oedd
n llong arall yno ond yr un honno i'r hon yr
ethai ei ddisgyblion ef, ac nad aethai yr Iesu
yd â'i ddisgyblion i'r llong, [i] ond myned o'i
disgyblion ymaith eu hunain;
i adn. 16, 17. Mat. 14. 22. Marc 6. 45.
23 (Eithr [k] llongau eraill a ddaethent o
Tiberias yn gyfagos i'r fan [m] lle y bwyttas-
nt hwy fara, || wedi i'r Arglwydd roddi diolch)
k adn. 24. l Gwel ar adn. 1. m Gwel ar adn. 11, 12.
24 Pan welodd y dyrfa gan hynny nad
edd yr Iesu yno, na'i ddisgyblion, [n] hwythau
aethant i longau, ac a ddaethant i Caperna-
um, [o] § dan geisio yr Iesu.
n adn. 17, 23. o pen. 7. 11. a 18. 4, 5. a 20. 15. Marc 1.
, Luc 8. 40.

* Mae yn debyg i'r dyrfa aros yn y lle anghyfannedd
wnw drwy y nos, gan obeithio cael gweled ychwaneg
i wyrthiau ef dranoeth. † Gwelsant nad aethai efe
naith gyda'i ddysgyblion yn y llong, a chan nad oedd
no yr un llong arall ar y pryd, penderfynasant ei fod ef
n rhywle yr ochr hòno i'r llyn o hyd. Ychydig oedd-
nt hwy yn feddwl y medrai efe rodio ar y môr yn gystal
u porthi hwy yn wyrthiol. ‡ Dinas bur enwog oedd
iberias ar làn orllewinol môr Galilea, yr un tu a
lhapernaum; ond yn fwy i'r de. Erbyn tranoeth yr
edd llongau wedi dyfod oddi yno yn gyfagos i'r fàn lle
wnaed y wyrth y dydd o'r blaen. || Mae adrodd *hyn* yn
fàn *yma*, yn dangos fod rhoddi diolch am ymborth,
yn gystal a gofyn bendith arno) yn fwy peth yn ngolwg
efengylwr, nag ydyw yn ngolwg llawer o'i ddarllen-
yr. § Aethant i geisio yr Iesu; nid o gariad yn y byd
ei Berson na'i athrawiaeth ef, fel y gallwn weled yn
dn. 26, 60, a 66; ond o chwilfrydedd gwag i weled rhyw
ryfeddodau ychwaneg ganddo ef. Siomodd ein Harglwydd hwy yn hyn; ond efe a draddododd bregeth ragorol iddynt.

25 Ac wedi iddynt ei gael ef y tu hwnt i'r môr, hwy a ddywedasant wrtho, [p] Rabbi, * pa bryd y daethost ti yma?
p Gwel ar pen. 1. 38, 49.

26 Yr Iesu a attebodd iddynt, ac a ddywedodd, [q] Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, [r] † Yr ydych chwi yn fy ngheisio i, nid o herwydd i chwi weled y gwyrthiau, ‡ eithr o herwydd i chwi fwytta o'r torthau, a'ch digoni.
q adn. 47, 53. pen. 3. 3, 5. r adn. 15, 64. Salm 78. 37. a 106. 12—14. Ezec. 33. 31. Act. 8. 18—21. Rhuf. 16. 18. Phil. 2. 21. a 3. 19. 1 Tim. 6. 5. Iago 4. 3, 4.

* Gofyniad ffol ac afraid; ac ni welodd yr Iesu fod yn dda roddi ateb iddo. † Yn lle hyny gadawodd iddynt wybod yr adwaenai efe eu calonau hwy, ac nad oeddynt yn ei geisio ef oddi ar iawn egwyddor nac i iawn ddyben. ‡ Ewyllysio ei wneuthur ef yn frenin daearol yr oeddynt hwy o hyd, a chael eu porthi yn wyrthiol ganddo, a mwynâu rhyw fanteision tymmorawl eraill dàn ei deyrnasiad ef.

27 * Llafuriwch nid am y [s] † bwyd a dderfydd, eithr am y [t] bwyd a bery i fywyd tragywyddol, [u] ‡ yr hwn a ddyry Mab y dyn i chwi: [x] || canys hwn a seliodd Duw Dad.
s pen. 4. 13, 14. Preg. 5. 11—16. a 6. 7. Es. 55. 2, 3. Hab. 2. 13. Mat. 6. 19, 20, 31—33. Luc 10. 40—42. 1 Cor. 6. 13. a 7. 29—31. a 9. 24—27. 2 Cor. 4. 18. Col. 2. 22. a 3. 2. Heb. 4. 11. a 12. 16. Iago 1. 11. 1 Pedr 1. 24. 2 Pedr 3. 11—14. t adn. 40, 51, 54, 68. u pen. 10. 28. a 11. 25, 26. a 14. 6. a 17. 2. Diar. 2. 2—6. Rhuf. 6. 23. x pen. 1. 33, 34. a 5. 36, 37. a 8. 18. a 10. 37, 38. a 11. 42. a 15. 24. Es. 11. 1—3. a 61. 1—3. Mat. 3. 17. Marc 1. 11. Luc 3. 22. a 4. 18—21. Act. 2. 22. a 10. 38.

* Mae yn debyg mai dynion yn byw wrth lafur eu dwylaw oedd y rhan fwyaf o'r dyrfa hon; nid gwahardd hyny iddynt yr oedd yr Iesu, ond dangos pa faint y dylai achos yr enaid gael y flaenoriaeth ar angenrheidiau y corph. † Bwyd a dderfydd yw pob peth a berthyn i'r corph, a pheth a dderfydd yw y corph hefyd: Duw a ddinystria hwn a hwythau. Ond peth a bery byth yw yr enaid; a bwyd a bery i fywyd tragywyddol yw pob peth at gadwedigaeth ac ymgeledd yr enaid. ‡ Nid yn unig Mab y dyn a'i dyry, ond efe ei hun ydyw. Gwel adn. 48. || Rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder o'r ymborth ysbrydol hwn yn ei Fab, yr hwn hefyd yw Mab y dyn; gosododd ef yn Gyfranydd o hóno i'w bobl: ac efe a *seliodd* y gosodiad hwnw ac a'i tystiolaethodd yn ei fedyddiad ef, a thrwy y gwyrthiau a wnaeth efe. Tybir fod yma gyfeiriad at ddefod gan freninoedd pan wnelynt wledd fawr, o roddi awdurdod dan eu llaw a'u *sel*, i'r neb a bennodent hwy i lywodraethu y wledd hòno. Yn wir y mae pob gosodiad mewn swyddau uchel gan frenin, yn cael ei wneyd, ei gadarnâu, a'i dystiolaethu, drwy *sel* y brenin. Esther 3. 10, 12; a 8. 8. Gen. 41. 42.

28 * Yna y dywedasant wrtho, [y] Pa beth a wnawn ni, fel y gweithredom weithredoedd Duw?
y Deut. 5. 27. Jer. 42. 3—6, 20. Mica 6. 7, 8. Mat. 19. 16. Luc 10. 25. Act. 2. 37. a 9. 6. a 16. 30.

* Yr oeddynt hwy yn ystyried y "llafurio" uchod a orchymynai Crist, mewn ystyr ddeddfol; ac efallai bod y rhan fwyaf o honynt yn grefyddwyr pur fanol eisoes yn ol y ddeddf, neu o leiaf yn tybied eu hunain felly: yna maent yn gofyn, Pa weithredoedd ychwaneg, neu well, sydd i'w gwneuthur, nag yr ydym ni yn eu gwneuthur? A oes rhyw weithredoedd gwell nac a orchymynir yn nghyfraith Moses, a thraddodiadau y tadau, er caffael bywyd tragywyddol?

29 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, [z] * Hyn yw gwaith Duw; † credu o honoch yn yr hwn a anfonodd efe.

z pen. 3. 16—18, 36. a 5. 39. Deut. 18. 18, 19. Salm 2. 12. Mat. 17. 5. Marc 16. 16. Act. 16. 31. a 22. 14—16. Rhuf. 4. 4, 5. a 9. 30, 31. a 10. 3, 4. Heb. 5. 9. 1 Ioan 3. 23. a 5. 1.

* "Hyn yw gwaith Duw:" a orchymynir gan Dduw, a weithredir ynom gan Dduw, Phil. 2. 13. ac a gymmeradwyir gan Dduw. † Dyma waith na feddyliasant hwy erioed am dano; credu yn Iesu o Nazareth fel Messiah anfonedig y Tad, a hyny am iachawdwriaeth dragywyddol eu heneidiau, nid credu ynddo fel brenin daearol yn unig. Dyma waith Duw; ac heb hyn nid oedd pob gwaith arall, ac nid yw ychwaith eto, ond anghymmeradwy gan Dduw, ac anfuddiol i ddynion.

30 Dywedasant gan hynny wrtho ef, [a] * Pa arwydd yr ydwyt ti yn ei wneuthur, fel y [b] gwelom, ac y credom i ti? pa beth yr wyt ti yn ei weithredu?

a pen. 2. 18. a 4. 48. Ex. 4. 8. 1 Bren. 13. 3, 5. Es. 7. 11—14. Mat. 12. 38, 39. a 16. 1—4. Marc 8. 12. Luc 11. 29, 30. Act. 4. 30. 1 Cor. 1. 22. Heb. 2. 4. b adn. 36. pen. 10. 38. a 12. 37. a 20. 25—29. Es. 5. 19. Marc 15. 32.

* Nid oedd Moses erioed wedi galw ar y bobl i gredu ynddo ef ei hun, na neb o'r Doctoriaid Iuddewig wedi galw am y fath beth a hyny erioed; felly yr oedd athrawiaeth Iesu yn ymddangos yn hollawl newydd i'r bobl hyn, ac yn hynod o ddïeithr: a phe buasent heb weled un arwydd ganddo erioed, ni buasai eu cais yma mòr afresymol; ond gan eu bod hwy wedi gweled arwydd ryfedd mòr ddiweddar, a llawer o honynt yn ddïau wedi gweled arwyddion eraill yn Capernaum, yr oedd eu cais yn dra afresymol a digywilydd.

31 [c] * Ein tadau ni a fwyttasant y manna yn yr anialwch, fel y mae yn ysgrifenedig, [d] Efe a roddodd iddynt fara o'r nef i'w fwytta.

c adn. 49. Ex. 16. 4—15, 35. Num. 11. 6—9. Deut. 8. 3. Jos. 5. 12. Neh. 9. 20. Salm 105. 40. d Neh. 9. 15. Salm 78. 24, 25. 1 Cor. 10. 3. Dat. 2. 17.

* Yma maent yn mawrygu Moses, er mwyn iselu Crist; a'r hyn a wnaethai Moses, yn eu tyb hwy, er mwyn bychanu y wyrth a wnaethai Crist y dydd o'r blaen. Yr oedd Moses wedi cael gwell bara na Iesu; "bara angelion" a gafodd efe, bara haidd oedd gan Grist. Yr oedd Moses wedi cael bara i'r holl gynnulleidfa; nid oedd Crist ond wedi porthi pùm mil, heblaw gwragedd a phlant. Yr oedd Moses wedi porthi yr holl bobl am ddeugain mlynedd; nid oedd Iesu ond wedi eu porthi hwy am un pryd. Fel hyn yr oedd anghrediniaeth yn ymresymu ac yn gweithredu, er dallu llygaid y bobl hyn, a rhwystro iddynt gredu yn Mab Duw, yr hwn oedd yn "haeddu mwy gogoniant na Moses."

32 * Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, [e] Nid Moses a roddodd i chwi y bara o'r nef: eithr fy Nhad † sydd yn rhoddi i chwi [f] y gwir fara o'r nef.

e Ex. 16. 4, 8, 15. Salm 78. 23. f adn. 33, 35, 41, 50, 55, 58. pen. 1. 9. a 15. 1. 1 Ioan 5. 20.

* I hyn mae Crist yn ateb gyda ei ddifrifwch arferol ar bethau pwysig, ac yn dywedyd mai nid Moses a roddodd y manna i'w tadau, ond Duw, ei Dad ef: nid arferodd Moses ddim moddion tuag at ei gael, a llawer llai y *crëodd* efe ef: Duw a'i danfonodd; ac nid o'r drydedd nef ychwaith, ond o barthau uchaf yr awyr naturiol. † Fel pe dywedasai yr Iesu, nid oedd y bara hwnw ond cysgod o'r gwir fara: myfi yw y gwir fara, yr hwn a ddanfonodd y Tad o'r drydedd nef. Gwelwn yma yr un pwnc gan y bobl a Christ, yn cael ei ddefnyddio yn hollawl i'r gwrthwyneb; ganddynt hwy i'w cadarnâu eu hunain mewn anghrediniaeth, a chan Iesu i brofi ei ddanfoniad oddi wrth y Tad, ac y dylasent hwythau gredu ynddo fel y cyfryw. Gallwn weled yr un peth yn mhob dadleuaeth rhwng Iesu â'r bobl ni fynent gredu ynddo.

33 * Canys bara Duw ydyw yr † hwn [g] sydd yn dyfod i waered o'r nef, ‡ ac yn rhoddi bywyd i'r byd.

g adn. 38, 48, 51. a 3. 13. a 8. 42. a 13. 3. a 16. 28. a 17. 8. 1 Tim. 1. 15, 16. 1 Ioan 1. 1, 2.

* "Bara Duw:" mewn ffordd o enwogrwydd, a rhagoroldeb ar y manna: y ddarpariaeth ddwyfol a rhagorol a wnaeth Duw i'w deulu. † Dywed dysgedigion y gellid cyfleithu y geiriau Groeg *(ô katabainôn)* "Yr *hyn* sydd yn dyfod i waered o'r nef," yn fwy priodol nac "yr *hwn* sydd yn dyfod i waered o'r nef." Mae yn ddïau fod Crist yn llefaru am dano ei hun; ond am dano ei hun a'r hyn oll oedd ynddo, er bywyd tragywyddol i'w bobl. ‡ Nid oedd y manna ond *cynnal* bywyd yn y rhai byw; mae bara Duw yn *rhoddi* bywyd i'r rhai meirw, a hwnw yn fywyd tragywyddol. Nid oedd y manna ond yn cynnal bywyd i'r Israeliaid yn unig; mae Iesu a'i iachawdwriaeth yn rhoddi bywyd i'r *byd*, sef i bawb a gredant ynddo ef o genedloedd ac Iuddewon.

34 * Yna hwy a ddywedasant wrtho, Arglwydd, [h] dyro i ni y bara hwn yn wastadol.

h adn. 26. pen. 4. 15. Salm 4. 6.

* Tybia rhai mai mewn gwawd a dirmyg yr oeddynt yn dywedyd fel hyn; gan feddwl mai ynfydrwydd ac anmhosiblrwydd oedd yr hyn a lefarai yr Iesu. Tybia eraill, ac y rhan fwyaf, mai gyda pharch a difrifwch yr oeddynt yn dywedyd y geiriau; ond nad oeddynt yn deall ymadroddion Iesu yn eu hystyr ysbrydol; tybient ei fod ef o hyd yn llefaru am ryw fara naturiol, neu ryw bethau tymmorol a'u gwnelai hwy yn dra dedwydd ond eu cael.

35 * A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, [i] Myfi yw bara y bywyd. [k] † Yr hwn sydd yn dyfod attaf fi, [l] ‡ ni newyna; a'r hwn sydd yn credu ynof fi, ni sycheda un amser.

i adn. 41, 48—58. 1 Cor. 10. 16—18. a 11. 23—29. k adn. 37, 44, 45, 65. pen. 5. 40. a 7. 37. Es. 55. 1—3. Mat. 11. 28. Dat. 22. 17. l pen. 4. 13, 14. Es. 49. 10. Luc 6. 25. Dat. 7. 16.

* Cymmerodd yr Iesu achlysur i sôn am dano ei hun a bendithion yr iachawdwriaeth dan y gyffelybiaeth o fara, o herwydd bod y bobl yn ei ganlyn ef er mwyn y torthau, ac o herwydd iddynt ganmol cymmaint ar y manna: yma mae yn dywedyd yn amlwg mai efe ei hun yw bara y bywyd. Peth cyffredin yn yr ysgrythyrau yw gosod allan addysg ysbrydol dàn y gymhariaeth o ymborth melus a danteithiol; (Salm 19. 10; 119. 103; Diar. 9. 5; Job 23. 12; Jer. 15. 16; Heb. 5, 12, 14;) ond nid yw yr addysgydd ei hun yn un màn yn cael ei alw yn *fwyd*, ac ni ddywedir fod neb yn ei *fwyta ef*; fel y dywed Crist yma, ac yn yr adnodau a ganlyn: felly rhaid bod y geiriau yn arwyddo rhyw beth mwy na'i ddysgeidiaeth ef fel athraw: rhaid eu bod yn cynwys yr athrawiaeth fawr am ei aberth a'i iawn ef dros bechodau. ac mae gwaith rhai dehonglwyr, (*Clarke* yn un) yn eu cyfyngu hwynt at ei ddysgeidiaeth ef yn unig, yn tueddu i arwain meddyliau dynion oddiwrth aberth ac iawn Crist. † Mae dyfod at Crist yma ac yn yr adnod nesaf, yn arwyddo yr un peth a chredu ynddo: yr oedd y bobl hyn eisoes wedi dyfod yn gorphorol ato; ac nis gellir dywedyd fod y bendithion a enwir yma yn perthyn i'r rhai rhai a ddeuant felly ato. ‡ Ni chyfrgollir y neb a gredo ynddo o ddiffyg ymgeledd ysbrydol ac mewn pryd i'w enaid, fel y mae dyn anghenus yn nychu ac yn marw o eisiau bwyd a diod.

36 * Eithr dywedais wrthych, [m] † i chwi fy ngweled, ‡ ac nad ydych yn credu.

m adn. 30, 40, 64. pen. 12. 37. a 15. 24. Luc 16. 31. 1 Pedr 1. 8, 9.

* Sef yn adn. 26 efallai. † Gwelsant ef a'r wyrth a wnaeth, a gorfu arnynt addef bod y wyrth yn rhyfedd, ac yntau y prophwyd oedd ar ddyfod i'r byd. ‡ Eto y cyfryw oedd tywyllwch eu syniadau cnawdol, er gweled ni chredent mai efe oedd bara y bywyd, Crist iachawdwr y byd.

37 [n] * Yr hyn oll y mae y Tad yn ei roddi i mi, [o] † a ddaw attaf fi: ‡ a'r hwn a ddêl attaf fi, [p] nis bwriaf ef allan ddim.

n adn. 39. pen. 17. 2, 6, 9, 11, 24. o adn. 44, 65. pen. 10. 9. Salm 110. 3. Eph. 2. 4—10. Phil. 1. 29. 2 Thes. 2. 13, 14. n. 2. 19. Tit. 3. 3—7. p pen. 9. 34. Es. 1. 18, 19. a 41. 9. 3. a 55. 7. Luc 23. 40—43. Rhuf. 5. 20. 1 Tim. 1. 16. Heb. 4. 5. a 7. 25. Dat. 22. 17.

Ond er na chredwch chwi, fel pe dywedasai yr Iesu, ae rhai a gredant ynof fi, ac a ddeuant ataf: pawb a odd y Tad i mi yn ei rag-wybodaeth a'i ddewisiad nynt; pawb a roddodd efe i mi mewn tragywyddol eth a chyfammod, o'r hwn yr ydwyf fi yn Ben ac yn nïydd; pawb ag y mae ef yn roddi i mi mewn amrwy weithrediadau yr Ysbryd Glân, a gras tumewnol; ddaw y rhai hyn oll ataf fi, trwy gredu ynof: mae y yniad yn sicr; hwy a ddeuant, a hyny o'u bodd, nid ais a gorfod. Gwelant eu heuogrwydd, eu trueni, perygl, a'u gwaredigaeth, drwy ddysgeidiaeth yr ryd Glân, a deuant yn ewyllysgar ac o'u gwirfodd, ymwrthod â phob gobaith ac elw, a fyddo yn ystr iddynt ddyfod ataf fi am iachawdwriaeth. ‡ A y bynag a ddel felly nis bwriaf ef allan ddim, mewn modd: nis gwrthodaf ef pan ddelo, ac nis bwriaf ef m byth wedi y delo: er annheilynged a fyddo, nis iaf ef allan ddim. Gwelwn yma fod Crist yn gosod n arfaeth, etholedigaeth, a chyfammod y Tad yn wg; ac hefyd yn rhoddi y calondid mwyaf i bwy ag a ewyllysia, i ddyfod ato ef: felly mae yn sicr nad dim anghysondeb rhwng y ddwy athrawiaeth.

38 q * Canys myfi a ddisgynais o'r nef, dd i wneuthur fy ewyllys fy hun, ond ewyllys hwn a'm hanfonodd.

q adn. 33. pen. 3. 13, 31. Eph. 4. 9. r pen. 4. 34. a 5. 30. m 40. 7, 8. Es. 53. 10. Mat. 20. 28. a 26. 39—42. Rhuf. 15. 3. 1. 2. 7, 8. Heb. 5. 8. a 10. 7—9.

* Dywed Crist hyn er cadarnâu yr hyn a ddywedodd yr adnod o'r blaen: nid ar neges ansicr y daeth efe byd, nac i ddwyn yn mlaen ryw amcan o'i eiddo ei m, gwahanol oddiwrth yr eiddo y Tad; ond i wneuir ewyllys y Tad, i gyflawni y pethau a benderfynwyd nynt mewn cyngor tragywyddol, er cyn seiliad y byd: ewyllys yr Arglwydd a lwydda yn ei law ef, am hyn wb a roddwyd iddo a ddeuant ato.

39 s A hyn yw ewyllys y Tad a'm hanfonodd i; t * o'r cwbl a roddes efe i mi, u † na collwn ddim o hono, x ‡ eithr bod i mi ei adyfodi ef yn y dydd diweddaf.

s adn. 40. Luc 12. 32. Rhuf. 8. 28—31. 2 Thes. 2. 13, 14. Ewel ar adn. 37. u pen. 10. 27—30. a 17. 12. a 18. 9. 1 Sam. 29. Col. 3. 3, 4. 1 Pedr 1. 5. Judas 1. x adn. 40. 44, 54. pen. 28, 29. a 11. 24—26. a 12. 48. Rhuf. 8. 11. Phil. 3. 20, 21.

* Mae yr adnod hon yn agoriad ar ddiwedd yr adnod r blaen, ac yn dangos beth yw ewyllys y Tad, * Sef o'r oll dyrfa fawr aneirif a roddes efe i'r Mab yn yr ystyr enwyd uchod, (adn. 37;) † na byddai iddo efe golli un o honynt, na chyn eu galw na chwedi eu galw, n y byd hwn nac yn yr adgyfodiad: ‡ ond bod i'r Mab falu am danynt oll, y gwaelaf fel yr enwocaf, a dangos bob un o honynt yn ddifai ger bron gorsedd Duw yn y ydd diweddaf. Gwelwn yma gadernid iachawdwriaeth r eglwys:—1. Peth o ewyllys y Tad ydyw, o'r dechreu tr diwedd. 2. Mae yr holl eglwys wedi ei rhoddi yn gofal ac eiddo y Mab. 3. Fel y cyfryw mae yn sicr o dyfod ato, a chael ei derbyn ganddo. 4. Mae y Mab an rwymau cyfammod, ewyllys, a chariad hefyd, i falu am dani, a'i hadgyfodi oll yn y dydd diweddaf.

40 * A hyn yw ewyllys yr hwn a'm hanfonodd i; † cael o bob un a'r y sydd yn gweled y Mab, z ac yn credu ynddo ef, ‡ fywyd tragywyddol: ‖ a myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf.

y adn. 36. pen. 1. 14. a 8. 56. Es. 45. 21, 22. a 52. 10. a 53. 2. Luc 2. 32. 2 Cor. 4. 6. Heb. 11. 1, 27. 1 Pedr 1. 8. 1 Ioan 1. 1—3. z adn. 27, 35, 54. pen. 3. 15—18, 36. a 5. 24. a 10. 28. a 12. 50. a 17. 2. Marc 16. 16. Rhuf. 5. 21. a 6. 23. 1 Ioan 2. 25. a 5. 11—13. Judas 21.

* Hyn yw ewyllys ddirgeledig y Tad, a hyn yw ei ewyllys ddatguddiedig hefyd, yr hon y daethum I i'w chyhoeddi, † cael o bob un sydd yn gweled y Mab, â llygaid y meddwl, ac yn credu ynddo, dyna'r moddion; ‡ cael, meddaf, o honynt fywyd tragywyddol, dyna'r dyben. ‖ Ac yn unol âg ewyllys y Tad mi a adgyfodaf bawb o honynt i fywyd tragywyddol, yn y dydd diweddaf. Mae y geiriau Groeg, (*pas ô theôrôn ton whion*) a gyfieithir yma "gweled y Mab," yn arwyddo edrych yn graff ac yn fanwl arno, ac yna credu ynddo, mewn canlyniad i'r cyfryw edrych arno.

41 * Yna yr Iuddewon a a rwgnachasant yn ei erbyn ef, o herwydd iddo ddywedyd, b † Myfi yw y bara a ddaeth i waered o'r nef.

a adn. 43, 52, 60, 66, pen. 7. 12. Luc 5. 30. a 15. 2. a 19. 7. 1 Cor. 10. 10. Judas 16. b adn. 33, 48, 51, 58.

* Gan nad oedd yr holl bethau uchod a ddywedasai yr Iesu am dano ei hun, yn perthyn dim i'w syniadau dychymmygol, a'u dysgwyliadau cnawdol hwy am y Messiah; troisant i rwgnach yn ol eu harfer yn ei erbyn ef, gan haeru ei fod yn dywedyd pethau rhy fawr ac uchel am dano ei hun. † Nid am iddo ddywedyd "Myfi yw y bara," yr oeddynt yn grwgnach gymmaint; nid oeddynt hwy yn deall llawer am hyny; ond am iddo ddywedyd iddo ddyfod i waered o'r nef, ac felly hòni gormod o anrhydedd iddo ei hun.

42 * A hwy a ddywedasant, c Onid hwn yw Iesu mab Joseph, tad a mam yr hwn a adwaenom ni? † pa fodd gan hynny y mae efe yn dywedyd, O'r nef y disgynais?

c pen. 7. 27. Mat. 13. 55, 56. Marc 6. 3. Luc 4. 22. Rhuf. 1. 3, 4. a 9. 5. 1 Cor. 15. 47. Gal. 4. 4.

* Gan nas gwyddent hwy ddim am ei genedliad goruwch-naturiol ef, llawer llai am ddwyfoldeb ei Berson; a chan yr adwaenai rhai o honynt ei rieni ef, ac yntau hefyd, efallai, o'i febyd; † tybient nad oedd efe ddim gwell na chablu wrth ddywedyd, "O'r nef y disgynais."

43 * Yna yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, d † Na furmurwch wrth eich gilydd.

d adn. 64. pen. 16. 19. Mat. 16. 8. Marc 9. 33. Heb. 4. 13.

* Yn eu plith eu hunain y grwgnachodd yr Iuddewon, nid ydym yn deall iddynt ddywedyd dim eto wrth yr Iesu: ond yr oedd efe yn gwybod beth oedd yn eu calonau hwynt, yr hyn oedd brawf iddynt o'i Dduwdod, a'i ddisgyniad o'r nef. † Na furmurwch, ni ddywedais I ddim ond y gwir, er mòr anhygoel yn eich golwg chwi; na furmurwch, ni wna hyny ddim ond eich caledu chwi mewn anghrediniaeth, er niwed i chwi eich hunain; ac na furmurwch, mae genyf fi bethau mwy, a rhyfeddach, i'w dywedyd eto, na dim a ddywedais I hyd yn hyn.

44 e * Ni ddichon neb ddyfod attaf fi, f † oddi eithr i'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd, g ei dynnu ef: h ‡ a myfi a'i hadgyfodaf ef y dydd diweddaf.

e adn. 65. pen. 5. 44. a 8. 43. a 12. 37—40. Es. 44. 18—20. Jer. 13. 23. Mat. 12. 34. Rhuf. 8. 7, 8. f adn. 45, 65. pen. 3. 3—7. Mat. 11. 25—27. a 16. 17. Eph. 2. 4—10. Phil. 1. 29. Col. 2. 12. Tit. 3. 3—5. g pen. 12. 32. Can. 1. 4. Jer. 31. 3. Hos. 11. 4. h adn. 39, 40.

* Yr oedd achos anghrediniaeth a grwgnachrwydd y bobl hyn, (fel holl ddynolryw yn wir) yn llygredigaeth eu calonau eu hunain; y rhai oedd yn dirmygu ac yn gwrthwynebu pethau ysbrydol, ac nid oedd dim ond gallu Duw a allai eu darostwng. † Nid yw yr efengyl yn cael neb yn ewyllysgar i ddyfod at Grist; ni fedr holl ddarbwylliadau dynion wneyd neb yn ewyllysgar; nid oes neb yn cael ei achub yn erbyn ei ewyllys; ond y mae Duw trwy ei ras, yn tueddu ac yn tynu dynion at Grist, a'i dyniad grasol ef yw yr achos cynhyrfiol cyntaf o'u dyfodiad ato. ‡ Cymmer Iesu ofal sicr am bawb a ddyger i gredu ynddo felly; ac yn niwedd amser efe a gyfyd eu cyrph marwol, i fywyd a deddwyddwch anfarwol.

45 i * Y mae yn ysgrifenedig yn y pro-

phwydi, [k] A phawb a fyddant wedi eu dysgu gan Dduw. [l] † Pob un gan hynny a glywodd gan y Tad, ac a ddysgodd, ‡ sydd yn dyfod attaf fi.

i Marc 1. 2. Luc 1. 70. a 18. 31. k Es. 2. 3. a 54. 13. Jer. 31. 33, 34. Mica 4. 2. Eph. 4. 21, 22. 1 Thes. 4. 9. Heb. 8. 10, 11. a 10. 16. l adn. 37, 65. pen. 5. 38—40. a 10. 27. a 16. 14, 15. Mat. 17. 5. Eph. 1. 17. 1 Ioan 4. 1—3.

* Yma mae efe yn dwyn ar gof iddynt, nad oedd efe yn dywedyd dim ond yr hyn a ddywedasai y prophwydi o'r blaen am eglwys y Testament Newydd, y byddent oll wedi eu dysgu gan Dduw. Es. 54. 13; Jer. 31. 33, 34. † A glywodd gan y Tad ac a ddysgodd, trwy wrando a chredu ei air ef, a chael ei oleuo yn ysbrydol gan yr Ysbryd Glân yn y gwirionedd am Dduw, ei ddeddf, am y farn a ddaw, am fyd tragywyddol, am ddrwg pechod, truenus gyflwr dyn, ei angen am drugaredd a gras, am natur a gogoniant yr iachawdwriaeth, ac am Iesu Grist y Gwaredwr: ‡ pawb a glywo ac a ddysgo felly, a gred yn Nghrist ac a ddaw yn wirioneddol ato ef. Mae dysgu gan Dduw yn arwyddo, bod yn ddysgyblion neu yn ysgolheigion i Dduw; ac eistedd yn ostyngedig megys wrth ei draed ef, i dderbyn addysg ganddo. Mae hyn yn gwahaniaethu y ddysgeidiaeth oddiwrth bob dysgeidiaeth gan ddynion am Dduw, fel y mae yn eglur yn Jer. 31. 33, 34, a ddyfynwyd uchod.

46 [m] * Nid o herwydd gweled o neb y Tad, † ond yr hwn sydd o Dduw; [n] efe a welodd y Tad.

m pen. 1. 18. a 5. 37. a 8. 19. a 14. 9, 10. a 15. 24. Col. 1. 15. 1 Tim. 6. 16. 1 Ioan 4. 12. n pen. 7. 29. a 8. 55. Mat. 11. 27. Luc 10. 22.

* Fel pe dywedasai Crist, Na cham-ddeallwch fi, ni welodd un dyn y Tad erioed, i ddysgu ganddo yn ddigyfrwng felly; gan hyny rhaid i ddynion ddysgu ganddo trwy gyfrwng ei air, a'r cenadon hyny mae efe yn eu hanfon. † Yr hwn sydd o Dduw yn hanfodol, sef ei unig-anedig a'i dragywyddol Fab ef: efe, ac efe yn unig a welodd y Tad, ac a'i hedwyn ef fel y mae y Tad yn ei adnabod ei hun, ac a ddichon ei hysbysu ef yn berffaith i eraill.

47 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, [o] * Yr hwn sydd yn credu ynof fi, sydd ganddo fywyd tragywyddol.

o adn. 40, 54. pen. 3. 36. a 5. 24. a 14. 19. Rhuf. 5. 9, 10. Col. 3. 3, 4. 1 Ioan 5. 12, 13.

48 [p] † Myfi yw bara y bywyd.

p adn. 33—35, 41. 1 Cor. 10. 16, 17. a 11. 24, 25.

* Gwel ar pen. 3. 36: yno dywedir, Yr hwn sydd yn credu yn y Mab; yma, Yr hwn sydd yn credu ynof fi, yr hyn sydd yn dangos mai Iesu yw y Mab, a bod yn angenrheidiol credu ynddo fel Mab Duw, i gael bywyd tragywyddol. † Gwel ar adn. 35. Mae holl ffynonau bywyd ysbrydol yn Iesu, a thrwy dderbyn rhinwedd o hóno ef y gwnair y credinwyr yn fyw i Dduw yn y byd hwn, ac y parânt felly, hyd oni chaffont fywyd tragywyddol yn y byd a ddaw.

49 [q] * Eich tadau chwi a fwyttasant y manna yn yr anialwch, [r] † ac a fuont feirw.

q Gwel ar adn. 31. r Num. 26. 65. 1 Cor. 10. 3—5. Heb. 3. 17—19. Judas 5.

* Yn adn. 31, bu y bobl yn dywedyd, Ein tadau ni a fwytasant y manna mewn ffordd o dderchafu gwyrth Moses, a bychanu gwyrth Iesu: yma mae yntau yn crybwyll yr un peth, ond yn dwyn ar gof iddynt i'w tadau feirw er bwyta y manna. † Nis gallai y manna hwnw eu cadw yn fyw byth ar y ddaear, ac nid oedd rhinwedd ynddo i roddi bywyd iddynt mewn byd arall: ie, bu feirw llawer o honynt er ei fwyta, dàn farn Duw am eu grwgnachrwydd a'u hanghrediniaeth, ac ychydig o honynt a fu byw i fwynâu gwlad yr addewid. Bu llawer o honynt hefyd feirw yn dragywyddol, am nad oeddynt yn credu ynof fi y gwir fara, yr hwn yr oedd y manna yn gysgod o hóno.

50 [s] * Hwn yw y bara sydd yn dyfod i waered o'r nef, [t] † fel y bwyttâo dyn o hono, ‡ ac na byddo marw.

s adn. 33, 42, 54. pen. 3. 13. t adn. 58. pen. 8. 51. a 11. 25, 26. Rhuf. 8. 10.

* Hwn, sef Crist ei hun, adn. 35, 48, 51. † Bwyta Crist yma a arwydda credu ynddo; ac mae y gymhariaeth yn addas iawn; oblegid, fel y mae bwyta yn gymhwysiad o'r ymborth at y cylla, er cynnaliaeth y bywyd naturiol; felly y mae credu yn gymhwysiad o Grist at yr enaid, er dechreuad a chynnydd bywyd ysbrydol, ac er cael bywyd tragywyddol o'r diwedd yn y nef. ‡ Pwy bynag a fwytao, neu a gredo yn Nghrist, efe a ddianc rhag digofaint Duw, ac ni bydd farw y farwolaeth dragywyddol byth.

51 * Myfi yw y [u] bara bywiol, yr hwn a ddaeth i waered o'r nef. † Os bwytty neb o'r bara hwn, efe a fydd byw yn dragywydd. ‡ A'r bara a roddaf fi, [x] yw fy nghnawd i, ‖ yr hwn a roddaf fi dros [y] fywyd y byd.

u pen. 4. 10, 11. a 7. 38. 1 Pedr 2. 4. x adn. 52—57. Mat. 20. 28. Luc 22. 19. Eph. 5. 2, 25. Tit. 2. 14. Heb. 10. 5—12, 20. y adn. 33. pen. 1. 29. 2 Cor. 5. 19, 21. 1 Ioan 2. 2. a 4. 14.

* Gwel ar adn. 33. a 35. † Fel mae y corph yn cael ei ymgeleddu gan yr ymborth a fwytêir; felly mae yr enaid sydd yn ymborthi ar Grist trwy ffydd, yn byw yn yr ystyr oreu, ac ni bydd marw byth. ‡ Y bara hwn yw cnawd Crist; ei ddynoliaeth ef, mewn undeb personol â'i Dduwdod, fel yr offrymai hi i'r Tad yn aberth ac yn iawn dros bechodau y byd; er prynu pechaduriaid o bob cenedl, y rhai a gredant ynddo ef, a chaffael iddynt bob peth a berthyn i fywyd a duwioldeb. ‖ Mae prydferthwch mawr yn y geiriau hyn, o'u cymharu âg adn. 31: yno yr oedd y bobl yn lled-arwyddo nad oedd porthi ychydig filoedd â phùm torth, ond peth bychan mewn cymhariaeth â'r hyn a wnaethai Moses, pan borthodd efe holl wersyll Israel; ond mae ein Harglwydd yma yn dangos fod bwriadau ei ras a'i drugaredd ef yn llawer ehangach na hyny, ac yn cyrhaedd yr holl fyd, gan roddi bywyd, anfarwol fywyd, i bawb a gredant ynddo ef.

52 * Yna yr Iuddewon a [z] ymrysonasant â'u gilydd, gan ddywedyd, [a] † Pa fodd y dichon hwn roddi i ni *ei* gnawd i'*w* fwytta?

z adn. 41. pen. 7. 40—43. a 9. 16. a 10. 19. a pen. 3. 4, 9. a 4. 11. Act. 17. 32. 1 Cor. 2. 14.

* Er bod gwaith Crist yn llefaru yn gyffelybiaethol fel hyn am ei gnawdoliaeth a'i aberth, yn beth digon cyffredin yn ol dull y cenedloedd dwyreiniol; ac er bod yr hyn a ddywedasent hwy am y manna wedi rhoddi achlysur iddo lefaru fel hyn; eto yr oeddynt yn deall, neu yn cymmeryd arnynt ddeall, ei eiriau ef mewn ystyr lythyrenol, ac yn ymryson yn wawdus â'u gilydd yn eu cylch. † Mae yn debyg nad oeddynt oll o'r un meddwl, pe felly ni buasai ymryson: yr oedd rhai yn ei ddeall y naill ffordd, a rhai y ffordd arall; ond nid oedd neb yn deall pa fodd y gallai efe roddi ei gnawd i'w fwyta, fel ymborthi ar ychain neu ddefaid. Mae yn amlwg na wyddent hwy ddim am draws-sylweddiad y pabyddion.

53 * Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt, [b] Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, [c] † Oni [d] fwyttêwch gnawd Mab y dyn, ac *oni* yfwch ei waed ef, nid oes gennych fywyd ynoch.

b adn. 26, 47. Gwel ar pen. 3. 3. Mat. 5. 18. c pen. 3. 3, 5. a 13. 8. a 15. 4. Mat. 18. 3. Luc 13. 3, 5. d adn. 55. pen. 3. 36. Mat. 26. 26—28. 1 Ioan 5. 12. Dat. 2. 7, 17.

* Dàl at ei bwnc yr oedd Iesu, er eu holl ymryson hwy; a pho mwyaf yr ymrysonent hwy, mwyaf i gyd yr oedd yntau yn cadarnâu y peth, ac yn ei wasgu arnynt. † Gwir feddwl y geiriau hyn yn fŷr yw, heb wir ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist, fel yr hwn a fu farw dros ein pechodau ni, nid oes gan un dyn fywyd ysbrydol ynddo, ac ni ddaw byth i fywyd tragywyddol. Tybiodd llawer un mai am fwyta ac yfed yn sacrament swper yr

wydd y mae Crist yn llefaru yma, ond nis gall hyny oblegid yn 1. Nid oedd y sacrament hwnw wedi ei illu am fwy na blwyddyn ar ol yr ymddiddan yma; eth ynfyd iawn yw meddwl fod Crist yn llefaru am iad nad oedd mewn bod; nid oedd yn bosibl i'r ddeall ei athrawiaeth ef yn ei gylch. 2. Nid yw y au yn wirionedd am fwyta ac yfed sacramentaidd; gid cafodd llawer fywyd ysbrydol a chadwedigaeth ywyddol, heb fwyta ac yfed yn sacramentaidd ed. Heblaw hyny, nid yw bwyta cnawd, ac yfed ed Crist, felly yn unig, yn rhoddi bywyd i neb; ond r yma am fwyta ac yfed sydd yn rhoddi bywyd. iae yn amlwg wrth adn. 29, mai credu yn Iesu yw y a feddylir yma wrth fwyta ac yfed; ac mae yn sicr nid credu yw bwyta ac yfed yn y sacrament: er y fi pawb gredu wrth wneyd hyny, y mae llawer ysyw- yn ei wneyd heb gredu. Wrth ystyried y pethau od, mae yn amlwg mai nid am fwyta ac yfed yn y ament yr oedd ein Harglwydd yn llefaru yma.

54 [e] * Yr hwn sydd yn bwytta fy nghnawd ac yn yfed fy ngwaed i, [f] † sydd ganddo yd tragywyddol: ‡ a myfi a'i hadgyfodaf yn y dydd diweddaf.

e pen. 4. 14. Salm 22. 26. Diar. 9. 4—6. Es. 25. 6—8. a 55. Gal. 2. 20. Phil. 3. 7—10. f Gwel ar adn. 39, 40, 47.

* Wrth fod Crist yn sôn am ei waed mòr aml yn yr odau hyn, mae yn arwain yn naturiol at y meddwl ei aberth, a'i iawn ef, yr hyn a wnaeth efe trwy dy- ft ei waed, fel y dywedir i ni mewn lle arall am ynedigaeth trwy ei waed ef." Ephes. 1. 7; a yddid i fyned i mewn i'r cyssegr trwy waed Iesu." b. 10. 19. † Megys y dywedodd o'r blaen *nad* oedd a bywyd *heb* fwyta ei gnawd, ac yfed ei waed ef; felly ae yma yn sicrâu *fod* bywyd gan bawb a fwytâo ac fo o hóno: y mae ganddo hawl sicr a chyfiawn i yd, ac efe a gaiff fywyd mewn meddiant sicr a gwir- eddol. ‡ Ac i'r dyben hyny efe a gaiff adgyfodiad wydd a gorfoleddus yn y dydd diweddaf: yno caiff r weled na chredodd efe yn Nghrist yn ofer. Mae air bwyta, yn nechreu yr adnod, yn arwyddo *ymborthi rdus*, fel y bydd anifeiliaid yn gwneyd.

55 * Canys fy nghnawd i sydd [g] fwyd yn r, a'm gwaed i sydd ddiod yn wir.

g adn. 32. pen. 1. 9, 47. a 8. 31, 36. a 15. 1. Heb. 8. 2. 1 Ioan 20.

* Gellid darllen y geiriau fel hyn: Fy nghnawd I dd wir fwyd, a'm gwaed I sydd wir ddiod: a hyny wn ffordd o ragoriaeth annrhaethol ar bob bwyd a od naturiol, ac mewn cyferbyniad hefyd i bob bwyd- d a diodydd cysgodol o hóno ef dan y ddeddf. Felly Rywedir ei fod ef yn *wir oleuni;* y goleuni goreu: yn *r winwydden;* y winwydden ardderchocaf: ac yn *wir rra*, y bara mwyaf rhagorol. Crist wedi ei groeshoelio ymborth goreu, ïe, unig ymborth eneidiau.

56 * Yr hwn sydd yn bwytta fy nghnawd ac yn yfed fy ngwaed i, [h] † sydd yn aros nof fi, ‡ a minnau ynddo yntau.

h pen. 14. 20, 23. a 15. 4, 5. a 17. 21—23. Salm 90. 1. a 91. 1, 2 Cor. 6. 16. Eph. 3. 17. 1 Ioan 3. 24. a 4. 12, 15, 16. Dat. 3. 20.

* Yr hwn sydd yn byw trwy ffydd ar Berson ac aberth su, ac yn derbyn yn wastadol o'i gyflawnder ef; † mae aros ynddo ef, fel ei Noddfa, ei Orphwysfa, a'i Gar- ef: ‡ ac mae Crist yn aros ynddo yntau trwy ei ras a'i bryd, fel yn ei deml: felly mae y credadyn yn un â hrist, a Christ âg yntau. Fel y mae undeb naturiol a myned rhwng y corph â'r ymborth a fwytâer, er cyn- liaeth bywyd naturiol; felly mae undeb ysbrydol wng Crist â'r credadyn er cynnaliaeth bywyd ysbryd- , a diogelwch bywyd tragywyddol.

57 [i] * Fel yr anfonodd y Tad byw fi, [k] † ac r ydwyf fi yn byw trwy y Tad: ‡ felly yr wn sydd yn fy mwytta i, [l] yntau a fydd byw rwof fi.

i Salm 18. 46. Jer. 10. 10. 1 Thes. 1. 9. Heb. 9. 14. k pen. 5. 26. a 17. 21. 1 pen. 11. 25, 26. a 14. 6, 19. 2 Cor. 13. 4. Gal. 2. 20. Col. 3. 3, 4. 1 Ioan 4. 9.

* Mynych y gelwir Duw yn yr ysgrythyr yn *Dduw byw*, nid yn unig am fod ganddo fywyd ynddo ei hun, ond hefyd am mai efe yw ffynon bywyd ei holl greaduriaid. Mae Crist yn ei alw ef y *Tad byw* yma yn yr ystyr olaf; fel y mae efe yn awdwr a ffynon bywyd pawb. † Mae rhai yn cyfieithu y geiriau, Ac fel yr wyf fi yn byw *i'r* Tad. Mae yn debyg fod y geiriau yn perthyn i fywyd Crist fel dyn a chyfryngwr; oblegid yn nechreu yr adnod mae yn sôn am ei *ddanfoniad* fel y cyfryw, gan y Tad. Mae yn ddiammau fod dynoliaeth Crist yn ymddybynu ar ragluniaeth a gofal Duw fel dynoliaeth rhywun arall, am fywyd a'i holl gynnaliaeth: ac er fod gan Grist fel Cyfryngwr fywyd ynddo ei hun (gwel ar pen. 5. 26;) eto wedi ei *roddi iddo gan y Tad* yr oedd, ac efe oedd yn addasu Crist trwy ei Ysbryd, i'r gwaith mawr y danfonodd efe ef i'r byd o'i herwydd, gan hyny dywedir mewn lle arall ei fod yn ei *gynnal* ef. Es. 42. 1. Cymhara hefyd Ioan 8. 29, â 16. 32. Gellir dywedyd eto ar y geiriau "byw trwy y Tad," fod bywyd Crist ar y ddaear yn cael ei gynnal trwy ei undeb â'r Duwdod, a thrwy breswyliad yr Ysbryd ynddo. ‡ Yn gyffelyb i hyny, mae pob gwir gredadyn wedi ei uno â Christ, ac yn byw trwy y bywyd hwnw sydd yn guddiedig ynddo ef, ac a fydd byw felly yn dragywyddol.

58 [m] * Dyma y bara a ddaeth i waered o'r nef: † nid megis y bwyttâodd eich tadau chwi y manna, ac y buont feirw. Y neb sydd yn bwytta y bara hwn, a fydd byw yn dragywydd.

m Gwel ar adn. 32, 34, 41, 47—51.

* Cawsom yr un pethau ag sydd yn yr adnod hon eisoes yn adn. 49, 50, 51: gwel y sylwadau yno. † Mae y darn hyn o'r adnod yn berffaith gyfymred â'r Groeg; ond tybia *Doddridge* y gellid ei ddarllen yn fwy naturiol, rhwydd a dealladwy fel hyn, *Nid megys y manna hwnw a fwytâodd eich tadau, ac ydynt feirw.* Dangos y rhagoriaeth yr oedd Iesu rhwng y *gwir fara*, â'r *manna* cysgodol o hóno; ac nid rhwng *bwyta* y manna ac *ymborthi* ar y gwir fara. Oddi wrth yr holl ymadrodd hyn mae mòr amlwg â'r goleuni, fod cyfiawnâd pechadur yn dyfod drwy *gredu;* a bod bywyd yn dyfod i'r enaid trwy *ffydd* yn Nghrist, ac nid trwy *gariad*, neu *ufudd-dod* i weithredoedd y ddeddf; er mai gwir yw, nas gall ffydd ddiffuant fod heb gariad ac ufudd-dod, a gweithredoedd da fel ffrwythau ffydd a chariad.

59 * Y pethau hyn a ddywedodd efe [n] yn y synagog, wrth athrawiaethu yn † Capernaum.

n adn. 24. pen. 18. 20. Salm 40. 9, 10. Diar. 1. 20—23. a 8. 1—3. Luc 4. 31.

* Er bod yr eglwys Iuddewig y pryd hwn yn llygredig ddigon, mewn addoliad, athrawiaeth, a dysgyblaeth; eto gan ei bod wedi ei sefydlu gan Dduw, nid oedd Iesu yn cilio o'i chyfarfodydd nac yn y deml yn Jerusalem, nac yn y synagogau yn y dinasoedd a'r trefydd; ond yn cyrchu iddynt yn gyson ar y sabbathau, yn athrawiaethu ynddynt, ac yn aml yn argyhoeddi yr Iuddewon yn llŷm o'u cyfeiliornadau. † Yn hyn yr oedd Capernaum wedi ei derchafu hyd y nef, (Matth. 11. 23,) nid yn unig am fod yr efengyl wedi cael ei phregethu ynddi, ond am ei phregethu yno gan Grist ei hun. Am iddi wrthod yr efengyl, tynwyd hi i lawr hyd yn uffern, nid yw er ys oesoedd lawer ond lle gwael a dirmygus, ac y dydd heddyw dàn ormes-lywodraeth tywysog Mahometanaidd.

60 * Llawer gan hynny [o] o'i ddisgyblion, pan glywsant, a ddywedasant, [p] † Caled yw yr ymadrodd hwn; pwy a ddichon wrando arno?

o adn. 66. pen. 8. 31. p adn. 41, 42. pen. 8. 43. Mat. 11. 6. Heb. 5. 11. 2 Pedr 3. 16.

* Nid yr apostolion yn ddïau, oedd y dysgyblion hyn,

ac nid neb o'i ddysgyblion ef mewn gwirionedd; ond rhywrai a gymmerent arnynt fod yn ddysgyblion ac yn ganlynwyr iddo, ond nid oedd eu calonau yn iawn tuag ato. † Y rhai oeddynt o hyd yn ei ddeall ef mewn ystyr lythyrenol, a dybient mai athrawiaeth wrthyn a chigyddaidd ydoedd; y rhai a gymmerent ei eiriau mewn ystyr gyffelybiaethol, fel yr oedd Crist yn eu hegluro, a dybient ei fod ef yn cablu, drwy ei fod yn hòni dechreuad dwyfol iddo ei hun, yr hyn ni wnaethai Moses, na neb o'r prophwydi; a'r rhai nis gwyddent pa ystyr i roddi ar ei eiriau, a dybient fod rhywbeth mòr dywyll a dirgeledig ynddynt, nas gallai un dyn yn ei synwyr eu derbyn: felly yr oeddynt yn cwyno yn drwm, y naill wrth y llall, ei fod ef yn pregethu y fath athrawiaeth, ag nad oedd yn addas i un dyn ei chredu, nac yn wir ei gwrando.

61 [q] * Pan wybu yr Iesu ynddo ei hun, fod ei ddisgyblion yn grwgnach am hyn, efe a ddywedodd wrthynt, † A ydyw hyn yn eich rhwystro chwi?

q adn. 64. pen. 2. 24, 25. a 21. 17. Heb. 4. 13. Dat. 2. 23.

62 [r] ‡ *Beth* gan hynny os gwelwch ‖ Fab y dyn yn dyrchafu lle yr oedd efe o'r blaen?

r pen. 3. 13. a 16. 28. a 17. 4, 5, 11. Marc 16. 19. Luc 24. 51. Act. 1. 9. Eph. 4. 8. 1 Pedr 3. 22.

Nid ydym yn darllen iddynt ddywedyd dim wrtho ef, nac i neb arall ddywedyd dim wrtho am danynt: hustyng yn ddistaw yn eu plith eu hunain, mae yn debyg, yr oeddynt; * ond gwybu yr Iesu hyny "ynddo ei hun" fel yr oedd yn Dduw holl-wybodol. † A ydyw hyn a ddywedais I am fy nyfodiad o'r nef, ac am fwyta fy nghnawd ac yfed fy ngwaed, yn ymadrodd rhy galed i chwi ei wrando a'i gredu? A ydyw hyn yn eich tramgwyddo ac yn eich rhwystro chwi? ‡ Beth pe gwelech chwi fi, y Messiah yn y natur ddynol, yn esgyn i'r nef, lle yr oeddwn I yn hanfodi cyn fy nghnawdoliad; oni byddai hyn yn beth mòr rhyfedd ac anhygoel genych chwi ag i mi ddisgyn o'r nef? Ac eto, cyn pen hir amser, mae rhai ag sydd yma heddyw a gânt weled hyny. ‖ Nid oedd natur ddynol Crist wedi bod o'r blaen yn y nef; ond am ei fod ef yn Dduw a dyn yn un Person, yr oedd y Person hwnw yn cael ei alw weithiau yn "Fab Duw," ac weithiau yn "Fab y dyn," heb wahaniaethiad manol: a thrwy rinwedd yr undeb personol ac annattodol hwn, gellid dywedyd i'r Person a elwir "Mab y dyn" ddyfod i lawr o'r nef. Mae hyn yn dangos nad oedd teyrnas y Messiah i fod o'r byd hwn; oblegid yr oedd efe yn mhen ychydig i esgyn i'r nef, ac nid oedd i ymddangos yn bersonol mwyach yn eu plith hwy.

63 [s] * Yr yspryd yw yr hyn sydd yn bywhâu; [t] y cnawd nid yw yn llesâu dim: [u] † y geiriau yr ydwyf fi yn eu llefaru wrthych, yspryd ydynt, a bywyd ydynt.

s Gen. 2. 7. Rhuf. 8. 2. 1 Cor. 15. 45. 2 Cor. 3. 6. Gal. 5. 25. 1 Pedr 3. 18. t Rhuf. 2. 25. a 3. 1, 2. 1 Cor. 11. 27—29. Gal. 5. 6. a 6. 15. 1 Tim. 4. 8. Heb. 13. 9. 1 Pedr 3. 21. u adn. 68. pen. 12. 49, 50. Deut. 32. 47. Salm 19. 7—10. a 119. 50, 93, 130. Rhuf. 10. 8—10, 17. 1 Cor. 2. 9—14. 2 Cor. 3. 6—8. 1 Thes. 2. 13. Heb. 4. 12. Iago. 1. 18. 1 Pedr 1. 23.

* Fel y mae enaid, neu ysbryd dyn, yn rhoddi bywyd i'r corph, heb yr hwn ni byddai y cnawd ond talp o glai difywyd a braenllyd; felly, heb Ysbryd bywiocâol Duw, neu "yr hyn a aned o'r Ysbryd, ac sydd Ysbryd," nid yw pob ffurfiau a defodau o grefydd ond marw a diwerth, Iago 2. 26. † Yn wir "ysbryd a bywyd" oedd y geiriau a lefarodd yr Iesu wrthynt hwy: geiriau am bethau ysbrydol oeddynt, a phethau yr oedd bywyd eu heneidiau hwy yn ymddybynu arnynt; trwy gredu yn, a myfyrio ar, ei eiriau ef, ymddiried yn ei addewidion, ac felly byw mewn ymorphwysiad parâus ar ei aberth a'i gyfryngdod, buasent yn ysbrydol yn "bwyta ei gnawd ac yn yfed ei waed" ef: a'r pethau hyn oedd y *moddion*, trwy ba rai y buasai Ysbryd Duw yn meithrin eu heneidiau i fywyd tragywyddol. Yn nechreu yr adnod, nid Ysbryd Duw a feddylir; ond ysbryd y dyn mewn cyferbyniad i'w gnawd, yn ail ran yr adnod. Mewn cyffelyb fodd yn 2 Cor. 3. 6, yr ydym yn cael yr ysbryd mewn cyferbyniad i'r llythyren. *Esgob Middleton.* Nid yr Ysbryd Glân, yn bersonol, a feddylir; ond y deall ysbrydol hyny o eiriau Crist, fel "ysbryd a bywyd," yr hyn a ddysgir gan Dduw, trwy ei Ysbryd Sanctaidd, i bawb a "âner o'r Ysbryd." *Scott.*

64 [x] * Ond y mae o honoch chwi rai nid ydynt yn credu. [y] † Canys yr Iesu a wyddai o'r dechreuad, pwy oedd y rhai nid oedd yn credu, ‡ a phwy oedd yr hwn a'i bradychai ef.

x adn. 36, 61. pen. 5. 42. a 8. 23, 38—47, 55. a 10. 26. a 13. 10, 18—21. y adn. 70, 71. pen. 2. 24, 25. Salm 139. 2—4. Act. 15. 18. Heb. 4. 13.

* Fel pe dywedasai yr Iesu, Dywedwyf a fynwyf wrthych chwi; er bod yr ysbryd yn bywâu, eto nid yw yn bywâu pawb; nid yw efe yn bywâu ond y neb a fyno. Nid ydych chwi yn deall y pethau hyn; ond y mae genych y syniadau mwyaf cnawdol am bethau mawreddig ysbrydol; a'r achos yw, am nad ydych yn credu, y rhan fwyaf o honoch. † Er mai gweithred dumewnol ddirgelaidd yr enaid yw credu, eto yr oedd Crist yn gwybod, a hyny o'r dechreuad, o ddechreuad ei ymadrodd blaenorol, o ddechreuad ei weinidogaeth, ac o ddechreuad y byd, erioed, pwy a gredai a phwy ni chredai ynddo. ‡ Ac hyd yn nod yn mhlith yr apostolion eu hunain, efe a wyddai, nid yn unig pwy a fyddai yn rhagrithiol, ond hefyd pa un o hónynt a'i bradychai ef yn ddiffaith.

65 Ac efe a ddywedodd, * Am hynny y dywedais wrthych, [z] na ddichon neb ddyfod attaf fi, † oni bydd wedi ei roddi iddo oddi wrth fy Nhad.

z adn. 37, 44, 45. pen. 10. 16, 26, 27. a 12. 37—41. Eph. 2. 8, 9. Phil. 1. 29. 1 Tim. 1. 14. 2 Tim. 2. 25. Tit. 3. 3—7. Heb. 12. 2. Iago 1. 16—18.

* Dywedodd hyn yn adn. 44. Gwel y sylwadau yno. † Sef oni bydd ffydd wedi ei rhoddi iddo gan y Tad. Tynu gan y Tad, adn. 44, a chael ffydd gan y Tad, ydynt eiriau cyfystyr. Yr oedd rhagfarn natur lygredig yn gweithredu yn gryf yn erbyn y fath athrawiaeth ag oedd Crist yn bregethu, ac nid oedd dim ond dwyfol ras a allasai ei darostwng.

66 ¶ * O hynny allan llawer [a] o'i ddisgyblion ef a aethant yn eu hol, † ac ni rodiasant mwyach gyd âg ef.

a adn. 60. pen. 8. 31. Mat. 12. 40—45. a 13. 20, 21. a 19. 22. a 21. 8—11. a 27. 20—25. Luc 9. 62. 2 Tim. 1. 15. a 4. 10. Heb. 10. 38, 39. 2 Pedr 2. 20—22. 1 Ioan 2. 19.

* Po dwysaf a manylaf yr oedd Crist yn llefaru, ac yn cymhwyso ei ymadrodd at ei wrandawŵyr, caletaf i gyd yr oedd ei ymadrodd yn myned, gan y rhai nad oddynt ond dysgyblion mewn enw iddo. Gadawsant ef, lawer o honynt, ac aethant yn eu hol, at eu hathrawon phariseaidd, ac at eu hen ffyrdd pechadurus a thwyllodrus eu hunain. † Mae hyn yn dangos na buont yn wir ddysgyblion i Grist erioed; gwrthgiliasant am byth oddi wrth y broffes arwynebol a wnaethent: ni rodiasant gyda'r Iesu *mwyach.* Dichon i ddyn duwiol wrthgilio yn mhell, ac am hir amser; ond nid am byth: cedwir ef, trwy allu Duw, ac adferir ef o'i holl wrthgiliadau. Hefyd, nid nod o ddyn duwiol yw tramgwyddo wrth "athrawiaeth iachus," fel y gwnaeth y rhai hyn.

67 * Am hynny yr Iesu a ddywedodd wrth y deuddeg, [b] † A fynnwch chwithau hefyd fyned ymaith?

b Jos. 24. 15—22. Ruth 1. 11—18. 2 Sam. 15. 19, 20. Luc 14. 25—33.

* Mae yn debyg bod yno rai wedi aros heblaw y deuddeg, dywedir i *lawer* fyned yn eu hol, nid *pawb.* † Yr oedd gan Iesu amryw ddybenion yn gofyn fel hyn i'r deuddeg. 1. Dangos ei dosturi dros gyflwr truenus y rhai a ymadawsant. 2. Profi ffydd ei apostolion. 3. Rhoddi cyfle iddynt i ddywedyd eu meddyliau, ac i adnewyddu eu proffes. 4. Dangos bod dianwadalwch

: angenrheidiol, yn enwedig ynddynt *hwy*, yr apostol-
ilion. 5. Ac, efallai, er awgrym iddynt, fod un yn eu
ith *hwy*, a'i bradychai ef wedi hyn.

68 * Yna Simon Pedr † a'i hattebodd ef,
Arglwydd, [c] ‡ at bwy yr awn ni? [d] ‖ gennyt
y mae geiriau bywyd tragywyddol.

c Salm 73. 25. d adn. 40, 63. pen. 5. 24, 39, 40. Act. 4. 12.
i. 20. 1 Ioan 5. 11—13.

* * Simon Pedr, yr hwn a welir drwy holl hanes yr
engyl, yn dangos yr ysbryd gwresocaf a chyflymaf, ac
mwyaf parod i ateb holiadau a ofynir i'r deuddeg.
atth. 16. 16, &c. Gresyn oedd i hwn syrthio wedi
yn fel y gwnaeth: mae yn debyg fod diafol a'i lygad
no *cf* yn anad neb o'r un ar ddeg, o herwydd ei wres-
gwydd bob amser. † Atebodd Pedr yn enw y deu-
deg, gan dybied mewn barn cariad fod pob un o honynt
òr ddidwyll âg ef ei hun, ac felly yr oeddent ond
adas. ‡ Addas iawn oedd ei atebiad ef: "At bwy yr
yn ni?" At bwy y dylem, neu y gallwn ni fyned,
da diogelwch a mantais ond atat ti? A awn ni at y
d? nis gall hwnw byth fod yn rhan ddigonol a bodd-
onus i ni. A awn ni at wasanaeth pechod? bydd
wnw yn sicr o'n dinystrio ni. A awn ni at yr ysgrifen-
ddion a'r phariseaid? ni wnâ y rhai hyny ond ein cam
wain a'n twyllo. A awn ni at ryw ddyfeisiau o'n heiddo
n hunain neu eraill am ddedwyddwch? bydd y rhai
yny yn sicr o'n siomi. A awn ni at Moses, ac ymddir-
ed yn nghyfiawnder y ddeddf? nis gallai efe ein hach-
b, ond efe a'n danfonai yn ol atat ti. Neu a awn ni
t Ioan Fedyddiwr? mae efe eisoes wedi ein troi ni
rosodd atat ti. § Tydi a thydi yn unig, sydd yn dysgu
wir athrawiaeth bywyd tragywyddol, ac ydwyt alluog
c ewyllysgar i roddi i ni fywyd tragywyddol, megys y
ywedaist dy hun wrthym yn dy ymadrodd hwn; gan
yny yr ydym yn penderfynu glynu wrthyt ti. Yn
yneb profedigaeth i wrthgilio, dylem ystyried pa fan-
ais a gawn ni o hyny; ac mae y geiriau yn dangos,
nai glynu wrth wirioneddau yr efengyl, yw y dewisiad
oreu a allwn ni ei wneyd.

69 [e] * Ac yr ydym ni yn credu, ac yn
ywybod mai † tydi yw y Crist, Mab y [f] Duw
yw.

e pen. 1. 41, 45—49. a 11. 27. a 20. 28, 31. Mat. 16. 16. Marc
1. a 8. 29. Luc 9. 20. Act. 8. 37. Rhuf. 1. 3, 4. 1 Ioan 5. 1, 20.
f Gwel ar adn. 57.

* * Oddi wrth yr hyn a welsom ni eisoes o honot ti,
glywsom ac a ddysgasom genyt ti, ac a deimlasom yn
n ein calonau oddi wrthyt ti; yr ydym ni yn credu ac
n gwybod mai tydi yw Crist, y Messiah, a Mab y Duw
yw: gan hyny, attolwg, na chrybwyll wrthym ni am
gilio oddi ar dy ol di, nac ymadaw â thi." † Cawsom
gyffes hyf, ac ardderchog hon o'r blaen, o enau yr un
gwr, yn Matth. 16. 16. Gwel y sylwad yno. Gelwir
Duw yn *Dduw byw* yma, nid i wahaniaethu natur y Tad
oddi wrth y Mab, ond i wahaniaethu y gwir Dduw oddi
wrth bob gau dduwiau: a gelwir Crist yn Fab y Duw
byw hwn mewn ffordd o enwogrwydd nodedig a phriod-
ddeb, i ddangos ei fod ef, fel y Mab, yn gyfranog o'r
un bywyd a pherffeithiau dwyfol â'r Tad.

70 * Iesu a'u hattebodd hwynt, [g] † Oni
ddewisais i chwychwi y deuddeg, [h] ‡ ac o
nonoch y mae un yn [i] ddiafol?

g adn. 64. pen. 13. 18. a 17. 12. Mat. 10. 1—4. Luc 6. 13—16.
Act. 1. 17. h pen. 8. 44. a 13. 2, 21, 27. Act. 13. 10. 1 Ioan 3.
8. Dat. 3. 9, 10. i 1 Tim. 3. 11. Tit. 2. 3.

* Dywedodd Iesu y geiriau hyn, efallai, er gocheliad
iddynt hwy, rhag iddynt ymddiried gormod ynddynt eu
hunain, ar ol y gyffes ragorol hon, a rhag iddynt dram-
gwyddo a dyrysu pan welent un o honynt eu hunain yn
troi yn fradychwr wedi hyn. † Dewis i'r apostoliaeth
yw y dewis yma, nid dewis i fywyd tragywyddol: nid
oes neb yn ddiafol a ddewiswyd i fywyd tragywyddol:
ac hefyd yr oedd gan Iesu y pryd hwnw lawer o ddisgybl-
ion wedi eu dewis i fywyd tragywyddol heblaw y deu-
ddeg, neu yn hytrach yr un ar ddeg. ‡ Y *mae* un yn ddia-
fol, nid e *fydd* un yn ddiafol: yr *oedd* Judas yn ddiafol
y *pryd hwnw*, diafol oedd efe yr amser gorau a fu arno.
Diabolos, cyhuddwr: neu enllibiwr, felly y cyfieithir y
gair yn 1 Tim. 3. 11; 2 Tim. 3. 3; Tit. 2. 3. Tybia
rhai mai dyma'r achos na ddarfu i Grist gyhoeddi ei
hun yn fwy amlwg fel Messiah, oblegid y gwyddai efe
y buasai Judas yn ei gyhuddo ef o hyny wrth y Rhuf-
einiaid: ond nid oes genym un prawf fod Judas o'r
dechreuad yn bwriadu bradychu Crist. Mwy tebygol
yw, iddo ddechreu ei ganlyn ef gan obeithio cael rhyw
fantais fydol; a phan welodd ei siomi yn hyny, dech-
reuodd ffurfio y bwriad dieflig o'i fradychu. Gelwir ef
yn ddiafol am ei fod o duedd ddieflig, am ei fod yn
meddiant a thàn lywodraeth diafol, ac am ei fod yn
offeryn yn llaw diafol, i wneuthur ei waith ef.

71 * Eithr efe a ddywedasai am Judas
Iscariot, *mab* Simon: [k] † canys hwn oedd ar
fedr ei fradychu ef, [l] ‡ ac efe yn un o'r deu-
ddeg.

k Salm 109. 6—8. Act. 1. 16—20. a 2. 23. Judas 4. l pen.
18. 2—6. Salm 41. 9. a 55. 13, 14. Mat. 26. 14—16. a 27. 3—5.

* Gelwir ef Judas Iscariot i'w wahaniaethu oddiwrth
Judas arall oedd yn un o'r apostolion, awdwr yr epistol
sydd yn myned ar ei enw. Nid enwodd Iesu neb yn
yr adnod o'r blaen, ond Judas Iscariot oedd yn feddwl,
fel y gwybu y dysgyblion wedi hyny. † Yr oedd Judas
y pryd hwnw ar fedr ei fradychu ef, pa faint o amser
cyn hyny nis gwyddom. ‡ "Ac efe yn un o'r deuddeg:"
er dangos i ni nad oes un swydd y galwo Duw ddynion
iddi, na dim doniau (ond gwir ras achubol,) a roddo
efe i ddynion, a ddichon eu diogelu i fywyd tragywydd-
ol. Gwel hefyd ar Matth. 26. 47.

PEN. VII.

Iesu yn argyhoeddi rhyfyg a hyfder ei geraint.

* A'R Iesu a [a] rodiodd ar ol y pethau hyn yn
† Galilea: canys nid oedd efe yn chwen-
nych rhodio yn Judea, [b] ‡ oblegid bod yr
Iuddewon yn ceisio ei ladd ef.

a pen. 4. 3, 54. a 10. 39, 40. a 11. 54. Luc 13. 31—33. Act. 10.
38. b adn. 19, 25. pen. 5. 16—18. Mat. 10. 23. a 21. 38.

* "Ar ol y pethau hyn:" sef y pethau a adroddwyd
yn y bennod o'r blaen; porthi y pùm mil, rhodio ar y
môr, a'r bregeth yn nghylch y bara bywiol. † Ar ol y
pethau hyny efe a rodiodd yn Galilea: mae y gair
rhodio yn arwyddo ei fod ef yn ymdaith oddi amgylch
i bregethu a gwneyd gwyrthiau, ac nid yn aros yn yr
un màn. Er mai un o lwyth Juda oedd Iesu o ran y
cnawd; eto yr oedd gwell derbyniad o'r ddau iddo ef
a'i weinidogaeth yn Galilea, yn mhlith llwythau eraill,
nac yn Judea yn mhlith ei lwyth ei hun. Yn yr ystyr
hyny efe a ddaeth at yr eiddo ei hun, a'r eiddo ei hun
nis derbyniasant ef. ‡ Yr oedd hen gas tuag ato gan
Iuddewon Jerusalem a Judea, o herwydd amryw beth-
au: megys bwrw y prynwyr a'r gwerthwyr allan o'r
deml; iachâu y dyn ar làn y llyn ar y sabbath; ac yn
enwedig ei wneuthur ei hun yn gystal â Duw, pen.
5. 18.

2 * A gwyl yr Iuddewon, [c] *sef* gwyl y
pebyll, oedd yn agos.

c Ex. 23. 16, 17. Lef. 23. 34—43. Num. 29. 12—38. Deut. 16.
13—16. 1 Bren. 8. 2, 65. 2 Cron. 7. 9, 10. Ezra 3. 4. Neh. 8. 14—
18. Zec. 14. 16—19.

* Gwyl oedd hon a gedwid er coffadwriaeth fod
plant Israel yn preswylio gynt mewn pebyll yn yr
anialwch: cedwid hi mewn bythod neu pebyll a wnaid
i'r perwyl hwnw, gyda llawer o edmygedd a llawenydd.
Am ei sefydliad, gwel Lefit. 23. 34, &c.

3 [d] * Am hynny ei frodyr ef a ddywedasant
wrtho, [e] † Cerdda ymaith oddi yma, a dos i
Judea; fel y gwelo dy ddisgyblion dy weith-
redoedd di y rhai yr ydwyt yn eu gwneuthur.

d adn. 5. Mat. 12. 46, 47. Marc 3. 31. Luc 8. 19. Act. 1. 14.

e Gen. 37. 5—11, 20. 1 Sam. 17. 28. Jer. 12. 6. Mat. 22. 16, 17.

* Efallai fod y brodyr, neu y perthynasau hyn i Grist wedi diflasu, am nad oeddynt yn gweled un argoel o unrhyw fantais fydol iddynt hwy o'u perthynas âg ef; yr hyn a ddysgwyliasent os efe oedd y Messiah addawedig: ac efallai eu bod yn lled-dybied mai twyllwr ydoedd, er ei holl wyrthiau, a sanctei ddrwydd ei fywyd a'i athrawiaeth. † Dàn rith o gyfeillgarwch annogent ef i fyned i Jerusalem ar yr ŵyl, fel y caffai gyfle i'w wneyd ei hun yn gyhoeddus mewn lle cyhoeddus.

4 f * Canys nid oes neb yn gwneuthur dim yn ddirgel, † ac yntau yn ceisio bod yn gyhoedd: ‡ od wyt ti yn gwneuthur y pethau hyn, g amlyga dy hun i'r byd.

f Diar. 18. 1, 2. Mat. 6. 1, 2, 5, 16. a 23. 5. Luc 6. 45. g pen. 18. 20. 1 Bren. 22. 13. Mat. 4. 6. Act. 2. 4—12.

* Nid oedd Galilea ond ardal wael ac anenwog, ac ystyrient hwy nad oedd holl weithredoedd Iesu yno ond pethau yn cael eu gwneyd mewn lle dirgel, mewn cymhariaeth i Jerusalem, ac na ddeuai efe byth yn gyhoeddus onid âai oddi yno. † Nid yw y geiriau hyn ddim amgen na chyhuddiad cenfigenus a disail, fel pe buasai Iesu o wag-ogoniant a rhodres, am ddangos ei hun yn y cwbl oedd yn wneyd: yr oedd y gwrthwyneb yn ymddangos mòr amlwg yn ei holl ymddygiad ef, fel nad oedd dim ond cenfigen atgas a allasai feddwl am y fath gyhuddiad. ‡ Os oeddynt hwy am i'r Iesu fod yn enwog, nid o barch iddo *ef* yr oedd hyny; ond gobeithio yr oeddynt y caent hwythau ryw enwogrwydd a manteision bydol gydag ef, fel ei geraint.

5 h * Canys nid oedd ei frodyr yn credu ynddo.

h pen. 1. 11—13. Mica 7. 5, 6. Marc 3. 21.

* Nid oeddent yn credu mai efe oedd y gwir Fessiah, ond tybient nad oedd efe ddim ond yn amcanu at gael ei fawrâu gan ddynion, a chodi plaid: am hyny annogent ef i fyned i Jerusalem fel y chwilid ef allan gan ddynion mwy craff na hwy eu hunain. Eu prif bwnc hwy oedd, fel yr Iuddewon oll, y byddai raid i'r Messiah fod yn *Dywysog daearol;* ac am nad oedd dim yn debyg i hyny yn Iesu, ni chredent ynddo er pob arwyddion eraill a welsent ganddo.

6 Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt hwy, i * Ni ddaeth fy amser i etto: † ond eich amser chwi sydd yn wastad yn barod.

i adn. 8, 30. pen. 2. 4. a 8. 20. a 13. 1. a 17. 1. Salm 102. 13. Preg. 3. 1, &c. Act. 1. 7.

* Mynai ei frodyr i Grist fyned i Jerusalem i gael enwogrwydd a derchafiad, er enwogrwydd a derchafiad iddynt hwy fel teulu; ond gwyddai efe fod yn Jerusalem lawer yn darpar i geisio ei einioes ef cyn yr amser: am hyny nid âai efe i fynu yn nechreu yr ŵyl, nac yn gyhoeddus, cyn ei amser. † Gallai ei frodyr fyned yr amser a fynent, nid oedd dim perygl yn eu haros hwy.

7 k * Ni ddichon y byd eich casâu chwi; l † ond myfi y mae yn ei gasâu, m o herwydd fy mod i yn tystiolaethu am dano, fod ei weithredoedd ef yn ddrwg.

k pen. 15. 19. Luc 6. 26. Iago 4. 4. 1 Ioan 4. 5. l pen. 15. 18, 19, 23—25. a 17. 14. Diar. 8. 36. Es. 49. 7. Zec. 11. 8. Rhuf. 8. 7. 1 Ioan 3. 12, 13. m 1 Bren. 21. 20. a 22. 8. Diar. 9. 7, 8. a 15. 12. Es. 29. 21. Jer. 20. 8. Amos 7. 7—13. Mal. 3. 5. Luc 11. 39—54. Act. 5. 28—33. a 7. 51—54. Gal. 4. 16. Dat. 11. 5—11.

* Er mòr dyner a thirion mae y geiriau hyn yn ymddangos, maent yn cynnwys y darsyniad mwyaf dychryllyd, fod y brodyr hyn i Grist yn hollawl fel y byd, mewn egwyddorion, tymherau a golygiadau, ac felly yn amddifad o gariad Duw, ac heb un gobaith gwirioneddol oddi wrtho ef: fel y cyfryw nis gallai y byd eu casâu hwy. † Gwahanol iawn oedd hi ar Grist; yr oedd y casineb mwyaf tuag ato ef; oblegid ei fod ef mewn ymddygiad ac athrawiaeth yn tystiolaethu yn erbyn gweithredoedd drwg y byd annuwiol, ac hefyd yn erbyn rhagrith a deddfoldeb y Phariseaid a'r ysgrifenyddion.

8 * Ewch chwi i fynu i'r wyl hon: n † nid wyf fi etto yn myned i fynu i'r wyl hon, oblegid ni chyflawnwyd fy amser i etto.

n adn. 6, 30. pen. 8. 20. a 11. 6, 7. 1 Cor. 2. 15, 16.

* Ewch chwi i fynu, gallwch chwi fyned yn ddiberygl y pryd y mynoch, ac mae yn ddyledswydd arnoch chwi i fyned yn ol y ddeddf, na adewch i mi eich rhwystro na'ch atal chwi. † Yr oedd yr ŵyl hon i barâu saith niwrnod, Lefit. 23. 34: nid oedd yr Iesu yn dewis myned i fynu ar ddechreu yr ŵyl, gyda'r dorf; fel nad elai yno yn amlwg, oblegid gwyddai fod ei elynion yn dysgwyl am dano: ond efe a aeth i fynu wedi hyny, yn ddirgel, adn. 10, ac yn nghylch canol yr ŵyl efe a aeth i fynu i'r deml ac a athrawiaethodd yno, adn. 14.

9 Gwedi iddo ddywedyd y pethau hyn wrthynt, efe a arhosodd yn Galilea.

* Fel hyn danfonodd hwynt ymaith i addoliad Duw, er mai dynion o galonau cnawdol ac anghrediniol oeddynt: a chan nad oeddynt yn gofalu llawer am ei gymdeithas ef gyda hwynt, gadawodd iddynt fyned eu hunain, ac arosodd yntau yn Galilea.

10 ¶ * Ac wedi myned o'i frodyr ef i fynu, o yna yntau hefyd a aeth i fynu i'r wyl; p † nid yn amlwg, ond megis yn ddirgel.

o Salm 26. 8. a 40. 8. Mat. 3. 15. Gal. 4. 4. p pen. 11. 54. Es. 42. 2, 3. Amos 5. 13. Mat. 10. 16, 17.

* Yn fuan ar ol i'r brodyr hyn yn ol y cnawd fyned ymaith, aeth Iesu hefyd i fynu, i gadw gŵyl y pebyll, fel yr anrhydeddai osodiadau Duw, ac y cyflawnai bob cyfiawnder. † Ond wrth fyned i Jerusalem, cymmerodd bob gofal i fyned yn ddirgel; fel na byddai dim sŵn na chynhwrf o'i achos ef, fel nad ymddangosai yn rhodresgar a gwag-ogoneddgar, fel na roddai ddim tramgwydd i'r llywodraeth, ac fel y diangai o ddwylo y rhai oedd yn ceisio ei einioes ef i'w ladd. Pan ddaeth ei amser ef, y pasg cyntaf ar ol hyn, nid yn ddirgel yr aeth i Jerusalem; ond yn gyhoeddus, yn hyf, a chyda bywiogrwydd; gan fyned o flaen ei ddysgyblion er syndod iddynt. Marc 10. 32.

11 q * Yna yr Iuddewon a'i ceisiasant ef yn yr wyl, ac a ddywedasant, Pa le y mae efe?

q pen. 11. 56.

* Wrth y ceisio hyn gallwn feddwl bod Iesu yn arfer myned yn gyson i Jerusalem ar y tair gŵyl arbenig flynyddawl, er nad oes genym hanes manwl am hyny. Wrth ei fod yn arfer bod yno yn gyson, yr oeddynt yn rhyfeddu beth a ddaethai o hóno y tro hwn, ac yn mawr holi pa le yr oedd efe.

12 r * A murmur mawr oedd am dano ef ym mysg y bobl. s † Canys rhai a ddywedent, t Gwr da yw: ac eraill a ddywedent, Nag ê; eithr u twyllo y bobl y mae.

r adn. 32. Phil. 2. 14. s adn. 25—27, 40—43. pen. 6. 14. a 9. 16, 17. a 10. 19—21. Mat. 10. 25. a 16. 13—16. Luc 8. 16. t Luc 6. 45. a 18. 19. a 23. 47, 50. Act. 11. 24. Rhuf. 5. 7. u adn. 47, 52. Mat. 27. 63.

* Wrth holi a chwilio am dano, aeth dadlau a murmur mawr yn mhlith y bobl yn ei gylch, o herwydd y gwahanol dybiau oedd gan wahanol ddynion am dano: † taerai rhai mai gwr da ydoedd; a thaerai eraill yn llidiog i'r gwrthwyneb, mai dyn drwg, yn twyllo y bobl oedd. Taerai rhai ei fod o leiaf yn wr gonest, teilwng, a defnyddiol; bod ei athrawiaeth yn nefol, ei fywyd yn sanctaidd, a'i holl wyrthiau yn drugarog ac ennillgar; ac yr oedd y rhai hyn yn murmur fod yr arch-offeiriaid, y Phariseaid, a'r ysgrifenyddion, yn ei ddifrio ac yn ei wrthwynebu ef. Taerai eraill yn y gwrthwyneb, mai twyllwr oedd, yn hudo y bobl, yn cymmeryd arno fod yn gystal â Duw, a'i fod yn tori y sabbath drwy iachâu ar y dydd hwnw; a murmurai y rhai hyn eilwaith yn erbyn pleidwyr Iesu, am eu bod yn ei amddiffyn, ac yn dangos dim gwyneb iddo.

33 x * Er hynny ni lefarodd neb yn eglur
d dano ef, rhag ofn yr Iuddewon.
x pen. 3. 2. a 9. 22, 34. a 12. 42, 43. a 19. 38. a 20. 19. Diar. 5. Gal. 2. 12, 13. 2 Tim. 2. 9—13. Dat. 2. 13.

34 ¶ y * *Ac* yr awrhon ynghylch canol yr
., yr Iesu a aeth i fynu z i'r deml, † ac a
rawiaethodd.
y adn. 2, 37. Num. 29. 12, 13, 17, 20, 23, &c. z pen. 5. 14. 22. a 18. 20. Hag. 2. 7—9. Mal. 3. 1. Mat. 21. 12. Luc 19. 47.

35 "Canol yr ŵyl" oedd tua'r trydydd neu y pedwerydd
ld o'r ŵyl. Erbyn hyn yr oedd y Phariseaid i raddau
ii rhoddi heibio ei geisio ef, a'r bobl mewn gwell
addden i ddyfod i'r deml i wrandaw arno, wedi bod yn
oebyll am rai dyddiau yn ol y ddefod. Efallai hefyd
ar ei elynion ofn gosod eu dwylaw arno mewn cyn-
deidfa mòr llïosog: am hyny anturiodd i'r deml.
a beth a athrawiaethodd nis gwyddom, rhyw beth ó
s yn ddïau yn nghylch teyrnas Dduw, yr hyn oedd
destyn ef bob amser, fel y gallwn weled yma hefyd
diwedd y bennod.

15 * A'r Iuddewon a a ryfeddasant, gan
ywedyd, b Pa fodd y medr hwn † ddysgeid-
th, *ac yntau* heb ddysgu?
a adn. 46. Mat. 7. 28, 29. a 22. 22, 33. Luc 2. 47. b Mat. 54. Marc 6. 2, 3. Luc 4. 22. Act. 2. 7, &c. a 4. 11, 12.

16 Synodd Iuddewon Jerusalem a Judea yn fawr wrth
wdleddd a medrusrwydd Iesu yn trin yr ysgrythyrau,
eu hegluro, ac yn eu cymhwyso at ei wrandawŷr,
a'r fath ddeheuder ac awdurdod. A hyny yn fwy
egid nad oedd efe erioed wedi bod wrth draed yr un
. *Doctoriaid* a'u *Rabbiniaid* hwy yn cael ei ddysgu yn
ppethau hyn. † *Grammata:* Llythyrenau. Yr ys-
thyrau a feddylir, nid unrhyw ddysgeidiaeth ddynol
ffredin, fel y meddyliwn ni am ddysgeidiaeth; sylwyd
l blaen fod pob dysgeidiaeth felly yn ddirmygedig gan
Iuddewon. Yr oedd rhai yn rhyfeddu o gymmerad-
aeth a pharch iddo, yn ddïau; a rhai eraill mewn
rdd o fychaniad a dirmyg arno.

16 Yr Iesu a attebodd iddynt, ac a ddy-
edodd, c * Fy nysgeidiaeth nid eiddof fi yw,
† eithr eiddo yr hwn a'm hanfonodd i.
c pen. 3. 11, 31, 32. a 8. 28. a 12. 49, 50. a 14. 10, 24. a 17. 8, Dat. 1. 1. d pen. 5. 23, 24, 30. a 6. 38—40, 44.

17 * Nid oedd eiddo ef fel y mae dynion yn cael dysg-
liaeth trwy efrydiaeth ac addysg ddynol; nid oedd
ddo ef o ran iddo ei dychymmygu o'i ben ei hun fel y
rnâi y gau-brophwydi a'r gau-athrawon; † ond cenad-
ii ydoedd, y daeth efe i'w thraddodi oddi wrth yr hwn
danfonodd: felly yr oedd i'w hystyried a'i derbyn fel
stiolaeth Duw ei hunan, wedi ei dwyn i lawr o'r nef-
idd, ac yn cael ei thraddodi yn ddigymmysg ac heb ei
yfnewid. Ag ystyried Crist fel Duw, yr oedd ei
ysgeidiaeth yn eiddo ef ei hun yn gystal ag yn eiddo
Tad; ond yma, gan ei fod ef yn llefaru yn amlwg am
ano ei hun fel dyn, a'r Messiah, nid oedd ei ddysgeid-
eth yn yr ystyr hyny yn eiddo ei hun, ond eiddo y Tad
hwn a'i hanfonodd ef. Ac yn ei gyflwr o ddarostyng-
kl, ac fel prophwyd, yr oedd yn gweddu iddo ef lefaru
l hyn am ei ddysgeidiaeth, yn gyfatebol i'r hyn a ddy-
edasai Duw trwy Moses am dano. Deut. 18. 18.

17 e * Os ewyllysia neb wneuthur ei e-
yllys ef, efe a gaiff wybod am y ddysgeid-
aeth, pa un ai o Dduw y mae hi, ai myfi o
onof fy hun sydd yn llefaru.
e pen. 1. 46—49. a 8. 31, 32, 47. Salm 25. 8, 9, 12. a 119. 10, 101, 102. Es. 35. 8. Jer. 31. 33, 34. Hos. 6. 3. Mica 4. 2. Mal. 4. 2. Mat. 6. 22. Luc 8. 15. Act. 10. 1—6. a 11. 13, 14. a 17. 11. Phil. 3. 15, 16.

* Yma mae Crist yn rhagflaenu gwrth-ddadl a godai yr Iuddewon; sef, pa fodd y gallent hwy wybod pa un a oedd ei athrawiaeth ef yn athrawiaeth Duw, ai nid oedd; fel pe dywedasai, Os ewyllysia neb yn benderfynol, ac o'i galon, ymwrthod â'i ragfarnau, a chwilio yn ostyngedig, yn ddifrifol, ac yn ddiduedd i ewyllys Duw, trwy fyfyrdod, darllen, gwrando, a gweddïo, fel y gallo ei gwybod a'i gwneuthur; efe a genfydd ddigon yn natur a thuedd fy athrawiaeth I, i'w chymmeradwyo; efe a brofa y fath effeithiau grymus, melus, a sanctaidd o hóni, a'r fath gynnorthwy chwanegol gan yr Ysbryd Glân, ag a'i galluoga ef i farnu, gyda llawn foddlonrwydd iddo ei hun, pa un a ydyw yn ddatguddiad dwyfol, fel yr wyf fi yn dywedyd; ai ynte tyb bersonol a dyfais twyllwr ydyw, fel y taerai fy ngelynion. Pan mae y galon fel hyn wedi ei thueddu i "wneuthur ewyllys Duw," mae yn derchafu uwchlaw rhagfarnau balchder, hunangariad, a gobeithion ac ofnau bydol, y rhai sydd yn cymylu ac yn gwyro y deall. Mae yr agwedd hyn ar y meddwl hefyd yn effaith gras Duw; ac Efe yr hwn a roddodd i unrhyw ddyn y cyfryw fesur o ddifrifwch, hyddysgedd, ac uniondeb, a'i cynnorthwya ef i ddeall a derbyn y gwirionedd, ac i ganfod a gwrthod cyfeiliorni.

18 f * Y mae yr hwn sydd yn llefaru o
hono ei hun, yn ceisio ei ogoniant ei hun:
† ond yr hwn sydd g yn ceisio gogoniant yr
hwn a'i hanfonodd, hwnnw sydd eirwir, ac
anghyfiawnder nid oes ynddo ef.
f pen. 5. 41. a 8. 49, 50. 1 Cor. 10. 31—33. Gal. 6. 12—14. Phil. 2. 3—5. 1 Thes. 2. 6. 1 Pedr 4. 11. g pen. 3. 26—30. a 11. 4. a 12. 28. a 13. 31, 32. a 17. 4, 5. Ex. 32. 10—13. Num. 11. 29. Mat. 6. 9.

* Dyma nod arall iddynt i wybod pa un a oedd ei athrawiaeth ef o Dduw ai nid oedd: pob dysgawdwr sydd yn llefaru o hóno ei hun, sef o'i ddychymmygion ei hun, mae yn ceisio ei ogoniant ei hun, ennill plaid iddo ei hun, a chael enw mawr iddo ei hun; a lle bynag y gweler neb felly, yn ceisio ei ogoniant ei hun, mae yn arwydd sicr mai o hóno ei hun mae yn llefaru, na dderbyniodd ei genadwri gan Dduw, ac nas danfonodd Duw ef. † O'r tu arall, pwy bynag sydd yn ceisio gogoniant Duw, yr hwn a'i danfonodd ef, mae hyny yn arwydd sicr bod y dyn yn eirwir, mai gan Dduw y derbyniodd efe hi, ac mai Duw a'i danfonodd ef. Rhy faith ac afreidiol fyddai dangos mai yr olaf o'r ddau uchod oedd Iesu, yr hyn oedd nod amlwg mai o Dduw yr oedd ei ddysgeidiaeth ef.

19 h * Oni roddes Moses i chwi y gyfraith,
i † ac nid oes neb o honoch yn gwneuthur y
gyfraith? k ‡ Paham yr ydych yn ceisio fy
lladd i?
h pen. 1. 17. a 5. 45. a 9. 28, 29. Ex. 24. 2, 3. Deut. 33. 4. Act. 7. 38. Heb. 3. 3—5. i Mat. 23. 2—4. Rhuf. 2. 12, 13, 17—29. a 3. 19—23. Gal. 6. 13. k adn. 25. pen. 5. 16, 18. a 10. 31, 32, 39. a 11. 53. Salm 2. 1—6. Mat. 12. 14. a 21. 38. Marc 3. 4, 6.

* Fel pe dywedasai, Nid oes genych ddim ammheuaeth am Moses, nad gwir brophwyd ydoedd, wedi ei ddanfon gan Dduw; ac nid oes genych ddim ammheuaeth am y gyfraith a roddodd Moses, nad o Dduw y rhoddwyd hi trwy Moses; † ac eto nid oes neb o honoch yn gwneuthur y gyfraith hòno er eich holl ymffrost o hóni, ond y mae pawb o honoch yn ei thòri yn gywilyddus, trwy ei cham-egluro a throseddu mewn gweithredoedd. ‡ Fel prawf o hyny yr ydych chwi er ys blwyddyn a hanner o leiaf yn llettya casineb ataf fi, ac o hyny hyd yn awr yn ceisio fy lladd i am iachâu y dyn ar y sabbath wrth lyn Bethesda, pen. 5. 16: onid yw y fath gasineb, a'r fath fwriad llofruddiog yn drosedd ar gyfraith Moses?

20 * Y bobl a attebodd ac a ddywedodd,
l † Y mae gennyt ti gythraul: pwy sydd yn
ceisio dy ladd di?

1 pen. 8. 48, 52. a 10. 20. Mat. 10. 25. a 11. 18, 19. a 12. 24. Marc 3. 21, 22, 30. Act. 26. 24.

* Tybir mai rhai o'r bobl o'r wlad oedd y rhai hyn a atebasant, ac nas gwyddent hwy ddim fod gan neb y fath fwriad â lladd Iesu; felly yr oeddent yn cyffroi yn arw wrth glywed y fath gyhuddiad: ond er hyny yr oeddynt yn feïus iawn yn dywedyd y fath eiriau ysgeler a nwyd-wyllt wrtho ef. O'r tu arall, os y rhai a geisient ei ladd ef oeddynt, yr oeddynt yn fwy drygionus byth; trwy wadu y gwirionedd, a chablu y Cyfryngwr hefyd. † Tybient hwy ei fod ef allan o'i bwyll, ac ei fod yn dywedyd hyn fel dyn allan o'i bwyll, a thybiai yr Iuddewon yn wastad, fod dynion felly wedi eu meddiannu gan ddiafol.

21 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, [m] * Un weithred a wneuthum, † ac yr ydych oll yn rhyfeddu.

m pen. 5. 9—11.

* Yr un weithred hon oedd, iachâu y claf ar y sabbath, Ioan 5. 1—16. † Nid rhyfeddu yn ganmoladwy am ddaioni y weithred, a'r modd gwyrthiol y gwnaed hi; ond rhyfeddu yn dramgwyddus am ei gwneyd ar y dydd sabbath, yr hyn sydd amlwg wrth adn. 23. E wnaeth Iesu y weithred hòno ar yr ail basg ar ol ei fedyddio, ac yn awr yr oedd y trydydd pasg wedi myned heibio (pen. 6. 4,) a hanner blwyddyn drosodd, oblegid yn mis Medi neu Hydref yr oedd gŵyl y pebyll; ac eto yr oedd yr Iuddewon o hyd yn "rhyfeddu," yn cadw digofaint at Iesu, ac yn ceisio ei ladd ef am y weithred hòno. Gwel sylw ‡ ar adn. 19.

22 * Am hynny y rhoddes Moses i chwi yr [n] enwaediad † (nid o herwydd ei fod o Moses, eithr o'r tadau) ac yr ydych yn enwaedu ar ddyn ar y sabbath.

n Gen. 17. 10—14. Lef. 12. 3. Rhuf. 4. 9—11. Gal. 3. 17.

* Tybir mai yn niwedd yr adnod o'r blaen y dylai y ddau air blaenaf o'r adnod hon fod; fel hyn,—"ac yr ydych oll yn rhyfeddu am hyny," sef am yr "un weithred" a wnaethai yr Iesu: os felly, rhaid i'r adnod hon ddechreu fel hyn, "Rhoddes Moses i chwi yr enwaediad, &c. † Rhoddes Moses i chwi y ddeddf yn nghylch yr enwaediad, Lefit. 12. 3; am yr enwaediad ei hun a deddf yr enwaediad hefyd yr oeddynt wedi eu rhoddi i Abraham o'r blaen, oesoedd cyn geni Moses, ni wnaeth efe ond ail adrodd y ddeddf i'w chadw mewn grŷm. ‡ Hyny yw, pan y dygwyddo yr wythfed dydd o enedigaeth y plentyn fod yn sabbath, yr ydych yn enwaedu ar y sabbath, ac nid ydych yn ystyried ei fod yn drosedd ar y sabbath: pa ham gan hyny y gwnewch fy un weithred dda I ar y dyn claf, yn drosedd? gweithred llawer mwy angenrheidiol, a llai llafurus i mi, nag enwaedu.

23 * Os yw dyn yn derbyn enwaediad ar y sabbath, heb dorri cyfraith Moses; a ydych yn llidiog wrthyf fi, am i mi [o] wneuthur dyn yn † holliach ar y sabbath?

o pen. 5. 8, 9, 14—16.

* Swm, a grŷm y ddadl hon, debygid yw hyn: Os geill deddf ddefodol, (y fath ag oedd hòno am gadw y sabbath, a roddwyd ar Sinai,) roddi lle i ddeddf ddefodol arall, henach na hi (y fath ag oedd deddf yr enwaediad, a roddasid i Abraham yn mhell o'r blaen;) llawer mwy y dylai roddi lle i ddeddf natur, yr hon a ysgrifenwyd yn nghalon pob dyn: hyny yw, mai ein dyledswydd yw cynnorthwyo y rhai hyny a fyddo mewn cystuddiau a thrueni. Ni wnaethai Iesu ond ufuddâu i'r ddeddf hòno pan iachâodd efe y dyn wrth lŷn Bethesda. † Archolli y byddid wrth enwaedu, ond gwneyd yn holliach a wnaeth Iesu: *hollawl afiach* oedd y dyn o'r blaen, drwy ei holl gorph; ond gwnaeth Iesu ef yn *holliach* drwyddo i gyd, a hyny â gair ei enau. Mi a wnaethum yn *holliach, ddyn cyfan*, yw ystyr lythyrenol y geiriau Groeg, meddant.

24 * Na fernwch [p] wrth y golwg, † eithr bernwch farn gyfiawn.

p pen. 8. 15. Deut. 1. 16, 17. a 16. 18, 19. Salm 58. 1, 2. a 82. 2. a 94. 20, 21. Diar. 17. 15. a 24. 23. Es. 5. 23. a 11. 3, 4. Iago 2. 1, 4, 9

* Na fyddwch dueddol, a phleidgar, wrth farnu; gan dderbyn wynebau rhai rhagor eraill; na choleddwch ragfarn yn fy erbyn I, o herwydd fy ymddangosiad gwael a digyfrif, nac o blaid eich arch-offeiriaid a'ch penaethiaid eich hunain, o herwydd eu rhith-hòniadau, a'r awdurdod maent wedi gael arnoch chwi; ac na feiwch yn fyrbwyll ar yr hyn a wnaethum I, gan roddi lliw drwg ar weithred dda. † Ond chwiliwch i bethau yn ofalus, a chymharwch hwy â'u gilydd, fel y galloch farnu yn ol gwirionedd a chyfiawnder; ac os ystyriwch chwi wir deilyngdod yr achos, nis gellwch chwi byth fy marnu I yn dòrwr sabbath gydag un cysondeb â'ch arferion eich hunain. Ac os bernwch yn iawn, rhaid i chwi weled fy nwyfol anfoniad I mòr amlwg a'r eiddo Moses, ac yn llawer mwy amlwg.

25 Yna y dywedodd rhai [q] o'r Hierosolymitaniaid, [r] Onid hwn yw yr un y maent hwy yn ceisio ei ladd?

q adn. 10, 11. r adn. 20.

* Rhai o drigolion cartrefol Jerusalem oedd y rhai hyn: † gwyddai y rhai hyn am fwriad y penaethiaid yn well na'r rhai hyny yn adn. 20.

26 * Ac wele, [s] y mae yn llefaru ar gyhoedd, † ac nid ydynt yn dywedyd dim wrtho ef: [t] ‡ a wybu y pennaethiaid mewn gwirionedd mai hwn yw Crist yn wir?

s Salm 40. 9, 10. a 71. 15, 16. Diar. 28. 1. Es. 42. 4. a 50. 7, 8. Mat. 22. 16. Act. 4. 13. Eph. 6. 19, 20. Phil. 1. 14. 2 Tim. 1. 7, 8. t adn. 48. pen. 9. 22. a 11. 47—53. a 12. 42. Luc 7. 30.

* Nid yn unig yr oedd efe wedi dyfod i Jerusalem, ond i'r deml ei hun; ac yn llefaru yn gyhoeddus yno, yn hyf a diofn, gan argyhoeddi a cheryddu yr Iuddewon yn ddiarbed. † Nid yn unig mae y rhai oedd yn llidiog yn ceisio ei ladd ef, yn gadael llonydd iddo, heb ei gymmeryd ef i fynu; ond nid oes neb ryw sut yn beiddio ei attal ef i lefaru, nac ychwaith yn beiddio gwrthddywedyd dim ag mae efe yn lefaru. † Pa fodd y mae hyn? a ydyw y llywodraethwyr o'r diwedd wedi cael tro, ac yn credu mai y Messiah mewn gwirionedd ydyw efe, gan eu bod yn gadael llonydd fel hyn iddo? Yn adn. 32, cawn weled nad oedd ei elynion ef wedi cael tro yn y byd, ond mòr llidiog ag erioed: efallai nas gwyddent ei fod ef yn y deml am dro.

27 * Eithr [u] nyni a adwaenom hwn o ba le y mae: † eithr pan ddêl Crist, [x] nis gŵyr neb o ba le y mae.

u adn. 15. pen. 6. 42. Mat. 13. 54—57. Marc 6. 3. Luc 4. 22. x adn. 41, 42. Es. 11. 1. a 53. 8. Jer. 23. 5. a 30. 21. Mica 5. 2. Mat. 2. 5, 6. Act. 8. 33.

* Fel pe dywedasent, Beth bynag yw meddwl y penaethiaid, nis gallwn ni byth gredu mai hwn yw Crist, y Messiah; oblegid ni adwaenom hwn mai Iesu o Nazareth yw, mab Joseph a Mair: nis gall hwn fod yn Grist. Mae yn debyg nas gwyddai y rhai hyn ddim fod Iesu wedi hanu o had Dafydd, wedi cael ei genedlu yn wyrthiol yn mru morwyn, nac ei fod wedi ei eni yn Bethlehem; am hyny yr oeddent yn penderfynu yn fyrbwyll nad oedd ei dadogaeth na'i enedigaeth ef ddim yn ateb i'r rhag-ddywediadau am y Messiah. † Eto, mae yn ymddangos fod ganddynt ryw syniadau, go ddyryslyd, am ddeilliad dwyfol y Gwaredwr mawr hwnw; oblegid dywedant, "Pan ddel Crist, nis gŵyr neb o ba le y mae." Gwyddai pawb agos, o'r Iuddewon, o ba le yr oedd y Messiah o ran ei ddynoliaeth i ddyfod; sef o lwyth Judah, o deulu Dafydd, ac o Bethlehem y dref lle bu Dafydd: gan hyny mae y geiriau hyn, "Nis gŵyr neb o ba le y mae" yn lled dywyll a dyrys. Tybia rhai mai cyfeirio yr oeddynt at enedigaeth y Messiah o wyryf; dywed eraill fod traddodiad yn mhlith yr Iuddewon, y byddai y Messiah yn guddiedig am hir amser pan

ilai, ac mai hyny oeddynt yn feddwl; ond mae yn
s tebygol, mai tybiau cyfeiliornus am ryw brophwyd-
ethau, perthynol i dragywyddol Dduwdod y Messiah,
d wedi tynu eu meddyliau hwy ymaith oddi wrth y
ohwydoliaethau eglurach, a mwy pendant, ar y mater.
gwylient y byddai y Messiah, fel Melchizedec, "heb
au," a'i "fynediad allan o'r dechreuad, er dyddiau
ywyddoldeb;" ac nas gallai neb "draethu ei oes
Felly yr oedd Iesu, ond nis gwyddent hwy hyny.

28 Am hynny yr Iesu, wrth athrawiaethu
y deml, * a lefodd ac a ddywedodd,
Chwi a'm hadwaenoch i, ac a wyddoch o ba
yr ydwyf fi: [z] ‡ ac ni ddaethum i o honof
hun, [a] || eithr y mae yn gywir yr hwn a'm
nfonodd i, [b] § yr hwn nid adwaenoch chwi.
y pen. 1. 46. a 8. 14. Mat. 2. 23. Luc 2. 4, 11, 39, 51. z pen.
a 5. 43. a 8. 16, 42. a 10. 36. a 12. 49. a 14. 10, 31. a pen.
3. a 5. 32. a 8. 26. 2 Cor. 1. 18. Tit. 1. 2. Heb. 6. 18. 1 Ioan 5.
b pen. 8. 19, 54, 55. a 16. 3. a 17. 3, 25. 1 Sam. 2. 12. Salm
0. Diar. 2. 3—5. Jer. 9. 6. a 31. 34. Hos. 4. 1. a 5. 4. a 6. 3—6.
. 11. 27. Luc 10. 22. Act. 17. 23. Rhuf. 1. 28. 2 Cor. 4. 6. 1 Ioan
. 4.

A gododd ei lef yn uwch nac arferol, ac a lefarodd
a nerth a difrifwch mawr dros ogoniant ei Dad.
hwi a'm hadwaenoch I o ran cnawd, ond y mae fy
nrddiad dechreuol, a'm swydd gyfryngol I, yn mhell
chlaw eich amgyffrediadau chwi. Chwi a allech fy
nabod I, wrth fy athrawiaeth a'm gwyrthiau, oni
ddai eich bod yn cauad eich llygaid yn erbyn y gol-
ni sydd yn tywynu yn eich gwynebau. Tybia eraill
ai gwawdiaith yw y geiriau, neu ofyniad; A ydych chwi
fy adnabod I mòr dda? ‡ Pe y'm hadwaenech, chwi a
pech mai nid dyfod o honof fy hun a wnaethum, ond
ai y Tad a'm danfonodd. || Mae yr hwn a'm danfon-
d I yn wir Dduw, yn gywir ac yn ffyddlawn i'w holl
dewidion i mi ac am danaf fi; cyflawnodd amryw
soes, ac e dâl ymddiried iddo am y lleill. § Ond nid
waenoch chwi fy Nhad; am hyny nid adwaenoch
anau, ac ni chredwch ynof.

29 [c] * Ond myfi a'i hadwaen; [d] † oblegid o
ono ef yr ydwyf fi, ‡ ac efe a'm hanfonodd i.
c pen. 1. 18. a 8. 55. a 10. 15. a 17. 25, 26. d pen. 3. 16,
. a 13. 3. a 16. 27, 28. a 17. 18. 1 Ioan 1. 2. a 4. 9, 14.

* Mi a'i hadwaen ef yn berffaith, fel y mae yn ei ad
abod ei hun: mi a'i hadwaen ef mewn modd nad oes
n dyn nac angel yn ei adnabod: mi a adwaen ei han-
d ef, ei ewyllys, ei gyngor, a'i holl gyfraith. † Nis
all fod modd arall; oblegid o hóno ef yr ydwyf fi fel
erson gwahanrhedol, trwy genedliad tragywyddol;
ac o hóno ef yr ydwyf fel Messiah danfonedig i'r byd,
gyhoeddi ac i gyflawni ei ewyllys ef, er iachawdwriaeth
ynion.

30 [e] * Am hynny hwy a geisiasant ei ddal
ef: [f] † ond ni osododd neb law arno, am na
daethai ei awr ef etto.
e adn. 19, 32. pen. 8. 37, 59. a 10. 31, 39. a 11. 57. Luc 19.
7, 48. a 20. 19. f adn. 6, 8, 44—46. pen. 8. 20. a 9. 4. a 11. 9,
0. Salm 76. 10. Es. 46. 10. Luc 13. 32, 33. a 22. 53.

* Erbyn hyn yr oedd y sŵn wedi myned i'r *Sanhed-
rim*, cyngor mawr yr Iuddewon, i'r hwn y perthynai
rin achosion eglwysig, barnu gau-brophwydi, cabledd,
thòri y sabbath, &c. Cymmerodd y rhai hyn gyngor
n ei erbyn ef, gan feddwl ei ddàl ef: neu, efallai, fod
hai o aelodau y cyngor hwnw yn y deml erbyn hyn, ac
ddynt annog rhai o'r dyrfa ag oedd yn elynion i Grist,
ymdrechu ei ddàl ef gyda hwynt. † Ond gwaharddodd
irgel allu Duw eu cynddaredd hwy oll, am nad oedd
i awr ef eto wedi dyfod: ni feiddiodd neb osod llaw
arno.

31 * A llawer o'r bobl [g] a gredasant ynddo,
ac a ddywedasant, [h] † Pan ddelo Crist, a wna
efe fwy o arwyddion nâ'r rhai hyn a wnaeth
hwn?
g pen. 2. 23, 24 a 6. 14, 15. a 8. 30—32. a 12. 42. Luc 8. 13.
Act. 8. 13. Iago 2. 26. h pen. 3. 2. a 6. 2. a 9. 16. a 10. 41, 42.
Mat. 11. 3—6.

* Yr hyn a gynddeiriogodd rai yn y dyrfa i geisio dàl yr Iesu, a fu yn foddion i dueddu eraill i gredu ynddo: fel hyn mae yr un weinidogaeth yn arogl bywyd i fywyd i rai, ac yn arogl marwolaeth i farwolaeth i eraill: yn dramgwydd ac yn ynfydrwydd i rai; ac yn allu Duw a doethineb Duw i eraill. Mae rhai o'n hawdwyr yn tybied iddynt gredu mai Iesu oedd y Messiah mewn gwirionedd; ond mae *Pool* yn tybied mai credu a wnaethant ant ei fod ef yn brophwyd mawr, wedi ei ddanfon gan Dduw, ond eu bod yn dysgwyl rhywun arall i ddyfod yn Fessiah, yr hyn sydd amlwg, ebai efe, yn y geiriau nesaf "Pan ddel Crist." † Nid yw Ioan yn adrodd ond ychydig o wyrthiau Crist, llai na'r efengylwyr eraill o lawer; ond y mae y rhai a adroddir ganddo yn brawf digonol o Dduwdod Iesu. Taera yr Iuddewon diweddarach, na wna y Messiah ddim gwyrthiau pan ddelo; ond mae yn amlwg yn y geiriau hyn, bod Iuddewon yr oes hòno yn dysgwyl y gwnelai efe wyrthiau lawer: ac yr oeddynt yn sylfaenu eu dysgwyliad ar Es. 35. 5, 6; gwel Matth. 11. 5.

32 ¶ [i] * Y Phariseaid a glywsant fod y
bobl yn murmur y pethau hyn am dano ef;
† a'r Phariseaid a'r arch-offeiriaid a [k] anfonas-
ant swyddogion i'w ddal ef.
i adn. 47—53. pen. 11. 47, 48. a 12. 19. Mat. 12. 23, 24. a 23.
13. k adn. 45, 46. pen. 18. 3. Luc 22. 52, 53. Act. 5. 26.

† Heblaw bod y geiriau uchod yn ganmoliaeth i'r Iesu, mae yn debyg fod yno rai yn dangos eu hanfoddlonrwydd tuag at y llywodraethwyr hefyd, am eu bod yn ceisio lladd dyn mòr dda, a phrophwyd mòr fawr; ac yr oedd yn y dyrfa mae yn debyg yspïwyr yn barod i gludo pobpeth a glywent i glustiau y llywodraethwyr. Ofnai yr arch-offeiriaid y collent hwy eu hanrhydedd a'u parch yn mhlith y bobl, ac ofnai y Phariseaid yr un peth, ac hefyd yr elai eu traddodiadau hwy i anfri, os goddefent i'r Iesu fyned yn mlaen yn ei athrawiaeth ef, a chadarnâu ei athrawiaeth hefyd drwy wyrthiau; † gan hyny danfonasant swyddogion wedi eu hawdurdodi gan y *Sanhedrim* i'w ddàl ef, ac i'w ddwyn ger bron eu cyngor a'u brawdle hwy, os gallent mewn un modd gan y dyrfa.

33 * Am hynny y dywedodd yr Iesu
wrthynt hwy, [l] † Yr ydwyf fi ychydig amser
etto gyd â chwi, ‡ ac yr wyf yn myned at yr
hwn a'm hanfonodd.
l pen. 12. 35, 36. a 13. 1, 3, 33. a 16. 5, 16—22. a 17. 11, 13.
Marc 16. 19.

* Gwyddai yr Iesu beth oedd yn myned yn mlaen yn ystafell y Senedd, a bod swyddogion yn dyfod i'w ddàl ef yn fuan iawn; ac yn lle dianc, mae yma megys yn rhoddi beiddiad iddynt oll, tebyg i'r hyn a wnaeth efe i Herod yn Luc 13. 32, 33. † "Ychydig ennyd;" tua hanner blwyddyn, mae yn debyg oedd yr ychydig ennyd hòno, sef o ŵyl y pebyll hyd y pasg nesaf ar ol hyny. Fel pe dywedasai efe, Rhaid i mi bregethu a gwneyd gwyrthiau yn eich plith chwi am hyny o amser eto; ac nis gall holl lid, dichell, ac awdurdod fy ngelynion, fy nàl na fy nhori I ymaith, hyd oni ddelo yr amser terfynol i ben. ‡ Pan ddelo yr amser hyny i ben, goddefir iddynt fy nàl a fy lladd I, fel yr arfaethwyd; mi a roddaf fy einioes i lawr, a gyrodaf y trydydd dydd, ac a esgynaf at fy Nhad, yr hwn a'm hanfonodd I, yn y drydedd nef.

34 [m] * Chwi a'm ceisiwch, † ac ni'*m* cewch:
‡ a lle yr ydwyf fi, ni ellwch chwi ddyfod.
m pen. 8. 21—24. a 13. 33—36. a 14. 3, 6. a 17. 24. Diar. 1.
24—31. Hos. 5. 6. Mat. 23. 39. Luc 13. 24, 25, 34, 35. a 17. 22, 23.

* Gwedi hyny, chwi a fawr ddymunwch, ond Och, yn rhy ddiweddar, am i'r Messiah ymddangos yn eich plith; yr hyn yn wir fydd fy ngheisio I, oblegid myfi yw efe, er nas gwyddoch chwi. † Ond yn eich caledi dirfawr, a'ch drygfyd ofnadwy yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw, ni'm cewch mwy ar ol fy ngwrthod. ‡ Ni

ddeuaf fi atoch chwi mwyach, ac ni ellwch chwithau ddyfod i'r nef attaf fi oblegid eich anghrediniaeth o honof.

35 Yna y dywedodd yr Iuddewon yn eu mysg eu hunain, I ba le y mae hwn ar fedr myned, fel na chaffom ni ef? [n] * ai at y rhai sydd ar wasgar ym mhlith y Groegiaid y mae efe ar fedr myned, [o] † a dysgu y Groegiaid?

n Es. 11. 12. a 27. 12, 13. Zeph. 3. 10. Act. 21. 21. Iago 1. 1. o Salm 67. 1, 2. a 98. 2, 3. Es. 11. 10. a 49. 6. Mat. 12. 21. Luc 2. 32. Act. 11. 18. a 13. 46—48. a 22. 21, 22. Eph. 3. 8. Col. 1. 27. 1 Tim. 2. 7. 2 Tim. 1. 11.

* Mae yn ddiammau mai yr Iuddewon gwasgaredig yn mhlith y Groegiaid a feddylir wrth y "rhai sydd ar wasgar" yma; gwel Act. 11. 19, 20; 1 Pedr 1. 1; Iago 1. 1. Efallai bod mwy o ddirmyg yn y geiriau nag a feddylir yn gyffredin:—fel pe dywedasai yr Iuddewon gwatwarllyd, Mae hwn yn ceisio hòni mai efe yw y Messiah, ac wrth fethu llwyddo i gael fawr o ganlynwyr yn y wlad hon, mae efe yn sôn am fyned ymaith i rywle arall; ac i ba le y gall ef fyned ond at y rhai sydd ar wasgar yn mhlith y Groegiaid? mae yn gobeithio llwyddo gyda'r rhai hyny, o herwydd nas gwyddant hwy gymmaint â ni yn y wlad hon am bethau. † Ac er myned yno, nid llawer o'n cenedl ni fydd mòr ffol a myned yn ddysgyblion iddo ef, rhaid iddo yn y diwedd geisio gwneyd dysgyblion o'r cenedloedd dienwaededig, y paganiaid, pan welo ei hun yn cael ei wrthod gan yr Iuddewon. Fel hyn yr oedd yr Iuddewon yn dangos eu hanwybodaeth o eiriau Crist, eu dirmyg ar ei berson a'i swydd ef, ac hefyd eu digofaint ato am ei fod yn sôn am fyned at y cenedloedd, yn ol eu dychymmyg hwy.

36 [p] * Pa ymadrodd yw hwn a ddywedodd efe, [q] Chwi a'm ceisiwch, ac ni'*m* cewch: † a lle yr ydwyf fi, ni ellwch chwi ddyfod?

p pen. 3. 4, 9. a 6. 41, 52, 60. a 12. 34. a 16. 17, 18. q adn. 34. 1 Cor. 2. 14.

* Beth a all efe feddwl wrth ddywedyd, y bydd i ni ei geisio ef, a chwennychu ei gael ef, ond nas gallwn? † Pa le y gall efe fyned nas gallwn ni fyned yn gystal ag yntau os ewyllysiwn? Mae geiriau Crist yn cyfeirio at y drygfyd oedd i ddyfod ar y genedl Iuddewig, a'u chwennychiad ofer am ddyfodiad y Messiah yn y drygfyd hwnw; ond nid oeddynt hwy yn meddwl dim i ba le yr oedd Iesu ar fedr myned, gan nad oedd ganddynt un syniad am ei esgyniad ef i'r nef.

37 [r] * Ac ar y dydd diweddaf, † y *dydd* mawr o'r wyl, y safodd yr Iesu, [s] ‡ ac a lefodd, gan ddywedyd, [t] || Od oes ar neb syched, [u] § deued attaf fi, [x] ac yfed.

r Lef. 23. 36, 39. Num. 29. 35. 1 Bren. 8. 65, 66. s adn. 28. pen. 1. 23. Diar. 1. 20. a 8. 1, 3. a 9. 3. Es. 40. 2, 6. a 55. 1. a 58. 1. Jer. 2. 2. Mica 6. 9. Mat. 3. 3. t pen. 4. 10. a 6. 35. Salm 36. 8, 9. a 42. 2. a 63. 1. a 143. 6. Es. 12. 3. a 41. 17, 18. a 44. 3. a 55. 1. Amos 8. 11—13. Dat. 21. 6. a 22. 1, 17. u pen. 5. 40. a 6. 37. a 14. 6. Es. 55. 3. Jer. 16. 19. Mat. 11. 28. x pen. 6. 55. Can. 5. 1. Zec. 9. 15. 1 Cor. 10. 4, 21. a 11. 25. a 12. 13. Eph. 5. 18.

Gan nad oedd y swyddogion yn gallu gwneyd dim iddo, er eu danfon gan y Sanhedrim i'w ddàl ef; yr oedd yr Iesu yn myned rhag ei flaen yn ei ymadrodd yn ddirwystr, heb sylwi dim ar y swyddogion oedd yno erbyn hyn, nac ychwaith ar gecraeth y bobl yn nghylch ei eiriau ef. * Y dydd diweddaf o'r wyl oedd yr wythfed o'i dechreuad. † Yr oedd hwn i fod yn ddydd mawr, dydd o gymmanfa sanctaidd ac o aberthau anghyffredin. Lefit. 23. 36; Num. 29. 35. ‡ Yma derchafodd Iesu ei lef eto, yn ogoneddus iawn, fel yn adn. 28, fel y clywai yr holl dyrfa fawr yn nghynteddoedd y dem̀l. || Yma gosodir allan deimlad pechaduriaid o'u hangen ysbrydol, ac awydd eu heneidiau am iachawdwriaeth Duw, dàn y gymhariaeth fwyaf bywiog, o syched: felly y gwnair mewn llaweroedd o fànau eraill, yn yr Hen Destament a'r Newydd; ac nis gellir defnyddio yr un gymhariaeth mwy addas. § Yma mae Iesu yn datgan ei hun yn Ffynon ddihyspydd iachawdwriaeth i bechaduriaid colledig; ie, yn "Ffynon y dyfroedd byw," mewn cyferbyniad i bydewau toredig dynion; ac yn wir mae efe yn llefaru fel Duw holl-gyfoethog, a holl-ddigonol. Ar y dydd hwn o'r wyl yr oedd y gynnulleidfa liosocaf, a byddent ar y dydd hwnw yn arfer tynu dwfr o lyn Siloam; defnyddient beth o hóno yn ddiod-offrymau, ac yfent beth o hóno eu hunain gyda bloeddiadau gorfoleddus, mewn coffadwriaeth am y dwfr a roddasai Duw yn wyrthiol i'w tadau o'r graig, pan drigasant mewn pebyll yn yr anialwch, ac ar y dydd hwn gweddient yn daer am wlaw prydlawn. Dywedir y byddai offeiriad yn sefyll ar fàn uchel yn y dem̀l, ar amser yr aberth hwyrawl y dydd hwn, ac yn tywallt dwfr gerbron yr Arglwydd, mewn ffordd, meddant, o weddio am ddylanwadau dwyfol yr Ysbryd Glân, ac fel arwydd o'u dymuniad iddo gael ei dywallt arnynt hwy. Dyma Iesu yn addaw y peth ei hun.

38 * Yr hwn sydd yn credu ynof fi, † megis y dywedodd yr ysgrythyr, [y] ‡ afonydd o ddwfr bywiol a ddylifant || o'i groth ef.

y pen. 4. 14. Job 32. 18, 19. Diar. 10. 11. a 18. 4. Es. 44. 3. a 58. 11. a 59. 21. Ezec. 47. 1—12. Zec. 14. 8. Gal. 5. 22, 23. Eph. 5. 9.

* Yr hwn sydd yn credu ynof fi fel Crist yr Arglwydd, ac yn ymddiried ynof am ei holl iachawdwriaeth: nid credu hanesiol, ac o gydsyniad yn unig a feddylir; ond credu â'r galon i gyfiawnder, hollawl ymorphwysiad yr enaid ar Grist am fywyd tragywyddol, yn wyneb colledigaeth dragywyddol. † Mae rhai yn cyssylltu y geiriau hyn â'r rhan flaenaf o'r adnod, fel hyn: "Yr hwn sydd yn credu ynof fi megys y dywed yr ysgrythyr," heb un attaliad ar ol y gair "fi." Credu fel y dywed yr ysgrythyr am gredu gwirioneddol; a chredu yn Nghrist fel mae yr ysgrythyr yn dywedyd am Grist. Fel yna maent yn dianc rhag yr anhawsder o gael y geiriau canlynol, ("Afonydd o ddwfr bywiol a ddylifant o'i groth ef,") yn yr ysgrythyr. ‡ Ond mwy naturiol yw meddwl mai i'r rhan olaf o'r adnod y maent yn perthyn; ac mai sylwedd amryw brophwydoliaethau am dywalltiad yr Ysbryd, dàn y gymhariaeth o ddwfr bywiol, yw diwedd yr adnod, yn hytrach na dyfyniad o unrhyw ysgrythyr bennodawl. || "O'i groth ef:" neu odd ei fewn ef. Mae y groth, neu y bòl, yn aml yn myned am y meddwl, neu y galon. Cymhara Job 15. 35; a 20. 20; â Diar. 20. 27, 30. Weithiau mewn ystyr mwy cyffredin, arwydda y canol, neu dufewn i rywbeth, 1 Bren. 7. 20; Matth. 12. 40; ac efallai fod Crist yma yn cyfeirio at y cawg aur mawr, o ba un yr oedd yr offeiriad y pryd hwnw yn tywallt dwfr ger bron yr Arglwydd.

39 [z] (A hyn a ddywedodd efe am yr * Ysbryd, † yr hwn a gai y rhai a gredent ynddo ef ei dderbyn: [a] ‡ canys etto nid oedd yr Ysbryd Glân *wedi ei roddi*, || o herwydd na [b] ogoneddasid yr Iesu etto)

z pen. 14. 16, 17, 26. Diar. 1. 23. Es. 12. 3. a 32. 15. a 44. 3. Joel 2. 28. Luc 3. 16. a 24. 49. Act. 1. 4—8. a 2. 4, 17, 33, 38. a 4. 31, 32. Rhuf. 8. 9. Eph. 1. 13, 14. a 4. 30. a pen. 16. 7. Salm 68. 18. Es. 32. 15. Act. 2. 17, 33. 2 Cor. 3. 8. b pen. 12. 16. a 13. 31, 32. a 14. 13. a 17. 5. Act. 3. 13.

Geiriau Ioan yw y rhai hyn, yn eglurhâd ar eiriau Crist yn yr adnod o'r blaen. * Am yr Ysbryd Glân dàn y gymhariaeth o "ddwfr," a "dwfr bywiol;" nis gallwn wneyd yn well na dymuno ar y darllenydd droi at yr ysgrythyrau cyfeiriol, a berthyn i'r adnod hon a'r un o'r blaen: dylid gwneyd felly yn wir drwy y gwaith i gyd; ni bu erioed well casgliad o gyfeiriadau na'r eiddo *Scott*, ac y maent yn gymmorth rhagorol i ddeall yr ysgrythyrau, i'r neb a'u defnyddio. † Mae yr Ysbryd Glân yn addawedig i bawb a gredant, ac nid addawyd ef yn ei ddoniau achubol i neb arall. ‡ Llefarodd dynion sanctaidd Duw yn yr hen oesoedd, megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân; a sancteiddiwyd a diddanwyd yr holl gredinwyr yn mhob oes ganddo ef: ond nid oedd "gweinidogaeth yr Ysbryd" y pryd hwnw

edi ei dwyn i mewn a'i sefydlu yn gyflawn; nid oedd walltiad yr Ysbryd, yn ei ddylanwadau gwyrthiol na mcteiddiol, wedi cymmeryd lle y pryd hwnw yn gyfwn; || oblegid yr oedd y peth rhyfeddol hyny yn cael gadw i fawrâu ac urddasu buddugoliaeth y Gwared; ac i dystiolaethu ei adgyfodiad a'i esgyniad i'r goniant nefol.

40 ¶ Am hynny llawer o'r bobl, * wedi ywed yr ymadrodd hwn, a ddywedasant, † Yn wir hwn yw y Prophwyd.

c adn. 12. pen. 1. 21, 25. a 6. 14. Deut. 18. 15—18. Mat. 16. 1. a 21. 11. Luc 7. 16. Act. 3. 22, 23.

* Sef wedi clywed ymadrodd grasol ac awdurdodol y wfryngwr, yn yr adnodau o'r blaen. † Gellid darllen ggeiriau "Yn wir prophwyd yw hwn:" nid y Messiah hun oeddynt yn feddwl, fel y mae yn amlwg wrth y dadl yn yr adnodau nesaf. Yr oedd gweled prophwyd n ngwlad Judea yn beth rhyfedd yn awr, gan na buasyr un er ys mwy na phedwar càn mlynedd o'r blaen, nd Ioan Fedyddiwr a gyfrifid felly.

41 * Eraill a ddywedasant, [d] Hwn yw Crist. † Eraill a ddywedasant, [e] Ai o Galilea daw Crist?

d adn. 31. pen. 1. 41—49. a 4. 25, 29, 42. a 6. 69. Mat. 16. 4—16. e adn. 52. pen. 1. 46.

* Yr oedd rhai o honynt yn myned yn mhellach; a nynent mai y Messiah hun, y gwir Brophwyd, yddedd Iesu: tybient, (a thybient yn iawn hefyd) nas allai neb lefaru a gweithredu gyda'r fath fawredd, osturi, a dull dwyfol, ond y Messiah yn unig. Gwyddai pawb mai o Nazareth yn Galilea yr oedd esu yn dyfod; a gwyddent nad oedd gwiw dysgwyl y Messiah oddi yno: ond nis gwyddent hwy mai yn Bethlehem Judea y ganesid ef, fel yr ysgrifenwyd drwy prophwyd, Mica 5. 2. Gwel Matth. 2. 4—6. Pe rwybuasent hyny, buasai y ddadl hon yn darfod.

42 [f] * Oni ddywedodd yr ysgrythyr, Mai o had Dafydd, † ac o Bethlehem, [g] ‡ y dref lle y bu Dafydd, || y mae Crist yn dyfod?

f adn. 27. Salm 132. 11. Es. 11. 1. Jer. 23. 5. Mica 5. 2. Luc 1. 4, 11. g 1 Sam. 16. 1, 11—13, 18. a 17. 58.

* Dywedodd yr ysgrythyr mai o had a theulu Dafydd y deuai y Messiah, Salm 132. 11; † ac mai yn Bethlehem y genid ef, Mica 5. 2. ‡ Bethlehem ydoedd tref teulu Dafydd, 1 Sam. 17. 15; ac yno y bu Dafydd yn byw, hyd oni alwodd Duw ef oddi yno i'r freniniaeth, 1 Sam. 20. 6. || Oddi yno y daeth Crist, ond yr oedd dleuddeng mlynedd ar hugain neu ragor er hyny; a phawb heb wybod, neu yn ddifeddwl, yn awr, mai yno y ganed ef, ac mai oddi yno y daeth.

43 [h] * Felly yr aeth ymrafael ym mysg y bobl o'i blegid ef.

h adn. 12. pen. 9. 16. a 10. 19. Mat. 10. 35. Luc 12. 51, 52. Act. 14. 4. a 23. 7—10.

* "Ymrafael:" dadl boeth: felly, medd *Doddridge*, mae y gair *Schisma* bob amser yn arwyddocâu. Cyfieithir ef "Rhwyg" yn Matth. 9. 16; ond nid yw o anghenrheidrwydd yn arwyddo rhwyg bob amser; eithr dadl frwd a llidiog, pa un bynag a elo hi yn rhwyg ac yn ymadawiad ai peidio. Rhwyg yw ystyr y gair *Schism* gan yr Eglwys Sefydledig; am rai a ymadawont o gyfundeb yr eglwys hòno, er gwneyd hyny heb ddadl, na digofaint yn y byd. Dywedodd Iesu mai ymrafael a fyddai yn ei achos ef, yn Luc 12. 51. Gwahanol feddyliau am Grist oedd yma, a phob un yn taeru dros ei feddwl ei hun: cyfrifai rhai ef yn brophwyd, eraill yn Fessiah, a thaerai eraill, mae yn debyg, nad oedd efe nac y naill nac y llall, ond twyllwr, ac yn twyllo y bobl.

44 * A rhai o honynt a fynnasent ei ddal ef: [i] † ond ni osododd neb ddwylaw arno.

i adn. 30. pen. 8. 20. a 18. 5, 6. Act. 18. 10. a 23. 11. a 27. 23—25.

* Mynai y blaid olaf a enwyd uchod ei ddàl ef, a chymhell y swyddogion a ddanfonasid gan y cyngor, i wneyd hyny: † ond ni osododd neb, hyd yn nod y swyddogion eu hunain, ddwylaw arno ef. Yr oedd digon o awdurdod gan y swyddogion, a digon o lid gan lawer o'r bobl, i'w ddàl ef; ond yr oedd gallu dirgelaidd Crist, yn attal ac yn gwahardd pob un o'r ddau, hyd oni ddaeth ei awr ef.

45 ¶ * Yna y daeth [k] y swyddogion at yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid; a hwy a ddywedasant wrthynt hwy, † Paham na ddygasoch chwi ef?

k adn. 32. Act. 5. 21—27.

* Efallai i ofn y bobl attal rhai o'r swyddogion, i eiriau Crist effeithio ar rai eraill o honynt, a'r gallu dirgelaidd a soniwyd uchod hefyd; pa fodd bynag y bu, penderfynasant ddychwelyd at yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid hebddo ef, beth bynag fyddai y canlyniad.

* Ffromodd y gwŷr mawr hyn yn aruthr am na ddygasent ef, a dechreuasant geryddu y swyddogion yn llym, fel pe dywedasent, Pa fodd y darfu i chwi feiddio anufuddâu i'n gorchymyn ni? paham na ddaliasoch chwi ef fel drwg-weithredwr, a'i ddwyn ef ger ein bron ni, y cyngor, i'w brofi ef?

46 * A'r swyddogion a attebasant, [l] Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn.

l adn. 26. Mat. 7. 29. Luc 4. 22.

* Atebodd y swyddogion mewn ychydig eiriau, Nyni a aethom i'r deml gyda llawn fwriad ei ddàl ef; ond pan glywsom ef yn llefaru wrth y bobl, nis gallem ni yn ein byw roddi blaen bŷs arno; yr oedd y fath fawredd, awdurdod, a melusder yn ei eiriau ef, fel nas gallem ni gyda channoedd eraill oedd yno, lai na'i garu ef; a phallodd a thoddodd ein calonau o'n mewn ar unwaith. Mewn gwirionedd, nid ydym yn meddwl i ddyn erioed, na Moses na neb o'r prophwydi, lefaru fel y dyn hwn. Pan anfonodd *Marius* ei filwyr i ladd *Marc Antony*, dywedir iddynt golli eu dewrder a thori allan i wylo, wrth ei glywed ef yn *dadlau am ei fywyd:* ond gorchfygwyd y swyddogion hyn drwy glywed ymadroddion grasol Iesu wrth y bobl, yr hyn oedd beth mwy hynod o lawer. Yn Es. 11. 4, dywedir am dano—"Efe a dery y ddaear â gwialen ei enau, ac âg anadl ei wefusau y lladd efe yr anwir:" dyma gyflawniad mewn rhan o hyny. Gobeithio ein bod ninnau yn dywedyd yr un modd â'r swyddogion hyn yn aml, wrth ddarllen ei ymadroddion ef.

47 Yna y Phariseaid a attebasant iddynt, [m] A hudwyd chwithau hefyd?

m adn. 12. pen. 9. 27—34. 2 Bren. 18. 29, 32. 2 Cron. 32. 15. Mat. 27. 63. 2 Cor. 6. 8.

* Ffròmodd hyn y Phariseaid yn saith gwaeth nac o'r blaen: fel pe dywedasent, Beth, onid nyni yw eich meistriaid chwi, ac oni ddylech ufuddâu i ni, ac nid ammau? Onid nyni yw eich athrawon chwi hefyd, ac oni ddylasech wybod gwell oddi wrthym ni na chymmeryd eich hudo gan y twyllwr hwnw: yr oeddem ni yn meddwl y gallasem ymddiried i chwi, fel dynion o fwy synwyr ac ysbryd, nac y cymmerech eich hudo fel hyn ganddo ef. Tybia gwŷr mawr drygionus mai dynion wedi eu hudo yw pawb a'r ni dderbyniant eu barn, ac ni chanlynant eu ffyrdd hwynt.

48 [n] * A gredodd neb o'r pennaethiaid ynddo ef, † neu o'r Phariseaid?

n adn. 26, 50. pen. 12. 42. Mat. 11. 25. Act. 6. 7. 1 Cor. 1. 22—28. a 2. 8.

* A gredodd neb o aelodau y *Sanhedrim* ynddo ef, i'r rhai yn unig y perthyn barnu rhwng gwir a gau brophwydi, rhwng gwir a gau athrawiaeth? † A gredodd neb o'r Phariseaid ynddo ef, y rhai ydynt ddynion o'r enwogrwydd mwyaf am sancteiddrwydd, a gwybodaeth o'r ddeddf? A ydych chwi yn ddoethach na'ch gwell? yn ddoethach na'ch athrawon? Hen bwnc yn y byd yw ffydd ddiymchwiliad; credu ac ufuddâu fel y gwelo ein hathrawon yn dda, heb chwilio drosom ein hunain:

mae hyn yn y byd eto, yn mhlith llawer plaid heblaw eglwys Rhufain.

49 [o] * Eithr y bobl hyn, y rhai ni wyddant y gyfraith, melldigedig ydynt.

o pen. 9. 34, 40, 41. Es. 5. 21. a 28. 14. a 29. 14—19. a 65. 5. 1 Cor. 1. 20, 21. a 3. 18—20. Iago 3. 13—18.

* Fel pe dywedasent, Am y lliaws anwybodus ac ynfyd hyn sydd yn ei ganlyn ef, nid ydynt hwy yn deall yr ysgrythyrau, ac y maent yn haeddu eu dirmygu a'u ffieiddio gan ddynion, yn gystal a'u melltithio gan Dduw; yn gymmaint a'u bod wedi eu rhoddi i fynu megys dàn felltith a dallineb barnol. Hawdd gwneuthur ffyliaid o honynt hwy, ac a fynwch chwithau fyned yn ffyliaid gyda hwynt? Fel hyn y mynai y cyngor fygylu y swyddogion, caethiwo eu cydwybodau hwy, dileu pob argraff dda a wnaethid ar eu meddyliau, a meithrin rhagfarn ynddynt yn erbyn Crist a'r efengyl.

50 * Nicodemus [p] (yr hwn a ddaethai at yr Iesu o hŷd nos, ac oedd un o honynt) a ddywedodd wrthynt,

p pen. 3. 1, 2. a 19. 39.

* Darllenwn am Nicodemus, ac am ei ddyfodiad at Iesu o hyd nos, yn pen. 3. 1, 2: yr oedd efe yn un o aelodau y Senedd hon, ac yn ofidus iawn ei feddwl, wrth y dull diaurhydeddus, anghyfiawn, ac ethrywyllt hyn o fyned yn mlaen; gan hyny mae yn sefyll i fynu i amddiffyn Crist, eto yn wàn, neu o leiaf yn rhyfeddol o ddoeth-gall a gochelgar: ni ddywedodd efe ddim o'i blaid ef a'r na allasai ac na ddylasai ddywedyd, yn achos y drwg-weithredwr mwyaf.

51 [q] * A ydyw ein cyfraith ni yn barnu dyn, oddi eithr clywed ganddo ef yn gyntaf, a gwybod beth a wnaeth efe?

q Deut. 1. 17. a 17. 8—11. a 19. 15—19.

* Nid oes dim yn dywyll ac eisiau ei egluro yn yr adnod hon: am y gyfraith a sonir gwel y cyfeiriadau perthynol i'r adnod. Er mòr diriion ac arafaidd mae y geiriau hyn yn ymddangos, y mae colyn llym ynddynt; ac y maent mewn effaith yn gyluddiad yn erbyn aelodau y Senedd, eu bod hwy, tra yr oeddynt yn proffesu gwybodaeth helaeth o'r gyfraith, a gwresawgrwydd mawr drosti, un ai heb wybod, neu heb wneyd cyfrif, o rai o'i gorchymynion egluraf hi, ac eu bod hwy yn ddisylw iawn o'r deddfau hyny a ddylasai fod yn eu golwg yn neillduol, fel aelodau o lys cyfiawnder. Yn ol cyfreithiau Duw a dynion, mae yn eithaf rhesymol i'r cyhuddedig gael ei wrando, ac i dystion gael eu gwrando hefyd, o'i blaid ac yn ei erbyn; ond yma nid oedd dim o'r cyfryw beth, dim ond condemnio heb un cŵyn, tyst, nac amddiffyn.

52 Hwythau a attebasant ac a ddywedasant wrtho, [r] * A ydwyt tithau o Galilea? [s] † Chwilia a gwel, na chododd prophwyd o Galilea.

r pen. 9. 34. Gen. 19. 9. Ex. 2. 14. 1 Bren. 22. 24. Diar. 9. 7, 8. s adn. 41. pen. 1. 46. Es. 9. 1, 2. Mat. 4. 15, 16.

Gan nas gallai y cyngor wrthwynebu rheswm Nicodemus, penderfynasant ei redeg ef i lawr â phoethder a nwydau drwg, a'i watwar ef, am iddo lyfasu dywedyd gair o blaid yr hwn oedd mòr gas ganddynt hwy. * Pa beth, a wyt tithau yn un o'r dorf annwybodus, un o'r blaid Galileaidd, ac yn dadlau dros ddyn a gymmer arno fod yn brophwyd, ac yntau wedi ei eni (felly y tybient hwy) yn Galilea. Gwyddent hwy yn dda iawn nad Galilead oedd Nicodemus; ond dywedasant hyn yn eu poethder i'w waradwyddo ef. † Chwilia, a gwel yr ysgrythyrau, a thi a gai weled na chododd prophwyd erioed o Galilea. Pe gwir fuasai hyny, pa berthynas oedd rhwng hyny a mater Crist? Yn Bethlehem y ganed ef, ac nid yn Galilea. Pe na chodasai prophwyd o Galilea yn amser yr Hen Destament; eto, nid oedd yn anmhosibl i Dduw godi un yn awr oddi yno. Ond nid gwir ydoedd; oblegid yr oedd Jonah o Galilea. Cymhara 2 Bren. 14. 25. â Josh. 19. 13, 16: tybir hefyd fod Nahum yr Elcosiad o Galilea, o dref a elwid Elses, yr hon medd *Jerome* oedd yn Galilea, ac yn myned wrth yr enw hwnw yn ei ddyddiau ef. Ac y mae un gwr dysgedig, *(Reland,)* yn dywedyd fod Thesbe, tref Elias y Thesbiad, yn Galilea hefyd. Fel yna nid oedd ganddynt yr un sail i ddywedyd na chododd yr un prophwyd o Galilea: ac yr oedd eu rhagfarn yr ormod i chwilio pa le y ganed Iesu, pe amgen buasai yn hawdd iddynt gael gwybod mai yn Bethlehem y ganed ef.

53 [t] A phob un a aeth i'w dŷ ei hun.

t Job 5. 12, 13. Salm 33. 10. a 76. 5, 10.

* Er lleied a ddywedodd Nicodemus o blaid Crist, efe a ddyrysodd eu cyngor hwy am y tro hwnw. Mae yn debyg iddynt weled hefyd fod eu dadl hwynt yn ddisail ac yn wàn, felly torasant yr eisteddfod i fynu yn sydyn, gan obeithio cael rhyw gyfle arall yn absen Nicodemus.

PEN. VIII.

Crist yn gwaredu y wraig a ddaliesid mewn godineb.

* A'R Iesu [a] a aeth i fynydd yr Olew-wydd:

a Mat. 21. 1. Marc 11. 1. a 13. 3. Luc 19. 37.

* Efallai y byddai Iesu yn myned bob nos i Bethania, i dŷ Martha, lle y gallai efe fod yn fwy llonydd ac ar ei ben ei hun nac yn Jerusalem: ond tybia rhai iddo dreulio y nos hon ar fynydd yr Olew-wydd mewn gweddìau, myfyrdod, a chymdeithas â'i Dad nefol, er ymddarpar i'r gwaith a'r dyoddefiadau oedd eto o'i flaen. Mynydd yr Olew-wydd oedd o du y dwyrain i Jerusalem (Zech. 14. 4,) dros afon Cedron, ac o fewn i ddwy filltir i'r ddinas.

2 [b] * Ac a ddaeth drachefn y bore i'r deml; † a'r holl bobl a ddaeth atto ef: [c] yntau a eisteddodd, ac a'u dysgodd hwynt.

b pen. 4. 34. Preg. 9. 10. Jer. 25. 3, 4. a 44. 4. Luc 21. 37, 38. c Mat. 5. 1, 2. a 26. 55. Luc 4. 20. a 5. 3.

* Rhaid mai y dydd ar ol yr ŵyl oedd hwn: gwel pen. 7. 37: † felly y gwnai Iesu drwy wythnos y pasg diweddaf; âi allan i Bethania y nos, ac âi i'r deml yn fore dranoeth bob dydd, Luc 21. 37, 38.

3 * A'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid † a ddygasant atto ef wraig yr hon a ddaliesid mewn godineb: ac wedi ei gosod hi yn y canol,

* Dywedir fod tri math o ysgrifenyddion yn mhlith yr Iuddewon: 1. Ysgrifenyddion i dywysogion a gwŷr mawr: felly yr oedd Sefa yn ysgrifenydd, neu gofiadur, i Dafydd, 2 Sam. 20. 25. 2. Ysgrifenyddion gwladol, tebyg i gyfreithwyr ein gwlad ni, i dynu allan weithredoedd mewn prynu a gwerthu rhwng y bobl. 3. Ysgrifenyddion a fyddent yn ysgrifenu y gyfraith, ac yn ei hegluro i'r bobl yn y deml ac yn y synagogau. Y rhai olaf a feddylir yma, nid oedd awdurdod gan y lleill i beth fel hyn. Eu bwriad yma oedd maglu ein Hiachawdwr rywfodd; ac ni a gawn y Phariseaid a hwythau gyda eu gilydd yn aml, yn ymgais am hyn. † Efallai mai yn ddiweddar iawn y daliwyd hi yn euog o'r bai hwn, yn un o'r pebyll, ar amser yr ŵyl, pryd yr oedd calonau rhai o honynt, efallai, yn rhy lawen, trwy fwyta ac yfed yn rhy ehelaeth. Dywedir nad yw yr hanes hwn ddim o gwbl mewn rhai hen ysgrifau o efengyl Ioan; ond tybir mai gwylder gormodawl rhai o'r hen dadau duwiol, a'u ffieiddiad o'r pechod a enwir, a barodd iddynt ei adael allan: cafodd dynion dysgedig ac ymofyngar ddigon o brawf ei fod yn yr ysgrif wreiddiol a ddaeth o law Ioan.

4 Hwy a ddywedasant wrtho, * Athraw, † y wraig hon a ddaliwyd ar y weithred yn godinebu.

* "Athraw:" nid oedd y cyfarch hwn ond rhagrith a gweniaith oll: yr oedd digon o lid ac anmharch yn eu calonau hwy i'w alw ef yn gythraul: tebyg i Joab, yn cusanu ac yn brathu ar yr un pryd. † Pa le yr oedd y gwrryw? dylasai hwnw gael ei ddwyn ger bron yn gys-

a a'r wraig, a'r ddau eu llabyddio; ond yma mae y
ariseaid yn dangos eu pleidgarwch, trwy erlyn y
aig, a gadael i'r dyn ddianc.

5 d * A Moses yn y gyfraith a orchymyn-
d i ni labyddio y cyfryw: e † beth gan
nny yr wyt ti yn ei ddywedyd?

d Lef. 20. 10. Deut. 22. 2—24. Ezec. 16. 38—40. a 23. 47.
Iat 5. 17. a 19. 6—8. a 22. 16—18.

* Cyfraith Moses oedd, i'r ddau farw os byddent yn
od; ac os wedi ei dyweddïo y byddai y llances, y
raith oedd ei llabyddio hi â meini, Lefit. 20. 10;
ut. 22. 22, 23, 24. Felly, os oeddynt hwy yn dywed-
yn gywir, rhaid mai benyw wedi ei dyweddïo oedd
, a chwedi bod yn euog o'r pechod ffiaidd hwnw cyn
flawni y briodas; oblegid y cyfryw yn unig a orchym-
odd Moses eu llabyddio. Am odineb lle y byddo y
aig yn briod, nid yw Moses yn dywedyd *pa fodd* y
ae i farw; a lle byddai y ddeddf yn gorchymyn mar-
laeth ac heb enwi pa fath farwolaeth, eu rheol hwy
ld, cospi â'r marwolaeth esmwythaf, yr hon yn ol eu
hwy oedd llindagu. Gallwn sylwi yn y fàn hon
fyd, y byddent hwy yn rhoddi enw Moses wrth eu
ddodiadau a'u chwanegiadau at y ddeddf, er nas gwy-
Moses erioed ddim am danynt. † Os oedd Moses
di gorchymyn llabyddio y cyfryw un, pa raid gofyn
mhellach i Grist? Gan dy fod di yn hòni awdur-
d oddiwrth Dduw i wneuthur cyfnewidiadau yn ein
fraith ni, neu o leiaf i'w dehongli hi yn wahanol i ni;
a garem gael dy farn di ar y mater hwn.

6 * A hyn a ddywedasant hwy, f gan ei
emtio ef, fel y gallent ei gyhuddo ef. † Eithr
Iesu, wedi ymgrymmu tu a'r llawr, a ys-
rifenodd â'i fŷs ar y ddaear, ‡ heb gymmeryd
no eu clywed.

f Num. 14. 22. Mat. 19. 3. Luc 10. 25. a 11. 53, 54. a 20. 20—
I Cor. 10. 9. g adn. 2. Gen. 49. 9. Jer. 17. 13. Dan. 5. 5.
Salm 38. 12—14. a 39. 1. Diar. 26. 17. Preg. 3. 7. Amos 5. 10,
Mat. 10. 16. a 15. 23. a 26. 63.

* Dyma wreiddyn y gwirionedd yn awr yn dyfod i'r
lwg; "hyn a ddywedasant gan ei demtio ef, fel y
llent ei gyhuddo ef:" pe dywedasai, Trowch hi dros-
d i farn y Rhufeiniaid, eich arglwyddi; buasent yn
gyhuddo ef o anffyddlondeb i'w genedl ei hun, a dir-
yg ar gyfraith Moses: pe dywedasai am iddynt *hwy*
llabyddio hi yn ol *cyfraith Moses;* buasent yn ei gy-
uddo ef wrth y Rhufeiniaid, ei fod yn gefnogwr terfysg,
yn dàl i fynu awdurdod barnol, mewn gwrthwynebiad
eiddynt hwy. Neu, eilwaith; pe buasai yn gorchym-
ei llabyddio hi yn ddidrugaredd, buasent yn ei
huddo ef o greulondeb, annheilwng iawn o un a
mmerai arno mai y Messiah ydoedd, yr hwn oedd i
d yn addfwyn a llariaidd; ac o bleidgarwch hefyd, yn
rchymyn llabyddio hon, er ei fod cyn hyn wedi der-
n gwragedd o gyffelyb ymarweddiad i'w gymdeithas;
o'r tu arall, pe buasai am ei harbed hi, buasent yn
gyhuddo ef o wrthwynebu y gyfraith, a phleidio pech-
a phechaduriaid o'r fath waethaf a ffieiddiaf: ac
lly cawsent fantais i annog y bobl i'w gasâu ef, a
nodi yn ei erbyn. † Dywedir y byddai dynion doeth-
n yn y dyddiau hyny yn arfer gwneyd rhith o ysgrif-
nu ar y ddaear, pan ofynid rhyw holiad iddynt nad
eddynt yn gweled yn dda ei ateb. Os ysgrifenodd Iesu
w eiriau hefyd, mae yn debyg mai y geiriau a ddy-
edodd efe wrthynt hwy yn adn. 7, a ysgrifenodd efe.
eu, yn ol tyb eraill, yr oedd efe drwy hyn yn arwyddo
ldynt hwy, y dylasent sylwi ar yr hyn oedd ysgrifen-
lig yn nghylch y mater hwn, ac nid dyfod ato ef.
fallai ei fod yn arwyddo hefyd drwy y weithred hon,
od ei demtwyr rhagrithiol yn haeddu cael eu hysgrif-
nu yn y ddaear, fel y dywed Jer. 17. 13. ‡ Neu heb
ymmeryd arno sylwi ar yr hyn a ddywedent.

7 * Ond fel yr oeddynt hwy yn parhâu yn
ofyn iddo, efe a ymunionodd, i ac a ddywed-
odd wrthynt, k † Yr hwn sydd ddibechod o
honoch, tafled yn gyntaf garreg atti hi.

i pen. 7. 46. Diar. 12. 18. a 26. 4, 5. Jer. 23. 29. 1 Cor. 14. 24, 25. Col. 4. 6. Heb. 4. 12, 13. Dat. 1. 16. a 2. 16. a 19. 15. k Deut. 17. 6, 7. Salm 50. 16—20. Mat. 7. 1—5. a 23. 25—28. Rhuf. 2. 1—3, 21—25.

* Tybiasant eu bod wedi ei amgylchu ef â'u rhwyd yn awr yn eithaf diogel, ac na byddai bosibl iddo ddianc, dyweded beth a ddywedai; am hyny yr oeddynt yn fwy taer am ei gael ef i ddywedyd rhywbeth: ond gwell fuasai iddynt fod yn llonydd, archoll iddynt eu hunain a gawsant. † Y gyfraith oedd, bod llaw y tystion ar y drwg-weithredwr yn gyntaf, i'w farwolaethu ef; a llaw yr holl bobl wedi hyny. Deut. 17. 7. Yma yr oedd pawb o honynt yn gyhuddwyr; ac fel pe buasai yr Iesu yn dywedyd, Pell ydwyf fi o feïo ar y gyfraith, nac ychwaith o amddiffyn a lleiâu pechod ffiaidd y wraig hon; ar yr un pryd, peth tra gwrthyn ac anaddas yw, bod neb yn awyddus iawn am gospi pechod mewn eraill, a hwy eu hunain yn euog o bechodau can waethed, neu waeth. Ystyriwch chwi pa un o honoch a wna ddechreu cosp y gyfraith arni; os gall un o honoch chwi ei chyhuddwyr, ddywedyd yn gydwybodol gerbron Duw ei fod yn ddïeuog, dechreued hwnw, tafled yn gyntaf gareg ati.—Nid oes yn y geiriau uchod ddim yn erbyn barn gyfreithlawn, dwyn tystiolaeth yn erbyn, a gosod cospedigaeth gyfiawn ar ddrwg-weithredwyr, gan swyddogion priodol i hyny; ond y maent yn annog i dosturio wrth y cyfryw ddynion, cyn belled ag y goddefo cyfraith a chyfiawnder; ac yn galw ar gyhuddwyr pechodau rhai eraill, i sylwi yn ddiduedd ar eu beïau eu hunain, a diwygio.

8 * Ac wedi iddo eilwaith ymgrymmu tu
a'r llawr, efe a ysgrifenodd ar y ddaear.

Gwedi i'n Harglwydd fel hyn ddianc rhag y fagl a osodasid iddo, ac wedi iddo ar yr un pryd geryddu rhith wresawgrwydd y Phariseaid yn erbyn pechod, a hwy eu hunain yn euog o lawn can waethed pechodau, ac yn enwedig y pryd hwnw yn dyfeisio pa fodd i gael achos yn erbyn ei fywyd ef; gadawodd hwynt i fyfyrio ar yr hyn a ddywedasai wrthynt, ac aeth i ysgrifenu ar y ddaear drachefn, fel un nad oedd y mater yn perthyn dim iddo ef: nid i fod yn farnwr gwladol y daeth efe i'r byd.

9 * Hwythau, pan glywsant *hyn,* l wedi
hefyd eu hargyhoeddi gan eu cydwybod, m a
aethant allan o un i un, † gan ddechreu o'r
hynaf hyd yr olaf: ‡ a gadawyd yr Iesu n yn
unig, || a'r wraig yn sefyll yn y canol.

l Gen. 42. 21, 22. 1 Bren. 2. 44. a 17. 18. Salm 50. 21. Preg. 7. 22. Marc 6. 14—16. Luc 12. 1—3. Rhuf. 2. 15. 1 Ioan 3. 20. m Job 5. 12, 13. a 20. 5, 27. Salm 9. 15, 16. a 40. 14, 15. a 71. 13. Luc 13. 17. n adn. 2, 10, 12.

* Gwyddai Iesu beth fyddai y canlyniad, ac yr oedd awdurdod dirgelaidd yn myned gyda ei eiriau ef, ag oedd yn eu hargyhoeddi ac yn eu cywilyddio hwynt oll, er caleted oeddynt. Efallai bod rhai o honynt yn euog o'r un pechod â'r wraig hon, yn weithredol, er mai ysgrifenyddion a Phariseaid rhith-sancteiddiol oeddynt: mae yn ddiammau eu bod oll felly yn eu calon. Matth. 5. 28. † Nid yn hollawl felly, yn ol oedran pob un; ond aeth yr henuriaid a blaenoriaid y bobl allan yn gyntaf, ac yna canlynodd y lleill. Teimlodd pob un ei hun yn euog; ac ofnasant, mae yn debyg, os dywedai Crist rywbeth yn chwaneg wrthynt, yr argyhoeddai efe hwy yn llymach, ac y dynoethai hwy yn fwy gwarthus i'r dyrfa, gan hyny goreu po gyntaf i fyned allan. Yr oedd hyn yn ergyd trwm, i'r blaenoriaid yn enwedig; gorfod myned allan felly dàn eu cywilydd yn ngŵydd yr holl gynnulleidfa, ger bron y rhai y chwennychent ddangos eu hunain yn bobl sanctaidd iawn, er mwyn awdurdodi arnynt, a chael eu parchu ganddynt. Dangosodd Iesu fwy o'i awdurdod a'i allu dwyfol yn y tro hwn, nag yn ei waith yn peri i'r prynwyr a'r gwerthwyr fyned allan o'r deml. ‡ Gadawyd ef yn unig o ran yr ysgrifenyddion

a'r Phariseaid, ni chafodd ei ofidio mwyach y tro hwn ganddynt hwy. || Sef yn nghanol y dyrfa, a'r dysgyblion, oedd o amgylch yr Iesu a hithau.

10 * A'r Iesu wedi ymunioni, ac heb weled neb ond y wraig, a ddywedodd wrthi, *Ha* wraig, [o] † pa le y mae dy gyhuddwyr di? ‡ oni chondemniodd neb di?

o Es. 41. 11, 12.

* Efallai bod y wraig yn sefyll yno gan ddysgwyl y buasai yr Iesu yn gosod rhyw ddedfryd arni. † Gwyddai yr Iesu yn ddigon da beth a ddaethai o gyhuddwyr y wraig; eto mae yn ymddwyn yn ddoeth ac yn ochelgar, yn ymofyn am ei chyhuddwyr, rhag i neb ddywedyd ei fod ef yn cymmeryd y mater yn ei law ei hun; eu mater hwy ydoedd, ac nid oedd dim iddo efe a wnelai âg ef. ‡ Mae hyn eto yn dangos bod Iesu yn ymwrthod â'r mater; ond ar yr un pryd bod y wraig yn haeddu ei chondemnio a'i chospi os oedd hi yn euog.

11 Hithau a ddywedodd, Na ddo neb, Arglwydd. A dywedodd yr Iesu wrthi, [p] * Nid wyf finnau yn dy gondemnio di: [q] † dos, ac na phecha mwyach.

p adn. 15. pen. 3. 17. a 18. 36. Deut. 16. 18. a 17. 9. Luc 9. 56. a 12. 13, 14. Rhuf. 13. 3, 4. 1 Cor. 5. 12. q pen. 5. 14. Job 34. 31, 32. Diar. 28. 13. Es. 1. 16—18. a 55. 6, 7. Ezec. 18. 30—32. Mat. 21. 28—31. Luc 5. 32. a 13. 3, 5. a 15. 7, 10, 32. Rhuf. 2. 4. a 5. 20, 21. 1 Tim. 1. 15, 16. 2 Pedr 3. 15. Dat. 2. 21, 22.

* Nid oedd Iesu yn ei chondemnio hi fel barnwr gwladol, nid oedd hyny yn perthyn iddo ef: nid oedd efe yn ei rhyddâu ychwaith, nid oedd hyny yn perthyn iddo ef; ac os oedd hi yn euog, trais ar y gyfraith a fuasai i neb ei rhyddâu. Rhaid i ni ddeall nad yw y geiriau hyn yn perthyn dim i gyflwr ysbrydol y wraig; nid am hwnw mae Iesu yn dywedyd, Nid wyf finnau yn dy gondemnio di. † Gan nad oes yma neb o dy gyhuddwyr, na'r un barnwr i dy farnu, dos ymaith at dy orchwylion; ond gwylia rhag bod yn euog eto o'r un pechod, nac o bechodau eraill: oblegid pa un a ddiengi di rhag barn dynion yma ai peidio, ni ddiengi rhag barn Duw yn y diwedd: "puteinwyr a godinebwyr a farna Duw," a hyny â gwaeth barnedigaeth na llabyddio â meini.

12 ¶ * Yna y llefarodd yr Iesu wrthynt drachefn, gan ddywedyd, [r] † Goleuni y byd ydwyf fi: ‡ yr hwn a'm dilyno i, [s] || ni rodia mewn tywyllwch, [t] § eithr efe a gaiff oleuni y bywyd.

r pen. 1. 4—9. a 9. 5. a 12. 35, 36. Es. 9. 2. a 42. 6, 7. a 49. 6. a 60. 1—3. Hos. 6. 3. Mal. 4. 2. Mat. 4. 14—16. Luc 1. 78, 79. a 2. 32. Act. 13. 47, 48. a 26. 23. s pen. 12. 46. Salm 18. 28. a 97. 11. Es. 50. 10. 2 Pedr 2. 4, 17. Judas 6, 13. t pen. 7. 17. a 14. 6. Job 33. 28. Salm 49. 19. Dat. 21. 24.

* Gwedi gorphen fel hyn â'r wraig, trôdd Crist drachefn at y bobl, ac aeth rhagddo yn ei bregeth a ddechreuasai yn yr ail adnod. † Gwel ar pen. 1. 4—9. Efallai bod yr haul y pryd hwn *yn* codi, ac yntau yn cymmeryd ei destyn oddiwrth hyny, i ddywedyd am dano ei hun fel Haul cyfiawnder, Goleuni ysbrydol y byd. Daeth efe i'r deml yn fore iawn, yn ol ei arfer, (adn. 2. Luc 21. 38,) ac mae yn debyg mai cyn dydd y daliesid y wraig mewn godineb, felly erbyn gorphen â hyny, yr oedd yr haul yn codi, neu newydd godi. Sonid yn aml am y Messiah dàn y gymhariaeth hon o oleuni, Es. 42. 6; a 49. 6; Mal. 4. 2. Cymhara Luc 2. 32; Ioan 1. 4—9; â 9. 5; a 12. 46. Mae goleuni yn beth gogoneddus ynddo ei hun, ac yn cyfranu o hóno ei hun i eraill: felly mae Crist yn ogoneddus ynddo ei hun, ac yn cyfranu o'i oleuni hyfryd a'i ddoniau gwerthfawr i ddynion. ‡ Dilyn Crist: credu ei athrawiaeth, ufuddâu i'w orchymynion; a byw yn ol ei gyfarwyddyd a'i esampl ef. || Y neb a ganlyno Grist felly, ni rodia mewn annwybodaeth a chyfeiliorni, nac yn nhywyllwch pechod a marwolaeth ysbrydol. § Efe a gaiff oleuni achubol buchedd a bywyd newydd yma, a goleuni y bywyd tragywyddol wedi myned oddi yma.

13 * Am hynny y Phariseaid a ddywedasant wrtho, [u] Tydi sydd yn tystiolaethu am danat dy hun; nid yw dy dystiolaeth di wir.

u pen. 5. 31—47.

* Rheol eu cyfraith hwy oedd, nad oedd neb i gael ei goelio mewn llys barn ar ei dystiolaeth ei hun am dano ei hun. Mae yn ddiau bod y Phariseaid hyn wedi cyn-ddeiriogi yn arw, wrth weled eu brodyr yn cael eu gyru ymaith dàn y fath warth yn achos y wraig, adn. 7, 9.

14 * Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt hwy, † Er fy mod i yn tystiolaethu am danaf fy hun, [x] y mae fy nhystiolaeth i yn wir: [y] ‡ oblegid mi a wn o ba le y daethum, ac i ba le yr ydwyf yn myned; [z] || chwithau nis gwyddoch o ba le yr wyf fi yn dyfod, nac i ba le yr wyf fi yn myned.

x Num. 12. 3. Neh. 5. 14—19. 2 Cor. 11. 31. a 12. 11, 19. y adn. 42. pen. 7. 29. a 10. 15, 36. a 13. 3. a 14. 10. a 16. 28. a 17. 8. z pen. 7. 27, 28. a 9. 29.

* Nid oedd Iesu yn gwadu, nad felly yr oedd pethau yn bod, mewn achosion cyffredin barn a chyfraith; ond fel arall yr oedd yn achos prophwyd, neu ryw genad o ddanfoniad Duw, megys yr oeddynt hwy eu hunain wedi addef pan ddanfonasent at Ioan Fedyddiwr, gan ddywedyd, *Pwy wyt ti? Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd am danat dy hun?* Ioan 1. 22. † Mae ymddangosiad o anghysondeb rhwng y geiriau hyn o eiddo Crist, â'r hyn a ddywedodd o'r blaen yn pen. 5. 31: Yno mae yn dywedyd, "Os ydwyf fi yn tystiolaethu am danaf fy hunan, nid yw fy nhystiolaeth I wir;" yma mae yn dywedyd yn hollawl yn y gwrthwyneb; Er fy mod I yn tystiolaethu am danaf fy hun, y mae fy nhystiolaeth I yn wir. Cysonir y ddau ddywediad yn hawdd, fel hyn; yn y lle blaenaf yr oedd yn dywedyd beth ydoedd ei dystiolaeth unigol ef *yn wyneb eu defod a'u cyfraith hwy*, sef y gellid ei hammau: yma mae yn dywedyd beth ydoedd ei dystiolaeth ef *ynddi ei hun*, sef gwirionedd sicr a diammheuol. Fel mae y goleuni yn tystiolaethu am dano ei hun, mai goleuni yw; felly yr oedd tystiolaeth Crist am dano ei hun fel y gwir Oleuni, neu y Messiah; yr oedd pob peth yn ei athrawiaeth, ei fuchedd, a'i wyrthiau ef, yn brofion o wirionedd ei dystiolaeth. ‡ Mi a wn o ba le y daethum fel Mab Duw, sef o fynwes y Tad: mi a wn o ba le y daethum fel Messiah, sef o ddanfoniad y Tad: ac mi a wn i ba le yr wyf yn myned wedi gorphen fy ngwaith ar y ddaear, sef i eistedd ar ddeheulaw y Tad, mewn llawenydd a gogoniant tragywyddol. Gwyddai Iesu hyn oll fel Duw, ac hefyd drwy dystiolaeth y Tad iddo ac am dano. || Yr oeddynt hwy o'u gwirfodd yn annwybodus o Dduwdod Iesu, o'i ddanfoniad gan y Tad, ac o'i fynediad at y Tad, a hyny yn wyneb tystiolaethau Ioan, y Tad, a geiriau a gweithredoedd nerthol Crist ei hun.

15 [a] * Chwychwi sydd yn barnu yn ol y cnawd; [b] † nid ydwyf fi yn barnu neb.

a pen. 7. 24. 1 Sam. 16. 7. Salm 58. 1, 2. a 94. 20, 21. Amos 5. 7. a 6. 12. Hab. 1. 4. Rhuf. 2. 1. 1 Cor. 2. 15. a 4. 3—5. Iago 2. 4. b adn. 11. pen. 3. 17. a 12. 47. a 18. 36. Luc 12. 14.

* Yr ydych chwi yn barnu yn ol yr agwedd dlawd allanol a welwch arnaf fi, ac yn ol eich nwydau a'ch tymherau cnawdol a rhagfarnllyd eich hunain. † Nid wyf fi yn barnu neb felly, mewn dull mòr annheilwng ag yr ydych chwi yn barnu. Nid wyf fi yn ymyraeth dim â barnedigaethau gwladol, megys y gwelsoch yn achos y wraig yn ddiweddar; ac nid wyf fi yn barnu neb o'r genedl Iuddewig eto am fy ngwrthod: e ddaw amser yn fuan pryd y gwnaf hyny yn ddychrynllyd; a daw amser hefyd pryd y barnaf fyw a meirw yn y dydd diweddaf. Yn bresenol, dyfod i'r byd fel Iachawdwr a wnaethum, ac nid fel barnwr.

16 [c] * Ac etto os wyf fi yn barnu, y mae fy marn i yn gywir: [d] † oblegid nid wyf fi yn

g, ond myfi a'r Tad yr hwn a'm hanfonodd

c pen. 5. 22—30. Salm 45. 6, 7. a 72. 1, 2. a 98. 9. a 99. 4. Es. a 11. 2—5. a 32. 1, 2. Jer. 23. 5, 6. Zec. 9. 9. Act. 17. 31. Dat. 1. d adn. 29. pen. 16. 32.

Pe byddai i mi gymmeryd swydd barnwr yn bresen-a'ch barnu chwi am fy ngwrthod I, a gwrthod fy stiolaeth am danaf fy hun; byddai fy marn yn gywir, n ol gwirionedd. + Nid wyf fi yn unig yn fy nhyst-teth na'm gweithredoedd, ond mewn undeb hanfodol Tad, a'r Tad â minnau, yn yr hyn oll wyf yn ei ddy-yd ac yn yr hyn oll wyf yn wneyd. Gwel pen. 14.

Mae y Tad yn y Mab, a'r Mab yn y Tad: felly nid y Tad ei hunan heb y Mab, na'r Mab ei hunan heb nd. Diar. 8. 22, 23, 30; Ioan 1. 1, 2.

17 e * Y mae hefyd yn ysgrifenedig yn n cyfraith chwi, f + Mai gwir yw tystiolaeth ı ddyn.

e pen. 10. 34. a 15. 25. Gal. 3. 24. a 4. 21. f Deut. 17. 7. a 15. 1 Bren. 21. 10. Mat. 18. 16. 2 Cor. 13. 1. Heb. 10. 28. an 5. 9. Dat. 11. 3.

Am y gyfraith hon gwel y cyfeiriadau. "Eich raith chwi," ebai Crist, am mai i'r Iuddewon y ddwyd hi, am eu bod yn ymffrostio cymmaint ynddi, eu bod yn chwennych mòr fawr bod dani, ac am eu - yn cymmeryd arnynt i benderfynu pob peth yn wl wrthi. + Trefnodd Duw yn y ddeddf i bob peth l ei benderfynu wrth dystiolaeth dau dyst: at dyst-aeth y Tad a Christ y cyfeirir yma.

18 g * Myfi yw yr hwn sydd yn tystiolaethu ı danaf fy hun; h + ac y mae y Tad, yr hwn n hanfonodd i, yn tystiolaethu am danaf fi.

g adn. 12, 25, 38, 51, 58. pen. 10. 9, 11, 14, 30. a 11. 25. a 14. Dat. 1. 17, 18. h Gwel ar pen. 5. 31—40. Heb. 2. 4. 1 Ioan —12.

* Fel pe dywedasai yr Iesu, Mae genyf finnau ddau st; myfi fy hun ydyw un o honynt, yn fy ngeiriau n gweithredoedd, y rhai a brofant ddwyfoldeb fy nerson, a dwyfoldeb fy nanfoniad: Fy Nhad yw y ll; efe a dystiolaethodd am danaf fi, wrth fy medydd-a pha fodd y beiddiwch chwi anghredu ei dystiolaeth beth hynag am fy nhystiolaeth I fy hun. Yn y ddadl m, rhaid i ni ystyried ein Iachawdwr yn fwy na dyn, wy undeb y ddwy natur yn ei Berson ef: heb hyny ae y ddadl yn ymddangos yn wàn. + Hefyd, rhaid i ddeall nad yw Crist yma ddim yn ei wahaniaethu ei n oddi wrth y Tad, o ran ei Ddwyfol Hanfod, canys ydynt felly; ond o ran Personoliaeth, ac o ran ydd: fel yr oedd ef yn cael ei ddanfon, a'r Tad yn ei anfon ef.

19 * Yna y dywedasant wrtho, Pa le y ae dy Dad di? Yr Iesu a attebodd, i + Nid dwaenoch na myfi, na'm Tad: k ‡ ped adna-uasech fi, chwi a adnabuasech fy Nhad i efyd.

i adn. 54, 55. pen. 1. 10. a 7. 28. a 10. 14, 15. a 15. 21. a 16. Jer. 22. 16. a 24. 7. 1 Cor. 15. 34. Gal. 4. 9. Col. 1. 10. 1 Ioan 5. k pen. 1. 18. a 14. 6—9. a 17. 3, 25, 26. Mat. 11. 25. Luc 21, 22. 2 Cor. 4. 4—6. Eph. 1. 17. Col. 1. 15. Heb. 1. 3. Ioan 9.

* Tybir mai mewn gwawd yr oeddent yn gofyn fel n iddo: Pa le mae dy dad di, a phwy ydyw? nis wyddom ni am yr un tad i ti ond Joseph, y Saer; ac is gallwn ni dderbyn ei dystiolaeth ef mwy na'r eiddot hau mewn mater mòr fawr a hyn, felly pa ham y soni mmaint am dy dad? + Yma mae yr Arglwydd Iesu n amlwg yn dangos ei fod ef a'r Tad yn ddau berson wahanol, fel yr oeddynt yn ddau dyst; ac eto yn un ewn hanfod a pherffeithiau dwyfol, gan fod adnabydd-aeth o hóno ef yn cynnwys adnabyddiaeth o'r Tad.

Nid yw y Tad i'w adnabod ond yn a thrwy y Mab, yr wn sydd yn ddelw y Duw anweledig, ac yn ei hysbysu f: a chan nad oedd yr Iuddewon yn adnabod nac yn ydnabod Iesu yn Fab Duw, nid oedd modd iddynt dnabod y Tad yn gadwedigol. Ai nid ydyw hyn yn dadymchwelyd holl grefydd a gwag-obaith pawb eto, ag sydd yn gwadu gwir Dduwdod y Cyfryngwr? O gyflwr tost!

20 * Y geiriau hyn a lefarodd yr Iesu l yn y trysordy, wrth athrawiaethu yn y deml: m + ac ni ddaliodd neb ef, ‡ am na ddaethai ei awr ef etto.

l 1 Cron. 9. 26. Mat. 27. 6. Marc 12. 43. m adn. 59. pen. 7. 8, 30, 44. a 10. 39. a 11. 9, 10. Luc 13. 31—33. a 20. 19.

* Am y trysordŷ, gwel ar Marc 12. 41—44. Byddai Crist yn athrawiaethu weithiau yn y naill ran o'r deml, ac weithiau mewn rhyw ran arall o hóni. + Pan ystyriom yr ymofyn a fu am dano yn nechreu yr wŷl, danfon swyddogion drwy awdurdod y cyngor i'w ddàl ef, pen. 7. 32; a'r gwarth a daflodd efe ar yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn achos y wraig odinebus, adn. 7, 9, yr oedd peidio ei ddàl ef yn y diwedd yn beth rhyfedd, a dim llai na gwyrthiol. ‡ Yr achos oedd, am na ddaethai ei awr ef: nis gall neb wneyd dim yn erbyn Crist, nac yn erbyn neb a berthyn iddo ef, hyd oni ddelo yr amser a osododd Duw yn ei feddyliau doeth a thragywyddol ei hun.

21 * Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt hwy drachefn, n Yr wyf fi yn myned ymaith, a chwi a'm ceisiwch i, o + ac a fyddwch feirw yn eich pechod. p ‡ Lle yr wyf fi yn myned, ni ellwch chwi ddyfod.

n pen. 7. 34. a 12. 35. 1 Bren. 18. 10. 2 Bren. 2. 16, 17. Mat. 23. 39. a 24. 23, 24. o adn. 24. Job 20. 11. Salm 73. 19, 20. Diar. 11. 7. a 14. 32. Ezec. 3. 18, 19. Luc 16. 22—26. 1 Cor. 15. 17, 18. p pen. 7. 34. a 13. 33. Mat. 25. 41, 46.

* Dywedasai yr Iesu yn debyg i hyn y dydd o'r blaen, pen. 7. 33, 34, gwel y sylwadau yno. + Chwi a fyddwch feirw yn eich pechod, sef y pechod o anghrediniaeth a gwrthod y Messiah, yr hwn a'ch cloa megys yn eich holl bechodau eraill: chwi a fyddwch feirw yn farnol yn ninystr Jerusalem, a chwi a fyddwch feirw yn dragywyddol dàn ddigofaint Duw yn uffern. ‡ O ganlyniad ni ellwch chwi ddyfod i'r nef, lle yr wyf fi yn myned.

22 * Am hynny y dywedodd yr Iuddewon, q A ladd efe ei hun? gan ei fod yn dywedyd, Lle yr wyf fi yn myned, ni ellwch chwi ddyfod.

q adn. 48, 52. pen. 7. 20. a 10. 20. Salm 22. 6. a 31. 18. a 123. 4. Heb. 12. 3. a 13. 13.

* O'r blaen dywedent, Ai at y rhai sydd ar wasgar yn mhlith y Groegiaid y mae efe ar fedr myned? Yma maent yn meddwl mai ei ladd ei hun a wnelai. Un ai nid oeddent yn ei ddeall, neu ni fynent ei ddeall, a dywedent fel hyn mewn gwatwor a dirmyg arno.

23 Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, r * Chwychwi sydd oddi isod; + minnau sydd oddi uchod: s chwychwi sydd o'r byd hwn; minnau nid wyf o'r byd hwn.

r pen. 1. 14. a 3. 13, 31. Salm 17. 14. Rhuf. 8. 7, 8. 1 Cor. 15. 47, 48. Phil. 3. 19—21. Iago 3. 15—17. 1 Ioan 2. 15, 16. s pen. 15. 18, 19. a 17. 14. Iago 4. 4. 1 Ioan 2. 15, 16. a 4. 5, 6. a 5. 19, 20.

* "Chwychwi sydd oddi isod:" nid yn unig o'r ddaear o ran eich dechreuad, ond hefyd yn ddaearol, anianol, a chythreulig yn eich holl olygiadau, tymherau a nwydau: nis gellwch ac nis mynwch ddeall na chredu pethau ysbrydol, na fy ngharu innau sydd yn eu traddodi. + Minnau sydd oddi uchod; yn yr ystyr uwchaf felly; yn Fab Duw o dragywyddoldeb, wedi dyfod o fynwes y Tad, o'r drydedd nef, mae fy ysbryd a'm holl athrawiaeth I oddi uchod; ac yr wyf i fyned uchod yn fuan, lle nis gellwch chwi ddyfod.

24 * Am hynny y dywedais wrthych, y byddwch chwi feirw yn eich pechodau: t + oblegid oni chredwch chwi mai myfi yw *efe*, ‡ chwi a fyddwch feirw yn eich pechodau.

t pen. 3. 18, 36. Diar. 8. 36. Marc 16. 16. Act. 4. 12. Heb. 2. 3. a 10. 26—29. a 12. 25.

* Yn adn. 21, y dywedodd Iesu hyn o'r blaen, gwel ar y geiriau yno. † Oni chredwch mai myfi yw, neu ydwyf, meddant, yw y Groeg; a thybiant fod Iesu yma yn cyfeirio at yr YDWYF mawr a lefarodd wrth Moses, ac yn arddelwi mai efe oedd hwnw. Tybia eraill fod geir-goll (*ellipsis*) yma, i'w wneyd i fynu o'r ddeuddegfed adnod, Oni chredwch mai myfi yw y Goleuni, neu y Messiah: cymhara Ioan 13. 19; Marc 13. 6; âg Act. 13. 25. ‡ Chwi a fyddwch feirw fel hunain-leiddiaid, am na chredwch mai myfi yw y Messiah, a'r Gwaredwr, yr hyn a fuasai yn foddion i'ch cadw byth. Mae ail gyhoeddi y bygythiad yma, ar ol ei gyhoeddi o'r blaen, yn adn. 21, yn gerydd ofnadwy iddynt hwy am eu gwatwar ynfyd yn adn. 22, "A ladd efe ei hun;" fel pe dywedasai yr Iesu, Mae yn anweddus iawn i chwi ddigrifu eich hunain gyda'r fath ysgafnder a dywediadau disynwyr a gwatwarllyd, pan mae eich bywyd chwi eich hunain, ïe, bywyd eich heneidiau, mewn perygl: a sôn am i mi ladd fy hun, pan yr ydych chwi eich hunain yn distrywio eich heneidiau byth trwy anghrediniaeth ac anedifeirwch. Fel hyn ni a welwn na lefarodd Iesu ddim yn ofer, ac na byddai efe un amser yn ail ddywedyd yr un geiriau heb achos am hyny.

25 * Yna y dywedasant wrtho, [u] Pwy wyt ti? † A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, [x] Yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd hefyd wrthych o'r dechreuad.

u pen. 1. 19, 22. a 10. 24. a 19. 9. Luc 22. 67. x adn. 12. pen. 5. 17, &c.

* Gofynwyd hyn iddo yn yr un ysbryd gwatwarllyd ag y gofynwyd o'r blaen, adn. 19, "Pa le y mae dy Dad di?" Pwy wyt ti, sydd yn dywedyd pethau mòr fawr am danat dy hun? Pwy wyt ti, fel y dylem ni gredu y pethau wyt yn ddywedyd, a dy barchu di càn gymmaint? A phwy wyt ti, fel y mae y fath berygl o beidio credu i ti? † Yn ateb i hyna, mae Iesu yn dywedyd yn addfwyn, yn ddigyffro, ac ar yr un pryd yn gadarn a diofn, mai yr hyn, neu yr hwn a ddywedasai efe o hyd, o ddechreuad ei weinidogaeth, ydoedd, sef Mab Duw, a'r gwir Fessiah, pa faint bynag yr oeddent hwy yn ddirmygu arno. Mae rhai yn cyfieithu yr ateb fel hyn: Myfi wyf *y dechreuad*. Dywedir bod y geiriau Groeg yn bur ddyrys ac anhawdd eu cyfieithu, a rhy faith o lawer fyddai rhoddi nodau beirniadol ein hawdwyr arnynt, i lawr yma.

26 [y] * Y mae gennyf fi lawer o bethau i'w dywedyd, [z] ac i'w barnu am danoch chwi: [a] † eithr cywir yw yr hwn a'm hanfonodd i; [b] ‡ a'r pethau a glywais i ganddo, y rhai hynny yr ydwyf fi yn eu dywedyd i'r byd.

y pen. 16. 12. Heb. 5. 11, 12. z adn. 16. pen. 5. 42, 43. a 9. 39—41. a 12. 47—50. a adn. 17. pen. 7. 28. 2 Cor. 1. 18. b adn. 40. pen. 3. 32. a 7. 16. a 15. 15. a 17. 8.

* Yr ydych chwi yn ceisio fy nghyhuddo a'm barnu I am y pethau a ddywedais am danaf fy hun; mae genyf fi lawer o bethau yn chwaneg i'w dywedyd, ond ni chredwch chwi: ac mae genyf lawer o bethau i'ch argyhoeddi chwi o honynt a'ch barnu o'u herwydd, yr hyn hefyd a wnaf ar ol hyn, ond nid yn awr. † Yn bresenol, ni wnaf ond dywedyd i chwi eto, mai y gwir Dduw yw fy Nhad I, efe a'm danfonodd i'r byd; mae efe yn gywir yn ei addewidion i mi, i bawb a gredant ynof fi, ac yn gywir hefyd i'w fygythion ar fy ngwrthodwyr: ni ddïengwch chwi rhag barn fy Nhad, yr hwn sydd gywir, efe a'ch barna chwi. ‡ Pa beth bynag ydwyf fi yn ei ddywedyd i'r byd, am danaf fy hun neu am danoch chwithau, nid wyf yn dywedyd dim ond yr hyn a ewyllysia fy Nhad i mi ei ddywedyd: ffyddlawn a chywir yw y cwbl.

27 [c] * Ni wyddent hwy mai am y Tad yr oedd efe yn dywedyd wrthynt hwy.

c adn. 43, 47. Es. 6. 9. a 42. 18—20. a 59. 10. Rhuf. 11. 7—10. 2 Cor. 4. 3, 4.

* Er fod Crist yn ei holl ymadrodd uchod, yn dywedyd mòr eglur am ei Faboliaeth Ddwyfol, a'i ddanfoniad oddiwrth Dduw; eto yr oedd eu dallineb a'u rhagfarn hwy yn gymmaint, fel nas deallent ei fod ef yn llefaru am Dduw fel Tad iddo: hyny yw, fel Tad yn yr ystyr oruchel ag oedd ef yn feddwl. Galwai pawb o honynt hwy Dduw yn Dad iddynt, adn. 41, ac ni ddeallent ei fod yntau yma yn sôn am dano mewn un ystyr amgen.

28 Am hynny y dywedodd yr Iesu wrthynt, [d] * Pan ddyrchafoch chwi Fab y dyn, [e] † yna y cewch wybod mai myfi yw *efe*, [f] ‡ ac nad wyf fi yn gwneuthur dim o honof fy hun; [g] ond megis y dysgodd fy Nhad fi, yr wyf yn llefaru y pethau hyn.

d pen. 3. 14. a 12. 32—34. a 19. 18. e Mat. 27. 50—54. Act. 2. 41. a 4. 4. Rhuf. 1. 4. 1 Thes. 2. 15, 16. f pen. 5. 19, 30. a 6. 38. a 11. 42. a 12. 49, 50. Num. 16. 28—30. Heb. 2. 2, 3. g pen. 3. 11.

* Croeshoeliad Crist a feddylir yma wrth dderchafu Mab y dyn. Nid oedd dim llai na hyny a foddlonai elyniaeth yr Iuddewon, a thybient eu bod yn gwneyd pen a dinystr byth ar Iesu wrth ei groeshoelio ef; ond yn lle hyny, trwy ei groeshoeliad yr oedd efe i gael ei dderchafu i ogoniant, i amlygu ei hun yn iawn, pwy ydoedd, a thrwy hyny yr oeddynt hwythau i gael gwybod mai y Messiah, a Mab Duw oedd efe. † Cawsant wybod hyny drwy y rhyfeddodau a ddygwyddasant yn marwolaeth ac adgyfodiad Crist, trwy dywalltiad yr Ysbryd Glân ar ddydd y pentecost, trwy daeniad yr efengyl a gwyrthiau yr apostolion, a thrwy y farn ofnadwy a ddaeth ar Jerusalem a'r genedl Iuddewig yn y diwedd. Cafodd llawer o honynt wybod er eu gwae tymhorol a thragywyddol; a chafodd rhai wybod yn rasol, ac er eu bywyd tragywyddol. ‡ Nid yn unig gwybod mai efe oedd y Messiah; ond gwybod hefyd na lefarasai efe ddim yn y byd ond gwirionedd Duw.

29 [h] * A'r hwn a'm hanfonodd i, sydd gyd â myfi: ni adawodd y Tad fi yn unig; [i] † oblegid yr wyf fi yn gwneuthur bob amser y pethau sydd ddïawn ganddo ef.

h adn. 16. pen. 14. 10, 11. a 16. 32. Es. 42. 1, 6. a 49. 4—8. a 50. 4—9. 2 Tim. 4. 17, 22. i pen. 4. 34. a 6. 38. a 14. 31. a 15. 10. a 17. 4. Es. 42. 1, 21. Mat. 3. 17. a 17. 5. Heb. 4. 15. a 5. 8, 9. a 7. 26. a 10. 5—10. 1 Ioan 2. 1.

* Er bod ei elynion yn ei wrthod ef, nid oedd y Tad, yr hwn a'i hanfonodd yn ei wrthod: yr oedd gydag ef bob amser, trwy undeb hanfodol, a thrwy eneiniad anfesurol ei Ysbryd arno fel Cyfryngwr. † Er methu boddloni dynion mewn dim, yr oedd yn boddloni y Tad yn mhobpeth; am ei fod yn cyflawni ei dragywyddol arfaeth, ac yn arddangos ei ogoniant ef. Yr oedd pob peth yn unol â'i ewyllys ef, a phob peth yn hyfryd ac yn foddlawn ganddo ef. Pa le mae y dyn a all ddywedyd fel hyn? Pwy a wna ddaioni ac ni phecha? Neb ond Iesu.

30 * Fel yr oedd efe yn llefaru y pethau hyn, [k] llawer a gredasant ynddo ef.

k pen. 2. 23. a 6. 14. a 7. 31. a 10. 42. a 11. 45.

* Mae yn bur amlwg wrth yr holl adnodau canlynol nad oedd hwn ddim yn wir gredu cadwedigol: ac nid yw *credu*, yn y Testament Newydd yn aml, yn arwyddo dim mwy na rhyw gydsyniad ysgafn â'r hyn a ddywedir yn yr efengyl am Grist. Wrth weled tymher ac ysbryd Crist, yn dyoddef gwrth-ddywediadau cyndyn ei elynion gyda'r fath amynedd, wrth ei glywed yn sôn am ei dderchafu ar y groes gyda'r fath dawelwch sanctaidd a digyffro, ac wrth ei glywed yn crybwyll am foddlonrwydd a chymmeradwyaeth y Tad o hono, ei athrawiaeth a'i weithredoedd; mae yn debyg i'r pethau hyn gael argraff ar eu meddyliau i feddwl yn well nac o'r blaen am dano, ac o leiaf i broffesu eu ffydd ynddo fel Messiah.

31 Yna y dywedodd yr Iesu wrth yr Iudd-

on a gredasant ynddo, [l] * Os arhoswch chwi
fy ngair i, [m] disgyblion i mi ydych yn wir;

l 1 pen. 6. 66—71. a 15. 4—9. 1 Sam. 12. 14. Mat. 24. 13. Act. 13. a 14. 22. a 26. 22. Rhuf. 2. 7. a 11. 22. Col. 1. 23. 1 Tim. 5. a 4. 16. 2 Tim. 3. 14. Heb. 3. 14. a 8. 9. a 10. 38, 39. Iago 1. 1 Ioan. 2. 19, 24. m adn. 36. pen. 1. 47. a 6. 55. a 15. 8. him. 5. 3—5.

Gwyddai yr Iesu nad oedd ffydd y rhai gorau o
nynt ond gwàn, ac nad oedd llawer o honynt ddim
ell na rhagrithwyr, y rhai oedd dàn eu holl broffes yn
isio ei ladd ef, adn. 37; gan hyny mae yn dywedyd
hynt oll, mai nid cydsyniad arwynebol, a dywedyd
tlwydd, Arglwydd, yn unig, sydd yn gwneyd dysgybl-
mewn gwirionedd; ond derbyn ei athrawiaeth
ctaidd ef yn eu barn a'u calonau, parâu hyd y di-
dd mewn gwir grediniaeth o hóni, a darostwng eu
ll eneidiau mewn ufudd-dod iddi: fel hyny profent
hunain yn ddysgyblion iddo, mewn gwirionedd yn
tal ag mewn enw, ac arddelwid hwy fel y cyfryw
addo ef. Heblaw bod y geiriau uchod yn dangos i
vb yn gyffredin, pa fath yw gwir ddysgyblion Crist;
e yn debyg eu bod hefyd yn taraw yn union-gyrchol,
yr hyn oedd Iesu yn weled yn ddiffygiol yn y rhith-
dinwyr hyny.

32 [n] * A chwi a gewch wybod y gwirion-
dd, [o] † a'r gwirionedd a'ch rhyddhâ chwi.

n pen. 6. 45. a 7. 17. a 14. 6. a 16. 13. Salm 25. 5, 8, 9. Diar. 23, 29. a 2. 1—7. a 4. 18. Can. 1. 7, 8. Es. 2. 3. a 30. 21. a 35. 8. 4. 13. Jer. 6. 16. a 31. 33, 34. Hos. 6. 3. Mal. 4. 2. Mat. 11. 29. 3. 11, 12. 2 Tim. 3. 7. o adn. 36. Salm 119. 45. Es. 61. 1. uf. 6. 14—18, 22. a 8. 2, 15. 2 Cor. 3. 17, 18. Gal. 5. 13. 2 Tim. 25, 26. Iago 1. 25. a 2. 12. 1 Pedr 2. 16.

* Hyny yw, chwi a gewch wybodaeth helaethach, ac
urach o hyd o'r gwirionedd; sef o Berson Crist, yr
n yw y *ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd:* neu, ynte,
holl wirionedd athrawiaethol yr efengyl am Grist, a
efn yr iachawdwriaeth drwyddo ef. Rhaid bod rhyw
ur o wybodaeth o'r gwirionedd yn yr enaid cyn y
llo gredu ar y cyntaf; ond y mae gwybodaeth helaeth-
n, ac eglurach, yn cael ei rhoddi i'r rhai a barânt ei
eisio yn ddifrifol, a'r rhai a rodiant yn agos at Dduw.
Yn adnod 36, mae yn dywedyd, A'r *Mab* a'ch rhyddâ
wi; felly mae yn debyg mai Crist ei hun yw y gwir-
nedd yma. Er bod gwybodaeth athrawiaethol o'r
irionedd yn rhyddâu dynion oddiwrth annwybodaeth,
agfarn, a rhyw chwantau; eto, nid oes dim ond adna-
ddiaeth ysbrydol, a chadwedigol o Grist, a ddwg
eidiau dynion i ryddid perffaith oddi wrth y ddeddf,
thoster, ei melltith, a'i hofn, ac oddi wrth arglwydd-
eth pechod a llygredigaeth. Tybia rhai mai blwyddyn
Jubili oedd hon, a bod Iesu yn cyfeirio at ryddâad y
ethion yn y geiriau uchod.

33 ¶ Hwythau a attebasant iddo, [p] * Had
braham ydym ni, [q] ac ni wasanaethasom ni
eb erioed: pa fodd yr wyt ti yn dywedyd,
hwi a wneir yn rhyddion?

p adn. 39. Mat. 3. 9. Luc 16. 24—26. p pen. 19. 15. Gen. 13. Ex. 1. 13, 14. Barn. 2. 18. a 3. 8. a 4. 3. Ezra 9. 9. Neh. 4—8. a 9. 27, 28, 36, 37.

* Mae yn wir mai had Abraham oeddynt, ond nid gwir
wasanaethasant neb erioed; ac mae yn rhyfedd pa
dd y gallent haeru y fath beth, a hwythau wedi bod yn
ethion yn yr Aipht, gan y Syriaid, yr Assyriaid, yn
abilon, gan y Persiaid, a'r Groegiaid; ac hyd yn nod y
yd hwnw dan iau y Rhufeiniaid. Tybia rhai mai fel
n yr oeddynt yn meddwl; sef, na chollasant hwy
ioed mo'u rhagor-freintiau a ddaethai iddynt drwy
fammod Duw âg Abraham, er cael eu caethiwo gan y
nedloedd. A thybia *Syr Isaac Newton* mai am
wyddyn y Jubili, fel y soniwyd uchod, yr oeddynt yn
eddwl, fel pe dywedasent, *Had Abraham ydym ni*, a
ne buasem ni mewn caethiwed, cawsem ni ein rhyddâu
eni, er fod y *caethion cenedlig* o hyd mewn caethiwed;
d ni buom ni mewn caethiwed i neb erioed. Beth
ynag oedd eu meddyliau, mae yn amlwg nad oeddynt
deall pa ryddâad yr oedd Crist yn sôn am dano.

34 * Yr Iesu a attebodd iddynt, [r] Yn wir,
yn wir, meddaf i chwi, [s] † Pwy bynnag sydd yn
gwneuthur pechod, y mae efe yn was i bechod.

r Gwel ar pen. 3. 3. Mat. 5. 18. s 1 Bren. 21. 25. Diar. 5. 22. Act. 8. 23. Rhuf. 6. 6, 12, 16, 19, 20. a 7. 14, 25. a 8. 21. Eph. 2. 2. Tit. 3. 3. 2 Pedr 2. 19. 1 Ioan 3. 8—10.

* Sôn am ryddid gwladol ac allanol yr oeddynt hwy,
a sôn am ryddid ysbrydol yr oedd Iesu: mòr gnawdol y
mae dynion anianol yn deall am bethau ysbrydol! Fel
Nicodemus am yr ail-eni, a'r wraig o Samaria am y
dwfr bywiol, felly mae y rhai hyn am ryddâd eu hen-
eidiau. Am gaethiwed pechod yr oedd Iesu yn dywed-
yd, y caethiwed gwaethaf a ffieiddiaf o bob caethiwed:
ac am ryddid o'r caethiwed hwnw y soniai efe, y rhyddid
mwyaf gogoneddus a gwerthfawr o bob rhyddid. † Gwn-
euthur pechod o arferiad gwastadol: mae y cyfryw yn
gaethwas i bechod.

35 [t] * Ac nid yw y gwas yn aros yn tŷ
byth: [u] y Mab sydd yn aros byth.

t Gen. 21. 10. Ezec. 46. 17. Mat. 21. 41—43. Gal. 4. 30, 31. u pen. 14. 19, 20. Rhuf. 8. 15—17, 29, 30. Gal. 4. 4—7. Col. 3. 3. Heb. 3. 5, 6. 1 Pedr 1. 2—5.

* Mewn ystyr deuluaidd naturiol, nid yw y gwas yn
aros yn tŷ byth, ond mae y mab yn aros: mewn ystyr
eglwysig, nid yw gweision pechod yn aros yn tŷ byth,
er fod yno yn rhagrithiol am dro, ond y mae gwir blant
Duw yn aros byth. Eto, ni chaiff had naturiol Abraham
aros yn yr eglwys fawr yn hwy, torir hwy ymaith am eu
hanghrediniaeth, ac am eu bod yn weision pechod; ond
y mae Mab Duw i aros yn tŷ byth, fel etifedd ac Ar-
glwydd ar ei dŷ ei hun yn dragywydd. Tybir fod yma
gyfeiriad at Ismael ac Isaac; mab y gaeth-ferch yn cael
ei fwrw allan o deulu Abraham, a phlentyn yr addewid
yn cael aros yno fel etifedd: y cyntaf yn cysgodi gwrth-
odiad yr Iuddewon, a'u toriad ymaith o'r eglwys, a'r ail
yn cysgodi Crist a'i holl had ysbrydol ef, fel preswylwyr
tragywyddol tŷ Dduw.

36 [x] * Os y Mab gan hynny a'ch ryddhâ
chwi, † rhyddion fyddwch yn wir.

x adn. 31, 32. Salm 19. 13. a 119. 32, 133. Es. 49. 24, 25. a 61. 1. Zec. 9. 11, 12. Luc 4. 18. Rhuf. 8. 2. 2 Cor. 3. 17. Gal. 5. 1.

* Mae yn amlwg mai Crist, gwir Fab Duw, a feddylir
wrth y "Mab" yma, beth bynag am yr adnod o'r blaen.
Tybia rhai fod yma gyfeiriad at ddefod yn ninasoedd
Groeg a rhai manau eraill, trwy yr hon yr oedd hawl
gan y mab hynaf a'r etifedd, i fabwysiadu brodyr, a'u
gwneyd yn gyfranogion o freintiau y teulu. † Mae y
rhyddid yma yn arwyddo rhyddid *oddi wrth* rai pethau,
a rhyddid i *fwynâd* o bethau eraill: rhyddid *oddi wrth*
euogrwydd a llywodraeth pechod, oddi wrth y ddeddf
fel cyfammod o weithredoedd, oddi wrth iau drom y
ddeddf seremoniol, oddi wrth ddallineb meddwl a rhag-
farn ddeddfol yr Iuddewon, ac oddi wrth ormes a thra-
arglwyddiaeth Satan. Rhyddid eilwaith i fwynâu
ysbryd mabwysiad, ti gael mynediad at Dduw fel tad
anwyl, rhyddid i gymdeithasu âg ef, a'i wasanaethu yn
ddiofn mewn sancteiddrwydd, a rhyddid i fwynâu holl
freintiau ei dŷ, ac etifeddiaeth dragywyddol yn mhlith
y plant. Mae hyn oll drwy y Mab, a thrwyddo ef yn
unig.

37 [y] * Mi a wn mai had Abraham ydych
chwi: [z] † ond yr ydych chwi yn ceisio fy
lladd i, [a] ‡ am nad yw fy ngair i yn ‖ genni
ynoch chwi.

y adn. 33. Act. 13. 26. Rhuf. 9. 7. z adn. 6, 40, 59. pen. 5. 16—18. a 7. 1, 19, 25. a 10. 31. a 11. 53. a adn. 43, 45—47. pen. 5. 44. a 12. 39—43. Mat. 13. 15, 19—22. 1 Cor. 2. 14.

* Un ran o ddadl yr Iuddewon oedd, na buasent yn
gwasanaethu neb erioed, atebodd Iesu hyny yn y tair
adnod o'r blaen. Y rhan arall o'u dadl oedd, mai had
Abraham oeddynt: ac nid yw Iesu yn gwadu nad oedd-
ynt yn had Abraham yn ol y cnawd; † ond nid oedd
hyny o ddim llesâd iddynt tra yr oeddent yn anghredu
ynddo ef, ac yn ceisio ei ladd ef: annhebyg iawn i'w
tad Abraham oedd hyny. ‡ Yr achos o'r elyniaeth

hono oedd, am nad oeddynt yn credu ei air ef, nac yn derbyn ei athrawiaeth, nid oeddynt yn aros ynddi, nac yn gadael iddi aros yn eu calonau hwythau. || Gèni *(chóreó)* dàl, Ioan 2. 6; cynnwys, Ioan 21. 25; derbyn, 2 Cor. 7. 2. Nid oes lle i ddim o hono, mewn un modd, gan ragfarn.

38 [b] * Yr wyf fi yn llefaru yr hyn a welais gyd â'm Tad i: [c] † a chwithau sydd yn gwneuthur yr hyn a welsoch gyd â'ch tad chwithau.

b adn. 26. pen. 3. 32. a 5. 19, 30. a 12. 49, 50. a 14. 10, 24. a 17. 8. c adn. 41, 44. Mat. 3. 7. 1 Ioan 3. 8—10.

* Fy Nhad I yw Duw, ac yr wyf fi yn hysbysu i chwi ei feddwl a'i ewyllys ef, nid pethau ansicr, ond y pethau a welais I gydag ef; hyny yw, y pethau y gwn I yn sicr mai ei ewyllys ef ydynt. † Yr ydych chwithau yn dangos yn eglur yn eich gweithredoedd pwy yw eich tad chwi; ac fel ag yr wyf fi yn gwneuthur ewyllys a gweithredoedd fy Nhad I, felly yr ydych chwithau yn gwneuthur gweithredoedd y diafol, yr hwn yw eich tad chwi (adn. 44.) fel y mae efe yn eich annog.

39 * Hwythau a attebasant ac a ddywedasant wrtho, Ein tad ni yw Abraham. † Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, [d] Pe plant Abraham fyddech, gweithredoedd Abraham a wnaech.

d adn. 37. Mat. 3. 9. a 5. 45. Rhuf. 2. 28, 29. a 4. 12, 16. a 9. 7. Gal. 3. 7, 29. Iago 2. 22—24.

* Tâniasant wrth y geiriau uchod, ac atebasant yn lled boethlyd, Pa dad o'r eiddom ni yw hwn yr wyt ti yn dywedyd gyda'r fath ddirmyg am dano? Yr ydym ni yn dywedyd eto, a thi a'i haddefaist o'r blaen (adn. 37.) mai Abraham yw ein tad ni; pa beth gan hyny sydd genyt ti i'w ddywedyd am ein tad ni Abraham, a ddysgodd efe i ni ryw ddrwg? Ymffrostiai yr Iuddewon yn wastad yn Abraham: ymffrostient ynddo ef am eu breintiau genedigol, fel yr oedd efe yn dad y genedl Iuddewig; ac ymffrostient ynddo ef am eu breintiau eglwysig, fel yr oedd efe yn ben yr eglwys Iuddewig, a'r addewion wedi cael eu gwneuthur iddo. † Dangosodd Iesu iddynt nad oedd yr ymffrost hon o nemawr o les iddynt, oddi eithr iddynt debygu i Abraham mewn ffydd a gweithredoedd da. Plant i'r rhai y tebygant iddynt, mewn ysbryd ac ymarweddiad, yw dynion mewn gwirionedd; ac nid i'r rhai y deillient o honynt o ran gwaedoliaeth yn gymmaint.

40 [e] * Eithr yn awr yr ydych chwi yn ceisio fy lladd i, [f] dyn a ddywedodd i chwi y gwirionedd, yr hwn a glywais i gan Dduw: † hyn ni wnaeth Abraham.

e adn. 37. Salm 37. 12, 32. Gal. 4. 16, 29. 1 Ioan 3. 12—15. Dat. 12. 4, 12, 13, 17. f adn. 26, 38, 56.

* Yr oeddynt hwy yn dangos mewn gweithredoedd eu bod yn mhell iawn o ysbryd a thymher Abraham; dyma y Messiah wedi ei ddanfon oddi wrth Dduw, ac yn llefaru geiriau Duw, a hwy yn ceisio ei ladd ef, am ei fod yn dywedyd y gwirionedd. † Hyn ni wnaeth ac ni wnaethai Abraham, yr oedd efe yn credu pob datguddiad dwyfol ac yn ufuddâu iddo: ni laddasai efe ddyn diniwed, chwaithach prophwyd wedi ei ddanfon oddi wrth Dduw ato. Fel hyn nid ydych chwi wir blant i Abraham.

41 [g] * Yr ydych chwi yn gwneuthur gweithredoedd eich tad chwi. † Am hynny y dywedasant wrtho, [h] Nid trwy butteindra y cenhedlwyd ni: [i] ‡ un Tad sydd gennym ni, *sef* Duw.

g adn. 38, 44. h Es. 57. 3—7. Ezec. 23. 45—47. Hos. 1. 2. a 2. 2—5. Mal. 2. 11. i Ex. 4. 22. Deut. 14. 1. Es. 63. 16. a 64. 8. Jer. 3. 19. a 31. 20. Ezec. 16. 20, 21. Mal. 1. 6.

* Er maint eich ymffrost o Abraham, mae yn amlwg fod i chwi dad arall; yr ydych yn tebygu i hwnw, ac ewyllys a gwaith hwnw ydych yn wneuthur. † Dëallodd yr Iuddewon erbyn hyn mai nid am waedoliaeth naturiol yr oedd Iesu yn dywedyd, ond mewn ystyr ysbrydol, a chyffroasant yn fawr iawn: "Nid trwy buteindra y cenedlwyd ni," ebent hwy; yn ol ein iaith ni, Nid basdarddiaid ydym. Ond nid puteindra naturiol oeddynt hwy yn ei feddwl, eithr eilun-addoliaeth, yr hyn a elwir yn buteindra yn yr ysgrythyr: nid o'r cenedloedd eilun-addolgar yr oeddynt hwy wedi hànu, nac o'r Samariaid, nac o Iuddewon gwrthgiliedig, ac nid oeddynt hwy eu hunain ychwaith yn addolwyr eilunod. ‡ Heblaw bod Abraham yn dad naturiol ganddynt, haerent fod Duw yn Dad ysbrydol, a chyfammodol iddynt, ac mai efe yn unig a addolent hwy. Rhyfedd fel yr oeddynt yn dàl i fynu: mòr anhawdd yw tynu ucheldrem dyn i lawr, a'i ladd o ran ei hyder ddeddfol a hunanol.

42 Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt hwy, [k] * Pe Duw fyddai eich Tad, chwi a'm carech i: [l] † canys oddi wrth Dduw y deilliais, ac y daethum i; [m] ‡ oblegid nid o honof fy hun y daethum i, ond efe a'm hanfonodd i.

k pen. 5. 23. a 15. 23, 24. 1 Cor. 16. 22. 1 Ioan 5. 1, 2. l pen. 1. 14. a 16. 27, 28. a 17. 8, 25. Dat. 22. 1. m pen. 5. 43. a 7. 28, 29. a 12. 49. a 14. 10. Gal. 4. 4. 1 Ioan 4. 9, 10, 14.

* Mae Crist yn eu cyfarfod hwy eto yn addas iawn ar y tir newydd hwn; Pe Duw fyddai eich Tad ysbrydol mewn gwirionedd, wedi eich adgenedlu trwy ras ar ei ddelw ei hun, chwi a'm carech I, ac nid ceisio fy lladd, oblegid oddi wrth Dduw y deilliais innau, fel ei uniganedig Fab ef. (Gwel 1 Ioan 5. 1.) Fel hyn mae efe yn dangos nad oeddynt hwy na phlant Duw na phlant Abraham mewn gwirionedd. † Tybir fod y geiriau hyn, "deilliaw, a dyfod oddi wrth Dduw," yn arwyddo rhywbeth llawer mwy na dyfodiad Crist i'r byd yn unig fel Cyfryngwr; gan eu bod yn hollawl wahanol i ddim a ddywedir am neb arall. Dywedir fod credinwyr o *Dduw*, (adn. 47. a 1 Ioan 4. 4.) ac wedi eu *geni o Dduw* (1 Ioan 5. 1.) a dywedir fod y prophwydi wedi eu *danfon oddi wrth Dduw*, megis yr oedd Ioan Fedyddiwr hefyd (Ioan 1. 6.) Ond priodol i Grist yn unig yw *deilliaw, a dyfod oddi wrth Dduw*, yr hyn sydd yn arwyddo ei hanfodiad Dwyfol ef, yn gystal a'i ddanfoniad; ei fod yn Fab, o hanfod y Tad, yn gystal ag yn genad o anfoniad y Tad. ‡ Nid o fy mhen fy hun y daethum, fel gau brophwyd; ond trwy anfoniad y Tad, fel Messiah, i hysbysu ffordd iachawdwriaeth, ac i wneuthur ei ewyllys ef ar y ddaear.

43 [n] * Paham nad ydych yn deall fy llefer-ydd i? [o] † am na ellwch wrando fy ymadrodd i.

n adn. 27. pen. 5. 43. a 7. 17. a 12. 39, 40. Diar. 28. 5. Es. 44. 18. Hos. 14. 9. Mica 4. 12. Rhuf. 3. 11. o pen. 6. 60. Jer. 6. 10. Act. 7. 51. Rhuf. 8. 7, 8.

* Paham nad ydych yn deall (neu yn adnabod, pen. 10. 14.) fy lleferydd I am ddwyfoldeb fy Mherson, fy nyben yn dyfod i'r byd, a'r holl athrawiaeth a draddodais I mòr eglur yn eich plith. † Yr achos oedd, am fod eu balchder, a'u rhagfarnau bydol, yn dallu eu meddyliau ac yn caledu eu calonau yn erbyn ei athrawiaeth sanctaidd ef: am hyny yr oeddynt yn penderfynu na chredent mai efe oedd y Messiah, a Mab Duw, nac ychwaith ei fod ef yn Ddysgawdwr, wedi dyfod oddi wrth Dduw. Mae *Doddridge* yn troi diwedd yr adnod yn ofyniad, yr un modd a'r rhan gyntaf o hono: Ai am na ellwch wrando, &c.?

44 [p] * O'*ch* tad diafol yr ydych chwi, a thrachwantau eich tad a fynnwch chwi eu gwneuthur. [q] † Lleiddiad dyn oedd efe o'r dechreuad; [r] ‡ ac ni safodd yn y gwirionedd, oblegid nid oes gwirionedd ynddo ef. [s] || Pan yw yn dywedyd celwydd, o'r eiddo ei hun y mae yn dywedyd: canys y mae yn gelwyddog, ac yn dad iddo.

p adn. 38, 41. pen. 6. 70. Gen. 3. 15. Mat. 13. 38. Act. 13. 10. 1 Ioan 3. 8—10, 12. q Gen. 3. 3—7. 1 Bren. 22. 22. 1 Cron. 21. 1. Iago 4. 1—7. 1 Pedr 5. 8. Dat. 2. 10. a 9. 11. a 13. 6—8. a 20.

9. r 2 Pedr 2. 4. Judas 6. s Gen. 3. 4, 5. 2 Cron. 18. 20
2. Job 1. 11. a 2. 4—6. Act. 5. 3. a 13. 10. 2 Cor. 11. 3, 13—15.
ches. 2. 9—11. Dat. 12. 9. a 13. 14. a 20. 2, 3, 10. a 21. 8. a
315.

* Yma mae Crist yn dywedyd yn eglur iddynt pwy oedd
y yn feddwl wrth eu tad, yn adn. 38, sef *diafol;* plant
lhwn oeddynt o ran ysbryd ac ymddygiad: ei ddelw
oedd arnynt, ac iddo ef yr oeddynt yn ufuddâu; ei
lchwantau ef oedd ei trachwantau hwythau, gelyn-
ith yn erbyn Duw, gwrthwynebu gwir grefydd, a dy-
ana pawb duwiol hyd y gallent. † Llofrudd dynion
ldd efe o'r dechreuad; trwy hudo ein rhïeni cyntaf i
thod, efe a fu yn achos o bob llofruddiaeth o hyny
l yn awr; ac y mae efe o hyd fel llew rhuadwy yn
ddio oddi amgylch, gan geisio y neb a allo lyncu.
fe a grëwyd yn y gwirionedd, sef mewn cyflwr o ber-
thrwydd angelaidd, ond ni safodd yn y gwirionedd
perffeithrwydd hyny, eithr efe a syrthiodd, ac mwy-
nid oes gwirionedd ynddo, ond twyll, a gelyniaeth
erbyn y gwirionedd. || Efe a ddywedodd gelwydd
y dechreuad, i dwyllo Efa, ac ar gelwydd mae ei fryd
bob amser: mae yn gelwyddog ei hun, yn hudo pawb
ill i gelwydd; ac felly yn dad y celwydd. Nid cael
demtio gan arall y mae efe i ddywedyd celwydd, eithr
óno ei hun, ac o'r eiddo ei hun y mae yn ei ddywed-
ac felly hefyd y mae yn dad iddo. Mae yr hanes a
dd *Josephus* o ddrygioni yr Iuddewon o'r amser hwn
an yn dangos yn amlwg mai nid heb ddigon o achos
ralwodd Iesu hwy yn blant diafol.

45 t * Ac am fy mod i yn dywedyd y
irionedd, nid ydych yn credu i mi.

t adn. 46. pen. 3. 19, 20. a 7. 7. Gal. 4. 16. 2 Thes. 2. 10.
im. 4. 3, 4.

* Dyma ddigon o brawf mai o'u tad diafol yr oeddynt
y, sef eu hanghrediniaeth a'u gwrthodiad o'r gwir-
nedd. Nid *er* fy mod I yn dywedyd y gwirionedd, yw
geiriau, ond *am* fy mod I yn dywedyd y gwirionedd,
d ydych yn credu: dyna gasâu y gwirionedd er ei
yn ei hun, am mai gwirionedd ydyw. Nid ydych yn
du *i mi*, dyna gasâu y gwirionedd eto er mwyn yr
rn a'i dywedodd. Yr oedd y gwirionedd yn gas, a'r
rn a'i llefarai yn gas, ganddynt hwy.

46 u * Pwy o honoch a'm hargyhoedda i o
chod? † Ac od wyf fi yn dywedyd y gwir,
paham nad ydych yn credu i mi?

u adn. 7. pen. 14. 30. a 15. 10. a 16. 8. 2 Cor. 5. 21. Heb. 7.
1 Pedr 2. 22. x Mat. 21. 25. Marc 11. 31.

* Pwy o honoch a fedr brofi i mi erioed ddywedyd
wiredd, cyfeiliorni mewn athrawiaeth, neu unrhyw
chod arall, ar feddwl, gair, neu weithred? † A chan
s gall neb o honoch brofi dim felly yn fy erbyn, ac
ydwyf fi yn dywedyd y gwir am danaf fy hun ac am
noch chwithau; paham nad ydych yn credu i mi?
n fod rhagfarn a gelyniaeth yn eich calon tuag ataf fi
gwirionedd hefyd. Cas yw y gwir lle nis cerir.

47 y * Y mae yr hwn sydd o Dduw, yn
rando geiriau Duw: † am hynny nid ydych
wi yn *eu* gwrando, am nad ydych o Dduw.

y adn. 37, 43, 45. pen. 1. 12, 13. a 6. 45, 46, 65. a 10. 26, 27.
7. 6—8. 1 Ioan 3. 10. a 4. 1—6. a 5. 1. 2 Ioan 9. 3 Ioan 11.

* Yr hwn sydd wedi ei garu a'i ethol gan Dduw, wedi
ail-eni o Dduw, wedi ei oleuo a'i sancteiddio gan
bryd Duw; mae y cyfryw un yn chwennych gwybod
irionedd Duw, ac yn barod i gredu a gwneuthur pa
th bynag a ddywedo efe. † Yr achos, gan hyny, nad
ych chwi yn derbyn geiriau Duw, er eu gwrando â'r
ust oddi allan, ydyw, am nad ydych yn blant i Dduw,
hr, fel y dywedais (adn. 44.) o'ch tad diafol: mae
h gwrthodiad o honof fi ac o'r gwirionedd, yn ddigon
brawf mai felly y mae. Yr un modd ydyw hi eto; y
n anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd
uw, ac o'r tu arall, mae yr hwn sydd o Dduw yn
rando geiriau Duw.

48 * Yna yr attebodd yr Iuddewon, ac y
wedasant wrtho ef, z † Onid da yr ydym ni
yn dywedyd, a mai Samaritan wyt ti, ‡ a bod
gennyt gythraul?

z adn. 52. pen. 13. 13. Mat. 15. 7. Iago 2. 19. a pen. 4. 9.
a 7. 20. a 10. 20. Es. 49. 7. a 53. 3. Mat. 10. 25. a 12. 24, 31. Rhuf.
15. 3. Heb. 13. 13.

* Yr oedd y fath eiriau llymion a didderbyn wyneb
yn anarchwaethus iawn gan yr Iuddewon, ac yn eu gyru
i nwydau drwg, lle y dylasent edifarâu yn wyneb yr ar-
gyhoeddiad miniog. † Pa fodd y dywedi nas gallwn ni
dy argyhoeddi di o bechod? Yr ydym ni wedi dywed-
yd o'r blaen yn mhlith ein gilydd, ac yn dywedyd eto
wrthyt ti yn dy wyneb, mai Samaritan wyt ti; tebycach
o lawer i un o'r genedl atgas hòno nac i Israeliad: yr
ydym ni yn dy ystyried di fel hwythau, yn elyn i'n cref-
ydd ni a'n cenedl hefyd, pan y rhyfygi ddywedyd mai
o ddiafol y mae plant Abraham, a phobl brïodol Duw.
‡ Ac nid hyny yn unig, yr wyt ti yn dywedyd pethau fel
dyn allan o'i bwyll, wedi ei feddiannu, ac yn ddrwg ei
hwyl, gan gythraul (Gwel ar pen. 7. 20.) ac nid oes un
ammheüaeth genym ni nad trwy ryw gyngrair â'r cyth-
raul yr wyt ti yn gwneyd dy wyrthiau.

49 * Yr Iesu a attebodd, b Nid oes gennyf
gythraul; c † ond yr wyf fi yn anrhydeddu fy
Nhad, ‡ ac yr ydych chwithau yn fy nianr-
hydeddu innau.

b Diar. 26. 4, 5. 1 Pedr 2. 23. c adn. 29. pen. 11. 4. a 12.
28. a 13. 31, 32. a 14. 13. a 17. 4. Es. 42. 21. a 49. 3. Mat. 3. 15—
17. Phil. 2. 6—11.

* Rhyfeddol oedd arafwch a llarieidd-dra y Cyfryngwr
yn ngwyneb y fath ddifrïaeth ysgeler: ni chyfröodd efe
ddim, ond dywedyd yn dawel "Nid oes genyf gythraul,"
ac nid wyf fi allan o fy mhwyll fel yr ydych chwi yn
taeru. † Geiriau sobrwydd a gwirionedd yr ydwyf fi
yn eu llefaru, a gweithredoedd da yr ydwyf yn eu
gwneyd; ac oll er anrhydeddu fy Nhad. ‡ Ond yr yd-
ych chwi yn fy nianrhydeddu I drwy fy ngalw wrth
enwau drwg, a phrïodoli y gweithredoedd dwyfol ydwyf
yn wneyd i offerynoldeb diafol. Yn ei arafwch llednais
uchod, mae Mab Duw yn rhoddi esampl i ninnau mewn
cyffelyb amgylchiadau, fel y dilynom ei ol ef.

50 d * Ac nid wyf fi yn ceisio fy ngogoni-
ant fy hun: e † y mae a'i cais, ac a farn.

d pen. 5. 41. a 7. 18. e pen. 5. 20—23, 45. a 12. 47, 48.

* Aml waith y dywedodd Crist wrthynt nad oedd efe
yn ceisio ei ogoniant ei hun: ac yn wir yr oedd llym-
der didderbyn-wyneb ei ymadroddion ef yn brawf eglur
o hyny; pe buasai yn ceisio ei ogoniant ei hun, buasai
yn arfer ymadrodd teg a gweniaith i'r Iuddewon, fel y
gwnâi y gau-athrawon yn gyffredin, ac nid eu hargy-
hoeddi mòr llym. Mae y geiriau yn y fân hon yn
dangos, nad oedd efe yn gofalu nemawr am eu difrïaeth
a'u drwg-enwau hwy arno. † Yr "arall" hwn, yn ddi-
au, yw y Tad, yr hwn a ofalai am ei anrhydedd a'i
ogoniant ef, ac a farnai yr Iuddewon yn dost am eu
dirmyg o hóno a'u dianrhydedd arno.

51 * Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, f † Os
ceidw neb g fy ymadrodd i, h ‡ ni wêl efe farw-
olaeth yn dragywydd.

f pen. 3. 15, 16. a 5. 24. a 6. 50. a 11. 25, 26. g adn. 55.
pen. 15. 20. h adn. 12. Salm 89. 48. Luc 2. 26.

* Fel pe dywedasai ein Harglwydd Iesu, Mi adawaf
fi fy achos yn llaw yr hwn a farna yn gyfiawn, ac a âf
yn mlaen i draddodi y gwirionedd eto i chwi pa un
bynag a wrandawoch ai peidio. † Pwy bynag a wran-
dawo fy ngeiriau, ac a'u derbynio trwy ffydd yn ei galon,
fel geiriau y bywyd tragywyddol; ‡ ni wel farwolaeth
yn dragywydd: hyny yw, ni wna marwolaeth naturiol
ddim niwed iddo, ac nid â i farwolaeth dragywyddol
byth. Ni bydd marwolaeth ond megys dim i'r credadyn,
mewn cymhariaeth i'r hyn a fydd i'r anghredadyn.
Gweled marwolaeth yma, ac *archwaethu* marwolaeth yn
yr adnod nesaf, ydynt ddull Hebrëaidd o lefaru, yn
arwyddo marw.

52 * Yna y dywedodd yr Iuddewon wrtho,

[i] Yr awrhon y gwyddom fod gennyt gythraul. [k] † Bu Abraham farw, a'r prophwydi; ac meddi di, Os ceidw neb fy ymadrodd i, nid [l] archwaetha efe farwolaeth yn dragywydd.

i adn. 48. pen. 9. 24. k Zec. 1. 5, 6. Heb. 11. 13. l Heb. 2. 9.

* "Ateb arafaidd a ddettry lid," ebai Solomon; ond nid oedd felly yma: yn lle gwerthfawrogi y fath addewid o anfarwoldeb gogoneddus, mae yr Iuddewon yn gwyrdroi geiriau Crist i'w dinystr eu hunain, ac y drydedd waith (pen. 7. 20; a 8. 48,) yn ei gablu ef yn echryslawn drwy ddywedyd, Mae genyt ti gythraul. † Cymmerent hwy arnynt ei ddeall ef am farwolaeth naturiol; ac fel pe dywedasent, Bu farw ein tad Abraham, yr hwn oedd gyfaill Duw, a bu farw yr holl brophwydi sanctaidd, o Moses i fynu, er eu bod yn cadw y gyfraith yn fanol; ac eto yr wyt ti mòr hyf a dywedyd, Os ceidw neb dy ymadrodd a'th athrawiaeth *di*, na bydd efe ddim marw: pa beth ond cabledd yw dywedyd y fath eiriau? a phwy ond dyn ynfyd, ac a chythraul ganddo a ryfygai eu dywedyd? Pwy a all addaw na chaiff ei ddilynwyr farw, ond yr hwn sydd ei hunan i fyw byth?

53 [m] * Ai mwy wyt ti nag Abraham ein tad ni, yr hwn a fu farw? a'r prophwydi a fuant feirw: [n] † pwy yr wyt ti yn dy wneuthur dy hun?

m adn. 58. pen. 4. 12. a 10. 29, 30. a 12. 34. Es. 9. 6. Mat. 12. 6, 41, 42. Rhuf. 9. 5. Heb. 3. 2, 3. a 7. 1—7. n pen. 5. 18. a 10. 33. a 19. 7.

* Nid addefai yr Iuddewon y byddai neb byth yn fwy nag Abraham a Moses, ond y Messiah; ac am nad oeddynt yn credu mai Iesu oedd y Messiah, yr oeddynt yn ei holi yn ddwrdiol fel hyn. † Gallasai ateb yn hawdd, Myfi yw y Messiah, Mab Duw, a'r Bywyd tragywyddol.

54 * Yr Iesu a attebodd, [o] Os wyf fi yn fy ngogoneddu fy hun, fy ngogoniant i nid yw ddim: [p] † fy Nhad yw yr hwn sydd yn fy ngogoneddu i, ‡ yr hwn [q] yr ydych chwi yn dywedyd, mai eich Duw chwi yw.

o adn. 50. pen. 2. 11. a 5. 31, 32. a 7. 18. Diar. 25. 27. 2 Cor. 10. 18. Heb. 5. 4, 5. p pen. 5. 22—29, 41. a 7. 39. a 13. 31, 32. a 16. 14, 15. a 17. 1, 5. Salm 2. 6—12. a 110. 1—4. Dan. 7. 13, 14. Act. 3. 13. Eph. 1. 20—23. Phil. 2. 9—11. 1 Pedr 1. 12, 21. 2 Pedr 1. 17. q adn. 41. Es. 48. 1, 2. a 66. 5. Hos. 1. 9. Rhuf. 2. 17, &c.

* Hyny yw, Os ydwyf fi yn cymmeryd gogoniant i mi fy hun nad yw yn ddyledus i mi; os ydwyf yn gwneuthur ymddangosiad gwag ac ymffrostgar o ogoniant heb brofion digonol i gadarnâu hyny; neu, os wyf fi yn esgeuluso gogoniant a gwasanaeth Duw, i geisio fy nerchafu fy hun; nid yw fy ngogoniant i ddim: nid yw ond ffugiol, ac amserol, ac a dry yn warth i mi. † Ond nid felly y mae; Fy Nhad yw yr hwn sydd yn fy ngogoneddu I, trwy dystiolaethu mai ei Anwyl Fab ef ydwyf, trwy fy nanfon i'r byd i gyflawni ei waith mawr ef, a thrwy lawer o arwyddion a rhyfeddodau gweledig a hysbys i chwi eich hunain. ‡ Gan y dywedwch chwi mai eich Duw chwi yw hwn, chwi a ddylech gredu ei dystiolaethau ef am danaf fi, os na chredwch i mi fy hun.

55 [r] * Ond nid adnabuoch chwi ef: [s] † eithr myfi a'i hadwaen ef. ‡ Ac os dywedaf nad adwaen ef, [t] myfi a fyddaf debyg i chwi, yn gelwyddog: ond mi a'i hadwaen ef, [u] ac yr wyf yn cadw ei ymadrodd ef.

r adn. 19. pen. 7. 28. a 15. 21. a 16. 3. a 17. 25. Jer. 4. 22. a 9. 3. Hos. 5. 4. Act. 17. 23. 2 Cor. 4. 6. s pen. 1. 18. a 6. 46. a 7. 29. a 10. 15. Mat. 11. 27. Luc 10. 22. t adn. 44. 1 Ioan 2. 4, 22. a 5. 10. Dat. 3. 9. u adn. 29, 51.

* Nid adnabuoch chwi ef yn iawn, yn gadwedigol, a thrwy ddatguddiad yr Ysbryd. Mae adnabod yma yn arwyddo mwy na gwybodaeth hanesiol am Dduw, neu yr hyn a ellir ei amgyffred am dano ef drwy alluoedd naturiol: mae yn arwyddo serchiadau, a thueddiadau sanctaidd, yn tarddu oddi ar adnabyddiaeth ysbrydol o hóno. † Myfi a'i hadwaen yn berffaith, ac yn gyflawn; o ran ei hanfod, ei gyngor, ei ewyllys, ac yr wyf yn ufuddâu yn berffaith iddo. Eto, beth bynag ydych yn adnabod o hóno fel *Duw*, nid ydych yn ei adnabod ef fel fy *Nhad* I, ond myfi a'i hadwaen ef *felly*. ‡ Os dywedaf nad adwaen ef fel fy Nhad nefol, rhag eich ofn chwi, mi a fyddwn yn gelwyddog fel chwithau: dywedwch chwi eich bod yn ei adnabod ef, yn ei garu, ac yn ei addoli, ac nid ydych, eithr dywedyd celwydd yr ydych; ac i'r gwrthwyneb, pe dywedwn innau nad wyf yn ei adnabod, ac nad wyf yn cadw ei ymadrodd, celwyddog a fyddwn, yn erbyn Duw, yn erbyn fy nghydwybod, ac yn erbyn pob peth ag sydd wirionedd.

56 [x] * Gorfoledd oedd gan eich tad Abraham weled fy † nydd i: ‡ ac efe a'*i* gwelodd *hefyd*, ac a lawenychodd.

x Gen. 22. 18. Luc 2. 28—30. a 10. 24. Gal. 3. 7—9, 14—18. Heb. 11. 13, 39, 40. 1 Pedr 1. 10—12.

* Fel pe dywedasai yr Iesu, Er gwaeled ydwyf yn eich golwg chwi heddyw, er cymmaint y synwch fy mod I yn dywedyd pethau mwy nac Abraham am danaf fy hun, ac er cymmaint eich ymffrost yn eich tad Abraham; gallaf ddywedyd i chwi yn sicr, i Abraham ei hun fawr chwennychu gweled fy nydd I o ymddangosiad yn y cnawd, ac iddo lawenychu yn ddirfawr wrth weled trwy ffydd y deuwn i'r byd yn nghyflawnder yr amser. Mae geiriau cyntaf yr adnod yn arwyddo, llàmu yn mlaen o lawenydd, i gyfarfod a chofleidio gwrthddrych ein dymuniad, yn gystal a gorfoleddu yn y meddiant o hóno. † Dydd ei gnawdoliad ef yn ddiammau a feddylir yma, ac nid ymddangosiad yr Arglwydd i Abraham yn ngwastadedd Mamre, Gen. 18. 1, fel y meddylia rhai. ‡ Gwelodd Abraham ddydd Crist trwy ffydd yn yr addewid a roddodd Duw iddo, mai yn ei had ef y bendithiid holl deuluoedd y ddaear; gwelodd ddydd genedigaeth Crist yn ngenedigaeth Isaac, a dydd ei farwolaeth ef yn yr hwrdd a roddodd Duw iddo i'w aberthu yn lle Isaac; gwelodd ef hefyd yn Melchizedec, efallai; ac yn yr ymddangosiad a grybwyllwyd uchod yn Mamre.

57 * Yna y dywedodd yr Iuddewon wrtho, † Nid wyt ti ddengmlwydd a deugain etto, ac a welaist ti Abraham?

* Deallai yr Iuddewon o hyd ymadrodd Crist yn naturiol, fel pe buasai Abraham ac yntau wedi gweled eu gilydd ill dau yn y cnawd, a synent yn gyffrôus a thramgwyddus iawn, pa fodd y gallai efe ddywedyd y cyfryw beth; gan nad oedd efe gymmaint ag yn hen ddyn eto, dim dros ddeg a deugain oed, ac Abraham wedi marw er ys mwy na mil ac wyth gant o flynyddoedd. † Nid oedd efe y pryd hwnw fawr dros dair ar ddeg ar hugain oed, ond tybir fod ei lafur dibaid, ei ofid meddwl a'i erlidiau, ag agwedd sobr a difrifol ei wynebpryd, yn peri iddo edrych lawer yn henach nac ydoedd.

58 Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, [y] * Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, [z] † Cyn bod Abraham, [a] ‡ yr wyf fi.

y adn. 34, 51. z pen. 1. 1, 2. a 17. 5, 24. Diar. 8. 22—30. Es. 9. 6. Mica 5. 2. Col. 1. 17. Heb. 1. 10—12. a 13. 8. Dat. 1. 11, 17, 18. a 2. 8. a Ex. 3. 14. Es. 43. 15. a 44. 6, 8. a 46. 9. a 48. 12. Dat. 1. 8.

* Wrth weled dallineb gwirfoddol, a chyndynrwydd penderfynol yr Iuddewon, ac hefyd o herwydd mawr bwys y mater mae efe yn myned i'w ddywedyd, mae yn defnyddio y dull grymus hyn o lefaru. † Cyn bod Abraham gwedi ei eni, meddant yw ystyr y gair Groeg *ginesthai*. ‡ Gan fod y geiriau hyn yn yr amser presenol, "Yr *wyf* fi," ac nid yr *oeddwn* I, mae yn rhaid eu bod yn gosod allan dragywyddol hanfod Iesu fel Person Dwyfol, fel Mab Duw, yr YDWYF hwnw a lefarodd wrth Moses gynt, Exod. 3. 14. Mae y geiriau hefyd yn arwyddo ei anghyfnewidioldeb ef *yr wyf fi* yr un yn ddi-

ïnewid, fel Heb. 13. 8. Pe creadur yn unig a fuasai
ı Harglwydd, ni buasai yn beiddio defnyddio y fath
iiau, mòr debyg i gabledd, i ddywedyd am dano ei
n.

59 [b] * Yna hwy a godasant gerrig i'w taflu
o ef. [c] † A'r Iesu a ymguddiodd, ac a
th allan o'r deml, gan fyned trwy eu canol
ynt: ac felly yr aeth *efe* heibio.

b adn. 5, 6. pen. 10. 30—33. a 11. 8. a 18. 31. Lef. 24. 16. Luc
29. Act. 7. 57, 58. c pen. 5. 13. a 10. 39, 40. a 11. 54. Gen.
11. 2 Bren. 6. 18—20. Luc 4. 30. a 24. 31. Act. 8. 39, 40.

* Mae yn amlwg i'r Iuddewon ddeall y geiriau uchod
ı ei ddwyfol a'i dragywyddol hanfod ef, ei fod yn hòni
hun, nid yn unig yn fwy nac Abraham, ond yn ogyf-
rch â Duw: tybient ei fod yn euog o'r cabledd mwyaf;
fel y cyfryw mynent ei labyddio ef yn eu nwydau
yllion, heb aros am na rhaith na barn, heb ystyried
nceiddrwydd y deml, na meddwl dim am y llywodr-
th Rufeinig yr oeddynt dani ac yn atebol iddi. Am
cerig a gawsent yn y deml, gwel y sylwad ar pen. 2.
. † Pa fodd yr ymguddiodd yr Iesu nis gwyddom;
wyrthiol medd rhai, trwy wneyd ei hun yn annwel-
lig, neu daro ei erlidwyr â dallineb, neu dewychu a
ywyllu yr awyr, fel na allent ei weled ef. Ond, gall-
ai efe ymguddio heb wneuthur dim felly; mewn torf
òr lliosog mae yn ddïammau bod yno lawer o gyfeill-
n ac ewyllyswyr da iddo, a gallasai fyned i blith y
ai hyny yn y derfysg a'r cyffro, ac felly myned trwy-
dynt allan o'r deml, heb yn wybod i'w elynion.

PEN. IX.

Y dyn a anesid yn ddall, yn cael ei olwg.

AC wrth fyned heibio, [a] † efe a ganfu ddyn
dall o'*i* enedigaeth.

a adn. 32.

* Gellid meddwl mai y "myned heibio" o'r deml yn
iwedd y bennod o'r blaen, yw y "myned heibio" yn
echreu hon; ond y mae beirniaid manol yn meddwl
d tua thri mis o amser rhwng yr hyn a adroddwyd yn
bennod o'r blaen â'r hyn a adroddir yn y bennod hon:
ggwyddodd *hyny* ar ddiwedd gŵyl y pebyll, yn mis
edi; a'r hyn a adroddir *yma* ar y gyssegr-ŵyl, yn
hagfyr, gwel pen. 10. 22. Ni ddywedir yma pa le yr
edd Iesu yn myned heibio pan ganfu efe y dyn dall,
a un ai ar ei ffordd i Jerusalem, ai ynte ar un o heol-
dd y ddinas.

2 * A'i ddisgyblion a ofynasant iddo, gan
dywedyd, Rabbi, [b] pwy a bechodd, ai hwn, ai
i rïeni, fel y genid ef yn ddall?

b adn. 34. Mat. 16. 14.

* Mae tybiaeth o ddau beth fel gwirionedd yn ngof-
niad y dysgyblion yma: 1. Fod pob cystudd corphor-
wl yn dyfod ar ddynion fel cosp am bechod. 2. Fod
nai cystuddiau yn dyfod ar ddynion am eu pechodau
ersonol eu hunain, a rhai am bechodau eu rhïeni.
Mae y dybiaeth olaf yn ddigon gwir; felly hefyd y
yntaf, ond nid bob amser: fel y mae rhai cystuddiau
n *gosp am* bechod, felly y mae rhai eraill er *prawf*, ac
ttaliad i bechod. Heblaw y pethau uchod, efallai bod
dysgyblion yn meddwl, y gallasai bod y dyn dall hwn
edi pechu yn y groth, cyn ei eni; dywedir bod amryw
f'r Rabbiniaid Iuddewig yn gwag-ddychymmyg peth fel
yny. Ond tyb fwyaf cyffredin dysgedigion yw, bod y
dysgyblion yn cyfeirio at y dychymmyg o draws-sym-
nudiad yr enaid; y peth a alwai y derwyddon Cymreig,
Treiglo yr abred; barnai y paganiaid fod yr enaid wedi
aanfodi, a phreswylio, mewn rhyw gorph o'r blaen, ac
od ei gorph nesaf yn cael ei gospi am bechodau a
wnaethid yn y corph o'r blaen. Yr oedd y dychymmyg
nfyd hwn yn cael ei gredu gan lawer o'r Iuddewon yn
hyddiau ein Iachawdwr, ac nid yw pawb yn Nghymru
yn hollawl rydd oddi wrtho y dydd heddyw.

3 * Yr Iesu a attebodd, [c] Nid hwn a bech-
odd, na'i rïeni chwaith: [d] † eithr fel yr amlygid
gweithredoedd Duw ynddo ef.

c Job 1. 8—12. a 2. 3—6. a 21. 27. a 22. 5, &c. a 32. 3. a 42.
7. Preg. 9. 1, 2. Luc 13. 2—5. Act. 28. 4. d pen. 11. 4, 40. a 14.
11—13. Mat. 11. 5. Act. 4. 21.

* Nid gwadu pechod gwreiddiol y dyn dall hwn y
mae Iesu yma, ac nid gwadu pechod gwreiddiol a
gweithredol ei rïeni y mae; nid yw chwaith yn gwadu
nad yw cystudd yn cael ei roddi yn aml yn gosp am
bechodau: † ond mai i'r dyben o ddangos gweithredoedd
Duw ynddo ef, y ganesid ef yn ddall: sef gallu Duw yn
ei gystuddio ef â dallineb, ac hefyd gallu Duw yn ei
iachâu ef, ac yn agoryd ei lygaid. Gallu Crist a agor-
odd lygaid y dall hwn, yr hyn mae Crist ei hun yn alw
yn weithredoedd *Duw:* mae y geiriau a'r weithred yn
dangos mai Duw ydoedd.

4 [e] * Rhaid i mi weithio gwaith yr hwn a'm
hanfonodd, [f] † tra yr ydyw hi yn ddydd; ‡ y
mae y nos yn dyfod, pan na ddichon neb
weithio.

e pen. 4. 34. a 5. 19, 36. a 10. 32, 37, 38. a 17. 4. Luc 13. 32—
34. Act. 4. 20. f pen. 11. 9, 10. a 12. 35. Preg. 9. 10. Es. 38. 18,
19. Eph. 5. 16. Col. 4. 5.

* Rhoddodd y Tad, yr hwn a anfonodd Grist i'r byd,
waith iddo i'w wneyd, pen. 17. 4. Ei waith ef yn gyff-
redin oedd, gogoneddu Duw ar y ddaear, trwy weithio
allan iachawdwriaeth dyn; trwy amlygu ewyllys y Tad
i blant dynion; a thrwy wneuthur gwyrthiau ar gyrph
dynion fel arwyddion o waith ei ras ar eu heneidiau.
† Yr oedd amser pennodol gan Grist i wneyd y gwaith
hwn: dim ond ei ddydd; dydd ei fywyd, a dydd ei
weinidogaeth gyhoeddus. Yr oedd y dydd hwnw iddo
ef bron a darfod, ac amser ei groeshoeliad, a nos ei
angau yn agosâu: am hyny yr oedd yn rhaid iddo
weithio yn ddyfal tra parâi ei ddydd, ac efe a lwyr or-
phenodd ei holl waith ar y ddaear erbyn nos. ‡ Mae
nos angau yn dyfod i ninnau yn fuan, pryd nas gall neb
o honom weithio: gan hyny gweithiwn allan ein iach-
awdwriaeth ein hunain trwy ofn a dychryn tra parâo ein
dydd; lle syrthio y pren, yno y bydd efe.

5 [g] * Tra yr ydwyf yn y byd, † goleuni y
byd ydwyf.

g pen. 1. 4—9. a 3. 19—21. a 8. 12. a 12. 35, 36. Es. 42. 6, 7.
a 49. 6. a 60. 1—3. Mal. 4. 2. Mat. 4. 16. Luc 2. 32. Act. 13. 47. a
26. 18, 23. Eph. 5. 14. Dat. 21. 23.

* Mae y geiriau hyn, "Tra yr ydwyf yn y byd," yn
dangos i ni beth oedd meddwl ein Harglwydd wrth y
dydd, yn adn. 4, sef amser bŷr ei arosiad ef yn y byd.
† Yr oedd efe yn oleuni corphorol ac ysbrydol i lawer
tra bu yn y byd; ac yn ei fawr drugaredd mae efe yn
oleuni ysbrydol i lawer eto yn y byd, er ei fod wedi
gadael y byd a myned i'w ogoniant.

6 * Wedi iddo ef ddywedyd hyn, [h] efe a
boerodd ar lawr, ac a wnaeth glai o'r poeryn,
ac a irodd y clai ar lygaid y dall;

h Marc 7. 33. a 8. 23. Dat. 3. 18.

* Mae llawer o ddychymmygion gan ddynion am y
clai a'r poeryn yma; ond y maent oll yn rhy wael i gael
lle i chwyddo y gwaith hwn: y peth mwyaf teilwng o'n
sylw ni yw, mawredd a thrugarawgrwydd y wyrth. Trwy
y wyrth hon, fel ei holl wyrthiau eraill, yr oedd Iesu yn
amlygu Duwdod ei Berson; yn profi ei ddwyfol anfon-
iad, a gwirionedd ei athrawiaeth; ac yn dangos ei dru-
garedd a'i dosturi tuag at y dall truenus. I'r dybenion
hyn, mae efe yn dewis, nid yn unig dyn dall, ond dyn
dall o'i enedigaeth; ac felly yn anfeddyginiaethol yn ol
barn a medr pob celfyddyd ddynol, adn. 32. Yn nesaf,
mae efe yn arfer moddion, y rhai nid oedd dim rhin-
wedd naturiol ynddynt i agoryd llygaid; tebygach fuasai
y clai i ddallu llygaid un yn gweled, nag i agoryd
llygaid un dall: ond hawdd oedd i'r hwn a grëodd ddyn
o bridd y ddaear, agoryd llygaid dyn â phridd y ddaear.
Yr un peth yw iddo ef weithio *trwy* foddion, yn *gyroes* i
foddion, neu *heb* foddion.

7 Ac a ddywedodd wrtho, [i] * Dos, ac

ymolch yn [k] † llyn Siloam (yr hwn a gyfieithir, [l] ‡ Anfonedig.) ‖ Am hynny efe a aeth ymaith, ac a ymolchodd, [m] ac a ddaeth yn gweled.

i 2 Bren. 5. 10—14. k adn. 11. Neh. 3. 15. Es. 8. 6. l pen. 10. 36. Rhuf. 8. 3. Gal. 4. 4. m adn. 39. pen. 11. 37. Ex. 4. 11. Salm 146. 8. Es. 29. 18, 19. a 32. 3. a 35. 5. a 42. 7, 16—18. a 43. 8. Luc 2. 32. Act. 26. 18.

* Wrth orchymyn hyn, efallai bod Crist yn bwriadu gwneyd y wyrth yn fwy hysbys. Dïammau fod gan y dall rywun i'w arwain trwy heolydd Jerusalem, a bod hwnw yn dywedyd i bawb i ba le yr oeddynt yn myned, ac i ba beth; felly erbyn eu dyfod i làn y llyn, yr oedd tyrfa fawr wedi ymgasglu i weled y canlyniad o gyngor a gorchymyn mòr rhyfedd. † Darllenwn am y llyn hwn yn Neh. 3. 15, a dywedir mai ffynon ydoedd, yn tarddu allan o fynydd Sion. Mae yn debyg fod nant o'r enw hwnw, yn diwallu rhan o'r ddinas â dwfr. Er gochelyd meithder, cyfeiriwn y darllenydd at y Geiriadur Ysgrythyrol, dàn y gair Siloam. ‡ Anfonedig, cysgod o'r Silo, y Messiah, medd rhai: am fod y dyfroedd wedi cael eu danfon o drugaredd Duw i ddyfrâu y ddinas, medd eraill: a thybia eraill nad oedd y dyfroedd yn rhedeg yn wastad, ond ar amserau, pan y gwelai Duw fod yn dda eu danfon. ‖ Nid am fod un rhinwedd meddygol yn llyn Siloam y cafodd efe ei olwg, ond er dangos i ni, bod yr Arglwydd yn sicr o wobrwyo gwir ffydd ac ufuddod, lle bynag y byddont.

8 ¶ * Y cymmydogion gan hynny, a'r rhai a'i gwelsent ef o'r blaen, mai dall oedd efe, a ddywedasant, [n] Onid hwn yw yr un oedd yn [o] eistedd ac yn cardotta?

n Ruth 1. 19. 1 Sam. 21. 11, 12. o 1 Sam. 2. 8. Marc 10. 46. Luc 16. 20—22. a 18. 35. Act. 3. 2—11.

* Yr oedd y wyrth mòr rhyfedd, fel yr oedd cymmydògion y dall, a'r rhai a'i gwelsent ef o'r blaen yn cardota, yn synu wrth ei weled yn awr, ac yn ammau ai efe ydoedd, er yr adwaenent ef yn dda.

9 * Rhai a ddywedasant, Hwn yw efe: ac eraill, Y mae efe yn debyg iddo. Yntau a ddywedodd, Myfi yw *efe*.

* Tra yr oeddynt fel hyn yn ammau ac yn petruso yn ei gylch ef, mae ef ei hun yn tòri y ddadl, ac yn dywedyd, Myfi yw efe. Mae yn debygol iawn fod caffaeliad ei olwg wedi rhoddi agwedd mwy bywiog a siriol ar ei wyneb-pryd ef nag o'r blaen, fel nad oedd efe yn hollol yn ymddangos fel yr un dyn.

10 * Am hynny y dywedasant wrtho, [p] Pa fodd yr agorwyd dy lygaid di?

p adn. 15, 21, 26. pen. 3. 9. Preg. 11. 5. Marc 4. 27. 1 Cor. 15. 35.

* Mae yn debyg mai syndod dynol, a chwilfrydedd naturiol yn unig, oedd yn eu cynhyrfu hwy i'w holi ef fel hyn: fel y bydd pawb o honom pan welwn rywbeth newydd ac anghyffredin, mae arnom eisiau gwybod y difyn yn ei gylch. Nid oedd y gofyniad na da na drwg ynddo ei hun.

11 Yntau a attebodd ac a ddywedodd, [q] * Dyn a elwir Iesu, a wnaeth glai, ac a irodd fy llygaid i; ac a ddywedodd wrthyf, Dos i lyn Siloam, ac ymolch. Ac wedi i mi fyned ac ymolchi, mi a gefais fy ngolwg.

q adn. 6, 7, 27. Jer. 36. 17, 18.

* Mae yn amlwg wrth yr ateb hwn, nas gwyddai efe y pryd hyny ddim byd am Iesu ond ei enw yn unig, yr hwn a glywsai gan rywun o'i amgylch un ai cyn neu gwedi agoryd ei lygaid: felly nis gallai fod gan hwn ddim ffydd o un math yn Iesu, yr hwn nid adwaenai.

12 * Yna y dywedasant wrtho, [r] Pa le y mae efe? † Yntau a ddywedodd, Ni wn i.

r pen. 5. 11—13. a 7. 11. Ex. 2. 18—20.

* Yr oeddynt yn gofyn pa le yr oedd Iesu, un ai o chwennychiad gwag ei weled ef, neu o ddrwg-ewyllys iddo am iachâu ar y sabbath; neu ynte o chwennychiad difrifol a chanmoladwy dyfod yn gydnabyddus âg ef. † Nis gwelais I mo hóno erioed, ac nis gwn ddim mwy am dano eto nag a fynegais i chwi.

13 ¶ [s] * Hwythau a'i dygasant ef at y † Phariseaid, yr hwn gynt a *fuasai* yn ddall.

s pen. 8. 3—8. a 11. 46, 47, 57. a 12. 19, 42.

* Nis gwyddom pwy oedd y rhai hyn a'i dygasant ef at y Phariseaid, ond yn unig mai ei gymmydogion ef oeddynt, neu y rhai a'i gwelsent ef o'r blaen yn ddall ac yn cardota, adn. 8. † Sylwa rhai fod yr holl *Sanhedrim* gan yr efengylwr hwn yn myned dàn yr enw Phariseaid, am mai y Phariseaid gan mwyaf oedd aelodau y llys hwnw. Nis gwyddom yn iawn pa le yr oedd y Phariseaid hyn yn gynnulledig y pryd hwn, pa un ai yn y deml, yn ystafell fawr eu cyngor, ai ynte mewn rhyw synagog yn rhywle. Beth oedd eu dyben yn ei ddwyn sydd bwnc arall mewn dadl: tybia rhai mai o gas at Iesu am iddo iachâu y dall ar y sabbath; eraill, fel yr holai y Phariseaid y dyn yn fanylach er datguddio twyll y wyrth os oedd twyll wedi bod; y thybia eraill iddynt ei ddwyn at y Phariseaid, i edrych a addefent hwy y person a wnaethai y wyrth ryfedd hon, mai efe oedd yr hwn y dywedasai Isaiah am dano, yr "agorai efe lygaid y deillion." Mae yn sicr fod rhagluniaeth Duw yn trefnu y peth hyn, fel y caffai y Phariseaid glywed tystiolaeth o enau y dall ei hunan, a'u hargyhoeddai hwynt, neu ynte a'u gwnelai oll yn ddïesgus.

14 [t] * A'r sabbath oedd hi pan wnaeth yr Iesu y clai, a phan agorodd efe ei lygaid ef.

t pen. 5. 9, 16, 18. a 7. 21—23. Mat. 12. 1—14. Marc 2. 23—28. a 3. 1—6. Luc 6. 1—11. a 13. 10—17. a 14. 1—5.

* Dewisodd yr Iesu y Sabbath i wneyd amryw o'i wyrthiau; megys iachâu y dyn wrth lyn Bethesda, pen. 5. 10; y dyn a'r llaw wedi gwywo, Matth. 12. 10; a'r dyn dall yn y fàn hon. Yr oedd yn dewis y sabbath, efallai, am ei fod ar y dydd hwnw yn gyffredin, yn pregethu yr athrawiaeth nefol hòno, ag oedd ef yn gadarnâu drwy y gwyrthiau hyn: neu er dangos i'r Iuddewon coelgrefyddol bod yn rhydd gwneuthur gweithredoedd o drugaredd ar y sabbath: neu er dangos iddynt, ei fod ef, Mab y dyn, yn Arglwydd ar y sabbath.

15 [u] * Am hynny y Phariseaid hefyd a ofynasant iddo drachefn, pa fodd y cawsai efe ei olwg. † Yntau a ddywedodd wrthynt, Clai a osododd efe ar fy llygaid i, a mi a ymolchais, ac yr ydwyf yn gweled.

u Gwel ar adn. 10, 11.—a 26, 27.

* Clywsent eisoes gan eraill, yn ddïammau, ac yn awr rhaid iddynt gael clywed eto, ganddo ef ei hun: nid o ddyben da, mae yn sicr; ond fel y caent rywbeth i achwyn yn erbyn Crist. Ac yr oedd yn y tro hwn gysgod o achlysur iddynt; barnai yr Iuddewon fod haliw y genau yn dda i iachâu llygaid clwyfus, a gwaharddent i neb iro eu llygaid âg ef ar y sabbath gan ynfyd farnu bod hyny yn doriad ar y sabbath. † Nid oedd ar y dyn gywilydd, ac nid oedd yn meddwl drwg, adrodd iddynt ddaioni Duw iddo ef, yn agoryd ei lygaid ar y sabbath.

16 * Yna rhai o'r Phariseaid a ddywedasant, [x] † Nid yw y dyn hwn o Dduw, ‡ gan nad yw efe yn cadw y sabbath. ‖ Eraill a ddywedasant, Pa fodd y gall dyn pechadurus wneuthur y cyfryw arwyddion? [y] Ac yr oedd ymrafael yn eu plith.

x adn. 24, 30—33. pen. 3. 2. a 5. 36. a 14. 11. a 15. 24. y pen. 7. 12, 43. a 10. 19. Luc 13. 51—53. Act. 14. 4.

* "Rhai o'r Phariseaid:" gwelwn yn niwedd yr adnod fyned ymrafael yn mhlith y cyngor yn nghylch y pwnc hwn. Yr oedd Nicodemus, a Joseph o Arimathea, ac efallai rai eraill yn amddiffyn Iesu yn erbyn cynddeiriogrwydd ei elynion ef. † Can belled o addef Crist yn Dduw, yn dragywyddol Fab Duw, ac yn ogyfuwch â Duw, ni chaniatâent hwy fod iddo unrhyw berthynas â

w, fel un wedi ei anfon ganddo: nid addefent ei fod
d ddyn duwiol. ‡ Mae yn wir fod sancteiddiad y
bath yn rhan mòr fawr o grefydd, fel y gellir pen-
fynu nad oes dim crefydd gan y rhai ni wnânt gyd-
od o sancteiddio y sabbath: eto dylem wybod beth
ewyllys Duw mewn perthynas i sancteiddiad y
bath, ac nid tybied mai mewn rhai defodau allanol
mae, tra byddom ar yr un pryd yn esgeuluso dyled-
rddau moesol mwy pwysig. Cadwai Crist y sabbath
well na hwy, ond nid yn ol eu traddodiadau hwy.
yma y blaid arall yn ateb, ac ar seiliau doethineb
heswm: pa fodd y gall dyn pechadurus, torwr sab-
h, fel y mynwch chwi fod hwn, wneuthur y cyfryw
thiau daionus? Mae hyn yn dangos eu bod hwy
ystyried rhai gwyrthiau o leiaf mòr dda, ac mòr
neddus, fel nas gallai neb drygionus eu gwneuthur,
ewyllysio eu gwneuthur: felly yr ystyrient y wyrth
n.

17 Hwy a ddywedasant drachefn wrth y
ll, * Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd am
no ef, am agoryd o hono dy lygaid di?
Yntau a ddywedodd, [z] *Mai* prophwyd yw
e.

z pen. 4. 19. a 6. 14. Luc 24. 19. Act. 2. 22. a 3. 22—26. a 38.

* Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd am dano? Ai efe yn
r a agorodd dy lygaid di? Ac os efe a'i gwnaeth, pa
nith a gafodd hyny ar dy feddyliau di am dano ef?
l pe dywedasent, Cofia mai y sabbath ydoedd, a pha
h a elli di feddwl am ddyn a gymmerai glai ar y
dd sabbath, a gymmysgai hwnw â phoeri, ac a'i gos-
ai ar dy lygaid di, pryd y gwyddost ei bod yn groes
traddodiadau ni i arfer meddyginiaeth o fath yn y
l at y llygaid ar y dydd sabbath, cymmaint a gwlychu
aen bys â haliw y genau i'w hiro? † Atebodd y dyn,
fel pe dywedasai, Gwnewch chwi y peth a fynoch o'r
ithred, a meddyliwch y peth a fynoch am y dyn, fy
ddwl I yw, mai prophwyd yw efe, mai gweithred dda
wnaeth, ac ei bod yn ddigon cyfreithlawn iddo ef beth
nag, ei gwneyd ar y sabbath. Addefai yr Iuddewon
eu traddodiadau, fod yn gyfreithlawn i *brophwyd*
hymyn gwneyd pethau ar y sabbath, na buasai yn
freithlawn eu gwneyd heb hyny.

18 [a] * Am hynny ni chredai yr Iuddewon
n dano ef, mai dall fuasai, a chael o hono ef
olwg, nes galw o honynt ei rïeni ef, yr hwn
gawsai ei olwg.

a pen. 5. 44. a 12. 37—40. Gen. 19. 14. Luc 16. 31. Heb. 3. 15 19. a 4. 11.

* Hyny yw ni chredai penaethiaid yr Iuddewon,
lodau y *Sanhedrim*, yr oedd eraill a'i hadwaenai ef o'r
aen yn credu. Ni chredai y rhai hyn am na fynent
edu: braidd na thaerent hwy mai cyngrair rhyngddo
a Iesu oedd y cwbl, i gael enw i'r Iesu trwy dwyll.
Danfonasant am ei rïeni, gan obeithio, efallai cael
ywbeth allan o honynt hwy, a fuasai yn gwrthwynebu
stiolaeth eu mab.

19 * A hwy a ofynasant iddynt, gan ddy-
edyd, [b] Ai hwn yw eich mab chwi, yr hwn yr
llych chwi yn dywedyd ei eni yn ddall? pa
odd gan hynny y mae efe yn gweled yn awr?

b Gwel ar adn. 8, 9.—Act. 3. 10. a 4. 14.

* Mae tri pheth yn y gofyniad hwn. 1. Ai hwn yw
ich mab chwi? 2. Ai yn ddall y ganed ef? 3. Pa
odd y cafodd efe ei olwg? Atebwch i ni y gwir am
ob un o'r pethau hyn, yn enwedig yr ail a'r trydydd
oliad; ai dall genedigol oedd efe, a pha fodd y cafodd
fe ei olwg.

20 * Ei rïeni ef a attebasant iddynt hwy,
c a ddywedasant, Nyni a wyddom mai hwn
w ein mab ni, ac mai yn ddall y ganwyd ef:
21 Ond pa fodd y mae efe yn gweled yr
awrhon, nis gwyddom ni; neu pwy a agorodd
ei lygaid ef, nis gwyddom ni: † y mae efe
mewn oedran; gofynwch iddo ef: efe a ddy-
wed am dano ei hun.

* Mae rhïeni y dyn yn dangos llawer o gallineb a
gochelgarwch yn eu hatebiad, ac ar yr un pryd yn dangos
gonestrwydd a gwroldeb meddwl mwy, efallai, nag a
dybiodd y Phariseaid. Gwyddent yn dda, a thystiol-
aethasant yn gadarn mai hwn oedd eu mab, ac mai yn
ddall y ganesid ef; ond am y trydydd holiad, pa fodd yr
oedd efe yn awr yn gweled, nis gallent hwy ateb: nid
oeddynt hwy yn bresenol, efallai, pan agorodd yr Iesu
ei lygaid ef, ac nid oeddynt yn dewis dywedyd yr hyn a
glywsent, na chanddo ef na chan eraill. † Gofynwch
iddo ef ei hun, ebent hwy, dyma efe ger eich bronau,
mewn oedran a synwyr, a dïammau genym yr ateba efe
drosto ei hun.

22 * Hyn a ddywedodd ei rïeni ef, [c] am eu
bod yn ofni yr Iuddewon: † oblegid yr
Iuddewon a gyd-ordeiniasent eisoes, os cyf-
addefai neb ef yn Grist, [d] y bwrid ef allan o'r
synagog.

c pen. 7. 13. a 12. 42, 43. a 19. 38. a 20. 19. Salm 27. 1, 2. Diar. 29. 25. Es. 51. 7, 12. a 57. 11. Luc 12. 4—9. a 22. 56—61. Gal. 2. 11—13. Dat. 21. 8. d adn. 34. pen. 12. 42. a 16. 2. Luc 6. 22. Act. 4. 18. a 5. 40.

* Tybia rhai mai ofn pechadurus yn rhïeni y dyn
oedd hwn, yn eu hattal i dystiolaethu yr hyn a wydd-
ent, er anrhydedd i Grist, a dïolchgarwch am y wyrth ar
eu mab. Mae eraill yn meddwl nad oeddynt i'w beïo am
beidio ac ateb y trydydd holiad, mai gweithred o gall-
ineb, a gochelgarwch cyfreithlawn ydoedd, yn wyneb
perygl o esgymmundod, yn enwedig gan nad oeddynt
hwy eu hunain yn dystion o'r wyrth. † Cymmaint oedd
gelyniaeth y Senedd Iuddewig yn erbyn Iesu, fel yr
oeddynt wedi ordeinio, a gwneyd deddf, i fwrw allan o'r
synagog, hyny yw, o aelodaeth eglwysig, bawb a'i hadd-
efent ef yn Grist, neu Fessiah. Dïaelodi o'r eglwys am
addef Pen yr eglwys!

23 Am hynny y dywedodd ei rïeni ef, [e] Y
mae efe mewn oedran; gofynwch iddo ef.

e adn. 21.

24 Am hynny hwy a alwasant eilwaith y
dyn a fuasai yn ddall, ac a ddywedasant wrtho,
[f] * Dyro y gogoniant i Dduw: [g] † nyni a
wyddom mai [h] pechadur yw y dyn hwn.

f pen. 5. 23, a 8. 49. a 16. 2. 1 Sam. 6. 5—9. Es. 66. 5. Rhuf. 10. 2—4. g adn. 16. pen. 8. 46. a 14. 30. a 18. 30. a 19. 6. Marc 15. 28. Rhuf. 8. 3. 2 Cor. 5. 21. h Luc 7. 39. a 15. 2. a 19. 7.

* "Dyro y gogoniant i Dduw," medd rhai, trwy
gyfaddef mai cyngrair twyllodrus rhyngot ti â Iesu oedd
yr esgus wyrth hon: fel yn Jos. 7. 19. "Dyro y go-
goniant i Dduw," medd eraill, drwy gydnabod, a chyf-
addef, mai Duw a agorodd dy lygaid di, ac na wnaeth
Iesu ddim tuag at hyny. Pe buasai dwyll yn y peth,
buasai yn iawn iddo roi y gogoniant i Dduw trwy ei gyf-
addef; ond nid gogoniant i Dduw fuasai iddo gyfaddef
twyll lle nad oedd twyll, rhag eu hofn hwy, ac er eu
boddloni. Nid gogoniant i Dduw chwaith fuasai prïod-
oli y wyrth i Dduw, a gwadu nerth ac awdurdod Iesu
ynddi: yr hwn nid yw yn anrhydeddu y Mab nid yw yn
anrhydeddu y Tad yr hwn a'i hanfonodd ef. Yr unig
ffordd i roddi gogoniant i Dduw yn yr amgylchiad hwn
oedd, cyffesu yn ddiofn, mai Crist a wnaeth y wyrth.
† Gwelwn dra dirmyg yr Iuddewon yma; ni wnaent
gymmaint ag enwi yr Iesu, ond y "dyn hwn" meddynt.
Pechadurus o'r fath waethaf, a mwyaf ysgeler, meddant,
yw ystyr y gair *amartôlos*: dyn drygionus, yn gwneyd
pethau, ac yn dy annog dithau i wneyd peth ar y sab
bath, ag sydd yn llwyr halogiad o hóno yn ol ein tra-
ddodiadau ni.

25 * *Yna* yntau a attebodd ac a ddywed-
odd, Ai pechadur yw, nis gwn i: [i] † un peth a

wn i, lle yr oeddwn i yn ddall, yr wyf fi yn awr yn gweled.

i adn. 30. pen. 5. 11. 1 Ioan 5. 10.

* Mae yn debyg nad oedd y cardotyn dall a thlawd hwn ddim yn ysgolhaig mawr; eto mae yn rhoddi ateb gwŷch i'r Phariseaid, cystal ag oedd dichon iddo roddi, er diogelwch iddo ei hun, ac er tystiolaeth ddiysgog i'r gwirionedd. Ai pechadur ydyw nis gwn I, ebai efe, ni bu dim cydnabyddiaeth personol rhyngof fi erioed âg ef, ac nid yw yn perthyn i mi farnu am gyfreithlondeb neu anghyfreithlondeb yr hyn a wnaeth efe arnaf fi ar y sabbath. † Hyny yn unig a wn I am y mater, iddo agoryd fy llygaid I, lle yr oeddwn I yn ddall o'm genedigaeth, yr wyf heddyw yn gweled cystal a neb o honoch: ac mae yn rhyfedd genyf fi os gallai dyn pechadurus wneyd y fath beth.

26 * Hwythau a ddywedasant wrtho drachefn, Beth a wnaeth efe i ti? pa fodd yr agorodd efe dy lygaid di?

* Mae yn amlwg fod y cyngor oll wedi dyrysu, nis gallent gael dim yn erbyn gwirionedd y wyrth, ac eto ni fynent er dim ei haddef; am hyny maent yn ail holi y dyn, gan obeithio ei ddychrynu a'i ddyrysu ef, a chael rhywbeth yn ei ail atebiad ef yn groes i'r hyn a ddywedasai o'r blaen.

27 * Yntau a attebodd iddynt, [k] Mi a ddywedais i chwi eisoes, ac ni wrandawsoch: paham yr ydych yn ewyllysio clywed drachefn? † a ydych chwithau yn ewyllysio bod yn ddisgyblion iddo ef?

k adn. 10—15. Luc 22. 67, 68.

* Canfu y dyn eu rhagfarn gyndyn ac afresymol hwynt, a gwelodd eu bod yn bwriadu ei rwydo ef os gallent; am hyny efe a atebodd, Mi a ddywedais i chwi y cwbl, mòr gywir ag y gallaswn I, o'r blaen, ac nid oedd hyny yn eich boddloni, i ba ddyben yr âf I eto dros yr un pethau? † A ydych chwithau, wŷr mawr, o'r diwedd am fyned yn ddysgyblion iddo ef? os ydych, bydd yn bleser genyf adrodd yr hanes hyfryd i chwi can amled ag y mynoch; heb hyny ni bydd o ddim dyben. Tybia rhai fod y dyn yn dywedyd fel hyn gyda dymuniad difrifol iddynt fod yn ddysgyblion i'r Iesu: tybia eraill mai mewn gwawd-iaith yr oedd yn dywedyd, gan arwyddo y gwyddai efe yn burion na ddeuent hwy byth yn ddysgyblion iddo, trwy ddim a allasai efe ddywedyd am dano. Beth bynag oedd ei feddwl, yr oedd yn dra hyf.

28 [l] * Hwythau a'i difenwasant ef, ac a ddywedasant, † Tydi sydd ddisgybl iddo ef; [m] ‡ eithr disgyblion Moses ydym ni.

l adn. 34. pen. 7. 47—52. Es. 51. 7. Mat. 5. 11. a 27. 39. 1 Cor. 4. 12. a 6. 10. 1 Pedr 2. 23. m pen. 5. 45—47. a 7. 19. Act. 6. 11—14. Rhuf. 2. 17.

* Cynhyrfodd geiriau diweddaf y dyn hwynt i nwydau gwylltion iawn, a difenwasant ef yn y modd mwyaf anfoneddigaidd; gan edliw iddo, efallai ei ddallineb, ei dlodi, a'i annwybodaeth, ac yn enwedig ei fod yn ddysgybl i'r Iesu; yr hyn a farnent hwy yn fwy o warth na dim. Ond os y peth olaf oedd y cwbl o'u difenwad, yr oedd yn fwy o anrhydedd nac o ddim arall iddo. † Tydi a thaiogion annwybodus cyffelyb i ti sydd ddysgyblion i'r un dirmygedig, mae yn chwith ac yn ysgorn genym ni feddwl am y fath beth, ac yr wyt tithau yn dra digywilydd yn sôn wrthym ni am y fath beth gwarthus. ‡ Dysgyblion Moses ydym ni; ac wrth ddywedyd hyn yr oeddynt yn gyfrwys, ond yn dra llidiog a chelwyddog, am haeru, bod y fath wrthwynebiad rhwng Moses a Christ, fel nad oedd yn bosibl i'r un dynion fod yn ddysgyblion i bob un o'r ddau.

29 [n] * Nyni a wyddom lefaru o Dduw wrth Moses: [o] † *eithr* hwn, [p] nis gwyddom ni o ba le y mae efe.

n pen. 1. 17. Num. 12. 2—7. a 16. 28. Deut. 34. 10. Salm 103. 7. a 105. 26. a 106. 16. Mal. 4. 4. Act. 7. 35. a 26. 22. Heb. 3. 2—5. o adn. 16, 24. 1 Bren. 22. 27. 2 Bren. 9. 11. Mat. 12. 24. a 26. 61. Luc 23. 2. Act. 22. 22. p pen. 7. 27, 41, 42. a 8. 14. Salm 22. 6. Es. 53. 2, 3.

* Mae eu pleidgarwch a'u hanghysondeb yma yn anesgusodol: credent i Moses gael ei ddanfon gan Dduw ar dystiolaeth ei wyrthiau, y rhai a wnaethai efe ddwy fil o flynyddoedd cyn eu geni hwy; ond ni chredent i'r Iesu er ei fod yn gwneyd gwyrthiau llawn mòr rhyfedd o leiaf â'r eiddo Moses, a hyny bron yn feunyddiol o flaen eu llygaid hwy. † Ychydig o'r blaen, pen. 7. 27, taerent nad Iesu oedd y Messiah, oblegid ebent hwy, *Nyni a adwaenom hwn o ba le y mae, eithr pan ddel Crist nis gwyr neb o ba le y mae.* Ac yma maent yn dadlau yn ei erbyn gan ddywedyd, *Hwn nis gwyddom ni o ba le y mae efe:* felly iawn neu gam, maent yn penderfynu ei wrthod ef; a dywedyd anghysondeb, taeru neu wadu yr un peth, neu unrhyw beth, yn hytrach na'i dderbyn ef. Yr oedd Moses wedi marw, a hwythau yn egluro ei eiriau ef fel y gwelynt hwy fod yn dda; ond yr oedd Iesu yn fyw, yn ceryddu eu rhagrith hwy, ac yn wrthwynebydd cryf i'w parch a'u hawdurdod.

30 * Y dyn a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, [q] Yn hyn yn ddïau y mae yn rhyfedd, na wyddoch chwi o ba le y mae efe, [r] ac efe a agorodd fy llygaid i.

q pen. 3. 10. a 12. 37. Es. 29. 14. Marc 6. 6. r Es. 29. 18, 19. a 35. 5, 6. Mat. 11. 6. Luc 7. 22.

* Atebodd y dyn gyda hyfdra gweddaidd, ac yn addas, gan ddywedyd, Mae yn rhyfedd iawn genyf fod gwŷr mawr o'ch dysgeidiaeth, eich galwad, a'ch manteision chwi, heb wybod dim am ddechreuad ac awdurdod dyn a allodd agoryd fy llygaid I mewn modd mòr wyrthiol: ac mae yn rhyfeddach byth genyf y dywedwch, mai dyn pechadurus yw yr hwn a allai wneyd y fath weithred ddaionus. Mae yn rhyfedd genyf na welech chwi fod y fath ddyn yn dwyn nodau amlwg y Messiah, Es. 35. 5, 6.

31 * Ac ni a wyddom nad yw Duw yn gwrando † pechaduriaid: ‡ ond os yw neb yn addolwr Duw, [t] ac yn gwneuthur ei ewyllys ef, [u] hwnnw y mae yn ei wrando.

s Job 27. 8, 9. a 35. 12. a 42. 8. Salm 18. 41. a 34. 15. a 66. 18—20. Diar. 1. 28, 29. a 21. 13. a 28. 9. Es. 1. 15. a 58. 9. Jer. 11. 11. a 14. 12. Ezec. 8. 18. Mica 3. 4. Zec. 7. 13. t pen. 4. 34. a 7. 17. a 15. 16. Salm 40. 8. a 143. 10. Heb. 10. 7. 1 Ioan 3. 21, 22. u pen. 11. 41, 42. Gen. 18. 23—33. a 19. 29. a 20. 7. 1 Bren. 17. 20—22. a 18. 36—38. 2 Cron. 32. 20, 21. Salm 99. 6. a 106. 23. Jer 15. 1. Iago 5. 15—18.

* Nid yw Duw yn *gwrando gweddïau* pechaduriaid drygionus; pa faint llai y rhydd efe nerth iddynt i *wneyd gwyrthiau* fel hyn? felly oni byddai bod yr Iesu hwn o leiaf yn ddyn da, a chwedi ei anfon gan Dduw, nid allai efe wneyd y fath bethau. † Wrth bechaduriaid yma mae i ni ddeall, 1. Pechaduriaid nodedig, rhyfygus, calon-galed, yn byw o'u gwir-fodd yn eu pechodau: felly yr arwydda y gair *amartôlón.* 2. Nid yw Duw dàn ddim rhwymau cyfammodol i wrando y cyfryw bechaduriaid: nis gallant ofyn dim ganddo ef ar gyfrif unrhyw addewid. Eto, dichon Duw yn mawredd ei drugaredd eu gwrando hwy, fel y gwrandawodd Ahab ac eraill: gall eu gwrando fel ei greaduriaid yn llefain yn eu caledi; ond nid fel ei blant, neu ar gyfrif unrhyw gyfammod. 3. Meddwl neillduol y geiriau yn y fàn hon yw, nad yw Duw yn gyffredin ddim yn arfer anrhydeddu pechaduriaid anfad (o'r fath y taerai y Phariseaid fod Iesu,) trwy roddi nerth iddynt i wneyd gwyrthiau, er cadarnâu rhyw bethau a ddywedont. Trwy ymresymu felly, mae y dyn hwn yn profi nad oedd Iesu y fath bechadur ag y mynent hwy ei fod. Mae efe yn cymmeryd dau beth yn ganiatâol; 1. Nas gall un dyn wneyd gwyrthiau heb dderbyn nerth gan Dduw trwy weddi, fel Elias, 2 Bren. 4. 33. 2. Mai fel dyn y gwnaeth Crist yr hyn a wnaeth. Yr oedd y cyntaf yn wir, ond yr ail yn gyfeiliornus. ‡ Pwy bynag sydd yn ofni Duw, yn ei addoli, ac yn gweithredu cyfiawnder, hwnw mae efe yn

wrando, ac mae y gwrandawiad hwnw yn brawf mai
a duwiol ydyw.

32 x * Ni chlybuwyd erioed agoryd o neb
gaid un a anesid yn ddall.

x Job 20. 4. Es. 64. 4. Luc 1. 70. Dat. 16. 18.

* Ni chlybuwyd erioed, o ddechreuad y byd, i un
ddyg, i Moses ei hunan, nac i neb o'r prophwydi,
pryd llygaid un a anesid yn ddall, fel yr agorodd yr
u hwn fy llygaid I. Ni wnaeth dynion erioed y
yryw beth, beth bynag a wnaeth Duw yn ddigyfrwng.

33 y * Oni bai fod hwn o Dduw, ni allai efe
euthur dim.

y adn. 16. pen. 3. 2. Act. 5. 38, 39.

* Gan hyny, oni byddai fod Iesu yn ddyn da a sanct-
d, tu hwnt i bawb a fu o'i flaen erioed; a chwedi cael
anfon fel prophwyd gan Dduw, nis gallai efe wneu-
ur y cyfryw bethau.

34 * Hwy a attebasant ac a ddywedasant
tho, z † Mewn pechodau y ganwyd ti oll;
ac a wyt ti yn ein dysgu ni? b ‖ A hwy
bwriasant ef allan.

z adn. 2. pen. 8. 41. Job 14. 4. a 15. 14—16. a 25. 4. Salm 51.
Gal. 2. 15. Eph. 2. 3. a adn. 40. pen. 7. 48, 49. Gen. 19. 9.
2. 14. 2 Cron. 25. 16. Diar. 9. 7, 8. a 26. 12. a 29. 1. Es. 65. 5.
c 11. 45. a 14. 11. a 18. 10—14, 17. 1 Pedr 5. 5. b adn. 22.
n. 6. 37. Diar. 22. 10. Es. 66. 5. Luc 6. 22. 3 Ioan 9, 10. Dat.
17.

* Gwedi gweled o'r Phariseaid nas gallent trwy un-
yw gyfrwysdra, gael gan y dyn wadu y wyrth, gan nas
llent wrthwynebu ei resymau cryfion ef o blaid Iesu,
han nas gallai eu balchder oddef i'r fath un gwael a
rmygedig âg ef, ryfygu dadlau fel hyn yn eu herbyn
wy; aethant i nwydau drwg drachefn, a difrïasant ef
warthus iawn. † Gan eu bod hwy yn annwybodus
athrawiaeth *ysgrythyrol*, fod *pob dyn* yn cael ei eni
ewn pechod, maent yn edliw ei ddallineb corphorol
r groth iddo, ac yn ystyried hyny yn arwydd iddo
dyfod i'r byd dàn ddigofaint Duw, a'i fod o'r bru yn
wer mwy llygredig a phechadurus na dynion eraill.
wel hefyd y sylw ar adn. 2, o'r bennod hon: tybient
ai enaid aflan a ffiaidd oedd ei enaid ef, wedi cyf-
wni pechodau atgas ac ysgeler mewn corph arall o'r
aen, yn ol athrawiaeth ynfyd *Pythayoras*. ‡ Tydi,
dd yn bechadur ffiaidd o groth dy fam; tydi, yr hwn
yt yn wrthddrych nodedig o felltith ac anfoddlonrwydd
uw o'r bru; tydi, yr hwn wyt ynfydyn dall, disynwyr,
anllythyrenog; ai *tydi* sydd yn myned i'n dysgu *ni*
n nodau gwir a gau brophwydi? pwy sydd o Dduw a
hwy nid yw? Yn sicr cymhwysach i ni dy ddysgu di,
nid tydi i'n dysgu ni. ‖ Y canlyniad a fu, iddynt ei
rw ef allan. Yr oedd dau fath o esgymmundod gan
Iuddewon: 1. Y lleiaf, a elwid *Niddui;* yr hwn a
eilldual y dyn o gynnulleidfa Israel bedwar cufydd, am
leng niwrnod ar hugain. Y llall, a elwid *Cherem,*
edd y mwyaf; yr hwn a waharddai bob dyfodiad i'r
ynagog, ac oddiwrth bob breintiau eglwysig a gwladol,
n eglwys a gwladwriaeth Israel: a thybir wrth y geir-
au Groeg, *(exebalon auton exo,)* mai yr esgymmundod
nwyaf a gafodd y dyn hwn. Gellid meddwl hyny
efyd, wrth lidiowgrwydd y Phariseaid tuag atto.

35 * Clybu yr Iesu ddarfod iddynt ei fwrw
f allan: c † a phan ei cafodd, efe a ddywedodd
rtho, d A wyt ti yn credu ym e Mab Duw?

c pen. 5. 14. Salm 27. 10. Rhuf. 10. 20. d pen. 1. 49, 50. a
15—18, 36. a 6. 69. a 11. 27. a 20. 28, 31. Act. 8. 37. a 9. 20.
Ioan 4. 15. a 5. 5, 10—13, 20. e pen. 1. 18, 34. Salm 2. 7, 12.
Mat. 16. 16. Rhuf. 1. 4. Heb. 1. 2—9.

* Clywodd yr Iesu iddynt fwrw y dyn tlawd hwn
allan o'r synagog, heb un cysgod o achos, ac o'i blegid
ef; am hyny daeth i chwilio am dano yn ddioed: yr
nyn sydd yn dangos pa mòr barod yw efe i gysuro a
chalonogi y rhai a safant i fynu yn ei blaid a'i achos ef.
† Pan ei cafodd, gofynodd iddo, A wyt ti yn credu yn
Mab Duw? A wyt ti yn ewyllysgar mewn gwirionedd,
ac o ddifrif, i dderbyn y Messiah, ac Iachawdwr y byd,
yr hwn sydd raid iddo fod, nid yn unig yn Fab y dyn,
ond hefyd yn Fab Duw? A wyt ti yn barod i'w dderbyn
ef, ac i dy roddi dy hunan i fynu iddo ef, i gredu
ynddo, ac i ufuddâu iddo?

36 * Yntau a attebodd ac a ddywedodd,
f Pwy yw *efe, O* Arglwydd, fel y credwyf yn-
ddo?

f pen. 1. 38. Diar. 30. 3, 4. Can. 5. 9. Mat. 11. 3.

* Yr oedd yn llawen gan y dyn glywed am y Messiah,
ac fel pe dywedasai, Yr wyf fi yn credu yn sicr y daw efe
yn fuan, ac os yw efe wedi dyfod eisoes, attolwg i ti,
dywed i mi pwy yw efe, a pha le y gallaf fi gael hyd
iddo, fel y gallwyf gredu ynddo, a bod yn un o'i ddysg-
yblion ef. Yn yr adnod o'r blaen, yr oedd gofyniad
Crist yn darpar calon y dyn tlawd hwn i gredu ynddo;
nid oedd dim yn eisiau yn awr ond iawn ddatguddiad
o'r Messiah iddo: ac yn yr adnod nesaf mae yn cael
hyny.

37 * A'r Iesu a ddywedodd wrtho, g Ti a'i
gwelaist ef; a'r hwn sydd yn ymddiddan â
thi, hwnnw ydyw efe.

g pen. 4. 26. a 7. 17. a 14. 21—23. Salm 25. 8, 9, 14. Mat. 11.
25. a 13. 11, 12. Act. 10. 31—33.

* Yna, eglurhâodd Crist ei hun iddo, mewn modd nad
yw yn gwneyd i'r byd, ac a ddywedodd, Mae efe yn nes
atat ti nag yr wyt yn meddwl; cefaist brawf eisoes o'i
fawr allu a'i ddaioni ef, yn agoryd llygaid dy gorph a
llygaid dy feddwl hefyd: yr hwn wyt yn ei weled yn awr,
a'r hwn sydd yn ymddiddan â thi, hwnw yw efe. Cerdd-
odd goleuni a gallu dwyfol yn ddïammau gyda'r geiriau
uchod, a oleuodd feddwl y dyn am Grist, ac e'i galluog-
odd i gredu yn gadwedigol ynddo. Ffydd sydd *trwy
glywed,* ac nid trwy wyrthiau: cadarnâu ffydd y mae
gwyrthiau,

38 * Yntau a ddywedodd, h Yr wyf fi yn
credu, *O* Arglwydd. † Ac efe a'i haddolodd ef.

h pen. 20. 28. Salm 2. 12. a 45. 11. Mat. 14. 33. a 28. 9, 17.
Luc 24. 52. Dat. 5. 9—14.

* Dïammau iddo ddywedyd y gwir, efe a gredodd a'i
holl galon yn y fàn: credodd fod Iesu yn wir Fab Duw,
yn unig Waredwr dynion; a chyflwynodd ei hunan iddo,
i gael ei arwain a'i lywodraethu ganddo. † Ac fel prawf,
a thystiolaeth o wirionedd ei ffydd a'i broffes, efe a'i
haddolodd ef, fel ei Arglwydd a'i Waredwr. Mae yn
ddïammau bod yr addoliad hwn, a dderbyniodd yr Iesu
ganddo, o leiaf yn gystal a'r addoliad a wrthododd yr
apostolion a'r angelion. Gwel Act. 10. 24—26. Dat.
19. 9, 10; a 22. 8, 9.

39 ¶ * A'r Iesu a ddywedodd, i I farn y
daethum i'r byd hwn: k † fel y gwelai y rhai
nid ydynt yn gweled, l ‡ ac yr elai y rhai sydd
yn gweled yn ddeillion.

i pen. 3. 17. a 5. 22—27. a 8. 15, 16. a 12. 47, 48. Jer. 1. 9, 10.
Luc 2. 34. a 13. 30. 2 Cor. 2. 16. k adn. 25, 36—38. a 8. 12. a
12. 46. Mat. 11. 5. Luc 1. 79. a 4. 18. a 7. 21. Act. 26. 18. 2 Cor.
4. 4—6. Eph. 5. 14. l pen. 12. 40, 41. Es. 6. 9, 10. a 29. 10. a
42. 18—20. a 44. 18. Mat. 6. 23. a 13. 13—15. Luc 11. 34, 35. Rhuf.
11. 7—10. 2 Thes. 2. 10—12. 1 Ioan 2. 11.

* Mae yn debyg mai dirgelaidd oedd yr ymddiddan
blaenorol rhwng Iesu â'r dyn, ond yn awr mae efe yn
llefaru yn fwy cyhoeddus, i glyw y Phariseaid, adn. 40,
ac yn dywedyd iddo ddyfod i'r byd i farn; hyny yw, i
sefydlu rheol barn, i gyfnewid agwedd yr eglwys, i brofi
ysbrydoedd dynion, a thrwy ras gwahaniaethol i neill
duo y gwerthfawr oddiwrth y gwael. † Yn ngweinydd-
iad ei swydd a'i lywodraeth, efe a ddaeth, nid i agoryd
llygaid corphorol dynion, ond hefyd i oleuo llygaid
meddyliau y rhai oedd yn hollawl dywyll am ffordd
iachawdwriaeth, ac yn chwennych ei gwybod. ‡ Ar y
llaw arall, efe a ddaeth, i brofi y rhai hyny yn ddeillion,
ac i'w cauad i fynu yn eu dallineb a'u cyndynrwydd, y
rhai a gymmerent arnynt eu bod yn ddoethion eisoes,
ac a gauent eu llygaid o gyndynrwydd a rhagfarn, yn
erbyn goleuni ei eiriau ef. Fel hyn yr oedd i fod gyda
golwg ar hersonau neillduol, Phariseaid ac eraill, ac fel

hyn yr oedd i fod gyda golwg ar genedloedd cyfain, o Iuddewon a phaganiaid.

40 * A *rhai* o'r Phariseaid a oedd gyd âg ef, a glywsant y pethau hyn, ac a ddywedasant wrtho, [m] † Ydym ninnau hefyd yn ddeillion?

m adn. 34. pen. 7. 47—52. Mat. 15. 12—14. a 23. 16, 17, 19, 24, 26. Luc 11. 39, 40, 45, 46. Rhuf. 2. 19—22.

* Byddai rhai o'r Phariseaid "gyda" Christ agos yn mhob màn, i edrych a allent hwy ddàl rhywbeth arno, i'w gyhuddo ef, a chan gynted ag y gwelsant ef yn ymddiddan ond â'r dyn ddawd esgymmunedig hwn, daethant ato yn y fàn. † Wrth ei glywed yn sôn am roddi gallu i'r deillion i weled, a gwneuthur y rhai oedd yn gweled yn ddeillion, tybiasant yn union, mai yn eu herbyn hwy yr oedd efe yn cyfeirio ei eiriau, a dywedasant yn ffròm a thramgwyddus, Beth, a wyt ti yn rhyfygu dywedyd mai deillion ydym ni, am na chredwn i ti, ac mai un wedi ei oleuo ydyw hwna, am ei fod mòr ynfyd a dy wrando di? A wyt ti yn tybied ein bod ni, y rhai ydym dywysogion i'r deillion, a'n gwefusau yn cadw gwybodaeth, mòr annwybodus a disynwyr â'r bobl gyffredin, y rhai ni wyddent y gyfraith? Mae yn chwith genym.

41 Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, [n] * Pe deillion fyddech, † ni byddai arnoch bechod: ‡ eithr yn awr meddwch chwi, Yr ydym ni yn gweled; ‖ am hynny y mae eich pechod yn aros.

n pen. 15. 22—24. Diar. 26. 12. Es. 5. 20, 21. Jer. 2. 35. Luc 12. 47. Heb. 10. 26, 27. 1 Ioan 1. 8—10.

* Pe deillion, neu annwybodus, a fyddech chwi mewn gwirionedd, trwy anffawd, neu ddiffyg galluoedd neu fanteision gwybodaeth; † ni byddai y pechod hwn o fy ngwrthod I arnoch: neu, ni byddai arnoch bechod mewn cymhariaeth i'r peth sydd yn awr. ‡ Ond yn awr mae genych chwi alluoedd a moddion i weled, chwi a ddylech weled, yr ydych yn meddwl eich bod yn gweled, ac yn meddwl mai chwi yn unig sydd yn gweled, yn well na phawb eraill; ac eto ni welwch, ac nis mynwch weled, mai myfi yw y Messiah. ‖ Am hyny mae eich pechod yn fawr, yn anesgusodol, mae yn aros yn ei euogrwydd arnoch, heb ddim gobaith ei dynu ymaith drwy faddeuant, am na chredwch ynof fi yr hwn yn unig sydd yn tynu ymaith bechodau.

PEN. X.

Crist yw y drws, a'r bugail da.

YN wir, [a] yn wir, meddaf i chwi, [b] * Yr hwn nid yw yn myned i mewn trwy y drws i gorlan y defaid, eithr sydd yn dringo ffordd arall, [c] lleidr ac yspeiliwr yw.

a Gwel ar pen. 3. 3. b adn. 9. Jer. 14. 15. a 23. 16, 17, 21, 32. a 28. 15—17. a 29. 31, 32. Ezec. 13. 2—6. Mat. 7. 15. a 23. 16, &c. Eph. 4. 8—12. Heb. 5. 4. 1 Pedr 1. 10, 11. 2 Pedr 2. 1. 1 Ioan 4. 1. c adn. 8, 10. Es. 56. 10—12. Ezec. 34. 2—5. Zec. 11. 4, 5, 16, 17. Rhuf. 16. 18. 2 Cor. 11. 13—15. Tit. 1. 11. 2 Pedr 2. 3, 4—19.

Gwedi i'n Hiachawdwr bendigedig argyhoeddi y Phariseaid fel tywysogion deillion yn niwedd y bennod o'r blaen, mae efe yma yn rhybuddio y bobl, mewn dull dammegol, i wylied rhag pob cyfryw gau-athrawon beilchion a thrahaus. Yn y ddammeg hon mae efe yn dangos dau beth: 1. Mai efe ei hun yw y gwir Fugail; ac yn 2. Mai lladron ac yspeilwyr oedd Phariseaid ac athrawon y dyddiau hyny. * Mae yn debyg mai math o dai, a drysau iddynt, oedd corlanau y defaid yn y gwledydd hyny; âi y bugail i mewn trwy y drws, ond dringai y lladron i mewn ryw ffordd arall a allent. Yr eglwys Iuddewig oedd y gorlan, y genedl Iuddewig oedd y defaid; Crist, y Messiah, oedd y drws, (a'r Bugail hefyd yn wir) yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid oedd y lladron a'r yspeilwyr. Gwadent hwy awdurdod *Crist* fel athraw, am nad oedd wedi ei gael ganddynt *hwy*; ond yma mae efe yn dywedyd mai dringo yn anghyfreithlawn a wnaethent *hwy* i'w swyddau yn yr eglwys, am nad oeddynt wedi eu danfon ganddo *ef*. Mynent hwy mai hwy oedd dysgawdwyr awdurdodedig yr eglwys; er ei bod yn ammheüus iawn pa un a neillduwyd hwy i'r swydd hòno erioed, trwy unrhyw osodiad dwyfol. Dïau nad oeddynt well na lladron ac yspeilwyr yn y swydd.

2 [d] * Ond yr hwn sydd yn myned i mewn trwy y drws, [e] bugail y defaid ydyw.

d adn. 7, 9. Act. 20. 28. 1 Tim. 3. 2—7. a 4. 14. Tit. 1. 5. Dat. 1. 20. a 2. 1. e adn. 11, 12, 14. Salm 23. 1. a 80. 1. Preg. 12. 11. Es. 40. 11. a 63. 11. Ezec. 34. 23. Mica 5. 5. Zec. 11. 3, 5, 8. a 13. 7. Heb. 13. 20. 1 Pedr 2. 25. a 5. 4.

* Fel mae y gwir fugail yn myned i mewn trwy y drws i gorlan y defaid; felly y mae yn eglwys Dduw: yr hwn nid yw yn cymmeryd yr anrhydedd iddo ei hun o lywodraethu yr eglwys, ond sydd yn cael ei alw gan Dduw, megys Aaron, efe yw bugail y defaid. Fel hyn yn hollawl, yr oedd yr apostol yn profi gwir offeiriadaeth Crist; yr hwn nis gogoneddodd ei hun i fod yn Arch-offeiriad, ond a wnaed felly gan Dduw, yr hwn a ddywedodd wrtho, Offeiriad wyt ti yn dragywydd, yn ol urdd Melchisedec. Gwel Heb. 5. 4, 5, 6. Mae y geiriau yn profi awdurdod Crist, yn gyntaf, fel Bugail mawr ei eglwys: maent hefyd yn dangos mai peth o Dduw, ac nid o ddynion cnawdol, yw anfon gweinidogion i borthi a llywodraethu eglwys Dduw; ac yn dangos yn olaf, mai trwy ffydd yn Nghrist, y mae i bob dyn fyned i mewn i'r eglwys, fel gwir aelod ysbrydol o hòni.

3 * I hwn [f] y mae y drysor yn agoryd, [g] † ac y mae y defaid yn gwrando ar ei lais ef: [h] ‡ ac y mae efe yn galw ei ddefaid ei hun erbyn eu henw, [i] ac yn eu harwain hwy allan.

f Es. 53. 10—12. 1 Cor. 16. 9. Col. 4. 3. 1 Pedr 1. 12. Dat. 3. 7, 8. g adn. 4, 16, 26, 27. pen. 6. 37, 45. Can. 8. 13. h adn. 14, 27. Ex. 33. 17. Phil. 4. 3. 2 Tim. 2. 19. Dat. 20. 15. i Salm 23. 2, 3. a 78. 52, 53. a 80. 1. Es. 40. 11. a 42. 16. a 49. 9, 10. Jer. 31. 8, 9. a 50. 4—6. Ezec. 34. 11—16. Dat. 7. 17.

* Yn y gwledydd hyny, lle yr oedd llawer o grëaduriaid ysglyfaethus, (heblaw lladron ac yspeilwyr) byddai dyn yn arfer gwylied y gorlan, yr hwn a elwir yma y "drysor:" ei waith ef oedd agor y drws i'r bugail pan ddelai, ac i'r bugail yn unig yr agorai. Yn ysbrydol, wrth y drysor mae i ni ddeall, Duw, yr hwn sydd trwy ei ragluniaeth a'i Ysbryd yn rhoddi drws agored i'w holl weision anfonedig i'r eglwys, i waith y weinidogaeth yn yr eglwys, ac i galonau dynion trwy y weinidogaeth. † Mae yn ddiammau bod y defaid y pryd hwnw, ac eto yn adnabod llais eu bugail, rhagor llais dieithriaid, lladron ac yspeilwyr: ‡ a thybir fod gan y bugeiliaid enwau ar eu defaid, fel y mae genym ninnau ar anifeiliaid direswm eraill. Mae y geiriau yn dangos yr adnabyddiaeth fanol sydd gan Grist o'i holl bobl, ac a ddylai fod hefyd gan yr is-fugeiliaid: a bod holl bobl Dduw yn adnabod llais Crist yn y weinidogaeth, a llais y gwir athrawon o'i anfoniad ef, rhagor lleisiau y gau athrawon, pa mòr ddêngar a hudoliaethus bynag a fyddont.

4 * Ac wedi iddo yrru allan ei ddefaid ei hun, [k] † y mae efe yn myned o'u blaen hwy: a'r defaid sydd yn ei ganlyn ef, [l] oblegid y maent yn adnabod ei lais ef.

k pen. 12. 26. a 13. 15. a 14. 2, 3. Deut. 1. 30. Mica 2. 12, 13. Mat. 16. 24. 1 Cor. 11. 1. Eph. 5. 1, 2. Phil. 2. 5—11. Heb. 6. 20. a 12. 2, 3. 1 Pedr 2. 21. a 4. 1, 2. a 5. 3. l adn. 8, 16. pen. 3. 29. a 18. 37. Can. 2. 8. a 5. 2.

* Wrth y geiriau hyn, "ei ddefaid ei hun," yn yr adnod hon a'r adnod o'r blaen, gellid meddwl fod dëadellau amryw fugeiliaid yn cael eu cadw yn yr un gorlan yn y gwledydd hyny. Mae gan Grist "ei ddefaid ei hun" yn gymmysg â dynion y byd hwn: ac hefyd "ei ddefaid ei hun" yn yr eglwys yn gymmysg â rhagrithwyr, sydd yn yr un eglwys. † Yn ein gwlad ni mae y bugeiliaid yn gyffredin yn gìru y praidd o'u blaen; ond yn y gwledydd hyny fel arall yr oedd, byddent yn myned o flaen y praidd yn aml i'r porfêydd. Felly y mae

ist, y Pen-bugail, wedi myned o flaen ei bobl yn mhob
lth: ac felly y dylai gweinidogion y gair, mewn athraw-
eth, ymarweddiad, a phob esamplau daionus, fel y
nlyno y bobl hwy yn hyderus ac yn ddiberygl.

5 m * Ond y dïeithr nis canlynant, eithr
ffoant oddi wrtho: oblegid nad adwaenant lais
eithriaid.

m 1 Bren. 22. 7. Diar. 19. 27. Marc 4. 24. Luc 8. 18. Eph. 4.
—15. Col. 2. 6—10. 2 Tim. 3. 5—7. a 4. 3, 4. 1 Pedr 2. 1—3.
oan 2. 19—21, 27. a 4. 5, 6.

* Felly yn ddïau yr oedd y defaid yn y gwledydd
ny: ni chanlynent ddïeithriaid, ond ffôent oddi
rthynt, am mai llais dïeithr oedd ganddynt, annhebyg
aiś y bugail. Felly gwir ddysgyblion Crist, "At bwy
awn ni?" ebai Pedr, "genyt ti mae geiriau y bywyd
agywyddol." Felly mae pobl Dduw eto: gwyddant
gor rhwng gwir athrawiaeth â gau athrawiaeth; rhwng
wir athrawon â gau athrawon: wrth eu lleisiau ac
rth eu ffrwythau yr adnabyddant hwynt. Ac er y
gwydd i rai o honynt gael eu hudo weithiau, ac am
o; eto gofala Duw yn rasol am danynt, i'w dychwelyd
u hadferu. "Yr Arglwydd a edwyn y rhai sydd eiddo
:" "ac ni chyfrgollant hwy ddim byth."

6 * Y ddammeg hon a ddywedodd yr Iesu
rthynt: n † ond hwy ni wybuant pa bethau
doedd y rhai yr oedd efe yn eu llefaru wrth-
nt.

n pen. 6. 52, 60. a 7. 36. a 8. 27, 43. Salm 82. 5. a 106. 7.
iar. 28. 5. Es. 6. 9, 10. a 56. 11. Dan. 12. 10. Mat. 13. 13, 14, 51.
Cor. 2. 14. 1 Ioan 5. 20.

* Llefarodd yr Iesu y ddammeg hon wrth y Pharise-
id, i'r dyben o ddangos ei awdurdod ei hun fel Bugail
c athraw, ac i ddadymchwelyd eu hawdurdod hwy, yn
ghyd a phob athrawon llygredig eraill. † Ond ni
deallodd y Phariseaid ei amcan ef yn y ddammeg, gan
u rhagfarn a'u meddyliau mawr am danynt eu hunain.
c efallai na ddeallodd ei ddysgyblion ychwaith; rhai
ach yn Nghrist oeddynt y pryd hwnw: ond y mae yn
i hegluro yn y blaen.

7 Am hynny yr Iesu a ddywedodd wrthynt
rachefn, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi,
* Myfi yw drws p y defaid.

o adn. 1, 9. pen. 14. 6. Eph. 2. 18. Heb. 10. 19—22. p Salm
9. 13. a 95. 7. a 100. 3. Es. 53. 6. Ezec. 34. 31. Luc 15. 4—6.

* Crist yw drws iachawdwriaeth a bywyd tragywyddol
w holl saint, fel mae yn dywedyd "Myfi yw y ffordd"
newn màn arall. (Ioan 14. 6.) Efe yw drws y weini-
dogaeth: nid aeth neb i'r weinidogaeth erioed yn iawn
eb gael eu donio a'u danfon ganddo ef. Efe yw drws
awb i'r eglwys ar y ddaear; ac efe yw y drws i'r eglwys
rfoleddus yn y nef. Nid oedd y Phariseaid yn wir
elodau, chwaithach yn wir athrawon yr eglwys, am nad
eddynt wedi myned i mewn trwyddo ef.

8 * Cynnifer oll ag a q ddaethant o'm blaen
, † lladron ac yspeilwyr ynt: r ‡ eithr ni
randawodd y defaid arnynt.

q Gwel ar adn. 1.—Es. 56. 10—12. Ezec. 22. 25—28. a 34.
—4. Zeph. 3. 3, 4. Zec. 11. 4—9, 16, 17. Act. 5. 36, 37. r adn.
, 27.

* Nid yw hyn yn cael ei ddywedyd am y prophwydi,
ac Ioan Fedyddiwr, a fu o flaen Crist o ran amser; ond
am bawb a fu o'i flaen ef yn hòni mai hwy oedd y
Messiah, a phawb ag oedd fel yr ysgrifenyddion a'r
Phariseaid yn magu rhagfarn yn meddyliau dynion yn
i erbyn ef, ac yn dysgu ffordd arall o iachawdwriaeth
yn amgen na thrwyddo ef. † Traws-feddiannu y swydd
o ddysgawdwyr yr oeddynt, heb un hawl iddi: yspeilio
Duw o'i ogoniant, ac yspeilio eneidiau dynion o dded-
wyddwch. ‡ Ond ni thwyllwyd etholedigion a galwed-
igion Duw ganddynt, i'w tynu i golledigaeth drwy
gyfeiliorni y rhai drygionus hyn, ac ni hudwyd hwy i'w
canlyn. Tybir mai at Judas y Galilead, a Theudas, a'u
cyffelyb y cyfeiriai Crist yma.

9 * Myfi yw s y drws: † os â neb i mewn
trwof fi, efe a fydd cadwedig; t ‡ ac efe a â i
mewn ac allan, ac a gaiff borfa.

s adn. 1, 7. pen. 14. 6. Rhuf. 5. 1, 2. Eph. 2. 18. Heb. 10.
19—22. t Salm 23. 1—6. a 80. 1—3. a 95. 7. a 100. 3, 4. Es. 40.
11. a 49. 9, 10. Ezec. 34. 12—16. Zec. 10. 12.

* Am y drws, gwel ar adn. 7. † Os â neb i mewn i'r
eglwys, at grefydd, i gynnulleidfa'r saint, i gyflwr o
gymmeradwyaeth gyda Duw, a chymdeithas âg ef, trwy
wir ffydd yn Nghrist; efe a gedwir yn sicr rhag gallu
dinystriol ei holl elynion ysbrydol, a waredir rhag y
digofaint sydd ar ddyfod, ac a gaiff fywyd o dragywyddol
ddedwyddwch. ‡ Fel y defaid, efe a â i mewn i'r gorlan
i orphwys y nos yn ddiogel, ac a â allan i borfau y
dydd yn ddigonol. Efe a â i, ac o, foddion gras, ac a
gaiff fwynâu rhyddid sanctaidd ynddynt, ac a gaiff gyn-
naliaeth, ymgeledd, ac adnewyddiad ysbrydol i'w enaid
drwyddynt. Mae "porfa" yma yn arwyddo pob peth da
a ddichon yr enaid chwennych, neu fod mewn angen o
hóno.

10 u * Nid yw lleidr yn dyfod ond i lad-
ratta, ac i ladd, ac i ddistrywio: x † myfi a
ddaethum fel y caent fywyd, ‡ ac y caent *ef*
y yn helaethach.

u adn. 1. pen. 12. 6. Es. 56. 11. Ezec. 34. 2—4. Hos. 7. 1.
Mat. 21. 13. a 23. 14. Marc 11. 17. Rhuf. 2. 21. 2 Pedr 2. 1—3.
x pen. 3. 17. a 6. 33, 51. a 12. 47. Mat. 18. 11. a 20. 28. Luc 19.
10. 1 Tim. 1. 15. y Rhuf. 5. 15—21. Heb. 6. 17. a 7. 25. 2 Pedr
1. 11.

* Dyben y gau athrawon a grybwyllwyd o'r blaen,
oedd dyfod i'r eglwys i'w cyfoethogi a'u dyrchafu eu
hunain; neu borthi eu balchder a'u huchelgais, trwy
arglwyddiaethu ar y bobl, lledrata eu calonau oddiwrth
y gwir Fessiah; neu eu herlid a'u rhoddi i farwolaeth
os glynu wrth Grist a wnaent. † Dylem ddàl sylw ar
newidiad y gymhariaeth yma: yn yr adnod o'r blaen yr
oedd Crist yn ddrws y defaid, yma mae yn Fugail y
defaid. Trwyddo ef fel drws mae myned i'r gorlan,
ganddo ef fel Bugail y mae cael porthiant a bywyd. Yn
ei farwolaeth a'i adgyfodiad ef y mae bywyd; yn ei air
a'i efengyl ef yr eglurwyd bywyd; a thrwy ei Ysbryd ef
y mae pechadur yn cael bywyd. ‡ Ei gael yn rhad a
helaeth; ei gael ar well sail nac yn yr Adda cyntaf; yn
helaethach o ran moddion a manteision na thàn yr hen
oruchwyliaeth; ei gael yn helaethach o hyd fel yr elo y
credadyn yn mlaen; a'i gael mewn perffaith gyflawnder
byth yn y nef.

11 * Myfi yw z y bugail da. † Y bugail
da a sydd yn rhoddi ei einioes dros y defaid.

z adn. 14. Salm 23. 1. a 80. 1. Es. 40. 11. Ezec. 34. 12, 23. a
37. 24. Mica 5. 4. Zec. 13. 7. Heb. 13. 20. 1 Pedr 2. 25. a 5. 4.
a Gen. 31. 39, 40. 1 Sam. 17. 34, 35. 2 Sam. 24. 17. Es. 53. 6.
Eph. 5. 2. Tit. 2. 14. 1 Pedr 2. 24.

* Sef y Bugail y prophwydwyd am dano yr yr Hen
Destament, (Es. 40. 10, 11. Ezec. 34. 23. Zech. 13. 7:)
neu mewn geiriau eraill, y Messiah. Bugail da mewn
cyferbyniad i'r rhith fugeiliaid, y dysgawdwyr Iuddewig,
a'r gau athrawon: Bugail da mewn cymhariaeth i'r holl
wir fugeiliaid, y rhai ydynt dda yn ol eu graddau, ond
nid oes neb mòr dda ag ef: a Bugail da yn ystyr eithaf
y gair, Duw da yw y Bugail da hwn. † Nid yn unig i
ddyoddef caledi a pheryglon yn achos y praidd, fel
Jacob, a Dafydd; ond hefyd i roddi ei einioes drostynt;
yr hyn sydd yn ateb i'r brophwydoliaeth am y Messiah
yn Es. 53. 10, "Pan osodo efe ei enaid yn aberth dros
bechod." Mae y geiriau yn dangos fod gan Grist fedd-
iant ar ei einioes ei hun, fel adn. 18, ac ei fod yn ei
rhoddi yn aberth dros bechodau ei bobl, yn eu deddfle
hwynt, ac yn ol ewyllys y Tad.

12 b * Eithr y gwas cyflog, † a'r hwn nid
yw fugail, ‡ yr hwn nid eiddo y defaid,
‖ sydd yn gweled c y blaidd yn dyfod, § ac yn
gadael y defaid, ac yn ffoi: a'r blaidd sydd yn
eu hysglyfio hwy, ac yn tarfu y defaid.

b adn. 13. Es. 56. 10—12. Zec. 11. 16, 17. 1 Tim. 3. 3, 8.
2 Tim. 4. 10. Tit. 1. 7. 1 Pedr 5. 2. 2 Pedr 2. 3. c Mat. 7. 15.
a 10. 16. Act. 20. 29.

* Y Phariseaid a'r ysgrifenyddion, yn yr ystyr flaenaf, sydd i ni ddeall wrth y gwas cyflog, ac wedi hyny pawb, dàn enw gweinidogion yr efengyl, ag sydd yn ymwthio i'r weinidogaeth er mwyn yr elw a'r gyflog, ac nid er mwyn y gwaith a'r defaid. Nid gweision cyflog y dylid ystyried y rhai a anfonodd Duw i'r gwaith, y rhai sydd yn ffyddlawn yn eu gwaith, ac y rhai yr ordeiniodd Duw iddynt fyw wrth yr efengyl. † Yr hwn nid yw fugail ffyddlawn, ond bugail ynfyd, eilun bugail: bugail mewn enw yn unig, er mwyn y gyflog: gwae y cyfryw fugeiliaid! ‡ "Nid eiddo y praidd:" nid oes ganddo gariad at y bobl, ac am hyny nid oes arno ofal am eu heneidiau na'u lles ysbrydol. || Wrth y blaidd mae i ni ddeall, cyfeiliornwyr, neu efallai erlidwyr creulawn, y rhai sydd fel bleiddiau yn ffyrnig yn rhwygo ac yn dyfetha dynion duwiol. § Yn hytrach na pheryglu ei fywyd, ei barch, neu ei elw bydol, mae y bugail anffyddlawn yn ffoi, ac yn gadael y defaid i ymdaro drostynt eu hunain, ac felly cânt eu hysglyfio.

13 * Y mae y gwas cyflog yn ffoi, oblegid mai gwas cyflog yw, [d] ac nid oes ofal arno am y defaid.

d pen. 12. 6. Act. 18. 17. Phil. 2. 20.

* Yr achos o ymddygiad uchod y gwas cyflog yw, mai gwas cyflog yn unig ydyw, nid perchen y praidd: er mwyn y gyflog y cymmerodd efe y swydd, am hyny nid oes arno ef ddim gofal am les ysbrydol a thragywyddol y rhai oedd mewn enw dàn ei ofal. Mae llawer o ragor rhwng gofal perchen y defaid â gofal y gwas cyflog: felly hefyd rhwng gweinidogion ffyddlawn, sydd yn caru eneidiau dynion, â'r rhai rhagrithiol hyny sydd yn ymwthio i'r swydd er mwyn ei helw yn unig.

14 * Myfi yw [e] y bugail da; [f] † ac a adwaen yr eiddof fi, [g] ‡ ac a'm hadweinir gan yr eiddo fi.

e Gwel ar adn. 11. f adn. 27. Salm 1. 6. 2 Tim. 2. 19. Dat. 2. 2, 9, 13, 19. a 3. 1, 8, 15. g pen. 17. 3, 8. Es. 53. 11. 2 Cor. 4. 6. Eph. 1. 17. a 3. 19. Phil. 3. 8. 2 Tim. 1. 12. 1 Ioan 5. 20.

* Am y "bugail da," gwel ar adn. 11. † Mae ei holl bobl yn eiddo Crist trwy roddiad y Tad, trwy bryniad o honynt ar y groes, a thrwy gydsyniad ac ymroddiad gwirfoddol iddo yn eu galwad effeithiol trwy yr efengyl. Mae gan Iesu adnabyddiaeth er tragywyddoldeb o honynt oll, ac yn ol yr adnabyddiaeth hòno mae yn eu galw ac yn eu neilluduo iddo ei hun mewn amser. Mae adnabyddiaeth hefyd yn yr ysgrythyr yn arwyddo cymmeradwyaeth neu anghymmeradwyaeth. Exod. 33. 12; Salm 1. 6; a 101. 4; Matth. 7. 23. Heblaw adnabod ei bobl yn yr ystyriaethau uchod, mae Iesu hefyd yn gwybod am holl beryglon, cystuddiau, profedigaethau, gwendidau, anghenion, a gelynion ei bobl; ac yn eu cydnabod a'u cynnorthwyo yn mhob amgylchiad cyfyng. Da iawn i Sïon, tŵr y praidd, fod ganddi y fath Fugail da. ‡ Ac hefyd, maent hwythau yn ei adnabod ef trwy ffydd a phrofiad; maent wedi cael y fath ddatguddiad ysbrydol o'i fawredd, ei berffeithiau a'i swyddau, fel y maent yn ymddiried ynddo, yn ei garu, ac yn ymostwng o'u calonau iddo.

15 [h] * Fel yr edwyn y Tad fyfi, † felly yr adwaen innau y Tad: [i] ‡ ac yr ydwyf yn rhoddi fy einioes dros y defaid.

h pen. 1. 18. a 6. 46. a 8. 55. a 17. 25. Mat. 11. 27. Luc 10. 21, 22. Dat. 5. 2—9. i adn. 11, 17. Es. 53. 5, 6, 8, 10. Dan. 9. 26. Zec. 13. 7. Mat. 20. 28. Gal. 1. 4. a 3. 13. Eph. 5. 2. 1 Tim. 2. 5, 6. Tit. 2. 14. 1 Pedr 2. 24. a 3. 18. 1 Ioan 2. 2. Dat. 5. 9.

* Yr oedd gan y Tad adnabyddiaeth berffaith o'r Mab, cariad perffaith at y Mab, ac ymddiried perffaith yn y Mab, fel un a gyflawnai yn berffaith ei holl waith fel Bugail da tuag at a thros ei bobl. † Felly hefyd yr oedd gan Iesu adnabyddiaeth berffaith o'r Tad ac o'i arfaeth a'i gyngor, yr oedd yn ei garu yn berffaith, yn hyfrydu gwneuthur ei ewyllys, ac yn gwybod yr arddelwai y Tad ef yn ei holl waith mawr. Mae yr adnabyddiaeth sydd rhwng Crist â'i bobl i raddau yn gyffelyb i'r adnabyddiaeth uchod sydd rhwng y Tad âg yntau. ‡ Am roddi ei einioes dros y defaid, gwel ar adn. 11. Dros y *defaid*, ac nid neb arall, mae efe yn rhoddi ei einioes, medd ef ei hun yma: ai defaid yw pawb?

16 [k] * A defaid eraill sydd gennyf, y rhai nid ynt o'r gorlan hon; [l] † y rhai hynny hefyd sydd raid i mi eu cyrchu, [m] ‡ a'm llais i a wrandawant; [n] || a bydd un gorlan, [o] § *ac* un bugail.

k pen. 11. 52. Gen. 49. 10. Salm 22. 26—31. a 72. 17—19. a 86. 9. a 98. 2, 3. Es. 11. 10. a 24. 13—16. a 42. 10—12. a 43. 6. a 49. 6. a 52. 10. a 56. 8. Hos. 1. 10. Zec. 2. 11. a 8. 20—23. Act. 18. 10. Rhuf. 9. 23, 24. a 15. 9—13. Eph. 2. 14. 1 Pedr 2. 10. l Act. 15. 14. Rhuf. 8. 29, 30. Eph. 2. 1—5, 15—18. 2 Thes. 2. 13, 14. Tit. 3. 3—5. m adn. 27. pen. 6. 37. Mat. 17. 5. Act. 22. 14. Dat. 3. 20. n Ezec. 37. 22. Eph. 2. 14. o adn. 2, 11. Preg. 12. 11. Ezec. 34. 23. Heb. 13. 20. 1 Pedr 2. 25. a 5. 4.

* Mae yn amlwg mai y rhai etholedig o'r cenedloedd a feddylir yma wrth y "defaid eraill," (ac nid yr Iuddewon oedd yn byw allan o wlad Canaan, fel y tybiodd rhai,) y rhai oeddent y pryd hwnw yn ddïeithriaid i wladwriaeth Israel, ac yn estroniaid i ammodau yr addewid. Mae yn werth sylwi, fod Crist yn eu galw yma yn ddefaid iddo ef, pan oeddynt eto yn byw mewn annwybodaeth ac eilun-addoliaeth: yr oeddynt yn ddefaid o ran arfaeth ac etholedigaeth Duw, ac i gael eu gwneyd yn ddefaid. † Yr oedd yn rhaid i Grist eu cyrchu o herwydd arfaeth, cyfammod, cariad, a phryn-edigaeth. ‡ Ei lais ef yw gweinidogaeth yr efengyl dàn arddeliad grymus yr Ysbryd Glân: || a'r un gorlan yw eglwys y Testament Newydd, i'r hon y cesglir yr holl rai crediniol o Iuddewon a chenedloedd. § Crist ei hunan yw yr un bugail hwn, fel y prophwydwyd am dano dàn yr Hen Destament, Ezec. 34. 23.

17 [p] * Am hyn y mae y Tad yn fy ngharu i, † am fy mod i yn dodi fy einioes, ‡ fel y cymmerwyf hi drachefn.

p pen. 3. 35. a 15. 9, 10. a 17. 4, 5, 24—26. Es. 42. 1, 21. a 53. 10.

* Heblaw cariad anfeidrol y Tad tuag at Grist fel ei unig-anedig Fab, yr oedd efe hefyd yn ei garu yn annhraethol, ac yn ymhyfrydu ynddo, o herwydd ei fawr gariad ef tuag at y defaid, y rhai yr oedd y Tad yn eu caru. † A chyfryw oedd cariad Crist at ei bobl, a'i awydd am ogoneddu ei Dad, fel y rhoddodd efe ei einioes i lawr yn ewyllysgar, i wneyd iawn dros eu pechodau hwynt. ‡ Fel y cymmerai hi drachefn yn ei adgyfodiad, i'w meddiannu byth, ac i'w defnyddio er gogoniant Duw ac er iachawdwriaeth ei holl bobl.

18 [q] * Nid oes neb yn ei dwyn oddi arnaf fi: [r] † ond myfi sydd yn ei dodi hi i lawr o honof fy hun. ‡ Y mae gennyf feddiant i'w dodi hi i lawr, ac y mae gennyf feddiant i'w chymmeryd hi drachefn. [s] || Y gorchymyn hwn a dderbyniais i gan fy Nhad.

q pen. 18. 5, 6. a 19. 11. Mat. 26. 53—56. r pen. 2. 19—21. Es. 53. 10—12. Act. 2. 24. a 3. 15. Tit. 2. 14. Heb. 2. 9, 14, 15. s pen. 6. 38. a 14. 31. a 15. 10. Salm 40. 6—8. Heb. 5. 6—9. a 10. 6—10.

* Er bod Iesu i farw yn fuan, yn y modd mwyaf gwarthus a phoenus, a thrwy ddwylo ei elynion creulonaf; eto nid oedd neb o honynt oll a allasai ddwyn ei einioes ef oddi arno yn erbyn ei ewyllys. † Eto yr oedd efe yn ei rhoddi i lawr o hóno ei hun, fel ei weithred wirfoddol ei hunan. Mae yn amlwg mai felly y gwnaeth ein Harglwydd, wrth ystyried y llefain cryf a wnaeth yn union cyn ei farw, fel y rhyfeddodd y canwriad "ddarfod iddo yn *llefain felly*, ymadaw â'r ysbryd." Marc 15. 39. ‡ Yr oedd gan Iesu feddiant dechreuol, a hawl ynddo ei hun, ar ei einioes, i'w dodi hi i lawr yn aberth, ac i'w chymmeryd drachefn wedi gwneyd iawn. Cymmerodd y natur ddynol yn wirfoddol i hyny, a chymmerodd hi yn ddilwgr: ni chollodd y meddiant hwnw trwy unrhyw bechod gweithredol; ac yr oedd yn *eiddo iddo ei hun*, mewn modd nad oedd neb arall yn

eddu ar einioes. ‖ Gorchymyn y Tad i Grist, fel yfryngwr, ac fel Bugail, oedd rhoddi ei einioes dros y efaid a'i chymmeryd hi drachefn; am hyny mae efe yn yneyd felly yn ewyllysgar.

19 ¶ [t] * Yna y bu drachefn ymrafael ym ysg yr Iuddewon, am yr ymadroddion hyn.

t pen. 7. 40—43. a 9. 16. Mat. 10. 34, 35. Luc 12. 51—53. Act. 4. a 23. 7—10. 1 Cor. 3. 3. a 11. 18.

* Nid oedd dim a allasai dystiolaethu yn gryfach am duwdod ein Harglwydd na'r geiriau yn yr adnod o'r laen: pa ddyn, a dim ond dyn, a allasai ddywedyd fod nddo feddiant ar ei einioes i'w dodi hi lawr wrth ei wyllys ei hun; ac yn enwedig pa ddyn a allasai ei ymmeryd hi drachefn? * Yr oedd ymadroddion fel yn mòr groes i ragfarnau yr Iuddewon yn erbyn Iesu, c yn gymmaint uwchlaw amgyffred y rhan fwyaf o conynt, fel yr aethant i ymrafaelio â'u gilydd yn eu lch, fel y gwnaethant droion cyn hyny, pen. 7. 43; 9. 3: ac fel y rhagddywedasai yr Iesu y gwnaent, Luc 2. 51.

20 * A llawer o honynt a ddywedasant, Y mae cythraul ganddo, ac y mae efe yn nfydu: [x] paham y gwrandewch chwi arno ef?

u pen. 7. 20. a 8. 48, 52. Mat. 9. 34. a 10. 25. Marc 3. 21. Act. 3. 24, 25. x pen. 7. 46—52. a 8. 47. a 9. 28, 29. Es. 53. 3. Act. 8. 14, 15. a 25. 19, 20. a 26. 30—32.

* Taerai rhai o honynt yn groch, mai dyn ynfyd oedd, c wedi ei feddiannu gan gythraul; na ddywedai neb iriau o'r fath ond dyn ynfyd, gwallgof, a chythreulig blly, ac na ddylai neb wrando arno.

21 * Eraill a ddywedasant, Nid yw y rhai yn eiriau un a chythraul ynddo. [y] † A all ythraul agoryd llygaid y deillion?

y pen. 9. 6, 7, 32, 33. Ex. 4. 11. a 8. 19. Salm 146. 8. Diar. 20. 12. Es. 35. 5, 6. Mat. 11. 5.

* Eraill, tipyn mwy rhesymol, a llai eu rhagfarn, a ddywedent i'r gwrthwyneb; nad oedd ei eiriau na'i fatrion ef (cynnwys y gair Groeg a gyfieithir geiriau, nma, bob un o'r ddau, geiriau a materion) yn debyg i'r iddo dyn ynfyd ac a chythraul ganddo. † Fel pe dyedasent, Nid oes fawr er pan agorodd efe lygaid un a nesid yn ddall, ac a all cythraul, neu un a chythraul anddo, wneyd y fath beth a hyny? Na, na, nis gallai ythraul wneuthur y cyfryw beth a hyny, ac ni wnaethai chwaith, pe gallasai; rhaid mai peth o allu Duw edd, a rhaid mai prophwyd sanctaidd, a dyn yn ei awn bwyll, yw y dyn hwn.

22 ¶ * Ac yr oedd y gyssegr-wyl yn Jerusalem, a'r gauaf oedd hi.

* Gan y dywedir yn bendant mai yn y gauaf yr oedd gyssegr-ŵyl hon, mae yn amlwg mai nid gŵyl cyssegrad teml Solomon ydoedd; oblegid yn union ar ol y ynhauaf y bu hyny, 1 Bren. 8. 2: nid gŵyl cyssegriad rr ail deml, gan Nehemiah, ychwaith oedd; yn y tymnor eilir *(spring)* y bu hyny, Ezra 6. 15, 16: ond thaid mai yr ŵyl a sonir yma oedd hòno a sefydlodd udas Maccabeus, i lanâu ac adgyssegru y deml, ar ol i halogi gan Antiochus Epiphanes. Cedwid hon am wyth niwrnod bob blwyddyn, yn mis Rhagfyr, 1 Mac. 4. 52, 59; a dywed *Josephus* fod y cyfryw ŵyl yn cael ei thadw gyda bri mawr yn ei amser ef. Fel hyny nid gŵyl ŵ osodiad dwyfol oedd hon, ac nid yn Jerusalem yn unig y cedwid hi, fel y gwyliau eraill, ond drwy yr holl wlad.

23 Ac yr oedd yr Iesu yn rhodio yn y teml, [z] * ym mhorth Solomon.

z Act. 3. 11. a 5. 12.

* Tybir mai y porth a grybwyllir yn 1 Bren. 6. 3, bedd porth Solomon: dywedir mai adeilad harddwych dros ben oedd hwnw; ac er ei ddinystrio pan gymmerwyd y ddinas gan y Babiloniaid, eto adeiladodd yr Iuddewon borth tebyg iddo ar eu dychweliad o Babilon, ac yn yr un fàn, ac a'i galwasant porth Solomon, fel y cyntaf. Dywed rhai bod y Sanhedrim yn arfer eistedd yn y porth hwn, ac eu bod yn eistedd yno y pryd hwn.

24 * Am hynny y daeth yr Iuddewon yn ei gylch ef, ac a ddywedasant wrtho, [a] Pa hŷd yr wyt ti yn peri i niammeu? [b] os tydi yw y Crist, dywed i ni yn eglur.

a 1 Bren. 18. 21. Mat. 11. 3. Luc 3. 15. b pen. 1. 19. a 8. 25, 53. a 9. 22. Luc 22. 67—70. 2 Cor. 3. 12.

* Yr oedd Crist yn awr o fewn tri mis i'w groeshoeliad: yr oedd wedi dywedyd wrthynt o'r blaen mai efe oedd Goleuni y byd, y Bugail da; ac hwy a allasent yn hawdd farnu pwy oedd efe wrth yr athrawiaeth a bregethasai, a'r gweithredoedd nerthol a wnaethai: ond yr oedd efe wedi bod yn ochelgar iawn rhag dywedyd iddynt hwy mewn geiriau eglur, mai efe oedd Crist, y Messiah. I'r dyben o'i dynu ef i ddyryswch yr oeddynt hwy yn gofyn: pe gwadasai mai efe oedd y Crist, gwnaethent ddefnydd o hyny i'w iselu ef yn ngolwg y bobl; ped addefasai, buasent yn ei gyhuddo ger bron y rhaglaw Rhufeinig, ei fod yn hòni hawl i'r freniniaeth ar yr Iuddewon.

25 * Yr Iesu a attebodd iddynt, [c] Mi a ddywedais i chwi, ac nid ydych yn credu. [d] † Y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur yn enw fy Nhad, y mae y rhai hynny yn tystiolaethu am danaf fi.

c pen. 5. 17—43. a 8. 12, 24, 58. d adn. 32, 38. pen. 3. 2. a 5. 36. a 7. 31. a 11. 47. a 12. 37. a 14. 11. a 20. 30, 31. Act. 2. 22. a 10. 38. Heb. 2. 3, 4.

* Mi a ddywedais i chwi yn ddigon eglur lawer gwaith, pe mynasech chwi ddëall a chredu; dywedais mai myfi oedd Goleuni y byd, drws y defaid, y bugail da, mai y Tad a'm hanfonodd, ac mai oddi wrtho ef y daethum, &c. Yr hyn oedd yr un peth â dywedyd mewn geiriau pendant, myfi yw Crist: ond ni fynech chwi ddeall na chredu. † Ac heblaw dywedyd ar eiriau, mae fy ngweithredoedd I hefyd yn cyd-dystiolaethu â'r geiriau, ac yn dangos pwy ydwyf fi. Mae *Scott* yn dywedyd y gellid, ac, efallai, y dylid, cyfieithu yr adnod fel hyn:—Mi a ddywedais i chwi, ac ni chredasoch, fod y gweithredoedd, y rhai yr wyf fi yn eu gwneuthur yn enw fy Nhad, yn tystiolaethu am danaf fi:—gan gyfeirio, efallai at yr hyn a ddywedasai yn pen. 5. 31—38.

26 Ond chwi nid ydych yn credu: [e] canys nid ydych chwi o'm defaid i, fel y dywedais i chwi.

e adn. 4, 27. pen. 6. 37, 44, 45, 65. a 8. 47. a 12. 37—40. Rhuf. 11. 7, 8. 2 Cor. 4. 3, 4. 1 Ioan 4. 6.

* Ond wedi y cwbl, yr ydych chwi yn para i fy ngwrthod I drwy anghrediniaeth, a hyny a wnaech, pa dystiolaeth neu amlygiad bynag a roddwn I yn chwaneg i chwi. † Gwyddai Iesu erioed nad oedd y Phariseaid hyn o'i ddefaid ef, ac yr oeddynt hwythau yn profi yn eglur nad oeddynt trwy eu dallineb, eu rhagfarn, eu hanghrediniaeth, a'u gwrthodiad o hóno. Y defaid yw etholedigion Duw, y rhai a roddwyd i Grist er tragywyddoldeb, ac mewn canlyniad i hyny a dynir ato ef trwy ffydd wirioneddol mewn amser. Am y lleill, y rhai nid ydynt ddefaid, trwy gael eu gadael yn gyfiawn iddynt eu hunain, ni chredant byth iddo ef, er cael yr un dystiolaeth am dano ag eraill.

27 [f] * Y mae fy nefaid i yn gwrando fy llais i; [g] † a mi a'u hadwaen hwynt, [h] ‡ a hwy a'm canlynant i:

f adn. 8, 16. pen. 5. 25. a 8. 43. Mat. 17. 5. Act. 3. 23. Heb. 3. 7, 8. Dat. 3. 20. g adn. 3, 14. Mat. 7. 23. a 25. 12. Luc 13. 27. 1 Cor. 8. 3. Gal. 4. 9. 2 Tim. 2. 19. h adn. 4. pen. 8. 12. a 12. 26. a 21. 22. 1 Bren. 18. 21. Mat. 16. 24. Marc 8. 34. a 10. 21. Luc 9. 23. Dat. 14. 4.

* Mae y geiriau hyn yn arwyddo gwrando gwirioneddol, effeithiol, ac i fywyd: gwrando y llais, adnabod y llais, credu y llais, ac ufuddâu i'r llais. † Am yr adnabod hwn, gwel ar adn. 14. ‡ Mae defaid Iesu yn ei ganlyn ef yn ei holl ordinadau, yn ei ddysgeidiaeth

nefol, ac yn ei esamplau sanctaidd, ac yntau megys yn myned o'u blaen, ac yn eu tywys yn llwybrau cyfiawnder, ac yn aml i'r gwin-dŷ.

28 [i] * A minnau ydwyf yn rhoddi iddynt fywyd tragywyddol; [k] † ac ni chyfrgollant byth, [l] ‡ ac ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw i.

i pen. 3. 16, 36. a 5. 39, 40. a 6. 27, 40, 47, 68. a 11. 25. a 17. 2, 3. Rhuf. 5. 21. a 6. 23. 1 Tim. 1. 16. 1 Ioan 2. 25. a 5. 13—20. Judas 21. k pen. 3. 15. a 4. 14. a 5. 24. a 6. 39, 40. a 14. 19. 1 Sam. 2. 9. Job 17. 9. Salm 37. 28. a 103. 17, 18. a 125. 1, 2. Diar. 4. 18. a 24. 16. Es. 45. 17. a 54. 17. a 55. 3. Jer. 31. 3, 34. a 32. 40. Marc 13. 22. Rhuf. 5. 2, 9, 10, 17. a 8. 1, 29, 30, 33—39. Phil. 1. 6. Col. 3. 3, 4. 2 Thes. 2. 13, 14. 1 Pedr 1. 5. 1 Ioan 2. 19. a 5. 13, 18. Judas 1, 24. l pen. 17. 11, 12. Deut. 33. 3. Salm 31. 5. Luc 22. 31, 32. a 23. 46. Act. 7. 59. 2 Tim. 1. 12. Heb. 7. 25.

* Mae yntau yn rhoddi iddynt fywyd tragywyddol; bywyd tragywyddol, y peth nad oedd ganddynt ddim o hóno o'r blaen, na dim hawl iddo: ei *roddi* yn *rhad* y mae efe, heb arian ac heb werth. Y mynyd y maent yn gwrando ar ei lais ef, ac yn credu ynddo, mae efe yn ei roddi iddynt, o ran yr hawl ynddo, ac o ran y blaenffrwyth o hóno: ac ar eu hymadawiad â'r byd hwn hwy a gânt ei fwynâu yn gyflawn berffaith, ac am byth yn y nef. † Er gwàned ydynt, er annheilynged ynddynt eu hunain, er cymmaint yw llygredd a drwg eu calonau, er amled a chryfed eu profedigaethau, ac er holl ymgais y gelyn, ac ymosodiad pyrth uffern; ni chyfrgollant byth, nac yr un o honynt: ni byddant yn ol o'r nefoedd, ac ni syrthiant i uffern. ‡ "Ni ddwg yr un *gelyn* hwynt allan o'm llaw I," yw ystyr y geiriau Groeg: mae y gair *neb* yn rhy wàn o lawer; a'r gair *any*, gan y Saeson, yn wànach braidd na hyny. Mae defaid Crist yn agored i lawer o enbydrwydd gan y llew uffernol, ac mae y geiriau hyn yn ddiammau, yn dangos gofal eu Bugail da am danynt, i'w cadw rhagddo ef.

29 * Fy nhad i, [m] yr hwn a'*u* rhoddes i mi, [n] † sydd fwy na phawb: ‡ ac nis gall neb *eu* dwyn *hwynt* allan o law fy Nhad i.

m pen. 6. 37, 39. a 17. 2, 6, 9, 11. n pen. 14. 28. Ex. 18. 11. Salm 145. 3. Dan. 4. 3. Mal. 1. 14.

* Mae holl ddefaid Crist yn eiddo iddo trwy roddiad y Tad, felly maent yn wrthddrychau cariad a gofal y Tad yn gystal ag yntau. † Mae y Tad, yr hwn a'u rhoddodd hwynt i Grist, yn fwy na phawb; yn fwy na phob crëadur yn y nef, ar y ddaear, ac yn uffern, ac o ganlyniad mae yn fwy yn mhob ystyr na holl elynion ei bobl. ‡ Gan hyny nis gall neb, trwy drais na dichell, eu dwyn, eu cipio hwy o law y Tad: yn ei law ef y maent, nid yn llaw yr angel mwyaf ac uchaf yn y nef. Diolch i Dduw mai yn ei law *ef* y maent!

30 [o] * Myfi a'r Tad un ydym.

o adn. 38. pen. 1. 1, 2. a 5. 17, 23. a 8. 58. a 14. 9, 10, 23. a 16. 15. a 17. 10, 11, 21—23. Mat. 11. 27. a 28. 19. 1 Tim. 3. 16. Tit. 2. 13. 1 Ioan 5. 7, 20.

* Nid mwy na'r Mab a feddylir wrth y mwy na phawb yn yr adnod o'r blaen; oblegid mae y Tad a'r Mab yn un: un mewn hanfod, mawredd, a gallu; yn gystal ag yn un mewn arfaeth, ewyllys, a gweithrediadau. Mae rhai dynion da wedi dëall yr adnod uchod am undeb mewn ewyllys a gweithrediad yn unig; ond mae yn amlwg eu bod yn meddwl mwy na hyny, oblegid sôn yr oedd Crist am *allu* y Tad i gadw ei bobl, ac nid am ei ewyllys.

31 [p] * Am hynny y cododd yr Iuddewon gerrig drachefn i'w labyddio ef.

p pen. 5. 18. a 8. 59. a 11. 8. Ex. 17. 4. 1 Sam. 30. 6. Mat. 21. 35. a 23. 35. Act. 7. 52, 58, 59.

* Mae yn amlwg mai am undeb hanfod, gallu, a phriodoliaethau, y dëallodd yr Iuddewon fod Crist yn dywedyd, pe amgen ni buasent yn cynddeiriogi cymmaint wrth ei eiriau. Tybiasant ei fod ef yn cablu, drwy wneuthur ei hun yn gystal, neu yn ogyfuwch â Duw, a cheisiasant ei labyddio ef fel cablwr. Sylwyd o'r blaen fod holl gynteddoedd y deml heb orphen eu hadeiladu y pryd hwn, ac am lawer o flynyddoedd wedi hyn; ac o'r mân-ddarnau cerig oedd ar hyd y lle, mae yn debyg, y codasant hwy gerig i'w taflu at ein Harglwydd.

32 * Yr Iesu a attebodd iddynt, [q] Llawer o weithredoedd da a ddangosais i chwi oddi wrth fy Nhad: [r] am ba un o'r gweithredoedd hynny yr ydych yn fy llabyddio i?

q adn. 25, 37. pen. 5. 19, 20, 36. Mat. 11. 5. Act. 2. 22. a 10. 38. r 1 Sam. 19. 4—6. 2 Cron. 24. 20—22. Salm 35. 12. a 109. 1, 5. Preg. 4. 4. 1 Ioan 3. 12.

* Yn lle ymdaeru â dynion gwallgofus gan gynddeiriogrwydd, fel y gwnaethai llawer un, mae ein Harglwydd sanctaidd ac addfwyn yn ymresymu yn arafaidd ac yn dirion â hwynt; yn crybwyll y gweithredoedd rhagorol, buddiol, trugarog, a gogoneddus, a wnaethai; ac yn gofyn a oedd y gweithredoedd hyny, neu ryw un o honynt oll, yn haeddu y fath driniaeth, a'r fath ysbryd gelynol. Hawdd a fuasai iddo ef eu taraw hwy oll â barn yn y fàn hòno, ond ymresymu yn ymarhôus felly a wnaeth efe â hwynt. Ai hyn a delwch i mi, bobl ynfyd ac anghall?

33 Yr Iuddewon a attebasant iddo, gan ddywedyd, * Nid am weithred dda yr ydym yn dy labyddio, [s] † ond am gabledd, ac am dy fod di, a thithau yn ddyn, [t] yn dy wneuthur dy hun yn Dduw.

s Lef. 24. 14—16. 1 Bren. 21. 13. t adn. 30. pen. 5. 18. Phil. 2. 6.

* Dywedyd yn erbyn eu cydwybodau yr oeddynt yn hyn; oblegid, yr oeddynt hwy mewn gwirionedd yn dra diglawn wrth Iesu o herwydd ei wyrthiau aml a rhyfeddol: ac y mae efe yn eu lled-gyhuddo hwy o hyny yn ei ofyniad iddynt yn yr adnod o'r blaen, ond yma nis mynent hwy addef mai am ei weithredoedd da yr oeddynt yn ei labyddio, ond am gabledd. † Gellir cablu mewn dwy ffordd; un ai trwy briodoli anmherffeithrwydd dynol i Dduw, neu briodoli perffeithrwydd Duw i ddynion. Trwy y ffordd olaf y tybiai yr Iuddewon bod Iesu yn cablu. Ni chredent mai Duw wedi ymddangos yn y cnawd oedd.

34 Yr Iesu a attebodd iddynt, * Onid yw yn ysgrifenedig [u] yn eich cyfraith chwi, [x] Mi a ddywedais, [y] † Duwiau ydych?

u pen. 12. 34. a 15. 25. Rhuf. 3. 10—19. x Salm 82. 1, 6, 7. y Ex. 4. 16. a 7. 1. a 22. 28. Salm 138. 1.

* Mae y geiriau a ddyfynir yma yn Salm 82. 6; mae holl ysgrythyrau yr Hen Destament yn myned yn aml dàn yr enw cyfraith, am eu bod wedi eu hysgrifenu drwy ysbrydoliaeth Duw, ac yn rheol ffydd ac ymarweddiad i bobl Dduw. † Am swyddogion gwladol ac eglwysig y dywedir hyn: nid ydynt yn cael eu galw yn dduwiau am eu bod yn swyddogion yn unig; oblegid nid ydym yn darllen am neb o freninoedd y cenedloedd yn cael eu galw felly yn yr ysgrythyr, ond gelwir penaethiaid gwladol ac eglwysig Israel felly am eu bod o ran eu swyddau yn gysgodau o'r Messiah, ac i roddi eu hawdurdod i fynu iddo ef pan ddelai i osod i fynu ei deyrnas yn y byd. Tybir mai yn yr ystyr uchod yr oedd Moses, cyfryngwr cysgodawl rhwng Duw ac Israel, yn lle Duw i Aaron, ac yn Dduw i Pharaoh, Ex. 4. 16; 7. 1. Gwel hefyd am y swyddogion Iuddewig, a eisteddent yn nghadair Moses, Ex. 22. 28; gelwir hwynt yn dduwiau yn y Saesoneg, ac felly ar ymyl y ddalen yn y Bibl Cymraeg. Tybir hefyd mai am ddynion, swyddogion Israel, ac nid am angelion, yr oedd Dafydd yn meddwl, pan oedd yn dywedyd "Yn ngwydd y duwiau y canaf i ti," Salm 138. 1. Ac efallai mai golwg brophwydol ar y dadleuon rhwng Crist â phenaethiaid yr Iuddewon sydd yn Salm 82. 1, "Duw sydd yn sefyll yn nghynnulleidfa'r galluog, yn mhlith y duwiau y barna efe."

35 * Os galwodd efe hwy yn dduwiau, [z] † at y rhai y daeth gair Duw, [a] ‡ a'r ysgrythyr nis gellir ei thorri:

z Gen. 15. 1. Deut. 18. 15, 18—20. 1 Sam. 14. 36, 37. a 15. 1. 8. 9—11. a 28. 6. a 30. 8. 2 Sam. 7. 5. 1 Cron. 22. 8. 2 Cron. 2, 3. a 19. 2. Rhuf. 13. 1. a pen. 12. 38, 39. a 19. 28, 36, 37. 5. 18. a 24. 35. a 26. 53—56. a 27. 35. Luc 16. 17. a 24. 26, 27, 46. Act. 1. 16.

* Os galwodd efe hwy yn dduwiau, am eu bod yn sgodau yn unig o'r Messiah, pa faint mwy y dylai y essiah ei hun gael ei alw yn Dduw? † "At y rhai y eth gair Duw" i'w gosod yn eu gwahanol swyddau, edd rhai: "at y rhai y daeth gair Duw" am y Messi-, medd eraill. ‡ A pha beth bynag a ddywedodd w am y Messiah wrth y duwiau cysgodawl hyny o mo, gwirionedd dwyfol anffaeledig ydyw, ac nis gall b ei wrthddywedyd.

36 A ddywedwch chwi am b yr hwn * a ncteiddiodd y Tad, c ac a'i hanfonodd i'r byd, Yr wyt ti yn cablu; am i mi ddywedyd, Mab Duw ydwyf?

b pen. 3. 34. a 6. 27. Salm 2. 2, 6—12. Es. 11. 2—5. a 42. 1. 9. 1—3, 6—8. a 55. 4, 5. a 61. 1—3. Jer. 1. 5. c pen. 3. 17. . 30. a 6. 38, 39, 57. a 8. 42. a 17. 4, 5, 8, 18, 21. Rhuf. 8. 3. Gal. 4. 1 Ioan 4. 9—14. d adn. 30—33. pen. 5. 17, 18. a 9. 35— a 19. 7. a 20. 28, 31. Mat. 26. 63—66. a 27. 43, 54. Rhuf. 1. 4. . 5.

* Wrth sancteiddio Mab Duw yn y màn yma, rhaid i ddëall ei neilluad ef, a'i osodiad i fod yn Gyfryngwr dragywyddoldeb, fel Diar. 8. 23; oblegid crybwyllir n ei sancteiddiad fel peth blaenorawl i'w ddanfoniad byd. † Gan fod swyddogion gwladol ac eglwysig yn el eu "galw yn dduwiau," ac yn "feibion y Goruch- oll," fel yr oeddynt yn gysgodau o'r Messiah, pa ld y dywedwch chwi fy mod I yn cablu am i mi ddy- edyd Mab Duw ydwyf? Pe na byddwn ond dyn yn aig, eto gan fy mod wedi fy sancteiddio gan y Tad, n danfon i'r byd i amlygu ei ewyllys ef, yr wyf yn r mòr deilwng o gael fy ngalw yn Fab Duw â neb o'r ai hyny a elwid felly. Eto, wrth ddywedyd fel yma, d oedd ein Hiachawdwr yn tynu dim yn ol o'r hyn a ywedodd am dano ei hun yn adn. 30, Myfi a'r Tad n ydym.

37 e * Onid wyf fi yn gwneuthur gweithred- edd fy Nhad, na chredwch i mi.

e adn. 25, 32. pen. 5. 31. a 12. 37—40. a 15. 24. Mat. 11. 20 24.

* Gelwid y swyddogion gwladol ac eglwysig yn Israel dduwiau, ac yn feibion y Goruchaf oll, pa un bynag da ai drwg a fyddent, o herwydd eu bod yn eu yddau yn cysgodi y Messiah: ond yma mae Crist yn feirio ei wrthwynebwyr ef at ei weithredoedd, fel ofion, nid o'i ddaioni yn unig, ond o'i Dduwdod a'i dwyfol anfoniad.

38 * Ond os ydwyf yn eu gwneuthur, er ad ydych yn credu i mi, f credwch y gweith- edoedd: g † fel y gwybyddoch ac y credoch, *fod* y Tad ynof fi, a minnau ynddo yntau.

f pen. 3. 2. a 5. 36. Act. 2. 22. a 4. 8—12. g adn. 30. pen. 9—11, 20. a 17. 11, 21—23.

* Os nad ellwch chwi wadu fy mod I yn gwneuthur weithredoedd priodol i Dduw yn unig, a gweithredoedd as gall neb ond Duw eu gwneyd; yna, er na chredwch nhystiolaeth eiriol I am danaf fy hun, eto, credwch y weithredoedd, y rhai ydynt brofion diymwad o wirion- dd yr hyn wyf yn ddywedyd. † Trwy gredu y gweith- edoedd, chwi a gredwch y geiriau, a thrwy gredu pob un r ddwy dystiolaeth, chwi a gredwch ynof fi, fod y Tad a innau, fel y dywedais, yn un mewn hanfod, er yn wa- nnol fel Personau, ac megys yn preswylio yn hanfodol, naill yn y llall. ‡ Mae y geirian hyn yn dangos tri heth:—1. Undeb natur a hanfod y Tad a'r Mab. Gwahanoliaeth y Personau yn yr hanfod ddwyfol. Preswyliad perffeithiaf ac agosaf pob un o'r Person- n dwyfol yn y llall. Nid oes neb ond Duw anfeidrol i hun a all amgyffred nac egluro pa fodd y mae hyny.

39 h * Am hynny y ceisiasant drachefn ei ddal ef: † ac efe a ddiangodd allan o'u dwylaw hwynt.

h adn. 31. pen. 7. 30, 44. a 8. 59. Luc 4. 29, 30.

* Yn lle gwrando ar gyngor Crist, "credwch y gweith- redoedd" adn. 38, ymgynddeiriogi yn fwy a wnaeth yr Iuddewon, a cheisio ei ddal ef, am eu bod yn tybied o hyd ei fod yn cablu, trwy briodoli dwyfoldeb iddo ei hun. † Yn adnod 32, safodd i ymresymu â hwynt, ond yma mae yn dianc allan o'u dwylaw. Pa fodd y diang- odd y tro hwn, nid yw yn perthyn i ni wybod. Gwel ar pen. 8. 59.

40 * Ac efe a aeth ymaith drachefn dros yr Iorddonen, i † i'r man lle y buasai Ioan ar y cyntaf yn bedyddio; k ac a arhosodd yno.

i pen. 1. 28. a 3. 26. k pen. 7. 1. a 11. 54.

* Gwelodd yr Iesu nas gallai aros yn ddiberygl yn Jerusalem gan lid yr Iuddewon, a chan fod eto dri mis hyd yr amser terfynedig i'w groeshoelio ef, gadawodd Jerusalem ac a aeth ymaith i Bethabara, yr hon oedd y tu arall i'r Iorddonen, yn y màn lle croesodd yr Israel- iaid i wlad Canaan. † Yno yr oedd Ioan yn bedyddio pan y daeth yr Iesu gyntaf ato, ac y dywedodd wrth y bobl am dano, Wele Oen Duw; felly yr oedd mewn rhyw fesur wedi darpar y bobl yno i'w dderbyn ef.

41 l A llawer a ddaethant atto ef, ac a ddywedasant, m * Ioan yn wir ni wnaeth un arwydd: n ond yr holl bethau a'r a ddywedodd Ioan am hwn, oedd wir.

l pen. 3. 26. Mat. 4. 23—25. Marc 1. 37. Luc 5. 1. a 12. 1. m Mat. 14. 2. Luc 7. 26—28. n pen. 1. 29, 33, 34. a 3. 29—36. Luc 7. 29, 30.

* Yr oedd Ioan yn brophwyd, a mwy na phrophwyd, a'r holl bobl yn ei ystyried ef felly; ac oni buasai iddo ef ei hun wadu, buasai llawer yn credu mai efe oedd y Messiah: eto ni wnaeth Ioan un arwydd, dim gwyrth- iau; yr hyn sydd yn dangos nad yw gwyrthiau mewn un modd yn angenrheidiol i brofi un yn brophwyd. † Ni ddywedodd Ioan ddim newydd, na rhyfedd, am Grist; dim ond adgoffa hen brophwydoliaethau am y Messiah i'r bobl, a'u cyfeirio hwy at Iesu, fel un a atebai i'r prophwydoliaethau hyny, yn ei Berson, ei athrawiaeth, a'i wyrthiau. Gwelsant y tro hwn fod Iesu yn ateb i'r pethau a ddywedasai Ioan am dano fwy na thair blynedd cyn hyny.

42 o A llawer yno a gredasant ynddo.

o pen. 2. 23. a 4. 39, 41. a 8. 30. a 11. 45. a 12. 42.

* Credodd rhai ynddo yn wirioneddol, fel Oen Duw, yn ol tystiolaeth Ioan am dano. Credodd eraill ynddo, efallai, yn yr ystyr a grybwyllwyd yn pen. 2. 23, nid i iachawdwriaeth eu heneidiau, ond fel prophwyd mawr, wedi ei ddanfon oddiwrth Dduw, ac nid rhyw ddyn cyffredin. Nis gall llid a chynddeiriogrwydd dynion atal llwyddiant yr efengyl: er gwrthod ac erlid Iesu gan y mawrion yn Jerusalem, dyma'r cyffredin bobl yn Bethabara yn ei dderbyn, ac yn credu ynddo.

PEN. XI.

Crist yn cyfodi Lazarus, yr hwn a gladdesid er ys pedwar diwrnod.

AC yr oedd un a yn glaf, b * Lazarus o c † Bethania, ‡ o dref d Mair a'i chwaer Martha.

a adn. 3, 6. Gen. 48. 1. 2 Bren. 20. 1—12. Act. 9. 37. b adn. 5, 11. pen. 12. 2, 9, 17. Luc 16. 20—25. c pen. 12. 1. Mat. 21. 17. Marc 11. 1. d Luc 10. 38—42.

* Mae yn debyg mai dyn ieuanc oedd Lazarus y pryd hwn, yn byw yn anweddawg, gyda ei chwaeriorydd Mair a Martha, fel teulu crefyddol a duwiol, pe amgen ni buasai mòr hoff gan yr Iesu sanctaidd hwynt, adn. 5. † Am sefyllfa Bethania, gwel ar Matth. 26. 6. ‡ Tref eu genedigaeth, efallai, tref eu hetifeddiaeth, a thref eu preswylfod. Nid oes dim sail yn y geiriau i feddwl fod y dref i gyd yn eiddynt hwy, fel y dywed rhai.

2 (A [e]Mair ydoedd yr hon a [f]enneiniodd yr Arglwydd âg ennaint, ac a sychodd ei draed ef â'i gwallt, yr hon yr oedd ei brawd Lazarus yn glaf)

e pen. 12. 3. Mat. 26. 6, 7. Marc 14. 3. f Luc 7. 37, 38.

* Yn Luc 7. 38, darllenwn am wraig yn eneinio traed yr Iesu, &c. yn nhŷ Simon y Pharisead: mae yn bur sicr mai nid y Mair hon oedd y bechadures edifeiriol hòno, gwel ar Matth. 26. 6, 7. Yn y bennod nesaf, adn. 3, gwelwn mai ar ol hyn yr eneiniodd hi draed yr Iesu, ond bod yr efengylwr yn crybwyll y peth yn y fàn hon.

3 * Am hynny y chwiorydd a ddanfonasant atto ef, gan ddywedyd, † Arglwydd, wele, [g]y mae yr hwn sydd hoff gennyt ti, yn glaf.

g adn. 1, 5. pen. 13. 23. Gen. 22. 2. Salm 16. 3. Phil. 2. 26, 27. 2 Tim. 4. 20. Heb. 12. 6, 7. Iago 5. 14, 15.

* Nis gwyddom pa le yr oedd Iesu y pryd hwn, ai yn Bethabara, neu ryw le arall; ond gwyddai y chwaeriorydd duwiol hyn pa le yr oedd, a danfonasant ato, gan ddywedyd, † "Mae yr hwn sydd hoff genyt ti yn glaf." Yr oedd hyny yn ddigon, gwyddent y dëallai yr Iesu yn fuan pwy oedd hwnw, ac y byddai hyny yn ddigon hefyd i'w ddwyn ef ato, neu ei iachâu o'r màn yr oedd.

4 A'r Iesu pan glybu, a ddywedodd, [h] * Nid yw y clefyd hwn i farwolaeth, † ond [i]er gogoniant Duw, [k]fel y gogonedder Mab Duw trwy hynny.

h pen. 9. 3. Marc 5. 39—42. Rhuf. 11. 11. i adn. 40. pen. 9. 24. a 12. 28. a 13. 31, 32. Phil. 1. 11. 1 Pedr 4. 11, 14. k pen. 2. 11. a 5. 23. a 8. 54. a 13. 31, 32. a 17. 1, 5, 10. Phil. 1. 20. 1 Pedr 1. 21.

* Hyny yw, nid yw i roi terfyn am byth ar hoedl Lazarus ar y ddaear, er iddo farw efe a fydd byw drachefn yn fuan, am hir flynyddoedd. Dywedodd hyn wrth y genad, efallai, fel y dywedai yntau wrth y ddwy chwaer er eu cysuro, ac er profi eu ffydd hwynt, tra yr oedd efe yn oedi dyfod. † Fel y gogonedder Duw yn ei Fab drwy y wyrth o adgyfodi Lazarus: hyny oedd meddwl Crist mae yn amlwg, ond nid felly mae yn debyg y dëallodd y genad ef. Gogoneddir Duw pan y gogoneddir ei Fab, a gogoneddir y Mab pan y mae ei allu dwyfol yn cael ei amlygu, fel y cydnabyddo dynion ef yr hyn ydyw mewn gwirionedd.

5 [l] * A hoff oedd gan yr Iesu Martha, a'i chwaer, a Lazarus.

l adn. 8, 36. pen. 15. 9—13. a 16. 27. a 17. 26.

* Mae Crist yn caru ei holl bobl a roddwyd iddo, â chariad tragywyddol, mawr, a digyfnewid; ond sonir yma am ei gariad dynol ef tuag at y teulu hwn: dangosasant hwy lawer o gariad tuag ato ef, ac yr oedd yntau yn eu caru hwythau yn fawr.

6 * Pan glybu efe gan hynny ei fod ef yn glaf, [m]efe a arhosodd yn y lle yr oedd, ddau ddiwrnod.

m Gen. 22. 14. a 42. 24. a 43. 29—31. a 44. 1—5. a 45. 1—5. Es. 30. 18. a 55. 8, 9. Mat. 15. 22—28.

* Dïammau fod yr oediad hwn yn ofidus, ac yn siomedig hefyd, i'r teulu trallodedig; ond gwelodd Iesu yn oreu gwneyd fel hyn, i brofi eu ffydd a'u hamynedd hwynt, ac i ddangos ei gariad tuag atynt yn y diwedd, mewn ffordd mwy rhyfedd, a gwell, na phe daethai efe i iachâu Lazarus. Ni ddylem ni farnu am gariad Duw tuag atom yn ol goruchwyliaethau allanol ei ragluniaeth tuag atom: na barnu nad yw yn ein caru, am nad yw yn dyfod yn union-gyrchol i'n cynnorthwyo, yn ein hamser ni, neu drwy y ffyrdd a'r moddion a dybiom ni yn oreu.

7 * Yna wedi hynny efe a ddywedodd wrth y disgyblion, [n] Awn i Judea drachefn.

n pen. 10. 40—42. Luc 9. 51. Act. 15. 36. a 20. 22—24.

* Ar ol dau ddiwrnod wedi y genadwri am glefyd Lazarus, soniodd yr Iesu am fyned drachefn i Judea; wrth yr hyn mae yn amlwg mai allan o Judea yr oedd y pryd hwn, yn Perea neu Galilea.

8 * Y disgyblion a ddywedasant wrtho, Rabbi, [o]yr oedd yr Iuddewon yn awr yn ceisio dy labyddio di; ac a wyt ti yn myned yno drachefn?

o pen. 10. 31, 39. Salm 11. 1—3. Mat. 16. 21—23. Act. 21. 12, 13.

* Mynai y dysgyblion ei gynghori ef i beidio a myned i Judea, o herwydd llid yr Iuddewon tuag ato; gan farnu yn un peth, na buasai ei fywyd ef ddim yn ddiberygl yno, ac hefyd nad oedd y fath ddynion ddim yn deilwng o'i weinidogaeth ef. Yr oeddynt hwy wedi anghofio Lazarus, ond nid oedd Iesu wedi ei anghofio: ac yr oeddent hwy wedi anghofio hefyd y gallai eu Harglwydd ei waredu ei hun os mynai.

9 Yr Iesu a attebodd, [p] * Onid oes deuddeg awr o'r dydd? os rhodia neb y dydd, [q]ni thramgwydda, am ei fod yn gweled goleuni y byd hwn:

p pen. 9. 4. Luc 13. 31—33. q pen. 12. 35. Diar. 3. 23. Jer. 31. 9.

* Gan fod gwlad Judea tuag ugain o raddau yn nes i'r cyhydedd nag Ynys Brydain, yr oedd eu dydd a'u nos hwy yn fwy cyfartal na chyda ni; ac felly yn gyffredin cyfrifent ddeuddeg awr o'r dydd, fel y gwnawn ninnau hefyd pan fyddom yn sôn am ddiwrnod o waith. Dyben Iesu yn ateb fel hyn i'w ddysgyblion oedd, dangos fod iddo ef amser terfynol ar y ddaear, bod ganddo waith gosodedig i'w wneyd yn yr amser hwnw, bod ewyllys a gwyneb ei Dad yn oleuni iddo tra parâi ei ddydd a'i waith, ac nad allai yr Iuddewon wneyd dim niwed iddo tra parâi ei ddydd.

10 [r] * Ond os rhodia neb y nos, efe a dramgwydda, am nad oes goleuni ynddo.

r Salm 27. 2. Diar. 4. 18, 19. Jer. 13. 16. a 20. 11. 1 Ioan 2. 10, 11.

* Yn y gwrthwyneb, yr oedd nos ei ddyoddefiadau, a nos ei angau, i ddyfod ar Grist, a hyny yn fuan iawn weithian, pryd y darfyddai ei waith ar y ddaear, ac y traddodid ef yn ddiymwared i ddwylaw ei elynion. Mae i bawb o honom ninnau ein dydd, ein gwaith a'n dyledswydd, a thra byddom ar lwybr ein dyledswydd, gallwn ddysgwyl goleu ac amddiffyn Duw arnom. Yr un modd mae i ni ein nos hefyd; nos o brofedigaethau trymion i rai, a nos cystuddiau ac angau i bawb. Gweithiwn tra yw hi yn ddydd. Gwel ar pen. 9. 4.

11 * Hyn a lefarodd efe: ac wedi hynny [s]efe a ddywedodd wrthynt, † Y mae ein cyfaill Lazarus [t]yn huno; ‡ ond yr wyf fi yn myned [u]i'w ddihuno ef.

s pen. 3. 29. a 15. 13—15. Ex. 33. 11. 2 Cron. 20. 7. Es. 41. 8. Iago 2. 23. t adn. 13. Deut. 31. 16. Mat. 9. 24. Marc 5. 39. Act. 7. 60. 1 Cor. 15. 18, 51. 1 Thes. 4. 14, 15. a 5. 10. u adn. 43, 44. pen. 5. 25—29. Dan. 12. 2. 1 Cor. 15. 34. Eph. 5. 14.

* Hyn a lefarodd efe i ddistawi eu gwrthddadl hwy, i symmud eu hofnau, ac i'w darpar erbyn yr hyn a ddywedai efe yn mhellach. † Er bod Iesu lawer o filltiroedd oddi wrth Lazarus, eto efe a wyddai ei fod yn huno y pryd hwnw; hyny yw yn marw: bu farw yn wirioneddol, ond huno yn dawel mae y saint pan fyddont meirw. ‡ Yr oedd yr Iesu yn myned i'w ddihuno ef; hyny yw, ei adgyfodi ef o feirw. Golwg ryfedd oedd gweled yr Adgyfodiad a'r Bywyd, yn cerdded â thraed o bridd i Bethania, i adgyfodi y marw o'r bedd! Yr oedd mòr hawdd iddo ef ei wneyd ag yw i ddyn ddeffroi ei blentyn, wedi hir nos o gysgu tawel ac esmwyth.

12 * Yna ei ddisgyblion a ddywedasant wrtho, Arglwydd, os huno y mae, efe a fydd iach.

* Mae cwsg cymmedrol yn arwydd da am iachâd, yn mhob clefyd: felly yr oedd y dysgyblion yn meddwl

na, gan dybied mai am hûn cwsg yr oedd Iesu yn dy-
edyd, adn. 13. Eu dyben yn dywedyd hyn oedd,
rbwyllo Crist o hyd, nad oedd dim rhaid iddo ef fyned
n belled ffordd i'w iachâu ef, a rhedeg i gymmaint
rygl gan ei elynion.

13 * Ond yr Iesu a ddywedasai am ei
rwolaeth ef: † eithr hwy a dybiasant mai am
ûn cwsg yr oedd efe yn dywedyd.

* Dewisodd yr Iesu ddywedyd yn y modd tyner a
ynnil hwn am farwolaeth Lazarus, yn un peth, efall-
, fel na chyffrôai ormod ar deimladau ei ddysgyblion
unwaith, wrth hysbysu iddynt am farwolaeth cyfaill
ôr anwyl iddynt oll: ac efallai hefyd er dangos ei
wr wylder ei hun; nid oedd yn dewis dywedyd ar
nwaith, '*Mae efe wedi marw*,' ac yr wyf finnau yn
yned yn fy nerth hollalluog, i ddryllio pyrth y bedd,
i'w orchymyn ef yn ol i fywyd drachefn: ond gan
helyd pob rhwysg a gwag-ogoniant, mae efe yn dewis
dull gwâr a gostyngedig hyn o lefaru. † Peth rhyfedd
a ddeallodd y dysgyblion yn well, a hûno yn air mòr
ffredin am farw yn yr Hen Destament.

14 * Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt
yn eglur, Bu farw Lazarus.

x pen. 10. 24. a 16. 25, 29.

* Yn lle edliw iddynt eu hannwybodaeth a'u penglog-
vydd, mae ein Harglwydd yn dywedyd yn dirion ac yn
glur o'r diwedd, "Bu farw Lazarus."

15 y * Ac y mae yn llawen gennyf z nad
eddwn i yno, er eich mwyn chwi (a fel y
edoch:) † ond awn atto ef.

y adn. 35, 36. z pen. 12. 30. a 17. 19. Gen. 26. 24. a 39. 5.
Salm 105. 14. Es. 54. 15. a 65. 8. 2 Cor. 4. 15. 2 Tim. 2. 10.
a adn. 4. pen. 2. 11. a 14. 10, 11. 1 Ioan 5. 13.

* Pe buasai yr Iesu yno cyn iddo farw, buasai yn
sturio wrth Lazarus a'i chwaeriorydd (a dywedyd
ewn dull dynol) ac yn ei iachâu ef: fel hyny ni
aawsai ei ddysgyblion weled y wyrth o'i adgyfodi ef o
irw, er cadarnâu eu ffydd ynddo. † "Ond awn ato ef,"
a awr, ebai yr Iesu, er ei fod wedi marw, a dechreu
oi i lygredigaeth erbyn y delom ni yno: "ac awn
o ef," er bod yn Judea lawer o elynion i mi, ac a
isiant achlysur oddiwrth y weithred o'i adgyfodi ef i
rhoi I i farwolaeth.

16 * Yna y dywedodd b Thomas, yr hwn a
wir Didymus, wrth ei gyd-ddisgyblion,
† Awn ninnau hefyd, fel y byddom feirw gyd
g ef.

b pen. 20. 24—29. a 21. 2. Mat. 10. 3. Marc 3. 18. Luc 6. 15.
adn. 8. pen. 13. 37. Mat. 26. 35. Luc 22. 33.

* Thomas yn Hebraeg, a Didymus yn y Groeg, yn
wyddo gefeilliaid: efallai iddo gael yr enw am mai
o ddau efaill oedd. Gelwir ef wrth y ddau enw hyn
ir gwaith yn yr efengyl hon; yma, pen. 20. 24, a 21.
a hyny medd rhai i arwyddo bod ganddo efeilliaid o
hanol naturiaethau yn ei galon, fel Jacob ac Esau,
eithiau yn credu, a phrydiau eraill yn llawn o an-
rediniaeth. † Marw gyda Lazarus, medd rhai, yw
eddwl y geiriau hyn; ond tybia eraill yn well, mai
arw gyda Christ oedd Thomas yn ei feddwl, gan
bied yn sicr mai ei ladd a gâi efe os âi i Judea
achefn. Mae tri o'n hawdwyr yn barnu mai oddi ar
riad at Grist y dywedodd Thomas fel hyn, a phender-
niad i lynu wrtho hyd angau, ac yn angau hefyd: ond
mae *Pool* yn meddwl mai iaith nwydau, byrbwylldra,
anghrediniaeth gref ydoedd; fel pe dywedasai, Gan
fod ef yn penderfynu myned i ganol ei elynion eto,
n ninnau gydag ef, er y gwn I mai ei ladd a gaiff ef
ninnau. Mae yn anhawdd penderfynu oddi ar ba
wyddor y llefarodd.

17 * Yna yr Iesu wedi dyfod, a'i cafodd ef
edi bod weithian d bedwar diwrnod yn y
edd.

d adn. 39. pen. 2. 19. Hos. 6. 2. Act. 2. 27—31.

* Wedi dyfod yr Iesu yn gyfagos i Bethania, neu i dŷ Mair a Martha, clywodd gan Martha ei hun, neu gan rywun arall cyn iddi hi ddyfod allan i'w gyfarfod ef, (adn. 20,) fod Lazarus wedi marw a'i gladdu, er ys pedwar niwrnod. Byddai yr Iuddewon yn arfer claddu eu meirw mòr fuan ag y byddai modd ar ol marw o honynt, Act. 5. 5, 10. Efallai i Lazarus gael ei gladdu ar y dydd y bu farw.

18 (A Bethania oedd yn agos i Jerusalem,
* ynghylch pymtheg ystâd oddi wrthi)

* Dwy filltir o fewn i ychydig, meddant: un ystad ychwaneg a wnaethai ddwy filltir gyfain.

19 * A llawer o'r Iuddewon a ddaethent at
Martha a Mair, e † i'w cysuro hwy am eu
brawd.

e Gen. 37. 35. 2 Sam. 10. 2. 1 Cron. 7. 21, 22. Job 2. 11. a 42. 11. Preg. 7. 2. Es. 51. 19. Jer. 16. 5—7. Galar. 1. 2, 9, 16, 21. a 2. 13. Rhuf. 12. 15. 2 Cor. 1. 4. 1 Thes. 4. 18. a 5. 11.

* Peth arferedig oedd hyn yn mhlith yr Iuddewon, ac mae yn dangos fod y teulu hwn yn barchus, ac yn cael eu caru gan eu cymmydogion: a thrwy hyn yr oedd y wyrth a wnaeth yr Iesu yn fwy cyhoeddus. † I'w cysuro hwynt ar ol eu brawd, nid i weddio dros ei enaid; nid oedd sôn am y fath arferiad anysgrythyrol y pryd hwnw. Galerid am y marw ddeng niwrnod ar hugain gynt, Gen. 50. 3; Num. 20. 29; Deut. 34. 8: llai, efallai, am bobl cyffredin; ond cedwid y ddefod am ryw hyd dros bawb.

20 * Yna Martha, f cyn gynted ag y clybu
hi fod yr Iesu yn dyfod, † a aeth i'w gyfarfod
ef; ‡ ond Mair a eisteddodd yn y tŷ.

f adn. 30. Mat. 25. 1, 6. Act. 10. 25. a 28. 15. 1 Thes. 4. 17.

* Mae yn debyg mai yn ddirgelaidd y daeth y gair at Martha, ac na wyddai Mair ddim am ddyfodiad Iesu, nes i'w chwaer fynegi iddi ar ol bod allan yn ymddiddan âg ef, adn. 28. † Yn adn. 30, gwelwn nad oedd yr Iesu wedi dyfod eto i'r dref, felly aeth Martha i gyfarfod âg ef allan o'r dref, at fedd ei brawd efallai; yr oedd yn naturiol i'r Iesu fyned yno, ac yr oedd claddfeydd yr Iuddewon allan o'r trefydd. Heblaw awydd Martha i weled yr Iesu, mae rhai yn tybied iddi frysio allan i'w gyfarfod, i'w rybuddio ef, fod llawer o Iuddewon yn y tŷ, fel y gwnelai efe ei ddewis ai dyfod i mewn ai peidio, i blith ei elynion. Mae ei gwaith yn galw ei chwaer yn *ddirgel*, adn. 28, braidd yn cadarnâu y dyb yna. ‡ Efallai bod galar Mair yn effeithio mwy arni, nac ar dymherau cryfach Martha.

21 * Yna y dywedodd Martha wrth yr
Iesu, Arglwydd, g pe buasit ti yma, ni buasai
farw fy mrawd.

g adn. 32, 37. pen. 4. 47—49. 1 Bren. 17. 18. Salm 78. 19, 20, 41. Mat. 9. 18. Luc 7. 6—10, 13—15. a 8. 49—55.

* Felly y dywedodd Mair hefyd, pan ddaeth at yr Iesu, adn. 32: yr oedd y ddwy yn bur dirion; nid oedd yma ddim gwgu a chyffro, dim edliw a beio, am na ddaethai yr Iesu yn gynt, dim ond dywedyd yn dawel yn eu dagrau, "Pe buasit ti yma, ni buasai farw fy mrawd." Ond ychydig oedd yr un o honynt hwy yn wybod am feddwl a bwriad yr Iesu mawr yn y tro hwn.

22 * Eithr mi a wn h hefyd yr awr hon, pa
bethau bynnag a ddymunech di gan Dduw, i y
dyry Duw i ti.

h adn. 41, 42. pen. 9. 30, 31. Marc 9. 23, 24. Heb. 11. 17—19.
i pen. 3. 35. a 5. 22—27. a 17. 2. Salm 2. 8. Mat. 28. 18.

* Yr oedd Martha yn dangos gwendid mawr yn ei ffydd yn yr adnod o'r blaen; gan nad oedd yn meddwl y gallasai yr Iesu iachâu ei brawd o'r màn yr oedd, heb ddyfod ato: yma mae yn dangos peth ffydd, ond yn gymmysgedig â gwendid eto; nid oedd yn meddwl y galiai Crist o'i nerth dwyfol ei hun wneuthur gwyrthiau, ond y rhoddai Duw iddo beth bynag a ddymunai: yr oedd yn credu ei fod ef yn brophwyd mawr, yn ddyn duwiol iawn, ac yn anwyl iawn gan Dduw; ond go brin y gallwn feddwl ei bod yn credu yn ngwir Dduwdod ein

Harglwydd y pryd hwn. "Pa bethau bynag:" adgyfodi ei brawd oedd y peth mwyaf ar ei meddwl hi, mae'n debyg, ond nid anturiai i grybwyll peth mòr fawr.

23 * Yr Iesu a ddywedodd wrthi, [k] Adgyfodir dy frawd drachefn.

k adn. 43, 44.

* Gwyddai ein Harglwydd bwys ei galar hi, ac yr oedd yn tosturio wrthi: gwyddai fod ganddi ychydig ffydd, ac yr oedd yn ewyllysio ei chryfâu: gwyddai mai cael ei brawd yn ol oedd ei dymuniad penaf, am hyny mae yn dywedyd fel hyn, "Adgyfodir dy frawd drachefn," heb roddi un egluràd ychwaneg âr y geiriau. Mae Crist yma yn dangos i ni, bod athrawiaeth yr adgyfodiad yn ddigon i'n cysuro yn ein galar ar ol perthynasau duwiol, ac y dylem ei defnyddio i hyny: diddenwch eich gilydd â'r ymadroddion hyn.

24 Dywedodd Martha wrtho, [l] * Myfi a wn yr adgyfodir ef yn yr adgyfodiad, y dydd diweddaf.

l pen. 5. 28, 29. Salm 17. 15. a 49. 14, 15. Es. 25. 8. a 26. 19. Ezec. 37. 1—10. Dan. 12. 2, 3. Hos. 6. 2. a 13. 14. Mat. 22. 23—32. Luc 14. 14. Act. 17. 31, 32. a 23. 6—9. a 24. 15. Heb. 11. 35.

* Gallwn weled yma mai nid athrawiaeth newydd yw athrawiaeth yr adgyfodiad; credodd Job hi, Job 19. 26, 27; cyhoeddodd Daniel hi, Dan. 12. 1; yr oedd y Phariseaid yn ei chredu, er fod y Saduceaid yn ei gwadu, Act. 23. 8; ac y mae Martha yma yn ei haddef fel pwno o'i chredo. Yr oedd hyn yn wir yn gysur mawr iddi; ond ar yr un pryd, yr oedd mewn galar mawr, o herwydd colli brawd mòr anwyl, yr hwn oedd nerth a gogoniant eu teulu, a'r hwn oedd i gadw enw y teulu i fynu yn Israel: Och ei fyned ef i'r bedd, ac na cheid ei weled mwy, na mwynâu ei gyfeillach hoff a buddiol!

25 Yr Iesu a ddywedodd wrthi, [m] * Myfi yw yr adgyfodiad, [n] † a'r bywyd: [o] ‡ yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw:

m pen. 5. 21. a 6. 39, 40, 44. Rhuf. 5. 17—19. a 8. 11. 1 Cor. 15. 20—26, 43—57. 2 Cor. 4. 14. Phil. 3. 10, 20, 21. 1 Thes. 4. 14, 15. Dat. 20. 5, 10—15. a 21. 4. n pen. 1. 4. a 5. 26. a 14. 6, 19. Salm 36. 9. Act. 3. 15. Rhuf. 8. 2. Col. 3. 3, 4. 1 Ioan 1. 1, 2. a 5. 11, 12. Dat. 22. 1, 17. o Job 19. 25—27. Luc 23. 43. Rhuf. 8. 10, 11, 38, 39. 1 Cor. 15. 18, 29. 2 Cor. 5. 1—8. Phil. 1. 23. 1 Thes. 4. 14. Heb. 11. 13—16.

* Yr oedd hyn yn wahanol iawn i dystiolaeth Martha, yn adn. 22, "Mi a wn..y dyry Duw i ti," ebai hi; "*Myfi yw* yr adgyfodiad a'r bywyd," ebai Iesu: bydded sicr i ti fod genyf fi fywyd ynof fy hun, ac y gallaf fywâu y neb a fynwyf, y modd a'r pryd y mynwyf. Yn mhob ystyr, Crist yw yr adgyfodiad; efe yw y gwreiddyn, neu y ffynon o hóno, ac efe yw y sylwedd, y blaenffrwyth, a'r achos effeithiol o hóno. † Efe hefyd yw ffynon, rhoddwr, a chynnaliwr bywyd; bywyd naturiol, ysbrydol, a thragywyddol: ac nis gall neb ei gael, yma nac yn yr adgyfodiad mawr, ond drwyddo ac o hóno ef. ‡ Yr hwn sydd yn credu ynddo ef, rhaid iddo farw fel rhyw un arall; ond er marw yn naturiol, efe a fydd byw, bydd ei enaid fyw yn y nef, er gorwedd o'i gorph yn y ddaear; a bydd ei gorph yn sicr o godi drachefn i fywyd anfarwol, trwy rinwedd ei undeb â Christ, yr adgyfodiad a'r bywyd.

26 [p] * A phwy bynnag sydd yn fyw, ac yn credu ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd. [q] † A wyt ti yn credu hyn?

p pen. 3. 15—18. a 4. 14. a 5. 24. a 6. 50, 54—58. a 8. 52, 53. a 10. 28. Rhuf. 8. 13. 1 Ioan 5. 10—12. q pen. 9. 35. a 14. 10. Mat. 9. 28. a 26. 53. Marc 9. 23.

* A phwy bynag sydd yn fyw yn awr ar y ddaear, yn credu ynof fi, ac wedi ei fywâu yn ysbrydol; ni bydd marw yn dragywydd: hyny yw, ni chaiff yr ail farwolaeth byth awdurdod arno mwy; ac ni chaiff ei gorph aros byth yn ystad y meirw, ond myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf. Neu fel hyn:—Yr hwn sydd yn fyw ac yn credu ynof fi, caiff angau ei ddiarfogi a'i draws-ffurfio yn y fath fodd, fel prin yr haedda yr enw angeu: caiff y rhan oreu o'r credadyn ei ddwyn yn union-gyrchol i fywyd anfarwol a gogoniant, ac ni chaiff y corph ond cysgu am ychydig yn y llwch, hyd oni ddelwyf fi i'w ddihûno ef i dragywyddol fywyd, nerth, a llawenydd. Tybir fod y golygiad olaf ar yr adnod ryfedd hon, yn gyson â'r ysgrythyrau canlynol, ac yn cael ei gadarnâu ganddynt, Ioan 5. 24; a 8. 51; 2 Tim. 2. 10; Heb. 2. 14; Ephes. 2. 6. Mae y cyferbyniad sydd rhwng yr adnod hon â'r adnod o'r blaen, yn dangos yn amlwg fod hòno yn sôn am rai oedd y pryd hwnw wedi marw, a hon am rai byw ac yn credu yn Nghrist. † A wyt ti yn credu yr hyn a ddywedais I am danaf fy hun, mai myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd? Ac, a wyt ti yn credu yr hyn a ddywedais I am y rhai a gredant ynof. Gallasai Iesu wneyd y wyrth heb ffydd Martha; ond eto, mae efe yma yn dangos yr angenrheidrwydd o ffydd o'n tu ni, ac yn rhoddi anrhydedd mawr ar weithrediad ffydd yn ei bobl.

27 Dywedodd hithau wrtho, [r] Ydwyf, Arglwydd: * yr wyf fi yn credu mai ti yw y Crist, Mab Duw, [s] † yr hwn sydd yn dyfod i'r byd.

r pen. 1. 49. a 4. 42. a 6. 69. a 9. 36—38. a 20. 28—31. Mat. 16. 16. Act. 8. 37. 1 Ioan 5. 1. s pen. 6. 14. Mal. 3. 1. Mat. 11. 3. Luc 7. 19, 20. 1 Tim. 1. 15, 16. 1 Ioan 5. 20.

* Dyma'r gyffes debycaf i gyffes Pedr, yn Matth. 16. 16, o'r un a gawn yn yr ysgrythyr: yn wir, mae yn gyflawnach na hòno; oblegid nid yw y geirian "yr hwn sydd yn dyfod i'r byd," yn nghyffes Pedr. Mae Martha yma yn proffesu ei llwyr grediniaeth yn Nghrist fel Messiah, Mab Duw; yr hwn a rag-ddangoswyd, y prophwydwyd am dano, ac a addawyd, y deuai i'r byd: o ganlyniad rhaid ei bod yn credu fod pob awdurdod a gallu dwyfol yn ei law ef. Efallai i ymadroddion Crist yn adn. 23—26, gryfâu llawer ar ei ffydd hi, rhagor y peth oedd pan ddechreuodd ymddiddan âg ef. † Am y geiriau hyn, gwel ar Matth. 11. 3.

28 Ac wedi iddi ddywedyd y pethau hyn, hi a aeth ymaith, [t] * ac a alwodd yn ddirgel ei chwaer Mair, gan ddywedyd, [u] † Fe ddaeth [x] yr Athraw, ‡ ac y mae yn galw am danat.

t pen. 10. 3. Can. 2. 8—14. Marc 10. 49. u adn. 20. pen. 1. 41, 45. Zec. 3. 10. Luc 10. 38—42. 1 Thes. 4. 17, 18. a 5. 11. Heb. 12. 12. x pen. 13. 13. a 20. 16.

* Sylwyd eisoes, ar adn. 20, ar y galw "dirgel" hwn: mae yn debyg bod Martha yn ofni, rhag i'r Iuddewon oedd yn y tŷ, ac yn elynion i Grist, wybod ei fod ef wedi dyfod i'r dref, am hyny galwodd ei chwaer yn ddirgel. Neu, efallai ei bod yn dewis na chaent hwy weled beth a wnâi yr Iesu i Lazarus. † Yr athraw: felly y galwai yr Iuddewon eu hoff ddysgawdwyr, ac yr oedd Mair yn gwybod yn ddiammau yn y fàn, pwy oedd ei chwaer yn ei feddwl. ‡ Wrth hyn gallwn feddwl fod chwaneg o ymddiddan rhwng Crist â Martha nag a adroddir yma, ni soniodd yr efengylwr o'r blaen ei fod yn galw am Mair. Mae y pethau mwyaf, a'r pethau a berthynant i'n hiachawdwriaeth ni, wedi eu hadrodd.

29 * Cyn gynted [y] ag y clybu hi, hi a gododd yn ebrwydd, ac a ddaeth atto ef.

y Salm 27. 8. a 119. 59, 60. Diar. 15. 23. a 27. 17. Can. 3. 1—4.

* Clywsom o'r blaen (Luc 10. 38—42,) am gariad Mair at Grist, a'i pharodrwydd i wrando arno; ond yr oedd ei galar presenol, a'i gobaith o adferiad ei brawd i fywyd, megys yn rhoddi adenydd iddi, am hyny dywedir iddi godi yn ebrwydd, a myned ato.

30 [z] * (A'r Iesu ni ddaethai etto i'r dref, ond yr oedd efe yn y man lle y cyfarfuasai Martha âg ef)

z adn. 20.

31 [a] Yna yr Iuddewon y rhai oedd gyd â hi yn y tŷ, ac yn ei chysuro hi, pan welsant Mair yn codi ar frys, ac yn myned allan, a'i

hlynasant hi, gan ddywedyd, [b] † Y mae hi
n myned at y bedd, i wylo yno.
a adn. 19. b Gen. 37. 35. 2 Sam. 12. 16—18. 1 Cor. 2. 15.

32 Yna Mair, pan ddaeth lle yr oedd yr
su, a'i weled ef, [c] ‡ a syrthiodd wrth ei
ed ef, gan ddywedyd wrtho, ‖ Arglwydd,
e buasit ti yma, ni buasai fy mrawd farw.
c Luc 5. 8. a 8. 41. a 17. 16. Dat. 5. 8, 14. a 22. 8. d adn. 37.

[d] Gwel ar adn. 20. Mawr oedd gostyngeiddrwydd
u, yn aros yno i ddysgwyl am Mair a Martha. Aros-
i yno fel y byddai yn barod i wneyd y wyrth: ac
osodd yno, yn hytrach na dyfod yn gyntaf i'r dref,
y gwnelai hi yn ddirgel; neu, o leiaf, fel nad ym-
ngosai ei fod am i liaws o bobl ei weled. Nid
ld efe am gânu udgorn o'i flaen, nac am beri clywed
lef yn yr heolydd, ar achlysuron fel hyn. † Dywedir
i peth arferedig iawn yn mhlith yr henafiaid a fydd-
myned at feddau eu perthynasau i wylo. ‡ Pa un
nag a ydoedd y syrthio hyn wrth draed yr Iesu, yn
yyddo gwir grediniaeth ynddo fel Duw, a gwir addol-
l dwyfol iddo, ai peidio, nis gwyddom; mae yn sicr
fod yn dangos mawr drallod meddwl Mair, fel Job
syrthio ar y ddaear, ac yn arwyddo ei mawr barch
i'r Iesu, yn nghyd a'i hymddiried a'i gobaith, yr
ferai efe ei brawd i fywyd. ‖ Sylwyd ar y geiriau
n o'r blaen, yn adn. 21.

33 * Yr Iesu gan hynny, pan welodd hi
n wylo, [e] a'r Iuddewon y rhai a ddaethai gyd
hi yn wylo, [f] † a riddfanodd yn yr yspryd,
a gynhyrfwyd;
e Rhuf. 12. 15. f adn. 38. pen. 12. 27. Marc 3. 5. a 9. 19. H. 33—35. Heb. 4. 15. a 5. 7, 8.

[e] Gwelwn yma brawf o wirionedd geiriau yr apostol,
Nid oes i ni arch-offeiriad heb fedru cyd-ddyoddef
gwendidau ni." Dyma'r Iesu sanctaidd yn wylo
ewn cydymdeimlad â'r rhai oedd yn wylo; yn eu holl
studd hwynt efe a gystuddiwyd. Ond gan fod ganddo
berffaith lywodraeth ar ei deimladau, a chan y
yddai efe y cyfodai Lazarus yn mhen ychydig fynyd-
; tybia rhai mai gollwng ei deimladau yn wirfoddol,
wnaeth efe y pryd hwn, ac nid cael ei orchfygu gan-
ynt fel y bydd dynion yn cael: ond y mae eraill o
n wrthwyneb, ac yn tybied nas gallasai, a'i ystyried
dyn, attal y teimladau hyny. Ymgynhyrfodd Iesu,
edd *Guyse*, gan alar tosturiol ac anfoddlonrwydd wrth
allod gormodol Mair yn ei bresenoldeb ef, ac wrth
ndid ei ffydd; ac ymgynhyrfodd mewn gradd o ddig-
mrwydd wrth anghrediniaeth a chalon-galedwch ei
yfeillion, ac o dosturi dynol wrth feddwl am y trueni
ldeuai arnynt, y rhai a wyddai efe eu bod yn elynion
eulawn iddo ef, er eu bod yn dangos cymmaint o
nerwch a thosturi tuag ati hi. † Dywed yr un gwr fod
geiriau a gyfieithir yma *griddfanu yn yr ysbryd*, yn
wyddo galaru neu ocheneidio gan ddigter a soriant.

34 * Ac a ddywedodd, [g] Pa le y dodasoch
wi ef? † Hwy a ddywedasant wrtho, Ar-
wydd, tyred a gwel.
g pen. 1. 39. a 20. 2. Mat. 28. 6. Marc 15. 47. a 16. 6.

35 [h] ‡ Yr Iesu a wylodd.
h adn. 33. Gen. 43. 30. Job 30. 25. Salm 35. 13—15. a 119. . Es. 53. 3. Jer. 9. 1. a 13. 17. a 14. 17. Galar. 1. 16. Luc 19. Rhuf. 9. 2, 3. Heb. 4. 15.

[g] Fel na chaffai neb le i feddwl fod unrhyw gyngrair
aenorol rhyngddo ef â'r chwaeriorydd, efe a ofynodd,
Pa le y dodasoch chwi ef?" † Diammau fod gan y
waeriorydd hyn ryw obaith gwàn y gwnâi efe adgyf-
i eu brawd, wrth ei glywed yn gofyn, Pa le y dodas-
h chwi ef: ond credu mewn gobaith yn erbyn gobaith
oedd. ‡ Nid yw wylo ynddo ei hunan yn bechod,
d teimlad naturiol, ag oedd yn gweddu i Grist yn
igon addas, gan iddo gymmeryd ein natur ni, a holl
ndidau dibechod ein natur. Heblaw y pethau a enw-
dàn adnod 33, efallai iddo wylo yma wrth weled y fath ddifrod oedd angau wedi wneyd ar ddynolryw mewn canlyniad i bechod. Yn mhlith y beddau yr oedd yn awr.

36 * Am hynny y dywedodd yr Iuddewon,
[i] Wele, fel yr oedd yn ei garu ef.
i pen. 14. 21—23. a 21. 15—17. 2 Cor. 8. 8, 9. Eph. 5. 2, 25. 1 Ioan 3. 1. a 4. 9, 10. Dat. 1. 5.

* Mae cariad yn ei ddangos ei hun mewn hyfrydwch yn y gwrthddrych, tra y byddo genym; ac hefyd yn y galar am dano, pan y collom ef: felly yr oedd yr Iuddewon yn barnu yn ddigon cywir yma, fod Iesu yn caru Lazarus yn fawr, wrth weled ei ddagrau am dano; ond ychydig oeddynt yn feddwl fod eu pechodau, a'u barn hwy, yn achos o'i ddagrau hefyd.

37 * Eithr rhai o honynt a ddywedasant,
[k] Oni allasai hwn, yr hwn a agorodd lygaid y
dall, beri na buasai hwn farw chwaith?
k pen. 9. 6, 7. Salm 78. 19, 20. Mat. 27. 40—42. Marc 15. 32. Luc 23. 35, 39.

* Mae un gwr dysgedig yn galw *Duchan cythreulig* ar y geiriau hyn; tebyg i'r hyn a ddywedodd rhai o honynt am Iesu pan oedd ar y groes, "Efe a waredodd eraill, ei hunan nis gall efe ei waredu." Fel pe dywedasent, Os agorodd hwn lygaid un a anesid yn ddall, fel y dywedir iddo wneyd, oni allasai efe yn ddigon hawdd ragflaenu marwolaeth ei gyfaill hwn mae efe yn galaru cymmaint ar ei ol? Efe a wnaethai yn ddiammau, pe gallasai; gan hyny ni a allwn benderfynu nad oedd y chwedl hòno ddim ond twyll, ac nad oedd dim gwirion-edd ynddi. Neu, efallai mai fel hyn yr oeddynt yn meddwl:—Mae yn rhyfedd iawn iddo ef agoryd llygaid un ag oedd yn hollol ddieithr iddo, a pheidio ag attal marwolaeth cyfaill anwyl ac agos iddo: ai ar ryw amserau y mae efe yn gallu gwneyd gwyrthiau, ac nid y pryd, ac ar y neb, y mỳno efe ei hun?

38 * Yna yr Iesu drachefn [l] a riddfanodd
ynddo ei hunan, ac a ddaeth at y bedd.
[m] † Ac ogof oedd, ‡ a maen oedd wedi ei
ddodi arno.
l adn. 33. Ezec. 9. 4. a 21. 6. Marc 8. 12. m Gen. 23. 19, 20. a 49. 29—31. Es. 22. 16. Mat. 27. 60, 66.

* Rhoddasom feddwl y griddfan hwn yn yr ysbryd dàn adn. 33: yma griddfanodd yr Iesu mewn soriant, wrth yr ymddiddan gwatwarllyd uchod o eiddo yr Iuddewon, yn gystal ag o wir alar am farwolaeth Lazarus, a thrallod ei ddwy chwaer. † Efallai bod yr arferiad o gladdu fel hyn mewn ogofau wedi cael ei chymmeryd oddi wrth gladdu Abraham, Isaac, a Jacob, a'u gwragedd, mewn ogof yn Macpelah. (Gen. 49. 29, 30, 31.) Yr oedd yr ogofau hyn i bobl o enwogrwydd, megys yr oedd Lazarus, mae'n debyg, yn gyffredin mewn creigiau, y rhai oedd yn aml iawn yn y wlad hòno. Yn rhai o honynt yr oedd ogofau naturiol i'r perwyl hwn, ac eraill wedi eu gwneyd felly drwy gelfyddyd, megys yr oedd bedd Joseph o Arimathea, lle rhoddwyd corph ein Harglwydd i orwedd, Matth. 27. 60. ‡ Byddai drysau, neu byrth y beddau hyn yn cael eu cauad â chareg fawr, ac weithiau bedd-argraff arni. Cymmer y cyfieithydd ei genad i ddywedyd, mai yn y gladdfa newydd yn Llynlleifiad, y gellir cael y darluniad gorau o'r beddau hyn yn mhlith yr Iuddewon.

39 * Yr Iesu a ddywedodd, Codwch ymaith
y maen. † Martha, chwaer yr hwn a fuasai
farw, a ddywedodd wrtho, [n] Arglwydd, y mae
efe weithian yn drewi: ‡ herwydd y mae *yn*
farw er ys pedwar diwrnod.
n adn. 17. Gen. 3. 19. a 23. 4. Salm 49. 9, 14. Act. 13. 36, 37. Phil. 3. 21.

* Gallasai yr Iesu orchymyn i'r maen dreiglo ymaith â gair ei enau; ond nid oedd yn ewyllysio gwneuthur gwyrth afreidiol. Gallasai orchymyn i Lazarus ddyfod allan heb dreiglo y maen ymaith, ond buasai hyny yn edrych yn fwy fel drychiolaeth nac adgyfodiad. Gan hyny gorchymynodd i rywrai oedd yn sefyll yno dreiglo

y maen ymaith, fel y gallai pawb weled y corph marw a'i arogli hefyd, fel y byddai pawb yn sicr nad oedd yno ddim twyll. Dywed *Maundrell*, yn ei *Daith i Jerusalem*, y dangosir bedd Lazarus o hyd, a bod pump ar hugain o risiau yn myned i lawr iddo, y rhai a arweiniant i ddwy ystafell fechan, yn y bellaf o ba un, meddynt, y gorweddai Lazarus: ond nid oes fawr o goel ar hen chwedlau felly. † Ychydig oedd Martha yn feddwl, bod ein Harglwydd yn bwriadu adgyfodi Lazarus: am hyny mae hi braidd yn anfoddlawn i godi y maen ymaith, gan nad oedd na golwg nac arogl y corph marw yn ddymunol, ond yn annymunol iawn, wedi bod yn farw er ys pedwar niwrnod. ‡ Tri diwrnod, neu ddeuddeg awr a thriugain yn ol tyb yr Iuddewon, oedd yr hwyaf y gallai corph marw fod heb ddechreu ofi, neu droi i lygredigaeth: cododd Iesu cyn hyny, fel na weloddd lygredigaeth; ac a adgyfododd Lazarus wedi hyny, er gweled o hóno lygredigaeth.

40 * Yr Iesu a ddywedodd wrthi, [o] Oni ddywedais i ti, pes credit, [p] † y cait ti weled gogoniant Duw?

o adn. 23—26. 2 Cron. 20. 20. Rhuf. 4. 17—25. p adn. 4. pen. 1. 14. a 9. 3. a 12. 41. Salm 63. 2. a 90. 16. 2 Cor. 3. 18. ■ 4. 6.

* Mae yr adnod hon eto yn dangos i ni, i'r Arglwydd Iesu ddywedyd mwy i Martha nac a adroddodd Ioan yn yr adnodau blaenorawl. Yma mae Crist yn ei cheryddu hi yn dirion, am ei hanghrediniaeth, ac ar yr un pryd yn cryfâu ei ffydd hi. Oni ddywedais i ti, ebai efe, cred yr hyn a ddywedais I. † Gweled gallu Duw yw gweled ei ogoniant ef, yr hyn a gafodd Martha yn adgyfodiad ei brawd.

41 Yna y codasant y maen lle yr oedd y marw wedi ei osod. [q] * A'r Iesu a gododd *ei* olwg i fynu, ac a ddywedodd, [r] Y Tad, † yr wyf yn diolch i ti am i ti ‡ wrando arnaf.

q pen. 17. 1. Salm 123. 1. Luc 18. 13. r Mat. 11. 25. Luc 10. 21. Phil. 4. 6.

* Taerai yr Iuddewon yn aml mai trwy Beelzebub, penaeth y cythreuliaid, yr oedd Iesu yn gwneyd ei wyrthiau; gan hyny efe a welodd fod yn dda yn y wyrth ryfeddol hon, godi ei olwg i fynu, a chyfeirio at Dduw y nefoedd, fel ei Dad: fel hyny yr oedd yn dangos yn anwadadwy, mai trwy nerth oddi uchod yr oedd yn ei gwneyd; a bod y Tad yn dwyn tystiolaeth iddo, ac i'r holl bethau oedd efe yn eu dywedyd am ei fawredd a'i awdurdod ei hun, y rhai a farnai yr Iuddewon yn gabledd. † Tybir mai diolch i'r Tad am y cyfle hwn i ddangos ei allu mawr, y mae Crist yma, ac nid am ei alluogi efe i godi Lazarus: nid oes yn yr holl bennod air o sôn ei fod yn gweddio am hyny; ac nid oedd raid, yr oedd y gallu hwnw yn hanfodol ynddo fel Duw, ac efe a'i dangosodd fel Arglwydd mawr y bywyd. ‡ Mae gwahaniaeth mawr rhwng y Tad yn gwrando Crist â gwrando dynion: mae Crist a'r Tad o'r un hanfod, yr un natur, ac un ewyllys.

42 [s] * Ac myfi a wyddwn dy fod di yn fy ngwrando bob amser: † [t] eithr er mwyn y bobl sydd yn sefyll o amgylch, y dywedais, [u] ‡ fel y credont [x] mai tydi a'm hanfonaist i.

s adn. 22. pen. 8. 29. a 12. 27, 28. Mat. 26. 53. Heb. 5. 7. a 7. 25. t adn. 31. pen. 12. 29, 30. u adn. 45—50. pen. 9. 24—34. a 10. 37, 38. a 20. 31. Mat. 12. 22—24. x pen. 3. 17. a 6. 38—40. a 7. 28, 29. a 8. 16, 42. a 10. 36. a 17. 8, 21, 25. Rhuf. 8. 3. Gal. 4. 4. 1 Ioan 4. 9, 10, 14.

* Mi a wyddwn dy fod di bob amser yn ewyllysio y pethau hyny yr wyf finnau yn eu hewyllysio; ac nid wyf fi yn ewyllysio dim ond y pethau yr wyt ti yn eu hewyllysio, ac y danfonaist fi i'r byd i'w gwneuthur: gan hyny nis gallwn ammau dy barodrwydd gwastadol di i wrando arnaf; ïe, nid oes achos i mi ofyn, † diolch yr wyf fi er mwyn y bobl sydd yn sefyll yma, y rhai a gredant dy fod di yn wir Dduw, ac yn hollalluog, ond ni chredant hyd yn hyn mai dy Fab ydwyf fi, wedi fy nanfon i'r byd genyt ti. ‡ Yr wyf yn diolch i ti am y cyfle hwn, i roddi un prawf yn chwaneg iddynt, ac fel y credont mai tydi a'm hanfonaist I, ac fel y byddo y rhai ni chredont yn ddiesgus.

43 * Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a lefodd â llef uchel, [y] Lazarus, tyred allan.

y 1 Bren. 17. 21, 22. 2 Bren. 4. 33—36. Marc 4. 41. Luc 7. 14, 15. Act. 3. 6, 12. a 9. 34, 40.

* Gwedi dywedyd y pethau uchod ar gyhoedd a chlyw pawb wrth ei Dad, mae efe yn troi ei wyneb tua'r bedd, ac yn dywedyd â llef uchel, (nid mwngial geiriau annealladwy fel y swynyddion,) "Lazarus, tyred allan!" clywodd a deallodd pawb y geiriau, ac yn y fàn cafodd pawb weled, fod gallu dwyfol, nerth anfeidrol Duw, wedi myned gyda'r geiriau.

44 [z] * A'r hwn a fuasai farw a ddaeth allan, [a] yn rhwym ei draed a'i ddwylaw mewn amdo: † a'i wyneb oedd wedi ei rwymo â napcyn. ‡ Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, [b] Gollyngwch ef yn rhydd, a gadewch iddo fyned *ymaith.*

z adn. 25, 26. pen. 5. 21, 25. a 10. 30. Gen. 1. 3. 1 Sam. 2. 6. Salm 33. 9. Ezec. 37. 3.—10. Hos. 13. 14. Phil. 3. 21. Dat. 1. 18. a pen. 20. 5. b adn. 39. Marc 5. 43. Luc 7. 15.

* Gan i Lazarus ddyfod allan yn rhwym ei draed a'i ddwylo, rhaid mai yn wyrthiol y daeth efe allan o'r bedd, yn gystal ag y bywâwyd ef yn y bedd: yn enwedig os oedd grisiau i ddyfod i fynu fel y soniwyd, adn. 39. † Os yr un modd a'r Aiphtiaid y byddai yr Iuddewon yn rhwymo eu cyrph meirw, nid oedd y napcyn hwn ond amgylchu y talcen a thàn yr ên, felly gallai Lazarus ar ol ei fywâu, weled ei ffordd allan o'r bedd. Ond tybia rhai y byddai yr Iuddewon yn gorchuddio y gwyneb oll, fel na welid ei erchyllder. ‡ Nid oedd Iesu yn chwennychu gwneyd dim gwyrthiol yn afreidiol, am hyny mae yn peri i'r bobl ei ryddâu ef o'i amdo, a diau bod yno lawer yn ddigon ewyllysgar i wneyd hyny, ar ol i'w braw a'u syndod ar y cyntaf fyned drosodd. Ni wiw ceisio darlunio teimladau y dorf, yn enwedig Mair a Martha, a Lazarus ei hun, ar y mynydau hyny.

45 * Yna llawer o'r [c] Iuddewon, y rhai a ddaethent at Mair, ac a welsant y pethau a wnaethai yr Iesu, a gredasant ynddo ef.

c adn. 19, 31. pen. 2. 23. a 10. 41, 42. a 12. 9—11, 17—19, 42.

* Ar ol gweled pethau mòr rhyfedd e gredodd llawer yn Iesu, mai y Messiah oedd efe, a rhyfedd iawn na buasai pawb yn credu. Ofer yw i ni geisio barnu pa fath gredu oedd hwn, pa un a oedd yn gredu gwirioneddol a chadwedigol, yn Iesu fel Mab Duw a Gwaredwr pechaduriaid, ai ynte dim ond credu ynddo fel Messiah tymhorol yn unig. Sonia yr efenglwyr yn aml am bob un o'r ddau fath hyn o gredu yn Iesu.

46 [d] * Eithr rhai o honynt a aethant ymaith at y Phariseaid, ac a ddywedasant iddynt y pethau a wnaethai yr Iesu.

d pen. 5. 15, 16. a 9. 13. a 12. 37. Luc 16. 30, 31. Act. 5. 25.

* Wele yma brawf gweithredol o wirionedd y geiriau mae Crist yn roddi yn ngenau Abraham, yn nammeg y goludog a Lazarus, Luc 16. 31: dyma un wedi ei godi oddiwrth y meirw, a Lazarus ei enw hefyd, ond dyma ddynion heb gredu er hyny. Ac nid heb gredu yn unig; ond yn eu caledrwydd a'u gelyniaeth yn myned ymaith at y Phariseaid i hysbysu y wyrth iddynt hwy, fel y defnyddient ryw foddion i attal clod a phoblogrwydd Iesu.

47 ¶ [e] * Yna yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid a gasglasant gynghor, ac a ddywedasant, [f] † Pa beth yr ydym ni yn ei wneuthur? canys y mae y dyn yma yn gwneuthur llawer o arwyddion.

e Salm 2. 2—4. Mat. 26. 3. a 27. 1, 2. Marc 14. 1. Luc 22. 2. Act. 4. 5, 6, 27, 28. a 5. 21. f pen. 12. 19. Act. 4. 16, 17. a 5. 24.

* Hyny yw, galwasant aelodau y Sanhedrim yn

yyd, i ymgynghori yn erbyn yr Arglwydd, ac yn erbyn
Grist ef, fel y dywedasai Dafydd, Salm 2. 2.
wyrthiau Crist oedd y pethau oedd yn eu blino, ac
oeddynt yn beio arnynt eu hunain am ei oddef ef
yd, ac yn awr yn penderfynu arfer rhyw foddion mwy
ithiol pe buasai hyny farwolaeth, (adn. 50, 53,) i
idi terfyn ar ei wyrthiau ef. Prin y gellir dychym-
gu dangosiad mwy amlwg o gynddeiriogrwydd calon
, a'i elyniaeth ofnadwy yn erbyn Duw, nag a gawn
yr hanes hwn: ni fynai penaethiaid yr Iuddewon eu
gyhoeddi na'u dychrynu, er gweled y fath brawf
wg o allu rhyfeddol ein Harglwydd; yr hwn a aliasai
distrywio hwy yn gystal âg adgyfodi Lazarus, pe
lsai yn dda. Yn lle credu ynddo, maent yn ceisio
add: yn lle iawn ddefnyddio ei wyrthiau er credu i
hawdwriaeth eu heneidiau, maent yn eu camddef-
ldio i'w dinystr eu hunain.

48 g * Os gadawn ni ef fel hyn, h pawb a
edant ynddo; i † ac fe ddaw y Rhufeiniaid
a ddifethant ein lle ni a'n cenedl hefyd.

g Act. 5. 28, 38—40. h pen. 1. 7. Luc 8. 12. a 11. 52.
hes. 2. 15, 16. i Deut. 28. 50—68. Dan. 9. 26, 27. Zech. 13.
. a 14. 1, 2. Mat. 21. 40—42. a 22. 7. a 23. 35—38. a 27. 25.
19. 41—44. a 21. 20—24. a 23. 28—31.

* Os gadâwn ni ef i fyned yn mlaen fel hyn, efe a â
r enwog, fel y cred pawb mai efe yw y Messiah,
enin yr Iuddewon; a pha beth fydd y canlyniad?
Wele, y Rhufeiniaid a glywant yn sicr, ein bod ni yn
yned i osod brenin o'n heiddo ein hunain i fynu, ac a
gynddeiriogant i'n herbyn gymmaint, fel yr ymddi-
dant ni yn llwyr, o'r ychydig freintiau gwladol ac
dwysig maent wedi ei adael i ni. Ac nid hyny yn
ig, ond hwy a ddeuant ac a ddistrywiant ein dinas
a teml ni, ac a'n dyfethant ninnau fel cenedl oddi ar
neb y ddaear. Rhaid i'r darllenydd ystyried, fod yr
iddewon dàn lywodraeth y Rhufeiniaid y pryd hwn,
y gallo ddeall yr adnod uchod yn iawn. Yr oedd y
ngor hwn yn ymresymu yn ddigon call, pa un a oedd-
t yn ofni y canlyniad a grybwyllent ai peidio, mewn
irionedd: ac fel y dywedasant uchod y daeth iddynt
hollawl wedi hyny, drwy wrthryfela yn erbyn y
nufeiniaid, a cheisio gosod ffug-fessiah i fynu yn
enin. Ond barn Duw ydoedd am wrthod a chroes-
elio y gwir Fessiah.

49 A *rhyw* un o honynt, k * Caiaphas, † yr
wn oedd arch-offeiriad y flwyddyn honno, a
dywedodd wrthynt, l Nid ydych chwi yn
wybod dim oll,

k pen. 18. 13, 14. Luc 3. 2. Act. 4. 6. l pen. 7. 48, 49. Diar.
. 12. Es. 5. 20—23. 1 Cor. 1. 20. a 2. 6. a 3. 18, 19.

* Mae yn debyg mai Saduceaid talgryf, rhyfygus, ac
nnuwiol, oedd y Caiaphas hwn: (Gwel Act. 4. 6; a 5.
,) dyn anghymmwys iawn i fod yn arch-offeiriad
uw. † Yn ol gosodiad Duw, y mab hynaf o deulu
aron oedd i fod yn arch-offeiriad, a hyny am ei oes,
d am flwyddyn: ond yn awr yr oedd pob peth allan o
refn yn mhlith yr Iuddewon, yr oeddynt dàn awdurdod
Rhufeiniaid; a lleoedd, a swyddau, yn enwedig yr
rch-offeiriadaeth, yn cael eu prynu a'u gwerthu yn y
odd mwyaf llygredig ac anghyfiawn. O amser Herod
dan nid oedd dim cyfrif yn cael ei wneyd o deulu
aron, ond gwnai y Rhufeiniaid arch-offeiriaid o'r neb
fynent. Dywed *Josephus* na bu gan yr Iuddewon ond
3 o arch-offeiriaid o Aaron hyd Solomon, yr hyn oedd
12 o flynyddoedd; dim ond 18 o hyny hyd gaethiwed
abilon, 460 o flynyddoedd; na dim ond 15 o hyny
yd amser Antiochus, yr hyn oedd 414 o flynyddoedd:
ad o ddechreu teyrnasiad Herod hyd ddinystr Jerusa-
m, yr hyn nid oedd o hwyaf uwch cant ac ugain
lynedd, bu 28 o arch-offeiriaid, a'r Caiaphas annuwiol
wn oedd un o honynt, ac mai efe fel arch-offeiriad
edd blaenor a llywydd y Sanhedrim neu y cyngor yn
erusalem.

50 m * Nac yn ystyried, † mai buddiol yw
i ni, farw o un dyn dros y bobl, ac na ddifether
yr holl genedl.

m adn. 48. pen. 18. 14. a 19. 12. Rhuf. 3. 8.

* Mae yn debyg fod y Sanhedrim mewn cyfyng-gyng-
or, ac yn methu a dyfod i benderfyniad, pa beth i
wneyd i'r Iesu: efallai, bod Nicodemus, a Joseph o
Arimathea, yno, yn cymmeryd ei blaid ef ac yn dadlau
nad oedd efe wedi gwneuthur dim allan o'i le, ac fel hyny
yn dyrysu eu hamcanion hwy. Wrth eu gweled felly,
dyma y Caiaphas annuwiol hwn yn codi i fynu, ac yn
llawn cyfrwysder a llid, yn gystal ag ymchwydd trahaus,
yn dywedyd wrthynt oll, Ni wiw i chwi oedi a phetruso
fel yna, mi a welaf nad ydych chwi yn gwybod dim oll,
nac yn ystyried, pa beth sydd angenrheidiol ar achos o
gymmaint pwys a pherygl: † pa un bynag a ydyw yr
Iesu hwnw yn haeddu marw neu beidio, mae yn well i
ni ei roddi ef i farwolaeth, iawn neu gam, nag i'r holl
genedl gael eu difetha fel y soniwyd. Mae yn amlwg
nad oedd y Saducead hwn yn gofalu dim am y canlyn-
iad o roddi dyn diniwed i farwolaeth, gan nad oedd yn
credu bod barn.

51 * Hyn ni ddywedodd efe o hono ei
hun: ‡ eithr, n *ac* efe yn arch-offeiriad y
flwyddyn honno, o efe a brophwydodd p y
byddai yr Iesu farw dros y genedl;

n Ex. 28. 30. Barn. 20. 27, 28. 1 Sam. 23. 9, 10. a 28. 6.
o Num. 22. 28. a 24. 2, 14—25. Mat. 7. 22, 23. 1 Cor. 13. 2. 2 Pedr
2. 15—17. p pen. 10. 15. Es. 53. 5—8. Dan. 9. 26. Mat. 20. 28.
Rhuf. 3. 25, 26. 2 Cor. 5. 21. Gal. 3. 13. a 4. 4, 5. 1 Pedr 2. 24. a
3. 18.

* Cyn belled ag yr oedd y geiriau yn brophwydoliaeth,
ni lefarodd efe o hóno ei hun; ond cymmerwn y gei-
riau yn yr ystyr oedd gan Caiaphas iddynt, yr oedd yn
eu llefaru o hóno ei hun. Ei feddwl ef oedd rhoddi
Iesu i farwolaeth fel na ddyfethid yr holl genedl gan y
Rhufeiniaid; ond defnyddiodd Duw ei enau ef, fel
genau Balaam gynt, i brophwydo y lleddid y Messiah y
flwyddyn hòno: felly ni a welwn fod dau feddwl i'r
geiriau, meddwl Caiaphas a meddwl Duw, a Ioan yn
rhoddi i ni feddwl Duw o honynt. † Gwelodd Duw fod
yn dda i ddefnyddio Caiaphas i lefaru hyn, efallai, er
rhoddi anrhydedd ar yr arch-offeiriadaeth, er mai dyn
drwg oedd yn y swydd, ac hefyd fel y byddai mwy o
sylw yn cael ei wneyd o'r geiriau, gan eu bod yn cael
eu llefaru gan arch-offeiriad.

52 q * Ac nid dros y genedl yn unig,
r † eithr fel y casglai efe ynghyd yn un s blant
Duw hefyd t y rhai a ‡ wasgarasid.

q pen. 1. 29. a 12. 32. Salm 22. 15, 27. a 72. 19. Es. 49. 6. Luc
2. 32. 1 Ioan 2. 2. Dat. 5. 9. a 7. 9, 10. r pen. 10. 16. Gen. 49.
10. Salm 102. 22, 23. Es. 11. 10—12. a 49. 18. a 55. 5. a 56. 8. a
60. 4. Mat. 25. 31—34. Eph. 1. 9, 10. a 2. 16—22. Col. 1. 20—23.
s Hos. 1. 10. Act. 18. 10. Rhuf. 4. 17. a 8. 29, 30. a 9. 25, 26. Eph.
1. 5. a 3. 11. 2 Thes. 2. 13, 14. t Ezec. 11. 16, 17. a 34. 12.
Iago 1. 1. 1 Pedr 1. 1.

* Nid marw yn aberth, i wneyd iawn dros y genedl
Iuddewig, oedd meddwl Caiaphas; eithr marw fel na
ddyfethid y genedl gan y Rhufeiniaid, yn yr ystyr a
sylwyd dàn adn. 48. Ond yma mae Ioan yn adrodd y
geiriau i ni yn ol y meddwl oedd gan yr Ysbryd Glân o
honynt; y byddai yr Iesu farw yn iawn, ac aberth, dros
bawb a gredent ynddo ef o'r genedl Iuddewig, hyd ddi-
wedd y byd. † Ac nid dros gredinwyr o'r genedl Iudd-
ewig yn unig, ond dros eraill hefyd o bob cenedl dàn y
nef, cynnifer a gredant ynddo yn wirioneddol. Bu
Iesu farw dros holl blant etholedig Duw o bob cenedl,
ac efe a'u casgla hwynt ato trwy yr efengyl, fel y byddo
un gorlan ac un bugail. Gwel Dat. 5. 9. ‡ Wrth fod
y gair hwn yn y gorphenol, neu a aeth heibio, mae yr
efengylwr yn ysgrifenu fel un ag oedd wedi byw i wel-
ed cyflawniad o'r brophwydoliaeth, i ryw raddau, yn
llwyddiant yr efengyl yn mhlith y cenedloedd.

53 u * Yna o'r dydd hwnnw allan x y cyd-
ymgynghorasant fel y y lladdent ef.

u Neh. 4. 16. a 13. 21. Salm 113. 2. Mat. 16. 21. a 22. 46

x adn. 47. Salm 2. 2. a 31. 13. a 71. 10. Marc 3. 6. Act. 5. 33. a 9. 23. y pen. 12. 10. Jer. 38. 4, 15. Mat. 26. 59. Marc 14. 1.

* Trôdd Caiaphas annuwiol y glorian yn hollawl yn y cyngor, ac o'r dydd hwnw allan penderfynasant ladd yr Iesu diniwed, dàn rith eu bod mewn perygl oddi wrth y Rhufeiniaid oni wnaent hyny, ond mewn gwirionedd eu gelyniaeth hwy ato oedd yr achos. Cymmerent gyngor yr arch-offeiriad fel pe buasai yn anffaeledig oddi wrth Dduw, a chyd-ymgyngorasant yn barâus o hyny allan pa fodd y lladdent Iesu.

54 z * Am hynny ni rodiodd yr Iesu mwy yn amlwg ym mysg yr Iuddewon; a ond efe a aeth oddi yno i'r wlad yn agos i'r anialwch, † i ddinas a elwir b Ephraim, ac a arhosodd yno gyd â'i ddisgyblion.

z pen. 4. 1—3. a 7. 1. a 10. 40. a pen. 7. 4, 10, 13. b 2 Sam. 13. 23. 2 Cron. 13. 19.

* Gwyddai yr Iesu eu penderfyniad hwy, ac am nad oedd ei amser ef wedi cwbl ddyfod i fynu eto, mae yn arfer moddion i'w ddiogelu ei hun. † Yr oedd yr Ephraim yma yn lle mòr ddistadl, fel mae yn ansicr pa le yr oedd yn sefyll, na pha un ai Ephratah, yn llwyth Judah, ydoedd, ai ynte Ephraim, yn llwyth Benjamin. Pa un bynag oedd, mae yn debyg ei bod ar gyffiniau diffeithwch Judea.

55 ¶ c * A phasc yr Iuddewon oedd yn agos: † a llawer a aethant o'r wlad i fynu i Jerusalem d o flaen y pasc, e i'w glanhâu eu hunain.

c pen. 2. 13. a 5. 1. a 6. 4. Ex. 12. 11, &c. d pen. 7. 8—10. a 12. 1. Ezra 3. 1, &c. Neh. 8. 1, &c. e pen. 2. 6. Gen. 35. 2. Ex. 19. 10, 14, 15. Num. 9. 6. 1 Sam. 16. 5. 2 Cron. 30. 17—20. Job 1. 5. Salm 26. 6. Act. 24. 18. 1 Cor. 11. 28. Heb. 9. 13, 14. Iago 4. 8.

* Pasg diweddaf Iesu oedd hwn, a'r pedwerydd o ddechreuad ei weinidogaeth gyhoeddus ef. Hwn a ddylasai fod yr olaf byth hefyd, gan i Grist ein pasg ni gael ei aberthu drosom y tro hwn, er diddymu yr holl ŵyliau a'r pethau cysgodol o hóno. † Yr oedd yn rhaid i'r holl wrrywaid o leiaf, fyned i Jerusalem yn wastadol ar y pasg, ac yr oedd yn angenrheidiol i lawer o honynt fyned yno cyn yr amser, i'w glanâu eu hunain oddi wrth ryw halogedigaethau seremoniol, fel y gallent fwyta o'r pasg. Gwel 2 Cron. 30. 16—20. Cymmerai hyny hwynt saith niwrnod.

56 f * Yna y ceisiasant yr Iesu; a dywedasant wrth eu gilydd, fel yr oeddynt yn sefyll yn y deml, Beth a dybygwch chwi, gan na ddaeth efe i'r wyl?

f pen. 7. 11, 12.

* Tybia rhai mai cyfeillion Iesu oedd y rhai hyn oedd yn ymholi am dano, gan chwennychu ei glywed ef, a gweled ei wyrthiau. Tybia eraill mai ei elynion oeddynt, a'u bod yn ymofyn am dano er niwed iddo. Efallai bod rhai o'r ddwy blaid yn ymofyn am dano, i wahanol ddybenion, ond yr oedd yn rhy fuan eto, nid oedd efè wedi dyfod. Gwyddai pawb fod y Phariseaid wedi ymgynddeiriogi yn ddirfawr o herwydd ei wyrth ddiweddaf ef; a'r ddadl oedd, a anturiai efe i Jerusalem eilwaith mòr fuan.

57 A'r arch-offeiriaid a'r Phariseaid g a roisant orchymyn, os gwyddai neb pa le yr oedd efe, ar fynegi o hono, fel y gallent ei ddàl ef.

g pen. 5. 16—18. a 8. 59. a 9. 22. a 10. 39. Salm 109. 4.

* Er dydd y cyngor a soniwyd o'r blaen, mae yn debyg fod y Phariseaid wedi rhoddi gorchymyn, (ac addaw gwobr hefyd, efallai) os gwyddai neb pa le yr oedd efe, am roddi gwybodaeth iddynt hwy, fel y gallent ei ddàl ef. Mae yn debyg mai hyn oedd yn gwneyd llawer o'r bobl mòr brysur i ymholi, a ddeuai efe i'r ŵyl.

PEN. XII.

Yr Iesu yn esgusodi Mair am eneinio ei draed ef.

YNA yr Iesu, a chwe diwrnod cyn y pasc, * a ddaeth i b Bethania, † lle yr oedd Lazarus, yr hwn a fuasai farw, yr hwn a godasai efe o feirw.

a pen. 11. 55. b pen. 11. 1, 44. Mat. 21. 17. Marc 11. 11, 12. Luc 24. 50.

* Efe a ddaeth o'r ddinas a elwid Ephraim lle y buasai efe yn aros gyda ei ddysgyblion, pen. 11. 54. I ddangos ei barodrwydd i ddyoddef, dyma Iesu yn dyfod i Bethania, o fewn dwy filltir i Jerusalem, chwe diwrnod cyn y pasg: mae yn debyg iddo ddyfod yno ar yr hwyr cyn y sabbath. † Yn y Bethania hon yr oedd Lazarus, yr hwn a godasai efe o feirw ychydig cyn hyny.

2 c * *Ac* yno y gwnaethant iddo swpper: d † a Martha oedd yn gwasanaethu, e ‡ a Lazarus oedd un o'r rhai a eisteddent gyd âg ef.

c Can. 4. 16. a 5. 1. Luc 5. 29. a 14. 12. Dat. 3. 20. d Mat. 26. 6. Luc 10. 38—41. a 12. 37. a 22. 27 e adn. 9, 10. pen. 11. 43, 44.

* Pan ddaeth Iesu i Bethania, gwnaeth ei gyfeillion yno wledd bur ardderchog iddo, er dangos eu parch a'u cariad ato. Ni ddywedir yma yn mha dŷ yr oedd y swper hon; ond tybir mai yn nhŷ Simon y gwahanglwyfus yr ydoedd, ac mai yr un swper oedd hon a hòno a sonir gan Matth. 26. 6—13, a Marc 14. 3—9. Gwel ar y mànau hyny. Os yr un ydoedd, fel y mae yn bur debyg, ni a gam ddywedasom wrth sylwi ar Matth. 26. 7, mai ar y nos yr adgyfodwyd Lazarus, efallai, y bu y swper hon; mae yn amlwg yma mai yspaid o amser wedi hyny ydoedd. Mae Matth. 26. 2, yn adrodd geiriau yr Iesu "chwi a wyddoch mai wedi deu-ddydd mae y pasg," ac yna yn dywedyd am y swper wedi hyny; a Ioan yma yn dywedyd am y swper megys ar ddyfodiad Crist i Bethania, chwe diwrnod cyn y pasg, yr hyn sydd yn peri peth ammheüaeth ai yr un ydoedd. Gallasai Matthew adrodd geiriau Crist "ddeu-ddydd cyn y pasg," a sôn am y swper wedi hyny, ac eto bod y swper wedi cymmeryd lle cyn iddo ef ddywedyd y geiriau hyny: nid yw yr efengylwyr yn ofalus am adrodd pob peth yn y drefn y dygwyddasant, o ran amser. O'r tu arall, nid oes dim yn yr adnod uchod gan Ioan yn dangos mai ar y nôs y daeth Iesu i Bethania y gwnaed y swper iddo, gallasai fod yn mhen deu ddydd neu dri wedi iddo ddyfod, ac felly yr un â Matthew, deu ddydd cyn y pasg. † Wrth y parch mawr a ddangosid i Mair a Martha gan yr Iuddewon ar farwolaeth eu brawd, ac wrth feddwl am yr enaint costfawr a ddefnyddiodd Mair i eneinio yr Iesu, gellir meddwl eu bod hwy yn bobl uchel-radd yn y byd; ac eto, dyma Martha yn gwasanaethu yn y wledd. ‡ Crybwyllir hyn am Lazarus er dangos gwirionedd ei adgyfodiad ef. Dyma ef yn fyw, yn iach, yn bwyta ac yn yfed, ac yn ymddiddan, fel dynion eraill.

3 f Yna y cymmerth Mair bwys o g ennaint nard gwlyb gwerthfawr, h ac a enneiniodd draed yr Iesu, ac a sychodd ei draed ef â'i gwallt: a'r tŷ a i lanwyd gan arogl yr ennaint.

f pen. 11. 2, 28, 32. Mat. 26. 7. Marc 14. 3. Luc 10. 39. g Salm 133. 2. Can. 1. 12. a 4. 10, 13, 14. h Marc 14. 3. Luc 7. 37, 38, 46. i Can. 1. 3.

4 Am hynny y dywedodd k un o'i ddisgyblion ef, l Judas Iscariot, *mab* Simon, yr hwn oedd ar fedr ei fradychu ef,

k 1 Sam. 17. 28, 29. Preg. 4. 4. l pen. 6. 70, 71. a 13. 2, 26. a 18. 2—5. Mat. 10. 4. Luc. 6. 16.

5 m Paham na werthwyd yr ennaint hwn er n * tri chan ceiniog, o a'i roddi i'r tlodion?

m Ex. 5. 8, 17. Am. 8. 5. Mal. 1. 17—13. Mat. 26. 8, 9. Marc 14. 4. Luc 6. 41, 42. n pen. 6. 7. Mat. 20. 2. Marc 14. 5. o Mat. 26. 9. Luc 12. 33. a 18. 22.

6 *Eithr* hyn a ddywedodd efe, p nid o her-

dd bod arno ofal dros y tlodion; [q] † ond am
fod yn lleidr, a bod ganddo [r] y pwrs, a'i fod
dwyn yr hyn a fwrid ynddo.

p pen. 10. 13. Salm 41. 1. Diar. 29. 7. Ezec. 33. 31. Gal. 2.
Iago 2. 2—6. q pen. 10. 8—10. 2 Bren. 5. 20—27. Salm 50.
2—20. Mat. 21. 13. 1 Cor. 6. 10. r pen. 13. 29. 2 Bren. 12. 14,
Ezra 8. 24—34. 2 Cor. 8. 19—21. 1 Thes. 5. 22.

7 A'r Iesu a ddywedodd, [s] ‡ Gâd iddi:
rbyn dydd fy nghladdedigaeth y cadwodd hi
rn.

s Salm 119. 31. Zech. 3. 2. Mat. 26. 10. Marc 14. 6, 9.
en. 19. 38—42. Mat. 26. 12. a 27. 57—60. Marc 15. 42—47. Luc
.50—56.

8 [u] Canys y mae gennych y tlodion gyd â
wi bob amser; [x] eithr myfi nid oes gennych
b amser.

u Deut. 15. 11. Mat. 26. 11. Marc 14. 7. x adn. 35. pen.
1. a 13. 33. a 16. 5—7. Act. 1. 9—11.

Gwel y sylwadau ar yr eneiniad hwn, ar Matth. 26.
-13; a Marc 14. 3—9. * Yn y sylwad ar Matthew,
wedwyd fod y swm hwn tua naw punt, saith swllt, a
we' cheiniog, o'n harian ni; ac yn y sylwad ar Marc,
wedwyd ei fod tua naw punt a phymtheg swllt: felly
dywed ein hawdwyr; mae yn debyg fod yn anhawdd
ybod yn fanwl, i'r ddimmai, pa faint oedd y tri chàn
niog. † Yr oedd cybydd-dod yn bechod llywodraeth-
yn nghalon Judas o dàn ei holl broffes ef, ac er ei
i yn mhlith yr apostolion: ac yma dywedir ei fod yn
leidr;" tybir y byddai efe yn aml yn lladrata o'r
dan a berthynai i'r dysgyblion yn gyffredin, dàn rith
rhoddi i'r tlodion. Fel hyny, yr oedd yn euog o
bydd-dod, lladrad, a chelwydd, ar unwaith; a pherth-
asau agos yw y tri hyn bob amser. Pe cawsai efe
rth yr enaint hwn i'w feddiant, tybir ei fod yn bwr-
du ffoi â'r cwbl ganddo, ar y noswaith ystormus oedd
ddyfod yn fuan ar Iesu a'i ddysgyblion, ac yna ni
asai neb i'w alw ef i gyfrif. ‡ Nis gallwn feddwl y
yddai Mair ddim y pryd hwn fod dydd claddedigaeth
su mòr fuan; ond mae efe yn tystiolaethu mai nid o
amwain y dygwyddodd hyn, ond yn ol trefn rhaglun-
eth, ac fel drych blaenllaw o farwolaeth, per-arogliad,
hladdedigaeth Iesu.

9 [y] * Gwybu gan hynny dyrfa fawr o'r
addewon ei fod ef yno: a hwy a ddaethant,
d er mwyn yr Iesu yn unig, ond fel y gwel-
nt Lazarus hefyd, yr hwn a godasai efe o
irw.

y pen. 11. 43—45. Act. 3. 10, 11. a 4. 14.

* Gan fod Bethania fel y dywedwyd, o fewn i lai na
vy filltir o Jerusalem, daeth llawer iawn o'r Iuddewon
ao can gynted ag y clywsant fod Iesu yno: nid i weled
Iesu yn unig ond i weled Lazarus hefyd, yr hwn a
odasai efe o farw i fyw. Yr oedd gan ragluniaeth
nuw law yn hyn, fel y byddai enw yr Iesu yn fwy hys-
ys a nodedig yn union cyn iddo ddyoddef. Efallai i
azarus yn fwriadol, gadw ei hun yn ddirgel ac mewn
eilludedd hyd yn awr, fel na chaffai ei syfrdanu â
bliadau ffol yr Iuddewon.

10 ¶ [z] * Eithr yr arch-offeiriaid a ym-
ynghorasant fel y lladdent Lazarus hefyd.

z pen. 11. 47—53, 57. Gen. 4. 4—10. Ex. 10. 3. Job 15. 25, 26.
40. 8, 9. Preg. 9. 3. Dan. 5. 21—23. Mat. 2. 3—8, 16. Luc 16. 31.

* Ni bu erioed ddangosiad mwy, o annuwioldeb,
ynddeiriogrwydd, ac ynfydrwydd, nac yn yr ymgais
yn: ceisio lladd Lazarus yn gystal â'r Iesu, er attal
ffeithiau pellach y wyrth ar feddyliau y bobl.

11 [a] * Oblegid llawer o'r Iuddewon a aeth-
nt ymaith o'i herwydd ef, ac a gredasant yn
r Iesu.

a adn. 18. pen. 11. 45, 48. a 15. 18—25. Act. 13. 45. Iago 3.
4—16.

* Heblaw bod y bobl yn gweled Lazarus wedi adgyf-
di, efallai, ei fod ef yn dywedyd am y peth wrth bawb,
r anrhydedd i'r Iesu, a bod llawer drwy hyny yn troi
ymaith oddiwrth y Phariseaid, ac yn credu yn Iesu mai
y Messiah ydoedd. Bod y bobl yn credu ynddo trwy y
wyrth hon oedd yn eu gofidio hwy, ac yn peri iddynt
benderfynu lladd y ddau os gallent.

12 ¶ Trannoeth, [b] tyrfa fawr yr hon a
[c] ddaethai i'r wyl, pan glywsant fod yr Iesu yn
dyfod i Jerusalem,

b Mat. 21. 8. c pen. 11. 55, 56.

13 [d] A gymmerasant gangau o'r palmwydd,
ac a aethant allan i gyfarfod âg ef, ac a lefas-
ant, [e] Hosanna: Bendigedig *yw* [f] Brenhin Is-
rael yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Ar-
glwydd.

d Lef. 23. 40. Dat. 7. 9. e Salm 72. 17—19. a 118. 25, 26.
Mat. 21. 9—11. a 23. 39. Marc 11. 8—10. Luc 19. 36—38.
f adn. 15. pen. 1. 49. a 19. 15, 19—22. Es. 44. 6. Hos. 3. 5. Zeph.
3. 15. Dat. 15. 3. a 19. 16.

14 [g] A'r Iesu wedi cael asynyn, a eistedd-
odd arno; [h] megis y mae yn ysgrifenedig,

g Mat. 21. 1—7. Marc 11. 1—7. Luc 19. 29—35. h Zech.
9. 9.

15 [i] * Nac ofna, ferch Sïon; wele, y mae
dy Frenhin yn dyfod, [k] yn eistedd ar ebol
asen.

i Es. 35. 4, 5. a 40. 9, 10. a 41. 14. a 62. 11. Mica 4. 8. Zeph.
3. 16, 17. Zech. 2. 9—11. Mat 2. 2—6. k Deut. 17. 16. Barn.
5. 10. a 12. 14. 2 Sam. 15. 1. a 16. 2. 1 Bren. 1. 33.

Cawsom yr hanes uchod yn helaethach gan yr
efengylwyr eraill. Gwel ar Matth. 21. 7—9; Marc 11.
1—10; a Luc 19. 29—40. * Nid yw y geiriau hyn
gan yr efengylwyr eraill, yn Zech. 9. 9, y maent.

16 * Y pethau hyn [l] ni wybu ei ddisgybl-
ion ef ar y cyntaf; [m] eithr pan ogoneddwyd yr
Iesu, [n] yna y cofiasant fod y pethau hyn yn
ysgrifenedig am dano, ac iddynt wneuthur hyn
iddo.

l Luc 9. 45. a 18. 34. a 24. 25, 45. m adn. 23. pen. 7. 39.
a 13. 31, 32. a 17. 5. Marc 16. 19. Act. 2. 33, 36. a 3. 13. Heb. 8.
1. a 12. 2. n pen. 2. 22. a 14. 26. a 16. 4. Luc 24. 6—8.

* Nid oedd gan ddysgyblion Iesu ddim llaw yn y
gorfoledd hwn, ac nid oeddynt yn deall y peth hyd ar ol
ei esgyniad ef a thywalltiad yr Ysbryd Glân, trwy ddy-
lanwadau yr hwn y cofiasant eiriau y prophwyd, ac y
gwelsant eu cyflawniad yn y tro hwn. Mae yr efengyl-
wr yn onest iawn yma, yn cyfaddef ei annwybodaeth ei
hun a'i gyd-ddysgyblion. Da yw i ni wybod llythyren
y gair, er nad ydym yn ei ddeall yn awr, ni a gawn ei
ddeall ar ol hyn.

17 [o] * Tystiolaethodd [p] gan hynny y dyrfa,
yr hon oedd gyd âg ef pan alwodd efe Laza-
rus o'r bedd, a'i godi ef o feirw.

o adn. 9. pen. 11. 31, 45, 46. Salm 145. 6, 7. p pen. 1. 19,
32, 34. a 5. 35—39. a 8. 13, 14. a 15. 26, 27. a 19. 35. a 21. 24. Act.
1. 22. a 5. 32. 1 Ioan 5. 9—12. Dat. 1. 2.

18 [q] Am hyn y daeth y dyrfa hefyd i gyfar-
fod âg ef, am glywed o honynt iddo wneuthur
yr arwydd hon.

q adn. 9—11.

19 † Y Phariseaid gan hynny a ddywedas-
ant yn eu plith eu hunain, [r] A welwch chwi
nad ydych yn tyccio dim? ‡ wele, [s] fe aeth y
byd ar ei ol ef.

r pen. 11. 47—50. Mat. 21. 15. Luc 19. 47, 48. Act. 4. 16, 17.
a 5. 27, 28. s pen. 3. 26. a 17. 21. Salm 22. 27. a 49. 1. Es. 27.
6. Act. 17. 6. 1 Ioan 2. 2.

* Mae yr adnodau hyn yn dangos yr achos allanol o'r
pethau a ddarllenasom yn yr adnodau o'r blaen; ond yr
achos tumewnol yn ddiammau oedd, gweithrediad Duw
ar galonau y bobl, er gogoneddu ei Fab cyn dyoddef o
hóno. † Darllenasom o'r blaen, fod y Phariseaid wedi
cyd-ordeinio, os cyfaddefai neb ef yn Grist, y bwrid ef
allan o'r synagog, pen. 9. 22; ac wedi hyny, os gwyddai
neb pa le yr oedd efe, fynegi o hóno, fel y gallent hwy

ei ddàl ef, pen. 11. 57; yn lle hyny, dyma yr holl dyrfa fawr yn ei addef ef yn Frenin Israel, (adn. 13,) ac yn ei glodfori ef yn gyhoeddus fel y cyfryw: nid oedd eu holl ordeiniadau, eu gorchymynion, a'u bygythion hwy yn tycio dim. ‡ Mae yn amlwg fod y "byd," yn y fàn hon, fel mewn llawer o fànau eraill, i'w ddeall mewn ystyr derfynol, am lawer, ac nid am bawb: rhai o bob math o bobl, ac yn enwedig o'r bobl iselaf, y gwerinos gwrengaidd.

20 ¶ * Ac yr oedd rhai [t] Groegiaid ym mhlith † y rhai a ddaethant i fynu [u] i addoli ar yr wyl:

t pen. 7. 35. Marc 7. 26. Act. 14. 1. a 16. 1. a 17. 4. a 20. 21. a 21. 28. Rhuf. 1. 16. a 10. 12. Gal. 2. 3. a 3. 23. Col. 3. 11. u 1 Bren. 8. 41—43. Es. 11. 10. a 60. 2—14. a 66. 19—21. Act. 8. 27.

* Mae dau air Groeg *(Ellênes*, ac *Ellênestai,)* yn cael eu cyfieithu Groegiaid, heb ddim gwahaniaeth, yn ein cyfieithiad ni; ond y maent o feddwl gwahanol yn y Testament Newydd yn yr iaith Roeg. Nid yw yr olaf *(Ellênestai)* i'w gael ond yn Act. 6. 1; a 9. 29; a 11. 20; ac yn arwyddo yr Iuddewon hyny oedd ar wasgar yn mhlith y cenedloedd, ac yn arfer yr iaith Roeg. Ond mae y cyntaf *(Ellênes)* tua deuddeg o weithiau yn y Testament Newydd, ac yn arwyddo yn briodol, Groegiaid o genedl neu enedigaeth, ac a grybwyllir mewn cyferbyniad i'r Iuddewon, megys yn Rhuf. 1. 16; a 2. 9, 10, cymhara âg adn. 14. Y cyntaf *(Ellênes)* a ddefnyddir yma, a thybir mai Syrpheniciaid, o dueddau Tyrus a Sidon, oedd y Groegiaid hyn, ac eu bod yn broselytiaid y porth, fel eu gelwid, ac yn dyfod i Jerusalem i addoli ar y prif-ŵyliau, er na chaniatêid iddynt fwyta y pasg, am nad oeddynt wedi eu henwaedu: † am hyny dywedir iddynt ddyfod i fynu i addoli ar yr ŵyl. Mae yn werth sylwi, bod y Testament Llydawaeg, a argraffwyd yn ddiweddar, yn gwneuthur gwahaniaeth rhwng y ddau air uchod: *Jentiled* yw y gair sydd ganddo am y Groegiaid o genedl; *Gresianed* am yr Iuddewon Groegaidd. Tybia rhai mai yn nghyntedd y cenedloedd hyn, sef y Groegiaid o genedl, y caed rai yr Iuddewon eu marchnad, (Matth. 21. 12, 13,) a hyny o ddirmyg ar y cenedloedd: a bod gwaith Crist yn bwrw allan y prynwyr a'r gwerthwyr oddi yno, yn arwyddo ei dderbyniad ef o'r cenedloedd, ac mai o barch iddo am hyny yr oedd y Groegiaid hyn yn ewyllysio ei weled yn awr.

21 * Y rhai hyn gan hynny a ddaethant at [x] Phylip, yr hwn oedd o Bethsaida yn Galilea, ac a ddymunasant arno, gan ddywedyd, † Syr, [y] ni a ewyllysiem weled yr Iesu.

x pen. 1. 43—47. a 6. 5—7. a 14. 8, 9. y pen. 1. 36—39. a 6. 40. Mat. 2. 2. a 8. 9—12. a 12. 19—21. a 15. 22—28. Luc 19. 2—4. Rhuf. 15. 8—12.

* Os Syrpheniciaid oedd y Groegiaid hyn, fel y crybwyllwyd uchod, yr oedd eu gwlad yn agos i Bethsaida yn Galilea, tref Phylip, ac efallai fod rhai o honynt yn gydnabyddus âg ef, ac yn gofyn ganddo eu tywys hwy at yr Iesu. † Nis gwyddom pa beth oedd eu dyben yn ewyllysio gweled yr Iesu; yr hyn a grybwyllwyd yn niwedd y sylw ar yr adnod o'r blaen, medd rhai: awydd am glywed ei athrawiaeth ef medd eraill: dim ond blys gwag, am weled un y clywsent gymmaint o sôn am dano, medd eraill. Yr oeddynt yn cyfarch Phylip yn foneddigaidd iawn, Syr: mae yn debyg mai dynion o ddygiad boneddigaidd i fynu oeddynt.

22 * Phylip a ddaeth ac a ddywedodd i [z] Andreas: a thrachefn [a] Andreas a Phylip a ddywedasant i'r Iesu.

z pen. 1. 40, 41. a 6. 8. a Mat. 10. 5. Marc 10. 13, 14. Luc 9. 49, 50.

* Gwaharddasai Crist ei ddysgyblion i fyned i ffordd y cenedloedd, Matth. 10. 5; a hyny, efallai, a barodd i Phylip betruso dwyn y cenedloedd hyn ato ef yn awr, nes ymgyngori yn gyntaf âg Andreas, ac i'r ddau betruso nes dywedyd yn gyntaf i'r Iesu. Yr oedd Andreas yn hŷn dysgybl o ychydig na Phylip, am hyny mae yn ymgyngori âg ef mewn peth dyrys: gweddus iawn i ninnau roddi parch, a blaenoriaeth i'n henach, yr un modd.

23 ¶ * A'r Iesu a attebodd iddynt, gan ddywedyd, [b] Daeth yr awr y gogonedder Mab y dyn.

b pen. 13. 31, 32. a 17. 1—5, 9, 10. Es. 49. 5, 6. a 53. 10—12. a 55. 5. a 60. 9. Mat. 25. 31. 1 Pedr 2. 9, 10.

* Nis gwyddom yn sicr pa un a gafodd y Groegiaid hyn eu dwyn at yr Iesu ai peidio; tybia rhai iddynt gael yn ddïoed, ac mai yn eu clyw hwynt y llefarodd efe y geiriau hyn, fod yr awr wedi dyfod iddo ef gael ei ogoneddu, nid yn iachawdwriaeth yr Iuddewon yn unig, ond yn achubiaeth tyrfa ddirifedi o'r cenedloedd hefyd. Efallai iddo ddywedyd ychwaneg am alwad y cenedloedd nag sydd yn grybwylledig yma; ac os deallodd y Groegiaid ef yn iawn, ac adrodd ei eiriau ar eu dychweliad adref, gallai hyny rwyddâu y ffordd i'r apostolion erbyn iddynt fyned i'r wlad hòno i bregethu yr efengyl wedi hyny.

24 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, [c] * Oni syrth y gronyn gwenith i'r ddaear, a marw, hwnnw a erys yn unig: † eithr [d] os bydd efe marw, efe a ddwg ffrwyth lawer.

c Salm 72. 16. 1 Cor. 15. 36—38. d adn. 32, 33. Salm 22. 15, 22—31. Es. 53. 10—12. Heb. 2. 9, 10. Dat. 7. 9—17.

* Fel mae yn rhaid i'r gronyn gwenith gael ei hau a'i gladdu yn y ddaear, a marw, megys, yn mhob ymddangosiad, cyn y dyco ffrwyth; felly mae yn rhaid i Fab y dyn; rhaid iddo farw, cael ei gladdu, a darfod am dano, ac am ei achos yn y byd mewn pob ymddangosiad dynol, cyn y dygo ffrwyth ysbrydol yn iachawdwriaeth dynion. † Ar ol i'r gronyn gwenith farw felly, efe a ddwg ffrwyth lawer, o'r un natur âg ef ei hun: felly hefyd Mab Duw; ar ol ei farw, efe a adgyfyd, ac a ddwg ffrwyth lawer, tyrfa fawr nas gall neb ei rhifo, oll yn werth ei waed, oll yn llafur ei enaid. Ei ffrwyth a ysgwyd fel Libanus, a phobl y ddinas a flodeuant fel gwellt y ddaear. Fel yr oedd Iesu yn ddibechod, gallasai esgyn i'r gogoniant ei hunan heb farw; ond yr oedd yn rhaid iddo farw cyn cael ffrwyth lawer. Yn ei anfeidrol wybodaeth o anian pob peth, gwelodd yr Arglwydd Iesu fod yn dda i ddewis y gronyn gwenith yn y gymhariaeth hon, o lawer o filoedd o hadau, yr unig un, meddant, sydd yn marw yn y ddaear, ac sydd felly yn rhagorol addas fel cymhariaeth o'i angau ef. Dywed anianyddion nad oes yr un grawn arall yn marw fel y gronyn gwenith ar ol ei hau, ond y ffäen fawr, a'r hyn a elwir *Millet-millium.*

25 [e] Yr hwn sydd yn caru ei einioes, a'i cyll hi; a'r hwn sydd [f] yn casâu ei einioes yn y byd hwn, a'i ceidw hi i fywyd tragywyddol.

e Mat. 10. 39. a 16. 25. a 19. 29. Marc 8. 35. Luc 9. 23, 24. a 17. 33. Act. 20. 24. a 21. 13. Heb. 11. 35. Dat. 12. 11. f Gen. 29. 30—33. Preg. 2. 17. Luc 14. 26.

Cawsom y geiriau hyn, gydag ychydig wahaniaeth, o'r blaen, yn Matth. 16. 25; Marc 8. 35; Luc 9. 24. Gwel y sylwadau a wnaed ar y mànau hyny. Tybia rhai i Grist eu llefaru yma er dangos i'w ddysgyblion, megys y gorfyddai iddo ef ddyoddef a marw cyn gweled y "ffrwyth lawer," felly y byddai raid iddynt hwythau hefyd, osod sail eu gogoneddiad yn eu dyoddefiadau. Efallai y gellir ystyried y geiriau hefyd, yn rhagfynegiad i'r dysgyblion, o'r dyoddefiadau a fyddai yn cydfyned â phregethiad cyntaf yr efengyl; er eu calonogi hwy i fod yn wrol, a'u rhybuddio o'r perygl o dynu yn ol.

26 [g] * Os gwasanaetha neb fi, [h] † dilyned fi: [i] ‡ a lle yr wyf fi, yno y bydd fy ngweinidog hefyd: ac os gwasanaetha neb fi, [k] ‖ y Tad a'i hanrhydedda ef.

g pen. 13. 16. a 15. 20. Rhuf. 1. 1. a 14. 18. 2 Cor. 4. 5. Gal. 1. 10. Col. 3. 24. a 4. 12. 2 Pedr 1. 1. Judas 1. h pen. 10. 27. a 21. 22. Num. 14. 24. a 32. 11. Mat. 16. 24. Marc 8. 34. Luc 9. 23

h. 5. 1, 2. Dat. 14. 4. i pen. 14. 3. a 17. 24. Salm 17. 15. t. 25. 21. 2 Cor. 5. 8. Phil. 1. 23. 1 Thes. 4. 17, 18. k pen. 21—23. 1 Sam. 2. 30. Diar. 27. 18.

* Hyny yw, os mŷn neb fod yn wir ddysgybl a gwas ini. Tybir fod Iesu yn rhoddi awgrym yn y geiriau n, y byddai ei deyrnas ef yn ehang iawn, a'i ddeiliaid lliosog iawn: nid Iuddewon, proselytiaid cyfiawnder, hproselytiaid y porth, yn unig; ond cenedloedd eilun-idolgar hefyd, filoedd o honynt, a gânt eu dwyn i'w tyrnas ef trwy gredu ynddo. † Dilyned fy esampl I, fforddiadau a gorchymynion fy ngair I, fy rhaglun-eth a fy Ysbryd I, i ba le bynag yr arweiniont ef: tyned fi, hyd yn nôd i'r groes os bydd raid. ‡ Ac er esur a chalondid i'r cyfryw was, a dilynwr ffyddlawn; yr wyf fi yn awr o ran holl-bresenoldeb fy Nuwdod, lle y byddaf fi o ran fy nynoliaeth hefyd yn fuan; iff fy holl wir wasanaethwyr fod yno gyda mi am byth thoedd. || Pa faint bynag y dirmyger y cyfryw un gan lynion ar y ddaear; caiff ei anrhydeddu â bywyd tra-rwyddol a gogoniant gan fy Nhad yn y nefoedd.

27 l * Yr awrhon y cynhyrfwyd fy enaid: † a pha beth a ddywedaf? n ‡ *O* Dad, wared fi allan o'r awr hon: o || eithr o herwydd yn y daethum i'r awr hon.

l pen. 11. 33—35. a 13. 21. Salm 69. 1—3. a 88. 3. Es. 53. 3. Mat. 26. 38, 39, 42. Marc 14. 33—36. Luc 22. 44, 53. Heb. 5. 7. Es. 38. 15. Luc 12. 49, 50. n pen. 11. 41. Mat. 26. 53, 54. pen. 18. 37. 1 Tim. 1. 15. Heb. 2. 14. a 10. 5—9.

* Tra yr oedd ein Harglwydd bendigedig fel hyn yn mddiddan am y dyoddefiadau a'r gogoniant oedd o'i aen, dechreuodd arswyd y frwydr fawr ddiweddaf ym-ffyd yn ei natur ddynol; ac er dangos fod holl deiml-ldau dibechod dynoliaeth ganddo, efe a ddywedodd, r'r awr hon y cynhyrfwyd fy enaid, yn yr olwg, a thàn y eimlad, o'r dyoddefiadau mawrion a chwerwon, sydd m barod i ymdywallt arnaf o bob màn. † Pa fodd y efaraf yn y modd mwyaf addas dàn y fath deimlad wysig! ‡ Yna gan droi oddi wrth y bobl at Dduw, efe . ddywedodd, O fy Nhad nefol, iaith natur orthrymedig w, Gwared fi, os yw yn bosibl, allan o'r awr hon, na ddelo y llifeiriant ofnadwy hyn o ddyoddefiadau arnaf: ond eto, nid wyf yn gofyn am hyn; oblegid y gŵn I nai i hyn y daethum i'r byd, ac i'r awr hon: felly yr edd dy arfaeth dragywyddol di, ac felly yr ymrwymais nnau mewn cyfammod sicr i ti. Dywedir fod y gair Groeg *(Teteractai,)* a gyfieithir yma "cynhyrfu," yn arwyddo y trallod meddwl mwyaf ag sydd bosibl i enaid ei ddyoddef. Mae *Doddridge* a *Scott* yn darllen rhan o'r adnod fel hyn: "Pa beth a ddywedaf? A ddywed-af, O Dad, gwared fi allan o'r awr hon?" Na ddywed-af, ddim felly; "canys o herwydd hyn y daethum i'r awr hon." Gwel ar Matth. 26. 38, 39.

28 p * *O* Dad, gogonedda dy enw. q Yna y daeth llef o'r nef, r † Mi a'*i* gogoneddais, s ‡ ac a'*i* gogoneddaf drachefn.

p pen. 18. 11. Mat. 26. 42. Marc 14. 36. q Mat. 3. 17. a 17. 5. 2 Pedr 1. 17. r pen. 9. 3. a 11. 4, 40—44. s pen. 13. 31, 32. Es. 49. 3—7. Eph. 2. 7. a 3. 10, 21. Phil. 1. 6—11. Dat. 5. 9—14.

* O Dad, beth bynag a fyddo raid i mi ei ddyoddef, gogonedda di dy enw. Gogonedda dy briodoliaethau dwyfol, cyfiawnder, sancteiddrwydd, gwirionedd, a thru-garedd, yn iachawdwriaeth pechaduriaid: nid wyf fi yn oceisio ond cynnal y ddynoliaeth i fyned trwy y dyoddef-aint mawr. † Mi a'i gogoneddais eisoes yn dy ufudd-dod, dy weinidogaeth, a'th wyrthiau di; ‡ ac mi a'i gogoneddaf eto yn mhellach, drwy dy ddyoddefaint a'th angau di; ac hefyd yn dy adgyfodiad a'th esgyniad di, yn nghyd â'r ffrwyth lawer a ddaw o'r cwbl.

29 Y dyrfa gan hynny yr hon oedd yn sefyll, ac yn clywed, a ddywedodd t * mai taran oedd: eraill a ddywedasant, u † Angel a lefarodd wrtho.

t Ex. 19. 16. a 20. 18. Job 37. 2—5. a 40. 9. Ezec. 10. 5. Dat. 6. 1. a 8. 5. a 11. 19. a 14. 2. u Act. 23. 8, 9. Dat. 18. 1, 2.

* Sonia yr ysgrythyr yn aml am daranau gyda llef o'r nef: (Exod. 19. 16, 19; Dat. 4. 5; a 6. 1; a 10. 3.) Mewn cyfeiriad at hyny, efallai, y byddai yr Iuddewon yn galw y *llef* ei hun *Bath kol*, hyny yw *merch y llef*, gan ei bod yn dyfod gyda *tharan*, ac megys yn cael ei ffurfio gan daran. Cafodd Iesu dystiolaeth trwy lef o'r nef dair gwaith: 1. Ar ddechreuad ei weinidogaeth, fel Arch-offeiriad mawr ein cyffes ni, Matth. 3. 17: 2. Pan roddwyd gorchymyn i wrando arno ef, fel Prophwyd mawr ei eglwys, yn ei wedd newidiad, Matth. 17. 5: ac yn 3. Yma, pan aeth efe i mewn i Jerusalem yn gyhoedd-us fel Brenin. † Tybiai yr Iuddewon yn gyffredin, pan fyddai yn amlygu ei ewyllys i ddynion trwy lef oruwch-naturiol, mai trwy offeryn oldeb angel y byddai yn gwneyd hyny. Y rhai ni ddeallasant y geiriau, megys y Groegiaid oedd yno, a dybient mai taran oedd; o'r tu arall, y rhai a ddeallasant eiriau y llef, a dybient mai angel a lefarodd wrtho: ond mae yn debyg na ddeallodd neb o honynt fod y Tad fel hyn yn tystiolaethu ei fodd-lonrwydd yn Iesu ac yn ei waith mawr.

30 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd, * Nid o'm hachos i y bu y llef hon, x † ond o'ch achos chwi.

x pen. 5. 34. a 11. 15, 42. 2 Cor. 8. 9.

* "Nid o'm hachos I," nid oedd eisiau tystiolaeth oruwch-naturiol fel hyn arnaf fi, mi a wyddwn o'r blaen fy mod yn rhyngu bodd y Tad, y gogoneddai efe ei enw ynof, ac y gogoneddai finnau gydag ef ei hun ar ol gorphen fy ngwaith. † "Ond o'ch achos chwi" y bu; o achos eich anghrediniaeth chwi, ac fel y credech mai Mab Duw ydwyf, neu y byddoch lwyr ddiesgus yn eich anghrediniaeth. Ac hefyd o achos, neu er mwyn, fy nysgyblion, y rhai sydd yn credu ynof; fel na sigler hwy yn eu ffydd pan welont fy rhoddi I i farwolaeth waradwyddus yn fuan ar y groes.

31 y * Yn awr y mae barn y byd hwn: z † yn awr y bwrir allan dywysog y byd hwn.

y pen. 5. 22—27. a 16. 8—10. z pen. 14. 20. a 16. 11. Gen. 3. 15. Es. 49. 24, 25. Mat. 12. 28, 29. Luc 10. 17—19. Act. 26. 18. 2 Cor. 4. 4. Eph. 2. 1, 2. Col. 2. 15. Heb. 2. 14. 1 Ioan 3. 8. Dat 12. 9—11. a 20. 2, 3.

* Datguddid drygioni y byd hwn, a chyhoeddid barn y byd hwn, yn y tro rhyfedd hwnw oedd ar gymmeryd lle yn fuan, sef, marwolaeth Crist. Dangosai ei groes-hoeliad ef ddrygioni diobaith calonau dynion, chwan-egai eu heuogrwydd, a dangosai dra chasineb Duw at bechod, yn y dinystr sicr oedd yn aros anghredinwyr. Byddai ei angau ef yn gwneyd ffordd i gondemniad a barn y genedl Iuddewig, a'r holl fyd paganaidd, oddi-gerth y rhai a gredent yr efengyl. Dangosai ei grefydd ef wahaniaeth rhwng cymmeriadau a nodweddau dyn-ion, profai luoedd yn rhagrithwyr, dygai eraill i'w barnu a'u condemnio eu hunain; ac fel hyn, yn mhob modd, byddai megys blaen-brawf o farn y dydd diwedd-af. † Mewn canlyniad i farwolaeth Iesu, ei adgyfodiad, ei esgyniad, tywalltiad yr Ysbryd Glân, a phregethiad yr efengyl; byddai i satan, tywysog y byd drygionus hwn, yr hwn mae yr holl eilun-addolwyr yn ei addoli fel eu duw, a'r holl bechaduriaid diras yn ufuddâu iddo fel eu brenin; gael ei farnu a'i gondemnio, yn nghyd a'i holl eiddo: dechreu y ddedfryd drwy ei fwrw ef allan o'i lywodraeth draws-feddiannol, trwy dröedigaeth pechaduriaid, dymchweliad y temlau paganaidd, a dis-tryw eilun-addoliaeth. Yr oedd ymofyniad y Groegiaid hyn am Iesu yn ernes o hyny; ac mae y gwaith i gael ei ddwyn yn mlaen yn raddol, hyd onid elo teyrnasoedd y ddaear yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef.

32 A minnau, a * os dyrchefir fi oddi ar y ddaear, b a dynnaf c † bawb attaf fy hun.

a pen. 3. 14. a 8. 28. a 19. 17, 18. Deut. 21. 22, 23. 2 Sam. 18. 9, 10. Salm 22. 16—18. Gal. 3. 13. 1 Pedr 2. 24. a 3. 18. b pen. 6. 44. Can. 1. 4. Hos. 11. 4. c pen. 1. 7, 29. Es. 49. 6. Rhuf. 5. 17—19. 1 Tim. 2. 6. Heb. 2. 9, 10. 1 Ioan 2. 2. Dat. 5. 9.

33 (‡ *A* hyn a ddywedodd efe, d gan ar-wyddo o ba angau y byddai farw)

d pen. 18. 32. a 21. 19.

Yma mae Iesu megys yn gosod i fynu ei orsedd a'i deyrnas, ar ddistryw ac adfail teyrnas satan. Er y byddai ei farwolaeth ef yn ymddangos fel buddugoliaeth ei elynion arno; eto y cyfryw fyddai effeithiau y tro rhyfedd hwnw, fel y byddai yn foddion i dynu pawb ato ef: byddai y fath brawf, o gariad mòr annrhaethol, yn foddion i ddarostwng, meddalu, ac ennill y calonau mwyaf celyd, ac i wneyd dynion o bob iaith a chenedl yn ewyllysgar ddysgyblion i'r Iesu yn nydd ei nerth. * Mae y beirniaid mwyaf dysgedig yn dywedyd mai *pan* a ddylai y gair hwn *(ean)* gael ei gyfieithu, ac nid *os:* nid oedd dim os, mewn ystyr ammheuol, am dani. † Pawb o ran cenedl a feddylir yma, nid pawb o holl ddynolryw: pe hyny fuasai meddwl y gair, ni buasai yn wirionedd. ‡ Mae yn dra sicr mai ei farwolaeth ar y groes oedd Crist yn feddwl wrth ei "dderchafu oddi ar y ddaear," fel pen. 3. 14, 15; ac nas gellir rhoddi unrhyw agoriad arall ar y geiriau: eto, trwy ei dderchafu ef ar y groes mae ei enw wedi myned yn dderchafedig goruwch pob enw; a chofied gweinidogion yr efengyl, nas gallant dderchafu Crist yn iawn byth, heb ei dderchafu yn Grist wedi ei *groeshoelio* (1 Cor. 2. 2.) Trwy y weinidogaeth hòno mae efe yn tynu pawb ato ei hun.

34 Y dyrfa a attebodd iddo, * Ni a glywsom [e] o'r ddeddf, [f] † fod Crist yn aros yn dragywyddol: ‡ a pha wedd yr wyt ti yn dywedyd, fod yn rhaid dyrchafu Mab y dyn? [g] ‖ pwy ydyw hwnnw Mab y dyn?

e pen. 10. 34. a 15. 25. Rhuf. 3. 19. f 2 Sam. 7. 13. Salm 72. 7, 17—19. a 89. 36, 37. a 110. 4. Es. 9. 7. Ezec. 37. 24, 25. Dan. 2. 44. a 7. 14, 27. Mica 4. 7. g pen. 3. 14—16. a 5. 25—27. a 8. 53—58. Mat. 16. 13—16. a 21. 10. a 22. 42—45.

* Yma eto mae y gair deddf i'w ddeall mewn ystyr ehang, am lyfrau yr Hen Destament yn gyffredin. Gwel ar pen. 10. 34. † Tröed y darllenydd at y cyfeiriadau dàn y llythyren *f*, a chaiff weled yr ysgrythyrau sydd yn dywedyd "fod Crist yn aros yn dragywyddol." Yr oedd y bobl yn cymmeryd rhan o'r ysgrythyr, ac yn ei cham ddeall, o herwydd eu bod yn esgeuluso rhanau eraill o'r un datguddiad dwyfol: pe buasent hwy yn meddwl am ysgrythyrau eraill, cawsent weled yn amlwg bod y Messiah i gael ei ladd, ei dòri o dir y rhai byw, adgyfodi y trydydd dydd, esgyn i'w ogoniant, ac fel hyny i aros yn dragywyddol. ‡ Gwyddai y bobl mai y Messiah oedd i'w ddeall wrth Fab y dyn, gwyddent mai am dano ei hun fel Mab y dyn yr oedd Iesu yn llefaru, a gwyddent mai marwolaeth ar y groes oedd efe yn feddwl wrth ei dderchafu oddi ar y ddaear; ac nis gallent gysoni hyny â'r dyb oedd ganddynt hwy am y Messiah, ei fod i aros yn dragywyddol. ‖ Beth wyt ti yn ei feddwl wrth alw dy hun yn Fab y dyn, a llefaru fel yna? Pa fodd y mae i ni dy ddeall di?

35 Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt, [h] * Etto ychydig ennyd y mae y goleuni gyd â chwi. [i] † Rhodiwch tra fyddo gennych y goleuni, [k] fel na ddalio y tywyllwch chwi: [l] a'r hwn sydd yn rhodio mewn tywyllwch, ni ŵyr i ba le y mae yn myned.

h pen. 7. 33. a 9. 4. a 16. 16. Heb. 3. 7, 8. i adn. 36, 46. pen. 1. 5—9. a 8. 12. a 9. 5. Es. 2. 5. a 42. 6, 7. Rhuf. 13. 12—14. Eph. 5. 8, 14, 15. 1 Thes. 5. 5—8. 1 Ioan 1. 6, 7. k adn. 39, 40. Salm 69. 22—28. Jer. 13. 16, 17. Rhuf. 11. 7—10. 2 Cor. 3. 14, 15. l pen. 11. 10. Diar. 4. 19. 1 Ioan 2. 8—11.

Gallasai yr Arglwydd Iesu yn hawdd roddi atebiad mwy union-gyrchol i'r bobl, ond nid oedd yn dewis gwneyd felly yn awr: caent brawf gweledig yn fuan, o dderchafu Mab y dyn ar y groes, ac o'i esgyniad wedi hyny i aros yn dragywyddol, a theyrnas dragywyddol ganddo. * Ar yr un pryd, mae efe yn adgofio iddynt dystiolaeth Ioan am dano, pen. 1. 9, a'i dystiolaeth ef ei hun hefyd, pen. 8. 12, yn dywedyd mai am ychydig ennyd yn hwy y byddai efe o ran ei berson, a'i weinidogaeth bersonol, gyda hwynt i'w goleuo. † Cymmerwyd goleuni y gwirionedd dwyfol yn fuan oddi ar yr Iuddewon digred, ac o hyny hyd yn awr maent yn erwydro mewn tywyllwch dudew, ac heb wybod i ba le maent yn myned.

36 * Tra fyddo gennych oleuni, [m] credwch yn y goleuni, † fel y byddoch [n] blant y goleuni. ‡ Hyn a ddywedodd yr Iesu, [o] ac efe a ymadawodd, ac a ymguddiodd rhagddynt.

m pen. 1. 7. a 3. 21. Es. 60. 1. Act. 13. 47, 48. n Luc 16. 8. Eph. 5. 8. 1 Thes. 5. 5, 8. o pen. 8. 59. a 10. 39, 40. a 11. 54. Mat. 21. 17.

* Yma mae efe yn egluro beth oedd efe yn feddwl yn yn yr adnod o'r blaen wrth "rodio yn y goleuni;" sef, credu yn y goleuni, neu ynddo ef ei hun, yr hwn yw goleuni'r byd. Gallwn weled yn y ddwy adnod uchod hefyd, fod ffydd yn Nghrist, ac ufudd-dod ymarferol i Grist, yn ddyledswyddau rhwymedig ar ddynion, ac y rhaid cael ffydd ynddo cyn y galler rhodio a byw iddo. † Trwy ffydd yn Nghrist, y goleuni, y mae bod yn blant y goleuni, Galat. 3. 26: a thrwy rodio yn y goleuni, y dangoswn ac y profwn ein bod yn blant y goleuni. ‡ Wrth weled nad oedd ei ymddiddanion ef ddim yn effeithio yn dda ar y bobl, ond yn hytrach yn cyffroi eu cynddaredd hwy, ymadawodd, ac ymguddiodd yr Iesu rhagddynt, gan fyned, mae yn debyg i Bethania yn ol ei arfer.

37 ¶ [p] * Ac er gwneuthur o hono ef gymmaint o arwyddion yn eu gŵydd hwynt, ni chredasant ynddo:

p pen. 1. 11. a 11. 42. a 15. 24. Mat. 11. 20—24. Luc 16. 31.

* Er iddo ef ddywedyd mòr eglur am dano ei hun, a chadarnâu yr hyn a ddywedodd drwy gynnifer o arwyddion gwyrthiol, eto ni chredodd y rhan fwyaf o honynt ynddo; eithr gadâwyd hwynt yn eu calon-galedwch a'u hanghrediniaeth.

38 [q] * Fel y cyflawnid ymadrodd [r] Esaias y prophwyd, yr hwn a ddywedodd efe, Arglwydd, [s] † pwy a gredodd i'n hymadrodd ni? ac i bwy y [t] datguddiwyd [u] ‡ braich yr Arglwydd?

q pen. 15. 25. a 17. 12. a 19. 24, 36, 37. Mat. 27. 35. Act. 13. 27—29. r 2 Cron. 32. 20. Mat. 15. 7. Act. 8. 28—30. Rhuf. 10. 20. s Es. 53. 1. Rhuf. 10. 16. t Salm 44. 3. Es. 40. 10, 11. a 51. 5, 9. 1 Cor. 1. 24. u Mat. 16. 17. 2 Cor. 3. 14—18. a 4. 3—6. Gal. 1. 16. Eph. 1. 17—20.

* Yr oedd anghrediniaeth yr Iuddewon yn brawf o wirionedd yr ysgrythyrau, ac yn gyflawniad o hen brophwydoliaethau. Dechreuodd yr ysgrythyr hon gael ei chyflawni yn anghrediniaeth yr Iuddewon dàn weinidogaeth bersonol Crist, ac wedi hyny yn fwy llwyr, trwy barâd eu caledwch dàn weinidogaeth yr apostolion. † Mae pawb o ddynolryw wrth natur yn anghrediniol, ac heb duedd yn y byd i dderbyn Crist a'i iachawdwriaeth; ond gwnaeth Iuddewon yr oes hòno bob peth a fedrent i annog Duw i gymmeryd ei efengyl oddi wrthynt, a'u rhoddi hwynt i fynu i drachwantau eu calonau. ‡ "Braich yr Arglwydd:" gallu Duw, neu Ysbryd Duw, ac yn ol meddwl rhai, Crist ei hun, Mab Duw. Tybir mai Crist ei hun a feddylir dàn yr enw hwn yn Es. 51. 5; a 52. 10; a 59. 16; a 63. 12.

39 [x] * Am hynny ni allent gredu, [y] † oblegid dywedyd o Esaias drachefn,

x pen. 5. 44. a 6. 44, 65. a 10. 38. Es. 44. 18—20. 2 Pedr 2. 14. y Es. 6. 9, 10.

* Ni *allent* hwy gredu, am na *fynent* gredu: yr oeddynt wedi cauad eu llygaid cyhyd, megys, rhag edrych ar y goleuni, fel y rhoddes Duw hwynt i fynu o'r diwedd, yn ei farn gyfiawn, i ddaliineb a chaledwch anfeddyginiaethol eu calonau. † Nid yr hyn a ddywedasai Esaias oedd yr achos na allent hwy gredu; ni wnaeth efe ond prophwydo am danynt, na chredent, a hwythau yn eu hanghrediniaeth yn gwirioneddu y brophwydoliaeth hòno.

40 [z] * Efe a ddallodd eu llygaid, [a] ac a galedodd eu calon; [b] fel na welent â'u llygaid,

deall â'*u* calon, [c] ac ymchwelyd o honynt, ac mi eu [d] hiachâu hwynt.

z pen. 9. 39. 1 Bren. 22. 20—23. Es. 29. 10—14. Ezec. 14. 9. Mat. 13. 13—15. a 15. 14. Marc 4. 12. Luc 8. 10. Act. 28. 26, 27. Rhuf. 11. 8—11. a Ex. 4. 21. a 7. 3, 13. a 14. 4, 8, 17. Jos. 11. 20. Rhuf. 9. 18. a 11. 7. b Deut. 29. 4. Salm 135. 10—18. Es. 56. 11. a 42. 19, 20. Jer. 5. 21. Ezec. 12. 2. Marc 8. 17, 18. c Act. 3. 19. a 15. 3. Iago 5. 19, 20. d Salm 6. 2. a 41. 4. a 147. 3. Es. 53. 5. a 57. 18, 19. Jer. 3. 22. Hos. 6. 1. a 14. 4. Luc 4. 18.

* Mae y geiriau tra dychrynllyd hyn yn Es. 6. 9, 10; a chrybwyllir hwy chwe' gwaith yn y Testament Newydd: (Matth. 13. 14; Marc 4. 12; Luc 8. 10; yn yr Iudnod hon; Act. 28. 26; a Rhuf. 11. 8:) ac yn mhob man crybwyllir hwy fel yr achos o anghrediniaeth yr Iuddewon yn yr Arglwydd Iesu, am yr hyn nid oes genym ond dywedyd yr un modd ag y dywedasom ar addiwedd yr adnod o'r blaen. Dylem fod yn gynnil rawn rhag priodoli i Dduw, ddim ag sydd yn ymddangos megys yn cymhell, neu yn rhoddi gorfod ar ddynion i bechu: y cwbl a ellir ei ddeall, debygid, wrth y geiriau hyn yw, iddo ef adael yr Iuddewon i fyned rhagddynt mewaeth-waeth yn eu rhagfarn, a'u gelyniaeth yn erbyn yr efengyl: fel y dywedir yn un màn, iddo galedu calon Pharaoh, ac mewn màn arall, i Pharaoh galedu ei galon ei hun, Exod. 9. 12; a 8. 15, 32. Mynych y dywedir yn yr ysgrythyr, fod un yn gwneyd peth, pryd nad yw ond yn ei oddef, yn tystiolaethu am dano, neu yn ei ragfynegi. Cofiwn mai duw y byd hwn sydd yn weithredol yn dallu meddyliau y rhai digred, 2 Cor. 4. 4.

41 * Y pethau hyn a ddywedodd Esaias, [e] pan [f] welodd ei ogoniant ef, [g] ac y llefarodd am dano ef.

e Es. 6. 1—5, 9, 10. f pen. 1. 14, 18. a 14. 9. Ex. 33. 18—23. 2 Cor. 4. 6. Heb. 1. 3. g pen. 5. 39. Act. 10. 43. 1 Pedr 1. 11, 12. Dat. 19. 10.

* Yn Es. 6. 1, 3, 5, dywedir mai yr Arglwydd, y Brenin, Arglwydd y lluoedd (y JEHOFAH) a welodd y prophwyd; ac yma mae Ioan yn dywedyd mai Crist oedd hwnw, yr hyn sydd brawf cadarn iawn o wir Dduwdod yr Arglwydd Iesu.

42 ¶ * Er hynny [h] llawer o'r pennaethiaid hefyd a † gredasant ynddo; ‡ ond oblegid y Phariseaid [i] ni chyffesasant *ef*, [k] rhag eu bwrw allan o'r synagog:

h pen. 3. 2. a 7. 48—51. a 11. 45. a 19. 38. i Mat. 10. 32, 33. Luc 12. 8. Rhuf. 10. 10. 1 Ioan 4. 2, 3, 15. k pen. 7. 13. a 9. 22, 34. a 16. 2. Diar. 29. 25. Es. 51. 7, 8. a 57. 11. a 66. 5. Mat. 26. 69—75. Luc 6. 22. Act. 5. 41. 1 Pedr 4. 12—16.

* Nis gwyddom yn iawn pwy sydd i'w ddeall wrth y penaethiaid yn y fàn hon, pa un ai aelodau o'r Sanhedrim, ai ynte rhyw swyddwyr gwladol eraill: arwydda y gair gwreiddiol bob un o'r ddau. † Nid credu yn ddiffuant a feddylir, fel y mae yn amlwg yn yr adnod nesaf: yr oedd rhai o'r penaethiaid wrth weled ei arwyddion ef, yn enwedig cyfodi Lazarus, yn lled feddwl mai efe oedd y Messiah, brenin a gwaredwr tymhorol yr Iuddewon, ac yn bwriadu ei arddelwi ef yn gyhoeddus pan osodai efe i fynu ei deyrnas yn gyhoeddus. ‡ Ond yn bresenol yr oedd arnynt ofn y Phariseaid, aelodau y cyngor, rhag y câent eu bwrw allan o'r synagog am ei gyffesu ef, pen. 9. 22.

43 [l] * Canys yr oeddynt yn caru gogoniant dynion yn fwy na [m] gogoniant Duw.

l pen. 5. 41, 44. Mat. 6. 2. a 23. 5—7. Luc 16. 15. Rhuf. 2. 29. 1 Thes. 2. 6. m adn. 26. pen. 8. 54. 1 Sam. 2. 30. Luc 19. 17. Rhuf. 2. 7. 1 Cor. 4. 5. 2 Cor. 10. 18. 1 Pedr 1. 7, 8. a 3. 4.

* Gwel y sylw ar pen. 9. 34, yn nghylch esgymmundod o'r synagog: yn ol yr esgymmundod mwyaf, yr oedd yr esgymmunedig i golli pob swydd, parch, a braint wladwriaethol, ac i'w ystyried fel yr ethnig a'r publican. Nis gallai y penaethiaid hyn feddwl am golli eu swyddau a'u parch fel hyny, am eu bod yn caru gogoniant a pharch dynion, yn fwy na chymmeradwyaeth Duw. Fel hyn goddefasant i elynion Iesu fyned yn mlaen nes ei roddi ef i farwolaeth, heb roddi un gwrthwynebiad iddynt, na thystiolaethu yn eu herbyn: ïe, yr oeddynt yn euog o'u pleidio a'u noddi yn eu hymddygiad drwy eu distawrwydd.

44 ¶ A'r Iesu a [n] lefodd ac a ddywedodd, [o] Yr hwn sydd yn credu ynof fi, * nid yw yn credu ynof fi, ond yn yr hwn a'm hanfonodd i.

n pen. 7. 28, 37. a 11. 43. Diar. 1. 20. a 8. 1. Es. 55. 1—3. o pen. 13. 20. Mat. 10. 40. Marc 9. 37. 1 Pedr 1. 21.

Tybir fod yr adnod uchod, ac oddi yma yn mlaen hyd ddiwedd y bennod, yn cynnwys ymadrodd cyhoeddus diweddar Iesu wrth yr Iuddewon, cyn iddo ymadael o'r deml am y tro diweddaf. * Hyny yw, nid credu ynof fi fel dyn y mae; ond pwy bynag sydd yn iawn gredu ynof fi, mae yn credu ynof fel Duw-ddyn. Neu fel hyn: nid yw yn credu ynof fi yn unig; ond hefyd gyda mi, a thrwyddof fi, yn y Tad yr hwn a'm hanfonodd I. Felly yn y geiriau hyn eto, mae Crist yn hòni ei Dduwdod, undeb ei hanfod, a'i ogyfuchder â Duw. Gwel ddull cyffelyb o lefaru yn 1 Sam. 8. 7; Marc 9. 37; a 1 Thes. 4. 8.

45 [p] * A'r hwn sydd yn fy ngweled i, † sydd yn gweled yr hwn a'm danfonodd i.

p adn. 41. pen. 14. 9, 10. a 15. 24. 2 Cor. 4. 6. Col. 1. 15. Heb. 1. 3. 1 Ioan 5. 20.

* Gweled yn ysbrydol, â llygad ffydd wirioneddol, yn ddiammau, yw y gweled yma, yr un peth a'r credu yn yr adnod o'r blaen; oblegid e welodd llawer Iesu â llygaid y corph, ac ni welsant y Tad erioed. † Nid gweled hanfod y Tad, na Pherson y Tad, a feddylir; yn yr ystyr hyny ni welodd neb Dduw erioed, ac nis dichon un dyn ei weled: ond efe a welodd yr hwn sydd yn ddisgleirdeb gogoniant y Tad, ac yn wir lun ei Berson ef; efe a welodd ogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist. Yn athrawiaeth, gwyrthiau, a bywyd sanctaidd Iesu, y mae priodoliaethau hanfodol, a pherffeithiau moesol Duw, yn cael eu datguddio i'r rhai a gredant, yn amlycach nac mewn dim arall.

46 [q] * Mi a ddaethum yn oleuni i'r byd, † fel *y bo i* bob un a'r sydd yn credu ynof fi, nad [r] arhoso yn y tywyllwch.

q adn. 35, 36. pen. 1. 4. a 3. 19. a 8. 12. a 9. 5. Salm 36. 9. Es. 60. 1. Mal. 4. 2. Mat. 4. 16. Luc 1. 76—79. a 2. 32. Act. 26. 18. 1 Ioan 1. 1—3. a 2. 8, 9. r Es. 42. 7, 16. Eph. 5. 14.

* Nid oes yma ddim ond yr hyn a ddywedodd Crist am dano ei hun amryw weithiau o'r blaen, ac y prophwydwyd am dano hefyd oesoedd cyn ei ddyfod. Myfi, yr hwn oeddwn yn hanfodi o'r blaen gyda'r Tad, a ddaethum yn nghyflawnder yr amser i'r byd fel Archoffeiriad, Brenin, a Phrophwyd mawr, ac fel Haul cyfiawnder, i chwalu tywyllwch annwybodaeth, cyfeiliorni, ofergoelion, ac eilun-addoliaeth, ac i ddwyn bywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl. † Mewn tywyllwch y mae dynion hyd oni ddyger hwy i gredu yn Nghrist; a phan gredont, maent yn cael eu galw allan o dywyllwch i ryfeddol oleuni Duw.

47 Ac os clyw neb fy ngeiriau, ac ni chred, [s] * myfi nid wyf yn ei farnu ef: [t] † canys ni ddaethum i farnu y byd, eithr i achub y byd.

s adn. 48. pen. 5. 45. a 8. 15, 16, 26. t pen. 3. 17. Mat. 18. 11. a 20. 28. Luc 9. 56. a 19. 10. 1 Tim. 1. 15, 16. 2 Pedr 3. 15. 1 Ioan 4. 14.

* Clywodd llawer eiriau personol Crist ac heb eu credu, ond nid oedd efe y *pryd hwnw* yn eu barnu, nac y *pryd hwnw* yn tywallt barn a chospedigaeth arnynt: † ei waith ef y pryd hwnw oedd achub a gwaredu, ac nid barnu a chospi.

48 [u] * Yr hwn sydd yn fy nirmygu i, ac heb dderbyn fy ngeiriau, † y mae iddo un yn ei farnu: [x] ‡ y gair a leferais i, hwnnw a'i [y] barn ef yn y dydd diweddaf.

u Deut. 18. 19. 1 Sam. 8. 7. a 10. 19. Es. 53. 3. Mat. 21. 42. Marc 8. 31. a 12. 10. Luc 7. 30. a 9. 22. a 10. 16. a 17. 25. a 20. 17. Act. 3. 23. Heb. 2. 3. a 10. 29—31. a 12. 25. x pen. 3. 17—20. Marc 16. 16. 2 Cor. 2. 15, 16. a 4. 3. 2 Thes. 1. 8. y pen. 11. 24. Mat. 25. 31. Rhuf. 2. 16. Heb. 9. 27, 28.

* Dirmyg ar Grist yw peidio derbyn ei eiriau, ac y

mae pawb ar ni dderbyniant ei eiriau ef yn ei ddirmygu. Gwrthod yn ddirmygus yw ystyr y gair *(athetôn)* a gyfieithir yma dirmygu, meddant. † Er nad wyf fi yn barnu y cyfryw yn awr, eto y mae amser i'w farnu ef, ac y mae un eithaf cyfiawn a diduedd a'i barna ef, sef fy Nhad, yr hwn a'm hanfonodd I, efe a amddiffyn fy anrhydedd I ar ol hyn. ‡ Pa fodd bynag yr oedd dynion (ac y maent eto) yn gwrthod derbyn geiriau Crist, yr oeddynt yn gwrthod yr unig eiriau oedd am eu bywyd tragywyddol; ac e ddaw y geiriau gwrthodedig hyny i'w herbyn yn nydd y farn, yn dystiolaeth annwrthwynebol i'w heuog-farnu. Tybia *Doddridge* mai y "gair" a lefarodd yr Iesu sydd i'w ddeall wrth yr "un" sydd i farnu yn y dydd diweddaf: rhoddi dynsodiad, neu bersonoliaeth, i'r gair.

49 [z] * Canys myfi ni leferais o honof fy hun: † ond y Tad yr hwn a'm hanfonodd i, efe a roddes orchymyn i mi, beth a ddywedwn, a pha beth a lefarwn.

z pen. 3. 11, 32. a 5. 30. a 6. 38—40. a 8. 26, 42. a 14. 10. a 15. 15. a 17. 8. Deut. 18. 18. Dat. 1. 1.

* Mae yn amlwg wrth ragoroldeb a graslonrwydd y geiriau a lefarais I, yn nghyd â'r gwyrthiau goruwchnaturiol a wnaethum i'w cadarnâu, mai nid fel dyn cyffredin, nac o'm dychymmyg fy hun y llefarais I hwynt; † ond y Tad yr hwn a'm hanfonodd I a'u rhoddodd i mi i'w llefaru, ac a roes orchymyn i mi yn y cyfammod tragywyddol eu traddodi. Gan hyny, y neb sydd yn gwrthod derbyn fy ngeiriau I, sydd ar yr un pryd yn gwrthod derbyn geiriau fy Nhad, a hyny dàn y perygl o'i farn ofnadwy ef.

50 * Ac mi a wn fod [a] ei orchymyn ef yn fywyd tragywyddol: † am hynny y pethau yr wyf fi yn eu llefaru, fel y dywedodd y Tad wrthyf, felly yr wyf yn llefaru.

a pen. 6. 63, 68. a 17. 3. a 20. 31. 1 Tim. 1. 16. 1 Ioan 2. 25. a 3. 23, 24. a 5. 11—13, 20.

* Pa beth bynag a feddylioch chwi am dani, mi a wn I fod ei orchymyn ef o'r pwys mwyaf, fod yr athrawiaeth wyf fi yn bregethu yn ol ei orchymyn, a thrwy ei awdurdod ef, yn cynnwys yr unig ddatguddiad, a'r unig foddion, o fywyd tragywyddol: a thrwy gredu a derbyn hon yn ol ei orchymyn ef, y mae etifeddu bywyd tragywyddol. † Am fy mod yn gwybod hyny, yr wyf yn llefaru pob peth fel y dywedodd fy Nhad wrthyf, ac nid wyf yn meddwl galw dim yn ol, pa un bynag a wrandawoch chwi ai peidio.

PEN. XIII.

Yr Iesu yn golchi traed ei ddysgyblion.

* ACHYN [a] gwyl y pasc, [b] † yr Iesu yn gwybod ddyfod ei awr ef [c] ‡ i ymadael â'r byd hwn at y Tad, [d] efe yn caru yr eiddo y rhai oedd yn y byd, || a'u carodd hwynt [e] hyd y diwedd.

a pen. 6. 4. Mat. 26. 2. Marc 14. 1. Luc 22. 1. b pen. 7. 6, 30. a 8. 20. a 11. 9, 10. a 12. 23. a 17. 1. a 18. 4. Mat. 26. 45. Luc 9. 51. a 13. 32, 33. a 22. 53. c adn. 3. pen. 14. 28. a 16. 5—7, 28. a 17. 5, 11, 13. d adn. 34. pen. 15. 9, 10, 13, 14. a 17. 9, 10, 14—16, 26. Jer. 31. 33. Rhuf. 8. 37. Eph. 5. 25, 26. 1 Ioan 4. 19. Dat. 1. 5. e Mat. 28. 20. 1 Cor. 1. 8. Heb. 3. 6, 14. a 6. 11. 1 Pedr 1. 13.

* *Chigagah* y galwai yr Iuddewon yr ŵyl hon, hyny yw, gŵyl yr offrwm, yn yr hon y gwnâent offrymau hedd o ddefaid ac ychain trwy holl saith niwrnod yr ŵyl, sef gŵyl y pasg, Deut. 16. 2; Luc 22. 1; Ioan 18. 28. Ond y mae dysgedigion yn amrywio yn fawr yn eu meddyliau pa bryd oedd hyn, "cyn gŵyl y pasg;" a pha bryd y bu y swper y sonir yn yr adnod nesaf: tybia rhai mai swper yn Bethania ydoedd, ryw ddiwrnod neu ddau cyn y pasg, a thybia eraill mai swper y pasg ei hun ydoedd. Rhy faith o lawer fyddai crybwyll y rhesymau sydd o'r ddwy ochr, ac afreidiol hefyd: trwy fawr drugaredd, lle mae cylymau anhawdd eu dattod yn yr ysgrythyrau, nid ydynt am bethau hanfodol i'n iachawdwriaeth ni: felly yma, nid yw o bwys mawr i ni i wybod pa bryd y bu y swper hon; mae ein pedwar awdwr yn barnu yn gydunol mai swper y pasg ei hun ydoedd, a llawer o resymau cryfion gan rai o honynt dros hyny. † Dywedasai ein Harglwydd Iesu amryw weithiau o'r blaen fod ei awr ef heb ddyfod; ond yma dywedir y gwyddai efe fod yr awr bwysig hòno wedi dyfod. ‡ Ei awr i ymadael â'r byd gofidus hwn trwy farwolaeth boenus ar y groes, ac wedi ei adgyfodi o'r bedd, esgyn yn ogoneddus at y Tad, lle yr oedd efe er tragywyddoldeb. || Caru i berffeithrwydd, yw ystyr y gair, yn gystal a charu hyd y diwedd: caru hyd ddiwedd ei oes ef, ac hyd ddiwedd eu hoes hwythau, ar y ddaear; a'u caru byth yn y nef: ymorphwys yn ei gariad, neu ymlonyddu byth ynddo, Seph. 3. 17.

2 [f] * Ac wedi darfod swpper ([g] † wedi i ddiafol eisoes [h] roi y'nghalon Judas Iscariot, *mab* Simon, ei fradychu ef)

f adn. 4, 26. g adn. 27. Luc 22. 3, 31. Act. 5. 3. Eph. 2. 2. h Ezra 7. 27. Neh. 2. 12. 2 Cor. 8. 16. Iago 1. 13—17. Dat. 17. 17.

* Sylwyd ar y swper hon eisoes, adn. 1. Dylid cyfieithu y geiriau, *pan ddaeth* swper, yn hytrach, meddant; ac ni a gawn weled ar ol hyn, yn adn. 26, 27, nad oedd swper ddim wedi darfod. Dywedir y byddai yr Iuddewon yn arfer bwyta peth o'r dail surion a'r bara croyw yn gyntaf, yna cymmeryd y bwrdd ymaith, ac yn y màn dygid ef drachefn; ac efallai mai dyna'r pryd y cyfododd Iesu oddi ar swper i olchi traed ei ddysgyblion, adn. 4, 5. Fel hyny yr oedd rhan o'r swper wedi darfod, a rhan o hóni heb ddarfod. † Am waith satan yn rhoddi yn nghalon Judas i fradychu Crist, gwel Luc 22. 3. Nis gwyddom pa un ai calon gybyddlyd Judas ei hun, ai ynte gweithrediad satan ar ei galon ef, a barodd iddo feddwl gyntaf am y fath weithred fradychus. Cyfeiriad at weithrediad cyntaf satan arno, sydd yma, a gwahanol i'r hyn a grybwyllir eto yn adn. 27, 30.

3 * Yr Iesu [i] yn gwybod roddi o'r Tad bob peth oll yn ei ddwylaw ef, [k] † a'i fod wedi dyfod oddi wrth Dduw, ac yn myned at Dduw;

i pen. 3. 35. a 5. 22—27. a 17. 2. Mat. 11. 27. a 28. 18. Luc 10. 22. Act. 2. 36. 1 Cor. 15. 27. Eph. 1. 21, 22. Phil. 2. 9—11. Heb. 1. 2. a 2. 8, 9. k adn. 1. pen. 1. 18. a 3. 13. a 7. 29, 33. a 8. 42. a 16. 27, 28. a 17. 5—8, 11—13.

* "Yr Iesu yn gwybod:" neu yn hytrach, *er* ei fod yn gwybod. Er y gwyddai Iesu ei holl awdurdod fel Cyfryngwr, ei fod wedi dyfod oddi wrth Dduw fel Person Dwyfol, ac yn myned at Dduw i'w ogoneddu ganddo; er y gwyddai y pethau hyn oll am dano ei hun, er ei fod yn meddwl am danynt y pryd hwnw, ac efallai yn llefaru am danynt hefyd; eto efe a ddangosodd ei ostyngeiddrwydd yn gymmaint fel y cododd oddi ar swper i olchi traed ei ddysgyblion. Wrth ddarllen yr adnod *yr* Iesu yn gwybod, fel y mae genym ni, mae y synwyr braidd yn dywyll; ond wrth ei ddarllen *er* fod yr Iesu yn gwybod, mae yn sicr yn oleuach: oblegid amcan yr efengylwr oedd, dangos tra gostyngeiddrwydd Iesu, yn golchi traed ei ddysgyblion, ac efe yn gwybod pethau mòr fawr am dano ei hun. † Gwrthddadl y *Sociniaid* yw hyn:—Pa fodd y gellir dywedyd fod Duw yn dyfod oddi wrth Dduw i'r byd, ac yntau yn wastad yn y nef-oedd? Neu, ei fod yn gadael y byd ac yn myned at y Tad? *Ateb.* O ran ei natur ddwyfol, dywedir ei fod yn disgyn o'r nef, nid trwy ddisgyniad llëawl, neu adael y nef; ond trwy yr eglurâd, neu yr amlygiad o hóno ei hunan yn unig, yn ei enedigaeth. Yn yr ystyr hyn dywedir yn fynych bod Duw ei hun yn disgyn o'r nef, pan y mae efe yn amlygu ei bresenoldeb ar y ddaear trwy ryw weithred ddwyfol o'r eiddo, a dywedir hefyd ei fod yn esgyn i'r nef wedi hyny. Paham gan hyny nas gellir dywedyd fod Duw y Gair yn disgyn o'r nef, ac yn preswylio gyda dynion (fel y dywedir fod Duw yn preswylio yn y babell ac yn y deml gynt) pan drigodd y

Gair *(Logos)* yn y natur ddynol ar y ddaear, ac yr eglurodd ei ogoniant? Ac hefyd ei fod yn gadael y byd, ac yn myned at y Tad, nid yn unig trwy dderchafiad ei natur ddynol; ond trwy wneuthur yn awr ei holl weithredoedd dwyfol o'r nef, lle mae efe yn eistedd yn mawredd a gogoniant y Tad? *Whitby*, o waith *Scott*.

4 * Efe a gyfododd oddi ar swpper, [l] ac a roes heibio ei gochl-wisg, ac a gymmerodd dywel, ac a ymwregysodd.

l Luc 12. 37. a 17. 7, 8. a 22. 27. 2 Cor. 8. 9. Phil. 2. 6—8.

* Sylwyd eisoes, adn. 2, y byddai yr Iuddewon yn gyntaf yn bwyta peth o'r dail surion a'r bara croyw, ac yn mhen ychydig ar ol y blaen-brawf hwn byddent yn bwyta yr oen pasg. Rhwng y ddwy ran swper hyn, byddai yn arferol i'r pen-teulu olchi ei ddwylaw; a thybir mai dyma pryd y cododd Iesu i olchi traed ei ddysgyblion. Sylwn ar y weithred ryfedd hon:—Dyma Fab Duw, Arglwydd nef a daear, yr hwn y rhoddwyd pob peth oll yn ei ddwylaw ef, ac yr hwn oedd yn mynned at Dduw, i eistedd ar ei ddeheulaw, yn fuan; yn cyfodi oddi ar swper, yn diosg ei gochl-wisg, yn ymwregysu â thywel fel gwasanaethydd, yn tywallt dwfr i'r cawg ei hunan, yn golchi traed ei ddysgyblion tlodion, ac yn eu sychu â'r tywel. Wrth ystyried ei fawredd ef, gwaeledd ei ddysgyblion, ac iselder y gwaith a wnaeth efe iddynt, mae y tro hwn yn dro rhyfedd iawn. Ond gwnaeth yr Iesu beth anfeidrol ryfeddach na hyn, ac nid oedd y tro hwn ond megys cysgod o hóno; diosgodd wisgoedd ei ogoniant a'i fawrhydi, ymwregysodd megys â'n natur wael ni, fel yr ymddangosai mewn agwedd gwas; a thrwy ei ddarostyngiad, ei ufudd-dod, ei ddyoddefaint, a'i farwolaeth, mae yn golchi ein cydwybodau ni oddi wrth euogrwydd, a'n calonau oddi wrth halogrwydd pechod, yn ei waed ei hun, a thrwy sancteiddiad ei Ysbryd.

5 * Wedi hynny [m] efe a dywalltodd ddwfr i'r cawg, ac a ddechreuodd [n] olchi [o] traed y disgyblion, a'*u* sychu â'r tywel, â'r hwn yr oedd efe wedi ei wregysu.

m pen. 19. 34. 2 Bren. 3. 11. Ezec. 36. 25. Zec. 13. 1. Eph. 5. 26. 1 Ioan 5. 6. n adn. 8. Ex. 29. 4. Lef. 14. 8. 2 Bren. 5. 10—13. Salm 51. 2, 7. Es. 1. 16. Act. 22. 16. 1 Cor. 6. 11. Tit. 3. 3—5. Heb. 10. 22. 1 Ioan 1. 7. Dat. 1. 5. a 7. 14. o adn. 10, 12—14. Gen. 18. 4. a 19. 2. 1 Sam. 25. 41. Luc 7. 38, 44. 1 Tim. 5. 10.

* Gorchwyl y gweinidog iselaf oedd hyn oll, 1 Sam. 25. 41; ond wele yma Arglwydd pawb oll yn ei wneyd. Dywed Luc 22. 24, fod ymryson yn mhlith y dysgyblion ar y swper hon, pa un a fyddai fwyaf o honynt; efallai mai hyny a fu yn achlysur i'r Arglwydd Iesu i wneyd hyn, i'r dyben o geryddu eu balchder, a dysgu gostyngeiddrwydd iddynt fel hyn.

6 * Yna y daeth efe at Simon Pedr. Ac efe a ddywedodd wrtho, [p] † Arglwydd, a wyt ti yn golchi fy nhraed i?

p pen. 1. 27. Mat. 3. 11—14. Luc 5. 8.

* Efallai fod Simon Pedr y cyntaf y daeth Iesu ato, gan ei fod am wrthod cymmeryd golchi ei draed ganddo, ac na chlywn yr un o'r lleill wedi hyny yn codi gwrthddadl yn y byd. Mae yn debyg i Grist olchi traed Judas, ei fradychwr, y tro hwn, yr un modd a'r lleill o honynt. † Rhyw sỳnu yn hunan-ymwadol a wnaeth Pedr, fod yr hwn y credai ac y gwyddai efe mai Mab Duw oedd, yn ei iselu ei hun can gymmaint, a golchi ei draed ef bechadur gwael a ffiaidd. Mewn rhyw ystyr nis gellir beïo arno, ond eto ei le oedd ufuddâu: mae gwrando yn well nac aberth, ac yn sicr yn well na moes-gyfarch o'r fath hyn.

7 Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, [q] * Y peth yr wyf fi yn ei wneuthur, ni wyddost ti yr awrhon: † eithr ti a gei wybod ar ol hyn.

q adn. 10—12. pen. 12. 16. a 14. 26. Jer. 32. 24, 25, 43, 44. Dan. 12. 8, 12. Hab. 2. 1—3. Iago 5. 7—11.

* Nid wyt ti ddim yn addas i farnu, Pedr, eto am yr hyn wyf fi yn ei wneyd; nid wyt ti eto yn deall fy nyben i yn y peth hwn, am hyny ni ddylit fy ngwrthwynebu. † Ar ol hyn, (yn adn. 12—17,) ti a gai wybod; a phan dywallter yr Ysbryd o'r uchelder yn mhen ychydig eto, ti a gai wybod yn chwaneg, a thi a gai brofi llesâd ysbrydol y peth wyf fi yn fwriadu ei ddangos drwy y cyflawniad arwyddol hwn.

8 * Pedr a ddywedodd wrtho, [r] Ni chei di olchi fy nhraed i byth. † Yr Iesu a attebodd iddo, [s] Oni olchaf di, nid oes i ti ‡ gyfran gyd â myfi.

r Gen. 42. 38. Mat. 16. 22. a 21. 29. a 26. 33, 35. Col. 2. 18, 23. s adn. 6. pen. 3. 5. Es. 4. 4. Ezec. 16. 4—9. a 36. 25. Zec. 13. 1. Act. 22. 16. 1 Cor. 6. 11. Heb. 9. 22, 23. a 10. 4—10, 22. Dat. 1. 5. a 7. 14.

* Gwr tỳn am ei ffordd oedd Pedr yn gyffredin; felly yr oedd yma, yn penderfynu gosod ei ewyllys ei hun mewn cyferbyniad i ewyllys Crist. Yr oedd ganddo *sêl* fawr, ond *sêl* heb wybodaeth oedd: fel pe dywedasai, Ni wiw siarad, yr wyf fi yn penderfynu, pe cymmerai pawb o honynt genyt olchi eu traed, na chai di olchi fy nhraed I byth: yr wyf yn sicr fod hyny yn llawer gormod darostyngiad i ti, ac yn llawer gormod anrhydedd i minnau. Gwelwn yma mòr anhawdd yw adnabod y galon; tybiai Pedr ei fod yn ostyngeiddiach na neb, ac yntau ar yr un pryd yn gyndynach, ac yn fwy anhywaith na'r un o'r dysgyblion. † Wrth weled Pedr yn dàl ati i wrthwynebu ei ewyllys a'i gariad ef dàn rith o ostyngeiddrwydd, mae yr Arglwydd Iesu yn ei ateb ef yn fwy llym yr ail waith. Gallwn weled yn yr ateb, fod yr anufudd-dod lleiaf, heb edifeirwch, yn ddigon i gauad dyn allan o deyrnas nef. Ond mae yn ddiammau mai golchiad ysbrydol yr enaid oedd yr Arglwydd Iesu yn ei feddwl yn benaf, yr hyn oedd yn cael ei arwyddo yn y golchiad allanol hwn. ‡ Am ystyr y gair cyfran yn y fàn hon, gwel Deut. 14. 27; 2 Sam. 20. 1; 2 Cor. 6. 15.

9 * Simon Pedr a ddywedodd wrtho, Arglwydd, [t] nid fy nhraed yn unig, † eithr *fy* nwylaw a'*m* pen hefyd.

t Salm 26. 6. a 51. 2, 7. Jer. 4. 14. Mat. 27. 24. Heb. 10. 22. 1 Pedr 3. 21.

* Deallodd Pedr erbyn hyn, fod mwy o bwys yn y peth nac a feddyliasai efe, ac yn hytrach na chael ei ysgar oddi wrth ei Arglwydd, mae yn ymostwng yn ewyllysgar i gymmeryd ei olchi ganddo. † Mewn ystyr ysbrydol yr oedd yn cydnabod ei fod oll yn aflan, o'r gwadn hyd y coryn, ac eisiau ei olchi gan Fab Duw. Mae Pedr yma mòr awyddus am gael ei olchi, ag oedd o'r blaen yn benderfynol na fynai ei olchi.

10 * Yr Iesu a ddywedodd wrtho, [u] Yr hwn a olchwyd, [x] nid rhaid iddo ond golchi *ei* draed, [y] eithr y mae yn lân oll: [z] † ac yr ydych chwi yn lân, eithr nid pawb oll.

u Lef. 16. 26, 28. a 17. 15, 16. Num. 19. 7, 8, 12, 13, 19—21. Heb. 9. 10. x Preg. 7. 20. Mat. 6. 12. Rhuf. 7. 20—23. 2 Cor. 7. 1. Eph. 4. 22—24. a 5. 26, 27. 1 Thes. 5. 23. Iago 3. 2. 1 Ioan 1. 7—10. y Can. 4. 7. Jer. 50. 20. 2 Cor. 5. 17, 21.

* Yn yr adnodau o'r blaen gwelsom Pedr yn rhedeg o un eithafedd i'r llall yn ei annwybodaeth; yma mae Iesu yn egluro y peth yn oleuach iddo, ac yn dywedyd, nad oedd raid i'r hwn a fuasai mewn baddon *(bath)* yn ddiweddar yn ymolchi, gael ei olchi oll drachefn yn fuan; y byddai golchi ei draed fel y byddai yn eu diwyno wrth gerdded, yn ddigon iddo. Meddwl ysbrydol y peth yw hyn; yr hwn a olchwyd, a sancteiddiwyd, ac a gyfiawnâwyd, yn enw yr Arglwydd Iesu, a thrwy Ysbryd ein Duw ni, nid oes achos am wneyd hyny drachefn; eto tra byddo yn y cnawd, ac yn y byd drwg presenol, bydd mynych achos golchi ei draed oddi wrth halogedigaethau damweiniol, â pha rai y llygrir ef yn aml gan wendid y cnawd, a hudoliaethau y byd hwn. † O ran eu cyfiyrau a'u personau ger bron Duw, yr oedd y dysgyblion yn lân, yn gyfiawn, ac yn gymmeradwy; ond nid oeddynt oll felly: nid oedd Judas fradwr felly.

11 [z] * Canys efe a wyddai pwy a'i bradychai ef: am hynny y dywedodd, Nid ydych chwi yn lân bawb oll.

z adn. 18, 21, 26. pen. 2. 25. a 6. 64—71. a 17. 12. Mat. 26. 24, 25.

* Geiriau Ioan yw y rhai hyn, yn egluro beth oedd Crist yn feddwl pan ddywedai, Nid ydych chwi yn lân bawb oll. Mae yn debyg nad oedd ei ddysgyblion yn deall ei feddwl y pryd hwnw, nac yn meddwl fod bradychwr yn eu plith, ond daethant i ddeall yn fuan wedi hyny.

12 * Felly wedi iddo olchi eu traed hwy, a chymmeryd ei gochl-wisg, efe a eisteddodd drachefn, ac a ddywedodd wrthynt, [b] † A wyddoch chwi pa beth a wnaethum i chwi?

b adn. 7. Ezec. 24. 19, 24. Mat. 13. 51. Marc 4. 13.

* Yma mae Iesu yn cyflawni yr hyn a addawodd i Pedr yn adn. 7; ac yn dangos iddynt oll beth oedd ei ddyben ef yn yr hyn a wnaethai, a pha beth a ddylent hwythau ddysgu wrth hyny. † Mae yn gofyn iddynt a wyddent, i'w hargyhoeddi hwy o'u hannwybodaeth, ac i'w parotôi i wrando yn fwy deffrôus.

13 [c] * Yr ydych chwi yn fy ngalw i, Yr Athraw, a'r Arglwydd: [d] † a da y dywedwch: canys *felly* yr ydwyf.

c pen. 11. 28. Mat. 7. 21, 22. a 23. 8—10. Luc 6. 46. Rhuf. 14. 8, 9. 1 Cor. 8. 6. Phil. 2. 11. a 3. 8. 2 Pedr 1. 14—16. d Jer. 1. 12. Luc 7. 43. a 10. 28. Iago 2. 19.

* Byddai y dysgyblion yn gyffredin yn cyfarch Iesu wrth y naill neu y llall o'r enwau hyn; † ac yr oedd yn eithaf priodol iddynt wneyd felly, efe oedd eu Hathraw i'w dysgu, ac efe oedd eu Harglwydd mawr i'w llywodraethu. Mae bod y bannod *yr* Athraw, ac *yr* Arglwydd, o flaen yr enwau hyn, yn dangos eu bod yn cael eu priodoli i Grist mewn ystyr neillduol, uwch, a gwahanol i bawb eraill. Mae y bannod yn y Groeg fel yn y Gymraeg, ond nid yw yn y Saesoneg. Nis gall yr enwau hyn berthyn ond i un.

14 [e] * Am hynny os myfi, yn Arglwydd ac yn Athraw, a olchais eich traed chwi; [f] chwithau a ddylech olchi traed eich gilydd.

e Mat. 20. 26—28. Marc 10. 43—45. Luc 22. 26, 27. 2 Cor. 8. 9. Phil. 2. 5—8. Heb. 5. 8, 9. a 12. 2. f Act. 20. 35. Rhuf. 12. 10, 16. a 15. 1—3. 1 Cor. 8. 13. a 9. 19—22. 2 Cor. 10. 1. Gal. 5. 13. a 6. 1, 2. Phil. 2. 2—5. 1 Pedr 4. 1. a 5. 5.

* Nid yw yn arferiad golchi traed yn ein gwlad ni fel yn y gwledydd poethion hyny, ac nid oes achos am dano: nid ydym yn darllen i'r apostolion erioed olchi traed eu gilydd, na golchi traed neb dysgyblion eraill; ac nid y weithred arbenig o olchi traed, yn ddiau, yw y peth a orchymynir gan Iesu yma, ond bod i'w ddysgyblion ef garu eu gilydd, bod am y mwyaf gostyngedig, a bod yn barod i wneuthur pob gwasanaeth, hyd yn nod y gwasanaeth iselaf, y naill i'r llall, yn ol esampl eu Hathraw a'u Harglwydd yn y tro hwn.

15 [g] * Canys rhoddais esampl i chwi, fel y gwnelech chwithau megis y gwneuthum i chwi.

g Mat. 11. 29. Rhuf. 15. 5. Eph. 5. 2. 1 Pedr 2. 21. a 3. 17, 18. 1 Ioan 2. 6.

16 [h] Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, [i] † Nid yw y gwas yn fwy nâ'i arglwydd; ‡ nâ'r hwn a ddanfonwyd yn fwy nâ'r hwn a'i danfonodd.

h Gwel ar pen. 3. 3, 5. i pen. 15. 20. Mat. 10. 24, 25. Luc 6. 40.

Yr oedd yr apostolion i gymmeryd lle mawr, ac i lenwi sefyllfa uchel, yn yr eglwys; ac mae yn dra thueddol i galon dyn gymmeryd mantais ar bob peth felly i ymchwyddo, a thybied yn fawr o hóno ei hun: ac er dysgu gostyngeiddrwydd, hunan-ymwadiad, cariad, a pharodrwydd i bob gwasanaeth, mae Crist yn rhoddi ei hun yn esampl iddynt, ac i'w holl ganlynwyr, o bob sefyllfa yn y byd ac yn yr eglwys, yn mhob màn ac oes. † Mae yn debyg mai diareb yn mhlith yr Iuddewon oedd y geiriau hyn: llefarodd yr Arglwydd Iesu hwy droion eraill, megys yn Matth. 10. 24; Ioan 15. 20; yn y ddau le hyny llefarodd hwy i arfogi ei ddysgyblion yn wyneb erlid, yma mae yn eu defnyddio i ddysgu gostyngeiddrwydd, addfwynder, a chariad brawdol iddynt. ‡ Gan i Grist, eu Harglwydd hwy, a'r hwn a'u danfonodd, roddi y fath esampl o ostyngeiddrwydd a chariad, pa faint mwy y dylai y gweision, a'r rhai danfonedig?

17 Os gwyddoch y pethau hyn, [k] gwyn eich byd os gwnewch hwynt.

k pen. 15. 14. Gen. 6. 22. Ex. 40. 16. Salm 19. 11. a 119. 1—5. Ezec. 36. 27. Mat. 7. 24, 25. a 12. 50. a 22. 38—41. Luc 12. 47, 48. 2 Cor. 5. 14, 15. Gal. 5. 6. Heb. 11. 7, 8. Iago 1. 25. a 2. 20—24. a 4. 17. Dat. 22. 14.

* Nid mewn gwybod y pethau uchod yn unig mae y gwynfyd, ond yn eu gwybod a'u gwneyd. Y neb a fedr wneuthur daioni, ac nid yw yn ei wneuthur, pechod yw iddo: a ffydd heb weithredoedd marw yw. Nid *am* wneyd y mae dedwyddwch, eto y mae dedwyddwch *mewn* gwneyd: efe a fydd dedwydd *yn* ei weithred.

18 ¶ * Nid wyf fi yn dywedyd am danoch oll: [l] † mi a wn pwy a etholais: [m] ‡ ond fel y cyflawnid yr ysgrythyr, Yr hwn sydd yn bwytta bara gyd â mi, a gododd ei sawdl yn fy erbyn.

l adn. 11. pen. 17. 12. a 21. 17. 1 Cor. 4. 5. Heb. 4. 13. Dat. 2. 23. m adn. 21—27. Salm 41. 9. Mat. 10. 36. a 26. 23. Marc 14. 20.

* Nid wyf yn dywedyd eich bod oll yn lân, mi a ddywedais i'r gwrthwyneb eisoes: nid wyf yn dywedyd y gwna pawb o honoch chwi y pethau uchod a grybwyllais, mi a wn nas gwna un o honoch, Judas. Neu, fel hyn, Yr wyf yn myned i ddywedyd i chwi beth yn fuan, a wna i chwi synu, ac i'ch clustiau ferwino; ond cymmerwch gysur, nid wyf yn myned i ddywedyd yr un peth am danoch oll, dim ond am un, yr hwn a'm bradycha I. † Gwyddai Iesu pwy a etholasai efe i'r apostoliaeth, a gwyddai hefyd pwy oedd wedi eu hethol i fywyd tragywyddol. Am yr olaf mae yn sôn yma yn ddiau, oblegid yr oedd Judas wedi cael ei ethol i'r apostoliaeth yn gystal â'r lleill, ond nid i fywyd tragywyddol: yn yr ystyr hyny "mab y golledigaeth" oedd efe. ‡ Ond fel y cyflawnid yr ysgrythyr, (Salm 41. 9.) y mae un yn eich plith chwi, ac yn bwyta bara gyda mi, a gyfyd ei sawdl i'm herbyn, fel pe byddai i anifail godi ei sawdl i daro yr hwn a'i porthai.

19 Yn awr [n] yr wyf yn dywedyd wrthych cyn ei ddyfod, fel pan ddêl, y credoch [o] mai myfi yw *efe*.

n pen. 14. 29. a 16. 4. Es. 41. 23. a 48. 5. Mat. 24. 25. Luc 21. 13. o pen. 1. 15. a 8. 23, 24, 58. Es. 43. 10. Mal. 3. 1. Mat. 11. 3. Dat. 1. 17, 18.

* Dywedodd Crist hyn wrthynt yn mlaenllaw; fel na byddai iddynt gael eu digaloni pan welent y peth yn dygwydd, ond yn hytrach y credent mai efe oedd y Messiah, gan y medrai ragfynegi pethau cyn eu tòri allan mewn gweithrediad.

20 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, [p] * Yr hwn sydd yn derbyn y neb a ddanfonwyf fi, sydd yn fy nerbyn i; a'r hwn sydd yn fy nerbyn i, sydd yn derbyn yr hwn a'm danfonodd i.

p pen. 12. 44—48. Mat. 10. 40—42. a 25. 40. Marc 9. 37. Luc 9. 48. a 10. 16. Gal. 4. 14. Col. 2. 6. 1 Thes. 4. 8.

* Mae yr un geiriau yn Matth. 10. 40; gwel y sylwad yno. Ar ol dysgu gostyngeiddrwydd i'w ddysgyblion yn yr adnodau o'r blaen, a dangos wedi hyny y byddai un o honynt yn fradwr, yr oedd yn naturiol, efallai, i'r apostolion fyned yn isel feddwl; a thybied y byddent ddigyfrif, yn gas, ac yn wrthodedig gan bawb: yn wyneb hyny mae Crist yn dywedyd y derbynid hwy gan lawer, ac y byddai hyny yn cael ei gyfrif fel derbyniad iddo ef ei hun, a'r Tad yr hwn a'i hanfonodd ef. Cenad Arglwydd y lluoedd oedd Crist, cenadon Crist yw gweinidogion y gair; felly eu derbyn hwy yw ei dderbyn ef, a'i dderbyn ef yw derbyn yr hwn a'i danfonodd ef. Tybir fod yma gyfeiriad at Judas hefyd, yn dangos

fod ei bechod ef yn erbyn y Tad yn gystal ag yn erbyn Crist, ac yn balldod bradychus mewn dyledswydd apostol, ac un wedi cael ei anrhydeddu â danfoniad i'r swydd gan Grist.

21 * Wedi i'r Iesu ddywedyd y pethau hyn, [q] efe a gynhyrfwyd yn yr yspryd, ac a dystiolaethodd, ac a ddywedodd, † Yn wir, yn wir, y dywedaf wrthych, [r] y bradycha un o honoch fi.

q pen. 11. 33, 35, 38. a 12. 27. Mat. 26. 38. Marc 3. 5. Act. 17. 16. Rhuf. 9. 2, 3. 2 Cor. 2. 12, 13. r adn. 2, 18. Mat. 26. 21. Marc 14. 18. Luc 22. 21, 22. Act. 1. 16, 17. 1 Ioan 2. 19.

* Gwedi i Grist ddechreu sôn am y bradychwr, er darpar ei ddysgyblion i dderbyn eglurach dynoethiad o hóno, ac er rhoddi gocheliad i'r bradychwr ei hunan, fel y caffai o hyd amser i edifarâu, neu fod yn ddiesgus os nad edifarâi; mae efe yma yn dangos effeithiau mwy cynhyrfus ar ei feddwl nac arferol: nid yn unig o herwydd ei ddyoddefiadau ei hun, ond hefyd o herwydd drygioni ofnadwy Judas, yr hwn drwy hyny a dynai farn echryslawn Duw arno ei hunan. † Dywedasai o'r blaen y bradychid ef, dywedodd wedi hyny mai un oedd yn arfer bwyta bara gydag ef a wnâi hyny; ac yma mae yn dyfod yn fwy agos, ac yn dywedyd yn bendant mai un o honynt hwy y deuddeg oedd efe: un a fuasai o hyd yn dyst o'i fuchedd, ei weinidogaeth, a'i wyrthiau ef; un a gawsai ran o'r apostoliaeth, ac a oedd dàn y rhwymau mwyaf iddo.

22 * Yna y disgyblion a [s] edrychasant ar eu gilydd, gan ammeu am bwy yr oedd efe yn dywedyd.

s Gen. 42. 1. Mat. 26. 22. Marc 14. 19. Luc 22. 23.

* Gwedi clywed tystiolaeth mòr noeth a difrifol, synodd y dysgyblion yn frawychus, ac nis gallent ond edrych ar eu gilydd; pob un yn drwg-dybio ei hunan, yn hytrach na neb arall, neu ddrwg-dybio eu gilydd oll, yn hytrach na Judas. Dichon llawer iawn o ysgelerder, ie, pob ysgelerder, fod yn nghalon proffeswyr, lle na byddo dim yn neillduol yn eu hymddygiadau allanol, yn wybodus i ddynion, yn peri drwg-dybiaeth yn y byd o honynt. Ac y mae cymmaint o gariad a barn dirion gan wir ddysgyblion Crist, fel nad ydynt yn fyrbwyll i ddrwg-dybied neb.

23 * Ac yr oedd [t] un o'i ddisgyblion † yn pwyso ar fynwes yr Iesu, [u] ‡ yr hwn yr oedd yr Iesu yn ei garu.

t adn. 25. pen. 1. 18. a 21. 20. 2 Sam. 12. 3. u pen. 11. 3, 5, 36. a 19. 26. a 20. 2. a 21. 7, 24. Dat. 1. 16—18.

* Ioan ei hun oedd hwn, ond ei fod o wylder yn llefaru am dano ei hun yn y trydydd person, fel pe buasai rywun arall. † Sylwasom o'r blaen, mae'n debyg, ar Luc 7. 38; a 16. 23, mai yn eu lled-orwedd y byddai yr Iuddewon yn eistedd wrth y bwrdd, gan bwyso ar yr elin aswy, felly byddai pob un a'i ben yn mynwes y llall, a dygwyddodd y tro hwn mai Ioan oedd yn nesaf at yr Iesu. ‡ Pump o weithiau, o leiaf, y dywed Ioan am dano ei hun ei fod ef yn ddysgybl yr hwn yr oedd yr Iesu yn ei garu: yma; pen. 19. 26; a 20. 2; a 21. 7, 20. Ni ddylem feddwl wrth hyn *nad* oedd yr Iesu yn caru y dysgyblion eraill; ac ni ddylem feddwl ychwaith fod Ioan yn ymffrostio bod yr Iesu yn ei garu ef yn fwy na'r dysgyblion eraill: yn hytrach yr oedd yn dywedyd hyn mòr aml, i ddangos ei syndod a'i ddiolchgarwch fod yr Iesu mawr yn caru un mòr wael ac annheilwng âg efe. Gwedi y cwbl, mae yn bur debyg bod rhyw anwyldeb dynol gan Iesu at Ioan mwy na'r dysgyblion eraill, fel y bydd dynion duwiol yn caru rhyw rai o'u brodyr yn fwy nac eraill.

24 * Am hynny yr [x] amneidiodd † Simon Pedr ar hwnnw, i ofyn pwy oedd efe, am yr hwn yr oedd efe yn dywedyd.

x Luc 1. 22. a 5. 7. Act. 12. 17. a 13. 16. a 21. 40.

* Tybir mai gogwyddiad, neu ryw ysgogiad pen, yw ystyr y gair *(neuei)* a gyfieithir yma amneidio. † Mae yn debyg fod ar Simon Pedr ofn gofyn ei hun, yn gyhoeddus, er y chwennychai yn fawr gael gwybod; a chan fod Ioan yn nesaf at yr Iesu, ac y gwyddai Pedr fod yr Iesu yn ei garu yn fawr, amneidiodd ar Ioan i ofyn yn ddistaw iddo, pwy oedd yr hwn a'i bradychai ef.

25 * Ac yntau yn pwyso ar ddwyfron yr Iesu, a ddywedodd wrtho, Arglwydd, [y] pwy yw efe?

y Gen. 44. 4—12. Esther 7. 5, 6.

* Gofynodd Ioan yn grynedig iddo, pwy oedd yr hwn a wnelai y fath weithred ofnadwy.

26 * Yr Iesu a attebodd, [z] Hwnnw yw efe i'r hwn y rhoddaf fi † dammaid wedi i mi ei wlychu. ‡ Ac wedi iddo wlychu y tammaid, efe a'i rhoddodd i [a] Judas Iscariot, *mab* Simon.

z adn. 30. Mat. 26. 23. Marc 14. 19, 20. Luc 22. 21. a pen. 6. 70, 71. a 12. 4—6.

* Wrth gymharu yr adnod hon âg adn. 28, gallwn feddwl mai yn ddistaw a chyfrinachol yr atebodd Iesu i Ioan. † Dywedir mai math o sibr *(sauce)* oedd yn y ddysgl lle gwlychodd Iesu y tammaid; wedi ei wneuthur o amryw ffrwythau peraidd, tua thewedd cymmrwd, i arwyddo y clai, meddant, yn mha un y gweithiai yr hen Iuddewon gynt yn yr Aipht. *Charoseth* y galwai yr Iuddewon ef, a dywedir eu bod o hyd yn arfer y fath gyffaith wrth gadw y pasg. Tybir mai ar ol gwlychu y llaw yn y ddysgl, a sonir gan Matth. 26. 23, a Marc 14. 20, y gwlychodd Iesu y tammaid, yma; oblegid efe a ddywedodd hyny yn gyhoeddus i bawb o honynt, ond hyn yn ddirgel, i Ioan: ac yr oedd pob un o'r deuddeg yn gwlychu ei law yn y ddysgl, Marc 14. 20; ond yma mae y tammaid yn cael ei roddi i Judas yn bennodawl. ‡ Nis gwyddom pa un ai tammaid o fara, ai ynte tammaid o gig yr oen pasg, oedd y tammaid hwn; mae yr un gair, *(psomion)* gyda therfyniad gwahanol, yn cael ei gyfieithu am borthi yn gyffredin, mewn mànau eraill.

27 * Ac ar ol y tammaid, [b] yna yr aeth Satan i mewn iddo. Am hynny y dywedodd yr Iesu wrtho, [c] Hyn yr wyt yn ei wneuthur, gwna ar frys.

b adn. 2. Salm 109. 6. Mat. 12. 45. Luc 8. 32, 33. a 22. 3. Act. 5. 3. c 1 Bren. 18. 27. Diar. 1. 16. Preg. 9. 3. Jer. 2. 24, 25. Dan. 2. 15. Marc 6. 25. Iago 1. 13—15.

* Yr oedd Judas yn meddiant, a thàn lywodraeth satan, erioed, fel pechadur heb ei gyfnewid; yr oedd satan wedi rhoddi yn ei galon ef cyn hyn i fradychu ei Arglwydd, adn. 2; Luc 22. 3; ond yn awr cymmerodd lawn feddiant o hóno, ac a'i hyrddiodd yn mlaen yn benderfynol, i gyflawni ei weithred yn ddioed. Tybia rhai i Judas ddeall, fod yr Arglwydd Iesu yn ei nodi ef allan fel y bradychwr, trwy yr arwydd uchod o roddi y tammaid iddo; ac i hyny ennyn ei elyniaeth a'i gynddeiriogrwydd ef yn ei erbyn, fel y penderfynodd ei fradychu ef yn y fàn i'w elynion. † Fel pe dywedasai yr Iesu wrtho, Mi a wn beth sydd yn dy galon di, cymmer dy ffordd dy hun weithian, yr wyf fi yn barod, ac ni chadwaf di dàn attalfa yn hwy. Nid gorchymyn na chyngor oedd hyn, ond ffieiddiad o'r weithred, a rhoddi Judas i fynu i'w chyflawni.

28 * Ac ni wyddai neb o'r rhai oedd yn eistedd i ba beth y dywedasai efe hyn wrtho.

29 † Canys rhai oedd yn tybied, [d] am fod Judas â'r gôd ganddo, fod yr Iesu yn dywedyd wrtho, Pryn *y pethau* sydd arnom eu heisieu erbyn yr wyl; ‡ neu, [e] ar roi o hono beth i'r tlodion.

d pen. 12. 6. e pen. 12. 5. Act. 20. 34, 35. Gal. 2. 10. Eph. 4. 28.

* Mòr onest a diniwed yw dynion diddichell a chywir; cariad ni feddwl ddrwg: er i Grist ddywedyd yn ddigon amlwg, i Ioan o leiaf, mai Judas oedd yr hwn a'i bradychai ef; eto dywed Ioan ei hun yma, na wyddai *neb* o'r dysgyblion beth oedd Iesu yn ei feddwl wrth yr hyn a ddywedasai i Judas. † Yr oeddynt yn barod i roddi y

lliw gorau ar y peth; tybient fod Judas, fel ceidwad a dygiedydd y gôd, wedi esgeuluso darpar rhyw bethau a fyddai yn angenrheidiol iddynt erbyn dyddiau canlynol yr ŵyl, bod Iesu fel hyn yn ei geryddu ef yn ysgafn am hyny, ac yn peri iddo frysio i ddarpar y pethau hyny. ‡ "Neu, ar roi o hóno beth i'r tlodion;" mae yn debygol y byddai ein Harglwydd ar ŵyl y pasg, yn arfer rhoddi elusenau i'r tlodion yn ol yr ychydig fodd oedd ganddo ef a'i ddysgyblion i wneyd hyny: ond mewn modd mòr ddirgelaidd, fel y tybiodd ei ddysgyblion mai cyfeirio yr oedd, efallai, at hyny, yn y geiriau uchod wrth Judas.

30 * Yntau gan hynny, wedi derbyn y tammaid, [f] † a aeth allan yn ebrwydd. [g] ‡ Ac yr oedd hi yn nos.

f adn. 27. Diar. 4. 16. Es. 59. 7. Rhuf. 3. 15. g Job 24. 13—15.

* Yr oedd hyn yn mwyâu pechod Judas yn ddychryn-llyd, ac yn ei ddangos yn ddyn eithaf caled, pan yr elai allan yn union wedi derbyn y tammaid, i fradychu yr Arglwydd Iesu yr hwn a'i rhoddasai iddo. † Mae yn sicr fod y swper sanctaidd, yr hyn a alwn ni yn sacrament swper yr Arglwydd, yn canlyn bwyta y pasg hwn; gan hyny mae yn debyg i Judas fyned allan cyn i'r dysgyblion fwyta swper yr Arglwydd. Tybir fod y geiriau, "Eithr wele law yr hwn sydd yn fy mradychu gyda mi ar y bwrdd," yn Luc 22. 21, wedi cael eu gosod i lawr allan o drefn, o ran amser; ar ol bwyta y swper sanctaidd, lle dylasent fod cyn hyny, tra yr oeddid yn bwyta y pasg. Sylwasom yn fynych, nad yw yr efengylwyr ddim yn gofalu am osod pob peth i lawr yn fanol yn y drefn y cymmerasant le. ‡ Y nos oedd yr amser cymhwysaf i weithred mòr dwyllodrus ac ysgeler: ac efallai fod cytundeb rhwng Judas a'r arch-offeiriaid, iddo ef eu cyfarfod hwy yn rhywle tua'r amser hwn.

31 ¶ Yna gwedi iddo fyned allan, yr Iesu a ddywedodd, [h] * Yn awr y gogoneddwyd Mab y dyn, [i] † a Duw a ogoneddwyd ynddo ef.

h pen. 7. 39. a 11. 4. a 12. 23. a 16. 14. Luc 12. 50. Act. 2. 36. a 3. 13. Col. 2. 14, 15. Heb. 5. 5—9. i pen. 12. 28. a 14. 13. a 17. 1. Es. 49. 3—6. Luc 2. 10—14. Rhuf. 15. 6—9. 2 Cor. 3. 18. a 4. 4—6. Eph. 1. 5—8, 12. a 2. 7. a 3. 10. Phil. 2. 11. 1 Pedr 1. 21. a 4. 11. Dat. 5. 9—14.

* Y gogoniant perthynol i'w farwolaeth ef, yn y fath fodd sanctaidd a buddugoliaethus, yw y gogoniant hwn, ac nid y gogoniant oedd iddo ef ar ol hyny, ac mewn canlyniad i hyny, am yr hwn y crybwylla efe yn yr adnod nesaf. Yr oedd ef yn ogoneddus yn ei farwolaeth, o herwydd mai gwaith y prynedigaeth oedd, o herwydd y caffai fuddugoliaeth ar bechod, satan, a holl alluoedd y tywyllwch: yr oedd yn ogoneddus yn ei farwolaeth hefyd, am ei fod yn cyflawni yr holl ammodau â'i Dad, yn ei *sêl* dros ei ogoniant ef, yn ei gariad tuag at ei bobl, yn y gweithrediad o bob gras, ac yn y gallu dwyfol a'i cynnaliai ef dàn, ac a'i dygai drwy, yr holl ddyoddefaint oedd o'i flaen, yn anrhydeddus. † Yr oedd y Tad i gael ei ogoneddu yn ei farwolaeth ef hefyd, am y byddai ei holl briodoliaethau yn cael eu derchafu mewn perffaith gydgordiad â'u gilydd, yn y darostyngiad isel, y dyoddefaint, a'r angau, yr ymroddai ef yn wirfoddawl iddynt, mewn agwedd gwas.

32 Os gogoneddwyd Duw ynddo ef, [k] * Duw hefyd a'i gogonedda ef ynddo ei hun, † ac efe a'i gogonedda ef yn ebrwydd.

k pen. 17. 4—6, 21—24. Es. 53. 10—12. Heb. 1. 2, 3. 1 Pedr 3. 22. Dat. 3. 21. a 21. 22, 23. a 22. 1, 3, 13.

* Mae yma yn ddiau gyfeiriad at yr arwyddion a'r rhyfeddodau aruthr a gymmerent le yn nyoddefaint Crist ar y groes; y tystiolaethau a orfyddai hyd yn nod i'w elynion ddwyn am dano; ei adgyfodiad, ei esgyniad, a'i ogoneddiad ar ddeheulaw Duw; yn nghyd â holl ffrwyth ei ddyoddefiadau hyd byth. Duw a'i gogonedda ef ynddo ei hun, sef yn mherson y Cyfryngwr ei hun; ac efe a'i gogonedda ef gydag ef ei hun, sef gyda'r Tad, trwy ei dderbyn ef, hyd yn nod yn ei natur ddynol, i lawn a pherffaith gymdeithas a chymundeb gydag ef ei hun, mewn mawredd a gogoniant. † Efe a'i gogonedda ef yn ebrwydd hefyd; mae Judas eisoes wedi myned allan i roddi cychwyn ar y gwaith mawr, ac mae yr amser yn nesâu yn gyflym. Efe a'i gogonedda ef hefyd yn yr iawn ffordd; oblegid mae y gair Groeg *(euthus)* yn arwyddo hyny, yn gystal ag yn ebrwydd.

33 [l] * *O* blant bychain, [m] † etto yr wyf ennyd bychan gyd â chwi. [n] ‡ Chwi a'm ceisiwch: || ac, megis y dywedais wrth yr Iuddewon, Lle yr wyf fi yn myned, ni ellwch chwi ddyfod; yr ydwyf yn dywedyd wrthych chwithau hefyd yr awrhon.

l Gal. 4. 19. 1 Ioan 2. 1. a 4. 4. a 5. 21. m pen. 12. 35, 36. a 14. 19. a 16. 16—22. n pen. 7. 33, 34. a 8. 21—24. a 14. 4—6.

* Plant, i arwyddo eu perthynas â Duw, ac i arwyddo mawr gariad Crist atynt. Plant bychain i arwyddo gwendid eu deall, eu ffydd, a'u hanalluogrwydd ynddynt eu hunain i ddàl y tywydd oedd o'u blaen. † Nid oedd yr ennyd fechan hon ddim ond ychydig oriau; dim ond o hyny tàn dranoeth; neu o hwyaf dim ond deugain niwrnod, hyd ei esgyniad ef. ‡ Ar ol i mi fyned, chwi a ddymunwch yn ddifrifol fod gyda mi; ond nis gellwch chwi yr awr hon fy nghanlyn, eithr ar ol hyn chwi a'm canlynwch, adn. 36. || Nid yn yr un ystyr y mae i ni ddeall y geiriau hyn wrth y dysgyblion, a phan lefarodd yr Arglwydd Iesu hwynt wrth yr Iuddewon, yn pen. 7. 34; a 8. 21; yno yr oedd yn dywedyd nas gallent hwy, ei elynion, ddyfod byth i'r lle yr oedd ef yn myned; yma mae yn dywedyd, wrth ei ddysgyblion, nas gallent hwy y *pryd hwnw* ei ganlyn ef, ond y canlynent ef ar ol hyny. Mae adn. 36, yn egluro hon.

34 [o] * Gorchymyn newydd yr wyf yn ei roddi i chwi, [p] † Ar garu o honoch eich gilydd: ‡ fel y cerais i chwi, ar garu o honoch chwithau bawb eich gilydd.

o Gal. 6. 2. 1 Ioan 2. 8—10. a 3. 14—18, 23. 2 Ioan 5. p pen. 15. 12, 13, 17. a 17. 21. Lef. 19. 18, 34. Salm 16. 3. a 119. 63. Rhuf. 12. 10. 1 Cor. 12. 26, 27. a 13. 4—7. Gal. 5. 6, 13, 14, 22. a 6. 10. Eph. 5. 2. Phil. 2. 1—5. Col. 1. 4. a 3. 12, 13. 1 Thes. 3. 12. a 4. 9, 10. 2 Thes. 1. 3. Heb. 13. 1. Iago 2. 8. 1 Pedr 1. 22. a 3. 8, 9. 2 Pedr 1. 7. 1 Ioan 4. 7—11. a 5. 1.

* Nid gorchymyn newydd, a dywedyd yn fanol yw hwn; oblegid ni a'i cawn ef yn nghyfraith Moses, Lefit. 19. 18: crybwyllir a gwesgir ef yn aml yn y Testament Newydd, pen. 15. 17; Ephes. 5. 2; 1 Ioan 4. 21; a dywed Ioan yn ei Epistol cyntaf, pen. 2. 7; a'i ail Epistol, adn. 6, ei fod o'r dechreuad, felly nid yw yn newydd. Ond yr oedd wedi cael ei gam egluro, a'i lygru yn dost gan yr Iuddewon; ac yma mae Crist yn ei roddi o newydd, drwy esampl newydd, agoriad newydd arno, rhesymau newydd er ei gadw, fel y cyflawner ef mewn ysbryd a thymher newydd, ac mewn dull newydd, fel cyfraith sylfaenol teyrnas Crist. Nis gŵyr neb beth yw caru eu gilydd fel gwir ddysgyblion Iesu. Mae hwn yn orchymyn newydd o herwydd ei ragoriaeth; o herwydd na ŵyr y byd ddim am dano, mwy na phe byddai newydd ei roi; ac o herwydd nad yw y cristionogion goreu ond megys dechreu ei ddysgu a'i gadw. † Mae yn alarus meddwl am lawer dàn enw dysgyblion Iesu, nad ydynt yn caru eu gilydd. ‡ Mae y cariad a orchymynir yma yn cynnwys y dylem ni ofalu am, a dymuno lles a chysur, ein gilydd; cydymdeimlad mewn galar a llawenydd â'n gilydd; a gwir hyfrydwch yn nghymdeithas ein gilydd: mae yn gofyn ymdrech am heddwch a chyd-gordiad yn mhlith ein gilydd; trwy fod yn gymmwynasgar, yn dirion, yn ymarhous, ac yn faddeugar, y naill i'r llall; trwy ddiwallu angenrheidiau ein gilydd, trwy gyduno â'n gilydd mewn gweddïau ac ymarferiadau crefyddol, a thrwy gydymdrech gydag achos cyffredin yr efengyl, fel un corph wedi ei fywiocâu âg un enaid. O mòr werthfawr yw cariad brawdol! O mòr anghysurus lle na byddo! Mae y geiriau hyn, Fel y cerais I chwi, &c. yn cael eu hegluro yn 1 Ioan 3. 16.

35 [q] * Wrth hyn y gwybydd pawb mai dis-

gyblion i mi ydych, os bydd gennych gariad d'ch gilydd.

q pen. 17. 21. Gen. 13. 7, 8. Act. 4. 32—35. a 5. 12—14. 1 Ioan 2. 10. a 3. 10—14. a 4. 20, 21.

* Mae y dysgybl yn cael ei enw, un ai drwy ddysgu gan ei athraw, neu drwy ganlyn ei athraw, a rhodio yn ei ol ef, neu bob un o'r ddau. Mae caru ein gilydd yn nod sicr ein bod yn ddysgyblion i Grist; ac heblaw bod Crist yn gwasgu hyn ar ei ganlynwyr yn ei orchymynion, mae efe hefyd yn ei roddi ei hun yn esampl, trwy addangos y cariad mwyaf a allasai ddangos. Ni welodd y paganiaid erioed y fath gariad yn mhlith dynion, ag a welsant yn mhlith dysgyblion boreuaf Iesu: yr oeddynt yn sŷnu wrth y fath beth, ac wrth eu cariad at eu gilydd yr oeddynt yn eu hadnabod, mai dysgyblion Iesu oeddynt. Gwyddis fod sylfaenwyr pleidiau newyddion yn penu ar ryw arwydd neilduol, o wisgiad neu ryw dbeth i ddynodi eu plaid: cyfeiriad at hyny sydd yma: cariad yw arwydd canlynwyr Iesu.

36 ¶ * A Simon Pedr a ddywedodd wrtho, Arglwydd, [r] i ba le yr wyt ti yn myned? †† Yr Iesu a attebodd iddo, Lle yr ydwyf fi yn myned, ni elli di yr awrhon fy nghanlyn: * eithr ar ol hyn y'm canlyni.

r adn. 33. pen. 14. 4, 5. a 16. 17. a 21. 21. s pen. 21. 18, 19, 22. 2 Pedr 1. 14.

* Mae yn debyg i Pedr ddàl mwy o sylw ar yr hyn a ddywedasai yr Iesu am ei ymadawiad â hwynt, nac ar y gorchymyn newydd: ac yr oedd yn bur dywyll hefyd, ac yntau wedi clywed mòr aml gan Grist am ei farwolaeth, ei adgyfodiad, a'i esgyniad i'r nef. Tybiai Pedr, o herwydd ei wrthod gan yr Iuddewon, ei fod ef ar fedr myned i ryw wlad arall i osod i fynu ei freniniaeth, lle y caffai deyrnasu yn ddiwrthwynebiad. † Nis gelli di yr awr hon fy nghanlyn I; hyd oni chyflawnot ti fy ngwaith I ar y ddaear, yr hwn a roddais i ti i'w wneuthur, ac hyd oni'th nerther yn y ffydd i rodio yn fy nghamrau dyoddefol I, yna, gwedi hyny, ti a gâi fy nghanlyn I yn sicr. Tybir fod Crist yn cyfeirio yma at ferthyrdod Pedr trwy groeshoeliad. E gaiff yr holl saint fod yn wastadol gyda'r Arglwydd, ond rhaid iddynt aros amser eu Harglwydd; ac yn gyntaf cyflawni ei waith ef a roddes ef iddynt ar y ddaear.

37 * Pedr a ddywedodd wrtho, Arglwydd, [t] paham na allaf fi dy ganlyn yr awrhon? † mi a roddaf fy einioes drosot.

t pen. 21. 15. Mat. 26. 31—35. Marc 14. 27—31. Luc 22. 31—34. Act. 20. 24. a 21. 13.

* Pa le bynag yr oedd Crist yn meddwl myned, a pha beryglon a chaledi bynag a allai ddygwydd iddo; yr oedd Pedr yn benderfynol am ei ganlyn ef, pa beth bynag a gostiai hyny iddo. † Yr oedd Pedr yn dywedyd hyn yn ddïau, yn ngonestrwydd diffuant a gwresog ei galon; ond yr oedd yn rhy ehud a byrbwyll, ac yn ymddiried gormod iddo ei hun, neu o leiaf yn rhy annwybodus o dwyll ei galon ei hun. "Anwadal ehud," medd yr hen ddïareb, ac felly y dangosodd Pedr yn fuan ar ol hyn.

38 Yr Iesu a attebodd iddo, [u] A roddi di dy einioes drosof fi? Yn wir, yn wir, meddaf i ti, [x] * Ni chan y ceiliog † nes i ti fy ngwadu dair gwaith.

u Diar. 16. 18. a 28. 26. a 29. 23. 1 Cor. 10. 12. x pen. 18. 16, 17, 25—27. Mat. 26. 34, 69—75. Marc 14. 30, 66—72. Luc 22. 34, 56—62.

* Cyn çânu o'r ceiliog ddwywaith, medd Marc 14. 30; ac felly y dylid deall y tri efengylwyr eraill, y rhai ni ddywedant ond *cyn canu o'r ceiliog*, heb grybwyll pa sawl gwaith. Sylwyd o'r blaen, i Marc ysgrifenu ei efengyl dàn olygiad, a chyfarwyddyd uniongyrchol Pedr ei hun; ac felly efe a adroddodd yn fanylach na'r un arall, holl amgylchiadau y tro hwn. † Adwaenai Crist galon, neu dwyll calon Pedr, yn well nac efe ei hun, am hyny mae yn ei rybuddio fel hyn yn amlwg.

PEN. XIV.

Crist yn cysuro ei ddysgyblion â gobaith teyrnas nef.

[a] * NA thralloder eich calon: [b] † yr ydych yn credu yn Nuw, credwch ynof finnau hefyd.

a adn. 27, 28. pen. 11. 33. a 12. 27. a 16. 6, 22, 23. Job 21. 4—6. a 23. 15, 16. Salm 42. 5, 6, 8—11. a 43. 5. a 77. 2, 3, 10. Es. 43. 1, 2. Jer. 8. 18. Galar. 3. 17—23. 2 Cor. 2. 7. a 4. 8—10. a 12. 9, 10. 1 Thes. 3. 3, 4. Heb. 12. 12, 13. b adn. 10, 11. pen. 5. 23. a 6. 40. a 11. 25—27. a 12. 44. a 13. 19. Es. 12. 2, 3. a 26. 3, 4. Act. 3. 15, 16. Eph. 1. 12, 15. a 3. 14—17. 1 Pedr 1. 21. 1 Ioan 2. 23, 24. a 5. 10—12.

* Yr oedd Crist ei hun yn drallodus, ond yr oedd ei drallod ef yn debyg i gynhyrfiad dwfr gloyw, heb ddim llaid yn y gwaelod i ymgymmysgu âg ef: mae trallodau ei saint fel arall, a llawer o laid anghrediniaeth, anymddiried i Dduw, a grwgnachrwydd, yn ymgymmysgu âg ef pan gynhyrfo y dwfr: y math hyn o drallod oedd Crist yn ei wahardd yma. Yr oedd gan y dysgyblion lawer o achos bod yn drallodus y pryd hwn; nis gwyddent eto, mae yn debyg, pwy oedd y bradwr, ac os gwyddent mai Judas oedd, yr oedd hyny yn un peth yn eu trallodi; yr oeddynt yn drallodus o herwydd colli eu Harglwydd, ac yn enwedig o herwydd y dyoddefiadau mawrion oedd i ddyfod arno; yr oeddynt yn drallodus o herwydd siomi eu dysgwyliad dychymmygol hwy o deyrnas dymmorawl y Messiah, ac o herwydd y gwarth, y dirmyg, a'r enbydrwydd, a ddeuai iddynt hwy er ei fwyn ef. † Na thralloder eich calon, ebai yr Iesu addfwyn, wrth y pethau hyn oll; bwriwch eich holl ofal ar Dduw mewn Cyfryngwr, a chwi a gynnelir danynt, ac a waredir o honynt oll. Dywedir fod y rhan olaf hyn o'r adnod wedi ei gosod yn y Groeg yn y fath fodd, fel y gellir ei darllen mewn amryw ffyrdd; megys yn 1. Yr ydych yn credu yn Nuw; credwch ynof finnau hefyd. 2. Credwch yn Nuw; credwch ynof finnau hefyd. 3. Yr ydych yn credu yn Nuw; ac yr ydych yn credu ynof finnau hefyd. 4. Credwch yn Nuw; ac yr ydych yn credu ynof finnau hefyd: hyny yw, credwch yn Nuw; ac wrth wneuthur hyny, chwi a fyddwch ar yr un pryd, a thrwy yr un weithred, yn credu ynof finnau hefyd. Pa ffordd bynag y cymmerom y geiriau, maent yn dangos i ni dri pheth: 1. Bod Crist yn wrthddrych ffydd yn gystal â'r Tad. 2. Nas gellir credu yn Nuw y Tad yn iawn, heb gredu hefyd yn y Mab. 3. Mai y peth gorau i galonau trallodus er eu cynnal, yw credu yn Nuw a'i Fab.

2 [c] * Yn nhŷ fy nhad y mae llawer o drigfannau: [d] † a phe amgen, mi a ddywedaswn i chwi. [e] ‡ Yr wyf fi yn myned i barottôi lle i chwi.

c 2 Cor. 5. 1. Heb. 11. 10, 14—16. a 13. 14. Dat. 3. 12, 21. a 21. 10—27. d pen. 12. 25, 26. a 16. 4. Luc 14. 26—33. Act. 9. 16. 1 Thes. 3. 3, 4. a 5. 9. 2 Thes. 1. 4—10. Tit. 1. 2. Dat. 1. 5. e pen. 13. 33, 36. a 17. 24. Heb. 6. 20. a 9. 23—26. a 11. 16.

* Tybir mai cyfeiriad sydd yma at yr amrywiol ystafelloedd a berthynai i'r deml yn Jerusalem, lle y byddai lliaws dirfawr o ddynion, yn enwedig yr offeiriaid, yn arfer llettya. Mae y gair Groeg *(Monai)* a gyfieithir yma trigfanau, yn arwyddo trigfanau llonydd a pharâus: mewn cyferbyniad i breswyliad aflonydd a thrancedig y saint yn y byd hwn: nid oes i ni yma ddinas barâus, eithr un i ddyfod yr ydym yn ei dysgwyl: a phreswylfa lonydd, dragywyddol fydd hòno. Mae y trigfanau hyn yn "llawer;" digon i'r holl deulu etholedig gan Dduw: yn nhŷ ein Tad hefyd y maent; nid mewn gwlad na thŷ estron, yn nhŷ Tad Iesu a'n Tad ninnau, pen. 20. 17. † Megys y rhoddais ar ddeall i chwi lawer gwaith, nad oedd gwiw i chwi ddysgwyl teyrnas, mawredd, na gwynfyd tymmorawl gyda mi ar y ddaear; felly mi a ddywedaswn yr un modd i chwi pe na buasai lle a derbyniad i chwi yn nhŷ fy Nhad, yn y nef. ‡ Ond yn awr yr wyf yn dywedyd i chwi er eich cysur annhraethol, fod yn nhŷ fy Nhad lawer o drigfanau, eu bod i chwi, ac mai fy nyben I yn eich gadael yw,

myned i barotôi y trigfanau hyny i chwi. Mae y nef wedi ei pharotôi i'r saint er cyn seiliad y byd yn arfaeth a chyngor Duw, Matth. 25. 34; ac i'r apostolion yn enwedig, Luc 22. 28—30; eto yr oedd angau y Cyfryngwr yn angenrheidiol i wneyd iawn dros eu pechodau, ac i gael hawl iddynt i'w hetifeddiaeth yn y nef: yr oedd ei adgyfodiad ef yn ernes o'u hadgyfodiad hwy: yr oedd ef yn myned i'r nef fel eu Rhagflaenor hwy; i symmud pob rhwystrau, i agor y ffordd, i ateb pob gwrthddadl megys, yn erbyn eu derbyniad, ac i wneyd pob peth yn barod erbyn eu dyfodiad. Heblaw y pethau uchod oll, pe byddai Iesu ei hun heb fod yn y nef, ni byddai y lle yn barod; ei bresenoldeb gogoneddus ef yno sydd yn parotôi y lle i'r gwaredigion. Ychwaneg nis gallwn ei ddywedyd ar y geiriau tra rhyfedd hyn; parotôi lle yn y nef, i bechaduriaid truenus y buasai ûffern yn lle digon teilwng iddynt.

3 * Ac os myfi a âf, ac a barottôaf le i chwi, [f] † mi a ddeuaf drachefn, ‡ ac a'ch cymmeraf chwi attaf fy hun: || fel lle yr wyf fi, y byddoch chwithau hefyd.

f adn. 18—23, 28. pen. 12. 26. a 17. 24. Mat. 25. 32—34. Act. 1. 11. a 7. 59, 60. Rhuf. 8. 17. 2 Cor. 5. 6—8. Phil. 1. 23. 1 Thes. 4. 16, 17. 2 Thes. 1. 12. a 2. 1. 2 Tim. 2. 12. Heb. 9. 28. 1 Ioan 3. 2, 3. Dat. 3. 21. a 21. 22, 23. a 22. 3—5.

* Nid *os* o ammheuaeth yw yr *os* yma, ond o gadarnâd; gwedi i mi fyned, neu mòr sicr ag i mi fyned—mi a ddeuaf drachefn. † Mi a ddeuaf drachefn drwy fy Ysbryd, i ofalu am danoch chwi, ac i'ch parotôi chwi i'r trigfanau nefol. Fel hyn mae Crist fry yn parotôi y nef i'r saint, a'r Ysbryd ar y ddaear yn parotôi y saint i'r nef: rhyfedd y darpar sydd ar, ac ar gyfer, pechaduriaid tlodion! a'r cwbl oll o ras ein Duw. ‡ Mi a gymmeraf eich eneidiau yn angau; ac a'ch cymmeraf oll yn gyfan, gyrph ac eneidiau, yn fy ail ddyfodiad: mi a'ch cymmeraf i'm gwyddfod uniongyrchol, ac i'r cymmundeb a'r gymdeithas agosaf â mi fy hun. || Fel yr wyf fi o ran fy Nuwdod hollbresenol yn y nef yn awr, ac y bydd fy natur ddynol yno yn fuan; felly y byddwch chwithau yn sicr, gyrph ac eneidiau yn y diwedd.

4 [g] * Ac i ba le yr wyf fi yn myned, chwi a wyddoch, [h] a'r ffordd a wyddoch.

g adn. 2, 28. pen. 13. 3. a 16. 28. Luc 24. 26. h pen. 3. 16, 17, 36. a 6. 40, 68, 69. a 10. 9. a 12. 26.

* Wrth yr hyn a ddywedais I yr awr hon, yn nghyd â'r pethau a glywsoch genyf lawer gwaith o'r blaen, chwi a ellwch wybod i ba le yr wyf fi yn myned, ac mai trwy fy ngwaed fy hun yr wyf yn myned yno, Heb. 9. 12; ac mai trwy yr un gwaed mae ffordd newydd a bywiol wedi ei hagor a'i chyssegru i chwithau hefyd i ddyfod i'r un trigfanau dedwydd. Yn yr adnodau blaenorawl, gallwn olygu yr Arglwydd Iesu yn diddanu ei ddysgyblion hiraethlawn a thrallodus, fel tad neu fam dirion, yn diddanu eu plant bach a fyddo yn wylo pan fyddont hwy yn myned oddi cartref am ychydig, drwy ddywedyd nad ydynt hwy ond myned i'r fàn a'r fàn, y deuant yn ol yn fuan, ac y cânt hwythau fyned gyda hwynt yno y tro nesaf.

5 [i] Dywedodd Thomas wrtho, Arglwydd, [k] * ni wyddom ni i ba le yr wyt ti yn myned; † a pha fodd y gallwn wybod y ffordd?

i pen. 20. 25—28. k pen. 15. 12. Marc 8. 17, 18. a 9. 19. Luc 24. 25. Heb. 5. 11, 12.

* Mae yn amlwg wrth y geiriau hyn mai chwi a *ddylech*, neu *allech* wybod, oedd Crist yn feddwl wrth "chwi a wyddoch," yn yr adnod o'r blaen: ni a welwn yma nad oedd Thomas, o leiaf, yn gwybod, ac efallai nad oedd y lleill yn gwybod chwaith: yr oeddynt o hyd yn methu a chael gwared o'r dychymmyg oedd ganddynt am freniniaeth dymmorawl y Messiah. † Gan nas gwyddom i ba le yr wyt ti yn myned, pa fodd y gallwn wybod y ffordd i dy ganlyn di yno?

6 Yr Iesu a ddywedodd wrtho ef, [l] * Myfi yw y ffordd, [m] † a'r gwirionedd, [n] ‡ a'r bywyd: [o] || nid yw neb yn dyfod at y Tad, ond trwof fi.

l Es. 35. 8, 9. Mat. 11. 27. Act. 4. 12. Rhuf. 5. 2. Eph. 2. 18. Heb. 7. 25. a 9. 8. a 10. 19—22. 1 Pedr 1. 21. m pen. 1. 14, 17. a 8. 32. a 18. 37. Rhuf. 15. 8, 9. 2 Cor. 1. 19, 20. Col. 2. 9, 17. 1 Ioan 1. 8. a 5. 6, 20. Dat. 1. 5. a 3. 7, 14. a 19. 11. n adn. 19. pen. 1. 4. a 5. 21, 25—29. a 6. 33, 51, 57, 68. a 8. 51. a 10. 28. a 11. 25, 26. a 17. 2, 3. Act. 3. 15. Rhuf. 5. 21. 1 Cor. 15. 45. Col. 3. 4. 1 Ioan 1. 1, 2. a 5. 11, 12. Dat. 22. 1, 17. o pen. 10. 7, 9. Rhuf. 15. 16. 1 Pedr 2. 4. a 3. 18. 1 Ioan 2. 23. 2 Ioan 9. Dat. 5. 8, 9. a 7. 9—17. a 13. 7, 8. a 20. 15.

* Myfi yw y *ffordd*, gan mai trwy fy ngwaed fy hun yr wyf yn myned i mewn i'r cyssegr, a thrwy fy ngwaed fy hun yr wyf yn agoryd ffordd newydd a bywiol i chwithau fy nghanlyn. Mae Crist yn ffordd, o ran ei Berson, fel Duw wedi ymddangos yn y cnawd, ac fel Machnïydd a Chyfryngwr, trwy ei ufudd-dod a'i aberth, a thrwy ei eiriolaeth dros ei bobl ger bron yr orsedd. Efe yw ein hunig Arch-offeiriad mawr ni, yr hwn trwy ei aberth ar y groes, a wnaeth iawn dros bechodau ei bobl; a thrwy ei adgyfodiad, ei esgyniad, a'i eiriolaeth, sydd yn rhoddi i ni ddyfodfa at Dduw, a hyder a llwyddiant gyda Duw, ar orsedd gras. † Efe yw y *gwirionedd:* fel mae yr holl gysgodau yn cael eu cyflawni ynddo ef, ac fel y mae efe, y Tyst ffyddlon a chywir, yn dysgu i ni y ffordd sicr i'r nef a'r gogoniant. Efe yw gwirionedd a sylwedd yr holl brophwydoliaethau a'r addewidion, ac efe yw Prophwyd mawr yr eglwys, yr hwn mae ei athrawiaeth yn wirionedd pur, trwy gredu yr hon mae pechaduriaid yn dyfod at y Tad ac i'r nefoedd. ‡ Efe yw y *bywyd:* mae ganddo fywyd ynddo ei hunan, efe yw awdwr a rhoddydd bywyd ysbrydol a thragywyddol, i bawb a gredant ynddo. || O ganlyniad nis gall neb, yn ei gyflwr syrthiedig, nesâu yn hyderus nac yn gymmeradwy at y Tad, i geisio trugaredd ganddo, i roddi addoliad iddo, nac i fwynâu cymdeithas âg ef, yma nac wedi myned oddi yma, ond trwy Grist y Cyfryngwr, trwy ffydd yn ei Berson, ei enw, a'i aberth ef. Nis gall neb ddyfod at y Tad, heb gael ei fywâu gan Grist y *bywyd*, heb gael ei ddysgu gan Grist y *gwirionedd*, i ddyfod ato ef trwy Grist y *ffordd*. Tybiai yr Iuddewon mai trwy gyfraith Moses yr oedd y ffordd at y Tad, ond nid felly yma.

7 [p] * Ped adnabuasech fi, † fy Nhad hefyd a adnabuasech: [q] ‡ ac o hyn allan yr adwaenoch ef, a chwi a'i gwelsoch ef.

p adn. 9, 10, 20. pen. 1. 18. a. 8. 19. a 15. 24. a 16. 3. a 17. 3, 21, 23. Mat. 11. 27. Luc 10. 22. 2 Cor. 4. 6. Col. 1. 15—17. a 2. 2, 3. Heb. 1. 3. q adn. 16—20. pen. 16. 13—16. a 17. 6, 8, 26.

* Ped adnabuasai y dysgyblion Grist yn eglur, fel y dylasent ei adnabod, fel Mab y Tad, wedi dyfod fel Cyfryngwr oddiwrth y Tad, yn ddisgleirdeb gogoniant y Tad, ac yn un hanfod â'r Tad; † hwy a fuasent ar yr un pryd yn adnabod y Tad hefyd: oblegid fel mae y Tad a'r Mab yn un hanfod, a'r Mab yn ddelw, a gwir lun Person y Tad; adnabod y Mab yw adnabod y Tad: nis gellir adnabod y Tad heb adnabod y Mab, nac adnabod y Mab yn iawn heb adnabod y Tad hefyd. ‡ Yr oeddynt eisoes wedi gweled amlygiadau mwy o allu dwyfol a daioni y Tad yn yr hyn a wnaethai Crist, nac oeddynt yn feddwl; ac y mae yma addewid, y câent adnabyddiaeth eglurach o hóno, o hyny allan. Wrth fod y geiriau "o hyn allan," yn edrych yn mlaen, i'r dyfodiant; a'r geiriau "chwi a'i gwelsoch," yn edrych yn ol, i'r amser a aeth heibio; gallwn feddwl fod yr Arglwydd Iesu yn dangos i'w ddysgyblion, y câent hwy adnabyddiaeth chwanegol, ac eglurach, o'r Tad ac yntau, mewn amser i ddyfod, trwy adgofio gweithredoedd ac ymadroddion Iesu yn yr amser a aethai heibio, heblaw y datguddiedigaethau newyddion a gâent gan yr Ysbryd Glân o bryd i bryd.

8 [r] Dywedodd Phylip wrtho, * Arglwydd, [s] dangos i ni y Tad, † a digon yw i ni.

r pen. 1. 43—46. a 6. 5—7. a 12. 21, 22. s pen. 16. 25. Ex. 33. 18—23. a 34. 5—7. Job 33. 26. Salm 17. 15. a 63. 2. Mat. 5. 8. Dat. 22. 3—5.

* O hyd yr oedd Phylip heb ddeall, ac yn dangos

ylychymmygion isel a chnawdol iawn am y Bod Dwyfol, yn tybied ei fod yn un a ellid ei weled â llygaid o gnawd. Neu, efallai ei fod yn meddwl am yr amlygiadau goruwch-naturiol a wnaethai Duw o hòno ei hun i'r eien bobl sanctaidd gynt, ac yn chwennych cael rhywbeth yffelyb i hyny i weled y Tad. Mae yn anhawdd penderfynu, pa gymmaint o annwybodaeth a ddichon gydsweddu neu anghydweddu â gwir ras yn yr enaid; mae yny yn ymddybynu llawer ar y graddau o fanteision neu anfanteision a fyddo dynion yn gael. † Bydd hyny yn ddigon i symmud ein holl ammheuon, ac i dawelu ein holl ofnau yn dy absenoldeb di, wedi i ti ein gadael.

9 * Yr Iesu a ddywedodd wrtho, [t] A ydwyf gyhyd o amser gyd â chwi, ac nid adnabuost fi, Phylip? [u] † Y neb a'm gweledd i, a weledd y Tad; [x] a pha fodd yr wyt ti yn dywedyd, Dangos i ni y Tad?

t Marc 9. 19. u adn. 7, 20. pen. 12. 45. Phil. 2. 6. x Gen. 26. 9. Salm 11. 1. Jer. 2. 23. Luc 12. 56. 1 Cor. 15. 12.

* I'r deisyfiad uchod o eiddo Phylip, mae Crist yn ateb, gan ei geryddu ef yn ysgafn am ei annwybodaeth. Yr oedd efe wedi bod gyda hwy weithion dros dair blynedd fel Athraw cyhoeddus, yn cydgyfeillachu yn rhydd â hwynt bob amser, yn gwneuthur rhyw wyrthiau rhyfedd yn eu golwg yn barâus, ac yr oedd Phylip yn un o'i ddysgyblion cyntaf ef, pen. 1. 43, 44: felly yr oedd yn rhyfedd nad adwaenai Phylip ef yn eglurach, beth bynag am y lleill. † Cawsom eiriau tebyg i'r rhai hyn yn pen. 12. 45; gwel y sylwad yno. Mae ein Hiachawdwr yma fel yno, yn hòni ei undeb hanfod ef â'r Tad, undeb y ddwy natur yn ei Berson ef; ac ei fod ef yn ddelw a gogoniant Duw, ac yn ei amlygu ef yn ei Berson a'i wyrthiau.

10 [y] * Onid wyt ti yn credu fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau? [z] † Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, nid o honof fy hun yr wyf yn eu llefaru; ond y Tad [a] yr hwn sydd yn aros ynof, [b] ‡ efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd.

y adn. 11, 20. pen. 1. 1—3. a 10. 30, 38. a 11. 20. a 17. 21—23. 1 Ioan 5. 7. z pen. 3. 32—34. a 5. 19. a 6. 38—40. a 7. 16, 28, 29. a 8. 28, 38, 40. a 12. 49. a 17. 8. a Salm 68. 16—18. 2 Cor. 5. 19. Col. 1. 19. a 2. 9. b pen. 5. 17. Act. 10. 38.

* Cawsom y geiriau hyn o'r blaen, yn pen. 10. 38, tröed y darllenydd at y sylw bỳr sydd yno. Mae yn sicr fod y geiriau yn dangos gwahaniaeth personau, ac hefyd undeb hanfodol y personau, yn y Bod Dwyfol. Ond, dyma wybodaeth ry ryfedd i ni, uchel yw, nis medrwn fawr oddi wrthi! † Yna gan droi oddiwrth Phylip at y dysgyblion oll, ac er cadarnâu eu ffydd, efe a ddywedodd; Yr athrawiaeth hon, yn nghyd â phob peth a draddodais I i chwi, nid wyf yn eu llefaru o honof fy hun, fel rhyw dyb bersonol o'r eiddof fy hun, ac ar wahân oddi wrth y Tad; ond y mae efe, yr hwn y dywedais ei fod ynof, yn llefaru hefyd ynof a thrwyddof fi; ‡ ac efe, mewn undeb â mi, sydd yn gwneuthur y gweithredoedd nerthol a welsoch, er cadarnâu gwirionedd yr hyn wyf yn ei lefaru.

11 * Credwch fi, fy *mod* i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau: [c] † ac onid ê, credwch fi er mwyn y gweithredoedd eu hunain.

c pen. 5. 36. a 10. 25, 32, 38. a 12. 38—40. Mal. 11. 4, 5. Luc 7. 21—23. Act. 2. 22. Heb. 2. 4.

* Credwch fi, gan hyny, ar fy ngair fy hun, canys hyny yw eich dyledswydd; fod undeb hanfodol ac anwahanol rhwng y Tad a minnau; ein bod yn aros, yn preswylio, ac yn hanfodi, y naill yn y llall, fel y dywedais i chwi: er nas gellwch amgyffred a deall yr undeb rhyfedd hwn i berffeithrwydd, eto credwch y gwirionedd mawr er eich iachawdwriaeth: ei gredu yw eich bywyd tragywyddol. † Os na chredwch fi ar fy ngair dwyfol a gwirioneddol; gadewch i'r gweithredoedd a wnaethum I mewn dull mòr ddwyfol a goruwch-naturiol, eich argyhoeddi chwi, a pheri i chwi gredu, mai trwy weithrediad yr un nerth â Duw Dad ei hunan, y gwnaethum I hwy. Yr oedd athrawiaeth Crist yn terfynu ynddo ei *hun;* yr oedd yn galw dynion i gredu ynddo ei *hun;* ac yr oedd yn gwneyd ei wyrthiau trwy ei allu ei *hun;* er, trwy allu y Tad hefyd, fel yr oedd y Tad ag yntau yn un mewn hanfod: gwahanol iawn i hyn oedd athrawiaeth a gwyrthiau yr apostolion.

12 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, * Yr hwn sydd yn credu ynof fi, [d] y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, yntau hefyd a'u gwna, [e] † a mwy nâ'r rhai hyn a wna efe: [f] ‡ oblegid yr wyf fi yn myned at fy Nhad.

d Mat. 21. 21. Marc 11. 13. Luc 10. 17—19. Act. 3. 6—8. a 4. 9—12, 16, 33. a 8. 7. a 9. 34, 40. a 16. 18. 1 Cor. 12. 10, &c. e Act. 2. 4—11, 41. a 4. 4. a 5. 15, 16. a 6. 7. a 10. 46. a 19. 12. Rhuf. 15. 19. f adn. 28. pen. 7. 39. a 16. 7. Act. 2. 33.

* Nid pob un sydd yn credu, yn gyffredinol, a feddylir yn ddiau; ond yr apostolion, y rhai a lenwid â'r Ysbryd Glân ar ddydd y pentecost, ac y rhoddid iddynt i wneuthur gwyrthiau. † Nid mwy, a rhyfeddaeh gwyrthiau, yn sicr a feddylir; oblegid pa wyrth a wnaeth neb o'r apostolion erioed yn fwy, a mwy rhyfedd, na chodi Lazarus o'r bedd? Efallai bod yma gyfeiriad at y *dull* y gwnaeth yr apostolion rai o'u gwyrthiau; megys un â'i *gysgod*, Act. 5. 15; ac un arall trwy *napcynau neu foledau, a ddygid oddi wrth ei gorph ef at y cleifion*, Act. 19. 12. Ond meddwl y geiriau yn benaf yw, y gallu a roddid i'r apostolion i lefaru pob math o ieithoedd, er taeniad yr efengyl yn mhlith yr holl genedloedd, yn nghyd â nerth rhyfeddol yr Ysbryd Glân oedd yn cydfyned â'r weinidogaeth, er dychweliad tair mil ar yr un waith, (mwy nag a ddychwelwyd trwy weinidogaeth Crist ei hun yn ei oes) ac wedi hyny, lluoedd aneirif o Iuddewon a Chenedloedd, am lawer o flynyddoedd yn nghyd. Gwyliwn dybied y dysgyblion uwchlaw eu Hathraw yn wyneb y geiriau hyn: ei waith ef oedd y cwbl, drwyddynt hwy; ac mae yn rhoddi yr addewid iddynt yma er nerthu eu ffydd, eu cysuro yn eu trallod, ac yn ei chyflawni mewn amser er tystiolaeth iddynt hwy ac eraill, o Dduwdod ei Berson, dwyfoldeb ei anfoniad, a gwirionedd ei athrawiaeth. ‡ Myneddiad Crist at y Tad oedd sylfaen ac achos yr holl weithredoedd mawrion a wnelai yr apostolion; o'i fynediad ef yno y tywelltid yr Ysbryd, ac o dywalltiad yr Ysbryd yr oeddynt hwythau i wneyd y pethau a grybwyllwyd.

13 [g] * A pha beth bynnag a ofynoch [h] † yn fy enw i, [i] ‡ hynny a wnaf; [k] || fel y gogoneddier y Tad yn y Mab.

g pen. 15. 7, 16. a 16. 23, 24, 26. Mat. 7. 7, 8. a 21. 22. Marc 11. 24. Luc 11. 9. Eph. 3. 20, 21. Iago 1. 5. a 5. 16. 1 Ioan 3. 22. a 5. 14. h adn. 6. Eph. 2. 18. a 3. 12, 14, 15, 21. Col. 3. 17. Heb. 4. 15, 16. a 7. 25. a 13. 15. 1 Pedr 2. 5. i adn. 14. pen. 4. 10, 14. a 5. 19. a 7. 37. a 10. 30. a 16. 7. 2 Cor. 12. 8—10. Phil. 4. 13. k pen. 12. 44. a 13. 31, 32. a 17. 4, 5. Phil. 2. 9—11.

* Y "pa beth bynag" yma yw y pethau a ddatgudd-iodd Duw mewn rhanau eraill o'i air, fel pethau i ni i weddio am danynt: pethau angenrheidiol a llesol i ni, at fywyd a duwioldeb. † Mae gofyn yn *enw* Crist yn arwyddo mwy na gwneyd defnydd o'i enw ef yn unig yn ein gweddïau. Gofyn ar sail ei addewid ef, trwy ei gyfryngdod a'i eiriolaeth ef, gydag ymorphwysiad ffyddiog ar ei allu, ei ddoethineb, a'i ffyddlondeb ef. ‡ Mae Iesu yma yn addaw yn ei berson ei hun, *Mi* a wnaf: yr hyn sydd yn ei ddangos yn *hollwybodol*, i wybod deisyfiadau ei holl bobl ar y ddaear: ac hefyd ei fod yn *hollalluog*, i allu eu cynnorthwyo hwy i gyflawni y gweithredoedd mwyaf. || Mae y Tad yn ymorphwys yn Nghrist, y Mab, ac a fỳn ei ogoneddu ynddo a thrwyddo ef; am hyny efe a roddodd iddo ef bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear.

14 * Os gofynwch ddim yn fy enw i, mi a'*i* gwnaf.

* Mae Iesu yn ailadrodd y geiriau er cadernid chwanegol iddynt, ac er sicrwydd diammheuol i ninnau

o'u cyflawniad, fel na phetrusom pan fyddom yn gofyn dim yn ol ewyllys Duw, ac er ei ogoniant ef.

15 ¶ [l] * O cherwch fi, cedwch fy ngorchymynion.

l adn. 22—24. pen. 8. 42. a 15. 10—14. a 21. 15—17. Mat. 10. 37. a 25. 34—40. 1 Cor. 16. 22. 2 Cor. 5. 14, 15. a 8. 8, 9. Gal. 5. 6. Eph. 3. 16—18. a 6. 24. Phil. 1. 20—23. a 3. 7—11. 1 Pedr 1. 8. 1 Ioan 2. 3—5. a 4. 19, 20. a 5. 2, 3.

* Peidiwch a dangos eich cariad i mi mewn galar a phrudd-der, a bod yn drallodus am fy mod I yn eich gadael; ond dangoswch ef mewn ufudd-dod siriol i'r hyn a orchymynais i chwi. Nid diflanu fel tarth mewn cwynion diles y mae gwir gariad, ond dangos ei hun mewn ufudd-dod manol i orchymynion Duw.

16 [m] * A mi a weddiaf ar y Tad, † ac efe a rydd i chwi [n] Ddiddanydd arall, [o] fel yr arhoso gyd â chwi yn dragywyddol;

m adn. 14. pen. 16. 26, 27. a 17. 9—11, 15, 20. Rhuf. 8. 34. Heb. 7. 25. 1 Ioan 2. 1. n adn. 18, 26. pen. 15. 26. a 16. 7—15. Act. 9. 31. a 13. 52. Rhuf. 5. 5. a 8. 15, 16, 26, 27. a 14. 17. a 15. 13. Gal. 5. 22. Phil. 2. 1. o pen. 4. 14. a 16. 22. Mat. 28. 20 Eph. 1. 13, 14. Col. 3. 3, 4. 2 Thes. 2. 16.

* Fel pe dywedasai yr Iesu, Gofalwch chwi yn gydwybodol am fy achos a'm gorchymynion I ar y ddaear, mi ofalaf finnau am danoch chwithau yn y nef: fel Arch-offeiriad mawr, ac eiriolwr drosoch, mi a weddiaf ar y Tad am Ddyddanydd i chwi yn fy lle I wedi yr ymadawyf, yr hwn a erys gyda chwi yn dragywyddol. † Mae yr adnod nesaf yn dywedyd mai Ysbryd y gwirionedd, sef yr Ysbryd Glân, yw y Dyddanydd hwn. *Paracléton* yw y gair Groeg am Ddyddanydd; ond mae yn arwyddo mwy na Dyddanydd: Eiriolwr, Cyngorwr, Rhybuddiwr, a Dyddanydd. Yn fŷr, mae yn arwyddo holl oruchwyliaethau yr Ysbryd yn, ac ar, eneidiau ei bobl; ond am mai cysuro ei ddysgyblion yn wyneb eu trallod y mae Iesu yma, cymhwys iawn yw cyfieithu y gair fel y mae, Dyddanydd. Onid oes tri o Bersonau i'w gweled yn amlwg yn yr adnod hon?

17 [p] * Yspryd y gwirionedd, [q] † yr hwn ni ddichon y byd ei dderbyn, ‡ am nad yw yn ei weled, nac yn ei adnabod ef: || ond chwi a'i hadwaenoch ef; [r] § o herwydd y mae yn aros gyd â chwi, [s] ac ynoch y bydd efe.

p pen. 15. 26. a 16. 13. 1 Ioan 2. 27. a 4. 6. q Diar. 14. 10. 1 Cor. 2. 14. Dat. 2. 17. r adn. 16, 23. Es. 57. 15. a 59. 21. Ezec. 36. 27. Rhuf. 8. 9, 11, 13, 14. 1 Cor. 3. 16. a 6. 19. 2 Cor. 6. 16. Eph. 2. 22. a 3. 17. 2 Tim. 1. 14. 1 Ioan 2. 27. a 3. 24. a 4. 12, 13. s Mat. 10. 20. Rhuf. 8. 10. 1 Cor. 14. 15. 2 Cor. 13. 5. Gal. 4. 6. Col. 1. 27. 1 Ioan 4. 4.

* Ysbryd y gwirionedd, yr hwn sydd yn wirionedd ynddo ei hun, yr hwn sydd yn tystiolaethu ac yn datguddio y gwirionedd, yr hwn a gynhyrfodd ac a gyfarwyddodd ddynion sanctaidd Duw i ysgrifenu y gwirionedd, yr hwn sydd yn dysgu y saint yn y gwirionedd, yn eu tywys i bob gwirionedd, ac yn awdwr pob gwaith da a gwirioneddol yn y saint. Mae efe yn ysbryd y gwirionedd hefyd mewn cyferbyniad i ddiafol yr ysbryd celwyddog, ac i bob ysbryd cyfeiliorni sydd yn y byd. † Y byd, sef dynion diadgenedledig y byd hwn, nis gallant ei dderbyn, o herwydd eu cnawdolrwydd, eu gelyniaeth, a'u doethineb anianol: nis gallant ei dderbyn fel Dyddanydd, na bod yn gyfranog o hóno yn yr un o'i weithrediadau achubol. ‡ Nis gellir ei weled ef â llygaid corphorol, na'i adnabod ef trwy nerth deall a rheswm anianol. || Mae y saint yn ei adnabod ef yn grediniol, yn brofiadol, yn serchiadol, ac yn achubol. § Mae efe yn awr yn preswylio, yn gweithredu, ac yn ei amlygu ei hun yn y saint; ac efe a fydd ynddynt o ran ei breswyliad, ei oruchwyliaethau, a'i ddyddanwch, hyd angau.

18 [t] * Nis gadawaf chwi yn amddifad: [u] mi a ddeuaf attoch chwi.

t adn. 16, 27. pen. 16. 33. Salm 23. 4. Es. 43. 1, 2. a 51. 12. a 66. 11—13. 2 Cor. 1. 2—6. 2 Thes. 2. 16, 17. Heb. 2. 18. u adn. 3, 28. Salm 101. 2. Hos. 6. 3. Mat. 18. 20. a 28. 20.

* Nis gadawaf chwi yn *ddigysur*, yn ol y Saesoneg; ond addef pob un o'n Hawdwyr Saesonig, mai *amddifad* ddylai y gair Groeg *(orphanous)* gael ei gyfieithu, fel yn ein cyfieithiad ni. Mae colli presenoldeb a nawdd cyfaill anwyl, yn enwedig y fath gyfaill ag oedd Iesu, yn amddifadrwydd o'r mwyaf; ac fel plant amddifad yr oedd efe yn cysuro ei ddysgyblion yn yr adnodau hyn.

19 [x] * Etto ennyd bach, a'r byd ni'm gwel mwy: † eithr chwi a'm gwelwch: [y] ‡ canys byw wyf fi, || a byw fyddwch chwithau hefyd.

x pen. 7. 33, 34. a 8. 21. a 12. 35. a 13. 33. a 16. 16, 22. y adn. 6. pen. 6. 56—58. a 11. 25, 26. Rhuf. 5. 10. a 8. 34. 1 Cor. 15. 20, 45. 2 Cor. 4. 10—12. Col. 3. 3, 4. Heb. 7. 25. 1 Ioan 1. 1—3.

* Nid oedd y byd anghrediniol y pryd hwnw ond gweled dynoliaeth Iesu, â llygaid corphorol; ac nid oeddynt i gael ei weled ef felly ond am ychydig oriau yn hwy: ar ol ei groeshoelio a'i gladdu, yr oedd i adgyfodi drachefn; ond nid oedd neb o'r "byd" i gael ei weled ef ar ol ei adgyfodiad, ac nis gwelant ef tàn ddydd y farn; yno "pob llygad a'i gwel ef." † Eithr chwi a'm gwelwch yn aml ar ol fy adgyfodiad â'ch llygaid corphorol. Neu, efallai y gellir deall y geiriau am olwg ffydd, a phrofiad ysbrydol, ac hefyd am olwg fwynâol, ddilèn, o hóno byth yn y nef. ‡ Byw, neu yr Un byw, wyf fi, o ran fy Mherson dwyfol, mi a fyddaf byw yn fuan drachefn er marw; a byw ydwyf yn oes oesoedd. || Fel y mae Crist yn Ben corph yr eglwys, caiff ei holl saint fyw trwyddo, ynddo, a chydag ef byth: cânt fyw mewn cyflwr o gyfiawnâd, sancteiddiad, cysur, a ffrwythlonrwydd, yn y byd hwn; ac mewn ystad o ogoneddiad a gorfoledd annhraethadwy yn y byd a ddaw.

20 * Y dydd hwnnw [z] † y gwybyddwch fy *mod* i yn fy Nhad, [a] a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau.

z adn. 10. pen. 10. 38. a 17. 7, 11, 21—23, 26. 2 Cor. 5. 19. Col. 1. 19. a 2. 9. a pen. 6. 56. a 15. 5—7. Rhuf. 8. 1. a 16. 7. 1 Cor. 1. 30. 2 Cor. 5. 17. a 12. 2. a 13. 5. Gal. 2. 20. Eph. 2. 10. a 3. 17. Col. 1. 27. 1 Ioan 4. 12, 13.

* "Y dydd hwnw:" dydd ei adgyfodiad ef, medd rhai; pryd yr eglurwyd ef yn Fab Duw mewn gallu: dydd y pentecost, medd eraill; pryd y byddai y fath dywalltiad grymus o'r Ysbryd Glân arnynt: dydd y farn ddiweddaf, medd eraill; pryd y câent fyw gydag ef yn y nefoedd, a'i weled ef heb un llèn, fel ag y mae. † Pa un bynag yw y dydd hwnw, mae dau beth rhyfedd i gael eu gwybod; undeb hanfodawl Crist â'r Tad, ac undeb ysbrydol a dirgeledig yr holl saint â Christ. Mae rhyw fesur o wybodaeth gan y saint o'r pethau uchod yn awr; eithr nid yw ond tywyll ac anmherffaith gan y gorau yma, yn nydd yr adgyfodiad cawn ddeall y pethau hyn yn annhraethol eglurach.

21 [b] * Yr hwn sydd â'm gorchymynion i ganddo, ac yn eu cadw hwynt, efe yw yr hwn sydd yn fy ngharu i: a'r hwn sydd yn fy ngharu i, a gerir gan fy Nhad i: a minnau a'i caraf ef, [d] ac a'm heglurhaf fy hun iddo.

b adn. 15, 23, 24. a 15. 14. Gen. 26. 3—5. Deut. 10. 12, 13. a 11. 13. a 30. 6—8. Salm 119. 4—6. Jer. 31. 33, 34. Ezec. 36. 25—27. Luc 11. 28. 2 Cor. 5. 14, 15. Iago 2. 23, 24. 1 Ioan 3. 18—24. a 5. 3. 2 Ioan 6. Dat. 22. 14. c adn. 23. pen. 15. 9, 10. a 16. 27. a 17. 23. Salm 35. 27. Es. 62. 2—5. Zeph. 3. 17. 2 Thes. 2. 16. 1 Ioan 3. 1. d adn. 18, 22, 33. a 16. 14, 15. Act. 18. 9—11. a 22. 18. 2 Cor. 3. 18. a 4. 6. a 12. 8, 9. 2 Tim. 4. 17, 18, 22. 1 Ioan 1. 1—3. Dat. 2. 17. a 3. 20.

* Cariad at Grist yw prif effaith a phrawf amlygiadol o undeb âg ef, trwy gyfranogi o'i Ysbryd bywiol, ei wirionedd, a'i sancteiddrwydd ef: gan hyny yr oedd yn addas i Grist ddwyn ar gof i'w ddysgyblion drachefn (adn. 15,) mai tuedd i dderbyn a chadw ei orchymynion ef yn y galon ac o'r galon, oedd yr unig brawf *penderfynol* o'u cariad hwy ato ef: heb hyny nid yw y tymherau gwresocaf ond twyll a hudoliaeth. † Y neb a garo fel hyn, a gerir gan y Tad er mwyn Crist, a chan Grist ei hun, bydd yn gymmeradwy gan y Tad a'r Mab, hwy a ymhyfhydant ynddo, ac a ymeglurant iddo, er ei gysur a'i les tragywyddol.

22 [e] * Dywedodd Judas wrtho, (nid yr Is-

cariot) † Arglwydd, [f]pa beth yw yr achos yr wyt ar fedr dy eglurhâu dy hun i ni, ac nid i'r byd?

e Mat. 10. 3. Marc 3. 18. Luc 6. 16. Act. 1. 13. Judas 1. f pen. 3. 4, 9. a 4. 11. a 6. 52, 60. a 16. 17, 18.

* Judas mab Alpheus, a brawd Iago, ysgrifenydd yr epistol sydd yn myned wrth ei enw, ydoedd hwn, ac nid Judas Iscariot y bradychwr; yr oedd hwnw wedi myned allan y pryd hwn i ddarpar at ei orchwyl. † Tybir fod geiriau grasol ein Harglwydd yn yr adnod o'r blaen, wedi meddiannu Judas â syndod sanctaidd, fod yr Arglwydd Iesu yn ymostwng i wneyd sylw o honynt hwy, y dysgyblion tlodion ac annheilwng, yn hytrach nac eraill o ddynolryw; ac ei fod yn y syndod a'r gorfoledd hyny, yn gofyn i Grist beth oedd yr achos. Tybia rhai hefyd ei fod yn gofyn fel hyn o ddymuniad difrifol a duwiol i eraill gael cyfranogi o'r un gras ac o'r un rhagor-fraint. Tybia eraill eto, mai teyrnas dymmorawl y Messiah oedd o hyd yn mryd Judas, ac ei fod yn methu a deall pa fodd y gosodai Crist hòno i fynu yn gyhoeddus yn y byd, heb egluro ei hun i'r byd yn gyffredin, dim ond iddynt hwy, ei ychydig ddysgyblion ef.

23 * Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, [g]Os câr neb fi, efe a geidw fy ngair; † a'm Tad a'i câr yntau, ‡ a nyni a ddeuwn atto, [h]ac a wnawn ein trigfa gyd âg ef.

g adn. 15, 21. h adn. 17. pen. 5. 17—19. a 6. 56. a 10. 30. Gen. 1. 26. a 11. 7. Salm 90. 1. a 91. 1. Es. 57. 15. Rhuf. 8. 9—11. 1 Ioan 2. 24. a 4. 4, 15, 16. Dat. 3. 20, 21. a 7. 15—17. a 21. 22, 23. a 22. 3.

* Yr un peth o ran sylwedd sydd yma, ag a gawsom o'r blaen yn adnod 21, sef, bod ufudd-dod i orchymynion Crist yn brawf, ac y prawf goreu, o gariad at Grist. † Am yr *egluro* yr oedd gofyniad Judas, yn fwy nac am y *caru;* ac yn gyfatebol i hyny rhaid i ni ddeall mai am yr arwyddion a'r amlygiadau o gariad y Tad, y mae Crist yn llefaru yma, yn fwy nac am y cariad ei hun. ‡ Yn adnod 17, mae Crist yn dywedyd am yr Ysbryd Glân, "ac ynoch y bydd efe:" yma mae yn dywedyd am y Tad ac ef ei hun; felly mae y tri Pherson yn preswylio yn y credadyn; neu yn hytrach, y Tad a'r Mab trwy yr Ysbryd Glân. Mae y geiriau yn arwyddo y gymdeithas agos sydd rhwng Duw â'r rhai a'i carant ef, a'r hyfrydwch mawr mae efe yn gymmeryd ynddynt, fel Seph. 3. 17.

24 [i] * Yr hwn nid yw yn fy ngharu i, nid yw yn cadw fy ngeiriau: [k] † a'r gair yr ydych yn ei glywed, nid eiddof fi ydyw, ond eiddo y Tad a'm hanfonodd i.

i adn. 15, 21—23. Mat. 19. 21, 22. a 25. 41—46. 2 Cor. 8. 8, 9. 1 Ioan 3. 16—20. k adn. 10. pen. 3. 34. a 5. 38. a 7. 16, 28. a 8. 26, 28, 38, 42. a 12. 44—50.

* Yma cawn athrawiaeth wrthwyneb i'r hyn sydd yn adn. 21, a 23, yno rhai yn caru ac yn cadw y gorchymynion y sydd; yma rhai heb garu ac heb gadw gair yr Iesu: o ganlyniad mae y rhai hyny yn anghymwys, ac yn eu cauad eu hunain allan, oddiwrth y rhagor-freintiau arbenig a enwyd. † Gan fod yr athrawiaeth a glywsoch yn eiddo fy Nhad, ac nid yn eiddo fi fy hun yn unig, bydd euogrwydd y neb a'i gwrthodo hi yn fawr iawn; ac na feddylied neb o'r cyfryw y daw fy Nhad na minnau ato, i breswylio ynddo, nac i egluro ein hunain iddo.

25 * Y pethau hyn [l]a ddywedais wrthych, a mi yn aros gyd â chwi.

l adn. 29. pen. 13. 19. a 15. 11. a 16. 1—4, 12, 13. a 17. 6—8.

* Y pethau hyn a ddywedais i chwi er eich cysur a'ch calondid presenol, yn ol eich gallu chwi i'w derbyn, ac yn ol y goddefai yr ychydig amser sydd yn ol, i mi fod yn bersonol gyda chwi.

26 [m]Eithr y Diddanydd, [n]yr Ysbryd Glân, [o] * yr hwn a enfyn y Tad yn fy enw i, [p] † efe a ddysg i chwi yr holl bethau, [q] ‡ ac a ddwg ar gof i chwi yr holl bethau a ddywedais i chwi.

m adn. 16 n pen. 7. 39. a 20. 22. Salm 51. 11. Es. 63. 10, 11. Mat. 1. 18, 20. a 3. 11. a 28. 19. Marc 12. 36. a 13. 11. Luc 1. 15, 35, 41, 67. a 2. 25, 26. a 3. 22. a 11. 13. Act. 1. 2, 8. a 2. 3. a 5. 3. a 7. 51, 55. a 13. 2, 4. a 15. 8, 28. a 16. 6. a 20. 28. a 28. 25. Rhuf. 5. 5. a 14. 17. a 15. 13, 16. 1 Cor. 2. 13. a 6. 19. a 12. 3. 2 Cor. 6. 6. a 13. 14. Eph. 1. 13. a 4. 30. 1 Thes. 1. 5, 6. a 4. 8. 2 Tim. 1. 14. Tit. 3. 5. Heb. 2. 4. a 3. 7. a 9. 8. a 10. 15. 1 Pedr 1. 12. 2 Pedr 1. 21. 1 Ioan 5. 7. Judas 20. o adn. 16. pen. 15. 26. a 16. 7. Luc 24. 49. Act. 1. 4. p pen. 6. 45. a 16. 13, 14. Salm 25. 8, 9, 12—14. Es. 54. 13. Jer. 31. 33, 34. 1 Cor. 2. 10—13. Eph. 1. 17, 18. 1 Ioan 2. 20, 27. Dat. 2. 11. q pen. 2. 22. a 12. 16. Act. 11. 16. a 20. 35.

* Danfon yr Ysbryd Glân yn enw Crist, yw ei ddanfon ef yn ol trefn y cyfammod â Christ, ei ddanfon ef ar gyfrif aberth Crist, a thrwy ei gyfryngdod a'i eiriolaeth ef. † Dyddanydd y gelwir ef yma fel adn. 16; ond yma mae yn gwneyd dau beth heblaw dyddanu, neu ynte yn dyddanu trwy y ddau beth hyny; dysgu, a dwyn ar gof yr holl bethau a ddywedasai yr Iesu. Efe a ddysg i chwi yr hyn oll sydd yn angenrheidiol er eich iachawdwriaeth eich hunain, a'r hyn oll a fydd yn angenrheidiol i chwi ei bregethu i eraill: efe i *chwi*, yr *apostolion* yn oruwch-naturiol, yn oleu, ac yn anffaeledig; ac efe a ddysg i bawb o'r saint yn achubol, ac i fywyd tragywyddol. ‡ Mae yn debyg mai trwy ddwyn ar gof i'r apostolion eiriau Crist, yr oedd yr Ysbryd Glân yn eu dysgu: fel hyn yr oedd yn agoryd eu deall yn ysbrydol, i ddeall yn eglurach o lawer y pethau a glywsent o'r blaen gan yr Arglwydd Iesu. Fel hyn nid oedd geiriau Iesu fel dwfr wedi ei dywallt ar y ddaear, yr hwn nis gellir ei gasglu; ond fel had gwerthfawr, wedi ei hau yn y ddaear, yr hwn er bod yn hir megys yn farw, a egina drachefn, ac a ddwg ffrwyth lawer.

27 [r] * Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; † fy nhangnefedd yr ydwyf yn ei roddi i chwi: [s] ‡ nid fel y mae y byd yn rhoddi, yr wyf fi yn rhoddi i chwi. [t] ‖ Na thralloder eich calon, ac nac [u] ofned.

r pen. 16. 33. a 20. 19, 21, 26. Salm 29. 11. a 72. 2, 3, 7. a 85. 10. Es. 9. 6, 7. a 32. 15—17. a 54. 7—10, 13. a 55. 12. a 57. 19. Zec. 6. 13. Luc 1. 79. a 2. 14. a 10. 5. Act. 10. 36. Rhuf. 1. 7. a 5. 1, 10. a 8. 6. a 15. 13. 1 Cor. 1. 3. 2 Cor. 5. 18—21. Gal. 1. 3. a 5. 22. a 6. 16. Eph. 2. 14—17. Phil. 4. 7. Col. 1. 2, 20. a 3. 15. 2 Thes. 1. 2. a 3. 16. Heb. 7. 2. a 13. 20. Dat. 1. 4. s Job 34. 29. Salm 28. 3. Galar. 3. 17. Dan. 4. 1. a 6. 25. t Gwel ar adn. 1. u Salm 11. 1. a 27. 1, 2. a 56. 3, 11. a 91. 5. a 112. 7. Diar. 3. 25. Es. 12. 2. a 41. 10, 14. Jer. 1. 8. Ezec. 2. 6. Mat. 10. 26—28. Luc 12. 4, 5. Act. 18. 9. 2 Tim. 1. 7, 8. Dat. 2. 10. a 21. 8.

* Tangnefedd fyddo gyda chwi, neu i chwi, ydoedd cyfarchiad cyffredinol yr Iuddewon; ac yn y gair tangnefedd yr oeddynt yn cynnwys pob peth da: fel hyn y cyfarchent eu cyfeillion wrth gyfarfod, ac y cânent yn iach wrth ymadael. Felly hefyd y byddent yn gwneyd wrth ymadael â'r byd yn angau, ac felly yr ymadawodd Iesu a'i deulu bychan yma. Tangnefedd â Duw, tangnefedd â'u gilydd, a thangnefedd yn eu heneidiau eu hunain oedd y fendith fawr a adawodd efe iddynt. † Nid *dymuno* tangnefedd yn unig yr oedd efe, fel dyn; ond ei *rhoddi*, a'i *gadael*, fel Duw ac fel Cyfryngwr: ei eiddo ef ydoedd fel Duw, a ffrwyth ei aberth ef ydoedd fel Cyfryngwr; am hyny mae yn dywedyd, "*Fy* nhangnefedd." ‡ Mae y byd yn aml yn dymuno tangnefedd i'w gilydd, ond nis gallant ei rhoddi: mae y byd yn dywedyd tangnefedd mewn geiriau, ond heb ei dymuno yn eu calonau: mae y byd yn dywedyd tangnefedd heddyw, yn ei galw yn ol ac yn cyhoeddi rhyfel y fory: nid felly mewn un modd y mae Iesu yn rhoddi tangnefedd i'w saint, ac i'w bobl: ei rhoddi, fel ei lythyr cymun diweddaf, y mae efe, heb feddwl ei galw yn ol byth. ‖ Gan hyny nid oes achos i'w ddysgyblion drallodi nac ofni yn ddifesur; os yw pob peth yn dda rhyngom â Duw, a Duw drosom, pwy a all fod i'n herbyn?

28 [x] * Clywsoch fel y dywedais wrthych, Yr wyf yn myned ymaith, ac mi a ddeuaf attoch. [y] † Pe carech fi, chwi a lawenhâech, am i mi ddywedyd, [z] Yr wyf yn myned at y

Tad: [a] ‡ canys y mae fy Nhad yn fwy nâ myfi.

x adn. 3, 18. pen. 16. 16—22. y pen. 16. 7. Salm 47. 5—7. 68. 18, 19. Luc 24. 51—53. 1 Pedr 1. 8. z adn. 12. pen. 16. 16. a 20. 17. a pen. 5. 18. a 10. 30, 38. a 13. 16. a 20. 21. Es. 42. 1. a 49. 5—7. a 53. 11. Mat. 12. 18. 1 Cor. 11. 3. a 15. 24—28. Phil. 2. 6—11. Heb. 1. 2, 3. a 2. 9—15. a 3. 1—4. Dat. 1. 11, 17, 18.

* Clywsoch fi yn dywedyd hyny yn adn. 2, 3, fy mod yn myned i dŷ fy Nhad, i barotôi lle i chwi, ac i ddychwelyd drachefn i'ch cymmeryd chwi ataf fy hun. † Yn awr, pe byddai chwi yn deall y pethau uchod yn iawn, a phe byddai eich cariad tuag ataf fi fel y dylai fod, yn ysbrydol, yn rheolaidd, ac yn ystyriol, chwi a lawenâech am y cyfryw beth, yn hytrach na gofidio; oblegid fy mod yn myned at fy Nhad, lle byddaf byth yn ddedwydd, ac yn meddu pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear: chwi a lawenâech hefyd er eich mwyn eich hunain; oblegid fy mod yn myned i barotôi lle i chwi, i eiriol drosoch, i ddanfon y Dyddanydd atoch, ac o'r diwedd i'ch cymmeryd chwi ataf fy hun. ‡ Nid mwy o ran hanfod a phersonoliaeth a feddylir yn sicr; oblegid dywedodd Iesu yn y gwrthwyneb i hyny lawer gwaith o'r blaen: yn yr ystyr hyny nid oes na mwy na llai yn y Duwdod, un yw yr hanfod, a gogyfuwch yw y Personau. Ond yn nhrefn fawr yr iachawdwriaeth, gyda golwg ar natur ddynol, swydd gyfryngol, ac ystad ddarostyngol, y Messiah, mae yn dywedyd yma fod y Tad yn fwy nac ef.

29 [b] * Ac yr awrhon y dywedais i chwi cyn ei ddyfod, † fel pan ddêl, y credoch.

b pen. 13. 19. a 16. 4, 30, 31. Mat. 24. 24, 25.

* Mi a ddywedais i chwi yn mlaen llaw am fy angau, fy adgyfodiad, fy esgyniad i'r nef, a danfoniad yr Ysbryd Glân y Dyddanydd; † fel pan weloch gyflawniad o honynt, na byddont yn dyfod arnoch fel pethau annysgwyliadwy, ond y credoch mai Mab Duw ydwyf mewn gwirionedd, gan i mi allu rhagfynegi y cyfryw bethau, a'u cyflawni hefyd.

30 [c] * Nid ymddiddanaf â chwi nemmawr bellach: [d] † canys tywysog y byd hwn sydd yn dyfod, [e] ‡ ac nid oes iddo ddim ynof fi.

c pen. 16. 12. Luc 24. 44—49. Act. 1. 3. d pen. 12. 31. a 16. 11. Luc 22. 53. 2 Cor. 4. 4. Eph. 2. 2. a 6. 12. Col. 1. 13. 1 Ioan 4. 4. a 5. 19. Dat. 12. 9. a 20. 2, 3, 7, 8. e Luc 1. 35. 2 Cor. 5. 21. Heb. 7. 26. 1 Pedr 1. 19. a 2. 22. 1 Ioan 3. 5—8.

* Mae yr amser bron i fynu, nid oes genyf ond ychydig iawn o fynydau mwyach i ymddiddan fel hyn â chwi: † mae diafol, tywysog y byd annuwiol hwn, yn dyfod am y tro diweddaf, i adnewyddu ei ymosodiadau cythreulig ac atgas ei hun arnaf, ac i annog a chynhyrfu yr holl bobl hefyd yn fy erbyn, i fy rhoddi i farwolaeth. ‡ Gwedi y cwbl, ni chaiff efe ddim llygredd ynof fi, i weithredu arno drwy ei demtasiynau, nac i roddi meddiant na mantais iddo arnaf fi; ac nis gall efe gyflawni ei ddybenion ei hun yn yr hyn oll a allo wneyd yn fy erbyn I; bydd raid i mi farw, ond drwy farw, mi a ysigaf ei ben ef, mi a ddistrywiaf ei deyrnas, mi a ogoneddaf fy Nhad, ac a waredaf fy mhobl: ac nis gall efe lwyddo yn fy erbyn I, i fy rhoddi i farwolaeth ychwaith; heb fy nghydsyniad gwirfoddol fy hun.

31 [f] * Ond fel y gwypo y byd fy mod i yn caru y Tad, ac megis y gorchymynodd y Tad i mi, felly yr wyf yn gwneuthur. [g] † Codwch, awn oddi yma.

f pen. 4. 34. a 10. 18. a 12. 27, 28. a 15. 9, 10. a 18. 11. Salm 40. 8. Mat. 26. 39—42. Phil. 2. 8. Heb. 5. 7, 8. a 10. 5—9. a 12. 2, 3. g pen. 18. 1—4. Mat. 26. 46. Luc 12. 50.

* Er nad oedd yn Iesu ddim yn haeddu angau, eto fel Cyfryngwr mawr, a Machnïydd ei bobl, efe a dderbyniasai orchymyn gan ei Dad, yn y cyfammod tragywyddol, i roddi ei einioes i lawr dros ei bobl, a'i chymmeryd hi drachefn: er dangos i'r byd ei gariad at y Tad, a'i ffyddlondeb i rwymau y cyfammod hwnw, mae yn rhoddi ei einioes i lawr yn ol y gorchymyn. Fel hyn dangosodd Iesu drwy ei esampl ei hun, yn gystal ag mewn athrawiaeth, (adn. 21, 23,) mai cadw gorchymynion Duw yw y prawf gorau o gariad at Dduw. † Byddai yr Iuddewon yn arfer eistedd yn hir ar ol swper y pasg, ond yma nid oedd amser i hyny, yr oedd yr awr wedi dyfod, a Iesu yn barod iddi: gan hyny mae yn dywedyd codwch, ac awn i Gethsemane, lle mae Judas yn dyfod i'm bradychu I, a'r milwyr yn dyfod i'm dàl I. Wrth y geiriau "codwch, awn oddi yma," mae rhai yn tybied mai ar hyd y ffordd oddi yno i'r ardd y llefarodd Iesu y pethau sydd yn y ddwy bennod nesaf, ac y gweddïodd efe y weddi sydd yn pen. 17; ond mae yn amlwg wrth yr adnod flaenaf o'r ddeunawfed bennod, ei fod wedi llefaru y cwbl cyn myned allan o'r tŷ lle yr oedd. Ni chymmer ond ychydig amser i ddarllen y tair pennod nesaf oll, a gallasai rhyw amgylchiadau eu hattal hwy i fyned tra bu Iesu yn eu llefaru, ar ol dywedyd codwch, awn oddi yma. Nid yw yn debygol chwaith, iddo draddodi pethau mòr bwysig, a gweddïo y fath weddi, wrth gerdded ar hyd heolydd Jerusalem.

PEN. XV.

Dammcg y winwydden, &c.

* MYFI yw y [a] wir [b] winwydden, † a'm Tad yw y [c] llafurwr.

a pen. 1. 9, 17. a 6. 32, 55. 1 Ioan 2. 8. b Gen. 49. 10, 11. Salm 80. 8, &c. Es. 4. 2. a 5. 1, &c. Jer. 2. 21. a 12. 10. Ezec. 15. 2—6. Hos. 10. 1. Zec. 3. 8. Mat. 21. 33, &c. Luc 13. 6, 7. c Can. 7. 12. a 8. 11, 12. Es. 27. 2, 3. a 60. 21. a 61. 3. Mat. 20. 1. Marc 12. 1. 1 Cor. 3. 9.

* Ychydig iawn o amser o'r blaen, buasai Iesu yn dywedyd am y gwin, "Hwn yw fy ngwaed o'r Testament Newydd;" ac yma, megys canlyniad o hyny, mae yn dywedyd, Myfi yw y wir winwydden. Nid yw y winwydden ond pren gwael yr olwg arno, eto mae yn ffrwythlawn iawn, a'i ffrwyth yn werthfawr iawn: felly nid oedd Iesu yn nyddiau ei gnawd ond fel dyn dirmygedig a dïystyraf o'r gwŷr; ond y mae ei ffrwyth yn annrhaethol, ac yn annrhaethol werthfawr. Fel y dywedodd o'r blaen, mai efe oedd y gwir Oleuni, a'r gwir Fara; felly y dywed yma mai efe yw y wir winwydden, yn rhagori yn anfeidrol ar bawb, a phob peth arall. † Y Tad yw y llafurwr: efe a ddewisodd ei Fab, ac a'i danfonodd i'r byd: efe a ragordeiniodd bob peth perthynawl i'w waith cyfryngol ef, yn nghyd a'r canlyniadau dedwydd a gogoneddus o hóno: yn ol ei gyngor a'i arfaeth ef y bu yr holl drïniaeth fawr a chaled ar Iesu yn y byd hwn: ac efe hefyd sydd yn plànu, yn dyfrâu, yn cynnyddu, ac yn gofalu am yr holl gangenau bywiol yn y winwydden hon.

2 [d] * Pob cangen ynof fi heb ddwyn ffrwyth, y mae efe yn ei thynnu ymaith: [e] † a phob un a ddygo ffrwyth, y mae efe yn ei glanhâu, [f] fel y dygo fwy o ffrwyth.

d adn. 6. pen. 17. 12. Mat. 3. 10. a 15. 13. a 21. 19. Luc 8. 13. a 13. 7—9. 1 Cor. 13. 1. Heb. 6. 7, 8. 1 Ioan 2. 19. e Job 17. 9. Salm 51. 7—13. Diar. 4. 18 Es. 27. 9. a 29. 19. Hos. 6. 3. Mal. 3. 3. Mat. 3. 12. a 13. 12, 33. Rhuf. 5. 3—5. a 8. 28. 2 Cor. 4. 17, 18. Phil. 1. 9—11. 1 Thes. 5. 23, 24. Tit. 2. 14. Heb. 6. 7. a 12. 10, 11. Dat. 3. 19. f adn. 8, 16. Gal. 5. 22, 23. Phil. 1. 11. Col. 1. 5—10.

* Fel yn y gwinwydd gorau, mae rhai cangenau diffrwyth, y rhai mae y llafurwr yn eu tynu ymaith; felly mae rhai yn Nghrist, o ran proffes, ac aelodaeth eglwysig, yn ddiffrwyth, am nad oes iddynt undeb ysbrydol â'r wir winwydden: ac mae y Tad, drwy amryw ffyrdd, yn tynu ymaith y cangenau diffrwyth hyny. Un o'r rhai hyn ydoedd Judas, a thynwyd ef ymaith drwy farn ofnadwy. Dywed *Pool* y gellir darllen y geiriau fel hyn:—Pob cangen heb ddwyn ffrwyth ynof fi, mae efe yn ei thynu ymaith. † Pob un sydd yn wirioneddol ynof fi, ac yn dwyn ffrwyth, mae efe yn glanâu y cyfryw, trwy oruchwyliaethau sanctaidd ei Ysbryd, fel y dygont fwy o ffrwyth. Mae y geiriau hyn yn dangos i ni, mai un o'r gwobrwyon ardderchocaf mae Duw yn ei roddi yma i'w bobl am ufudd-dod blaenorawl, yw eu gwneyd yn fwy sanctaidd o hyd, ac yn fwy addas i ddwyn ffrwyth

chwanegol, ac i wasanaeth mwy goruchel; er bod hyny yn cael ei wneyd trwy oruchwyliaethau llymion a phoenus, tebyg i ysgythru y winwydden.

3 [g] * Yr awrhon yr ydych chwi yn lân † trwy y gair a leferais i wrthych.

g pen. 13. 10. a 17. 17. Eph. 5. 26, 27. 1 Pedr 1. 22, 23.

* Tra yr oedd Judas gyda'r dysgyblion, yr oedd Iesu yn dywedyd, "Yr ydych chwi yn lân, ond nid pawb oll:" yma, wedi i Judas fyned ymaith, mae yn dywedyd, Yr ydych chwi yn lân yr awr hon; oll yn lân, heb un gangen ddiffrwyth yn eich plith. Aelodau bywiol ynof fi ydych oll, yn gyfranog o'm hysbryd, a chwedi puro eich calonau trwy ffydd yn y gwirionedd, yr hwn sydd yn nerthol weithio ynoch chwi. † Priodolir ein sanctteiddiad ni weithiau i waed Crist, weithiau i'r Ysbryd Glân, ac weithiau i'r gair: y cyntaf yw y defnydd, yr ail yw y gweithredydd, a'r trydydd yw y moddion, sydd yn sancteiddio pechaduriaid.

4 [h] * Arhoswch ynof fi, [i] † a mi ynoch chwi. [k] ‡ Megis na all y gangen ddwyn ffrwyth o honi ei hun, onid erys yn y winwydden; felly ni ellwch chwithau, onid arhoswch ynof fi.

h adn. 6, 7. pen. 6. 68, 69. a 8. 31. Can. 8. 5. Luc 8. 15. Act. 11. 23. a 14. 22. Gal. 2. 20. Col. 1. 23. a 2. 6, 7. 1 Thes. 3. 5. Heb. 10. 39. 1 Ioan 2. 6, 24—28. 2 Ioan 9. Judas 20, 21. i pen. 6. 56. a 14. 20, 23. a 17. 23. Rhuf. 8. 9, 10. 2 Cor. 13. 5. Eph. 3. 17. Col. 1. 27. k adn. 5, 6. Es. 27. 10, 11. Ezec. 15. 2—5. 2 Cor. 12. 8—10.

* Nid aros o ran cyflwr, ac undeb ysbrydol, a feddylir; nid oes dim ysgar i fod byth rhwng Crist a'i bobl felly: ond aros yn ei eiriau, adn. 7, aros yn ei gariad, adn. 10, aros yn ei Ysbryd, yn ei gymdeithas, ac mewn ufuddod iddo ef. † Ac mi a fyddaf fel gwreiddyn parâus, yn llawn nôdd a rhinwedd ysbrydol, i'ch eneidiau chwithau. ‡ Er bod y cyflwr yn ddiogel ac yn ddiberygl byth trwy undeb â Christ, eto nis gall y credadyn ddwyn ffrwyth heb gymmundeb parâus ag ef, mwy na'r gangen onid erys yn y winwydden.

5 [l] * Myfi yw y winwydden, chwithau *yw* y cangennau. † Yr hwn sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, [m] hwnnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer: ‡ oblegid hebof fi [n] ni ellwch chwi wneuthur dim.

l Rhuf. 12. 5. 1 Cor. 10. 16, 17. a 12. 12, 27. 1 Pedr 2. 4, 5. m adn. 16. pen. 12. 24. Diar. 11. 30. Hos. 14. 8. Luc 13. 6—9. Rhuf. 6. 22. a 7. 4. 2 Cor. 9. 10. Gal. 5. 22. Eph. 5. 9. Phil. 1. 11. a 4. 17. Col. 1. 6, 10. Iago 1. 17. 2 Pedr 1. 2—18. a 3. 18. n pen. 5. 19. a 9. 33. 2 Cor. 13. 8. Phil. 4. 13.

* Myfi ydwyf megys y winwydden, a chwithau ydych megys y cangenau yn y winwydden. Mae hyn yn dangos i ni ein hangenrheidrwydd o fyw yn wastadol trwy ffydd ar Grist. † Yr hwn sydd yn byw felly arno, ac yn aros felly ynddo ef, sydd yn dwyn ffrwyth lawer, er gogoniant i Dduw, ac er lles a chysur iddo ei hun ac eraill. ‡ Heb Grist yn trigo trwy ffydd yn ein calonau, heb weithredu ffydd arno, heb gymdeithas âg ef, ac heb dderbyn o'i nerth, ei rinweddau, a'i ddylanwadau; nis gallwn ni wneuthur dim ag sydd yn wir dda, ac yn gymmeradwy gan Dduw. Ynddo a thrwyddo ef, gall y credadyn gwanaf ddwyn ffrwyth *lawer;* hebddo, (neu ar wahân oddiwrtho, *choris emou,*) nis gall y cryfaf wneuthur *dim.* Cofiwn yr hyn a ddywedodd, "O honof fi y cair dy ffrwyth di."

6 * Onid erys un ynof fi, [o] † efe a daflwyd allan megis cangen, ‡ ac a wywodd; ‖ ac y maent yn eu casglu hwynt, ac yn *eu* bwrw yn tân, a hwy a losgir.

o Job 15. 30. Salm 80. 15, 16. Es. 14. 19. a 27. 10, 11. Ezec. 15. 3—7. a 17. 9, 10. a 19. 12—14. Mat. 3. 10. a 7. 19. a 13. 41. a 27. 5. Heb. 6. 7, 8. a 10. 26—29, 39. 2 Pedr 2. 20—22. 1 Ioan 2. 19. Judas 12, 13. Dat. 20. 15. a 21. 8.

* Os bydd neb yn gwneuthur proffes allanol, ac ymddangosiad o fod yn ddysgybl i mi, ac heb aros ynof trwy wir ffydd, nid yw y cyfryw ddim gwell na rhagrithiwr, heb wir undeb â mi erioed: † ac efe a deflir allan yn y diwedd, o bob perthynas broffesedig a gweledig â mi a'm heglwys. Mae yn rhyfedd bod dynion yn defnyddio y geiriau hyn i brofi yn erbyn parâd y saint, gan fod mòr amlwg mai am fod yn Nghrist o ran proffes yn unig y maent. ‡ Pan fwrier gwâg broffeswyr a rhagrithwyr allan o eglwys Dduw, mae eu proffes, eu doniau crefyddol, a'u hymddangosiadau rhagrithiol, yn gwywo yn fuan ac yn marw: yn debyg i gangen ddiffrwyth yn gwywo, pan dòrer hi o'r winwydden, neu ryw bren arall. ‖ Mae satan a'i offerynau yn gyffredin yn casglu y cyfryw yn y byd hwn, i'w darpar hwy i ddystryw yn y nesaf: neu, fe'u cesglir hwy gan yr angelion sanctaidd yn y dydd diweddaf, i'w bwrw i uffern, y llyn o dân tragywyddol.

7 * Os arhoswch ynof fi, [p] † ac aros o'm geiriau ynoch, [q] ‡ beth bynnag a ewyllysioch, gofynwch, ac efe a fydd i chwi.

p pen. 8. 37. Deut. 6. 6. Job 23. 12. Salm 119. 11. Diar. 4. 4. Jer. 15. 16. Col. 3. 16. 1 Ioan 2. 14, 27. 2 Ioan 1, 2. q adn. 16. pen. 14. 13, 14. a 16. 23. Job 22. 26, 27. Salm 37. 4. Diar. 10. 24. Es. 58. 8, 9. Iago 4. 2, 3. a 5. 16. 1 Ioan 3. 22. a 5. 14, 15.

* O'r tu arall, y mae gwir ddysgyblion Crist yn aros ynddo ef trwy ffydd, o ran eu cyflwr a'u cymdeithas; † ac mae ei eiriau ef, ei athrawiaeth, ei orchymynion, a'i addewidion, yn aros yn eu cof, eu myfyrdod, eu serchiadau, a'u calonau hwythau, i'w credu, ymhyfrydu ynddynt, ac ufuddâu o'r galon trwy ffydd iddynt. ‡ Beth bynag a ewyllysio y rhai hyn, yn unol âg ewyllys datguddiedig Duw, er ei ogoniant ef, er eu lles eu hunain, ac er dwyn ffrwyth lawer; efe a fydd iddynt: nid oes dim yn rhwystro eu gweddïau, nac yn rhwystro Duw i wrando; mae iddynt ddyfodfa hyderus, yn enw y Cyfryngwr, at orsedd-fainc y gras, a Duw mewn Cyfryngwr yn ateb eu gweddïau.

8 [r] * Yn hyn y gogoneddwyd fy Nhad, ar ddwyn o honoch ffrwyth lawer: [s] † a disgyblion fyddwch i mi.

r Salm 92. 12—15. Es. 60. 21. a 61. 3. Hag. 1. 8. Mat. 5. 16. 1 Cor. 6. 20. a 10. 31. 2 Cor. 9. 10—15. Phil. 1. 11. Tit. 2. 5, 10. 1 Pedr 2. 12. a 4. 11. s pen. 8. 31. a 13. 35. Mat. 5. 44, 45. Luc 6. 35.

* Tybia rhai fod y geiriau "Yn hyn" yn cyfeirio yn ol, at yr hyn a ddywedasai Crist o'r blaen: yn hyn y gogoneddwyd fy Nhad; sef yn eich bod chwi yn aros ynof fi, a minnau a'm geiriau yn aros ynoch chwithau: yn eich bod chwi yn gofyn gan fy Nhad, ac yntau yn ateb ac yn caniatâu eich deisyfiadau: yn hyn y gogoneddwyd fy Nhad. Mae yn ddiammau bod y geiriau yn edrych yn mlaen hefyd; sef bod Duw yn cael ei ogoneddu drwy fod ei bobl yn dwyn ffrwyth lawer. Y ffrwyth oedd yr apostolion eu hunain i'w ddwyn oedd, eu llafur ffrwythlawn gyda gweinidogaeth yr efengyl, yn nghyd â'u buchedd sanctaidd, cyfatebol i'r efengyl hòno. Cofiwn fod pob cristion i ddwyn ffrwyth yn ol ei radd, ac yn ol ei ddawn a'i sefyllfa. † Wrth ddwyn ffrwyth lawer y dangoswn i bawb mai dysgyblion i Grist ydym: nid y ffrwyth sydd yn ein gwneyd yn ddysgyblion; dangos a phrofi ein bod felly mae y ffrwyth.

9 [t] * Fel y carodd y Tad fi, felly y cerais innau chwithau: [u] † arhoswch yn fy ngharial i.

t adn. 13. pen. 17. 23, 26. Eph. 3. 18, 19. Dat. 1. 5. u adn. 11. 1 Ioan 2. 28. Judas 20, 21.

* Arwyddo cymhariaeth, neu debygolrwydd, mae y gair "Fel," yma, ac nid cydraddoldeb yn mhob ystyr: carodd y Tad Grist, ei Fab, o angenrheidrwydd, ac am ei fod yn haeddu ei garu, fel ei Fab, ei ddelw, a'i ogyfuwch; nid *fel* hyny y carodd Crist ei bobl, nid oedd ynddynt hwy ddim yn haeddu eu caru, na dim rhwymau arno yntau o angenrheidrwydd eu caru. Nis gellir dywedyd i'r Tad garu Crist yn gyntaf, ac i Grist am hyny ei garu yntau; ond yn ngharial Crist at ei bobl, *fel* arall y mae; efe sydd yn gyntaf yn caru ei bobl, a hwythau am hyny yn ei garu ef. Yn y dull yna o ymresymu, nid yw y ddau gariad *fel* eu gilydd yn

mhob ystyr; ond y maent *fel* eu gilydd mewn rhyw bethau: mae cariad Crist at ei bobl yn ddidwyll, yn fawr, ac yn ddigyfnewid; ac yn yr ystyriaethau hyny mae *fel* cariad y Tad ato ef. † Aroswch mewn ffydd ac ufudd-dod i mi yn mhob peth, ac fel hyny dangoswch eich cariad parâus ataf fi; ac fel hyny hefyd, chwi a gewch brofiad parâus o'm cariad innau tuag atoch chwi.

10 [x] * Os cedwch fy ngorchymynion, chwi a arhoswch yn fy ngharîad; [y] † fel y cedwais i orchymynion fy Nhad, ac yr wyf yn aros yn ei gariad ef.

x pen. 14. 15, 21—23. 1 Cor. 7. 19. 1 Thes. 4. 1, 2. 2 Pedr 2. 21. 1 Ioan 2. 5. a 3. 21—24. a 5. 3. Dat. 22. 14. y pen. 4. 34. a 8. 29. a 12. 49, 50. a 14. 31. a 17. 4. Es. 42. 1—4. Mat. 3. 15—17. Heb. 7. 26. a 10. 5—10. 1 Ioan 2. 1, 2.

* Trwy gadw gorchymynion Crist yr ydym yn dangos ein bod yn ei garu ef: cariad ato ef yw yr egwyddor a'n gweithia ni i ufudd-dod i'w orchymynion ef, ac ufudd-dod i'w orchymynion yw y prawf gorau a allwn roddi, ein bod yn ei garu ef. Gellid troi y geiriau fel hyn:—Os aroswch yn fy ngharîad, chwi a gedwchf y ngorchymynion; ac heb gadw fy ngorchymynion, ni choelia neb eich bod yn fy ngharu. Eto, fel hyn; Os cedwch fy ngorchymynion, chwi a'ch cedwch eich hunain yn fy ngharîad I, myfi a'ch caraf, ac a ddangosaf i chwi yn amlwg ac yn aml, fy mod yn eich caru. † Yr un modd mae y mater yn sefyll rhwng y Tad a minnau; trwy gadw ei orchymynion ef yr wyf fi yn dangos fy mod yn ei garu ef; ac yn llwybr cadw ei orchymynion mae yntau yn amlygu ei gariad tuag ataf finnau.

11 * Hyn a ddywedais wrthych, [z] fel yr arhosai fy llawenydd ynoch, [a] † ac y byddai eich llawenydd yn gyflawn.

z Es. 53. 11. a 62. 4, 5. Jer. 32. 41. a 33. 9. Zeph. 3. 17. Luc 15. 5, 6, 9, 10, 23, 24, 32. 1 Ioan 1. 4. a pen. 16. 24, 33. a 17. 13. Rhuf. 15. 13. 2 Cor. 1. 24. Eph. 5. 18. Phil. 1. 25. 1 Thes. 5. 16. 1 Pedr 1. 8. 2 Ioan 12.

* Pan mae dysgyblion Crist yn aros yn ei gariad ef, yn cadw ei orchymynion, ac felly yn dwyn ffrwyth lawer, mae efe yn llawenychu ynddynt: yn debyg fel mae y gwinllanydd yn llawenychu yn ei winwydd ffrwythlawn, ond yn annrhaethol fwy; "efe a lawenycha o'u plegid gan lawenydd, efe a lonydda yn ei gariad, ac a ymddigrifa ynddynt dân gânu." Hyn a ddywedodd Iesu wrthynt fel y dygent ffrwyth, ac y caffai yntau achos i lawenychu felly ynddynt. † Yr un modd hwythau hefyd; dyma'r llwybr iddynt i ymhyfrydu gan liaws tangnefedd, a chael eu cyflawni o lawenydd yn yr Ysbryd Glân: cadw gorchymynion Duw, a mwynâu ei gariad hyfryd ef.

12 [b] * Dyma fy ngorchymyn i; † Ar i chwi garu eich gilydd, ‡ fel y cerais i chwi.

b pen. 13. 34, 35. Rhuf. 12. 10. Eph. 5. 2. 1 Thes. 3. 12. a 4. 9, 10. 2 Thes. 1. 3. 1 Pedr 1. 22. a 3. 8, 9. a 4. 8. 1 Ioan 2. 7—10. a 3. 11—18, 23. a 4. 21.

* Yn nesaf at garu Crist ei hun, a chadw ei air a'i orchymynion ef, dyledswydd ei holl ganlynwyr yw caru eu gilydd, yn ol ei orchymyn mawr, a'i esampl ryfeddol ac anghymarol ef. † Y ddyledswydd yw, i ni garu ein gilydd; yr hyn a gynnwys bob parch a allwn ni ei roddi i'n gilydd, a phob daioni a chymmwynas a allwn ni wneyd i'n gilydd. Y rhwymiad i hyn yw, gorchymyn pendant Crist, ein Harglwydd, ac unig Ben yr eglwys: pa fodd y beiddiwn ei esgeuluso, ac anufuddâu iddo? ‡ Yr esampl yw, cariad Crist atom ni; yn wyneb ein holl drueni a'n hannheilyngdod, yn marw, ac yn rhoddi ei einioes drosom. Nis gall fod gwell dyledswydd, nis gall fod uwch rhwymedigaeth, ac nis gall fod rhagorach esampl: ac eto i gyd, bŷr iawn ydym ni yn y peth hwn.

13 [c] * Cariad mwy na hwn nid oes gan neb; sef, bod i un roi ei einioes dros ei gyfeillion.

c pen. 10. 11, 15. Rhuf. 5. 6—8. Eph. 5. 2. 1 Ioan 4. 7—11.

* Einioes dyn yw y peth gwerthfawrocaf daearol a fedd ef, a phob peth a ddyry gwr am ei einioes; felly nis gall neb ddangos mwy o gariad na rhoddi ei einioes dros ei gyfaill, neu ei gyfeillion. Beth yw einioes miloedd o bechaduriaid mewn gwerth at einioes Mab Duw! ac eto rhoddodd efe yr einioes hòno i'r angau chwerwaf, a mwyaf gwarthus, ar y groes, yn bridwerth dros ei gyfeillion; ie, pan oedd myrddiynau o'r rhai hyny yn elynion dygnaf iddo! Nid oedd posibl iddo ef ddangos cariad mwy na hwn; ac nid oes dichon i ninnau gael prawf o gariad mwy na hwn. O na byddai y fath gariad yn lladd ein gelyniaeth ni, ac yn ennyn ein holl serchiadau yn fflam o gariad ato ef!

14 * Chwychwi yw [d] fy nghyfeillion, [e] os gwnewch pa bethau bynnag ŷr wyf yn eu gorchymyn i chwi.

d pen. 14. 15, 28. 2 Cron. 20. 7. Can. 5. 1. Es. 41. 8. Mat. 12. 50. Luc 12. 4. Iago 2. 23. e pen. 2. 5. a 13. 17. a 14. 21. 1 Ioan 5. 3.

* Mae ein Harglwydd o'r blaen wedi dangos mai ufudd-dod i'w orchymynion ef yw y prawf gorau o gariad ato: yma mae yn defnyddio rheswm newydd megys, er annogaeth iddynt gadw ei orchymynion, sef, mai fel hyn y câent y rhagor-fraint fawr o fod yn gyfeillion iddo ef.

15 [f] * Nid ydwyf mwyach yn eich galw yn weision; oblegid y gwas ni ŵyr beth y mae ei arglwydd yn ei wneuthur: ond mi a'ch gelwais chwi yn [g] gyfeillion; [h] † oblegid pob peth a'r a glywais gan fy Nhad, a hysbysais i chwi.

f adn. 20. pen. 12. 26. a 13. 16. a 20. 17. Gal. 4. 6, 7. Philemon 16. Iago 1. 1. 2 Pedr 1. 1. Judas 1. Dat. 1. 1. g adn. 14. h pen. 4. 19. a 17. 6—8, 26. Gen. 18. 17—19. 2 Bren. 6. 8—12. Salm 25. 14. Amos 3. 7. Mat. 13. 11. Luc 10. 23, 24. Act. 20. 27. Rhuf. 16. 25, 26. 1 Cor. 2. 9—12. Eph. 1. 9. a 3. 5. Col. 1. 26. 1 Pedr 1. 11, 12.

* Rhagoriaeth mawr rhwng cyfeillion a gweision, yn enwedig caeth-weision, yw, bod gwr yn amlygu ei feddwl yn rhydd ac yn eglur i'w gyfeillion, ond nid yw yn gwneyd felly i'w weision. Yma mae Iesu yn ymddwyn tuag at ei ddysgyblion fel cyfeillion anwyl a mynwesol. gan hysbysu iddynt yr hyn oll a glywsai ef ei hun gan y Tad. † Nis gallwn feddwl wrth hyn fod dysgyblion Iesu yn gwybod, nac y câent wybod, gymmaint o gyngor Duw ag oedd ef ei hun yn wybod o hóno: mae y geiriau yn amlwg yn cyfeirio at yr hyn a berthynai iddo ef fel Cyfryngwr i ddatguddio o hóno i'w apostolion, yn yr hyn y bu efe ffyddlawn i'r hwn a'i hordeiniodd, ac ni chadwodd ddim oddi wrthynt.

16 [i] * Nid chwi a'm dewisasoch i, ond myfi a'ch dewisais chwi, [k] † ac a'ch ordeiniais chwi, ‡ fel yr elech [l] ac y dygech ffrwyth, [m] ‖ ac yr arhosai eich ffrwyth; [n] § megis pa beth bynnag a ofynoch gan y Tad yn fy enw i, y rhoddo efe i chwi.

i adn. 19. pen. 6. 70. a 13. 18. Luc 6. 13. Act. 1. 24. a 9. 15. a 10. 41. a 22. 14. Rhuf. 9. 11—16, 21. 1 Ioan 4. 10, 19. k pen. 20. 21—23. a 21. 15—17. Es. 49. 1—3. Jer. 1. 5—7. Mat. 28. 18, 19. Marc 16. 15, 16. Luc 24. 47—49. Act. 1. 8. Rhuf. 1. 5. a 15. 15, 16. 1 Cor. 9. 16—18. Gal. 1. 15, 16. Col. 1. 23. 1 Tim. 2. 7. 2 Tim. 1. 11. a 2. 2. Tit. 1. 5. l adn. 8. Diar. 11. 30. Es. 27. 6. a 55. 10—13. Mica 5. 7. Rhuf. 1. 13. a 15. 16—19. 1 Cor. 3. 6, 7. Col. 1. 6. Iago 3. 18. m Gen. 18. 18, 19. Salm 71. 18. a 78. 4—6. a 145. 4. Zec. 1. 4—6. Act. 20. 25—28. Rhuf. 15. 4 1 Cor. 10. 11 2 Tim. 3. 15—17. Heb. 11. 4. 2 Pedr 1. 14—21. a 3. 2, 15, 16. n adn. 7. pen. 14. 13, 14. a 16. 23, 24. Mat. 21. 22.

* Rhaid i'r dysgyblion ddeall, (a holl bobl Dduw hefyd) mai nid o honynt hwy y dechreuodd y gyfeillach ryfedd hon, rhwng Arglwydd y gogoniant â'r fath bryfed tlodion a phechadurus. Nid oedd dim tuedd ynddynt hwy o honynt eu hunain i'w ddewis ef a'i wasanaeth; ond efe a'u dewisodd hwy yn gyntaf i iachawdwriaeth, ac a'u neilluodd hwynt i swydd apostolion: ac o hyny y tarddodd eu cariad hwy ato ef, a'u dewisiad o hóno. Gan fod Judas yn awr wedi myned allan, gellir ystyried y dewis yma yn ddewis i fywyd tragywyddol yn gystal ag i'r apostoliaeth. † Mae y gair *ethêka*, a gyfieithir yma ordeinio, yn arwyddo gosod mewn swydd, neu sefyllfa, ac yn arwyddo apostoliaeth

r dysgyblion yn ddïammau. ‡ Fel yr elech allan i lafurio yn ngweinidogaeth y gair, yn mhlith Iuddewon a Chenedloedd hefyd: y ffrwyth oedd eu llafur gweinidogaethol, eu hymarweddiad sanctaidd, a'r canlyniadau lwyddiannus o'u gweinidogaeth yn nychweliad miloedd o bechaduriaid. ‖ Yr oedd y ffrwyth hwn i aros tra byddent hwy byw, ac ar ol iddynt farw hefyd, hyd oesoedd olaf y byd. Dywedir fod yma gyfeiriad at yr arfer o gadw gwin am lawer o flynyddoedd, ar ol ei wasgu a'i iddarpar o'r grawn: er fod y grawn wedi darfod, eto mae eu ffrwyth yn aros; felly er marw yr apostolion o gweinidogion eraill yr efengyl, mae eu ffrwyth yn aros, genedlaeth ar ol cenedlaeth, ie, i oesoedd tragywyddoldeb yn y nef. § Gwel ar pen. 14. 13, 14.

17 o * Hyn yr wyf yn ei orchymyn i chwi, ggaru o honoch eich gilydd.

o adn. 12. 1 Pedr 2. 17. 1 Ioan 3. 14—17.

* Ail-adroddiad yw hyn o'r hyn a gawsom o'r blaen, adn. 12: oddieithr i ni ei ystyried fel gorchymyn iddynt hwy fel gweinidogion, yn neillduol, i garu eu gilydd: mae cariad ac undeb gweinidogion yr efengyl yn werthfawr iawn, ac yn angenrheidiol iawn i undeb a heddwch yr eglwysi dàn eu gofal.

18 p * Os yw y byd yn eich † casâu chwi, ‡ chwi a wyddoch gasâu o hono fyfi o'ch blaen chwi.

p adn. 23—25. pen. 3. 20. a 7. 7. 1 Bren. 22. 8. Es. 49. 7. a 53. 3. Zec. 11. 8. Mat. 5. 11. a 10. 22. a 24. 9. Marc 13. 13. Luc 6. 22. Heb. 12. 2, 3. Iago 4. 4. 1 Ioan 3. 13.

* Y byd yma yw hâd y ddraig, dynion anianol y byd hwn, sydd yn ymroddi yn hollawl i'r byd, a thàn lwyodraeth satan, tywysog a duw y byd hwn. † Casineb sydd nwyd, neu deimlad gwreiddiol yn y galon; anfoddlonrwydd a gelyniaeth yn erbyn dyn, yn berwi ac yn ymgynhyrfu yn y meddwl, yn tòri allan mewn pob geiriau drwg ac enllibus am dano, ac mewn gweithredoedd gelynol a niweidiol iddo hyd y galler. ‡ Dyoddefodd Crist ei hun y casineb hwn hyd yr eithaf, a pha ryfedd i'w apostolion ei ddyoddef hefyd er ei fwyn ef? Fel hyn yr oedd Crist yn darpar ac yn gwroli meddyliau ei ddysgyblion erbyn erlidiau, trwy ddywedyd ei fod ef, eu Pen a'u Hathraw wedi cael ei erlid o'u blaen, ac na ddylent hwythau ryfeddu na digaloni yn wyneb yr un driniaeth. Chwi a wyddoch iddo fy nghasâu I, eich Pen, yw y Groeg.

19 * Pe byddech q o'r byd, y byd a garai yr eiddo; r † ond oblegid nad ydych o'r byd, ‡ eithr i mi eich dewis allan o'r byd, am hynny y mae y byd yn eich casâu chwi.

q Luc 6. 32, 33. 1 Ioan 4. 4, 5. r adn. 16. pen. 17. 14—16. Eph. 1. 4—11. a 2. 2—5. Tit. 3. 3—7. 1 Pedr 2. 9—12. a 4. 3, 4. 1 Ioan 3. 12. a 5. 19, 20. Dat. 12. 9, 17. a 20. 7—9.

* Pe byddech o'r un ysbryd, ymgais, ac arferion â'r byd, byddech yn eiddo'r byd; a'r byd a'ch carai fel ei eiddo, megys y mae yn naturiol i bawb garu yr eiddo. † Ond am eich bod o ysbryd, egwyddorion, athrawiaeth, ac arferion, gwahanol a chroes i'r byd, am hyny mae y byd yn eich casâu. Gall dynion fod yn y byd, ac eto heb fod o'r byd: ond ni chaiff y cyfryw nemawr o nyth esmwyth yn y byd, na chan y byd. ‡ Mae yn amlwg fod y dewis yma yn arwyddo mwy na dewis i waith yr apostoliaeth; oblegid yr oedd Judas wedi ei ddewis i hyny, eto un o'r byd, ac yn eiddo'r byd oedd efe yr amser gorau.

20 * Cofiwch s yr ymadrodd a ddywedais i wrthych; Nid yw y gwas yn fwy nâ'i arglwydd. † Os erlidiasant fi, hwy a'ch erlidiant chwithau: t ‡ os cadwasant fy ngair i, yr eiddoch chwithau hefyd a gadwant.

s pen. 5. 16. a 7. 32. a 8. 59. a 10. 31. a 11. 57. a 13. 16. Mat. 10. 24, 25. Luc 2. 34, 35. a 6. 40. Act. 4. 27—30. a 7. 52—60. 1 Thes. 2. 15, 16. t 1 Sam. 8. 7. Es. 53. 1—3. Ezec. 3. 7.

* Dywedodd Iesu y geiriau hyn, neu eu cyffelyb fwy nac unwaith o'r blaen; yn pen. 13. 16, i ddysgu gostyngeiddrwydd iddynt; ac yn Matth. 10. 24, i ddysgu iddynt ddyoddef erlid, fel yma. Nis gellwch chwi fy ngweision ddysgwyl gwell oddi wrth y byd nag a gefais innau eich Harglwydd. † Nid *os* o ansicrwydd yw yr *os* yma, ond os o sicrâd ydyw: hwy a'm herlidiasant I, ac mòr sicr a hyny, hwy a'ch herlidiant chwithau: ‡ ni chadwasant fy ngair I, ac mòr wir a hyny, ni chadwant eich gair chwithau.

21 u * Eithr hyn oll a wnant i chwi er mwyn fy enw i, x † am nad adwaenant yr hwn a'm hanfonodd i.

u pen. 16. 3. Salm 69. 7. Es. 66. 5. Mat. 5. 11. a 10. 18, 22, 39. a 24. 9. Luc 6. 22. Act. 9. 16. 1 Pedr 4. 13, 14. x pen. 8. 19, 54, 55. Act. 17. 23. a 28. 25—27. Rhuf. 1. 28. 1 Cor. 2. 8. a 15. 34. 2 Cor. 4. 3—6. 2 Thes. 1. 8. 1 Ioan 2. 3, 4.

* "Er mwyn fy enw I:" o herwydd eich perthynas â mi, eich proffes o honof fi, am fod fy nelw I arnoch, ac am eich bod yn sefyll i fynu dros fy enw, fy achos, a'm hanrhydedd I. Crist ei hun yn y pen draw, yw prif wrthddrych gelyniaeth a chasineb pawb sydd yn erlid ei bobl: pa ham yr wyt yn fy erlid *I*, ebai efe wrth Saul, oedd yn erlid ei saint ef. † Yr achos o hyn oedd, am nad oeddynt yn adnabod Duw yr hwn a anfonodd ei Fab, ac o ganlyniad nid oeddynt yn adnabod y Mab yr hwn a anfonwyd, nac yn credu ynddo. Mae yma ddau beth i wroli y dysgyblion yn erbyn erlid; anrhydedd yr achos, er mwyn enw Crist; ac annwybodaeth y byd oedd yn erlid.

22 * Oni bai fy nyfod a llefaru wrthynt, y ni buasai arnynt bechod: † ond yr awrhon nid oes ganddynt esgus am eu pechod.

y adn. 24. pen. 3. 18—21. a 9. 41. a 12. 48. a 19. 11. Ezec. 2. 5. a 33. 31—33. Luc 12. 46, 47. Act. 17. 30. 2 Cor. 2. 14—16. Heb. 6. 4—8. Iago 4. 17.

* Oni bai fy nyfod a llefaru wrthynt am yr hwn a'm hanfonodd, ac am danaf fy hun fel y Messiah anfonedig; † ni buasai arnynt y pechod neillduol hwn o'm gwrthod, fy nghasâu a'm herlid I: oni bai i mi ddyfod a llefaru mòr eglur wrthynt, ni buasai arnynt yr un graddau o bechod; neu, buasai ganddynt ryw esgus i roddi dros eu pechod. ‡ Ond yn awr, y mae arnynt bechod, pechod mawr, ac nid oes ganddynt unrhyw esgus i'w roddi dros eu pechod. Mae yn amlwg yn ngair Duw, (Rhuf. 1. 20, 21, a 2. 12—15,) heblaw wrth reswm naturiol, y gellir cyfrif pechod i'r rhai ni chawsant ddatguddiad trwy yr ysgrythyrau: ac mae yn amlwg hefyd mai dull Hebrëaidd o lefaru yw y geiriau uchod; byddent hwy yn arfer dywedyd nad oedd peth ddim yn y byd, pryd na byddai ond peth bychan mewn cymhariaeth i beth arall, llawer mwy.

23 z * Yr hwn sydd yn fy nghasâu i, sydd yn casâu fy Nhad hefyd.

z pen. 8. 40—42. 1 Ioan 2. 23. 2 Ioan 9.

* Mae hyn yn gyson â'r hyn a ddywedodd Crist, pen. 5. 23. Tybia llawer yn y byd hwn eu bod yn caru Duw yn fawr, pan y maent ar yr un pryd yn casâu Crist a'i efengyl. Yma y mae efe yn dywedyd fod hyny yn anmhosibl; gan fod Crist yn Fab y Tad, yn un, ac yn ogyfuwch â'r Tad; wedi ei ddanfon gan y Tad, a'r Tad wedi tystiolaethu am dano fel ei anwyl Fab; mae yn rhaid fod pawb a gasâont y Mab, yn casâu y Tad hefyd yr un ffunud.

24 a * Oni bai wneuthur o honof yn eu plith y gweithredoedd ni wnaeth neb arall, ni buasai arnynt bechod: b † ond yr awrhon hwy a welsant, c ac a'm casasant i a'm Tad hefyd.

a pen. 3. 2. a 5. 36. a 7. 31. a 10. 32, 37, 38. a 11. 47—50. a 12. 10, 11, 37—40. Mat. 9. 33. a 11. 5, 20—24. Marc 2. 12. Luc 10. 12—16. a 19. 37—40. a 24. 19. Act. 2. 22. a 10. 38. Heb. 2. 3, 4. b pen. 6. 36. a 12. 45. a 14. 9. Mat. 21. 32. c adn. 23. Ex. 20. 5. Deut. 5. 9. Salm 81. 15. Diar. 8. 36. Rhuf. 1. 30. a 8. 7, 8. 2 Tim. 3. 4. Iago 4. 4.

* Yn adnod 22, mae Crist yn sôn am ei athrawiaeth, ac yma mae yn sôn am ei wyrthiau, gan ddangos y dylasai yr Iuddewon gredu ynddo wrth glywed y naill ac wrth weled y lleill; ac eu bod yn hollawl ddiesgus

yn eu hanghrediniaeth: ïe, bod y manteision mawrion a gawsent yn mwyâu eu pechod yn fawr iawn. Yr oedd y rhan fwyaf o'i weithredoedd ef yn gyfryw nas gwnaethai neb arall erioed; megys amlâu y torthau, rhoi ei olwg i un a anesid yn ddall, ac iachâu llawer math o glefydau anaele ac anfeddyginiaethol. Yr oedd ei ddull ef yn gwneyd ei holl wyrthiau yn wahanol i bawb; eraill drwy weddio, ac yn ei enw ef; ond efe yn ei nerth dwyfol ei hun, â gair ei enau, neu â chyffyrddiad. † Addefai rhai o'r Iuddewon ei fod ef wedi dyfod oddi wrth Dduw fel prophwyd, ond dim mwy na phrophwyd; eithr am y cyffredin o honynt, ac yn enwedig ei blaenoriaid, nid addefent hwy gymmaint â hyny am dano, er clywed ei athrawiaeth nefol, a gweled ei wyrthiau rhyfeddol. Ei gasâu yr oeddent hwy yn wyneb y cwbl; ac felly casâu sancteiddrwydd Duw yn ei athrawiaeth ef, a chasâu gallu ac awdurdod Duw yn ei weithredoedd ef.

25 Eithr, [d] fel y cyflawnid y gair sydd ysgrifenedig yn eu * cyfraith hwynt, [e] Hwy a'm casasant [f] yn ddïachos.

d pen. 10. 34. a 19. 36. Luc 24. 44. Rhuf. 3. 19. e Salm 7. 4. a 35. 19. a 69. 4. a 109. 3. f Mat. 10. 8. Rhuf. 3. 24. 2 Cor. 11. 7. Gal. 2. 21. 2 Thes. 3. 8. Dat 21. 6. a 22. 17.

* Mae yn amlwg yma eto bod y gair cyfraith yn y lle hwn i'w ddeall mewn ystyr gyffredin am ysgrythyrau yr Hen Destament. Tybir mai at Salm 35. 19; 69. 4, y mae Crist yn cyfeirio yma; ond heblaw y mànau hyny, mae llawer o brophwydoliaethau yn yr Hen Destament yn dangos y byddai i elynion y Messiah ei gasâu ef yn ddiachos: gwel Salm 109. 2—5; Es. 53. 3—9; Dan. 9. 26; Zech. 12. 10. Yn yr holl hanes am ei ddiniweidrwydd, ei ddaioni, a'i sancteiddrwydd ef, wrth eu cymharu â'i ddyoddefiadau, gallwn weled yn amlwg mai yn ddïachos y casâwyd ef, megys hefyd y casâwyd Dafydd, y cysgod o hóno ef lawer gwaith. Casâu gwirfoddol, o dra gelyniaeth, yw casâu heb achos.

26 [g] * Eithr pan ddêl y † Diddanydd, yr hwn a anfonaf i chwi oddi wrth y Tad (*sef* ‡ Ysbryd y gwirionedd, [h] ‖ yr hwn sydd yn deilliaw oddi wrth y Tad) [i] § efe a dystiolaetha am danaf fi.

g pen. 14. 16, 17, 26. a 16. 7, 13, 14. Luc 24. 49. Act. 2. 33. h pen. 8. 42. Dat. 22. 1. i pen. 16. 14, 15. Act. 2. 32, 33. a 5. 32. a 15. 8. 1 Cor. 1. 6. Heb. 2. 4. 1 Ioan 5. 6—10.

* Wrth i'r apostolion weled eu Harglwydd yn cael ei gasâu, ei ddirmygu, a'i roddi i farwolaeth mòr greulawn, a gweled hefyd mai yr un fath y câent hwythau eu trin; yr oedd yn naturiol iddynt ddigaloni a llwfrâu: nid yn unig am eu diogelwch personol eu hunain, ond hefyd am lwyddiant eu gweinidogaeth. I'w cysuro a'u calonogi yn wyneb hyny, mae yr Arglwydd Iesu yma yn addaw y byddai i'r Ysbryd Glân, y Dyddanydd, ar ol ei esgyniad ef, ddyfod i amddiffyn ei enw, ei wirionedd, a'i achos ef, yn y byd, ac hefyd i'w nerthu, eu cysuro, a'u llwyddo hwythau yn eu gweinidogaeth fawr. † Am y gair, neu yr enw, Dyddanydd, sylwasom o'r blaen, ar pen. 14. 16, 26. ‡ Sylwyd hefyd arno fel Ysbryd y gwirionedd, ar adn. 17, o'r bennod hòno. ‖ Mae dadl yn mhlith duwinyddion, pa beth a feddylir wrth *ddeilliad* yr Ysbryd Glân yn y fàn hon: tybia rhai mai y danfoniad, neu y tywalltiad o hóno, ar ddydd y pentecost, ac amserau eraill cyffelyb, yn unig a feddylir; ond tybia eraill mai ei *drayywyddol ddeilliad* ef oddi wrth y Tad, a feddylir: rhywbeth cyffelyb, ac yn ateb mewn mesur, i *drayywyddol genedliad* y Mab, ond yn wahanol iddo. Ond dirgeledigaethau anamgyffredadwy yw y pethau hyn; ac efallai bod yn well i ni eu rhyfeddu mewn distawrwydd, na cheisio egluro y fath bethau dyfnion. Eto, mae hyny yn amlwg yn yr adnod, bod Crist yn sôn am *ddanfoniad* yr Ysbryd, fel peth gwahanol i'w *ddeilliad* ef. *Efe* sydd yn ei ddanfon; a danfon yr hwn sydd yn deilliaw oddi wrth y Tad y mae: a thebygid y gallwn ystyried y deilliad o flaen y danfoniad yma. Mae trindod o *bersonau* i'w gweled yn amlwg yma hefyd; heb ganiatâu hyny nid oes synwyr yn y geiriau. § Tystiolaethodd yr Ysbryd am Grist, trwy y doniau a'r tafodau a roddes i'r apostolion, trwy y gwyrthiau a wnaeth trwyddynt, yr arddelwad a wnaeth o honynt, a'r cymmorth a roddes iddynt yn wyneb eu holl elynion.

27 [k] * A chwithau hefyd a dystiolaethwch, [l] am eich bod o'r dechreuad gyd â mi.

k pen. 21. 24. Luc 24. 48. Act. 1. 8, 21, 22. a 3. 15. a 4. 20, 33. a 10. 39—42. a 13. 31. a 18. 5. a 23. 11. 1 Pedr 5. 1, 12. 2 Pedr 1. 16—18. Dat. 1. 2, 9. l Marc 1. 1. Luc 1. 2, 3. 1 Ioan 1. 1, 2.

* A chwithau, dàn gyfarwyddyd a dylanwadau yr Ysbryd, a dystiolaethwch yn hŷf, yn gadarn, yn eglur, ac yn ardderchog, i mi, fy achos, a'm gwirionedd, yn eich gweinidogaeth, eich gwyrthiau, eich bucheddau, a'ch marwolaeth. † Ac nis gall neb feïo ar eich tystiolaeth chwi fel yn annigonol; canys yr oeddech chwi gyda mi o ddechreuad fy ngweinidogaeth hyd fy esgyniad i'r nef, yn gweled, yn clywed, ac yn gwybod y cwbl am danaf, ac yr oll a wnaethpwyd i mi. Am undeb tystiolaeth yr apostolion â thystiolaeth yr Ysbryd, gwel Act. 5. 32.

PEN. XVI.

Crist yn cysuro ei ddysgyblion, trwy addewid o'r Ysbryd Glân.

* Y PETHAU hyn [a] a ddywedais i chwi, fel na rwystrer chwi.

a adn. 4. pen. 15. 11. Mat. 11. 6. a 13. 21, 57. a 24. 10. a 26. 31—33. Rhuf. 14. 21. Phil. 1. 10. 1 Pedr 2. 8.

* Fel na thramgwyddai yr apostolion gan erlidiau pan ddelent, ac fel na ddigalonent rhag ofn aflwyddiant yn eu gweinidogaeth, rhagfynegodd Iesu iddynt bob un o'r ddau beth: rhagddywedodd y câent eu herlid, ond addawodd hefyd y câent weled eu hachos yn llwyddo er pob erlidiau.

2 [b] * Hwy a'ch bwriant chwi allan o'r synagogau: [c] † ac y mae yr awr yn dyfod, y tybia pwy bynnag a'ch lladdo, ei fod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw.

b pen. 9. 22, 34. a 12. 42. Luc 6. 22. 1 Cor. 4. 13. c Es. 66. 5. Mat. 10. 28. a 24. 9. Act. 5. 33. a 6. 13, 14. a 7. 56—60. a 8. 1—3. a 9. 1, 2. a 22. 3, 4, 19—23. a 26. 9—11. Rhuf. 10. 2, 3. Gal. 1. 13, 14. Phil. 3. 6.

* Am y ddefod a'r dull o fwrw allan o'r synagog, gwel ar pen. 9. 34: felly y gwnaeth yr Iuddewon â'r apostolion wedi hyn. † Dywedir fod y geiriau Groeg yn y fàn hon yn arwyddo offrymu offrwm, neu aberth i Dduw. Tybiai erlidwyr crefydd yn mhlith yr Iuddewon, fod erlid y saint i farwolaeth, mòr gymmeradwy gan Dduw â phe buasent yn offrymu yr aberth gorau iddo. Felly y tybiodd eglwys Rufain lawer gwaith wedi hyny, pan wnaethant boeth-offrymau cyfain, ac aberthau llosg o'r Protestaniaid duwiol, yn enw yr Arglwydd. Ond O fel y diala Duw am y pethau hyn! pan ymofyno efe am waed ei weision efe a'u cofia hwynt.

3 * A'r pethau hyn a wnant i chwi, [d] oblegid nad adabuant y Tad, na myfi.

d pen. 8. 19, 55. a 15. 23. a 17. 3, 25. Luc 10. 22. 1 Cor. 2. 8. 2 Cor. 4. 3—6. 2 Thes. 1. 8. a 2. 10—12. 1 Tim. 1. 13. 1 Ioan 3. 1. a 4. 8. a 5. 20.

* Cawsom hyn o'r blaen, pen. 15. 21: gwel y sylwad yno.

4 * Eithr y pethau hyn a ddywedais i chwi, [e] fel pan ddêl yr awr, y cofioch hwynt, ddarfod i mi ddywedyd i chwi: † a'r pethau hyn ni ddywedais i chwi o'r dechreuad, [f] am fy mod gyd â chwi.

e pen. 13. 19. a 14. 29. Es. 41. 22, 23. Mat. 10. 7. a 24. 25. Marc 13. 23. Luc 21. 12, 13. Act. 9. 16. a 20. 23, 24. 2 Pedr 1. 14. f pen. 17. 12, 13. Mat. 9. 15. Marc 2. 19.

* Rhagfynegodd Crist y pethau hyn yn amlwg i'w ddysgyblion ychydig cyn eu gadael, fel y byddai coffadwriaeth o'i eiriau ef yn gynnaliaeth i'w meddyliau hwynt pan ddelai y pethau i ben: ac hefyd er cadarnâu eu ffydd hwynt yn ei Dduwdod ef, wrth weled pob peth

n dyfod yn ol ei ddangosiad hollwybodawl ef. † Ni ddywedodd y pethau hyn mòr eglur o'r dechreuad, rhag ligaloni ei ddysgyblion yn y cychwyn, pan oeddent yn weinied yn y ffydd; ac yr oedd ef gyda hwynt y pryd uwnw hefyd, yn wynebu ar bob ymosodiad ei hunan, ac yn eu noddi a'u hamddiffyn hwythau.

5 * Ac yn awr [g] yr wyf yn myned at yr nwn a'm hanfonodd, † ac nid yw neb o honoch yn gofyn i mi, [h] I ba le yr wyt ti yn myned?

g adn. 10, 16, 28. pen. 6. 62. a 7. 33. a 13. 3. a 14. 3, 28. a 17. 4, 5, 13. Eph. 4. 7—11. Heb. 1. 3. a 12. 2, 3. h pen. 13. 36. a 14. 4—6.

* Ond yn awr, gan fy mod i fyned yn fuan iawn at y Tad, tybiais yn angenrheidiol i hysbysu y pethau uchod i chwi, i'r dyben a grybwyllwyd uchod. † Pan ddywedodd Crist wrth ei ddysgyblion, (pen. 13. 33,) Lle yr wyf fi yn myned, ni ellwch chwi ddyfod yr awr hon; mae yn wir i Pedr ofyn iddo, (adn. 36,) I ba le yr wyt ti yn myned; ond mae yn amlwg na ddeallasant hwy y pryd hwnw i ba le yr oedd efe yn myned, ac na ofynasant iddo wedi hyny. A phan ddywedodd efe (pen. 14. 2.) ei fod yn myned i barotôi lle iddynt, ni ddeallasant, ni feddyliasant am y peth fel y dylasent; ac nid ymofynasant ychwaneg yn ei gylch.

6 * Eithr am i mi ddywedyd y pethau hyn i chwi, [i] tristwch a lanwodd eich calon.

i adn. 20—22. pen. 14. 1, 27, 28. a 20. 11—15. Luc 22. 45. a 24. 17.

* Yr ydych chwi yn cymmeryd y cwbl yn ddynol, ac yn hunanol; megys pa beth a wnewch chwi eich hunain ar ol colli fy mhresenoldeb corphorol I. Am hyny y mae tristwch gormodol wedi llenwi eich calonau chwi, fel nas gellwch ystyried am, na gorfoleddu yn, fy adgyfodiad, fy esgyniad, a'm gogoneddiad I, ac fy mod yn myned i barotôi lle i chwithau. Tristâu mewn dull annheilwng yr ydych.

7 * Ond [k] yr wyf fi yn dywedyd gwirionedd i chwi; [l] † Buddiol yw i chwi fy myned i ymaith: ‡ canys onid âf fi, [m] ni ddaw y Diddanydd attoch: [n] ‖ eithr os mi a âf, mi a'i hanfonaf ef attoch.

k pen. 8. 45, 46. Luc 4. 25. a 9. 27. Act. 10. 34. l pen. 11. 50—52. a 14. 3, 28. Rhuf. 8. 26. 2 Cor. 4. 17. m pen. 7. 39. a 14. 16, 17, 26. a 15. 26. n Salm 68. 18. Luc 24. 49. Act. 1. 4, 5. a 2. 33. Eph. 4. 8—13.

* Er mai gwirionedd anhygoel iawn i'r dysgyblion y pryd hwnw oedd y gwirionedd am ymadawiad Crist, eto gwirionedd sicr oedd, a gwelodd y dysgyblion hyny ar ol ei ddeall a'i brofi. † Nid yw Iesu yn dywedyd, Buddiol yw i *mi*, er bod hyny yn wir; eithr, Buddiol yw i *chwi*, fy myned I ymaith. Fel hyn y mae llawer o bethau yn troi allan yn fuddiol i ni, ag y tybiasom ni mai anfuddiol, a cholled a fyddent. Gall y saint ddymuno ymddattodiad, ond er eu buddioldeb eu hunain y mae hyny: yr oedd Iesu, ein Cyfryngwr bendigedig, yn hiraethu am ymadael er buddioldeb ei bobl, yn gystal ag er ei ogoneddiad ei hun. ‡ Felly yr oedd y drefn, a'r cytundeb, yn y cyngor a'r cyfammod tragywyddol, i'r Mab yn gyntaf wneyd iawn dros bechod, esgyn i'r gogoniant, ac yna i'r Ysbryd Glân gael ei ddanfon, a'i dywallt o'r uchelder, ar yr apostolion yn gyntaf, ac ar yr holl eglwys hyd ddiwedd amser. Felly hefyd yr oedd yn addas, ac yn oreu, yn ngolwg doethineb Duw, i gyssylltiad a threfn y pethau gogoneddus hyn i fod: ‖ ac y mae esgyniad Iesu a'i eisteddiad ar ddeheulaw y Tad, yn sicrwydd o'r Ysbryd Glân, ei oruchwyliaethau a'i ddaioni, i'r eglwys yn mhob oes.

8 * A phan ddêl, [o] efe a argyhoedda y byd o bechod, ac o gyfiawnder, ac o farn:

o Zec. 12. 10. Act. 2. 37. a 16. 29, 30.

* Addefa ein Hawduron Saesonig eu hunain, mai argyhoeddi yw ystyr y gair Groeg (*elegxei*) ac nid ceryddu (*reprove*) fel yn eu cyfieithiad hwy. Cyflawnwyd hyn yn nodedig ar ddydd y pentecost, pan ddwysbigwyd tair mil o bobl yn eu calonau gan yr Ysbryd Glân drwy bregeth Pedr. Am y pethau y mae yn argyhoeddi o honynt, cawn sylwi ar yr adnodau nesaf.

9 [p] * O bechod, † am nad ydynt yn credu ynof fi;

p pen. 3. 18—21. a 5. 40—44. a 8. 23, 24, 42—47. a 12. 47, 48. a 15. 22—25. Marc 16. 16. Act. 2. 36—38. a 3. 14—19. a 7. 51—54. a 26. 9, 10. Rhuf. 3. 19, 20. 1 Thes. 2. 15, 16. 1 Tim. 1. 13. Heb. 3. 12. a 10. 28, 29.

* Efe a argyhoedda y byd, Iuddewon a Chenedloedd, o bechod yn gyffredinol, o ddrygioni eu calonau a'u gweithredoedd; † ac yn enwedig o'r pechod dirfawr o beidio credu ynof fi. Yr oedd yr Ysbryd Glân yn dwyn tystiolaeth am Dduwdod, danfoniad, a gogoneddiad Iesu, yn y tywalltiad o hóno ar yr apostolion, yn y doniau goruwch-naturiol a rhyfeddol a roddes iddynt, yn yr arddelwad amlwg a wnaeth o honynt, ac yn y gweithrediadau achubol a wnaeth ar galonau dynion drwyddynt: ac fel hyny yr oedd yn argyhoeddi y byd o anghrediniaeth yn y Messiah.

10 [q] * O gyfiawnder, † am fy mod yn myned at fy Nhad, ac ni'm gwelwch i mwyach;

q Es. 42. 21. a 45. 24, 25. Jer. 23. 5, 6. Dan. 9. 24. Rhuf. 1. 17. a 3. 21—26. a 5. 17—21. a 8. 33, 34. a 10. 3, 4. 1 Cor. 1. 30. a 15. 14—20. 2 Cor. 5. 21. Gal. 5. 5. Phil. 3. 7—9. 1 Tim. 3. 16. Heb. 10. 5—13.

* Efe ar argyhoedda yr Iuddewon a ddywedent mai twyllwr oeddwn; mai un cyfiawn, sanctaidd, a diniwed, oeddwn: efe a argyhoedda y byd, Iuddewon a Groegwyr, o gyfiawnder fy mherson a'm hachos; o'r angenrheidrwydd am fy nghyfiawnder I yn gyfrifedig iddynt, yr addasrwydd o hóno, a'i ddigonoldeb i gwbl gyfiawnâu yr annuwiol. † Yr oedd mynediad Crist at y Tad yn brawf mai un cyfiawn ydoedd ef ei hun; yn brawf ei fod wedi dybenu camwedd, wedi selio pechodau, wedi gwneuthur cymmod dros anwiredd, a chwedi gweithredu a dwyn cyfiawnder tragywyddol i bawb a gredent iddo. Trwy yr athrawiaeth o'i adgyfodiad ef, a'i esgyniad at y Tad, yr oedd yr Ysbryd Glân, ac y mae eto, yn argyhoeddi y byd o gyfiawnder yn yr ystyriaethau uchod. Pe na buasai ef yn gyfiawn, a'i athrawiaeth yn gyfiawn, a'i farwolaeth yn iawn cyfiawn a boddlonawl am bechod, ni buasai yn myned at y Tad: gan iddo fyned at y Tad, (a'i ystyried yn ein deddf-le ni) rhaid ei fod ef yn gyfiawn, a rhaid fod yndd o ef gyfiawnder i'w bobl.

11 [r] * O farn, oblegid [s] tywysog y byd hwn a farnwyd.

r pen. 5. 22—27. Mat. 12. 18, 36. Act. 10. 42. a 17. 30, 31. a 24. 25. Rhuf. 2. 3, 4, 16. a 14. 10—12. 1 Cor. 4. 5. a 6. 3, 4. 2 Cor. 5. 10, 11. Heb. 6. 2. a 9. 27. 2 Pedr 2. 4—9. a 3. 7. Dat. 1. 7. a 20. 11—15. s pen. 12. 31. a 14. 30. Gen. 3. 15. Salm 68. 18. Es. 49. 24—26. Luc 10. 18. Rhuf. 16. 20. 2 Cor. 4. 4. Eph. 2. 2. Heb. 2. 14. 1 Ioan 3. 8. Dat. 12. 7—10. a 20. 2, 3, 10.

* Llawer o wahanol feddyliau sydd am y gair "barn" yn y fàn hon: tybia rhai mai *iawn drefn* pethau a feddylir; tafiodd satan, tywysog y byd hwn, bob peth i ddyryswch ac annhrefn mawr yn y byd; ac ar ol i Grist ei farnu ef, a buddugoliaethu arno ar y groes, mae yn dwyn diwygiad i'r byd, ac yn adferu pethau i'w iawn drefn trwy yr efengyl. Tybia eraill mai y gallu barnawl hwnw a dderbyniodd Crist ar ei esgyniad, a feddylir, pan ddywedodd y Tad wrtho, Eistedd ar fy neheulaw, hyd oni osodwyf dy elynion yn droed-faine i'th draed. Eraill a'i deall, am y llywodraeth sydd gan Grist ar eneidiau a chalonau ei saint, y rhai a waredodd efe o feddiant satan trwy ei aberth a gweithrediadau ei Ysbryd. Eraill a'i deallant am yr holl awdurdod a roddwyd i Grist yn y nef ac ar y ddaear, Matth. 28. 18; Phil. 2. 9. Tybia eraill mai y farn anghyfiawn a roddes y byd ar Grist a'i apostolion, a feddylir; yr argyhoeddai yr Ysbryd Glân y byd o anghyfiawnder a phechadurusrwydd y farn hòno. Tybia eraill mai barn o gondemniad a feddylir; y ca'i y byd ei argyhoeddi gan yr Ysbryd Glân, ei fod yn gorwedd mewn drygioni, yn agored i ddigofaint Duw a'i ddeddf, ac y bydd diwrnod, yn yr hwn y barna efe y byd mewn cyfiawnder. Gallwn sylwi yn gyffredinol ar y tair adnod, fod yr

Ysbryd Glân trwy yr efengyl, yn dyfod â dynion i feddwl yn wahanol iawn, am Grist, am bechod, am gyfiawnder, ac am y farn a fydd, i'r hyn maent yn feddwl wrth natur, ac a allant byth feddwl wrth oleuni natur.

12 * Y mae gennyf [t] etto lawer o bethau i'w dywedyd i chwi, [u] † ond ni ellwch eu dwyn yr awrhon.

t pen. 14. 30. a 15. 15. Act. 1. 3. u Marc 4. 33. 1 Cor. 3. 1, 2. Heb. 5. 11—14.

* Nid llawer o bethau am athrawiaeth sylfaenol yr iachawdwriaeth, medd rhai; oblegid yn pen. 15. 15, mae yn dywedyd, Pob peth a'r a glywais I gan fy Nhad, a hysbysais i chwi. Ond llawer o bethau oedd i gymmeryd lle ar ol ei ymadawiad ef; megys diddymiad yr oruchwyliaeth seremoniol a'r eglwys Iuddewig, galwad y cenedloedd drwy weinidogaeth yr efengyl, &c., &c. † Nis gallai y dysgyblion y pryd hwnw dderbyn y cyfryw bethau, gan wendid eu deall, a rhagfarn grefyddol eu dygiad i fynu: buasai y cyfryw bethau yn debyg o'u rhwystro a'u tramgwyddo, yn fwy na dim arall. Mae doethineb a gochelgarwch Crist yn hyn, yn esampl ragorol i weinidogion y gair; ac mae arnom angen gweddïo yn daer am gyfarwyddyd a chymmorth yr Ysbryd Glân, nac anghofiom, ac na cham-ddefnyddiom mo hóni.

13 * Ond pan ddêl efe, [x] *sef* Ysbryd y gwirionedd, [y] efe a'ch tywys chwi i bob gwirionedd: [z] † canys ni lefara o hono ei hun, ond pa bethau bynnag a glywo, a lefara efe: [a] ‡ a'r pethau sydd i ddyfod, a fynega efe i chwi.

x pen. 14. 17. a 15. 26. 1 Ioan 4. 6. y pen. 14. 26. 1 Cor. 2. 10—13. Eph. 4. 7—15. 1 Ioan 2. 20, 27. z pen. 3. 32. a 7. 16—18. a 8. 38. a 12. 49. a Joel 2. 28. Act. 2. 17, 18. a 11. 28. a 20. 23. a 21. 9—11. a 27. 24. 2 Thes. 2. 3, 12. 1 Tim. 4. 1—3. 2 Tim. 3. 1—5. 2 Pedr 2. 1, &c. Dat. 1. 1, 19. a 6—22.

* Ond pan ddêl yr Ysbryd Glân, yr hwn sydd ffyddlawn a chywir, i wneuthur ei waith ef arnoch a thrwyddoch chwi; efe a'ch tywys chwi yn anffaeledig ac yn effeithiol, ac a rydd i chwi ddeall a chymmeradwyaeth o holl drefn yr iachawdwriaeth fawr, a holl oruchwyliaeth yr efengyl. † Oblegid fel yr oeddwn I bob amser yn llefaru ac yn gweithredu mewn cydgordiad â fy Nhad; felly y bydd i'r Ysbryd Glân hefyd, weithredu mewn cydgordiad a'r Tad a minnau; gan amlygu pob peth yn ol y cyfammod, a'r cyngor hedd rhwng y Tad â mi, yn yr hwn yr oedd yntau hefyd yn un. ‡ Ac nid hyny yn unig, ond efe a fydd hefyd yn ysbryd prophwydoliaeth ynoch chwi, yn eich dysgu i ysgrifenu ysgrythyrau y Testament Newydd, ac yn rhagddangos i chwi yr hyn oll a fydd raid i chwi ei wybod, neu ei hysbysu i'r eglwys dros holl oesoedd y ddaear, ac am dragywyddoldeb dedwydd wedi hyny yn y nef.

14 [b] * Efe a'm gogonedda i: [c] † canys efe a gymmer o'r eiddof, ac a'i mynega i chwi.

b adn. 9, 10. Act. 2. 32—36. a 4. 10—12. 1 Cor. 12. 3. 1 Pedr 1. 10—12. a 2. 7. 1 Ioan 4. 1—3, 13, 14. a 5. 6. c pen. 15. 26. Zec. 12. 10. 1 Cor. 2. 8—10. 2 Cor. 3. 14—18. a 4. 6. Gal. 5. 5. 1 Ioan 3. 23, 24. a 4. 13, 14. a 5. 20. Dat. 19. 10.

* Yr oedd dyfodiad yr Ysbryd Glân yn enw ac ar ddanfoniad Crist, yn ogoniant i Grist; ac ei brif amcan ef yn ei holl weithrediadau oedd, amlygu ei ogoniant ef. † I'r dyben hyny, yr oedd efe yn cymmeryd o'r pethau a berthynent i berson, swyddau, achos, a theyrnas y Cyfryngwr, ac yn eu datguddio i'r apostolion, a thrwy yr apostolion, i'r byd. Felly mae yn gwneyd o hyd eto.

15 [d] * Yr holl bethau sydd eiddo y Tad, ydynt eiddo fi: o herwydd hyn y dywedais, mai o'r eiddof fi y cymmer, ac y mynega i chwi.

d pen. 3. 35. a 10. 29, 30. a 13. 3. a 17. 2, 10. Mat. 11. 27. a 28. 18. Luc 10. 22. Col. 1. 19. a 2. 3, 9.

* Fel y mae Crist yn un â'r Tad, a holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio ynddo ef yn gorphorol; mae yr holl bethau sydd yn eiddo y Tad yn eiddo ef: a phan mae yr Ysbryd Glân yn ei ogoneddu ef, mae yn gwneyd hyny drwy ei ddangos ef yn ogyfuwch â'r Tad yn ei Berson, ei briodoliaethau, a phob mawredd a gogoniant. Fel Person dwyfol, mae pob priodoledd hanfodol i'r Tad, yn eiddo hanfodol a thragywyddol i'r Mab hefyd: ac o ran ei swydd fel Cyfryngwr, mae gweinyddiad yr hyn oll mae yn wneyd, wedi cael ei roddi iddo gan y Tad, fel ei Gyfaill, ei ogyfuwch, ac un sydd yn mhob ystyr yn deilwng o'r ymddiried. Am hyny gyda phob priodoldeb y gallai ddywedyd, mai o'r *eiddo ef* y cymmerai yr Ysbryd Glân, ac y mynegai i'r apostolion.

16 [e] * Ychydig ennyd, ac ni'm gwelwch: † a thrachefn [f] ychydig ennyd, a chwi a'm gwelwch; [g] ‡ am fy mod yn myned at y Tad.

e adn. 5, 10, 17—19. pen. 7. 33. a 12. 35. a 13. 33. a 14. 19. f pen. 20. 19—29. a 21. 1—23. Act. 1. 3. a 10. 40, 41. 1 Cor. 15. 5—9. g adn. 28. pen. 13. 3. a 17. 5, 13. Marc 16. 19. Heb. 12. 2.

* Ychydig ennyd y byddaf fi gyda chwi fel hyn mwyach cyn marw; yna am ychydig ennyd ni'm gwelwch. † Ond wedi ychydig ennyd eilwaith, ar y trydydd dydd, chwi a'm gwelwch drachefn; ‡ canys rhaid i mi gyfodi o'r bedd, a myned at y Tad. Ychydig oriau oedd yr ychydig ennyd blaenaf, sef o'r amser yr oedd Crist yn llefaru hyd ei farwolaeth: yr ychydig ennyd y byddai yn anweledig, oedd yr yspaid amser y byddai yn y bedd: ac yr ychydig ennyd iddynt ei weled drachefn, oedd y deugain niwrnod, o'i adgyfodiad hyd ei esgyniad. Ond tybia rhai yn wir, fod yr ail ychydig ennyd a grybwyllir, yn cyfeirio at farwolaeth yr apostolion, pryd y câent weled eu Harglwydd drachefn yn y nef; neu ynte, at ei ddyfodiad ddydd y farn, pryd y cânt hwy a'r holl saint ei weled ef yn ei ogoniant mawr.

17 [h] * Am hynny y dywedodd *rhai* o'i ddisgyblion wrth eu gilydd, Beth yw hyn y mae efe yn ei ddywedyd wrthym, Ychydig ennyd, ac ni'm gwelwch: a thrachefn ychydig ennyd, a chwi a'm gwelwch: ac, Am fy mod yn myned at y Tad?

h adn. 1, 5, 19. pen. 12. 16. a 14. 5, 22. Marc 9. 10, 32. Luc 9. 45. a 18. 34.

* Dywedodd Crist yn gyffelyb i'r geiriau uchod wrth yr Iuddewon, pen. 7. 33; ac eilwaith wrth ei ddysgyblion, pen. 13. 33; ond ni ddeallodd y naill na'r lleill ei feddwl ef: ac mae yn eglur wrth yr adnod hon, na ddeallodd ei ddysgyblion mo'i feddwl ef yn yr adnod o'r blaen, o herwydd eu hannwybodaeth, eu gofid, a'u syniadau cnawdol o hyd am deyrnas dymmorawl. Gallwn weled yma yr angen mawr sydd ar y goreu o honom, am gael ein goleuo gan Ysbryd Duw, i iawn ddeall pethau ysprydol. Nid oedd y dysgyblion yn deall eto, ei fod ef i farw, i adgyfodi, ac i esgyn at y Tad; a'r cwbl mewn ychydig iawn o amser.

18 * Am hynny hwy a ddywedasant, Beth yw hyn y mae efe yn ei ddywedyd, Ychydig ennyd? [i] † ni wyddom ni beth y mae efe yn ei ddywedyd.

i Mat. 16. 9—11. Luc 24. 25. Heb. 5. 12.

* Ymddengys yma, bod y dysgyblion mewn trallod mawr yn nghylch y geiriau uchod, ac yn ymholi yn ddistaw yn mhlith eu gilydd, beth a allasai efe feddwl wrthynt. † Nid oedd y dysgyblion yn fwy pŵl eu deall naturiol na dynion eraill; ac os oeddynt hwy mòr dywyll, rhaid i ni feddwl nad ydym ninnau ddim yn rhydd oddi wrth gyffelyb wendid ac annwybodaeth yn wyneb dyfnion bethau Duw.

19 [k] * Yna y gwybu yr Iesu eu bod hwy yn ewyllysio gofyn iddo; ac a ddywedodd wrthynt, Ai ymofyn yr ydych â'ch gilydd am hyn, oblegid i mi ddywedyd, Ychydig ennyd, ac ni'm gwelwch: a thrachefn ychydig ennyd, a chwi a'm gwelwch?

k adn. 30. pen. 2. 24, 25. a 21. 17. Salm 139. 1—4. Mat. 6. 8. a 9. 4. Marc 9. 33, 34. Heb. 4. 13. Dat. 2. 23.

* Yn ngeiriad yr adnod hon nid oes dim yn dywyll; ond yn ei chynnwysiad y mae llawer o addysg:—1. Er bod dynion da yn annwybodus am lawer o bethau yn meddwl ac ewyllys Duw; eto maent yn awyddus am gael eu dysgu yn fanylach: nid yw bod yn esmwyth ac yn dawel mewn annwybodaeth, yn gyson âg egwyddor o wir ras. 2. Mae Crist yn gwybod dymuniad ein calonau ni, cyn i ni eu hamlygu â'n gwefusau iddo; eto ni ddylem ni ymfoddloni ar ein dymuniadau dirgelaidd tufewnol, heb eu gwneuthur yn hysbys â'n gwefusau: mae Duw yn galw am *loi* ein gwefusau, yn gystal ag am ocheneidiau a dymuniadau y dyn oddi fewn. 3. Mae Crist yn barod iawn i ddysgu y rhai y gwelo efe eu bod yn chwennych cael eu dysgu; am hyny mae yn dywedyd yma, Ai ymofyn yr ydych â'ch gilydd am hyn? os ydych chwi yn ewyllysio gwybod, yr wyf fi yn barod iawn i'ch dysgu.

20 * Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, [l] Chwi a wylwch ac a alerwch, [m] † a'r byd a lawenycha: eithr chwi a fyddwch dristion; [n] ‡ ond eich tristwch a droir yn llawenydd.

l adn. 6, 33. pen. 19. 25—27. Marc 14. 72. a 16. 10. Luc 22. 45, 62. a 23. 47—49. a 24. 17. m Job 20. 5. Mat. 21. 38. a 27. 39—44, 62—66. Marc 15. 29—32. Dat. 11. 10. a 18. 7. n Salm 30. 5, 11. a 40. 1—3. a 97. 11. a 126. 5, 6. Es. 12. 1. a 25. 8, 9. a 61. 3. a 66. 5. Jer. 31. 9—14, 25. Mat. 5. 4. Luc 6. 21. Act. 2. 46, 47. a 5. 41. Rhuf. 5. 2, 3, 11. 2 Cor. 6. 10. Gal. 5. 22. 1 Thes. 1. 6. 2 Thes. 2. 16, 17. Iago 1. 2. 1 Pedr 1. 6—8. Judas 24. Dat. 7. 14—17.

* Nid yw y geiriau hyn yn ateb pendant i'w gofyniad hwy, nac yn agoriad union-gyrchol ar yr hyn oedd yn dywyll iddynt; eto mae yn dangos iddynt, y byddai Crist yn absenol oddi wrthynt am ryw yspaid, ac y byddai yr amser hwnw o'i absenoldeb ef yn amser o alar a gofid mawr iddynt hwy, wedi ei gymmeryd ef, y Priod-fab, oddi arnynt. † Ar yr un pryd, byddai ei farwolaeth, a'i absenoldeb ef oddi ar y ddaear, yn destyn gorfoledd gan ddynion annuwiol, holl benaethiaid a phobl yr Iuddewon, fel pe buasent wedi cael llwyr fuddugoliaeth arno, a'u gwaredu oddi wrtho. ‡ Ond nid hir y parâi y tristwch hwn i'r dysgyblion; trôai yn llawenydd mawr pan welent ef wedi adgyfodi, yn ei esgyniad gogoneddus, yn nhywalltiad yr Ysbryd Glân, y Dyddanydd, ar ddydd y pentecost, yn ei bresenoldeb ef gyda hwy yn ei holl waith, ac yn enwedig yn eu mynediad ato ef i'r gogoniant.

21 [o] * Gwraig wrth esgor, sydd mewn tristwch, am ddyfod ei hawr: † eithr wedi geni y plentyn, nid yw hi yn cofio ei gofid mwyaeh, [p] gan lawenydd geni dyn i'r byd.

o Gen. 3. 16. Es. 26. 16—18. Jer. 30. 6, 7. Hos. 13. 13, 14. Mica 4. 10. Dat. 12. 2—5. p Gen. 21. 6, 7. a 30. 23, 24. 1 Sam. 1. 26, 27. Salm 113. 9. Luc 1. 57, 58. Gal. 4. 27.

* Mae ein Harglwydd yma yn cymharu agwedd yr eglwys yn y byd hwn, ac yn enwedig yr apostolion, a'r eglwys, yn y dyddiau blinion o erlid oedd i ddyfod yn fuan y pryd hwnw, i ofid gwraig wrth esgor, yr hwn a fyddai yn llym iawn am ychydig, ond nid o hir barâd: † wedi geni y plentyn mae y gofid yn troi yn llawenydd; felly eglwys Duw, ar ol dyoddef am dymmor yn y byd hwn, mae ei holl dristwch yn darfod a hithau yn myned i mewn i lawenydd annhraethadwy a gogoneddus ei Harglwydd. Felly hefyd y mae pob credadyn tra mae dàn oruchwyliaeth argyhoeddiadol deddf Duw, a thàn guddiad wyneb Duw; ond wedi dyfod o'r esgoreddfa galed hon i ryddid nefol yr efengyl, trŷ ei alar yn orfoledd byth.

22 [q] * A chwithau am hynny ydych yr awrhon mewn tristwch: [r] † eithr mi a ymwelaf â chwi drachefn, ‡ a'ch calon a lawenycha, [s] a'ch llawenydd ni ddwg neb oddi arnoch.

q adn. 6, 20. r pen. 20. 19, 20. a 21. 7. Es. 25. 9. a 65. 13, 14. a 66. 9—14. Mat. 28. 8. Luc 24. 41, 51—53. Act. 13. 52. s pen. 4. 14. Job 34. 29. Salm 146. 2. Es. 12. 2—4. a 51. 11, 12. a 54. 7, 8. a 65. 18, 19. Hab. 3. 17, 18. Luc 10. 42. a 16. 25. a 19. 26. Act. 5. 41. a 16. 25. a 20. 23, 24. Rhuf. 8. 35—39. 1 Thes. 3. 7—9. 2 Thes. 2. 16. Heb. 6. 18. a 10. 34. 1 Pedr 4. 13, 14.

* Fel gwraig yn wyneb ei gwewyr esgor, felly yr oedd yr apostolion y pryd hwnw, o herwydd ymadawiad eu Harglwydd, ac yn wyneb y gofidiau a'r erlid oedd i ddyfod arnynt. † Mi a ymwelaf â chwi drachefn yn bersonol ar ol fy adgyfodiad, ac er yr esgynâf at fy Nhad yn fuan ar ol hyny; eto mi a ymwelaf â chwi drachefn, ar ol hyny, trwy fy Ysbryd, y Dyddanydd, ac a barâf i ymweled â chwi, ac â'm holl bobl, drachefn a thrachefn, hyd oni ddelwyf ar y cwmwl i gymmeryd fy holl eglwys adref ataf fy hun. ‡ Bydd fy holl ymweliadau I yn achos gorfoledd a llawenydd i chwi a'm holl ganlynwyr I, ac nis dichon i holl ymgais dynion a chythreuliaid eich ymddifadu chwi o'r llawenydd hwnw byth: cewch fodd i orfoleddu yn y gorthrymderau mwyaf.

23 * A'r dydd hwnnw [t] ni ofynwch ddim i mi. † Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, [u] Pa bethau bynnag a ofynoch i'r Tad yn fy enw, efe a'u rhydd i chwi.

t adn. 19. pen. 13. 36, 37. a 14. 5, 22. a 15. 15. a 21. 20, 21. u pen. 14. 13, 14. a 15. 7, 16. Es. 65. 24. Mat. 21. 22. Eph. 2. 18. a 3. 14—20. 1 Tim. 2. 5, 6. Heb. 4. 14—16. a 7. 25, 26. a 10. 19—23. 1 Ioan 2. 1. a 5. 14—16.

* Yn yr amser hwnw o lawenydd mawr, dàn oleuni a dylanwadau yr Ysbryd Glân, ni bydd dim rhaid i chwi am fy mhresenoldeb corphorol I, na chyfle i ofyn i mi am bethau dyrys a thywyll a berthyn i'm teyrnas, fy athrawiaeth, a'm hachos I; † chwi a fyddwch dàn arweiniad a dysgeidiaeth Ysbryd y gwirionedd, yr hwn a'ch tywys chwi i bob gwirionedd. A pha beth bynag a ofynoch trwy yr Ysbryd hwnw i'r Tad yn fy enw I, fel Cyfryngwr, myfi a eiriolaf drosoch yn y nef, a'm Tad trwy yr unrhyw Ysbryd a rydd i chwi pa bethau bynag a ofynoch. Dyben y Cyfryngwr yma oedd, cysuro ei ddysgyblion yn wyneb ei ymadawiad ef â hwy, trwy ddangos y byddai eu gwybodaeth a'u llawenydd yn fwy dàn ddylanwadau yr Ysbryd, ar ol ei ymadawiad ef, nac ydoedd y pryd hwnw; ac y byddai efe yn gofalu am danynt trwy ei eiriolaeth yn y nef, yn gystal â phe buasai gyda hwynt ar y ddaear.

24 * Hyd yn hyn ni ofynasoch ddim [x] yn fy enw i: † gofynwch, a chwi a gewch; [y] fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn.

x Gen. 32. 9. 1 Bren. 18. 36. 2 Bren. 19. 15. Mat. 6. 9. Eph. 1. 16, 17. 1 Thes. 3. 11—13. 2 Thes. 1. 2. a 2. 16, 17. y adn. 23. pen. 15. 11. 1 Ioan 1. 3, 4. 2 Ioan 12.

* Hyd yn hyn ni ofynasoch ddim mewn gweddi gan y Tad yn fy enw I. Hyd yn hyn nid oedd y dysgyblion wedi arfer gweddio yn ei enw ef, neu trwy ei eiriolaeth a'i gyfryngdod ef: nid oedd y ffordd hòno o ddyfodfa at y Tad wedi ei hollawl egluro iddynt eto; nid oeddynt hwy yn deall y cysgodau hyny yn hollawl, ag oedd yn arddangos cyfryngdod ac eiriolaeth Crist; ac ni ddywedasai yntau ddim am ofyn gan y Tad *yn ei enw ef*, yn y ffurf o weddi a roddasai iddynt. Arfer yr Iuddewon duwiol dàn yr Hen Destament oedd gweddio ar Dduw Abraham, gan ddadleu ei drugaredd, ei addewidion, a'i gyfammod ef, ac yr oedd eu gweddiau yn gymmeradwy ar gyfrif y Cyfryngwr, yr hwn a gysgodid yn y deml, a'r drugareddfa; ond ni byddent yn arfer defnyddio ei *enw* ef yn bennodawl yn eu gweddiau. † Hyny yw, gofynwch yn fy enw I: o hyn allan yr oedd y ffordd i'r cyssegr trwy waed Iesu yn cael ei hagor, a'i hegluro, a chredinwyr yn cael eu dysgu i ddadleu ei aberth a'i gyfiawnder ef yn eu gweddiau, ac yn sicr o lwyddo gyda Duw hyd eithaf eu dymuniadau er eu mawr lawenydd.

25 * Y pethau hyn a leferais wrthych mewn dammegion: † eithr y mae yr awr yn dyfod, pan na lefarwyf wrthych mewn dammegion mwyach, [z] eithr y mynegaf i chwi yn eglur am y Tad.

z adn. 28, 29. Act 2. 33—36. 2 Cor. 3. 12—18. a 4. 2.

* Wrth ddammegion yma mae i ni ddeall, *dywediadau tywyll;* mae hyny yn amlwg wrth y gair; *eglur*, a roddir mewn cyferbyniad yn niwedd yr adnod: dywediadau byrion, pwysig, y rhai nid oedd y dysgyblion yn eu deall yn gyflawn. † Ond ar ol ei adgyfodiad, yr oedd yn bwriadu trwy ei Ysbryd oleuo eu deall hwynt, a dangos pob peth yn eglur iddynt, am holl drefn fawr yr iachawdwriaeth, gwirionedd, ac ewyllys y Tad. Y pryd hwnw, hwy a adgofient ei ddywediadau tywyll ef, ac ni byddent yn dywyll mwyach iddynt, ond hwy a'u deallent yn eglur trwy oleuni yr Ysbryd.

26 * Y dydd hwnnw y gofynwch yn fy enw: † ac nid wyf yn dywedyd i chwi, [a] y gweddïaf fi ar y Tad trosoch:

a pen. 14. 16. a 17. 9, 19, 24. Rhuf. 8. 34.

* Yn y dydd hwnw, ac o hyny allan, wedi i Grist fyned at y Tad, ac i'r Ysbryd ddyfod ar yr apostolion, byddai iddynt hwy a'r holl gredinwyr weddïo ar y Tad trwy ei gyfryngdod ef, gan wneuthur defnydd pendant o'i *enw* ef, mewn ffydd ac ymddiried hollawl ynddo ef, fel un wedi gwneyd iawn ar y ddaear, ac yn eiriol yn y nef. † Nid yw y Cyfryngwr yma yn dywedyd *na* weddïa efe dros ei bobl, mae yr ysgrythyrau eraill lawer yn dywedyd yn amlwg ei fod ef yn eiriol, neu yn gweddïo; ond cawn agoriad ar ei eiriau yn yr adnod nesaf.

27 [b] * Canys y Tad ei hun sydd yn eich caru chwi, [c] † am i chwi fy ngharu i, [d] a chredu fy nyfod i allan oddi wrth Dduw.

b pen. 14. 21, 23. a 17. 23, 26. Zeph. 3. 17. Heb. 12. 6. Judas 20, 21. Dat. 3. 9, 19. c pen. 8. 42. a 21. 15—17. Mat. 10. 37. 1 Cor. 16. 22. 2 Cor. 5. 14. Eph. 6. 24. 1 Pedr 1. 8. 1 Ioan 4. 19. d adn. 30. pen. 3. 13. a 7. 29. a 17. 7, 8, 25. Rhuf. 8. 3. 1 Cor. 15. 47. Gal. 4. 4. 1 Tim. 1. 15.

* Ni bydd achos i mi weddïo drosoch, fel pe byddai yn anhawdd gan y Tad eich gwrando chwi heb hyny: mae y Tad ei hun yn eich caru chwi fel yr wyf innau yn eich caru, ac mewn heddwch â chwi trwy fy ngwaed a'm haberth I drosoch. Onid oes yma y calondid mwyaf i bechadur edifeiriol i nesâu at Dduw yn enw y Cyfryngwr. † Er bod cariad y Tad yn dragywyddol tuag at ei bobl, heb un achos o hóno ynddynt hwy; eto mae yr amlygiadau o'r cariad hwnw megys yn cael eu tynu allan, gan gariad ei bobl at Grist, a thrwy eu ffydd hwynt ynddo ef, fel y Messiah a ddaeth oddi wrth Dduw at waith mawr y prynedigaeth.

28 [e] * Mi a ddaethum allan oddi wrth y Tad, ac a ddaethum i'r byd: † trachefn [f] yr wyf yn gadael y byd, ac yn myned at y Tad.

e pen. 8. 14. a 13. 1, 3. f adn. 5, 16. pen. 14. 28. a 17. 5, 11, 13. Luc 9. 51. a 24. 51. Act. 1. 9—11.

* O ran ei Dduwdod yr oedd Iesu gyda Duw erioed, pen. 1. 1, 2; o ran ei gnawdoliad a'i swydd, efe a ddaeth oddi wrth Dduw i'r byd. † Gwedi gorphen gwaith y prynedigaeth ar y ddaear, efe a adawodd y byd i fyned yn ein natur ni at y Tad, i gael ei ogoneddu ganddo, i lywodraethu a dïogelu achos ei waredigion yn y nef, i eiriol drostynt, ac i gyfranu o'i Ysbryd a'i ddoniau iddynt. Nid y ddaear oedd ei ddechreuad ef, ac nid y ddaear oedd ei gartref: y nef yw ei orsedd-fainc, a'r ddaear yw lleithig ei draed.

29 * Ei ddisgyblion a ddywedasant wrtho, Wele, yr wyt ti yn awr yn dywedyd yn eglur, ac nid wyt yn dywedyd un ddammeg.

* Deallodd y dysgyblion yr ymadrodd eglur hwn yn hollawl. Wrth iddo ddywedyd, Mi a ddaethum allan oddi wrth y Tad, deallasant mai Duw tragywyddol, a gogyfuwch â'r Tad ydoedd: ac wrth iddo ddywedyd ei fod yn gadael y byd ac yn myned at y Tad, deallasant ei esgyniad ef a'i ogoneddiad fel Duw anfeidrol gyda'r Tad. Pa fodd mae y bobl a wadant ei Dduwdod ef yn deall y geiriau uchod, nis gwyddom; yr oedd y dysgyblion yn eu deall yn eglur yn yr ystyr a enwyd.

30 [g] * Yn awr y gwyddom y gwyddost bob peth, ac nid rhaid i ti ymofyn o neb â thi: [h] † wrth hyn yr ydym yn credu ddyfod o honot allan oddi wrth Dduw.

g adn. 17—19. pen. 5. 20. a 21. 17. Heb. 4. 13. h adn. 27. pen. 17. 8.

* Yn adn. 16, soniodd Iesu am ei ymadawiad yn fwy tywyll; "Ychydig ennyd, ac ni'm gwelwch:" yn adn. 17, 18, mae y dysgyblion yn ymholi yn mhlith eu gilydd yn ddirgelaidd, beth a allasai hyny fod: yn adn. 19, dywedir eu bod yn ewyllysio gofyn iddo ef, ac y gwyddai yr Iesu eu bod yn ewyllysio gofyn: yn adnod 28, mae efe yn dywedyd yn eglur beth oedd efe yn feddwl yn adn. 16: ac yma mae y dysgyblion yn canfod yn amlwg, y gwyddai efe eu meddyliau hwy yn adn. 17, 18. † Wrth hyny yr oeddynt yn credu ei fod ef yn Dduw hollwybodol, a chwedi dyfod allan oddi wrth y Tad.

31 * Yr Iesu a'u hattebodd hwynt, [i] A ydych chwi yn awr yn credu?

i pen. 13. 38. Luc 9. 44, 45.

* Gwyddai yr Iesu nad oedd eu ffydd hwy yn awr ddim mòr gadarn ag y tybient hwy ei bod, ac y caffai ei hysgwyd yn lled fuan, er eu cadernid tybiol hwynt yn awr; am hyny mae yn gofyn iddynt, A ydych chwi o'r diwedd yn deall ac yn credu yr hyn a ddywedais I? chwi a allasech ac a ddylasech ddeall a chredu o'r blaen, yn mhell cyn hyn. Ac a ydych chwi yn tybied eich bod yn credu mòr gadarn yn awr, ac na ddaw ddim ysgwyd arnoch ar ol hyn? Mae rhai yn darllen y geiriau, *Yr ydych yn awr yn credu.* Da iawn eich bod yn credu o'r diwedd; chwi a ddylasech gredu cyn hyn.

32 * Wele, [k] y mae yr awr yn dyfod, ac yr awrhon hi a ddaeth, [l] † y gwasgerir chwi bob un at yr eiddo, ac y gadewch fi yn unig: [m] ‡ ac nid wyf yn unig, oblegid y mae y Tad gyd â myfi.

k pen. 4. 21, 23. a 5. 25, 28. a 12. 23. l Zec. 13. 7. Mat. 26. 31, 56. Marc 14. 27, 50. Act. 8. 1. 2 Tim. 4. 16, 17. m pen. 8. 16, 29. a 14. 10, 11. Es. 50. 6—9.

* Er bod y dysgyblion y pryd hwnw yn tybied eu bod yn credu yn ddiysgog, eto yr oedd ystorm fawr i ddyfod arnynt yn fuan iawn, yr hon a brofai eu ffydd, nad oedd hi ond gwanach o lawer nag y tybient hwy ei bod: † oblegid yn yr ystorm hòno hwy a wasgerid bob un at yr eiddo; gadawent eu Harglwydd i ymdaraw drosto ei hun, a phob un o honynt hwythau i ymdaro drosto ei hun hefyd. Fel hyn y bu yn mhen awr neu ddwy wedi hyn, Matth. 26. 56. ‡ Er cael ei adael gan yr holl ddysgyblion, gwyddai Crist y ca'i efe bresenoldeb a chymmorth ei Dad nefol yn ei holl ddyoddefiadau. Nid oes neb yn unig ag y mae presenoldeb Duw gydag ef. Gallwn sylwi yma, nad oes dim anghysondeb rhwng y geiriau hyn yn niwedd yr adnod, â Matth. 27. 46: er i Dduw fel Barnwr cyfiawn guddio ei wyneb oddi wrth Grist ar y groes; eto, fel Tad, yr oedd gydag ef yn ei gynnal ac yn ei gynnorthwyo. Myfi a'r Tad un ydym, oedd hi yno, Es. 50. 7.

33 * Y pethau hyn a ddywedais wrthych, [n] fel y caffech dangnefedd ynof. [o] † Yn y byd gorthrymder a gewch: [p] ‡ eithr cymmerwch gysur, [q] myfi a orchfygais y byd.

n pen. 14. 27. Salm 85. 8—11. Es. 9. 6, 7. Mica 5. 5. Luc 2. 14. a 19. 38. Rhuf. 5. 1, 2. Eph. 2. 14—17. Phil. 4. 7. Col. 1. 20. 2 Thes. 3. 16. Heb. 7. 2. a 13. 20, 21. o pen. 15. 19—21. Act. 14. 22. Rhuf. 8. 36. 2 Cor. 7. 4. 1 Thes. 3. 4. 2 Tim. 3. 12. Heb. 11. 25. 1 Pedr 5. 9. Dat. 7. 14. p pen. 14. 1. Act. 9. 31. a 23. 11. a 27. 22, 25, 36. 2 Cor. 1. 3. a 13. 11. 1 Thes. 3. 7. q adn. 11. pen. 12. 31. 1 Sam. 17. 51, 52. Salm 68. 18. Rhuf. 8. 37. Gal. 1. 4. a 6. 14. 1 Ioan 4. 4. a 5. 4.

* Nid heddwch rhwng eu personau â Duw yn gymmaint a feddylir yma; er mai yn a thrwy Grist y mae hyny: ac nid heddwch, neu dangnefedd, yn y gydwybod ychwaith, mae yn debyg, a feddylir; ond tawelwch, a diysgogrwydd meddwl, modd i feddiannu eu heneidiau mewn amynedd, yn y gorthrymder oedd i ddyfod arnynt y pryd hwnw, ac o hyny allan trwy eu hoes

† Rhag-ddangosodd Crist iddynt y trallodau a ddeuai arnynt, fel y gallent ymarfogi yn gadarn, yn dawel, ac yn ddigyffro, i wynebu arnynt; a datguddiodd ei hun fel Duw a phlaid iddynt, fel trwy ffydd ynddo ef y gallent ymwroli, a gwynebu yn dawel ar eu holl elynion a'u gorthrymderau. ‡ Gan iddo ef, y Pen-tywysog orchfygu y byd, pechod, profedigaethau, diafol, a holl byrth uffern; a chan fod ei bobl yn milwrio yn ei achos, a thàn ei faner ef; efe a ofala am danynt yn y brwydrau poethaf, ac mae ei fuddugoliaeth ef yn ernes o sicrwydd o'u buddugoliaeth hwythau yn y diwedd. Cysur y saint yw, eu bod yn milwrio dàn faner Iesu, yn ymladd â gelynion sydd eisoes wedi eu gorchfygu, y cânt nerth a diogelwch yn y frwydr ganddo ef, ac y cânt fuddugoliaeth lwyr yn y diwedd ar bob gelyn, a'u gogoneddu gydag ef ar ol gorchfygu.

PEN. XVII.

Crist yn gweddïo ar ei Dad am ei ogoneddu ef.

*Y PETHAU hyn a lefarodd yr Iesu, [a] † ac *efe* a gododd ei lygaid i'r nef, ac a ddywedodd, ‡ Y Tad, [b] ‖ daeth yr awr; [c] § gogonedda dy Fab, fel y gogoneddo dy Fab dithau:

a pen. 11. 41. Salm 121. 1, 2. a 123. 1. Es. 38. 14. Luc 18. 13. b pen. 7. 30. a 8. 20. a 12. 23, 27, 28. a 13. 1. a 16. 32. Marc 14. 41. Luc 22. 53. c adn. 4, 5. pen. 7. 39. a 11. 4. a 13. 31, 32. Act. 3. 13. Phil. 2. 9—11 1 Pedr 1. 21.

* Y pethau yn y tair pennod o'r blaen, araeth ymadawol Crist i'w ddysgyblion: wedi gorphen hyny, mae fel tad tirion yn gorchymyn ei deulu, ac fel arch-offeiriad ffyddlawn a thrugarog, mae yn gorchymyn ei apostolion a'i holl eglwys fiiwriaethus, i'w Dad, a thrwy hyn mae yn rhoddi i ni gynllun o'i eiriolaeth wastadol drosom yn y nef. Mae efe yma yn gweddïo fel Dyn, ac fel Cyfryngwr ei bobl; eto mae efe yn aml yn llefaru gyda mawredd dwyfol ac awdurdod. † Efe a gododd ei lygaid i'r nef, gorsedd a phreswylfa arbenig Duw, i ddangos difrifwch ac ysbrydoldeb ei feddwl, i ddangos mai gyda Duw yn y nef yr oedd ei neges, ac i ddangos i ninnau pan weddïom i nesâu at Dduw yn yr un agwedd sobr, ddifrifol, ac ysbrydol. ‡ Mae yn cyfeirio ei weddi at Dduw, fel ei Dad ef mewn ystyr neillduol: dysgodd i ninnau hefyd weddïo Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd. ‖ "Daeth yr awr:" yr awr a benderfynwyd yn y cyngor tragywyddol iddo ef orphen ei yrfa o ufudd-dod ar y ddaear, ac i ddyoddef yn aberth dros bechodau. § "Gogonedda dy Fab:" gogonedda fi *fel* dy Fab, ac fel y gwyper mai dy Fab ydwyf. Yr oedd yr holl amgylchiadau rhyfeddol o ogoniant a ddygwyddasant yn marwolaeth Crist yn atebiad i'r deisyfiad hwn: megys yr angel yn ymddangos iddo yn yr ardd; taro y rhai a ddaethant i'w ddàl ef i'r llawr; iachâu clust Malchus; y broffes dda a dystiodd efe ger bron Pilat; tystiolaeth Pilat o'i ddiniweidrwydd ef; breuddwyd gwraig Pilat; trôedigaeth y lleidr ar y groes; cyd-ddisgleiriad ei rinweddau a'i rasau ef yn ei ddyoddefiadau; y tywyllwch a'r rhyfeddodau goruwch-naturiol eraill a ddygwyddasant pan oedd ar y groes; yn nghyd â'i adgyfodiad, ei esgyniad, ei eisteddiad ar ddeheulaw Duw, a danfoniad yr Ysbryd Glân: fel hyn y gogoneddodd Duw ei Fab. Gogoneddodd yntau y Tad, hefyd, yn yr ufudd-dod a'r iawn a roes iddo, ac wedi hyny yn yr amlygiad o'i ogoniant trwy ei air a'i Ysbryd, trwy yr holl fyd.

2 [d] * Megis y rhoddaist iddo awdurdod ar bob cnawd, [e] fel am y cwbl a roddaist iddo, [f] y rhoddai efe iddynt fywyd tragywyddol.

d pen. 3. 35. a 5. 21—29. Salm 2. 6—12. a 110. 1. Dan. 7. 14. Mat. 11. 27. a 28. 18. 1 Cor. 15. 25—27. Eph. 1. 20—23. Heb. 1. 2. a 2. 8, 9. 1 Pedr 3. 22. e pen. 4. 14. a 6. 27, 54—57. a 10. 28. a 11. 25, 26. Rhuf. 6. 23. Col. 3. 3, 4. 1 Tim. 1. 16. 1 Ioan 1. 2. a 2. 25. a 5. 20. Judas 21. f adn. 6, 9, 12, 24. pen. 6. 37, 39. a 10. 29.

* Rhoddes y Tad awdurdod mewn rhyw ystyr i'r Mab fel Cyfryngwr, ar bob cnawd; hyny yw, ar bawb o holl ddynolryw; ond ar yr etholedigion er iachawdwriaeth. Mae ganddo awdurdod farnol ar y rhai digred ac annuwiol, i'w heuog-farnu a'u cospi; ac awdurdod ar ei etholedigion, "y rhai a roddwyd iddo" mewn cyfammod, i roddi iddynt iachawdwriaeth a bywyd tragywyddol. Rhaid i ni ystyried fod gwahaniaeth mawr rhwng y rhoddi *awdurdod* iddo ar bob cnawd, yn nechreu yr adnod, â rhoddi *personau* iddo yn yr ail ran o'r adnod: a cheisiwyd dangos y gwahaniaeth hyny yn y sylwad bỳr blaenorol.

3 [g] * A hyn yw y bywyd tragywyddol; † iddynt dy adnabod di [h] yr unig wir Dduw, [i] a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist.

g adn. 25. pen. 8. 19, 54, 55. 1 Cron. 28. 9. Salm 9. 10. Es. 53. 11. Jer. 9. 24. a 31. 33, 34. Hos. 6. 3. 1 Cor. 15. 34. 2 Cor. 4. 6. 2 Thes. 1. 8. Heb. 8. 11, 12. 1 Ioan 4. 6. a 5. 20. h pen. 14. 9, 10. 2 Cor. 15. 3. Jer. 10. 10. 1 Cor. 8. 4. 1 Thes. 1. 9. 1 Tim. 6. 15, 16. 1 Ioan 5. 20. i pen. 3. 17, 34. a 6. 27—29. a 12. 49, 50. a 14. 26. Es. 48. 16. a 61. 1. Marc 9. 37. Luc 9. 48. 1 Ioan 4. 14, 15. a 5. 11, 12.

* Hyn yw y ffordd, a'r moddion, i gael bywyd tragywyddol: hyn yw y dechreuad, a'r ernes, o hóno: ac yn hyn y mae hawl iddo, y prawf a'r cyflawn fwynâd o hóno. † Mae yr adnabyddiaeth hon yn arwyddo ac yn cynnwys, gwybodaeth am Dduw fel yr unig wir Dduw, ac wahân oddi wrth bob creaduriaid ac eilunod; ac am ei Fab ef Iesu Grist, yr hwn a ddanfonodd efe i fod yn Iachawdwr i'r byd, fel yn ogyfuwch â Duw, ac eto yn Gyfryngwr rhwng Duw a dynion. Rhaid adnabod Duw yn ei briodoliaethau, ac yn y prydferthwch, y rhagoroldeb, y gogoniant, a'r cydgordiad o honynt. Rhaid derbyn yr adnabyddiaeth hon trwy ddatguddiad, trwy ffydd, a thrwy oleuni ysbrydol, a phrofiad a chymdeithas gynnyddol. Nis gellir ei chael ond trwy adnabyddiaeth o Grist fel Person Dwyfol, ac yn ei sefyllfa a'i waith cyfryngol. Yn mhob golwg arall ar Dduw, y mae efe un ai mòr gyfiawn, ag nas gall ddangos trugaredd i'r euog; neu ynte, mòr drugarog, fel y gwna gam a'i gyfiawnder, ei sancteiddrwydd, a'i wirionedd. Rhaid gweled gogoniant a chydgordiad y priodoliaethau dwyfol yn wyneb Iesu Grist; ac mae yn gyssylltiedig â'r wybodaeth hon yn wastad, barchedig ofn a hyder; mae yn meithrin cariad, diolchgarwch, ymostyngiad, ufudd-dod, addoliad ysbrydol, a chydymffurfiad âg ef: a dyma ffordd y pechadur, fel y dywedwyd, i fywyd tragywyddol.

4 [k] * Mi a'th ogoneddais di ar y ddaear; [l] † mi a gwblheais y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur.

k pen. 12. 28. a 13. 31, 32. l pen. 4. 34. a 5. 36. a 9. 3. a 14. 31. a 19. 30. Act 20. 24. 2 Tim. 4. 7.

* Nid chwanegu at ogoniant hanfodawl y Tad a feddylir; yr oedd, ac y mae, hyny yn anmhosibl i neb; ond amlygu gogoniant ei briodoliaethau ef a feddylir: e wnaeth Iesu hyny yn ei fywyd, yn ei athrawiaeth, yn ei 'wyrthiau, ac yr oedd yn barod i wneyd hyny yn mhellach, hyd eithaf perffeithrwydd yn ei ddyoddefaint a'i angau aberthawl ar y groes. Gogoneddu Duw oedd ei amcan ef yn yr hyn oll a wnaeth ac a ddyoddefodd, ac efe a'i gogoneddodd ef yn berffaith. † Yr oedd holl waith Crist wedi ei roddi iddo mewn cyfammod tragywyddol; ac y mae yma yn dywedyd ei fod wedi ei orphen, hyny yw, yr oedd o fewn ychydig iawn wedi ei orphen y pryd hwnw, yr oedd yn penderfynu mỳnu gweled ei lwyr orphen; ac yn gwybod yn sicr y llwyr orphenai efe ef yn fuan.

5 * Ac yr awrhon, O Dad, [m] gogonedda di fyfi gyd â thi dy hun, † â'r gogoniant oedd i mi gyd â thi [n] cyn bod y byd.

m adn. 24. pen. 1. 18. a 3. 13. a 10. 30. a 14. 9. Diar. 8. 22—31. Phil. 2. 6. Col. 1. 15—17. Heb. 1. 3, 10. 1 Ioan 1. 2. Dat. 5. 9—14. n pen. 1. 1—3. Mat. 25. 34. 1 Pedr 1. 20. Dat. 13. 8.

* Sylwyd am ogoneddu Crist yn ei farwolaeth o'r blaen, adn. 1, a pen. 13. 31; yma mae yn gweddïo am ei ogoneddu gyda'r Tad, yn y nef: yr hyn a wnaed trwy ei roddi i eistedd ar ddeheulaw y mawredd yn y goruwch-leoedd, trwy roddi pob awdurdod yn ei law ef,

trwy weithredu yn ei holl brïodoliaethau dwyfol, a thrwy dderbyn addoliad gan bawb fel gwir Dduw, gogyfuwch a'r Tad. † Pa fodd y gallai Crist sôn am ogoniant ag oedd iddo ef cyn bod y byd, os nad oedd efe yn *hanfodi* cyn bod y byd, ac yn hanfodi fel *Person dwyfol* hefyd? Atebed y Sociniaid hyn os gallant; am eraill mae yn bur hawdd iddynt ei ateb. Rhoddodd Iesu gwmwl megys ar y gogoniant annhraethadwy hwnw tra bu yn y byd hwn, ac yma ar ei esgyniad buan i'r nef, mae yn gweddïo am ei ogoniant hanfodawl ei Berson dwyfol gael ei roddi ar ei ddynoliaeth hefyd, mewn undeb personol a'i Dduwdod.

6 [o] * Mi a eglurais dy enw [p] i'r dynion a roddaist i mi allan o'r byd: [q] † eiddot ti oeddynt, ‡ a thi a'u rhoddaist hwynt i mi; [r] ‖ a hwy a gadwasant dy air di.

o adn. 26. pen. 1. 18. a 12. 28. Ex. 3. 13—15. a 9. 16. a 34. 5—7. Salm 22. 22. a 71. 17—19. Mat. 11. 25—27. Luc 10. 21, 22. 2 Cor. 4. 6. Heb. 2. 12. 1 Ioan 5. 20. p adn. 2, 9, 11, 14, 16, 24. pen. 6. 37, 39. a 10. 27—29. a 15. 19. a 18. 9. Act. 13. 48. q adn. 9, 10. Rhuf. 8. 28—30. a 11. 2. Eph. 1. 4—11. 2 Thes. 2. 13, 14. 1 Pedr 1. 1, 2. r pen. 8. 31, 32. a 14. 21—24. a 15. 3, 7. Salm 119. 11. Diar. 2. 1—5, 10, 11. a 3. 1—4. a 23. 23. Col. 3. 16. 2 Tim. 1. 13. Dat. 2. 13. a 3. 8, 10.

Er bod y rhan hon o weddi Crist hyd ddiwedd adn. 10, yn perthyn yn benaf i'w apostolion; eto gallwn feddwl ei bod yn cynnwys y deg a thriugain hefyd, yn nghyd a'r holl rai a alwyd yn effeithiol trwy ei weinidogaeth ef. Mae y geiriau yn dangos ei ffyddlondeb ef yn ei waith, a'i ofal am y rhai oedd eisoes wedi eu galw; ac yn brawf hefyd o'r hyn a wna efe mewn iawn bryd ar y rhai oll a roddes y Tad iddo. * Egluro enw Duw yw egluro ei air a'i ewyllys ef, cyhoeddi ei ddaioni a'i drugaredd ef, yn nghyd â phob peth drwy yr hyn y galler adnabod Duw. † Yr oedd yr etholedigion yn eiddo Duw drwy hawl crëadigaeth fel eraill; ond yma, y meddwl yw eu bod yn eiddo Duw mewn modd neillduol, o ran cariad atynt a dewisiad o honynt. ‡ Rhoddodd y Tad hwynt i'r Mab yn ol trefn ei gyngor tragywyddol, a thrwy weithred gyfammodol; i wneyd iawn drostynt, eu prynu, egluro enw Duw iddynt, eu galw allan o'r byd, sef o blith dynion y byd, eu cyfiawnâu, eu sanctei ddio, a'u cynnal yn y byd, ac o'r diwedd eu cymmeryd yn hollawl allan o'r byd i ogoniant. ‖ Pan mae Crist yn egluro enw ac ewyllys Duw yn effeithiol i'w bobl, maent yn gwrando, yn deall, yn derbyn, yn cofleidio, ac yn cadw ei air ef, yn ufuddâu iddo ac yn ei wneuthur. Ei Ysbryd a'i ras ef sydd yn peri hyn, nid dim ynddynt hwy mwy nac eraill wrth natur. Er maint oedd anmherffeithrwydd yr apostolion, mae Crist yn eu canmol wrth ei Dad: "Hwy a gadwasant dy air di," ebai efe.

7 [s] * Yr awrhon y gwybuant mai [t] oddi wrthyt ti y mae yr holl bethau a roddaist i mi:

s pen. 7. 16, 17. a 14. 7—10, 20. a 16. 27—30. t adn. 10. pen. 8. 28. a 10. 29, 30. a 12. 49, 50. a 16. 15, 16.

* Taerai y Phariseaid mai twyllwr oedd Iesu, ac mai trwy Beelzebub penaeth y cythreuliaid yr oedd efe yn bwrw allan gythreuliaid; ond dygwyd yr apostolion i ddeall a chredu ei fod ef yn traddodi ei holl ddysgeidiaeth, ac yn gwneuthur ei holl weithredoedd, yn ol meddwl a chyngor Duw, fel Cyfryngwr wedi ei ddanfon gan Dduw.

8 [u] * Canys y geiriau a roddaist i mi, a roddais iddynt hwy; [x] † a hwy a'u derbyniasant, [y] ac a wybuant yn wir mai oddi wrthyt ti y daethum i allan, ac a gredasant mai tydi a'm hanfonaist i.

u adn. 14. Diar. 1. 23. Mat. 13. 11. Eph. 3. 2—8. a 4. 11, 12. x pen. 3. 33. Diar. 1. 3. a 2. 1. a 4. 10. a 8. 10. a 10. 8. 1 Cor. 11. 23. a 15. 1, 2. 1 Thes. 2. 13. a 4. 1. y adn. 6, 7, 25. 1 Ioan 4. 14.

* Yr holl bethau perthynol i deyrnas nefoedd, y pethau am Berson, swyddau, gwaith, a doniau y Cyfryngwr, a holl drefn yr iachawdwriaeth trwyddo ef; yr oedd Iesu wedi eu derbyn fel Angel mawr y cyfammod gan y Tad, i'w traddodi a'u dysgu i'w ddysgyblion: † a hwythau trwy ffydd wedi eu derbyn, a thrwy dderbyn y pethau, yn credu yn y Person a'u traddododd, mai Mab Duw ydoedd, mai oddi wrth Dduw y daeth, ac mai Duw Dad a'i danfonodd i'r byd.

9 [z] * Drostynt hwy yr wyf fi yn gweddïo: † nid dros y byd yr wyf yn gweddïo, [a] ‡ ond dros y rhai a roddaist i mi; canys eiddot ti ydynt.

z adn. 14, 16, 20. pen. 14. 16, 17. a 16. 26, 27. Luc 22. 32. Rhuf. 8. 34. Heb. 7. 25. a 9. 24. 1 Ioan 2. 1, 2. a 5. 19. Dat. 12. 9. a 13. 8. a 20. 15. a adn. 6, 24.

* Tybia rhai mai yr apostolion yn benaf, yna y deg dysgybl a thriugain, a chynnifer ag oedd *wedi* eu galw y pryd hwnw, oedd yr "hwy" yr oedd Crist yn gweddïo drostynt yma: ac nid yr holl etholedigion ag oedd i gael eu galw ar ol hyn. Yn yr ugeinfed adnod mae yn amlwg yn gweddïo dros y rhai hyny; ond tybir nad yw felly yma. Gwel y sylwad ar adn. 6. † Os yw y sylwad blaenorol yn gywir, mae y "byd" yma yn cynnwys pawb ag oedd heb eu galw y pryd hwnw, yr etholedigion yn gystal ag eraill: neu, ynte, os yr holl etholedigion yn mhob oes o hyny allan yw yr "hwy" yn nechreu yr adnod, fel y tybia rhai eraill; yna y "byd" yw y rhai anetholedig, dros y rhai nid oedd Crist yn gweddïo. ‡ Gwel y sylwadau ar adn. 6, dàn y nodau † ‡.

10 [b] * A'r eiddof fi oll sydd eiddot ti, a'r eiddot ti sydd eiddof fi: [c] † a mi a ogoneddwyd ynddynt.

b pen. 10. 30. a 16. 14, 15. 1 Cor. 3. 21—23. Col. 1. 15—19. a 2. 9. c pen. 5. 23. a 11. 4. a 12. 23. Act. 19. 17. Phil. 1. 20. a 2. 9—11. 2 Thes. 1, 10, 12. Dat. 5. 8—14.

* O herwydd perffaith undeb hanfod, cyngor, a gweithrediad, rhwng y Tad a'r Mab, mae eiddo y Mab oll yn eiddo y Tad, ac eiddo y Tad oll yn eiddo y Mab yr un ffunud. Y rhai oll a roddodd y Tad i'r Mab, maent yn eiddo y Tad yr un modd â phe buasai heb eu rhoddi; a'r rhai oll a etholodd y Tad iddo ei hun, maent yn eiddo y Mab hefyd: felly nid oes dim gwrthymgais rhwng y Tad a'r Mab o ran awdurdod, meddiant, ac anrhydedd; ond yr undeb, y cydgordiad, a'r cyfladdiad mwyaf perffaith. Gan fod y geiriau Groeg yn yr adnod uchod, yn y ganol-ryw; maent yn arwyddo *pethau* yn gystal â *phersonau:* felly mae yr un hanfod, yr un priodoliaethau, yr un arfaeth ac ewyllys, yr un gweithredoedd yn gystal â'r un personau, yn eiddo y Tad â'r Mab, yn eiddo y Mab â'r Tad. Nid yw hyn ddim mwy nag a ddywedodd Iesu mewn llawer o fânau eraill; pwy a allai ddywedyd fel hyn ond Iesu? a pha fodd y gallai Iesu ddywedyd fel hyn, oni ba'i ei fod yn wir Dduw? Nid oedd neb llai na Pherson Dwyfol o'r fath hyn, yn addas i'r ymddiried a roddwyd ynddo am iachawdwriaeth ei bobl; † ac efe a ogoneddir byth, yn undeb y Tad a'r Ysbryd, yn eu prynedigaeth hwynt, eu galwad, eu ffydd, eu cariad, eu haddoliad, eu hufudd-dod, a'u tragywyddol ogoneddiad yn y nef.

11 [d] * Ac nid wyf mwyach yn y byd, [e] ond y rhai hyn sydd yn y byd, a myfi sydd yn dyfod attat ti. [f] † Y Tad sancteiddiol, [g] ‡ cadw hwynt [h] ‖ trwy dy enw, y rhai a roddaist i mi; [i] § fel y byddont un, megis ninnau.

d adn. 13. pen. 13. 1, 3. a 16. 28. Act. 1. 9—11. a 3. 21. Heb. 1. 3. a 9. 24. e adn. 14—18. pen. 15. 18—21. a 16. 33. Mat. 10. 16. Iago 4. 4. 1 Ioan 3. 12, 13. a 5. 19. f adn. 25. Mat. 5. 48. 1 Pedr 1. 15—17. Dat. 4. 8. a 15. 4. g adn. 12, 15. pen. 10. 29, 30. Salm 17. 8, 9. Es. 27. 3. 1 Pedr 1. 5. Judas 1. h Salm 79. 9. Es. 64. 2. Jer. 14. 7, 21. Ezec. 20. 9, 22, 44. Mat. 6. 9. Rhuf. 9. 17. i adn. 21, 22. pen. 10. 30. a 14. 20. Rhuf. 15. 5, 6. 1 Cor. 1. 10. a 12. 12, 13. Eph. 4 4.

* Yr oedd Crist yn awr ar ymadael â'r byd hwn, o ran ei bresenoldeb personol yn y natur ddynol; ond er ei fod yn gorfoleddu yn y meddwl am fyned at y Tad; eto yr oedd yn tosturio wrth, yn gofalu am, ac yn gweddïo dros, ei bobl druain dlodion, y rhai oedd i aros ar ei ol yn y byd fel defaid yn mysg bleiddiaid, yn nghanol

maglau, enbydrwydd, a gorthrymderau lawer. † Mae yr enw hwn, "Y Tad sancteiddiol," megys yn cyfeirio at holl berffeithrwydd a rhagoriaethau Duw, fel y maent yn rhwymedig i gyflawni dybenion y cyfammod newydd, yn enwedig yn sancteiddiad a chadwedigaeth yr holl etholedigion. ‡ Cadw hwynt yn gadarn yn y ffydd, ac yn eu proffes sanctaidd, yn wyneb erlidiau; a chadw hwynt mewn sancteiddrwydd, cariad, ac undeb, yn wyneb pob llygredigaethau tumewnol, a phrofedigaethau allanol, a ymosodo arnynt. || Cadw hwynt trwy dy enw; hyny yw, trwy dy air sydd yn datguddio dy enw; cadw hwynt trwy dy berffaith allu i hyny, a chadw hwynt er gogoniant dy enw. "Tŵr cadarn yw enw yr Arglwydd." § Fel y byddont un mewn calon a chariad, un mewn barn a thystiolaeth, ac un mewn amcan ac ymgais, yn eu holl lafur gyda'm hachos I. Gwelwn mòr angenrheidiol yw undeb yn mhlith y saint, yn enwedig gweinidogion yr efengyl.

12 * Tra fum gyda hwynt yn y byd, [k] † mi a'u cedwais yn dy enw: ‡ y rhai a roddaist i mi, a gedwais, [l] || ac ni chollwyd o honynt ond [m] mab y golledigaeth; [n] § fel y cyflawnid yr ysgrythyr.

k pen. 6. 37, 39, 40. a 10. 27, 28. Heb. 2. 13. l pen. 13. 18. a 18. 9. Luc 4. 26, 27. 1 Ioan 2. 19. m pen. 6. 70, 71. 2 Thes. 2. 3. n Salm 109. 6—19. Act. 1. 16—20, 25.

* "Tra fum gyda hwynt," &c: mae Crist yn llefaru yma fel pe buasai wedi gadael y byd, er ei fod eto heb farw; oblegid agosrwydd yr amser a sicrwydd y byddai iddo farw, adgyfodi, gadael y byd, a myned i'w ogoniant. † Yn ol gorchymyn y Tad iddo, a'r ymddiried a roddes y Tad ynddo, efe a gadwodd ei ddysgyblion tra fu gyda hwynt, rhag gwrthgiliad, trwy ei athrawiaeth a'i esampl ei hun, a thrwy ei ddylanwadau grasol ac effeithiol ar eu hysbrydoedd a'u calonau. ‡ Y rhai a roddaist i mi fel etholedigion yn y cyfammod tragywyddol, neu, y rhai a roddaist i mi fel apostolion; mi a'u cedwais hwynt oll: || ond Judas, mab y golledigaeth, ni chedwais; er ei fod ef gyda'r apostolion, eto nid oedd wedi ei roddi i mi erioed i'w gadw. Sylwa y dysgedigion mai nid *ond* o eithriad, yw yr *ond* yma, eithr *ond* o gyferbyniad; yn dangos *nad* oedd Judas o nifer y rhai a roddwyd i Grist. Mab y golledigaeth oedd efe erioed, ac yr amser gorau; yr oedd ei gyflwr a'i weithredoedd yn haeddu colledigaeth, ac i golledigaeth yr aeth § megys yr ysgrifenwyd am dano. Salm 41. 9; 109. 6—20; Act. 1. 16—20.

13 * Ac yr awrhon [o] yr wyf yn dyfod attat; † a'r pethau hyn yr wyf yn eu llefaru yn y byd, [p] fel y caffont fy llawenydd i yn gyflawn ynddynt eu hunain.

o adn. 1. pen. 13. 3. Heb. 12. 2. p pen. 3. 29. a 15. 11. a 16. 22—24, 33. Neh. 8. 10. Salm 43. 4. a 126. 5. Act. 13. 52. Rhuf. 14. 17. Gal. 5. 22. 1 Ioan 1. 4. 2 Ioan 12.

* Yn adn. 11, dywedodd Iesu hyn o'r blaen; ac wrth ei fod yn dywedyd yr un peth eto mòr fuan, mae yn amlwg fod myned at y Tad yn beth mawr ar ei feddwl ef, yn gysur, yn hyfrydwch, ac yn gynnaliaeth i'w feddwl yn wyneb ei ddyoddefiadau llymion annhraethol. Mae y geiriau yn dangos hefyd nad oedd dim cwmwl o ofn nac ammheuaeth ar ei feddwl ef am y canlyniad; yn nghanol y ddryc-hin fawr, yr oedd yn gweled glàn diogel, tawel, a gorfoleddus byth. † Yr oedd Iesu yn gweddïo fel hyn dros ac yn nghlyw ei ddysgyblion cyn eu gadael, fel y caffent gysur a llawenydd yn yr atebiad o'r weddi hon ar ol iddo ef eu gadael: ac fel y caffent brawf a chynllun yn y weddi hon hefyd o'i ofal ef am danynt, a'i eiriolaeth drostynt yn y nef.

14 [q] * Myfi a roddais iddynt hwy dy air di: [r] † a'r byd a'u casâodd hwynt, [s] ‡ oblegid nad ydynt o'r byd, megis nad ydwyf finnau o'r byd.

q adn. 8. r pen. 7. 7. a 15. 18—21. Gen. 3. 15. Diar. 29. 27. Zec. 11. 8. Mat. 10. 24, 25. 1 Pedr 4. 4, 5. 1 Ioan 3. 12, 13. s adn. 16. pen. 8. 23. 1 Ioan 4. 5, 6. a 5. 19, 20.

* Mae rhoddi y gair yma yn cynnwys mwy na'i bregethu yn nghlyw yr apostolion: gwnaeth Iesu hyny i lawereodd na chasâodd y byd mo honynt. Rhoddi ei air, gan hyny, i'w ddysgyblion, oedd ei roddi yn eu calon i'w gredu a'i dderbyn, a'i roddi iddynt hefyd yn weinidogaethol fel yr elent ac y pregethent ef i eraill: felly mae rhoddi y gair iddynt yn arwyddo eu danfoniad dwyfol, eu doniad ysbrydol, a'u cynnysgaethiad âg ysbryd gwrol i'r weinidogaeth fawr. † Er mai gweinidogaeth trugaredd, heddwch, a bywyd tragywyddol oedd gan y dysgyblion, eto ni chawsant ond eu casâu a'u herlid gan y byd annuwiol: ‡ a'r achos o hyny oedd, am fod eu hegwyddorion, eu hysbrydoedd, a'u golygiadau, yn groes i feddyliau a syniadau, chwantau ac elw, dynion anianol a chnawdol. Yr oedd pob peth ynddynt hwy fel yn eu Harglwydd, yn condemnio y byd, am hyny yn gas gan y byd.

15 * Nid wyf yn gweddïo ar i ti [t] eu cymmeryd hwynt allan o'r byd, † eithr ar i [u] ti eu cadw hwynt rhag y drwg.

t Salm 30. 9. Preg. 9. 10. Es. 38. 18, 19. a 57. 1. Luc 8. 38, 39. Phil. 1. 20—26. u Gen. 48. 16. 1 Cron. 4. 10. Salm 121. 7. Mat. 6. 13. Luc 11. 4. Gal. 1. 4. 2 Thes. 3. 3. 2 Tim. 4. 18. 1 Ioan 5. 18.

* Nid oedd Crist yn gweddïo ar i'w Dad gymmeryd y dysgyblion yn uniongyrchol o'r byd pechadurus ac erlidgar i'r nef; ac nid oedd am iddo amddifadu y byd o gymmaint bendith âg oedd eu gweinidogaeth a'u bywydau sanctaidd hwy: gwyddai fod ganddynt waith mawr i'w wneyd yn y byd, er gogoniant Duw a lles i ddynion, a bod yn rhaid iddynt aros ar y ddaear i'w orphen. † Ond gweddïo yr oedd, ar iddynt gael eu cadw rhag y drwg: eu cynnal yn eu profedigaethau, sancteiddio eu profedigaethau iddynt, a'u gwaredu yn ddiangol allan o honynt. Hefyd eu cadw hwynt rhag y drygioni o bechod yr oedd y byd yn gorwedd ynddo, a rhag diafol, yr un drwg, na byddai i'r un o'i ymosodiadau ef byth lwyddo yn eu herbyn. Mae hyn yn dangos y dylem ninnau weddïo am gael ein cadw rhag y drwg, yn enwedig rhag y drwg o bechod, yn y byd, yn fwy nac am gael ein cymmeryd o'r byd i ddedwyddwch.

16 [x] * O'r byd nid ydynt, † megis nad wyf finnau o'r byd.

x adn. 14.

* Maent hwy eisoes o'r fath ysbryd a thymberau crefyddol, ac yn ngafael â'r fath waith rhagorol, ag sydd yn hollawl groes i gymmeradwyaeth y cyffredinolrwydd o'r byd hwn: † yr un modd ag ydwyf finnau fy hunan, i'r hwn yn hyn y maent hwy wedi cael, ac i gael, eu cydymffurfio. Nis gellir deall wrth y geiriau hyn, nad oedd y dysgyblion o'r byd yn mhob ystyr yr un modd a'u Harglwydd; yr oeddynt hwy ar "y cyntaf o'r ddaear yn ddaearol," ac yntau, "yr Arglwydd o'r nef."

17 [y] * Sancteiddia hwynt yn dy wirionedd: [z] † dy air sydd wirionedd.

y adn. 19. pen. 8. 32. a 15. 3. Salm 19. 7—9. a 119. 9, 11, 104. Luc 8. 11, 15. Act. 15. 9. 2 Cor. 3. 18. Eph. 5. 26. Iago 1. 21. 1 Pedr 1. 22, 23. z pen. 8. 40. 2 Sam. 7. 28. Salm 12. 6. a 19. 7. a 119. 144, 152. Eph. 4. 21, 22. 2 Tim. 2. 25, 26.

* Cadarnâer, ymgeledder, a chynnydder eu sancteiddrwydd a'u holl rasau hwynt, drwy y gwirionedd: neu, yn ol meddyliau rhai eraill, neillduer, a chyssegrer hwynt trwy eneiniad yr Ysbryd, i'w swydd apostolaidd, a gwasanaeth Duw, yn mhregethiad gwirionedd yr efengyl, yn yr hwn y maent yn cael eu dysgu, ac y dysgir hwy eto yn mhellach. Gŵyr pawb, fod y gair sancteiddio yn arwyddo y peth olaf uchod, mewn llawer o fànau yn yr ysgrythyrau. † Gwirionedd pwysig, gwerthfawr, ac anffaeledig yw holl air Duw; ac yn y ffydd, y broffes, a'r weinidogaeth o hóno, yr oedd Crist yn gweddïo am i'w ddysgyblion gael eu cynnal a'u sancteiddio, yn y ddwy ystyriaeth a nodwyd uchod. Efallai bod yn y geiriau hefyd gyfeiriad at, a chyferbyniad i, sancteiddiad seremoniol yr offeiriaid, &c., dàn y ddeddf.

18 [a] * Fel yr anfonaist fi i'r byd, † felly yr anfonais innau hwythau i'r byd.

a pen. 20. 21—23. Es. 61. 1—3. Mat. 23. 34. 2 Cor. 5. 20. Eph. 3. 7, 8.

* Fel y danfonodd Duw ei Fab i'r byd fel Prophwyd mawr i bregethu yr efengyl, felly yr anfonodd yntau ei ddysgyblion i ddwyn yn mlaen yr un gwaith yn y byd ar ol ei ymadawiad ef. Nid ymruthro i'r gwaith a wnaethant, na rhedeg heb eu danfon; cawsant eu danfon gan Iesu, ac yr oedd ganddo ef yr un awdurdod i'w danfon hwy, ag oedd gan y Tad i'w ddanfon yntau. † Wrth y geiriau cymharol, "Fel," a "felly," yn yr adnod, nid ydym i ddeall fod Crist yn anfon ei ddysgyblion i'r un dybenion yn mhob peth, ag y danfonodd y Tad ef i'r byd: danfonwyd ef i fod yn Awdwr iachawdwriaeth, yn gystal ac yn bregethwr; danfonodd ef hwynt i bregethu iachawdwriaeth yn unig.

19 [b] * Ac er eu mwyn hwy [c] yr wyf yn fy sancteiddio fy hun, [d] † fel y byddont hwythau wedi eu sancteiddio ‡ yn y gwirionedd.

b Es. 62. 1. 2 Cor. 4. 15. a 8. 9. 2 Tim. 2. 10. c pen. 10. 36. Jer. 1. 5. 1 Cor. 1. 2, 30. Heb. 2. 11. a 9. 13, 14, 18, 26. a 10. 5—10, 29. d adn. 17. Tit. 2. 14.

* Wrth sancteiddio yn y fàn hon, rhaid i ni ddeall, y rhoddiad a'r cyfiwyniad a wnaeth Crist o hóno ei hun i'w holl waith cyfryngol, yn enwedig ei "roddi ei hun drosom ni, yn offrwm ac yn aberth i Dduw o arogl peraidd." Dywed ei fod yn ei sancteiddio *ei hun*, am mai efe oedd yr offeiriad gweinyddawl, yn gystal â'r defnydd aberthawl; neu yr offeiriad â'r aberth hefyd. Dylem sylwi hefyd ar y geiriau "*Er eu mwyn* hwy;" *(uper autón)* nid *er mwyn*, ac *er lles*, ei bobl yn unig y bu Crist farw, ond *drostynt* hwy; ac fel Machniydd yn eu deddf-le hwynt. Heb hyny, mae gogoniant trefn yr iachawdwriaeth yn diflanu, ac yn myned i ddyryswch a chymmysgedd tywyll. † Fel y byddai i'r apostolion yn mlaenaf gael eu sancteiddio yn yr ystyriaethau a grybwyllwyd dàn adn. 17; ac fel y byddai i'r holl bryned-igion gael eu sancteiddio hefyd i fywyd tragywyddol. Aberth a gwaed Iesu yw achos a defnydd sancteiddiad yr holl waredigion, ‡ a'r gwirionedd am yr aberth hwnw yw y moddion drwy ba rai y sancteiddir hwynt.

20 [e] * Ac nid wyf yn gweddïo dros y rhai hyn yn unig, [f] eithr dros y rhai hefyd a gredant ynof fi † trwy eu hymadrodd hwynt:

e adn. 6—11. Eph. 4. 11. f Act. 2. 41. a 4. 4. Rhuf. 15. 18, 19. a 16. 26. 2 Tim. 1. 2.

* Tybia rhai mai dros ei ddysgyblion y pryd hwnw y gweddïodd Crist o ddechreuad y bennod hyd yma; ac ei fod yn yr adnod hon, ac o hyn allan, yn gweddïo dros y rhai a elwid i fod yn ddysgyblion iddo ar ol hyn. Mae tri pheth yn amlwg yn y geiriau:—1. Nad oedd Crist ddim yn gweddïo dros neb anghrediniol, y rhai a fyddent byw a marw yn eu hanghrediniaeth; efe a weddïodd o'r blaen dros y rhai oedd yn credu y pryd hwnw; mae yn gweddïo yma dros y rhai a gredent ar ol hyny; ond nid ydym yn darllen yn un màn ei fod yn gweddïo dros neb eraill: yn awr, pa un a roddodd efe ei einioes i lawr dros y rhai ni weddïai drostynt, ystyried a barned y rhai sydd yn taeru mòr gadarn iddo farw dros bawb, a phob dyn. 2. Wrth ddynion wedi eu *rhoddi* i Grist, nis gallwn ddeall credinwyr fel y cyfryw; oblegid y mae efe yma yn gweddïo dros rai nad oeddynt yn credinwyr y pryd hwnw, ond a gâent eu gwneyd yn credinwyr wedi hyny. 3. † Gwelwn yma mai trwy glywed y mae ffydd yn dyfod; mae Crist yma yn gweddïo dros y rhai a gredent *trwy ymadrodd*, hyny yw, trwy bregethiad a gweinidogaeth yr apostolion.

21 [g] * Fel y byddont oll yn un; [h] † megis yr *wyt* ti, y Tad, ynof fi, a minnau ynot ti; ‡ fel y byddont hwythau un ynom ni: [i] ‖ fel y credo y byd mai tydi a'm hanfonaist i.

g adn. 11, 22, 23. pen. 10. 16. Jer. 32. 39. Ezec. 37. 16—19, 22—25. Zeph. 3. 9. Zec. 14. 9. Act. 2. 46. a 4. 32. Rhuf. 12. 5. 1 Cor. 1. 10. a 12. 12, 25—27. Gal. 3. 28. Eph. 4. 3—6. Phil. 1. 27. a 2. 1—5. Col. 3. 11—14. 1 Pedr 3. 8, 9. h pen. 5. 23. a 10. 30, 38. a 14. 9—11. Phil. 2. 6. 1 Ioan 5. 7. i pen. 13. 35.

* Yma mae Crist yn deisyfu mewn modd arbenig, ar fod i'r holl gredinwyr y pryd hwnw, a thrwy yr holl oesoedd i ddyfod, gael eu cadw mewn undeb barn, ysbryd, a chariad, fel un corph ysbrydol yn perthyn i'r un Pen gogoneddus. Ffrwyth y weddi hon yw yr holl fesur o undeb a chariad sydd rhwng y saint ar y ddaear yn awr; ac o herwydd effaith barâus y weddi hon, gallwn ddysgwyl undeb, cariad, a chydgordiad chwanegol eto, rhwng aelodau corph Crist â'u gilydd, yn y pethau maent yn awr yn methu cydweled lygad yn llygad yn hollawl yn eu cylch. † Mae yr undeb gwerthfawr hwn rhwng y saint â'u gilydd, mewn rhyw fesur bychan yn tebygu i'r undeb annhraethadwy sydd rhwng y Tad â Christ, o ran cariad, cydfwriad, a chydweithrediad: er ei fod yn annhraethol fŷr, eto mae yn debycach na dim arall i'r undeb hwnw, ac mòr debyg ag y gall undeb dynion fod i undeb y Personau Dwyfol. ‡ Nid undeb y saint â'u gilydd yn unig mae Crist yn gweddïo am dano; ond eu hundeb hefyd â'r Tad ac ef ei hun, heb yr hwn nis gallant fod mewn undeb â'u gilydd. Atebwyd y weddi hon yn nodedig ar ran yr apostolion; nid oes dim hanes am yr anghytundeb lleiaf yn eu plith hwy, hyd yn nod mewn meddyliau; oddigerth am ychydig mewn perthynas i dderbyniad y cenedloedd dienwaededig i'r eglwys; yr hyn a benderfynwyd yn fuan mewn modd heddychol, Act. 11. 1—17; a 15. 7—21. ‖ Un prawf mawr o fod y byd yn credu yn Nghrist fel Messiah yw, eu bod yn dyfod i broffesu Crist; ac un modd arbenig i ddwyn y byd i broffesu Crist yw, undeb y saint â'u gilydd. Mae annghytundeb rhwng crefyddwyr, nid yn unig yn anghysurus ac yn niweidiol iddynt hwy eu hunain; ond hefyd yn foddion i ddwyn gwarth ar, ac ammheüaeth am, wirionedd ac ardderchawgrwydd y grefydd Gristionogol: yn rhoddi mantais i lawer ei chablu, fel peth o fwy o niwed nag o les i'r byd. Dysgwn ni gymmeryd rhybudd, rhag y llwyr ddyfethir ni gan ein gilydd! Gal. 5. 15.

22 [k] * A'r gogoniant a roddaist i mi, a roddais iddynt hwy; [l] † fel y byddont un, megis yr ydym ni yn un:

k pen. 1. 16. a 15. 18, 19. a 20. 21—23. Marc 6. 7. a 16. 17—20. Luc 22. 30. Act. 5. 41. Rhuf. 15. 15—20. 2 Cor. 5. 20. a 6. 1. Eph. 2. 20. Phil. 1. 29. Col. 1. 24. 2 Thes. 1. 5—10. Dat. 21. 14. l pen. 14. 20. 1 Ioan 1. 3. a 3. 24.

* Y gogoniant a gaiff y saint yn y nefoedd, medd rhai; trwy eu hundeb â'r Tad a Christ: y dduwiol anian, medd eraill; yr hon sydd yn tebygu y saint mewn sancteiddrwydd i'w Pen gogoneddus: gweinidogaeth yr apostolion, medd eraill; yn nghyd â'r gallu a roddes Crist iddynt i wneyd gwyrthiau gogoneddus iddo ef a hwythau. Am holl weinidogion ffyddlawn yr efengyl, gelwir hwynt yn ogoniant Crist, 2 Cor. 8. 23. † Gwel ar yr adnod o'r blaen.

23 [m] * Myfi ynddynt hwy, † a thithau ynof fi; ‡ fel y byddont [n] wedi eu perffeithio yn un, [o] ‖ ac fel y gwypo y byd mai tydi a'm hanfonaist i, [p] a charu o honot hwynt, megis y ceraist fi.

m pen. 6. 56. a 14. 10, 23. Rhuf. 8. 10, 11. 1 Cor. 1. 30. 2 Cor. 5. 21. Gal. 3. 28. 1 Ioan 1. 3. a 4. 12—16. n Eph. 4. 12—16 Phil. 3. 15. Col. 1. 28. a 2. 2, 9, 10. a 3. 14. 1 Pedr 5. 10. o adn. 21. pen. 13. 35. p adn. 24. Eph. 1. 6, &c. 1 Ioan 3. 1. a 4. 19.

* "Myfi ynddynt hwy:" o ran preswyliad ysbrydol, ac o ran cyfranogiad o'm Hysbryd ac o'r dduwiol anian. Myfi y Pen, hwythau yr aelodau: myfi y winwydden, hwythau y cangenau. Rhaid i ni ddeall mai nid yr un modd y mae Crist yn y saint, ag y mae ei Berson dwyfol ef mewn undeb â'i ddynoliaeth ei hun. † "A thithau ynof fi:" o ran undeb hanfod; neu o ran fod cyflawnder y Duwdod yn preswylio ynddo ef yn gorphorol; neu, ynte, o ran fod Ysbryd Duw uwchlaw mesur wedi ei roddi iddo, yn aros arno, ac yn preswylio ynddo. ‡ Gwel eto ar adn. 21: wedi eu perffeithio *i* un yw y Groeg yma; wedi eu perffeithio *yn* un corph, ac *i* un

Pen, sef Crist. ‖ Mae yr undeb perffaith hwn yn dystiolaeth o ddau beth, sef o ddanfoniad Crist gan y Tad, ac o fod y Tad yn caru y saint fel y mae efe yn caru y Mab, ac er mwyn ei Fab, ac yn ei Fab.

24 Y Tad, [q] * y rhai a roddaist i mi, † yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, ‡ fod o honynt hwythau hefyd gyd â myfi; [r] ‖ fel y gwelont fy ngogoniant a roddaist i mi: [s] § oblegid ti a'm ceraist cyn seiliad y byd.

q pen. 12. 26. a 14. 3. Mat. 25. 21, 23. a 26. 29. Luc 12. 37. a 22. 28—30. a 23. 43. 2 Cor. 5. 8. Phil. 1. 23. 1 Thes. 4. 17. Dat. 3. 24. a 7. 14—17. r Gen. 45. 13. 1 Cor. 13. 12. 2 Cor. 3. 18. a 4. 6. 1 Ioan 3. 2. Dat. 21. 22. s adn. 5. Diar. 8. 22—31.

* Nid yr apostolion a'r credinwyr presenol y pryd hwnw yn sicr a ddylem ddeall yma wrth y rhai a roddodd y Tad i Grist; hyny yw, nid hwy yn unig, ond holl dyrfa y gwaredigion, y rhai a ddygid i gredu wedi hyny drwy yr efengyl. † Ewyllys y Cyfryngwr oedd, bod i'r rhai hyn gael bod gydag ef yn y gogoniant: hyn oedd ei ewyllys *erfyniadol* ef, fel yr oedd yn eu caru, ac yn llawn ewyllys da tuag atynt: hyn oedd ei ewyllys *awdurdodol* ef hefyd, mewn ffordd o hawl, yn ol cytundeb a chyfammod rhwng y Tad ag yntau, bod iddo gael ei holl brynedigion gydag ef yn y gogoniant: a hyn hefyd oedd ei *brif* ewyllys ef, ac megys y nod yr oedd yn amcanu ato yn ei holl ufudd-dod a'i ddyoddefiadau, cael gweled o lafur ei enaid gydag ef mewn gogoniant. ‡ Pa ddedwyddwch mwy a ddichon y saint ei ddymuno na'i fwynâu, na bod gyda eu Harglwydd yn y nef? ‖ Y peth a welir yno yw gogoniant cyfryngol Iesu, gogoniant a *roddwyd* iddo: disgleirdeb a harddwch gogoneddus ei ymddangosiad personol ef; yr addoliad gogoneddus a roddir iddo gan holl deulu y nef; a gweinyddiad holl achosion ei deyrnas a roddwyd yn ei law ac ar ei ysgwydd ef: dyma beth o'r gogoniant a roddwyd iddo, ac a gaiff y saint ei weled byth. Pa fath weled a fydd hwn nis gwyddom ni; ond gweled dilèn a fydd, gweled Iesu fel y mae, a golwg wahanol iawn a fydd arno i'r hyn ydoedd yn y byd hwn pan oedd mewn agwedd gwas, ac yn wr gofidus a chynnefin â dolur: golwg a fydd yn llawn ddigon o hyfrydwch i'r holl waredigion byth bythoedd. § Carodd Duw y Mab er cyn seiliad y byd, nid yn unig fel ei Fab, ond hefyd fel Cyfryngwr a Machniydd ei bobl, wedi ymrwymo i ogoneddu y Tad yn eu hiachawdwriaeth hwy. Herwydd y cariad tragywyddol hwn gwyddai y gwrandawai y Tad ei weddi, ac y cyflawnai ei holl ewyllys.

25 [t] * Y Tad cyfiawn, [u] † nid adnabu y byd dydi: [x] ‡ eithr mi a'th adnabum, [y] ‖ a'r rhai hyn a wybu mai tydi a'm hanfonaist i.

t adn. 11. Es. 45. 21. Rhuf. 3. 26. u pen. 8. 19, 55. a 15. 21. a 16. 3. Mat. 11. 27. Luc 10. 22. Act. 17. 23. a 26. 18. Rhuf. 1. 28. a 3. 11. 1 Cor. 1. 21. a 15. 34. 2 Cor. 4. 4. Gal. 4. 8, 9. 2 Thes. 1. 8. Heb. 8. 11. 1 Ioan 5. 19, 20. Dat. 13. 8. x pen. 1. 18. a 5. 19, 20. a 7. 29. a 10. 15. y adn. 8. pen. 6. 69. a 16. 27, 30. Mat. 16. 16.

* Mae y ddwy adnod olaf hyn yn perthyn yn benaf i'r apostolion.—Mae Iesu yn gweddïo Duw fel ei "Dad cyfiawn," nid yn unig o herwydd ei gyfiawnder hanfodol, a chyfiawnder ei lywodraeth yn gyffredinol; ond fel y mae yn gyfiawn wrth gyfiawnâu pechaduriaid trwy ei ufudd-dod a'i angau ef, ac yn y cyflawniad o holl ammodau y cyfammod tragywyddol: ar y seiliau hyn mae Iesu yn gofyn yr holl bethau blaenorawl ar ran ei ddysgyblion. † Dywedir y gellid darllen y geiriau hyn, *Er* nad adnabu y byd dydi, a byddai y synwyr a'r cyssylltiad yn sicr yn well fel hyny. Nid yw y byd eto yn adnabod Duw, mae y byd yn casâu Duw, ac yn gwrthryfela yn erbyn Duw. ‡ Myfi a'th adnabum yn berffaith, erioed, o ran dy hanfod, dy Berson, dy gyngor, a'th holl ewyllys. Mi a'th adnabum ac a'th wnaethum yn adnabyddus i'm dysgyblion; ‖ a hwy a'm hadnabuant I, ac a'th adnabuant di ynof a thrwof fi, ac a wybuant hefyd yn sicr mai ti a'm hanfonaist I fel Messiah i'r byd.

26 [z] * Ac mi a hysbysais iddynt dy enw, † ac a'*i* hysbysaf: [a] ‡ fel y byddo ynddynt hwy y cariad â'r hwn y ceraist fi, [b] ‖ a minnau ynddynt hwy.

z Gwel ar adn. 6. pen. 8. 50. a 15. 15. Salm 22. 22. Heb. 2. 12. a pen. 14. 23. a 15. 9. Eph. 1. 6, 22, 23. a 2. 4, 5. a 5. 30, 32. 2 Thes. 2. 16. b adn. 23. pen. 6. 56. a 14. 20. a 15. 4. Rhuf. 8. 10. 1 Cor. 1. 30. a 12. 12. Gal. 2. 20. Eph. 3. 17. Col. 1. 27. a 2. 10. a 3. 11. 1 Ioan 3. 24. a 4. 13, 14.

* Hysbysu enw Duw yw hysbysu Duw ei hun, a'i holl ewyllys ef: pob peth trwy yr hyn y gellir cael adnabyddiaeth o Dduw; yn enwedig yn nhrefn fawr iachawdwriaeth pechaduriaid. † Hysbysodd Crist enw y Tad i'w ddysgyblion trwy ystod ei weinidogaeth gyda hwynt cyn marw; ac mae yn addaw ei hysbysu yn mhellach trwy ymddiddanion personol â hwy ar ol ei adgyfodiad, a thrwy ddysgeidiaeth a goleuni ei Ysbryd, yr hwn a'u tywysai hwynt i bob gwirionedd, ar ol ei esgyniad ef. ‡ Gellir meddwl yma, bod yr un cariad â'r hwn mae y Tad yn caru y Mab, yn dylifo hefyd i'r holl saint, yn aros ynddynt ac yn gorphwys arnynt: yn debyg i'r enaint gwerthfawr ar ben Aaron, yr hwn oedd yn disgyn ar hyd ymyl ei wisgoedd ef. Ac mae yn amlwg mai yn ol y graddau a gaffom o adnabyddiaeth o Dduw a'i Fab, y byddwn yn brofiadol o'r cariad hwn, ac y llenwir ni âg ef. ‖ Yn ol gradd, neu fesur, yr adnabyddiaeth a'r cariad hyny hefyd, y bydd Crist yn trigo trwy ffydd yn ein calonau; hyd oni ddelom i fwynâd perffaith o hóno mewn dedwyddwch diddarfod yn y nef.

Gwedi pob ymgais i egluro y bennod ryfedd hon, rhaid i ni addef, mai anmherffaith iawn yr aethom drosti, a bod ein meddwl yn cael ei lyncu i fynu yn y dyfnderoedd o ddoethineb a chariad, ac yn y dirgelwch hyny o'r Duwdod mawr sydd yn llawn yn y bennod hon. Goleuni y nef yn unig, a eglura yn gyflawn i ni y pethau sydd yn gynnwysedig ynddi.

PEN. XVIII.

Judas yn bradychu Crist.

* GWEDI i'r Iesu [a] ddywedyd y geiriau hyn, [b] efe a aeth allan, efe a'i ddisgyblion, † dros [c] afon Cedron, ‡ lle yr oedd [d] gardd, i'r hon yr aeth efe a'i ddisgyblion.

a pen. 13. 31, &c. a 14—17. b pen. 14. 31. Mat. 26. 36. Marc 14. 32. Luc 22. 39, 40. c 2 Sam. 15. 23. 1 Bren. 15. 13. 2 Bren. 23. 6, 12. 2 Cron. 15 16. a 30. 14. Jer. 31. 40. d adn. 26. Gen. 2. 15. a 3. 23.

* Nid oes yr un o'r efengylwyr eraill yn crybwyll am yr ymadroddion a'r weddi a gawsom yn y pedair pennod a aeth heibio: ond y maent oll yn crybwyll i Grist fyned i fynydd yr Olew-wŷdd ar ol gorphen y swper. Matth. 26. 30; Marc 14. 26; Luc 22. 39. † Yr oedd Cedron o du y dwyrain i Jerusalem, rhwng y ddinas a Mynydd yr Olew-wŷdd. Aeth Dafydd, y cysgod o Grist, dros yr afon hon dàn wylo, pan ffôdd efe rhag Absalom ei Fab, 2 Sam. 15. 23, 30; a thybir fod cyfeiriad at ein Harglwydd yn myned drosodd y tro hwn, yn y brophwydoliaeth am ddyoddefaint y Messiah, yn Salm 110. 7, lle y dywedir, *Efe a yf o'r afon ar y ffordd.* ‡ Nid yw yr efengylwyr eraill yn sôn dim am ardd; lle a elwid Gethsemane a ddywedant hwy. Mewn gardd y pechodd yr Adda cyntaf, ac y rhoddwyd yr addewid gyntaf o Waredwr; ac yn gyfatebol i hyny, dyma yr ail Adda, y Gwaredwr addawedig wedi dyfod i ardd, megys i ddechreu ar ei brif ddyoddefiadau, a'i waith mawr gwaredol.

2 * A Judas hefyd, yr hwn a'i bradychodd ef, a adwaenai y lle: [e] oblegid mynych y cyrchasai yr Iesu a'i ddisgyblion yno.

e Marc 11. 11, 12. Luc 21. 37.

* Byddai Iesu a'i ddysgyblion yn arfer myned i'r ardd hon yn aml yn y nos i weddïo, pan fyddent yn dyfod i Jerusalem ar y gŵyliau: am hyny adwaenai Judas y lle yn dda, a gwyddai mai yno yr oedd debycaf

cael hyd i'r Iesu y nos hòno i'w fradychu ef i'w elynion.

3 [f] * Judas gan hynny, wedi iddo gael [g] byddin a swyddogion gan yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid, a ddaeth yno † â lanternau, a lampau, ac arfau.

f pen. 13. 2, 27—30. Mat. 26. 47, 55. Marc 14. 43. 44, 48. Luc 22. 47. Act. 1. 16. g adn. 12. Salm 3. 1, 2. a 22. 12.

* Wrth y fyddin yma, mae i ni ddeall byddin o filwyr Rhufeinig; ac wrth y swyddogion, mae i ni ddeall swyddogion a gweision yn perthyn i'r Sanhedrim Iuddewig. Fel hyn gwelwn gymmaint llid yr Iuddewon at ein Harglwydd, eu penderfyniad i'w ddàl ef, a'u gofal am gael digon o blaid i hyny. Gwelwn hefyd, fod Iuddewon a Chenedloedd a llaw ganddynt yn nghroeshoeliad ein Harglwydd bendigedig; ac O, anfeidrol ras! mae ei iachawdwriaeth ef i Iuddewon a Chenedloedd hefyd. Yma nis gall y *cyficithydd* lai na sylwi, o'i *ben ei hun*, fod llawer o genedl y Cymry, o Ynys Brydain, yn myddinoedd y Rhufeiniaid y pryd hwnw, a phwy a ŵyr nad oedd rhai o honynt yn y fyddin hon yn dàl yr Iesu, ac efallai, yn ei groeshoelio wedi hyny. † Tybir mai math o ganwyllau pŷg mawrion, o hen raffau wedi eu trochi mewn pŷg, yw ystyr y gair *(phanôn)* a gyficithir yma "lanternau." Er ei bod yn llawn lleuad y pryd hwnw, cymmaint oedd eu gofal hwynt rhag yr ymguddiai yr Iesu yn rhai o rodfeydd dirgelaidd yr ardd, fel y dygent yr holl oleu hyn gyda hwynt: ac arfau hefyd fel pe buasent yn myned i wynebu ar fintai lïosog o'r dynion mwyaf ysgeler.

4 * Yr Iesu gan hynny, [h] yn gwybod pob peth a oedd ar ddyfod arno, † a aeth allan, ac a ddywedodd wrthynt, [i] ‡ Pwy yr ydych yn ei geisio?

h pen. 13. 1. a 19. 28. Mat 16. 21. a 17. 22, 23. a 20. 18, 19. a 26. 2, 21, 31. Marc 10. 33, 34. Luc 18. 31—33. a 24. 6, 7, 44. Act. 4. 24—28. a 20. 22, 23. i 1 Bren. 18. 10, 14—18. Neh. 6. 11. Salm 3. 6. a 27. 3. Diar. 28. 1. 1 Pedr 4. 1.

* Gwyddai yr Iesu fod ei amser ef i ddyoddef wedi dyfod, a gwyddai beth oedd eu dyben hwy yn dyfod felly ato. † Yn lle ofni, ffoi, ac ymguddio, yn mhlith prenau yr ardd, fel yr Adda cyntaf yn ei enogrwydd, aeth efe allan i gyfarfod â'i elynion llidiog. Y cyflawn a fydd hyf megys llew. ‡ Gwyddai yr Iesu yn dda pwy oeddynt hwy yn ei geisio heb ofyn; ond aeth yn mlaen atynt, a gofynodd fel hyn iddynt, i ddangos ei ddiniweidrwydd, ei hyfdra, ei ewyllysgarwch gwirfoddol i ddyoddef, ac hefyd i'r dyben i ddangos ei allu dwyfol yn eu taro hwy i lawr pan ddywedodd, Myfi yw, adn. 6.

5 Hwy a attebasant iddo, [k] Iesu o Nazareth. Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Myfi yw. * A Judas, yr hwn a'i bradychodd ef, [l] oedd hefyd yn sefyll gyd â hwynt.

k pen. 1. 46. a 19. 19. Mat. 2. 23. a 21. 11. l Es. 3. 9. Jer. 8. 12.

* Nid yw Ioan yn sôn am yr arwydd a roisai Judas iddynt, mwy nac am ing a gweddi Crist yn yr ardd: ei amcan ef oedd adrodd y pethau a adawsai yr efengylwyr eraill allan, heb eu hadrodd. Os oedd Judas y pryd hwn heb roddi y cusan bradychus i Grist, mae yn debyg iddo yntau gael ei daro i'r ddaear fel y lleill; ac mae ei fradychu ef wedi hyny yn ei ddangos ef yn ddyn caled ofnadwy, wedi cael ei roddi i fynu i galedwch eithaf.

6 * Cyn gynted gan hynny ag y dywedodd efe wrthynt, Myfi yw, [m] hwy a aethant yn wysg eu cefnau, ac a syrthiasant i lawr.

m 2 Bren. 1. 9—15. Salm 27. 2. a 40. 14. a 70. 2, 3. a 129. 5. Luc 9. 54—56. Act. 4. 29, 30.

* Dyma un prawf yn ychwaneg, at laweroedd o rai o'r blaen, o ddwyfoldeb a hollalluawgrwydd Iesu; ac nad oedd gan ddynion ddim gallu nac awdurdod yn ei erbyn ef, ond fel yr oedd yn ei roddi ei hunan yn wirfoddawl yn eu dwylaw. O ran dynion a chythreuliaid, nid oedd dim raid iddo farw; ond o ran y cyfammod â'i Dad yr oedd yn rhaid iddo hyny. Ni wnaeth efe ddim ond dywedyd Myfi yw, a cherddodd awdurdod a nerth dwyfol gyda'r geiriau, fel y syrthiodd yr holl fyddin arfog a'r swyddogion yn wysg eu cefnau ar y ddaear. Yr un modd y gallasai efe eu taro hwynt â marwolaeth hollawl, a'u taro fel y gwnaeth â braw a llewyg: ac os oedd cymmaint o awdurdod yn ei air ef fel hyn yn ei ddarostyngiad iselaf, pa faint mwy dychrynllyd fydd ei lef ef, pan ddelo fel Barnwr mawr i rüo allan o Sion yn erbyn ei elynion, ac i fod yn drech na'i elynion!

7 * Am hynny efe a ofynodd iddynt drachefn, Pwy yr ydych yn ei geisio? A hwy a ddywedasant, Iesu o Nazareth.

8 Yr Iesu a attebodd, Mi a ddywedais i chwi mai myfi yw. † Am hynny os myfi yr ydych yn ei geisio, [n] gadewch i'r rhai hyn fyned ymaith:

n pen. 10. 28. a 13. 1, 36. a 16. 32. Mat. 26. 56. Marc 14. 50—52. 1 Cor. 10. 13. 2 Cor. 12. 9. 1 Pedr 5. 7.

* Gwedi y tarawiad arswydus a gwrth-hyrddiol hwn, caniatâodd Iesu i'r bobl gael dyfod atynt eu hunain yn fuan: neu yn hytrach efe a adferodd eu nerth iddynt. Gallesid meddwl y buasai hyn yn ddigon i'w brawychu fel na chynnygient osod eu dwylo arno ef yn chwaneg; ond efallai i'r blaid Iuddewig o honynt dybied, mai trwy ryw gyngrair drwg â'r diafol y tarawsai efe hwy i lawr, fel y taerent ei fod yn gwneyd ei wyrthiau; ac mai Duw, fel arwydd o'i foddlonrwydd iddynt hwy a'u gwaith, a'u hadferodd hwynt, heb ddim dïolch i Grist, ac er ei waethaf ef. Pa fodd bynag am hyny, yr oeddynt yn ddigon deillion, caled, a llidiog, i fyned yn mlaen â'u gorchwyl. † Pa dynerwch at, a gofal am, y rhai a fuont mòr ddifater am dano ef yn ddiweddar! Yr oedd y dysgyblion yn cysgu tra y bu ef yn ei ing a'i chwŷs gwaedlyd yn gweddïo, ac eto mae efe yn erfyn drostynt hwy, na wnelid y niwed lleiaf iddynt o'i achos ef.

9 * Fel y cyflawnid y gair a ddywedasai efe, [o] O'r rhai a roddaist i mi, ni chollais i yr un.

o pen. 17. 12.

* Yr oedd y gofal uchod am y dysgyblion yn gyflawniad o'r hyn a ddywedasai Crist o'r blaen, pen. 17. 12; *Y rhai a roddaist i mi a gedwais:* lle y gwelwn fod y cadw yno i'w ddeall, am gadwedigaeth dymmorawl, ysbrydol, a thragywyddol hefyd. Nid dywedyd dïeffaith oedd y dywedyd uchod, "Gadêwch i'r rhai hyn fyned ymaith;" cafodd awdurdod ar y fyddin a'r swyddogion mewn modd diarwybod iddynt eu hunain, a chroes i'w hysbrydoedd llidiog, fel na wnaethant ddim niwed i neb o'r dysgyblion, hyd yn nôd Pedr, er iddo dynu ei gleddyf a thòri ymaith glust gwas yr arch-offeiriad.

10 [p] * Simon Pedr gan hynny a chanddo gleddyf, a'i tynnodd ef, ac a darawodd was yr arch-offeiriad, ac a dorrodd ymaith ei glust ddehau ef: ac enw y gwas oedd Malchus.

p adn. 26. Mat. 26. 51—54. Marc 14. 30, 47. Luc 22. 33, 49—51.

* Sylwyd ar hyn o'r blaen: gwel ar Matth. 26. 51. Ioan yn unig sydd yn crybwyll Pedr a Malchus wrth eu henwau: mae yn debygol fod Pedr wedi dyoddef merthyrdod cyn i Ioan ysgrifenu ei efengyl, yna gallai ei enwi ef yn y weithred hon yn ddiberygl. Tybir mai cyn dàl yr Iesu y gwnaeth Pedr hyn, oblegid dywed Matth. 26. 56, a Marc 14. 50, i'r holl ddysgyblion ffoi yn y fàn wedi ei ddàl ef: a phrin y buasai Pedr yn beiddio gwneyd y fath beth wedi iddo gael ei ddàl.

11 * Am hynny yr Iesu a ddywedodd wrth Pedr, [q] Dod dy gleddyf yn y wain: [r] † y cwppan a [s] roddes y Tad i mi, onid yfaf ef?

q adn. 36. 2 Cor. 6. 7. a 10. 4. Eph. 6. 11—17. r Salm 75. 8. Ezec. 23. 31. Mat. 20. 22, 23. a 26. 39, 42. Marc 10. 38, 39. a 14. 35, 36. Luc 22. 42. Heb. 12. 2. s pen. 11. 41, 42. a 12. 27, 28. a 15. 10. a 17. 24. a 20. 17. Luc 12. 30. Rhuf. 8. 15—18. Heb. 12. 5—10.

* Mae yn ddïammau i Grist anfoddloni wrth boeth-der annhymherus Pedr: nid oedd efe yn meddwl gwrth-sefyll ei elynion; a phe buasai, nid âg arfau o'r fath hyny y buasai efe yn gwrthsefyll, ac nid âg arfau cnawdol yr amddiffynir ei achos a'i dyernas ef eto.

† Am y gair hwn, "cwpan," gwel ar Matth. 20. 22. Yr oedd ein Harglwydd yma yn edrych heibio, ac uwchlaw llid ac anghyfiawnder creulawn ei elynion, ac yn derbyn ei holl ddyoddefiadau fel cwpan o law ei Dad nefol; yr hwn ni chystuddiai mo hóno heb wir achos, ac i'r dybenion mwyaf pwysig a grasol. Gwyddai Iesu fesur y cwpan, chwerwder y dyoddefiadau oedd ynddo; gwyddai mai o law ei Dad yr oedd yn dyfod, o ba herwydd, ac i ba ddyben; am hyny yr oedd yn dra newyllysgar i'w yfed. Gwel ar Matth. 26. 39.

12 [t] Yna y fyddin, [u] * a'r milwriad, a swyddogion yr Iuddewon, † a ddaliasant yr Iesu, [x] ‡ ac a'i rhwymasant ef,

t adn. 3. Mat. 26. 57. Marc 14. 53. Luc 22. 54. u Act. 21. 31, 37. a 22. 24—28. a 23. 10, 17, &c. x Gen. 22. 9. a 40. 3. Barn. 16. 21. Salm 118. 27. Mat. 27. 2. Marc 15. 1.

* Y milwriad yma oedd flaenor, neu gadben ar fil o ddynion: felly yr arwyddda y gair Groeg, *chiliarchos*, yn gystal a'r gair Cymraeg, milwriad. Ar ŵyl y pasg, byddai y rhaglaw Rhufeinig yn arfer danfon byddin gyfan, o fil o ddynion, i warchod y deml, a rhag terfysg yn mhlith y bobl: ond mae yn debyg nad oedd ond rhan o'r fyddin hòno wedi ei danfon i ddàl yr Iesu. Pa fodd bynag, danfonwyd blaenor yr holl fyddin gyda'r rhan hon o hóni; fel pe buasai dàl yr Iesu yn fwy peth na chadw yr holl filoedd yn Jerusalem mewn trefn.

† A gyd-ddaliasant, yw ystyr'y Groeg, meddant: pawb yn eithaf cytun i'w ddàl ef, a phob un am y mwyaf blaenllaw yn y gorchwyl. ‡ Rhwymasant ef fel pe buasai efe y drwg-weithredwr gwaethaf, a'r caethwas gwaelaf: ond o'i rwymau ef daeth rhyddid cyfreithlawn a thragywyddol i bawb a gredant ynddo. Os y Mab a'n rhyddhâ, rhyddion a fyddwn yn wir.

13 * Ac a'i dygasant ef at [y] Annas yn gyntaf (canys chwegrwn Caiaphas, yr hwn oedd arch-offeiriad [z] y flwyddyn honno, ydoedd efe)

y Luc 3. 2. Act. 4. 6. z pen. 11. 51.

* Tybir mai trwy offerynoldeb Annas ei chwegrwn, y cawsai Caiaphas yr arch-offeiriadaeth y flwyddyn hòno: yr oedd Annas wedi bod yn arch-offeiriad o'r blaen. Gwel ar Luc 3. 2. Dygwyd Iesu at Annas yn gyntaf, yn hytrach nag at Caiaphas, efallai o barch i'w henafiaeth ef, neu am mai efe oedd wedi rhoddi gorchymyn yn benaf i'w ddàl ef, neu i foddio llygaid digllawn yr hen ddyn, neu ynte, i gael cyfarwyddyd ganddo ef pa fodd i wneyd â Christ yn mhellach. Gwedi hyny dygwyd ef at Caiaphas, adn. 15.

14 [a] * A Chaiaphas oedd yr hwn a gynghorasai i'r Iuddewon, mai buddiol oedd farw un dyn dros y bobl.

a pen. 11. 49—52.

* Cawsom hanes y cyngor drygionus hwn yn pen. 11. 49, 50, gwel y sylwadau yno. Meddwl Caiaphas oedd, iawn neu gam, pa un a gaid rhywbeth yn erbyn Iesu ai ni chaid, mai buddiol a fyddai ei roddi ef i farwolaeth, fel na byddai gwrthryfel a therfysg yn mhlith y bobl, ac i'r genedl gael ei dyfetha gan y Rhufeiniaid am y gwrthryfel a'r terfysg hyny.

15 ¶ [b] * Ac yr oedd yn canlyn yr Iesu, Simon Pedr, a disgybl arall. A'r disgybl hwnnw oedd adnabyddus gan yr arch-offeiriad, ac efe a aeth i mewn gyd â'r Iesu i lŷs yr arch-offeiriad.

b Mat. 26. 58. Marc 14. 54. Luc 22. 54.

* Dywed yr efengylwyr eraill i'r holl apostolion adael yr Iesu a ffoi; ond mae yn debyg i'r ddau hyn ddychwelyd yn fuan, a'i ganlyn ef i lŷs yr arch-offeiriad. Peth rhyfedd oedd iddynt feiddio ei ganlyn ef y pryd hwnw, ac yn enwedig Pedr; a buasai yn well iddo yntau beidio; oblegid er na wnaeth neb unrhyw niwed corphorol iddo, efe a syrthiodd yn athrist trwy wadu ei Arglwydd mawr, yn llŷs yr arch-offeiriad. † Pwy oedd y dysgybl arall hwn, nis gwyddom: nid tebyg iawn mai Ioan ydoedd; oblegid Galilead oedd Ioan yn gystal â Phedr, ac nid yw yn debygol ei fod ef, pysgodwr tlawd, ac yn dilyn ei alwedigaeth ar fôr Galilea, yn adnabyddus gan yr arch-offeiriad. Tybir mai rhyw wr o enwogrwydd ydoedd, yn ddysgybl i'r Iesu, ond nid yn ei ganlyn ef yn gyhoeddus: efallai Nicodemus, neu Joseph o Arimathea, neu y gwr y buasai yr Iesu a'i ddysgyblion yn bwyta y pasg yn ei dŷ. Yn lle "a dysgybl arall," y mae un hen awdwr Groegaidd yn darllen, "a chyfaill newydd arall.".

16 * A Phedr a safodd wrth y drws allan. Yna y disgybl arall yr hwn oedd adnabyddus gan yr arch-offeiriad a aeth allan, ac a ddywedodd wrth y † ddrysores, ac a ddug Pedr i mewn.

* Gan fod Pedr yn ddysgybl amlwg i Grist, gan nad oedd mewn cymmeradwyaeth yn y byd yn llŷs yr arch-offeiriad, â chan ei fod wedi tòri ymaith glust gwas yr arch-offeiriad, yr oedd arno ofn myned i mewn, ac eto yn mawr chwennychu myned i mewn i weled pa beth a wnaid i'w Arglwydd. Efe a safodd wrth y drws allan, hyd oni chafodd fyned i mewn trwy eiriolaeth y dysgybl arall drosto. † "Y ddrysores:" y llances oedd yn cadw y drws.

17 * Yna y dywedodd y [c] llangces oedd ddrysores wrth Pedr, Onid wyt tithau o ddisgyblion y dyn hwn? † Dywedodd yntau, [d] Nac wyf.

c adn. 16. Mat. 26. 69, 70. Marc 14. 66—68. Luc 22. 56, 57. d adn. 5, 8. pen. 21. 15. Mat. 26. 33.

* Wrth ollwng Pedr i mewn, lled-dybiodd y llances rywfodd, un ai wrth ei olwg, ei ymddygiad, ei dafodiaith, neu rywbeth, fod Pedr yn un o ddysgyblion yr Iesu: ac hi a ofynodd iddo yn ddigon gwatwarus, ond heb feddwl dim niwed i Pedr a'r a wyddom, Onid oedd efe yn un o'i ganlynwyr ef. † Pedr yn ei fraw wrth y gofyniad, a atebodd yn fyrbwyll, "Nac wyf." Dyma'r tro cyntaf iddo wadu, a rhwng hyn a'r ail dro, adn. 25, mae Ioan yn adrodd amryw bethau, na soniodd yr efengylwyr eraill am danynt.

18 * A'r gweision a'r swyddogion, [e] † gwedi gwneuthur tân glo ([f] o herwydd ei bod hi yn oer) oeddynt yn sefyll, ac yn ymdwymno: ‡ ac yr oedd [g] Pedr gyd â hwynt yn sefyll, ac yn ymdwymno.

e adn. 25. Marc 14. 54. Luc 22. 55, 56. f Luc 22. 44. g Gen. 49. 6. 1 Bren. 19. 9. Salm 1. 1. a 26. 4—10. Diar. 13. 20. Act. 4. 23. 1 Cor. 15. 33. 2 Cor. 6. 15—17. Eph. 5. 11, 12.

* Gweision teuluaidd yr arch-offeiriad, a'r swyddogion a fuasent yn dàl yr Iesu ac a'i dygasent yno: nid oedd dim gorphwys i neb, na gwas, na morwyn, na swyddogion, ar y noswaith brysur hòno. † Dywedir bod oerni y nos yn llymach yn y gwledydd poethion hyny na chyda ni. ‡ O herwydd yr oerni, anturiodd Pedr hefyd i'w plith at y tân: ac efallai ei fod yn meddwl y dïangai efe heb i neb sylwi arno yn neilduol, fel hyny wrth ymgymmysgu â'r bobl, yn well na phe buasai yn aros ar ei ben ei hun o'r neilldu.

19 ¶ * A'r arch-offeiriad a [h] ofynodd i'r Iesu am ei ddisgyblion, † ac am ei athrawiaeth.

h Luc 11. 53, 54. a 20. 20.

* Nid oedd barnu yn nghylch gwrthryfel a therfysg gwladol yn perthyn i'r Sanhedrim Iuddewig y pryd

hwn, ond i'r rhaglaw Rhufeinig; am hyny mae yr arch-offeiriad fel blaenor, a genau y cyngor, yn gofyn i'r Iesu am ei ddysgyblion a'i athrawiaeth, gyda bwriad i'w wneyd ef allan yn gau-brophwyd os gallai. Ewyllysiai wybod pwy, a pha fath oedd ei ddysgyblion ef, a pha nifer oedd o honynt. † Mynai wybod hefyd am ei athrawiaeth ef, a oedd rhywbeth ynddi yn tueddu i ddangos ei fod ef yn hòni am dano ei hun mai y Messiah ydoedd; neu ynte, a oedd ynddi rywbeth yn groes i'w traddodiadau hwy, neu eu hagoriadau hwy ar y gyfraith, i gael ei farnu ef yn gau-brophwyd.

20 * Yr Iesu a attebodd iddo, [i] Myfi a lefarais yn eglur wrth y byd: yr oeddwn bob amser yn athrawiaethu yn y synagog, ac yn y deml, lle mae yr Iuddewon yn yngynnull bob amser; [k] † ac yn ddirgel ni ddywedais i ddim.

i pen. 7. 14, 26. a 8. 2. a 10. 23–39. Salm 22. 22. a 40. 9, 10. Mat. 4. 23. a 9. 35. a 21. 23, &c. Luc 4. 15, 16. a 19. 45—47. a 20. 1, &c. a 21. 37. k pen. 7. 4. Es. 45. 19. a 48. 16. Mat. 24. 26. Act. 26. 26.

* Nid yw yr Iesu yn ateb dim i'r rhan flaenaf o'r gofyniad, am ei ddysgyblion; gan ei bod yn ddigon amlwg nad oedd perygl y codai ei ddysgyblion derfysg yn ei achos ef, yr oeddynt oll wedi ei adael. Am ei athrawiaeth, mae yn dywedyd ei bod yn ddigon hysbys i bawb, gan ei fod ef wedi ei thraddodi yn eglur i'r byd, yn y synagogau ar y sabbathau, ac yn y deml ar y gwyliau, lle yr oedd cynnulliad y bobloedd yn fwyaf lliosog. † Gallai yr arch-offeiriad wybod gan eraill beth oedd ef yn athrawiaethu, gan nad oedd efe wedi dywedyd dim yn ddirgel, ac arno gywilydd o hóno: a pha bethau bynag a ddywedasai efe yn ddirgel, ac o'r neilldu wrth ei ddysgyblion, nid oedd hyny ond yr un peth a'i athrawiaeth gyhoeddus ef, a gorchymyn iddynt hwythau draddodi yn gyhoeddus yr hyn a ddywedasai efe yn ddirgel iddynt hwy.

21 * Paham yr wyt ti yn gofyn i mi? [l] † gofyn i'r rhai a'm clywsant, beth a ddywedais wrthynt: ‡ wele, y rhai hynny a wyddant pa bethau a ddywedais i.

l Mat. 26. 59, 60. Marc 14. 55—59. Luc 22. 67, 68. Act. 24. 12, 13, 18—20.

* Paham yr wyt ti yn gofyn i mi? onid tebycach yw i ti gael y gwir yn ddiduedd gan eraill a'm clywsant I? A phe dywedwn I drosof fy hun, odid fawr y coeliet ti fi. † Gofyn i'r neb a fynot a'm clywsant I; gofyn i'th gyfeillion a'th blaid dy hun; gofyn i'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid, a'r penaethiaid eu hunain; a gofyn i'r gwaethaf o'm holl elynion a'm clywsant I erioed: ‡ mae yma rai o honynt, tystiolaethant hwy.

22 * Wedi iddo ddywedyd y pethau hyn, un o'r swyddogion a'r oedd yn sefyll ger llaw, [m] † a roddes gernod i'r Iesu, gan ddywedyd, [n] Ai felly yr wyt ti yn atteb yr arch-offeiriad?

m Job 16. 10. a 30. 10–12. Es. 50. 5—7. Jer. 20. 2. Mica 5. 1. Mat. 26. 67, 68. Marc 14. 65. Luc 22. 63, 64. Act. 23. 2, 3. n Act. 23. 4, 5.

* Er bod yr ateb uchod yn eithaf teg a chyfiawn, a chwedi ei roddi yn sicr mewn ysbryd tawel a digyffro, dyma un o'r swyddogion taëog a thrahâus yn taro Iesu, dàn yr esgus iddo ateb yr arch-offeiriad yn rhŷ anmharchus. † Tybir mai taro â gwialen yw ystyr y gair Groeg *rapisma*, ac nid â cledr y llaw, fel yn y cyfieithiad Saesoneg. Gwel Matth. 26. 67; Mica 5. 1.

23 * Yr Iesu a attebodd iddo, [o] Os drwg y dywedais, tystiolaetha o'r drwg; † ac os da, paham yr wyt yn fy nharo i?

o 2 Cor. 10. 1. I Pedr 2. 20—23.

* Os dywedais I ddim allan o le, dyma fi a thithau ger bron y llŷs, tystiolaetha yn fy erbyn I, a barned y cyngor fi, nid oes i ti awdurdod i fy nharo I. † Os na ddywedais I ddim allan o le, ond yr hyn oedd yn gyfiawn ac yn dda, paham yr wyt ti yn fy nharo I? Rhyfedd amynedd ac addfwynder Iesu yn y tro hwn fel yn mhob amgylchiad arall: gallasai yn hawdd daro yr adyn hwn â baru mewn mynyd; ond ni wnaeth efe ond ymresymu yn arafaidd âg ef fel y sylwyd. Yn hyn hefyd efe a roddes esampl i ni, fel y dilynem ei ol ef. Ac oni ddylasai y llŷs, hefyd, gospi y swyddog hwn, am ryfygu taro dyn yn ddiachos ger bron y frawdle?

24 * (Ac [p] Annas a'i hanfonasai ef yn [q] rhwym at Caiaphas yr arch-offeiriad)

p adn. 13. Mat. 26. 57. q adn. 13.

* Yn adn. 13, gwelsom ddarfod dwyn Iesu yn gyntaf at Annas, yma dywedir i Annas ei anfon ef at Caiaphas ei fab-yn-nghyfraith, yr hwn fel arch-offeiriad oedd i'w holi a'i farnu ef.

25 * A Simon Pedr [r] oedd yn sefyll, ac yn ymdwymno. [s] Hwythau a ddywedasant wrtho, Onid wyt ti tithau hefyd o'i ddisgyblion ef? [t] Yntau a wadodd, ac a ddywedodd, Nac wyf.

r adn. 18. Marc 14. 37, 38, 67. Luc 22. 56. s Mat. 26. 71, 72. Marc 14. 68—70. Luc 22. 58. t Gen. 18. 15. Diar. 29. 25. Gal. 2. 11—13.

26 Dywedodd un o weision yr arch-offeiriad ([u] câr i'r hwn y torrasai Pedr ei glust) [x] Oni welais i di gyd âg ef yn yr ardd?

u adn. 10. x Diar. 12. 19. Mat. 26. 73. Marc 14. 70, 71. Luc 22. 59, 60.

27 Yna Pedr a wadodd drachefn; [y] ac yn y man y canodd y ceiliog.

y pen. 13. 38. Mat. 26. 34, 74, 75. Marc 14. 30, 68, 72. Luc 22. 34, 60—62.

* Cawsom yr hanes hyn o'r blaen gan bob un o'r efengylwyr eraill. Gwel ar Matth. 26. 69—75; Marc 14. 66—72; a Luc 22. 54—62.

28 ¶ [z] * Yna y dygasant yr Iesu oddi wrth Caiaphas, [a] i'r dadleudŷ: [b] † a'r bore ydoedd hi; [c] ‡ ac nid aethant hwy i mewn i'r dadleudŷ, rhag eu halogi; eithr fel y gallent [d] fwytta y pasc.

z Mat. 27. 1, 2. Marc 15. 1. Luc 23. 1. a adn. 33. pen. 19. 9. Mat. 27. 27. Marc 15. 16. b Diar. 1. 16. a 4. 16. Mica 2. 1. Luc 22. 66. c Salm 35. 16. Es. 1. 10—15. Jer. 7. 8—11. Amos 5. 21—23. Mica 3. 10—12. Mat. 23. 23—28. a 27. 6. Act. 10. 28. a 11. 3. d adn. 39. pen. 19. 14. Deut. 16. 2. 2 Cron. 30. 21—24. a 35. 8—14, 17, 18. Ezec. 45. 21.

* Wrth holi yr Iesu yn llŷs yr arch-offeiriad, cawsant addefiad o'r diwedd o'i enau ef ei hun, mai efe oedd y Messiah, a Mab Duw (Matth. 26. 63—66; Marc 14. 61—64,) yr hyn a dybient hwy yn gabledd, ac yntau yn euog o farwolaeth. Tybient hefyd fod hyny yn wrthryfel yn erbyn y llywodraeth Rufeinig, yn gystal ac yn gabledd yn erbyn Duw, gan hyny dygasant ef ger bron Pilat, y rhaglaw Rhufeinig, i gael ei farnu ganddo ef yn y llŷs gwladol, megys yr oedd wedi cael ganddynt hwy yn eu llŷs eglwysig. † Yr oeddynt hwy wedi bod i fynu yn brysur iawn trwy y nos, ac yr oedd yn rhaid i Pilat, y rhaglaw, gyfodi yn foreuach o lawer nac y byddai efe arferol i'w cynnorthwyo hwy: efallai tua phump neu chwech o'r gloch yn y bore. ‡ Llŷs cenedlig ydoedd y dadleudŷ hwn, a chyfrifai yr Iuddewon eu hunain yn halogedig os cyfhyrddent â chenedl-ddyn, neu â dim a berthynai i'r cenedloedd. Efallai bod yn y *Pretorium* hwn ryw luniau o eilun-dduwiau y Rhufeiniaid hefyd, yr hyn a'u halogai hwynt. Ond och ragrith y dynion hyn! yr oeddynt yn ofni halogiad seremoniol yn fawr, pryd nad oeddynt yn ofni bwyta y pasg yn euog o dywallt gwaed gwirion Iesu.

29 * Yna Pilat a aeth allan attynt, ac a ddywedodd, [e] Pa achwyn yr ydych chwi yn ei ddwyn yn erbyn y dyn hwn?

e Mat. 27. 23. Act. 23. 28—30. a 25. 16.

* Yr oedd y Rhufeiniaid yn caniatâu iddynt eu cyflawn ryddid mewn pethau crefyddol; am hyny ni wasgai Pilat arnynt i ddyfod i mewn i'r dadleudŷ yn groes i'w mympwy ofer-goelus hwy, ond yr oedd mòr

oneddigaidd a myned allan atynt i wybod pa achwyn
edd ganddynt yn erbyn Iesu.

30 * Hwy a attebasant ac a ddywedasant
rtho, [f] Oni bai fod hwn yn ddrwg-weithredwr,
ni [g] thraddodasem ni ef attat ti.

f pen. 19. 12. Marc 15. 3. Luc 20. 19—26. a 23. 2—5.
g Marc 10. 33. Luc 24. 7. Act. 3. 13.

* Ateb digon trahâus oedd hwn i'r rhaglaw; fel pe
ywedasent, Ti a elli fod yn sicr, mai drwg-weithredwr
anfad yw y dyn hwn, pe amgen, ni chymmerasem ni y
rafferth o'i ddwyn ef atat ti mòr fore, ac yn enwedig
ar ddiwrnod mòr fawr a heddyw. Eto i gyd, nid oedd
yma yr un cŵyn yn ei erbyn ef; mae yn ymddangos y
mynent hwy i Pilat gadarnâu eu dedfryd eglwysig hwy,
a chondemnio yr Iesu rhag blaen, heb wybod yn y byd
am ba beth.

31 * Am hynny y dywedodd Pilat wrth-
ynt, [h] Cymmerwch chwi ef, a bernwch ef yn ol
eich cyfraith chwi. † Yna yr Iuddewon a
ddywedasant wrtho, [i] Nid cyfreithlawn i ni
adad neb:

h pen. 19. 6, 7. Act. 25. 18—20. i pen. 19. 15. Gen. 49. 19.
Ezec. 21. 26, 27. Hos. 3. 4, 5.

* Mae yn amlwg yma nad oedd Pilat ddim yn ewyll-
ysio ymyraeth â'r mater hwn pe gallasai beidio: yn
enwedig nid oedd yn foddlawn i farnu dyn ar gyhuddiad
ac enllib cyffredin o'r fath hyny, heb gael profi peth-
au yn deg yn ei erbyn ef: am hyny mae yn dywedyd
wrthynt hwy am gymmeryd yr achos yn eu dwylo eu
hunain, a'i farnu ef wrth eu cyfraith eu hunain.
† Gallasai yr Iuddewon gymmeryd hyn fel caniatâd,
meu awdurdod, i roddi Crist i farwolaeth; ac eto yr
oeddynt yn ofni y cawsent eu galw i gyfrif pe gwnaeth-
ent hyny: tybia rhai bod Pilat yn dywedyd y geiriau
uchod fel y dywedodd hwynt, gyda bwriad i gael achlys-
ur yn eu herbyn hwynt, os rhoddent yr Iesu i farwolaeth
wrth eu cyfraith eu hunain; ac eu bod hwythau yn
deall hyny, ac felly yn ateb fel y gwnaethant. Mae yn
anhawdd gwybod pa faint o awdurdod bywyd ac angau
oedd gan yr Iuddewon y pryd hwn; ond mae yn ym-
ddangos wrth y geiriau uchod nas gallent hwy roddi
neb i farwolaeth heb awdurdod oddiwrth y rhaglaw
Rhufeinig.

32 [k] * Fel y cyflawnid gair yr Iesu, yr hwn
a ddywedasai efe, gan arwyddocâu [l] o ba
angau y byddai farw.

k pen. 3. 14. a 10. 31, 33. a 12. 32, 33. Mat. 20. 19. a 26. 2.
Luc 24. 7, 8. Act. 7. 59. l Deut. 21. 23. Salm 22. 16. Gal. 3. 13.

* Rhag-ddywedodd Crist y byddai efe farw trwy
groeshoeliad; (pen. 3. 14; a 12. 32; Matth. 20. 19,)
ac yma goruwch-lywodraethodd Duw bethau i gyflawni
hyny: marwolaeth Rufeinig oedd marwolaeth y groes;
pe buasai yr Iuddewon yn ei roddi ef i farwolaeth, ei
labyddio ef a wnaethent. Ar y groes yr oedd yn rhaid
iddo ef farw dros ein pechodau ni.

33 * Yna Pilat a aeth drachefn i'r dadleu-
dŷ, ac a alwodd yr Iesu, [m] ac a ddywedodd
wrtho, [n] † Ai ti yw Brenhin yr Iuddewon?

m adn. 37. Mat. 27. 11. Marc 15. 2. Luc 23. 3, 4. 1 Tim. 6.
13. n pen. 1. 49. a 12. 13, 15. a 19. 3, 19—22. Salm 2. 6—12.
Es. 9. 6, 7. Jer. 23. 5, 6. Zeph. 3. 15. Zec. 9. 9. Luc 19. 38—40.
Act. 2. 34—36.

* Yn adn. 29, gwelsom Pilat yn myned allan o'r
dadleudŷ, i holi yr Iuddewon rhith-grefyddol pa achwyn
oedd ganddynt yn erbyn yr Iesu: wedi yr ymddiddan â
hwy, mae yn myned yn ol i'r dadleudŷ drachefn i holi yr
Iesu. † Yn Luc 23. 2, ni a gawn fod yr Iuddewon wedi
rhoddi y cyhuddiad hwn, Brenin yr Iuddewon, yn ei
erbyn ef; ond nid yw Ioan yn dywedyd dim am hyny
yma: dim ond fod Pilat yn gofyn iddo, Ai brenin yr
Iuddewon wyt ti? fel pe dywedasai, Os wyt ti yn hòni
dy hun yn Frenin yr Iuddewon, yr wyt ti yn euog o
wrthryfel a theyrn-fradwriaeth yn erbyn Cesar, Ymher-
awdwr Rhufain, ac mae yn perthyn i minnau fel rhag-
law Rhufeinig dy farnu di.

34 * Yr Iesu a attebodd iddo, [o] Ai o honot
dy hun yr wyt ti yn dywedyd hyn, † ai eraill
a'i dywedasant i ti a'm danaf fi?

o adn. 36.

* Ai o honot dy hun yr wyt ti yn gofyn? A wyt ti
dy hun yn drwg-dybied, oddi ar rywbeth yn fy ymddyg-
iad I hyd yn hyn, fy mod I yn meddwl ymwthio i'r
freniniaeth? † Ai ynte gofyn yr wyt ti fel barnwr,
oddi ar dystiolaeth a gefaist gan eraill? Os felly, nid
fy lle I yw ateb, ac nid oes arnaf rwymau i ateb, mae
yn ddyledus ar fy nghyhuddwyr ddyfod yn mlaen â
thystiolaethu yn fy erbyn os gallant.

35 * Pilat a attebodd, [p] Ai Iuddew ydwyf
fi? [q] † Dy genedl dy hun a'r arch-offeiriaid
a'th draddodasant i mi. [r] Beth a wnaethost ti?

p Ezra 4. 12. Neh. 4. 2. Act. 18. 14—16. a 23. 29. a 25. 19,
20. Rhuf. 3. 1, 2. q adn. 28. pen. 19. 11. r pen. 19. 6. Act.
21. 38. a 22. 22—24.

* "Ai Iuddew ydwyf fi?" Pa beth a wn I am y
Messiah maent hwy yn sôn am dano ac yn ei ddys-
gwyl? Nis gwn I ddim am y cyfryw bethau, ac ni
ddawr i mi chwaith yn eu cylch. † Dy genedl di dy
hun a'th ddygasant di ataf fi, ac a ddywedasant dy fod
di yn gŵyr-droi y bobl, ac yn gwahardd rhoi teyrnged i
Cesar, gan ddywedyd mai tydi dy hun yw Crist Frenin.
(Luc 23. 2.) ‡ Pa beth a wnaethost i roddi achlysur
i'r fath gyhuddiadau? neu pa beth a wnaethost ti i
wneyd dy genedl dy hun mòr ffyrnig yn dy erbyn?

36 * Yr Iesu a attebodd, [s] Fy mrenhiniaeth
i nid yw o'r byd hwn. † Pe o'r byd hwn y
byddai fy mrenhiniaeth i, [t] fy ngweision i a
ymdrechent, fel na'm rhoddid i'r Iuddewon:
‡ ond yr awrhon nid yw fy mrenhiniaeth i
oddi yma.

s pen. 6. 15. a 8. 15. Salm 45. 3—7. Es. 9. 6, 7. Dan. 2. 44. a
7. 14. Zec. 9. 9. Luc 12. 14. a 17. 20, 21. Rhuf. 14. 17. Col. 1. 12—
14. t adn. 11.

* Fel pe dywedasai yr Iesu, Nid wyf fi yn gwadu nad
myfi yw y Messiah, a Brenin yr Iuddewon mewn rhyw
ystyr; ond nid yn yr ystyr maent hwy yn haeru, nac fel
y maent hwy yn dysgwyl eu Messiah. Y gwir am dani
yw, nid yw fy mreniniaeth I o'r byd hwn: llywodraeth
ysbrydol yw fy llywodraeth I, ar eneidiau dynion, nid ar
eu hachosion bydol, ac nid yw yn ymyraeth mewn un
modd â llywodraeth wladol y Rhufeiniaid ar yr Iu-
ddewon. † Gelli di dy hun weled hyny yn amlwg,
Pilat; oblegid pa frenin daearol a gymmerwyd i fynu
ac a ddaliwyd fel myfi, heb i'w ddeiliaid gymmeryd ei
blaid ef, ac ymdrechu o leiaf, na roddid ef i fynu i'w
elynion? ‡ Nid oes neb o'm hychydig ganlynwyr I
wedi cynnyg gwneuthur dim o'r cyfryw beth; am hyny
mae yn amlwg nad yw fy mreniniaeth I o'r byd hwn.

37 * Yna y dywedodd Pilat wrtho, Wrth
hynny ai Brenhin wyt ti? † Yr Iesu a
attebodd, [u] Yr ydwyt ti yn dywedyd mai Bren-
hin wyf fi. ‡ Er mwyn hyn y'm ganed, ac er
mwyn hyn y daethum i'r byd, [x] fel y tystiol-
aethwn i'r gwirionedd. [y] || Pob un a'r sydd
o'r gwirionedd, sydd yn gwrando fy lleferydd i.

u Mat. 26. 64. a 27. 11. Marc 14. 62. a 15. 2. Luc 23. 3. 1 Tim.
6. 13. x pen. 8. 14. a 14. 6. Es. 55. 4. Dat. 1. 5. a 3. 14.
y pen. 7. 17. a 8. 47. a 10. 26, 27. 1 Pedr 1. 22, 23. 1 Ioan 3. 14,
19. a 4. 6. a 5. 20.

* Mae yn debyg mai mewn gwawd a dïystyrwch y
dywedodd Pilat fel hyn, a pheth syndod hefyd, o glywed
un mòr dlawd, amddifad, a gwael yr olwg arno, yn sôn
am dano ei hun fod ganddo freniniaeth: nid yw yn ym-
ddangos ei fod am gymmeryd mantais yn ei erbyn ef, o
herwydd sôn o hóno am ei freniniaeth. † Nid yw Crist
yn dywedyd yma mai Brenin ydoedd, nac ychwaith yn
gwadu: tybir fod yn y geiriau addefiad o'r hyn a ofyn-

odd Pilat, fel pe dywedasai Crist, Yr wyt ti yn dywedyd, nid wyf finnau yn gwadu; eto cofia mai tydi sydd yn dywedyd, ac nid myfi. ‡ Nid wyf yn gwadu nad oes genyf deyrnas ysbrydol; ac er mwyn hyn y'm ganwyd, ac y daethum i'r byd, fel y tystiolaethwn i'r gwirionedd, am Dduw, am danaf fy hun, ac am ffordd iachawdwriaeth i bechaduriaid trwy ffydd ynof fi fel Prophwyd ac Arch-offeiriad, a thrwy ufudd-dod i mi fel Brenin. Dyma'r gwirionedd, a dyma'r moddion trwy ba rai yr wyf fi yn ennill fy holl fuddugoliaethau, yn sefydlu fy mreniniaeth, ac yn llywodraethu fy holl deyrnas. ‖ A phob un sydd yn adnabod y gwirionedd, ac wedi ei adgenedlu trwy ac o'r gwirionedd, sydd yn credu fy nhystiolaeth o'r galon, ac yn ymroddi yn ddeiliad ufudd ac ewyllysgar i mi, tra mae y rhai a garant gelwydd yn fy ngwrthod ac yn fy erlid I.

38 * Pilat a ddywedodd wrtho, [z] Beth yw gwirionedd? † Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a aeth allan drachefn at yr Iuddewon, ac a ddywedodd wrthynt, [a] ‡ Nid wyf fi yn cael dim achos ynddo ef.

z Act. 17. 19, 20, 32. a 24. 25, 26. a pen. 19. 4, 6, 21, 22. Mat. 27. 18, 19, 24. Marc 15. 14. Luc 23. 4, 14—16. 1 Pedr 1. 19. a 2. 22, 23.

* Mae yn amlwg nad oedd y pagan tywyll hwn yn gwybod dim byd am y gwirionedd, nac am ddim o'r pethau a ddywedasai yr Iesu wrtho am ei deyrnas, bod o'r gwirionedd, a gwrando ei leferydd ef. Gofynodd beth oedd gwirionedd, un ai o chwilfrydedd, o wawd, neu ynte efallai, o ryw radd o barch i'r Iesu wrth weled ei ymddygiad hardd a sobr ef wrth gael ei holi. ‡ Ond cymmaint oedd ei ddifaterwch ef am wybod, fel yr aeth allan drachefn cyn i Grist gael amser i ateb ei ofyniad ef. Llawer a ofynant bethau pwysig yr un modd â Pilat, ond nid ydynt yn gofalu nemawr am eu gwybod. ‡ Beth bynag oedd natur y freniniaeth y soniodd Crist am dani, nid oedd Pilat yn ystyried fod niwed yn y byd ynddo ef, na pherygl yn y byd i'r llywodraeth Rufeinig oddi wrtho: am hyny mynasai ei ollwng ef yn rhydd yn y fàn o'i ran ef.

39 [b] * Eithr y mae gennych chwi ddefod, i mi ollwng i chwi un yn rhydd ar y pasc: † a fynnwch chwi gan hynny [c] i mi ollwng yn rhydd i chwi † Frenhin yr Iuddewon?

b Mat. 27. 15—18. Marc 15. 6, 8—10. Luc 23. 17, 20. c adn. 33.

* Am y "ddefod" hon, gwel ar Matth. 27. 15. † Gwyddai Pilat mai hollawl ddiniwed oedd Iesu, mai o genfigen y traddodasai yr Iuddewon ef, am hyny cynnygiodd ei ollwng *ef* yn rhydd iddynt, yn hytrach na neb arall. ‡ Efallai mai mewn gwawdiaith yr oedd Pilat yn galw yr Iesu yn Frenin yr Iuddewon yma, er dirmyg ar Iesu ei hun, ac er duchanu yr Iuddewon am ddyfod a'r fath gyhuddiad yn erbyn un mòr isel ac annhebyg i Frenin.

40 [d] * Yna y llefasant oll drachefn, gan ddywedyd, Nid hwnnw, † ond Barabbas. A'*r* Barabbas *hwnnw* oedd leidr

d Mat. 27. 16, 26. Marc 15. 7, 15. Luc 23. 18, 19, 25. Act. 3. 13, 14.

* Dyma yr haerllugrwydd mwyaf, a phawb yn cytuno ynddo; mynent roddi y Sanct a'r Cyfiawn i farwolaeth heb brofi dim yn ei erbyn; † a dewis rhyddâu drwgweithredwr ysgeler, a fuasai yn euog o derfysg, lladrad, a llofruddiaeth.

PEN. XIX.

Fflangellu Crist, a'i goroni â drain.

* YNA [a] gan hynny y cymmerodd Pilat yr Iesu, [b] ac a'*i* fflangellodd *ef*.

a Mat. 27. 26. Marc 15. 15. Luc 23. 16, 23. b Salm 129. 3. Es. 50. 6. a 53. 5. Mat. 20. 19. a 23. 34. Marc 10. 33, 34. Luc 18. 33. Act. 16. 22, 23. a 22. 24, 25. 2 Cor. 11. 24, 25. Heb. 11. 36. 1 Pedr 2. 24.

* Byddai y Rhufeiniaid yn arfer ffrewyllu y rhai a groeshoelient cyn eu croeshoelio: ond tybir fod Pilat yn gobeithio y buasai yr Iuddewon yn tirioni, wrth weled ffrewyllu yr Iesu, ac yn cydsynio i'w ollwng ef yn rhydd ar hyny: yn enwedig gan nad oeddynt wedi profi dim bai yn ei erbyn ef.

2 [c] * A'r milwyr a blethasant goron o ddrain, ac a'i gosodasant ar ei ben ef, ac a roisant wisg o borphor am dano;

c adn. 5. Salm 22. 6. Es. 49. 7. a 53. 3. Mat. 27. 27—31. Marc 15. 17—20. Luc 23. 11.

* Mae yr efengylwyr eraill yn dywedyd am gorsen hefyd yn ei law ddehau ef: arwyddion breninol oedd y pethau hyn oll, i wneuthur gwawd o hóno ef fel Brenin yr Iuddewon. Gwel ar Matth. 27. 27—31.

3 * Ac a ddywedasant, [d] Henffych well, [e] Brenhin yr Iuddewon; † ac a roisant iddo gernodiau.

d Mat. 26. 49. a 27. 29. Luc 1. 28. e adn. 19—22. pen. 18. 33.

* Gwatwar yr oeddynt hwy wrth ddywedyd "Henffych well," eto dywedasant y gwir (ond nid yn eu hystyr hwy) oblegid Henffych well a fu iddo ef wedi hyny, ac a fydd iddo byth. † Nid oeddynt yn foddlawn ar *ddirmyg*, rhaid iddynt chwanegu *creulondeb* hefyd at eu dirmyg: gwnaethai coron o wellt y tro i'w *ddirmygu* ef, ond rhaid iddynt hwy gael coron o ddrain pigog, i arfer creulonder hefyd.

4 * Pilat gan hynny a aeth allan drachefn, ac a ddywedodd wrthynt, Wele yr wyf fi yn ei ddwyn ef allan i chwi, [f] † fel y gwypoch nad wyf fi yn cael ynddo ef un bai.

f adn. 6. pen. 18. 38. Mat. 27. 4, 19, 24, 54. Luc 23. 41, 47. 2 Cor. 5. 21. Heb. 7. 26. 1 Pedr 1. 19. a 2. 22. a 3. 18. 1 Ioan 3. 5.

* Dyma gynnyg arall a wnaeth Pilat ar ryddâu yr Iesu: ar ol ei ffrewyllu a'i ddirmygu fel y gwelsom uchod, dygodd ef allan i ŵydd y bobl, gan obeithio y buasai hyny yn ddigon, y buasent yn tyneru wrth yr olwg arno, ac yn foddlawn i'w ollwng ef yn rhydd. † Heblaw dangos Iesu iddynt, mae yn debyg yn ei waed erbyn hyn, mae Pilat yn tystiolaethu eto, nad oedd efe yn cael dim bai ynddo; dim yn haeddu angau, na dim yn wir i'w gyhuddo ef o hóno. Onid oedd efe yn feius iawn eisoes yn ffrewyllu y diniwed fel y gwnaeth, ac yn fwy beius wedi hyn yn ei gondemnio ef yn groes i'w gydwybod?

5 * Yna y daeth yr Iesu allan, yn arwain y goron ddrain, a'r wisg borphor. † A *Philat* a ddywedodd wrthynt, [g] Wele y dyn.

g pen. 1. 29. Es. 7. 14. a 40. 9. a 42. 1. Galar. 1. 12. Heb. 12. 2.

* Gyda hyn dyma'r Iesu addfwyn, gostyngedig, a sanctaidd, yn ymddangos ger eu bronau, a'i gefn yn archolledig, ei waed yn llifo, coron o ddrain ar ei ben, y wisg borphor am dano, a'i wyneb oll yn waed a phoeredd. † Ac fel pe dywedasai Pilat wrth yr Iuddewon, gan gyfeirio at yr Iesu, Wele y dyn truenus tlawd, gwelwch yr olwg resynol sydd arno! Byddwch foddlawn ar yr hyn a wnaed iddo; ac yn awr gadêwch i mi ei ollwng ef yn rhydd.

6 [h] * Yna yr arch-offeiriaid a'r swyddogion, pan welsant ef, a lefasant, gan ddywedyd, Croeshoelia, croeshoelia *ef*. † Pilat a ddywedodd wrthynt, [i] Cymmerwch chwi ef, a chroeshoeliwch: canys nid wyf fi yn cael dim bai ynddo.

h adn. 15. Mat. 27. 22, 23. Marc 15. 12—15. Luc 23. 21—23. Act. 2. 23. a 3. 13—15. a 7. 52. a 13. 27—29. i pen. 18. 31. Mat. 27. 24, 25.

* Cafodd Iesu fwy o dosturi gan Pilat, er mai pagan oedd, nac a gafodd efe gan ei genedl ei hun; ïe, gan y rhai a gymmerent arnynt fod yn fwyaf crefyddol a chyfiawn yn eu plith: mynai Pilat ei achub ef, maent

hwythau yn gwaeddi yn haerllug am ei waed ef, a hyny drwy yr angau creulonaf. † Mae Pilat eto yn tystiolaethu dros ei ddiniweidrwydd ef; ac megys yn deisyfu na byddai raid iddo ef fod yn euog o waed y diniwed, y byddai yn well ganddo iddynt hwy gymmeryd y weithred echryslawn arnynt eu hunain.

7 * Yr Iuddewon a attebasant iddo, [k] Y mae gennym ni gyfraith, ac wrth ein cyfraith ni efe a ddylai farw, [l] am iddo ei wneuthur ei hun yn Fab Duw.

k Lef. 24. 16. Deut. 18. 20. l pen. 5. 18. a 8. 58, 59. a 10. 30—33, 36—38. Mat. 26. 63—66. a 27. 42, 43. Marc 14. 61—64. a 15. 39. Rhuf. 1. 4.

* Fel pe dywedasent, Os nad wyt ti yn cael dim bai ynddo yn erbyn y llywodraeth Rufeinig, y mae genym ni gyfraith (Lefit. 24. 16; Deut. 18. 20,) ac wrth ein cyfraith ni efe a ddylai farw: efe a'i gwnaeth ei hun yn Fab Duw, yn ystyr uchelaf y gair, sef yn ogyfuwch â Duw, yn Dduw ei hun: (Ioan 5. 18; a 10. 33,) yr hyn sydd gabledd echrydus, teilwng o angau. Buasai hyn yn wir pe na buasai yr Iesu ddim ond dyn; ond eto, llabyddio a ddylasai ei angau fod, ac nid croeshoelio.

8 ¶ [m] * A phan glybu Pilat yr ymadrodd hwnnw, efe a ofnodd yn fwy;

m adn. 13. Act. 14. 11—19.

* Mae dwy ffordd i ddeall y geiriau hyn:—1. Yr oedd y Rhufeiniaid yn rhoddi coel i hen chwedlau barddonawl, am ddynion yn cael eu cenedlu gan y duwiau; ac efallai iddo dybied wrth y geiriau uchod o eiddo yr Iuddewon, mai un felly oedd yr Iesu, ac "ofni yn fwy" o herwydd hyny gwneuthur dim niwed iddo, rhag tynu y duwiau yn ei ben. Mae yn ddiammau fod Pilat wedi clywed lawer gwaith o'r blaen am weithredoedd gwyrthiol Iesu, yr hyn oedd gymmorth iddo gredu y chwedl uchod am dano, yn yr ystyr genedlig a enwyd. 2. Tybia eraill mai "ofni" yr Iuddewon "yn fwy" a wnaeth, *os na* roddai efe Iesu i farwolaeth, o herwydd y gwyddai efe pa mòr ffyrnig oeddynt hwy bob amser, pan wnelai neb unrhyw beth yn erbyn eu cyfreithiau hwy, fel y taerent fod Iesu wedi gwneyd. Cawsai Pilat brawf digonol o hyny ddwywaith; sef pan geisiodd efe ddwyn delw Cesar i Jerusalem, a phan geisiodd efe ddwyn dwfr i'r ddinas ar draul trysorfa gyssegredig y deml. Mae trydydd plaid, yn wir, yn meddwl mai ofni dialedd Duw yn fwy a wnaeth efe, os rhoddai efe Iesu i farwolaeth wedi clywed mai Mab Duw ydoedd.

9 * Ac a aeth drachefn i'r dadleudŷ, ac a ddywedodd wrth yr Iesu, [n] O ba le yr wyt ti? [o] † Ond ni roes yr Iesu atteb iddo.

n pen. 8. 14. a 9. 29, 30. Barn. 13. 6. o Salm 38. 13—15. Es. 53. 7. Mat. 27. 12—14. Marc 15. 3—5. Act. 8. 32, 33.

* Gwedi clywed y peth uchod, gofynodd Pilat i'r Iesu drachefn, Pwy, a pha beth wyt ti? o ba le y deilliaist? Ai dyn yn unig wyt ti, ai ynte Duw mewn cnawd? Dywed i mi pwy yw dy rieni, ac o ba le eith hanyw. † Gwyddai yr Iesu nad oedd Pilat yn addas i farnu am beth felly, ei fod yn annheilwng i gael ateb, wedi peri ei arteithio a'i anmharchu ef, pryd y gwyddai ei fod yn ddiniwed; gwyddai hefyd mai ei gondemnio ef a wnelai yn y diwedd, er dàl allan cyhyd; ac yr oedd efe yn barod i roddi ei einioes i lawr fel yr oedd wedi ei arfaethu iddo; am hyny ni roes efe ateb iddo.

10 * Yna Pilat a ddywedodd wrtho, Oni ddywedi di wrthyf fi? [p] † oni wyddost ti fod gennyf awdurdod i'th groeshoelio di, a bod gennyf awdurdod i'th ollwng yn rhydd?

p pen. 18. 39. Dan. 3. 15. a 5. 19.

* Synodd Pilat nad atebai yr Iesu, a dechreuodd frochi mewn tymherau drwg. Dynion annuwiol mewn awdurdod ydynt drahâus tuag at y rhai a dybiant yn israddolion iddynt. † Oni wyddost, ac onid wyt yn ystyried, dy fod yma fel drwg-weithredwr cyhuddedig yn fy llaw I? a bod genyf fi awdurdod i'th groeshoelio neu dy ollwng yn rhydd, fel y gwelwyf yn dda? Mae hyn yn dangos bod awdurdod ar fywyd ac angau wedi ei gymmeryd yn hollawl oddi ar yr Iuddewon y pryd hwn, ac yn llaw y Rhufeiniaid: ond ychydig a wyddai y Pilat hwn mai Duw a biodd bob awdurdod, uwchlaw pawb.

11 * Yr Iesu a attebodd, [q] Ni byddai i ti ddim awdurdod arnaf fi, oni bai ei fod wedi ei roddi i ti † oddi uchod: ‡ am hynny [r] yr hwn a'm traddodes i ti, sydd [s] fwy ei bechod.

q pen. 3. 27. Gen. 45. 7, 8. Ex. 9. 14—16. 1 Cron. 29. 11, 12. Salm 62. 11. Jer. 27. 5—8. Galar. 3. 37. Dan. 4. 17, 25, 32, 35. a 5. 21. Mat. 6. 13. Luc 22. 53. Act. 2. 23. a 4. 28. Rhuf. 11. 36. a 13. 1. Iago 1. 17. r pen. 11. 49, 50. Mat. 26. 65. a 27. 2. s pen. 9. 41. a 15. 22—24. Luc 7. 41, 42. a 10. 11—14. a 12. 47, 48. Iago 4. 17.

* Mae yr Iesu yma yn ceryddu balchder a thrahausder Pilat, ac yn dangos iddo nad oedd ganddo ddim awdurdod arno ef, ond fel yr oedd wedi ei roddi iddo gan Dduw, i wneuthur pa beth bynag a ragluniodd ei law a'i gyngor ef eu gwneuthur. † Dywed rhai fod y geiriau hyn, "oddi uchod," yn cyfeirio at sefyllfa y deml, lle y barnwyd Crist yn llŷs yr arch-offeiriad, yr hon oedd yn llawer uwch na dadleudŷ Pilat; ac fel pe dywedasai yr Iesu, Mi a wn, pa beth bynag ydwyt ti yn ei wneyd yn fy erbyn I, mai mewn canlyniad i'r farn a roed arnaf eisoes yn y llŷs uchod acw, yr wyt yn ei wneyd, am hyny mae eu pechod hwy yn fwy na dy bechod di. Ond gwell yw yr agoriad o'r blaen, a mwy tebygol o fod yn cynnwys meddwl yr Arglwydd Iesu. ‡ Nid oedd Pilat yn ddibechod; i'r gwrthwyneb mae Crist yn ei rybuddio yma ei fod yn tynu arno ei hun bechod mawr: ond yr oedd Caiaphas, yr hwn a'i traddododd ef i Pilat yn fwy ei bechod; am ei fod yn pechu yn erbyn mwy o wybodaeth, ac yn ceisio gau-dystion yn erbyn Iesu, lle nad oedd Pilat ond gweithredu yn ol y tystiolaethau hyny, heb wybod gwell.

12 [t] * O hynny allan y ceisiodd Pilat ei ollwng ef yn rhydd: † ond yr Iuddewon a lefasant, gan ddywedyd, Os gollyngi di hwn yn rhydd, [u] nid wyt ti yn garedig i Cesar. Pwy bynnag a'i gwnelo ei hun yn frenhin, y mae yn dywedyd yn erbyn Cesar.

t Marc 6. 16—26. Act. 24. 24—27. u pen. 18. 33—36. Luc 23. 2—5. Act. 17. 6, 7.

* Gan fod Pilat yn fwy-fwy sicr yn ei feddwl ei hun o hyd o ddiniweidrwydd Crist, ac o genfigen ei elynion yn ei erbyn, yr oedd yn dymuno fwy-fwy o hyd ei ollwng ef yn rhydd, ac yn arfer pob moddion a rhesymau gyda'r bobl i hyny. † Gan weled o'r Iuddewon nad oedd eu cyhuddiad olaf, adn. 7, ond gwneyd Pilat yn fwy ofnus i fyned yn mlaen na pheidio, dychwelasant drachefn at eu cyhuddiad cyntaf, sef bod Iesu yn hòni mai efe oedd Brenin yr Iuddewon; os gollyngai Pilat ef yn rhydd, nad oedd efe ddim yn ffyddlawn i Cesar; oblegid fod pwy bynag a'i gwnelai ei hun yn frenin yn gwrthryfela yn erbyn Cesar, ac mai ei le yntau oedd cospi y cyfryw, neu ateb am ei esgeulusdra i Cesar.

13 * Yna Pilat, [x] pan glybu yr ymadrodd hwn, a ddug allan yr Iesu; [y] ac a eisteddodd ar yr orsedd-faingc, † yn y lle a elwir y Palmant, ac yn Hebraeg, Gabbatha.

x adn. 8. Es. 51. 12, 13. a 57. 11. Luc 12. 5. y Salm 58. 1, 2. a 82. 5—7. a 94. 20, 21. Preg. 5. 8. Amos 5. 7.

* Yn yr adnod o'r blaen, yr oedd yr Iuddewon yn gystal a bygwth Pilat, y cyhuddent hwy ef o anffyddlondeb i Cesar, oni roddai efe yr Iesu i farwolaeth: ac yr oedd yntau yn deall eu geiriau fel hyny, a chawsant yr effaith a fynasent hwy ar ei feddwl ef. Efe a brysurodd i gondemnio yr Iesu diniwed yn groes i'w gydwybod ei hun, er boddloni yr Iuddewon, a rhag yr achwynent arno wrth Cesar ac y collai ei le, yr hyn oedd yn ofni yn fwy na cholli ei enaid. Dyn eiddigus, creulawn oedd Tiberius Cesar, a gwyddai Pilat hyny yn dda. † Math o esgyn-lawr, wedi ei balmantu yn gywrain a hardd, ydoedd hwn, lle byddai y rhaglaw Rhufeinig yn

eistedd i farnu achosion dàn yr awyr agored, ac nid yn y dadleudŷ. Ystyr y gair Gabbatha yw, uchelfa; neu le dyrchafedig.

14 [z] * A darpar-wyl y pasc oedd hi, † ac ynghylch [a] y chweched awr: ac efe a ddywedodd wrth yr Iuddewon, [b] ‡ Wele eich Brenhin.

z adn. 31, 32, 42. Mat. 27. 62. Marc 15. 42. Luc 23. 54. a Marc 15. 25, 33, 34. b adn. 3, 5, 19—22.

* Ein dydd Gwener y Croglith ni oedd y diwrnod hwn, a'r dydd o flaen sabbath pasg yr Iuddewon. † Os yn ol dull y Rhufeiniaid o gyfrif, y deallwn y geiriau hyn, tua chwech y bore ydoedd; ond os yn ol dull yr Iuddewon, tua hanner dydd ydoedd. Gwel ar Marc 15. 25. Dywed Marc mai y drydedd awr oedd hi pan groeshoeliwyd ein Harglwydd, sef yr holl ysgraid rhwng naw o'r gloch a deuddeg; a dywed Ioan yma mai yn nghylch y chweched awr ydoedd, sef yn agos i ddeuddeg: fel hyn nid oes dim anghysondeb mawr rhwng y ddau efengylwr, ond cymmeryd *trydydd* awr Marc ychydig *wedi* naw, ac yn *nghylch chweched* awr Ioan ychydig *cyn* deuddeg. ‡ Wele eich Brenin: Wele dyma i chwi Frenin gwŷch! Gwelwch pa olwg wael a dirmygedig sydd arno. Ai dyma'r dyn sydd i beryglu y llywodraeth? A ydyw yn werth condemnio a chroeshoelio y fath hyn am hòni hawl i'r goron?

15 * Eithr hwy a lefasant, [c] Ymaith âg *ef*, ymaith âg *ef*, croeshoelia ef. † Pilat a ddywedodd wrthynt, A groeshoeliaf fi eich Brenhin chwi? ‡ A'r arch-offeiriaid a attebasant, [d] Nid oes i ni frenhin ond Cesar.

c adn. 6. Luc 23. 18. Act. 21. 36. a 22. 22. d pen. 18. 31. Gen. 49. 10. Ezec. 21. 26, 27.

* Po mwyaf y ceisiai Pilat eu llarieiddio hwy, mwyaf yr oeddynt hwythau yn ymgynddeiriogi, yn groes i bob rheswm. Ymaith ag ef, ebynt hwy, o'n golwg ni, mae yn gas genym ni ei weled ef; hoelia ef ar y groes, fel un a haeddai farw dàn felltith. † Mae Pilat yma yn eu gwatwar hwy, yn amlwg, pan mae yn dywedyd, A groeshoeliaf fi eich Brenin chwi? Ac wrth eu gwatwar hwy mae yn dangos mwy o ysgafnder a chellwair o lawer, nag a ddylasai, gyda gweithred mòr echryslawn. Daeth yn chwerw iddo wedi hyny! ‡ Dyma'r dynion mwyaf eiddigus yn y byd o'u rhyddid, eu breintiau, a'u hanymddybyniaeth; a'r rhai a fyddent bob amser yn petruso talu teyrnged i Cesar; yn awr yn gwaeddi yn groch, Nid oes i ni frenin ond Cesar: a'r cwbl o wir awydd rhoddi yr Iesu i farwolaeth. "A fyno Duw a fydd:" rhaid i bob peth gydweithio i gael ei amcanion ef i ben.

16 * Yna gan hynny efe a'i traddodes ef iddynt i'w groeshoelio. † A hwy a gymmerasant yr Iesu, ac a'i dygasant ymaith.

e Mat. 27. 26—31. Marc 15. 15—20. Luc 23. 24, 25.

* Bu cydwybod Pilat yn hir yn ymladd dros Crist, ond colli y dydd a wnaeth yn y diwedd; efe a'i traddododd ef iddynt i'w groeshoelio er boddloni yr Iuddewon, a rhag ofn y gwnelent achwyn arno ef wrth Cesar. Ofn dyn sydd yn dwyn magl; a magl ddychrynllyd ei chanlyniadau a fu hon i Pilat: yr hyn a ofnodd a ddaeth iddo yn fuan wedi hyn, drwy alltudiaeth, tòr calon, a syrthio ar ei gleddyf ei hun. † Yr oedd gelynion Iesu yn awyddus i osod y ddedfryd mewn gweithrediad yn ddïoed, o dra gelyniaeth ato, a rhag i Pilat newid ei feddwl, neu i ganlynwyr a chyfeillion Iesu godi terfysg a mynu ei ryddâu ef.

17 * Ac efe [f] gan ddwyn ei groes, [g] a ddaeth i le a elwid Lle y benglog, ac a elwir yn Hebraeg, [h] Golgotha:

f Mat. 10. 38. a 16. 24. a 27. 32. Marc 8. 34. a 10. 21. a 15. 21. Luc 9. 23. a 14. 27. a 23. 26. g Lef. 16. 21, 22. a 24. 14. Num. 15. 35, 36. 1 Bren. 21. 13. Luc 23. 33. Act. 7. 58. Heb. 13. 11—13. h Mat. 27. 33, 34. Marc 15. 21, 22. Luc 23. 33.

* Gwel ar Matth. 27. 31, 32, 33: nid oes achos helaethu yma, ceisiwyd dangos cysondeb yr efengylwyr â'u gilydd yn nghylch dwyn y groes, &c., yno. Gwel hefyd ar Marc 15. 21, 22.

18 [i] * Lle y croeshoeliasant ef, a dau eraill gŷd ag ef, un o bob tu, a'r Iesu yn y canol.

i pen. 18. 32. Salm 22. 16. Es. 53. 12. Mat. 27. 35—38, 44. Marc 15. 24—28. Luc 23. 32—34. Gal. 3. 13. Heb. 12. 2.

* Gwel ar Matth. 27. 38; a Luc 23. 32, 33.

19 ¶ * A Philat [k] a ysgrifenodd ditl, ac a'i dododd ar y groes. A'r ysgrifen oedd, [l] IESU O NAZARETH, BRENHIN YR IUDDEWON.

k Mat. 27. 37. Marc 15. 26. Luc 23. 38. l adn. 3, 12. pen. 1. 45, 46, 49. a 18. 33. Act. 3. 6. a 26. 9.

* Wrth sylwi ar Matth. 27. 37, addawyd sylwi yn fanylach ar yr ysgrifen hon pan ddelid at Ioan; ond tybia y cyfieithydd fod pob peth angenrheidiol wedi ei ddywedyd wrth sylwi ar Luc 23. 38. Yr oedd y tair iaith hyn yn cael eu siarad yn fwy cyffredin na dim ieithoedd y pryd hwnw, a rhwng y tair gallai pawb agos ag oedd yn Jerusalem ddeall yr ysgrifen. Fel hyn yr oedd Pilat yn ddïarwybod iddo ei hun, yn cyhoeddi i genedloedd y ddaear, mai Iesu y Nazarêad oedd Brenin yr Iuddewon, y Messiah dysgwyliedig; ac mewn effaith yn condemnio ei ddedfryd ei hun yn rhoddi y fath un i farwolaeth.

20 * Y titl hwn gan hynny a ddarllenodd llawer o'r Iuddewon: oblegid agos i'r ddinas oedd y fan lle y croeshoeliwyd yr Iesu, † ac yr oedd wedi ei ysgrifenu [m] yn Hebraeg, [n] Groeg, *a* Lladin.

m adn. 13. pen. 5. 2. Act. 21. 40. a 22. 2. a 26. 14. Dat. 16. 16. n Act. 21. 37. Dat. 9. 11.

* Yr oedd lleoedd dienyddio gan yr Iuddewon, fel gan bob cenedl arall, y tu allan i'w dinasoedd, ond eto yn agos i'w dinasoedd, tua dwy ystad, neu y bedwerydd ran o filltir, meddant. Fel hyn cafodd yr holl Iuddewon, (Groegiaid a Rhufeiniaid hefyd, yn wir,) y rhai a ddaethent i fynu i Jerusalem i'r wyl, gyfle i ddarllen yr ysgrifen, a gweled am ba beth y rhoddid yr Iesu i farwolaeth. † Gwel ar adn. 19.

21 * Yna arch-offeiriaid yr Iuddewon a ddywedasant wrth Pilat, Nac ysgrifena, Brenhin yr Iuddewon; † eithr dywedyd o hono ef, Brenhin yr Iuddewon ydwyf fi.

* Nid rhyfedd bod yr arch-offeiriaid yn anfoddlawn i'r ysgrifen; oblegid yr oedd megys yn dangos iddynt hwy o genfigen a llid, erlid eu Messiah dysgwyliedig i farwolaeth: ac efallai fod Pilat yn ei bwriadu i'r dyben hyny. Tybient hwy yn warth iddynt, os elai y sôn ar led mai Iesu oedd eu Brenin, neu iddynt hwy groeshoelio eu Brenin. † Fel pe dywedasent, Na ddywed Brenin yr Iuddewon; oblegid yr ydym ni yn ei wadu ef yn hollawl fel hyny, megys y gwyddost ti yn dda: ond yn hytrach ysgrifena iddo ef ddywedyd, Brenin yr Iuddewon ydwyf fi; yna bydd y gwarth arno ef am draws hòni hawl i'r freniniaeth, a bydd yn anrhydedd i ninnau am roddi y fath ormes-deyrn i farwolaeth.

22 * Pilat a attebodd, [o] Yr hyn a ysgrifenais, a ysgrifenais.

o adn. 12. Salm 65. 7. a 76. 10. Diar. 8. 29.

* Yr oedd Pilat o'r blaen wedi anfoddloni yn fawr, yn ddïammau, o herwydd cael ei gymhell i gondemnio yr Iesu yn erbyn ei ewyllys; ac yr oedd y fath hyfdra â hyn yn ei anfoddloni yn fwy drachefn: ni fynai efe gael ei gyfarwyddo ganddynt hwy pa beth i ysgrifenu, ac ni newidiai yr ysgrifen i foddâu eu mympwy genfigenus hwy. Mae yn ddïammau fod awdurdod Duw yn gweithredu ar ei feddwl ef yn y peth hwn, er nas gwyddai efe, rhaid i'r ysgrifen sefyll fel yr oedd er tystiolaeth anrhydeddus i enw a chymmeriad Iesu.

23 ¶ [p] * Yna y milwyr, wedi iddynt groeshoelio yr Iesu, a gymmerasant ei ddillad ef (ac a wnaethant bedair rhan, i bob milwr ran)

a'i bais *ef:* † a'i bais ef oedd ddiwnïad, wedi ei gwau o'r cwr uchaf trwyddi oll.

p Mat. 27. 35. Marc 15. 24. Luc 23. 34.

* Am ranu dillad Iesu, gwel ar Matth. 27. 35. Ei ddillad isaf, neu dumewnol ef a feddylir, gellid rhanu y rhai hyny yn hawdd, oblegid dywedir mai pedwar dilledyn oeddynt, un i bob milwr, ond tafln cœlbren pa ddilledyn a gaffai pob un. † Dywed *Doddridge* mai y wisg dumewnol, nesaf at ei gorph, oedd y "bais" hon, ond dywed *Pool* a *Guyse*, mai y wisg uchaf oedd hi: nid yw o bwys yn y byd pa un ydoedd. Mae yn anhawdd gwybod pa fodd y gellid ffurfio dilledyn diwnïad felly yn y gwŷdd: dywedir i ryw ddynion celfyddgar wrth ddarllen am y wisg hon, feddwl am ddyfeisio gwŷdd i wëu y fath wisg, a bod darlun o hóno i'w weled yn Ngeiriadur Calmet dàn y gair Gwisgoedd *(Vestments.)* Diammau bod y "bais" hon o'r eiddo Iesu yn gywrain iawn, ac yn werthfawr; ac efallai wedi ei rhoddi iddo gan rai o'r gwragedd oedd yn ei ganlyn ac yn gweini iddo o'r hyn oedd ganddynt.

24 * Hwythau a ddywedasant wrth eu gilydd, Na thorrwn hi, ond bwriwn goel-brennau am dani, eiddo pwy fydd hi; [q] † fel y cyflawnid yr ysgrythyr sydd yn dywedyd, [r] Rhannasant fy nillad yn eu mysg, ac am fy mhais y bwriasant goel-brennau. ‡ A'r milwyr a wnaethant y pethau hyn.

q adn. 28, 36, 37. pen. 10. 35. a 12. 38, 39. r Salm 22. 18. Es. 10. 7. Act. 13. 27.

* Tybiai y milwyr yn resyn tòri y fath ddilledyn cywrain yn ddarnau, am hyny cytunasant i fwrw coelbren am dani, pwy a'i caffai hi. † Geiriau Dafydd yw yr "ysgrythyr" yma, Salm 22. 18; ei feddwl ef oedd, bod ei elynion yn cyfoethogi eu hunain â'i yspail ef; ond yr hyn a wnaed yn ffugyrol yn y cysgod, a wnaed yn llythyrenol i'r gwirhgysgod. ‡ Dywedir mai y "milwyr" a wnaeth hyn, i ddangos mai nid oddi ar eu gwybodaeth o'r brophwydoliaeth yr oeddynt hwy fel paganiaid yn ei wneuthur. Fel hyn mae Duw yn defnyddio dynion annuwiol a drygionus, i gyflawni yr ysgrythyrau, pryd nad ydynt hwy yn meddwl nemawr am hyny.

25 ¶ * Ac yr oedd yn sefyll wrth groes yr Iesu, [s] ei fam ef, [t] a chwaer ei fam ef, † Mair *gwraig* Cleophas, [u] ‡ a Mair Magdalen.

s Luc 2. 35. t Mat. 27. 55, 56. Marc 15. 40, 41. Luc 23. 49. u pen. 20. 1, 11—18. Marc 16. 9. Luc 8. 2.

* Dyma'r pryd y cyflawnwyd geiriau hen Simeon i Mair mam yr Iesu; "A thrwy dy enaid di dy hun hefyd yr â cleddyf:" Luc 2. 35. Nis gellir traethu na dychymmygu yr hyn oedd hi yn ddyoddef yn ei meddwl ar yr achlysur poenfawr a galarus hwn, am hyny ni wiw ceisio. † Gan nad yw y gair "gwraig" yn y Groeg, mae yn anhawdd penderfynu, pa un ai gwraig, ai mam, ai ynte merch Cleophas, oedd y Fair hon. Mae rhai yn tybied pob un o'r tri pheth, ond nid yw o bwys yn y byd i ni. ‡ Y Mair Magdalen o'r hon yr aethai saith gythraul allan, ydoedd hon yn ddïammau, Luc 8. 2; ac mae yn amlwg wrth yr adnod nesaf bod Ioan hefyd yno, er ei fod o wyledd yn peidio a'i enwi ei hun fel mewn llawer o fànau eraill. Mae cariad y gwragedd hyn at Iesu yn fawr iawn; nid oedd eu perygl eu hunain, yn nghanol torf o filwyr; echryslonrwydd yr olygfa; na gwarth a gwawd y bobl, yn gallu eu lluddias hwy i dalu y ddyledswydd olaf, a dangos eu tynerwch a'u cariad at yr Iesu anwyl. Nid oes genym ddim hanes fod Mair mam yr Iesu wrth y bedd, pan gladdwyd ef, na bore y trydydd dydd: tybir fod ei galar a'i gofid wedi ei gorchfygu fel nas gallai ddàl i fynu yn hwy. Nid oes dim hanes am dani o gwbl wedi yr adnod hon, ond yn unig dywedir ei bod gyda'r dysgyblion, yn Act. 1. 14; a dywed hanesion eglwysig iddi farw gyda Ioan yn Ephesus, hir flynyddoedd wedi hyn mewn oedran mawr iawn. Cymmer y pabyddion arnynt ddangos ei bedd hi yn Jerusalem, ac adroddant lawer o chwedlau ynfyd ac ofer-goelus am dano; ond y mae yr ysgrifenwyr goreu o honynt hwy eu hunain, yn cywilyddio wrth y fath chwedlau.

26 Yr Iesu gan hynny, pan welodd ei fam, * a'r disgybl yr hwn [x] a garai efe yn sefyll ger llaw, a ddywedodd wrth ei fam, [y] *O* wraig, † wele dy fab.

x pen. 13. 23. a 21. 7, 20, 24. y pen. 2. 4.

* Ioan ydoedd hwn, mynych y dywedir am dano mai y dysgybl a garai yr Iesu ydoedd, ac yma mae yn dangos hyny drwy orchymyn ei fam i'w ofal ef. † Sylwasom ar y dull hwn o lefaru gan Grist wrth ei fam o'r blaen, pen. 2. 4: mae yma yn dewis dywedyd fel hyn, "O wraig," i ddangos iddi hi fod pob perthynas naturiol rhyngddynt i ddarfod yn fuan; ei fod ef yn marw mewn ystyr llawer uwch nac fel mab iddi hi; ac i'r dyben fel na thynai efe sylw ei elynion oedd o amgylch ati hi, a'u llidiogrwydd yn ei herbyn hi, fel un yn perthyn mòr agos iddo ef. ‡ Gan droi ei wyneb, ac edrych ar Ioan, efe a ddywedodd wrth ei fam, "O wraig, wele dy fab;" yr hwn o hyn allan a ofala am danat ti fel mam, ac a dâl i ti ddyledswyddau anrhydedd a chariad fel mab. Mae yn amlwg wrth hyn fod Joseph gwr Mair wedi marw y pryd hwn; pe amgen ni buasai yr Iesu yn ei gorchymyn hi i ofal Ioan. Dyma esampl nodedig o gariad a dyledswydd plant at eu rhïeni.

27 * Gwedi hynny y dywedodd wrth y disgybl, [z] Wele dy fam. † Ac o'r awr honno allan y [a] cymmerodd y disgybl hi [b] i'w gartref.

z Gen. 45. 8. a 47. 12. Mat. 12. 48—50. a 25. 40. Marc 3. 34, 35. 1 Tim. 5. 2—4. a 1 Ioan 3. 18, 19. b pen. 16. 32.

* Gwedi dywedyd wrth ei fam am ystyried Ioan fel ei mab, a rhoddi ei hun dàn ei ofal ef; mae efe yn nesaf yn dywedyd wrth Ioan, "Wele dy fam;" yr hon wyf fi yn ymddiried i'th ofal di, i'w charu, ei hanrhydeddu, a darpar drosti fel pe byddai fam naturiol i ti, a thithau yn fab naturiol iddi hithau. † O hyny allan, cymmerodd Ioan hi gydag ef adref, ac ymddygodd tuag ati gyda phob parch dyledus fel pe buasai fam iddo. Yr oedd Ioan, fel y dysgyblion eraill, wedi gadael pob peth i ganlyn Crist; eto gallasai fod ganddo ryw gyfran yn baràus yn yr alwedigaeth a adawsai, neu efallai i'w dad Zebedëus adael meddiannau iddo wedi hyny. Nis gwyddom pa le na pha fodd y bu byw, ond gofalodd yr Arglwydd am dano ef a Mair rywfodd, tra buont byw.

28 ¶ * Wedi hynny yr [c] Iesu, yn gwybod fod pob peth wedi ei orphen weithian, [d] † fel y cyflawnid yr ysgrythyr, a ddywedodd, ‡ Y mae syched arnaf.

c adn. 30. pen. 13. 1. a 18. 4, 32 Luc 9. 31. a 12. 50. a 18. 31. a 22. 37. Act. 13. 29. d Salm 22. 15. a 69. 21.

29 [e] || Yr oedd gan hynny lestr wedi ei osod yn llawn o finegr: a hwy a lanwasant yspwng o finegr, § ac a'i rhoddasant ynghylch [f] isop, ac a'i dodasant wrth ei enau ef.

e Mat. 27. 34, 48. Marc 15. 36. Luc 23. 36. f Ex. 12. 22. Num. 19. 18. 1 Bren. 4. 33. Salm 51. 7.

* Gwyddai yr Iesu, yn ol y cytundeb tragywyddol rhyngddo ef â'r Tad, ac yn ol yr hen brophwydoliaethau am dano, fod pob peth weithian ar gael ei orphen yn berffaith, er llawn foddlonrwydd i gyflawnder Duw; † mynai gyflawni pob ysgrythyr a phrophwydoliaeth am dano ef i'r manylrwydd eithaf: ac, yn mhlith eraill, rhaid oedd cyflawni hòno yn Salm 69. 21; a 22. 15. Dywedodd Dafydd hwynt i arwyddo y trallodau trymion a lliosog oedd ei elynion yn dywallt arno; ond cyflawnwyd hwy yn llythyrenol yn nyoddefiadau Crist ar y groes. ‡ Nid rhyfedd bod syched arno ef, wrth ystyried y dwymyn boeth yr oedd ynddi, wedi chwysu y gwaed, gan boenau mawrion, ing corph, a thrallod meddwl uwchlaw amgyffred pawb byth. || Am y gwinegr hwn, gwel ar Matth. 27. 48. § "Rhoddasant yn nghylch isop:" "rhoddasant ar gorsen," medd Matth-

ew, a Marc: mae yn debyg mai ar gorsen hir o isop y dodasant yr yspwng wedi ei drochi yn y gwinegr; ac yna ei estyn i fynu at ei enau ef, fel y sugnai efe ef.

30 * Yna pan gymmerodd yr Iesu y finegr, † efe a ddywedodd, [g] ‡ Gorphenwyd: [h] ‖ a chan ogwyddo ei ben, efe a roddes i fynu yr yspryd.

g adn. 28. pen. 4. 34. Gen. 3. 15. Salm 22. 15. Es. 53. 12. Dan. 9. 24, 26. Zec. 13. 7. Mat. 3. 15. Rhuf. 3. 25, 26. a 10. 4. 1 Cor. 5. 7, 8. Col. 2. 14—17. Heb. 9. 11—14, 22—28. a 10. 1—14. a 12. 2. h pen. 10. 11, 18. Mat. 20. 28. a 27. 50. Marc 15. 37. Luc 23. 46. Phil. 2. 8. Heb. 2. 14, 15.

* Pan gymmerodd ef y gwinegr, er cyflawni y brophwydoliaeth (Salm 69. 21), † efe a ddywedodd, er anrhydedd ei Dad, er siomedigaeth i gythreuliaid, er gorfoledd i'w saint, ac er buddugoliaeth iddo ei hun; ‡ weithian mae y cwbl drosodd, a chwedi eu cyflawni yn berffaith: oblegid hyny yw ystyr y gair Groeg *(Tetelestai)* a gyfieithir yma "Gorphenwyd." Mae cyngor mawr fy Nhad, fy rhwymedigaethau I iddo, cysgodau a phrophwydoliaethau yr Hen Destament yn nghylch gwaith y prynedigaeth, yn nghyd a llawn fesur fy nyoddefiadau innau, yn awr wedi eu llwyr orphen, a'u cyflawni hyd yr eithaf. Mae y ddeddf seremoniol wedi ei chyflawni a'i diddymu; y ddeddf foesol wedi ei boddloni, ei mawrâu, a'i hanrhydeddu; dybenwyd camwedd, seliwyd pechodau, dygwyd cyfiawnder tragywyddol i mewn; llawn gadarnâwyd y cyfammod gras; llawn sefydlwyd sylfaen yr eglwys; a llwyr orphenwyd yr holl waith mawr a roddodd fy Nhad i mi ei wneyd ar y ddaear. ‖ A chyd a dywedyd hyn, efe, gan ddangos ei ewyllysgarwch i farw, a ogwyddodd ei ben, ac a anadlodd allan ei enaid sanctaidd, gan ddywedyd, mewn ffydd a nerth, a chyda llef uchel, *O Dad, i'th ddwylaw di y gorchymynaf fy ysbryd.* Gwel ar Luc 23. 46; Matth. 27. 56. Mae yn debyg i'r ing a'r tywyllwch, a ddechreuodd wasgu ar enaid ein Harglwydd yn yr ardd, y pryd hwn chwalu ymaith yn llwyr; ac iddo ef ymadael mewn cyflawn fwynâd o lewyrch wyneb ei Dad nefol.

31 * Yr Iuddewon gan hynny, [i] fel nad arhoai y cyrph ar y groes ar y sabbath, [k] o herwydd ei bod yn ddarpar-wyl (canys [l] † mawr oedd y dydd sabbath hwnnw) a ddeisyfasant ar Pilat, [m] ‡ gael torri eu hesgeiriau hwynt, a'u tynnu i lawr.

i adn. 14, 42. Mat. 27. 62. Marc 15. 42. k Deut. 21. 22, 23. l Lef. 23. 7—16. m adn. 1. Diar. 12. 10. Mica 3. 3.

* Yr oedd hyn yn ol y gyfraith, Deut. 21. 23; ac yr oedd y rhagrithwyr hyn yn fanwl iawn am gadw y gyfraith mewn pethau fel hyn; heb ystyried nemawr, eu bod hwy eu hunain wedi halogi y tir, yn y weithred echryslawn hon, yn llawer mwy nac y gallasai y cyrph meirw wneyd. † Yr oedd hwn yn sabbath mawr am ei fod yn sabbath y pasg; yn ail ddydd o ŵyl y bara croyw, o'r hwn y cyfrifent y saith wythnos hyd y pentecost; ac hefyd yn ddydd i offrymu yr ysgub blaenffrwyth: felly yr oedd yn ddydd o fawredd neillduol, a phawb yn darpar i'w gadw gyda manylrwydd anghyffredin. ‡ Byddai y Rhufeiniaid yn aml yn gadael cyrph y trueiniaid a groeshoelient ar y croesau, hyd oni ddarfyddai eu cnawd, neu hyd oni ysid hwynt gan yr adar; ond yn gyffredin caniatâent i'r Iuddewon gladdu y rhai a berthynent iddynt hwy, pan gaid sicrwydd eu bod wedi meirw; yr hyn ni byddai weithiau tàn dranoeth, neu yn hwy na hyny. Yma maent yn gofyn cenad gan Pilat i dòri ysgeiriau y tri, i brysuro eu marwolaeth, i gael eu claddu oddi ar wyneb y ddaear cyn y sabbath. Byddent yn gwneyd felly weithiau â thrueiniaid ar y groes o dosturi atynt, i'w tynu o'u poen, fel y dywedir; ond yn sicr, gallent brysuro eu marwolaeth trwy ryw ffordd esmwythach, a llai creulawn na dryllio esgyrn y trueiniaid annedwydd.

32 * Yna y milwyr a ddaethant, ac a dorrasant esgeiriau [n] y cyntaf, a'r llall, yr hwn a groeshoeliasid gyd âg ef.

n adn. 18. Luc 23. 39—43.

33 † Eithr wedi iddynt ddyfod at yr Iesu, pan welsant ef wedi marw eisoes, ni thorrasant ei esgeiriau ef.

* Peth rhyfedd iawn oedd i'r milwyr ddygwydd tòri esgeiriau y ddau eraill, cyn dyfod at yr Iesu, ac yntau yn y canol, rhwng y ddau. † Efallai eu bod yn gweled arwyddion bywyd yn y ddau hyny, ac yn ei weled yntau fel pe buasai wedi marw eisoes. Beth bynag am hyny, pan ddaethant ato ef, hwy a welsant yn amlwg ei fod ef wedi llwyr farw; yr oedd ei enaid sanctaidd ef wedi myned eisoes i baradwys, ac yn adn. 36, cawn weled beth oedd yr achos na thòrwyd ei esgeiriau ef. O dri dyn, a rodder i farwolaeth yn yr un modd, ac ar yr un pryd, mae yn bosibl i un farw o flaen y lleill; ond gellir meddwl yn eithaf rhesymol, mai nid o wendid y bu ein Harglwydd farw o flaen y lleill yma; yr oedd efe wedi gorphen ei waith, ac yna efe a *roddodd* i fynu yr ysbryd.

34 * Ond un o'r milwyr a wanodd ei ystlys ef â gwaywffon; ac yn y fan [o] daeth allan waed a dwfr.

o pen. 13. 8—10. Salm 51. 7. Ezec. 36. 25. Zec. 13. 1. Act. 22. 16. 1 Cor. 1. 30. a 6. 11. Eph. 5. 26, 27. Tit. 2. 14. a 3. 5—7. Heb. 9. 13, 14. a 10. 19—22. 1 Pedr 3. 21. 1 Ioan 1. 7—9. a 5. 6, 8. Dat. 1. 5. a 7. 14.

* I'r dyben o wneyd ei farwolaeth ef yn sicr, tu hwnt i bob ammheuaeth, ac er dangos ei ddibrisdod, ei ddirmyg, a'i greulondeb eithaf tuag at Iesu, hyd yn nôd wedi iddo farw; un o'r milwyr cigyddaidd a wànodd ei ystlys ef â gwaew-ffon. † Ac yn y fàn daeth allan waed a dwfr; mòr amlwg wahanrhedol, fel y gellid eu gwahaniaethu hwy yn hawdd oddi wrth eu gwahanol liwiau. Pa un a gyrhaeddodd y waew-ffon trwy lèn, neu wisg y galon, fel ei gelwir, ai peidio, nis gwyddis; pa fodd bynag y bu, goruwchlywodraethodd Duw hyn i fod yn brawf anwadadwy, o farwolaeth drylwyr a hollawl Iesu, fel nas gallai neb o'i elynion wadu ei farwolaeth ef ar ol iddo adgyfodi: oblegid, pe buasai bywyd ynddo pan gafodd efe y frath hon, buasai ei wânu felly yn angau sicr iddo yn y fàn. Dywedir bod y galon yn nofiaw mewn dwfr ag sydd yn y llèn, neu y wisg, o'i hamgylch; ond pa fodd y daeth gwaed allan gyda'r dwfr yma? Mae meddyg enwog a chrefyddol, ag sydd yn fyw yn bresenol, wedi ysgrifenu yn ddiweddar ar yr achos union-gyrchol o farwolaeth Crist, yn dywedyd, i'w galon ef ymdòri *(burst)* gan faint ei ofid a'i ddyoddefiadau, ac i'r gwaed ymdywallt allan fel hyny o'r galon am ben y dwfr oedd yn y wisg *(pericardium;)* ac yna pan wânodd y milwr y wisg hòno a'i waew-ffon, i'r ddau ffrydiaw allan am ben eu gilydd. Cofier, mai sylw allan o waith y meddyg hwnw yw y sylw diweddaf uchod, ac nid cyfieithiad o'r un o'n pedwar awdwr.

35 [p] * A'r hwn a'i gwelodd, a dystiolaethodd; a gwir yw ei dystiolaeth; ac efe a ŵyr ei fod yn dywedyd gwir, [q] † fel y credoch chwi.

p adn. 26. pen. 21. 24. Act. 10. 39. Heb. 2. 3, 4. 1 Pedr 5. 1. 1 Ioan 1. 1—3. q pen. 11. 15, 42. a 14. 29. a 17. 20, 21. a 20. 31. Rhuf. 15. 4. 1 Ioan 5. 13.

* Mae yn rhaid bod rhywbeth rhyfedd, ac anghyffredin, yn yr amgylchiad uchod; gan fod Ioan yn sicrâu cymmaint yn ei gylch. Nid dychymmyg, a chwedl gelwyddog ydoedd, ond gwirionedd a welodd efe; ac efe a *wyr* ei fod yn dywedyd gwirionedd. † Nid yn unig efe a'i gwelodd â'i lygaid, ond efe a gyfarwyddwyd hefyd gan yr Ysbryd Glân i dystiolaethu yr hyn a welodd; fel y credo pawb a glywont ei dystiolaeth ef, ddarfod dygwydd fel hyn i'r Iesu, a'i fod ef trwy waed a dwfr yn sancteiddio pawb a gredont ynddo, ac yn eu hachub hwynt. Tybia rhai mai at yr amgylchiad hwn mae Ioan yn cyfeirio yn ei epistol cyntaf, pen 5. 6; a bod y gwaed a'r dwfr yma yn arwyddo y ddau sacrament

efengylaidd, a bod Iesu fel hyn yn ateb i'r aberthau a'r amryw olchiadau dàn y ddeddf seremoniol.

36 * Canys y pethau hyn a wnaethpwyd, [r] fel y cyflawnid yr ysgrythyr, Ni thorrir asgwrn o hono.

r Ex. 12. 46. Num. 9. 12. Salm 22. 14. a 34. 20. a 35. 10.

* Yr oedd yr oen pasg gynt yn gysgod nodedig o Grist ein Pasg ni, yr hwn a aberthwyd drosom: nid oedd asgwrn i'r oen i gael ei dòri, a goruwch-lywodraethodd Duw bethau yn angau Crist, fel na thòrwyd asgwrn iddo yntau. Tybia rhai fod y gorchymyn i beidio tòri asgwrn o'r oen, yn nghyd ac amryw bethau eraill yn y pasg cyntaf hwnw, yn arwyddo y brys gyda'r hwn yr aeth Israel allan o'r Aipht; a bod Iesu yn marw ar y groes heb dòri asgwrn o hóno, yn arwyddo y nerth drwy yr hwn yr aeth efe trwy waith mawr y prynedigaeth. Er i'w esgyrn oll ymwahânu (Salm 22. 14,) fel esgyrn oen y pasg, eto ni thòrwyd yr un o honynt: aeth a'i esgyrn yn gyfain i'w fedd, er bod ei gnawd yn friw, a chyfododd yn wr perffaith fore y trydydd dydd. Yr un modd, pa faint bynag o brofedigaethau a dryllio a gaiff ei bobl ef yn y byd hwn, cânt godi yn ddinam ac yn ddïanaf oll fel yntau yn yr adgyfodiad mawr.

37 * A thrachefn, ysgrythyr arall sydd yn dywedyd, [s] † Hwy a edrychant ar yr hwn a wanasant.

s Salm 22. 16, 17. Zec. 12. 10. Dat. 1. 7.

* Dyma ysgrythyr arall yn cael ei chyflawni, (Zech. 12. 10,) yn y gwânu a fu arno. Peth anarferedig oedd hyn, ond yr oedd *rhaid*, nas gwyddai y milwr paganaidd a chïaidd hwn ddim am dano, i hyny gael ei wneyd i'r Iesu. Rhaid *gwneyd* y naill, a rhaid *peidio* gwneyd y llall, i gyflawni bwriad a geiriau Duw: a rhaid i'r geiriau gael eu cyflawni yn y ddau amgylchiad, gan ddynion nas gwyddent ddim am danynt, ac eto pawb o honynt yn cydweithredu i gyflawni cyngor a threfn ryfedd Duw. Trwy edrych ar y Crist hwn a wânwyd, y caiff pechaduriaid o bob cenedl ac oes, weled echryslonrwydd eu pechodau i alaru am danynt, a modd hefyd i gael eu gwaredu oddiwrthynt: gwaed, yn iawn drostynt, a dwfr i'w glanâu oddi wrthynt.

38 ¶ * Ac ar ol hyn, [t] Joseph o Arimathea (yr hwn oedd ddisgybl i'r Iesu, [u] eithr yn guddiedig, rhag ofn yr Iuddewon) a ddeisyfodd ar Pilat, gael tynnu i lawr gorph yr Iesu. A Philat a ganiattâodd iddo. † Yna y daeth efe ac a ddug ymaith gorph yr Iesu.

t Mat. 27. 57—60. Marc 15. 42—46. Luc 23. 50—54. u pen. 9. 22. a 12. 42. Diar. 29. 25. Phil. 1. 14.

* Gwel ar Matth. 27. 57—59; Marc 15. 43—46; a Luc 23. 50—53. Nis gwyddom bod achos chwanegu, na dim o bwys i chwanegu, yma, at yr hyn a ddywedwyd o'r blaen am Joseph o Arimathea, a'i ymddygiad hŷf a chlodfawr yn y tro hwn. † Gyda'r lladron yn ddïammau y cawsai yr Iesu ei gladdu fel ei groeshoelio, pe cawsai yr Iuddewon eu meddyliau; ond gan i Joseph gael cenad ac awdurdod gan Pilat i'w gladdu ef lle mŷnai efe, cafodd fedd gyda'r cyfoethog yn ei farwolaeth. Rhyfedd fel y mae Duw yn cyflawni ei holl air!

39 * A daeth [x] Nicodemus hefyd (yr hwn ar y cyntaf a ddaethai at yr Iesu o hŷd nos) [y] † ac a ddug fyrr ac alöes y'nghymmysg, tu a chan-pwys.

x pen. 3. 1, &c. a 7. 50—52. Mat. 12. 20. a 19. 30. y pen. 12. 7. 2 Cron. 16. 14. Can. 4. 6, 14.

* Cawsom ychydig o hanes Nicodemus yn pen. 3. 1—10; a'r modd y dadleuodd efe dros Grist eilwaith ger bron y *Sanhedrim*, pen 7. 50: wedi hyny ni chlywsom ddim sôn am dano hyd yn awr, mae yn dangos ei barch i gorph marw Crist. † Mae hyn yn dangos, nid yn unig cyfoeth Nicodemus, ond hefyd ei fawr gariad ef tuag at yr Iesu bendigedig. Nid yn unig fe'i heneiniwyd ef, fel y gwnâid i eraill yn gyffredin; ond claddwyd ef gyda chymysgedd mawr o bêr-aroglau, fel y gwnâid wrth gladdu y gwŷr mawr enwocaf. Gwel am Jacob, Gen 50. 2; ac Asa, 2 Cron. 16. 14. Tro annhebyg iawn oedd hwn i Iesu, ychydig bach o amser cyn iddo gymmeryd lle. Golwg brydferth oedd gweled y ddau wr boneddig, y ddau seneddwr hyn, yn cydweithredu; un yn gofyn y corph, yn rhoi y bedd, ac yn prynu llïeiniau yr amdo; a'r llall yn darpar y pêr-aroglau, mŷr ac aloes, wrth y can pwys, i bêr-arogli corph ein bendigedig Brynwr: teimlwn yn ddïolchgar iddynt am eu caredigrwydd mawr tuag at ein Harglwydd, er nad oedd dim o'i eisiau yn ei amgylchiad ef.

40 Yna y cymmerasant gorph yr Iesu, [z] ac a'i rhwymasant mewn llïeiniau, gyd âg aroglau, * fel y mae arfer yr Iuddewon ar gladdu.

z pen. 11. 44. a 20. 5—7. Act. 5. 6.

* Hyny yw, fel yr oedd arfer yr Iuddewon ar gladdu eu goreuon, eu pobl mwyaf anrhydeddus, fel y soniwyd uchod.

41 * Ac yn y fangre lle y croeshoeliasid ef, yr oedd gardd; [a] a bedd newydd yn yr ardd, yn yr hwn ni ddodasid dyn erioed.

a pen. 20. 15. 2 Bren. 23. 30. Es. 22. 16. Mat. 27. 60, 64—66. Luc 23. 53.

* Yr oedd gerddi yr Iuddewon allan o'r dinasoedd yn gystal a'u lleoedd claddu; a byddai llawer o'r gwŷr mawr yn trychu eu beddau yn eu gerddi yn mhell cyn eu marw, fel y cofient am eu marw yn nghanol eu rhodfëydd hyfryd. Dygwyddodd yn gyflëus iawn, bod gardd a bedd newydd yn perthyn i Joseph, (Matth. 26. 60.) yn agos i'r fàn lle y croeshoeliwyd yr Iesu, ac yn y bedd hwnw ni chladdesid neb erioed o'r blaen. Am hyn gwel ar Matth. 27. 60.

42 * Ac yno, [b] † rhag nesed oedd darpar-*wyl* yr Iuddewon, am fod y bedd hwnnw yn agos, [c] y rhoddasant yr Iesu.

b Salm 22. 15. Es. 53. 9. Mat. 12. 40. Act. 13. 29. 1 Cor. 15. 4. Col. 2. 12. c adn. 14, 31.

* Pa le y claddwyd y lladron nis gwyddom; ond *yno* y claddwyd yr Iesu: gyda'r *cyfoethog* yn ei farwolaeth. † Pa un a'i claddesid ef yn rhywle arall pe buasai chwaneg o amser nis gwyddom; mae yn sicr mai *yno* y mŷnai Duw iddo gael ei gladdu, ac mae yn debyg mai yno y mŷnai Joseph hefyd ei gladdu ef. Fel y dechreuodd pechod ac angau mewn gardd, cyfododd Arglwydd y bywyd hefyd, a buddugoliaethodd arnynt, mewn gardd: ac efallai bod cyfodiad Crist o fedd newydd, yn arwyddo ei fod ef wedi sancteiddio y bedd i'w bobl, fel y mae efe flaen-ffrwyth y rhai a hunant yn yr Iesu.

PEN. XX.

Mair yn dyfod at y bedd.

* Y [a] *DYDD* cyntaf o'r wythnos, [b] † Mair Magdalen a ddaeth y bore, ‡ a hi etto yn dywyll, at y bedd; ac a welodd [c] y maen wedi ei dynnu ymaith oddi ar y bedd.

a adn. 19, 26. Act. 20. 7. 1 Cor. 16. 2. Dat. 1. 10. b Mat. 28. 1. Marc 16. 1, 2, 9. Luc 24. 1—10. c Mat. 27. 60, 64—66. a 28. 2. Marc 15. 46. a 16. 3, 4.

* Y dydd cyntaf o'r wythnos oedd y dydd wedi y sabbath, yn ol Matthew 28. 1; a Marc 16. 1, 2: a pha fodd y dywed rhai yn ein plith mai y sabbath yw y dydd cyntaf o'r wythnos? † Yr oedd gwragedd eraill, heblaw Mair Magdalen, wedi dyfod at y bedd; tybia rhai mai hi a redodd ac a ddaeth gyntaf i'r fàn, ac mai am hyny yr enwir hi yn unig gan Ioan yma. Yr oedd ei chariad hi yn fawr, am hyny yr oedd brys ei henaid yn cyflymu ei thraed at y bedd. ‡ Am yr amser, gwel ar Matth. 28. 1: ceisiwyd cysoni yr holl efengylwyr yno. ‖ Er bod y maen yn fawr, wedi ei selio, a milwyr yn gwylio, yr oedd wedi ei dreiglo ymaith gan un o'r rhai cedyrn eu nerth sydd yn gwneuthur ei air Ef.

2 * Yna y rhedodd hi, ac a ddaeth at Simon Pedr, [d] a'r dysgybl arall yr hwn yr oedd yr Iesu yn ei garu, ac a ddywedodd wrthynt, [e] † Hwy a ddygasant yr Arglwydd ymaith o'r bedd, † ac ni wyddom ni pa le y dodasant ef.

d pen. 13. 23. a 19. 26. a 21. 7, 20, 24. e adn. 9, 13, 15. Mat. 27. 63, 64.

* Mae yr efengylwyr eraill yn adrodd amryw amgylchiadau yn y fàn yma nad yw Ioan yn eu crybwyll: cyfeiriwn y darllenwyr at y mànau hyny. Mae yn ddiau bod y gwragedd eraill gyda Mair Magdalen eto, ond mai hi a redodd yn gyntaf. Rhedeg i'r ddinas a wnaeth hi, oblegid yno yr oedd Pedr ac Ioan mae yn debyg y bore hwn. † Tybia *Scott* a *Doddridge* nad oeddynt wedi gweled yr angelion y pryd hwn, pe amgen ni ddywedasent fel hyn, "Hwy a ddygasant yr Arglwydd ymaith o'r bedd:" ond tybia *Guyse* eu bod wedi eu gweled, ond nad oedd rhyfedd yn y byd eu bod hwy yn eu braw, eu brys, a'u hammheuaeth, yn dywedyd fel hyn, er clywed gan yr angelion ei fod ef wedi adgyfodi. ‡ Mae y geiriau hyn, "Ni wyddom *ni*," yn y rhif lïosog, yn dangos fod eraill gyda Mair Magdalen wrth y bedd ac yn ymddiddan â Phedr ac Ioan. Gorchwyl pur anhawdd, ac a gadwai lawer o le mewn agoriad mòr fŷr, fyddai gosod yr hyn a ddywed y pedwar efengylwyr ar amgylchiadau y bore hwn, mewn un hanes cyson a threfnus: ac nid yw o bwys mawr iawn.

3 [f] * Yna Pedr a aeth allan, a'r disgybl arall; a *hwy* a ddaethant at y bedd:

f Luc 24. 12.

* Pedr yn unig a enwir yn Luc 24. 12; ond mae yn debyg y dylid egluro a deall Luc wrth Ioan yn y fàn yma.

4 * Ac a redasant ill dau ynghyd: † a'r disgybl arall [g] a redodd o'r blaen yn gynt na Phedr ac a ddaeth yn gyntaf at y bedd.

g 2 Sam. 18. 23. 1 Cor. 9. 24. 2 Cor. 8. 12.

* Yn Luc 24. 11, dywedir fod geiriau y gwragedd yn ngolwg yr apostolion fel gwegi, ac na chredasant iddynt: pa fodd bynag, effeithiodd eu geiriau yn fuan fel arall ar Pedr ac Ioan, a hwy a redasant ill dau megys am y cyntaf at y bedd i weled y gwirionedd. † Mae yn debyg fod Ioan yn ieuangach, ac yn fwy heinif, na Phedr; ac nid oedd yn cael ei wasgu gan euogrwydd ac ofn fel Pedr, am wadu ei Arglwydd; rhedodd yn gyflymach nag ef, a daeth yn gyntaf at y bedd.

5 * Ac wedi iddo grymmu, [h] efe a ganfu y llïeiniau wedi eu gosod: † er hynny nid aeth efe i mewn.

h pen. 11. 44. a 19. 40.

* Rhaid ei bod yn ddydd goleu erbyn hyn, oblegid wrth ymgrymu i edrych i mewn i'r ogof, gallai Ioan ganfod fod y llïeiniau amdo yno, wedi eu plygu yn drefnus, mae yn debyg, a'u gosod o'r neilldu, ond nis gallai weled fod corph yr Iesu yno. † Nid aeth Ioan i mewn: efallai mai rhyw ddychryn oedd ar ei deimladau ef, i fyned i mewn i'r ogof, neu y bedd. Mae efe yn onest iawn, yn adrodd y cwbl fel y bu.

6 [i] * Yna y daeth Simon Pedr yn ei ganlyn ef, ac a aeth i mewn i'r bedd, ac a ganfu y llïeiniau wedi eu gosod;

i pen. 6. 6, 67—69. a 18. 17, 25—27. a 21. 7, 15—17. Mat. 16. 15, 16. Luc 22. 31, 32.

7 † A'r napcyn a fuasai am ei ben ef, wedi ei osod, nid gyd â'r llïeiniau, ond o'r neilldu wedi ei blygu mewn lle arall.

* Os nad oedd Pedr mòr gyflym ar ei droed â Ioan, yr oedd yn fwy dewr a diofn ei ysbryd nag ef: nid yn unig y tro hwn, ond yr oedd efe yn nodedig am hyny bob amser, ond yr un tro hwnw yn wir pan y gwadodd efe ei Arglwydd. Anturiodd ef i mewn, i'r bedd yn y fàn; ac a gafodd y llïeiniau fel y gwelsai Ioan hwynt. † Sylwodd Pedr yn fanylach ar bethau yn y bedd nac y gallasai Ioan wrth edrych oddi allan; a gwelodd y llïeiniau wedi eu gosod mewn un màn, a'r napcyn a fuasai am ben Iesu wedi ei blygu a'i osod mewn màn arall. Yr oedd hyn yn brawf eglur mai nid lladrata ei gorph ef mewn brys a wnaed, gan na gelyn na chyfaill; ond gwaith arafaidd, pwyllog, a gofalus, a fu yno, pwy bynag a'i gwnaeth, pa un bynag ai Iesu ei hun, ai ynte yr angelion. Annoeth a rhyfygus iawn fyddai ymholi pwy a wnaeth hyn oll, ac hefyd pa le y cafodd Iesu ei ddillad pan adgyfododd; yr angelion yn ddiammau (medd *Doddridge*) a'u dygasant iddo; ac efallai mai y gwahaniaeth yn eu lliw a'u dull rhagor ei ddillad arferol, oedd yr achos fod ei gyfeillion yn methu ei adnabod ar yr olwg gyntaf.

8 * Yna yr aeth y disgybl arall hefyd i mewn, yr hwn a ddaethai yn gyntaf at y bedd; [k] ac a welodd, † ac a gredodd.

k adn. 25, 29. pen. 1. 50.

* Gwedi gweled Pedr yn myned i mewn, ymhyfâodd Ioan, ac aeth i mewn hefyd, a chanfu bob peth yr un modd a Phedr. Nid hudoliaeth oedd yma, ond gwirionedd; a dyma ddau dyst o hòno. † A gredodd yr hyn a ddywedasai y gwragedd medd rhai, fod rhywrai wedi dwyn yr Iesu ymaith o'r bedd: ond tebycach yw, mai credu fod yr Iesu wedi adgyfodi, oedd meddwl Ioan yn y geiriau, "Ac a gredodd."

9 * Canys hyd yn hyn [l] ni wyddent yr ysgrythyr, [m] fod yn rhaid iddo gyfodi o feirw.

l Mat. 16. 21, 22. Marc 8. 31—33. a 9. 9, 10, 31, 32. Luc 9. 45. a 18. 33, 34. a 24. 26, 44—46. m Salm 16. 10. a 22. 15, 22, &c. Es. 25. 8. a 26. 19. a 53. 10—12. Hos. 13. 14. Act. 2. 25—32. a 13. 29—37. 1 Cor. 15. 4.

* Er bod amryw brophwydoliaethau a chysgodau yn yr Hen Destament, o adgyfodiad Iesu; ac er i Grist ei hun lawer gwaith sôn wrth ei ddysgyblion am ei adgyfodiad; eto y cyfryw oedd annwybodaeth a dallineb y dysgyblion eu hunain, am farwolaeth ac adgyfodiad y Messiah, fel nas gwyddent yr ysgrythyr am y pethau hyny. Er bod ei élynion yn ofni y cyfodai, ac wedi gwneyd y cwbl a allent hwy i luddias hyny; nid oedd ei ddysgyblion yn dysgwyl dim am y fath beth hyd oni welsant gyflawniad o hòno.

10 * Yna y disgyblion [n] a aethant ymaith drachefn at yr eiddynt.

n pen. 7. 53. a 16. 32.

* Gwedi gweled nad oedd corph yr Iesu yn y bedd, ac, efallai yn ofni, os gwelai yr Iuddewon hwy yno mòr fore, eu bod yn lladrata ei gorph ef; hwy a aethant ymaith at eu cyfeillion, i ddywedyd yr hyn a welsent, ac i ddysgwyl gyda hwynt beth a ddeuai o hyn yn mhellach.

11 ¶ * Ond Mair † a safodd wrth y bedd oddi allan, yn wylo: ac fel yr oedd hi yn wylo, hi a ymostyngodd i'r bedd;

* Wrth gymharu adn. 14 o'r bennod hon â Marc 16. 9, mae yn amlwg mai Mair Magdalen oedd y Fair hon: hi a welodd Iesu gyntaf, medd Marc, ac mae efe yn ymddangos i'r Fair hon yn adn. 14. † Yr oedd ei henaid hi o'i mewn yn alarus ac yn hiraethlawn; ac fel pe buasai yn methu ymadael o'r fàn heb gael clywed rhywbeth am yr hwn oedd hoff gan ei henaid.

12 [o] * Ac a ganfu ddau angel [p] mewn *gwisgoedd* gwŷnion, † yn eistedd, un wrth ben, ac un wrth draed y lle y dodasid corph yr Iesu.

o Mat. 28. 3—5. Marc 16. 5, 6. Luc 24. 3—7, 22, 23. p 2 Cron. 5. 12. Dan. 7. 9. Mat. 17. 2. Act. 1. 10. Dat. 3. 4. a 7. 14.

13 ‡ A hwy a ddywedasant wrthi, [q] O wraig, [r] paham yr wyt ti yn wylo? || Hithau a ddywedodd wrthynt, [s] Am ddwyn o honynt

hwy fy Arglwydd i ymaith, ac nas gwn pa le y dodasant ef.

q pen. 2. 4. a 19. 26. r adn. 15. pen. 14. 27, 28. a 16. 6, 7, 20—22. 1 Sam. 1. 8. Salm 42. 3—5, 11. Preg. 3. 4. Jer. 31. 16. Luc 24. 17. Act. 21. 13. s adn. 2.

* Nid hir y bu nes cael clywed, a gweled hefyd; ac nid hir y bydd neb, sydd yn ddifrifol yn ceisio yr Iesu, heb ei gael ef. Mae yn debyg i'r ddau angel hyn ymddangos iddi ar wedd ddynol, fel dau wr ieuanc prydferth, mewn gwisgoedd gwynion. Gwel ar Matth. 28. 5; Marc 16. 5; a Luc 24. 4. † Wrth fod y ddau angel fel hyn "yn eistedd, un wrth ben, ac un wrth draed y lle y dodasid corph yr Iesu," yr oeddynt yn debyg i'r cerubiaid gynt wrth ddau ben y drugareddfa, ac yn talu anrhydedd amlwg i'w Harglwydd, fel pe buasai efe wedi cyfodi rhyngddynt hwy, yr hwn a groeshoeliesid mòr ddiweddar rhwng dau leidr. Yn y golygiadau uchod, mae rhywbeth gogoneddus iawn yn yr amgylchiad hwn. ‡ Mae yn bur debyg y gwyddai yr angelion beth oedd yr achos fod Mair yn wylo; ond yr oeddynt yn gofyn iddi i'r dyben o ddechreu ymddiddan â hi, yr hwn ymddiddan a gawn yn yr efengylwyr eraill, yn enwedig yn Luc 24. 4—7. || Fel pe dywedasai Mair, O syrs! y mae genyf ddigon o achos i wylo, yn fy nhyb I yn bresenol; mi a gollais fy anwylaf Arglwydd, lladrataodd rhyw rai ei gorph ef o'r bedd, ac nis gwn I pwy, na pha le y dodasant ef.

14 * Ac wedi dywedyd o honi hyn, hi a droes drach ei chefn, [t] † ac a welodd yr Iesu yn sefyll: [u] ‡ ac nis gwyddai *hi* mai yr Iesu oedd efe.

t Can. 3. 3, 4. Marc 16. 9. u pen. 8. 59. a 21. 4. Marc 16. 12. Luc 4. 30. a 24. 16, 31.

* Gyda dywedyd hyn hi a droes yn sydyn drach ei chefn, fel pe buasai am edrych bob ffordd ar unwaith, neu efallai iddi y pryd hwnw glywed trwst traed yr Iesu y tu ol iddi; † hi a ganfu yr Iesu yn sefyll agos yn ei hymyl, ‡ ond un ai yn ei braw, ei gofid, a'i gwylltineb, neu ynte trwy ryw ledrithiad o'r eiddo Iesu, nid adnabu hi ef, nis gwyddai hi mai yr Iesu ydoedd efe.

15 * Yr Iesu a ddywedodd wrthi, *O* wraig, paham yr wyt ti yn wylo? [x] pwy yr wyt ti yn ei geisio? † Hithau yn tybied mai y garddwr oedd efe, a ddywedodd wrtho, ‡ Syr, [y] os tydi a'i dygaist ef, dywed i mi pa le y dodaist ef, a myfi a'i cymmeraf ef ymaith.

x pen. 1. 38. a 18. 4, 7. Can. 3. 2. a 6. 1. Mat. 28. 5. Marc 16. 6. Luc 24. 5. y 1 Sam. 1. 16. Mat. 12. 34.

* Wylo yr oedd Mair o hyd, a cheisio yr Iesu; er dywedyd o'r angelion wrthi (yn ol yr efengylwyr eraill,) ei fod ef wedi adgyfodi: mae yn debyg fod yn anhawdd ganddi gredu peth mòr rhyfedd er maint yr oedd yn ei ddymuno. † Mae hyn yn dangos nad oedd dim gwychder yn y byd yn ymddangosiad na gwisgiad yr Arglwydd Iesu pan welodd Mair ef, pe amgen ni buasai yn tybied mai y garddwr oedd efe: yr un modd pan ymddangosodd efe i'r ddau ddysgybl ar y ffordd tuag Emmaus, nid oedd dim yn yr olwg arno i beri iddynt hwy feddwl ei fod ond rhyw ddyn cyffredin fel hwythau. ‡ Efallai i Mair feddwl y gallasai y garddwr fel y tybiai hi, glywed yr hyn a ddywedasai hi wrth yr angelion, adn. 13; ac nad oedd achos iddi *enwi* ei Harglwydd drachefn yma, dim ond dywedyd *ef:* neu, yr oedd y mater yn gymmaint ar ei meddwl hi fel y tybiai fod y dyn dieithraf yn y byd yn gwybod pwy oedd yn feddwl, dim ond dywedyd fel yna. Os cymmeraist ti, neu rywun wrth dy orchymyn di, ef ymaith, dywed i mi pa le y dodwyd ef, ac mi a'i cymmeraf ef i'w gladdu yn anrhydeddus.

16 * Yr Iesu a ddywedodd wrthi, [z] Mair. [a] † Hithau a droes, ac a ddywedodd wrtho, [b] Rabboni; yr hyn yw dywedyd, Athraw.

z pen. 10. 3, 4. Gen. 22. 1, 11. Ex. 3. 4. a 33. 17. 1 Sam. 3. 6, 10. Es. 43. 1. Luc 10. 41. Act. 9. 4. a 10. 3. a Gen. 45. 12. Can. 2. 8, &c. a 5. 2. Mat. 14. 27. b adn. 28. pen. 1. 38, 49. a 3. 2. a 6. 25. a 11. 28. a 13. 13. Mat. 23. 8—10.

* Efallai i Grist lefaru mewn llais gwahanol i'w lais arferol ei hun, o'r blaen; yma mae yn myned i'w egluro ei hun i Mair, ac yn dywedyd wrthi, Beth, Mair, ai tydi sydd fel hyn yn wylo am dy anwylyd? † Gyda hyn adnabu Mair ef yn y fàn, a chyfarchodd ef wrth yr enw anrhydeddus *Rabboni.* Sylwa llawer o'r beirniaid dysgedig, fod *Rabbi* yn fwy anrhydeddus na *Rabb,* a *Rabban,* neu *Rabbon* yn fwy anrhydeddus eilwaith na *Rabbi,* ac yn arwyddo Athraw o'r gradd uchaf mewn awdurdod ac enwogrwydd: felly mae Mair yma yn cyfarch ei Harglwydd wrth yr enw uwchaf, ac anrhydeddusaf.

17 Yr Iesu a ddywedodd wrthi, [c] * Na chyffwrdd â mi; † oblegid ni ddyrchefais i etto at fy Nhad: ‡ eithr dos at [d] fy mrodyr, a dywed wrthynt, [e] Yr wyf yn dyrchafu at || fy Nhad i a'ch [f] Tad chwithau, § a'm Duw i a'ch [g] Duw chwithau.

c adn. 27. 2 Bren. 4. 29. a 7. 9. Mat. 28. 7, 9, 10. Luc 10. 4. d Salm 22. 22. Mat. 12. 50. a 25. 40. a 28. 10. Rhuf. 8. 29. Heb. 2. 11—13. e pen. 13. 1, 3. a 14. 2, 6, 28. a 16. 28. a 17. 5, 11, 25. Salm 68. 18. a 89. 26. Luc 24. 49—51. Eph. 1. 17—23. a 4. 8—10. 1 Pedr 1. 3. f pen. 1. 12, 13. Rhuf. 8. 14—17. 2 Cor. 6. 18. Gal. 3. 26. a 4. 6, 7. 1 Ioan 3. 2. Dat. 21. 7. g Gen. 17. 7, 8. Salm 43. 4. a 48. 14. Es. 41. 10. Jer. 31. 33. a 32. 38. Ezec. 36. 28. a 37. 27. Zec. 13. 7—9. Heb. 8. 10. a 11. 16.

Yn Matth. 28. 9, dywedir i'r gwragedd ddyfod at yr Iesu, ymafaelyd yn ei draed ef, a'i addoli: mae yn debyg i Mair amcanu gwneyd felly yma, er nad yw Ioan yn crybwyll hyny, ac i'r Iesu wahardd iddi wneyd felly. * Paid a cholli amser yn awr i ddangos dy gariad ataf fi yn y dull yna, eithr dos yn ddioed at fy mrodyr, a dywed wrthynt i ti fy ngweled yn fyw. † Ti a gai amser eto i'm gweled I, ac i ddangos dy gariad ataf, nid wyf eto wedi dyrchafu at fy Nhad, ac ni ddyrchafaf eto am ddeugain niwrnod. Golwg arall sydd ar y geiriau fel hyn; Na chyffwrdd â mi Mair, oblegid nid yr un fath mae cyfeillachu a chymdeithasu â mi yn awr wedi fy adgyfodi, a phan oeddwn gyda chwi cyn dyoddef; ac er nad ydwyf eto wedi dyrchafu at fy Nhad, eto corph ysbrydol sydd genyf yn awr, ac nid oes i neb o'm cyfeillion anwylaf arfer yr un fath ryddid tuag ataf ac o'r blaen cyn fy marw. ‡ Y ffordd oreu genyf fi i ti ddangos dy gariad ataf yn awr yw, myned yn ddioed at fy mrodyr trallodus a digysur, a dywedyd wrthynt drosof fi, fy mod wedi adgyfodi i fywyd anfarwol, ac y byddaf yn esgyn yn fuan at fy Nhad I a'u Tad hwythau, fy Nuw I a'u Duw hwythau, i eiriol drostynt, i dywallt fy Ysbryd arnynt, ac i barotôi lle iddynt, yn y nef. || Fy Nhad I o naturiaeth ac angenrheidrwydd er tragywyddoldeb, a'ch Tad chwithau trwy fabwysiad a gras. § Fy Nuw I, yr hwn sydd mewn cyfammod â mi, fel eich Pen chwi, a'ch Duw chwithau, yr hwn sydd mewn cyfammod â chwi trwof fi, a thanaf fi, yn yr hwn mae i chwi yr hyder mwyaf er fy mwyn I. Sylwir gan rai, mai dyma y lle cyntaf y mae Crist yn galw ei ddysgyblion yn frodyr; megys i arwyddo, ei fod y pryd hwnw wedi sicrâu y berthynas ddedwydd hòno â hwy byth, trwy ei farwolaeth drostynt: ac na byddai ei diriondeb a'i ras ddim llai tuag atynt er esgyn i'r gogoniant. Brawd ei bobl yw efe yno fel ar y ddaear. Sylwir hefyd, fod y geiriau "Yr wyf yn dyrchafu," yn dangos fod Crist yn esgyn trwy ei ewyllys a'i nerth dwyfol ei hun: fel arall y dywedir am esgyniad y saint: Ninnau a gipir i fynu, (1 Thes. 4. 17.) trwy nerth arall, nid eu nerth eu hunain.

18 * Mair Magdalen [h] a ddaeth ac a fynegodd i'r disgyblion, weled o honi hi yr Arglwydd, a dywedyd o hono y pethau hyn iddi.

h Marc 16. 10—13.

* Aeth Mair ymaith yn ufudd, a thraddododd ei chenadwri yn ffyddlawn. Gwelodd mai ei lle oedd cyflawni dyledswydd bresenol yn hytrach nac ymhyfrydu mewn mwyniant presenol. Diammau fod gwên o lawenydd a hyfrydwch ar ei gwyneb wrth fynegi y fath newydd da,

wrth draddodi y fath genadwri rasol. Tybir mai y pryd hwn, wedi darfod ymddiddan â Mair, yr aeth Iesu i gyd-ymdaith â'r ddau ddysgybl oedd yn myned tuag Emmaus.

19 ¶ * Yna, [i] a hi yn hwyr, y dydd cyntaf hwnnw o'r wythnos, [k] † a'r drysau yn gauad lle yr oedd y disgyblion wedi ymgasglu ‡ ynghyd rhag ofn yr Iuddewon, [l] ‖ daeth yr Iesu, ac a safodd yn y canol, ac a ddywedodd wrthynt, [m] § Tangnefedd i chwi.

i Marc 16. 14. Luc 24. 36—49. 1 Cor. 15. 5. k adn. 26. Neh. 6. 10, 11. l pen. 14. 19—23. a 16. 22. Mat. 18. 20. m adn. 21. pen. 14. 27. a 16. 33. Salm 85. 8—10. Es. 57. 18, 19. Mat. 10. 13. Luc 24. 36. Rhuf. 15. 33. Eph. 2. 14. a 6. 23. Phil. 1. 2. 2 Thes. 3. 16. Heb. 7. 2. Dat. 1. 4.

Dyma'r tro cyntaf i'r Iesu ymddangos i'w ddysgyblion gyda eu gilydd, yn gynnulledig. Yr oedd wedi ymddangos i *rai* o honynt o'r blaen, deirgwaith o leiaf yn yspaid y dydd hwnw: i Mair Magdalen, adn. 14—16; i'r gwragedd, Matth. 28. 9; ac i'r ddau ddysgybl yn Emmaus. * Hwyr y dydd y cyfodasai yr Iesu o feirw ydoedd hwn, a'r dydd sabbath Cristionogol cyntaf erioed: felly y dydd cyntaf o wythnos yr Iuddewon yw sabbath y Cristionogion. † Nis gwyddom pa le oedd hwn, lle yr oedd y dysgyblion; efallai mai yr ystafell lle bu Crist a hwythau yn bwyta y pasg ychydig o'r blaen ydoedd. Mae yn debyg eu bod wedi ymgynnull i gydweddïo, ac i gyd-gysuro eu gilydd; ac i gyd-ymholi am y sôn a glywsent ei fod ef wedi adgyfodi. Tebygir mai bwyta bwyd yr oeddynt pan ddaeth yr Iesu i mewn. Gwel Marc 16. 14—16. a Luc 24. 36—43. ‡ Heblaw eu bod yn ofni yr Iuddewon yn gyffredin, mae yn debyg eu bod yn ofni y noson *hòno*, rhag y cymmerid hwy i fynu dàn yr achwyniad o ladrata corph yr Iesu. Gwel Matth. 28. 13. ‖ Mae yn debyg fod y drysau wedi eu sicrâu oddi fewn, ond hawdd y gallasai yr hwn a ddattodasai rwymau angau yn y bore, agoryd y drysau hyn yn wyrthiol yn yr hwyr, a myned i mewn at ei ddysgyblion yn ddïarwybod iddynt hwy, hyd onid oedd yn eu canol. Gwell yw meddwl felly, na chyda'r pabyddion a'r Lutheriaid, meddwl iddo fyned i mewn trwy un o'r drysau heb ei agor o gwbl: ni chyd-saif hyny â chnawd ac esgyrn, mae efe yn sôn am danynt yn Luc 24. 39. § Nid oes yma air o edliw i'r dysgyblion, eu hymddygiad diweddar yn ei adael ef, nac hyd yn nôd i Pedr, a'i gwadodd ef: dim ond maddeuant rhad a pharod, fel y maddeuodd tad yr afradlon i'w fab cyn gwrando ei gyffes ef oll. Addawodd Crist "ei dangnefedd" i'w ddysgyblion cyn ei farwolaeth, pen. 14. 27; yn awr mae yn ei gyhoeddi iddynt ac yn ei roddi arnynt yn awdurdodol ac yn weithredol. Pob dïogelwch, cysur, heddwch, a'r goreu o bob llwyddiant i chwi; heddwch â Duw, â'ch gilydd, ac yn eich heneidiau eich hunain: mi a'ch bendithiais chwi, a bendigedig ydych, ac a fyddwch byth. O rasol a bendigedig Iesu!

20 * Ac wedi iddo ddywedyd hyn, [n] efe a ddangosodd iddynt *ei* ddwylaw, a'i ystlys. [o] † Yna y disgyblion a lawenychasant pan welsant yr Arglwydd.

n adn. 27. Luc 24. 39, 40. 1 Ioan 1. 1. o pen. 16. 22. Es. 25. 8, 9. Mat. 28. 8. Luc 24. 41.

* Mae yn debyg mai yr un dangosiad oedd hwn ag a sonia Luc am dano, Luc 24. 39: cyn iddo ddangos ei hun fel hyn, yr oedd ei ddysgyblion wedi brawychu, gan dybied weled o honynt ysbryd, Luc 24. 37. † Ond wedi gweled o honynt yn sicr, mai efe ei hun yn ei wir a'i briodol gorph ydoedd, trôdd eu braw yn llawenydd mawr dros ben. Yma y cyflawnwyd mewn rhan, yr hyn a ddywedodd yr Iesu, pen. 16. 22.

21 * Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt drachefn, Tangnefedd i chwi: [p] † megis y danfonodd y Tad fi, yr wyf finnau yn eich danfon chwi.

p pen. 13. 20. a 17. 18, 19. a 21. 15—17. Es. 61. 1—3. Mat. 10. 16, 40. a 28. 18—20. Marc 16. 15—18. Luc 24. 47—49. Act. 1. 8. 2 Tim. 2. 2. Heb. 3. 1.

* Mae ail ddywedyd yr un peth fel hyn, yn dangos sicrwydd a chyflawnder y fendith i'r dysgyblion, yn unol a'r addewid ddeublyg o hóni yn pen. 14. 27. † Fel y danfonodd y Tad ei Fab i'r byd, i gyflawni gwaith a swydd y Messiah; felly mae yntau, trwy ei awdurdod cyflawn ei hun, ac fel prawf o'i anfoniad a'i swydd gyfryngol, yn eu danfon hwythau fel apostolion a gweinidogion, i bregethu yr efengyl i bob creadur, ac i gadarnâu eu gweinidogaeth a'u danfoniad drwy arwyddion gwyrthiol pa le bynag yr elent, Marc 16. 15—18.

22 Ac wedi iddo ddywedyd hyn, [q] * efe a anadlodd *arnynt*, ac a ddywedodd wrthynt, [r] † Derbyniwch yr Yspryd Glân.

q Gen. 2. 7. Job 33. 4. Salm 33. 6. Ezec. 37. 9. r pen. 14. 16. a 15. 26. a 16. 7. Act. 2. 4, 38. a 4. 8. a 8. 15. a 10. 47. a 19. 2. Gal. 3. 2.

* Yr oedd anadlu arnynt fel hyn yn arwyddocâol, fod yr Ysbryd Glân yn deilliaw oddi wrth ei Berson dwyfol ef, mòr wirioneddol ac yr oedd yr anadl naturiol yn deilliaw o'i gorph ef: ac, megys yr anadlodd Duw yn ffroenau dyn yn y grëedigaeth gyntaf, i'w wneyd ef yn enaid byw; felly yn y grëedigaeth newydd, gallai efe roddi ei Ysbryd bywiocâol ynddynt, mòr hawdded âg anadlu arnynt. † Yr oedd holl awdurdod Duw yn y dywedyd hwn: Derbyniwch yn awr holl ddoniau a grasau yr Ysbryd Glân, i oleuo eich meddyliau, ac i gadarnâu eich ffydd ynof fi eich Iachawdwr adgyfodedig. Yr oedd y dysgyblion wedi derbyn yr Ysbryd Glân o'r blaen yn Ysbryd sancteiddiad fel dynion duwiol; a chwedi ei dderbyn yn ei ddoniau gwyrthiol hefyd fel apostolion: ond yr oedd hyn yn ernes iddynt y câent ef yn helaethach o lawer eto ar ddydd y pentecost.

23 [s] * Pwy bynnag y maddeuoch eu pechodau, maddeuir iddynt; † *a'r* eiddo pwy bynnag a attalioch, hwy a attaliwyd.

s Mat. 16. 19. a 18. 18. Marc 2. 5—10. Act. 2. 38. a 10. 43. a 13. 38, 39. 1 Cor. 5. 4, 5. 2 Cor. 2. 6—10. Eph. 2. 20. 1 Tim. 1. 20.

* A bydd y fath awdurdod dwyfol yn cyd-fyned â hyn, fel pwy bynag a gredo yn wirioneddol ynof fi, yn ol yr efengyl yr wyf yn eich danfon chwi i'w phregethu, ac i chwithau ar hyny dystiolaethu fod ei bechodau wedi eu maddau; hwy a faddeuir iddo yn sicr, trwy olud gras Duw, er fy mwyn I, ac efe a all gymmeryd y cysur o hyny. † A phwy bynag a barâo yn anghrediniol, gan fy ngwrthod I hyd y diwedd, ac efengyl fy iachawdwriaeth, yr hon y danfonais chwi i'w chyhoeddi, ac i chwithau ar hyny dystiolaethu ei fod ef dàn euogrwydd a chondemniad; nid ydyw pechodau y cyfryw wedi eu dilëu na'u maddau, ond y maent yn gorwedd mewn condemniad arno, megys y caiff efe brofi er ei ofid trwm. Fel hyny bydd y farn o faddeuant neu gondemniad, a gyhoeddoch chwi yn fy enw a thrwy fy awdurdod I, ac yn ol fy ngair I, yn sicr mewn grym; cadarnêir hi gan Dduw ei hun, ac efe a weithreda yn gyfatebol i hyny yn y dydd mawr diweddaf. Mae y golygiad uchod ar y geiriau (cyfeithiad o alleiriad *Guyse* air yn air) yn perthyn i holl weinidogion y gair yn gystal â'r apostolion; ond efallai bod yma gyfeiriad hefyd at y gallu a roddwyd i'r apostolion i adnabod ysbrydoedd dynion, i wybod pwy oedd yn credu a phwy oedd yn rhagrithiol, ac felly cyhoeddi pwy oedd yn faddeuol a phwy yn gondemniol.

24 ¶ * Eithr [t] Thomas, un o'r deuddeg, yr hwn a elwir Didymus, [u] † nid oedd gyd â hwynt pan ddaeth yr Iesu.

t pen. 11. 16. a 14. 5. a 21. 2. Mat. 10. 3. u pen. 6. 66, 67. Mat. 18. 20. Heb. 10. 25.

* Am y ddau enw hyn, gwel ar pen. 11. 16. † Efallai na ddaethai efe ddim at y dysgyblion eraill wedi y gwasgariad a fu arnynt oll yn yr ardd, ar noswaith y bradychiad: efallai mai rhyw achos cyfreithlawn oedd yn peri ei absenoldeb ar yr amser pennodawl hwn: neu, ynte, efallai ei fod ef mewn profedigaeth i

anghredu yn Iesu, ac i adael cymdeithas yr apostolion yn hollawl.

25 * Y disgyblion eraill gan hynny a ddywedasant wrtho, [x] † Ni a welsom yr Arglwydd. ‡ Yntau a ddywedodd wrthynt, [y] Oni châf weled yn ei ddwylaw ef ôl yr hoelion, a dodi fy mŷs yn ôl yr hoelion, a dodi fy llaw || yn ei ystlys ef, ni chredaf fi.

x adn. 14—20. pen. 1. 41. a 21. 7. Marc 16. 11. Luc 24. 34—49. Act. 5. 30—32. a 10. 40, 41. 1 Cor. 15. 5—8. y adn. 20. pen. 6. 30. Job 9. 16. Salm 78. 11—22. a 95. 8—10. a 106. 21—24. Mat. 16. 1—4. a 27. 42. Luc 24. 25, 39—41. Heb. 3. 12, 18, 19. a 4. 1, 2. a 10. 38, 39.

* Rywbryd ar ol "hwyr y dydd cyntaf hwnw o'r wythnos," (adn. 19,) y dywedodd y dysgyblion hyn wrth Thomas, pan gyfarfuont âg ef yn rhywle. † Mae yn ddiammau iddynt ddywedyd mwy na hyn wrtho, sef holl amgylchiadau y noson hòno yn fanwl. ‡ Er i Thomas glywed ei Arglwydd yn sôn am ei adgyfodiad y trydydd dydd lawer gwaith, ac er bod ei holl frodyr, y rhai y gwyddai efe mai dynion geirwir oeddynt, yn tystiolaethu yn ddifrifol iddo, iddynt ei weled ef wedi adgyfodi; eto ni chredai efe oni chaffai weled yn ei ddwylaw ef ôl yr hoelion, &c. prawf nas gallai ond ychydig o ddynolryw ei gael, na neb ar ol esgyniad Crist oddi ar y ddaear. Yn anghrediniaeth Thomas mae angharedigrwydd mawr yn ymddangos tuag at ei frodyr, na choeliai mo honynt hwy; a chreulondeb mawr tuag at ei Arglwydd, mynai efe megys ail waedu yr archollion hyny yn ei gorph ef cyn y credai. || Dywed *Doddridge* mai *ar* yw ystyr y gair Groeg *eis*, ac nid *yn: ar* ei ystlys.

26 ¶ * Ac wedi [z] wyth niwrnod, † drachefn yr oedd ei ddisgyblion ef i mewn, [a] ‡ a Thomas gyd â hwynt. || Yna yr Iesu a ddaeth, a'r drysau yn gauad, ac a safodd yn y canol, ac à ddywedodd, [b] § Tangnefedd i chwi.

z adn. 19. Mat. 17. 1. Luc 9. 28. a adn. 24. b adn. 19. Es. 26. 12. a 27. 5. a 54. 10.

* "Gwedi wyth niwrnod:" sef noson pen yr wythnos, yr ail sabbath Cristionogol. Cyhyd â hyny y bu Thomas dàn ormes anghrediniaeth ac yn anghysurus. † Efallai bod y dysgyblion wedi cael gorchymyn gan Grist i ymgasglu y tro hwn, yn un peth i adferu Thomas, ac hefyd i'w harfer hwy fel hyn yn raddol, i ddechreu cadw y dydd hwn yn sabbath, yn lle yr hen sabbath Iuddewig. ‡ Cymmerodd Thomas ofal y tro hwn i fod gyda hwynt, ac nid oeddynt hwythau anfoddlawn iddo fod er mòr afresymol oedd ei anghrediniaeth. Mae yn debyg eu bod yn gobeithio y deuai Crist i mewn, ac yr adferai efe ef. || Gwel ar adn. 19. § Tangnefedd i Thomas hefyd.

27 * Wedi hynny y dywedodd efe wrth Thomas, [c] † Moes yma dy fŷs, a gwel fy nwylaw; ac estyn dy law, a dod yn fy ystlys: [d] ‡ ac na fydd anghredadyn, ond credadyn.

c adn. 25. Salm 78. 38. a 103. 13, 14. Rhuf. 5. 20. 1 Tim. 1. 14—16. 1 Ioan 1. 1, 2. d Mat. 17. 17. Marc 9. 19. Luc 9. 41.

* Er nad oedd Iesu gyda ei ddysgyblion pan ddywedodd Thomas y geiriau uchod (adn. 25.) wrthynt; eto mae yn amlwg yma ei fod ef yn gwybod iddo eu dywedyd. Er bod Duw yn y nefoedd a ninnau ar y ddaear, eto, nid oes air ar ein tafod nad yw efe yn ei wybod oll. † Yma mae Crist yn galw ar Thomas wrth ei enw, i'w deimlo ef yn gystal a'i weled, fel y caffai brawf ei deimlad yn gystal a phrawf ei lygaid: fel pe dywedasai, Boddlona dy hun trwy bob moddion ag sydd bosibl, mai fy ngwir gorph I yw hwn, yr un ag a groeshoeliwyd ar y pren. ‡ Nid wyf yn beio cymmaint arnat am fynu digon o brawf; ond yn awr ar ol ei gael, na fydd anghredadyn mwyach, ond cred fy mod I wedi adgyfodi o feirw, ymddiried ynof fi fel y cyfryw am iachawdwriaeth, a chyhoedda fi fel y cyfryw i'r holl fyd. Fel hyn goruwch-lywodraethodd Duw anghrediniaeth Thomas, i gael y prawf chwanegol a dïymwad hwn o wir adgyfodiad yr Iesu.

28 A Thomas a attebodd ac a ddywedodd wrtho, [e] * Fy Arglwydd, a'm Duw.

e adn. 16, 31. pen. 9. 35—38. Salm 45. 6, 11. a 102. 24—28. a 118. 24—28. Es. 7. 14. a 9. 6. a 25. 9. a 40. 9—11. Jer. 23. 5, 6. Mal. 3. 1. Mat. 14. 33. Luc 24. 52. Act. 7. 59, 60. 1 Tim. 3. 16. Dat. 5. 9—14.

* Fy Arglwydd, i'r hwn yr wyf yn ymostwng, ac yn rhoddi fy hunan i fynu; † a'm Duw, yr hwn wyf yn addoli, ac i'r hwn yr wyf yn credu. Fel hyn y mae Thomas yn addef ei anghrediniaeth o'r blaen gyda chywilydd sanctaidd, ac yn addef ei grediniaeth gadarn yn awr, fod Crist wedi adgyfodi, ac ei fod ef yn Arglwydd ac yn Dduw. Dywedir mai dyma'r màn cyntaf yn yr efengyl lle mae yr enw *Duw* yn cael ei roddi i Iesu, a Thomas yw y cyntaf a'i rhoddodd iddo. Os bu efe yn anenwog am ei anghrediniaeth o'r blaen, mae efe yma yn enwog am gryfder ei ffydd, a hyfdra sanctaidd ei broffes.

29 * Yr Iesu a ddywedodd wrtho, am i ti fy ngweled, Thomas, y credaist: † bendigedig *yw* y rhai ni welsant, ac a gredasant.

f adn. 8. pen. 4. 48. Luc 1. 45. 2 Cor. 5. 7. Heb. 11. 1, 27, 39. 1 Pedr 1. 8.

* Atebodd yr Iesu mewn ffordd o gerydd tyner, Ti a gredaist o'r diwedd, wedi i ti weled a theimlo, da iawn oedd i ti gredu trwy ryw foddion: † ond mae ffydd y rhai hyny yn fwy enwog o lawer, ac yn dwyn mwy o ogoniant i Dduw, a gredasant heb weled; megys saint yr Hen Destament, y rhai nid oedd ganddynt ddim ond gair noeth yr addewid yn sylfaen i'w ffydd; a'r rhai a gredant eto ar ol fy esgyniad I, ar dystiolaeth noeth fy apostolion a'm gweinidogion anfonedig I. Dedwydd yw y rhai hyny.

30 ¶ [g] * A llawer hefyd o arwyddion eraill a wnaeth yr Iesu y'ngŵydd ei ddisgyblion, y rhai nid ydynt ysgrifenedig yn y llyfr hwn.

g pen. 21. 25. Luc 1. 3, 4. Rhuf. 15. 4. 1 Cor. 10. 11. 2 Tim. 3. 15—17. 2 Pedr 3. 1, 2. 1 Ioan 1. 3, 4. a 5. 13.

* Gwnaeth yr Iesu lawer o bethau yn yspaid ei weinidogaeth, nad ydynt wedi eu hysgrifenu gan Ioan yn ei efengyl. Neu, yn hytrach, efallai, llawer o arwyddion ar ol ei adgyfodiad, er prawf i'w ddysgyblion o'i adgyfodiad, nad ynt yn ysgrifenedig gan Ioan: fel pe dywedasai efe, Buasai yn hawdd iawn chwanegu tystiolaethau lawer, nad ynt yn y llyfr hwn, o adgyfodiad Iesu, ond y mae yr hyn a adroddwyd yn ddigon, er sylfaen i bawb gredu y gwirionedd o'i adgyfodiad ef.

31 [h] * Eithr y pethau hyn a ysgrifenwyd, † fel y credoch chwi mai yr Iesu yw Crist, Mab Duw; ‡ a chan [i] gredu, y caffoch fywyd [k] yn ei enw ef.

h adn. 28. pen. 1. 49. a 6. 69, 70. a 9. 35—38. Salm 2. 7, 12. Mat. 16. 16. a 27. 54. Act. 8. 37. a 9. 20. Rhuf. 1. 3, 4. 1 Ioan 4. 15. a 5. 1, 10, 20. 2 Ioan 9. Dat. 2. 18. i pen. 3. 15, 16, 18, 36. a 5. 24, 39, 40. a 6. 40. Marc 16. 16. 1 Pedr 1. 9. 1 Ioan 2. 23—25. a 5. 10—13. k Luc 24. 47. Act. 3. 16. a 10. 43. a 13. 38, 39.

* Trwy ysbrydoliaeth Duw yr ysgrifenodd Ioan, ac megys y cynhyrfwyd ef gan yr Ysbryd Glân. † Ei ddyben ef yn ysgrifenu oedd, dwyn dynion (yn enwedig yr Iuddewon) i gredu, mai Iesu o Nazareth, yr Iesu hwnw a groeshoeliasid, oedd y Crist, y Messiah addawedig, a gwir a thragywyddol Fab Duw. ‡ Y fendith fawr annhraethol sydd yn dyfod trwy wir gredu yn Nghrist fel hyn yw, bywyd tragywyddol: ac mae y bywyd hwn i'w gael yn ei enw ef, er ei fwyn ef, a thrwy ei drugaredd, ei wirionedd, a'i allu dwyfol ef. Y ddau bwnc mawr i ni yw, iawn amgyffred am Grist, a iawn gredu yn Nghrist: a'r fendith anfeidrol ei gwerth sydd yn dyfod drwy hyny yw, bywyd a dedwyddwch tragywyddol i'n heneidiau.

PEN. XXI.

Y dysgyblion yn adnabod Crist.

[a] * GWEDI y pethau hyn, yr [b] Iesu a ymddangosodd drachefn i'w ddisgyblion wrth [c] fôr Tiberias: † ac fel hyn yr ymddangosodd.

a pen. 20. 19—29. b Mat. 26. 32. a 28. 7, 16. Marc 16. 7. c pen. 6. 1, 23.

* Ar ol i Grist ymddangos bump o weithiau i ryw rai a'u gilydd o'i ganlynwyr, yn ac o amgylch Jerusalem; mae efe y tro hwn yn ymddangos i'w ddysgyblion yn Galilea, wrth fôr Tiberias. Dygwyddodd hyn rywbryd ar ol ei ymddangosiad olaf yn Jerusalem, pen. 20. 26; a hwn yw y trydydd tro iddo ymddangos i'r dysgyblion amryw o honynt yn nghyd. Yr oedd efe wedi peri iddynt fyned i Galilea, a chwedi addaw cyfarfod â hwy yno, Matth. 26. 32; a 28. 10. † Dygwyddodd yr ymddangosiad hwn fel y canlyn:—

2 * Yr oedd ynghyd Simon Pedr, [d] a Thomas yr hwn a elwir Didymus, [e] a Nathanäel [f] o Cana yn Galilea, [g] a *meibion* Zebedëus, a dau eraill o'i ddisgyblion ef.

d pen. 20. 28. e pen. 1. 45—51. f pen. 2. 1, 11. a 4. 46. Jos. 19. 28. g Mat. 4. 21, 22.

* Ni chrybwyllir yma ond am saith o'r dysgyblion, pa le yr oedd y lleill nis gwyddom: mae yn ddïau nad oeddynt yn mhell oddi wrth eu brodyr, efallai ychydig ar eu hol, neu ynte yn llettya ychydig oddi wrthynt.

3 * Dywedodd Simon Pedr wrthynt, [h] Yr wyf fi yn myned i bysgotta. † Dywedasant wrtho, Yr ydym ninnau hefyd yn dyfod gyd â thi. A hwy a aethant allan, ac a ddringasant i long yn y man: ‡ [i] a'r nos honno ni ddaliasant ddim.

h 2 Bren. 6. 1—7. Mat. 4. 18—20. Luc 5. 10, 11. Act. 18. 3. a 20. 34. 1 Cor. 9. 6. 1 Thes. 2. 9. 2 Thes. 3. 7—9. i Luc 5. 5. 1 Cor. 3. 7.

* Pysgodwyr oedd y rhan fwyaf o honynt, a thra yr oeddynt yn dysgwyl am yr Iesu i gyfurwyddo eu ffordd a'u gwaith o hyny allan, dywedodd Pedr yr âi efe at ei hen alwedigaeth. Efallai bod amgylchiadau bywioliaeth yn galw arno am fyned; mae yn debyg nad oedd efe na hwythau ddim yn chwennych treulio eu hamser mewn segurdod, heb ryw alwedigaeth onest a buddiol. † Gan eu bod yn caru bod gyda eu gilydd, ac amryw o honynt o'r un alwedigaeth, cytunodd y lleill i fyned gyda Phedr. ‡ Trefn Duw yn ddïammau oedd yr afiwydd hyn, i wneuthur y wyrth dranoeth yn fwy noddedig.

4 A phan ddaeth y bore weithian, safodd yr Iesu ar y làn: [k] * eithr y disgyblion ni wyddent mai yr Iesu ydoedd.

k pen. 20. 14. Marc 16. 12. Luc 24. 15, 16, 31.

* Efallai mai eu pellder hwy oddi wrth y làn, neu ei bod heb fod eto yn ddigon goleu, oedd yr achos nad adnabuant hwy ef: neu ynte iddo ef attal eu llygaid hwy y pryd hwnw, fel nad adwaenent ef.

5 Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt, * *O* blant, [l] † a oes gennych ddim bwyd? ‡ Hwythau a attebasant iddo, Nac oes.

l Salm 37. 3. Luc 24. 41—43. Phil. 4. 11—13, 19. Heb. 13. 5.

* Mae y gair *Paidia*, a gyfieithir yma, "Plant," yn arwyddo ëondra, serchawgrwydd, a thiriondeb. Yr oedd Iesu yn gofyn fel gwr dïeithr, eto gydag ëondra, fel y bydd pobl y môr yn arfer cyfarch eu gilydd: fechgyn, neu, lanciau, a oes genych chwi ddim bwyd? † Nid am fod arno ef eisiau bwyd, ac nid am na wyddai efe beth oedd ganddynt hwy, yr oedd efe yn gofyn; ond er tynu ymddiddan â hwy, a myned yn mlaen at ei wyrth ryfedd yn yr helfa bysgod. A ddaliasoch chwi ddigon i wneyd pryd o fwyd? a oes genych chwi fwyd i'w werthu? neu, a oes genych chwi fwyd i chwi eich hunain. ‡ Yr ateb oedd, Nag oes; *ou*, Groeg.

6 * Yntau a ddywedodd wrthynt, [m] Bwriwch y rhwyd i'r tu dehau i'r llong, a chwi a gewch. [n] † Hwy a fwriasant gan hynny; ac ni allent bellach ei thynnu, [o] gan y lliaws pysgod.

m Mat. 17. 27. Luc 5. 4—6. n pen. 2. 5. Salm 8. 8. Heb. 2. 6—9. o Act. 2. 41. a 4. 4.

* Yr oedd Iesu yn adnabyddus o hyd i'r dysgyblion, ond drwy hyn yn bwriadu gwneyd ei hun yn amlwg iddynt. Bwriwch y rhwyd, bwriwch hi y tu dehau i'r llong, a chwi a gewch: beth a dalsai i ddyn, a dyn yn unig, ddywedyd fel hyn? Yr oedd yma rag-wybodaeth, yn gweled y canlyniad llwyddiannus, a gallu dwyfol, yn peri i'r pysgod ddyfod i'r rhwyd yn awr, yn gystal ag yn eu cadw i ffwrdd o'r blaen. † Yr oedd yr helfa ryfeddol hon nid yn unig yn ddangosiad o allu dwyfol Crist, ond hefyd yn ddiwalliad presenol o ymborth i'r dysgyblion yn eu hangen, ac efallai o wasanaeth iddynt tra yr oeddynt yn aros yn Jerusalem wedi hyny wrth ei orchymyn ef. Dïammau ei bod yn arddangosiad hefyd o lwyddiant eu gweinidogaeth: o hyn allan yr oeddynt i ddàla dynion.

7 [p] * Am hynny y disgybl hwnnw yr oedd yr Iesu yn ei garu a ddywedodd wrth Pedr, [q] Yr Arglwydd yw. [r] † Yna Simon Pedr, pan glybu mai yr Arglwydd oedd, ‡ a wregysodd *ei* amwisg (canys ‖ noeth oedd efe) ac a'i bwriodd ei hun i'r môr.

p adn. 20, 24. pen. 13. 23. a 19. 26. a 20. 2. q pen. 20. 20, 28. Salm 118. 23. Marc 11. 3. Luc 2. 11. Act. 2. 36. a 10. 36. 1 Cor. 15. 47. Iago 2. 1. r Can. 8. 7. Mat. 14. 28, 29. Luc 7. 47. 2 Cor. 5. 14.

* Ioan oedd y dysgybl hwn: yr oedd y tro hwn yn ddangosiad mòr hynod o arglwyddiaeth Crist ar bysgod y môr, (cymhara, Salm 8. 6, 8, â Heb. 2. 6, 8,) ac mòr debyg i dro gwyrthiol a wnaethai Iesu yn yr un llyn o'r blaen, (Luc 5. 5—10;) fel y canfu Ioan yn y fàn mai yr Iesu ei hunan oedd, ac a ddywedodd felly wrth Pedr. † Yr oeddynt y pryd hwn tua chan-llath oddi wrth y làn, (adn. 8,) ac eto dyma Pedr yn ei wresowgrwydd a'i fyrbwyllder arferol yn neidio i'r dwfr, ac yn nofio yn ddïammau at ei Arglwydd i'r làn. ‡ Yr oedd Pedr, (a'r dysgyblion eraill yr un modd yn ddïammau) wedi dïosg ei ddillad uchaf at ei orchwyl, fel y bydd morwyr arferol o wneyd, yn enwedig mewn gwledydd poethion: ac yn y fàn y deallodd mai yr Iesu oedd ar y làn, efe a wregysodd ei amwisg am dano, fel y gallai nofio yn fwy dirwystr, ac nad ymddangosai megys yn ei grys o flaen ei Arglwydd. Pais pysgotwr, *(fisher's coat)* yw yr "amwisg" hon gan y Saeson; ac y maent wedi dadlau llawer mwy nac oedd raid pa fath ddilledyn oedd, pa un ai gwisg isaf ai gwisg uchaf. ‖ Byddai yr Iuddewon yn cyfrif un yn noeth pryd na byddai ond ei grys am dano, neu pan fyddai wedi dïosg rhyw ran o'i ddillad uchaf, 1 Sam. 19. 24; 2 Sam. 6. 20; Matth. 25. 36.

8 * Eithr y disgyblion eraill a ddaethant mewn llong (oblegid nid oeddynt bell oddi wrth dir, ond megis dau can [s] cufydd) dan lusgo y rhwyd a'r pysgod.

s Deut. 3. 11.

* Gadawsai Pedr y llong, y pysgod, a'r cwbl, gan ei awydd i fyned at yr Iesu; yma mae y dysgyblion eraill yn eu dwyn hwy i dir. † Mae yn debyg fod y rhwyd a'r pysgod yn rhŷ drèm iddynt ei thynu i'r llong, am hyny nid oedd dim i'w wneyd ond ei llusgo wrth ben ol y bâd am y dau can cufydd hyny i dir.

9 * A chyn gynted ag y dïethant i dir, [t] hwy a welent dân o farwor wedi ei osod, a physgod wedi eu dodi arno, a bara.

t 1 Bren. 19. 5, 6. Mat. 4. 11. Marc 8. 3. Luc 12. 29—31.

* Am y pysgod hyn, mae tri o dybiau gwahanol:

tybia rhai i'n Hiachawdwr eu dàl hwy yn y llyn heb rwyd, neu iddo eu gorchymyn hwynt trwy ei allu dwyfol i ddyfod at ei wasanaeth. Tyb eraill yw, bod yr adnod hon allan o'i lle yma; mai ar ol yr unfed adnod ar ddeg y dylai fod, ac mai rhai o'r pysgod a ddaliasai y dysgyblion oedd y pysgod. Tyb y rhan fwyaf yw, mai gwyrthiol oedd y cwbl: mai mewn rhyw fodd gwyrthiol y darparodd yr Arglwydd Iesu y tân, y pysgod â'r bara, er rhoddi prawf ychwaneg i'w ddysgyblion o'i allu, ac o'i drugaredd atynt a'i ofal tirion am danynt.

10 * Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Dygwch o'r pysgod a ddaliasoch yr awrhon.

11 † Simon Pedr a esgynodd, ac *a* dynnodd y rhwyd i dir, yn llawn o bysgod mawrion, cant a thri ar ddeg a deugain: [u] ‡ ac er bod cymmaint, ni thorrodd y rhwyd.

u Luc 5. 6—8. Act. 2. 41.

* Efallai nad oedd digon o bysgod iddynt oll ar y tân eisoes, ac yr oedd yn angenrheidiol iddynt fwyta o'r pysgod a ddaliasent mewn modd mòr wyrthiol, fel y gwybyddent mai pysgod naturiol, mewn gwirionedd oeddynt, ac nid lledrith. † Trwy gynnorthwy y lleill, mae yn debyg, y tynodd Simon Pedr y rhwyd i dir, ac nid trwy ei nerth personol ei hun; oblegid yn adn. 6, dywedir nas gallent oll ei thynu i'r llong gan y lliaws pysgod: cant a thri ar ddeg a deugain o bysgod mawrion. ‡ Mewn tro cyffelyb o'r blaen (Luc 5. 6, 7.) dywedir i'r rhwyd dòri: tybir mai eu rhwyd hwy eu hunain oedd hòno, ond mai benthyg oedd hon, (gan iddynt hwy adael heibio eu galwedigaeth o bysgota er ys tro weithian) ac i'r Arglwydd Iesu ei chadw hi yn wyrthiol rhag tòri, fel na byddai colled am dani i'w pherchenog, neu y byddai raid i'w ddysgyblion tlodion ei dâlu am dani. Wrth ystyried rhif, maint, pwysau, a grym, cynnifer o bysgod mawrion, yn ymysponcio yn y rhwyd, mae yn rhyfedd yn sicr na thòrodd; a diammau mai gwyrth oedd ei chadw rhag tòri, pe amgen ni buasai Ioan yn ysgrifenu mòr bendant, Ni thòrodd y rhwyd. Diolch i Dduw, mae hen rwyd yr efengyl heb dòri eto, er maint o ddryllio ac ymosod a fu arni erioed.

12 * Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Deuwch, ciniawwch. † Eithr ni [x] feiddiai neb o'r disgyblion ofyn iddo, Pwy wyt ti? am eu bod yn gwybod mai yr Arglwydd oedd.

x pen. 4. 27. a 16. 19. Gen. 32. 29, 30. Marc 9. 32. Luc 9. 45.

* Mae yn debyg fod Iesu yn gweled ei ddysgyblion yn ofnus, wrth ganfod y fath wyrthiau; am hyn mae efe mewn modd tirion a chyfeillgar yn eu gwahodd hwy i giniawa gydag ef: yr hyn oedd brawf chwanegol eto o wirionedd ei adgyfodiad ef, ac yn arwydd megys, o'r gymdeithas gyfeillgar a gâent hwy âg ef tra byddai ar y ddaear, ac yn enwedig ar ol iddynt fyned ato ef yn y nef. † Gan y gwyddent yn sicr erbyn hyn oll, mai yr Iesu ei hun ydoedd, yr oeddynt yn ofni gofyn iddo, Pwy wyt ti, o barch ac arswyd; ac hefyd rhag y dangosent wrth hyny ddim anghrediniaeth yn ei adgyfodiad ef. Cymmeryd lluniaeth, yw ystyr y gair *Aristêsate* yn hytrach na "chiniawwch:" y bore oedd hi y pryd hwnw, ac nid amser ciniaw, yn ol ein amser ni o giniawa.

13 [y] * Yna y daeth yr Iesu, ac a gymmerth fara, ac a'*i* rhoddes iddynt, a'*r* pysgod yr un modd.

y Luc 24. 42, 43. Act. 10. 41.

* Diammau iddo ofyn bendith ar yr ymborth yn gyntaf yn ol ei arfer: (gwel Luc 24. 30.) Fel hyn yr oedd efe yn ymddwyn fel penteulu duwiol, ac yr un pryd yn gweini fel gwas iddynt oll, yn rhanu yr ymborth i bob un o honynt.

14 [z] * Y drydedd waith hon yn awr yr ymddangosodd yr Iesu i'w ddisgyblion, wedi iddo gyfodi o feirw.

z pen. 20. 19, 26.

* Ymddangosodd yr Iesu amryw weithiau yn fwy na hyn i ryw rai a'u gilydd; ond hwn oedd y trydydd tro iddo ymddangos i amryw o'i ddysgyblion yn nghyd: cawsom y ddau dro arall yn pen. 20. 19, a 26. Nid yw yn perthyn i ni chwilio, pa le na pha fodd, y treuliodd efe y rhan arall o'i amser hyd ei esgyniad.

15 ¶ * Yna gwedi iddynt giniawa, yr Iesu a ddywedodd wrth Simon Pedr, † Simon [a] *mab* Jona, [b] ‡ a wyt ti yn fy ngharu i yn [c] fwy nâ'r rhai hyn? ‖ Dywedodd yntau wrtho, Ydwyf, Arglwydd; [d] ti a wyddost fy mod yn dy garu di. § Dywedodd yntau wrtho, [e] Portha fy [f] ŵyn.

a adn. 16, 17. pen. 1. 42. Mat. 16. 17. b pen. 8. 42. a 14. 15—24. a 16. 27. Mat. 10. 37. a 25. 34—45. 1 Cor. 16. 21, 22. 2 Cor. 5. 14, 15. Gal. 5. 6. Eph. 6. 24. 1 Pedr 1. 8. 1 Ioan 4. 19. a 5. 1 c adn. 7. Mat. 26. 33. Marc 14. 29. d adn. 17. 2 Sam. 7. 20. 2 Bren. 20. 3. Heb. 4. 13. Dat. 2. 23. e Salm 78. 70—72. Jer. 3. 15. a 23. 4. Ezec. 34. 2—10, 23. Act. 20. 28. 1 Tim. 4. 15, 16. 1 Pedr 5. 1—4. f Gen. 33. 13. Es. 40. 11. Mat. 18. 10, 11. Luc 22. 32. Rhuf. 14. 1. a 15. 1. 1 Cor. 3. 1—3. a 8. 11. Eph. 4. 14. Heb. 12. 12, 13. 1 Pedr 2. 2.

* Gwedi ciniawa gyda ei ddysgyblion, ac fel hyny dangos ei gariad a'i gyfeillgarwch tuag atynt, tybiodd yr Arglwydd Iesu y pryd hwn yn adeg addas i geryddu Pedr am, a'i adferu o'i, syrthiad galarus ychydig yn ol. Yn ngwydd y dysgyblion eraill, mae yn ei holi ef am wirionedd ei gariad; yn dangos ei gariad ei hun ato drwy faddau iddo; yn dangos ei waith a'i ddyledswydd iddo am yr amser i ddyfod; yn adferu ei anfoniad gweinidogaethol ac apostolaidd iddo; ac yn ei gymmeryd ef i'w gyfeillgarwch a'i ewyllys da er pob peth a ddygwyddodd. † Simon mab Jona yma, ei hen enw dechreuol; ac nid Pedr, ei enw newydd; yn arwyddo cadernid ei ffydd: yr oedd yn annheilwng o hwnw yn yr ymdriniaeth hon âg ef. ‡ A wyt ti yn fy ngharu I yn fwy nac y mae y rhai hyn fy nysgyblion eraill yn fy ngharu I? Ti a ddywedaist gystal â hyny ychydig yn ol; (Matth. 26. 33;) a fedri di ddywedyd felly yn awr o hyd, wedi i ti syrthio yn fwy gwarthus na neb o honynt. Hyna, yn diammau, yw meddwl y gofyniad, ac nid a wyt ti yn fy ngharu I yn fwy na dy gyfeillion daearol, y rhwydau a'r pysgod, a'r hyfrydwch a'r elw o bysgota: yr oedd Pedr wedi gadael pob peth felly o'r blaen o gariad at Grist, ac i'w ganlyn ef. ‖ Mae Pedr yn dywedyd ei fod yn caru Crist, ac yn cyfeirio at ei wybodaeth ef o'i galon, ei fod yn ei garu; ond nid yw yn beiddio dywedyd yn awr fod ei gariad ato yn fwy na chariad y lleill: yr oedd Pedr erbyn hyn wedi cael adnabod twyll ei galon, a chwedi cael ei ddarostwng yn ei olwg ei hun. § Portha fy ŵyn, hyd yn nôd y rhai gwànaf o honynt fel y mae y gair yn arwyddo. Rhwng cariad diffuant Pedr at Grist, â'r prawf oedd wedi gael yn ddiweddar o'i wendid ei hun, yr oedd efe yn nodedig gymhwys i ymgeleddu y gweiniaid yn Sion.

16 * Efe a ddywedodd wrtho drachefn yr [g] ail waith, Simon *mab* Jona, a wyt ti yn fy ngharu i? Dywedodd yntau wrtho, Ydwyf, Arglwydd; ti a wyddost fy mod yn dy garu di. Dywedodd yntau wrtho, [h] † Bugeilia fy nefaid.

g pen. 18. 17, 25. Mat. 26. 72. h pen. 10. 11—16, 26, 27. Salm 95. 7. a 100. 5. Zec. 13. 7. Mat. 25. 32. Luc 15. 3—7. a 19. 10. Act. 20. 28. Heb. 13. 20. 1 Pedr 2. 25.

17 Efe a ddywedodd wrtho y [i] drydedd waith, Simon *mab* Jona, a wyt ti yn fy ngharu i? ‡ Pedr a [k] dristâodd, am iddo ddywedyd wrtho y drydedd waith, A wyt ti yn fy ngharu i? ‖ Ac efe a ddywedodd wrtho, [l] Arglwydd, ti a wyddost bob peth: [m] ti a wyddost fy mod i yn dy garu di. Yr Iesu a ddywedodd wrtho, [n] Portha fy nefaid.

i pen. 13. 38. a 18. 27. Mat. 26. 73, 74. Dat. 3. 19. k 1 Bren. 17. 18. Galar. 3. 33. Mat. 26. 75. Marc 14. 72. Luc 22. 61, 62. 2 Cor. 2. 4—7. a 7. 8—11. Eph. 4. 30. 1 Pedr 1. 6. l pen. 2. 24,

25. a 16. 30. a 18. 4. Jer. 17. 10. Act. 1. 24. a 15. 8. Dat. 2. 23. m adn. 15. Jos. 22. 22. 1 Cron. 29. 17. Job 31. 4—6. Salm 7. 8, 9. a 17. 3. 2 Cor. 1. 12. n adn. 15, 16. pen. 12. 8. a 14. 15. a 15. 10. Mat. 25. 40. 2 Cor. 8. 8, 9. 2 Pedr 1. 12—15. a 3. 1. 1 Ioan 3. 16—24. 3 Ioan 7, 8.

* Tybia rhai fod Crist yn gofyn yr un peth fel hyn dair gwaith i Pedr, oblegid i Pedr wadu dair gwaith yr adwaenai ef Grist. Tybia eraill iddo ofyn deirgwaith er dangos ei fawr gariad at ei eglwys, yr hon nid ymddiriedai i ofal Pedr heb gael sicrwydd ganddo deirgwaith fel hyn ei fod yn ei garu ef Arglwydd a Phrïod yr eglwys. Tybia eraill fod y gofyniad triphlyg hwn yn cyfeirio at y tair ffordd sydd i borthi a bugeilio ŵyn a defaid Crist: sef gweddïo, pregethu, a bywyd sanctaidd. Tybia eraill eto, ei fod yn cyfeirio at y tair dëadell yr oedd Pedr i'w porthi a'u bugeilio; yr Iuddewon yn Judea; y Cenedloedd galwedig; a'r Iuddewon gwasgaredig yn mysg y Cenedloedd. † Mae yn ddïammau bod ŵyn a defaid yn y tair adnod hyn, yn arwyddo cristionogion gweiniaid a chryfion yn yr eglwys: a bod porthi a bugeilio yn arwyddo pob peth a berthyn i'r swydd a'r gwäith gweinidogaethol: pob gofal am y praidd, iawn lywodraeth ar y praidd, a phob ymgeledd ysbrydol i'r praidd. ‡ Mae yn ddïammau fod y gofyniad fel hyn y drydedd waith yn dwyn ar gof i Pedr, iddo wadu dair gwaith, ac fel pe buasai yr Arglwydd Iesu yn ammau gwirionedd ei broffes ef o gariad ato; a rhaid ei fod yn gorfod cydnabod hefyd iddo roi achos mawr iddo ei ammau ef: gan hyny nid rhyfedd iddo dristâu. || Pa fodd bynag mae efe yn dàl i apelio at hollwybodaeth Iesu am wirionedd ei broffes.

18 * Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Pan oeddit ieuangc, ti a'th wregysaist dy hun, ac a rodiaist lle y mynnaist: [o] † eithr pan elech yn hen, ti a estyni dy ddwylaw, ac arall a'th wregysa, ac a'th arwain [p] lle ni fynnit.

o Act. 12. 3, 4. p pen. 12. 27, 28. 2 Cor. 5. 4.

19 ‡ A hyn a ddywedodd efe, gan arwyddo [q] trwy ba fath angau y gogoneddai efe Dduw. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a ddywedodd wrtho, [r] || Canlyn fi.

q Phil. 1. 20. 1 Pedr 4. 11—14. 2 Pedr 1. 14. r adn. 22. pen. 12. 26. a 13. 36, 37. Mat. 10. 38. a 16. 21—25. Marc 8. 33—38. Luc 9. 22—26.

* Nid oes dim yn dywyll yn yr adnod flaenaf o'r ddwy uchod: pan oedd Pedr yn ieuanc, yr oedd yn ei wregysu, neu yn ei ddilladu ei hun fel y mynai, ac yn rhodio lle y mynai; megys y gwregysodd ei amwisg yn ddiweddar, ac yr estynodd ei ddwylaw allan i nofio at ei Arglwydd. † Ond pan elai yn hen byddai raid iddo oddef gan eraill estyn ei ddwylaw, ei wregysu, a'i arwain lle nis mynai. ‡ Cyfeiriad oedd hyn at ferthyrdod Pedr drwy groeshoeliad: mae estyn y ddwylaw yn cyfeirio yn amlwg at estyniad a hoeliad y ddwylaw ar draws-lath y groes; a chan fod hyny yn cael ei enwi yma o flaen gwregysu Pedr a'i arwain lle ni fynai, efallai ei fod yn cyfeirio at y ddefod o osod y groes ar ysgwyddau yr yr hwn oedd i gael ei groeshoelio, yr hwn, mae yn debyg, a'i dygai hi i'r dïenydd-le, a'i freichiau ar led, wedi eu rhwymo wrth y draws-lath, ar yr hon yr hoelid ei ddwylo ef wedi hyny. || Canlyn fi yn awr o'r fàn hon; canlyn fi yn fy ngwaith a'm hesampl hyd angau; a chanlyn fi yn yr un fath angau a ddyoddefais innau.

20 ¶ * A Phedr a drodd, [s] ac a welodd y disgybl yr oedd yr Iesu yn ei garu, yn canlyn ([t] yr hwn hefyd a bwysasai ar ei ddwyfron ef ar swpper, ac a ddywedasai, Pwy, Arglwydd, yw yr hwn a'th fradycha di?)

s adn. 7, 24. pen. 20. 2. t pen. 13. 23—26.

* Gyda bod Pedr yn dechreu myned ar ol Crist, efe a edrychodd yn ei ol, ac a ganfu Ioan yn canlyn hefyd. Nid oedd Ioan wedi cael gorchymyn i ganlyn fel Pedr, eto ni oddefai ei gariad at Iesu iddo beidio a chanlyn, ac mae yn amlwg nad oedd yr Iesu yn anfoddlon iddo. Canlynwr distaw, dirodres, oedd Ioan, eto canlynwr ffyddlawn iawn ydoedd.

21 Pan welodd Pedr hwn, efe a ddywedodd wrth yr Iesu, [u] * Arglwydd, ond beth *a wna* hwn?

u Mat. 24. 3, 4. Luc 13. 23, 24. Act. 1. 6, 7.

* Nid yw y geiriau "*a wna*," yn y Groeg, ac nid prïodol iawn ydynt yma: maent yn tueddu i arwain y meddwl i dybied fod Pedr yn anfoddlawn i Ioan ganlyn Crist y pryd hwnw, ac yn eiddigeddu wrtho. Tybir mai fel arall yn hollawl yr oedd; megys pe dywedasai, Yr wyf yn dëall yr hyn a ddywedaist am danaf fi, y bydd raid i mi ddyoddef ar y groes, ac yr wyf yn foddlawn; ond beth a ddaw o hwn, fy anwyl frawd Ioan? Beth fydd ei dynged ef? A raid iddo yntau ddyoddef felly hefyd?

22 * Yr Iesu a ddywedodd wrtho, [x] ‡ Os mynnaf iddo aros hyd oni ddelwyf, beth *yw hynny* i ti? ‡ canlyn di fyfi.

x Mat. 16. 27, 28. a 24. 3, 27, 44. a 25. 31. Marc 9. 1. 1 Cor. 4. 5. a 11. 26. Dat. 2. 25. a 3. 11. a 22. 7, 20.

* Er bod gofal Pedr am Ioan yn yr adnod o'r blaen, yn ganmoladwy; eto yr oedd ei chwilfrydedd yn feïus, o eisiau treiddio i bethau dyfodawl nad oeddynt yn perthyn iddo eu gwybod; ac mae Crist yma yn ei geryddu ef yn ysgafn am hyny. Beth yw hyny i ti? † Os mynaf iddo aros, a byw ar ol yr apostolion eraill i gyd, hyd oni ddelwyf i ddistrywio yr Iuddewon fy ngelynion, eu dinas, a'r holl oruchwyliaeth Iuddewig, a gosod fy nheyrnas fy hun yn gyffredinol ar y ddaear, beth yw hyny i ti? ‡ Canlyn *di* fi: gofala di am gyflawni dy weinidogaeth yn gydwybodol, a phaid ag ymyraeth â materion rhai eraill: gad di bobpeth felly yn fy llaw I.

23 * Am hynny yr aeth y gair yma allan ym mhlith y brodyr, na fyddai y disgybl hwnnw farw: † ac ni ddywedasai yr Iesu wrtho na fyddai efe farw: ond, Os mynnaf iddo aros hyd oni ddelwyf, [y] beth *yw hynny* i ti?

y Deut. 29. 29. Job 28. 28. a 33. 13. Dan. 4. 35.

* Gan y gwyddai y dysgyblion oll fod yn hoff iawn gan Iesu am Ioan, ac heb ddëall beth oedd efe yn feddwl wrth iddo "aros hyd ei ddyfodiad;" tybiasant fod y geiriau yn arwyddo, na byddai Ioan byth farw, a thaenasant hyny yn mhlith eu gilydd fel chwedl gyffredin. † Ond ni ddywedodd Crist na byddai efe farw; namyn beth os mynai efe iddo aros ar ol yr apostolion eraill i gyd, hyd oni ddelai efe i ddistrywio Jerusalem, &c., fel y soniwyd uchod. Cyflawnwyd hyn i Ioan; efe yn unig o'r apostolion a fu byw i weled dinystrio Jerusalem, ac efe yn unig meddant a fu farw o farwolaeth naturiol, yn hen ac yn llawn o ddyddiau.

24 * Hwn yw y disgybl sydd yn tystiolaethu am y pethau hyn, † ac a ysgrifenodd y pethau hyn; [z] ‡ ac ni a wyddom fod ei dystiolaeth ef yn wir.

z pen. 19. 35. 1 Ioan 1. 1, 2. a 5. 6. 3 Ioan 12.

* Myfi Ioan, yr hwn wyf yn ysgrifenu yr efengyl hon, oedd y dysgybl hwnw; a garai yr Iesu, a bwysasai ar ei ddwyfron ef ar swper, a ofynasai iddo, Pwy, Arglwydd, yw yr hwn a'th fradycha di? Myfi, yr hwn a'i canlynodd ef gyda Phedr, y dywedodd Pedr am dano, Arglwydd, beth *a wna* hwn? ac y dywedodd Iesu, Os mynaf iddo aros hyd oni ddelwyf, beth yw hyny i ti? Myfi, y dysgybl hwnw, yw yr hwn sydd yn tystiolaethu y pethau hyn. † Nid yn unig Ioan a dystiolaethodd yr hanes hwn am Grist, ond Ioan hefyd a'i hysgrifenodd: pe buasai eraill yn ysgrifenu o'i ben ef, *gallasai* fod anghywirdeb, damweiniol neu fwriadol, yn yr hanes; ‡ ond am mai efe ei hun a'i hysgrifenodd, dan ysbrydoliaeth anffaeledig Duw, ac yn dyst llygaid o'r holl bethau mae yn adrodd, efe a ŵyr ei fod yn dywedyd y gwïr: gwyddai yr holl eglwysi yn ei amser ef ei fod yn dywedyd y gwir; a chaiff pob gwir gredadyn yn mhob

TEITHIAU A MORDEITHIAU
ST. PAUL.
Dychweliad St. Paul i Jerusalem ar ol ei dreiddiarth. a i Deithiau
Mordeithiau hyd ei ant dychweliad
Dº ei dryddydd
Dº ei hedwerydd
Dº ei bumed
Ei ffordath o Cesarea i Rufain
Addengys iddo ymed a dychwelyr un ffordd
Hydred dwyreinol o Greenwich
MOR Y CANOLDIR NEU Y MOR MAWR
YNYS MELITA
YNYS CRETA
YNYS RHODES
YNYS CYPRUS
Ynys Claudia
Cyrene
GWLAD CYRENE
LIBYA
ARABIA
AIPHT
Alexandria
Iberoedd y Siber Neur Nilus
Syracusa
Rhegium
Puteoli
Appii Forum
Tres Tabernæ
Venice
Neapolis
Philippi
Amphipolis
Thessalonica
Berea
Apollonia
Thasos
Samothracia
Lesbos
Lemnos
Cardhia
Adramyttium
Pergamos
Thyatira
Sardis
Smyrna
Philadelphia
Hierapolis
Antiochia in Pisidia
Iconium
Lystra
Derbe
Colosse
Laodicea
Ephesus
Miletus
Samos
Patmos
Coos
Cnidus
Patara
Myra
Perga
Attalia
Tarsus
Seleucia
Antiochia
Laodicea
Salamis
Paphos
Tripolis
Sidon
Damascus
Tyrus
Ptolemais
Cæsarea
Bostra
Jeppa
Jerusalem
Aadus
Gaza
Larissa
Nicopolis
Athen
Corinth
Cenchreæ
Rhodiaid
Phaistos
Lasaia
Kalamata
Paphlagonia
Pontus
Cappadocia
Galatia
Lycia
Caria
Pamphylia
Cilicia
Lycaonia
Phrygia
Mysia
Bithynia
Euxin
Mor Marmora
Mor Aegeo
Archipelago
Mor Cilicia
Mor Pamphylia
Mor Lycia
Mor Caria
Mor Ionia
Mor Adriatic
Mor Tyrrhenian
Sicilia
Italia
Epirus
Thessalia
Macedonia
Achaia
Boeotia
Thracia
Ionia
Lydia
Phoenicia
Judea
Arabia
Aegypt
Pontus
Cyprus
Crete
Rhodes
Malta
Lesbos
Chios
Samos
Patmos
Coos
Cnidus
Cyprus
Crete
Malta

oes, dystiolaeth sicr ynddo ei hun, iddo ef ddywedyd y gwir. Tybia rhai mai geiriau henuriaid eglwysi Asia yw y geiriau olaf hyn, Ac *ni* a wydd*om* fod ei dystiolaeth *ef* yn wir: fel pe buasent yn rhoddi eu henwau wrth efengyl Ioan i arwyddo eu crediniaeth o'i chywirdeb a'i gwirionedd. Ond nid oes un sail i feddwl felly, amgen na bod y geiriau yn y rhif liosog. Peth cyffredin yn yr ysgrythyrau yn aml yw newid y rhif, heb un achos amlwg i ni o hyny.

25 [a] * Ac y mae hefyd lawer o bethau eraill a wnaeth yr Iesu, † y rhai ped ysgrifenid hwy bob yn un ac un, [b] nid wyf yn tybied y cynhwysai y byd y llyfrau a ysgrifenid. ‡ Amen.

a pen. 20. 30, 31. Job 26. 14. Salm 40. 5. a 71. 15. Preg. 12. 12. Mat. 11. 5. Act. 10. 38. a 20. 35. Heb. 11. 32. b Amos 7. 10. Mat. 19. 24.

* Mòr ddiwyd a llafurus oedd yr Arglwydd Iesu trwy ei holl oes weinidogaethol, er nad oedd ond bèr, fel yr oedd aneirif o bethau a wnaeth ac a lefarodd efe, nas rhoddodd Ioan na'r efengylwyr eraill mo honynt i lawr yn eu hanes am dano. Ysgrifenasant gymmaint a weloedd yr Ysbryd Glân yn dda, a chymmaint ag oedd yn angenrheidiol er iachawdwriaeth dynion: † ped ysgrifenasid y cwbl ni chynnwysai y byd mo'r llyfrau. Tybia rhai mai gorwireb *(hyperbole)* uchel yw hyn; ond y mae eraill yn dëall y geiriau fel arall: sef, ped ysgrifenasid y cwbl, ni buasai neb yn y byd yn gallu eu darllen a'u cofio oll; ac ni buasai braidd neb yn y byd yn gallu prynu cymmaint o lyfrau i'w darllen. Un o ragoriaethau yr ysgrythyr yw, ei bod mòr fychan, ac mòr hawdd i'r tlodion ei chael a'i darllen. ‡ Fel cadarnâd, ac ardystiad o wirionedd y cwbl, mae Ioan yn gosod ei Amen wrtho; a bydded i bob perchen enaid a'i darlleno, ei gredu fel gwir. Felly y mae, ac felly y byddo byth.

ACTAU, NEU WEITHREDOEDD

YR

APOSTOLION.

PEN. I.

Parotôi yr apostolion i weled dyrchafiad Crist.

[a] * Y TRAETHAWD cyntaf a wnaethum, [b] † O Theophilus, [c] am yr holl bethau ‡ a ddechreuodd yr Iesu eu gwneuthur a'u dysgu,

a Luc 1—24. b Luc 1. 3. c pen. 2. 22. Mat. 4. 23, 24. a 11. 5. Luc 7. 21—23. a 24. 19. Ioan 10. 32—38. a 18. 19—21. 1 Pedr 2. 21—23.

* Y Traethawd cyntaf mae Luc yma yn sôn am dano, ydoedd yr Efengyl a ysgrifenodd efe, ac a elwir eto yr Efengyl yn ol Luc: yr un gwr a ysgrifenodd yr efengyl hòno â'r Llyfr hwn, ac at Theophilus yr ysgrifenodd efe bob un o honynt. † Am y Theophilus hwn gwel ar Luc 1. 3. ‡ Dyma swm yr efengyl, athrawiaeth, gweithredoedd, marwolaeth, ac esgyniad yr Arglwydd Iesu.

2 [d] * Hyd y dydd y derbyniwyd ef i fynu, † wedi iddo [e] trwy yr Ysbryd Glân [f] roddi gorchymynion i'r [g] apostolion a etholasai:

d adn. 9. Marc 16. 19. Luc 9. 51. a 24. 51. Ioan 6. 62. a 13. 1, 3. a 16. 28. a 17. 13. a 20. 17. Eph. 4. 8—10. 1 Tim. 3. 16. Heb. 6. 19, 20. a 9. 24. 1 Pedr 3. 22. e pen. 10. 38. Es. 11. 2, 3. a 42. 1. a 48. 16. a 59. 20, 21. a 61. 1. Mat. 3. 16. a 12. 28. Ioan 1. 16. a 3. 34. Dat. 1. 1. a 2. 7, 11, 17, 29. a 3. 6, 13, 22. f Mat. 28. 19, 20. Marc 16. 15—18. Luc 24. 45—49. g adn. 13. pen. 10. 40—42. Mat. 10. 1—4. Marc 3. 14—19. Luc 6. 13—16. Ioan 6. 70, 71. a 13. 18. a 20. 20, 21. Gal. 1. 1. Eph. 2. 20. 2 Pedr 3. 2. Dat. 21. 14.

* Gwelwn fod Luc yn dybenu ei efengyl gyda hanes bòr o esgyniad Crist i'r nef, Luc 24. 50—53. † Cyfeiria hyn efallai at Ioan 20. 22; lle mae Crist yn anadlu ar ei ddysgyblion, ac yn dywedyd wrthynt, Derbyniwch yr Ysbryd Glân.

3 * I'r rhai hefyd yr [h] ymddangosodd efe yn fyw wedi iddo ddioddef, † trwy lawer o arwyddion sicr; ‡ gan fod yn weledig iddynt dros [i] ddeugain niwrnod, [k] ‖ a dywedyd y pethau a berthynent [l] deyrnas Dduw.

h pen. 13. 31. Mat. 28. 9, 16, 17. Marc 16. 10—14. Luc 24. 30—40. Ioan 20. 14—16, 19, 20, 27, 28. a 21. 1, &c. 1 Cor. 15. 5—7. 1 Ioan 1. 1, 2. i Deut. 9. 9, 18. 1 Bren. 19. 8. Mat. 4. 2. k pen. 28. 31. Dan. 2. 44, 45. Mat. 3. 2. a 21. 43. Luc 17. 20, 21. a 24. 44—49. Rhuf. 14. 17. Col. 1. 13. 1 Thes. 2. 12.

* Sylwyd eisoes, wrth fyned dros y gwahanol efengylwyr, ar ymddangosiadau Crist i'w apostolion ar ol ei adgyfodiad. † Arwyddion sicr o'i adgyfodiad ef oedd, bwyta, yfed, a rhodio gyda hwynt; llefaru wrthynt, ac anadlu arnynt: ac yn enwedig gadael iddynt ei deimlo, fod cnawd ac esgyrn ganddo fel dynion eraill ar ol ei adgyfodiad. ‡ Paròdd fel hyn gyda hwynt, ac yn weledig iddynt, am ddeugain niwrnod, hyd oni esgynodd i'r nef. ‖ Pethau am ei deyrnas ar y ddaear, er hyfforddiad iddynt hwy gyda gwaith ei deyrnas ef; a'r pethau am ei deyrnas yn y nef, ei gwynfyd a'i gogoniant, er calondid iddynt hwy yn eu holl orthrymderau ar y ddaear.

4 * Ac wedi ymgynnull gyd â hwynt, [l] † efe a orchymynodd iddynt, nad ymadawent o Jerusalem, eithr disgwyl am [m] addewid y Tad, yr hwn, *eb efe,* a glywsoch gennyf fi.

l Luc 24. 49. m pen. 2. 33. Mat. 10. 20. Luc 11. 13. a 12. 12. Ioan 7. 39. a 14. 16, 17, 28. a 15. 26. a 16. 7—15. a 20. 22.

* Neu, a hwy yn bwyta yn nghyd: cyfeiriad sydd yma, mae yn debyg, at y cyfarfod y sonia Luc am dano yn pen. 24. 41—43. † Mae y gorchymyn hwn yn Luc 24. 49; oni buasai y gorchymyn hwn, mae yn debyg na buasai y dysgyblion yn caru llawer aros yn Jerusalem; yr hon oedd megys yn mygu o waed eu Harglwydd, ac yn sychedu am waed ei ganlynwyr ef: ond mynai Crist dywallt ei Ysbryd yno, fel y dangosai ei ogoniant yn y fàn lle y cafodd ei ddirmygu a'i groeshoelio. Mae yn debyg mai ar ddydd ei esgyniad y rhoddes Iesu y gorchymyn hwn iddynt, ac nad aethant allan o Jerusalem (ond gydag ef pan esgynodd) wedi hyny tàn ddydd y pentecost.

5 [n] * Oblegid Ioan yn ddiau a fedyddiodd
â dwfr; ond chwi a fedyddir â'r Ysbryd Glân,
[o] † cyn nemawr o ddyddiau.

n pen. 11. 15, 16. a 19. 4—6. Mat. 3. 11. Marc 1. 8. Luc 3. 16. Ioan 1. 31—34. 1 Cor. 12. 13. Tit. 3. 5, 6. o pen. 2. 1—4, 16—21. Joel 2. 28—32.

* Gwel ar Matth. 3. 11. Bedyddiodd Ioan â dwfr, ac wrth wneyd hyny, rhagfynegodd am Grist, yr hwn oedd i ddyfod yn ei weinidogaeth ar ei ol ef, ac y bedyddiai efe â'r Ysbryd Glân ac â thân. Yr oedd bedydd dwfr Ioan yn gysgod o fedydd tân Iesu, nid am y gall dwfr fod yn gysgod o dân o ran ei ansawdd; ond fel y mae dwfr yn hawdd ei gael, digonedd o hóno, ac o natur lanâol; felly y mae doniau a grasau yr Ysbryd Glân, yn rhad, yn gyflawn, ac yn sancteiddiol yn eu heffeithiau; yn enwedig ar yr apostolion ar ddydd y pentecost. † Deng niwrnod ar ol esgyniad Crist oedd dydd y pentecost, pryd y cyflawnwyd yr addewid hon: hyny o amser oedd gan y dysgyblion i aros yn Jerusalem, ac yna at eu gwaith i bob màn, hyd eithaf y ddaear, ac i'r holl fyd.

6 * Gan hynny wedi eu dyfod hwy ynghyd,
hwy a ofynasant iddo, gan ddywedyd, [p] † Ar-
glwydd, ai y pryd hwn y [q] rhoddi drachefn y
frenhiniaeth i Israel?

p Mat. 24. 3, 4. Ioan 21. 21, 22. q Gen. 49. 10. Es. 1. 26. a 9. 6, 7. Jer. 23. 5, 6. a 33. 15—17, 26. Ezec. 37. 24—27. Dan. 7. 27. Hos. 3. 4, 5. Joel 3. 16—21. Amos 9. 11. Ob. 17—21. Mica 5. 2. Zeph. 3. 15—17. Zec. 9. 9, 10. Mat. 20. 21. Luc 22. 29.

* Pwy oedd yr hwy yma a ddaethant yn nghyd nis gwyddom; tybia *Pool* mai yr ugain a chant oeddynt, a grybwyllir yn adn. 15, neu ynte y pùm can mrodyr, a grybwyllir gan Paul, 1 Cor. 15. 6: nid oes yr un o'n Hawdwyr eraill yn sylwi felly, ond yn cymmeryd yn ganiatâol mai yr un apostol ar ddeg oeddynt, y rhai oeddynt dystion o'i esgyniad ef; ac mae yn debyg mai ychydig fynydau cyn iddo esgyn y bu yr ymddiddan hwn. † Yr oedd y dychymmyg am freniniaeth ddaearol yn glŷnu gyda hwynt o hyd; a hyny oeddynt yn feddwl yn y fàn yma. Buont yn hir yn methu a deall pa fodd y gallai Crist, y Messiah, farw, ac yntau i fod yn frenin; ac yn awr wedi iddo farw ac adgyfodi, yr oeddynt yn tybied ei fod i osod i fynu ei freniniaeth ar Israel, ond o hyd yn ddaearol. Ai y pryd hwn, yn awr wedi i ti adgyfodi yn fuddugoliaethwr ar angau a'th holl elynion? Neu, y pryd hwn, sef cyn pen y nemawr o ddyddiau, pan y bedyddir ni â'r Ysbryd Glân ac â thân: a ddaw Israel yn gyffredin y pryd hwnw i gredu ynot ti, ac i'th addef fel Messiah, ac felly cael eu hadferu yn deyrnas ddaearol fel yn nyddiau Dafydd a Solomon?

7 * Ac efe a ddywedodd wrthynt, [r] Ni
pherthyn i chwi wybod yr amseroedd na'r
prydiau, [s] † y rhai a osododd y Tad yn ei
feddiant ei hun.

r pen. 17. 26. Deut. 29. 29. Dan. 2. 21. Mat. 24. 36. Marc 13. 32. Luc 21. 24. Eph. 1. 10. 1 Thes. 5. 1. 1 Tim. 6. 15. 2 Tim. 3. 1. s Mat. 20. 23. Marc 10. 40.

* Mae y geiriau hyn yn cynnwys cerydd i'r dysgyblion, am eu chwilfrydedd yn ymholi am bethau nad oedd yn perthyn iddynt eu gwybod. Nid yw yr Arglwydd Iesu yn dewis ateb eu gofyniad; nac ychwaith dangos iddynt mai dychymmyg cnawdol cyfeiliornus oedd ganddynt am natur teyrnas y Messiah: gwyddai y câent eu goleuo yn hyny yn effeithiol, pan ddelai yr Ysbryd Glân arnynt "cyn nemawr o ddyddiau." † Tri pheth, meddant, a gadwodd Duw iddo ei hun: gallu creawl; awdurdod ar gydwybod; a gwybodaeth o'r pethau i ddyfod. Nid oedd yn perthyn, ac ni buasai o un lles, i'r apostolion i wybod y peth a ofynasant, y pryd hwnw.

8 [t] * Eithr chwi a dderbyniwch nerth yr
Ysbryd Glân wedi y delo efe arnoch; [u] ac a
fyddwch † dystion i mi yn ‡ Jerusalem, ac yn
holl Judea, [x] a Samaria, [y] ac hyd eithaf y
ddaear.

t pen. 2. 1—4. a 6. 8. a 8. 19. Mica 3. 8. Zec. 4. 6. Luc 10. 19. Dat. 11. 3—6. u adn. 22. pen. 2. 32. a 3. 15. a 4. 33. a 5. 32. a 10. 39—41. a 13. 31. a 22. 15. Marc 16. 15. Luc 24. 46—48. Ioan 15. 27. x pen. 8. 5—25. y Salm 22. 27. a 98. 3. Es. 42. 10. a 49. 6. a 52. 10. a 66. 19. Jer. 16. 19. Mat. 24. 14. Rhuf. 10. 18. a 15. 19.

* Pa fodd bynag, er distadled oedd yr apostolion, er gwàned y buasent yn ddiweddar yn ei wadu ac yn ei adael ef, er tywylled oeddynt yr awr hon am natur ei deyrnas ef, ac er iddo nacâu ateb eu gofyniad hwy; dyma addewid annrhaethol werthfawr iddynt, llawer gwell na phe cawsent yr atebiad hwnw, ac i gael ei chyflawni cyn nemawr o ddyddiau. Chwi a dderbyniwch nerth yr Ysbryd Glân; nerth i lefaru â thafodau; nerth i argyhoeddi a dychwelyd pechaduriaid wrth ŷ miloedd; nerth i wneyd gwyrthiau; nerth i sefyll yn wrol dros fy enw I, ac i ymdrech o blaid y ffydd; ie, nerth i sefyll o flaen brawdlëoedd, ac i ddyoddef a marw er fy mwyn I. † Tystion mai myfi yw y Messiah, tystion o'm buchedd sanctaidd, fy athrawiaeth, gwyrthiau, marwolaeth, adgyfodiad, a'm hesgyniad i'r nef: a chwi a fyddwch dystion nad oes iachawdwriaeth yn neb arall; ond mai ynof fi y cyfiawnêir ac yr ymogonedda holl had Israel ysbrydol. ‡ Dyma drefn ac ehangder gweinidogaeth yr apostolion; Jerusalem, holl Judea, Samaria, ac yna hyd eithaf y ddaear: ac mae holl hanesion y llyfr hwn yn dangos mai felly y bu.

9 [z] * Ac wedi iddo ddywedyd y pethau
hyn, † a hwynt-hwy yn edrych, ‡ efe a ddyr-
chafwyd i fynu; [a] || a chwmmwl a'i derbyniodd
ef allan o'u golwg hwynt.

z adn. 2. Salm 68. 18. Marc 16. 19. Luc 24. 50, 51. Ioan 6. 62. Eph. 4. 8—12. a Ex. 19. 9. a 34. 5. Es. 19. 1. Dan. 7. 13. Luc 21. 27. Dat. 1. 7. a 11. 12. a 14. 14.

* Am esgyniad ein Harglwydd, gwel ar Luc 24. 51. Mae yn debyg mai yn gyffelyb i Elias yr esgynodd ein Harglwydd, ond efallai yn fwy araf, ac yn sicr yn fwy gogoneddus o lawer fel yr oedd yn esgyn i fynu. Fel na bu efe farw hyd oni orphenodd bob peth, felly nis gadawodd efe y byd hyd oni ddatguddiodd bob peth ac oedd yn angenrheidiol y pryd hwnw eu datguddio. † Ac a hwy yn edrych i fynu, fel y byddent dystion sicr a dïymwad, o'i esgyniad ef. ‡ Nid trwy gymmorth angelion, er bod angelion yno yn ddïau, eithr trwy ei nerth dwyfol ei hun, a bywiogrwydd ei gorph ysbrydol mewn undeb â'r Person dwyfol. Gwel ar Ioan 20. 17, diwedd y sylwad. || Er mai cwmwl naturiol oedd hwn, mae yn debyg; eto yr oedd yn ogoneddus iawn, yn addas i fawredd yr hwn oedd ynddo, ac yn cael ei wneyd felly gan ogoniant yr hwn oedd ynddo.

10 [b] * Ac fel yr oeddynt yn edrych yn
ddyfal tu a'r nef, ac efe yn myned i fynu,
[c] † wele, dau wr a safodd ger llaw ‡ iddynt
mewn gwisg wen;

b 2 Bren. 2. 11, 12. c pen. 10. 3, 30. Dan. 7. 9. Mat. 17. 2. a 28. 3. Marc 16. 5. Luc 24. 4. Ioan 20. 12. Dat. 3. 4. a 7. 14.

* Mae hyn yn dangos mai yn arafaidd yr oedd Crist yn esgyn, er hyfrydwch i lygaid a meddylian ei ddysgyblion; ac yn enwedig er cadarnâu ei ffydd, ac fel y byddent yn gallu tystiolaethu yn sicr am ei esgyniad ef. "Yr hyn a welsom â'n llygaid, yr hyn a edrychasom arno, . . am Air y bywyd," ebai Ioan. † Dau angel yn rhith dau wr, oedd y rhai hyn yn ddïau: ac efallai mai yr un dau a welsai Mair yn y bedd, Ioan 20. 12. ‡ Gwisg wèn, i arwyddo purdeb, gogoniant, a gorfoledd yr angelion. Caiff yr holl saint eu gwisgo fel hyn yn y màn, wedi y delont i fynu o wlad y cystudd mawr; wedi golchi eu gynau, a'u cànu yn ngwaed yr Oen.

11 * Y rhai hefyd a ddywedasant, [d] Chwi
wŷr o Galilea, [e] paham y sefwch yn edrych tu
a'r nef? † yr Iesu hwn yr hwn a gymmerwyd
i fynu oddi wrthych i'r nef, [f] a ddaw felly yn

yr un modd ag y gwelsoch ef yn myned i'r nef.

d pen. 2. 7. a 13. 31. Marc 14. 70. e pen. 3. 12. Luc 24. 5 f Dan. 7. 13, 14. Mat. 24. 30. a 25. 31. Marc 13. 26. Luc 21. 27. Ioan 14. 3. 1 Thes. 1. 10. a 4. 16. 2 Thes. 1. 7—10. Dat. 1. 7.

* Mae yn debyg fod teimladau cynnmysg iawn gan yr apostolion y pryd hwn; hiraeth a galar ar ol eu hanwyl Arglwydd, ac ar yr un pryd, syndod a llawenydd ei weled yn esgyn fel buddugoliaethwr gogoneddus ar ei holl elynion. Dyma'r pryd y bu sỳnu wrth weled gwr yn dyfod o Edom, yn gôch ei ddillad o Bosra; yn hardd yn ei wisg, yn ymdaith yn amlder ei rym. Os oedd y dysgyblion truain yn galaru, yr oedd yr holl nefoedd yn gorfoleddu; a'r myrddiynau o angelion oedd gydag ef yn bloeddio, O byrth, dyrchefwch eich penau, ac ymddyrchefwch, ddrysau tragywyddol; a Brenin y gogoniant a ddaw i mewn! † Cysuro yr apostolion yr oedd y ddau angel, ac nid eu ceryddu; trwy ddywedyd y câent weled eu Harglwydd yn dyfod drachefn yn y dydd diweddaf, yn yr un modd ag yr aeth i fynu: 1. Yn weledig. 2. Mewn cwmwl. 3. Yn ei allu ei hun. 4. Gyda'r un mawredd a gogoniant. 5. Gyda'r un corph ac enaid. 6. A chyda miloedd o angelion.

12 * Yna y troisant i Jerusalem, [g] † o'r mynydd a elwir Olew-wydd, yr hwn sydd yn agos i Jerusalem, [h] ‡ *sef* taith *diwrnod* sabbath.

g Zec. 14. 4. Mat. 21. 1. a 24. 3. a 26. 30. Luc 21. 37. a 24. 52. h Luc 24. 50. Ioan 11. 18.

* Gwedi colli eu golwg ar Iesu, a chael eu cysuro gan yr angelion, dychwelodd y dysgyblion i Jerusalem, yn ol gorchymyn eu Harglwydd yn adn. 4. † Mae yn debyg mai dyma'r dydd, ac mai hwn oedd yr ámgylchiad, y soniodd Zechariah am dano: A'i draed a safent y dydd hwnw ar fynydd yr Olew-wydd, Zech. 14. 4. Esgynodd Iesu yn fuddugoliaethus ac yn ogoneddus iawn, ar gyfer, ac yn ngolwg Jerusalem, y màn lle cafodd ei ddirmygu fwyaf, a'i roddi i farwolaeth waradwydd-fawr y groes: ond mae yn debyg na chafodd neb o'i elynion ei weled ef yn esgyn. ‡ Dwy fil o gufyddau, neu gant o latheni, medd rhai oedd taith diwrnod sabbath yn mhlith yr Iuddewon: wyth ystâd, neu tua milltir o'n mesuriad ni, medd eraill. Dwy fil o gufyddau wrth fesur oedd i fod rhwng yr arch a'r gwersyll gynt pan fyddent yn ymdaith; (Jos. 3. 4.) ac efallai mai yr un pellder oedd i fod pan fyddent yn gwersyllu. Mae yn debyg hefyd mai hyny oedd y pellder eithaf i'r Iuddewon i fyned i'w synagogau ar y sabbath; ac nid oedd teithio o fath yn y byd ganddynt hwy ar y sabbath ond i'r synagog.

13 * Ac wedi eu dyfod i mewn, hwy a aethant i fynu i [i] oruwch-ystafell, † lle yr oedd [k] Pedr, ac Iago, ac Ioan, ac Andreas, [l] Phylip, a [m] Thomas, Bartholomew, a [n] Mathew, [o] Iago *mab* [p] Alphëus, a [q] Simon Zelotes, a [r] Judas *brawd* Iago, yn aros.

i pen. 9. 37—39. a 20. 8. Marc 14. 15. Luc 22. 12. k pen. 2. 14, 38. a 3. 1, &c. a 4. 13, 19. a 8. 14—25. a 9. 32—43. a 10. 9, &c. a 12. 2, 3. a 15. 7—11. Mat. 4. 18—22. a 10. 2—4. Marc 3. 16—18. a 5. 37. a 9. 2. a 14. 33. Luc 6. 14—16. Ioan 1. 40—42. a 13. 23—25. a 18. 17, 25—27. a 21. 15—24. 1 Ioan. 2 Ioan. 3 Ioan. Dat. 1. 1, &c. l Ioan 1. 43—46. a 6. 5—7. a 12. 21, 22. a 14. 8, 9. m Ioan 11. 16. a 20. 26—29. a 21. 2. n Mat. 9. 9. Marc 2. 14. Luc 5. 27—29. o pen. 12. 17. a 15. 13. 1 Cor. 15. 7. Gal. 1. 19. a 2. 9. Iago 1. 1. p Marc 2. 14. a 3. 18. q Mat. 10. 4. Marc 3. 18. r Mat. 10. 3. Marc 3. 18. Judas 1.

* Tybia rhai mai rhyw oruwch-ystafell yn y deml oedd hon; ond gan fod pob ystafell yno dàn awdurdod yr offeiriaid, nid tebyg iawn y goddefent hwy i ddysgyblion Iesu ymgynnull yn yr un o honynt. Tebycach mai rhyw ystafell yn y ddinas oedd, yn nhỳ rhyw gyfaill iddynt, lle y gallent ymgyfarfod yn ddirgelaidd rhag ofn yr Iuddewon. Neu, efallai mai yr ystafell lle bu Iesu a hwythau yn bwyta y pasg, a lle yr ymddangosasai efe iddynt ddwy waith ar ol ei adgyfodiad, Ioan 20. 19, 26. Ar amser gwasanaeth y deml, byddent yn y deml; ac y prydiau eraill byddent yn yr oruwch-ystafell hon, gallent hwy addoli Duw mewn tỳ annedd yn gystal ag yn y deml, ond nid ar amser y deml, mae yn debyg. † Gwelwn yr apostolion oll yma ond Judas Iscariot yr hwn a gyfeiliornasai gan fyned i'w le ei hun, adn. 25. Er iddynt oll gael eu gwasgaru, a ffoi, pan daráwyd y Bugail; eto, buan y dychwelodd Duw ei law ar y rhai bychain hyn, a dyma hwy oll yn nghyd, yn glỳnu weithian byth yn eu proffes, wedi cael eu gosod yn yr apostoliaeth, ac yn dysgwyl am yr Ysbryd Glân.

14 [s] * Y rhai hyn oll oedd yn parhâu yn gyttûn mewn gweddi ac ymbil, [t] gyd a'r gwragedd, a [u] † Mair mam yr Iesu, ‡ a chyd [x] a'i frodyr ef.

s pen. 2. 1, 42, 46. a 4. 24—31. a 6. 4. Mat. 18. 19, 20. a 21. 22. Luc 11. 13. a 18. 1. a 24. 53. Eph. 6. 18. t Mat. 27. 55, 56. Marc 15. 40, 41. a 16. 1. Luc 8. 2, 3. a 24. 10. Ioan 19. 25. u Ioan 19. 25, 26. x Mat. 13. 55, 56. Marc 3. 31—35.

* Gweddio yr oeddynt yn ddìau am addewid y Tad, sef am ddyfodiad yr Ysbryd Glân, ac am nerth i sefyll yn wyneb holl gynllwynion yr Iuddewon, i dystiolaethu efengyl gras Duw. Mae yn ddìau eu bod yn awr hefyd yn gweddìo yn enw yr Iesu, fel y gorchymynasai efe iddynt amryw weithiau cyn eu gadael, ac yntau erbyn hyn yn eiriol drostynt hwythau yn y nef. † Dyma'r tro diweddaf i ni glywed am Mair mam yr Iesu, a dim ond yn fỳr iawn yma: pe buasai gweddìo i fod arni hi, dìammau y buasai rhyw grybwyll am y cyfryw beth mwy nag y sydd. ‡ Yn Ioan 7. 5, dywedir nad oedd brodyr Iesu yn credu ynddo, ond yma gellir meddwl eu bod wedi eu dwyn i gredu ynddo ef.

15 ¶ * Ac yn y dyddiau hynny [y] Pedr a † gyfododd i fynu y'nghanol y disgyblion, ac a ddywedodd (a ‡ nifer yr [z] enwau yn yr un man oedd ynghylch [a] ugain a chant)

y Salm 32. 5, 6. a 51. 9—13. Luc 22. 32. Ioan 21. 15—17. z Dat. 3. 4. a 11. 13. a pen. 21. 20. Mat. 13. 31, 32. Ioan 14. 12. 1 Cor. 15. 6.

* Y deg diwrnod, rhwng esgyniad Crist â dydd y pentecost. † Arfer y dysgawdwyr Iuddewig yn y dyddiau hyny oedd *eistedd* i athrawiaethu, ond yma mae Pedr yn *cyfodi* oddi ar ei eistedd, i ddangos nad oedd efe ddim yn cymmeryd arno fod yn flaenor ac athraw i'r apostolion eraill, ond yn gydradd â hwy, ac mae yn codi i areithio, o barch iddynt. ‡ Nifer y personau, mae yn amlwg a feddylir, ar yr un pryd, *onomata*, enwau, yw y gair Groeg. Tybir fod y deg a thriugain yn y cyfarfod hwn, a rhai enwog eraill o ganlynwyr Iesu, y rhai oedd i lafurio gyda'r apostolion efallai ar ol hyn. Tybir i'r pùm càn mrodyr a welsant Grist yn Galilea (1 Cor. 15. 6,) aros yno, ac nad oeddynt yn y cyfarfod hwn; os felly, yr oedd yn rhaid fod ganddo ef dros chwe chant o ganlynwyr o leiaf pan esgynodd.

16 [b] * *Ha* wỳr frodyr, yr oedd yn [c] rhaid cyflawni yr ysgrythyr yma [d] † a rag-ddywedodd yr Ysbryd Glân trwy enau Dafydd [e] am Judas, ‡ yr hwn a fu flaenor i'r rhai a ddaliasant yr Iesu:

b pen. 2. 29, 37. a 7. 2. a 13. 15, 26, 38. a 15. 7, 13. a 22. 1. a 23. 1, 6. a 28. 17. c pen. 2. 23. a 13. 27—29. Mat. 26. 54, 56. Ioan 10. 35. a 12. 38—40 a 19. 28—30, 36, 37. d pen. 2. 30, 31. a 4. 25—28. a 28. 25. 2 Sam. 23. 2. Marc 12. 36. Heb. 3. 7, 8. 1 Pedr 1. 11. 2 Pedr 1. 21. e Salm 41. 9. a 55. 12—15. Ioan 13. 18. a 18. 2—8.

* Dull cyffredin o gyfarch eu gilydd fel cyd-raddolion oedd hyn gan yr Iuddewon, ac felly mae Pedr yn ei ddefnyddio yma, nid i ddangos ei flaenoriaeth, a'i oruwch-awdurdod ar yr apostolion eraill. Nid ydym yn cael i'n Harglwydd Iesu ei hunan gyd-raddu ei hun erioed â'i ddysgyblion fel hyn, drwy ddywedyd, Ha wỳr frodyr. Brodyr o un genedl, a brodyr o un grefydd, oedd yma oll. † Yr Ysbryd Glân oedd yn llefaru trwy enau Dafydd; a pha beth bynag oedd Dafydd ei hun yn ei feddwl yn y mànau a ddyfynir yn adn. 20, (Salm 69. 25; a 109. 8.) Judas Iscariot oedd yr Ysbryd Glân yn

ei feddwl: a'r Ysbryd Glân yn ddïau a gyfarwyddodd Pedr yma i ddeall y geiriau fel prophwydoliaeth am Judas. ‡ Blaenor, nid yn unig i'w harwain hwy i'r màn lle yr oedd yr Iesu, ond hefyd fel cyfarwyddwr iddynt yn eu holl gyngor yn ei erbyn ef.

17 [f] * Canys efe a gyfrifwyd gyd â ni, † ac a gawsai ran o'r [g] ‡ weinidogaeth hon.

f Mat. 10. 4. Marc 3. 19. Luc 6. 16. a 22. 47. Ioan 6. 70, 71. a 17. 12. g adn. 25. pen. 12. 25. a 20. 24. a 21. 19. 2 Cor. 4. 1. a 5. 18. Eph. 4. 11, 12.

* Efe a gyfrifwyd yn un o'r deuddeg apostol, cyfrifwyd ef felly gan ei gyd-apostolion, a chyfrifwyd ef felly gan Grist ei hun, "Oni ddewisais I chwi y *deuddeg:* ar yr un pryd gwyddai Crist beth oedd Judas, "Ac o hónoch y mae un yn ddiafol." † Cawsai Judas ei osod yn y swydd apostolaidd yn gystal a'r apostolion eraill, a chawsai bob dawn angenrheidiol i'r swydd, mae yn debyg, fel hwythau. Am hyn yr oedd ei bechod yn fwy, a'i farn yn drymach. ‡ Cofied pregethwyr yr efengyl oll, mai *gweinidogaeth* sy ganddynt, ac nid *arglwyddiaeth.*

18 [h] * A hwn a bwrcasodd faes [i] â gwobr anwiredd; [k] † ac wedi ymgrogi, a dorodd yn ei ganol, a'i holl ymysgaroedd ef a dywalltwyd allan.

h Mat. 27. 3—10. i Num. 22. 7, 17. Jos. 7. 21—26. 2 Bren. 5. 20—27. Job 20. 12—15. Mat. 26. 15. 2 Pedr 2. 15, 16. k Salm 55. 15, 23. Mat. 27. 5.

* Yr arch-offeiriaid a brynasent y maes; ond am mai â'r arian a roddasent i Judas am fradychu Crist y prynasent ef, dywed Pedr yma mai Judas ei hun a'i prynodd ef. Tybia rhai fod Judas ei hun wedi bwriadu prynu y maes pennodol hwn â'r un arian, oni buasai i'w gydwybod fyned yn drech nac ef, a gorfod eu rhoi yn ol: ac i'r arch-offeiriaid drwy oruwch-lywodraeth Duw, brynu yr un maes, ac â'r un arian. Gwel yn mhellach am y maes hwn yn Matth. 27. 7, 8. † Gwel ar Matth. 27. 5. Tybia y *Dr. Lightfoot* i'r diafol godi Judas i fynu i'r awyr, ei lindagu yno, ac yna ei daflu ben-dramwnwgl i lawr yn y maes a brynwyd â'r arian uchod. Tybia eraill mai rhyw Iuddew, a fynai ddirgelu ei hunan-laddiad ef, a'i tòrodd ef i lawr oddi ar y pren lle y cawsai ef yn nghrog, ac a'i taflodd ef i ryw geu-bwll dwfn yn Maes y crochenydd, lle y cafwyd ef rywbryd wedi hyny, a'i holl ymysgaroedd wedi ymdywallt allan yn ei godwm. Pa fodd bynag y bu, gwelir barn ofnadwy Duw ar yr adyn truenus hwnw.

19 [l] * A bu hysbys hyn i holl breswylwyr Jerusalem, hyd oni elwir y maes hwnnw yn eu † tafod priodol hwy, [m] Aceldama, hynny yw, ‡ Maes y gwaed.

l pen. 2. 22. Mat. 28. 15. m 2 Sam. 2. 16.

* Er maint y mynai yr Iuddewon ddirgelu y tro echryslawn a rhyfedd hwn, nid oedd hyny yn bosibl; daeth holl breswylwyr Jerusalem yn hysbys o hóno yn fuan. Gallai yr adnod hon fod mewn cromfachau, geiriau Luc, ysgrifenydd y llyfr hwn ydyw, ac nid geiriau Pedr. Nid oedd ond ychydig amser er pan ddygwyddasai y tro pan oedd Pedr yn llefaru, ond yma mae Luc yn ei adrodd fel peth wedi dygwydd ryw hir yspaid yn ol. † "Eu tafod priodol hwy" oedd y Syriäeg, neu gymmysg o Syriäeg a Chaldeäeg, er amser y caethiwed yn Babilon. "*Eu* tafod priodol *hwy*" sylwn, yw y geiriau, ac nid *Ein* tafod priodol *ni;* yr hyn sydd yn dangos mai geiriau Luc yw y rhai hyn, ac mai nid Iuddew oedd Luc ei hun. ‡ "Maes y gwaed," am mai gwerth gwaed Iesu oedd yr arian a'i prynodd, ac hefyd am i Judas dywallt ei waed ei hun yn y maes hwnw. Dywedir mai yn y maes hwnw y claddwyd ef hefyd.

20 * Canys ysgrifenwyd [n] yn llyfr y Psalmau, [o] † Bydded ei drigfan ef yn ddiffäethwch, ac na bydded a drigo ynddi: [p] a chymmered arall ei esgobaeth ef.

n pen. 13. 33. Luc 20. 42. a 24. 44. o Salm 69. 25. a 109. 9—15. Zec. 5. 3, 4. p adn. 25. Salm 109. 8.

* Cawn y rhan flaenaf o'r brophwydoliaeth hon yn Salm 69. 25; a'r rhan olaf o hóni yn Salm 109. 8. Megys mae y naill ran o hóni yn rhagfynegi tynged Judas, felly mae y rhan arall o hóni yn dangos dyledswydd yr apostolion, sef gosod rhywun arall yn ei swydd, neu ei esgobaeth ef. Gwel ar adn. 16. † Tybir i weithred fradychus, a marwolaeth ddychrynllyd Judas, daro y bobl yn gyffredin â'r fath arswyd ac atgasrwydd, fel yr oeddynt yn ffieiddio hyd yn nôd y fàn lle y buasai efe yn byw, ac yn dychrynu rhag myned yn agos i'r fàn hòno. Dywedir i dynged ofnadwy Judas gael ei defnyddio gan ddynion, fel dull diarebol o felltithio eu gilydd, yn mhob gwlad am oesoedd.

21 * Am hynny y mae yn rhaid, [q] † o'r gwŷr a fu yn cydymdaith â ni yr holl amser yr aeth yr Arglwydd Iesu [r] i mewn ac allan yn ein plith ni,

q Luc 10. 1, 2 r Num. 27. 17. Deut. 31. 2. 2 Sam. 5. 2. 1 Bren. 3. 7. Ioan 10. 1—9.

* Yr oedd yn rhaid cael deuddeg apostol, mae yn debyg, yn yr eglwys efengylaidd, i gyfateb i'r deuddeg patriarch, a'r deuddeg llwyth yn yr eglwys Iuddewig: am hyny yr oedd yn rhaid dewis rhywun i'r swydd hòno yn lle Judas. † Rhaid bod yr apostolion oll yn dystion personol o bob peth a wnaeth ac a ddyoddefodd yr Arglwydd Iesu, am hyny yr oedd yn rhaid dewis un yn lle Judas, ag a fuasai yn arfer canlyn Crist yn gyson gyda'r apostolion: efallai mai o blith y deg dysgybl a thriugain yr oeddynt yn dewis.

22 [s] * Gan ddechreu o fedydd Ioan [t] hyd y dydd y cymmerwyd ef i fynu oddi wrthym ni, bod un o'r rhai hyn gyd â ni [u] † yn dyst o'i adgyfodiad ef.

s pen. 13. 24, 25. Mat. 3. Marc 1. 3—8. Luc 3. 1—18. Ioan 1. 28—51. t Gwel ar adn. 2, 9. u Gwel ar adn. 8. Heb. 2. 3.

* "Gan ddechreu o fedydd Ioan," sef yr amser y bedyddiwyd Crist gan Ioan: oblegid y pryd hwnw y dechreuodd efe ei weinidogaeth gyhoeddus, ac o'r pryd hwnw yr aeth efe i mewn ac allan yn mhlith ei ddysgyblion, adn. 21. † Yr oedd pob peth, blaenorawl a dylynawl, megys yn cymherfeddu yn adgyfodiad Iesu, ac yr oedd yn anhawddach credu hyny na dim arall; felly yr oedd yn angenrheidiol cael digon o dystion o'i adgyfodiad ef uwchlaw pobpeth.

23 * A hwy a osodasant ddau ger bron, † Joseph, yr hwn a enwid [x] Barsabas, ac a gyfenwid Justus, a Matthïas.

x pen. 15. 22.

* Cymmeradwywyd cynnygiad Pedr yn y fàn gan yr apostolion oll, a gosodasant ddau gerbron i'r perwyl hyny. Mae yn anmhosibl, ac yn afreidiol i ni wybod, paham y gosodwyd y ddau hyn ger bron, mwy nac eraill; efallai eu bod hwy wedi bod yn ganlynwyr mwy cyson nac eraill, neu ynte yn fwy enwog na neb o'r lleill mewn duwioldeb a geirwiredd. Gosodwyd hwy ger bron yr apostolion; ond yn hytrach ger bron yr Arglwydd, iddo ef ddangos drwy goelbren pa un o'r ddau a ddewisai. † Nid yw yn angenrheidiol i ni wybod pwy oedd y ddau hyn.

24 [y] * A chan weddïo, hwy a ddywedasant, [z] † Tydi, Arglwydd, ‡ yr hwn a wyddost galonau pawb, dangos pa un o'r ddau hyn a etholaist,

y pen. 13. 2, 3. Diar. 3. 5, 6. Luc 6. 12, 13. z pen. 15. 8. Num. 27. 16. 1 Sam. 16. 7. 1 Bren. 8. 39. 1 Cron. 28. 9. a 29. 17. Salm 7. 9. a 44. 21. Diar. 15. 11. Jer. 11. 20. a 17. 10. a 20. 12. Ioan 2. 24, 25. a 21. 17. Heb. 4. 13. Dat. 2. 23.

* Dewisodd yr apostolion ddau, y rhai mwyaf cymhwys yn ol eu barn ddiduedd hwy; ond nis medrent hwy wybod pa un o'r ddau i ddewis: am hyny maent yn gorchymyn y mater pwysig i Dduw, gwybyddwr calonau pawb. † Gweithred ddigyfrwng Iesu oedd

dewis yr apostolion; am hyny tybir mai ato ef mae yr un ar ddeg yn cyfeirio y weddi hon, "Tydi, Arglwydd, &c." ‡ Addefa yr apostolion ei fod ef yn gwybod calonau pawb, yr hyn a berthyn i Dduw yn unig, gall pawb eraill gam-gymmeryd, ac y maent yn cael eu twyllo yn aml, gan ymddangosiadau allanol.

25 [a] * I dderbyn rhan o'r weinidogaeth hon, a'r apostoliaeth, [b] † o'r hon y [c] cyfeiliornodd Judas, [d] ‡ i fyned i'w le ei hun.

a adn. 17, 20. b adn. 16—21. Salm 109. 7. Mat. 27. 3—5. c 1 Cron. 10. 13, 14. 2 Pedr 2. 3—6. Judas 6, 7. d Mat. 25. 41. 46. a 26. 24. Ioan 6. 70, 71. a 13. 27. a 17. 12.

* I gymmeryd ei ran gyda ni, yn awdurdod, ymddiried, a llafur y weinidogaeth a'r apostoliaeth, yn lle Judas. † Bu Judas yn anffyddlawn i'w swydd ac i'w Arglwydd hefyd; am hyny gwnaeth ei hun yn annheilwng o'i swydd: cyfeiliornodd trwy fradychu ei Arglwydd, a chyfeiliornodd trwy ei grogi ei hun: cyfeiliornodd o'i swydd drwy bechod, a chyfeiliornodd o'r byd i ddystryw byth. ‡ Uffern yn ddiammau a feddylir: "ei le ei hun" ydoedd i Judas, am ei fod yn gymhwys iddo, ac yn ei gyflawn haeddu. Pan mae yr annuwiol yn myned i uffern, myned i'w le ei hun y mae.

26 [e] * A hwy a fwriasant eu coel-brennau hwynt: † ac ar [f] Matthïas y syrthiodd y coel-bren; ‡ ac efe a gyfrifwyd gyd â'r un apostol ar ddeg.

e pen. 13. 19. Lef. 16. 8. Jos. 18. 10. 1 Sam. 14. 41, 42. 1 Cron. 24. 5. Diar. 16. 33. Jona 1. 7. f adn. 23.

* Tybir mai yr anrhydedd a roddasai Duw ar ymofynion trwy goelbren, (Jos. 7. 14, 15; 1 Sam. 10. 20, 21;) yn nghyd a'r arfer o ddewis swyddogion yr offeiriaid yn y deml wrth goelbren, (1 Cron. 24. 5, 7; Luc 1. 9;) a barodd i'r apostolion feddwl am y dull hwn o ddewis un o'r ddau hyn. Mae yn debyg nad oes neb a ŵyr pa fodd yr oeddynt hwy yn bwrw eu coelbrenau; a rhŷ faith, ac afreidiol, fyddai gosod i lawr yma yr hyn a *dybiodd* dynion dysgedig, ond dychymmygol, am y peth. Mae yn debyg nad oes yma ddim sail i ddynion ddisgwyl cael gwybod meddwl Duw trwy goelbren yn awr; nac i arfer y fath beth ar unrhyw achlysur, pa mòr bwysig bynag y byddo, a pha mòr ddifrifol bynag y gallwn ninnau fod gydag ef. Mae gair anffaeledig Duw, barn a llais cyffredin ei eglwys, ac ymddangosiadau ei ragluniaeth, yn ddigon i ni benderfynu pob peth heb goelbren. † Yr apostolion oedd yn bwrw y coelbrenau, ond oddi wrth yr Arglwydd yr oedd ei lywodraethiad ef, Diar. 16. 33. Fel hyn yr oedd Matthïas yn cael ei osod yn yr apostoliaeth gan Dduw ei hun, mòr ddigyfrwng â neb arall o honynt. Mae yn rhyfedd na sonir dim am Matthïas yn un màn o'r ysgrythyr ond ar yr achlysur hwn; ond crybwyllir am Barsabas fel un enwog gyda'r apostolion, Act. 15. 22—35. Diammau i Matthïas lenwi ei le yn ffyddlawn, er nad oes genym hanes am dano: ac mae yn amlwg na ddarfu i Barsabas ddim cythruddo ac ymrwystro o herwydd na chawsai ei ddewis yn apostol. ‡ Dangosodd yr apostolion eraill, yn ngwydd yr holl eglwys o hyny allan, eu cymmeradwyaeth o Matthïas yn ol dewisiad Duw o hono: cyfrifwyd ef yn apostol, a chyda'r apostolion. Lle byddo argoelion fod Duw wedi galw dyn i waith y weinidogaeth, dylai yr holl eglwys ei dderbyn ef fel y cyfryw.

PEN. II.

Yr apostolion yn llawn o'r Ysbryd Glân.

* AC [a] wedi dyfod dydd y Pentecost, [b] † yr oeddynt hwy oll yn gyttûn yn ‡ yr un lle.

a pen. 20. 16. Ex. 23. 16. a 34. 22. Lef. 23. 15—21. Num. 28. 26—31. Deut. 16. 9—12. 1 Cor. 16. 8. b adn. 46. pen. 1. 13—15. a 4. 24, 32. a 5. 12. 2 Cron. 5. 13, 14. a 30. 12. Salm 133. 1, 2. Jer. 32. 39. Zeph. 3. 9. Rhuf. 15. 6. Phil. 1. 27. a 2. 2.

* Ystyr y gair Pentecost yw, Deg a deugain; am ei fod yn cael ei gadw yn ŵyl y degfed dydd a deugain ar ol y pasg. Groeg yw y gair *pentecost;* gŵyl yr wythnosau y galwai yr Iuddewon yr ŵyl hòno, (Exod. 34. 22,) am ei bod saith wythnos ar ol y pasg. Gŵyr pawb mai y Sulgwyn y galwn ni yr ŵyl hòno. Tröed y darllenydd at y cyfeiriadau dàn y llythyren *a*, a chaiff weled yr hyn a ddywed yr ysgrythyr am ŵyl y pentecost. Gan i'r Iesu gael ei groeshoelio ar ŵyl gyhoeddus y pasg, yr oedd yn iawn iddo gael ei ogoneddu ar ŵyl gyhoeddus y pentecost, a'r pentecost cyntaf hefyd ar ol ei groeshoelio. Sefydlwyd yr hen oruchwyliaeth, trwy roddiad y ddeddf ar Sinai, ar ddydd y pentecost; a sefydlwyd yr oruchwyliaeth newydd, trwy dywalltiad yr Ysbryd Glân yn Jerusalem, ar yr un dydd; yr oedd y tro hwn yn dygwydd ar y dydd cyntaf o'r wythnos Iuddewig, y sabbath Cristionogol; ac felly cafodd y sabbath cristionogol ei gwbl gyssegru drwy y tywalltiad o'r Ysbryd Glân. † Yr ugain a chant, mae yn debyg, a grybwyllir, pen. 1. 15. ‡ Nid yw pawb yn cyttuno pa le oedd hwn, mòn rhai mai yn y deml yr oeddynt, am nad oedd un ystafell mewn tŷ yn ddigon i'w cynnwys, ond tybia eraill i'r gwrthwyneb: nid yw o bwys mawr am y lle.

2 [c] * Ac yn ddisymmwth y † daeth swn o'r nef, [d] ‡ megis gwynt nerthol yn rhuthro, [e] || ac a lanwodd yr holl dŷ lle yr oeddynt yn eistedd.

c pen. 16. 25, 26. Es. 65. 24. Mal. 3. 1. Luc 2. 13. d 1 Bren. 19. 11. Salm 18. 10. Can. 4. 16. Ezec. 3. 12, 13. a 37. 9, 10. Ioan 3. 8. e pen. 4. 31.

* "Cyn nemawr o ddyddiau" a ddywedasai yr Iesu, pen. 1. 5; ni ddywedodd yn fanwl pa bryd; felly, mae yn debyg nad oedd yr apostolion eu hunain yn dysgwyl y fath beth ar y pryd pennodawl hwnw: ond yr oeddynt yn gyttun yn gweddïo am dano, ac yn ei ddysgwyl ryw bryd, yn fuan. † "Swn," i ddeffrôi eu sylw hwynt, ac i'w darpar i'r hyn oedd i ganlyn. ‡ "Gwynt nerthol," i arwyddo gweithrediadau nerthol a chryfion yr Ysbryd Glân, ar yr apostolion eu hunain, ac ar y miloedd pobl trwy eu hymadrodd hwy. || I arwyddo y byddai i'r efengyl trwy nerth yr Ysbryd Glân o'r diwedd, i lanw yr holl fyd â'i goleuni dwyfol, a'i rhinweddau nerthol.

3 * Ac ymddangosodd iddynt [f] dafodau † gwahanedig [g] megis o ‡ dân, ac efe [h] a eisteddodd || ar bob un o honynt.

f adn. 4, 6, 11. Gen. 11. 6, 7. Salm 55. 9. 1 Cor. 12. 10. Dat. 14. 6. g Es. 6 5—7. Jer. 23. 29. Mal. 3. 2, 3. Mat. 3. 11. Luc 24. 32. Iago 3. 6. Dat. 11. 3—5. h pen. 1. 15. Es. 11. 2, 3. Mat. 3. 16. Ioan 1. 32, 33.

* Fflam dân ar lun tafodau megys yn eistedd ar ben pob un o honynt. † Yr oedd y tafodau hyn yn wahanedig, neu yn fforchogi, yn mlaen pob un o honynt: ond pa un ai fforchogi yn ddau, neu ragor, nis gwyddis; tybiodd eglwys Rufain mai gwahanu yn ddau yr oedd pob un o honynt, a dywedir mai i geisio dynwared y tafodau hyny y dychymmygasant y meitr, neu y capan blaen-fforchog, a wisg eu hesgobion, ac esgobion Lloegr hefyd. Ond gan mai llefaru mewn amryw ieithoedd oedd arwyddocâd y tafodau hyny, mae yn debycach fod mwy nac un fforchogiad ynddynt. ‡ Tân, i arwyddo yn 1. Y goleuni a gyfranai yr apostolion trwy eu gweinidogaeth. 2. Y gwresowgrwydd a'r eiddigrwydd *(zeal)* tanllyd a gâent yn eu hysbrydoedd. 3. Taeniad a rhediad cyflym yr efengyl trwy y byd, gan gludo pob peth o'i blaen, a buddugoliaethu ar bob cyfeiliornadau a llygredd. 4. Purdeb a sancteiddrwydd yr apostolion, ac a weddai i holl bregethwyr yr efengyl. Yma y cyflawnwyd rhag-ddywediad Ioan, Bedyddio â'r Ysbryd Glân ac â thân: a sylwa rhai, fod Shechinah yr hen oruchwyliaeth yma, megys yn gadael yr oruchwyliaeth hòno, ac yn myned drosodd ar yr apostolion, fel gweinidogion prif a chyntaf yr oruchwyliaeth newydd. || Ar yr oll oedd yn gyttun yn yr un lle, adn. 1; sef yr ugain a chant, a grybwyllir yn adn. 15, o'r bennod o'r blaen.

Nis gallai y tro hwn fod yn gyflawniad o brophwydoliaeth Joel yn iawn (adn. 16, 17, 18,) heb i ni dybied fod yr Ysbryd Glân wedi disgyn ar bawb ag oedd yn y lle yn gystal ag ar yr apostolion; ac os felly, nid oes dim a fyno yr esgobion â'r capiau fforchog a soniwyd uchod, mwy na christionogion eraill yn gyffredin.

4 * A hwy oll [i] a lanwyd â'r Ysbryd Glân, [k] † ac a ddechreuasant lefaru â thafodau eraill, [l] megis y rhoddes yr Ysbryd iddynt ymadrodd.

i pen. 1. 5. a 4. 8, 31. a 6. 3, 5, 8. a 7. 55. a 9. 17. a 11. 24. a 13. 9, 52. Luc 1. 15, 41, 67. a 4. 1. Ioan 14. 26. a 20. 22. Rhuf. 15. 13. Eph. 3. 19. a 5. 18. k adn. 11. pen. 10. 46. a 19. 6. Es. 28. 11. Marc 16. 17. 1 Cor. 12. 10, 28—30. a 13. 1, 8. a 14. 5, 6, 18, 21—23, 39. l Ex. 4. 11, 12. Num. 11. 25—29. 1 Sam. 10. 10. 2 Sam. 23. 2. Es. 59. 21. Jer. 1. 7—9. a 6. 11. Ezec. 3. 11. Mica 3. 8. Mat. 10. 19, 20. Luc 12. 12 a 21. 15. 1 Cor. 14. 26—32. Eph. 6. 18, 19. 1 Pedr 1. 12. 2 Pedr 1. 21.

* Hwy a lanwyd â doniau a grasau yr Ysbryd Glân mewn mesur helaethach o lawer, nac o'r blaen. † Hwy a lefarasant mewn ieithoedd ag oedd yn hollawl ddïeithr iddynt o'r blaen; a dywedir fod y gair *Apophthegesthai)* a gyfieithir yma "llefaru," yn arwyddo, llefaru pob iaith gyda'r hyawdledd a'r perffeithrwydd mwyaf, a chyda grym ac arddelwad anghyffredin. Mae yn amlwg mai gwyrth ryfeddol o'r nef oedd hon, clywed dynion anllythyrenog o ran dygiad i fynu, yn llefaru mawrion bethau ar yr unwaith, a hyny yn berffaith hyawdl a grymus, mewn ieithoedd hollawl ddïeithr iddynt hyd yr awr hòno. Trwy gymmysgiad yr iaith yn Babel y gwrthodwyd y Cenedloedd; a thrwy alluogi yr apostolion i lefaru amryw ieithoedd yn Jerusalem, y dygwyd hwy yn eu hol i'r eglwys.

5 [m] * Ac yr oedd yn trigo yn Jerusalem, Iuddewon, [n] gwŷr bucheddol o † bob cenedl [o] dan y nef.

m adn. 1. pen. 8. 27. Ex. 23. 16, 17. Es. 66. 18, 19. Zec. 8. 18—21. Luc 24. 18. Ioan 12. 20. n pen. 8. 2. a 10. 2, 7. a 13. 50. a 17. 4, 17. a 22. 12. Luc 2. 25. o Deut. 2. 25. Mat. 24. 14. Luc 17. 24. Col. 1. 23.

* Mae yn debyg fod rhai dynion bucheddol, o Iuddewon gwasgaredig a Phroselytiaid, o agos i bob cenedl yn *aros* yn Jerusalem, er mwyn manteision crefyddol yn y lle nodedig hwnw: ac mae yn sicr fod yno lawer iawn o'r cyfryw bobl o bob cenedl, ar yr ŵyl arbenig hon; oblegid dywedir fod dysgwyliad cryf cyffredin yn mhlith pawb, yr ymddangosai y Messiah ar yr ŵyl hòno. † Gorwireb, *(hyperbole)* efallai, yw y geiriau hyn, "pob cenedl dàn y nef," fel mewn llawer o fànau eraill yn yr ysgrythyr: pob cenedl yn mhlith pa rai y gwasgaresid yr Iuddewon a feddylir. Trefnodd Duw hyn i daenu yr efengyl megys ar unwaith yn mhlith pob cenedl: ac yma cyflawnwyd llawer o brophwydoliaethau yr Hen Destament, Es. 2. 2, 3; a 43. 5, 6.

6 * Ac wedi myned y gair o hyn, [p] daeth y lliaws ynghyd, † ac a drallodwyd, ‡ o herwydd bod pob un yn eu clywed hwy yn llefaru yn ei iaith ei hun.

p pen. 3. 11. 1 Cor. 16. 9. 2 Cor. 2. 12.

* Efallai i lawer o'r rhai oddi allan glywed swn y gwynt nerthol yn rhuthro, neu glywed y dysgyblion yn tòri allan mewn gorfoledd i glodfori Duw. † Trallododd rhai o honynt, efallai, o herwydd croeshoelio yr Iesu, a synasant yn ddirfawr oll gan swn y gwynt, wrth weled y tafodau tanllyd, ac wrth glywed yr apostolion yn llefaru fel yr oeddynt: pob un yn eu clywed yn ei iaith ei hun. ‡ Mae yn sicr bod yr apostolion yn llefaru mewn gwahanol ieithoedd (adn. 4,) ac nid y bobl yn eu clywed bob un yn ei iaith ei hun; pe felly, ar y bobl y buasai y wyrth, ac nid ar yr apostolion.

7 [q] * Synnodd hefyd ar bawb, a rhyfeddu a wnaethant, gan ddywedyd wrth eu gilydd, Wele, [r] † onid Galileaid yw y rhai hyn oll sydd yn llefaru?

q adn. 12. pen. 3. 10. a 14. 11, 12. Marc 1. 27. a 2. 12 r pen. 1. 11. Mat. 4. 18—22. a 21. 11. Ioan 7. 52.

* Synasant pa fodd y gallai y fath beth â hyn fod, i ba ddyben, a pha beth a ddeuai o hyn. † Gwyddai llawer o honynt rywfodd mai brodorion o Galilea oedd y dysgyblion oll: gwyddent hefyd fod y Galileaid yn fwy annysgedig a gwladaidd na'r Iuddewon yn gyffredin; a gwyddent, neu tybient y gwyddent, na chodasai dim prophwydi o Galilea. Gwel ar Ioan 7. 52. Fel hyn yn eu syndod wrth, a dywediad dirmygus am, yr apostolion, yr oedd y bobl yn arddangos y wyrth yn fwy hynod ac anwadadwy.

8 * A pha fodd yr ydym ni yn eu clywed hwynt bob un yn ein hiaith ein hun, yn yr hon y'n ganèd ni?

* O'r gwahanol wledydd a enwir yn yr adnodau canlynol, tybir fod yno o leiaf saith neu wyth o ieithoedd hollawl wahanol i'w gilydd; heblaw llawer ychwaneg o gangen-ieithoedd yn perthyn i bob un o'r ieithoedd gwreiddiol hyny: a dywedir fod y geiriau *tê idia dialektos* yn arwyddo bod yr apostolion yn llefaru, nid yn unig pob un o'r ieithoedd gwreiddiol hyny, ond hefyd pob un o'r cangen ieithoedd, yn berffaith o ran hyawdledd, geirweddiad, ac aceniad pob gair, fel pe buasent wedi eu harfer erioed o'u mabandod.

9 * Parthiaid, a [s] Mediaid, ac [t] Elamitiaid, a thrigolion [u] Mesopotamia, a Judea, a [x] Chappadocia, [y] Pontus, ac [z] Asia,

s 2 Bren. 17. 6. Ezra 6. 2. Dan. 8. 20. t Gen. 10. 22. a 14. 1. Es. 11. 11. a 21. 2. Dan. 8. 2. u pen. 7. 2. Gen. 24. 10. Deut. 23. 4. Barn. 3. 8. 1 Cron. 19. 6. x 1 Pedr 1. 1. y pen. 18. 2. 1 Pedr 1. 1. z pen. 6. 9. a 16. 6. a 19. 10, 27, 31. a 20. 16, 18. 2 Tim. 1. 15. Dat. 1. 4, 11.

10 [a] Phrygia, a [b] Phamphylia, [c] yr Aipht, a pharthau [d] Lybia, yr hon sydd ger llaw [e] Cyrene, [f] † a dieithriaid o Rufeinwyr, [g] Iuddewon a phroselytiaid,

a pen. 16. 6. a 18. 23. b pen. 13. 13. a 14. 24. a 15. 38. a 27. 5. c Gen. 12. 10. Es. 19. 23—25. Jer. 9. 26. Hos. 11. 1. Mat. 2. 15. Dat. 11. 8. d Jer. 46. 9. Ezec. 30. 5. Dan. 11. 43 e pen. 6. 9. a 11. 20. a 13. 1. Marc 15. 21. f pen. 18. 2. a 23. 11. a 28. 15, 16. Rhuf. 1. 7, 15. 2 Tim. 1. 17. g pen. 6. 5. a 13. 43. Esther 8. 17. Zec. 8. 20—23.

11 [i] Cretiaid, ac [k] Arabiaid, ‡ yr ydym ni yn eu clywed hwynt yn llefaru yn ein hiaith ni [l] fawrion weithredoedd Duw.

i pen. 27. 7, 12, 13. Tit. 1. 5, 12. k 1 Bren. 10. 15. 2 Cron. 17. 11. a 26. 7. Es. 13. 20. a 21. 13. Jer. 3. 2. a 25. 24. Gal 1. 17. a 4. 25. l Ex. 15. 11. Job 9. 10. Salm 26. 7. a 40. 5. a 71. 17. a 77. 11. a 78. 4. a 89. 5. a 96. 3. a 107. 8, 15, 21. a 111. 4. a 136. 4. Es. 25. 1. a 28. 29. Dan. 4. 2, 3. Heb. 2. 4.

* Wele yma ddynion yn llefaru dim llai na phymtheg o wahanol ieithoedd i gyd; rhai o Asia, rhai o Affrica, a rhai o Europe: ac er bod eu ieithoedd hwy yn wahanol iawn i'w gilydd, ac oll yn wahanol i'r apostolion; eto yr oeddynt oll yn eu deall hwynt yn berffaith. † Iuddewon yn preswylio yn Rhufain, a Rhufeiniaid o genedl wedi derbyn y grefydd Iuddewig. Dywed *Josephus* a haneswyr eraill, fod nifer mawr o Iuddewon yn preswylio yn Rhufain yr amser hwnw, ac y byddent yn troi llawer iawn o'r Rhufeiniaid i'r grefydd Iuddewig. ‡ Nid yn unig yr oeddynt yn deall yr iaith a lefarai yr apostolion, ond yr oeddynt yn eu clywed hwy yn llefaru mawrion weithredoedd Duw: pethau mawrion iachawdwriaeth Duw, yn enwedig adgyfodiad Iesu o feirw, yr hyn oedd beth rhyfedd iawn, ac un o'r prif foddion er dychwelyd y byd i dderbyn y grefydd Gristionogol. Pregethwyd yr efengyl, a sefydlwyd cristionogaeth, yn fore iawn yn amryw o'r gwledydd a enwyd uchod; a diammau i ddygwyddiadau y diwrnod rhyfedd hwn, fod yn foddion effeithiol iawn i'w dwyn i mewn, ac i'w chynnyddu yn eu plith.

12 * A synnasant oll, ac a ammheuasant,

† gan ddywedyd y naill wrth y llall, [m] Beth a all hyn fod?

m pen. 10. 17. a 17. 20. Luc 15. 26. a 18. 36.

* Cawsom yr un peth o'r blaen, adn. 7. Yr oeddynt yn deall y geiriau, ond yn sŷnu wrth y wyrth; nis medrent amgyffred yr achos o hyn, na pha beth a fyddai y canlyniad. † Cyd-ymholent â'u gilydd, gan ddywedyd, Beth a all hyn fod? Pa beth mae Duw yn myned i'w wneyd yn ein plith ni? A ydyw efe yn myned i osod i fynu deyrnas y Messiah, yr hwn y buom ni yn ei ddysgwyl, fel hyn, a thrwy y dynion rhyfedd hyn? Ac os ydyw, pa fath deyrnas a fydd hi?

13 * Ac eraill, gan watwar, a ddywedasant, [n] † Llawn o win melus ydynt.

n adn. 15. 1 Sam. 1. 14. Job 32. 19. Can. 7. 9. Es. 25. 6. Zec. 9. 15, 17. a 10. 7 Eph. 5. 18.

* Gwelwn yn yr adnod nesaf mai Iuddewon Judea a Jerusalem oedd y gwatwarwyr hyn: mae yn resyn meddwl bod y rhai hyn yn galetach ac yn fwy gwatwarllyd na'r pellenigion mwy estronaidd. Nid oedd y rhai hyn yn deall iaith yn y byd ond iaith Judea, ac am eu bod yn llawn o lid a rhagfarn yn erbyn Iesu a'i apostolion, taerent mai meddwon oeddynt, ac yn siarad baldordd fel meddwon. † Nid oedd gwin newydd i'w gael ar ŷl y pentecost, gan nad oedd y gwin gynhauaf eto: gan hyny gwin melus a ddylai y geiriau fod, ac nid gwin newydd fel yn y cyfieithiad Saesoneg. Melus yw ystyr y gair *gleukus*, meddant, hefyd, ac nid newydd. Mae yn wir mai y gwin newydd oedd y melusaf; ond dywedir y byddai gan yr henafiaid ffordd i gadw y gwin yn ei felusder yn hir iawn, ac y byddai hwnw yn feddwawl iawn.

14 ¶ * Eithr Pedr, † yn sefyll [o] gyd a'r un ar ddeg, [p] a gyfododd ei leferydd, ac a ddywedodd wrthynt, [q] ‡ *O* wŷr o Iuddewon, a chwi oll sydd yn trigo yn Jerusalem, bydded hysbysol hyn i chwi, [r] a chlust-ymwrandewch â'm geiriau:

o pen. 1. 26. p Es. 40. 9. a 52. 8. a 58. 1. Hos. 8. 1. q adn. 22. pen. 5. 35. a 13. 16. a 21. 28. r pen. 7. 2. Deut. 27. 9. Diar. 8. 32. Es. 51. 1, 4, 7. a 55. 2. Iago 2. 5.

* Dyma brawf o hyfdra Pedr, ac ei fod yn ateb i'w enw, càreg, neu graig: ar ol ei gwymp, mae efe yn gadarnach wedi ei adferyd. † Yr oedd hyn yn dangos nad oedd yr apostolion yn feddwon; pe buasent, nis gallasent sefyll fel hyn yn ddïysgog yn wyneb eu gwatwarwyr. Yr oeddynt hwy yn gwarthruddu yr apostolion yn ddïachos, ac hefyd yn cablu yr Ysbryd Glân, am hyny yr oedd yn iawn i Pedr amddiffyn ei hun a'i frodyr, a thystiolaethu mai dawn a dylanwadau yr Ysbryd Glân oedd arnynt. Llawn o'r Ysbryd, nid llawn o win oeddynt. ‡ Mae efe yn galw pawb yn ddïofn i wrando arno, ac i ddàl yn fanol ar ei ymadroddion.

15 [s] * Canys nid yw y rhai hyn yn feddwon, fel yr ydych chwi yn tybied; [t] † oblegid y drydedd awr o'r dydd yw hi.

s 1 Sam. 1. 15. t Mat. 20. 3. 1 Thes. 5. 5—8.

* Barn angharedig ac anwireddus a roddasai yr Iuddewon arnynt, "Nid yw y rhai hyn feddwon," ebai Pedr, ni chawsom ni y gair o fod yn wingar erioed o'r blaen; ac ni phrofasom ni, neb o honom, na gwin na dïod gadarn y dydd heddyw o gwbl. † "Y drydedd awr yw hi," tua naw o'r gloch yn y bore, amser yr offrwm boreuol; a dywedir na byddai neb o'r Iuddewon ar un cyfrif, yn bwyta nac yn yfed ar eu sabbathau a'u gŵyliau tàn hanner dydd: gan hyny pa mòr afresymol a brwnt oedd y cyhuddiad hwn ar y dysgyblion! Dysged y cristionogion wers oddiwrth y sobrwydd arbedus hyn yn yr Iuddewon, ac na chaffer gweled neb yn feddwon cyn naw y bore sabbath. Och rhag yr arferiad ffiaidd hyny sydd gan lawer a fynant eu galw yn gristionogion!

16 * Eithr hyn yw y peth a ddywedwyd trwy [u] y prophwyd Joel,

u Gwel ar Joel 2. 28—32.

* Nid wedi eu meddwi gan win, ond wedi eu llenwi â'r Ysbryd yr oeddynt: cyflawniad oedd hyn o brophwydoliaeth nodedig yn llyfr Joel, pen. 2. 28—32.

17 * A bydd [x] yn y dyddiau diweddaf (medd Duw) [y] † y tywalltaf o'm Hyspryd [z] ‡ ar bob cnawd: [a] ‖ a'ch meibion chwi a'ch merched a brophwydant, § a'ch gwŷr ieuainge a welant weledigaethau, a'ch henafgwŷr a freuddwydiant freuddwydion:

x Gen. 49. 1. Es. 2. 2. Dan. 10. 14. Hos. 3. 5. Mica 4. 1. Heb. 1. 2. Iago 5. 3. 2 Pedr 3. 3. y pen. 10. 45. Salm 72. 6. Diar. 1. 23. Es. 32. 15, 16. a 44. 3. Ezec. 36. 25—27. a 39. 29. Zec. 12. 10. Ioan 7. 39. Tit. 3. 4—6. z Gen. 6. 12. Salm 65. 2. Es. 40. 5. a 49. 26. a 66. 23. Zec. 2. 13. Luc 3. 6. Ioan 17. 2. a pen. 11. 28. a 21. 9, 10. 1 Cor. 12. 10, 28. a 14. 26—31.

* Wrth "y dyddiau diweddaf" yn gyffredin y deallid dyddiau y Messiah, dyddiau yr efengyl, goruchwyliaeth ddiweddaf gras Duw; ond yma rhaid cymmeryd y geiriau mewn ystyr mwy cyfyng a neillduol; dyddiau diweddaf yr Iuddewon, a dyddiau o flaen eu dinystr, wedi i'r moddion rhyfeddol hyn, yn nghyd â phob moddion eraill, fod yn aneffeithiol er eu dychweliad. † Yr oedd yr Ysbryd yn cael ei roddi o'r blaen i'r duwiolion mewn mesur llai, ac yn anamlach; ond yma mae yn cael ei roddi mewn mesur helaethach o lawer, ei *dywallt*. ‡ "Pob cnawd:" pob graddau o ddynion yn mhlith yr Iuddewon, isel ac uchel, bychain a mawrion: ac nid hyny yn unig; ond pob llwyth ac iaith yn ddiwahaniaeth, Cenedloedd yn gystal âg Iuddewon: er y tybiai yr Iuddewon mai yn ngwlad Israel yn unig y preswyliai Duw, ac mai hwy a gâent fwynâu bendithion teyrnas y Messiah. Tybiai yr Iuddewon mai yn Israel yn unig yr oedd ysbryd prophwydoliaeth i fod, yn mhlith trigolion Judea yn unig, ac ar y doethion, y dewrion, a'r cyfoethogion yn unig. Gan nad oedd yr Ysbryd wedi ei dywallt y pryd hwnw ond ar Iuddewon yn unig, efallai nad oedd Pedr ei hun eto yn deall y brophwydoliaeth hon yn ei llawn helaethder, fel y daeth i'w deall yn mhen blynyddoedd wedi hyn. Gwel Act. 10. a 11. ‖ Gwel gyflawniad o hyn yn Act. 21. 9; a chyfeiriad at yr un pethau yn 1 Cor. 14. 3. Mae prophwydo yma yn arwyddo, nid yn unig hyawdledd y personau yn llefaru am bethau ysbrydol, er addysg i eraill; ond hefyd y goleuni a'r medrusrwydd a roddai yr Ysbryd Glân iddynt i egluro pethau tywyll, ac i ragfynegi pethau i ddyfod, yn enwedig dinystr nesâol y genedl Iuddewig am eu hanghrediniaeth. § Mae y "gweledigaethau" a'r "breuddwydion" a grybwyllir yma, yn cyfeirio yn amlwg at y gwahanol ffyrdd y byddai Duw yn amlygu ei feddwl i'w bobl gynt dàn yr Hen Destament; ac yn dangos yr eglurai efe ei feddwl mòr amlwg â hyny trwy ei Ysbryd dàn yr oruchwyliaeth newydd: ac efallai trwy yr un moddion, yn enwedig tra parâodd yr oes apostolaidd. Gwel y cyfeiriadau dan *a*.

18 [b] * Ac ar fy ngweision ac ar fy llawforwynion y tywalltaf o'm Hyspryd yn y dyddiau hynny; a hwy a brophwydant:

b 1 Cor. 7. 21, 22. Gal. 3. 28. Col. 3. 11.

* Mae rhai yn darllen yr adnod uchod heb y rhagenw *fy*: Ac ar weision a llaw-forwynion, &c. Fel hyny mae yn dangos y byddai i'r Ysbryd gael ei dywallt ar y graddau iselaf o ddynion yn gystal a'r rhai uchel, a mwyaf enwog. Ond fel y mae y geiriau, maent yn dangos mai ar y rhai ydynt bobl ufudd a gostyngedig iddo, y mae Duw yn addaw tywallt ei Ysbryd; ac na wiw i'r rhai digred ac anufudd ddysgwyl cyflawniad o'r addewid hon. O yr fraint annhraethol o gael bod yn weision ac yn llaw-forwynion i'r Duw byw!

19 [c] * A mi a roddaf ryfeddodau yn y nef uchod, ac arwyddion yn y ddaear isod; † gwaed, a thân, a tharth mwg.

c Joel 2. 30, 31. Zeph. 1. 14—18. Mal. 4. 1—6.

* Cyflawnwyd hyn oll o flaen, ac yn ninystr Jerusalem: yn y cleddyf tanllyd a welwyd yn hongian uwch ben y

ddinas, a'r seren danllyd a fu yn cyfeirio i lawr ati am flwyddyn; y goleuni a fu yn tywynu ar y deml a'r allor yn y nos, fel pe buasai yn hanner dydd; agoryd porth mawr a phwysig y deml o hóno ei hun; y llais a glybuwyd o'r sancteiddiolaf yn gwaeddi, *Ymadâwn oddi yma:* rhybudd Jesus mab Ananus, yn gwaeddi yn ddibaid am saith mlynedd, *Gwae, gwae, gwae!* gweledigaeth o luoedd yn ymladd yn yr awyr, a gwarch-gloddiau yn cael eu gosod yn erbyn dinas a welid yno; y taranau a'r mellt ofnadwy, a'r daeargrynfâu dychrynllyd a fu, y rhai a ystyriai pawb fel rhag-argoelion o ryw ddrygfyd mawr ar y drws. Trwy ragluniaeth ryfedd Duw, er prawf o wirionedd yr ysgrythyrau, mae *Josephus* wedi crybwyll y pethau uchod oll, yn ei hanes o Ryfeloedd yr Iuddewon; a *Thitus* yr Ymherawdwr Rhufeinig wedi tystiolaethu y gwirionedd o honynt a'i law ei hun. † Heblaw y pethau goruwch-naturiol uchod, yr oedd gwaed, a thân, a tharth mwg hefyd ar y ddaear, gan ryfeloedd ofnadwy, tywallt gwaed, a llosgi dinasoedd a threfydd yn mhlith yr Iuddewon cynddeiriog eu hunain, a rhyngddynt hwy â'u gelynion y Rhufeiniaid am flynyddoedd cyn eu llwyr ddinystriad. Digofaint Duw a ddaeth arnynt hwy hyd yr eithaf. Rhaid i ni ystyried y pethau dychrynllyd uchod mewn rhyw fesur fel cysgodau o'r hyn a fydd eto o flaen diwedd y byd hwn.

20 [d] * Yr haul a droir yn dywyllwch, a'r lloer yn waed, [e] † cyn i ddydd mawr ac eglur yr Arglwydd ddyfod

d Es. 13. 9, 10, 15. a 24. 23. Jer. 4. 23, 24. Amos 8. 9. Mat. 24. 29. a 27. 45. Marc 13. 24. Luc 21. 25. Dat. 6. 12. a 16. 8. e Es. 2. 12—21. a 34. 8. Joel 2. 1. a 3. 14. Zeph. 2. 2, 3. Mal. 4. 5. 1 Cor. 5. 5. 1 Thes. 5. 2. 2 Pedr 3. 10.

* Efallai bod y "tarth mwg" a soniwyd o'r blaen yn esgyn i fynu cyn dewed, fel yr oedd yr haul yn edrych yn dywyll drwyddo y dydd, a'r lloer yn ymddangos fel gwaed drwyddo y nos: neu ynte, efallai i'r Arglwydd Hollalluog beri iddynt ymddangos felly yn wyrthiol, fel arwyddion o'i ddigofaint ar y genedl; ac efallai y gwna felly eto o flaen diwedd y byd drygionus hwn. † Dydd mawr digofaint y Messiah, a dydd egluro ei ogoniant ef yn ninystr ei elynion. Gellir deall y dydd mawr hwn, un ai am ddinystr Jerusalem neu ddydd mawr y farn ddiweddaf. Dydd mawr ac eglur ydoedd, a dydd mawr ac eglur a fydd: pwy a oddef y dydd mawr ac eglur hwnw o'i ddyfodiad ef!

21 * A bydd, [f] pwy bynnag a alwo ar enw yr Arglwydd, a fydd cadwedig.

f pen. 9. 11, 15. a 22. 16. Joel 2. 32. Mat. 28. 19. Rhuf. 10. 12, 13. 1 Cor. 1. 2.

* Mae galw ar enw yr Arglwydd yma yn arwyddo y cwbl o wir grefydd; a'r rhai oedd yn wir grefyddol yn amser dinystr Jerusalem, achubwyd hwynt oll, o ran eu bywydau naturiol, ni chollwyd yr un o honynt. Mae galw ar enw yr Arglwydd yma hefyd yn arwyddo galw ar enw yr Arglwydd Iesu, ac felly credu ynddo, ei fod ef yn Arglwydd, ac yn achubydd y rhai a gredant ynddo: yn yr olwg yna ar y geiriau, yr oedd Pedr yn rhybuddio yr Iuddewon ei watwarwyr, nad oedd dim modd iddynt ddianc rhag y drygfyd tymmorol, na'r golledigaeth dragywyddol, oedd yn eu haros, ond trwy gredu mai Iesu oedd y Messiah, a galw arno ef am drugaredd. Gadâwn i'r darllenydd gymhwyso y gwirionedd uchod ato ei hun: gwirionedd i ni ydyw, yn gystal ag i'r Iuddewon.

22 [g] * *Ha* wŷr Israel, clywch y geiriau hyn: [h] † Iesu o Nazareth, [i] ‡ gwr profedig gan Dduw yn eich plith chwi, || trwy nerthoedd a rhyfeddodau, ac arwyddion, [k] y rhai a wnaeth Duw trwyddo ef yn eich canol chwi, § megis ag y gwyddoch chwithau:

g pen. 3. 12. a 5. 35. a 13. 16. a 21. 28. Es. 41. 14. h pen. 4. 10. a 6. 14. a 22. 8. a 24. 5. a 26. 9. Mat. 2. 23. Ioan 1. 45, 46. a 19. 19—21. i pen. 10. 37, 38. a 26. 26. Mat. 11. 2—6. Luc 7. 20—23. a 24. 18, 19. Ioan 3. 2. a 5. 36. a 6. 14, 27. a 7. 31. a 10. 37, 38. a 11. 47. a 12. 17, 18. a 15. 24. Heb. 2. 4. k pen. 14. 27. Mat. 9. 8. a 12. 28. Luc 11. 20. Ioan 5. 17—20. a 9. 33. a 11. 40—42. a 14. 10, 11.

Gwedi amddiffyn ei hun a'i frodyr, a dangos mai dàn ddylanwadau yr Ysbryd Glân yr oeddynt, ac nid dàn effeithiau meddwdod, mae Pedr yma yn dechreu megys ar ei bregeth ragorol, yr hon a fu yn foddion yn llaw yr Ysbryd i argyhoeddi a dychwelyd y fath nifer mawr o'i wrandawyr. * At wŷr Israel yn benaf, os nid yn unig, yr oedd efe yn cyfeirio ei ymadroddion, ond efallai i'r Ysbryd Glân eu bendithio i eraill hefyd. † Felly y galwent hwy Grist mewn ffordd o ddirmyg a gwarth arno: felly y mae Pedr yn ei alw ef yma, fel y gallent hwy wybod am bwy yr oedd yn llefaru, ac i ddangos nad oedd arno efe ddim cywilydd ei arddelwi ef. ‡ Gwr wedi ei brofi gan Dduw, a'i ddangos yn amlwg fel un cymmeradwy ganddo ef: ac nid hyny yn unig, ond wedi ei ddangos hefyd fel ei unig-anedig Fab, a'r Messiah danfonedig i'r byd. || Profodd Duw ef felly yn amlwg i'r Iuddewon, trwy yr amrywiol bethau rhyfedd a wnaeth efe, y rhai nid oes achos manylu arnynt yma. § Nid oedd y pethau a wnaethai yr Iesu yn ddieithr i'r Iuddewon: am na fynent eu hargyhoeddi, yr oeddynt yn gondemniol heb esgus.

23 [l] * Hwn, wedi ei roddi trwy derfynedig gynghor a rhag-wybodaeth Duw, [m] † a gymmerasoch chwi, ‡ a thrwy ddwylaw anwir a groeshoeliasoch, ac a laddasoch:

l pen. 3. 18. a 4. 28. a 13. 27. a 15. 18. Salm 76. 10. Es. 10. 6, 7. a 46. 10, 11. Dan. 4. 35. a 9. 24—27. Mat. 26. 24. Luc 22. 22, 37. a 24. 44—46. Ioan 19. 24, 31—37. Rhuf. 4. 17. a 11. 33—36. 1 Pedr 1. 20. a 2. 8. Judas 4. Dat. 13. 8. m pen. 3. 13—15. a 4. 10, 11. a 5. 30. a 7. 52. Gen. 50. 20. Mat. 27. 20—26.

* Er tynu ymaith waradwydd y groes, mae yr apostol yn dywedyd mai nid o ddamwain, nac am unrhyw achos ynddo ei hun, y bu Iesu farw; ond ei fod wedi ei roddi i hyny trwy derfynedig gyngor a rhagwybodaeth Duw: ac i ddybenion goruchel a gogoneddus nas gwyddent hwy ddim am danynt. † Nid oedd arfaeth a chyngor Duw yn un esgus dros eu creulondeb hwy; nis gwyddent hwy ddim am hyny, ac nid oedd hyny mewn un modd yn effeithio ar eu meddyliau hwy yn y weithred o groeshoelio yr Iesu: gweithredu yr oeddynt hwy o dra gelyniaeth tuag ato, yn hollawl ddiachos, ac yn wyneb ei ddiniweidrwydd, ei ddaioni, a'i holl weithredoedd nerthol. ‡ Dwylaw anwir y Rhufeiniaid, efallai a feddylir; ond gan mai hwy a barodd i'r Rhufeiniaid groeshoelio Crist, priodolir y weithred iddynt hwy eu hunain, ac yr oedd yr euogrwydd o hóni yn gorwedd arnynt hwy yn benaf. Ni bu eu dwylaw hwy eu hunain erioed mòr llawn o waed â'r tro hwn.

24 [n] * Yr hwn a gyfododd Duw, [o] † gan ryddhâu gofidiau angau: [p] ‡ canys nid oedd bosibl ei attal ef ganddo.

n adn. 32. pen. 3. 15, 26. a 10. 40, 41. a 13. 30. a 17. 31. Mat. 27. 63. Ioan 2. 19—21. a 10. 18. Rhuf. 4. 24. a 6. 4. a 8. 11, 34. a 14. 9. 1 Cor. 15. 12—15. 2 Cor. 4. 14. Gal. 1. 1. Eph. 1. 20. 1 Thes. 1. 10. Heb. 13. 20. 1 Pedr 1. 21. o Salm 116. 3, 4, 16. p pen. 1. 16. Es. 25. 8. a 26. 19. a 53. 10—12. Hos. 13. 14. Luc 24. 46. Ioan 10. 35. a 12. 39. Heb. 2. 14. Dat. 1. 18.

Nid oes gan yr apostol ond un adnod (22) am fywyd a gweithredoedd Iesu, na dim ond un adnod (23) am ei farwolaeth ef; mae yn prysuro i ddywedyd yn helaeth am ei adgyfodiad a'i esgyniad ef, fel pethau mwy angenrheidiol eu profi y pryd hwnw: gwyddai y bobl am y pethau eraill o'r blaen. * Cododd Iesu trwy ei nerth dwyfol ei hun; ond yma dywedir i Dduw ei gyfodi ef, er dangos fod y Tad yn ei gymmeradwyo ef a'i waith, ac yn amddiffyn ei enw a'i gymmeriad ef yn wyneb holl warth a cham gyhuddiadau ei elynion. † Dywedir fod y gair Hebraeg a gyfieithir yma "gofidiau," yn arwyddo *rhwymau* hefyd: yr oedd *gofidiau* angau wedi darfod ar Iesu gyda'r gair Gorphenwyd; ond yr oedd ei gorph yn *rhwymau* angau hyd fynyd ei adgyfodiad. ‡ Nid oedd bosibl ei attal ef gan angau, oblegid mawredd anfeidrol ei Berson, oblegid perffeithrwydd ei iawn, oblegid cyf-

iawnder Duw, ac oblegid gwirionedd hen brophwydoliaethau. Nid oedd na hawl na nerth gan angau i'w gadw ef yn y bedd yn hwy: drylliwyd ei rwymau fel rhwymau y groth ar enedigaeth y plentyn.

25 [q] * Canys Dafydd sydd yn dywedyd am dano, [r] † Rhag-welais yr Arglwydd ger fy mron yn wastad; [s] ‡ canys ar fy neheulaw y mae, [t] fel na'm hysgoger.

q adn. 29, 30. pen. 13. 32—36. r Salm 16. 8—11. s Salm 73. 23. a 109. 31. a 110. 5. Es. 41. 13. a 50. 7—9. Ioan 16. 32. t Salm 21. 7. a 30. 6. a 62. 2, 6.

* Mae y geiriau hyn yn Salm 16. 8. Dywed Pedr yma mai am Grist y llefarodd Dafydd hwynt, ac nid am dano ei hun; er, mae yn sicr, eu bod yn wir am Dafydd ei hun, a phob dyn duwiol, mewn ystyr îs: ond cawsant eu cyflawni mewn modd arbenig yn Nghrist a'i waith mawr. † "Gosodais" yw y gair yn y Salm, ac nid rhag-welais: allan o gyfieithiad Groeg y Deg-a-thriugain mae yr apostol yma yn eu cymmeryd. Yr oedd Crist yn gosod, ac hefyd yn rhagweled, yr Arglwydd yn wastad ger ei fron yn ei holl waith a'i ddyoddefiadau mawrion: yr oedd yn gwneyd pob peth fel yn ngwŷdd Duw, ac yn gwybod y safai Duw yn blaid ac yn gymmorth iddo yn ei holl ddyoddefiadau, ac hyd yn nôd i'w godi o'r bedd. Mae cyfeiriad yn y geiriau at filwyr yn ymladd yn ngolwg a thàn sylw eu cadben. ‡ Fel dadleuwr dros un a gyhuddir ar gam o flaen brawdle.

26 * Am hynny y llawenychodd fy nghalon, [u] † ac y gorfoleddodd fy nhafod; ‡ ïe, a'm cnawd hefyd a orphwys mewn gobaith:

u Salm 16. 9. a 22. 22—24. a 30. 11, 12. a 63. 5. a 71. 23, 24.

* O herwydd gobaith a hyder sicr y Cyfryngwr, o gael buddugoliaeth lwyr ar angau a'i holl elynion, yn ei adgyfodiad; yr oedd ei galon a'i dafod yn llawenychu ac yn gorfoleddu, yn wyneb ei holl ddyoddefiadau a'i farwolaeth boenus ar y groes. † "Ac ymhyfrydodd fy ngoniant" yw y geiriau yn Salm: (16. 9.) felly mae Dafydd yn galw y tafod yn aml; a gogoniant dyn fel creadur rhesymol yw ei dafod, neu ei fod yn gallu llefaru; yn enwedig pan mae yn defnyddio ei dafod i ogoneddu Duw. ‡ Fy nghorph hefyd a orphwys yn dawel yn y bedd, mewn sicrwydd fy mod wedi gorphen fy holl waith, myned drwy fy holl ddyoddefiadau, ac y caf adgyfodiad gogoneddus fore y trydydd dydd. Gall yr holl gredinwyr a hûnant yn yr Iesu roddi eu cyrph i orphwys yn dawel yn y bedd, "mewn gwir a diogel obaith o adgyfodiad i fuchedd dragywyddol, trwy ein Harglwydd Iesu Grist."

27 [x] * Am na adewi fy enaid yn uffern, † ac na oddefi i'th [y] Sanct weled [z] llygredigaeth.

x Salm 49. 15. a 86. 13. a 116. 3. Luc 16. 23. 1 Cor. 15. 55. Dat. 1. 18. a 20. 13, 14. y pen. 3. 14. a 4. 27. Salm 89. 19. Marc 1. 24. Luc 1. 35. a 4. 34. 1 Ioan 2. 20. Dat. 3. 7. z adn. 31. pen. 13. 27—37. Job 19. 25—27. Jona 2. 6. Ioan 11. 39. 1 Cor. 15. 52—54.

* Ni adewi fy enaid yn y 'stad annweledig o wahaniad, neu ysgariad oddi wrth y corph, fel dynion eraill yn gyffredin pan fyddont feirw. Pe cyfieithid y geiriau *psuchê* ac *adês* yma, *bywyd* a *bedd*, fel y gwna rhai, dystrywiai hyny brydferthwch y gyferbyniaeth rhwng *enaid* Crist yn y rhan flaenaf o'r adnod, a'i *gorph* ef yn yr ail ran: a digon prin y mae synwyr mewn dywedyd, *Ni adewi fy mywyd yn y bedd.* O'r tu arall, rhaid gochelyd rhag cyfeiliornad y pabyddion, sef i enaid y Cyfryngwr fyned am ychydig i uffern y colledigion ar ol ei farw: ni chydsaif hyny mewn un modd â Luc 23. 43. Felly, mae yn debyg mai y 'stad annweledig o ysgariad rhwng yr enaid a'r corph a feddylir, fel y dywedwyd uchod; a hyny yw meddwl y gair *adês* (a gyfieithir yma uffern) yn gyffredinol. † Hyny yw, ni oddefi i gorph dy Sanct weled llygredigaeth yn y bedd, ni chaiff aros yno yn ddigon hir i ddechreu llygru, neu fraenu, yn y mesur lleiaf. Yr aberthau hyny oedd i'w bwyta, nid oeddynt i'w cadw hyd y trydydd dydd, rhag y dechreuent lygru a braenu, Lefit. 7. 15—17; yr hyn oedd efallai yn gysgod o Grist, yr hwn a'i rhoddodd ei hun drosom ni, yn offrwm ac yn aberth i Dduw o arogl peraidd.

28 [a] * Gwnaethost yn hysbys i mi † ffyrdd y bywyd: [b] ‡ ti a'm cyflawni o lawenydd â'th wynebpryd.

a Salm 16. 11. a 21. 4. a 25. 4. Diar. 2. 19. a 8. 20. Ioan 11. 25, 26. a 14. 6. b Salm 4. 6, 7. a 17. 15. a 21. 6. a 42. 5. Heb. 12. 2.

* Fel Cyfryngwr a Phen yr eglwys, yr oedd y Tad wedi hysbysu i Grist yr holl drefn fawr i gyd; gwyddai y byddai raid iddo ef farw a'i gladdu, a gwyddai hefyd y cyfodai i fywyd annherfynol fore y trydydd dydd. Am y gwyddai hyn oll, yr oedd ei gnawd yn gorphwys mewn gobaith, ei galon yn llawenychu, a'i dafod yn gorfoleddu. † "Ffyrdd y bywyd" i Grist ei hun oedd, ei adgyfodiad o'r bedd, ei esgyniad i'r nef, a'i ogoneddiad ar ddeheulaw y Mawredd yn y nef: a dyma "ffyrdd y bywyd" hefyd i'w holl bobl ef. ‡ Hyny yw, â'th gariad a'th foddlonrwydd i dragywyddoldeb.

29 * *Ha* wŷr frodyr, [c] † y mae yn rhydd i mi ddywedyd yn hyf wrthych am y [d] ‡ patriarch Dafydd, [e] || ei farw ef a'i gladdu, § ac y mae ei feddrod ef gyd â ni hyd y dydd hwn.

c pen. 26. 26. d pen. 7. 8, 9. Heb. 7. 4. e pen. 13. 36. 1 Bren. 2. 10.

* Chwi wŷr Israel fy nghyd-wladwyr, a'm ceraint yn ol y cnawd, † caniattêwch i mi sylwi yn rhydd ar y geiriau uchod o'r eiddo Dafydd, nas gallai efe eu dywedyd yn briodol am dano ei hun; oblegid bu efe farw, claddwyd ef, ac ni chyfododd eto: mae ei fedd ef yn hysbys yn ein plith ni hyd y dydd hwn. Gan hyny rhaid mai am Iesu y llefarodd efe, oblegid Iesu yn unig a gododd cyn gweled llygredigaeth. ‡ Cyfrifid Dafydd yn un o'r patriarchiaid, mòr enwog âg Abraham, Isaac, a Jacob. || Yr oedd Dafydd wedi marw y pryd hwnw er ys mwy na mil o flynyddoedd; ac o ganlyniad yr oedd ei enaid yr holl amser hwnw mewn ystâd o ysgariad oddi wrth ei gorph, a'r corph wedi llygru a throi yn llwch yn y bedd. § Yn ei ddinas ei hun, (1 Bren. 2. 10.) Bethlehem, (Luc 2. 4.) y claddwyd Dafydd, yno yr oedd ei feddrod ef. Mae yn debyg y byddid yn cadw ei fedd ef i fynu yn barchus iawn o oes i oes hyd amser dinystr yr Iuddewon â'u gwlad: dywed *Jerome* fod gweddillion o hóni yn sefyll yn ei amser ef.

30 [f] * Am hynny, ac efe yn brophwyd, [g] yn gwybod dyngu o Dduw iddo trwy lw, Mai o ffrwyth ei lwynau ef † o ran y cnawd, [h] ‡ y cyfodai efe Grist i eistedd ar ei orseddfa ef:

f pen. 1. 16. 2 Sam. 23. 2. Mat. 27. 35. Marc 12. 36. Luc 24. 44. Heb. 3. 7. a 4. 7. 2 Pedr 1. 21. g 2 Sam. 7. 11—16. 1 Cron. 17. 11—15. Salm 89. 3, 4, 19—37. a 110. 1—5. a 132. 11—18. Heb. 7. 1, 2, 21. h Salm 2. 6—12. a 72. 1—19. Es. 7. 14. a 9. 6, 7. Jer. 23. 5, 6. a 33. 14, 15. Amos 9. 11, 12. Mica 5. 2. Luc 1. 31—33, 69, 70. a 2. 10, 11. Ioan 18. 36, 37. Rhuf. 15. 12. Dat. 17. 14. a 19. 16.

* Nid yn unig amlygwyd i Dafydd fel prophwyd y deuai y Messiah; ond tyngodd Duw iddo trwy lŵ, mai o ffrwyth *ei lwynau ef* o ran y cnawd y deuai: cyfeiriad sydd yma at Salm 132. 11. † Mae y geiriau hyn "o ran y cnawd," yn arddangos bod natur arall heblaw cnawd, neu ddynoliaeth, yn perthyn i Grist: o ran y cnawd yr oedd yn Fab Dafydd; ond o ran ei Dduwdod yr oedd yn Arglwydd Dafydd. ‡ Nid fel brenin daearol, oblegid nid oedd ei freniniaeth ef o'r byd hwn, ond fel yr oedd Dafydd yn teyrnasu ar bobl etholedig Duw, felly y mae Crist, ac felly y gwna yn dragywyddol.

31 * Ac efe yn rhag-weled, [i] † a lefarodd am adgyfodiad Crist, ‡ na adawyd ei enaid ef yn uffern, ac nas gwelodd ei gnawd ef lygredigaeth.

i adn. 27. pen. 13. 35.

* Gwedi ei amlygu iddo gan Dduw, yr oedd Dafydd yn rhagweled adgyfodiad y Messiah â llygaid pro-

phwydol, mòr amlwg, ac mòr sicr o gymmeryd lle, a phe buasai yn ei weled â llygaid ei gorph. † Am ei fod yn rhagweled yr oedd yn rhagddywedyd, trwy yr un Ysbryd prophwydoliaethol, a chyda hollawl sicrwydd. ‡ Gwel ar adn. 27.

32 * Yr Iesu hwn a gyfododd Duw i fynu; [k] † o'r hyn yr ydym ni oll yn dystion.

k adn. 24. pen. 1. 8, 22. a 3. 15. a 4. 33. a 5. 31, 32. a 10. 39—41. Luc 24. 46—48. Ioan 15. 27. a 20. 26—31.

* Fel y rhagwelodd ac y prophwydodd Dafydd, felly y cyflawnodd Duw: efe a gododd "yr Iesu hwn" o feirw heb i'w gnawd ef weled llygredigaeth, ni chododd efe neb arall felly erioed, gan hyny rhaid mai "yr Iesu hwn" yw y Messiah y prophwydodd Dafydd am dano. † Yr ydym ni oll yn dystion o hyn; ni a'i gwelsom ef oll, ymddiddanasom âg ef, ac a'i teimlasom ef â'n dwylaw wedi iddo adgyfodi o feirw. Nis gallwn beidio a thystiolaethu hyn, er y gwyddom na chawn ond ein gwatwar, ein casâu, ein herlid, a'n lladd yn y diwedd, am hyny.

33 * Am hynny, wedi ei [l] ddyrchafu ef trwy ddeheulaw Duw, [m] † ac iddo dderbyn gan y Tad yr addewid o'r Yspryd Glân, efe a dywalltodd y peth yma yr ydych chwi yr awrhon yn ei ‡ weled ac yn ei || glywed.

l pen. 5. 31. Salm 89. 19, 24. a 118. 16, 22, 23. Es. 52. 13. a 53. 12. Mat. 28. 18. Marc 16. 19. Ioan 17. 5. Eph. 1. 20—23. Phil. 2. 9—11. Heb. 1. 2—4. 1 Pedr 1. 21. a 3. 22. m pen. 1. 4. Luc 24. 49. Ioan 7. 38, 39. a 14. 16, 26. a 15. 26. a 16. 7—15. n adn. 17, 38, 39. pen. 10. 45. Rhuf. 5. 5. Tit. 3. 6.

* Hyny yw, trwy allu Duw, a dywedyd yn ddynol; am mai â'r ddeheulaw mae dynion yn gyffredin yn gwneyd pethau. Mae rhai yn darllen, *ar* ddeheulaw Duw; ac fel hyny mae yr apostol yn pregethu derchafiad Crist yn gystal â'i adgyfodiad; ac yn dangos ei fod wedi ei gyfiawnâu gan Dduw, er ei gondemnio gan ddynion. † Gwelwn yma gyflawniad o Salm 68. 18; yr hyn oedd brawf chwanegol o'i adgyfodiad, ei esgyniad, a'i ogoneddiad ef, at dystiolaeth yr apostolion o hyny. Er gwaeled a dirmyced oedd Iesu o Nazareth ychydig o'r blaen, ac eto yn wir, yn ngolwg yr Iuddewon; dyma Pedr yma yn ei ddangos ef iddynt yn uchel ac yn ogoneddus iawn. ‡ Yn y tafodau gwahanedig o dân. || Yn y gwahanol ieithoedd a leferid gan yr apostolion.

34 * Oblegid ni ddyrchafodd Dafydd i'r nefoedd: ond y mae efe yn dywedyd ei hun, [o] † Yr Arglwydd a ddywedodd wrth fy Arglwydd, Eistedd ar fy neheulaw,

o Salm 110. 1. Mat. 22. 42—45. Marc 12. 36. Luc 20. 42, 43. 1 Cor. 15. 25. Eph. 1. 22. Heb. 1. 13.

* Ni ddderchafodd Dafydd o ran ei gorph i'r nefoedd, am hyny rhaid mai am Iesu, y Messiah, y llefarodd efe y pethau blaenorol. † Y geiriau hyn a gymmerir o Salm 110. 1. Y tragywyddol Dad yn dywedyd wrth y tragywyddol Fab. Gwel ar y geiriau hyn yn Matth. 22. 44.

35 * Hyd oni osodwyf [p] dy elynion yn droed-faingc i'th draed.

p Gen. 3. 15. Jos. 10. 24, 25. Salm 2. 8—12. a 18. 40—42. a 21. 8—12. a 72. 9. Es. 49. 23. a 59. 18. a 60. 14. a 63. 4—6. Luc 19. 27. a 20. 16—18. Rhuf. 16. 20. Dat. 19. 19—21. a 20. 1—3, 8—15.

* Mae Pedr yn crybwyll y geiriau hyn gyda chyfeiriad priodol iawn, er dangos i'r Iuddewon eu dinystr sicr hwy, os parâent yn eu gelyniaeth a'u gwrthwynebiad yn erbyn Crist. Heblaw hyny, mae y geiriau yn dangos y caiff y Cyfryngwr fuddugoliaeth lwyr ar ei holl elynion, dynol ac ysbrydol, ac y sathra ef hwynt yn ofnadwy yn nydd ei ddigofaint, fel yr arferai buddugoliaethwyr gynt wneyd â'u gelynion gorchfygedig, pa un bynag ai byw ai marw a fyddent.

36 * Am hynny [q] gwybydded holl dŷ Israel yn ddiogel, ddarfod i Dduw [r] † wneuthur yn Arglwydd ac yn Grist, yr Iesu hwn a groeshoeliasoch chwi.

q Jer. 2. 4. a 9. 26. a 31. 31. a 33. 14. Ezec. 34. 30. a 39. 25—29. Zec. 13. 1. Rhuf. 9. 3—6. r adn. 22, 23. pen. 4. 11, 12. a 5. 30, 31. a 10. 36—42. Salm 2. 1—6. Mat. 28. 18—20. Ioan 3. 35, 36. a 5. 22—29. Rhuf. 14. 8—12. 2 Cor. 5. 10. 2 Thes. 1. 7—10.

* Dyma derfyn y bregeth, y casgliad mae yr apostol yn dynu, a'r cymhwysiad mae yn wneyd o hóni at yr Iuddewon, holl dŷ Israel. Gan i'r Iesu hwn o Nazareth, a groeshoeliasoch chwi ar bren, wneyd y fath wyrthiau, adgyfodi o feirw, esgyn i'r nefoedd, a thywallt fel hyn yr Ysbryd Glân, a hyn oll yn ol hen brophwydoliaethau am y Messiah; chwi a ddylech oll, bob Israeliad o hónoch, gredu yn sicr, ac yn y fân, mai efe yw y Crist, y Messiah, a addawodd ac a ddanfonodd y Tad; ac mai efe yw Arglwydd pawb oll i lywodraethu ar bawb ac i dderbyn ufudd-dod gan bawb. † Gwnaeth y Tad ef yn gyfryw yn ei gyngor tragywyddol, danfonodd ef yn gyfryw i'r byd, arddelwodd a dangosodd ef yn gyfryw yn y byd, ac yn y diwedd gogoneddodd ef fel y cyfryw gydag ef ei hun.

37 ¶ * Hwythau wedi clywed *hyn,* [s] † a ddwys-bigwyd yn eu calon, ac a ddywedasant wrth Pedr, a'r apostolion eraill, [t] ‡ *Ha* wŷr frodyr, [u] || beth a wnawn ni?

s pen. 5. 33. a 7. 54. Zec. 12. 10. Ioan 8. 9. a 16. 8—11. Rhuf. 7. 9. 1 Cor. 14. 24, 25. Heb. 4. 12, 13. t Gwel ar pen. 1. 16. u pen. 9. 5, 6. a 16. 29—31. a 22. 10. a 24. 25, 26.

* Gwedi clywed yr ymadroddion ysgrythyrol, agos, ac effeithiol hyn, † cariodd yr Ysbryd Glân hwynt adref gyda'r fath oleu a nerth argyhoeddiadol, at gydwybodau llawer o'r Iuddewon a'u clywsant, yn enwedig y rhai a fuasent yn fwyaf prysur yn nghroeshoeliad yr Arglwydd Iesu, fel y dwys-bigwyd hwy gan euogrwydd a gofid yn eu calonau. Yma cyflawnwyd prophwydoliaeth Zechariah, pen. 12. 10; ac yma hefyd cyflawnwyd geiriau Crist ei hun yn nodedig, Ioan 16. 8—11. ‡ Llawn o win melus oeddynt ychydig o'r blaen, ond yma Ha wŷr frodyr oeddynt, ac efallai gan lawer o'r un dynion. Rhyfedd y cyfnewidiad a wna goruchwyliaethau yr Ysbryd Glân ar y dynion gwaethaf, a mwyaf rhagfarnus, a hyny mewn ychydig amser yn aml. || A oes gobaith i'n bath ni? a all pechaduriaid fel ni gael maddeuant o'n pechodau? Yr oedd yma wasgfa ddifrifol am eu bywyd, ar y bobl.

38 A Phedr a ddywedodd wrthynt, [x] * Edifarhêwch, [y] † a bedyddier pob un o honoch [z] ‡ yn enw Iesu Grist, er maddeuant pechodau; [a] || a chwi a dderbyniwch ddawn yr Ysbryd Glân.

x pen. 3. 19. a 17. 30. a 20. 21. a 26. 20. Mat. 3. 2, 8, 9. a 4. 17. a 21. 28—32. Luc 15. 1—40. a 24. 47. y pen. 8. 36—38. a 16. 15, 31—34. a 22. 16. Tit. 3. 5. 1 Pedr 3. 21. z pen. 8. 12, 16. a 10. 48. a 19. 4, 5. Mat. 28. 19. Rhuf. 6. 3. 1 Cor. 1. 13—17. a adn. 16—18. pen. 8. 51—17. a 10. 44, 45. Es. 32. 15. a 44. 3, 4. a 59. 21. Ezec. 36. 25—27. a 39. 29. Joel 2. 28, 29. Zec. 12. 10.

* Edifarêwch am wrthod a chroeshoelio y Messiah yn enwedig, ac edifarêwch hefyd am eich holl bechodau eraill. † Nid am fod bedydd yn hanfodol i iachawdwriaeth; ond am fod bedydd yn osodiad o eiddo Crist yn ei eglwys, a'r ymostyngiad iddo, yn yr amgylchiad hwn, yn brawf o wirionedd eu hedifeirwch hwy, a'u derbyniad diffuant o Grist fel Messiah ac Achubwr eu heneidiau. ‡ Nid heb enw y Tad a'r Ysbryd, yn ddïau; ond crybwyllir enw Iesu Grist yma, i ddangos iddynt hwy fod yn rhaid iddynt ymostwng iddo ef; ymgyfenwi ar ei enw ef, mewn proffes o Gristionogaeth; ei gydnabod ef yn ogyfuwch â'r Tad ac â'r Ysbryd Glân; a chredu ynddo ef am faddeuant a bywyd tragywyddol. || Chwi a dderbyniwch ei rasau tumewnol; nerth a chadernid yn y ffydd: chwi a dderbyniwch ei ddoniau allanol; modd i lefaru â thafodau, efallai, yn nghyd â doniau eraill er adeiladaeth yr eglwys ar ol hyn.

39 [b] * Canys i chwi y mae yr addewid, ac i'ch plant, [c] † ac i bawb ym mhell, [d] cynnifer ag a alwo yr Arglwydd ein Duw ni atto.

b pen. 3. 25, 26. Gen. 17. 7, 8. Salm 115. 14, 15. Jer. 32. 39, 40. Ezec. 37. 25. Rhuf. 11. 16, 17. 1 Cor. 7. 14. c pen. 10. 45.

a 11. 15—18. a 14. 27. a 15. 3, 8, 14. Es. 59. 19. Eph. 2. 13—22. a 3. 5—8. d Joel 2. 32. Rhuf. 8. 30. a 9. 24. a 11. 29. Eph. 1. 18. a 4. 4. 2 Thes. 1. 11. a 2. 13, 14. 2 Tim. 1. 9. Heb. 3. 1. a 9. 15. 1 Pedr 5. 10. 2 Pedr 1. 3, 10. Dat. 17. 14. a 19. 9.

* Yr addewid gyffredinol am Grist, a holl fendithion ei deyrnas ef, medd rhai; yr hon a wnaed i Abraham a'i had, Gen. 12. 1—3; 17. 7, 8: yr addewid bennodol o'r Ysbryd Glân, medd eraill; yr hon a wnaed drwy y prophwyd Joel (Gwel ar adn. 16—21) yr hon oedd yn perthyn i'r Iuddewon a'u plant. † Ac nid iddynt hwy a'u plant yn unig, fel had Abraham; ond i'r cenedloedd hefyd, cynnifer a alwai yr Arglwydd trwy yr efengyl, oblegid y cenedloedd a feddylir yn wastad wrth y rhai pell yn yr ysgrythyrau, ac y mae addewidion mawr iawn a gwerthfawr yn yr Hen Destament i'r cenedloedd, i'w cyflawni tàn, a thrwy, oruchwyliaeth yr efengyl. Mae yn ddiammau bod yr adnod hon yn dàl allan y calondid mwyaf, i'r holl genedloedd dychweledig a'u plant, y cânt hwy fwynâu bendithion a breintiau yr efengyl: ac yn yr olwg hyny arni, mae yn sicr ei bod yn bleidiol iawn i fedydd babanaidd, fel y mae llawer wedi dangos yn helaeth ei bod.

40 [e] * Ac â llawer o ymadroddion eraill [f] y † tystiolaethodd ac y cynghorodd efe, gan ddywedyd, [g] ‡ Ymgedwch rhag y [h] genhedlaeth drofaus hon.

e pen. 15. 32. a 20. 2, 9—11. a 28. 23. Ioan 21. 25. f pen. 10. 42. a 20. 21, 24. Gal. 5. 3. Eph. 4. 17. 1 Thes. 2. 11. 1 Pedr 5. 12. g Num. 16. 28—34. Diar. 9. 6. Luc 21. 36. 2 Cor. 5. 20. a 6. 17. 1 Tim. 4. 16. Heb. 3. 12, 13. Iago 4. 8—10. Dat. 3. 17—19. a 18. 4, 5. h Mat. 3. 7—10. a 12. 34. a 16. 4. a 17. 17. a 23. 33. Marc 8. 38.

* Mae yn debyg i Pedr ddywedyd llawer yn chwaneg nag sydd ar lawr yma, am adgyfodiad a derchafiad Crist, natur ei deyrnas, a bendithion ei efengyl; gan gyngori ac annog ei wrandawyr oll, i'w dderbyn ef fel y gwir Fessiah. † Tystiolaethu gan ddefnyddio enw ac awdurdod Duw, a'i alw ef megys yn dyst ar wirionedd y pethau a dystiolaethai. ‡ Y genedlaeth drofâus hòno oedd yr Iuddewon anghrediniol, yn enwedig yr offeiriaid, yr ysgrifenyddion, a'r Phariseaid, gelynion penaf Crist, a gwrthwynebwyr penaf ei efengyl ef. Ymgadw rhagddynt rhag cael eu hudo i anghrediniaeth drachefn ganddynt: ymgadw rhag eu pechodau fel na byddent yn gyfranogion o'u dinystr.

41 ¶ * Yna y rhai a [i] dderbyniasant ei air ef yn ewyllysgar [k] a fedyddiwyd; [l] † a chwanegwyd *attynt* y dwthwn hwnnw ynghylch tair mil o eneidiau.

i adn. 37. pen. 8. 6—8. a 13. 48. a 16. 31—34. Mat. 13. 44—46. Gal. 4. 14, 15. 1 Thes. 1. 6. k Gwel ar adn. 38. l adn. 47. pen. 1. 15. a 4. 4. Salm 72. 16, 17. a 110. 3. Luc 5. 5—7. Ioan 14. 12.

* Wrth y geiriau hyn mae yn amlwg, i rai o'r dyrfa barâu yn eu hanghrediniaeth o hyd; er na lefarodd dyn erioed fel y llefarodd Pedr yma, dàn effeithiau grymus yr Ysbryd Glân. Ond derbyniodd llawer y gair yn ewyllysgar, a bedyddiwyd y rhai hyny oll yn enw yr Arglwydd Iesu, ar broffes o'u hedifeirwch, a'u ffydd ynddo, fel Arglwydd pawb oll, ac unig Geidwad y rhai a gredent ynddo. † Nifer y rhai hyny oedd tua thair mil o eneidiau. Wrth ystyried nifer y rhai a fedyddiwyd y dwthwn hwnw, nad oeddynt yn agos i un afon lle yr oedd dyfroedd lawer, ond yn nghanol dinas boblog, ac yn mhlith miloedd o ddieithriaid; ac wrth ystyried nad oedd ond deuddeg o apostolion i'w bedyddio; mae yn annhebyg iawn mai trwy drochiad y bedyddiwyd neb o honynt: yn enwedig gan fod bedydd yr Ysbryd Glân, yr hwn a arwyddid trwy y bedydd hwn, yn cael llefaru am dano bob amser, ac yn aml yn y bennod hon, fel peth yn cael ei *dywallt* arnynt.

42 [m] * Ac yr oeddynt yn parhâu yn athrawiaeth ac [n] y'nghymdeithas yr apostolion, [o] † ac yn torri bara, [p] ac mewn gweddïau.

m adn. 46 pen. 11. 23. a 14. 22. Marc 4. 16, 17. Ioan 8. 31, 32. Gal. 1. 6. Eph. 2. 20. Col. 1. 23. 2 Tim. 3. 14. Heb. 10. 39. 2 Pedr 3. 1, 2, 17, 18. 1 Ioan 2. 19. n pen. 4. 23. a 5. 12—14. l Ioan 1. 3, 7. o pen. 20. 7, 11. 1 Cor. 10. 16, 17, 21. a 11. 20—26. p pen. 1. 14. a 4. 31. a 6. 4. Rhuf. 12. 12. Eph. 6. 18. Col. 4. 2. Heb. 10. 25. Judas 20.

* Mae hyn yn dangos gwirionedd eu tröedigaeth, a dianwadalwch eu proffes hwy: nid rhyw ddylanwadau grymus am ychydig oedd, ond peth gwirioneddol a pharâus. Mae yn ddiammau fod llawer o ymgais gan eu hen gyfeillion digred i'w troi hwynt yn ol; ond yr oeddynt hwy yn aros yn athrawiaeth a chymdeithas yr apostolion, a pho hwyaf yr oeddynt gyda hwynt, mwyaf i gyd yr oeddynt yn cael eu gwreiddio a'u cadarnâu yn y ffydd. † Gan fod "tòri bara" yma yn cael ei grybwyll gydag "athrawiaeth" a "gweddïau," tybir mai tòri bara yn sacramentaidd a feddylir, ac nid bwyta cyffredin.

43 [q] * Ac ofn a ddaeth ar bob enaid: [r] † a llawer o ryfeddodau ac arwyddion a wnaethpwyd gan yr apostolion.

q pen. 5. 11, 13. Esther 8. 17. Jer. 33. 9. Hos. 3. 5. Luc 7. 16. a 8. 37. r pen. 3. 6—9. a 4. 33. a 5. 12, 15, 16. a 9. 34, 40. Marc 16. 17. Ioan 14. 12.

* Effeithiodd dygwyddiadau rhyfedd dydd y pentecost, yn nghyd a'r amlygiadau rhyfeddol o bresenoldeb Duw yn mhlith yr apostolion a'r eglwys, fel yr oedd arswyd a pharchedig ofn ar bawb trwy holl ddinas Jerusalem. Yr oedd llawer yn ofni yn ddiammau rhag mai rhyw arwydd blaenorawl oedd hyn oll, o ddial a barn arnynt am groeshoelio yr Iesu. † Chwanegwyd y braw a'r ofn hwnw, gan y rhyfeddodau a'r arwyddion a wnaid gan yr apostolion, pa bethau bynag oedd y rhai hyny.

44 * A'r rhai a gredent oll oeddynt yn yr un man, [s] † a phob peth ganddynt yn gyffredin;

s pen. 4. 32. a 5. 4. a 6. 1—3. 2 Cor. 8. 9, 14, 15. a 9. 6—15. 1 Ioan 3. 16—18.

* Y fath oedd cariad y crefyddwyr ieuainc hyn at eu gilydd ac at waith yr Arglwydd; a'r fath oedd eu difaterwch am y byd hwn a'u gobaith am fyd gwell, fel yr oeddynt yn ymgynnull gyda eu gilydd bron yn ddibaid, i fwynâu cymdeithas eu gilydd, athrawiaeth a gweinidogaeth yr apostolion, ac i fwynâu presenoldeb Duw yn ei ordinâdau. Nid oedd yr "arfer" ddrwg annheilwng, o "esgeuluso eu cydgynnulliad," wedi dechreu eto, yr hon y mae llawer o grefyddwyr claiar a gwrthgiliedig ein dyddiau ni mòr dueddol iddi. † Yr oedd llawer o ddieithriaid yn mhlith y dychweledigion hyn, y rhai a chwennychent aros yn Jerusalem yn hwy nag y bwriadent wrth ddyfod yno, er mwyn cael ychwaneg o addysg yn y grefydd gristionogol, a llawer o rai tlodion iawn hefyd yn ddiammau; felly yr oedd yn angenrheidiol iawn i'r rhai a allent gyfranu eu meddiannau y pryd hwnw i gynnal y rhai oedd mewn angen, ac fel hyny yr oedd pob peth ganddynt yn gyffredin. Mae yr holl Destament Newydd yn dangos yn eglur nad yw y fath drefn i barâu yn mhlith cristionogion, ond pob un i lafurio dros ei fywioliaeth ei hun a'i deulu hyd y gallo.

45 [t] * A *hwy* a werthasant eu meddiannau a'u da, [u] * ac a'u rhannasant i bawb, fel yr oedd yr eisieu ar neb.

t pen. 4. 34—37. a 5. 1, 2. a 11. 29. Luc 12. 33, 34. a 16. 9. a 18. 22. a 19. 8. u Salm 112. 9. Diar. 11. 24, 25. a 19. 17. Preg. 11. 1, 2. Es. 58. 7—12. 1 Tim. 6. 18, 19. Iago 2. 14—16. a 5. 1—5.

* Nid y cwbl, efallai, ond rhan; fel yr oedd yr achos yn gofyn, ar yr amser a'r amgylchiad presenol hwnw. Yr oedd hyn yn brawf nodedig o'u difaterwch am y byd; o'u gorfoledd a'u hyder yn yr Arglwydd; yn ei ofal rhagluniaethol ef, yn gystal ag yn ei drugaredd a'i ras; o'u cariad ato a'u diolchgarwch iddo; ac o'u cariad diffuant tuag at eu gilydd, er eu bod ychydig o'r blaen yn hollol ddieithriaid i'w gilydd, ac ar wahân oddi wrth eu gilydd. † Er nad yw y ddyledswydd hon yn rhwymedig ar gristionogion yn awr, eto, da fyddai, bod mwy o'r ysbryd haelionus a brawdol hwn mewn cristionogion bob amser, i gynnorthwyo eu gilydd mewn cyfyngderau.

46 [x] * A hwy beunydd yn parhâu yn gyttûn yn y deml, [y] † ac yn torri bara o dŷ i

dŷ, [z] ‡ a gymmerasant eu lluniaeth mewn llawenydd a [s] symledd calon.

x pen. 3. 1. a 5. 42. Luc 24. 53. y adn. 42. pen. 20. 7. z pen. 16. 34. Deut. 12. 7, 12. a 16. 11. Neh. 8. 10. Preg. 9. 7. Luc 11. 41. 1 Cor. 10. 30, 31. a Salm 86. 11. Mat. 6. 22. Rhuf. 12. 8. 2 Cor. 1. 12. a 11. 3. Eph. 6. 5. Col. 3. 22.

* Yn nghynteddd a phyrth y deml, lle byddai y bobl yn arfer ymgynnull ar amser y boreuol a phrydnawnol wasanaeth. Mae yn debyg eu bod yn ymgynnull yno i addoli Duw fel eraill, ac hefyd, efallai, i lefaru wrth y torfëydd am Iesu Grist a'r pethau a ddygwyddasent ar ddydd y pentecost. † Tybir mai bwyta cyffredin, er cynnaliaeth, a feddylir yma wrth dòri bara; ac nid yn sacramentaidd fel yn adn. 42: nid yw yn debyg y dywedai Luc ddwywaith am yr un peth mewn hanes mòr fŷr. ‡ Yr oeddynt fel hyn yn cymmeryd eu lluniaeth â chydwybod dawel, â chalon ddidwyll, ac âg enaid yn llawn o dangnefedd a llawenydd yn yr Ysbryd Glân. Calon lawen sydd wledd wastadol.

47 * Gan foli Duw, [b] † a chael ffafr gan yr holl bobl. ‡ A'r [c] Arglwydd a chwanegodd beunydd at yr eglwys y rhai fyddent gadwedig.

b pen. 4. 21. Luc 19. 48. Rhuf. 14. 18. c adn. 39. pen. 5. 14. a 11. 24. a 13. 48. Rhuf. 8. 30. a 9. 27. a 11. 5—7. Tit. 3. 4, 5.

* Gan foli Duw yn benaf am ei drugareddau a'i fendithion ysbrydol, ac hefyd am eu lluniaeth corphorol, oeddynt yn gael fel hyn trwy haelioni y naill i'r llall. † Yr oedd cymmaint o Dduw gyda hwynt, a'u hymddygiadau hwythau tuag at bawb mòr ddiniwed, bonedd-ligaidd, ac ennillgar, fel yr oeddynt yn cael eu caru a'u parchu gan bawb yn gyffredin. Pa ddangosiad hawddgar, sydd yma o wir grefydd! mòr rhagorol, prydferth, a dedwydd, yw ei heffeithiau hi ar ddynion, dàn oruchwyliaethau yr Ysbryd Glân! Pan mae ffyrdd gwr yn rhyngu bodd i'r Arglwydd, efe a bair i'w elynion fod yn heddychol âg ef. Diammau i'r bobl hawddgar hyn fod yn foddion i ennill llawer at grefydd trwy eu hymddygiadau llednais a gweddaidd. ‡ Trwy weinidogaeth yr apostolion ac ymddygiad uchod yr holl ddysgyblion, yr oedd llawer bob dydd yn cael eu chwanegu atynt, o gristionogion diffuant a gwir dduwiol. Nodwn: y rhai a fyddant gadwedig yn y diwedd, mae yr Arglwydd yn eu dwyn i'w eglwys ar y ddaear.

PEN. III.

Iachâu un cloff o'i enedigaeth, &c.

[a] * PEDR hefyd ac Ioan [b] a aethant i fynu i'r deml ynghyd, ar [c] yr awr weddi, † *sef* y nawfed.

a pen. 4. 13. a 8. 14. Mat. 17. 1. a 26. 37. Ioan 13. 23—25. a 20. 2—9. a 21. 7, 18—22. Gal. 2. 9. b pen. 2. 46. a 5. 25. Luc 24. 53. c pen. 10. 3, 30. Ex. 29. 39. Num. 28. 4. 1 Bren. 18. 36. Salm 55. 17. Dan. 9. 21. Luc 1. 10. a 23. 44—46.

* Mae yn debyg i'r apostolion eraill hefyd fyned i fynu yn gystal â Phedr ac Ioan: nid oeddynt yn deall eto, efallai, fod yr hen oruchwyliaeth i ddarfod; am hyny yr oeddynt yn gydwybodol yn myned i'r deml i addoli ar amserau yr aberth boreuol a phrydnawnol. † Tua thri o'r gloch yn y prydnawn oedd y nawfed awr hon, yr awr weddi; sef amser yr aberth a'r arogl-darthiad hwyrawl. Tybia rhai mai prydnawn dydd y pentecost ydoedd, ond go brin y gallasent fod wedi gorphen bedyddio tair mil o bobl erbyn y nawfed awr y diwrnod hwnw: tebycach mai rhyw ddiwrnod arall ydoedd; ond ar un o'r gwyliau arbenig.

2 * A rhyw wr [d] cloff o groth ei fam a ddygid, [e] yr hwn a ddodent beunydd wrth borth y deml, [f] yr hwn a elwid † Prydferth, [g] i ofyn elusen gan y rhai a elai i mewn i'r deml.

d pen. 4. 22. a 14. 8. Ioan 9. 1—3. e Luc 16. 20. f adn. 10. g pen. 10. 4, 31. Luc 18. 35. Ioan 9. 8.

* Nid cloffni damweiniol ydoedd, ond anaf cynnwynawl, felly yr oedd o groth ei fam; ac yr oedd y dyn yn awr uwchlaw deugain mlwydd oed, pen. 4. 22: felly yr oedd y wyrth o'i iachâu ef yn fwy rhyfedd. † Porth Prydferth y deml a adeiladwyd gan Herod Fawr: dywedir ei fod dros bymtheg llath o uwchder, a thuag wyth o led; wedi ei wneyd o brês Corinth, ac yn gywrein-wych anghyffredin, yn llawer mwy ardderchog ei wneuthuriad na phyrth aur y deml. Dywed rhai mai ar y mynediad i gyntedd y cenedloedd yr ydoedd; ond dywed eraill mai yn y gwahan-fur, rhwng cyntedd y cenedloedd â chyntedd nesaf i mewn yr Iuddewon, yr ydoedd; a bod y cardotyn cloff hwn yn rhŷ falch fel Iuddew, i dderbyn elusen gan y cenedloedd, ond gan ei genedl ei hun yn unig.

3 * Yr hwn, pan welodd efe Pedr ac Ioan ar fedr myned i mewn i'r deml, a ddeisyfodd gael elusen.

* Yr oedd yn naturiol i'r cloff hwn feddwl, fod pawb yn elusengar yn ol eu gallu, a elent i'r deml i addoli Duw: ac felly y mae eto; ond gorchwyl hawddach, ysywaeth, gan lawer, yw myned i'r deml i addoli, na rhoddi elusen i'r tlawd.

4 * A Phedr [h] yn dal sylw arno, gyd âg Ioan, a ddywedodd, [i] † Edrych arnom ni.

h pen. 11. 6. a 14. 9, 10. Luc 4. 20. i adn. 12. Ioan 5. 6. a 11. 40.

* Troi eu gwynebau ffordd arall a wnaethai llawer, ond wele y ddau ddysgybl tosturiol hyn yn troi at y cardotyn tlawd, i sylwi arno ac i wneuthur rhyw gymmwynas iddo. † Edrych arnom ni, a sylwa beth a ddywedwn wrthyt a pha beth a wnawn i ti.

5 * Ac efe a ddaliodd sylw arnynt, † gan obeithio cael rhyw beth ganddynt.

* Efe a sylwodd yn fanol arnynt, â'i lygaid ac â'i feddwl hefyd. † Elusen oedd efe yn obeithio gael, ond efe a gafodd fwy na hyny.

6 * Yna y dywedodd Pedr, [k] Arian ac aur nid oes gennyf; [l] † eithr yr hyn sydd gennyf, ‡ *hynny* yr wyf yn ei roddi i ti: [m] ‖ Yn enw [n] Iesu Grist o Nazareth, § cyfod a rhodia.

k Mat. 10. 9. 1 Cor. 4. 11, 12. 2 Cor. 6. 10. a 8. 9. Iago 2. 5. l Marc 14. 8. 2 Cor. 8. 12. 1 Pedr 4. 10. m adn. 16. pen. 4. 7. a 9. 34. a 16. 18. a 19. 13—16. Mat. 7. 22. Marc 16. 17. n pen. 2. 22, 36. a 4. 10. a 10. 38. Ioan 19. 19.

* Mae hyn yn dangos nad oedd yr apostolion ddim gwell, na chyfoethocach arnynt, o'r meddiannau a'r da a werthodd y dychweledigion ieuainc yn pen. 2. 45: tlodion oeddynt hwy o hyd. † Sef gallu gwyrthiol oddi wrth Grist: ei allu ef ydyw; ond wedi ei roddi i ni, i'w ddefnyddio er ei ogoniant ef, ac er lles, mwy nac arian ac aur, i tithau. ‡ Yr wyf yn ewyllysgar iawn i ddefnyddio y ddawn wyrthiol hòno er iachâd i ti, ac mi a wn y bydd yn effeithiol. ‖ Yn enw, a thrwy awdurdod a nerth, yr hwn a elwid yn gyffredin Iesu Grist o Nazareth, cyfod a rhodia. § Cyfod yn y fàn, a rhodia gerbron y lliaws sydd yma yn gweled, fel y byddont yn dystion o'r wyrth ryfedd a wnair arnat ti. Mae yn debyg i Pedr wneyd hyn trwy gynhyrfiad sydyn ar ei feddwl, oddi wrth yr Ysbryd Glân: heb hyny, buasai yn rhyfyg iddo anturio ar y fath beth.

7 [o] * A chan ei gymmeryd ef erbyn ei ddeheulaw, efe a'*i* cyfododd *ef* i fynu; † ac yn ebrwydd ei draed ef a'i fferau a gadarnhâwyd.

o pen. 9. 41. Marc 1. 31. a 5. 41. a 9. 27. Luc 13. 13.

* Gyda ei fod yn dywedyd y geiriau uchod, ymaflodd Pedr yn llaw y cloff, gan gredu yn sicr y nerthai yr Arglwydd Iesu ef ar yr un pryd i gyfodi ar ei draed a rhodio yn holliach. † Fel y dywedodd ac y credodd Pedr, felly y gwnaeth yr Arglwydd Iesu: wele y dyn yn berffaith iach a chadarn mewn mynyd, er syndod iddo ei hun ac i bawb.

8 [p] * A chan neidio i fynu, efe a safodd ac a rodiodd, ac a aeth gyd â hwynt i'r deml, dan rodio, a neidio, [q] † a moli Duw.

p pen. 14. 10. Es. 35. 6. Luc 6. 23. Ioan 5. 8, 9, 14. q Salm 103. 1, 2. a 107. 20—22. Luc 17. 15—18. a 18. 43.

* Fel hyn cyflawnwyd prophwydoliaeth Esaiah 35. 6; y byddai i'r cloff làmu fel hydd; ac fel hyn dangosodd y cloff ei fod wedi cael ei berffaith iachâu. † Yr oedd hyn yn dangos, nid yn unig ei ddiolchgarwch ef am ei iachâd, ond hefyd ei gydnabyddiaeth ef mai yn wyrthiol y cafodd yr iachâd hwnw. Gwyddai mai nid yn ngeiriau na llaw Pedr yr oedd y rhinwedd; ond mai gallu yr Arglwydd Iesu yn unig a'i iachâodd ef.

9 [r] A'r holl bobl a'i gwelodd ef yn rhodio, ac yn moli Duw.

r pen. 14. 11. Marc 2. 11, 12. Luc 13. 17.

* Nid mewn congl y gwnaed hyn, ond yn ngŵydd a golwg yr holl bobl; ac nis gallasai gelynion Crist a'i apostolion wadu y tro wedi hyny, pen. 4. 16.

10 [s] * Ac yr oeddynt hwy yn ei adnabod, mai hwn oedd yr un a eisteddai am elusen wrth borth Prydferth y deml: [t] † a hwy a lanwyd o fraw a synnedigaeth am y peth a ddigwyddasai iddo.

s adn. 2. pen. 4. 14—16, 21, 22. Ioan 9. 3, 18—21. t pen 2. 7, 12. Luc 4. 36. a 9. 43. Ioan 5. 20.

* Yr oedd y cardotyn cloff hwn fel y dywedwyd, awchlaw deugain oed, a chwedi bod drwy ei holl oes, mae yn debyg, yn eistedd i gardota wrth borth y deml, y màn mwyaf cyhoeddus yn Jerusalem; felly nid oedd bosibl iddynt nad adwaenai pawb ef, ac nid oedd bosibl i elynion Crist wadu mai nid efe oedd. † Hwy a lanwyd o syndod brawychus, a rhai o honynt o orfoledd hefyd, wrth weled y fath weithred ryfedd o allu a daioni, ac yn cael ei gwneyd mòr sydyn a gwyrthiol: yn debyg i agoryd llygaid yr hwn a anesid yn ddall, Ioan 9. 32.

11 * Ac fel yr oedd y cloff a iachasid [u] yn attal Pedr ac Ioan, [x] yr holl bobl yn frawychus a gyd-redodd attynt [y] i'r porth a elwir *Porth* Solomon.

u Luc 8. 38. x pen. 3. 6. y pen. 5. 12. Ioan 10. 23.

* Dàl gafael yn Pedr ac Ioan, efallai: gyda moliannu Duw am ei iachâd, yr oedd yn naturiol iddo ef hefyd yn ei fawr orfoledd, i deimlo cariad at Pedr ac Ioan, fel offerynau ei iachâd, a chwant glỳnu wrthynt. Efallai ei fod hefyd yn ofni dychweliad ei hen gloffni, os collai ei afael arnynt hwy. † Yr oedd traddodiad yn mhlith yr Iuddewon, ond yn hollawl ddisail meddant, mai porth a adeiladasai Solomon oedd hwn, ac i'r Caldeaid ei arbed ef pan losgasant y deml. Tebycach ydyw, mai porth ydoedd a adeiladwyd yn yr un fàn ag y safai y porth a adeiladasai Solomon, ac yn cael ei alw felly oblegid hyny. Am sefyllfa y porth hwn nis gallwn wybod: rhaid ei fod yn rhywle rhwng y porth Prydferth a'r deml, debygid; oblegid myned yn mlaen tua'r deml yr oedd Pedr ac Ioan, ac nid yn ol, oddi wrth y deml.

12 ¶ * A phan welodd Pedr, efe a attebodd i'r bobl, [z] † *Ha* wŷr Israeliaid, ‡ beth a wnewch chwi yn rhyfeddu am hyn? [a] || neu beth a wnewch chwi yn dal sylw arnom ni, § fel pe trwy ein nerth ein hun neu *ein* duwioldeb y gwnaethem i hwn rodio?

z pen. 2. 22. a 13. 26. Rhuf. 9. 4. a 11. 1. a pen. 10. 25, 26. a 14. 11—15. Gen. 40. 8. a 41. 16. Dan. 2. 28—30. Ioan 3. 27 28. a 7. 18.

* Wrth weled y bobl yn tỳru o amgylch, yn sỳnu wrth y weithred, ac yn sylwi arno ef ac Ioan, fel pe hwy eu hunain a wnaethai y cwbl; mae efe yn defnyddio y cyfle i ddangos iddynt, mai nid trwy eu nerth a'u duwioldeb hwy eu hunain y gwnaed hyn, ond trwy nerth yr Arglwydd Iesu, yr hwn a groeshoeliasant hwy. † Enw yr oedd yr Iuddewon yn ymfawrygu llawer ynddo, fel yn dangos eu perthynas âg Abraham, a'u rhagoriaeth ar y cenedloedd. ‡ Beth a wnewch chwi yn rhyfeddu am hyn, a chwithau wedi gweled llawer o wyrthiau mwy, a rhyfeddach na hyn, gan Iesu ei hun, ac heb gredu ynddo? || Beth a wnewch chwi yn sylwi arnom ni? tröwch eich meddyliau at Iesu; efe a wnaeth y weithred, ac efe a ddylai gael y clod. § Er bod duwioldeb yn beth mawr iawn; eto nid yw ddim i wneyd gwyrthiau.

13 [b] * Duw Abraham, ac Isaac, a Jacob, Duw ein tadau ni, [c] † a ogoneddodd ei Fab Iesu, [d] ‡ yr hwn a draddodasoch chwi, || ac a'i gwadasoch ger bron Pilat, § pan farnodd efe *ef* i'*w* ollwng yn rhydd.

b pen. 5. 30. a 7. 32. Ex. 3. 6, 15. Salm 105. 6—10. Mat. 22. 32. Heb. 11. 9—16. c pen. 2. 33—36. a 5. 31. Salm 2. 6—12. a 110. 1, 2, Mat. 11. 27. a 28. 18. Ioan 3. 35, 36. a 5. 22, 23. a 7. 39. a 12. 16. a 13. 31, 32. a 16. 14, 15. a 17. 2—5. Eph. 1. 20—23. Phil. 2. 9—11. d pen. 2. 23, 24. a 5. 30. a 13. 27, 28. Mat. 27. 2, 18—25. Marc 15. 11. Luc 23. 18—21. Ioan 18. 40. a 19. 15.

Y gwirionedd am y mater yw hyn: er i chwi wadu a chroeshoelio Iesu o Nazareth; eto Mab Duw ydoedd efe, a dangosodd Duw ein tadau ni hyny drwy y wyrth hon: efe a'i gogoneddodd ef drwy i ni iachâu y cloff hwn yn ei enw ef. * Mae Pedr yn enwi y tri hyn fel prif dadau y genedl, ac fel rhai yr addawyd y Messiah iddynt, ac i ddyfod o honynt. † Trwy ei dderchafu ef, yn y natur ddynol, i bob awdurdod a gogoniant yn y nef. ‡ A draddodasoch chwi yn gyntaf i'r cyngor mawr, y Sanhedrim, a chanddynt hwythau fel eich cynnrychiolwyr chwi, i Pilat. || Chwi a'i gwadasoch ef fel Brenin a Messiah gan waeddi, "Ymaith ag ef, croeshoelier ef." Mae yn debyg bod y rhan fwyaf o'r dyrfa bresenol wedi bod yn euog o hyny, ac y mae Pedr yn eu hargyhoeddi hwy yn llỳm ac yn ddiarbed yma. § Pan ewyllysiai, a phan fynai Pilat o'i ran ei hun ei ollwng ef yn rhydd, ond ni feiddiai genych chwi.

14 * Eithr chwi a wadasoch y [e] † Sanct a'r Cyfiawn, [f] ac a ddeisyfasoch roddi i chwi wr llofruddiog;

e pen. 2. 27. a 4. 27. a 7. 52. a 22. 14. Salm 16. 10. Zec. 9. 9. Marc 1. 24. Luc 1. 35. Iago 5. 6. 1 Pedr 3. 18. 1 Ioan 2. 1. Dat. 3. 7. f Marc 15. 7. Luc 23. 19, 25.

* Er nod ymgais o'r eiddo Pilat i'w ollwng ef yn rhydd, yr oeddych chwi yn fwy-fwy haerllug yn ei wadu ef, ac yn ei wrthod. † Y Sanct, Mab Duw, a'r gwir Fessiah; a'r Cyfiawn, nad oedd gan neb ddim i'w roddi yn ei erbyn. ‡ Y gwr llofruddiog hwn oedd Barabas: gwedi i Pilat roddi eu dewis iddynt o'r ddau, yr oedd eu dallineb, eu cenfigen, a'u gelyniaeth yn ddychrynllyd iawn, pan y dewisent y llofrudd atgas yn hytrach na'r Iesu bendigedig.

15 * A Thywysog y bywyd † a laddasoch, [g] ‡ yr hwn a gododd Duw o feirw; [h] || o'r hyn yr ydym ni yn dystion.

g Gwel ar pen. 2. 24, 32. h pen. 1. 22. a 10. 40, 41. a 13. 30—32.

* Yr hwn y rhoddodd y Tad iddo fod ganddo fywyd ynddo ei hun, Ioan 5. 26; a'r hwn a ordeiniodd efe i ddwyn ei bobl i fywyd a gogoniant. † Yr oedd lladd Tywysog y bywyd, a mỳnu cadw llofrudd, dinystriwr bywyd, yn fwy, yn weithred o ysgelerdra deublyg, ac yn dangos caledwch a drygioni ofnadwy yn yr Iuddewon. ‡ Ond er ei ladd ef gan ddynion yn anghyfiawn, cyfododd Duw ef o feirw, ac felly gogoneddodd ef er ei holl warth gan ddynion. || Ni a'i gwelsom ef, amryw weithiau wedi iddo adgyfodi; gwelsom ef hefyd yn esgyn i'r gogoniant; ac yr ydym wedi ein hawdurdodi a'n danfon i dystiolaethu y pethau hyn am dano yn mhob màn.

16 [i] * A'i enw ef, [k] † trwy ffydd yn ei enw ef, a nerthodd y dyn yma, ‡ a welwch ac a adwaenoch chwi: || a'r ffydd yr hon sydd trwyddo ef, a roes iddo ef yr [l] holl iechyd hwn yn eich gŵydd chwi oll.

i adn. 6. pen. 4. 7, 10. 30. a 16. 18. k pen. 14. 9. a 19. 13—17. Mat. 17. 19, 20. a 21. 21, 22. Marc 11. 22, 23. a 16. 17, 18. Luc 17. 5, 6. Ioan 14. 12. 1 Cor. 13. 2. l adn. 8. pen. 4. 14—16. Deut. 32. 4. Ioan 7. 23.

* Ei allu a'i awdurdod ef, neu ynte ef ei hun; fel y mae enw Duw yn myned am Dduw ei hun yn aml yn yr ysgrythyrau. † Mae yn debyg mai ffydd yr apostolion a feddylir, ac nid ffydd y cloff, oblegid yr oedd y wyrth yn sydyn, ac nis gwyddai y cloff ddim am dani, hyd onid oedd wedi ei gwneyd. ‡ Fel pe dywedasai, Dyn dïeithr yw efe i ni; nis gwyddom i ni sylwi arno erioed o'r blaen; ond y mae yn adnabyddus i chwi, gwyddoch mai cloff ydoedd o'r groth, a chwi a'i gwelwch ef yn awr yn hollawl iach a nerthol. || Nid yn unig ffydd *yn* Nghrist fel ei *gwrthddrych*, ond hefyd ffydd *trwy*, ac *o* Grist, fel ei *hawdwr*. Crist a roddodd ffydd iddynt, a thrwy weithrediad y ffydd hòno ar Grist, y gwnaethant y wyrth hon. Amcan yr apostol yn y cwbl yw, profi adgyfodiad a Duwdod yr Arglwydd Iesu, a dangos mai ei ailu dwyfol ef a iachâodd y dyn cloff, ac nid unrhyw nerth o'r eiddynt hwy, yn amgen na ffydd yn ei enw ef.

17 * Ac yn awr, frodyr, [m] mi a wn mai [n] † trwy anwybod y gwnaethoch, ‡ megis y *gwnaeth* eich pendefigion chwi hefyd.

m pen. 7. 40. Gen. 21. 26. a 39. 8. a 44. 15. Ex. 32. 1. Num. 22. 6. Rhuf. 11. 2. Phil. 1. 22. n pen. 13. 27. Num. 15. 24—31. Luc 23. 34. Ioan 7. 26, 27, 52. a 16. 3. 1 Cor. 2. 8. 2 Cor. 3. 14. 1 Tim. 1. 13.

* Rhag i'r argyhoeddiad llŷm yn yr adnodau o'r blaen gyrhaeddyd yn rhŷ bell, a gŷru y bobl i annobaith; mae yr apostol yma yn troi i gysuro, neu o leiaf i ddangos fod gobaith am danynt, trwy edifeirwch a ffydd yn Iesu, er bod eu pechod yn fawr ac yn echryslawn iawn. † Annwybodaeth deublyg; am le ei enedigaeth ef, ac hefyd am natur ei deyrnas. Mae yn wir fod yr annwybodaeth hyn yn tarddu oddi ar falchder, rhagfarn, a llawer o achosion pechadurus eraill; eto, ni chroeshoeliasent Arglwydd y gogoniant pes adwaenasent ef, 1 Cor. 2. 8. ‡ Yr oedd annwybodaeth y pendefigion, yr arch-offeiriaid a blaenoriaid y bobl, yn fwy dïesgus nag annwybodaeth y werin; ac hefyd yn waeth yn ei heffeithiau, gan eu bod hwy yn tywys y werin i'r drwg: ond eto, mae Pedr yn rhoddi drws o obaith iddynt hwythau.

18 [o] * Eithr y pethau a rag-fynegodd Duw trwy enau [p] ei holl brophwydi, y dïoddefai Crist, † a gyflawnodd efe fel hyn.

o pen. 17. 2, 3. a 26. 22, 23. a 28. 23. Luc 24. 26, 27, 44. 1 Cor. 15. 3, 4. 1 Pedr 1. 11. Dat. 19. 10. p Gen. 3. 15. Salm 22. a 69. Es. 53. Dan. 9. 26. Zec. 12. 10. a 13. 7.

* Am fod y prophwydi oll yn llefaru trwy yr un Ysbryd, yr oeddynt oll yn llefaru yr un pethau, megys pe buasent oll yn llefaru â'r un genau. † Trwy annwybodaeth rhai, a thrwy genfigen a llid eraill, cyflawnodd Duw ei sanctaidd fwriadau er iachawdwriaeth ei bobl trwy farwolaeth y Messiah, fel yr oedd wedi rhagfynegi trwy enau ei holl brophwydi.

19 ¶ [q] * Edifarhêwch gan hynny, [r] † a dychwelwch, [s] ‡ fel y dilëer eich pechodau, [t] || pan ddelo yr amseroedd i orphwys § o olwg yr Arglwydd;

q Gwel ar pen. 2. 38.—a 11. 18. 2 Tim. 2. 25. r pen. 11. 21. a 15. 3. a 26. 18—20. a 28. 27. Salm 51. 13. Es. 6. 10. a 55. 6, 7. Jer. 31. 18—20. Galar. 3. 40. a 5. 21. Ezec. 18. 30—32. Dan. 9. 13. Hos. 14. 2. Mat. 13. 15. a 18. 3. Luc 1. 16. Iago 4. 7—10. a 5. 19, 20. 1 Pedr 2. 25. s Deut. 4. 29—31. 1 Bren. 8. 48—50. Salm 32. 1—5. a 51. 1—3, 9. a 103. 12. Es. 1. 16—18. a 43. 25. a 44. 22. Jer. 31. 33, 34. a 50. 20. Mica 7. 18, 19. t adn. 21. pen. 1, 6, 7. a 17. 26. Salm 72. 6—19. a 98. Es. 2. 1—3. a 49. 10—22. a 51. 11. a 52. 1—10. a 54. 1—14. a 60. a 61. 3, 9—11. a 62. 1—5. a 65. 17—25. a 66. 10—14, 18—22. Jer. 31. 22—26. a 32. 37—41. a 33. 15—26. Ezec. 34. 23—31. a 37. 21—28. a 39. 25—29. Hos. 2. 19—23. Joel 3. 16—21. Amos 9. 13—15. Mica 7. 14, 15. Zeph. 3. 14—20. Zec. 8. 20—23. Rhuf. 11. 25, 26. 2 Thes. 1. 7, 10. 2 Pedr 3. 8.

Dyma wir ddyben, defnydd, a chymhwysiad, y wyrth flaenorawl a'r bregeth: galw y bobl i edifeirwch a dychweliad at yr Arglwydd. * Edifarêwch am eich holl bechodau yn gyffredinol, ac yn enwedig am y pechod mawr echryslawn hwnw, o wadu, gwrthod, a chroeshoelio y Messiah: dryllier eich calon yn chwilfriw am y pechod dirfawr hwnw! † Dychwelwch oddiwrth eich rhagfarn yn ei erbyn ef, oddiwrth eich gwrthwynebiad iddo, a'ch anghrediniaeth ynddo, i gredu ynddo a'i dderbyn trwy ffydd: a dychwelwch oddiwrth eich holl bechodau at Dduw trwyddo ef, am faddeuant. ‡ Cyfeiriad sydd yma at y dull o ysgrifenu ar lechau yn mhlith yr Iuddewon, yr hyn a ellid ei ddilëu, neu ei olchi ymaith, fel na byddai dim o hóno. Mae holl bechodau dynion yn cael eu hysgrifenu megys gan Dduw, ac nid oes dim ond gwaed Iesu a all eu dilëu, neu eu golchi ymaith: bendigedig fyddo Duw am y gallu hyny! dïolch byth am waed ei groes ef! || Amser yr efengyl medd rhai, amser dinystr Jerusalem medd eraill; pob un yn wir oeddynt amseroedd o orphwys i'r gwir gristionogion: ond dydd y farn a feddylir, fel y mae yn amlwg wrth y ddwy adnod ganlynol. Mae amser gorphwys yn sicr i'r credadyn pan mae yn cael maddeuant o'i bechodau; ond yn y nef y caiff efe orphwys yn berffaith, ac yn dragywyddol, a'i holl orphwysdra dedwydd yn deilliaw o olwg, neu bresenoldeb yr Arglwydd. § Fel y mae goleu a gwres yn dyfod o'r haul, felly mae gorphwys tawel a dedwydd yn dyfod i'r saint o bresenoldeb yr Arglwydd.

20 [u] * Ac yr anfono efe Iesu Grist, † yr hwn a bregethwyd o'r blaen i chwi:

u adn. 26. pen. 17. 31. Mat. 16. 27, 28. a 24. 3, 30, 36. Marc 13. 26, 30—37. Luc 19. 11. a 21. 27, 28. 2 Thes. 2. 2, 8. Dat. 1. 7. a 19. 11—16.

* I waredu ei bobl oddiwrth bob gofid a thrueni: pan lewyrcho yr Haul hwn, efe a chwala ymaith bob niwl a chymylau. Cyfeiriad sydd yma yn ddïau at ail ddyfodiad Crist i'r farn, ac i ogoneddu ei saint. † Yr hwn a ordeiniwyd er tragywyddoldeb gan Dduw, ac a bregethwyd o'r blaen i chwi yn ysgrifeniadau y prophwydi, trwy ei weinidogaeth bersonol ef ei hun, a thrwy weinidogaeth ei apostolion ef cyn a chwedi ei farwolaeth.

21 [x] * Yr hwn sydd raid i'r nef ei dderbyn, [y] † hyd amseroedd adferiad pob peth, ‡ y rhai a ddywedodd Duw trwy enau ei holl [z] sanctaidd brophwydi, erioed.

x pen. 1. 11. y Gwel ar adn. 19. Es. 1. 26, 27. Mal. 3. 3, 4. a 4. 5, 6. Mat. 17. 11, 12. Marc 9. 11—13. z pen. 10. 43. Luc 1. 70. 2 Pedr 1. 21. a 3. 2. Dat. 18. 20. a 22. 6.

* Hyny yw, rhaid i'r nef ei gynnwys ef o ran ei ddynoliaeth, yn awr mae wedi esgyn i'r nef; fel y mae lle yn cynnwys gwir gorph: y nef yw llŷs a gorseddfa yr Iesu hwn, yr hwn sydd Frenin breninoedd ac Arglwydd yr arglwyddi, yno y rhaid iddo ef deyrnasu hyd oni ddarostyngo ei holl elynion dàn ei draed. † Mae yn debyg mai yr un amseroedd a feddylir yma wrth "amseroedd adferiad pob peth," âg "amseroedd i orphwys o olwg yr Arglwydd," yn adn. 19; a phob un o honynt efallai yn meddwl, diwedd y byd hwn. Yno yr uniona Duw bob peth ag sydd yn ymddangos yn afrëolaidd yn y byd presenol, ac a wna achos cyfiawnder a gwirionedd yn fuddugoliaethus ac yn ogoneddus byth. "Pob peth" Duw yw ei bobl a'i achos ei hun, ac am hyny yn ddiammau mae yr apostol yn llefaru yma; felly nid oes yn yr adnod hon ond sail wàn am adferiad y colledigion o uffern. ‡ Llefarodd Duw am yr amseroedd dedwydd hyn trwy y prophwydi erioed; ond ni ddywedodd yn eglur pa bryd yn gymhwys y cymmerent le: efallai bod Pedr y pryd hwn yn eu dysgwyl yn fuan, ac i gymmeryd lle ar y ddaear; fel y mae llawer o ddynion da eto yn dysgwyl y daw Crist i deyrnasu yn bersonol ar y ddaear am fil o flynyddoedd. Yn lled dywyll y gwelodd Duw yn dda egluro y pethau hyn; a chan mai yn dywyll yr eglurwyd hwynt, nid rhyfedd os oedd Pedr yn eu deall yn dywyll y pryd hwnw: yn raddol y daeth yr apostolion eu hunain i ddeall pethau dyfnion Duw, ac nid oll ar unwaith.

22 Canys [a] Moses a ddywedodd wrth y * tadau, [b] Yr Arglwydd eich Duw a gyfyd i

chwi Brophwyd [c] o'ch brodyr, [d] † megys myfi: [e] ‡ arno ef y gwrandewch ym mhob peth a ddywetto wrthych.

a pen. 7. 37. Deut. 18. 15—18. b Luc 13. 33. a 24. 19. Ioan 8. 12. a 12. 46. Dat. 1. 1. c Rhuf. 8. 3. a 9. 5. Gal. 4. 4. Heb. 2. 9—17. d Gwel ar Deut. 18. 18. e Es. 55. 3, 4. Mat. 17. 4, 5. Marc 9. 4—7. Luc 9. 30—35. Ioan 1. 17. a 5. 24, 39—47. Heb. 1. 1, 2. a 2. 1. a 5. 9.

* Eu henafiaid hwy yn yr anialwch, Deut. 18. 15, 18, 19. † Megys myfi, 1. Mewn doethineb. 2. Mewn ffyddlondeb. 3. Mewn gwyrthiau. 4. Mewn bod yn Gyfryngwr rhwng Duw a'i bobl. 5. Mewn bod o'i frodyr (h. y. o had Abraham.) 6. Mewn bod wedi ei ddanfon gan Dduw mewn modd anghyffredinol: ond wedi y cwbl yn anfeidrol fwy na myfi. ‡ Pa brophwyd bynag a godai yn mhlith yr Iuddewon, os rhagfynegai efe bethau a ddeuent i ben, os gwnâi efe wyrthiau, ac os na cheisiai efe eu harwain at gau-dduwiau; yr oeddynt yn rhwym o'i dderbyn ef fel prophwyd: ac o ganlyniad, yr oeddynt yn rhwym o dderbyn Crist, yr hwn a'u dysgodd hwynt i ofni y gwir Dduw, yn ol y gyfraith a'r prophwydi.

23 A bydd, [f] * pob enaid ni wrandawo ar y Prophwyd hwnnw, † a lwyr ddifethir o blith y bobl.

f pen. 13. 38—41. Deut. 18. 19. Marc 16. 16. Ioan 3. 18—20. a 8. 24. a 12. 48. 2 Thes. 1. 7—9. Heb. 2. 3. a 10. 28—30, 39. a 12. 25. Dat. 13. 8. a 20. 15.

* Hyny yw, gwrando, credu, ac ufuddâu iddo. † Fel y dyfethwyd llawer am eu hanufudd-dod i Moses. Nis gellir yn hawdd ddychymmygu ymadrodd mwy mawreddig na hwn, i rybuddio yr Iuddewon am y canlyniad o'u hanghrediniaeth, a hyny yn ngeiriau Moses, eu prophwyd hoff hwy eu hunajn, dan rith o eiddigedd dros yr hwn, yr oeddynt yn barod i wrthod cristionogaeth, a cheisio ei llwyr ddystrywio.

24 [g] * A'r holl brophwydi hefyd o [h] Samuel, ac o'r rhai wedi, † cynnifer ag a lefarasant, a rag-fynegasant hefyd am y dyddiau hyn.

g adn. 19, 21. Rhuf. 3. 21. h pen. 13. 20. 1 Sam. 2. 18. a 3. 1, 20. Salm 99. 6. Jer. 15. 1.

* Samuel oedd y prophwyd cyntaf o enwogrwydd a gododd wedi Moses, ac yn ei ddyddiau ef adfywiwyd ac adnewyddwyd ysbryd a dawn prophwydoliaeth. † Llefarodd pawb o honynt, yn gyffredin am y Messiah, y pethau oedd wedi dŷgwydd y dyddiau hyny, a'r pethau a ddygwyddent o hyny allan, hyd amseroedd adferiad pob peth, adn. 21.

25 * Chwychwi ydych [i] blant y prophwydi, [k] † a'r cyfammod yr hwn a wnaeth Duw â'n tadau ni, gan ddywedyd wrth Abraham, [l] ‡ Ac yn dy had di [m] y bendithir holl dylwythau y ddaear.

i pen. 2. 39. a 13. 26. Gen. 20. 7. a 27. 36—40. a 48. 14—20. a 49. Salm 105. 8—15. Mat. 3. 9, 10. k Gen. 17. 9, 10, 19. 1 Cron. 16. 17. Neh. 9. 8. Luc 1. 72. Rhuf. 9. 4, 5. a 15. 8. Gal. 3. 29. l Gen. 12. 3. a 18. 18. a 22. 18. a 26. 4. a 28. 14. Rhuf. 4. 13. Gal. 3. 8, 16. m Salm 22. 27. a 96. 7. Dat. 5. 9. a 7. 9. a 14. 6.

* Felly yr oedd yr Iuddewon yn cymmeryd arnynt eu bod, ac felly y mynent gael eu cyfrif; yn blant, neu ddysgyblion y prophwydi. Heblaw bod yn blant y prophwydi, yr oeddynt hefyd yn blant y cyfammod a wnaethai Duw âg Abraham a'i had: fel hyn yr oeddynt yn blant yr addewid; yr hyn oedd yn galondid mawr i'r rhai edifeiriol o honynt i obeithio am drugaredd a maddeuant yn yr amgylchiad presenol, yr hyn oedd dyben Pedr yn ddiau yn crybwyll hyn iddynt. ‡ Yn dy had di, sef Crist, y bendithir holl dylwythau y ddaear: pob trugaredd yn y byd hwn, a bywyd tragywyddol yn y byd a ddaw: gras yma, a gogoniant byth yr ochr draw.

26 Duw [n] gwedi cyfodi ei Fab Iesu, [o] * a'i hanfonodd ef i chwi [p] yn gyntaf, † gan eich bendithio chwi, [q] trwy droi pob un o honoch ymaith oddi wrth eich drygioni.

n pen. 1. 8. a 13. 26, 46, 47. a 18. 4—6. a 26. 20. a 28. 23—28. Mat. 10. 5, 6. a 15. 24. Luc 24. 47. Rhuf. 2. 9, 10. Dat. 7. 4—9. o adn. 15, 22. p adn. 20, 25. Salm 67. 6, 7. a 72. 17. Luc 2. 10, 11. Rhuf. 15. 29. Gal. 3. 9—14. Eph. 1. 3. 1 Pedr 1. 3. a 3. 9. q Es. 59. 20, 21. Jer. 32. 38—41. a 33. 8, 9. Ezec. 11. 19, 20. a 36. 25—29. Mat. 1. 21. Eph. 5. 26, 27. Tit. 2. 14. 1 Ioan 3. 5—8. Judas 24.

* I chwi, trigolion Jerusalem yn gyntaf: er mai chwi o bawb, a fu a'r llaw flaenaf a thrymaf ar Iesu; eto yn ei anfeidrol ras, mae Duw yn danfon gweinidogaeth faddeuol yr efengyl i chwi yn gyntaf. I'r Iuddewon hefyd yn mhob màn y pregethwyd yr efengyl gyntaf, ac nis gwyddai Pedr tàn y weledigaeth yn pen. 10, ei bod i gael ei phregethu i'r cenedloedd o gwbl. Pe cawsai ei phregethu yn gyntaf i'r cenedloedd, buasai hyny yn chwanegu rhagfarn yr Iuddewon yn saith mwy yn ei herbyn. † Dyma'r fendith fwyaf o bob bendith, caei ein tröi ymaith oddi wrth ddrygioni: a'r rhai a dröir felly yw yr unig ddynion bendigedig a dedwydd.

PEN. IV.

Llywodraethwyr yr Iuddewon yn anfoddlawn i bregeth Pedr.

AC fel yr oeddynt yn llefaru wrth y bobl, [a] yr offeiriaid, [b] * a blaenor y deml, [c] † a'r Saduceaid, a ddaethant arnynt hwy;

a adn. 6. pen. 6. 7, 12. Mat. 26. 3, 4. a 27. 1, 2, 20, 41. Ioan 15. 20. a 18. 3. b pen. 5. 26. 2 Cron. 23. 4—9. Luc 22. 4. c pen. 23. 6—9. Mat. 16. 12. a 22. 16, 23, 34.

* Blaenor dosparthiadau yr offeiriaid, medd tri o'n Hawdwyr; yr hwn oedd nesaf at yr arch-offeiriad o ran swydd ac anrhydedd: ond blaenor y milwyr Rhufeinig, medd *Pool*, y rhai oedd yn gwarchod y deml rhag terfysg yn wastad ar amser y gŵyliau. *Chiliarchos* oedd enw blaenor y milwyr, a *Stratêyos* oedd enw blaenor yr offeiriaid: yr olaf yw y gair yn yr adnod hon. Nid yw yn debyg iawn ychwaith y buasai blaenor y milwyr yn ymyraeth â'r apostolion ar yr achlysur hwn. † Yr oedd y Saduceaid yn gwadu yr adgyfodiad, ac am fod yr apostolion yn tystio fod Iesu wedi adgyfodi, yr oeddynt hwythau yn clwyfo, ac am eu distewi hwynt.

2 [d] * Yn flin ganddynt am eu † bod hwy yn dysgu y bobl, [e] ‡ ac yn pregethu trwy yr Iesu yr adgyfodiad o feirw.

d pen. 5. 17. a 13. 45. a 19. 23. Neh. 2. 10. Ioan 11. 47, 48. e pen. 10. 40—43. a 17. 18, 31, 32. a 24. 14, 15, 21. a 26. 8, 23. Rhuf. 8. 11. 1 Cor. 15. 12—20, 23. 2 Cor. 4. 13, 14. 1 Thes. 4. 13, 14.

* Hyny yw, yr oeddynt yn ddigllawn i'r fath raddau, fel yr oedd yn flinder annoddefol ganddynt, † eu bod *hwy* yn dysgu y bobl; rhai mòr isel ac anllythyrenog â *hwy* yn troi yn ddysgawdwyr, ac yn fwy cymmeradwy gan y bobl na hwy eu hunain. ‡ Yr oeddynt hwy wedi rhoddi arian lawer i'r milwyr, am ddywedyd mai dysgyblion yr Iesu a ledratasent ei gorph ef o'r bedd; ac yn awr yr oeddynt yn flin iawn eu bod hwy yn tystiolaethu ei adgyfodiad ef i'r bobl, ac mai trwy ei adgyfodiad ef yr oedd holl ddynolryw i gael eu hadgyfodi. Yr oedd y Saduceaid yn flin hefyd o herwydd y rheswm a enwyd ar yr adnod o'r blaen.

3 * A hwy [f] a osodasant ddwylaw arnynt hwy, † ac a'u dodasant mewn dalfa hyd drannoeth: ‡ canys yr oedd hi yn awr yn hwyr.

f pen. 5. 18. a 6. 12. a 8. 3. a 9. 2. a 12. 1—3. a 16. 19—24. Mat. 10. 16, 17. Luc 22. 52, 54. Ioan 18. 12.

* Dyma ddechreu cyflawniad o'r hyn a ddywedasai yr Arglwydd Iesu, Luc 21. 12. † Mewn carchar, medd rhai; dàn ofal swyddogion, medd eraill; y rhai oedd atebol am eu dwyn hwy o flaen y Sanhedrim dranoeth. ‡ Yn nghylch y nawfed awr, tri o'r gloch prydnawn, yr aethai Pedr ac Ioan i fynu i'r deml, ac erbyn iachâu y cloff, a llefaru wrth y bobl, (ychwaneg mae yn debyg nag a adroddir yn y bennod o'r blaen) yr oedd hi yn awr yn hwyr.

4 [g] * Eithr llawer o'r rhai a glywsant y

gair, a gredasant: [h] † a rhifedi y gwŷr a wnaed ynghylch pum mil.

g 2 Cor. 2. 14—17. Phil. 1. 12—18. 2 Tim. 2. 9, 10. h pen. 2. 41. Gen. 49. 10. Es. 45. 24. a 53. 12. Ioan 12. 24.

* Er cymmaint llid a dirmyg y pennaethiaid, gweithiodd Ysbryd Duw yn effeithiol ar galonau llawer o'r gwrandawwyr. Gwelwn yma mai trwy glywed y mae ffydd yn dyfod. † Pùm mil o gwbl, medd rhai, rhwng dydd y pentecost â'r tro hwn: pùm mil y tro hwn, medd eraill, heblaw dydd y pentecost. Y dyb gyntaf sydd fwyaf tebygol; oblegid nid yw yn debyg iawn i ychwaneg gael eu dychwelyd ar unrhyw ddiwrnod, nag a ddychwelwyd ar ddydd y pentecost. Pùm mil o *wyr*, medd *Guyse*, gan feddwl fod llawer o *wragedd*, hefyd wedi cael eu dychwelyd heblaw y gwŷr.

5 ¶ * A digwyddodd [i] drannoeth, ddarfod i'w [k] llywodraethwyr hwy, a'r henuriaid, a'r ysgrifenyddion, ymgynnull i Jerusalem,

i pen. 5. 20, 21. Mica 2. 1. Mat. 27. 1, 2. k adn. 8. pen. 5. 34. a 6. 12. Es. 1. 10. Marc 15. 1. Luc 20. 1. a 22. 66. a 24. 20.

* Aelodau y cyngor mawr, neu y Sanhedrim, oedd y rhai hyn oll, rhai yn llywodraethwyr gwladol, a rhai yn henuriaid eglwysig, neu henuriaid dosparthiadau yr offeiriaid. Pa fodd bynag yr oeddynt yn amrywio mewn pethau eraill, yr oeddynt oll yn cytuno i geisio diffodd goleuni yr efengyl ar ei gynnëad cyntaf.

6 * Ac [l] Annas yr arch-offeiriad, a Chaiaphas, † ac Ioan, ‡ ac Alexander, || a chymmaint ag oedd o genedl yr arch-offeiriad.

l Luc 3. 2. Ioan 11. 49. a 18. 13, 14, 24.

* Dywed *Josephus* mai Caiaphas oedd yr arch-offeiriaid gweinyddawl ac o ran enw; ond mai gan Annas yr oedd yr awdurdod: Caiaphas oedd wedi ei enwi gan y rhaglaw Rhufeinig i'r swydd; ond yr oedd efe yn hollawl dan awdurdod ei chwegrwn Annas, yr hwn oedd fwyaf mewn awdurdod a pharch gyda'r bobl. † Tybir yn gyffredin mai mab i Annas oedd y Ioan hwn. ‡ Rhyw wr mawr a chyfrifol iawn yn y dyddiau hyny: yr *Alabarch*, neu lywodraethwr yr Iuddewon yn Alexandria, medd rhai. Dywed *Josephus* iddo addurno naw o byrth y deml â dalenau o aur ac arian. || Mae yn debyg y byddai yr arch-offeiriad yn gosod ei berthynasau ei hun yn y swyddau uchaf hyd y gallai, ac yn eu galw hwy yn nghyd ar yr achlysur hwn, yn hytrach na neb eraill.

7 [m] * Ac wedi iddynt eu gosod hwy yn y canol, hwy a ofynasant, [n] † Trwy ba awdurdod, neu [o] ym mha enw y gwnaethoch chwi hyn?

m pen. 5. 27. 1 Bren. 21. 12—14. Ioan 8. 3, 9. n Ex. 2. 14. Mat. 21. 23. Marc 11. 28. Ioan 2. 18. o adn. 10. pen. 5. 28, 40.

* Eisteddai y Sanhedrim ar ddull hanner cylch, ac yna parent osod Pedr ac Ioan i sefyll yn y canol ger eu bronau i'w holi. † Gan mai genym ni yn unig y mae hawl i awdurdodi dysgawdwyr cyhoeddus, a chan na roddasom ni ddim awdurdod i chwi; trwy ba awdurdod, atolwg, yr ydych chwi yn dysgu y bobl, ac yn enw pwy yr iachasoch chwi y dyn cloff? A ydych chwi yn hòni mai trwy ryw allu goruwch-naturiol oddi wrth Dduw y gwnaethoch hyn, ai ynte trwy ryw swyn-gyfaredd, trwy ddefnyddio rhyw enw? Dywedir y byddai cyfareddwyr Iuddewig yn defnyddio enw Solomon, i wneyd gwyrthiau iachâol, ac mai at hyny yr oedd yr holwyr yn cyfeirio yma.

8 * Yna Pedr, [p] yn gyflawn o'r Yspryd Glân, a ddywedodd wrthynt, *Chwychwi* bennaethiaid y bobl, a henuriaid Israel,

p adn. 31. Gwel ar pen. 2. 4. Mat. 10. 19, 20. Luc 12. 11, 12. a 21. 14, 15.

* Dyma gyflawniad ffyddlawn o addewid Crist i'w apostolion, yn Marc 13. 11: gwel hefyd ar Matth. 10. 19, 20. † Mae Pedr yma dàn ddylanwadau, a thrwy nerth yr Ysbryd Glân, yn llefaru yn hŷf ac yn wrol, gyda rhyddid a hyawdledd, ac ar yr un pryd gyda pharch dyledus i wŷr mewn urddas ac awdurdod.

9 * Od ydys yn ein holi ni heddyw am y [q] † weithred dda i'r dyn claf, *sef* pa wedd yr iachâwyd ef;

q pen. 3. 7. Ioan 7. 23. a 10. 32. 1 Pedr 3. 15—17. a 4. 14—16.

* Od ydys yn ein holi ni yn swyddol ac yn farnol, fel pe byddem wedi gwneyd rhyw ddrwg: † mae yn amlwg mai gweithred dda i'r cloff oedd cael ei iachâu; ac nis gall fod yn ddrwg ynom ninnau, i ni wneyd y fath weithred. Nid oedd Pedr yn dywedyd dim yn erbyn awdurdod y cyngor i'w holi hwynt, ond mae yn amddiffyn ei ddiniweidrwydd, a daioni y weithred.

10 [r] * Bydded hysbys i chwi oll, ac i bawb o bobl Israel, [s] † mai trwy enw Iesu Grist o Nazareth, yr hwn a groeshoeliasoch chwi, [t] yr hwn a gyfododd Duw o feirw, trwy hwnnw y mae hwn yn sefyll yn iach ger eich bron chwi.

r pen. 13. 38. a 28. 28. Jer. 42. 19, 20. Dan. 3. 18. s pen. 2. 22—24, 36. a 3. 13—16. a 5. 29—32. t pen. 2. 24. a 10. 40—42. a 13. 29—41. Mat. 27. 63—66. a 28. 11—15. Rhuf. 1. 4.

* Bydded hysbys i chwi, y cyngor oll, a dymunem wneyd yr un peth yn hysbys i holl genedl Israel pe gallem. Gwelwn yma hyfdra dïofn Pedr ger bron y cyngor, a'i awydd-fryd sanctaidd i bregethu yr Iesu yn mhob màn. † Iesu o Nazareth, y dirmygedig hwnw a groeshoeliasoch chwi, ond a gyfododd Duw, er gluro ei fod yn Fab Duw; yn ei enw, a thrwy ei awdurdod ef, y gwnaethom ni y wyrth hon, a thrwy hwnw y mae hwn yn sefyll yn iach ger eich bron chwi. Mae yn debyg fod y dyn a fuasai gloff ger bron y cyngor hefyd; ond nid ydym yn darllen iddynt ofyn dim iddo ef.

11 * Hwn yw [u] y maen a † lyswyd gennych [x] chwi ‡ yr adeiladwyr, || yr hwn a wnaed [y] yn ben i'r gongl.

u Salm 118. 22, 23. Es. 28. 16. Mat. 21. 42—45. Marc 12. 10—12. Luc 20. 16—18. 1 Pedr 2. 6—8. x pen. 7. 52. a 20. 26, 27. Diar. 28. 1. Es. 58. 1, 2. Ezec. 2. 6, 7. a 3. 7—11, 18, 19. a 33. 7—9. 2 Cor. 3. 12. a 4. 1. y Zec. 3. 9. a 4. 6, 7. Eph. 2. 20—22.

* Fel pe dywedasai Pedr, caniatêwch i mi ddywedyd yn mhellach, foneddigion, mai yr Iesu hwn a groeshoeliasoch chwi, ond a gyfododd Duw, yw y maen hwnw y prophwydodd Dafydd am dano yn Salm 118. 22: y maen profedig, y congl-faen gwerthfawr, y sylfaen safadwy, a sylfaenodd Duw yn Sion. Es. 28. 16. † Llyswyd, neu gwrthodwyd y maen hwn genych chwi, trwy ei wadu ef ger bron Pilat, a gwaeddi, Ymaith ag ef, croeshoelier ef. ‡ Chwi, y rhai o ran swydd, a ddylasech fod yn adeiladwyr eglwys Dduw, ac a gymmerech arnoch eich bod yn adeiladwyr; chwi, yn benaf o bawb, a feiddiodd lysu y maen gwerthfawr hwn, o drefniad a rhoddiad Duw. || Ond er i chwi ei lysu a'i groeshoelio ef, efe a wnaed gan Dduw yn ben i'r gongl; yn sylfaen, yn gwlwm, yn gynnaliaeth, ac yn brydferthwch i'r holl deml fawr ysbrydol.

12 [z] * Ac nid oes iachawdwriaeth yn neb arall: † canys nid oes enw arall [a] dan y nef, wedi ei roddi ym mhlith dynion, trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwedig.

z pen. 10. 42, 43. Mat. 1. 21. Marc 16. 15, 16. Ioan 3. 36. a 14. 6. 1 Cor. 3. 11. 1 Tim. 2. 5, 6. Heb. 2. 3. a 12. 25. 1 Ioan 5. 11, 12. Dat. 7. 9, 10. a 20. 15. a pen. 2. 5. Gen. 7. 19. Job 41. 11. Col. 1. 23.

* Gwedi dangos mai yn enw yr Iesu y cawsai y cloff ei iachâu, yn adn. 10, ac mai efe oedd pen congl-faen yr eglwys, yn adn. 11; yr oedd yn naturiol iddo dòri allan fel y gwnaeth yn yr adnod hon, ger bron yr holl gyngor, a thystiolaethu nad oedd iachawdwriaeth yn neb arall, i gyrph nac eneidiau dynion. † Mewn caledi, byddai yr Iuddewon yn arfer galw ar enw Duw, a'r paganiaid ar enwau eu gau-dduwiau; yma mae yr apostol yn dywedyd o flaen y cyngor, mai trwy enw yr Iesu yn unig y mae bod yn gadwedig: nad oedd gwiw ymddiried i batriarch na phrophwyd, offeiriad na brenin, am iachawdwriaeth, ond yn ei enw ef yn unig.

13 ¶ * A phan welsant hyfder Pedr ac Ioan, a deall mai [b] gwyr † anllythyrenog ac ‡ annysgedig oeddynt, ‖ hwy a ryfeddasant; [c] § a hwy a'u hadwaenent, eu bod hwy gyd â'r Iesu.

b pen. 2. 7—12. Mat. 4. 18—22. a 11. 25. Ioan 7. 15, 49. 1 Cor. 1. 27. c Mat. 26. 57, 58, 71, 73. Luc 22. 52—54, 56—60. Ioan 18. 16, 17. a 19. 26.

* Mae yn debyg i wŷr mawr y cyngor feddwl dychrynu a dyrysu Pedr ac Ioan drwy eu holi; a synasant weled hyfdra dynion mòr isel-radd ger eu bron hwy. Yr oedd ganddynt achos da, cydwybod dda, a Duw da, yn blaid iddynt. † "Anllythyrenog:" bu hyn yn wrth-ddadl am dri chàn mlynedd gan ddoethion y byd hwn, yn erbyn cristionogaeth a'i phroffeswyr; eto yr oedd hyn yn gadarnâd mawr iddi, mai nid peth o ddynion ydoedd, ond o Dduw. ‡ Mae y gair Groeg *(idiôtai)* a gyfieithir yma "annysgedig," yn arwyddo, rhai wedi eu dwyn i fynu gartref, ac heb fod erioed yn mhellach nâ chylch eu muriau eu hunain; heb erioed gael eu dysgu gan athrawon, na bod yn ddysgawdwyr o'r gyfraith eu hunain. ‖ Rhyfeddasant wrth eu hyfdra, eu gwybodaeth, a hyawdledd eu hymadrodd. § Bu llawer o'r rhai hyn eu hunain yn gwrando yr Iesu ac yn dadlau âg ef; gallent gofio iddynt weled Pedr ac Ioan gydag ef lawer gwaith.

14 [d] * Ac wrth weled y dyn a iachasid yn sefyll gyd â hwynt, [e] nid oedd ganddynt ddim i'w ddywedyd yn erbyn hynny.

d adn. 10. pen. 3. 8—12. e adn. 16, 21.

* Adwaenent y dyn a iachesid hefyd yn dda; ac wrth ei weled yn awr yn holl-iach, nis gallent ammau y wyrth, na beïo am y gweithrediad o hòni.

15 * Eithr wedi gorchymyn iddynt [f] fyned allan o'r gynghorfa, hwy a ymgynghorasant a'u gilydd,

f pen. 5. 34, &c. a 26. 30—32.

* Yr oedd eu hachos yn rhŷ wàn a drwg i oddef i'r apostolion eu clywed hwy yn ymgyngori a'u gilydd; gan hyny parasant eu myned hwy allan o'r gyngorfa am ychydig, ond nid yn rhyddion eto.

16 * Gan ddywedyd, [g] Beth a wnawn ni i'r dynion hyn? † canys yn ddïau [h] arwydd hynod a wnaed trwyddynt hwy, hysbys i bawb a'r sydd yn preswylio yn Jerusalem, [i] ac nis gallwn ni *ei* wadu.

g Ioan 11. 47, 48. a 12. 18, 19. h Dan. 8. 5, 8. Mat. 27. 16. i pen. 6. 10. Luc 6. 10, 11. a 21. 15.

* Yn lle ymofyn am iachawdwriaeth eu heneidiau trwy Iesu Grist, yn ol athrawiaeth yr apostolion, adn. 12; "Beth a wnawn ni i'r dynion hyn" oedd y pwnc gan y cyngor o hyd: eisiau eu lluddias hwynt i bregethu Crist, tystiolaethu ei adgyfodiad, a gwneyd gwyrthiau yn ei enw ef, oedd arnynt hwy; ond pa fodd i wneyd hyny gyda rhith o gyfiawnder, nis gwyddent. O'u rhan eu hunain nid oeddynt yn gofalu am gyfiawnder; ond mynent ymddangos i'r bobl eu bod yn gweithredu yn gyfiawn. † Nis gallent wadu yr arwydd, na'i guddio; yr oedd mòr hynod, a phawb yn Jerusalem yn gwybod am dano, ac mai yn enw yr Iesu y gwnaed ef. Nid oedd gwiw iddynt feddwl cospi na charcharu yr apostolion chwaith am ei wneyd; buasent felly yn debyg o dynu y lliaws am eu penau, a pheri terfysg yn y ddinas.

17 [k] * Eithr fel nas taener ym mhellach ym mhlith y bobl, [l] † gan fygwth bygythiwn hwynt, ‡ na lefaront mwyach wrth un dyn yn yr enw hwn.

k pen. 5. 39. Salm 2. 1—4. Dan. 2. 34, 35. Rhuf. 10. 16—18. a 15. 18—22. 1 Thes. 1. 8. l adn. 21, 29, 30. pen. 5. 24, 28, 40. 2 Cron. 25. 15, 16. Es. 30. 8—11. Jer. 20. 1—3. a 29. 25—32. a 38. 4. Amos 2. 12. a 7. 12—17. Mica 2. 6, 7. Mat. 27. 64. Ioan 11. 47, 48. 1 Thes. 2. 15, 16.

* Ond fel nas taener y chwedl hon yn mhellach, yn nghyd a'u hathrawiaeth hwy am Iesu, i ennill dysgyblion iddo, i beri i'r bobl feddwl yn fawr am dano, ac i lidio wrthym ni, fel rhai wedi lladd y dyn goreu, os nid mwy na dyn; y cwbl a allwn ni wneyd yn awr yw eu bygwth hwy, na lefaront mwyach am dano. † Mae y geir-lenwad, neu yr aml-eiriad a ddefnyddir yma, yn arwyddo bygwth yn y modd trymaf, a thostaf; megys y gospedigaeth waethaf am y pechod echryslonaf. ‡ Na thrwy bregethu yn ei enw, gweddio yn ei enw, na gwneuthur gwyrthiau yn ei enw ef.

18 * A hwy a'u galwasant hwynt, † ac a orchymynasant iddynt [m] nad ynganent ddim, ac na ddysgent yn enw yr Iesu.

m pen. 1. 8. a 5. 20. Luc 24. 46—48.

* Galwasant hwynt i mewn drachefn i'r gyngorfa, † a gorchymynasant yn gaeth, dàn y perygl mwyaf, nad ynganent ddim yn ddirgel, chwaithach pregethu yn gyhoeddus a gwneyd gwyrthiau, yn enw yr Iesu. Peth rhyfedd na ddywedasant yr un gair wrth yr apostolion y tro hwn, yn nghylch lladrata corph Iesu o'r bedd, a hwythau wedi cymmeryd cymmaint o drafferth i daenu y chwedl gelwyddog hòno yn mhlith y bobl. Gwyddai eu cydwybodau yn dda mai chwedl gelwyddog oedd, am hyny ni feiddient eu cyhuddo o hyny.

19 * Eithr Pedr ac Ioan a attebasant iddynt, ac a ddywedasant, [n] † Ai cyfiawn yw ger bron Duw, [o] wrando arnoch chwi yn hytrach nag ar Dduw, [p] bernwch chwi.

n 2 Cor. 4. 2. Eph. 6. 1. 1 Tim. 2. 3. o pen. 5. 29. Ex. 1. 17. 1 Bren. 12. 30. a 14. 16. a 21. 11. a 22. 14. 2 Bren. 16. 15, 16. 2 Cron. 26. 16—20. Dan. 3. 18. a 6. 10, 11. Hos. 5. 11. Amos 7. 16, 17. Mica 6. 16. Mat. 22. 21. Heb. 11. 23. Dat. 13. 3—10. a 14. 9—12. p Salm 58. 1. Ioan 7. 24. 1 Cor. 10. 15. Iago 2. 4.

* Yr oedd Pedr ac Ioan yn llefaru trwy yr un Ysbryd, ac am hyny yn dywedyd yr un peth. Nid oeddynt foddlawn ar fyned allan yn ddistaw, rhag y cyfrifid y distawrwydd hyny yn addewid o beidio pregethu mwyach. Gwroldeb yr Ysbryd Glân ynddynt oedd hyn, ac nid cyndynrwydd a gwrthnysigrwydd dynol. † Ateb addas ac effeithiol iawn oedd hwn; ac yr oedd yr apostolion yn cyfeirio at rëol gyffredin o ymresymu yn mhlith eu Rabbiniaid hwy. Gwelwn yr un peth yn pen. 5. 29. Yr oeddynt hwy wedi derbyn eu gweinidogaeth, a gorchymyn ei phregethu, yn nghyd â gwae os na phregethent, gan Dduw; ac yna yr oeddynt yn hŷf i gyfeirio at farn y cyngor eu hunain, pa fodd y gallent hwy ateb i Dduw, os gwrandawent ar eu bygythion hwy i beidio pregethu.

20 [q] * Canys ni allwn ni na ddywedom [r] † y pethau a welsom ac a glywsom.

q pen. 2. 4. a 17. 16, 17. a 18. 5. Num. 22. 38. a 23. 20. 2 Sam. 23. 2. Job 32. 18—20. Jer. 1. 7, 17—19. a 4. 19. a 6. 11. a 20. 9. Ezec. 3. 11, 14—21, 26, 27. Mica 3. 8. 1 Cor. 9. 16, 17. r pen. 1. 8, 22. a 3. 15. a 5. 32. a 10. 39—41. a 22. 15. Luc 1. 2. Heb. 2. 3, 4. 1 Ioan 1. 1—3.

* Nis gallent beidio, o herwydd yr angenrhaid a roddwyd arnynt, a'r gwae a fyddai iddynt, o beidio. † Y pethau mawrion am iachawdwriaeth pechaduriaid colledig: pethau a welsom ni ein hunain â'n llygaid, a glywsom â'n clustiau o enau ein Harglwydd Iesu, ac a brofasom y nerth, y rhinwedd, a'r daioni o honynt yn ein heneidiau ein hunain. Os gwrthyd un dystiolaethu y gwirionedd dros ddyn, mae efe yn pechu; pa faint mwy os gwrthyd efe dystiolaethu dros Dduw, wrth orchymyn, ac ar anfoniad Duw?

21 [s] * Eithr wedi eu bygwth ym mhellach, † hwy a'u gollyngasant hwy yn rhyddion, ‡ heb gael dim [t] i'w cospi hwynt, oblegid y bobl: [u] ‖ canys yr oedd pawb yn gogoneddu Duw am yr hyn a wnaethid.

s adn. 17. pen. 5. 40. t pen. 5. 26. Mat. 21. 46. a 26. 5. Luc 19. 47, 48. u pen. 3. 6—9. Mat. 9. 33. a 15. 31. Luc 5. 26. a 13. 17. Ioan 12. 18, 19.

* Ail fygwth y pethau o'r blaen, mewn ysbryd mwy gerwinol; neu efallai, rhoddi rhyw fygythion trymach, os oedd modd i hyny. † Hwy a'u gollyngasant am yr

amser presenol; ond yr oeddynt hwy yn ddigon llidiog a pharod i'w cymmeryd hwy i fynu drachefn, ar unrhyw amser, neu ar unrhyw achlysur: megys y gwnaethant hefyd lawer gwaith. ‡ Nid ofn pechu, nac ofn digofaint Duw, a'u lluddiodd hwy eu cospi y tro hwn, ond ofn y bobl; ‖ oblegid yr oedd y bobl oll yn gogoneddu Duw am y wyrth, ac yn parchu yr apostolion.

22 * Canys yr oedd y dyn uwchlaw [x] deugain oed, ar yr hwn y gwnaethid yr arwydd hwn o iechydwriaeth.

x pen. 3. 2. a 9. 33. Mat. 9. 20. Luc 13. 11. Ioan 5. 5. a 9. 1.

* Gan fod y dyn wedi cyrhaedd yr oedran hwn yn ei gloffni, yr oedd y wyrth yn rhyfeddach, o gymmaint a bod pob moddion naturiol wedi methu ei iachâu. Yr oedd y wyrth hefyd yn fwy anwadadwy; gan fod y dyn ei hun yn ddigon hen i dystiolaethu pa fodd y cawsai ei iachâu: a phawb yn ddigon adnabyddus o hono, wedi ei weled yn gloff wrth borth y deml am gynnifer o flynyddoedd. Gadawodd yr Iesu ef, mae yn debyg, heb ei iachâu, i'r dyben fel y caffai yr apostolion wneyd y wyrth hon er cadarnâu eu hanfoniad a'u gweinidogaeth.

23 ¶ A hwythau, wedi eu gollwng ymaith, [y] a ddaethant at * yr eiddynt, † ac a ddangosasant yr holl bethau a ddywedasai yr archoffeiriaid a'r henuriaid wrthynt.

y pen. 1. 13, 14. a 2. 44. a 12. 11, 12. a 16. 40. Salm 16. 3. a 42. 4. a 119. 63. Diar. 13. 20. Mal. 3. 16. 2 Cor. 6. 14—17.

* Yr apostolion eraill, neu yr ugain a chant, pen. 1. 15; neu ynte yr holl gredinwyr yn Jerusalem. Er mai yn y farn y bydd llwyr ddidoli; eto mae dechreu i hyny yma, defaid yn tynu at y defaid, ar geifr at y geifr. † Mae yn bur debyg fod eu cyfeillion yn gweddio dros Pedr ac Ioan, ac yna, wedi iddynt gael eu gollwng, hwy a aethant atynt i ddangos fod eu gweddïau wedi cael eu hateb, ac i'w calonogi hwythau yn wyneb erlidiau.

24 * Hwythau pan glywsant, [z] † o un fryd a gyfodasant eu llef at Dduw, ac a ddywedasant, O [a] ‡ Arglwydd, tydi *yw y* Duw yr hwn a wnaethost y nef a'r ddaear, a'r môr, ac oll sydd ynddynt;

z pen. 16. 25. Salm 55. 16—18. a 62. 5—8. a 69. 29, 30. a 109. 29—31. Jer. 20. 13. Luc 6. 11, 12. 2 Cor. 1. 8—11. 1 Thes. 5. 16—18. 2 Tim. 4. 17, 18. a 2 Bren. 19. 15, 19. Neh. 9. 6. Salm 146. 5, 6. Es. 51. 12, 13. Jer. 10. 10—12. a 32. 17.

* "Hwythau," sef eu cyfeillion, yr aethent atynt. † Tybir eu bod oll dan ddylanwadau union-gyrchol yr Ysbryd Glân, yn cael eu cynhyrfu yr un modd, ac i dòri allan yn yr un geiriau. ‡ *Despota*, ac nid *kurie*, yw y gair a gyfieithir yma Arglwydd, a mỳn rhai nad yw y gair *Despota* byth yn cael ei briodoli i'r Arglwydd Iesu ond i'r Tad yn unig. Nid yw y gwahaniaeth o bwys yn y byd yma; yr oedd y rhai hyn oll yn credu yn gadarn yn ngwir Dduwdod Iesu, ac wrth weddïo ar un o'r personau dwyfol, yr oeddynt yn gweddïo ar bob un. ‖ Mae ystyriaeth o fawredd Duw yn nghrëad a llywodraeth y byd, yn gymmorth mawr i'n meddyliau ni mewn trallodion yn ei achos ef.

25 [b] Yr hwn trwy yr * Ysbryd Glân, y'ngenau dy † was Dafydd, a ddywedaist, [c] ‡ Paham y ‖ terfysgodd y cenhedloedd, ac y bwriadodd y bobloedd bethau § ofer?

b pen. 1. 16. a 2. 30. c Gwel ar Salm 2. 1—6.

* Nid yw y geiriau "Ysbryd Glân" yn yr adnod uchod yn y cyfieithiad Saesoneg, nac yn y Groeg chwaith; ond dywedir eu bod mewn llawer o hen ysgrifau o'r Testament Groeg, ac mae yn ddïau mai trwy yr Ysbryd Glân y llefarodd Dafydd y geiriau a grybwyllir fel ei holl Salmau. † Mae yn fwy anrhydeddus i Dafydd ei alw yn was Duw na'i alw yn frenin Israel. ‡ Pa ham, oddi ar ba egwyddorion, o herwydd pa resymau, beth oedd yn eu cyffrôi hwynt i derfysgu, ac i ba ddyben y terfysgent? § Paham yr ymchwerwent yn dumewnol, ac yr ewynent allan eu cynddeiriogrwydd? § Nid oedd y cwbl ond bwriadau gweigion, ynfyd, ac ofer, heb ateb dyben yn y byd iddynt hwy ond tynu barn Duw am eu penau.

26 [d] * Brenhinoedd y ddaear a safasant i fynu, a'r † llywodraethwyr a ymgasglasant ynghyd, ‡ yn erbyn yr Arglwydd, ac [e] yn erbyn ei Grist ef.

d Salm 83. 2—8. Joel 3. 9—14. Dat. 17. 12—14, 17. a 19. 16—21. e Dat. 11. 15. a 12. 10.

* Herod y tetrarch a'r holl lywodraethwyr Iuddewig dano ef; a Philat y rhaglaw, a'r swyddogion Rhufeinig dano yntau: er bod y naill blaid yn proffesu y grefydd Iuddewig, a'r blaid arall yn baganiaid, eto yr oeddynt oll yn cytuno am unwaith i sefyll i fynu yn erbyn yr Arglwydd a'i Grist ef. † Neu, efallai mai y Sanhedrim, y cyngor mawr yn Jerusalem, a feddylir wrth y "llywodraethwyr" yma: y rhai a gyfrifid yn fwyaf eu gwybodaeth a'u hawdurdod mewn materion eglwysig a chrefyddol. ‡ Yr un peth oedd ymosod yn erbyn Duw ei hunan ag ymosod yn erbyn Crist, ei Fab ef, y Messiah.

27 Canys mewn gwirionedd, yn y ddinas hon yr ymgynnullodd yn erbyn [f] * dy Sanct Fab Iesu, [g] † yr hwn a enneiniaist ti, [h] ‡ Herod [i] a Phontius Pilat, gyd â'r cenhedloedd, a [k] phobl Israel,

f adn. 30. pen. 2. 27. a 3. 14. Job 14. 4. a 15. 14. a 25. 4. Luc 1. 35. Heb. 7. 26. g pen. 10. 38. Salm 2. 2, 6. a 45. 7. Es. 61. 1. Luc 4. 18. Ioan 10. 36. h Mat. 2. 13—16. Luc 13. 31—33. a 23. 7—12. i pen. 3. 13. Mat. 27. 2, 11—36. Marc 15. 1—28. Luc 18. 31—33. a 23. 13—38. Ioan 19. 1—24, 34. k Es. 49. 7. a 53. 3. Zec. 11. 7, 8. Mat. 20. 18, 19. a 21. 38. a 23. 37. a 26. 3, 4, 50—68. a 27. 25. 40—43. Marc 10. 33, 34. a 14. 1, 2, 43—65. a 15. 1—3, 31, 32. Luc 9. 22. a 20. 13—19. a 22. 2—6, 47—52, 63—71. a 23. 1—5. Ioan 1. 11. a 18. 1—14, 19—24, 28—40. a 19. 15, 16.

* Mae y geiriau hyn yn dangos anwyldeb ac urddasrwydd Crist gan y Tad, fel ei briod Fab, ac o herwydd ei ufudd-dod iddo fel gwas. † A'r Ysbryd Glân ac â nerth, yn Frenin, yn Brophwyd, ac yn Offeiriad. ‡ Mae y geiriau hyn yn agoriad ar yr adnod o'r blaen; afraid helaethu arnynt.

28 [l] * I wneuthur pa bethau bynnag a ragluniodd dy law [m] a'th gynghor di eu gwneuthur.

l pen. 2. 23. a 3. 18. a 13. 27—29. Gen. 50. 20. Salm 76. 10. Mat. 26. 24, 54. Luc 22. 22. a 24. 44—46. 1 Pedr 2. 7, 8. m Job 12. 13. Es. 5. 19. a 28. 29. a 40. 13, 40. a 46. 10, 11. Eph. 1. 11. Heb. 6. 17.

* Pa mòr llidiog a drygionus bynag oedd eu hamcanion hwy, yr oedd Duw yn goruwch-lywodraethu pob peth i gyflawni ei amcanion ei hun; ac megys yn gwneuthur llinell uniawn â phrenau ceimion. Yn ol tragywyddol gyngor Duw yr oedd pob peth yn myned yn mlaen yn mherthynas i Iesu, ond nid oedd hyny yn esgusodi dim ar y gweithredwyr llidiog, nac yn lleiâu eu pechodau. Tybir fod yn yr adnod hon gyfeiriad at Lefit. 16. 8, lle rhoddai Aaron goelbrenau ar y ddau fwch, pa un a aberthid i'r Arglwydd, a pha un a fyddai yn fwch dïangol. Oddi wrth yr Arglwydd yr oedd llywodraethiad y coelbren, Diar. 16. 33.

29 * Ac yn awr, Arglwydd, [n] edrych ar eu bygythion hwy, † a chaniattâ i'th weision [o] draethu dy air di gyd â phob hyfder;

n adn. 17, 18, 21. Es. 37. 17—20. a 63. 15. Galar. 3. 50. a 5. 1. Dan. 9. 18. o adn. 13, 31. pen. 9. 27. a 13. 46, a 14. 3, a 19. 8. a 20. 26, 27. a 26. 26. a 28. 31. Es. 58. 1. Ezec. 2. 6. Mica 3. 8 Eph. 6. 18—20. Phil. 1. 14. 1 Thes. 2. 2. 2 Tim. 1. 7, 8. a 4. 17.

* Edrych ar eu bygythion hwy i'w dirymu, ac i wahardd gweddill eu cynddaredd yn erbyn dy weision. † Gyda phob rhyddid a gwroldeb meddwl, gan wybod fod yr achos yn dda, ac mai yr ymadrodd am y groes yw yr unig foddion i ddychwelyd ac achub pechaduriaid

30 [p] * Trwy estyn o honot dy law i iachâu, [q] ac fel y gwneler arwyddion a rhyfeddodau [r] † trwy enw dy sanctaidd Fab Iesu.

p Ex. 6. 6. Deut. 4. 34. Jer. 15. 15. a 20. 11, 12. Luc 9. 54—56. a 22. 49—51. q pen. 2. 22, 43. a 5. 12, 15, 16. a 6. 8. a 9. 34, 35, 40—42. r adn. 10, 27. pen. 3. 6, 16.

* Y cwbl oeddynt yn ofyn oedd, am i Dduw eu harddelwi hwy yn eu gwaith, trwy arwyddion a gwyrthiau, ac felly dwyn tystiolaeth i air ei ras. † Derchafu enw Crist oedd eu hamcan hwy; ac yr oedd gwyrthiau iachâol, arwyddion a rhyfeddodau yn ei enw ef, yn angenrheidiol i hyny.

31 ¶ * Ac wedi iddynt weddïo, [s] siglwyd y lle yr oeddynt wedi ymgynnull ynddo; [t] † a hwy a lanwyd oll o'r Ysbryd Glân, [u] ‡ a hwy a lefarasant air Duw yn hyderus.

s pen. 2. 2. a 16. 25, 26. t Gwel ar pen. 2. 4. u adn. 29. Es. 65. 24. Mat. 18. 19, 20. a 21. 22. Ioan 14. 12, 13. a 15. 7, 16. a 16. 23, 24. Iago 1. 5.

* Siglwyd y lle yn wyrthiol, yn gyffelyb fel y gwnâed o'r blaen ar ddydd y pentecost, efallai. Yr oedd hyn yn arwydd o bresenoldeb Duw gyda hwynt, ac ei fod wedi gwrando eu gweddi hwynt. † Yn debyg fel ar ddydd y pentecost, a chyda rhyw ymddangosiad gweledig, medd rhai, fel y tro hwnw: ond nis gall neb fod yn sicr o hyny. ‡ Am hyn y gweddïasant, adn. 29; ac â hwy eto yn llefaru, wele yr Arglwydd yn eu gwrando. Nid oeddynt yn gofalu nemawr y pryd hwn am waharddiadau na bygythion yr arch-offeiriaid.

32 [x] * A lliaws y rhai a gredasent oedd o un galon, ac un enaid; † ac ni ddywedodd neb *o honynt,* [y] fod dim a'r a feddai yn eiddo ei hunan, eithr yr oedd ganddynt bob peth yn gyffredin.

x pen. 1. 14. a 2. 1. 2 Cron. 30. 12. Jer. 32. 39. Ezec. 11. 19, 20. Ioan 17. 11, 21—23. Rhuf. 12. 5. a 15. 6, 1 Cor. 1. 10. a 12. 12—14. 2 Cor. 13. 11. Eph. 4. 2—6. Phil. 1. 27. a 2. 1, 2. 1 Pedr 3. 8. y pen. 2. 44—46. 1 Cron. 29. 14—16. Luc 16. 10—12. 1 Pedr 4. 11.

* Er eu bod yn ddïeithriaid i'w gilydd o'r blaen, o wahanol dymherau, barnau a phleidiau, dyma hwy oll yn un yn awr, fel pe buasent oll yn cael eu hysgogi gan un galon ac un enaid. Rhyfedd yw effeithiau yr efengyl a dylanwadau yr Ysbryd Glân ar ddynion; ac O na byddai cristionogion oll yn byw yn yr ysbryd hwn yn wastadol! † Fel prawf o'r undeb a'r brawdgarwch uchod, nid oedd neb o honynt, hyd yn nod y cyfoethocaf, yn ystyried dim a feddai yn eiddo ei hun, ond pawb o'u gwirfodd yn cyd-gyfranu â'r frawdoliaeth oll. Gwel ar pen. 2. 44, 45.

33 [z] * A'r apostolion trwy nerth mawr a roddasant dystiolaeth o adgyfodiad yr Arglwydd Iesu: [a] † a gras mawr oedd arnynt hwy oll.

z adn. 30. pen. 1. 8, 22. a 2. 32, 33. a 3. 15, 16. a 5. 12—16. Marc 16. 20. Rhuf. 15. 18, 19. 1 Thes. 1. 5. Heb. 2. 4. a pen. 2. 47. Luc 2. 52. Ioan 1. 16.

* Rhan fawr o weinidogaeth yr apostolion y pryd hwnw yn Jerusalem oedd, tystiolaethu adgyfodiad yr Arglwydd Iesu, yn erbyn yr arch-offeiriaid a wadent ei adgyfodiad ef: ac yr oedd Duw yn dwyn tystiolaeth amlwg a nerthol i'r gwirionedd hwnw trwy wyrthiau, ac arddelwad grymus ar weinidogaeth yr apostolion. † Yr oedd gras Duw, llewyrch ei wyneb, a dylanwadau ei Ysbryd, yn amlwg ac yn helaeth iawn arnynt.

34 [b] * Canys nid oedd un anghenus yn eu plith hwy: [c] oblegid cynnifer ag oedd berchen tiroedd neu dai, a'u gwerthasant, ac a ddygasant werth y pethau a werthasid,

b Deut. 2. 7. Salm 34. 9, 10. Luc 22. 35. 1 Thes. 4. 12. c adn. 37. pen. 2. 45. a 5. 1—3. Marc 10. 21. Luc 12. 33. a 16. 9. 1 Tim. 6. 19. Iago 1. 27.

* Nid oedd un angenus yn eu plith, am fod y rhai cyfoethog o honynt yn gwerthu eu meddiannau ac â'u gwerth yn cynnal y tlodion. Gwel y sylw eto, ar pen. 2. 44, 45. Mae hyn yn dangos beth a wnâi y grefydd gristionogol er gwellâu amgylchiadau dynion pe der bynid a phe coflei di hi yn gyffredinol.

35 * Ac a'*u* gosodasant [d] wrth draed yr apostolion: [e] † a rhanwyd i bob un megis yr oedd yr anghen arno.

d pen. 3. 6. a 5. 2. a 6. 1—6. 2 Cor. 8. 20, 21. e pen. 2. 45. a 6. 1.

* Hyny yw, a'u cyflwynasant i'r apostolion, i'w dosparthu yn mhlith y frawdoliaeth fel y byddai yr angen ar bob un. Mae hyn yn dangos y parch mawr oedd gan bawb o honynt i'r apostolion, a'r ymddiried mawr oedd ganddynt ynddynt. † Angen y tlodion yw rhëol a mesur haelioni y cyfoethogion: felly yr oedd yma; "megys yr oedd yr angen."

36 * A Joseph yr hwn a gyfenwid [f] † Barnabas gan yr apostolion (yr hyn o'i gyfieithu yw, [g] Mab diddanwch) yn ‡ Lefiad, *ac* yn [h] Cypriad o genedl,

f pen. 11. 22—25, 30. a 12. 25. a 13. 1. a 15. 2, 12, 37. 1 Cor. 9. 6. Gal. 2. 1, 9, 13. g Marc 3. 17. h pen. 11. 19, 20. a 15. 39. a 21. 16.

* Joses, yn y Saesoneg, ac hefyd yn y Groeg. Mae terfyniadau geiriau Hebraeg anghyfiaith, yn wahanol mewn gwahanol ieithoedd. † Syriaeg yw Barnabas, meddant, ac yn arwyddo yn briodol, *mab prophwyd:* ond yma mab *dyddanwch,* neu *gyngor.* Cafodd yr enw hwn, efallai, o herwydd ei ddawn i gyngori ac annog pechaduriaid i ddyfod at Grist, a chredinwyr i lynu wrtho mewn erlidiau. Gwel y cyfeiriadau am dano, dàn y llythyren *f.* ‡ Un o lwyth Lefi, o waedoliaeth, oedd y cristion enwog hwn; ‖ ac yn frodor, mae yn debyg, o'r ynys ffrwythlawn hòno a elwid Cyprus, yn môr y canoldir. Tybia rhai iddo gael ei ddwyn i fynu yn Jerusalem, wrth draed Gamaliel, ac ei fod yn un o ddeg dysgybl a thriugain Iesu o'r blaen.

37 * A thir ganddo, [i] a'*i* gwerthodd, ac a ddug yr arian, [k] ac a'*i* gosododd wrth draed yr apostolion.

i adn. 35. Mat. 19. 29. k adn. 35.

* Efallai mai rhyw etifeddiaeth oedd ganddo yn Cyprus, oedd y tir hwn; nid oedd etifeddiaeth i'r Lefiaid yn Israel, yn mhlith eu brodyr. Gwel Num. 18. 20; a Deut. 10. 9. Eto, yr oedd tir gan yr Offeiriaid a'r Lefiaid weithiau yn Judea ei hunan, un ai trwy rodd, pryniad, neu etifeddiaeth. Gwel Jos. 24. 33. Enwir Joseph yma, efallai am mai efe oedd y cyntaf a werthodd ei dir, neu am iddo werthu mwy na neb arall o honynt.

PEN. V.

Ananias a Sapphira yn cwympo i lawr yn feirw, wrth gerydd Pedr, &c

[a] * EITHR rhyw wr, a'i enw Ananïas, gyd â Sapphira ei wraig, a werthodd dir,

a Lef. 10. 1—3. Josh. 6. 1. Mat. 13. 47, 48. Ioan 7. 70. 2 Tim. 2. 20.

* Nid yw yr eglwysi goreu heb eu brychau ar y ddaear, dyma ddau ragrithiwr yn yr eglwys apostolaidd hon, yn difwyno ei gogoniant, a thrwy y farn a ddaeth arnynt yn dwyn galar iddi. Tro dychrynllyd iawn oedd hwn o ddigofaint a barn Duw am ragrith ac anonestrwydd mewn pethau perthynol i'w waith a'i achos ef. Mae yn ddïammau mai er mwyn clod iddynt eu hunain y gwerthodd y ddau hyn eu tir, ac nid o wir gariad at y saint tlodion.

2 [b] * Ac a ddarn-guddiodd *beth* o'r gwerth, [c] † a'i wraig hefyd o'r gyfrinach, ac a ddug ryw gyfran, [d] ac a'*i* gosododd wrth draed yr apostolion

b Jos. 7. 11, 12. 2 Bren. 5. 21—25. Mal. 1. 14. a 3. 8, 9. Ioan 12. 6. 1 Tim. 6. 10. 2 Pedr 2. 14, 15. c adn. 9. d pen. 4 35, 37. Mat. 6. 2, 3. a 23. 5. Phil. 2. 3.

* Yr oeddynt yn cymmeryd arnynt roddi y cwbl at achos Duw, felly yr oeddynt yn ysbeilio Duw wrth attal a darn-guddio peth o werth y tir. Yr oeddynt yn dys-

gwyl cael eu cynnal o'r drysorfa gyffredin hefyd, fel pe buasent wedi rhoddi y cwbl i fynu iddi, a chadw y gweddill iddynt eu hunain erbyn amser i ddyfod: yr oedd hyny yn dangos diffyg ymddiried yn Nuw a'i rag-luniaeth fawr, yn gystal ag egwyddor gybyddlyd y ddau ddyn hyn. † Nid oedd darostyngiad y wraig i'w gwr yn esgusodi ei phechod hi; yr oedd hi yn cytuno âg ef yn y weithred dwyllodrus, ac felly yn gyfranog o'r pechod ac o'r gosp.

3 * Eithr Pedr a ddywedodd, Ananïas, [e] † paham y llanwodd Satan dy galon di i ‡ ddywedyd celwydd wrth yr Ysbryd Glân, [f] ac i ddarn-guddio *peth* o werth y tir?

e Gen. 3. 13—17. 1 Bren. 22. 21, 22. 1 Cron. 21. 1—3. Mat. 4. 3—11. a 13. 19. Luc 22. 3. Ioan 13. 2, 27. Eph. 6. 11—16. Iago 4. 7. 1 Pedr 5. 8, 9. Dat. 12. 9—11. f Deut. 23. 21. Diar. 20. 25. Preg. 5. 4. Rhuf. 2. 21, 22.

* Amlygwyd hyn i Pedr yn ddïau trwy ddatguddiad union-gyrchol yr Ysbryd Glân. † Fel y mae dyn wedi ymlenwi â diodydd poethion, yn fwy hŷf a beiddiol i wneyd drygioni; felly yr oedd Ananïas wedi i satan lenwi ei galon: beiddiodd ddywedyd celwydd wrth yr Ysbryd Glân. Pa faint bynag a lanwodd satan o'i galon ef, nis gallasai lwyddo heb gydsyniad gwirfoddol Ananïas. ‡ Fel yr oedd yr achos yn achos Duw, a'r Ysbryd Glân mewn modd mòr neillduol ar yr apostolion, dywedyd celwydd wrth yr Ysbryd Glân ydoedd yr ymddygiad hwn o'r eiddo Ananïas.

4 * Tra yr ydoedd yn aros, [g] onid i ti yr oedd yn aros? ac wedi ei werthu, onid oedd yn dy feddiant di? [h] † paham y gosodaist y peth hwn yn dy galon? [i] ‡ ni ddywedaist ti gelwydd wrth ddynion, ond ‖ wrth Dduw.

g Ex. 35. 21, 22, 29. 1 Cron. 29. 3, 5, 9, 17. 1 Cor. 8. 8. a 9. 5—17. Philem. 14. h pen. 8. 21, 22. Jos. 7. 25, 26. Job 15. 35. Salm 7. 14. Es. 59. 4. Ezec. 38. 10. Iago 1. 15. i adn. 3. Ex. 16. 8. Num. 16. 11. 1 Sam. 8. 7. 2 Bren. 5. 25—27. Luc 10. 16. 1 Thes. 4. 8.

* Cyn ei werthu, onid eiddot ti ydoedd; ac ar ol ei werthu, onid eiddot ti oedd yr arian; nid oedd arnat rwymau yn y byd i'w werthu; na rhwymau ar ol ei werthu i ddwyn dim o'r gwerth i ni: † ond gan i ti wneyd hyny, paham y gosodaist yn dy galon ddywedyd celwydd, mai yr hyn a roddaist i ni yw y cwbl a gefaist am y tir. ‡ Nid wrth ddynion *yn unig* y dywedaist ti gelwydd, ond wrth Dduw hefyd. ‖ Wrth yr Ysbryd Glân, yn adn. 3; yma wrth Dduw, yr hyn sydd brawf fod yr Ysbryd Glân yn Dduw, ac yn Berson gwahanrhedol yn y Duwdod.

5 * Ac Ananïas, [k] pan glybu y geiriau hyn, a syrthiodd i lawr, ac a drengodd. [l] † A daeth ofn mawr ar bawb a glybu y pethau hyn.

k adn. 10, 11. pen. 13. 11. Num. 16. 26—33. 2 Bren. 1. 10—14. a 2. 24. Jer. 5. 14. 1 Cor. 4. 21. 2 Cor. 10. 2—6. a 13. 2, 10. Dat. 11. 5. l adn. 11, 13. pen. 2. 43. Lef. 10. 3. Num. 16. 34. a 17. 12, 13. Deut. 13. 11. a 21. 21. Jos. 22. 20. 1 Sam. 6. 19—21. 1 Cron. 13. 12. a 15. 13. Salm 119. 120. 2 Cor. 7. 11. Dat. 11. 13.

* Fel y gwnaeth Duw esamplau dychrynllyd o Nadab ac Abihu yn nechreuad yr hen oruchwyliaeth; felly er anrhydedd a mawredd ar yr apostolion, yr eglwys, a'r oruchwyliaeth efengylaidd, gwnaeth esamplau cyffelyb o'r ddau gybyddlyd a rhagrithiol hyn. Yr oedd y farn drom hon yn dra chyfiawn wrth i ni ystyried gwag-ogoniant Ananïas a'i wraig, eu cybydd-dod, eu rhagrith, a'u celwydd rhyfygus ac annuwiol yn erbyn, neu wrth yr Ysbryd Glân. Yr oedd yn angenrheidiol hefyd i attal eraill i fod yn euog o gyffelyb ymddygiadau ar ol hyny, ac i attal dynion twyllodrus i ymuno â'r eglwys er mwyn cael byw ar feddiannau yr eglwys. † Dylai pawb eto ofni, na byddont yn euog o gyffelyb dwyll tuag at achos Duw, rhag iddynt syrthio dan gyffelyb farn.

6 * A'r gwŷr ieuainge a gyfodasant, [m] † ac a'i cymmerasant ef, ac a'*i* dygasant allan, ac a'*i* claddasant.

m adn. 10. Lef. 10. 4—6. Deut. 21. 23. 2 Sam. 18. 17. Ioan 19. 40.

* Rhai o'r gwŷr ieuainc cryfion a heinif, oedd wedi ymuno â'r eglwys, ac oeddynt yno y pryd hwnw. † "Ac a'i cymmerasant:" ac a'i rhwymasant, yn y Saesoneg, sef yn ei ddilad ei hun, efallai, yn lle amdo, ac a'i claddasant ef felly yn y fân: yr oedd yn ddigon amlwg ei fod ef wedi llwyr farw.

7 * A bu megis yspaid tair awr, a'i wraig ef, heb wybod y peth a wnaethid, † a ddaeth i mewn.

* Pa fodd bynag y bu, na chafodd Sapphira wybod dim am farwolaeth ei gwr yn yspaid y tair awr hyny, mae yn sicr mai trefn rhagluniaeth ydoedd, fel y delai ei thwyll a'i chelwydd hithau i'r golwg. † Tybiodd hi yn ddïammau gael llawer o ganmoliaeth a pharch am gyd-foddloni â'i gwr i werthu y tir, a rhoddi yr arian at achos cyffredin yr eglwys.

8 * A Phedr a attebodd iddi, Dywed di i mi, Ai er cymmaint y gwerthasoch chwi y tir? † Hithau a ddywedodd, Ië, er cymmaint.

* Dywed i mi y gwir yn onest, ai er hyn a hyn o swm y gwerthasoch chwi y tir, sef y swm a ddygodd Ananïas i ni? Nid yw y swm yn cael ei enwi, nid oedd hyny yn angenrheidiol i'r hanes. † Wrth atebiad Sapphira, mae yn amlwg ei bod hi a'i gwr wedi cytuno i ddywedyd yr un peth, a'r peth hyny yn gelwydd. Fel hyn mae y naill bechadur yn dênu y llall i bechod, a'r ddau yn myned i ddystryw.

9 * A Phedr a ddywedodd wrthi, [n] Paham [o] y cyttunasoch [p] i demtio Ysbryd yr Arglwydd? wele [q] draed y rhai a gladdasant dy wr di wrth y drws, † a hwy a'th ddygant dithau allan.

n Gen. 3. 9—13. Luc 16. 2. Rhuf. 3. 19. o pen. 23. 20—22. Deut. 13. 6—8. Diar. 11. 21. a 16. 5. Mica 7. 3. p adn. 3, 4. Ex. 17. 2, 7. Num. 14. 22. Salm 78. 18—20, 40, 41, 56. a 95. 8—11. Mat. 4. 7. 1 Cor. 10. 9. q adn. 6. 2 Bren. 6. 32. Rhuf. 10. 15.

* Temtio Ysbryd yr Arglwydd, neu ei brofi ef, a oedd efe yn hollwybodol i wybod eu twyll, eu rhagrith, a'u celwydd hwynt. Ac hefyd a oedd efe yn gyfiawn a holl-alluog i gospi am y fath dwyll a drygioni. Pan mae dynion yn pechu yn erbyn goleuni eu cydwybodau eu hunain, maent yn mhob cyfryw bechodau yn temtio Ysbryd yr Arglwydd. † Mae yr apostol yn rhag-fynegi marwolaeth y wraig hon a hi eto yn fyw ac yn iach ger ei fron ef.

10 [r] * Ac yn y man hi a syrthiodd wrth ei draed ef, ac a drengodd: a'r gwŷr ieuainge wedi dyfod i mewn, a'i cawsant hi yn farw; ac wedi iddynt *ei* dwyn *hi* allan, hwy a'*i* claddasant *hi* yn ymyl ei gwr.

r adn. 5.

* Dyma yr un pechodau yn cael yr un gospedigaeth: nid yw Duw yn derbyn wynebau neb, Iuddew na chenedl-ddyn, gwrryw na benyw. Dyma Sapphira yn syrthio wrth draed yr apostol, lle dylasai yr arian oll gael eu rhoddi.

11 [s] * A bu ofn mawr ar yr holl eglwys, † ac ar bawb oll a glybu y pethau hyn.

s adn. 5. pen. 19. 17. Salm 89. 7. Jer. 32. 40. 1 Cor. 10. 11, 12. Phil. 2. 12. Heb. 4. 1. a 11. 7. a 12. 15, 28, 29. 1 Pedr 1. 17. Dat. 15. 4.

* Dïammau i'r tro dychrynllyd hwn fod yn fendith fawr i'r holl eglwys, o hyny allan; yn brawf o ddwyfol anfoniad yr apostolion, ac o wirionedd ac ysbrydol-rwydd goruchwyliaeth yr efengyl. Yma yr oedd Duw yn ofnadwy iawn yn nghynnulleidfa y saint. † Y rhai nid oeddynt yn yr eglwys; mae barnedigaethau Duw yn dychrynu ac yn sobri peth ar ddynion annuwiol weithiau.

12 ¶ [t] * A thrwy ddwylaw yr apostolion y gwnaed arwyddion a rhyfeddodau lawer ym

mhlith y bobl (ac [u] yr oeddynt oll yn gyttûn
ym [x] † mhorth Solomon.

t pen. 2. 43. a 3. 6, 7. a 4. 33. a 9. 33, 40. a 14. 3, 8—10. a 16. 18. Marc 16. 17, 18, 20. Rhuf. 15. 19. 2 Cor. 12. 12. Heb. 2. 4.
u pen. 1. 14. a 2. 42, 46. a 4. 32. x pen. 3. 11. Ioan 10. 23.

* Er bod yr apostolion yn ddynion sanctaidd a rhagorol, eto nid oeddynt ond offerynau; gallu Duw oedd yn gweithredu trwyddynt hwy, er prawf o bresenoldeb Duw gyda hwynt, er prawf o wirionedd eu cenadwri, ac er trugaredd i gyrph dynion oedd yn cael iachâd gwyrthiol drwyddynt. † Am borth Solomon, gwel ar pen. 3. 11. Yno y byddent yn arfer ymgynnull i addoli, mae yn debyg, lle byddai yr apostolion yn pregethu ac yn gwneyd gwyrthiau.

13 * Eithr [y] ni feiddiai neb o'r lleill ymgyssylltu â hwynt: [z] † ond y bobl oedd yn eu mawrhâu.

y adn. 5. Num. 17. 12, 13. a 24. 8—10. 1 Sam. 16. 4, 5. 1 Bren. 17. 18. Es. 33. 14. Luc 12. 1, 2. a 14. 26—35. 2 Pedr 2. 20—22. z pen. 2. 47. a 4. 21. a 19. 17. Luc 19. 37, 38, 48.

* Ni feiddiai y dysgyblion gydraddu eu hunain â'r apostolion, medd rhai. Ni feiddiai eu gelynion gyfhwrdd â hwynt i'w niweidio, medd eraill. Ni feiddiai y gwŷr mawr ymgyssylltu â hwy, er eu bod yn gorfod credu gwirionedd eu hathrawiaeth, medd eraill. Ni feiddiai y rhai digred ymgyssylltu â hwynt yn rhagrithiol, fel y gwnaethai Ananïas a Sapphira, medd eraill; o herwydd gweled y farn ddychrynllyd a ddaethai ar y ddau hyny. Y peth diweddaf yw meddwl y geiriau yn ddiammau. † Yr oedd lliaws y werin bobl yn eu mawrâu ac yn eu parchu hwynt, fel dynion sanctaidd, fel gweinidogion Duw, ac fel apostolion Iesu Grist.

14 [a] * A chwanegwyd attynt rai yn credu yn yr Arglwydd, [b] lliaws o wŷr a gwragedd hefyd)

a pen. 2. 41, 47. a 4. 4. a 6. 5. a 9. 31, 35, 42. Es. 44. 3—5. a 45. 24. a 55. 11—13. b pen. 8. 3, 12. a 9. 2. a 22. 4. Ex. 35. 22. Deut. 29. 11, 12. a 31. 11, 12. 2 Sam. 6. 19. Ezra 10. 1. Neh. 8. 2. 1 Cor. 11. 11, 12. Gal. 3. 28.

* Er na feiddiai rhagrithwyr ymgyssylltu â hwynt, yr oedd credinwyr lawer yn cael eu chwanegu atynt yn feunyddiol. Mae yr adnod hon yn gymmorth i ddëall yr adnod o'r blaen, pwy oedd y "lleill" na feiddiai ymgyssylltu â hwynt.

15 [c] Hyd oni ddygent y rhai cleifion allan ar hŷd yr heolydd, a'*u* gosod ar welyau a glythau, * fel o'r hyn lleiaf y cysgodai cysgod Pedr, pan ddelai heibio, rai o honynt.

c pen. 19. 11, 12. Mat. 9. 21. a 14. 36. Ioan 14. 12.

* Yr oedd gwyrthiau fel hyn, trwy gysgod Pedr, a'r apostolion eraill, mae yn debyg, yn dangos mai o Dduw yr oedd y gallu yn fwy na phe buasai yr apostolion yn cyfhwrdd â'r cleifion, neu yn gwneyd rhywbeth iddynt. Ac fel hyn yr oedd geiriau Crist (Ioan 14. 12) yn cael eu cyflawni, y gwnelai yr apostolion weithredoedd mwy nac efe.

16 A lliaws a ddaeth hefyd ynghyd *o*'r dinasoedd o amgylch Jerusalem, [d] * gan ddwyn rhai cleifion, a rhai a drallodid gan ysprydion aflan; [e] † y rhai a iachâwyd oll.

d Mat. 4. 24. a 8. 16. a 15. 30, 31. Marc 2. 3, 4. a 6. 54—56.
e pen. 4. 30. Marc 16. 17, 18. Luc 5. 17. a 9. 11. 1 Cor. 12. 9. Iago 5. 16.

* Po gwaethaf oedd y clefydau a'r trallodau, mwyaf amlwg a rhyfedd oedd gallu Duw yn eu hiachâd hwynt. † Ni bu yr un meddyg na meddyginiaethau daearol erioed yn gallu iachâu pawb oll, gan hyny rhaid mai gallu anffaeledig Duw oedd yn gweithredu yma.

17 ¶ [f] * A'r arch-offeiriad a gyfododd, [g] a'r holl rai oedd gyd âg ef (yr hon yw heresi y † Saduceaid) ac a lanwyd o gynfigen,

f pen. 4. 26. Salm 2. 1—3. Ioan 11. 47—49. a 12. 10, 11, 19.
g pen. 4. 1, 2. a 23. 6—8.

* Wrth glywed am wyrthiau yr apostolion, a deall fod yr holl bobl yn tŷru atynt ac yn eu mawrâu, cyffrôdd yr arch-offeiriad drachefn, a'r rhai oedd gydag ef yn aelodau y cyngor yn Jerusalem. † Dywed *Josephus* fod rhai o'r arch-offeiriaid yn Saduceaid, ac mae rhediad yr adnod hon yn tueddu i beri i ni feddwl mai un o'r *sect* gyfeiliornus hòno oedd yr arch-offeiriad hwn.

18 [h] * Ac a ddodasant eu dwylaw ar yr apostolion, ac a'u rhoisant yn y carchar cyffredin.

h pen. 4. 3. a 8. 3. a 16. 23, 24. Luc 21. 12. 2 Cor. 11. 23. Heb. 11. 36. Dat. 2. 10.

* Felly y gwnaethent â Phedr ac Ioan o'r blaen, gwel ar pen. 4. 3. † Tybia rhai iddynt eu rhoddi y tro hwn yn y carchar cyffredin, gyda'r drwg-weithredwyr gwaethaf; tybia eraill mai mewn rhyw ystafell neilldüedig o hóno y rhoddwyd hwynt, ar eu penau eu hunain.

19 [i] * Eithr angel yr Arglwydd o hyd nos a agorodd ddrysau y carchar, † ac a'u dug hwynt allan, ac a ddywedodd,

i pen. 12. 7—11. a 16. 26. Salm 34. 7. a 105. 17—20. a 146. 7. Es. 61. 1.

* Ysbrydion gwasanaethgar yw yr angelion, yn gweini i'r saint yn y byd hwn: danfonodd Duw un o honynt y tro hwn i agoryd drysau y carchar, er y gallasai efe wneyd hyny yn ddigyfrwng heb offerynoldeb angel. † Wedi agoryd y drysau, efe a'u harweiniodd hwynt allan i'r hëol, gan daro y ceidwaid, mae yn debyg, â chysgadrwydd neu ryw sŷn fadrondod ar yr un pryd.

20 * Ewch, [k] † sefwch a ‡ lleferwch yn y deml wrth y bobl [l] || holl eiriau y fuchedd hon.

k Es. 58. 1. Jer. 7. 2. a 19. 14, 15. a 20. 2, 3. a 22. 1, 2. a 26. 2. a 36. 10. Mat. 21. 23. Ioan 18. 20. l pen. 11. 14. Ioan 6. 63, 68. a 12. 50. a 17. 3. 1 Ioan 1. 1—3. a 5. 11, 12.

* Er cymmaint yw llid ich gelynion, ewch chwi yn mlaen gyda gwaith eich Harglwydd yn ffyddlon, yn hŷf, ac yn ddiofn. † Sefwch yn y deml, y mân mwyaf cyhoeddus, a lle mae gan yr arch-offeiriad a'i blaid fwyaf o awdurdod. ‡ Lleferwch ync hefyd wrth y bobl yn ddiofn ac yn ddiwahardd. || Wrth eiriau y fuchedd hon mae i ni ddeall geiriau y bywyd tragywyddol, yr hwn yr oedd y Saduceaid yn ei wadu, a'r Phariseaid hefyd trwy yr Arglwydd Iesu Grist.

21 * A phan glywsant, [m] hwy a aethant yn fore i'r deml, ac a athrawiaethasant. [n] † Eithr daeth yr arch-offeiriad, a'r rhai oedd gyd âg ef, ac a alwasant ynghyd y cynghor, [o] ‡ a holl henuriaid plant yr Israel, [p] || ac a ddanfonasant i'r carchar i'w dwyn hwy *ger bron*.

m adn. 25. Luc 21. 37, 38. Ioan 8. 2. n adn. 17, 24. pen. 4. 5, 6. a 25. 2, 3, 15. Luc 22. 66. Ioan 18. 35. o Salm 105. 22.
p pen. 4. 7. a 12. 18, 19.

* Gwedi derbyn y cyfryw waredigaeth a gorchymyn gan yr angel oddi wrth Dduw, cymmerasant y cyfle cyntaf a gawsant, i ufuddâu i Dduw yn hytrach nag i ddynion: yr oeddynt yn *fore* yn athrawiaethu yn y deml. † Y rhai oedd gyda'r arch-offeiriad oedd aelodau cyffredin y Sanhedrim; ‡ a "holl henuriaid plant yr Israel" ydoedd barnwyr y bobl mewn dinasoedd a threfydd eraill, y rhai nid oeddynt yn aelodau rhëolaidd o'r Sanhedrim. Efallai bod llawer o honynt y pryd hwnw yn Jerusalem, ac yr oedd yr arch-offeiriad am gael cyngor mòr llawn ag oedd modd, i geisio rhoddi terfyn ar unwaith ar yr athrawiaeth newydd ac annymunol hon. || Mae yn amlwg nas gwyddent hwy ddim eto fod yr apostolion allan o'r carchar.

22 * A'r swyddogion, pan ddaethant, ni chawsant hwynt yn y carchar; eithr hwy a ddychwelasant, ac a fynegasant,

* Pa un ai swyddogion gwladol, milwraidd, neu eglwysig, oedd y rhai hyn, nis gwyddom: mae y gair Groeg (*upêretai*) a ddefnyddir yma, yn arwyddo *gweinidogion;* a dywed *Guyse* nad yw efe byth yn cael ei ddefnyddio am swyddogion milwraidd. † Pwy bynag oeddynt, ni

chawsant yr apostolion yn y carchar, a gorfu arnynt addef hyny ar gyhoedd yr holl gyngor.

23 * Gan ddywedyd, [q] Yn wir ni a gawsom y carchar wedi ei gau o'r fath sicraf, a'r ceidwaid yn sefyll allan o flaen y drysau; † eithr pan agorasom, ni chawsom neb i mewn.

q adn. 19. Salm 31. 4. a 33. 10. Diar. 21. 30. Galar. 3. 37. 55—58. Dan. 3. 11—25. a 6. 22—24. Mat. 27. 63—66. a 28. 12—15. Ioan 8. 59.

* Arferwyd pob moddion i ddiogelu y carcharorion, ond pan ddelo Duw i waredu ei bobl, pwy a all eu cadw hwy? Pan ddelo efe i weithio, pwy a'i lluddia ef? Mae yn debyg i'r angel gauad drysau y carchar fel o'r blaen, wedi gollwng yr apostolion allan; nid oedd yno ddim argoel trais na thòriad ar y carchar, ac nis gwyddai y ceidwaid oedd o flaen y drysau nad oedd eu carcharorion i mewn yn ddigon diogel. † Ni chawsant neb o'r apostolion i mewn; gallai fod carcharorion eraill i mewn, mewn ystafelloedd eraill o'r carchar.

24 A phan glybu yr arch-offeiriad, [r] * a blaenor y deml, † a'r offeiriaid pennaf, yr ymadroddion hyn, [s] ‡ ammeu a wnaethant yn eu cylch hwy [t] beth a ddeuai o hyn.

r adn. 26. pen. 4. 1. Luc 22. 4, 52. s pen. 2. 12. a 4. 16, 17, 21. Ioan. 11. 47, 48. a 12. 19. t Es. 9. 7. a 53. 1, 2. Dan. 2. 34, 35, 44, 45. Zec. 6. 12, 13. Marc 4. 30—32.

* Am "flaenor y deml," gwel ar pen. 4. 1. † Tybir mai blaenoriaid y pedwar dosparth ar hugain o'r offeiriaid, oedd yr "offeiriaid penaf" hyn. ‡ Ammau, ai nid trwy wobrwyo y ceidwaid yr aethant hwy allan, ai ynte rhyw wyrth oedd hi mewn gwirionedd. Pa fodd y gallai hyn fod, a pha beth a wnâent hwy i ragflaenu canlyniadau drwg iddynt eu hunain, a'u hachos. Gallesid meddwl fod hyn yn ddigon i'w hargyhoeddi hwynt o wirionedd achos yr apostolion; ond nid oes dim a wna hyny ond gras Duw.

25 * Yna y daeth un ac a fynegodd iddynt, gan ddywedyd, [u] Wele, y mae y gwŷr a ddodasoch chwi y'ngharchar, yn sefyll yn y deml, ac yn dysgu y bobl.

u adn. 18—21.

* Os mawr oedd eu syndod o'r blaen, yr oedd yn llawer mwy wrth glywed y chwedl ryfedd hon: dyma yr apostolion, nid yn unig wedi dyfod o'r carchar heb neb a wyddai pa fodd; ond hefyd yn llefaru yn y deml er gwaethaf awdurdod a gwaharddiad eu holl wrthwynebwyr.

26 * Yna y blaenor, gyd â'r swyddogion, a aeth ac a'u dug hwy heb drais [x] † (oblegid yr oedd arnynt ofn y bobl rhag eu llabyddio)

x adn. 13. Mat. 14. 5. a 21. 26. a 26. 5. Luc 20. 6, 19. a 32. 2.

* Nid ofn Duw, na pharch i'r apostolion, oedd yr achos nad arferwyd trais; † ond ofn oedd ar y swyddogion rhag cael eu llabyddio gan y bobl, ped arferasent drais tuag atynt: yr oedd y bobl yn mawrâu yr apostolion.

27 * Ac wedi eu dwyn, [y] hwy a'*u* gosodasant o flaen y cynghor: † a'r arch-offeiriad a ofynodd iddynt,

y pen. 4. 7. a 6. 12. a 22. 30. a 23. 1. Luc 22. 66.

* Pan oedd yr erlidwyr hyn yn bwriadu gwneyd y cam a'r niwed mwyaf, maent yn cymmeryd arnynt weithredu yn ol rhëol barn, yn peri gosod yr apostolion o flaen y cyngor, ac yn galw arnynt i ateb drostynt eu hunain. † Yr arch-offeiriad oedd llywydd y Sanhedrim, ac efallai y mwyaf llidiog yn erbyn yr apostolion o bawb yn y cyngor.

28 Gan ddywedyd, [z] * Oni orchymynasom ni, gan orchymyn i chwi na athrawiaethech yn † yr enw hwn? ac wele, chwi a lanwasoch Jerusalem â'ch athrawiaeth, [a] ‡ ac yr ydych yn ewyllysio dwyn [b] arnom ni waed y dyn hwn.

z adn. 40. pen. 4. 18—21. a pen. 2. 23. a 3. 15. a 4. 10, 11. a 7. 52. 1 Bren. 18. 17, 18. a 21. 20. a 22. 8. Jer. 38. 4. Amos 7. 10. b Jer. 26. 15. Mat. 21. 44. a 23. 35, 36. a 27. 25. 1 Thes. 2. 15, 16.

* Gwelwn y gorchymyn hwn yn pen. 4. 18. I Pedr ac Ioan y rhoddwyd ef yno; yma maent yn cyhuddo yr apostolion oll o anufuddâu iddo. Nid oes gan orthrymwyr ddim rheswm i roddi dros eu hymddygiad; dim ond eu gorchymynion tra-arglwyddiaethol hwy. † Yr "*enw hwn*," a "*gwaed y dyn hwn*," ydynt eiriau o dra dirmyg ar Iesu, fel pe buasai yn ffiaidd gan yr arch-offeiriad grybwyll ei enw priodol ef â'i enau. ‡ Nid oeddynt yn ofni bod yn euog o lofruddiaeth, ond ni fynent gael eu cyfrif yn llofruddion; fel hyn mae llawer yn euog o bechodau ffiaidd, na fynant er dim gael eu cyfrif yn euog o honynt. Yr oedd y gwŷr mawr hyn yn taeru mai dyben yr apostolion yn pregethu marwolaeth ac adgyfodiad Iesu oedd, cynhyrfu y bobl i godi yn eu herbyn hwy am ei roddi ef i farwolaeth.

29 ¶ * A Phedr a'r apostolion a attebasant ac a ddywedasant, [c] Rhaid yw ufuddâu i Dduw yn fwy nag i ddynion.

c Gwel ar pen. 4. 19.—Gen. 3. 17. 1 Sam. 15. 24. Marc 7. 7—9. Dat. 14. 8—12.

* Dyma oedd dadl yr apostolion o'r blaen, pen. 4. 19, a dadl digon rhesymol ydoedd hefyd i ddynion rhesymol. Yn debyg i hyn y dywedai *Socrates* wrth yr *Atheniaid*; "Yr wyf yn eich caru ac yn eich cofleidio chwi, O *Atheniaid*; ond mi a ufuddâf i *Dduw* yn hytrach nac i chwi." Ni ddylai deddfau dynol fod yn groes i ddeddfau Duw.

30 [d] * Duw ein tadau ni [e] † a gyfododd i fynu Iesu, [f] ‡ yr hwn a laddasoch chwi, || ac a groeshoeliasoch ar bren.

d pen. 3. 13—15. 1 Cron. 12. 17. a 29. 18. Ezra 7. 27. Luc 1. 55, 72. e pen. 3. 26. a 13. 33. f pen. 2. 22—24, 32. a 4. 10, 11. a 13. 28, 29. Gal. 3. 13. 1 Pedr 2. 24.

* "Duw ein tadau ni;" yr eiddoch chwi a ninnau: na feddyliwch i'r Arglwydd Iesu na ninnau ei apostolion bregethu unrhyw Dduw arall, ond yr hwn a addolasoch chwi a ninnau, a'n tadau o'n blaen ni. † A gyfododd i fynu ei Fab Iesu fel prophwyd, yn ol y rhagfynegiad am dano yn Deut. 18. 15. Mae yn debyg mai hyny yw meddwl ei "gyfodi" ef yn y fàn hon, ac nid ei gyfodi ef o'r bedd: pa fodd bynag, nid oes dim niwed o gymmeryd y ddau feddwl i mewn. ‡ Dyma'r apostolion yn cyhuddo y cyngor yn hŷf, yn eu gwynebau, o ladd yr Arglwydd Iesu, megys y gwnaethent o'r blaen, pen. 2. 23; a 3. 15. || Lladdasoch ef yn y modd creulonaf, a mwyaf gwarthus, trwy ei groeshoelio ar bren: "melltigedig yw yr hwn sydd yn nghrôg ar bren," Deut. 21. 23; ond cofiwch, fel pe dywedasai yr apostolion, mai un "wedi ei wneuthur yn felltith drosom ni" oedd efe, fel y llwyr brynai ni oddiwrth felltith y ddeddf. Galat. 3. 13.

31 [g] * Hwn a ddyrchafodd Duw † â'i ddeheulaw, [h] ‡ yn Dywysog, [i] || ac yn Iachawdwr, [k] § i roddi edifeirwch i Israel, [l] a maddeuant pechodau.

g pen. 2. 33, 36. a 4. 11. Salm 89. 19, 24. a 110. 1, 2. Ezec. 17. 24. Mat. 28. 18. Eph. 1. 20—23. Phil. 2. 9—11. 1 Pedr 3. 22. h pen. 3. 15. Salm 2. 6—12. Es. 9. 6. Ezec. 34. 24. a 37. 25. Dan. 9. 25. a 10. 21. Dat. 1. 5. i pen. 13. 23. Es. 43. 3, 11. a 45. 21. a 49. 26. Mat. 1. 21. Luc 2. 11. Phil. 3. 20. Tit. 1. 4. a 2. 10, 13. a 3. 4—6. 2 Pedr 1. 1, 11. a 2. 20. a 3. 18. 1 Ioan 4. 14. Judas 25. k pen. 11. 18. Jer. 31. 31—33. Ezec. 36. 25—27, 31. Zec. 12. 10 Luc 24. 47. Rhuf. 11. 26, 27. 2 Tim. 2. 25, 26. l pen. 3. 19. a 13. 38, 39. Marc 2. 10. a 4. 12. Ioan 20. 21—23. 2 Cor. 2. 10. Eph 1. 7. Col. 1. 14.

* "Hwn a ddyrchafodd Duw," nid yn unig o'r bedd, ond hefyd i'r gogoniant, i'r anrhydedd, y mawredd, a'r awdurdod mwyaf, yn y nef ac ar y ddaear. † "A'i ddeheulaw," sef trwy weithrediad gogoneddus ei anfeidrol allu. Ephes. 1. 19—22. ‡ "Yn Dywysog," yn eistedd ar ei orsedd-fainc yn holl ogoniant, mawredd, ac awdurdod ei lywodraeth a'i deyrnas fawr. || Ac fel unig a holl-ddigonol Iachawdwr, yn alluog ac yn ewyll-

ysgar i roddi edifeirwch a maddeuant pechodau i holl Israel ysbrydol Duw, hyd yn nôd yr Iuddewon hyny a'i lladdasant ac a'i croeshoeliasant ef ar bren. § Gan nad edifarâodd ond ychydig o'r Israel yn ol y cnawd, tybia rhai mai rhoddi *lle* i edifeirwch, neu *alwad* i edifeirwch, trwy weinidogaeth yr apostolion, yw meddwl "rhoddi edifeirwch" yn y fân hon. Nis gall y darllenydd ddysgwyl i ni ymdrin â'r pethau uchod, "edifeirwch a maddeuant pechodau," fel pynciau athrawiaethol: nis gallem ond ceisio rhoddi agoriad bŷr ar feddwl yr adnod, a dywedyd, mai dau bwnc am ein bywyd ni yw y ddau beth uchod, Edifeirwch a maddeuant pechodau!

32 [m] * A nyni ydym ei dystion ef o'r pethau hyn, [n] † a'r Ysbryd Glân hefyd [o] yr hwn a roddes Duw i'r rhai sydd yn ‡ ufuddhâu iddo ef.

m adn. 29. pen. 1. 8. a 2. 32. a 10. 39—41. a 13. 31. Luc 24. 48. Ioan 15. 27. 2 Cor. 13. 1. Heb. 2. 3. n Ioan 15. 26. a 16. 7—14. Heb. 2. 4. 1 Pedr 1. 12. o pen. 2. 4, 38, 39. a 10. 44. Ioan 7. 39.

* Ei dystion ef o'i adgyfodiad o'r bedd, ei esgyniad i'r gogoniant, a'r ffrwythau bendigedig o hyny, mewn edifeirwch a maddeuant pechodau i ni ein hunain a miloedd eraill eisoes. Gan ein bod ni yn dystion, a chwedi ein danfon i dystiolaethu, nis gallwn ni na thystiolaethom er eich holl fygythion chwi: gwae fydd i ni os na phregethwn yr efengyl, bydded y canlyniad y peth a fyddo. † Yr oedd yr Ysbryd Glân yn tystiolaethu hefyd, yn 1. Trwy y nerth, y gras, a'r arddelwad, oedd gyda gweinidogaeth yr apostolion. 2. Trwy y gwyrthiau oeddynt hwy yn wneyd yn ei nerth ef. 3. Trwy weithredu ffydd yn nghalonau dynion trwy y gair, yr hyn oedd yn cael ei wneyd trwy ei allu ef. 4. Efallai y dylem gymmeryd i mewn hefyd, y dystiolaeth a roddes efe i Grist yn ei fedyddiad. ‡ Neu y rhai sydd yn credu ynddo: ffydd sydd yn darostwng y galon i ufudd-dod.

33 ¶ * A phan glywsant hwy *hynny,* [p] hwy a ffrommasant, [q] ac a ymgynghorasant am eu lladd hwynt.

p pen. 2. 37. a 7. 54. a 22. 22. Luc 4. 28, 29. a 6. 11. a 11. 50—54. a 19. 45—48. a 20. 19. q pen. 9. 23. Gen. 4. 5—8. Salm 37. 12—15, 32, 33. a 64. 2—8. Mat. 10. 21, 25. a 23. 34, 35. a 24. 9. Ioan 15. 20. a 16. 2.

* Yn lle effeithio yn ddaionus ar y cyngor, eu cynhyrfu yn ofnadwy a wnaeth yr ymadroddion eglur a didderbyn wyneb uchod; ffromasant yn aruthr ar yr apostolion, gan ysgyrnygu eu dannedd o dra chynddeiriogrwydd, a mynent eu rhoddi hwy i farwolaeth yn ddioed, oni buasai i Gamaliel eu rhwystro hwynt.

34 [r] Eithr rhyw Pharisead a'i enw [s] * Gamaliel, [t] Doctor o'r gyfraith, parchedig gan yr holl bobl, a gyfododd i fynu yn y cynghor, [u] ac a archodd yrru yr apostolion allan dros ennyd fechan;

r pen. 23. 7—9. Salm 76. 10. Ioan 7. 50—53. s pen. 22. 3. t Luc 2. 46. a 5. 17. u pen. 4. 15.

* Mae yn debyg mai y Gamaliel hwn oedd athraw Paul, pen. 22. 3, ac athraw Barnabas a Stephan medd rhai hefyd. Tybia rhai mai mab yr hên Simëon dduwiol oedd efe, (gwel ar Luc 2. 25.) ond efallai yn ddisail. Pharisead o ran ei blaid grefyddol ydoedd, a dysgawdwr enwog o'r gyfraith; gwr o gymmeriad a pharch mawr yn mhlith ei genedl am ei ddoethineb, ei ddysgeidiaeth, a'i dduwioldeb. Dywedir i *Onkelos,* awdwr y llyfr â elwir y Targum, losgi deg pwys a thriugain o arogl-darth yn ei gladdedigaeth ef: a dywedir i anrhydedd y gyfraith golli a darfod pan fu efe farw. Yr oedd efe yn fwy cymmedrol na neb arall yn y cyngor hwn; ond os gwir a ddywedir, mai efe oedd awdwr y gweddiau yn erbyn y cristionogion, a ddefnyddiwyd cyhyd yn y synagogau Iuddewig wedi hyny, mae yn rhaid iddo golli ei gymmedrolder, a myned yn fwy rhagfarnllyd. Fel yr oedd Saul yn ei ysgol ef y pryd hwnw, mae yn ddiammau iddo fynegi i'r gwr ieuanc hwnw y pethau hyn am yr apostolion, yr hyn oedd yn gwneyd ei bechod ef o'u herlid hwy wedi hyny, yn fwy anesgusodol.

35 Ac a ddywedodd wrthynt, * *Ha* wŷr o Israel, [x] † edrychwch arnoch eich hunain, pa beth yr ydych ar fedr ei wneuthur am y dynion hyn.

x adn. 38. pen. 19. 36. a 22. 26. Jer. 26. 19. Mat. 27. 19.

* Nid yn unig "gwŷr Israel," ond gwŷr yn barnu ac yn llywodraethu yn Israel. † Edrychwch pa beth a wneloch; chwi a ddylech weithredu yn ol rheswm, cyfiawnder, a chrefydd, ac nid yn ol rhagfarn a chynddeiriogrwydd fel hyn: gweithredwch yn bwyllog yn ofn Duw.

36 * Canys o flaen y dyddiau hyn cyfododd Theudas i fynu, [y] gan ddywedyd ei fod ef yn rhyw un; [z] wrth yr hwn y glynodd rhifedi o wŷr, ynghylch pedwar cant: yr hwn a laddwyd, a chynnifer oll a ufuddhasant iddo, a wasgarwyd, ac a wnaed yn ddiddym.

y pen. 8. 9. Mat. 24. 24. 2 Thes. 2. 3—7. 2 Pedr 2. 18. Judas 16. Dat. 17. 3, 5. z pen. 21. 38. 2 Pedr 2. 2.

* Tybir mai rhyw Iuddew o'r enw Theudas ydoedd hwn, a gyfodasai yn nyddiau Augustus Cesar, i wrthwynebu talu teyrnged i Cesar. Sonia *Josephus* am ryw Theudas cyffelyb i hwn, ond tybir mai tua deng mlynedd ar ol y cyfarfod hwn o'r Sanhedrim y cyfododd hwnw. Dywedir fod yr ail yn amlach ei ganlynwyr na'r cyntaf hwn, ac i'w ganlynwyr oll gael eu lladd yn gystal ag ef ei hun, eu "gwasgaru" a gafodd canlynwyr y Theudas hwn.

37 Ar ol hwn y cyfododd [a] * Judas y Galilead, yn nyddiau y dreth, ac efe a drodd bobl lawer ar ei ol: [b] ac yntau hefyd a ddarfu am dano, a chynnifer oll a ufuddhasant iddo a wasgarwyd.

a Luc 2. 1. a 13. 1. b Job 20. 5—9. Salm 7. 14, 15. a 9. 15, 16. Mat. 26. 52.

* Yn agos i'r un amser, mae yn debyg, ond ychydig ar ol Theudas, cyfododd y Judas hwn; yn nyddiau y dreth yr oedd pob un, a'r dreth ydoedd yr achos o wrthryfel pob un mae yn debyg. Mae yn debyg mai am hwn a'i ganlynwyr y sonir yn Luc 13. 1. Gwel ar yr adnod hòno. Gan fod amryw o aelodau presenol y cyngor yn hên bobl, mae yn debyg eu bod yn cofio am y ddau wrthryfelwr uchod yn ddigon da, wrth i Gamaliel eu henwi iddynt.

38 Ac yr awrhon meddaf i chwi, [c] * Ciliwch oddi wrth y dynion hyn, a gadewch iddynt: [d] † oblegid os o ddynion y mae y cynghor hwn, neu y weithred hon, fe a ddiddymmir;

c adn. 35. Ioan 11. 48. d Neh. 4. 15. Job 5. 12—14. Salm 33. 10, 11. Diar. 21. 30. Es. 7. 5—7. a 8. 9, 10. a 44. 25. Galar. 3. 37. Mat. 15. 13. 1 Cor. 1. 26—28. a 3. 19.

* Mae Gamaliel yn cyngori fel hyn mewn rhan o herwydd ei duedd lariaidd a chymmedrol; ac mewn rhan hefyd, efallai, o herwydd ofn y bobl os lladdent yr apostolion, neu ynte ofn yr awdurdodau Rhufeinig, y rhai oedd y pryd hwn yn eiddigus iawn pa fodd yr ymyrai y Sanhedrim âg achosion bywydau dynion. † Cyngor da, rhesymol, oedd y cyngor; os mater o dwyll, a hoced ddrygionus oedd gan yr apostolion, dangosai Duw hyny yn ei ragluniaeth yn fuan, fel y gwnaethai yn y ddau amgylchiad a enwyd, heb iddynt hwy ymyraeth cymmaint ynddo.

39 [e] * Eithr os o Dduw y mae, ni ellwch chwi ei ddiddymmu, † rhag eich cael [f] yn ymladd yn erbyn Duw.

e pen. 6. 10. Gen. 24. 50. 2 Sam. 5. 2. 1 Bren. 12. 24. Job 34. 29. Es. 43. 13. a 46. 10, 11. Dan. 4. 35. Mat. 16. 18. Luc 21. 15. 1 Cor. 1. 25. Dat. 17. 12—14. f pen. 7. 51. a 9. 5. a 23. 9. Ex. 10. 3—7. 2 Bren. 19. 22. Job 15. 25—27. a 40. 9—14. Es. 45. 9. 1 Cor. 10. 22.

* Ie, peth o Dduw ydoedd; a gormod gorchwyl iddynt

hwy oedd ei ddiddymu: "Fy nghyngor a saif," ebe Duw, "a'm holl ewyllys a wnaf." † Ymladd yn erbyn Duw yw ymladd yn erbyn ei achos a'i bobl ef; a gwae yr hwn a ymrysono a'i luniwr.

40 * A chyttuno âg ef a wnaethant. Ac [g] wedi iddynt alw yr apostolion attynt, [h] † a'u curo, [i] hwy a orchymynasant iddynt na lefarent yn enw yr Iesu, ac a'u gollyngasant ymaith.

g pen. 4. 18. h Diar. 12. 10. Mat. 10. 17. a 23. 34. Marc 13. 9. Luc 20. 10. Ioan 19. 1—4. 2 Cor. 11. 24. i adn. 28. pen. 4. 17—21. Es. 30. 10. Amos 2. 12. Mica 2. 6.

* "Ateb arafaidd a ddettry lid," ebai Solomon, ac felly y bu yma: er mòr gynddeiriog oedd y cyngor o'r blaen, mae geiriau Gamaliel wedi effeithio i'w llarieiddio hwy i raddau am y tro hwn. † Felly y rhag-fynegodd yr Arglwydd Iesu y gwnâid iddynt, Matth. 10. 17. Curwyd hwy mae yn debyg am eu hanufudd-dod i'w gorchymyn hwy o'r blaen, a dirmyg ar awdurdod y llŷs. Gadawodd y Rhufeiniaid hyn o awdurdod iddynt, ond nid i gyfhwrdd â bywyd neb.

41 ¶ * A hwy a aethant allan o olwg y cynghor [k] yn llawen, am eu cyfrif hwynt yn deilwng i ddioddef [l] ammharch o achos ei enw ef.

k pen. 16. 23—25. Es. 61. 10. a 65. 14. a 66. 5. Mat. 5. 10—12. Luc 6. 22, 23. Rhuf. 5. 3. 2 Cor. 12. 10. Phil. 1. 29. Heb. 10. 34. Iago 1. 2. 1 Pedr 4. 13—16. l Heb. 12. 2.

* Gwyddai yr apostolion fod eu hachos yn dda, ac yn werth dyoddef o'i blegid; am hyny aethant allan o ŵydd y cyngor yn llawen, heb rwgnach am eu triniaeth, na digaloni ychwaith. † Achos ei enw ef oedd eu hachos hwy, am hyny yr oedd yn anrhydedd dyoddef yn a thros y fath enw a'r fath achos.

42 [m] * A beunydd yn y deml, [n] † ac o dŷ i dŷ, [o] ni pheidiasant â dysgu a [p] phregethu Iesu Grist.

m adn. 20, 21. pen. 2. 46. a 3. 1, 2, &c. Luc 21. 37. a 22. 53. n pen. 20. 20. o pen. 4. 20, 29. 2 Sam. 6. 22. Rhuf. 1. 15, 16. Gal. 6. 14. p pen. 8. 5, 35. a 9. 20. a 17. 3. 1 Cor. 2. 2. Eph. 4. 20, 21.

* Can belled oeddynt hwy o gymmeryd eu bygylu gan fygythion y cyngor, dyma hwy eto yn y deml bob dydd yn dysgu ac yn pregethu Crist yn ddibaid. † Eu hunig orchwyl hwy, yn y deml ac o dŷ i dŷ, lle bynag y byddent, oedd pregethu Crist; ac yn rhyw fodd ffrwynwyd digofaint eu gelynion am ychydig, fel na wnaethant ddim niwed iddynt.

PEN. VI.

Yr apostolion yn chwennych nad esgeulusid y tlodion, o ran eu lluniaeth corphorol.

AC yn y dyddiau hynny, [a] a'r disgyblion yn amlhâu, [b] bu grwgnach gan y [c] * Groegiaid yn erbyn yr [d] † Hebreaid, [e] ‡ am ddirmygu eu gwragedd gweddwon hwy yn [f] y weinidogaeth feunyddiol.

a adn. 7. pen. 2. 41, 47. a 4. 4. a 5. 14, 28. Salm 72. 16. a 110. 3. Es. 27. 6. Jer. 30. 19. b 1 Cor. 10. 10. Heb. 13. 1. Iago 4. 5. a 5. 9. c pen. 9. 29. a 11. 20. d 2 Cor. 11. 22. Phil. 3. 5. e pen. 9. 39, 41. Deut. 24. 19—21. a 26. 12. Job 29. 13. a 31. 16. Es. 1. 17. Ezec. 22. 7. Mal. 3. 5. Mat. 23. 14. 1 Tim. 5. 4, 5, 9. Iago 1. 27. f pen. 2 45. a 4. 35.

* Nid Groegiaid o ran cenedl a gwaedoliaeth a feddylir; eithr Iuddewon Cristionogol, ag oedd yn preswylio ym mhlith y Groegiaid, yn arfer yr Hen Destament yn yr iaith Roeg, yn addoli yn eu synagogau yn yr iaith hòno, ac yn ei siarad yn gyffredin. † Yr Hebreaid, i'r gwrthwyneb, oeddynt Iuddewon yn preswylio gan mwyaf yn Palestina, yn arfer yr Hen Destament yn yr iaith Hebraeg, yn addoli yn eu synagogau yn yr iaith hòno, ac yn ei siarad yn eu hymddiddanion cyffredin. ‡ Mae yn amlwg yma mai o blith y tlodion gan mwyaf yr oedd yr eglwys yn cael ei lliosogi; ac fel yr oedd yn amlâu, yr oedd yn anoddach nac y tybiwyd ar y dechreu i gyfranu yn ddiwall i bob un. Gan mai yr Hebreaid cyfagos i Jerusalem gan mŵyaf a werthasent eu meddiannau, efallai bod y dosparthwyr yn fwy pleidiol i'r Hebreaid tlodion nac i'r Groegiaid yn y dosparthiad beunyddiol hwn o gyfreidiau: o leiaf tybiai y Groegiaid eu bod felly.

2 [g] * Yna y deuddeg a alwasant ynghyd y lliaws disgyblion, ac a ddywedasant, [h] † Nid yw gymhesur [i] i ni adael gair Duw, a gwasanaethu byrddau.

g pen. 21. 22. h pen. 4. 19. a 25. 27. i Ex. 18. 17—23. Num. 11. 11—13. Deut. 1. 9—14. Neh. 6. 3. 2 Tim. 2. 4.

* Y deuddeg apostol, dyma eu nifer yn awr, wedi chwanegu Matthias atynt yn lle Judas. † Mae "gwasanaethu byrddau" yma, yn dangos beth a feddylir wrth y "weinidogaeth feunyddiol" yn yr adnod o'r blaen. Yr oedd gwasanaethu byrddau, dosparthu y meddiannau cyffredin er diwallu yr holl eglwys, yn ormod rhwystr i'r apostolion gyda gwaith trymach, a mwy ysbrydol y weinidogaeth; ac yn debyg o'u gwneyd hwy yn agored hefyd i ddrwg-dybiaeth y ddwy blaid, Groegiaid a Hebreaid, ac felly eu gwneyd hwy a'u gweinidogaeth yn anghymmeradwy.

3 Am hynny, [k] * frodyr, [l] † edrychwch yn eich plith am ‡ seithwyr [m] || da eu gair, yn [n] § llawn o'r Ysbryd Glân a doethineb, [o] * y rhai a osodom ar hyn o orchwyl.

k pen. 9. 30. a 15. 23. Mat. 23. 8. 1 Ioan 3. 14—16. l pen. 1. 21. Num. 11. 16. 1 Cor. 16. 3. 2 Cor. 8. 19—21. m pen. 10. 22. a 16. 2. a 22. 12. 1 Tim. 3. 7. a 5. 10. 3 Ioan 12. n pen. 2. 4. Gen. 12. 38, 39. Num. 11. 17—25. a 27. 18, 19. Job 32. 7, 8. Es. 11. 2—5. a 28. 6, 26. 1 Cor. 12. 8. Eph. 5. 18. Iago 1. 17. a 3. 17, 18. o adn. 6. pen. 13. 2, 3. 1 Tim. 3. 8—15.

* Gwelwn ysbryd cymmodawl, tangnefeddus, a brawdol yr apostolion yn y tro hwn; er bod y Groegiaid a'r Hebreaid yn barod i ymranu yn ddwy blaid, mae yr apostolion megys yn eu rhwymo hwy oll yn nghyd yn rhwymyn cariad ac undeb, dan yr enw "brodyr." † Edrychwch *chwi*, ac nid *nyni;* ni fynnwn ni lywodraethu arnoch yn y peth hwn: eich mater chwi ydyw yn fwy na'r eiddom ni; gan hyny edrychwch chwi am ddynion yn fanol, yn ofalus, ac yn wyliadwrus, a fyddo yn deilwng i'w gosod ar hyn o orchwyl. ‡ Edrychwch am saith o ddynion, bydd hyny yn ddigon ar yr achlysur presenol. || Seithwyr da eu gair am onestrwydd, callineb, cynnildeb, ac ysbryd digybydd-dod a diduedd: dyma'r fath ddynion a ddylai fod yn swyddogion yn eglwys Dduw o hyd, hyd yn nôd i drin pethau amgylchiadol yr eglwys. § Llawn o'r Ysbryd Glân fel dynion duwiol, a mwy na hyny; llawn o'r Ysbryd Glân yn ei ddoniau anghyffredin, yn debyg i'r apostolion eu hunain, er, efallai, nid i'r un graddau yn hollol. * "Y rhai a osodom:" yma mae yr apostolion yn dyfod i gydweithredu â'r eglwys; nid yr eglwys hebddynt hwy, na hwythau heb yr eglwys. Esampl apostolaidd, dda, yw hon i'r eglwys o hyd; nis gall pethau fod yn gysurus heb gyd-weithredu fel hyn mewn cariad.

4 [p] * Eithr ni a barhawn mewn [q] gweddi a gweinidogaeth y gair.

p pen. 2. 42. a 20. 19—31. Rhuf. 12. 6—8. 1 Cor. 9. 16. Col. 4. 17. 1 Tim. 4. 13—16. 2 Tim. 4. 2. q pen. 1. 14. a 13. 2, 3. Rhuf. 1. 9. Eph. 1. 15—17. a 3. 14—21. Phil. 1. 4. 9—11. Col. 1. 9—13. a 2. 1. a 4. 12.

* Dau orchwyl mawr gweinidogion yr efengyl yw, gweddio dros y bobl, a phregethu y gair i'r bobl: nis gellir dysgwyl llwyddiant ar y naill heb y llall.

5 ¶ [r] * A boddlawn fu yr ymadrodd gan yr holl lïaws: † a hwy a etholasant [s] ‡ Stephan, gwr llawn o ffydd ac o'r Ysbryd Glân, [t] a Phylip, a Phrochorus, a Nicanor, a Thimon, a Pharmenas, || a Nicholas, [u] proselyt o Antiochia:

r pen. 15. 22. Gen. 41. 37. Diar. 15. 1, 23. a 25. 11, 12. s adn. 3, 8, 10. pen. 7. a 8. 1, 2. Mica 3. 8. t pen. 8. 5—13, 26—40. a 21. 8. u pen. 13. 1.

* Boddlonodd pawb, Groegiaid a Hebreaid, i'r cyn-

nygiad doeth, rhesymol, ac ângenrheidiol hwn. Mae yn debyg nad oedd yno neb o'r dynion annedwydd hyny, na foddlonant i ddim, ond rhywbeth a gynnygiont hwy eu hunain. † Ni bu yr eglwys fawr o dro yn ethol, yr oedd yno ddynion amlwg i'w hethol. Poenus iawn yw ceisio ethol swyddwyr eglwysig lle na byddo neb o addasrwydd amlwg iawn i gael eu hethol. ‡ Gan fod yr enwau hyn oll yn enwau Groegaidd, tybir mai Groegiaid oedd y saith a etholwyd; a gwnaed hyny efallai er boddloni y Groegiaid oedd wedi dechreu grwgnach. Nid oes genym hanes am neb o honynt ar ol hyn ond Stephan a Phylip. || Dywedodd rhai o'r hên ysgrifenwyr mai y Nicholas hwn yw y cyfeiliornwr a grybwyllir yn Dat. 2. 6, 15; ond nid oes sail yn y byd i feddwl felly: yr oedd llawer o'r un enw, ac nid yw yn debyg i wr llawn o ffydd ac o'r Ysbryd Glân syrthio wedi hyny i gyfeiliornadau câs gan Dduw.

6 * Y rhai a osodasant hwy ger bron yr apostolion; [x] † ac wedi iddynt weddïo, ‡ hwy a ddodasant *eu* dwylaw arnynt hwy.

x pen. 1. 24. a 9. 17. a 13. 3. 1 Tim. 4. 14. a 5. 22. 2 Tim. 1 6.

* Gwelwn yma ddarostyngiad yr holl eglwys i'r apostolion, eu hymddiried parchus yn yr apostolion, a'u cyd-weithrediad ffyddlawn â'r apostolion. † Gweddïo dros y rhai dewisedig, a gweddïo am foddlonrwydd Duw i'w dewisiad, a'i fendith ef ar eu neilldüad i'r gwaith. Gweddi yw yr halen, sydd yn tymheru ac yn sancteiddio pob peth; nid oedd yr apostolion yn beiddio dewis dynion at unrhyw wasanaeth yn yr eglwys heb weddi. ‡ Defod oedd hon a arferid yn yr eglwys gynt. 1. Ar yr aberthau, Exod. 29. 51; 2. Wrth fendithio, Gen. 48. 14; 3. Wrth neilldüo i swydd, Num. 27. 18. Felly naturiol oedd i'r apostolion ei harfer yn yr eglwys efengylaidd; ond gan nas gall gweinidogion yr efengyl yn awr, gyfranu doniau trwy arddodiad dwylaw fel yr apostolion, efallai mai diangenrhaid a diles hollawl yw y ddefod yn ein dyddiau ni.

7 [y] * A gair Duw a gynnyddodd; [z] † a rhifedi y dysgyblion yn Jerusalem a amlhâodd yn ddirfawr, ‡ a thyrfa fawr o'r [a] offeiriaid a [b] ufuddhasant i'r ffydd.

y pen. 12. 24. a 19. 20. Col. 1. 6. 2 Tim. 2. 9. z pen. 21. 20. a 2 Cron. 29. 34. a 30. 24. Mat. 19. 30. Luc 2. 34. Ioan 12. 42. b Rhuf. 1. 5. a 16. 26. 2 Thes. 1. 8. Heb. 5. 9. a 11. 8.

* A gair Duw, gweinidogaeth yr efengyl, a lwyddodd: † ac fel yr oedd y gair yn llwyddo, yr oedd yr eglwys yn cynnyddu yn ddirfawr mewn rhifedi, gras, a heddwch. ‡ Dyma brawf nodedig o lwyddiant yr efengyl, bod yr offeiriaid, ei gwrthwynebwyr cryfaf, yn ei derbyn ac yn ufuddâu iddi: ac nid ychydig o honynt ychwaith, eithr "tyrfa fawr." Heblaw eu gelyniaeth gwreiddiol hwy eu hunain i'r efengyl, yr oeddynt yn sicr o gael eu herlid gan eu brodyr, eu tòri allan o'r offeiriadaeth, ac o'r synagogau, o herwydd cofleidio yr efengyl; ond yr oedd effeithiau gras Duw yn ddigon i beri iddynt dòri drwy bob peth. Gallu Duw yw hi. Mae yn debyg i rwygiad llèn y deml, a thystiolaeth y gwylwyr am adgyfodiad Crist, yn nghyd â gweinidogaeth yr apostolion, fod yn foddion i'w troi hwynt.

8 * Eithr Stephan, [c] yn llawn o ffydd a nerth, [d] a wnaeth ryfeddodau ac arwyddion mawrion ym mhlith y bobl.

c adn. 3, 5, 10, 15. a 7. 55. Eph. 4. 11. 1 Tim. 3. 13. d pen. 2. 17, 18. a 4. 29, 30. a 8. 6.

* Mae yn debyg fod Stephan yn rhagori ar y chwech eraill mewn gras a doniau ysbrydol, yn pregethu yr efengyl ac yn gwneyd gwyrthiau a rhyfeddodau yn debyg i'r apostolion eu hunain.

9 ¶ [e] * Yna y cyfododd rhai [f] o'r synagog a elwir eiddo y † Libertiniaid, a'r [g] ‡ Cyreniaid, a'r [h] Alexandriaid, a'r rhai o [i] Cilicia, ac o [k] Asia, [l] || gan ymddadleu â Stephan.

e pen. 13. 45. a 17. 17, 18. f pen. 22. 19. a 26. 11. Mat. 10. 17. a 23. 34. Marc 13. 9. Luc 21. 12. g pen. 2. 10. a 11. 20. a 13. 1. Mat. 27. 32. h pen. 18. 24. a 27. 6. i pen. 15. 23, 41. a 21. 39. a 22. 3. a 23. 34. a 27. 5. Gal. 1. 21. k pen. 2. 9. a 16. 6. a 19. 10, 26. a 21. 27. l 1 Cor. 1. 20.

* Dywedir fod yn Jerusalem 480 o synagogau, a math o ysgol neu athrofa yn perthyn i bob synagog, dan ofal rhyw Rabbi enwog. † Y Libertiniaid oeddynt blant y rhai a fuasent gaethweision, ond a gawsant eu rhyddâu o'r caethiwed hwnw. Yr Iuddewon a gawsent ddinas-fraint yn mhlith y Rhufeiniaid, medd rhai, ond dywed eraill nad yw y gair Libertiniaid ddim un amser yn cael ei ddefnyddio am y cyfryw. ‡ Iuddewon o Cyrene, Alexandria, Cilicia, ac Asia. || Dywedir fod y dieithriaid uchod oll yn fwy eiddigus dros y grefydd Iuddewig na neb o'r Hebreaid, ac felly daeth rhai o honynt i ymddadlau â Stephan yma yn erbyn yr athrawiaeth Gristionogol. Efallai bod y gwr ieuanc, Saul o Tarsus, yn un o honynt, ni a'i cawn ef yn fuan ar ol hyn yn cytuno i'w ladd ef, ac yn cadw dillad y rhai a'i lladdent.

10 [m] * Ac ni allent wrthwynebu y doethineb [n] a'r ysbryd trwy yr hwn yr oedd efe yn llefaru.

m pen. 7. 51. Ex. 4. 12. Es. 54. 17. Jer. 1. 18, 19. a 15. 20. Ezec. 3. 27. Mat. 10. 19, 20. Luc 12. 11, 12. a 21. 15. Ioan 7. 46. n Job 32. 8, 18. Mica 3. 8. Luc 1. 17. 1 Cor. 2. 4.

* Heblaw doethineb a hyawdledd naturiol Stephan, mae yn ddïammau iddo ef gael ei gynnorthwyo yn y ddadl hon mewn modd goruwch-naturiol ac anghyffredin, fel nas gallai ei holl wrthwynebwyr ei wrthwynebu ef.

11 [o] * Yna y gosodasant wŷr i ddywedyd, † Nyni a'i clywsom ef yn dywedyd [p] geiriau cabledd [q] yn erbyn Moses a Duw.

o pen. 23. 12—15. a 24. 1—13. a 25. 3, 7. Mat. 26. 59, 60. a 28. 12—15. Ioan 16. 3. Rhuf. 3. 8. p adn. 13. pen. 18. 6. a 26. 11. Lef. 24. 16. 1 Bren. 21. 10—13. Ioan 10. 33—36. 1 Tim. 1. 13. q pen. 7. 37—39. a 15. 21. a 21. 20—22, 28. Ioan 1. 17. a 5. 45—47. a 9. 29. Heb. 3. 2—5.

* Gwedi methu a sefyll mewn dadl, ac ar yr un pryd heb ymostwng i'r gwirionedd, mae y dynion rhagfarnus a digasog hyn yn penderfynu cael y fantais ar Stephan trwy osod dynion i'w gam-gyhuddo ef, yr un modd ag y gwnâed â'i Arglwydd o'i flaen. † Gwel y geiriau yn adn. 14. Nid yw yn debyg iawn y gwyddai Stephan am ddiddymiad goruchwyliaeth Moses; efallai iddo son am ddinystr y deml a'r genedl Iuddewig oni chredent yr efengyl; ac yna chwanegodd y cyhuddwyr y pethau eraill at hyny.

12 [r] * A hwy a gynhyrfasant y bobl, a'r henuriaid, a'r ysgrifenyddion; † a chan ddyfod arno, [s] a'i cipiasant ef, ac a'*i* dygasant i'r gynghorfa;

r pen. 13. 50. a 14. 2. a 17. 5, 13. a 21. 27. Diar. 15. 18. s pen. 4. 1—3. a 5. 18, 27. a 16. 19—21. a 17. 5, 6. a 18. 12. Mat. 26. 57.

* Trwy y cam-gyhuddiadau uchod, llwyddasant i gynhyrfu rhagfarn a nwydau y bobl gyffredin, yr henuriaid, a'r ysgrifenyddion yn erbyn Stephan; † a thrwy drais hwy a'i cipiasant ef, ac a'i dygasant yn y fàn o flaen y Sanhedrim, neu y cyngor.

13 [t] Ac a osodasant gau dystion, y rhai a ddywedent, Nid yw y dyn hwn yn peidio a dywedyd * cabl-eiriau yn erbyn y lle sanctaidd hwn, † a'r gyfraith.

t adn. 11. Salm 27. 12. a 35. 11. a 56. 5.

* "Cabl-eiriau," nid fel y dywedodd Stephan hwy yn ddïau, ond fel yr oeddynt hwy yn eu dirdynu ac yn eu drwg-liwio. † "A'r gyfraith:" mae dywedyd cabl-eiriau yn erbyn y gyfraith yma, yn egluro pa fodd yr oedd efe wedi dywedyd cabledd yn erbyn Duw, yn adn. 11, hyny yw, yn ol eu cam-gyhuddiad hwy.

14 * Canys nyni a'i clywsom ef yn dywedyd, [u] y distrywiai † yr Iesu hwn o Nazar-

eth y lle yma, ac y [x] newidiai efe y defodau a draddododd Moses i ni.

u Es. 66. 1—6. Jer. 7. 4—14. a 26. 6—9, 12, 18. Dan. 9. 26. Mica 3. 12. Zec. 11. 1. a 14. 2. Mat. 24. 1, 2. Marc 14. 58. Luc 13. 34, 35. a 21. 6, 24. Ioan 4. 21. x Es. 65. 15. a 66. 19—21. Hos. 3. 4. Gal. 3. 19, 23. a 4. 3—5. Heb. 7. 11—19. a 8. 6—13. a 9. 9—11. a 10. 1—18. a 12. 26—28.

* Nis gwyddom pa beth, na pha fodd, y dywedodd Stephan; nid oes genym ond tystiolaeth y gau-dystion hyn am y mater. A phe dywedasai fel yr oeddynt hwy yn adrodd, nid oedd hyny ddim ond yr hyn a ddywedodd prophwydi yr Hen Destament o'i flaen ef, ac nis gallent hwy yn gyfiawn wneyd cabledd o honynt. † "Yr Iesu hwn o Nazareth:" dull eithaf dirmygus o grybwyll am dano.

15 Ac fel yr oedd yr holl rai a eisteddent yn y cynghor yn dal sylw arno, [y] * hwy a welent ei wyneb ef fel wyneb angel.

y Ex. 34. 29—35. Preg. 8. 1. Mat. 13. 43. a 17. 2. 2 Cor. 3. 7, 8, 18.

* Mae yn debyg fod ei wynebpryd ef y pryd hwn yn disgleirio yn dra gogoneddus, yn debyg i wyneb Moses gynt. Cyhuddent hwy ef o ddywedyd yn erbyn Moses a Duw, dyma ei wyneb yntau yn ogoneddus fel gwyneb Moses, ac fel angel Duw. Diammau fod hyn i ddangos ei ddiniweidrwydd ef, uniondeb ei achos, a boddlonrwydd ei Dduw iddo. Edrychasant hwy am euogrwydd yn ei wyneb, yn lle hyny cawsant ef fel gwyneb angel; ond ni chafodd y cwbl ddim effaith dda arnynt hwy.

PEN. VII.

Stephan yn ateb drosto ei hun am y gabledd.

*YNA y dywedodd yr arch-offeiriad, [a] A ydyw y pethau hyn felly?

a pen. 6. 13, 14. Mat. 26. 61, 62. Marc 14. 58—60. Ioan 18. 19—21, 33—35.

* A ydyw y pethau a dystiolaethodd y cyhuddwyr felly? Pa beth sydd genyt ti i ddywedyd drosot dy hun, a wyt ti yn euog ai nid wyt? Nid oedd hyn ond rhith o brawf oll, yr oeddynt hwy wedi penderfynu eisoes ei roddi ef i farwolaeth os gallent.

2 Yntau a ddywedodd, [b] * *Ha* wŷr frodyr, † a thadau, gwrandewch: [c] ‡ Duw y gogoniant [d] a ymddangosodd i'n Tad Abraham, [e] pan oedd efe ym Mesopotamia, cyn iddo drigo yn [f] Charran;

b pen. 22. 1. a 23. 7. c Salm 24. 7, 10. a 29. 3. Es. 6. 3. Mat. 6. 13. Luc 2. 14. Ioan 1. 14. a 12. 41. 2 Cor. 4. 4—6. Tit. 2. 13. Heb. 1. 3. Dat. 4. 11. a 5. 12, 13. d Gen. 12. 1. Neh. 9. 7. Es. 51. 2. e Jos. 24. 2. f Gen. 11. 31. a 12. 5. a 29. 4.

* "Ha wŷr frodyr:" plant o'r un tad Abraham, etifeddion o'r un addewid, rhai dàn yr un gyfraith, ac yn addoli yr un Duw. † Gair o barch i'r cyngor fel henafgwyr a barnwyr, a'r cwbl er llarieiddio eu hysbrydoedd ac ennill eu gwrandawiad. ‡ Tybir yn gyffredin fod yr enw hwn, "Duw y gogoniant" yn cael ei roddi i Dduw, gyda golwg ar ei ymddangosiad gogoneddus ef yn y Shechinah, ac mewn cwmwl gogoneddus felly yn ddïammau yr ymddangosodd efe i Abraham. Mae yn ddïammau fod prïodoldeb mawr yn yr araeth hon o'r eiddo Stephan (pe cawsai ei gorphen hi) ar y fath achlysur, yn y fath le, a cher bron y fath bobl.

3 * Ac a ddywedodd wrtho, [g] Dos allan o'th wlad, ac oddi wrth dy dylwyth, a thyred i'r [h] tir a ddangoswyf i ti.

g Gen. 12. 1. Mat. 10. 37. Luc 14. 33. 2 Cor. 6. 17. Heb. 11. 8. h Gen. 13. 14—17. a 15. 7. Jos. 24. 3. Neh. 9. 8.

* Mae Stephan yn crybwyll am ymddangosiad Duw i Abraham, a galwad Abraham, i'r dyben i ddangos ger bron y cyngor, fod Abraham mewn cymmeradwyaeth gyda Duw, ac yn ei wir wasanaethu ef, cyn iddo erioed weled gwlad Canaan, cyn sefydlu y ddeddf seremoniol trwy Moses, ac yn mhell cyn i'r deml gael ei hadeiladu: gan hyny nis gallai fod yn gabledd iddo ef ddywedyd, y gellid gwasanaethu Duw eto heb y seremoniau hyn, a'i addoli dan oruchwyliaeth arall, ac mewn mànau eraill heblaw yn Jerusalem. Dyna un peth a ddengys brïodoldeb yr araeth hon.

4 [i] * Yna y daeth efe allan o dir y Caldeaid, ac y preswyliodd yn † Charran: ‡ ac oddi yno, wedi marw ei dad, efe a'i symmudodd ef i'r tir yma yn yr hwn yr ydych chwi yn preswylio yr awrhon.

i Gen. 11. 31, 32. a 12. 4, 5. Es. 41. 2, 9.

* Yr oedd gan Abraham gariad at ei wlad a'i genedl yn gystal â rhywun arall; ond mewn ffydd, ac ufudd-dod i alwad Duw, efe a adawodd bob un o honynt yn ddibetrusder. † Yr oedd Ur y Caldeaid a Charan, neu Haran, yn Mesopotamia; ond bod Haran yn nes i wlad yr addewid o lawer nac Ur. ‡ Yn Gen. 11. 32, dywedir fod Tera, tad Abraham, yn 205 mlwydd oed yn marw: yn adn. 26, o'r un bennod, dywedir ei fod yn 70 pan genedlodd Abram, Nacor, a Haran: ac yn Gen. 12. 4, dywedir fod Abram yn 75 oed pan aeth allan o Haran. Yn awr os wedi marw ei dad yr aeth efe allan, nis gallai ei dad fod ond 145 yn marw, ac nid 205, fel y dywedir yn Genesis. O'r tu arall, os yw yr oedran yn Gen. 11. 32, yn gywir, rhaid i Tera fyw 60 mlynedd ar ol i Abram fyned allan o Haran, yr hyn a wna hanes Stephan yma, "*wedi* marw ei dad," yn anghywir. Fel yna mae gwrthwynebwyr y datguddiad dwyfol yn dadlau yn erbyn y rhan hyn o hóno, ac yn taeru fod un ai Moses neu Stephan yn anghywir. Ond nid oes sail i hyny, gall pob un o honynt fod yn gywir, a ddïammau eu bod: nid oes genym un sicrwydd mai Abraham oedd mab hynaf Tera, er ei fod yn cael ei enwi yn mlaenaf, o herwydd ei ragoriaeth, yn Gen. 11. 26; efallai mai Nacor, neu Haran, oedd ei gyntaf-anedig; gallasai fod yn llawer mwy na 70 pan anwyd Abram, ac fel hyny gall hanes Moses a Stephan fod yn eu lle.

5 [k] * Ac ni roes iddo etifeddiaeth ynddo, na ddo [l] led troed; [m] ac efe a addawodd ei roddi iddo i'w feddiannu, ac i'w had ar ei ol, [n] pryd nad oedd plentyn iddo.

k Gen. 23. 4. Salm 105. 11, 12. Heb. 11. 9, 10, 13—16. l Deut. 2. 5. m Gen. 12. 7. a 13. 15. a 15. 18. a 17. 8. a 26. 3. a 28. 13—15. Ex. 6. 7, 8. Deut. 6. 10, 11. a 9. 5. a 10. 11. a 11. 9. a 34. 4. Neh. 9. 8. Salm 105. 8—11. n Gen. 15. 2—5. a 16. 2. a 17. 16—19.

* Yr oedd yr ogof yn maes Macpelah ganddo, ond nid etifeddiaeth o roddiad Duw oedd hòno, ei phrynu a wnaeth, er ei llawn werth o arian, (Gen. 23. 9,) ac nid oedd o les yn y byd iddo ond i gladdu ei farw. Fel hyn y rhoddes Duw yr addewid i Abram, gwlad Canaan yn etifeddiaeth, pryd nad oedd ganddo led troed o hóni eto; a had fel ser y nefoedd, pryd nad oedd ganddo yr un plentyn, nac argoel am dano. "Ai dyma arfer dyn, O Arglwydd Dduw!" Fel hyn yr oedd anhawsdra deublyg i ffydd Abram; ond nid ammhëuodd efe addewid Duw, efe a nerthwyd yn y ffydd, ac yn ol ei ffydd y bu iddo.

6 A Duw a lefarodd fel hyn; [o] * Dy had di a fydd ymdeithydd mewn gwlad ddieithr, † a hwy a'i caethiwant ef, ‡ ac a'*i* drygant [p] bedwar can mlynedd.

o Gen. 15. 30. p Ex. 12. 40, 41. Gal. 3. 17.

* Nid oedd llefaru fel hyn nemawr o gryfder i ffydd Abram, ond yr oedd yn angenrheidiol datguddio hyn iddo, ac i brofi ei ffydd ef. † Felly y gwnaed yn yr Aipht. ‡ Mae hyn agos air yn air â Gen. 15. 13. Yn Exod. 12. 40; a Galat. 3. 17, 430 yw yr amser a enwir. Tybir nad yw Moses yn Exodus, a Stephan yma, ond enwi y swm cryno, ac yn gadael y 30 gweddill allan. Tybir fod Stephan yma, a Moses yn Gen. 15. 13, yn cyfrif o enedigaeth Isaac, neu yn hytrach o'i ddiddyfniad ef, pan y gwatwarodd Ismael; ond bod Exod. 12. 40; a Galat. 3. 17, yn cyfrif o alwad Abram, yr hyn a wna y gwahaniaeth o 30 mlynedd.

7 [q] * Eithr y genedl yr hon a wasanaethant hwy, † a farnaf fi, medd Duw: ac wedi hynny y deuant allan, [r] ‡ ac a'm gwasanaethant i yn y lle hwn.

q Gen. 15. 14—16. Ex. 7—14. Neh. 9. 9—11. Salm 74. 12—14. a 78. 43—51. a 105. 27—36. a 135. 8, 9. a 136. 10—15. Es. 51. 9, 10. r Ex. 3. 12.

* Yr Aiphtiaid oedd y genedl hon: † barnodd, neu cospodd Duw hwynt yn ddigyfrwng, megys â'i law ei hun, ac yn ddychrynllyd iawn. ‡ Cymmerodd Stephan y rhan hon o'r adnod o Exod. 3. 12; yn Horeb yr oedd Moses pan ddywedodd Duw fel hyn wrtho, a hwy a wasanaethasant Dduw yno wedi eu dwyn allan o'r Aipht. Amcan Duw yn gwaredu ei bobl yw, fel y gwasanaethont ef, Luc 1. 74, 75. Dangos gwaeledd eu dechreuad oedd amcan Stephan yn adrodd y pethau hyn ger bron y cyngor, a rhoddi gocheliad iddynt rhag annog Duw i'w bwrw hwy allan o wlad yr addewid am eu caledwch a'u drygioni.

8 * Ac efe a roddes iddo [s] gyfammod yr enwaediad. [t] Felly *Abraham* a genhedlodd Isaac, ac a enwaedodd arno yr wythfed dydd: [a] ac Isaac *a genhedlodd* Jacob; [x] a Jacob *a genhedlodd* y ‡ deuddeg [y] patriarch.

s Gen. 17. 9—14. Ioan 7. 22. Rhuf. 4. 10—12. Gal. 3. 15—17. t Gen. 17. 12. a 21. 2—4. u Gen. 25. 21—26. 1 Cron. 1. 34. Mat. 1. 2. Rhuf. 9. 9—13. x Gen. 29. 32—35. a 30. 1—24. a 35. 16—18, 23—26. Ex. 1. 1—4. 1 Cron. 2. 1, 2. y pen. 2. 29. Heb. 7. 4.

* Cyfammod yr enwaediad yw y cyfammod hwnw a *seliwyd* trwy enwaediad, tua phedwar can mlynedd cyn dodiad y ddeddf: i Abraham y rhoddodd Duw ef, "yn insel cyfiawnder y ffydd, yr hon oedd ganddo yn y dienwaediad." Amcan Stephan o hyd oedd, dangos nad oedd y seremoniau Iuddewig yn hanfodol i wasanaeth Duw, nac i gymmeradwyaeth gyda Duw. Yr oedd Abraham felly cyn y seremoniau. † Tadau deuddeg llwyth Israel, o ba rai y cawsant eu henwi.

9 * A'r patrieirch, [z] gan genfigennu, [a] a werthasant Joseph i'r Aipht: [b] † ond yr oedd Duw gyd âg ef,

z Gen. 37. 4—11. a 49. 23. Mat. 27. 18. a Gen. 37. 18—29. a 45. 4, 5. a 50. 15—20. Salm 105. 17, 18. b Gen. 39. 2, 3, 5, 21—23. a 49. 24. Es. 41. 10. a 43. 2.

* Fel y gwnaeth y patrieirch â Joseph, felly y gwnaeth penaethiaid llwythau Israel â Iesu, yr hwn yr oedd Joseph yn gysgod o hóno: ac mae yn ddiammau mai i'r dyben iddynt weled ac ystyried hyny, y mae Stephan yn crybwyll am Joseph yn y fàn hon. † Y peth a fwriadwyd er darostyngiad a dinystr i Joseph, hyny a fu yn foddion derchafiad iddo, a lles ei genedl. Felly hefyd am yr Arglwydd Iesu.

10 [c] * Ac a'i hachubodd ef o'i holl orthrymderau, [d] ac a roes iddo hawddgarwch a doethineb y'ngolwg Pharaoh brenhin yr Aipht; ac efe a'i gosododd ef yn llywodraethwr ar yr Aipht; ac ar ei holl dŷ.

c Gen. 48. 16. Salm 22. 24. a 34. 17—19. a 37. 40. a 40. 1—3. 2 Tim. 4. 18. Iago 5. 11. Dat. 7. 14. d Gen. 41. 12—46. a 42. 6. a 44. 18. a 45. 8, 9. Salm 105. 19—22. Diar. 2. 6. a 3. 4. a 16. 7.

* Mae Duw gyda ei bobl mewn modd neillduol, nid fel y mae gyda ei holl greaduriaid yn gyffredin. Fel mae yr enaid yn y corph, felly a mwy y mae Duw gyda ei bobl; efe yw eu bywyd, eu grym, a'u holl brydferthwch. Gwnaeth Duw dri pheth yma i Joseph. 1. Ei wared o'i holl orthrymderau. 2. Rhoddi hawddgarwch iddo yn ngolwg Pharaoh. 3. Ei godi i fod yn llywodraethwr ar yr Aipht, a holl dŷ Pharaoh. Un rhyfedd yw Duw pan fyddo gyda ei bobl, ac yn gweithredu drostynt.

11 [e] * Ac fe ddaeth newyn dros holl dir yr Aipht † a Chanaan, ‡ a gorthrymder mawr; || a'n tadau § ni chawsant luniaeth.

e Gen. 41. 54—57. a 43. 1. a 46. 5, 6, 11. a 47. 13—15. Salm 105. 16.

* Cawn hanes y newyn hwn yn Gen. 41. 54—57; yn ol dëongliad Joseph o freuddwydion Pharaoh, felly y bu. † Mynai Stephan ddangos wrth hyn, efallai, nad oedd gwlad Canaan ddim yn ddiogelwch rhaga flwydd ac adfyd; ac yr oedd yn dangos hefyd, mai fel y buasai gynt, y byddai drachefn cyn pen nemawr o flynyddoedd. ‡ Mae yspail, lladrad, a chlefydau trymion, yn gyffredin yn canlyn newyn a drudaniaeth. || Penau llwythau Israel, o ba rai yr oedd had aneirif i ddyfod, ac yn mhlith eraill, y Messiah ei hun. § Ni chawsant luniaeth digonol, na dim yn ngwlad Canaan heb fyned i'r Aipht i'w geisio.

12 [f] * Ond pan glybu Jacob fod ŷd yn yr Aipht, † efe a anfonodd ein tadau ni allan yn gyntaf.

f Gen. 42. 1, 2, &c. a 43. 2, &c.

* Cawn yr hanes am hyn yn Gen. 42. 1, &c. † Fel pe dywedasai Stephan, Yr ydym ni wedi myned yn wŷr mawr iawn yn awr, ond fel arall y bu hi ar ein tadau ni: buont hwy yn gorfod teithio i'r Aipht i geisio ŷd i gadw bywyd. Dyben yr ymadrodd yw, dangos mai fel y gorfu ar y patrieirch gynt ymostwng i Joseph er eu cadw yn fyw, felly y byddai raid i'r Iuddewon hyn ymostwng i Grist neu drengu yn eu gwrthodiad o hóno.

13 * A'r ail *waith* [g] yr adnabuwyd Joseph gan eifrodyr; † a chenedl Joseph a aeth yn hysbys i Pharaoh.

g Gen. 45. 1—18. a 46. 31—34. a 47. 1—10.

* Cawn yr hanes am hyn yn Gen. 45. 3, 4. † Gwel Gen. 45. 16: nis gwyddai efe o'r blaen mae yn debyg, pwy, nac o ba genedl ydoedd efe.

14 [h] * Yna yr anfonodd Joseph, ac a gyrchodd ei dad Jacob, a'i holl genedl, [i] † pymtheg enaid a thriugain.

h Gen. 45. 9—11. Salm 105. 23. i Gen. 46. 12, 26, 27. Deut. 10. 22. 1 Cron. 2. 5, 6.

* Gwnaeth Joseph hyn trwy ganiatâd, ac ar orchymyn Pharaoh, Gen. 45. 17—20. † Chwech enaid a thriugain a ddywedir yn Gen. 46. 26, heblaw gwragedd meibion Jacob: yn adn. 27 o'r un bennod, dywedir, mai deg a thriugain oedd holl eneidiau tŷ Jacob a ddaethant i'r Aipht; ac felly hefyd y dywedir yn Deut. 10. 22. Dylid sylwi fod Stephan yma yn sôn am "Jacob a'i holl genedl," a Moses yn y mànau a nodwyd, sef Gen. 46. 27, a Deut. 10. 22, yn sôn am y rhai a ddaethant allan o gorph Jacob yn unig. Chwech enaid a thriugain a aeth gyda Jacob i'r Aipht, yn ol Gen. 46. 26; yna, mae Jacob ei hun, a Joseph a'i ddau fab, yn eu gwneuthur yn ddeg a thriugain, yn ol Gen. 46. 27. Pwy oedd y pump eraill, nid yw yn hawdd gwybod; pa un ai gwragedd rhai o feibion Jacob ai ynte rhyw rai eraill. Rhŷ faith o lawer fyddai cyfieithu yr hyn oll a ddywed ein Hawdwyr ar y gwahaniaeth hyn rhwng Stephan a chyfrif Moses. Rhyfedd fel yr amlâodd yr ychydig hyn yn yr Aipht er maint eu holl orthrymderau. Gwel Exod. 12. 37.

15 [k] * Felly yr aeth Jacob i waered i'r Aipht, [l] ac a fu farw, efe a'n tadau hefyd.

k Gen. 46. 3—7. Num. 20. 15. Deut. 10. 22. a 26. 5. Jos. 24. 4. l Gen. 49. 33. Ex. 1. 6. Heb. 11. 21, 22.

* Dywed Stephan hyn, efallai, i dynu balchder gwŷr mawr y Sanhedrim i lawr, ac hefyd i ddangos i'w tadau hwy fyw yn dduwiol, a marw yn ddedwydd, yn yr Aipht, heb na gwlad Canaan, defodau seremoniol, na theml ychwaith.

16 [m] * A hwy a symmudwyd i Sichem, ac a ddodwyd [n] yn y bedd a brynasai † Abraham er arian gan feibion [o] Emmor *tad* Sichem.

m Ex. 13. 19. Jos. 24. 32. n Gen. 23. 9—20. a 49. 29—32. o Gen. 34. 2, &c.

* Gan iddynt farw yn y ffydd o gyflawniad yr addew-

id am wlad Canaan, ac yn ffydd yr adgyfodiad i'r Ganaan nefol, hwy a ddygwyd o'r Aipht i Sichem yn ngwlad Canaan i'w claddu. Nid oes genym hanes yn un màn ond y lle hwn, ddarfod claddu meibion Jacob oll yn Sichem; ond mae yn ddiammau iddynt gael eu claddu yno yn gystal â Joseph, fel cyd-etifeddion o'r un addewid, ac o'r un wlad âg yntau. † Mae yn amlwg yn Gen. 33. 19, a Jos. 24. 32, mai Jacob, ac nid Abraham, a brynodd y bedd hwn gan feibion Emmor: lle arall, pell iawn o Sichem, a brynodd Abraham, a chan Ephron yr Hethiad y prynodd efe ef. Gen. 23. 3—20. Tybia rhai mai y geiriau, *a brynasai ef*, (gan feddwl Jacob) a lefarodd Stephan ac a ysgrifenodd Luc; ac i rywun ymyrgar roddi Abraham i mewn wedi hyny yn lle y rhagenw *ef*, herwydd cofio i Abraham brynu bedd, ac heb gofio i Jacob wneyd hyny hefyd. Neu gellid darllen y geiriau fel hyn: A Jacob a fu farw, efe a'n tadau hefyd; a hwy, sef ein tadau, a ddodwyd yn y bedd yn Sichem, a Jacob a gladdwyd yn y bedd a brynasai Abraham. Gwedi y cwbl, mae yn anodd gwybod pa fodd y dodwyd Abraham yn lle Jacob yn yr adnod uchod.

17 [p] * A phan nesâodd amser yr addewid, † yr hwn a dyngasai Duw i Abraham, [q] ‡ y bobl a gynnyddodd, ac a amlhâodd yn yr Aipht,

p adn. 6. Gen. 15. 13—16. 2 Pedr 3. 8, 9. q pen. 13. 17. Ex. 1. 7—12, 20. Salm 105. 24.

* Yr addewid i amlâu had Abraham, eu gwaredu o'u caethiwed, a'u dwyn i Ganaan, gwlad yr addewid. Un ffyddlawn yw Duw i'w addewid, mae ganddo ef ei amser i gyflawni ei addewid, ac efe a gyflawna bob addewid yn ei amser, nis gall neb ei luddias. † Cawn hanes y tyngu hwn yn Gen. 22. 15—18. ‡ Exod. 1. 7, yw yr agoriad gorau ar y rhan hon o'r adnod.

18 [r] * Hyd oni chyfododd brenhin arall, † yr hwn nid adwaenai mo Joseph.

r Ex. 1. 8.

* Gwel Exod. 1. 8. Tybir mai brenin o deulu arall oedd hwn, diberthynas hollawl â'r brenin a ddyrchafasai Joseph i fod yn llywydd ar y wlad. † Nid adwaenai mo Joseph, ac nis mynai gofio y gwasanaeth mawr a wnaethai efe yn yr Aipht, na dangos dim caredigrwydd i'w genedl ef er mwyn y gwasanaeth hwnw.

19 [s] * Hwn a fu ddichellgar wrth ein cenhedl ni, † ac a ddrygodd ein tadau, gan beri iddynt fwrw allan eu plant, fel nad eppilient.

s Ex. 1. 9—22. Salm 83. 4, 5. a 105. 25. a 129. 1—3. Dat. 12. 4, 5.

* Cawn hanes y ddichell a'r gorthrymder hyn yn Exod. 1. 9—16, 22: nid oes achos ychwaneg na darllen y bennod hòno i gael agoriad ar yr adnod hon. † Trwy eu gorthrymu â chaled-waith, gorchymyn lladd eu plant gwrrywaidd, a thaflu y rhai a arbedid i'r afon.

20 * Ar yr hwn amser [t] y ganwyd Moses; [u] † ac efe oedd dlws i Dduw, ‡ ac a fagwyd dri mis yn nhŷ ei dad.

t Ex. 2. 2—10. u 1 Sam. 16. 12. Heb. 11. 23.

* Pan oedd yr Aiphtiaid brysuraf yn gorthrymu, dyna'r pryd yr oedd Duw yn darpar ymwared: yn nghanol y drygfyd oll, dyma Moses yn dyfod. † Dull Hebreaidd cyffredin o lefaru, er dangos rhagoriaeth ac ardderchawgrwydd unrhyw beth, ac a ddefnyddir yma i ddangos y prydferthwch rhagorol a roddes Duw ar Moses yn ei fabandod, yr hyn a fu yn foddion yn ddïammau, i ferch Pharaoh ei arbed ef, a mynu ei fagu ef iddi ei hun: hyny oedd bwriad Duw yn ei brydferthu â'r fath degwch. Dywedir bod sôn am ei degwch ef trwy yr holl wledydd, pan nad oedd ond tair blwydd oed. ‡ Nis gallai ei rïeni ei fagu ef na'i guddio yn hwy. Exod. 2. 2, 3.

21 [x] * Ac wedi ei fwrw ef allan, † merch Pharaoh a'i cyfododd ef i fynu, ac a'i magodd ef [y] yn fab iddi ei hun.

x Ex. 2. 2—10. Deut. 32. 36. y Heb. 11. 24.

* Yn y cawell llafrwyn ar fin yr afon, Exod. 2. 3. † Mae yr holl bethau rhyfeddol hyn a ddywedir am enedigaeth, cadwedigaeth, dysgeidiaeth, athrylith, a chymmeriad uchel Moses, yn mwyâu pechod Israel yn ei wrthod ef, pan gynnygiodd efe ei hun iddynt fel gwaredwr dàn y fath fanteision, ac yn wrthddrych mòr rhyfedd o ofal rhagluniaeth. Yr oedd gwaith Stephan yn dywedyd y pethau hyn am dano, yn profi i'r Sanhedrim hefyd, nad oedd efe ddim yn erbyn Moses fel yr haerent hwy.

22 * A Moses oedd [z] ddysgedig yn holl † ddoethineb yr Aiphtiaid, [a] ‡ ac oedd nerthol mewn geiriau ‖ ac mewn gweithredoedd.

z 1 Bren. 4. 29, 30. 2 Cron. 9. 22, 23. Es. 19. 11, 12. Dan. 1. 4, 17—20. a Luc 24. 19.

* Mae yn ddïammau i ferch Pharaoh roddi pob manteision dysgeidiaeth i Moses, ac yntau yn meddu athrylith ragorol i gymmeryd ei ddysg. † Dywed hen awduron fod yr Aiphtiaid yn enwog iawn y pryd hwnw mewn daearyddiaeth, mesuryddiaeth, rhifyddiaeth, seryddiaeth, hanesyddiaeth, meddyginiaeth, a batheiniaeth, *(hieroglyphics.)* Am swynyddiaeth, yn ystyr ddrwg y gair, nis gallwn feddwl fod gwr mòr dda â Moses yn ei arfer. ‡ Gallai Moses fod yn nerthol mewn geiriau fel ymresymwr pwyllog, grymus, a phenderfynol; ac eto bod yn safn-drwm a thafod-drwm o ran hyawdledd ymadrodd fel y dywed ef am dano ei hun, Exod. 4. 10—12. ‖ Nid nerthol mewn geiriau yn unig oedd Moses, ond nerthol mewn gweithredoedd hefyd: pa bethau bynag a gymmerai mewn llaw, efe a'u gwnâi yn fedrus, yn galonog, ac yn llwyddiannus. Yr oedd hyn oll, deallwn, pan oedd yn llŷs Pharaoh, a chyn iddo ddechreu ar ei orchwyl mawr o waredu Israel. Tybia rhai mai ei rymusder fel blaenor milwraidd, yn myddin Pharaoh, a feddylir.

23 [b] * A phan oedd efe yn llawn deugain mlwydd oed, [c] † daeth i'w galon ef [d] ymweled â'i frodyr plant yr Israel.

b Ex. 2. 11, 12. Heb. 11. 24—26. c Ex. 35. 21, 29. 1 Cron. 29. 17—19. 2 Cron. 30. 12. Ezra 1. 1, 5. a 7. 27. Diar. 21. 1. 2 Cor. 8. 16. Phil. 2. 12, 13. Iago 1. 17. Dat. 17. 17. d pen. 15. 36. Ex. 4. 18.

* Gellir dosparthu einioes Moses yn dair dosparth, o ddeugain mlwydd bob un: deugain yn llŷs Pharaoh; deugain yn bugeilio yn Midian, (adn. 30;) a deugain yn arwain Israel ar hyd yr anialwch. Gwel Deut. 34. 7. † Gan i Moses gael ei fagu gan ei fam ei hun, ac yn nhŷ ei rïeni, hyd onid aeth yn fawr, Exod. 2. 10; mae yn ddïammau y gwyddai efe pwy oedd ei frodyr a'i genedl, ac y gwyddai efe hefyd am addewid Duw i blant Israel: gan hyny mewn ffydd yn yr addewid, (Heb. 11. 24—26;) mewn cariad at ei genedl; ac efallai dan weithrediad nerthol Duw ar ei feddwl, efe a adawodd llŷs Pharaoh, mwyniant pechod, trysorau yr Aipht, a'r holl anrhydedd a'r mawredd oedd iddo ef yno, i fyned i ymweled â'i frodyr, ac i gymmeryd ei adfyd gyda hwynt.

24 [e] * A phan welodd efe un yn cael cam, efe a'*i* hamddiffynodd *ef*, ac a ddialodd gam yr hwn a orthrymmid, gan daro yr Aiphtiwr:

e adn. 28. Ioan 18. 10, 11, 25—27.

* Gwelwn yr hanes am hyn gan Moses ei hun, yn Exod. 2. 11, 12. Tybia rhai bod deddf natur, o amddiffyn y diniwed a dïal ar ei orthrymwr ef, yn cyfreithloni y weithred hon o'r eiddo Moses. Pa fodd bynag am hyny, mae yn ddïammau ei fod ef yn gweithredu dàn gymhelliad goruwch-naturiol, fel gwaredwr Israel, a dialydd ar yr Aipht: fel hyny nis gall y tro hwn fod yn esampl i ni i ymddïal ar eraill.

25 * Ac efe a dybiodd fod ei frodyr yn deall, [f] fod Duw yn rhoddi iachawdwriaeth

iddynt trwy ei law ef; [g] † eithr hwynt hwy ni ddeallasant.

f pen. 14. 27. a 15. 4, 7. a 21. 19. 1 Sam. 14. 45. a 19. 5. 2 Bren. 5. 1. Rhuf. 15. 18. 1 Cor. 3. 9. a 15. 10. 2 Cor. 6. 1. Col. 1. 29. g Salm 106. 7. Marc 9. 32. Luc 9. 45. a 18. 34.

* Tybir fod Moses ei hun wedi cael datguddiad rywfodd gan Dduw, mai efe a waredai Israel o'r Aipht, ac ei fod yn ystyried y weithred hon fel ernes, neu ddechreuad, y waredigaeth hòno: a thybiai y gallai ei frodyr ddeall hyny, † ond nid oeddynt hwy yn deall, ac yr oedd yntau wedi cam-gymmeryd yr amser o ddeugain mlynedd. Gallasent ddeall o herwydd amryw bethau. 1. Ei gadwedigaeth ryfedd ef yn ei fabandod. 2. Ei fawredd a'i enwogrwydd ef yn llŷs Pharaoh. 3. Ei barodrwydd a'i ddewrder ef yn eu hamddiffyn hwy y tro hwn; peth rhyfedd oedd i wr fel efe wneyd sylw yn y byd o honynt, yn enwedig can belled a lladd eu gorthrymwr. 4. Nis gallasent ychwaith fod yn hollawl heb wybod, fod amser eu gwaredigaeth yn nesâu. Megys nad oeddynt hwy yn deall mai Moses oedd eu gwaredwr o'r Aipht, felly hefyd nid oedd gwŷr y cyngor hwn yn deall mai Iesu oedd eu Gwaredwr hwythau o gaethiwed y ddeddf a phechod: a dangos hyny oedd amcan Stephan yn y geiriau, mae yn debyg.

26 [h] * A'r dydd nesaf yr ymddangosodd efe iddynt, a hwy yn ymrafaelio, † ac a'u hannogodd hwynt i heddychu, gan ddywedyd, ‡ *Ha* wŷr, [i] brodyr ydych chwi; paham y gwnewch gam â'ch gilydd?

h Ex. 2. 13—15. i Gen. 13. 8. a 45. 24. Salm 133. 1. Diar. 18. 19. Ioan 15. 17, 18. 1 Cor. 6. 6—8. Phil. 2. 1, 3. 1 Ioan 3. 11—15.

* Efe a ymddangosodd iddynt fel athrynwr a barnwr, yn gystal ag fel gwaredwr. † Efe a'u hannogodd hwynt yn ddifrifol, a mynai eu cymhell hwynt i ymheddychu, can belled ag y gallai geiriau wneyd hyny. ‡ Nid brodyr o'r un gwaed yn unig, fel hiliogaeth Abraham, ond brodyr hefyd o'r un grefydd, yn addoli yr un Duw; brodyr yn yr un adfyd, a chyd-etifeddion o'r un addewid, ac o'r un wlad, Canaan. Tost iawn fod brodyr yn yr ystyriaethau uchod, yn ymrafaelio â'u gilydd.

27 [k] * Ond yr hwn oedd yn gwneuthur cam â'i gymmydog, † a'i cilgwthiodd ef, gan ddywedyd, [l] ‡ Pwy a'th osododd di yn llywodraethwr ac yn farnwr arnom ni?

k adn. 54. pen. 5. 33. Gen. 19. 9. 1 Sam. 25. 14, 15. Diar. 9. 7, 8. l adn. 35, 39. pen. 3. 13—15. a 4. 7, 11, 12. Mat. 21. 23. Luc 12. 14. Ioan 18. 36, 37. a 19. 12—15.

* Y mwyaf yn y bai yw y mwyaf sarrug, yn gyffredin, a'r anoddaf ei heddychu o lawer. † Yma mae llarieiddra Moses i'w weled mòr amlwg a'i eiddigedd a'i ddewrder y dydd o'r blaen; hawdd y gallasai y gwr "nerthol mewn gweithredoedd" ddial y cilgwthiad hyn fel y gwnaethai â'r Aiphtiwr, ond ni wnaeth. Pan ddelom i geisio heddychu brodyr ymrafaelgar, rhaid gofalu nad elom ein hunain i'r un ysproyd a hwythau, er bod hyny yn anodd lawer tro. ‡ Yn adn. 35, mae iaith daiogaidd y dyn hwn yn cael ei phriodoli i'r bobl i gyd; ac yn Exod. 5. 20, 21, mae yn amlwg nad oedd ganddynt oll ddim gwell meddwl am Moses nag ymyrwr prysur, ac nid wedi ei ddanfon gan Dduw i'w gwaredu.

28 * A leddi di fi, y modd y lleddaist yr Aiphtiwr ddoe?

* Mae y dyn yn edliw hyn i Moses i gauad ei enau ef, fel na cheryddai efe ef yn mhellach. Nid yw edliw beïau yn ein ceryddwyr yn lleiâu dim ar ein beïau ni ein hunain; eto mae dynion euog yn dueddol iawn i wneyd hyny. Diolchgarwch a ddylasai Moses gael, ac nid dannodiaeth fel hyn; a buasai y geiriau yn fwy addas yn ngenau Aiphtiwr nac Israeliad.

29 [m] * A Moses a ffodd ar y gair hwn, † ac a fu ddïeithr yn nhir Madian; ‡ lle y cenhedlodd efe ddau o feibion.

m Ex. 2. 14—22. a 4. 19, 20. a 18. 2—4.

* Danfonodd y dyn hwn neu rywun arall wybodaeth o'r peth i Pharaoh, a gorfu ar Moses ffoi am ei fywyd, Exod. 2. 15. † Gwlad a gafodd ei henw oddi wrth Midian, pedwerydd mab Abraham o'i ail wraig, Cetura; Gen. 25. 2. yr oedd y Midian, neu y Madian hon, o du y dwyrain-ogledd i'r môr coch, ac a breswylid gan hiliogaeth y Midian a soniwyd uchod. Yr oedd Midian arall, o du y dwyrain i'r môr marw neu fôr Sodom, ar derfynau y Moabiaid. ‡ O Sephora ei wraig, merch Jethro, offeiriad, neu dywysog Midian. Exod. 2. 22. a 18. 2, 3, 4.

30 [n] * Ac wedi cyflawni deugain mlynedd, [o] † yr ymddangosodd iddo yn anialwch mynydd Sina, [p] angel yr Arglwydd [q] mewn fflam dân mewn perth.

n adn. 17. Ex. 7. 7. o Ex. 3. 1. a 19. 1, 2. 1 Bren. 19. 8. Gal. 4. 25. p adn. 32, 35. Gen. 16. 7—13. a 22. 15—18. a 32. 24—30. a 48. 15, 16. Ex. 3. 2, 6. Es. 63. 9. Hos. 12. 3—5. Mal. 3. 1. q Deut. 4. 20. Salm 66. 12. Es. 43. 2. Dan. 3. 27. r adn. 35. Deut. 33. 16. Marc 12. 26. Luc 20. 37.

* Deugain mlynedd yn llŷs Pharaoh, i ddysgu doethineb a mawredd, a deugain mlynedd wedi hyny yn fugail defaid, i ddysgu gostyngeiddrwydd a hunan-ymwadiad: ffyrdd rhyfedd sydd gan Dduw i addasu ei bobl at ei waith mawr ef. Dyma amser yr addewid hefyd, i waredu Israel. † Mynydd Duw, Horeb, oedd y fàn hon. Exod. 3. 1. ‡ Nid angel crëedig, ond Angel mawr y cyfammod, yr hwn wedi hyny a ymddangosodd yn y cnawd, fel y mae yn amlwg yn adn. 32.

31 * A Moses, pan welodd, a fu ryfedd ganddo y golwg: [s] a phan nesâodd i ystyried, † daeth llef yr Arglwydd atto, *gan ddywedyd,*

s Ex. 3. 3, 4.

* Rhyfeddodd weled y berth yn llosgi ac heb ei difa, a rhyfeddodd fwy wrth yr olwg ogoneddus a gafodd ar yr angel. † Sef yr hwn a elwid angel yr Arglwydd yn yr adnod o'r blaen: yr Arglwydd o ran ei berson, angel yr Arglwydd o ran ei swydd.

32 [t] * Myfi *yw* Duw dy dadau, Duw Abraham, a Duw Isaac, a Duw Jacob. [u] † A Moses, wedi myned yn ddychrynedig, ‡ ni feiddiai ystyried.

t pen. 3. 13. Gen. 50. 24. Ex. 3. 6, 15. a 4. 5. Mat. 22. 32. Heb. 11. 16. u pen. 9. 4—6. Gen. 28. 13—17. Ex. 33. 20. 1 Bren. 19. 13. Job 4. 14. a 37. 1, 2. a 42. 5, 6. Salm 89. 7. Es. 6. 1—5. Dan. 10. 7, 8. Mat. 17. 6. Luc 5. 8. Dat. 1. 17.

* Myfi, yr hwn sydd yn ymddangos fel hyn yn ogoneddus i ti, yw y gwir a'r bywiol Dduw, yr hwn a wnaeth gyfammod a'th dadau, Abraham, Isaac, a Jacob, i'w cymmeryd hwy a'u had i berthynas neillduol â mi fy hun. Myfi yw y Duw hwnw yn ddigyfnewid, yn ffyddlawn i'm cyfammod, ac yn sicr o gyflawni fy addewid yn ngwaredigaeth dy frodyr. † Er mòr fawr, er mòr dda, ac er mòr sanctaidd gwr ydoedd Moses; efe ddychrynodd yn dduwiol wrth y weledigaeth hon, a'r datguddiad hwn o fawredd Duw. ‡ Ni feiddiai edrych ar y gogoniant yn hyll-dremus. Os yw Duw yn ei ymweliadau o drugaredd mòr ofnadwy i'w bobl, pa beth a fydd ef pan ymddangoso yn ei lid i'w elynion!

33 * Yna y dywedodd yr Arglwydd wrtho, [x] Dattod dy esgidiau oddi am dy draed; † canys y lle yr wyt yn sefyll ynddo sydd dir sanctaidd.

x Ex. 3. 5. Jos. 5. 15. 2 Pedr 1. 18.

* Byddai is-raddolion gynt, ac y maent eto, mae yn debyg, mewn rhai gwledydd, yn diosg eu hesgidiau, neu eu sandalau, wrth ddyfod o flaen eu huch-raddolion, fel arwydd o barch ac ymostyngiad iddynt. Mae yn debyg i'r ddefod hòno ddechreu pan fyddent yn myned i ystafelloedd gwychion; ond yma mae Mab Duw, Brenin breninoedd, er dangos ei oruwch-fawredd ar bawb, yn gorchymyn i Moses wneyd felly yn yr anialwch. Tybir mai yn droed-noeth y byddai yr offeiriad yn gweini yn y cyssegr; gan nad oes dim son am

esgidiau na sandalau iddynt, er bod gorchymynion am eu holl ddillad eraill. † Mae pob lle yn sanctaidd lle byddo Duw yn amlygu ei bresenoldeb a'i ogoniant.

34 [y] * Gan weled y gwelais ddrygfyd fy mhobl y rhai sydd yn yr Aipht, a mi a glywais eu griddfan, [z] ac a ddisgynais i'w gwared hwy. [a] † Ac yn awr tyred, ‡ mi a'th anfonaf di i'r Aipht.

y Ex. 2. 23—25. a 3. 7, 9. a 4. 31. a 6. 5, 6. Barn. 2. 18. a 10. 15, 16. Neh. 9. 9. Salm 106. 44. Es. 63. 8, 9. z Gen. 11. 5, 7. a 18. 21. Ex. 3. 8. Num. 11. 17. Salm 144. 5. Es. 64. 1. Ioan 3. 13. a 6. 38. a Ex. 3. 10, 14. Salm 105. 26. Hos. 12. 13. Mica 6. 4.

* Dyma dri pheth mawr, a digon i holl blant Duw; gweled eu drygfyd, clywed eu griddfan, a disgyn i'w gwaredu. Gweled yn fanol, clywed yn dosturiol, a gwaredu yn effeithiol. † Tyred *di; tydi* a ordeiniwyd i'r gorchwyl mawr, ac nid neb arall: i hyn yma y'th gyfodwyd di. Tyred *yn awr:* yr oedd hi yn rhŷ fuan o'r blaen, yn awr yw amser Duw, ni chai aros yn hwy; gâd y praidd a chwbl yma, a thyred ar orchwyl llawer mwy. ‡ Mi a'th anfonaf; am hyny mae genyt awdurdod: mi a fyddaf gyda thi; am hyny ti a lwyddi.

35 [b] * Y Moses yma, yr hwn a wrthodasant hwy, gan ddywedyd, Pwy a'th osododd di yn llywodraethwr ac yn farnwr? [c] † hwn a anfonodd Duw yn [d] llywydd ac yn waredwr, [e] trwy law yr angel, yr hwn a ymddangosodd iddo yn y berth.

b adn. 9—15, 27, 28, 51. 1 Sam. 8. 7, 8. a 10. 27. Luc 19. 14. Ioan 18. 40. a 19. 15. c Salm 75. 7. a 113. 7, 8. a 118. 22, 23. d pen. 2. 36. a 3. 22. a 5. 31. 1 Sam. 12. 8. Neh. 9. 10—14. Salm 77. 20. Es. 63. 11, 12. Dat. 15. 3. e Gwel ar adn. 30.—Ex. 14. 19, 24. a 23. 20—23. a 32. 34. a 33. 2, 12—15. Num. 20. 16. Es. 63. 9. Col. 1. 15. Heb. 2. 2.

* Gwel ar adn. 27. Mae y parch mawr â pha un mae Stephan yn sôn am Moses drwy yr holl ymadrodd hwn o flaen y cyngor, yn ddigon o brawf iddynt, debygid, nad oedd efe ddim yn erbyn Moses, fel yr haerai y gaudystion ei fod. Mae efe yma yn lled-ddangos iddynt hefyd, mai megys y gwrthododd eu tadau Moses yn waredwr, felly y gwrthodasant hwythau yr Arglwydd Iesu. † Megys y danfonodd Duw Moses yn llywydd ac yn waredwr, felly y danfonodd ei Fab Iesu, ond mewn ystyr uwch ac mewn dull rhyfeddach, o lawer.

36 * Hwn a'u harweiniodd hwynt allan, [f] † gan wneuthur rhyfeddodau ac arwyddion yn nhir yr Aipht, ‡ ac yn y môr coch, [g] || ac yn y diffaethwch ddeugain mlynedd.

f Ex. 7—14. Deut. 4. 33—37. a 6. 21, 22. Neh. 9. 10. Salm 78. 12, 13, 42—51. a 105. 27—36. a 106. 8—11. a 135. 8—12. a 136. 9—15. g Ex. 15. 23—25. a 16. a 17. a 19. a 20 Num. 9. 15, &c. a 11. a 14. a 16. a 17. a 20. a 21. Deut. 2. 25—37. a 8. 4. Neh. 9. 12—15, 18—22. Salm 78. 14—33. a 105. 39—45. a 106. 17, 18. a 135. 10—12. a 136. 16—21.

* Hwn, sef Moses; hwn a Duw gydag ef, yn ei arwain ef a hwythau. † Y plâau rhyfedd a ddug efe ar yr Aiphtiaid, y rhai oeddynt arwyddion o ddigofaint Duw ar yr Aiphtiaid, o ddanfoniad Moses, ac y mŷnai Duw waredu ei bobl yn y diwedd. ‡ Yn hollti y môr, i wneyd ffordd i'r gwaredigion, a'i ddadymchwelyd drachefn i foddi Pharaoh a'i fyddin. || Yn y Sarph bres, y manna, y dwfr o'r graig, &c.

37 [h] ¶ * Hwn yw y Moses a ddywedodd i feibion Israel, [i] Prophwyd a gyfyd yr Arglwydd eich Duw i chwi o'ch brodyr fel myfi: [k] arno ef y grwandewch.

h adn. 38. 2 Cron. 28. 22. Dan. 6. 13. i pen. 3. 22. Deut. 18. 15—19. k pen. 3. 23. Mat. 17. 3—5. Marc 9. 7. Luc 9. 30, 31, 35. Ioan 8. 46, 47. a 18. 37.

* Gwedi dywedyd yr holl bethau uchod am Moses er dangos pa mòr fawr oedd efe; mae Stephan yma yn dangos i Moses ei hun ragfynegi dyfodiad yr Arglwydd Iesu, fel prophwyd megys ef ei hun, ond llawer uwch, a mwy anrhydeddus. Gwel ar pen. 3. 22.

38 * Hwn yw efe a fu [l] yn yr eglwys † yn y diffaethwch, [m] ‡ gyd â'r angel a || ymddiddanodd âg ef ym mynydd Sina, ac â'n tadau ni; [n] § yr hwn a dderbyniodd [o] ymadroddion bywiol i'w rhoddi i ni.

l Ex. 19. 3—17. a 20. 19, 20. Num 16. 3, &c. 41, 42. m Gwel ar adn. 30, 35, 53. Es. 63. 9. Gal. 3. 19. Heb. 2. 2. n Ex. 21. 1, &c. Deut. 5. 27—31. a 6. 1—3. a 33. 4. Neh. 9. 13, 14. Ioan 1. 17. o Deut. 30. 19, 20. a 32. 46, 47. Salm 78. 5—9. Ioan 6. 63. Rhuf. 3. 2. a 9. 4. a 10. 6—10. Heb. 5. 12. 1 Pedr 4. 11.

* Neu yn y gynnulleidfa; sef cynnulleidfa meibion Israel. Mae yn wir mai eglwys i Dduw oedd holl gynnulleidfa Israel, ond cyfieithir y gair *ekklésai*, cynnulleidfa, o ryw fath, mewn rhai mànau. † Yn yr holl ddiffaethwch, am ddeugain mlynedd; ond efallai wrth fynydd Sinai a feddylir yma yn benaf, yn amser rhoddiad y ddeddf. ‡ Sef Crist, Angel mawr y cyfammod; Duw Abraham, Isaac, a Jacob, Exod. 3. 6; YDWYF YR HWN YDWYF, Exod. 3. 14, JEHOFAH, Exod. 6. 2, 3. || Y tro cyntaf yn anialwch Sinai, adn. 30; neu ynte yn rhoddiad y ddeddf ar Sinai wedi hyny: yr olaf, mae yn debyg, a feddylir yma, oblegid y geiriau nesaf, "ac â'n tadau ni." § Ymadroddion bywiol fel yr oeddynt yn cael eu rhoddi gan y bywiol Dduw, yn rhëol bywyd, neu fuchedd sanctaidd, i Israel, ac i bob dyn. Gweinidogaeth angau oedd y ddeddf i Israel, a'i hystyried ynddi ei hun, ac yn llaw Moses; ond wrth ei hystyried yn gyssylltiedig â'r cysgodau, y prophwydoliaethau, a'r ordeiniadau gosodedig, y rhai a gynnwysent sylwedd yr efengyl dàn yr oruchwyliaeth hòno, yr oedd yn dangos ffordd y bywyd tragywyddol, ac yr oedd pob gwir gredadyn yn ei gwybod, mewn rhyw fesur, trwy yr ymadroddion bywiol hyn.

39 [p] * Yr hwn ni fynnai ein tadau fod yn ufudd iddo, [q] eithr cilgwthiasant *ef,* [r] † a throisant yn eu calonnau i'r Aipht,

p adn. 51, 52. Neh. 9. 16. Salm 106. 16, 32, 33. Ezec. 20. 6—14. q adn. 27. Barn. 11. 2. 1 Bren. 2. 27. r Ex. 14. 11, 12. a 16. 3. a 17. 3. Num. 11. 5. a 14. 3, 4. a 21. 5. Neh. 9. 17.

* Er cymmaint gwr ydoedd Moses, o ran ei swydd, ei ddoniau, ei weithredoedd, a'r defnydd a wnaeth Duw o hóno fel gwaredwr a deddfwr i Israel; eto, ni fynai eu tadau hwy, yn y rhai yr ymffrostient gymmaint, ufuddâu iddo wedi yr holl arwyddion a welsent ganddo. Yr un modd, ni fynai y rhai hyn ufuddâu i'r hwn oedd yn anfeidrol fwy na Moses. Crybwyllir hyn gan Stephan, er dangos i'r cyngor, mai nid peth newydd i Israel oedd gwrthryfela yn erbyn Duw, trwy wrthod y rhai a ddanfonai efe i'w gwaredu. † Nid at y caled-waith, nac at ymborth yr Aipht yn gymmaint; ond at eilun-addoliaeth yr Aipht yn benaf, fel y dangosir yn yr adnod nesaf.

40 Gan ddywedyd [s] wrth Aaron, * Gwna i ni dduwiau † i'n blaenori: oblegid y ‡ Moses yma, yr hwn a'n dug ni allan o dir yr Aipht, || ni wyddom ni beth a ddigwyddodd iddo.

s Ex. 32. 1.

* "Duwiau," yn ol dull yr Aiphtiaid, y rhai a ddywedent fod llawer, a gwahanol raddau o dduwiau. † Yr oedd hyn yn dangos y dirmyg eithaf ar Dduw a Moses, ag oedd wedi eu blaenori hyd yn hyn. ‡ Dull dirmygus iawn o ddywedyd am Moses, a hyny yn wyneb addefiad mai efe a'u dygodd hwynt allan o dir yr Aipht. || Yr oedd hyn tua diwedd y deugain niwrnod y bu Moses gyda Duw yn y mynydd: pe buasai rhyw anffawd wedi dygwydd i Moses, dylasent feddwl bod Duw yr un o hyd i'w dwyn hwynt yn mlaen.

41 [t] * A hwy a wnaethant lo yn y dyddiau hynny, † ac a offrymmasant aberth i'r eilun, [u] ac a ymlawenhasant y'ngweithredoedd eu dwylaw eu hun.

t Ex. 32. 2—8, 17—20. Deut. 9. 12—18. Neh. 9. 18. Salm 106. 19—21. u Es. 2. 8, 9. a 44. 9—20. Hos. 9. 1, 10. Hab. 2. 18—20.

* Yn gyffelyb i'r Aiphtiaid, y rhai a addolent eu duw *Apis* dan rith llo, neu ŷch. Dechreuad, a chynllun

oedd hyn, o'u heilun-addoliaeth hwy mewn oesoedd wedi hyn, i'r hyn y rhoddodd Duw hwy i fynu yn *farnol*, nes o'r diwedd iddo eu danfon hwy i gaethiwed dàn yr Assyriaid a'r Caldeaid. Yr oedd hyn hefyd yn fuan iawn wedi iddynt glywed Duw yn taranu yn erbyn eilun-addoliaeth oddi ar ben Sinai. † Am y pethau eraill yn yr adnod, gwel yr hanes yn Exod. 32. 5, 6.

42 * Yna y trôdd Duw, [x] † ac a'u rhoddes hwy i fynu ‡ i wasanaethu [y] llu y nef; ‖ fel y mae yn ysgrifenedig yn llyfr y prophwydi, [z] A offrymmasoch i mi laddedigion ac aberthau [a] ddeugain mlynedd yn yr anialwch, [b] chwi tŷ Israel?

x Salm 81. 11, 12. Es. 66. 4. Ezec. 14. 7—10. a 20. 25, 39. Hos. 4. 17. Rhuf. 1. 24—28. 2 Thes. 2. 10—12. y Deut. 4. 19. a 17. 3. 2 Bren. 17. 16. a 21. 3. Job 31. 26—28. Jer. 19. 13. Ezec. 8. 16. z Amos 5. 25, 26. a Es. 43. 23. b Salm 95. 10. Heb. 3. 9, 15—17.

* O fod fel Tad iddynt, i fod fel Barnwr arnynt, i'w cospi yn lle eu bendithio fel cynt. † Trwy gymmeryd ymaith ddylanwadau ac attaliadau ei Ysbryd a'i ras, a'u gadael hwynt i'w tueddiadau eilun-addolgar eu hunain yn ei farn gyfiawn. ‡ Darluniad sydd yma o agwedd y genedl yn mhen oesoedd wedi hyn, ar ol hir breswylio yn ngwlad Canaan. Yr haul, y lleuad, a'r planedau, yw llu y nef yma. ‖ Mae y geiriau hyn yn Amos 5. 25; yr oedd y deuddeg prophwyd lleiaf, fel eu gelwir, gan yr Iuddewon yn un llyfr, am hyny dywed Stephan yma "llyfr y prophwydi," yn y rhif unigol.

43 [c] * A chwi a gymmerasoch † babell ‡ Moloch, ‖ a seren eich duw Remphan, [d] lluniau y rhai a wnaethoch i'w haddoli: [e] § minnau a'ch symmudaf chwi tu hwnt i Babilon.

c Lef. 18. 21. a 20. 2—5. 2 Bren. 17. 16—18. a 21. 6. d Ex. 20. 4, 5. Deut. 4. 16—18. a 5. 8, 9. e 2 Bren. 17. 6. a 18. 11. Amos 5. 27.

* Ar eu hysgwyddau, efallai, yn debyg i'r arch yn yr anialwch. † Math o deml fechan, er anrhydedd i Moloch, tebyg i'r temlau arian a wnâi yr Ephesiaid i Diana. ‡ Tybir mai delw gyssegredig i'r haul, ydoedd Moloch; duw meibion Ammon ydoedd, 1 Bren. 11. 7: gwaherddid i Israel ei addoli, Lef. 18. 21; a 20. 2; ac eto ni a welwn uchod i un mòr enwog â Solomon adeiladu uchelfa iddo. ‖ Chiwn ydyw y Remphan hwn yn Amos 5. 26: Remphan yw yn nghyfieithiad Groeg y deg a thriugain o'r Hen Destament, o'r hwn yr oedd Stephan yn cymmeryd y geiriau. Nis gwyddys beth ydoedd yn arwyddo, pa un ai y Lleuad, Sadwrn, neu Gwener: ac nid yw yn werth manylu ymha. § Dechreuodd eu heilun-addoliaeth yn y llo aur, ac yna aethant yn mlaen o ddrwg i waeth drwy yr oesoedd, nes i Dduw o'r diwedd eu symmud hwynt i Babilon er eu cospi a'u diwygio.

44 [f] * Tabernacl y dystiolaeth oedd † ym mhlith ein tadau yn yr anialwch, ‡ fel y gorchymynasai yr hwn a ddywedai wrth Moses, [g] am ei wneuthur ef yn ol y portreiad a welsai.

f Ex. 38. 21. Num. 1. 50—53. a 9. 15. a 10. 11. a 17. 7, 8. a 18. 2. Jos. 18. 1. 2 Cron. 24. 6. g Ex. 25. 40. a 26. 30. 1 Cron. 28. 11, 19. Heb. 8. 2.

* "Tabernacl y dystiolaeth" am fod llechau y dystiolaeth, y deg gair deddf, yn yr arch ynddi, ac am fod y *Shecinah* yn dystiolaeth o bresenoldeb Duw ar y drugareddfa yno. † Fel pe dywedasai Stephan, Cofiwch i'n tadau ni gael tabernacl y dystiolaeth yn yr anialwch, cyn dyfod i'r wlad hon; felly nis gall fod pwys mawr yn y cyhuddiad a roddir yn fy erbyn I o ragfynegi dinystr y deml hon, a bwrw ei fod yn wir. ‡ Gorchymodd Duw i Moses osod i fynu dabernacl y dystiolaeth yn yr anialwch cyn dyfod yma; felly gall Duw fyned a'i waith ef yn mlaen eto mewn mànau eraill, er dystrywio y lle hwn a'r wlad hon.

45 [h] * Yr hwn a ddarfu i'n tadau ni ei gymmeryd, a'i ddwyn i mewn gyd âg [i] † Iesu i ‡ berchenogaeth y Cenhedloedd, [k] y rhai a yrrodd Duw allan o flaen ein tadau, [l] ‖ hyd yn nyddiau Dafydd:

h Jos. 3. 11—14. a 18. 1. Barn. 18. 31. 1 Sam. 4. 4. 1 Bren. 8. 4. 1 Cron. 16. 39. a 21. 29. i Jos. 3. 6, 7. Heb. 4. 8. k pen. 13. 19. Salm 78. 55. l 2 Sam. 6. 1 Cron. 15—17.

* Sef tabernacl y dystiolaeth, a grybwyllwyd yn yr adnod o'r blaen, yr hwn a ddygodd meibion Israel gyda hwynt i Ganaan. † Josua yw yr Iesu hwn, megys yn Heb. 4. 6. Yr oedd Josua yn gysgod o Grist, o'r un enw, a'r enw yn arwyddo yr un peth, gwaredwr: ond y mae Person a gwaredigaeth y sylwedd yn rhagori yn anfeidrol ar berson a gwaredigaeth y cysgod. ‡ Gwlad Canaan, yr hon oedd yn mherchenogaeth y cenedloedd o'r blaen. Mae Stephan yma yn dangos mai gwlad wedi ei llygru gan genedloedd eilun-addolgar oedd gwlad Canaan cyn i Israel ei meddiannu, ac nad oedd dim rhyw sancteiddrwydd cynnwynol yn perthyn iddi mwy na rhyw wlad arall, fel y dychymmygai yr Iuddewon. ‖ Cyhyd â hyny, sef tua phedwar càn mlynedd wedi dyfod i Ganaan, y bu yr Iuddewon heb un deml, na meddwl am dani.

46 [m] * Yr hwn a gafodd ffafr ger bron Duw, [n] † ac a ddymunodd gael ‡ tabernacl i Dduw Jacob.

m pen. 13. 22. 1 Sam. 15. 28. a 16. 1, 11—13. 2 Sam. 6. 21. a 7. 8, 9, 18, 19. 1 Cron. 28 4, 5. Salm 78. 68—72. a 89. 19—37. a 132. 11, 12. n 2 Sam. 7. 1—5. 1 Bren. 8. 18, 19. 1 Cron. 17. 1—4. a 22. 7, 8. a 28. 2, 3. a 29. 2, 3. Salm 132. 1—5.

* Yn debyg fel y sylwyd am Mair, yn Luc 1. 28. † Am ddymuniad Dafydd i hyn, gwel Salm 132. 2—5; a 2 Sam. 7. 2. ‡ A'i gwnaeth yn destyn gweddi; felly, meddant, yr arwydda y gair Groeg *(êtêsato)* a gyfieithir yma dymuno. ‡ Gelwir y deml yn "dabernacl" yma, oblegid ei bod yn lle y tabernacl, i'r un dyben, ac yn cynnwys yr un dodrefn â'r tabernacl.

47 [o] * Eithr Solomon a adeiladodd dŷ iddo ef.

o 2 Sam. 7. 13. 1 Bren. 5. a 6. 1, 37, 38. a 7. 13—51. 2 Cron. 2—4. Zec. 6. 12, 13.

* Gwel 1 Bren. 6. 1, &c.; 2 Cron. 3. 1, 2. Cymmeradwyodd Duw fwriad Dafydd, a chafodd ddarpar defnyddiau at y gwaith yn helaeth; ond Solomon ei fab a gafodd adeiladu, yr hwn oedd yn fwy heddychol na Dafydd, ac yn gysgod mwy nodedig o Grist.

48 [p] * Ond nid yw [q] y Goruchaf yn trigo mewn temlau o waith dwylaw: [r] fel y mae y prophwyd yn dywedyd,

p Deut. 32. 8. Salm 7. 17. a 46. 4. a 91. 1, 9. a 92. 8. Dan. 4. 17, 24, 25, 34. Hos. 7. 16. q pen. 17. 24, 25. 1 Bren. 8. 27. 2 Cron. 2. 5, 6. a 6. 18. r Es. 66. 1, 2.

* Er i'r tabernacl yn gyntaf, ac wedi hyny y deml, gael eu hadeiladu ar orchymyn Duw, ac at ei wasanaeth ef; eto ni ddylid dychymmygu mòr gnawdol am y Bod dwyfol ac anfeidrol, ei fod ef yn trigo mewn temlau o waith dwylaw dynion: am hyny ynfyd iawn oedd yr Iuddewon yn rhoddi cymmaint o bwys ar eu teml, ac yn gwneyd Stephan yn droseddwr o herwydd dywedyd yn erbyn y lle sanctaidd hwnw.

49 [s] * Y nef *yw* fy ngorsedd-faingc, a'r ddaear *yw* troed-faingc fy nhraed. [t] † Pa dŷ a adeiledwch i mi? medd yr Arglwydd; neu pa le *fydd* i'm gorphwysfa i?

s 1 Bren. 22. 19. Salm 11. 4. Jer. 23. 24. Mat. 5. 34, 35. a 23. 22. Dat. 3. 21. t Jer. 7. 4—11. Mal. 1. 11. Mat. 24. 2. Ioan 4. 21.

* Mae y geiriau hyn yn Es. 66. 1, 2. Pa mòr anfeidrol fawr rhaid bod y Duw hwn, yr hwn mae ei orsedd-fainc yn y nefoedd, a'r ddaear oll yn lleithig, neu droed-fainc ei draed ef! † Pa dŷ digon mawr a gogoneddus, i Dduw mòr fawr a gogoneddus â hwn? cofiwn mai Ysbryd yw Duw.

50 [u] * Onid fy llaw i a wnaeth hyn oll?

u pen. 14. 15. Ex. 20. 11. Salm 33. 6—9. a 50. 9—12. a 146. 5, 6. Es. 40. 28. a 44. 24. a 45. 7, 8, 12. Jer. 10. 11. a 32. 17.

* Atebed yr holl grëedigaeth fawr i gyd, a phob crëadur; a phan atebont, dywedant, Efe a'n gwnaeth ni, ac nid ni ein hunain. Gan mai gwaith ei law ef yw hyn oll, mae efe ei hun yn fwy na'r oll a wnaeth; ac yna, pa dŷ a adeiledir iddo?

51 ¶ [x] * Chwi rai gwar-galed, [y] † a dïenwaededig o galon ac o glustiau, ‡ yr ydych chwi yn wastad [z] yn gwrthwynebu yr Ysbryd Glân: [a] ‖ megis eich tadau, felly chwithau.

x Ex. 32. 9. a 33. 3, 5. a 34. 9. Deut. 9. 6, 13. a 31. 27. 2 Cron. 30. 8. Neh. 9. 16. Salm 75. 5. a 78. 8. Es. 48. 4. Jer. 17. 23. Ezec. 2. 4. Zec. 7. 11, 12. y Lef. 26. 41. Deut. 10. 16. a 30. 6. Jer. 4. 4. a 6. 10. a 9. 25, 26. Ezec. 44 7, 9. Rhuf. 2. 25, 28, 29. Phil. 3. 3. Col. 2. 11. z pen. 6. 10. Neh. 9. 30. Es. 63. 10. Eph. 4. 30. a adn. 9, 27, 35, 39. Mat. 23. 31—33.

Tybir fod y cyngor erbyn hyn yn dechreu gweled dyben Stephan yn ei araeth hon, o ymddiffyn yr efengyl a'i goruchwyliaeth yn erbyn y gosodiadau Iuddewig, a'u bod yn terfysgu yn ddychrynllyd fel na chaffai efe orphen ei ymadrodd. Wrth weled hyny, mae efe yn tòri ar ei ymadrodd, ac yn eu hargyhoeddi hwynt yn y geiriau llymion uchod. * Cyffelybiaeth oddi wrth fustych anhywaith, na oddefant yr iau. Gan eu balchder, eu deddfoldeb, a'u rhagfarn, nid ymostyngent hwythau i iau Crist, nac i athrawiaeth ei efengyl ef. † Er enwaedu eu cnawd, ac er eu hymffrost o hyny; yr oedd eu calonau a'u clustiau yn ddïenwaededig ysbrydol: am hyn ni wrandawent eiriau Duw, nid ymroddent iddo, ac ni safent yn ffyddlawn yn ei gyfammod ef. ‡ Gwrthwynebu y gwirionedd a lefarwyd trwy yr Ysbryd Glân gan y prophwydi, gan Grist, a chan ei apostolion ef. Gwrthwynebu y gwyrthiau a wnaed trwy yr Ysbryd Glân, a gwrthwynebu ymrysoniadau yr Ysbryd Glân â'u cydwybodau hwy eu hunain. ‖ Dilyn camrau y gwaethaf o'u henafiaid, ie, gwneyd yn waeth na'r gwaethaf o honynt hwy, yn ol y ddïareb, Ezec. 16. 44, "Fel y ferch y mae'r fam."

52 [b] * Pa un o'r prophwydi ni ddarfu eich † tadau chwi ei erlid? ‡ a hwy a laddasant y rhai [c] oedd yn rhagfynegi dyfodiad [d] y Cyfiawn, [e] ‖ i'r hwn yr awrhon y buoch chwi fradwyr a llofruddion:

b 1 Sam. 8. 7, 8. 1 Bren. 19. 10, 14. 2 Cron. 24. 19—22. a 36. 15, 16. Neh. 9. 26. Jer. 2. 30. a 20. 2. a 26. 15, 23. Mat. 5. 12. a 21. 35—41. a 23. 31—37. Luc 11. 47—51. a 13. 33, 34. 1 Thes. 2. 15. c pen. 3. 18, 24. 1 Pedr 1. 11. Dat. 19. 10. d pen. 3. 14. a 22. 14. Zec. 9. 9. 1 Ioan 2. 1. Dat. 3. 7. e pen. 2. 23. a 3. 15. a 4. 10. a 5. 28—30.

* Ni bu braidd neb o brophwydi Duw dàn yr Hen Destament na chawsont eu herlid gan ryw rai o'r Iuddewon. Gwel 1 Bren. 19. 10, 14; 2 Cron. 36. 16. † "Eich tadau chwi:" i ddirmygu eu hymffrost balch hwy yn eu tadau, ac i ddangos eu bod hwythau yn cerdded ffyrdd eu tadau. ‡ Nid eu herlid yn unig, ond eu lladd hefyd, amrai o honynt, er eu bod yn rhagfynegi dyfodiad y Messiah, yr hwn a elwir yma y Cyfiawn, mewn ffordd o enwogrwydd, am ei fod yn berffaith gyfiawn, o ran ei Berson dwyfol, ei natur ddynol, ei fywyd sanctaidd, ac yn dwyn cyfiawnder tragywyddol i'r rhai oll a gredant ynddo. ‖ Bradwyr, trwy gyflogi Judas i'w fradychu ef: a llofruddion trwy gymhell Pilat i'w gondemnio a'i groeshoelio ef. Dyledswydd y Sanhedrim yn ol ei chyfansoddiad oedd, amddiffyn a gwarchod bywydau y prophwydi; yn lle hyny, dyma hwy wedi troi yn fradwyr a llofruddion y Prophwyd mawr a gyfododd Duw.

53 [f] * Y rhai a dderbyniasoch y gyfraith trwy drefniad angelion, [g] † ac nis cadwasoch.

f Ex. 19. a 20. Deut. 33. 2. Salm 68. 17. Gal. 3. 19. Heb. 2. 2. g Ezec. 20. 18—21. Ioan 7. 19. Rhuf. 2. 23—25. Gal. 6. 13.

* Sef trwy weinidogaeth angelion. Gwel Galat. 3. 19; Heb. 2. 2. Tybir mai yr angelion oedd yn gwneyd y taranau, y mellt, y sain udgorn, a'r llef geiriau, yn rhoddiad y ddeddf ar Sinai. Mae yn ddïammau mai Mab Duw a roddodd y ddeddf, a bod lluoedd o angelion yno gydag ef er mawreddu yr achlysur; ond nis gwyddom beth oedd eu gwaith hwy ar yr achlysur hwnw. Dywedir mai gair milwraidd yw y gair *(diatagas)* a gyfleithir yma "trefniad;" felly yr oedd Mab Duw fel Deddf-roddwr a Brenin mawr ar Sinai, a miloedd o angelion fel milwyr tanllyd gydag ef, yn osgorddion iddo, ac yn gedyrn o nerth yn gwneuthur ei air ef. † Gan nas cadwasant y gyfraith a roddwyd trwy angelion, nid rhyfedd iddynt wrthod yr efengyl a roddwyd trwy ddynion tlodion.

54 ¶ * A phan glywsant hwy y pethau hyn, [h] hwy a ffrommasant yn eu calonnau, [i] ac a ysgyrnygasant ddannedd arno.

h pen. 5. 33. a 22. 22, 23. i Job 16. 9. Salm 35. 16. a 112. 10. Galar. 2. 16. Mat. 8. 12. a 13. 42, 50. a 22. 13. a 24. 51. a 25. 30. Luc 13. 28.

* Gwel ar pen. 5. 33. Nis gallent oddef na gwrthddywedyd yr edliwion llymion a didderbyn wyneb hyn, gan hyny aethant yn gynddeiriog o ddigllonedd, hyd at ysgyrnygu dannedd, yn debycach i grëaduriaid yn uffern nac ar y ddaear. Ofnadwy yw euogrwydd a llid ar unwaith.

55 * Ac efe [k] yn gyflawn o'r Ysbryd Glân, [l] † a edrychodd yn ddyfal tu a'r nef; [m] ‡ ac a welodd ogoniant Duw, ‖ a'r Iesu [n] yn sefyll ar ddeheulaw Duw.

k Gwel ar pen. 2. 4.—a 4. 8. a 6. 3, 5, 8, 10. a 13. 9, 10. Mica 3. 8. l pen. 1. 10, 11. 2 Cor. 12. 2—4. Dat. 4. 1—3. m Es. 6. 1—3. Ezec. 1. 26—28. a 10. 4, 18. a 11. 23, 24. Ioan 12. 41. 2 Cor. 4. 6. 2 Pedr 1. 17. Dat. 21. 11, 23. n Salm 109. 31. a 110. 1. Ioan 14. 3. Heb. 1. 3. a 8. 1.

* Llawn o ras a dylanwadau cynnorthwyol yr Ysbryd Glân, cyfatebol i'w brofedigaeth a'i ddyoddefiadau presenol. † Efe a edrychodd uwchlaw dynion a'u bygythion, mewn ffydd ac ymddiried am gymmorth Duw yn yr awr gyfyng hòno oedd yn dyfod arno. ‡ Gwelodd ogoniant fel y Shecinah yn y sancteiddiolaf gynt: gwelodd gymmaint o ogoniant Duw, ac o'r Arglwydd Iesu yn ei natur ddynol, ag oedd yn bosibl i lygaid o gnawd i edrych arno. ‖ "Yn *sefyll* ar ddeheulaw Duw:" mewn agwedd barod i ddadlau achos cyfiawn ei was, i'w nerthu ef yn ei ddyoddefaint, i dderbyn ei enaid ef i ogoniant, ac i ddïal ar ei elynion ef.

56 * Ac efe a ddywedodd, Wele, [o] mi a welaf y nefoedd yn agored, [p] a Mab y dyn yn † eistedd ar ddeheulaw Duw.

o pen. 10. 11, 16. Ezec. 1. 1. Mat. 3. 16. Marc 1. 10. Luc 3. 21. Dat. 4. 1. a 11. 19. a 19. 11. p Dan. 7. 13, 14. Mat. 16. 27, 28. a 25. 31. a 26. 64, 65. Ioan 5. 22—27.

* Gweledigaeth wirioneddol oedd hon, a roddes Duw i Stephan, er ei nerthu a'i galonogi i ddyoddef. Nis gallwn ddywedyd *pa fodd* yr agorodd Duw y nefoedd iddo; mae yn ddïammau mai peth gwyrthiol a goruwchnaturiol oedd, ac nad oedd neb yn gweled y weledigaeth ond Stephan ei hun. † *Sefyll*, yn ol y Saesoneg, sydd yn yr adnod hon yn gystal a'r adnod o'r blaen; ac yr un gair *(estôta)* sydd yn y Groeg yn y ddwy adnod: *sefyll* yw ystyr mwyaf priodol y gair hwnw, a pha fodd y cyfleithwyd ef yn *eistedd* yn yr adnod hon, nis gwyddom. Dywedodd Stephan ei weledigaeth ger bron y cyngor, yn 1. O herwydd ei fawr gariad at Grist, ac o wir chwant ei dderchafu ef. 2. Er galw ei elynion i edifeirwch, tra yr oedd y nefoedd yn agored, a Mab Duw yn barod i faddau a'u derbyn hwy. 3. Er cryfder i eraill, fel na byddai ofn arnynt addef Crist a'i wirionedd. 4. I ddychrynu y rhai mwyaf caled o honynt, trwy ddangos iddynt eu barnwr a'u dïalydd. 5. Er tystiolaethu iddynt ei fod ef ei hun yn dyst llygaid o Grist wedi adgyfodi, yr hyn beth oedd mòr anodd ganddynt hwy ei gredu.

57 [q] * Yna y gwaeddasant â llef uchel, [r] † ac a gauasant eu clustiau, ‡ ac a ruthrasant yn unfryd arno,

q adn. 54. pen. 21. 27—31. a 23. 27. r Salm 58. 4. Diar. 21. 13. Zec. 7. 11.

* Gan gymmeryd arnynt eu bod wedi sỳnu a dychrynu yn ddirfawr wrth glywed y fath eiriau cableddus. † Trwy roddi eu bysedd yn eu clustiau, mae yn debyg, fel na chlywent ychwaneg o'r fath eiriau. ‡ Yr oedd y fath ruthr gorwyllt â hyn yn groes i bob cyfraith a rhëol: ac ymddygiadau cynddeiriog o'r fath hyn a barodd i'r Rhufeiniaid wedi hyny ddystrywio eu teml a'u dinas hwy.

58 [s] *Ac a'*i* bwriasant allan o'r ddinas, [t] ac a'*i* llabyddiasant: [u] † a'r tystion a ddodasant [x] eu dillad wrth draed ‡ dyn ieuangc a elwid Saul.

s Num. 15. 35, 36. 1 Bren. 21. 13. Luc 4. 29. Heb. 13. 12, 13. t pen. 6. 11. Lef. 24. 14—16. Ioan 10. 23—36. u Deut. 13. 9, 10. a 17. 7. x pen. 8. 1. a 9. 1, &c.

* Fel nad halogid y ddinas gan ei gabledd ef, ac felly yr oedd y ddeddf yn gofyn gwneyd â'r cablydd, Lef. 24. 14, 23; 1 Bren. 21. 13. Y rhai hyn oedd i daflu y gàreg gyntaf ato ef, Deut. 17. 6, 7. Mae yn debyg eu bod yn diosg eu dillad at y gorchwyl ofnadwy ac anghyfiawn hwn. ‡ Saul oedd ei enw Hebreaidd ef, a Paul ei enw Rhufeinig, wrth ba un y gelwir ef yn mòr màn ar ol ei dröedigaeth. Ar y weithred greulawn hon o erlid, mae enw y dyn ieuanc hwn yn dyfod i'r golwg gyntaf, a rhyfedd i'r fath erlidiwr gael ei wneyd yn apostol mòr enwog: mae holl ffyrdd Duw i gyd yn rhyfedd, yn enwedig ffyrdd ei ras.

59 * A hwy a labyddiasant Stephan, [y] † ac efe yn galw ‡ *ar Dduw,* ac yn dywedyd, [z] ‖ Arglwydd Iesu, derbyn fy yspryd.

y pen. 2. 21. a 9. 14, 21. a 22. 16. Joel 2. 32. Rhuf. 10. 12—14. 1 Cor. 1. 2. z Salm 31. 5. Luc 23. 46.

* Hwy a'i llabyddiasant ef yn ddidrugaredd ac yn effeithiol: † a thra yr oeddynt hwy yn gynddeiriog yn ei labyddio, yr oedd yntau yn dawel ac yn ddiysgog yn gweddio. ‡ Nid yw y geiriau *ar Dduw* yn y Groeg; ond nis gallai y cyfieithwyr gyfieithu yr adnod yn synwyrol heb eu gosod i mewn: yr oedd efe yn galw ar y Duw y gwelsai ei ogoniant yn adn. 55, sef ar yr Arglwydd Iesu a welsai efe yn sefyll ar ddeheulaw Duw. ‖ Onid oes yma gydnabyddiaeth amlwg o Dduwdod Crist, a hyny gan ddyn duwiol yn ymyl marw? Pa fodd y gallai yr Arglwydd Iesu dderbyn ei ysbryd ef, oni b'ai ei fod ef yn Dduw? Mae Stephan yma yn cydnabod Duwdod Crist yn hollawl yr un modd ag yr oedd Crist yn cydnabod Duwdod y Tad wrth farw, Luc 23. 46.

60 [a] * Ac efe a ostyngodd ar ei liniau, † ac a lefodd â llef uchel, [b] Arglwydd, ‡ na ddod y pechod hwn yn eu herbyn. ‖ Ac wedi iddo ddywedyd hyn, [c] efe a hunodd.

a Ezra 9. 5. Dan. 6. 10. Luc 22. 41. b Mat. 5. 44. Luc 6. 28. a 23. 34. Rhuf. 12. 14—21. c pen. 13. 36. 1 Cor. 11. 30. a 15. 6, 18, 20, 51. 1 Thes. 4. 13, 14. a 5. 10.

* Nis gwyddom pa agwedd oedd ar ei gorph yn gweddio drosto ei hun; ond dyma efe yn myned ar ei liniau yn nghanol y cerig a luchid arno i weddio dros ei elynion. † Fel y gallai ei labyddwyr ei glywed ef, a pheth rhyfedd na buasai y fath ymddygiad yn effeithio arnynt, i ddofi eu llidiowgrwydd. ‡ Na phwysa y pechod hwn yn eu herbyn, yw ystyr y geiriau gwreiddiol: na chyfrif ef iddynt, ac na chospa hwynt yn ol haeddiant y pechod hwn. Mae y weddi hon yn cynnwys edifeirwch a dychweliad y bobl hefyd; oblegid heb hyny (er mai nid am hyny) nid oes fodd i beidio rhoddi pechod yn erbyn dynion. ‖ Er mòr greulawn a phoenus y rhoddwyd y merthyr duwiol hwn i farwolaeth; eto hûno tawel oedd iddo ef: yr oedd ei gyflwr yn dda, ei achos yn dda, ei gydwybod yn dda, a'i obaith yn dda, am adgyfodiad dedwydd, a bywyd tragywyddol tu draw i'r bedd.

PEN. VIII.

Erledigaeth yr eglwys yn Jerusalem.

[a] * A SAUL oedd yn cyttuno i'w ladd ef. † A bu yn y dyddiau hynny [b] erlid mawr ar yr [c] eglwys oedd yn Jerusalem: [d] ‡ a phawb a ‖ wasgarwyd ar hŷd gwledydd Judea a [e] Samaria, [f] § ond yr apostolion.

a pen. 7. 58. a 22. 20. b pen. 5. 33, 40. a 7. 54. Mat. 10. 25—28. a 22. 6. a 23. 34. Luc 11. 49, 50. Ioan 15. 20. a 16. 2. c pen. 2. 47. a 7. 38. a 11. 22. a 13. 1. d adn. 4. pen. 11. 19—21. Mat. 5. 13. Phil. 1. 12. e adn. 14. pen. 1. 8. Ioan 4. 39—42. f pen. 5. 18, 20, 33, 40. Ex. 10. 28, 29. Neh. 6. 3. Dan. 3. 16—18. a 6. 10, 23. Heb. 11. 27.

* Cytuno mewn meddwl, gair, a gweithred: yn *ymhyfrydu* yn y weithred; felly yr arwydda y gair gwreiddiol; a dywedir fod y gair *cytuno* yn rhŷ wàn o lawer. † Pan welodd y Sanhedrim iddynt gael eu goddef i labyddio Stephan heb i'r werin derfysgu, ac heb i'r rhaglaw Rhufeinig gymmeryd sylw o'r peth, ymhyfasant yn fwy; ac yn awr dyma hwy yn dechreu erlid yr holl eglwys, ac nid yr apostolion yn unig megys hyd yn hyn. ‡ Y rhan fwyaf o lawer, medd rhai, ac nid pawb yn hollawl ond yr apostolion. Pawb ag oedd yn bregethwyr, medd eraill, ond yr apostolion. ‖ Gwasgaru fel hau hâd, yr hwn a ddyg ffrwyth toreithiog. Felly y goruwch-lywodraethodd Duw yr erledigaeth hon er taeniad cyflymach yr efengyl. § Mae dywediad traddodiadol hên iawn, i Grist benderfynu deuddeng mlynedd o'i esgyniad ef, i'r Iuddewon yn Jerusalem a Judea gael pregethu yr efengyl iddynt: ac iddo ddywedyd wrth ei apostolion, Ewch chwi allan i'r byd wedi deuddeng mlynedd. Tybia rhai mai dyna paham yr arosodd yr apostolion yn Jerusalem ar ol gwasgar y lleill: ond nid yw yr ysgrythyr yn dywedyd dim am y cyfryw draddodiad. Rhyfedd fel y gofalodd Duw am ei apostolion yn Jerusalem y pryd hwnw.

2 [g] * A gwŷr bucheddol a ddygasant Stephan *i'w gladdu,* [h] † ac a wnaethant alar mawr am dano ef.

g pen. 2. 5. a 10. 2. Luc 2. 25. h Gen. 50. 10, 11. Num. 20. 29. Deut. 34. 8. 1 Sam. 28. 3. 2 Sam. 3. 31. 2 Cron. 32. 33. a 35. 25. Es. 57. 1, 2. Jer. 22. 10, 18. Ioan 11. 31—35.

* "Gwŷr bucheddol:" dynion duwiol a chrefyddol iawn: ac yr oedd y weithred hon o anturio claddu corph Stephan, dangos cymmaint o barch iddo, a chymmaint o alar am dano, yn wyneb y fath erlid, yn brawf nodedig o'u duwioldeb hwy. † Cyfrifid yn bechod yn mhlith yr Iuddewon i gyfhwrdd â chorph yr hwn a labyddiesid am gabledd; ond dyma wŷr bucheddol yn rhoddi claddedigaeth anrhydeddus i Stephan, ac yn galaru ar ei ol yn gyhoeddus megys un o'r rhai enwocaf yn mhlith y genedl. Tybir i'r Iuddewon gymmeryd esgus oddiwrth hyn i erlid yn chwaneg.

3 * Eithr [i] Saul oedd yn anrheithio yr eglwys, ‡ gan fyned i mewn i bob tŷ, ‖ a llusgo allan wŷr a gwragedd, § efe a'*u* rhoddes y'ngharchar.

i pen. 7. 58. a 9. 1—13. a 22. 3, 4. a 26. 9—11. 1 Cor. 15. 9. Gal. 1. 13. Phil. 3. 6. 1 Tim. 1. 13.

* Mae yn debyg fod y dyn ieuanc penboeth hwn yn fwy llidiog a blaenllaw na neb o'r erlidwyr, ac fel yr addefodd ef ei hun wedi hyn "yn gablwr, yn erlidiwr, ac yn drahaus." † Fel blaidd neu lew, neu ryw grëadur gwyllt ysglyfaethus: felly meddant yw ystyr y gair *(elumaineto)* a gyfieithir yma anrheithio. ‡ Diammau fod ganddo awdurdod oddiwrth y Sanhedrim i hyn: gwyddent nas gallent gael neb ffyddlonach. ‖ Eu llusgo megys gerfydd gwallt eu penau, heb barchu neb, hen nac ieuanc, gwrryw na benyw. ‖ Diammau i lawer gael eu rhoddi i farwolaeth hefyd y pryd hwn, a Philat yn gwybod hyny heb ofalu dim am y peth.

4 [k] * A'r rhai a wasgarasid a dramwyasant gan bregethu y gair.

k pen. 11. 19. a 14. 2—7. Mat. 10. 23. 1 Thes. 2. 2.

* Fel hyn yr oedd Duw yn goruwch-lywodraethu pethau, i ddwyn da allan o ddrwg, a goleuni allan o dywyllwch. Yn awr yr oedd mûr y gwahaniaeth yn cael ei dynu i lawr, a Japheth yn cael ei ddwyn i breswylio yn mhebyll Sem. Nid oedd o bwys mawr o ba le,

na chan bwy, y cafodd y pregethwyr hyn eu hurddau, hyd ag yr oeddynt o ddanfoniad Duw, a thân ddylanwadau yr Ysbryd Glân.

5 * Yna [l] Phylip a aeth i waered [m] † i ddinas Samaria, [n] ‡ ac a bregethodd Grist iddynt.

l adn. 1, 14, 15, 40. pen. 6. 5. a 21. 8. m pen. 1. 8. Mat. 10. 5, 6. n adn. 35—37. pen. 5. 42. a 9. 20. a 17. 2, 3. Ioan 4. 25, 26. 1 Cor. 1. 23. a 2. 2. a 3. 11.

* Nid Phylip yr apostol, yr oedd hwnw yn Jerusalem, adn. 1; ond un o'r saith a ddewiswyd yn pen. 6. 5. † Yr oedd hyn yn ol rhag-fynegiad Crist cyn ei esgyniad, pen. 1. 8. ‡ Athrawiaethodd am Dduwdod Crist, ei genedliad gwyrthiol, ei fywyd sanctaidd, ei farwolaeth aberthawl, ei adgyfodiad, ei esgyniad, yn nghyd a maddeuant pechodau, a bywyd tragywyddol, trwy ffydd yn ei enw ef.

6 * A'r bobl [o] yn gyttûn a ddaliodd ar y pethau a ddywedid gan Phylip, wrth glywed o honynt, † a gweled yr arwyddion yr oedd efe yn eu gwneuthur.

o pen. 13. 44. 2 Cron. 30. 12. Mat. 20. 15, 16. Ioan 4. 41, 42.

* Llawer o honynt yn gyttûn a ddaliasant ar y pethau. Yr oedd hyn yn barotôad da i'w tröedigaeth hwynt, oblegid ffydd sydd trwy glywed. Nid pawb o wrandawwyr yr efengyl sydd yn dàl ar *bethau* y weinidogaeth fel y Samariaid hyn. † Beth bynag oedd yr arwyddion, neu y gwyrthiau hyn, yr oeddynt oll yn brofion o ddanfoniad Phylip, ac o wirionedd ei athrawiaeth ef: Duw yn dwyn tystiolaeth i air ei ras.

7 [p] * Canys ysprydion aflan, gan lefain â llef uchel, a aethant allan o lawer a berchennogid *ganddynt;* a llawer yn gleifion o'r [q] parlys, ac yn [r] gloffion, a iachâwyd.

p pen. 5. 16. Mat. 10. 1. Marc 9. 26. a 16. 17, 18. Luc 10. 17. Ioan 14. 12. Heb. 2. 4. q pen. 9. 33, 34. Marc 2. 3—11. r pen. 3. 6, 7. a 14. 8—10. Es. 35. 6. Mat. 11. 5. a 15. 30, 31.

* Dyma'r arwyddion a soniwyd yn yr adnod o'r blaen. Gwelwn hanes cyffelyb yn Matth. 8. 29; Marc 1. 26; a 3. 11; a 5. 7; a Luc 4. 41. Yr oedd effeithiau mòr rymus ar y cythreuliaid trwy Phylip, ag oedd yn y mànau uchod trwy Grist ei hun. Crist ei hun oedd yn gweithredu yma, trwy Phylip fel offeryn.

8 [s] * Ac yr oedd llawenydd mawr yn y ddinas honno.

s pen. 13. 48, 52. Salm 96. 10—12. a 98. 2—6. Es. 35. 1, 2. a 42. 10—12. Luc 2. 10, 11. Rhuf. 15. 9—12.

* Nid am gael eu iachâu o glefydau, a'u gwaredu oddiwrth ysbrydion aflan yn unig; ond am fod efengyl Iesu yn cael ei phregethu iddynt hwy, Samariaid dirmygedig, a hwythau yn cael mwynâu o'i bendithion nefolaidd hi. Jerusalem, dinas Duw, yn erlid, ac yn gwrthod yr efengyl; a Samaria eilun-addolgar yn derbyn yr efengyl, ac yn llawenychu o'i phlegid. Rhyfedd y cyfnewidiadau mae gras Duw yn wneyd; a gwelwn yma mai wrth y neb y mỳno y mae efe yn trugarâu.

9 Eithr rhyw ŵr a'i enw Simon, oedd o'r blaen yn y ddinas yn [t] * swyno ac yn † hudo pobl Samaria, [u] ‡ gan ddywedyd ei fod ef ei hun yn rhyw un mawr.

t pen. 13. 6. a 16. 16—18. a 19. 18—20. Ex. 7. 11, 22. a 8. 18, 19. a 9. 11. Lef. 20. 6. Deut. 18. 10—12. 2 Tim. 3. 8, 9. Dat. 13. 13, 14. u pen. 5. 36. Ioan 7. 18. 2 Thes. 2. 4. 2 Pedr 2. 18.

* Trwy ryw gyfrinach ddirgel â'r ysbryd drwg, ond yn cymmeryd arno mai trwy allu dwyfol yr oedd yn gwneuthur ei weithredoedd. † Peri iddynt sỳnu wrth ei weithredoedd ef, ei ofni ef, a chredu ei fod ef yn rhyw un goruwch-naturiol. ‡ Dywedai Simon wrth y Samariaid, meddant, mai y Tad oedd; wrth yr Iuddewon, mai y Mab ydoedd; ac wrth y Cenedloedd, mai yr Ysbryd Glân ydoedd. Os gwir hyny, mae yn debyg mai gwedi yr amser hyn yr aeth efe i gymmaint rhyfyg; oblegid cyn hyn nis gwyddai efe ddim am egwyddorion cristionogaeth. Dywed *Justin Ferthyr* ei fod, yn hòni hawl i holl enwau y Duwdod; a dywedir fod delw wedi ei gosod i fynu iddo yn Rhufain, ar yr hon yr oedd yn argraffedig, *I Simon y Duw Sanctaidd!*

10 * Ar yr hwn [x] yr oedd pawb, [y] o'r lleiaf hyd y mwyaf, yn gwrando, gan ddywedyd, [z] † Mawr allu Duw yw hwn.

x Eph. 4. 14. 2 Pedr 2. 2. Dat. 13. 3. y Jer. 6. 13. a 8. 10. a 31. 34. Jona 3. 5. z 1 Cor. 1. 24.

* Gwelwn yma mòr hawdd yw darbwyllo dynion annwybodus i gredu celwydd a hudoliaeth, y mawrion yn gystal â'r bychain. † I blith pa genedl bynag yr elai y twyllwr hwn, dywedai, meddant, mai efe oedd Duw y genedl hòno, a choelid ef o herwydd ei swynion.

11 * Ac yr oeddynt a'u coel arno, † o herwydd iddo dalm o amser [a] eu hudo hwy â ‡ swynion.

a Es. 8. 19. a 44. 25. a 47. 9—13. Gal. 3. 1.

* Gwrandawent ei gableddau ef â'u clustiau, a chredent iddo yn eu calonau. Mòr wir yw yr hyn a ddywedodd ein Hiachawdwr, Ioan 5. 43, "os arall a ddaw yn ei enw ei hun, hwnw a dderbyniwch." † Yr oedd megys yn eu difeddiannu hwynt o'u synwyrau, fel na allent roddi eu rheswm naturiol ar waith. ‡ Gweithredoedd hudol o swyn-gyfaredd, oedd efe yn wneyd trwy oddefiad Duw, a thrwy gynnorthwy diafol, fel swynyddion yr Aipht gynt.

12 * Eithr pan [b] gredasant i Phylip, yn pregethu y pethau [c] a berthynent i † deyrnas Dduw, ‡ ac i enw Iesu Grist, || hwy a fedyddiwyd, [d] yn wŷr ac yn wragedd.

b adn. 35—38. pen. 2. 38. a 16. 14, 15, 31—34. Mat. 28. 19. Marc 16. 15, 16. Rhuf. 10. 10. 1 Pedr 3. 21. c pen. 1. 3. a 11. 20. a 20. 21, 25. a 28. 31. Luc 9. 2, 60. d pen. 5. 14. 1 Cor. 11. 11. Gal. 3. 28.

* Cafodd llawer o'r hudolion hyn, a dwyllesid cyhyd gan Simon, y fraint o gredu y gwirionedd o'r diwedd trwy weinidogaeth Phylip. Dyma beth oedd troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant satan at Dduw. † Teyrnas gras a theyrnas gogoniant: yr un yw, yn dechreu mewn gras yma, ac yn cael ei pherffeithio mewn gogoniant yn y nef. ‡ Pob peth am Berson Iesu Grist, ei swyddau, ei aberth, ac iachawdwriaeth i bawb a gredent yn a thrwy ei enw ef. || Nid oes na gwrryw na benyw yn Nghrist; am hyny mae yr olaf yn ddeiliaid bedydd fel y cyntaf, er nad oeddynt felly o ran yr enwaediad. Bedyddiwyd hwynt er tystiolaeth o'u ffydd yn Nghrist, eu hymroddiad a'u hufudd-dod iddo, a'u hymlyniad parâus a diysgog wrtho.

13 * A Simon yntau [e] hefyd a gredodd: † ac wedi ei fedyddio, ‡ a lynodd wrth Phylip, [f] || a synnodd arno wrth weled yr arwyddion a'r nerthoedd mawrion a wneid.

e adn. 21. Salm 78. 35—37. a 106. 12, 13. Luc 8. 13. Ioan 2. 23—25. a 8. 30, 31. Iago 2. 19—26. f pen. 3. 10. a 13. 44. Hab. 1. 5. Ioan 5. 20. a 7. 21.

* Credodd o ran cydsyniad â'r hanes, mai gwir oedd i Grist wneyd gwyrthiau, a chyfodi o feirw: ond nid gwir a bywiol ffydd ydoedd, yn puro ei galon ef, ac yn ei ddwyn i ufuddâu o'r galon i Grist. † Wrth weled y lliaws yn ei adael ef ac yn myned ar ol Phylip, tybiodd y twyllwr cyfrwys hwn, mai y peth goreu a allai yntau wneyd oedd, cael ei fedyddio gyda hwynt, ac yna y gallai gadw ei barch a'i gymmeriad yn eu plith hwynt fel o'r blaen. ‡ Tybiodd fod Phylip yn drêch swynwr nag ef ei hun, am hyny efe a lỳnodd wrtho, gan obeithio cael cyfle felly i ddysgu ei ffordd ragorach ef. Tybiodd hefyd, efallai, fod Iesu Grist, yr hwn oedd yn galluogi Phylip i wneyd ei wyrthiau, yn rhyw allu mwy nag a wyddai efe am dano. || Fel y sỳnasai y Samariaid wrtho yntau o'r blaen.

14 ¶ [g] A phan glybu yr apostolion yn Jerusalem, [h] dderbyn o Samaria air Duw, * hwy a anfonasant attynt [i] Pedr ac Ioan.

g adn. 1. pen. 11. 1, 19—22. a 15. 4. 1 Thes. 3. 2. h pen.

2. 41. a 17. 11. Mat. 13. 23. Ioan 12. 48. 1 Thes. 2. 13. 2 Thes. 2. 1 10. i pen. 3. 1—3. Gal. 2. 9.

* I gadarnâu a chynnorthwyo y gwaith da yn Samaria, i gyfrannu doniau ysbrydol yno, yr hyn ni allai neb ond yr apostolion; ac i gorpholi eglwys rëolaidd yno, trwy awdurdod apostolaidd. Ychydig o'r blaen buasai Ioan am alw tân o'r nef i ddyfetha y Samariaid, ond yn awr yr oedd yn myned atynt mewn teimladau gwahanol iawn.

15 Y rhai wedi eu dyfod i waered, k * a weddïasant drostynt, † ar iddynt dderbyn yr Ysbryd Glân.

k Mat. 18. 19. Ioan 14. 13, 14. a 16. 23, 24. Phil. 1. 19.

* Nid myned i waered i dra-arglwyddiaethu yn feistrolaidd arnynt, a wnaethant; ond i fod yn gyd-gynnorthwywyr eu ffydd hwynt, i weddio drostynt ar iddynt dderbyn yr Ysbryd Glân. † Derbyn yr Ysbryd Glân yn ei ddoniau anghyffredin, o dafodau, prophwydoliaethau, a gwneuthur gwyrthiau, er prawf mwy amlwg mai gwirionedd Duw oedd yr athrawiaeth a dderbyniasent; ei bod wedi gweithredu yn effeithiol ar eu calonau hwynt; ac eu bod hwy dàn yr oruchwyliaeth fendigedig hon o ras, yn cael eu gwneyd yn gydradd â'r Iuddewon dychweledig o ran breintiau a bendithion ysbrydol.

16 * (Canys eto l nid oedd efe wedi syrthio ar neb o honynt: m † ond yr oeddynt yn unig wedi eu bedyddio yn enw yr Arglwydd Iesu)

l pen. 10. 44—46. a 11. 15—17. a 19. 2. m pen. 2. 38. a 10. 47, 48. Mat. 28. 19. 1 Cor. 1. 13—15.

* Mae hyn yn dangos yn amlwg mai nid yr Ysbryd Glân yn ei ddoniau a'i waith achubol, a feddylir yn yr adnod o'r blaen; oblegid fel hyny yr oedd wedi syrthio arnynt, a gweithredu ynddynt o'r blaen: heb hyny, ni buasent yn credu. Tybia rhai nad oedd neb yn derbyn yr Ysbryd Glân yn ei ddoniau anghyffredin, ond y rhai oedd Duw yn eu nodi allan drwy hyny i fod yn fugeiliaid ac yn athrawon; ond tybia eraill ei fod yn disgyn ar bawb yn gyffredinol, yr hyn nid yw debygol iawn. Gwel 1 Cor. 12. 29, 30. † Hwy a fedyddiwyd drwy ei awdurdod ac yn ol ei orchymyn ef, yn arwydd o'u hymostyngiad iddo ef, fel eu Harglwydd a'u Hachubwr, yn arwydd o'u ffydd ynddo ef, a'u hymrwymiad i fod byth yn eiddo ef.

17 n * Yna hwy a ddodasant *eu* dwylaw arnynt, o † a hwy a dderbyniasant yr Ysbryd Glân.

n adn. 18. pen. 6. 6. a 9. 17. a 13. 3. a 19. 6. Num. 8. 10. a 27. 18. 1 Tim. 4. 14. a 5. 22. 2 Tim. 1. 6. Heb. 6. 2. o Rhuf. 1. 11. Gal. 3. 2—5.

* Mae yn amlwg wrth y cyd-destynau mai nid i gadarnâu *(to confirm)* nac i urddo neb, y bu yr arddodiad dwylo yn y *fàn hon;* ond yn arwydd fod gweddïau yr apostolion yn cael eu hateb, a bod y ddawn a geisiasant yn cael ei rhoddi. Am arddodiad dwylaw, gwel ychwaneg ar pen. 6. 6. † Mewn rhyw ddull gweledig, efallai; mewn rhyw fodd amlwg, mae yn sicr, un ai yn y tywalltiaid o hóno, neu yn ei effeithiau; pe amgen, ni buasai Simon y swynwr yn ei ganfod, adn. 18.

18 A phan welodd Simon * mai trwy osodiad dwylaw yr apostolion y rhoddid yr Ysbryd Glân, p † efe a gynnygiodd iddynt arian,

p 2 Bren. 5. 15, 16. a 8. 9. Ezec. 13. 19. Mat. 10. 8. 1 Tim. 6. 5.

* Yr oedd llawer o athrawon a christionogion eraill yr oes hòno yn *cael* y doniau uchod; ond mae yn debyg mai trwy weddïau ac arddodiad dwylaw yr apostolion yn benaf, os nad yn unig, yr oeddynt yn cael eu cyfranu. Tybiodd Simon fod ar law yr apostolion gynnysgaethu y neb y mynent â'r ddawn hon, ac nis gwyddai mai "dawn Duw" ydoedd, ac mai fel apostolion Crist yr oeddent hwy yn offerynol i'w chyfranu. † Cynnygiodd y rhagrithiwr cybyddus hwn arian iddynt am y ddawn, gan feddwl yn ddïammau gwneyd arian lawer o hóni pe'i cawsai, a chael enw a pharch iddo ei hun hefyd drwy yr awdurdod hon.

19 Gan ddywedyd, q Rhoddwch i minnau hefyd yr awdurdod hon, * fel ar bwy bynnag y gosodwyf fy nwylaw, y derbynio efe yr Ysbryd Glân.

q adn. 9—11, 17. Mat. 18. 1—3. Luc 14. 7—11. Ioan 5. 44. 1 Cor. 15. 8, 9. 3 Ioan 9.

* Nid gogoniant Duw, llwyddiant yr efengyl, na lles eneidiau dynion, oedd yn gwneyd y swynwr hwn yn awyddus am yr awdurdod hon; ond fel y dywedwyd, ei defnyddio i gasglu cyfoeth, ac i gael enw mawr iddo ei hun: ïe, ei dderchafu fel Duw. Gwel ar adn. 9. Ei ragrith ef oedd dywedyd "*Fel* ar bwy bynag y gosodwyf fy nwylaw, y derbynio efe yr Ysbryd Glân;" *fel* y caffwyf fi gyfoeth a pharch i mi fy hun, oedd yn y gwaelod.

20 * Eithr Pedr a ddywedodd wrtho, r † Bydded dy arian gyd â thi i ddistryw, s ‡ am i ti dybied y t meddiennir dawn Duw trwy arian.

r pen. 1. 18. Deut. 7. 26. Jos. 7. 24, 25. 2 Bren. 5. 26, 27. Dan. 5. 17. Hab. 2. 9, 10. Zec. 5. 4. Mat. 27. 3—5. 1 Tim. 6. 9. Iago 5. 3. 2 Pedr 2. 14—17. Dat. 18. 15. s adn. 22. Deut. 15. 9. Diar. 15. 26. Mat. 15. 19. t pen. 2. 38. a 10. 45. a 11. 17. Mat. 10. 8.

* Mae yn debyg mai golwg digon tlodaidd a gwael oedd ar Pedr ac Ioan, felly tybiodd Simon y buasai swm go lew o arian yn eu hudo hwy; ond cafodd weled i'r gwrthwyneb yn bur fuan. † Mewn ffordd annuwiol yn ddïau yr oedd Simon wedi cael ei arian, ac i ddybenion annuwiol yr oedd yn eu cynnyg; felly yr oedd yn amlwg i Pedr mai dyn i fyned i ddystryw ydoedd, oni chaffai edifeirwch. Nid dymuno iddo fyned i ddystryw yr oedd; ond ei rybuddio rhag hyny, ei geryddu am ei bechod, ac ymwrthod â'i wobr llygredig ef gyda'r atgasrwydd mwyaf. ‡ "Am i ti *dybied:*" dylem wylied yn ddyfal ar ein calonau; dechreuodd pechod Simon yn ei galon, yn ei *dybied,* ac yna tòrodd allan yn ei eiriau.

21 u * Nid oes i ti na rhan na chyfran yn y gorchwyl hwn: x † canys nid yw dy galon di yn uniawn ger bron Duw.

u Jos. 22. 25. Ezec. 14. 3. Dat. 20. 6. a 22. 19. x 2 Cron. 25. 2. Salm 36. 1. a 78. 37. Hab. 2. 4. Mat. 6. 22—24. Ioan 21. 17. Heb. 4. 13. Dat. 2. 23.

* Nid oes i ti ran yn yr Ysbryd Glân, o ran ei dderbyn na'i gyfranu i eraill; nid oes i ti ran yn yr iachawdwriaeth yr ydym ni yn ei phregethu, na rhan ychwaith yn y gorchwyl o'i phregethu. † Er y dywedir i Simon gredu, cael ei fedyddio, a glŷnu wrth yr apostolion, eto nid oedd ei galon ef yn uniawn ger bron Duw: yr oedd yn hawdd i Pedr weled hyny (heb y ddawn o allu profi yr ysbrydion) wrth ei waith ef yn cynnyg arian am ddawn yr Ysbryd Glân. Pwnc mawr mewn crefydd yw cael y galon yn uniawn ger bron Duw: heb hyny nid yw ein proffes ond rhagrith, a siomedigaeth yn y diwedd.

22 y * Edifarhâ gan hynny am dy ddryg-ioni hwn, z a gweddïa Dduw, a † a b faddeuir i ti feddyl-fryd dy galon.

y pen. 2. 38. a 3. 19. a 17. 30. Rhuf. 2. 4. 2 Tim. 2. 25, 26. Dat. 2. 21. z pen. 9. 11. Deut. 4. 29, 30. 1 Bren. 8. 47, 48. 2 Cron. 33. 12, 13. Es. 55. 6, 7. Amos 5. 6. Mat. 7. 7, 8. Luc 11. 9—13. Dat. 3. 17, 18. a Dan. 4. 27. Joel 2. 13, 14. Amos 5. 15. Jona 1. 6. a 3. 9. 2 Tim. 2. 25. b adn. 20. Heb. 4. 12.

* Drygioni anfad oedd gwneyd proffes ragrithiol o grefydd, ac yn enwedig tybied y gellid meddiannu dawn Duw drwy arian, a chynnyg arian am dani er mwyn gwneyd elw o hóni: yr unig feddyginiaeth rhag y drygioni hwn a'i ganlyniadau dinystriol oedd, edifeirwch dwys am dano, a gweddi daer ar Dduw am faddeuant o hóno. † Yr oedd pechod Simon yn agos iawn at y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân; mòr agos, fel yr oedd braidd yn ammheüus gan yr apostol, a faddeuai Duw iddo: eto nid yw yn dywedyd *na* faddeuai; ond

mae yn ei annog ef i weddïo yn edifeiriol am faddeuant.

23 * Canys mi a'th welaf [c] † mewn bustl chwerwder, [d] ‡ ac *mewn* rhwymedigaeth anwiredd.

c Deut. 29. 18—20. a 32. 32, 33. Job 20. 14. Jer. 9. 15. Galar. 3. 5, 19. Heb. 12. 15. d Diar. 5. 22. Es. 28. 22. Ioan 8. 34. Rhuf. 6. 17—22. Tit. 3. 3. 2 Pedr 2. 4, 19.

* Gwel ar adn. 21. † Bustl chwerwder yw y chwerwder chwerwaf, a mwyaf bustlaidd. Yr oedd Simon mòr atgas yn ngolwg Duw, ac yn ngolwg Pedr hefyd, ag y gall y peth mwyaf chwerw a bustlaidd fod i archwaeth dyn. ‡ Dan lywodraeth pechod a satan fel dyn mewn llyffetheiriau: a thàn euogrwydd anwiredd hefyd, yn rhwym i ddigofaint Duw yn y diwedd. Mae rhai yn darllen yr adnod fel hyn:—Mi a'th welaf mewn eithaf bustl chwerwder, ac yn bwrnel rhwymedig o anwiredd.

24 * A Simon a attebodd ac a ddywedodd, [e] Gweddïwch chwi drosof fi at yr Arglwydd, † fel na ddêl dim arnaf o'r pethau a ddywedasoch.

e Gen. 20. 7, 17. Ex. 8. 8. a 10. 17. a 12. 32. Num. 21. 7. 1 Sam. 12. 19, 23. 1 Bren. 13. 6. Ezra 6. 10. a 8. 23. Job 42. 8. Iago 5. 16.

* Mae yn debyg i Simon ddychrynu yn fawr iawn wrth y cerydd llym ac arswydol a roddasai Pedr iddo, a chan y gwyddai ei fod ef ac Ioan yn ddynion nerthol gyda Duw mewn gweddi, mae yn dymuno iddynt weddïo drosto ef. Tebyg i Pharaoh ydyw, yn ceisio gan Moses ac Aaron weddïo drosto, a'i galon o hyd yn galed; felly nid oes yma ddim yn debyg i edifeirwch yn Simon, na dim argoel iddo weddïo ei hun. † Efallai y gwyddai efe am y farn a ddaethai ar Ananïas a Sapphira, a'i fod yn ofni rhywbeth cyffelyb arno ei hun. Nid yw yn sôn gair am faddeuant o'i bechodau, ei waredu oddi tàn eu llywodraeth, nac unioni ei galon ger bron Duw; dim ond ei waredu rhag y farn. Dywed haneswyr credadwy, iddo ef barâu mewn rhyw fath o broffes o Gristionogrwydd, yr hon a gymmysgodd efe â chyfeiliornadau ofnadwy a chableddus; fel hyn bu yn sylfaenydd plaid gymmysglyd o gyfeiliornwyr, y rhai a drallodasant yr eglwys, ac a fu yn warth i greydd am hir amser.

25 [f] * Ac wedi iddynt dystiolaethu a llefaru gair yr Arglwydd, hwy a ddychwelasant i Jerusalem, † ac a bregethasant yr efengyl yn llawer o [g] bentrefi y Samariaid.

f pen. 1. 8. a 18. 5. a 20. 21. a 26. 22, 23. a 28. 23, 28, 31. Ioan 15. 27. 1 Pedr 5. 12. g Luc 9. 52—56.

* Gwedi i Pedr ac Ioan orphen â'r swynwr uchod, a chadarnâu gweinidogaeth Phylip yn Samaria trwy eu gweinidogaeth a'u gwyrthiau eu hunain, hwy a ddychwelasant at eu brodyr i Jerusalem. † Wrth ddychwelyd, hwy a bregethasant yr efengyl yn mhentrefi y Samariaid ar hyd y ffordd. Pregethu yn llwyddiannus, meddant, yw ystyr y geiriau.

26 ¶ [h] * Ac angel yr Arglwydd a lefarodd wrth Phylip, gan ddywedyd, [i] Cyfod, † a dos tu a'r dehau, i'r ffordd sydd yn myned i waered o Jerusalem i [k] Gaza, ‡ yr hon sydd [l] anghyfannedd.

h pen. 5. 19. a 10. 7, 22. a 12. 8—11, 23. a 27. 23. 2 Bren. 1. 3. Heb. 1. 14. i 1 Cron. 22. 16. Es. 60. 1, &c. k Jos. 13. 3. a 15. 47. Zec. 9. 5. l Mat. 3. 1—3. Luc 3. 2—4.

* Un o'r angelion sanctaidd, y rhai ydynt weision Crist, ac yn gedyrn o nerth yn gwneuthur ei air ef, a ddanfonwyd o'r nef at Phylip i orchymyn ei symmudiad ef o Samaria ar ol iawn drefau pethau yno. † Yr oedd Gaza yn sefyll i'r dehau o Samaria, neu, efallai, ychydig i'r dehau-orllewin, ar làn môr y canol-dir, ffordd yr elid i'r Aipht. ‡ Dywedir fod dwy Gaza, y naill yn anghyfannedd, a'r llall wedi ei hadeiladu yn ei lle, tua dwy neu dair milltir oddi wrthi, yn nes i làn y môr. Ond tybir mai am y ffordd i Gaza y dywed yr angel yma, ei bod yn anghyfannedd, ac nid am Gaza ei hun. Dywedir fod dwy ffordd o Jerusalem i Gaza, un o honynt trwy wlad gyfannedd, a'r llall trwy anialwch anghyfannedd. Ar hyd yr olaf yr oedd yr Eunuch yn dychwelyd, ac ar hyd hòno yr oedd yn rhaid i Phylip fyned i gael taro wrtho ef. Mae Duw yn cyfarwyddo llwybrau ei bobl.

27 [m] * Ac efe a gyfododd, ac a aeth. Ac wele [n] gwr o † Ethiopia, ‡ eunuch galluog dan ‖ Candace [o] brenhines yr Ethiopiaid, yr hwn oedd ar ei holl drysor hi, [p] yr hwn a ddaethai i Jerusalem i addoli;

m Mat. 21. 2—6. Marc 14. 13—16. Ioan 2. 5—8. Heb. 11. 8. n Salm 68. 31. a 87. 4. Es. 43. 6. a 45. 14. a 60. 3—6. a 66. 19, 20. Jer. 13. 23. a 38. 7. a 39. 16. Zeph. 3. 10. o 1 Bren. 10. 1. Mat. 12. 42. p 1 Bren. 8. 4—43. Salm 68. 29. Es. 56. 3—8. Ioan 12. 20.

* Er nas gwyddai eto i ba le, nac ar ba neges, efe a aeth fel Abraham, heb ammau dim, gan adael y canlyniad i Dduw. † Gwlad ehang yn Affrica oedd Ethiopia, o du y dehau i'r Aipht, ac o du y dehau orllewin i'r môr coch. Cush oedd ei henw Hebreaidd, oddi wrth Cush, neu Cus, mab hynaf Ham, neu Cam (Gen. 10. 6,) hiliogaeth yr hwn a'i poblogai. Yn y cyfieithiad Groeg o'r Hen Destament gelwir hi Ethiopia yn gyffredinol, oddi wrth *aithó*, llosgi, ac *opsis*, gwyneb; am fod gwynebau y trigolion fel pe byddent wedi llosgi gan wres yr haul, efallai. Tybir mai un o'r wlad hon oedd brenines Seba, a ddaeth i glywed doethineb Solomon, a bod rhyw bethau o'r grefydd Iuddewig yno o'r amser hwnw. Mae yn amlwg mai dyfod i Jerusalem i addoli a wnaethai yr eunuch hwn. ‡ Am eunuchiaid, gwel ddiwedd y sylwad ar Matth. 19. 12: cyfieithir y gair Hebraeg, meddant, *tywysog*, *ystafellydd*, a *dyspaddedig:* ac mae yn werth sylwi, mai *spadd* yw y gair am eunuch yn y fàn hon, yn y Testament Llydaweg. ‖ Dywedir mai benywaid oedd yn llywodraethu yn Ethiopia yn gyffredin, ac mai Candace oedd yr enw cyffredin.

28 * Ac oedd yn dychwelyd, [q] ac yn eistedd yn ei gerbyd, [r] † ac yn darllen y prophwyd Esaias.

q pen. 17. 11, 12. Deut. 6. 6, 7. a 11. 18—20. a 17. 18, 19. Jos. 1. 8. Salm 1. 2, 3. a 119. 99, 111. Diar. 2. 1—6. a 8. 33, 34. Ioan 5. 39, 40. Col. 3. 16. 2 Tim. 3. 15—17. r pen. 28. 25. Es. 1. 1. Luc 3. 4. a 4. 17.

* Yn dychwelyd i Ethiopia wedi bod yn cadw yr ŵyl yn Jerusalem. Mae yn debyg mai proselyt cyfiawnder oedd y dyn hwn, wedi ei enwaedu, yn cadw holl ddeddf Moses, ac yn cael ei ystyried yn mhob peth fel Iuddew. † Darllen allan yn uchel (adn. 30,) er i'w was, gŷrwr y cerbyd, gael clywed, efallai. Nid llawer o foneddigion ein gwlad *gristionogol* ni a gair yn darllen eu Biblau yn eu cerbydau ysywaeth. Dyma Ethiopiad dû yn peri cywilydd i foneddigion Prydain.

29 [s] * A dywedodd yr Yspryd wrth Phylip, † Dos yn nês, ‡ a glŷn wrth y cerbyd yma.

s pen. 10. 19. a 11. 12. a 13. 2—4. a 16. 6, 7. a 20. 22, 23. 1 Cor. 12. 11. 1 Tim. 4. 1.

* Cafodd Phylip ei ddanfon y ffordd hon drwy genadwri angel, ac yn awr dyma yr Ysbryd Glân ei hun yn dangos iddo ei waith. † Mòr agos ag y gallai glywed yr eunuch yn darllen, ac ymddiddan âg ef. ‡ Nac ymâd âg ef, ac nac ofna ei dramgwyddo ef â gormod hyfdra.

30 * A Phylip [t] a redodd atto, ac a'i clybu ef yn darllen y prophwyd Esaias; ac a ddywedodd, [u] † A wyt ti yn deall y pethau yr wyt yn eu darllen?

t adn. 27. Salm 119. 32. Preg. 9. 10. Ioan 4. 34. u Mat. 13. 19, 23, 51. a 15. 10. a 24. 15. Marc 13. 14. Luc 24. 44, 45. Ioan 5. 39. 1 Cor. 14. 19. Dat. 13. 18.

* Gan barodrwydd i ufuddâu i orchymyn Duw, ac awydd i achub enaid, dyma Phylip yn rhedeg i ym-

afaelyd yn y cerbyd, wedi lludded ei daith fawr o Samâria yno. † Prophwydoliaeth led anhawdd ei deall oedd yr adnod, ac mae gofyniad Phylip yn dangos ei ryfeddod ef os oedd yr eunuch yn ei deall, yn gystal a'i barodrwydd i'w addysgu ef os nad oedd. Heb fedru deall, nid yw ein holl ddarllen ni ond anfuddiol.

31 * Ac efe a ddywedodd, [x] Pa fodd y gallaf, oddieithr i ryw un fy nghyfarwyddo i? [y] † Ac efe a ddymunodd ar Phylip ddyfod i fynu, ac eistedd gyd âg ef.

x Salm 25. 8, 9. a 73. 16, 17, 22. Diar. 30. 2, 3. Es. 29. 18, 19. a 35. 8. Mat. 18. 3, 4. Marc 10. 15. 1 Cor. 3. 18. a 8. 2. a 14. 36, 37. Iago 1. 10, 21. 1 Pedr 2. 1, 2. y 2 Bren. 5. 9, 26. a 10. 15, 16.

* Dyma ostyngeiddrwydd a hunan-ymwadiad rhyfeddol mewn gwr mòr fawr, yn addef ei annwybodaeth, ac yn cymmeryd mòr garedig fod dyn dieithr, ac o ymddangosiad llawer iselach nac ef ei hun yn gofyn felly iddo, ac yn cynnyg ei hyfforddi. Y ffordd i wybodaeth yw addef ein hanwybodaeth, a chymmeryd ein dysgu gan y neb a'n dysgo, pe byddai ein his-radd o lawer mewn pethau eraill. † Rhyfedd mòr foneddigaidd a hawdd ei drin oedd y gwr mawr hwn, yn cymmeryd yr estron tlawd i eistedd gydag ef yn ei gerbyd i'w ddysgu.

32 A'r lle o'r ysgrythyr yr oedd efe yn ei ddarllen, * oedd hwn, [z] † Fel dafad i'r lladdfa [a] yr arweiniwyd ef; [b] ac fel ‡ oen ger bron ei gneifiwr yn || fud, felly [c] nid agorodd efe ei enau:

z Es. 53. 7, 8. a Salm 44. 11, 22. Jer. 11. 19. a 12. 3. a 51. 40. Rhuf. 8. 36. b Ioan 1. 29. 1 Pedr 1. 19. a 2. 21—24. c Salm 39. 2, 9. Mat. 26. 62, 63. Luc 23. 34. Ioan 18. 9—11.

* Sef Es. 53. 7, 8. † Y cyfieithiad Groeg o brophwydoliaeth Esaiah oedd yr eunuch yn ddarllen, dyna'r achos fod ychydig o wahaniaeth rhwng y fàn hon â'r lle yn Esaiah. Gellir dywedyd yr un modd am lawer o ysgrythyrau eraill yr Hen Destament a goffêir yn y Newydd. Yn Alexandria, yn yr Aipht, y gwnaed y cyfieithiad uchod, ac mae yn debyg fod yr Ethiopiaid yn ei ddeall, yn enwedig y gwŷr mawr o honynt. Trwy hyn mae yn debyg y cafodd yr eunuch hwn ei droi, yn gyntaf at y grefydd Iuddewig, i addoli y gwir Dduw; ac wedi hyny i'r grefydd Gristionogol. Mae yma galondid o'r mwyaf i gyfieithu a thaenu yr ysgrythyrau. ‡ Oen Duw, yr aberth mawr, i dynu ymaith bechodau y byd. Oen, neu ddafad, hefyd, o ran ei ddiniweidrwydd a'i ddyoddefgarwch. || Mae y gair "mud" yma yn dangos meddwl y gair "tau," yn Esaiah.

33 [d] * Yn ei ostyngiad, [e] ‡ ei farn ef a dynnwyd ymaith, [f] ‡ eithr pwy a draetha ei genhedlaeth ef? [g] || oblegid dygir ei fywyd ef oddi ar y ddaear.

d Phil. 2. 8, 9. e Job 27. 2. a 34. 5. Es. 5. 23. a 10. 2. Hab. 1. 4. Mat. 27. 12—26. Ioan 19. 12—16. f Salm 22. 30. Es. 53. 8, 12. g Salm 22. 15. Es. 53. 10, 12. Dan. 9. 26. Zec. 13. 7.

* "O garchar ac o farn y cymmerwyd ef," yw y geiriau yn Esaiah. "Efe a gymmerwyd ymaith trwy farn orthrymedig," yw cyfieithiad *Lowth* o'r geiriau yn Esaiah. "Yn ei ostyngiad:" pan oedd yn ei amgylchiadau iselaf, dàn yr holiadau llymaf, ei enaid yn aberth dros bechod, Duw yn cuddio ei wyneb oddi wrtho, a'i gorph o'r diwedd wedi ei roi i orwedd yn y bedd, fel mewn carchar. † Yna ei farn, sef y gospedigaeth a roed arno yn ein lle ni, a dynwyd ymaith; oblegid efe a ddrylliodd rwymau angau, ac a agorodd byrth y bedd, ei garchar. Felly *Pool.* Fel hyn y dywed *Guyse*:—"*Yn ei ostyngiad, ei farn a dynwyd ymaith,*" yr hyn a arwydda, ei fod ef yn ymddangos yn ddyn mòr wael yn ei gyflwr o ddarostyngiad, fel y barnodd ei elynion yn anghyfiawn, ei fod ef yn addas i gael ei aberthu i'w llidiowgrwydd hwy; felly brysiwyd ef, dàn ofal ceidwaid, o le i le, o un frawdle i'r llall, ac yna i ddienyddiad; yn yr hyn oll tynwyd ei farn ef ymaith, ac ni ddangoswyd cyfiawnder iddo: ond o'r diwedd, rhyddâwyd ef yn gyfreithlawn gan Dduw Dad; o'i garchariad yn y bedd, ac oddi wrth y farn anghyfiawn a roddasai dynion arno; ïe, ac oddi wrth ddedfryd gospedigaethol deddf Duw, yr hon a gyflawnwyd arno ef fel Machnïydd ei bobl; fel hyny cymmerwyd ef yn gyfreithlawn o garchar ac o farn, fel arwydd o gymmeradwyaeth Duw ei hunan o hóno, ac ei fod ef wedi ei lwyr foddloni yn ei angau ef fel aberth dros bechod. Gan ddynion, tynwyd ei farn ef ymaith trwy wneyd cam âg ef; gan Dduw, tynwyd barn anghyfiawn dynion ymaith trwy wneyd cyfiawnder âg ef. ‡ "Pwy a draetha ei oes ef," yn Esaiah. Pwy a'i traetha i allu rhoddi cyfrif o'i godiad a'i ddechreuad ef, neu ei fywyd ef yn y nefoedd, neu ei had lliosog ef ar y ddaear? Neu pwy a draetha ddrygioni y genedlaeth neu yr oes y bu efe byw ynddi, ac y dyoddefodd. Felly *Guyse.* Pwy a fedr ddysgrifio dynion ei oes ef, medd y cyfieithiad 1727 o'r Bibl Saesoneg, sef eu drygioni hwynt. Pwy a draetha ei ddiniweidrwydd a'i ddaioni ef yn ei oes, medd eraill; fel y byddid arferol o wneyd i amddiffyn y cyhuddedig yn mhlith yr Iuddewon. Ni chaid neb yn yr ystyr hyny i ddywedyd gair o'i blaid ef. || Fel pe nas gallasai gadw ei fywyd, ac fel pe buasai y gwaethaf o ddynion; ac fel un nad oedd iddo ddim a wnelai â'r byd hwn mwyach, nac â dim o helyntion daear. Efe a dòrwyd o dir y rhai byw, yw y geiriau yn Esaiah.

34 A'r eunuch a attebodd Phylip, ac a ddywedodd, Attolwg i ti, [h] * Am bwy y mae y prophwyd yn dywedyd hyn? am dano ei hun, ai am ryw un arall?

h Mat. 2. 2—4. a 13. 36. a 15. 15.

* Yr unig ddadl ar feddwl yr eunuch oedd, am bwy yr oedd y prophwyd yn dywedyd yn yr adnodau uchod, ai am dano ei hun, ai am rywun arall. Rhoddodd hyn gyfle i Phylip i bregethu iddo yr Iesu.

35 A Phylip [i] a agorodd ei enau, [k] * ac a ddechreuodd ar yr ysgrythyr honno, ac a [l] bregethodd iddo yr Iesu.

i pen. 10. 34. Mat. 5. 2. 2 Cor. 6. 11. k pen. 18. 28. a 26. 22, 23. a 28. 23. Luc 24. 44—47. l pen. 3. 20. a 9. 20. a 11. 20. a 17. 3, 18. a 19. 13. 1 Cor. 1. 23. a 2. 2. Eph. 4. 21. 1 Pedr 1. 11, 12.

* Cymmerodd yr ysgrythyr hòno fel testyn, a dangosodd mai am Grist yr oedd y prophwyd yn llefaru, gan bregethu sylwedd yr holl efengyl iddo.

36 Ac fel yr oeddynt yn myned ar hŷd y ffordd, hwy a ddaethant at * ryw ddwfr. A'r eunuch a ddywedodd, [m] Wele ddwfr; † beth sydd yn lluddias fy medyddio?

m pen. 10. 47. Ezec. 36. 25. Ioan 3. 5, 23. Tit. 3. 5, 6. 1 Ioan 5. 6.

* Dywed *Guyse* fod y geiriau *ti udôr*, "rhyw ddwfr" o arwyddocâd bychanig, ac yn dangos nad oedd yn ddwfr o fawr ddyfnder: a dywed *Jerome*, *Sandys*, a theithwyr eraill, mai ffynon ydoedd wrth dreed mynydd yn llwyth Juda neu Benjamin, a bod y dwfr yn cael ei sugno gan y ddaear lle y tarddai. Os felly, nis gallai yr eunuch gael ei drochi yno. † Mae yn amlwg wrth hyn i Phylip grybwyll am yr ordinâd o fedydd wrth yr eunuch wrth "bregethu iddo yr Iesu:" ac yr oedd yntau yn awyddus am gael ei fedyddio, er tystiolaeth o'i dderbyniad o Grist, ac o'i ymroddiad fel dysgybl iddo.

37 A Phylip a ddywedodd, [n] * Os wyt ti yn credu â'th holl galon, fe a ellir. [o] Ac efe a attebodd ac a ddywedodd, [p] † Yr wyf yn credu fod Iesu Grist yn Fab Duw.

n adn. 12, 13, 21. pen. 2. 38, 39. Mat. 28. 19. Marc 16. 16. Rhuf. 10. 10. o 1 Pedr 3. 21. p pen. 9. 20. Mat. 16. 16. Ioan 6. 68, 69. a 9. 35—38. a 11. 27. a 20. 31. 1 Ioan 4. 15. a 5. 1, 5, 10—13.

* Nid oedd proffesu â'r genau yn ddigon o gredu, cawsai Phylip hyny gan Simon y swynwr o'r blaen: â'r galon y credir i gyfiawnder, a chredu â'r galon mae Duw yn ofyn, a'i genadon hefyd drosto ef. † Dyma'r holl

gredu oedd yn ofynol yn nyddiau yr apostolion, a dyma'r cwbl sydd yn ofynol eto; credu fod Iesu Grist yn Fab Duw, ac yn unig geidwad pechadur. Mae yn ddiammau i Phylip bregethu yr athrawiaeth hon yn eglur ac yn helaeth i'r eunuch, ac yn awr dyma yntau yn ei chredu.

38 Ac efe a orchymynodd sefyll o'r cerbyd: * a hwy a aethant i waered ill dau i'r dwfr, Phylip a'r eunuch; [q] ac efe a'i bedyddiodd ef.

q Ioan 3. 22, 23. a 4. 1.

* Ffurfied pawb eu meddyliau eu hunain am y *dull* y bedyddiodd Phylip yr eunuch, yn ol eu gwahanol dybiau ar y pwnc; ond mae yn sicr nad yw y rhagddodyn *eis* yma, ac *ek* yn yr adnod nesaf, yn arwyddo dim mwy na myned *hyd at* ryw le, ac *oddiwrth* ryw le, ac nid i *mewn iddo*, ac *allan o hôno*. Heblaw hyny, dywedir i Phylip fyned *i'r* dwfr yn gystal a'r eunuch, a dyfod *o'r* dwfr yn yr adnod nesaf: felly nid oes yma ddim prawf i'r eunuch gael ei drochi mwy na Phylip: ac mae y peth yn bur annhebygol, ar daith, ac mewn lle dieithr fel hyn. Dihatru y gwr boneddig, a'i drochi yn y fân hôno!

39 A phan [r] ddaethant i fynu o'r dwfr, [s] * Ysbryd yr Arglwydd a gipiodd Phylip ymaith, ac ni welodd yr eunuch ef mwyach. [t] † Ac efe a aeth ar hŷd ei ffordd ei hun yn llawen.

r Mat. 3. 16. Marc 1. 10. s 1 Bren. 18. 12. 2 Bren. 2. 16. Ezec. 3. 12—14. a 8. 3. a 11. 24. 2 Cor. 12. 2—4. t adn. 8. pen. 13. 52. a 16. 34. Es. 35. 1, 2. a 55. 12, 13. a 61. 10. a 66. 13, 14. Mat. 13. 44. Rhuf. 5. 2. a 15. 10—13. Phil. 3. 3. a 4. 4. Iago 1. 9, 10. a 4. 16.

* Gwyrthiol oedd hyn, ac efallai yn ngolwg yr eunuch, fel arwydd dwyfol er cadarnâu ei ffydd ef. Diammau y buasai yn dda ganddo wobrwyo Phylip yn hael; ond nid arosodd efe i hyny, ac nid oedd yn dysgwyl hyny. Gwnaed pethau cyffelyb i rai o'r prophwydi, cymhara 1 Bren. 18. 12; 2 Bren. 2. 16; Ezec. 3. 14. † O herwydd ei wybodaeth o Grist, ei ran achubol yn Nghrist, ei fraint o gael bod yn ddysgybl i Grist, ac o herwydd y newyddion da am Grist, oedd ganddo i'w dwyn gydag ef i'w gyd-wladwyr tywyll. Mae hanesion yn dywedyd i'r eunuch hwn bregethu yr efengyl yn llwyddiannus yn Ethiopia a'i hamgylchoedd: a thybir iddo gael ei gynnysgaethu â doniau gwyrthiol yr Ysbryd Glân i'w addasu at y gorchwyl.

40 Eithr Phylip a gaed yn [u] * Azotus: a chan dramwy, [x] † efe a efengylodd ym mhob dinas hyd oni ddaeth efe i [y] ‡ Cesarea.

u Jos. 15. 46, 47. 1 Sam. 5. 1. Zec. 9. 6. x Luc 10. 1, 2. Rhuf. 15. 19. y pen. 10. 1. a 21. 8. a 23. 23, 33. a 25. 4.

* Asdod y Philistiaid oedd hon, ac a elwir Azotus yn nghyfeithiad Groeg y deg a thriugain. Yr oedd tua deng milltir ar hugain o'r lle y cipiwyd Phylip gan Ysbryd yr Arglwydd. † Gyda glàn môr y canol-dir, megys Joppa, Lyda, Saron, &c. ‡ Dinas ar làn môr y canol-dir oedd hon, ac a elwid gynt Stratonice, neu Dŵr Straton. Prif ddinas Palestina, medd *Guyse*, ydoedd, ac yn mhell oddi wrth Cesarea Philippi, yr hon oedd yn y gogledd, yn agos i darddiad yr Iorddonen. Yma y cartrefodd Phylip, mae yn debyg, o hyn allan. Gwel pen. 21. 8.

PEN. IX.

Saul yn myned i Damascus, &c.

* A [a] SAUL etto yn [b] † chwythu bygythiau a chelanedd yn erbyn disgyblion yr Arglwydd, ‡ a aeth at yr arch-offeiriad,

a adn. 11—13, 19—21. a 7. 58. a 8. 3. a 22. 3, 4. a 26. 9—11. 1 Cor. 15. 9. Gal. 1. 13. Phil. 3. 6. 1 Tim. 1. 13. b Salm 27. 12.

* Am Saul o'r blaen, gwel pen. 7. 58; a 8. 1, 3. Yma ni a'i cawn ef o hyd yn yr un ysbryd ac wrth yr un gorchwyl: felly y buasai yn byw ac yn marw oni buasai ryfedd ras Duw. Gan iddo ef gael trugaredd, nid oes achos i neb annobeithio. † Yn berwi o lid yn ei galon, yr hwn a chwythai allan fel agerdd cryf gyda phob anadliad: nid oedd dim llai na diwreiddiad, a hollawl ddinystr yr eglwys a'i boddlonai ef: hyny oedd yn fygwth gyda phob anadliad, ond ni chaniatâodd Duw iddo gyflawni llawer o'i fwriadau. ‡ Yr arch-offeiriad hwn oedd Caiaphas, gelyn marwol Crist, ac yr oedd yn dda ganddo gael y fath un â Saul i erlid dysgyblion Crist.

2 [c] * Ac a ddeisyfodd ganddo lythyrau i † Damascus, at [d] y synagogau, fel os cai efe neb o'r ‡ ffordd *hon*, ‖ na gwŷr na gwragedd, y gallai efe eu dwyn hwy yn rhwym i Jerusalem.

c adn. 14. pen. 7. 19. a 22. 5. a 26. 12. Esther 3. 8—13. Salm 83. 2—4. d pen. 6. 9. a 13. 14, 15. a 28. 17—21.

* Yr arch-offeiriad oedd blaenor, neu lywydd y Sanhedrim, ac awdurdod ganddo i roddi llythyrau i Saul at flaenoriaid y synagogau yn mhob màn, i draddodi y cristionogion i'w law ef, pa le bynag y caid neb o honynt. Yr oedd awdurdod gan y Sanhedrim yn Jerusalem ar y synagogau yn mhob màn; oddi allan, yn gystal ag oddi fewn i derfynau Palestina. † Prif-ddinas Syria gynt, (Es. 7. 8,) oedd Damascus, ac yr oedd tua chant a hanner o filltiroedd, neu gant a thriugain, medd rhai, i'r gogledd-ddwyrain o Jerusalem. Yr oedd mòr llawn o Iuddewon, fel y dywed *Josephus* i ddeng mil o honynt gael eu lladd mewn un awr, a deunaw mil dro arall, heblaw gwragedd a phlant. ‡ Felly y gelwid y grefydd newydd, ffordd Duw, ffordd y bywyd, a'r unig ffordd iawn a gwirioneddol. ‖ Nid oedd arbed neb, gwragedd mwy na gwŷr, gan gymmaint oedd yr ysbryd erlid. § I gael eu profi a'u barnu gan y Sanhedrim, yr hon oedd yn hòni awdurdod i hyny.

3 [e] * Ac fel yr oedd efe yn ymdaith, bu iddo ddyfod yn agos i Damascus: † ac yn ddisymwth llewyrchodd o'i amgylch [f] oleuni o'r nef.

e adn. 17. pen. 22. 6. a 26. 12, 13. 1 Cor. 15. 8. f Salm 104. 2. 1 Tim. 6. 16. Dat. 21. 23. a 22. 5.

* Gadawodd Duw ef i fyned yn agos i ben ei daith cyn i'r tro rhyfedd hwn ddygwydd, fel y byddai hawddach ei arwain ef i Damascus yn ddall, ac fel y byddai y dygwyddiad yn fwy cyhoedd a gwybodus. † Dygwyddodd hyn o gylch hanner dydd, pen. 22. 6; pan oedd yr haul yn ei danbeidrwydd mwyaf; ond yr oedd y goleuni hwn "yn fwy na disgleirdeb yr haul" naturiol, pen. 26. 13. A pha ryfedd, gan mai pelydr gogoniant Mab Duw, Haul mawr cyfiawnder, ydoedd.

4 [g] * Ac efe a syrthiodd ar y ddaear, ac a † glybu lais yn dywedyd wrtho, [h] Saul, Saul, [i] ‡ paham yr wyt yn fy erlid i?

g pen. 5. 10. Num. 16. 45. Ioan 18. 6. Rhuf. 11. 22. 1 Cor. 4. 7. h Gen. 3. 9. a 16. 8. a 22. 11. Ex. 3. 4. Luc 10. 41. Ioan 20. 16. a 21. 15. i pen. 22. 7, 8. a 26. 14, 15. Es. 63. 9. Zec. 2. 8. Mat. 25. 40, 45. 1 Cor. 12. 12. Eph. 5. 30.

* Nid rhyfedd iddo syrthio ar y ddaear; y rhyfeddod mwyaf oedd, na chafodd y fath erlidiwr ei daro i uffern. † Yn yr iaith Hebraeg, ebai Saul ei hun, pen. 26. 14. ‡ Tybiai Saul ei fod yn gwneyd gwasanaeth i Dduw, trwy erlid y cristionogion, fel plaid o gyfeiliornwyr hudoliaethus; ond yma mae yn clywed mai erlid Arglwydd y gogoniant yr oedd, yr hwn a ystyriai achos ei bobl yn achos iddo ei hun. Paham yr oedd yn eu herlid? a wnaethent hwy ryw niwed iddo ef erioed? ac oni ddylasai efe wybod mai Iesu oedd y Messiah, wedi yr holl wyrthiau a wnaeth efe, a'i apostolion yn ei enw ef?

5 Yntau a ddywedodd, [k] * Pwy wyt ti, Arglwydd? A'r Arglwydd a ddywedodd, [l] † Myfi yw Iesu, yr hwn yr wyt ti yn ei erlid: [m] ‡ caled *yw* i ti wingo yn erbyn y symbylau.

k 1 Sam. 3. 4—10. 1 Tim. 1. 13. l pen. 26. 9. m pen. 5. 39. Deut. 32. 15. Job 9. 4. a 40. 9, 10. Salm 2. 12. Es. 45. 9 1 Cor. 10. 22.

* Tybia rhai, gan fod Saul yn Iuddew dysgedig, iddo ef adnabod yn y fàn mai y *Shecinah* oedd y goleuni a dywynodd o'i amgylch; ac mai am hyny y dywedodd efe fel hyn, "Pwy wyt ti *Arglwydd?*" A thybir hefyd wrth pen. 22. 14, a rhai mànau eraill, iddo ef weled llun dyn yn y dysgleirdeb hwnw, ond nas gwyddai fel Stephan mai yr Iesu oedd. Tybia eraill nas gwelodd efe lun dim, ac nas gwyddai pwy oedd yn llefaru wrtho, ai Duw ai angel: gwyddai mai rhywun goruwch-naturiol oedd, ac yn ei fraw gofynodd fel y sylwyd. || "Myfi yw Iesu o Nazareth," medd Paul ei hun, pen. 22. 8: felly y galwai yr Iuddewon y Cyfryngwr o ddirmyg, ac felly y galwodd Saul ef lawer gwaith yn ddïau, er ei watwar; ac yma mae Iesu yn ei alw ei hun felly er argyhoeddi Saul o'r watwariaeth hòno. ‡ Dïareb yw y geiriau hyn, am ddynion yn ymgynddeiriogi yn erbyn eu trech, ac yn eu niweidio eu hunain yn fwy na gwrthddrych eu gelyniaeth.

6 * Yntau [n] gan grynu, ac â braw arno, a ddywedodd, [o] Arglwydd, beth a fynni di i mi ei wneuthur? A'r Arglwydd *a ddywedodd* wrtho, [p] † Cyfod, a dos i'r ddinas, [q] ‡ ac fe a ddywedir i ti pa beth sydd raid i ti ei wneuthur.

n pen. 16. 29. a 24. 25, 26. 1 Sam. 28. 5. Es. 66. 2. Hab. 3. 16. Phil. 2. 12. o pen. 2. 37. a 16. 30. a 22. 10. Luc 3. 10. Rhuf. 7. 9. a 10. 3. Iago 4. 6. p adn. 15. pen. 26. 16. Ezec. 16. 6—8. Mat. 19. 30. Rhuf. 5. 20. a 9. 15—24. a 10. 20. Gal. 1. 15, 16. 1 Tim. 1. 14—16. q pen. 10. 6, 22, 32. a 11. 13, 14. Salm 25. 8, 9, 12. a 94. 12. Es. 57. 18.

* Heblaw y dychryn a gafodd Saul gan y weledigaeth yr un modd a'i gymdeithion, cyrhaeddodd geiriau yr Arglwydd Iesu ei galon ef i'w argyhoeddi yn effeithiol, i ladd ei elyniaeth, ac i'w ddarostwng ef mewn ufuddod hollawl i ewyllys Mab Duw. Sylwa *Pool* iddo roddi ei hun o flaen y Cyfryngwr fel papyr gwŷn, iddo ef gael ysgrifenu arno y peth a fynai. † Sef i Damascus, ond nid i erlid fel y bwriadasai efe wrth gychwyn. ‡ Dywedir iti pa beth i wneyd am iachawdwriaeth dy enaid, a pha beth i wneyd yn fy ngwasanaeth I. Dywedwyd iddo rai pethau gan Ananïas, ond dywedodd Crist yn ddigyfrwng iddo lawer mwy. Galat. 1. 12.

7 [r] A'r gwŷr oedd yn cyd-deithio ag ef a * safasant yn fud, † gan glywed y llais, ‡ ac heb weled neb.

r pen. 22. 9. a 26. 13, 14. Dan. 10. 7. Mat. 24. 40, 41.

* Yn pen. 26. 14, dywedir iddynt oll syrthio ar y ddaear; gallai hyn fod ar y dechreu, ac wedi i'r braw a'r synedigaeth cyntaf fyned drosodd, iddynt gyfodi a sefyll yn fud. † Yn pen. 22. 9, dywedir *na* chlywsant y llais, ac yma dywedir iddynt ei glywed: pa fodd i gysoni hyn? Hwy a glywsant lais Saul, ond ni chlywsant lais yr Arglwydd Iesu, medd rhai: hwy a glywsant y llais, ond ni ddeallasant y geiriau, medd eraill, am mai Iuddewon Groegaidd oeddynt, ac nad oeddynt yn deall yr iaith Hebraeg. Gallasai Crist lefaru wrth Saul yn nghlyw y bobl, ac heb i'r bobl ddeall y geiriau, fel yn Ioan 12. 28, 29: fel hyny yr oeddynt yn clywed ac heb glywed hefyd. ‡ Mae hyn yn lled-arwyddo i Saul ei hun weled dynoliaeth Iesu yn y goleuni gogoneddus.

8 * A Saul a gyfododd oddi ar y ddaear; † a phan agorwyd ei lygaid, [s] ni welai efe neb: ‡ eithr hwy a'i tywysasant ef erbyn ei law, ac a'*i* dygasant *ef* i mewn i Damascus.

s adn. 18. pen. 13. 11. a 22. 11. Gen. 19. 11. Ex. 4. 11. 2 Bren. 6. 17—20.

* Dywedasai yr Iesu wrtho am gyfodi, yn adn. 6, ac yma mae yntau yn cyfodi oddi ar y ddaear. † Y cyfryw oedd effaith y goleuni a ddisgleiriasai o'i amgylch ef fel na welai ddim pan agorodd ei lygaid: fel dyn wedi bod yn syllu ar yr haul, mae pob peth yn ymddangos yn dywyll o'i amgylch pan droddo ei lygaid oddi wrth yr haul. Yr oedd llygaid ei gorph ef yn awr mòr dywyll ag y buasai llygaid ei feddwl o'r blaen; nid oedd yn gwybod dim fel y dylasai wybod. ‡ Bwriadasai efe ddwyn gwŷr a gwragedd yn rhwym o Damascus i Jerusalem, ond yn awr mae efe ei hun yn cael ei dywys yn ddall erbyn ei law i Damascus, wedi ei ddarostwng a'i gaethiwo gan Grist.

9 * Ac efe a fu [t] dridiau heb weled, † ac ni wnaeth na bwytta nac yfed.

t adn. 11, 12. 2 Cron. 33. 12, 13, 18, 19. Esther 4. 16. Jona 3. 6—8.

* Yr oedd hyn yn angenrheidiol, mae yn debyg, er ei hollawl ddarostwng ef, a'i ddwyn i ystyriaeth ddifrifol o'i ysbryd a'i fywyd erledigaethus. † Dyma'r pryd y daeth y gorchymyn, yr adfywiodd ac yr adnabu efe bechod, ac y cafodd efe farn angau arno ei hun. Mae yn anmhosibl amgyffred beth a deimlodd Saul yn ei feddyliau ei hun y tri diwrnod tywyll hyn, pryd nas gallai na bwyta nac yfed.

10 ¶ [u] * Ac yr oedd rhyw ddisgybl yn Damascus, a'i enw Ananïas: [x] a'r Arglwydd a ddywedodd wrtho ef mewn gweledigaeth, [y] Ananïas. † Yntau a ddywedodd, [z] Wele fi, Arglwydd.

u pen. 22. 12. x pen. 2. 17. a 10. 3, 17—20. Num. 12. 6. Dan. 2. 19. y adn. 4. z Gen. 22. 1. a 31. 11. Ex. 3. 4. 1 Sam. 3. 4, 8—10. 2 Sam. 15. 26. Es. 6. 8.

* Gan nad oes sôn am yr Ananïas hwn yn un lle ond yn yr hanes hwn, mae yn anhawdd gwybod pwy oedd efe: tybia rhai mai brodor o Jerusalem oedd, ac mai efe a ddaeth a'r efengyl oddi yno i Damascus. Dywedai rhai o'r henafiaid mai un o'r deg dysgybl a thriugain ydoedd. Tybia eraill wrth ei fod yn cael ei alw yn "wr defosiynol yn ol y ddeddf" yn pen. 22. 12, mai un o'r rhai a elwir yn awr, proselytiaid cyfiawnder oedd efe. Efallai mai brodor o Damascus oedd efe, ac a ddychwelwyd i'r ffydd ar ddydd y pentecost. † Wele fi, yn barod i wneuthur dy ewyllys yn mha beth bynag a orchymynech i mi.

11 A'r Arglwydd *a ddywedodd* wrtho, [a] Cyfod, a dos i'r hëol a elwir Uniawn, a chais yn nhŷ † Judas *un* a'*i* enw [b] Saul, ‡ o Tarsus: [c] || canys wele y mae yn gweddïo.

a pen 8. 26. a 10. 5, 6. a 11. 13. b adn. 30. pen. 11. 25. a 21. 39. a 22. 3. c pen. 2 21. a 8. 22. Deut. 4. 29. 2 Cron. 33. 12, 13, 18, 19. Job 33. 18—28. Salm 32. 3—6. a 40. 1, 2. a 50. 15. a 130. 1—3. Diar. 15. 8. Es. 55. 6, 7. Jer. 29. 12, 13. a 31. 18—20. Jona 2. 1—4. Zec. 12. 10. Mat. 7. 7, 8. Luc 11. 9, 10. a 18. 7—14. a 23. 42, 43. Ioan 4. 10.

* Gŵyr Duw am ei bobl, pa le maent yn trigo, a pha fodd y mae arnynt, ac yn enwedig yn eu trallodau ysbrydol. † Mae yn debyg yr adwaenai Ananïas y Judas hwn, yn yr heol a elwid Uniawn, dim ond ei enwi ef. ‡ Er mai Iuddew oedd Saul, eto ar dir cenedlig y ganwyd ac yr ail-anwyd ef; yr hyn, efallai, oedd yn dangos bwriad Duw iddo fod yn apostol i'r cenedloedd. || Rhyfeddwyd gweled yr hen Saul gynt yn prophwydo, yr oedd yn rhyfeddach gweled y Saul hwn yn gweddïo. Diammau ei fod ef yn arfer gweddïo llawer o'r blaen yn ffurfiol, fel Pharisead; ond yn awr mae yr Arglwydd yn cyfrif ei fod ef yn dechreu gweddïo yn iawn, ac ar Grist. Dywedir hyn i Ananïas fel nad ofnai fyned ato.

12 [d] * Ac *efe* a welodd mewn gweledigaeth wr a'i enw Ananïas, yn dyfod i mewn, ac yn dodi *ei* law arno, fel y gwelai eilwaith.

d adn. 10, 17, 18.

* Paràd o eiriau yr Arglwydd wrth Ananïas yw yr adnod hon, ac nid geiriau Luc yr hanesydd. Efe a'th welodd *di*, Ananïas, yn dyfod i mewn, &c. Trwy y weledigaeth i Saul, parotôdd ei feddwl ef i dderbyn Ananïas; a thrwy ei hadrodd i Ananïas, mae yn ei barotôi yntau i fyned at Saul.

13 * Yna yr attebodd Ananïas, *O* [e] Arglwydd, mi a glywais gan lawer am y gwr

hwn, [f] faint o ddrygau a wnaeth efe i'th † saint di yn Jerusalem:

e Ex. 4. 13—19. 1 Sam. 16. 2. 1 Bren. 18. 9—14. Jer. 20. 9, 10. Ezec. 3. 14. Jona 1. 2, 3. Mat. 10. 16. f adn. 1. pen. 8. 3. a 22. 4, 19, 20. a 26. 10, 11. 1 Tim. 1. 13—15.

* Nid rhyfedd fod pawb yn hysbys o erlidiwr mòr greulawn, ac nid rhyfedd chwaith fod Ananïas yn ofni ar y cyntaf fyned ato. † Gelwir dysgyblion Crist yn saint, yn 1. Am eu bod wedi eu cyssegru i'r Arglwydd yn eu bedydd. 2. Maent wedi eu galw i sanctei ddrwydd. 3. Yr oeddynt y pryd hwnw yn byw yn sanctaidd ac yn addas. 4. Ac felly y dylai pawb a ymgyfenwant yn ddysgyblion iddo ef, ac a ddysgwyliant les o hyny.

14 [g] * Ac yma y mae ganddo awdurdod oddi wrth yr arch-offeiriaid, i rwymo pawb [h] sydd yn galw ar dy enw di.

g adn. 2, 3. h adn. 21. pen. 7. 59. a 22. 16. Rhuf. 10. 12—14. 1 Cor. 1. 2. 2 Tim. 2. 22.

* Yma yr oedd Ananïas yn dangos gwraidd ei ofn; gwyddai fod gan Saul awdurdod oddi wrth yr arch-offeiriaid, ond yr oedd ei ffydd wàn ef yn methu credu yn hollawl fod ei galon ef wedi ei chyfnewid er iddo glywed ei fod ef yn gweddïo.

15 A dywedodd yr Arglwydd wrtho, [i] * Dos ymaith: † canys y mae hwn [k] yn llestr etholedig i mi, [l] ‡ i ddwyn fy enw ger bron y Cenhedloedd, [m] a brenhinoedd, a phlant Israel.

i Ex. 4. 12—14. Jer. 1. 7. Jona 3. 1, 2. k pen. 13. 2. Jer. 1. 5. Ioan 15. 16. Rhuf. 1. 1. a 9. 21—24. Gal. 1. 1, 15, 16. 2 Tim. 1. 11. a 2. 4, 20, 21. Dat. 17. 14. l pen. 21. 19. a 22. 21. a 26. 17—20. Rhuf. 1. 13—15. a 11. 13. a 15. 15—21. 1 Cor. 15. 10. Gal. 2. 7, 8. Eph. 3. 7, 8. Col. 1. 25—29. 1 Tim. 2. 7. m pen. 25. 22—27. a 26. 1. a 27. 24. Mat. 10. 18. 2 Tim. 4. 16, 17.

* "Dos ymaith:" nac ymollwng i'th ofnau, nac ammau fy ngallu I i ofalu am danat, ac na wrthwyneba fy ewyllys a'm gorchymyn dwyfol I drwy anufudd-dod. † Duw a bïau yr holl fyd, a'r eglwys yn enwedig, fel ei dŷ: ac yn ei dŷ, mae ganddo ei lestri etholedig, er mai llestri pridd ydynt, at ei wasanaeth ac i gario ei drysor. Rhyfedd iddo ddewis yr erlidiwr Phariseaidd hwn yn llestr mòr ddewisol: ond y mae ffyrdd Duw i gyd yn rhyfedd. ‡ Dwyn enw Crist yma yw, dwyn yr athrawiaeth fawr a'r dystiolaeth am dano ef i blith y cenedloedd; ac amddiffyn yr athrawiaeth hòno ger bron brawd-leoedd, fel y gwnaeth Paul wedi hyn yn aml.

16 [n] * Canys myfi a ddangosaf iddo pa † bethau eu maint sydd raid iddo ef eu dioddef [o] er mwyn fy enw i.

n pen. 20. 22, 23. a 21. 11. Es. 33. 1. Mat. 10. 21—25. Ioan 15. 20. a 16. 1—4. 1 Cor. 4. 9—13. 2 Cor. 11. 23—27. 2 Tim. 1. 12. a 2. 9, 10. a 3. 11. o adn. 14. Mat. 5. 11. a 24. 9. 1 Pedr 4. 14. Dat. 1. 9.

* Tybia rhai i Grist roddi datguddiad gweledigaethol i Paul o'r holl bethau fyddai raid iddo ef ddyoddef yn achos yr efengyl ar dir a môr: os felly rhaid ei fod ef yn meddu ar wroldeb a ffyddlondeb mawr i wynebu ar y fath ddyoddefiadau, ac yntau yn gwybod am danynt oll yn mlaen llaw. † Gwel gyfres o honynt yn 2 Cor. 11. 23, &c: mesur mòr llawn ag a barodd yntau fesur i eraill o'r blaen.

17 Ac Ananïas a aeth ymaith, ac a aeth * i mewn i'r tŷ; [p] † ac wedi dodi ei ddwylaw arno, efe a ddywedodd, [q] ‡ *Y* brawd Saul, [r] yr Arglwydd a'm hanfonodd i ‖ (Iesu yr hwn a ymddangosodd i ti ar y ffordd y daethost) [s] fel y gwelych drachefn, [t] ac y'th lanwer â'r Ysbryd Glân.

p pen. 6. 6. a 8. 17. a 13. 3. a 19. 6. Mat. 19. 13. Marc 6. 5. 1 Tim. 4. 14. a 5. 22. 2 Tim. 1. 6. Heb. 6. 2. q adn. 13, 14. pen. 21. 20. a 22. 13. Gen. 45. 4. Luc 15. 30, 32. Rhuf. 15. 7. Philemon 16. 1 Pedr 1. 22, 23. r adn. 4, 5, 10, 11, 15. pen. 10. 36. a 22. 14. a 26. 15. Luc 1. 16, 17, 76. a 2. 11. 1 Cor. 15. 8, 47. s adn. 8, 9, 12. t Gwel ar pen. 4.—a 4. 31. a 8. 17. a 13. 52.

* I dŷ Judas, lle yr oedd Saul. † Mae yn debyg wrth yr arddodiad dwylaw hyn o'r eiddo Ananïas, yn nghyd a'i waith yn bedyddio Saul, adn. 18, ei fod ef yn swyddog enwog yn yr eglwys yn Damascus; pe amgen ni buasai yr Arglwydd Iesu yn ei anrhydeddu ef â'r gorchwylion hyn. ‡ Yr oedd yn bur hawdd gan Ananïas ei arddelwi ef yn frawd erbyn hyn, ac yr oedd yn deilwng o'r enw yn mhob ystyr. ‖ Yr oedd crybwyll yr hyn a ddygwyddasai ar y ffordd yn ddigon i sicrâu i Saul, mai yr Arglwydd Iesu oedd wedi danfon Ananïas, pe buasai heb ei weled ef mewn gweledigaeth.

18 [u] * Ac yn ebrwydd y syrthiodd oddi wrth ei lygaid ef megis cèn: ac efe a gafodd ei olwg yn y man; † ac *efe* a gyfododd, [x] ac a fedyddiwyd.

u 2 Cor. 3. 14. a 4. 6. x pen. 2. 38, 41. a 8. 12, 13, 37, 38. a 22. 16.

* Syrthiodd rhyw sylwedd gwirioneddol, a ellid ei weled a'i deimlo, rhyw bethau tebyg i gèn, oddi wrth ei lygaid ef, a gasglasai yno drwy effaith y goleuni a welsai ar y ffordd. Nid peth cyffredin oedd ei ddallineb ef, nac oddi wrth achos cyffredin, ac nis gallesid ei symmud trwy foddion cyffredin. Yr oedd yn arwyddo ei ddallineb ysbrydol ef o'r blaen, a'i symmudiad yn arwyddo y goleuni ysbrydol y cafodd efe ei ddwyn iddo. † Gwedi cael ei ddwyn fel hyn i oleuni a rhyddid yr efengyl, cafodd hyd yn nod ei gorph ef, a'i holl natur ei hadnewyddu; efe a gyfododd ar ei draed, ac a fedyddiwyd, yn arwydd o'i grediniaeth yn yr Arglwydd Iesu, ei broffes o hóno, ei ddarostyngiad a'i hollawl ymgyflwyniad iddo.

19 [y] * Ac wedi iddo gymmeryd bwyd, efe a gryfhâodd. [z] † A bu Saul gyd â'r disgyblion oedd yn Damascus dalm o ddyddiau.

y pen. 27. 33—36. 1 Sam. 30. 12. Preg. 9. 7. z pen. 26. 20. 1 Sam. 10. 10—12.

* Nis gallai fwyta gan drallod meddwl o'r blaen, ond yn awr mae yn ei ymgeleddu ei hun yn ofalus fel y gallo wasanaethu yr Arglwydd Iesu yr hwn a drugarâodd wrtho. † Gwedi ei gyfnewid ef, mae yntau yn newid ei gyfeillion; nid yw yn cyrchu at Rabbiniaid yr Iuddewon mwyach, ond at ddysgyblion Iesu: mae yn caru pawb, ac yn ewyllysgar i ddysgu gan bawb ag mae Iesu Grist yn athraw iddynt.

20 [a] * Ac yn ebrwydd yn y synagogau † efe a bregethodd Grist, [b] mai efe yw Mab Duw.

a adn. 27, 28. Gal. 1. 23, 24 b pen. 8. 37. Salm 2. 7, 12. Mat. 26. 63—66. a 27. 43, 54. Ioan 1. 49. a 19. 7. a 20. 28, 31. Rhuf. 1. 4. Gal. 2. 20. 1 Ioan 4. 14, 15. Dat. 2. 18.

* Yr oedd efe yn awr wedi gweled Iesu, "y Cyfiawn hwnw," a chwedi cael ei gynnysgaethu â'r Ysbryd Glân gan Iesu, i'w addasu ef at waith y weinidogaeth fel apostol; gan hyny yn y fàn wedi iddo gryfâu, efe a ddechreuodd ar ei orchwyl yn synagogau Damascus. † Mae holl weinidogaeth fawr yr efengyl yn cael ei chynnwys yn yr ychydig eiriau hyn; ac yn enwedig profi mai Iesu o Nazareth oedd y Messiah, ac ei fod yn Fab Duw.

21 * A phawb a'r a'*i* clybu *ef*, [c] a synnasant, ac a ddywedasant, [d] Onid hwn yw yr un [e] oedd yn difetha yn Jerusalem y rhai a alwent ar yr enw hwn, ac a ddaeth yma er mwyn hyn, fel y dygai hwynt yn rhwym at yr arch-offeiriaid?

c pen. 2. 6, 12. a 4. 13. Num. 23. 23. Salm 71. 7. Es. 8. 18. Zec. 3. 8. 2 Thes. 1. 10. 1 Ioan 3. 1. d pen. 3. 10. Mat. 13. 54, 55. Marc 5. 15—20. Ioan 9. 8, 9. e adn. 1, 2, 13, 14. pen. 8. 3. Gal. 1. 13—24.

* Gan y gwyddai pawb pa fath erlidiwr creulawn oedd Paul o'r blaen, ac y gwyddent erbyn hyn hefyd, iddo ddyfod i Damascus ar fwriad i erlid y cristionogion; nid rhyfedd eu bod yn sùnu wrth y fath gyfnewidiad sydyn ac amlwg. Mae yn debyg ei fod ef yn pregethu hefyd gyda'r fath nerth ac awdurdod, fel yr oeddynt yn sùnu wrth ei athrawiaeth ef. Ond y peth

cyntaf, mae yn debyg, oedd yr achos mwyaf o'u syndod hwynt.

22 * Eithr Saul [f]a gynnyddodd fwy-fwy o nerth, [g] † ac a orchfygodd yr Iuddewon oedd yn preswylio yn Damascus, [h] gan gadarnhâu mai hwn yw Crist.

f Gen. 49. 24. Job 17. 9. Salm 84. 7. Es. 40. 29. 2 Cor. 12. 9, 10. Phil. 4. 13. g pen. 6. 9, 10. a 18. 27, 28. Luc 21. 15. 1 Cor. 1. 27. h pen. 17. 3. a 18. 5. a 28. 23. Luc 24. 44, 45.

* Mae yn debyg fod yn mhlith y rhai a sỳnasant uchod, rai yn tramgwyddo wrth Paul, ac yn ei wrthwynebu: tybient ef yn wrthgiliwr oddi wrth y grefydd Iuddewig, yn ddyn wedi ynfydu, neu yn orphwyllog. Ond yn wyneb hyn yr oedd ef yn cynnyddu beunydd mewn gwybodaeth o'r efengyl, mewn cariad, mewn *zel*, ac mewn hyfdra sanctaidd yn ei waith. Mae gwir ras yn cynnyddu mewn ymarferiad a gwrthwynebiadau. † Gorchfygodd hwynt trwy ysgrythyrau a rhesymau, mai Iesu yr hwn a groeshoeliwyd oedd Crist y Messiah.

23 ¶ * Ac wedi cyflawni llawer o ddyddiau, [i] † cyd-ymgynghorodd yr Iuddewon i'w ladd ef.

i adn. 16. pen. 13. 50. a 14. 2, 19. a 22. 21—23. Jos. 10. 1—6. Mat. 10. 16—23. 2 Cor. 11. 26. 1 Thes. 2. 15, 16.

* Tybir mai yn yr ypsaid hyn o amser yr aeth Paul i Arabia, (Gwel Galat. 1. 17.) ac mai wedi dychwelyd oddi yno drachefn i Damascus, y ceisiodd yr Iuddewon ei ladd ef. Ni fynai Duw ei brofi ef yn rhy fuan â blinderau, ond ei gynnefino ef yn raddol i ddyoddef. † Cawn hanes yr ymgais hyn, a gwaredigaeth yr apostol hefyd, yn 2 Cor. 11. 32, 33. Gan y gwyddai Iuddewon Damascus am holl amgylchiadau rhyfedd ei droedigaeth, rhaid eu bod yn galed ac yn elyniaethol iawn pan y ceisient ei ladd ef.

24 [k] * Eithr eu cyd-fwriad hwy a wybuwyd gan Saul: † a hwy a ddisgwyliasant y pyrth ddydd a nos, i'w ladd ef.

k adn. 29, 30. pen. 14. 5, 6. a 17. 10—15. a 23. 12—21. a 25. 3, 11. Barn. 16. 2, 3. 2 Cor. 11. 32.

* Trefnodd Duw yn rhywfodd iddo ef gael gwybod am y cydfwriad llofruddiog yn ei erbyn, a threfnodd ymwared iddo hefyd, fel y gwelwn yn yr adnod nesaf. † Cawsant gan y llywydd dàn Aretas y brenin (2 Cor. 11. 32,) osod milwyr wrth bob porth i'w ddàl ef, neu os amcanai ffoi, i'w ladd ef yn y fàn: rhaid bod llawer wrth y gorchwyl hwn, gan fod Damascus yn ddinas fawr, ac iddi byrth lawer.

25 * Yna y disgyblion a'i cymmerasant ef o hyd nos, [l] † ac a'*i* gollyngasant i waered dros y mur mewn basged.

l Jos. 2. 15. 1 Sam. 19. 11, 12. 2 Cor. 11. 33.

* Mae hyn yn dangos fod Paul yn anwyl iawn, gan y dysgyblion erbyn hyn, eu bod yn drallodus o herwydd ei berygl, ac yn ofalus iawn am ei ddiogelwch. † Mae yn debyg fod tỷ un o'r dysgyblion ar fûr y ddinas, yna wedi cuddio Paul y dydd, gollyngwyd ef allan dros y mûr mewn basged yn y nos, yn debyg fel y gollyngodd Rahab yr ysp̈iwyr, Jos. 2. 15; a Mical Dafydd, 1 Sam. 19. 12.

26 [m] * A Saul, wedi ei ddyfod i Jerusalem, [n] † a geisiodd ymwasgu â'r disgyblion: [o] ‡ ac yr oeddynt oll yn ei ofni ef, heb gredu ei fod ef yn ddisgybl.

m pen. 22. 17. a 26. 20. Gal. 1. 17—19. n adn. 19. pen. 4. 23. o Mat. 10. 17—19. a 24. 10. Gal. 2. 4.

* Yr oedd hyn yn mhen tair blynedd wedi iddo fyned o Jerusalem â llythyrau i Damascus. Galat. 1. 18. Yr oedd yn ddyn gwahanol iawn yn dychwelyd, i'r hyn oedd yn myned oddi yno. † Ceisio ymwasgu mewn cyfeillach â hwy, ac hefyd mewn cyfranogiad o'u hordinadau a'u breintiau eglwysig. ‡ Nid rhyfedd eu bod yn ei ofni ef, gan nas gwyddent o'r blaen am ei dröedigaeth ef: ond pa fodd yr oeddynt heb wybod am beth mòr nodedig, a hyny am dair blynedd o amser? 1. Yr oedd y pellder yn fawr rhwng Damascus a Jerusalem. 2. Yr oedd rhyfel y pryd hwnw rhwng Aretas brenin Damascus â Herod, felly nid oedd dim gohebiaeth rhwng y ddau le. 3. Yr oedd yr erlid oedd yn Jerusalem yn rhwystr i gristionogion dramwyo yno, na chyfrinachu â'u brodyr. 4. Treuliodd Paul y rhan fwyaf o'r tair blynedd yn Arabia, mae yn debyg, nas gwyddai neb fawr am dano.

27 [p] * Eithr Barnabas a'i cymmerodd ef, ac a'*i* dug at [q] yr apostolion, † ac a fynegodd iddynt [r] pa fodd y gwelsai efe yr Arglwydd ar y ffordd, ac ymddiddan o hono âg ef, [s] ‡ ac mòr hỷf a fuasai efe yn Damascus yn enw yr Iesu.

p pen. 4. 36. a 11. 22, 25. a 12. 25. a 13. 2. a 15. 2, 25, 26, 35—39. 1 Cor. 9. 6. Gal. 2. 9, 13. q Gal. 1. 18, 19. r adn. 17. 1 Cor. 15. 8. s adn. 20—22. pen. 4. 13, 29. Eph. 6. 19, 20.

* Sylwyd ar y Barnabas hwn o'r blaen, pen. 4. 36: tybir ei fod yn gyd-ysgolhaig â Paul wrth draed Gamaliel, ac wedi ei ddychwelyd i'r ffydd o'i flaen ef. † Gwyddai Barnabas am holl amgylchiadau ei dröedigaeth ef, un ai wedi clywed ganddo ef ei hun, mewn llythyr oddiwrth Ananias, neu gan ryw un o gristionogion Damascus. ‡ Mae hyn yn lled ddangos mai gan rywun arall y clywsai Barnabas, ac nid o enau Paul ei hun; ni buasai yn cyd-weddu â gwylder iddo ef ei hun sôn am ei hyfdra yn Damascus. Yn Galat. 1. 19, gwelwn nad oedd o'r apostolion ond Pedr, ac Iago brawd yr Arglwydd yn Jerusalem, pan aeth Paul yno: yr oedd y lleill yn pregethu mewn rhyw leoedd eraill.

28 * Ac yr oedd efe gyd â hwynt, [t] yn myned i mewn ac yn myned allan, yn Jerusalem.

t pen. 1. 21. Num. 27. 16, 17. 2 Sam. 5. 2. 1 Bren. 3. 7. Salm 121. 8. Ioan 10. 9.

* Gwedi clywed yr hanes uchod gan Barnabas, cafodd Paul dderbyniad rhwydd a gwresog gan yr apostolion a'r dysgyblion, a bu yn myned i mewn ac allan yn eu plith am y pymtheng niwrnod yr arosodd yn Jerusalem. Galat. 1. 18.

29 [u] * A chan fod yn hỷf yn enw yr Arglwydd Iesu, efe a lefarodd [x] † ac a ymddadleuodd yn erbyn y [y] Groegiaid; ‡ a hwy a geisiasant ei ladd ef.

u adn. 20—22, 27. x pen. 6. 9, 10. a 17. 17. a 18. 19. a 19. 8. Judas 3, 9. y pen. 6. 1. a 11. 20.

* Efe a bregethodd Grist yn Jerusalem gyda'r un hyfdra ac awdurdod ag y gwnaethai o'r blaen yn Damascus, adn. 22, 27. † Am y Groegiaid hyn gwel ar pen. 6. 1, a Ioan 12. 20. Iuddewon yn arfer yr iaith Groeg: felly y dywed y cyfieithiad Syriaeg am danynt. Dyma'r rhai a ddechreuasant ymosod ar Stephan, pen. 6. 9—14; ac yn awr maent yn ymosod ar Paul yr un modd: ond y mae efe fel Stephan yn rhy galed iddynt. Dywed *Epiphanus*, nis gwyddom ar ba sail, fod y Groegiaid hyn wedi taenu y chwedl, mai yr achos i Saul droi yn gristion oedd, i Caiaphas yr arch-offeiriad nacâu ei ferch yn wraig iddo. Os dywedasant y fath chwedl ofer, mae yn profi eu bod hwy yn ei ystyried ef yn wr o urddas, pe amgen ni buasai yn cynnyg ar ferch i un mòr fawr a'r arch-offeiriad. ‡ Fel y Damasciaid, adn. 23, 24.

30 [z] A'r brodyr, pan wybuant, * a'i dygasant ef i waered i [a] Cesarea, ac a'i hanfonasant ef ymaith i [b] † Tarsus.

z adn. 24, 25. pen. 17. 10, 15. Mat. 10. 23. a pen 8. 40. Mat. 16. 13. b adn. 11. pen. 11. 25.

* Gallesid meddwl mai Cesarea ar làn môr y canoldir oedd hon, o ba le y gallasai efe fyned yn hawdd ar hỷd y môr i Tarsus; ond gan fod Paul ei hun yn dywedyd iddo ddyfod i wledydd Syria a Cilicia (Galat. 1. 21,) mae yn fwy tebygol mai Cesarea Philippi, yn agos i derfynau Syria, yw y Cesarea a grybwyllir yma. Am

y ddwy Cesarea, gwel ar Mat. 16. 3; Act. 8. 40. † Dyma le genedigol Paul, ac yma y bu yn llafurio, mae yn debyg, hyd oni ddaeth ei gyfaill Barnabas ato, yn mhen tair neu bedair blynedd gwedi hyn, (medd *Guyse)* i'w gymmeryd ef gydag ef i Antiochia, pen. 11. 25. Ac yma yr ydym yn gadael Paul hŷd y fân hono.

31 [c] * Yna yr eglwysi trwy holl Judea, a Galilea, a Samaria, a gawsant heddwch, [d] † ac a adeiladwyd; [e] ‡ a chan rodio yn ofn yr Arglwydd, [f] ac yn niddanwch yr Ysbryd Glân, [g] hwy a amlhâwyd.

c pen. 8. 1. Deut. 12. 10. Jos. 21. 44. Barn. 3. 30. 1 Cron. 22. 9, 18. Diar. 16. 7. Es. 11. 10. Heb. 4. 9. d 1 Cor. 3. 9—15. a 14. 4, 5, 12, 26. 2 Cor. 10. 8. a 12. 19. a 13. 10. Eph. 4. 12, 16, 29. 1 Thes. 5. 11. 1 Tim. 1. 4. Judas 20. e Neh. 5. 9, 15. Job 28. 28. Salm 111. 10. Diar. 1. 7. a 8. 13. a 14. 26, 27. a 16. 6. a 23. 17. Es. 11. 2, 3. a 33. 6. 2 Cor. 7. 1. Eph. 5. 21. f Ioan 14. 16—18. Rhuf. 5. 5. a 8. 15—17. a 14. 17. a 15. 13. Gal. 5. 22, 23. Eph. 1. 13, 14. a 6. 18, 19. Phil. 2. 1. 2 Thes. 2. 16, 17. g pen. 6. 7. a 12. 24. Esther 8. 16, 17. Zec. 8. 20—23.

* Mae yn debyg mai Paul oedd gwrthddrych penaf yr erlidwyr, ac wedi iddo ef fyned ymaith, llonyddodd yr erlidwyr i ryw raddau, a chafodd yr eglwysi heddwch mwy nac o'r blaen. † Heblaw heddwch oddi allan, cawsant eu hadeiladu yn ysbrydol, mewn rhifedi, grasau yr Ysbryd, gwybodaeth a chariad, a chymdeithas â Christ ac â'u gilydd yn Nghrist. Peth mawr yw i'r eglwys gael ei hadeiladu mewn amser llonydd a heddychol; mae perygl mawr rhag iddi adfeilio mewn amser felly. ‡ Dyma brawf eu bod yn cael eu hadeiladu, a dangosiad pa fodd yr oeddynt yn cael eu hadeiladu. Tybir mai bygythiad yr ymherawdwr Caligula, o osod ei ddelw ei hun yn y cyssegr sancteiddiolaf o gylch y pryd hwn, a fu yn achos i'r Iuddewon beidio erlid yr eglwysi am ryw yspaid: felly nid oedd diolch iddynt hwy, ond i Dduw sydd yn goruwch-lywodraethu pethau er lles a seibiant ei bobl.

32 ¶ A bu, a [h] * Phedr yn tramwy trwy yr holl *wledydd,* † iddo ddyfod i waered at [i] y saint hefyd y rhai oedd yn trigo yn Lŷda.

h pen. 1. 8. a 8. 14, 25. Gal. 2. 7—9. i adn. 13, 41. pen. 26. 10. Salm 16. 3. Diar. 2. 8. Mat. 27. 52. Rhuf. 1. 7. Eph. 1. 1. Phil. 1. 1. k adn. 38.

* Trwy holl barthau Judea a'r ardaloedd o amgylch, lle yr oedd eglwysi wedi eu sefydlu. † Tref fechan tua 32 milltir i'r gorllewin o Jerusalem, ac yn agos i lân môr y canol-dir, nid pell o Joppa. Tramwyai Pedr i gadarnâu yr eglwysi ieuainc yn y ffydd.

33 Ac efe a gafodd yno ryw ddyn a'i enw * Aeneas, [l] † er ys wyth mlynedd yn gorwedd ar wely, [m] yr hwn oedd glaf ‡ o'r parlys.

l pen. 3. 2. a 4. 22. a 14. 8. Marc 5. 25. a 9. 21. Luc 13. 16. Ioan 5. 5. a 9. 1, 21. m Marc 2. 3—11.

* Tybir mai Iuddew oedd y dyn hwn, ac mai Hillel oedd ei enw Iuddewig ef, ac Aeneas ei enw Groegaidd. † Crybwyllir hyn i ddangos mawredd y wyrth o'i iachâu ef. ‡ Gwendid y cyhyrau.

34 A Phedr a ddywedodd wrtho, Aeneas, [n] * y mae Iesu Grist yn dy iachâu di: † cyfod, a chyweiria dy wely. Ac efe a gyfododd yn ebrwydd.

n pen. 3. 6, 12, 16. a 4. 10. a 16. 18. Mat. 8. 3. a 9. 6, 28—30. Ioan 2. 11.

* Diammau fod Pedr yn gweddïo yn ei ysbryd gyda'r geiriau hyn, eto nid gweddi yw y geiriau, ond addewid, neu ddatganiad i'r dyn claf, fod Iesu Grist yr awr hòno yn ei iachâu ef. Iesu Grist oedd y gweithydd, yn awr yn gystal a phan oedd ar y ddaear. † Yr oedd hyn i brofi ei gwbl iachâd ef: o'r blaen nis gallai godi oddi ar ei wely, yn awr mae yn gallu ei ysgwyd a'i gyweirio yn llawn grymus ac iach.

35 [o] A phawb a'r oedd yn preswylio yn Lŷda a * Saron a'i gwelsant ef, [p] † ac a ymchwelasant at yr Arglwydd.

o pen. 4. 4. a 5. 12—14. a 6. 7. a 19. 10, 20. Salm 110. 3. Es. 66. 8. p adn. 42. pen. 11. 21. a 15. 19. a 26. 18—20. Deut. 4. 30. Salm 22. 27. Es. 31. 6. Galar. 3. 40. Hos. 12. 6. a 14. 2. Joel 2. 13. Luc 1. 16, 17. 1 Thes. 1. 9, 10.

* Dyffryn helaeth a ffrwythlawn oedd Saron, yn gyfagos i Lŷda, ac ynddo lawer o bentrefydd, 1 Cron. 5. 16: yr oedd yn cyrhaedd o Cesarea hyd Joppa gyda glàn y môr, ac yn enwog iawn am ei brydferthwch, ei borfeydd, a'i ffrwythlondeb. † Yma cyflawnwyd prophwydoliaeth Esaiah, "Hwy a welant ogoniant yr Arglwydd, a godidawgrwydd ein Duw ni:" Esaiah 35. 2. Bu y wyrth hon yn foddion i ddychwelyd llawer o honynt at yr Arglwydd, sef yr Arglwydd Iesu.

36 ¶ [q] * Ac yn Joppa yr oedd rhyw † ddisgybles a'i henw Tabitha (yr hon os cyfieithir a elwir Dorcas) ‡ hon oedd yn [r] llawn o weithredoedd da, ac [s] elusenau y rhai a wnaethai hi.

q pen. 10. 5 2 Cron. 2. 16. Ezra 3. 7. Jona 1. 3. r Ioan 15. 5, 8. Eph. 2. 10. Phil. 1. 11. Col. 1. 10. 1 Thes. 4. 10. 1 Tim. 2. 9, 10. a 5. 10. Tit. 2. 14. a 3. 8. Heb. 13. 21. Iago 1. 27. s pen. 10. 4, 31.

* Tref ar làn y môr oedd Joppa, tua 34 milltir i'r gorllewin, neu y gogledd orllewin o Jerusalem, y porthladd agosaf i Jerusalem, ac yr unig borthladd a berthynai iddi ar fôr y canol-dir. Gellid gweled Jerusalem o Joppa gan fod y ddwy dref yn sefyll ar uchelleoedd, a'r wlad yn wastad rhyngddynt. Crybwyllir lleoedd a phersonau fel hyn er cadarnâu gwirionedd yr hanes. † Tabitha oedd ei henw Syriaeg, a Dorcas, ei henw Groegaidd; y ddau yn arwyddo *ewig.* Tybir mai un o'r Iuddewon Groegaidd oedd hi, ac felly yn myned wrth y ddau enw uchod, ond mae yr enw dysgybles yn well na'r ddau. Gan fod Joppa yn gorwedd rhwng Azotus â Cesarea, mae yn debyg i Phylip bregethu yno ar ei daith i'r lle olaf, ac efallai mai y pryd hwnw y gwnaed hi yn ddysgybles. ‡ Mae yn debyg ei bod hi yn wraig gyfoethog; pa fodd bynag yr oedd yn gyfoethog mewn gweithredoedd da, y rhai ydynt y cyfoeth goreu, a barânt hwyaf, ac a ânt bellaf.

37 * A digwyddodd yn y dyddiau hynny [t] iddi fod yn glaf, a marw: † ac wedi iddynt ei golchi, hwy a'*i* dodasant *hi* [u] mewn llofft.

t Ioan 11. 3, 4, 36, 37. u pen. 1. 13. a 20. 8. Marc 14. 15.

* Tra yr oedd Pedr yn y parthau hyny, clafychodd y wraig elusengar hon, a bu farw. † Arferai yr Iuddewon olchi eu meirw, a'u heneinnio hefyd, cyn eu claddu; yn arwydd o'u gobaith am yr adgyfodiad. Tybia rhai mai at hyny y cyfeiria Paul yn 1 Cor. 15. 29.

38 * Ac o herwydd bod [x] Lŷda yn agos i Joppa, y disgyblion a glywsant fod Pedr yno; † ac a anfonasant ddau wr atto ef, [y] gan ddeisyf nad oedai ddyfod hyd attynt hwy.

x adn. 32, 36. y 2 Bren. 4. 22—30.

* Tua phump neu chwech milltir, meddant, oedd o Lŷda i Joppa. † Danfonasant am Pedr i'w cysuro hwynt yn eu galar am wraig mòr elusengar, a dysgybles mòr dda: ac os oeddynt wedi clywed am y wyrth a wnaethai efe ar Aeneas, efallai nad oeddynt ddim heb ryw obaith yr adferai efe Tabitha o farw i fyw: mae y deisyfiad taer "nad oedai efe ddyfod" yn lled-ddangos fod peth felly yn eu meddyliau.

39 * A Phedr a gyfododd, ac a aeth gyd â hwynt. *Ac* wedi ei ddyfod, hwy a'i dygasant ef i fynu i'r llofft: [z] † a'r holl wragedd gweddwon a safasant yn ei ymyl ef yn wylo, [a] ac yn dangos y peisiau a'r gwisgoedd a wnaethai Dorcas [b] tra yr ydoedd hi gyd â hwynt.

z adn. 41. pen. 8. 2. 2 Sam. 1. 24. Diar. 10. 7. 1 Thes. 4. 13. a adn. 36. pen. 20. 35. Job 31. 19, 20. Diar. 31. 30, 31. Mat. 25. 36—39. a 26. 11. Marc 14. 8. Ioan 12. 8. 2 Cor. 8. 12. Eph. 4. 28.

Thes. 1. 3. Iago 2. 15—17. 1 Ioan 3. 18. b Mat. 17. 17. Luc 4. 44. Ioan 17. 12.

* Yr Arglwydd yn ddïammau a roes yn nghalonau y ysgyblion yn Joppa i ddanfon am Pedr; a'r Arglwydd yr un modd a roes ar ei feddwl yntau fyned. Yr oedd oobpeth yma yn cael ei wneyd mewn ffydd; ond gwaith ffydd yma a fyddai waith rhyfyg ynom ni. Nid oedd achos cyflogi galar-wragedd yma, yr oedd rma alar diragrith, a'r achos o hóno yn amlwg.

40 * Eithr Pedr, wedi eu bwrw hwy i gŷd allan, [d] † a dodi ei liniau *ar lawr*, [e] ‡ a weddïodd; a chan droi at y corph, a ddywedodd, ‖ Tabitha, cyfod. § A [f] hi a agorodd ei llygaid, a phan welodd hi Pedr, hi a gododd yn ei heistedd.

c Marc 5. 40. Luc 8. 54. d pen. 7. 60. a 20. 36. a 21. 5. 1 Bren. 17. 19—23. 2 Bren. 4. 32—36. Mat. 9. 25. f Marc 5. 42. Ioan 11. 43, 44.

* Deisyfodd Pedr ar bawb fyned allan fel na byddai llim ymddangosiad o rodres a gwag-ogoniant, ac fel y gallai well llonyddwch i ymdrech â Duw mewn gweddi. Felly y gwnaeth Eliseus ar achlysur cyffelyb. 2 Bren. 4. 33. † Crybwyllir hyn er dangos y parchedig ofn a weddai fod ynom ni wrth weddio, hyd yn nod yn y llirgel: mae Duw yn ein gweled yno. ‡ Dengys hyn nad oedd Pedr ddim yn meddwl y gallai wneyd dim ei hun, ond ceisio gan Dduw godi y marw yn fyw, er lles i'r saint tlodion, ac er cadarnâd yr efengyl trwy hyny. ‖ Nid yn awdurdodol, a gorchymynol, fel Crist ei hun, yr oedd efe yn dywedyd "cyfod;" ond mewn ffydd yn yr Arglwydd Iesu, y cyfodai efe Tabitha gyda'r gair. § Gyda dywedyd Pedr, yr oedd yr Arglwydd Iesu yn gweithredu; ac adferwyd y wraig i fywyd. Tebyg i hyn oedd hi gydag Ezeciel a'r esgyrn sychion; a thebyg i hyn mae Duw yn defnyddio gweinidogaeth y gair.

41 * Ac [g] efe a roddodd ei law iddi, ac a'i cyfododd hi i fynu. † Ac wedi galw y saint a'r [h] gwragedd gweddwon, [i] ‡ *efe* a'i gosododd hi ger bron yn fyw.

g pen. 3. 7. Marc 1. 31. h pen. 6. 1. Job 29. 13. Salm 146. 9. Luc 7. 12. i pen. 20. 12. Gen. 45. 26. 1 Bren. 17. 23. Luc 7. 15.

* Nid oedd dim o'r wyrth yn hyn, yr oedd y wyrth wedi ei gwneyd o'r blaen. † Y rhai oedd yn aros allan yn dysgwyl yn awyddus beth fyddai y canlyniad. ‡ Yn fyw ac yn hollawl iach: perffaith yw gwaith Duw i gyd.

42 A hysbys fu trwy holl Joppa; [k] a llawer a gredasant yn yr Arglwydd.

k adn. 35. pen. 11. 21. a 19. 17, 18. Ioan 11. 4, 45. a 12. 44.

* Rhedodd y sôn am beth mòr rhyfedd drwy yr holl dref yn fuan; † a defnyddiodd Duw y tro i fod yn foddion i ddwyn llaweroedd i wrando ac i gredu yr efengyl, na fuasent yn meddwl dim am dani oni buasai y tro hwn. Fel hyn bu y wyrth yn fwy o les i eneidiau llaweroedd nag a fu i gorph Tabitha.

43 * A bu iddo aros yn Joppa lawer o ddyddiau † gyd âg [l] un Simon, ‡ barcer.

l pen. 10. 6, 32.

* Wrth weled "llawer yn credu" yr oedd yn annogaethol iawn i Pedr aros yno yn hwy: ac yr oedd gan Dduw ychwaneg o waith iddo, mae yn debyg, yn Joppa; nid oedd y wyrth ond megys wedi darpar y tir, yna yr oedd yn rhaid iddo yntau hau yr had ynddo. † Buasai yn dda gan Tabitha ei lettya ef yn ddïammau; ond nid arosai yno, rhag y buasai dim *ymddangosiad* ei fod yn cael ei wobrwyo am y wyrth a wnaed arni. ‡ Cyffeithydd crwyn anifeiliaid: crybwyllir galwedigaeth Simon i ddangos nad oedd Pedr ddim wedi ymddyrchafu ar ei enwogrwydd oblegid y wyrth yn Joppa; yr oedd yn foddlawn i lettya gyda dyn cyffredin oedd yn ennill ei fywiolaeth trwy lafur a diwydrwydd.

PEN. X.

Cornelius, gwr defosiynol, wrth orchymyn angel, yn anfon i gyrchu Pedr.

YR oedd rhyw wr [a] yn * Cesarea, a'i enw † Cornelius, [b] ‡ canwriad o'r fyddin a elwid yr [c] ‖ Italaidd;

a pen. 8. 40. a 21. 8. a 23. 23, 33. a 25. 1, 13. b pen. 22. 25. a 27. 1, 31, 43. Mat. 8. 5, &c. a 27. 54. Luc 7. 2. c pen. 27. 1.

* Cesarea yn Palestina oedd hon eto, ac nid Cesarea Philippi, ac yr oedd ar làn y môr, yn uwch i'r gogledd na Joppa. † Enw Rhufeinig yw hwn, a dïau wrth ei enw mai Rhufeiniad oedd y gwr. Yr oedd teulu uchel iawn o'r enw *Cornelii* yn Rhufain, meddant, o ba un yr hànai y canwriad hwn. † Am ystyr y gair "canwriad," gwel ar Matth. 8. 5. Gellir dywedyd amryw o'r un pethau am y canwriad hwn a ddywedir yno am y canwriad hwnw. ‖ Gelwir hon yn fyddin Italaidd, efallai, am mai Italiaid gan mwyaf oedd ynddi, yn warcheidwaid personol y rhaglaw, yr hwn oedd y pryd hyny yn cadw ei lŷs yn Cesarea.

2 [d] * *Gwr* defosiynol, [e] ac yn ofni Duw, [f] ynghyd â'i holl dŷ, [g] ac yn gwneuthur llawer o elusenau i'r bobl, [h] ac yn gweddïo Duw yn wastadol.

d adn. 7, 22. pen. 2. 5. a 8. 2. a 13. 50. a 16. 14. a 22. 12. Luc 2. 25. e adn. 35. pen. 9. 31. a 13. 16, 26. 1 Bren. 8. 43. 2 Cron. 6. 33. Job 1. 1. Salm 102. 15. Es. 59. 19. Dan. 6. 26. Dat. 15. 4. f adn. 7. pen. 16. 15. a 18. 8. Gen. 18. 19. Jos. 24. 15. Job 1. 5. Salm 101. 6—8. g adn. 4, 22, 31. a 9. 36. Es. 58. 7, 8. Luc 7. 4, 5. Rhuf. 15. 26, 27. 2 Cor. 9. 8—15. h pen. 9. 11. Salm 25. 5, 8, 9. a 55. 17. a 86. 3. a 88. 1. Diar. 2. 3—5. Dan. 6. 10, 16, 20. Mat. 7. 7, 8. Luc 18. 1. Col. 4. 2. 1 Thes. 5. 17. Iago 1. 5.

* Gan fod y canwriad hwn yn cael ei ystyried yn aflan, yn adn. 28, a Phedr yn cael ei geryddu gan y rhai o'r enwaediad am fyned i mewn atto, pen. 11. 2, 3, mae yn amlwg mai dïenwaededig oedd efe: eto yr oedd wedi dyfod i wybodaeth am y gwir Dduw, yn ei ofni, yn gweddïo arno yn wastadol, yn dra elusengar i'r bobl, ac yn ddyn tra nodedig yn ei dduwioldeb. Pan ddanfonwyd ef o Italy i Palestina yn bagan, mae yn debyg ei fod yn ystyried hyny yn galed; ond trôdd allan yn drugaredd anfeidrol i'w enaid ef, gan mai hyn fu yn foddion i'w ddwyn ef i adnabyddiaeth o'r unig wir Dduw, a'r hwn a anfonodd efe, Iesu Grist, er ei iachawdwriaeth.

3 [i] * Efe a welodd mewn gweledigaeth yn eglur, [k] † ynghylch y nawfed awr o'r dydd, [l] angel Duw yn dyfod i mewn atto, ac yn dywedyd wrtho, [m] ‡ Cornelius.

i Job 4. 15, 16. Dan. 9. 20, 21. k adn. 30. pen. 3. 1. Mat. 27. 46. Luc 23. 44—46. l pen. 5. 19. a 11. 13. a 12. 7—11. a 27. 23. Luc 1. 11. a 2. 10, 11, 13. Heb. 1. 4. m pen. 9. 4. Ex. 33. 17. Es. 45. 4.

* Nid breuddwyd, neu ber-lewyg, ydoedd; ond gweledigaeth eglur, a diledrith, i'w lygaid corphorol ef: angel Duw yn sefyll ger ei fron ef ar wedd dyn, ond yn dra gogoneddus, adn. 30. † Tua thri o'r gloch y prydnawn, amser yr offrwm prydnawnol, a'r awr weddi yn mhlith yr Iuddewon; ac ymprydio a gweddïo yr oedd yntau pan gafodd y weledigaeth hon, fel Daniel gynt. Dan. 9. 20, 21. Cafodd Duw ef yn ffyddlawn ar yr ychydig oleuni oedd ganddo, ac yn awr mae yn myned i roddi ychwaneg iddo. ‡ "Mi a'th adwaen wrth dy enw." Exod. 33. 17.

4 * Ac wedi iddo graffu arno, [n] a myned yn ofnus, efe a ddywedodd, [o] † Beth sydd, Arglwydd? Ac efe a ddywedodd wrtho, [p] Dy weddïau di [q] a'th elusenau a ‡ ddyrchafasant yn ‖ goffadwriaeth ger bron Duw.

n Dan. 10. 11. Luc 1. 12, 29. a 24. 5. o pen. 9. 5, 6. a 22. 10. 1 Sam. 3. 10. p adn. 31. 2 Cron. 6. 33. a 32. 24. Salm 141. 2. Es. 43. 26. Mal. 3. 16. Luc 1. 13. Phil. 4. 6. q Phil. 4. 18. Heb. 6. 10. a 13. 16.

* Ni welsai Cornelius y fath weledigaeth erioed o'r blaen, a phe gwelsai, nid rhyfedd iddo fyned yn ofnus; oblegid beth yw cig a gwaed i ddàl i edrych ar un o angelion gogoneddus Duw? † Iaith syndod, a braw disymmwth, fel pe dywedasai, O Arglwydd, gwared fi! beth yw hyn? pwy ydyw hwn? a pheth yw meddwl a dyben y fath ymweliad a hwn i mi? ai mewn trugaredd ai ynte mewn digofaint? ‡ Cyfeiriad at yr arogldarth yn derchafu i fynu dàn y gyfraith: felly yr oedd Dafydd yn dymuno i'w weddïau esgyn i fynu, Salm 141. 2. ‖ Felly y gelwid offrymau y bobl dàn y ddeddf. Lefit 2. 2, 9; a 6, 15. Mae y geiriau yn arwyddo eu bod yn gymmeradwy ger bron Duw, ac megys yn ei goffàu ef am ei addewidion, a'i fwriadau grasol tuag at Cornelius.

5 * Ac yn awr [r] anfon wŷr i Joppa, a gŷr am Simon, [s] yr hwn a gyfenwir Pedr:

r adn. 32. pen. 9. 38. a 15. 7. a 16. 9. s Marc 3. 16. Ioan 1. 42.

* Nid i'r angelion y darostyngodd Duw y byd a ddaw; hyny yw, nid angelion a drefnodd efe i bregethu yr efengyl, ond dynion fel ni ein hunain, am hyny rhaid i Cornelius ddanfon am Pedr i Joppa, yr hon oedd lawer o filltiroedd i'r dehau o Cesarea.

6 * Y mae efe yn llettya gyd âg [t] un Simon, barcer; tŷ yr hwn sydd wrth y môr: [u] † efe a ddywed i ti pa beth sydd raid i ti ei wneuthur.

t pen. 9. 43. u pen. 9. 6. a 11. 13, 14. Ioan 7. 17. Rhuf. 10. 14—17. Eph. 4. 8—12.

* Gwel ar pen. 9. 43. Rhyfedd mòr fanol oedd yr angel yn ei gyfarwyddyd: yr oedd hyn yn gymmorth mawr i Cornelius, nid yn unig i gael hŷd i Pedr; ond hefyd i gredu mai oddiwrth yr Arglwydd yr oedd y weledigaeth, wedi iddo gael pob peth fel y dywedasai yr angel, ac i gredu athrawiaeth Pedr pan ddaeth, fel un wedi ei ddanfon gan Dduw. † Mae yn ddïammau fod Cornelius fel dyn duwiol, yn credu yr addewidion o'r Messiah, a'r prophwydoliaethau am dano o'r blaen; yr hyn oedd yn ddigon er iachawdwriaeth dàn yr hen oruchwyliaeth: ond wedi i Grist ddyfod, cyflawni gwaith y prynedigaeth, a chyhoeddi yr iachawdwriaeth yn yr efengyl; yr oedd yn angenrheidiol credu ynddo *ef*, yn *bennodol*, yn awr, fel y Messiah a'r Iachawdwr hwnw: ac i'w bregthu ef fel y cyfryw, yr oedd yn rhaid danfon am Pedr.

7 A phan ymadawodd yr angel oedd yn ymddiddan â Chornelius, * efe a alwodd [x] ar ddau o dylwyth ei dŷ, [y] † a milwr defosiynol o'r rhai oedd yn aros gyd âg ef:

x adn. 10. Gen. 24. 1—10, 52. Barn. 7. 10. 1 Sam. 14. 6, 7. 1 Tim. 6. 2. Philemon 16. y adn. 1. Mat. 8. 9, 10. Luc 3. 14.

* Yn adn. 2, dywedir ei fod ef a'i "holl dŷ" yn ofni Duw: ddïammau iddo ef gymmeryd llawer o boen i ddysgu ei deulu, ac yr oedd yn ddedwydd iawn yn ei deulu, o ran eu ffyddlondeb i'w wasanaethu ef: nid oedd yn anhawdd iddo gael dau ddyn crefyddol a ffyddlawn i'w danfon ar y neges pwysig hwn. † Yr oedd crefydd Cornelius wedi ennill rhai o'i filwyr ef hefyd; drwy ei hyfforddiadau a'i ymarweddiad sanctaidd ef ei hun. Mae yn werth sylwi ar ufudd-dod parod y gwr mawr hwn hefyd; gan nas gwyddai efe ddim am y cristionogion o'r blaen, ond yr hyn allasai ddygwydd glywed gan yr Iuddewon digred a rhagfarnllyd, yr hyn oedd yn tueddu i grëu rhagfarn yn eu herbyn ynddo yntau, mwy na dim arall.

8 * Ac wedi iddo fynegi iddynt y cwbl, [z] † efe a'u hanfonodd hwynt i Joppa.

z adn. 33. pen. 26. 19. Salm 119. 59, 60. Preg. 9. 10. Gal. 1. 16.

* Er mai gweision isel-radd oedd y rhai hyn i Cornelius, eto, fel dynion duwiol mae efe yn eu hystyried yn gydradd âg ef ei hun, ac yn mynegi iddynt fel ei gyfeillion mynwesol, yr hyn a welsai, ac a orchymynasid iddo gan yr angel. † Yr oedd hyn yn eu gwneyd yn fwy ewyllysgar i fyned, ac i fod yn fwy taer am i Pedr ddyfod.

9 ¶ * A thrannoeth, fel yr oeddynt hwy yn ymdeithio, ac yn nesâu at y ddinas, [a] † Pedr a aeth i fynu ar y tŷ i weddïo, ‡ ynghylch [b] y chweched awr.

a adn. 8. pen. 11. 5—10. 1 Sam. 9. 25. Zeph. 1. 5. Mat. 6. 6. Marc 1. 35. a 6. 46. 1 Tim. 2. 8. b pen. 6. 4. Salm 55. 17. Dan. 6. 10. Mat. 20. 5. a 27. 45. Eph. 6. 18.

* Yr oedd hi yn hwyr y dydd o'r blaen pan gychwynodd y cenadau hyn, ac yr oedd tua hanner dydd dranoeth, y "chweched awr," pan gyrhaeddasant Joppa. † Am nenau tai yr Iuddewon, gwel ar Matth. 24. 7. ‡ Heblaw bore a hwyr, byddai y rhai mwyaf crefyddol o'r Iuddewon yn neillduo amser i weddïo hanner dydd hefyd: felly Dafydd, Salm 55. 17; a Daniel, Dan. 6. 10. Sylwyd o'r blaen, pen. 9. 36, y gellid gweled Jerusalem o Joppa, a thybir fod Pedr yma yn myned i ben y tŷ i weddïo, fel y gallai weled y deml oddi yno, yn gystal ag er mwyn neillduaeth a llonyddwch. Arferai yr Iuddewon droi eu gwynebau tua Jerusalem wrth weddïo pa le bynag y byddent; (1 Bren. 8. 38, &c.; Jonah 2. 4; Dan. 6. 10;) ac mae yn debyg fod Pedr hyd yn hyn yn gwneyd yn ol yr arfer hòno.

10 [c] * Ac fe ddaeth arno newyn mawr, ac efe a chwennychai gael bwyd. Ac a hwynt yn parottoi *iddo*, [d] † fe syrthiodd arno lewyg:

c Mat. 4. 2. a 12. 1—3. a 21. 18. d pen. 22. 17. Num. 24. 4, 16. Ezec. 8. 1—3. a 11. 24. a 40. 2. 2 Cor. 12. 2—4. Dat. 1. 10. a 4. 2, 3.

* Gan nad oedd hi eto ond tua'r "chweched awr," gallwn feddwl mai peth goruwch-naturiol, o ddanfoniad disymmwth Duw, oedd y "newyn mawr" hwn ar Pedr; i'w barotôi ef i'r llewyg, y llewyg i'w barotôi ef i'r weledigaeth, a'r weledigaeth i'w barotôi ef i fyned i bregethu i'r cenedloedd. † Rhyw fath o lesmair a orchfygodd ei natur a'i synwyrau ef, fel nas gwyddai pa un ai yn y corph ai allan o'r corph yr oedd, fel Paul, 2 Cor. 12. 2, 3; ond yr oedd ei holl gynneddfau mewn cyflawn rym a gweithrediad ganddo, ac nid fel y trwmgwsg a syrthiodd ar Adda.

11 [e] * Ac *efe* a welai y nef yn agored, [f] a rhyw † lestr yn disgyn arno, fel llen-llïain fawr, ‡ wedi rhwymo ei phedair congl, a'i gollwng i waered hyd y ddaear:

e pen. 7. 56. Ezec. 1. 1. Luc 3. 21. Ioan 1. 51. Dat. 4. 1. a 11. 19. a 19. 11. f Gen. 49. 10. Es. 11. 6—14. a 19. 23—25. a 43. 6. a 56. 8. Mat. 8. 11. a 13. 47, 48. Ioan 11. 52. a 12. 32. Rhuf. 1. 16. a 3. 29—31. a 9. 4. a 15. 9—12. a 16. 25, 26. Gal. 2. 15. a 3. 28. Eph. 1. 10. a 3. 6. Col. 3. 11.

* Cofiwn mai yn weledigaethol yn ei lewyg, ac â llygaid ei feddwl, y gwelodd Pedr y nef yn agored, ac nid yn wirioneddol, â llygaid ei gorph fel ar fedyddiad Iesu, ac fel y gwelodd Stephan hi. Gallai hyn arwyddo bod y nef yn cael ei hagor yn awr trwy Grist, ag oedd wedi eu chauad trwy yr Adda cyntaf: neu ynte, ei bod yn cael ei hagor yn awr i'r cenedloedd wedi bod yn gauedig iddynt hwy trwy holl oesoedd yr Hen Destament. Y dirgelwch am alwad y cenedloedd yn cael ei ddwyn i'r amlwg, mae yn debyg mae yn arwyddo. Gwel Ephes. 3. 2—6. † Rhyw ddodrefnyn teuluaidd, neu offeryn at lafurwaith, yw ystyr y gair *skeuos*, ac nid "llestr" yn unig, yn ol ein syniad ni am lestr. Efallai mai eglwys y Testament Newydd mae y llèn-llïan fawr hon yn arwyddocâu, dechreuad yr hon sydd o'r nef, ac a dynir yn y diwedd i'r nef drachefn. ‡ Tybir fod y pedair congl yn arwyddo pedwar cŵr y byd, o ba le y casgla Duw ei etholedigion; a rhwymiad y conglau yn arwyddo dïogelwch yr eglwys, yn addewid, llŵ, a chyfammod Duw; a rhwymiadau ei ddoethineb, ei allu, ei wirionedd, a'i gariad anghyfnewidiol ef.

12 * Yn yr hon [g] yr oedd pob rhyw bed-

war-carnolion y ddaear, a gwylltfilod, ac ymlusgiaid, ac ehediaid y nef.

g Gen. 7. 8, 9. Es. 11. 6—9. a 65. 25. Ioan 7. 37. 1 Cor. 6. 9—11.

* Wrth y gwahanol rywiau hyn o grëaduriaid, rhaid i ni ddeall yn ddïammau, pechaduriaid o bob cenedl, ac o bob math, wedi eu casglu i'r eglwys trwy bregethiad yr efengyl, a thrwy ffydd a gras. Tybia rhai fod yn y llèn-llïan rai crëaduriaid glân yr ol y ddeddf, a rhai aflan; ond tybia eraill mai crëaduriaid aflan oeddynt i ygyd: a hyny sydd fwyaf tebygol wrth ateb Pedr i'r gorchymyn, "Lladd a bwyta." adn. 14. Ac os dangos galwad y cenedloedd oedd dyben y weledigaeth hon, mae yn fwy tebyg byth mai crëaduriaid aflan oedd yn y llèn-llïan; oblegid ystyriai yr Iuddewon y gwahaniaeth seremoniol rhwng crëaduriaid glân ac aflan fel arwydd o'r gwahaniaeth rhwng Iuddewon â Chenedloedd.

13 * A daeth llef atto, [h] Cyfod, Pedr; lladd, a bwytta.

h adn. 10. Jer. 35. 2—5. Ioan 4. 31—34.

* Llef yr Arglwydd o'r nefoedd, felly yr ystyriai Pedr hi, mae yn amlwg yn yr adnod nesaf. † Gorchymyn oedd hwn iddo bregethu yr efengyl i'r cenedloedd yn gystal ag i'r Iuddewon, a chymdeithasu â'r cenedloedd yn yr efengyl, yn gystal ag â'r Iuddewon: a bod yn awyddus i hyny, ac ymhyfrydu yn hyny, fel dyn newynog yn chwennychu bwyd, adn. 10, ac yn ymhyfrydu mewn bwyd. Mae yn debyg fod yr Arglwydd yn y fàn yma hefyd, yn diddymu y gorchymyn seremoniol yn nghylch bwydydd glân ac aflan, ac yn rhoddi rhyddid i'r cristionogion Iuddewig i fwyta weithian o bob peth bwytadwy, yn ddiwahaniaeth.

14 A Phedr a ddywedodd, [i] * Nid felly, Arglwydd: [k] † canys ni fwytteais i erioed ddim ‡ cyffredin neu aflan.

i Gen. 19. 18. Ex. 10. 11. Mat. 16. 22. a 25. 9. Luc 1. 60.
k Lef. 11. a 20. 25. Deut. 14. Ezec. 4. 14. a 44. 31.

* Er y gwyddai Pedr mai llef yr Arglwydd Iesu oedd yn gorchymyn iddo, cymmaint oedd ei syndod wrth y fath orchymyn, fel y beiddiodd, yn ei syndod a'i annwybodaeth, wrthddadlau yn erbyn y fath orchymyn anarferol. † Ni fwytêais i ddim erioed gwaharddedig yn nghyfraith Moses, ac nis gall fy nghydwybod i ei wneyd. ‡ Tybia rhai mai geiriau cyfystyr yw y rhai hyn, "cyffredin neu aflan;" ond y mae eraill yn gwneyd gwahaniaeth rhyngddynt:—"cyffredin," pethau a fwytêid gan y cenedloedd, ond ni fwytêid gan yr Iuddewon: "aflan," pethau ni fwytêid gan genedloedd nac Iuddewon; megys crëaduriaid gwenwynig, neu wedi marw o honynt eu hunain.

15 A'r llef drachefn *a ddywedodd* wrtho yr ail waith, [l] * Y pethau a lanhaodd Duw, na alw di yn gyffredin.

l adn. 28. pen. 11. 9. a 15. 9, 20, 29. Mat. 15. 11. Rhuf. 14. 14—17, 20. 1 Cor. 10. 25. Gal. 2. 12, 13. 1 Tim. 4. 3—5. Tit. 1. 15. Heb. 9. 9, 10.

* Y pethau a farnodd Duw yn lân, neu a arfaethodd efe eu gwneyd yn lân. Gwaith yr offeiriad oedd, mewn achos o wahan-glwyf neu ryw beth cyffelyb, barnu y peth neu y person yn lân neu yn aflan. Yn yr Hebraeg fel hyn y mae, "Yr offeiriad a'i glanhâ—neu, yr offeiriad a'i haloga:" hyny yw, ei farnu yn lân neu yn aflan. Felly yma, y pethau a farnodd Duw yn lân yn y weledigaeth hon, na farned Pedr hwynt yn aflan. Yr oedd Duw yn awr yn diddymu y gwahaniaeth seremoniol rhwng bwydydd a chrëaduriaid glân ac aflan, a rhwng Iuddewon a Chenedloedd hefyd; ac nid oedd Pedr na neb arall i gadw y gwahaniaeth hwnw i fynu ddim yn hwy.

16 * A hyn a wnaed [m] dair gwaith: † a'r llestr a dderbyniwyd drachefn i fynu i'r nef.

m Gen. 41. 32. Ioan 21. 17. 2 Cor. 13. 1.

* I ddangos penderfyniad dïysgog Duw, i argraffu y peth ar feddwl Pedr, ac i'w wneyd ef yn ufudd i fyned i dŷ Cornelius, ac i bregethu yr efengyl i'r cenedloedd o hyny allan. † I arwyddo y byddai i bechaduriaid crediniol o bob gradd, sefyllfa, a chenedl, gael eu derbyn yn un eglwys fawr i ogoniant yn y diwedd.

17 [n] * Ac fel yr oedd Pedr yn ammeu ynddo ei hun beth oedd y weledigaeth a welsai; † wele, [o] y gwŷr a anfonasid oddi wrth Cornelius, wedi ymofyn am dŷ Simon, oeddynt yn sefyll wrth y porth.

n adn. 19. pen. 2. 12. a 5. 24. a 25. 20. Ioan 13. 12. 1 Pedr 1. 11. o adn. 7—18.

* Pan ymadawodd y weledigaeth, daeth Pedr ato ei hun o'i lewyg, mae yn debyg; a chan ei bod ar ei feddwl ar ol ei ddadebriad, yr oedd yn sỳnu ac yn ammau ynddo ei hun, beth a allasai y fath weledigaeth fod, ac i ba ddyben. † Nid hir y cafodd fod yn ei betrusder; dyma ddau was Cornelius a'r milwr wrth y porth, ac erbyn iddynt hwy ddywedyd eu neges, ïe, cyn hyny, mae yr Ysbryd yn egluro iddo y weledigaeth, trwy ei orchymyn ef i fyned gyda hwynt.

18 * Ac wedi iddynt alw, [p] hwy a ofynasant a oedd Simon, yr hwn a gyfenwid Pedr, yn llettya yno.

p adn. 5, 6. pen. 11. 11.

* Fel dïeithriaid, gofynasant i'r neb o'r teulu a ddaeth at y drws, a oedd yno ryw ddyn nodedig o'r enw Simon, neu Pedr, yn llettya; a oedd efe gartref, ac a allent hwy gael ymddiddan âg ef.

19 ¶ * Ac fel yr oedd Pedr yn meddwl am y weledigaeth, [q] † dywedodd yr Ysbryd wrtho, Wele dri wŷr yn dy geisio di.

q pen. 8. 29. a 11. 12. a 13. 2. a 16. 6, 7. a 21. 4. Ioan 16. 13. 1 Cor. 12. 11. 1 Tim. 4. 1.

* Yr oedd hyn cyn i Pedr weled y gwŷr, efe ar ben y tŷ, mae yn debyg, a hwythau i lawr wrth y porth. † Yr Ysbryd Glân, yn dyfod i'w hysbysu ef am ddyfodiad y dynion, ac i orchymyn iddo fyned gyda hwynt. Fel hyn, pwy bynag a fyfyrio yn ofalus ar yr hyn a glywo oddi wrth Dduw; ni âd Duw ef heb oleuni a hyfforddiant digonol.

20 * Am hynny cyfod, [r] disgyn, a dos gyd â hwynt, † heb ammeu dim: [s] ‡ o herwydd myfi a'u hanfonais hwynt.

r pen. 8. 26. a 9. 15. a 15. 7. Marc 16. 15. s pen. 9. 17. a 13. 4. Es. 48. 16. Zec. 2. 9—11.

* Cyfod, dos i lawr atynt, a darpar dy hun i'r daith yn ddïoed. † Er mai tri o genedloedd heb eu henwaedu erioed ydynt, nac ammau di ddim am hyny: ac er mai at wr a theulu dïenwaededig y maent yn dy geisio, nac ammau ddim am hyny chwaith: ‡ myfi, yr Ysbryd Glân a'u hanfonais hwy atat ti, a myfi yr Ysbryd Glân sydd yn dy ddanfon dithau gyda hwynt; gan hyny nid oes achos i ti ammau. Parodd Duw trwy ei angel i Cornelius ddanfon y cenadon, eto mae yr Ysbryd yn dywedyd wrth Pedr, "Myfi a'u hanfonais hwynt:" iaith Duwdod, a iaith *Person* dwyfol yw hyn.

21 * A Phedr, wedi disgyn at y gwŷr a anfonasid oddi wrth Cornelius atto, a ddywedodd, [t] Wele, myfi yw yr hwn yr ydych chwi yn ei geisio: [u] † beth *yw* yr achos y daethoch o'i herwydd?

t Ioan 1. 38, 39. a 18. 4—8. u adn. 29. Marc 10. 51.

* Mewn ufudd-dod i orchymyn yr Ysbryd, aeth Pedr i lawr at y gwŷr yn ddïoed, a mynegodd iddynt mai efe oedd yr hwn yr oeddynt hwy yn ei geisio. † Er y gwyddai efe eu neges mewn rhan o'r blaen, eto mae yn eu holi hwy, i gael gwybod yn fanylach, ac i gael cymharu eu geiriau hwynt â'r weledigaeth, ac â geiriau yr Ysbryd Glân.

22 * Hwythau a ddywedasant, [x] Cornelius y canwriad, [y] gwr cyfiawn, ac yn ofni Duw,

[z] ac â gair da iddo gan holl genedl yr Iuddewon, † a rybuddiwyd gan angel sanctaidd, [j] ddanfon am danat ti i'w dŷ, [a] ac i wrando geiriau gennyt.

x adn. 1—5. y pen. 24. 15. Hos. 14. 9. Hab. 2. 4. Mat. 1. 19. Marc 6. 20. Luc 2. 25. a 23. 50. Rhuf. 1. 17. Heb. 10. 38. a 12. 23. z pen. 6. 3. a 22. 12. Luc 7. 4, 5. 1 Tim. 3. 7. Heb. 11. 2. 3 Ioan 12. a adn. 6, 33. pen. 11. 14. Ioan 5. 24. a 1. 63, 68. a 13. 20. a 17. 8, 20. Rhuf. 10. 17, 18. 2 Cor. 5. 18—20. 2 Pedr 3. 2.

* Er prysuro eu neges, ac er dilëu y rhagfarn a allasai fod yn meddwl Pedr yn erbyn Cornelius, yr hwn oedd genedl ddyn, maent yn ei gàmol ef mewn amryw bethau:—1. Ei fod yn wr cyfiawn. 2. Yn ofni Duw; sef yn addoli y gwir Dduw, yr un fath a'r Iuddewon. 3. Bod iddo air da am dduwioldeb ac elusengarwch gan yr Iuddewon eu hunain; ac felly na byddai dim gwarth i'r apostol o fyned ato. † Gwyddai Pedr fod hyna yn wir, felly nid oedd raid iddo ainmau y pethau eraill a ddywedai y cenadon am Cornelius.

23 * Am hynny efe a'u galwodd hwynt i mewn, [b] ac a'*u* llettyodd *hwy*. [c] † A thrannoeth yr aeth Pedr ymaith gyd â hwy, [d] ‡ a rhai o'r brodyr o Joppa a aeth gyd âg ef

b Gen. 19. 2, 3. a 24. 31, 32. Barn. 19. 19—21. Heb. 13. 2. 1 Pedr 4. 9. c adn. 29, 33. Preg. 9. 10. d adn. 45. pen. 9. 38, 42. a 11. 12. 2 Cor. 8. 21.

* Er nad oeddynt ond gweision isel-radd a chenedlig, mae Pedr yn eu llettya hwy yn garedig am y nos, fel y gweddai i saint. † Tranoeth efe a aeth yn ewyllysgar gyda hwynt. Mae ufudd-dod parod, ac ewyllysgar, yn ufudd-dod deublyg. ‡ Yr oedd chwech o honynt, pen. 11. 12: aethant gyda Pedr yn 1. Er dangos eu parch iddo. 2. O herwydd eu syndod wrth y gweledigaethau rhyfedd a adroddesid iddynt. 3. I gynnorthwyo Pedr os byddai raid. 4. I gael gweled beth a wnelai Duw trwy Pedr yn nhŷ Cornelius. 5. I fod yn dystion dros Pedr, ac i'w amddiffyn ef, ger bron y eristionogion Iuddewig, os byddai raid wedi hyn.

24 [e] * A thrannoeth yr aethant i mewn i Cesarea. † Ac yr oedd Cornelius yn disgwyl am danynt, [f] ‡ ac efe a alwasai ei geraint a'i ‖ anwyl gyfeillion ynghyd.

e adn. 9. f Es. 2. 3. Mica 4. 2. Zec. 3. 10. a 8. 20—23. Mat. 9. 9, 10. Marc 5. 19, 20. Luc 5. 29. Ioan 1. 41—49. a 4. 28, 29. 1 Ioan 1. 1—3.

* Tranoeth i'r dydd y cychwynasant o Joppa, a thua'r nawfed awr o'r dydd. Cymhara adn. 3. âg adn. 30. Dywed *Pool* fod 45 milltir o Joppa i Cesarea. † Dysgwyl yn awyddus a gobeithiol, yw y dysgwyl yma: gwyddai Cornelius y gallent gyrhaeddyd Cesarea tua'r amser hwnw. ‡ Ei berthynasau o ran y cnawd. ‖ Ei gyfeillion mwyaf mynwesol; a diammau mai dynion yn ofni Duw oeddynt fel yntau, ac wedi ymwrthod âg eilun-addoliaeth y paganiaid, er mai rhai dienwaededig oeddynt. Nis gwyddai Cornelius am well ffordd i ddangos ei gariad tuag atynt na'u gwahodd i'w dŷ i glywed geiriau y bywyd tragywyddol.

25 Ac fel yr oedd Pedr yn dyfod i mewn, Cornelius a gyfarfu âg ef, [g] ac a syrthiodd wrth ei draed, * ac a'*i* haddolodd *ef*.

g pen. 14. 11—13. Dan. 2. 30, 46, 47. Mat. 8. 2. a 14. 33. Dat. 19. 10. a 22. 8, 9.

* Er dangos ei barch iddo fel cenad wedi ei anfon oddi wrth Dduw. Syrthiodd wrth ei draed ef yn ol y dull Dwyreiniol, pan fyddai un yn cyfarfod â, neu yn dyfod ger bron, rhyw bendefig neu wr mawr iawn. Efallai iddo dybied mai y Messiah ei hun oedd Pedr, am yr hwn y darllenasai y fath bethau gogoneddus yn y prophwydi.

26 * Eithr Pedr a'i cyfododd ef i fynu, gan ddywedyd, [h] Cyfod; dyn wyf finnau hefyd.

h pen. 14. 14, 15. Es. 42. 8. a 48. 13. Mat. 4. 10. 2 Thes. 2. 3, 4. Dat. 13. 8.

* Gellid meddwl wrth atebiad Pedr fod rhywbeth mwy na pharch gwladol yn addoliad y Canwriad; rhywbeth tebyg i addoliad crefyddol, yr hwn nis mynai efe mewn un modd ei dderbyn. Ac i'r dyben i attal y Canwriad, tybiodd fod yn llawn ddigon iddo ddywedyd, "Dyn wyf finnau hefyd." Gallwn sylwi yma, fod Iesu bob amser yn derbyn addoliadau fel hyn gan ddynion.

27 * A than ymddiddan âg ef, efe a ddaeth i mewn, [i] † ac a gafodd lawer wedi ymgynnull ynghyd.

i adn. 24. pen. 14. 27. Ioan 4. 35, 36. 1 Cor. 16. 9. 2 Cor. 2. 12. Col. 4. 3.

* Am ddaioni Duw, efallai, yn eu dwyn yn nghyd; oblegid nis gallai y naill na'r llall o honynt lai na gweled llaw Duw yn y peth. Yr oedd ymddiddan cyfeillgar fel hyn yn dilëu ofnau y canwriad, ac yn dangos fod rhagfarn Pedr yn erbyn y cenedloedd wedi ei dilëu hefyd. † Teulu, ceraint, a chyfeillion y canwriad, adn. 24.

28 Ac efe a ddywedodd wrthynt, * Chwi a wyddoch [k] mai anghyfreithlawn yw i wr o Iuddew ymwasgu neu ddyfod at alltud: [l] † eithr Duw a ddangosodd i mi na alwn neb yn gyffredin neu yn aflan.

k pen. 11. 2, 3. a 22. 21, 22. Ioan 4. 9, 27. a 18. 28. Gal. 2. 12—14. l adn. 15, 34. pen. 11. 9. a 15. 8, 9. Es. 65. 5. Luc 18. 11. Eph. 3. 6, 7.

* "Anghyfreithlawn," nid o herwydd unrhyw waharddiad pennodol yn y ddeddf, ond anghyfreithlawn o ran barn ac arferiad yr Iuddewon; y rhai a seiliasant hwy ar y gwaharddiad i fwyta o'r creaduriaid aflan, y rhai a ystyrient yn arwyddo y cenedloedd. Efallai bod mûr y gwahaniaeth yn y deml hefyd yn sail ganddynt am yr anghyfreithlondeb hwn. Gwel ar Ioan 4. 9; a 18. 28. Gwnaeth balchder a thraddodiadau yr Iuddewon y gwahan-fûr hwn yn lletach o lawer nag oedd raid iddo fod. † Yn y weledigaeth ryfedd a gawsai ddeu-ddydd o'r blaen: dangosodd Duw iddo yn y weledigaeth hòno fod goruchwylianeth newydd yn ymagor ar y byd, ac nad oedd dim gwahaniaeth mwyach i fod rhwng Iuddew a chenedl-ddyn, ond fod pawb yn lân, a phawb yn un, yn Nghrist.

29 * O ba herwydd, *ie*, † yn ddinâg, y daethum, [m] pan anfonwyd am danaf: [n] ‡ yr wyf gan hyny yn gofyn am ba achos y danfonasoch am danaf.

m adn. 19, 20. Salm 119. 60. 1 Pedr 3. 15. n adn. 21.

* O herwydd dangos o Dduw iddo, na alwai efe neb mwyach yn gyffredin neu aflan. † Yn ddiwrthwyneb ac yn ewyllysgar, heb oedi. ‡ Gwyddai Pedr y rhan fwyaf am natur ei neges o'r blaen, trwy y weledigaeth a gafodd ef, a thrwy adroddiad cenadau Cornelius o'r weledigaeth a gawsai yntau: ond mae yn gofyn fel hyn iddo, er mwyn i'r gynnulleidfa oedd yn bresenol gael clywed y cwbl, ac er eu darpar hwy a Chornelius hefyd, i ddàl yn well ar y pethau a ddywedai efe wrthynt yn ol llaw.

30 A Chornelius a ddywedodd, [o] * Er ys pedwar diwrnod i'r [p] † awr hon *o'r dydd* yr oeddwn yn ymprydio, ac ar y nawfed awr yn gweddio ‡ yn fy nhŷ: [q] ac wele, safodd ‖ gwr ger fy mron mewn gwisg ddisglaer.

o adn. 7—9, 23, 24. p adn. 3. Ezra 9. 4, 5. Neh. 9. 1—3. Dan. 9. 20, 21. q pen. 1. 10. Mat. 28. 3. Marc 16. 5. Luc 24. 4.

* Dau ddiwrnod i genadau Cornelius fyned i Joppa, a dau ddiwrnod i Pedr a hwythau ddychwelyd oddi yno i Cesarea. † Sef y nawfed awr, adn. 3: tri o'r gloch prydnawn, yr awr weddi. ‡ Mae "*yn fy nhy*," yma, yn ateb i "*yn nghyd a'i holl dy*," yn adn. 2; ac felly mae yn debyg mai mewn gweddi deuluaidd yr oedd y canwriad, ac nid gweddi ddirgel. Felly y dywed *Guyse*. ‖ Gwr o ran ymddangosiad, ond angel mewn gwirionedd ydoedd, adn. 3. § Am angelion yn ymddangos mewn gwisgoedd disglaer, gwel ar pen. 1. 10.

31 * Ac a ddywedodd, Cornelius, [r] gwrandlawyd dy weddi di, a'th elusenau [s] a ddaethant mewn coffa † ger bron Duw.

r Es. 38. 5. Dan. 9. 23. a 10. 12. Luc 1. 13. s Gwel ar adn. 4. Lef. 2. 2, 9. a 5. 12. Phil. 4. 18. Heb. 6. 10. Dat. 5. 8. a 8. 3, 4.

* Gwel ar adn. 4. † Nid y rhoddion allanol yn unig, ond agwedd dduwiol y galon wrth wneuthur elusenau: mae yr elusenau yn hysbys i ddynion, ac yn gymmeradwy gan ddynion; ond mae Duw yn gweled agwedd y galon, ac yn cymmeradwyo y rhodd yn ol egwyddor ac agwedd calon y rhoddwr.

32 [t] * Am hynny anfon i Joppa, a galw am Simon, yr hwn a gyfenwir Pedr: y mae efe yn llettya yn nhŷ Simon, barcer, y'nglàn y môr; yr hwn, pan ddelo attat, a lefara wrthyt.

t adn. 5—8.

* Gwel ar adn. 5, 6. Mae Cornelius yn adrodd hyn, i ddangos paham y danfonasai am Pedr, ac hefyd i annog Pedr i lefaru, gan mai Duw a barodd ddanfon am ddano i hyny.

33 * Am hynny yn ddïoed myfi a anfonais attat; † a thi a wnaethost yn dda ddyfod. ‡ Yr awrhon, gan hynny, [u] yr ŷm ni oll yn bresennol ger bron Duw, i wrando yr holl dethau a orchymynwyd i ti gan Dduw.

u pen. 17. 11, 12. a 28. 28. Deut. 5. 25—29. 2 Cron. 30. 12. Diar. 1. 5. a 9. 9, 10. a 18. 15. a 25. 12. Mat. 18. 4. a 19. 30. Marc 10. 15. 1 Cor. 3. 18. Gal. 4. 14. 1 Thes. 2. 13. Iago 1. 19, 21. 1 Pedr 2. 1, 2.

* Mewn ufudd-dod i'r weledigaeth nefol, ac fel enaid newynog yn anfon am fara'r bywyd can gynted ag y gwybu pa le i'w gael. † Gwnaethost yn garedig iawn â ni, yn gystal ag yn ffyddlawn i'th Arglwydd mawr, ddyfod atom, ac yr ydym yn dra diolchgar i ti am ddyfod. ‡ Gwedi ymgasglu yn fwriadol i wrando, fel yn ngŵydd Duw, gyda'r difrifwch mwyaf. Dyma yr agwedd a weddai fod ar bawb wrth ddyfod i wrando'r gair, os mynant gael lles trwy y gair: fel dynion ger bron Duw.

34 ¶ [x] Yna yr agorodd Pedr *ei* enau, ac a ddywedodd, [y] * Yr wyf yn deall mewn gwirionedd, nad ydyw Duw dderbyniwr wyneb:

x pen. 8. 35. Mat. 5. 2. Eph. 6. 19, 20. y Deut. 10. 17. a 16. 19. 2 Cron. 19. 7. Job 34. 19. Salm 82. 1, 2. Mat. 22. 16. Luc 20. 21. Rhuf. 2. 11. Gal. 2. 6. Eph. 6. 9. Col. 3. 11, 25. Iago 2. 4, 9. 1 Pedr 1. 17.

* Gwedi gwrando ar Cornelius yn adrodd ei hanes, a chymharu y ddwy weledigaeth â'u gilydd, deallodd Pedr yn amlwg, nad oedd dim gwahaniaeth i fod mwyach yn ngolwg Duw rhwng Iuddewon a Chenedloedd; ond bod yr efengyl i gael ei phregethu yn ddiwahaniaeth i'r naill fel y llall, a phob un yn gymmeradwy gan Dduw trwy gredu, o ba genedl bynag y byddo. Ni ddaeth Pedr i ddeall y mater hwn tàn yr amser a'r amgylchiad yma, gan gymmaint ei ragfarn o blaid ei genedl ei hun.

35 [z] * Ond ym mhob cenedl, [a] † y neb sydd yn ei ofni ef, ‡ ac yn gweithredu cyfiawnder, [b] ‖ sydd gymmeradwy ganddo ef.

z pen. 15. 9. Es. 56. 3—8. Rhuf. 2. 25—29. a 3. 22, 29, 30. a 10. 12, 13. 1 Cor. 12. 13. Gal. 3. 28. Eph. 2. 13—18. a 3. 6—8. Phil. 3. 3. Col. 1. 6, 23—27. a 3. 11. a adn. 2. pen. 9. 31. Job 28. 28. Salm 19. 9. a 85. 9. a 111. 10. Diar. 1. 7. a 2. 5. a 3. 7. a 16. 6. Preg. 12. 13. 2 Cor. 7. 1. Eph. 5. 21. 1 Ioan 2. 29. b Gen. 4. 5—7. Hos. 8. 13. Luc 1. 28. Eph. 1. 6. Heb. 11. 4—6.

* Pe byddai Rufeinig neu Italaidd, y rhai a dybid yn waethaf, efallai, gan yr Iuddewon, am eu bod yn llywodraethu yn lled orthrymus arnynt hwy y pryd hwnw. † "Ofni Duw:" dyna'r cwbl o wir dduwioldeb mewn dau air: a dyna sylwedd gorchymynion y llech gyntaf oll. ‡ "Gweithredu cyfiawnder:" dyna'r cwbl o ddyledswydd dyn tuag at ei gyd-grëaduriaid, a dyna grynodeb o holl orchymynion yr ail lech. Mae y ddau beth yn ddarluniad cywir o ddyn duwiol ac uniawn o ran egwyddor a gweithredoedd, y cyfryw ag oedd y canwriad hwn yn ol y mesur o oleuni ag oedd ganddo. ‖ Nid y pethau uchod yw sail, nac achos haeddiannol un dyn, o gymmeradwyaeth gan Dduw; eto mae efe yn eu cymmeradwyo, ac maent yn *brofion*, yn hytrach nag *achos*, o gymmeradwyaeth y person. Cyn y caffo dynion cywir eu hegwyddor o'r fath hyn fethu o eisiau gwybodaeth, e ddenfyn Duw angel i'w cyfarwyddo hwy pa le i gael yr wybodaeth hòno sydd yn angenrheidiol i gadw eu henaidiau: maent mòr gymmeradwy a hyny yn ei olwg ef. Ni wiw i neb ddadlau oddi ar yr adnod hon, y gall paganiaid annwybodus fod yn gadwedig, os byddant o egwyddor gywir ac ymarweddiad da: nid dyn annwybodus felly oedd Cornelius, eithr proselyt i'r grefydd Iuddewig oedd, a chwedi darllen llawer ar yr Hen Destament. A pha le y clywyd hanes am neb tebyg iddo erioed yn mhlith y paganiaid hollawl, cwbl annwybodus o air Duw?

36 [c] * Y gair yr hwn a anfonodd *Duw* † i blant Israel, [d] ‡ gan bregethu tangnefedd trwy Iesu Grist [e] ‖ (efe yw Arglwydd pawb oll)

c pen. 2. 38, 39. a 3. 25, 26. a 11. 19. a 13. 46. Mat. 10. 6. Luc 24. 47. d Salm 72. 1—3, 7. a 85. 9, 10. Es. 9. 6. a 32. 15—17. a 55. 12. a 57. 19. Luc 2. 10—14. 2 Cor. 5. 18—21. Eph. 2. 13—18. Col. 1. 20. Heb. 7. 2, 3. a 13. 20. e pen. 2. 36. a 5. 31. Salm 2. 6—8. a 45. 6, 11. a 110. 1, 2. Es. 7. 14. a 45. 21—25. Jer. 23. 5, 6. Dan. 7. 13, 14. Hos. 1. 7. Mica 3. 2. Mal. 3. 1. Mat. 11. 27. a 22. 44—46. a 28. 18. Ioan 3. 35, 36. a 5. 23—29. Rhuf. 10. 11—13. 1 Cor. 15. 27, 47. Eph. 1. 20—23. a 4. 5—12. Phil. 2. 11. Col. 1. 15—18. Heb. 1. 2, 6—12. 1 Pedr 3. 22. Dat. 1. 5, 18. a 17. 14. a 19. 16.

* Sef yr efengyl, gair y cymmod, a ddanfonodd Duw trwy yr apostolion a'r efengylwyr. † I blant Israel yn gyntaf, ac fel pe dywedasai Pedr, Ond mi a welaf heddyw mai nid i blant Israel yn unig, ond i'r cenedloedd hefyd. ‡ Ni buasai eisiau pregethu tangnefedd trwy Iesu Grist, pe buasai Cornelius yn gymmeradwy gan Dduw ar sail ei weithredoedd da ei hun. ‖ Nid Arglwydd yr Iuddewon yn unig, ond Arglwydd y cenedloedd, yr holl genedloedd, hefyd: dyna feddwl Pedr wrth y geiriau yn y fàn *hon*, mae yn debyg.

37 [f] * Chwychwi a wyddoch y gair [g] a fu yn holl Judea, † gan ddechreu o Galilea, [h] ‡ wedi y bedydd a bregethodd Ioan:

f pen. 2. 22. a 26. 26. a 28. 22. g Luc 4. 14. a 23. 5. h pen. 1. 22. a 13. 24, 25. Mat. 3. 1—3. a 4. 12, &c. Marc 1. 1—5, 14, 15. Ioan 4. 1—3.

* Nis gallai Cornelius a'i gyfeillion fod yn gwbl anhysbys o'r pethau a bregethodd yr Iesu ei hun, a'i apostolion wedi hyny; ac yma mae Pedr yn dywedyd iddynt, mai y pethau hyny y clywsent hwy sôn am danynt, o'u hiawn ddeall, oedd y genadwri y danfonwyd i'w thraddodi iddynt hwy, sef y gair a anfonodd Duw o'r blaen i blant Israel, tangnefedd a bywyd trwy Grist Iesu. † Yn Galilea y dechreuodd Iesu ei weinidogaeth, Luc 4. 14, ‡ wedi ei fedyddio gan Ioan, ac wedi i Ioan barotôi y ffordd o'i flaen ef fel ei rag-redegwr.

38 Y modd yr [i] * enneiniodd Duw † Iesu o Nazareth â'r ‡ Ysbryd Glân, ac â nerth; [k] yr hwn a gerddodd o amgylch ‖ gan wneuthur daioni, [l] ac iachâu pawb a'r oedd wedi eu gorthrymu gan ddiafol: [m] § oblegid yr oedd Duw gyd âg ef.

i pen. 2. 22. a 4. 27. Salm 2. 2, 6. a 45. 7. Es. 11. 2. a 42. 1. a 61. 1—3. Mat. 12. 28. Luc 3. 22. a 4. 18. Ioan 3. 34. a 6. 27. a 10. 36—38. Heb. 1. 9. k 2 Cron. 17. 9. Mat. 4. 23—25. a 9. 35. a 15. 21—31. Marc 1. 38, 39. a 3. 7—11. a 6. 6, 54—56. Luc 7. 10—17, 21—23. a 9. 56. 1 Pedr 5. 8. l Marc 5. 13—15. a 7. 29, 30. Luc 4. 33—36. a 9. 42. Heb. 2. 14, 15. 1 Ioan 3. 8. m Ioan 3. 2. a 10. 32, 38. a 16. 32.

* Arferid enneinio offeiriaid, breninoedd, a phrophwydi gynt, a chafodd Iesu ei enneinio i'r tair swydd hyny gan Dduw. † Yn Nazareth y dygwyd ef i fynu, a gelwid ef Iesu o Nazareth, mewn ffordd o ddirmyg; ond nid oes ar yr apostol gywilydd o hóno ef wrth yr enw gwael hwnw, ger bron Cornelius a'i gyfeillion. "Iesu o Nazareth" yma oedd "Arglwydd pawb oll" yn adn. 36. ‡ Pan fedyddiwyd ef yn yr Iorddonen: nid wrth

fesur y rhoddodd Duw iddo ef yr Ysbryd. || Gwyrthiau o ddaioni oedd holl wyrthiau Iesu i gyd, ni wnaeth efe ddim i ddrygu neb, hyd yn nôd ei elynion anghredinioi. § Yr oedd Duw gydag ef yn ei allu, yn ei gariad, yn ei gymdeithas, ïe, yn nghyflawnder y Duwdod, yn preswylio ynddo yn gorphorol. Colos. 2. 9.

39 [n] * A ninnau ydym † dystion o'r pethau oll a wnaeth efe ‡ y'ngwlad yr Iuddewon, ac yn Jerusalem; [o] || yr hwn a laddasant, ac a groeshoeliasant ar bren:

n adn. 41. pen. 1. 8, 22. a 2. 32. a 3. 15. a 5. 30—32. a 13. 31. Luc 1. 2. a 24. 48. Ioan 15. 27. o pen. 2. 23, 24. a 3. 14, 15. a 4. 10. a 5. 30. a 7. 52. a 13. 27—29. Gal. 3. 13. 1 Pedr 2. 24.

* "Ninnau:" yr apostolion, yn nghyd a llawer eraill o ganlynwyr Crist. † Tystion, trwy weled ei weithredoedd a chlywed ei eiriau: tystion wedi eu dewis, a'u danfon i dystiolaethu am dano, oedd yr apostolion. ‡ Yn holl wlad yr Iuddewon, ac yn enwedig yn Jerusalem ei hun, || lle lladdwyd ef wedi y cwbl, trwy ei groeshoelio ar bren fel drwg-weithredwr. Crybwylla Pedr hyn, efallai, yn nhŷ Cornelius, i ddangos mòr deilwng oedd yr Iuddewon o gael eu rhoddi i fynu gan Dduw, a lleied o achos oedd ganddynt i rwgnach yn erbyn galwad y cenedloedd i'r eglwys. Mae yma hefyd ddangosiad o drefn iachawdwriaeth; Crist, had Abraham, yn myned dan y felltith, fel y delai bendith Abraham ar y cenedloedd.

40 [p] * Hwn a gyfododd Duw y trydydd dydd, † ac a'i rhoddes ef i'w wneuthur yn amlwg;

p pen. 13. 30, 31. a 17. 31. Rhuf. 1. 4. a 4. 24, 25. a 6. 4—11. a 8. 11. a 14. 9. 1 Cor. 15. 3, 4, 12—20. 2 Cor. 4. 14. Heb. 13. 20. 1 Pedr 1. 21.

* Rhag i'r sôn am groeshoeliad Crist fod yn dramgwydd i'r cenedloedd hyn, ac yn rhwystr iddynt gredu ynddo, mae yr apostol yn brysio megys, i ddywedyd am ei adgyfodiad ef y trydydd dydd, a hyny gan Dduw. † Rhoddes Duw ef i'w wneuthur yn amlwg ar ol ei adgyfodiad, trwy bob moddion o weled, clywed, a theimlo, &c., ag oedd bosibl i sicrâu dynion mai efe ei hun ydoedd.

41 [q] * Nid i'r bobl oll, † eithr i'r tystion etholedig o'r blaen gan Dduw, [r] *sef* i ni, ‡ y rhai a fwyttasom ac a yfasom gyd âg ef wedi ei adgyfodi ef o feirw.

q adn. 39. pen. 1. 2, 3, 22. a 13. 31. r Luc 24. 30, 41—43. Ioan 21. 13.

* Nid i holl ïaws yr Iuddewon fel cyn ei groeshoeliad, nid oedd achos am hyny, nid oeddynt yn haeddu hyny, ac ni welodd Duw yn dda ganiatâu hyny i ddynion mòr ddrygionus ac anghredinioi. † Y tystion etholedig hyn oedd yr apostolion yn benaf, ac hefyd y pùm càn mrodyr a'i gwelsant ef ar unwaith, 1 Cor. 15. 6. ‡ Am Grist yn bwyta gyda ei ddysgyblion ar ol ei adgyfodiad, gwel y cyfeiriad *r*. Ni ddywedir gan yr efengylwyr iddo *yfed* ar ol ei adgyfodiad; ond wrth y geiriau hyn gallwn feddwl iddo yfed yn gystal a bwyta.

42 [s] * Ac efe a orchymynodd i ni bregethu i'r bobl, † a thystiolaethu [t] mai efe yw yr hwn a ordeiniwyd gan Dduw yn Farnwr ‡ byw a meirw.

s pen. 1. 8. a 4. 19, 20. a 5. 20, 29—32. Mat. 28. 19, 20. Marc 16. 15, 16. Luc 24. 47, 48. Ioan 21. 21, 22. t pen. 17. 31. Mat. 25. 31—46. Ioan 5. 22—29. Rhuf. 14. 9, 10. 2 Cor. 5. 10. 2 Tim. 4. 1, 8. 1 Pedr 4. 5. Dat. 1. 7. a 20. 11—15. a 22. 12.

* Rhoddes Crist y gorchymyn hwn i'w apostolion cyn ei esgyniad, Matth. 28. 19; Marc 16. 15; Luc 24. 27; a rhagfynegodd y gwnaent ei orchymyn ef yn Act. 1. 8: ac mae yn werth sylwi yma bod "yr holl genedloedd," "Pob creadur," ac "Hyd eithaf y ddaear," yn y mànau hyny. Dyma ddigon o warant i Pedr bregethu yn nhŷ Cornelius. † Gan nad oes genym hanes am un gorchymyn pennodol o'r eiddo Crist i'w apostolion, i dystiolaethu mai efe yw yr hwn a ordeiniwyd gan Dduw yn Farnwr byw a meirw; mae yn debyg fod Pedr yn cyfeirio yma at ryw orchymyn a roddes Iesu iddynt yn yspaid y deugain niwrnod, rhwng ei adgyfodiad a'i esgyniad. Yn Act. 1. 3, crybwyllir iddo yn yr amser hwnw "ddywedyd y pethau a berthynent i deyrnas Dduw;" ac efallai bod y gorchymyn hwn yn un o'r "pethau" hyny. Mae yn angenrheidiol ei bregethu ef yn Farnwr pa le bynag y pregether yr efengyl, fel y gwypo dynion y cânt eu barnu ganddo yn ol y derbyniad neu y gwrthodiad a roddont i'w efengyl ef. ‡ Y rhai fyddo byw pan ddel i farnu, a'r holl feirw.

43 [u] * I hwn y mae yr holl brophwydi yn dwyn tystiolaeth, [x] † y derbyn pawb a gredo ynddo ef faddeuant pechodau, [y] trwy ei enw ef.

u pen. 26. 22. Gwel ar Luc 24. 25—27, 44—46.—Ioan 1. 45. a 5. 39, 40. 1 Pedr 1. 11. Dat. 19. 10. x pen. 3. 16. a 4. 10—12. Ioan 20. 31. Rhuf. 5. 1. a 6. 23. Heb. 13. 20. y pen. 13. 38, 39. a 15. 9. a 26. 18. Marc 16. 16. Ioan 5. 24. Rhuf. 8. 1, 34. a 10. 11. Gal. 3. 22. Eph. 1. 7. Col. 1. 14.

* Er mai cenedloedd oedd gwrandawŵyr Pedr, eto, fel proselytiaid y porth, (nid proselytiaid cyfiawnder, wedi eu henwaedu,) yr oeddynt yn gwybod am ysgrifeniadau y prophwydi, ac yn eu credu hwynt; felly mae Pedr yma yn eu cyfeirio hwy at y prophwydi am brawf a chadarnâd o wirionedd yr efengyl, oedd efe a'r apostolion eraill yn ei phregethu. † Trwy ei enw ef, sef trwy ei aberth, ei iawn, a'i eiriolaeth ef, y derbyn pawb a gredo ynddo ef, faddeuant pechodau a phob dawn ysbrydol a chadwedigol. Dyma sylwedd a rhediad yr Hen Destament oll, yn ei addewidion, ei brophwydoliaethau, a'i holl gysgodau.

44 ¶ * A Phedr etto yn llefaru y geiriau hyn, [z] † syrthiodd yr Yspryd Glân ar bawb a oedd yn clywed y gair.

z pen. 2. 2—4. a 4. 31. a 8. 15—17. a 11. 15. a 19. 6.

* Tra yr oedd Pedr yn llefaru y geiriau uchod, syrthiodd yr Ysbryd Glân ar bawb ag oedd yn eu gwrando; fel y dangosai Duw yn wyrthiol i Pedr, ei gymmeradwyaeth o'r hyn oedd yn lefaru, ac i sicrâu iddo fod y cenedloedd hyn yn cael eu gwir ddychwelyd i'r ffydd, yr hyn oedd mòr anodd gan yr Iuddewon ei gredu. † Syrthiodd yn wyrthiol fel ar yr apostolion ar ddydd y pentecost, fel mae yn amlwg yn adn. 46, a pen. 11. 15: ac yr oedd yn dra phriodol ei bod felly, ar ddygiad cyntaf yr efengyl i blith y cenedloedd.

45 [a] * A'r rhai o'r enwaediad a oeddynt yn credu, cynnifer ag a ddaethent gyd â Phedr, † a synnasant, [b] ‡ am dywallt dawn yr Yspryd Glân ar y Cenhedloedd hefyd.

a adn. 23. pen. 11. 3, 15—18. Gal. 3. 13, 14. b Gal. 2. 15. Eph. 2. 11, 12. a 3. 5—8. Col. 2. 13, 14.

* Nid proselytiaid wedi eu henwaedu, ond rhai a aned o rïeni enwaededig, Iuddewon o waedoliaeth: y chwe' brodyr a ddaethai gyda Pedr o Joppa, oeddynt. † Yr oedd dïareb yn mhlith yr Iuddewon gynt, "Nad oedd yr Ysbryd Glân byth yn gorphwys ar genedlddyn:" felly nid rhyfedd i'r rhai hyn synu yn awr. ‡ Fel hyn cyssegrodd Duw hwynt fel blaen-ffrwyth y cenedloedd, ac y rhoddodd arwydd amlwg eu bod yn addas i gael eu bedyddio, a'u derbyn i'r eglwys efengyladd yn gystal â'r Iuddewon.

46 * Canys yr oeddynt yn eu clywed hwy [c] yn llefaru â thafodau, † ac yn mawrygu Duw. ‡ Yna yr attebodd Pedr,

c pen. 2. 4, 11. a 19. 6. 1 Cor. 14. 20—25.

* Sef mewn gwahanol ieithoedd, fel yr apostolion ar ddydd y pentecost. Efallai bod Duw yn eu bwriadu hwynt i bregethu yr efengyl, ac fel hyn yn eu donio yn wyrthiol âg amrywiaeth tafodau i'w galluogi i bregethu pa le bynag yr elent. † Y gwasanaeth cyntaf a wnaethant â'u tafodau, oedd mawrygu Duw yr hwn a'u rhoes iddynt, am y ddawn hon a holl ddoniau eraill yr efengyl. ‡ Dull Hebreaidd o lefaru, pan fyddo un yn dechreu ymadroddi.

47 [d] * A all neb luddias dwfr, fel na fedyddier y rhai hyn, y rhai a dderbyniasant yr Yspryd Glân, fel ninnau?

d pen. 8. 36. a 11. 15—17. a 15. 8, 9. Gen. 17. 24—26. Rhuf. 4. 11, 12. a 10. 12.

* Onid yw yn eglur, tu hwnt i bob dadl, fod Duw yn awr wedi cymmeryd y cenedloedd hyn i'r eglwys efengylaidd, ac y gellir, ac y dylid, eu bedyddio hwy â dwfr, y rhai sydd eisoes wedi eu bedyddio â'r Ysbryd Glân? Gan eu bod wedi cael y gras tumewnol, hwy a ddylent yn sicr gael yr arwydd allanol o'r gras hwnw. Nid pwy a all luddias myned a hwy i'r dwfr a ddywedir; ond pwy a all luddias dwfr, hyny yw, dwyn dwfr yma: prawf go amlwg, debygid, mai trwy dywallt, neu daenellu, y bedyddiwyd hwynt, ac nid trwy drochi. Dywed y Crynwyr mai afreidiol yw bedydd dwfr i'r rhai a dderbyniasent fedydd tumewnol yr Ysbryd; ond mae y geiriau hyn yn dywedyd i'r gwrthwyneb.

48 [e] * Ac efe a orchymynodd eu bedyddio hwynt [f] † yn enw yr Arglwydd. [g] ‡ Yna y deisyfasant arno aros dros ennyd o ddyddiau.

e Ioan 4. 2. 1 Cor. 1. 13—17. Gal. 3. 27. f pen. 2. 38. a 8. 16. g pen. 16. 15. Ioan 4. 40.

* Yn hytrach na'u bedyddio hwy ei hun, dewisodd Pedr i'w frodyr, a ddaethai gydag ef, wneyd hyny, y rhai oeddynt weinidogion y gair efallai, fel y byddai eu cydsyniad hwy âg ef yn y weithred yn fwy amlwg drwy hyny. Ond tybia eraill nad yw y geiriau "efe a orchymynodd," yn meddwl dim mwy nag iddo orchymyn dwyn dwfr yno i'w bedyddio hwynt. † Gan fod y proselytiaid hyn yn credu yn y Tad o'r blaen, ac *yn awr* yn credu yn yr Ysbryd Glân; nid oedd angenrheidrwydd i'r Hanesydd sanctaidd grybwyll yma ond am enw yr Arglwydd, sef enw yr Arglwydd Iesu Grist: mae yn ddiammau iddynt hwy gael eu bedyddio yn enw y Tri Pherson, yn ol y ffurf a roddes Crist yn Matth. 28. 19. Dywed *Grotius* fod enw y Tad a enneiniodd Grist, ac enw yr Ysbryd Glân â pha un yr enneiniwyd ef, i'w deall wrth enw Crist yn y fân hon, a mànau eraill lle defnyddir ef yn gyffelyb yn y llyfr hwn. ‡ I'w dysgu hwynt yn mhellach, a'u cadarnâu yn y ffydd: ac mae yn debyg bod yn ddigon hawdd gan Pedr aros erbyn hyn, o ran dim rhagfarn oedd ganddo yn eu herbyn fel cenedloedd.

PEN. XI.

Achwyn ar Pedr am fyned at y Cenedloedd, &c.

[a] * A'R apostolion a'r brodyr oedd yn Judea, a glywsant [b] ddarfod i'r Cenhedloedd hefyd dderbyn gair Duw.

a pen. 8. 14, 15. Gal. 1. 17—22. b pen. 10. 34—38. a 14. 27. a 15. 3. Gen. 49. 10. Salm 22. 27. a 96. 1—10. Es. 11. 10. a 32. 15. a 35. 1, 2. a 42. 1, 6. a 49. 6. a 52. 10. a 60. 3. a 62. 2. Jer. 16. 19. Hos. 2. 23. Amos 9. 11, 12. Mica 5. 7. Zeph. 2. 11. a 3. 9. Zec. 2. 11. a 8. 20—23. Mal. 1. 11. Mat. 8. 11. Marc 16. 5. Luc 2. 32. Rhuf. 15. 7—12.

* Peth hollol newydd oedd y fath ddygwyddiad, a hollol annysgwyliadwy gan yr Iuddewon: ni bu y newydd rhyfedd fawr o dro yn ymdaenu o Cesarea trwy holl wlad Judea ac i Jerusalem, a sŷn ac anfoddlawn iawn oedd y cristionogion Iuddewig oll, hyd yn nôd yr apostolion eu hunain ar y dechreu, fod y cenedloedd dïenwaededig wedi cael eu bedyddio a'u derbyn i'r eglwys a hyny gan Pedr, un o honynt hwy eu hunain, ac apostol.

2 * A phan ddaeth Pedr i fynu i Jerusalem, [c] † y rhai o'r enwaediad a ‡ ymrysonasant yn ei erbyn ef,

c pen. 10. 45. a 15. 1, 5. a 21. 20—23. Gal. 2. 12—14.

* Tybiodd Pedr wrth fyned i fynu fod ganddo newydd da iddynt, ac y buasai yn orfoledd ganddynt glywed am y fath dro, ond i'r gwrthwyneb y bu. † Iuddewon wedi troi yn Gristionogion, ond heb ddeall eto y dylasai neb gael eu derbyn i'r eglwys ond Iuddewon, neu broselytiaid wedi eu henwaedu o'r blaen. ‡ Mae hyn yn dangos eu tywyllwch, a grym eu rhagfarn hwy yn erbyn y cenedloedd; ïe, y rhai goreu o honynt, rhai "defosiynol ac yn ofni Duw," yn unig am mai cenedloedd oeddynt. Nid oes yma fawr o le i feddwl fod Pedr yn cael ei ystyried uwchlaw yr apostolion eraill, fel yr haera y pabyddion, pe amgen ni buasent yn ymryson âg ef, ac yn beio arno.

3 Gan ddywedyd, [d] * Ti a aethost i mewn at wŷr dïenwaededig, ac a fwyttêaist gyd â hwynt.

d pen. 10. 23, 28, 48. Luc 15. 2. 1 Cor. 5. 11. 2 Ioan 10.

* Dyma'r bai oedd ganddynt yn erbyn Pedr, iddo gymdeithasu yn gyfeillgar â'r cenedloedd, yn groes i draddodiad eu tadau, a gorchymyn eu gwŷr doethion hwy. Mae yn debyg eu bod mewn nwydau lled boethion ar yr achos hefyd; gan dybied fod Pedr wedi cymmeryd gormod arno, wedi cam-ddefnyddio rhagorfraint briodol iddynt hwy, wedi ei halogi ei hunan, wedi camarfer ei awdurdod apostolaidd, a chwedi dwyn gwarth ar Gristionogrwydd.

4 Eithr Pedr [e] a ddechreuodd, ac a eglurodd *y peth* iddynt mewn trefn, gan ddywedyd,

e pen. 14. 27. Jos. 22. 21—31. Diar. 15. 1. Luc 1. 3.

* Gwyddai Pedr yn dda, na wnaethai efe ddim ond yr hyn a fynai Duw, ac ar orchymyn pendant yr Ysbryd; gan hyny nid yw yn cyffrôi dim yn ngwyneb y cyhuddiad, ond yn ymostwng, hyd yn nôd i'r gwaelaf o honynt, i adrodd yn araf, yn bwyllog, ac yn eglur, pa fodd y bu y peth o'r dechreuad.

5 [f] * Yr oeddwn i yn ninas Joppa yn gweddïo; [g] ac mewn llewyg y gwelais weledigaeth, Rhyw lestr megis llen-llïan fawr yn disgyn, wedi ei gollwng o'r nef erbyn ei phedair congl; [h] † a hi a ddaeth hyd attaf fi.

f Gwel ar pen. 10. 9—18. g pen. 22. 17. 2 Cor. 12. 1—3. h Jer. 1. 11—14. Ezec. 2. 9. Amos 7. 4—7. a 8. 2.

* Gwel ar pen. 10. 9—11. † Mae hyn yn dangos mai i Pedr yr oedd y weledigaeth, ac er hyfforddiad iddo ef yn bersonol, yn y mater o fyned at Cornelius a'r cenedloedd.

6 * Ar yr hon pan [i] edrychais, yr ystyriais, ac mi a welais † bedwar-carnolion y ddaear, a gwylltfilod, ac ymlusgiaid, ac ehediaid y nef.

i pen. 3. 4. Luc 4. 20

* Gwnaeth Pedr sylw manol ar y llèn-llïan, o ran edrych arni ac ystyried y pethau oedd ynddi. † Gwel ar pen. 10. 12.

7 * Ac mi a glywais lef yn dywedyd wrthyf, Cyfod, Pedr; lladd, a bwytta.

* Gwel ar pen. 10. 13, nid oes achos chwanegu yma.

8 Ac mi a ddywedais, * Nid felly, Arglwydd: canys dim [k] cyffredin neu [l] aflan nid aeth un amser i'm genau.

k Marc 7. 2. Rhuf. 14. 14. l Lef. 10. 10. a 11. 47. Ezra 9. 11, 12. Hos. 9. 3. Rhuf. 14. 14. 1 Cor. 7. 14.

* Gellir meddwl yn sicr, na welodd Pedr ddim ond crëaduriaid aflan oll yn y llèn-llïan; pe amgen ni buasai raid iddo ddywedyd "Nid felly," &c.: gallasai ddewis un o'r rhai glân os oedd yno rai. Gwel ychwaneg ar pen. 10. 12, 14.

9 * Eithr y llais a'm hattebodd i eilwaith o'r nef, [m] Y pethau a lanhâodd Duw, na alw di yn gyffredin.

m pen. 10. 28, 34, 35. a 15. 9. 1 Tim. 4. 5. Heb. 9. 13, 14.

* Tair gwaith o gwbl, a hon oedd yr ail waith o'r tair.

10 * A hyn a wnaed [n] dair gwaith: † a'r holl bethau a dynnwyd i fynu i'r nef drachefn.

n Num. 24. 10. Ioan 13. 38. a 21. 17. 2 Cor. 12. 8.

* Gwel ar pen. 10. 16: mae Pedr yn adrodd y peth yn fanol yma, i'r dyben o sicrâu i'w frodyr oedd yn ei feïo, mai yn ol gorchymyn pendant a thri-phlyg Duw, y

gwnaethai efe yr hyn a wnaethai. † Gwel ar pen. 10. 16.

11 * Ac wele, [o] yn y man yr oedd tri wŷr yn sefyll wrth y tŷ yr oeddwn ynddo, wedi eu hanfon o Cesarea attaf fi.

o pen. 9. 10—12. a 10. 17, 18. Ex. 4. 14, 27.

* Cynnifer wedi eu danfon, a'r fath daith wedi ei chymmeryd yn ewyllysgar, i'r dyben o gael addysg yn mhethau y bywyd tragywyddol: a'r tri dyn wrth y drws, erbyn bod y weledigaeth drosodd.

12 [p] * A'r Ysbryd a archodd i mi fyned gyd â hwynt, [q] heb ammeu dim. [r] † A'r chwe brodyr hyn a ddaethant gyd â mi; ‡ a nyni a ddaethom i mewn i dŷ y gwr.

p pen. 8. 29. a 10. 19, 20. a 13. 2, 4. a 15. 7. a 16. 6, 7. Ioan 16. 13. 2 Thes. 2. 2. Dat. 22. 17. q Mat. 1. 20. r pen. 10. 23, 45.

* Gwel ar pen. 10. 19. † Y rhai a allent dystiolaethu am wirionedd pobpeth cyn belled ag y gwyddent hwy, sef o'r cychwyniad o Joppa hyd onid oedd pobpeth drosodd yn nhŷ Cornelius. Gwelwn wrth hyn i Pedr fyned a'r chwe brodyr gydag ef i Jerusalem. ‡ Sef i dŷ Cornelius: yn nghylch hyny yr oedd y ddadl, a'r cŵyn, mae Pedr yn addef iddynt fyned i mewn, a chwedi crybwyll yr achos.

13 [s] * Ac efe a fynegodd i ni pa fodd y gwelsai efe angel yn ei dŷ, yn sefyll ac yn dywedyd wrtho, † Anfon wŷr [t] i Joppa, a gŷr am Simon, a gyfenwir Pedr:

s pen. 10. 3—6, 22, 30—32. a 12. 11. Heb. 1. 14. t pen. 9. 43.

* Gwel ar pen. 10. 3, 30. † Gwel ar pen. 10. 5, 32.

14 * Yr hwn a lefara [u] eiriau wrthyt, † trwy y rhai [x] y'th iachêir di a'th holl dŷ.

u pen. 10. 6, 22, 32, 33, 43. a 16. 31. Marc 16. 16. Ioan 6. 63, 68. a 12. 50. a 20. 31. Rhuf. 1. 16, 17. a 10. 9, 10. 1 Ioan 5. 9—13. x pen. 2. 39. a 16. 15, 31. Gen. 17. 7. a 18. 19. Salm 103. 17. a 112. 2. a 115. 13, 14. Diar. 20. 7. Es. 61. 8, 9. Jer. 32. 39. Luc 19. 10.

* Gwel ar pen. 10. 6, 32. † Trwy y rhai y'th achubir di a'th holl dŷ. Mae hyn yn gyflawnach nac yn yr adnodau a ddyfynwyd uchod; rhaid achub Cornelius ei hunan, nid trwy ei weddïau, ei elusenau, ei ddefosiynau, ei ymprydiau, a'i uniondeb; ond trwy y geiriau a lefarai Pedr wrtho, a thrwy ffydd yn y geiriau hyny: ac fel hyn hefyd yr oedd iachawdwriaeth i ddyfod i'w deulu ef.

15 [y] * Ac a myfi yn dechreu llefaru, [z] † syrthiodd yr Ysbryd Glân arnynt, [a] megis arnom ninnau yn y dechreuad.

y pen. 10. 34—44. z pen. 10. 45, 46. a 19. 6. a pen. 2. 2—12. a 4. 31.

* Gwel ar pen. 10. 44. † Syrthiodd arnynt, nid yn unig yn ei ddylanwadau grasol i oleuo eu meddyliau a sancteiddio eu calonau, ond hefyd yn ei ddoniau gwyrthiol, fel y sylwyd ar pen. 10. 46.

16 [b] * Yna y cofiais air yr Arglwydd, [c] y modd y dywedasai efe, † Ioan yn wir a fedyddiodd â dwfr; [d] eithr chwi a fedyddir â'r Ysbryd Glân.

b pen. 20. 35. Luc 24. 8. Ioan 14. 26. a 16. 4. 2 Pedr 3. 1. c pen. 1. 5. a 19. 2—4. Mat. 3. 11. Marc 1. 8. Luc 3. 16. Ioan 1. 33. d Diar. 1. 23. Es. 44. 3—5. Ezec. 36. 25. Joel 2. 28. a 3. 18. 1 Cor. 12. 13. Tit. 3. 5, 6.

* Sef geiriau yr Arglwydd Iesu, ychydig iawn cyn iddo esgyn i'r gogoniant. Gwel pen. 1. 5. Er mai addewid i'r apostolion oedd yno; eto gwelodd Pedr ei chyflawni ar y cenedloedd yn nhŷ Cornelius, yn gystal ag arnynt hwythau ar ddydd y pentecost; a phryd hyny y deallodd efe ei bod yn perthyn i'r cenedloedd hefyd. † Gallwn sylwi yma ar y gwahaniaeth mawr rhwng bedydd allanol, â dwfr, pwy bynag a'i gweinyddo, pe byddai Ioan ei hun, â bedydd tumewnol yr Ysbryd Glân: nid yw y cyntaf ond arwydd o'r olaf, a chwbl ddiles ac aneffeithiol heb yr olaf, yr hwn sydd fel y tân yn puro y mettel, yn ein puro ni oddiwrth ein pechodau.

17 [e] * Os rhoddes Duw gan hynny iddynt hwy gyffelyb rodd ag i ninnau, y rhai a gredasom yn yr Arglwydd Iesu Grist, [f] † pwy oeddwn i, i allu lluddias Duw?

e adn. 15. pen. 15. 8, 9. Mat. 20. 14, 15. Rhuf. 9. 15, 16, 23, 24. a 11. 34—36. f pen. 10. 47. Job 9. 12—14. a 33. 13. a 40. 2, 8, 9. Dan. 4. 35. Rhuf. 9. 20.

* Tywalltodd Duw yr Ysbryd Glân ar Cornelius a'i gyfeillion yn ddisymmwth, yn ddigyfrwng, heb arddodiad dwylaw, cyn eu bedyddio, a chyn iddynt wneyd cyffes o'u ffydd yn yr Arglwydd Iesu: † a chan i Dduw yn ei anfeidrol drugaredd weled bod yn dda i wneyd felly, pa fodd y gallai Pedr ei luddias ef, na bod mòr ddrygionus a chwennych ei luddias ef? Hefyd, gan iddynt gael y gras arwyddocâol mewn bedydd, ie, bedydd yr Ysbryd Glân, pa fodd y gallai efe luddias iddynt gael eu bedyddio â dwfr?

18 * A phan glywsant y pethau hyn, [g] distawu a wnaethant, [h] † a gogoneddu Duw, gan ddywedyd, [i] ‡ Fe roddes Duw gan hynny i'r Cenhedloedd [k] hefyd edifeirwch i fywyd.

g Lef. 10. 19, 20. Jos. 22. 30. h pen. 15. 3. a 21. 20. Es. 60. 21. a 61. 3. 2 Cor. 3. 18. Gal. 1. 24. i Gwel ar adn. 1.—pen. 13. 47, 48. a 14. 27. a 22. 21, 22. Rhuf. 3. 29, 30. a 9. 30. a 10. 12, 13. a 15. 9—16. Gal. 3. 26, 27. Eph. 2. 11—18. a 3. 5—8. k pen. 3. 19, 26. a 5. 31. a 20. 21. a 26. 17—20. Jer. 31. 18—20. Ezec. 36. 26. Zec. 12. 10. 2 Cor. 7. 10. 2 Tim. 2. 25, 26. Iago 1. 16, 17.

* Er cryfed eu rhagfarn yn erbyn y cenedloedd, gorchfygwyd hwy gan yr adroddiad uchod o'r eiddo Pedr, a distawyd eu hymryson hwynt, hyd oni ail gyffrôdd rhyw rai eraill y ddadl yn mhen rhyw amser wedi hyn. Gwel pen. 15. 1, 5. † Trôdd eu rhagfarn yn erbyn y cenedloedd yn gariad brawdol atynt, a gogoneddasant Dduw yn eu hachos hwynt: yma lladdwyd y gelyniaeth trwy y groes, a gwnaed Iuddewon a Chenedloedd yn un yn Nghrist, a thrwy yr efengyl. ‡ Rhodd a gweithrediad Duw yw edifeirwch yn gystal a ffydd, ac nid oes bywyd gan neb, nac i neb, heb edifeirwch. Mae yn debyg wrth hyn bod yr Iuddewon hyn o'r blaen yn ystyried pawb dïenwaededig mewn cyflwr marw a cholledig, am mai dïenwaededig oeddynt, ac nad oedd bosibl iddynt gael bywyd heb eu henwaedu pa faint bynag fyddai eu hedifeirwch a'u duwioldeb. Gwel pen. 15. 1. Nid bywyd am edifeirwch yw y geiriau, fel yr eglura rhai hwynt; ond edifeirwch ysbrydol i fywyd yma, ac i fywyd tragywyddol yn y nef.

19 ¶ * A'r [l] rhai a wasgarasid o herwydd y blinder a godasai ynghylch Stephan, † a drawwyasant hyd yn [m] ‡ Phenice, a [n] Cyprus, ac [o] Antiochia, || heb lefaru y gair [p] wrth neb ond wrth yr Iuddewon yn unig.

l pen. 8. 1—4. m pen 15. 3. a 21. 2. n pen. 4. 36. a 13. 4. a 15. 39. a 21. 16. o adn. 26. pen. 15. 22, 35 p pen. 3. 26. a 13. 46. Ioan 7. 35.

* Am y gwasgariad hwn yn nghyd a'r achos o hóno, gwel pen. 8. 1. † Tramwy gan bregethu y gair yr oeddynt yn mhob màn. Act. 8. 4: fel hyn goruwchlywodraethodd Duw yr erledigaeth i fod yn foddion i daenu yr efengyl. ‡ Phenice oedd wlad, neu dalaeth, yn agos i Syria, o amgylch Tyrus. Cyprus oedd un o'r ynysoedd mwyaf yn môr y canol-dir. Antiochia ydoedd brif ddinas Syria, yr hon a fu megys Jerusalem y cenedloedd cristionogol wedi hyn. || Nid oeddynt yn deall eto bod yr efengyl i gael ei phregethu i'r cenedloedd, na bod y cenedloedd i gael eu dwyn i'r eglwys efengylaidd.

20 * A rhai o honynt oedd wŷr o Cyprus ac *o* [q] Cyrene, † y rhai wedi dyfod i Antiochia, a lefarasant wrth y [r] ‡ Groegiaid, [s] gan bregethu yr Arglwydd Iesu.

q pen. 2. 10. a 6. 9. a 13. 1. Mat. 27. 32. r pen. 6. 1. a 9. 29. s pen. 8. 5, 35. a 9. 20. a 17. 18. 1 Cor. 1. 23, 24. a 2. 2. Eph. 3. 8.

* Rhai o'r pregethwyr teithiol hyn oeddynt frodorion o Cyprus yn môr y canol-dir, ac o Cyrene yn ngwlad yr Aipht: cyfyd Duw ei genadon, ac offerynau at ei waith, o'r màn y mỳno, † ac a'u denfyn i'r màn y mỳno; dyma wŷr o Cyprus a Cyrene yn cael eu danfon i Antiochia yn Syria. ‡ Mae gwahanol dybiau gan ddysgedigion am y Groegiaid yn y fàn hon:—Tybia rhai mai Iuddewon o waedoliaeth a chrefydd oeddynt, ond eu bod yn preswylio yn mhlith y Groegaid ac yn llefaru yr iaith Groeg: pe felly, ni buasai nemawr o wahaniaeth rhwng llefaru wrth y Groegiaid yma, a llefaru wrth yr Iuddewon yn unig yn yr adnod o'r blaen. Tybia eraill mai Groegiaid o genedl a gwaedoliaeth oeddynt, ond wedi ymwrthod âg eilun-addoliaeth o'r blaen, ac yn addoli y gwir Dduw, yn gyffelyb i Cornelius a'i gyfeillion: nid oes un sail i'r dyb yna. Tybia eraill drachefn mai Groegiaid, hyny yw, cenedloedd paganaidd ac eilun-addolgar hollawl oeddynt: a hyny sydd fwyaf tebygol; oblegid amcan Luc yma yw, rhoddi hanes am ddechreuad pregethiad yr efengyl yn mhlith y cenedloedd: a rhoddir y Groegiaid yma mewn cyferbyniad i'r Iuddewon yn yr adnod o'r blaen. Groegiaid y galwai yr Iuddewon agos i bawb ond hwy eu hunain, er amser Alexander Fawr, yr hwn a ddarostyngodd yr holl genedloedd o'u hamgylch hwynt, ac a ddygodd yr iaith Groeg i arferiad yn eu plith.

21 * A [t] llaw yr Arglwydd oedd gyd â hwynt: [u] † a nifer mawr a gredodd, ‡ ac a [x] drodd at yr Arglwydd.

t 2 Cron. 30. 12. Ezra 7. 9. a 8. 18. Neh. 2. 8, 18. Es. 53. 1. a 59. 1. Luc 1. 66. u adn. 24. pen. 2. 47. a 4. 4. a 5. 14. a 6. 7. 1 Cor. 3. 6, 7. 1 Thes. 1. 5. x pen. 9. 35. a 26. 18—20. 1 Thes. 1. 9, 10.

* Gallu, cynnorthwy, a gweithrediad nerthol Duw, a feddylir wrth "law yr Arglwydd;" yr aelod a ddefnyddia dynion wrth weithio. Yr oedd llaw yr Arglwydd gyda hwynt yn y gwyrthiau a wnaethant, yn yr arddelwad ar eu gweinidogaeth, ac yn y gwaith ar galonau dynion trwy y weinidogaeth. † Gwaith Duw yw dwyn dynion i gredu, ïe, gweithrediad nerth ei gadernid ef: ‡ a'r canlyniad o gredu yw, troi at yr Arglwydd. Yn yr adnod o'r blaen a hon, gwelwn bedwar peth yn gyssylltiedig â'u gilydd:—1. Pregethu yr Arglwydd Iesu; 2. Llaw yr Arglwydd gyda hyny; 3. Nifer mawr yn credu; 4. A thrwy gredu yn troi at yr Arglwydd.

22 ¶ * A'r [y] gair a ddaeth i glustiau yr eglwys oedd yn Jerusalem am y pethau hyn: [z] † a hwy a anfonasant ‡ Barnabas i fyned hyd Antiochia.

y adn. 1. pen. 8. 14. a 15. 2. 1 Thes. 3. 6. z pen. 4. 36, 37. a 9. 27. a 13. 1—3. a 15. 22, 35—39.

* Gwedi yr hyn a glywsai yr eglwys yn Jerusalem gan Pedr am y tro yn nhŷ Cornelius, mae yn debyg iddynt dderbyn y newydd o Antiochia mewn llawer gwell ysbryd: gyda llawenydd a diolchgarwch, am droedigaeth cynnifer o baganiaid truenus at Grist. † Fel y danfonasent Pedr ac Ioan i Samaria ar y cyfryw achlysur o'r blaen, pen. 8. 14. ‡ Am Barnabas, gwel pen. 4. 36: mae yr hyn a ddywedir am dano ef yno, ac yn enwedig yn adn. 24, o'r bennod hon, yn dangos ei addasrwydd ef i gael ei ddanfon ar y fath neges. Danfonwyd ef yn ddifrifol, trwy ympryd, a gweddi, ac arddodiad dwylo yr apostolion, mae yn debyg (gwel pen. 13. 1—3,) i weled yn y lle pa fodd yr oedd pethau yn Antiochia, i iawn-drefnu pethau yn eu plith o ran bugeiliaid a swyddwyr eglwysig, i weini yr ordinadau i'r dychweledigion ieuainc, ac i'w cyngori i lŷnu wrth yr Arglwydd, adn. 23.

23 * Yr hwn pan ddaeth, [a] † a gweled gras Duw, ‡ a fu lawen ganddo, [b] ‖ ac a gynghorodd bawb oll, [c] trwy lwyr-fryd calon, [d] i lŷnu wrth yr Arglwydd.

a Marc 2. 5. Col. 1. 6. 1 Thes. 1. 3, 4. 2 Tim. 1. 4, 5. 2 Pedr 1. 4—9. b pen. 13. 43. a 14. 22. Ioan 8. 31, 32. a 15. 4. 1 Thes. 3. 2—5. Heb. 10. 19—26, 32—39. 2 Pedr 3. 17, 18. 1 Ioan 2. 28. c Salm 17. 3. Dan. 1. 8. 2 Cor. 1. 17. 2 Tim. 3. 10. d Deut. 10. 20. a 30. 20. Jos. 22. 5. a 23. 8. Mat. 16. 24. 1 Cor. 15. 58.

* Dywed *Guyse* fod Antiochia tua thri-chant o filltiroedd o Jerusalem; eto, er pelled oedd, cychwynodd Barnabas yn ewyllysgar, a chyrhaeddodd ben ei daith yn ddiogel. † Atebodd y dyben iddo am ei holl daith lafurus; gwelodd effeithiau gras Duw yn amlwg yno, yn nifer y dysgyblion, yn eu profiadau ysbrydol, yn eu bywiogrwydd crefyddol, yn eu cariad brawdol, ac yn eu bucheddau sanctaidd ac addas i'r efengyl. ‡ Mater o lawenydd yn y nef yw gweled gras Duw ar bechaduriaid ar y ddaear, ac nid rhyfedd i ddyn mòr nefol a Barnabas lawenychu wrth ei weled. ‖ Ond er mòr flodeuog oeddynt y pryd hwnw yn eu cariad cyntaf, gwyddai Barnabas y deuai ymosodiadau arnynt oddiwrth genedloedd paganaidd ac Iuddewon digred deddfol, ac hefyd oddiwrth satan a'u calonau eu hunain: am hyny efe a'u cyngorodd oll gyda'r difrifwch mwyaf i lŷnu yn ddiysgog wrth yr Arglwydd fel y caffent nerth oddi yno i lŷnu wrth eu crefydd.

24 [e] * Oblegid yr oedd efe yn wr da, [f] † ac yn llawn o'r Ysbryd Glân, ‡ ac o ffydd: [g] ‖ a llawer o bobl a chwanegwyd i'r Arglwydd.

e pen. 24. 16. 2 Sam. 18. 27. Salm 37. 23. a 112. 5. Diar. 12. 2. a 13. 22. a 14. 14. Mat. 12. 35. a 19. 17. Luc 23. 50. Ioan 7. 12. Rhuf. 5. 7. f pen. 6. 3, 5, 8. Rhuf. 15. 15. g adn. 21. pen. 5. 14. a 9. 31. O. C. 43.

* Effeithiodd ei gyngorion gwerthfawr ef yn dda ar yr Antiochiaid, oblegid yr oedd efe yn wr da ei hun: yn dda ei gyflwr a'i galon, yn dda ei dymher a'i ysbryd, yn dda ei ymarweddiad a'i weithredoedd, ac yn dda ei air a'i gynmeriad. Gwr o dymher hynaws a thirion, medd rhai, heb chwennychu rhoddi beichiau rhŷ drymion ar y dysgyblion ieuainc, ac felly yn addas iawn i'w ddanfon i Antiochia y pryd hwn. † Yn llawn o ddoniau a grasau yr Ysbryd Glân, dàn ei oruchwyliaethau, ac yn mwynâu ei orfoledd. ‡ Yn llawn o wybodaeth, ffydd, a phrofiad yr efengyl. ‖ Arddelwodd Duw weinidogaeth y gwr da hwn yn Antiochia, nid yn unig i gadarnâu ac adeiladu y rhai oedd yn credu eisoes; ond hefyd i ddychwelyd llawer yn ychwaneg at yr Arglwydd ac i'w dŷ.

25 * Yna yr aeth Barnabas [h] i Tarsus, i geisio Saul. † Ac wedi iddo ei gael, efe a'i dug i Antiochia.

h pen. 9. 11, 30. a 21. 39.

* Gadawsom Paul yn Tarsus, pen. 9. 30; ac er bod tua chàn milltir o Antiochia yno, dyma Barnabas yn myned yr holl ffordd i ymofyn am ei hên gyfaill i gydlafurio âg ef yn y maes newydd a helaeth yn Antiochia. † Mae y rhan olaf hon o'r adnod yn y 26 adnod yn y Saesoneg; ond yn y Testament Groeg mae yn y 25, fel y Gymraeg. Gan fod Paul wedi ei eni ar dir cenedlig a'i ddwyn i fynu, mewn rhan o leiaf, yn mhlith y cenedloedd, yr oedd yn fwy tebyg o fod yn fwy cymmeradwy gan y cenedloedd, ac yn fwy addas i lafurio yn eu plith: yn enwedig pan ystyriom ei fawr ddysgeidiaeth a'i dröedigaeth ryfedd.

26 [i] * A bu iddynt flwyddyn gyfan † ymgynnull yn yr eglwys, a dysgu pobl lawer; [k] ‡ a bod galw y disgyblion yn Gristionogion yn gyntaf yn Antiochia.

i pen. 13. 1, 2. k pen. 26. 28. Es. 65. 15. 1 Cor. 12. 12. Eph. 3. 15. 1 Pedr 4. 14. 1 Ioan 2. 27. Dat. 3. 18.

* Yr oedd yn fraint fawr i'r eglwys yn Antiochia gael dau wr o fath Paul a Barnabas gyda hwy am flwyddyn gyfan. † Amledd a chysondeb moddion yn eu plith a fu yn fendithiol iawn i gynnydd a llwyddiant yr achos yn Antiochia. ‡ Gan bwy y galwyd hwy yn Gristionogion gyntaf? Nid gan eu gelynion; oblegid Galileaid, a Nazareniaid, y gelwid hwy gan eu gelynion, mewn ffordd o ddirmyg. Nid ganddynt eu hunain; oblegid dysgyblion, brodyr, y saint, a'r eglwys, y

galwent hwy y naill y llall yn wastad. Gan hyny pwy bynag yn offerynol a'u galwodd hwy felly yn gyntaf, mae yn rhaid mai peth o Dduw oedd eu galw felly. Tybir fod y tro hwn yn gyflawniad o'r prophwydoliaethau yn Es. 62. 2; a 65. 15; ac os felly, mae yn amlwg mai peth o Dduw ydoedd. Dywedir, hefyd, fod y gair *chrêmatisai*, a gyfieithir yma "galw," neu "a bod galw," yn arwyddo rhybudd, neu gyfarwyddyd dwyfol, bob amser agos yn y Testament Newydd. Gwel Matth. 2. 12, 22; Luc. 2. 26; Act. 10. 22; Heb. 8. 5; a 11. 7; a 12. 25. Addas iawn oedd i'r enw hwn ddechreu yn Antiochia, lle yr oedd cymmysg o Iuddewon a Chenedloedd yn yr un eglwys, i ddilëu pob gwahaniaeth, ac i'w huno oll yn un corph yn Nghrist, a thàn yr un enw. Enw a bâr byth yw hwn, a gwyn fyd pawb sydd yn wir deilwng o'r enw anrhydeddus hwn!

27 ¶ * Ac yn y dyddiau hynny daeth [l] prophwydi o Jerusalem i waered i Antiochia.

l pen. 2. 17. a 13. 1. a 15. 32. a 21. 4, 9. Mat. 23. 34. 1 Cor. 12. 28. a 14. 32. Eph. 4. 11.

* Yn ypsaid y flwyddyn y bu Paul a Barnabas yn aros yn Antiochia. † Dynion wedi eu donio gan Dduw, i allu rhagfynegi pethau i ddyfod, er lles i'r eglwys. Mae yn debyg fod rhai o'r cyfryw yn yr eglwys y dyddiau hyny, yn ol addewid Crist i'w ddysgyblion, Ioan 16. 13, a chyfrifid hwy yn nesaf i'r apostolion, 1 Cor. 12. 28.

28 Ac un o honynt, a'i enw [m] * Agabus, a gyfododd, ac a arwyddocàodd trwy yr Yspryd, [n] y byddai newyn mawr dros † yr holl fyd: ‡ yr hwn *hefyd* a fu dan [o] Claudius Cesar.

m pen. 21. 10. n Gen. 41. 30, 31, 38. 1 Bren. 17. 1—16. 2 Bren. 8. 1, 2. o Luc 2. 1. a 3. 1.

* Yr Agabus hwn a ragfynegodd rwymau Paul wedi hyn, pen. 21. 10, 11: nis gwyddom ychwaneg am dano. † Holl ymherodraeth Rhufain, mae yn debyg, yr hon a alwent hwy yn "holl fyd" mewn ffordd o ymffrost balch. ‡ E fu y cyfryw newyn, medd haneswyr paganaidd, o'r bedwerydd flwyddyn o deyrnasiad Claudius Cesar, hyd yr unfed flwyddyn ar ddeg o'i deyrnasiad; weithiau mewn un wlad, bryd arall mewn gwledydd eraill: dywedir iddo fod yn drwm iawn yn Judea, am y rhan fwyaf o bedair blynedd.

29 * Yna y disgyblion, [p] † bob un yn ol ei allu, [q] ‡ a fwriadasant anfon cymmorth i'r brodyr oedd yn preswylio yn Judea.

p Ezra 2. 69. Neh. 5. 8. 1 Cor. 16. 2. 2 Cor. 8. 2—4, 12—14. 1 Pedr 4. 9—11. q pen. 2. 44, 45. a 4. 34, 35. Preg. 11. 1, 2. Luc 12. 29—33. Rhuf. 15. 25—27. 1 Cor. 13. 5. Gal. 2. 10. Heb. 13. 5, 6.

* Dinas o fasnach fawr oedd Antiochia y pryd hwnw, ac mae yn debyg fod yno lawer yn yr eglwys o berchen meddiannau mawrion, ac ar eu llaw i gynnorthwyo y saint llodion. † Dyna rëol elusengarwch, "pob un yn ol ei allu," ac "megys y llwyddodd Duw ef." Dyma'r rhëol a osododd Duw, ond pwy sydd yn gwneyd yn ol y rhëol hon? ‡ Llodion oedd y rhan fwyaf o'r saint yn Judea cyn dyfod y newyn; gan erlidiau a gorthrymderau yr Iuddewon digred: ac yr oedd yn garedig iawn yn y dysgyblion o'r cenedloedd yn Antiochia ddanfon cymmorth iddynt, ac yn tueddu yn fawr i ddiddymu rhagfarn yr Iuddewon cristionogol yn eu herbyn hwythau.

30 * Yr hyn beth hefyd a wnaethant; [r] gan ddanfon at yr henuriaid [s] trwy law Barnabas a Saul.

r pen. 14. 23. a 15. 4, 6, 23. a 16. 4. a 20. 17. 1 Tim. 5. 17. Tit. 1. 5. Iago 5. 14. 1 Pedr 5. 1. s pen. 12. 25. 1 Cor. 16. 3, 4. 2 Cor. 8. 17—21.

* Bwriadu yn gyntaf, adn. 29, a gwneyd wedi hyny: nid bwriadu ac heb wneyd byth. † Dyma'r waith gyntaf i ni ddarllen am henuriaid yn yr eglwys; a thybir mai rhai o ddysgyblion cyntaf Crist oeddynt, ar y rhai y tywalltwyd helaethrwydd o ddoniau a grasau yr Ysbryd Glân ar ddydd y pentecost. Mae yn bur debyg eu bod yn wahanol i'r diaconiaid a ddewiswyd yn pen. 6; ac, efallai, yn wahanol i'r apostolion hefyd; ond gan fod Pedr ac Ioan yn eu galw eu hunain yn henuriaid, (1 Pedr 5. 1, 2; 2 Ioan 1.) nis gallwn fod yn sicr nad yr apostolion oeddynt. *Presbuterous*, yw y gair Groeg, ac mewn ffordd o fyrdra, *Praester*, o'r hwn y ffurfiwyd y gair Saesoneg, *Priest*, offeiriad, medd *Scott*, yr hwn nid yw mewn un modd yn arwyddo *aberthwr (iereus)* fel y tybia llawer. Cawn sylwi eto ar swydd a gwaith yr henuriaid hyn yn yr eglwys.

PEN. XII.

Herod yn erlid y Cristionogion, &c.

* Ac ynghylch y pryd hwnnw yr estynodd † Herod ‡ frenhin *ei* ddwylaw i [a] ddrygu rhai o'r eglwys.

a Mat. 10. 17, 18. a 24. 9. Ioan 15. 20, 21. a 16. 2.

* Yn nghylch y pryd yr oedd yr eglwys yn Antiochia yn danfon cymmorth i'r brodyr yn Judea. † Hwn yw y trydydd Herod y darllenwn am dano: ŵyr ydoedd hwn i'r Herod a laddodd blant Bethlehem, o'i fab Aristobulus; a nai Herod y Tetrarch (Luc 3. 1.) yr hwn a dòrodd ben Ioan Fedyddiwr, a brawd Herodias; yr oedd hwnw yn byw mewn godineb a llosgach â hi. Gwnaethai Caligula ef yn Detrarch Galilea, a gwnaeth Claudius ef wedi hyny yn frenin Judea, am ryw wasanaeth a wnaethai efe iddo ef. ‡ Tybia rhai ei fod yn deyrnfrad yn erbyn y Messiah, iddo ef gymmeryd yr enw Brenin Judea; ac mai y traha hwn, yn nghyd â'i greulondeb i'r saint, a'i gwnaeth ef mòr deilwng o'r farn ofnadwy a ddaeth arno, adn. 23.

2 * Ac efe a laddodd [b] Iago brawd Ioan [c] â'r cleddyf.

b Mat. 4. 21, 22. a 20. 23 Marc 10. 35—38. c 1 Bren. 19. 1, 10. Jer. 26. 23. Heb. 11. 37.

* Iago mab Zebedëus, a brawd Ioan, un o feibion y daran oedd hwn; nid yr Iago a ysgrifenodd yr epistol sydd genym: Iago mab Alphëus oedd hwnw. Yn y tro hwn cyflawnwyd yr hyn a ddywedasai yr Iesu wrtho ef a'i frawd am yfed o gwpan dyoddefaint. Matth. 20. 23. † Tòri ei ben ef â'r cleddyf, meddant; am fod hyny yn fwy gwarthus na'i wneyd â'r fwyell. Wrth weled un o'u brodyr yn cael ei dòri ymaith fel hyn mòr fuan, er gallu i wneyd gwyrthiau a phobpeth; yr oedd yn gryn brawf i wroldeb yr apostolion oll: ond hwy a aethant yn mlaen yn wrol er hyn, ac a fuant ffyddlawn hyd angeu.

3 [d] * A phan welodd fod yn dda gan yr Iuddewon hynny, [e] † efe a chwanegodd ddala Pedr hefyd ([f] A dyddiau y bara croyw ydoedd hi)

d pen. 24. 27. a 25. 9. Ioan 12. 43. Gal. 1. 10. 1 Thes. 2. 4. e pen. 2. 14. a 4. 13. Salm 76. 10. Ioan 19. 11. f Ex. 12. 15—20. a 13. 3—7. Lef. 23. 6—14. Mat. 26. 17. 1 Cor. 5. 7, 8.

* Dywed *Josephus* fod yr Herod hwn yn byw lawer o'i amser yn Jerusalem, yn wresog iawn dros gyfreithiau Moses, ac yn fawr iawn am foddloni yr Iuddewon, fel y buasai ei daid am foddâu y Rhufeiniaid: mae hyny yn cytuno yn burion â'r hyn a ddywed Luc yma. † Mae un pechod yn arwain i bechod arall yn gyffredin, ac yn caledu y galon i'w gyflawni: mae yn debyg y buasai Herod yn rhoddi yr apostolion oll i farwolaeth bob yn ychydig, pe cawsai hwy yn ei feddiant; ond attaliodd Duw ef yn fuan. Gwel adn. 23. ‡ Yr oedd Herod yn grefyddol iawn yn nyddiau y bara croyw; ni wnai ddim i Pedr y pryd hwnw ond ei roi yn ngharchar; gan fwriadu yn ddiammau ei ladd ef wedi yr elai yr ŵyl hòno heibio, adn. 4: efallai bod arno ofn y bobl hefyd ar yr ŵyl.

4 Yr hwn, wedi ei ddal, [g] a roddes efe yngharchar, [h] * ac a'i traddododd at bedwar

oedwariaid o filwyr i'w gadw; [i] † gan ewyllys-
o, ar ol y Pasg, ei ddwyn ef allan at y bobl.

g pen. 4. 3. a 5. 18. a 8. 3. Mat. 24. 9. Luc 21. 12. a 22. 33. h pen. 16. 23, 24. Mat. 27. 64—66. i pen. 4. 28. Esther 3. 6, 7, 13. Diar. 19. 21. a 27. 1. Galar. 3. 37. Mat. 26. 5.

* Un ar bymtheg o filwyr, pedwar i wylied ar y tro, ern ol arfer y Rhufeiniaid, a hyny ar gylch, nos a dydd, ieir-awr i bob pedwar. Gwyddai Herod, mae yn de-ryg, fel y diangasai Pedr o'r carchar o'r blaen; dyna'r achos o'r holl ofal hwn am dano yn awr: carchar, milwyr, a dwy gadwyn, adn. 6; ond e aeth Duw yn rdrech na'r cwbl, † nis gallai Herod ond "ewyllysio," gallodd Duw ei luddias ef i weithredu, a gwaredu ei vas o'i grafangau ef.

5 * Felly Pedr a gadwyd yn y carchar: † eithr gweddi ddyfal a wnaethpwyd gan yr eglwys at Dduw drosto ef.

k adn. 12. Es. 62. 6, 7. Mat. 18. 19. Luc 18. 1. 1 Cor. 12. 26. l Cor. 1. 11. Eph. 6. 18—20. 1 Thes. 5. 17. Heb. 13. 3. Iago 5. 16.

* Hyd oni chaid amser cyfaddas i'w ddienyddio ef, lyna eu hamcan hwy. † Gweddi barâus, ddibaid, nos a dydd, gyda'r taerineb mwyaf, a hyny gan yr holl eglwys, a wnaed drosto ef. Nid codi terfysg, a cheisio còri y carchar, a wnaethant; buasai hyny yn anghyf-reithlawn, ac yn enbyd: nid deisyfu ar Herod ei ryddâu ef a wnaethant; nid oedd gwiw hyny: ond gweddio yn daer a dyfal ar Dduw; nis gallai carchar, milwyr, na chadwyni, attal hyny, nac attal ymwared chwaith.

6 * A phan oedd Herod â'i fryd ar ei ddwyn ef allan, [l] † y nos honno ‡ yr oedd Pedr yn cysgu rhwng dau filwr, [m] || wedi ei rwymo â dwy gadwyn; [n] § a'r ceidwaid o flaen y drws oeddynt yn cadw y carchar.

l Gen. 22. 14. Deut. 32. 36. 1 Sam. 23. 26, 27. Salm 3. 5, 6. a 14. 8. Es. 26. 3, 4. Phil. 4. 6, 7. Heb. 13. 6. m pen. 21. 33. a 28. 20. Jer. 40. 4. Eph. 6. 20. 2 Tim. 1. 16. n pen. 5. 23. Mat. 28. 4.

* Ei holl fryd, ac yn fawr ei fryd hefyd, ei ddwyn ef allan dranoeth i'w roddi i farwolaeth. Dywedir am yr annuwiolion eu bod yn "cynllwyn am waed," ac "na chysgant nes iddynt gwympo rhyw ddyn:" felly yr oedd yr Herod hwn. † Y nos cyn ei ddienyddiad, yn ol bryd a bwriad Herod. ‡ Er nad oedd Pedr yn dysgwyl cael run arbediad gan ei elynion, nac ychwaith y pryd hwn yn gwybod dim am ei waredigaeth ryfedd; eto am fod ei achos yn dda, a'i gydwybod yn dawel, yr oedd yn medru cysgu yn esmwyth rhwng y milwyr yn y carchar. E gedwir mewn tangnefedd heddychol yr hwn sydd a'i feddyl-fryd ar Dduw, am ei fod yn ymddiried ynddo. Hawdd y gallai gysgu pan oedd yr eglwys, yr angelion, a Duw ei hun, yn effro o'i blaid ef, ac yn darpar gwaredigaeth iddo. || Dull y Rhufeiniaid o gadwyno carcharorion oedd, eu cadwyno wrth y milwyr oedd yn eu gwarchod: cadwyn am law ddehau y carcharor, wrth law aswy un milwr; a chadwyn am ei law aswy, wrth law ddehau y milwr arall: a'r ddau eraill o'r pedwar yn gwarchod heblaw hyny. § Ceidwaid, neu wyliedyddion cyffredin y carchar oedd y rhai hyn.

7 [o] Ac wele, * angel yr Arglwydd a safodd ger llaw, [p] † a goleuni a ddisgleiriodd yn y carchar: ‡ ac efe a darawodd ystlys Pedr, ac a'i cyfododd ef, gan ddywedyd, [q] Cyfod yn fuan. [r] || A'i gadwyni ef a syrthiasant oddi wrth *ei* ddwylaw.

o adn. 23. pen. 5. 19. a 10. 30. a 27. 23, 24. 1 Bren. 19. 5, 7. Salm 34. 7. Es. 37. 36. Dan. 6. 22. Heb. 1. 14. p pen. 9. 3. 2 Sam. 22. 29. Ezec. 43. 2. Mica 7. 9. Hab. 3. 4, 11. Dat. 18. 1. q Gen. 19. 15, 16. Es. 60. 1. Eph. 5. 14. r pen. 2. 24. a 16. 26. Salm 105. 18—20. a 107. 14. a 116. 16. a 142. 6, 7. a 146. 7. Dan. 3. 24, 25.

* Ysbrydion gwasanaethgar yw yr angelion oll, yn cael eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth. Heb. 1. 14. Un o'r ysbrydion gwasanaethgar hyny oedd hwn. † Gogoniant priodol yr angel, efallai, yn dysgleirio yn y carchar tywyll. Tybia rhai mai i Pedr yn unig yr ymddysgleiriodd, fel y golofn i Israel gynt; ac ei fod yn dywyll i'r milwyr, fel y golofn i'r Aiphtiaid: tybia eraill iddo ddysgleirio iddynt oll; ac i'r dysgleirdeb daro y milwyr â dallineb, syndod, neu lewyg, fel nas gwyddent ddim am ryddâd nac ymadawiad Pedr, hyd onid oedd wedi myned. ‡ I'w ddeffrôi ef o'i gwsg, fel hen Elias gynt. 1 Bren. 19. 5. || Syrthiasant oddi am ddwylaw Pedr, ond arosasant yn ddïau, yn rhwym am ddwylaw y milwyr. Pan ryddâo Duw, pwy a rwyma?

8 A dywedodd yr angel wrtho, * Ymwregysa, † a rhwym dy sandalau. Ac felly y gwnaeth efe. Yna y dywedodd, ‡ Bwrw dy wisg am danat, a chanlyn fi.

* Mae yn debyg wrth hyn fod dillad Pedr am dano oll, ond ei sandalau a'i wisg uchaf, ond eu bod yn rhyddion heb eu gwregysu. † Nid oedd y sandalau gynt ddim ond gwadnau dàn y traed, wedi eu rhwymo am y traed â chàreïau: wedi hyny aethant yn esgidiau, i orchuddio y traed. ‡ Math o wisg uchaf, tebyg i fantell, neu hugan, gyda ni. Yr oedd y gorchymynion hyn oll er darpar Pedr i ymadael o'r carchar, a'r cwbl yn ddïarwybod i'r milwyr.

9 [s] Ac efe a aeth allan, ac a'i canlynodd ef: [t] * ac nis gwybu mai gwir oedd y peth a wnaethid gan yr angel; eithr yr oedd yn tybied mai gweled gweledigaeth yr oedd.

s pen. 26. 19. Gen. 6. 22. Ioan 2. 5. Heb. 11. 8. t pen. 10. 3, 17. a 11. 5. Gen. 45. 26. Salm 126. 1. 2 Cor. 12. 1—3.

* Rhwng ei gwsg, a'i syndod wrth y fath ymwared annysgwyliadwy, nis gwyddai Pedr eto mai gwirionedd oedd y peth; eithr tybiai mai gweledigaeth oedd y cwbl. "Pan ddychwelodd yr Arglwydd gaethiwed Sion, yr oeddym fel rhai yn breuddwydio," medd Israel gynt, (Salm 126. 1.) felly yn gyffelyb yr oedd Pedr yma; ond yr oedd yn canlyn yr angel er hyny, nes ei fyned o gyrhaedd pob perygl. adn. 10.

10 * Ac wedi myned o honynt heblaw [u] y gyntaf a'r ail wyliadwriaeth, hwy a ddaethant i'r † porth haiarn yr hwn sydd yn arwain ‡ i'r ddinas, [x] yr hwn a ymagorodd iddynt o'i waith ei hun: ac wedi eu myned allan, hwy a aethant ar hŷd un hëol; || ac yn ebrwydd yr angel a aeth ymaith oddi wrtho.

u adn. 4. Gen. 40. 3. a 42. 17. Num. 15. 34. Es. 21. 8. x pen. 5. 19. a 16. 26. Es. 45. 1, 2. Ioan 20. 19, 26. Dat. 3. 7.

* Gwyliedyddion yn nghyntedd y carchar-dŷ, mae yn debyg oedd y rhai hyn, ond o fewn y muriau oedd yn amgylchu y carchar-dŷ, wedi eu gosod mewn gwahanol fànau er eithaf dïogelwch. Trwy ryw foddion goruwchnaturiol, tywysodd yr angel Pedr heibio i'r rhai hyn, heb iddynt ei weled na'i glywed, mwy na'r ddau filwr yn y carchar. † Porth allanol y carchar oedd hwn, a dïammau ei fod yn gadarn ac yn ddïogel iawn; ond yn awr efe a ymagorodd iddynt o'i waith ei hun, heb i neb o'r gwylwyr wybod am y peth. ‡ Tybir wrth hyn fod y carchar allan o'r ddinas, a'r porth haiarn hwn gyferbyn âg un o hëolydd y ddinas. || Nid oedd achos am wasanaeth yr angel mwyach, gallai Pedr ymdaro drosto ei hun.

11 [y] * A Phedr, wedi dyfod atto ei hun, a ddywedodd, [z] † Yn awr y gwn yn wir [a] anfon o'r Arglwydd ei angel, [b] a'm gwared i allan o law Herod, [c] ‡ ac *oddi wrth* holl ddisgwyliad pobl yr Iuddewon.

y Luc 15. 17. z Gen. 15. 13. a 18. 13. a 26. 9. a adn. 7. pen. 5. 19. Dan. 3. 25. a 6. 22. b 2 Sam. 22. 1. Salm 41. 2. a 97. 10. a 109. 31. 2 Cor. 1. 8—10. 2 Pedr 2. 9. c pen. 23. 12—30. a 24. 27. a 25. 3—5, 9. Job 31. 31.

* O yr syndod per-lewygaidd oedd wedi ei feddiannu o'r dechreu hyd yn awr: † gwelodd mai sylweddol oedd y cwbl, ac nid lledrith. ‡ Yr oedd lliaws o bobl yr Iuddewon yn dysgwyl gweled ei ladd ef dranoeth, er ei holl wyrthiau yn eu plith.

12 * Ac wedi iddo gymmeryd pwyll, [d] † efe a ddaeth i dŷ Mair mam [e] Ioan, yr hwn oedd a'i gyfenw Marc, [f] ‡ lle yr oedd llawer wedi ymgasglu, *ac* yn gweddïo.

d pen. 4. 23. a 16. 40. e adn. 25. pen. 13. 5, 13. a 15. 37—39. Col. 4. 10. 2 Tim. 4. 11. Philem. 24. f adn. 5. Es. 65. 24. Mat. 18. 19, 20. 1 Ioan 5. 14, 15.

* I ystyried mawredd ei waredigaeth, i ystyried pa le yr oedd y pryd hwnw, ac i ystyried pa le i fyned, a pha beth i wneyd, rhag syrthio drachefn yn nwylo rhai o'i elynion. † Chwaer Barnabas ydoedd y Fair hon, (Colos. 4. 10,) mam Ioan yr hwn a gyfenwid Marc, a chyfeilles grefyddol i Pedr. Yma mae y fam yn cael ei dysgrifio wrth y mab, yr hwn oedd yn fwy enwog, ac yn cael ei hanrhydeddu yn yr ysgrythyr er mwyn ei mab: yma y tueddodd Duw Pedr i fyned. ‡ Mae yn debyg nas gwyddai ef ddim am y casgliad hwn i weddio drosto, ac yr oedd yn rhyfedd iawn ganddynt hwythau weled eu gweddïau wedi eu hateb mòr fuan, ac yn enwedig mewn modd mòr rhyfedd, pan adroddodd Pedr iddynt pa fodd y gwaredwyd ef.

13 * Ac fel yr oedd Pedr yn [g] curo drws y porth, † morwyn a ddaeth i ymwrando, ‡ a'i henw Rhode.

g adn. 16. Luc 13. 25.

* Nid drws union-gyrchol y tŷ, ond drws porth y cyntedd o flaen y tŷ, oedd "drws y porth" hwn. † Heblaw bod curo yn nyfnder nos felly yn frawychus ar unrhyw amgylchiad, mae yn debyg fod ofn yr Iuddewon erlidgar hefyd ar y gweddïwyr duwiol hyn; ac am hyny yn danfon allan i ymwrando pwy oedd yno. ‡ Ystyr yr enw hwn yw, Rhosyn. Byddai yr Iuddewon yn aml yn enwi eu merched wrth enwau rhyw flodau peraidd a hyfryd; megys Susannah, lili; Hedessa, myrtwydden; Tamar, palwydden; &c.

14 * A phan adnabu hi lais Pedr, [h] † nid agorodd hi y porth gan lawenydd; ‡ eithr hi a redodd i mewn, ac a fynegodd fod Pedr yn sefyll o flaen y porth.

h Mat. 28. 8. Luc 24. 41.

* Mae yn amlwg fod y forwyn hon yn gydnabyddus â Phedr o'r blaen, gan ei bod yn adnabod ei lais ef yn awr: mae yn debyg mai merch ieuanc dduwiol oedd hi, wedi ei wrando ef lawer gwaith, a chwedi cael yr hyfrydwch, efallai, o weini i'w gysuron ef lawer gwaith yn nhŷ ei meistres, os morwyn i'r Fair hon oedd hi. † Mae hyn yn naturiol iawn yn dangos gweithrediadau gorfoleddus meddwl y llances yn y tro annysgwyliadwy hwn. ‡ Yr oedd hi yn fwy awyddus am fynegi i bawb yn y tŷ ei fod ef yno, nag ydoedd i agoryd y drws i'w ollwng ef i mewn: anghofiodd ei ollwng ef i mewn gan ei gorfoledd ei fod yno.

15 * Hwythau a ddywedasant wrthi, [i] Yr wyt ti yn ynfydu. † Hithau a daerodd mai felly yr oedd. Eithr hwy a ddywedasant, [k] ‡ Ei angel ef ydyw.

i pen. 26. 24. Job 9. 16. Marc 16. 11, 14. Luc 24. 11. k Mat. 18. 10. Luc 24. 37, 38.

* Tybient mai wedi rhyw wylltio gan ofn yr oedd hi, ac nas gwyddai beth oedd yn ddywedyd na pha beth a glywsai. † Taerodd mai Pedr oedd yno yn sicr, ac nad oedd hi ddim wedi ynfydu, na cham-gymmeryd y llais. ‡ Ystyr y gair angel yw cenad, a thybiodd rhai mai rhyw genad oddiwrth Pedr yn y carchar a feddyliai y bobl yma wrth "ei angel ef;" ond pa fodd y gallai cenad felly lefaru yn llais Pedr?—Tybiai yr Iuddewon fod angel gwarcheidiawl yn perthyn i bob dyn duwiol; ac y byddai y cyfryw angel ar amserau yn cymmeryd llun a llais y dyn hwnw, ac felly yn ymddangos i'w gyfeillion ef, ac yn ymddiddan â hwynt, yn enwedig tuag amser marwolaeth y dyn. Er nad oes dim sylfaen i'r fath dŷb yn yr ysgrythyrau; eto mae yn amlwg fod y bobl hyn yn llefaru yn ol y dychymmyg hwnw, heb gredu fod dichon i Pedr ei hunan fod yno.

16 * A Phedr a barhâodd yn curo: ac wedi iddynt agori, hwy a'i gwelsant ef, ac a synnasant.

* Tra yr oeddynt hwy yn dadleu, yr oedd Pedr yn dàl i guro: yr oedd yn awyddus am gael ei ollwng i mewn, yn 1. Rhag ofn y dèlid ef drachefn, ac y profid ef fel tòrwr carchar. 2. Am fod arno awydd gweled ei gyfeillion, ac yn gwybod y byddai yn orfoledd ganddynt hwythau ei weled yntau. 3. Awydd mynegi i bawb o honynt drugaredd Duw tuag ato, pa fodd y danfonasai efe ei angel i'w waredu ef.

17 [l] * Ac efe a amneidiodd arnynt â llaw i dewi, [m] ac a adroddodd iddynt pa wedd y dygasai yr Arglwydd ef allan o'r carchar: † ac efe a ddywedodd, Mynegwch y pethau hyn i [n] Iago, ‡ ac i'r brodyr. [o] || Ac efe a ymadawodd, ac a aeth i le arall.

l pen. 13. 16. a 19. 33. a 21. 40. Luc 1. 22. Ioan 13. 24. m Salm 66. 16. a 102. 20, 21. a 107. 21, 22. a 116. 14, 15. a 146. 7. n pen. 15. 13. a 21. 18. 1 Cor. 15. 7. Gal. 1. 19. a 2. 9, 12. Iago 1. 1. o pen. 16. 40. Mat. 10. 23. Ioan 7. 1. a 8. 59. a 10. 40. a 11. 54.

* Arferai yr Iuddewon amneidio â llaw am ddistawrwydd, ac hefyd am wrandawiad: mae Pedr yn gwneyd amnaid am bob un o'r ddau yma; yr oedd yn angenrheidiol iddynt hwy dewi er maint eu gorfoledd, rhag i'w gelynion glywed a dyfod am eu penau: ac yn y distawrwydd hwnw mae Pedr yn adrodd yn fyr, ac yn ddistaw hefyd, pa fodd y gwaredwyd ef. † Iago leiaf, mab Alphëus, oedd hwn, yr oedd yr Iago arall, mab Zebedëus, a brawb Ioan, wedi ei ladd â'r cleddyf gan Herod. adn. 2. ‡ Nid oedd neb o'r apostolion yn bresenol y pryd hwnw, nac efallai yn Jerusalem, gan ofn Herod. Mae Pedr am fynegi ei waredigaeth iddynt oll, er eu cysur a'u calondid, ac er iddynt dalu diolch i Dduw drosto ef. || Yr oedd yn angenrheidiol iddo fyned i rywle oddi yno er gwell diogelwch iddo ei hun, ac fel na pheryglid ei gyfeillion o'i achos ef. Efe a aeth ar encil i rywle am ychydig, ond nis gwyddom i ba le, nac am ba hyd: mae yn sicr nad aeth efe ddim i Rufain am bùm mlynedd ar hugain, fel y dywed y pabyddion ofer; oblegid yn pen. 15. 6, 7, ni a'i cawn ef drachefn yn Jerusalem: ac yn Galat. 2. 11, ni a'i cawn ef yn Antiochia gyda Phaul.

18 * Ac wedi ei myned hi yn ddydd, [p] yr oedd trallod nid bychan ym mhlith y milwyr, pa beth a ddaethai o Pedr.

p pen. 5. 22—25. a 16. 27. a 19. 23.

* Gellid meddwl wrth hyn i'r ddau filwr y cadwynesid Pedr wrthynt gysgu yn drwm hyd onid oedd hi yn ddydd; ond pan ddeffroisant, faint oedd eu braw a'u syndod pan welsant y cadwyni yn hongian wrth eu dwylo eu hunain, a'r carcharor wedi dianc, nas gwyddai neb trwy yr holl garchar pa fodd nac i ba le. Mae yn debyg fod yno lawer o feïo gan y naill ar y llall am esgeulusdra, a phob un yn crynu am ei fywyd rhag llid Herod. "Wedi ei myned hi yn ddydd:" gellid meddwl wrth hyn mai ar y wyliadwriaeth fore y gwaredwyd Pedr; pe amgen, buasid yn ei fethu ef ar newidiad y wyliadwriaeth, cyn dydd; oddigerth i'r Arglwydd roddi trwm-gwsg ar bawb, o'r ceidwaid â'r milwyr, ac na ddeffrôdd neb o honynt i newid y wyliadwriaeth.

19 * Eithr Herod, pan ei [q] ceisiodd ef, ac heb ei gael, [r] † a holodd y ceidwaid, [s] ‡ ac a orchymynodd *eu* cymmeryd *hwy* ymaith. [t] || Yntau a aeth i waered o Judea i Cesarea, ac a arhosodd *yno.*

q 1 Sam. 23. 14. Salm 37. 32, 33. Jer. 36. 26. Mat. 2. 13. adn. 4, 6. Mat. 28. 11—15. s Dan. 2. 11—13. Mat. 2. 16. Ioan 12. 10, 11. t pen. 21. 8. a 25. 13. 1 Bren. 20. 43. Esther 6. 12.

* A'i ceisiodd ef yn y carchar i'w ddwyn allan i'w ddienyddio, ac heb ei gael: a'i ceisiodd trwy holl Jerusalem hefyd, efallai, ac heb ei gael; am fod Duw yn ei guddio. † Hyny yw, a'u holodd hwy yn farnol, ac yn ieithaf llym, mae yn debyg: yn gyntaf y ddau filwr yr oedd Pedr wedi ei gadwyno wrthynt; yna y ddau eraill oedd ar y wyliadwriaeth gyda hwynt; wedi hyny y deuddeg eraill, yn nghyd â holl geidwaid y carchar, oddi fewn ac oddi allan. ‡ Ac a orchymynodd eu rhoddi hwy i farwolaeth, yn ol y Saesoneg. *Apachthenai* yw y gair Groeg; cymmeryd ymaith i'w dienyddio: ond ylywed rhai y byddai y Groegiaid yn arfer y gair am gospedigaeth llai weithiau, a thybiant mai cospedigaeth llai a gafodd y ceidwaid hyn: ond mae hyny yn annhebyg iawn. || Sef Herod a aeth i waered i Cesarea: efallai mai ei gywilydd, a'i gythrudd o herwydd cael ei siommi fel hyn a barodd iddo brysuro o Jerusalem mòr ffuan. Dywed *Josephus* mai myned i Cesarea a wnaeth i'r campiau a chwarëuid yno bob pùm mlynedd, er anrhydedd i goffadwriaeth Claudius Cesar, y rhai a ordeiniasai Herod Fawr. Fel hyn yr oedd yr adyn hwn yn anghofio ei ddrygioni a'i euogrwydd mewn digrifwch cofer.

20 ¶ * Eithr Herod oedd yn llidiog iawn yn erbyn gwŷr [u] Tyrus a Sidon: [x] † a hwy a ddaethant yn gyttûn atto; ac ‡ wedi ynnill Blastus, yr hwn oedd ystafellydd y brenhin, hwy a ddeisyfasant dangnefedd; [y] || am fod eu gwlad hwynt yn cael ei chynnaliaeth o *wlad* y brenhin.

u Gen. 10. 15, 19. Jos. 19. 29. Es. 23. 1—4. Mat. 11. 21, 22. x Diar. 17. 14. a 20. 18. a 25. 8. Preg. 10. 4. Es. 27. 4, 5. Luc 14. 31, 32. y 1 Bren. 5. 9—11. 2 Cron. 2. 10, 15. Ezra 3. 7. Es. 27. 17. Hos. 2. 8, 9. Amos 4. 6—9. Hag. 1. 8—11. a 2. 16, 17. Luc 16. 8.

* Am Tyrus a Sidon, gwel ar Matth. 11. 21: yr oeddynt yn sefyll ar làn môr y canol-dir, lawer yn uwch i'r Gogledd na Cesarea. Nis gwyddom beth oeddynt wedi wneyd i anfoddloni Herod; ond ni a welwn fod rhyw beth yn ei anesmwytho ef, ac fel drain yn ei nyth ef yn mhob màn: yr apostolion yn Jerusalem, a gwŷr Tyrus a Sidon yn Cesarea: nid oes heddwch i'r annuwiol. † Danfonwyd rhyw ddirprwywyr o'r dinasoedd uchod ato i ddeisyf ammodau heddwch, ac i attal y rhyfel a fygythiai efe arnynt. ‡ Mae yn debyg fod y Blastus hwn yn wr cymmeradwy iawn yn ngolwg Herod, ac wedi i'r dirprwywyr uchod ei ennill ef, trwy wobrau neu ryw foddion, i'w pleidio hwynt, hwy a lwyddasant i gael heddwch â Herod. || Yr achos o'r ymostyngiad hwn oedd, bod y Tyriaid a'r Sidoniaid yn masnachu llawer â'r Iuddewon, ac felly yn cael llawer iawn o'u cynnaliaeth o wlad yr Iuddewon: buasai rhyfel yn attal y fasnach hòno. Gwel 1 Bren. 5. 9, 11; Ezec. 27. 17.

21 * Ac ar ddydd nodedig, Herod, † gwedi gwisgo dillad brenhinol, ‡ a eisteddodd ar orsedd-faingc, || ac a areithiodd wrthynt.

* Yr ail ddydd o'r chwarëuyddiaethau, medd *Josephus:* neu ynte, y dydd nodedig i benderfynu yr ymrafael rhyngddo â gwŷr Tyrus a Sidon. † Gwisgoedd arian, o gywreinwaith rhagorol iawn, meddant; ac fel yr oedd yr haul yn tywynu arnynt, yr oeddynt yn disgleirio yn dra gogoneddus. ‡ Gorsedd-fainc uchel odidog, fel y gallai pawb ei weled a'i glywed ef yn well. || Er canmoliaeth i goffadwriaeth Cesar, efallai; ac i'w gaunmol ei hun hefyd, o ran ei fawredd, ei wroldeb, a'i ddaioni, yn enwedig yn ymheddychu â gwŷr Tyrus a Sidon ar eu hymostyngiad iddo.

22 * A'r bobl a roes floedd, [z] † Lleferydd Duw, ac nid dyn *ydyw.*

z pen. 14. 10—13. Salm 12. 2. Dan. 6. 7. Judas 16. Dat. 13. 4,

* Dyma weniaith ffiaidd ac annuwiol, yn derchafu y crëadur yn ogyfuwch â'r Crëawdwr, a hyny nid gan baganiaid na wyddai ddim gwell; ond gan dorf o Iuddewon a wyddai yn well bawb o honynt. † Tybia rhai eu bod yn cyfeirio yma at y Shecinah, yr arwydd gogoneddus o bresenoldeb Duw: cystal a dywedyd mai Herod oedd hwnw, neu ei fod mòr ogoneddus a mawreddig â hwnw. A thybir fod Herod mòr annuwiol a chymmeryd yr anrhydedd felly iddo ei hun, a thrwy hyny ennyn digofaint Duw yn ei erbyn.

23 [a] * Ac allan o law y tarawodd angel yr Arglwydd ef, [b] † am na roisai y gogoniant i Dduw; [c] ‡ a chan bryfed yn ei ysu, efe a drengodd.

a Ex. 12. 12, 23, 29. 1 Sam. 25. 38. 2 Sam. 24. 17. 1 Cron. 21. 14—18. 2 Cron. 32. 21. b pen. 10. 25, 26. a 14. 14, 15. Ex. 9. 17, 18. a 10. 3. Salm 115. 1. Es. 37. 23. Ezec. 28. 2, 9. Dan. 4. 30—37. a 5. 18—24. Luc 12. 47, 48. 2 Thes. 2. 4. c 2 Cron. 21. 18, 19. Job 7. 5. a 19. 26. Es. 14. 11. a 51. 8. a 66. 24. Marc 9. 44—48.

* Angel a waredodd Pedr o'r carchar, ac yma mae angel yn taro ei garcharwr ef: mae yr holl lu nefol yn cyflawni ewyllys Duw, er gwaredigaeth ei bobl a dinystr eu gelynion. Rhŷ faith fyddai adrodd yr hyn a ddywed *Josephus* yn y fàn hon: am y ddylluan a welodd Herod uwch ei ben, yn union ar ol y floedd uchod, yr hon a ystyriai efe yn argoel drwg iddo: y poen dirfawr a'i cymmerodd ef yn ei ymysgaroedd yn y fàn, ac a fu yn angau iddo yn mhen pùm niwrnod: y braw mawr a'i tarawodd ef, a'r cyfaddefiad a wnaeth gerbron y gynnulleidfa, mai barn Duw oedd hyn arno am ei falchder annuwiol. † Llawer o dywysogion paganaidd a gymmerasant anrhydedd dwyfol iddynt eu hunain; ond yr oedd yn llawer mwy pechadurus yn Herod, yr hwn a wyddai am air ac addoliad y Duw byw. ‡ Felly, medd *Josephus*, y bu Herod Fawr, ei daid ef, farw; ond o bleidgarwch at hwn, nid yw yn crybwyll dim am y pryfed yn ei ysu. Yr oedd Duw yn amlwg yn addasu y farn i'r pechod; balchder a gwag-ogoniant oedd y pechod, pryfed yn ei ysu oedd y farn. Mae hanesion am lawer o erlidwyr crefydd a fuont feirw dàn farn gyffelyb; a medr Duw ddefnyddio y pethau gwaelaf, ffieiddiaf, a mwyaf dirmygus i gyflawni ei farnau ef, ac i dywallt dirmyg ar ei elynion.

24 ¶ [d] * A gair Duw a gynnyddodd ac a amlhâodd.

d pen. 5. 39. a 6. 7. a 11. 21. a 19. 20. Diar. 28. 28. Es. 41. 10—13. a 54. 14—17. a 55. 10, 11. Dan. 2. 24, 25, 44, 45. Mat. 16. 18. Col. 1. 6. 2 Thes. 3. 1.

* Yma mae gair Duw yn cael ei gymharu i had wedi ei hau, megys yn y ddammeg yn Matth. 13. Mae gair Duw yn cynnyddu ac yn amlâu pan mae y pregethiad o hóno yn ymdaenu ac yn myned ar led; pan mae nifer proffeswyr a dysgyblion Iesu yn lliosogi ac yn amlâu; a phan mae y dysgyblion hyny yn cynnyddu mewn deall, duwioldeb, a phob doniau ysbrydol. Er gwaethaf Herod, e gynnyddodd y gair; ac wedi marw Herod, yr oedd achos Duw yn fyw ac yn cynnyddu. Felly y bu erioed, ac felly y bydd eto.

25 [e] * A Barnabas a Saul, wedi cyflawni *eu* gweinidogaeth, † a ddychwelasant o Jerusalem, gan gymmeryd gyd â hwynt [f] Ioan hefyd, yr hwn a gyfenwid Marc.

e pen. 11. 29, 30. a 13. 1—3. f Gwel ar adn. 12.—1 Pedr 5. 13.

* Am y "weinidogaeth" hon a gyflawnodd Barnabas a Saul, gwel pen. 11. 29, 30. † A ddychwelasant i Antiochia o ba le y danfonasid hwynt: i roddi cyfrif o gyflawniad y weinidogaeth a ymddiriedasid iddynt; i ddwyn yn mlaen y gwaith a ddechreuasid mòr llwyddiannus yno; ac i gael eu danfon oddi yno yn mhellach i blith y cenedloedd. Gwel pen. 13. 2, &c. ‡ Am yr Ioan hwn sylwyd o'r blaen, ar adn. 12. Pa un ai hwn oedd y Marc a ysgrifenodd efengyl Marc ai nide, nis gwyddom; mae dynion enwog a dysgedig iawn yn methu a chytuno am hyny. Yr oedd efe yn nai i Barnabas, fab ei chwaer. Gwel ar adn. 12.

PEN. XIII.

Dewis Saul a Barnabas i fyned at y Cenedloedd.

[a] * YR oedd hefyd yn yr eglwys ydoedd yn Antiochia, [b] † rai prophwydi ‡ ac athrawon; [c] || Barnabas, § a Simeon, yr hwn a elwid * Niger, a [d] † Lucius o Cyrene, a ‡ Manaen brawd-maeth [e] Herod y tetrarch, [f] || a Saul.

a pen. 11. 22—24. a 14. 26, 27. b pen. 11. 25—27. a 15. 35. Rhuf. 12. 6, 7. 1 Cor. 12. 28, 29. a 14. 24, 25. Eph. 4. 11. 1 Thes. 5. 20. c pen. 4. 36. a 11. 22—26, 30. a 12. 25. 1 Cor. 9. 6. Gal. 2. 9, 13. d pen. 11. 20. Rhuf. 16. 21. e Mat. 14. 1—10. Luc 3. 1, 19, 20. a 13. 31, 32. a 23. 7—11. Phil. 4. 22. f adn. 9. pen. 8. 1—3. a 9. 1, &c.

* Ystyrid yr eglwys hon, yn Antiochia, fel mam-eglwys y cenedloedd crediniol; megys yr oedd yr eglwys yn Jerusalem yn fam-eglwys yr Iuddewon crediniol: cenedloedd oedd ynddi gan mwyaf oll, ond nid yn hollawl ddigymmysg. † Am y prophwydi hyn, neu y ddawn brophwydol hon, gwel ar pen. 11. 27. ‡ Gweinidogion a phregethwyr yr efengyl. Gallai y ddwy swydd uchod fod yn yr un personau; ond nid oeddynt bob amser, ac o angenrheidrwydd felly, eithr y naill ddyn yn rhagori mewn un swydd, ac arall yn y swydd arall. Gwel Rhuf. 12. 6, 7; 1 Cor. 12. 4—11, 28, 29; Ephes. 4. 11. || Am Barnabas sylwyd o'r blaen fwy nag unwaith. Gwel ar pen. 4. 36; a 9. 27. § Tybir mai yr un â Simon o Cyrene, yr hwn a ddygodd groes ein Harglwydd, oedd hwn; ond nid oes sicrwydd am hyny. * Gair Lladin yw Niger, yn arwyddo *Dû;* a *Dû* yw y gair yn y fân hon yn y Testament Llydawäeg. Felly y galwai y Rhufeiniaid y Simeon hwn, mae yn debyg, o herwydd mai dyn dû ydoedd. † Crybwylla Paul am ryw Lucius fel gwr enwog yn yr eglwys, yn Rhuf. 16. 21; ac mae yn debyg mai yr un oedd hwnw â hwn. Tybia rhai mai yr un â Luc, ysgrifenydd y llyfr hwn, ac efengyl Luc, ydoedd: ond nid oes sicrwydd am hyny chwaith. Am Cyrene, ei wlad ef, gwel ar Matth. 27. 32. Ond tybia eraill y gelwir ef Lucius o Cyrene am ei fod gynt o synagog y Cyreniaid, yr hon oedd yn Jerusalem: pen. 6. 9. ‡ Tybir mai mab i fammaeth Herod (yr Herod a dòrodd ben Ioan Fedyddiwr) oedd y Manaen hwn, ac mai felly y buasai yn frawd-maeth iddo ef. Sonia *Josephus* am un Manaen, o blaid yr Eseniaid, yr hwn a rag-fynegodd i Herod Fawr pan oedd yn fachgen, y byddai efe yn frenin, a'i fod mewn parch mawr gan Herod wedi hyny: tybia rhai mai mab i hwnw oedd y Manaen hwn. Mae yn ddïammau ei fod yn wr mawr yn llŷs Herod y tetrarch; ond fel Moses efe a ymwrthododd â phob mawredd bydol i ganlyn Crist a'i achos. || Paul yr apostol.

2 [g] * Ac fel yr oeddynt hwy yn gwasanaethu yr Arglwydd, [h] ac yn ymprydio, † dywedodd yr [i] Yspryd Glân, [k] Neillduwch i mi Barnabas a Saul, [l] ‡ i'r gwaith || y gelwais hwynt iddo.

g pen. 6. 4. Deut. 10. 8. 1 Sam. 2. 11. 1 Cron. 16. 4, 37, &c. Rhuf. 15. 16. Col. 4. 17. 2 Tim. 1. 11. a 4. 5, 11. h adn. 3. pen. 10. 30. Dan. 9. 3. Mat. 6. 16. a 9. 14, 15. Luc 2. 37. 1 Cor. 7. 5. 2 Cor. 6. 5. a 11. 27. i pen. 10. 19. a 16. 6, 7. 1 Cor. 12. 11. k pen. 22. 21. Num. 8. 11—14. Rhuf. 1. 1. a 10. 15. Gal. 1. 15. a 2. 8, 9. 2 Tim. 2. 2. l pen. 9. 15. a 14. 26. Mat. 9. 38. Luc 10. 1, 2. Eph. 3. 7, 8. 1 Tim. 2. 7. 2 Tim. 1. 11. Heb. 5. 4.

* Tybia rhai i Barnabas a Saul ddychwelyd o Jerusalem (pen. 12. 25,) pan oedd Pedr yn y carchar, a chyn ei waredu; ac mai yn achos Pedr yr oedd yr ymprydio hyn yn eglwys Antiochia, wedi clywed ganddynt hwy am ei garchariad ef, ond heb glywed am ei waredigaeth eto. Beth bynag am hyny, eu harfer hwy oedd gwasanaethu yr Arglwydd ac ymprydio yn fynych, yn ddïammau. † Dywedodd, trwy ryw fath o ddatguddiad union-gyrchol i'r "prophwydi" a soniwyd o'r blaen, neu ynte trwy leferydd digyfrwng o'r nef, clywedig i bawb o honynt. ‡ Y "gwaith" yma oedd pregethu yr efengyl yn mysg y cenedloedd, fel y dywed Paul am dano ei hun yn Ephes. 3. 8, a llawer o fânau eraill. || Yr oeddynt wedi eu galw gan yr Ysbryd Glân o'r blaen; y cwbl oedd gan yr eglwys i'w wneyd oedd, eu neillduo hwynt yn ol yr alwad hòno, ac ar orchymyn yr Ysbryd Glân. Tybia rhai fod yr Ysbryd Glân yn cyfeirio yma at y datguddiad a gawsai Paul yn y deml, ac a adroddir ganddo yn Act. 22. 17—21.

3 [m] * Yna wedi iddynt ymprydio, a gweddïo, † a dodi eu dwylaw arnynt, [n] hwy a'u gollyngasant ymaith.

m adn. 2. pen. 6. 6 a 8. 15—17. a 9. 17. a 14. 23. Num. 27. 23. 1 Tim. 4. 14. a 5. 22. 2 Tim. 1. 6. a 2. 2. n pen. 14. 26. a 15. 40. Rhuf. 10. 15. 3 Ioan 6—8.

* Mae gweddi ac ympryd yn dra angenrheidiol cyn danfon dynion i waith mòr fawr, ac yn gydnabyddiaeth fod pob llwyddiant i'w ddysgwyl oddiwrth Dduw yn unig. † Mae arddodiad dwylaw yma yn arwyddo eu neillduad hwynt i'r gwaith, boddlonrwydd yr eglwys i'w mynediad; ac efallai bod yr Ysbryd Glân drwy hyn yn cyfranu iddynt ryw ddoniau ysbrydol nad oedd ganddynt o'r blaen, neu yn helaethach nac o'r blaen.

4 ¶ [o] * A hwythau, wedi eu danfon ymaith gan yr Yspryd Glân, a † ddaethant i Seleucia; ‡ ac oddi yno a fordwyasant i [p] Cyprus.

o adn. 2. pen. 20. 23. p pen. 4. 36. a 11. 19. a 27. 4.

* Er eu neillduo fel y gwelsom uchod gan yr eglwys; eto dywedir yma mai yr Ysbryd Glân oedd yn eu danfon hwy: ganddo ac o hóno ef yr oeddynt yn cael eu hawdurdod. † Tref go fawr oedd Seleucia, ar làn môr y canol-dir, tua phymtheg milltir o Antiochia, ac yn union ar eu ffordd hwynt i Cyprus. ‡ Ynys fawr oedd Cyprus yn môr y canol-dir, a lle genedigol Barnabas, pen. 4. 36. Yr oedd yno lawer iawn o Iuddewon yn gwladychu y pryd hwnw.

5 * A phan oeddynt yn Salamis, † hwy a bregethasant air Duw [q] yn synagogau yr Iuddewon: ‡ ac yr oedd hefyd ganddynt [r] Ioan yn [s] weinidog.

q adn. 14, 46. pen. 14. 1. a 17. 1—3, 17. a 18. 4. a 19. 8. r pen. 12. 25. a 15. 37. Col. 4. 10. s Ex. 24. 13. 1 Bren. 19. 3, 21. 2 Bren. 3. 11. Mat. 20. 26. 2 Tim. 4. 11.

* Salamis ydoedd brif-ddinas Cyprus, ac yn gorwedd ar làn y môr, o du y dwyrain, ar gyfer Syria, o ba le yr oeddynt wedi dyfod. † Os oedd y ddeddf o esgymmundod o'r synagog am addef Iesu yn Grist, o hyd mewn grym yn mhlith yr Iuddewon cartrefol, mae yn amlwg nad oedd yr Iuddewon mewn gwledydd eraill yn gofalu nemawr am dani, pe amgen ni chawsai yr apostolion ddim myned i'r synagogau, chwaithach pregethu ynddynt. Er mai at y cenedloedd yn benaf y danfonwyd Saul a Barnabas i bregethu; eto maent yn dechreu gyda'r Iuddewon yma, ac yn mhob màn arall drwy y llyfr hwn: i roddi y cynnyg cyntaf o'r efengyl iddynt hwy, i'w gwneyd yn ddïesgus os gwrthodent hi, ac i'w hamddiffyn eu hunain pan feïid arnynt am fyned at y cenedloedd, adn. 46. ‡ Sylwyd ar yr Ioan hwn o'r blaen, pen. 12. 25: yr oedd efe gyda Barnabas a Saul fel gwas, i wneuthur yr hyn a allai, ac i gael ei addysgu i waith y weinidogaeth drwy eu canlyn hwy.

6 * Ac wedi iddynt dramwy trwy yr ynys hyd Paphus, † hwy a gawsant ryw [t] swynwr, [u] gau brophwyd o Iuddew, [x] a'i enw ‡ Bar-iesu;

t pen. 8. 9—11. a 19. 18, 19. Ex. 22. 18. Lef. 20. 6. Deut. 18. 10—12. 1 Cron. 10. 13. Es. 8. 19, 20. u Deut. 13. 1—3. 1 Bren. 22. 22. Jer. 23. 14, 15. Ezec. 13. 10—16. Zec. 13. 3. Mat. 24. 24. 2 Cor. 11. 13. 2 Tim. 3. 8. 2 Pedr 2. 1—3. 1 Ioan 4. 1. Dat. 19. 20. x adn. 8. Mat. 16. 17. Marc 10. 46. Ioan 21. 15—17.

* Yr oedd Paphus yn hollawl y pen arall i'r ynys, yn y gorllewin; felly yr oedd yn rhaid iddynt dramwy trwy yr ynys fel y dywedir yma, i fyned o Salamis yno. Dinas nodedig oedd hon un amser am addoliad y dduwies Gwener (*Venus;*) dywedir fod yno deml fawr yn gyssegredig iddi gan y brodorion paganaidd, a llawer o ddefodau aflan a ffiaidd iawn yn cael eu harfer ynddi.

Yr oedd llawer o swynwyr y pryd hwn yn mhlith yr Iuddewon, y rhai oedd yn ceisio dwyn anfri a dirmyg ar wir wyrthiau Crist a'i apostolion trwy eu harwyddion ffu'u rhyfeddodau gau eu hunain. Diammau iddynt mudo rhai, gweiniaid a rhagfarnllyd; ond trwy eu dyrysu arn eu swynion, goruwch-lywodraethodd Duw hyn fel bobpeth arall i dderchafu yr efengyl, a'u gwneyd yn fwy ilwyddiannus. ‡ Mab yw ystyr y gair "Bar."

7 * Yr hwn oedd gyd â'r [y] rhaglaw, Sergius Paulus, [z] gwr call: † hwn, wedi galw atto Barnabas a Saul, a ddeisyfodd gael clywed gair Duw.

y adn. 12. pen. 18. 12. a 19. 38. z pen. 17. 11, 12. Diar. 14. 8, 15, 18. a 18. 15. Hos. 14. 9. 1 Thes. 5. 21.

* Rhufeiniad oedd y Sergius Paulus hwn mae yn amlwg wrth ei enw, a rhaglaw, neu lywodraethwr yr ynys dàn Ymherawdwr Rhufain. Yn rhywfodd gweithiodd y swynwr twyllodrus uchod ei hun i gymmeradwyaeth gydag ef, er ei fod yn "wr call," pwyllog a deallus. - "Hwn," sef y rhaglaw, ac nid y swynwr. Yr oedd wedi clywed, mae yn debyg, am Barnabas a Saul, ac am yr athrawiaeth oeddynt yn bregethu; ac yma mae yn llanfon am danynt, i ymddiddan â hwynt, ac i glywed ganddynt hwy eu hunain, fel y gallai gymharu yn well rhyngddynt hwy â'r swynwr hwn Bar-iesu, ac hefyd i farnu pa goel oedd yn deilwng i'w hathrawiaeth hwynt.

8 * Eithr Elymas y swynwr ([a] canys felly y cyfieithir ei enw ef) [b] † a'u gwrthwynebodd hwynt, ‡ gan geisio gŵyrdroi y rhaglaw oddi wrth y ffydd.

a adn. 6. pen. 9. 36. Ioan 1. 41. b Ex. 7. 11—13. 1 Bren. 22. 24. Jer. 28. 1, 10, 11. a 29. 24—32. 2 Tim. 3. 8. a 4. 14, 15.

* Enw arall ar y Bar-iesu uchod, yn arwyddo swynwr. Tybir mai gair yn deilliaw o'r Arabaeg *(alaim)* yw hwn, yn arwyddo *un cydnabyddus â diryeledigaethau cuddiedig;* a hwnw yn deilliaw o'r gair Hebraeg *alam, cuddio:* defnyddir ef yn yr Hen Destament Arabaidd am swynwr. † Gwyddai nas gallai ei hudion ef sefyll yn wyneb athrawiaeth a goleuni yr efengyl, y collai ei gymmeradwyaeth gyda'r rhaglaw; a mwy na'r cwbl, y collai efe obaith ei elw. Gwrthwynebodd hwy, mae yn debyg, trwy swynion fel swynwyr yr Aipht gynt yn gwrthwynebu Moses: cymhara Exod. pen. 7. ac 8. â 2 Tim. 3. 8. Efallai ei fod yn dadlau hefyd yn erbyn athrawiaeth Barnabas a Saul. ‡ Pe gallasai lwyddo gyda'r rhaglaw, buasai yn llwyddo hefyd gyda ei ddeiliaid paganaidd ef; oblegid crefydd y llywydd yn gyffredin yw crefydd y deiliaid.

9 Yna Saul ([c] * yr hwn hefyd *a elwir* Paul) [d] † yn llawn o'r Yspryd Glân, [e] ‡ a edrychodd yn graff arno ef,

c adn. 7. d pen. 2. 4. a 4. 8, 31. a 7. 55. Mica 3. 8. e Marc 3. 5. Luc 20. 17.

* Dyma y tro cyntaf mae Luc yn crybwyll am yr apostol dàn yr enw Paul; ac nid yw byth mwyach yn sôn am dano wrth yr enw Saul. Saul oedd ei enw Hebreaidd ef, a Paul ei enw Rhufeinig. Hyd yn hyn yr oedd wedi bod yn llafurio gan mwyaf yn mhlith yr Iuddewon a'r Syriaid, lle yr adwaenid ef yn oreu wrth yr enw Saul; o hyn allan yr oedd i lafurio yn benaf yn mhlith y Rhufeiniaid a'r Groegiaid, lle yr oedd yr enw Paul yn fwy naturiol a dymunol. Tybir fod y ddau enw yn perthyn iddo o'i fabandod; Saul fel Iuddew, a Paul fel dinasydd o Rufain: (Gwel pen. 22. 25—28:) ac mai tröedigaeth y Sergius Paulus hwn a fu yn achlysur iddo gymmeryd yr olaf o hyn allan, am ei fod yr un â chyfenw y rhaglaw. † Disgynodd dylanwad nerthol yr Ysbryd Glân arno y pryd hwnw, i'r dyben o geryddu a gorchfygu y swynwr drygionus hwn. ‡ I'w ddychrynu a'i gywilyddio ef am ei dwyll, i sylwi pa gyfnewidiad a fyddai yn ei wynebpryd ef, ac hefyd i ddangos fod Duw yn craffu yn fanol ar ei ddrygioni ffiaidd ef.

10 * Ac a ddywedodd, [f] O gyflawn o bob twyll a phob † ysgelerder, [g] ‡ tydi mab diafol, || a gelyn pob cyfiawnder, [h] § oni pheidi di â gŵyro [i] uniawn ffyrdd yr Arglwydd?

f pen. 8. 20—23. Preg. 9. 3. Mat. 3. 7. a 15. 19. a 23. 25—33. Luc 11. 39. 2 Cor. 11. 3. g Gen. 3. 15. Mat. 13. 38. Ioan 8. 44. 1 Ioan. 3. 8. h pen. 20. 30. Jer. 23. 36. Mat. 23. 13. Luc 11. 52. Gal. 1. 7. i pen. 18. 25, 26. Gen. 18. 19. 2 Cron. 17. 6. Hos. 14. 9. Ioan 1. 23.

* Cerydd llym ofnadwy oedd hwn, ond nid llymach na haeddiant yr hwn oedd yn ei gael: a rhaid i ni ddeall hefyd, mai dàn ddylanwadau grymus ac uniongyrchol yr Ysbryd Glân yr oedd Paul yn ei roddi, ac nid yn ei nwydau dynol ei hun. † *Rhadiouryias* yw y gair Groeg yma am "ysgelerder," ac yn arwyddo, dyn parod, a chyfrwys, i bob drygioni, nas gwaeth ganddo pa beth a wnelo: y cyfryw oedd y swynwr hwn. ‡ Yn meddiant, a thàn lywodraeth diafol, ac yn gwneuthur ei waith ef: ac fel y diafol yn ceisio attal hyd y gallai, iachawdwriaeth y rhaglaw a'i deulu. || Gwrthwynebwr cadarn gwir grefydd a sancteiddrwydd, gwirionedd yr efengyl a'i holl effeithiau daionus ar galonau a bucheddau dynion. § Trwy ddrwg-liwio'r gwirionedd, a rhoddi pob rhwystr ar ffordd y rhaglaw i'w dderbyn, a'r cwbl o wir elyniaeth i'r efengyl, ac i ddàl i fynu ei dwyll a'i hudoliaeth ei hun.

11 * Ac yn awr wele, [k] *y mae* llaw yr Arglwydd arnat ti, [l] † a thi a fyddi ddall heb weled yr haul ‡ dros amser. || Ac yn ddiattreg y syrthiodd arno [m] niwlen a thywyllwch; ac efe a aeth oddi amgylch gan geisio rhai i'w arwain erbyn ei law.

k Ex. 9. 3. 1 Sam. 5. 6, 9, 11. Job. 19. 21. Salm 32. 4. a 38. 2. a 39. 10, 11. l pen. 9. 8, 9, 17. Gen. 19. 11. 2 Bren. 6. 8. Es. 29. 10. Ioan 9. 39. Rhuf. 11. 7—10, 25. m 2 Pedr 2. 17.

* Wrth "law yr Arglwydd" y deallir, unrhyw weithred alluog o'r eiddo ef, pa un bynag ai mewn trugaredd ai mewn barn: yma mewn barn yr oedd. † Megys y bu efe yn dallu meddyliau eraill â'i swynion a'i hudoliaethau, mae yr Arglwydd yn ei daro yntau â dallineb naturiol: barn gyfaddas i'r pechod. ‡ Yr oedd Duw yma mewn barn yn cofio trugaredd, "dros amser" yr oedd y dallineb, nid yn barâus am ei oes ef. Nis gwyddom pa hyd y bu yn ddall, na pha beth a ddaeth o hóno wedi hyn. || Gyda bod y geiriau o enau Paul, dyma'r farn a fygythiodd efe yn disgyn yn wyrthiol ar Elymas. Dyma'r wyrth gyntaf ar a wyddom ni a wnaeth yr Arglwydd trwy Paul: ac yn wir hon oedd ei daith gyntaf ef fel *apostol*, er iddo bregethu o'r blaen fel *prophwyd*, neu *athraw*, am saith neu wyth mlynedd i'r Iuddewon yn unig, a dwy neu dair wedi hyny i broselytiaid y porth o'r cenedloedd.—*Guyse.*

12 [n] * Yna y rhaglaw, [o] pan welodd yr hyn a wnaethid, a gredodd, [p] † gan ryfeddu wrth ‡ ddysgeidiaeth yr Arglwydd.

n adn. 7. pen. 28. 7. o pen. 19. 17. Mat. 27. 54. Luc 7. 16. p pen. 6. 10. Mat. 7. 28, 29. Luc 4. 22. Ioan 7. 46. 2 Cor. 10. 4, 5.

* Gwedi clywed Paul yn pregethu o'r blaen ac yn dadlau â'r swynwr, a gweled y farn ddisymmwth hon yn dyfod arno; effeithiodd y gwirionedd trwy weithrediad yr Ysbryd Glân arno, fel y credodd efe yr efengyl â'i holl galon. † Efe a ryfeddodd pan y dygodd Duw ef allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef: pethau rhyfedd yw pethau yr efengyl oll, pan agorer llygaid dynion i'w gweled. ‡ Dysgeidiaeth yr Arglwydd yw yr efengyl; efe yw ei hawdwr, efe yw ei gwrthddrych a'i thestyn, ac efe sydd yn ei gwneyd yn effeithiol i iachawdwriaeth.

13 A Phaul a'r * rhai oedd gyd âg ef [q] a aethant ymaith o Paphus, † ac a ddaethant i [r] Perga yn Pamphylia; [s] ‡ eithr Ioan a ymadawodd oddi wrthynt, ac a ddychwelodd i Jerusalem.

q adn. 6. pen. 27. 13. r pen. 2. 10. a 14. 24, 25. a 27. 5. s adn. 5. pen. 15. 38. Col. 4. 10. 2 Tim. 4. 11.

* "A'r rhai oedd gydag ef:" sef Barnabas a Ioan, a

rhaí dysgyblion newydd, mae yn debyg, a ynnillasent hwy yn Paphus; y rhai oedd yn ewyllysio dilyn yr apostol i gael dysgu ffordd Duw yn fanylach drwy ei wrando ef. † Yma yr oeddynt yn gadael ynys Cyprus yn gwbl, ac yn mordwyo i Asia leiaf; oblegid talaeth o Asia leiaf oedd Pamphylia, a dinas yn Pamphylia oedd Perga, encyd o làn y môr, i'r gogledd, neu y gogledd-orllewin, o Paphus. ‡ Gwedi iddynt fyned i Pamphylia yr ymadawodd Ioan â hwynt, gwel pen. 15. 38: ac mae yn amlwg wrth yr hyn a ddywedir am Paul yn yr adnod a grybwyllwyd, fod Ioan i'w feïo am ymadael â hwy, efallai ei fod yn caru esmwythder yn ormod, ac wedi blino ar y gwaith lluddedig o deithio parâus.

14 ¶ Eithr hwynt-hwy, wedi ymado o Perga, a ddaethant i [t] * Antiochia yn Pisidia, [u] † ac a aethant i mewn i'r synagog ar y dydd sabbath, ‡ ac a eisteddasant.

t pen. 14. 19, 21—24. u adn. 5. pen. 16. 13. a 17. 2. a 18. 4. a 19. 8.

* Pisidia oedd dalaeth arall o Asia leiaf, yn cyffinio â Phamphylia, i'r gogledd: ac Antiochia oedd brifddinas Pisidia, pell iawn oddiwrth yr Antiochia yn Syria, adn. 1. † Er bod yr apostolion yn wastad yn cadw dydd yr Arglwydd yn sabbath y Testament Newydd, eto yr oeddynt yn defnyddio pob cyfle i fyned i synagogau yr Iuddewon ar y seithfed dydd, eu sabbath *hwy:* efallai i gyd-addoli â hwynt, yr hyn nid oedd anghyfreithlawn y pryd hwnw; ond yn benaf i gael cyfle i bregethu yr efengyl iddynt. ‡ Yn barod i lefaru wrth y bobl os câent alwad i hyny.

15 [x] * Ac ar ol darllen y gyfraith a'r prophwydi, [y] † llywodraethwyr y synagog ‡ a anfonasant attynt, gan ddywedyd, [z] *Ha* wyr frodyr, [a] ‖ od oes gennych air o gynghor i'r bobl, traethwch.

x adn. 27. pen. 15. 21. Luc 4. 16—18. y pen. 18. 8, 17. Marc 5. 22. z pen. 1. 16. a 2. 29, 37. a 7. 2. a 15. 7. a 22. 1. a pen. 2. 4. a 20. 2. Rhuf. 12. 8. 1 Cor. 14. 3. Heb. 13. 22.

* Yr oedd y gyfraith, a'r prophwydi hefyd, bob un o honynt, yn cael eu dosparthu yn ddeuddeg rhan a deugain, tair ar ddeg, neu bedair ar ddeg a deugain, medd rhai; a thrwy ddarllen un ran, neu ddosparth, bob sabbath, neu ddarllen dwy neu dair o'r rhanau hyraf, unwaith neu ddwy yn y flwyddyn, os byddai achos am hyny; arferent ddarllen y gyfraith a'r prophwydi drosodd oll yn eu synagogau unwaith yn y flwyddyn. Ni byddent yn arfer darllen y Salmau, (yr *Hagiographa)* yn y synagog. † Rhai yn arolygu gwasanaeth Duw yn y synagog, i weled fod pob peth yn cael ei wneyd yn ol y rhëol. ‡ Byddai llywodraethwyr y synagog yn arfer galw ar ryw rai y gwyddent eu bod yn ddynion parchus, doniol, a dysgedig, i gynghori yn gyhoeddus yn y synagog ar ol darllen yr ysgrythyrau. Pa fodd y daethpwyd i sylwi ar Paul a Barnabas yma, nis gwyddom; tybia rhai iddynt eistedd lle byddai yr areithwyr yn arfer eistedd: tybia eraill yr adwaenai y llywodraethwr hwy o'r blaen; a thybia eraill eu bod hwy wedi danfon ato i ddywedyd y cârent roddi gair o gyngor i'r bobl. ‖ Yn llythyrenol yn ol y Groeg, "Od oes gair o gyngor *ynoch.*" Oedd, yr oedd trysor mawr *yn* y llestri pridd hyn, wedi ei roddi gan Dduw.

16 * Yna y cyfododd Paul i fynu, [b] a chan amneidio â'*i* law am osteg, a ddywedodd, [c] † *O* wŷr o Israel, [d] ‡ a'r rhai ydych yn ofni Duw, [e] gwrandewch.

b pen. 12. 17. a 19. 33. a 21. 40. c adn. 26. pen. 2. 22. a 3. 12. d adn. 42, 43, 46. pen. 10. 2, 35. 1 Bren. 8. 40. Salm 67. 7. a 85. 9. a 135. 20. Luc 1. 50. a 23. 40. e pen. 2. 14. a 22. 1, 22. Deut. 32. 46, 47. Salm 49. 1—3. a 78. 1, 2. Mica 3. 8, 9. Mat. 11. 15. Dat. 2. 7, 11, 17, 29.

* Efallai bod yr apostol yn gweled rhai yn y gynnulleidfa heb fawr o argoel tuedd i wrando arnynt; gan hyny ar ol iddo godi, efe a amneidiodd â llaw arnynt oll am osteg. Os oeddynt yn debyg i Iuddewon Llundain yn y dyddiau hyn yn eu synagogau, nid hawdd iawn cael gosteg arnynt. † Iuddewon o waedoliaeth diledryw, had digymmysg Abraham, Isaac, a Jacob, ac Iuddewon o grefydd hefyd. ‡ Cenedloedd crefyddol, efallai, y rhai oedd yn proffesu ac yn addoli Duw Israel, ac yn ei ofni ef yn wirioneddol: rhai wedi eu henwaedu, a rhai yn ddïenwaededig, fel y mae yn amlwg wrth adn. 42—48.

17 [f] Duw y bobl hyn Israel a etholodd ein tadau ni, [g] ac a ddyrchafodd y bobl, pan oeddynt yn ymdeithio y'ngwlad yr Aipht, [h] ac â braich uchel y dug efe hwynt oddi yno allan.

f pen. 7. 2, &c. Gen. 12. 1—3. a 17. 7, 8. Deut. 4. 37. a 7. 6—8. a 9. 5. a 14. 2. Neh. 9. 7, 8. Salm 105. 6—12, 42, 43. a 135. 4. Es. 41. 8, 9. a 44. 1. Jer. 33. 24—26. 1 Pedr 2. 9. g pen. 7. 17. Ex. 1. 7—9. Deut. 10. 22. Salm 105. 24. h pen. 7. 36. Ex. 6. a 7.—a 14. a 15. 1—21. a 18. 11. Deut. 4. 20, 34. a 7. 19. 1 Sam. 4. 8. Neh. 9. 9—12. Salm 77. 13—20. a 78. 12, 13, 42—53. a 105. 26—39. a 106. 7—11. a 114. a 135. 8—10. a 136. 10—15. Es. 63. 9—14. Jer. 32. 20, 21. Amos 2. 10. Mica 6. 4. a 7. 15, 16.

Mae yr araeth, neu y bregeth hon yn cael ei thraddodi, i'r dyben o arddangos goruchwyliaeth Duw a'i drefn, yn dwyn yr efengyl i'r golwg yn raddol; ac yn darpar yr Iuddewon, trwy drugareddau tymmorol, i dderbyn trugareddau eraill, ysbrydol, a mwy eu gwerth. Fel hyn yr oedd gan yr apostol gyfle gwŷch iawn i ddangos ei fawr gydnabyddiaeth âg ysgrythyrau yr Iuddewon, yr hyn a ystyrient hwy y gangen benaf o bob dysgeidiaeth a gwybodaeth. Nid oes achos egluro dim ar yr adnod hon i ddarllenwyr yr ysgrythyrau.

18 [i] * Ac ynghylch deugain mlynedd o amser y goddefodd efe eu † harferion hwynt yn yr anialwch.

i pen. 7. 39—43. Ex. 16. 2, 35. Num. 14. 22, 33, 34. Deut. 9. 7, 21—24. Neh. 9. 16—21. Salm 78. 17—42. a 95. 8—11. a 106. 13—29. Ezec. 20. 10—17. Amos 5. 25, 26. 1 Cor. 10. 1—10. Heb. 3. 7—10, 16—19.

* Felly y dywedir yn Salm 95. 10; ac y coffâ yr apostol yn Heb. 3. 8, 9. † Anniolchgarwch, cyndynrwydd, anghrediniaeth, grwgnachrwydd, gwrthryfel, eilun-addoliaeth, ac aneirif arferion drwg eraill. Yr oedd goddef y cyfryw bethau â hyn am gyhyd o amser, yn dangos amynedd a hir-ymaros Duw yn rhyfedd. Ac *arferion* oeddynt, cofiwn, nid syrthiadau damweiniol, ac anfynych.

19 [k] * Ac wedi iddo ddinystrio saith genedl yn nhir [l] Canaan, [m] â choel-bren † y parthodd efe dir y rhai hynny iddynt hwy.

k pen. 7. 45. Deut. 7. 1. Jos. 24. 11. Neh. 9. 24. Salm 78. 55. 1 Gen. 12. 5. a 17. 8. Salm 135. 11. m Num. 26. 53—56. Jos. 14. 2. a 18. 10. a 23. 4.

* Enwir y saith genedl hyn yn Jos. 3. 10. † "Y parthodd efe," sef Duw: er mai dynion oedd yn bwrw y coel-bren, eto ar orchymyn Duw yr oedd, ac oddiwrth Dduw yr oedd ei holl lywodraethiad ef. Gan mai ef a biodd y tir, ac mai efe a ddygodd y bobl megys yn wyrthiol iddo; (Salm 44. 3;) yr oedd yn iawn iddo ef ei barthu iddynt fel y gwelai efe yn dda: heb hyny, odid na buasent hwy yn myned i ryfela â'u gilydd yn ei gylch.

20 * Ac wedi y pethau hyn, dros yspaid ynghylch pedwar cant a deng mlynedd a deugain, [n] efe a roddes farnwyr *iddynt,* [o] hyd Samuel y prophwyd.

n Barn. 2. 16. a 3. 10. Ruth 1. 1. 1 Sam. 12. 11. 2 Sam. 7. 11. 2 Bren. 23. 22. 1 Cron. 17. 6. o 1 Sam. 3. 20.

* Nis gellir meddwl mewn un modd i'r barnwyr yn ol-yn-ol barâu am 450 o flynyddoedd wedi sefydliad Israel yn Nghanaan; oblegid yn 1 Bren. 6. 1, ni a welwn nad oedd ond 480 o flynyddoedd o ddyfodiad Israel allan o'r Aipht, hyd yr amser y dechreuodd Solomon adeiladu y deml: yr hyn ni chyd-saif o lawer â geiriau Paul yn yr adnod uchod, sef rhoddi 450 i'r barnwyr yn unig. Tybir fod 57 o flynyddoedd o leiaf, o ddyfodiad Israel o'r Aipht hyd farwolaeth Josua, a 84 yn yspaid dyddiau Samuel, Saul, a Dafydd, hyd y bedwerydd

wyddyn i Solomon, pryd y dechreuodd efe adeiladu y teml: ac fel hyny nis gall fod ond 339 o flynyddoedd i'r barnwyr; sef o amser Josua hyd amser Samuel. Ffybia rhai mai 350 a ddylasai fod, ac mai cam-gymmeriad rhyw ysgrifenydd wedi amser Luc oedd gosod 450: buasai hyny yn dyfod o fewn i un mlynedd ar ddeg i'r yspaid uchod, (339) a roddwyd i'r barnwyr; ond mae yn lled berygl dywedyd, fod un ran o'r ysgrythyrr sanctaidd wedi ei cham ysgrifenu, gan ei fod yn crëu anmmheüaeth am y cwbl. E ddiflana y dyryswch agos yn hollawl, os darllenwn yr adnod fel hyn:—Ac wedi y bethau hyn, (y pethau o adn. 17 hyd 19,) yr hyn a gymmerodd yn nghylch pedwar cant a deng mlynedd a deugain, efe a roddes farnwyr iddynt, hyd Samuel y prophwyd. Fel yna ni a welwn mai *ar ol* yr yspaid o 450 y rhoddwyd y barnwyr, ac nid *yn* yr yspaid hyny. O enedigaeth Isaac hyd raniad y wlad, cyfrifir 447, o flynyddoedd, yr hyn a ddaw "*ynghylch*" 450, fel y dywed yr apostol. Tebyg i'r darlleniad uchod yw alleiriad *Doddridge* o'r adnod.

21 * Ac ar ol hynny y [p] dymunasant gael brenhin: † ac fe roddes Duw iddynt [q] Saul mab [r] Cis, gwr o lwyth Benjamin, ddeugain mlynedd.

p 1 Sam. 8. 5—22. a 12. 12—19. q 1 Sam. 10. 1, 21—26. a 11. 15. a 15. 1. r 1 Sam. 9. 1, 2. a 10. 21.

* Buont dan lywodraeth Duw (*Theocracy*) o'u dygiad allan o'r Aipht hyd yn awr, ac yr oedd ganddynt Samuel, prophwyd Duw, i'w llywodraethu y pryd hwn; felly pechod ynddynt hwy oedd dymuno cael brenin: gwrthod Duw i lywodraethu arnynt, ac eisiau bod fel y cenedloedd o'u hamgylch. † E roddes Duw iddynt y brenin hwn yn ei ddig, ac a'i dygodd ef ymaith wedi hyny yn ei lid. Hos. 13. 11.

22 [s] * Ac wedi ei ddiswyddo ef, [t] † y cyfodod efe Dafydd yn Frenhin iddynt; [u] am yr hwn y tystiolaethodd, ac y dywedodd, [x] ‡ Ceffais Dafydd *mab* Jesse, ‖ gwr yn ol fy nghalon, § yr hwn a gyflawna fy holl ewyllys.

s 1 Sam. 12. 25. a 13. 13, 14. a 15. 11, 23. a 16. 1. a 28. 16, 17. a 31. 6. 2 Sam. 7. 15. 1 Cron. 10. 13, 14. Hos. 13. 10, 11. t 1 Sam. 16. 1, 13. 2 Sam. 2. 4. a 5. 3—5. a 7. 8. 1 Cron. 28. 4, 5. u Salm 2. 6. a 78. 70—72. a 89. 19, &c. Jer. 33. 21, 26. Ezec. 34. 23. a 37. 24, 25. Hos. 3. 5. u pen. 15. 8. Heb. 11. 4, 5. x pen. 7. 46. 1 Sam. 13. 14. 1 Bren. 15. 3, 5.

* Am ddiswyddiad Saul, yn nghyd â'r achos o hyny, tröed y darllenydd at yr ysgrythyrau cyfeiriol dan y llythyren *s*. † Cyfodi rhyfedd a fu hwn, o fod yn fugail defaid i fod yn frenin Israel: a chysgod, efallai, o gyfodi Crist i fod yn Frenin yn dragywydd. ‡ Duw a'i ceisiodd ac a'i cafodd ef yn ei isel radd: felly mae yn ceisio ac yn cael pechaduriaid i wneyd trugaredd â hwynt. ‖ Un a adwaenai Duw, un anwyl, a chymmeradwy yn ei olwg, wedi cael trugaredd ganddo, a chymmod âg ef. § Nid fel Saul yn anufudd i ewyllys yr Arglwydd. "Fy ewyllysau," yn ol y Groeg, pobpeth a gyflawnodd Dafydd o orchymynion a bwriadau Duw, fel brenin, prophwyd, a chysgod o Grist.

23 [y] * O had hwn, † Duw, yn ol *ei* addewid, [z] ‡ a gyfododd ‖ i Israel *yr* § Iachawdwr Iesu:

y pen. 2. 30. 2 Sam. 7. 12, 13. Salm 89. 35—37. a 132. 11. Es. 7. 13, 14. a 11. 1, 10. Jer. 23. 5, 6. a 33. 15—17. Amos 9. 11. Mat. 1. 1. a 21. 9. a 22. 42. Luc 1. 31—33, 69. Ioan 7. 42. Rhuf. 1. 3. Dat. 22. 16. z pen. 2. 32—36. a 3. 26. a 4. 12. a 5. 30, 31. Es. 43. 11. a 45. 21. Zec. 9. 9. Mat. 1. 21. Luc 2. 10, 11. Ioan 4. 42. Rhuf. 11. 26. Tit. 1. 4. a 2. 10—14. a 3. 3—6. 2 Pedr 1. 1, 11. a 2. 20. a 3. 2, 18. 1 Ioan 4. 14. Judas 25.

* O had Dafydd o ran y cnawd, Rhuf. 1. 3. † Ni a gawn yr addewid yn Salm. 132. 11. ‡ Wrth grybwyll am Dafydd, cafodd yr apostol gyfle naturiol i ddyfod at ei brif fater, a'i amcan, yn ei araeth hon: prophwydwyd am y Messiah fel Mab Dafydd; ac yr oedd Paul yma yn barod i brofi mai Iesu oedd y Messiah, Mab Dafydd. ‖ Iachawdwr i Israel yn gyntaf, o ran y cynnygiad o hóno, ond o drugaredd nid i Israel yn unig. § Yma mae efe yn cyssylltu y swydd â'r enw, ac felly yn profi mai yr Iesu o Nazareth oedd yr Iachawdwr.

24 [a] * Gwedi i Ioan rag-bregethu o flaen ei ddyfodiad ef i mewn, † fedydd edifeirwch i holl bobl Israel.

a pen. 1. 22. a 10. 37. a 19. 3, 4. Mat. 3. 1, &c. Marc 1. 2—8. Luc 1. 76. a 3. 2, &c. Ioan 1. 6—8, 15, &c. a 3. 25—36. a 5. 33—36.

* Mae yr apostol yn crybwyll yma am weinidogaeth Ioan fel peth hysbys i'w wrandawwyr o'r blaen: gwnaeth gymmaint o gyffrôad yn mhlith yr Iuddewon ar y pryd, fel yr oedd y sôn am dani wedi myned ar led i wledydd pell, cyn belled â Pisidia o leiaf. Llefarasai Ioan am Grist, nid fel un i ddyfod rywbryd; ond fel un wedi dyfod, ac yn y byd y pryd hwnw: mai nid efe oedd y Crist; ond ei fod ef wedi ei anfon i barotôi y ffordd o'i flaen ef. † Felly ei gelwir yn Matth. 3. 2, 8; Marc 1. 4; Luc 3. 3; am fod edifeirwch yn angenrheidiol i bawb a ddysgwylient drugaredd trwy Grist.

25 [b] * Ac fel yr oedd Ioan yn cyflawni ei redfa, efe a ddywedodd, [c] † Pwy yr ydych chwi yn tybied fy mod i? Nid myfi yw *efe:* eithr wele, y mae yn dyfod ar fy ol i, yr hwn nid wyf yn deilwng i ddattod esgidiau *ei* draed.

b adn. 36. pen. 20. 24. Marc 6. 16—28. Ioan 4. 34. a 19. 28—30. 2 Tim. 4. 7. Dat. 11. 7. c pen. 19. 4. Mat. 3. 11. Marc 1. 7. Luc 3. 15, 16. Ioan 1. 20—23, 26, 27, 29, 34, 36. a 3. 27—29. a 7. 18. 2 Cor. 4. 5.

* Rhedfa ei oes, neu yn hytrach rhedfa ei weinidogaeth. † Tua diwedd oes a gweinidogaeth Ioan, dechreuodd y bobl yn gyffredin feddwl mai efe ei hun oedd y Messiah; ac yn y geiriau hyn, yr oedd efe yn eu didwyllo hwynt: Pwy yr ydych chwi yn tybied fy mod I? A ydych chwi yn tybied mai myfi yw y Messiah? Nage, nid myfi yw efe; ‡ eithr y mae un yn dyfod ar fy ol I, o ran ei weinidogaeth gyhoeddus, a'r cyntaf a ddaw ar fy ol I, hwnw yw efe: er cymmaint yw eich meddyliau am danaf fi, mae yn hawdd genyf addef, nad wyf fi ddim yn deilwng i ddattod esgidiau hwnw. *Hwnw* yw efe!

26 * *Ha* wŷr frodyr, [d] † plant o genedl Abraham, [e] ‡ a'r rhai yn eich plith sydd yn ofni Duw, [f] ‖ i chwi y danfonwyd gair yr iachawdwriaeth hon.

d adn. 15, 17, 46. a 3. 26. 2 Cron. 20. 7. Salm 105. 6. a 147. 19, 20. Es. 41. 8. a 48. 1. a 51. 1, 2. Mat. 3. 9. a 10. 6. Luc 24. 47. e adn. 16, 43. pen. 10. 35. f pen. 16. 17. a 28. 28. Es. 46. 13. Luc 1. 69, 77. Rhuf. 1. 16. 2 Cor. 5. 19—21. Eph. 1. 13. Col. 1. 5.

* Dyna ddull cyffredin yr Iuddewon o lefaru, "Ha wŷr frodyr." † Had diledryw Abraham yn ol y cnawd, ac fel hyny yr oedd Paul yn eu cyfarch hwy dàn yr enw brodyr. ‡ Proselytiaid crefyddol o'r cenedloedd, mae yn debyg; hyny yw, proselytiaid i'r grefydd Iuddewig, nid i'r grefydd gristionogol eto. ‖ Er bod y rhai hyn yn mhell o wlad Israel, lle bu Ioan Fedyddiwr a Christ yn pregethu; ac er bod amryw o honynt nad oeddynt yn "blant o genedl Abraham;" eto mae yr apostol yn hysbysu iddynt, fod Duw wedi danfon yr efengyl, "gair yr iachawdwriaeth," iddynt hwy; fod cyfle iddynt hwy ei derbyn neu ei gwrthod; a bod eu bywyd tragywyddol hwynt yn ymddibynu ar y derbyniad o hóni. Lle y pregether yr efengyl, mater personol pawb a'i clywant yw, ei derbyn neu beidio.

27 * Canys y rhai oedd yn preswylio yn Jerusalem, † a'u tywysogion, [g] ‡ heb adnabod hwn, [h] ‡ a lleferydd y prophwydi [i] y rhai a ddarllenid bob sabbath, [k] § gan *ei* farnu *ef,* a'*u* cyflawnasant.

g pen. 3. 17. Luc 23. 34. Ioan 8. 28. a 15. 21. a 16. 3. Rhuf. 11. 8—10, 25. 1 Cor. 2. 8. 2 Cor. 3. 14. a 4. 4. 1 Tim. 1. 13. h Mat. 22. 29. Luc 24. 25—27, 44, 45. i adn. 14, 15. pen. 15. 21. k pen. 26. 22, 23. a 28. 23. Gen. 50. 20. Mat. 26. 54—56. Luc 24. 20, 44. Ioan 19. 28—30, 36, 37.

* Clywsai yr Iuddewon hyn yn ddiammau am groeshoeliad Iesu o Nazareth gan benaethiaid y bobl yn Je-

rusalem, ac yr oedd clywed am ei groeshoeliad ef yn achos o ragfarn ynddynt yn ei erbyn: i ddiddymmu y ragfarn hòno, mae yr apostol yn dywedyd yma, mai yn eu hannwybodaeth am Grist, a'u tywyllwch yn y prophwydoliaethau am dano, y croeshoeliasant ef: ac iddynt fel hyny, yn ddiarwybod iddynt eu hunain, gyflawni y prophwydoliaethau am y Messiah. † Y werin bobl yn gyffredinol. ‡ Aelodau y Sanhedrim, Pilat a Herod. ‡ Heb adnabod mai hwn oedd y Messiah. || Lleferydd y prophwydi am y Messiah: am eu darllen bob sabbath, gwel ar adn. 15. Gallwn fod yn gynnefin iawn â llythyren y gair, ac eto, bod heb ei ddeall. § Wrth ei farnu ef i'w groeshoelio, cyflawnasant eiriau y prophwydi.

28 [l] * Ac er na chawsant *ynddo* ddim achos angau, † hwy a ddymunasant ar Pilat ei ladd ef.

l pen. 3. 13, 14. Mat. 27. 19, 22—25. Marc 15. 13—15. Luc 23. 4, 5, 14—16, 22—25. Ioan 18. 38. a 19. 4, 12—16.

* Ni chafodd yr Iuddewon ddim bai, a thystiolaethodd Pilat na chawsai yntau, na Herod chwaith ddim bai. Fel hyn yr oedd Paul yn sefyll dros ddiniweidrwydd Iesu yn wyneb meddyliau rhagfarnllyd ei wrandawŵyr yn Antiochia. † Er na chawsent ynddo ddim bai, eto cymmaint oedd eu llid a'u gelyniaeth tuag ato, fel y condemniasant ef, a mynasant gan Pilat ei ladd ef, gan mai yn ei law ef yr oedd yr awdurdod i hyny, ac nid ganddynt hwy.

29 [m] * Ac wedi iddynt gwblhâu pob peth a'r a ysgrifenasid am dano ef, [n] † hwy a'*i* disgynasant *ef* oddi ar y pren, ‡ ac a'*i* dodasant mewn bedd.

m adn. 27. pen. 2. 23. a 4. 28. Luc 18. 31—33. a 24. 44. Ioan 19. 28. n Mat. 27. 57—60. Marc 15. 45, 46. Luc 23. 53. Ioan 19. 38—42. 1 Cor. 15. 4.

* Yn ddiarwybod iddynt eu hunain, hwy a gyflawnasant bob peth a'r a ysgrifenasid am dano ef: pob peth, a phob peth i'r manylrwydd eithaf. † Joseph o Arimathea a'i disgynodd ef oddi ar y pren trwy ganiatâd Pilat; a Philat yn caniatâu ar ddeisyfiad yr Iuddewon; fel nad arhôai y corph ar y groes ar y sabbath. Ioan 19. 31. ‡ Joseph a Nicodemus a'i dodasant ef yn y bedd; ond yr Iuddewon a fynasant selio'r maen a gwylio'r bedd. Mae yr apostol yn crybwyll hyn i gael dyfod at ei adgyfodiad ef, yr hyn oedd yn tynu ymaith warth ei farwolaeth ef, yn ei brofi yn Fab Duw, ac yn dangos fod ei angau ef yn aberth ac iawn dros bechod.

30 [o] * Eithr Duw a'i cyfododd ef oddi wrth y meirw.

o pen. 2. 24, 32. a 3. 15, 26. a 4. 10. a 5. 31. a 10. 40. a 17. 31. Mat. 28. 6. Ioan 2. 19. a 10. 17. Heb. 13. 20.

* Dynion a'i lladdodd, ac a'i claddodd ef; ond Duw a'i bywâodd, ac a'i cyfododd oddi wrth y meirw: yr oedd ei adgyfodiad mòr ogoneddus ag y buasai ei groeshoeliad yn waradwyddus; ac yn tynu ymaith dramgwydd y groes o feddyliau y gwrandawŵyr hyn: o leiaf dylasai wneyd hyny.

31 [p] * Yr hwn a welwyd dros ddyddiau lawer † gan y rhai a ddaethant i fynu gyd âg ef o Galilea i Jerusalem, [q] ‡ y rhai sydd dystion iddo wrth y bobl.

p pen. 1. 3. a 10. 41. Mat. 28. 16, 17. Marc 16. 12—14. Luc 24. 36—42. Ioan 20. 19—29. a 21. 1, &c. 1 Cor. 15. 5—7. q pen. 1. 8, 22. a 2. 32. a 3. 15. a 5. 32. a 10. 39. Luc 24. 48. Ioan 15. 27. Heb. 2. 3, 4.

* Deugain niwrnod, o'i adgyfodiad hyd ei esgyniad: gwelwyd ef amryw weithiau yn yr yspaid hyny o amser, † a hyny gan lawer o ddynion geirwir, gwŷr a gwraged, heblaw yr apostolion, y rhai a ddaethent gydag ef i fynu o Galilea i Jerusalem cyn ei groeshoelio; ac a allant dystiolaethu yn ddiymwad i'r hyn a welodd eu llygaid, ac a deimlodd eu dwylo am Air y bywyd. ‡ Ac y mae y rhai hyny yn fyw yn bresenol, lawer o honynt, ac yn dystion iddo wrth y bobl, yn wyneb pob erlid, ac enbydrwydd am eu bywyd, o herwydd eu tystiolaeth.

32 [r] * Ac yr ydym ni yn efengylu i chwi [s] yr addewid a wnaed i'r tadau, ddarfod i Dduw gyflawni hon i ni eu plant hwy, † gan iddo adgyfodi yr Iesu:

r adn. 38. Es. 40. 9. a 41. 27. a 52. 7. a 61. 1. Luc 1. 19. a 2. 10. Rhuf. 10. 15. s pen. 2. 39. Gen. 3 15. a 12. 3. a 22. 18. a 26. 4. a 49. 10. Deut. 18. 15. Es. 7. 14. a 9. 6, 7. a 11. 1. Jer. 23. 5. Ezec. 34. 23. Dan. 9. 24—26. Mica 5. 2. Hag. 2. 7. Zec. 6. 12. a 9. 9. a 13. 1, 7. Mal. 3. 1. a 4. 2. Luc 1. 54, 55, 68—73. Rhuf. 4. 13. Gal. 3. 16—18.

* Ar sail y dystiolaeth hòno, a'r hyn a welsom ein hunain, y daethom ni, Barnabas a minnau, atoch chwi i Antiochia, i bregethu dyfodiad, marwolaeth, ac adgyfodiad y Messiah, a bod Duw trwy hyny, wedi cyflawni i ni, ac yn ein dyddiau ni, yr addewidion am y Messiah, a roddasai efe o oes i oes, i'n tadau ni. † Gan iddo adgyfodi yr Iesu, mae hyny yn brawf mai efe oedd y Messiah addawedig, a bod yr addewid o hòno wedi ei chyflawni.

33 * Megis ag yr ysgrifenwyd yn yr ail psalm, [t] † Fy Mab i ydwyt ti; ‡ myfi heddyw a'th genhedlais.

t Salm 2. 7. Heb. 1. 5, 6. a 5. 5.

Yn y Testament Saesoneg mae rhan o adn. 32 yn yr adnod hon; ond mae ein dosparthiad ni o'r ddwy adnod yr un fath a'r Groeg. * Gwelwn yma fod y Salmau wedi eu rhanu y pryd hwnw, yn yr un drefn ag y maent genym ni yn awr. † Fy Mab I ydwyt ti mewn modd neillduol, gwahanol i bawb eraill, Mab trwy genedliad tragywyddol, ac anamgyffredadwy i bawb ond Duw yn unig. Credu y gwirionedd hwn yw ein gwaith ni, ac nid ei ddeall: a gochelwn ei wadu am nas gallwn ni ei ddeall. ‡ Tragywyddoldeb anfeidrol yw heddyw Duw, pryd y cenedlwyd y Mab, Diar. 8. 22—24: ond mae yn debyg mai am ei adgyfodiad buddugoliaethus ef y dywedir yma, pryd yr eglurwyd ef yn Fab Duw mewn gallu, Rhuf. 1. 4; ganwyd ef megys o newydd o'r ddaear, yn gyntaf anedig oddi wrth y meirw, ac i lywodraethu yn Frenin ar Sion. Dywedir y byddai yr henafiaid gynt yn galw dydd eneiniad breninoedd yn ddydd genedigaeth iddynt; ac efallai mai at hyny mae Paul yn cyfeirio yma.

34 Ac am iddo ei gyfodi ef o'r meirw, [u] * nid i ddychwelyd mwy i lygredigaeth, y dywedodd fel hyn, [x] † Rhoddaf i chwi [y] sicr drugareddau Dafydd.

x Rhuf. 6. 9. x Es. 4. 6. y 2 Sam. 7. 14—16. a 23. 5. Salm 89. 2—4, 19—37. Jer. 33. 15—17, 26. Ezec. 34. 23, 24. a 37. 24, 25. Hos. 3. 5. Amos 9. 11. Zec. 12. 8.

* Y bedd sydd i'w ddeall yma wrth "lygredigaeth," oblegid ni welodd ei gnawd ef lygredigaeth pan fu yn y bedd: nid i ddychwelyd mwy i'r bedd, nac i farw mwy, fel y rhai hyny a gyfodwyd o feirw ganddo, ac a fuant feirw drachefn. † Gellir galw sicr drugareddau Dafydd ar fendithion teyrnas y Messiah mewn un ystyr, am eu bod wedi eu haddaw i Dafydd: neu ynte, fel mae yr enw Dafydd yn cael ei roddi weithiau i'r Messiah ei hun: enw y cysgod yn cael ei roddi i'r Gwrth-gysgod mawr. Efallai bod Esaiah yn eu galw yn "*sicr* drugareddau" gyda golwg ar eiriau diweddaf Dafydd, lle mae efe yn defnyddio yr un gair, 2 Sam. 23. 5: ac mae yn briodol ei ddefnyddio yma; oblegid adgyfodiad Crist sydd yn sicrâu yr holl fendithion addawedig i'w bobl ef; heb hyny ni buasai gobaith am danynt.

35 * *Ac* am hynny y mae yn dywedyd [z] mewn *psalm* arall, [a] Ni adewi i'th Sanct weled llygredigaeth.

z pen. 2. 27—31. Salm 16. 10. a adn. 36, 37. Salm 49. 9. a 89. 48. Luc 2. 26. Ioan 3. 36. a 8. 51. Heb. 11. 5.

* Sylwyd ar y geiriau hyn o'r blaen, pen. 2. 27. Mae yn beth nodedig fod Pedr yno, a Phaul yma yn

defnyddio yr un geiriau (Salm 16. 10,) wrth sôn am adgyfodiad Crist.

36 * Canys Dafydd, wedi iddo wasanaethu ei genhedlaeth ei hun trwy ewyllys Duw, [b] a hunodd, [c] ac a ddodwyd at ei dadau, [d] † ac a welodd lygredigaeth:

b pen. 7. 60. 2 Sam. 7. 12. 1 Bren. 2. 10. 1 Cor. 15. 6, 18. 1 Thes. 4. 13. c pen. 2. 29. 1 Cron. 17. 11. 2 Cron. 9. 31. a 12. 16. a 21. 1. a 26. 28. d Gen. 3. 19. Job 17. 14. a 19. 26, 27. a 21. 26. Salm 49. 9, 14. Ioan 11. 39. 1 Cor. 15. 42—44, 53, 54.

* Mae rhai yn newid yr attaliadau yn yr adnod hon fel hyn:—"Canys Dafydd, wedi iddo wasanaethu ei genedlaeth ei hun, trwy ewyllys Duw a hunodd, &c." [Mae pob un o'r ddwy ffordd yn wir; oblegid trwy, neu yn ol, ewyllys Duw, y gwasanaethodd efe ei genedlaeth ei hun; a thrwy ewyllys Duw, pan welodd Duw fod yn dda, yr hunodd efe. Ond goreu yw yr attaliadau fel y mnaent; er canmoliaeth i Dafydd, am wasanaethu ei genedlaeth trwy ewyllys Duw, ac fel hyny yn fendith i'w genedlaeth yn ei ddydd a'i oes. † Gan hyny nis gallai efe lefaru y geiriau, "Ni adewi i'th Sanct weled llygredigaeth," am dano ei hun, oblegid efe a welodd llygredigaeth: rhyw Sanct arall oedd hwn.

37 [e] * Eithr yr hwn a gyfododd Duw, † ni welodd lygredigaeth.

e adn. 30.

* Sef yr Iesu, adn. 30. † Gwel ar pen. 2. 27, 31. Ni bu yn y bedd yn ddigon hir i lygru.

38 [f] * Am hynny bydded hysbys i chwi, †† *ha* wŷr frodyr, [g] ‡ mai trwy hwn ‖ yr ydys yn pregethu i chwi faddeuant pechodau:

f pen. 2. 14. a 4. 10. a 28. 28. Ezec. 36. 32. Dan. 3. 18. g pen. 2. 38. a 5. 31. a 10. 43. Salm 32. 1, 2. a 130. 4, 7, 8. Jer. 31. 34. Dan. 9. 24. Mica 7. 18—20. Zec. 13. 1. Luc 24. 47. Ioan 1. 29. 22 Cor. 5. 18—21. Eph. 1. 7. a 4. 32. Col. 1. 14. Heb. 8. 6, 12, 13. a 9. 9—14, 22. a 10. 4—18. 1 Ioan 2. 1, 2, 12.

* Yma mae yr apostol yn cymhwyso yr athrawiaeth a draddododd yn yr adnodau o'r blaen: y cymhwysiad yyw enaid pregethu, medd rhai. † Cyfarchiad cyffredin, gwel ar adn. 26. Nid oedd pawb yn y gynnulleidfa hon yn frodyr o ran cenedl i'r apostol; ond mae yn eu cyfarch fel brodyr cristionogol. ‡ Trwy Grist, yr hwn co ran ei ddynoliaeth a groeshoeliasid, a adgyfododd, ac a esgynodd i ogoniant. ‖ Nis gallai yr apostol, ac nis gall neb, bregethu maddeuant pechodau trwy Grist, heb bregethu ei aberth a'i iawn ef; oblegid heb hyny nid oes maddeuant. Prif destyn yr apostol yn ymhob màn oedd y ddau beth uchod; aberth Crist, a maddeuant trwy ffydd yn ei aberth ef.

39 [h] * A thrwy hwn y cyfiawnhêir pob un sydd yn credu, oddi wrth yr holl bethau [i] † y rhai ni allech trwy gyfraith Moses gael eich cyfiawnhâu oddi wrthynt.

h Es. 53. 11. Luc 18. 14. Ioan 5. 24. Rhuf. 3. 24—30. a 4. 5—8, 24, 25. a 5. 1, 2, 9. a 8. 1, 30—34. a 10. 10. 1 Cor. 6. 11. Gal. 2. 16. a 3. 8—11. i Job 9. 20. a 25. 4. Salm 143. 2. Jer. 31. 32. Luc 10. 25, 28, 29. Ioan 1. 17. Rhuf. 3. 19, 20. a 4. 15. a 5. 20. a 7. 9—11. a 8. 3, 4. a 9. 31, 32. a 10. 4, 5. Gal. 2. 16, 19. a 3. 10—12, 21—25. a 5. 3, 4. Phil. 3. 6—9. Heb. 7. 19. a 9. 9, 10. a 10. 4, 11.

* Nid yn unig y mae maddeuant pechodau i'w gael trwy Grist a'i aberth mawr, ond mae y pechadur euog hefyd yn cael ei berffaith gyfiawnâu ger bron Duw trwy ffydd ynddo ef: ei rydd âu oddiwrth bechod ac euogrwydd trwy faddeuant, a'i gyfiawnâu trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist iddo. † Nid oedd aberth o fath yn y byd dros rai pechodau dàn gyfraith Moses. Num. 15. 30, 31; Salm 51. 16; Heb. 10. 26, 28: nis gallai y ddeddf foesol gyfiawnâu neb, Rhuf. 8. 3; ac nis gallai holl aberthau y ddeddf seremoniol dynu ymaith bechod. Heb. 10. 1—10. Ond dyma aberth a wna y cwbl yn berffaith, ac am byth.

40 [k] * Gwyliwch gan hynny na ddêl arnoch y [l] peth a ddywedwyd † yn y prophwydi;

k Mal. 3. 2. a 4. 1. Mat. 3. 9—12. Heb. 2. 3. a 3. 12. a 12. 25. l Es. 29. 14. Hab. 1. 5.

* Yr un peth yw caledrwydd, anghrediniaeth, pechod, ac anedifeirwch yn awr a'r amser hyny yn ngolwg Duw, a'r un peth yw digofaint Duw yn awr a'r pryd hwnw: gan hyny gwyliwch. † Yn Habac. 1. 5, mae y geiriau a ddyfynir; ond sylwyd o'r blaen, fod y deuddeg prophwyd lleiaf i gyd yn un llyfr gan yr Iuddewon, am hyny dywedir "y prophwydi" yma heb enwi pa un o honynt.

41 * Edrychwch, [m] † *O* ddirmygwyr, ‡ a rhyfeddwch, a diflenwch: [n] ‖ canys yr wyf yn gwneuthur gweithred yn eich dyddiau, § gwaith ni chredwch ddim, er i neb ei ddangos i chwi.

m Diar. 1. 24—32. a 5. 12. Es. 5. 24. a 28. 14—22. Luc 16. 14. a 23. 35, 36. Heb. 10. 28—30. n adn. 47. pen. 3. 23. a 6. 14. a 22. 21. Es. 65. 15. Dan. 9. 26, 27. Mat. 8. 10, 11. a 21. 41—44. a 22. 7—10. a 23. 34—38. Luc 19. 42—44. a 21. 20—26. Rhuf. 11. 7—14. Eph. 3. 3—8. Col. 1. 26, 27. 1 Thes. 2. 16. 1 Pedr 4. 17.

* Yn ol cyfieithiad y deg a thriugain mae Paul yn crybwyll y geiriau hyn, canys hwnw a arferai yr Iuddewon Groegaidd, yn mysg y rhai yr oedd efe yn awr: nid ydynt air yn air â'r adnod yn Habacuc, ond mae y synwyr yr un. † Dirmygwyr rhybuddion a gwahoddiadau Duw, yn enwedig dirmygwyr ei Fab a'i efengyl ef. Gwel adn. 45. ‡ Trowch yn welw gan ddychryn, *a diflenwch.* Dywedir y cynnwys y gair Groeg *(aphanisthête)* bob un o'r pethau uchod. ‖ Cospi yr Iuddewon trwy y Caldeaid oedd y weithred yn Habacuc; eu cospi trwy y Rhufeiniaid ydyw yma: eu tòri hwynt ymaith o'r eglwys am eu hanghrediniaeth, a dwyn y cenedloedd i mewn yn eu lie, adn. 46. § Ni chredai yr Iuddewon y pethau uchod er eu dangos mewn geiriau iddynt, hyd oni welsant y cwbl yn y cyflawniad o honynt: ïe, ni chredasant eto y weithred ryfedd o ddanfon y Messiah i'r byd.

42 ¶ * A phan aeth yr Iuddewon allan o'r synagog, [o] † y Cenhedloedd ‡ a attolygasant gael pregethu y geiriau hyn iddynt y sabbath nesaf.

o pen. 10. 33. a 28. 28. Ezec. 3. 6, 7. Mat. 11. 21—23. a 19. 30.

* Dangosodd yr Iuddewon yn fuan mai "dirmygwyr" oeddynt; aethant allan o'r synagog am nas gallent oddef athrawiaeth yr apostol, na'r cymhwysiad uchod o hóni. † Cenedloedd oedd yn ofni Duw (gwel ar adn. 16, 26,) efallai, ag oedd yn dyfod i'r synagog i gyd-addoli â'r Iuddewon: neu, ynte, cenedloedd paganaidd o'r blaen, wedi dyfod yno yn ddygwyddiadol, o chwilfrydedd, neu i wrando y ddau wr dieithr. ‡ Pwy bynag oeddynt, cawsant flas ar y gwirionedd, a chwennychent ei glywed drachefn.

43 * Ac wedi gollwng y gynnulleidfa, † llawer o'r Iuddewon [p] ‡ ac o'r proselytiaid crefyddol [q] a ganlynasant Paul a Barnabas; ‖ y rhai gan lefaru wrthynt, [r] a gynghorasant iddynt aros [s] y'ngras Duw.

p pen. 2. 10. a 6. 5. q pen. 17. 34. a 19. 9. r pen. 11. 23. a 14. 22. a 19. 8. a 28. 23. Ioan 8. 31, 32. a 15. 5—10. 2 Cor. 5. 11. a 6. 1. Gal. 5. 1. Phil. 3. 16. a 4. 1. Col. 1. 23, 28. 1 Thes. 3. 3—5. Heb. 12. 15. 2 Pedr 3. 14, 17, 18. 1 Ioan 2. 28. 2 Ioan 9. s pen. 14. 3. Rhuf. 3. 24. a 5. 2, 21. a 11. 6. Gal. 5. 4. Eph. 2. 8. Tit. 2. 11. Heb. 13. 9. 1 Pedr 5. 12.

* Ac wedi gollwng y synagog, ydyw yn y Groeg; hyny yw, wedi gollwng y gynnulleidfa o'r synagog. † Er i lawer o'r Iuddewon dramgwyddo, "dirmygu," a myned allan, mae yn debyg, cyn gorphen yr addoliad yn rhëolaidd; eto ni thramgwyddodd pawb o honynt; dyma lawer yn canlyn Paul a Barnabas i gael eu cyngori yn mhellach ganddynt. Er bod llawer o had y weinidogaeth yn myned yn ddiffrwyth, nid yw y cwbl o hóni felly; mae peth yn syrthio ar dir da, ac yn dwyn ffrwyth. ‡ Cenedloedd wedi gadael eilun-addoliaeth, a chofleidio y grefydd Iuddewig, oedd y proselytiaid hyn. ‖ Cyngorodd Paul a Barnabas y rhai hyn yn ddifrifol ac yn dirion i aros yn athrawiaeth yr efengyl, yr hon a roddwyd o ras, sydd yn datguddio gras, ac sydd yn cenedlu ac yn meithrin gras Duw yn yr enaid. Yr oedd-

ynt yn sicr o gael eu gwawdio a'u herlid, am hyny yr oedd yn angenrheidiol eu cyngori hwynt i aros, ac i lŷnu yn eu proffes ac wrth yr Arglwydd o lwyr-fryd calon.

44 ¶ * A'r sabbath nesaf, [t] yr holl ddinas agos a ddaeth ynghyd i wrando gair Duw.

t Gen. 49. 10. Salm 110. 3. Es. 11. 10. a 60. 8.

* Gwahoddodd y bobl uchod bawb a allent, i ddyfod; ac mae yn ddiammau i Paul a Barnabas bregethu amryw weithiau, ac mewn amryw fânau o'r ddinas, yn yspaid yr wythnos: felly yr oedd yr holl ddinas wedi cael hysbysrwydd am danynt erbyn yr ail sabbath, ac yn awyddus am eu gwrando: rhai o chwilfrydedd, rhai i farnu a beïo; a rhai o wir ddymuniad am addysg a lles i'w heneidiau.

45 * Eithr yr Iuddewon, pan welsant y torfeydd, [u] † a lanwyd o genfigen, [x] ‡ ac a ddywedasant yn erbyn y pethau a ddywedid gan Paul, gan wrth-ddywedyd a chablu.

u pen. 5. 17. a 17. 5. Gen. 37. 11. Num. 11. 29. Preg. 4. 4. Es. 26. 11. Mat. 27. 18. Luc 15. 25—30. Rhuf. 1. 29. 1 Cor. 3. 3. Gal. 5. 21. Iago 3. 14—16. a 4. 5. x pen. 6. 9, 10. a 18. 6. a 19. 9. Mat. 23. 13. 1 Pedr 4. 4.

* Y rhai anghrediniol o'r Iuddewon oedd y rhai hyn: y dirmygwyr yn adn. 41, a'r rhai a aethant allan, adn. 42. † Yr oedd dau wrthddrych i'w cenfigen hwynt: gweled y torfëydd o genedloedd yn dyfod i'r synagog i wrando; a chlywed Iesu o Nazareth yn cael ei ddderchafu fel Messiah, Mab Duw, ac Iachawdwr dynion. ‡ Taerent yn erbyn yr apostolion fel twyllwyr, a dywedent bethau cableddus yn erbyn Crist.

46 * Yna Paul a Barnabas [y] a aethant yn hŷf, ac a ddywedasant, [z] † Rhaid oedd llefaru gair Duw wrthych chwi yn gyntaf: [a] ‡ eithr o herwydd eich bod yn ei wrthod, ac yn eich barnu eich hunain yn annheilwng o fywyd tragywyddol, ‖ wele, [b] yr ydym yn troi at y Cenhedloedd.

y pen. 4. 13, 29—31. Diar. 28. 1. Rhuf. 10. 20. Eph. 6. 19, 20. Phil. 1. 14. Heb. 11. 34. z adn. 26. pen. 3. 26. a 18. 5. a 26. 20. Mat. 10. 6. Luc 24. 47. Ioan 4. 22. Rhuf. 1. 16. a 2. 10. a 9. 4, 5. a pen. 7. 51. Ex. 32. 9. Deut. 32. 21. Es. 49. 5—8. Mat. 10. 13—15. a 21. 43. a 22. 6—10. Luc 14. 16—24. Ioan 1. 11. Rhuf. 10. 19—21. a 11. 11—13. b pen. 18. 6. a 28. 28. Es. 55. 5.

* Po mwyaf yr oedd yr Iuddewon yn gwrth-ddywedyd ac yn cablu, mwyaf i gyd yr oedd yr apostolion yn ymhyfâu, i'w hargyhoeddi hwynt, ac i sefyll o blaid y gwirionedd. † Yr oedd yn rhaid pregethu yr efengyl i'r Iuddewon yn gyntaf, o herwydd y cyfammod a wnaed â'u tadau; o herwydd mai iddynt hwy yr oedd y cyntafanedig; o herwydd trefn Duw; ac o herwydd gorchymynion Crist: ond nid iddynt hwy yn unig yr oedd goruchwyliaeth yr efengyl, fel yr hen oruchwyliaeth o'r blaen. ‡ Trwy wrthod yr efengyl, yr oeddynt megys yn *selio* eu gwrthodiad a'u colledigaeth eu hunain, ac mewn ymddygiad yn eu barnu eu hunain yn annheilwng o fywyd tragywyddol, er eu bod hwy yn meddwl mai fel hyny yr oedd cael bywyd. ‖ Nid oedd yr apostolion yn meddwl na phregethent byth i neb o'r Iuddewon mwyach, hwy a wnaethant hyny lawer gwaith wedi hyn; ond dangos yr oeddynt, bod eu ffordd yn rhydd, a'u dyledswydd yn amlwg, o hyn allan, i bregethu i'r cenedloedd, ac nas gallai yr Iuddewon eu hunain feïo arnynt, gan eu bod hwy wedi gwrthod yr efengyl.

47 [c] * Canys felly y gorchymynodd yr Arglwydd i ni, *gan ddywedyd,* [d] † Mi a'th osodais di yn oleuni i'r Cenhedloedd, [e] i fod o honot yn iachawdwriaeth hyd eithaf y ddaear.

c pen. 1. 8. a 9. 15. a 22. 21. a 26. 17, 18. Mat. 28. 19. Marc 16. 15. Luc 24. 47. d pen. 26. 23. Es. 42. 1, 6. a 49. 6. a 60. 3. Luc 2. 32. e pen. 15. 14—16. Salm 22. 27—29. a 67. 2—7. a 72. 7, 8. a 96. 1, 2. a 98. 2, 3. a 117. Es. 2. 1—3. a 24. 13—16. a 42. 9—12. a 45. 22. a 52. 10. a 59. 19, 20. Jer. 16. 19. Hos. 1. 10. Amos 9. 12. Mica 4. 2, 3. a 5. 7. Zeph. 3. 9, 10. Zec. 2. 11. a 8. 20—23. Mal. 1. 11.

* Felly y gorchymynodd yr Arglwydd Iesu, yn Matth. 28. 19; ac Act. 1. 8; i'w apostolion: a chafodd Paul orchymyn pendant a digyfrwng wedi hyny. Gwel pen. 22. 21; a 26. 17, 18. † Geiriau Duw Dad wrth y Mab yw y rhai hyn, yn Es. 49. 6; ac mae Paul a Barnabas yma yn eu hystyried fel gorchymyn yr Arglwydd iddynt hwy fyned i bregethu i'r cenedloedd, fel y cyflawnid y brophwydoliaeth hòno.

48 * A'r Cenhedloedd pan glywsant, [f] a fu lawen ganddynt, [g] † ac a ogoneddasant air yr Arglwydd: [h] ‡ a chynnifer ag oedd wedi eu [i] ‖ hordeinio i fywyd tragywyddol, a gredasant.

f adn. 42. pen. 2. 41. a 8. 8. a 15. 31. Luc 2. 10, 11. Rhuf. 15. 9—12. g Salm 138. 2. 2 Thes. 3. 1. h pen. 2. 47. Ioan 10. 16, 26, 27. a 11. 52. Rhuf. 11. 7. Eph. 1. 19. a 2. 5—10. 2 Thes. 2. 13, 14. i pen. 15. 2. a 20. 13. a 22. 10. a 28. 23. Mat. 28. 16. Luc 7. 8. Rhuf. 13. 1. 1 Cor. 16. 15.

* Wrth glywed yr apostolion yn dywedyd pethau mòr obeithiol am danynt hwy, a hyny ar sail gorchymyn Duw a'r Arglwydd Iesu; nid rhyfedd i'r cenedloedd hyn lawenâu: llawenasant fod y mur gwahaniaeth wedi ei dynu i lawr, fod drws yr eglwys Gristionogol yn agored iddynt hwy, y gallent hwy gael mwynâu holl freintiau a bendithion yr efengyl, a hyny heb ymostwng i enwaediad yr hen oruchwyliaeth. † Gogoneddasant air yr Arglwydd, yr efengyl rasol, yr hon oedd yn dangos y fath ryfeddodau o gariad, trugaredd, a gras Duw tuag at bechaduriaid euog, hyd yn nôd o'r cenedloedd. ‡ Rhoddodd y cenedloedd oll well derbyniad i'r gair yn y cyfarfod hwn, na'r Iuddewon; eto, mae yn debyg fod llawer yn eu plith hwythau yn gyffelyb i'r tir creigiog, Matth. 13. 20, 21: ond am y rhai a ordeiniasid i fywyd tragywyddol, hwy a gredasant oll. ‖ Wedi eu hordeinio gan Dduw yn ei dragywyddol arfaeth a'i gyngor. Rhy faith o lawer fyddai gosod i lawer yma feddwl y gair hwn *(tetagmenoi)* yn mhob màn yn y Testament Newydd; ac wedi holl ddadleuon gwrthwynebwyr etholedigaeth dragywyddol, bersonol, a diammodol; at hyny mae cyfeiriad y geiriau uchod wedi y cwbl.

49 * A gair yr Arglwydd [k] a daenwyd † trwy yr holl wlad.

k pen. 6. 7. a 9. 42. a 12. 24. a 19. 10, 26. Phil. 1. 13, 14.

* Trwy lafur diflino Paul a Barnabas; ac, efallai, trwy lafur y dychweledigion ieuainc hyn hefyd; y rhai oeddynt yn awyddus am iachawdwriaeth eraill wedi profi o'i gwerth eu hunain. † Trwy holl wlad Pisidia, adn. 14.

50 [l] * A'r Iuddewon † a annogasant y gwragedd [m] crefyddol ac [n] anrhydeddus, ‡ a phennaethiaid y ddinas, [o] ac a godasant erlid yn erbyn Paul a Barnabas, [p] ac a'u bwriasant hwy allan o'u terfynau.

l adn. 45. pen. 6. 12. a 14. 2, 19. a 17. 13. a 21. 27. 1 Bren. 21. 25. m adn. 43. pen. 2. 5. Rhuf. 10. 2. n 1 Cor. 1. 26—29. Iago 2. 5, 6. o pen. 8. 1. Mat. 10. 23. 2 Tim. 3. 11. p pen. 16. 37—39. Es. 66. 5. Amos 7. 12. Marc 5. 17.

* Yr Iuddewon digred a chenfigenus yn adn. 45. † Gwragedd o'r cenedloedd oedd y rhai hyn, wedi troi o baganiaeth, a chofleidio y grefydd Iuddewig; ac yn fwy eu rhagfarn drosti, pe buasai bosibl, na'r Iuddewon eu hunain. Nid oedd gan yr Iuddewon nemawr o awdurdod yn y lleoedd hyn; am hyny maent yn ymostwng mòr wael a cheisio annog y gwragedd mwyaf anrhydeddus i wneyd yr hyn ni allent hwy ei wneyd eu hunain: ymddygiad bâs, a dianrhydeddus iawn yn wir, ydoedd hyn; ond pa beth nid ymostwng gelynion y gwirionedd iddo i gyflawni eu hamcanion? ‡ Mewn rhai dinasoedd nid oedd ond pump, mewn rhai ddeg, ac mewn rhai ugain, o'r penaethiaid hyn, yn nwylo pa rai yr oedd llywodraeth y ddinas. Efallai mai gwragedd y penaethiaid hyn oedd rhai o'r "gwragedd anrhydeddus" a soniwyd, neu berthynasau iddynt; a thrwy eu cymmeradwyaeth hwy gyda'r penaethiaid, llwyddasant i godi erlid yn erbyn Paul a Barnabas, ac i fynu eu bwrw hwynt allan o'u terfynau. Gyda'r wraig y dechreuodd

satan; a bu y gwragedd yn fwy effeithiol na'r dynion mewn llawer drwg wedi hyny, fel Jezebel a Herodias.

51 [q] * Eithr hwy a ysgwydasant y llwch oddi wrth eu traed yn eu herbyn hwynt, ac a iddaethant i [r] † Iconium.

q pen. 18. 6. Mat. 10. 14. Marc 6. 11. Luc 9. 5. r pen. 14. 1, 19, 21. a 16. 2.

* Yr oedd hyn yn ol gorchymyn yr Arglwydd Iesu. Gwel ar Matth. 10. 14. Yr oedd ysgwyd y llwch yn eu herbyn yn dangos gwaeledd ac annheilyngdod gwrthodwyr yr efengyl, a barn sicr ac ofnadwy Duw arnynt am hyny. † Prif-ddinas talaeth Lycaonia, yn Asia leiaf: yr oedd yn sefyll mewn dyffryn tra ffrwythlawn, yn agos i'r llyn Trogilis, ac ar gwr gorllewinol Lycaonia, (nid yn y canol, fel y dengys rhai darluniadau hi) ar derfyn Pisidia. Yno, meddant, y clywodd Tryphena a Thryphosa Paul yn pregethu, Rhuf. 16. 12: ac yno y cafodd w wyryf enwog, a'r ferthyres, Thecla, ei dychwelyd i'r ffydd. Dywedir fod yno eglwys am 800 o flynyddoedd: *Cogni* yw enw y lle yn awr, ac mae yn meddiant y Tyrciaid.

52 * A'r disgyblion [s] a gyflawnwyd o lawenydd, [t] ac o'r Yspryd Glân.

s pen. 2. 46. a 5. 41. Mat. 5. 12. Luc 6. 22, 23. Ioan 16. 22, 33. Rhuf. 5. 3. a 14. 17. a 15. 13. 2 Cor. 8. 2. 1 Thes. 1. 6. Iago 1. 2. 1 Pedr 1. 6—8. a 4. 13. t pen. 2. 4. a 4. 31. Gal. 5. 22. Eph. 5. 18—20.

* Y dysgyblion a adawodd Paul a Barnabas ar eu hol yn Antiochia, pan orfu arnynt ymadael o derfynau Pisidia i Iconium. † Er colli cymdeithas ac addysg yr apostolion, ni adawodd Duw mo honynt heb Ddyddanydd ac Addysgydd arall a gwell: hwy a lanwyd o'r Ysbryd Glân, ac o lawenydd yr Ysbryd Glân yn nghanol eu gorthrymderau. Dyma'r eglwys gyntaf o'r cenedloedd yn Asia leiaf, fel yr Antiochia arall yn Syria; a chawsant yr Ysbryd Glân yn ei ddoniau gwyrthiol fel yno.

PEN. XIV.

Erlid Paul a Barnabas allan o Iconium.

* A DIGWYDDODD yn [a] Iconium iddynt [b] fyned ynghyd i synagog yr Iuddewon, † a llefaru felly, [c] fel y credodd lliaws mawr o'r Iuddewon ac [d] ‡ o'r Groegwyr hefyd.

a pen. 13. 51. b pen. 9. 20. a 13. 46. a 17. 1, 2, 17. a 18. 4. a 19. 8. c adn. 21. pen. 11. 21. a 13. 43, 46. a 17. 4. a 18. 8. d adn. 2. pen. 16. 1. a 17. 12. a 18. 4. a 19. 10, 17. a 20. 21. a 21. 28. Marc 7. 26. Ioan 7. 35. a 12. 20. Rhuf. 1. 16. a 10. 12. 1 Cor. 1. 22—24. Gal. 2. 3. a 3. 28. Col. 3. 11.

* Am arferiad yr apostolion o fyned i synagog yr Iuddewon, gwel ar pen. 13. 14. † Llefaru gydag eglurdeb, awdurdod, a nerth yr Ysbryd Glân: fel dynion yn teimlo pwys eu cenadwri, ac yn awyddus am i eraill deimlo, a chredu hefyd er eu hiachawdwriaeth. ‡ Pa un ai Groegiaid wedi cofleidio y grefydd Iuddewig o'r blaen oedd y rhai hyn nis gwyddom: nid yw eu bod yn y synagog yn un prawf o hyny; yr oedd rhyddid i bawb i ddyfod i'r synagog, Groegiaid paganaidd yn gystal â phroselytiaid.

2 [e] * Ond yr Iuddewon anghrediniol a gyffroisant feddyliau y † Cenedloedd, ac a'u gwnaethant yn ddrwg yn erbyn y brodyr.

e adn. 19. pen. 13. 45, 50. a 17. 5, 13. a 18. 12. a 21. 27—30. Marc 15. 10, 11. 1 Thes. 2. 15, 16.

* Dyma'r Iuddewon anghrediniol eto yn Iconium yn ymddwyn yr un fath â'u brodyr yn Antiochia: po mwyaf mae yr efengyl yn llwyddo, mwyaf i gyd mae yr hen lew yn rhüo. † Y cenedloedd paganaidd oedd y rhai hyn, yn cael eu cyffroi gan yr Iuddewon i erlid y brodyr, heb wybod beth oeddynt yn wneuthur. Ni buasai y cenedloedd o honynt eu hunain yn ymyraeth dim â hwy pe cawsent lonydd.

3 [f] * Am hynny hwy a arhosasant *yno* amser mawr, [g] † gan fod yn hŷf yn yr Arglwydd, [h] ‡ yr hwn oedd yn dwyn tystiolaeth i [i] ‖ air ei ras, [k] § ac yn cenhadu gwneuthur arwyddion a rhyfeddodau trwy eu dwylaw hwynt.

f pen. 18. 9—11. a 19. 10. 1 Cor. 16. 8, 9. g pen. 13. 46. Eph. 6. 18—20. 1 Thes. 2. 2. h pen. 2. 22. a 5. 32. Marc 16. 20. Heb. 2. 4. i pen. 20. 24, 32. Rhuf. 1. 16. k pen. 4. 29, 30. a 5. 12—14. a 19. 11, 12.

* Er yr erlid a gyfodwyd yn erbyn y brodyr, safodd yr apostolion eu tir yn wrol, i'r dyben o gadarnâu y dysgyblion ieuainc yn y ffydd, ac i ddyoddef erlid er mwyn enw a chrefydd Iesu. † Yr oeddynt yn hŷf yn Ysbryd yr Arglwydd, yn ngwaith, a thros efengyl ac achos yr Arglwydd, gan fod a'u hymddiried yn ddiysgog yn yr Arglwydd. ‡ Nid oedd eu hymddiried na'u llafur yn ofer; yr oedd Duw gyda hwynt, yn eu nerthu ac yn eu llwyddo; ac fel hyny yn dwyn tystiolaeth i wirionedd a dwyfol awdurdod yr efengyl. ‖ Gair ei ras ef yw yr efengyl:—peth o ras ydyw; datguddio gras Duw y mae; a thrwyddi y mae gras yn cael ei gyfrannu a'i feithrin yn nghalonau y saint. § Yr oedd Paul a Barnabas yn gwneyd gwyrthiau yn enw yr Arglwydd Iesu, yr hyn oedd brawf pellach o wirionedd a dwyfoldeb eu cenadwri a'u danfoniad.

4 [l] * Eithr lliaws y ddinas a rannwyd: a rhai oedd gyd a'r Iuddewon, a rhai gyd â'r [m] † apostolion.

l Mica 7. 6. Mat. 10. 34—36. Luc 2. 34. a 11. 21—23. a 12. 51—53. Ioan 7. 43. m adn. 14. pen. 13. 2. 1 Cor. 9. 5, 6.

* Felly y bu yn nghylch Crist a'i athrawiaeth, Ioan 7. 43: ac wrth fod lliaws y ddinas wedi ymranu fel hyn, nis gallai y blaid erlidgar wneuthur llawer o niwed gan y blaid oedd yn eu herbyn: fel hyny attaliodd Duw i raddau yr erlidigaeth. † Dyma y tro cyntaf y crybwylla Luc am Paul a Barnabas dàn yr enw apostolion. Gwel ddiwedd y sylwad ar pen. 13. 2.

5 [n] * A phan wnaethpwyd rhuthr gan y Cenhedloedd a'r Iuddewon, ynghyd â'u llywodraethwyr, i'*w* [o] hamherchi *hwy*, ac i'w llabyddio,

n pen. 4. 25—29. a 17. 5. Salm 2. 1—3. a 83. 5. 2 Tim. 3. 11. o Mat. 5. 44. Luc 6. 28.

* Attaliwyd y gelyniaeth am ryw hyd, gan y blaid oedd o du yr apostolion; ond wedi i'r erlidwyr gael llywodraethwyr y ddinas i'w cefnogi, tòrodd y gronfa, a bwriadasant wneyd rhuthr disymmwth ar y ddau apostol, i'w hanmharchu a'u llabyddio fel drwg-weithredwyr a chablwyr.

6 [p] * Hwythau a ddeallasant *hyn*, [q] † ac a ffoisant [r] ‡ i Lystra a Derbe, dinasoedd o [s] Lycaonia, ‖ ac i'r wlad oddi amgylch:

p pen. 9. 24. a 17. 13, 14. a 23. 12, &c. 2 Bren. 6. 8—12. q Mat. 10. 23. r adn. 20, 21. pen. 16. 1, 2. 2 Tim. 3. 11. s adn. 11.

* Pan oedd y gelynion wedi ymgasglu, ac ar ruthro am eu penau, cafodd yr apostolion wybod rywfodd am eu dyfodiad, yn unig mewn pryd i ddianc am eu heinioes. Tybia rhai iddynt ddeall y peth trwy ysbrydoliaeth union-gyrchol; ond nid oes sail i feddwl hyny, nac achos ychwaith: gallai Duw ddatguddio peth o'r fath hyn iddynt trwy foddion naturiol yn bur hawdd. † Felly y gorchymynasai yr Iesu iddynt, Matth. 10. 23. ‡ Dwy ddinas arall yn nhalaeth Lycaonia, i'r dehau o Iconium. Yn Lystra y ganed Timothëus, pen. 16. 1. ‖ I'r pentrefydd o amgylch, i bregethu yr efengyl o hyd, er maint y perygl o wneyd hyny.

7 [t] * Ac yno y buant yn efengylu.

t adn. 21. pen. 8. 4. a 11. 19. a 17. 2, 3. 1 Thes. 2. 2. 2 Tim. 4. 2.

* Goruwch-lywodraethodd Duw yr erlid yn y naill fàn, i'r efengyl gael ei phregethu mewn mànau eraill; fel yr haul yn gadael un parth o'r byd, i dywynu ar y parth arall.

8 ¶ Ac yr oedd gwr yn eistedd yn Lystra

yn [u] ddiffrwyth ei draed, [x] * yr hwn oedd gloff
o groth ei fam, † ac ni rodiasai erioed.

u pen. 4. 9. Ioan 5. 3, 7. x pen. 3. 2. Ioan 5. 5. a 9. 1, 2.

* Mae diffygion ac anafau cynnwynawl fel hyn yn anfeddyginiaethol drwy gelfyddyd, nid oes dim ond gallu union-gyrchol Duw a ddichon eu meddyginiaethu. † Dywedir hyn yn chwanegol er dangos mawredd y wyrth o'i iachâu ef.

9 * Hwn a glybu Paul yn llefaru; [y] yr hwn
wrth edrych yn graff arno, [z] † a gweled fod
ganddo ffydd i gael iechyd,

y pen. 3. 4. z Mat. 9. 22, 28, 29. a 13. 58. a 15. 28. Marc 1. 40, 41. a 2. 5, 11, 12. a 9. 23, 24. a 10. 52.

* Mae yn debyg mai eistedd yn cardota yr oedd y cloff hwn yn rhywle, fel hwnw wrth borth Prydferth y deml, pen. 3. 2; a threfnodd rhagluniaeth Duw i Paul bregethu yn agos i'r fàn lle yr oedd efe: mòr agos ag y gallai efe glywed Paul, a Phaul i graffu arno yntau. † Efallai iddo gasglu fod ganddo ffydd i gael iachâd wrth y difrifwch nodedig a welai yn ei wynebpryd ef; ond tybir iddo wybod hyny yn benaf, trwy ddatguddiad uniongyrchol, neu ysbrydoliaeth Duw; a gwybod hefyd fod yn rhaid iddo ef wneyd gwyrth y pryd hwnw ar y dyn hwn, er cadarnâu yr efengyl yn Lystra.

10 * A ddywedodd â llef uchel, [a] † Saf ar
dy draed yn uniawn. ‡ Ac efe a neidiodd *i*
fynu, ac a rodiodd.

a pen. 3. 6—8. a 9. 33, 34. Es. 35. 6. Luc 7. 14. a 13. 11—13. Ioan 5. 8, 9. a 14. 12.

* Dywedodd â llef uchel, i dynu sylw pawb at yr hyn oedd yn myned i'w wneyd, ac hefyd i ddangos ei hyder sicr y gwnelai Duw y wyrth gyda'i air ef. † Mewn rhai ysgrifau a hen gyfieithiadau, darllenir fel hyn:—Yr wyf yn dywedyd i ti, "Yn enw yr Arglwydd Iesu Grist, saf ar dy draed yn uniawn:" ac mae yn bur debyg i'r apostol ddywedyd felly, neu rywbeth yn debyg i hyny, wrth wneyd ei wyrth gyntaf yn Lystra, lle yr oedd yr efengyl newydd ddechreu cael ei phregethu, i baganiaid gan mwyaf oll. ‡ Fel yn pen. 3. 8.

11 * A phan welodd y bobloedd y peth a
wnaethai Paul, hwy a godasant eu llef, gan
ddywedyd † yn iaith Lycaonia, [b] ‡ Y duwiau
yn rhith dynion a ddisgynasant attom.

b pen. 8. 10. a 12. 22. a 28. 6.

* Ni welsai y paganiaid hyn y fath beth erioed, a synasant wrth ei weled. † Cangeniaith o'r Groeg, medd rhai; o'r Syriaeg, medd eraill; oedd iaith Lycaonia: nid yw dysgedigion yn cytuno pa un ydoedd. ‡ Dywedai y philosophyddion a'r beirdd paganaidd wrth y bobl, y byddai y duwiau weithiau yn ymddangos i ddynion, a phob amser yn rhith dynion. Clywed a wnaethant, mae yn debyg, gan rai o'r Iuddewon, am ymddangosiadau goruwch-naturiol gynt i'r patriarchiaid, ac o hyny y tarddodd y dychymmyg. Pan oedd Mab Duw ei hun yn gwneyd gwyrthiau, taerai yr Iuddewon mai trwy Beelzebub yr oedd yn eu gwneyd; yma, wele baganiaid hollawl, wrth weled dyn yn unig yn gwneyd gwyrth, yn tybied mai y duwiau yn rhith dynion oedd wedi dyfod i'w plith.

12 * A hwy a alwasant † Barnabas, yn
[c] Jupiter; ‡ a Phaul, yn Mercurius, oblegid efe
oedd yr ymadroddwr pennaf.

c pen. 19. 35.

* Dywedid mai Jupiter a Mercurius (Iau a Mercher) oedd yn ymddangos amlaf i ddynion o'r holl dduwiau. † Jupiter oedd prif dduw y bobl hyn, ac wrth fod Barnabas yn edrych yn henaf ac yn fwyaf parchus-wedd o'r ddau, tybient mai efe oedd Jupiter. ‡ Mercher oedd cenadwr a dehonglydd y duwiau eraill, a duw ffraethineb a hyawdledd; gan hyny tybient mai Paul oedd efe, am mai Paul oedd yr ymadroddwr penaf, neu yn ymadroddi fwyaf, o'r ddau.

13 * Yna offeiriad Jupiter, † yr hwn oedd
o flaen eu dinas, ‡ a ddug deirw a garlantau
‖ i'r pyrth, [d] § ac a fynnasai gyd â'r bobl
aberthu.

d pen. 10. 25. Dan. 2. 46.

* Yr un fath bobl ac offeiriad, ac yr un fath offeiriad a phobl hefyd yma; pan glywodd offeiriad Jupiter lef y bobl yn gwaeddi fod y duwiau wedi dyfod atynt, tybiodd mai gwir oedd y peth, a brysiodd i aberthu iddynt. † Jupiter oedd duw gwarcheidiawl Lystra, ac yr oedd teml iddo ef o flaen porth y ddinas, y tu allan, a'i ddelw yntau yn y deml. Yr oedd llawer o ddelwau i Jupiter, a thybiai y paganiaid druain, fod ysbryd Jupiter ei hun yn preswylio yn mhob un o honynt: ac fel hyn y rhaid i ni ddeall chwedl un awdwr paganaidd, am ddau Jupiter yn syrthio allan â'u gilydd. ‡ Byddai y paganiaid yn arfer coroni delwau eu duwiau, a'r anifeiliaid hefyd a aberthent iddynt, â blodau wedi eu plethu yn gywrain ar ddull coron neu dalaith. Bwriadent goroni Paul a Barnabas â'r blodau hyn fel duwiau, ac yna aberthu y teirw iddynt. ‖ Pyrth y tŷ lle yr oedd Paul a Barnabas. § Mynnasai yr offeiriad a'r bobl aberthu iddynt, er cydnabyddiaeth o'u dwyfoldeb, er diolch am eu hymweliad, ac er gofyn eu nawdd a'u diffyniad o hyny allan.

14 [e] * A'r apostolion Barnabas a Phaul,
pan glywsant *hynny,* [f] a rwygasant eu dillad,
ac a neidiasant ym mhlith y bobl, gan lefain,

e adn. 4. 1 Cor. 9. 5, 6. f 2 Bren. 5. 7. a 18. 37. a 19. 1, 2. Ezra 9. 3—5. Jer. 36. 24. Mat. 26. 65.

* Pan ddeallodd yr apostolion eu hamcan hwynt, cyffrôdd a gofidiodd hyny hwy yn fwy na'r holl erlidiau a gawsant: nid yn unig yr oeddynt yn ofidus o herwydd eilun-addoliaeth y bobl, ond yr oedd y meddwl mai *hwy* oedd gwrthddrychau eu heilun-addoliaeth y tro hwn, yn eu gofidio yn ddirfawr iawn. Gwahanol iawn oedd eu hymddygiad hwy i ymddygiad Herod pan ei canmolwyd ef, pen. 12. 21—23: a llawer o'r ymherawdwyr paganaidd, a gymmerent eu haddoli.

15 A dywedyd, [g] *Ha* wŷr, [h] paham y gwne-
wch chwi y pethau hyn? [i] * dynion hefyd
ydym ninnau, [k] † yn gorfod goddef fel chwi-
thau, [l] ‡ ac yn pregethu i chwi ar i chwi droi
[m] oddi wrth y pethau gweigion yma at [n] Dduw
byw, [o] ‖ yr hwn a wnaeth nef a daear, a'r môr,
a'r holl bethau sydd ynddynt:

g pen. 7. 26. a 16. 30. a 27. 10, 21, 25. h pen. 10. 26. Dat. 19. 10. a 22. 9. i pen. 3. 12, 13. a 12. 22, 23. Gen. 41. 16. Dan. 2. 28—30. Ioan 7. 18. k Iago 5. 17. l pen. 17. 16—18, 29, 30. a 26. 17—20. m Deut. 32. 21. 1 Sam. 12. 21. 1 Bren. 16. 13, 26. Salm 31. 6. Es. 44. 9, 10, 19, 20. a 45. 20. a 46. 7. Jer. 8. 19. a 10. 3—5, 8, 14, 15. a 14. 22. Amos 2. 4. Jona 2. 8. Rhuf. 1. 21—23. 1 Cor. 8. 4. Eph. 4. 17. n Deut. 5. 26. Jos. 3. 10. 1 Sam. 17. 26, 36. 2 Bren. 19. 4, 16. Jer. 10. 10. Dan. 6. 26. Ioan 5. 26. 1 Thes. 1. 9. 1 Tim. 3. 15. Heb. 3. 12. o pen. 4. 24. a 17. 24—28. Gen. 1. 1. Salm 33. 6. a 124. 8. a 146. 5, 6. Diar. 8. 23—31. Es. 45. 18. Jer. 10. 11. a 32. 17. Zec. 12. 1. Rhuf. 1. 20. Dat. 14. 7.

* Dynion ydym ni, ac nid duwiau yn rhith dynion, fel y dychymmygwch chwi; gan hyny, paham y gwnewch chwi mòr ynfyd ac annuwiol fel hyn. † O nwydau fel chwithau yw y cyfieithiad Saesoneg, yma ac yn Iago 5. 17; gwell o lawer yw ein cyfieithiad ni yn y ddau le; "yn gorfod goddef," "yn rhaid iddo ddyoddef:" sef goddef newyn, syched, afiechyd, holl wendidau naturiol dynoliaeth, a marwolaeth ei hun yn y diwedd. Nid sôn am nwydau llygredig yr oedd yr apostol, ond am waeleddau dibechod y natur ddynol. ‡ Yn lle derbyn addoliad gan y paganiaid hyn, mae yr apostolion yn dywedyd wrthynt, mai i'r dyben o'u troi hwynt oddiwrth y pethau gweigion hyn at y gwir Dduw, y daethant hwy atynt. "Y pethau gweigion yma:" dull hŷf o ymadroddi oedd hyn, wrth dyrfa fawr o eilun-addolwyr rhagfarnus, a'u hoffeiriad gyda hwynt: nis medrai y goreu o'r philosophyddion paganaidd fod mòr ddidderbyn wyneb â hyn. Yn nechreu yr adnod maent yn eu cyfarch yn barchus, fel dynion; ac yma yn eu hargyhoeddi

yn llŷm, fel eilun-addolwyr ffolion. ‖ Dywedent fel hyn am y gwir Dduw i'w wahaniaethu ef oddiwrth, a dangos ei ragoriaeth ef ar, bob eilunod a gan dduwiau. Nis gwyddai y paganiaid hyn ddim am y datguddiad dwyfol, yr ysgrythyrau; am hyny mae yr apostolion yn pregethu y gwir Dduw iddynt allan o lyfr mawr y grëadigaeth.

16 * Yr hwn yn yr oesoedd gynt a [p] oddefodd i'r holl genhedloedd fyned yn † eu ffyrdd eu hunain.

p pen. 17. 30. Salm 81. 12. a 147. 20. Hos. 4. 17. Rhuf. 1. 21—25, 28. Eph. 2. 12. 1 Pedr 4. 3.

* Gallasai y bobl hyn ddadlau, bod eu crefydd hwy o eilun-addoliaeth a gan dduwiaeth, yn hen grefydd, ac yn grefydd gyffredinol y rhan fwyaf o'r byd: i ragflaenu hyny, mae yr apostolion yn dywedyd mai Duw a oddefodd ei bod felly, yn ei farn gyfiawn ar y byd, am i ddynion gilio oddi wrtho ef: ac a oddefodd y fath arferion hefyd yn ei hir amynedd, heb ddystrywio'r byd o'u herwydd. † Ffyrdd o ddewisiad dynion, ac nid yn ol gorchymyn Duw.

17 * Er hynny [q] ni adawodd efe mo hono ei hun yn ddidyst, [r] gan wneuthur daioni, [s] † a rhoddi gwlaw o'r nefoedd i ni, a thymhorau ffrwythlawn, [t] a llenwi ein calonnau ni â llunieiaeth ac â llawenydd.

q pen. 17. 27, 28. Salm 19. 1—4. Rhuf. 1. 19, 20. r Salm 36. 5—7. a 52. 1. a 104. 24—28. a 145. 9, 15, 16. Luc 6. 35. s Lef. 26. 4. Deut. 11. 14. a 28. 12. 1 Bren. 18. 1. Job 5. 10. a 37. 6. a 38. 26—28. Salm 65. 9—13. a 68. 9, 10. a 147. 7, 8. Es. 5. 6. Jer. 5. 24. a 14. 22. Mat. 5. 45. Iago 5. 17, 18. t Deut. 8. 12—14. Neh. 9. 25. Es. 22. 13. 1 Tim. 6. 17.

* Er gadael dynion felly i oleuni natur, ac heb y datguddiad dwyfol, eto ni adawodd efe mo hono ei hun yn ddidyst; yr oedd ei drugareddau tymmorawl ef bob dydd yn dystion o'i ofal ef am ddynolryw, a'i ddaioni ef iddynt: yr un fath a phe byddai cyfaill neu gymmwynaswr, yn danfon rhoddion aml i ryw un; er na byddai byth yn ysgrifenu ato, eto byddai ei roddion parâus yn brawf ei fod ef yn fyw, ac yn parâu yn ei ddaioni a'i gymmwynasgarwch. † Crybwyllir y "gwlaw" yma gyda llawer iawn o briodoldeb, pan ystyriom, y byddai y paganiaid yn arfer dywedyd, mai *Duw* oedd yn rhoddi y *gwlaw*, ac nid y *duwiau*, fel y dywedent am drugareddau cyffredinol eraill. Felly yn ol eu traddodiad eu hunain, Duw a ddylasai gael ei addoli, ac nid gaudduwiau o ddychymmygion dynion.

18 * Ac er dywedyd y pethau hyn, [u] braidd yr attaliasant y bobl rhag aberthu iddynt.

u Gen. 11. 6. a 19. 9. Ex. 32. 21—23. Jer. 44. 16, 17. Ioan 6. 15.

* Mòr anodd yw darbwyllo dynion i adael hen bechodau arferedig, ac yn enwedig i adael y grefydd gyfeiliornus hòno, yr hon y cawsant eu dwyn i fynu ynddi. Mae yn debyg fod y bobl hyn yn dra anfoddlawn i'r ddau apostol, am na chymmerasant eu haddoli ganddynt hwy. Cynnygiad tra digywilydd o'r eiddo satan oedd hwn, yn ceisio rhoddi addoliad dwyfol i ddynion, a hyny drwy y *dynion hyny* a ddanfonwyd i droi y paganiaid oddiwrth y cyfryw bethau.

19 ¶ [x] * A daeth yno Iuddewon o Antiochia ac Iconium, [y] † a hwy a berswadiasant y bobl; [z] ac wedi llabyddio Paul, [a] a'i llusgasant *ef* allan o'r ddinas, [b] gan dybied ei fod ef wedi marw.

x pen. 13. 45, 50, 51. a 17. 13. y Mat. 27. 20—25. Marc 15. 11—14. z pen. 7. 58. a 9. 16. a 22. 20. 2 Cor. 11. 25. 2 Tim. 3. 11. a Jer. 22. 19. Heb. 13. 12, 13. b 1 Cor. 15. 31. 2 Cor. 4. 10—12. a 11. 23.

* Nid oedd braidd neb ond paganiaid yn Lystra, ac mae yn debyg na buasai y rhai hyny o'u rhan eu hunain yn meddwl dim am erlid yr apostolion, yn enwedig wedi gweled y fath wyrth, a chlywed y fath bethau ganddynt. Ond nid hir iawn y buont yno heb i'w hen elynion Iuddewig, o Antiochia ac Iconium, glywed am danynt, ac am eu llwyddiant, y rhai a ddaethant yno i godi erlid yn eu herbyn. † Y bobl a fynasent aberthu iddynt, a'u haddoli fel duwiau, ychydig bach o'r blaen: mòr gyfnewidiol ydyw dynion, a lleied o ymddiried sydd i'w roddi mewn dyn! "Hosanna i Fab Dafydd," medd y torfêydd yn Jerusalem un diwrnod; "Croeshoelier ef," medd llawer o'r un dynion, yn mhen ychydig iawn wedi hyny. ‡ Mae yn debyg fod yr Iuddewon yn fwy llidiog yn erbyn Paul a Barnabas: llabyddiasant ef yn derfysglyd, heb un math o brawf na rhaith, dim ond tra gelyniaeth a llidiowgrwydd. Mae Paul yn cyfeirio at hyn ddwy waith, 2 Cor. 11. 25; 2 Tim. 3. 10, 11.

20 [c] Ac fel yr oedd * y disgyblion yn † sefyll o'i amgylch, ‡ efe a gyfododd, [d] ac a aeth i'r ddinas: ‖ a thrannoeth efe a aeth allan, *efe* a Barnabas, i [e] Derbe.

c pen. 20. 9—12. 2 Cor. 1. 9, 10. a 6. 9. Dat. 11. 7—12. d pen. 12. 17. a 16. 40. a 20. 1. e adn. 6. pen. 16. 1.

* Y rhai oedd wedi cael eu galw yn Lystra a'i hamgylchoedd trwy weinidogaeth Paul a Barnabas. † Safent o amgylch iddo i alaru am dano, ac i'w gladdu os deallent ei fod ef yn sicr wedi llwyr farw. ‡ Er nad oedd Paul wedi llwyr farw, eto, wedi ei labyddio, ei archolli, a'i lusgo allan o'r ddinas fel y cafodd; nid oedd ei gyfodiad sydyn ef fel hyn mòr fuan, ddim llai na gwyrth oruwch-naturiol yn sicr; a'r peth nesaf i adgyfodiad o feirw a allasai fod. ‖ Rhaid iddo gyfodi yn ei gyflawn nerth hefyd, ac yn berffaith iach a dianaf; oblegid efe a aeth i'r ddinas yn y fàn, a thranoeth i Derbe gyda Barnabas. Un rhyfedd yw Duw o blaid ei bobl.

21 * Ac wedi iddynt bregethu yr efengyl i'r ddinas honno, ac ynnill llawer o ddisgyblion, † hwy a ddychwelasant i [f] Lystra, ac Iconium, ac Antiochia,

f adn. 1, 6, 8, 19. pen. 13. 14, 51. a 15. 36. a 16. 2. 2 Tim. 3. 11.

* Er nad oedd Paul a Barnabas yn mhell iawn oddiwrth eu gelynion yn Derbe; hwy a anturiasant bregethu yr efengyl yno er pob enbydrwydd, a llwyddodd Duw eu llafur i ennill llawer o ddysgyblion yn y ddinas hòno. † Er cael eu herlid o'r blaen yn mhob un o'r mànau a enwir, mae yr apostolion yn anturio eto i'r lleoedd hyny i ddyfrâu yr had a hauasent yno o'r blaen.

22 [g] * Gan gadarnhâu eneidiau y disgyblion, [h] † *a*'u cynghori i aros yn y ffydd, [i] ‡ ac mai trwy lawer o orthrymderau y mae yn rhaid i ni [k] fyned i deyrnas Dduw.

g pen. 15. 32, 41. a 18. 23. Es. 35. 3. 1 Cor. 1. 8. 1 Thes. 3. 2—4, 13. 1 Pedr 5. 10. h pen. 11. 23. a 13. 43. Ioan 8. 31, 32. a 15. 4—6, 9, 10. Col. 1. 23. Judas 3. 20, 21. i Mat. 10. 21, 22, 38. a 16. 24. Luc 22. 28, 29. a 24. 26. Ioan 12. 25, 26. a 16. 1, 2, 33. Rhuf. 8. 17. 1 Thes. 3. 4. 2 Tim. 1. 8. a 2. 11, 12. a 3. 12. 1 Pedr 4. 12—16. Dat. 2. 10. a 7. 14. k Mat. 19. 24. Marc 9. 47. a 10. 24, 25. Ioan 3. 5. 2 Pedr 1. 11.

* Nid yw yn ddigon troi yr enaid, mae yn angenrheidiol arfer moddion i gadarnâu yr enaid ar ol ei droi, mewn gwybodaeth, mewn cariad, mewn ffyddlondeb, ac mewn ymlyniad diysgog wrth yr Arglwydd. † Trwy gyngori tirion y mae hyn i'w wneyd, fel tad ei blant anwyl: dangos y perygl o dynu yn ol, a'r dedwyddwch o barâu yn ffyddlawn hyd angau. ‡ Felly y dywedodd yr Arglwydd Iesu, Ioan 16. 33; felly y cysgodwyd yn ngorthrymderau plant Israel yn yr anialwch; ac felly y profodd holl wir blant Duw erioed.

23 [l] * Ac wedi ordeinio iddynt [m] henuriaid ym mhob eglwys, [n] † a gweddïo gyd âg ymprydiau, [o] ‡ hwy a'u gorchymynasant hwynt i'r Arglwydd, yr hwn y credasent ynddo.

l pen. 1. 22. Marc 3. 14. 1 Tim. 5. 22. 2 Tim. 2. 2. Tit. 1. 5. m pen. 11. 30. a 15. 4, 6, 23. a 20. 17. 1 Tim. 5. 1, 17—19. Iago 5. 14. 1 Pedr 5. 1. 2 Ioan 1. 3 Ioan 1. n pen. 13. 1—3. o adn. 26. pen. 20. 32. Luc 23. 46. 1 Thes. 3. 12, 13. 2 Thes. 2. 16, 17. 2 Tim. 1. 12. 1 Pedr 5. 10.

* Gwedi casglu a sefydlu eglwysi yn yr amrywiol leoedd a enwyd; er iawn drefn pethau yn eu plith, yr oedd yn angenrheidiol edrych allan am ryw bersonau addas yn mhob un o'r mànau hyny, i weinidogaethu yn gyhoeddus yn eu plith, i weini yr ordinadau eglwysig, ac i gadw llywodraeth a dysgyblaeth yn yr eglwys, yn absenoldeb yr apostolion: mae yn debyg fod yr henuriaid uchod yn gwneyd pob un o'r pethau a enwyd. Mae y gair Groeg *(cheirotonêsantes)* a gyfieithir yma "ordeinio," yn arwyddo estyn allan, neu dderchafu y llaw: dewis i swydd, eglwysig neu wladol, trwy godiad dwylo, fel y gwnair yn aml yn ein gwlad ni eto. Nid yw y gair mewn un modd yn arwyddo gosodiad dwylo ar ben y neb a neilldüid; ac nid yw hyny yn debyg yn yr unig fàn arall y ceir y gair o hyn allan yn y Testament Newydd, 2 Cor. 8. 19: dewis yw y cyfieithiad o hóno yno. † Mae yn naturiol i ni feddwl fod y cydgordiad mwyaf rhwng yr apostolion a'r eglwysi yn y dewisiad a'r neilldüad o'r henuriaid hyn, ac yr oedd y weithred bwysig yn cael ei sancteiddio trwy weddïau ac ympryd. ‡ Gorchymynasant bawb o honynt, yr eglwysi a'u henuriaid hefyd, i ofal yr Arglwydd Iesu, y Pen Bugail, yr hwn y credasent ynddo.

24 * Ac wedi iddynt dramwy trwy [p] Pisidia, hwy a ddaethant i Pamphylia.

p pen. 13. 13, 14. a 15. 38.

* Yn Pamphylia y tiriasent pan ddaethent o Paphus yn Cyprus; felly ni a welwn mai myned yn eu hol yr oeddynt yn awr o hyd. Gwel pen. 13. 13, 14.

25 Ac wedi pregethu y gair yn * Perga, hwy a ddaethant i waered i † Attalia:

* Y lle y tiriasant ar eu dyfodiad o Cyprus, pen. 13. 13, a lle yr ymadawodd Ioan â hwy. † Dinas arall yn Pamphylia, porthladd fel Perga, ar làn môr y canoldir. Deallid sefyllfaoedd y gwahanol fànau a enwir yn yr ysgrythyrau yn well o lawer trwy y darlun, *(Map)* na thrwy ddim dysgrifiad a ellir wneyd o honynt mewn geiriau.

26 * Ac oddi yno a fordwyasant i [q] Antiochia, o'r lle yr oeddynt [r] † wedi eu gorchymyn i ras Duw i'r [s] gorchwyl a gyflawnasant.

q pen. 11. 19, 26. a 13. 1. a 15. 22, 30. Gal. 2. 11. r adn. 23. pen. 13. 1—3. a 15. 40. a 20. 32. 2 Cor. 1. 12. 3 Ioan 6—8. s Rhuf. 15. 19. Col. 1. 25, 28, 29. a 4. 17. 2 Tim. 4. 2, 5—8.

* Antiochia yn Syria oedd hon, o ba le y cychwynasent i'r daith hir-faith hon yn y dechreu. Gwel pen. 13. 1—4. Yr oedd yn agosach, ac yn llai llafurus o lawer, iddynt fyned yno ar hyd y môr o Attalia, na theithio ar hyd y tir. † Am y gorchymyn hwn i ras Duw yn eu cychwyniad, gwel pen. 13. 3: yn nghyd â'r sylwad yno.

27 * Ac wedi iddynt ddyfod a [t] chynnull yr eglwys ynghyd, [u] adrodd a wnaethant faint o bethau † a wnaethai Duw gyd â hwy, [x] ‡ ac iddo ef agoryd i'r Cenhedloedd ddrws y ffydd.

t pen. 15. 4—6. a 21. 20—22. 1 Cor. 5. 4. a 11, 18. a 14. 23. u pen. 15. 4, 12. a 21. 19. Rhuf. 15. 18. 1 Cor. 3. 5—9. a 15. 10. x pen. 11. 18. Ioan 10. 9. 1 Cor. 16. 9. 2 Cor. 2. 12. Col. 4. 3. Dat. 3. 7, 8.

* Gan i'r eglwys eu danfon yn y dechreu trwy weddïau ac ympryd, yr oedd yn iawn i'r brodyr yno gael clywed eu helynt, a pha fodd yr oeddynt wedi llwyddo neu aflwyddo. † Priodolent eu holl lwyddiant i Dduw, ac nid iddynt eu hunain: heb Dduw beth a all neb o'r cenadau wneyd; ac os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n herbyn. ‡ I genedloedd nad oedd wedi elywed yr efengyl erioed o'r blaen, ac i'r cenedloedd yn benaf y bendithiodd Duw eu llafur hwynt yn y daith hon, o'r hon maent newydd ddychwelyd. Nid oedd ond megys y cnu gwlân o'r cenedloedd wedi ei wlychu o'r blaen, a'r holl ddaear o amgylch yn sych; yn awr yr oedd yr holl wledydd wedi cael eu gwlychu gan wlith yr efengyl: ynys Cyprus drwyddi oll ac amryw daleithiau ehang yn Asia leiaf.

28 [y] * Ac yno yr arhosasant hwy dros hir o amser gyd â'r disgyblion.

y pen. 11. 26. a 15. 35.

* Ar ol cymmaint o lafur a lludded, yr oedd yn angenrheidiol iawn cael gorphwys, ac yn werthfawr iawn cael lle a brodyr mòr ddymunol i orphwys gyda hwynt: ond ni ddylem feddwl fod Paul a Barnabas yn segur am yr "hir o amser" hwn; nis gallent hwy dreulio eu hamser felly, ac yr oedd yn Antiochia ddigon o waith iddynt mewn eglwys mòr liosog.

PEN. XV.

Ymryson mawr yn cyfodi yn nghylch yr enwaediad.

[a] * ARHAI wedi dyfod i waered o Judea, [b] † a ddysgasant y brodyr, *gan ddywedyd,* [c] ‡ Onid enwaedir chwi [d] yn ol defod Moses, [e] ni ellwch fod yn gadwedig.

a pen. 21. 20. Gal. 2. 4, 12, 13. b adn. 23. c adn. 5. Rhuf. 4. 8—12. Gal. 5. 1—4. Phil. 3. 2, 3. Col. 2. 11, 12. d Gen. 17. 10, &c. Lef. 12. 3. Ioan 7. 22. e adn. 24. 1 Cor. 7. 18, 19. Gal. 2. 3. a 5. 6. a 6. 13—16.

* Mae yn debyg fod y gau-frodyr a'r gau-athrawon hyn yn dywedyd iddynt gael eu danfon gan yr apostolion a'r eglwys yn Jerusalem, adn. 24, ac wrth eu bod yn dyfod o Judea, yr oedd yn dueddol i'r brodyr yn Antiochia goelio hyny. † Y brodyr o'r cenedloedd yn Antiochia, y rhai a dderbyniasid i'r eglwys yn eu dïenwaediad. ‡ Ni orchymynodd Duw enwaediad erioed i neb ond i had Abraham, nac iddynt hwy ychwaith ond fel cysgod o beth gwell, ac i barâu ond hyd newidiad yr oruchwyliaeth: ac eto dyma ddynion a gauant wir gredinwyr allan o'r bywyd tragywyddol oddigerth iddynt gymmeryd eu henwaedu. Tost yw rhagfarn mewn pethau crefyddol.

2 [f] * *A* phan ydoedd ymryson a dadleu nid bychan gan Paul a Barnabas yn eu herbyn, [g] † hwy a ordeiniasant fyned o Paul a Barnabas, [h] a rhai eraill o honynt, [i] i fynu i Jerusalem, [k] ‡ at yr apostolion a'r henuriaid, ynghylch y cwestiwn yma.

f adn. 7. Gal. 1. 6—10. a 2. 5. Judas 3. g adn. 25. Ex. 18. 23. Gal. 2. 1, 2. h adn. 22, 27. pen. 10. 23. a 11. 12. i adn. 4, 22, 23. 1 Sam. 8. 7. 1 Cor. 9. 19—23. Gal. 2. 2. Philemon 8, 9. k adn. 6, 23. pen. 21. 18. 1 Cor. 1. 1. 2 Cor. 11. 5.

* Yr oedd y cyfeiliornad uchod yn dramgwyddus ac yn ddigalonus iawn i'r dychweledigion ieuainc o'r cenedloedd, ynr hwystr dirfawr i lwyddiant yr efengyl; ar yr un pryd yr oedd yn erbyn yr athrawiaeth o gyfiawnâd trwy ffydd, ac yn tueddu i ddadymchwelyd y cwbl o wir Gristionogaeth: gan hyny nid rhyfedd fod Paul a Barnabas yn dadlau yn gadarn yn erbyn y fath gyfeiliornad niweidiol. † Penderfynodd yr eglwys yn Antiochia, ddanfon Paul a Barnabas, a rhai dewisedig eraill, at y fam eglwys yn Jerusalem, yn nghylch y pwnc gofidus hwn. ‡ Tybir fod Pedr, Iago, ac Ioan yn Jerusalem y pryd hwnw. Dyma'r drydedd waith i Paul fyned i Jerusalem wedi ei dröedigaeth. Gwel pen. 9. 26; a 11. 29, 30, am y ddau dro arall. Mae efe yn crybwyll am y tro hwn yn Galat. 2. 1—3: yno mae yn dywedyd mai wedi pedair blynedd ar ddeg, o'i dröedigaeth mae yn debyg, ydoedd; iddo gymmeryd Titus gydag ef; ac mai yn ol datguddiad yr aethai i fynu: cafodd ef neu rai o'r prophwydi yn Antiochia, ryw ddatguddiad yn ddïammau, i'w cyfarwyddo i ddanfon Paul a Barnabas ar y neges hwn.

3 [l] * Ac wedi eu hebrwng gan yr eglwys, [m] † hwy a dramwyasant trwy Phenice a Samaria, [n] ‡ gan fynegi tröad y Cenhedloedd. [o] ‖ A hwy a barasant lawenydd mawr i'r brodyr oll.

l pen. 21. 5. a 28. 15. Rhuf. 15. 24. 1 Cor. 16. 6, 11. Tit. 3. 13. 3 Ioan 6—8. m pen. 8. 14. a 11. 19. n adn. 12. pen. 14. 27.

a 21. 19, 20. o pen. 11. 18. a 13. 48, 52. Es. 60. 4, 5. a 66. 12—14. Luc 15. 5—10, 23, 24, 32.

* Hebryngwyd hwy ran o'r ffordd gan rai o'r brodyr, i ddangos eu parch iddynt, ac i ddangos mai ar anfoniad yr eglwys yr oeddynt yn myned, ac nid o'u penau eu hunain. † Gwlad hir-fain oedd Phenice, yn gorwedd ar làn môr y canoldir, ac ar y ffordd o Antiochia i Samaria a Jerusalem: yno yr oedd Tyrus a Sidon, a llawer o ddinasoedd eraill a fu yn enwog gynt. ‡ Tröad y cenedloedd paganaidd a feddylir, yn nhaith ddiweddar Paul a Barnabas: gwyddent yn ddïammau am dröad y cenedloedd yn nhŷ Cornelius yn mhell cyn hyn, ac codid na wyddent hefyd am dröad y cenedloedd yn Antiochia cyn hyn. || Mae yn debyg mai Iuddewon cristionogol oedd y "brodyr" hyn, wedi cael eu galw drwy y rhai a wasgarasid o herwydd y blinder a godasai yn nghylch Stephan. Tramwyodd y rhai hyny hyd Phenice, a Cyprus, ac Antiochia, heb lefaru y gair wrth neb ond wrth yr Iuddewon yn unig: pen. 11. 19. Nid oes dim yn fwy llawenydd i ddyn duwiol na chlywed am achub eneidiau, a helaethu teyrnas y Gwaredwr.

4 Ac wedi eu dyfod hwy i Jerusalem, p * hwy a dderbyniwyd gan yr eglwys, † a *chan* yr apostolion, a *chan* yr henuriaid; ‡ a hwy a fynegasant yr q holl bethau a wnaethai Duw gyd â hwynt.

p pen. 18. 27. a 21. 17. Mat. 10. 40. Rhuf. 15. 7. Col. 4. 10. 2 Ioan 10. 3 Ioan 8—10. q adn. 3, 12. Rhuf. 15. 18. 1 Cor. 15. 10. 2 Cor. 5. 19. a 6. 1.

* Hwy a dderbyniwyd gyda pharch dyladwy, a chariad brawdol; fel brodyr anwyl yn yr efengyl, a llafurwyr diwyd a ffyddlawn yn ngwinllan yr Arglwydd. † Iago, Cephas, ac Ioan, Galat. 2. 9, yr unig rai o'r apostolion ag oedd yn Jerusalem y pryd hwnw mae yn debyg. ‡ Mynegasant i'r holl eglwys yn gyffredin, (gwel adn. 12,) yr un pethau ag a fynegasant i'r eglwys yn Antiochia ar eu dychweliad, pen. 14. 27; ac i'r brodyr yn Phenice a Samaria ar eu taith o Antiochia i Jerusalem. adn. 3. Peth rhyfedd oedd agoryd drws y ffydd i'r cenedloedd, gwerth ei fynegi yn mhob màn.

5 * Eithr cyfododd rhai o r sect y Pharisiaid y rhai oedd yn credu, gan ddywedyd, s † Mai rhaid iddynt eu henwaedu, a gorchymyn cadw deddf Moses.

r pen. 21. 20. a 26. 5, 6. Phil. 3. 5—8. s adn. 1, 24. Gal. 5 1—3.

* Rhai o'r Phariseaid a gredasent, ac oeddynt yn aelodau o'r eglwys yn Jerusalem: mae yn bur debyg mai rhai o'r rhai hyn oedd y gau-athrawon a aethent i waered i Antiochia, adn. 1, i gythryblu yr eglwys yno yn nghylch yr un pwnc. † Tybient hwy y dylasai y cenedloedd oll gael eu henwaedu, a chadw deddf Moses, cyn eu derbyn i'r eglwys: tybient mai trwy yr eglwys a'r oruchwyliaeth Iuddewig yn unig, yr oedd y ffordd i bawb i'r eglwys a'r oruchwyliaeth efengylaidd, am mai felly y daethent *hwy* i mewn iddi: heb ystyried mai i'r Iuddewon yn unig y gosodasid yr oruchwyliaeth hòno, ac ei bod yn awr wedi darfod iddynt hwy.

6 ¶ t * A'r apostolion a'r henuriaid a ddaethant ynghyd i edrych am y matter yma.

t adn. 25. pen. 6. 2. a 21. 18. Diar. 15. 22. Heb. 13. 7, 17.

* Gan fod y mater hwn yn debyg o grëu terfysg, ac ynddo ei hunan yn bwnc o gymmaint pwys nas dylesid ei esgeuluso; penderfynodd yr apostolion a'r henuriaid alw cyfarfod pennodawl i'w ystyried, ac i'w benderfynu.

7 u * Ac wedi bod ymddadleu mawr, cyfododd Pedr, ac a ddywedodd wrthynt, *Ha* wŷr frodyr, x chwi a wyddoch ddarfod i y Dduw er ys talm o amser yn ein plith ni fy ethol i, i gael o'r Cenhedloedd z trwy fy ngenau i glywed gair yr efengyl, a chredu.

u adn. 2, 39. Phil. 2. 14. x pen. 10. 5, 6, 20, 32—48. a 11. 12—18. y pen. 1. 24. a 9. 15. a 13. 2. 1 Cron. 28. 4, 5. Ioan 3. 27. a 15. 16. Gal. 2. 7—9. z pen. 1. 16. a 3. 18. a 4. 25. Ex. 4. 12. Jer. 1. 9. Rhuf. 10. 17, 18.

* Yr oedd gwresawgrwydd mawr o bob tu; gan y Phariseaid heb wybodaeth, dros gyfeiliorni; a chau yr apostolion a llawer eraill drwy wybodaeth, dros y gwirionedd: a hyny oedd yn peri bod ymddadleu mawr. Er bod yr apostolion, dynion dàn ysbrydoliaeth Duw, yn dadlau yn erbyn enwaediad; nid oedd gan y Phariseaid hyn ddim mwy parch iddynt na phe buasent ond dynion cyffredin. Mae gostyngeiddrwydd ac arafwch yr apostolion yn ymddangos yma hefyd mòr amlwg â hunan a gwylltineb y Phariseaid; gallasent hwy benderfynu y pwnc trwy eu hawdurdod apostoladd; ond yr oeddynt yn dewis gadael i'w gwrthwynebwyr ddwyn eu rhesymau cadarnaf o'r tu arall yn gyntaf. † Cyfeirio mae Pedr yma at y gorchymyn a gawsai efe rai blynyddoedd o'r blaen i fyned a phregethu yn nhŷ Cornelius, yn nghyd â chanlyniadau bendithiol y bregeth hòno. pen. 10.

8 a * A Duw, adnabyddwr calonnau b a ddug dystiolaeth iddynt, c gan roddi iddynt yr Ysbryd Glân, megis ag i ninnau:

a pen. 1. 24. 1 Sam. 16. 7. 1 Bren. 8. 39. 1 Cron. 28. 9. a 29. 17. Salm 44. 21. a 139. 1, 2. Jer. 11. 20. a 17. 10. a 20. 12. Ioan 2. 24, 25. a 21. 17. Heb. 4. 13. Dat. 2. 23. b pen. 14. 3. Ioan 5. 37. Heb. 2. 4. c pen. 2. 4. a 4. 31. a 10. 44, 45. a 11. 15—17.

* Gan i Dduw arddelwi gweinidogaeth Pedr, a dwyn tystiolaeth o'i dderbyniad o'r cenedloedd, a thywallt o'i Ysbryd arnynt yn eu dïenwaediad, yr un modd ag ar yr enwaediad o'r blaen; yr oedd hyny yn ddigon o brawf nad oedd dim angen am enwaediad mewn trefn i dderbyniad i'r eglwys gristionogol, nac ychwaith i gaffael bywyd tragywyddol. Tybir mai dyna oedd grym y ddadl gan Pedr yma; ac mai i'r dyben hyny y dywedodd efe y geiriau uchod.

9 d * Ac ni wnaeth *efe* ddim gwahaniaeth rhyngom ni a hwynt, e † gan buro eu calonnau hwy trwy ffydd.

d pen. 14. 1, 27. Rhuf. 3. 9, 22, 29, 30. a 4. 11, 12. a 9. 24. a 10. 11—13. 1 Cor. 7. 18. Gal. 3. 28. a 5. 6. Eph. 2. 14—22. a 3. 6. Col. 3. 11. e pen. 10. 15, 28, 43, 44. 1 Cor. 1. 2. Heb. 9. 13, 14. 1 Pedr 1. 22.

* Yr oedd mur y gwahaniaeth yn awr wedi ei dynu i lawr, † a Duw yn ei drugaredd yn derbyn, yn bendithio, ac yn sancteiddio, y cenedloedd yn gystal â'r Iuddewon. Felly, mwyach, nid oedd enwaediad ddim, na dïenwaediad ddim; ond crëadur newydd, a ffydd yn gweithio trwy gariad oedd y cwbl.

10 * Yn awr gan hynny f paham yr ydych chwi yn temtio Duw, g † i ddodi iau ar warrau y disgyblion, h ‡ yr hon nid allai ein tadau ni na ninnau ei dwyn?

f Ex. 17. 2. Es. 7. 12. Mat. 4. 7. Heb. 3. 9. g Mat. 11. 28—30. a 23. 4. Gal. 5. 1. h Gal. 4. 1—5, 9. Heb. 9. 9, 10.

* Yr oeddynt yn temtio Duw trwy ammau y peth oedd efe wedi ei ddangos mòr amlwg; trwy feïo, megys, arno ef, am dderbyn rhai yn eu dïenwaediad; a thrwy wrthod y cenedloedd a Duw wedi eu derbyn: galw yn aflan yr hyn oedd Duw wedi ei lanâu, pen. 10. 15. † Iau caethiwed y gelwid deddf y seremonïau, Galat. 5. 1; a iau dròm ydoedd os ystyriwn ni yn 1. Yr amrywiaeth o honynt. 2. Yr anhawsder o'u cyflawni. 3. Y gost o honynt. 4. Eu haneffeithioldeb wedi y cwbl: nid oeddynt ond cysgodau o ddaionus bethau i ddyfod. Pa raid gosod iau fel hyn ar y cenedloedd, a Duw wedi ei thynu ymaith oddi ar yr Iuddewon, y rhai yn unig a fu dani erioed? ‡ Nis gallasom ni na'n tadau gyflawni ei defodau hi yn berffaith; baich ydoedd arnom bob amser, yn enwedig y rhai pell a thlodion, ac ni buasem yn ei dwyn hi o gwbl, ond yn unig o ufudd-dod i orchymyn Duw, dàn yr oruchwyliaeth hòno sydd yn awr wedi ei diddymu, neu a ddylai fod wedi ei diddymu.

11 i * Eithr trwy ras yr Arglwydd Iesu

Grist, yr ydym ni yn credu ein bod yn gadwedig † yr un modd a hwythau.

i Rhuf. 3. 24. a 5. 20, 21. a 6. 23. 1 Cor. 16. 23. 2 Cor. 8. 9. a 13. 14. Gal. 1. 6. a 2. 16. Eph. 1. 6, 7. a 2. 7—9. Tit. 2. 11. a 3. 5—7. Dat. 5. 9.

* Trwy ras yr Arglwydd Iesu yr oedd ein tadau yn gadwedig, ac nid trwy yr enwaediad a seremoniau y ddeddf; ac yr ydym yn credu mai trwy yr un gras yr ydym ninnau yn gadwedig: † gan hyny, os trwy ras yr ydym ni a'n tadau yn gadwedig, ac nid trwy enwaediad; e ddichon Duw trwy yr un gras a threfn, gadw y cenedloedd heb yr enwaediad o waith llaw yn y cnawd: felly nid oes achos am dano.

12 ¶ * A'r holl lïaws a † ddistawodd, ‡ ac a wrandawodd ar Barnabas a Phaul, [k] yn mynegi ‖ pa arwyddion a rhyfeddodau *eu maint* a wnaethai Duw ym mhlith y Cenhedloedd trwyddynt hwy.

k adn. 4. pen. 14. 27. a 21. 19.

* Yr holl lïaws yma oedd yr holl eglwys, yn nghyd â'r apostolion a'r henuriaid, gwel adn. 22. † Distawodd yr apostolion i glywed beth a ddywedai y gwrthwynebwyr yn mhellach; a distawodd y gwrthwynebwyr am nad oedd ganddynt ddim ychwaneg i ddywedyd; ‡ a distawodd pawb i wrando ar adroddiad Paul a Barnabas. ‖ Yr oedd tröedigaeth y cenedloedd ynddo ei hun yn rhyfeddod mawr, heblaw y gwyrthiau a wnaed gyda hyny: mae achub un enaid yn weithred wyrthiol ynddi ei hun. Adroddasai Paul a Barnabas y pethau hyn o'r blaen, adn. 4; ond efallai yn helaethach yn awr, i gynnulleidfa lïosocach; a chyda mwy o wrandawiad a gwell derbyniad.

13 ¶ [l] * Ac wedi iddynt ddistewi, † attebodd [m] Iago, gan ddywedyd, [n] ‡ *Ha* wŷr frodyr, gwrandewch arnaf fi.

l 1 Cor. 14. 30—33. Iago 1. 19. m pen. 12. 17. a 21. 18. Marc 15. 40. Gal. 1. 19. a 2. 9, 12. Iago 1. 1. n pen. 2. 14, 22, 29. a 7. 2. a 22. 1.

* Gwedi i Paul a Barnabas orphen eu hanes a distewi. † Iago mab Alphëus oedd hwn, yr hwn a ysgrifenodd yr epistol sydd ar ei enw: am yr Iago arall gwel ar pen. 12. 2. ‡ Mae efe yma mewn arafwch a doethineb mawr yn pleidio yr hyn a ddywedasai Pedr, yn profi y mater allan o ysgrythyrau yr Hen Destament, ac felly yn penderfynu y ddadl.

14 [o] * Simeon a [p] † fynegodd pa wedd yr ymwelodd Duw ar y cyntaf, [q] i gymmeryd o'r Cenhedloedd bobl i'w enw.

o 2 Pedr 1. 1. p adn. 7—9. Luc 1. 68, 78. q Es. 43. 21. a 55. 11—13. Rhuf. 1. 5. a 11. 36. 1 Pedr 2. 9, 10.

* Sef Simon Pedr, yr hwn a lefarodd yn adn. 7—11; Simeon, ac nid Simon yw ef yn y Groeg, yn 2 Pedr 1. 1. Simeon yn ol yr Hebraeg, a Simon yn ol y Groeg, efallai. † Yr oedd adroddiad Pedr ac adroddiad Paul a Barnabas yn bur gyffelyb i'w gilydd, mae yn debyg, a'r naill yn cadarnâu y llall: fel yn ngenau dau neu dri o dystion y byddai y mater yn safadwy am droëdigaeth a derbyniad y cenedloedd i eglwys Crist. Dechreuodd Pedr y gwaith yn nhŷ Cornelius, dygwyd ef yn mlaen gan Paul a Barnabas mewn mànau eraill; ac arwyddion amlwg o foddlonrwydd Duw arnynt oll yn mhob màn.

15 [r] * Ac â hyn y cyttuna geiriau † y prophwydi; megis y mae yn ysgrifenedig,

r pen. 13. 47.—Rhuf. 15. 8—12.

* Heblaw fod hanesion Pedr, Paul a Barnabas, yn cytuno â'u gilydd, ac yn cadarnâu eu gilydd; yr oeddynt oll yn cytuno â gair Duw, ac yn cael eu cadarnâu gan brophwydoliaeth yr Hen Destament. † Am yr achos y dywedir "prophwydi" yma, yn y rhif lïosog, a'r geiriau a ddyfynir yn Amos 9. 11, gwel ar pen. 13. 40. Mae hefyd yn dangos undeb y prophwydi; y peth a ddywedwyd gan un, yr oedd megys pe'i dywedasid gan bob un.

16 [s] * Ar ol hyn y † dychwelaf, ac yr [t] ‡ adeiladaf drachefn dabernacl Dafydd, yr hwn sydd wedi syrthio: ‖ a'i fylchau ef a adeiladaf drachefn, ac a'i cyfodaf eilchwyl:

s Amos 9. 11, 12. t 2 Sam. 7. 11—16. 1 Bren. 12. 16. Salm 89. 35—49. Es. 9. 6, 7. Jer. 33. 24—26. Ezec. 17. 22—24. Zec. 13. 8. Mat. 1. 20—25. Luc 1. 31—33, 69, 70.

* Ar ol darfod yr oruchwyliaeth hòno, yn nyddiau y Messiah, neu dàn yr oruchwyliaeth efengylaidd. † "Dychwelaf:" gellir cymmeryd y gair mewn dwy ystyr, meddant; Duw yn dychwelyd at y cenedloedd, a'r cenedloedd yn dychwelyd at Dduw, wedi hir ymadael â'u gilydd: efe a ddychwelodd gyntaf i alw; a hwythau yn dychwelyd mewn canlyniad i hyny. ‡ Trwy godi y Messiah o deulu adfeiliedig Dafydd, a dwyn y cenedloedd i mewn i eglwys y Messiah, neu y Dafydd ysbrydol hwnw. ‖ Y bylchau a wnaed yn eglwys yr Hen Destament drwy wrthgiliadau yr Iuddewon, eu gwrthodiad o Grist, a barnedigaethau Duw arnynt am hyny. Dygir y cenedloedd i mewn i wneyd i fynu y bylchau hyn, a bydd eglwys y Testament Newydd yn ogoneddusach nac y bu eglwys yr Hen Destament erioed.

17 [u] * Fel y byddo i hyn a weddiller o ddynion † geisio yr Arglwydd, [x] ac i'r holl Genhedloedd, ‡ y rhai y gelwir fy enw i arnynt, medd yr Arglwydd, [y] ‖ yr hwn sydd yn gwneuthur yr holl bethau hyn.

u Gen. 22. 18. a 49. 10. Salm 22. 26, 27. a 67. 1—3. a 72. 17—19. Es. 2. 2, 3. a 11. 10. a 19. 23—25. a 24. 15, 16. a 49. 6, 7. a 66. 18—21. Jer. 16. 19. Hos. 2. 23. Joel 2. 32. Mica 4. 1, 2. a 5. 7. Zec. 2. 11. a 8. 20—23. Mal. 1. 11. x Gen. 48. 16. Num. 6. 27. Es. 43. 7. a 65. 1. y Num. 24. 23. Es. 45. 7, 8. Dan. 4. 35.

* "Fel y meddianno y rhai y gelwir fy enw arnynt, weddill Edom, a'r holl genedloedd," yw y geiriau yn Amos 9. 12. Edom oedd gelynion gwaethaf pobl Dduw, ac atgasaf gan yr Iuddewon; a chan fod yr addewid yn Amos i feddiannu Edom, y gwaethaf o'r cenedloedd, nid oedd ond peth bychan fod yr Arglwydd yn galw yr holl genedloedd eraill, ac yn eu rhoddi yn meddiant y bobl, sef eglwys y Testament Newydd. "Gweddill Edom" yn Amos yw "yr hyn a weddillir o ddynion" yma; ac yn arwyddo y rhai etholedig o'r holl genedloedd, ag oedd yn elynion Duw a'i bobl cyn eu galw. † Y nod sydd arnynt wedi eu galw yw, rhai yn ceisio yr Arglwydd: i hyny y galwyd ac y gweithiwyd hwy. ‡ A nod arall arnynt yw, bod enw yr Arglwydd (yr Arglwydd Iesu Grist) yn cael ei alw arnynt: cristionogion ydynt, pen. 11. 26. ‖ O'r Arglwydd yr oedd hyn, a rhyfedd oedd yn ngolwg yr Iuddewon.

18 [z] * Hysbys i Dduw yw ei weithredoedd oll † erioed.

z pen. 17. 26. Es. 41. 22, 23. a 44. 7. a 46. 9, 10. Mat. 13. 35. a 25. 34. Eph. 1. 4, 11. a 3. 9. 2 Thes. 2. 13. 1 Pedr 1. 20. Dat. 13. 8. a 17. 8.

* Er mai peth newydd, annysgwyliadwy, rhyfedd, a thramgwyddus hefyd, i lawer o'r Iuddewon oedd galwad y cenedloedd, a'u derbyniad i'r eglwys heb eu henwaedu; eto, peth y gwyddai Duw am dano erioed ydoedd, a pheth yr oedd efe wedi arfaethu ei wneyd er tragywyddoldeb. † Onid yw "erioed" y Gymraeg, yn well nac "o ddechreuad y byd" y Saesoneg, yn yr adnod uchod: ac yn agosach i *ap aiónos* y Groeg?

19 * O herwydd paham fy marn i yw, [a] † na flinom y rhai o'r Cenhedloedd [b] ‡ a droisant at Dduw:

a adn. 10, 24, 28. Gal. 1. 7—10. a 2. 4. a 5. 11, 12. b pen. 26. 20. Es. 55. 7. Hos. 14. 2. 1 Thes. 1. 9.

* Dywedir fod Iago yn Esgob yr eglwys yn Jerusalem y pryd hwn; ac eto, rhoddi ei "farn," yn ostyngedig, y mae, ac nid ei orchymyn, yn feistrolaidd, o blaid Pedr, Paul a Barnabas. † "Blinder" i'r cenedloedd fuasai yr enwaediad, a'r baich trwm o seremoniau

berthynol iddo: ni wnaethent ond dyrysu a thrallodi
u meddyliau, ac heb fod yn un lles i'w heneidiau, ond
n hytrach afles a rhwystr mawr. ‡ Y rhai y tröwyd eu
eneidiau at Dduw, ac a droisant o baganiaeth, ac oddi
rth eilunod, at Dduw.

20 * Eithr ysgrifenu o honom ni attynt,
ar ymgadw o honynt oddi wrth † halogrwydd
elwau, [d] ‡ a godineb, [e] || ac *oddi wrth* y peth
dagwyd, § ac *oddi wrth* waed.

c adn. 29. Ex. 34. 15, 16. Num. 25. 2. Salm 106. 37—39.
zec. 20. 30, 31. 1 Cor. 8. 1, 4—13. a 10. 20—22, 28. Dat. 2. 14, 20.
9. 20. d 1 Cor. 5. 11. a 6. 9, 13, 18. a 7. 2. 2 Cor. 12. 21. Gal.
1. 19. Eph. 5. 3. Col. 3. 5. 1 Thes. 4. 3. Heb. 12. 16. a 13. 4.
Pedr 4. 3. e pen. 21. 25. Gen. 9. 4. Lef. 3. 17. a 7. 23—27. a
7. 10—14. Deut. 12. 16, 23—25. a 14. 21. a 15. 23. 1 Sam. 14. 32.
zec. 4. 14. a 33. 25. 1 Tim. 4. 4, 5.

* Nid yw gwir grefydd yn gofyn dim ond yr hyn
ydd uniawn a gweddus, a gweddus iawn yw ymgadw
ddiwrth halogrwydd delwau a godineb. Gan mai
echodau cyffredin yn mhlith y cenedloedd oedd y rhai
yn, a'r cenedloedd dàn sylw, newydd gael eu troi
ddi wrthynt, tybiai yr apostol yn angenrheidiol ys-
rifenu atynt ar iddynt ymgadw yn ofalus rhagddynt o
yn allan. † Nid *addoli* delwau a feddylir, yr oeddynt
wedi gadael hyny; ond bwyta o'r pethau a fyddent
wedi eu haberthu i eilunod gan eraill, gwel adn. 29: a
yny nid o herwydd unrhyw halogrwydd moesol yn y
ethau; ond fel na thramgwyddent eu brodyr gwein-
nid o'r Iuddewon. Gwel Matth. 15. 11; Rhuf. 14. 14;
Cor. 8. 8, 9; 1 Tim. 4. 4. ‡ Pechod cyffredin oedd
godineb yn mhlith y paganiaid; ac yr oedd bwyta ac
fed yn eu gwleddoedd i'w heilunod yn arwain iddo yn
dychrynllyd iawn, hyd yn nôd yn eu temlau, ger bron
u duwiau, fel rhan o addoliad iddynt. || Pethau a
dagwyd yn ddamweiniol neu yn wirfoddol, ac yr oedd
u gwaed ynddynt. Gwaharddodd Duw fwyta cig yn
aghyd â'i einioes, sef ei waed, yn mhell cyn y gyfraith;
(Gen. 9. 4;) er dysgu i ddynion na byddent greulawn,
mae yn debyg. § Gwaherddid bwyta gwaed dàn y
ddeddf, o barch i waed yr aberthau, yr hwn oedd
ysgod o waed Crist: a gwaherddir hyny i'r cristion-
ogion cenedlig hyn, fel na thramgwyddent yr Iuddewon,
fel y sylwyd o'r blaen am yr hyn a aberthid i eilunod.

21 * Canys y mae i Moses ym mhob
linas, er yr hen amseroedd, rai a'i pregethant
ef, [f] gan fod yn ei ddarllen yn y synagogau
oob sabbath.

f pen. 13. 15, 27. Neh. 8. 1, &c. Luc 4. 16.

* Yr oedd deddf Moses, yr hon oedd yn gwarafun y
ethau uchod, yn cael ei darllen er yr hen amseroedd
yn synagogau yr Iuddewon yn mhob màn, ac yn parâu
gael ei darllen a'i phregethu o hyd: felly, er bod
leddf y seremonïau megys wedi marw, yr oedd llawer
am ei chadw yn fyw; gan hyny yr oedd yn angenrheid-
ol cyd-ddwyn â'r Iuddewon cristionogol am dipyn, yn
eu petrusder a gwendid eu gwybodaeth, ac er eu mwyn
nwynt ymgadw rhag y pethau gwaharddedig a enwyd,
sef y pethau a aberthid i eilunod, pethau a dagid, a
gwaed. Am odineb, trosedd o'r ddeddf foesol oedd,
ac i bawb ymgadw rhagddo bob amser.

22 [g] * Yna y gwelwyd yn dda gan yr apos-
tolion a'r henuriaid, ynghyd â'r holl eglwys,
* anfon gwŷr etholedig o honynt eu hunain, i
Antiochia, gyd â † Phaul a Barnabas; ‡ *sef*
Judas a gyfenwir [i] Barsabas, a [k] Silas, || gwŷr
rhagorol ym mhlith y brodyr:

g adn. 23, 25. pen. 6. 4, 5. 2 Sam. 3. 36. 2 Cron. 30. 4, 12.
h adn. 27. pen. 8. 14. a 11. 22. i pen. 1. 23. k adn. 27, 32, 40.
a 16. 19, 25, 29. a 17. 4, 10, 14. a 18. 5. 1 Thes. 1. 1. 2 Thes. 1. 1.
1 Pedr 5. 12.

* Cytunodd pawb yn un llais â barn a chyngor
Iago. † Yr oedd Paul a Barnabas yn genadau dros
eglwys Antiochia i Jerusalem (adn. 2,) ac fel y cyfryw
yr oedd yn iawn iddynt hwy ddychwelyd yno gyda'r
atebiad. ‡ Tybia rhai mai y Joseph, yr hwn y bwriwyd
coel-bren rhyngddo â Matthïas am yr apostoliaeth
(pen. 1. 23,) ydoedd y Judas hwn: tybia eraill mai
brawd i hwnw oedd. || Tybir mai yr un â Silfanus
oedd y Silas hwn, 2 Cor. 1. 19; 1 Thes. 1. 1; 2 Thes.
1. 1; 1 Pedr 5. 12: Silas oedd ei enw Hebraeg, a Sil-
fanus ei enw Rhufeinig: dinasydd yn perthyn i Rufain
oedd yr un modd â Paul, pen. 16. 37, 38. || Am eu
bod yn "wŷr rhagorol yn mhlith y brodyr," dyna pa
ham yr oeddynt yn "wŷr etholedig" gan y brodyr, i'w
danfon ar y neges hwn.

23 A *hwy* a ysgrifenasant gyd â hwynt fel
hyn, [l] * Yr apostolion, a'r henuriaid, a'r brodyr,
[m] † at y brodyr y rhai sydd o'r Cenhedloedd
yn Antiochia, [n] ‡ a Syria, a Cilicia, [o] yn anfon
annerch.

l adn. 4, 22. m pen. 23. 26. Rhuf. 16. 3, &c. Iago 1. 1.
2 Ioan 13. 3 Ioan 14. n pen. 11. 18. a 14. 27. a 21. 25. o adn.
41. pen. 18. 18. a 21. 3. Gal. 1. 21.

* Yr oeddynt yn ysgrifenu yn enw y tri dosparth fel
hyn, er dangos eu hundeb a'u cyd-gordiad oll yn
eglwys Jerusalem ar y pwnc; ac er cadernid i feddyl-
iau y saint petrusgar yn Antiochia: rhaff dair cainc
oedd, nas gallai y gau-athrawon ei thòri ar frys.
† Brodyr at frodyr oedd hi yma; Iuddewon yn cyfarch
cenedloedd, fel brodyr yn yr Arglwydd: nid oes nac
Iuddew na Groegwr byth mwyach; ond pawb yn un yn
Nghrist. ‡ Dechreuodd y lledrith yn Antiochia, oddi
yno ymdaenodd yn fuan fel plâ, trwy Syria a Cilicia:
"eu hymadrodd hwy," y gau-athrawon, "a ysa fel cancr."

24 Yn gymmaint a chlywed o honom ni,
[p] * i rai a aethant allan oddi wrthym ni eich
† trallodi chwi â geiriau, gan ‡ ddymchwelyd
eich eneidiau chwi, a dywedyd [q] *fod* yn rhaid
enwaedu arnoch, || a chadw y ddeddf; § i'r
rhai ni roisem ni *gyfryw* orchymyn:

p Jer. 23. 16. Gal. 2. 4. a 5. 12. 2 Tim. 2. 14. Tit. 1. 10, 11.
1 Ioan 2. 19. q adn. 1, 5, 10. Gal. 2. 3. a 6. 12, 13.

* Nid oes raniadau gwaeth na rhaniadau eglwysig,
pan gyfodo rhai o honom ni ein hunain, yn llefaru
pethau gwyr-draws. † Peth trallodus a niweidiol iawn
i eneidiau dynion syml, ond ieuainc yn y ffydd, yw eu
dyrysu âg athrawiaethau amryw a dieithr: mae yn hudo
rhai oddiwrth y gwirionedd, ac yn gwneyd eraill yn
betrusgar pa beth sydd wirionedd a pha beth nid yw.
‡ Anaddasu eich eneidiau i'ch gwaith a'ch milwriaeth;
fel byddin o filwyr, wedi eu hamddifadu o'u harfogaeth
a'u clud. || Cyssylltir enwaedu â chadw y ddeddf yn
briodol iawn yma; oblegid yr oedd enwaediad yn
rhwymo dynion i gadw yr holl ddeddf seremoniol, fel
y mae bedydd yn rhwymo i holl ddyledswyddau crefydd
yn awr. § Os oedd y gau-athrawon a soniwyd yn dy-
wedyd mai yr apostolion a'u danfonodd hwynt, yr oedd
hyn yn eu profi yn gelwyddog, yn drygu eu cymmeriad,
ac yn eu hannalluogi, i raddau o leiaf, i wneyd drwg o
hyn allan.

25 [r] Ni a welsom yn dda, [s] wedi i ni ym-
gynnull * yn gyttûn, [t] † anfon gwŷr etholedig
attoch, [u] gyd â'n hanwylyd [x] Barnabas a
Phaul;

r adn. 28. Mat. 11. 26. Luc 1. 3. s adn. 6. pen. 1. 14. a 2.
1, 46. 1 Cor. 1. 10. t adn. 22, 27. u Rhuf. 16. 12. Eph. 6.
21. Col. 4. 7, 9. Philemon 16. 2 Pedr 3. 15. x adn. 2, 35. Gal.
2. 9.

* Yn gytun, o un meddwl, ac un ysbryd, a hwnw dàn
arweiniad Ysbryd y gwirionedd, ac felly yn anffaeledig.
† Dyma dair tystiolaeth:—1. Y llythyr. 2. Paul a
Barnabas. 3. Y gwŷr etholedig, Judas a Silas, adn. 22.

26 [y] * Gwŷr a roisant eu heneidiau dros
enw ein Harglwydd ni Iesu Grist.

y pen. 13. 50. a 14. 19. Barn. 5. 18. 1 Cor. 15. 30. 2 Cor. 11.
23—27. Phil. 2. 29, 30.

* Dynion a anturiasant eu bywydau, ac a gyssegras-
ant eu hunain, gyrph ac eneidiau, i wasanaeth Duw, a
thros enw ein Harglwydd Iesu Grist. Am Paul a

Barnabas yn benaf y dywedir hyn, yr oeddynt hwy wedi bod mewn enbydrwydd am eu bywydau yn achos yr efengyl, ond yr oedd y ddau eraill hefyd, Judas a Silas, o'r unrhyw ysbryd, ac wedi ymroddi i waith yr Arglwydd fel hwythau.

27 * Ni a anfonasom gan hynny [z] Judas a Silas; [a] † a hwythau ar air a fynegant *i chwi* yr un pethau.

z adn. 22. a 2 Ioan 12. 3 Ioan 13.

* Am y ddau hyn gwel ar adn. 22. † Mynegant hwy ar air yr un pethau ag sydd yn y llythyr, a'r un pethau ag a ddywed Paul a Barnabas, fel tystion o ddiffuantrwydd y llythyr, ac o eirwiredd Paul a Barnabas. Yr oedd dilysrwydd manol fel hyn, yn angenrheidiol mewn mater o gymmaint pwys.

28 [b] * Canys gwelwyd yn dda gan yr Ysbryd Glân, † a chennym ninnau, na ddodid arnoch [c] ‡ faich ychwaneg nâ'r ‖ pethau anghenrheidiol hyn:

b Ioan 16. 13. 1 Cor. 7. 25, 40. a 14. 37. 1 Thes. 4. 8. 1 Pedr 1. 12. c Mat. 11. 30. a 23. 4. Dat. 2. 24.

* Efallai bod hyn yn cynnwys y dystiolaeth a roddasai yr Ysbryd Glân o afreidioldeb enwaediad, yn ei ddisgyniad ar Cornelius â'i gyfeillion, gwel adn. 8, 9; ond yn hytrach mae yn dangos y sicrwydd oedd yn meddyliau yr eglwys yn Jerusalem, eu bod yn penderfynu yn ol cyfarwyddyd a meddwl yr Ysbryd Glân yn y cyngor hwn: ac y gallai eglwysi y cenedloedd ymorphwys yn dawel ar eu penderfyniad hwy. Nis gall yr un cyngor eglwysig arall, gwedi yr apostolion, ddywedyd yn *sicr* fel hyn: "beth a ddywed yr ysgrythyr" yw ein rhëol ni yn awr. † Yr Ysbryd Glân yn mlaenaf, a hwythau yn cytuno dàn gyfarwyddyd yr Ysbryd Glân. ‡ Gwel ar adn. 10, nod †; ac adn. 19, nod †. ‖ Nid oedd pob peth a enwir yn yr adnod nesaf yn angenrheidiol hanfodol i iachawdwriaeth; ond yr oeddynt oll yn angenrheidiol er heddwch yr eglwysi, ac i beidio rhoddi tramgwydd i frodyr gweiniaid o'r Iuddewon.

29 [d] Bod i chwi ymgadw oddi wrth * yr hyn a aberthwyd i eilunod, † a gwaed, ac oddi wrth y peth a dagwyd, ac oddi wrth odineb: [e] oddi wrth yr hyn bethau os ymgedwch, ‡ da y gwnewch. [f] ‖ Byddwch iach.

d Gwel ar adn. 20.—pen. 21. 25. Rhuf. 14. 14, 15, 20, 21. 1 Cor. 10. 18—20. Dat. 2. 14, 20. e 2 Cor. 11. 9. 1 Tim. 5. 22. Iago 1. 27. 1 Ioan 5. 21. Judas 21, 24. f pen. 18. 21. a 23. 30. Luc 9. 61. 2 Cor. 13. 11.

* Mae hyn yn dangos cywirdeb ein sylw ar adn. 20: "yr hyn a aberthwyd i eilunod" yma, yw yr hyn a elwir "halogrwydd delwau" yno. Cyfrifid yn waradwydd yn nhlith y cenedloedd hyn i fwyta cig yr anifeiliaid mwyaf, megys ychain a defaid, heb aberthu rhyw ran o hôno yn gyntaf i'w duwiau: felly mae y gwaharddiad yma yn gwarafun y ddefod hôno yn gwbl, heblaw gwarafun i'r cristionogion ymlygru gyda'r paganiaid yn eu gwleddoedd eilun-addolgar. † Gwel ar adn. 20, am y tri pheth a waherddir yma. ‡ Da y gwnewch er cysur a heddwch eglwysig, da y gwnewch er tawelwch eich cydwybodau eich hunain, da y gwnewch er peidio a briwio eich brodyr, a da y gwnewch er peidio a digio Duw, a thristâu ei Lân Ysbryd ef. Rhyfedd dynerwch yr apostolion yn y diwedd-glo hwn; nid taranu melltithion a gwaëau os nad ymgadwent, yr oeddynt, fel y gwnaeth llawer o gyngorau eglwysig llai eu hawdurdod wedi hyny; ond dywedyd yn dirion "os ymgedwch, da y gwnewch." ‖ Ein gweddi yw, ar i chwi fod yn iach mewn corph ac enaid, mewn athrawiaeth a phob dawn ysbrydol. "Rhodiwch yn yr Ysbryd Glân" yw y geiriau mewn rhai hen ysgrifau Groeg, medd *Pool.*

30 * Felly wedi eu gollwng hwynt ymaith, † hwy a ddaethant i Antiochia: [g] ‡ ac wedi cynnull y lliaws ynghyd, [h] hwy a roisant y llythyr.

g adn. 4, 6. pen. 6. 2. a 21. 22. h pen. 16. 4. a 23. 33.

* Gellir meddwl wrth derfyniad heddychol y cyfarfod, fod y rhai oedd yn gwrthwynebu ar y cyntaf, wedi cael eu llwyr foddloni cyn y diwedd, ac yn cytuno yn wirfoddol i arwyddo y llythyr ac i ddanfon y cenadau i Antiochia. † Er bod Antiochia dros dri chant o filltiroedd o Jerusalem, mae Luc yma yn myned heibio i holl ddamweiniau a lludded y daith, (gwel ar adn. 3.) i adrodd am eu dyfodiad hwy i Antiochia, a'r canlyniad a fu wedi eu dyfod yno. ‡ Cynnullwyd yr holl eglwys yn ddioed, i glywed darllen y llythyr, ac i wrando ar y brodyr dieithr yn eu cyngori.

31 * Ac wedi iddynt *ei* ddarllen, [i] † llawenychu a wnaethant am y diddanwch.

i adn. 1, 10. pen. 16. 5. Gal. 2. 4, 5. a 5. 1. Phil. 3. 3.

* Penderfynodd y llythyr hwn y ddadl brofedigaethus a godasai y gau-athrawon yn nghylch yr enwaediad, † a llawenychodd yr holl eglwys am ei phenderfynu, ac am eu gwaredu hwynt o'u petrusder, a'r iau drom ac afreidiol a fynasai y gau-athrawon ei gosod arnynt. Yr oedd yn llawenydd mawr ganddynt glywed hefyd, mai trwy ras Duw yr oedd bywyd ac iachawdwriaeth iddynt, ac nid trwy yr enwaediad a gweithredoedd seremoniol y ddeddf: peth hawdd a hyfryd ganddynt y pryd hwn oedd ymgadw oddi wrth yr ychydig bethau a waharddai y llythyr.

32 * Judas hefyd a Silas, [k] a hwythau yn brophwydi, [l] trwy lawer o ymadrodd † a ddiddanasant y brodyr, [m] ‡ ac a'*u* cadarnhasant.

k pen. 2. 17, 18. a 11. 23, 27. a 13. 1. Mat. 23. 34. Luc 11. 49. Rhuf. 12. 6. 1 Cor. 12. 28, 29. a 14. 3, 29, 32. Eph. 3. 5. a 4. 11. 1 Thes. 5. 20. l pen. 2. 40. a 11. 23. a 14. 22. a 18. 23. a 20. 2. Rhuf. 12. 8. 1 Thes. 2. 11. a 4. 1. a 5. 14. 2 Thes. 3. 12. 1 Tim. 2. 1. 2 Tim. 4. 2. Tit. 2. 6, &c. 1 Pedr 5. 1, 12. m adn. 41. Es. 35. 3, 4. Dan. 11. 1. 1 Cor. 1. 8. Eph. 4. 12, 13. 1 Thes. 3. 2. 1 Pedr 5. 10.

* "Prophwydi:" nid yn rhagfynegi pethau i ddyfod efallai; ond athrawon a dysgawdwyr enwog yn yr eglwys, yn egluro y prophwydoliaethau am Grist, ac yn profi i'r bobl mai Iesu oedd Crist, yn ol y prophwydoliaethau hyny. † Dyddanasant hwynt trwy ddangos iddynt, beth oedd natur, athrawiaeth, dyledswyddau, rhagorfreintiau, a rhyddid yr efengyl; ‡ ac fel hyn cadarnasant eu heneidiau yn y gwirionedd. Nid oes i ni feddwl i'r rhai hyn bregethu amgen gwirioneddau nag a bregethasai Paul a Barnabas lawer gwaith o'r blaen, i'r Antiochiaid; ond yr oedd yn ddyddanwch ac yn gadernid iddynt hwy, glywed yr un gwirioneddau gan wahanol ddynion; a'r naill yn cadarnâu athrawiaeth y lleill.

33 * Ac wedi iddynt aros *yno* dros amser, [n] † hwy a ollyngwyd ymaith mewn heddwch, gan y brodyr, ‡ at yr apostolion.

n pen. 16. 36. Gen. 26. 29. Ex. 4. 18. 1 Cor. 16. 11. Heb. 11. 31.

* Tybia rhai mai blwyddyn a feddylir, wrth yr "amser" a grybwyllir yma. † Dangoswyd pob cariad atynt, cymmeradwyaeth o'u llafur, heddwch â hwynt ar eu hymadawiad, a chymmorth iddynt ar eu taith yn eu dychweliad. ‡ Yr oedd yn angenrheidiol i un o honynt o leiaf ddychwelyd at yr apostolion, i roddi gwybod pa dderbyniad ac effaith a gawsai eu llythyr yn Antiochia.

34 [o] * Eithr gwelodd Silas yn dda aros yno.

o pen. 11. 25, 26. a 18. 27. 1 Cor. 16. 12.

* Gwedi gorphen ei neges ar ba un y danfonesid ef, yr oedd Silas at ei ryddid ei hun, i ddychwelyd neu aros; ac aros y pryd hwnw a ddewisodd, i gynnorthwyo Paul a Barnabas yn yr eglwys fawr yn Antiochia. Mae yn debyg iddo ffurfio cyfeillach anwyl a brawdol iawn â Paul hefyd yn y tro hwn, a'i fod yn ewyllysio cyd-deithio a chyd-lafurio âg ef o hyny allan yn ngwaith y weinidogaeth.

35 * A Phaul a Barnabas [p] a arhosasant yn Antiochia, [q] † gan ddysgu ac efengylu gair yr Arglwydd, ‡ gyd â llawer eraill hefyd.

p pen. 13. 1. a 14. 28. q pen. 28. 31. Mat. 28. 19, 20. Col. 2. 28. 1 Tim. 2. 7. 2 Tim. 4. 2.

* Nis gwyddom pa hyd yr arosasant yno; † ond dysgu'r efengylu gair yr Arglwydd oedd eu gwaith tra yr arosasant, a dïammau eu bod yn llafurus ac yn ddiwyd iawn yn eu gwaith o hyd. ‡ Efallai mai Simeon, Lucius, a Manaen, a grybwyllir yn pen. 13. 1, ydoedd rhai o'r "llawer" yma, yn nghyd â rhyw rai eraill hefyd. Ysbrybir wrth Galat. 2. 11, mai tua'r pryd hwn y daeth Pedr i Antiochia, pryd y bu y dadl rhwng Paul âg ef yn ddighylch bwyta gyda'r cenedloedd; oblegid dyna'r unig ddiro, ar y wyddom ni, y gwelodd Pedr Paul a Barnabas yn Antiochia.

36 ¶ * Ac wedi rhai dyddiau, dywedodd Paul wrth Barnabas, r Dychwelwn ac ymweliwn â'n brodyr, s ym mhob dinas y pregethasom air yr Arglwydd ynddynt, t *i weled* pa rodd y maent hwy.

r pen. 7. 23. Ex. 4. 18. Jer. 23. 2. Mat. 25. 36, 43. s pen. 13. 4, 13, 14, 51. a 14. 1, 6, 21, 24, 25. t Rhuf. 1. 11. 2 Cor. 11. 28. Phil. 1. 27. 1 Thes. 2. 17, 18. a 3. 6, 10, 11. 2 Tim. 1. 4.

* Prif amcan Paul yn cynnyg y daith hon i Barnabas oedd, ail ymweled â'r eglwysi a blanasent, i edrych a oeddynt yn myned yn mlaen yn llwyddiannus, ac i'w badarnâu a'u hadeiladu hwynt: ond mae yn ddïammau i fod ef hefyd yn bwriadu cael cyfleusderau i bregethu yr efengyl mewn lleoedd newyddion.

37 * A Barnabas a gynghorodd gymmeryd gyd â hwynt u Ioan, yr hwn a gyfenwid Marc.

u pen. 12. 12, 25. a 13. 5, 13. Col. 4. 10. 2 Tim. 4. 11. Philemon 24.

* Gwelsom am ymadawiad Ioan nai Barnabas â hwynt yn y daith o'r blaen, pen. 13. 13: mae yn debyg ei fod wedi dyfod atynt i Antiochia wedi hyny, neu gyda hwynt yno o Jerusalem.

38 * Ond ni welai Paul yn addas gymmeryd hwnnw gyd â hwynt, x yr hwn a dynnasai oddi wrthynt o Pamphylia, ac nid aethai gyd â hwynt i'r gwaith.

x pen. 13. 13. Salm 78. 9. Diar. 25. 19. Luc 9. 61. a 14. 27—34. Iago 1. 8.

* Mae y geiriau hyn, "tynu oddi wrthynt—ac nid aethai gyda hwynt i'r gwaith," yn dangos fod Ioan i'w ceïo yn y tro hwnw, a bod Paul wedi anfoddloni iddo am y tro: ni fynai ei gymmeryd drachefn.

39 y * A bu gymmaint cynnwrf *rhyngddynt*, † fel yr ymadawsant oddi wrth eu gilydd; ac y cymmerth Barnabas Marc gyd âg ef, z ‡ ac y mordwyodd i Cyprus:

y adn. 2. pen. 6. 1. Salm 106. 33. a 119. 96. Preg. 7. 20. Rhuf. 7. 18—21. Iago 3. 2. z pen. 4. 36. a 11. 20. a 13. 4—12. a 27. 4.

* *Paroxysmos* yw y gair Groeg a gyfieithir yma "cynnwrf;" gair yn arwyddo *ids lèm o ddigter*. Dyma ddau apostol enwog, a dau gyfaill anwyl, yn syrthio allan â'u gilydd mewn dadl boeth: y naill yn rhŷ bleidiol i'w nai, efallai; a'r llall y tu arall yn rhŷ lym tuag ato. Mae yn ddïammau i bob un o'r ddau fyned i ormod poethder, yr hyn a ddengys mai dynion oeddynt, fel y dywedasent yn Lystra, pen. 14. 15; ac mai anmherffaith yw y goreu o ddynion ar y goreu yn y byd hwn. Ceisia rhai ddywedyd i bob un o honynt ddigio ac heb bechu; ond os digiodd y naill heb achos, neu yn fwy na'r achos, a dangos ei ddigofaint mewn modd anaddas, yr oedd yn pechu; ac os rhoddodd y llall achos cyfiawn iddo ddigio, yr oedd hwnw yn ddïammau yn pechu: pe buasai pob un yn berffaith, yn sicr ni buasai hyn yn dygwydd. Mae adrodd y tro hwn, yn nghyd â llawer o golliadau yr hên dduwiolion, yn dangos anmhleidgarwch a gonestrwydd ysgrifenwyr sanctaidd yr ysgrythyrau. Mae yn bur amlwg i'r ddau ymheddychu yn frawdol wedi hyny, ac efallai yn fuan, gwel 1 Cor. 9. 6; Galat. 2. 9; ac i Paul hefyd ymgymmodi yn dirion âg Ioan, gwel Col. 4. 10; 2 Tim. 4. 11; Philem. 24. Nid yw dynion duwiol yn anfaddeugar, nac yn anghymmodol; a thybir i'r tro hwn fod yn lles i Ioan, i'w wneyd yn fwy ffyddlawn o hyn allan. † Er mai anghysurus oedd yr ymadawiad, eto goruwch-lywodraethodd Duw hyn er taeniad yr efengyl yn fwy na phe buasai y ddau gyda eu gilydd. ‡ Cyprus oedd lle genedigol Barnabas, pen. 4. 36, nid oes son mwy am dano, ond a gawn yn yr epistolau.

40 * Eithr Paul a a ddewisodd Silas, ac a aeth ymaith, b † wedi ei orchymyn i ras Duw gan y brodyr.

a adn. 22, 32. pen. 16. 1—3. b pen. 13. 3. a 14. 26. a 20. 32. 1 Cor. 15. 10. 2 Cor. 13. 14. 2 Tim. 4. 22. Tit. 3. 15. 2 Ioan 10, 11.

* Gellir meddwl yn awr mai trefn rhagluniaeth Duw oedd i Silas ddewis aros yn Antiochia, adn. 34, fel y byddai yn barod i gydymdeithio â Paul. † Gellid meddwl i Barnabas fyned ymaith yn fyrbwyll a sydyn, heb gael ei orchymyn i ras Duw yn ngweddïau yr eglwys: o leiaf nid yw Luc yn crybwyll dim am hyny.

41 * Ac efe a dramwyodd c trwy Syria † a Cilicia, d gan gadarnhâu yr eglwysi.

c adn. 23. pen. 18. 18. a 21. 3. Gal. 1. 21. d adn. 32. pen. 16. 4, 5.

* Gwelsom yn adn. 23, fod llythyr yr eglwys yn Jerusalem at y brodyr yn Syria a Cilicia yn gystal ag at yr eglwys yn Antiochia; ac mae yn debyg fod Paul yn awr yn myned â'r llythyr hwnw gydag ef, neu ysgrif o hono i'r eglwysi hyny. † Gwlad enedigol Paul oedd Cilicia, ac mae yn debyg fod yno eglwysi er yr amser cyntaf yr aethai ef yno i bregethu, pen. 9. 30; 11. 25: ond nid oes genym sôn am danynt ond yma ac adn. 23.

PEN. XVI.

Paul yn enwaedu ar Timothëus.

*YNA y daeth efe a i Derbe ac i Lystra. † Ac wele, yr oedd yno ryw ddisgybl, b a'i enw Timothëus, ‡ mab i ryw wraig c yr hon oedd Iuddewes, || ac yn credu; d a'i dad *oedd* Roegwr:

a pen. 14. 6, 8, 21. 2 Tim. 3. 11. b pen. 17. 14. a 18. 5. a 19. 22. a 20. 4. Rhuf. 16. 21. 1 Cor. 4. 17. Phil. 1. 1. a 2. 19. Col. 1. 1. 1 Thes. 1. 1. a 3. 2. 2 Thes. 1. 1. 1 Tim. 1. 2. 2 Tim. 1. 2. Heb. 13. 23. c 2 Tim. 1. 5. a 3. 15, 16. d pen. 14. 1. Ezra 9. 2. 1 Cor. 7. 14.

* Lleoedd y buasai efe a Barnabas ynddynt yn y daith o'r blaen. pen. 14. 6. † Cawsai Timothëus ei ddwyn i fynu yn grefyddol o'i ieuenctid, dàn ofal ei nain Loïs a'i fam Eunice. Gwel 2 Tim. 1. 3—5; a 3. 14, 15: ond mae yn debyg mai trwy weinidogaeth Paul y tro o'r blaen yn Lystra, y cafodd efe ei ddwyn i gredu yn Nghrist, ac i fod yn ddysgybl iddo mewn gwirionedd. Gwel 1 Tim. 1. 2. Gwel hefyd 2 Tim. 3. 10, 11. ‡ Mab i'r enwog Eunice, fel y sylwyd uchod, yr hon oedd ferch i Loïs dduwiol. || Efallai i'r nain, y fam, a'r mab, gael eu dwyn i gredu yn Nghrist tua'r un amser, a thrwy weinidogaeth Paul a Barnabas: ond dywed *Pool* fod Eunice yn credu yn Judea. § Yr oedd ei dad yn Roegwr o genedl, ac felly yn ddïenwaededig: am hyny nid enwaedesid ar Timothëus yn ei fabandod. adn. 3. Er nad oedd yn gyfreithlawn i Iuddew briodi gwraig o'r cenedloedd; eto tybia rhai fod yn gyfreithlawn i Iuddewes briodi cenedl-ddyn.

2 e * Yr hwn oedd yn cael gair da gan y brodyr oedd yn Lystra, ac *yn* f Iconium.

e pen. 6. 3. 1 Tim. 3. 7. a 5. 10, 25. 2 Tim. 3. 15. f pen. 14. 21. 2 Tim. 3. 11.

* Yr oedd gair da gan bawb i Timothëus am ei dduwioldeb, ei fuchedd, a'i ddoniau rhagorol at waith y weinidogaeth. Gwyddai Paul hyny yn burion pan oedd yn Lystra o'r blaen; ond yn awr yr oedd wedi bod oddi yno am hir o amser, ac yn angenrheidiol iddo gael tystiolaeth gan y brodyr am dano am yr amser hwnw, cyn ei gymmeryd ef gydag ef i'r weinidogaeth. Heblaw

y gair da hwn, yr oedd rhai o brophwydi y dyddiau hyny hefyd wedi rhagfynegi ei fawr ddefnyddioldeb ef mewn amser i ddyfod, 1 Tim. 1. 18; a 4. 14.

3 [g] * Paul a fynnai i hwn fyned allan gyd âg ef; [h] † ac *efe* a'i cymmerth ac a'i henwaedodd ef, ‡ o achos yr Iuddewon oedd yn y lleoedd hynny: ‖ canys hwy a wyddent bawb mai Groegwr oedd ei dad ef.

g pen. 15. 37, 40. h pen. 15. 20, 21. 1 Cor. 7. 19. a 9. 20. Gal. 2. 3. a 5. 2, 6.

* Heblaw y cymhwysderau uchod a soniwyd, yr oedd Timothëus yn addas iawn i bregethu i Iuddewon a Groegiaid fel yr oedd o ran ei fam yn Iuddew, ac o ran ei dad yn Roegwr. Un rhyfedd yw Duw am chwilio allan ei offerynau cymhwys at ei waith, a'u cymhwyso hefyd. † Yr oedd Paul bob amser yn dadlau yn erbyn enwaediad; nad oedd rhwymau ar y cenedloedd i ymostwng iddo, ac nad oedd o les yn y byd i'r Iuddewon chwaith yn y pwnc o iachawdwriaeth, dàn oruchwyliaeth yr efengyl. ‡ Ond o achos yr Iuddewon oedd yn y lleoedd hyny, yn dàl cymmaint o blaid yr enwaediad, efe a enwaedodd ar Timothëus; fel na thramgwyddai yr Iuddewon crediniol, ac fel y caffai efe bregethu yn synagogau yr Iuddewon anghrediniol, yr hyn ni oddefid iddo heb hyny. Fel hyn yr oedd Paul yn ei wneyd ei hun yn bob peth i bawb, fel y gallai yn hollawl gadw rhai. ‖ Gwyddent mai Groegwr dienwaededig oedd ei dad, ac o ganlyniad nad oedd yntau wedi ei enwaedu yn ieuanc.

4 * Ac fel yr oeddynt yn ymdaith trwy y dinasoedd, [i] hwy a roisant arnynt gadw † y gorchymynion a ordeiniesid gan yr apostolion a'r henuriaid y rhai oedd yn Jerusalem.

i pen. 15. 6, 28, 29.

* Pa le bynag y teithiai Paul, yr oedd yn gorchymyn i'r cenedloedd crediniol ymgadw rhag y pethau gwaharddedig yn y llythyr o Jerusalem i Antiochia, pen. 15. 29. Tybir ei fod yn gadael ysgrif awdurdodedig o'r llythyr yn mhob eglwys, fel rhëol iddynt yn wyneb athrawon yr enwaediad: ac yr oedd angen y fath beth yn mhob eglwys, lle byddai Iuddewon a Chenedloedd yn gymmysg yn enwedig. † Dywedir fod y gair *dogmata*, a gyfieithir yma "gorchymynion," bob amser yn arwyddo rhywbeth *seremonïol*, ac am yr *amser presenol;* ac nid gorchymynion o rwymiad parâus a chyffredinol.

5 [k] * Ac felly yr eglwysi a gadarnhâwyd yn y ffydd, [l] ac a gynnyddasant mewn rhifedi beunydd.

k pen. 15. 41. 2 Cron. 20. 20. Es. 7. 9. Rhuf. 16. 25. 1 Cor. 15. 58. Gal. 5. 1. Eph. 4. 13—16. Col. 2. 6, 7. 1 Thes. 3. 2, 13. 2 Thes. 2. 16, 17. Heb. 13. 9, 20, 21. 1 Pedr 5. 10. l pen. 2. 47. a 4. 4. a 5. 14. a 6. 7. a 9. 31. a 11. 21. a 12. 24. a 13. 48, 49. a 19. 18—21.

* Gwedi iawn ddëall y gwahaniaeth rhwng pethau dibwys â phethau gwir angenrheidiol; cadarnâwyd yr eglwysi yn y ffydd, † a chwanegwyd llawer atynt hefyd. Yr oedd y ddadl yn nghylch enwaediad o'r blaen, yn cadw llawer o'r brodyr gweiniaid mewn petrusder a thrallod; ac yn achos i gadw llawer rhag ymuno â'r eglwysi yn ddïammau hefyd.

6 * Ac wedi iddynt dramwy trwy [m] † Phrygia, a [n] gwlad Galatia, [o] ‡ a gwarafun iddynt gan yr Ysbryd Glân bregethu y gair yn [p] Asia;

m pen. 2. 10. a 18. 23. n pen. 18. 23. 1 Cor. 16. 1. Gal. 1. 2. a 3. 1. 2 Tim. 4. 10. 1 Pedr 1. 1. o adn. 7. pen. 10. 19. a 11. 12. a 13. 2—4. a 20. 28. 2 Cron. 6. 7—9. Es. 30. 21. 1 Cor. 12. 11. Heb. 11. 8. p pen. 19. 10, 26, 27. a 20. 4, 16. 2 Cor. 1. 8. 2 Tim. 1. 15. 1 Pedr 1. 1. Dat. 1. 4, 11.

* Gwedi ymweled â'r eglwysi lle y buasai Paul o'r blaen i gyd, mae yn awr yn myned i fânau lle ni buasai efe na neb arall o genadon yr efengyl erioed: maesydd newyddion oedd y rhai a enwir oddi yma yn mlaen yn hollawl, lle ni thywynasai goleuni yr efengyl erioed hyd yn awr. Dwy dalaeth o Asia leiaf oedd Phrygia a Galatia, i'r gogledd o'r mànau lle y buasai Paul o'r blaen. Llwyddasant yn fawr yn y lleoedd uchod y tro hwn, i alw dysgyblion, ac i blanu eglwysi lawer. Gwel pen. 18. 23; Galat. 4. 14, 15. ‡ Asia leiaf i gyd, ydoedd rau o gyfandir Asia fawr, ac yn rhedeg i'r gorllewin rhwng môr y canol-dir i'r dê, â'r môr dû i'r gogledd. Yr ydoedd wedi ei rhanu yn llawer o daleithiau ehang; ac un o'r taleithiau hyny oedd yr Asia a grybwyllir yn yr adnod hon. Yma yr oedd Ephesus yn sefyll. Wrth warafun i Paul a'i gyfeillion fyned yno i bregethu y tro hwn, mae yr Ysbryd Glân yn dangos ei ben-arglwyddiaeth, bod ei genadon yn ei law ef, i'w danfon lle y mỳno, a bod galwedigaeth pechaduriaid yn beth o ewyllys Duw, yn gystal â'u hetholedigaeth.

7 * Pan ddaethant i Mysia, † hwy a geisiasant fyned i [q] Bithynia: ‡ ac ni oddefodd yr Ysbryd iddynt

q 1 Pedr 1. 1.

* Mysia oedd y dalaeth orllewinol eithaf o Asia leiaf: † a Bithynia oedd dalaeth arall o'r un wlad, yn fwy i'r gogledd, yn rhedeg gyda glàn y môr dû. ‡ Gwel ar ddiwedd yr adnod o'r blaen. "Ni oddefai Ysbryd yr Iesu iddynt," yn ol amryw hen ysgrifau o'r Actau.

8 Ac wedi myned heibio i Mysia, * hwy a aethant i waered i [r] Troas.

r adn. 11. pen. 20. 5. 2 Cor. 2. 12. 2 Tim. 4. 13.

* Troas oedd ddinas ychydig i'r gogledd o Mysia, ar làn y môr: yma, neu yn agos yma, yr oedd yr hen Gaer-droiau enwog gynt. Yr oedd yn bur agos i'r *Hellespont*, neu gul-fôr Caer-custenyn.

9 [s] A gweledigaeth a ymddangosodd i Paul liw nos: * Rhyw wr o [t] † Macedonia a safai, ac a ddeisyfai arno, ac a ddywedai, [u] ‡ Tyred drosodd i Macedonia, a chymmorth ni.

s pen. 2. 17, 18. a 9. 10—12. a 10. 3, 10—17, 30. a 11. 5—12. a 18. 9, 10. a 22. 17—21. a 27. 23, 24. 2 Cor. 12. 1—4, 7. t pen. 18. 5. a 19. 21. Rhuf. 15. 26. 2 Cor. 7. 5. a 8. 1. a 9. 2. a 11. 9. 1 Thes. 1. 7, 8. a 4. 10. u pen. 8. 26—31. a 9. 38. a 10. 32, 33. a 11. 13, 14. Rhuf. 10. 14, 15.

* Angel Duw, mae yn debyg, yn ymddangos iddo yn rhith a chyffelybiaeth un o drigolion Macedonia. † Talaeth Roegaidd yn Europe, oedd Macedonia, y tu gorllewin, neu y gorllewin-ogledd, i'r cul-fôr uchod a enwyd; ‡ ac nid oedd gan Paul ond ychydig fôr i'w groesi, ped aethai dros y cul-fôr hwnw ac ar hyd y tir. Wrth edrych ar y gainc hon o fôr yn y darlun, *(map,)* gwelwn briodoldeb neilluol y geiriau, "Tyred drosodd;" ac yma gwelwn ddyben yr Ysbryd Glân yn gwarafun i Paul aros a phregethu yn y lleoedd a enwyd, adn. 6, 7; yr oedd yn brysio i'w gael ef i Troas, fel y danfonai efe ef oddi yno dros y môr, yn mhellach at y cenedloedd.

10 * A phan welodd efe y weledigaeth, [x] yn ebrwydd † ni a geisiasom fyned i Macedonia; gan gwbl-gredu alw o'r Arglwydd nyni i ‡ efengylu iddynt hwy.

x pen. 10. 29. a 26. 19. Salm 119. 60. Diar. 3. 27, 28. 2 Cor. 2. 12, 13.

* Ni bu yr apostol anufudd i'r weledigaeth nefol: credodd yn ddilys mai yr Arglwydd oedd yn ei alw; a gadawodd Asia, ei wlad ei hun, a'i genedl, i fyned ar alwad Duw, ac at waith Duw. † "*Ni* a geisiasom fyned:" yma mae Luc yn llefaru gyntaf yn y *person cyntaf lliosog*, ac yn ei roddi ei hun gyda Paul, Silas, a Timothëus: nid yw yn ei grybwyll ei hun ond megys yn ddamweiniol yma; ac o hyn yn mlaen nid yw yn dywedyd dim am ei deithiau a'i lafur personol ei hun gyda'r gwaith, er fod Paul yn rhoddi canmoliaeth ragorol iddo mewn amryw fânau. Mae y gwylder hwn yn brydferth ac yn addas iawn yn y dyniion sanctaidd hyn: a'r ganmoliaeth a roddant i'w gilydd yn hardd iawn hefyd, yn dangos eu cariad at eu gilydd, ac yn dangos i ninnau eu llafur a'u gweithredoedd da. ‡ "Efengylu iddynt:" pregethu Crist wedi ei groeshoelio yn Geidwad

i bechaduriaid o bob gwlad a chenedl, a'u hannog hwynt i gredu ynddo.

11 Am hynny, wedi myned ymaith o Troas, ni a gyrchasom yn uniawn i * Samothracia; a thrannoeth i † Neapolis:

* Ynys fechan ar eu ffordd uniawn o Troas i Neapolis: gelwid hi Samothracia am fod y trigolion mewn rhan o ynys Samos, nid pell o Ephesus; ac mewn rhan o Thracia, gwlad ehang rhwng Macedonia a pheu gorllewinol y môr dû. † Porthladd ar gyfandir Europe; cyfrifid y lle gynt yn perthyn i Thracia, ond wedi hyny i Macedonia.

12 * Ac oddi yno i [y] Philippi, † yr hon sydd brif-ddinas o barth o Macedonia, ‡ dinas rydd: ‖ ac ni a fuom yn aros yn y ddinas honno ddyddiau rai.

y pen. 20. 6. Phil. 1. 1. 1 Thes. 2. 2. z adn. 21.

* Dinas a elwid felly oddiwrth Phylip o Macedonia, tad Alexander Fawr, yr hwn a'i hadgyweiriodd, a'i haddurnodd, ac a'i galwodd ar ei enw ei hun: Dathos oedd ei henw o'r blaen; yr oedd yn sefyll yn agos i ddeng milltir ar hugain i'r gogledd orllewin o Neapolis, ac ar eu ffordd hwynt yn mlaen i drefydd eraill Macedonia. † Prif-ddinas o'r parth *hwnw* o Macedonia, yr hon a ddosparthid yn bedair rhan; Thesalonica ydoedd prif-ddinas Macedonia oll. ‡ *Colônia* yw y gair yn y Testament Groeg, gair Lladin yw, a ddefnyddiodd Luc yma, yn arwyddo Trefedigaeth, *colony* y Saeson. Gwedi goresgyn y lle gan Julius Cesar, efe a ddygodd Rufeinwyr i breswylio yn Philippi, yn cael eu llywodraethu gan gyfreithiau Rhufain, ac yn mwynâu breintiau dinasoedd Rhufain. Gwel adn. 21. ‖ Gan fod gan Dduw waith iddynt i'w wneyd yno (adn. 14, 25, &c.) hwy a arosasant yno am gryn amser. At yr eglwys a blanwyd yno yn awr, mae Paul yn ysgrifenu ei epistol at y Philipiaid.

13 [a] * Ac ar y dydd sabbath ni a aethom allan o'r ddinas i làn afon, [b] † lle y byddid arferol o weddïo; [c] ‡ ac ni a eisteddasom, [d] ac a lefarasom wrth y gwragedd a ddaethant ynghyd.

a pen. 13. 14, 42. a 17. 2. a 18. 4. a 20. 7. b Luc 13. 10. c Mat. 5. 1, 2. a 13. 2. Luc 4. 20, 21. Ioan 8. 2. d Marc 16. 15. Gal. 3. 28. Col. 1. 23.

* Yr oedd rhai Iuddewon yn yr holl fànau hyn lle byddai yr apostol yn myned, yn arfer cadw y sabbath Iuddewig, ac yn addoli Duw eu tadau yn y synagogau. † Mae yn debyg nad oedd dim digon o honynt yn Philippi i adeiladu synagog rëolaidd; gan hyny nid oedd ganddynt ond lle i weddïo, yr hwn a elwid y *proseuchê*. Y gwahaniaeth rhwng y synagog a'r *proseuchê* oedd hyn; tŷ, neu adeilad hardd, oedd y synagog, o *fewn* y ddinas; nid oedd y *proseuchê* ond muriau moelion, heb gronglwyd na thô arnynt, wedi eu hadeiladu *allan* o'r ddinas, ar làn afon, neu ar làn y môr, er cael gwell llonyddwch a distawrwydd i weddïo, ac er cyfle i ymolchi er puredigaeth, yr hyn a wnai yr Iuddewon cyn gweddïo. ‡ Aeth Paul a'i gyfeillion i'r *proseuchê* hwn, i gyd addoli â'r ychydig Iuddewon oedd yno, y rhai oeddynt wragedd gan mwyaf, ac a lefarodd wrthynt am yr Arglwydd Iesu a'r iachawdwriaeth.

14 ¶ * A rhyw wraig a'i henw [e] Lydia, † un yn gwerthu porphor, ‡ o ddinas y [f] Thyatiriaid, [g] yr hon oedd yn addoli Duw, a wrandawodd; [h] ‖ yr hon yr agorodd yr Arglwydd ei chalon, § i ddal ar y pethau a leferid gan Paul.

e adn. 40. f Dat. 1. 11. a 2. 18—24. g pen. 8. 27. a 10. 2. a 18. 7. Ioan 12. 20. h pen. 11. 21. Salm 110. 3. Can. 5. 4. Es. 50. 5. Luc 24. 45. Ioan 6. 44, 45. Rhuf. 9. 16. 1 Cor. 3. 6, 7. 2 Cor. 3. 14—16. a 4. 4—6. Eph. 1. 17, 18. Phil. 2. 13. Iago 1. 16, 17. Dat. 3. 7, 20.

* Un o'r cenedloedd mae yn debyg oedd y wraig hon, ond wedi ei dychwelyd i'r grefydd Iuddewig, ac yn addoli y gwir Dduw. † Lliw ydyw porphor, tebyg i rosyn coch, neu waed newydd ei ollwng: cair ef mewn math o gragen-bysg, a alwai y Groegiaid *porphyra:* ond mae yn debyg mai llïeiniau wedi eu lliwio yn borphor oedd y wraig ddiwyd hon yn werthu, y rhai oedd mewn bri mawr gan yr henafiaid yn y gwledydd hyny. ‡ Dinas yn Asia leiaf, neu Asia briodol, fel y gelwid y rhan hyny o hóni, oedd Thyatira; (Gwel Dat. 1. 11;) a brodores oddi yno oedd y wraig hon, ond ei bod wedi symmud i Philippi, ac yn byw yno. Gwel adn. 15. ‖ Y deall, a'r ewyllys, a feddylir yma wrth y galon; ac, yn wir, holl gynneddfau yr enaid: nid oes neb ond Duw a fedr agor y galon; a thrwy foddion, gwrando y gair, &c., y mae efe yn gwneyd hyny. Mae y galon yn gauad gan falchder, rhagfarn, a chariad at y byd a phechod, hyd oni agoro Duw hi trwy ei Ysbryd a'i ras. § Nid clywed a deall y pethau yn unig, ond dàl arnynt yn ystyriol, eu derbyn drwy ffydd yn y galon, eu cadw a'u gwneuthur.

15 [i] * Ac wedi ei bedyddio hi a'i theulu, † hi a ddymunodd *arnom,* gan ddywedyd, [k] Os barnasoch fy mod i yn ffyddlawn i'r Arglwydd, [l] deuwch i mewn i'm tŷ, ac arhoswch *yno.* [m] A hi a'n cymhellodd ni.

i adn. 33. pen. 8. 12, 38. a 11. 14. a 18. 8. 1 Cor. 1. 13—16. k Eph. 1. 1. Phil. 1. 7. Philemon 17. 1 Pedr 5. 12. 3 Ioan 5. l Gen. 18. 4, 5. Barn 19. 19, 20. Mat. 10. 41. Luc 9. 4, 5. a 10. 5—7. Rhuf. 16. 23. Gal. 6. 10. Heb. 13. 2. 2 Ioan 10. 3 Ioan 8. m Gen. 19. 3. a 33. 11. 1 Sam. 28. 23. 2 Bren. 4. 8. Luc 14. 23. a 24. 29. 2 Cor. 5. 14. a 12. 11.

* Pan oedd gan Lydia hawl i'w bedyddio trwy ei ffydd yn Nghrist, yr oedd ei holl deulu hefyd i gael eu bedyddio gyda hi; yr un modd ag yr oedd holl deulu Abraham i gael eu henwaedu gydag ef. Gwel Gen. 17. 12, 13. Nid oes yma ddim sôn am y teulu yn credu; ond mae yn ddïammau bod y rhai mewn oed o honynt yn cael eu dysgu yn egwyddorion crefydd, a Lydia yn ymrwymo i faethu y rhai ieuainc o honynt, os oedd rhai felly, yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Nid yw yr efengyl yn cyfyngu dim ar freintiau y credinwyr, ond yn eu ehangu; ac os oedd plant y gweision a enid yn y tŷ, ac a brynid am arian, yn cael eu henwaedu dàn y ddeddf; yn sicr ni ddylem gauad allan ein plant dàn yr efengyl, hyd oni chauont hwy eu hunain allan. "Plant ei thŷ," yw y geiriau yn y cyfieithiad Syriaidd, medd *Scott;* ond tybia nad yw hyny yn gyson â'r wreiddiaith, dim ond tyb y cyfieithwyr am hawl babanod i gael eu bedyddio. † Gwedi i'r Arglwydd agor ei chalon hi, yr oedd hithau yn agor ei thŷ i genadon yr Arglwydd, fel Lefi i Grist, Luc 5. 29; a Zacchëus, Luc 19. 5, 6; a cheidwad y carchar yn y bennod hon, adn. 34.

16 ¶ * A digwyddodd, [n] a ni yn myned i weddïo, † i ryw langces, [o] ‡ yr hon oedd ganddi yspryd dewiniaeth, gyfarfod â ni; [p] yr hon oedd yn peri llawer o elw i'w meistriaid, wrth ddywedyd ‖ dewiniaeth.

n adn. 13. o adn. 18. pen. 8. 9, 11. Ex. 7. 11, 12. Deut. 13. 1—3. a 18. 9—11. 1 Sam. 28. 7, &c. 1 Cron. 10. 13. Es. 8. 19. Gal. 5. 20. 2 Tim. 3. 8. p pen. 19. 24. 1 Tim. 6. 10. 2 Pedr 2. 3. Dat. 18. 11—13.

* Rhyw dro arall, pan oeddynt yn myned i'r lle a enwyd uchod i weddïo. † Morwyn gaeth, yw ystyr y gair *paidiskê,* a gyfieithir yma llances; ac mae yn amlwg mai un felly oedd hi, gan fod elw ei dewiniaeth hi yn myned i'w meistriaid. ‡ Cynhyrfid a galluogid hi gan ysbryd drwg, i draddodi daroganau a dewiniaeth mewn ymadroddion amwys, fel offeiriadesau Apollo yn Delphos. *Pythônos* yw y gair am ddewiniaeth yn y fàn hon: *Python,* neu *Pythius,* y galwai y paganiaid Apollo; am iddo ladd, meddant, ryw sarph neu wiber fawr, o'r enw hwnw. Efallai mai yr addewid o Had y wraig yn ysigo pen y sarph, a fu dechreuad y chwedl draddodiadol hòno yn mhlith y paganiaid. ‖ Gair arall sydd am ddewiniaeth yn niwedd yr adnod; *manteuonenê,* gair yn

arwyddo gwallgofrwydd, herwydd yr agwedd wallgof gynddeiriog a fyddai ar y dewiniaid hyn, pan fyddent yn cael eu cynhyrfu gan ddiafol.

17 * Hon a ddilynodd Paul a ninnau, † ac a lefodd, gan ddywedyd, [q] ‡ Y dynion hyn ydynt [r] weision [s] y Duw goruchaf, y rhai sydd yn mynegi i chwi [t] ffordd iachawdwriaeth.

q pen. 19. 13. Mat. 8. 29. Marc 1. 24. Luc 4. 34, 41. r Dan. 3. 26, 28. a 6. 16, 20. Jona 1. 9. 1 Pedr 2. 16. s Gen. 14. 18—22. Salm 57. 2. a 78. 35. Dan. 4. 2. a 5. 18, 21. Mica 6. 6. Marc 5. 7. Luc 8. 28. t adn. 30, 31. pen. 18. 26. Mat. 7. 13, 14. a 22. 16. Marc 12. 14. Luc 1. 77, 79. a 20. 21. Ioan 14. 6. Heb. 10. 19—22.

* Cyfarfu â hwynt yn yr adnod o'r blaen, yn awr mae yn troi yn ol ac yn eu canlyn hwy: † ac yn llefain yn y geiriau uchod, fel hwnw yn Luc 4. 33, 34. ‡ Efallai mai Duw oedd yn peri i'r ysbryd aflan fel hyn addef Paul a'i gyfeillion fel ei weision ef; neu ynte y diafol trwy oddefiad Duw yn peri i'r llances lefain fel hyn er dwyn dianrhydedd ar wyrthiau yr apostol, a pheri amheüaeth yn meddyliau y bobl ai o Dduw ai o ddiafol yr oedd ei wyrthiau ef. Efallai ei fod yn amcanu chwythu Paul a'i gymdeithion i fynu mewn balchder hefyd trwy lefain fel hyn: pwy all wybod pa ddybenion oedd gan y gelyn?

18 A hyn a wnaeth hi dros ddyddiau lawer. * Eithr Paul [u] yn flin ganddo, a drodd, ac a ddywedodd wrth yr yspryd, [x] † Yr ydwyf yn gorchymyn i ti, yn enw Iesu Grist, fyned allan o honi. ‡ Ac efe a aeth allan yr awr honno.

u pen. 14. 13—15. Marc 1. 25, 26, 34. x pen. 3. 6. a 9. 34. a 19. 12—17. Marc 9. 25, 26. a 16. 17. Luc 9. 1. a 10. 17—19. Col. 2. 15.

* Wrth ei bod yn hir barâu i lefain fel hyn, aeth yn flin gan Paul; blinodd dros y llances, ei bod mòr resyn yn meddiant y diafol: blinodd drosto ei hun, ei fod yn cael ei aflonyddu yn barâus ganddi: blinodd dros y bobl, eu bod yn cael eu twyllo fel hyn gan ddiafol a'i offerynau: a blinodd yn achos yr efengyl, ei bod yn debyg o gael ei rhwystro fel hyn trwy dwyll a hudoliaeth yr ysbryd drwg. † Mae Paul, fel ein Iachawdwr ei hun, yn gwrthod tystiolaeth a chydnabyddiaeth y diafol, ac yn enw yr Iesu yn ei fwrw ef allan o'r llances. ‡ Gyda gorchymyn Paul, ac yn enw yr Iesu, efe a aeth allan, ac allan am byth mae yn debyg; nid oes sôn am y llances mwyach, efallai iddi gael ei hachub trwy yr efengyl.

19 ¶ * A phan welodd ei meistriaid hi [y] fyned gobaith eu helw hwynt ymaith, [z] † hwy a ddaliasant Paul a Silas, ac a'*u* llusgasant *hwy* i'r ‡ farchnadfa, at y ‖ llywodraethwyr;

y pen. 19. 25, 26. 1 Tim. 6. 10. z pen. 9. 16. a 14. 5, 19. a 15. 26. a 18. 12, 13. a 21. 30. Mat. 10. 16, 17 a 24. 9. Marc 13. 9.

* Gwel ar adn. 16: gan fod cymmaint o elw o'i dewiniaeth hi, efallai bod llawer yn rhanog o hóno, ac fel hyny yn feistriaid iddi. † Yn lle rhyfeddu y wyrth, a chlodfori Duw am waredigaeth y llances, ymgynddeiriogi herwydd colli eu helw a wnaethant hwy, a cheisio drygu Paul a Silas am y wyrth a wnaed. Mae llawer o'r ysbryd hwn eto, mewn dynion a *elwir* yn gristionogion, y rhai ydynt yn elwa mewn caeth-fasnach: nis gwaeth ganddynt beth a ddelo o eneidiau eu caethion am y caffont hwy elw oddiwrth eu llafur. ‡ Y llŷs barnol a feddylir yma wrth y farchnadfa, a lle cynnelid y farchnad hefyd, efallai, ar amserau gosodedig. ‖ Y prif swyddogion milwraidd oedd y rhai hyn, y rhai oeddynt ynadon hefyd mewn lleoedd yn perthyn i'r Rhufeiniaid.

20 Ac a'u dygasant hwy at y swyddogion, ac a ddywedasant, * Y mae y dynion hyn, [a] y rhai ydynt Iuddewon, [b] † yn llwyr-gythryblio ein dinas ni,

a pen. 18. 2. a 19. 34. Ezra 4. 12—15. Esther 3. 8, 9. b pen. 17. 6—8. a 28. 22. 1 Bren. 18. 17, 18. Mat. 2. 3. Ioan 15. 18—20. Rhuf. 12. 2. Iago 4. 4.

* Crybwyllent eu bod yn Iuddewon, am fod yr Iuddewon yn atgasach na neb gan y cenedloedd agos oll, o herwydd eu gwahaniaeth mewn crefydd, moesau, arferion, oddi wrth bob cenedl arall. † Cymmeryd arnynt amddiffyn heddwch y ddinas yr oeddynt hwy; ni ddywedasant air am fwrw y cythraul allan o'r llances; ac nid yw yn ymddangos fod neb wedi cythryblio yn y ddinas chwaith, ond y rhai a gollasant eu helw: diafol a'i offerynau oedd yn cythryblu y ddinas; llonyddu y ddinas yr oedd yr apostolion trwy ei fwrw ef allan.

21 * Ac yn dysgu [c] defodau y rhai nid ydyw rydd i ni eu derbyn, na'u gwneuthur, † y rhai ydym Rufeinwyr.

c pen. 26. 3. Jer. 10. 3.

* Nid yw yn ymddangos fod un gwaharddiad i'r Iuddewon i arfer eu crefydd eu hunain yn Philippi y pryd hwn, nac yn wir mewn un ddinas arall a berthynai i'r Rhufeiniaid; felly yr oedd y cyhuddiad hwn yn hollawl o genfigen ac yn ddisail. Dywedir bod rhyddid i bawb i addoli y duw a fynai gartref, a chosp ar bawb a'u haflonyddent; ond nad oedd rhyddid i neb i geisio sefydlu crefydd newydd, heb ganiatâd Senedd Rhufain. † Y rhai ydym Rufeinwyr o genedl, lawer o honom, ac oll yn drefedigaeth *(colony)* Rufeinig.

22 [d] * A'r dyrfa a safodd i fynu ynghyd yn eu herbyn hwy; [e] † a'r swyddogion, gan rwygo eu dillad, ‡ a orchymynasant *eu* curo *hwy* â gwïail.

d pen. 17. 5. a 18. 12. a 19. 28, &c. a 21. 30, 31. a 22. 22, 23. e adn. 37. pen. 5. 40. a 22. 24—26. Mat. 10. 17. a 27. 26. 2 Cor. 6. 5. a 11. 23—25. 1 Thes. 2. 2. Heb. 11. 36. 1 Pedr 2. 24.

* Dylasai y dyrfa sefyll i fynu o'u plaid hwy, ac yn erbyn eu herlidwyr, y rhai a fu yn hir yn eu hudo hwy o'u harian trwy ddewiniaeth y llances, i gael elw iddynt eu hunain. Ond nis gwyddent hwy well; ac ni welodd yr apostol yn dda i ddangos y peth fel yr oedd iddynt. † Nid eu dillad eu hunain, ond dillad Paul a Silas: felly yr arferai y Rhufeiniaid wneyd â'r rhai a gyhuddid eu bod yn ddrwg-weithredwyr; ond nid cyn eu profi a'u cael yn euog, ‡ a llai o lawer eu curo hwy â gwïail cyn eu profi. At hyn y cyfeira Paul yn 1 Thes. 2. 2.

23 * Ac wedi rhoddi gwïalennodiau lawer iddynt, [f] hwy a'*u* taflasant i garchar; gan orchymyn i geidwad y carchar [g] eu cadw hwy yn ddïogel.

f pen. 5. 18. a 8. 3. a 9. 2. a 12. 4. Luc 21. 12. Eph. 3. 1. a 4. 1. 2 Tim. 2. 9. Philemon 9. Dat. 1. 9. a 2. 10. g pen. 5. 23. a 12. 18. 1 Sam. 23. 22, 23. Mat. 26. 48. a 27. 63—66.

* Llawer gan y ffrewyllwyr gosodedig i hyny, a llawer gan y dyrfa afrëolus hefyd efallai. Gwel 2 Cor. 11. 23. † Nid i'r dyben o'u dwyn allan i gael eu profi drachefn, debygid, y carcharwyd hwynt, ond i'r dyben o'u cospi yn chwanegol â charchariad, os gwyddai y swyddogion, yn wir, pa ddyben oedd ganddynt, yn yr holl ofal creulawn hyn.

24 * Yr hwn, wedi derbyn y cyfryw orchymyn, a'*u* bwriodd hwy i'r [h] carchar nesaf i mewn, [i] † ac a wnaeth eu traed hwy yn sicr yn y cyffion.

h 1 Bren. 22. 27. Jer. 37. 15, 16. a 38. 26. Galar. 3. 53—55. i 2 Cron. 16. 10. Job 13. 27. a 33. 11. Salm 105. 18. Jer. 20. 2. a 29. 26.

* Mae yn debyg fod y ceidwad hwn mòr greulawn a didrugaredd ag y gallai ei feistriaid ddymuno iddo fod: bwriodd hwynt yn anmharchus i'r ceudwll cadarnaf, tywyllaf, ffieiddiaf, a mwyaf annghysurus yn yr holl garchar. † Ac nid hyny yn unig, gosododd eu traed hwy yn ddïogel mewn cyffion hefyd. Darniau mawrion o goed, oedd cyffion y Rhufeiniaid, y rhai oedd, nid yn unig yn bwysau trymion wrth draed y carcharorion, ond hefyd yn lledu eu hesgeiriau mewn modd blin iawn. Wrth feddwl hyn, yn nghyd â'u cefnau archolledig yn

e gorwedd ar y ddaear laith, oer a chaled, mae yn rhyfedd
f fod Paul a Silas yn gallu cânu yn y carchar yn nyfnder
t nos. adn. 25.

25 ¶ [k] * Ac ar hanner nos Paul a Silas
c oedd yn gweddio, [m] † ac yn canu mawl i
l Dduw: [n] ‡ a'r carcharorion a'u clywsant hwy.

k Job 35. 10. Salm 22. 2. a 42. 8. a 77. 6. a 119. 55, 62. Es.
3 30. 29. l Salm 50. 15. a 77. 2. a 91. 15. Mat. 26. 38, 39. Luc 22.
4 44. Heb. 5. 7. Iago 5. 13. m pen. 5. 41. Mat. 5. 10, 11. Luc 6.
2 22, 23. Rhuf. 5. 3. a 12. 12. 2 Cor. 4. 8, 9, 16, 17. a 6. 10. Phil. 2.
1 17. a 4. 4—7. Col. 1. 24. a 3. 15—17. 1 Thes. 5. 16—18. Iago 1. 2.
1 1 Pedr 1. 6—8. a 4. 14. n Ezra 3. 12, 13. Salm 71. 7. Zec.
3 3. 8.

* Nid oes un lle nac amser nad yw gweddi yn gymmeradwy gan Dduw, ac yn sicr o lwyddo: un a wrendy
c ochenaid y carcharorion yw efe, ac a geidw blant
r marwolaeth. † Nid gweddio yn unig oedd yma, ond
c cânu hefyd: cânu mawl i Dduw am eu cyfrif yn deil-
wng i ddyoddef er mwyn ei enw ef: yr oedd eu hen-
eidiau yn llawn o ddyddanwch a gorfoledd yr Ysbryd
t Glân, eu cydwybodau yn dawel, a hwythau mewn
tangnefedd heddychol, ac mewn llawn hyder ffydd yn
ymddiried yn yr Arglwydd. ‡ Cymmaint oedd gorfol-
edd eu hysbryd, fel y cânasant â'u holl egni, hyd oni
chlywodd yr holl garcharorion eraill, mewn rhanau
eraill o'r carchar mawr, er eu syndod annhraethol.

26 [o] * Ac yn ddisymmwth y bu daear-gryn
mawr, hyd oni siglwyd seiliau y carchar: ac
yn ebrwydd yr holl ddrysau a agorwyd, [p] a
rhwymau pawb a aethant yn rhyddion.

o pen. 4. 31. a 5. 19. a 12. 7. Mat 28. 2. Dat. 6. 12. a 11. 13.
p Salm 79. 11. a 102. 20. a 146. 7. Es. 42. 7. a 61. 1. Zec. 9.
11, 12.

* "Daear-gryn mawr—agoryd drysau y carchar—rhwymau yn myned yn rhyddion"—cyfrifai y paganiaid eu hunain, meddant, y tri pheth uchod fel arwydd o ryw ymddangosiad dwyfol, o blaid y gorthrymedig a fyddai yn dyoddef ar gam: felly yr oedd yn sicr yn yr amgylchiad hwn; erbyn galw o honynt yr oedd Duw yn ateb, ac yn dangos mai cymmorth hawdd ei gael mewn cyfyngder yw efe. Gallasai efe waredu ei weision heb yr arwyddion rhyfedd hyn; ond yr oedd am wneyd eu diniweidrwydd yn hysbys i bawb, ac mai peth goruwch-naturiol, ac o Dduw, oedd eu gwaredigaeth hwynt.

27 [q] * A phan ddeffrôdd ceidwad y carchar,
a chanfod drysau y carchar yn agored, [r] † efe
a dynnodd ei gleddyf, ac a amcanodd ei ladd
ei hun; gan dybied ffoi o'r carcharorion
ymaith.

q adn. 23, 24. r Barn. 9. 54. 1 Sam. 31. 4, 5. 2 Sam. 17.
23. 1 Bren. 16. 18. Mat. 27. 5.

* Mae yn debyg i'r daear-gryn mawr, swn y drysau yn agor, a thrwst y cadwynau yn syrthio, i gyd ar unwaith, ddeffrôi ceidwad y carchar o'i gwsg: tra bu ef yn cysgu yr oedd Duw yn effro yn gweithio, a chwedi gorphen ei waith erbyn iddo ef ddeffrôi. † Amcanodd ei ladd ei hun i ddianc creulonach angau, oblegid y gyfraith yn mhlith y Rhufeiniaid a'r Groegiaid hefyd oedd, bod i geidwad y carchar gael dyoddef yr un farwolaeth a fwriedid i'r carcharor, os gollyngai efe ef i ddianc. Cyfreithlonai y rhan fwyaf o'r philosophyddion paganaidd hunan-laddiad, fel yr ymwared olaf mewn cyfyngder: ac yr oedd yn beth cyffredin yn mhlith gwŷr mawr y Rhufeiniaid, yn enwedig yn Philippi: syrthio ar eu cleddyfau eu hunain a wnaeth Brutus, Casius, ac eraill yno.

28 * Eithr Paul [s] a lefodd â llef uchel, gan
ddywedyd, [t] Na wna i ti dy hun ddim niwed;
† canys yr ydym ni yma oll.

s Lef. 19. 18. Salm 7. 4. a 35. 14. Diar. 24. 11, 12. Mat. 5. 44.
Luc 6. 27, 28. a 10. 32—37. a 22. 51. a 23. 34. 1 Thes. 5. 15.
t Ex. 20. 13. Diar. 8. 36. Preg. 7. 17.

* Yr oedd gan Dduw feddyliau o drugaredd tuag at y ceidwad hwn, am hyny defnyddiodd yr apostol i'w attal ef rhag ei ladd ei hun ar y tarawiad yr oedd yn myned i wneyd hyny. † Gwyddai Paul mai ofni ffoi o'r carcharorion oedd arno ef, am hyny mae yn brysio i ddywedyd eu bod oll yno, fel yr unig ffordd i'w attal ef. Gan eu bod oll yn y tywyllwch, peth rhyfedd pa fodd y gwyddai Paul fwriad y ceidwad, a pheth rhyfedd hefyd pa fodd y gwyddai pa un a oedd y carcharorion yno i gyd ai peidio: efallai mai trwy ddatguddiad dwyfol ar y mynud hwnw, y gwyddai bob un o'r ddau. Yr oedd rhyw syndod wedi meddiannu y carcharorion oll, mae yn debyg, a hyny a'u cadwodd rhag ffoi.

29 * Ac wedi galw am oleu, † efe a ruthr-
odd i mewn, [u] ac yn ddychrynedig [x] ‡ efe a
syrthiodd i lawr ger bron Paul a Silas,

u pen. 9. 5, 6. a 24. 25. Salm 99. 1. a 119. 120. Es. 66. 2, 5.
Jer. 5. 22. a 17. 10. Dan. 6. 26. x Es. 60. 14. Dat. 3. 9.

* Galwodd ar ei weision i ddwyn goleuni, i weled beth oedd hyn oll: † a phan welodd, efe a ddychrynodd dros fesur; y drysau oll yn agored, cadwynau pawb yn rhyddion, pawb yn llonydd yn eu lle heb gynnyg dianc, ac yntau newydd gael ei gipio megys o safn marwolaeth. Mae yn bur debygol bod yr Ysbryd Glân hefyd yn ei ddychrynu ef âg argyhoeddiadau ar yr un pryd, ac mai nid effeithiau y dygwyddiadau uchod ar deimladau ei natur oedd y cwbl o'i ddychryn mawr. ‡ Rhyfedd y cyfnewidiad a fedr Duw wneyd; dyma efe yn syrthio wrth y traed a roddasai ef yn y cyffion ychydig oriau cyn hyny, yn ngwŷdd ei weinidogion oedd yn dwyn goleuni gydag ef. Arwydd o barch dynol oedd y syrthio hwn, nid oedd dim yn debyg i addoliad ynddo, fel Cornelius o flaen Pedr; gan hyny nid yw Paul a Silas yn gwarafun iddo fel Pedr yno. Dyma gyflawniad o Salm 72. 9.

30 [y] * Ac a'u dug hwynt allan, ac a ddy-
wedodd, [z] † *O* feistriaid, [a] ‡ beth sydd raid i
mi ei wneuthur, fel y byddwyf gadwedig?

y adn. 24. Job 34. 32. Es. 1. 16, 17. a 58. 6, 9. Mat. 3. 8. a 5.
7. Iago 2. 13. z Gwel ar pen. 14. 15. a adn. 17. pen. 2. 37.
a 9. 6. a 22. 10. Job 25. 4. Ioan 6. 27—29.

* Nid oedd eisiau rhyddâu na chadwyn na chyffion, yr oedd Duw wedi gwneyd hyny o'r blaen: dim i'r ceidwad i wneyd ond eu dwyn hwy allan. † Efe oedd feistr ychydig o'r blaen, yn awr hwy sydd yn cael yr enw. ‡ Efallai y gwyddai efe rywbeth am fyd a chyflwr i ddyfod wrth oleuni natur, trwy draddodiadau, trwy athrawiaeth y philosophyddion, a thrwy ei ymddiddan âg Iuddewon a phroselytiaid: ond tybir mai geiriau y ddewines (adn. 17) yn benaf, a barodd iddo ofyn fel hyn i Paul a Silas; yr oedd yn awr yn credu mewn gwirionedd mai gweision y Duw Goruchaf oeddynt hwy, yn mynegi i ddynion ffordd iachawdwriaeth, er iddo eu dirmygu hwynt o'r blaen, ac ymddwyn yn greulawn tuag atynt.

31 * A hwy a ddywedasant, [b] † Cred yn
yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi,
[c] ‡ ti a'th deulu.

b pen. 2. 38, 39. a 4. 12. a 8. 37. a 11. 13, 14. a 13. 38, 39. a
15. 11. Es. 45. 22. Marc 16. 16. Ioan 1. 12. a 3. 15, 16, 36. a 6. 40,
47. a 7. 37, 38. a 11. 25, 26. a 20. 31. Rhuf. 5. 1, 2. a 10. 9, 10. Gal.
3. 22, 26. Eph. 2. 7, 8. 1 Ioan 5. 10—13. c adn. 15, 32. pen. 2.
39. a 18. 8. Gen. 17. 7. a 18. 19. Jer. 32. 39. Rhuf. 11. 16. Gal.
3. 14.

* Parod iawn oedd Paul a Silas i'w addysgu ef yn ffordd y hywyd tragywyddol, er mòr greulawn yr ymddygasai efe atynt hwy o'r blaen. † Dyma swm yr holl efengyl, a dyma'r cwbl sydd yn hanfodol i iachawdwriaeth: mae Crist wedi ei dderbyn trwy ffydd, yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth, i'r penaf o bechaduriaid, ïe, i geidwad y carchar hwn. ‡ Nid ydym i feddwl fod ei ffydd bersonol ef yn ddigon i gadw ei deulu; ond gallai ei esampl ef fod yn foddion i ddwyn ei deulu hefyd i gredu yn Nghrist; a chydag ef i ddyfod yn rhan o'r eglwys weledig, a chael mwynâu moddion gras er iachawdwriaeth eu heneidiau. Trwy gredu yn Nghrist, byddai iddo ef ddyfod yn wir fab ysbrydol i Abraham, ac yn

ddeiliad o gyfammod Duw, yn yr hwn mae yn addaw bod yn Dduw i'w bobl ac i'w had. Nid oedd gwiw i'r apostol grybwyll y rhagorfraint hon yn y geiriau uchod wrth bagan, na wyddai ddim am ymadroddion yr Hen Destament; ond mae yn cynnwys yr un athrawiaeth wrth ddywedyd, "Ti â'th deulu."

32 [d] * A hwy a draethasant iddo † air yr Arglwydd, ‡ ac i bawb oedd yn ei dŷ ef.

d pen. 10. 33—43. Marc 16. 15. Eph. 3. 8. Col. 1. 27, 28. 1 Thes. 2. 8. 1 Tim. 1. 13—16.

* Yn archolledig, yn lluddedig, mewn anhunedd, ac yn newynog fel yr oeddynt, hwy a draethasant iddo ef a'i deulu air yr Arglwydd yn mlaenaf peth, cyn cael un ymgeledd eu hunain: yr oedd achos eneidiau yn fwy na phobpeth yn eu meddyliau hwy. † Trwy y gair hwn am Grist yr oedd efe i gredu yn Nghrist: ac mae yn ddiammau iddynt draethu iddo brif wirioneddau yr efengyl, a'r pethau hanfodawl eu credu er iachawdwriaeth. ‡ Efallai i'r carcharorion hefyd, gyda'r teulu, gael clywed yr efengyl; a phwy a wyr beth fu canlyniad y tro rhyfedd hwn.

33 * Ac efe a'u cymmerth hwy yr awr honno o'r nos, [e] ac a olchodd *eu* briwiau; [f] † ac efe a fedyddiwyd, a'r eiddo oll, ‡ yn y man.

e adn. 23. Diar. 16. 7. Es. 11. 6—9. Mat. 25. 35—40. Luc 10. 33, 34. Gal. 5. 6, 13. f adn. 15. Luc 19. 9. 1 Cor. 1. 16.

* Buan iawn y dangosodd efe brawf o'i wir dröedigaeth, a bod ganddo ffydd yn gweithio trwy gariad: dyma y llew wedi cael ei wneyd yn oen, a'r cadwynwr creulon wedi troi yn feddyg tirion. Efallai mai efe a'u ffrewyllasai hwynt, gyda llawer o hyfrydwch barbaraidd; ond yn awr yr oedd gyda llawer mwy o hyfrydwch yn gwneyd a allai i lanâu a meddyginiaethu eu briwiau tost. † Bedyddiwyd ef ar broffes ddiragrith o'i ffydd yn Nghrist; a bedyddiwyd y rhai mewn oedran o'r teulu ar yr un broffes hefyd, yn ddiammau; o blegid traethwyd y gair iddynt hwy fel yntau, ac nid yw yn debyg i'r apostol fedyddio neb o honynt, ond trwy eu cyd-syniad, ac ar eu dymuniad eu hunain. Ond bedyddiwyd "yr eiddo ef *oll;*" gan hyny rhaid bedyddio y plant bychain, neu ynte nad oedd yno ddim plant bychain, a phwy a gymmer arno brofi nad oedd yno yr un baban? Pan fyddai pen-teulu paganaidd yn cael ei ddychwelyd i'r grefydd Iuddewig, byddai holl wrrywaid ei deulu, babanod a chwbl, yn cael eu henwaedu gydag ef, oddigerth i rai o'r oedolion ar ol eu haddysgu, wrthod cymmeryd eu henwaedu: gan hyny, mae yn naturiol i ni feddwl, mai yr un rëol a arferid yn medyddiadau y teuluoedd, y darllenwn am danynt yn y Testament Newydd; oblegid yr un oedd y cyfammod a *seliwyd* i Abraham a'r cyfammod cristionogol, neu efengylaidd; ac yr oedd yr enwaediad hwnw yn arwydd o'r un bendithion ag a arwyddir mewn bedydd yn awr. Gwel o'r blaen, ar adn. 15. Gwyddir yn dda, bod yr eglwys gristionogol yn yr oesoedd boreuaf yn bedyddio babanod; ac nid ydym yn darllen yn un màn yn y Testament Newydd, am neb o blant y credinwyr yn cael eu bedyddio mewn oedran. ‡ Am fedyddio yn y màn, neu yn ddïoed fel hyn, cawsom esamplau cyffelyb o'r blaen: gwel pen. 8, 38; a 10. 47; ac adn. 15 o'r bennod hon. A oes rhyw le i feddwl mai trwy drochiad y bedyddiwyd y teulu hwn, yn y màn, yn nyfnder nos, ac yn y carchar, fel hyn? mae yn annhebyg iawn yn wir.

34 [g] * Ac wedi iddo eu dwyn hwynt i'w dŷ, † efe a osododd fwyd ger eu bron hwy, [h] ‡ ac a fu lawen, gan gredu i Dduw, efe a'i holl deulu.

g Luc 5. 29. a 19. 6. Phil. 4. 17. 1 Thes. 4. 9, 10. Philemon 7. Iago 2. 14—17. 1 Ioan 3. 18. h adn. 27—29. pen. 2. 46. a 8. 39. Es. 12. 1—3. a 55. 12. a 57. 17, 18. a 58. 7—11. a 61. 10. Luc 15. 22—25, 32. Rhuf. 5. 2, 11. a 15. 13. Gal. 5. 22. Phil. 4. 4. 1 Pedr 1. 6—8.

* Gwel ar adn. 15: yr un ysbryd carüaidd a llettygar oedd yn hwn yn awr ag oedd yn Lydia yno. † Yr oedd yn ddigon rhaid iddynt hwy gael bwyd erbyn hyn, ac yr oedd yn dda iawn ganddo yntau roddi y pethau goreu a feddai ger eu bronau. ‡ Tröwyd dychryn a gofid y ceidwad yn llawenydd yn fuan, ac nid oedd yr un tant annghywair yn y teulu oll; pawb yn credu a phawb yn cyd-lawenychu: ni bu noson o fath hon erioed o'r blaen yn y teulu hwn. Neu, mae rhai yn darllen y geiriad fel hyn:—"Efe, gan gredu i Dduw, a lawenychodd ei holl deulu:" fel pe buasai yn neidio o un ystafell i'r llall yn ei orfoledd, i lawenychu pawb o honynt. A rhaid oedd llawenychu a gorfoleddu hefyd; oblegid yr hwn oedd yn farw a aeth yn fyw drachefn; a'r hwn a fu golledig a gafwyd: bendigedig fo Duw, am ei ddawn annhraethol!

35 [i] * A phan aeth hi yn ddydd, y swyddogion a anfonasant y ceisiaid, gan ddywedyd, Gollwng ymaith y dynion hyny.

i pen. 4. 21. a 5. 40. Salm 76. 10. Jer. 5. 22.

* Efallai eu bod wedi clywed erbyn hyn mai yr unig ddrwg a wnaethai Paul a Silas oedd, bwrw y cythraul allan o'r llances: mae yn debyg iddynt gael eu dychrynu gan y ddaear-gryn hefyd, ac ofni y deuai barn Duw arnynt am y cam wnaethent â'r dynion; yn wir mae rhai hen ysgrifau o'r adnod hon yn crybwyll hyny, meddant. Efallai bod y pethau rhyfedd a ddygwyddasai yn y carchar wedi cael eu hadrodd wrthynt hefyd yn fore drannoeth; a rhwng pobpeth mae yn amlwg eu bod hwy wedi dychrynu, ac yn ewyllysio gollwng y dynion ymaith yn ddirgel rhag dyfod i warth a niwed am eu hymddygiad tuag atynt.

36 * A cheidwad y carchar a fynegodd y geiriau hyn wrth Paul, Y swyddogion a anfonasant i'ch gollwng chwi ymaith: † yn awr gan hynny cerddwch ymaith; [k] ‡ewch mewn heddwch.

k pen. 15. 33. Ex. 4. 18. Barn. 18. 6. 1 Sam. 1. 17. a 20. 42. a 25. 35. a 29. 7. 2 Bren. 5. 19. Marc 5. 34. Ioan 14. 27.

* Yr oedd yn dda gan geidwad y carchar ddwyn y newydd hwn iddynt yn ddiammau; † nid am ei fod ef yn ewyllysio cael gwared o honynt, ond am fod yn dda ganddo eu bod hwy yn cael eu rhyddâu, fel yr elent i bregethu yr efengyl hòno i eraill, a fu mòr werthfawr a bendithiol iddo ef ei hun a'i deulu. ‡ Ewch mewn heddwch, a bydded holl fendithion y nefoedd arnoch chwi ac ar eich llafur pa le bynag yr eloch.

37 * Eithr Paul a ddywedodd wrthynt, [l] † Wedi iddynt ein curo yn gyhoedd heb ein barnu, ‡ a ninnau yn Rhufeinwyr, hwy a'n bwriasant ni i garchar; ac yn awr a ydynt hwy yn ein bwrw ni allan yn ddirgel? nid felly; ond [m] deuant hwy eu hunain, a dygant ni allan.

l adn. 20—24. pen. 22. 25—28. Salm 58. 1, 2. a 82. 1, 2. a 94. 20, 21. Diar. 28. 1. m Dan. 3. 25, 26. Mat. 10. 16.

* Sef wrth y swyddogion a ddanfonasid i'r carchar i'w gollwng hwy. † Sef y llywodraethwyr, adn. 19, a'r swyddogion a barasant eu curo a'u carcharu hwynt, adn. 22, 23. ‡ Iuddewon o ran cenedl oedd Paul a Silas, ond Rhufeinwyr o ran breintiau dinasaidd, neu wladol, gan eu bod wedi eu geni mewn lleoedd yn perthyn i'r Rhufeiniaid, ac yn mwynâu breintiau a nawdd y cyfreithiau Rhufeinig. Yn ol y cyfreithiau hyny yr oedd yn anghyfreithlawn rhwymo dinasydd Rhufeinig, a'i guro, yn enwedig heb gael prawf teg a chyfiawn ar ei fater ef. ‖ Yr oedd Paul yn dadleu fel hyn er amddiffyn ei ddiniweidrwydd a'i enw da ei hun a Silas, er amddiffyniad i gristionogion eraill a erlidid ar ol hyn; ac er dysgu y swyddogion hyn pa fodd y trinent ddynion rhaglaw.

38 A'r ceisiaid a fynegasant y geiriau hyn i'r swyddogion. [n] * A hwy a ofnasant, pan glywsant mai Rhufeiniaid oeddynt.

n pen. 22. 29. Mat. 14. 5. a 21. 46.

* Yr oedd y swyddogion yn agored i gospedigaeth dròm, am y llwybr a gymmerasent tuag at Paul a Silas, pe buasai y peth yn myned i glustiau eu huwch-raddolion: gwyddent hwy hyny yn dda; ac yna nid rhyfedd iddynt ofni. Nid oeddynt yn ammau dim am uniondeb hawl Paul a Silas i ddinas-fraint Rhufain; oblegid ni feiddiai neb hòni y fath hawl yn dwyllodrus, heb ei ddarostwng ei hun i'r gospedigaeth lèmaf: rhoddai Claudius bawb a wnelai hyny i farwolaeth.

39 [o] * A hwy a ddaethant ac a attolygasant arnynt, [p] ac a'*u* dygasant allan, [q] † ac a ddeisyfasant arnynt fyned allan o'r ddinas.

o Es. 45. 14. a 49. 23. a 60. 14. Mica 7. 9, 10. Dat. 3. 9. p Dan. 6. 16, 23. q Mat. 8. 34. Marc 5. 17, 18.

* Dyma fuddugoliaeth ardderchog o blaid gweision Iesu, a dyma ddarostyngiad eithaf teilwng i'w herlidwyr trahäus hwynt: gorfu arnynt gyfaddef eu bai yn y modd gostyngeiddiaf, crefu am faddeu iddynt y cam a wnaethent, a pheidio cynmeryd y fantais i osod cyhuddiad yn eu herbyn mewn brawdle uwch. Er nad ofnent Dduw, yr oeddynt yn gorfod ofni dynion. † Fel na byddai eu hymddangosiad yn y ddinas yn warth iddynt hwy ar ol eu carcharu, fel na byddai ail derfysg yn eu hachos, ac fel na byddai perygl iddynt hwythau mewn un modd o'u plegid.

40 * Ac wedi myned allan o'r carchar, [r] † hwy a aethant i mewn at Lydia: ac wedi gweled y brodyr, [s] hwy a'u cysurasant, ‡ ac a ymadawsant.

r adn. 14. pen. 4. 23. a 12. 12—17. s pen. 14. 22. 2 Cor. 1. 3—7. a 4. 8—12, 16—18. 1 Thes. 3. 2, 3.

* Cawsant eu rhyddâu yn anrhydeddus, ac am eu bod o ysbryd maddeugar, dyna'r cwbl oeddynt yn geisio: nid oeddynt yn chwennych niwed i'r rhai a wnaethai gam â hwy; † a chwedi ymweled â Lydia a'r brodyr eraill, a'u cysuro yn wyneb adfyd ac erlidiau, ‡ hwy a ymadawsant oddi yno yn ol cais y swyddogion, fel nad ymddangosent yn gyndyn nac yn ddialgar, nac am achlysuro terfysg yn y ddinas.

PEN. XVII.

Paul yn pregethu yn Thessalonica.

GWEDI * iddynt dramwy trwy † Amphipolis ac Apolonia, hwy a ddaethant i [a] ‡ Thessalonica, [b] ‖ lle yr oedd synagog i'r Iuddewon.

a pen. 20. 4. a 27. 2. Phil. 4. 16. 1 Thes. 1. 1. 2 Thes. 1. 1. 2 Tim. 4. 10. b pen. 14. 1. a 15. 21. a 16. 13.

* Yma mae Luc yn newid ei ddull, ac yn llefaru yn y trydydd person lliosog: tybir iddo ef aros yn Philippi a'i hamgylchoedd hyd oni ddaeth Paul yno drachefn: nid yw yn llefaru am dano ei hun fel yn cydymdeithio â Paul a'i gyfeillion hyd pen. 20. 5, 6; ac oddi yno yn mlaen yn barâus hyd ddiwedd yr hanes. † Dwy ddinas go fawr i'r gorllewin o Philippi oedd y rhai hyn, ac yn agos ar y ffordd oddi yno i Thessalonica. Mae yn debyg nad arosodd Paul ddim yn y dinasoedd hyn, ac nid oes hanes am ei lafur ef yn yr un o honynt wedi hyn. ‡ Prif ddinas Macedonia oedd Thessalonica; Philip o Macedonia a'i galwodd hi felly, er cof am fuddugoliaeth a gawsai efe ar y Thessaloniaid, a hyny yw ystyr yr enw. Yr oedd hi ychydig dros hanner can milltir i'r gorllewin, neu y deheu-orllewin, o Philippi, ar làn y môr. Yno yr oedd rhaglaw Rhufeinig Macedonia yn cartrefu, a hawdd y gallasai Paul a Silas wneyd achwyn wrtho yn erbyn swyddogion Philippi, pe mynasent. ‖ Yr oedd llawer o Iuddewon yn preswylio yn Thessalonica.

2 * A Phaul, [c] yn ol ei arfer, [d] a aeth i mewn attynt, † a thros dri sabbath a [e] ymresymmodd â hwynt allan o'r ysgrythyrau,

c Luc 4. 16. Ioan 18. 20. d adn. 10, 17. pen. 9. 20. a 13. 5, 14. a 14. 1. a 18. 4, 19. a 19. 8. e pen. 24. 25. a 28. 23. 1 Sam. 12. 7. Es. 1. 18. Heb. 7.—a 10.

* Arfer rhai yw "esgeuluso eu cyd-gynnulliad," ond arfer Paul oedd myned i'r synagog pa le bynag y byddai, i addoli Duw ac i bregethu yr Arglwydd Iesu: un ffyddlawn yn ngwasanaeth ei feistr nefol oedd efe. † Tybiodd rhai oddi wrth hyn mai am dri sabbath yr arosodd Paul yn Thessalonica; ond mae yn amlwg iddo aros yno yn hwy na hyny: oblegid yn ei epistolau atynt wedi hyny mae yn dywedyd iddo weithio trwy lafur a lludded at ei fywioliaeth tra bu yno, (1 Thes. 2. 9; 2 Thes. 3. 8.) ac yn ei epistol at y Philippiaid mae yn dywedyd iddynt hwy ddanfon cymmorth iddo fwy nac unwaith pan oedd yn Thessalonica, Phil. 4. 16: ni buasai achos lawer am y pethau uchod mewn cyn lleied amser â thri sabbath. Tri sabbath yr aeth efe i synagog yr Iuddewon; ond wrth weled eu caledrwydd a'u hysbryd erlidgar hwy, efe a beidiodd a myned i'r synagog ar ol tri sabbath, ond a bregethodd i'r Groegiaid cenedlig pa le bynag y gallai, a llwyddodd Duw ef yn rhyfedd yno yn nghanol erlidiau a thrallod, i ddychwelyd llawer o'r Thessaloniaid paganaidd i'r ffydd. Gwel 1 Thes. 1. 5—9.

3 [f] * Gan egluro a dodi ger eu bronnau, [g] † mai rhaid oedd i Grist ddioddef, a chyfodi oddi wrth y meirw: [h] ‡ ac mai hwn yw y Crist Iesu, yr hwn yr wyf fi yn ei bregethu i chwi.

f pen. 2. 16—36. a 3. 22—26. a 13. 26—39. Luc 24. 26, 27, 32. g Gwel ar Luc 24, 27. 44, 46. 1 Cor. 15. 3, 4. h pen. 2. 36. a 9. 22. a 18. 28. Gal. 3. 1.

* Gan egluro allan o ysgrythyrau yr Hen Destament, (adn. 2,) † y byddai raid i'r Messiah a ddysgwyliai yr Iuddewon ddyoddef, marw, ac adgyfodi o feirw; ‡ bod yr Iesu oedd ef yn bregethu wedi dyoddef, marw, ac adgyfodi drachefn, yn ol yr ysgrythyrau hyny; gan hyny rhaid mai yr Iesu hwnw oedd y Crist, y Messiah dysgwyliedig.

4 [i] * A rhai o honynt a gredasant, † ac a ymwasgasant â Phaul a [k] Silas, ‡ ac o'r [l] Groegwyr crefyddol liaws mawr, [m] ‖ ac o'r gwragedd penaf nid ychydig.

i adn. 34. pen. 2. 41, 42, 44. a 4. 23. a 5. 12—14. a 14. 1, 4. a 28. 24. Diar. 9. 6. a 13. 20. Can. 1. 7, 8. a 6. 1. Zec. 2. 11. a 8. 20—23. 2 Cor. 6. 17, 18. k pen. 15. 22, 32, 40. l adn. 17. pen. 13. 43. a 16. 3, 14. a 18. 4. a 19. 10, 17. a 21. 28. m adn. 12. pen. 13. 50.

* Er mòr eglur a chadarn yr oedd Paul yn ymresymu ac yn profi y gwirionedd, eto "*rhai*" o'r Iuddewon a gredasant; yr oeddynt oll yn dysgwyl y Messiah yn frenin daearol, ac nid i farw, adgyfodi, ac esgyn i ogoniant, fel y dywedai Paul i'r Iesu wneyd: ond dygodd yr Ysbryd Glân "*rai*" o honynt i gredu; ni chredasai *neb* o honynt heb ei weithrediadau ef. † Ymwasgodd y rhai hyn gyda'r anwyldeb a'r agosrwydd mwyaf, fel yr arwydda y gair, â Paul a Silas, fel eu tadau ysbrydol, ac offerynau eu hiachawdwriaeth. ‡ Proselytiaid i'r grefydd Iuddewig o'r Groegiaid: credodd *lliaws mawr* o'r rhai hyn, a dim ond *rhai* o'r Iuddewon. ‖ Yr oedd y gwragedd hyn yn rhagori ar y gwragedd yn Antiochia yn Pisidia, pen. 13. 50; yr oedd y rhai hyny yn erlid, a'r rhai hyn yn credu: ond yr Ysbryd Glân a wnaeth y gwahaniaeth.

5 ¶ * Eithr yr Iuddewon y rhai oedd heb gredu, [n] gan genfigenu, [o] † a gymmerasant attynt ryw ddynion drwg o grwydriaid; ac wedi casglu tyrfa, [p] hwy a wnaethant gyffro yn y ddinas, ‡ ac a osodasant ar dŷ [q] Jason, ‖ ac a geisiasant eu dwyn hwynt allan at y bobl.

n adn. 13. pen. 7. 9. a 13. 45. a 14. 2, 19. a 18. 12. Diar. 14. 30. Es. 26. 11. Mat. 27. 18. 1 Cor. 3. 3. Gal. 5. 21, 26. Iago 4. 5. o Barn. 9. 4. Job 30. 1—10. Salm 35. 15. a 69. 12. p pen. 19. 24—34, 40. q adn. 7. Rhuf. 16. 21.

* Nid oedd yr Iuddewon digred yn foddlawn ar fod

heb gredu eu hunain, yr oeddynt yn "oenfigenu" wrth lwyddiant Paul a Silas yn ennill eraill i gredu: ni fynent hwy i neb gredu, nac Iuddewon na Groegiaid. † Crwydriaid ofer, a lladron, dynion o'r fath waethaf, parod i bob terfysg a drygioni. Dywedasai yr Iuddewon deddfol, "Saf ar dy ben dy hun, na nesâ ataf fi," wrth y rhai hyn mewn amgylchiadau eraill; ond yn awr yr oeddynt yn ymgymmysgu â hwynt yn burion i godi erlid yn erbyn gweision Crist. ‡ Yn Rhuf. 16. 21, ymddengys fod Jason yn rhyw berthynas i Paul; felly tybia rhai mai Iuddew Groegaidd oedd efe. Tybia eraill mai yr enw Groegaidd am Josua neu Jesus, yw Jason; ac mai un o'r dysgyblion a wasgarwyd oedd, pen. 11. 19, yn gyntaf i Syria, ac a dramwyodd oddi yno i Macedonia. Yn nhŷ y Jason hwn mae yn debyg, yr oedd Paul a Silas yn llettya. ‖ Gan feddwl eu lladd yn y terfysg yn ddïammau; nid oedd dim llai a foddlonai yr Iuddewon, ond am nad oedd dim achos cyfiawn yn eu herbyn, ewyllysient i'r dyrfa derfysglyd fod dàn y gwarth o'r weithred, ac nid hwy eu hunain.

6 * A phan na chawsant hwynt, [r] † hwy a lusgasant Jason, a rhai o'r brodyr, at bennaethiaid y ddinas, gan lefain, [s] ‡ Y rhai sydd yn aflonyddu y byd, ‖ *y rhai hynny* a ddaethant yma hefyd;

r pen. 6. 12, 13. a 16. 19, 20. a 18. 12, 13. s pen. 21. 28—31. a 22. 22, 23. a 24. 5. a 28. 22. 1 Bren. 18. 17, 18. Esther 3. 8, 9. Jer. 38. 2—4. Amos 7. 10.

* Ni chawsant Paul a Silas yn nhŷ Jason, trefnwyd iddynt hwy ddïanc i rywle mewn pryd. † Pa fodd bynag, cawsant Jason a rhai brodyr cristionogol yno, ac yn eu cynddeiriogrwydd a'u sïomedigaeth am y lleill, hwy a'u llusgasant hwynt at bennaethiaid y ddinas, i roddi cwyn yn eu herbyn am groesawi y lleill. ‡ "Aflonyddu y byd:" Nagê, pechod a phechaduriaid, satan a'i ddeiliaid, oedd yn aflonyddu y byd y pryd hwnw fel yn awr, a hwy oedd yn aflonyddu y ddinas y pryd hwn, adn. 5: llonyddu y byd, a gwneyd trefn arno, yr oedd yr apostolion, ac nid ei aflonyddu. Mae yn wir eu bod yn aflonyddu seremonïau yr Iuddewon, eilun-addoliaeth y Groegiaid, pechodau pawb, a llywodraeth satan, y gwr crŷf-arfog oedd yn ceisio cadw ei neuadd mewn heddwch; ac yna yr oedd y byd a satan yn aflonyddu yn ofnadwy o achos hyny. ‖ Clywsom am danynt mewn mànau eraill o'r blaen; ond o'r diwedd beiddiasant ddyfod yma, i'r brif-ddinas, i ddanedd y rhaglaw, i daenu eu hathrawiaeth gyfeiliornus ac i aflonyddu pawb.

7 * Y rhai a dderbyniodd Jason: [t] † ac y mae y rhai hyn oll yn gwneuthur yn erbyn ordeiniadau Cesar, ‡ gan ddywedyd fod brenhin arall, *sef* Iesu.

t pen. 16. 21. a 25. 8—11. Ezra 4. 12—15. Dan. 3. 12. a 6. 13. Luc 23. 2. Ioan 19. 12. 1 Pedr 2. 15.

* Mae y Jason hwn wedi eu derbyn, yn eu noddi, ac yn un o honynt: † ac y maent oll yn dàl athrawiaeth, egwyddorion, ac arferiadau, croes i ordeiniadau Cesar. ‡ Taerent hwy fod brenin arall, rhyw Iesu, yr hyn sydd wrthryfel a theyrn-fradwriaeth union-gyrchol yn erbyn Cesar, yr hwn sydd yn gwahardd i neb gymmeryd yr enw brenin, mewn un wlad dàn ymherodraeth Rhufain, heb iddo gael yr enwad hwnw ganddo ef. Efallai mai yr enw Arglwydd, a roddai yr apostol mòr aml i Grist, a gymmerasant yn achlysur i gyhuddo y cristionogion o ddywedyd fod brenin arall.

8 [u] * A hwy a gyffroisant y dyrfa, a llywodraethwyr y ddinas hefyd, wrth glywed y pethau hyn.

u Mat. 2. 3. Ioan 11. 48.

* Cyffrôdd rhai efallai dros y cristionogion, rhag ofn y daethent i enbydrwydd mawr o herwydd y fath gyhuddiad: cyffrôdd y dyrfa oll wrth glywed fod brenin arall, pwy a allasai fod, beth fyddai y canlyniad, a phawb, y dyrfa a'r llywodraethwyr, yn ofni y byddai terfysg a gwrthryfel trwy holl wlad Macedonia, mewn canlyniad i'r fath beth â hyn.

9 * Ac wedi iddynt gael sicrwydd gan Jason a'r lleill, † hwy a'u gollyngasant hwynt ymaith.

* Mae yn debyg i Jason a'r brodyr egluro i'r llywodraethwyr, mai Iesu oedd y brenin, ei fod wedi marw, adgyfodi, ac esgyn i'r nefoedd, ac felly nad oedd gan ymherodraeth Rhufain ddim i'w ofni oddi wrtho ef fel brenin daearol; ac wedi iddynt glywed hyny, ymfoddlonasant ar eu rhwymo hwynt dàn ddirwy neu feichiau i fod yn sicr i gadw'r heddwch, ac i ddyfod yn mlaen os byddai galw am danynt ryw bryd ar ol hyn. † Yr oedd eu gollwng hwy ar hyny yn sïomedigaeth fawr, yn ddïammau, i'w herlidwyr.

10 ¶ [x] * A'r brodyr yn ebrwydd o nŷd † nos a anfonasant Paul a Silas [y] ‡ i Berea: y rhai wedi eu dyfod *yno,* [z] ‖ a aethant i synagog yr Iuddewon.

x adn. 14. pen. 9. 25. a 23. 23, 24. Jos. 2. 15, 16. 1 Sam. 19. 12—17. a 20. 42. y adn. 13. pen. 20. 4. z adn. 2. pen. 14. 6, 7. 1 Thes. 2. 2.

* Tybiasant nad oedd yn ddoeth nac yn ddiberygl i Paul a Silas aros yno ddim yn hwy, † nac yn ddiberygl ychwaith eu danfon hwy ymaith liw dydd; gan hyny danfonwyd hwy ymaith yn ddirgelaidd o hyd nos: fel hyn yr oedd y dynion sanctaidd a gwerthfawr hyn, fel defaid yn mysg bleiddiaid, yn gorfod ffoi am eu heinioes o le i le yn y byd drwg hwn. ‡ Dinas arall o Macedonia oedd Berea, yn agos i ddeugain milltir i'r deheu-orllewin o Thessalonica: yr oedd yn agos i Pella, lle y ganesid Alexander Fawr. ‖ Yn ddïoed, heb ofn yr Iuddewon, na theimlad o ddigter tuag atynt, wedi eu herlid yn mhob màn; hwy a aethant i'r synagog, ac a bregethasant Grist iddynt fel yn mhob màn arall.

11 [a] * Y rhai hyn oedd foneddigeiddiach nâ'r rhai oedd yn Thessalonica, [b] y rhai a dderbyniasant y gair gyd â phob parodrwydd meddwl, [c] gan chwilio beunydd yr ysgrythyrau, a oedd y pethau hyn felly.

a Diar. 1. 5. a 9. 9. Jer. 2. 21. Ioan 1. 46—49. b pen. 2. 41. a 10. 33. a 11. 1. Job 23. 12. Diar. 2. 1—5. a 8. 10. Mat. 13. 23. 1 Thes. 1. 6. a 2. 13. 2 Thes. 2. 10. c Salm 1. 2, 3. a 119. 97—100, 148. Es. 8. 20. Luc 16. 29. Ioan 3. 21. a 5. 39. 2 Tim. 3. 15—17. 1 Pedr 1. 10—12. 2 Pedr 1. 19—21. 1 Ioan 4. 5, 6.

* Ymffrostiai yr Iuddewon lawer, eu bod yn bobl *rydd a boneddigaidd,* am eu bod yn had Abraham a'r patriarchiaid; ond nid boneddigaidd o ran gwaedoliaeth felly, nac o ran meddiannau bydol, a feddylir yma; eithr boneddigaidd o ran tymher, ysbryd, ac ymddygiadau: mwy diragfarn na'r rhai oedd yn Thessalonica, a mwy parod i wrando yr efengyl, a'i derbyn hefyd, wedi chwilio yr ysgrythyrau a oedd y pethau hyn felly. Tybia rhai fod yno lawer yn ddynion gwir dduwiol pan aeth Paul atynt, yn ol y goleuni oedd ganddynt; ac nad oedd dim yn eisiau, ond dangos iddynt fod person, athrawiaeth, gweithredoedd, a marwolaeth Iesu, yn ateb i'r prophwydoliaethau am y Messiah, yn yr Hen Destament, eu bod yn barod i gredu ynddo ar dystiolaeth Paul a thystiolaeth yr ysgrythyrau. Mae yn sicr fod rhywbeth yn y rhai hyn, amgen na'r Iuddewon yn mhob màn arall, ar y cynnygiad cyntaf o'r efengyl iddynt. † Fel hyn y dylai pawb dderbyn tystiolaeth dynion am y gwirionedd; chwilio yr ysgrythyrau beunydd, ac yn fanol, a phrofi yr athrawiaeth a glywant wrth y gair a ddarllenant. E ddeil y wir athrawiaeth ei chwilio yn y goleu egluraf; nid oes ond eiddo drwg yn gofyn lle tywyll i'w werthu.

12 [d] * Felly llawer o honynt a gredasant, [e] † ac o'r Groegesau parchedig, ac o wŷr nid ychydig.

d adn. 2—4. pen. 13. 46. a 14. 1. Salm 25. 8, 9. Ioan 1. 45—49. a 7. 17. Eph. 5. 14. Iago 1. 21. e pen. 13. 50. 1 Cor. 1. 26. Iago 1. 10.

* Gwedi chwilio yr ysgrythyrau yn ddyfal, a chael bod athrawiaeth Paul yn gyson â hwy, ac yn cael ei chadarnâu ganddynt; e gredodd llawer o honynt yn wirioneddol yn yr Arglwydd Iesu: *rhai* a gredodd yn Thessalonica, ond *llawer* yn Berea: buont ffyddlawn ar ychydig, a rhoddodd Duw iddynt lawer. † Groegiaid o ran cenedl oedd y rhai hyn, gwragedd a gwŷr, ond wedi derbyn y grefydd Iuddewig o'r blaen, ac yn cyd-addoli y gwir Dduw â'r Iuddewon yn y synagog. Nid llawer o'r boneddigion oedd yn cael eu galw y pryd hwnw mwy nac yn awr; ond e alwyd amryw o honynt yn Berea, ac yr oedd yma argoel am eglwys flodeuog o rai boneddigion yn mhob ystyr o'r gair.

13 [f]* A phan wybu yr Iuddewon o Thessalonica fod gair Duw yn ei bregethu gan Paul yn Berea hefyd, hwy a ddaethant yno hefyd, [g] gan gyffrôi y dyrfa.

f adn. 5. Mat. 23. 13. 1 Thes. 2. 14—16. g pen. 6. 12. a 14. 2. a 21. 27. 1 Bren. 21. 25. Diar. 15. 18. a 28. 25.

* Gwelsom dro fel hwn o'r blaen, yn pen. 14. 19; Iuddewon o Antiochia ac Iconium yn dyfod i Lystra i godi erlid yn erbyn Paul a Barnabas. Yma gwelwn elyniaeth cadarn, a phrysurdeb diflino, y llew rhüadwy a'i offerynau, yn ceisio attal llwyddiant yr efengyl a thòri ymaith y rhai a ddanfonasai Duw i'w phregethu i bechaduriaid. Ond yn mhob màn yr oedd yn rhŷ ddiweddar; yr oedd yr had wedi ei hau, y tân wedi ei gynneu, y surdoes wedi ei roddi yn y blawd, ac achos Duw wedi dechreu, cyn i'r gelynion ddechreu erlid, ac nis gallent hwy mwyach ei ddiddymu.

14 [h]* Ac yna yn ebrwydd y brodyr a anfonasant Paul ymaith, [i] † i fyned megis i'r môr: [k] ‡ ond Silas a Thimothëus a arhosasant yno.

h adn. 10. pen. 9. 25, 30. Mat. 10. 23. i pen. 20. 3. Jos. 2. 16. k pen. 19. 22. 1 Tim. 1. 3. Tit. 1. 5.

* Gan mai Paul oedd prif wrthddrych ymgais y gelynion, gwelodd y brodyr yn angenrheidiol ei ddanfon ef ymaith yn ddïoed, megys y gwnaethid yn Thessalonica o'r blaen, adn. 10. † Yr oedd y gelyn yn gyfrwys, am hyny yr oedd yn angenrheidiol iddynt hwythau fod yn gyfrwys; danfon Paul ymaith megys i'r môr, er mai i Athen yr aeth efe ar hyd y tir. Tuag ugain milltir oedd o Berea i'r môr. ‡ Gan nad oedd Silas a Thimothëus mòr enwog a Phaul, nid oedd sylw y gelynion yn gymmaint arnynt hwy: arosasant yn Berea i gynnorthwyo y credinwyr ieuainc, hyd oni ddanfonai Paul am danynt o Athen.

15 * A chyfarwyddwyr Paul a'i dygasant ef hyd [l] Athen: [m] † ac wedi derbyn gorchymyn at Silas a Thimothëus, ar iddynt ddyfod atto ar ffrwst, hwy a aethant ymaith.

l pen. 18. 1. 1 Thes. 3. 1. m pen. 18. 5. 2 Tim. 4. 10, 11, 20, 21. Tit. 3. 12.

* Yn ol mesuriad *Scott*, yr oedd Athen tua 170 milltir o Berea, tua'r dehau, neu y dehau-ddwyrain oddi yno: ond dywed *Guyse* ei bod rhwng dau a tlıri chant o filltiroedd o Berea. Llygad y byd y gelwid Groeg am ddysgeidiaeth, a llygad Groeg y gelwid Athen; ac eto gyda holl ddysgeidiaeth yr Atheniaid, nis gwyddent ddim am y gwir Dduw, nes i Paul ddyfod yno i'w bregethu iddynt. Fel hyn yr oedd gelyniaeth diafol a'i offerynau o hyd yn peri i'r efengyl gael ei thaenu. † Efallai bod Paul yn dysgwyl llwyddiant mawr ar ei weinidogaeth yn Athen, ac yn tybied y byddai eisiau cynnorthwy Silas a Thimothëus arno; ond nid yw yn ymddangos iddo fod mòr llwyddiannus yno. Gwel adn. 32—34. Tybir nad aeth Silas gyda Timothëus i Athen, ac yn fuan wedi i Timothëus fyned, danfonodd Paul ef yn ei ol i Thessalonica, i gadarnâu ac i gysuro y brodyr trallodedig yno, (Gwel 1 Thes. 3. 1, 2;) ac i Silas a Thimothëus ddyfod at Paul ryw bryd wedi hyny yn Corinth: pen. 18. 5.

16 ¶ * A thra yr ydoedd Paul yn aros am danynt yn Athen, [n] † ei yspryd a gynhyrfwyd ynddo, ‡ wrth weled y ddinas wedi ymroi i eilunod.

n Ex. 32. 19, 20. Num. 25. 6—11. 1 Bren. 19. 10, 14. Job 32. 2, 3, 18—20. Salm 69. 9. a 119. 158. Jer. 20. 9. Mica 3. 8. Marc 3. 5. Ioan 2. 13—17. 2 Pedr 2. 7, 8.

* Tra bu cyfarwyddwyr Paul i Athen yn dychwelyd i Berea, a thra bu Timothëus yn dyfod o Berea i Athen ato ef: gan fod y ffordd yn mhell, rhaid i hyny gymmeryd i fynu gryn amser. † Mae yn debyg nas dechreuodd Paul bregethu i'r Atheniaid yn union pan ddaeth i'r ddinas; ond treuliodd beth amser fel ymdeithydd dïeithr, i sylwi ar eu moesau a'u harferion coel-grefyddol hwynt, fel y gallai addasu ei ymadroddion yn fwy cymhwys atynt pan ddechreuai. Wrth weled pobpeth fel yr oeddynt yn eu plith, cynhyrfodd ei ysbryd o'i fewn yn rymus iawn gan amryw deimladau:—1. Tosturi, fod lle mòr enwog am ddysgeidiaeth, mòr dywyll a thruenus am bethau crefydd. 2. Atgasrwydd ac eiddigedd cryf yn erbyn eilun-addoliaeth a phechodau eraill y lle. 3. Awydd sanctaidd a gwresog i'w haddysgu a'u dychwelyd hwynt o'u cyfeiliorni a'u ffyrdd drygionus. ‡ Dywedir fod allorau a delwau Athen yn amlach na holl wlad Groeg i gyd, a bod yn hawddach cael duw (h. y. eilun dduw) yno na dyn. Beth a ddywed y dadleuwyr dros grefydd rheswm a dysgeidiaeth ddynol am y pethau hyn? Dyma'r dynion mwyaf enwog yn y byd am bob dysgeidiaeth ond dysgeidiaeth ysgrythyrol, wedi ynfydu mewn eilun-addoliaeth a phob trueni: nid aeth y llwythau mwyaf anwâr ac annysgedig, erioed i ddyfnach gwaeledd na'r Atheniaid.

17 [o]* O herwydd hynny yr ymresymmodd efe yn y synagog â'r Iuddewon, [p] ac â'r rhai crefyddol, † ac yn y farchnad [q] beunydd â'r rhai a gyfarfyddent âg ef.

o adn. 2—4. pen. 14. 1—4. p pen. 10. 2. a 13. 16. q Diar. 1. 20—22. a 8. 1—4, 34. Jer. 6. 11. Mat. 5. 1, 2. Marc 16. 15. Luc 12. 3. 2 Tim. 3. 2, 5.

* Yr oedd rhai Iuddewon yn Athen, a chanddynt synagog, lle yr addolent y gwir Dduw; a rhai proselytiaid crefyddol o blith y paganiaid gyda hwynt: dechreuodd Paul yn mhlith y rhai hyn, fel arferol yn mhob màn arall. † Gwedi dechreu gyda'r Iuddewon a'r proselytiaid yn y synagog ar y sabbath, yr oedd beunydd yn myned i'r farchnadfa, ac yn ymresymu â phawb a'i gwrandawai yn erbyn y fath eilun-addoliaeth, ac yn pregethu Crist iddynt fel unig geidwad Iuddewon â chenedloedd.

18 * A rhai *o'r* [r] philosophyddion o'r † epicuriaid, ac o'r ‡ Stoiciaid, [s] a ymddadleuasant âg ef: a rhai a ddywedasant, ‖ Beth a fynnai y siaradwr hwn ei ddywedyd? a rhai, § Tebyg yw ei fod ef yn mynegi duwiau dïeithr: am ei fod yn pregethu yr [t] Iesu, a'r adgyfodiad, iddynt.

r Rhuf. 1. 22. 1 Cor. 1. 20, 21. Col. 2. 8. s pen. 6. 9. Marc 9. 14. Luc 11. 53. t adn. 31. pen. 26. 23. Rhuf. 14. 9, 19. 1 Cor. 15. 3, 4.

* Y philosophyddion yn mawredd eu dysg a'u tybiau uchel, oedd y rhai mwyaf gwrthwynebol i gristionogaeth o bawb, y pryd hwnw fel yn awr; a'r ddwy blaid a enwir yma oedd y rhai mwyaf gwrthwynebus o bob plaid arall yn Athen a Groeg. † Epicurius, tad y blaid hon, a ddaliai i'r byd gael ei wneyd trwy gyd-gasgliad damweiniol rhyw aneirif ronynau bychain; na chrëodd Duw mo hóno, nad yw yn ei lywodraethu, nac yn gofalu dim yn nghylch helyntion dynolryw; bod y duwiau o'r un ffurf â dynion; mai mwyniant yw y prif ddaioni; ac nad oes na gwobrwyon na chosp ar ol marw. ‡ Mae y Stoiciaid yn aruthr o feilchion a hunanol, yn tybied fod eu doethion hwy yn gystal â Duw ei hunan, bod y defnyddiau o dragywyddoldeb, ac mai Duw oedd y byd: dywedent mai prif ddedwyddwch dyn oedd byw yn ol anian a rheswm; fod pob peth dàn lywodraeth tynged-

fen ddall ac anwrthwynebol; ac efallai bod y fath bethau â gwobrwyon a chosp mewn byd i ddyfod, er bod eu syniadau hwy yn dra ynfyd, cymmysgedig, ac ansefydlog yn eu cylch. Llawer o bethau eraill a allesid ddywedyd am danynt; ond buom eisoes yn rhŷ faith gyda'r ynfydion diwerth uchod: hawdd yw i'r darllenydd weled pa mòr groes oedd eu daliadau oll i wirionedd pur a syml yr efengyl: a hawdd y gallai Paul ddadymchwelyd eu holl resymau a'u dadleuon ofer. Gelwid hwy yn Stoiciaid oddiwrth *Stoa*, y cyntedd lle yr oedd eu hysgol yn Athen. ‖ "Siaradwr:" *spermologos*, enw aderyn bychan diwerth, a fyddai yn arfer pigo gronynau ŷd yn y farchnadfa a mànau eraill: neu mewn ystyr arall, hauwr geiriau; rhyw grwydryn cardoteiaidd, a fyddai yn arfer taenu chwedlau o fàn i fàn, er mwyn cael cynnaliaeth. A rhaid dywedyd, mai yn yr ystyr fwyaf dirmygus i Paul y defnyddiwyd y gair. § Cyfrifai yr Atheniaid ansodiad, neu bersonoliaeth, i bob peth agos; a dwyfolent hwynt: megys Cywilydd, Newyn, Chwant, Twymyn, &c., ac yr oedd ganddynt eilunod, neu ddelwau iddynt. Felly wrth glywed yr apostol yn son am Iesu a'r adgyfodiad, tybient mai rhyw ddau dduw newydd oeddynt, y rhai ni chlywsent hwy am danynt erioed o'r blaen: tybient mai duw oedd yr adgyfodiad yn gystal â Iesu, yn ol eu dull uchod hwy o ansodi *pethau* yn gystal â *phersonau*.

19 * A hwy a'i daliasant ef, ac a'i dygasant i † Areopagus, gan ddywedyd, [u] ‡ A allwn ni gael gwybod beth *yw* y [x] ddysg newydd hon, a draethir gennyt ?

u adn. 20, 21. pen. 24. 24. a 25. 22. a 26. 1. Mat. 10. 18—20. x Marc 1. 27.

* I'w holi am ei dduwiau newyddion, ac nid i'w gospi, ar ddim a wèlwn ni yn yr hanes: ei watwar oedd y peth gwaethaf a wnaethant yn y diwedd, adn. 32. † Rhenid dinas Athen yn bùm dosparth, ac Areopagus y gelwid un o honynt, oddi wrth deml i Mawrth, duw rhyfeloedd, a safai ar fryn yn y dosparth hwnw. *Ares*, Mawrth; *pagos*, bryn; felly *areopagus* yn y Groeg, yw Bryn Mawrth yn y Gymraeg: ac felly ei gelwir yn adn. 22, yn y cyfieithiad Saesoneg. Yma yr oedd prif frawdlys Athen, i brofi pob achosion gwladol, ac yn nghylch eu duwiau hefyd, mae yn debyg; oblegid yma yr euog-farnwyd Socrates ac eraill, am ddàl tybiau gwahanol i'w cyd-wladwyr yn nghylch crefydd. ‡ Yr oeddynt yn bur fwynaidd yn gofyn, am gael clywed yn fanylach beth oedd ei athrawiaeth ef: yn eu holl ymchwiliadau dysgedig ac athronawl, ni chlywsent hwy erioed o'r blaen son am Iesu a'r adgyfodiad.

20 * Oblegid yr wyt ti yn dwyn rhyw bethau [y] dïeithr i'n clustiau ni: am hynny ni a fynnem wybod [z] beth a allai y pethau hyn fod.

y Hos. 8. 12. Mat. 19. 23—25. Marc 10. 24—26. Ioan 6. 60. a 7. 35, 36. 1 Cor. 1. 18, 23. a 2. 14. Heb. 5. 11. 1 Pedr 4. 4. z pen. 2. 12. a 10. 17. Marc 9. 10.

* Yr unig wrthddadl a fedrent hwy ddwyn yn erbyn yr efengyl oedd, ei bod yn "newydd," ac yn "ddïeithr" iddynt hwy. Os oedd yn newydd iddynt hwy, nid oedd yn newydd ynddi ei hun; ond yn hen iawn, fel y ffrwyth anaddfed yn y blodeuyn, dàn holl oruchwyliaeth yr Hen Destament: ac nid oedd eu holl ofergoelion a'u defodau hwynt ond dynwared gwrabaidd o addoliad Duw. Ac os oedd yn ddïeithr i'w syniadau anianol hwy, nid oedd am hyny yn llai gwirionedd; a'u bai hwy oedd eu dieithrwch iddi.

21 (A'r holl Atheniaid, * a'r dïeithriaid y rhai oedd yn ymdeithio yno, [a] † nid oeddynt yn cymmeryd hamdden i ddim arall, ond i ddywedyd neu i glywed rhyw newydd)

a Eph. 5. 16. Col. 4. 5. 2 Thes. 3. 11, 12. 1 Tim. 5. 13. 2 Tim. 2. 16, 17.

* Byddai boneddigion ieuainc o wledydd pellenig yn cael eu danfon i Athen i gael eu dysgu, yn yr athrofëydd, a thàn y philosophyddion enwog oedd yno. Yr oedd Athen hefyd yn borthladd mawr, medd *Pool;* felly, rhwng pob peth, yr oedd yno yn gyffredin lawer iawn o ddïeithriaid. † Treulient oll eu hamser yn ofer ac yn anfuddiol iawn; dim ond dywedyd a chlywed rhyw newydd: dyfeisio, traethu, a gwrando, rhyw chwedlau newyddion; gwir neu anwir, crefyddol neu wladol: hyn oedd eu prif hyfrydwch, a hyn ysywaeth yw prif hyfrydwch llawer eto. Gan fod gan Paul bethau *newydd* i'w traddodi, yr oedd yn debyg o gael gwrandawiad o leiaf, er porthi blŷs a chwilfrydedd yr Atheniaid; a hyny yn unig oeddynt hwy yn eu chwennych, pan ei dygasant ef i Areopagus.

22 ¶ * Yna y safodd Paul y'nghanol † Areopagus ac a ddywedodd, ‡ *Ha* wŷr Atheniaid, [b] ‖ mi a'ch gwelaf chwi ym mhob peth yn dra choel-grefyddol.

b adn. 16. pen. 19. 35. a 25. 19. Jer. 10. 2, 3. a 50. 38.

* Safodd yn hŷf ac yn ddïofn yn nghanol tyrfa fawr o seneddwyr, philosophyddion, ysgolheigion, a phrif ddysgedigion Athen ei hun; a dechreuodd ar ei fater mewn ysbryd gwahanol iawn i'r eiddo ei wrandawŵyr blysig a chwilfrydaidd. † Yn nghanol y llŷs mawr, neu y deml a grybwyllwyd yn adn. 19, gwel ar yr adnod hòno. ‡ Nid, Ha wŷr frodyr, fel yn mhlith ei genedl ei hun, yr Iuddewon; ond, Ha wŷr Atheniaid, yma. ‖ *Mi a'ch gwelaf chwi yn mhob peth yn dra chwannog i addoli bodau neu alluoedd anweledig:* tybir fod hyna yn gyson iawn â'r Groeg, ac y gellir ei gymmeryd mewn ystyr dda neu ddrwg, yn gyfatebol i amwysedd y geiriau gwreiddiol. Amcan Paul oedd argyhoeddi yr Atheniaid o'u heilun-addoliaeth; ond yr oedd yn chwennych gwneyd hyny yn y modd mwyaf didramgwydd; felly mae yn arfer geiriau oedd yn dangos eu bod yn dra chrefyddol yn ol y goleu oedd ganddynt, ond ar yr un pryd mai tra *choel*-grefyddol oeddynt, ac nad oedd yr aneirif dduwiau a addolent ond gau dduwiau.

23 * Canys wrth ddyfod heibio, † ac edrych ar eich [c] defosiynau, ‡ mi a gefais allor yn yr hon yr ysgrifenasid, [d] I'R DUW NID ADWAENIR. ‖ Yr hwn gan hynny yr ydych chwi [e] heb ei adnabod yn ei addoli, hwnnw yr wyf fi yn ei fynegi i chwi.

c Rhuf. 1. 23—25. 1 Cor. 8. 5. 2 Thes. 2. 4. d Salm 147. 20. Ioan 17. 3, 25. Rhuf. 1. 20—22, 28. 1 Cor. 1. 21. 2 Cor. 4. 4—6. Gal. 4. 8, 9. Eph. 2. 12. 1 Tim. 1. 17. 1 Ioan 5. 20. e adn. 30. Salm 50. 21. Mat. 15. 9. Ioan 4. 22. a 8. 54, 55.

* Wrth rodio oddi amgylch ar hyd eu hëolydd a'u temlau hwynt, neu wrth ddyfod heibio i ryw fàn ar ei ffordd i Areopagus y diwrnod hwnw. † Wrth edrych ar *wrthddrychau, offerynau, a dulliau eich addoliad chwi:* dywedir mai dyna briodol arwyddocâd y gair Groeg *(sebasmata)* a gyfieithir "defosiynau" yma; ac nad oes unrhyw *un* gair mewn iaith arall a ateb iddo. ‡ Tystiodd llawer o haneswyr paganaidd fod y cyfryw allor yn Athen, a bod y cyfryw ysgrifen arni; ond pa fodd, pa bryd, a chàn bwy, y gosodwyd hi yno, sydd anhawdd ei benderfynu. Allor i Dduw yr Iuddewon, medd rhai, ydoedd; a'r ysgrifen hon arni, am na oddefai yr Iuddewon i'r enw anhydraeth JEHOFAH gael ei ddefnyddio. Mynai yr Atheniaid ddelwau o dduwiau pob cenedl yn eu temlau; ond am na oddefid gwneyd delw i Dduw yr Iuddewon, gosodwyd allor iddo yn lle delw: ond eto nis gwyddom pa bryd y gwnaed hyn. Dywed eraill i haint dròm fod yn Athen, tua chwe' chant o flynyddoedd cyn Crist; ac am nad allai neb o'r duwiau oedd ganddynt hwy y pryd hwnw eu gwaredu rhag yr haint, iddynt godi allor i ryw dduw arall, nas gwyddent hwy ddim am dano, os oedd rhyw dduw arall yn bod, ac aberthu i hwnw, gan obeithio y gwnai eu gwared hwynt: ac am nas gwyddent pa un a oedd rhyw dduw arall neu beidio, na pha beth oedd ei enw, os oedd yr un, cerfiasant yn yr allor I'R DUW NID ADWAENIR. Dywed eraill mai Socrates a gododd yr allor hon, o barch i'r *un gwir Dduw*, yr hwn nis gwyddai yr Athen-

iaid ddim am dano; ac iddo roddi yr ysgrifen hon arni, i arwyddo bod y Duw hwnw yn mhell uwchlaw amgyffrediadau yr Atheniaid, a'r eiddo ei hun hefyd. Mae yn wir, meddant, fod Socrates yn gwawdio aml-dduwiaeth yr Atheniaid, ac iddo gael ei roddi i farwolaeth am hyny. Dywed eraill eto fel hyn:—wedi i'r Atheniaid gasglu yr holl dduwiau a glywsent am danynt, fod rhai o honynt yn taeru, fod rhyw un duw drachefn yn bod, yr hwn oedd uwchlaw y duwiau eraill i gyd; ac iddynt godi allor i hwnw, a'r ysgrifen hon arni am nas gwyddent pwy oedd, na pha beth oedd ei enw. || Beth bynag oedd dechreuad yr allor hon, cymmerodd yr apostol y fantais o hóni, i ddangos nad oedd efe ddim yn "mynegi duwiau dieithr" i'r Atheniaid; eithr Duw a addefent hwy yn gystal â'u duwiau eraill, ac a addolent hefyd, er nas adwaenent ef. Tro doeth iawn oedd hyn yn yr apostol.

24 [f] * Y Duw a wnaeth y byd, a phob peth sydd ynddo, [g] † gan ei fod yn Arglwydd nef a daear, [h] nid yw yn trigo mewn temlau o waith dwylaw:

f adn. 26—28. pen. 4. 24. a 14. 15. Salm 146. 5, 6. Es. 40. 12, 28. a 45. 18. Jer. 10. 11, 12. a 32. 17. Zec. 12. 1. Ioan 1. 1—3. Heb. 1. 2, 3. a 3. 4. g Gen. 14. 19, 22. 2 Bren. 19. 15. Salm 24. 1. a 115. 16. a 148. 13. Jer. 23. 24. Dan. 4. 35, 37. Mat. 5. 34, 35. a 11. 25. Luc 10. 21. Dat. 20. 11. h pen. 7. 48. 1 Bren. 8. 27. 2 Cron. 2. 6. a 6. 18. Es. 66. 1. Ioan 4. 22, 23.

* Y Duw hwnw nid adwaenai yr Atheniaid, er bod ganddynt allor iddo, hwnw yr oedd Paul yn ei fynegi, a hwnw oedd yr unig wir a bywiol Dduw; oblegid efe a wnaeth y byd ac oll oedd ynddo, pethau bywiol a difywyd, gweledig ac annweledig. Yr oedd hyn yn taro yn erbyn athrawiaeth yr Epicuriaid, y rhai a haerent mai o ddamwain y daethai y byd i fod; ac hefyd yn erbyn athrawiaeth y Stoiciaid, y rhai a ddywedent fod y byd yn hanfodi o dragywyddoldeb, ac mai Duw oedd y byd. Gwel ar adn. 18. † Gan fod y Duw hwn yn Arglwydd, yn feddiannydd, ac yn llywodraethwr, pawb a phob peth yn y nef ac ar y ddaear, mae yn amlwg nad yw efe yn trigo mewn temlau o waith dwylo dynion, ac nas gellir gwneyd llun iddo i'w osod mewn temlau, fel y gwnewch chwi Atheniaid i'ch eilun-dduwiau.

25 * Ac nid [i] â dwylaw dynion y gwasanaethir ef, † fel pe bai arno eisieu dim; [k] ‡ gan ei fod ef yn rhoddi i bawb fywyd, ac anadl, a phob peth oll.

i Job 22. 2. a 35. 6, 7. Salm 16. 2. a 50. 8—13. Jer. 7. 20—23. Amos 5. 21—23. Mat. 9. 13. k adn. 28. pen. 14. 17. Gen. 2. 7. Num. 16. 22. a 27. 16. Job 12. 10. a 27. 3. a 33. 4. a 34. 14, 15. Salm 104. 27—30. Es. 42. 5. a 57. 16. Zec. 12. 1. Mat. 5. 45. Rhuf. 11. 35, 36. 1 Tim. 6. 17.

* Nid trwy ddelwau, creiriau, nac offerynau, o waith dwylaw dynion, y gwasanaethir ef, fel y gwnai yr Atheniaid i'w gau-dduwiau; † ond y mae efe yn holl-gyfoethog, yn holl-ddigonol, ac yn anfeidrol ddedwydd ynddo ei hun, ac nid oes arno ef eisiau dim a all crëaduriaid roddi iddo, er mai dyledswydd a braint ei holl grëaduriaid rhesymol yw ei addoli a'i wasanaethu ef yn y ffordd a ordeiniodd, sef mewn ysbryd a gwirionedd. Nid oes arno eisiau ei wisgo fel eu delwau hwy, nac ymborthi ar fwg yr aberthau fel y tybient hwy am eu duwiau. ‡ Gan mai efe sydd yn rhoddi bywyd, ac anadl, a phob peth oll, i'w holl grëaduriaid, pa beth a all dynion roddi iddo ef ond ei eiddo ei hun? Yr oedd hyn yn dangos i'r Atheniaid eu rhwymedigaeth i'r Duw hwn, eu hymddibyniad gwastadol arno, a'u dyled o fod yn ddiolchgar iddo.

26 [l] * Ac *efe* a wnaeth o un gwaed, bob cenedl o ddynion, i breswylio ar holl wyneb y ddaear, [m] † ac a bennodd yr amseroedd rhagosodedig, a therfynau eu preswylfod hwynt;

l Gen. 3. 20. a 9. 19. Rhuf. 5. 12—19. 1 Cor. 15. 22, 47. m pen. 15. 18. Deut. 32. 7, 8. Job 14. 5. Es. 14. 31. Dan. 11. 27, 35. Heb. 2. 3.

* Er mai Iuddew oedd yr apostol, a hwythau yn genedloedd paganaidd, mae efe yma yn dangos nad oedd efe yn rhagfarnllyd; ond yn cydnabod holl ddynolryw yn frodyr o'r un gwaed a tharddiad dechreuol. Er mòr wahanol yw dynion yn awr mewn llawer o bethau, eto yr un Duw a'u crëodd oll, ac o'r un gwaed y deilliodd pawb: gan hyny dylai pawb ystyried a charu eu gilydd fel brodyr o'r un Tad, ac o'r un teulu mawr. † A benodd yn ei ragwybodaeth a'i arfaeth dragywyddol, i'w dwyn oddi amgylch yn nhrefn ei ragluniaeth fawr, yn yr amseroedd rhag-osodedig a benodd: mae hyn yn taro yn amlwg yn erbyn athrawiaeth yr Epicuriaid, y rhai a wadent ofal a rhagluniaeth Duw yn nghylch pethau y byd hwn. Gwel ar adn. 18.

27 [n] * Fel y ceisient yr Arglwydd, † os gallent ymbalfalu am dano ef, a'i gael, [o] ‡ er nad yw efe yn ddïau neppell oddi wrth bob un o honom:

n pen. 15. 17. Salm 19. 1—6. Rhuf. 1. 20. a 2. 4. o 1 Bren. 8. 27. Salm 139. 1—13. Jer. 23. 23, 24.

* Mae yr apostol yn dangos i'r philosophyddion hyn, yr iawn ddefnydd a ddylasent wneyd o'u philosophyddiaeth; sef defnyddio eu gwybodaeth o bethau anianol, i gael adnabyddiaeth o Dduw anian, fel y gallent ei ei garu, ei ofni, a'i wasanaethu ef, ac nid eu delwau meirwon. † Fel dynion yn ymbalfalu neu yn ymdeimlo am rywbeth yn y tywyllwch. Ysbryd yw Duw, nas gellir ei weled na'i deimlo; eto mae ei waith i'w weled a'i deimlo, a gall y neb a'i ceisio ef yn ddifrifol ei gael i raddau mawrion yn y pethau a wnaeth. Mae y geiriau yn dangos tywyllwch yr Atheniaid, a'r paganiaid oll, am Dduw, a diffyg eu manteision i'w adnabod; ac eto nad oeddynt yn hollawl heb foddion i hyny; yr oedd ei weithredoedd a'i ragluniaeth ganddynt, digon i'w gwneyd yn ddïesgus. ‡ Fel Duw hollbresenol, mae yn agos at bawb; yn ei sylw manol, mae yn agos at bawb; ac yn ei weithredoedd a'i ragluniaeth, mae yn agos at bawb.

28 [p] * Oblegid ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn symmud, ac yn bod; [q] † megis y dywedodd rhai o'ch pöetau chwi eich hunain. [r] ‡ Canys ei hiliogaeth ef hefyd ydym ni.

p 1 Sam. 25. 29. Job 12. 10. Salm 36. 9. a 66. 9. Luc 20. 38. Ioan 5. 26. a 11. 25. Col. 1. 17. Heb. 1. 3. q Tit. 1. 12. r Luc 3. 38. Heb. 12. 9.

* Nis gall geiriau osod allan yn well, ymddibyniad angenrheidiol a gwastadol pawb am eu bod, eu cynnaliaeth, a'u holl ysgogiadau ar eu Hachos Cyntaf a Hollalluog, na'r geiriau hyn: hyn y mae gwir philosophyddiaeth yn gystal â duwinyddiaeth yn ei ddysgu. † Dangosodd y "siaradwr" dirmygus hwn ei fod yn ysgolhaig; a chwedi darllen mwy nac a feddyliasent hwy: profodd ei fater allan o waith *Aratus Cleanthes*, ac eraill, beirdd, a addefent hwy eu hunain yn ddynion dysgedig a chredadwy. Nid er cadernid iddo ei hun, nac er cadernid i'w fater, yr oedd Paul yn defnyddio y *pöetau* cenedlig hyn; ond er dangos i'r Atheniaid nad oedd efe yn dywedyd dim ond yr hyn a ddywedasai eu hawduron hwy eu hunain o'i flaen ef. ‡ Os felly, efe a'n gwnaeth ni iddo ei hun, ac mae yn gofalu fel Tad am danom. Byddai y beirdd Groegaidd yn gyffredin, yn galw Iau, eu Duw, yn dad dynion.

29 * Gan ein bod ni gan hynny yn hiliogaeth Duw, [s] † ni ddylem ni dybied fod y Duwdod yn debyg i aur, neu arian, neu faen, [t] o gerfiad celfyddyd a dychymmyg dyn.

s Salm 94. 7—9. a 106. 20. a 115. 4—8. Es. 40. 12—18. a 44. 9—20. Hab. 2. 19, 20. Rhuf. 1. 20—23. t Ex. 20. 4. a 32. 4. Es. 46. 5, 6. Jer. 10. 4—10.

* Nid yw Paul yn gwadu athrawiaeth y *pöetau* uchod; ond yn addef, ac yn cadarnâu mai hiliogaeth Duw, (y gwir Dduw, nid Iau y Groegiaid) o ran crëadigaeth, yw dynion oll. † Gan fod dynion yn hiliogaeth, neu grëaduriaid Duw, pa ynfydrwydd yw meddwl fod y Duw hwnw yn debyg i ddelwau o aur, neu arian, neu faen, o gerfiad celfyddyd a dychymmyg dyn: mae y dyn ei hun

yn llawer rhagorach na phethau felly; a pha faint mwy y Duw a wnaeth y dyn?

30 [u] * A Duw, wedi esgeuluso amseroedd yr anwybodaeth hon, [x] † sydd yr awrhon yn gorchymyn i bob dyn ym mhob man edifarhâu:

u pen. 14. 16. Salm 50. 21. Rhuf. 1. 28. x pen. 3. 19. a 11. 18. a 20. 21. a 26. 17—20. Mat. 3. 2. a 4. 17. Marc 6. 12. Luc 13. 5. a 15. 10. a 24. 47. Rhuf. 2. 4. 2 Cor. 7. 10. Eph. 4. 17, &c. a 5 6—8. Tit. 2. 11, 12. 1 Pedr 1. 14, 15. a 4. 3.

* Edrych dros beth, yw ystyr y gair *hyperidôn;* megys pe buasai Duw yn tafiu pelydr ei lygaid dros y cenedloedd yn yr hen amseroedd, heb roddi ei eiriau iddynt, na danfon ei genadon atynt, a heb dywallt ei geryddon arnynt am eu heilun-addoliaeth a'u pechodau. † Ond yn awr, dàn oruchwyliaeth yr efengyl, mae amseroedd yr annwybodaeth hyny wedi myned drosodd, ni wna Duw esgeuluso yn hwy, mae yn danfon ei genadon at bob cenedl, i alw pob dyn yn mhob màn i edifarâu yn ddïoed; ac nid esgeulusa ychwaith dywallt ei farn a'i geryddon ar y rhai anedifeiriol.

31 [y] * O herwydd iddo osod diwrnod yn yr hwn y barna efe y byd † mewn cyfiawnder, ‡ trwy y gwr a ordeiniodd efe; || gan roddi ffydd i bawb, [z] § o herwydd darfod iddo ei gyfodi ef oddi wrth y meirw.

y pen. 10. 42. Mat. 25. 31, &c. Ioan 5. 22, 23. Rhuf. 2. 5, 16. a 14. 9, 10. 1 Cor. 4. 5. 2 Cor. 5. 10. 2 Tim. 4. 1. 2 Pedr 3. 7. Judas 14, 15. z adn. 18. pen. 2. 23, 24, 32. a 3. 15, 16. a 4. 10. a 5. 30—32. a 10. 39—41. a 13. 30, 31. Luc 24. 46—48. 1 Cor. 15. 3—8.

* Mae efe wedi gosod diwrnod yn sicr i farnu y byd, yr holl fyd, a phob dyn yn y byd, o ba genedl bynag; ond nis gŵyr neb ond ef ei hun pa bryd y bydd y diwrnod mawr hwnw; gan hyny dylai pawb edifarâu yn ddifrifol ac yn ddïoed. Yr oedd hyn eto yn taro yn erbyn y philosophyddion uchod, (adn. 18,) y rhai a wadent y cyfryw bethau: ac athrawiaeth edifeirwch yn taro yn erbyn y Stoiciaid beilchion yn enwedig, y rhai a haerent mai yn ol tyngedfen yr oedd pob peth; oblegid pa achos edifarâu am bethau, os oedd raid o dyngedfen eu gwneuthur? † sef yn ol gweithredoedd pob un: Duw sydd Farnydd cyfiawn. ‡ Trwy yr Arglwydd Iesu Grist, yr hwn a elwir "Gwr" yma gan yr apostol, am ei fod yn ddyn yn gystal ac yn Dduw, ac yn y ddwy natur hyny yn un Person, wedi ei ordeinio i farnu y byd fel i'w holl waith cyfryngol arall. || Gan roddi moddion ffydd tystiolaeth yr efengyl, i bawb, sef pob cenedl, a chan roddi y gras o ffydd trwy y dystiolaeth hòno, i rai o bob cenedl. Nis gallwn ddeall y gair *pawb* yn ei ystyr helaethaf yn y fàn hon; oblegid dywed yr un apostol mewn màn arall, "nad oes ffydd gan bawb," 2 Thes. 3. 2: pob cenedl a feddylir, cenedloedd yn gystal ag Iuddewon. § Yr oedd adgyfodiad Crist yn ddigon o brawf mai ef a ordeiniodd Duw i farnu y byd, yr oedd tystiolaeth ei apostolion yn ddigon o brawf ei fod ef wedi adgyfodi; a chyhoeddiad y dystiolaeth hòno yn ddigon er ffydd i bawb.

32 ¶ * A phan glywsant sôn am adgyfodiad y meirw, [a] rhai a watwarasant; † a rhai a ddywedasant, [b] Ni a'th wrandawn drachefn am y peth hwn.

a adn. 18. pen. 2. 13. a 13. 41. a 25. 19. a 26. 8, 24, 25. Gen. 19. 14. 2 Cron. 30. 9—11. a 36. 16. Luc 22. 63. a 23. 11, 36. 1 Cor. 1. 23. a 4. 10. Heb. 11. 36. a 13. 13. b pen. 24. 25. 2 Cor. 6. 2. Heb. 3. 7, 8.

* Buasai yr apostol yn dywedyd ychwaneg pe cawsai lonydd; ond dechreuodd y philosophyddion hyn, ei watwar, yn enwedig yr Epicuriaid, can gynted ag y soniodd efe am adgyfodiad y meirw: yr oedd y fath athrawiaeth yn groes i'w holl egwyddorion a'u daliadau anianol hwynt. † Y Stoiciaid mae yn debyg oedd y rhai hyn; nid oeddynt hwy yn hollawl wadu yr adgyfodiad, ond nid oedd y mater o gymmaint pwys yn eu golwg ag y carent wrando yn hwy y tro hwn.

33 * Ac felly Paul a aeth allan o'u plith hwynt.

* Efe a aeth allan o'u plith, gan adael yr hyn a ddywedasai i fendith Duw, ac i'w hystyriaethau hwythau. Cafodd Paul arwach triniaeth mewn mànau eraill nac a gafodd yn Athen, ond ni chafodd mewn un màn le mwy aflwyddiannus i bregethu na'r ddinas ddysgedig hòno.

34 [c] * Eithr rhai gwŷr a lynasant wrtho, ac a gredasant: † ym mhlith y rhai *yr oedd* Dionysius [d] yr Areopagiad, ‡ a gwraig a'i henw Damaris, || ac eraill gyd â hwynt.

c adn. 4. pen. 13. 48. Es. 55. 10, 11. Mat. 20. 16. Rhuf. 11. 5, 6. d adn. 19. Ioan 7. 48—52. a 19. 38—42. Phil. 4. 22.

* Eto, hyd yn nôd yn Athen, ni bu yr efengyl yn hollawl anfuddiol a digynnyrch; e gredodd rhai gwŷr yn yr Arglwydd Iesu yno, ac a lŷnasant wrth Paul tra yr arosodd yno: ni bu hyny yn hir, ac nid oes genym hanes iddo byth ddyfod i Athen ar ol y tro hwn, na bod yno eglwys i Grist. † Un o aelodau y senedd, neu y llŷs enwog hwn oedd Dionysius, am hyny y gelwid ef yn Areopagiad: dewisid aelodau Areopagus o'r teuluoedd enwocaf o ran gwaedoliaeth, ac o'r dynion mwyaf dysgedig, fel yr aeth yr enw Areopagiad yn ddïareb am anrhydedd ac uniondeb ymddygiad. Y Dionysius hwn, meddant, a ddywedasai *fod y Duw nid adwaenid yn dyoddef mewn cnawd,* pan oedd tywyllwch ar yr holl ddaear ar farwolaeth ein Harglwydd. ‡ Tybia rhai mai gwraig y Dionysius uchod oedd y Damaris hon, ond nid oes sicrwydd am hyny: rhyw wraig urddasol o ran ei sefyllfa ydoedd yn ddïammau. || Rhai eraill, llai enwog na'r ddau uchod.

PEN. XVIII.

Paul yn gweithio â'i ddwylaw, ac yn pregethu yn Corinth i'r Cenedloedd.

* AR ol y pethau hyn, Paul a [a] ymadawodd âg Athen, [b] † ac a ddaeth i Corinth.

a pen. 17. 32, 33. b pen. 19. 1. 1 Cor 1. 2. 2 Cor. 1. 1, 23. 2 Tim. 4. 20.

* Gan nad oedd nemawr o obaith llwyddo yn Athen, ymadawodd Paul oddi yno, ac a ddaeth i † Corinth, prif-ddinas Achaia, yr hon oedd tua hanner can milltir i'r dehau-orllewin o Athen, ac yn sefyll rhwng deu-fôr, ar lain gûl o dir oedd yn cydio Achaia â'r or-ynys a elwid Peloponnesus. Yr oedd yn lle nodedig iawn am gyfoeth, dysgeidiaeth, tlysni, moethau, a halogrwydd.

2 * Ac wedi iddo gael rhyw Iuddew a'i enw [c] Acwila, [d] un o Pontus o genedl, wedi dyfod yn hwyr o'r Ital, † a'i wraig Priscila ‡ (am orchymyn o [e] Claudius i'r Iuddewon oll fyned allan o Rufain) || efe a ddaeth attynt.

c adn. 26. Rhuf. 16. 3, 4. 1 Cor. 16. 19. 2 Tim. 4. 19. d pen. 2. 9. 1 Pedr 1. 1. e pen. 11. 28.

* Talaeth o Asia leiaf oedd Pontus, i'r gogledd o Cappadocia, rhwng Cappadocia a'r môr dû: brodor oddi yno oedd Acwila, ond wedi bod yn byw am ryw amser yn Rhufain, ac efallai mai yn Rhufain y cawsai ei dychwelyd i'r ffydd Gristionogol, ond nis gwyddom pa le. † Mae yn amlwg wrth adn. 26, fod Priscila hefyd yn gristionoges enwog, a dëallus iawn yn athrawiaeth yr efengyl fel ei phrïod. ‡ Yn nechreu ei deyrnasiad, caniatâodd yr Ymherawdr hwn eu rhyddid crefyddol i'r Iuddewon oedd yn yr Ital, ond yn mhen wyth mlynedd wedi hyny, gwaharddodd y fraint hòno iddynt, yr hyn oedd gystal â'u dëol hwynt o'r wlad. Tua'r amser hwn hefyd, dechreuwyd pregethu yr Iesu yn Rhufain, fel y Messiah addawedig, ac fel Brenin Israel, a thybia rhai i hyny fod yn achlysur o'r dëoliad uchod. Dyn llwfr, drwg-dybus, meddant, oedd y Claudius hwn, a lled-ofnai yr Iuddewon bob amser, fel dynion terfysglyd, parod i

frâd a gwrthryfel. Sonir am y gorchymyn uchod gan awdwyr paganaidd, yn gystal â chan Luc yma. ‖ Yr oedd yn dda gan y tri christion hyn daro wrth eu gilydd mewn lle dieithr a phaganaidd fel Corinth.

3 * Ac, o herwydd ei fod o'r un gelfyddyd, efe a arhoes gyd â hwynt, [f] † ac a weithiodd (canys ‡ gwneuthurwyr pebyll oeddynt wrth eu celfyddyd)

f pen. 20. 34, 35. 1 Cor. 4. 12. a 9. 6—12. 2 Cor. 11. 9. 1 Thes. 2. 9. 2 Thes. 3. 8, 9.

* Dyma dri undeb; yr un genedl, yr un grefydd, ac yr un gelfyddyd. Dysgai yr Iuddewon o bob graddau eu plant mewn rhyw gelfyddyd fuddiol. † Nid oedd gan Paul nemawr o gyfeillion eto yn Corinth, i'w gynnal ef heb weithio; ac nid oedd yn chwennych rhoi achlysur i neb feddwl na dywedyd, mai er mwyn bywioliaeth yr oedd efe yn myned o amgylch i bregethu yr efengyl. Nid oedd yn chwennych bod yn faich ar neb o honynt ychwaith; pe buasai yno rai a allent ac a ewyllysient ei gynnal ef: yr oedd am ddangos iddynt mai *hwy*, ac nid eu *heiddo*, oedd ef am ennill. Yn 1 Cor. 1. 26—28, gwelwn mai tlodion oedd y rhai a alwyd yn Corinth. ‡ Byddai milwyr, bugeiliaid, ac eraill, yn y gwledydd hyny, yn arfer pebyll wedi eu gwneyd o ledr a defnyddiau eraill, a hyny oedd celfyddyd Paul a'i gyfeillion hyn. Yn mhlith yr Iuddewon, darllenir am Rabbi y crŷdd, Rabbi y pobydd, &c.; ac yr oedd hyn i adgofio y rhai mwyaf uchel-radd, y *gallent* syrthio i dlodi, ac y byddai da iddynt fod eu celfyddyd ganddynt: ac yn llawer iawn gwell yn sicr na chrwydro i gardota.

4 [g] * Ac efe a ymresymmodd yn y synagog bob sabbath, [h] † ac a gynghorodd yr ‡ Iuddewon, ‖ a'r Groegiaid.

g pen. 13. 14, &c. a 14. 1. a 17. 1—3, 11, 17. a 19. 8. Luc 4. 16. h adn. 13. pen. 13. 43. a 19. 26. a 26. 28. a 28. 23. Gen. 9. 27. 2 Cron. 32. 11. Luc 16. 31. 2 Cor. 5. 11.

* Ymresymu, yn nhgylch Person, teyrnas, ac iachawdwriaeth, yr Arglwydd Iesu; gan brofi ei athrawiaeth allan o ysgrythyrau yr Hen Destament, ac ateb gwrthddadleuon ei wrandawwyr trwy resymau cryfion ac ysgrythyrau noethion. † Heblaw ymresymu â'u deall hwynt yn athrawiaethol, yr oedd efe yn cyfeirio ei hun at eu cydwybodau a'u calonau hwynt; ac yn eu cyngori hwynt i gredu yr efengyl, ac i dderbyn Crist er eu hiachawdwriaeth, mewn modd ag oedd yn ennill yn annwrthwynebol arnynt. ‡ Mae Paul yn dechreu gyda'r Iuddewon, yma fel yn mhob màn arall. ‖ Groegiaid a gofleidiasent y grefydd Iuddewig, medd rhai, proselytiaid y porth; ond efallai bod eraill hefyd, hollawl baganaidd, yn dyfod i'r synagog i wrando gŵr mòr enwog, yn enwedig wedi clywed am ei wyrthiau a wnaethai efe yno.

5 * A phan ddaeth [i] Silas a Thimothëus o Macedonia, [k] bu gyfyng ar Paul yn yr yspryd, [l] ‡ ac *efe* a dystiolaethodd i'r Iuddewon, mai Iesu oedd Crist.

i pen. 17. 14, 15. 1 Thes. 3. 2. k pen. 4. 20. a 17. 16. Job 32. 18—20. Jer. 6. 11. a 20. 9. Ezec. 3. 14. Mica 3. 8. Luc 12. 50. 2 Cor. 5. 14. Phil. 1. 23. l adn. 28. pen. 2. 36. a 9. 22. a 10. 42. a 17. 3. a 20. 21. Ioan 15. 27. 1 Pedr 5. 12.

* Tröed y darllenydd yma, at yr hyn a ddywedwyd ar pen. 17. 15: gwelir cysondeb yr hyn a ddywedwyd yn y sylwad yno, â'r hyn a ddywedir yn yr adnod hon. † Gwedi clywed am lwyddiant y gwaith yn Thessalonica gan Silas a Thimothëus, (1 Thes. 3. 2, 5, 6,) a meddwl am gyndynrwydd yr Iuddewon yma yn Corinth; ac hefyd wedi cael cryfâu ei freichiau gan ddyfodiad y ddau frawd uchod; disgynodd teimladau anarferol o rymus ar ysbryd Paul, trwy weithrediadau yr Ysbryd Glân arno: gofidiodd fel un mewn gwëwyr esgor, am iachawdwriaeth y bobl hyn; ‡ a thystiolaethodd gyda nerth, goleuni, a hyfdra mwy na dynol, ‖ mai Iesu o Nazareth, yr hwn a groeshoeliasid, oedd y Crist mewn gwirionedd: Messiah danfonedig Duw, ac unig Geidwad pechaduriaid o bob cenedl.

6 [m] * A hwythau gwedi ymosod yn ei erbyn, † a chablu, [n] ‡ efe a ysgydwodd *ei* ddillad, ac a ddywedodd wrthynt, [o] ‖ *Bydded* eich gwaed chwi ar eich pennau eich hunain; § glân *ydwyf* fi: * o hyn allan mi a âf at y Cenhedloedd.

m pen. 13. 45. a 19. 9. a 26. 11. Luc 22. 65. 1 Thes. 2. 14—16. Iago 2. 6, 7. 1 Pedr 4. 4, 14. n pen. 13. 51. Neh. 5. 13. Mat. 10. 14. Luc 9. 5. a 10. 10, 11. o pen. 20. 26, 27. Lef. 20. 9, 11, 12. 2 Sam. 1. 16. Ezec. 3. 18, 19. a 18. 13. a 33. 4, 8, 9. 1 Tim. 5. 22. p pen. 13. 46, 47. a 19. 9, 10. a 26. 20. a 28. 28. Mat. 8. 11. a 21. 43. a 22. 10. Rhuf. 3. 29. a 9. 25, 26, 30—33. a 10. 12, 13. a 11. 11—15.

* Po mwyaf yr oedd efe yn ymgynhyrfu yn sanctaidd, dros ogoniant Iesu ac iachawdwriaeth yr Iuddewon; mwyaf i gyd yr oeddynt hwythau yn ymgynhyrfu yn annuwiol, mewn gwrthwynebiad iddo: ymosodent yn ei erbyn yn ddewrion, a chynddeiriog, fel byddin o filwyr arfog, felly yr arwydda y gair *antitassomenôn;* † gan ei gablu ef, cablu ei athrawiaeth, a chablu y Crist bendigedig a bregethai, yn dra arswydus. ‡ Fel na byddai i ddim o lwch y fàn, lle traethwyd y fath gabledd, lŷnu wrth odrëon ei ddillad ef, er tystiolaeth o'i ofid a'i soriant ei hun, ac er tystiolaeth o anfoddlonrwydd Duw a'i wrthodiad o honynt, am eu hannuwioldeb drygnaws. ‖ Neu, yr ydych chwi yn euog o'ch damnedigaeth eich hunain, trwy gablu a gwrthod yr efengyl: arnoch chwi mae y pechod yn gorwedd, ac fe'i cyfrifir i chwi yn nydd y farn. Cyfeiria yr ymadrodd efallai, at y ddefod o osod dwylo ar ben yr aberthau gynt, i arwyddo fod pechod a chosp yr aberthwr yn cael ei roddi ar yr aberth. Gwrthododd y rhai hyn Grist a'i aberth ef, am hyny yr oedd eu pechodau a'r gosp o honynt arnynt hwy eu hunain. § Glân oddi wrth eu gwaed hwynt, a cholledigaeth eu heneidiau, gan ei fod wedi eu rhybuddio, a dangos iddynt ffordd y bywyd tragywyddol. * Gwel ar pen. 13. 46. Trà byddwyf yn y ddinas hon mwyach, mi a âf at y cenedloedd.

7 ¶ Ac wedi myned oddi yno, efe a ddaeth i dŷ un a'i enw [q] * Justus, [r] † *un* oedd yn addoli Duw, ‡ tŷ yr hwn oedd yn cyffwrdd â'r synagog.

q Col. 4. 11. r pen. 10. 2, 22. a 13. 42. a 16. 14. a 17. 4.

* Mae rhai yn darllen Titus, a rhai Titus a Justus, gan osod Justus yn gyfenw, fel yn pen. 1. 23: pwy ydoedd nis gwyddom; † mae yn debyg mai cenedlddyn ydoedd, wedi troi yn gyntaf at Iuddewaeth, ac yn awr at gristionogaeth. Tybir fod Paul o hyd yn llettya gydag Acwila a Phriscila, ond ei fod yn pregethu i'r cenedloedd yn nhŷ y Justus hwn. ‡ Efallai i Paul ddewis y tŷ hwn am ei fod yn cyfhwrdd â'r synagog, fel y gallai yr Iuddewon o hyd gael cyfle i'w wrando ef os ewyllysient, a chan obeithio y deuai rhai o honynt i mewn yn awr ac eilwaith.

8 [s] * A Chrispus yr [t] † arch-synagogydd a [u] gredodd yn yr Arglwydd, a'i holl dŷ: ‡ a llawer o'r Corinthiaid, [x] wrth wrando, a gredasant, ‖ ac a fedyddiwyd.

s 1 Cor. 1. 14. t adn. 17. pen. 13. 15. Marc 5. 35. u pen. 10. 2. a 16. 14, 15, 34. Gen. 17. 27. a 18. 19. Jos. 24. 15. x pen. 2. 37—41. a 8. 12, 35—38. Mat. 28. 19. Marc 16. 15, 16. Rhuf. 10. 14—17. 1 Cor. 1. 13—17.

* Er i Paul affwyddo gyda'r Iuddewon yn gyffredin, a chael ei drin yn dra annheilwng ganddynt, eto ni bu ei lafur ef yn gwbl ofer; dyma un o bennaethiaid yr Iuddewon, a llywodraethwr y synagog yn Corinth, yn cael ei ddwyn i gredu yn Nghrist, efe a'i holl dŷ. † Gwel ar Marc 5. 22. ‡ Epenetus oedd un, Rhuf. 16. 5; Gaius oedd un arall, Rhuf. 16. 23; a Sosthenes oedd un arall, 1 Cor. 1. 1: a llawer gyda hyny yn ddiammau, o Iuddewon a Groegiaid hefyd. ‖ Trwy fedydd y derbynid pawb Iuddewon yn gystal â Groeg-

wyr i'r eglwys; a thrwy fedydd yr oeddynt yn gwneyd addefiad o'u ffydd yn yr Arglwydd Iesu, ac yn ymrwymo i fod yn ddysgyblion ffyddlawn iddo.

9 [y] * A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Paul trwy weledigaeth liw nos, [z] Nac ofna; eithr llefara, ac na thaw:

y pen. 16. 9. a 22. 18. a 23. 11. a 27. 23—25. 2 Cor. 12. 1—7. z Es. 58. 1. Jer. 1. 17. Ezec. 2. 6—8. a 3. 9—11. Jona 3. 2. Mica 3. 8. Eph. 6. 19, 20. 1 Thes. 2. 2.

* Mae yn ddïammau bod yr Iuddewon anghrediniol yn ymgynddeiriogi wrth y llwyddiant a gawsai yr apostol, ac yntau yn ofni, efallai, ac yn tybied mai gwell fuasai iddo ffoi i rywle arall, gan feddwl nad oedd gan Dduw ddim ychwaneg o waith iddo i'w wneyd yn Corinth. Gwel 1 Cor. 2. 3. I'r dyben o'i galonogi ef yn ngwyneb y teimladau ymollyngawl hyn, mae yr Arglwydd yn ymddangos iddo mewn gweledigaeth, i symmud ei ofnau, i gryfâu ei feddwl yn ei waith, i addaw iddo ei bresenoldeb amddiffynol, ac i ddywedyd wrtho fod ganddo ef bobl lawer i'w galw yn y ddinas hòno.

10 [a] * Canys yr wyf fi gyd â thi, [b] † ac ni esyd neb arnat, a wneuthur niwed i ti: [c] ‡ o herwydd y mae i mi bobl lawer yn y ddinas hon.

a Ex. 4. 12. Jos. 1. 5, 9. Barn. 2. 18. Es. 8. 10. a 41. 10. a 43. 2. Jer. 1. 18, 19. Mat. 1. 23. a 28. 20. 2 Cor. 12. 9. 2 Tim. 4. 17, 22. b Es. 54. 17. Jer. 15. 20, 21. Mat. 10. 30. Luc 21. 18. Rhuf. 8. 31. c pen. 15. 14, 18. Ioan 10. 16. a 11. 52. Rhuf. 10. 20, 21. 1 Cor 6. 9—11.

* Yr wyf fi gyda thi i'th amddiffyn, i'th arwain, i'th gysuro, ac i'th arddelwi yn dy waith. † Ni ymesyd neb arnat ti yn mhellach nac y goddefir iddynt oddi uchod, ac nis goddefir i neb wneyd niwed i ti: "os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n herbyn ni?" ‡ Mae i mi bobl lawer mewn arfaeth, etholedigaeth, a chyfammod tragywyddol: mae i mi bobl lawer wedi eu prynu â'm gwerthfawr waed; ac mae i mi bobl lawer y rhaid eu galw, a'u galw hefyd trwy dy weinidogaeth di a'th gyfeillion.

11 [d] * Ac efe a arhoes *yno* flwyddyn a chwe mis, † yn dysgu gair Duw yn eu plith hwynt.

d pen. 14. 3. a 19. 10. a 20. 31.

* Gwedi cael ei orchymyn a'i gryfâu fel hyn mewn modd mòr rhyfeddol, efe a arosodd yno am flwyddyn a hanner, yn llafurio yn ddiwyd ac yn llwyddiannus iawn. Yn yspaid yr amser hwn yr ysgrifenodd efe ei lythyr cyntaf at y Thessaloniaid, (cymharwn 1 Thes. 3. 6, â'r bummed adnod o'r bennod hon,) ac yn fuan wedi hyny yr ail: tybir hefyd mai y pryd hwn yr ysgrifenodd efe ei Epistol at y Galatiaid; yr hwn sydd dra thebyg wrth pen. 1. 6. o'r epistol hwnw, er y dywedir ar ei ddiwedd mai o Rufain yr ysgrifenwyd ef, a'r epistolau at y Thessaloniaid o Athen. †Fel hyn, rhwng gweithio â'i ddwylaw (1 Cor. 4. 12,) pregethu llawer iawn, gweddïo mwy na mwy, ac ysgrifenu ei Epistolau, nid bywyd esmwyth a segur a dreuliodd Paul yn Corinth.

12 ¶ * A phan oedd Gàlio [e] † yn rhaglaw yn [f] Achaia, [g] ‡ cyfododd yr Iuddewon yn unfryd yn erbyn Paul, [h] || ac a'i dygasant ef i'r frawdle,

e pen. 13. 7, 12. f adn. 27. Rhuf. 15. 26. a 16. 5. 1 Cor. 16. 15. 2 Cor. 1. 1. a 9. 2. a 11. 10. 1 Thes. 1. 7, 8. g pen. 13. 50. a 14. 2, 19. a 17. 5, 13. a 21. 27, &c. h adn. 16, 17. pen. 25. 10. Mat. 27. 19. Ioan 19. 13. Iago 2. 6.

* Brawd i'r enwog Seneca, y philosophydd mawr, a dysgawdwr Nero, oedd y Galio hwn meddant. † Dywedir ei fod fel rhaglaw yn wr tirion a hynaws, yn deall natur rhyddid gwladol a chrefyddol yn dda, ac yn llywodraethu ei ddeiliaid mewn cyfiawnder ac uniondeb. ‡ Mae dynion drwg yn unfryd yn eu hamcanion a'u gweithredoedd drwg; gŵyr diafol yn dda na saif ei deyrnas ef ddim, os unwaith yr ymrana ei ddeiliaid. || Sef i'r frawdle ger bron Galio y rhaglaw, i gael achwyn arno.

13 [i] * Gan ddywedyd, Y mae hwn yn annog dynion i addoli Duw yn erbyn y ddeddf.

i adn. 4. pen. 6. 13. a 21. 28. a 24. 5, 6. a 25. 8.

* Mae hwn, er ei fod yn Iuddew, yn pregethu i fynu yr Iesu, ac yn pregethu i lawr grefydd ein henafiaid ni; ac fel hyny yn annog dynion i addoli Duw mewn ffordd groes i'r ddeddf a roddodd Moses i ni, ac yr hon a ganiatêir i ni ei chadw gan Ymherawdwr Rhufain ei hun. Mae yn gwneyd hyny yn erbyn deddf Rhufain hefyd, yr hon sydd yn gwarafun i neb ddwyn crefydd newydd i mewn, heb ganiatâd gan Ymherawdwr a Senedd Rhufain.

14 [k] * Ac fel yr oedd Paul yn amcanu agoryd ei enau, dywedodd Gàlio wrth yr Iuddewon, [l] † Pe buasai gam, neu ddrwg weithred, O Iuddewon, ‡ wrth reswm [m] || myfi a gyd-ddygaswn â chwi:

k pen. 21. 39, 40. a 22. 1, 2. a 26. 1, 2. Luc 21. 12—15. 1 Pedr 3. 14, 15. l pen. 23. 27—29. a 25. 18—20, 26. m pen. 13. 18. Marc 9. 19. 2 Cor. 11. 1, 4. Heb 5. 2.

* Gallasai Paul ei amddiffyn ei hun pe cawsai, trwy ddangos nad oedd efe yn dywedyd dim yn erbyn y ddeddf mewn gwirionedd, ond yn pregethu yr Iesu, y Messiah; yr hwn a gysgodwyd yn yr holl ddeddf seremoniol, ac a ragfynegwyd gan yr holl brophwydi. † Rhyw gam neu ddrwgweithred yn erbyn y cyfreithiau gwladol, megys lladrad, llofruddiaeth, terfysg, neu wrthryfel. ‡ Wrth reswm, fel y byddai yr achos a'i amgylchiadau yn gofyn; ac wrth reswm, fel swyddog gwladol, yn rhwym i gadw heddwch ac iawn drefn yn y ddinas ac yn mhlith fy neiliaid. || Pe felly y buasai yr achos, mi a gyd-ddygaswn â chwi, er mòr derfysglyd eich agwedd yn dyfod ger fy mron, gwrandawswn eich cyhuddiad a gwnaethwn gyfiawnder.

15 * Eithr os y [n] cwestiwn sydd am ymadrodd, ac enwau, † a'r ddeddf sydd yn eich plith chwi, [o] ‡ edrychwch eich hunain; [p] canys ni fyddaf fi farnwr am y pethau hyn.

n pen. 26. 3. 1 Tim. 1. 4. a 6. 4. 2 Tim. 2. 23. Tit. 3. 9. o Mat. 27. 4, 24. p pen. 24. 6—8. Ioan 18. 31.

* "Ymadrodd;" yr athrawiaeth oedd Paul yn bregethu yn gyffredin: "enwau;" enwau yr Iesu, pa un a oedd yn iawn ei alw ef yn Grist, neu Fessiah, ai peidio: "a'r ddeddf;" pa un a oedd yn gofyn enwaedu ar y cenedloedd ai nid oedd, a pha un a oedd yn rhaid iddynt addoli Duw yn eu ffordd hwy ai nid oedd. † Mae *Pool*, ar adn. 13, yn crybwyll deddf y Rhufeiniaid, fel y nodwyd uchod; ond mae yn amlwg yma mai deddf yr Iuddewon oedd Galio yn ddeall, wrth ei fod yn dywedyd, "y ddeddf sydd yn *eich plith chwi.*" ‡ Nid oedd Galio yn deall y pethau hyn, ac nid oeddynt yn perthyn i'w swydd ef: mae yn addef ei anwybodaeth am danynt, ac yn dangos ei anewyllysgarwch i ymyraeth â hwynt. Nis gwyddai efe nad oedd y naill blaid *(sect)* yn gystal â'r llall yn ei lle, ac ystyriai fod gan y naill gystal hawl â'r llall i ddilyn ei barn ei hun. Er mòr ddoeth ac union ei ymddygiad yn y tro hwn, eto yr oedd yn feïus iawn hefyd, na buasai yn holi Paul am ei athrawiaeth; efallai y cawsai les tragywyddol i'w enaid pe gwrandawsai arno.

16 [q] * Ac efe a'u gyrrodd hwynt oddi wrth y frawdle.

q Salm 76. 10. Rhuf. 13. 3, 4. Dat. 12. 16.

* Parodd i'w swyddogion eu troi hwy allan o'r llŷs, wedi eu rhybuddio hwynt na wnelent ddim i aflonyddu heddwch y ddinas, na dim niwed i Paul ychwaith, efallai. Fel hyn cyflawnodd yr Arglwydd Iesu erddo ef yr hyn a addawsai yn adn. 10

17 * A'r holl Roegwyr a gymmerasant [r] † Sosthenes yr [s] arch-synagogydd, ‡ ac a'i

curasant o flaen y frawdle. [t] ‖ Ac nid oedd Gàlio yn gofalu am ddim o'r pethau hynny.

r 1 Cor. 1. 1. s adn. 8. t pen. 17. 32. Amos 6. 6. 1 Cor. 1. 23.

* Groegiaid paganaidd oedd y rhai hyn yn ddiammau, ac nid Groegiaid wedi cofleidio y grefydd Iuddewig, ac yn sicr nid Groegiaid wedi cofleidio y grefydd gristionogol: ni buasai y rhai cyntaf yn curo yr arch-synagogydd, ac ni buasai y rhai olaf yn ymddwyn mewn modd terfysglyd fel hyn. † Mae amryw dybiau am y Sosthenes hwn: tybia rhai mai un a wnaed yn arch-synagogydd yn lle Crispus oedd, ar ol i Crispus droi yn gristion, adn. 8; ac i'r Groegiaid hyn dybied mai efe a barodd godi erlid yn erbyn Paul, ac iddynt ei guro ef am hyny, er nad oedd ganddynt hwy barch yn y byd i grefydd Paul, dim ond meddwl ei fod yn cael cam fel dyn. Tybia eraill iddo fod yn arch-synagogydd o flaen Crispus, ac ei fod o hyd yn cael ei alw felly. Eraill a dybiant mai arch-synagogydd rhyw synagog arall yn Corinth ydoedd. Tybia eraill mai yr un â Chrispus ydoedd, dau enw ar yr un dyn. Fel hyn tybia rhai mai Iuddew annychweledig ydoedd, ac eraill mai cristion ydoedd, a chyfaill Paul, yr hyn sydd fwyaf tebygol, gan fod Paul yn crybwyll am dano yn 1 Cor. 1. 1. Gwedi i'r Iuddewon fethu llwyddo yn erbyn Paul ei hun, cynhyrfasant y Groegiaid hyn i syrthio ar Sosthenes ei gyfaill ef, ‡ a hyny newydd droi oddi wrth y frawdle; gan obeithio y buasai hyny yn foddion i beri i Gàlio fynu Paul a'i gyfeillion yn ol a'u cospi hwy am fod yn achos terfysg, neu eu rhoi mewn dalfa. ‖ Ond nid oedd Gàlio yn gofalu am ddim o'r pethau hyny: un ai o ddiystyrwch ar yr Iuddewon a'u dadleuon, neu ynte o ddoethineb yn peidio ymyraeth â hwynt. Tebygid fod geiriau Luc yma yn ei feio ef, am ei ddifaterwch yn amddiffyn Sosthenes oedd yn cael cam: a diammau ei fod i'w feio hefyd.

18 ¶ * Eithr Paul, wedi aros etto ddyddiau lawer, † a ganodd yn iach i'r brodyr, ac a fordwyodd ymaith i [u] Syria, a chyd âg ef [x] ‡ Priscila ac Acwila; [y] ‖ gwedi iddo gneifio *ei* ben yn [z] Cenchrea: § canys yr oedd arno adduned.

u pen. 15. 23, 41. a 21. 3. Gal. 1. 21. x adn. 2. y pen. 21. 24. Num. 6. 5—9, 18. 1 Cor. 9. 20. z Rhuf. 16. 1.

* "Dyddiau lawer" wedi y flwyddyn a chwe mis, adn. 11, medd rhai; ond tebycach mai "dyddiau lawer" wedi y derfysg uchod a feddylir: tua hanner blwyddyn meddylia rhai. † Yn y modd mwyaf brawdol, sobr, a duwiol, heb wybod a ga'i efe eu gweled byth mwy yn y cnawd. ‡ Y wraig o flaen y gwr yma, ac yn Rhuf. 16. 3, a 2 Tim. 4. 19, i ddangos *nad oes yn Nghrist na gwrryw na benyw:* efallai mai y wraig a ddychwelwyd gyntaf, neu mai hi oedd yr enwocaf o'r ddau yn ei chrefydd. ‖ Cenchrea ydoedd borthladd, y tu arall i'r lleindir a soniwyd dan adn. 1; tua phymtheg neu ddeunaw milltir o Corinth i'r dwyrain, a chyferbyn â hi: oddi yno y mordwyodd Paul i Syria. § Gan fod adduned y Nazareaid yn cynnwys rhwymedigaeth foesol i burdeb ac ymgyssegriad i Dduw, yr oedd yn ddigon cyfreithlawn i'r apostol arfer y ddefod seremoniol hon: ac mae yn debyg iddo ymaddunedu hefyd er diolchgarwch i Dduw am ei ofal am dano a'i ddaioni tuag ato yn ei holl beryglon yn Corinth. Gadael i'r gwallt dyfu ydoedd arwydd o adduned Nazareaeth; ac os byddai rhai yn byw yn rhŷ bell i gyrhaedd y deml erbyn y byddai amser eu hadduned i fynu, gallent gneifio eu penau pe le bynag y byddent; ac ar yr un pryd gosod gwerth eu haberth o'r neilldu, i'w ddwyn neu ei ddanfon i'r deml pan gaffent gyfle. Y rhai a gneifient eu penau yn Jerusalem, y ddeddf oedd, llosgi y gwallt yn y tân a fyddai dàn yr aberth hedd. Num. 6. 18. Amryw bethau eraill a ddywedir am yr adduned uchod o eiddo Paul.

19 * Ac efe a ddaeth i [a] Ephesus, † ac a'u gadawodd hwynt yno, [b] ‡ eithr efe a aeth i'r synagog, ‖ ac a ymresymmodd â'r Iuddewon.

a adn. 24. pen. 19. 1, 17, 26. a 20. 16. 1 Cor. 16. 8. Eph. 1. 1. 1 Tim. 1. 3. 2 Tim. 1. 18. a 4. 12. Dat. 1. 11. a 2. 1. b Gwel ar adn. 4. pen. 17. 2, 3.

* Prif ddinas Asia leiaf: yr oedd hon yn fordaith bell iawn, lawer dros ddau gant o filltiroedd o Cenchrea, ag iddynt fyned ar eu hunion, yr hyn nis gallent gan lawer o ynysoedd ar eu ffordd, heb son am groes-wyntoedd a rhwystrau eraill. † Gadawodd Acwila a Phriscila yno, sef yn Ephesus. ‡ Dyma y tro cyntaf i Paul ddyfod i Ephesus, ac mae yn debyg nad oedd dim pregethu yr efengyl wedi bod yno o'r blaen; o leiaf nid oedd yno yr un eglwys o gristionogion, gan hyny mae efe yn ol ei arfer yn mhob màn y tro cyntaf, yn myned i synagog yr Iuddewon: cymmaint oedd ei gariad at ei genedl, a'i awydd am eu hachub, er yr holl ddrwg driniaeth a gaffai ganddynt yn mhob lle agos. ‖ Pregethodd iddynt wirioneddau mawrion yr efengyl, ac ymresymodd â hwynt, gan ateb eu gwrth-ddadleuon, a phrofi ei bynciau ei hun, allan o'r ysgrythyrau sanctaidd.

20 * A phan ddymunasant *arno* aros gyd â hwynt dros amser hwy, [c] † ni chaniattâodd efe:

c pen. 20. 16. a 21. 13, 14. Marc 1. 37, 38. 1 Cor. 16. 12.

* Pan ddymunodd ei gyfeillion, Priscila ac Acwila, arno aros yn hwy, medd *Pool* a *Guyse;* pan ddymunodd yr Iuddewon arno aros, medd *Scott* a *Doddridge*, wedi dechreu cael blas ar ei athrawiaeth ef, ac yn chwennych cael clywed mwy am dani. † O herwydd yr "angenrhaid" a grybwyllir yn yr adnod nesaf.

21 [d] * Eithr efe a ganodd yn iach iddynt, gan ddywedyd, [e] † Y mae yn anghenrhaid i mi gadw yr wyl sydd yn dyfod yn Jerusalem, [f] ‡ ond os myn Duw, ‖ mi a ddeuaf yn fy ol attoch chwi drachefn. § Ac efe a aeth ymaith o Ephesus.

d pen. 15. 29. Luc 9. 61. 2 Cor. 13. 11. e Deut. 16. 1 f pen. 19. 21. a 21. 14. Mat. 26. 39. Rhuf. 1. 10. a 15. 32. 1 Cor. 4. 19. Phil. 2. 19—24. Heb. 6. 3. Iago 4. 15.

* "Efe a ganodd yn iach iddynt," yn y modd mwyaf brawdol, heddychol a boneddigaidd. † Yr ŵyl oedd gŵyl y pasg, hyny a feddylir bob amser wrth y gair *gwyl* oddigerth fod rhywbeth ar ei ol, i ddangos mai rhyw ŵyl arall a feddylir. Dywed yr apostol fod yn angenrhaid iddo ef i gadw yr ŵyl hòno, nid am ei fod ef yn meddwl dim o ŵyliau yr Hen Destament yn awr, ond o blegid y cyfle a gaffai efe i bregethu Crist i'r miloedd o'i gyd-genedl a fyddent yn Jerusalem ar yr ŵyl hòno. ‡ "Os mỳn Duw:" dylem fod yn ystyriol ac yn ochelgar wrth wneuthur addewidion. ‖ Yr oedd Paul yn gweled arwyddion gobeithiol o lwyddiant ar waith yr Arglwydd yn Ephesus eisoes, ac am hyny yn bwriadu dychwelyd yno drachefn, yr hyn hefyd a wnaeth. pen. 19. 1. § Ar hyd y mòr tua Jerusalem.

22 * Ac wedi iddo ddyfod i waered i [g] Cesarea, [h] † efe a aeth i fynu ac a gyfarchodd [i] ‡ yr eglwys, [k] ‖ ac a ddaeth i waered i Antiochia.

g pen. 8. 40. a 10. 1, 24. a 11. 11. a 18. 22. a 23. 23. h pen. 25. 1, 9. i adn. 21. pen. 11. 22. a 15. 4. a 21. 17—19. k pen. 11. 19—27. a 13. 1. a 14. 26, a 15. 23, 30, 35.

* Cesarea Stratonis yn Palestina oedd hon, ac nid Cesarea Philippi yn Syria: yr oedd y fordaith hon yn agos i chwe' chant o filltiroedd, a bwrw iddo fyned ar linell union o Ephesus i Cesarea; ac yr oedd gan Paul hanner can milltir ychwaneg i fyned ar hyd y tir i Jerusalem. Rhaid i'r teithiau hyn gymmeryd llawer o amser, a dïau i'r apostol fyned trwy lawer o beryglon, er eu hadrodd yma mewn ychydig eiriau: nid boddâu chwilfrydedd y darllenydd oedd amcan Luc; ond dangos pa fodd y cafodd yr efengyl ei thaenu gynt, a mawr lafur yr apostolion yn ei thaenu. † Efe aeth i fynu i Jerusalem ac a gyfarchodd yr eglwys yno yn y modd mwyaf brawdol a serchiadol. ‡ "Yr eglwys:" gelwir hi felly mewn ffordd o enwogrwydd, gan mai yr eglwys

yn Jerusalem ydoedd mam-eglwys yr holl fyd cristionogol y pryd hwnw: adeiladodd Duw eglwys y Testament Newydd megys ar adfeilion hen eglwys yr Hen Destament. || Efallai bod amryw o'r apostolion eraill o hyd yn Jerusalem, gan hyny nid oedd achos i Paul aros yn hir yno; felly efe a ymadawodd ac a aeth i waered i Antiochia yn Syria, lle buom gydag ef amrai weithiau o'r blaen.

23 * Ac wedi iddo dreulio talm o amser, † efe a aeth ymaith, gan dramwy [l] ‡ trwy wlad Galatia, a Phrygia, mewn trefn, [m] || a chadarnhâu yr holl ddisgyblion.

l pen. 16. 6. 1 Cor. 16. 1. Gal. 1. 2. a 4. 14. m pen. 14. 22. a 15. 32, 41. a 16. 40. Deut. 3. 28. Ezra 1. 6. Es. 35. 3, 4. Dan. 11. 1. Luc 22. 32, 43. 1 Thes. 3. 2. a 4. 18. a 5. 14. Heb. 12. 12, 13.

* Gwedi aros talm o amser gyda ei hen gyfeillion yn Antiochia, yn adrodd yr hyn a wnaethai Duw drwyddo ef yn ei holl deithiau diweddaf, a sylwi pa fodd yr oedd gwaith yr Arglwydd yn llwyddo gyda hwythau, a'u cadarnâu hwynt yn yr efengyl; † efe a aeth ymaith y drydedd waith i gylch-daith arall, lle y buasai efe flynyddoedd o'r blaen. ‡ Er nad enwir ond y ddwy dalaeth hyn, mae yn ddiammau i'r apostol ymweled â llawer o fanau eraill ar hyd y ffordd tuag Ephesus: tybir yn gyffredin iddo fod tua phedair blynedd ar y daith hon i gyd, a chynnwys yr amser y bu yn aros yn Ephesus; (pen. 19. 10.) sef o'r flwyddyn 54 hyd 58. || Gwedi hau yr had, mae yn angenrheidiol ei ddwfrâu a'i ymgeleddu; a gofalus iawn oedd yr apostol am hyny hefyd.

24 ¶ Eithr rhyw Iuddew, a'i enw [n] * Apòlos, [o] † Alexandriad o genedl, [p] ‡ gwr ymadroddus, [q] cadarn yn yr ysgrythyrau, || a ddaeth i Ephesus.

n pen. 19. 1. 1 Cor. 1. 12. a 3. 5, 6. a 4. 6. a 16. 12. Tit. 3. 13. o pen. 6. 9. a 27. 6 p Ex. 4. 10. Es. 3. 3. 1 Cor. 2. 1, 2. 2 Cor. 10. 10. q adn. 28. pen. 7. 22. Ezra 7. 6, 12. Mat. 13. 52. Luc 24. 19. Col. 3. 16.

* Yr un ag Apèles, Rhuf. 16. 10, medd *Pool.* † Brodor o Alexandria yn yr Aipht, lle yr oedd lluoedd o Iuddewon yn preswylio. ‡ Yr oedd efe yn wr duwiol iawn, tra dysgedig yn ysgrythyrau yr Hen Destament, ac o ddawn ymadrodd hyawdl dros ben. || Daeth hwn i Ephesus ryw bryd yn absenoldeb Paul ar y daith uchod.

25 * Hwn oedd wedi [r] dechreu dysgu iddo ffordd yr Arglwydd: [s] † ac *efe* yn wresog yn yr yspryd, a lefarodd ac a athrawiaethodd yn ddiwyd y pethau a berthynent i'r Arglwydd, [t] ‡ heb ddeall ond bedydd Ioan yn unig.

r pen. 13. 10. a 16. 17. a 19. 9, 23. Gen. 18. 19. Barn. 2. 22. 1 Sam. 12. 23. Salm 25. 8, 9. a 119. 1. Es. 40. 3. Jer. 6. 16. Hos. 14. 9. Mat. 3. 3. Marc 1. 3. a 12. 14. Luc 3. 4. Ioan 1. 23. s Rhuf. 12. 11. Col. 1. 28, 29. 2 Tim. 2. 4. t pen. 19. 3. Mat. 3. Luc 3. Ioan 1. 19—36.

* Tybir iddo ef fod yn gwrando Ioan Fedyddiwr yn pregethu, iddo gael ei fedyddio ganddo ef ar broffes o'i ffydd yn y Messiah i ddyfod; iddo ddychwelyd yn fuan wedi hyny i Alexandria, ac na bu efe erioed yn mhlith cristionogion tan y tro hwn y daeth efe i Ephesus, a chael cydnabyddiaeth âg Acwila a Phriscila. Os felly, nis gallai efe fod yn wr ieuanc yn awr, fel y tybir yn gyffredin, er na ddywed Luc ddim am hyny; oblegid yr oedd Ioan wedi marw er ys mwy nac again mlynedd cyn yr amser a enwir yma. Os oedd yn wr mewn oedran, yr oedd ei ostyngeiddrwydd yn fawr, ac yn ymddangos yn brydferth iawn, yn cymmeryd ei addysgu gan Acwila a Phriscila yn ffordd Duw. Y gwir yw, nas gellir gwybod yn awr pa bryd, na chan bwy, y dechreuodd efe gael ei ddysgu yn ffordd yr Arglwydd, sef ffordd iachawdwriaeth trwy ffydd yn y Messiah. † Yr oedd efe yn wresog dros ogoniant Duw, ac achubiaeth eneidiau ei gyd-genedl, ac yn llafurus iawn yn ol y goleuni oedd ganddo. ‡ Yr hyn oedd Ioan yn ei bregethu, sef edifeirwch, a ffydd yn y Messiah oedd ar ymddangos, er maddeuant pechodau: hyny oedd swm ei weinidogaeth ef, a hyny a arwyddocêid trwy ei fedydd ef.

26 * A hwn a ddechreuodd [u] lefaru yn hŷf yn y synagog: † a phan glybu [x] Acwila a Phriscila, hwy a'i cymmerasant ef attynt, [y] ac a agorasant iddo ffordd Duw yn fanylach.

u pen. 14. 3. Es. 58. 1. Eph. 6. 19, 20. x adn. 2, 3. y pen. 8. 31. a 28. 23. Diar. 1. 5. a 9. 9. a 22. 17, 18. a 25. 12. Mat. 18. 3, 4. Marc 10. 15. Luc 19. 26. a 24. 27. Ioan 7. 17. 1 Cor. 3. 18. a 8. 2. a 12. 21.

* Yr oedd efe yn hŷf, yn daer, ac yn wresog, yn galw yr Iuddewon i edifeirwch, ac i gredu yn Nghrist y Messiah; ond pa un a oedd efe yn dywedyd am dano fel un *wedi* dyfod, neu ynte fel un *i* ddyfod, mae yn anodd penderfynu: † pa un bynag o'r ddau, mae yn amlwg fod Acwila a Phriscila yn gweled ei olygiadau ef ar athrawiaeth yr efengyl yn anmherffaith y pryd hwnw; am hyny hwy a'i cymmerasant atynt, i'w cymdeithas a'u lletty, mae yn debyg, ac a agorasant iddo ffordd Duw, pethau mawrion yr efengyl, yn fanylach. Rhyfedd fu rhagluniaeth Duw yn y tro hwn; dwyn Acwila a Phriscila o'r Ital i Ephesus, a dwyn Apòlos o Alexandria yn yr Aipht yno i'w cyfarfod, i gael ei ddysgu ganddynt.

27 * A phan oedd efe yn ewyllysio myned i Achaia, [z] † y brodyr, [a] gan annog, a ysgrifenasant at y disgyblion i'w dderbyn ef. ‡ Yr hwn, wedi ei ddyfod, [b] a gynnorthwyodd lawer ar y rhai a [c] gredasent trwy ras.

z pen. 9. 27. Rhuf. 16. 1, 2. 1 Cor. 16. 3. 2 Cor. 3. 1, 2. a Col. 4. 10. 3 Ioan 8—10. b 1 Cor. 3. 6, 10—14. 2 Cor. 1. 24. Phil. 1. 25. c Ioan 1. 12, 13. Rhuf. 1. 5. 1 Cor. 15. 10. Eph. 2. 8—10. Phil. 1. 29. Col. 2. 12. 2 Thes. 2. 13, 14. Tit. 3. 4—6. Iago 1. 16—18. 1 Pedr 1. 2, 3.

* Yn pen. 19. 1, ni a'i cawn ef yn Corinth, prif ddinas Achaia, lle y bu Paul yn llafurio yn hir ac yn llwyddiannus. Mae yn debyg ei fod yn ewyllysio myned yno o wir awydd am gael gweled y cristionogion yn y parthau hyny, cael ei addysgu yn mhellach ganddynt, a rhoddi pob cynnorthwy a allai efe iddynt. † Cafodd bob annogaeth i fyned, gan Acwila a Phriscila, a'r ychydig frodyr oedd yn Ephesus y pryd hwnw; ac ysgrifenasant lythyr o ganmoliaeth iddo i fyned gydag ef fel y derbynid ef megys cristion diffuant, megys brawd anwyl, ac megys gweinidog ffyddlawn yn yr efengyl. ‡ Ni bu ei fynediad yn ofer; defnyddiodd Duw ef yn nodedig, i ddyfrâu yr had a hauasai Paul, ac i gynnorthwyo llawer ar y llawer a gredasent yno trwy ras Duw a gweinidogaeth yr apostol. Cyfeiriad at y tro hwn sydd yn 1 Cor. 3. 6; a'r geiriau hyny yw yr agoriad goreu ar yr adnod hon.

28 * Canys efe a [d] orchfygodd yr Iuddewon yn egnïol, ar gyhoedd, gan ddangos trwy ysgrythyrau, mai Iesu yw Crist.

d adn. 25. pen. 9. 22. a 17. 3. a 26. 22, 23. Luc 24. 27, 44. 1 Cor. 15. 3, 4. Heb. 7.—a 10.

* Gorchfygodd yr Iuddewon digred trwy resymau goleu, grymus, ac ysgrythyrol: yr oedd yn ymegnïo â'i holl enaid, ac â'i holl ddawn, i'w hargyhoeddi hwynt, dadymchwelyd eu gwrthddadleuon, a phrofi yn eglur a diymwad, mai Iesu oedd y Crist, y Messiah; ac mai y Crist, y Messiah hwnw ydoedd Iesu, unig Waredwr dynion oddi wrth eu pechodau.

PEN. XIX.

Rhoddi yr Ysbryd Glân trwy ddwylaw Paul.

A DIGWYDDODD, [a] * tra fu Apòlos yn Corinth, [b] † wedi i Paul dramwy trwy y parthau uchaf, [c] ‡ ddyfod o hono ef i Ephesus: || ac wedi iddo gael rhyw ddisgyblion,

a pen. 18. 24—28. 1 Cor. 1. 12. a 3. 4—7. a 16. 12. b pen. 18. 23. c pen. 18. 19—21.

* Am fynediad Apòlos i Corinth, a'i lafur yno, gwelsom ar pen. 18. 27, 28. † "Parthau uchaf:" sef Galatia a Phrygia (pen. 18. 23.) a rhanau eraill o Asia leiaf. ‡ Yn ol ei addewid i'r brodyr yn Ephesus pan aeth

heibio yno i Jerusalem. pen. 18. 21. || Yn nghylch deuddeg o nifer oedd y dysgyblion hyn, adn. 7. Tybir mai deuddeg o Iuddewon duwiol oeddynt, a fedyddiesid gan Ioan Fedyddiwr ei hun, neu gan rai o'i ddysgyblion ef, ac iddynt adael gwlad Judea cyn dydd y pentecost, ac na chlywsent hwy ddim am dywalltiad yr Ysbryd Glân yn ei ddoniau gwyrthiol ar y dydd hwnw, nac ar neb o ddysgyblion yr Arglwydd Iesu yn un màn wedi hyny. Mae yn debyg mai dieithriaid i'r cristionogion yn mhob màn oeddynt; pe amgen cawsent glywed am yr Ysbryd Glân yn rhywle.

2 Efe a ddywedodd wrthynt, [d] * A dderbyniasoch chwi yr Yspryd Glân † er pan gredasoch? ‡ A hwy a ddywedasant wrtho, [e] Ni chawsom ni gymmaint a chlywed a oes Yspryd Glân.

d adn. 6. pen. 2. 17, 38, 39. a 8. 15—17. a 10. 44. a 11. 15—17. Rhuf. 1. 11, 12. e 1 Sam. 3. 7. Ioan 7. 39. 1 Cor. 6. 19. a 12. 1, &c. Gal. 3. 5.

* A dderbyniasoch chwi yr Ysbryd Glân yn ei ddoniau gwyrthiol? † Yr oeddynt hwy wedi credu yn y Messiah yn ol tystiolaeth Ioan Fedyddiwr am dano. ‡ Rhaid deall yr atebiad hwn yn ol y gofyniad uchod; sef am ddoniau gwyrthiol yr Ysbryd Glân. Nis gallent fod heb wybod am *fod* a *phersonoliaeth* yr Ysbryd Glân, nac ychwaith am yr addewidion o'r tywalltiad o hòno yn y dyddiau diweddaf; yr oeddynt yn gwybod am hyny trwy ysgrythyrau yr Hen Destament, a thrwy yr hyn a glywsent gan Ioan, ac efallai yr hyn a welsent ar fedyddiad Crist: ond nid oeddynt wedi clywed am ei dywalltiad ar yr apostolion nac ar neb eraill dan yr oruchwyliaeth efengylaidd.

3 * Ac efe a ddywedodd wrthynt, [f] I ba beth gan hynny y bedyddiwyd chwi? † Hwythau a ddywedasant, [g] I fedydd Ioan.

f Mat. 28. 19. 1 Cor. 12. 13. g pen. 18. 25. Mat. 3. Luc 3.

* Pa athrawiaeth a gredasoch ac a broffesasoch chwi? I ba grefydd a goruchwyliaeth y bedyddiwyd chwi? † Maent hwythau yn ateb mai yr athrawiaeth a ddysgai Ioan a gredasent hwy, ac oeddynt yn ei phroffesu; ac mai i'r grefydd a broffesai ac a bregethai efe y bedyddiwyd hwynt. Yr oedd Ioan yn pregethu Messiah ar ymddangos, ac yn bedyddio pawb ar eu crediniaeth o'r athrawiaeth hòno; felly y bedyddiwyd y deuddeg hyn, a thybia rhai iddynt fod yn pregethu yr un athrawiaeth yn mhlith yr Iuddewon mewn gwledydd pellenig; ac fel hyny nas gwyddent fod yr Ysbryd Glân eisoes wedi ei dywallt, os gwyddent hefyd fod y Messiah yn wir wedi dyfod.

4 * A dywedodd Paul, [h] Ioan yn ddïau a fedyddiodd â bedydd edifeirwch, gan ddywedyd wrth y bobl am gredu yn yr hwn oedd yn dyfod ar ei ol ef, sef yn Nghrist Iesu.

h pen. 1. 5. a 11. 16. a 13. 23—25. Mat. 3. 11, 12. a 11. 3—5. a 21. 25—32. Marc 1. 1—12. Luc 1. 76—79. a 3. 16—18. Ioan 1. 29—34. a 3. 28—36. a 5. 33—35.

* Gweinidogaeth Ioan oedd, rhag-rybuddio dynion i ffoi rhag y llid oedd ar ddyfod, trwy eu galw i edifeirwch, a'u hannog i gredu yn y Messiah oedd y pryd hwnw wedi dyfod i'r byd, ac i ymddangos yn gyhoeddus yn union ar ei ol ef: fel hyn yr oedd yn darpar i'r Arglwydd bobl barod.

5 A phan glywsant * hwy † *hyn*, [i] ‡ hwy a fedyddiwyd || yn enw yr Arglwydd Iesu.

i pen. 2. 38. a 8. 12, 16. Rhuf. 6. 3, 4. 1 Cor. 1. 13—15. a 10. 2.

* "Hwy:" sef y deuddeg dysgybl a soniwyd. † "Hyn:" sef yr hyn a ddywedasai Paul yn yr adnod o'r blaen. ‡ A fedyddiwyd gan Paul, neu ar orchymyn Paul, ac ar eu deisyfiad a'u cydsyniad eu hunain, er eu bedyddio o'r blaen i fedydd Ioan. Mae rhai beirniaid manwl yn meddwl fel arall; mai nid geiriau Luc yw y bummed adnod, eithr parâd o eiriau Paul yn adrodd yr effaith oedd pregeth Ioan yn gael ar ei wrandawwyr, eu bod yn ewyllysgar i gymmeryd eu bedyddio yn enw yr Arglwydd Iesu wrth glywed Ioan yn dywedyd am dano. Os felly mae i ni ddeall y geiriau, ni chafodd y deuddeg hyn eu bedyddio drachefn gan Paul, fel y dywedwyd uchod. Mae ein pedwar awdwr yn ddau a dau yn erbyn eu gilydd ar y pwnc hwn; *Doddridge* a *Scott* o'r farn flaenaf, a *Pool* a *Guyse* o'r farn olaf. || Os gellir dywedyd i Ioan mewn rhyw ystyr fedyddio ei ddysgyblion yn enw yr Arglwydd Iesu, rhaid i'r Arglwydd Iesu ei hunan gael ei fedyddio yn ei enw ei hun, yr hyn fyddai ddywedyd gwrthun iawn. Sylwyd o'r blaen, ar Matth. 3. 6, fod bedydd Ioan yn beth cwbl wahanol i'r bedydd cristionogol; ac ar ol esgyniad Crist, byddid yn bedyddio pawb, ar eu proffes o gristionogaeth, heb ymholi dim pa un a gawsent eu bedyddio gan Ioan o'r blaen ai peidio: ac mae yn beth rhyfedd iawn onid oedd rhai a fedyddiasid gan Ioan yn mhlith y tair mil a fedyddiwyd ar ddydd y pentecost. Os bedyddiwyd y deuddeg hyn gan Paul, neu ei gyfeillion, nid oes yma ddim o blaid ail fedyddio yr un dynion; oblegid nid yr un oedd bedydd Ioan â'r bedydd cristionogol: Crist ei hun a sefydlodd yr ordinâd o fedydd fel yr ordinâd arall, ac nid Ioan.

6 * Ac wedi i [k] Paul ddodi *ei* ddwylaw arnynt, [l] † yr Yspryd Glân a ddaeth arnynt; ‡ a hwy a draethasant â thafodau, || ac a brophwydasant.

k pen. 6. 6. a 8. 17—19. a 9. 17. 1 Tim. 5. 22. 2 Tim. 1. 6. l pen. 2. 4. a 10. 45, 46. a 13. 2. 1 Cor. 12. 8—11, 28—30.

* Fel hyn yr oedd Paul yn eu hurddo hwynt, ac yn eu hawdurdodi i fyned a phregethu yr efengyl: † ac yr oedd hyn yn arwydd hefyd o'r hyn a wnelai Crist iddynt, sef eu cynnysgaethu â doniau gwyrthiol yr Ysbryd Glân. ‡ Yn y fàn hwy a lefarasant mewn gwahanol ieithoedd, nas gwyddent ddim am danynt o'r blaen, yr un modd a'r apostolion ar ddydd y pentecost: || ac a brophwydasant, trwy ddehongli prophwydoliaethau yr Hen Destament, llefaru yn olau am ddirgeledigaethau dyfnion yr efengyl, clodfori Duw mewn hwyl orfoleddus iawn, ac efallai rhagfynegi rhyw bethau i ddyfod, perthynol i lwyddiant yr efengyl.

7 * A'r gwŷr oll oeddynt ynghylch deuddeg.

* Yn nghylch deuddeg, neu ddeuddeg union, yr un nifer â'r apostolion. Tybir fod Paul yn bwriadu y deuddeg hyn fel cenadon o Ephesus i eglwysi Asia, yn debyg i'r rhai a enwir yn pen. 13. 1—3, o eglwys Antiochia yn Syria. Yr oedd amgylchiadau y dysgyblion hyn yn hollawl yr un fath a'r eiddo Apòlos; ond ei fod ef yn fwy enwog yn yr eglwys na hwynt hwy.

8 [m] * Ac efe a aeth i mewn i'r synagog, † ac a lefarodd yn hŷ ‡ dros dri mis, gan || [n] ymresymmu a chynghori § y pethau *a berthynent* i deyrnas Dduw.

m pen. 13. 14, 26. a 14. 1. a 26. 22, 23. n adn. 9. pen. 9. 20—22. a 17. 1—3, 17. a 18. 4. a 28. 23. Judas 3.

* Sef synagog yr Iuddewon yn Ephesus, lle byddent yn addoli Duw, yn darllen y gyfraith, ac yn traddodi areithiau cyhoeddus ar bynciau crefyddol. † Cawn yr agoriad goreu ar yr hyfdra hwn yn ngeiriau Paul ei hun wrth henuriaid eglwys Ephesus, pen. 20. 20, 21, 26, 27. ‡ Tri mis cyn iddo dynu oddi wrthynt, a neilldüo y dysgyblion, adn. 9. || Mae yr ymresymu a'r cyngori yma yn dangos fod caledwch a gwrthddadlau o du yr Iuddewon yn erbyn athrawiaeth Paul. § Pethau yr efengyl: teyrnas gras Duw ar y ddaear i addasu dynion i deyrnas ei ogoniant yn y nef. Dysgwyliai yr Iuddewon am deyrnas ddaearol y Messiah, ac addefai y cristionogion ef yn Frenin, ond mai ysbrydol oedd ei deyrnas: nid o'r byd hwn, er ei bod yn dechreu yn y byd hwn.

9 [o] * Eithr pan oedd rhai wedi caledu, ac heb gredu, [p] gan ddywedyd yn ddrwg am † y

ffordd honno ger bron y lliaws, [q] ‡ efe a dynnodd ymaith oddi wrthynt, ‖ ac a neillduodd y disgyblion; [r] § gan ymresymmu beunydd yn ysgol un Tyrannus.

o pen. 7. 51. a 13. 45, 46. a 18. 6. 2 Bren. 17. 14. 2 Cron. 30. 8. a 36. 16. Neh. 9. 16, 17, 29. Salm 95. 8. Es. 8. 14. Jer. 7. 26. a 19. 15. Ioan 12. 40. Rhuf. 9. 18. a 11. 7. Heb. 3. 13. p adn. 23. pen. 9. 2. a 22. 4. a 24. 21. a 28. 22. 2 Pedr 2. 2, 12. q pen. 14. 4. a 17. 4. a 18. 7, 8. Mat. 15. 14. a 16. 4. Luc 12. 51—53. 1 Tim. 6. 5. 2 Tim. 3. 5. r pen. 20. 31. Diar. 8. 34. Mat. 26. 55. 2 Tim. 4. 2.

* Dyma fel yr oedd yr ymadrodd am y groes yn dramgwydd, ac yn arogl marwolaeth i farwolaeth i'r Iuddewon: yr un haul ag sydd yn peri i'r llysiau dyfu a pher-arogli, sydd hefyd yn peri i'r clai galedu, ac i'r domen ddrewi: ond nid bai yr haul yw hyny; yn y clai a'r domen mae yr achos. † Ffordd iachawdwriaeth pechaduriaid trwy ffydd yn Nghrist a'i aberth mawr: y Person rhagoraf, y cariad mwyaf, a'r ffordd ryfeddaf, a glywodd dynion am danynt erioed, yn cael eu cablu gan y rhai deddfol, digred, a rhag-farnus hyn: a hyny yn gyhoeddus ger bron y lliaws, er rhwystro iachawdwriaeth cannoedd heblaw hwy eu hunain. † Felly y gwnaeth efe yn Corinth, pan welodd na dderbyniai Iuddewon y synagog ei athrawiaeth ef, gwel pen. 18. 6, 7: ond cyn tynu oddi wrthynt yn mhob màn, yr oedd efe yn lân oddi wrth eu gwaed hwynt. ‖ Fel na lygrid hwynt gan yr Iuddewon cablaidd ac anghrediniol, ac fel y caffent eu dysgu a'u cadarnâu yn mhellach yn yr efengyl. § Ysgol dduwinyddawl yr Iuddewon, medd rhai; ysgol philosophyddawl y Groegiaid, medd eraill: pa un bynag o'r ddwy, yr oedd yma ryddid i'r apostol lefaru, y peth nad oedd yn synagog yr Iuddewon. Enw personol y pen athraw oedd Tyrannus.

10 [s] * A hyn a fu dros yspaid dwy flynedd, † hyd oni ddarfu i bawb a oedd yn trigo yn [t] Asia, ‡ yn Iuddewon a Groegiaid, [u] glywed gair yr Arglwydd Iesu.

s pen. 18. 11. a 20. 31. Rhuf. 10. 18. t pen. 16. 6. 2 Tim. 1. 15. 1 Pedr 1. 1. Dat. 1. 4, 11. u pen 18. 4. a 20. 20, 21. Rhuf. i. 16. a 10. 12. 1 Cor. 1. 22—24. Gal. 3. 28. Col. 3. 11.

* Dwy flynedd wedi y tri mis y bu efe yn y synagog; (adn. 8:) a rhaid iddo fod naw mis wedi hyny, yn Ephesus a'i hamgylchoedd, i wneyd y tair blynedd a sonia efe yn pen. 20. 31. Yn adn. 34, o'r bennod hòno hefyd, cawn weled pa fodd yr oedd efe a'i gyfeillion yn cael cynnaliaeth yr holl amser hyn. † Nid Asia leiaf oll, mae yn debyg, a feddylir yma, cawsom hanes teithiau a llafur yr apostol yno o'r blaen; eithr Asia briodol, fel ei gelwid, a feddylir, yr hon oedd yn gorwedd o amglych Ephesus. Mae yn sicr fod cyfeillion Paul a'r deuddeg a enwyd uchod, (adn. 1—7,) mae yn debyg, yn pregethu ar hyd y wlad o amgylch tra yr oedd Paul ei hun yn llafurio yn ddyfal beunydd yn y ddinas; ac rhyngddynt oll, yr oedd pawb wedi cael clywed gair yr Arglwydd cyn iddo ef ymadael, a llaweroedd iawn wedi ei dderbyn yn wirioneddol. ‡ Yr oedd cyrchfa fawr o ddynion i Ephesus ei hun; yr Iuddewon ar negeseüau masnachol a chyfreithiol, a'r cenedloedd paganaidd, a anrhydeddir yma â'r enw Groegiaid, i addoli y dduwies Diana, a negeseüau eraill: fel hyny yr oeddynt yn cael cyfle i wrando Paul ei hun yn ymresymu beunydd am wirioneddau yr efengyl, er nad oeddynt wrth ddyfod yn meddwl dim am y fath beth.

11 [x] * A gwyrthiau rhagorol a wnaeth Duw trwy ddwylaw Paul:

x pen. 5. 12. a 14. 3. a 15. 12. a 16. 18. Marc 16. 17—20. Ioan 14. 12. Rhuf. 15. 18, 19. Gal. 3. 5. Heb. 2. 4.

* Er cadarnâu athrawiaeth Paul, a thynu sylw yr Iuddewon rhagfarnus a'r Groegiaid paganaidd, caniatâodd Duw iddo wneyd gwyrthiau lawer, a'r rhai hyny yn nodedig iawn, nas gallai neb eu gwadu, na thaeru mai trwy ryw dwyll a lledrith y gwnaid hwynt.

12 [y] * Hyd oni ddygid at y cleifion, oddi wrth ei gorph ef, napcynau neu foledau; † a'r clefydau a ymadawai â hwynt, a'r ysprydion drwg a aent allan o honynt.

y pen. 5. 15. 2 Bren. 4. 29—31. a 13. 20, 21.

* Nis gallai y napcynau a'r moledau hyn drosglwyddo un rhinwedd oddi wrth yr apostol i bersonau pell oddi wrtho, ac nas gwelsai erioed; nid oeddynt ddim ond arwyddion o weithrediadau hollalluog Duw, fel estyniad gwialen Moses gynt. † Yr oedd y gwyrthiau rhyfeddol hyn yn dangos gallu Crist, yr hwn oedd Paul yn ei bregethu, yn amlwg iawn; yr oeddynt yn cenedlu meddyliau mawr yn y cleifion ac eraill am Grist a'r efengyl; ac yn dangos tuedd a rhinwedd yr efengyl i iachâu eneidiau dynion oddi wrth afiechyd a phläau ysbrydol. *Soudaria*, napcynau, peth i sychu chwŷs. *Simikunthia*, moledau, peth yn hanner amgylchu y corph: arffedogau yw y gair yn ol y Saesoneg. Tybia rhai mai pethau a ddefnyddiai Paul wrth ei waith fel gwneuthurwr pebyll oeddynt; tybia eraill mai eiddo y cleifion oeddynt, wedi eu danfon i gyfhwrdd â'i gorph ef.

13 ¶ [z] * Yna rhai o'r Iuddewon crwydraidd, [a] *y rhai oedd* gonsurwyr, [b] † a gymmerasant arnynt enwi uwch ben y rhai oedd âg ysprydion drwg ynddynt, ‡ enw yr Arglwydd Iesu, gan ddywedyd, [c] ‖ Yr ydym ni yn eich tynghedu chwi trwy yr Iesu, yr hwn y mae Paul yn ei bregethu.

z Gen. 4. 12, 14. Salm 109. 10. a Mat. 12. 27. Luc 11. 19. b pen. 8. 18, 19. Marc 9. 38. Luc 9. 49. c Jos. 6. 26. 1 Sam. 14. 24. 1 Bren. 22. 16. Mat. 26. 63. Marc 5. 7.

* "Iuddewon crwydraidd," y rhai a âent ar hyd y gwledydd i dwyllo gwirioniaid ynfyd o'u harian, dan rith o ddarllen eu tynged iddynt, a gwneuthur rhyfeddodau eraill trwy swyn-gyfaredd a lledrith: dywed hen haneswyr fod llawer iawn o'r cyfryw tua'r amser hwn. † Fel swynwyr yr Aipht yn ceisio dynwared gwyrthiau Moses i'w wrthwynebu ef. Ennill clod ac elw iddynt eu hunain oedd amcan y rhai hyn, a dwyn anair ac anfri ar yr efengyl ac ar Paul, trwy geisio dangos nad oedd efe yn gwneyd dim ond yr hyn a fedrent hwythau wneyd cystal ag yntau. ‡ Peth diweddar oedd enwi yr Arglwydd Iesu, wrth iddynt weled yr apostolion yn gwneyd eu gwyrthiau yn ei enw ef; o'r blaen enw Duw Abraham, Isaac, a Jacob, a ddefnyddiai y twyllwyr hyn. ‖ Ni ddywedir i ni pa un a oedd y tynghedu hyn yn llwyddo ai nid oedd: mae yn sicr nas gwyddai y swynwyr hyn ddim am yr Iesu yn chwaneg na bod Paul yn pregethu rhywun o'r enw hyny ac yn gwneyd gwyrthiau yn ei enw ef.

14 Ac yr oedd rhyw saith o feibion i Scefa, Iuddew, * *ac* arch-offeiriad, † y rhai oedd yn gwneuthur hyn.

* Blaenor un o'r pedwar dosparth ar hugain o'r offeiriaid, oedd y Scefa hwn, neu un wedi bod yn arch offeiriad penaf am ychydig, a chwedi cael ei droi o'i swydd, fel y gwnaid â llawer yn yr amseroedd llygredig hyny. † Er nad oedd gan y saith hyn ddim ffydd yn Iesu fel Person Dwyfol a Messiah, eto defnyddient ei enw i geisio bwrw allan gythreuliaid, er elw a pharch iddynt eu hunain. Gwel ar Marc 9. 38—40.

15 [d] * A'r ysprydrwg a attebodd ac a ddywedodd, * Yr Iesu yr wyf yn ei adnabod, † a Phaul a adwaen; ‡ eithr pwy ydych chwi?

d pen. 16. 17, 18. Gen. 3. 1—5. 1 Bren. 22. 21—23. Mat. 8. 29—31. Marc 1. 24, 34. a 5. 9—13. Luc 4. 33—35. a 8. 28—32.

* Adwaenai yr ysbryd drwg yr Iesu er ei wae a'i gryndod, a gwyddai fod gallu yr Iesu yn rhŷ drech iddo ef; † adwaenai Paul hefyd, fel gwas ac apostol Crist, a gwyddai fod gan Paul awdurdod oddi wrth Grist yn ei erbyn ef, nas gallai ei wrthsefyll: gorfu arno gyfaddef y pethau uchod yn gyhoeddus, er ei warth ei hun, ac er anrhydedd i Grist, a Phaul ei apostol ef. ‡ Ond am

dlanoch chwi, ebai efe, pwy ydych chwi? Pwy a roddodd i chwi awdurdod i fy ngorchymyn I allan? dangoswch i mi eich awdurdod: nid adwaenoch chwi na'r Iesu na Phaul, ac nid adwaenant hwythau chwi: nid yw eich tynghedu chwi ond sŵn gwag; nid wyf yn teimlo mae yn ofni grym eich geiriau ofer, gwnewch eich ygwaethaf, nid ymostyngaf fi i chwi mewn un modd.

16 [e] * A'r dyn yr hwn yr oedd yr yspryd drwg ynddo, a ruthrodd arnynt, ac a'u gorchfygodd, ac a fu drwm yn eu herbyn; hyd oni ffoisant hwy allan o'r tŷ hwnnw, yn noethion ac yn archolledig.

e Marc 5. 3, 4, 15. Luc 8. 29, 35.

* Gyda'r geiriau uchod, cynhyrfodd yr ysbryd drwg y dyn i ruthro yn ofnadwy ar y saith dyn, yr hwn a rwygodd eu dillad, ac a rwygodd eu cnawd mewn modd dychrynllyd, a da fu iddynt gael ffoi am eu bywydau. Mae yn amlwg iawn mai nid lloerigrwydd oedd hyn, fel y taera rhai, nis gallasai *un* dyn lloerig, pa mòr gryfed bynag a fuasai, orchfygu saith o ddynion fel hyn, a'u gŷru i ffoi yn noethion ac archolledig. Nis gwyddom pa fodd yr oedd satan yn gallu grymusu y dyn yn gorphorol, ond ni a welwn yn amlwg iddo wneyd hyny; ac ni a welwn hefyd nad yw efe wedi colli dim o'i rym ysbrydol i wneyd pob drwg a oddefo Duw iddo: a thrugaredd annhraethol yw, ei fod yn cael ei gadwyno fel y mae.

17 [f] * A hyn a fu hyspys gan yr holl Iuddewon a'r Groegiaid hefyd, y rhai oedd yn preswylio yn Ephesus; [g] † ac ofn a syrthiodd arnynt oll, [h] ‡ ac enw yr Arglwydd Iesu a fawrygwyd.

f ada. 10. g pen. 5. 5, 11, 13. a 13. 12. Lef. 10. 3. 1 Sam. 6. 20. 2 Sam. 6. 9. Salm 64. 9. Luc 1. 65. a 7. 16. h Phil. 1. 20. a 2. 9—11. 2 Thes. 1. 12. a 3. 1. Heb. 2. 8, 9. Dat. 5. 12—14.

* Nis gallasai tro rhyfeddol o'r fath uchod mewn dinas boblogaidd, lai na myned yn gyhoeddus yn fuan; † a phan ei gwybuwyd, syrthiodd ofn ar bawb rhag y dygwyddai y cyffelyb iddynt hwythau, os dywedent ddim yn erbyn enw yr Iesu, neu os gwnaent ddefnydd o hóno yn annheilwng gyda eu swynion fel y meibion Scefa hyn. ‡ Dywedwyd uchod, ar adn. 15, mai gorfod addef Iesu a'i apostol a fu ar yr ysbryd drwg, er anrhydedd iddynt; tybia rhai i'r gwrthwyneb, mai eu haddef a wnaeth, gyda bwriad i beri i'r bobl feddwl fod rhyw gyngrair rhyngddo ef â hwynt, er eu gwaradwyddo: os felly, collodd ei amcan yn gwbl, goruwch-lywodraethodd Duw y tro i fawrygu enw yr Iesu.

18 * A llawer o'r rhai a gredasent [i] † a ddaethant, ac a gyffesasant, ac a fynegasant eu gweithredoedd.

i Lef. 16. 21. a 26. 40. Job 33. 27, 28. Salm 32. 5. Diar. 28. 13. Jer. 3. 13. Ezec. 16. 63. a 36. 31. Mat. 3. 6. 1 Ioan 1. 9.

* Yr oedd yr Ephesiaid yn nodedig am eu hudoliaeth a'u swynion aflan, ac wedi eu taro â dychryn gan y tro hwn ar feibion Scefa, a chredu nad oedd enw yr Iesu ddim peth i gellwair âg ef, † hwy a ddaethant at yr apostolion a'r brodyr, ac a gyffesasant eu gweithredoedd yn frawychus ac yn edifeiriol, ac a'u gadawsant hefyd, fel y gwelwn yn y blaen.

19 * Llawer hefyd o'r rhai a fuasai yn gwneuthur [k] rhodreswaith, † a ddygasant eu llyfrau ynghyd, [l] ‡ ac a'u llosgasant y'ngŵydd pawb: ‖ a hwy a fwriasant eu gwerth hwy, ac a'i cawsant yn ddengmil a deugain o *ddarnau* arian.

k pen. 8. 9—11. a 13. 6, 8. Ex. 7. 11, 22. Deut. 18. 10—12. 1 Sam. 28. 7—9. 1 Cron. 10. 13. 2 Cron. 33. 6. Es. 8. 19. a 47. 12, 13. Dan. 2. 2. l Gen. 35. 4. Ex. 32. 20. Deut. 7. 25, 26 Es. 2. 20, 21. a 30. 22. Mat. 5. 29, 30. Luc 14. 33. Heb. 10. 34.

* Bod yn brysur, ac ymyraeth yn göegfôl â phethau nad yw yn perthyn eu gwybod, yw ystyr y gair *perierga*, a gyfieithir yma rhodres-waith; ceisio deall dirgelion annirnadwy anian, effeithiau y ser a'r planedau, a darllen tynged ion dynion wrth y planedau hyny: pob peth a ddeallir yn gyffredin wrth swyn-gyfaredd, dewiniaeth, &c., &c. † Y llyfrau oedd ganddynt i ddysgu y celfyddydau ofer a drygionus uchod. ‡ Llosgasant hwynt yn ngŵydd pawb, er dangos eu gwir edifeirwch am y pechod, eu tra chasineb ato, a'u llwyr ymadawiad oddi wrtho; ac hefyd fel na lygrid neb arall gan y cyfryw lyfrau mwy. Gwell llosgi y llyfrau, nac i'r llyfrau fod yn foddion eu llosgi hwy yn uffern byth. ‖ Mae amryw dybiau am y swm hwn, am nas gwyddir pa ddarnau arian oeddynt, ai Iuddewig, Groegaidd, neu Rufein aidd: y swm iselaf a enwir yw, 1,875, a'r swm uchaf yw 7,500 o bunnau o'n harian ni: mae hyny yn dangos fod bri mawr ar y llyfrau o herwydd fod bri mawr ar y celfyddydau drwg a ddysgent. Rhyfedd y nyth o sothach ac ysbwrial a gafodd yr efengyl yn Ephesus, a rhyfedd y puro a'r glanâu a wnaeth hi yno: yn ddigon tebyg mae hi yn cael calon pob dyn, a thebyg yw ei heffeithiau yn y galon.

20 [m] * Mor gadarn y cynnyddodd gair yr Arglwydd, † ac y cryfhâodd.

m pen. 6. 7. a 12. 24. Es. 55. 11. 2 Thes. 3. 1.

* Mòr gadarn y cynnyddodd o ran y taeniad o hóno, trwy Ephesus a holl Asia; o ran nifer y bobl a'i derbyniodd; ac o ran ei effeithiau rhyfeddol ar galonau a bucheddau y rhai hyny a'i derbyniodd. † Dim ond gair yr Arglwydd, megys yn wynebu ar holl gryfder y gelyn yn Ephesus, ei brif gastell yn Asia leiaf, ac yn ei ddarostwng ef ar ei dir, ac yn ei amddiffynfa gadarn ei hun: yn llosgi ei lyfrau, yn dattod ei weithredoedd, ac yn dwyn ei ddeiliaid oddi arno.

21 ¶ [n] * A phan gyflawnwyd y pethau hyn, [o] † arfaethodd Paul yn yr yspryd, [p] gwedi iddo dramwy trwy Macedonia ac Achaia, [q] ‡ fyned i Jerusalem; ‖ gan ddywedyd, Gwedi i mi fod yno, [r] rhaid i mi weled Rhufain hefyd.

n Rhuf. 15. 25—28. o pen. 16. 6—10. a 18. 21. a 20. 22. Galar. 3. 37. Rhuf. 1. 13. 2 Cor. 1. 15—18. p pen. 20. 1—6. q pen. 20. 16, 22. a 21. 4, 11—15, 17. a 24. 17, 18. Rhuf. 15. 25, 26. r pen. 23. 11. a 25. 10—12. a 27. 1, 24. a 28. 16, 30, 31. Rhuf. 1. 15. a 15. 28, 29. Phil. 1. 12—14.

* Gwedi cyflawni y pethau rhyfeddol uchod a adroddwyd, yn Ephesus. † Yn ei ysbryd ei hun, mae yn debyg, yr arfaethodd Paul hyn, ac nid yr Ysbryd Glân a feddylir; oblegid cafodd yr apostol ei arwain i newid ei feddwl wedi hyn, ac nid aeth i'r mànau a enwir yn hollawl fel yr oedd wedi arfaethu. ‡ Gwedi treulio rhyw yspaid o amser yn Macedonia ac Achaia, arfaethai Paul fyned oddi yno i Jerusalem; i fynegi i'r brodyr yno, yr hyn "a wnaethai Duw yn mhlith y cenedloedd trwy ei weinidogaeth ef." pen. 21. 17—19. ‖ Tua chwech cant o filltiroedd oedd o Achaia i Rufain yn y gorllewin; ac yr oedd llawn wyth cant o Achaia i Jerusalem yn y dwyrain: felly buasai yn nes o lawer iddo ef fyned o Achaia i Rufain, na myned oddi yno i Jerusalem yn gyntaf, ac wedi hyny yn ol i Rufain, dros 1,400 o filltiroedd. Ond felly yr arfaethodd efe, ac felly y bu yn y diwedd; eithr mewn modd gwahanol i arfaethiad Paul: yn garcharor yr aeth efe yn gyntaf i Rufain.

22 [s] * Ac wedi anfon i Macedonia ddau o'r rhai oedd yn [t] gweini iddo, *sef* † Timothëus ac [u] ‡ Erastus, ‖ efe ei hun a arhosodd dros amser yn Asia.

s pen. 16. 9, 10. a 18. 5. a 20. 1. 2 Cor. 1. 16. a 2. 13. a 8. 1. a 11. 9. 1 Thes. 1. 8. t pen. 13. 5. a 16. 3 u Rhuf. 16. 23. 2 Tim. 4. 20.

* Gan ei fod yn arfaethu myned ei hun i Macedonia yn mhen ychydig, efe a ddanfonodd y ddau was, a'r ddau gyfaill ffyddlawn hyn yno o'i flaen, i ddiwygio rhyw bethau beius oedd yn Corinth, i ddarpar y casgliad i'r saint llodion yn Jerusalem, (1 Cor. 16. 1—4,) ac i hysbysu iddynt ei ddyfodiad yntau atynt cyn gynted ag y gallai. (1 Cor. 4. 17—19.) † Yr oedd Timothëus yn addas iawn i'w ddanfon o herwydd ei gymmeriad

rhagorol, ac o herwydd iddo fod yno o'r blaen gyda Phaul. ‡ Sonir am Erastus, goruchwyliwr dinas Corinth, yn Rhuf. 16. 23; a sonir am Erastus hefyd yn 2 Tim. 4. 20: tybia *Pool* mai dau wahanol oeddynt, ac mai yr olaf a feddylir yma; ond tybia ein tri awdwyr eraill mai yr un dyn a feddylir yn y ddau epistol uchod, ac iddo fod gynt yn "oruchwyliwr y ddinas," cyn iddo gofleidio cristionogaeth. || Tybiodd Paul ei hun fod yn angenrheidiol iddo aros yn hwy yn Ephesus, ac Asia briodol o amgylch Ephesus; a thybir iddo aros tua naw mis yn rhagor, yr hyn a wna i fynu y tair blynedd a sonia efe yn pen. 20. 31: cymhared y darllenydd yr adnod hòno ag adn. 8, 10, o'r bennod hon. Tybir mai yn yr amser hwn, ac o Ephesus, yr ysgrifenodd efe ei epistol cyntaf at y Corinthiaid, wedi iddo weled amryw o'r brodyr oddi yno, a chlywed amryw bethau gofidus a gymmerasai le yno wedi ei ymadawiad ef.

23 ¶ * A bu ar yr amser hwnnw [x] † drallod nid bychan ynghylch y [y] ffordd honno.

x 2 Cor. 1. 8—10. y adn. 9. pen. 9. 2. a 18. 26. a 22. 4. a 24. 14, 22.

* Sef yr amser yr arosodd Paul yn Asia, wedi ymadawiad Timothëus ac Erastus i Macedonia ac Achaia. † Trallod yn nghylch athrawiaeth yr efengyl, unig ffordd iachawdwriaeth pechaduriaid. Yn fuan wedi y fuddugoliaeth a basiodd, dyma'r gelyn yn gwneyd ymgyrch newydd eto: nid hir y caiff gweision Crist lonydd gan satan a'i offerynau.

24 Canys rhyw un a'i enw Demetrius, gôf arian, * yn gwneuthur temlau arian i [z] Diana, [a] † oedd yn peri elw nid bychan i'r crefftwyr;

z adn. 27, 28, 34, 35. a pen. 16. 16. Es. 56. 11, 12. 1 Tim. 6. 9, 10.

* Diana oedd dduwies ddychymygol, ac enwog iawn yn mhlith yr hen baganiaid, yn enwedig yn Ephesus, lle yr oedd ganddynt deml ddirfawr iddi, a delw fawr iddi hithau yn y deml hòno. Temlau bychain o arian oedd y rhai hyn a wnelai Demetrius, ar lun y deml fawr hòno; a delw fechan o arian ynddi, yr un wedd a'r ddelw fawr yn y deml fawr. Neu, yn ol tyb eraill, nid oeddynt ond batheiniau crynion o arian, a llun teml Diana ar y naill wyneb, wedi eu toddi mewn drychiaden. † Cyrchai addolwyr Diana o holl barthau Asia i Ephesus megys ar bererindod, a phrynent y temlau bychain hyn, fel y byddai Diana yn dduwies gartrefol ganddynt i'w haddoli: fel hyny yr oedd gwerthiad mawr ar y temlau, ac elw mawr i'r crefftwyr a'u gwnelent. O hyn y daeth y pabyddion i gadw llun y groes &c., yn eu tai.

25 * Y rhai a alwodd efe, ynghyd a gweithwyr y cyfryw bethau hefyd, ac a ddywedodd, *Ha* wŷr, [b] chwi a wyddoch mai oddi wrth yr elw hwn y mae ein golud ni:

b pen. 16. 19. Hos. 4. 8. a 12. 7, 8. 2 Pedr 2. 3. Dat. 18. 3, 11—19.

* Mae elw, ennill, a bywioliaeth dda, yn hudoliaethau cryfion iawn; hyny, ac ychydig rith o grefydd gyda hyny, sydd yn dàl i fynu yr holl ofer-goelion a'r gaugrefyddau sydd yn llanw y byd. Hyny a gynhyrfodd Demetrius i alw y crefftwyr hyn yn nghyd, ac i godi y derfysg bresenol.

26 * Chwi a welwch hefyd ac a glywch, [c] nid yn unig yn Ephesus, eithr agos dros Asia oll, † ddarfod i'r Paul yma berswadio a throi llawer o bobl ymaith, ‡ wrth ddywedyd [d] nad ydyw dduwiau y rhai a [e] wneir â dwylaw.

c adn. 10, 18—20. 1 Cor. 16. 8, 9. 1 Thes. 1. 9. d pen. 14. 15. a 17. 29. Salm 115. 4—8. a 135. 15—18. Es. 44. 10—20. a 46. 5—8. Jer. 10. 3—5, 11, 14, 15. Hos. 8. 6. 1 Cor. 8. 4. a 10. 19, 20. a 12. 2. Gal. 4. 8. e adn. 35.

* Chwi a welwch â'ch llygaid eich hunain yn Ephesus, ac a glywch yr hanes o fànau eraill, agos drwy Asia oll, lle mae ein hyder ni am olud; † fod y dyn peryglus hwn Paul, yn sylfaenu crefydd newydd, yn troi peth aneirif o drigolion Asia oddi wrth addoli Diana, ac yn taeru nad yw y rhai a wnair â dwylaw dynion yn dduwiau, ac na ddylid eu haddoli. Tybiai y paganiaid fod rhyw beth dwyfol yn sicr, yn y delwau a wnaent hwy i gynddrychioli eu duwiau; ac felly y tybia y pabyddion eto: ond addefai y rhai mwyaf dysgedig, a philosophaidd o honynt nad oedd dim; nad oeddynt ond cynddrychioliad gweledig o'r duwiau anweledig.

27 [f] * Ac nid yw yn unig yn enbyd i ni, ddyfod y rhan hon i ddirmyg; † eithr hefyd bod cyfrif teml y dduwies fawr Diana yn ddiddym, a bod hefyd ddistrywio ei mawrhydi hi, [g] ‡ yr hon y mae Asia oll || a'r byd yn ei haddoli.

f adn. 21. Zeph. 2. 11. Mat. 23. 14. 1 Tim. 6. 5. g 1 Ioan 5. 19. Dat. 13. 3, 8.

* Mae perygl mawr fel hyn rhag i ni golli ein gwaith a'n helw o hyn allan, a dyfod i warth a dirmyg hefyd, o herwydd i ni erioed fod wrth y fath gelfyddyd, ac ennill ein helw wrth y fath waith. † Ac nid hyny yn unig yw y drwg, mae perygl arall, llawer mwy enbyd; sef rhag i'r dduwies fawr Diana, ei theml, ei mawrhydi, ei haddoliad, a holl ddefodau ei chrefydd hi gael eu diddymu a'u dwyn i warth, ‡ lle mae Asia oll, a'r byd agos yn awr, yn ei haddoli. || Adnabyddid Diana dàn lawer iawn o wahanol enwau mewn gwahanol barthau o'r byd; megis Hebe, Trivia, Hecate, Diana, Meni, a Lucina: cyfrifid hi hefyd yn dduwies hela, teithio, esgor, swyno, &c.; a thàn y naill â'r llall o'r enwau a'r swyddau uchod, mae yn ddiammau bod iddi lawer iawn o addolwyr yn mhob màn.

28 * A phan glywsant, [h] hwy a lanwyd o ddigofaint; [i] ac a lefasant, gan ddywedyd, † Mawr *yw* Diana yr Ephesiaid.

h pen. 7. 54. a 16. 19—24. a 21. 28—31. Salm 2. 2. Dat. 12 12. i adn. 34, 35. 1 Sam. 5. 3—5. 1 Bren. 18. 26—29. Es. 41 5—7. Jer. 50. 38. Dat. 13. 4. a 17. 13.

* Pan glywodd "y crefftwyr" "a gweithwyr y cyfryw bethau" fod eu helw a'u crefydd yn debyg o ddyfod i goll a gwarth, hwy a lanwyd o ddigofaint: yr oedd eu crefydd yn hen ac yn gyffredinol; ond colli yr elw oedd yn gwasgu fwyaf arnynt hwy, ac yn eu cynhyrfu, dàn rith o fod yn eiddgar *(zealous)* dros eu duwies a'u crefydd. † Dyweded Paul a fyno i'r gwrthwyneb, ni a safwn i fynu dros grefydd ein gwlad, ac a fyddwn byw a marw dros ein duwies ardderchog a'i theml ogoneddus; Mawr yw Diana yr Ephesiaid! duwies o'r radd flaenaf yw hi; nis goddefwn i neb ei dirmygu. Dywedai Paul nad oedd hi ddim; dywedent hwythau ei bod yn Fawr: a rhoddai y paganiaid yr enwad hwn, *Mawr*, yn gyffredin i'w duwiau. Nid oes ond un Duw *Mawr*, sef y gwir a'r bywiol Dduw, wedi y cwbl.

29 [k] * A llanwyd yr holl ddinas o gythrwfl: † a hwy a ruthrasant yn unfryd [l] i'r orsedd, [m] ‡ gwedi cipio Gaius ac [n] Aristarchus o Macedonia, cyd-ymdeithion Paul.

k adn. 32. pen. 17. 8. a 21. 30, 38. l Rhuf. 16. 23. 1 Cor. 1. 14. m pen. 20. 4. a 27. 2. Col. 4. 10. Philemon 24. n 1 Cor. 4. 9.

* Casglodd y bloeddiau gorwyllt uchod yr holl ddinas yn nghyd, bychain a mawrion, mewn syndod a therfysg, i weled beth oedd y mater. † *Theatron* yw y gair Groeg a gyfieithir yma "gorsedd:" math o adeilad dirfawr o faintioli ydoedd, lle y cynnelid cyfarfodydd cyhoeddus ar achosion mwyaf pwysig y ddinas a'r wladwriaeth; lle y chwareüid campiau cyhoeddus, er anrhydedd i'r dduwies Diana; a lle y dygid caethweision a drwg-weithredwyr i ymladd â gwylltfilod, er difyrwch i'r dinasyddion, ac i gael eu llarpio ganddynt yn y diwedd: o'r gair uchod mae y gair Saesoneg *Theatre*, chwareu-dŷ, wedi ei ffurfio. ‡ Ai yr un oedd hwn â Gaius o Derbe, pen. 20. 4; a'r Gaius yr ysgrifenodd Ioan ei epistol ato, nis gwyddom: yr oedd Gaius

yn enw cyffredin yn mhlith y Rhufeiniaid. Gwel am yr un enw yn Rhuf. 16. 23; 1 Cor. 1. 14. || Brodor o Thessalonica, pen. 20. 4; a chyd-garcharor â Paul yn Rhufain, Col 4. 10. Gan na chafodd y terfysgwyr afael ar Paul, cipiasant y ddau hyn, ei gyfeillion, i'r orsedd; gan feddwl mae yn debyg cael barn yn eu herbyn hwynt yno, neu ynte eu taflu i'r anifeiliaid gwylltion i'w dyfetha, heb farn yn y byd.

30 [o] * A phan oedd Paul yn ewyllysio myned i mewn i blith y bobl, [p] † ni adawodd y disgyblion iddo

o pen. 14. 14—18. a 17. 22—31. a 21. 39. p 2 Sam. 18. 2, 3. a 21. 17.

* Ewyllysiai Paul fyned i mewn hefyd, i amddiffyn ei achos, i amddiffyn ei gyfeillion, ac i farw dros achos Crist os byddai raid, yn hytrach na chilio, a gadael ei gyfeillion i'r gwaethaf. Efallai ei fod yn gobeithio tawelu y bobl hefyd; beth bynag oedd ei fryd, yr oedd ei ysbryd yn wrol ardderchog, ac yr oedd ei achos yn dda, ac yn deilwng o'r fath ysbryd. † Ond ni adawai y dysgyblion iddo: yr oedd ei berson yn anwylach, a'i fywyd yn werthfawrocach ganddynt hwy, nag y goddefent iddo anturio i'r fath enbydrwydd: efe oedd eu tad ysbrydol a'u hathraw ffyddlawn hwy.

31 * Rhai hefyd o [q] bennaethiaid Asia, y rhai oedd gyfeillion iddo, † a yrrasant atto, i ddeisyf *arno,* nad ymroddai efe i fyned i'r orsedd.

q adn. 10. pen. 16. 6. Diar. 16. 7.

* Y penaethiaid hyn oeddynt o amrywiol ddinasoedd a thaleithiau Asia, yn cael eu dewis a'u danfon i Ephesus, i arolygu y campiau a chwareüid yno er anrhydedd i Diana: a chan fod amryw o honynt yno y tro hwn, tybir fod y campiau hyny yn cael eu chwarae y pryd hwnw; a dynion truenus yn gorfod ymladd am eu bywyd âg anifeiliaid gwylltion. † Yr oedd y gofal hyn am Paul yn dangos tiriondeb mawr ynddynt hwy, ac yn anrhydeddus iawn i'w gymmeriad yntau; fel un ag oedd wedi ymddwyn yn addas yn y mànau lle cawsent hwy gydnabyddiaeth âg ef.

32 [r] * A rhai a lefasant un peth, ac eraill beth arall: † canys y gynnulleidfa oedd yn gymmysg; [s] ‡ a'r rhan fwyaf ni wyddent o herwydd pa beth y daethent ynghyd.

r adn. 29. pen. 21. 34. s adn. 4. Mat. 11. 7—9. Luc 7. 24—26.

* Purion dysgrifiad yw hyn o werin-dorf derfysglyd, † rhai yn Iuddewon a rhai yn baganiaid, ‡ ac bron i gyd wedi tŷru at eu gilydd heb wybod yn y byd i ba beth, nac o ba herwydd.

33 * A hwy a dynnasant [t] Alexander † allan o'r dyrfa, ‡ a'r Iuddewon yn ei yrru ef ym mlaen. Ac Alexander a [u] amneidiodd â'i law am osteg, [x] ac a fynnasai ei || ymddiffyn ei hun wrth y bobl.

t 1 Tim. 1. 20. 2 Tim. 4. 14. u pen. 12. 17. a 13. 16. a 21. 40. a 24. 10. Luc 1. 22. x pen. 22. 1. a 26. 1, 2. Phil. 1. 7.

* Tybia rhai mai "Alexander y gôf copr" oedd hwn, yr hwn unwaith a wnaeth broffes o gristionogaeth, ond a wrthgiliodd wedi hyny, ac a drödd yn elyn atgas i Paul, (1 Tim. 1. 19, 20; 2 Tim. 4. 14:) ac mai dyfais yr Iuddewon oedd ei osod ef yn mlaen y tro hwn, i areithio yn erbyn Paul a christionogaeth, i'r dyben o'u cadw eu hunain rhag llid yr Ephesiaid, y rhai oedd mòr ddig wrth yr Iuddewon ag oeddynt wrth Paul, oblegid fod eu crefydd hwy yn erbyn eilun-addoliaeth yn gystal â chrefydd y cristionogion. Ond mae eraill yn ammau ai yr Alexander hwnw oedd hwn, ac yn ammau hefyd a oedd Alexander y gôf copr wedi gwrthgilio y pryd hwn. † Mae yn debyg mai plaid derfysglyd Demetrius a'i tynodd ef allan o'r dyrfa, ar fedr ei holi ef, a dial arno gyda Gaius ac Aristarchus; ‡ ac os cristion ydoedd, yr oedd yr Iuddewon yn eu cynnorthwyo hwynt hwy trwy "ei ŷru ef yn mlaen;" neu ynte, os Iuddew digred neu wrthgiliwr ydoedd, yr oeddynt yn "ei ŷru ef yn mlaen" i'w || amddiffyn ei hun â hwythau, trwy ddywedyd yn erbyn Paul a'r efengyl, ac mai efe a'i blaid a fu yr achos o'r holl derfysg hwn, ac nid hwy.

34 [y] * Eithr pan wybuant mai Iuddew oedd efe, [z] † pawb âg un llef a lefasant megis dros ddwy awr, [a] Mawr *yw* Diana yr Ephesiaid.

y adn. 26. pen. 16. 20. Rhuf. 2. 22. z 1 Bren. 18. 26. Mat. 6. 7. a adn. 28. Dat. 13. 4.

* Pan ddeallasant mai Iuddew ydoedd, pa un bynag ai Iuddew cristionogol ai Iuddew heb gredu, gwyddent ei fod fel Iuddew yn elyn i'w heilun-addoliaeth hwy, ac am hyny ni wrandawent arno. † Gwel ar adn. 28. Er dirmyg ar y gwir Dduw, a'r unig Dduw *Mawr;* ac er dirmyg hefyd ar ei holl addolwyr ef, yn Iuddewon a christionogion; ac i'r dyben o ddangos eu parch dirfawr i'w hoff dduwies; bloeddiasant oll fel ynfydion gwallgofus am ddwy awr yn ddibaid, "Mawr yw Diana yr Ephesiaid!" Hi a addolwn ni, ac yr ydym yn barod i lŷnu wrthi, sefyll drosti, a'i hamddiffyn hi, hyd at waed a bywyd. Rhyfedd ynfydrwydd dynion dàn lywodraeth amryfusedd cadarn!

35 * Ac wedi i ysgolhaig y ddinas lonyddu y bobl, efe a ddywedodd, † *Ha* wŷr Ephesiaid, ‡ pa ddyn sydd nis gŵyr fod || dinas yr Ephesiaid yn addoli y dduwies fawr Diana, [b] § a'r *ddelw* a ddisgynodd oddi wrth [c] Jupiter?

b adn. 26. 2 Thes. 2. 10, 11. 1 Tim. 4. 2. c pen. 14. 12, 13.

* Cofnodydd holl weithredoedd a chyfarfodydd cyhoeddus y ddinas, yn enwedig y campiau a chwareüid er anrhydedd i Diana: yn yr ystyr, ac ar yr achlysur olaf, yr oedd ef yn sefyll mewn lle mawr; ystyrid ef fel yn cynddrychioli Apòlo, un o'u prif dduwiau hwynt, a brawd tybiedig i Diana: dàn ei ofal a'i lywyddiaeth ef yr oedd yr holl gampiau yn cael eu dwyn yn mlaen; ac yr oedd gair o'i enau ef yn ddigon i lonyddu yr holl dorf derfysglyd yn y fàn, gan gymmaint oedd ei awdurdod. † Wrth yr araeth a ganlyn, mae yn ymddangos ei fod ef yn wr o synwyr da, yn gystal ag yn wr o awdurdod; oblegid mae yn dangos ar ychydig eiriau—nad oedd dim achos am y fath dystiolaeth gyhoeddus mai addolwyr Diana oeddynt hwy, ‡ gan y gwyddai pawb hyny—nad oedd y bobl a gyhuddid ddim yn euog o un trosedd o'r cyfreithiau, nac o fai cyhoeddus, adn. 37,—a phe buasent, nad oedd hon ddim yn ffordd gyfreithlawn o'u cospi, adn. 38, 39,—ac eu bod hwy eu hunain yn agored i gosp, am y fath ymddygiad terfysglyd â hwn, adn. 40. || Dinas yr Ephesiaid, neu holl ddinasyddion Ephesus, fel un dyn, yn *addoli* y dduwies fawr Diana, yn y modd gostyngeiddiaf a mwyaf parchus; gan gyfrif yn fraint cael hyd yn nôd ysgubo llawr ei themel, a gwneyd y gwasanaeth gwaelaf iddi yn y deml: felly yr arwydda y gair *neôkoron,* a gyfleithir yma "addoli." § Credai yr Ephesiaid ynfyd fod delw Diana oedd ganddynt yn eu teml, wedi disgyn o'r nef, oddi wrth y duw Jupiter, neu Iau, ac mai nid gwaith dwylo dynion ydoedd; er y gwyddai eu hoffeiriaid cyfrwys mai un o'r enw *Canetias* a'i gwnaethai lawer o oesoedd cyn hyny.

36 * A chan fod y pethau hyn heb allu dywedyd i'w herbyn, [d] † rhaid i chwi fod yn llonydd, ac na wneloch ddim mewn byrbwyll.

d pen. 5. 35—39. Diar. 14. 29. a 25. 8.

* Gan fod delw Diana felly wedi disgyn oddi wrth Jupiter, fel y cred pawb; ac nid wedi ei gwneyd â dwylaw dynion fel y rhai mae Paul yn dywedyd yn eu herbyn, adn. 26; † rhaid i chwi fod yn llonydd, a pheidio gwneyd dim yn fyrbwyll yn erbyn dynion nad oes genych ddim i'w ofni oddi wrthynt. Mwy cyfrwys na gwir ydoedd hyn, i dawelu y bobl; canys yr oedd Paul yn

dywedyd yn erbyn pob math o ddelwau ac eilun-addoliaeth; ac yn erbyn y ddelw hon fel delwau eraill, pe gwir fuasai iddi ddisgyn oddi wrth Jupiter.

37 * Canys dygasoch yma y gwŷr hyn, [e] y rhai nid ydynt nac yn yspeilwyr temlau, † nac yn cablu eich duwies chwi.

e pen. 25. 8. 1 Cor. 10. 32. 2 Cor. 6. 3.

* Nid oedd neb yn cynnyg dywedyd i'r apostol na'r "gwŷr hyn" ei gyfeillion, ameanu yspeilio teml Diana na'r un deml arall; nac ychwaith ddywedyd dim yn gableddus yn erbyn y dduwies Diana. Yr oedd holl athrawiaeth Paul a'i gyfeillion yn cyhoeddi y gwir Dduw, fel unig wrthddrych addoliad, ac fel hyny yn dadwreiddio pob math o eilun-addoliaeth: ond mae yn debyg nad oedd efe ddim yn myned allan o'r ffordd i gablu a difrio duwiau y gwahanol genedloedd y byddai yn myned i'w plith: annoeth a fuasai iddo wneyd hyny, a pheryglus hefyd.

38 * Od oes gan hynny gan [f] Demetrius a'r crefftwyr sydd gyd âg ef, [g] un hawl yn erbyn neb, † y mae cyfraith i'w chael, ‡ ac y mae rhaglawiaid: || rhodded pawb yn erbyn eu gilydd.

f adn. 24. g pen. 18. 14. Deut. 17. 8. 1 Cor. 6. 1.

* Od oes ganddynt un achos cyfreithlawn, neu gyhuddiadau o drosedd yn erbyn y cyfreithiau gwladol, † y mae cyfraith i'w chael, ac wrth y gyfraith y dylid barnu pob peth yn deg, ac nid mintai o ddynion terfysglyd yn gwneyd fel y mynont hwy eu hunain yn eu gŵyn a'u nwydau. ‡ Y mae rhaglawiaid hefyd, dynion wedi eu gosod wrth eu swydd, i farnu yn gyfiawn a diduedd, ac i ymddwyn tuag at y rhai cyhuddedig fel y gwelont yr achos yn gofyn. "Rhaglawiaid:" un rhaglaw oedd yn gyffredin ar un dalaeth; ond dywedir fod rhaglawiaeth y rhan hon o Asia y pryd hwn wedi ei rhanur hwng dau, sef Celer ac Aelias, y rhai a osodasai Ymherawdwr Rhufain yn oruchwylwyr. || Dyged y cyhuddwyr eu tystiolaeth yn mlaen, ac amddiffyned y rhai cyhuddedig eu hunain, ger bron barnwyr cyfreithlawn.

39 * Ac os gofynwch ddim am bethau eraill, † mewn cynnulleidfa gyfreithlawn y terfynir *hynny*.

* Od oes genych ryw beth arall a wnaethant yn eich herbyn chwi eich hunain fel crefftwyr, neu yn erbyn y dduwies Diana, ei delw, neu y deml, † mewn cynnulleidfa wedi ei galw yn gyfreithlawn i farnu pethau felly, y mae penderfynu hyny, ac nid mewn trais a therfysg fel hyn. Byddai gan y Rhufeiniaid gynnulleidfa, neu gyfarfod felly, o leiaf deirgwaith bob mis.

40 [h] * O herwydd enbyd yw rhag achwyn arnom am [i] y derfysg heddyw; † gan nad oes un achos trwy yr hwn y gallom roddi rheswm o'r ymgyrch hwn.

h pen. 17. 5—8. i pen. 20. 1. a 21. 31, 38. 1 Bren. 1. 41. Mat. 26. 5.

* Mae y gwr hwn yn dangos eu perygl i'r terfysgwyr: yr oeddynt hwy eu hunain wedi tòri y gyfraith; oblegid yn ol cyfreithiau Rhufain, yr oedd yn drosedd cospadwy i ymgynnull fel hyn yn derfys glyd, oddigerth pan fyddai gelynion yn ymosod arnynt, neu y ddinas ar dân: † a hyny mae efe yn feddwl, mae yn debyg, pan mae yn dywedyd "nad oedd un achos o'r ymgyrch y pryd hwnw."

41 [k] * Ac wedi iddo ddywedyd hyn, † efe a ollyngodd y gynnulleidfa ymaith.

k Diar. 15. 1, 2. Preg. 9. 17. l Salm 65. 7. 2 Cor. 1. 10.

* Gwedi dywedyd fel hyn i dawelu y bobl, a dangos eu perygl iddynt, † efe a orchymynodd iddynt ymwasgaru, a myned bob un i'w fàn yn heddychol. Fel hyn y gwaredodd Duw ei bobl, yn y naill ffordd ac yn y llall, weithiau trwy eu cyfeillion, ac weithiau trwy eu gelynion, rhag cael eu dystrywio gan eu herlidwyr: ac ni fyrâwyd ei law ef eto, eu Gwaredwr hwy sydd grŷf.

PEN. XX.

Paul yn myned i Macedonia.

[a] * AC ar ol gostegu y cythrwfl, Paul, † wedi galw y disgyblion atto, [b] a'u cofleidio, a ymadawodd [c] ‡ i fyned i Macedonia.

a pen. 19. 23—41. b adn. 10, 37. pen. 21. 5, 6. Gen. 48. 10. 1 Sam. 20. 41, 42. Rhuf. 16. 16. 1 Cor. 16. 20. 2 Cor. 13. 12. 1 Thes. 5. 26. c pen. 19. 21. 1 Cor. 16. 5. 2 Cor. 7. 5. 1 Tim. 1. 3.

* Y cythrwfl a gawsom yn y bennod o'r blaen, adn. 23—34. † Ymadawodd Paul â'r dysgyblion mewn cariad brawdol ac anwylder mawr, ‡ i fyned i Macedonia, yn ol ei fwriad amryw fisoedd yn ol, gwel ar adn. 21, 22. Tybiodd yn well ymadael o Ephesus yn awr, nid er ei ddiogelwch ei hun yn gymmaint, ond rhag y caffai yr eglwys yno eu herlid yn boethach o'i achos ef. Tybir fod Timothëus wedi dychwelyd ato ef o Macedonia y pryd hwn, (adn. 22.) ac iddo aros yn Ephesus yn ei absenoldeb ef am ryw hyd. Gwel 1 Tim. 1. 3.

2 * Ac wedi iddo fyned dros y [d] parthau hynny, [e] † a'u cynghori hwynt â llawer o ymadrodd, ‡ efe a ddaeth i dir [f] Groeg.

d adn. 6. pen. 16. 12. a 17. 1, 10. e adn. 7, 11. pen. 2. 40. a 14. 22. a 15. 41. Col. 1. 28. 1 Thes. 2. 3, 11. a 4. 1. f Zec. 9. 13.

* Efe a aeth o Ephesus i Troas, ond am na chafodd Titus yno yn ol ei ddysgwyliad, efe a aeth drosodd yn ddioed i Macedonia, a thrwy y parthau hyny. Gwel 2 Cor. 2. 12, 13. † Eu cyngori hwynt trwy eu cyfarwyddo mewn athrawiaeth, profiad, ac ymarferiad; mewn addoliad a dysgyblaeth eglwysig; a'u cyngori hwynt i amynedd a diysgogrwydd yn ngwyneb eu herlidiau a'u holl drallodau yn achos eu crefydd. ‡ Gwedi hyn efe a ddaeth i Achaia, yr hon a elwir yn briodol tir Groeg: mewn ystyr helaeth tir Groeg oedd Macedonia oll.

3 * Ac wedi aros dri mis, a gwneuthur o'r [g] Iuddewon gynllwyn iddo, † fel yr oedd ar fedr [h] morio i Syria, [i] efe a arfaethodd ddychwelyd trwy Macedonia.

g adn. 19. pen. 9. 23, 24. a 23. 12—15. a 25. 3. Ezra 8. 31. Diar. 1. 11. Jer. 5. 26. 2 Cor. 7. 5. a 11. 26. h pen. 18. 18. a 21. 3. Gal. 1. 21. i pen. 19. 21. 2 Cor. 1. 15—17.

* Gwneuthur cynllwyn iddo i'w yspeilio o'r casgliadau oedd efe wedi wneuthur i'r saint tlodion yn Jerusalem, medd rhai; ond mwy tebyg mai cynllwyn am ei fywyd ef yr oeddynt, o dra gelyniaeth ato fel apostol Iesu Grist. Mae yn debyg mai yn y tri mis uchod yr ysgrifenodd efe ei epistol at y Rhufeiniaid; oblegid mae yn crybwyll am gasgliad a wnaethai yn Macedonia ac Achaia i'r rhai tlodion o'r saint yn Jerusalem, yn yr epistol hwnw. Gwel Rhuf. 15. 25—27. † Pan ddeallodd ef gynllwyn yr Iuddewon, efe a newidiodd ei fwriad, a'i ffordd; yn lle morio i Syria, efe a aeth trwy Macedonia, fel y diangai rhag eu cynllwyn hwy, a'u siomi.

4 * A chyd-ymdeithiodd âg ef hyd yn Asia, [k] Sopater o [l] Berea; ac o'r Thessaloniaid, [m] Aristarchus, a Secundus, a [n] Gaius o [o] Derbe, [p] a Timothëus; † ac o'r Asiaid, [q] Tychicus a [r] Trophimus.

k Rhuf. 16. 21. l pen. 17. 10—12. m pen. 19. 29. a 27. 2. Col. 4. 10. Philemon 24. n Rhuf. 16. 23. 3 Ioan 1. o pen. 14. 6, 20. 2 Cor. 8. 23, 24. p pen. 16. 1. 2 Cor. 1. 1, 19. Phil. 2. 19. 1 Tim. 1. 1. 2 Tim. 1. 2. q Eph. 6. 21. Col. 4. 7. 2 Tim. 4. 12. Tit. 3. 12. r pen. 21. 29. 2 Tim. 4. 20.

* Am Gaius ac Aristarchus, gwel ar pen. 19. 29: tybir mai yr un yw y Sopater hwn a Sosipater, a grybwyllir yn Rhuf. 16. 21: nid oes dim son am Secundus yn unlle ond y fàn hon: brodor o Lystra oedd Timothëus, pen. 16. 1; dàn adn. 1, dywedwyd iddo aros yn Ephesus pan ymadawodd Paul oddi yno, erbyn hyn yr oedd wedi dyfod at Paul i dir Groeg. † Cenadau o

eglwysi Asia briodol, fel ei gelwid, oedd y ddau hyn, wedi eu danfon i gyd-deithio â Paul; a gelwir Trophimus yn "Ephesiad," yn pen. 21. 29: gwelwn gaumolaieth ragorol i Tychicus, yn Ephes. 6. 21; Col. 4. 7.

5 * Y rhai hyn a aethant o'r blaen, *ac* a arhosasant am † danom yn [s] Troas.

s pen. 16. 8, 11. 2 Cor. 2. 12. 2 Tim. 4. 13.

* Y ddau olaf a enwyd uchod, mae yn debyg, a aethant i Troas, i ddysgwyl am Paul a'r pùm cyfaill eraill a enwyd, o Macedonia. † Yma mae Luc yn llefaru am dano ei hun eto, fel un ag oedd gyda Phaul a'i gyfeillion yn yr holl daith hon: ni lefarodd fel hyn o'r blaen wedi yr hanes am y llances yr oedd ganddi ysbryd dewiniaeth yn Philippi, pen. 16. 16—18: mae yn debyg iddo aros yn Philippi a'i hamgylchoedd ar orchymyn yr apostol, o'r amser hwnw hyd yn awr.

6 * A ninnau a fordwyasom ymaith oddi wrth [t] Philippi, ar ol [u] dyddiau y bara croyw; † ac a ddaethom attynt hwy i Troas mewn pum niwrnod; ‡ lle yr arhosasom [x] saith niwrnod.

t pen. 16. 12. Phil. 1. 1. 1 Thes. 2. 2. u pen. 12. 3. Ex. 12. 14, 15, 18—20. a 13. 6, 7. a 34. 18. 1 Cor. 5. 7, 8. x pen. 21. 4, 8. a 28. 14.

* Ar ol dyddiau y bara croyw, sef y pasg, mordwyodd yr apostol a'i gyd-ymdeithion o Philippi, i ddyfod i Troas, at y ddau frawd oedd yn aros am danynt yno, adn. 5. † Daethai Paul o Troas i Neapolis a Philippi mewn llawer llai o amser na hyn dro o'r blaen, pen. 16. 11, 12; ond y mae morio yn beth ansicr iawn, gan groes wyntoedd a llawer o bethau. Dywedir mai ar ol dyddiau y bara croyw y cychwynasant, oblegid cyfrifai yr Iuddewon yn bechadurus iawn cychwyn i daith ar amser gŵyl mòr sanctaidd; ac nid oedd Paul yn ewyllysio rhoddi tramgwydd afreidiol i neb o honynt. || Ychydig iawn a arosodd Paul yn Troas o'r blaen, wrth fyned trwodd yno i Macedonia. Gwel 2 Cor. 2. 12, 13. Yn awr mae yn gwneyd i fynu am y tro hwnw mewn rhyw fesur, trwy aros gyda hwy saith niwrnod. Efallai mai y tro hwn y bu efe yn llettya gyda Charpus yno, ac y gadawodd ei gochl a'i lyfrau ar ol, 2 Tim. 4. 13.

7 [y] * Ac ar y *dydd* cyntaf o'r wythnos, [z] † wedi i'r disgyblion ddyfod ynghyd i [a] dorri bara, Paul a ymresymmodd â hwynt, ‡ ar fedr myned ymaith drannoeth; [b] || ac *efe* a barhâodd yn ymadrodd hyd hanner nos.

y Ioan 20. 1, 19, 26. 1 Cor. 16. 2. Dat. 1. 10. z 1 Cor. 11. 17—21, 33, 34. a adn. 11. pen. 2. 42, 46. Luc 22. 19. a 24. 35. 1 Cor. 10. 16, 17. a 11. 23, &c. b adn. 9. 11, 31. pen. 28. 23. Neh. 8. 3. a 9. 3. 1 Cor. 15. 10. 2 Tim. 4. 2.

* Y dydd cyntaf o'r wythnos Iuddewig, a dydd sabbath y cristionogion: ac fel yr oedd sabbath yr Iuddewon yn ddydd olaf o'r wythnos iddynt hwy; felly mae sabbath y cristionogion i'w ystyried yn ddydd olaf yr wythnos iddynt hwythau, ac nid yn ddydd cyntaf, fel y dywed llawer. † Tòri bara yn sacramentaidd, gweinyddu swper yr Arglwydd, a feddylir yma wrth dòri bara; ac nid pryd o fwyd cyffredin, a llai o lawer gwledd gyffredin: nid oedd cristionogion y dyddiau hyny yn arfer cyd-gyfarfod i wledda ar ddydd yr Arglwydd; a phe na buasai ond pryd cyffredin, ni buasai yn werth gan Luc i son am dano yma. Dyfod yn nghyd a wnaeth y dysgyblion, nid oedd cristionogion y dyddiau hyny yn arfer cyd-gyfarfod i wledda ar ddydd yr Arglwydd; a phe na buasai ond pryd cyffredin, ni buasai yn werth gan Luc i son am dano yma. Dyfod yn nghyd a wnaeth y dysgyblion, nid cael eu galw yn nghyd, megys ar ryw achlysur anarferedig; arferent hwy weini swper yr Arglwydd bob dydd sabbath. † Yn adn. 6, dywedir i'r apostol aros yn Troas saith niwrnod, felly rhaid iddo ddyfod atynt ar y dydd Llun, fel y galwn ni ef, gan ei fod yn myned ymaith dranoeth wedi y sabbath: ei amcan yn aros saith niwrnod oedd, cael y sabbath gyda hwynt. || Yr oedd calon yr apostol yn llawu, ac o helaethrwydd y galon y llefara y genau.

8 * Ac yr oedd llawer o lampau yn y [c] llofft lle yr oeddynt wedi ymgasglu.

c pen. 1. 13. Luc 22. 12.

* Mae yn debyg bod y lle yn fawr, a'r gynnulleidfa yn dra lliosog; gan hyny yr oedd yn angenrheidiol bod llawer o lampau: nid oedd y dysgyblion yn esgeuluso moddion gras y pryd hwnw fel yn ein dyddiau gwrthgiliedig ni. Yr oedd llawer o lampau yn angenrheidiol hefyd, fel na chaffai eu gelynion achlysur i ddywedyd eu bod yn cadw eu cyfarfodydd yn y tywyllwch, i ddybenion anweddaidd: nid ydym wedi anghofio eto enllib y "weddi dywyll" yn ein gwlad ein hunain. E ddeil gwaith Duw ei drin yn y goleu.

9 * A rhyw wr ieuangc, a'i enw Eutychus, † a eisteddai mewn ffenestr; [d] ac efe a syrthiodd mewn trwmgwsg, ‡ tra yr oedd Paul yn ymresymmu yn hir, wedi ei orchfygu gan gwsg, || ac a gwympodd i lawr o'r [e] drydedd lofft; [f] § ac a gyfodwyd i fynu yn farw.

d Jona 1. 5, 6. Mat. 26. 40, 41. Marc 13. 36. e 1 Bren. 17. 19. f pen. 14. 19, 20. Marc 9. 26.

* Mae llawer Eutychus, ieuanc a hen, mewn cyfarfodydd crefyddol eto, heb ysbryd digon deffro fel hwn, i ddàl ar, a theimlo y pethau, a lefarir; ac heb ddigon o barch sanctaidd yn eu heneidiau i dŷ yr Arglwydd a moddion gras. † Ffenestr agored, yw ystyr y gair *thuridos*, a ddefnyddir yma: yr oedd yn agored, mae yn debyg, i ollwng awyr i mewn, o herwydd bod y lle yn boeth, gan gymmaint o ddynion, a llawer o lampau yn yr ystafell. ‡ Ei orchfygu gan gwsg a gafodd y gwr ieuanc hwn, herwydd meithder y bregeth a hwyrder y nos: nid ymroddi o'i wirfodd i gysgu a wnaeth, fel y gwna llawer yn ein gwlad ni ganol dydd, a thàn lai nac awr o bregeth. || Yr oedd y codwm hwn yn gerydd trwm iddo ef, ac yn rhybudd dwys i ninnau, i ofalu nad ymollyngom i gysgu yn addoliad y Duw sanctaidd. § Tybiodd pawb ei fod wedi marw, ac mae yn debyg ei fod felly, yn hollawl; o leiaf felly y dywed Luc ei fod. Gorchwyl satan, tybia rhai, trwy oddefiad Duw, oedd hyn, i aflonyddu ar Paul a'r gynnulleidfa, ac i roi terfyn ar y bregeth: ond trwy y wyrth a ganlynodd, trodd Duw y ddamwain i ddybenion gwell.

10 A Phaul a aeth i waered, [g] * ac a syrthiodd arno ef, † a chan *ei* gofleidio, a ddywedodd, [h] ‡ Na chyffroed arnoch: canys y mae ei enaid ynddo ef.

g 1 Bren. 17. 21, 22. 2 Bren. 4. 34, 35. h Mat. 9. 24. Marc 5. 39. Luc 7. 13, 14. Ioan 11. 11, 40.

* Syrthiodd Paul arno ef, fel Elias ar fab y weddw o Sarepta, 1 Bren. 17. 21; ac Elisëus ar fab y Sunamees, 2 Bren. 4. 34; i arwyddo disgyniad gallu Duw arno ef er adferiad bywyd: † cofleidiodd ef hefyd i ddangos mòr anwyl y carai ef, ac mòr drwm oedd ganddo dros ei ddamwain anffodus. ‡ Mae ei fywyd naturiol ef ynddo, ac o ganlyniad mae ei enaid ysbrydol ynddo, newydd gael ei ddychwelyd yn wyrthiol iddo. Gwel 1 Bren. 17. 21, 22.

11 * Ac wedi iddo ddyfod i fynu, [i] a thorri bara, a bwytta, ac ymddiddan llawer [k] hyd dorriad y dydd; † felly efe a aeth ymaith.

i adn. 7. k adn. 7, 9.

* Trodd y cyffro a'r galar brawychus yn llawenydd ac yn syndod gorfoleddus yn y fàn; ail ymaflodd Paul yn ei orchwyl, a daliodd ati yn tòri bara ac yn llefaru hyd dòriad y dydd. Oedfa ryfedd oedd hon, ac mae yn debyg fod llawer oedfa gyffelyb iddi yn yr amseroedd hyny; yr hyn sydd yn dangos amynedd a gwresawgrwydd y cristionogion boreuol hyny, y rhai a gyfodant yn y farn yn erbyn proffeswyr marwaidd a diffrwyth ein dyddiau ni. † Felly efe a aeth ymaith, heb orphwys dim, wedi bod yn llefaru drwy y nos, ac efallai drwy y dydd o'r blaen, ac ymaith ar ei draed hefyd, adn. 13.

12 [l] * A hwy a ddygasant y llangc yn fyw, [m] † ac a gysurwyd yn ddirfawr.

l adn. 10. m Es. 40. 1. 2 Cor. 1. 4. Eph. 6. 22. 1 Thes. 3. 2. a 4. 18. a 5. 11, 14. 2 Thes. 2. 16, 17.

* Cyn i'r gynnulleidfa ymadael, dygasant y llanc i'r

ystafell yn fyw ac yn iach, ger gŵydd pawb. † Hwy a gysurwyd am adferiad y llanc, ac a gysurwyd hefyd am ei adferu ef yn wyrthiol fel y gwnaed, er tystiolaeth ddwyfol o blaid yr efengyl, ac o foddlonrwydd Duw ar gyfarfod maith y noson hòno. Pe cawsai Eutychus farw o'r syrthiad hwnw, buasai gan elynion yr efengyl ddigon o achlysur i gablu y fath gyfarfodydd anamserol, pregethau hirion, a gwallgofrwydd afreolus.

13 ¶ * Ond nyni a aethom o'r blaen i'r llong, † ac a hwyliasom i Assos; ar fedr oddi yno dderbyn Paul: canys felly yr oedd efe wedi ordeinio, [n] ‡ ar fedr myned ei hun ar ei draed.

n Marc 1. 35. a 6. 31—33, 46.

* "Nyni:" sef y rhai oedd i gyd-ymdaith â Paul ar y daith hon tua Jerusalem. † Tuag ugain milltir oedd o Troas i Assos ar hyd y tir, ond yr oedd yn rhagor o lawer ar hyd y môr: ‡ dewisodd Paul fyned ar ei draed yno yn lluddedig fel yr oedd, fel y caffai bregethu a chyngori mewn pentrefi ar hyd y ffordd, mae yn debyg.

14 * A phan gyfarfu efe â ni yn Assos, nyni a'i derbyniasom ef i mewn, † ac a ddaethom i Mitylene.

* Yn ol yr ordeiniad, adn. 13, cyfarfuant yn Assos, a derbyniwyd Paul at y lleill i'r llong. † Un o brif ddinasoedd ynys Lespos, ar gyffiniau Asia briodol, oedd Mitylene, tua hanner can milltir o Assos, ac ychydig iawn rhagor o Troas, ped aethent ar eu hunion o Troas yno, heb fyned o amgylch i Assos i gyfarfod Paul. Safai y tair dinas fel tair troed trybedd; Assos i'r dwyrain, a Mitylene i'r dehau, o Troas.

15 A morio a wnaethom oddi yno, a dyfod drannoeth gyferbyn â * Chïos; a thradwy y tiriasom yn † Samos, ac a arhosasom yn ‡ Trogyllium; a'r ail dydd y daethom i [o] || Miletus.

o adn. 17. 2 Tim. 4. 20.

* Ynys arall yn môr Aegea ydoedd Chïos, ar lun troed a darn o goes dyn: yr oedd tua phùm milltir a deugain i'r dehau o Mitylene, ac yn lle enwog gynt am win rhagorol. † Samos oedd ynys arall yn yr un môr, tua deugain milltir i'r dwyrain o Chïos, ac yn agosach i Ephesus a thir Asia. ‡ Trogyllium ydoedd borthladd ar benrhyn o gyfandir Asia leiaf, ac yn agos iawn i ynys Samos, dim ond caine fechan iawn o fôr yn rhedeg rhyngddynt. § Miletus ydoedd borthladd arall ar yr un cyfandir, tua deng milltir ar hugain i'r dwyrain o Trogyllium. Nis gallasai y fordaith hon i gyd fod yn llai na 190 neu 200 o filltiroedd.

16 [p] * Oblegid Paul a roddasai ei fryd ar hwylio heibio i Ephesus, fel na byddai iddo dreulio amser yn Asia. † Canys brysio yr oedd, os bai bosibl iddo, i fod yn Jerusalem erbyn [q] dydd y Sulgwyn.

p adn. 13. pen. 18. 21. a 19. 21. a 21. 12, 13. a 24. 17. Rhuf. 15. 24—28. q pen. 2. 1. Ex. 34. 22. 1 Cor. 16. 8.

* Yr oedd Miletus tua deugain milltir i'r dehau o Ephesus; felly hwyliodd Paul heibio i Ephesus i ddyfod yno, o herwydd y rheswm a grybwylla Luc yn niwedd yr adnod. † Yr oedd efe yn awyddu am fyned i Jerusalem os byddai bosibl erbyn y Sulgwyn, i gael un cyfle yn chwaneg i bregethu yr efengyl i'r lliaws mawr o'i gyd-genedl a fyddent yno ar yr wyl, ac hefyd i gyfranu yr elusenau a ddygasai efe i'r saint tlodion o Macedonia ac Achaia. Bwriadau daionus felly oedd ganddo ef; ond yn nhrefn ryfedd rhagluniaeth, y tro hwn a fu yn achlysur i'w wneyd ef yn garcharor, a'i ddanfon fel y cyfryw i Rufain.

17 ¶ * Ac o Miletus efe a anfonodd i Ephesus, ac a alwodd atto [r] † henuriaid yr eglwys.

r adn. 28. pen. 11. 30. a 14. 23. a 15. 4, 6, 23. a 16. 4. 1 Tim. 5. 17. Tit. 1. 5. Iago 5. 14. 1 Pedr 5. 1. 2 Ioan 1. 3 Ioan 1.

* Er cymmaint ei frys, nis gallai fyned rhagddo o Miletus heb ddanfon am henuriaid eglwys Ephesus, aros am eu dyfodiad hwy, a threulio rhyw gymmaint o amser i ymddiddan â hwynt a'u cyngori. † *Presbuterous*, "henuriaid," y gelwir hwynt yma; ac *episkopous*, "golygwyr," y gelwir hwynt yn adn. 28: yr hyn a ddengys fod yr un dynion yn myned wrth y ddau enw, ac nad yw henuriaid ac esgobion i'w golygu yn swyddau gwahanol yn y Testament Newydd: peth o ddychymmyg dynol, a diweddarach, yw hyny.

18 A phan ddaethant atto, efe a ddywedodd wrthynt, [s] * Chwi a wyddoch, er y dydd cyntaf y daethum i Asia, [t] † pa fodd y bûm i gyd â chwi dros yr holl amser.

s pen. 18. 19. a 19. 1, 10. t 2 Cor. 1. 12. a 6. 3—11. 1 Thes. 1. 5, 6. a 2. 1—10. 2 Thes. 3. 7—9. 2 Tim. 3. 10.

* Asia briodol, yn ei hystyr gyfyng, a feddylir yma; nis gallent hwy wybod am ei ymddygiad ef trwy Asia Leiaf oll, cyn ei ddyfod i Ephesus a'r parthau o amgylch yno. † Nid ymffrostio o hòno ei hun yr oedd yr apostol yma, ond crybwyll ei ymarweddiad yn eu plith er esampl iddynt hwy, fel y dilynent hwy ef mewn athrawiaeth, llafur, ac ymarweddiad, megys y dilynodd yntau Grist: dedwydd yw y neb a allo *apelio* fel hyn at ddynion â chydwybod rydd a gonest.

19 [u] * Yn gwasanaethu yr Arglwydd [x] † gyd â phob gostyngeiddrwydd, [y] ‡ a llawer o ddagrau, [z] || a phrofedigaethau, y § rhai a ddigwyddodd i mi [a] trwy gynllwynion yr Iuddewon:

u pen. 27. 23. Ioan 12. 26. Rhuf. 1. 1, 9. a 12. 11. Gal. 1. 10. Eph. 6. 7. Col. 3. 24. 1 Thes. 1. 9. 2 Pedr 1. 1. Dat. 7. 15. x 1 Cor. 15. 9, 10. 2 Cor. 3. 5. a 7. 5. a 12. 7—10. Gal. 4. 13, 14 y adn. 31. Salm 119. 136. Jer. 9. 1. a 13. 17. Luc 19. 41. 2 Cor. 2. 4. Phil. 3. 18. 2 Tim. 1. 4. z 1 Cor. 4. 9—13. 2 Cor. 4. 7—11. a 11. 23—30. Iago 1. 2. 1 Pedr 1. 6. a adn. 3. pen. 9. 23—25. a a 13. 50, 51. a 14. 5, 6, 19, 20. a 17. 5, 13. 2 Cor. 11. 26.

* Yn gwasanaethu yr Arglwydd fel dyn duwiol, ac fel apostol a gweinidog cyhoeddus yr efengyl, gyda llawer o ddiwydrwydd, llafur, a llwyddiant mawr: † ac eto gyda phob gostyngeiddrwydd calon ac ymddygiad ger bron Duw a thuag at ddynion. ‡ Gyda llawer o ddagrau wrth feddwl am annrhaethol drugaredd Duw tuag ataf fi fy hun, wrth feddwl am lygredigaethau parâus fy nghalon, fy annigonolrwydd i'r gwaith mawr a ymddiriedwyd i mi; ac wrth feddwl am galedrwydd a gelynïaeth dynion yn gyffredin yn wyneb yr efengyl. || Darllenasom am rai o'i brofedigaethau ef yn Ephesus yn y bennod o'r blaen: gwel hefyd 1 Cor. 15. 32. § Gwel pen. 19. 9: mae yn ddiammau bod yr Iuddewon yn ddibaid yn cynllwyn yn ei erbyn ef tra bu yn Ephesus, i geisio afluyddo ei weinidogaeth, drygu ei enw, a pheryglu ei fywyd.

20 [b] * Y modd nad atteliais ddim o'r [c] pethau buddiol heb eu mynegi *i chwi*, [d] † a'ch dysgu ar gyhoedd, ac o dŷ i dŷ;

b adn. 27, 31. pen. 5. 2. Deut. 4. 5. Salm 40. 9, 10. Ezec. 33. 7—9. 1 Cor. 15. 3. Col. 1. 28. c 1 Cor. 12. 7. a 14. 6. Phil. 3. 1. 2 Tim. 3. 16, 17. d adn. 31. pen. 2. 46. a 5. 42. Marc 4. 34.

* Nid rhai pethau buddiol, ond yr holl bethau buddiol: mae yr holl ysgrythyr yn fuddiol, ac nid attaliodd yr apostol ddim o honynt heb eu mynegi: nid oedd ofn dynion ar y naill law, na chwant derbyn wynebau ar y llaw arall, yn ei gadw ef rhag mynegi a dysgu yr holl bethau buddiol. † Gonest a didderbyn wyneb oedd ef yn yr areithfa gyhoeddus, a gonest a didderbyn wyneb yr un modd o dŷ i dŷ, mewn ymddiddanion personol a chyfeillachol: y pethau buddiol oedd ganddo yn mhob màn. Un peth yw cael dynion yn ffyddlawn yn yr ar-

eithfa gyhoeddus, peth arall yw eu cael felly yn nhai ac
3 wrth fyrddau eu cyfeillion.

21 [e] * Gan dystiolaethu i'r [f] † Iuddewon,
ac i'r Groegiaid hefyd [g] yr edifeirwch sydd tu
ag at Dduw, [h] a'r ffydd sydd tu ag at ein Har-
glwydd Iesu Grist.

e adn. 24. pen. 2. 40. a 8. 25. a 18. 5. a 28. 23. 1 Ioan 5. 11—13. f pen. 18. 4. a 19. 17. Rhuf. 1. 14. 1 Cor. 1. 22. g pen. 2. 38. a 3. 19. a 11. 18. a 17. 30. a 26. 20. Ezec. 18. 30—32. Mat. 3. 2. a 4. 17. a 21. 31, 32. Marc 1. 15. a 6. 12. Luc 13. 3, 5. a 15. 7, 10. a 24. 47. Rhuf. 2. 4. 2 Cor. 7. 10. 2 Tim. 2. 25, 26. h pen. 10. 43. a 13. 38, 39. a 16. 31. Ioan 3. 15—18, 36. a 20. 31. Rhuf. 1. 16. a 3. 22—26. a 4. 24. a 5. 1. a 10. 9. Gal. 2. 16, 20. a 3. 22. 1 Ioan 5. 1, 5, 11—13.

* Mae y gair weithiau yn arwyddo profi peth trwy dystiolaeth, gwasgu a chymhell peth yn nerthol a difrifol at feddyliau rhai: mae pob un o'r ddau yn y "tystiolaethu" yma, adn. 24. † Yr un yw cyfiwr pawb ger bron Duw; mae eisiau yr un pethau, edifeirwch a ffydd, ar bawb; ac mae y pethau hyn yn ddigon i bawb er cadwedigaeth eu heneidiau. ‡ Yn erbyn Duw y pechwyd; ger bron Duw y dylid edifarâu, mewn ymostyngiad a galar duwiol am bechod, gan ei gyfaddef, ei gasâu, a'i adael. || Gwir ffydd gyfiawnâol, sancteiddâol, ac achubol a feddylir; Iesu Grist yn ei Berson a'i aberth mawr yw gwrthddrych hon, ac nis collir pwy bynag a gredo ynddo, ond efe a gaiff fywyd tragywyddol. Mae yr holl efengyl, a holl iachawdwriaeth dynion, yn gynnwysedig yn y ddau bwnc mawr hyn: dyma swm gweinidogaeth yr apostol yn Ephesus; dyma ei bethau buddiol ef, a hyn a ddylai fod swm ein gweinidogaeth ninnau.

22 * Ac yn awr, [i] wele fi yn rhwym yn
yr ysbryd yn myned i Jerusalem, [k] † heb wy-
bod y pethau a ddigwydd i mi yno:

i pen. 19. 21. a 21. 11—14. Luc 9. 51. a 12. 50. 2 Cor. 5. 14. k Luc 18. 31—33. Ioan 13. 1. a 18. 4. 2 Pedr 1. 14.

* Gwedi llafurio mewn dagrau a phrofedigaethau yn Ephesus am hir o amser, mae yr apostol yn awr yn myned i faes arall, ac i brofedigaethau newyddion: eto, er gwybod mai dyoddefiadau oedd yn ei aros, yr oedd yn rhaid iddo fyned; yr oedd cymhelliadau nerthol yr Ysbryd Glân, yn gystal ag awydd sanctaidd ei ysbryd ei hun, yn peri iddo fyned i Jerusalem, † heb wybod trwy unrhyw ddatguddiad sicr beth a ddygwyddai iddo yno y tro hwn.

23 * Eithr bod yr Ysbryd Glân yn tystio
i mi ym mhob dinas, gan ddywedyd, fod
rhwymau a blinderau yn fy aros.

l pen. 9. 16. a 14. 22. a 21. 4, 11. Ioan 16. 33. 2 Tim. 2. 12.

* Yr oedd yr apostol wedi cael tystiolaeth brofiadol yn mhob dinas ac y buasai efe, mai rhwymau a blinderau oedd yn ei aros ef yn mhob màn ag yr elai; ac efallai bod rhai o'r prophwydi oedd yn yr eglwysi yn tystiolaethu iddo hefyd yr un peth trwy yr Ysbryd Glân, fel yn pen. 21. 4, 11. Efallai ei fod ef ei hun wedi cael datguddiad digyfrwng amryw weithiau hefyd o'r un peth, er arfogi ei feddwl ef yn mlaen llaw.

24 [m] * Ond nid wyf fi yn gwneuthur cyfrif
o ddim, [n] † ac nid gwerthfawr gennyf fy einioes
fy hun, [o] ‡ os gallaf orphen fy ngyrfa trwy
lawenydd, [p] || a'r weinidogaeth a dderbyniais
gan yr Arglwydd Iesu, § i dystiolaethu
[r] efengyl gras Duw.

m pen. 21. 13. Rhuf. 8. 35—39. 1 Cor. 15. 58. 2 Cor. 4. 1, 8, 9, 16—18. a 6. 4—10. a 7. 4. a 12. 10. Eph. 3. 13. 1 Thes. 2. 2. a 3. 3. 2 Tim. 1. 12. a 3. 11. a 4. 17. Heb. 10. 34. a 12. 1—3. n 2 Cor. 5. 8. Phil. 1. 20—23. a 2. 17. Col. 1. 24. 1 Ioan 3. 16. Dat. 12. 11. o Ioan 17. 4. 1 Cor. 9. 24—27. Phil. 3. 13—15. 2 Tim. 4. 6—8. p pen. 1. 17. a 9. 15. a 22. 21. a 26. 17, 18. 1 Cor. 9. 17, 18. 2 Cor. 4. 1. Gal. 1. 1. Tit. 1. 3. q adn. 21. Ioan 15. 27. Heb. 2. 3, 4. r pen. 14. 3. Luc 2.

* Nid oedd byn oll yn digaloni dim ar feddwl yr apostol gyda ei waith mawr; nid oedd yn gwneyd cyfrif yn y byd o ddim o honynt: † ïe, nid oedd ei einioes ei hun o ddim gwerth yn ei olwg mewn cymhariaeth i achub eneidiau dynion, derchafu y Cyfryngwr bendigedig, a lledu ei deyrnas ogoneddus ef. ‡ Ei yrfa naturiol, a'i yrfa weinidogaethol hefyd; nis gallai efe orphen ei yrfa trwy lawenydd yn yr un o'r ddwy ystyr, heb gyflawni ei weinidogaeth yn ffyddlawn hyd y diwedd. Ei gorphen yn athrist iddo ef, a fuasai ei gorphen wedi bod yn anffyddlawn yn ei weinidogaeth rhag ofn dyoddef. Nid dyn anianol, heb un perygl yn agos ato oedd yn dywedyd yn wrol fel hyn, ond gwas Duw, heb ddim ond rhwymau a blinderau o'i flaen yn mhob màn; ond yr oedd bywyd ac anfarwoldeb yn ei aros yr ochr draw i'r bedd: ymwroli fel un yn gweled yr annweledig, yr oedd y milwr dewr hwn, a Duw hollalluog yn blaid iddo. || Gan Dduw yr oedd efe wedi derbyn y weinidogaeth, Duw a'i gosododd yn y weinidogaeth, dros Dduw yr oedd yn gweinidogaethu, ac i Dduw yr oedd yn gyfrifol am ei weinidogaeth. § Peth o ras Duw yw yr efengyl, gras yw ei chynnwysiad, gras mae yn gyhoeddi i fyd colledig, a thrwyddi hi y cenedlir gras yn eneidiau pechaduriaid diras.

25 * Ac yr awrhon, [s] wele, mi a wn na
chewch chwi oll (ym mysg y rhai y bûm i yn
tramwy yn [t] † pregethu teyrnas Dduw) [u] weled
fy wyneb i mwyach.

s adn. 10, 11. Rhuf. 3. 24—26. a 4. 4. a 5. 20, 21. a 11. 6. Eph. 1. 6. a 2. 4—10. Tit. 2. 11. a 3. 4—7. 1 Pedr 5. 12. t pen. 8. 12. a 28. 31. Mat. 4. 17, 23. a 10. 7. a 13. 19, 52. Luc 9. 60. a 16. 16. u Gal. 1. 22. Col. 2. 1.

* Yn ol ei fwriad presenol ei hun, medd rhai, yr oedd Paul yn dywedyd y gwyddai na chaent weled ei wyneb ef mwyach: ond tybia eraill ei fod yn llefaru oddi ar ddatguddiad union-gyrchol a gawsai gan yr Ysbryd Glân, na cha'i efe weled Ephesus mwy, na neb o'r brodyr yno weled ei wyneb ef mwyach yn y cnawd: gan hyny cyfarfod sobr iawn oedd hwn, rhwng Paul â henuriaid yr eglwys; y cyfarfod olaf ar y ddaear byth. † Pregethu teyrnas Dduw yma, a thystiolaethu efengyl gras Duw yn yr adnod o'r blaen, yr un peth ydynt: fel y mae efengyl gras yn llwyddo, felly y mae teyrnas Dduw yn lledaenu, yn y byd ac yn nghalonau dynion.

26 [x] * O herwydd paham yr ydwyf yn
tystio i chwi y dydd heddyw, [y] † fy mod i yn
lân oddi wrth waed pawb oll.

x Job. 16. 19. Ioan 12. 17. a 19. 35. Rhuf. 10. 2. 2 Cor. 1. 23. a 8. 3. 1 Thes. 2. 10—12. y pen. 18. 6. 2 Sam. 3. 28. Ezec. 3. 18—21. a 32. 2—9. 1 Tim. 5. 22.

* Gan hyny, gan na châf fi eich gweled chwi, na chwithau weled fy wyneb innau, mwyach; yr wyf yn tystio yn ddifrifol i chwi heddyw yn ngŵydd Duw, ac mi a feiddiaf *apelio* atoch chwi eich hunain fel fy nhystion o wirionedd y peth, ac yn sicr y byddwch felly yn nydd y farn ddiweddaf; † fy mod I yn lân oddi wrth waed pawb oll yn eich plith chwi: ni bydd neb o honynt yn golledig trwy fy mai I, o ddiffyg eu rhybuddio yn ffyddlawn, a gosod ger eu bronau holl drefn fawr a gogoneddus yr iachawdwriaeth trwy Grist wedi ei groeshoelio.

27 [z] * Canys nid ymatteliais rhag mynegi i
chwi [a] holl gynghor Duw.

z adn. 20, 35. pen. 26. 22, 23. 2 Cor. 4. 2. Gal. 1. 7—10. a 4. 16. 1 Thes. 2. 4. a pen. 2. 23. Salm 32. 11. Es. 46. 10, 11. Jer. 23. 22. Mat. 28. 20. Luc 7. 30. Ioan 15. 15. 1 Cor. 11. 23. Eph. 1. 11.

* Arfaeth Duw o gadw pawb a gredent yn Nghrist, a holl athrawiaeth yr efengyl am Grist a'i aberth, trwy yr hon y dygir dynion i gredu ynddo, yn nghyd â phob dyledswydd gristionogol a orchymynir i ddynion yn yr efengyl. Nid ymataliodd Paul rhag mynegi yr holl gyngor a'r holl wirionedd uchod, rhag ofn anfoddloni dynion, nac Iuddewon na Groegiaid: ni chadwodd ddim o'r gwirionedd yn ol, ac ni chymmysgodd ef â thraddodiadau a seremoniau afreidiol a diles, i'w dywyllu a'i wneyd yn aneffeithiol. Gair milwraidd yw y gair a arferir yma, am sawdiwr yn sefyll ei dir yn wrol ar faes y gwaed, heb gilio yn ol a llechu rhag ofn ei elynion. O, peth mawr yw traddodi holl gyngor

Duw, heb attal dim o'r gwirionedd mewn anghyfiawn der!

28 ¶ [b] * Edrychwch gan hynny arnoch eich hunain, [c] † ac ar yr holl braidd ar yr hwn y [d] ‡ gosododd yr Ysbryd Glân chwi yn [e] ‖ olygwyr, [f] i fugeilio [g] eglwys Dduw, [h] § yr hon a bwrcasodd efe â'i briod waed.

b 2 Cron. 19. 6, 7. Marc 13. 9. Luc 21. 34. 1 Cor. 9. 26, 27. Col. 4. 17. 1 Tim. 4. 16. Heb. 12. 15. c adn. 29. Can. 1. 7, 8. Es. 40. 11. a 63. 11. Jer. 13. 17, 20. a 31. 10. Ezec. 34. 31. Mica 7. 14. Luc 12. 32. 1 Pedr 5. 2, 3. d pen. 13. 2. a 14. 23. 1 Cor. 12. 8—11, 28—31. 1 Tim. 4. 14. e Phil. 1. 1. 1 Tim. 3. 2. a 5. 17. Tit. 1. 7. 1 Pedr 2. 25. f Salm 78. 70—72. Es. 40. 11. Jer. 3. 15. Ezec. 34. 3. Mica 5. 4. a 7. 14. Zec. 11. 4. Mat. 2. 6. Ioan 21. 15—17. 1 Pedr 5. 2. g 1 Cor. 1. 2. a 10. 32. a 11. 22. a 15. 9. Gal. 1. 13. 1 Tim. 3. 5, 15, 16. h Salm 74. 2. Es. 53. 10—12. Eph. 1. 7, 14. Col. 1. 14. Heb. 9. 12—14. 1 Pedr 1. 19. a 2. 9. Dat. 5. 9.

* Cyn ymadael, gadewch i mi eich cyngori fel brawd, a'ch gorchymyn fel tad, yn y modd mwyaf difrifol yn ngŵydd Duw, edrychwch arnoch eich hunain yn mlaenaf, ar fod eich cyflwr yn dda, eich ysbryd yn addas, eich athrawiaeth yn bur, a'ch holl ymarweddiad fel y gweddai i saint a henuriaid eglwysig. † Yn nesaf fel bugeiliaid ffyddlawn a gofalus, edrychwch ar yr holl eglwys; y rhai a ddylent fod fel praidd, yn addfwyn, yn amyneddgar, yn ddiniwed, yn ddefnyddiol, yn gyfeillgar, ac yn garedig yn eu holl gymdeithas sanctaidd â'u gilydd. Edrychwch chwi ar eu bod felly, ac na byddo neb o honynt yn cael cam yn eu pethau ysbrydol drwy eich hesgeulusdra chwi. ‡ Cofiwch mai yr Ysbryd Glân a'ch gosododd chwi yn olygwyr arnynt: efe a'ch doniodd i'r gwaith, a dueddodd eich meddyliau at y gwaith; efe a gyfarwyddodd eraill i'ch dewis a'ch urddo, ac efe a gadarnâodd y dewisiad hwnw trwy ei ddoniau gwyrthiol a dywalltodd arnoch. Yn debyg yr un modd, oddigerth y peth olaf, y dewisir, neu y dylid dewis, gweinidogion a blaenoriaid eglwysig yn mhob oes. ‖ *Episkopous*, yn esgobion, yn olygwyr, yn wyliedyddion ac yn fugeiliaid eglwys Dduw: i'w dysgu mewn athrawiaeth, i'w hymgeleddu mewn profiad, ac i gadw dysgyblaeth ac iawn-drefn yn eu plith yn mhob peth. § Mae y geiriau hyn yn dystiolaeth o'r fath egluraf a chadarnaf o Dduwdod Crist; eglwys Dduw yw yr eglwys, a'r hwn a'i prynodd hi yw y Duw hwnw: â'i waed y prynodd efe hi, yr hyn a brawf ei fod yn ddyn hefyd; oblegid heb ddynoliaeth ni buasai ganddo waed i gael ei dywallt: Duw â dyn yn un person rhyfedd oedd, ydyw yn awr, ac a fydd byth mwyach. Ei briod waed ydoedd, ei waed ei hun, mewn ystyr mwy priodol nac y mae gwaed yr un dyn arall yn eiddo iddo; oblegid dynoliaeth mewn undeb â Duwdod oedd ei ddynoliaeth ef. Anfeidrol ryfedd oedd y pryniad hwn; ac anfeidrol ryfedd oedd y doethineb a'i trefnodd, y cyfoeth a'i darparodd, a'r cariad a'i rhoddodd ac a'i cyflawnodd!

29 * Canys myfi a wn hyn, y daw, ar ol fy ymadawiad i, [i] † fleiddiau blinion i'ch plith, heb arbed y praidd.

i Zeph. 3. 3. Mat. 7. 15. a 10. 16. Luc 10. 3. Ioan 10. 12.

* Dyma reswm pwysig am y gorchymyn pwysig a difrifol uchod; bleiddiau blinion yn dyfod i'w plith ar ol ymadawiad yr apostol, heb arbed y praidd. † Gau-athrawon yn benaf a feddylir, y rhai sydd yn dystrywio eneidiau dynion mòr ddidrugaredd ag y mae bleiddiau naturiol yn dryllio, yn llarpio, ac yn bwyta, y crëaduriaid a ysglyfaethant.

30 [k] * Ac o honoch chwi eich hunain y cyfyd gwŷr [l] yn llefaru pethau gŵyrdraws, [m] † i dynnu disgyblion ar eu hol.

k Mat. 26. 21—25. 1 Tim. 1. 19, 20. 2 Tim. 2. 17, 18. a 4. 3, 4. 2 Pedr 2. 1—3. 1 Ioan 2. 19. 2 Ioan 7. Dat. 2. 6. l Diar. 19. 1. a 23. 33. Es. 59. 3. 1 Tim. 5. 13. a 6. 5. 2 Pedr 2. 18. Judas 15, 16. m pen. 5. 36, 37. a 21. 38. Mat. 23. 15. 1 Cor. 1. 12—15. Gal. 6. 12, 13.

* Heblaw gau-athrawon Iuddewaidd a ddeuent o fàn-au eraill atynt, yr oedd yr apostol mewn ysbryd proffwydoliaeth, yn rhag-weled y cyfodai gwŷr o honynt hwy eu hunain yn llefaru pethau gŵyr-draws: yr hyn a fu hefyd yn y Nicolaiaid, Dat. 2. 6; Phygèlus a Hermogenus, 2 Tim. 1. 15; Hymenetus a Philetus, 2 Tim. 2. 17, 18; ac Alexander, 1 Tim. 1. 20: ac efallai lawer eraill, a gyfodasant i hau efrau yn y maes, am hyny yr oedd yn dra angenrheidiol i'r gweision wylied. † Tynu dysgyblion ar eu hol eu hunain yw amcan pob gau-athrawon, nid eu tynu ar ol yr Arglwydd.

31 [n] * Am hynny gwyliwch, † a chofiwch, dros [o] ‡ dair blynedd na pheidiais i [p] ‖ nos a dydd a [q] rhybuddio pob un o *honoch* â [r] § dagrau.

n Mat. 13. 25. Marc 13. 34—37. Luc 21. 36. 2 Tim. 4. 5. Heb. 13. 17. Dat. 16. 15. o pen. 19. 8, 10. p Ezec. 3. 17—20. Mat. 3. 7. 1 Cor. 4. 14. Col. 1. 28. 1 Thes. 5. 14. q adn. 7, 11. 1 Thes. 2. 9, 10. 2 Thes. 3. 8. r adn. 19.

* Gan fod y perygl mòr fawr, gwyliwch chwi yn ddyfal, fel bugeiliaid ffyddlawn dàn Grist y Pen Bugail mawr; gan feddwl o hyd am y cyfrif fydd raid i chwi ei roddi iddo ef. † Cofiwch hefyd am fy llafur dibaid I yn eich plith, yn pregethu yr efengyl yn Ephesus, yn ceisio cadarnâu a sefydlu meddyliau y dysgyblion yn yr efengyl, ac yn eich rhybuddio oll a phob un o honoch rhag y pethau hyn. ‡ Tair blynedd: gwel ar pen. 19. 10, 22. ‖ Cadwent eu cyfarfodydd y nos yn aml, un ai rhag ofn eu gelynion, neu am eu bod yn dlodion ac yn gorfod gweithio yn galed y dydd. § Nid rhith o ddagrau, ond gwir ddagrau, a dagrau lawer, adn. 19; tebyg i ddagrau Crist dros Jerusalem, Luc 19. 41: wylodd yn hidl lawer gwaith, wrth weled drygioni y ddinas, a'r drygfyd a ddeuai ar yr eglwys ar ol ei ymadawiad ef.

32 * Ac yr awrhon, frodyr, [s] † yr ydwyf yn eich gorchymyn i Dduw, [t] ac i air ei ras ef, [u] ‡ yr hwn a all adeiladu ychwaneg, [x] ‖ a rhoddi i chwi etifeddiaeth ym mhlith yr holl [y] rai a sancteiddiwyd.

s pen. 14. 23, 26. a 15. 40. Gen. 50. 24. Jer. 49. 11. Judas 24, 25. t adn. 24. Heb. 13. 9. u pen. 9. 31. Ioan 15. 3. a 17. 17. 1 Cor. 3. 9, 10. Eph. 2. 20—22. a 4. 12, 16. Col. 2. 7. Judas 20. x pen. 26. 18. Jer. 3. 19. Eph. 1. 18. Col. 1. 12. a 3. 24. Heb. 9. 15. 1 Pedr 1. 4, 5. y 1 Cor. 1. 2. a 6. 11. Heb. 2. 11. a 10. 14. Judas 1.

* Yr awr hon frodyr, gan fy mod ar ymadael â chwi, ac yn gwybod fod arnoch eisiau gwell a mwy goleuni a chymmorth, nag y sydd genych eich hunain, nac a fedrais I roddi i chwi er fy holl lafur; † yr wyf yn eich gorchymyn i ofal a bendith Duw hollalluog, i ofal ei Fab ef y Gair tragywyddol; ac i ymgeledd ac arweiniad yr efengyl rasol, yr hon yn llaw yr Ysbryd Glân a'ch tywys chwi i'r Graig oesol, ‡ ar yr hon y gellwch gael eich adeiladu yn chwaneg mewn gwybodaeth a phob gras ysbrydol, ‖ a'ch dwyn yn y diwedd yn ddiangol, i'r etifeddiaeth dragywyddol yn mhlith yr holl rai a sancteiddiwyd.

33 [z] * Arian, neu aur, neu wisg neb, ni chwennychais.

z Num. 16. 15. 1 Sam. 12. 3—5. 1 Cor. 9. 12, 15, 18. 2 Cor. 7. 2. a 11. 9. a 12. 14, 17. 1 Pedr 5. 2.

* Gwyddai yr apostol y byddai rhai o'r gau-athrawon yn ceisio ei gyhuddo ef o wneyd elw o'r weinidogaeth; am hyny mae yn galw yr henuriaid hyn yn dystion yn awr, na chwennychasai efe nac arian, nac aur, na gwisg neb o honynt erioed, yn yspaid y tair blynedd y buasai yn eu plith. Yr oedd yn hyn hefyd yn dangos ei ragoriaeth ar y gau-athrawon; y rhai oedd yn tynu dysgyblion ar eu hol er mwyn gwneuthur bywioliaeth a budrelw o honynt.

34 Ie, chwi a wyddoch eich hunain, [a] * ddarfod i'r dwylaw hyn wasanaethu i'm cyfreidiau i, ac i'r rhai oedd gyd â mi.

a pen. 18. 3. 1 Cor. 4. 12. 1 Thes. 2. 9. 2 Thes. 3. 8, 9.

* Trwy lafur diwyd yn gwneuthur pebyll yr oedd Paul yn ei gynnal ei hun yr holl amser, pen. 18. 3: ac nid ei hun yn unig, ond y rhai oedd gydag ef hefyd, pryd nad allent weithio neu gael gwaith eu hunain.

Mae efe yn crybwyll hyn er dangos i henuriaid Ephesus mai felly y dylent hwythau wneyd, yn enwedig yn amgylchiadau isel yr eglwys, ac er esampl o ddiwyddrwydd i eraill.

35 [b] * Mi a ddangosais î chwi bob peth, [c] † mai wrth lafurio felly, y mae yn rhaid cynnorthwyo y gweiniaid; ‡ a chofio geiriau yr Arglwydd Iesu, ddywedyd o hono ef, [d] ‖ mai dedwydd yw rhoddi, yn hytrach nâ derbyn.

b adn. 20, 27. c Es. 35. 3. Rhuf. 15. 1. 2 Cor. 9. 12. Eph. 4. 28. 1 Thes. 4. 11. a 5. 14. Heb. 12. 12, 13. a 13. 3. d Salm 41. 1—3. a 112. 5—9. Diar. 19. 17. Es. 32. 8. a 58. 7—12. Mat. 10. 8. a 25. 34—40. Luc 14. 13, 14. 2 Cor. 8. 9. a 9. 6—12. Phil. 4. 17—20. Heb. 13. 16.

* Fel hyn mewn esampl yn gystal ag mewn athrawiaeth, efe a ddangosodd iddynt yn fânol bob peth angenrheidiol ei wybod er ymarferiad yn eu sefyllfa. † Mae rhai gweiniaid yn mhob eglwys, dyledswydd yr eglwys yw cynnorthwyo y gweiniaid, ac nis gellir eu cynnorthwyo heb lafurio fel y byddo modd genym i'w cynnorthwyo. ‡ Nid oes yr un o'r efengylwyr wedi ysgrifenu y geiriau hyn air yn air fel y maent yma; er fod pethau cyffelyb o ran synwyr i'w cael mewn amryw fânau, wedi eu llefaru gan yr Arglwydd Iesu. Tybir y byddai yr Arglwydd Iesu er hyny, yn arfer y ddiareb uchod yn aml, ac mai gan rai o'i ddysgyblion ef y cawsai Paul hi, a chanddo ef y trosglwyddwyd hi i ni: buasai ar goll oni buasai hyny. ‖ Dedwyddach o lawer yw gallu rhoddi elusen, yn hytrach na gorfod derbyn elusen: gan hyny gwell yw llafurio a bod yn gymmedrol, na segura ac afradloni.

36 ¶ * Ac wedi iddo ddywedyd y pethau hyn, [e] efe a roddodd ei liniau i lawr, ac a weddïodd gyd â hwynt oll.

e pen. 7. 60. a 21. 5. 2 Cron. 6. 13. Dan. 6. 10. Luc 22. 41. Eph. 3. 14. Phil. 4. 6.

* Gwedi i'r apostol orphen ei ymadrodd pwysig ac effeithiol wrth yr henuriaid, efe a roddodd ei liniau i lawr, ac a'u gorchymynodd hwy oll i Dduw, ac i air ei ras ef (adn. 32,) mewn gweddi daer, ddifrifol, a thoddedig iawn: a diammau eu bod hwy oll yn uno âg ef o'u calonau.

37 [f] * Ac wylo yn dost a wnaeth pawb: † a *hwy* a syrthiasant ar wddf Paul, [g] ac a'i cusanasant ef;

f 1 Sam. 20. 41. 2 Sam. 15. 30. 2 Bren. 20. 3. Ezra 10. 1. Job 2. 12. Salm 126. 5. 2 Tim. 1. 4. Dat. 7. 17. a 21. 4. g Rhuf. 16. 16. 1 Cor. 16. 20. 2 Cor. 13. 12. 1 Thes. 5. 26.

* Wylasant yn dost, o dra hiraeth calon, am ymadawiad brawd mòr anwyl, a gweinidog mòr ffyddlawn a defnyddiol. † Felly y gwnai Joseph â'i frodyr gynt, pan oeddynt yn ymadael â'u gilydd yn yr Aipht, Gen. 45. 14, 15. Nid moesgarwch rhagrithiol oedd yma, ond cariad a hiraeth gwirioneddol; a'r ffrydiau dagrau yn brawf o hyny.

38 * Gan ofidio yn bennaf am y gair a ddywedasai efe, [h] † na chaent weled ei wyneb ef mwy. [i] ‡ A hwy a'i hebryngasant ef i'r llong.

h adn. 25. i pen. 15. 3. a 21. 5, 16. 1 Cor. 16. 11.

* Sylwad Luc yw y geiriau hyn, yn dangos yr achos o'r wylo tost yn yr adnod o'r blaen. † Profiad gofidus iawn yw, i gyfeillion cristionogol anwyl ymadael â'u gilydd am byth yn y byd hwn, a hwy yn gwybod mai felly y mae. ‡ Hebryngasant ef o'r dref i'r llong; er cael mwynâu ei gyfeillach werthfawr hyd ag yr oedd dichon, a dangos eu cariad diffuant ato, ac mòr anodd oedd ganddynt ymadael âg ef. Yno gorchymynasant hwythau yntau a'i weinidogaeth i ofal a bendith Duw yr hwn a'i piau.

Tybir mai y deuddeg dysgybl, a grybwyllir yn pen. 19. 1—7, oedd yr henuriaid hyn: a thybir i Timothëus ddychwelyd gyda hwy yn ol i Ephesus am ryw yspaid o amser; gan nad oes hanes iddo fyned gyda Phaul i Jerusalem, nac ei fod gydag ef ar ol hyn nes ei fyned i Rufain. Gwel 2 Tim. 4. 9, 21; Heb. 13. 23.

PEN. XXI.

Paul yn gwrthod ei gyngori i beidio â myned i Jerusalem.

* A DIGWYDDODD, [a] wedi i ni osod allan, [b] ac ymadael â hwynt, ddyfod o honom âg union-gyrch i † Coos, a thrannoeth i ‡ Rhodes; ac oddi yno i ‖ Patara.

a pen. 20. 37, 38. 1 Sam. 20. 41, 42. 1 Thes. 2. 17. b pen. 27. 2, 4. Luc 5. 4. a 8. 22.

* Yma eto mae Luc yn llefaru yn y person cyntaf lliosog, "wedi i *ni*;" yr hyn a ddengys ei fod ef gyda Paul a'i gyfeillion yn y daith hon. † Coos ydoedd ynys fechan yn môr Aegea, ychydig dros ugain milltir i'r dehau-orllewin o Miletus: yno meddant y ganed Hippocrates ac Apèles, ac yr oedd yno deml enwog i Esculapius, ac un arall i'r dduwies Juno. ‡ Rhodes ydoedd ynys go fawr, tua thriugain milltir i'r dwyrain o Coos: yno yr oedd y ddelw bres fawr a elwid Colossus, yr hon a osodwyd i fynu er anrhydedd i'r haul, ac oedd yn 70 cufydd ei huchder; safai ar draws genau y porthladd, gallai llongau hwylio rhwng ei hesgeiriau, a chyfrifid hi yn un o saith rhyfeddodau y byd. ‖ Patara ydoedd brif-ddinas a phrif-borthladd Lycia, talaeth o Asia Leiaf: yr oedd yn sefyll tua phymtheg milltir a deugain i'r dwyrain, neu y dwyrain-ogledd o Rhodes.

2 [c] * A phan gawsom long yn hwylio trosodd i [d] Phenice, ni a ddringasom iddi, ac a aethom ymaith.

c pen. 27. 6. Jona 1. 3. d pen. 15. 3.

* I Patara mae yn debyg yr oedd y llong o'r blaen yn rhwym, gan hyny yr oedd yn rhaid cael un arall yno; † yr hon a gawsant yn y fân, yn hwylio i Phenice, gwlad yn Syria, ar làn y môr, ac yn cyffinio â Phalestina ar ei thu gogleddol.

3 Ac wedi ymddangos o [e] * Cyprus i ni, ni a'i gadawsom hi ar y † llaw aswy, ac a hwyliasom i [f] Syria, ac a diriasom yn [g] ‡ Tyrus: ‖ canys yno yr oedd y llong yn dadlwytho y llwyth.

e adn. 16. pen. 4. 36. a 11. 19, 20. a 13. 4. a 15. 39. a 27. 4. f pen. 15. 23, 41. a 18. 18. Barn. 10. 6. 2 Sam. 8. 6. Es. 7. 2. Mat. 4. 24. Luc 2. 2. g pen. 12. 20. Salm 45. 12. a 87. 4. Es. 23. 17, 18. Mat. 11. 21. Luc 10. 13.

* Soniwyd am yr ynys fawr hon amryw weithiau o'r blaen, yr oedd yn agos i ddau cant o filltiroedd i'r dwyrain o Patara. † Wrth adael Cyprus ar y llaw aswy, a hwylio heibio y tu dehau iddi, yr oeddynt yn cyfeirio yn union at ‡ Tyrus, prif borthladd Phenice yn Syria, ‖ lle yr oedd y llong i ddadlwytho ei llwyth.

4 [h] * Ac wedi i ni gael disgyblion, [i] † nyni a arhosasom yno saith niwrnod: [k] ‡ y rhai a ddywedasant i Paul, trwy yr Yspryd, ‖ nad elai i fynu i Jerusalem.

h pen. 19. 1. Mat. 10. 11. 2 Tim. 1. 17. i pen. 20. 6, 7. a 28. 14. Dat. 1. 10. k adn. 10—12. pen. 20. 22, 23.

* Yr oedd yn Tyrus rai dysgyblion i'r Arglwydd Iesu, ac ni bu Paul a'i gyfeillion fawr o dro cyn cael hyd iddynt: † a chan fod y rhan fwyaf a gwaethaf o'u taith weithian drosodd, a hwythau ar derfynau Canaan, ac mewn digon o bryd i fyned i Jerusalem erbyn yr amser y bwriadai yr apostol; hwy a arosasant yno saith niwrnod, fel o'r blaen yn Troas, pen. 20. 6, er mwyn cael sabbath gyda eu gilydd, mae yn debyg, a chyfeillachu â'u gilydd yn yr efengyl ar y dyddiau eraill. ‡ Mae yn debyg fod rhai o'r dysgyblion yn Tyrus wedi derbyn dawn prophwydoliaeth: amlygodd yr Ysbryd Glân i'r rhai hyn y byddai Paul mewn enbydrwydd mawr am ei einioes yn Jerusalem y tro hwn. ‖ Y prophwydi hyn

oedd yn dywedyd "*nad* elai efe i fynu;" nid oedd yr Ysbryd yn dywedyd *nad* elai i fynu, dim ond dangos iddynt hwy y perygl a fyddai i Paul *os* elai i fynu, neu *pan* elai i fynu: a hwythau oddi ar hyny yn ceisio ei ddarbwyllo ef nad elai i fynu i Jerusalem. Heb ddeall y geiriau felly, rhaid i ni dybied fod yr Ysbryd Glân yn ei wrthwynebu ei hun, pen. 20. 22.

5 * A phan ddarfu i ni orphen y dyddiau, ni a ymadawsom, ac a gychwynasom: [l] † a phawb, ynghyd â'r gwragedd a'r plant, a'n [m] hebryngasant *ni* hyd allan o'r ddinas; [n] ‡ ac wedi i ni ostwng ar ein gliniau ar y traeth, ni a weddïasom.

l pen. 15. 3. a 17. 10. a 20. 38. m Deut. 29. 11, 12. Jos. 24. 15. 2 Cron. 20. 13. Neh. 12. 43. Mat. 14. 21. n pen. 9. 40. a 20. 36. 1 Bren. 8. 54. Salm 95. 6. Marc 1. 40.

* Gwedi gorphen y saith niwrnod, adn. 4, hwy a gychwynasant i ymadael ar y bore Llun, yr un modd ag o Troas: gwel ar pen. 20. 7. Purion addysg i ninnau, i gychwyn i'n teithiau mewn pryd, fel y gallom orphwys gyda phobl Dduw yn rhywle ar y sabbath. † Er dangos eu mawr gariad tuag atynt, fel henuriaid Ephesus: pen. 20. 38. ‡ Felly y gwnaed wrth ymadael o Miletus: pen. 20. 36. Pe gwelid amryw bobl grefyddol yn gwneyd felly yn y wlad gristionogol hon, ac yn enwedig yn agos i rai o'n dinasoedd neu ein porthladdoedd masnachol, gwatwarid hwynt fel plaid o ddynion penboethion a rhith-grefyddol.

6 [o] * Ac wedi i ni ymgyfarch â'n gilydd, ni a ddringasom i'r llong; [p] a hwythau a ddychwelasant i'w cartref.

o 2 Cor. 2. 13. p Ioan 1. 11. a 7. 53. a 16. 32. a 19. 27.

* Gwedi iddynt ysgwyd dwylo yn garedig, ac efallai arfer y "cusan sanctaidd," dringodd Paul a'i gyfeillion i'r llong i fyned i'w taith; a dychwelodd y lleill i'w teïau ac at eu galwedigaethau.

7 * Ac wedi i ni orphen hwylio o Tyrus, ni a ddaethom i † Ptolemais: [q] ‡ ac wedi *i ni* gyfarch y brodyr, [r] ni a drigasom un diwrnod gyd â hwynt.

q adn. 19. pen. 18. 22. a 25. 13. 1 Sam. 10. 4. a 13. 10. Mat. 5. 47. Heb. 13. 24. r adn. 10. pen. 28. 12.

* Dyma orphen hwylio ar y môr, aethant y rhan arall o'u taith i Jerusalem ar draed ar hyd y tir. † Ptolemais oedd ddinas borthladdawl ar fôr-draith Galilea, tua deugain milltir i'r dehau o Tyrus. Accho oedd ei henw hi gynt; (Barn. 1. 31;) a galwyd hi Ptolemais gan Ptolemy, brenin yr Aipht, yr hwn a'i hail-adeiladodd hi. O gwmpas yma bu brwydrau dychrynllyd yn amser y rhyfel-gyrch ynfyd hwnw, a elwid Rhyfel y Groes gynt; ac yn meddiant y Twrc y mae yn awr, dàn yr enw Acca, neu Acra. ‡ Cawsant rai brodyr i ymgyfarch â hwynt yno; lle yr arosasant un diwrnod i fynegi iddynt eu helyntion, a llwyddiant yr efengyl yn mhlith y cenedloedd.

8 [s] * A thrannoeth y rhai oedd ynghylch Paul a ymadawsant, † ac a ddaethant i [t] Cesarea. ‡ Ac wedi i ni fyned i mewn i dŷ [u] Phylip [x] yr efengylwr (yr hwn ‖ oedd *un* o'r saith) ni a arhosasom gyd âg ef.

s pen. 16. 10, 13, 16, 17. a 20. 6, 13. a 27. 1, 2. a 28. 11, 16. t pen. 8. 40. a 9. 30. a 10. 1. a 18. 22. a 23. 23. u pen. 6. 5. a 8. 5—13, 26—40. x Eph. 4. 11. 2 Tim. 4. 5.

* "Y rhai oedd yn nghylch Paul," a Phaul ei hun gyda hwynt hefyd, fel y mae yn amlwg yn nghanlyniad yr hanes. † Cesarea Stratonis, fel ei gelwid, oedd hon, nid Cesarea Philippi: soniasom am dani lawer gwaith o'r blaen. Yr oedd yn sefyll ychydig mwy na deugain milltir i'r dehau o Ptolemais, a myned ar linell union tuag ati; ond yr oedd yn rhaid amgylchu llawer gyda glànau y môr i fyned yno ar draed o Ptolemais. Yma yr oedd Cornelius y Canwriad yn byw, (pen. 10. 1,) yr hwn, yn nghyd a'i deulu, oedd y cenedloedd dïenwaededig cyntaf a fedyddiwyd i'r ffydd Gristionogol. ‡ Gwelsom am y Phylip hwn o'r blaen yn pen. 8. 5—13, 26—40. ‖ Un o'r saith a ddewisasid i wasanaethu byrddau yn eglwys Jerusalem, pen. 6. 5: i dŷ hwn yr aeth Paul a'i gyfeillion, ar eu mynediad cyntaf i Cesarea.

9 Ac i hwn yr oedd pedair merched [y] * o forwynion, [z] † yn prophwydo.

y 1 Cor. 7. 25—34, 38. z pen. 2. 17. Ex. 15. 20. Barn. 4. 4. 2 Bren. 22. 14. Neh. 6. 14. Joel 2. 28. 1 Cor. 11. 4, 5. Dat. 2. 20.

* Morwynion, neu wŷryfon oeddynt y pryd hwn; ond nis gwyddom iddynt barâu felly am eu hoes: nid oedd eu tad na'u crefydd yn gwahardd iddynt briodi yn yr Arglwydd. † Yr oedd hyn yn gyflawniad o brophwydoliaeth Joel 2. 28, 29. Yr oeddynt wedi derbyn ysbryd prophwydoliaeth ill pedair, i allu rhagfynegi pethau i ddyfod, ac i ddeall a dëongli prophwydoliaethau yr Hen Destament; ond nid i lefaru yn gyhoeddus yn yr eglwys, yr oedd hyny yn waharddedig, 1 Cor. 14. 34; 1 Tim. 2. 12. Anrhydedd mawr oedd y fath ferched i Phylip.

10 [a] Ac fel yr oeddem yn aros *yno* ddyddiau lawer, * daeth i waered o Judea brophwyd a'i enw [b] Agabus.

a adn. 4, 7. pen. 20. 16. b pen. 11. 28.

* Am yr Agabus hwn gwelsom o'r blaen, pen. 11. 28. Dïammau fod Paul yn ei gofio ef, ac yn cofio ei brophwydoliaeth ef am y newyn y tro hwnw. Dywedir iddo "ddyfod i waered o Judea," oblegid nid yn Judea yn bríodol yr oedd Cesarea; eithr yn y rhan hyny o Ganaan a berthynai gynt i freninoedd Israel, ac nid i freninoedd Judah.

11 Ac wedi dyfod attom, [c] a chymmeryd * gwregys Paul, † a rhwymo ei ddwylaw ef a'i draed, efe a ddywedodd, [d] Hyn a ddywed yr Ysbryd Glân; [e] ‡ Y gwr bïau y gwregys hwn a rwym yr Iuddewon fel hyn yn Jerusalem, [f] ‖ ac a'*i* traddodant i ddwylaw y Cenhedloedd.

c 1 Sam. 15. 27, 28. 1 Bren. 11. 29—31. 2 Bren. 13. 15—19. Jer. 13. 1—11. a 19. 10, 11. Ezec. 24. 19—25. Hos. 12. 10. d pen. 13. 2. a 16. 6. a 20. 23. a 28. 25. Heb. 3. 7. 1 Pedr 1. 12. e adn. 33. pen. 22. 25. a 24. 27. a 26. 29. a 28. 20. Eph. 3. 1. a 4. 1. a 6. 20. 2 Tim. 2. 9. Heb. 10. 34. f pen. 28. 17. Mat. 20. 18, 19. a 27. 1, 2.

* Y gwregys yr arferai Paul wregysu ei ddillad llaesion âg ef wrth deithio. † Rhwymodd Agabus ei ddwylaw ei hun, ac wedi hyny ei draed ei hun, â'r gwregys, er dangos i Paul y rhwymau a roddid arno ef wedi hyny: yr oedd hyn yn ol arfer yr hen brophwydi gynt. Gwel 1 Bren. 22. 11; Es. 20. 2—4; Jer. 27. 2; ac amryw fànau cyffelyb. ‡ Gwelwn gyflawniad o hyn yn adn. 33; pen. 22. 25. ‖ Felly y gwnaed i'r awdurdodau Rhufeinig yn Jerusalem, ac wedi hyny yn Rhufain. Nid oedd dim o ofidiau Paul, ac nid oes dim o ofidiau y duwiolion eto, heb yn wybod i Dduw; nid damweiniol a dygwyddiadol ydynt, ond yn ol ei ragwybodaeth, ei ddanfoniad, neu ei oddefiad penarglwyddiaethol a doeth ef.

12 * A phan glywsom y pethau hyn, nyni, a'r rhai oedd o'r fan honno hefyd, [g] † a ddeisyfasom nad elai efe i fynu i Jerusalem.

g adn. 4. pen. 20. 22. Mat. 16. 21—23.

* Cydymdeithion Paul, a'i gyfeillion oedd yn byw yn Cesarea, † wedi clywed hyn, a fynent ei ddarbwyllo ef, nad elai i fynu i Jerusalem, yr un modd â'r rhai yn Tyrus o'r blaen, adn. 4. Yr oeddynt yn gwneyd hyn dàn wylo hefyd, fel y gwelwn yn yr adnod nesaf.

13 * Eithr Paul a attebodd, [h] Beth a wnewch chwi [i] yn wylo, ac yn torri fy nghalon i? [k] ‡ canys parod wyf fi nid i'm rhwymo yn unig, ond i farw hefyd yn Jerusalem, ‖ er mwyn enw yr Arglwydd Iesu.

h 1 Sam. 15. 14. Es. 3. 15. Ezec. 18. 2. Jona 1. 6. i pen. 20. 37. 1 Sam. 1. 8. Phil. 2. 26. 2 Tim. 1. 4. k pen. 20. 24. Rhuf. 8. 35—37. 1 Cor. 15. 31. 2 Cor. 4. 10—17. a 11. 23—27. Phil. 1. 20, 21. a 2. 17. Col. 1. 24. 2 Tim. 2. 4—6. 2 Pedr 1. 14. Dat. 3. 10. a 12. 11.

* Atebodd Paul gyda chryfder meddwl a gwroldeb ysbryd rhagorol, a chyda gradd o wresawgrwydd ac anfoddlonrwydd sanctaidd hefyd, yn debyg i'n Harglwydd Iesu wrth geryddu Pedr, pan fynai iddo drugarâu wrtho ei hun, Matth. 16. 23. Yr oedd ei gyfeillion yn gwrthwynebu ewyllys Duw, ac ewyllys a dyledswydd Paul hefyd: † ystyriai ei hun yn rhwym i fyned i Jerusalem, i ddwyn yr elusenau a gasglasai i'r saint, ac i ddybenion eraill hefyd; ac nid oedd eu hwylio a'u hymbil hwy i'r gwrthwyneb, ond gofidio ei feddwl, a thòri ei galon ef, a thaflu rhwystr ar ei ffordd yn llwybr ei ddyledswydd a'i ddymuniad. ‡ Dyma gariad tebyg o ran ei natur i gariad Crist; yr oedd Paul yn barod i ddyoddef rhwymau ac angau hefyd, os byddai raid, || er mwyn person, enw, anrhydedd, achos, a gwirioneddd yr Arglwydd Iesu a'i efengyl dragywyddol.

14 * A chan na ellid ei berswadio, † ni a beidiasom, gan ddywedyd, [l] Ewyllys yr Arglwydd a wneler.

l Gen. 43. 14. 1 Sam. 3. 18. 2 Sam. 15. 25, 26. 2 Bren. 20. 19. Mat. 6. 10. a 26. 39, 42. Luc 11. 2. a 22. 42.

* Hwy a wnaethent a allent, ac a ddylasent ei wneyd, mewn rhwymau a theimladau cariad; † a chan nas gallent lwyddo, nid oedd dim i'w wneyd ond ymostwng i ewyllys yr Arglwydd, a threiglo eu ffordd arno ef.

15 * Hefyd, ar ol y dyddiau hynny, † ni a gymmerasom ein beichiau, [m] ‡ ac a aethom i fynu i Jerusalem.

m pen. 18. 22. a 25. 6, 9.

* Ar ol y dyddiau yr arosasant yn Cesarea. † Dyma'r tro cyntaf y sonir am iddynt gymmeryd eu beichiau; efallai iddynt ddyfod gyda'r llong o Ptolemais i Cesarea, i'w cyfarfod hwy yno. Tybia rhai mai ar fulod, neu asynod y rheisant hwynt, a thybia eraill mai eu cario ar eu cefnau eu hunain a wnaethant. ‡ Tua hanner can milltir oedd y daith hon iddynt, ar eu traed. Cofied y darllenydd mai yn ol clorian fesurol *Scott*, yn ei ddarlun *(Map)* o deithiau yr apostolion, yr ydym yn crybwyll y pellder o un màn i'r llall trwy y llyfr hwn: dywed eraill fod Cesarea 75 milltir o Jerusalem.

16 [n] A *rhai* o'r disgyblion o Cesarea a ddaeth gyd â ni, * gan ddwyn un Mnason o [o] Cyprus, [p] † hen ddisgybl, gyd â'r hwn y llettyem.

n adn. 8. pen. 10. 24, 48. o adn. 3. pen. 11. 19. a 15. 39. p Salm 71. 17, 18. a 92. 14. Diar. 16. 31. Rhuf. 16. 7. Philemon 9. 1 Ioan 2. 13, 14.

* Gellid meddwl wrth rediad y geiriau mai yn Cesarea yr oedd Mnason yn byw, ac mai gydag ef y bu Paul a'i gyfeillion yn llettya tra buont yno; ond mae ein pedwar awdwyr yn dywedyd fel arall, mai eu "dwyn hwy *at* Mnason," yn Jerusalem, a ddylai y geiriau fod, ac mai yn Jerusalem y buont yn llettya gydag ef, ac nid yn Cesarea. † Wrth ei alw yn "*hen* ddisgybl," tybir iddo gael ei ddychwelyd i'r ffydd drwy wrando Crist ei hun, neu trwy ei apostolion ef ar ddydd y pentecost. Gallai fod yn frodor o Cyprus, ac wedi symmud i Jerusalem er ys blynyddau lawer.

17 * Ac wedi ein dyfod i Jerusalem, [q] y brodyr a'n † derbyniasant yn llawen.

q pen. 15. 4. Rhuf. 15. 7. Heb. 13. 1, 2. 3 Ioan 7, 8.

* Sef yr holl frodyr cristionogol yn eglwys Jerusalem. † Yr oedd amryw bethau yn achos iddynt lawenychu y waith hon; eu cariad diffuant at Paul a'i gyfeillion, fel brodyr cristionogol a gweision Crist: meithder yr amser er pan y gwelsant Paul o'r blaen: ei lafur, ei lwyddiant, a'i beryglon, a'i waredigaethau, yn yr holl fànau lle bu: a'r cynnorthwyon elusengar oedd ganddo iddynt hwy o'r mànau hyny.

18 * A'r *dydd* nesaf yr aeth Paul gyd â ni i mewn [r] at Iago: [s] † a'r holl henuriaid a ddaethant yno.

r pen. 15. 13. Mat. 10. 2. Gal. 1. 19. a 2. 9. Iago 1. 1. s pen. 15. 2, 6, 23. a 20. 17.

* Mae yn debyg fod Iago o hyd yn aros yn Jerusalem, a thybir mai efe oedd yr unig un o'r apostolion oedd yn preswylio yno y pryd hwn. Aeth Paul i ymweled âg ef, un ai yn ei dŷ ei hun, neu yn yr eglwys, a chymmerodd ei gyd-ymdeithwyr gydag ef, i'w dwyn i gydnabyddiaeth â Iago, yr hwn nis gwelsai y rhan fwyaf o honynt erioed o'r blaen, os gwelsai yr un o honynt ef erioed. † Henuriaid yr eglwys yn Jerusalem.

19 Ac wedi iddo gyfarch gwell iddynt, [t] * efe a fynegodd iddynt bob yn un ac un, † bob peth a wnaethai Duw ym mhlith y Cenhedloedd trwy ei weinidogaeth ef.

t pen. 11. 4, &c. a 14. 27. a 15. 4, 12. Rhuf. 15. 18, 19. 1 Cor. 3. 5—9. a 15. 10. 2 Cor. 6. 1. Col. 1. 29.

* Yr oedd ganddo lawer o bethau rhyfedd iawn i'w mynegi, a'u hadrodd yn fanol, bob yn un ac un; † a chan mai Duw oedd wedi eu gwneyd, yr oedd yn iawn iddo eu mynegi, er gogoniant i Dduw, ac fel y caffai ei glodfori gan y cristionogion hyn. Hyny yn ddiau oedd dyben Paul yn eu hadrodd, ac nid er ymffrost o'i lafur a'i lwyddiant ei hun.

20 * A phan glywsant, [u] hwy a ogoneddasant yr Arglwydd, ac a ddywedasant wrtho, † Ti a weli, frawd, [x] pa sawl [y] ‡ myrddiwn sydd o'r Iuddewon y rhai a gredasant, [z] || ac y maent oll yn dwyn zel i'r ddeddf.

u pen. 4. 21. a 11. 18. Salm 22. 23, 27. a 72. 17—19. a 98. 1—3. Es. 55. 10—13. a 66. 9—14. Luc 15. 3—10, 32. Rhuf. 15. 6, 7, 9—13. Gal. 1. 24. 2 Thes. 1. 10. Dat. 19. 6, 7. x pen. 2. 41. a 4. 4. a 6. 7. Mat. 13. 31—33. Ioan 12. 24. y Luc 12. 1. z pen. 15. 1, 5, 24. a 22. 3. Rhuf. 10. 2. Gal. 1. 14.

* Dyna'r effaith a gafodd yr adroddiad ar feddyliau pawb presenol, cydnabuant mai gwaith Duw ydoedd, effaith ei orchfygol ras ef; ymorfoleddasant yn y newyddion da, a gogoneddasant yr Arglwydd Iesu, am y fath lwyddiant mawr ar ei air bendigedig. † Yna, er lòni ei galon yntau, ac er ei darpar i dderbyn cyngor ganddynt hefyd; (adn. 23, 24;) maent hwythau yn mynegi iddo am fawr lwyddiant yr efengyl yn mhlith yr Iuddewon, yn Jerusalem, a thrwy holl wlad Judea, &c. ‡ Rhifedi terfynol am annherfynol sydd yma: *myriades*, yn arwyddo llawer iawn; fel yn Luc. 12. 1; Heb. 12. 22; Judas 14. || Ystyrid y rhai hyn wedi credu yn wirioneddol yn yr Arglwydd Iesu, ac yn ei broffesu ef yn gyhoeddus; ac eto o eisiau goleuni gwell, yr oeddynt yn boeth iawn am ddàl i fynu gyflawniadau y ddeddf seremoniol, megys yr enwaediad, y gwyliau, &c.

21 * A hwy a glywsant am danat ti, [a] dy fod di yn dysgu yr Iuddewon oll, y rhai sydd ym mysg y Cenhedloedd, † i ymwrthod â Moses; ac yn dywedyd, na ddylent hwy enwaedu ar *eu* plant, na rhodio yn ol y defodau.

a pen. 6. 13, 14. a 16. 3. a 28. 17. Rhuf. 14. 1—6. 1 Cor. 9. 19—21. Gal. 5. 1—6. a 6. 12—15.

* Y gau-athrawon Iuddewaidd, y rhai oedd yn trallodi yr eglwysi yn mhlith y cenedloedd, ac yn drwgliwio Paul yn mhob màn; oeddynt hefyd wedi bod yn brysur iawn i daenu chwedlau am dano ef yn mhlith y cristionogion o'i genedl ei hun yn ngwlad Judea, cyn iddo ef ddyfod yno. † I *wrthgilio* oddi wrth Moses, ac oddi wrth holl osodiadau y ddeddf seremoniol a roddasid trwy Moses: nid yn unig trwy dderbyn y cenedloedd i'r eglwysi heb eu hanwaedu; ond trwy ddysgu yr Iuddewon hefyd na ddylent enwaedu eu plant na chadw defodau seremoniol y ddeddf. Yn hyn yr oeddynt wedi cam glywed: oblegid er y byddai yr apostol yn dangos nad oedd neb yn rhwym i gadw y ddeddf seremoniol mwyach, ac na ddylent hyderu dim

ar y fath ufudd-dod am gyflawnder ger bron Duw; ni warafunodd efe erioed i'r Iuddewon cristionogol ei chadw fel mater o gydwybod a chyfleusdra, pan fyddai eu cymmundeb â'u brodyr cenedlig yn goddef hyny. Gwel pen. 16. 1—3.

22 * Pa beth gan hynny? [b] † nid oes fodd na ddêl y lliaws ynghyd: ‡ canys hwy a gânt glywed dy ddyfod di.

b pen. 15. 12, 22.

* Pa beth gan hyny a wneir yn yr amglychiad hwn, i dynu ymaith eu rhagfarn hwy, i ennill eu hewyllys da hwy tuag atat ti, i beri iddynt dybied yn dda am dy lafur a'th lwyddiant di yn mhlith y cenedloedd, ac fel y derbyniont yn garedig dy elusenau di oddi wrth y cenedloedd? † Mae miloedd o honynt yn Jerusalem yn awr ar yr ŵyl, ac oni wnair rhywbeth, hwy a fyddant sicr o ddyfod yn nghyd a chodi terfysg, a gwneuthur achwyn yn dy erbyn di; ‡ oblegid nid oes fodd na chlywant ryw ffordd yn fuan dy fod di wedi dyfod yma: mae i ti elynion lawer, y rhai sydd brysur yn yspïo am danat ti.

23 * Gwna gan hynny yr hyn a ddywedwn wrthyt; [c] † Y mae gennym ni bedwar gwŷr a chanddynt adduned arnynt:

c pen. 18. 18. Num. 6. 2—7.

24 ‡ Cymmer y rhai hyn, [d] a glanhâer di gyd â hwynt; ‖ a gwna draul arnynt, [e] § fel yr eilliont *eu* pennau, ac y gwypo pawb am y pethau a glywsant am danat ti, * nad ydynt ddim, [f] † ond dy fod di dy hun hefyd yn rhodio, ac yn cadw y ddeddf.

d adn. 26. pen. 24. 18. Ex. 19. 10, 14. Num. 19. 17—22. 2 Cron. 30. 18, 19. Job 1. 5. a 41. 25. Ioan 3. 25. Heb. 9. 10—14.
e pen. 18. 18. Num. 6. 5, 9, 18. Barn. 13. 5. a 16. 17—19.
f 1 Cor. 9. 20, 21. Gal. 2. 12, 13.

* Caniatâ i ni gan hyny dy gyngori di; ac atolwg gwna yr hyn a ddywedwn ni wrthyt: † mae genym ni yn yr eglwys hon bedwar o ddynion, Iuddewon wedi derbyn yr efengyl, âg adduned Nazarëaeth arnynt; yr hon a gymmerasant arnynt am amser terfynedig, yr hwn sydd yn awr ar ben. (Gwel ar pen. 18. 18.) ‡ Yn awr ein cyngor ni ydyw, gan fod amglychiad y dynion hyn yn hysbys i bawb, cymmer hwy atat fel dy gyfeillion, a dos gyda hwy i'r deml, i gael dy lanâu yn ol defod y gyfraith yn y cyfryw amglychiadau, Num. 6. 2—12. ‖ Bydd yn gyfranog â hwynt hefyd o'r draul, neu y gost at yr aberthau, a orchymynir gan y gyfraith ar y cyfryw achosion, Num. 6. 13—20: neu, yn ol meddwl rhai, tâl di y draul i gyd drostynt, fel y gwelo pawb mai tydi yw y Nazarëad penaf o honynt, a'r mwyaf gwresog dros ddefodau y gyfraith. Peth cyffredin yn mhlith yr Iuddewon oedd i ddynion fod yn gyfranog o draul y Nazarëaid, neu dalu y cwbl o'r draul, pryd na byddai adduned Nazarëaeth arnynt hwy eu hunain: ond tybir y gwyddai yr henuriaid hyn am yr adduned a gymmerasai Paul yn Achaia, (pen. 18. 18,) ac mai oddi ar hyny y rhoisant y cyngor hwn iddo. § Gwedi gorphen eu neilldüaeth a'u haberthau, yr oedd y Nazarëaid yn cneifio eu gwallt, hyny oedd yn gorphen y cwbl. * Fel y gwypo pawb nad yw y pethau a ddywedir am danat ti ddim yn wir; nad wyt ti ddim yn dywedyd fod cadw defodau y ddeddf seremonïol yn *hollawl* anghyfreithlawn i bawb; beth bynag wyt yn ddywedyd am eu haflesiant yn y pwnc o gyfiawnâd a bywyd tragywyddol. † Pan welont dy fod di dy hun yn cadw y ddeddf, bydd yn anodd ganddynt goelio dy fod di yn annog eraill i beidio a'i chadw.—Nid oedd Iago a'r henuriaid yn meddwl fod yn angenrheidiol cadw y ddeddf seremonïol mwy na Phaul; eto, am eu bod hwy yn byw yn Jerusalem, a phob amser dàn sylw manol ac eiddigus yr offeiriaid a'r Sanhedrim, yr oedd yn angenrheidiol iddynt gyd-ffurfio â rhai o'u defodau weithiau er mwyn diddigrwydd, a pheidio cael eu herlid fel gwrthgilwyr cyfeiliornus gan y creuloniaid hyny.

25 * Eithr am y Cenhedloedd y rhai a gredasant, [g] ni a ysgrifenasom, *ac* a farnasom, na bo iddynt gadw dim o'r cyfryw beth; † eithr iddynt ymgadw oddi wrth y pethau a aberthwyd i eilunod, a gwaed, a rhag *peth* tagedig, a rhag putteindra.

g Gwel ar pen. 15. 20, 29.

* Mae hyn yn brawf o gywirdeb y sylw diweddaf uchod a wnaed, nad oeddynt hwy ddim yn meddwl fod cadw defodau y ddeddf seremonïol yn hanfodol i fywyd tragywyddol, nac i ddyledswyddau y grefydd gristionogol ychwaith; oblegid pe buasent, buasent yn meddwl eu bod yn angenrheidiol i'r cenedloedd yn gystal â'r Iuddewon: ond yma maent yn barnu ac yn ysgrifenu, nad oedd raid i'r cenedloedd gadw y cyfryw bethau. † Am hyn, gwel ar pen. 15. 20, 28, 29. Nid oeddynt hwy yn barnu dim yn awr, ond yr hyn a farnasant o'r blaen.

26 * Yna Paul a gymmerth y gwŷr; † a thrannoeth, gwedi iddo ymlanhâu gyd â hwynt, [h] ‡ efe a aeth i mewn i'r deml; [i] gan hysbysu cyflawni dyddiau y glanhâd, hyd oni offrymmid offrwm dros bob un o honynt.

h pen. 24. 18. i Num. 6. 13—20.

* Mewn ufudd-dod i'w frodyr, o herwydd yr amglychiad presenol, ac o chwant gwneyd ei hun yn bob peth i bawb; mae Paul yn cymmeryd eu cyngor hwy, ac yn gwneyd fel y deisyfasant arno. Tybia rhai ei fod ef â hwythau i'w beïo yn y tro hwn, ac na ddylasent gyd-ffurfio cyn belled â deddf a ddylasai fod eisoes wedi ei hollawl ddiddymu, a hyny o herwydd rhagfarn dynion mawr eu *zel* ac heb wybodaeth: ond gwell i ni fod yn gynnil yn y peth hwn. † Trannoeth efe a ddechreuodd gyflawni defodau y puredigaeth gyda'r pedwar eraill, ‡ ac a aethant i mewn i'r deml i hysbysu i'r offeiriad eu bod wedi eu rhwymo eu hunain i ymneilldüad crefyddol am saith niwrnod, y rhai a gyflawnent hwy gyda'r defodau arferol, hyd yr amser i offrymu yr aberthau dros bob un o honynt yn ol y ddeddf.

27 * A phan oedd y saith niwrnod ar ddarfod, [k] † yr Iuddewon oeddent o Asia, pan welsant ef yn y deml, [l] ‡ a derfysgasant yr holl bobl, [m] ‖ ac a ddodasant ddwylaw arno,

k pen. 24. 18. l pen. 6. 12. a 13. 50. a 14. 2, 5, 19. a 17. 5, 6, 13. a 18. 12. l Bren. 21. 25. m pen. 4. 3. a 5. 18. a 26. 21. Luc 21. 12.

* Y saith niwrnod a addunedasai ef i ymneilldüaeth, ar ddiwedd pa rai yr oedd efe i offrymu ei aberthau, ac i fyned yn rhydd o'i adduned. Nis gallent fod *ar* ddarfod yn hollawl; ni chyd-saif hyny â'r deuddeg diwrnod a grybwylla efe wrth Felix, oedd er pan ddaethai efe i addoli yn Jerusalem, pen. 24. 11. Rhaid mai rywbryd yn yspaid y saith niwrnod a feddylir, pan oeddynt yn tynu tuag at gyflawniad. Saith niwrnod er pan ddaethai efe i Jerusalem, medd rhai; atebai felly yn burion: y saith hyn, a phump mewn dalfa, pen. 24. 1, a wna y deuddeg a soniwyd uchod. Mae yn anodd iawn cysoni yr amserau a grybwyllir heb gymmeryd un o'r ddwy ffordd uchod. † Yr Iuddewon o Ephesus a mànau eraill yn Asia Leiaf, gelynion enbyd i Paul, fel y gwelsom yn yr holl hanes blaenorol. ‡ Ymddygiad anweddus iawn oedd hyn i sancteiddrwydd y deml, a'r addoliad oedd ynddi y pryd hwnw; ‖ ac yr oedd dodi eu dwylaw arno ef yn y deml hefyd, yn dra afrëolaidd ac yn drosedd ar y gyfraith, oddigerth y gallent brofi fod yn anghyfreithlawn iddo ef fod yn y deml, yr hyn nis gallent.

28 * Gan lefain, [n] *Ha* wŷr Israeliaid, cynnorthwywch. [o] † Dyma y dyn ‡ sydd yn dysgu pawb ym mhob man yn erbyn y bobl, a'r gyfraith, a'r lle yma: ‖ ac ym mhellach,

[n]y Groegiaid hefyd a ddug *efe* i mewn i'r deml, ac a halogodd y lle sanctaidd hwn.

n pen. 19. 26—28. a 24. 5, 6. o adn. 21. pen. 6. 13, 14. a 24. 5, 6, 18. a 26. 20, 21. p Jer. 7. 4, &c. Galar. i. 10.

* Ha wŷr Israel, od oes ynoch chwi ddim ysbryd, ddim eiddigedd dros eich crefydd, a dim parch i'r lle sanctaidd hwn, deuwch yma, a chynnorthwywch ni â'ch holl allu. † Dyma'r dyn y dywedasom wrthych am dano o'r blaen, (adn. 21,) sydd yn hau cyfeiliornadau ydychrynllyd yn mhob màn, trwy holl Asia, Macedonia, ac Achaia: ‡ mae yn dywedyd yn erbyn y bobl, yr Iuddewon, nad ydynt hwy ddim i fod yn bobl briodol i Duw mwyach, nad oes dim rhagoriaeth i fod mwyach, rhyngddynt hwy a'r cenedloedd; ac y cawn ein gwrthod gan Dduw oni chredwn mai Iesu o Nazareth yw y Messiah; mae yn dywedyd yn erbyn y ddeddf seremoniol trwy ddirmygu yr enwaediad, &c., ac yn erbyn y ddeddf ofoesol trwy bregethu cyfiawnâd trwy ffydd, heb weithredoedd y ddeddf: o ganlyniad mae yn dywedyd yn erbyn y lle sanctaidd hwn, oblegid beth yw y deml os diddymir y ddeddf seremoniol, lle mae ei holl ddefodau yn cael eu cyflawni? Efallai iddynt glywed fod Paul yn rhag-fynegi dinystr y deml hefyd. || Gallai y cenedloedd ddyfod i gyntedd y cenedloedd, ond rhwng hwnw â chyntedd meibion Israel yr oedd mûr y gwahaniaeth, ag ysgrifen arno yn gwahardd i bob cenedl-ddyn ddyfod o'i fewn. Yn awr, anwiredd oedd yr holl gyhuddiadau uchod, yn yr ystyr a roddent *hwy* iddynt; ac anwiredd hollawl oedd i Paul ddwyn neb o'r Groegiaid i mewn i gyntedd y deml a berthynai i'r Iuddewon.

29 * Canys hwy a welsent o'r blaen [q]Trophimus yr Ephesiad yn y ddinas gyd âg ef, † yr hwn yr oeddynt hwy yn tybied ddarfod i Paul ei ddwyn i mewn i'r deml.

q pen. 20. 4. 2 Tim. 4. 20.

* Am y Trophimus hwn, gwel ar pen. 20. 4. † O herwydd iddynt ei weled ef gyda Paul o'r blaen yn y ddinas, cymmerasant yn ganiatâol iddo ei ddwyn ef i mewn i'r deml hefyd; a chyhuddent ef ar gam o hyny, nu ai yn gamsyniol neu yn fwriadol, yn eu gwalligofrwydd ynfyd.

30 [r] * A chynhyrfwyd y ddinas oll, a'r bobl a redodd ynghyd: [s] † ac wedi ymaelyd yn Paul, hwy a'i tynnasant ef allan o'r deml. ‡ Ac yn ebrwydd cauwyd y drysau.

r pen. 16. 20—22. a 19. 29. a 26. 21. Mat. 2. 3. a 21. 10. s pen. 7. 57, 58. a 16. 19. Luc 4. 29. 2 Cor. 11. 26.

* Cyffrôdd y ddirwaedd uchod (adn. 28,) yr holl filoedd o Iuddewon, nid yn unig yn y deml, ond trwy y ddinas hefyd, a rhedasant yn nghyd i weled beth oedd yr achos: † ac wedi deall mai Paul oedd yr un y bloeddid yn ei erbyn, hwy a ymaflasant ynddo yn orwyllt, ac a'i tynasant ef allan o'r deml yn ffyrnig, fel nad halogid y lle sanctaidd â'i waed ef. ‡ Yna yn y fàn cauwyd drysau y deml, fel na byddai ychwaneg o derfysg ac annhrefn yno. Cymmaint oedd eu rhagfarn hwy o blaid defodau seremoniol, ac ar yr un pryd nid oeddynt yn petruso lladd un o'r gorau o ddynion heb un achos cyfiawn.

31 [t] * Ac fel yr oeddynt hwy yn ceisio ei ladd ef, † daeth y gair at [u]ben-capten y fyddin, [x] ‡ fod Jerusalem oll mewn terfysg.

t pen. 22. 22. a 26. 9, 10. Ioan 16. 2. u pen. 23. 17. a 24. 7, 22. a 25. 23. Ioan 18. 12. x adn. 38. pen. 17. 5. a 19. 40. 1 Bren. 1. 41. Mat. 26. 5. Marc 14. 2.

* Dywedir y byddai yr Iuddewon yn hòni hawl i ladd unrhyw ddyn dienwaededig os rhyfygai ddyfod o fewn i'r gwahan-fur, heb un math o brawf na barn arno; ac fel hyny y mynent ymddwyn tuag at Paul y tro hwn, er mai Iuddew cystal a'r un o houynt ydoedd. † Claudius Lysias oedd y pen-capten hwn (pen. 23. 26,) yr hwn oedd ben-swyddog y milwyr Rhufeinig yn Jerusalem. Byddai rhyw nifer o filwyr Rhufeinig bob amser o amgylch pyrth y deml ar amserau y gwyliau, yn gwarchod rhag i'r Iuddewon derfysgu, a chodi yn erbyn y llywodraeth Rufeinig, yr hyn a wnaent yn fynych: rhai o'r milwyr hyn a redodd â gair i'r pen-capten, ‡ fod Jerusalem oll mewn terfysg ofnadwy, nas gwyddid beth fyddai y canlyniad.

32 * Yr hwn allan o law a [y]gymmerodd filwyr, a chanwriaid, [z] ac a redodd i waered attynt: † hwythau, pan welsant y pen-capten a'r milwyr, [a] a beidiasant â churo Paul.

y pen. 23. 23, 24. z pen. 23. 27. a 24. 7. a pen. 5. 40. a 18. 17. a 22. 19. Es. 3. 15.

* Gwyddai y pen-capten yn dda pa mòr enbyd dynion oedd yr Iuddewon pan ddechreuent derfysgu; gan hyny ni chollodd ddim amser i ddyfod o'r castell i'w daros twng a'u llonyddu: yr hyn a fu yn foddion i achub bywyd Paul rhag cael ei ladd yn y fàn hòno ganddynt. † Pan welsant ef a'r milwyr yn dyfod am eu penau, hwy a beidiasant a churo Paul: ei guro ef i farwolaeth a wnaethent oni buasai hyny; hyny oedd eu hamcan, ac felly gwnaent â ffyn ac â cherig, bawb a ddalient yn halogi y deml.

33 * Yna y daeth y pen-capten yn nês, ac a'i daliodd ef, ac a archodd *ei* [b]rwymo *ef* â dwy gadwyn; [c] † ac a ymofynodd pwy oedd efe, a pha beth a wnaethai.

b adn. 11. pen. 12. 6. a 20. 23. a 22. 25, 29. a 28. 20. Barn 15. 13. a 16. 8, 12, 21. c pen. 22. 24. a 25. 16. Ioan 18. 29, 30.

* Canfu y pen-capten mai Paul oedd gwrthddrych digofaint yr holl derfysgwŷr, a chan feddwl ei fod ef wedi gwneuthur rhyw fawr-ddrwg, ac ar yr un pryd i achub ei fywyd ef, efe a'i daliodd ef, ac a archodd ei rwymo ef â dwy gadwyn fel y rhag-ddywedasai Agabus o'r blaen y caffai, adn. 11. † Gwedi diogelu y dyn, ymholodd pwy oedd efe, a pha beth a wnaethai, i ennyn y fath derfysg yn mhlith y bobl, a'r fath ddigofaint yn ei erbyn ei hun.

34 [d] * Ac amryw rai a lefent amryw beth yn y dyrfa: [e] ac am nas gallai wybod hysbysrwydd o herwydd y cythrwfl, † efe a orchymynodd ei ddwyn ef [f] i'r castell.

d pen. 19. 32. e pen. 22. 30. a 25. 26. f adn. 37. pen. 22. 24. a 23. 10, 16.

* Ni buasai gwaeth iddo heb ymofyn; yr oedd y dorf yn rhŷ derfysglyd i allu rhoi gwybod iddo: llefai rhai y peth hyn, a rhai y peth arall, fel nad oedd modd iddo ef wybod beth a ddywedent oll ar unwaith felly, ac yn wir nis gwyddent eu hunain. † Gan nas gallai gael hysbysrwydd gan y bobl, parodd ei ddwyn ef i'r castell, neu dŵr Antonio, fel ei gelwid, yr hwn oedd bron yn y fàn hòno, fel y gallai ei ddiogelu ef fel drwg-weithredwr i'w holi ef ei hun, a holi y bobl yn ei gylch ef ar ol iddynt lonyddu.

35 * A phan oedd efe ar y grisiau, † fe a ddigwyddodd gorfod ei ddwyn ef gan y milwyr, [g] o achos trais y dyrfa.

g Gen. 6. 11, 12. Salm 55. 9. a 58. 2. Jer. 23. 10. Hab. 1. 2, 3.

* Dywed *Josephus* fod y castell hwn yn sefyll ar graig o hanner can cufydd o uwchder, wrth gongl y deml; a bod grisiau yn myned i fynu iddo o borth gogleddol a phorth gorllewinol y deml. † Cymmaint oedd cynddeiriogrwydd ei elynion, fel y mynent ei guro ef, er ei fod wedi ei rwymo â dwy gadwyn; felly i'w achub ef rhagddynt, gorfu ar y milwyr ei amddiffyn ef, a'i ddwyn rhyngddynt i fynu y grisiau i'r castell.

36 * Canys yr oedd lliaws y bobl yn canlyn, gan lefain, [h] Ymaith âg ef.

h pen. 7. 54. a 22. 22. Luc 23. 18. Ioan 19. 15.

* Canlynodd y filein-dorf ef hyd y beiddient, yn y modd mwyaf terfysglyd a chynddeiriog; † gan waeddi yn haerllug, Ymaith âg ef, rhodder ef i farwolaeth yn ddioed, nid cyfreithlawn i'r fath adyn gael byw, ac nis gallwn ni oddef edrych arno yn fyw. Fel hyn y llefwyd

am Iesu ei hun, (Ioan 19. 15,) a digon i'r dysgybl fod fel ei Arglwydd.

37 * A phan oedd Paul ar ei ddwyn i mewn i'r castell, † efe a ddywedodd wrth y pen-capten, [i] Ai rhydd i mi ddywedyd peth wrthyt? ‡ Ac efe a ddywedodd, A fedri di Roeg?

i adn. 19. pen. 19. 30. Mat. 10. 18—20. Luc 21. 15.

* Pan oedd efe ar ben y grisiau, o gyrhaedd ei erlidwyr a thàn amddiffyn y milwyr, † efe a ofynodd yn ostyngedig a pharchus i'r pen-capten, a ga'i efe ddywedyd gair wrtho ef, pwy, a pha beth oedd efe, yr hyn nis gallai gael gwybod gan y dyrfa derfysglyd. ‡ Sŷnodd y pen-capten wrth ei glywed ef yn siarad Groeg: Beth, ebai efe, a fedri di Roeg yn ddigon hyddysg i ymddiddan yuddi? Ychydig a wyddai efe pwy, a pha fath ddyn oedd ganddo yn garcharor, ac wedi ei rwymo.

38 * Onid tydi yw yr Aiphtwr, [k] yr hwn o flaen y dyddiau hyn a gyfodaist derfysg, ac a arweiniaist i'r anialwch bedair mil o wŷr llofruddiog?

k pen. 5. 36, 37. Mat. 5. 11. 1 Cor. 4. 13.

* Nis gwyddis enw yr Aiphtwr hwn, rhyw gau-brophwyd ydoedd, a ddaethai o'r Aipht rai blynyddoedd cyn yr amser hwn, ac a arweiniasai bedair mil o ddynion drygionus a llofruddiog o Jerusalem i'r anialwch, ar fedr codi terfysg a gwrthryfel yn y wlad. Dywedir iddo chwanegu ei fyddin o ddeng mil ar hugain yn yr anialwch, ac iddo eu dwyn i fynydd yr Olew-wydd, gan addaw iddynt y syrthiai muriau Jerusalem wrth ei orchymyn ef, ac y caent hwythau fyned i mewn a'i meddiannu hi: ond yr Iuddewon yn lle ymuno âg ef, a safasant yn ei erbyn; a daeth Felix a'r milwyr Rhufeinig allan yn ei erbyn, pryd y ffôdd y rhan fwyaf o'i blaid ef, y daliwyd ac y lladdwyd y lleill, ac y diangodd yr Aiphtwr ei hun nas gwyddid i ba le.

39 * A Phaul a ddywedodd, [l] Gwr ydwyf fi yn wir o Iuddew, † *un* o Tarsus, [m] dinesydd o ddinas nid anenwog, o [m] Cilicia; ‡ ac yr wyf yn deisyf arnat ti, [o] dyro gennad i mi i lefaru wrth y bobl.

l pen. 9. 11, 30. a 22. 3. a 23. 34. m pen. 6. 9. a 15. 23, 41. n pen. 16. 37. a 22. 25—29. a 23. 27. o adn. 37. 1 Pedr 3. 15. a 4. 15, 16.

* Gwr o Iuddew ydwyf fi, ebai Paul, ac nid Aiphtwr; † un o Tarsus, dinas enwog yn Cilicia, talaeth o Asia leiaf, ac nid o'r Aipht; ‡ mae genyf hawl i ddinas-fraint Rhufain, gan hyny yr wyf yn deisyf arnat roddi cenad i mi, fel rhydd ddinesydd, i lefaru wrth y bobl.

40 * Ac wedi iddo roi cennad iddo, † Paul a safodd [p] ar y grisiau, [q] ‡ ac a amneidiodd â llaw ar y bobl. ‖ Ac wedi gwneuthur [r] distawrwydd mawr, efe a lefarodd wrthynt yn [s] Hebraeg, gan ddywedyd,

p adn. 35. 2 Bren. 9. 13. q pen. 12. 17. a 13. 16. a 19. 33. r pen. 22. 2. s pen. 6. 1. a 26. 14. Luc 23. 38. Ioan 5. 2. a 19. 13, 17, 20. Dat. 9. 11. a 16. 16.

* Y pen-capten wedi clywed hyn, a newidiodd ei feddwl am dano, ac a ganiatâodd iddo lefaru wrth y bobl. † Lle cyflëus iawn, uwch benau y dorf afrifed oedd ar lawr. ‡ Felly y gwnaid mewn cynnulleidfa i gael gosteg, pen. 12. 17; a 13. 16. ‖ Rhwng blys a chwilfrydedd i glywed beth a ddywedai efe, ac rhag ofn y pen-capten, gwnaed distawrwydd mawr, er maint oedd y sŵn a'r terfysg o'r blaen. § Deallai pawb o honynt Hebraeg, a Hebraeg oedd fwyaf derbyniol ganddynt: eto nid yr hen Hebraeg bur a diledryw oedd hon; eithr y Syriaeg, neu y Galdeaeg, yn ol barn y dysgedigion oll: efallai mai cymmysg o bob un o'r tair oedd gan yr Iuddewon er amser caethiwed Babilon, ac eto yn myned dàn yr enw Hebraeg, am mai Hebraeg oedd y gwreiddyn, a Hebreaid oedd yn ei llefaru. Sŷnodd y pen-capten ei glywed ef yn siarad Groeg mòr hyddysg; sŷnodd fwy erbyn hyn ei glywed ef yn siarad Hebraeg hefyd mòr hyddysg: dechreuodd feddwl, mae yn debyg, mai rhyw ddyn mwy na chyffredin oedd ganddo dàn ei ofal.

PEN. XXII.

Paul yn mynegi yn helaeth y modd y troisid ef i'r ffydd.

[a] * HA wŷr, † frodyr, ‡ a thadau, [b] ‖ gwrandewch fy ymddiffyn wrthych yr awrhon.

a pen. 7. 2. a 13. 26. a 23. 1, 6. a 28. 17. b pen. 19. 33. a 24. 10. a 25. 8, 16. a 26. 1, 2, 24. Luc 12. 11. a 21. 14. Rhuf. 2. 15. 1 Cor. 9. 3. 2 Cor. 7. 11. a 12. 19. Phil. 1. 7, 17. 2 Tim. 4. 16. 1 Pedr 3. 15.

* "Ha wŷr;" dynion, neu grëaduriaid rhesymol ydych oll, er mòr annynol ac afresymol eich ymddygiad tuag ataf fi. † "Frodyr;" plant o genedl Abraham ydych chwi, ac felly finnau hefyd: gelwch chwi fi y peth a fynoch, ac ymddygwch ataf fel yr ymddygoch, eto mi a'ch galwaf chwi o hyd yn frodyr, ac yr wyf yn eich caru mewn gwirionedd fel brodyr. ‡ "A thadau;" mi a welaf lawer o honoch yn hen, a llawer o benaethiaid y bobl yn eich plith, y rhai a ddylwn ac ydwyf yn eu parchu fel tadau. ‖ Felly fel gwŷr, brodyr, a thadau, gwrandewch yn amyneddgar a diragfarn fy amddiffyn wrthych yr awr hon, ac amddiffyn yr athrawiaeth wyf yn bregethu.

2 (* A phan glywsant mai yn [c] Hebraeg yr oedd efe yn llefaru wrthynt, † hwy a roisant iddo osteg gwell. Ac efe a ddywedodd)

c Gwel ar pen. 21. 40.

* Hebraeg, (yn yr ystyr a soniwyd uchod pen. 21. 40,) a ddeallent oreu, ac oedd fwyaf derbyniol ganddynt. Wrth hyn yr oeddynt oll yn deall hefyd mai Hebrewr diledryw oedd efe, ac nid Groegwr; † am hyny hwy a roisant iddo osteg gwell: yr oeddynt hwy yn rhagfarnllyd iawn yn erbyn pob iaith a chenedl arall ond yr eiddynt eu hunain.

3 * Gwr wyf fi yn wir o [d] Iuddew, [e] † yr hwn a aned yn Tarsus [f] yn Cilicia, ‡ ac wedi fy meithrin yn y ddinas hon [g] wrth draed [h] Gamaliel, [i] ‖ *ac* wedi fy athrawiaethu yn ol manylaf gyfraith y tadau, [k] § yn dwyn zel i Dduw, fel yr ydych chwithau oll heddyw.

d pen. 21. 39. Rhuf. 11. 1. 2 Cor. 11. 22. Phil. 3. 5. e pen. 9. 11, 30. a 11. 25. f pen. 6. 9. a 15. 23, 41. a 23. 34. Gal. 1. 21. g Deut. 33. 3. Luc 2. 46. a 8. 35. a 10. 39. h pen. 5. 34. i pen. 23. 6. a 26. 5. Gal. 1. 14. Phil. 3. 5. k pen. 21. 20. 2 Sam. 21. 2. Rhuf. 10. 2, 3. Gal. 4. 17, 18. Phil. 3. 6.

* Gŵr wyf fi, am hyny dylwn gael y rhyddid i farnu drosof fy hun, ac ymddwyn attaf yn gyfiawn ac yn rhesymol fel crëadur rhesymol, ac o berchen teimlad dynol fel chwithau: ac nid hyny yn unig; gŵr wyf fi yn wir o Iuddew, o waed diledryw Abraham, cystal â'r un o honoch, ac nid Groegwr, na phroselyt i'r grefydd Iuddewig. † Yn Tarsus, dinas nid anenwog yn Cilicia, y'm ganwyd; ‡ ond cefais fy meithrin, a'm dwyn i fynu mewn dysgeidiaeth yn y ddinas hon, dan yr athraw enwog Gamaliel, (pen. 5. 34) y Pharisead a'r Doctor nodedig hwnw o'r gyfraith. ‖ Cefais fy athrawiaethu yn ol y dull manylaf o'r gyfraith oedd gan ein tadau, sef Phariseaeth, § ac yr oeddwn o gydwybod i Dduw mòr *zelog* dros fy mhlaid, a'r athrawiaeth y'm dysgwyd ynddi, ag ydyw neb o honoch chwithau heddyw.

4 [l] * A mi a erlidiais y [m] ffordd hon hyd angau, † gan rwymo a dodi y'ngharchar wŷr a gwragedd hefyd.

l adn. 19, 20. pen. 7. 58. a 8. 1—4. a 9. 1, 2, 13, 14, 21. a 26. 9—11. 1 Cor. 15. 9. 1 Tim. 1. 13—15. m pen. 16. 17. a 18. 26. a 19. 9, 23. a 24. 14.

* "Y ffordd hon" o grefydd, sef y grefydd gristionogol, y grefydd oedd Paul yn awr yn broffesu: mae yn dywedyd iddynt ei fod ef ei hun gynt yn erlid y ffordd neu

y grefydd hòno, a hyny yn greulawn iawn, hyd angau.
Yr oedd efe yn cytuno ac yn cynnorthwyo i ladd Stephan
y merthyr; ac efallai iddo fod yn achos marwolaeth
rhai eraill: ni ddylem feddwl fod llyfr yr Actau yn
rhoddi hanes am yr holl saint a ferthyrwyd yn y dydd-
iau hyny. † Gwel ar pen. 9. 1, 2.

5 [n] * Megis ag y mae yr arch-offeiriad yn
dyst i mi, [o] † a'r holl henaduriaeth; gan y
rhai hefyd y derbyniais lythyrau at y [d] brodyr,
‡ ac yr aethum i Damascus, ar fedr dwyn y
rhai oedd yno *hefyd*, yn rhwym i Jerusalem,
i'w cospi.

n pen. 9. 1, 2, 14. a 26. 12. o pen. 5. 21. Luc 22. 66.
p adn. 1. Rhuf. 9. 3, 4.

* Gwel ar pen. 9. 1, 2. † Sef y Sanhedrim, y cyngor
mawr yn Jerusalem. Efallai bod yr un arch-offeiriad,
a llawer o'r un Seneddwyr yn fyw yn awr ag oedd yn y
swyddau hyny pan oedd Paul yn erlidiwr; o leiaf yr
oeddynt i gyd mewn oed y pryd hwnw i allu cofio yr
amgylchiadau, ac i dystio os mynent. ‡ Gwel ar pen.
9. 2.

6 * Eithr digwyddodd, [q] a myfi yn myned,
ac yn nesáu at [r] Damascus, [s] † ynghylch han-
ner dydd, yn ddisymmwth i fawr oleuni o'r
nef ddisgleirio o'm hamgylch.

q Gwel ar pen. 9. 3—5. a 26. 12. r Gen. 14. 15. a 15. 2.
2 Sam. 8. 6. s pen. 26. 13. Es. 24. 23. Mat. 17. 2. Dat. 1. 16.

* Gwel ar pen. 9. 3. † Yn nghylch hanner dydd
medd Paul yma, nid yw Luc yn crybwyll yr amser yn y
lle blaenorol a nodwyd.

7 * A mi a syrthiais ar y ddaear, ac a
† glywais lais yn dywedyd wrthyf, [t] Saul,
Saul, [u] paham yr wyt yn fy erlid?

t Gen. 3. 9. a 16. 8. a 22. 1, 11. Ex. 3. 4. 1 Sam. 3. 10. u Es.
50. 18. a 43. 22—26. Jer. 2. 5, 9. Mat. 27. 23. 1 Tim. 1. 13.

* Gan rym ac effaith y goleuni, ar ei natur ac ar ei
feddyliau hefyd. † Clywodd lef, â'i glustiau naturiol,
yn galw yn ddifrifol arno wrth ei enw, fel y geilw y
naill ddyn ar y llall: fel y galwodd Duw ar Abraham,
Gen. 22. 11; ac ar Moses, Exod. 3. 4. ‡ Gwel ar pen.
9. 4.

8 A minnau a attebais, Pwy wyt ti, * *O*
Arglwydd? Yntau a ddywedodd wrthyf,
[x] † Myfi yw Iesu o Nazareth, [y] ‡ yr hwn yr
wyt ti yn ei erlid.

x pen. 3. 6. a 4. 10. a 6. 14. Mat. 2. 23. y pen. 26. 14, 15.
Ex. 16. 7, 8. 1 Sam. 8. 7. Zec. 2. 8. Mat. 10. 40—42. a 25. 40, 45.
1 Cor. 12. 12, 26, 27.

* Gwyddai Saul mai rhyw lais dwyfol oedd yn llefaru
wrtho, er nas gwyddai yn ei fraw a'i synedigaeth pwy
ydoedd. † Wrth yr enw dirmygedig hwn yn unig yr
adwaenai Saul ef eto, ac nid oedd gywilydd ganddo
yntau arddelwi yr enw hwn o'r nef. ‡ Yr oedd Paul yn
erlid Iesu yn ei enw, ei wirionedd, ei achos, a'i bobl:
yr hyn a gyfrifai efe yr un peth a'i erlid ef ei hun, yn
ei berson ei hun.

9 * Hefyd y rhai oedd gyd a myfi a [z] wel-
sant y goleuni yn ddiau, ac a ofnasant, [a] ond
ni chlywsant hwy lais yr hwn oedd yn llefaru
wrthyf.

z pen. 9. 7. Dan. 10. 7. a Ioan 12. 29, 30.

* Gwel ar pen. 9. 7, lle y ceisiwyd cysoni y gwahan-
iaeth rhwng yr adnod hon â hòno: nid oes genym ddim
o bwys i'w chwanegu yma. Tybiai y paganiaid, y gall-
ai gweledigaeth oruwch-naturiol fod yn weledig i'r naill
ddyn, ac heb fod yn weledig i'r llall yn ei ymyl, ac y
gallai y naill ddyn glywed llais goruwch-naturiol, a bod
dyn arall yn ei ymyl heb ei glywed. Onid oes rhyw dŷb
o'r fath yn ein gwlad ni ein hunain am ysbrydion a
drychiolaethau? Dywedir bod llawer o adeiladau wedi
eu gwneyd yn y fath fodd, os bydd dau ddyn yn sefyll
a'u cefnau at eu gilydd ar bob ystlys i'r adeilad, gallant
glywed eu gilydd yn llefaru; ac eto os bydd dyn yn y
canol rhyngddynt, na chlyw efe yr un o'r ddau.—*Dod-
dridge.*

10 * Ac myfi a ddywedais, [b] Beth a wnaf,
O Arglwydd? A'r Arglwydd a ddywedodd
wrthyf, Cyfod, a dos i Damascus; [c] † ac yno
y dywedir i ti bob peth a'r a ordeiniwyd i ti
eu gwneuthur.

b pen. 2. 37. a 9. 6. a 10. 33. a 16. 30. Salm 25. 8, 9. a 143.
8—10. c adn. 12—16. pen. 26. 16—18.

* Gwel ar pen. 9. 6. Yr oedd y llew ofnadwy wedi
colli ei rym erbyn hyn, a chwedi cael ei wneyd yn oen
crynedig a digon hawdd ei drin. † Sef gan Ananias
oddi wrth Grist, megys pe buasai Crist ei hun yn dy-
wedyd wrtho.

11 [d] * A phryd nad oeddwn yn gweled gan
ogoniant y goleuni hwnnw, [e] a'r rhai oedd gyd
â mi yn fy nhywys erbyn fy llaw, myfi a
ddaethum i Damascus.

d pen. 9. 8, 9. e pen. 13. 11. Es. 42. 16.

* Gweithred ryfedd Duw oedd galluogi Stephan i
edrych ar Grist yn ei ogoniant; ac yn ol rhyfeddol allu
Duw y bydd, i'r saint allu edrych arno ef, a'i weled fel
y mae, yn ei holl ogoniant mawr, yn yr adgyfodiad.
Mae yn amlwg fod Paul yn yr adroddiad hwn, yn
ystyried ei dröedigaeth ryfedd fel prawf hollawl o wir-
ionedd y grefydd gristionogol: a phan gymharer ei
ddygiad i fynu, ei egwyddorion crefyddol o'r blaen, ei
wresawgrwydd a'i elyniaeth yn erbyn y cristionogion,
a'i obaith am anrhydedd a derchafiad drwy eu herlid
hwynt, â'r rhan ganlynol o'i fywyd, a'i dröedigaeth sydyn
o fod yn erlidiwr ffyrnig i fod yn bregethwr gwresog yr
efengyl, yn yr hyn y llafuriodd ac y dyoddefodd hyd
ddiwedd ei oes, ac am yr hyn y bu farw yn ferthyr;
rhaid i bob dyn diduedd addef, nas gellir rhoddi unrhyw
gyfrif rhesymol arall am y cyfnewidiad, ond yr hyn a
rydd ef ei hun: ac os yw hyny yn wir, mae Cristionog-
aeth yn beth o Dduw.

12 [f] Ac un Ananias, [g] * gwr defosiynol yn
ol y ddeddf, [h] † ac iddo air da gan yr Iuddew-
on oll a'r oeddynt yn preswylio *yno*,

f Gwel ar pen. 9. 10—18. g pen. 8. 2. a 17. 4. Luc 2. 25.
h pen. 6. 3. a 10. 22. 2 Cor. 6. 8. 1 Tim. 3. 7. 3 Ioan 12.

* "Gwr defosiynol yn ol y ddeddf" sydd ddysgrifiad
o broselyt cyfiawnder (cenedl-ddyn wedi ei enwaedu,)
medd *Guyse;* ond am fod Ananias yn adn. 13, 14, yn
galw Saul yn *frawd*, a Duw Israel yn *Dduw ein tadau*,
tybia efe mai Iuddew oedd efe: ond mae yn sicr mai
Iuddew cristionogol ydoedd; oblegid yn pen. 9. 10,
gelwir ef yn "ddysgybl." † Er ei fod wedi troi yn
gristion, yr oedd ei ymddygiad mòr hardd a boneddig-
aidd, fel yr oedd gair da iddo gan yr holl Iuddewon
oedd yn Damascus, er na charent ei grefydd.

13 * A ddaeth attaf, ac a safodd ger llaw,
ac a ddywedodd wrthyf, [i] *Y* brawd Saul, cym-
mer dy olwg. Ac mi a edrychais arno yn yr
awr honno.

i pen. 9. 17, 18. Philemon 16.

* Gwel ar pen. 9. 17, 18. nid oes yma ddim o bwys
i chwanegu arno.

14 Ac efe a ddywedodd, [k] * Duw ein tadau
ni [l] a'th † rag-ordeiniodd di i wybod ei ewyllys
ef, [m] || ac i weled y [n] § Cyfiawn hwnnw, [o] ac i
glywed lleferydd ei enau ef.

k pen. 3. 13. a 5. 30. a 13. 17. a 24. 14. Ex. 3. 13—16. a 15. 2.
2 Bren. 21. 22. 1 Cron. 12. 17. a 29. 18. 2 Cron. 28. 25. a 30. 19.
Ezra 7. 27. Dan. 2. 23. l pen. 9. 15. Jer. 1. 5. Ioan 15. 16.
Rhuf. 1. 1. Gal. 1. 15. 2 Tim. 1. 1. Tit. 1. 1. m pen. 9. 17. a
26. 16. 1 Cor. 9. 1. a 15. 8. n pen. 3. 14. a 7. 52. 2 Cor. 5. 21.
1 Pedr 2. 22. 1 Ioan 2. 1. o 1 Cor. 11. 23. a 15. 3. Gal. 1. 12.

* Nid oedd dim yn boddio yr Iuddewon yn fwy na
hyn, "Duw ein tadau;" ac nid oedd dim yn fwy gwas-
anaethgar i achos Paul na defnyddio y geiriau hyn; yr
hwn ni fynai gael ei ystyried fel gwrthgiliwr oddi wrth

y grefydd Iuddewig, oblegid nid oedd yr efengyl oedd ef yn bregethu, ond sylwedd a pherffeithrwydd y ddeddf: wrth hyn hefyd yr oedd yn dangos iddynt, nad oedd efe yn addoli, nac yn annog eraill i addoli, yr un duw ond Duw Abraham, Duw eu tadau hwynt. † Yn ei arfaeth a'i gyngor tragywyddol, ac yn awr a'th alwodd, ac a'th ddarparodd, cyn belled a hyn, ‡ i wybod ei ewyllys ef; ei drefn rasol ef o gadw pechaduriaid trwy ei Fab, er iachawdwriaeth i ti dy hun, ac fel y pregethech di hi i eraill. || Yr oedd efe wedi cael hyn eisoes i raddau, ar y ffordd; ac i'w gael drachefn yn helaethach: efallai bod Ananias yn cyfeirio at bob un o'r ddau. § Iesu o Nazareth yn adn. 8, yw y Cyfiawn yma, a Chyfiawn yw Iesu o Nazareth.

15 [p] * Canys ti a fyddi dyst iddo † wrth bob dyn, [q] o'r *pethau* a welaist ac a glywaist.

p pen. 1. 8, 22. a 10. 39—41. a 23. 11. a 27. 24. Luc 24. 47, 48. Ioan 15. 27. q pen. 4. 20. a 26. 20.

* Hyny yw, ti a fyddi dyst iddo fel apostol, ei fod wedi adgyfodi o feirw, ac ymddangos i ti ar ol ei adgyfodiad, yn gystal ag i'r apostolion eraill. Ac nid hyny yn unig, ond ti a fyddi hefyd yn dyst iddo, ei fod yn Iachawdwr rhad, cyflawn, a pharod, i'r penaf o bechaduriaid; † Iuddewon a chenedloedd, uchel ac isel radd, pob dyn a gredo ynddo ef yn mhob màn.

16 * Ac yr awrhon [r] beth yr wyt ti yn ei aros? [s] † cyfod, bedyddier di, ‡ a golch ymaith dy bechodau, [t] || gan alw ar enw yr Arglwydd.

r Salm 119. 60. Jer. 8. 14. s pen. 2. 38. Rhuf. 6. 3, 4. 1 Cor. 6. 11. a 12. 13. Gal. 3. 27. Tit. 3. 5. Heb. 10. 22. 1 Pedr 3. 21. t pen. 2. 22. a 9. 14. Rhuf. 10. 12—14.

* Ac yn awr gan fod Mab Duw wedi dy rag-ordeinio di i hyn yma, paham yr oedi di yn hwy gyflwyno dy hun iddo ef a'i waith, trwy y sefydliad a osododd efe yn ei dŷ? † Cyfod, a dos at dy orchwyl yn ddïoed; ac mewn trefn i hyny, arddelwa ac anrhydedda ef, trwy gymmeryd dy fedyddio yn ei enw, mewn ufudd-dod i'w awdurdod ef, ac er tystiolaeth o'th ffydd ynddo ef. ‡ Mae bedydd yn arwyddo ein cyffes o bechod, ein galar a'n hymostyngiad am bechod, ein dymuniad am lanâd oddi wrth bechod, ac yn *sel* o faddeuant pechod i'r rhai gwir edifeiriol. Yn gyffredin ni roddodd Duw un arwydd amlwg iawn o faddeuant pechod i neb o saint y Testament Newydd hyd ar ol eu bedyddio: ac mae hyny yn egluro yn mha ystyr y dywedir fod bedydd yn golchi ymaith bechodau, ac mewn mànau eraill, yn achub. || Sef galw ar enw yr Arglwydd Iesu, er addefiad o'i Dduwdod ef; felly mae i ni ystyried y geiriau agos yn mhob màn yn y Testament Newydd. Tybir fod "golchi ymaith bechodau" yn perthyn i "alw ar enw yr Arglwydd," yn hytrach nac i fedydd yn yr adnod uchod.

17 * A darfu, [u] wedi i mi ddyfod yn fy ol i Jerusalem, [x] † fel yr oeddwn yn gweddïo yn y deml, ‡ i mi syrthio mewn llewyg;

u pen. 9. 26—28. Gal. 1. 18. x pen. 10. 9, 10. 2 Cor. 12. 1—4. Dat. 1. 10.

Gwedi adrodd iddynt y modd rhyfedd y cawsai efe ei droi yn gristion, yn yr adnodau uchod, mae yr apostol yn yr adnod hon yn myned i adrodd pa fodd y cawsai ei arwain i bregethu yr efengyl yn mysg y cenedloedd; gan mai hyn oedd y prif achos o'u cynddeiriogrwydd anghyffredin hwy tuag ato ef. * Tybia rhai mai yr ail dro i Paul fyned i Jerusalem ar ol ei dröedigaeth, y bu hyn; (pen. 11. 30; a 12. 25;) ac mai y tro hwn mae efe yn feddwl yn 2 Cor. 12. 2: ond tybia eraill mai y tro cyntaf yr aeth yno a feddylir, pen. 9. 36; Galat. 1. 18: a thybir fod yr hyn a ddywedir yn y tair adnod nesaf yn gweddu yn well i'r tro cyntaf nac i'r ail. † Wrth grybwyll ei fod yn gweddïo yn y deml ar ol ei dröedigaeth, mae efe yn dangos i'r Iuddewon fod ganddo barch i'r lle sanctaidd hwnw o hyd. ‡ Efallai ei fod yn sefyll ar ei draed o hyd, ac fel pe buasai yn gweddïo, felly ni sylwodd neb arall arno, nad gweddio yr oedd.

18 [y] * A'i weled ef yn dywedyd wrthyf, [z] † Brysia, a dos ar frys allan o Jerusalem: [a] ‡ o herwydd ni dderbyniant dy dystiolaeth am danaf fi.

y adn. 14. z Mat. 10. 14, 23. Luc 21. 21. a Ex. 3. 19. Ezec. 3. 6, 7.

* Yr oedd yma weled a chlywed, a phob un yn wyrthiol, i Paul ei hun: nid oes son i neb arall yn y deml weled na chlywed ond efe: gwelodd ef yr Arglwydd Iesu yn gorphorol, a chlywodd ei leferydd ef. † Mae yr apostol yn dywedyd hyn i ddangos mai nid o'i ddewisiad ei hun yr aeth ef at y cenedloedd, ond ar anfoniad a gorchymyn yr Arglwydd Iesu. ‡ Fel pe dywedasai yr Iesu, Y rhai o'r Iuddewon a ordeiniwyd i fywyd, ac oeddynt i'w hachub, a achubwyd eisoes; ond am y lleill, a ymgaledasant, nid oes dim iddynt hwy i'w ddysgwyl ond eu dinystrio.

19 * A minnau a ddywedais, *O* Arglwydd, [b] hwy a wyddant fy mod i yn carcharu, ac yn baeddu ym mhob synagog y rhai a gredent ynot ti.

b adn. 4. pen. 8. 3. a 9. 1. a 26. 9—12.

* Gwyddai trigolion Jerusalem pa mòr boeth y buasai Paul unwaith yn erlid y cristionogion, a thybiai efe (yn groes i feddwl a gwybodaeth yr Arglwydd Iesu,) y gwrandawent arno *ef* yn hytrach nac ar neb o'r apostolion eraill, am y gwyddent mai erlidiwr a fuasai gynt, a bod yn rhaid mai rhyw beth dwyfol a goruwch-naturiol a weithiasai ar ei feddwl i wneyd y fath gyfnewidiad arno. Amcanu profi gwirionedd cristionogaeth yr oedd trwy ei dröedigaeth ei hun, wrth adrodd hyn i'r Iuddewon; a dangos iddynt mòr anodd oedd ganddo eu rhoddi hwy i fynu, a myned at y cenedloedd.

20 A phan dywalltwyd gwaed [c] Stephan [d] dy ferthyr di, yr oeddwn i hefyd yn sefyll ger llaw, [e] * ac yn cydsynio i'w ladd ef, ac yn cadw dillad y rhai a'i lladdent ef.

c Dat. 2. 13. a 17. 6. d pen. 7. 58. a 8. 1. e Luc 11. 48. Rhuf. 1. 32.

* Gwel ar pen. 7. 58; a 8. 1. *Anairesei*, "lladd," llofruddio a fuasai iawn; oblegid lladdwyd Stephan heb un math o brawf, na dedfryd flaenorawl, mewn terfysg, a thwy drais amlwg, megys gan yspeilwyr; pryd nad oedd yn ganiatâol i'r Iuddewon goll-farnu neb, hyd yn nôd wrth y cyfreithiau. Ioan 18. 31.

21 Ac efe a ddywedodd wrthyf, [f] * Dos ymaith: [g] † canys mi a'th anfonaf ym ‡ mhell at y Cenhedloedd.

f pen. 9. 15. g pen. 9. 15. a 13. 2, 46, 47. a 18. 6. a 26. 17, 18. Rhuf. 1. 5. a 11. 13. a 15. 16. a 16. 26. Gal. 1. 15, 16. a 2. 7, 8. Eph. 3. 6—8. 1 Tim. 2. 7. 2 Tim. 1. 11.

* Mae yr Arglwydd yn ail orchymyn, a thrwy hyny yn ateb holl resymau Paul yn erbyn gadael yr Iuddewon: po mwyaf a wyddent hwy am ei *zel* ef yn y grefydd Iuddewig gynt, mwyaf i gyd y cyfrifent ef yn wrthgiliwr oddi wrth y grefydd hòno yn awr, a lleiaf i gyd y derbynient ei dystiolaeth ef am Grist. † Pan mae Duw yn danfon, mae yn rhaid myned, beth bynag fyddo y canlyniad: pan mae ewyllys a gorchymyn Duw yn eglur ac yn bendant, mae yn rhaid ufuddâu, a gadael y llwyddo neu yr aflwyddo iddo ef. ‡ "Yn mhell" yr oedd tuag wyth gant o filltiroedd o Jerusalem i Corinth yn Achaia, dros bedwar cant ar ddeg i Rufain, ac efallai mwy na hyny i rai parthau o Ilyricum, Rhuf. 15. 9

22 * A hwy a'i gwrandawsant ef hyd y gair hwn. † A hwy a godasant eu llef, ac a ddywedasant, [h] ‡ Ymaith â'r cyfryw un oddi ar y ddaear: canys nid cymmwys ei fod ef yn fyw.

h pen. 7. 54—57. a 21. 36. a 25. 24. Luc 23. 18. Ioan 19. 15.

* Yr oedd y geiriau uchod o'r eiddo yr Arglwydd Iesu wrth Paul, yn lled amlwg yn dangos gwrthodiad yr Iuddewon, a galwad y cenedloedd: felly yr oeddynt hwy

n eu deall wrth fod Paul yn eu hadrodd; † a hyny a'u yffrôdd i waeddi allan yn ei erbyn yn y modd haerlug uchod. ‡ Nid yn unig ymaith ag ef o Jerusalem y ddinas sanctaidd, ac o Judea y tir sanctaidd, ond ymaith ag ef oddi ar y *ddaear*, nid cymhwys fod y cyfryw adyn yn *fyw*, a ryfygai ddywedyd fod Duw yn gwŕthod ei bobl ériodol a chyfammodol, ac yn dewis paganiaid dienwaededig ac eilun-addolgar yn eu lle.

23 Ac fel yr oeddynt yn llefain, [i] * ac yn owrw *eu* dillad, † ac yn taflu llwch i'r awyr,

i pen. 7. 53. a 26. 11. Preg. 10. 3.

* Yn eu llid cynddeiriog, yr oeddynt yn dïosg ac yn taflu eu dillad uchaf ymaith, i arwyddo eu hatgasrwydd rwrth y fath gabledd, fel y tybient hwy, ac i ddangos eu bod yn barod i labyddio Paul fel cablwr, (pen. 7. 58,) pe cawsent ef yn eu dwylo i hyny. † Taflent y llwch i'r awyr, i ddangos eu tra chynddeiriogrwydd, ac megys i ddangos ei fod ef wedi pechu yn erbyn y nefoedd ac yn haeddu i farn o'r nefoedd i ddisgyn arno. Pe buasai gerig yn y fàn, taflasent y rhai hyny ato.

24 [k] * Y pen-capten a orchymynodd ei ddwyn ef i'r castell, [l] † gan beri ei holi ef trwy fflangellau; fel y gallai wybod am ba achos yr oeddynt yn llefain arno felly.

k pen. 21. 31, 32. a 23. 10, 27. l adn. 25—29. pen. 16. 22, 23, 37. Ioan 19. 1. Heb. 11. 35.

* O'r blaen ar ben y grisiau yr oedd, heb fyned i mewn i'r castell: parodd y pen-capten ei ddwyn ef i mewn i'r castell, i'w ddïogelu ef rhag cynddeiriogrwydd y bobl, ac hefyd i'w holi ef yn bersonol, beth a wnaethai efe, i fod yn achos o'r fath derfysg. † Felly y gwnaed â Christ ei hun, ac felly y gwnai y Rhufeiniaid yn ngyffredin â rhai a gyhuddid o ryw ddrwg-weithredoedd, ïi beri iddynt gyfaddef beth a wnaethent. Tybiai y pencapten yn sicr fod Paul wedi gwneyd rhyw ddrwg mawr, ïi beri yr holl derfysg hyn, a mynai ei holi ef trwy fflangellau i beri iddo gyfaddef beth a wnaethai: cyfïiawnach a rheitiach fuasai iddo fflangellu y terfysgwyr o flawer.

25 * Ac fel yr oeddynt yn ei rwymo ef â charreïau, dywedodd Paul wrth [m] y canwriad yr hwn oedd yn sefyll ger llaw, [n] † Ai rhydd i chwi fflangellu gwr o Rufeiniad, ac heb ei gondemnio hefyd?

m pen. 10. 1. a 23. 17. a 27. 1, 3, 43. Mat. 8. 8. a 27. 54. n adn. 27, 28. pen. 16. 37. a 25. 16.

* Yn mhlith yr Iuddewon, rhwymid yr hwn fyddai i gael ei ffrewyllu wrth bôst, neu golofn, o gufydd a hanner o uchder, mewn ystum grymedig: felly mae yn debyg y rhwymwyd Paul, gan feddwl ei ffrewyllu ef â charreïau o'r un fath ag oedd yn ei rwymo. † Nid oedd yn gyfreithlawn cospi Rhufeiniad heb ei gondemnio ef yn gyntaf, na'i ffrewyllu *fel hyn* o gwbl: gellid ei rwymo â chadwyn, a'i guro â ffon, ar ol ei gael yn euog; ond cyfrifid yn ddirmyg annoddefawl i rwymo neb â charreïau, a'i ffrewyllu â charreïau, neu â gwïail.

26 * *A* phan glybu y canwriad, efe a aeth ac a fynegodd i'r pen-capten, gan ddywedyd, [o] † Edrych beth yr wyt yn ei wneuthur: canys Rhufeiniad yw y dyn hwn.

o adn. 29. pen. 23. 27.

* Yr oedd amryw ganwriaid dàn yr un pen-capten; megys y mae amryw gapteniaid a swyddogion o enwau eraill dàn yr un cad-lywydd yn ein byddinoedd ninnau. † Pan glybu y canwriad hwn Paul yn dywedyd mai Rhufeiniad oedd, efe a fynegodd hyny i'r pen-capten, gan ei gyngori ef i fod yn wyliadwrus beth a wnelai, rhag iddo ddyfod yn agored i gosp ei hun.

27 A'r pen-capten a ddaeth, ac a ddywedodd wrtho, * Dywed i mi, ai Rhufeiniad wyt ti? † Ac efe a ddywedodd, Ie.

* Ai Rhufeiniad o ran dinas-fraint, nid o ran cenedl; canys dywedasai Paul wrtho o'r blaen mai Iuddew oedd o ran cenedl, pen. 21. 39. † Mae yn iawn i'r cristion ddadlau y rhagor-freintiau hyny a berthyn iddo yn ol ei sefyllfa, bod yn gall fel y sarph, hyd ag na byddo yn colli diniweidrwydd y golomen: yr oedd yn iawn i Paul hòni ei ddinas-fraint y tro hwn.

28 * A'r pen-capten a attebodd, A swm mawr y cefais i y ddinas-fraint hon. † Eithr Paul a ddywedodd, A minnau a anwyd *yn freiniol.*

* Byddai Claudius Cesar yn gwerthu breintiau dinasaidd i ddïeithriaid am bris uchel iawn, ond gwedi hyny gostyngwyd y pris lawer iawn. Costiodd bris mawr i'r pen-capten hwn, ac yr oedd yn rhyfedd ganddo fod un mòr dlodaidd yr olwg arno â Phaul wedi gallu prynu dinas-fraint mewn lle mòr enwog a Tharsus. † Nid o herwydd ei *eni* yn Tarsus yr oedd Paul yn freiniol, tebygir; ond am i ryw rai o'i henafiaid ef gael eu gwneyd yn freiniol gan Ymherawdwr Rhufain, am ryw wasanaeth gwladol a wnaethent iddo ef, a bod y freiniolaeth yn disgyn i'w hiliogaeth hwy.

29 * Yn ebrwydd gan hynny yr ymadawodd oddi wrtho y rhai oedd ar fedr ei holi ef. [p] † A'r pen-capten hefyd a ofnodd, pan wybu ei fod ef yn Rhufeiniad, ac oblegid darfod iddo ei rwymo ef.

p adn. 25, 26. pen. 16. 38, 39.

* Y rhai a'i rhwymasent ef, ac oeddynt ar fedr ei holi ef trwy fflangellau: wedi deall mai Rhufeiniad oedd efe, hwy a beidiasant, ac a aethant ymaith, nid heb beth ofn eu bod eisoes wedi myned yn rhŷ bell, ac ymddwyn yn rhŷ fyrbwyll. † Ofnodd y pen-capten ei hun hefyd yr un modd: yr oedd efe eisoes wedi tòri ar ragor-fraint dinesydd Rhufeinig, yr hyn a gyfrifid yn drosedd, ac yn bechod, fel ei galwent, yn erbyn mawredd y bobl, ac yn erbyn deddf yr Ymherawdr hefyd. Gwelwn yma ddoethineb Duw, yn danfon Paul, dinesydd Rhufeinig, i bregethu yn mysg y cenedloedd; cafodd ei achub fwy nac unwaith trwy ymhòni o'r ddinas-fraint hon, ac nis gallasai yr un arall o'r apostolion ymhòni o hóni, er cael eu hachub yn yr un amgylchiadau.

30 * A thrannoeth, [q] ac efe yn ewyllysio gwybod hysbysrwydd am ba beth y cyhuddid ef gan yr Iuddewon, ‡ efe a'i gollyngodd ef o'i rhwymau, [r] ac a archodd i'r ‡ arch-offeiriaid a'u ‖ cynghor oll ddyfod *yno:* ac *efe* a ddug Paul i waered, § ac a'i gosododd ger eu bron hwy.

q pen. 21. 11, 33. a 26. 29. Mat. 27. 2. r adn. 5. pen. 5. 21. a 23. 15. Mat. 10. 17.

* Mae yn debyg nad oedd y pen-capten yn deall araeth Hebraeg Paul wrth yr Iuddewon, am hyny yr oedd o hyd heb ddeall beth oedd ei fai ef. Gan ei fod yn ewyllysio gwybod, ac yn ewyllysio boddloni yr Iuddewon hefyd, efe a'i cadwodd ef yn y castell hyd drannoeth, i'w ddwyn ef allan wyneb yn wyneb â'i gyhuddwyr, fel y gallent hwy gyhuddo, ac yntau ei amddiffyn ei hun. † Gollyngodd ef o'i rwymau dranoeth (a dylasai ei ollwng yn y fàn wedi iddo wybod mai Rhufeiniad oedd) rhag ei ddwyn ei hunan i berygl, ac hefyd fel y gallai Paul fel gŵr rhydd, ddadlau drosto ei hun gyda mwy o hyfdra. ‡ Tybir mai blaenoriaid y pedair dosparth ar hugain o'r offeiriaid oedd yr arch-offeiriaid hyn. ‖ Y Cyngor oedd aelodau y Sanhedrim. § Gosododd ef yn llŷs y Sanhedrim, mae yn debyg, ond pa un a oedd rhyddid i'r pen-capten ei hun, fel cenedlddyn, fod yno ai peidio, nis gwyddom.

PEN. XXIII.

Paul yn ateb drosto ei hun.

[a] * A PHAUL yn edrych yn graff ar y cynghor, a ddywedodd, [b] *Ha* wŷr frod-

yr, [c] † mi a wasanaethais Dduw mewn pob cydwybod dda, hyd y dydd heddyw.

a adn. 6. pen. 6. 15. a 22. 5. Diar. 28. 1. b pen. 22. 1. c pen. 24. 16. 1 Cor. 4. 4. 2 Cor. 1. 12. a 4. 2. 2 Tim. 1. 3. Heb. 13. 18. 1 Pedr 3. 16.

* "Y cyfiawn a fydd hŷf megys llew," medd Solomon: felly yr oedd Paul yma: yr oedd ganddo achos da, cydwybod dawel, ac ysbryd hŷf a gwrol, am hyny yr oedd yn gallu edrych yn graff ar y cyngor. Mae yn debyg ei fod yn canfod wynebau amryw o'i hen gyfeillion yno, gyda pha rai y buasai efe ei hun yn erlid y cristionogion gynt. Mae yn debyg ei fod yn edrych yn graff hefyd, i weled pa nifer o Phariseaid ac o Saduceaid oedd yno, fel y gallai drefnu ei araeth yn gyfatebol er y fantais orau iddo ei hun ac achos yr efengyl. † Pan oedd ef yn Pharisead, yr oedd yn ddïargyhoedd o ran y pethau oedd yn y ddeddf; ac yn gwasanaethu Duw mewn cydwybod bur yn ol y goleu oedd ganddo: ïe, pan oedd yn erlid y saint, yr oedd yn gwneyd hyny o gydwybod, ac yn tybied ei fod yn gwneyd gwasanaeth i Dduw; ac wedi ei dröedigaeth, yr oedd yn sicr yn gwasanaethu Duw mewn pob cydwybod bur. Ond tybia rhai mai am wasanaethu Duw fel cristion, ac yn efengyl ei Fab yn unig, yr oedd Paul yn son yma, gan mai hyny oedd y pwnc dàn holiad gan y cyngor.

2 * A'r arch-offeiriad [d] Ananïas a archodd i'r rhai oedd yn sefyll yn ei ymyl, [e] † ei daro ef ‡ ar ei enau.

d pen. 24. 1. e 1 Bren. 22. 24. Jer. 20. 2. Mica 5. 1. Mat. 26. 67. Ioan 18. 22.

* Dyma'r tro cyntaf i ni ddarllen am yr Ananïas annuwiol hwn; fel arch-offeiriad, efe oedd llywydd y cyngor. † Fel y tarawyd Micea gynt, 1 Bren. 22. 24; Jeremïah, Jer. 20. 1, 2; a Christ ei hun, Ioan 18. 22. ‡ Am iddo â'i enau ddadleu ei fod yn ddïeuog yn wyneb eu cyhuddiad hwy yn ei erbyn, pen. 21. 28. Mae yn amlwg wrth hyn mai am ei ymddygiad fel cristion, ac yn yr efengyl, yr oedd efe yn son yn yr adnod o'r blaen, ac nid am ei ymddygiad dàn y ddeddf, ac fel erlidiwr: ni buasent yn ei daro ef am hyny.

3 Yna y dywedodd Paul wrtho, * Duw a'th dery di, [f] † bared wedi ei wyn-galchu: [g] canys a ydwyt ti yn eistedd i'm barnu i yn ol y ddeddf, [h] a chan droseddu y ddeddf yn peri fy nharo i?

f Mat. 23. 27, 28. g Lef. 19. 35. Salm 58. 1, 2. a 82. 1, 2. a 94. 20. Preg. 3. 16. Amos 5. 7. Mica 3. 8—11. h Deut. 25. 1, 2. Ioan 7. 51. a 18. 24.

* Cyflawnwyd y brophwydoliaeth hon yn nodedig, meddant, yn mhen pùm mlynedd wedi hyn; wedi llosgi tŷ Ananïas mewn terfysg a gododd ei fab ef ei hun, ffôdd ef i ymguddio mewn lle a fuasai gynt yn hen ddyfr-ffos, o ba le y llusgwyd ef allan ac y lladdwyd ef. † Beddau wedi eu gwŷnu y galwai yr Arglwydd Iesu y Phariseaid; a chyffelyb iddynt oedd yr arch-offeiriad rhagrithiol hwn: er ei fod mewn swydd sanctaidd, ac yn cymmeryd arno fod yn sanctaidd, eto dyn drwg yn ei galon a'i arferion ydoedd, fel y tystia ei ymddygiad yn y tro hwn. Dywedir hefyd y byddai yn attal rhanau yr is-offeiriaid, yr hyn oedd osodedig iddynt wrth y ddeddf, fel yr oedd rhai o honynt yn trengi o newyn. ‡ Yr hwn oedd yn haeddu ei guro, nid oedd i gael ei guro cyn ei brofi yn euog; ond parodd yr arch-offeiriad daro Paul cyn iddo gael ei amddiffyn ei hun, yr hyn oedd drosedd ar y ddeddf. Lef. 19. 15; Deut. 25. 1, 2.

4 * A'r sefyllwyr a ddywedasant wrtho, A ddifenwi di † arch-offeiriad Duw?

* Mòr fuan yr oedd y deddfolion pleidgar hyn yn gweled bai Paul; ond heb sylwi dim ar y cam oedd ef yn gael. † Y swydd sanctaiddiaf yn Israel, ac o ganlyniad y sanctaiddiaf yn yr holl fyd: ond nid felly y person a'i llanwai.

5 * A dywedodd Paul, [i] Ni wyddwn i, frodyr, mai yr arch-offeiriad oedd efe: † canys ysgrifenedig yw, [k] Na ddywed yn ddrwg am bennaeth dy bobl.

i pen. 24. 17. k Ex. 22. 28. Preg. 10. 20. 2 Pedr 2. 10, 11. Judas 8, 9.

* Gan i Paul fod am flynyddoedd yn absenol o Jerusalem, a chan nad oedd yr arch-offeiriad yn ei wisgoedd offeiriadol yn y Sanhedrim, mae yn debyg nas gwyddai efe mai yr arch-offeiriad oedd yr hwn a orchymynasai ei daro ef: yr oedd ei ymddygiad ef yn annhebyg iawn i arch-offeiriad Duw; ac fel pe dywedasai Paul, Pwy a allasai feddwl mai arch-offeiriad Duw a roisai y fath orchymyn? Dywed rhai yn wir, mai Jesus mab Gamaliel oedd yr arch-offeiriad mewn gwirionedd, ond fod Ananïas wedi myned yn anghyfiawn i'r swydd trwy lwgr-wobr: a bod Paul yma yn gystal a dywedyd, nad oedd efe yn ei ystyried nac yn ei gydnabod ef yn arch-offeiriad. † Y fàn lle mae hyn yn ysgrifenedig yw, Exod. 22. 28: yr oedd holl aelodau y cyngor i gyd yn benaethiaid y bobl; a buasai yn drosedd i Paul fel dyn cyffredin ddywedyd yn ddrwg am neb o honynt; ond yr oedd efe yn llefaru fel apostol, mewn ysbryd prophwydoliaeth, ac yn ol yr hyn a roddwyd iddo yr awr hòno, Matth. 10. 19.

6 * A phan wybu [l] Paul fod y naill ran o'r Saduceaid, a'r llall o'r Phariseaid, efe a lefodd yn y cynghor, *Ha* wŷr, frodyr, [m] † Pharisead wyf fi, mab i Pharisead: [n] ‡ am obaith ac adgyfodiad y meirw yr ‖ ydys yn fy marnu i.

l Mat. 10. 16. m pen. 26. 5. Phil. 3. 5. n pen. 24. 15, 21. a 26. 6—8. a 28. 20.

* Gwedi iddo edrych yn graff ar y cyngor, (gwel ar adn. 1,) efe a adwaenai lawer yn Phariseaid yno, a llawer yn Saduceaid; ac yn ei ddoethineb treiddgar, gwelodd fod ganddo gyfie i ddyrysu eu hamcanion hwynt yn ei erbyn ef, trwy eu gosod hwynt yn erbyn eu gilydd. Nid oedd hyn ddim mwy na "bod yn gall fel y sarph, ac ar yr un pryd yn ddiniwed fel y golomen." † Pharisead oeddwn I gynt yn y grefydd Iuddewig, a chyn belled ag y mae adgyfodiad y meirw yn un o ddaliadau y Phariseaid, Pharisead wyf eto, ac nid Saduced. ‡ Neu am y gobaith *o* adgyfodiad y meirw: dull o ymadroddi a elwir *hendiadis;* pan y defnyddir dau enw cadarn yn lle enw cadarn a gwàn, neu ddau sylwedd yn lle sylwedd ac ansawdd. ‖ Am bregethu adgyfodiad Iesu fel blaen-ffrwyth, a gobaith y saint am adgyfodiad trwyddo ef, yr oedd yr holl dwrf yn nghylch Paul, a'r holl erlid oedd arno, pen. 4. 1—3.

7 * Ac wedi iddo ddywedyd hyn, [o] bu ymryson rhwng y Phariseaid a'r Saduceaid: † a rhannwyd y lliaws.

o pen. 14. 4. Salm 55. 9. Mat. 10. 34. Ioan 7. 40—43.

* Trôdd allan fel y dysgwyliai Paul; (gwel ar adn. 6.) yr oedd hyn yn ddigon i osod y ddwy blaid yn erbyn eu gilydd, ac iddo yntau gael dïanc. † Nid yn unig aeth gwŷr mawr y Sanhedrim yn mhenau eu gilydd; ond aeth yr holl lïaws yr un modd, Phariseaid a Saduceaid yn erbyn eu gilydd drwy yr holl lŷs.

8 * Canys y [p] Saduceaid yn wir a ddywedant nad oes nac adgyfodiad, nac angel nac ysbryd: † eithr y Phariseaid sydd yn addef pob un o'r ddau.

p pen. 4. 1. Mat. 22. 23, 24. Marc 12. 18. Luc 20. 27.

* Peth rhyfedd bod y Saduceaid yn gwadu bodoliaeth angelion, a hwy yn addef dwyfol ysbrydoliaeth pùm llyfr Moses, lle mae son mòr aml am ymddangosiad angelion: ond mae yn debyg mai yn allegawl y dëallent hwy y mànau hyny, ac nid yn eu hystyr llythyrenol. Fel hyn yr oeddent yn gwŷrdroi yr ysgrythyrau i'w dinystr eu hunain. Am yr adgyfodiad, gwel ar y ddadl rhwng Crist â hwy yn nghylch hyn yn Mat. 22. 23—33. Gwadent hwy hefyd fod enaid ysbrydol gan ddyn, a thaerent, pan fyddai y corph yn marw, fod y cwbl o'r dyn yn marw, ac yn troi i lygredigaeth byth yn y

edd. † Addefai y Phariseaid bob un o'r pethau uch-d, a dadleuent yn wrol ac yn wresog drostynt yn er-yn y Saduceaid.

9 * A bu llefain mawr, † a'r ysgrifenyddion o *ran* y Phariseaid a godasant i fynu, ac a ymrysonasant, gan ddywedyd, [q] ‡ Nid ydym ni yn cael dim drwg yn y dyn hwn; [r] || eithr os ysbryd a lefarodd wrtho, neu angel, [s] § nac ymrysonwn â Duw.

q pen. 25. 25. a 26. 31. 1 Sam. 24. 17. Diar. 16. 7. Luc 23. 4, 14, 15, 22. r adn. 8. pen. 9. 4. a 22. 7, 17, 18. a 26. 14—19. a 27. 23. Ioan 12. 29. s pen. 5. 39. a 11. 17. 1 Cor. 10. 22.

* Aeth y ddadl yn boeth iawn, ac i lefau uchel a cherfysglyd, rhwng y ddwy blaid liosog. † Dysgawdwyr y gyfraith oedd yr ysgrifenyddion wrth eu swydd, ac yr oedd y rhan fwyaf o honynt o *sect*, neu blaid y Phariseaid. ‡ Er nad oeddynt hwy mwy na'r Saduceaid yn credu dim a ddywedai Paul am adgyfodiad Iesu, fel y cyfryw; eto yr oedd yn dda ganddynt ei fod ef o blaid yr adgyfodiad, gyda hwynt ac yn erbyn y Saduceaid: am hyny dywedent nad oeddynt hwy, fel doctoriaid y gyfraith, yn cael dim bai ynddo ef. || Os ysbryd un o'r patriarchiaid, neu un o'r hen dduwiolion; neu ynte un o'r angelion da wedi ei ddanfon gan Dduw, a lefarodd wrtho. Cyfeirio yr oeddynt, efallai, at yr hyn a adroddasai Paul yn pen. 22. 6—10. § Cyngor tebyg i'r hwn a roddasai Gamaliel, y penaf o honynt o'r blaen, pen. 5. 38, 39.

10 * Ac wedi cyfodi terfysg mawr, y pen-capten, [t] † yn ofni rhag tynnu Paul yn ddrylliau ganddynt, ‡ a archodd i'r milwyr fyned i waered, [u] a'i gipio ef o'u plith hwynt, a'i ddwyn i'r castell.

t adn. 37. pen. 19. 28—31. a 21. 30—36. Salm 7. 2. a 50. 22. Mica 3. 3. Iago 1. 19, 20. a 3. 14—18. a 4. 1, 2. u pen. 22. 24.

* Aeth y ddwy blaid yn warthus iawn, i ysbryd cyndeiriog yn erbyn eu gilydd: terfysg yn nghylch creffydd yw y terfysg poethaf, yn gyffredin; yn enwedig yn nghylch daliadau cyfeiliornus ar y naill law, a nwydau poethion, ansanctaidd, ac annhymerus dros y gwirioneedd, ar y llaw arall. † Rhag y tynid Paul yn ddrylliau, gan y Saduceaid, i ddial arno am eu gwrthwynebu hwynt, a chan y Phariseaid wrth geisio ei gadw ef, iherwydd ei fod yn eu pleidio hwythau. ‡ Yr oedd y pen-capten i fynu yn y castell, yr hwn oedd yn gyfagos i'r cyngor-lŷs, a chymmaint oedd sŵn y terfysg, fel yr oedd efe yn gallu ei glywed o'r castell: parodd i'r milwyr fyned i lawr y grisiau a chipio Paul i'r castell.

11 [x] * Yr ail nos yr Arglwydd a safodd ger llaw iddo, ac a ddywedodd, [y] Paul, cymmer gysur: [z] canys megis y tystiolaethaist am danaf fi yn Jerusalem, [a] † felly y mae yn rhaid i ti dystiolaethu yn Rhufain hefyd

x pen. 2. 25. a 18. 9. a 27. 23, 24. Salm 46. 1, 2. a 109. 31. Es. 41. 10, 14. a 43. 2. Jer. 15. 19—21. Mat. 28. 20. Ioan 14. 18. 2 Cor. 1. 8—10. y pen. 27. 22, 25. Mat. 9. 2. a 14. 27. Ioan 16. 33. z pen. 19. 21. a 20. 22. a 22. 18. a 28. 23—28. Rhuf. 1. 15, 16. Phil. 1. 13. 2 Tim. 4. 17. a Es. 46. 10. Ioan 11. 8—10.

* Gwedi yr holl drallodau a gawsai yr apostol, wrth ei fod yn awr mewn dalfa, ac yn gwybod y gwnai yr Iuddewon bob peth a allent i'w dòri ef ymaith; mae yn debyg ei fod ef yn ofnus ac yn digaloni: ac yn y cyfwng a'r iselder hyny, mae yr Arglwydd Iesu Grist yn rasol iawn yn ymweled âg ef, i'w gysuro, ei gadarnâu, ac i'w sicrâu am ddiogelwch ei fywyd. † Yr oedd hyn yn sicrwydd i Paul y caffai efe ymadael yn ddiangol o Jerusalem, ac y caffai efe hefyd fyned i Rufain yn ol ei hir a'i fawr ddymuniad, pen. 19. 21; Rhuf. 1. 11, 13. Mae y geiriau yn brawf fod yr Arglwydd yn foddlawn i ymddygiad Paul ger bron y cyngor, er bod rhai dynion yn ei feio.

12 * A phan aeth hi yn ddydd, [b] rhai o'r Iuddewon, wedi llunio cyfarfod, [c] a'u rhwymasant eu hunain â diofryd, gan ddywedyd, [d] na fwyttaent, *ac* nad yfent, nes iddynt ladd Paul.

b adn. 21, 30. Salm 2. 1—3. a 64. 2—6. Es. 8. 9, 10. Jer. 11. 19. Mat. 26. 4. c 1 Bren. 19. 2. 2 Bren. 6. 31. Mat. 27. 25. Marc 6. 23—26. d 1 Sam. 14. 24, 27, 28, 40—44.

* Fel pe dywedasent, Deled melltith Duw arnom, *(anethamatisan eautous)* os gwnawn na bwyta nac yfed nes i ni ladd Paul. Peth cyffredin yn mhlith yr Iuddewon oedd rhwymo eu hunain â diofryd, neu â melltith o'r fath hyn, pan fyddent yn penderfynu ar ryw orchwyl; yn enwedig lladd rhywun, heb brawf cyfreithlawn, a farnent hwy wedi troseddu eu cyfreithiau. Ac os methent, yr oedd yn bur hawdd iddynt gael eu rhyddâu gan eu Rabbiniaid oddi wrth eu diofryd, cyn belled ag y gallent fwyta ac yfed; ond nid mòr hawdd cael eu rhyddâu oddi wrth felltith Duw.

13 * Ac yr oedd mwy nâ deugain o'r [e] rhai a wnaethant y cynghrair hwn.

e 2 Sam. 15. 12, 31. Ioan 16. 2.

* Mòr gadarn yr oedd y cyd-frad annuwiol, didrugaredd, a melldigedig hwn wedi ei lunio, fel yr oedd deugain o ryw ddyhirod gwaedlyd wedi cytuno ac ymrwymo ynddo: deugain o fleiddiaid am un o braidd diniwed Iesu; ond yr oedd Iesu ei hun yn drech na'r deugain, ac yn drech na satan eu meistr hefyd.

14 [f] * A hwy a ddaethant at yr arch-offeiriaid a'r henuriaid, ac a ddywedasant, Ni a'n rhwymasom ein hunain â diofryd, na archwaethem ddim hyd oni laddem Paul.

f Salm 52. 1, 2. Es. 3. 9. Jer. 6. 15. a 8. 12. Hos. 4. 9. Mica 7. 3.

* Er mòr ddrygionus oedd y bwriad, nid oedd arnynt gywilydd o hóno, ond amlygasant ef i'r arch-offeiriaid a'r henuriaid, gwŷr y Sanhedrim, y rhai a wyddent oedd yn ddigon parod i'w cynnorthwyo hwynt, er mòr sanctaidd oedd swydd y naill, ac uchel oedd sefyllfa y lleill. Dylasent attal y fath gynghrair, a chospi y cynghreirwyr; ond wedi tywallt, ac megys yfed, cymmaint o waed eisoes, gwaed Stephan, a gwaed ein Harglwydd ei hun, nid rhyfedd eu bod yn sychedu byth am waed ychwaneg. Rhaid bod crefydd yn isel iawn y pryd hwn, pan oedd yr arch-offeiriaid eu hunain yn cydsynio â brudwyr a llofruddion.

15 * Yn awr gan hynny hysbyswch gyd â'r cynghor, i'r pen-capten, [g] fel y dygo efe ef i waered y fory attoch chwi, fel pe byddech ar fedr cael gwybod yn fanylach ei hanes ef: à ninnau, † cyn y delo efe yn agos, ydym barod i'w ladd ef.

g pen. 25. 3. Salm 37. 32, 33. Diar. 1. 11, 12, 16. a 4. 16. Es. 59. 7. Rhuf. 3. 14—16.

* Yr oedd yr arch-offeiriaid a gwŷr y Sanhedrim i gyd-weithredu â'r cynghreirwyr llofruddiog yn y dyfnfrad hwn; eto mewn ffordd mòr gyfrwys, fel nad oedd dim perygl y deuent hwy i enbydrwydd os lleddid Paul. † Ar y ffordd o'r castell i'r cyngor-lŷs, ni a'i lladdwn ef yn nghanol y dyrfa, os bydd dichon: ac heb i neb wybod pwy a'i lladdodd, os gallwn; ond os na allwn hyny, ni bydd dim perygl i chwi; nyni a gymmerwn yr holl ganlyniad arnom ein hunain.

16 [h] * Eithr pan glybu mab chwaer Paul y cynllwyn yma, efe a aeth i mewn i'r castell, ac a fynegodd i Paul.

h Job 5. 13. Diar. 21. 30. Galar. 3. 37. 1 Cor. 3. 19.

* Mae yn debyg nad oeddynt hwy yn gwybod fod y gwr ieuanc hwn yn perthyn i Paul, ac nid oeddynt mewn un modd yn ochelgar pwy a'u clywai; felly trefnodd rhagluniaeth Duw iddo ef gael allan y brad mewn pryd i'w attal. Un rhyfedd yw Duw am ddàl y doethion yn eu cyfrwysdra, diddymu amcanion y rhai cyfrwys, fel na allo eu dwylo ddwyn dim i ben, a gwahardd gweddill cynddaredd ei elynion.

17 * A Phaul a alwodd [i] un o'r canwriaid

atto, ac a ddywedodd, † Dwg y gwr ieuangc hwn at y pen-capten; canys y mae ganddo beth i'w fynegi iddo.

i adn. 23. pen. 22. 26. Mat. 8. 8, 9.

* Er i Paul gael tystiolaeth sicr o ddïogelwch gan Grist ei hun, adn. 11; eto nid oedd efe yn esgeuluso moddion i'w ddïogelu ei hun. † Dwg y gwr ieuanc hwn at y pen-capten, mae ganddo beth o bwys i'w fynegi iddo, peth a berthyn iddo ef, fel llywodraethwr gwladol, ac fel swyddog milwraidd, ei wybod, ac ymddori yn ei gylch yn ddïoed.

18 * Ac efe a'i cymmerth ef, ac a'i dug at y pen-capten; ac a ddywedodd, [k] Paul y carcharor a'm galwodd i atto, ac a ddymunodd arnaf ddwyn y gwr ieuangc yma attat ti, [l] yr hwn sydd ganddo beth i'w ddywedyd wrthyt.

k pen. 16. 25. a 27. 1. a 28. 17. Gen. 40. 14, 15. Eph. 3. 1. a 4. 1. Philemon 9. l Luc 7. 40.

* Mae yn debyg fod gan y canwriad barch i Paul, wrth weled ei ymddygiad addas a gwrol ef dàn ei holl brofedigaethau, a'r driniaeth ddrwg oedd yn gael: gwrandawodd a gwnaeth ei gais ef yn foneddigaidd yn y fàn.

19 * A'r pen-capten a'i cymmerodd ef [m] erbyn ei law, † ac a aeth *ag ef* o'r neilldu, ac a ofynodd, [n] Beth yw yr hyn sydd gennyt i'w fynegi i mi?

m Jer. 31. 32. Marc 8. 23. a 9. 27. n Neh. 2. 4. Esther 5. 3. a 7. 2. a 9. 12. Marc 10. 51.

* Ymddygiad boneddigaidd a gostyngedig iawn oedd hyn mewn gŵr mor fawr, a phagan hefyd; gwahanol iawn i ymddygiadau yr Iuddewon er eu holl freintiau a'u holl ymffrost. Mae calonau pawb yn llaw Duw, i'w tymheru a'u troi fel y mỳno efe. † I ystafell ar eu penau eu hunain, fel na chaffai neb glywed beth oedd ganddo i'w ddywedyd: mỳnodd Duw y brâd i'r golwg, ond cadwyd y gwrth-frad yn ddirgel, i ddiddymu y brad hwnw.

20 Ac efe a ddywedodd, * Yr Iuddewon a gyd-fwriadasant ddeisyf arnat ddwyn Paul i waered y fory i'r cynghor, [o] fel pe baent ar fedr ymofyn yn fanylach yn ei gylch ef.

o adn. 15. Salm 12. 2. Dan. 6. 5—12.

* Sef yr arch-offeiriaid, yr henuriaid, a'r deugain hyny a aethant dàn ddïofryd i ladd Paul.

21 * Ond na chyttuna di â hwynt; [p] canys y mae yn cynllwyn iddo fwy nâ deugeinwr o honynt, y rhai a [q] roisant ddïofryd, na bwytta nac yfed, nes ei ladd ef: ac yn awr y maent hwy yn barod, yn disgwyl am addewid gennyt ti.

p adn. 12—14. pen. 9. 23, 24. a 14. 5, 6. a 20. 19. a 25. 3. 2 Cor. 11. 26, 32, 33. q adn. 14. Rhuf. 9. 3.

Yr esgus a fydd, ei gael ef ger bron y cyngor i'w holi yn fanylach, ond y gwir fwriad yw, ei ladd ef yn fradychus, ac ar unwaith, ar ei ffordd o'r castell i'r cyngor; * am hyny yr wyf yn atolwg i ti na chydsynia â'u cais hwynt, i ddanfon Paul i waered i blith ei elynion bradychus a llofruddiog: mae ei fywyd ef yn hollawl ar dy law di.

22 * Y pen-capten gan hynny a ollyngodd y gwr ieuangc ymaith, [r] wedi gorchymyn *iddo* na ddywedai i neb, ddangos o hono y pethau hyn iddo ef.

r Jos. 2. 14. Marc 1. 44.

* Mae y pen-capten yn gofalu yma am einioes Paul ac am einioes y gŵr ieuanc hefyd; pe cawsai yr Iuddewon glywed, diammau y buasent yn lladd y gŵr ieuanc am ddynoethi eu bwriad hwy, ac hefyd yn dyfeisio rhyw ffordd arall i ladd Paul.

23 * Ac wedi galw atto ryw [s] ddau ganwriad, efe a ddywedodd, Parottôwch ddau cant o filwyr, † i fyned hyd yn Cesarea, a deg a thriugain o wŷr meirch, ‡ a deucant o ffyn-wewyr, [t] || ar y drydedd awr o'r nos.

s adn. 17. t Mat. 14. 25. Luc 12. 38.

* Swyddog ar gant o filwyr ydoedd pob canwriad; felly yr oedd yma ddau ganwriad a dau gant o filwyr; pob un a'i gant. † Cesarea Stratonis, yn Palestina oedd hon, ar làn môr y canol-dir, 70, neu 75 milltir i'r gorllewin o Jerusalem; ac nid Cesarea Philippi yn y gogledd. ‡ Tybir mai milwyr o genedloedd tramor yn y llengau Rhufeinig oedd y ffyn-wewyr hyn: rhai hynod am dafiu picellau llymion at eu gelynion oeddynt. || Am naw o'r gloch yn yr hwyr. Gwyddai y pen-capten nad oedd modd cadw Paul yn hwy yn Jerusalem heb berygl y byddai terfysg, ac efallai tywallt gwaed, yno; gan hyny penderfynodd ei ddanfon ef i Cesarea at Felix y rhaglaw. Danfonodd nifer digonol o filwyr gydag ef i'w ddïogelu, ac i wrthsefyll pob rhuthr a allai yr Iuddewon wneyd arno ef ar y ffordd; ac ar yr un pryd danfonodd ef ymaith ar hyd nos, mor ddiarwybod ag y gallai i bawb, ac fel y byddai yn ddigon pell o gyrhaedd ei elynion erbyn y trannoeth.

24 * A pharottôwch [u] ysgrubliaid *iddynt* i osod Paul arnynt, i'w ddwyn ef yn ddïogel at [x] † Ffelix y [y] rhaglaw.

u Neh. 2. 12. Esther 8. 10. Luc 10. 34. x adn. 26, 33—35. pen. 24. 3, 10, 22—27. a 25. 14. y Mat. 27. 2. Luc 3. 1.

* Heblaw y gofal uchod am ddïogelwch Paul, dangosodd y pen-capten dynerwch mawr tuag ato hefyd; yn darpar ysgrubliaid iddo ef a'i gyfeillion i farchogaeth arnynt: a phwy a ŵyr nad eiddo gelynion penaf Paul oedd rhai o'r ysgrubliaid hyny. Fel hyn yr oedd Duw yn goruwch-lywodraethu, ac yn tueddu calon dyn paganaidd i ddïogelu ei was, a'i anrhydeddu hefyd: pa bryd o'r blaen y cafodd ef farchogaeth yn ei holl deithiau? Felix ydoedd rhaglaw Judea y pryd hwn, ac yn Cesarea yr oedd yn cartrefu ac yn cadw ei lŷs.

25 * Ac efe a ysgrifenodd lythyr yn cynnwys yr ystyriaeth yma:

* Tra yr oedd y ddau ganwriad yn parotôi yr osgordd uchod, ysgrifenodd y pen-capten lythyr at Felix yn achos Paul, tebyg i'r hyn a ganlyn.

26 * Claudius Lysias, [z] † at yr ardderchoccaf raglaw Felix, ‡ *yn anfon* [a] annerch.

z pen. 24. 3. a 26. 25. Luc 1. 3. a pen. 15. 23. Iago 1. 1. 3 Ioan 14.

* Claudius Lysias oedd enw y pen-capten. † Enwad o barch i Felix, cyfatebol i'w swydd a'i sefyllfa uchel; ‡ yn nghyd a chyfarchiad caredig, a phob dymuniad o ddaioni iddo. Dywedir i'r Felix hwn, yn nghyd a'i frawd Gallas gael eu geni yn gaethion; ond i'r Ymherawdwr, Claudius Cesar, eu hoffi hwynt, eu rhyddâu a'u breinio, a'u derchafu i swyddau uchel yn y wladwriaeth.

27 * Y gwr hwn [b] † a ddaliwyd gan yr Iuddewon, ac a fu agos a'i ladd ganddynt; ac a achubais i, gan ddyfod â llu arnynt, [c] ‡ gwedi deall mai Rhufeiniad oedd.

b adn. 10. pen. 21. 31—33. a 24. 7. c pen. 22. 25—29.

* "Y gwr hwn," sef Paul y carcharor. † Mae yr adroddiad hwn yn lled gywir; ond nid yw Lysias yn dywedyd iddo rwymo Paul, yr hyn ni ddylasai wneyd. ‡ Gwyddai Lysias y byddai anrhydedd a chanmoliaeth iddo ef o achub Paul am mai Rhufeiniad oedd; ac nid yw yn anghofio crybwyll y peth yn ei lythyr.

28 [d] * A chan ewyllysio gwybod yr achos yr oeddynt yn achwyn arno, mi a'i dygais ef i waered i'w cynghor hwynt:

d pen. 22. 30.

* Gan fy mod yn ewyllysio ymddwyn yn ddiduedd rhwng yr Iuddewon â'r carcharor, ac fel na chaent

mwy achos i ddywedyd fy mod I yn eu gorthrechu trwy rym milwraidd, ac hefyd yn barnu mai fy nyledswydd oedd mynu gwybod beth oedd ganddynt hwy yn ei erbyn, i beri y fath gynhwrf a therfysg; mi a'i dygais ef i'w cyngor, neu eu senedd hwynt, i gael ei holi a'i brofi a ganddynt hwy eu hunain, a'i farnu wrth eu cyfreithiau hwy fel y byddai yr achos yn gofyn. Yr oedd hyn i ygyd yn burion; ond nid oes yma air am iddo ef ei rwymo fel cyn ei ddwyn o flaen y cyngor, pen. 22. 24, 25, 30.

29 * Yr hwn y cefais fod yn achwyn arno ram [e] arholion o'u cyfraith hwy, [f] † heb fod un ycwyn arno yn haeddu angau, neu rwymau.

e adn. 6—9. pen. 18. 15. a 24. 5 6, 10—21. a 25. 19, 20. f pen. 25. 7, 8, 11, 25. a 26. 31.

* Mae yn wir, yr oedd ganddynt ryw swrn o bethau ryn ei erbyn yn ol eu cyfreithiau a'u defodau crefyddol hwy, y rhai nid oeddwn I yn eu deall, nac yn tybied yn iddyledswydd arnaf ymddori yn eu cylch; † ond yn ol y cyfreithiau Rhufeinig, nid oeddwn I yn gweled fod ganddynt yr un cŵyn yn ei erbyn yn haeddu angau, nac ychwaith rwymau. Nid oedd Lysias yn gofalu dim am bethau mawrion yr efengyl a bregethai Paul, pa un ai iawn ai cam oeddynt; fel pagan, a gŵr mewn awdurdod gwladol, yr oedd ef yn synied ac yn gweithredu, a gorucwch-lywodraethodd Duw hyny i waredigaeth Paul.

30 [g] * A phan fynegwyd i mi fod yr Iuddewon ar fedr cynllwyn i'r gwr, myfi a'i hanfonais ef allan o law attat ti; [h] † ac a rybuddiais y cyhuddwyr i ddywedyd y pethau oedd yn ei erbyn ef ger dy fron di. [i] ‡ Bydd iach.

g adn. 16—24. h pen. 24. 7 8. a 25. 5, 6. i pen. 15. 29. 2 Cor. 13. 11.

* Yr oedd hyn yn gyhuddiad trwm yn erbyn yr Iuddewon, eu bod yn bobl derfysglyd, ac yn barod i godi yn anghyfreithlawn yn erbyn y llywodraeth: yr oedd hefyd yn dangos paham y danfonwyd Paul at Felix, a phaham y danfonwyd y fath warchawd-lu milwraidd gydag ef. † Tranoeth, wedi danfon Paul ymaith, mae yn debyg i Lysias rybuddio yr Iuddewon i fyned i Cesarea, i osod eu hachwynion yn ei erbyn ef ger bron Felix. Nid da oedd gan yr Iuddewon hyny, mae yn debyg; ac eto, wedi gyru pethau yn mlaen cyn belled, yr oedd yn rhaid myned; neu gael eu cospi am godi terfysg diachos yn y ddinas. ‡ Iechyd, llwyddiant, a phob dedwyddwch i ti. Dyma gynllun o lythyr byr, eglur, a chynnwysfawr; nid wedi ei fritho a'i orlenwi â mwy na mwy o gyfarchiadau gwenieithus a mursenaidd, fel llythyrau at wŷr mawr yn ein dyddiau ni.

31 * Yna y milwyr, [k] megis y gorchymynasid iddynt, a gymmerasant Paul, † ac a'i dygasant o hŷd nos i Antipatris.

k adn. 23, 24. Luc 7. 8. 2 Tim. 2. 3, 4.

* Mewn ufudd-dod i orchymyn eu pen-capten, cychwynodd y milwyr yn ddïoed, ar yr awr osodedig. † Enw y lle hwn gynt oedd Capharsalama (1 Mac. 7. 31,) neu Chabarzaba: ail-adeiladodd Herod Fawr y dref, ac a'i galwodd Antipatris, o anrhydedd i'w dad Antipater. Mae haneswyr yn gwahaniaethu yn fawr am sefyllfa y lle hwn; ond yn ol darlun *Scott*, yr oedd yn sefyll dipyn mwy na hanner y ffordd o Jerusalem i Cesarea: efallai iddynt gyrhaedd yno erbyn tranoeth, ond yr oedd yn deithio caled i'r milwyr traed.

32 * A thrannoeth, gan adael i'r gwŷr meirch fyned gyd âg ef, hwy a ddychwelasant i'r † castell.

* Gwedi hebrwng Paul allan o gyrhaedd y perygl, dychwelodd y gwŷr traed o Antipatris i Jerusalem, gan adael i'r gwŷr meirch fyned âg ef yn mlaen i Cesarea. † Sef i gastell Antonia yn Jerusalem, lle yr oedd eu prif orsaf hwynt.

33 * Y rhai, gwedi dyfod i Cesarea, [l] a rhoddi y llythyr at y rhaglaw, [m] a osodasant Paul hefyd ger ei fron ef.

l adn. 25—30. m pen. 28. 16.

* Gwedi i'r gwŷr meirch, gwarcheidwaid Paul ddyfod i Cesarea, hwy a roisant yn gyntaf y llythyr oddi wrth y pen-capten i Felix, ac wedi hyny gosodasant Paul y carcharor ger ei fron ef.

34 Ac wedi i'r rhaglaw ddarllen *y llythyr*, [n] * ac ymofyn o ba dalaith yr oedd efe: [o] † a gwybod mai o Cilicia yr ydoedd;

n pen. 25. 1. Esther 1. 1. a 8. 9. Dan. 2. 49. a 6. 1. Luc 23. 6, 7. o pen. 15. 41. a 21. 39.

* Crybwyllai Lysias yn ei lythyr mai Rhufeiniad oedd Paul, adn. 27, a hyny, efallai, yn un peth, a barodd i Felix ofyn iddo o ba dalaeth yr ydoedd; fel y gwypai ai Rhufeiniad ydoedd mewn gwirionedd. Yr oedd rhaglawiaid y gwahanol daleithiau hefyd yn bur ochelgar nad ymŷrent hwy â materion neb o dalaeth arall, allan o'u rhaglawiaeth eu hunain, rhag yr achwynid arnynt wrth Cesar eu bod yn myned dros derfynau eu hawdurdod. Gwel Luc 23. 6, 7. † Talaeth yn Asia Leiaf oedd Cilicia, ac mae yn debyg yn perthyn i raglawiaeth Felix.

35 * Mi a'th wrandawaf, eb efe, [p] † pan ddelo dy gyhuddwyr hefyd. ‡ Ac efe a orchymynodd ei gadw ef [q] yn nadleudy [r] Herod.

p adn. 30. pen. 24. 1, 10, 22, 24—27. a 25. 16. q Mat. 2. 1, 3, 16. r Mat. 27. 27. Ioan 18. 28.

* Mi a'th wrandawaf yn fanol, ac yn drwyadl, yw ystyr y geiriau *diakousomai son*, yn ol cyfreithiau yr Ymherodraeth Rufeinig, a gorchymym Duw i'r barnwyr hefyd. Deut. 2. 16; a 19. 18. † Gwel ar adn. 30. Yr oedd hyn yn ddigon teg, cael y cyhuddol â'i gyhuddwyr wyneb yn wyneb cyn barnu, a gwrando ar y naill fel y llall: dyma bagan yn gwneyd felly; pa faint mwy y dylai barnwyr cristionogol ei wneyd. ‡ Tybir i lythyr Lysias yn nghylch Paul, effeithio cymmaint ar Felix, fel na roddodd efe ef yn y carchar cyffredin, ond peri ei gadw ef mewn rhan o lŷs mawr a adeiladasai Herod, yr hwn a elwid tŵr Straton, ond a elwir yma "Dadleu-dŷ Herod," oblegid mai yma y byddai arferol o gynnal brawd-leoedd cyfreithiol.

PEN. XXIV.

Paul yn cael ei gyhuddo gan Tertulus, &c.

[a] * AC ar ol pum niwrnod, [b] † y daeth Ananïas yr arch-offeiriad i waered, a'r henuriaid, [c] ‡ ac un Tertùlus areithiwr; [d] ‖ y rhai a ymddangosasant ger bron y rhaglaw yn erbyn Paul.

a adn. 11. pen. 21. 27. b pen. 23. 2, 30, 35. a 25. 2. c pen. 12. 21. Es. 3. 3. 1 Cor. 2. 1, 4. d pen. 25. 2, 15.

* Pùm niwrnod er pan ddaliesid ef gyntaf yn y deml, (pen. 21. 27,) medd rhai, yr hyn, yn nghyd â'r saith niwrnod y bu efe mewn puredigaeth cyn hyny, (pen. 21. 24, 26,) a wna y deuddeng niwrnod a grybwylla ef yn adn. 11, o'r bennod hon. Pùm niwrnod ar ol ei ddyfod ef o Jerusalem i Cesarea, medd eraill, a hyny sydd fwyaf naturiol ei feddwl wrth ddarllen y geiriau. Gwel ar pen. 21. 27. † Tybiodd y gwŷr mawr hyn fod yr achos yn ddigon pwysig iddynt ddyfod o Jerusalem yr holl ffordd i Cesarea, i geisio cyhuddo Paul; ac mae yn anhawdd gwybod pa un ai wrth Paul ai wrth Lysias yr oeddynt ddicaf erbyn hyn, am iddo ef symmud Paul o'u gafaelion hwy, a rhoddi yr holl drafferth hon iddynt i ddyfod ar ei ol i Cesarea. Gwel ar pen. 23. 30. ‡ Rhyw gyfreithiwr cyfrwys-ddrwg a dichellgar oedd y Tertùlus hwn, mae yn debyg, a goflogasent hwy i ddyfod gyda hwynt, i fwyâu y cyhuddiadau yn erbyn Paul trwy rym areitheg a hyawdledd twyllodrus: ond y mae mwy o weniaith ac anwiredd yn ei araeth na dim

arall. ‖ Tertùlus fel dadleuwr swyddol, a'r lleill fel cyhuddwyr a thystion.

2 * Ac wedi ei alw ef ger bron, † Tertùlus a ddechreuodd *ei* gyhuddo *ef*, gan ddywedyd,

* Gwedi galw Paul ger bron, wyneb yn wyneb â'i gyhuddwyr, † dechreuodd ei gyhuddo ef ar gam, ac yn gelwyddog iawn, fel y gellir gweled wrth gymharu adn. 6, 7, âg amddiffyniad Paul yn adn. 11—21.

3 [e] * Gan ein bod ni yn cael trwot ti heddwch mawr, a bod pethau llwyddiannus i'r genedl hon trwy dy ragwelediad di, yr ydym ni yn gwbl, ac ym mhob man, yn *eu* cydnabod, [f] *O* ardderchoccaf Ffelix, gyd â phob dïolch.

e adn. 26, 27. Salm 10. 3. a 12. 2, 3. Diar. 26. 28. a 29. 5. Judas 16. f pen. 23. 26. a 26. 25. Luc 1. 3.

* Dywedir i Felix ymlid lladron a thwyllwyr o'r wlad; ond yn mhob peth arall, mae haneswyr Iuddewig a phaganaidd yn cytuno, mai dyn cybyddlyd, creulawn, ac anfad ddrygionus oedd efe: yr oedd yn dra anghyfiawn a gorthrymus tuag at yr Iuddewon; mynodd ladd Jonathan eu harch-offeiriad, herwydd iddo ryfygu dywedyd yn erbyn ei drais ef; yr oedd yn byw mewn godineb gyda Drusila, yr hon a adawsai ei gŵr ei hunan i fyw gydag ef; achwynwyd arno wrth Nero gan yr Iuddewon am orthrymder annoddefol, a chawsai ei ddïswyddo a'i gospi yn sior, oni buasai i'w frawd Pallas eiriol gyda'r Ymherawdwr yn ei blaid. Felly, ni a welwn nad oedd y rag-araeth hon ddim ond gweniaith ffiaidd oll, er ennill Felix i bleidio yr Iuddewon yn erbyn Paul.

4 [g] * Eithr, fel na rwystrwyf di ym mhellach, † yr ydwyf yn deisyf arnat, o'th hynawsedd, wrando arnom ar fyr eiriau.

g Heb. 11. 32.

* Fel na rwystrwyf di gydag achosion pwysig eraill trwy gymmeryd i fynu dy amser gwerthfawr. † Geiriau llyfnach nac ymenyn, ond i gyd yn weniaith ffiaidd, digon i beri i bawb gasâu pob hyawdledd areithiol.

5 [h] * Oblegid ni a gawsom y gwr hwn yn bla, [i] † ac yn cyfodi terfysg ym mysg yr holl Iuddewon trwy y byd, [k] † ac yn ben ar sect y [l] Nazareniaid:

h pen. 6. 13. a 16. 20, 21. a 17. 6, 7. a 21. 28. a 22. 22. a 28. 22. 1 Bren. 18. 17, 18. Jer. 38. 4. Amos 7. 10. Mat. 5. 11, 12. a 10. 25. 1 Cor. 4. 13. i 1 Sam. 22. 7—9. Ezra 4. 12—19. Neh. 6. 5—8. Esther 3. 8. Luc 23. 2, 5, 19, 25. 1 Pedr 2. 12—15. k adn. 14. pen. 5. 17. a 15. 5. a 26. 5. a 28. 22. 1 Cor. 11. 19. l Mat. 2. 23.

* "Ni a gawsom y gŵr hwn yn bla:" fel pe dywedasai, Nis gallaf fi ei gymharu i ddim arall, ond i ddyn a'r pla arno, yn llygru ac yn gwenwyno pawb pa le bynag y delo, â'i athrawiaethau cyfeiliornus a niweidiol. † Mae efe yn crëu ac yn codi terfysg yn mysg yr Iuddewon yn mhob màn; nid yn unig terfysg yn erbyn crefydd a chyfreithiau yr Iuddewon eu hunain; ond terfysg hefyd, a gwrthryfel yn erbyn y llywodraeth Rufeinig ar yr Iuddewon. Cyhuddiadau hollawl anwireddus a thra drygionus yw y rhai hyn oll. † Sect y Nazarëaid, neu y cristionogion: mynai Tertùlus i Felix goelio bod y sect hon yn fwy peryglus i'r grefydd Iuddewig, ac i'r llywodraeth Rufeinaidd, na'r un sect arall; ac y dylasai efe allan o law ymddwyn tuag at Paul fel yr ymddygasai Pilat ei flaenor tuag at Iesu o Nazareth ei hun.

6 * Yr hwn a [m] amcanodd halogi y deml: [n] † yr hwn hefyd a ddaliasom ni, [o] ac a fynnasem ei farnu yn ol ein cyfraith ni.

m adn. 12. pen. 21. 27—29. n pen. 21. 30—32. a 22. 23. a 23. 10—15. o Ioan 18. 31. a 19. 7, 8.

* Am sail y cyhuddiad anwireddus hwn, gwel pen. 21. 28, 29: ond yr oedd Tertùlus yn rhŷ gyfrwys i ddywedyd mai trwy ddwyn rhai dienwaededig i'r deml yr amcanai Paul ei halogi; gwyddai mai dyn dienwaededig oedd Felix ei hun, ac na roddasai nemawr o dderbyniad i gŵyn felly pe buasai yn wir. † Gwir oedd iddynt hwy ddàl Paul, ond nid mòr wir mai yn ol cyfraith o fath yn y byd y mynent ei roi ef i farwolaeth; hwy a wnaethent hyny pe gallasent trwy derfysg a brâd, heb un gyfraith. Caniatâi y Rhufeiniaid i'r Iuddewon roddi dynion i farwolaeth am gynnyg halogi eu teml, heb un prawf yn y byd arnynt; ac yma mae Tertùlus am ddangos eu bod hwy yn bwyllog a rhesymol iawn, yn eu bwriad o roddi Paul i farwolaeth wrth gyfraith, pryd y gallasent ei wneyd heb hyny. Ni soniodd air am y cynghrair bradychus i'w ladd ef.

7 [p] * Eithr Lysias y pen-capten a ddaeth, [q] a thrwy orthrech mawr a'*i* dug *ef* allan o'n dwylaw ni:

p pen. 21. 31—33. a 23. 23—32. Diar. 4. 16. q pen. 21. 35. a 23. 10.

* Yn hyn yr oeddynt yn cyhuddo Lysias hefyd, fel pe buasai yn pleidio Paul, a thrwy orthrech yn attal iddynt hwy weithredu yn ol yr hawl oedd ganddynt.

8 [r] * *Ac* a archodd i'w gyhuddwyr ddyfod ger dy fron di: [s] † gan yr hwn, wrth ei holi, y gelli dy hun gael gwybodaeth o'r holl bethau am y rhai yr ydym ni yn achwyn arno.

r pen. 23. 30, 35. a 25. 5, 15, 16. s adn. 19—21.

* Gwel pen. 23. 30: mae hyn hefyd yn lled debyg i achwyniad yn erbyn y pen-capten; ei fod yn rhoddi yr holl drafferth a'r gost iddynt hwy, i ddyfod yr holl ffordd i Cesarea yn erbyn Paul, pryd y gallasent ei farnu ef gartref pe cawsent. Onid oes yma brawf amlwg, fod y deyrnwialen wedi llwyr ymadaw o Judah y pryd hwn, a'r Iuddewon yn hollawl dàn lywodraeth estron genedl? † Mòr ddigywilydd oedd y Tertùlus hwn, a thybied yr addefai Paul ei hun wrth ei holi, ei fod yn enog o'r pethau y cam-gyhuddwyd ef o honynt: ond efe a gamsyniodd yn fawr iawn.

9 [t] * A'r Iuddewon a gyd-syniasant hefyd, gan ddywedyd, fod y pethau hyn felly.

t pen. 6. 11—13. Salm 4. 2. a 62. 3, 4. a 64. 2—8. Es. 59. 4—7. Jer. 9. 3—6. Ezec. 22. 27—29. Mica 6. 12, 13. a 7. 2, 3. Mat. 26. 59, 60. Ioan 8. 44.

* Er mòr gelwyddog oedd y cyhuddiadau uchod i gyd, dyma yr arch-offeiriad a'r henuriaid, (adn. 1,) yn cyd-dystio â Thertùlus eu bod yn wir: annhebyg iawn oedd yr arch-offeiriad hwn i'r darluniad a wnair o'r offeiriad yn Mal. 2. 6.

10 * A Phaul a attebodd, [u] wedi i'r rhaglaw amneidio arno i ddywedyd, † Gan i mi wybod dy fod di yn [x] farnwr i'r genedl hon er ys llawer o flynyddoedd, ‡ yr ydwyf yn fwy cysurus yn atteb trosof fy hun.

u pen. 12. 17. a 13. 16. a 19. 33. a 21. 40. a 26. 1. x pen. 18. 15. 1 Sam. 2. 25. Luc 12. 14. a 18. 2.

* Yn ol y gyfraith Rufeinig, a hawl naturiol pob dyn hefyd, yr oedd y cyhuddol i gael ateb drosto ei hun, a'i amddiffyn ei hun yn wyneb ei gyhuddwyr: wedi i Tertùlus a'r Iuddewon orphen, amneidiodd Felix ar Paul, mai yn awr oedd yr amser iddo ef lefaru; ac yn wir yr oedd yn anodd iddo dewi hyd yn hyn, yn wyneb y fath anwireddau. † Pùm mlynedd a hanner, medd rhai; saith mlynedd, medd eraill, y buasai Felix yn rhaglaw y pryd hwn. ‡ Gan iddo fod cyhyd o amser yn rhaglaw Judea, efe a wyddai yn lled dda pa fath ddynion oedd cyhuddwyr Paul; a phe buasai yntau wedi bod yn ddyn terfysgllyd o'r fath a haerent hwy, nis gallasai Felix lai na gwybod hyny hefyd: mae y ddau beth, mae yn debyg, yn gwneyd Paul yn gysurus i ateb drosto ei hun.

11 * Canys ti a elli wybod nad oes [y] dros ddeuddeg diwrnod er pan ddaethum i fynu i [z] † addoli yn Jerusalem.

y adn. 1. pen. 21. 18, 27. a 22. 30. a 23. 11, 23, 32, 33. z adn. 17. pen. 21. 26.

Tri chyhuddiad a roddwyd yn erbyn Paul:—codi terfysg; blaenori plaid gyfeiliornus, sect y Nazareniaid; a halogi y deml: ac yn ei amddiffyniad a ganlyn, mae efe yn ateb yn rhëolaidd i bob un o honynt. * Am godi terfysg; gallai Felix wybod nad oedd ond deuddeg

miwrnod o gwbl er pan ddaethai ef i Jerusalem o wleddydd pell; ac nas gallasai ennill plaid ddigonol yn hyny o amser i godi terfysg. Gwyddai Felix ei fod mewn dalfa am ran fawr o'r amser hyny; a gallai wybod ond choli tystion, pa bryd y daethai i Jerusalem gyntaf, a pha beth a wnaethai efe yno yr holl amser: † i addoli ac nid i derfysgu y daethai efe.

12 [a] * Ac ni chawsant fi yn y deml yn ymddadleu â neb, † nac yn gwneuthur terfysg i'r bobl, nac yn y synagogau, nac yn y ddinas:

a adn. 5. pen. 25. 8. a 28. 17.

* Ni chawsant fi yn dadlau â neb yn y deml am faterion crefydd na materion y llywodraeth; † nac yn ymderfysgu â neb yn y deml, yn y synagogau, nac yn un màn yn y ddinas. Yr oedd yn gyfreithlawn dadlau ac ymresymu yn y deml, am bethau yn y gyfraith a'r prophwydi, ar ol gorphen yr aberthau; fel y mae yn amlwg yn Luc 2. 46; ond yma mae Paul yn haeru na wnaethai mo hyny, yr hyn fuasai gyfreithlawn iddo, chwaithach codi terfysg mewn modd anghyfreithlawn.

13 [b] * Ac ni allant brofi y pethau y maent yn awr yn achwyn arnaf o'u plegid.

b pen. 25. 7.

* Gorchwyl hawdd yw cyhuddo; ond peth arall yw *profi* y cyhuddiadau, eu bod yn wir: nis gallai neb o'r cyhuddwyr hyn brofi yr un o'r tri pheth uchod yn erbyn Paul, nac ei fod ef yn euog o'r un o honynt.

14 [c] * Ond hyn yr ydwyf yn ei gyffesu i ti, [d] mai yn ol y ffordd y maent hwy yn ei galw yn [e] heresi, † felly yr wyf fi yn addoli [f] Duw fy nhadau; [g] ‡ gan gredu yr holl bethau sydd ysgrifenedig yn y [h] ddeddf a'r prophwydi:

c Salm 119. 46. Mat. 10. 32. d pen. 9. 2. a 19. 9, 23. Amos 8. 14. 2 Pedr 2. 2. e adn. 5. 1 Cor. 11. 19. Gal. 5. 20. Tit. 3. 10. 2 Pedr 2. 1. f pen. 3. 13. a 5. 30. a 7. 32. a 22. 14. Ex. 3. 15. 1 Cron. 29. 18. 2 Tim. 1. 3. g pen. 3. 22—24. a 10. 43. a 26. 22, 27. a 28. 23. Luc 1. 70. a 24. 27, 44. Ioan 5. 39—47. 1 Pedr 1. 11. Dat. 19. 10. h pen. 13. 15. Mat. 7. 12. a 22. 40. Luc 16. 16, 29. Ioan 1. 45. Rhuf. 3. 21.

* Yma mae Paul yn ateb i'r ail gyhuddiad, sef cyfeilornad, neu heresi: addefai, mai yn ol y ffordd *a alwent hwy* yn heresi, yr oedd efe yn addoli Duw ei dadau: ac yn hyn, fel Crist ei hun o flaen Pilat, efe a dystiodd broffes dda. 1 Tim. 6. 13. † Nid oedd efe yn addoli yr un duw newydd, ond Duw ei dadau; Duw Abraham, Isaac, a Jacob: y Duw hefyd a addolai yr holl genedl Iuddewig: nis gallasai fod heresi yn hyny. Sylwir fod hyn yn ddadl addas iawn ger bron rhaglaw Rhufeinig; yr oedd yn profi fod Paul dàn nodded y cyfreithiau Rhufeinig, y rhai a ganiatâent i'r Iuddewon oll addoli Duw eu tadau: pe buasai efe yn addoli rhyw dduw newydd, buasai yn colli nawdd ac amddiffyn y cyfreithiau hyny. ‡ Mae efe yn dangos hefyd nad oedd ganddo ef yr un grefydd ond yr hon a ddysgid yn y ddeddf a'r prophwydi; llyfrau a addefid yn wirionedd o ddwyfol ysbrydoliaeth gan yr Iuddewon eu hunain. Yr oedd efe yn credu eu gwirionedd, ac yn credu y cyflawniad o honynt yn Iesu y Messiah.

15 [i] * A chennyf obaith ar Dduw, † yr hon y mae y rhai hyn eu hunain yn ei disgwyl, [k] y bydd adgyfodiad y meirw, ‡ i'r cyfiawnion ac i'r anghyfiawnion.

i adn. 21. pen. 26. 7. a 28. 20. k pen. 23. 6—8. Job 19. 25, 26. Dan. 12. 2. Mat. 22. 31, 32. Ioan 5. 28, 29. 1 Cor. 15. 12—23. Phil. 3. 21. 1 Thes. 4. 14—16. Dat. 20. 12, 13.

* A chenyf obaith ar Dduw, ar air a gallu Duw, am adgyfodiad y meirw. Dyma oedd canol-bwynt athrawiaeth Paul, a phob cangen arall o'r athrawiaeth yn nglŷn â hyn: adgyfodiad Crist yn gyntaf, fel blaenffrwyth, a sicrwydd adgyfodiad ei bobl. † Yr oedd yr Iuddewon oll hefyd, oddigerth y Saduceaid yn unig, yn credu adgyfodiad y meirw; ac nid oedd y Saduceaid ond ychydig o rifedi, y rhai, er eu bod gan mwyaf yn uchel mewn awdurdod, nid oeddynt yn beiddio erlid yr Iuddewon eraill am yr athrawiaeth hòno. ‡ Dywed *Josephus* y byddai y Phariseaid yn cyfyngu yr adgyfodiad i'r cyfiawnion yn unig; ac yn dywedyd y caffai yr anghyfiawnion ddyoddef yn uffern byth, heb adgyfodiad i'w cyrph. Pa fodd yr oeddynt yn deall Daniel 12. 2.?

16 [l] * Ac yn hyn yr ydwyf fi fy hun yn ymarfer, i gael cydwybod ddirwystr tu ag at Dduw a dynion, yn wastadol.

l pen. 23. 1. Rhuf. 2. 15. a 9. 1. 1 Cor. 4. 4. 2 Cor. 1. 12. a 4. 2. 1 Thes. 2. 10. 1 Tim. 1. 5, 19. a 3. 9. 2 Tim. 1. 3. Tit. 1. 15. a 2. 11—13. Heb. 9. 14. a 10. 22. a 13. 18. 1 Pedr 2. 19. a 3. 16, 21.

* Yr hwn mae gwir obaith, a gobaith da trwy ras ganddo, mae yn ei buro ei hun, 1 Ioan 3. 3: felly yr oedd Paul yma; "Ac yn hyn," neu *am* hyn, fel yr arwydda y gair yn aml, yr wyf fi fy hun yn ymarfer ac yn ymdrechu yn gydwybodol, nid yn unig i fod o ymarweddiad allanol diargyhoedd ger bron dynion, ond hefyd i gadw cydwybod ddirwystr tuag at Dduw a dynion. Yr oedd crediniaeth gadarn o'r adgyfodiad a'r farn, yn nghyd a'i obaith o gael rhan yn adgyfodiad a dedwyddwch y rhai cyfiawn, yn ei weithio i ymdrech gwastadol am sancteiddrwydd a chydwybod bur ddirwystr.

17 * Ac ar ol llawer o flynyddoedd, y daethum [m] i wneuthur † elusenau i'm cenedl, [n] ‡ ac offrymmau.

m pen. 11. 29, 30. a 20. 16. Rhuf. 15. 25, 26. 1 Cor. 16. 1, 2. 2 Cor. 8. a 9. Gal. 2. 10. n pen. 21. 26.

* Yma mae efe yn dyfod at y trydydd cyhuddiad, sef halogi y deml, ac yn ei wrthbrofi trwy ddywedyd, mai i wneuthur elusenau i'w genedl, ac i offrymu yn y deml yn ol deddf Moses, y daethai efe i Jerusalem, wedi bod yn absenol am lawer o flynyddoedd: pedair ar ddeg, medd rhai, Galat. 2. 1. † Nid oedd yn elyn i'w genedl; oblegid yr oedd ganddo elusenau iddynt· ‡ ac nid oedd yn elyn i'w crefydd a'u teml; oblegid yr oedd yn offrymu yn y deml yn ol eu gosodiadau crefyddol hwy, yr hyn oedd oddefol dros ychydig y pryd hwnw, er nad oedd rwymedig nac angenrheidiol.

18 [o] * Ar hynny rhai o'r Iuddewon o Asia a'm cawsant i † wedi fy nglanhâu yn y deml, ‡ nid gyd â thorf na therfysg.

o pen. 21. 26—30. a 26. 21.

* Ar hyny, pan oeddwn I yn cyflawni y gwasanaeth perthynol i'r adduned oedd arnaf, yr Iuddewon o Asia a'm cawsant yn y deml, pen. 21. 27; † nid yn ei halogi, ond wedi fy nglanâu, ac mòr addas i fod ynddi â neb Iuddewon eraill. ‡ Nid gyda thorf na therfysg, ond yn llonydd, a chyda chynnulleidfa lonydd oedd yno yn addoli: a pha derfysg bynag a wnaed, fy nghyhuddwyr eu hunain a'i gwnaeth, heb un achos yn y byd ynof fi, gwelsant Trophimus yr Ephesiad gyda mi yn y ddinas (pen. 21. 29,) a dywedasant yn anwireddus i mi ei ddwyn ef i'r deml i'w halogi: pen. 21. 28.

19 [p] * Y rhai a ddylasent fod ger dy fron di, ac achwyn, os oedd ganddynt ddim i'm herbyn.

p pen. 23. 30. a 25. 16.

* Dylasai yr Iuddewon hyny o Asia, a ddechreuodd y derfysg fod yma ger dy fron di, ac achwyn eu hunain, os oedd ganddynt ddim i'm herbyn; nid yw y rhai hyn fy nghyhuddwyr ond dywedyd yr hyn a glywsant gan eraill, nis gallant ddywedyd iddynt weled dim o'r pethau y'm cyhuddant o honynt.

20 * Neu dyweded y rhai hyn eu hunain, os cawsant ddim camwedd ynof, tra fum i yn sefyll o flaen y cynghor.

* A thra bum I yn sefyll o flaen y cyngor yn eu gŵydd hwynt, wedi fy nàl, tystiolaethed y rhai hyn os cawsant ddim camwedd mewn dim a ddywedais I yno: am bob peth cyn hyny nis gall y rhai hyn dystio dim.

21 * Oddi eithr yr un llef hon a lefais pan oeddwn yn sefyll yn eu plith; [q] Am adgyfodiad y meirw y'm bernir heddyw gennych.

q pen. 4. 2. a 23. 6. a 26. 6—8.

* Am yr "un llef hon" gwel ar pen. 23. 6: ac yn yr adnodau dilynol gwelwn i'r Phariseaid gyfiawnâu Paul yn y llef hòno, a pha fodd y gallent ei feio ef yn awr? Fel pe dywedasai Paul, Am bob bai arall, yr wyf yn eu hèrio hwynt; ac os yw pregethu adgyfodiad y meirw yn fai, yr wyf yn ymorfoleddu ynddo, beth bynag fyddo y canlyniad: ac nis gall y rhai hyn ei wneyd yn fai yn awr, heb wrthwynebu y penderfyniad a wnaethant y pryd hwnw yn y cyngor.

22 [r] * Pan glybu Ffelix y pethau hyn, efe a'u hoedodd hwynt, † gan wybod yn hysbysach y pethau a berthynent i'r ffordd *honno;* ac a ddywedodd, [s] ‡ Pan ddêl Lysias y pencapten i waered, mi a gâf wybod eich matterion chwi yn gwbl.

r adn. 10, 24. pen. 26. 3. s adn. 7. pen. 18. 20. a 25. 26. Deut. 19. 18.

* Efe a oedodd eu myned yn mlaen yn mhellach, yr Iuddewon i gyhuddo, na Phaul i amddiffyn ychwaneg y tro hwnw: ac a oedodd osod un farn benderfynol hefyd ar y mater. † Ffordd yr Iuddewon o erlid ac enllibio y cristionogion, medd rhai; gwyddai Felix fwy am danynt hwy a'u harferion nac oeddynt hwy yn feddwl. Ffordd y grefydd Iuddewig, medd eraill; ac yn mha beth yr oedd y grefydd gristionogol yn gwahaniaethu oddi wrthi: gwyddai Felix hyn, hefyd, yn hysbysach nac y tybiai Tertùlus a'i blaid, a gwyddai nad oedd Paul mòr euog o gyfeiliornad ag y taerent hwy ei fod. Ffordd yr efengyl, a'r grefydd gristionogol, medd eraill; gwyddai Felix yn hysbysach am dani nac y meddylient hwy: efallai trwy Phylip yr efengylwr, Cornelius y canwriad, a llawer eraill oedd yn Cesarea erbyn hyn yn proffesu cristionogaeth: gwyddai efe nad oedd dim perygl yn y byd i'r llywodraeth Rufeinig oddi wrth y cristionogion. Ond deall eraill y geiriau uchod fel hyn;—Efe a'u hoedodd hwynt nes cael gwybod yn hysbysach, &c. ‡ Gan iddynt gyhuddo Paul o godi terfysg, yr oedd yn angenrheidiol cael y pen-capten i waered, fel yr un mwyaf tebygol i wybod a thystiolaethu am beth felly: a chan fod cyhuddiadau wedi cael eu tafluallan yn erbyn y pen-capten ei hun, yr oedd yn angenrheidiol ei gael ef i waered i ateb drosto ei hun.

23 * Ac efe a archodd i'r canwriad gadw Paul, [t] † a chael *o hono* esmwythdra, [u] ‡ ac na lesteiriai neb o'r eiddo ef i'w wasanaethu, nac i ddyfod atto.

t adn. 26. pen. 27. 3. a 28. 16, 31. Diar. 16. 7. u pen. 21. 8—14.

* Ni wnai Felix gondemnio Paul i foddloni yr Iuddewon, ac nis gollyngai ef ychwaith i'w hanfoddloni hwynt: ond cadwodd ef mewn dalfa hyd amser arall. † Er ei fod mewn dalfa, ac mewn rhwymau hefyd, fel mae yn amlwg yn pen. 26. 29; a 28. 20; eto nid oedd mewn cyfyng gaethiwed; yr oedd gan Felix feddyliau da am ei ddiniweidrwydd ef, am hyny parodd iddo gael pob rhyddid ac esmwythder ag oedd bosibl ei gael mewn carchar. ‡ Heblaw cyfeillion cyd-ymdeithiol Paul, yr oedd yn Cesarea eglwys lïosog o gristionogion y pryd hwn, a rhyddid i Paul a hwythau gyd-ymweled a chyd-gyfeillachu â'u gilydd yn ddiwahardd, yr hyn oedd gysur mawr iddo ef ac adeiladaeth iddynt hwythau.

24 * Ac ar ol talm o ddyddiau, y daeth Ffelix, † gyd â'i wraig Drusila, yr hon ydoedd Iuddewes, [x] ac a yrrodd am Paul, ac a'i gwrandawodd ef ynghylch [y] y ffydd yn Nghrist.

x pen. 26. 22. Marc 6. 20. Luc 19. 3. a 23. 8. y pen. 16. 31. a 20. 21. Gal. 2. 16, 20. a 3. 2. 1 Ioan 5. 1. Judas 3. Dat. 14. 12.

* Tybir i Felix fyned oddi cartref am ychydig ar ol yr hanes uchod, ac wedi rhyw nifer o ddyddiau, efe a ddychwelodd, ac a yrodd am Paul i areithio o'i flaen ef a'i wraig yn nghylch y ffydd yn Nghrist: nid o wir chwennychiad am glywed y gwirionedd, ond o flys a chwilfrydedd gwag i glywed beth oedd ei athrawiaeth ef, a pha un a oedd rhywbeth yn ei ddaliadau ag oedd yn debyg i fod yn beryglus i'r llywodraeth Rufeinig, † Y Drusila hon ydoedd ferch ieuangaf Herod Agrippa llofrudd Iago: cafodd ei dwyn i fynu yn y grefydd Iuddewig, a dywedir ei bod yn un o'r merched glânaf yn ei hoes, ond yn dra dirinwedd ac anniwair. Priodwyd hi âg Azizus, brenin Emessa yn Syria, yr hwn a gymmerth ei enwaedu er ei mwyn hi, ac wedi hyny hi a adawodd ei phrïod i ymbrïodi yn anghyfreithlawn â'r Felix, y pagan dïenwaededig hwn.

25 * Ac fel yr oedd efe yn [z] ymresymmu am [a] gyfiawnder, [b] † a dirwest, [c] a'r farn a fydd, [d] ‡ Ffelix a ddychrynodd, ac a attebodd, [e] ‖ Dos ymaith ar hyn o amser, [f] a phan gaffwyf fi amser cyfaddas, mi a alwaf am danat.

z pen. 17. 2. 1 Sam. 12. 7. Es. 1. 18. a 41. 21. Rhuf. 12. 1. 1 Pedr 3. 15. a adn. 15, 26. 2 Sam. 23. 3. Job 29. 14. Salm 11. 7. a 45. 7. a 58. 1, 2. a 72. 2. a 82. 1—4. Diar. 16. 12. Preg. 3. 16. Es. 1. 21. a 16. 5. a 61. 8. Jer. 22. 3, 15—17. Ezec. 45. 9. Dan. 4. 27. Hos. 10. 4, 12. Amos 5. 24. a 6. 12. 1 Ioan 3. 7, 10. b Diar. 31. 3—5. Preg. 10. 16, 17. Es. 28. 6, 7. Dan. 5. 1—4, 30. Hos. 7. 5. Marc 6. 18—24. Gal. 5. 23. Tit. 2. 11, 12. 2 Pedr 1. 6. c pen. 10. 42. a 17. 31. Preg. 3. 17. a 5. 8. a 11. 9. a 12. 14. Mat. 35. 31—46. Rhuf. 2. 16. a 14. 12. 1 Cor. 4. 5. 2 Cor. 5. 10. 2 Thes. 1. 7—10. 2 Tim. 4. 1. Heb. 6. 2. a 9. 27. 1 Pedr 4. 5. Dat. 20. 11—15. d pen. 2. 37. a 9. 6. a 16. 29. 1 Bren. 21. 27. 2 Bren. 22. 19. Ezra 10. 3, 9. Salm 119. 120. Es. 66. 2. Jer. 23. 29. Rhuf. 3. 19, 20. 1 Cor. 14. 24, 25. Gal. 3. 22. Heb. 4. 12. a 12. 21. Iago 2. 19. e pen. 16. 30—34. a 26. 28. 1 Bren. 22. 26, 27. Jer. 37. 17—21. a 38. 14—28. Mat. 14. 5—10. f pen. 17. 32. Diar. 6. 4, 5. Es. 55. 6. Hag. 1. 2. Luc 13. 24, 25. a 17. 26—29. 2 Cor. 6. 2. Heb. 3. 7, 8, 13. a 4. 11. Iago 4. 13, 14.

* Mae yn debyg i'r apostol fyned dros holl hanes yr Arglwydd Iesu, a holl brif ganghenau athrawiaeth yr efengyl, cyn iddo ddyfod i ymresymu fel hyn am gyfiawnder, a dirwest, a'r farn a fydd. Cymhwysiad ei bregeth ydoedd hyn, at ei ddau wrandawiaid anghyfiawn, anghymmedrol, a difeddwl am y farn a fydd, ac yr oedd yn addas iawn iddynt. † Cymmedrolder, a hunan-lywodraeth, o ran pleserau cnawdol, yw ystyr y gair "dirwest" yn y fân hon; yr hyn nid oedd gan Felix na Drusila, y rhai a ymlosgent yn eu hawydd anniwair i'w gilydd. ‡ Gwyddai Felix ei fod yn dra euog yn y ddau beth cyntaf; a phan glywodd am y farn a fydd, nis gallai lai na dychrynu drwy ei holl galon: ond nid oes air o son i Drusila ddychrynu dim, er iddi gael ei dwyn i fynu yn llawer gwell na Felix, o ran gwybodaeth grefyddol o leiaf. Pechaduriaid o'r fath hyny yn aml yw y rhai mwyaf caled o lawer. ‖ Yn lle gwaeddi ar unwaith "Pa beth a wnaf fel y byddwyf cadwedig," rhoi pen ar y bregeth a wnaeth Felix yn y fân, ac addaw gwrando yn mhellach amser arall. Aeth y gwirionedd miniog yn rhŷ annoddefol i'w gydwybod ef, a gwell oedd ganddo gael llonydd i fyw yn ei bechodau aflan, er dystrywio ei enaid.

26 [g] * A chan obeithio hefyd y rhoddid arian iddo gan Paul, er ei ollwng ef yn rhydd: [h] † o herwydd paham efe a anfonodd am dano yn fynychach, ‡ ac a chwedleuodd âg ef.

g adn. 2, 3. Ex. 23. 8. Deut. 16. 19. 1 Sam. 8. 3. a 12. 3. 2 Cron. 19. 7. Job 15. 34. Salm 26. 9, 10. Diar. 17. 8, 23. a 19. 6. a 29. 4. Es. 1. 23. a 33. 15. a 56. 11. Ezec. 22. 27. a 33. 31. Hos. 4. 18. a 12. 7, 8. Amos 2. 6, 7. Mica 3. 11. a 7. 3. 1 Cor. 6. 9. Eph. 5. 5, 6. 1 Tim. 6. 9, 10. 2 Pedr 2. 3, 14, 15. h adn. 24.

* Och, rhag y fath ysbryd gwael, cybyddlyd, a budrelwaidd, mewn gŵr mòr fawr! clywsai Paul yn sôn am wneuthur elusenau i'w genedl, adn. 17; a thybiai fod yr arian hyny heb eu dosparthu oll ganddo, neu ynte, y deuai ei gyfeillion yn mlaen ag arian ychwaneg i'w ryddâu ef: gwyddai yn ol yr hanes cyffredin, fod y cristionogion yn dra haelionus i'w gilydd. † O herwydd hyny danfonodd am dano yn fynychach nac y gwnaethai oni buasai hyny, nid oedd ganddo ef fawr o hyfrydwch yn nghymdeithas gŵr o fath Paul. ‡ Chwedleuodd âg ef: nid oedd arno eisiau clywed ychwaneg o bregethau Paul; nid oedd ei bethau melusaf ond diflas ganddo ef, a'i bethau dychrynllyd yn ofnadwy eu clywed.

27 * Ac wedi cyflawni [i] dwy flynedd, [k] † y daeth Porcius Ffestus yn lle Ffelix. [l] ‡ A Ffelix yn ewyllysio gwneuthur cymmwynas i'r Iuddewon, a adawodd Paul yn rhwym.

i pen. 28. 30. k pen. 25. 1. a 26. 24, 25, 32. l pen. 12. 3. a 25. 9, 14. Ex. 23. 2. Diar. 29. 25. Marc 15. 15. Luc 23. 24, 25. Gal. 1. 10.

* Dwy flynedd ar ol yr hanes uchod, cyhyd â hyny y cadwyd Paul yn garcharor yn Cesarea, cyn ei ddanfon i Rufain. Ar ryw olwg, mae yn beth rhyfedd na buasai y cristionogion yn dyfod ag arian i brynu rhyddâd dyn mòr werthfawr, defnyddiol, ac anwyl yn eu golwg: ond mae yn debyg nad oedd Paul na hwythau yn ystyried yhyny yn beth cyfreithlawn; ac ni fynent wneyd drwg fel y delai daioni. Gwnaethai Felix ei hun un peth, yn erbyn cyfraith Duw, a chyfraith Rhufain, am arian. † Achwyniad yr Iuddewon yn erbyn Felix, herwydd ei anghyfiawnder, ei drais, a'i greulondeb, a barodd i Cesar ei ddiswyddo ef; ac oni buasai eiriolaeth ei frawd Pallas drosto, buasai yn colli ei fywyd y tro hwn meddant. Danfonodd Festus ei olynwr ef yn gaeth i Rufain, ac nis gwyddom beth a ddaeth o hóno wedi hyny: dywedir i Drusila a'i mab o Felix golli eu bywydau yn llosgiad Vesuvius. Nis gwyddom pwy oedd y Festus hwn, yn amgen mai rhyw uchelwr o Rufain oedd: dywedir iddo farw yn mhen dwy flynedd wedi dyfod i'r rhaglawiaeth. ‡ Gan fod Felix yn myned i'w brofi yn Rhufain ar gyhuddiadau yr Iuddewon, gadael Paul yn rhwym oedd yr unig gymmwynas a allai wneyd iddynt wrth ymadael, i geisio adennill eu hewyllys da yn ei blaid, wedi yr holl ddrygau a wnaethai iddynt o'r blaen.

PEN. XXV.

Yr Iuddewon yn achwyn ar Paul ger bron Efestus.

FFESTUS gan hynny, wedi dyfod i'r [a] * dalaith ar ol tri diwrnod [b] a aeth i fynu i Jerusalem o Cesarea.

a pen. 23. 34. b adn. 5. pen. 18. 22. a 21. 15.

* *Eparchia*, talaith: felly y galwai y Rhufeiniaid bob gwlad, neu ddosparth, a fyddai dàn lywodraeth un rhaglaw: talaith Judea oedd hon. † Cesarea oedd cartref a llŷs y rhaglaw, ond Jerusalem oedd prif-ddinas Judea: aeth Festus yno fel rhaglaw newydd i'w ddangos ei hun, ac i weled pa agwedd oedd ar bethau, megys yn llygad y ffynon.

2 [c] * Yna yr ymddangosodd yr arch-offeiriaid a phennaethiaid yr Iuddewon, ger ei fron ef, yn erbyn Paul, ac a ymbiliasant âg ef,

c adn. 15. pen. 24. 1. Job 31. 31. Diar. 4. 16. Rhuf. 3. 12—19.

* Gwedi dwy flynedd o amser, a Phaul yn garcharor yr holl amser hyny, (pen. 24. 27,) nid oedd yr arch-offeiriaid a phenaethiaid yr Iuddewon wedi ei anghofio ma llonyddu tuag ato eto: can gyntod ag y daeth rhaglaw newydd i'w plith, dyma hwy yn y fàn yn deffroi ati yn ei erbyn ef.

3 [d] * Gan geisio ffafr yn ei erbyn ef, fel y cyrchai efe ef i Jerusalem, [e] † gan wneuthur cynllwyn i'w ladd ef ar y ffordd.

d pen. 9. 2. 1 Sam. 23. 19—21. Jer. 38. 4. Marc 6. 23—25. Luc 23. 8—24. e pen. 23. 12—15. a 26. 9—11. Salm 37. 32, 33. a 64. 2—6. a 140. 1—5. Jer. 18. 18. Ioan 16. 3. Rhuf. 3. 8.

* Mynent i Festus wneyd y gymmwynas â hwynt o gyrchu Paul o Cesarea, dàn rith o gael ei brofi ef ger bron eu cyngor hwy; † ond mewn gwirionedd, fel y caent gyfle i'w ladd ef yn fradychus ar y ffordd. Och rhag y fath arch-offeiriaid a phenaethiaid a'r rhai hyn! rhaid bod y werin yn druenus iawn pan yr oedd eu blaenoriaid wedi dirywio i'r fath raddau.

4 * A Ffestus a attebodd, y cedwid Paul yn Cesarea, ac yr âi efe ei hun *yno* ar fyrder.

* Tybir i Felix ddangos llythyr Lysias ato ef i Festus, pen. 23. 26—30; neu adrodd iddo ef fwriad yr Iuddewon yn erbyn Paul, er gwrth-gyhuddo y rhai a'i cyhuddasai yntau, ac mai hyny a dueddodd Festus i nacâu eu cais hwynt yma. Beth bynag oedd yr achos, rhaid i ni weled llaw Duw yn y peth, er diogelu ei was rhag ei elynion.

5 [f] * Y rhai gan hynny a allant yn eich mysg, eb efe, deuant i waered gyd â *mi*, [g] ac od oes dim drwg yn y gwr hwn, cyhuddant ef.

f adn. 16. pen. 23. 30. a 24. 8. g adn. 18, 19, 25. pen. 18. 14. 1 Sam. 24. 11, 12. Salm 7. 3—5. Ioan 18. 29, 30.

* Y rhai a allant brofi rhyw fai yn ei erbyn ef, neu ynte, y rhai a allant ddyfod i waered yn ddirwystr, deuant i waered, a chyhuddant ef: yno y caiff efe ei farnu, gan mai yno y mae efe eisoes, ac nid yma.

6 * A phryd na thrigasai efe gyd â hwy dros ddeng niwrnod, † efe a aeth i waered i Cesarea; ‡ a thrannoeth *efe* a [h] eisteddodd yn yr orsedd, ac a archodd ddwyn Paul atto.

h adn. 10, 17. pen. 18. 12—17. Mat. 27. 19. Ioan 19. 13. 2 Cor. 5. 10. Iago 2. 6.

* Dim ond yr hyn oedd angenrheidiol, i'w ddangos ei hun fel eu rhaglaw newydd, i dderbyn eu cydnabyddiaeth o hóno fel y cyfryw, ac i benderfynu rhyw achosion yn Jerusalem. † Fel y dywedasai yn adn. 4. ‡ Tranoeth, fel na chadwai efe gyhuddwyr Paul yno yn afreidiol, ac fel na chaent achos i ddywedyd ei fod ef yn oedi y prawf, efe a eisteddodd ar yr orsedd i glywed yr achos yn erbyn Paul, a'i amddiffyniad yntau.

7 * Ac wedi ei ddyfod, yr Iuddewon a ddaethent o Jerusalem i waered, † a safasant o'i amgylch, [i] ‡ ac a ddygasant lawer o achwynion trymion yn erbyn Paul, ‖ y rhai nis gallent eu profi.

i adn. 24. pen. 21. 28. a 24. 5, 6, 13. Ezra 4. 15. Esther 3. 8. Salm 27. 12. a 35. 11. Mat. 5. 11, 12. a 26. 60—62. Marc 15. 3, 4. Luc 23. 2, 10. 1 Pedr 4. 14—16.

* Gan gymmaint oedd gelyniaeth yr Iuddewon yn erbyn Paul, a'u hawydd i gael ei farnu ef, yr oeddynt yn Cesarea cyn gynted â'r rhaglaw. † Safasant o amgylch Paul i'w ddychrynu ef, fel cyhuddwyr a thystion yn ei erbyn. ‡ Beth oedd yr achwynion hyn, ni a welsom o'r blaen, pen. 24. 5, 6; ac a gawn ar ddeall eto, wrth amddiffyniad Paul yn yr adnod nesaf, ‖ ond nis gallasant brofi eu hachwynion yn wir o'r blaen ger bron Felix, ac nis gallent eu profi yn awr ger bron Festus ychwaith. Profi yw y peth; pe gwnelai achwynion dibrawf y tro, ni byddai braidd neb yn ddiberygl.

8 * Ac yntau yn ei amddiffyn ei hun, [k] † Ni phechais i ddim, nac yn erbyn cyfraith yr Iuddewon, ‡ nac yn erbyn y deml, ‖ nac yn erbyn Cesar.

k adn. 10. pen. 6. 13, 14. a 23. 1. a 24. 6, 12, 17—21. a 28. 21. Gen. 40. 15. Jer. 37. 18. Dan. 6. 22. 2 Cor. 1. 12.

* Fel y gwnaethai o'r blaen ger bron Felix, pen. 24. 12, 13. † Ni phechais I ddim yn erbyn cyfraith yr Iuddewon; a'i chymmeryd hi fel y rhoddodd Moses hi, ond mi a'i cedwais hi yn fanol ac yn ddiargyhoedd bob amser. ‡ Ni phechais I ddim yn erbyn y deml; trwy ei halogi mewn un modd, yr oedd genyf hawl fel Iuddew, a dyn glân (pen. 24. 18.) i fyned iddi, ac i'r dyben o addoli Duw fy nhadau yr aethum iddi. ‖ Ni phechais I ddim yn sicr ynte yn erbyn Cesar, a'r llywodraeth Rufeinig, dàn yr hon yr ydym ni yn awr fel cenedl: mi a delais bob ufudd-dod a pharch i'r awdurdodau goruchel, ac a annogais y cristionogion yn mhob màn, ar air a thrwy lythyrau, i wneyd yr un peth. Rhuf. 13. 1—7. Yr oedd yr epistol at y Rhufeiniaid wedi ei ysgrifenu cyn hyn.

9 * Eithr Ffestus, [d] yn chwennych dangos ffafr i'r Iuddewon, a attebodd Paul, ac a ddywedodd, † A fynni di fyned i fynu i Jerusa-

lem, ‡ i'th farnu yno ger fy mron i am y pethau hyn?

l adn. 3, 20. pen. 12. 3. a 24. 27. Marc 15. 15.

* Felly Felix o'i flaen ef, (pen. 24. 27,) wedi iddi fyned yn rhŷ ddiweddar iddo: a chwennychai Festus hyn yn fwy, am y gwyddai i Felix gael ei ddiswyddo o herwydd anfoddloni yr Iuddewon: ac efallai mai ei dynerwch ef tuag at Paul oedd un o'i feïau mwyaf ef yn eu golwg hwy. † Cofio cais yr Iuddewon yn adn. 2, 3, yr oedd Festus yma, a chwennych dangos ffafr iddynt trwy gydsynio â'r cais hwnw. ‡ "I'th farnu yno *ger fy mron I*:" mae hyn yn dangos yn eglur nad oedd gan yr Iuddewon y pryd hwn ddim awdurdod i farnu neb ond dàn olygiad a thrwy gydsyniad y rhaglaw Rhufeinig.

10 * A Phaul a ddywedodd, [m] *O* flaen gorsedd-faingc Cesar yr wyf fi yn sefyll, † lle y mae yn rhaid fy marnu; ni wnaethum i ddim cam â'r Iuddewon, [n] ‡ megis y gwyddost ti yn dda.

m pen. 16. 37, 38. a 22. 25—28. n adn. 25. pen. 23. 29. a 26. 31. a 28. 18. Mat. 27. 18, 23, 24. 2 Cor. 4. 2.

* Gan fod Festus yn eistedd ar yr orsedd yn enw Cesar, ac fel cynnrychiolwr Cesar, yr oedd Paul yn ei hystyried hi fel gorsedd-fainc Cesar; † ac fel dinesydd Rhufeinig, mae yn dadlau ei hawl o gael ei farnu o flaen gorsedd-fainc Cesar, ac nid o flaen y Sanhedrim yn Jerusalem. Gwyddai ef y perygl oedd yn ei aros os cymmerid ef i Jerusalem, (adn. 3,) a gwyddai ei fod y pryd hwnw yn y fàn lle dylasai efe fel dinesydd Rhufeinig gael ei farnu. ‡ Gallai Festus wybod diniweidrwydd Paul oddi wrth Felix, ac yn enwedig os gwelsai efe lythyr Lysias at Felix yn ei achos ef, pen. 23. 26—30; ac hefyd oddi wrth y rhai oedd gyda Felix pan brofwyd Paul o'i flaen ef.

11 [o] * Canys os ydwyf yn gwneuthur cam, ac *os* gwneuthum ddim yn haeddu angau, nid wyf yn gwrthod marw: † eithr onid oes dim o'r pethau y mae y rhai hyn yn fy nghyhuddo, [p] ‡ ni ddichon neb fy rhoddi iddynt. [q] || Appèlio yr wyf at Cesar.

o Jos 22. 22. 1 Sam. 12. 3—5. Job 31. 21, 22, 38—40. Salm 7. 3—5. p pen. 16. 37. a 22. 25. 1 Thes. 2. 15. q adn. 10, 25. pen. 26. 32. a 28. 19. 1 Sam. 27. 1

* Os gwnaethum I ddim yn erbyn cyfraith a chyfiawnder, *(ei men gar adikó,)* profer fi yn deg, a chosper fi yn ol fy haeddiant; ac os gellir fy mhrofi I yn euog o fai yn haeddu angau, nid wyf yn gwrthod marw; ac ni flinaf y llŷs âg un ddadl i geisio attal y farn. † Ond os na all fy nghyhuddwyr hyn fy mhrofi yn euog yma, yr hyn mae yn amlwg nis gallant; ‡ nis gall neb, na all, hyd yn nôd y rhaglaw ei hun, os gwna efe gyfiawnder, fy rhoddi I i fynu i ddwylo fy ngelynion, yn unig i ennill eu hewyllys da hwy, ac i foddloni eu rhagfarn a'u creulondeb. || Gan hyny yr wyf o orfod yn hòni fy mraint, fel rhydd ddinesydd Rhufain; a pha beth bynag fyddo y canlyniad, yr wyf yn *appèlio* o bob llŷsoedd eraill at frawd-le union-gyrchol Cesar ei hun, fel y caffwyf fy marnu gan ei fawrhydi Ymherodrawl ei hunan, gan ddewis yn hytrach syrthio yn ei ddwylaw ef nâ'r eiddo yr Iuddewon hyn. Ysbryd ac ymddygiad arderchog oedd hyn yn yr apostol, yn llawn brofi ei ddiniweidrwydd, dïeuogrwydd ei gydwybod, a mawrfrydigrwydd dïofn ei feddwl yn ei holl drallod a'i erlid. Gwyddai Festus yn dda, fod hawl gan bob Rhufeinwr dàn gyhuddiad, i appèlio at Cesar cyn ei gondemnio, os ewyllysiai; ac na feiddiai yr un rhaglaw wedi hyny, dàn y perygl o gosp drom, i fyned yn mlaen yn ei achos ef.

12 * Yna Ffestus, wedi ymddiddan â'r cynghor, a attebodd, † A appèliaist ti at Cesar? [r] at Cesar y cai di fyned.

r adn. 21. pen. 19. 21. a 23. 11. a 26. 32. a 27. 1. a 28. 16. Salm 76. 10. Es. 46. 10, 11. Galar. 3. 37. Dan. 4. 35. Rhuf. 15. 28, 29. Phil. 1. 12—14, 20.

* Nid cyngor yr Iuddewon a feddylir yma, eithr cyngor y rhaglaw Rhufeinig: *symbouliou* yw y gair, ac nid *synedrion*, y gair am y cyngor Iuddewig, neu y Sanhedrim. Byddai amryw o Rufeinwyr cyfrifol yn cael eu danfon gyda'r rhaglawiaid i'r gwahanol daleithiau, i'w cynnorthwyo hwynt, â'u cyngorion mewn achosion barnol. † Neu heb y gofyniad, Ti a appèliaist at Cesar, ac at Cesar y cai di fyned. Gwyddai y rhaglaw nas gallai nacâu yr *appèliad* hwn i Paul; ond ei fod yn rhwym o'i ddanfon ef at Cesar: ac efallai bod yn dda ganddo gael gwared o achos dyrys, a hyny heb i'r Iuddewon gael achlysur i ddywedyd ei fod ef yn ei oedi ac yn ei dafiu ymaith.

13 Ac wedi talm o ddyddiau, [s] * Agrippa y brenhin a † Bernice, a ddaethant i Cesarea [t] i gyfarch Ffestus.

s adn. 22, 23. pen. 26. 1, 27, 28. t 1 Sam. 13. 10. a 25. 14. 2 Sam. 8. 10. 2 Bren. 10. 13. Marc 15. 18.

* Iuddew proffesedig oedd yr Agrippa hwn, a mab i Herod Agrippa, marwolaeth yr hwn a grybwyllir pen. 12. 23. Cafodd yr enw brenin gan Ymherawdwr Rhufain, ac yr oedd ganddo raglawiaeth helaeth ar amryw daleithiau: dywedir ei fod ef yn wresog dros y grefydd Iuddewig, ac yn dywysog rhagorol, yn haelfryd iawn, ac o gynneddfau mwyn a thirion iawn. † Ond gwedi yr holl ganmoliaeth uchod iddo, tybir ei fod yn byw mewn llosgach aflan: ei chwaer ei hun, a chwaer Drusila, gwraig anghyfreithlawn ac anniwair Felix, ydoedd y Bernice hon; a dywedir fel y soniwyd uchod, fod Agrippa a hithau yn byw yn nghyd fel gŵr a gwraig. Bu yn briod ddwy waith, a gadawodd ei hail ŵr yn fuan i fyw gyda'i brawd; a dywedir y buasai Titus Vespasian yn ei gwneyd yn Ymherodres Rhufain pe cawsai gan y Rhufeiniaid. Mae Juvenal, bardd cenedlig, yn un o'i ganüau, yn gwawdio Agrippa a hithau am eu haflendid annaturiol.

14 Ac wedi iddynt aros yno lawer o ddyddiau, * Ffestus a fynegodd i'r brenhin hanes Paul, gan ddywedyd, [u] Y mae *yma* ryw wr wedi ei adael gan Ffelix y'ngharchar:

u pen. 24. 27.

* Un ai mewn ymddiddan cyffredin ac er difyrwch, neu ynte, er gofyn cyngor gan Agrippa pa beth i wneyd o hóno.

15 Ynghylch yr hwn, [x] pan oeddwn yn Jerusalem, yr ymddangosodd arch-offeiriaid a henuriaid yr Iuddewon ger bron, * gan ddeisyf *cael* barn yn ei erbyn ef.

x adn. 1—3. Esther 3. 9. Luc 18. 3—5. a 23. 23.

* Nid *prawf* a fynai yr Iuddewon gael yn erbyn Paul, ond *dedfryd*, oddi ar y prawf, neu y farn anghyfiawn, a fuasai ganddynt hwy arno.

16 I'r rhai yr attebais, [y] * nad oedd arfer y Rhufeinwyr roddi neb rhyw ddyn i'w ddifetha, nes cael o'r cyhuddol ei gyhuddwyr yn ei wyneb, [z] a chael lle i'w ymddiffyn ei hun rhag y cwyn.

y adn. 4, 5. z pen. 26. 1. Deut. 17. 4. a 19. 17, 18. Diar. 18. 13, 17. Ioan 7. 51.

* Yr oedd yn groes i ddeddfau y Rhufeiniaid, i ddeddfau anian a rheswm, i ddeddfau pob cenedloedd, ac uwchlaw pob peth i ddeddfau Duw hefyd, i roddi neb i farwolaeth ar gyhuddiad noeth, heb ei brofi yn wir, ac heb i'r cyhuddol gael cyfle i'w amddiffyn ei hun ger bron barnwr ac yn ngwyneb ei gyhuddwyr. Gwybodaeth Festus mai Rhufeiniad oedd Paul, a'i tueddodd ef, mae yn debyg, i fynu ei brofi ef ei hun. Yr oedd llid yr Iuddewon wedi eu hynfydu gymmaint, fel y mynent wneyd yr hyn ni oddefai *pagan* iddynt ei wneyd.

17 * Wedi eu dyfod hwy yma gan hynny, [a] heb wneuthur dim oed, trannoeth mi a eis-

eddais ar yr orseddfaingc, ac a orchymynais
dwyn y gwr ger bron.
a adn. 6.

* Boddâodd Festus yr Iuddewon cyn belled ag yr
oedd yn gyfreithlawn iddo wneyd, trwy ddanfon am
Paul i'w brofi yn ddïoed, heb gadw ei gyhuddwyr yn
Cesarea ond cyn lleied y gallai.

18 * Am yr hwn ni ddug y cyhuddwyr *i*
fynu ddim achwyn o'r pethau yr oeddwn i yn
tybied:

* Gwyddai Festus mae yn debyg am y terfysgoedd
mawrion a fu gan yr Iuddewon yn nghylch Paul o'r
blaen, a'r cyhuddo haerllug a fu arno ger bron Felix;
ac yr oedd yn naturiol iddo feddwl fod ganddynt ryw
roethau trymion iawn yn ei erbyn; ond erbyn eu cael
nawy ac yntau i wyneb eu gilydd, nid oedd ganddynt
nawy ddim yn ei erbyn ef fel yr oedd efe yn dysgwyl,
ma dim o gwbl ag oedd yn perthyn iddo ef fel swyddog
rgwladol, i sylwi arno, nac ymyraeth yn ei gylch.

19 [b] Ond yr oedd ganddynt yn ei erbyn ef
ryw ymofynion ynghylch eu [c] * coel-grefydd
eu hunain, † ac yn nghylch un Iesu [d] a fuasai
farw, yr hwn a daerai Paul ei fod yn fyw.
b adn. 7. pen. 18. 19. a 23. 29. c pen. 17. 22, 23. d pen.
22. a 2. 32. a 17. 31. a 26. 22, 23. 1 Cor. 15. 3, 4, 14—20. Dat.
18.

* Gan mai Iuddewon o ran dygiad i fynu a phroffes
grefydd oedd Agrippa a Bernice, a chan fod Festus
a hwythau ar ammodau cyfeillgar iawn, rhaid i ni
feddwl nad oedd efe ddim yn defnyddio y gair coel-
grefydd yn ei ystyr waethaf, buasai dywedyd felly am
grefydd yr Iuddewon yn dramgwydd i Agrippa, beth
bynag am Bernice. Gwel ein sylwad ar y gair yn pen.
17. 22. Mae amryw o'r awdwyr paganaidd, a *Josephus*
hefyd, yn arfer y gair *deisidaimonia* mewn ystyr dda,
am hewydusrwydd mewn crefydd, a diammau mai
felly yr oedd Festus yn ei arfer yma. † Mae yn amlwg
wrth y geiriau hyn, nas gwyddai efe ddim am Iesu, ei
farwolaeth, na'i adgyfodiad; ac mai ynfyd y cyfrifai efe
Paul yn taeru yn ei gylch: a bod yr Iuddewon yn fwy
i'w beïo nac efe, am eu bod yn ei erlid mòr greulawn
am beth mòr ddiwerth a dibwys.

20 * A myfi, yn anhysbys i ymofyn am
hyn, [e] a ddywedais, a fynnai efe fyned i Jeru-
salem, a'i farnu yno am y pethau hyn.
e adn. 9.

* Os anhysbys oedd efe mewn gwirionedd, nis gellir
beïo llawer arno am gynnyg danfon Paul i gael ei brofi
yn Jerusalem; ond felly yr oedd yn hollawl, efe a
wyddai ei fod ef yn ddïeuog, ac a ddylasai ei farnu ef
felly, a'i ollwng yn rhydd: o chwennychu dangos ffafr
i'r Iuddewon yr oedd efe am ei ddanfon ef i Jerusa-
lem; ac nid yw dadlau ei annwybodaeth yma ond
esgus go ragrithiol dros hyny.

21 * Eithr gwedi i Paul [f] appèlio i'w gadw
i wybyddiaeth [g] ‡ Augustus, [h] mi a erchais ei
gadw ef hyd oni allwn ei anfon ef at Cesar.
f adn. 10. pen. 26. 32. 2 Tim. 4. 16. g pen. 27. 1. Luc 2.
1. h adn. 12.

* Am yr appèliad hwn, gwel ar adn. 11, 12. † Nero
ydoedd enw priodawl yr Ymherawdwr presenol, nid
oedd Augustus ond enwad o barch ac anrhydedd iddo:
gair Ladin yw, yn arwyddo mawreddus, neu anrhyd-
eddus: *Sebastou* yw y gair Groeg, yn arwyddo yr un
peth. Octavius Cesar a'i cymmerodd gyntaf, ac wedi
hyny cymmerodd Ymherawdwyr Rhufain yr enwad yn
ol-yn-ol o hyd.

22 [i] * Yna Agrippa a ddywedodd wrth
Ffestus, Minnau a ewyllysiwn glywed y dyn.
Yntau a ddywedodd, Ti a gai ei glywed ef y
fory.
i pen. 9. 15. Es. 52. 15. Mat. 10. 18. Luc 21. 12.

* Mae yn ddiammau y gwyddai Agrippa rywbeth
drwy hanes am Iesu a'i ganlynwyr, y cristionogion; ac
efallai y gwyddai efe yn enwedig am Paul, oblegid y
fath erlidiwr nodedig a fuasai efe: felly nid rhyfedd
fod arno chwant clywed y fath ddyn rhyfeddol, wedi
iddo ddeall ei fod ef dàn law Festus mòr agos ato.

23 Trannoeth gan hynny, wedi dyfod A-
grippa a Bernice, [k] * â rhwysg fawr, a myned
i mewn i'r orsedd, † a'r pen-capteniaid, a
phendefigion y ddinas, wrth orchymyn Ffestus
fe a ddygwyd Paul ger bron.
k pen. 12. 21. Esther 1. 4. Preg. 1. 2. Es. 5. 14. a 14. 11.
Ezec. 7. 24. a 30. 18. a 32. 12. a 33. 28. Dan. 4. 30. 1 Cor. 7. 31.
Iago 1. 11. 1 Pedr 1. 24. 1 Ioan 2. 16, 17.

* *Phantasia* yw y gair Groeg, gair yn arwyddo
rhith-ymddangosiad mawreddus, bydol, balch: nid oedd
dim parch gan Dduw iddo, yr oedd yn well ganddo
Paul yn ei gadwyn nâ'r holl rodres a'r gwag-ogoniant
hyn i gyd. Yr oedd Agrippa a Bernice wedi anghofio
mai yn y fàn hon y tarewsid eu tad Herod am ei
falchder rai blynyddoedd cyn hyn, ac y bu farw gan
bryfed yn ei ysu. † Mae yn debyg na ddaeth dim
cynnulleidfa mòr fawreddus at eu gilydd erioed i
wrando yr efengyl o'r blaen: er nad oedd neb o honynt
hwy yn meddwl dim ond porthi eu blys gwag, drwy
glywed Paul y carcharor yn ei amddiffyn ei hun.

24 A Ffestus a ddywedodd, *O* frenhin
Agrippa, * a chwi wŷr oll sydd gyd â ni yn
bresennol, † chwi a welwch y dyn hwn,
[l] oblegid pa un y galwodd holl liaws yr Iudd-
ewon arnaf fi, yn Jerusalem ac yma, [m] ‡ gan
lefain na ddylai efe fyw yn hwy.
l adn. 2, 3, 7. m pen. 22. 22. Luc 23. 21—23.

* "A chwi *wyr* oll:" tybia rhai fod Festus yn am-
canu hyn fel gwarth ar Bernice, am fod yn mhlith
dynion yn y fath le, ac ar y fath achlysur: nid oedd
yn gofyn ei barn na'i chyngor hi; ac efallai mai hi
oedd yr unig fenyw yn y fàn, nad oedd yr un arall yn
ddigon gwrrywaidd a digywilydd i ddyfod i'r lle.
† Dyma un o'r mànau yr oedd yr apostol yn cael ei
wneyd yn ddrych i'r byd, i'r angelion, ac i ddynion: yr
oedd yn gofyn nerth oddi uchod, i sefyll i fynu yn
nôd i bawb i hyllu eu llygaid arno fel pe buasai
anghenfil o ddrwg-weithredwr anfad: ond yr oedd
addewid Crist (Mat. 28. 20.) yn ddigon iddo y pryd
hwn. ‡ Llefasent felly yn nghlyw Lysias y pen-capten
yn Jerusalem, pen. 22. 22, ac mae yn debyg iddynt
grochi yr un peth yn nghlustiau Festus.

25 * Eithr pan ddeallais [n] na wnaethai efe
ddim yn haeddu angau, [o] ac yntau ei hun wedi
appèlio at Augustus, mi a fernais ei ddanfon
ef.
n pen. 23. 9, 29. a 26. 31. Luc 23. 4, 14, 15. Ioan 18. 38.
o adn. 11, 12.

* Gwedi holl drafferth yr Iuddewon o geisio ei
wneyd ef yn euog o farwolaeth, mae ei ddiniweid-
rwydd ef drwy hyny yn dyfod yn fwy-fwy i'r amlwg:
amddiffynwyd ef a'i grefydd gan Lysias, pen. 23. 29;
gan Felix, pen. 24. 25; yma gan Festus: ac ar ol hyn
gan Agrippa, pen. 26. 32. Mòr rymus yw gwirionedd
a diniweidrwydd, fel y maent yn sicr o ennill y dydd
rywbryd.

26 * Am yr hwn nid oes gennyf ddim
sicrwydd i'w ysgrifenu at † fy arglwydd. ‡ *O*
herwydd paham mi a'i dygais ef ger eich bron
chwi, ac yn enwedig ger dy fron di, *O* frenhin
Agrippa; fel, wedi ei holi ef, y caffwyf ryw
beth i'w ysgrifenu.
p pen. 26. 2, 3.

* Gan gymmaint o bethau cymmysglyd a dyrys oedd
efe wedi glywed yn erbyn Paul, nis gwyddai yn iawn
pa beth, na pha fodd, i ysgrifenu at Nero yn ei gylch
ef; nac yn erbyn pa gyfraith y gallai ddywedyd iddo

droseddu, yn ol cyhuddiad yr Iuddewon: fel hyn yr oedd efe mewn astrusi tost, yn danfon carcharor i Rufain, heb wybod yn y byd am ba beth, na pha beth i ysgrifenu yn ei achos ef. † Arglwydd, neu lywodraethwr holl Ymherodraeth fawr Rhufain, enw rhodresfawr iawn, a wrthodai rhai o Ymherawdwyr Rhufain, ond yr oedd Nero, a rhai eraill o honynt, yn ddigon uchel-fryd i'w gymmeryd. ‡ Dyben Festus yn dwyn Paul i gael ei holi oedd, fel y caffai gyngor gan y pendefigion presenol, pa beth i ysgrifenu gydag ef i Rufain. ‖ Nid oedd yn perthyn i Agrippa farnu Paul, gan mai rhaglaw talaeth arall oedd efe; ond am ei fod ef yn wybodus yn nghyfreithiau yr Iuddewon a chyfreithiau y Rhufeiniaid, gallai ef yn well na neb roddi cyngor i Festus pa fodd i wneyd yn yr achos dyrys hwn.

27 * Canys allan o reswm y gwelaf fi anfon carcharor, heb hysbysu hefyd yr achwynion *a fyddlo* yn ei erbyn ef.

* Yr oedd yn ddireswm iawn yn wir, danfon carcharor yr holl ffordd i Rufain, i gael ei brofi gan yr Ymherawdwr ei hun, a hyny am ei fywyd; ac ar yr un pryd heb wybod yn y byd beth a wnaethai efe, na pha beth i ysgrifenu yn ei achos: buasai y rhaglaw ei hun yn debyg o ddyfod i warth a drwg pe gwnaethai y fath beth. A chan nas medrai gael dim yn ei erbyn ef, paham nas gollyngasai efe ef yn rhydd cyn iddo appèlio at Cesar? chwennych dangos ffafr i'r Iuddewon oedd yr achos o hyny.

PEN. XXVI.

Paul, y'ngwydd Agrippa, yn dangos ei fuchedd o'i febyd.

* AC Agrippa a ddywedodd wrth Paul, [a] Y mae cennad i ti i ddywedyd drosot dy hunan. [b] † Yna Paul a estynodd ei law, [c] ‡ ac a'i hymddiffynodd ei hun.

a pen. 25. 16. Diar. 18. 13, 17. Ioan 7. 51. b Diar. 1. 24. Ezec. 16. 27. Rhuf. 10. 21. c adn. 2. pen. 22. 1.

* Gwedi i Festus orphen yr araeth arweiniol uchod, mae Agrippa yn rhoddi cenad ac annogaeth i Paul i ateb drosto ei hun yn rhydd a dïofn, y caffai wrandawiad llonydd, ac na chaffai neb ei rwystro na gwneyd niwed iddo. † Yna Paul mewn dull hŷf, boneddigaidd, a hardd, fel yr hen areithwyr enwocaf, ac i roddi pwys ar ei ymadrodd, a galw am wrandawiad ystyriol yr holl lŷs, a estynodd ei law, ‡ ac a'i hamddiffynodd ei hun yn hyawdl, a chyda rhyddid ac awdurdod, a synodd bawb yn yr holl le, hyd yn nôd Festus ei hun ac Agrippa hefyd: adn. 24, 28.

2 * Yr ydwyf yn fy nhybied fy hun yn ddedwydd, *O* frenhin Agrippa, gan fy mod yn cael fy ymddiffyn fy hun † ger dy fron di heddyw am yr holl bethau yr achwynir arnaf gan yr Iuddewon:

* O herwydd gwybodaeth Agrippa o'r ddeddf a'r prophwydi wrth y rhai y mynai Paul gael profi a barnu ei achos, yr oedd yn dda ganddo gael amddiffyn ei hun a'i athrawiaeth yn ei glyw a cher ei fron ef. † Nid Agrippa oedd ei farnwr ef; eto, o herwydd y pethau uchod a enwyd, yr oedd ef yn addas iawn i gyngori Festus yn yr achos hwn.

3 [d] * Yn bendifaddeu gan wybod dy fod di yn gydnabyddus â'r holl ddefodau a'r holion sydd ym mhlith yr Iuddewon. † O herwydd paham yr ydwyf yn deisyf arnat fy ngwrando i yn ddioddefgar.

d adn. 26. pen. 6. 14. a 21. 21. a 24. 10. a 25. 19, 20, 26. a 28. 17. Deut. 17. 18. 1 Cor. 13. 2. e pen. 24. 4.

* Nid gweniaeth gau oedd hyn, fel araeth Tertùlus o flaen Felix; ond addefiad sobr o'r hyn oedd wirionedd: yr oedd Agrippa fel y soniwyd eisoes, yn gydnabyddus iawn âg ysgrythyrau yr Hen Destament, ac â phob peth a berthynai i'r grefydd Iuddewig; ac nis gallasai fod heb wybod rhywbeth am Iesu, ei groeshoeliad, ei adgyfodiad, ei esgyniad, a thywalltiad yr Ysbryd Glân ar ddydd y pentecost. † Gan mai mater am grefydd yw, a mater hefyd ag mae bywyd a rhyddid dyn yn ymddybynu ar y farn a rodder arno, yr wyf yn atolwg i ti fel tywysog hynaws, doeth, a diduedd, fy ngwrando I yn ddyoddefgar. Mae yr araeth hon drwyddi, yn cael ei haddef yn nodedig o addas a phriodol i'r amgylchiad yr oedd Paul ynddo, ac i'r gynnulleidfa bendefigaidd yr oedd efe yn sefyll ger eu bronau.

4 [f] * Fy muchedd i o'm mebyd, [g] yr hon oedd o'r dechreuad ym mhlith fy nghenedl yn Jerusalem, a ŵyr yr Iuddewon oll,

f 2 Tim. 3. 10. g pen. 22. 3.

* Tybir i Paul gael ei ddwyn i fynu yn yr ysgolion Groegaidd gorau yn Tarsus yn ei febyd, a phan oedd tua phymtheg oed, iddo gael ei ddanfon i Jerusalem, i ddysgu pob dysgeidiaeth Hebreaidd wrth draed yr athraw enwog Gamaliel, lle yr oedd yn ddigon adnabyddus o hyny allan i'r Iuddewon hyny a achwynent arno: ac mae efe yma megys yn eu herio hwynt, os gallent, i brofi dim yn ei erbyn ef o ran crefydd ac ymarweddiad drwy yr holl amser yr adnabuant ef:

5 * Y rhai a'm hadwaenent i o'r dechreu (os [h] mynant dystiolaethu) mai yn ol † y sect fanylaf o'n crefydd ni, [k] y bûm i fyw yn Pharisead.

h pen. 22. 5. i pen. 23. 6. Phil. 3. 5, 6. k pen. 24. 5, 14.

* Gwyddent yn dda, os mynent dystiolaethu, mai Pharisead oedd ef o ran proffes a buchedd hefyd; wedi cael ei ddwyn i fynu felly, ac yn wresog o'i febyd dros y grefydd a'r blaid hòno: felly pa gyfnewidiad bynag a wnaed arno mewn rhai pethau wedi hyny, rhaid mai rhyw weithrediadau nerthol ar ei feddwl a'i gwnaeth. † Yr oedd y Phariseaid yn agosach i'r gwirionedd o ran eu daliadau, na'r Saduceaid nâ'r Esseniaid; ac yn fwy dichlynaidd a manwl yn eu cyflawniadau crefyddol a'u hymarweddiad cyffredin hefyd: yn enwedig yn nhraddodiadau yr henafiaid. Dywedir y gorweddent ar fyrddau culion, fel, trwy syrthio oddi arnynt, y deffrôid hwynt yn fuan i weddïo: gorweddai eraill o honynt ar raïan garw, a drain yn eu hymyl, fel nas gallent ymdrôi heb gael eu pigo a'u deffroi ganddynt.

6 [l] * Ac yn awr, am obaith yr addewid a wnaed i'n tadau gan Dduw, [m] † yr wyf yn sefyll i'm barnu:

l adn. 8. pen. 23. 6. a 24. 15, 21. a 28. 20. m pen. 3. 24. a 13. 32, 33. Gen. 3. 15. a 12. 3. a 22. 18. a 26. 4. a 49. 10. Deut. 18. 15. 2 Sam. 7. 13. Job 19. 25—27. Salm 2. 6—12. a 40. 6—8. a 98. 2, 3. a 110. 1—4. a 132. 11, 17. Es. 4. 2. a 7. 14. a 9. 6, 7. a 11. 1—5. a 40. 9—11. a 42. 1—4. a 53. 10—12. a 62. 1—3. Jer. 23. 5, 6. a 33. 15—17. Ezec. 17. 22—24. a 21. 27. a 34. 23—25. a 37. 24. Dan. 2. 34, 35, 44, 45. a 7. 13, 14. a 9. 24—26. Hos. 3. 5. Joel 2. 32. Amos 9. 11, 12. Ob. 21. Mica 5. 2. a 7. 20. Zeph. 3. 14—17. Zec. 2. 10, 11. a 6. 12. a 9. 9. Mal. 3. 1. a 4. 2. Luc 1. 69, 70. Rhuf. 15. 8. Gal. 3. 17, 18. Tit. 2. 13. 1 Pedr 1. 11, 12.

* Gwel ar pen. 23. 6; a 24. 15, 21. Yr addewid a wnaed i'r tadau oedd yr addewid o'r Messiah yn benaf, a'r addewid o adgyfodiad ac iachawdwriaeth dragywyddol drwy y Messiah. Tystiai Paul fod y Messiah addawedig wedi dyfod, wedi marw ac adgyfodi; mai yr Iesu o Nazareth oedd efe; a thystiai mai trwy ffydd yn ei enw ef yr oedd gobaith am adgyfodiad i fywyd tragywyddol. † Am hyny y bernid ac yr erlidid ef.

7 * I'r hon *addewid* y mae [n] ein deuddeg llwyth ni, [o] heb dor yn gwasanaethu *Duw* † nos a dydd, [p] yn gobeithio dyfod. [q] ‡ Am yr hwn obaith yr achwynir arnaf, *O* frenhin Agrippa, gan yr Iuddewon.

n Ezra 6. 17. a 8. 35. Mat. 19. 28. Luc 22. 30. Iago 1. 1. Dat. 7. 4—8. o pen. 20. 31. Salm 134. 1, 2. a 135. 2. Luc 2. 36, 37. 1 Thes. 3. 10. 1 Tim. 5. 5. p Luc 2. 25, 38. a 7. 19, 20. q adn. 6.

* Mewn gobaith am gyflawniad o'r addewid uchod, r oedd yr holl rai duwiol ac union-gred yn mhlith oll lwythau Israel, yn gwasanaethu Duw yn wastadol, mewn offrymau a gweddïau hwyr a bore yn y deml: yn oedd sail eu gobaith am adgyfodiad i fuchedd drawyddol; ac fel yr oedd yr holl wasanaeth seremoniol n cyfeirio at y Messiah, ei aberth, ei adgyfodiad, a'r endithion ysbrydol oedd i'w cael trwyddo, hyn oedd ail yr Iuddewon i gyflawni y gwasanaeth hyny yn didòr trwy yr holl oesoedd. ‡ Ac eto, am y gobaith wn, a goleddai pawb o'r Iuddewon ond y Saduceaid, r achwynid ar Paul, ac yr erlidid ef yn barâus. Erlidai y Phariseaid ef am ddywedyd mai Iesu oedd y Messiah, a'i fod wedi adgyfodi yn flaen-ffrwyth adgyfodiad i bobl; ac erlidiai y Saduceaid ef am bregethu yr adgyfodiad o gwbl, yr hyn ni chredent, ond a wadent mwy.

8 * Pa beth? [r] ai anghredadwy y bernir genych chwi, y cyfyd Duw y meirw?

r pen. 4. 2. a 10. 40—42. a 13. 30, 31. a 17. 31, 32. a 25. 19. en. 18. 14. Mat. 22. 29—32. Luc 1. 37. a 18. 27. Ioan 5. 28, 29. Cor. 15. 12—20. Phil. 3. 21.

* Pa beth? ai anghredadwy genych chwi y Saduceaid, y nghyhuddwyr, y cyfyd Duw y meirw? Oni phrofodd esu i chwi allan o lyfrau Moses, y rhai a gredwch, y ydd adgyfodiad y meirw? Gwel ar Matth. 22. 31—33. Ac, ai anghredadwy genych ei fod wedi adgyfodi r Iesu o feirw, wedi yr holl dystiolaethau a gawsoch o'i dgyfodiad ef? Ai anghredadwy genych chwi y Rhufiniaid, y cyfyd Duw y meirw? Er nas gwyddoch chwi dim am yr ysgrythyr sydd yn dangos y bydd adgyfodiad; eto mae, neu e ddylai, rheswm eich dysgu y gall Duw bob peth, ac nad oes dim yn anmhosibl iddo: ac mae holl ad-chwylion anian yn dangos i chwi y bydd yn; megys tòriad dydd ar ol y nos; dychweliad haf ar ol y gauaf; a thyfiant llysiau, coedydd, a phorfa yn yr aaf, y rhai a ymddangosant megys wedi meirw yn y gauaf. Nid yw y peth mewn un modd yn anmhosibl, ac ychwaith yn annhebyg.

9 * Minnau yn wir a dybiais ynof fy hun, fod yn rhaid *i mi* wneuthur llawer o bethau yn erbyn [t] enw Iesu o Nazareth.

s Ioan 16. 2, 3. Rhuf. 10. 2. Gal. 1. 13, 14. Phil. 3. 6. 1 Tim. 1. 13. t pen. 3. 6. a 9. 16. a 21. 13. a 22. 8. a 24. 5.

* Mae Paul yma yn addef dàn ei ofid, iddo ef ei hun gynt fod mòr rhagfarnus a gelyniaethol yn erbyn Iesu o Nazareth, fel y tybiodd yn ddyledswydd arno wneuthur llawer o bethau yn ei erbyn ef, trwy erlid ei ganlynwyr ef yn ddidrugaredd.

10 [u] * Yr hyn hefyd a wnaethum yn Jerusalem: [x] † a llawer o'r ‡ saint a geuais i mewn carcharau, [y] wedi derbyn awdurdod gan yr arch-offeiriaid; ac wrth eu difetha, || mi a roddais farn yn *eu* herbyn.

u pen. 7. 58. a 8. 1. a 9. 13, 26. a 22. 4, 19, 20. 1 Cor. 15. 9. x pen. 9. 32, 41. Salm 16. 3. Rhuf. 15. 25, 26. Eph. 1. 1. Dat. 17. 5. y pen. 9. 14, 21. a 22. 5.

* Ac yn ol ei dŷb ragfarnus a gelynol, efe a ddechreuodd weithredu hefyd yn Jerusalem yn fuan, ac yn ffyrnig iawn; † gwedi derbyn awdurdod gan yr arch-offeiriaid, y rhai oedd yn ei erlid ef ei hun yn awr, efe a lusgodd y saint yn wŷr ac yn wragedd, heb arbed neb, ac a'u cauodd mewn carcharau. ‡ Gwaeth na'r drwg-weithredwyr gwaethaf oeddynt y pryd hyny yn ei olwg, ond "saint," a rhai rhagorol y ddaear oeddynt yn awr, gyda'r rhai yr oedd ei holl hyfrydwch. || Nid oedd Paul yn aelod o'r Sanhedrim, nac ar a wyddom mewn unrhyw awdurdod i farnu neb; ond yr oedd ef yn gwneyd ei oreu i gyffrôi pawb yn erbyn y saint, ac yn cydsynio â'r farn waethaf a roddid yn eu herbyn. "Mi a unais, neu a gydsyniais â'r rhai a'u coll-farnent hwy," yw y cyfieithiad Syriaeg.

11 [z] * Ac ym mhob synagog yn fynych mi a'u cospais hwy, [a] † ac a'*u* cymhellais i gablu, [b] ‡ a chan ynfydu yn fwy yn eu herbyn, mi a'*u* || herlidiais hyd ddinasoedd dïeithr hefyd.

z Mat. 10. 17. Marc 13. 9. Luc 21. 12. a pen. 13. 45. a 18. 6. Marc 3. 28. Heb. 10. 28, 29. Iago 2. 7. b adn. 24, 25. Preg. 9. 3. Luc 6. 11. a 15. 17. 2 Pedr 2. 16.

* Pan gaffai efe hyd i rai o'r saint yn y synagogau, neu os mewn rhyw leoedd eraill y cai efe hwynt, efe a'u dygai i'r synagogau, ac yno yn ngŵydd pawb, efe a barai eu ffrewyllu hwynt, er cosp arnynt hwy, ac er arswyd i bawb eraill, fel na chofleidient grefydd Crist. † Wrth eu cospi, efe a barai iddynt wadu Crist, a dywedyd mai cyfiawn oedd ei groeshoelio, a llefaru llawer o bethau eraill cableddus am dano. ‡ Gan rỳm ei elyniaeth yr oedd efe fel dyn gwallgof cynddeiriog, || ac fel llew rhüadwy dychrynllyd; yr oedd yn myned allan o derfynau gwlad yr Iuddewon i chwilio am broffeswyr yr efengyl mewn dinasoedd dïeithr, lle nad oedd dim hawl ganddo: neu, efe a erlidiai y saint allan o Jerusalem, ac o wlad Israel, gan eu gỳru i ddinasoedd dieithr, ac hyd yn nôd yno efe a'u canlynai ac a'u herlidiai yn greulawn.

12 * Ac yn hyn, [c] a myfi yn myned i Damascus [d] âg awdurdod a chennad oddi wrth yr arch-offeiriaid,

c pen. 9. 1, 2. a 22. 5. d adn. 10. 1 Bren. 21. 8—10. Salm 94. 20, 21. Es. 10. 1. Jer. 26. 8. a 29. 26, 27. Ioan 7. 45—48. a 11. 57.

* Gan ei fod mòr wresog dros y grefydd Iuddewig, ac yn erlidiwr mòr greulon ar y saint; rhaid mai rhywbeth rhyfedd dros ben a wnai y fath gyfnewidiad arno, a'i wneyd ef ei hun yn un o honynt: at y tro rhyfedd hwnw mae yn dyfod yn awr; cawsom sylwi arno fwy nac unwaith o'r blaen, pen. 9. 2; a 23. 5.

13 [e] * Ar hanner dydd, O frenhin, ar y ffordd, † y gwelais oleuni o'r nef, [f] mwy na disgleirdeb yr haul, yn disgleirio o'm hamgylch, a'r rhai oedd yn ymdaith gyd â mi.

e pen. 9. 3. a 22. 6. f Es. 24. 23. a 30. 26. Mat. 17. 2. Dat. 1. 16. a 21. 23.

* Ar hanner dydd y bu y peth, O frenin, ac nis gall neb daeru mai breuddwyd neu ledrith dychymmygol oedd. † Goleuni yn gyntaf, goleuni o'r nef, goleuni mwy na dysgleirdeb yr haul hanner dydd, a goleuni yn amgylchynu Paul â'r rhai oedd gydag ef. Gogoniant Iesu oedd y goleuni hwn; yr oedd ei wyneb yn dysgleirio fel yr haul yn ei wedd-newidiad ar y ddaear, Matth. 17. 2; a pha beth raid ei fod ar ol ei ogoneddiad yn y nef? mae ei bobl gyfiawn yn llewyrchu fel yr haul yn nheyrnas eu Tad; a pha mòr ogoneddus y rhaid ei fod ef yr Unig-anedig Fab ei hun?

14 * Ac wedi i ni oll syrthio ar y ddaear, mi a glywais leferydd yn llefaru wrthyf, † ac yn dywedyd yn [g] Hebraeg, [h] Saul, Saul, ‡ paham yr ydwyt yn fy erlid i? [i] || Caled *yw* i ti wingo yn erbyn y symbylau.

g pen. 21. 40. a 22. 2. h pen. 9. 4, 5. a 22. 7—9. i Diar. 13. 15. Zec. 2. 8. a 12. 2. 1 Cor. 10. 22.

* Syrthiasent oll ar y ddaear, fel pe'u tarewsid hwy gan fellten. † Ni chlywsom o'r blaen yn mha iaith y llefarodd yr Arglwydd Iesu wrtho, ond yma dywed mai yn Hebraeg: a thybir mai nid yn Hebraeg yr oedd efe yn llefaru ger bron Agrippa. ‡ Gwel ar pen. 9. 4. || Dïareb Roegaidd, meddant, ond a arferir gan lawer o genedloedd, er dangos na wiw i neb geisio ymladd â'i drech, na wna efe ond ei niweidio ei hun. Gwel ragor ar pen. 9. 5.

15 * Ac mi a ddywedais, Pwy wyt ti, Arglwydd? Ac efe a ddywedodd, [k] Myfi yw Iesu, yr hwn yr wyt ti yn ei erlid.

k Ex. 16. 8. Mat. 25. 40, 45. Ioan 15. 20, 21.

* Gwel ar pen. 9. 4, 5: pan oedd y traed (aelodau ei gorph dirgeledig ef,) yn cael eu sathru ar y ddaear, yr oedd y Pen yn gwaeddi allan o'r nefoedd, "Paham yr wyt ti yn fy erlid I?"

16 [l] * Eithr cyfod, a saf ar dy draed: † canys i hyn yr ymddangosais i ti, [m] i'th osod di [n] yn weinidog ac yn dyst o'r pethau a welaist, [o] ‡ ac o'r pethau yr ymddangosaf i ti ynddynt;

l pen. 9. 6—9. a 22. 10. m pen. 9. 15, 16. a 13. 1—4. a 22. 14, 15. n pen. 1. 17, 25. a 6. 4. a 20. 24. a 21. 19. Rhuf. 1. 5. a 15. 16. 2 Cor. 4. 1. a 5. 18. Eph. 3. 7, 8. Col. 1. 7, 23, 25. 1 Thes. 3. 2. 1 Tim. 1. 12. a 4. 6. 2 Tim. 4. 5. o pen. 18. 9, 10. a 22. 17—21. a 23. 11. a 27. 23, 24. 2 Cor. 12. 1—7. Gal. 1. 12. a 2. 2.

* Fel y gorchymynwyd i Daniel (Dan. 10. 11,) sefyll gan yr angel, i leiâu ei fraw a'i arswyd, ac i wrando pa genadwri oedd gan Dduw tuag ato. † Mae yn ddiammau i'r Arglwydd Iesu lefaru y geiriau hyn wrth Paul ar y ffordd i Damascus, er nad yw Luc yn eu crybwyll o'r blaen yn pen. 9, na phen. 22. ‡ Cafodd Paul amryw ddatguddiedigaethau wedi y tro hwn: fel yr oedd ei ddyoddefiadau dros Grist yn amlâu, felly trwy Grist yr oedd ei ddiddanwch yn amlâu hefyd.

17 [p] * Gan dy wared di oddi wrth y bobl, [q] a'r Cenhedloedd, at y rhai yr ydwyf yn dy anfon di yr awrhon,

p pen. 9. 23—25, 29, 30. a 13. 50. a 14. 5, 6, 19, 20. a 16. 39. a 17. 10, 14. a 18. 10, 12—16. a 19. 28, &c. a 21. 28—36. a 22. 21, 22. a 23. 10—24. a 25. 3, 9—11. a 27. 42—44. Salm 34. 19. a 37 32, 33. 2 Cor. 1. 8—10. a 4. 8—10. a 11. 23—26. 2 Tim. 3. 11. a 4. 16, 17. q pen. 9. 15. a 22. 21. a 28. 28. Rhuf. 11. 13. a 15. 16. Gal. 2. 9. Eph. 3. 7, 8. 1 Tim. 2. 7. 2 Tim. 1. 11. a 4. 17.

* "Gan dy wared di oddi wrth bobl yr Iuddewon," ydyw yn y cyfieithiad Syriaeg, ac amryw hen ysgrifau; a diammau mai pobl yr Iuddewon a feddylir; mewn gwahaniaethiad oddi wrth y cenedloedd. Ymosododd pawb o honynt ar Paul, a gwaredodd yr Arglwydd ef oddi wrth bawb, hyd oni orphenodd y gwaith a roddasai efe iddo ei wneyd, ac yna nid gwaredigaeth a fuasai ei gadw ef yn hwy oddi wrth y wobr, a'r gamp uchel y rhedasai am dani.

18 [r] * I agoryd eu llygaid, [s] † ac i'*w* troi o dywyllwch i oleuni, [t] ‡ ac *o* feddiant Satan at Dduw; [u] || fel y derbyniont faddeuant pechodau, [x] § a chyfran ym mysg y [y] rhai a sancteiddiwyd [z] trwy y ffydd sydd ynof fi.

r pen. 9. 17, 18. Salm 119. 18. a 146. 8. Es. 29. 18. a 32. 3. a 35. 5. a 42. 7. a 43. 8. Luc 4. 18. a 24. 45. Ioan 9. 39. 2 Cor. 4. 4, 6. Eph. 1. 18. s adn. 23. pen. 13. 47. Es. 9. 2. a 49. 6. a 60. 1—3. Mal. 4. 2. Mat. 4. 16. a 6. 22, 23. Luc 1. 79. a 2. 32. Ioan 1. 4—9. a 3. 19. a 8. 12. a 9. 5. a 12. 35, 36. 2 Cor. 6. 14. Eph. 5. 8, 14. 1 Thes. 5. 4—8. 1 Pedr 2. 9. 1 Ioan 2. 8, 9. t Es. 49. 24, 25. a 53. 8—12. Luc 11. 21, 22. Col. 1. 13. 2 Tim. 2. 26. Heb. 2. 14, 15. 1 Ioan 3. 8. a 5. 19. Dat. 20. 2, 3. u pen. 2. 38. a 3. 19. a 5. 31. a 10. 43. a 13. 38, 39. Salm 32. 1, 2. Luc 24. 47. Rhuf. 4. 6—9. 1 Cor. 6. 10, 11. Eph. 1. 7. Col. 1. 14. 1 Ioan 1. 9. a 2. 12. x pen. 20. 32. Rhuf. 8. 17. Eph. 1. 11, 14. Col. 1. 12. Heb. 9. 15. Iago 2. 5. 1 Pedr 1. 4. y Ioan 17. 17. 1 Cor. 1. 2, 30. a 6. 11. Tit. 3. 5, 6. Heb. 10. 10, 14. Judas 1. z pen. 15. 9. Ioan 4. 10, 14. a 7. 38, 39. Rhuf. 5. 1, 2. Gal. 2. 20. a 3. 2, 14.

* I agoryd llygaid eu meddyliau hwynt, fel yr agorwyd llygaid corphorol Paul ar ol iddo fod yn ddall. † I'w troi o dywyllwch ysbrydol i oleuni ysbrydol, yr hwn oedd mòr ryfeddol â'r goleuni dysglaer a welsai efe ar ei ffordd i Damascus. ‡ Ac oddi wrth arglwyddiaeth pechod hefyd; oblegid trwy bechod y mae satan yn llywodraethu ar bechaduriaid, ac y maent yn ei feddiant. || Mae hyn yn dangos, pa faint bynag a fu pechodau dynion o'r blaen, fod llwybr gan Dduw yn ei ras i'w maddeu; ac nas gallant rwystro iachawdwriaeth neb a gredant yr efengyl, ac a'i derbyniant yn ei nerth, ac yn y cariad o hóni. § Rhaid i bechadur gael ei sancteiddio, yn gystal a maddeu ei bechod, cyn y byddo yn gymhwys i gael cyfran yn mysg y rhai a sancteiddiwyd, a thrwy ffydd yn ngwaed Crist mae cael y sancteiddiad hwnw. Nid oes achos cyfyngu yr adnod uchod at y cenedloedd, fel y gwna rhai; oblegid yr oedd yr apostol yn cael ei ddanfon at yr Iuddewon yn gystal ag at y cenedloedd: ac mae yn sicr bod yr Iuddewon mòr ddeillion gan ragfarn, ag oedd y cenedloedd gan annwybodaeth: yr oedd eu gelyniaeth yn erbyn Crist a'r efengyl, yn profi eu bod yn meddiant satan gymmaint â'r cenedloedd; mewn angen am faddeuant pechodau, ffydd, a sancteiddiad, yn llawn cymmaint â hwythau. Gyda golwg ar y cenedloedd, dylid sylwi yn fanol ar y gwahaniaeth rhwng "agoryd eu llygaid" â'u "troi o dywyllwch i oleuni:" ped agorasid eu llygaid gan Ysbryd a gras Duw, ac heb roddi goleuni addysg ysgrythyrol iddynt; buasent fel dynion a'u llygaid yn agored, ond wedi eu cauad mewn ystafell dywyll: o'r tu arall, pe buasai goleuni y gwirionedd yn cael ei ddanfon iddynt, ac heb agoryd eu llygaid gan yr Ysbryd Glân; buasent yn debyg i ddeillion yn rhodio mewn llawn goleu ddydd. Yr olaf hyn yw cyfiwr llaweroedd yn ein gwlad ni yr oes oleu hon.

19 Am ba achos, [a] O frenhin Agrippa, [b] * ni bûm anufudd i'r weledigaeth nefol:

a adn. 2, 26, 27. b Ex. 4. 13, 14. Es. 50. 5. Jer. 20. 9. Ezec. 2. 7, 8. a 3. 14. Jona 1. 3. Gal. 1. 16.

* Ni bûm anghredadyn, gelyn, ac erlidiwr mwy; mi a gredais yr hyn a welais ac a glywais, ac a ufuddêais i'r hyn a orchymynwyd i mi o'r nef: nis gall hyny fod yn bechod; ac eto, dyma'r cwbl a ellir roddi yn fy erbyn I.

20 [c] * Eithr mi a bregethais i'r rhai yn Damascus yn gyntaf, [d] ac yn Jerusalem, a thros holl wlad Judea, [e] ac i'r Cenhedloedd; [f] † ar iddynt edifarhau, [g] a dychwelyd at Dduw, [h] ‡ a gwneuthur gweithredoedd addas i edifeirwch.

c pen. 9. 19—22. d pen. 9. 28, 29. a 22. 17, 18. e adn. 17. pen. 13. 46—48. a 18. 6. a 22. 21, 22. Rhuf. 11. 18—20. f pen. 2. 38. a 3. 19. a 11. 18. a 17. 30. a 20. 21. Jer. 31. 19, 20. Ezec. 18. 30—32. Mat. 3. 2. a 4. 17. a 9. 13. a 21. 30—32. Marc 6. 12. Luc 13. 3, 5. a 15. 7, 10. a 24. 46, 47. Rhuf. 2. 4. 2 Cor. 7. 10. 2 Tim. 2. 25, 26. Dat. 2. 5, 21. a 3. 3. a 16. 11. g pen. 9. 35. a 14. 15. a 15. 19. Salm 22. 27. Galar. 3. 40. Hos. 12. 6. a 14. 2. Luc 1. 16. 2 Cor. 3. 16. 1 Thes. 1. 9. h Es. 55. 7. Mat. 3. 8. Luc 3. 8—14. a 19. 8, 9. Eph. 4. 17—32. a 5. 1—25. a 6. 1—9. Tit. 2. 2—13. 1 Pedr 1. 14—16. a 2. 9—12. a 4. 2—5. 2 Pedr 1. 5—8.

* Derbyniodd Paul ei apostoliaeth at y cenedloedd pan drôwyd ef; eto ni phregethodd efe i neb ond Iuddewon a phroselytiaid yn hir wedi hyny, hyd wedi dychweliad Cornelius trwy weinidogaeth Pedr. Efallai nad oedd efe ar y cyntaf yn deall helaethder ei anfoniad yn hollawl, mwy na'r apostolion eraill; am hyny yr oedd yn pwyllo, i gael deall meddwl yr Arglwydd yn well, o ran y modd a'r amser, iddo ef ymosod ar y fath waith mawr. † Fel y mae pechod yn troi dynion oddi wrth Dduw, felly y mae gwir edifeirwch yn troi, neu yn hytrach yn dychwelyd, dynion yn ol at Dduw: yr oedd eisiau hyn ar bawb, Iuddewon a chenedloedd. ‡ Fel y mae ffydd i'w dangos trwy weithredoedd, Iago 2. 18; felly y mae edifeirwch hefyd: os dywedwn fod yn ddrwg genym bechu, a'n bod yn casâu pechod, ac eto yn byw ynddo, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, ac hyd y mae ynom ni yn gwatwar Duw.

21 * O achos y pethau hyn [i] yr Iuddewon a'm daliasant i yn y deml, † ac a geisiasant *fy* lladd ‡ *i â'u dwylaw eu hun.*

i pen. 21. 30, 31. a 22. 22. a 23. 12—15. a 25. 3.

* O achos pregethu y pethau daionus, sanctaidd, a nefolaidd hyn, gwedi i mi eu profi fy hun, a chael anfoniad dwyfol i'w cyhoeddi; dyna'r holl gweryl sydd rhwng yr Iuddewon â mi: † am hyn yn unig y daliasant fi yn y deml, ac y ceisiasant fy lladd I mewn terfysg a brâd â'u dwylaw eu hunain, heb un math o brawf na barn gyfreithlawn ar fy achos I: pen. 21. 30, 31; a 23. 12; a 25. 3. ‡ Wrth fod y geiriau hyn mewn llythyrenau Italaidd, deallir nad ydynt fel *cynnifer o ciriau* yn y Groeg; eto dywedir mai dyna yw gwir feddwl y gair *diacheirisasthai* a arferir yma.

22 * Am hynny, [k] wedi i mi gael help gan Dduw, † yr wyf fi yn aros hyd y dydd hwn, [l] gan dystiolaethu i fychan a mawr, [m] ‡ ac heb

dywedyd dim amgen nag a ddywedasai [n] y orophwydi a Moses, y delent i ben;

k adn. 17. pen. 14. 19, 20. a 16. 25, 26. a 18. 9, 10. a 21. 31—3. a 2. 10, 11, 16, &c. 1 Sam. 7. 12. Ezra 8. 31. Salm 18. 47. a 6. 12. a 118. 10—13. a 124. 1—3, 8. 2 Cor. 1. 8—10. 2 Tim. 3. 11. 4. 17, 18. l pen. 20. 20—27. Dat. 11. 18. a 20. 12. m Gwel r adn. 6. pen. 3. 21—24. Luc 24. 27, 44. n pen. 24. 14. a 28. 3. Mat. 17. 4, 5. Luc 16. 29—31. Ioan 1. 17, 45. a 3. 14, 15. a 5. 9, 46. Rhuf. 3. 21. Dat. 15. 3.

* Mae Paul yn priodoli ei holl waredigaethau tymorawl, a phob cynnaliaeth ysbrydol a gawsai, i ddaioni chymmorth Duw, yn ol ei addewid iddo pan ei galwodd, adn. 17, ac wedi hyny hefyd fwy nac unwaith, pen. 8. 9, 10; a 23. Cyfeirio y mae yn ddiammau at gyfryngiadau rhyfedd rhagluniaeth Duw yn ei blaid ef, arwy ei nai, trwy y pen-capten, trwy Felix, a thrwy Festus; ac at y cysuron tumewnol a roddasai yr Arglwydd Iesu yn ddigyfrwng iddo. † Nid yn unig yn aros yn fyw, ac yn ddiangol rhag ei elynion; ond hefyd yn aros yn gadarn ac yn wrol i bregethu a thystiolaethu efengyl gras Duw, i fychan a mawr. ‡ Ac wrth bregethu, nid oedd yn dywedyd dim ond yr hyn a ragddywedasai Moses a'r prophwydi y deuent i ben. Prolhwyd oedd Moses fel y lleill; ond yma sonir am dano megys ar wahân oddi wrth y lleill, am ei fod yn rhagori ar y lleill oll, fel deddfwr Israel, a chwedi ymddiddan Duw wyneb yn wyneb. Num. 12. 6—8.

23 [o] * Y dïoddefai Crist, [p] † *ac* y byddai efe yn gyntaf o adgyfodiad y meirw, [q] ‡ ac y ddangosai oleuni i'r bobl, ac i'r Cenhedloedd.

o Gen. 3. 15. Salm 22. a 69. Es. 53. Dan. 9. 24—26. Zec. 12. 10. a 13. 7. Luc 18. 31—33. a 24. 26. 1 Cor. 15. 3, 4. p adn. 8. pen. 2. 23—32. a 13. 34. Salm 16. 8—11. Es. 53. 10—12. Mat. 27. 53. Ioan 10. 18. a 11. 25, 26. 1 Cor. 15. 20—23. Col. 1. 18. Dat. 1. 5. q adn. 18.

* Rhag-ddangosodd Moses ddyoddefaint y Messiah yn yr oen pasg, yn y sarph bres, ac yn yr holl aberthau a osododd efe; a rhag-fynegodd y prophwydi hyny newn amryfal fânau, yn enwedig Dafydd, yn Salm 22. holl; Esaiah, pen. 53. oll; a Daniel, pen. 9. 24—26. † Rhag-fynegasant ei adgyfodiad ef hefyd, mewn mànau hŷ liosog i'w gosod i lawr yma: ‡ ac y byddai efe yn oleuni i oleuo y cenedloedd, trwy ei air a'i Ysbryd. Es. 42. 6, 7; a 49. 6. Ond nid oedd yr Iuddewon yn credu fod hyn oll wedi "dyfod i ben;" ac ni fynent glywed sôn am deyrnas ysbrydol y Messiah, na dygiad y cenedloedd i mewn iddi.

24 [r] * Ac fel yr oedd efe yn dywedyd y pethau hyn trosto, [s] Ffestus a ddywedodd â llef uchel, [t] Paul, yr wyt ti yn ynfydu; † llawer o ddysg sydd yn dy yrru di yn ynfyd.

r pen. 22. 1. s pen. 17. 32. a 24. 25. a 25. 19, 20. t adn. 11. 2 Bren. 9. 11. Jer. 29. 26. Hos. 9. 7. Marc 3. 21. Ioan 8. 48, 52. a 10. 20, 21. 1 Cor. 1. 23. a 2. 14. a 4. 10. 2 Cor. 5. 13.

* Gwyddai Agrippa yn burion fod Paul yn ymresymu yn dda, ac yn ei amddiffyn ei hun ar dir cadarn yr ysgrythyrau; ond nis gwyddai Festus fel pagan Rhufeinig iddim am y pethau hyn, a thybiai fod Paul yn ei fawr ddysg yn ynfydu, ac yn siarad ynfydrwydd hollawl. Adgyfodiad Iesu, gweledigaeth Paul, dyn dirmygus yn codi o blith yr Iuddewon dirmygedig, i oleuo y Rhufeiniaid, y Groegiaid, &c., ynfydrwydd i gyd oedd y fath bethau yn ei olwg ef; a gwaeddodd allan, fod y dyn o'i bwyll, ei bod yn llawn bryd ei attal ef, a pheri iddo dewi â'i ddychymmygion gwallgofus. Felly y tybia llawer eto, am bregethwyr goreu yr efengyl, o rai a ddylent wybod gwell na Festus y pagan hwn: ynfydrwydd yw yr ymadrodd am y groes gan lawer yn ein gwlad gristionogol ni, a pho mwyaf pur a thanllyd y pregether ef, ynfyta i gyd yw y pregethwyr hyny yn ngolwg yr anianolion tywyll hyn. † *Polla Grammata;* llawer o ddysg, llawer o lyfrau, a llawer o efrydu. Yr oedd Paul yn ddysgedig iawn yn yr Hebraeg, y Syriaeg, y Groeg, a'r Lladin; ac yr oedd yn darllen llawer, ac yn ddyn efrydgar iawn, ac mae yn debyg y gwyddai Festus ei fod felly yn ei hir gaethiwed o ddwy flynedd, pen. 24. 27.

25 * Ac efe a ddywedodd, [u] Nid wyf fi yn ynfydu, [x] *O* ardderchoccaf Ffestus; [y] † eithr geiriau gwirionedd ‡ a sobrwydd yr wyf fi yn eu hadrodd.

u Ioan 8. 49. 1 Pedr 2. 21—23. a 3. 9, 15. x pen. 23. 26. a 24. 3. Luc 1. 3. y Tit. 1. 9. a 2. 7, 8.

* Gyda gostyngeiddrwydd ac addfwynder addas, a chyda phob parch i'r rhaglaw fel y cyfryw, mae Paul yn ateb yn arafaidd, nad oedd ef ddim wedi ynfydu; ond adrodd geiriau gwirionedd a sobrwydd yr oedd efe, mewn eithaf pwyll a difrifwch, a thàn ddylanwadau yr Ysbryd Glân. Pe dysgai pawb ymddwyn fel hyn pan ddirmyger hwy oblegid eu crefydd, byddai yn harddwch mawr i achos yr efengyl sanctaidd. † Geiriau gwirionedd mewn cyferbyniad i ddychymmygion disail; yr oedd sail iddynt oll yn yr ysgrythyrau sanctaidd. ‡ Geiriau sobrwydd mewn cyferbyniad i ramantau dyn ynfyd a gwallgofus, ac o'r pwys mwyaf i bawb, hyd yn nôd i Festus ei hun.

26 [z] * Canys y brenhin a ŵyr oddi wrth y pethau hyn, † wrth yr hwn yr wyf fi yn llefaru yn hŷf. O herwydd nid wyf yn tybied fod dim o'r pethau hyn yn guddiedig rhagddo; [a] ‡ oblegid nid mewn congl y gwnaed hyn.

z adn. 2, 3. pen. 25. 22. a pen. 2. 1—12. a 4. 16—21. a 5. 18—42. Es. 30. 20. Mat. 26. 5. a 27. 29—54.

* Yr oedd Agrippa yn ddigon hyddysg yn ysgrythyrau yr Hen Destament, yn wresog dros y grefydd Iuddewig, wedi cael ei addysgu yn Judea;—iddo ef y perthynai gofal y trysorau sanctaidd, llywodraeth y deml, a dewis yr arch-offeiriaid: felly nis gallai y pethau yn nghylch Iesu, a'r pethau oedd Paul wedi eu hadrodd, fod yn anhysbys iddo ef, er eu bod yn bethau dïeithr i Festus. † Ac wrth Agrippa, yn fwy na Festus, yr oedd Paul yn ei amddiffyn ei hun y tro hwn, adn. 2; ac am fod Agrippa yn eu gwybod, yr oedd yntau yn fwy hŷf yn eu llefaru. ‡ Yr oedd gwyrthiau Crist, ei groeshoeliad, ei adgyfodiad, tywalltiad yr Ysbryd Glân, pregethiad yr efengyl, a gelyniaeth Paul yn erbyn y cristionogion, a'i dröedigaeth ryfedd wrth fyned i Damascus, yn bethau mòr gyhoeddus i bawb, fel nas gallai neb trwy holl wlad Israel fod yn anhysbys o honynt.

27 * *O* frenhin Agrippa, [b] A wyt ti yn credu i'r prophwydi? † mi a wn dy fod yn credu.

b adn. 22, 23.

* Gwedi ateb Festus, trôdd yr apostol at Agrippa, a gofynodd yn ostyngedig, eto yn bendant iddo, a oedd efe yn credu i'r prophwydi; ac fel pe dywedasai, Os wyt ti yn credu i'r prophwydi, paham na chredi di yn Nghrist, am yr hwn y llefarodd y prophwydi? a pha fodd y gelli beidio? † Yna mae fel pe byddai yn ei geryddu ei hun, ac yn erfyn maddeuant, am ofyn y fath holiad afreidiol; ac yn cymmeryd yn ganiatâol sicr, fod Agrippa yn credu i'r prophwydi. Math o druth-ymlusgiad araethyddawl sanctaidd yw y dull hwn o lefaru, a rhaid ei fod yn effeithio yn fawr ar Agrippa, fel y gwelwn iddo wneyd yn yr adnod nesaf.

28 * Ac Agrippa a ddywedodd wrth Paul, [c] Yr wyt ti o fewn ychydig i'm hynnill i fod yn Gristion.

c adn. 29. pen. 24. 25. Ezec. 33. 31. Mat. 10. 18. Marc 6. 20. a 10. 17—22. 2 Cor. 4. 2. Iago 1. 23, 24.

* Cafodd y cyfeiriad boneddigaidd, ond difrifol uchod, at Agrippa, y fath effaith arno, fel y dywedodd ar gyhoedd yr holl lŷs, Cyn belled oddi wrth feddwl dy fod di wedi ynfydu, yr wyf yn addef yn rhwydd, nid yn unig fy mod I yn credu i'r prophwydi; ond hefyd fod dy araeth ysgrythyrol di mòr debyg i wirionedd, fel yr wyt o fewn ychydig i'm hennill i fod yn gristion fel ti dy hun: oni b'ai fy sefyllfa uchel, a'r grefydd y dygwyd fi i fynu ynddi, braidd na phenderfynwn I ymwrthod âg Iuddewaeth a chofleidio cristionogaeth yn y fân. Ond

O! beth a dâl bod o fewn ychydig yn gristion? dim oll: dyma ddyn a'i farn o blaid cristionogaeth, ond ei galon heb ei chyfnewid er hyny. Gresyn meddwl fod miloedd o'i fath yn y byd!

29 * A Phaul a ddywedodd, [d] Mi a ddymunwn gan Dduw, o fewn ychydig, ac yn gwbl oll, [e] fod nid tydi yn unig, ond pawb hefyd a'r sydd yn fy ngwrando heddyw, yn gyfryw ag wyf fi, [f] † ond y rhwymau hyn.

d Ex. 16. 3. Num. 11. 29. 2 Sam. 18. 33. 2 Bren. 5. 3. 1 Cor. 4. 8. a 7. 7. 2 Cor. 11. 1. e Jer. 13. 17. Luc 19. 41, 42. Ioan 5. 34. Rhuf. 9. 1—3. a 10. 1. Col. 1. 28. f pen. 12. 6. a 25. 14. Eph. 6. 20.

* Gwyddai Paul trwy brofiad melus, werth a rhinwedd crefydd, a gwyddai hefyd y dirfawr berygl o fod yn amddifad o hóni; am hyny mae yn tywallt ei ysbryd duwiol a dyngarawl allan yn y geiriau uchod, mewn dymuniad gwresog ar i Agrippa a'r holl bendefigion o'i gwmpas, gael eu gwneyd yn wir gristionogion fel ef ei hun yn mhob peth, ond y gadwyn a sonia. Mae y dymuniad daionus hwn yn dangos ei sicrwydd ef o wirionedd yr efengyl; yr angenrheidrwydd anhebgorol o ffydd yn Nghrist er iachawdwriaeth; ei ddedwyddwch ef ei hun fel cristion hyd yn nôd mewn rhwymau; ei dŷb nad oedd Agrippa, Festus, a'r gwŷr mawrion eraill oedd yn bresenol, ddim yn credu; a'i ofn y gwrthodent hwy yr efengyl i'w colledigaeth eu hunain. † Tybia rhai nad oedd efe ddim mewn rhwymau o flaen y llŷs, ond mai cyfeirio at ei garchariad yn gyffredin yr oedd; ond mae y geiriau hyn, a pen. 24. 27, yn dangos yn amlwg ei fod ef mewn rhwymau.

30 * Ac wedi iddo ddywedyd hyn, [g] † cyfododd y brenhin, a'r rhaglaw, a Bernice, a'r rhai oedd yn eistedd gyd â hwynt.

g pen. 18. 15. a 25. 22.

* Gwedi i Paul ddyfod mòr agos atynt oll yn y geiriau uchod, yr oedd Agrippa, Festus, Bernice, a phawb o honynt, yn dechreu myned yn anesmwyth fel Felix o'r blaen, pen. 24. 25, ac nid oeddynt am glywed ychwaneg rhag ofn cael eu clwyfo yn ddyfnach. † Agrippa, yr hwn oedd yn deall y mater orau, oedd y mwyaf anesmwyth, a'r cyntaf i dòri i fynu y cyfarfod. Cynt y newid yr Ethiop ei groen, a'r llewpard ei frychni, nag yr ymedy pechadur â'i bechod er cael ei argyhoeddi yn drwm.

31 * Ac wedi iddynt fyned o'r neilldu, hwy a lefarasant wrth eu gilydd, gan ddywedyd, [h] † Nid yw y dyn hwn yn gwneuthur dim yn haeddu angau, neu rwymau.

h pen 23. 9, 29. a 25. 25. a 28. 18. 2 Sam. 24. 17. Luc 23. 4, 14, 15. 1 Pedr 3. 16. a 4. 14—16.

* Un ai i dŷ y rhaglaw, neu i ryw ystafell neillduedig yn y llŷs. † Cyn belled ag y gallent hwy farnu, ac yr oeddynt yn barnu yn gywir hefyd, nid oedd Paul wedi yr holl erlid a fu arno, yn gwneuthur, na chwedi gwneuthur, dim yn haeddu angau, neu rwymau. Tystiolaeth dda oedd hon, ond paham na ddygasid hi yn gyhoeddus yn y llŷs, ar glyw pawb? Nid oedd Nero y pryd hwn wedi gwneuthur y deddfau gwaedlyd, y rhai a wnaed wedi hyn, i roddi pawb a broffesent gristionogrwydd i farwolaeth.

32 * Yna y dywedodd Agrippa wrth Ffestus, † Fe allasid gollwng y dyn yma ymaith, ‡ oni buasai iddo [i] appelio at Cesar.

i pen. 25. 11, 12, 25. a 28. 18, 19.

* Sylwyd o'r blaen, fod Agrippa yn gydnabyddus iawn â'r cyfreithiau Iuddewig a Rhufeinaidd hefyd; felly yr oedd gair oddi wrtho ef yn myned yn mhell iawn gyda Festus yn y mater dyrys hwn. † Yr oedd hyn ar unwaith yn condemnio holl ymddygiadau yr Iuddewon, erlidwyr Paul; cafodd y diffeithiaid hyny eu poen am eu llafur, a dychwelyd adref dàn y gwarth o gam-gyhuddo ac erlid dyn diniwed. Yr oedd yn condemnio Agrippa ei hun hefyd: oblegid os oedd Paul yn ddiniwed, a'r pethau a adroddodd ef yn eiriau gwirionedd a sobrwydd, paham na buasai efe yn credu y pethau, ac yn troi yn gristion yn gwbl oll. ‡ Gallesid ei ollwng ef ymaith *er* iddo appèlio at Cesar; oblegid er bod yr appèliad hwnw yn attal y rhaglaw i fyned yn mlaen yn mhellach yn ei erbyn ef, nid oedd mewn un modd yn ei *rwymo* ef i ddanfon y carcharor at Cesar, oddigerth yn wir bod yr erlidwyr hefyd wedi cytuno yn y cyfryw appèliad, yr hyn nid oeddynt wedi ei wneyd yn achos Paul. Nid oedd hyn ond esgus gwael, i ddanfon Paul ymaith fel carcharor i foddio yr Iuddewon. Nid oedd yr un gyfraith mewn bod, a gafael ynddo ef y pryd hwn; a gallasai dynu yn ol ei appèliad pe buasai yn dewis, a sefyll am ei ryddâd.

PEN. XXVII.

Paul, wrth forio tua Rhufain, yn rhag-ddywedyd perygl y daith.

[a] * A PHAN gyttunwyd † forio o honom ymaith i'r [b] ‡ Ital, hwy a roisant Paul, ‖ a rhyw garcharorion eraill, [*c] § at ganwriad a'i enw Julius, [d] o fyddin Augustus.

a pen. 19. 21. a 23. 11. a 25. 12, 25. Gen. 50. 20. Salm 33. 11. a 76. 10. Diar. 19. 21. Galar. 3. 37. Dan. 4. 35. Rhuf. 15. 22—29. b pen. 10. 1. a 18. 2. Heb. 13. 24. c adn. 11, 43. pen. 10. 22. a 21. 32. a 22. 26. a 23. 17. a 24. 23. a 28. 16. Mat. 8. 5—10. a 27. 54. Luc 7. 2. a 23. 47. d pen. 25. 25.

* O herwydd appèliad Paul at Cesar, a chyngor Agrippa yn yr amgylchiad hwnw, penderfynodd Festus ei ddanfon ef i Rufain: ond yr oedd gan Dduw law yn hyn oll, yn ddiarwybod i Festus, ac Agrippa hefyd. † Forio o *hóno ef* yw y geiriau mewn rhai hen ysgrifau, meddant; nid oedd gan Festus ddim awdurdod ar Luc ac Aristarchus a aethant gyda Phaul, o'u gwirfodd yr aethant hwy. ‡ Yr oedd yn agos i 1400 o filltiroedd o Cesarea i Rufain, a myned ar hyd llinell union; ac agos i gymmaint arall ar hyd y llwybr amgylchedig a ddangosir yn y darlun i'r fordaith hon. ‖ Rhywrai oedd fel Paul wedi appèlio at Cesar, mae yn debyg, ac yntau yn cael ei gyfrif yn garcharor fel hwythau, ond yn wahanol iawn iddynt hwy. § Tybir mai rhyw wr rhydd o deulu Julius Cesar oedd hwn, wedi cael ei enwi ar ei enw ef, ac yn ganwriad yn myddin anrhydeddusaf yr Ymherawdwr ei hun, yr hon a elwid byddin Augustus, mewn ffordd o enwogrwydd, gan Augustus Cesar, yr hwn a ddaeth i'r Ymherodraeth ar ol Julius ei ewythr.

2 * Ac wedi dringo i long o Adramytium, [e] † ar fedr hwylio i dueddau Asia, [f] ni a aethom allan o'r porthladd, [g] ‡ a chyd â ni yr oedd [h] Aristarchus, Macedoniad o Thessalonica.

e pen. 21. 1. Luc 8. 22. f pen. 20. 15, 16. a 21. 1—3. g pen. 19. 29. a 20. 4. Col. 4. 10. Philemon 24. h pen. 16. 10—13, 17. a 20. 5, 6. a 21. 5. a 28. 2, 10, 12, 16.

* Adramytium oedd ddinas borthladdawl o Mysia, yn Asia Leiaf, tua chwe' chant a hanner o filltiroedd i'r gogledd orllewin o Cesarea. † Nid oedd hyn felly ond rhan fechan o'r daith i Rufain; ac yn hytrach allan o'r ffordd, yn ormod i'r gogledd, hefyd. ‡ Bu y gwr duwiol hwn gyda Phaul mewn llawer brwydr boeth o'r blaen, mewn amryw fànau, ac yn awr mae yn myned gydag ef i Rufain, lle bu yn garcharor fel yntau, Col. 4. 10. Nid oes genym hanes i neb ond efe a Luc, ysgrifenydd y ilyfr hwn, fyned gyda Phaul i Rufain, ac yr oedd yn gysur mawr iddo gael y fath ddau frawd ffyddlawn gydag ef, a hwythau i'w canmol yn fawr am eu serchawgrwydd tuag ato, a'u hymlyniad diysgog wrtho yn ei holl drallodau i gyd.

3 * A thrannoeth ni a ddygwyd i waered i [i] Sidon. [k] † A Julius a ymddûg yn garedigol tu ag at Paul, ‖ ac a roddes *iddo* gennad i fyned at ei gyfeillion i gael ymgeledd.

i pen. 12. 20. Gen. 10. 15. a 49. 13. Es. 23. 2—4, 12. Zec. 9. 2. k adn. 1, 43. pen. 24. 23. a 28. 16.

* Porthladd enwog yn Phenicia, ydoedd Sidon, tua

bhàn milltir i'r gogledd o Cesarea, ar làn yr un môr, ef môr y canol-dir. Yr oedd hyn ar y cychwyn, allan o'r ffordd i Rufain; ond mae yn debyg fod y llong yn rhwym yno. † Yr oedd ymddygiad hardd a boneddig-nidd Paul yn ennill parch iddo gan y canwriad, fel Joseph yn y carchar, a Daniel a'r tri llanc yn Babilon: a Duw yn tueddu calon y canwriad hefyd i'w barchu ef. Efallai iddo glywed ei araeth ger bron Agrippa, a'i fod yn gwybod y meddwl oedd gan Agrippa a Festus am ddano, os nad oedd wedi cael gorchymyn hefyd gan Festus i ymddwyn yn garedigol tuag ato ar y daith. ‡ Mae yn debyg fod rhai cristionogion yn Sidon y pryd hwn, er nad oes dim hanes pellach am danynt: yr oedd yn garedigrwydd i Paul gael ymweled â hwynt, a chael rhyw ymgeledd angenrheidiol i'w daith hir a thymhestlog ganddynt, pethau nad oedd i'w cael yn y llong. Mae yn debyg mai dàn ofal milwr neu ddau y cafodd ef fyned i'r làn.

4 * Ac wedi myned oddi yno, ni a hwyliasom dan [l] Cyprus, am fod y [m] gwyntoedd yn wrthwynebus.

l pen. 4. 36. a 11. 19, 20. a 13. 4. a 15. 39. a 21. 3, 16. m Mat. 14. 24. Marc 6. 48.

* Dàn Cyprus oedd o'r tu gogledd iddi, rhyngddi â chyfandir Asia Leiaf. † Buasai yn unionach iddynt hwylio o'r tu dê iddi, a'i gadael rhyngddynt a'r gogledd; ond yr oedd y gwyntoedd yn wrthwynebus i wneyd hyny.

5 * Ac wedi hwylio o honom dros y môr sydd ger llaw [n] Cilicia a [o] Phamphylia, † ni a ddaethom i Myra *dinas* yn Lycia.

n pen. 6. 9. a 15. 23, 41. a 21. 39. a 22. 3. Gal. 1. 21. o pen. 2. 10. a 13. 13. a 15. 38.

* Môr Cilicia a Phamphylia, y gelwid y môr y ffordd hòno, oddi wrth y ddwy dalaeth o'r enw hyny ar ei làn gogleddol, yn Asia Leiaf: ychydig dros ddeng milltir ar hugain oedd ei led yn y màn culaf, rhwng ynys Cyprus â chyfandir Asia. † Talaeth arall yn Asia Leiaf oedd Lycia, i'r gorllewin o Pamphylia, a Myra yn dref borthladdawl yn y dalaeth hòno. Yr oedd hon yn daith bur union i Myra, wedi iddynt amgylchu penrhyn gogleddol ddwyreiniol ynys Cyprus, o Sidon.

6 [p] * Ac yno y canwriad, wedi cael llong o [q] Alexandria yn hwylio i'r Ital, † a'n gosododd ni ynddi.

p adn. 1. q pen. 6. 9. a 18. 24. a 28. 11.

* Mae yn debyg nad oedd y llong gyntaf o Adramytium, adn. 2, yn myned dim pellach na Myra yn eu ffordd hwy; gan hyny cytunodd y canwriad â llong arall o Alexandria, yn yr Aipht, oedd yn dygwydd bod yno, ac yn rhwym i'r Ital a llwyth o wenith, &c., (adn. 18, 38,) i gymmeryd y rhai oedd dàn ei ofal ef i'w trosglwyddo i'r Ital. † Symmudodd y canwriad y carcharorion a'r milwyr o'r llong gyntaf, ac a'u gosododd ar fwrdd yr ail.

7 * Ac wedi i ni hwylio yn anniben lawer o ddyddiau, † a dyfod yn brin ar gyfer Cnidus, am na adawai y gwynt i ni; [r] ni a hwyliasom [s] is law Creta, ‡ ar gyfer Salmone.

r adn. 12, 13, 21. pen. 2. 11. Tit. 1. 5, 12. s adn. 4.

* Hwylio yn *araf*, yn ol y Saesoneg, a hyny, meddant, yw ystyr y gair Groeg hefyd: am fod y gwynt yn groes, neu ddiffyg gwynt, a'r llong yn dra llwythog, nid oeddynt yn gallu myned nemawr yn mlaen mewn llawer o ddyddiau. † Nid oedd Cnidus, porthladd enwog ar benrhyn gorllewiniol Caria, fawr gyda chant a hanner o filltiroedd, ar linell uniawn, o Myra; yr hyn a ddengys mai yn araf ac anniben yr hwyliasant. ‡ Ynys fawr hir-fain, ydoedd Creta, yn môr y canol-dir, ac a elwir yn awr Candia; a Salmone ydoedd enw penrhyn dwyreiniol yr ynys hòno, tua chant, neu chwe' ugain milltir, i'r dehau-orllewin o Cnidus. Hwylio îs law Creta, oedd hwylio rhyngddi â'r dê; buasai yn llawer agosach iddynt fyned rhyngddi â'r gogledd o Cnidus pe gallasent gan y gwynt.

8 * Ac *wedi i ni* yn brin fyned heibio iddi, ni a ddaethom i ryw le a elwir, † Y porthladdoedd prydferth, ‡ yr hwn yr oedd dinas Lasea yn agos iddo.

* Gwedi amgylchu, a myned heibio i benrhyn dwyreiniol Creta trwy lawer o berygl ac anhawsdra, hwy a ddaethant i le a elwid, † Y Porthladdoedd Prydferth; lle ar ochr ddeheuol i'r ynys, ac a elwir y Porthladdoedd Prydferth hyd heddyw, meddant, o herwydd diogelwch a dymunoldeb y lle i longau angori ynddo. ‡ Yr oedd dinas o'r enw Lasea yn agos i'r angorfa hon; ac efallai mai yr un ydoedd â Lasos, a grybwyllir gan *Pliny*, yn nwyrein-barth Creta.

9 * Ac wedi i dalm o amser fyned heibio, † a bod morio weithian yn enbyd, o [t] herwydd hefyd ddarfod yr ympryd weithian, Paul a gynghorodd,

t Lef. 16. 29. a 23. 27—29. Num. 29. 7.

* Gwedi i dalm o amser fyned heibio o ddechreu y fordaith, ac heb fyned ddim pellach na hyn yn mlaen: nid oeddynt yn y fàn yma dros bùm cant a hanner o filltiroedd o Cesarea, y lle y cychwynasant o hóno, pe daethent ar eu hunion; a gallasent ddyfod mewn o bump i chwe' diwrnod gyda hwyl-wynt, wrth fel yr hwyliasant o Cesarea i Sidon. Gwel ar adn. 3. † Yr ympryd a grybwyllir yma oedd yr ympryd mawr ar ddydd mawr y cymmod; a chan fod hwnw yn dygwydd ar y degfed dydd o'r seithfed mis, neu fis Tizri, yr hwn oedd yn ateb i ran o'n Medi a rhan o'n Hydref ni; (Lefit. 16. 29; a 23. 27; a Num. 29. 7;) rhaid ei bod tua gŵyl Mihangel. Nid bod yr ympryd wedi darfod oedd yn ei gwneyd yn enbyd i forio; ond wrth hyny y dengys Luc fod y gauaf yn nesâu, pryd y byddai y nôs yn hir ac yn dywyll, a'r tywydd yn gyffredin yn dymhestlog, ac felly y byddai morio yn enbyd. O'r amser hwn hyd fis Mawrth, ni byddai morwyr y gwledydd hyny yn anturio nemawr i'r môr, nid oedd eu llongau hwy mòr gryfed i ddàl ystormydd â'n llongau ni; ac nid oedd morwriaeth wedi ei dysgu i'r fath berffeithrwydd y pryd hwnw ac yn yr oesoedd hyn: ychydig yn agos i'r làn a anturient hwy, a dywedir bod llifau Mihangel yn dra pheryglus o hyd yn môr y canol-dir.

10 Gan ddywedyd wrthynt [u] * *Ha* wŷr, yr wyf yn gweled y bydd yr hynt hon ynghyd a sarhad a cholled fawr, nid yn unig am y llwyth a'r llong, eithr am ein heinioes ni hefyd.

u adn. 21—26, 31, 34. Gen. 41. 16—25, 38, 39. Salm 25. 14. Dan. 2. 30. Amos 3. 7.

* Heblaw y pethau a ddywedwyd uchod am y perygl o forio yn yr amser hyn o'r flwyddyn; mae yn ddiammau fod Paul drwy ysbryd prophwydoliaeth yn eu rhagrybuddio hwy: yr oedd "yn gweled" y perygl trwy ddatguddiad dwyfol, heblaw wrth reswm naturiol. A phan welsant hwy ei ddaroganau yn dyfod i ben, bu y rhybudd hwn yn foddion i grêu parch yn eu meddyliau iddo, ac efallai yn foddion er iachawdwriaeth i rai o honynt. Yr oedd Duw drwy hyn yn dangos Paul fel dyn nodedig yn eu plith, fel y gwrandawent ei eiriau ef mewn pethau ysbrydol.

11 * Eithr y canwriad a [x] gredodd i lywydd ac i berchen y llong, yn fwy nag i'r pethau a ddywedid gan Paul.

x adn. 21. Es. 9. 20, 21. 2 Bren. 6. 10. Diar. 27. 12. Ezec. 3. 17, 18. a 33. 4. Heb. 11. 7.

* Yr oedd y canwriad am fyned yn mlaen, a pha faint bynag o barch oedd ganddo i Paul o ran pethau eraill, yr oedd yn naturiol iddo feddwl y gwyddai llywydd a pherchen y llong fwy am forwriaeth nac a wyddai Paul. Yn adn. 21, mae Paul yn dangos eu camsyniad iddynt oll.

12 [y] * A chan fod y porthladd yn anghyf-

leus i auafu, † y rhan fwyaf a roisant gynghor i ymado oddi yno hefyd, ‡ os gallent ryw fodd gyrhaeddyd hyd Phenice, i auafu *yno;* yr hwn sydd borthladd yn [z] Creta, ar gyfer y deau-orllewin, a'r gogledd-orllewin.

y adn. 8. Salm 107. 30. z adn. 7.

* Er bod y lle hwn yn hyfryd o ran ei sefyllfa, eto nid oedd yn gyflëus i auafu ynddo, o herwydd ei fod yn agored i dymhestloedd geirwon, a môr-gymmlawdd enbyd a mynych o'r dwyrain-ogledd: † gan hyny, cytunodd y rhan fwyaf yn groes i gyngor Paul i ymadael oddi yno. ‡ Porthladd arall ydoedd Phenice, tua chwe' ugain milltir yn mlaen o'r Porthladdoedd Prydferth, yn mhen gorllewinol eithaf ynys Creta: yr oedd yn gorwedd mewn cilfach, rhwng dau benrhyn uchel a redant i'r môr, ac am hyny yn lle cyflëus a diogel iawn i auafu ynddo pe gallasent hwy fyned i mewn; ond nis gallas ent gan wynt tymhestlog yn eu herbyn, adn. 14, 15.

13 [a] * A phan chwythodd y deheu-wynt yn araf, † hwynt-hwy yn tybied cael *eu* meddwl, gan godi *hwyliau,* a foriasant heibio yn agos i Creta.

a Job 37. 17. Salm 78. 26. Can. 4. 16. Luc 12. 55.

* Pe buasai y deheu-wynt araf hwn yn parâu, buasai yn gyflëus iawn iddynt hwy i amgylchu y penrhyn deheu-orllewinol, a myned i mewn i angorfa Phenice: † gan dybied gwneyd felly, hwy a godasant hwyliau, ac a aethant yn llwyddiannus, hyd o fewn ychydig i'r penrhyn yr oeddynt i'w amgylchu.

14 [b] * Ond cyn nemmawr cyfododd yn ei herbyn hi [c] wynt tymhestlog, † yr hwn a elwir Euroclydon.

b Ex. 14. 21—27. Jona 1. 3—5. c Salm 107. 25—27. Ezec. 27. 26. Mat. 8. 24. Marc 4. 37.

* Gyda eu bod hwy yn tybied eu bod yn ddiberygl, a bron yn yr hafan a ddymunent, gwelodd Duw, yr hwn sydd a'i ffyrdd yn y môr, a'i lwybr yn y corwynt a'r rhyferthwy, yn dda eu croesi hwynt: yn un peth am na wrandawsent ar lais ei was ef, ac hefyd i ddangos ei ryfeddodau yn y dyfnder, ei ddaioni yn eu gwaredu o'r dyfnder, ac i anrhydeddu ei was Paul yn eu golwg hwy ar ol hyn. † Gwynt tymhestlog ofnadwy oedd yr Euroclydon hwn, yn chwythu yn benaf o'r dwyrain-ogledd; ond bob yn awr ac eilwaith yn newid, ac fel tröwynt nerthol yn chwythu o bob parth agos, ac yn berwi y môr yn dònau mawrion dychrynllyd, fel nad oedd bosibl llywio y llong, na'i chadw at un pwnc neillduol. *Levanters* y gelwir yr ystormydd hyn yn awr, a dywedir eu bod yn aml yn y môr hwnw o hyd.

15 * A phan gipiwyd y llong, ac heb allu gwrthwynebu y gwynt, [d] † ni a ymroisom, ac a ddygwyd *gyd a'r gwynt.*

d adn. 27. Iago 3. 4.

* Gan y corwynt nerthol a thröedig uchod, yr hwn a gipiai y llong yn ddiwrthwyneb, ac a'i taflai draw ac yma mòr nerthol, fel nas gallasai y morwyr mewn un modd ei llywio, na'i chyfeirio tuag at bwnc yn y byd. † Yn y cyfryw amgylchiad, wedi aml esgyn i'r nefoedd, ac aml ddisgyn i'r dyfnder; a'u henaid wedi toddi gan flinder, a hwythau yn ymdroi ac yn ymsymmud fel meddwon; eu holl ddoethineb a ballodd: nid oedd dim i'w wneyd ond rhoi pob ymdrech i fynu, ac ymollwng i nerth ofnadwy y gwynt a'r tònau.

16 * Ac wedi i ni redeg goris ynys fechan a elwir Clauda, † braidd y gallasom gael y bâd:

* Ynys fechan oedd Clauda, tuag ugain milltir i'r dehau oddi wrth ben gorllewinol Creta: rhedeg gorys yr ynys hon, oedd rhedeg rhyngddi â'r dê, gan ei gadael rhyngddynt â Chreta, lle y dylasent fyned y tu arall iddi, rhyngddi â'r gogledd, i fyned i mewn i Phenice. † Mae yn debyg fod y bâd yn grogedig y tu allan i'r llong, a thrwy anhawsdra mawr y gallasant ei gael ar y bwrdd, fel nad elai yn ddrylliau drwy ei guro wrth y llong. Tybient y byddai o wasanaeth iddynt os âi y llong yn ddrylliau, ond ni bu.

17 * Yr hwn a godasant i fynu, ac a wnaethant gynnorthwyon, gan wregysu y llong oddi dani: [e] † a hwy yn ofni rhag syrthio ar sugn-draeth, ‡ wedi gostwng yr hwyl, a ddygwyd felly.

e adn. 29, 41.

* Gwedi cael y bâd i fynu, aethant yn orau y gallent i gynnorthwyo y llong â gwregysau, trwy osod rhaffau cryfion o amgylch iddi, a'u rhwymo yn dynion, rhag iddi hollti a dryllio gan nerth y tònau. † Gwelsant eu bod erbyn hyn yn cael eu taflu tua thueddau gogleddawl Affrica, lle yr oedd sugn-draethydd nodedig, a pheryglus iawn i forwyr yr oesoedd hyny. Traeth byw, neu sugn-draeth, sydd le bâs tywodlyd yn y môr, yr hwn pan redo llongau arno, a sugnir i mewn, a ddelir yn gadarn, ac a lyncir i fynu yn hollawl. Dywedir fod dau o honynt, y mwyaf a'r lleiaf, yn môr y canol-dir ar dueddau Affrica; ac yn y darluniau gorau, dangosir un yn agos iawn i ynys Clauda lle yr oedd Paul y pryd hwn. ‡ Gwedi gwneyd y cynnorthwyon uchod, a gostwng yr hwyl, hwy a'i gadawsant i fyned lle bynag yn nhrefn rhagluniaeth y dygai y gwynt a'r tònau hwynt.

18 * A ni yn flin iawn arnom † gan y dymmestl, [f] ‡ drannoeth hwy a ysgafnhasant y llong.

f adn. 19, 38. Jona 1. 5. Mat. 16. 26. Luc 16. 8. Phil. 3. 7, 8. Heb. 12. 1.

* Gwelwn ddysgrifiad Dafydd o forwyr mewn tymhestl, (Salm 107. 25—27.) ac ni a allwn amgyffred rhywbeth o'u blinder y pryd hwn. † Tymhestl ganaf yw ystyr y gair gwreiddiol *cheimasomenôn.* ‡ Fel y gallai esgyn a disgyn yn ysgafnach a mwy diberygl ar y tònau; ac fel na soddai mòr fuan os syrthient ar y traeth sugn. Pob peth a ddyry gŵr am ei einioes; er mòr anodd oedd colli y pethau oedd yn y llong, eto yr oedd yn rhaid eu bwrw ymaith yn hytrach na cholli y bywyd.

19 * A'r trydydd *dydd* [g] bwriasom â'n † dwylaw ein hunain daclau y llong allan.

g Job 2. 4. Marc 8. 35—37. Luc 9. 24, 25.

* Bwriwyd y pethau lleiaf eu gwerth, a hawddaf eu hebgor, dros y bwrdd yn gyntaf, ond nid oedd hyny yn ddigon; bwriwyd taclau a dodrefn y llong, pethau er addurn, neu erbyn angenrheidrwydd i ddyfod, dros y bwrdd wedi hyny; fel yr unig foddion i'w cadw rhag soddi: † a gorfu ar y carcharorion a mynedyddion eraill, gynnorthwyo y morwyr yn y gorchwyl anghysurus hwn.

20 * A phan nad oedd [h] na haul na sêr yn ymddangos dros lawer o ddyddiau, [i] † a themmestl nid bychan yn pwyso *arnom,* [k] ‡ pob gobaith y byddem cadwedig a ddygwyd oddi-arnom o hynny allan.

h Ex. 10. 21—23. Salm 105. 28. Mat. 24. 29. i Salm 107. 25—27. Jona 1. 4, 11—14. Mat. 8. 24, 25. 2 Cor. 11. 25. k Es. 57. 10. Jer. 2. 25. Ezec. 37. 11. Eph. 2. 12. 1 Thes. 4. 13.

* Yr oedd yr awyr mòr dew a chymylog, fel na welent haul y dydd na sêr y nos, i'w sirioli na'u cyfarwyddo am lawer o ddyddiau: † dim ond y ddryc-hin fawr a'r dymhestl o hyd yn curo arnynt, ac yn eu taflu yn ddychrynllyd iawn, nas gwyddent yn y byd i ba le. ‡ Yn yr anghysur a'r enbydrwydd dirfawr hwn, rhoddasant i fynu bob gobaith am fod yn gadwedig o hyny allan; dim ond dysgwyl bob mynyd, bob cwthwn, a phob tòn, mai ar y traeth sugn, yn erbyn craig, neu yn y gwaelod, y byddent. Yn wir yr oedd yn fyd dychrynllyd arnynt!

21 [l] * Ac wedi bod hir ddirwest, † yna y safodd Paul yn eu canol hwy, ac a ddywedodd,

‡ *Ha* wŷr, chwi a ddylasech wrando arnaf fi, bod heb ymadaw o Creta, ‖ ac ynnill y sarhâd yma a'*r* golled.

l adn. 33—35. Salm 107. 5, 6. m adn. 9, 10. Gen. 42. 22.

* Nid am nad oedd digon i'w fwyta y bu y dirwest hyn; (adn. 38;) ond nid oedd hamdden i lawer o honynt i fwyta, gan weithio am eu bywyd; nis gallai neraill fwyta, gan ofn colli eu bywyd; ac efallai bod rhai, megys Paul a'i ddau gyfaill, (Gwel ar adn. 2,) yn ymprydio o fwriad, er ymostwng ger bron Duw yn y carallod a'r drygfyd presenol. † Paul oedd y gwrolaf o honynt oll yn y cyfwng hwn; yr oedd ef yn dawel ac yn ddïofn yn yr holl enbydrwydd i gyd: gwyddai bod ei fater personol ef yn dda rhyngddo â Duw beth bynag fyddai y canlyniad; gwyddai bod yn rhaid iddo ef fyned i Rufain, (pen. 23. 11,) ac am hyny na foddid mo hóno yn y môr; ac yr oedd wedi cael datguddiad y nos o'r blaen, (adn. 23,) na byddai colled am einioes neb ag oedd yn y llong. ‡ Yr oedd y drygfyd a gawsent wedi eu darpar erbyn hyn i addef, mai gwell fuasai iddynt wrando ar gyngor Paul, a gauafu yn y Porth a addoedd Prydferth: ond yr oedd yn rhŷ ddiweddar yn nwr. Hwy a ddylasent wrando er eu lles eu hunain; a hwy a ddylasent wrando, oblegid oddi wrth Dduw yr oedd y cyngor. ‖ Ennill sarhâd a cholled sydd ymadrodd rhyfedd; ac eto sarhâd a cholled oedd y cwbl a ennillasant hwy; a sarhâd a cholled yw y cwbl a ennill dynion yn y diwedd, o fyned yn mlaen yn groes i ewyllys a meddwl Duw. Dywedir fod y gair *aubrin*, "sarhâd," yn arwyddo cael y gwaethaf mewn dorwydr â gelynion, neu yn cael ei ddefnyddio am dhyny; a'r gair *zémian*, "colled," yn arwyddo cosp, neu ddirwy: felly cafodd y rhai hyn y gwaethaf wrth ymladd â gwynt a thònau Duw; a chawsant eu cospi a'u ddirwyo yn drwm am ryfygu gwneyd hyny, ar ol eu cyngori i beidio.

22 * Ac yr awrhon [n] yr wyf yn eich cyngori chwi i fod yn gysurus: [o] † canys ni bydd colled am einioes *un* o honoch, ond am y llong yn unig.

n adn. 25, 36. pen. 23. 11. 1 Sam. 30. 6. Ezra 10. 2. Job 22. 29, 30. Salm 112. 7. Es. 43. 1, 2. 2 Cor. 1. 4—6. o adn. 31, 34, 44. Job 2. 4.

* Er eu ceryddu yn yr adnod o'r blaen, mae yn eu cysuro yn yr adnod hon; † trwy ddywedyd na byddai colled am *einioes* neb o honynt, ond am y llong yn unig: ac nid oedd colli y llong â'i llwyth ond peth bychan yn eu golwg y pryd hwn, mae yn debyg, ond cael cadw yr einioes.

23 [p] * Canys safodd yn fy ymyl y nos hon angel Duw, [q] † yr hwn a'm piau, [r] ‡ a'r hwn yr wyf yn ei addoli,

p pen. 5. 19. a 12. 8—11, 23. a 23. 11. Dan. 6. 22. Heb. 1. 14. Dat. 22. 16. q Ex. 19. 5. Deut. 32. 9. Salm 135. 4. Can. 2. 16. a 6. 3. Es. 44. 5. Jer. 31. 33. a 32. 38. Ezec. 36. 28. Zec. 13. 9. Mal. 3. 17. Ioan 17. 9, 10. 1 Cor. 6. 20. Tit. 2. 14. 1 Pedr 2. 9, 10. r pen. 16. 17. Salm 143. 12. Dan. 3. 26, 28. a 6. 16, 20. Ioan 12. 26. Rhuf. 1. 1, 9. a 6. 22. 2 Tim. 1. 3. a 2. 24. Tit. 1. 1.

* Gwyddai angel Duw pa le i gael hyd i Paul, er nas gwyddai Paul ei hun, na'r morwyr chwaith, pa le yr oeddynt. † Yr hwn a'm piau fel creadur, fel dyn, fel cristion, ac fel apostol. ‡ Yr hwn wyf yn wasanaethu, yn y Saesoneg: gwasanaethu Duw yw ei addoli, a'i addoli yw ei wasanaethu; a defnyddir y gair Groeg am bob un o'r ddau.

24 Gan ddywedyd, [s] * Nac ofna, Paul; [t] † rhaid i ti sefyll ger bron Cesar: ac wele, [u] ‡ rhoddes Duw i ti y rhai oll sydd yn morio gyd â thi.

s pen. 18. 9, 10. Gen. 15. 1. a 46. 3. 1 Bren. 17. 13. 2 Bren. 6. 16. Es. 41. 10—14. a 43. 1—5. Mat. 10. 28. Dat. 1. 17. t pen. 9. 15. a 19. 21. a 23. 11. a 25. 11. Mat. 10. 18. Ioan 11. 9. 2 Tim. 4. 16, 17. Dat. 11. 5—7. u adn. 37. Gen. 12. 2. a 18. 23—32. a 19. 29. a 30. 27. a 39. 5, 23. Es. 58. 11, 12. Mica 5. 7. Iago 5. 16.

* Y genadwri mae angelion Duw yn ddwyn i ddynion duwiol yw, "Nac ofna:" felly i Daniel, Dan. 10. 12, 19; felly i Zacharias, Luc. 1. 13; felly i Mair, Luc. 1. 30; ac felly i'r gwragedd wrth y bedd, Matth. 28. 5. † "Rhaid i ti sefyll ger bron Cesar;" dyna ddigon o sicrwydd na chollir *di* yn y fordaith hon: ‡ "a rhoddes Duw i ti y rhai oll sydd yn morio gyda thi;" arbedir eu bywydau hwythau y tro hwn er dy fwyn di, ac mewn atebiad i'th weddïau di drostynt. Cyflëusdra da oedd hwn i ddywedyd gair dros Dduw ac am dano, ac ni adawodd Paul iddo fyned drosodd heb wneyd defnydd o hóno.

25 Am hynny, *ha* wŷr, cymmerwch gysur: [x] * canys yr wyf fi yn credu i Dduw, mai felly y bydd, yn ol y modd y dywedwyd i mi.

x adn. 11, 21. Num. 23. 19. 2 Cron. 20. 20. Luc 1. 45. 2 Tim. 1. 12.

* Fel pe dywedasai, Nid dyma'r tro cyntaf i mi gael y cyfryw ddatguddiedigaethau ac addewidion, ac ni welais I yr un o honynt yn pallu erioed: mae genyf hir a mynych brofiad o allu a ffyddlondeb fy Nuw; ac yr wyf yn credu yn gadarn y bydd fel y dywedwyd i mi y tro hwn hefyd: am hyny yr wyf yn attolwg i chwi fod yn gysurus.

26 * Ond mae yn rhaid ein bwrw ni [y] i ryw ynys.

y pen. 28. 1.

* Yr oedd hyn hefyd wedi ei ddatguddio yn ddïau i Paul gan yr angel, ac yntau yn ei grybwyll i'r morwyr fel arwydd o wirionedd y datguddiad, pan ei gwelent yn dyfod i ben. Melita oedd yr ynys, pen. 28. 1.

27 [z] * Ac wedi dyfod y bedwaredd nos ar ddeg, fe a ddigwyddodd, † a ni yn morio yn Adria, ynghylch hanner nos, [a] ‡ dybied o'r morwyr eu bod yn nesâu i ryw wlad.

z adn. 18—20. a adn. 30. 1 Bren. 9. 27. Jona 1. 6. Dat. 18. 17.

* Y bedwaredd nos ar ddeg o ddechreuad y dymhestl, mae yn debyg: rhyfedd eu cadw yn fyw am gyhyd o amser yn y fath gorwyntoedd! † Yn yr hen amseroedd, môr Adria y gelwid yr holl ran hyny o fôr y canol-dir, ag sydd yn gorwedd i'r dehau o Italy, ac nid yr hyn a elwir yn awr culfor Venice: culfor Adria y gelwid y rhan hyny gynt, ac yr oedd yn mhellach i'r gogledd o lawer na llwybr môr-daith Paul. ‡ Er mòr dywyll ac ystormllyd oedd y nos, deallodd yr hen forwyr cyfarwydd wrth ryw arwyddion, eu bod yn nesâu i ryw wlad.

28 * Ac wedi iddynt blymio, † hwy a'i cawsant yn ugain gwrhyd: ‡ ac wedi myned ychydig pellach, a phlymio drachefn, hwy a'i cawsant yn bymtheg gwrhyd.

* Gŵyr pawb beth yw plymio: gollwng darn o blwm wrth linyn i'r gwaelod, i gael gwybod y dyfnder. † Gwrhyd yw yr hyd o flaen y naill hirfys i ddyn cyffredin, hyd flaen yr hirfys arall, pan fyddo y breichiau ar led: chwech troedfedd y cyfrifir gwrhyd yn gyffredin; felly yr oedd yr ugain gwrhyd yma yn chwech ugain troedfedd. ‡ Plymiwyd drachefn wedi myned ychydig yn mlaen, rhag myned i le rhŷ fâs yn ddïarwybod, a chafwyd y dyfnedd yn bymtheg gwrhyd, neu bedwar ugain a deg o droedfeddi.

29 * Ac a hwy yn ofni rhag i ni [b] syrthio ar leoedd geirwon, [c] † wedi iddynt fwrw pedair angor allan [d] ‡ o'r llyw, hwy a ddeisyfasant ei myned hi yn ddydd.

b adn. 17, 41. c adn. 30, 40. Heb. 6. 19. d Deut. 28. 67. Salm 130. 6.

* Yna gwelsant yn amlwg eu bod yn nesâu i ryw làn; a rhag ofn iddynt daro wrth, a dryllio ar greigiau, † hwy a fwriasant allan bedair angor, i'w cadw yn y màn yr oeddynt nes cael goleu dydd i weled eu ffordd yn well. ‡ O'r fflureg, neu ben blaen y llong, y bwrir angorion yn awr; ond mae yn debyg mai o'r llyw y bwriai morwyr yr hen oesoedd hwynt: a gellid meddwl

mai o'r pen ol yr oedd gorau eu bwrw yn yr amgylchiad hwn, fel yr attalient y llong rhag myned yn mlaen, gan eu bod mòr agos i'r traeth.

30 * Ac fel yr oedd y llongwyr yn ceisio ffoi allan o'r llong, [e] † ac wedi gollwng y bâd i waered i'r môr, yn rhith bod ar fedr bwrw angorau o'r [f] pen blaen i'r llong,

e adn. 16, 32. f adn. 41.

* Nid oedd y llongwyr yn gofalu nemawr beth a ddaethai o Paul, y carcharorion eraill, a'r milwyr, os gallent hwy gyrhaedd y làn ac achub eu bywydau eu hunain. † Yn lladradaidd yr oeddynt yn meddwl gadael y llong, yn y bâd, dàn rith eu bod yn myned i fwrw angorau o'r pen blaen i'r llong, er mwy o ddiogelwch.

31 [g] * Dywedodd Paul wrth y canwriad a'r milwyr, [h] † Onid erys y rhai hyn yn y llong, ni ellwch chwi fod yn gadwedig.

g adn. 11, 21, 42, 43. h adn. 22—24. Salm 91. 11, 12. Jer. 29. 11—13. Ezec. 36. 36, 37. Luc 1. 34, 35. a 4. 9—12. Ioan 6. 37. 2 Thes. 2. 13, 14.

* Nid oedd gwiw dywedyd wrth lywydd y llong, yr oedd ef am ffoi, mae yn debyg, yn gystal a'r dwylo, oblegid ni buasent hwy yn son am fwrw angorau o'r pen blaen heb ei orchymyn ef. Mae yn debyg nad oedd yr un gyfraith y pryd hwnw, na adawai y capten mo'r llong hyd yn olaf o bawb. † Nid, Nis gallant *hwy* fod yn gadwedig a ddywedir; ond, Nis gellwch *chwi* fod yn gadwedig, onid arosasant hwy yn y llong, i'w thrin a'i gweithio ér diogelwch pawb. Er nad oedd addewid Duw i Paul am ddiogelwch pawb oedd yn y llong, yn ymddibynu dim ar yr hyn a wnelai y morwyr; eto, trwy iddynt hwy aros yn y llong, ac arfer pob moddion achubiaeth, yr oeddynt i gael eu hachub. Felly hefyd am bethau ysbrydol; mae holl ddybenion Duw yn sicr o gael eu cyflawni, ond mae efe hefyd wedi cyssylltu moddion â dybenion; a themtio Duw yw dysgwyl cyflawni y dybenion, heb arferyd y moddion: eiddo Duw yw cyflawni y dybenion a arfaethwyd, a'n heiddo ninnau yw arfer y moddion a drefnwyd.

32 [i] * Yna y torrodd y milwyr raffau y bâd, ac a adawsant iddo syrthio ymaith.

i Luc 16. 8. Phil 3. 7—9.

* Gwelodd y canwriad a'r milwyr briodoldeb yr hyn a ddywedasai Paul, ac yn y fàn tòrasant raffau y bâd fel y syrthiai i'r môr, ac fel na ffôai y morwyr ymaith pryd yr oedd fwyaf o eisiau eu cynnorthwy.

33 [k] A thra yr ydoedd hi yn dyddhâu, Paul a eiriolodd ar bawb gymmeryd lluniaeth, gan ddywedyd, [l] * Heddyw yw y pedwerydd dydd ar ddeg yr ydych chwi yn disgwyl, ac yn aros ar eich cythlwng, † heb gymmeryd dim.

k adn. 29. l adn. 27.

* Sef o ddechreu y dymhestl, fel adn. 27. † Hyny yw, heb gymmeryd digon; heb gymmeryd pryd cyflawn a diwall yn yr holl amser hyny: rhaid mai rhywbeth felly yw meddwl y geiriau, oblegid yr oedd yn anmhosibl iddynt fyw hanner cyhyd â hyny o amser heb gymmeryd *dim* yn hollawl. Heblaw yr achosion o'r hir gythlwng hyn, a nodwyd dàn adn. 21, tybir fod y llong-lywydd wedi eu rhoddi ar ddogn beunyddiol prin o ymborth hefyd, am fod y fordaith yn hwy nac y meddyliwyd wrth gychwyn o lawer.

34 O herwydd paham yr ydwyf yn dymuno arnoch gymmeryd lluniaeth; [m] * oblegid hyn sydd er iechyd i chwi: [n] † canys blewyn i'r un o honoch ni syrth oddi ar ei ben.

m Marc 8. 2, 3. Phil. 2. 5. 1 Tim. 5. 23. n 1 Bren. 1. 52. Mat. 10. 30. Luc 12. 7. a 21. 18.

* Mae ymborth mewn cymmedroldeb er iechyd i bawb; ac wrth ystyried lludded mawr, ofnau, a hir gythlwng y bobl hyn, gellid meddwl bod eu hiechyd mewn perygl o eisiau ymborth, a lluniaeth yn wir angenrheidiol iddynt er adnewyddiad natur a meithriniad iechyd. † Er tawelu eu meddyliau ofnus, a'u darbwyllo i eistedd i lawr i gymmeryd lluniaeth, mae yr apostol eto yn ail sicrâu iddynt, na byddai dim perygl, na syrthiai cymmaint â blewyn i'r un o honynt oddi ar ei ben. Rhyfedd mòr dirion a gofalus oedd yr apostol yn y tro hwn, fel tad yn mhlith ei blant; a diammau fod ei ymddygiad yn effeithio yn fawr ar y rhan fwyaf o honynt.

35 * Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a gymmerodd fara, [o] † ac a ddiolchodd i Dduw [p] yn eu gwydd hwynt oll, ac a'i torrodd, ac a ddechreuodd fwytta.

o pen. 2. 46, 47. 1 Sam. 9. 13. Mat. 15. 36. Marc 8. 6. Luc 24. 30. Ioan 6. 11, 23. Rhuf. 14. 6. 1 Cor. 10. 30, 31. 1 Tim. 4. 3, 4. p Salm 119. 46. Rhuf. 1. 16. 2 Tim. 1. 8, 12. 1 Pedr 4. 16.

* Mae efe ei hun yn dechreu, † a chyn tòri bara yn diolch i Dduw yn eu gwŷdd hwy oll, am ei waredigaethau mawrion iddynt yn y dyfn-fôr mawr tymhestlog, ac am fod ganddynt fara i'w fwyta fel hyn wrth eu hangen. Golwg brydferth iawn ar yr apostol oedd hyn, yn nghanol morwyr dibris o'r Aipht, a milwyr paganaidd o Rufain, ac odid na chafodd effaith dda ar rai o honynt.

36 [q] * Ac yr oeddynt bawb wedi myned yn gysurol; a hwy a gymmerasant luniaeth hefyd.

q Diar. 27. 17. 2 Cor. 1. 4—6.

* Yr oedd geiriau Paul wedi eu cysuro i fwyta, a bwyta yn eu gwneyd yn fwy cysurus mewn corph a meddwl. Yn awr yr oedd Paul y carcharor diystyrllyd yn cael ei gredu a'i barchu; pe cawsent hwy y fôrdaith yn hwylus a diberygl, ni buasai sylw yn y byd yn cael ei wneyd o hóno, nac o ddim a ddywedai. Mae gan Dduw ffyrdd rhyfedd i dderchafu ei weision, a thrwy dderchafu ei weision, ei dderchafu ei hun.

37 * Ac yr oeddem yn y llong i gyd, [r] yn ddau cant ac un ar bymtheg a thriugain o [s] eneidiau.

r adn. 24. s pen. 2. 41. a 7. 14. Rhuf. 13. 1. 1 Pedr 3. 20.

* Rhwng morwyr, milwyr, carcharorion, a Phaul a'i gyfeillion, ac eraill efallai, oedd yn tramwy o Asia i Rufain. Nifer mawr i fod yn yr un llong, a phob un ag enaid gwerthfawr ganddo.

38 * Ac wedi eu digoni o luniaeth, [t] hwy a ysgafnhasant y llong, † gan fwrw y gwenith allan i'r môr.

t adn. 18, 19. Job 2. 4. Jona 1. 5. Mat. 6. 25. a 16. 26. Heb. 12. 1.

* Gwedi eu digoni o luniaeth, yr oeddynt yn gryfion i weithio, er mai gwaith anghysurus oedd ganddynt. † Ymadawent â'r llwyth i achub y llong, ac â'r llwyth â'r llong hefyd i achub eu bywyd.

39 * A phan aeth hi yn ddydd, † nid oeddynt yn adnabod y tir: ‡ ond hwy a ganfuant ryw gilfach a glàn iddi: i'r hon y cynghorasant, os gallent, wthio y llong iddi.

* O'r diwedd daeth goleu dydd gwerthfawr ar ol ei hir ddeisyfu er hanner nos, adn. 29: † ond wedi ei ddyfod, nid oeddynt hwy yn adnabod y tir, pa le yr oeddynt: mae yn debyg nad oedd darluniau *(charts)* y pryd hwnw fel yn awr, a hwythau wedi cael eu curo gan ystormydd, heb na haul na sêr yn ymddangos dros lawer o ddyddiau, nid rhyfedd eu bod heb adnabod y tir. ‡ Dywedir bod ynys Melita, wrth yr hon yr oeddynt yn awr, yn amgylchedig agos gan greigiau: ond canfu y morwyr ryw gilfach rhwng y creigiau a glàn iddi lle gallent fod yn ddiogel, os gallent wthio y llong i mewn i'r gilfach hòno.

40 * Ac wedi iddynt godi yr angorau, † hwy a ymollyngasant i'r môr, ‡ ac a ollyngasant hefyd yn rhydd rwymau y llyw, [u] || ac a

godasant yr hwyl i'r gwynt, § ac a geisiasant y làn.

u Es. 33. 23.

* Neu a dòrasant y rhaffau, gan adael yr angorau yn y môr, medd rhai; dywedir fod y geiriau Groeg, yn amheüus, ac y goddefant un o'r ddau ystyr: a chan iddynt dafu cymmaint allan i ysgafnâu y llong, (adn. 18, 19, 38,) nid rhyfedd os gadawsant yr angorau hefyd yn y môr. † O'r màn lle buasent yn angori, gan obeithio cyrhaedd y gilfach a soniwyd. ‡ Nid oedd y llyw awedi bod o nemawr ddefnydd iddynt er ys hir amser, nam hyny yr oedd yn rhwym, i'w gadw rhag niweidio y llong a'r dynion wrth gael ei ysgytio gan y tònau: yn nawr gollyngwyd ei rwymau, gan obeithio gwneyd rhyw ddefnydd o hóno i lywio y llong i'r gilfach. || Ni bu yr hwyl hon i fynu ychwaith er ys amryw ddyddiau o'r blaen, adn. 17. § Ac a geisiasant y làn â'u holl ymdrech, yw ystyr y geiriau gwreiddiol, a diammau mai felly yr oedd.

41 * Ac wedi *i ni* syrthio ar le deufor-gyfarfod, [x] † hwy a wthiasant y llong: a'r pen blaen iddi a lynodd, ac a safodd yn ddïysgog; ‡ eithr y pen ôl a ymddattododd gan nerth y tònau.

x adn. 17, 26—29. y 1 Bren. 22. 48. 2 Cron. 20. 37. Ezec. 27. 26, 34. 2 Cor. 11. 25, 26.

* Ond erbyn eu bod yn meddwl cael y gilfach a glàn ddi, rhedasant y llong yn ddïarwybod ar grimmell dywodog oedd yn rhedeg i'r môr, a môr dwfn o bob tu iddi, a'r tònau megys yn taro yn erbyn eu gilydd ar y ceefn peryglus hwnw. † Yr oedd y gwynt a'r tònau yn ibi gwthio yn mlaen, a'r morwyr yn eu hannwybodaeth o'r lle, yn ei gwthio yn mlaen; a pho mwyaf y gwthid hi yn mlaen, mwyaf i gyd yr oedd hi yn glÿnu yn y llaid a'r tywod. ‡ Gwedi i'r pen blaen ymlÿnu ac ymgladdu fel hyn, a'r pen ol yn agored i ergydion nerthol y tònau, nid rhyfedd iddi ymddattod, a myned yn ddrylliau yn fuan iawn. Dyma ran o brophwydoliaeth Paul, adn. 22, wedi dyfod i ben.

42 [z] * A chynghor y milwyr oedd, lladd y carcharorion, rhag i neb o honynt nofio allan, a diangc ymaith.

z Salm 74. 20. Diar. 12. 10. Preg. 9. 3. Marc 15. 15—20. Luc 23. 40, 41.

* Gwyddai y milwyr os dïangai neb o'r carcharorion allan eu gofal hwynt, y byddai yn galed arnynt hwy am eu gollwng i ddïanc, pan ddelent i Rufain: am hyny hwy a fynent eu lladd yn greulawn yn y fàn hòno rhag y dïangent. Yr oedd hyn yn greulondeb i'r eithaf; ac mae yn debyg na buasent byth yn meddwl am y fath beth, oni buasai fod cyfraith yn Rhufain yn caniatâu y cyfryw ymddygiad cigyddaidd, neu fod y cyfryw beth yn cael ei wneyd weithiau mewn cyffelyb amgylchiadau, er gwarth i'r Rhufeiniaid enwog.

43 * Ond y canwriad, [a] yn ewyllysio cadw Paul, † a rwystrodd iddynt *eu* hamcan; ac a archodd i bawb a'r a fedrai nofio, ymfwrw yn gyntaf *i'r môr*, a myned allan i'r tir:

a adn. 3, 11, 31. a 23. 10, 24. Diar. 16. 7.

* Gan fod Paul yn ddinesydd Rhufeinig, ni feiddiai y canwriad ei ladd ef felly, er mai carcharor ydoedd: yr oedd efe yn teimlo "caredigrwydd" tuag at Paul hefyd, (adn. 3,) a diolchgarwch hefyd erbyn hyn, oblegid trwyddo ef yr arbedwyd eu bywydau hwynt oll hyd yma. † Oni buasai Paul, cawsent ladd yr holl garcharorion i gyd o ran y canwriad, ac fel hyn bu Paul yn foddion mewn ystyr i achub eu bywydau hwy ddwywaith drosodd. ‡ Archodd i'r milwyr ymgais yn gyntaf am y tir, fel y gallent gynnorthwyo eraill, ac edrych at y carcharorion fel y deuent i'r làn.

44 * Ac i'r lleill, rhai ar ystyllod, ac eraill ar ryw *ddrylliau* o'r llong. [b] Ac felly y digwyddodd ddyfod o bawb i dir yn ddïangol.

b adn. 22, 24. Salm 107. 30. Amos 9. 9. Ioan 6. 39, 40. 2 Cor. 1. 8—10. 1 Pedr 4. 18.

* A'r lleill o bob math a'r nad oeddynt yn medru nofio, i gymmeryd ystyllod a rhyw ddrylliau o'r llong i'w dàl i fynu rhag soddi. † Fel hyn daeth pawb i dir yn ddïangol o fawr drugaredd Duw, ac er eu mawr orfoledd hwythau. Yr oedd yno lawer yn annheilwng iawn o'r waredigaeth, (y rhai a fynent ladd y carcharorion yn enwedig) ac yn ddigon anniolchgar am dani. Dyma'r rhan arall o brophwydoliaeth Paul (adn. 22, 34,) wedi dyfod i ben.

PEN. XXVIII.

Paul, wedi tòri y llong arno, yn cael ei dderbyn yn rhywiogaidd gan y barbariaid.

* AC wedi iddynt ddïangc, † yna y gwybuant mai [a] ‡ Melita y gelwid || yr ynys.

a pen. 27. 26, 44.

* Gwedi iddynt ddïanc o'r môr, pen. 27. 44. † Nid oeddynt yn adnabod y tir o'r blaen, pen. 27. 39. ‡ Malta yw enw presenol yr ynys fechan hon, yr hon sydd tua deuddeg milltir o led, ac ugain o hyd, ac yn gorwedd tua hanner can milltir i'r dehau o Sicily. Gelwid hi Melita o herwydd bod ynddi doraeth anghyffredin o fel, yr hyn yw *meli* yn y Groeg, a llygriad o Melita yw Malta mae yn debyg. Mae ynddi lawer iawn o gwtwm yn tyfu hefyd, ac er nad oes ond tair troedfedd o ddaear ar wyneb y graig noeth, mae y lle yn ffrwythlon iawn. || Dyma gyflawniad o eiriau Paul, pen. 27. 26.

2 [b] * A'r barbariaid a [c] † ddangosasant i ni fwyneidd-dra nid bychan: oblegid hwy a gynneuasant dân, ac a'n derbyniasant ni oll [d] o herwydd ‡ y gawod gynnyrchiol, ac o herwydd yr oerfel.

b adn. 4. Rhuf. 1. 14. 1 Cor. 14. 11. Col. 3. 11. c pen. 27. 3. Lef. 19. 18, 34. Diar. 24. 11, 12. Luc 10. 30—37. Rhuf. 2. 14, 15, 27. Heb. 13. 2. d Ezra 10. 9. Ioan 18. 18. 2 Cor. 11. 27.

* Nid am eu bod yn bobl wylltion a chreulawn y gelwir hwy yn farbariaid; ni chydsaif hyny â'u hymddygiad mwynaidd a charedig tuag at y llong-ddrylliaid anffodus hyn: ond barbariaid y galwai y Rhufeiniaid a'r Groegiaid bob cenedl ar y ddaear, ar ni ddysgai eu hiaith a'u harferion hwy. Tybia rhai mai gwelygordd o Phœniciaid oedd y trigolion, a thybia eraill mai Affricaniaid oeddynt; a gallwn sylwi, mai Barbaria yw enw y rhan hyny o Affrica sydd ar gyfer Malta, hyd heddyw. † Pwy bynag oeddynt, yr oeddynt yn rhagori llawer ar rai o gristionogion glànau môr Lloegr a Chymru, yn eu mwyneidd-dra tuag at long-ddrylliaid. ‡ Y gawod bresenol: mae yn debyg ei bod yn ddryc-hin fawr, o wynt, gwlaw, ac oerfel, y pryd hwnw.

3 * Ac wedi i Paul gynnull ynghyd lawer o friw-wŷdd, a'u dodi ar y tân, [e] † gwiber a ddaeth allan o'r gwres, [f] ac a lynodd wrth ei law ef.

e Job 20. 16. Es. 30. 6. a 41. 24. a 59. 5. Mat. 3. 7. a 12. 34. a 23. 33. f adn. 4. Amos 5. 19. 2 Cor. 6. 9. a 11. 23.

* Paul, apostol mawr y cenedloedd, yn hel briw-wŷdd ar y tân, ac felly yn fwy gostyngedig a gweithgar na neb o honynt, wedi yr holl ystorm a'r enbydrwydd: nid oes hanes fod yr un arall o honynt yn hel briw-wŷdd. † Crëadur mòr wenwynig, medd rhai, ag yr oedd ei hanadl, chwaithach ei brathiad, yn angeuol. *Crëadur ffyrnig*, meddant, yw ystyr y gair *thèrion*, a gyfleithir yma gwiber; a gwiber ffyrnig, wedi ei ffyrnigo gan wrês y tân, rhaid ei bod y waethaf o bob crëadur ffyrnig; ond yr oedd hon dàn lywodraeth Duw.

4 [g] A phan welodd y barbariaid y [h] * bwystfil y'nghrôg wrth ei law ef, hwy a ddywedasant wrth eu gilydd, [i] † Yn sicr [k] llawruddiog yw y dyn hwn, yr hwn, er ei ddïangc o'r môr, ‡ ni adawodd dïaledd iddo fyw.

g adn. 2. h adn. 5. Gen. 3. 1. Es. 13. 21, 22. a 43. 20. Zeph. 2. 15. i Luc 13, 2, 4. Ioan 9. 1, 2. k Gen. 4. 8—11. a 9. 5, 6. a 42. 21, 22. Num. 35. 31—34. Diar. 28. 17. Es. 26. 21. Mat. 23. 35. a 27. 25. Dat. 21. 8.

* Y wiber, y crëadur gwŷllt, ffyrnig, a gwenwynig: dywed *Doddridge* nad yw y gair bwystfil *(beast* yn y Saesoneg) mewn un modd yn air addas yma. † Mae yn debyg fod y brodorion tywyll hyn yn gweled Paul mewn cadwyn fel carcharor o'r blaen: ac wrth weled y wiber yn neidio ato ef yn hytrach na neb arall o gylch y tân, tybiasant yn eu hofer-goel annwybodus mai llofrudd oedd efe, ac mai yn ddïaledd arno am lofruddiaeth yr ymaflodd y wiber ynddo. Yr oedd ganddynt ryw syniad am y pechod o dywallt gwaed, ac am gyfiawnder rhagluniaeth yn dïal y cyfryw bechodau echryslawn; ond am nas gwyddent ddim am farn, a chyflwr i ddyfod, tybient mai yn y byd hwn yr oedd dïal yn unig; a bod pob damwain ddrwg fel yr un uchod, yn ddïaledd sicr am ryw weithred neu weithredoedd drwg. ‡ Barnent hwy ei fod mòr sicr o farw a phe buasai wedi marw, oddi wrth frathiad y fath grëadur gwenwynig.

5 * Ac efe a ysgydwodd y bwystfil i'r tân, [l] ac ni oddefodd ddim niwed.

l Num. 21. 6—9. Salm 91. 13. Marc 16. 18. Luc 10. 19. Ioan 3. 14, 15. Rhuf. 16. 20. Dat. 9. 3, 4.

* Yr un peth oedd i Dduw attal y wiber hon i niweidio Paul, ag oedd iddo attal y tân rhag niweidio y tri llanc, neu attal y llewod rhag niweidio Daniel. Dyma gyflawniad o addewid yr Arglwydd Iesu i'w apostolion, Marc 16. 8; Luc 10. 19: ac yr oedd hyn yn dangos i'r barbariaid allu Duw, a diniweidrwydd Paul.

6 * Ond yr oeddynt hwy yn disgwyl iddo ef chwyddo, neu syrthio yn ddisymmwth yn farw. † Eithr wedi iddynt hir-ddisgwyl, a gweled nad oedd dim niwed yn digwydd iddo, hwy a newidiasant eu meddwl, [m] ‡ ac a ddywedasant mai duw oedd efe.

m pen. 12. 22. a 14. 11—13. Mat. 21. 9. a 27. 22.

* Tandde llosgedig *(inflammation)* yw ystyr y gair gwreiddiol, meddant, ac yna chwyddo gan y tandde hwnw, a syrthio yn farw yn y fàn. Y cyfryw oedd effeithiau dychrynllyd brathiadau y gwiberod hyn; gwyddai y brodorion hyny yn dda, a dysgwylient eu gweled ar Paul yn ddïoed. † Er y byddai rhai yn *byw* am rai diwrnodau ar ol cael eu brathu; eto byddai y tandde a'r chwydd, y niwed, yn ymddangos yn fuan: ond yma, nid oedd dim *niwed* i'w weled, wedi hir-ddysgwyl. ‡ Dyma hwy yn myned o un eithafig i'r llall mewn ychydig amser; gynnau yn llofrudd, yn awr yn dduw: mòr anwadal a chyfnewidiol yw meddyliau dynion. Tybia rhai iddynt feddwl mai Erclwff, *(Hercules)* y duw a addolent hwy eu hunain, ydoedd, wedi dyfod atynt ar wedd ddynol. Nis gwyddent ddim am y gwir Dduw; ond mae yn ddïammau i'r tro hwn fod yn foddion i beri iddynt sylwi yn fanylach ar ymddygiad Paul, ac ar yr hyn a ddywedodd efe wrthynt am y gwir Dduw, na phe buasai heb ddygwydd.

7 * Ynghylch y man hwnnw yr oedd tir-oedd i [n] bennaeth yr ynys, † a'i enw Publius, [o] ‡ yr hwn a'n derbyniodd ni, ac a'n llettyodd dridiau yn garedig.

n pen. 13. 7. a 18. 12. a 23. 24. o adn. 2. Mat. 10. 40, 41. Luc 19. 6—9.

* Yn nghylch y màn lle tòrodd y llong, ac y daethant hwy i dir. † Tybia rhai mai rhaglaw dàn Ymherawdwr Rhufain oedd y Publius hwn, ond yn cael ei alw yn *benaeth* ac nid *rhaglaw*, fel mewn mànau eraill. Cafodd Grotius hyd i ryw hen gerfiad, meddant, ag oedd yn dangos mai *penaeth* oedd yr enwad a roddid i lywodraethwr yr ynys hon; felly mae Luc yma yn ysgrifenu yn ei le, a chyda ei gywirdeb manol, arferedig yn ei holl hanes. ‡ Rhaid ei fod yn oludog iawn, ac yn haelfrydig iawn hefyd, i dderbyn a llettya cynnifer o ddynion (276) am dridiau: nid pawb a allai wneyd hyny, ac ychydig a'i gwnelai er gallu. Ei barch i'r canwriad, efallai, neu yr hynodrwydd a welodd yn Paul, a fu yn achlysur o'r caredigrwydd mawr hyn.

8 * A digwyddodd, [p] fod tad Publius yn gorwedd yn glaf o gryd a gwaedlif: † at yr hwn wedi i Paul fyned i mewn, [q] ‡ a gweddïo, [r] efe a ddododd ei ddwylaw arno ef, [s] || ac a'i hiachâodd.

p Marc 1. 30, 31. q pen. 9. 40. 1 Bren. 17. 20—22. Iago 5. 14—16. r pen. 9. 17, 18. Mat. 9. 18. Marc 6. 5. a 16. 18. Luc 4. 40. a 13. 13. s Mat. 10. 1, 8. Luc 9. 1—3. a 10. 8, 9. 1 Cor. 12. 9, 28.

* Dau glefyd poenus a pheryglus, yn enwedig i hen ŵr, ac mewn lle, mae yn debyg, nad oedd nemawr o feddygon medrus: ond trefn rhagluniaeth Duw oedd hyn eto, i'w amlygu ei hun trwy y wyrth a wnaeth Paul. † Pan glywodd Paul am dano, aeth i ymweled âg ef, ac i'w iachâu, fel tâl am garedigrwydd Publius ei fab. ‡ Gwyddai Paul nas gallai ef ei hun ei iachâu, a gwyddai y gallai Duw, am hyny mae yn gweddïo wrth wely y claf, || a Duw yn gwrando ac yn ei iachâu ef yn y fàn. Yr oedd y tro hwn yn gynnorthwy mawr i agor drws i'r efengyl.

9 * Felly wedi gwneuthur hyn, [t] y lleill hefyd y rhai oedd â heintiau arnynt yn yr ynys, a ddaethant atto, ac a iachâwyd:

t pen. 5. 12, 15. Mat. 4. 24. Marc 6. 54—56.

* Aeth y son am hyn ar led yn fuan, trwy y cwbl o'r ynys fechan hòno; a dygwyd pawb ag oedd a heintiau aruynt at yr apostol, a hwy a iachâwyd yn wyrthiol. Mae yn ddïammau fod Paul a'i ddau gyfaill yn ddyfal yn pregethu yr efengyl hefyd i'r trigolion, ac efallai mai tri mis llwyddiannus iawn a fu y tri mis a dreuliasant yma.

10 * Y rhai hefyd a'n [u] parchasant ni â llawer o urddas; † a phan oeddym yn ymadael, hwy a'*n* [x] llwythasant *ni* â phethau anghenrheidiol.

u Mat. 15. 5, 6. 1 Thes. 2. 6. 1 Tim. 5. 3, 4, 17, 18. x 2 Bren. 8. 9. Ezra 7. 27. Mat. 10. 8—10. 2 Cor. 8. 2—6. a 9. 5—11. Phil. 4. 11, 12, 19.

* Gwedi derbyn y fath lesâd, nid rhyfedd eu bod yn parchu Paul â llawer o urddas, a phawb eraill o'i gydymdeithion er ei fwyn ef. Mae yn bur naturiol i feddwl, fod ymarweddiad ac ymadroddion Paul a'i ddau gyfaill, (gwel pen. 27. 2,) yn nghyd a damweiniau y llong-ddrylliad a'u gwaredigaeth ryfedd, wedi effeithio mòr ddwys ar feddyliau pawb oedd yn y llong, fel yr oedd eu hymddygiad mòr weddaidd ar yr ynys, ag oedd yn ennill urddas a pharch iddynt oddi wrth y trigolion. † Pan oedd Paul ac eraill o honynt yn ymadael i fyned rhagddynt i Rufain, llwythodd y Melitiaid hwy â rhoddion o bethau angenrheidiol i'r daith: nis gwyddent pa fodd i wneyd yn ddigon mawr o honynt.

11 * Ac wedi tri mis, † yr aethom ymaith mewn [y] llong o Alexandria, yr hon a auafasai yn yr ynys; [z] ‡ *a*'i harwydd hi oedd Castor a Pholux.

y pen. 6. 9. a 27. 6. z Es. 45. 20. Jona 1. 5, 16. 1 Cor. 8. 4.

* Tri mis llafurus i'r apostol a'i ddau gyfaill, a thri mis y gwnaethant lawer o ddaioni i gyrph ac eneidiau dynion. † Erbyn hyn yr oedd y gauaf drosodd, a chawsant long, o Alexandria yn yr Aipht, a auafasai yno, yn troi allan am yr Ital, yn yr hon yr aethant hwythau ar eu taith. ‡ Cyfrifid y ddau hyn yn feibion, gefeilliaid, i Jupiter a Leda, ac iddynt hwy y perthynai gofalu am forwyr, a llywodraethu ystormydd. Eu llun ydoedd, dau fab ieuanc, ar feirch gwynion ardderchog, a phicell, neu waëwffon yn llaw pob un o honynt. Paentid hwy ar ben blaen ac ol y llong, ar y naill yn arwydd ac enw y llong, ac ar y llall fel nawdd-dduwiau y llong.

12 * Ac wedi ein dyfod i Syracusa, † ni a arigasom *yno* dridiau.

* Dyma ni eto ar y daith, a thàn arweiniad a nawdd amgen Duw na'r ffug-dduwiau Castor a Phòlux. Syracusa ydoedd brif-ddinas fawr ac enwog ar làn y môr yn ymwyrein-barth ynys Sicily, tua hanner can milltir i'r deheu o Etna, y mynydd llosg nodedig sydd yn yr ynys hòno. Dywedir fod Syracusa yn ddwy filltir ar hugain o amgylch, ac mòr enwog a Charthage am gyfoeth. Gan mai llong fasnachol oedd y llong, mae yn debyg iu bod yn aros yma i ddadlwytho rhan o'r llwyth, neu i nte i gymmeryd i mewn ychwaneg o lwyth.

13 * Ac oddi yno wedi myned oddi amgylch, † ni a ddaethom i Rhegium. ‡ Ac ar ol un diwrnod [a]y deheu-wynt a chwythodd, a ac ni a ddaethom yr ail dydd i Puteoli:

a pen. 27. 13.

* Fel yr oedd y gwynt yn peri iddynt fyned oddi amgylch, pe amgen yr oedd y daith yn bur union o Syracusa i Rhegium. † Rhegium ydoedd dref borthladdol, yn agos i benrhyn deheuol eithaf Italy, tua thriugain milltir, neu dipyn ychwaneg, i'r gogledd o Syracusa. Ac mae, neu yr oedd, yn sefyll fel y dywedwyd yn Italy; yn union ar gyfer Messina yn Sicily, ac nid oes ond tua deng milltir o fôr rhyngddynt. Ystyr y gair Rhegium yw rhwygiad; a dywedir fod Sicily yn un tir âg Italy gynt, ond i'r môr dòri i mewn yn y fàn hon, a rhwygo y ddwy wlad, fel yr aeth Sicily yn ynys. ‡ Ar ôl un diwrnod o orwedd wrth angor yn ymyl Rhegium, y ddysgwyl am ddeheu-wynt i fyned trwy y cul-fôr hwnw i fynu i Puteoli. || Yr oedd Puteoli dros ddau gant o milltiroedd i'r gogledd, neu, efallai, ychydig i'r gogledd-orllewin, o Rhegium; a dyma ddiwedd môr-daith yr apostol, nid oedd y llong yn myned dim pellach na hyn, rhaid myned ar draed weithian oddi yma i Rufain, yr hyn oedd dros gan milltir o ffordd.

14 [b] * Lle y cawsom frodyr, [c] † ac y dymunwyd arnom aros gyd â hwynt saith niwrnod: ‡ ac felly ni a ddaethom i Rufain.

b pen. 9. 42, 43. a 19. 1. a 21. 4, 7, 8. Salm 119. 63. Mat. 16. 1. c pen. 20. 6. Gen. 7. 4. a 8. 10—12.

* Brodyr cristionogol mae yn debyg; ond mae rhai yn dadlau i'r gwrthwyneb, ac yn tybied mai Iuddewon oeddynt. † Mae yn debyg iddynt lànio ar y dydd llun, fel y dywedwn ni; a bod y brodyr hyn yn dymuno ar Paul a'i gyfeillion aros gyda hwy saith niwrnod, fel y caent yr hyfrydwch o gyfeillachu â'u gilydd, a threulio Sabbath gyda eu gilydd. Bu y canwriad mòr fwyn a chaniatâu hyny i Paul. ‡ Gwedi hyny cychwynasant ar eu taith tua Rhufain fawr.

15 * Ac oddi yno, [d] pan glybu y brodyr ànm danom, hwy a ddaethant i'n cyfarfod ni † hyd Appii-fforum, ‡ a'r Tair tafarn: || y rhai pan welodd Paul, [e] efe a ddiolchodd i Dduw, ac a gymmerodd gysur.

d pen. 10. 25. a 21. 5. Ex. 4. 14. Ioan 12. 13. Rhuf. 15. 24. Gal. 4. 14. Heb. 13. 3. 3 Ioan 6—8. e 1 Cor. 12. 21, 22. 2 Cor. 2. 14. a 7. 5—7. 1 Thes. 3. 7.

* Ni buasai Paul erioed yn Rhufain eto, ac ni welsai y brodyr yno erioed mo'i wyneb yn y cnawd: ond clywsent lawer o sôn am dano, a derbyniasent lythyr rhagorol oddi wrtho: gan hyny pan glywsant ei fod ar y ffordd o Puteoli i Rufain, daeth amryw o honynt i'w gyfarfod ran o'r ffordd, o wir lawenydd am ei ddyfodiad. † Daeth rhai o honynt dros hanner càn milltir, cyn belled a'r dref a elwid Appii-fforum; ‡ a rhai eraill dros ddeng milltir ar hugain, cyn belled a'r Tair tafarn. || Arfaethasai Paul yn hir, fyned i Rufain yn ŵr rhydd, ei bregethu yr efengyl yno: ond yn awr yr oedd yn myned fel carcharor, dàn rwymau, ac i sefyll ger bron Cesar: rhaid bod yr ystyriaethau hyn yn iselder meddwl iddo, a phan welodd frodyr yn dyfod o Rufain i'w gyfarfod ac i'w groesawi ef, yr oedd hyny yn lòni ei feddwl yn fawr, ac yr oedd yn diolch i Dduw am y caredigrwydd a'r cysur hwn.

16 * Eithr pan ddaethom i [f] Rufain, [g] y canwriad a roddes y carcharorion at [h] bencapten y llu: [i] † eithr cenhadwyd i Paul aros wrtho ei hun, gyd â milwr oedd yn ei gadw ef.

f pen. 2. 10. a 18. 2. a 19. 21. a 23. 11. Rhuf. 1. 7—15. a 15. 22—29. Dat. 17. 9, 18. g pen. 27. 3, 31, 43. h Gen. 37. 36. 2 Bren. 25. 8. Jer. 40. 2. i adn. 30, 31. pen. 24. 23. a 27. 3. Gen. 39. 21—23.

* Pan gyrhaeddasant Rufain, rhoddodd y canwriad ei carcharorion i fynu, i ofal pen-capten y gwarchawd-lu ymherodrawl, i'r hwn y perthynai gofalu am y cyfryw carcharorion: † ond trwy lythyr Festus, a gair da y canwriad, cenhadwyd i Paul fod ar ei ben ei hun, dàn ofal milwr oedd i edrych ar ei ol ef. Mae yn debyg fod y milwr hwn wedi ei gadwyno wrtho ef, yn ol arfer y Rhufeiniaid, gwel ar pen. 12. 6: yr oedd hyn yn galed i ddyn diniwed; ond yr oedd yn llawer gwell na bod yn y carchar cyffredin, yn nghymdeithas dyhirwyr anfad o bob math.

17 * A digwyddodd, ar ol tridiau, alw o Paul ynghyd y rhai oedd bennaf o'r Iuddewon. Ac wedi iddynt ddyfod ynghyd, efe a ddywedodd wrthynt, † *Ha* wŷr frodyr, [k] er na wnaethum i ddim yn erbyn y bobl, na defodau y tadau, [l] etto mi a roddwyd yn garcharor o Jerusalem i ddwylaw y Rhufeinwyr.

k pen. 23. 1, &c. a 24. 10—16. a 25. 8, 10. Gen. 40. 15. l pen. 21. 33. a 23. 33.

* Er nad oedd rhyddid i Paul i fyned lle y mynai yn Rhufain, eto yr oedd rhyddid iddo i ddanfon am y neb a fynai i'r màn lle yr oedd yn aros, a chymdeithasu â hwynt. Gan hyny cyn gynted ag y gallai ar ol dadebru o'i ludded, ac ymsefydlu mewn rhyw fath o letty, efe a ddanfonodd am y rhai oedd benaf, a mwyaf cyfrifol o'r Iuddewon, i ddyfod ato; fel y dangosai ei barch a'i gariad atynt fel ei gyd-genedl; fel y caffai gyfle i symmud y rhagfarn a allai fod yn ei erbyn ef yn eu meddyliau, os oeddynt wedi clywed am dano oddi wrth yr Iuddewon yn Jerusalem, trwy ddangos y gwirionedd iddynt; ac fel y caffai gyfle hefyd i bregethu Crist iddynt. Yr oedd Paul yn mhob màn yn cofio mai apostol oedd. † Mae efe yn hòni ei ddiniweidrwydd yn gadarn, ac yn cwyno i'r Iuddewon er hyny, godi yn ei erbyn ef fel pe buasai ddrwg-weithredwr, ac iddo o'u herwydd hwynt gael ei ddanfon yn garcharor o Jerusalem i Cesarea, dàn ddwylaw Felix, ac wedi hyny Festus, y Rhufeiniaid. Nid yw efe yma yn son gair am greulondeb, trais, a chynllwynion yr Iuddewon tuag ato: gwell ganddo ddywedyd llai nâ'r gwirionedd, na dywedyd yr holl wirionedd am eu hymddygiad drwg hwy tuag ato.

18 [m] * Y rhai, wedi darfod fy holi, a fynnasant *fy* ngollwng ymaith, am nad oedd dim achos angau ynof.

m pen. 22. 24, 25, 30. a 24. 10, 22. a 25. 7, 8. a 26. 31.

* Sef Lysias y pen-capten, pen. 23. 29; Felix yn ei ymddygiad, pen. 24. 22, 23; ac yn enwedig Festus, ar ol fy holi I a'm cyhuddwyr hefyd, yn nghyd a'r pendefigion oedd gydag ef, a fynasent fy ngollwng ymaith fel yn hollawl ddiniwed. pen. 25. 23; a 26. 31, 32.

19 * Eithr am fod yr Iuddewon yn dywedyd yn erbyn *hyn*, [n] † mi a yrrwyd i appèlio at Cesar; [o] ‡ nid fel pettai genyf beth i achwyn ar fy nghenedl.

n pen. 25. 10—12, 21, 25. a 26. 32. o Rhuf. 12. 19—21. 1 Pedr 2. 22, 23.

* Ond am na fynai yr Iuddewon mewn un modd i mi gael fy ngollwng yn rhydd, ar ol y prawf egluraf o'm diniweidrwydd, † ac am fod genyf achos i ofni bwriadau drwg yn fy erbyn gan rai o honynt, bu gorfod arnaf appèlio at Cesar, fel yr unig ffordd oedd genyf i gael chwarae teg am fy mater. ‡ Nid o fwriad i achwyn ar

fy nghenedl y gwnaethum felly; ond i gael prawf diduedd, a chyfiawnder i mi fy hun. Gallasai Paul roddi achwynion trymion wrth Cesar yn erbyn yr Iuddewon, a fuasai o ganlyniad pwysig iddynt hwy; ond nid eu cyhuddo hwy, eithr ei amddiffyn ei hun, oedd ei amcan ef.

20 [b] * Am yr achos hwn gan hynny y gelwais am danoch chwi, i'*ch* gweled, ac i ymddiddan â *chwi:* [q] † canys o achos gobaith Israel ‡ y'm rhwymwyd i â'r [r] gadwyn hon.

p adn. 17. pen. 10. 29, 33. q pen. 23. 6. a 24. 15. a 26. 6, 7. r pen. 26. 29. Eph. 3. 1. a 4. 1. a 6. 20. Phil. 1. 13. Col. 4. 18. 2 Tim. 1. 16. a 2. 9. Philemon 10, 13.

* Am yr achos uchod, gan hyny, yr anfonais am danoch chwi, fy mrodyr, fel y cawn eich gweled, ac adrodd i chwi yn bersonol fel mae y peth yn bod mewn gwirionedd. † Yr unig beth a ellir roddi yn fy erbyn I yw, fy mod yn credu, yn proffesu, ac yn pregethu, yr hyn a fu bob amser, ac sydd o hyd, yn wrthddrych gobaith holl genedl Israel: hyny wyf yn feddwl; bod y gwir Fessiah wedi dyfod, wedi marw, a chwedi adgyfodi ac esgyn i'r gogoniant: ac y bydd trwyddo ef, adgyfodiad i fywyd tragywyddol i bawb a gredant ynddo: ‡ am hyny yn unig y rhwymwyd fi â'r gadwyn hon, ac nid yw fawr o beth genyf ei dyoddef mewn achos mòr dda, ac er mwyn enw mòr anwyl.

21 A hwythau a ddywedasant wrtho, [s] * Ni dderbyniasom ni lythyrau o Judea yn dy gylch di, ac ni fynegodd ac ni lefarodd neb o'r brodyr a ddaeth oddi yno ddim drwg am danat ti.

s Ex. 11. 7. Es. 41. 11. a 50. 8. a 54. 17.

* Trwy i'r apostol appèlio at Cesar, gosododd ei hun megys allan o gyrhaedd yr Iuddewon; yr oedd yn rhŷ bell, ac yn ormod o drafferth myned ar ei ol i Rufain, ac hwy a wyddent na chaent hwy fel Iuddewon fawr o groesaw gan Nero, yn enwedig os na byddai eu mater yn eithaf da yn erbyn Paul. Gan hyny nid ysgrifenasant ddim yn ei gylch ef at eu brodyr yn Rhufain, ac ni fynegodd yr Iuddewon a ddaethai yn ddiweddar o Judea yno ddim drwg am dano. Am Iuddewon Rhufain, ni feiddient hwy ymgynhyrfu yn ei erbyn ef, rhag cael eu bwrw allan oddi yno, oblegid o braidd yr oedd Nero yn eu goddef hwy eisoes yn y ddinas ymherodrawl.

22 * Ond yr ydym ni yn deisyf cael clywed gennyt ti beth yr ydwyt yn ei synied: [t] † oblegid am y sect hon, [u] y mae yn hysbys i ni fod yn mhob man yn dywedyd yn ei herbyn.

t pen. 16. 20, 21. a 17. 6, 7. a 24. 5, 6, 14. Luc 2. 34. 1 Pedr 2. 12. a 3. 16. a 4. 14—16. u pen. 5. 17. a 15. 5. a 26. 5. 1 Cor. 11. 19.

* Er na chlywsom ni ddim drwg am danat *ti* yn bersonol, eto ni a glywsom lawer am yr athrawiaeth yr wyt ti yn ei phregethu, a'r blaid, neu y sect y perthyni di iddi: mae yn ddigon hysbys i ni fod agos i bawb, Iuddewon a Chenedloedd, yn mhob màn, yn y ddinas hon yn gystal ac yn Jerusalem a mànau eraill, yn dywedyd yn erbyn y sect hon. Gan hyny ni a garem gael clywed genyt ti dy hun, fel blaenor y sect, beth yr wyt ti yn ei synied ac yn ei gyhoeddi mewn gwirionedd: gwyddom ninnau rywbeth, gyda'r Iuddewon yn gyffredin, am obaith Israel; ond beth yw dy syniadau di a dy blaid am y gobaith hwnw. † Dywedir i Iuddewon Jerusalem ddanfon y dynion mwyaf addas a dewisol a fedrent gael, fel cenadau i'r holl fyd, i ddywedyd yn erbyn y cristionogion, trwy eu gosod allan fel didduwiaid, a'u cyhuddo o'r arferion mwyaf anfad a gwaradwyddus.

23 * Ac wedi iddynt nodi diwrnod iddo, llawer a ddaeth atto ef i'w letty; [x] † i'r rhai y tystiolaethodd ac yr eglurodd efe deyrnas Dduw, ‡ gan gynghori iddynt y pethau am yr Iesu, [y] allan o gyfraith Moses, a'r prophwydi, [z] || o'r bore hyd yr hwyr.

x pen. 17. 2, 3. a 18. 4, 28. a 19. 8. a 26. 22, 23. y pen. 26. 6, 22. Luc 24. 26, 27, 44. z pen. 20. 9—11. Ioan 4. 34.

* Rhyw ddiwrnod mwyaf cyflëus iddynt hwy eu hunain; yr oedd pob diwrnod yn gyflëus iddo ef yn awr yn ei gaethiwed. † Tystiolaethodd ac eglurodd, mai nid daearol, ond ysbrydol, oedd teyrnas Dduw, teyrnas y Messiah, oeddynt hwy yn ddysgwyl. Tystiolaethodd ac eglurodd, mai Iesu o Nazareth, yr hwn a bregethai efe, oedd y Messiah addawedig, ac Arglwydd y deyrnas hòno. Tystiolaethodd ac eglurodd, fod Duw ei hun, "trwy arwyddion a rhyfeddodau, ac amryw nerthoedd a doniau yr Ysbryd Glân," wedi cyd-dystiolaethu â'r apostolion i wirionedd y pethau uchod. Tystiolaethodd ac eglurodd hefyd, mai nid trwy weithredoedd y ddeddf mewn un ystyr, ond trwy ffydd yn Nghrist yn unig, yr oedd myned i mewn i'r deyrnas, a bod yn gyfranog o'i breintiau a'i bendithion. ‡ Gwedi gosod y sylfeini uchod fel pen-saer celfydd, trwy dystiolaethau cedyrn ac eglur; mae efe yn nesaf yn eu cyngori hwy i dderbyn Crist, a chredu ynddo, yn ol tystiolaeth Moses yn y gyfraith, a'r prophwydi am dano: || a pharâodd fel hyn yn tystiolaethu, yn egluro, ac yn cyngori, trwy y dydd, o'r bore hyd yr hwyr.

24 [a] * A rhai a gredasant i'r pethau a ddywedasid, a rhai ni chredasant.

a pen. 13. 48—50. a 14. 4. a 17. 4, 5. a 18. 6—8. a 19. 8, 9 Rhuf. 3. 3. a 11. 4—6.

* Tebyg i ddammeg yr hauwr y bu y tro hwn, wedi holl lafur difiin yr apostol: credodd rhai trwy nerth gras Duw, ac anghredodd eraill trwy nerth rhagfarn a llygredigaeth eu calonau eu hunain.

25 * Ac a hwy yn [b] anghyttûn â'u gilydd, † hwy a ymadawsant, ‡ wedi i Paul ddywedyd un gair, [c] *mai* da y llefarodd yr Ysbryd Glân trwy Esaias y prophwyd, || wrth ein tadau ni,

b adn. 29. c Mat. 15. 7. Marc 7. 6. 2 Pedr 1. 21.

* Aeth yr un had yn ddau had, yn y fàn y credodd rhai ac yr anghredodd eraill; ac aeth gelyniaeth rhwng y ddau had: aethant i ddadlau â'u gilydd yn nghylch gwirioneddau diddadl Duw, † ac yn y ddadl hwy a ymadawsant â Phaul ac â'u gilydd. ‡ Ond cyn ymadael, rhoddodd Paul wers ddifrifol a phwysig iawn i'r rhai digred o honynt, allan o'r prophwyd Esaias. || Yr oedd yn briodol i'w tadau yn amser y prophwyd; ac yr oedd yn briodol iawn iddynt hwythau eu plant hwy, yn awr: "da y llefarodd yr Ysbryd Glân."

26 Gan ddywedyd, [d] * Dos at y bobl yma, a dywed, [e] Yn clywed y clywch, ac ni ddeallwch; ac yn gweled y gwelwch, ac ni chanfyddwch.

d Es. 6. 9, 10. Mat. 13. 14, 15. Marc 4. 12. Luc 8. 10. Ioan 12. 38—40. Rhuf. 11. 8—10. e Deut. 29. 4. Salm 81. 12. Es. 29. 10, 14. a 42. 19, 20. a 66. 4. Jer. 5. 21. Marc 8. 17, 18. Luc 24. 25, 45. 2 Cor. 4. 4—6.

* Danfon cenadau atynt, clywed a gweled; dyna fraint a manteision: bod heb ddeall na chanfod, dyna galedwch calon gwirfoddol, yn wyneb y fraint a'r manteision hyny: a thrwm iawn fydd y canlyniad.

27 * Canys brasâwyd calon y bobl hyn, a thrwm y clywsant â'u clustiau, a'u llygaid a gauasant; rhag iddynt weled â'*u* llygaid, a chlywed â'*u* clustiau, a deall â'*r* galon, a dychwelyd, ac i mi eu hiachâu hwynt.

* Gan iddynt hwy yn malchder a chyndynrwydd eu calonau ddywedyd wrth Dduw, Cilia oddi wrthym, nid ydym yn chwennych gwybod dy ffyrdd: yr oedd yn dra chyfiawn iddo yntau eu rhoddi hwy i fynu i galedrwydd chwanegol, ac attal dylanwadau grasol ei Ysbryd oddi wrthynt: eu gwaith hwy oedd cauad eu llygaid, eu clustiau, a chaledu eu calonau, yn erbyn goleuni a gwirionedd Duw, a chyfiawn oedd iddo yntau eu gadael

nwy heb eu dychwelyd a'u hiachâu. Llefarwyd y geir-
iau uchod yn gyntaf gan Dduw trwy y prophwyd Esaias,
pen. 6. 9, 10: crybwyllir hwy chwech o weithiau yn
y Testament Newydd, sef yn y fàn hon; Matth. 13. 14,
15; Marc 4. 12; Luc 8. 10; Ioan 12. 40; a Rhuf. 11.
8; ond nid yn hollawl air yn air â'r Hebraeg, nac â'r
Cyfieithiad Groeg o'r Hen Destament, yn un màn: nid
oedd yr apostolion yn gofalu am fanylwch felly, ond yn
rhoddi y sylwedd. Peidiwn a bod yn rhŷ fanyl-graff
pan fyddo pobl weiniaid yn colli ambell i air wrth ad-
rodd ysgrythyr, os byddant yn rhoddi ei synwyr hi.

28 [f] * Bydded hysbys i chwi gan hynny,
[g] † anfon iachawdwriaeth Duw [h] at y Cenhedl-
oedd; ‡ a hwy a wrandawant.

f pen. 2. 14. a 4. 10. a 13. 38. Ezec. 36. 32. g Salm 98. 2, 3. Es. 49. 6. a 52. 10. Galar. 3. 26. Luc 2. 30—32. a 3. 6. h pen. 11. 18. a 13. 46, 47. a 14. 27. a 15. 14, 17. a 18. 6. a 22. 21. a 26. 17, 18. Mat. 21. 41—43. Rhuf. 3. 29, 30. a 4. 11. a 11. 11. a 15. 9—16.

* Cynnygiai yr apostol yr efengyl yn gyntaf i'r Iudd-
ewon yn mhob màn, a gwelodd yn mhob màn eu bod
hwy yn ei gwrthod hi, a Duw yn myned i'w rhoddi
mwynt i fynu i ddallineb a chaledwch barnol am eu
pechodau; a'i fod yn cymmeryd ei efengyl oddi wrth-
ynt hwy, ac yn ei danfon at y cenedloedd, y rhai dàn
addylanwadau yr Ysbryd Glân a'i derbynient hi: a dy-
wedai felly yn noeth wrth yr Iuddewon yn mhob màn.
† Iachawdwriaeth Duw, sef efengyl Duw, yr hon sydd
addatguddiad a moddion iachawdwriaeth. ‡ Nid am eu
bod yn well wrth natur na'r Iuddewon, ond am yr en-
waeda yr Ysbryd Glân eu clustiau i wrando, a'u calonau
dderbyn, yr efengyl.

29 Ac wedi iddo ddywedyd hyn, ymadawodd
yr Iuddewon, [i] * a chanddynt ddadl mawr yn
eu plith.

i adn. 25. Mat. 10. 34—36. Luc 12. 51—53. Ioan 7. 40—53.

* Os mawr oedd y ddadl o'r blaen, (adn. 25.) yr oedd
yn fwy o lawer wedi clywed y geiriau olaf uchod: pwnc
newydd i ddadlau yn ei gylch oedd bod Duw yn myned
i roddi eu cenedl hwy i fynu, a chymmeryd y cenedloedd
yn eu lle. Ni dderbynient hwy mo'r efengyl, ac eto ni
fynent i'r cenedloedd ei chael: a thybient nad oedd
Paul fawr gwell na chablu, ei fod yn sôn am y fath beth.
Gwel pen. 22. 21, 22. Yr un modd yr ymddygasai
Iuddewon Rhufain ato ef erbyn hyn âg Iuddewon Jeru-
salem, pe buasai yr un awdurdod ganddynt: y cwbl a
allent hwy wneyd oedd dadlau a grwgnach yn erbyn y
gwr a'i athrawiaeth, ac ymadael.

30 [k] * A Phaul a arhoes ddwy flynedd
gyfan † yn ei dŷ ardrethol ei hun, ‡ ac a
dderbyniodd bawb a'r oedd yn dyfod i mewn
atto,

k adn. 16.

* Bu yr apostol ddwy flynedd yn garcharor dàn Felix,
pen. 24. 27; a thua blwyddyn, debygir, dàn Festus, ac
yn ei fordaith drallodus i Rhufain; felly ni bu efe ddim
llai na phùm mlynedd o gwbl yn garcharor y tro hwn.
Mae yn debyg wrth Ephes. 3. 1; Col. 4. 18; Philem.
9. 10; a Philip. 1. 7, 13, 16; mai yn yspaid y ddwy
flynedd olaf yn Rhufain, yr ysgrifenodd efe yr epistolau
uchod, ac mai yn y drefn y gosodwyd hwy i lawr uchod,
o ran amser, yr ysgrifenodd efe hwynt. Mae yn debyg
hefyd mai y pryd hwn yr ysgrifenodd Luc ei efengyl, yn
nghyd â'r llyfr hwn, o hanes gweithredoedd yr apostol-
ion: nid yw yn cyrhaedd yn mhellach na diwedd y car-
chariad hwn. † Dywed haneswyr bod ar law y swyddog
y rhoddwyd Paul ato, (adn. 16,) i farnu pa un a fyddai
dyn dàn gyhuddiad i gael ei fwrw i garchar, neu ei
roddi at filwr i'w gadw, neu ei roddi dàn feichiau i ym-
ddangos pan y gelwid am dano, neu ymddiried iddo ef
ei hun, ar ei air ei hun. Mae yn debyg mai yn y dull
olaf, a mwyaf anrhydeddus, yr ymddygwyd tuag at Paul:
ac efallai i'w gyfeillion ef, y rhai oedd yn nheulu Cesar,
(Phil. 1. 13; a 4. 22:) wneyd eu gorau o'i blaid ef, iddo
gael hyn o ryddid. Nid oedd Nero wedi dechreu erlid
y cristionogion eto. ‡ Pawb yn ddiwahaniaeth a ddeu-
ai ato, Iuddewon neu Genedloedd, neu bob un o'r ddau.

31 [l] * Gan bregethu teyrnas Dduw, [m] ac
athrawiaethu † y pethau am yr Arglwydd
Iesu Grist, [n] gyd â phob hyfder, yn ddiwa-
hardd.

l adn. 23. pen. 8. 12. a 20. 25. Mat. 4. 23. Marc 1. 14. Luc 8. 1. m pen. 5. 42. a 23. 11. n pen. 4. 29, 31. Eph. 6. 19, 20. Phil. 1. 13. Col. 4. 3, 4. 2 Tim. 4. 17.

* Gwel ar adn. 23. † Person, athrawiaeth, gorchym-
ynion, gwyrthiau, marwolaeth, adgyfodiad, ac esgyniad,
yr Arglwydd Iesu Grist. ‡ Gwelodd Duw fod yn dda i
gauad pob genau, a rhoddi rhwystr ar bob rhwystrau,
am y ddwy flynedd hyn, fel yr oedd yr apostol yn cael
canlyn ar ei waith mawr a hoff, gyda phob hyfder yn
ddiwahardd. Rhwng y rhyfeddodau a wnaeth yr apos-
tolion trwy Dduw, â'r rhyfeddodau a wnaeth Duw trwy-
ddynt ac erddynt hwythau, gallasai Luc yn ddigon
priodol alw *Terata*, Rhyfeddodau yr apostolion, ac nid
Praxeis, Gweithredoedd yr apostolion, ar y llyfr hwn:
ond ymfoddlonodd efe ar yr enw gwylaidd diweddaf.

EPISTOL PAUL YR APOSTOL

AT Y

RHUFEINIAID.

PEN. I.

Paul yn dangos ei alwedigaeth i'r Rhufeiniaid.

[a] * PAUL, [b] † gwasanaethwr Iesu Grist, [c] ‡ wedi ei alw *i fod* yn apostol, [d] ‖ *ac* wedi ei neillduo i [e] § efengyl Duw,

a Act. 13. 9. a 21. 40. a 22. 7, 13. a 26. 1, 14. b adn. 9. pen. 15. 16. a 16. 18. Ioan 12. 26. a 13. 14—16. a 15. 15, 20. Act. 27. 23. 2 Cor. 4. 5. Gal. 1. 10. Phil. 1. 1. a 2. 11. a 3. 6, 7. Tit. 1. 1. Iago 1. 1. 2 Pedr 1. 1. Judas 1. Dat. 1. 1. a 22. 6, 9. c adn. 5. pen. 11. 13. Act. 9. 15. a 22. 14, 15, 21. a 26. 16—18. 1 Cor. 1. 1. a 9. 1, 16—18. a 15. 8—10. 2 Cor. 1. 1. a 11. 5. a 12. 11. Gal. 1. 1, 11—17. Eph. 1. 1. a 3. 5—7. a 4. 11. Col. 1. 1, 25. 1 Tim. 1. 1, 12. a 2. 7. 2 Tim. 1. 11. Tit. 1. 1. Heb. 5. 4. d Lef. 20. 24—26. Num. 16. 9, 10. Deut. 10. 8. 1 Cron. 23. 13. Es. 49. 1. Jer. 1. 5. Act. 13. 2—4. 1 Tim. 1. 15, 16. Heb. 7. 26. e adn. 9, 16. pen. 15. 16, 29. a 16. 25. Marc 16. 15, 16. Luc 2. 10, 11. Act. 20. 24. Eph. 1. 13. 1 Thes. 2. 2. 2 Thes. 2. 13, 14. 1 Tim. 1. 11.

* "Paul," ei enw Rhufeinig, ac apostolaidd ef. † Erlidiwr Iesu Grist unwaith, ond yn awr trwy ras Duw, gwasanaethwr Iesu Grist. ‡ Ystyr y gair apostol yw *cenad*, neu un *anfonedig;* felly yr oedd yr holl apostolion yn genadon anfonedig, gan Iesu Grist ei hunan yn ddigyfrwng, ac ni bu neb felly byth ar eu hol hwy. Wedi ei *alw* i fod yn apostol: gan fod yr athrawon Iuddewaidd yn dadlau yn erbyn hawl Paul i'r apostolaeth, yr oedd yn iawn iddo yntau amddiffyn ei hawl fel hyn yn nechreu epistol, yn yr hwn yr oedd eu holl eg wyddorion hwy i gael eu dadymchwelyd. ‖ O groth ei ei fam, Galat. 1. 15; ac mewn amser, Act. 13. 2. § Am mai o Dduw y mae, nid peth o ddyfais a dychymmyg ydyw: ac efengyl Crist yn adn. 16, am mai Crist yw ei sylwedd a'i phrif destyn hi.

2 * (Yr hon a rag-addawsai [f] efe trwy ei brophwydi yn yr [g] ysgrythyrau sanctaidd)

f Luc 24. 26, 27. Act. 10. 43. a 26. 6. g pen. 3. 2. Salm 119. 140. Dan. 10. 21. 2 Tim. 3. 15, 16. 2 Pedr 1. 20, 21. Dat. 22. 6.

* Cafwyd tywyniad o'r efengyl yn ngweinidogaeth y prophwydi, ac addawodd Duw ei llawn oleuni yn nyfodiad Crist a thàn yr oruchwyliaeth newydd. Mae Paul yn dywedyd hyn i ddangos mai nid peth newydd yw, neu a oedd, yr efengyl; ond hen wirionedd: nid peth o ddychymmyg a gwneuthuriad dynion twyllodrus, ond o addewid Duw trwy ei brophwydi sanctaidd, ac yn ysgrythyrau sanctaidd yr Hen Destament.

3 * Am [h] ei Fab ef Iesu Grist ein Harglwydd ni, [i] † yr hwn a wnaed o had Dafydd [k] o ran y cnawd,

h adn. 9. pen. 8. 2, 3, 29—32. Salm 2. 7. Mat. 3. 17. a 26. 63. a 27. 43. Luc 1. 35. Ioan 1. 34, 49. a 3. 16—18, 35, 36. a 5. 25. a 10. 30, 36. a 20. 28, 31. Act. 3. 13. a 8. 37. a 9. 20. 1 Cor. 1. 9. Gal. 4. 4. Col. 1. 13—15. 1 Thes. 1. 10. 1 Ioan 1. 3. a 3. 8, 23. a 4. 9, 10, 15. a 5. 1, 5, 10—13, 20. Dat. 2. 18. i 2 Sam. 7. 12—16. Salm 89. 36, 37. Es. 9. 6, 7. Jer. 23. 5, 6. a 33. 15—17, 26. Amos 9. 11. Mat. 1. 1, 20—23. a 9. 27. a 12. 23. a 15. 22. a 22. 42—45. Luc 1. 31—33, 69. a 2. 4—6. Ioan 7. 42. Act. 2. 30. a 13. 22, 23. 2 Tim. 2. 8. k pen. 8. 3. a 9. 5. Gen. 3. 15. Ioan 1. 14. Gal. 4. 4. 1 Tim. 3. 16. 1 Ioan 4. 2, 3. 2 Ioan 7.

* "Yr ysgrythyrau sanctaidd" am ei Fab ef, neu ynte yr efengyl am ei Fab ef. Pa un bynag o'r ddau, ei Fab ef Iesu Grist ein Harglwydd ni, yw sylwedd ysgrythyrau sanctaidd yr Hen Destament, a sylwedd efengyl y Testament Newydd. † Yma mae Mab Duw a had Dafydd yn cael eu crybwyll fel dau beth gwahanol, ac eto y ddau yn un: Mab Duw yn cael ei wneyd o had Dafydd. Gwel ar Ioan 1. 14. Yr hwn oedd yn Fab Duw erioed, a wnaed o had Dafydd mewn amser: nid am ei fod o had Dafydd yr oedd yn Fab Duw; ond Mab Duw a wnaed o had Dafydd. Felly y dywed Paul yma yn ddigon amlwg; a pha fodd y mae rhai dynion yn gallu gwadu tragywyddol Faboliaeth Iesu yn wyneb geiriau mòr eglur?

4 * Ac a eglurwyd yn [l] Fab Duw mewn gallu, [m] † yn ol yspryd sancteiddiad, trwy yr adgyfodiad oddi wrth y meirw:

l adn. 3. Ioan 2. 18—21. Act. 2. 24, 32. a 3. 15. a 4. 10—12. a 5. 30, 32. a 13. 33—35. a 17. 31. 2 Cor. 13. 4. Eph. 1. 19—23. Heb. 5. 5, 6. m Luc 18. 31—33. a 24. 26, 27. Heb. 9. 14. 1 Pedr 1. 11. 2 Pedr 1. 21. Dat. 19. 10.

* Nid ei *wneyd* yn Fab Duw, fel y dywedwyd o'r blaen, ddarfod ei wneyd o had Dafydd o ran y cnawd; ond ei *egluro* yn Fab Duw; neu egluro mai Mab Duw oedd yr hwn a wnaed o had Dafydd, ac a ymddangosodd yn y cnawd. *Nodwyd ef allan yn benderfynol* yn Fab Duw, meddant, yw ystyr fanol y Gair Groeg *oristhentos.* Eglurwyd lawer gwaith o'r blaen ei fod ef yn Fab Duw; trwy dystiolaeth y Tad, a thrwy ei wyrthiau ef ei hun; ond yn ei adgyfodiad ef oddi wrth y meirw, cafwyd y prawf diweddaf, ac amlycaf a geir tàn ddydd y farn mwyach, ei fod ef yn Fab Duw. Treiglodd hyn waradwydd y groes ymaith yn hollawl ac am byth, a dangosodd ef yn gyntaf anedig oddi wrth y meirw, ac yn mhlith brodyr lawer. † Duwdod, neu berson dwyfol y Mab, medd rhai, sydd i'w ddeall wrth ysbryd sancteiddiad yn y fàn hon: ond nid yw Duwdod y Mab yn cael ei alw felly yn un màn arall, oddigerth yn wir yn 1 Tim. 3, 16; 1 Pedr. 3. 18; a Heb. 9. 14. Tybia eraill mai yr Ysbryd Glân, y trydydd Person, a feddylir; yr hwn a gymhwysodd gorph iddo ef yn y groth, ac a gyfododd ei gorph o'r bedd wedi hyny. Ond fel hyn rhaid fod ei Dduwdod ef ei hun yn cydweithredu yn ei adgyfodiad o'r bedd; pe amgen ni buasai ei adgyfodiad yn ei egluro *ef* yn Fab Duw mewn gallu, mwy nac y bydd adgyfodiad y saint trwy allu Duw, yn eu hegluro hwy yn feibion i Dduw. Un o'r "dyfnion bethau" yw y geiriau hyn, rhaid eu gadael hyd oni chyrhaeddom stâd perffeithiach.

5 * Trwy yr hwn [n] † y derbyniasom ras [o] ‡ ac apostoliaeth [p] ‖ i ufudd-dod ffydd ym [q] mhlith yr holl genhedloedd, [r] § er mwyn ei enw ef:

n pen. 12. 3. a 15. 15, 16. Ioan 1. 16. 1 Cor. 15. 10. 2 Cor. 3. 5, 6. Gal. 1. 15, 16. Eph. 3. 2—9. 1 Tim. 1. 11, 12. o Act. 1. 25. 1 Cor. 9. 2. Gal. 2. 8, 9. p pen. 15. 18, 19. a 16. 26. Act. 6. 7. 2 Cor. 10. 4—6. Heb. 5. 9. q pen. 3. 29, 30. a 11. 12, 13. a 15. 9—13, 16. Gen. 17. 18. Salm 22. 27. a 67. 2. a 72. 17. Mat. 28. 19. Marc 16. 15, 16. Luc 24. 46, 47. Act. 9. 15. a 22. 21. a 26. 17, 18. r Mal. 1. 11, 14. Act. 15. 14. Eph. 1. 6, 12. 1 Pedr 2. 9, 10.

* Trwy yr hwn, wedi cyfodi fel hyn, ac esgyn goruwch yr holl nefoedd fel y cyflawnai bob peth; † y derbyniasom ni yr apostolion ras er ein iachawdwriaeth personol ein hunain, ‡ ac apostoliaeth er iachawdwriaeth i eraill. ‖ Effaith y gras a'r apostoliaeth hyn yw, darostwng yr holl genedloedd i gredu, derbyn, ac ufuddhâu, i athrawiaeth y ffydd: felly yr effeithiodd

gras Duw ar Paul ei hun cyn iddo dderbyn yr apostol-
aeth; ac felly yr effeithia ar bawb a'i caffo yn mhob
nàn, ac oes, eu dwyn dàn y ddeddf i Grist. § Er
nwyn ei enw ef y cafodd yr apostolion ras ac apostol-
aeth: er mwyn ei enw ef y llafuriasant yn yr apostol-
aeth: er mwyn ei enw ef y bendithiodd Duw eu llafur
n mhlith Iuddewon a chenedloedd: ac er mwyn ei
nw ef yr ufuddâodd y cenedloedd i'r athrawiaeth am
i enw ef. Y rhai a adwaenant ei enw a ymddiriedant
nddo, ac a ufuddânt iddo.

6 * Ym mysg y rhai [s] † yr ydych chwithau
‡ yn alwedigion Iesu Grist.

s Eph. 1. 11. Col. 1. 6, 21. t pen. 8. 28—30. a 9. 24. 1 Cor.
9. Gal. 1. 6. 1 Thes. 2. 12. 2 Thes. 2. 14. 2 Tim. 1. 9. Heb. 3.
1. 1 Pedr 2. 9, 21. a 5. 10. 2 Pedr 1. 10. Dat. 17. 14.

* Ym mysg yr holl genedloedd a gawsant y fraint o
ufuddâu i'r ffydd, † yr ydych chwithau, cristionogion
Rhufain, yn alwedigion Iesu Grist. ‡ Pan mae gwein-
dogion Crist yn galw dynion, dylent ystyried fod Iesu
Grist ei hun yn eu galw: ac y mae holl wir alwedigion
Grist wedi eu galw yn effeithiol, ganddo ef ei hun
wwy ei genadon. Gwedi eu galw trwy ras, i ras,
ydd, gwybodaeth, a chymdeithas yr efengyl. Hyd
yma y rhagymadrodd.

7 [u] * At bawb sydd yn Rhufain, [x] † yn
anwyl gan Dduw, [y] ‡ wedi eu galw *i fod* yn
saint: [z] || Gras i chwi, a [a] thangnefedd oddi
wrth [b] Dduw ein Tad ni, [c] a'r Arglwydd Iesu
Grist.

u Act. 15. 23. 1 Cor. 1. 2. 2 Cor. 1. 1. Phil. 1. 1. Col. 1. 2.
ago 1. 1. 1 Pedr 1. 1, 2. Judas 1. Dat. 2. 1, 8, 12, 18, 29. a 3. 1, 7,
4, 22. x pen. 9. 25. Deut. 33. 12. Salm 60. 5. Can. 5. 1. Col.
. 12. 1 Tim. 6. 2. y adn. 6. Col. 3. 15. 1 Thes. 4. 7. 1 Pedr 1.
5. 2 Pedr 1. 3. z 1 Cor. 1. 3. 2 Cor. 1. 2. Gal. 1. 3. Eph. 1. 2. Phil.
. 2. Col. 1. 2. 1 Thes. 1. 1. 2 Thes. 1. 2. 1 Tim. 1. 2. 2 Tim. 1. 2. Tit.
. 4. Philemon 3. 1 Pedr 1. 2. 2 Pedr 1. 2. 2 Ioan 3. Judas 2. Dat.
. 4, 5. a pen. 5. 1. a 14. 17. a 15. 13, 33. Salm 122. 6. Es. 55.
2. a 57. 19, 21. Zec. 6. 13. Luc 2. 14. a 10. 5, 6. a 19. 38, 42. Ioan
4. 27. a 16. 33. Act. 10. 36. Eph. 2. 14. 1 Thes. 5. 23. 2 Thes. 3.
6. Heb. 13. 20. b Mat. 5. 16. a 6. 8, 9. Ioan 20. 17. Gal. 1. 4.
Phil. 4. 20. 1 Thes. 1. 3. 2 Thes. 1. 1. 1 Ioan 3. 1. c Act. 7.
9, 60. 1 Cor. 16. 23. 2 Cor. 12. 8—10. a 13. 14. Gal. 6. 18. Eph.
. 23, 24. Phil. 4. 13, 23. 1 Thes. 3. 11—13. a 5. 28. 2 Thes. 2. 16
7. a 3. 16, 18. 2 Tim. 4. 22. Philemon 25. Dat. 22. 21.

* Nid at bawb oedd yn Rhufain fel trigolion, ond
bawb ag oedd yno yn anwyl gan Dduw, ac wedi eu
galw i fod yn saint: at bawb o'r cyfryw, cenedloedd ac
uddewon, heb ddim gwahaniaeth. † O herwydd eu
anwyldeb gan Dduw y cawsant eu galw yn saint, neu
fod yn saint, ac effaith y cariad tragywyddol hwnw
edd eu tynu â thrugaredd, eu galw i fod yn saint.
Yr oedd eu galw i fod yn saint hefyd yn brawf eu bod
yn anwyl gan Dduw. ‡ Yr Iuddewon yn unig a gyfrifid
gynt yn bobl sanctaidd, neilldüedig a phriodol i'r Ar-
glwydd; ond mae yma genedloedd yn gystal âg Iu-
ddewon yn anwyl gan Dduw, ac wedi eu galw i fod yn
saint: pethau aflan llen-llïan Pedr wedi eu glanâu gan
Dduw. || Cyfarchiad apostolaidd cyffredin yw hwn, nid
oes achos manylu arno: mae yn cynnwys pob daioni
ysbrydol i ddynion, ac yn cynnwys addoliad i Dduw, ac
i'r Arglwydd Iesu yn ogyfuwch â Duw.

8 * Yn gyntaf, [d] yr wyf yn dïolch i'm Duw
trwy Iesu Grist drosoch chwi oll, oblegid
pod eich [f] † ffydd chwi [g] ‡ yn gyhoeddus yn
yr holl fyd.

d pen. 6. 17. 1 Cor. 1. 4. Eph. 1. 16. Phil. 1. 3—5. Col. 1. 3,
4. 1 Thes. 1. 2, 3. a 3. 9. 2 Thes. 1. 3. 2 Tim. 1. 3—5. Philemon
4, 5. 2 Ioan 4. 3 Ioan 3, 4. e Eph. 3. 21. a 5. 20. Phil. 1. 11.
Heb. 13. 15. 1 Pedr 2. 5. a 4. 11. f pen. 16. 19. 1 Thes. 1. 8, 9.
g Mat. 24. 14. Luc 2. 1. Act. 11. 28.

* Er mai trwy ryw offerynau eraill y dechreuodd
Duw ei achos yn Rhufain; eto yr oedd yr apostol yn
gwir lawenâu o herwydd llwyddiant rhagorol yr efeng-
yl yno, ac yn mlaenaf peth yn dïolch i Dduw yn ei
epistol, am y newyddion da oedd yn glywed yn mhob
màn am ffydd y Rhufeiniaid. † Eu ffydd yn nghyd â
pob gras arall, a'u heffeithiau sanctaidd a daionus
mewn lle mòr brofedigaethus â Rhufain. ‡ Yr oedd
agos yr holl fyd adnabyddus a gwareiddiol y pryd hwnw
dàn lywodraeth y Rhufeiniaid, a Rhufain yn lle o gym-
maint cyrchiad, fel yr oedd llawer o bob parth yn myn-
ed yno, ac yn dwyn newyddion da am grefydd y crist-
ionogion gyda hwy oddi yno. Tybir mai yn Corinth
yr oedd Paul ei hun pan ysgrifenodd efe yr epistol hwn
at y Rhufeiniaid. Cymharer Act. 20. 1—4; â Rhuf. 15.
25—27; a 16. 21.

9 [h] * Canys tyst i mi yw Duw, [i] † yr hwn
yr ydwyf yn ei wasanaethu yn fy yspryd
[k] ‡ yn efengyl ei Fab ef, [l] fy mod i yn ddïbaid
[m] yn gwneuthur coffa o honoch bob amser yn
fy ngweddïau,

h pen. 9. 1. Job 16. 19. 2 Cor. 1. 23. a 11. 10, 11, 31. Gal. 1.
20. Phil. 1. 8. 1 Thes. 2. 5—10. 1 Tim. 2. 7. i Act. 27. 23. Phil.
2. 22. Col. 1. 28, 29. 2 Tim. 1. 3. k Marc 1. 1. Act. 3. 26.
1 Ioan 5. 9—12. l 1 Sam. 12. 23. Luc 18. 1. Act. 12. 5. Eph. 6.
18. 1 Thes. 5. 17. 2 Tim. 1. 3. m Eph. 1. 16—19. a 3. 14, &c.
Phil. 1. 4, 9—11. Col. 1. 9—13. 1 Thes. 1. 2. Philemon 4.

* Er nas meddyliodd y Rhufeiniaid erioed, efallai,
fod dyn mòr ddïeithr â Paul yn meddwl nac yn gofalu
dim am danynt hwy; eto e wyddai Duw hollwybodol yn
amgen: gallai Paul ei alw ef yn dyst, ei fod yn eu caru yn
fawr, yn gweddïo yn ddïbaid drostynt, yn gorfoleddu yn
eu llwyddiant, ac yn dïolch i Dduw am y newyddion da
a glywai o bryd i bryd am danynt. † Nid mewn llafur
a diwydrwydd allanol yn unig yr oedd Paul yn gwasan-
aethu Duw, ond yn ei ysbryd: yr oedd ei holl enaid ef
yn y gwaith mawr. ‡ Tybiodd unwaith mai y ffordd i
wasanaethu Duw oedd erlid efengyl ei Fab ef; ond yn
awr trwy bregethu efengyl ei Fab ef, yr oedd yn ei
wasanaethu.

10 [n] * Gan ddeisyf a gawn † ryw fodd, ryw
amser bellach, [o] rwydd-hynt [p] ‡ gyd âg ewyllys
Duw, i ddyfod attoch chwi.

n pen. 15. 22—24, 30—32. Phil. 4. 6. 1 Thes. 2. 18. a 3. 10,
11. Philemon 22. Heb. 13. 19. o Act. 19. 21. a 27. a 28.
p Act. 18. 21. a 21. 14. 1 Cor. 4. 19. Iago 4. 15.

* Dyma un peth oedd yn ngweddïau gwastadol Paul
dros y Rhufeiniaid; cael llwybr trwy anfoniad ac ew-
yllys Duw i fyned atynt hwy yn bersonol i bregethu yr
efengyl iddynt. Efallai mai hyn oedd un achos iddo
appèlio at Cesar. Act. 25. 10—12. † Yn Act. 19. 21,
ni a gawn yr apostol yn dywedyd, 'Gwedi i mi fod yn
Jerusalem, rhaid i mi weled Rhufain hefyd,' yr hyn a
ddengys fod y peth ar ei feddwl ef am rai blynyddoedd
cyn i'r Arglwydd yn ei ragluniaeth drefnu "modd, amser,
a rhwydd-hynt" iddo fyned yno. ‡ Peryglus iawn yw
myned yn mlaen heb ewyllys Duw, hyd yn nôd gyda
gwaith Duw.

11 [q] * Canys yr wyf yn hiraethu am eich
gweled, [r] † fel y gallwyf gyfrannu i chwi ryw
ddawn ysprydol, [s] ‡ fel y'ch cadarnhâer:

q Gen. 31. 30. 2 Sam. 13. 39. a 23. 15. 2 Cor. 9. 14. Phil. 1.
8. a 2. 26. a 4. 1. r pen. 15. 29. Act. 8. 15—19. a 19. 6. 1 Cor.
12. 1—11. 2 Cor. 11. 4. Gal. 3. 2—5. Eph. 4. 8—12. s pen. 16.
25. 2 Cron. 20. 20. Act. 16. 5. 2 Cor. 1. 21. 1 Thes. 3. 2, 13.
2 Thes. 2. 17. a 3. 3. Heb. 13. 9. 1 Pedr 5. 10, 12. 2 Pedr 1. 12. a
3. 17, 18.

* Y rhai oedd yn "anwyl gan Dduw" yn Rhufain, yr
oeddynt yn anwyl gan yr apostol hefyd, er nas gwelsai
hwynt erioed yn y cnawd; ac yr oedd yn hiraethu fel
brawd ac apostol am eu gweled, nid er ei les ei hun,
ond er eu lles ysbrydol hwy. † Rhyw ddawn ysbrydol
cyffredin, trwy bregethiad yr efengyl ac addysg cristion-
ogol, medd rhai; ond mwyaf tebyg mai rhyw ddoniau
gwyrthiol oedd yr apostol yn feddwl, y rhai a roddid i
bersonau neilldduol yn yr eglwysi, trwy arddodiad ei
ddwylaw ef: y doniau hyny a elwir yn "ddoniau ysbryd-
ol" yn gyffredin gan yr apostol. Efallai bod graddau
o'r doniau hyn ar rai o'r cristionogion yn Rhufain eis-
oes; ond mae yn ddïammau iddynt gael ychwaneg wedi
i Paul fyned atynt: ac mewn lle mòr anfanteisiol i gref
ydd â Rhufain, yr oedd eu mawr angen. ‡ Nid dwyn
rhyw athrawiaeth newydd iddynt oedd amcan yr apos-
tol, ond eu cadarnâu yn yr hen athrawiaeth oedd gan-

ddynt: mae gras cadarnâol yn beth mae pob cristion mewn angen o hóno.

12 [t] * *A* hynny sydd i'm cyd-ymgysuro ynoch chwi, [u] trwy ffydd ein gilydd, yr eiddoch chwi a'r eiddof finnau.

t pen. 15. 24, 32. Act. 11. 23. 2 Cor. 2. 1—3. a 7. 4—7, 13. 1 Thes. 2. 17—20. a 3. 7—10. 2 Tim. 1. 4. 2 Ioan 4. 3 Ioan 3, 4. u Eph. 4. 5. Tit. 1. 4. 2 Pedr 1. 1. Judas 3.

* Fel pe dywedasai, Fy amcan I yn y cwbl yw, cael cyd-lawenâu â chwi yn ngrasau ein gilydd; myfi yn yr eiddoch chwi, a chwithau yn yr eiddof finnau, fel brodyr a chyd-gyfranogion o ras y bywyd. Yn yr adnod o'r blaen mae efe yn llefaru fel apostol, ac yn ol ei awdurdod apostolaidd, am gyfranu iddynt ddoniau ysbrydol, a'u cadarnâu yn yr athrawiaeth a dderbyniasent, trwy farnu am ei chywirdeb pan ddelai i'w plith; ond rhag iddynt feddwl ei fod ef yn hòni gormod o awdurdod iddo ei hun, mae efe yma yn ymddiddan fel brawd cyd-radd â hwynt, yn fwy nac fel apostol enwog.

13 [x] * Eithr ni fynnwn i chwi fod heb wybod, frodyr, [y] i mi yn fynych arfaethu dyfod attoch ([z] † ond fo'm lluddiwyd i hyd yn hyn) [a] ‡ fel y cawn ryw ffrwyth ynoch chwi hefyd, [b] ‖ megis ag yn y Cenhedloedd eraill.

x pen. 11. 25. 1 Cor. 10. 1. a 12. 1. 2 Cor. 1. 8. 1 Thes. 4. 13. y pen. 15. 23—28. Act. 19. 21. 2 Cor. 1. 15, 16. z pen. 15. 22. Act. 16. 6, 7. 1 Thes. 2. 18. 2 Thes. 2. 7. a Es. 27. 6. Ioan 4. 36. a 12. 24. a 15. 16. Col. 1. 6. b pen. 15. 18—20. Act. 14. 27. a 15. 12. a 21. 19. 1 Cor. 9. 2. 2 Cor. 2. 14. a 10. 13—16. 1 Thes. 1. 9, 10. a 2. 13, 14. 2 Tim. 4. 17.

* Mae efe yma yn rhag-flaenu dadl: gallasent ddywedyd, Os oes y fath hiraeth mawr ar Paul am ein gweled ni, a'r fath ofal am danom, paham na ddeuai efe atom? nid yw hyn ddim ond geiriau o wag-gyfarch yn unig, neu ryw deimlad sydyn o serchawgrwydd tuag atom wrth ysgrifenu. Yn ateb i hyna, mae efe yn sicrâu yn ddifrifol iddynt, iddo ef yn fynych arfaethu dyfod atynt, ond ei fod yn cael ei luddias yn hollol o bryd i bryd. † Gwelwn yr achos o'r lluddiant hwn yn pen. 15. 19—22: tybiai yr apostol yn fwy angenrheidiol iddo ef bregethu yr efengyl yn y mànau lle nad oedd wedi cael ei phregethu erioed, na dyfod atynt hwy lle yr oedd wedi cael, ac yn cael ei phregethu gan eraill. ‡ Rhyw ffrwyth i Dduw, trwy ei weinidogaeth ef yn eu plith, yn nychweliad llawer o bechaduriaid, ac adeiladaeth a chynnydd y saint. ‖ Yr oedd efe wedi cael ffrwyth felly yn helaeth iawn o'i lafur yn mysg y cenedloedd eraill agos yn mhob màn y buasai yn pregethu. Gwel yr ysgrythyrau cyfeiriol dan *b*.

14 [c] * Dyledwr ydwyf i'r [d] † Groegiaid ac ‡ i'r barbariaid hefyd, [e] ‖ i'r doethion [f] ac i'r annoethion hefyd.

c pen. 8. 12. a 13. 8. Act. 9. 15. a 13. 2—4. a 22. 21. a 26. 17, 18. 1 Cor. 9. 16—23. 2 Tim. 2. 10. d Act. 28. 4. 1 Cor. 14. 11. Col. 3. 11. e adn. 22. pen. 11. 25. a 12. 16. a 16. 19. Mat. 11. 25. Luc 10. 21. 1 Cor. 1. 19—22. a 2. 13. a 3. 18, 19. 2 Cor. 10. 12. a 11. 19. Eph. 5. 15—17. Iago 3. 17, 18. f Diar. 1. 22. a 8. 5. Es. 35. 8. 1 Cor. 14. 16, 23, 24. Tit. 3. 3.

* Gan i'r apostol gael y fath drugaredd ei hunan, ac mewn modd mòr rhyfeddol; a chan ei fod wedi cael ei neilluduo a'i alw i fod yn apostol i'r cenedloedd; yr oedd yn ei ystyried ei hun yn ddyledwr, neu dàn y rhwymau mwyaf, i ymdrech hyd eithaf ei allu, i bregethu yr efengyl i'r cenedloedd o bob math, ac o bob gwlad ac iaith. † "I'r Groegiaid," dynion gwareiddiol, boneddigaidd, a dysgedig. ‡ "I'r barbariaid," cenedloedd nad oeddynt wedi eu gwareiddio a'u dysgu fel y Groegiaid. ‖ Neu ddysgedig ac annysgedig. Wrth y rhai hyn yr oedd yr apostol yn meddwl personau neilluoi yn mhlith y Groegiaid a'r barbariaid, efallai; yr oedd arno ef ddyled i bawb, ac mae yr efengyl yn addas i bawb, y doeth a'r annoeth, y dysgedig a'r annysgedig.

15 * Felly, [g] hyd y mae ynof fi, [h] † parod ydwyf i bregethu yr efengyl i chwithau hefyd y rhai ydych yn Rhufain.

g pen. 12. 18. 1 Bren. 8. 18. Marc 14. 8. 2 Cor. 8. 12. h Es. 6. 8. Mat. 9. 38. Ioan 4. 34. Act. 21. 13. 1 Cor. 9. 17. 2 Cor. 10. 15, 16.

* Mi a'i pregethais i'r Groegiaid ac i'r barbariaid; ac hyd y mae ynof fi, pan y gwelo Duw fod yn dda, † yr wyf yn barod, ac yn wir ewyllysgar, i bregethu yr un efengyl i chwithau hefyd y rhai ydych yn Rhufain: er y cyfarfyddaf, efallai, â mwy o ddirmyg a gwrthwynebiad yn eich dinas faleh a mawreddig chwi, nac yn unman arall; ac er na bydd fy ymadrodd ond diflas i archwaeth gymhenllyd ei thrigolion dillyn ddoeth.

16 [i] * Canys nid oes arnaf gywilydd [k] o efengyl Crist: [l] † oblegid gallu Duw yw hi ‡ er iachawdwriaeth, [m] ‖ i bob un a'r sydd yn credu; [n] § i'r Iuddew yn gyntaf, ac hefyd i'r Groegwr.

i Salm 40. 9, 10. a 71. 15, 16. a 119. 46. Marc 8. 38. Luc 9. 26. 1 Cor. 2. 2. 2 Tim. 1. 8, 12, 16. 1 Pedr 4. 16. k pen. 15. 19, 29. Luc 2. 10, 11. 1 Cor. 9. 12, 18. 2 Cor. 2. 12. a 4. 4. a 9. 13. Gal. 1. 7. 1 Tim. 1. 11. l pen. 10. 17. Salm 110. 2. Es. 53. 1. 1 Cor. 1. 18—24. a 2. 4. a 14. 24, 25. 2 Cor. 2. 14—16. a 10. 4, 5. Col. 1. 5, 6. 1 Thes. 1. 5, 6. a 2. 13. Heb. 4. 12. m pen. 3. 22, 26. a 9. 33. a 10. 4, 11. Marc 16. 16. Ioan 3. 15, 16, 36. a 6. 35, 40, 47. a 7. 38, 39. a 11. 25, 26. Gal. 3. 22. 1 Pedr 2. 6. 1 Ioan 5. 10—13. n pen. 2. 9, 10. a 3. 29, 30. a 4. 9—12. a 9. 24. a 10. 12. a 15. 8, 9. Luc 2. 30—32. a 24. 47. Act. 11. 18. a 13. 46, 47. a 18. 5, 6. a 20. 21. a 26. 20. a 28. 17—28. Gal. 2. 15, 16. a 3. 28. Eph. 2. 11—17. Col. 3. 11.

* Er y cyfrifid Rhufain yn ben dinas y byd y pryd hwnw; er y cyfrifid ei thrigolion yn ddoethion a dysgedig iawn lawer o honynt; er na chyfrifid yr efengyl ond ynfydrwydd gan y bydol-ddoethion yn mhob gwlad; ac er nad oedd ond golwg wael a thlodaidd ar berson yr apostol; eto, nid oedd arno gywilydd arddelwi a phregethu efengyl Crist, hyd yn nôd yn Rhufain fawr ei hun. † Am fod gallu Duw gyda'r efengyl, ac yn cael ei ddangos yn weithredol trwy yr efengyl ar galonau dynion, am hyny dywed yr apostol mai gallu Duw yw hi: yn gyffelyb fel y dywed yn 1 Cor. 1. 24. ‡ Er iachawdwriaeth, neu achubiaeth, oddi wrth felltith a chondemniad y ddeddf, oddi wrth arglwyddiaeth pechod, o feddiant satan, oddi wrth gariad at y byd ac ofn dynion, ac oddi wrth bob pechod a thrueni. Felly, gwedi i'r Rabbiniaid Iuddewig, a'r Philosophyddion Groegaidd ymgais yn ofer i ddiwygio bucheddau dynion; effeithiodd efengyl ddirmygedig Crist hyny yn mhob màn lle y pregethwyd ac y derbyniwyd hi. ‖ Nid yw yr efengyl yn cael neb yn credu o'r blaen, ond y mae hi trwy allu Duw gyda hi, yn eu dwyn i gredu, a'r credu hwnw yn gredu i iachawdwriaeth. § I'r Iuddewon y pregethwyd hi yn gyntaf, ac wedi hyny i'r Groegiaid. Yr oedd pob un o'r ddau yn eglwys Rhufain; am hyny mae yr apostol yn enwi pob un o honynt.

17 * Canys ynddi hi y datguddir [o] † cyfiawnder Duw [p] ‡ o ffydd i ffydd; ‖ megis y mae yn ysgrifenedig, [q] Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd.

o pen. 3. 21. a 10. 3, 4. Es. 45. 24, 25. a 46. 13. a 51. 8. a 54. 17. a 61. 10. Jer. 23. 6. Dan. 9. 24. 1 Cor. 1. 30. 2 Cor. 5. 21. Gal. 5. 5. Phil. 3. 8, 9. 2 Pedr 1. 1. p pen. 3. 3. Salm 84. 7. Ioan 1. 16. 2 Cor. 3. 18. 2 Thes. 1. 3. Tit. 1. 1, 2. q Hab. 2. 4. Gal. 3. 11. Heb. 10. 38. a 11. 6, 7.

* Mae yr efengyl sanctaidd yn datguddio amryw bethau a ellir eu galw yn gyfiawnder Duw:—1. Perffaith enw a llywodraeth Duw. 2. Cyfiawnder perffaith deddf Duw. 3. Holl athrawiaeth iachawdwriaeth a bywyd tragywyddol. 4. Ond yr hyn a feddylir yn benaf yma yw, y cyfiawnder â pha un, neu trwy gyfrifiad o ba un, y mae Duw yn cyfiawnâu pechaduriaid, sef cyfiawnder Crist yn gyfrifedig iddynt. † Gelwir ef yn gyfiawnder Duw mewn cyferbyniad i'n cyfiawnder deddfol ni; ac am mai Duw a'i trefnodd, a'i cymmeradwyodd, ac sydd yn ei gyfrif: am mai Mab Duw a'i gweithiodd allan yn ei ufudd-dod a'i angau ar y groes: ac am mai Duw Ysbryd Glân sydd yn ei ddatguddio i bechadur tlawd, ac yn ei wneyd yn foddlawn i ymwrthod â'i fratiau budron o hunan-gyfiawnderau i'w dderbyn trwy ffydd. Yr efengyl fendigedig sydd yn datguddio y ffordd ryfeddol hon o gyfiawnâu pechadur, ac nid dim arall. ‡ 1. O ffydd

Hen Destament i ffydd y Testament Newydd: felly ei chyfiawnâwyd neb erioed, ac ni chyfiawnêir neb byth, newn un ffordd arall. 2. O ffydd wàn i ffydd grefach: id dwy ffydd, ond yr un ffydd yn cynnyddu at berffeithrydd. 3. Nid o weithredoedd i ffydd, nac o ffydd i eithredoedd; ond o ffydd i ffydd: hyny yw, trwy ffydd n unig. 4. O athrawiaeth ffydd yn yr efengyl, i'r gras ffydd yn yr enaid. Cymmered y darllenydd yr un a ono, neu bob un, o'r golygiadau uchod. || Gan mai o ffydd, ac i ffydd, mae cyfiawnder yn cael ei ddatguddio; trwy ffydd yn unig mae y cyfiawn yn byw, ac efe a fydd byw trwy ffydd, er gwaethaf ei holl elynion.

18 [r] * Canys digofaint Duw a ddatguddiwyd o'r nef yn erbyn pob [s] † annuwioldeb ac ‡ anghyfiawnder dynion, [n] || y rhai sydd yn attal y gwirionedd mewn anghyfiawnder.

r adn. 17. pen. 2. 5, 6. a 4. 15. Num. 32. 14. Deut. 29. 20—28. Bren. 22. 13. Jer. 4. 8. Galar. 2. 22. Ezec. 7. 19. Zeph. 1. 18. oan 3. 36. Act. 17. 30, 31. Gal. 3. 10. Eph. 5. 6. Col. 3. 6. Dat. 6. 5, 17. a 19. 15. s pen. 5. 6. 1 Tim. 1. 9. Tit. 2. 12. 2 Pedr 2. 6. a 3. 7. Judas 4, 15, 18. t adn. 29. pen. 2. 8, 9. a 6. 13. eut. 25. 16. Es. 3. 10, 11. a 65. 7. Ezec. 18. 4. 1 Cor. 6. 9. 2 Thes. 12. 2 Pedr 2. 13—15. 1 Ioan 1. 9. u adn. 19, 28, 32. pen. 2. 15—23. Luc 12. 46, 47. Ioan 3. 19—21. Act. 24. 24, 25. 2 Thes. 10. 1 Tim. 4. 1, 2.

* Mae y ffordd hon o gyfiawnâd yn dra angenrheidiol i bawb, Iuddewon a chenedloedd. os mynant ddianc nag cyfiawn ac ofnadwy ddigofaint Duw, yr hwn a dyelltir o'r nef, ac a ddatguddiwyd o'r nef, yn marn yr en fyd, llosgi Sodom a Gomorra, yn nghyd a llawer o arnedigaethau dychrynllyd a dywalltodd Duw ar y rhai nnuwiol o Iuddewon a chenedloedd o oes i oes. Pechodau yn erbyn y llêch gyntaf, medd rhai, y rhai grybwyllir yn adn. 21, 23. ‡ Pechodau yn erbyn yr ail lêch, y rhai a grybwyllir o adn. 26, hyd ddiwedd y ennod. || Gellir dywedyd bod yr Iuddewon yn attal y wirionedd mewn anghyfiawnder, trwy erlid y prophydi, gŵyr-droi y gyfraith, ac anghredu y prophwydolaethau a'r addewidion am y Messiah; a'r cenedloedd yn ì attal trwy weithredu yn groes i'w cydwybodau—a hyny oleuni a gwybodaeth oedd ganddynt: ac fel hyn mae niloedd yn ei attal mewn anghyfiawnder eto.

19 [x] * O herwydd yr hyn a ellir ei wybod am Dduw, † sydd eglur ynddynt hwy: ‡ canys Duw a'*i* heglurodd iddynt.

x adn. 20. Salm 19. 1—6. Es. 40. 26. Jer. 10. 10—13. Act. 14. 15, 17. a 17. 23—30.

* Er nad oedd manteision y cenedloedd ond ychydig mewn cymhariaeth i'r Iuddewon, eto yr oeddynt hwy yn gweled gweithredoedd Duw yn y grëadigaeth, ei raglunaeth, a'i lywodraeth yn y byd, hyd onid oeddynt yn ddiesgus yn eu hanwybodaeth am dano. Hwy a allasent wybod mwy am Dduw nag oeddynt yn wybod, a gylasai eu hymarweddiad fod yn well yn ol yr hyn a ryddent. † Yn eu calonau, eu cydwybodau, a'u meddyliau, pen. 2. 15: neu yn eu plith hwynt, fel yr arwydda geirian *en autois* yn aml. Gwyddai rhai o'r philosophyddion cenedlig, megys Seneca, Socrates, &c., lawer am Dduw, fel y tystia eu hysgrifeniadau; ond nid edd eu bucheddau hwy yn cyfateb i'r hyn a wyddent. Trwy ei weithredoedd a'r deall a roddes efe iddynt.

20 [y] * Canys ei anweledig bethau [z] ef er creadigaeth y byd, wrth eu hystyried yn y oethau a wnaed, † a welir yn amlwg; [a] *sef* ei dragywyddol allu ef [b] ‡ a'i Dduwdod; || hyd onid ydynt yn [d] ddiesgus:

y Ioan 1. 18. Col. 1. 15, 16. 1 Tim. 1. 17. a 6. 16. Heb. 11. 27. adn. 19. Deut. 4. 19. Job 31. 26—28. Salm 8. 3, 4. a 33. 6—9. a 104. 5—31. a 119. 90, 91. a 139. 13—16. a 148. 8—12. Mat. 5. 45. pen. 16. 26. Gen. 21. 33. Deut. 33. 27. Salm 90. 2. Es. 9. 6. a 16. 4. a 40. 26. 1 Tim. 1. 17. Heb. 9. 14. b Act. 17. 29. Col. 2. 9. c pen. 2. 1, 15. Ioan 15. 22. d Act. 22. 1.

* Mae yr ail ran o'r adnod yn egluro y rhan gyntaf o hòni; pethau anweledig y Jehofah yw ei dragywyddol allu ef a'i Dduwdod: † er bod y rhai hyn yn anweledig ynddynt eu hunain, ac fel y maent yn hanfodol yn Nuw, eto maent i'w gweled yn amlwg i grëaduriaid rhesymol yn ei weithredoedd ef, er crëadigaeth y byd. ‡ Mae dysgedigion beirniadol yr iaith Roeg yn gwahaniaethu rhwng *Theotêtos* (Colos. 2. 9.) a *Theiotes*, y gair a ddefnyddir yma am Dduwdod: dywedant fod y cyntaf yn arwyddo *Duwdod pur*, neu yr *hanfod Ddwyfol*, a'r ail yn arwyddo *Dwyfoldeb*, neu *fawredd* a *gogoniant* Dwyfol. Felly nid y *Duwdod pur*, o ran ei *hanfod*, sydd i'w weled yn yr hyn a wnaed; ond tragywyddol allu, mawredd, a gogoniant y Duwdod, fel y dywedodd Dafydd, "Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw, &c." || Gallai pawb a ystyrient ei weithredoedd ef weled hyn; a phawb ni welent o eisiau ystyried, yr oeddynt yn ddiesgus.

21 * Oblegid a [e] hwy yn adnabod Duw, [f] † nis gogoneddasant ef megis Duw, ‡ ac na buont ddiolchgar iddo; [g] || eithr ofer fuont yn eu rhesymmau, § a'u [h] calon anneallus hwy a dywyllwyd.

e adn. 19, 28. Ioan 3. 19. f pen. 15. 9. Salm 50. 23. a 86. 9. Hos. 2. 8. Hab. 1. 15, 16. Luc 17. 15—18. 2 Tim. 3. 2. Dat. 14. 7. a 15. 4. g Gen. 6. 5. a 8. 21. 2 Bren. 17. 15. Salm 81. 12. Preg. 7. 29. Es. 44. 9—20. Jer. 2. 5. a 10. 3—8, 14, 15. a 16. 19. Eph. 4. 17, 18. 1 Pedr 1. 18. h pen. 11. 10. Deut. 28. 29. Es. 60. 2. Act. 26. 18. 1 Pedr 2. 9.

* A hwy yn gallu, neu, A hwy fel y gallent adnabod Duw, yn wyneb ei weithredoedd uchod: felly y mae rhai yn deall y geiriau. Ond mae yn amlwg yma fod Paul yn dywedyd yn gryfach na hyny; sef *bod* llawer o'r philosophyddion paganaidd *yn* adnabod Duw i raddau mawr, wrth oleuni anian a rheswm, yn wyneb ei weithredoedd: † a'i gyhuddiad yn eu herbyn yw, nas gogoneddasant ef megis Duw yn ol yr adnabyddiaeth hyny oedd ganddynt o hòno. Er adnabod y gwir Dduw i raddau, yr oedd yn well gan eu natur halogedig wasanaethu gau dduwiau na'i wasanaethu ef: fel hyn yr oeddynt yn "atal y gwirionedd mewn anghyfiawnder," ac fel hyn yr oeddynt yn ddiesgus. Fel hyn y cafodd Duw yr holl fyd mòr fore a'r amser y galwodd efe Abraham. ‡ Ni chydnabuant mai efe oedd yn rhoddi iddynt fywyd, ac anadl, a phob trugaredd; priodolent y cwbl i ddamwain, neu dynged, neu eu diwydrwydd eu hunain. || Ofer fuont yn eu rhesymau am Dduw; gwadai rhai ef, addefai eraill ei fod, tybiai eraill fod llawer o dduwiau, &c., &c: tybiai rhai mai rhyw sylwedd corphorol oedd Duw, tybiai eraill mai anghorphorol ac ysbrydol oedd: nis gwyddai neb pa beth, na pha fath oedd; § ac fel hyn eu calon annëallus hwy a dywyllwyd gan ddychymmygion ar ddychymmygion fwy na mwy. Mae y gair "diolchgar" uchod yn arwyddo y cwbl o wir grefydd, yn ei hystyr helaethaf.

22 [i] * Pan dybient eu bod yn ddoethion, † hwy a aethant yn ffyliaid;

i pen. 11. 25. Diar. 25. 14. a 26. 12. Es. 47. 10. Jer. 8. 8, 9. a 10. 14. Mat. 6. 23. 1 Cor. 1. 19—21. a 3. 18, 19.

* Tybiai y philosophyddion Groegaidd eu hunain yn ddoethion iawn, uwchlaw dynion eraill; ac yn enwedig uwchlaw yr Iuddewon, y rhai a ddirmygent: † ond yn nghanol eu hymffrost i gyd, hwy a aethant yn ffyliaid yn eu dychymmygion am Dduw, ac yn eu heilun-addoliaeth a'u harferion aflan a drygionus. Yr oeddynt yn ddoethion mewn pethau anianol, ond yn ffyliaid mewn pethau ysbrydol: deallent y crëadur yn dda, ond ni wyddent ddim yn iawn am y Crëawdwr. Socrates, y doethaf o honynt, a orchymynodd i'w gyfeillion, pan fyddai efe yn marw, aberthu ceiliog drosto i Æsculapius: onid oedd y doeth hwn yn un o'r penaf o'r ffyliaid?

23 * Ac a [k] newidiasant ogoniant † yr anllygredig Dduw, i [l] gyffelybiaeth ‡ llun dyn llygredig, ac ehediaid, ac anifeiliaid pedwarcarnol, ac ymlusgiaid.

k adn. 25. Salm 106. 20. Jer. 2. 11. l Deut. 4. 15—18. a 5. 8. Salm 115. 5—8. a 135. 15—18. Es. 40. 18. a 44. 13. Ezec. 8. 10. Act. 17. 29. 1 Cor. 12. 2. 1 Pedr 4. 3. Dat. 9. 20.

* Er prawf o wirionedd y dywediad uchod, hyd yn

nôd am Israel, gwel Salm 106. 20; n Jer. 2. 11. † Nid yn unig anllygredig, ond anllygradwy Dduw: un na lygra, ac nas *gall* lygru byth. Yn amlder eu dychymmygion am yr anllygradwy, yr anweledig, a'r anfeidrol Dduw, hwy a'i dychymmygasant ar lun dyn llygredig marwol, a chrëaduriaid eraill gwaelach na dyn; ac fel hyny newidiasant, neu rhoisant ei ogoniant dyledus a phriodol ef, i grëaduriaid, gwaith ei ddwylaw ef. ‡ Addolai y Syriaid bysgod; yr Aiphtiaid a ddwyfolent ac a addolent ddynion, colomenod, ac amryw fath o anifeiliaid, megys ychain, cŵn, cathod, egrifftiaid, ac eppäod; ac ymlusgiaid, megys nadroedd a chrocodilod: ïe, addolent lysiau y maes. Addolai y Groegiaid glefydau a nwydau dynol; addolai y Rhufeiniaid ellyllon, (*furies,*) a'r Chineaid hyd heddyw a addolant y diafol! Dyma ddoethineb! onid daearol, anianol, a chythreulig yw? dechreu gyda'r dyn, a dybenu gyda'r diafol! gogoniant Duw yn cael ei roddi i elyn penaf Duw.

24 * O ba herwydd [m] † Duw hefyd a'u rhoddes hwy i fynu, [n] yn nhrachwantau eu calonnau, [o] i aflendid, ‡ i ammherchi eu cyrph eu hun yn eu plith eu hunain:

m Salm 81. 11, 12. Hos. 4. 17, 18. Mat. 15. 14. Act. 7. 42. a 14. 16. a 17. 29, 30. Eph. 4. 18, 19. 2 Thes. 2. 10, 11. n pen. 6. 12. Eph. 2. 3. l Thes. 4. 5. Iago 1. 14, 15. a 4. 1—4. 1 Pedr 1. 14. a 2. 11. a 4. 2, 3. 2 Pedr 2. 18. 1 Ioan 2. 15, 16. Judas 18. o 1 Cor. 6. 13, 18. 1 Thes. 4. 4. 2 Tim. 2. 20—22. p adn. 27. Lef. 18. 22.

* O herwydd eu hannuwioldeb gwirfoddol a ffiaidd, ac o herwydd eu heilun-addoliaeth dychrynllyd, yn wyneb yr amlygiadau a roisai Duw o hóno ei hun, (adn. 20,) ac yn wyneb yr adnabyddiaeth oedd, neu a allasai fod, ganddynt hwy o Dduw; † Duw hefyd a'u rhoddes hwy i fynu yn ei farn gyfiawn: cymmerodd oddi wrthynt ei ras attaliol, a'r goleuni a gam-ddefnyddiasent; gadawodd hwynt i drachwantau ffiaidd ac anniwalladwy eu calonau, a rhoddodd hwynt i fynu megys i law a meddiant satan, i'w temtio i'r arferion ffieiddiaf a allai calon dyn a diafol eu dychymmygu: ac yn hyn ni wnaeth ond cyfiawnder; fel hyn yr oeddynt hwy yn dewis, a hwy a gawsant eu ffordd. ‡ Gan iddynt hwy anmherchi Duw mòr ddychrynllyd, ac anmherchi eu cynneddfau eu hunain, rhoddes yntau hwy i fynu i anmherchi eu cyrph eu hunain hefyd, fel cospedigaeth am ei anmherchi ef. Pa fodd yr anmharchasant eu cyrph eu hun yn eu plith eu hunain, ni a gawn weled er gwarth i ddynoliaeth, yn adn. 26, 27.

25 * Y rhai a [q] newidiasant [r] wirionedd Duw [s] yn gelwydd, † ac a addolasant ac a wasanaethasant [t] y creadur ‡ yn fwy nâ'r Creawdwr, [u] ‖ yr hwn sydd fendigedig yn dragywyddol. Amen.

q adn. 23. r adn. 18. 1 Thes. 1. 9. Ioan 5. 20. s Es. 44. 20. Jer. 10. 14, 15. a 13. 25. a 16. 19. Amos 2. 4. Jona 2. 8. Hab. 2. 18. t adn. 23. Mat. 6. 24. a 10. 37. 2 Tim. 3. 4. 1 Ioan 2. 15, 16. u pen. 9. 5. Salm 72. 19. a 145. 1, 2. 2 Cor. 11. 31. Eph. 3. 21. 1 Tim. 1. 11, 17.

* Hyny yw, a newidiasant Dduw y gwirionedd, neu y gwir Dduw, am eilunod a gau dduwiau, y rhai yn aml a elwir yn gelwydd, Es. 44. 20; Jer. 3. 23; a 13. 25; a 16. 19. Celwydd ydynt, am nad ydynt mewn gwirionedd y peth y tybir ac y cyfrifir eu bod gan eu haddolwyr: a chelwydd ydynt, am na ddaw ond siomedigaeth o ymddiried ynddynt. Neu wrth wirionedd Duw y gellir deall, yr iawn syniadau a fuasai ganddynt hwy unwaith am Dduw, y rhai a newidiasant am ddychymmygion cyfeiliornus a chelwyddog. † Sef pob crëadur, fel y sylwyd ar adnod 23. ‡ Er y taerai eilun-addolwyr (fel y taera y pabyddion hefyd yn awr,) mai y Crëawdwr oeddynt hwy yn addoli drwy y crëadur, a thàn rith delwau; eto yr oeddynt yn colli eu golwg ar y Crëawdwr yn y gwrthddrychau hyn, ac yn rhoddi "mwy" o addoliad i'r crëadur nac i'r Crëawdwr; ac mewn effaith yn gwadu y *gwir* Dduw, i roddi addoliad i gau-dduwiau. *Hebluw* y Crëawdwr, medd rhai: yn *hytrach* na'r Crëawdwr, medd eraill: yn *lle* y Crëawdwr, medd eraill: yr *holl* addoliad i'r crëadur, a *dim* i'r Crëawdwr. Goddef y gair *para* lawer o olygiadau eraill: gwel Eiriadur Groeg *Parkhurst* arno. ‖ Pan soniai yr Iuddewon am Dduw, arferent ddywedyd *Bydded fendigedig yn dragywyddol.* Er yr holl anfri uchod arno, efe a fydd fendigedig yn dragywyddol, yddo ei hun a chan ei holl bobl. Amen.

26 * Oblegid hyn y [x] rhoddes Duw hwynt i fynu [y] i † wyniau gwarthus: ‡ canys eu gwragedd hwy a newidiasant ‖ yr arfer anianol i'r hon sydd yn erbyn anian:

x adn. 24. y Gen. 19. 5. Lef. 18. 22 28. Deut. 23. 17, 18. Barn. 19. 22. 1 Cor. 6. 9. Eph. 4. 19. a 5. 12. 1 Tim. 1. 10. Judas 7.

* Dyma'r ail waith y dywed yr apostol i Dduw eu rhoddi hwynt i fynu: pa fodd yr oedd yn gwneyd hyny, gwel ar adn. 24. Oblegid yr hyn a grybwyllir yn adn. 25, y rhoddes efe hwynt i fynu yma, ac achos cyfiawn oedd. † *Pathe atimias* yw y geiriau Groeg, ac nis gall fod gwell cyfieithiad o honynt na "gwyniau gwarthus:" gwarthus i'r eithaf oeddynt, fel y dengys yr adnod hon a'r nesaf: mae eu darllen yn ddigon, debygid, i beri i'r fath waethaf o ddynion wrido. ‡ Y "gwragedd," yr ystlen a ddylasai fod yn fwyaf gŵyl a diwair, gan rym eu "gŵyniau gwarthus yn newid yr arfer anianol i'r hon sydd yn erbyn anian." ‖ Dywed ein hawdwyr fod hanesion helaeth o'r arferion gwrth-anianol hyn, yn ysgrifeniadau rhai o'r awdwyr paganaidd; ond nid yw yn weddus i gristionogion eu crybwyll, chwaithach eu darlunio, oddigerth fel gwarth ar ddynoliaeth, ac er mawrâu gras Duw yn ein iachawdwriaeth a'n gwaredigaeth rhag y cyfryw arferion.

27 * Ac yn gyffelyb y gwŷr hefyd, gan adael yr arfer naturiol o'r wraig, a ymlosgent yn eu hawydd i'w gilydd: y gwŷr ynghyd â gwŷr yn gwneuthur brynti, † ac yn derbyn ynddynt eu hunain y cyfryw [z] dal am eu cyfeiliorni ag ydoedd raid.

z adn. 23, 24.

* Nid oes achos egluro ar y geiriau uchod, ac ni byddai yn weddus gwneyd: gwell gan ein darllenwyr oll i ni beidio yn ddiammau. Mae y gŵyniau gwarthus a'r arferion drygionus hyn mewn bod y dydd heddyw, ysywaeth; ond dirgel ydynt, a marwolaeth yw y gosp am danynt. Yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, yn eu hamser gorau, a mwyaf boneddigaidd, yr oeddynt yn arferion cyhoeddus, a goddefol; a llychwinodd eu prydyddion enwocaf a harddaf hwynt eu caniadau, â chrybwyllion am y fath arferion ysgeler ac atgas, heb ddangos dim anghymmeradwyaeth o honynt, eithr yn hytrach eu harddangos fel pethau heb niwed ynddynt: ïe, yr oedd rhai o'r beirdd a'r philosophyddion yn euog o honynt. † Cyfiawn oedd i'r rhai a wrthodasant Dduw natur, gael eu rhoddi i fynu i bechodau yn erbyn natur: i'r rhai a newidiasant ogoniant Duw i lun anifeiliaid, gael eu gollwng i fod yn waeth nac anifeiliaid: fel hyn yr oedd Duw yn cospi pechod â phechod; pechodau blaenorol yn ei erbyn ef, â phechodau canlynol yn erbyn eu cyrph hwy eu hunain.

28 * Ac megis [a] nad oedd gymmeradwy ganddynt gadw Duw yn *eu* gwybodaeth, † Duw a'u rhoddes hwynt i fynu i [b] ‡ feddwl anghymmeradwy, ‖ i wneuthur y pethau [c] nid oedd weddaidd.

a adn. 18, 21. Job 21. 14, 15. Diar. 1. 7, 22, 29. a 5. 12, 13. a 17. 16. Jer. 4. 22. a 9. 6. Hos. 4. 6. Act. 17. 23, 32. Rhuf. 8. 7, 8. 1 Cor. 15. 34. 2 Cor. 4. 4—6. a 10. 5. 2 Thes. 1. 8. a 2. 10—12. 2 Pedr 3. 5. b Jer. 6. 30. 2 Cor. 13. 5—7. 2 Tim. 3. 8. Tit. 1. 16. c Eph. 5. 4. Philemon 8.

* Ni fynent gydnabod Duw, meddwl am dano, nac ymofyn am adnabyddiaeth o hóno. Dywedent wrth Dduw, Cilia oddi wrthym, nid ydym yn chwennych gwybod dy ffyrdd: nid oedd Duw yn eu holl feddyliau;

d dywedent yn eu calonau fel ynfydion; Nid oes un Duw. † Dyma'r drydedd waith y dywedir "Duw a'u Doddes hwynt i fynu:" (adn. 24, 26:) ‡ o'r blaen i mendid a gŵyniau gwarthus, yma i feddwl anghymmeraywy: i feddwl ynfyd ac annoeth, meddwl na fedrai arnu rhwng da a drwg, i gymmeradwyo y da nac anymmeradwyo y drwg. Gellir cymmeryd y gair *addol*, am feddwl anghymmeradwy gan Dduw; neu mewn ystyr *weithredol*, am feddwl yn anghymmeradwyo Duw anphob daioni. ‖ Yn yr agwedd hyn o feddwl, yr oeddent yn ddigon rhydd, halogedig, a chaled, i gyflawni pob aflendid yn un chwant; y pethau ffiaidd uchod, nad ydynt weddus eu hadrodd na meddwl am danynt. Yn dull-ymadrodd a elwir *meiosis* yw y geiriau, lle mae lai na'r peth yn gyflawn yn cael ei ddywedyd: arwydda y geiriau, y pethau mwyaf atgas a ffiaidd ag sydd bosibl.

29 * Wedi eu d llenwi â phob anghyfiawnder, godineb, † anwiredd, cybydd-dod, ‡ drygnni; yn llawn cenfigen, llofruddiaeth, cynnen, ‖ yll, drwg-anwydau;

d pen. 3. 10—19. Job 15. 16. Jer. 17. 9. Mat. 15. 19. Marc 7. 22. 1 Cor. 6. 9, 10. Gal. 5. 19—21. Eph. 5. 3—6. Col. 3. 5—9. 1 Tim. 1. 9, 10. 2 Tim. 3. 2—5. Tit. 3. 3. Dat. 21. 8. a 22. 15.

* * Gwedi son am bechodau yn erbyn Duw, sef eilunaddoliaeth, &c. yn adn. 21, 23, 28, mae yr apostol yma i son am restr ofnadwy o bechodau yn erbyn yr ail ddeg, y rhai yr oedd y cenedloedd yn dra euog o honynt ill. Yr oedd eu calonau yn llawn o'r pechodau atgas hyn; pawb yn euog o rai o honynt, a rhai yn euog o honynt oll: nid yn unig yn eu meddyliau, ond hefyd mewn gweithredoedd. Enwir anghyfiawnder yn mlaen-af, fel greddf y galon, ac fel y gwreiddyn a'r ffynon o ba ddi y deilliai yr holl bechodau eraill. † Amcan yr apostol yn y gair hwn, "anwiredd," *(ponêria)* yw crybwyll rhyw anwiredd pennodol; felly yn lle anwiredd, mae rhai yn darllen trallodaeth, neu ysbryd terfysglyd yn caru blino a thrallodi pawb. ‡ *Maliciousness*, tymher lidiog, yw y gair hwn yn y Saesoneg; efallai y goddef y gair groeg, *(kakia,)* bob un o'r ddau. Am y geiriau eraill, nid oes achos egluro arnynt, maent yn rhŷ eglur yn y gwd o lawer.

30 * Yn e hustyngwyr, f † yn athrodwyr, yn g gas ganddynt Dduw, ‖ yn drahaus, yn meilchion, yn h ffrostwyr, § yn ddychymygwyr drygioni, k yn anufudd i rieni,

e Salm 41. 7. Diar. 16. 28. a 26. 20. 2 Cor. 12. 20. f Diar. 23. g pen. 8. 7, 8. Num. 10. 35. Deut. 7. 10. 2 Cron. 20. 2. Salm 81. 15. Diar. 8. 36. Ioan 7. 7. a 15. 23, 24. Tit. 3. 3. h pen. 2. 17, 23. a 3. 27. 1 Bren. 20. 11. 2 Cron. 25. 8. Salm 10. 3. a 49. 6. a 52. 1. a 94. 4. a 97. 7. Act. 5. 36. 1 Cor. 10. 15. 2 Thes. 2. 4. Iago 3. 5. a 4. 16. 2 Pedr 2. 18. Judas 16. i Salm 99. 8. a 106. 39. Preg. 7. 29. k Deut. 21. 18—21. 27. 16. Diar. 30. 17. Ezec. 22. 7. Mat. 10. 21. a 15. 4. Luc 21. 16. 2 Tim. 3. 2.

* Mae y gair hwn, hustyngwyr, yn niwedd yr adnod ar blaen gan y Saeson, ond yn y Groeg yr un fath a hynenym ni: dywedyd chwedlau drwg yn ddistaw am eraill ydyw hustyng, † ac athrodi yw eu dywedyd yn gyhoeddus; yn nghyd a chludo chwedlau drwg o un i'r ll, i osod dynion mewn anghydfod ac yn mhenau eu ilydd. ‡ Yn gas ganddynt Fod, cyfiawnder, sancteiddwydd, cyfraith, awdurdod, a llywodraeth Duw; am eu od oll yn erbyn eu chwantau a'u pechodau anwyl a naynwesol hwy. ‖ Yn ddirmyglawn o eraill, yn mynu u ffordd a'u hamcan eu hunain, pa gam neu golled ynag a wnelent i eraill drwy hyny: felly, meddant, yr rwydda y gair *ubristês*. § "Dyn i'r fall sydd yn cloddio rwg," ebai Solomon, (Diar. 16. 27,) fel dyn yn cloddio m drysorau cuddiedig yn y ddaear: felly yma; heb bd yn foddlawn ar yr holl ddrygau a enwyd, yr oeddynt n ymroi i ddychymmygu drygioni newydd, o boen neu bechod. Cynnygiai *Phalaris* wobrwy i'r neb a ddyeisiai ffordd newydd i boenydio dynion: a chynnygiai *Sardanapalus* wobrwyon i'r neb a ddyfeisiai ryw blerau cnawdol newyddion.

31 l * Yn anneallus, m † yn dorrwyr ammod, ‡ yn angharedig, ‖ yn anghymmodlawn, § yn annhrugarogion:

l adn. 20, 21. pen. 3. 11. Diar. 18. 2. Es. 27. 11. Jer. 4. 22. Mat. 15. 16. m 2 Bren. 18. 14, &c. Es. 33. 8. 2 Tim. 3. 3.

* Fel ynfydion gwallgofus, a'u deall naturiol wedi ei dywyllu, a'u synwyrau wedi dyrysu, gan rŷm eu gŵyniau gwarthus a'u mynych ddrwg-arferion ffiaidd. † Heb wneyd un gydwybod yn y byd o'r ammodau mwyaf pwysig a difrifol, ond eu tòri wrth eu mympwy ac er eu helw eu hunain. ‡ Heb serchiadau naturiol yw y Saesoneg yma; a hyny mae yn debyg yw priodol ystyr y gair *astorgous*. Heb y cyfryw serch ag sydd yn naturiol rhwng y perthynasau agosaf â'u gilydd. Peth cyffredin yn mhlith y paganiaid oedd taflu eu plant newydd eni allan i'w dyfetha gan greaduriaid ysglyfaethus, a pheth cyffredin oedd i'r plant wedi tyfu, roddi eu rhieni oedranus i farwolaeth: lladdodd Nero ei fam ei hun Agrippina. ‖ Os unwaith y digid hwy, nid oedd dim cymmod na maddau i'w gael mwyach, ond y gelyniaeth mwyaf, a'r dïal eithaf heb ddiwedd. § Nid oedd dim trugaredd i'r truenus, na thosturi tuag at yr anghenus, ond ymhyfrydu mewn creulondeb, trais, a gorthrymder. Eu hoffder mwyaf oedd gweled y caethion truain yn ymladd â gwylltfilod rheibus, neu gleddyfwyr yn ymladd â chleddyfau, nes y byddai cannoedd o bob tu yn cael eu lladd: ac am gaethion rhyfel, nid oedd dim trugaredd i'r rhai hyny, ond eu rhoddi i farwolaeth yn y modd creulonaf a mwyaf arteithiol. O y trueni ofnadwy a wnaeth pechod yn mhlith y paganiaid, ac mae yn ei wneyd o hyd!

32 * Y rhai yn n gwybod cyfiawnder Duw († fod y rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau yn o haeddu marwolaeth) ‡ *ydynt* nid yn unig yn gwneuthur y pethau hyn, eithr hefyd yn cyd-ymfoddloni â'r rhai sydd yn eu gwneuthur hwynt.

n adn. 18, 21. pen. 2. 1—5, 21—23. o pen. 6. 21. Deut. 17. 6. a 21. 22. 2 Sam. 12. 5—7. 1 Bren. 2. 26. Heb. 10. 29. Dat. 16. 6.

* Yr hyn oedd yn gwneyd eu heuogrwydd yn y pechodau uchod yn fwy oedd, eu bod yn gwybod cyfiawnder Duw, a bod y rhai oedd yn gwneuthur y cyfryw bethau yn haeddu marwolaeth yn wyneb y cyfiawnder hwnw. Wrth gyfiawnder Duw yma, mae i ni ddeall deddf a chyfraith gyfiawn Duw, neu ei gyfiawnder yn cospi pechod a phechaduriaid. Gwyddai y paganiaid ryw faint am y pethau uchod wrth oleuni natur, tystiolaeth eu cydwybod, (pen. 2. 15,) a thrwy addysgiadau rhai o'u philosophyddion doethaf a gorau. † Gwyddai barbariaid Melita fod llofruddiaeth yn haeddu marwolaeth, Act. 28. 4; ac nis gallasai lai na bod tystiolaethau brawychus yn nghydwybodau y paganiaid uchod, fod eu gweithredoedd ysgeler ac anfad hwy yn haeddu marwolaeth. ‡ Ond eto er gwybod hyny, yr oeddynt hwy nid yn unig yn eu gwneuthur eu hunain, eithr hefyd yn cyd-ymfoddloni â'r rhai oedd yn eu gwneuthur: yn eu hannog, yn eu cefnogi i'w gwneuthur, ac yn ymbleseru yn y gweithredoedd ac yn y rhai a'u gwnelent. Mae cyd-ymfoddloni â'r rhai a wnant ddrwg, yn waeth na gwneyd y ddrwg; gall dyn wneyd drwg yn ngrym profedigaeth, &c., ond mae y dyn a ymhyfrydo ei weled ef yn gwneyd drwg wedi soddi i'r graddau eithaf o halogrwydd a chaledwch. Y dyn tebycaf i'r diafol yw y dyn a ymhyfrydo weled eraill yn gwneyd drwg.

PEN. II.

Na all y rhai sydd yn pechu, er eu bod yn condemnio pechod mewn eraill, mo'u hesgusodi eu hunain.

a * O HERWYDD paham, dïesgus wyt ti, b O ddyn, c pwy bynnag wyt yn barnu: canys yn yr hyn yr wyt yn barnu arall, yr wyt

yn dy gondemnio dy hun; [d] canys ti yr hwn wyt yn barnu, wyt yn gwneuthur yr un pethau.

a pen. 1. 18—20. b adn. 3. pen. 9. 20. 1 Cor. 7. 16. Iago 2. 20. c adn. 26, 27. 2 Sam. 12. 5—7. Salm 50. 16—20. Mat. 7. 1—5. a 23. 29—31. Luc 6. 37. a 19. 22. Ioan 8. 7—9. Iago 4. 11. d adn. 3, 21—23.

* Tybia rhai fod yr apostol yn gadael y cenedloedd yn niwedd y bennod o'r blaen, ac yn dyfod at yr Iuddewon yn nechreu hon. Yr oedd yr Iuddewon yn barnu yn eithaf llym ar y paganiaid, ond yr oeddynt hwy eu hunain yn euog o rai o'r un pechodau, ac o lawer o honynt yn ddirgel; am hyny yr oeddynt yn eu condemnio eu hunain; a chan eu bod yn pechu yn wyneb llawer mwy o oleuni na'r paganiaid, yr oeddynt yn dra diesgus. Tybia eraill mai wrth y philosophyddion cenedlig mae yr apostol yn llefaru yma, y rhai oedd yn beio ar arferion y bobl, ac eto yn euog o honynt eu hunain yn ddirgel: a thybia rhai eraill mai swyddogion gwladol y cenedloedd mae yn feddwl, y rhai a farnent y bobl am rai o'u drwg-arferion, a hwy eu hunain yn euog o'r un arferion, neu waeth. Y wers gyffredin i ni yw, y dylem fod yn lân ein hunain cyn barnu eraill.

2 * Eithr ni a wyddom [e] fod barn Duw yn ol gwirionedd, † yn erbyn y rhai a wnant gyfryw bethau.

e adn. 5. pen. 3. 4, 5. a 9. 14. Gen. 18. 25. Job 34. 17—19, 23. Salm 9. 4, 7, 8. a 11. 5—7. a 36. 5, 6. a 96. 13. a 98. 9. a 145. 17. Es. 45. 19, 21. Jer. 12. 1. Ezec. 18. 25, 29. Dan. 4. 37. Zeph. 3. 5. Act. 17. 31. 2 Thes. 1. 5—10. Dat. 15. 3—4. a 16. 5. a 19. 2.

* Ni a wyddom yn sicr, ac mae yn amlwg yn ol ysgrythyr a rheswm, fod barn Duw yn gywir, ac yn ol gwirionedd ei natur a'i air ef, yn y byd hwn ac yn nydd y farn, † yn erbyn y rhai a wnant y cyfryw bethau, pa un bynag ai cenedloedd ai Iuddewon a fyddont. Pa mòr galed neu dueddol bynag y byddo barnau dynion, bydd barn Duw yn sicr o fod yn gywir.

3 [f] * Ac a wyt ti yn tybied hyn, [g] O ddyn, yr hwn wyt yn barnu y rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau, a thithau yn gwneuthur yr un pethau, [h] y diengi di rhag barn Duw?

f 2 Sam. 10. 3. Job 35. 2. Salm 50. 21. Mat. 26. 53. g adn. 1. Dan. 10. 19. Luc 12. 14. a 22. 58, 60. h pen. 1. 32. Salm 56. 7. Diar. 11. 21. a 16. 5. Ezec. 17. 15, 18. Mat. 23. 33. 1 Thes. 5. 3. Heb. 2. 3. a 12. 25.

* Gan nad yw gweithredoedd dynion eraill yn diianc rhag dy farn di, a wyt ti mòr ffol a meddwl y diengi di sydd yn gwneyd yr un pethau, rhag barn Duw, yr hwn a ddwg bob gweithred i farn, a'r hwn sydd a'i farn yn ol gwirionedd manwl?

4 [i] * Neu a wyt ti yn diystyru [k] golud [l] † ei ddaioni ef, a'i ddioddefgarwch, a'i ymaros, ‡ heb wybod [m] fod daioni Duw yn dy dywys di i edifeirwch?

i pen. 6. 1, 15. Salm 10. 11. Preg. 8. 11. Jer. 7. 10. Ezec. 12. 22, 23. Mat. 24. 48, 49. 2 Pedr 3. 3. k pen. 9. 23. a 10. 12. a 11. 33. Salm 86. 5. a 104. 24. Eph. 1. 7, 18. a 2. 4, 7. a 3. 8, 16. Phil. 4. 19. Col. 1. 27. a 2. 2. 1 Tim. 6. 17. Tit. 3. 4—6. l pen. 3. 25. a 9. 22. Ex. 34. 6. Num. 14. 18. Salm 78. 38. a 86. 15. Es. 63. 7—10. 1 Tim. 1. 16. 1 Pedr 3. 20. m Job 33. 27—30. Salm 130. 3, 4. Es. 30. 18. Jer. 3. 12, 13, 22, 23. Ezec. 16. 63. Hos. 3. 5. Luc 15. 17—19. a 19. 5—8. 2 Pedr 3. 9, 15. Dat. 3. 20.

* Os oedd y cenedloedd yn ddiesgus yn eu pechodau, pa faint mwy diesgus oedd yr Iuddewon, y rhai oedd wedi cael eu breintio gymmaint yn fwy na hwynt? ac eto yn euog o'u holl bechodau hwy, ond eilun-addoliaeth; ac yn cymmeryd achlysur oddi wrth ddaioni ac ymaros Duw i ymgaledu yn eu pechodau, heb ystyried mai edifarâu a ddylasent yn wyneb y daioni a'r ymaros hyny. † Dywed beirniaid manwl yn y Groeg, fod y gair *chrêstotês*, daioni, yn arwyddo *daioni* a *chymmwynasgarwch* yn gyffredin; *anochê*, dyoddefgarwch, yn arwyddo *trugaredd* yn y cynngion o faddeuant a dedwyddwch i grëaduriaid syrthiedig; a *makrothumia*, ymaros, yn arwyddo *amynedd* yn dysgwyl cyhyd wrth y fath drueiniaid cyndyn. ‡ Dyma un dyben mawr ò ymaros a dyoddefgarwch Duw, ein tywys i edifeirwch; ac y mae ei ddaioni ef yn cael ei ddïystyru a'i gam-ddefnyddio, pryd nad yw yn cael ei ddefnyddio i hyny.

5 [n] * Eithr yn ol dy galedrwydd, a'th galon ddïedifeiriol, [o] wyt yn trysori i ti dy hun ddigofaint [p] † erbyn dydd y digofaint, [q] ‡ a datguddiad cyfiawn farn Duw,

n pen. 11. 25. Ex. 8. 15. a 14. 17. Deut. 2. 30. Jos. 11. 20. 1 Sam. 6. 6. 2 Cron. 30. 8. a 36. 13. Salm 95. 8. Diar. 29. 1. Es. 48. 4. Ezec. 3. 7. Dan. 5. 20. Zec. 7. 11, 12. Heb. 3. 13, 15. a 4. 7. o pen. 9. 22. Deut. 32. 34, 35. Amos 3. 10. Iago 5. 3. p Job 21. 30. Diar. 11. 4. 2 Pedr 2. 9. a 3. 7. Dat. 6. 17. q adn. 2, 3. pen. 1. 18.

* Mae calon galed ddïedifeiriol dyn yn chwanegu pechod at bechod, yn llawn ynddo i wneuthur drwg, ac fel hyny yn trysori iddo ei hun ddigofaint erbyn dydd digofaint. Er bod Duw yn ymarhôus wrth bechaduriaid anedifeiriol, eto mae ganddo ei ddydd i ddatguddio ei ddigofaint o'r nef, ac i'w dywallt ar weithredwyr anwiredd hyd yr eithaf. Mae y dydd hwnw yn sicr o ddyfod, nid yw yn mhell, nis gwyddom pa mòr fuan y daw. ‡ Barn a ddatguddia bechodau dynion, ac a ddatguddia gyfiawnder Duw yn nghospedigaeth yr annuwiolion, fydd dydd y farn ddiweddaf.

6 [r] * Yr hwn a dâl i bob un yn ol ei weithredoedd:

r pen. 14. 12. Job 34. 11. Salm 62. 12. Diar. 24. 12. Es. 3. 10, 11. Jer. 17. 10. a 32. 19. Ezec. 18. 30. Mat. 16. 27. a 25. 34, &c. 1 Cor. 4. 5. 2 Cor. 5. 10. Gal. 6. 7, 8. Dat. 2. 23. a 22. 12.

* Mae yr adnod hon yn profi y bydd barn Duw yn ol gwirionedd; efe a dâl i bob un yn ol ei weithredoedd: nis gall dim fod yn gyfiawnach na hyny.

7 * *Sef* i'r rhai [s] trwy barhâu yn gwneuthur da, a geisiant [t] ogoniant, ac anrhydedd, [u] ac anllygredigaeth; [x] bywyd tragywyddol:

s pen. 8. 24, 25. Job 17. 9. Salm 27. 14. a 37. 3, 34. Galar. 3. 25, 26. Mat. 24. 12, 13. Luc 8. 15. Ioan 6. 66—69. 1 Cor. 15. 58. Gal. 6. 9. 2 Tim. 4. 7, 8. Heb. 6. 12, 15. a 10. 35, 36. Iago 5. 7, 8. Dat. 2. 10, 11. t pen. 8. 18. a 9. 23. Ioan 5. 44. 2 Cor. 4. 16—18. Col. 1. 27. 1 Pedr 1. 7, 8. a 4. 13, 14. u 1 Cor. 15. 53, 54. 2 Tim. 1. 10. x pen. 6. 23. 1 Ioan 2. 25.

* Yn ol holl rediad yr ysgrythyrau, a llais synwyr cyffredin hefyd, nis gall yr un *pechadur* wneuthur *da*, nes iddo edifarâu, ymostwng i Dduw, a chrefu am ei drugaredd ef trwy ac yn enw y Cyfryngwr; a phawb yn y llwybr hwn a barânt i geisio gogoniant, ac anrhydedd, ac anllygredigaeth, a'u cânt: hwy a gânt fywyd tragywyddol; ond dawn Duw a fydd y bywyd tragywyddol hwnw, nid haeddiant eu "gwneuthur da" hwynt. Yr hyn a elwir "gwneuthur da" yma, a arwydda *gweithred dda*, yn y rhif unigol, *(ergou argathou)* ac a osodir mewn cyferbyniad i "anufudd i'r gwirionedd" yn yr adnod nesaf, yr hyn yw peidio ymostwng i awdurdod Duw yn yr efengyl, yr hon a elwir y *gwirionedd, gair y gwirionedd*, a *gair gwirionedd yr efengyl*: felly, mae ffydd yn Nghrist o leiaf yn gynnwysedig yn y "gwneuthur da," os nad hyny yn benaf a feddylir. Gwedi y cwbl, nid er mwyn ffydd, na dim gweithredoedd da fel ffrwythau ffydd, y mae neb yn cael bywyd tragywyddol; ond er mwyn Crist yr hwn y credir ynddo.

8 * Eithr i'r rhai sydd [y] gynhenus, [z] † ac anufudd i'r gwirionedd, [a] ‡ eithr yn ufudd i anghyfiawnder; ‖ *y bydd* [b] llid, a digofaint:

y Diar. 13. 10. 1 Cor. 11. 16. Tit. 3. 9. z pen. 1. 18. a 6. 17. a 10. 16. a 15. 18. Job 24. 13. Es. 50. 10. 2 Thes. 1. 8. Heb. 5. 9. a 11. 8. 1 Pedr 3. 1. a 4. 17. a Ioan 3. 18—21. 2 Thes. 2. 10—12. Heb. 3. 12, 13. b pen. 9. 22. Salm 90. 11. Nah. 1. 6. Heb. 10. 27. Dat. 14. 10. a 16. 19.

* Yr Iuddewon hyny oedd gynhenus yn nghylch yr enwaediad, ac yn nghylch derbyn y cenedloedd i'r eglwys heb eu henwaedu, medd rhai; ond mae y "Groegwr hefyd," yn niwedd yr adnod nesaf, yn taro yn erbyn yr agoriad yna. Pawb ag oedd gynhenus, mae yn debyg a feddylir, yn erbyn pen-arglwyddiaeth Duw, ei drefn o gadw pechaduriaid trwy ras, a holl athrawiaeth yr efengyl, yr hon oedd yn taro yn erbyn pechodau dynion, a'u deddfoldeb hefyd. † Am y gair "gwirion-

dd" yn y fàn hon sylwyd o'r blaen dàn adn. 7; a'r rhai ynhenus uchod oedd y rhai anufudd iddo. ‡ Mae awb yn ufudd i rywbeth; a phawb anufudd i'r gwirion-dd yn ufudd i anghyfiawnder, yn ufudd i satan, eu wyniau gwarthus a'u harferion drygionus. || Gwahan-l raddau o'r un peth; neu lid yn Nuw, a thywalltiad o óno menw digofaint ar y troseddwr.

9 [c] * Trallod ac † ing ar bob [d] ‡ enaid dyn ydd yn gwneuthur [e] drwg; || yr Iuddew yn yntaf, a'r Groegwr hefyd:

c Diar. 1. 27, 28. 2 Thes. 1. 6. d Ezec. 18. 4. Mat. 16. 26 o adn. 10. pen. 1. 16. Amos 3. 2. Mat. 11. 20—24. Luc 12. 47, 48. e Pedr 4. 17.

* Pob peth dychrynllyd a phoenus a ellir feddwl am ano. Tybir fod yr apostol yn yr adnod hon a diwedd r adnod o'r blaen yn cyfeirio at y dysgrifiad o farnau uw ar yr Aiphtiaid, yn Salm 78. 49; ac yn dangos y yddai i'r Iuddewon digred, a'r cenedloedd annuwiol lefyd gael eu cospi yn nydd dialedd Duw yn drymach la'r Aiphtiaid gynt. † *Scenochória*, ing: lle cyfyng, a naethliwed poenus heb ymwared, fel mewn daear-gell eu gyffion. ‡ Hebrëaeth deublyg sydd yma; *yn gyntaf*, noddi yr enaid am yr holl ddyn, ac *yn ail*, pob enaid yn am enaid pob dyn; nid yr enaid yn unig a gaiff ei oeni, eithr y corph hefyd; ond yr enaid yn benaf, fel mae o natur ragorach na'r corph. || Yr Iuddew dryg-mnus ac anufudd i'r gwirionedd a fydd yn gyntaf a nrymaf dàn y gosp, o herwydd mai efe a gafodd y reintiau mwyaf, a chynnyg ar yr efengyl gyntaf; ond ii ddianc y Groegwr annuwiol, bydd yntau yn ddiesgus n nydd y farn, pen. 1. 20.

10 * Eithr [f] gogoniant, [g] ac anrhydedd, a hangnefedd, [h] † i bob un sydd yn gwneuthur aioni; ‡ i'r Iuddew yn gyntaf, ac i'r Groeg-r hefyd.

f adn. 7. pen. 9. 21, 23. 1 Sam. 2. 30. Salm 112. 6—9. Diar. 16, 17. a 4. 7—9. a 8. 18. Luc 9. 48. a 12. 37. Ioan 12. 26. 1 Pedr 7. a 5. 4. g pen. 5. 1. a 8. 6. a 14. 17. a 15. 13. Num. 6. 26. ob 22. 21. Salm 29. 11. a 37. 37. Es. 26. 12. a 32. 17. a 48. 18, 22. 55. 12. a 57. 19. Jer. 33. 6. Mat. 10. 13. Luc 1. 79. a 2. 14. a 19. 2. Ioan 14. 27. a 16. 33. Gal. 5. 22. Phil. 4. 7. h Salm 15. 2. Diar. 11. 18. Es. 32. 17. Act. 10. 35. Gal. 5. 6. Iago 2. 22. a 3. 13.

* Mae y ddau air blaenaf yr un peth ag yn adn. 7; yn de anllygredigaeth, y trydydd gair yno, rhoddir tang-efedd yma; yr hwn yn mhlith yr Iuddewon a gynnwys-ii bob daioni a dedwyddweh, amserol a thragywyddol. Am y gwneuthur daioni sylwyd o'r blaen, ar adn. 7. Gan i'r apostol ddywedyd yn yr adnod o'r blaen, y yddai trallod ac ing ar yr Iuddew aughrediniol yn yntaf, mae yma yn dywedyd, er cysur i'r Iuddewon rrediniol, y bydd gogoniant, anrhydedd, a thangnefedd ddynt hwy yn gyntaf yr un modd: ond ni chauir allan Groegwr a gredo; ac nid blaenoriaeth mewn cymmer-ddwyaeth gyda Duw i'r Iuddew a feddylir; dim ond blaenoriaeth yn nhrefn yr apostol o lefaru.

11 * Canys [i] nid oes derbyn wyneb ger bron Duw.

i Deut. 10. 17. a 16. 19. 2 Cron. 19. 7. Job 34. 19. Diar. 24. 23, 24. Mat. 22. 16. Luc 20. 21. Act. 10. 34. Gal. 2. 6. Eph. 6. 9. Col. 3. 25. 1 Pedr 1. 17.

* Pa ragoriaeth bynag a wnaeth Duw rhwng Iuddew-on a chenedloedd yn y byd hwn o ran breintiau, am hir oesoedd, nid oes dim dàn yr efengyl, ac ni bydd dim yn farn nac yn y nefoedd. Tybiai yr Iuddewon na byddai yr un o had Abraham allan o'r nefoedd, faint bynag fyddai eu pechodau; a phrin y tybient y caffai neb o'r cenedloedd fyned i mewn yno: felly mae y geiriau uchod o eiddo yr apostol yn taro ar wraidd y cyfeiliornad hwnw.

12 * Oblegid cynnifer [k] ag a bechasant yn ddiddeddf, † a gyfrgollir hefyd yn ddiddeddf; ‡ a chynnifer [l] ag a bechasant yn y ddeddf, || a fernir wrth y ddeddf,

k adn. 14, 15. pen. 1. 18—21, 32. Ezec. 16. 49, 50. Mat. 11. 22, 24. Luc 10. 12—15. a 12. 47, 48. Ioan 19. 11. Act. 17. 30, 31. l adn. 16. pen. 3. 19, 20. a 4. 15. a 7. 7—11. a 8. 3. Deut. 27. 26. 2 Cor. 3. 7—9. Gal. 2. 16—19. a 3. 10, 22. Iago 2. 10, 11. Dat. 20. 12—15.

* Y cenedloedd paganaidd yw y rhai a bechasant yn ddiddeddf; hyny yw, heb y ddeddf yn ysgrifenedig yn eu plith fel yr Iuddewon: rhaid mai hyny yw meddwl y geiriau, oblegid nis gall neb bechu heb ddeddf natur dàn yr hon y genir pawb, cenedloedd yn gystal ag Iuddewon. † Ni bu neb o'r cenedloedd erioed a ymddygodd yn gyfatebol i oleuni a deddf natur; am hyny hwy a gyfr-gollir fel tòrwyr o gyfammod Eden, ac fel troseddwyr o ddeddf natur; ond yn ol y goleuni a'r manteision a gawsent ac a gam-ddefnyddiasant, y bernir hwy, ae y bydd eu cosp, nid yn ol y ddeddf ysgrifenedig fel yr Iuddewon. Mae y geiriau hyn yn dadymchwelyd dau gyfeiliornad gwrthun iawn: diddymiad y paganiaid yn marwolaeth, a'r posiblrwydd iddynt fod yn gadwedig heb ffydd yn Nghrist. ‡ Sef yr Iuddewon yr oedd y ddeddf ysgrifenedig ganddynt, ac a bechasant er hyny: || hwy a fernir wrth y ddeddf, hyny yw, a euog-fernir; a bydd eu cosp yn llawer trymach na chosp y paganiaid diddeddf.

13 * (Canys [m] nid gwrandawwyr y ddeddf *sydd* gyfiawn ger bron Duw, [n] † ond gwneuthurwyr y ddeddf a [o] gyfiawnheir.

m adn. 25 Deut. 4. 1. a 5. 1. a 6. 3. a 30. 12—14. Ezec. 20. 11. a 33. 30—33. Mat. 7. 21—27. Luc 8. 21. Iago 1. 22—25. 1 Ioan 2. 29. a 3. 7. n pen. 3. 20, 23. a 10. 5. Luc 10. 25—29. Gal. 3. 11, 12. o pen. 3. 30. a 4. 2—5. Salm 143. 2. Luc 18. 14. Act. 13. 39. Gal. 2. 16. a 5. 4. Iago 2. 21—25.

* Tybiai yr Iuddewon fod darllen a gwrando y ddeddf, yn nghyd â chyflawni defodau seremoniol, yn ddigon i'w cyfiawnâu hwy ger bron Duw, ac i wneyd iawn am eu troseddau o'r ddeddf foesol; † ond dywed yr apostol nad yw gwrando y ddeddf ddim yn ddigon i gyfiawnâu dyn yn ei gwyneb; os mỳn neb gael ei gyfiawnâu yn y ffordd hon, rhaid iddo *wneuthur* y ddeddf, a'i gwneuthur yn *berffaith* hefyd. Ac wedi y cwbl, gallasai ddywedyd fod y cyfrifiad o hen gamwedd Eden o hyd yn aros; ac nad oedd posibl trwy gyflawniadau deddfol dynion, gwneyd iawn am hwnw: ac felly "trwy weithredoedd y ddeddf ni chyfiawnêir un cnawd yn ngolwg Duw." pen. 3. 20.

14 * Canys pan yw y Cenhedloedd [p] y rhai nid yw y ddeddf ganddynt, [q] † wrth naturiaeth yn gwneuthur y pethau sydd yn y ddeddf, ‡ y rhai hyn heb fod y ddeddf ganddynt, [r] ydynt ddeddf iddynt eu hunain:

p adn. 12. pen. 3. 1, 2. Deut. 4. 7. Salm 147. 19, 20. Act. 14. 16. a 17. 30. Eph. 2. 12. q adn. 27. pen. 1. 19, 20. 1 Cor. 11. 14. Phil. 4. 8. r adn. 12. pen. 1. 32.

* Y cenedloedd y rhai nid oedd y ddeddf ysgrifenedig ganddynt, fel yr oedd gan yr Iuddewon; † yr oedd y rhai hyn er hyny, yn gwneuthur rhai o'r pethau sydd yn y ddeddf ysgrifenedig; nid am y gwyddent hi, ond yn ol goleuni natur, a chymhelliadau cydwybod. ‡ Yr oedd y rhai hyn felly yn ddeddf iddynt eu hunain; neu a chanddynt ryw weddillion o'r ddeddf a ysgrifenwyd ar y cyntaf yn nghalon dyn, ynddynt eu hunain; er nas gwyddent ddim am dani mewn llythyrenau a geiriau fel yr Iuddewon. Tybia rhai mai canmol y cenedloedd rhagor yr Iuddewon mae yr apostol yma; eu bod hwy yn fwy cyson, ac yn cadw y ddeddf yn well, yn ol y golau oedd ganddynt, na'r Iuddewon oedd wedi cael goleuni rhagorach, a gwell gwybodaeth o'r ddeddf. Tybia eraill mai rhagfaenu esgus y cenedloedd y mae; y rhai a allent daeru nad oedd arnynt hwy rwymau i gadw y ddeddf, gan nad oeddynt wedi ei chael yn ysgrifenedig: fel pe dywedasai, Mae genych y ddeddf ynoch eich hunain; a chwi a ddylech ymddwyn yn well yn ol y goleuni sydd genych.

15 * Y rhai sydd yn dangos gweithred y ddeddf † yn [s] ysgrifenedig yn eu calonnau, a'u [t] cydwybod yn cyd-dystiolaethu, a'u meddyliau yn [u] cyhuddo eu gilydd, neu yn esgusodi)

s pen. 1. 18, 19. t pen. 9. 1. Ioan 8. 9. Act. 23. 1. a 24. 16. 2 Cor. 1. 12. a 5. 11. 1 Tim. 4. 2. Tit. 1. 15. u Gen. 3. 8—11. a 20. 5. a 42. 21, 22. 1 Bren. 2. 44. Job 27. 6. Preg. 7. 22. 1 Ioan 3. 19—21.

* Wrth weithred y ddeddf yma gallwn ddeall, un ai *sylwedd* y ddeddf, 'caru Duw â'r holl galon, a'n cymmydog fel ni ein hunain;' neu ynte *swydd* y ddeddf, yn ein dysgu pa beth i wneyd a pha beth i beidio ei wneyd: neu ynte yn drydydd, y *gweithredoedd allanol* a orchymynir gan y ddeddf. † Yr oedd megys darnau o'r ddeddf hòno, yr hon a ysgrifenwyd ar y cyntaf yn nghalon dyn, yn ymddangos yn ngweithredoedd y paganiaid, trwy effeithio ar eu cydwybod a'u synwyr naturiol, i wahaniaethu rhwng da a drwg. ‡ Yr oedd eu cydwybod hefyd yn tystiolaethu cymmeradwyaeth a boddlonrwydd tumewnol i'w gweithredoedd da; a'u meddyliau dirgelaidd, neu eu hymddiddanion, ar yr un pryd, yn cyhuddo neu yn esgusodi, yn ol drwg neu dda eu gweithredoedd a'u hymddygiadau. Gan hyny, os oedd hyd yn nôd y paganiaid tywyll yn gorfod eu condemnio eu hunain, pan weithredent yn groes i oleuni eu cydwybodau; pa ynfydrwydd a rhyfyg oedd i'r Iuddewon ddysgwyl cyfiawnâd ger bron Duw, trwy ddeddf ag oeddynt hwy yn droseddu yn wastadol, a hyny yn wyneb mwy goleuni?

16 * Yn y dydd y barno [x] Duw ddirgeloedd dynion, [y] † yn ol fy efengyl i [z] ‡ trwy Iesu Grist.

x adn. 5. pen. 3. 6. a 14. 10—12. Gen. 18. 25. Salm 9. 7, 8. a 50. 6. a 96. 13. a 98. 9. Preg. 3. 17. a 11. 9. a 12. 14. Mat. 16. 27. a 25. 31, &c. 1 Cor. 4. 5. 2 Cor. 5. 10. Heb. 9. 27. 1 Pedr 4. 5. 2 Pedr 2. 9. Dat. 20. 11—15. y Ioan 5. 22—29. Act. 10. 42. a 17. 31. 2 Tim. 4. 1, 8. z pen. 16. 25. 1 Tim. 1. 11. 2 Tim. 2. 8.

* Mae y tair adnod olaf mewn cromfachau; a diwedd y ddeuddegfed adnod yn gyssylltiedig â dechreu hon: y "cyfr golli," a'r "barnu" yno, a gymmer le yn y dydd y barno Duw ddirgeloedd dynion, sef dydd mawr y farn ddiweddaf. Mae dynion yn cyhuddo eu gilydd yn awr am bethau cyhoeddus; a chydwybod pob un yn ei gyhuddo o bethau dirgel: ond yn y dydd hwnw, e ddwg Duw bob gweithred i farn, a phob peth dirgel, ac a farna Iuddewon a Chenedloedd, gan dalu i bob un yn ol ei weithredoedd, adn. 6. † Mae 1 Tim. 1. 11, yn egluro y geiriau hyn "Fy efengyl I," efengyl gogoniant y bendigedig Dduw, am yr hon yr ymddiriedwyd i Paul, ac yr hon oedd ef yn bregethu. E ddywedir yn yr efengyl yn aml y bydd barn, ac e ddywedodd Paul wrth bregethu yr efengyl lawer gwaith, y byddai barn; ac yn ol hyny, e fydd barn. Eto fel y cyfr-gollir y rhai dddeddf yn ddiddeddf, ac y bernir y rhai a gawsant y ddeddf wrth y ddeddf, adn. 12; felly, y rhai a gawsant yr efengyl, a fernir yn ol yr efengyl: sef yn ol y derbyniad neu y gwrthodiad a wnaethont o hóni. ‡ Iesu Grist fydd y Barnwr mawr a chyfiawn yn y dydd hwnw. Mae rhai yn troi yr adnod fel hyn:—*Yn y dydd y barno Duw, yn ol fy efengyl I, ddirgeloedd dynion trwy Iesu Grist.*

17 * Wele, Iuddew y'th elwir di, [a] † ac yr wyt yn [b] gorphwys yn y ddeddf, ‡ ac [c] yn gorfoleddu yn Nuw;

a adn. 28, 29. pen. 9. 4—7. Salm 135. 4. Es. 48. 1, 2. Mat. 3. 9. a 8. 11, 12. Ioan 8. 33. 2 Cor. 11. 22. Gal. 2. 15. Eph. 2. 11. Phil. 3. 3—7. Dat. 2. 9. a 3. 1, 9. b adn. 23. pen. 9. 4, 32. Jer. 7. 4—10. Zeph. 3. 11. Luc 10. 28. Ioan 5. 45. a 7. 19. a 9. 28, 29. c Es. 45. 25. a 48. 2. Mica 3. 11. Ioan 8. 41.

Yn awr mae yr apostol yn dyfod yn bennodol at yr Iuddewon, y rhai y gwyddai efe y dangosid yr epistol hwn iddynt, ac y gwyddai hefyd yr ymdrechent hwy ddadymchwelyd ffydd y credinwyr yn Rhufain: mae efe yn coffâu eu breintiau iddynt, yn y rhai yr ymffrostient ac yr ymddiriedent; ac yn dangos iddynt er hyny, fod arnynt hwy eisiau cyfiawnder Crist yn llawn cymmaint â'r cenedloedd. * Mae yn dywedyd yn y rhif unigol, fel y cymhwysai pob un y mater ato ei hunan yn well. Iuddew, oddi wrth Judah, fel Hebreaid oddi wrth Heber, ac Israeliaid oddi wrth Israel. Enw anrhydeddus oedd Iuddew y pryd hwnw, yn arwyddo addefwr ac addolwr y gwir Dduw; ond nid oedd ond enw yn unig i'r rhan fwyaf o honynt, fel y mae enw cristion ar lawer un nad yw yn gristion mewn gwirionedd. † Yn gorphwys yn y ddeddf am gyfiawnder ger bron Duw. ‡ Mai efe yw dy Dduw di, mewn cyfammod â thi, a bod i ti ran ynddo: tebyg i'r rhai yn Mica 3. 11.

18 * Ac yn [d] gwybod *ei* ewyllys *ef*, † ac yn darbod pethau rhagorol, ‡ gan fod [e] wedi dy addysgu o'r ddeddf;

d Deut. 4. 8. Neh. 9. 13, 14. Salm 147. 19, 20. Luc 12. 47. Ioan 13. 17. 1 Cor. 8. 1, 2. Iago 4. 17. e pen. 15. 4. Salm 19. 8. a 119. 98—100, 104, 105, 130. Diar. 6. 23. 2 Tim. 3. 15—17.

* Hyny yw, yr wyt yn tybied, ac yn ymffrostio yn hunanol, dy fod yn gwybod ei ewyllys ef. † Yr wyt yn cymmeryd arnat ddeall a barnu rhagoriaeth pethau a phethau, a chymmeradwyo y pethau gorau a mwyaf rhagorol. *Dokimazeis ta diapheronte* yw y geiriau Groeg; yn arwyddo profi pethau, a gwahaniaethu rhwng y gwerthfawr a'r gwael, fel y gwna toddydd â meteloedd. Yr un geiriau a gyfieithir 'profi y pethau sydd a gwahaniaeth rhyngddynt,' yn Phil. 1. 10. ‡ Yr wyt wedi cael dy addysgu i hyn o'th febyd, allan o'r ddeddf.

19 * Ac yr [f] wyt yn coelio dy fod yn dywysog i'r deillion, [g] yn llewyrch i'r rhai *sydd* mewn tywyllwch:

f Diar. 26. 12. Es. 5. 21. a 56. 10. Mat. 6. 23. a 15. 14. a 23. 16—26. Marc 10. 15. Ioan 7. 46—49. a 9. 34, 40, 41. 1 Cor. 3. 18. a 4. 10. a 8. 1, 2. Dat. 3. 17, 18. g Es. 49. 6, 9, 10. Mat. 4. 16. a 5. 14. Luc 1. 79. Act. 26. 18. Phil. 2. 15.

* Gwedi cael y fath fanteision, yr wyt yn meddwl dy hun yn ddigon gwybodus a golau yn mhethau crefydd, i fod yn dywysog ac yn arweinydd difai i'r paganiaid tywyll, y rhai a gyfrifi di yn ddeillion ac yn y tywyllwch; yr wyt yn myned i'w proselytio hwynt i'r grefydd Iuddewig a'i defodau, ac yn eistedd fel *Rabbi*, neu *Oleuad* mawr yn eu plith hwy, i'w dysgu a'u goleuo.

20 * Yn athraw i'r anghall, [h] yn ddysgawdwr i'r rhai bach, † a chennyt [i] ffurf y gwybodaeth, a'r gwirionedd yn y ddeddf.

h Mat. 11. 25. 1 Cor. 3. 1. Heb. 5. 13. 1 Pedr 2. 2. i pen. 6. 17. 2 Tim. 1. 13. a 3. 5. Tit. 1. 16.

* Yr wyt yn dy osod dy hun i fynu fel athraw a dysgawdwr, i'r rhai a gyfrifi di y mwyaf anghall, annwybodus, a phenglogaidd; ïe, y rhai a gyfrifi ond fel babanod mewn gwybodaeth. Fel hyn yr wyt yn ymchwyddo yn falch, yn tybied yn fawr iawn am dy gyrhaeddiadau dy hun, ac yn wael a dirmygus iawn am eraill; † heb ddim genyt yn y diwedd ond ffurf arwynebol y gwybodaeth, a'r pethau sydd yn y ddeddf, heb erioed ddeall dy hun ysbrydolrwydd y ddeddf foesol, na sylwedd ac ystyr efengylaidd y ddeddf seremoniol. Deillion, anghall, a rhai bach, neu blantos, oeddynt enwau a roddai yr Iuddewon ar y cenedloedd yn gyffredin.

21 * Tydi, [k] gan hynny, yr hwn wyt yn addysgu arall, oni'th ddysgi dy hun? † yr hwn wyt yn pregethu, Na ladratter, [l] a ledretti di?

k Salm 50. 16—21. Mat. 23. 3, &c. Luc 4. 23. a 11. 46. a 12. 47. a 19. 22. 1 Cor. 9. 27. Gal. 6. 13. Tit. 2. 1—7. l Es. 56. 11. Ezec. 22. 12, 13, 27. Amos 8. 4—6. Mica 3. 11. Mat. 21. 13. a 23. 14.

* Cyn i ti gymmeryd arnat addysgu eraill, byddai yn dda i ti addysgu, neu gael dy ddysgu dy hun yn iawn, yn gyntaf: yn enwedig yn y pwnc mawr o gyfiawnâd pechadur ger bron Duw, yr hyn nis gwyddost eto ddim am dano. † Ac am bethau ymarferol; beth a dâl i ti bregethu gonestrwydd i eraill a bod yn anonest dy hun? dywedyd wrth arall Na ladrata, a bod yn euog o ladrata dy hun? Dywedir bod yr Iuddewon yn nodedig am y pechod o ladrata gynt, ac nid gwell ydynt eto yn sicr.

22 * Yr hwn wyt yn dywedyd, Na odineber, [m] a odinebi di? † yr hwn wyt yn ffieiddio delwau, [n] ‡ a gyssegr-yspeili di?

m Jer. 5. 7. a 7. 9, 10. a 9. 2. Ezec. 22. 11. Mat. 12. 39. a 16. 4. Iago 4. 4. n Mal. 1. 8, 14. a 3. 8. Marc 11. 17.

* Yr oeddynt yn dra euog o'r pechod gwarthus hwn
efyd, Salm 50. 18; Jer. 5. 8: ac eto dywedent yn groch
n ei erbyn yn eu hareithiau cyhoeddus, a beïent y
enedloedd yn llŷm o'i blegid. † Er pan ddychwelodd
r Iuddewon o Babilon yr oeddynt yn ffieiddio delwau
delw-addoliaeth, ond yr oeddent yn euog o bechod
rall a ystyriai yr apostol yn gâr agos iddo; ‡ cyssegr-
speiliad: yr oeddynt yn ypeilio Duw yn y degwm a'r
ffrwm, (Mal. 3. 8:) yr hyn oedd can waethed a'i ys-
eilio o'i ogoniant a'i addoliad, a'u rhoddi i eilunod: yr
eddynt yn cyssegr-ypeilio trwy adael heibio bethau
rymaf y gyfraith, barn, a thrugaredd, a ffydd; a gwneu-
hur gorchymyn Duw yn ddirym drwy eu traddodiadau
u hunain: a thybia rhai mai y cyssegr-ypeilio a
eddylir yma oedd, bod yr Iuddewon yn cymmeryd, at
u gwasanaeth eu hunain, y pethau a gyssegrasai y
enedloedd i'w heilunod; y pethau a ddylasent gael eu
eiddio ganddynt yn gystal a'r delwau y cyssegrasid
wy iddynt.

23 [o] * Yr hwn wyt yn gorfoleddu yn y
ddeddf, † trwy dorri y ddeddf a ddïanrhyd-
ddi di Dduw?

o adn. 17. pen. 3. 2. a 9. 4. Jer. 8. 8, 9. Mat. 19. 17—20. Luc
9. 26—29. a 18. 11. Ioan 5. 45. a 9. 28, 29. Iago 1. 22 &c. a 4.
6, 17.

* Yr hwn wyt yn gorfoleddu bod y ddeddf genyt, yn
mffrostio dy fod yn ei deall ac yn ei chadw, ac yn ym-
rphwys am gael bywyd tragywyddol trwy ei chadw; † a
ddïanrhydeddi di Dduw drwy ei thòri? ai i'r dyben o
òri y ddeddf yr wyt ti yn ymddysgu yn y ddeddf? fel
gellych ddïanrhydeddu Duw mewn modd mwy effeith-
ol nac y dichon i bagan wneyd?

24 [p] * Canys enw Duw, o'ch plegid chwi a
ęeblir ym mhlith y Cenhedloedd; [q] † megis y
mae yn ysgrifenedig.

p Es. 52. 5. Galar. 2. 15, 16. Ezec. 36. 20—23. Mat. 18. 7.
Tim. 5. 14. a 6. 1. Tit. 2. 5, 8. q 2 Sam. 12. 14.

* Fel pe dywedasai yr apostol, Na feddylied neb fy
nod I yn dwyn gau-gyhuddiad yn erbyn yr Iuddewon;
mae yn ddigon hysbys i bawb, fod enw Duw yn cael ei
ęablu yn mhlith y cenedloedd o'u plegid hwy, wrth eu
weled yn tòri deddf eu Duw mòr fynych, mòr echrys-
awn, ac mòr ddigywilydd. † Megys yr ysgrifenwyd am
ich tadau, (gwel y cyfeiriadau dan *q*,) felly yr ydych
hwithau yn gwneyd yn barâus. Mae *Josephus*, yr
Hanesydd Iuddewig, yn cyhuddo yr Iuddewon yn aml o
eri i'r cenedloedd gablu enw Duw wrth weled eu han-
ad weithredoedd drwg hwynt.

25 [r] * Canys enwaediad yn wir a wna les,
os cedwi y ddeddf: [s] † eithr os troseddwr y
ddeddf ydwyt, aeth dy enwaediad yn ddïen-
waediad.

r adn. 28, 29. pen. 3. 1, 2. a 4. 11, 12. Deut. 30. 6. Jer. 4. 4.
Gal. 5. 3—6. a 6. 15. Eph. 2. 11, 12. s adn. 23. Jer. 9. 25, 26.
Act. 7. 51.

* Tybiai yr Iuddewon ynfyd, er eu bod hwy yn tòri y
ddeddf foesol yn aml, eto bod yr enwaediad yn dïogelu
eu cyfammod hwy â Duw, ac felly yn dïogelu eu hen-
eidiau rhag colledigaeth: yn ateb i hyny mae yr apos-
col yn dywedyd, y gwnai enwaediad yn wir les, os
cadwent y ddeddf; ond nid y lles oeddynt hwy yn
ceddwl: nis gallai yr enwaediad a chadw y ddeddf
nefyd, roddi bywyd tragywyddol iddynt. Yr oedd en-
waediad yn arwydd fod dyn yn Iuddew; ac yr oedd gan
Iuddew lawer o fanteision rhagor y cenedloedd i ddyfod
yn gristion: yr oedd yn sefyll mewn enw o leiaf yn
naghyfammod Duw, yn berchen ar ymadroddion Duw
(pen. 3. 1, 2,) eiddo ef oedd "y mabwysiad, a'r gogon-
iant, a'r cyfammodau, a dodiad y ddeddf, a'r gwasan-
aeth, a'r addewidion. Eiddynt hwy oedd y tadau, ac o
honynt hwy yr hànodd Crist yn ol y cnawd," pen. 9.
4, 5. Yn yr ystyriaethau uchod yr oedd yr enwaediad
yn fraint ac yn lles, tra parâodd ei oruchwyliaeth, i'r
Iuddew cywir a diragrith, yr hwn oedd yn profi ei
gywirdeb trwy "gadw y ddeddf;" ond mewn ystyr ys-
brydol union-gyrchol, nid oedd o ddim lles, ac nid felly
mae yr apostol yn dywedyd ei fod yn lles. † Os tros-
eddu y ddeddf yr ydwyt, ni buasai gwaeth dy fod heb dy
enwaedu, ac aeth dy enwaediad mewn effaith yn ddïen-
waediad: mae Iuddew drygionus cyn waethed yn ngolwg
Duw âg Ethiopiad. Amos 9. 7.

26 [t] * Os y dïenwaediad gan hynny a
† geidw gyfiawnderau y ddeddf, ‡ oni chyfrifir
ei ddïenwaediad ef yn enwaediad?

t Es. 56. 6, 7. Mat. 8. 11, 12. a 15. 28. Act. 10. 2—4, 34. a 11.
3, &c. 1 Cor. 7. 18, 19. Phil. 3. 3. Col. 2. 11.

* Hyny yw, dyn heb ei enwaedu erioed. † Os ofna
y cyfryw un Dduw fel Cornelius, a chadw cyfiawnderau
y ddeddf mewn addoliad dwyfol a buchedd foesol,
‡ bydd mòr gymmeradwy yn ngolwg Duw a phe byddai
wedi ei enwaedu: cyfrifir ei ddïenwaediad ef yn en-
waediad.

27 * Ac oni bydd i'r dïenwaediad yr hwn
sydd o naturiaeth ([u] os ceidw y ddeddf) [x] † dy
farnu di, yr hwn [y] wrth y llythyren a'r en-
waediad wyt yn troseddu y ddeddf?

u pen. 8. 4. a 13. 10. Mat. 3. 15. a 5. 17—20. Act. 13. 22. Gal.
5. 14. x Ezec. 16. 48—52. Mat. 12. 41, 42. Heb. 11. 7.
y adn. 20, 29. a 7. 6—8. 2 Cor. 3. 6.

* Ar y dybiaeth y bydd i genedl-ddyn dïenwaededig
gadw y ddeddf yn fanol ac yn gydwybodol; † efe a farna,
hyny yw, a euog-farna, yr Iuddew enwaededig a dòro ac
a droseddo y ddeddf. Efe a'i barna ef trwy ei esampl
ragorach yma, ac a gyfyd yn ei wyneb ac a'i condemnia
ef yn y farn ddiweddaf. Athrawiaeth go anarchwaeth-
us oedd hon, i'r Iuddewon beilchion a deddfol, ag
oedd mòr ddïystyrllyd o'r dïenwaediad.

28 [z] * Canys nid yr hwn sydd yn yr am-
lwg sydd Iuddew; [a] ‡ ac nid enwaediad *yw yr*
hyn sydd yn yr amlwg yn y cnawd:

z pen. 9. 6—8. Salm 73. 1. Es. 1. 9—15. a 48. 1, 2. Hos. 1.
6—9. Mat. 3. 9. Ioan 1. 47. a 8. 37—39. Gal. 6. 15. Dat. 2. 9.
a Jer. 9. 26. Rhuf. 4. 10—12. 1 Pedr 3. 21.

* Nid yr hwn sydd Iuddew mewn proffes allanol yn
unig, sydd wir Iuddew, ac Iuddew duwiol yn ngolwg
Duw. † Ac nid yw yr enwaediad hyny a wnair o waith
llaw yn y cnawd o un dyben achubol yn y byd. Nid
yw y dyn yn un o ddewisedigion Duw am ei fod yn
Iuddew, ac nid yw yn dduwiol am ei fod wedi ei en
waedu: rhaid cael rhyw beth arall mwy na hyn am
fywyd tragywyddol.

29 [b] * Eithr yr hwn sydd yn y dirgel *sydd*
Iuddew; [c] † ac enwaediad y galon *sydd* [d] yn yr
yspryd, ‡ nid yn y llythyren; [e] ‖ yr hwn *y*
mae ei glod nid o ddynion, ond o Dduw.

b 1 Sam. 16. 7. 1 Cron. 29. 17. Salm 45. 13. Jer. 4. 14. Mat.
23. 25—28. Luc 11. 39, 40. a 17. 21. Ioan 4. 23, 24. 1 Pedr 3. 4.
c Deut. 10. 16. a 30. 6. Jer. 4. 4. Col. 2. 11, 12. d adn. 27. pen.
7. 6. a 14. 17. Ioan 3. 5—8. Phil. 3. 3. e Ioan 5. 44. a 12. 43.
1 Cor. 4. 5. 2 Cor. 10. 18. 1 Thes. 2. 4. 1 Pedr 3. 4.

* Yr hwn mae ei galon wedi ei dychwelyd at Dduw,
trwy ffydd yn Nghrist, pa un bynag ai Iuddew ai
cenedl-ddyn a fyddo; hwnw sydd wir Iuddew, a gwir
fab ysbrydol i Abraham, yn nghyfrif Duw. † A'r gwir
enwaediad, cymmeradwy gan Dduw, yw puro y galon
trwy ffydd, ac adnewyddu yr ysbryd a'r meddwl gan yr
Ysbryd Glân, yn gyfatebol i arwyddocâd yr enwaediad
allanol. ‡ Nid yr enwaediad allanol, yn ol llythyren y
ddeddf; ond enwaediad ysbrydol a thumewnol, yn ys-
bryd y dyn, a chwedi ei wneyd gan Ysbryd Duw. ‖ Er
bod yr enwaediad hwn yn beth dïeithr i ddynion, ac
yn ddirmygus gan ddynion, eto mae efe a'r neb a'i
caffo yn gymmeradwy gan Dduw, ac yn glodfawr yn ei
olwg. Efallai bod yma gyfeiriad at dadogaeth y gair
Iuddew, yn deilliaw o'r gair Judah; ac yn arwyddo
clod.

PEN. III.

Rhagor-fraint yr Iuddewon.

* PA [a] ragoriaeth gan hynny sydd i'r Iuddew? † neu pa fudd *sydd* o'r enwaediad?

a pen. 2. 25—29. Gen. 25. 32. Preg. 6. 8, 11. Es. 1. 11—15. Mal. 3. 14. 1 Cor. 15. 32. Heb. 13. 9.

* Os nad yw yr Iuddew ond ar yr un tir a'r cenedl ddyn fel y dywedwyd uchod, yn y pwnc o gymmeradwyaeth gyda Duw, ac os nad yw ei enwaediad yn diogelu ei iachawdwriaeth ef mwy na phe buasai heb ei enwaedu erioed; pa ragoriaeth gan hyny sydd i'r Iuddew? pa fantais sydd i neb eu bod yn had naturiol Abraham, ac wedi eu geni o rieni Iuddewig? † Neu pa fuddioldeb eu bod wedi eu dwyn dàn arwydd gweledig cyfammod Duw yn yr enwaediad; fel pobl briodol iddo ef? Pa ddefnydd yw yr enwaediad? ac i ba beth y sefydlwyd y fath ddefod, gan fod y dienwaededig yn cael ei ddwyn i mewn a'i gymmeradwyo yn gystal â'r enwaededig? Rhag-flaenu gwrthddadl, a allai yr Iuddewon godi, mae yr apostol yma.

2 [b] * Llawer ym mhob rhyw fodd: † yn gyntaf, [c] ‡ o herwydd darfod [d] ymddiried iddynt hwy am [e] ymadroddion Duw.

b adn. 3. pen. 11. 1, 2, 15—23, 28, 29. c pen. 2. 18. a 9. 4. Deut. 4. 7, 8. Neh. 9. 13, 14. Salm 78. 4—7. a 147. 19, 20. Es. 8. 20. Ezec. 20. 11, 12. Luc 16. 29—31. Ioan 5. 39. 2 Tim. 3. 15—17. 2 Pedr 1. 19—21. Dat. 19. 10. d 1 Cor. 9. 17. 2 Cor. 5. 19. Gal. 2. 7. 1 Tim. 6. 20. e Act. 7. 38. Heb. 5. 12. 1 Pedr 4. 11.

* I'r gofyniadau uchod mae yr apostol yn ateb, am yr Iuddewon fel corph casgledig; er nad oedd eu bod yn Iuddewon, ac wedi eu henwaedu, o un lles ysbrydol, er cadwedigaeth eu heneidiau; eto bod rhagoriaeth mawr, a buddioldeb lawer, ym mhob rhyw fodd, iddynt hwy rhagor eraill, ag oedd yn tueddu *at*, ac yn gweini fel *moddion* i'w iachawdwriaeth ysbrydol hwynt. † Nid perthyn i drefn ymadrodd y mae y gair hwn yma, fel yn pen. 1. 8; oblegid nid yw yr apostol yn dechreu un ymadrodd yma: nid cyfeirio at rif y breintiau y mae chwaith; oblegid nid yw efe yn enwi ond un fraint o gwbl: ond cyfeirio y mae at ansawdd a rhagoroldeb y fraint hòno; y benaf, a'r werthfawrocaf o bob braint ydyw, ac megys yn cynnwys yr holl freintiau eraill. ‡ Yr Ysgrythyrau sanctaidd, sef Llyfrau yr Hen Destament, yn ewedig y ddeddf a roddwyd ar Sinai, yr hon a eilw Stephan yn "ymadroddion bywiol," Act. 7. 38. Hefyd holl ysgrifeniadau y prophwydi am y Messiah oedd i ddyfod o'u cenedl hwy. Ymddiriedodd Duw y pethau gwerthfawr hyn i'r Iuddewon, yr hyn oedd ragoriaeth a buddioldeb mawr iddynt hwy.

3 * Oblegid beth [f] os anghredodd rhai? [g] † a wna eu hanghrediniaeth hwy ffydd Duw yn ofer?

f pen. 9. 6. a 10. 16. a 11. 1—7. Heb. 4. 2. g pen. 11. 29. Num. 23. 19. 1 Sam. 15. 29. Es. 54. 9, 10. a 55. 11. a 65. 15, 16. Jer. 33. 24—26. Mat. 24. 35. 2 Tim. 2. 13. Heb. 6. 13—18.

* Beth os anghredodd rhai? (Act. 28. 24.) megys yn sicr yr anghredodd llawer, ie, y rhan fwyaf o'r Iuddewon, gan wrthod y Messiah pan ddaeth, er bod ganddynt ymadroddion Duw yn dywedyd am dano. † A wna eu hanghrediniaeth hwy air Duw yn ddirym, neu a rwystra hyny ffyddlondeb Duw i gyflawni ei air? Efe a gyflawnodd ei addewidion yn nanfoniad y Messiah; ac os na dderbynient hwy y Messiah hwnw, a allent hwy daeru fod Duw yn tòri ei addewid, ac yn pallu yn ei wirionedd, herwydd ei fod yn eu gwrthod hwy am eu hanghrediniaeth, eu hanufudd-dod, a'u hanfad ddrygioni?

4 [h] * Na atto Duw: [i] † eithr bydded Duw yn eirwir, [k] ‡ a phob dyn yn gelwyddog; ‖ megis yr ysgrifenwyd, [l] Fel y'th gyfiawnhâer vn dy eiriau, § ac y gorfyddech pan y'th farner.

h adn. 6, 31. pen. 6. 2, 15. a 7. 7, 13. a 9. 14. a 11. 1, 11. Luc 20. 16. 1 Cor. 6. 15. Gal. 2. 17. a 3. 21. a 6. 14. i Deut. 32. 4. Job 40. 8. Salm 100. 5. a 119. 160. a 138. 2. Mica 7. 20. Ioan 3. 33. 2 Cor. 1. 18. Tit. 1. 2. Heb. 6. 18. 1 Ioan 5. 10, 20. Dat. 3. 7. k Salm 62. 9. a 116. 11. l Job 36. 3. Salm 51. 4. Mat. 11. 19.

* *Mé yenoito:* 'Na fydded y fath beth,' yw priodol ystyr y geiriau; ac a ddefnyddir fel y dull cryfaf o wadu peth, gydag atgasrwydd. Cyfieithir y ddau air, "Na atto Duw," yn mhob màn, ac felly yn y Saesoneg hefyd. † Paràed ef i fod yn ffyddlawn i'w addewidion a'i gyfammod, a gweler a chydnabydder ei fod ef felly gan bawb: ‡ a phwy bynag a ddywedo neu a feddylio nad ydyw felly, celwyddog yw hwnw, a chyfrifer ef yn gelwyddog gan bawb a gredant wirionedd a ffyddlondeb Duw. Neu ynte fel hyn:—Celwyddog yw pob dyn mewn cymhariaeth i Dduw; efe yn unig sydd yn ddigelwyddog, ac yn anmhosibl iddo fod yn gelwyddog. ‖ Mae hyn wedi ei ysgrifenu yn Salm 51. 4, lle yr oedd Dafydd yn cyfaddef ei bechod, ac yn cydnabod uniondeb bygythion a barnedigaethau Duw am y pechod hwnw a phob pechod arall. § "Ac y byddit bur pan farnech," yw y geiriau yn y Salm; yma, "Fel y gorfyddech pan y'th farner." Yno, Duw sydd yn barnu; yma, Duw sydd yn cael ei farnu gan eraill, y rhai trwy eu hanghrediniaeth sydd yn barnu ei ffydd, neu ei ffyddlondeb ef yn ofer, adn. 3, ac yn ei wneuthur ef ei hun yn gelwyddog. 1 Ioan 5. 11. Syniad dychrynllyd yw meddwl am ddynion yn barnu Duw! ond wrth farnu, mae efe yn bur; ac wrth gael ei farnu, mae efe yn gorfod yn fuddugoliaethus: bydd Duw byth yn eirwir, a'i holl elynion byth yn gelwyddog.

5 [m] * Eithr os yw ein hanghyfiawnder ni yn canmol cyfiawnder Duw, [n] † pa beth a ddywedwn? [o] ‡ Ai anghyfiawn *yw* Duw, yr hwn sydd yn dwyn arnom ddigofaint? [p] ‖ (yn ol dyn yr wyf yn dywedyd)

m adn. 7, 25, 26. a 5. 8, 20, 21. n pen. 4. 1. a 6. 1. a 7. 7. a 9. 13, 14. o pen. 2. 5. a 3. 19. a 9. 18—20. a 12. 19. Deut. 32. 39—43. Salm 58. 10, 11. a 94. 1, 2. Nah. 1. 2, 6—8. 2 Thes. 1. 6—9. Dat. 15. 3, 4. a 16. 5—7. a 18. 20. p pen. 6. 19. 1 Cor. 9. 8. Gal. 3. 15.

* Eto, gallai rhai o'r Iuddewon ymrysongar ddadlau yn mhellach, os oedd eu hanghyfiawnder a'u hanghrediniaeth hwy yn gwrthod y Messiah, yn rhoddi ychwaneg o ogoniant i gyfiawnder Duw yn ei ddiledd arnynt, ac hefyd ar y cyfiawnder gogoneddus hwnw, trwy ba un mae efe yn cyfiawnâu y mwyaf annheilwng a gredo; † pa beth a allent hwy ddywedyd am ei waith ef yn eu cauad hwy allan o bob rhan yn Nghrist, ac yn eu cospi mòr drwm am ei wrthod ef? ‡ Onid oedd Duw yn anghyfiawn yn dwyn arnynt hwy y fath ddigofaint ofnadwy, am y pechod hwnw oedd megys yn achlysur iddo ef i ddangos ei ogoniant yn fwy disglaer? ‖ Yn ol rhesymiad dyn anianol, ac megys yn mherson Iuddew anghrediniol, yr oedd yr apostol yn dywedyd fel yna, ac nid dywedyd ei feddwl ei hun yr oedd, fel mae yn amlwg wrth ei atebiad yn yr adnod nesaf. Efallai iddo glywed rhai o'r Iuddewon yn cecrus-ddadlau yn y dull rhyfygus uchod.

6 [q] * Na atto Duw: [r] canys wrth hynny pa fodd y barna Duw y byd?

q Gwel ar adn. 4. r Gen. 18. 25. Job 8. 3. a 34. 17—19. Salm 9. 8. a 11. 5—7. a 50. 6. a 96. 13. a 98. 9. Act. 17. 31.

* Gwel y sylw ar adn. 4. Och, rhag y fath feddwl atgas a chableddus, na atto Duw i mi goledd y fath dŷb, na chaniatâu y fath ganlyniad! Na, mae yn eithaf cyfiawn iddo ef wrthod yr Iuddewon digred, a phawb digred, a wrthodont ei Fab ef, a dwyn arnynt ddigofaint hyd yr eithaf. Mae yn gyfiawn iddo hefyd alw a chyfiawnâu y neb a fyno trwy ffydd, a chael gogoniant iddo ei hun trwy y naill a'r llall o'r goruchwyliaethau uchod. † Duw yn anghyfiawn! pa fodd felly y barna efe y byd? Oni wna Barnydd yr holl ddaear farn? ac onid yw barn Duw yn ol gwirionedd. Yn ol y dull uchod o ymresymu, nis gall efe farnu neb; oblegid caiff ei gyfiawnder ef ei ogoneddu yn nghospedigaeth ei holl elynion, o'r dynion gwaelaf hyd yr angelion uchelaf, a wrthryfelasant yn ei erbyn.

7 [s] * Canys os bu † gwirionedd Duw trwy ‡ nghelwydd i ‖ yn helaethach i'w ogoniant ef, [t] paham y'm bernir innau etto megis pechadur?

s Gen. 37. 8, 9, 20. a 44. 1—14. a 50. 18—20. Ex. 3. 19. a 14. 30. 1 Bren. 13. 17, 18, 26—32. 2 Bren. 8. 10—15. Mat. 26. 34, 70—75. t pen. 9. 19, 20. Es. 10. 6, 7. Act. 2. 23. a 13. 27—29.

* Yr un wrthddadl eto, mewn dull arall o'i geirio. Yn y Testament Prussiaidd mae y rhan flaenaf o'r addod fel hyn:—"Ar yr un pryd, os yw fy nghelwydd I fn foddion i ogoneddu Duw, trwy wneuthur i ardderchgwgrwydd ei wirionedd ef ddysgleirio yn fwy amlwg," &c. Hyn yw y synwyr yn sicr; ond nid yw yn gydred i'r geiriau gwreiddiol. † Geirwiredd Duw, neu ei ffyddondeb i'w wirionedd. ‡ Anffyddlondeb ac anwadalwch yn; yn nghyd a'i anghrediniaeth, yr hon sydd yn wneuthur Duw yn gelwyddog. ‖ Os yw Duw yn cael fwy o ogoniant yn nghyflawniad ei wirionedd, trwy fy nod I yn gelwyddog yn ei wadu; § paham y beïir ac y ospir fi fel pechadur, a minnau yn achlysur iddo ef ael y gogoniant chwanegol hwnw? Dull tra dychrynyd o ymresymu yw hyn, ac nid oes ond dyn eithaf faled a ymresyma fel hyn.

8 * Ac nid (megis [u] y'n ceblir, ac megis y ywed rhai ein bod yn dywedyd) [x] † Gwnawn drwg, fel y dêl daioni? ‡ y rhai y mae eu damnedigaeth yn gyfiawn.

u Mat. 5. 11. 1 Pedr 3. 16, 17. x pen. 5. 20. a 6. 1, 15. a 7. Judas 4.

* Pe caniatêid unwaith, nad yw pechu yn erbyn Duw un bechod, o herwydd ei fod ef yn cael mwy o ogoniant un y diwedd drwy hyny, sef trwy achub rhai, a chospi raill; † y peth gorau i ni yw gwneyd drwg fel y dêl daioni: po mwyaf o ddrwg a wnelom ni, mwyaf i gyd o ogoniant a gaiff Duw; ac felly po mwyaf y drwg, gorau oll fydd y canlyniadau. Mae yn debyg fod rhai o elynion crefydd yn dywedyd yr anwiredd gwarthus uwn ar y cristionogion yn y dyddiau hyny; eu bod yn dywedyd yn gableddus, "Gwnawn ddrwg fel y dêl daioni." Ond mae yr apostol yn gwadu y cyhuddiad anwireddus, ac yn gwadu y fath athrawiaeth gableddus nefyd. ‡ Pwy bynag a ddysgo y fath athrawiaeth, ac a wnelo yn ol y fath athrawiaeth, sef gwneyd drwg fel y dêl daioni; mae eu damnedigaeth yn gyfiawn, er y aerent hwy i'r gwrthwyneb.

9 [y] * Beth gan hynny? [z] a ydym ni yn fwy rhagorol? † Nac *ydym* ddim: ‡ canys ni a brofasom o'r blaen [a] fod pawb, yr Iuddewon a'r Groegwyr, ‖ dan bechod;

y adn. 5. pen. 6. 15. a 11. 7. 1 Cor. 10. 19. a 14. 15. Phil. 1. 18. z adn. 22, 23. Es. 65. 5. Luc 7. 39. a 18. 9—14. 1 Cor. 14. 7. a Gal. 3. 10, 22.

* Yma mae yr apostol yn dychwelyd at ei fater dechreuol, "Pa ragoriaeth sydd i'r Iuddew?—Llawer yn mhob rhyw fodd," adn. 1, 1. Yr oedd llawer o ragoriaeth i'r Iuddewon ar y Cenedloedd o ran breintiau; ond a oedd yr Iuddewon yn fwy rhagorol o ran cyflwr, a chymmeradwyaeth gyda Duw, na'r Cenedloedd? † Nac oeddynt ddim, ebe yr apostol; o'r ddau yr oedd eu cyflwr yn waeth na'r eiddo y Cenedloedd, gan eu bod wedi pechu yn wyneb mwy o freintiau a goleuni na hwy. ‡ Profasai yr apostol fod y Cenedloedd dàn bechod yn y bennod gyntaf, a phrofasai fod yr Iuddewon felly hefyd yn yr ail bennod. ‖ Dàn euogrwydd ac arglwyddiaeth pechod; gan hyny dàn goll-farn ac yn rhwym i ddigofaint o ran dim a allent hwy eu hunain ei wneyd er ymwared.

10 [b] * Megis y mae yn ysgrifenedig, [c] † Nid oes [d] neb cyfiawn, nac oes un:

b adn. 4. pen. 11. 8. a 15. 3, 4. Es. 8. 20. 1 Pedr 1. 16. c Salm 14. 1—3. a 53. 1—3. d adn. 23. Job 14. 4. a 15. 14. a 25. 4. Marc 10. 18. Eph. 2. 1—3. 1 Ioan 1. 8—10.

* Mynai yr Iuddewon ddadlau "Dïeuog" yn wyneb y cwyn uchod, ac nad oeddynt hwy yn bechaduriaid fel y Cenedloedd; gan hyny mae yr apostol yn cadarnâu ei gyhuddiad trwy amryw o'u hysgrythyrau hwy eu hunain. † Mae y geiriau hyn a'r adnodau a ganlyn, yn cael eu dyfynu allan o wahanol ranau o'r Hen Destament, ond nid yn gwbl air yn air â'r Hebraeg nac â chyfieithiad y deg a thriugain chwaith. Gan nad oedd *neb*, nac *un* cyfiawn wrth natur yn amser Dafydd, rhaid bod yr Iuddewon yn anghyfiawn yn gystal a'r Cenedloedd: ac yr un peth yw dynion wrth *natur* yn mhob oes, nid oedd natur wedi gwella yn amser Paul.

11 [e] * Nid oes neb yn deall; [f] † nid oes neb yn ceisio Duw.

e pen. 1. 22, 28. Salm 14. 2—4. a 53. 2, 4. a 94. 8. Diar. 1. 7, 22, 29, 30. Es. 27. 11. Jer. 4. 22. Hos. 4. 6. Mat. 13. 13, 14, 19. Tit. 3. 3. 1 Ioan 5. 20. f pen. 8. 7. Job 21. 15, 16. Es. 9. 13. a 31. 1. a 55. 6. a 65. 1. Hos. 7. 10.

* Nid oes neb yn deall yn iawn am Dduw, am air Duw, am eu dyledswyddau eu hunain yn ngwyneb gair Duw; nid oes neb wrth natur yn deall trueni a pherygl ei gyflwr, na'r ffordd i gael cymmod â Duw, a chymmeradwyaeth yn ei olwg ef. Gan nad oedd *neb* yn deall, nid oedd yr Iuddewon wrth natur yn deall, er bod ymadroddion Duw ganddynt. † Nid oes neb yn ceisio adnabod Duw, nac yn ceisio cymmod a chymdeithas âg ef; nid oes neb yn galw arno, yn ei wasanaethu wrth ei fodd, yn ei ogoneddu yma, nac yn ceisio ei fwynâu byth ar ol hyn. Yn adn. 10, dangosir sefyllfa anghyfiawn y person; yn yr adnod hon dangosir llygriad cynneddfau y person, sef y deall a'r ewyllys.

12 [g] * Gwyrasant oll, [h] † aethant i gyd yn anfuddiol; [i] ‡ nid oes un yn gwneuthur daioni, nac oes un:

g Ex. 32. 8. Salm 14. 3. Preg. 7. 29. Es. 53. 6. a 59. 8. Jer. 2. 13. Eph. 2. 3. 1 Pedr 2. 25. h Gen. 1. 31. a 6. 6, 7. Mat. 25. 30. Philemon 11. i Salm 53. 1. Preg. 7. 20. Es. 64. 6. Eph. 2. 8—10. Phil. 2. 12, 13. Tit. 2. 13, 14. Iago 1. 16, 17.

* I'r gwrthwyneb o fod yn gyfiawn, o ddeall, ac o geisio Duw, maent oll yn greaduriaid gwrthgiliedig, wedi gŵyro o ffordd y gwirionedd a'r bywyd, a chwedi gadael Duw a phob daioni. † Nid yn unig yn anfuddiol, ond yn atgas a ffiaidd: peth nad yw yn addas i ddim ond i'w fwrw i'r domen yw ystyr y gair, medd *Pool*. ‡ Nid oes un yn gwneuthur dim daioni gwirioneddol ac ysbrydol, nac oes un. Pa fodd y gallant gwedi y fath ddysgrifiad uchod o honynt, ac heb allu gwneuthur daioni, pa fodd y gallant fod yn gyfiawn.

13 [k] * Bedd agored *yw* eu ceg; [l] † â'u tafodau y gwnaethant ddichell; [m] ‡ gwenwyn aspiaid *sydd* dan eu gwefusau:

k Salm 5. 9. Jer. 5. 16. Mat. 23. 27, 28. l adn. 4. Salm 5. 9. a 12. 3, 4. a 36. 3. a 52. 2. a 57. 4. Es. 59. 3. Jer. 9. 3—5. Ezec. 13. 7. Mat. 12. 34, 35. Iago 3. 5—8. m Deut. 32. 33. Job 20. 14—16. Salm 140. 3.

* Mae eu cêg fel bedd agored, o herwydd eu hawydd a'u glythineb anniwalladwy; neu ynte o herwydd y geiriau atgas a ddaw allan o'u genau, y rhai a ddrewant fel arogl corph marw mewn bedd agored. † Llefaru gweniaith, dichell, a thwyll, yw gwaith cyffredin eu tafodau; gan feddwl un peth a dywedyd peth arall, yn debyg i dad y celwydd, a thàn ei lywodraeth ef. ‡ Tra maent yn proffesu cyfeillgarwch, maent yn ddirgelaidd yn taflu allan enllib a gwaradwydd, yr hyn a archolla eu cymmydogion yn sydyn, yn ddiarwybod, ac yn anfeddyginiaethol, fel gwenwyn ofnadwy aspiaid, yr hwn a daflant i'r archoll pan frathont.

14 [n] * Y rhai y mae eu genau yn llawn melldith a chwerwedd.

n Salm 10. 7. a 59. 12. a 109. 17, 18. Iago 3. 10.

* Yn yr adnod o'r blaen dywedir am waith dirgelaidd y tafod, yma dywedir am ei waith mwy cyhoeddus ef: yn lle ymadroddion duwiol a thirion, mae eu genau yn llawn melltithion, rhegfêydd, anudoniaeth, a chableddau chwerwon; ac yn bytheirio y rhai hyn allan yn gyhoeddus, ddigywilydd, a diarswyd, er dianrhydedd i Dduw, a niweidiau i ddynion.

15 [o] * Buan *yw* eu traed i dywallt gwaed.

o Diar. 1. 16. a 6. 18. Es. 59. 7, 8.

*Am aelodau eraill y corph, a gweithredoedd y bywyd, maent oll ar waith mewn pechod, yn gyfatebol i halogrwydd eu calonau, a llygredigaeth eu geiriau. Mae y traed, y rhai a ddylent eu cario hwynt i bob gweithred dda, yn rhedeg o amgylch yn gyflym ac yn fywiog, i wneuthur pob drygioni, hyd yn nôd i dywallt gwaed gwirion. Diar. 1. 16; Esa. 59. 7.

16 * Distryw ac aflwydd *sydd* yn eu ffyrdd:
17 [p] † A ffordd tangnefedd nid adnabuant.

p pen. 5. 1. Es. 57. 21. a 59. 8. Mat. 7. 14. Luc 1. 79.

*Distryw ac aflwydd i bawb eraill sydd yn eu ffyrdd hwy; dygant ddistryw ac aflwydd o ryw fath a'i gilydd, heb achos, ar gynnulleidfâoedd a phersonau, gwladol ac eglwysig; ar bawb a ymwelont hwy â hwynt; ac yn y diwedd ar eu penau eu hunain, fel cyfiawn wobr eu drygioni. † Ac mòr hollawl wrthnysig a chyfeiliornus ydynt hwy mewn calon a buchedd, fel y maent yn gwbl ddieithriaid i bob peth a duedda i'w dedwyddwch gorau hwy ac eraill, yn y byd hwn ac yn yr hwn a ddaw. Nis gwyddant y ffordd i gael cymmod â Duw, na'i dangnefedd yn eu heneidiau eu hunain; ac nis gwyddant pa fodd i gynnyddu tawelwch a thangnefedd yn mhlith eraill, nac ychwaith yn eu plith eu hunain.

18 [q] * Nid oes ofn Duw ger bron eu llygaid.

q Gen. 20. 11. Salm 36. 1. Diar. 8. 13. a 16. 6. a 23. 17. Luc 23. 40. Dat. 19. 5.

*I ddywedyd y cwbl mewn un gair, Nid oes ofn Duw ger bron eu llygaid nac yn eu calonau; a thyna yr achos o'r holl lygredigaeth a'r drygioni uchod, yn eu calonau, eu cynneddfau, eu geiriau, a'u gweithredoedd. Nid oes ganddynt barch sanctaidd i Dduw yn eu calonau; dim meddwl difrifol am ei Fawredd dwyfol a'i awdurdod ef; am ei hollwybodaeth, ei holl-bresenoldeb, ei holl-alluawgrwydd, ei gyfiawnder, ei sancteiddrwydd, a'i ddaioni ef; na'u cyfrifoldeb eu hunain iddo ef: nid ydynt yn ofni ei ddigio ef; nac yn ofni y canlyniad o hyny: nid oes ganddynt egwyddor o wir grefydd i'w harwain na'u llywodraethu; i'w hattal hwy rhag unrhyw ddrwg, nac i'w tueddu at unrhyw ddaioni! Dyma gyflwr truenus yr Iuddewon wrth natur, yn gystal â'r Cenedloedd paganaidd.

19 * Ni a wyddom hefyd [r] am ba bethau bynnag y mae y ddeddf yn ei ddywedyd, † mai wrth y rhai sydd dan y ddeddf y mae hi yn ei ddywedyd: [s] ‡ fel y cauer pob genau, [t] ac y byddo yr holl fyd dan farn Duw

r adn. 2. pen. 2. 12—18. Ioan 10. 35. a 15. 25. 1 Cor. 9. 20, 21. Gal. 3. 23. a 4. 5, 21. a 5. 18. s adn. 4. pen. 1. 20. a 2. 1. 1 Sam. 2. 9. Job 5. 16. a 9. 2, 3. Salm 107. 42. Ezec. 16. 63. Mat. 22. 12, 13. Ioan 8. 9. 1 Cor. 1. 29. t adn. 9, 23. pen. 2. 1. Gal. 3. 10, 22.

*Rhaid bod y gair "deddf" yn y fàn hon yn arwyddo yr Hen Destament yn gyffredin; oblegid nid oes yr un o'r dyfyniadau uchod wedi eu cymmeryd allan o Lyfrau Moses, eithr o'r Salmau a'r prophwydi: gwel y cyfeiriadau. Gallai yr Iuddewon fod yn barod i haeru, nad oedd y darluniad gresynol uchod o ddynolryw yn perthyn dim iddynt hwy fel cenedl; (oddigerth i rai personau anfad yn eu plith;) ond i'r Cenedloedd: i ragflaenu yr wrthddadl hòno, mae yr apostol yn dywedyd, mai wrth yr Iuddewon yn anad neb arall, yr oedd y ddeddf yn dywedyd y pethau uchod, a phob peth ag oedd yn ddywedyd. Hwy oedd wedi cael y ddeddf, ac nid y Cenedloedd; o ganlyniad wrthynt hwy yn benaf ac yn mlaenaf yr oedd y ddeddf yn llefaru pob peth. † Beth bynag mae y ddeddf yn ei ddywedyd, mewn ffordd o orchymyn, argyhoeddiad, neu gondemniad, wrth ei deiliaid ei hun, y rhai sydd dàn ei llywodraeth a'i goruchwyliaeth, y mae hi yn ei ddywedyd; ac nid wrth y paganiaid y rhai ni chawsont mo hòni erioed fel y cafodd yr Iuddewon hi. Yn ei ffurf gyfammodol, yr oedd y Cenedloedd dàn y ddeddf yn gystal â'r Iuddewon; ond yn ol yr ystyr a roddwyd i'r gair deddf yn nechreu y sylwad hwn, nid oeddynt dàni. ‡ Beth bynag mae y ddeddf yn ei ddywedyd ar lythyrenau wrth yr Iuddewon, mae yn ei ddywedyd i gauad eu genau ymffrostgar hwynt, ac i brofi eu bod yn euog ger bron Duw: a pha beth bynag mae yn ei ddywedyd yn nghydwybodau a meddyliau y Cenedloedd, mae yn ei ddywedyd i gymmeryd esgusodion oddi wrthynt; ac felly, yn y farn, bydd pob genau yn gauad, yr Iuddewon a'u hymffrost deddfol, a'r Cenedloedd a'u hesgusodion disail; a rhaid i'r holl fyd annuwiol, o Iuddewon a Chenedloedd, syrthio dàn farn Duw.

20 * Am hynny [u] trwy weithredoedd y ddeddf [x] ni chyfiawnhêir un cnawd [y] yn ei olwg ef, [z] † canys trwy y ddeddf *y mae* adnabod pechod.

u adn. 28. pen. 2. 13. a 4. 13. a 9. 32. Act. 13. 39. Gal. 2. 16, 19. a 3. 10—13. a 5. 4. Tit. 3. 5—7. Iago 2. 9, 10. x Job. 25. 4. Salm 130. 3. a 143. 2. Iago 2. 20—26. y Job 15. 15. a 25. 5. z pen. 7. 7—9. Gal. 2. 19.

* Y casgliad penderfynol ac amlwg oddi wrth y pethau uchod yw, na chyfiawnêir un cnawd trwy weithredoedd y ddeddf yn ngolwg Duw. Ni chyfiawnêir yr Iuddewon trwy ufudd-dod i'r ddeddf a gawsant hwy mewn llythyrenau; ac ni chyfiawnêir y Cenedloedd trwy ufudd-dod i'r un ddeddf sy ganddynt hwythau yn eu meddyliau a'u cydwybodau. Mae pob cnawd yn euog drwy gyfrifiad o un camwedd Adda; ac mae yr holl fyd yn annhraethol fŷr o gadw y ddeddf yn berffaith yn eu personau eu hunain. † Mae uniondeb manol y ddeddf yn dangos ein gwyrni ni; a sancteiddrwydd y ddeddf yn dynoethi ein halogrwydd aflan ni; ac fel hyny, datguddio pechod mae y ddeddf, ac nis gall byth ein cyfiawnâu ni oddi wrtho.

21 * Ac yr awrhon [a] yr eglurwyd † cyfiawnder Duw heb y ddeddf, [b] ‡ wrth gael tystiolaeth gan y ddeddf [c] a'r prophwydi;

a pen. 1. 17. a 5. 19, 21. a 10. 3, 4. Gen. 15. 6. Es. 45. 24. Jer. 23. 5, 6. a 33. 16. Dan. 9. 24. 1 Cor. 1. 30. 2 Cor. 5. 21. 2 Pedr 1. 1. b Deut. 18. 15—19. Luc 24. 44. Ioan 1. 45. a 3. 14, 15. a 5. 46, 47. Act. 26. 22. Heb. 10. 1—14. c pen. 1. 2. Act. 3. 21—25. a 10. 43. a 28. 23. 1 Pedr 1. 10, 11.

* Gwedi cauad i fynu yr holl fyd dàn bechod, a chauad i fynu bob drws o obaith i'r pechadur yn llwybr y ddeddf; mae yr apostol yn yr adnod hon yn dangos drws arall, gwell, a mwy diogel, wedi ei agoryd i bechaduriaid yn yr efengyl: er nad oes modd i gyfiawnâu pechadur trwy weithredoedd y ddeddf, eto, eglurodd Duw ffordd ogoneddus heb y ddeddf; hyny yw, heb ymddybynu ar ufudd-dod personol dyn i'r ddeddf. † Gelwir hwn yn gyfiawnder Duw, am ei fod yn beth hollawl o Dduw; o drefniad ac o ddarpariad Duw, yn gymmeradwy gan Dduw, ac yn cael ei gyfrif ganddo ef i bechadur euog. ‡ Nid peth newydd yw y cyfiawnder hwn, neu y llwybr hwn o gyfiawnâu pechaduriaid: yr oedd manylrwydd a melltithion ofnadwy y ddeddf foesol, wrth eu cymharu â'r addewidion o drugaredd i bechaduriaid, yn ei led ddangos; yr oedd aberthau y ddeddf seremoniol yn ei ddangos yn eglurach, yr oedd rhag-ddywediadau a thystiolaethau y prophwydi yn ei ddangos yn eglurach eilwaith: yr oedd ffydd a gobaith yr hen gredinwyr yn ei gydnabod; ac yr oedd yr Hen Destament oll, o'i iawn ddeall, yn dysgu i ddynion ddysgwyl am y cyfiawnder ac ymddiried ynddo.

22 * Sef cyfiawnder Duw, [d] *yr hwn sydd* trwy ffydd Iesu Grist [e] † i bawb, [f] ac ar bawb a gredant: [g] canys nid oes gwahaniaeth.

d pen. 4. 3—13, 20—22. a 5. 1. a 8. 1. Phil. 3. 9. e pen. 4. 6, 11, 22. Gal. 2. 16. a 3. 6. Iago 2. 23. f Es. 61. 10. Mat. 22. 11, 12. Luc 15. 22. Gal. 3. 7—9. g pen. 2. 1. a 10. 12. Act. 15. 9. 1 Cor. 4. 7. Gal. 3. 28. Col. 3. 11.

* "Cyfiawnder Duw heb y ddeddf," medd yr apostol yn yr adnodo'r blaen: yma mae yn dywedyd yn fanylach beth oedd; sef "cyfiawnder Duw, yr hwn sydd trwy ffydd Iesu Grist:" y cyfiawnder a wnaeth Iesu y Duw-ddyn, fel Cyfryngwr a Machnïydd, yn neddfle a thros bechaduriaid. † Mae y cyfiawnder dwyfol a grasol hwn i bawb ac ar bawb a gredant, Iuddewon yn

gystal â Chenedloedd, a Chenedloedd yn gystal âg Iuddewon: nid yw i neb ond y rhai a gredant; nid oes nan i'r Iuddewon deddfol, nac i'r Groegiaid philosoph-didd ynddo: trwy gredu yn unig y mae ei gael, ac i'r nawl a gredant yn unig mae Duw yn ei gyfrif. Mae *i* nawb a gredant; ïe, rhoddir ef *ar* bawb a gredant, fel iwisg am danynt: oblegid nis gellir gwneuthur unrhyw nynwyr cyson arall o'r geiriau *i* bawb ac *ar* bawb.

23 [h] * Oblegid pawb a bechasant, [i] † ac ddynt yn ol [k] am ogoniant Duw;

h adn. 9—19. pen. 1. 28—32. a 2. 1, &c. Gal. 3. 22. 1 Ioan 1. 8—10. i Heb. 4. 1. k pen. 5. 2. 1 Thes. 2. 12. 2 Thes. 2. 14. 1 Pedr 4. 13. a 5. 1, 10.

* Pawb a bechasant, Iuddewon a Chenedloedd: er na phechodd pawb i'r un graddau, nac yn erbyn yr un oleuni a breintiau, eto pawb a bechasant. Mae euog-grwydd camwedd Adda ar bawb, e lygrwyd natur pawb, ac e bechodd pawb o oedran gweithredoedd. † O gan-iniad, mae pawb yn ol o roddi y gogoniant i Dduw sydd yn ddyledus iddo; yn ol am ei ddelw ogoneddus ef ar eu heneidiau; ac yn ol o'u rhan eu hunain o bob lobaith am gael eu gogoneddu gydag ef a chanddo newn bywyd tragywyddol. Maent yn ol fel dynion yn hedeg gyrfa; ond yn diffygio, ac yn methu cyrhaedd y ôd.

24 [l] * A hwy wedi eu cyfiawnhâu † yn rhad ‡ trwy ei ras ef, [m] trwy y prynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu:

l pen. 5. 16—19. 1 Cor. 6. 11. Eph. 2. 7—10. Tit. 3. 5—7. m pen. 5. 9. Es. 53. 11. Mat. 20. 28. Eph. 1. 6, 7. Col. 1. 14. 1 Tim. 2. 6. Tit. 2. 14. Heb. 9. 12—14. 1 Pedr 1. 18, 19. Dat. 5. 9. 7. 14.

* Gan fod pawb wedi pechu, a phawb yn ol am ogon-iant Duw, ofer i neb ddisgwyl na meddwl am gael eu cyfiawnâu trwy weithredoedd y ddeddf: ac eto y mae gan Dduw ffordd dra rhagorol i gyfiawnâu y rhai sydd ael hyn wedi darfod am danynt. † Mae y cyfiawnder awn yn "rhad" i bechadur, heb ddim yn y pechadur yn ei haeddu, ac heb ddim llaw ganddo yn y gwneuthuriad o hóno. ‡ O gaulyniad, rhaid mai peth o "ras" Duw ydyw yn hollawl, nid yn unig *heb* haeddiant dynol, ond yn hollawl yn erbyn haeddiant dynol: yr hyn, mae yn debyg, mae yr aml-eiriad "yn rhad, trwy ei ras ef," yn arwyddocâu. || Ufudd-dod a marwolaeth Iesu yn neddf-ae ei bobl, neu yn ngeiriau yr adnod, "y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu," yw defnydd y cyfiawnder hwn; a thrwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu y mae gras Duw yn cael llwybr rhydd a chyfiawn, i weithredu yn nghyfiawnâd pechaduriaid. Fel hyn y dywed *Pool*:—"Mae yr achos haeddiannol yn cael ei osod allan trwy gyffelybiaeth o arferion milwraidd, lle mae caethion a gymmerir mewn rhyfel, ac sydd yn meddiant un arall, yn cael eu rhyddâu trwy dalu iawn am danynt."

25 * Yr hwn a osododd Duw [n] † yn iawn, [o] ‡ trwy ffydd yn ei waed ef, [p] || i ddangos ei gyfiawnder ef, § trwy faddeuant y pechodau a rwnaethid o'r blaen, trwy ddioddefgarwch Duw;

n Ex. 25. 17—22. Lef. 16 15. Heb. 9. 5. 1 Ioan 2. 2. a 4. 10. o pen. 5. 1, 9, 11. Es. 53. 11. Ioan 6. 47, 53—58. Col. 1. 20—23. Heb. 10. 19, 20. p adn. 26. Salm 22. 31. a 40. 10. a 50. 6. a 97. 6. a 119. 142. 1 Ioan 1. 10.

* Yr hwn a osododd, neu a rag-ordeiniodd *(proêtheto)* Duw Dad i hyn, yn ei arfaeth a'i gyngor tragywyddol; yr hwn a rag-ddangosodd efe yn nghysgodau a phroph-wydoliaethau yr Hen Destament; ac yr hwn o'r diwedd a ddangosodd ef ar gyhoedd yn y cnawd, ac yn ngwein-idogaeth yr efengyl. † "Yn iawn;" fel 1 Ioan 2. 2; cyfeiriad sydd yma at y drugareddfa, wedi ei thaenellu â gwaed, yr hon oedd gysgod o'r iawn mawr hwn; ac oddi ar ba un yr oedd Duw yn ei ddangos ei hun yn gymmodlawn â phechaduriaid, ac yn drugarog wrthynt. Yr un gair Groeg *(ilasterion)* a gyfieithir yma iawn, a gyfieithir hefyd trugareddfa, yn Heb. 9. 5: felly, gallesid cyfieithu y geiriau hyn "yr hwn a osododd Duw yn drugareddfa." Ond trwy ei iawn y mae efe yn drugareddfa; oni buasai iddo wneyd iawn *dros* bechadur, ni buasai byth yn drugareddfa *i* bechadur. Os yw Crist yn iawn dros ein pechodau ni, mae yn rhaid ei fod wedi ei osod yn ein deddf-le ni, wedi myned dàn gyfrifiad o'n beiau ni, dàn gospedigaeth ein heddwch ni, a chwedi ein llwyr-brynu ni oddi wrth felltith y ddeddf. ‡ Mae yr apostol yma yn dangos yr achos, neu y modd offerynol, o gyfiawnâd pechadur; sef trwy ffydd yn ngwaed ac iawn Iesu: y cwbl a fedd y pechadur, neu y credadyn weithian yn hytrach, am ei fywyd yw, gwaed ac aberth Iesu; ar hyn mae yn gorwedd ei enaid, a hyn yn unig mae Duw yn ofyn ganddo. Fel y dywedodd wrth Moses gynt am y drugareddfa gysgodol, (Exod. 25. 22,) mae yn dywedyd wrth bob creadadyn yn awr am y drugareddfa ysbrydol, "Mi a gyfarfyddaf â thi yno:" sef mewn cymmod a heddwch yn angeu'r groes. || Dyben Duw yn y gosodiad rhyfedd hwn oedd, dangos gogoniant ei gyfiawnder ei hun, yn nghyd â pherffeithrwydd cyfiawnder ac iawn Iesu, trwy yr hyn y boddlonwyd ef; yn y ffordd gyfiawn ac anrhy-deddus a gaed i faddau pechodau aneirif, i beidio cospi y pechadur a gredo, ac i gyfrif yn gyfiawn y rhai nid oeddynt felly ynddynt eu hunain. § Un ai y pechodau a wnaethpwyd cyn cyfiawnâd, neu ynte y pechodau a wnaethpwyd dàn yr Hen Destament, cyn i Grist wneyd yr iawn; ar gyfrif yr iawn yr oedd Duw yn eu goddef, ac ar gyfrif yr iawn yr oedd yn eu maddau.

26 * I ddangos ei gyfiawnder ef y pryd hwn; [q] † fel y byddai efe yn gyfiawn, [r] ac yn cyfiawnhâu y neb sydd o ffydd Iesu.

q Deut. 32. 4. Salm 85. 10, 11. Es. 42. 21. a 45. 21. Zeph. 3 5, 15. Zec. 9. 9. Dat. 15. 3. r adn. 30. pen. 4. 5. a 8. 33. Gal. 3. 8—14.

* Y pryd hwn, wedi i'r iawn gael ei wneyd a'i amlygu, mae Duw yn dangos yn amlwg, ei fod ef yn gyfiawn yn maddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen: er nad oedd ei gyfiawnder yn ymddangos mòr amlwg *o'r blaen*, i bawb; eto, y *pryd hwn*, wedi cael yr iawn, mae yn ym-ddangos yn berffaith amlwg ac yn ogoneddus iawn. Eto, pa bechodau bynag a faddeuo Duw y pryd hwn, ac o hyn allan, bydd ei gyfiawnder yn amlwg, a'i holl briodoliaethau yn ogoneddus yn y weithred: am fod aberth wedi ei roddi, ac iawn wedi ei gael, a'i ddatgudd-io yn yr efengyl yn gyhoeddus i ddynolryw. † Fel na wneler cam â'i burdeb hanfodol ef, nac ychwaith â'i gyfiawnder ef fel barnwr, pan mae yn cyfiawnâu y pechadur euog a gredo yn Iesu a'i aberth mawr. Fel y byddai efe yn *drugarog* ac yn *ffyddlawn i'w addewidion*, medd rhai: mae hyny yn wir; ond gwir oer a gwàn ydyw mewn cymhariaeth i eiriau y testyn: mae bod Duw yn *gyfiawn* ac yn *cyfiawnâu* yn wir mòr rhyfedd, ag nas gallem braidd ei gredu, oni b'ai yr hanes a gawsom am aberth ac iawn dros bechodau.

27 [s] * Pa le gan hynny *y mae* y gorfoledd? † Efe a gauwyd allan. ‡ Trwy ba ddeddf? [t] || ai *deddf* gweithredoedd? § Nag ê; [u] eithr trwy ddeddf ffydd.

s adn. 19. pen. 2. 17, 23. a 4. 2. Ezec. 16. 62, 63. a 36. 31, 32. Zeph. 3. 11. Luc 18. 9—14. 1 Cor. 1. 29—31. a 4. 7. Eph. 2. 8—10. t pen. 9. 11, 32. a 10. 5. a 11. 6. Gal. 2. 16. u pen. 7. 21, 23, 25. a 8. 2. Marc 16. 16. Ioan 3. 36. Gal. 3. 22. 1 Ioan 5. 11, 12.

* Gan fod bawb wrth natur yn bechaduriaid, ac yn ôl am ogoniant Duw; gan fod pawb a gyfiawnâwyd ac a gyfiawnêir, yn cael a chwedi cael eu cyfiawnâu yn rhad trwy ras Duw, trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu, a thrwy ffydd yn ei waed ef; pa le gan hyny mae y gorfoledd? pa le sy gan yr Iuddew i ymffrostio yn ei gyfiawnder ei hun, pa le sy gan y doethion paganaidd i ymffrostio yn eu philosophi, a pha le sy gan neb a gyfiawnêir ac y maddeuir iddo, i ymffrostio yn ei deil-yngdod a'i weithredoedd ei hun? † Efe a gauwyd allan yn hollawl, nid oes yr un sail na'r achos lleiaf gan neb i ymffrostio ynddo ei hun, gras Duw yw y cwbl yn iachawdwriaeth pechadur, ac efe a ddylai gael yr holl ogoniant. ‡ Trwy ba ddeddf, neu trwy ba athraw-iaeth, y cauwyd allan y gorfoledd a'r ymffrost hyn oddi

wrth ddyn? ‖ Ai trwy y ddeddf neu yr athrawiaeth hòno sydd yn gwneuthur ein cyfiawnâd i ymddybynu ar ein gweithredoedd ein hunain? § Nagê; eithr trwy yr athrawiaeth sydd yn ein dysgu i ymwadu yn hollawl â'n cyfiawnderau ein hunain, ac i ymorphwys trwy ffydd ar Grist a'i aberth mawr, am gyfiawnder a holl fendithion yr iachawdwriaeth.

28 [x] * Yr ydym ni gan hynny yn cyfrif mai trwy † ffydd y cyfiawnhêir dyn, heb weithredoedd y ddeddf.

x adn. 20—22, 26. pen. 4. 5. a 5. 1. Ioan 3. 14—18. a 5. 24. a 6. 40. Act. 13. 38, 39. 1 Cor. 6. 11. Gal. 2. 16. a 3. 8, 11—14, 24. Phil. 3. 9. Tit. 3. 7.

* Felly, wedi ystyried a chwilio pob peth yn fanol, mae y casgliad yn eglur ac yn gadarn, a dylid ei addef yn benderfynol, er gogoniant Duw ac er darostwng y pechadur; mai trwy ffydd yn unig y cyfiawnêir dyn, pob dyn, ger bron Duw; ac nid trwy weithredoedd y ddeddf. † Nid ffydd heb *weithredoedd* a ddywedir; ond ffydd heb weithredoedd y *ddeddf:* nid trwy ufudd-dod i'r cyfammod gweithredoedd y cyfiawnêir pechadur, ond trwy ffydd yn Nghrist; eto mae i'r ffydd hon weithredoedd sydd yn profi bod y dyn yn gyfiawn, ond nid yn ei gyfiawnâu. Fel hyn nid oes dim anghysondeb rhwng Paul yma â Iago pen. 2. 21—25.

29 [y] * Ai i'r Iuddewon *y mae efe* yn Dduw yn unig? † onid *yw* i'r Cenhedloedd hefyd? ‡ Yn wir *y mae efe* i r Cenhedloedd hefyd:

y pen. 1. 16. a 9. 24—26. Gen. 17. 7, 8. Es. 19. 23—25. a 54. 5. Jer. 16. 19. a 31. 33. Hos. 1. 10. Zec. 2. 11. a 8. 20—23. Mal. 1. 11. Mat. 22. 32. Gal. 3. 14, 25—29. Eph. 3. 6. Col. 3. 11.

* Dan oruchwyliaeth bresenol, helaethach, a mwy rhagorol yr efengyl, ai â'r Iuddewon yn unig y mae Duw mewn cyfammod, fel dàn yr hen oruchwyliaeth? † Ai nid yw efe wedi cymmeryd y cenedloedd hefyd i mewn, i gyfammod llawn o fendithion achubol yn awr? ‡ Ydyw yn sicr; mae efe yn Dduw pob gras yn awr i'r cenedloedd yn gystal ag i'r Iuddewon: yn awr mae mur y gwahaniaeth wedi ei ddatod a'i dynu i lawr, a Duw yn Dduw i'r Iuddewon â'r cenedloedd yr un ffunud. Gan ei fod ef yn Berchen a Meddiannydd yr holl ddaear, a phawb wedi syrthio yn gydradd â'u gilydd; yr oedd yn iawn iddo ef yn nhrefn iachawdwriaeth, ei haddasu at gyflwr cyffredin pob cenedl, fel y caffai ei addoli gan ei grëaduriaid yn ngwahanol barthau y byd, ac y byddai yn Dad ac yn Rhan dragywyddol iddynt.

30 * Gan mai [z] un Duw *sydd,* † yr hwn a gyfiawnhâ yr enwaediad wrth ffydd, ‡ a'r dienwaediad trwy ffydd.

z adn. 28. pen. 4. 11, 12. a 10. 12, 13. Gal. 2. 14—16. a 5. 6. a 6. 15. Phil. 3. 3. Col. 2. 10, 11.

* Un yw Duw o ran ei hanfod; ac un yw hefyd mewn ffordd o gyfammod â'i bobl o bob cenedl: a thrwy yr un ffordd mae yn cyfiawnâu pawb o bob cenedl; † yr enwaediad, nid wrth yr enwaediad, ond wrth ffydd, ‡ a'r dienwaediad yr un modd trwy ffydd. '*Wrth* ffydd a *thrwy* ffydd:' *(ek pisteós* a *dia pisteós:)* tybia ein Hawdwyr nad oes dim gwahaniaeth i'w wneyd rhwng y ddau air hyn, ond mai geiriau yn arwyddo yr un peth, a'r un drefn o gyfiawnâu pawb, ydynt. Darllen un gwr dysgedig y geiriau fel hyn:—*Yr hwn a gyfiawnâ yr enwaediad trwy ffydd, a'r dienwaediad trwy yr un ffydd.* Gan fod y dysgedigion yn methu a gweled gwahaniaeth ond mewn geiriau, peidied y Cymro uniaith a phoeni ei hun i geisio dychymmygu gwahaniaeth.

31 [a] * Wrth hynny, a ydym ni yn gwneuthur y ddeddf yn ddirym trwy ffydd? [b] † Na atto Duw: [c] ‡ eithr yr ydym yn cadarnhâu y ddeddf.

a pen. 4. 14. Salm 119. 126. Jer. 8. 8, 9. Mat. 5. 17. a 15. 6. Gal. 2. 21. a 3. 17—19. b adn. 4. c pen. 7. 7—14, 22, 25. a 8. 4. a 10. 4. a 13. 8—10. Salm 40. 8. Es. 42. 21. Jer. 31. 33, 34. Mat. 3. 15. a 5. 20. 1 Cor. 9. 21. Gal. 2. 19. a 5. 18—23. Heb. 10. 16. Iago 2. 8—12.

* Peth i'w dirymu ac i ddiflanu oedd y ddeddf *seremonïol,* am hyny mae yn rhaid mai y ddeddf *foesol* a feddylir yma, yr hon sydd rëol dragywyddol o gyfiawnder i bob dyn. Taerai rhai o'r Iuddewon, (fel y taera yr holl ddeddfolion eto,) fod yr athrawiaeth o gyfiawnâd trwy ffydd heb weithredoedd y ddeddf, yn dirymu y ddeddf, yn ei gwneyd yn beth diddefnydd, ac yn dattod pob rhwymau o ufudd-dod iddi. † Mae yr apostol yn gwadu y casgliad anghywir hwnw, yn ei ddull cryf o ddywedyd, Na atto Duw! Byddai hyny yn anfri o'r mwyaf ar y ddeddf sanctaidd; byddai yn gyfeiliornad mwyaf mewn athrawiaeth; gosod deddf ac efengyl Duw yn erbyn eu gilydd: byddai yn bechod dirfawr ynom ni ein hunain, ac mae ein cyhuddo o'r fath beth yn gam mawr â ni; am hyny dywedwn etto, Na atto Duw. ‡ Ond yn y gwrthwyneb, yr ydym ni yn cadarnâu y ddeddf, ac yn ei hanrhydeddu trwy yr athrawiaeth hon: yr ydym ni trwy athrawiaeth ffydd yn cydnabod dwyfol roddiad, awdurdod, a sancteiddrwydd y ddeddf; yr ydym yn cydnabod ei gafael barâus yn mhob dyn, yr hawl sydd ganddi i ofyn iawn gan bob pechadur neu ei ddamnio; yr ydym yn dangos mai trwy iawn Crist i'r ddeddf y mae cyfiawnder i'w gael i bechadur; ac iddi gael ei pherffaith fawrâu a'i hanrhydeddu yn yr iawn hwnw: yr ydym yn pregethu hefyd, y rhaid i bob credadyn, er ei gyfiawnâu yn rhad trwy ffydd, gael sancteiddrwydd calon a buchedd addas i'r ddeddf; ac mai y rhai a gyfiawnâwyd felly, sydd yn ei chadw orau ac yn ei hanrhydeddu fwyaf. Fel hyn yr ydym ni yn cadarnâu y ddeddf, a nyni sydd yn ei chadarnâu, nid chwi.

PEN. IV.

Ffydd Abraham a gyfrifwyd iddo yn gyfiawnder.

[a] * PA beth gan hynny a ddywedwn ni ddarfod i [b] Abraham † ein tad ni ei gael, [c] ‡ yn ol y cnawd?

a pen. 6. 1. a 7. 7. a 8. 31. b Es. 51. 2. Mat. 3. 9. Luc 3. 8. a 16. 24, 25, 29—31. Ioan 8. 33, 37—41, 53, 56. Act. 13. 26. 2 Cor. 11. 22. c adn. 16. Heb. 12. 9.

* Mae yr apostol yma yn myned yn mlaen i brofi ei brif gasgliad yn pen. 3. 28; sef mai "trwy ffydd y cyfiawnêir dyn heb weithredoedd y ddeddf," yn ol esampl Abraham: yr oedd gan Abraham ffydd â gweithredoedd hefyd; eto trwy ffydd y cyfiawnâwyd ef ger bron Duw, ac nid trwy weithredoedd. † Wrth grybwyll Abraham fel esampl i brofi ei bwnc, mae yr apostol yn ei olygu ef, nid yn unig fel un o nifer y credinwyr gynt, ond fel tad yr eglwys; ac yna yn ymresymu i waered o'r tad i'r plant: os trwy ffydd heb weithredoedd y cyfiawnâwyd y tad, rhaid mai trwy ffydd heb weithredoedd y cyfiawnêir y plant hefyd; nid oes ond un ffordd i gyfiawnâu pechaduriaid. ‡ Gall y geiriau "yn ol y cnawd" gyfeirio at Abraham fel tad yr Iuddewon yn ol y cnawd; ond yn hytrach fel arall y golygir hwynt; Beth a ddywedwn ni ddarfod i Abraham *gael* yn ol y cnawd? Pa faintais a gafodd ef ei hun o'i enwaedu yn y cnawd, ac o ymddangos mòr nodedig o sanctaidd ger bron dynion? A gafodd efe ei gyfiawnâu ger bron Duw trwy yr enwaediad o waith llaw yn y cnawd, a thrwy ufudd-dod a gweithredoedd da eraill?

2 * Canys os Abraham [d] a gyfiawnhâwyd trwy weithredoedd, [e] y mae iddo orfoledd; [f] † eithr nid ger bron Duw.

d pen. 3. 20—28. Phil. 3. 9. e pen. 3. 27. a 15. 17. Ex. 8. 9. Jer. 9. 23, 24. 1 Cor. 9. 16. 2 Cor. 5. 12. a 11. 12, 30. a 12. 1—9. Gal. 6. 13, 14. Eph. 2. 9. f Gen. 12. 12, 13, 18, 20. a 20. 9—13. Jos. 24. 2. 1 Cor. 1. 29. a 4. 7. Gal. 3. 22.

* Os trwy weithredoedd y cyfiawnâwyd Abraham, y mae iddo orfoledd, ac achos ymffrost: felly yr ymresyma Paul yn ol dull yr Iuddewon deddfol o ymresymu; † ond yn niwedd yr adnod mae efe yn troi y ddadl, ac yn dywedyd, Nid oedd i Abraham ddim gorfoledd ger bron Duw, am hyny mae yn amlwg mai nid trwy weithredoedd y cyfiawnâwyd ef ger bron Duw. Pa mòr enwog bynag oedd Abraham mewn duwioldeb a

gweithredoedd da ar ol ei gyfiawnâu, nid oedd ganddo ddim i ymffrostio ynddo ger bron Duw: nid oedd ond pechadur colledig fel eraill pan y galwodd ac y cyfiawnâodd Duw ef, a thrwy ras, trwy ffydd heb weithredoedd, y cyfiawnâwyd ef.

3 [g] * Canys pa beth a ddywed yr ysgrythyr? [h] † Credodd Abraham i Dduw; [i] a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder.

g pen. 9. 17. a 10. 11. a 11. 2. Es. 8. 20. Marc 12. 10. Iago 4. 5. 2 Pedr 1. 20, 21. h Gen. 15. 6. Gal. 3. 6—8. Iago 2. 23. i adn. 5, 9, 11, 22—25. Salm 106. 31.

* Ond i fyned heibio i bobpeth a ddywedwn ni, (adn. 1,) chwychwi ar y naill du, a minnau ar y tu arall, gadêwch i ni edrych beth a ddywed yr ysgrythyr (Gen. 15. 6,) ar y mater hwn, a phenderfynu y ddadl yn ol yr ysgrythyr. † Fel hyn y dywed yr ysgrythyr; Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder: neu yn fanol yn ol Genesis; Yntau (Abraham) a gredodd yn yr Arglwydd, ac efe a'i cyfrifodd iddo yn gyfiawnder. Yr had addawedig, sef y Messiah, oedd gwrthddrych ei ffydd ef; yn Nghrist y credodd ar sail addewid Duw; am hyny y cyfrifwyd ei ffydd ef yn gyfiawnder, gan iddo fel hyn dderbyn, a chael ei wneyd yn gyfranog o Dduw, yr hwn sydd trwy ffydd Iesu Grist i bawb ac ar bawb a gredant: fel hyn y derbyniwyd ef, ac yr ymddygwyd ato, fel pe buasai wedi boddloni cyfiawnder dwyfol, ac ateb holl ofynion deddf Duw yn berffaith, yn ei berson ei hun. Fel hyn y cyfiawnâwyd Abraham, trwy ffydd, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf; ac os nad oedd ganddo ef ddim i orfoleddu ynddo ger bron Duw, llai o lawer y mae gan ei blant ef achos i orfoleddu ynddo ef fel eu tad, tra maent yn gwrthod rhodio yn ei lwybrau ef. Fel hyn mae yr apostol, trwy yr un esampl hon, yn ateb ar wreiddyn hyder ac ymddiried ofer yr Iuddewon fel cenedl, yn Abraham fel eu tad, yn yr enwaediad, ac yn neddf Moses.

4 [k] * Eithr i'r neb sydd yn gweithio, † ni chyfrifir y gwobr o ras, ond o ddyled.

k pen. 9. 32. a 11. 6, 35. Mat. 20. 1—16.

* Eithr i'r neb (pe byddai y fath un ar y ddaear) sydd yn gweithio y llawn fesur mae y gyfraith yn ei ofyn, † rhaid i'r wobr gael ei barnu iddo ef fel dyled haeddiannol, neu daliad teilwng, yn ol telerau y cyfammod gweithredoedd, ac nid o ras. Gallai y cyfryw ddyn ymffrostio, iddo o leiaf ennill y wobr; ond nid felly yr oedd gydag Abraham: nid oedd iddo ef orfoleddd ger bron Duw, dim i ymffrostio ynddo, canys trwy ffydd y cyfiawnâwyd, ef ac nid trwy weithredoedd.

5 [l] * Eithr i'r neb nid yw yn gweithio, ond [m] yn credu yn yr hwn sydd yn cyfiawnhâu [n] † yr annuwiol, [o] ‡ ei ffydd ef a gyfrifir yn gyfiawnder.

l adn. 24. 25. pen. 3. 22. a 5. 1, 2. a 10. 3, 9, 10. Act. 13. 38, 39. Gal. 2. 16, 17. a 3. 9—14. Phil. 3. 9. m adn. 24. pen. 3. 26—30. a 8. 30—34. Ioan 5. 24. Gal. 3. 8. n pen. 1. 17, 18. a 5. 6—8. Jos. 24. 2. Zec. 3. 3, 4. 1 Cor. 6. 9—11. 1 Tim. 1. 13—15 Tit. 3. 3—7. o adn. 3.

* Yn yr adnod o'r blaen yr oedd yr apostol yn rhoddi *gweithio* mewn cyferbyniad i *gredu*, a'r wobr o *ddyled* mewn cyferbyniad i'r wobr o *ras:* yma, mae yn y gwrthwyneb, yn rhoddi *credu* mewn cyferbyniad i *weithio*, a'r wobr o *ras* mewn cyferbyniad i'r wobr o *ddyled*. *Gweithio*, ac nid *credu*, yno; *credu*, ac nid *gweithio*, yma; gwobr o *ddyled*, ac nid o *ras*, yno; gwobr o *ras*, ac nid o *ddyled*, yma. Yr hwn nid yw yn gweithio ar sail y cyfammod gweithredoedd a feddylir; gan ddysgwyl cael ei gyfiawnâu trwy ei weithredoedd: mae efe yn ddyfal ac yn gydwybodol yn ymarfer â phob moddion o ras, yn edifarâu, yn ymadael â phechod, ac yn awyddus i weithredoedd da; eto gŵyr nad oes yn y cwbl ddim teilyngdod, am hyny mae yn dyfod at Dduw fel cyfiawnâwr yr annuwiol, fel y derbynio ddawn cyfiawnder trwy ffydd, o rad ras, trwy aberth ac iawn y Machniydd bendigedig. † Yn wir nid annuwiol yn hollawl yw efe pan mae yn cael ei gyfiawnâu; oblegid mae ei ymostyngiad, ei edifeirwch, a'i ffydd, yn effeithiau adgenedliad; yr hyn yw gwreiddyn pob duwioldeb mewn crëadur syrthiedig. Eto, mewn cyfiawnder manol, yn ol y ddeddf, mae yn cael ei gyfiawnâu fel un annuwiol yndo ei hun: annuwiol ydyw yn ei olwg ei hun; ac nid ar gyfrif dim da yndo ef mae Duw yn ei gyfiawnâu. ‡ Peth cyffredin yn yr ysgrythyr yw rhoddi y weithred am y gwrthddrych, yn enwedig ffydd a gobaith: fel hyn mae gobaith yn arwyddo gwrthddrych gobaith. Jer 14. 8; 1 Tim. 1. 1; Heb. 6. 18. A rhoddir ffydd yn aml am wrthddrych neu athrawiaeth ffydd, neu yr hyn y credir yndo: megys yn Act. 24. 24; Galat. 1. 23. Felly, yn y geiriau uchod, nid ffydd sydd yn cael ei chyfrif yn gyfiawnder, o herwydd ei rhagoroldeb a'i theilyngdod ynddi ei hun fel gwaith da; ond fel y mae yn cyfeirio y Barnwr mawr am daliad at gyfiawnder ac iawn ei Fab, ac yntau yn maddau i'r pechadur, ac yn cyfrif cyfiawnder ei Fab iddo yn ol ei ffydd ynddo.

6 * Megis y mae Dafydd hefyd † yn datgan [p] dedwyddwch y dyn y mae [q] Duw yn cyfrif cyfiawnder iddo [r] heb weithredoedd, *gan ddywedyd,*

p adn. 9. Deut. 33. 29. Salm 1. 1—3. a 112. 1. a 146. 5, 6. Mat. 5. 3—12. Gal. 3. 8, 9, 14. a 4. 15. Eph. 1. 3. q adn. 11, 24. pen. 1. 17. a 3. 22. a 5. 18, 19. Es. 45. 24, 25. a 54. 17. Jer. 23. 6. a 33. 16. Dan. 9. 24. 1 Cor. 1. 30. 2 Cor. 5. 21. Phil. 3. 9. 2 Pedr 1. 1. r pen. 3. 20, 21, 27. Eph. 2. 8—10. 2 Tim. 1. 9.

* Ysgrythyr arall, o'r eiddo Dafydd, y gwr yn ol calon Duw, a ddywed yr un modd a'r ysgrythyr o'r blaen (adn. 3.) yn nghylch Abraham. † Pan mae Dafydd yn sôn am y dyn gwir ddedwydd, dywed mai y dyn mae Duw yn cyfrif cyfiawnder iddo heb weithredoedd ydyw efe. Nid yw efe yn sôn dim am ddyn ni phechodd erioed, nac am ddyn a wnaeth weithredoedd i guddio ei bechodau, ac i'w gyfiawnâu ei hun; ond dyn y mae Duw yn cyfrif cyfiawnder iddo heb weithredoedd. Dylem ddeall y geiriau olaf yn adn 5, wrth y geiriau hyn; cyfrif ffydd yn gyfiawnder yw, cyfrif cyfiawnder trwy ffydd.

7 [s] * Dedwydd *yw* y rhai y maddeuwyd eu hanwireddau, † a'r rhai y cuddiwyd eu pechodau.

s Salm 32. 1, 2. a 51. 8, 9. a 85. 2. a 130. 3, 4. Es. 40. 1, 2. Jer. 33. 8, 9. Mica 7. 18—20. Mat. 9. 2. Luc 7. 47—50.

* Mae yr apostol yn cymmeryd y dystiolaeth hon o'r eiddo Dafydd, allan o Salm 32. 1, ac y mae yn addas iawn i'r achlysur; oblegid mae y ddau beth hyn, cyfrif cyfiawnder, (adn. 6,) a maddau a chuddio pechod, yn anwahanadwy oddi wrth eu gilydd. Nid yr un peth ydynt, ac nid yw maddau pechod yn ogymmaint, neu yn gydwerth â chyfiawnâu; oblegid yn y cyfiawnâd mae y dyn yn cael ei ystyried yn gyfiawn, ac â hawl ganddo i fywyd tragywyddol: mewn gweithrediadau naturiol, mae maddau i ddrwg-weithredwr yn beth gwahanol iawn i roddi hawl iddo i etifeddiaeth. Mae maddau yn rhyddâu y pechadur oddi wrth gosp, a chyfiawnâu yn rhoddi hawl iddo i fywyd tragywyddol. † Cuddio pechodau yw eu croesi allan o'r cyfrif megys â gwaed Crist: a lle bynag y mae gwaed Crist yn cuddio pechodau, mae ei gyfiawnder hefyd yn cyfiawnâu y personau. Cyfrif cyfiawnder sydd yn mlaenaf, ebai *Pool;* ac yna maddau a chuddio pechodau.

8 * Dedwydd *yw* y gwr [t] nid yw yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo.

t Es. 53. 10—12. 2 Cor. 5. 19—21. Philemon 18, 19. 1 Pedr 2. 24. a 3. 18.

* Yr un peth yn cael ei ddywedyd mewn tair gwahanol ffordd: neu, y mae tri pheth i'w ystyried mewn pechod:—1. Mae ynddo *drosedd* yn erbyn Duw, yr hwn sydd yn cael ei *faddau;* 2. Mae ynddo *aflendid*, neu *wrthuni*, yr hwn sydd yn cael ei *guddio;* 3. Mae ynddo *euogrwydd*, yr hwn sydd yn cael peidio ei *gyfrif*. Gan fod Duw yn *peidio* cyfrif pechod i'w bobl, rhaid ei fod

wedi ei gyfrif ar eu Machnïydd, a chwedi cael iawn ganddo ef drosto: heb hyny ni byddai llwybr cyfiawn iddo *beidio* ei gyfrif i ni. Mae y geiriau uchod, maddau, cuddio, peidio cyfrif, yn dangos fod y dynion dedwyddaf yn awr, wedi bod yn bechaduriaid, ac yn agored i'r annedwyddwch mwyaf; ac mai gras anfeidrol Duw a'u gwaredodd oddi wrth eu pechodau a'r annedwyddwch a haeddasant.

9 * *A ddaeth* [u] † y dedwyddwch hwn gan hynny ar yr enwaediad *yn unig,* ynte ar y dienwaediad hefyd? [x] ‡ Canys yr ydym yn dywedyd ddarfod ‖ cyfrif ffydd i Abraham yn gyfiawnder.

u pen. 3. 29, 30. a 9. 23, 24. a 10. 12, 13. a 15. 8—19. Es. 49. 6. Luc 2. 32. Gal. 3. 14, 26—28. Eph. 2. 11—13. a 3. 8. Col. 3. 11. x adn. 3.

* Nid yw y geiriau hyn, "*A ddaeth,*" yn y Groeg; ond y maent yn llwyr angenrheidiol yn y cyfieithiad: gofyniad yw y rhan hyn o'r adnod yno, er nad yw y geiriau hyn yno. "A ydyw yn dyfod" *(cometh)* ydyw gan y Saeson; yn yr amser presenol. † A ddaeth, neu a ydyw yn dyfod, y dedwyddwch hwn o gyfiawnâd, maddeuant pechodau, a chymmeradwyaeth gyda Duw, trwy ffydd heb weithredoedd, ar yr Iuddewon enwaededig yn unig, ynte ar rai neu lawer o'r cenedloedd dienwaededig hefyd? Gwyddai Paul fod yr Iuddewon yn meddwl mai trwy weithredoedd yr oedd cyfiawnder, ac hefyd fod holl ragor-freintiau pobl Dduw yn perthyn i'r enwaediad yn unig; am hyny mae yn gofyn yr holiad uchod mewn trefn i wrthbrofi y cyfeiliornad hwnw. ‡ Fel pe dywedasai, Am y pwnc o gyfiawnâd trwy ffydd neu trwy weithredoedd, yr ydym eisoes wedi penderfynu hyny; oblegid dangoswyd mai trwy ffydd y cyfiawnâwyd *Abraham,* ein *tad* ni, ac nid trwy weithredoedd. ‖ Am gyfrif ffydd, gwel ar adn. 5.

10 * Pa fodd gan hynny y cyfrifwyd hi? ai pan oedd yn yr enwaediad, ynte yn y dienwaediad? [y] † Nid yn yr enwaediad, ond yn y dienwaediad.

y Gen. 15. 6. a 17. 10. 1 Cor. 7. 18, 19. Gal. 5. 6. a 6. 15.

* Yma mae yr apostol yn dyfod at y pwnc arall; a oedd cyfiawnâd &c. yn perthyn i'r enwaediad yn unig; ac yn gofyn, Pa bryd, neu pa fodd, y cyfrifwyd ffydd Abraham yn gyfiawnder iddo? ai wedi ei enwaedu, ynte, cyn ei enwaedu? † Yma mae yn ateb, Nid wedi ei enwaedu, ond cyn ei enwaedu tua phedair blynedd ar ddeg o leiaf. Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder, tua blwyddyn cyn geni Ismael; (cymhara Gen. 15. 5, 6; â 16. 4, 11;) ac yr oedd Ismael yn dair blwydd ar ddeg oed pan orchymynodd Duw enwaedu ar Abraham a phob gwrryw yn ei dŷ, Gen. 17. 10, 23—27. Fel hyn yr oedd yn amlwg nad oedd yr enwaediad yn angenrheidiol i gyfiawnâd: ac yn wir derbyniodd Abraham yr enwaediad yn arwydd, neu yn "insel cyfiawnder y ffydd" yr hon oedd ganddo yn y dienwaediad.

11 * Ac efe a gymmerth [z] arwydd yr enwaediad, [a] † yn insel [b] cyfiawnder y ffydd, yr hon *oedd ganddo* yn y dienwaediad: ‡ fel y byddai efe [c] yn dad pawb a gredent yn y dienwaediad; [d] ‖ fel y cyfrifid cyfiawnder iddynt hwythau hefyd:

z Gen. 17. 11. Ex. 12. 13. a 31. 13, 17. Ezec. 20. 12, 20. a pen. 2. 28, 29. Deut. 30. 6. 2 Cor. 1. 22. Eph. 1. 13. a 4. 30. Dat. 9. 4. b adn. 13. pen. 3. 22. a 9. 30. a 10. 6. Gal. 5. 5. Phil. 3. 9. Heb. 11. 7. 2 Pedr 1. 1. c adn. 12, 16—18. pen. 9. 6. Mat. 8. 11. Luc 19. 9. Gal. 3. 7, 29. a 6. 16. d adn. 6.

* Gan i Abraham fel hyn gael ei enwaedu yn mhell ar ol iddo gredu a chael ei gyfiawnâu, mae yn amlwg, fel y sylwyd, nad oedd yr enwaediad yn angenrheidiol i'w gyfiawnâd ef, ac nad yw yn angenrheidiol i gyfiawnâd neb arall o'i had naturiol ef: gall y cenedloedd heb enwaediad gael eu cyfiawnâu, yn gystal a'r Iuddewon dàn enwaediad. Nid oedd enwaediad ond arwydd o lygriad gwreiddiol y natur ddynol, ac o enwaediad ysbrydol y galon; ac hefyd o'r gwahaniaeth gweledig a wnaethai Duw rhwng Abraham a'i had â holl genedloedd eraill y ddaear, ac o'r cyfammod y dygasai efe ef a'i had iddo. † Mae y geiriau *insel cyfiawnder y ffydd* yn dangos yn amlwg, mai y cyfammod *gras* oedd y cyfammod yr oedd enwaediad yn *insel* ac yn arwydd o hono; yn selio bendithion *ysbrydol* i Abraham yn *bersonol.* ac nid bendithion tymmorol yn unig: ac o ganlyniad. maent yn diddymu yr wrthddadl benaf a gynnygiwyd erioed yn erbyn bedydd babanod. ‡ Fel yr eglurid ac y gwybyddid ei fod ef yn dad i bawb a gredant yn y dienwaediad. Credodd llawer o'r tadau o flaen Abraham, ond nis gelwir neb o honynt yn dad y rhai a gredant; am na wnaethai Duw gyfammod â neb o honynt fel âg Abraham, ac ni roddodd addewid i neb o honynt am eu hiliogaeth, fel y rhoddodd iddo ef. Gelwir ef yn dad y rhai a gredant hefyd, efallai, o ran enwogrwydd ei ffydd, ei ufudd-dod, a'i dduwioldeb; ac am fod yr holl gredinwyr yn cyfranogi o'r bendithion ysbrydol a seliwyd iddo ef. ‖ Fel y cyfrifid cyfiawnder trwy ffydd iddynt hwythau hefyd, yr un modd ag iddo yntau, er eu bod yn ddienwaededig allanol, megys yr oedd yntau pan ei cyfiawnâwyd.

12 * Ac yn dad yr enwaediad, [e] † nid i'r rhai o'r enwaediad yn unig, ‡ ond i'r sawl hefyd a gerddant [f] lwybrau ffydd Abraham ein tad ni, yr hon *oedd ganddo* yn y dienwaediad.

e pen. 9. 6, 7. Mat. 3. 9. Luc 16. 23—31. Ioan 8. 39, 40. Gal. 4. 22—31. f Job 33. 11. Diar. 2. 20. Can. 1. 8. 2 Cor. 12. 18. 1 Pedr 2. 21.

* Gwedi cyfiawnâu Abraham trwy ffydd, gorchymynodd Duw iddo ymenwaedu; fel y byddai yn dad yr enwaediad hefyd: † nid yn dad naturiol yn unig, ac i bawb o'i had naturiol, fel rhai wedi eu henwaedu; ‡ ond i'r rhai hyny o honynt sydd yn blant ysbrydol iddo, yn berchen ar yr un grasau ag oedd ganddo ef cyn ei enwaedu, ac yn cerdded yr un llwybrau o ufudd-dod sanctaidd ag a gerddodd ef. Yr oedd crybwyll fel hyn am waith Duw yn maddau yn rhad i Abraham, ac yn ei gyfiawnâu trwy ffydd pan oedd yn y dienwaediad, yn ddangosiad amlwg o'r hyn a wnai efe dàn oruchwyliaeth yr efengyl; sef derbyn y cenedloedd a gredent yn Iesu, yn gystal â'r Iuddewon: ac fel hyn yr oedd yr apostol yn darostwng yr Iuddew, ac yn calonogi y cenedl-ddyn.

13 [g] Canys nid trwy y ddeddf [h] *y daeth* yr addewid i Abraham, neu i'w had, * y byddai efe yn etifedd y byd; [i] † eithr trwy gyfiawnder ffydd.

g Gen. 12. 3. a 17. 4, 5, 16. a 22. 17, 18. a 28. 14. a 49. 10. Salm 2. 8. a 72. 11. h Gal. 3. 16—18, 29. i adn. 11.

* Tybia rhai mai gwlad Canaan a feddylir yma wrth y byd; ond nid yw gwlad Canaan yn cael ei galw felly yn un màn, ni chafodd Abraham ei hun etifeddiaeth ynddi, "naddo led troed," Act. 7. 5; ac nid oedd gwlad Canaan yn etifeddiaeth ond i had naturiol Abraham, neu rai wedi eu henwaedu: felly os oedd gan yr apostol yma gyfeiriad at wlad yr addewid, nis gallai fod ond fel cysgod o'r nefoedd. Wrth fod Abraham yn etifedd y byd, mae eraill yn deall, ei fod ef yn "dad pawb a gredent," (adn. 11,) ac yn "dad llawer o genedloedd," (adn. 17,) pa un bynag ai rhai o'r enwaediad ai o'r dienwaediad a fyddent. Yn iaith yr Iuddewon, yr etifedd oedd yn ben y teulu, yn arglwydd a meddiannydd etifeddiaeth y teulu; felly Abraham oedd etifedd y byd crediniol, gwasgaredig yn mhlith yr holl genedloedd, a thrwy yr holl fyd; am fod yr addewid o fendithion ysbrydol a nefol, yn gystal â'r hawl gyfammodol i bob bendithion tymmorawl, wedi eu gwneyd yn mlaenaf iddo ef; ac oddi wrtho ef yn cael eu trosglwyddo iddynt hwy yn ol y cyfammod a wnaed âg ef: felly maent hwy yn cael eu bendithio gydag ef, fel ei etifeddion ef yn ol yr addewid. Galat. 3. 8, 9, 29. Cymharer hefyd Gen. 12. 3; â 22. 18. † Nid yn ol deddf natur, nid yn ol deddf Sinai, ac nid am ufudd-dod personol Abraham i'r ddeddf mewn un ystyr, y daeth hyn iddo; ond rhad roddwyd

r addewid iddo ef a'i holl had ysbrydol drwy y byd, rwy y cyfiawnder hwnw a dderbynir trwy ffydd.

14 [k] * Canys os y rhai sydd o'r ddeddf *yw* yr etifeddion, [l] † gwnaed ffydd yn ofer, a'r addewid yn ddirym.

k adn. 16. Gal. 2. 21. a 3. 18—24. a 5. 4. Phil. 3. 9. Heb. 7. 19, 28. l pen. 3. 31. Num. 30. 12, 15. Salm 119. 126. Es. 55. 11. Jer. 19. 7.

* Os y rhai a wobrwyir yn ol y ddeddf yw yr etifeddion, ac os ydynt yn etifeddu y bendithion hyn am eu hufudd-dod i'r ddeddf, pa un bynag a ystyriom hi fel ddeddf natur, fel cyfammod o weithredoedd, neu fel y mae wedi ei rhoddi trwy Moses; † yna mae yr athrawiaeth o gyfiawnâd trwy ffydd yn unig, yn athrawiaeth ofer; a'r addewid o etifeddu y bendithion hyn fel hyny, yn addewid ddirym, ac yn gwbl ddiddefnydd; er mai Duw ei hun a'i rhoddodd, Galat. 3. 18. Os y rhai sydd o'r ddeddf yw yr etifeddion, mae ffydd a'r addewid yn ofer ac yn ddirym i'r rhai nad ydynt o'r ddeddf, oblegid nis gallant hwy fod yn etifeddion drwyddynt: ac maent yn ofer ac yn ddirym hefyd i'r rhai sydd o'r ddeddf, oblegid yr oeddynt hwy yn etifeddion heb na ffydd nac addewid.

15 [m] * Oblegid y mae y ddeddf † yn peri digofaint; [n] ‡ canys lle nid oes deddf, || nid *oes* gamwedd.

m pen. 3. 19, 20. a 5. 20, 21. a 7. 7—11. Ioan 15. 22. 1 Cor. 15. 56. 2 Cor. 3. 7—9. Gal. 3. 10, 19. 1 Ioan 3. 4. n pen. 2. 12, 13. a 5. 13.

* Pa un bynag ai deddf natur yn y paganiaid, (pen. 2. 14, 15,) neu ddeddf draddodiadol, (dàn yr hon yr oedd Abraham,) neu ynte ddeddf Moses ar Sinai; - gwaith y ddeddf yw peri digofaint: mae yn dangos fod throseddwyr eu bod yn agored i ddigofaint; mae yn dangos cyfiawn ddigofaint Duw; ac mae ei gorchymynion manol a'i gwaharddiadau, yn datguddio pechod, a llygredigaethau calon dyn yn cymmeryd achlysur yn ei gwyneb, i ymennyn ac i weithio pob trachwant yn y pechadur, yr hyn sydd yn haeddu mwy-fwy o ddigofaint: pen. 7. 7, 8, &c. ‡ Pe byddai dichon fod dyn heb yr un ddeddf yn ei gydwybod, na gwybodaeth o dróni ar lythyrenau, || ni byddai gamwedd; oblegid troseddu o'r ddeddf yw camwedd, "eithr ni chyfrifir pechod pryd nad oes deddf," pen. 5. 13. Tybiai yr Iuddewon mai trwy eu hufudd-dod i'r ddeddf yr oeddynt hwy yn blant i Dduw ac yn etifeddion; ond yn rhan ffaenaf yr adnod hon mae yr apostol yn dangos fod hyny yn anmhosibl; mai peri digofaint yr oedd y ddeddf, am y tòriad lleiaf o hóni.

16 * Am hynny [o] o ffydd *y mae*, fel *y byddai* yn ol gras: [p] † fel y byddai yr addewid yn sicr i'r holl had; ‡ nid yn unig i'r hwn sydd o'r ddeddf, [q] ond hefyd i'r hwn sydd o ffydd Abraham, || yr hwn yw [r] ein tad ni oll,

o pen. 3. 24—26. a 5. 1. Gal. 3. 7—12, 22. Eph. 2. 5, 8. Tit. 3. 7. p Heb. 6. 13—19. 2 Pedr 1. 10. q adn. 11. r pen. 9. 8. Es. 51. 2.

* Gan fod yn anmhosibl i neb dynion syrthiedig gael hawl i fendithion ysbrydol a thragywyddol, trwy eu hufudd-dod i'r ddeddf foesol mwy nac i'r ddeddf seremoniol; trefnodd Duw yn ddoeth ac yn drugarog, eu rhoddi hwynt yn rhad i etifeddion iachawdwriaeth: trwy ffydd yn unig, fel y byddai y cwbl yn ol gras Duw ac nid yn ol haeddiant dyn. † Pe buasai yr addewid yn ammodol, ac yn ymddybynu ar ufudd-dod dyn i'r ddeddf, ni buasai yn sicr i neb, nac ychwaith yn bosibl i neb, wedi cwymp Adda; ond am ei bod o ffydd, ac yn ol gras, mae yn sicr, ac yn anfethedig i holl had ysbrydol a chrediniol Abraham: nid oes dim perygl ei cholli byth, fel addewid y cyfammod cyntaf. ‡ Mae had Abraham o ddau fath; un math yw y rhai sydd o'r ddeddf, sef ei had naturiol ef, yr Iuddewon: y lleill yw y rhai a gerddant lwybrau ffydd Abraham, pa un bynag ai Iuddewon ai cenedloedd ydynt. I'r rhai olaf hyn mae yr addewid yn sicr. || Gwel ar adn. 11, dàn y nodyn ‡.

17 * (Megis y mae yn ysgrifenedig, [s] Mi a'th wneuthum yn dad llawer o genhedloedd) † ger bron y neb y credodd efe iddo, *sef* Duw [t] ‡ yr hwn sydd yn bywhâu y meirw, [u] || ac sydd yn galw y pethau nid ydynt, fel pe byddent:

s Gen. 17. 5, 16, 20. a 25. a 28. 3. Heb. 11. 12. t adn. 2. pen. 8. 11. Mat. 3. 9. Ioan 5. 21, 25. a 6. 63. 1 Cor. 15. 45. Eph. 2. 1—5. 1 Tim. 6. 13. u pen. 8. 29, 30. Es. 43. 6. a 44. 7. a 49. 12. a 55. 12. Act. 15. 18. 1 Cor. 1. 28. Heb. 11. 7. 1 Pedr 2. 10. 2 Pedr 3. 8.

* Mae hyn yn ysgrifenedig yn Gen. 17. 5; pan gyfnewidiodd Duw enw Abram yn Abraham; ystyr yr hwn yw, *Tad llawer*, neu *Dad lliaws mawr*. Yr oedd Abraham yn dad llawer o genedloedd yn ol y cnawd, heblaw yr Iuddewon, Gen. 25. 1—4, 12—16: ond mewn ystyr ysbrydol, a mwy goruchel, yr addawyd uchod y byddai efe yn dad llawer o genedloedd, sef yn dad pawb a gredent, o'r cenedloedd yn gystal a'r Iuddewon. † Yr oedd Abraham yn dad llawer o genedloedd ger bron Duw, neu yn ngolwg, ac yn nghyfrif Duw; neu fel y goddef y gair *katenanti* ei gyfieithu, meddant, "*fel* Duw." Fel y mae Duw yn Dad cyffredinol pawb, felly yr anrhydeddodd efe ffydd Abraham, trwy ei wneuthur, neu ei gyfrif ef, yn dad pawb a gredant, mewn rhyw ystyr yn gyffelyb iddo ei hun. ‡ E fywhâ Duw ei holl bobl etholedig yn ysbrydol, y rhai sydd wrth naturiaeth yn feirw mewn camweddau a phechodau: ac a fywhâ yr holl feirw naturiol yn yr adgyfodiad mawr y dydd diweddaf. || Yr oedd holl deulu mawr yr eglwys megys mewn bod ger bron Duw, pan roddes efe yr addewid i Abraham y byddai efe yn dad iddynt; a chredodd Abraham i allu a ffyddlondeb Duw, y dygai efe hwynt i fod mewn gwirionedd mewn amser, er nad oeddynt mewn bod y pryd hwnw, ond yn arfaeth, rhagwybodaeth, ac addewid yr hollalluog a'r digelwyddog Jehofah.

18 [x] * Yr hwn yn erbyn gobaith † a gredodd dan obaith, ‡ fel y byddai efe yn dad cenhedloedd lawer; yn ol yr hyn a ddywedasid, [y] Felly y bydd dy had di.

x adn. 19. pen. 5. 5. a 8. 24. Ruth 1. 11—13. Diar. 13. 12. Ezec. 37. 11. Marc 5. 35, 36. Luc 1. 18. Act. 27. 20, 25. y Gen. 15. 5, 6.

* Yma dangosir natur a grym ffydd Abraham. Wrth edrych arno ei hun a Sara, pan gafodd yr addewid gyntaf, (Gen. 15. 4.) nid oedd dim gobaith am had naturiol; ac wrth edrych ar yr holl fyd o'i gwympas yn gorwedd mewn tywyllwch, eilun-addoliaeth, a drygioni, nid oedd dim gobaith am had ysbrydol. † Ac eto, yn wyneb yr amgylchiadau annobeithiol hyn, mae Duw hollalluog yn addaw had naturiol ac ysbrydol iddo ef, amlach na ser y nefoedd o rifedi; (Gen. 15. 5,) ac yntau yn erbyn gobaith, neu "tu hwnt i obaith," yn credu yr addewid a thystiolaeth Duw, a'i allu a'i ffyddlondeb ef i gyflawni ei addewid. ‡ Efe a gredodd yn ddiysgog, ac a obeithiodd yn hyderus, y byddai efe yn dad llawer o genedloedd; yn naturiol, yn ei hiliogaeth, ac yn ysbrydol, trwy Grist, yr hwn oedd i ddyfod o hóno ef: ac fel ag y dywedodd Duw ac y credodd yntau, felly y bu ac y bydd. Felly y bydd dy had di.

19 * Ac [z] efe yn ddiegwan o ffydd, [a] † nid ystyriodd ei gorph ei hun, *yr hwn oedd* yr awrhon wedi marweiddio, ac efe ynghylch can mlwydd oed, ‡ na marweidd-dra bru Sara.

z adn. 20, 21. pen. 14. 21. Mat. 6. 30. a 8. 26. a 14. 31. Marc 9. 23, 24. Ioan 20. 27, 28. a Gen. 17. 17. a 18. 11—14. Heb. 11. 11—19.

* Yr oedd Abraham yn ddiegwan o ffydd am iddo gael ei nerthu yn y ffydd, adn. 20: pan roddes Duw yr addewid iddo, efe a'i nerthodd ef hefyd ar yr un pryd i gredu yr addewid, yn wyneb pob anhawsderau natur a rheswm. † Yr oedd ei gorph ef ei hun wedi marweiddio gan oedran a henaint, ond nid ystyriodd efe hyny yn wyneb addewid Duw; ‡ yr oedd Sara wedi bod yn anmhlantadwy erioed, yn awr yn 90 oed, Gen. 17. 17, ei

bru wedi marweiddio, "a pheidiasai fod iddi yn ol arfer gwragedd." Gen. 18. 11: eto nid ystyriodd Abraham hyny ychwaith; gwyddai y gallai Duw bob peth, ac y cyflawnai efe yn sicr yr hyn a addawsai.

20 [b] * Ac nid ammheuodd efe addewid Duw trwy anghrediniaeth; [c] † eithr efe a nerthwyd yn y ffydd, ‡ gan roddi gogoniant i Dduw:

b Num. 11. 13—23. 2 Bren. 7. 2, 19. 2 Cron. 20. 15—20. Es. 7. 9. Jer. 32. 16—27. Luc 1. 18, 45. c Es. 35. 4. Dan. 10. 19. a 11. 32. Hag. 2. 4. Zec. 8. 9, 13. 1 Cor. 16. 13. 2 Cor. 12. 10. Eph. 6. 10. 2 Tim. 2. 1.

* Er bod yr addewid yn anhygoel iawn pan roddwyd hi gyntaf, ac er i Dduw fod amryw flynyddoedd wedi ei rhoddi cyn ei chyflawni; eto nid ammhëuodd Abraham mo hóni, nac yn y rhoddiad cyntaf, nac yn y dysgwyliad am dani. Addewid Duw oedd yr addewid, a chredodd Abraham fod gallu Duw yn ddigon i'w chyflawni: nid ammhëuodd efe ei allu a'i ffyddlondeb ef trwy anghrediniaeth; o ganlyniad, nid ammhëuodd yr addewid. Addewid Duw yw y cwbl sydd ar ffydd eisiau, mae hyny yn ddigon ganddi hi yn wyneb y tywyllwch a'r anhawsderau mwyaf. † Nerthwyd ef yn rhyfeddol, yn wyneb amgylchiad rhyfeddol, i gredu addewid ryfeddol: ‡ a thrwy hyny efe a seliodd mai geirwir yw Duw, yr hyn oedd yn ogoniant i Dduw. Efe a roddodd bob gogoniant i Dduw, am ei ras yn rhoddi y fath addewid, ac am ei ffyddlondeb yn ei chyflawni.

21 [d] * Ac yn gwbl sicr *ganddo,* am yr hyn a addawsai efe, [e] ei fod ef yn abl i'w wneuthur hefyd.

d pen. 8. 38. 2 Tim. 1. 12. Heb. 11. 13. e pen. 14. 4. Gen. 18. 14. Salm 115. 3. Jer. 32. 17, 27. Mat. 19. 26. Luc 1. 37. 2 Cor. 9. 8.

* Yr oedd efe yn edrych ar Dduw fel un perffaith alluog i gyflawni yr hyn a addawodd, ac fel un eithaf ffyddlawn nad oedd yn bosibl iddo byth fethu; a'r cwbl oedd yn gasglu oddi wrth anhawsder ac annhebygolrwydd y gwaith oedd, mai addasaf i gyd i Hollalluawgrwydd Duw ei gyflawni ydoedd, er ei ogoniant ei hun.

22 * Ac am hynny [f] y cyfrifwyd iddo yn gyfiawnder.

f adn. 3, 6.

* Dyma'r pryd y gwelodd efe ddydd Crist ac y llawenychodd, Ioan 8. 56: yr oedd ei ffydd ef yn ymestyn at, yn terfynu yn, ac yn ymorphwys ar, y Messiah, fel ei gwrthddrych mawr, yn cael ei ddàl allan yn yr addewid; fel yr oedd Duw yn cyfrif iddo ef yr hyn yr oedd yn gredu ynddo: yr oedd cyfiawnder yr had addawedig, gwrthddrych ei ffydd, yn eiddo iddo ef trwy gyfrifiad o hóno gan Dduw, ac yntau yn gymmeradwy gan Dduw, fel un perffaith gyfiawn yn ei olwg. Fel hyn hefyd yr oedd ei ffydd ef yn cael ei phrofi ei bod o'r iawn ryw, yn addas i ffurfio perthynas rhyngddo ef â'r Gwaredwr addawedig; ac yn ei nodi yntau allan fel person addas i gael ei gyfiawnâu â'r cyfiawnder tragywyddol a ddygai y Messiah i mewn. Mae yn amlwg oddi wrth yr holl gyd-destynau, mai nid ffydd Abraham oedd yn ei gyfiawnâu ef, trwy ei gwerth a'i haeddiant ei hun; ond yn unig fel yr oedd yn ei uno ef â Christ, ac yn rhoddi rhan iddo yn Nghrist a'i gyfiawnder mawr.

23 [g] * Eithr nid ysgrifenwyd hynny er ei fwyn ef yn unig, ddarfod ei gyfrif iddo;

g pen. 15. 4. 1 Cor. 9. 10. a 10. 6, 11. 2 Tim. 3. 16, 17.

24 † Ond er ein mwyn ninnau hefyd, i'r rhai y cyfrifir, [h] ‡ y rhai ydym yn credu yn yr hwn a gyfododd Iesu ein Harglwydd ni o feirw:

h pen. 10. 9, 10. Eph. 1. 18—20. Heb. 13. 20, 21. 1 Pedr 1. 21.

* Nid er anrhydedd i Abraham yr ysgrifenwyd hyn am dano, nac er dangos i ni mewn dull hanesiol yn unig, pa fodd y cyfiawnâwyd ef; † ond yr oedd gan Dduw ddybenion uwch, a mwy buddiol o lawer na hyny: ysgrifenwyd yr hanes er addysg, calondid, cysur, ac esampl i ni, pob cenedl, a phob oes, lle delo yr efengyl; i ddangos mai trwy ffydd yn Nghrist a'i gyfiawnder y mae Duw eto yn cyfiawnâu pawb a gyfiawnêir. ‡ Fel y credodd Abraham "i Dduw yr hwn sydd yn bywâu y meirw, ac sydd yn galw y pethau nid ydynt fel pe byddent," adn. 17; felly rhaid i ninnau, a phawb a gyfiawnêir, gredu yn yr un Duw, yr hwn a gyfododd Iesu ein Harglwydd ni o feirw. Credu fod Iesu wedi cyfodi o feirw, a chredu mai Duw a'i cyfododd ef, ac mai er ein cyfiawnâu ni y cyfododd efe ef. Trwy gyfodi Crist oddi wrth y meirw, yr oedd Duw yn arddangos yn amlwg, fod yr holl ddyled wedi ei lwyr dalu, a chyfiawnder wedi ei weithio allan, a'i ddwyn i mewn, i gyfiawnâu pawb a gredont âg ef.

25 [i] * Yr hwn a draddodwyd † dros ein pechodau ni, [k] ‡ ac a gyfodwyd i'n cyfiawnhâu ni.

i pen. 3. 25. a 5. 6—8. a 8. 3, 32. Es. 53. 5, 6, 10—12. Dan. 9. 24, 26. Zec. 13. 7. Mat. 20. 28. 1 Cor. 15. 3, 4. 2 Cor. 5. 21. Gal. 1. 4. a 3. 13. Eph. 5. 2. Tit. 2. 14. Heb. 9. 28. 1 Pedr 1. 18, 19. a 2. 24. a 3. 18. 1 Ioan 2. 2. a 4. 9, 10. Dat. 1. 5. a 5. 9. a 7. 14. k pen. 8. 33, 34. 1 Cor. 15. 17. Heb. 4. 14—16. a 10. 12—14. 1 Pedr 1. 21.

* Traddodwyd Crist gan Judas i'r arch-offeiriaid, Matth. 26. 14, 15: gan yr arch-offeiriaid a henuriaid y bobl i Pilat, Matth. 27. 1, 2; a chan Pilat i'w groeshoelio, Marc 15. 15: ond yma Duw sydd yn traddodi: "yr hwn nid arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd ef trosom ni oll," Rhuf. 8. 32. Mae yr apostol yn ein harwain yn union-gyrchol at yr achos cyntaf; "terfynedig gyngor a rhag-wybodaeth Duw," Act. 2. 23. † Sef yn aberth dros ein pechodau ni, i wneuthur iawn drostynt i Dduw, ac i'n llwyr brynu ninnau oddi wrthynt, ac oddi wrth y gosp am danynt. Traddodwyd ef fel drwgweithredwr gan ddynion, ond traddodwyd ef fel aberth mawr a sanctaidd gan Dduw. ‡ Dywedir ei gyfodi ef er ein cyfiawnâu ni, nid mewn cyferbyniad i'w farwolaeth ef, fel na buasai dim yn ei farwolaeth i'n cyfiawnâu; ond am fod ein cyfiawnâd wedi ei ddechreu yn ei farwolaeth ef, ac yn cael ei berffeithio yn ei adgyfodiad. Talodd Iesu ein dyled yn ei angau, a derbyniodd ein rhyddâd yn ei adgyfodiad. Pan dderbyniodd ef ei ollyngdod, cawsom ninnau ein gollyngdod oddi wrth euogrwydd a chosp ein holl bechodau, ynddo a thrwyddo ef: fel mae y dyledwr yn cael ei ollyngdod pan mae ei feichiau a dalodd drosto yn cael ei ollyngdod. Mae yr un adnod hon yn dalfyriad o'r holl efengyl.

PEN. V.

Wedi ein cyfiawnâu trwy ffydd, y mae i ni dangnefedd rhyngom â Duw.

* AM hynny, [a] gan ein bod wedi ein cyfiawnâu trwy ffydd, [b] † y mae gennym heddwch tu ag at Dduw, [c] ‡ trwy ein Harglwydd Iesu Grist.

a adn. 9, 18. pen. 1. 17. a 3. 22, 26—28, 30. a 4. 5, 24, 25. a 9. 30. a 10. 10. Hab. 2. 4. Ioan 3. 16—18. a 5. 24. Act. 13. 38, 39. Gal. 2. 16. a 3. 11—14, 25. a 5. 4—6. Phil. 3. 9. Iago 2. 23—26. b adn. 10. pen. 10. 15. Job 22. 21. Salm 85. 8—10. Es. 27. 5. a 32. 17. a 54. 13. a 55. 12. a 57. 19—21. Luc 2. 14. Ioan 14. 27. a 16. 33. Act. 10. 36 2 Cor. 5. 18—20. Eph. 2. 14—17. Col. 1. 20, 21. a 3. 15. Heb. 13. 20. Iago 2. 23. c pen. 6. 23. Ioan 20. 31. Eph. 2. 7.

* Gwedi egluro a chadarnâu yr athrawiaeth o gyfiawnâd trwy ffydd yn y bennod o'r blaen, mae yr apostol yma yn tynu ei gasgliadau, ac yn dangos dedwyddwch y rhai sydd wedi eu cyfiawnâu felly. † Gwedi ein cyfiawnâu trwy ffydd, mae y rhwyg ofnadwy a wnaethai pechod rhyngom ni â Duw yn cael ei wneyd i fynu; yr ydym yn dyfod i gyflwr o gymmod âg ef, ac i ystad o gyfeillach, fel Abraham ei hun, Iago 2. 23; ac mae genym brofiad o siriolded heddychol tuag ato ef yn ein beneidiau. ‡ Mae hyn yn dyfod i bechadur tlawd trwy aberth ac eiriolaeth ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn yw Cyfryngwr y cymmod, a thangnefedd ei bobl rhyngddynt â Duw, Ephes. 2. 14, 16.

2 [d] * Trwy yr hwn hefyd y cawsom ddyfod-
trwy ffydd i'r gras hwn, [e] † yn yr hwn yr
dym yn sefyll, [f] ‡ ac yn gorfoleddu dan
baith [g] gogoniant Duw.

d Ioan 10. 7, 9. a 14. 6. Act. 14. 27. Eph. 2. 18. a 3. 12. Heb. 4. 19, 20. 1 Pedr 3. 18. e adn. 9, 10. pen. 8. 1, 30—39. a 14. Ioan 5. 24. 1 Cor. 15. 1, 2. Eph. 6. 13. 1 Pedr 1. 4, 5. f adn. pen. 8. 24, 25. a 12. 12. a 15. 13. Job 19. 25—27. Salm 16. 9—11. a 17. 15. Diar. 14. 32. 2 Thes. 2. 16, 17. Heb. 3. 6. a 6. 18, 19. Hedr 1. 3—9. 1 Ioan 3. 1—3. g pen. 2. 7. a 3. 23. a 8. 17, 18. 33. 18—20. Salm 73. 24. Mat. 25. 21. Ioan 5. 24. 2 Cor. 3. 18 17. Dat. 3. 21. a 21. 3, 11, 23. a 22. 4, 5.

* Nid yn unig y mae i ni heddwch â Duw trwy ein
rglwydd Iesu Grist, ond y mae i ni hefyd trwy ffydd
ddo ef ddyfodfa i bresenoldeb Duw yn ei ras a'i
ymmeradwyaeth. Gall un fod mewn heddwch â'i
yysog, ac eto bod heb gael dyfodfa i'w bresenoldeb
fel Absalom, 2 Sam. 14. 24, 28. Tybir bod yma
eiriad at y ddefod o ddwyn dynion ger bron brenin-
d trwy gyfrwng rhyw ŵr mawr yn y llŷs; neu ynte
ddwyn dyn i sefyll ger bron rhyw dduw, yn ei deml,
un o offeiriaid y duw hwnw. † "Yr ydym yn
yll" yn ddiogel, ar sail gadarn byth; wedi ein diogelu
nghyfiawnder Iesu, a chan addewid a gras Duw,
g syrthio mwyach o'r sefyllfa hon. ‡ Ac yn y teim-
o'n dedwyddwch a'n diogelwch yn Nghrist, yr ydym
gorfoleddu dàn obaith o gael gogoneddu Duw, a
el ein gogoneddu ganddo, byth yn y nef. E ddichon
y geiriau hyn hefyd yn cyfeirio at obaith yr apostol
eglwys yn y dyddiau hyny, am weled gogoniant Duw
llwyddiant yr efengyl, a rhydd dderbyniad pechadur-
ld o bob cenedl, i fwynâd o ragor-freintiau pobl
uw, ac at ei drugareddfa ef, heb un rhwystr na gwa-
rddiad gan seremoniau deddfol.

3 * Ac nid *felly* yn unig, [h] † eithr yr ydym
gorfoleddu mewn gorthrymderau; [i] ‡ gan
bod fod gorthrymder yn peri dioddefgar-
ch;

h pen. 8. 35—37. Mat. 5. 10—12. Luc 6. 22, 23. Act. 5. 41. Cor. 11. 23—30. a 12. 9, 10. Eph. 3. 13. Phil. 1. 29. a 2. 17, 18. ago 1. 2, 12. 1 Pedr 3. 14. a 4. 16, 17. i 2 Cor. 4. 17. Heb. 12. 11. Iago 1. 3.

* Yr ydym yn gorfoleddu, nid yn unig yn y dedwydd-
h a'r gogoniant anfarwol ydym yn ddysgwyl ar ol
n; † eithr yr ydym hefyd yn gorfoleddu yn ein gor-
ymderau presenol yn achos yr efengyl, ac er mwyn
w Iesu, fel hen filwyr yn ymorfoleddu yn eu creithiau
rhydeddus; 2 Cor. 12. 10; Galat. 6. 17. Yr oedd y
iif gristionogion yn gorfoleddu, nid yn unig *er* eu
rthrymderau, ond hefyd *yn* eu gorthrymderau, fel
ystlon sicr o'u cymmeradwyaeth gyda Duw, ac fel
oddion yn llaw Duw o les ysbrydol iddynt. ‡ Yr
ddynt yn gwybod trwy brofiad fod gorthrymder yn
ri dyoddefgarwch, ac ymostyngiad ysbryd tawel i
yllys Duw. Nid yw gorthrymder o un math ynddo ei
un yn effeithio felly, ond i'r gwrthwyneb ar lawer;
thr dàn fendith Duw y mae felly i'w bobl ef: yn debyg
l y mae pren neu faen garw, yn dyfod yn ddelw bryd-
rth dàn law ac arfau y cerfiwr.

4 [k] * A dioddefgarwch, † brofiad; [l] ‡ a
hrofiad, obaith:

k pen. 15. 4. 2 Cor. 1. 4—6. a 4. 8—12. a 6. 9, 10. Iago 1. 12. Pedr 1. 6, 7. a 5. 10. l Jos. 10. 24, 25. 1 Sam. 17. 34—37. Salm 27. 1, 2. a 42. 4, 5. a 71. 14, 18—24. 2 Cor. 4. 8—10. 2 Tim. 16—18.

* "Dyoddefgarwch," neu *amynedd*, yn ol y Saesoneg:
ypomonê yw y gair gwreiddiol, yn arwyddo *sefyll*, neu
ros dàn ryw beth; ac yma sefyll dàn lwyth o drallodau,
rlidiau, a gorthrymderau poenus, mewn ffydd ac amyn-
fid. † Mae y dyoddefgarwch hwn yn gweithio profiad yn
duwiolion; profiad o'u gwendid a'u pechadurusrwydd
u hunain, i'w darostwng; profiad o wirionedd a nerth
ras yn eu calonau, gwedi ei fynych brofi yn y ffwrn;
rofiad o ffyddlondeb Duw i'w addewidion; ac o'i barod-
wydd i wrando eu gweddiau hwynt. ‡ Fel hyn mae
orthrymderau y saint yn tueddu i gryfâu eu gobaith o
hyd fwy-fwy am ogoniant Duw, yr hwn y maent yn ymorfoleddu ynddo, adn. 2.

5 [m] * A gobaith ni chywilyddia, [n] † am fod
‡ cariad Duw wedi ei [o] dywallt yn ein calonnau
ni, ‖ trwy yr Ysbryd Glân yr hwn a roddwyd
i ni.

m Job 27. 8. Salm 22. 4, 5. Es. 28. 15—18. a 45. 16, 17. a 49. 23. Jer. 17. 5—8. Phil. 1. 20. 2 Thes. 2. 16. 2 Tim. 1. 12. Heb. 6. 18, 19. n pen. 8. 14—17, 28. Mat. 22. 36, 37. 1 Cor. 8. 3. Heb. 8. 10—12. 1 Ioan 4. 19. o Es. 44. 3—5. Ezec. 36. 25—27. 2 Cor. 1. 22. a 3. 18. a 4. 6. Gal. 4. 6. a 5. 22. Eph. 1. 13, 14. a 3. 16—19. a 4. 30. Tit. 2. 3, 4.

* A gobaith yw hwn na chywilyddia byth mo'r sawl a'i meddo, trwy ddiflaniad a siomedigaeth; fel gobaith disail yr annuwiol, y Pharisead, yr Iuddew anghredinioll, y gwyll-grefyddol, y gwrth-ddeddfwr, a'r rhagrithiwr. Mae gobaith profedig a phrofiadol y gwir gredadyn a sail iddo yn ngair Duw, ac wedi ei osod a'i *selio* yn ei galon ef gan Ysbryd Duw; † yr hwn sydd hefyd yn tywallt cariad Duw yn ei galon ef. *Am* fod cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonau, dyna paham y mae genym heddwch tuag at Dduw; yr ydym yn cael dyfodfa trwy ffydd ato; yr ydym yn gorfoleddu dàn obaith gogoniant; yn gorfoleddu mewn gorthrymderau; ac *am* hyny, hefyd, yr ydym yn sicr na ddaw cywilydd i ni o'n gobaith. ‡ Un ai y teimlad o gariad Duw tuag atom ni, neu ynte y gras o gariad ynom ni tuag ato ef, neu bob un o'r ddau: mae y ddau bob amser yn gyssylltiedig, ac nid yw y naill un amser heb y llall. ‖ Yr Ysbryd Glân yn ol trefn Duw yw Dyddanydd a Sancteiddydd y saint; yn amlygu cariad Duw tuag atynt hwy, ac yn llanw eu calonau hwy â chariad tuag ato ef.

6 [p] * Canys Crist, pan oeddym ni etto [q] yn
weiniaid, [r] † mewn pryd ‡ a fu farw [s] ‖ dros yr
annuwiol.

p Ezec. 16. 4—8. Eph. 2. 1—5. Col. 2. 13. Tit. 3. 3—5. q Galar. 1. 6. Dan. 11. 15. r pen. 4. 25. 1 Thes. 5. 9, 10. s pen. 4. 5. a 11. 26. Salm 1. 1. Tit. 2. 12.

I'r dyben o ddangos yn mhellach nad yw yn bosibl i obaith y credadyn golli, nac iddo ef ddyfod i gywilydd; ac hefyd i'n hannog yn mhellach i garu Duw; mae yr apostol yn dywedyd yma i Grist farw drosom ni: marw pan oeddem ni yn weiniaid, marw mewn pryd, a marw dros yr annuwiol. Yn wyneb hyny, pa raid i'r credadyn ofni am ei obaith? pa fodd y gall ammau cariad Duw tuag ato? a pha fodd y gall yntau beidio caru Duw?

* Pan oeddem *ni*, y rhai ydym yn awr mewn heddwch â Duw; pan oeddem ni yn weiniaid, yn nistryw y cwymp, dàn gyfiawn ddigofaint Duw, dàn lywodraeth pechod, ac yn meddiant satan: pan oeddem ni heb nerth i sefyll yn erbyn Duw digllawn, nac i'n gwaredu ein hunain; pan oeddym heb nerth naturiol i'r fath beth, pe buasai yr ewyllys genym, na nerth moesol ac ysbrydol i ewyllysio. *Tramgwyddo a syrthio i ddinystr*, medd dysgedigion, yw ystyr y gair *astheneô*, a gyfieithir yma "gweiniaid." † "Mewn pryd:" mewn amser dyladwy, yn ol y Saesoneg; y pryd a bennododd Duw yn ei gyngor tragywyddol, dros bedair mil o flynyddoedd wedi y cwymp; y pryd a ragfynegodd y prophwydi; y pryd yr oedd cyfiawnder a deddf Duw yn gofyn iawn; a'r pryd yr oedd dynolryw wedi cael digon o brawf o'u gwendid i wneyd yr iawn hwnw na dim arall er eu hachub eu hunain. ‡ Mae y gair "annuwiol" yma, yn egluro meddwl y gair "gweiniaid" o'r blaen: annuwioldeb pechadur yw ei wendid. Annuwiol oedd ac ydyw pawb wrth natur; ac annuwiol a fuasai pawb byth oni buasai i Grist farw drostynt. Fel rhai annuwiol y bu efe farw drostynt; yn ei farwolaeth ef y caed llwybr i'w cymmodi â Duw, ac o hóno ef a'i aberth mawr y mae modd yn dyfod i wneyd yr annuwiol yn ddduwiol. ‖ *Dros* yr annuwiol, *(hyper asebon:) dros* neu yn *lle* yr annuwiol, fel machnïydd yn ei ddeddf-le: gwaredu bywydau eraill trwy roddi ei fywyd ei hun i lawr *drostynt*.

7 [t] * Oblegid braidd y bydd neb farw dros

un cyfiawn: [u] † oblegid dros y da ysgatfydd [x] fe feiddiai un farw hefyd.

t Ioan 15. 13. 1 Ioan 3. 16. u 2 Sam. 18. 27. Salm 112. 5. Act. 11. 24. x pen. 16. 4. 2 Sam. 18. 3. a 23. 14—17.

Mae yr apostol yma yn mawrâu cariad Crist yn ei waith yn marw dros yr annuwiol, ac yn dangos ei fod yn gariad anghymarol, ac heb gyffelyb iddo erioed. * Pe chwilid y byd drwyddo, o braidd y caid neb a fyddai farw dros ddyn *diniwed, cyfiawn,* a fyddai yn gorfod dyoddef ar gam; na hanes am neb a wnaeth fel hyny erioed. † Eto, dros ddyn *da,* cymmwynasgar, haelionus, ac elusengar iawn, efallai y caid un a feiddiai farw dros hwnw; er ei fod yn beth pur annhebyg, ac y byddai son mawr am dano pe gwnai un y fath beth. Dyn *cyfiawn* y galwai yr Iuddewon ddyn a wnelai gyfiawnder manol â phawb, a dim ond cyfiawnder; ac a fynai gyfiawnder i'r manylrwydd eithaf gan bawb yn ddifaddeüol: a dyn *da* y galwent ddyn oedd dros ben cyfiawn; yn gwneyd cyfiawnder â phawb fel y llall, ond yn drugarog, ac yn faddeugar hefyd, wrth y rhai a wnelent anghyfiawnder âg ef. Felly y cyfrifent *hwy* ddynion cyfiawn a da; ond nid oedd hyn yn ddigon i wneyd neb yn gyfiawn nac yn dda yn nghyfrif Duw.

8 [y] * Eithr y mae Duw yn canmol ei gariad tu ag attom; [z] oblegid, a nyni etto yn bechaduriaid, † i Grist farw trosom ni.

y adn. 20, 21. pen. 3. 5. Eph. 1. 6—8. a 2. 7. 1 Tim. 1. 16. z Es. 53. 6. 1 Pedr 3. 18. 1 Ioan 4. 9, 10.

* Ond nid dros y rhai a gyfrifid yn gyfiawn, ac yn dda, y bu Crist farw, eithr dros rai nad oeddynt yn gyfiawn nac yn dda; dros bechaduriaid; dros yr annuwiol: (adn. 6:) dros rai oedd wrth natur ac arferion yn bechaduriaid, yn elynion Duw, yn haeddu ei ddigofaint eithaf ef, ac yn ymhyfrydu mewn gelyniaeth a gwrthryfel parâus yn ei erbyn. † Yn y weithred anfeidrol ryfedd hon, o Grist, unig-anedig ac anwyl Fab Duw, yn marw o angau poenus, gwarthus, a melltigedig y groes, dros bechaduriaid, mae Duw yn canmol ei gariad tuag atom mewn modd tra rhyfeddol: yn ei osod allan yn y modd mwyaf eglur a manteisiol ag oedd bosibl. Mae y gair *Sunistêsi* yn arwyddo dangos, profi, canmol, a gosod y cwbl yn yr un màn, a hyny yn y màn amlycaf, er egluro a dangos peth: felly mae holl gariad Duw megys wedi ei grynôi, a'i gyd-osod, i'w ddangos yn marwolaeth Crist ar Galfaria. Ac eto, rhyfedd leied a wel pechaduriaid o'r cariad anfeidrol hwn, yn wyneb y fath ddangosiad digyffelyb o hóno! Am y tri dosparthiad uchod o ddynion, "cyfiawn," "da," a "pechaduriaid;" trôed y darllenydd at y sylw a wnaed ar Matth. 9. 10, nod ‡.

9 * Mwy ynte o lawer, [a] a nyni yn awr wedi ein cyfiawnhâu † trwy ei waed ef, [b] y'n hachubir ‡ rhag digofaint trwyddo ef.

a adn. 1. pen. 3. 24—26. 1 Ioan 1. 7. b adn. 10. pen. 1. 18. a 8. 1, 30. Ioan 5. 24. 1 Thes. 1. 10.

* Mae rheswm yr apostol yn gadarn; oblegid mae yn fwy peth cyfiawnâu a chymmodi pechadur pan oedd yn annuwiol, nâ'i achub ef rhag digofaint a phob drwg ar ol ei gyfiawnâu: gan i Grist trwy ei waed wneyd y cyntaf, pa faint mwy y gwna efe yr ail? † Hyny yw, trwy ffydd yn ei waed a'i aberth ef. Gwaed Crist yw diogelwch y pechadur rhag digofaint, a thrwy ffydd mae efe yn dyfod i'r diogelwch gwerthfawr hwnw. ‡ "*Rhag y digofaint hwnw,*" yn ol y Groeg, medd *Pool;* sef y digofaint sydd ar ddyfod, neu gospedigaeth dragywyddol. Mae y saint yn syrthio yn aml i bechodau ar ol eu cyfiawnâu, a phob pechod yn haeddu digofaint; ond wedi eu cyfiawnâu ni chânt syrthio yn hollawl, na myned dan ddigofaint tragywyddol yn y diwedd. Trwyddo ef, ei aberth a'i eiriolaeth, a thrwy ffydd ynddo ef; hwy a achubir rhag digofaint er ei fynych haeddu.

10 [c] * Canys os pan oeddym yn elynion, y'n [d] heddychwyd â Duw trwy farwolaeth ei Fab ef; † mwy o lawer wedi ein heddychu, [e] y'n hachubir trwy ei fywyd ef.

c pen. 8. 7. 2 Cor. 5. 18, 21. Col. 1. 20, 21. d adn. 11. pen. 8. 32. Lef. 6. 30. 2 Cron. 29. 24. Ezec. 45. 20. Dan. 9. 24. Eph. 2. 16. Heb. 2. 17. e Ioan 6. 40, 57. a 10. 28, 29. a 11. 25, 26. a 14. 19. 2 Cor. 4. 10, 11. Col. 3. 3, 4. Heb. 7. 25. Dat. 1. 18.

Yr un ddadl eto, mewn geiriau eraill er diogelwch y saint. * Os pan oeddynt yn elynion hollawl i sancteiddrwydd Duw, ei ddeddf, ei ben-arglwyddiaeth, ei ras, ei ragluniaeth, a'i achos, yr heddychwyd hwy âg ef trwy farwolaeth ei Fab ar y groes; † mwy o lawer yn awr wedi eu heddychu, yr achubir hwy rhag syrthio eto dàn lywodraeth pechod a satan, a rhag gwrthgilio byth, "trwy ei fywyd," ei eiriolaeth, ei allu, a'i ras ef. Tybir fod "heddychu â Duw" yn rhan flaenaf yr adnod, yn cyfeirio at yr hyn a wnaeth Crist yn ei ufudd-dod a'i aberth er cymmodi pechaduriaid â Duw; a bod "heddychu," neu "wedi ein heddychu," yn rhan olaf yr adnod, yn cyfeirio at yr hyn a wnair yn weithredol ar bechaduriaid, pan y maent yn cael eu cymmodi yn wirioneddol â Duw: yr hyn a eilw yr apostol "Derbyn y cymmod," yn yr adnod nesaf.

11 * Ac nid *hynny* yn unig, [f] † eithr gorfoleddu yr ydym hefyd yn Nuw trwy ein Harglwydd Iesu Grist, [g] ‡ trwy yr hwn yr awrhon y derbyniasom y cymmod.

f pen. 2. 17. 1 Sam. 2. 1. Salm 32. 11. a 33. 1. a 43. 4. a 104. 34. a 149. 2. Es. 61. 10. Hab. 3. 17, 18. Luc 1. 46, 47. Gal. 5. 22. Phil. 3. 1, 3. a 4. 4. 1 Pedr 1. 8. g Ioan 1. 12. a 6. 50—58. 1 Cor. 10. 16. Col. 2. 6.

* Mae y geiriau hyn, "Ac nid *hyny* yn unig," yn amlwg yn cyfeirio yn ol, at yr hyn a ddywedodd yr apostol yn adn. 2. 3; "yr ydym yn gorfoleddu dàn obaith gogoniant Duw; ac nid felly yn unig, eithr yr ydym yn gorfoleddu mewn gorthrymderau." &c. † Ac yma, gwedi dangos yn yr adnodau cyfryngol, pa fodd yr oedd hyd yn nôd eu gorthrymderau a'u profedigaethau yn rhoddi achlysur gorfoledd i'r saint, mae yr apostol yn ail ddyfod at y mater, ac mewn gradd-eiriad hardd mae yn myned yn mlaen i ddangos, eu bod hwy yn gorfoleddu yn Nuw ei hunan, fel eu Duw cyfammodol a chymmodol, ac fel sylwedd eu holl ddedwyddwch trwy Iesu Grist. Yn 1. Gorfoleddu dàn obaith gogoniant Duw, adn. 2; yn 2. Gorfoleddu mewn gorthrymderau, adn. 3; ac yn 3. Gorfoleddu yn Nuw ei hunan, fel eu Duw a'u rhan dragywyddol. ‡ Duw a dderbyniodd yr iawn a wnaeth y cymmod; a'r credinwyr sydd yn derbyn y cymmod a wnaed trwy yr iawn hwnw: gwaith ffydd yw credu yn yr iawn, ac ymorphwys arno am gymmod; ac fel hyn mae y credadyn yn cael ei gymmodi yn weithredol â Duw, ac yn derbyn y cymmod yn brofiadol yn ei enaid.

12 * Am hynny, [h] † megis trwy un dyn ‡ y daeth pechod i'r byd, [i] ‖ a marwolaeth trwy bechod; ac felly yr aeth marwolaeth ar bob dyn, § yn gymmaint [k] a phechu o bawb.

h adn. 19. Gen. 3. 6. i pen. 6. 23. Gen. 2. 17. a 3. 19, 22—24. Ezec. 18. 4. 1 Cor. 15. 21. Iago 1. 15. Dat. 20. 14, 15. k pen. 3. 23. Iago 3. 2. 1 Ioan 1. 8—10.

* Gwedi dangos o'r blaen fod pawb yn bechaduriaid, a phawb a gyfiawnêir yn cael eu cyfiawnâu yr un ffordd, sef trwy ffydd yn Nghrist; mae yr apostol yma yn myned yn mlaen i egluro y pwnc mawr yn helaethach, trwy ddangos cyflwr dynolryw o gwymp Adda, a thrwy ei bechod cyntaf ef. Oddi yma i ddiwedd y bennod, mae yn cymharu, neu yn cyferbynu y ddau Adda â'u gilydd; y *cyntaf* yn bên ei holl had naturiol yn y cyfammod gweithredoedd, a'r *ail* yn ben ei holl had ysbrydol yn y cyfammod gras. † Sef trwy yr Adda cyntaf, pen cyfammodol, a chynnrychiolwr ei holl had naturiol; ac ni ddaeth pechod i'r byd, ond i gondemniad personol Efa, hyd oni fwytâodd yntau hefyd o'r ffrwyth gwaharddedig. ‡ Nid yw yr apostol yn dywedyd *pechodau,* ond *pechod, (ê amartia,)* yn y rhif unigol: pechod cyntaf Adda a gyfrifwyd i'w had ef; nid

d efe yn ben cyfammodwr ar ol cyflawni hwnw. eth y pechod hwn i'r byd yn gyfrifedig ar holl ddyn-yw, i halogi a dinystrio yr holl fyd o ddynion. rwy yr un pechod hwn, daeth marwolaeth hefyd ar b dyn; marwolaeth ysbrydol, naturiol, a thragywydd-n yn cynnwys holl drueni y bywyd hwn, a holl boenau yd a ddaw. § Gan fod holl ddynolryw yn Adda, yn fammodol ac yn naturiol, yr oedd pawb yn pechu ddo ef: dàn gyfrifiad o'i drosedd ef, yn gyfranegion lwgr ef, ac yn agored i gosp marwolaeth ynddo a, yddo ef. Nis gallasai pechod a marwolaeth ddyfod holl fyd, ac ar yr holl fyd, trwy un dyn, heb fod yr dyn hwnw yn ben cyfammodol, ac yn wreiddyn uriol, yr holl fyd o ddynion.

13 [i] * Canys hyd y ddeddf † yr oedd pech-y yn y byd: [m] ‡ eithr ni chyfrifir pechod pryd d oes deddf.

i 1 Gen. 4. 7—11. a 6. 5, 6, 11, 12. a 8. 21. a 13. 13. a 18. 20, 21. 9. 4, &c. 32, 36. a 38. 7, 10. m pen. 4. 15. 1 Cor. 15. 56. an 3. 14.

* Sef hyd roddiad y ddeddf ar Sinai, yr hyn oedd tua y fil pùm cant o flynyddoedd, ar ol i Adda bechu. rwy yr holl amser hyny, mae yn amlwg fod pechod y byd, o herwydd yr oedd marwolaeth yn y byd; ac buasai marwolaeth pe na buasai bechod, oblegid y bechod y daeth marwolaeth, adn. 12. ‡ Gan na yfrifir pechod pryd nad oes deddf, a chan fod pechod y byd hyd roddiad y ddeddf ar Sinai; mae yn rhaid l rhyw ddeddf mewn bod cyn ei rhoddi ar Sinai, pe gen ni chyfrifasid pechod, ac ni buasai marwolaeth hyny. Gwel ar pen. 4. 15.

14 * Eithr [n] teyrnasodd marwolaeth o Adda d Moses, [o] † ïe, arnynt hwy y rhai ni phech-ant yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda, [p] ‡ yr wn yw ffurf yr un oedd ar ddyfod.

n adn. 17, 21. Gen. 4. 8. a 5. 5—31. a 7. 22. a 19. 25. Ex. 1. 6. en. 8. 20, 22. Ex. 1. 22. a 12. 29, 30. Jona 4. 11. p 1 Cor. 21, 22, 45.

* Gwel yr hyn a ddywedwyd ar "Hyd y ddeddf" yn n. 13: yr un peth a feddylir wrth "O Adda hyd oses" yma. Teyrnasodd marwolaeth trwy yr holl nser, dros y ddwy fil a hanner o flynyddoedd hyny: yrnasodd ar bob cenedl, graddau, ac oedran o ddyn-n; yr hyn a brawf fod pawb wrth natur yn bechadur-ïd y pryd hwnw. † Nid ar rai mewn oedran yn unig, rhai a bechasent yn weithredol, ac yn erbyn goleuni a wybodaeth, y teyrnasodd; ond hefyd ar fabanod, y rhai phechasent yn weithredol *fel* Adda, ond a bechasent Adda. Bu miloedd o fabanod feirw yn marn y dylif, ninystr Sodom a Gomorra, a thrwy glefydau poenus o es i oes cyn rhoddiad y ddeddf: teyrnasodd marwol-eth arnynt hwy o herwydd pechod gwreiddiol, yn gys-ll ag ar rai mewn oedran o herwydd pechodau gweith-edol; o'r un cyfammod tòredig ac o'r un gwreiddyn ygredig yr oedd pawb, babanod ac oedolion. ‡ Yr edd yr Adda cyntaf yn y dechreuad yn ffurf yr Ail dda, sef Crist, yn mhurdeb ei natur ac yn ei sefyllfa el pen cyfammodol: ond buan y collodd efe y ffurf yn ddwy ystyriaeth. Trosglwyddodd yr Adda cyntaf echod a marwolaeth i'w holl had naturiol; trosglwydd-dd yr ail Adda sancteiddrwydd a bywyd i'w holl had sbrydol: fel hyn yr oedd y cyntaf yn ffurf yr Ail mewn ethau tebyg ac mewn pethau annhebyg.

15 [q] * Eithr nid megis y camwedd felly y nae y dawn hefyd. † Canys os trwy gam-edd un [r] y bu feirw llawer; ‡ mwy o lawer yr mlhâodd gras Duw, [s] || a'r dawn trwy ras yr n dyn Iesu Grist, [t] § i laweroedd.

q adn. 16, 17, 20. Es. 55. 8, 9. Ioan 3. 16. a 4. 10. r adn. 2, 18. Dan. 12. 2. Mat 20. 28. a 26. 28. s pen. 6. 23. 2 Cor. 15. Heb. 2. 9. 1 Ioan 4. 9, 10. a 5. 11, 12. t adn. 20. Es. 53. a 55. 7. Dat. 7. 9, 10, 14—17.

* Er bod tebygrwydd mawr, mewn amryw bethau, awng yr Adda cyntaf a'r Ail; eto y mae gwahaniaeth awr rhyngddynt, a'r rhagoriaeth yn fawr iawn o du Crist yr ail Adda: megys wrth gymharu camwedd y naill âg ufudd-dod y llall, yn eu heffaith a'u rhinwedd, e welir gwahaniaeth mawr. † Os trwy gamwedd, neu gwymp *(paraptôma)* un, a hwnw ond dyn yn unig, y daeth dedfryd marwolaeth, a distryw ofnadwy, yn ol barn gyfiawn Duw, ar ei holl had naturiol ef, fel cyflog ei bechod ef; ‡ mwy o lawer gallwn benderfynu, wrth ystyried goruwch hyfrydwch Duw mewn trugaredd, a rhagoriaeth anghymharol yr Ail Adda, yr Arglwydd o'r nef, yr hwn sydd yn Dduw yn gystal ag yn ddyn, yr amlâodd, ac y rhagorodd gras Duw, yn ei effeithiau a'i rinwedd, ar had ysbrydol ac eiddo cyfammodol yr un dyn Iesu Grist. || Tybir fod *gras* Duw yn arwyddo ei rad gariad a'i drugaredd ef tuag at ei bobl; a'r *dawn trwy ras* yn arwyddo y bendithion a gyfrenir yn weith-redol, fel ffrwyth y rhad gariad a'r drugaredd hyny. § Mae y geiriau "llawer," "llaweroedd," yn yr adnod hon, a "phob dyn" yn adn. 18, yn cael eu defnyddio yn gyffredin a chymmysgedig gan yr apostol; rhaid eu deall yn ol natur a gwirionedd y gwahanol bynciau y perthynant iddynt: daeth barn a marwolaeth ar lawer, ar *bob* dyn; ond pwy a all ddywedyd i'r dawn a'r cyf-iawnder ddyfod ar *bob* dyn yn yr un ystyr helaeth o'r geiriau. Yr oedd codi *rhai*, chwaithach llaweroedd, o'r cwymp trwy ras, yn annhraethol fwy peth na distrywio pawb trwy bechod.

16 * Ac nid megis *y bu* trwy un a bech-odd, *y mae* y dawn: [u] † canys y farn a ddaeth o un *camwedd* i gondemniad; [x] ‡ eithr y dawn *sydd* o gamweddau lawer i gyfiawnhâd.

u Gen. 3. 6—19. Gal. 3. 10. Iago 2. 10. x Es. 1. 18. a 43. 25. a 44. 22. Luc 7. 47—50. Act. 13. 38, 39. 1 Cor. 6. 9—11. 1 Tim. 1. 13—16.

* Fel y mae gwahaniaeth mawr rhwng Adda a Christ o ran eu personau, felly y mae hefyd o ran eu gweith-redoedd a'r effeithiau o honynt: † oblegid daeth barn gondemniol ar bawb trwy un camwedd yr Adda cyntaf; ‡ ond y mae dawn a gras Crist yn rhyddâu pawb a gredent ynddo, nid yn unig oddi wrth euogrwydd a chyfrifiad yr un camwedd hwnw, ond hefyd oddi wrth gamweddau lawer, a wnaethom ni ein hunain yn weith-redol. Mae yn cyrhaedd, nid yn unig at bechod gwreiddiol, ond hefyd at bechodau personol a gweith-redol.

17 [y] * Canys os trwy gamwedd un † y teyrnasodd marwolaeth trwy un; ‡ mwy o la-wer y caiff y rhai sydd yn derbyn [z] lliosog-rwydd o ras, ac o [a] ddawn cyfiawnder, [b] deyrn-asu mewn bywyd || trwy un, Iesu Grist.

y adn. 12. Gen. 3. 6, 19. 1 Cor. 15. 21, 22, 49. z adn. 20. Ioan 10. 10. 1 Tim. 1. 14. a Es. 61. 10. Phil. 3. 9. b pen. 8. 39. Mat. 25. 34. 1 Cor. 4. 8. 2 Tim. 2. 12. Iago 2. 5. 1 Pedr 2. 9. Dat. 1. 6. a 3. 21. a 5. 9, 10. a 20. 4, 6. a 22. 5.

* Mae yn amlwg fod yr apostol o hyd yn golygu yr Adda cyntaf yn ben cyfammodol ei holl had naturiol, a'i drosedd cyntaf ef yn dòriad o'r cyfammod hwnw; pe amgen i ba beth y soniai mòr aml am dano fel "*un* dyn," adn. 12, "camwedd *un*," adn. 15, 17, 18, anufudd-dod *un*, adn. 19; ac "*un* camwedd," adn. 16? † Trwy gamwedd un ac un camwedd, y teyrnasodd marwolaeth ofnadwy ar bob dyn, trwy yr un hwnw oedd yn cyn-nrychioli ei holl had. ‡ Ond ar gyfer y distryw erchyll hwnw trwy gamwedd yr Adda cyntaf, dyma waredigaeth a meddyginiaeth rad, effeithiol, a chyflawn, yn dyfod i golledigion trwy yr Ail Adda: mwy o lawer y caiff y rhai sydd trwy ffydd, ewyllysgarwch, a diolchgarwch, yn derbyn lliosowgrwydd o ras, ac o ddawn cyfiawnder, deyrnasu mewn bywyd; a hyny heb y perygl na'r posibl-rwydd o syrthio byth mwyach, fel yn yr Adda cyntaf. || "Trwy *un*, Iesu Grist:" felly hefyd yn adn. 14, 15, 18, 19; yr hyn sydd yn dangos yn amlwg fod yr apostol yn golygu Crist yn ben y cyfammod gras, megys yr oedd Adda yn ben y cyfammod gweithredoedd: un, a'i holl had naturiol, yn myned i lawr; y llall, a'i holl had

ysbrydol, yn dyfod i fynu: a rhyfedd oedd y drefn i'w cael i fynu.

18 * Felly gan hynny, † megis trwy gamwedd un *y daeth barn* [c] ar bob dyn i gondemniad; ‡ felly hefyd trwy gyfiawnder un *y daeth y dawn* ar [d] || bob dyn i gyfiawnhâd bywyd.

c adn. 12, 15, 19. pen. 3. 19, 20. d Ioan 1. 7. a 3. 26. a 12. 32. Act. 13. 39. 1 Cor. 15. 22. 1 Tim. 2. 4—6. 1 Ioan 2. 20.

* Gallasai y pùm adnod o'r blaen fod mewn cromfachau, a'r adnod hon a'r nesaf fod yn gyssylltiedig â'r ddeuddegfed adnod, ac fel parâd o'r hyn a ddechreuodd yr apostol yno: † megys y daeth marwolaeth ar bob dyn trwy bechod yr Adda cyntaf; ‡ felly hefyd y mae dawn i gyfiawnâd bywyd, yn dyfod i bob dyn a gredo, trwy gyfiawnder yr ail Adda. || Nid pob *person* o ddyn yn sicr a feddylir, ni byddai hyny yn wir; (Gwel dan §, adn. 15;) ond pob *math* o ddynion, cenedloedd yn gystal âg Iuddewon, neu bob dyn o'r had ysbrydol, a'r eiddo cyfammodol, a roddwyd i Grist. Mynych yn yr ysgrythyr y rhoddir *pawb* am *lawer;* ac i'r gwrthwyneb, *llawer* am *bawb:* ac felly y gwna yr apostol yn yr adnodau hyn. Nid yw y geiriau, "*y daeth barn,*" ac, "*y daeth y dawn,*" yn y Groeg yn yr adnod hon; ond y maent yn adn. 16, ac mae yn debyg mai oddi yno y cymmerodd y cyfieithwyr hwynt, i wneyd y synwyr yn oleuach yma.

19 [e] * Oblegid megis trwy anufudd-dod un dyn † y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid, [f] ‡ felly trwy || ufudd-dod un y gwneir § llawer yn gyfiawn.

e adn. 12—14. f Es. 53. 10—12. Dan. 9. 24. 2 Cor. 5. 21. Eph. 1. 6. Dat. 7. 9—17.

* Yr "un dyn" oedd yr Adda cyntaf, ac anufudd-dod i waharddiad pendant Duw (Gen. 2. 17,) oedd ei drosedd cyntaf ef: bwyta o'r ffrwyth, am yr hwn y dywedasai Duw, "Na fwyta o hóno." † Trwy yr anufudd-dod tra phechadurus hyny, "gwnaethpwyd llawer," hyny yw, pawb oll, yn bechaduriaid: fel rhai yn cael eu cynnrychioli yn nghyfammod Adda, *cyfrifwyd* hwynt yn bechaduriaid, yn ol trefn y cyfammod hwnw; ac fel rhai yn lwynau Adda, yr *oeddynt* mewn gwirionedd yn bechaduriaid, ac ymddygwyd atynt fel y cyfryw gan y Duw anfeidrol gyfiawn. ‡ Felly, hefyd, i'r gwrthwyneb, yn ol trefn cyfammod arall, trwy ufudd-dod un y gwneir llawer yn gyfiawn. Yr "un" yma ydoedd Iesu Grist; (adn. 17,) a rhaid ei fod ef yn ben y cyfammod gras, yn fachniydd yn neddfle ei bobl, cyn y gallasai ei ufudd-dod ef wneyd eraill yn gyfiawn. Megys yr oedd yr Adda cyntaf fel pen cyfammodwr, yn cynnrychioli ei holl had naturiol, a'i anufudd-dod ef yn cael ei gyfrif iddynt hwy i'w gwneyd yn bechaduriaid; felly yr oedd yr ail Adda fel pen cyfammodwr hefyd, yn cynnrychioli ei holl had ysbrydol, a'i ufudd dod perffaith ef yn eu deddfle, yn cael ei gyfrif iddynt hwy i'w gwneyd yn gyfiawn. || Yr oedd un weithred o anufudd-dod yr Adda cyntaf, yn ddigon i wneyd ei holl had ef yn bechaduriaid; ond yr oedd holl fywyd, dyoddefaint, a marwolaeth yr ail Adda, fel un cyfan-waith mawr o ufudd-dod, yn angenrheidiol i wneyd neb o'r pechaduriaid hyny yn gyfiawn: yn y naill beth ac yn y llall, ni a welwn anfeidrol gyfiawnder a sancteiddrwydd Duw, a'i dra chasineb ef at bechod. § *Pawb* yw y "llawer" yn y rhan flaenaf o'r adnod; ond nis gall feddwl hyny yn y rhan olaf o hóni: nid yw *pawb* yn cael eu gwneyd yn gyfiawn; a'r dydd mawr diweddaf a ddengys pa faint fydd y "llawer" a sonir yma: yno y tòrir y ddadl am byth yn nghylch ystyr y fath eiriau â hyn.

20 [g] * Eithr y ddeddf a ddaeth i mewn † fel yr amlhâai y camwedd: [h] ‡ eithr lle yr amlhâodd y pechod, y || rhagor-amlhâodd gras:

g pen. 3. 19, 20. a 4. 15. a 6. 14. a 7. 5—8. Ioan 15. 22. 2 Cor. 3. 7—9. Gal. 3. 19—25. h pen. 6. 1. 2 Cron. 33. 9—13. Salm 25. 11. Es. 1. 18. a 43. 24, 25. Jer. 3. 8—14. Ezec. 16. 52, 60—63. a 36. 25—32. Mica 7. 18, 19. Mat. 9. 13. Luc 7. 47. a 23. 39—43. 1 Cor. 6. 9—11. Eph. 1. 6—8. a 2. 1—5. 1 Tim. 1. 13—16. Tit. 3. 3—7.

* Yr oedd holl drefn cyfiawnâu pechaduriaid wedi ei sefydlu a'i dwyn i weithrediad yn mhell cyn rhoddi y ddeddf trwy Moses. Daeth y ddeddf hon, yn nghyd a'r holl oruchwyliaeth seremoniol, "i mewn" i blith ychydig ddynion mewn cymhariaeth i holl hil Adda; ac am ychydig amser mewn cymhariaeth i barâd y byd; hyny yw, i blith meibion Jacob yn unig; ac yn mhen dwy fil a hanner o flynyddoedd neu ragor, ar ol crëu y byd. Daeth *ychydig* i mewn, meddant, yw ystyr y gair *pareiselthen;* ac nid fel y daeth pechod i mewn, dros a thrwy yr holl fyd. † Nid i gyfiawnâu neb oddi wrth bechod y daeth hi; ond yn hytrach fel yr amlâi y camwedd: nid fel yr amlâi dynion gamwedd; ond fel y gwelent eu meddyliau, eu serchiadau, eu tymherau, eu geiriau, a'u gweithredoedd yn bechadurus, y rhai heb y ddeddf nis gallent wybod eu bod yn gymmaint felly: fel yr *ymddangosai* pechod trwy y gorchymyn yn dra phechadurus. Fel y gwelom gamwedd Adda yn ei erchylldod, ac y gwelom ein camweddau ein hunain yn dra lliosog ac echryslawn hefyd. ‡ Ond mòr anfeidrol ryfedd yw golud gras a chyfoeth trugaredd Duw, fel y mae yn dylifo at y pechadur yn ei euogrwydd, ei aflendid, a'i holl drueni, ac yn ei achub oddi wrth ei holl bechodau aneirif, trwy gyfiawnder, maddeuant, a sancteiddiad ei holl berson ef. || "Rhagor-amlâodd:" *hyperperisseusen* yw y gair Groeg, yn arwyddo amlâu yn ddirfawr, dros ben mesur a chyfrif; fel dwfr y dylif, yn gorllifo yn mhell dros benau mynyddoedd uwchaf euogrwydd a phechodau dynion.

21 [i] * Fel megis y teyrnasodd pechod i farwolaeth, † felly hefyd y [k] teyrnasai gras [l] ‡ trwy gyfiawnder, [m] i fywyd tragywyddol, || trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

i adn. 14. pen. 6. 12, 14, 16. k Ioan 1. 16, 17. Tit. 2. 11. Heb. 4. 16. 1 Pedr 5. 10. l adn. 17. pen. 4. 13. a 8. 10. 2 Pedr 1. 1. m pen. 6. 23. Ioan 10. 28. 1 Ioan 2. 25. a 5. 11—13.

* Yn adn. 14, 17, dywedodd yr apostol fod marwolaeth yn teyrnasu, ac yma eto mae yn dywedyd fod pechod yn teyrnasu i farwolaeth. Mae efe megys yn dynsodi pechod a marwolaeth, ac yn eu dangos hwynt fel dau fuddugoliaethwyr a thraws-ormeswyr ofnadwy, yn cyd-deyrnasu ar holl ddynolryw; ac, yn ddidrugaredd, trwy amrywiol arteithiau, yn traddodi eu cyrph i'r bedd, a'u heneidiau i uffern! felly y gwnant â phawb sydd dàn gyfammod yr Adda cyntaf. † O'r blaen yr oedd yr apostol yn cyferbynu Adda â Christ, yma mae yn cyferbynu pechod â gras, ac yn dangos rhagoriaeth nerth a rhinwedd gras ar bechod. Fel yr oedd pechod yn teyrnasu trwy anghyfiawnder i farwolaeth; felly mae gras yn teyrnasu trwy gyfiawnder i fywyd tragywyddol. ‡ Nid trwy gyfiawnder gweithredoedd y ddeddf y mae hyn, ond trwy gyfiawnder perffaith a gogoneddus yr Arglwydd Iesu yn gyfrifedig i ddyn: || trwy eiriolaeth, gras, ac awdurdod Crist Iesu ein Harglwydd, y mae y cwbl oll.

PEN. VI.

Na ddylem ni fyw mewn pechod.

[a] * BETH wrth hynny a ddywedwn ni? [b] † a drigwn ni yn wastad mewn pechod, ‡ fel yr amlhâo gras?

a pen. 3. 5. b adn. 15. pen. 2. 4, 5. a 3. 5—8, 31. a 5. 20, 21. Gal. 5. 13. 1 Pedr 2. 16. 2 Pedr 2. 18, 19. Judas 4.

* Rhagflaenu gwrthddadl mae yr apostol yn y geiriau hyn; gwyddai y byddai rhai o'r Iuddewon deddfol yn barod i ddywedyd, megys y dywed dynion deddfol eto, † Os yw dynion i gael eu cyfiawnâu yn hollawl o rad ras Duw, trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist iddynt trwy ffydd yn unig, heb un olwg ar eu gweithredoedd da hwy eu hunain cyn na chwedi credu; ac yn enwedig os gwir yw, mai lle yr amlâodd pechod y rhagor-amlâodd gras;

h yw canlyniad athrawiaeth o'r fath hyn? Ai nid
yn arwain i ben-rhyddid? Onid allwn ni gymmer-
d achlysur oddi wrthi i fyned yn mlaen mewn pechod
r wastad, ac i amlâu ynddo, ‡ fel yr amlâo gras, ac fel
amlyger ac y derchafer golud gras Duw yn fwy go-
oneddus, yn yr helaeth faddeuant o hóno?

2 c * Na atto Duw. d † A ninnau wedi
meirw i bechod, e ‡ pa wedd y byddwn f byw
o ynddo ef?

c pen. 3. 4. d Gen. 39. 9. Salm 119. 104. 1 Ioan 3. 9.
adn. 5—11. pen. 7. 4. Gal. 2. 19. a 6. 14. Col. 3. 3. 1 Pedr 2. 24.
Cor. 5. 14—17. 1 Pedr 1. 14. a 4. 1—3.

* "Na atto Duw:" gwel ar pen. 3. 4. Yma mae yr
postol yn ateb yr wrthddadl ddichell-ddrwg uchod, yn
iddull cadarn, cyfrgrwn, a sobr arferol, Na "thrigwn,"
rewn un modd: byddai hyn yn gam-ddefnydd o'r
eiddiaf â'r gwirionedd mwyaf gwerthfawr a chysurus,
hollawl groes i'w natur a'i ddyben sanctaidd. † Er
is gallwn gael ein cyfiawnâu trwy ein gweithredoedd
hunain; eto, gan ein bod yn proffesu ein bod wedi
eirw i bechod, gan ein bod dàn rwymau i farw iddo,
chan ein bod mewn gwirionedd wedi meirw iddo o
ein serchiadau, fel y peth gwaethaf ac atgasaf; ‡ pa
ld y gallwn ni eto fyw iddo nac ynddo? Pa fodd yn
ol â'n cyflwr, â'n hegwyddor, â'n proffes o sancteidd-
ydd, â'n cydwybod, â'n dïolchgarwch am ein gwared-
aeth oddi wrtho, ac â'n gobaith am berffaith waredig-
ith yn y diwedd? Mae y dyb yn ynfyd, ac yn gabledd.

3 g * Oni wyddoch chwi, † am gynnifer o
nnom h ag a fedyddiwyd i Grist Iesu, i ‡ ein
edyddio ni i'w farwolaeth ef?

g adn. 16. pen. 7. 1. 1 Cor. 3. 16. a 5. 6. a 6. 2, 3, 9, 15, 16, 19.
. 13, 24. 2 Cor. 13. 5. Iago 4. 4. h Mat. 28. 19. 1 Cor. 12.
. Gal. 3. 27. 1 Pedr 3. 21. i adn. 4, 5, 8. 1 Cor. 15. 29. Gal.
20, 21.

* Oni wyddoch chwi fod bedydd yn un o ordinadau
efengyl? Oni wyddoch chwi ein bod ni gristionog-
m wedi ein bedyddio? Ac oni wyddoch chwi fod
edydd yn arwyddo marw i bechod, a byw yn sanctaidd
Dduw? † Bedyddio i Grist yw bedyddio i enw a
arefydd Crist: derbyn arwydd, a gwneyd proffes, o
wmundeb âg ef, a chyd-ymffurfiad ag ef yn ei farwol-
eth; fel trwy rinwedd ei farwolaeth ef *dros* bechod, y
yddom ninnau feirw *i* bechod, o ran ei chwantau hal-
gedig a'i arferion. ‡ Mae y rhai a fedyddiwyd felly yn
ïirioneddol i Grist, yn gyfranogion o deilyngdod ei
arwolaeth ef er eu cyfiawnâd, ac hefyd o effaith a
ninwedd ei farwolaeth ef er marweiddiad eu pechod.
ybir i'r eglwys gael ei phlanu yn Rhufain tua'r
wyddyn 43, ac i'r epistol hwn gael ei ysgrifenu ati yn
flwyddyn 58, sef 15 mlynedd wedi ei phlaniad; a chan
od yr apostol yn llefaru am y Rhufeiniaid dychweledig
m gyffredinol fel rhai wedi eu bedyddio, mae yn natur-
bl i ni feddwl fod bedydd yn cael ei weini i'r rhai yr
edd eu rhïeni yn gristionogion pan aned hwynt: neu
newn geiriau eraill, fod plant y cristionogion yn cael
u bedyddio yn eu mabandod.

4 k * Claddwyd ni gan hynny gyd âg ef
trwy fedydd i farwolaeth; l † fel megis ag y
cyfodwyd Crist o feirw m trwy ogoniant y Tad,
felly y rhodiom ninnau hefyd mewn newydd-
deb buchedd.

k adn. 3. Col. 2. 12, 13. a 3. 1—3. l adn. 9. pen. 8. 11.
Cor. 6. 14. 2 Cor. 13. 4. Eph. 1. 19, 20. a 2. 5, 6. m Ioan 2.
11, 19, 20. a 11. 40. Col. 1. 11. n adn. 19. pen. 7. 6. a 12. 1, 2.
a 13. 13, 14. 2 Cor. 5. 17. Gal. 6. 15, 16. Eph. 4. 17, 22—24. a 5.
8. Phil. 3. 17, 18. Col. 1. 9—12. a 2. 11, 12. a 4. 1. 1 Pedr 4. 1, 2.
2 Pedr 1. 4—9.

Gan ein bod ni wedi meirw i bechod, (adn. 2,) a
chwedi ein bedyddio i farwolaeth Crist, (adn. 3,) mae
ni hefyd gymundeb a chydymffurfiad âg ef yn ei
gladdedigaeth; yr hyn ddengys radd bellach o ddinystr
ar bechod, trwy ei osod ef megys allan o'r golwg, ac na
byddo i ni ddim a wnelom âg ef mwyach. Fel yr oedd
claddu Crist yn brawf ei fod ef wedi llwyr farw, ac yn
arweiniad i'w adgyfodiad buan ef, trwy ogoneddus allu
y Tad, ac er egluro ei ogoniant yntau; felly y mae bed-
ydd yn arwyddo marwolaeth hollawl i bechod, ac ar-
weiniad i fuchedd newydd, a rhodiad sanctaidd o hyny
allan. Rhoddwyd pwys mawr ar, a dadleuwyd llawer
yn nghylch, y geiriau 'claddu gydag ef trwy fedydd i
farwolaeth;' fel pe byddent yn profi mai trwy *drochiad*
y dylid gweinyddu bedydd, ac mai at yr arfer hyny mae
yr apostol yn cyfeirio: ond dywedir hefyd ein bod ni
wedi ein *croeshoelio* gyda Christ, a chwedi ein *henwaedu*
gydag ef, heb un cyfeiriad at y dull allanol o groeshoel-
io nac enwaedu. A chan y sonir am fedydd yn amlach
o lawer, gyda chyfeiriad at *dywallt* yr Ysbryd Glân; a
chan fod yr apostol yma yn amlwg yn son am arwydd-
ocâd ysbrydol yr ordinâd hòno, ac nid y dull allanol o'i
gweinyddu; nis gellir casglu dim yn benderfynol oddi
wrth y geiriau hyn, er profi fod trochiad yn angenrheid-
iol i fedydd; nac ychwaith mai hyny oedd y dull cyff-
redin o fedyddio yn amser yr apostol. Dyma feddyliau
Scott ar yr adnod hon, agos air yn air; ond y mae ein
Hawduron eraill yn addef, bod yma gyfeiriad, efallai, at
y *dull* o fedyddio yn y gwledydd poethion hyny, o leiaf
weithiau; ond nad ydyw trochi mewn un modd yn *hanfodol*
i fedydd, nac ychwaith yn weddus nac yn ddi-
berygl bob amser yn ein gwlad ni. † Sylwyd eisoes ar
y rhan hon o'r adnod. Rhodio mewn newydd-deb
buchedd yw, gweithredu oddi ar egwyddorion newydd,
amcanu at ddybenion newydd, a dwyn ffrwythau newydd
mewn sancteiddrwydd i ogoniant Duw.

5 o * Canys os gwnaed ni p yn gyd-blanhigion i q † gyffelybiaeth ei farwolaeth ef, ‡ felly y byddwn *i gyffelybiaeth ei* adgyfodiad *ef*:

o adn. 8—12. Eph. 2. 5, 6. Phil. 3. 10, 11. p Salm 92. 13. Es. 5. 2. Jer. 2. 21. Mat. 15. 13. Ioan 12. 24. a 15. 1—8.

* Arwydda y gair *Symphutoi*, meddant, nid cyd-blanu yn unig, ond cyd dyfu hefyd. Trwy gymhariaeth brydferth, mae yr apostol yma yn cyffelybu Crist, yr hwn a fu farw ac a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn oddi wrth y meirw, i blanigyn; yr hwn wedi ei orchuddio yn y ddaear, sydd yn blaguro mewn amser dyladwy. Ac yna, gan iddo ddywedyd ein bod ni wedi meirw i bechod, a chwedi ein claddu gyda Christ, fel y byddem byw drachefn i gyfiawnder; i'r dyben o ddangos fod hyn oll yn cymmeryd lle trwy y gras ydym ni yn ei dderbyn o Grist, mae yn dywedyd ein bod wedi cyd-dyfu gydag ef yn un planigyn; fel y mae pethau a gyd-blanwyd gyda phren yn cyd-dyfu gydag ef, ac yn byw trwy yr un nôdd cyffredin. Mae yr holl saint fel planigion wedi eu himpio a'u gwreiddio yn Nghrist, yn cyd-dyfu â'u gilydd, ac oll yn cyd-dyfu ynddo ef, trwy yr ymgeledd ysbrydol maent yn gael o hóno ef. † Bu Crist farw, ac mae y saint yn meirw; efe yn naturiol, a hwythau yn ysbrydol; efe trwy ddyoddef, i wneyd aberth, ac iawn, dros bechodau rhai eraill; a hwythau i farweiddio, i ladd, ac i groeshoelio eu pechodau eu hunain. ‡ Fel mae y planigyn neu yr impyn yn gyffelyb yn ei natur a'i ffrwyth i'r gwreiddyn; felly mae y saint i Grist yn ei adgyfodiad: nid yw efe yn marw nac i farw mwyach; ac nid ydynt hwythau yn farw mwyach mewn pechodau, ond yn byw mewn sancteiddrwydd, ac yn dwyn ffrwyth i fywyd tragywyddol.

6 * Gan wybod hyn, q ddarfod croeshoelio ein hen ddyn ni gyd âg *ef*, r † er mwyn dirymmu corph pechod, s ‡ fel rhag llaw na wasaethom bechod.

q Gal. 2. 20. a 5. 24. Eph. 4. 22. Col. 3. 9, 10. r pen. 7. 24. a 8. 3, 13. Col. 2. 11, 12. s adn. 12, 22. pen. 7. 25. a 8. 4. 2 Bren. 5. 17. Es. 26. 13. Ioan 8. 34—36.

* "Dyn," am ei fod yn gorph cyfan o bechod: "hen ddyn," am ei dderbyn o Adda, ac yn mhawb cyn cael gras. Mae yr "hen ddyn," sef yr hen anian lygredig yn yr holl gredinwyr, wedi ei groeshoelio gyda Christ trwy y gras sydd yn dyfod o'i groes ef, a thrwy undeb y saint âg ef. Mae yn cael ei amddifadu o'i lywodraeth, a'i ddinoddi fel gelyn a drwg-weithredwr coll-farnedig: penderfynwyd yn hollawl ei ddinystrio ef: † mae wedi

ei wanychu, ei gaethiwo, ei warthruddu, yn dyoddef ac mewn cyflwr marwol; er ei fod eto yn fyw, ac yn ymdrech am fywyd, ac hyd yn nôd am ryddid a buddugoliaeth. ‡ Nid oes ychwaith fwriad, nac yn y credadyn, nac yn ei Arglwydd grasol, i ryddâu y gwrthryfelwr croeshoeliedig: marw sydd raid iddo, er yn araf; yr holl gorph o bechod, pob math a gradd o anghydffurfiad â deddf sanctaidd Duw, mae yn rhaid ei ddistrywio a'i ddiddymu; fel na byddo y credadyn mwyach yn gaethwas pechod, ac fel y caffo o'r diwedd ei lwyr waredu oddi wrth ei gynnyrfiadau gofidus.

7 [t] * Canys y mae yr hwn a fu farw, wedi ei † ryddhâu oddi wrth bechod.

t adn. 2, 8. pen. 7. 2, 4. Col. 3. 1—3. 1 Pedr 4. 1.

* Fel mae y marw naturiol wedi ei ryddâu oddiwrth holl wasanaeth a llafur bywyd, felly mae yr hwn a fu farw i bechod, wedi ei ryddâu byth oddi wrth wasanaeth ac arglwyddiaeth pechod: mae efe wedi myned i wasanaeth Arglwydd arall; nid oes gan bechod mwyach ddim hawl arno, ac nis ennilla yn ol byth yr awdurdod a gollodd. † *Dedikaiôtai* yw y gair yma am "ryddâu;" ac felly cyfieithiad llythyrenol yr adnod fyddai fel hyn: —"Canys mae yr hwn a fu farw wedi ei *gyfiawnâu* oddi wrth bechod." Mae wedi ei ryddâu yn gyfreithlawn, yn wyneb deddf Duw, oddi wrtho; ac y mae ymwybyddiaeth o'i gyfiawnâd trwy groes Crist, yn fodd arbenig i'w ryddâu ef o gaethiwed pechod, gan fod hyny yn ei galonogi ef i ysgwyd ymaith iau pechod. Ei farw ef i bechod yw y prawf gofynol ei fod wedi ei gyfiawnâu, ac nid yr achos haeddiannol o'i gyfiawnâd: fel yna mae yr athrawiaeth yn wir efengylaidd, ac ni ddylid ei gwyr-droi fel y ceisia rhai wneyd.

8 [u] * Ac os buom feirw gyd â Christ, [x] † yr ydym ni yn credu y byddwn byw hefyd gyd âg ef:

u adn. 3—5. 2 Tim. 2. 11, 12. x Ioan 14. 19. 2 Cor. 4. 10—14. a 13. 4. Col. 3. 3, 4. 1 Thes. 4. 14—17.

* Yn awr, i ymresymu ychydig yn mhellach ar y pwnc hwn: os ydym ni cyn belled yn gyfranogion o rinwedd oddi wrth Grist, trwy ein hundeb âg ef, a'n bod yn cael cymdeithas âg ef; ac yn tebygu iddo ef yn ei farwolaeth, trwy ein bod wedi marw yn effeithiol i bechod; † mae genym le i gredu ar seiliau da, y cawn ni gymmorth ganddo ef eto, i fyw bywyd ysbrydol, sanctaidd, a nefol yma, yn ol ei esampl ef, ac fel rhai a gyd-fywhâwyd gydag ef, hyd oni ddyrchafer ni i fywyd anfarwol o ddedwyddwch a gogoniant, gydag ef mewn cyflwr o berffeithrwydd a gwynfyd byth. Od oes unrhyw broffeswr crefydd yn ddieithr i'r cyfnewidiad o farw i bechod a byw i gyfiawnder, nid yw ei hyder am fyw gyda Christ mewn gogoniant, ond disail a rhyfygus.

9 * Gan wybod [y] nad yw Crist, yr hwn a gyfodwyd oddi wrth y meirw, yn marw mwyach; [z] nad arglwyddiaetha marwolaeth arno mwyach.

y Salm 16. 9—11. Act. 2. 24—28. Heb. 7. 16, 25. a 10. 12, 13. Dat. 1. 18. z adn. 14. pen. 5. 14. Heb. 2. 14, 15.

* Gan i Grist adgyfodi oddi wrth y meirw ac esgyn i ogoniant, ni a wyddom na bydd efe marw mwyach, ac nad arglwyddiaetha marwolaeth arno mwyach. Hyd yn nôd Enoch ac Elias ni byddant marw mwyach wedi esgyn i'r nefoedd.

10 * Canys fel y bu efe farw, [a] efe a fu farw unwaith i bechod: † ac fel y mae yn byw, [b] byw y mae i Dduw.

a pen. 8. 3. 2 Cor. 5. 21. Heb. 9. 26—28. 1 Pedr 3. 18. b adn. 11. pen. 14. 7—9. Luc 20. 38. 2 Cor. 5. 15. 1 Pedr 4. 6.

* Ni buasai efe yn ddarostyngedig i farwolaeth o gwbl, ond o herwydd ein pechodau ni, y rhai a gyfrifwyd ac a roddwyd arno fel ein Machnïydd ni, i wneuthur iawn am ba rai, "efe a fu farw unwaith i bechod:" † ac, yn awr, gan ei fod ef wedi gorphen y gorchwyl mawr a grasol hwnw, efe a gyfododd drachefn; ac yn ein natur ni, mewn undeb â'r Tad, mae yn awr yn byw bywyd nefol, mewn derchafiad a dedwyddwch annhraethol, i ogoniant y priodoliaethau a'r llywodraeth ddwyfol, trwy ddwyn yn mlaen a pherffeithio ei waith cyfryngol, fel Pen uwchlaw pob peth i'r eglwys.

11 [c] * Felly chwithau hefyd, cyfrifwch eich hunain yn [d] feirw i bechod; [e] eithr yn fyw i Dduw, [f] yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

c pen. 8. 18. d adn. 2. e adn. 13. 1 Cor. 6. 20. Gal. 2. 19, 20. Col. 3. 3—5. f adn. 23. pen. 5. 1. a 16. 27. Ioan 20. 31. Eph. 2. 7. Phil. 1. 11. a 4. 7. Col. 3. 17. 1 Pedr 2. 5. a 4. 11.

* Yr un modd, gan hyny, mewn cyd-ffurfiad â marwolaeth ac adgyfodiad Iesu, mae y saint wedi meirw i bechod, wedi eu rhyddâu oddi wrth ei arglwyddiaeth, wedi cyfodi i fuchedd newydd, ac ni syrthiant mwyach dàn y caethiwed hwnw; ond o hyn allan byth maent yn byw i Dduw, yn mwynâu dedwyddwch yn ei wasanaeth sanctaidd, ac yn gogoneddu ei enw. Felly y dylent gyfrif eu hunain, felly y maent yn cyfrif, ac felly mae eu cyflwr, eu profiad, a'u hymarweddiad mewn gwirionedd. Yn yr adnod hon mae yr apostol yn newid ei ddull o lefaru: yn yr adnodau o'r blaen o hyd, yr oedd yn gosod i lawr egwyddorion, perthynol i sanctaiddrwydd; ond yn yr adnod hon a'r tair nesaf, mae yn cyngori oddi ar yr egwyddorion hyny: a'r cwbl yn annog y saint i sanctaiddrwydd.

12 [g] * Na theyrnased † pechod gan hynny yn eich [h] corph marwol, ‡ i ufuddhâu o honoch iddo [i] yn ei chwantau.

g adn. 16. pen. 5. 21. a 7. 23, 24. Num. 33. 55. Deut. 7. 2. Jos. 23. 12, 13. Barn. 2. 3. Salm 19. 13. a 119. 133. h pen. 8. 11. 1 Cor. 15. 53, 54. 2 Cor. 4. 11. a 5. 4. i adn. 16. pen. 2. 8. a 8. 13. a 13. 14. Gal. 5. 16, 24. Eph. 2. 3. a 4. 22. 2 Tim. 2. 22. Tit. 2. 12. a 3. 3. Iago 1. 14, 15. a 4. 1—3. 1 Pedr 1. 14. a 2. 11. a 4. 2, 3. 1 Ioan 2. 15—17. Judas 16.

* "Gan hyny," os mynwn ni ymddwyn yn deilwng i'n proffes, ein rhagor-fraint, ein mawredd, a'n dyledswydd, fel cristionogion; na theyrnased pechod yn ein corph marwol ni, i ufuddâu iddo, ac i gydsynio â'i chwantau llygredig ef. Os gwna un *proffeswr* crefydd hyn yn gyffredin, nis gall fod ganddo un prawf o'i wir dröedigaeth; oblegid mae yr efengyl yn gwared oddi wrth arglwyddiaeth pechod, yn gystal ag oddi wrth y condemniad am bechod: ac os gwna unrhyw wir gristion hyn mewn rhyw amgylchiadau neilldüol, rhaid ei fod yn dwyn cwmwl ar ei brofiad, ac yn gwanychu ei hyder: effaith anwyliadwriaeth, ac angof o'i rwymau a'i ragor-fraint ydyw. † Y "pechod" a sonir yma, yw, pechod neu lygredigaeth ein natur, yr un peth a'r "hen ddyn," a "chorph pechod" o'r blaen: peth *yn* y corph yw, ac nid gweithredoedd allan o'r corph: ‡ ni ddylid ufuddâu iddo yn ei chwantau tumewnol, chwaithach yn ei weithrediadau allanol. Os ufuddêir iddo yn ei chwantau, nid hir y delir yn erbyn ei dòriadau allan: chwant wedi ymddwyn a esgor ar bechod.

13 [k] * Ac na roddwch eich aelodau † yn arfau anghyfiawnder i bechod: [l] ‡ eithr rhoddwch eich hunain i Dduw, ‖ megis rhai [m] o feirw yn fyw; [n] § a'ch aelodau yn arfau cyfiawnder i Dduw.

k adn. 16, 19. pen. 7. 5, 23. 1 Cor. 6. 15. Col. 3. 5. Iago 3. 5, 6. a 4. 1. l pen. 12. 1. 2 Cron. 30. 8. Dan. 3. 28. 1 Cor. 6. 20. 2 Cor. 8. 5. Phil. 1. 20. m adn. 11. Luc 15. 24, 32. Ioan 5. 24. 2 Cor. 5. 15. Eph. 2. 5. a 5. 14. Col. 2. 13. 1 Pedr 2. 24. n Salm 37. 30. Diar. 12. 18. Iago 3. 5, 6.

* Gwedi gwahardd *chwantau* dirgelaidd pechod *yn* y corph, yn yr adnod o'r blaen; mae yr apostol yma yn gwahardd i ni roddi aelodau allanol y corph, megys y dwylo, y traed, y llygaid, y tafod, a'r clustiau, i wasanaethu y chwantau pechadurus hyny. Efallai y dylem ddeall cynneddfau yr enaid, a nwydau y meddwl hefyd; mae y rhai hyn i'r enaid y peth ydyw yr aelodau uchod i'r corph, er ysgogiad a gweithrediad: ac mewn ystyr gyffelybiaethol gellir eu galw hwy yn aelodau yma, ac adn. 19, megys hefyd yn pen. 7. 5, 23. † *Opla* yw y gair Groeg a gyfieithir yma "arfau:" gair yn arwyddo

hyw offer, â pha rai mae crefftwr yn gwneyd ei th, ond yn benaf arfau rhyfel; ac yn yr ystyr hyny y em ei ddeall yn y fàn hon: rhyfela â Duw y mae chaduriaid, â'u holl aelodau, eu cynneddfau, a'u dydau. ‡ Rhoddwch eich hunain oll i Dduw, gyrph eneidiau, yn eiddo cyssegredig a sanctaidd i'w was taeth ef, fel yn pen. 12. 1. || Gan ein bod wedi ein aredu o gondemniad a marwolaeth ysbrydol, a'n awâu trwy anfeidrol ras Duw; § dylem gyflwyno ein unain iddo ef, a'r cwbl ag ydym ac a feddom, i'w was taeth cyfiawn a sancteiddiol ef byth.

14 o * Canys nid arglwyddiaetha pechod onoch chwi: p † oblegid nid ydych chwi dan y ddeddf, q eithr dan ras.

o adn. 12. pen. 5. 20, 21. Salm 130. 7, 8. Mica 7. 19. Mat. 1. Ioan 8. 36. Tit. 2. 14. Heb. 8. 10. p pen. 3. 19, 20. a 7. 4— Gal. 3. 23. a 4. 4, 5, 21. a 5. 18. q adn. 15. pen. 4. 16. a 5. a 11. 6. Ioan 1. 17. 2 Cor. 3. 6—9.

* Cawsom hyn fel cyngor yn adn. 12, "Na theyrn d;" ond yma mae fel addewid sicr, nad arglwydd tha pechod mwyach ar y saint, y rhai a waredwyd di dàn y ddeddf, ac a ddygwyd dàn lywodraeth gras w. Gwrthryfelu a gormesu efe a wna; ond byth ni eyrnasa mwyach yn yr adenedigion: dygwyddodd lo fel i'r bwystfilod hyny yn Daniel, 7. 12, ei lywod eth a ddygwyd ymaith, er rhoddi iddo megys estyn fl einioes dros yspaid ac amser. Mae calondid i ym ld pan yr ydym yn sicr o fuddugoliaeth; a chalondid wmdrech pan ydym yn sicr o eunill y gamp. † Mae apostol yn dangos fod y sicrwydd am fuddugoliaeth bechod yn gorwedd ar natur a diogelwch y cyfam od newydd; mae y credadyn wedi cael ei waredu oddi n y ddeddf yn y ffurf gyfammodol, neu oddi dàn y cyf mod gweithredoedd a'i holl gondemniad; a chwedi el ei ddwyn i rwymyn y cyfammod gras, ac yn gyfran o'i holl addewidion, ei ddoniau, a'i fendithion gras ac ysbrydol, er ei ymgeleddu a'i nerthu yn ei ym ech yn erbyn pechod, ac i fyw yn sanctaidd ac yn duwiol. ‡ Mae yn sicr mai nid y ddeddf seremoniol feddylir; yr oedd llawer dàn hòno a thàn ras hefyd: ae yn sicr drachefn mai nid y ddeddf foesol a fedd ir; oblegid mae pawb sydd dàn ras dàn hòno hefyd, ll eu hunig rëol o ymarweddiad a buchedd sanctaidd. an hyny rhaid mai y cyfammod gweithredoedd, mewn rferbyniad i'r cyfammod gras, yw meddwl y geiriau ddeddf" a "gras."

15 r * Beth gan hynny? s a bechwn ni o erwydd nad ydym dan y ddeddf, eithr dan as? † Na atto Duw.

r pen. 3. 9. s adn. 1, 2. 1 Cor. 9. 20, 21. 2 Cor. 7. 1. Gal. 17, 18. Eph. 2. 8—10. Tit. 2. 11—14. Judas 4.

* Mae yr apostol wedi ateb gwrthddadl gyffelyb i hon r blaen, adn. 1. Gan nad ydym ni dàn y ddeddf ithr dàn ras, ai y canlyniad yw, ein bod ni yn hollawl dli-ddeddf, ac y gallwn fyw yn benrydd fel y mynom? Na atto Duw i ni ddal y fath athrawiaeth atgas, ac na tto Duw fod ymddygiad neb o honom yn rhoddi ach ysur i elynion y gwirionedd ddywedyd felly am danom, chablu a gwaradwyddo yr efengyl drwyddom ni. Nid w yr efengyl sanctaidd yn goddef pechod mwy na'r ddeddf; ac mae yr apostol yn ofalus iawn o hyd i rag aenu penrhyddid, neu gam-ddefnyddio rhyddid yr fengyl.

16 t * Oni wyddoch chwi, mai u i bwy byn nag yr ydych yn eich rhoddi eich hunain yn weision i ufuddhâu iddo, eich bod yn weision r hwn yr ydych yn ufuddhâu iddo; x † pa un bynnag ai i bechod i farwolaeth, ynte i ufudd lod i gyfiawnder?

t adn. 3. u adn. 13. Jos. 24. 15. Mat. 6. 24. Ioan 8. 34. Pedr 2. 19. x adn. 12, 17, 19—23.

* Gall dyn wneuthur rhyw orchwyl o wasanaeth i rall ar ryw dro damweiniol, heb fod yn was rhwymed g iddo; ond pan mae dyn yn treulio ei amser, ei nerth, ei fedrusrwydd, a'i ddawn, ddiwrnod ar ol diwrnod, a blwyddyn ar ol blwyddyn, i wasanaethu rhywun yn barâus, mae yn rhaid ei fod yn was i hwnw: felly mae yr achos yn ysbrydol; gall dyn broffesu crefydd, ac mewn ymddangosiad yn gwasanaethu Duw; ac eto ymroddi yn gyffredinol yn ei galon i bleserau a chwantau pechadurus: a rhaid barnu pawb yn weision i'r hwn y byddont yn ymroddi yn ewyllysgar ac yn gyffredin i'w gwasanaethu; † pa un bynag ai i bechod i farwolaeth, ynte i ufudd-dod ysbrydol i gyfiawnder. Ond paham na ddywedasai yr apostol i ufudd-dod i fywyd? yna buasai y gyferbyniaeth yn fwy eglur. Hyn yw yr achos:—er mai pechod yw yr *achos* o farwolaeth; eto, nid ufudd-dod yw yr *achos* o fywyd, eithr y *ffordd* i fywyd. Rhaid i ni ddeall mai nid am weision cyflog fel yn ein gwiad ni, y mae yr apostol yn llefaru; ond am gaeth-weision, y rhai oedd yn hollawl yn meddiant eu meistriaid, fel eu hanifeiliaid neu ryw feddiannau eraill o'r eiddynt.

17 y * Ond i Dduw y bo y diolch, z eich bod chwi *gynt* yn weision i bechod; a † eithr ufuddhâu o honoch o'r galon b i'r ‡ ffurf o athrawiaeth a draddodwyd i chwi.

y pen. 1. 8. 1 Cron. 29. 12—16. Ezra 7. 27. Mat. 11. 25, 26. Act. 11. 18. a 28. 15. z 1 Cor. 6. 9—11. Eph. 2. 5—10. 1 Tim. 1. 13—16. Tit. 3. 3—7. 1 Pedr 2. 9, 10. a 4. 2—5. a pen. 1. 5. a 2. 8. a 15. 18. a 16. 26. Salm 18. 44. 2 Cor. 10. 5, 6. Heb. 5. 9. a 11. 8. 1 Pedr 1. 22. a 3. 1. a 4. 17. b 2 Tim. 1. 13.

* Nid diolch i Dduw y mae yr apostol am fod y Rhufeiniaid gynt yn weision i bechod; ond diolch i Dduw y mae, eu bod hwy yn awr wedi ufuddâu i'r gwirionedd, *er* eu bod gynt yn weision pechod. † Mae pob dyn yn ufuddâu o'r galon i bechod wrth natur, ond yn y cyfnewidiad effeithiol a sanctaidd mae yr efengyl yn wneyd ar y rhai a gedwir, mae yn eu dwyn i ufuddâu o'r galon i'r gwirionedd. Er bod drwg yn bresenol gyda'r credadyn, eto mae yn *ewyllysio* o'i galon wneuthur da; (pen. 7. 21;) ac er fod deddf yn ei aelodau yn gwrthryfela yn erbyn deddf ei feddwl, eto deddf ei feddwl yw ei ddeddf lywodraethol; ac ymhyfrydu y mae yn nghyfraith Dduw yn ol y dyn oddi mewn, dyn ei galon. pen. 7. 22, 23. ‡ Neu "i'r hon y traddodwyd chwi;" felly y mae ar ymyl y ddalen mewn rhai Biblau: cyfeiriad sydd yma at dywallt metel doddedig mewn drychiaden, (*mould,*) a llun y ddrychiaden yn hollawl ar y fetel. Yr efengyl yw y ddrychiaden, sydd yn gosod ei delw sanctaidd ar galonau, ysbrydoedd, a bucheddau y saint.

18 c * Ac wedi eich rhyddhâu oddi wrth bechod, fe a'ch gwnaethpwyd d yn weision i gyfiawnder.

c adn. 14. Salm 116. 16. a 119. 32, 45. Luc 1. 74, 75. Ioan 8. 32, 36. 1 Cor. 7. 21, 22. Gal. 5. 1. 1 Pedr 2. 16. d adn. 19, 20, 22. Es. 26. 13. a 54. 17.

* Tybia eraill fod cyfeiriad yn yr adnod uchod, sef adn. 17, at drosglwyddiad caeth-weision o wasanaeth y naill arglwydd i wasanaeth un arall, yr hwn sydd yn gosod ei nodau ei hun arnynt, a'i gyfreithiau ei hun iddynt. Beth bynag am hyny, mae yr adnod hon yn amlwg yn cyfeirio at y cyfryw drosglwyddiad: neu yn hytrach gwaredigaeth pechaduriaid o gaethiwed caled ac aflan pechod a satan, a'u dygiad i ryddid sanctaidd yr efengyl, ac i fod yn weision ffyddlawn i gyfiawnder, yr hyn sydd wir fraint. Fel yr oedd pechod megys cynnrychiolydd satan yn y galon o'r blaen; felly mae yr anian dduwiol megys cynnrychiolydd Duw yno yn awr.

19 e * Yn ol dull dynol yr ydwyf yn dywedyd, f oblegid gwendid eich cnawd chwi. g † Canys megis ag y rhoddasoch eich aelodau yn weision i aflendid ac anwiredd, h i anwiredd; i ‡ felly yr awrhon rhoddwch eich aelodau yn weision i gyfiawnder, k i sancteiddrwydd.

e pen. 3. 5. 1 Cor. 9. 8. a 15. 32. Gal. 3. 15. f pen. 8. 26.

a 15. 1. Heb. 4. 15. g adn. 13, 17. 1 Cor. 6. 11. Eph. 2. 2, 3. Col. 3. 5—7. 1 Pedr 4. 2—4. h adn. 16. 1 Cor. 5. 6. a 15. 33. 2 Tim. 2. 16, 17. Heb. 12. 15. i adn. 13. k adn. 22.

* Yr oedd yr apostol yn arfer y dull cyffelybiaethol hyn o ymadroddi, am arglwyddi a gweision, caethiwed a rhyddâd, &c., i'r dyben o'i wneyd ei hun yn ddealladwy i'r Rhufeiniaid, y rhai oeddynt eto yn rhŷ gnawdol a phlentynaidd i ddeall pethau ysbrydol heb gyffelybiaethau o'r fath hyn. Yr oeddynt yn deall y cyffelybiaethau yn burion, am fod y cyfryw bethau yn arferedig yn eu plith; a thrwy y cyffelybiaethau, gallent ddeall am ryddâd ysbrydol o wasanaeth pechod. † Mae yr aml-eiriad hyn, "aflendid ac anwiredd, i anwiredd," yn dangos mòr llwyr a dyfal yr oedd y Rhufeiniaid gynt yn ymroddi i wasanaeth pechod, ac i bentỳru pechod ar bechod; ‡ a'r amleiriad hyn drachefn, i gyfiawnder, i sancteiddrwydd," yn dangos y dylent fod mòr llwyr a dyfal i wasanaethu Duw o hyny allan ag y buasent i wasanaethu satan o'r blaen. Neu fel hyn: "aflendid ac anwiredd" oedd yr arglwyddi oeddynt hwy unwaith yn eu gwasanaethu; ac "anwiredd" oedd y gwaith, neu y gwasanaeth oeddynt yn wneyd i'r arglwyddi hyny: ac yn yr un modd y gallwn ddeall eu bod drachefn "yn weision i gyfiawnder i sancteiddrwydd."

20 * Canys pan oeddych [1] yn weision pechod, † rhyddion oeddych oddi wrth gyfiawnder.

1 adn. 17.

* Pan oeddych yn weision gwirfoddol pechod, yn hollawl dàn ei lywodraeth, ac yn dewis bod mewn ufudd-dod a darostyngiad iddo. † Y pryd hwnw nid oeddych dàn rëol na llywodraeth egwyddorion cyfiawnder; ni fynech gydnabod fod arnoch rwymau yn y byd i fyw yn sobr, yn gyfiawn, nac yn dduwiol: ond pa faint bynag y dychymmygech chwi eich bod yn *rhydd*, yr oeddech mewn gwirionedd yn y cyflwr iselaf a thruenusaf o gaethiwed ar yr un pryd. Nid fel braint y crybwylla yr apostol eu bod "yn rhydd oddi wrth gyfiawnder;" ond fel trueni eu cyflwr naturiol, megys y soniwyd uchod. Nid oedd cyfiawnder yn cael dim o'ch gwasanaeth gynt, medd *Pool*, a phaham y caiff pechod ddim o'ch gwasanaeth yn awr? Rhyddion *i* gyfiawnder, medd rhai, sef i gosp cyfiawnder dïaleddol Duw.

21 [m] * Pa ffrwyth gan hynny oedd i chwi y pryd hwnnw o'r pethau [n] † y mae arnoch yr awrhon gywilydd o'u plegid? [o] ‡ canys diwedd y pethau hynny *yw* marwolaeth.

m pen. 7. 5. Diar. 1. 31. a 5. 10—13. a 9. 17, 18. Es. 3. 10. Jer. 17. 10. a 44. 20—24. Gal. 6. 7, 8. n Ezra 9. 6. Job 40. 4. a 42. 6. Jer. 3. 3. a 8. 12. a 31. 19. Ezec. 16. 61—63. a 36. 31, 32. a 43. 11. Dan. 9. 7, 8. a 12. 2. Luc 15. 17—21. 2 Cor. 7. 11. 1 Ioan 2. 28. o adn. 23. pen. 1. 32. Salm 73. 17. Diar. 14. 12. a 16 25. Phil. 3. 19. Heb. 6. 8. Iago 5. 20. 1 Pedr 4. 17. Dat. 20. 14.

* Pa ffrwyth oedd i chwi y pryd hwnw, o roddi eich hunain yn weision i bechod, oddigerth y pleser bỳr, anifeilaidd, ac aflan, o gyflawni eich chwantau? onid oedd euogrwydd cydwybod, gwarth, sïomedigaeth, a niwed i chwi eich hunain ac i eraill, yn gyssylltiedig â'r cyflawniad o honynt y pryd hwnw? † Yn awr, wedi eich hargyhoeddi a'ch goleuo, mae arnoch gywilydd calon o honynt, fel pethau drygionus ac ynfyd ynddynt eu hunain, ac fel pethau dïanrhydeddus i Dduw, a thra atgas yn ei olwg ef. ‡ Gweithredoedd aflan y tywyllwch oeddynt, a gweithredoedd meirwon yn eu natur, eu haeddiant, a'u canlyniadau: diwedd y cyfryw bethau yw, distryw a marwolaeth dymmorawl a thragywyddol, oni ragflaena gras achubol Duw. Fel hyn ni a gawn dri pheth yn yr adnod uchod:—1. Diffrwythder, afles, a niwed pechod, hyd yn nôd wrth ei gyflawni. 2. Nad oes ond cywilydd, gwarth a gofid yn y byd hwn o gofio am dano. 3. Mai damnedigaeth dragywyddol y corph a'r enaid fydd y canlyniad o hóno yn y diwedd, oddigerth i ras Duw ein gwaredu oddi wrtho yma.

22 [p] * Ac yr awrhon, wedi eich rhyddhâu oddi wrth bechod, [q] a'ch gwneuthur yn weision i Dduw, [r] † y mae i chwi eich ffrwyth yn sancteiddrwydd, [s] a'r diwedd yn fywyd tragywyddol.

p adn. 14, 18. pen. 8. 2. 2 Cor. 3. 17. Gal. 5. 13. q pen. 7. 25. Gen. 50. 17. Job 1. 8. Salm 86. 2. a 143. 12. Es. 54. 17. Dan. 3. 26. a 6. 20. Gal. 1. 10. Col. 4. 12. Tit. 1. 1. Iago 1. 1. 1 Pedr 2. 16. Dat. 7. 3. r Salm 92. 14. Ioan 15. 2, 16. Gal. 5. 22. Eph. 5. 9. Phil. 1. 11. a 4. 17. Col. 1. 10. s adn. 21. Num. 23. 10. Salm 37. 37, 38. Mat. 13. 40, 43. a 19. 29. a 25. 46. Ioan 4. 36.

* Ond yn awr, fel arall y mae gyda chwi y Rhufeiniaid credinïol, a chyda phawb a alwyd trwy ras; yr ydych chwi wedi eich rhyddâu o gaethiwed a gwasanaeth pechod, a chwedi eich gwneyd yn weision gwirfoddol, ufudd o'r galon, i Dduw, yr hyn sydd annhraethol fraint i chwi; † oblegid mae pob peth yn wahanol i'r hyn a grybwyllwyd o'r blaen am weision pechod: 1. Yr ydych chwi yn cynnyddu mewn ffrwythau gras a sancteiddrwydd yn y fuchedd hon, yr hyn sydd werthfawr a bendithiol iawn: 2. Ac yn y diwedd, yn angau, chwi a gewch fywyd tragywyddol o ddedwyddwch byth.

23 [t] * Canys cyflog pechod *yw* marwolaeth: [u] eithr dawn Duw *yw* bywyd tragywyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

t pen. 5. 12. Gen. 3. 19. Es. 3. 11. Ezec. 18. 4, 20. 1 Cor. 6. 9, 10. Gal. 3. 10. a 6. 7, 8. Iago 1. 15. Dat. 21. 8. u pen. 2. 7. a 5. 17, 21. Ioan 3. 14—17, 36. a 4. 14. a 5. 24, 39, 40. a 6. 27, 32, 33, 40, 50—58, 68. a 10. 28. a 17. 2. Tit. 1. 2. 1 Pedr 1. 3, 4. 1 Ioan 2. 25. a 5. 11, 12.

* Marwolaeth dymmorawl a thragywyddol yw cyflog haeddiannol a gosodedig pechod. Mae y gair *opsônia*, cyflog, yn arwyddo cyflog a delid i'r milwyr Rhufeinig; ac yma mae pechod yn cael ei ystyried fel rhyfelwr mawr yn erbyn Duw, a phechaduriaid fel milwyr dano yn y frwydr fawr ofnadwy; ac yn y diwedd, marwolaeth a'i holl waëau truenus, yw y gyflog a dderbyniant am eu milwriaeth annuwiol. † Ond am fywyd tragywyddol, nid cyflog, neu, wobr haeddedig yw; eithr dawn, neu rodd Duw ydyw, i bawb a'u condemniant eu hunain, a ymwrthodant â pob hyder yn eu gweithredoedd anmherffaith eu hunain, ac a bwysant yn hollawl ar rad ras Duw, trwy gyfiawnder ac iawn Iesu Grist ein Harglwydd. Ac mae y sancteiddrwydd hyny, sydd yn ein cymhwyso i fywyd tragywyddol, yn gymmaint o ddawn a rhad ras Duw trwy Iesu Grist, ag ydyw y cyfiawnder cyfrifol hwnw, sydd yn rhoddi hawl i ni i fywyd. Dawn Duw yw pobpeth am fywyd tragywyddol pechadur; a dawn Duw yw y bywyd tragywyddol ei hun. Y gyferbyniaeth *(antithesis)* naturiol i *gyflog pechod*, fuasai dywedyd, *cyflog cyfiawnder*, neu *sancteiddrwydd;* ond ni buasai hyny yn wir; am hyny mae yr apostol yn rhoddi *cyflog* a *dawn* ar gyfer eu gilydd, yr hyn sydd wirionedd, a gwirionedd tra gwerthfawr.

PEN. VII.

Nad oes un ddeddf yn arglwyddiaethu ar ddyn, ond tra fyddo byw.

[a] * ONI wyddoch chwi, [b] frodyr (canys [c] wrth y rhai sydd yn gwybod y ddeddf yr wyf yn dywedyd) [d] † fod y ddeddf yn arglwyddiaethu ar ddyn, tra fyddo efe byw?

a pen. 6. 3. b pen. 9. 3. a 10. 1. c pen. 2. 17, 18. Ezra 7. 25. Diar. 6. 23. 1 Cor. 9. 8, 9. Gal. 4. 21. d adn. 6. pen. 6. 14.

* Gwedi sôn am ryddâd y credinwyr oddi wrth bechod yn y bennod o'r blaen, mae yr apostol yn myned yn mlaen yma i ddangos eu rhyddâd hefyd oddi wrth y ddeddf; fel y crybwyllasai yn fỳr o'r blaen, pen. 6. 14. Gallasai Paul alw "brodyr" ar bawb o'r saint yn Rhufain; ond mae yn amlwg mai yr Iuddewon yn yr eglwys hòno mae efe yn feddwl wrth frodyr yn y fàn yma, oblegid hwy oedd yn gwybod y ddeddf, nis gwyddai y rhan genedlig o'r eglwys fawr am dani y pryd hwnw. A chan fod eu rhagfarn hwy o hyd yn gref o blaid y ddeddf, ac yn erbyn iachawdwriaeth rad trwy Crist yn unig; yr oedd yn addas iddo ef drin y pwnc hwn

ngddo â hwynt yn bennodol. † Cyn dechreu egluro iadnodau hyn, mae yn dra angenrheidiol i ni ddeall ohenderfynu yn ofalus, beth yw meddwl y gair deddf," a ddefnyddir mòr aml gan yr apostol. Y deddf seremonïol, a holl oruchwyliaeth Moses, medd ewer, ond nis gall hyny fod; oblegid cafodd holl ruwiolion yr Hen Destament eu rhyddâu oddi wrth chod, ac oddi wrth y ddeddf a sonir yma, er eu bod n y ddeddf seremonïol a goruchwyliaeth Moses. efyd, pan mae yr apostol yn son am y ddeddf *seremoniol* ar wahan oddi wrth y ddeddf *foesol*, mae yn ar- geiriau lleiâol, a gwahaniaethol, i ddywedyd am ai: gwel Ephes. 2. 15; Col. 2. 20; Heb. 8. 13; a 9. Nid y ddeddf foesol, fel deddf foesol, yn ddiam- u a feddylir chwaith; oblegid nid yw dyn yn marw h i hòno, ac nid yw hithau byth yn colli ei har- yddiaeth arno yntau: pan gyfnewidier pechadur y ras, dyna'r pryd mae y ddeddf foesol yn cael ei i ysgrifenu yn ei galon ef, a thyna'r pryd mae efe ymroddi o'i galon i fod yn ddeiliad ufudd iddi. *inomiaeth* atgas yw taeru, fod y credadyn yn rhydd i wrth y ddeddf foesol, a chwedi marw iddi fel y yw. Weithian, mae yn rhaid mai y ddeddf yn ei lf a'i hystyr gyfammodol, a feddylir, neu y cyfammod ithredoedd, yr hwn y mae pob dyn wrth natur o; a phob dyn a gredo yn Nghrist yn cael ei war- oddi wrtho, a'i ddwyn oddi dano, pan y mae yn du, a thrwy gredu. Ni a welwn hyny yn amlycach yr adnod nesaf, pan ystyriom mai y ddeddf *briodasol* defnyddia yr apostol fel cymhariaeth, yr hon sydd *ammod* rhwng gwr a gwraig, cyd byddo pob un o'r u byw. Gan hyny, os deddf mewn ystyr *gyfammod*- sydd yn y gymhariaeth, mae yn rhaid mai deddf wn ystyr *gyfammodol* mae efe yn ddangos trwy y nhariaeth. Yr oedd dyn yn ddeiliad i'r ddeddf *sol* cyn gwneyd *cyfammod* âg ef; ac e fydd yn ddeil- iddi byth er ei waredu oddi dàn y cyfammod hwnw.

22 e * Canys y wraig y mae iddi wr, sydd yn wym wrth y ddeddf i'r gwr, tra fyddo efe yw: † ond o bydd marw y gwr, hi a ryddhâ- d oddi wrth ddeddf y gwr

e Gen. 2. 23, 24. Num. 30. 7, 8. 1 Cor. 7. 4, 39.

* Yn yr adnod o'r blaen, mae y gair "dyn" i'w ystyr- yn gyffredin, am ddyn a dynes; a gellir ei briodoli naill neu y llall, oblegid mae pob un yn rhwym i'r eddf a soniwyd. Yma mae yr apostol yn helaethu ar nater uchod, ac yn ei egluro trwy gymhariaeth hysbys awb, fod y wraig yn rhwym wrth y ddeddf, neu y fammod priodasol i'w gwr tra fyddo efe byw. † Ond bydd marw y gwr, mae y berthynas yn darfod, y fammod yn dattod, a hithau yn rhydd oddi wrth y wymau oedd arni i'w gwr: aeth y ddeddf briodasol yn w iddi, a hithau i'r ddeddf, drwy farwolaeth ei gwr.

23 * Ac felly, f os â'r gwr yn fyw, y bydd hi eiddo gwr arall, hi a elwir yn odinebus: hr os marw fydd ei gwr hi, y mae hi yn ydd oddi wrth y ddeddf; fel nad yw hi odin- us, g er bod yn eiddo gwr arall.

f Ex. 20. 14. Lef. 20. 10. Num. 5. 13, &c. Deut. 22. 22—24. at. 5. 32. Marc 10. 6—12. Ioan 8. 3—5. g Ruth. 2. 13. 1 Sam. 39—42. 1 Tim. 5. 11—14.

* Mae yr apostol yma yn llefaru am rwymau y eddf briodasol yn gyffredin; heb sylwi dim ar eithr- dau i'r ddeddf hòno, megys godineb, yr hyn sydd ri priodas, er bod y ddau yn fyw. Gallasai ddywedyd d y gwr yn rhwym i'r wraig yn gystal a'r wraig i'r r; ond pwnc arall oedd ganddo ef i gyrchu ato, ac d oedd ond defnyddio cymmaint o'r gymhariaeth ag dd yn angenrheidiol i egluro y mater hwnw.

24 h * Ac felly chwithau, fy mrodyr, ydych edi meirw i'r ddeddf i † trwy gorph Crist; ‡ fel y byddech eiddo un arall, *sef* eiddo yr hwn a gyfodwyd o feirw, l || fel y dygem ffrwyth i Dduw.

h adn. 6. pen. 6. 14. Gal. 2. 19, 20. a 3. 13. a 5. 18. Col. 2. 14, 20. i Mat. 26. 26. Ioan 6. 51. 1 Cor. 10. 16. Heb. 10. 10. 1 Pedr 2. 24. k Salm 45. 10—15. Es. 54. 5. a 62. 5. Hos. 2. 19, 20. Ioan 3. 29. 2 Cor. 11. 2. Eph. 5. 25—27. Dat. 19. 7, 8. a 21. 9, 10. l pen. 6. 22. Salm 45. 16. Ioan 15. 8. Gal. 5. 22, 23. Phil. 1. 11. a 4. 17. Col. 1. 6, 10.

Yma mae yr apostol yn dyfod i wneyd defnydd o'r gymhariaeth uchod am wr a gwraig. * Felly chwithau, fy mrodyr, ebai efe, ydych wedi meirw i'r ddeddf fel cyfammod o weithredoedd, nid ydych mwyach yn disgwyl am gyfiawnder nac un fendith ysbrydol na bywyd tragywyddol drwyddi: ac mae hithau wedi marw fel cyfammod i chwithau; nid yw mwyach yn ammod bywyd i chwi ar sail eich perffaith ufudd-dod iddi, ac nid yw yn cyhoeddi melltith arnoch chwi am bob ffaeledd a gwall: yn yr ystyr hyn mae wedi marw i chwi, yn ddirym, ac wedi colli ei hawdurdod arnoch. † Mae hyn oll wedi dyfod "trwy gorph Crist;" trwy ei gnawdoliad, ei ufudd-dod, a'i aberth ef ar y groes dros eich pechodau chwi. Gan i Fab Duw fel Machnïydd ateb gofynion y ddeddf, nid oes ganddi allu mwyach i gondemnio y rhai a gredant ynddo ef; ond edrychir arnynt fel rhai wedi llwyr ddyoddef ei chosp hi, a chwedi cyflawni pob cyfiawnder, drwy eu Machnïydd a'u Cynnrychiolwr. Fel hyn mae eu perthynas hwy â'r ddeddf fel *cyfammod* yn cael ei dattod; fel y dattodir perthynas briodasol rhwng gwr a gwraig gan angau un o'r ddau. ‡ Ac yr oedd hyn yn angenrheidiol, mewn trefn i'r saint gael eu gwneyd yn eiddo Crist yr hwn a gyfodwyd o feirw, i gael eu huno mewn priodas ysbrydol a thragywyddol âg ef yn ol trefn y cyfammod gras; fel y byddent gyfranogion o'i anchwiliadwy olud ef, dylanwadau ei Ysbryd, a holl fendithion ei gyfammod. || Y canlyniad o'r undeb ysbrydol a'r cymundeb hyn â Christ yw, dwyn ffrwyth i Dduw; y fath ffrwyth ag y byddo delw sanctaidd Duw arno, a fyddo yn gymmeradwy ganddo, ac a fyddo yn enw ac yn anrhydedd tragywyddol iddo. Yn niwedd yr adnod, mae yr apostol yn ddoeth ragorol yn amrywio y personau, gan roddi *ni* yn lle *chwi*, fel y gallai yn well grybwyll am fucheddau aflan y Rhufeiniaid gynt, yn yr adnod nesaf, trwy osod ei hun megys un o honynt.

5 * Canys pan oeddym m yn y cnawd, † gwyniau pechodau, n ‡ y rhai oedd trwy y ddeddf, o oedd yn gweithio yn ein p haelodau ni, q || i ddwyn ffrwyth i farwolaeth.

m pen. 8. 8, 9. Ioan 3. 6. Gal. 5. 16, 17, 24. Eph. 2. 3, 11. Tit. 3. 3. n pen. 3. 20. a 4. 15. a 5. 20. 1 Cor. 15. 56. 2 Cor. 3. 6—9. Gal. 3. 10. Iago 2. 9, 10. 1 Ioan 3. 4. o adn. 8—13. Mat. 15. 19. Gal 5. 19—21. Iago 1. 15. p adn. 23. pen. 6. 13, 19. Col. 3. 5. Iago 4. 1. q pen. 6. 21.

Mae yr apostol yn yr adnod hon a'r adnod o'r blaen yn dangos beth oedd cyflwr y saint gynt wrth natur, a pha beth ydyw yn awr trwy ras: wrth natur, yr oeddynt yn y cnawd a thàn y ddeddf; trwy ras, maent wedi marw i'r ddeddf a'u huno â Christ: felly, yn awr maent mewn gwell cyflwr, ac yn cael rhagorach cynnorthwyon na chynt, i ddwyn ffrwyth i Dduw. * "Yn y cnawd:" dàn oruchwyliaeth a defodau cnawdol y gyfraith, medd rhai; ond ni bu y rhan fwyaf o'r saint yn Rhufain dàn yr oruchwyliaeth hòno erioed: tebycach mai cyflwr llygredig dyn cyn ei adgenedlu a feddylir; a dywedir ein bod *yn* y cnawd, wedi soddi ynddo, fel meddwon wedi colli pob llywodraeth arnynt eu hunain gan rym eu meddwdod. † Mae gwyniau pechodau yn y dyn cnawdol, yn gweithio drwy holl gynneddfau ei enaid ac aelodau ei gorph, fel nad oes ganddo lywodraeth arno ei hun, na modd i godi oddi dàn eu llywodraeth hwythau. ‡ Fel y mae arogl ffiaidd yn cyfodi o'r domen yn ngwres yr haul, felly mae gwyniau pechod yn ymgynhyrfu ac yn gweithio yn y dyn anianol yn wyneb gwaharddiadau manol, a bygythion tanllyd y ddeddf sanctaidd. || Ffrwyth yn haeddu marwolaeth, ac a ddybena yn marwolaeth dragywyddol y pechadur, oni chedwir ef trwy ras.

6 [r] * Eithr yn awr y rhyddhâwyd ni oddi wrth y ddeddf, † wedi ein meirw i'r peth y'n hattelid; [s] ‡ fel y gwasanaethem mewn newyddeb yspryd, || ac nid *yn* hender y llythyren.

r adn. 4. pen. 6. 14, 15. Gal. 3. 13, 23—25. a 4. 4, 5. s pen. 1. 9. a 2. 27—29. a 6. 4, 11, 19, 22. a 12. 2. Ezec. 11. 19. a 36. 26. 2 Cor. 3. 6. a 5. 17. Gal. 2. 19, 20. a 6. 15. Phil. 3. 3. Col. 3. 10.

* Mae rhyddâu oddi wrth y ddeddf yma o'r un ystyr a marw i'r ddeddf yn adn. 4; gwel y sylwad yno: mae yr holl saint wedi eu rhyddâu byth, oddi wrth ofynion manol a melltithion trymion y ddeddf fel cyfammod o weithredoedd. † Nid hawdd yw deall y darn hyn o'r adnod: wedi ein meirw i'r *ddeddf*, neu yr hen gyfammod, yr hwn o'r blaen a'n hattaliai dàn ddarostyngiad iddo, a thàn rwymau i ymddwyn atom am fywyd neu angau yn ol ei delerau ei hun. Neu ynte, wedi ein meirw i *bechod*, yr hwn o'r blaen a'n hattaliai dàn ei lywodraeth fel caeth weision iddo. Gallwn gymmeryd pob un o'r ddau; attelid ni gynt gan bob un, ac mae y credinwyr wedi meirw i bob un, a chwedi cael eu gwaredu a'u rhyddâu oddi wrth bob un o'r ddau, y ddeddf a phechod. Eto, gallwn ddeall y geiriau fel hyn:—wedi ein meirw i bechod, y peth y'n hattelid rhagddo gan y ddeddf, yr hon a ddywed yn wastad "Na thrachwanta," adn. 7. ‡ Fel y gwasanaethem Dduw dàn gyfammod newydd, mewn undeb â Phrïod newydd, sef Crist, oddi ar egwyddorion a chymhelliadau newyddion, ac i ddybenion newydd, gyda phob rhyddid a hyfrydwch yn ein heneidiau ein hunain, fel rhai wedi cael ein hadnewyddu yn ysbryd ein meddwl; ac mewn bywyd ac ymarweddiad newydd, oll yn ysbrydol, yn sanctaidd, a nefol, dàn ddylanwadau a chynnorthwyon Ysbryd Duw. || Nid yn yr hen ffordd gnawdol, o gadw llythyren y ddeddf yn unig, trwy gyd-ffurfiad allanol prin â rhai o'i gorchymynion; a'r rhai hyny gan mwyaf ei defodau seremoniol hi, gan esgeuluso ei phethau trymaf, ag oedd o natur foesol. Wrth y gair "hender," yr oedd yr apostol yn cyfeirio at afles a difodiad buan yr hen oruchwyliaeth, fel yn Heb. 7. 18; a 8. 13.

7 [t] * Beth wrth hynny a ddywedwn ni? [u] Ai pechod *yw* y ddeddf? † Na atto Duw. [x] ‡ Eithr nid adnabûm i bechod, ond wrth y ddeddf: || canys nid adnabuaswn i drachwant, oni bai ddywedyd o'r ddeddf, [y] Na thrachwanta.

t pen. 3. 5. a 4. 1. a 6. 15. u adn. 8, 11, 13. 1 Cor. 15. 56. x adn. 5. pen. 3. 20. Salm 19. 7—12. a 119. 96. y pen. 13. 9. Gen. 3. 6. Ex. 20. 17. Deut. 5. 21. Jos. 7. 21. 2 Sam. 11. 2. 1 Bren. 21. 1—4. Mica 2. 2. Mat. 5. 28. Luc 12. 15. Eph. 5. 3. Col. 3. 5. 1 Ioan 2. 15, 16.

* Rhag-welai yr apostol y gallai rhywrai godi gwrthddadl yn wyneb yr athrawiaeth uchod, a dywedyd, Os yw pawb sydd dàn y ddeddf o angenrheidrwydd yn gaeth weision pechod, os yw gwyniau pechodau yn gweithio trwy y ddeddf, ac os na all neb wasanaethu Duw mewn newydd-deb ysbryd hyd oni byddont farw i'r ddeddf, a'r ddeddf iddynt hwythau; yn sicr nid yw y ddeddf a phechod ond yr un peth: ac oni byddai hyn yn warth atgas ar ddeddf sanctaidd Duw? † I hyn mae yr apostol yn ateb gyda ffieiddiad o'r fath gasgliad cableddus, Na atto Duw, *(mê genoito,)* byddai hyn yn feddwl mòr ffiaidd, cableddus, ac i'w gasâu, yn gymmaint a'r un o'r pethau eraill a wrth-brofwyd eisoes, pen. 6. 1, &c., 15, &c. ‡ Nid pechod yw y ddeddf, pell iawn oddi wrth hyny; mae y ddeddf a phechod yn hollawl groes i'w gilydd; a'r ddeddf yn ei natur sanctaidd, a'i dyben priodol, wedi ei rhoddi i wahardd pechod, i argyhoeddi o bechod, ac i gondemnio pechod, ac am bechod. · Yn mhrofiad personol yr apostol ei hun, ni buasai efe yn dyfod i adnabod pechadurusrwydd ei galon, ei feddyliau, a'i weithredoedd, ond wrth, yn wyneb, a thrwy y ddeddf. Dyma'r glorian gywir oedd yn profi diffyg a byrdra ei ufudd-dod ef, a'r maen prawf perffaith oedd yn dangos gwyrni ei galon a'i fuchedd ef, ac yn dangos fod ei bechodau yn lliosocach ac yn fwy echryslawn nac y meddyliodd ef erioed eu bod: eto, ar yr un pryd, nid oedd yn y ddeddf ddim darpariaeth o drugaredd, na gras i'w waredu ef. || Ni buasai yr apostol yn adnabod fod trachwant tumewnol y galon yn bechod, tra heb dòri allan mewn gweithredoedd, oni bai ddywedyd o'r ddeddf Na thrachwanta, Exod. 20. 17. Mae y geiriau Na thrachwanta, yn gwahardd pob math o drachwantau pechadurus a halogedig yn y galon, yn eu gweithrediadau cyntaf, a lleiaf.

8 [z] * Eithr pechod, † wedi cymmeryd achlysur trwy y gorchymyn, [a] a weithiodd ynof fi ‡ bob trachwant.

z adn. 11, 13, 17. pen. 4. 15. a 5. 20. a Iago 1. 14, 15.

* "Pechod," sef natur lygredig, bryd, a thuedd halogedig y galon: yr un peth a'r trachwant yn yr adnod o'r blaen. † Llefara yr apostol am bechod yma fel gweithredydd, ac fel gelyn i ddeddf Duw, yn barod i wrthryfela yn ei herbyn bob amser yn nghalon ac aelodau y pechadur. Po mwyaf mae y gorchymyn yn dywedyd Na thrachwanta, mwyaf i gyd mae pechod yn gweithio pob trachwant yn y galon, megys o dra chas a gwrthryfel yn erbyn y ddeddf, ac fel hyny mae yn cymmeryd achlysur trwy y gorchymyn. Mae bod y ddeddf yn son am drachwant, er yn waharddol, yn cynnyrfu pechod i drachwantu; ac fel hyny mae yn cymmeryd achlysur trwy y gorchymyn. Nis gŵyr y dyn hwnw ond ychydig am y natur ddynol, nac am ddrygioni gwrthnysig ei galon ei hun, ar nad yw yn sylwi ac yn gwybod, fod pawb yn dueddol iawn i feddwl, fod rhyw fwyniant a hyfrydwch mawr mewn pethau sydd allan o'n cyrhaedd, neu yn waharddedig i ni. Dangosodd y dyn cyntaf hyny yn nghanol holl gyflawnder Eden; nid oedd yn foddlawn ar holl ffrwythau yr ardd heb gael y ffrwyth gwahardd-edig; ac efallai na buasai yn blysio hwnw yn neillduol, oni buasai ei fod yn warharddedig. Felly y mae holl hiliogaeth Adda eto; ac felly mae pechod yn cymmeryd achlysur trwy y gorchymyn. Tebyg i hyn y dywed *Doddridye* am bechod yn cymmeryd achlysur trwy y gorchymyn: mae dyn, wrth weled ei hun yn grëadur euog a cholledig yn wyneb y ddeddf, ac heb weled un llwybr o ymwared iddo y pryd hwnw trwy ras yr efengyl, yn syrthio i ddigalondid ac anobaith, ac yn hollawl ddinerth a diysbryd i wrthsefyll trachwantau ei galon a themtasiynau pechadurus; ac fel hyny mae pechod yn cymmeryd mantais ar wendid y pechadur, ac yn cymmeryd achlysur trwy y gorchymyn. ‡ *Dim* trachwant, medd y ddeddf; *pob* trachwant medd pechod.

9 [b] * Canys heb y ddeddf † marw *oedd* pechod. [c] ‡ Eithr yr oeddwn i gynt yn fyw [d] heb y ddeddf: [e] || ond pan ddaeth y gorchymyn, [f] yr adfywiodd pechod, [g] § a minnau a fum farw.

b pen. 4. 15. Ioan 15. 22, 24. 1 Cor. 15. 56. c Mat. 19. 20. Luc 10. 25—29. a 15. 29. a 18. 9—12, 21. Phil. 3. 5, 6. d Mat. 5. 21, &c. a 15. 4—6. Marc 7. 8—13. e pen. 3. 19, 20. a 10. 5. Salm 40. 12. Gal. 3. 10. Iago 2. 10, 11. f adn. 21—23. pen. 8. 7. g adn. 4, 6, 11. pen. 3. 20. Gal. 2. 19.

Mae darn cyntaf yr adnod hon yn niwedd yr wythfed adnod, yn y Saesoneg, ac felly y mae yn y Groeg. * Ni bu Paul erioed heb y ddeddf o ran y llythyren o hóni; diammau ei fod yn dra hysbys o hóni felly o'r febyd: ond bu yn hir heb wir deimlad o'i hysbrydolrwydd a'i sancteiddrwydd, ei manylrwydd ac ehangder ei gofynion hi: yr hyn a ddaeth efe wedi hyny i'w wybod a'i deimlo, yn ei argyhoeddiad gan Ysbryd Duw. † Fel Pharisead balch, hunan-gyfiawn a lled foesol oddi allan, prin y tybiai efe y pryd hwnw ei fod yn bechadur; nid oedd pechod yn dychrynu ei gydwybod ef, nid oedd yn teimlo ei weithrediadau tumewnol yn ei galon yr oedd fel peth marw a dinerth o'i fewn, ac nid oedd efe yn teimlo niwed ynddo. ‡ Pan oedd efe heb y ddeddf hefyd, yr oedd ganddo feddyliau uchel a chwyddedig am dano ei hun, ei fod yn byw agos cystal ag y gallasai y ddeddf ofyn iddo fyw, a bod ganddo fel hynhawl dda i fywyd tragywyddol: penderfynai fod ei galon a'i fuchedd yn dda; ac yntau mewn cyfiwr da o gymmer

ryaeth gyda Duw. ‖ Ond pan ddaeth y gorchymyn ei argyhoeddiadau llymion, tanllyd, a golau at y wybod, i farnu trachwantau, meddyliau, a bwriadau galon, e adfywiodd pechod yn ofnadwy fel llew wedi ffonyddu yn ei ffau, neu domen llawn o nadroedd a ryfed aflan, pan aflonydder hwynt ar ddiwrnod gwres.

Teimlodd yr apostol fod ynddo lawer mwy o bobod nag a feddyliasai o'r blaen; a theimlodd ei fod yn fwy grymus a nerthol o lawer nag y tybiasai efe ei . § Gwelodd a theimlodd erbyn hyn ei fod yn farw wn camwedd a phechod; ei fod yn grëadur euog a condemniol ger bron Duw; yn deilwng o'i ddigofaint a gospedigaethau trymaf; gwelodd nad oedd ei holl ywiawnderau ond megys bratiau budron; a thrwy y deddf gorfu arno farw i'r ddeddf.

10 [h] * A'r gorchymyn yr hwn *ydoedd* i wyd, † hwnnw a gaed i mi i farwolaeth.

h pen. 10. 5. Lef. 18. 5. Ezec. 20. 11. Luc 10. 27—29. 2 Cor.

Y ddeddf, yr hon a roddwyd yn rheol bywyd sanctaidd i ddynion, ac yn y cyfammod gweithredoedd yn mod bywyd tragywyddol i'r neb a'i cadwai; † bu y deddf hon, neu y cyfammod hwn yn farwolaeth i Paul t tòrwr o hóno: megys y mae cyfraith unrhyw wlad, i diogelu bywydau ei deiliaid gonest a diniwed, ond coll-farnu bywyd y llofrudd a'r yspeiliwr a'i troseddo.

11 [i] * Canys pechod, wedi cymmeryd achsur trwy y gorchymyn, [k] † a'm twyllodd i; a thrwy hwnnw a'm lladdodd.

i i adn. 8. 13. k Es. 44. 20. Jer. 17. 9. a 49. 16. Ob. 3. Eph. 2-2. Heb. 3. 13. Iago 1. 22, 26.

* Am bechod yn cymmeryd achlysur trwy y gorchym. gwel ar adn. 8: cofiwn mai pechod sydd yn *cymryd* achlysur trwy y gorchymyn, ac nid y gorchymyn *rhoddi* achlysur. Yn debyg fel y mae dyn drygionus cymmeryd achlysur trwy bregeth dda, neu gyngor awdol, i watwar, i gablu, ac i ymgynddeiriogi yn swaneg. † Mae pechod yn twyllo dynion i'w goledd gyflawni, fel y twyllodd y sarph Efa, trwy eu darwyllo megys i feddwl, bod y ddeddf yn rhŷ lèm a aeth, nad oes cymmaint o niwed mewn llawer peth, a fod mwy o bleser mewn llawer pechod nac y sydd: el hyn mae yn twyllo dynion i bechu yn erbyn y gorymyn, ac yna trwy y gorchymyn yn eu lladd, o ran ob gobaith am fywyd yn wyneb y ddeddf. Fel hyn y ar brofiad yr apostol, ac fel hyn y rhaid ei bod ar bfiad pawb cyn y caffont eu bywyd mewn Cyfryngwr.

12 * Felly yn wir *y mae* [l]y ddeddf yn nctaidd, [m] † a'r gorchymyn yn sanctaidd, ac a gyfiawn, ac yn dda.

l adn. 14. pen. 3. 31. a 12. 2. Deut. 4. 8. a 10. 12, 13. Neh. 9. Salm 19. 7—12. a 119. 39, 86, 127, 128 137, 140, 172. 1 Tim. 1. 8. m adn. 7.

* O adnod y seithfed hyd yma mae yr apostol wedi ddangos ei bod hi yn ddifai, fel rheol berffaith, dragyddol, a digyfnewid, o bob sanctaiddrwydd, cyfiawnder, a daioni. † Rhaid i ni addef bod y ddeddf oll, a pob gorchymyn o hóni, yn berffaith gyfiawn, sanctaidd, da, fel y Duw cyfiawn, sanctaidd, a da a'i rhoddodd. unig ddeddf addas i Dduw ei rhoddi i ddynion yw, a'r unig ddeddf addas i ddynion, fel crëaduriaid esymol, ei chael, ac i ufuddâu iddi.

13 [n] * Gan hynny a wnaethpwyd y peth edd dda, yn farwolaeth i mi? † Na atto uw. [o] ‡ Eithr pechod, ‖ fel yr ymddangosai n bechod, gan weithio marwolaeth ynof fi, trwy yr hyn sydd dda; § fel y byddai pechod trwy y gorchymyn yn dra phechadurus.

n pen. 8. 3. Gal. 3. 21. o adn. 8—11. pen. 5. 20. Iago 1. 13—15.

* Yn niwedd yr adnod o'r blaen dywedodd yr apostol bod y ddeddf yn dda; ac eto yn adn. 9, 10, 11, dywedodd i'r un ddeddf fod yn farwolaeth iddo ef: ac yma mae yn rhagflaenu gwrthddadl a allai rhywrai godi oddi ar hyny, "A wnaethpwyd y peth oedd dda yn farwolaeth i mi? Pa fodd y gall deddf dda fod yn farwolaeth i'r rhai sy dani? ai hyn yw ei thuedd a'i heffaith naturiol hi? † Mae yr apostol yn gwrthod y casgliad cyfeiliornus uchod, yn ei ddull arferol, Na atto Duw. ‡ Gall ymborth iach, neu feddyginiaeth werthfawr, trwy ansawdd afiach y corph, neu trwy eu cymmeryd yn anmhriodol, *achlysuru* marwolaeth, yn groes i'w tuedd gyffredin a naturiol; ond y mae gwenwyn yn lladd, fel *achos*, drwy ei effaith naturiol a phriodol ei hun. Gall y ddeddf fod yn *achlysur* marwolaeth trwy bechod a halogrwydd dyn; ond pechod yw gwenwyn sydd yn *achos* marwolaeth. ‖ Yn wyneb daioni y ddeddf mae pechod yn dangos ei hagrwch gwrthun, ei atgasrwydd, a'i natur tra gwenwynig, trwy weithio marwolaeth mewn dyn drwy yr hyn sydd dda; yn debyg i ddyn anghymmedrol yn ei ladd ei hun, nid â chleddyf neu â gwenwyn, ond trwy roddion iachus rhagluniaeth dirion a hael. § Fel hyn, trwy y gorchymyn, ymddangosodd pechod yn dra phechadurus; hyny yw, ymddangosodd natur atgas a dinystriol pechod, yn gystal â phechadurusrwydd calon yr apostol, yn eglur iawn yn wyneb y gorchymyn; fel yr ymddangosai helaethrwydd gras Duw ar ei gyfer yn fwy gogoneddus.

14 * Canys ni a wyddom fod [p] y ddeddf yn ysbrydol: [q] † eithr myfi sydd [r] gnawdol, [s] wedi fy ngwerthu dan bechod.

p Lef. 19. 18. Deut. 6. 5. Salm 51. 6. Mat. 5. 22, 28. a 22. 37—40. Heb. 4. 12. q adn. 18, 22, 23. Job 42. 6. Salm 119. 25. Diar. 30. 2, 5. Es. 6. 5. a 64. 5, 6. Luc 5. 8. a 7. 6, 7. a 18. 11—14. Eph. 3. 8. r Mat. 16. 23. 1 Cor. 3. 1—3. s adn. 24. Gen. 37. 27, 36. a 40. 15. Ex. 21. 2—6. a 22. 3. 1 Bren. 21. 20. 2 Bren. 17. 17. Es. 50. 1. a 52. 3. Amos 2. 6. Mat. 18. 25.

* Canmoliaeth arall i'r ddeddf, ei bod yn *ysbrydol:* nid fel y ddeddf seremonïol, yn "gyfraith gorchymyn cnawdol," Heb. 7. 16; nac fel cyfreithiau y byd hwn yn ddeddfau dynol, y rhai ni chyrhaeddant ond gweithredoedd allanol dynion. Mae y ddeddf yn ysbrydol o ran ei rhoddwr; "Ysbryd yw Duw." Mae yn ysbrydol o ran ei natur a'i gofynion; yn cyrhaedd y galon a'r ysbryd, yn gwahardd pechodau ysbrydol, ac yn gofyn ufudd-dod a sancteiddrwydd ysbrydol: mae yn gofyn perffaith gyd-ffurfiad â rhagoroldeb ysbrydol perffeithiau Duw, a'r fath agwedd calon ag sydd yn gymmeradwy gan Ysbryd Duw. Gwyddai yr apostol ei bod hi felly: a gŵyr pawb a brofodd ei goruchwyliaeth danllyd hi fel y profodd efe. † Yn wyneb y rheol berffaith ac ysbrydol hon, yr oedd yr apostol yn ei gael ei hun yn gnawdol, wedi ei werthu dan bechod: ei natur yn hollawl wrthwyneb i'r ddeddf ysbrydol; ac er ei gyflwr grasol, a'i holl gynnydd mewn gras, yr oedd yn ei gael ei hun mòr bell yn ol o berffeithrwydd y ddeddf, ac yn mhob ystyr mòr analluog i'w gyrhaeddyd, er ymgais yn ddifrifol at hyny; fel yr oedd yn edrych arno ei hun mewn cymhariaeth yn gnawdol, ac fel dyn wedi ei werthu i feistr atgas yn erbyn ei ewyllys, oddi wrth ba un nis gallai mewn un modd ei ryddâu ei hun. Mae llawer yn methu a deall pa fodd y gallai Paul ddywedyd fel hyn am dano ei hun, ac yntau yn ddyn duwiol a grasol: ond nid oes yma ddim ar nad yw yn wir am bob gwir gredadyn, ac yn dra phrofiadol i bob dyn duwiol a ŵyr bla ei galon, a byrdra mawr ei ras a'i sancteiddrwydd. O'r seithfed adnod hyd yma mae yr apostol yn llefaru o hyd yn yr amser a aeth heibio, ac yn dangos ei agwedd a'i brofiad yn ei gyflwr natur, a than ei argyhoeddiad; yma, ac oddi yma hyd ddiwedd y bennod, mae yn llefaru am dano ei hun yn yr amser presenol, ac yn dangos pa fath yw ei brofiad fel Cristion a dyn duwiol.

15 [t] * Canys yr hyn yr wyf yn ei wneuthur, † nid yw foddlawn gennyf: [u] ‡ canys nid y peth yr wyf yn ei ewyllysio, ‖ hynny yr wyf yn ei wneuthur; [x] § eithr y peth sydd gas gennyf, hyn yr ydwyf yn ei wneuthur.

t pen. 14. 22. Luc 11. 48. u adn. 16, 19, 20. 1 Bren. 8. 46. Salm 19. 12. a 65. 3. a 119. 1—6, 32, 40. Preg. 7. 20. Gal. 5. 17. Phil. 3. 12—14. Iago 3. 2. 1 Ioan 1. 7, 8. x pen. 12. 9. Salm 36. 4. a 97. 10. a 101. 3. a 119. 104, 113, 128, 163. Diar. 8. 13. a 13. 5. Amos 5. 15. Heb. 1. 9. Judas 23.

Yma mae yr apostol yn dangos yn fanylach, y frwydr barâus oedd rhwng gras a llygredd yn ei galon ef. * Sef yr hyn oedd yn ei wneuthur yn bechadurus, yn groes i ddeddf ysbrydol a sanctaidd Duw. † Nid yw foddlawn genyf, nid wyf yn ei gymmeradwyo, nid wyf yn ei ganiatâu. Nid wyf yn ei wybod, yn ol y Groeg: *(Ou ginôskô :)* fel pe dywedasai, Byddaf lawer pryd yn cael fy ngoddiwes gan bechod, megys yn ddïarwybod i mi fy hun, ac yn gwneuthur pethau nad oeddwn yn fwriadu, nac yn foddlawn iddynt. ‡ Yr oedd yn "ewyllysio," ac yn ymdrechu hefyd yn egniol, bod yn berffaith gydffurfiol â deddf sanctaidd Duw, mewn calon, meddwl, gair, a gweithred; ‖ ond yr oedd bob amser yn syrthio yn fŷr o hyny, ac yn methu cyrhaedd y perffeithrwydd ysbrydol a ewyllysiai ei galon. § Tra yr oedd yn casâu pob math o bechod â'i holl galon, byddai yn aml yn syrthio iddo yn ddïarwybod fel y sylwyd uchod. Nid pechodau gwarthus allanol, yn sicr a feddylir; nid oedd Paul yn "gwneuthur" pechodau felly; ond gweithrediadau tumewnol ei natur lygredig oedd ef yn feddwl, oddi wrth yr hyn nis gallwn byth fod yn lân tra byddom yn y byd hwn.

16 * *Ac* os y peth nid wyf yn ei ewyllysio, *hynny* yr wyf yn ei wneuthur, [y] † yr wyf fi yn cyd-synio â'r ddeddf mai da *ydyw*.

y adn. 12, 14, 22. Salm 119. 127, 128.

* Gan fod pechod yn beth "anfoddlawn," croes i'w "ewyllys," a "chas" gan yr apostol, yr oedd hyny yn brawf ei fod ef ei hun wedi cael ei adnewyddu trwy ras; † ac yn brawf hefyd ei fod ef yn cydsynio â'r ddeddf mai da oedd: yr oedd y ddeddf yn gwahardd pechod, ac yr oedd egwyddor sanctaidd ynddo yntau yn casâu pechod. Yr oedd efe yn rhoddi ei lais gyda hi, ac o'i phlaid, mai hi oedd yr unig reol o gyfiawnder a sancteiddrwydd.

17 * Felly yr awrhon [z] nid myfi sydd mwy yn gwneuthur hynny, [a] † eithr y pechod yr hwn sydd yn trigo ynof fi.

z adn. 20. pen. 4. 7, 8. 2 Cor. 8. 12. Phil. 3. 8, 9. a adn. 18, 20, 23. Iago 4. 5, 6.

* Weithian, y canlyniad eglur a naturiol o hyn yw, nad myfi, yn hollawl, nid y cwbl o honof fi, sydd yn gwneuthur y peth cas hyny. Nid efe, fel dyn wedi ei adnewyddu trwy ras, oedd yn ei wneuthur; ac nid efe, fel gweithredydd ewyllysgar a gwirfoddawl, oedd yn ei wneuthur, gan gymmeradwyo pechod ac ymfoddloni ac ymhyfrydu ynddo. † Ond pob peth o natur bechadurus yn y credadyn, ffrwyth ydyw o'i hen anian lygredig; yr hon fel y Canaaneaid gynt yn y tir, (Num. 33. 55,) sydd yn aros ynddo ef er ei adnewyddu trwy ras, yn groes i'w ewyllys, ac lawer pryd yn dra gofidus a rhŷ galed iddo. Nid esgusodi ei bechadurusrwydd yn sicr yr oedd yr apostol wrth ddywedyd fel hyn; ond dangos yr oedd, er fod pechod ynddo, fel y gwahan-glwyf yn muriau y tŷ, eto mai gras oedd ar yr orsedd, ac yn llywodraethu yn ei enaid.

18 * Canys mi a wn [b] nad oes ynof fi (hynny yw, [c] yn fy nghnawd i) ddim da yn trigo: [d] † oblegid yr ewyllysio sydd barod gennyf; ‡ eithr cwblhâu yr hyn sydd dda, nid wyf yn medru arno.

b Gen. 6. 5. a 8. 21. Job 14. 4. a 15. 14—16. a 25. 4. Salm 51. 5. Es. 64. 6. Mat. 15. 19. Marc 7. 21—23. Luc 11. 13. Eph. 2. 1—5. Tit. 3. 3. 1 Pedr 4. 2. c adn. 5, 25. pen. 8. 3—13. a 13. 14. Ioan 3. 6. Gal. 5. 19—21, 24. d adn. 15, 19, 25. Salm 119. 5, 32, 40, 115—117, 173, 176. Gal. 5. 17. Phil. 2. 13. a 3. 12.

* Wrth y "cnawd" yma, rhaid i ni ddeall, yr hen ddyn, yr hen egwyddor neu anian bechadurus, sydd yn dyfod gyda ni i'r byd; neu, yn hytrach, yr hyn ydym ni oll wrth naturiaeth. Gwyddai yr apostol trwy brofiad gofidus nad oedd dim da ynddo ef wrth naturiaeth, dim da yn ei hen natur halogedig ef: nid oedd dim da ynddi cyn ei gyfnewid ef trwy ras, ac nid oedd dim da ynddi wedi y cyfnewidiad hwnw. Nid cyfnewid yr hen galon a'r hen anian, o ddrwg i dda y mae Duw; ond rhoddi calon newydd i'w bobl, a'u gwneyd yn gyfranogion o ddduwiol anian, yr hon nad oedd ynddynt o'r blaen. Yr un peth oedd y "cnawd" yn Paul yr apostol ag ydoedd yn Saul yr erlidiwr: peth heb ddim da yn trigo ynddo. † Fel dyn adgenedledig a grasol, yr oedd yn wastad yn ewyllysio pob ufudd-dod i ddeddf Duw, a chyd-ymffurfiad â hi; ‡ ond yr oedd ei hen natur lygredig ef, er ei dïorseddu, o hyd yn gwrthwynebu hyny, fel nad allai efe mewn un modd gyflawni yr hyn a ddymunai fel dyn newydd a duwiol.

19 * Canys nid wyf yn gwneuthur y peth da yr wyf yn ei ewyllysio; ond y drwg yr hwn nid wyf yn ei ewyllysio, hynny yr wyf yn ei wneuthur.

20 Ac os ydwyf fi yn gwneuthur y peth nid wyf yn ei ewyllysio, [e] † nid myfi mwyach sydd yn ei wneuthur, ‡ ond y pechod sydd yn trigo ynof fi.

e adn. 17.

* Nid oes yn y ddwy adnod hyn fawr mwy nac ailadroddiad o'r hyn a gawsom yn adn. 15, 17. Mae pob *dyn newydd yn ddau ddyn;* mae ynddo *Fyfi* a *Myfi.* Nis gallasai yr apostol, nac un dyn arall, yn ei gyflwr dïadgenedledig wneuthur y fath wahaniaethiad. † Nid myfi, yn brïodol, fel credadyn, sydd yn ei wneuthur; ‡ ond y bradwr a'r gelyn sydd yn llechu yn fy nghalon I.

21 * Yr ydwyf fi gan hynny yn cael [f] deddf, † a mi yn ewyllysio gwneuthur da, [g] ‡ fod drwg yn bresennol gyd â mi.

f adn. 23. pen. 6. 12, 14. a 8. 2. Salm 19. 13. a 119. 133. Ioan 8. 34. Eph. 6. 11—13. 2 Pedr 2. 19. g 2 Cron. 30. 18, 19. Salm 19. 12. a 40. 12. a 119. 37. Es. 6. 5—7. Zec. 3. 1—4. Luc 4. 1, 2. Heb. 2. 17, 18. a 4. 15.

* Mae yn ddiammau mai pechod a feddylir wrth "ddeddf" yn y fàn hon, yr hyn a elwir "deddf pechod" a "chyfraith pechod" yn adn. 23, 25. Gelwir pechod, neu anian lygredig dyn yn ddeddf: efallai, ei bod yn gosod rheolau i'r dyn i weithredu, croes i ddeddf Duw, ac am ei bod yn rymus yn cymhell y dyn i weithredu yn ol y rheolau gwyr-geimion a drwg hyny. Mae mòr nerthol a meistrolaidd yn ei chymhelliadau, fel mae y gorau o ddynion yn cael mwy na digon o waith i'w gwrthsefyll yn aml. † Mae y credadyn â'i holl galon yn ewyllysio gwneuthur da, pob da; er rhyngu bodd Duw, gogoneddu ei enw, a chydymffurfio â'i gyfraith ef: ‡ ond bob amser yr ymosodo at hyny, pa un bynag ai yn ddirgel ai yn gyhoeddus, mae y drwg yn bresenol gydag ef, yn ei galon ac yn ei feddyliau, yn ei rwystro i wneyd y da a ewyllysia. Pa le bynag yr elom, a pha beth bynag a wnelom, mae y drwg yn wastad gyda ni, ac yn ceisio difwyno ein gweithredoedd gorau.

22 [h] * Canys ymhyfrydu yr wyf yng nghyfraith Duw, yn ol y dyn oddi mewn:

h pen. 8. 7. Job 23. 12. Salm 1. 2. a 19. 8—10. a 40. 8. a 119. 16, 24, 35, 47, 48, 72, 92, 97—104, 111, 113, 127, 167, 174. Es. 51. 7. Ioan 4. 34. Heb. 8. 10. i pen. 2. 29. 2 Cor. 4. 16. Eph. 3. 16. Col. 3. 9, 10. 1 Pedr 3. 4.

* Y dyn oddi mewn yw yr enaid, fel y mae wedi ei adnewyddu trwy ras. Paul yn unig sydd yn arfer y geiriau, yma, ac yn 2 Cor. 4. 16; Ephes. 3. 16: ac yr mhob un o'r mànau hyn am gredinwyr yn unig y mae yn llefaru. Arferai *Plato*, philosophydd paganaidd eiriau cyffelyb am y *rhan rhesymol* o ddynoliaeth. Mae

rchiadau a chynneddfau yr enaid mewn dyn syrthiedig yn fwy gwrthwynebol i gyfraith Dduw na'r nwydau orphorol; felly mae bod yr enaid yn *ymhyfrydu* yn yhyfraith Dduw, nid yn unig yn brawf o ddychweliad ac adnewyddiad yr enaid, ond hefyd yn brawf amlwg o eddf fawr o sancteiddrwydd a gras yn yr enaid.

23 * Eithr yr wyf yn gweled [k] deddf arall yn fy aelodau, ‡ yn gwrthryfela yn erbyn deddf fy meddwl, [1] || ac yn fy nghaethiwo i deddf pechod, yr hon sydd yn fy aelodau.

k adn. 5, 21, 25. pen. 8. 2. Preg. 7. 20. Gal. 5. 17. 1 Tim. 6. 10, 12. Heb. 12. 4. Iago 3. 2. a 4. 1. 1 Pedr 2. 11. l adn. 14. 2 Tim. 2. 25, 26.

* Er fod Paul wedi cyrhaedd y mesur mawr uchod o sancteiddrwydd yn ei enaid, eto, yr oedd er hyny yn gweled deddf arall yn ei aelodau, yn gwrthryfela yn erbyn deddf ei feddwl. Y ddeddf yn ei aelodau oedd yr hen natur lygredig a phechadurus oedd yn barâus iddo ef: gwel ar adn 21. † Dywedir ei bod yn yr aelodau, efallai, i ddangos ei bod wedi ei diorseddu o'r ddlon a'r enaid, ac hefyd i ddangos ei bod yn defnyddio nwydau, synwyrau, ac aelodau y corph i bechu erbyn Duw: gorthrymu ar y rhan waelaf o ddyn, ac yd nas gall lywodraethu ar y rhan orau. ‡ Deddf y meddwl oedd yr egwyddor rasol yn enaid yr apostol; eu mewn geiriau eraill, deddf Duw wedi ei hysgrifenu i gi galon a'i feddwl ef gan yr Ysbryd Glân. Holl ngais deddf yr aelodau yn wastad yw gwrthryfela yn erbyn deddf y meddwl yn y credadyn: nis gall ei orchfygu byth; ond eto nis gall beidio gwrthryfela a ei herbyn hi: "a'r ddau hyn a wrthwynebant eu llydd." || Ymgais deddf yr aelodau bob amser, yw caethiwo y credadyn i ddeddf pechod, sef iddi ei hun; e mewn rhai amgylchiadau, dros amser, yr oedd yn ewyddo i hyny, mewn cristion mòr enwog a Phaul: addefai yn mhen rhai blynyddoedd wedi hyn, nad oedd no wedi ei berffeithio. Phil. 3. 12.

24 [m] * Ys truan o ddyn wyf fi! [n] † pwy a'm gwared i oddi wrth gorph y farwolaeth hon?

m pen. 8. 26. 1 Bren. 8. 38. Salm 6. 6. a 32. 3, 4. a 38. 8—10. 119. 20, 81—83, 131, 143, 176. a 130. 1—3. Ezec. 9. 4. Mat. 5. 4, 6. 2 Cor. 12. 7—9. Dat. 21. 4. n Deut. 22. 26, 27. Salm 71. 11. 72. 12. a 91. 14, 15. a 102. 20. Mica 7. 19. Zec. 9. 11, 12. Luc 4 18. 2 Cor. 1. 8—10. 2 Tim. 4. 18. Tit. 2. 14. Heb. 2. 15.

* Ys truan, *Talaipóros:* gair yn arwyddo un wedi ewyr flino, a'i wisgo allan gan ymdrech a llafur parâus a gofidus: fel rhai a weithiant mewn cloddfêydd meini, neu a ddyfarnwyd i galedwaith mewn mŵn-gloddiau am ddu hoes. † Nid llais ammheüaeth ac anobaith yw y geiriau, ond llais un yn dyhêu ac yn hiraethu am waredigaeth: ochenaid y duwiol, y geilw un gwr yr adnod hon, ac y mae llawer ochenaid debyg iddi yn yr ysgrythyrau, a llawer yn nghalonau plant Duw bob dydd. ‡ Neu oddi wrth gorph hwn y farwolaeth, neu y corph farwol hwn. Dywedir y byddai gormeswyr creulawn ynt yn cospi dynion trwy rwymo cyrph meirwon wrthynt, i'w dwyn gyda hwynt yn wastadol, oni threngent an eu drygsawr a'u braeniad. Mòr ffiaidd ac atgas a yny y cyfrifai yr apostol y pechod oedd yn ei natur, a rwaeddai yn hiraethlawn a gofidus am gael ei waredu n llwyr oddi wrtho. Tybia rhai mai ei gorph naturiol i hun oedd yn feddwl, yr hwn oedd yn farwol o herydd pechod, (pen. 8. 10,) ac yn yr hwn yr oedd lygredd gwreiddiol wedi greddfu, yn debyg i'r gwahanglwyf yn y tŷ gynt, (Lefit. 14. 44, 45,) nad oedd dim obaith ei lanâu yn berffaith, heb ddattod a thynu i awr y daearol dŷ o'r babell hon yn gwbl.

25 [o] * Yr wyf fi yn diolch i Dduw, † trwy Iesu Grist ein Harglwydd. [p] ‡ Felly gan hynny, yr wyf fi fy hun â'r meddwl yn gwasanaethu cyfraith Duw; ond â'r cnawd, cyfraith pechod.

o pen. 6. 14, 17. Salm 107. 15, 16. a 116. 16, 17. Es. 12. 1. a 49. 9, 13. Mat. 1. 21. 1 Cor. 15. 57. 2 Cor. 9. 15. a 12. 9, 10. Eph. 5. 20. Phil. 3. 3. a 4. 6. Col. 3. 17. 1 Pedr 2. 5, 9. p adn. 15—24. Gal. 5. 17—24

* Fel pe dywedasai, Bendigedig fyddo Duw, yr wyf eisoes wedi cael fy ngwaredu o'i rad ras ef, a thrwy weithrediadau ei ras ef ynof, oddi wrth euogrwydd ac arglwyddiaeth pechod; ac mae genyf obaith da am hollawl waredigaeth oddi wrth y bod o hóno yn y màn † trwy ufudd-dod, dyoddefaint, ac eiriolaeth ein Harglwydd Iesu Grist. Dywedir bod amryw ysgrifau Groeg o'r adnod hon yn darllen, *gras Duw*, yn lle *yr wyf yn diolch i Dduw;* ac fèl hyny byddai y geiriau yn ateb uniongyrchol i'r gofyniad yn yr adnod o'r blaen, "Pwy a'm gwared I?" Gras Duw, trwy Grist Iesu ein Harglwydd. Nis gallai efe ei waredu ei hun, ac nis gallai y ddeddf ei waredu, ond yn hytrach gwneyd ei achos byth yn waeth: yn wyneb y cwbl dyma waredigaeth yn ei ymyl trwy ras Duw. ‡ Dyma'r diwedd-glo mae yr apostol yn wneyd o'r bennod brofiadol hon; cyn belled ag yr oedd efe wedi ei adnewyddu trwy ras yr oedd yn gwasanaethu cyfraith Duw; || cyn belled ag yr oedd heb ei adnewyddu yr oedd yn gwasanaethu cyfraith pechod. Yr oedd *ef ei hun*, fel dyn grasol, yn gwasanaethu cyfraith Duw; ond yr oedd y cnawd, ei lygredd, corph y farwolaeth oedd yn nglŷn âg ef, yn tynu ffordd arall, i wasanaethu cyfraith pechod. Nid yr un dyn yn gwasanaethu dau arglwydd oedd hyn; eithr dwy anian yn yr un dyn, yr anian dduwiol yn gwasanaethu Duw, a'r hen anian lygredig yn ymdrech am wasanaethu pechod. Dylem wahaniaethu yn bennodol rhwng *fi fy hun*, yn nghanol yr adnod, â'r *cnawd*, yn niwedd yr adnod.

PEN. VIII.

Bod y rhai sydd yn Nghrist, ac yn byw yn ol yr Ysbryd, yn rhyddion oddi wrth ddamnedigaeth.

* NID *oes* gan hynny [a] † yn awr ddim ‡ damnedigaeth || i'r rhai sydd [b] yng Nghrist Iesu, [c] § y rhai sydd yn rhodio nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr Ysbryd.

a adn. 33, 34. pen. 4. 7, 8. a 5. 1. a 7. 17, 20. Es. 54. 17. Ioan 3. 18, 19. a 5. 24. Gal. 3. 13. b pen. 16. 7. Ioan 14. 20. a 15. 4. 1 Cor. 1. 30. a 15. 22. 2 Cor. 5. 17. a 12. 2. Gal. 3. 28. Phil. 3. 9. c adn. 4, 14. Gal. 5. 16, 25. Tit. 2. 11—14.

* Gan hyny, sef gan fod y credinwyr wedi eu cyfiawnâu yn rhad, wedi eu rhyddâu oddi wrth y ddeddf, a chwedi marw iddi; gan eu bod â'r meddwl yn gwasanaethu cyfraith Duw, wedi eu gwaredu oddi wrth euogrwydd a llywodraeth pechod, ac yn ochneidio yn llwythog am ryddâd perffaith a hollawl oddi wrtho; gan hyny, nid oes yn awr ddim damnedigaeth i'r cyfryw. Casgliad yw y geiriau oddi wrth yr holl bethau a ddywedasai yr apostol am y credinwyr yn y bennod, os nid y pennodau, o'r blaen. † Er bod damnedigaeth iddynt gynt fel eraill, (Ephes. 2. 3,) tra yr oeddent mewn pechod ac anghrediniaeth; eto, *yn awr*, nid oes dim damnedigaeth iddynt. Nid yn unig ni *bydd* dim damnedigaeth iddynt yn nydd y farn; eithr nid *oes* dim *yn awr:* maent wedi myned trwodd eisoes o farwolaeth i fywyd. ‡ Nid yw yr apostol yn dywedyd nad oes dim achos, a defnydd damnedigaeth yn y saint; mae pob pechod a wnelont wedi cael gras, yn haeddu damnedigaeth; ond nid oes dim dedfryd o ddamnedigaeth arnynt, ac ni ddaw dim damnedigaeth iddynt byth. || Y bobl ddedwydd a diangol hyn yw y rhai sydd yn Nghrist Iesu: yn ei gyfammod ef, yn credu ynddo ef, wedi ei huno âg ef fel aelodau o'i gorph ysbrydol a dirgeledig ef: nis gall fod damnedigaeth i'r un o'r aelodau heb fod damnedigaeth i'r holl gorph; ac nis gall fod damnedigaeth i'r corph tra fyddo mewn undeb â'r Pen bendigedig; a phwy a'i gwahana ef byth oddi wrth y Pen? adn. 34—39. § Nod a chymmeriad y rhai sydd yn Nghrist yw, eu bod yn rhodio yn sanctaidd, nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr Ysbryd. Ofer i neb dybied ei fod yn Nghrist yn wirioneddol heb hyn; ac eto nid hyn yw diogelwch neb rhag damnedigaeth, ond ei undeb ysbrydol ef â Christ trwy wir a bywiol ffydd.

2 [d] * Canys deddf [e] Ysbryd y bywyd
† yng Nghrist Iesu [f] ‡ a'm rhyddhâodd i
[g] oddi wrth ddeddf pechod ‖ a marwolaeth.

d pen. 3. 27. e adn. 10, 11. Ioan 4. 10, 14. a 6. 63. a 7. 38, 39. 1 Cor. 15. 45. 2 Cor. 3. 6. Dat. 11. 11. a 22. 1. f pen. 6. 18, 22. Salm 51. 12. Ioan 8. 32. 2 Cor. 3. 17. Gal. 5. 1. g pen. 5. 21. a 7. 24, 25.

Gan fod yr apostol yn yr adnod hon, ac yn hon yn unig o ddechreu i ddiwedd y bennod, yn llefaru yn ei berson ei hun; mae yn debyg ei fod yn cyfeirio yn ol, at y waredigaeth oddi wrth gorph y farwolaeth, a grybwyllai yn pen. 7. 24, 25. * Mae amryw feddyliau gan dduwinyddion am y geiriau hyn, "Deddf Ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu;" ceisiwn eu crybwyll mòr fŷr ag y gallom:—1. Tybia rhai mai athrawiaeth yr efengyl a feddylir; am ei bod yn weinidogaeth yr Ysbryd, ac yn weinidogaeth bywyd, mewn cyferbyniad i'r ddeddf, gweinidogaeth angau a damnedigaeth. 2. Mae eraill yn deall y geiriau am effaith a nerth y gras a'r sancteiddrwydd hyny, â'r hwn y llanwodd Ysbryd y Duw byw ddynoliaeth Crist. 3. Wrth ddeddf Ysbryd y bywyd mae eraill yn deall yr egwyddor newydd o fywyd ysbrydol sydd yn enaid y credadyn, yn nghyd â goruchwyliaethau bywiol a nerthol yr Ysbryd Glân ar ei enaid ef, yn ei ryddâu ef yn sanctaidd oddi wrth ddeddf pechod a marwolaeth. † Yr hon ddeddf Ysbryd y bywyd oedd yn Nghrist pan oedd ar y ddaaar, yn ol yr ail sylwad uchod, ac sydd ynddo yn anfesurol ac annhraethol yn awr fel Pen yr eglwys, yn y nef. Neu ynte yn Nghrist Iesu mae yr Ysbryd Glân yn gweithredu ar y saint, yn rhoddi bywyd ysbrydol ynddynt, ac yn eu rhyddâu yn ysbrydol oddi wrth ddeddf pechod. Yn Nghrist y mae'r bywyd yn drysoredig, yn Nghrist mae yr eneidiau sydd yn ei gael, ac yn Nghrist mae yr Ysbryd yn gweithredu yn nerthol ar eneidiau y saint. ‡ Nid oddi wrth y bod o bechod eto; ond oddi wrth ddeddf pechod, hyny yw oddi wrth ei arglwyddiaeth a'i deyrnasiad ef yn y galon. ‖ Oddi wrth bechod, eto, medd rhai; yr hwn sydd farwol yn ei natur a'i ganlyniadau: marwolaeth dragywyddol, yr hon yw cyflog pechod, yw yr hyn a feddylir yn hytrach, efallai. Meddwl yr adnod oll yw, fod gweithrediadau nerthol yr Ysbryd Glân, ac effeithiau grỳmus a sancteiddiol ei rasau ef yn yr enaid, wedi rhyddâu yr apostol, ac yn rhyddâu pob credadyn, oddi wrth arglwyddiaeth pechod, ac o ganlyniad oddi wrth farwolaeth dragywyddol, y gosp am bechod: ac felly nid oes dim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu.

3 [h] * Canys yr hyn ni allai y ddeddf, † o
herwydd ei bod yn wan trwy y cnawd, [i] ‡ Duw
a ddanfonodd ei Fab ei hun [k] y'nghyffelybiaeth
cnawd pechadurus, ac am bechod [l] ‖ a gon-
demniodd bechod yn y cnawd:

h pen. 3. 20. a 7. 5—11. Gal. 3. 21. Heb. 7. 18, 19. a 10. 1—10, 14. i adn. 32. Ioan 3. 14—17. Gal. 4. 4, 5. 1 Ioan 4. 10—14. k pen. 9. 3. Marc 15. 27, 28. Ioan 9. 24. l pen. 6. 6. 1 Pedr 2. 24. a 4. 1, 2.

Mae dau beth mewn pechod ag sydd yn ddamniol i ddynion, sef ei rỳm a'i euogrwydd ef: soniodd yr apostol yn yr adnod o'r blaen am ryddâd oddi wrth ei rỳm a'i arglwyddiaeth ef; ac yma mae yn son am ryddâd oddiwrth ei euogrwydd damniol ef. * Nis gall y ddeddf mewn un ystyr, nag fel deddf foesol nac fel cyfammod o weithredoedd, wneuthur dim i ryddâu y pechadur oddi wrth rỳm ac arglwyddiaeth pechod, nac ychwaith oddi wrth euogrwydd pechod; mwy nag y gall deddf wladol wneuthur lleidr yn ddyn gonest, neu achub drwg-weithredwr rhag ei golli pan fyddo yn haeddu hyny. Mae y ddeddf yn dywedyd pa fath a ddylai dynion fod, ac yn condemnio ei throseddwyr; ond nis gall gyfnewid y galon, na chyfiawnâu yr euog. † Nid bai na diffyg yn y ddeddf yw yr anallu hwn, perffeithrwydd y ddeddf yw yr achos o hóno, am ei bod yn sanctaidd, yn gyfiawn, ac yn dda. Ein drwg ni yn tòri drwy, a thros ben gwaharddiadau y ddeddf, sydd yn ei gwneyd hi yn wàn i'n cyfiawnâu a'n gwaredu. Gallai y ddeddf gyfiawnâu dyn dibechod yn awr gystal ag erioed; ond nis gallodd erioed gyfiawnâu pechadur na'i sancteiddio, ac nis gall byth. ‡ Ond wedi darfod am bob gobbaith i bechadur byth yn wyneb y ddeddf, agorodd Duw yn ei anfeidrol ddoethineb a'i ras, lwybr arall, i'w gyfiawnâu, ei sancteiddio, a'i achub i fywyd tragywyddol. Danfonodd ei anwyl, ei unig, ei briod, a'i hanfodol Fab yn ein natur wael ni i'r byd; gosododd ef yn ein deddfle ni, rhoddodd arno ef ein hanwireddau ni, gwnaeth ef yn bechod neu yn bech-aberth drosom ni; ‖ ac felly condemniodd bechod yn ei gnawd, sef ei gorph ef, trwy roddi y gosp ddyledus iddo ar ei Fab ei hun. Nid cyffelybiaeth cnawd a ddywedir; yr oedd gan Grist wir gnawd; ond cyffelybiaeth cnawd pechadurus oedd, mewn amryw ystyriaethau:—o sylwedd cnawd pechadurus y cymhwysswyd cnawd, neu gorph iddo ef, ond eto heb ddim pechod ynddo; bu yn ddarostyngedig i holl wendidau dibechod dynoliaeth *fel* pe buasai ganddo gnawd pechadurus; aeth dan arwyddion allanol cnawd pechadurus, yn ei enwaediad, ei buredigaeth, (Gwel ar Luc. 2. 22, ‡,) a'i fedydd; cyfrifwyd ef fel dyn pechadurus gan lawer, a dyoddefodd ar y groes fel pe buasai ddyn pechadurus. Trwy hyn oll, cyflawnodd Mab Duw yr hyn ni allai deddf Duw ei gyflawni.

4 [m] * Fel y cyflawnid cyfiawnder y ddeddf
† ynom ni, [n] ‡ y rhai ydym yn rhodio, nid yn
ol y cnawd, eithr yn ol yr Ysbryd.

m Gal. 5. 22—24. Eph. 5. 26, 27. Col. 1. 22. Heb. 12. 23. 1 Ioan 3. 2. Judas 24. Dat. 14. 5. n adn. 1.

* Wrth gyfiawnder y ddeddf mae i ni ddeall, y cyfiawnder mae y ddeddf foesol, ac fel cyfammod o weithredoedd, yn ei ofyn. Sonia yr apostol am y cenedloedd yn cadw cyfiawnderau y ddeddf (pen. 2. 26.) a pha beth a ellir feddwl yno wrth gyfiawnderau y ddeddf ond y cyfiawnderau mae deddf ein natur yn ofyn gan holl ddynolryw fel deiliaid o gyfammod Eden? nid oedd y cenedloedd dàn yr un ddeddf arall. † Fel pen-cyfammodwr a chynnrychiolwr ei holl bobl, cyflawnodd Crist gyfiawnder y ddeddf yn ein natur ni, drosom ni, ac fel machnïydd yn ein deddfle ni; fel y gellir dywedyd mewn ystyr *gyfreithiol*, ei fod wedi ei gyflawni genym ac ynom ni y rhai ydym yn credu yn wirioneddol yn Nghrist ac yn ddeiliaid o'i gyfammod ef. Ond yn ol meddyliau eraill, fel y cyflawnid cyfiawnder y ddeddf yn ein calonau ac yn ein bucheddau ni, wedi ein sancteiddio, ein hadnewyddu trwy ras, a'n rhyddâu oddi wrth bechod drwy ddeddf Ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu. ‡ Y rhai ydym yn rhodio, nid yn ol egwyddorion a chwantau halogedig y cnawd, ond yn ol egwyddorion purach, ac arweiniadau sanctaidd yr Ysbryd Glân. Mae crybwyll hyn yn adn. 1, ac yma, yn dangos ei fod o bwys mawr.

5 * Canys y rhai [o] sydd yn ol y cnawd,
[p] † am bethau y cnawd y maent yn syniaw:
‡ eithr y rhai sydd yn ol yr Ysbryd, [q] ‖ am
bethau yr Ysbryd:

o adn. 12, 13. Ioan 3. 6. 2 Cor. 10. 3. 2 Pedr 2. 10. p adn. 6, 7. Marc 8. 33. 1 Cor. 2. 14. Phil. 3. 18, 19. q adn. 9, 14. 1 Cor. 2. 15. Gal. 5. 22—25. Eph. 5. 9. Col. 3. 1—3.

* Nid y corph, mewn cyferbyniad i'r enaid a feddylir yma, wrth y "cnawd;" ond yr egwyddor a'r duedd lygredig a phechadurus sydd yn mhob dyn diadgenedledig: felly byw yn ol y cnawd, yw byw yn ol yr egwyddor a'r duedd halogedig a phechadurus hòno, megys y dywedir yn Ephes. 2. 3. † Un ai pethau hollawl bechadurus ynddynt eu hunain, y rhai a elwir "gweithredoedd y cnawd" yn Galat. 5. 19, &c.: neu ynte, pethau y byd hwn, megys cyfoeth, anrhydedd, a mwyniant bydol. Gallwn gymmeryd pob un o'r ddau; oblegid ar y pethau hyn mae meddwl y dyn anianol yn gweithredu ac yn syniaw, y pethau hyn mae yn eu ceisio, ac yn y pethau hyn mae yn ymhyfrydu. ‡ Y rhai sydd ysbrydol ac wedi eu hadgenedlu, y rhai mae Ysbryd Duw yn preswylio ynddynt, ac ydynt dàn ei arweiniad gwastad-

ef. ‖ Am bethau nefol ac ysbrydol mae y rhai hyn
syniaw ac yn meddwl: pethau ysbrydol sydd fwyaf
eu harchwaeth hwynt, ac mewn pethau ysbrydol mae
hyfrydwch mwyaf a phenaf. Onid oes yma le i
wb o honom farnu ein hunain, pa beth yw ein cyflwr
sefyllfa ger bron Duw?

6 r * Canys syniad y cnawd, marwolaeth
; † a syniad yr yspryd, s bywyd a thang-
fedd *yw:*

r adn. 13. pen. 6. 21, 23. a 7. 5, 11. Gal. 6. 8. Iago. 1. 14, 15. en. 5. 1, 10. a 14. 17. Ioan 14. 6, 27. a 17. 3. Gal. 5. 22.

Cawsom y gwahaniaeth rhwng yr annuwiol a'r duw-
o'r blaen, yn adn. 5; y naill yn ol y cnawd, ac yn
ied am bethau y cnawd, a'r llall yn ol yr Ysbryd, ac
synied am bethau yr Ysbryd: yma cawn wahanol
iwedd y ddau; marwolaeth fydd diwedd y naill,
wyd a thangnefedd fydd diwedd y llall. * Mae syn-
y cnawd yn farwol yn ei natur, mae yn dangos bod
lyn sydd dan ei lywodraeth yn farw ysbrydol, dàn
edfryd marwolaeth gan Dduw; ac yn ymaddfedu i
wolaeth dragywyddol. † Ac i'r gwrthwyneb, yr hwn
ld ysbrydol a sanctaidd yn ei syniadau, ei feddyliau,
agwedd gyffrediniol ei enaid; mae hwnw yn fyw i
luw, yn mwynâu tangnefedd Duw yn ei galon, a
wyd a thangnefedd yw syniad ysbrydol, yn ei natur
ganlyniadau byth.

7 t * Oblegid syniad y cnawd *sydd* elyn-
eth yn erbyn Duw: u † canys nid yw ddaros-
ngedig i ddeddf Duw; x ‡ oblegid nis gall
uwaith.

t pen. 1. 28, 30. a 5. 10. Ex. 20. 5. 2 Cron. 19. 2. Salm 53. 1. an 7. 7. a 15. 23, 24. Eph. 4. 18, 19. Col. 1. 21. 2 Tim. 3. 4. Iago 4. 1 Ioan 2. 15, 16. u adn. 4. pen. 3. 31. a 7. 7—14, 22. Mat. 19. 1 Cor. 9. 21. Gal. 5. 22, 23. Heb. 8. 10. x Jer. 13. 23. at. 12. 34. 1 Cor. 2. 14. 2 Pedr 2. 14.

* Oblegid syniad y cnawd, neu y meddwl cnawdol,
ol y Saesoneg, sydd elyniaeth yn erbyn Duw; am ei
id yn caru pethau cnawdol a daearol â'r holl galon,
y daioni penaf a mwyaf dewisol, lle y dylasai garu
uw, ufuddâu iddo, ac ymhyfrydu ynddo, yn fwy na
nob peth arall. Mae yn elyniaeth yn erbyn Duw yn
hob ystyr; yn erbyn ei berffeithrwydd hanfodol, yn
byn ei awdurdod, ac yn erbyn ei lywodraeth: mae
a elyniaeth hefyd i gydffurfiad sanctaidd â Duw, ac i
bb mwynâd ysbrydol o hóno. † Mae deddf Duw yn
bfyn yr holl galon i'w garu a'i addoli ef, yn gwahardd
bb peth pechadurus ag sydd hoff gan syniad y cnawd;
yn bygwth dial am bob trosedd o hòni: ond am fod
rniad y cnawd yn penderfynu mynu efordd ei hun,
boddio ei flys cnawdol ei hun, mae yn diystyru pob
wdurdod a llywodraeth, ac yn ymgyfodi mewn gelyn-
eth a gwrthryfel yn erbyn deddf Duw, ei gorchymyn-
on, ei gwaharddiadau, a'i bygythion, am eu bod yn
roes iddo ef. ‡ *Gelyniaeth* a ddywedir yw syniad y
nawd, ac nid *gelyn* yn unig: gellid heddychu *gelynion*
'u gilydd, megys yr ymheddychodd Esau â Jacob;
md nis gellir byth heddychu *gelyniaeth.* Gelyniaeth
'r fath waethaf, ac i'r gradd eithaf, yw syniad y cnawd
m erbyn Duw; ac nis gall ymheddychu â Duw byth,
a dyfod byth yn ddarostyngedig i ddeddf Duw: ond o
nfeidrol drugaredd, fe all Duw groeshoelio syniad y
mawd, lladd yr elyniaeth, cymmodi â'r gelyn, a'i achub
fywyd tragywyddol.

8 y * A'r rhai sydd yn y cnawd, ni allant
ryngu bodd Duw.

y adn. 9. pen. 7. 5. Ioan 3. 3, 5, 6. z Mat. 3. 17. Ioan 8. 9. 1 Cor. 7. 32. Phil. 4. 18. Col. 1. 10. a 3. 20. 1 Thes. 4. 1. Heb. 1. 5, 6. a 13. 16, 21. 1 Ioan 3. 22.

* Gan nas gall un crëadur rhesymol ryngu bodd
Duw, heb fod yn ufudd a darostyngedig i ddeddf Duw,
uae yn amlwg nas gall dyn diadgenedledig cnawdol
ryngu ei fodd ef mewn dim a wnelo. Fel hyn mae
gwir grefydd efengylaidd yn mhell iawn ar y naill law,
oddi wrth hunan gyfiawnder, yr hwn sydd yn glŷnu
wrth y ddeddf fel *cyfammod;* ac ar y llaw arall, oddi wrth benrhyddid cnawdol, *(antinomianism,)* sydd yn gwrthod y ddeddf fel *rheol.*

9 a * Eithr chwychwi nid ydych yn y
cnawd, † ond yn yr yspryd, b ‡ od yw ‖ Ys-
pryd Duw yn trigo ynoch. § Ac od oes neb
heb c Yspryd Crist ganddo, d nid yw hwnnw
yn eiddo ef.

a adn. 2. Ezec. 11. 19. a 36. 26, 27. Ioan 3. 6. b adn. 11. Luc 11. 13. 1 Cor. 3. 16. a 6. 19. 2 Cor. 6. 16. Eph. 1. 13, 17, 18. a 2. 22. 2 Tim. 1. 14. 1 Ioan 3. 24. a 4. 4. Judas 19—21. c Ioan 3. 34. Gal. 4. 6. Phil. 1. 19. 1 Pedr 1. 11. d Ioan 17. 9, 10. 1 Cor. 3. 21—23. a 15. 23. 2 Cor. 10. 7. Gal. 5. 24. Dat. 13. 8. a 20. 15.

* Eithr yr wyf yn gobeithio pethau gwell am danoch
chwi, fy anwyl frodyr yn Rhufain; nad ydych chwi dàn
lywodraeth y cnawd, yn byw yn ol y cnawd, er eich bod
yn y corph eto, a llawer o wendid ac anmherfeithrwydd
yn nglŷn â chwi. † Fy meddwl caredig am danoch
chwi yw, eich bod yn wir gyfranogion o'r Yspryd Glân,
dàn ei arweiniad a'i lywodraeth sanctaidd ef; a bod
ynoch egwyddor rasol o'i weithrediad a'i blaniad ef.
‡ Nid ammheüawl, ond achosawl, yw y gair "od,"
(eipar) gan yr apostol yn y fan yma, a gellid ei gyf-
ieithu *am, o herwydd,* neu *o achos,* bod Ysbryd Duw
yn trigo ynoch. ‖ Mae Ysbryd Duw yn trigo yn y
saint, fel Duw yn ei deml; yn ei berthynas arbenig
â hwynt, yn ei amlygiadau neillduol o hóno ei hun
iddynt, ac yn ei ddylanwadau sancteiddiol arnynt:
mae yn trigo felly yn wastadol, a byth ynddynt. § Od
oes neb, Iuddew, cenedl-ddyn, neu gristion mewn enw,
yn amddifad o Ysbryd Crist a'i weithrediadau sanct-
eiddiol; nid yw y cyfryw yn sicr yn perthyn i Grist,
fel un o'i ddysgyblion gwirioneddol a chymmeradwy
ef: ac os bydd farw yn y cyfiwr hwnw, efe a gyfr-
gollir byth fel gelyn i Dduw. "Yn y cnawd;" adn. 8,
9: yn y corph, medd rhai: os felly nis gall neb ryngu
bodd Duw tra byddent yn y byd hwn; yr hyn sydd
groes i'r dystiolaeth am Enoch, Heb. 11. 5: ac os
felly, mae yn canlyn hefyd mai nid yn y corph yr oedd
y Rhufeiniaid pan ysgrifenodd Paul atynt, oblegid efe
a ddywed, "Nid ydych chwi yn y cnawd."

10 e * Ac os *yw* Crist ynoch, f † y *mae*
y corph yn farw, ‡ o herwydd pechod;
g ‖ eithr yr Yspryd yn fywyd, h § o herwydd
cyfiawnder.

e Ioan 6. 56. a 14. 20, 23. a 15. 5. a 17. 23. 2 Cor. 13. 5. Eph. 3. 17. Col. 1. 27. f adn. 11. pen. 5. 12. 2 Cor. 4. 11. a 5. 1—4. 1 Thes. 4. 16. Heb. 9. 27. 2 Pedr 1. 13, 14. Dat. 14. 13. g Ioan 4. 14. a 6. 54. a 11. 25, 26. a 14. 19. 1 Cor. 15. 45. 2 Cor. 5. 6—8. Phil. 1. 23. Col. 3. 3, 4. Heb. 12. 23. Dat. 7. 14—17. h pen. 5. 21. 2 Cor. 5. 21. Phil. 3. 9.

* Lle bynag y mae Ysbryd Crist yn trigo mewn dyn,
mae Crist ei hun yn hwnw hefyd; yn ei allu a'i ddylan-
wadau, ac yn ei ddelw adnewyddol arno. † Er bod
Crist yn y saint, mae eu cyrph yn farw o herwydd
pechod: hyny yw, corph marwol sy ganddynt o hyd, ac
mae yn sicr o farw yn fuan. ‡ Pechod yw yr achos o
farwolaeth y corph, ac nid preswyliad Crist yn y cred-
adyn; gellid meddwl yr olaf wrth fel y mae ambell un
anfedrus yn darllen yr adnod hon. ‖ Ysbryd Duw,
medd rhai; yr hwn sydd yn fywyd ynddo ei hun, yr hwn
sydd yn bywâu y saint yn ysbrydol ac a fywâa eu cyrph
yn yr adgyfodiad yn y dydd diweddaf. Ysbryd y saint,
medd eraill, sef eu heneidiau; y rhai sydd wedi eu byw-
âu yn ysbrydol gan Ysbryd Duw: maent yn byw bywyd
o ras yma, ac a gânt fyw bywyd o ogoniant byth ar ol
hyn. § O herwydd cyfiawnder Crist yn gyfrifedig
iddynt, i'w gwaredu oddi wrth gondemniad a marwol-
aeth dragywyddol, ac o herwydd pa un y mae ganddynt
hawl i fywyd tragywyddol. Ac o herwydd cyfiawnder
egwyddorol, neu yr egwyddor hòno o wir sancteidd-
rwydd yn eu calonau, trwy yr hon maent yn byw i
Dduw yma, ac yn cael eu gwneyd yn gymhwys i gael
rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni. Trwy gyf-
iawnder yn mhob ystyr mae Duw yn cadw pechaduriaid.

11 * Ac os Yspryd yr i hwn a gyfododd

Iesu o feirw, sydd yn trigo ynoch; [k] † yr hwn a gyfododd Grist o feirw, a fywioccâ hefyd eich [l] cyrph marwol chwi, trwy ei Ysbryd yr hwn sydd [m] yn trigo ynoch.

i adn. 9. pen. 4. 24, 25. Act. 2. 24, 32, 33. Eph. 1. 19, 20. Heb. 13. 20. 1 Pedr 1. 21. k adn. 2. Es. 26. 19. Ezec. 37. 14. Ioan 5. 28, 29. 1 Cor. 6. 14. a 15. 16, 20—22, 51—57. 2 Cor. 4. 14. Phil. 3. 21. 1 Thes. 4. 14—17. 1 Pedr 3. 18. Dat. 1. 18. a 11. 11. a 20. 11—13. l pen. 6. 12. 1 Cor. 15. 53. 2 Cor. 4. 11. a 5. 4. m adn. 9. Ioan 7. 38, 39. a 14. 17.

* Yr hwn a gyfododd Iesu o feirw oedd y Tad: weithiau gelwir yr Ysbryd Glân yn Ysbryd Duw, ac weithiau yn Ysbryd Crist, yn yr adnodau uchod; i ddangos fod Crist yn Dduw yn gystal a'r Tad, ac i ddangos fod yr Ysbryd Glân yn perthyn mòr hanfodol ac anwahanol, i Grist ag ydyw i'r Tad, gan ei fod yn gymmaint yn Ysbryd y naill ag ydyw yn Ysbryd y llall, o'r Personau dwyfol hyn. † Yn yr adnod o'r blaen, dangosodd yr apostol fod cyrph y saint yn feirw er bod Crist ynddynt; yma mae yn dangos na chânt aros byth yn marwolaeth ac yn y bedd; ond y cyfyd Duw hwynt o'r bedd a marwolaeth trwy ei Ysbryd, fel y cyfododd gorph ei Fab, Pen yr eglwys, a blaen-ffrwyth y rhai a hunasant. Cyfyd hwynt mòr sicr ag y cyfododd gorph Crist, cyfyd hwynt yn un ffurf â'i gorph gogoneddus ef; ac yn nerth a rhinwedd ei adgyfodiad ef, fel aelodau o'i gorph dirgeledig ef, ac fel temlau sanctaidd ei Ysbryd ef. Plant Duw, a phlant yr adgyfodiad, yw enwau y saint yn Luc 20. 36.

12 * Am hynny, frodyr, [n] dyledwyr ydym, † nid i'r cnawd, i fyw yn ol y cnawd.

n pen. 6. 2—15. 1 Cor. 6. 19, 20. 1 Pedr 4. 2, 3.

* "Dyledwyr ydym;" i bwy? i'r Ysbryd Glân yn ddïammau, er nad yw yr apostol yn ei enwi yma. Pob da sydd yn y saint, a phob daioni a dedwyddyd maent yn ddysgwyl ac yn gobeithio am dano, trwy ddoniau yr Ysbryd Glân maent wedi ei gael ac i'w gael; am hyny dyledwyr ydynt i'r Ysbryd Glân i fyw dàn ei lywodraeth a'i arweiniad gwastadol ef er gogoniant i Dduw. † Nid oes arnom ddim dyled i'r cnawd, i fyw yn ol y cnawd; oblegid nid oes dim o fyw yn ol y cnawd ond afiwydd, dinystr, a thrueni byth.

13 [o] * Canys os byw yr ydych yn ol y cnawd, meirw fyddwch, [p] † eithr os ydych yn marweiddio ‡ gweithredoedd y corph [q] || trwy yr Ysbryd, § byw fyddwch.

o adn. 1, 4—6. pen. 6. 21, 23. a 7. 5. Gal. 5. 19—21. a 6. 8. Eph. 5. 3—5. Col. 3. 5, 6. Iago 1. 14, 15. p adn. 2. 1 Cor. 9. 27. Gal. 5. 24. Eph. 4. 22. Col. 3. 5—8. Tit. 2. 12. 1 Pedr 2. 11. q adn. 1. Eph. 4. 30. a 5. 18. 1 Pedr 1. 22.

* Gwel y rhan olaf o'r sylwad blaenorol. Nid oes yr un dyn duwiol yn byw yn hollawl yn ol y cnawd, sef dàn lywodraeth y cnawd a phechod, ac ni chaiff yr un dyn duwiol ei ollwng i fyw felly byth: ond pawb sydd yn byw felly, meirw ysbrydol ydynt, a marwolaeth dragywyddol fydd eu rhan; ni bydd iddynt ran yn yr adgyfodiad gogoneddus a enwyd, nac yn y bywyd tragywyddol wedi yr adgyfodiad hwnw. † Hyny yw, ei ladd, a'i roddi i farwolaeth: nid yw yn ddigon i ni beidio â gweithredu pechod; mae yn angenrheidiol ei groeshoelio ef, a'i farweiddio yn ei chwantau: gellir gadael pechod ar lawer ystyriaeth, ac eto heb ei farweiddio ef. ‡ Gelwir pechod yn weithredoedd y corph am fod aelodau y corph yn offerynau i'w gyflawni yn aml: ond wrth y corph yma mae rhai yn deall corph pechod, y cnawd, sef egwyddor halogedig corph y farwolaeth. || Rhaid cael cynnorthwyon a goruchwyliaethau yr Ysbryd Glân i farweiddio y gweithredoedd hyn; er i ddyn arfer pob moddion allanol i'w marweiddio, eto, byw a chryfion iawn a fyddant yn y galon heb oruchwyliaethau llymion yr Ysbryd arnynt. § Mae y cyfryw a'u marweiddio felly trwy yr Ysbryd, yn profi yn eglur eu bod yn ddynion byw a sanctaidd, ac e gynnydda eu bywyd ysbrydol hyd oni pherffeithier ef mewn dedwyddwch a bywyd tragywyddol.

14 [r] * Canys y sawl a arweinir gan Ysbryd Duw, [s] † y rhai hyn sydd blant i Dduw.

r adn. 5, 9. Salm 143. 10. Diar. 8. 20. Es. 48. 16, 17. Gal. 4. 6. a 5. 16, 18, 22—25. Eph. 5. 9. s adn. 17. 2 Cor. 6. 18. Gal. 3. 26. Eph. 1. 2. 1 Ioan 3. 1, 2. Dat. 21. 7.

* Trwy ffydd yn Nghrist mae yr holl gredinwyr yn blant i Dduw, trwy fabwysiad ac adgenedliad; a gwaith yr Ysbryd Glân yw y ffydd hòno, y mabwysiad a'r adgenedliad hyny. Mae yr Ysbryd yn arwain dyn i adnabyddiaeth o Dduw yn Nghrist, ac i adnabyddiaeth o'i gyflwr a'i galon ei hun; i edifeirwch gostyngedig, ffydd yn Nghrist, cariad sanctaidd, cymdeithas â Duw, a hyfrydwch yn ei wasanaeth a'i orchymynion: o'r tu arall, mae yn ei arwain ef ymaith oddi wrth wagedd a phechod, annuwioldeb a balchder; ac yn ol y graddau y rhoddo efe ei hun i fynu yn ewyllysgar i gael ei arwain gan yr Ysbryd, yn ol y graddau hyny y caiff efe dystiolaeth ynddo ei hun, ac y rhydd brawf i eraill, ei fod yn blentyn i Dduw. † Nid yw yr apostol yn dywedyd mai arweiniad yr Ysbryd sydd yn ein gwneyd yn blant i Dduw; ond y sawl a arweinir gan yr Ysbryd sydd blant i Dduw: hwy yn unig, ac nid neb arall.

15 * Canys ni dderbyniasoch [t] yspryd caethiwed drachefn i *beri* ofn; † eithr derbyniasoch [u] Yspryd mabwysiad, trwy yr hwn yr ydym yn llefain, [x] ‡ Abba, Dad.

t Ex. 20. 19. Num. 17. 12, 13. Luc 8. 28, 37. Ioan 16. 8. Act. 2. 37. a 16. 29. 2 Tim. 1. 7. Heb. 2. 15. a 12. 18—24. Iago 2. 19. 1 Ioan 4. 18. u adn. 16. Gal. 4. 5—7. Eph. 1. 5, 11—14. x Marc 14. 36. Luc 11. 2. a 22. 42. Ioan 20. 17.

* Wrth y geiriau "ysbryd caethiwed" yn nechreu yr adnod, gellir deall ysbryd, neu deimladau meddwl dynion, cyn eu dwyn i ryddid yr efengyl; mewn cyferbyniad i ysbryd mabwysiad, yr hwn maent yn gael wedi eu dwyn i ryddid yr efengyl. Neu fel hyn; goruchwyliaeth argyhoeddiadol yr Ysbryd Glân ar eneidiau dynion cyn credu, mewn cyferbyniad i oruchwyliaethau deddanol yr unrhyw Ysbryd ar ddynion wedi credu a thrwy gredu. Yr oedd yr oruchwyliaeth seremonïol yn tueddu dynion i ysbryd caethiwed yn fwy na goruchwyliaeth rasol yr efengyl; ac am fod yr Iuddewon yn rhy gyffredin, yn ystyried yr holl oruchwyliaeth hòno fel cyfammod o weithredoedd, yr oeddynt yn addoli Duw yn yr ysbryd caethiwaidd hwn. Ni bu ond ychydig o gristionogion Rhufain dàn yr oruchwyliaeth seremonïol erioed; eto dywed yr apostol am danynt yn gyffredinol, fel rhai wedi bod gynt dàn ysbryd caethiwed: gan hyny rhaid i ni ddeall, goruchwyliaeth argyhoeddiadol y ddeddf foesol ar eu meddyliau, yn eu dàl yn euog, ac yn crëu ofnau ynddynt am eu mater tragywyddol. Mae yr ysbryd caethiwaidd ac ofnus hwn yn beth naturiol a phrofiadol i bawb dàn argyhoeddiad; ac mewn ystyr yn angenrheidiol i'w darpar hwynt i dderbyn Crist trwy ffydd: ond y mae yn beth gwahanol iawn i ysbryd, ac agwedd meddwl a chalon, y rhai a ddygir i lawn oleuni a rhyddid yr efengyl, ac a dderbyniasant Ysbryd mabwysiad. Gellir dywedyd fod plant Duw yn llawn o ammheüon ac ofnau yn aml; ond gellir ateb i hyny, nad yw eu hofnau a'u hammheüon hwy ddim yn tarddu o oruchwyliaethau yr Ysbryd Glân, ond o betrusder a gwan-grediniaeth eu calonau eu hunain. Gall plant Duw gael eu gadael dàn guddiad wyneb eu Tad yn aml; ond nid i dderbyn ysbryd caethiwed fel o'r blaen. † Mae Ysbryd Duw yn cael ei alw yn Ysbryd mabwysiad, am mai efe sydd yn gweithio ac yn effeithio Ysbryd mabwysiad ynom ni, ac hefyd yn tystiolaethu ac yn sicrâu i ni ein bod yn blant mabwysiedig. Gallasai yr apostol ddywedyd Ysbryd rhyddid, mae y gyferbyniaeth âg ysbryd caethiwed yn gofyn hyny: ond mae yn dywedyd cystal â hyny wrth ddywedyd Ysbryd mabwysiad; oblegid mae y plant mabwysiadol yn rhyddion oll. ‡ Gwel ar Marc 14. 36. Wrth fod yr apostol yn rhoddi y gair yn y ddwy iaith yma, mae yn dangos undeb a brawdoliaeth Iuddewon a chenedloedd yn Nghrist, a bod y naill fel y lleill yn blant i Dduw trwy ffydd yn

hrist: *Abba*, medd yr Iuddewon, *Pater*, medd y pegiaid, a *Thad*, meddwn ninnau, y Cymru, cystal â ythau.

16 [y] * Y mae yr Ysbryd hwn yn cyd-dystolaethu [z] † â'n hyspryd ni, ein bod ni yn blant i Dduw.

y adn. 23, 26, 27. 2 Cor. 1. 22. a 5. 5. Eph. 1. 13, 14. a 4. 30.
z Cor. 1. 12. 1 Ioan 3. 19—22. a 5. 10.

* Mae yr Ysbryd Glân fel Ysbryd mabwysiad, yn yd-dystiolaethu â'n hysbryd ni ein bod yn blant i Dduw, trwy weithio ysbryd a thymherau plant ynom, a hwy lewyrchu yn eglur ar ei waith ei hun, er dangos i mai efe yn sicr yw ei awdwr; ac fel hyny yn ol y ar, mae yn tystiolaethu gyda'n hysbryd ni ein hunain, bod yn sicr wedi ein dwyn i berthynas gyfammodol Duw fel ei blant, trwy fabwysiad ac ad-genedliad grasol. I grasau yr Ysbryd sydd yn tystiolaethu; ond yr Ysbryd ei hun, trwy weithredu y grasau hyny ynom, a lewyrchu arnynt yn eglur ar ei waith ei hun. Gall satan a phechod yn hawdd wanychu tystiolaeth ein grasau ni; ond nis gall satan na phechod wanychu tystiolaeth yr Ysbryd, pan ddelo efe i dystiolaethu y lewyrchu ar y grasau hyny. † Mae y saint eu hunain yn eu holi eu hunain, a ydynt yn blant i Dduw; yn cael tystiolaeth hyderus ynddynt eu hunain yn eneb y gair, eu bod yn blant iddo; ac yn yr ymarferiad n mae yr Ysbryd Glân yn llewyrchu ar eu heneidiau, felly yn cyd-dystiolaethu â hwynt.

17 [a] * Ac os plant, etifeddion hefyd; [b] † *sef* feddion i Dduw, ‡ a chyd-etifeddion â rist: [c] || os ydym yn cyd-ddioddef *gyd âg ef,* el y'n cyd-ogonedder hefyd.

a adn. 3, 29, 30. pen. 5. 9, 10, 17. Luc 12. 32. Act. 26. 18. Gal. 3. a 4. 7. Eph. 3. 6. Tit. 3. 7. Heb. 1. 14. a 6. 17. Iago 2. 5. Mat. 25. 21. Luc 22. 29, 30. Ioan 17. 24. 1 Cor. 2. 9. a 3. 22, 23. 3. 21. a 21. 7. c Mat. 16. 24. Luc 24. 26. Ioan 12. 25, 26. 14. 22. 2 Cor. 4. 8—12. Phil. 1. 29. 2 Tim. 2. 10—14.

Gwedi cael tystiolaeth fel y sylwyd uchod o'n mabiad gan Dduw, gallwn fod yn sicr hefyd ein bod yn eddion oll. Nid yw felly gyda phlant dynion; nis l ond y cyntaf-anedig fod yn etifedd. Gwel 2 Cron. 3. † Etifeddion i Dduw; neu etifeddion Duw ei nan: mae efe ei hun, y cwbl ag ydyw, a'r cwbl a efe yn eiddo i ni, i'w feddiannu, ei fwynâu, a'i fnyddio, er ein lles a'n dedwyddwch byth. ‡ Fel son dwyfol, mae Crist yn unig-anedig a phrïod Fab w; ac felly mae yr etifeddiaeth o angenrheidrwydd perthyn iddo ef erioed: fel Cyfryngwr, mae efe yn taf-anedig yn mhlith brodyr lawer; ac felly mae yr eddiaeth wedi ei rhoddi iddo ef trwy gyfammod, ac iddo ef yn unig, ond i'w holl frodyr ysbrydol gydag sef pawb a etholodd Duw ynddo ef, ac a osododd yn y cyfammod hwnw. Efe yw y pen-etifedd, yr a ddyg ei holl bobl i berthynas fabwysiadol â'r ll, ac felly i fod yn gyd-etifeddion âg ef ei hun mewn oniant byth. Ar ammodau pwysig y rhoed yr etiddiaeth iddo ef fel Cyfryngwr; ond trwy rad ras yn lawl mae yn dyfod i ni, trwy ei gyflawniad perffaith b'r ammodau trymion hyny. || Dyoddef oedd ammod etifeddiaeth i Grist, ond nid yw felly i ni; eto mae -ddyoddef âg ef yn brawf o'n perthynas âg ef, yn ddion i'n cyd-ffurfio âg ef, ac yn arwydd o'n cydneddiad âg ef. § "Fel y'n cyd-ogonedder;" yn yr dull, â'r un gogoniant, ond nid â'r un mesur o niant. Fel y cawsom ein cyd-ffurfio âg ef i raddau wn gras a dyoddefiadau yma, felly y cawn mewn goniant wedi myned oddi yma.

18 [d] * Oblegid yr ydwyf yn cyfrif, nad *yw* oddefiadau yr amser presennol hwn, yn eddu *eu cyffelybu* [e] i'r gogoniant a ddatddir i ni.

d Mat. 5. 11, 12. Act. 20. 24. 2 Cor. 4. 17, 18. Heb. 11. 25, 26, 1 Pedr 1. 6, 7. e Col. 3. 4. 2 Thes. 1. 7—12. a 2. 14. 1 Pedr 3. a 4. 13. a 5. 1. 1 Ioan 3. 2.

* "Yr wyf yn cyfrif:" *(logiscmai:)* yr wyf yn penderfynu yn sicr, wedi ystyried a bwrw pobpeth yn ol ac y mlaen. Benthycir y gair oddi gan Rifyddegwyr, y rhai wedi bwrw eu cyfrifon yn fanwl, ydynt yn cael allan beth yw y swm cyfan: neu ynte oddi gan Resymwyr, *(Logicians,)* y rhai wedi ystyried y cynseiliau, ydynt yn tynu y casgliad penderfynol. Yr oedd yr apostol wedi cael mesur helaeth o ddyoddefiadau er mwyn Crist; ond wedi ystyried pobpeth yn fanol ac yn bwyllig, nid oedd yn eu barnu yn haeddu eu cyffelybu i'r gwobr gogoneddus a roddir i'r saint, y gogoniant a ddatguddir iddynt, ac a osodir arnynt yn y nef. Nid ydynt ddim yn y glorian ar gyfer hyny.

19 [f] * Canys awydd-fryd y creadur [g] sydd yn disgwyl am [h] ddatguddiad meibion Duw.

f adn. 23. Phil. 1. 20. g Es. 65. 17. Act. 3. 21. 2 Pedr 3. 11—13. Dat. 21. 1—5. h Mal. 3. 17, 18. Mat. 25. 31—46. 1 Ioan 3. 2.

* Cyfrifir yr adnod hon a'r tair adnod ganlynol yn ddyrys ac anhawdd iawn eu deall; a'r peth sydd yn eu gwneyd felly yn benaf, efallai, yw y gair "crëadur:" mae yn anhawdd gwybod beth a feddylir yn bendant wrth y "crëadur" yn yr adnodau hyn. Tybia rhai mai y rhan anifeilaidd neu ddifywyd o'r grëadigaeth a feddylir; ond dadleua eraill yn grŷf yn erbyn hyny, oblegid y bydd dinystr ar y "crëadur" yn yr ystyr hyny yn nydd datguddiad meibion Duw, pan rodder y byd ar dân. Tybia eraill mai cenedloedd paganaidd y byd a feddylir; ond mae yn anhawdd gwybod pa fodd y gellir dywedyd fod y cenedloedd paganaidd yn disgwyl yn awyddus am ddatguddiad meibion Duw, gan nad ydynt wedi gweled cymmaint o'u trueni, fel y maent yn dymuno ac yn disgwyl am waredigaeth. Eto mae yn rhaid mai yn un o'r ddau ystyr uchod mae i ni ddeall y gair "crëadur;" ac efallai yn mhob un o honynt: ac os felly, mae yr apostol trwy ddynsodiant *(prosopopeia)* ardderchog, yn dangos yr holl grëadigaeth megys un dyn, neu berson, yn disgwyl yn awyddus, ac megys â gwddf estynedig, am yr amser rhyfeddol a dedwydd, pryd y datguddir meibion Duw yn y gogoniant a barotôwyd iddynt.

20 [i] * Canys y creadur sydd wedi ei ddarostwng i oferedd; † nid o'i fodd, ‡ eithr oblegid yr hwn a'i darostyngodd:

i adn. 22. Gen. 3. 17—19. a 5. 29. a 6. 13. Job 12. 6—10. Es. 24. 5, 6. Jer. 12. 4, 11. a 14. 5, 6. Hos. 4. 3. Joel 1. 18.

* Mae yr holl grëadigaeth, ac mewn rhyw ystyr pob crëadur yn y grëadigaeth, wedi ei ddarostwng i oferedd ac annhrefn trwy bechod a syrthiad dyn. Mae pob peth megys wedi ei wrth-droi o'i ddefnydd bwriadol; mae pethau difywyd yn cael eu cymmeryd megys o drais at wasanaeth gwrthryfel dyn; goleuadau y nefoedd yn gorfod ei oleuo i weithredu drygioni; ffrwythau y ddaear yn cael eu haberthu i'w foethineb, ei anghymmedrolder, ei falchder, a'i chwantau blysig ef; perfeddion y ddaear yn cael eu cloddio, a'u chwalu am ddefnyddiau i wneyd arfau dïal a llofruddiaeth cyhoeddus a dirgelaidd; neu i foddâu awydd a chybydd-dra dyn, ei annog i dwyll, gorthrymder, a rhyfel. Mae yr anifeiliaid yn ddarostyngedig i boen a marwolaeth trwy bechod dyn: ac mae eu dyoddefiadau yn cael eu chwanegu yn fawr trwy ei greulondeb ef, yr hwn yn lle bod yn dirion wrthynt, sydd yn orthrymwr a chigydd creulawn iddynt. Uwchlaw y cwbl, mae agos i bob rhan o'r grëadigaeth, ac agos i bob crëadur wedi cael eu camddefnyddio ryw ffordd a'i gilydd i eilun-addoliaeth, yr hyn sydd "oferedd" mewn modd arbenig. Mae goleuadau y nefoedd, y ddaear, yr afonydd, y coedydd, mynyddoedd, ac anifeiliaid, yn cael eu haddoli megys duwiau; tra mae meteloedd, meini a phrenau, yn cael eu gwneyd yn eilunod, ac yn addurniadau i eilunod a delwau; ac mae y goreuon o holl ffrwythau y ddaear yn cael eu haberthu i eilunod. † Fel hyn y mae pob peth allan o drefn, ac mewn agwedd annaturiol, nid o fodd y crëaduriaid; ond trwy fath o orfod, o herwydd pechod a chyffawn gondemniad Adda a'i hiliogaeth: ‡ drwy y farn, neu yr or-

uchwyliaeth ddychrynllyd hon, darostyngodd Duw grëaduriaid y byd isod hwn, ac hyd yn nôd yr holl grëadigaeth weledig, i oferedd. "Melltigedig fydd y ddaear o'th achos di." Tybia eraill mai diafol yw "yr hwn a'i darostyngodd," ac eraill mai Adda a feddylir.

21 * Dan obaith y rhyddhêir y creadur yntau hefyd, † o gaethiwed llygredigaeth, [k] ‡ i ryddid gogoniant plant Duw.

k adn. 19. Dat. 22. 3—5.

* "Dàn obaith:" neu mewn gobaith, yn ol y Saesoneg; ac mae y geiriau yn niwedd yr adnod o'r blaen ganddynt hwy, megys y maent hefyd yn y Groeg. Mae awydd-fryd y crëadur yn disgwyl am ddatguddiad meibion Duw, dàn obaith y rhyddêir yntau hefyd o gaethiwed llygredigaeth ac oferedd y pryd hwnw. Fel yna gallai yr ugeinfed adnod fod rhwng cromfachau, a'r bedwerydd ar bymtheg â hon yn gyssylltiedig â'u gilydd. † Sef o gaethiwed llygredigaeth dyn. Heb y gobaith uchod, buasai cyflwr dynion a'r holl grëadigaeth yn druenus iawn yn y fath gaethiwed, oad yn awr y mae gobaith o ryddâd o'r caethiwed blin hwnw. ‡ Os y grëadigaeth ddireswm a feddylir wrth y crëadur yn yr adnod hon, nid oes dim mwy i'w ddeall wrth ei ryddâd, nag adferiad pob peth yn y diwedd i'r agwedd oedd ar y grëadigaeth yn y dechreuad, cyn i ddyn bechu, pan "welodd Duw yr hyn oll a wnaethai, ac wele da iawn ydoedd." Os y cenedloedd a feddylir wrth y crëadur, mae y geiriau yn dangos y cânt hwythau eu gwaredu trwy yr efengyl a gras Crist o gaethiwed eu llygredigaeth a'u pechodau, eu gwneyd yn blant i Dduw, a'u dwyn i ryddid gogoniant gyda ei blant ef.

22 * Canys ni a wyddom fod pob creadur yn † cyd-ocheneidio, [l] ac yn cyd-ofidio hyd y pryd hwn.

l Salm 48. 6. Ioan 16. 21. Dat. 12. 2.

* Gwyddom ni gristionogion yn dda, wrth dystiolaeth gair Duw, ac wrth sylwi ein hunain ar agwedd y byd, fod holl ddynolryw yn cyd-ocheneidio, fel dynion gorlwythog dàn faich o bechod a thrueni, ac mewn gwewyr a gofid fel gwragedd yn esgor, yn dymuno ac yn hiraethu yn ddifrifol am ryddâd. Ïê, y mae llaweroedd o'r cenedloedd y pryd hwn dàn wewyr yr ad-enedigaeth, a chwedi bod felly er pan bregethwyd yr efengyl gyntaf iddynt. Ac hyd yn nôd yr anifeiliaid eu hunain, fel crëaduriaid wedi eu gorthrymu dàn faich y felltith a roddwyd arnynt, ydynt megys yn dyhëu ac yn ymdrechu am waredigaeth ddedwydd; nid yn unig oddi tàn iau gwasanaeth, ond hefyd oddi wrth y creulondeb a wnair iddynt a'r cam-ddefnydd a wnair o honynt, er dianrhydedd i Dduw eu Crëawdwr, ac er porthi blysiau gwaeth nac anifeilaidd y rhai a'u gorthrymant, ac a ymborthant mewn gloddest arnynt. Fel hyn mae yr holl grëadigaeth fawr yn ei holl ranau, a phob crëadur yn ol ei ryw, megys o un teimlad yn disgwyl, yn gobeithio, yn ocheneidio ac yn gofidio, am ddatguddiad a rhyddid gogoniant plant Duw, ac am eu rhyddâd eu hunain o gaethiwed llygredigaeth. † Nid ocheneidio ac ymofidio yn mhoenau angau annobeithiol y maent, ond ocheneidio ac ymofidio fel gwraig yn esgor: e ddaw y rhyddâd dedwydd maent yn ei ddisgwyl.

23 * Ac nid yn unig *y creadur*, † ond ninnau hefyd [m] ‡ y rhai sydd gennym flaen-ffrwyth yr Yspryd; [n] ‖ yr ydym ninnau ein hunain hefyd yn ocheneidio ynom ein hunain, [o] § gan ddisgwyl y mabwysiad, [p] *sef* prynedigaeth ein corph.

m Gwel ar adn. 15, 16. pen. 5. 5. Gal. 5. 22, 23. Eph. 5. 9. n adn. 26. pen. 7. 24. 2 Cor. 5. 2—4. a 7. 5. Phil. 1. 21—23. 1 Pedr 1. 7. o adn. 19, 25. Luc 20. 36. Phil. 3. 20, 21. 2 Tim. 4. 8. Tit. 2. 13. Heb. 9. 28. 1 Ioan 3. 2. p Luc 21. 28. Eph. 1. 14. a 4. 30.

* Ac nid yn unig *hwynt*, yn ol y Saesoneg; nid oes na *hwynt* nac y *crëadur* yn y Groeg yn y fàn hon; ond yr oedd yn angenrheidiol yn y cyfeithiad i wneyd synwyr. † "Ond ninnau hefyd, myfi Paul, a chwithau y Rhufeiniaid cristionogol, pawb o'r saint, y rhai sydd genym flaen-ffrwyth yr Ysbryd yn mhob màn: yr ydym ninnau yn ocheneidio ynom ein hunain gyda'r holl grëadigaeth, am y perffeithrwydd, y gogoniant, y rhyddid, a'r dedwyddwch, a gaiff plant Duw yn nydd eu mabwysiad cyhoeddus, sef prynedigaeth neu adgyfodiad eu cyrph o'r bedd. ‡ Y rhai mae yr Ysbryd genym yn Ysbryd mabwysiad, a'i gysuron sanctaidd ynom fel blaen-ffrwyth ac ernes o dragywyddol ddedwyddwch. ‖ O herwydd amryw ac aml boenau, ymladdau, profedigaethau, a chyfyngderau, ac yn enwedig o herwydd corph pechod a phla calon, nis gall y saint duwiolaf a dedwyddaf yn y byd hwn, lai nac ocheneidio ynddynt eu hunain am eu perffeithiad a'u gogoneddiad yn y dydd diweddaf. § Wrth y mabwysiad yma y meddylir derbyniad cyhoeddus y saint i deulu Duw, ac i fwynâd o'u hetifeddiaeth nefol a thragywyddol gyda Christ: yr oedd dau fabwysiadu gan y Rhufeiniaid, un yn ddirgel, y llall yn gyhoedd, ger bron swyddogion. Pryd hyny hefyd yr adgyfodir eu cyrph o'r bedd, yn anllygredig, yn anfarwol, ac yn ogoneddus iawn. Yna y caethiwir Satan, pechod, angau, trueni, a'r holl ddynion drygionus yn uffern; a chaiff y gweddill o grëadigaeth Duw ymddangos yn ogoneddus, yn bur, yn hardd, yn drefnus, ac yn ddedwydd: yn mhob peth yn ateb y dyben i ba un y crëwyd hi, ac heb gael ei cham-ddefnyddio mewn dim i ddybenion gwrthwyneb.

24 [q] * Canys trwy obaith y'n hiachâwyd. [r] † Eithr y gobaith a welir, nid yw obaith: ‡ oblegid y peth y mae un yn ei weled, i ba beth y mae etto yn ei obeithio?

q pen. 5. 2. a 12. 12. a 15. 4, 13. Salm 33. 18, 22. a 146. 5. Diar. 14. 32. Jer. 17. 7. Zec. 9. 12. 1 Cor. 13. 13. Gal. 5. 5. Col. 1 5, 23, 27. 1 Thes. 5. 8. 2 Thes. 2. 16. Tit. 2. 11—13. Heb. 6. 18, 19. 1 Pedr 1. 3, 21. 1 Ioan 3. 3. r 2 Cor. 4. 18. a 5. 7. Heb. 11. 1. 1 Pedr 1. 10, 11.

* Neu, trwy obaith y'n hachubwyd: mae y credinwyr eisoes mewn cyflwr o ddiogelwch sicr; ond mae eu cysuron eto mewn gobaith yn hytrach nag mewn mwynâd: a'r hwn mae y gobaith hwn ganddo, mae yn ei buro ei hun megys y mae Iesu yn bur, ac fel hyny gall y saint ddywedyd, "Trwy obaith y'n hiachâwyd." † Y peth sydd yn wrthddrych golwg, teimlad, neu fwynâd, nis gellir yn briodol alw hyny dàn yr enw gobaith; ‡ oblegid pa fodd y gellir dywedyd fod dyn yn gobeithio am weled a mwynâu yr hyn sydd eisoes mewn golwg a mwynâd ganddo? Am berffaith fwynâd o'r iachawdwriaeth, mewn gobaith y mae eto; a'r gobaith cysurus hyny yw cynnaliaeth a diogelwch y saint yn eu holl drallodau, eu profedigaethau, a'u peryglon: pan gaffer y perffaith fwynâd, yna derfydd gobaith, hi a drŷ yn fwynâd.

25 * Ond os ydym ni yn gobeithio yr hyn nid ŷm yn ei weled, [s] † yr ydym trwy amynedd yn disgwyl am dano.

s adn. 23. pen. 2. 7. a 12. 12. Gen. 49. 18. Salm 27. 14. a 37. 7—9. a 62. 1, 5. 6. a 130. 5—7. Es. 25. 9. a 26. 8. Galar. 3. 25, 26. Luc 8. 15. a 21. 19. Col. 1. 11. 1 Thes. 1. 3. 2 Thes. 3. 5. Heb. 6. 12, 15. a 10. 36. a 12. 1—3. Iago 1. 3, 4. a 5. 7—11. Dat. 1. 9. a 13. 10. a 14. 12.

* Ond os ydym ni yn gobeithio yn wir am waredigaeth lwyr oddiwrth bobpeth sydd yn ein halogi ac yn ein gofidio yma, ac am rywbeth gwell o hyd nag ydym yn ei fwynâu eto; † yna yr ydym trwy amynedd yn dysgwyl am y peth hyny, yn ol graddau nerth a sicrwydd ein gobaith am dano: gan ddyoddef ein holl brofedigaethau a'n trallodau presenol yn dawel ac yn ostyngedig, yn gorfoleddu dàn obaith gogoniant Duw, pen. 5. 2, &c. Mae gwir obaith bob amser, ag amynedd i ddysgwyl am y peth y gobeithir am dano, yn gyssylltiedig â hi: am hyny y darllenwn am "ymaros gobaith," 1 Thes. 1. 3: gwel hefyd Heb. 6. 12; a 10. 36.

26 * A'r un ffunud y mae yr Yspryd hefyd yn cynnorthwyo [t] ein gwendid ni. [u] † Canys

wyddom ni beth a weddïom, megys y
dlem: [x] ‡ eithr y mae yr Ysbryd ei hun yn
fyn trosom ni [y] || âg ocheneidiau annhraeth-
lwy.

t pen. 15. 1. 2 Cor. 12. 5—10. Heb. 4. 15. a 5. 2. u Mat. 22. Luc 11. 1, &c. Iago 4. 3. x adn. 15. Salm 10. 17. Zec. 10. Mat. 10. 20. Gal. 4. 6. Eph. 2. 18. a 6. 18. Judas 20. 21. pen. 7. 24. Salm 6. 1—9. a 42. 1—5. a 55. 1, 2. a 69. 3. a 72. 1—4. a 88. 1—3. a 102. 5, 20. a 119. 81, 82. a 143. 4—7. Luc 22. 44. Cor. 5. 2, 4. a 12. 8.

* Er bod gan blant Duw "obaith cadarn," "gobaith
ynfydedig," "gobaith da trwy ras," a "gobaith na
ywilyddir" yn y pen draw; eto mae eu gwendid hwy
fawr yn aml, eu gelynion yn gryfion, a'u profedig-
ithau yn danllyd: o'u rhan eu hunain byddai darfod
danynt lawer pryd. Yn yr amgylchiad hwn nid
ynt yn cael eu gadael i'w gwendid eu hunain; mae
Ysbryd Glân yr hwn a ddechreuodd y gwaith da yn-
ynt, yn eu cynnorthwyo hwynt yn wyneb eu gwendid,
rhoddi nerth i'r diffygiol, ac yn amlâu cryfder i'r
ïym. Arwydda y geiriau, *Rhoddi benthyg llaw o gyn-
orthwy;* fel mamaeth dirion ofalus yn ymaflyd yn
w y plentyn pan mae yn dechreu cerdded, i'w gynnal
ag syrthio: neu ddyn yn cynnal baich un arall pan y
ae yn rhŷ drwm iddo ef ei hun: felly mae yr Ysbryd
ân yn cynnorthwyo gwendid ei bobl. † Rhaid i'r
ünt gael eu nerth a'u cysur yn wyneb eu gwendid a'u
fidiau, trwy weddi; ond o herwydd eu tywyllwch, eu
nglredíniaeth, eu syniadau cnawdol, a therfysg eu
sbryd yn aml, nis gwyddant pa fodd i weddïo, na pha
th a weddïont am dano, lawer gwaith: aml y cam-
rnant beth sy fwyaf er gogoniant Duw, a pha beth sy
yaf er eu lles eu hunain. ‡ Ond mae yr Ysbryd ben-
ggedig hwnw, yr hwn a addawodd yr Arglwydd Iesu ei
ianfon fel Dyddanydd, yn cynnorthwyo eu gwendid yn
rn; mae efe fel "Ysbryd gras a gweddïau," yn cyfar-
wddo y saint pa beth i weddïo, ac yn crëu deisyfiadau
thaerineb ffyddiog yn eu heneidiau wrth weddïo.
elly, er mai hwy sydd yn gweddïo; eto mae eu cyn-
orthwyon i hyny yn gymmaint o'r Ysbryd Glân, fel y
wedir mai efe sydd yn erfyn drostynt: "Ysbryd eich
ad," medd Iesu, "yr hwn sydd yn llefaru ynoch."
atth. 10. 20. || Nid mewn ffrwd hyawdl ⊖ eiriau mae
gweddïau hyn yn aml; ond mewn ocheneidiau cryfion
mewnol, y rhai nis gellir eu traethu mewn geiriau.
ellir dywedyd geiriau gweddi lawer, heb ddim ysbryd
weddi; ac o'r tu arall, gall fod gweddi daer heb eiriau
y byd: gall dyn lefain yn nerthol ar Dduw, pryd na
ddo yn dywedyd yr un gair.

27 [z] * A'r hwn sydd yn chwilio y calonnau,
a ŵyr beth *yw* meddwl yr Ysbryd; [b] † canys
mae efe yn ol *ewyllys* Duw [c] yn erfyn dros
saint.

z 1 Cron. 28. 9. a 29. 17. Salm 7. 9. a 44. 21. Diar. 17. 3. Jer. 20. a 17. 10. a 20. 12. Mat. 6. 8. Ioan 21. 17. Act. 1. 24. a 15. 1 Thes. 2. 4. Heb. 4. 13. Dat. 2. 23. a Salm 38. 9. a 66. 18. 19. Iago 5. 16. b adn. 34. Eph. 2. 18. c Jer. 29. 12, 13. Ioan 13. Iago 1. 5, 6. 1 Ioan 3. 21, 22. a 5. 14, 15.

* Nid meddwl yr Ysbryd hebom ni, neu drosom ni,
ll pe byddai eiriolwr drosom ni gyda Duw; oblegid
un Cyfryngwr sydd rhwng Duw a dynion, y Dyn Crist
esu:" ond y meddwl mae yr Ysbryd yn ei weithio
nom ni, ac yn ei roddi i ni wrth weddïo; yr "ochen-
ddiau annhraethadwy" yn yr adnod o'r blaen: gŵyr
uw, chwiliwr y calonau, beth yw y rhai hyny, er nas
edrwn ni eu traethu mewn geiriau. † Gallwn ni,
eb gynnorthwyon yr Ysbryd, ofyn pethau yn aml a
ddo yn groes i ewyllys Duw; ond bob amser y byddo
yn ein cyfarwyddo, mae yn ein dysgu i ofyn pethau
n ol ewyllys Duw, ac yn unol â gair ac addewidion
uw. Gellid darllen diwedd yr adnod fel hyn: Mae
fe *ar ran Duw,* hyny yw, *yn ol gosodiad Duw,* yn *trin
chosion y saint.* Mae y gair "*meddwl*" yn yr adnod
on, yr un peth a'r gair "*syniad*" yn adn. 6, yn y
roeg; ac yn arwyddo, nid yn unig y peth mae dyn yn
i feddwl wrth weddïo, ond hefyd agwedd a thymher ei
ysbryd a'i feddwl ef y pryd hwnw, dàn ddylanwadau
sanctaidd a grymus yr Ysbryd Glân.

28 [d] * Ac ni a wyddom fod pob peth yn
cyd-weithio er daioni [e] † i'r rhai sydd yn caru
Duw; [f] *sef* i'r rhai sydd wedi eu galw yn ol *ei*
arfaeth *ef.*

d adn. 35—39. pen. 5. 3, 4. Gen. 1. 20. Deut. 8. 2, 3, 16. Jer. 24. 5—7. Zec. 13. 9. 2 Cor. 4. 15—17. a 5. 1. Phil. 1. 19—23. 2 Thes. 1. 5—7. Heb. 12. 6—12. Iago 1. 3, 4. 1 Pedr 1. 7, 8. Dat. 3. 19. e pen. 5. 5. Ex. 20. 6. Deut. 6. 5. Neh. 1. 5. Salm 69. 36. Marc 12. 30. 1 Cor. 2. 9. Iago 1. 12. a 2. 5. 1 Ioan 4. 10, 19. a 5. 2, 3. f adn. 30. pen. 1. 6, 7. a 9. 11, 23, 24. Jer. 51. 29. Act. 13. 48. Gal. 1. 15. Eph. 1. 9, 10. a 3. 11. 1 Thes. 5. 9. 2 Thes. 2. 13, 14. 2 Tim. 2. 19. 1 Pedr 5. 10.

* Er cysur chwanegol i'r saint dàn eu holl groesau
a'u hocheneidiau presenol, mae yr apostol yn sicrâu, y
bydd i bob peth yn nhrefn rhagluniaeth Duw tuag
atynt, gyd-weithio er daioni ysbrydol a thragywyddol
iddynt. Nid mater o ddadl ac ammheüaeth oedd hyny
ganddo; efe a wyddai yn dda mai felly yr oedd:—oddi
wrth berthynas neillduol Duw a'i bobl yn Nghrist, oddi
wrth sicrwydd a threfn ei gyfammod ef, oddi wrth dyst-
iolaeth amlwg yr ysgrythyrau, ac oddi wrth ei brofiad
ei hun, a'i sylw ar dduwiolion eraill. "*Pob peth;*"
hyd yn nôd pechod ei hun, medd un neu ddau o'n
hawdwyr; oblegid o'u syrthiadau, mae plant Duw yn
cyfodi yn fwy gostyngedig ac yn fwy gwyliadwrus. Mae
hyna yn ddigon gwir; ac eto, athrawiaeth go beryglus
yw dywedyd fod pechod yn un o'r "pob peth" sydd yn
cyd-weithio er daioni i'r saint: nid am bechod mae yr
apostol yn llefaru; ond am bethau tymmorol, sydd yn
dygwydd i'r duwiolion yn nhrefn rhagluniaeth Duw.
Mae y rhai hyn oll yn gweithio, ac oll yn cyd-weithio;
a thàn oruwch-lywodraeth a bendith Duw, maent oll
yn cyd-weithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw.
Maent yn cyd-weithio fel yr aml olwynion mewn rhyw
beiriant mawr a chywrain, neu fel yr amryw gyffyriau
mewn meddyginiaeth: tra-dyrchafiad Paul, godidowg-
rwydd y datguddiedigaethau a gafodd, swmbwl yn y
cnawd, cenad satan i'w gernodio, a gras digonol Duw
i'w gynnorthwyo;—oll yn cyd-weithio er daioni iddo.
Efallai na buasai y naill beth heb y pethau eraill o
gymmaint daioni iddo; ond wedi eu cyd-gymmysgu a'u
cyd-dymeru gan Dduw, yr oeddynt oll yn cyd-weithio
er daioni yn hyfryd. † Dyma nodau y saint, y rhai y
cyd-weithia pob peth er daioni iddynt; rhai yn caru
Duw, rhai wedi eu galw yn effeithiol gan Dduw trwy yr
efengyl i hyny, a'r cwbl am fod Duw yn gyntaf wedi eu
caru hwynt, a chwedi eu harfaethu i gael eu galw, i'w
dwyn i'w garu ef, ac i gael pob daioni ysbrydol a thra-
gywyddol ganddo ef. Cariad ac arfaeth Duw yw yr
achos dechreuol; a galw, caru Duw, a mwynâu pob
daioni, yw yr effeithiau yn tarddu oddi ar yr achos
hyny.

29 [g] * Oblegid y rhai a rag-wybu, [h] † a
rag-luniodd efe hefyd [i] ‡ *i fod* yn un ffurf â
delw ei Fab ef; [k] || fel y byddai efe yn gyntaf-
anedig ym mhlith § brodyr lawer.

g pen. 11. 2. Ex. 33. 12. Jer. 1. 5. 2 Tim. 2. 19. 1 Pedr 1. 2. Dat. 13. 8. h Eph. 1. 5, 11. 1 Pedr 1. 20. i pen. 13. 14. Ioan 17. 16, 19, 22, 23, 26. 1 Cor. 15. 49. 2 Cor. 3. 18. Eph. 1. 4. a 4. 24. Phil. 3. 21. 1 Ioan 3. 2. k Salm 89. 27. Mat. 12. 50. a 25. 40. Ioan 20. 17. Col. 1. 15—18. Heb. 1. 5, 6. a 2. 11—15. Dat. 1. 5, 6.

* Fel Duw holl-wybodol, mae yr Arglwydd yn rhag-
wybod pob peth er tragywyddoldeb; oblegid hysbys i
Dduw yw ei weithredoedd oll erioed, ac nid oes grëad-
ur anamlwg yn ei olwg ef, eithr pob peth sydd yn noeth
ac yn agored i'w lygaid ef: gan hyny rhaid fod y rhag-
wybod hyn yn rhywbeth mwy na rhag-wybodaeth gyff-
redinol Duw o'i holl grëaduriaid: rhag-wybodaeth
gymmeradwyol o'i bobl, gydag ewyllys da tuag atynt yn
wyneb eu holl drueni, a rhag-wybodaeth gyda phender-
fyniad eu hachub hwynt i fywyd tragywyddol. † Y
rhai hyny o ddynolryw syrthiedig a thruenus, a rag-
wybu efe yn ei feddyliau o drugaredd er tragywyddoldeb,

yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ei hun; efe a osododd ei rad gariad arnynt, ac a benderfynodd yn sicr hefyd cyn bod y bydoedd, eu rhag-lunio hwynt i ‡ fod yn un ffurf â delw ei Fab ef, mewn gras a sancteiddrwydd yma, ac mewn gogoniant a dedwyddwch yn y nef. Efallai fod dyoddefiadau yn gynnwysedig yn yr unffurfiaeth uchod hefyd, yn gystal â gras a gogoniant. || Er bod y saint yn un ffurf â Christ yn yr ystyriaethau uchod, eto nid i'r un graddau, nid yn ogyfuwch; mae anrhydedd y cyntaf-anedig o hyd yn perthyn iddo ef: efe yw pen ac Arglwydd yr holl deulu yn y nef a'r ddaear. § Brodyr yw holl deulu y gwaredigion, a phan ddelont oll yn nghyd, hwy a fyddant yn frodyr lawer: ni bydd ar Iesu gywilydd eu galw hwy yn frodyr, a byddant hwythau yn foddlawn iawn i'w addef yntau yn gyntaf-anedig a blaenor arnynt oll. Un ffurf â dynoliaeth Crist a feddylir uchod, nid â'i Dduwdod ef: nis gall crëadur fod yn un ffurf a'i Dduwdod ef.

30 [l] * A'r rhai a ragluniodd efe, y rhai hynny hefyd a alwodd efe; [m] a'r rhai a alwodd efe, † y rhai hynny hefyd a gyfiawnhâodd efe; [n] a'r rhai a gyfiawnhâodd efe, ‡ y rhai hynny hefyd a ogoneddodd efe.

l adn. 28. pen. 1. 6. a 9. 23, 24. Es. 41. 9. 1 Cor. 1. 2, 9. 1 Pedr 2. 9. 2 Pedr 1. 10. Dat. 17. 14. a 19. 9. m pen. 3. 22—26. Tit. 3. 4—7. n adn. 1, 17, 18, 33—35. pen. 5. 8, 10. Ioan 5. 24. a 6. 39, 40. a 17. 24. 2 Cor. 4. 17. Eph. 2. 6. Col. 3. 4. 1 Thes. 2. 12. 2 Thes. 1. 10—12. a 2. 13, 14. 2 Tim. 2. 11. Heb. 9. 15. 1 Pedr 3. 9. a 4. 13, 14. a 5. 10.

* Yn adn. 28, cawn fod y saint yn cael eu galw yn ol arfaeth Duw, ac yma yn ol ei ragluniad ef: yr hyn a ddengys mai yr un peth yw ei arfaeth a'i ragluniad ef. Peth yn nhragywyddoldeb oedd arfaeth, neu ragluniad Duw; peth mewn amser yw galw, mewn canlyniad i'r rhagluniad hwnw. Mae Duw yn galw ei bobl yn dufewnol ac yn effeithiol trwy ei ras, yn gystal ag yn allanol trwy ei efengyl: yn eu galw allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef, â galwedigaeth nefol a sanctaidd. † Y rhai mae efe fel hyn yn eu galw, mae yn eu rhyddâu oddi wrth euogrwydd a chondemniad y ddeddf, ac yn eu cymmeradwyo hwy fel rhai cyfiawn ya a thrwy gyfiawnder ei Fab yn gyfrifedig iddynt: ‡ ac wedi eu galw a'u cyfiawnâu felly, mae yn eu dyrchafu hwynt yn y diwedd i anrhydedd, gogoniant, a dedwyddwch yn y nef, lle derfydd eu holl ofidiau byth, ac y gwnair hwy yn un ffurf â'n Pen a'u Gwaredwr dyrchafedig mewn gogoniant. Nid yw sancteiddio yn cael ei enwi yn bendant yn y gadwyn euraidd hon; ond y mae rhaglunio i fod yn un ffurf â delw Crist, galwedigaeth effeithiol, a gogoneddiad yn y diwedd, yn dysgrifio dechreuad, cynnydd, a pherffeithiad sancteiddâd yn y fath fodd, fel nas gellir dywedyd fod yr apostol wedi ei esgeuluso. Mae yr apostol yn llefaru am y pethau hyn oll yn yr amser a aeth heibio, fel pethau wedi cael eu gwneyd eisoes, er dangos y sicrwydd y cânt eu gwneyd ar holl etifeddion iachawdwriaeth: nid oes yma ddim sail i'r athrawiaeth o gyfiawnâd tragywyddol, mwy nag y sydd am alwedigaeth a gogoneddiad tragywyddol.

31 [o] * Beth gan hynny a ddywedwn ni wrth † y pethau hyn? [p] ‡ Os *yw* Duw trosom, || pwy *a all fod* i'n herbyn?

o Gwel ar pen. 4. 1. p Gen. 15. 1. Num. 14. 9. Deut. 33. 29. Jos. 10. 42. 1 Sam. 14. 6. a 17. 45—47. Salm 27. 1—3. a 46. 1—3, 7, 11. a 56. 4, 11. a 84. 11, 12. a 118. 6. Es. 50. 7—9. a 54. 17. Jer. 1. 19. a 20. 11. Ioan 10. 28—30. 1 Ioan 4. 4.

* "Beth gan hyny:" mae rhai yn cyfeirio yr holiad hwn at yr adnodau o'r blaen; eraill at adn. 28; ac eraill at y cwbl a ddywedasai yr apostol hyd yma. † "Y pethau hyn:" trallodau a dyoddefiadau, medd rhai; rhag-lunio, galw, cyfiawnâu, a gogoneddu, medd eraill; y cwbl efallai: ac yna mae yr apostol yn cymmeryd golwg ar y drwg a'r da, ac yn golygu pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw. ‡ Yna mae yn hyderus iawn mewn ffydd a gobäith yn dywedyd, os yw Duw trosom ni, pwy a all fod i'n herbyn? Os yw Duw digyfnewid a hollalluog dros ei bobl, mae ei holl berffeithiau, ei arfaeth, ei addewidion, a'i holl oruchwyliaethau, o'u tu; ac yn sicrâu eu bywyd a'u dedwyddwch tragywyddol, er gwaethaf cynnygiadau mwyaf nerthol, llidiog, a chyfrwys, eu gelynion creulonaf: yna pa niwed a ddichon y byd, y diafol, a'i holl offerynau, wneyd i'r saint? a phaham y dylent ofni ac arswydo rhagddynt? || Nis gall neb fod yn erbyn y rhai mae Duw drostynt, a llwyddo; gwnant fwy o niwed iddynt eu hunain yn y diwedd nac i neb arall. Dywedir i'r Ymherawdwr *Maximilian* hoffi y frawddeg uchod gymmaint, fel y mynodd ei hysgrifenu uwch ben ei fwrdd ciniawa, fel y byddai o flaen ei lygaid ac yn ei feddwl yn wastadol.

32 [q] * Yr hwn nid arbedodd ei brïod fab, [r] † ond a'i traddododd ef trosom ni oll; [s] ‡ pa wedd gyd âg ef hefyd na ddyry efe i ni bob beth?

q pen. 5. 6—10. a 11. 21. Gen. 22. 12. Es. 53. 10. Mat. 3. 17. Ioan 3. 16. 2 Cor. 5. 21. 2 Pedr 2. 4, 5. 1 Ioan 4. 10. r pen. 4. 25. s adn. 28. pen. 6. 23. Salm 84. 11. 1 Cor. 2. 12. a 3. 21—23. 2 Cor. 4. 15. Dat. 21. 7.

Yn yr adnod o'r blaen yr oedd yr apostol yn rhoddi gallu anfeidrol Duw o blaid ei bobl, ar gyfer ymgeisiadau gweiniaid eu holl elynion; yma mae yn crybwyll am ei gariad tragywyddol a'i ddoniau blaenorawl ef, fel gwystlon sicr o ddedwyddwch tragywyddol ei bobl: y cyntaf i'w cynnal rhag ofnau presenol, a'r ail i gryfâu eu gobaith am fywyd tragywyddol. * Yr oedd cyfiawnder a sancteiddrwydd Duw, a phechod ac euogrwydd dyn, yn ymddangos yn rhwystr i ddedwyddwch dyn; ond o'i rad a'i ryfedd gariad tuag at ddynion, pan oeddynt yn elynion a gwrthryfelwyr, e roddodd Duw ei unig a'i brïod Fab yn Fachnïydd ac yn aberth drostynt, i ddyoddef y gosp a'r felltith yn eu lle, ac i ddilëu pechod trwy ei aberthu ei hun. † Er mai prïod Fab Duw ydoedd, eto nid arbedodd y Tad ef; traddododd ef o hóno ei hun, heb i ni geisio y fath beth; traddododd ef yn ddïarbed, i boenau, gwarth, ac angau melltigedig y groes dros ein pechodau ni. ‡ A chan nad arbedodd efe ei brïod Fab, y rhodd fwyaf, mwy na'r holl fyd, mwy na holl roddion eraill Duw, yn dymmorol ac ysbrydol, pa wedd gydag ef, ynddo ef, a thrwyddo ef, na ddyry efe i ni hefyd bob peth arall. Nid yw pob peth yn y nef a'r ddaear, pob peth yn yr holl grëadigaeth fawr i gyd; ïe, y tragywyddol fwynâd o Dduw ei hunan fel ein rhan, yn gymmaint dangosiad o gariad atom, ag oedd iddo ef roddi ei ogyfuwch Fab i fod yn iawn dros ein pechodau ni. Dylid gosod y pwys yma yn ddïammau, nid ar Grist *wedi ymgnawdoli* yn cael ei roddi i farw drosom; ond ar Dduw yn rhoddi ei *brïod Fab* i ymgnawdoli i'r dyben hyny: yr hyn a ddengys mai fel Person Dwyfol mae efe yn Fab Duw, ac nid o herwydd ei gnawdoliad a'i gyfryngdod. Yr hwn oedd yn Fab a roddwyd i fod yn ddyn, ac i farw o ran ei ddynoliaeth. Y *ni oll* yma yw y rhai a enwodd yr apostol o'r blaen; rhai yn caru Duw, rhai wedi eu galw yn ol ei arfaeth ef, &c., ac etholedigion Duw, yn yr adnod nesaf.

33 [t] * Pwy a rydd ddim yn erbyn [u] etholedigion Duw? [x] † Duw *yw* yr hwn sydd yn cyfiawnhâu:

t adn. 1. Job 1. 9—11. a 2. 4—6. a 22. 6, &c. a 34. 8, 9. a 42. 7—9. Salm 35. 11. Es. 54. 17. Zec. 3. 1—4. Dat. 12. 10, 11. u Es. 42. 1. Mat. 24. 24. Luc 18. 7. 1 Thes. 1. 4. Tit. 1. 1. 1 Pedr 1. 2. x pen. 3. 26. Es. 50. 8, 9. Gal. 3. 8.

* Gall satan eu cyhuddo, y byd eu gwaradwyddo, eu brodyr eu drwg-dybio a'u beïo, eu cydwybodau eu hunain edliw iddynt lawer o bechodau, a'r ddeddf eu hargyhoeddi a'u condemnio o bechodau cyn a chwedi cael gras; † ond mae Duw ei hunan yn dadlau eu dadl ar dir cyfiawn: mae efe yn cyfrif cyfiawnder ei Fab iddynt, yn eu cyhoeddi yn gyfiawn, yn dystewi eu cyhuddwyr, yn tawelu eu cydwybodau, yn tynu ymaith eu gwarth, ac yn dangos y ddeddf wedi ei mawrâu, a chyfiawnder wedi ei foddloni trwy ufudd-dod a dyoddefiadau eu Machnïydd; ac yna pwy a all roddi dim yn effeithiol

1 eu herbyn? Mae rhai yn darllen y darn olaf o'r
dnod hon, a'r ail ddarn o'r adnod nesaf, yn holiadol,
ll hyn; Pwy a rydd ddim yn erbyn etholedigion Duw?
ïi Duw, yr hwn sydd yn cyfiawnâu? Pwy yw yr hwn
ddd yn damnio? Ai Crist, yr hwn a fu farw? Gan
id Duw yn cyfiawnâu ei etholedigion, yn sicr ni rydd
'e ddim yn eu herbyn; a chan fod Crist wedi marw
sostynt, mae yn sicr na ddamnia efe mo honynt. Ac
is nad oes gan y saint ddim i'w ofni am y ddau beth
chod oddi wrth Dduw na Christ; mae yn sicr nad oes
im perygl i'w ofni oddi wrth neb arall pwy bynag.

34 [y] * Pwy *yw* yr hwn sydd yn damnio? † Crist *yw* yr hwn a fu farw, ‡ ïe, yn hyt-
rach, yr hwn a gyfodwyd hefyd; [a] yr hwn hef-
ll sydd ar ddeheulaw Duw, [b] yr hwn hefyd
dd yn erfyn trosom ni.

y adn. 1. pen. 14. 3. Job. 34. 29. Salm 37. 33. a 109. 31. Jer.
20) z pen. 4. 25. a 5. 6—10. a 14. 9. Job 33. 24. Mat. 20. 28.
an 14. 19. Gal. 3. 13, 14. Heb. 1. 3. a 9. 10—14. a 10. 10—14,
—22. a 12. 2. 1 Pedr 3. 18. Dat. 1. 18. a Marc 16. 19. Act.
56—60. Col. 3. 1. Heb. 8. 1, 2. 1 Pedr 3. 22. b adn. 27. Es.
. 12. Ioan 16. 23, 26, 27. a 17. 20—24. Heb. 4. 14, 15. a 7. 25. a
24. 1 Ioan 2. 1, 2.

* Pwy yw yr hwn sydd yn euog-farnu, neu yn coll-
rnu: profi un yn euog, a chyhoeddi barn yn ei erbyn,
v ystyr y gair *hatakrinón;* ac yn 2 Pedr 2. 6, mae yn
yned am gosp hefyd. Gan nad oes neb a all roddi
nm yn erbyn etholedigion Duw mewn barn, mae yn
ir nad oes neb a'u damnia; hwy a gânt ddianc byth
n eu barnwr, a hyny yn gyfiawn. † Y Barnwr ei hun
ldd y Person a'u carodd hwynt, a fu farw dros eu
echodau, a adgyfododd i'w cyfiawnâu, ac sydd yn awr
ddeheu-law y Tad, yn byw bob amser i eiriol dros-
nt. Mae yn sicr na ddamnia y Person bendigedig
vnw mo honynt; a chan ei fod ef wedi gwneyd iawn
os eu pechodau, nis gall neb arall eu damnio, na
wyn achos damnedigaeth yn eu herbyn: mae yr iawn
a dilëu ac yn cuddio pob peth. Sylwer mai cyflen-
ad, gan y cyfieithwyr, yw y gair *yw*, yn y darn olaf o'r
nod o'r blaen ac yn yr ail ddarn o'r adnod hon;
llid eu darllen yn holiadol hebddo, fel y sylwyd ar
n. 33. ‡ Gwel ar pen. 4. 25.

35 [c] * Pwy a'n gwahana ni † oddi wrth
nriad Crist? [d] ‡ *ai* gorthrymder, neu ing,
eu ymlid, neu newyn, neu noethni, neu en-
ydrwydd, neu gleddyf?

c adn. 39. Salm 103. 17. Jer. 31. 3. Ioan 10. 28. a 13. 1.
Thes. 2. 13, 14, 16. Dat. 1. 5, 6. d adn. 17. pen. 5. 3—5. Mat.
10—12. a 10. 28—31. Luc 21. 12—18. Ioan 16. 33. Act. 14. 22.
20. 23, 24. 2 Cor. 4. 17. a 6. 4—10. a 11. 23—27. 2 Tim. 1. 12. a
16—18. Heb. 12. 3—11. Iago 1. 2—4. 1 Pedr 1. 5—7. a 4. 12—
. Dat. 7. 14—17.

* Yn yr olwg ar allu a chariad anfeidrol a digyfnew-
Duw o blaid ei bobl, ac wrth feddwl fod y drugaredd
ddangosodd efe eisoes iddynt, yn fwy na'r cwbl a
ldd eisiau arnynt o hyn allan; mae yr apostol megys
beiddio holl elynion y saint, yn ymffrostio o fuddug-
iaeth yn nghanol poethder y frwydr, ac yn ymor-
deddu yn nghanol enbydrwydd, trallodau, ac ochen-
ldiau: oblegid "pwy a'n gwahana ni," ebai efe, "oddi
rth gariad Crist," yr hwn a'n dewisodd, a'n gwared-
dd, a'n gwelodd, ac a'n cyfiawnâodd ni? Nid yw efe
a dywedyd Pa *beth*, ond *Pwy*, a'n gwahana ni; eto, yn
canlyniad, mae efe yn enwi *pethau;* yn gystal â
ersonau: mae *pethau* aneirif, fel moddion yn llaw
ersonau, yn cael eu defnyddio i geisio niweidio y
int, ond i gyd yn ofer; ni lwydda un *offeryn* a lunier
w herbyn, a gwneir yn euog bob *tafod* a gyfodo i'w
erbyn mewn barn. † Wrth gariad Crist, yma, a char-
d Duw, adn. 39, gallwn ddeall cariad Crist a Duw
ag at y saint, neu gariad y saint at Grist a Duw, fel
sonir yn adn. 28: ond mae adn. 37, yn ein tueddu i
deall y geiriau am gariad Crist a Duw tuag at y saint yn
nnaf: hyny sydd yn dàl gafael yn y saint a'u cariad
wy, fel nas gall dim eu gwahanu byth. ‡ Mae yr
postol yn enwi saith o ddrygau yma, gan ddechreu ar
y lleiaf, ac esgyn i fynu at y mwyaf, a'r gwaethaf: dy-
oddefodd llawer o'r saint hwy oll, ond ni lwyddasant
i'w gwahanu hwy oddi wrth gariad Crist; mae efe yn
eu caru hwy yn eu gorthrymder a'u hadfyd yn gystal ag
yn eu llwyddiant a'u hawddfyd, ac nid oera eu cariad
hwythau ato ef yn yr adfyd mwyaf.

36 * (Megis y mae yn ysgrifenedig, [e] † Er
dy fwyn di ‡ yr ydys yn ein lladd ni ar hyd y
dydd; ‖ cyfrifwyd ni fel [f] defaid i'r lladdfa)

e Salm 44. 22. a 141. 7. Ioan 16. 2. 1 Cor. 15. 30, 31. 2 Cor.
4. 11. f Es. 53. 7. Jer. 11. 19. a 12. 3. a 51. 40. Act. 8. 32.

* Mae hyn yn ysgrifenedig yn Salm 44. 22: felly y
bu ar lawer o'r duwiolion yn amser yr Hen Destament,
a llefarwyd y geiriau hefyd yn brophwydol, mai felly y
byddai yn amser yr apostolion a'r oesoedd ar ol hyny.
† Nid er mwyn, neu o herwydd drygau ynddynt hwy,
ond er mwyn Crist; o herwydd ei broffesu ef, a glŷnu
wrth ei efengyl a'i achos ef. ‡ Yr ydym bob dydd a
phob awr mewn perygl o gael ein lladd, a llawer o
honom yn cael ein tòri ymaith yn aml gan ein herlid-
wyr creulawn. ‖ Lleddir ni yn lliosog, fel y lleddir defa-
aid gan gigyddion: nid yw ein herlidwyr yn cyfrif mwy
o niwed ein lladd nag a dybia cigyddion o ladd defaid:
ac yr ydym ninnau yn ddiniwed fel defaid, yn wyneb
hyn oll, ac eto heb ein gwahanu oddi wrth gariad
Crist, nac oeri yn ein cariad ato ef. Adroddir hanes
dychrynllyd am erledigaeth a fu ar y cristionogion yn
Calabria, yn y flwyddyn 1560: cauwyd hwynt oll i fynu
mewn un tu, fel defaid mewn corlan; âi dienyddwr i
mewn, a chymmerai un o honynt allan, rhwymai gad-
ach dros ei lygaid ef i'w ddallu, ac arweiniai ef i le
ehang, lle y parai iddo fyned ar ei liniau; gwedi
gwneyd hyny, tòrai ei wddf ef â chyllell, a gadawai ef
yn hanner marw: yna cymmerai y gyllell waedled, a'r
cadach oddi am ei lygaid ef, a dychwelai i gymmeryd
un arall, yr hwn a laddai yr un modd; ac fel hyn y
gwnai â hwynt oll, bob yn un ac un, hyd oni laddodd
bedwar ugain ac wyth, yn union fel cigydd yn lladd
cynnifer a hyny o ddefaid.

37 [g] * Eithr yn y pethau hyn oll yr ydym
ni yn fwy nâ choncwerwyr, † trwy [h] yr hwn
a'n carodd ni.

g 2 Cron. 20. 25—27. Es. 25. 8. 1 Cor. 15. 54, 57. 2 Cor. 2. 14.
a 12. 9. 10. 1 Ioan 4. 4. a 5. 4, 5. Dat. 7. 9, 10. a 11. 7—12. a 12.
11. a 17. 14. a 21. 7. h Gal. 2. 20. Eph. 5. 2, 25—27. 2 Thes.
2. 16. 1 Ioan 4. 10, 19. Dat. 1. 5.

* Yn lle cael eu gwahanu oddi wrth gariad Crist gan
yr holl bethau dychrynllyd uchod, mae y saint fel hyn
yn cael eu dwyn i fwynâd mwy perffaith o hóno: nid
yn unig maent yn dianc heb niwed, neu o braidd yn
ennill y fuddugoliaeth; ond y maent yn cael eu
gwneuthur yn fwy na choncwerwyr, yn ennillwyr an-
nhraethol, trwy eu dyoddefiadau, trwy gynnorthwyol
ras eu Gwaredwr anwyl. Maent yn gorchfygu pan
maent hwy eu hunain yn cael eu gorchfygu: maent yn
gorchfygu trwy y rhai hyny, a'r pethau hyny, ydynt ar-
ferol o orchfygu eraill. Hen orchfygwyr cryfion ywy
satan a'i offerynau, ond mae y saint yn gorchfygu y
gorchfygwyr hyny, ac felly yn fwy na chonewerwyr.
Amcan y diafol yn nyoddefiadau y saint yw, diffodd eu
cariad at Grist; (Job 1. 11; a 2. 5;) ond yn lle hyny,
mae dyoddefiadau dàn fendith Duw yn foddion i
chwanegu a chryfâu eu cariad ato, ac iddynt gael mwy
o eglurdeb o'i gariad yntau atynt hwy. "Yr ydym ni
gristionogion yn chwerthin am ben eich creulondeb
chwi, ac yn chwanegu mewn gwroldeb a chalonog-
rwydd," ebai un o bendefigion *Julian* y gwrthgiliwr wrtho
ef. † Trwy ufudd-dod a dyoddefiadau Crist drosom,
trwy ei fuddugoliaeth ef ar bob gelyn erddom, trwy ei
oruwch-lywodraeth ef ar bob peth ar ein rhan, a thrwy
ei gynnorthwyon grasol ef i ni yn mhob cyfyngder.
Nid trwy eu nerth eu hunain mae y saint yn fwy na
choncwerwyr, ond trwy nerth yr hwn a'u carodd yn-
ddynt ac ar eu rhan.

38 [i] * Canys y mae yn ddïogel gennyf, [k] † na all nac angau, ‡ nac einioes, || nac angelion, [l] § na thywysogaethau, * na meddiannau, na phethau presennol, na phethau i ddyfod,

i pen. 4. 21. 2 Cor. 4. 13. 2 Tim. 1. 12. Heb. 11. 13. k pen. 14. 8. 1 Cor. 3. 22, 23. a 15. 54—58. 2 Cor. 5. 4—8. Phil. 1. 20—23. l 2 Cor. 11. 14. Eph. 6. 11, 12. Col. 1. 16. a 2. 15. 1 Pedr 5. 8—10.

* Ail ddatguddiad o hyder cadarn yr apostol, yn wyneb pob enbydrwydd, oddi wrth y drwg a'r da, adfyd a hawddfyd: yr oedd yn ddïogel ganddo, nid trwy un rhyw ddatguddiad neillduol, ond trwy yr un ysbryd ffydd, ag sydd yn gyffredin i'r holl gredinwyr. Yr oedd yn sicr ganddo, oddi ar dystiolaeth y gair, am feddwl digyfnewid Duw, ei arfaeth a'i gyfammod grasol; o herwydd gwerth a rhinwedd aberth a gwaed Crist, ac o herwydd ei gariad, ei ffyddlondeb, a'i eiriolaeth effeithiol ef. † Nis gall ofn, dychryn, na phoenau angau, ein gwahanu oddi wrth gariad Duw; deued angau fel, neu y pryd y delo, yn naturiol neu annaturiol. ‡ O'r tu arall, nis gall chwennychiad na gobaith am fywyd, na dim o bleserau a mwyniant hudoliaethus y byd a'r bywyd hwn ei wneyd. || Nis gall angelion drwg ei wneyd, o ba raddau bynag y byddont; pyrth uffern nis gorchfygant yr un o'r saint, i'w gwahanu oddi wrth gariad Crist a Duw. § Tybia rhai mai graddau ac urddau goruchel o angelion a feddylir wrth "dywysogaethau a meddiannau" yn y fàn hon, megys ag yn Ephes. 3. 10; a 6. 12; a thybia eraill mai brenineodd a gwŷr mawr daearol a feddylir, megys ag yn Tit. 3. 1: gallwn gymmeryd pob un i mewn, ac eto ni allant wahanu y saint oddi wrth gariad Duw. * *Dunameis*, yw y gair a gyfieithir yma "meddiannau," yn arwyddo gallu, neu awdurdod: galluoedd, *(powers,)* y cyfieithwyd ef yn y Saesoneg; a *galloudou* yw yn y Testament Llydaweg yn y fàn hon. † Na'r pethau ydym yn ddyoddef yn awr, na'r peth fydd raid i ni ddyoddef ar ol hyn, pa beth bynag a fyddo y rhai hyny: nid yw yn sôn am bethau a basiodd, yr oedd y rhai hyny wedi eu gorchfygu eisoes.

39 [m] * Nac [n] uchder, [o] † na dyfnder, ‡ nac un creadur arall, [p] || ein gwahanu ni oddi wrth [q] gariad Duw, yr hwn sydd yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

m Eph. 3. 18, 19. n Ex. 9. 16, 17. Salm 93. 3, 4. Es. 10. 10—14, 33. a 24. 21. Dan. 4. 11. a 5. 18—23. 2 Thes. 2. 4. Dat. 13. 1—8. o pen. 11. 33. Salm 64. 6. Diar. 20. 5. Mat. 24. 24. 2 Cor. 2. 11. a 11. 3. 2 Thes. 2. 9—12. Dat. 2. 24. a 12. 9. a 13. 14. a 19. 20. a 20. 3, 7. p Ioan 10. 28—30. Col. 3. 3, 4. q adn. 35. pen. 5. 8. Ioan 3. 16. a 16. 27. a 17. 26. Eph. 1. 4. a 2. 4—7. Tit. 3. 4—7. 1 Ioan 4. 9, 10, 16, 19.

* Nac uchder llwyddiant a mawredd bydol, pe caem ni ein derchafu iddynt: † nac iselder a dyfnder tlodi, adfyd, gwarth, a gorthrymder, y byddo yn bosibl ein trochi ni ynddynt. Wrth *uchder* a *dyfnder*, mae rhai yn deall, ymadrodd cynnwysfawr; lle mae yr apostol yn cymmeryd i mewn bobpeth, heb adael dim allan. ‡ Nac un creadur arall, yn y nef, ar y ddaear, nac yn uffern: meddylir am y peth a fyner, neu am bob peth yn nghyd, trwy holl grëadigaeth ddirfawr Duw; || nid oes dim a all byth ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yr hwn sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd. Gwaeth nac ynfydrwydd yw dywedyd, am nad yw pechod yn greadur o fath yn y byd, y gall pechod wedi y cwbl wahanu y credadyn oddi wrth gariad Duw: mae y fath ynfydrwydd yn rhŷ wael i'w ateb, ac yn dirymu geiriau yr apostol.

PEN. IX.

Paul yn cwyno dros yr Iuddewon.

[a] * Y GWIRIONEDD yr wyf fi yn ei ddywedyd yng Nghrist, † nid wyf yn dywedyd celwydd, [b] ‡ a'm cydwybod hefyd yn cyd-dystiolaethu â mi || yn yr Ysbryd Glân,

a pen. 1. 9. 2 Cor. 1. 23. a 11. 31. a 12. 19. Gal. 1. 20. Phil. 1. 8. 1 Thes. 2. 5. 1 Tim. 2. 7. a 5. 21. b pen. 2. 15. a 8. 16. 2 Cor. 1. 12. 1 Tim. 1. 5. 1 Ioan 3. 19—21.

Nid gwŷch yr oedd yr Iuddewon yn archwaethu yr athrawiaeth o gyfiawnâd trwy ras, trwy ffydd yn unig, heb un ystyriaeth o weithredoedd y ddeddf, yr hon a drinodd yr apostol yn y pennodau o'r blaen; a chan ei fod yn myned yn y bennod hon i son am wrthodiad yr Iuddewon a galwedigaeth y cenedloedd; yr oedd yn addas iawn iddo ddywedyd yr hyn mae yn ddywedyd yn yr adnodau hyn, er symmud y rhagfarn a allai fod yn ei erbyn ef yn meddyliau yr Iuddewon, fel un nad oedd yn caru nac yn ewyllysio yn dda i'w genedl ei hun. * Yn enw Crist, ac yn ngŵydd Crist, yr hwn a ŵyr fy nghalon, mai y gwirionedd wyf yn ei ddywedyd. † Chwanegir hyn er cadernid, ac er peri coelio yn well yr hyn oedd yr apostol yn ei dystiolaethu: arferai yr Iuddewon chwanegu *nacâd* at *gadarnâd* ar achlysuron fel hyn, gwel 1 Sam. 3. 18; Ioan 1. 20. ‡ Yr hon a roddir mewn dyn i'r dyben hyn gan Dduw, ac sydd fel mil o dystion ynddo. || Yn ngŵydd yr Ysbryd Glân; yr hwn a ŵyr mai gwir wyf yn ei ddywedyd, ac sydd hefyd yn dyst o'r gwirionedd. Neu, fel y meddylia rhai, dàn arweiniad yr Ysbryd Glân, yr hwn nis gall ddywedyd celwydd. Dyma Paul yn llefaru, ac yn cyfeirio at dri o dystion am wirionedd ei dystiolaethiad, —Crist, ei gydwybod, a'r Ysbryd Glân.

2 [c] * Fod i mi dristyd mawr, a gofid dibaid i'm calon.

c pen. 10. 1. 1 Sam. 15. 35. Salm 119. 136. Es. 66. 10. Jer. 9. 1. a 13. 17. Galar. 1. 12. a 3. 48, 49, 51. Preg. 9. 4. Luc 19. 41—44. Phil. 3. 18. Dat. 11. 3.

* Yma ni a gawn y *peth*, yr oedd yr apostol yn ei dystiolaethu mòr ddifrifol, sef ei ofid dros ei gyd-genedl. Mae yn ei ddangos yn 1. yn ei *fawredd;* yr oedd yn debyg i ofid gwraig wrth esgor, fel yr arwydda y gair, neu alar a gofid ar farwolaeth rhyw berthynas agos: peth yn treulio ac yn curio y corph a'n meddwl. Yn 2. yn ei barâd gwastadol, peth arosawl a dibaid ydoedd. Yn 3. yn ei eisteddfa, peth yn y galon oedd, nid oddi allan yn unig, mewn geiriau, ac yn y gwyneb-pryd.

3 [d] * Canys mi a ddymunwn fy mod fy hun [e] yn anathema oddi wrth Grist, dros [f] fy mrodyr, *sef* fy nghenedl yn ol y cnawd:

d Ex. 32. 32. e Deut. 21. 23. Jos. 6. 17, 18. 1 Sam. 14. 24, 44. Gal. 1. 8. a 3. 10, 13. f pen. 11. 1. Gen. 29. 14. Esther 8. 6. Act. 7. 23—26. a 13. 26.

Yma ni a gawn yr achos o'r tristyd mawr, a'r gofid dibaid uchod. * Pa fodd, ac yn mha ystyr, y gallai yr apostol ddymuno y fath beth a hyn? Tybia rhai fod yr apostol o *zel* dros ogoniant Duw, ac o gariad at ei gyd-genedl, yn ewyllysgar i gael ei golli byth, pe buasai hyny o ryw les er eu hachub hwy: ond buasai yn hollawl anghyfreithlawn, ar unrhyw gyfrif, iddo ewyllysio bod byth yn druenus, ac yn *elyn anghymmodol Duw*, fel y bydd pawb a gyfr-gollir. Tybia eraill fel hyn: bod yr apostol yn dymuno bod yn *anathema*, neu felltigedig *yn ol dull, neu esampl* Crist; cael ei gyfrif yn felltigedig gan ddynion, fel y cafodd Crist, ei droi allan o'r eglwys weledig, ei lwytho â gwarth a dyoddefiadau, ei groeshoelio, neu ei roddi i farwolaeth mewn unrhyw fodd mwyaf poenus a gwarthus; neu hyd yn nôd dros amser, cael ei amddifadu a'i gauad allan o bob cysur a chymdeithas â Christ, a'i gauad i fynu dàn y dychrynfëydd mwyaf, a'r cyfyngder meddwl trymaf a fyddai bosibl iddo ddyoddef heb bechu, pe gallai efe drwy hyny achub ei gyd-genedl rhag y dystryw ofnadwy oedd efe yn ei rag-weled yn dyfod arnynt, yn y byd hwn ac yn y byd i ddyfod. Mae *anathema* weithiau yn arwyddo marwolaeth gorphorol, a byddai yr hen baganiaid mewn amseroedd o drallod yn aberthu dynion i heddychu eu duwiau, y sawl aberthau a alwent yn *anathema*. Bod yn anathema *oddi wrth* Grist yw y

th sydd yn gwneyd y geiriau yn ddyrys; ac mae yn
r nas gallai yr apostol sanctaidd ddymuno cael ei
gar yn dragywyddol oddi wrth Grist, fel gelyn iddo;
ylwed dau o'n Hawdwyr y gellir darllen y geiriau
o *Christou, yn ol esampl* neu ddull Crist, fel y sylwyd
uod: felly yr oedd yr apostol yn ewyllysgar i gael
gyfrif yn felltigedig, a'i drin gan ddynion fel un
felltigedig, fel y cyfrifwyd ac y triniwyd Crist ei hun-
, os gallai hyny fod o ryw les er achubiaeth ei gyd-
enedl anghrediniol a rhagfarnus.

4 * Y rhai sydd [g] Israeliaid; † eiddo y rhai
7 [h] y mabwysiad, [i] ‡ a'r gogoniant, [k] || a'r
fammodau, [l] § a dodiad y ddeddf, [m] * a'r
asanaeth, [n] a'r addewidion:

g adn. 6. Gen. 32. 28. Ex. 19. 3—6. Deut. 7. 6. Salm 73. 1.
41. 8. a 46. 3. Ioan 1. 47. h Ex. 4. 22. Deut. 14. 1. Jer.
9, 20. Hos. 11. 1. i Num. 7. 89. 1 Sam. 4. 21, 22. 1 Bren.
1. Salm 78. 61. k Gen. 15. 18. a 17. 2, 7, 10. Ex. 24. 7, 8.
1. 27. Deut. 29. 1. a 31. 16. Neh. 13. 29. Salm 89. 3, 34. Jer.
20—25. Act. 3. 25. Heb. 8. 6—10. l pen. 3. 2. Neh. 9. 13,
Salm 147. 19. Ezec. 20. 11, 12. Ioan 1. 17. m Es. 5. 2.
t. 21. 33. Heb. 9. 10. n Luc 1. 54, 55, 69—75. Act. 2. 39. a
5, 26. a 13. 32, 33. Eph. 2. 12. Heb. 6. 13—17.

* Had Jacob, yr hwn a ymdrechodd â Duw, ac a
ddodd; ac am hyny a gyfenwyd gan Dduw yn Is-
ll. † Y rhai a gymmerodd Duw i gyfammod âg ef ei
n, yn yr hwn mae yn ymrwymo i fod yn Dduw ac yn
i iddynt, a'u harddelwi hwythau fel ei blant yn
stadol. Mabwysiad allanol, ac i freintiau allanol a
dylir yma, nid mabwysiad ysbrydol y saint, fel pen.
15; Ephes. 1. 5: cysgod oedd hŵn o'r mabwysiad
nw. ‡ Gogoniant Israel oedd y deml, yr addoliad,
arch a'r drugareddfa, y Shechina, a'r arwyddion er-
o bresenoldeb Duw yn eu plith hwynt. || Y cyf-
mmodau a wnaethai Duw âg Abraham, Isaac, a Jacob,
ron, a Dafydd: efallai bod yr enwaediad hefyd yn
anwysedig. § Dodiad y ddeddf foesol, neu y deg
rchymyn ar Sinai, ar lechau, ac yn yr arch. * Y
asanaeth seremoniol, holl wasanaeth addoliad Duw
y deml. † Pob addewidion: bod yn Dduw iddynt;
H gyda hwynt; eu bendithio; ac yn enwedig yr
dewidion o ddanfon y Messiah iddynt yn nghyflawn-
yr amser, yr hwn oeddynt hwy yn awr wedi ei
khod. Yr oedd yr apostol yn enwi y breintiau uch-
i ddangos mòr fawr oedd ganddo am ei gyd-genedl
Israeliaid, mòr fawr oedd eu manteision hwy i gredu
Nghrist, ac mòr fawr fyddai eu barn ofnadwy os
rthodent ef yn y diwedd.

5 [o] * Eiddo y rhai *yw* y tadau; [p] † ac o'r
ai *yr hanoedd* Crist yn ol y cnawd, [q] ‡ yr
n sydd uwchlaw pawb, yn Dduw [r] || bendi-
dig yn oes oesoedd. [s] § Amen.

o pen. 11. 28. Deut. 10. 15. p pen. 1. 3. Gen. 12. 3. a 49.
Es. 7. 14. a 11. 1. Mat. 1. 1, &c. Luc 3. 23, &c. 2 Tim. 2. 8.
1. 22. 16. q pen. 10. 12. Salm 45. 6. a 103. 19. Es. 9. 6, 7.
23. 5, 6. Mica 5. 2. Ioan 1. 1—3. a 10. 30. Act. 20. 28. Phil.
—11. Col. 1. 16. 1 Tim. 3. 16. Heb. 1. 8—13. 1 Ioan 5. 20.
en. 1. 25. Salm 72. 19. 2 Cor. 11. 31. 1 Tim. 6. 15. s Deut.
15, &c. 1 Bren. 1. 36. 1 Cron. 16. 36. Salm 41. 13. a 89. 52. a
48. Jer. 28. 6. Mat. 6. 13. a 28. 20. 1 Cor. 14. 16. Dat. 1. 18. a
4. a 22. 20.

* Sef Abraham, Isaac, Jacob, Dafydd, a'r hen ba-
archiaid enwog a sanctaidd gynt, y rhai a rodiasent
rla Duw, ac a gymmeradwywyd ganddo ef trwy eu
ddd yn y Messiah: yr oedd hon yn rhagor-fraint
wr, ac ymffrostiai yr Iuddewon yn fawr o hóni yn
hob oes. † "Ac o'r rhai, Crist yn ol y cnawd," yw y
oeg; y geiriau "*yr hanoedd*," mewn llythyrenau
blaidd, a roddwyd i mewn gan y cyfieithwyr: Ac o'r
ai y *daeth* Crist yn ol y cnawd, sy gan y Saeson. O
nynt hwy, "sydd Israeliaid," adn. 4, yr hanoedd
ãst yn ol y cnawd, "Had Abraham a gymmerodd
," ac nid oes eisiau chwaneg o eglurhâd ar hyna.
Ond yr hwn a *hanoedd* o'r Iuddewon yn ol y cnawd,
oedd uwchlaw pawb; uwchlaw pob dyn ar y ddaear,
uwchlaw pob angel yn y nef: yr oedd hwn o ran ei
rson yn Dduw, yn wir a phriodol Dduw, yn Dduw
llarn, ac yn Dad tragywyddoldeb. Es. 9. 6. || Fel y
cyfryw, yr oedd erioed, y mae yn awr, ac a fydd byth, yn fendigedig gan bawb, saint ac angelion, yn y byd hwn ac yn y nef yn oes oesoedd. § Dyweded pawb a gredant ynddo, a phawb a glywant am dano, Amen o'u calonau; addefer ac anrhydedder uwchlaw pawb, fel Duw bendigedig yn oes oesoedd. Mae y geiriau "*hanu yn ol y cnawd*," yn arwyddo bod i Grist hanfodiad blaenorawl, uwch, ac ardderchocach; a'r geiriau "Duw bendigedig yn oes oesoedd," yn dangos beth oedd yr hanfodiad hyny, a phwy oedd y Person a "hanoedd yn ol y cnawd." Nis gall geiriau osod allan Dduwdod a dynoliaeth Crist yn amlycach; a nydded a gŵyr-droed y Sosiniaid hwy fel y mynont, nis medrant byth ddadymchwel yr athrawiaeth amlwg a gwerthfawr a gynnwysant.

6 [t] * Eithr nid posibl yw myned gair Duw yn ddirym: [u] † canys nid Israel yw pawb a'r sydd o Israel.

t pen. 3. 3. a 11. 1, 12. Num. 23. 19. Es. 55. 11. Mat. 24. 35. Ioan 10. 35. 2 Tim. 2. 13. Heb. 6. 17, 18. u pen. 2. 28, 29. a 4. 12—16. Ioan 1. 47. Gal. 6. 16.

* Er bod yr Iuddewon yn gyffredin wedi gwrthod yr efengyl, ac am hyny fel cenedl wedi eu cauad allan o deyrnas y Messiah; eto ni ddylid meddwl bod gair Duw wedi myned yn ddirym: yr oedd eu cyfammod gwladol neu genedlawl wedi cael ei gyflawni iddynt hwy hyd onid oeddynt wedi ei wrthod, a fforffedu eu hawl ynddo; yr oedd yr addewidion am y Messiah wedi cael eu cyflawni; ac nid oedd y cyfammod ysbrydol a'r addewion yn perthyn iddynt hwy fel cenedl, ond yn unig i'r rhai a gredent o honynt hwy, yn gyffredin gyda chredinwyr eraill: † canys nid gwir Israel ysbrydol Duw oedd pawb a hanai yn naturiol o Jacob, neu Israel: yn had ysbrydol Abraham yr oedd gair, cyfammod, ac addewidion Duw, i gael eu cyflawni, o ba genedl bynag y byddent hwy: i'r cyfryw rai, nid posibl yw myned ei air ef yn ddirym.

7 [x] * Ac nid *ydynt*, oblegid eu bod yn had Abraham, i gyd yn blant: † eithr, [y] Yn Isaac y gelwir i ti had.

x Luc 3. 8. a 16. 24, 25, 30. Ioan 8. 37—39. Phil. 3. 3. y Gen. 21. 12. Heb. 11. 18.

* Yn wir yr oedd Duw wedi dangos y mater hwn yn amgylchiad Abraham a'i had: oblegid nid oedd y cyfammod a wnaed âg ef a'i had yn cynnwys ei holl had ef; dim ond ei had yn llinell Isaac, pan ddywedodd Duw wrtho ef, "Yn Isaac y gelwir i ti had." Nid oedd y cyfammod yn perthyn i Ishmael, mab Agar, y gaethforwyn; ond i Isaac, mab Sara, y wraig rydd. Felly, nid oedd holl blant Abraham trwy genedliad naturiol, yn cael eu mabwysiadu fel plant Duw, hyd yn nôd *mewn ystyr gysgodol;* dim ond y rhai a ddeillient o hóno ef yn ol yr addewid, a thrwy allu goruwch-naturiol Duw yn ei chyflawni, pan oedd Sara wrth naturiaeth wedi myned dros amser planta.

8 * Hynny ydyw, [z] Nid plant y cnawd, y rhai hynny *sydd* blant i Dduw; eithr plant yr addewid [a] a gyfrifir yn had.

z pen. 4. 11—16. Gal. 4. 22—31. a Gen. 31. 15. Salm 22. 30. a 87. 6. Ioan 1. 13. Gal. 3. 26—29. 1 Ioan 3. 1, 2.

* Mae yr apostol yma yn amlwg yn llefaru am wir Israel ysbrydol yn mhlith hiliogaeth Israel naturiol; gweddill, megys yn wahaniaethol oddi wrth y genedl oll, ac yn gyffredinol. Yr oedd Ishmael wedi ei eni yn ol y cnawd, neu yn ol trefn gyffredinol anian, ac yn cysgodi yr holl Israeliaid digred a deddfol: ac yr oedd Isaac wedi ei eni trwy rym addewid, a gallu goruwch-naturiol Duw, ac yn cysgodi yr holl Israeliaid ysbrydol: ac mae yr apostol yn enwi dau fab Abraham yma, ac Esau a Jacob ar ol hyn, fel egluriadau o'i brif bwnc, mai "nid Israel yw pawb sydd o Israel," adn. 6. Dywed *Pool* fod Galat. 3. 8, 14, 29; a 4. 28, yn rhoddi llawn agoriad ar yr adnod hon.

9 * Canys gair yr addewid *yw* hwn; [b] † Ar yr amser hwn y deuaf, a bydd mab i Sara.

b Gen. 17. 21. a 18. 10, 14. a 21. 2. Heb. 11. 11, 12, 17.

* Mae gair hwn yr addewid yn Gen. 18. 10, ac yn cynnwys dau beth:—1. Y byddai mab i Sara, trwy allu Duw yn cyflawni yr addewid; ac yn 2. Mai i'r mab hwnw y byddai y bendithion; efe oedd yn y cyfammod, ac nid Ishmael. † "Gan ddychwelyd y dychwelaf atat yn nghylch amser bywiolaeth; ac wele fab i Sara," yw y geiriau yn Genesis. "Ar yr amser hwn," neu yn ol "yr amser hwn:" hyny yw, yr amser i esgor ar blant ar ol beichiogi. "Mi a ddeuaf, a bydd mab i Sara:" hyny yw, mi a ddangosaf fy ngallu yn nghyflawniad fy addewid; caiff Sara yn sicr esgor ar fab: er ei henaint, marweidd-dra ei bru, ei hammheüaeth yn awr, a phob ymddangosiad gwrthwynebol, bydd mab i Sara, ac nis gall dim luddias gallu Duw, na chyflawniad ei addewid ef. Mae yn amlwg wrth hyn, mai effaith addewid Duw oedd genedigaeth Isaac, ac nid dim arall. Mae yn debyg i Sara ddechreu beichiogi tua'r pryd hwnw, a geni yn yr amser arferol; a daeth Duw ati i roi grym i esgor, yn gystal a nerth i ymddwyn had.

10 [c] * Ac nid *hyn* yn unig; [d] † eithr Rebecca hefyd, wedi iddi feichiogi o un, *sef* o'n tad Isaac;

c pen. 5. 3, 11. Luc 16. 26. d Gen. 25. 21.

* Yma mae yr apostol yn myned i grybwyll am amgylchiad arall, er dangos mai "nid Israel yw pawb a'r sydd o Israel." † Gan mai Isaac oedd unig fab Abraham o Sara ei wraig, gallai rhai feddwl mai am hyny yr oedd bendithion y cyfammod iddo ef: eto, yr oedd nid yn unig Ishmael mab Agar, a phlant eraill Abraham o Cetura yn cael eu cauad allan; ond hefyd Esau, mab henaf Isaac o Rebecca, a chyd-efell â Jacob, yr oedd efe a'i had yn cael eu cauad allan yr un modd. Er bod y ddau hyn yn blant o'r un beichiogiad, o'r un tad a mam, ac yr un math yn mhob ystyr ac amgylchiad; eto gwelodd Duw yn dda i wneyd gwahaniaeth bore a phenarglwyddiaethol rhyngddynt *hwy*, yn ol cyngor ei ewyllys ei hun. Darllen rhai y geiriau, Ac nid *hi* yn unig, sef Sara. Nid oes na *hi* na *hyn* yn y Groeg.

11 * (Canys [e] cyn geni *y plant* etto, † na gwneuthur o honynt dda na drwg, [f] fel ‡ y byddai i'r arfaeth [g] yn ol etholedigaeth Duw || sefyll, [h] § nid o weithredoedd, [i] eithr o'r hwn sydd yn galw)

e pen. 4. 17. Salm 51. 5. Eph. 2. 3. f pen. 8. 28—30. Es. 14. 24, 26, 27. a 23. 9. a 46. 10, 11. Jer. 51. 29. Eph. 1. 9—11. a 3. 11. 2 Tim. 1. 9. g pen. 11. 5, 7. Eph. 1. 4, 5. 1 Thes. 1. 4. 2 Pedr 1. 10. h pen. 11. 6. Eph. 2. 9. Tit. 3. 5. i pen. 8. 28. 1 Thes. 2. 12. 2 Thes. 2. 13, 14. 1 Pedr 5. 10. Dat. 17. 14.

* Megys ag nad oedd dim yn nghenedliad a genedigaeth y plant hyn, felly nid oedd dim ychwaith yn eu gweithredoedd, yn achos i Dduw wneyd rhagoriaeth rhyngddynt; oblegid pan lefarodd efe yr hyn ddygwyddai iddynt, yr oeddynt heb eu geni, ac eto heb wneuthur na da na drwg. † Hyny yw, nid oeddynt wedi gwneuthur na da na drwg yn *weithredol*, i beri bod dim gwahaniaeth rhyngddynt; am bechod gwreiddiol, yr oeddynt ill dau yn euog, ac wedi eu llygru ganddo, y naill fel y llall: nid oes yma ddim yn gwadu pechod gwreiddiol, ond yn hytrach yn ei dybied, gwyddai yr apostol eu bod hwy ill dau yn bechaduriaid gwreiddiol fel holl hil syrthiedig Adda. ‡ Mae arfaeth Duw yma i'w ddeall am beidio ag ethol Esau yn gystal ag am ethol Jacob: gweithred wirfoddawl a grasol Duw oedd ethol y naill, yn wyneb ei annheilyngdod ef i gael ei ethol; ond gweithred o gyfiawnder oedd gadael y llall, heb ei ethol, hyny oedd efe yn haeddu: ac felly y gellir dywedyd am bawb a etholodd Duw, a phawb nid etholodd efe. || Fel y safai yn gadarn ac yn ddigyfnewid byth: pe buasai arfaeth ac etholedigaeth Duw yn ymddybynu a'r weithredoedd da dynion, byddai yn ansicr iawn; ond mae efe wedi sylfaenu pob peth ar ei gyngor a'i ewyllys ddigyfnewid ei hun, cyn, ac heb weithredoedd dynion, am hyny mae ei arfaeth ef yn sicr o sefyll: ei gyngor a *saif*, a'i holl ewyllys a *wnâ*. § Nid o weithredoedd a rag-welai efe, a wnai un o honynt mwy na'r llall: buasai hyny yr un peth a phe buasent wedi eu gwneyd eisoes: *effaith* etholedigaeth a galwedigaeth Duw yw gweithredoedd da, ac nid yr *achos* o honynt: ethol ei bobl *fel y byddent* yn sanctaidd a wnaeth efe, ac nid *am eu bod* nac *am y byddent* felly.

12 * Y dywedwyd wrthi, [k] † Yr hynaf a wasanaetha yr ieuangaf.

k Gen. 25. 22, 23. 2 Sam. 8. 14. 1 Bren. 22. 47.

* Dywedwyd hyn wrth Rebecca yn Gen. 25. 22, 23, pan oedd y plant eto yn ei chroth hi, ac heb wneuthur o honynt dda na drwg. Mae yr adnod hon i'w darllen gyda'r ddegfed, a'r unfed ar ddeg rhwng cromfachau. † Yr hynaf, sef Esau, a wasanaetha'r ieuangaf, sef Jacob: neu y mwyaf a wasanaetha y lleiaf. Felly y bu yn nwy hiliogaeth y ddau frawd hyn, fel mae yn amlwg yn eu hanes yn yr Hen Destament. Dechreuodd hyn gymmeryd lle pan gafodd Jacob yr enedigaeth-fraint a'r fendith; ac yr hynaf yn gwasanaethu yr ieuangaf a fu hi o hyny allan drwy yr holl oesoedd: fel hyn yr oedd arfaeth Duw yn *sefyll*.

13 * Megis yr ysgrifenwyd, [l] † Jacob a gerais, eithr Esau a [m] gaseais.

l Mal. 1. 2, 3. m Gen. 29. 31, 33. Deut. 21. 15. Diar. 13. 24. Mat. 10. 37. Luc 14. 26. Ioan 12. 25.

* Ysgrifenwyd hyn yn Mal. 1. 2, 3. † Os carodd Duw Jacob, a chasâu Esau, (neu ddangos iddo lai o diriondeb nac i Jacob,) heb un golwg ar eu gweithredoedd hwynt, megys yn gymharol dda neu ddrwg, yna mae y pwnc mawr wedi ei sefydlu, fod Duw yn dangos mwy o diriondeb i'r naill ddyn nac i'r llall, heb un ystyriaeth o'u cyfiawnder na'u hanghyfiawnder hwynt. Ac, "a oes anghyfiawnder gyda Duw?" A oes neb a all ei gyhuddo ef o anghyfiawnder? Na all mewn un modd: ni wnaeth efe ddim cam âg Esau, ei adael ef i'w ddewisiad ei hun; a derbyniodd ef a'i had fwy o drugareddau nag a haeddasant: ac nid oedd cariad a daioni Duw tuag at Jacob a'i had, mewn un modd na mesur yn niweidio Esau. Os oedd yn *gyfiawn* i Dduw oddef i grëaduriaid sanctaidd i bechu, a'u cospi am bechod, (a phwy a ddywed nad oedd yn gyfiawn iddo?) rhaid i ni addef fod yn gyfiawn iddo adael crëaduriaid syrthiedig iddynt eu hunain, i fyned yn mlaen mewn gwrthryfel, a soddi yn y diwedd i ddystryw. Heb hyn nis gall efe weithredu fel Pen Arglwydd, a Llywodraethwr moesol y bydoedd.

14 [n] * Beth gan hynny a ddywedwn ni? [o] *A oes* anghyfiawnder gyd a Duw? † Na atto Duw.

n Gwel ar pen. 3. 1, 5. o pen. 2. 5. a 3. 5, 6. Gen. 18. 25. Deut. 32. 4. 2 Cron. 19. 7. Job 8. 3. a 34. 10—12, 18, 19. a 35. 2. Salm 92. 15. a 145. 17. Jer. 12. 1. Dat. 15. 3, 4. a 16. 7.

* Os ydyw pawb yn yr un cyflwr syrthiedig wrth natur, a Duw yn ethol rhai i'w codi o'r cyflwr hwnw, ac yn gadael eraill yn y cyflwr hwnw; a raid i ni gasglu oddi wrth hyny, fod anghyfiawnder gyda'r Duw mawr a sanctaidd, o ran ei feddyliau, ei fwriadau, a'i oruchwyliaethau tuag at blant dynion, yn ei waith yn dewis rhai, ac yn gwrthod eraill, a hwy oll o'r blaen yn yr un amgylchiadau? † Na raid mewn un modd: (*Mê genoito*, gair arferol yr apostol) pell fyddo oddi wrthym ni y fath feddwl dychrynllyd, yr hwn sydd mor hollawl groes i berffeithrwydd Duw, ac i'w lywodraeth ef ar yr eglwys a'r byd. Nid yw efe yn gwneyd niwed i neb, trwy gyfranu ei rad ddoniau neu eu hattal, fel y gwelo efe yn dda; oblegid nid yw efe yn ddyledwr i neb. Gwel ychwaneg ar y mater hwn dan yr adnod o'r blaen. "Na atto Duw:" "maddeued Duw," yn y Syriaeg, medd *Pool;* sef maddeued y fath feddwl cableddus, fod anghyfiawnder gydag ef, mewn ethol na gadael.

15 * Canys y mae yn dywedyd wrth Moses, [p] † Mi a drugarhâf ‡ wrth yr hwn y trugarhâwyf, ac a dosturiaf wrth yr hwn y dosturiwyf.

p adn. 16, 18, 19. Ex. 33. 19. a 34. 6, 7. Es. 27. 11. Mica 7. 18.

Yr Iuddewon o bawb, a ddylasent fod yr olaf i godi rwrthddadl uchod, am anghyfiawnder gyda Duw yn ei erth yn ethol rhai ac yn gadael eraill; canys yr oedd ei eu derchafu hwy yn uchel rhagor pawb eraill, a roddent ei fod ef ei hun wedi dywedyd wrth Moses eu eiddfwr enwog hwynt, (Exod. 33. 19,) y trugarâi ac y dosturiai efe wrth y neb y mynai. Cyngor ei ewyllys ei yw ei rëol ef i gyfranu o'i ddoniau rhad ac anseddedig i'r neb y mŷno o blant dynion syrthiedig ac dyheilwng. † Mae trugaredd yn rhagfeddwl pechodau trueni, neu lygriad gwirfoddawl dynolryw: ac mae y riad hwn eilwaith yn rhagdybied crëad mewn purdeb duniondeb. ‡ Ni a welwn yma fod Moses wedi arfer riau llawn mòr gryfed â'r apostol, wrth ysgrifenu am -arglwyddiaeth Duw, a chwedi eu derbyn o enau yw ei hunan.

16 * Felly gan hynny [q] nid o'r hwn sydd ewyllysio *y mae*, nac o'r hwn sydd yn redeg chwaith; † ond o Dduw, yr hwn sydd trugarhâu.

q adn. 11. Gen. 27. 1—4, 9—14. Salm 110. 3. Es. 65. 1. Mat. 25, 26. Luc 10. 21. Ioan 1. 12, 13. a 3. 8. 1 Cor. 1. 26—31. Eph. 5. Phil. 2. 13. 2 Thes. 2. 13, 14. Tit. 3. 3—5. Iago 1. 18. dr 2. 9, 10.

Mae yr apostol yn cyfeirio yma eto at Jacob ac au: yr oedd Jacob yn *ewyllysio* etifeddu y fendith, ac a *redodd* ar orchymyn ei fam: fel hyn efe a ragenodd Esau; ac Isaac, yn groes i'w fwriad, a'i benniodd ef: ond yr oedd yr holl weithred yn dwyllod a gwarthus, ac yn haeddu anfoddlonrwydd Duw yn rach na'i gymmeradwyaeth. Pa fodd bynag, nid o *yllysio* na *rhedeg* Jacob yr oedd gwreiddyn y cyfamdd a sefydlwyd âg ef a'i had, eithr o gariad Duw yn ol; arfaeth yr hwn am dano ef a wnaethid yn hysbys ver o flynyddoedd o'r blaen.—Fel hyn mae credinwyr mawr ewyllysio iachawdwriaeth Crist, ac yn llafurio chael hi; eto, nid yw y dymuniadau hyn ond ffrydiau rhedeg o ffynon cariad etholiadol Duw; Efe, yr hwn carodd ac a'u hetholodd, sydd yn gweithio ynddynt ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef: felly, nid o ewyllysio a rhedeg y mae etholedigaeth a thrugaredd; ll i'r gwrthwyneb, o etholedigaeth a thrugaredd y ae pob gwir ewyllysio a rhedeg: † o Dduw yr hwn dd yn trugarâu. Dywed *Pool* fod yr adnod hon yn wanu *Morganiaeth* dàn y bummed asen.

17 [r] * Canys y mae yr ysgrythyr yn dywedyd wrth Pharaoh, [s] † I hyn yma [t] y'th ffodais di, [u] fel y dangoswn fy ngallu ynot ti, fel [x] y datgenid fy enw trwy yr holl ddaear.

r pen. 11. 4. Gal. 3. 8, 22. a 4. 30. s Gwel ar Exod. 9. 16. Sam. 2. 7, 8. Esther 4. 14. Es. 10. 5, 6. a 45. 1—3. Jer. 27. 6, Dan. 4. 22. a 5. 18—21. u Ex. 10. 1, 2. a 14. 17, 18. a 15. 15. a 18. 10, 11. Jos. 2. 9, 10. a 9. 9. 1 Sam. 4. 8. Salm 83. 17 1 Diar. 16. 4. Es. 37. 20. x Ioan 17. 26.

* Mae yr apostol yn cyfeirio yr Iuddewon eto at grifeniadau Moses, eu deddfwr eu hunain, (Exod. 9.) i ddangos nad yw Duw yn anghyfiawn yn ei waith *gwrthod* rhai, ac yn *attal ei drugaredd* oddi wrthynt, mae yn trugarâu wrth eraill, nad oeddynt well wrth turiaeth na hwythau: nid oes gysgod o anghyfiawnr yn hyn, na lle gan neb i ddywedyd fod. Nid yw yr glwydd yn *gwneyd neb yn anewyllysgar* i gael eu aredu oddi wrth bechod; effaith balchder dynion, eu man-dŷb, eu cariad at bechod, a'u casineb at Dduw a hcteiddrwydd, yw eu hanewyllysgarwch; mae yn ddu o lygriad greddfol y galon, ac yn cynnyddu ac yn ŷfâu drwy hir arferiad o anufudd-dod; ac nis gellir th ei symmud ond trwy weithred o hollalluog nerth, hon nis gall Duw fod yn rhwym *mewn cyfiawnder* gweithredu ar neb o'i grëaduriaid gwrthryfelgar. † Gellid dangos y mater hwn yn eglurach yn achos Pharaoh: derchafodd Duw y Creawdwr ef yn ei raglun iaeth i awdurdod a llwyddiant mawr, ac arbedodd ei fywyd ef drwy holl amrywiol blâau yr Aipht: ond ar yr un pryd, gadawodd ef i ymgaledu mewn gelyniaeth a gwrthryfel. Yn awr tystiolaethodd Duw mai ei ddyben ef yn hyn oedd, fel y dangosai ei allu, ac fel y datgenid ei enw trwy yr holl ddaear, yn nistryw y gwrthryfelwr hwnw. "I hyn yma y'th gyfodais:" sef *y'th grëais*, neu *y'th osodais yn frenin yn yr Aipht.* Neu, (yn ol rhai,) *y'th gyfodais*, neu *y'th annogais i orthrymu fy mhobl.* Neu, *y'th galedais*, (fel yn yr adnod nesaf,) *ac y'th roddais i fynu i'th feddwl cyndyn a gwrthryfelgar dy hun.* Eto, yn ol eraill, *I hyn y gwnaethum i ti sefyll*, hyny yw, y'th gynnaliais dàn y plâau cyntaf, fel y'th welwn yn esampl mwy nodedig o ddïal yn y diwedd. Beth bynag yw meddwl y geiriau, mae yn gyfiawn i Dduw adael a gwrthod ei elynion, a defnyddio y moddion, y gwrthddrychau, a'r ffordd a fŷno, i ddangos ei allu, i ddatgan ei enw, ac i egluro ei ogoniant mawr.

18 [y] * Felly gan hynny y neb y mynno y mae efe yn trugarhâu wrtho, † a'r neb y mynno [z] y mae efe yn ei galedu.

y adn. 15, 16. pen. 5. 20, 21. Eph. 1. 6. z pen. 1. 24—28. a 11. 7, 8. Gwel ar Exod. 4. 21. a 7. 13. Deut. 2. 30. Jos. 11. 20. Es. 63. 17. Mat. 13. 14, 15. Act. 28. 26—28. 2 Thes 2. 10—12.

* Oddi wrth yr esamplau uchod a enwyd, gallwn gasglu yn gyfiawn, fod Duw yn trugarâu wrth y fath ddynion euog a thruenus a welo efe yn dda, yn ol cyngor a phenderfyniad ei ewyllys rasol ei hun, fel y dywedasai efe gynt wrth Moses, adn. 15: a rhyfeddod mawr yw, ei fod ef yn trugarâu wrth neb. † Hyny yw, yn farnol: heblaw y caledrwydd *naturiol*, sydd yn mhawb fel dynion syrthiedig; a'r caledrwydd *cynnyddawl*, o hir ymarfer â phechod, fel llwybr yn caledu o'i hir a'i fynych gerdded; y mae hefyd galedrwydd barnol, neu ddïaleddol, a roddir ar ddynion gan Dduw fel cospedigaeth. Mae dynion yn caledu eu calonau yn bechadurus, fel y dywedir i Pharaoh wneyd ddwy waith; (Exod. 8. 15; a 9. 34;) ac yna mae Duw yn eu caledu yn farnol, fel y dywedir iddo wneyd â Pharaoh amryw weithiau. Gallwn fod yn sicr nad ydyw Duw yn rhoddi egwyddor o galedrwydd yn nghalon neb, ag oedd yn dyner ac yn feddal o'r blaen; pe felly, byddai efe yn awdwr pechod, yr hyn sydd gabledd ei ddywedyd: ond gellir dywedyd ei fod ef yn caledu calonau pechaduriaid mewn dwy ffordd. 1. Trwy eu gadael hwy, a pheidio meddalu eu calonau: fel y mae tywyllwch yn canlyn ymadawiad yr haul, felly mae caledwch yn dyfod i'r galon pan gymmero Duw ymaith ei ddylanwadau meddalâol. 2. Trwy gospi dynion, â chaledwch barnol, fel ceryddd am galedwch o'r blaen: ac mae yn gwneyd hyn, nid trwy roddi caledwch ynddynt, ond yn 1. Trwy satan; i ba un mae efe yn rhoddi pechaduriaid caledion i fynu. Yn 2. Trwyddynt hwy eu hunain; trwy eu rhoddi i fynu i chwantau a gŵyniau gwarthus eu calonau. Neu yn 3. Trwy air a gweithredoedd Duw; wrth y rhai mae dynion yn cymmeryd achlysur i ddigio ac ymgaledu, fel y gellid yn hawdd ddangos.

19 [a] * Ti a ddywedi gan hynny wrthyf, [b] † Paham y mae efe etto yn beio? ‡ canys pwy a wrthwynebodd ei ewyllys ef?

a pen. 3. 8. 1 Cor. 15. 12, 35. Iago 1. 13. b pen. 3. 5—7. Gen. 50. 20. Job 9. 12—15, 19. a 23. 13, 14. Salm 76. 10. Es. 10. 6, 7. a 46. 10, 11. Dan. 4. 35. Marc 14. 21. Act. 2. 23. a 4. 27, 28.

* Yma mae yr apostol yn rhagateb trydydd gwrthddadl: y gyntaf oedd, bod Duw yn *anffyddlawn*, adn. 6; yr ail, ei fod yn *anghyfiawn*, adn. 14; ac yma, ei fod yn *galed*, ac yn *greulawn*. † Gallai rhai wrthddadlau a dywedyd, 'Os yw Duw yn y ffyrdd mae yn gymmeryd tuag at ddynion a phechaduriaid, yn gweithredu yn unig yn ol ei ewyllys a'i foddlonrwydd ei hun, a phob peth yn cael gwneyd yn ol hyny; paham y mae efe eto yn erbyn pechaduriaid, ac yn beio arnynt? ‡ Mae yn debyg mai ei ewyllys ef yw eu gwrthod hwynt, a phwy

a wrthwynebodd, neu a all wrthwynebu ei ewyllys ef? Mae hyd yn nôd y rhai a wrthryfelant fwyaf yn ei erbyn yn cyflawni ei arfaeth ef; gan hyny mae ei ewyllys ef yn cael ei gwneyd yn gyffredinol, ac nid oes yr un crëadur yn ei wrthwynebu!—Mae y rhai hyn yn ymresymu fel pe byddai arfaeth ddirgelaidd Duw yn *rheol dyledswydd* i'w grëaduriaid ef! Neu fel pe gallai dyn amcanu gwneuthur ewyllys Duw trwy dòri ei orchymynion pendant ef, o elyniaeth iddo, ac er boddloni eu chwantau eu hunain!

20 * Yn hytrach, [c] † O ddyn, [d] ‡ pwy wyt ti yr hwn a ddadleui yn erbyn Duw? [e] ‖ a ddywed y peth ffurfiedig wrth yr hwn a'i ffurfiodd, Paham y gwnaethost fel hyn?

c pen. 2. 1. Mica 6. 8. 1 Cor. 7. 16. Iago 2. 20. d Job 33. 13. a 36. 23. a 38. 2, 3. a 40. 2, 5, 8. a 42. 2—6. Mat. 20. 15. e Es. 29. 16. a 45. 9—11.

* Mae yr apostol yma fel pe byddai yn cyffrôi yn sanctaidd drwy ei holl enaid wrth feddwl y gallai fod un dyn ar y ddaear mòr rhyfygus a gwneyd y fath wrthddadl gableddus: yn hytrach dylai y cyfryw un ystyried pwy, a pha beth yw ef, i fyned i ddadleu fel hyn yn haerllug yn erbyn Duw. † O ddyn gwael, dirmygedig, diwerth, syrthiedig, euog, annheilwng o ddim daioni gan Dduw, a theilwng o bob drwg ar ei law ef: ac O ddyn yn perchen enaid anfarwol a chynneddfau rhesymol, ac wyt yn gyfrifol i'r Duw mawr, ac megys dim o'i flaen ac yn ei law ef: ‡ pwy wyt ti yr hwn a ddadleui yn erbyn Duw? nid yn erbyn rhesymau Paul, ond yn erbyn tystiolaethau noethion Duw ei hunan, adn. 15, 17. Ac nid dadleu yn ei erbyn ef yn unig, ond hefyd beïo arno, a'i farnu ef; ei farnu yn anffyddlawn, adn. 6; yn anghyfiawn, adn. 14; ac yn greulawn, adn. 19. ‖ A ddywed y pren wrth y saer, yr haiarn wrth y gôf, neu y clai wrth y crochenydd, Paham y'm gwnaethost fel hyn? Na wnant yn sicr; ac eto beiddia llawer priddyn gwael o ddyn llygredig ddadleu a geirio yn erbyn Duw, ei alw ef i gyfrif a beïo arno! Ond gwae a ymrysono a'i Luniwr.

21 [f] * Onid oes awdurdod i'r crochenydd ar y priddgist, i wneuthur o'r un telpyn pridd [g] un llestr i barch, ac arall i ammharch?

f adn. 11, 18. Es. 64. 8. Jer. 18. 3—6. g adn. 22, 23. Jer. 22. 28. Hos. 8. 8. Act. 9. 15. 2 Tim. 2. 20, 21.

* A ganiatêir dim o'r un hawl ac awdurdod i'r Duw mawr ac anfeidrol i drin ei grëaduriaid, ag sydd i'r crochenydd ar y pridd-gist; pan mae efe o'r telpyn pridd yn gwneyd un llestr i barch, ac arall i anmharch? Os caniatêir y peth lleiaf, mae yn rhaid caniatâu y peth mwyaf yn sicr. Mae awdurdod Duw ar ei grëaduriaid yn fwy nac awdurdod y crochenydd ar y pridd-gist: nid y crochenydd a wnaeth y clai, ond Duw a wnaeth y clai a'r crochenydd. Mae efe yn rhŷ ddoeth, yn rhŷ gyfiawn, ac yn rhŷ dda, i wneyd cam âg un dyn yn ei fater, gan hyny paham na chaiff efe awdurdod ben-arglwyddiaethol ar ei holl grëaduriaid?

22 * *Beth* os Duw, [h] yn ewyllysio dangos *ei* ddigofaint, a pheri adnabod ei allu, [i] a oddefodd trwy hir-ymaros [k] † lestri digofaint, wedi eu cymhwyso i golledigaeth:

h adn. 17. pen. 1. 18. a 2. 4, 5. Ex. 9. 16. Salm 90. 11. Diar. 16. 4. Deut. 6. 16, 17. i Num. 14, 11, 18. Salm 50. 21, 22. Preg. 8. 11, 12. Galar. 3. 22. 1 Pedr 3. 20. 2 Pedr 2. 3, 9. a 3. 8, 9, 15. Judas 4. Dat. 6. 9—11. k adn. 21. 1 Thes. 5. 9.

Yma mae yr apostol yn rhoddi ateb sylweddol i'r wrthddadl yn adn. 19. * Bwriwn fod Duw yn gweled yn dda, (megys yn amgylchiad Pharaoh,) mewn trefn i ddangos ei ddigofaint nerthol yn erbyn ei elynion; i ddyoddef eu pechodau hwynt yn amyneddgar ac ymarhôus am hir amser, hyd oni weithredont hwy allan ddrygioni dychrynllyd eu calonau, a chyflawni mesur eu hanwiredd, ac felly ymaddfedu i ddialedd ofnadwy: pa anghyfiawnder a all fod yn hyny? † Gyda chyfeiriad at lestri y crochenydd, yr oeddynt hwy ynddynt eu hunain yn "llestri digofaint;" ac yr oedd eu tueddiadau a'u gweithredoedd drwg hwynt yn eu gwneyd yn gymhwys i golledigaeth. Nid Duw oedd yn eu cymhwyso hwynt i golledigaeth, eithr hwy eu hunain trwy eu pechodau, ac yntau yn ei hir-ymaros yn goddef iddynt gael eu rhwysg. Yr oeddynt hwy yn diystyru golud ei ddaioni a'i hir-ymaros ef, yr oeddynt trwy eu caledrwydd a'u calonau diedifeiriol yn trysori iddynt eu hunain ddigofaint, ac o'r diwedd derbyniasant eu cyfiawn daledigaeth. Mae yma gyfeiriad yn ddiammau at galedwch a dinystr yr Iuddewon.

23 [l] * Ac i beri gwybod golud ei ogoniant ar lestri trugaredd, [m] † y rhai a ragbarottôodd efe i ogoniant?

l pen. 2. 4. a 5. 20, 21. Eph. 1. 6—8. a 2. 4, 7, 10. a 3. 8, 16. Col. 1. 27. 2 Thes. 1. 10—12. m 1 Cron. 29. 18. Luc 1. 17. Eph. 2. 3—5. Col. 1. 12. 2 Thes. 2. 13, 14. 2 Tim. 2. 21. Tit. 3. 3—7. 1 Pedr 1. 2—5.

* O'r tu arall, beth os yw Duw yn ewyllysio peri dangos ei ras, ei gariad, a'i ogoniant, ar eraill o ddynolryw—llestri trugaredd? beth yw hyny i'r lleill? Nid oedd y rhai hyn ddim gwell na'r lleill yn yr un telpyn pridd llygredig, fel mae y geiriau "llestri *trugaredd*" yn arwyddo; ond gwelodd Duw fod yn dda i'w rhag-barotôi hwynt i ogoniant trwy ad-genedliad a sancteiddâol ras, yn gystal ag i'w ogoneddu ef yn weithredol ar y ddaear. Ond a oedd ei gariad ef tuag atynt *hwy* yn arwyddo neu yn dangos rhyw anghyfiawnder tuag at *eraill?* Nag oedd yn sicr ddim. † Dylem sylwi yn fanol ar wahaniaeth yr ymadroddion yn niwedd yr adnod hon, a diwedd yr adnod o'r blaen: yno dywedir fod llestri digofaint "wedi eu cymhwyso i golledigaeth," ni ddywedir mai Duw a'u cymhwysodd hwynt; yr oedd efe yn eu gweled hwynt ynddynt eu hunain yn haeddu digofaint, ac yn gymhwys i golledigaeth. Yma dywedir am lestri trugaredd, mai Duw a'u rhag-barotôdd hwynt i ogoniant. Mae llestri trugaredd a digofaint yn yr adnodau hyn, yn ateb i lestri parch ac anmharch, yn adn. 21; a'r telpyn pridd yno, yn arwyddo holl ddynolryw mewn cyflwr syrthiedig, nid cyn y cwymp.

24 * *Sef* nyni [n] y rhai a alwodd efe, [o] nid o'r Iuddewon yn unig, eithr hefyd o'r Cenhedloedd.

n pen. 8. 28—30. 1 Cor. 1. 9. Heb. 3. 1. 1 Pedr 5. 10. Dat. 19. 9. o pen. 3. 29, 30. a 4. 11, 12. a 10. 12. a 11. 11—13. a 15. 8—16. Gen. 49. 10. Salm 22. 27. Act. 13. 47, 48. a 15. 14. a 21. 17—20. Gal. 3. 28. Eph. 2. 11—13. a 3. 6—8. Col. 3. 11.

* Llestri trugaredd yw yr holl rai a alwodd ac a alwo Duw, nid o'r Iuddewon yn unig, eithr hefyd o'r cenedloedd: yr hyn a ddengys fod dewis ac ethol personau i fywyd tragywyddol allan o'r ddau gorph hyn o bobl, y rhai a etholasai ac a alwasai Duw o'r blaen i freintiau allanol yr efengyl, sef yr Iuddew yn gyntaf, ac wedi hyny y Groegwr. Yma mae yr apostol yn dywedyd yn amlwg pwy oedd *gwir* had Abraham, a phlant yr addewid: sef y rhai a alwodd Duw o bob cenedl, Iuddewon a chenedloedd.

25 * Megis hefyd y mae efe yn dywedyd [p] yn Hosea, [q] Mi a alwaf yr hwn nid yw bobl i mi, yn bobl i mi; a'r hon [r] nid yw anwyl, yn anwyl.

p Hos. 1. 1, 2. q Hos. 2. 23. 1 Pedr 2. 10. r pen. 1. 7. Ezec. 16. 8. Ioan 16. 27.

* Athrawiaeth annerbyniol iawn a thramgwyddus gan yr Iuddewon digred oedd yr athrawiaeth o alwad y cenedloedd, am hyny mae yr apostol yn ei phrofi hi iddynt allan o lyfrau yr Hen Destament: nid oedd efe yn dywedyd dim ond yr hyn a ddywedasai Hosea o'r blaen, (Hos. 1. 8—10; a 2. 21—23.) y byddent *hwy* yn anwyl gan Dduw, fel ei bobl, y rhai nid oeddynt, neu ni buasent unwaith yn anwyl. Rhaid addef, mai prophwydoliaeth am adferiad y deg llwyth, neu etholedigion Duw yn mhlith y deg llwyth, yw y geiriau uchod yn Hosea; ond mae yr apostol trwy ysbrydoliaeth Duw yn eu cymhwyso at alwad y cenedloedd yma; ac mae yn debyg

mai yn ngalwad holl etholedigion Duw o bob cenedl, y cânt eu perffaith gyflawni.

26 [s] * A bydd yn y fangre lle y dywedwyd wrthynt, Nid fy mhobl i *ydych* chwi; [t] † yno y gelwir hwy yn Feibion i'r Duw byw.

s Hos. 1. 9, 10. t pen. 8. 16. Es. 43. 6. Ioan 11. 52. 2 Cor. 6. 18. Gal. 3. 26. 1 Ioan 3. 1—3.

* Mae y geiriau hyn wedi eu cymmeryd o Hos. 1. 10. Mae y dyddiau yn dyfod y bydd pobl i Dduw yn y gwledydd a'r mànau lle na buasai dim pobl iddo ef am oesoedd lawer: ïe, mewn llawer mangre, ardal, a theulu, mwyaf nodedig am annuwioldeb a phaganiaeth, lle yr oedd Duw megys yn dywedyd yn amlwg, Nid fy mhobl I ydych chwi; yno, ïe hyd yn nôd *yno*, y gelwir hwy yn feibion i'r Duw byw. † Hwy a ddygir i nifer gwir blant Duw; hwy a elwir i ffydd a chymdeithas yr efengyl; hwy a dderbynir i gyfranogiad o freintiau plant y mabwysiad; ni bydd cywilydd gan Dduw ei alw yn Dduw iddynt hwy; a thrwy ryfeddol oludoedd ei ras ef, hwy a dderbynir i'w deulu ef.

27 [u] * Hefyd y mae Esaias † yn llefain am yr Israel, [x] ‡ Cyd byddai nifer meibion Israel fel tywod y môr, [y] || gweddill a achubir.

u Es. 1. 1. x Gwel ar Es. 10. 20—23. y pen. 11. 4—6. Ezra 9. 8, 14. Es. 1. 9. a 10. 20, 21. a 11. 11. a 24. 13. Jer. 5. 10. Ezec. 6. 8. Mica 5. 3—8.

* Fel pe dywedasai Paul, Mae yn amlwg oddi wrth Esaias y prophwyd hefyd, y gwrthodai Duw y rhan fwyaf o'r Iuddewon am eu hanghrediniaeth, ac nas achubai efe ond gweddill, rhyw ychydig o honynt. † Mae hyn yn dangos gwasgfa enaid y prophwyd, wrth ragweled anghrediniaeth, gwrthodiad, a dinystr ei gydgenedl: ac hefyd ei awyddfryd sanctaidd am iddynt hwy glywed y gwirionedd hwn, er argyhoeddi a dychrynu rhai, ac er annog a chalonogi eraill i droi at Dduw. ‡ Mae y geiriau hyn yn Es. 10. 22: felly yr oedd addewid Duw i Abraham, (Gen. 22. 17; a 32. 12,) y byddai ei had ef fel tywod y môr; || eto nid oedd ond gweddill o honynt i gael eu hachub. "Gweddill a ddychwel" yw y geiriau yn Esaiah: mae yr Arglwydd yn dychwel pawb mae yn achub, a thrwy eu dychwel mae yn eu hachub. Mae yma ddewis, neu ethol, yn ddigon amlwg; nid dewis un genedl rhagor cenedloedd eraill, i freintiau allanol; ond dewis *personau* o'r genedl etholedig hòno, i iachawdwriaeth a bywyd tragywyddol.

28 * Canys *efe* a orphen [z] ac a gwttoga y gwaith [a] mewn cyfiawnder: oblegid bŷr waith a wna yr Arglwydd ar y ddaear.

z Es. 28. 22. a 30. 12—14. Dan. 9. 26, 27. Mat. 24. 21, 22. a Salm 9. 8. a 65. 5. Es. 5. 16. Act. 17. 31. Dat. 19. 11.

Mae y geiriau hyn eto wedi eu cymmeryd allan o Es. 10. 22, 23; sef allan o gyfieithiad Groeg y Deg a Thriugain, yr hwn oedd wedi bod mewn arferiad y pryd hwnw er ys tua *thri chant* o flynyddoedd. Dywedir ei fod yn bur wahanol i'r Hebraeg yn y fàn hon, mewn geiriau, ond nid mewn synwyr: ac yr oedd yn briodol iawn i'r apostol ei ddefnyddio yn hytrach na'r Hebraeg yn yr epistol hwn, oblegid mai y cyfieithiad hwn a ddefnyddid gan y rhai yr oedd efe yn ysgrifenu atynt. * "Y gwaith," neu y cyfrif, yn ol cyfieithiad y 70: y gwaith oedd achub y gweddill o'r Iuddewon rhag dinystr gan yr Assyriaid, ac eilwaith gan Rezin a Pekah; a'r gweddill hyny yn cael eu hystyried fel yn gysgodol o etholedigion Duw yn mhlith yr Iuddewon, y rhai a achubid âg iachawdwriaeth dragywyddol trwy ffydd yn Nghrist, dàn oruchwyliaeth yr efengyl: felly mae yr apostol yn ystyried y geiriau hyn, megys yn cael cyflawniad chwanegol yn nyddiau yr efengyl; yn nistryw yr Iuddewon gan y Rhufeiniaid, ac achubiaeth y gweddill crediniol o honynt rhag y distryw hwnw, ac i fywyd tragywyddol. Fel hyn yr oedd dau beth gan yr Arglwydd yn ei "waith;" distrywio ei elynion, ac achub ei bobl, yn ol y cyfrif a wnaethai efe yn ei arfaeth a'i gyngor tragywyddol. Ac yr oedd i wneyd pob un o'r ddau beth yn orphenol, yn gyfiawn, ac yn fŷr: sef trwy gymmeryd bŷr gyfrif o'i bobl ei hun, a thraddodi y lleill i ddinystyr cyfiawn a therfynol trwy yr holl dir.

29 * Ac megis y dywedodd Esaias † yn y blaen, [b] Oni buasai i Arglwydd y [c] ‡ Sabbaoth adael i ni had, [d] || megis Sodoma y buasem, a gwnaethid ni yn gyffelyb i Gomorra.

b Es. 1. 9. a 6. 13. Galar. 3. 22. c Iago 5. 4. d Gen. 19. 24. Es. 13. 19. Jer. 49. 19. a 50. 40. Galar. 4. 6. Amos 4. 11. Zeph. 2. 6. 2 Pedr 2. 6. Judas 7.

* Cymmerwyd y geiriau hyn o Es. 1. 9. † Sef o flaen y geiriau a grybwyllwyd uchod, (adn. 28,) allan o Es. 10. 22, 23. ‡ "Sabbaoth:" y gair Hebraeg am luoedd: Arglwydd y lluoedd ydyw yn Esaiah. Mae y gair Hebraeg, meddant, yn arwyddo lluoedd wedi eu gosod mewn trefn filwraidd, dan awdurdod rhyw benmilwr mawr: felly mae holl grëaduriaid Duw, trwy y ddaear, yr wybrenau, a'r holl nefoedd; ei luoedd ef ydynt, dàn ei lywodraeth ef, ac yn barod i wneuthur ei air ef, pa un bynag ai i ddïal ar ei elynion, ai i amddiffyn ei bobl ef. || Oni buasai yr "had," yr "ychydig iawn weddill," (Esa. 1. 9,) oedd gan Dduw yn mhlith yr Iuddewon yn amser Esaiah, ac yn eu dinystr diweddaf hefyd, buasai yr holl genedl yn cael ei llwyr ddistrywio, heb adael yr un o honynt, fel y distrywiodd Duw Sodom a Gomorra. Yr ychydig had sydd gan Dduw yn y byd eto, yw yr achos fod y byd heb ei ddistrywio: pan gymmero efe ei "had" allan o hóno i'r nefoedd, buan y rhydd efe y byd ar dân.

30 [e] * Beth gan hynny a ddywedwn? † Bod [f] y Cenhedloedd, [g] y rhai nid oeddynt yn dilyn cyfiawnder, wedi derbyn cyfiawnder, [h] ‡ sef y cyfiawnder sydd o ffydd:

e Gwel ar adn. 14. pen. 3. 5. f pen. 1. 18—32. a 10. 20. Es. 65. 1, 2. 1 Cor. 6. 9—11. Eph 2. 12. a 4. 17—19. 1 Pedr 4. 3. g adn. 31. Diar. 15. 9. a 21. 21. Es. 51. 1. 1 Tim. 6. 11. h pen. 1. 17. a 3. 22. a 4. 9, 11, 13, 22. a 5. 1. a 10. 10. Gal. 3. 8. a 5. 5. Phil. 3. 9. Heb. 11. 7.

Dyma ddiwedd-glo ymadrodd yr apostol, yn nghylch etholiad rhai a gwrthodiad eraill o ddynolryw, ac hefyd yn nghylch galwad y cenedloedd a gwrthodiad yr Iuddewon. * Beth gan hyny a ddywedwn ni yn chwaneg i brofi rhadlondeb gras Duw, ac i ddangos ei fod ef yn berffaith gyfiawn yn ei ddosparthiad o ddedwyddwch a thrueni; ac i adael y pechadur gwrthodedig yn ddïesgus? † Yn sicr nid oes achos dywedyd chwaneg na hyn; bod y cenedloedd tywyll a thlodion, y rhai nid oeddynt unwaith yn meddwl dim am gyfiawnder, yn hytrach na'i geisio yr oeddynt yn ffoi oddi wrtho, ac "wedi eu llenwi â phob anghyfiawnder;" bod llawer iawn o'r rhai hyny, megys yn sydyn ac ar unwaith, dàn deimlad o'u heuogrwydd a'u colledigaeth, a thàn ddylanwadau nerthol Ysbryd Duw, wedi derbyn cyfiawnder, ‡ sef cyfiawnder Crist, yr hwn a ddatguddir yn yr efengyl, megys gwrthddrych ffydd, ac a dderbynir trwy ffydd. Mae hyn yn dangos bod eu hiachawdwriaeth hwy yn hollawl o ras; oblegid fel nad oedd cysgod o haeddiant ynddynt hwy, felly yr ydoedd o ffydd, fel y byddai yn ol gras.

31 * Ac Israel, [i] † yr hwn oedd yn dilyn deddf cyfiawnder, [k] ‡ ni chyrhaeddodd ddeddf cyfiawnder.

i adn. 30, 32. pen. 10. 2—4. Gal. 3. 21. Phil. 3. 6. k pen. 3. 20. a 4. 14, 15. a 11. 7. Gal. 3. 10, 11. a 5. 3, 4. Iago 2. 10, 11.

* Ond, i'r gwrthwyneb, y rhan fwyaf o had naturiol Jacob, yr Iuddewon anghrediniol, † y rhai gyda digonedd o *zel* heb wybodaeth, (pen. 10. 2,) oeddynt yn dilyn ac yn ceisio cyfiawnder trwy eu hufudd-dod eu hunain i ddeddf Moses; ‡ syrthiodd y rhai hyn yn fŷr o'u hamcan yn hyny; ni chyrhaeddasant ddeddf cyfiawnder, neu gyfiawnder y ddeddf: methasant a chadw y ddeddf yn berffaith, am hyny methasant gyrhaedd y cyfiawnder oedd y ddeddf yn ei ofyn, ac oedd yn angenrheidiol i'w cymmeradwyo hwy ger bron Duw i fywyd tragywyddol.

32 * Paham? [l] † Am nad *oeddynt yn ei cheisio* trwy ffydd, ond megis trwy weithred-

oedd y ddeddf: [m] ‡ canys hwy a dramgwyddasant wrth y maen tramgwydd;

1 pen. 4. 16. a 10. 3. Mat. 19. 16—20. Ioan 6. 27—29. Act. 16. 30—34. 1 Ioan 5. 9—12. m pen. 11. 11. Mat. 13. 57. Luc 2. 34. a 7. 23. 1 Cor. 1. 23.

* Paham y methasant hwy a chyrhaedd deddf cyfiawnder, neu y cyfryw gyfiawnder ag oedd deddf Duw yn ofyn? Ai o herwydd arfaeth Duw yn unig y methasant? Neu a wrthododd efe eu derbyn hwy yn yr un ffordd ag yr oedd y cenedloedd yn cael eu cyfiawnâu? † Nid felly mewn un modd; ond yr oeddynt hwy yn gwrthod ceisio y fendith "trwy ffydd," fel *rhodd heb ei haeddu;* ac yn dàl i'w gofyn hi "trwy y ddeddf," fel peth a chanddynt *hawl gyfiawn* iddi. Fel hyn yr oeddynt yn gofyn y fendith trwy y ddeddf hòno oedd yn cyhoeddi melltith arnynt; ac yn gwrthod ymddiriedi yn yr hwn a gyfodasai Duw i'w bendithio. Yn fŷr, yr oeddynt yn ceisio cyfiawnder mewn ffordd anmhosibl i un dyn syrthiedig ei gael. ‡ Hyny yw, Crist, y gwir Fessiah: cyn belled oddi wrth geisio cyfiawnder trwyddo ef, yr oeddynt i'r gwrthwyneb yn tramgwyddo wrtho, i'w dinystr eu hunain. Yr oedd yr Iuddewon digred yn ei wrthod yn *hollawl;* a llawer o'r cristionogion Iuddewaidd, ni fynent ymwrthod yn *gwbl* â'u gweithredoedd deddfol eu hunain, ac ymddiriedi i Grist yn *unig* am gyfiawnder.

33 * Megis y mae yn ysgrifenedig, [n] Wele fi yn gosod yn Sion ‡ faen tramgwydd, a chraig rhwystr: [o] a phob un a gredo ynddo, ni chywilyddir.

n Salm 118. 22. Es. 8. 14, 15. a 28. 16. Mat. 21. 42, 44. 1 Pedr 2. 7, 8. o pen. 5. 5. a 10. 11. Salm 25. 2, 3, 20. Es. 45. 17, 26. a 54. 4. Joel 2. 26, 27. Phil. 1. 20. 2 Tim. 1. 12. 1 Ioan 2. 28.

* Gwel yn Es. 8. 14; a 28. 16: nid oedd y tramgwyddo hyn hefyd ond peth y rhag-ddywedasai Esaiah am dano er ys oesoedd yn ol. † Hyny yw, Wele fi yn gosod y Messiah yn unig sylfaen fy eglwys, fel yr adeilader hi arno ef: myfi a'i profais ef, ac a'i cefais yn mhob peth yn gymmeradwy ac wrth fy modd: efe a brofwyd hefyd gan y rhai a gredasant ynddo, ac mae yn urddas ac yn anwyl iawn ganddynt hwy; fel un addas a chymhwys yn mhob ystyr, megys congl-faen, i uno Iuddewon a chenedloedd ynddo ef, ac i gynnal pawb a ymddiriedo ynddo, fel eu nerth, eu harddwch, a'u diogelwch byth. Sylfaen arall nis gall neb ei gosod, heblaw yr un a osodwyd, yr hon yw Crist Iesu. ‡ Ond fel y dywedodd y prophwyd mewn lle arall, (Es. 8. 14, 15,) bydd y maen gwerthfawr hwn, yr hwn a fwriadwyd ac a addaswyd i'r dyben rhagorol uchod, trwy falchder calonau a rhagfarn yr Iuddewon, droi allan yn faen tramgwydd ac yn graig rhwystr i laweroedd o honynt. Yn lle gwneyd iawn ddefnydd o hôno, i adeiladu eu hiachawdwriaeth trwy ffydd arno, hwy a dramgwyddant wrtho, a'i gwrthwynebant ac a'i gwrthodant ef, trwy eu cyndynrwydd a'u hanghrediniaeth eu hunain. Fel hyn hwy a syrthiant yn y fath fodd ofnadwy, fel y drylliant eu hunain yn chwilfriw, i'w gwarth a'u dystryw tragywyddol; fel dynion yn eu harcholli eu hunain i farwolaeth trwy redeg yn gynddeiriog yn erbyn craig. § Ac eto, nid â bwriad na gwaith Duw yn gosod y maen hwn yn Sion yn ofer; e ddaw llawer i gredu ac i ymddiriedi ynddo; a phwy bynag a gredo ynddo, Iuddew neu genedl-ddyn, pechadur mawr neu fychan, gan ymwrthod â phob hyder ynddo ei hun, ac ymddiriedi yn hollawl ar Grist, am gyfiawnder i fywyd tragywyddol; ni chywilyddir ef am ei obaith a'i ymddiriedi ynddo, am ei broffes o hôno, a'i ddysgwyliadau wrtho: na wnair byth; bydd yn ddiogel yn y farn a ddaw.

PEN. X.

Cyfiawnder y gyfraith a chyfiawnder y ffydd.

* O FRODYR, [a] gwir ewyllys fy nghalon, a'm gweddi ar Dduw dros yr Israel, † sydd er iachawdwriaeth.

a pen. 9. 1—3. Ex. 32. 10—13. 1 Sam. 12. 23. a 15. 11, 35. a 16. 1. Jer. 17. 16. a 18. 20. Luc 13. 34. Ioan 5. 34. 1 Cor. 9. 20—22.

* O frodyr, wedi y cwbl a ddywedais I, mewn cyfiawniad ffyddlawn o'm swydd fel apostol, yn nghylch gwrthodiad llawer o'm cyd-genedl yn ol y cnawd, gallaf ardystio er hyny o hyd, megys y gwnaethum yn ddifrifol eisoes, (pen. 9. 1, 2, 3,) mai dymuniad penaf fy nghalon, a'm gweddi daeraf ar Dduw bob amser dros yr Israel, sydd er iachawdwriaeth: † os ydyw yn unol â'i ewyllys ef, iddo weled bod yn dda i estyn ei drugaredd achubol i bob un o honynt, i'w troi hwynt oddi wrth eu hanwireddau, a rhoddi iddynt ffydd yn Nghrist er eu hiachawdwriaeth bresenol a thragywyddol, yn lle tywallt ei gyfiawn ddialedd arnynt, i'w llwyr ddinystrio am eu pechodau a'u gwrthodiad o'r Messiah.

2 [b] * Canys yr wyf fi yn dyst iddynt, [c] † fod ganddynt zêl Duw, [d] ‡ eithr nid ar ol gwybodaeth.

b 2 Cor. 8. 3. Gal. 4. 15. Col. 4. 13. c 2 Bren. 10. 16. Ioan 16. 2. Act. 21. 20, 28. a 22. 3, 22. a 26. 9, 10. Gal. 1. 14. a 4. 17, 18. Phil. 3. 6. d adn. 3. pen. 9. 32. Salm 14. 4. Diar. 19. 2. Es. 27. 11. 2 Cor. 4. 4, 6. Phil. 1. 9.

* Er cymmaint gelynion i mi ydynt, ac er mòr erlidgar yr ymddygasant ataf lawer gwaith; rhaid i mi dystio hyn am danynt, † fod llawer iawn o honynt hwy yn eu ffordd, yn dra gwresog dros Dduw a'i ddeddf; yn enwedig dros y ddeddf seremoniol, fel y bûm I fy hun gynt; (Act. 22. 3.) ac fel y dywedais I ychydig yn ol, (pen. 9. 31,) maent hwy yn dilyn cyfiawnder mewn gweithredoedd o ufudd-dod i'r ddeddf hòno, y gwyddant iddi ddyfod yn y dechreuad oddi wrth Dduw, ac maent hwy yn tybied eu bod o hyd yn ei chadw i'w ogoniant ef. ‡ Ond ow! maent hwy yn dra annwybodus yn eu zêl a'u gwresowgrwydd; gwresowgrwydd i gyd yw, heb ddim goleuni am wir natur a dyben y ddeddf, ac am y cyfiawnder sydd yn angenrheidiol i'w cymmeradwyo hwy ger bron Duw: a thrwy eu rhagfarn ddall yn erbyn Crist a'i gyfiawnder ef, mae hyd yn nôd eu *zel* hwynt eu hunain yn eu troi hwy ymaith oddi wrtho ef, ac oddi wrth yr unig ffordd a drefnodd Duw er iachawdwriaeth dynion, ac i'w ogoneddu ei hun wrth ei rhoddi hi.

3 * Canys hwynt hwy, † heb wybod [e] cyfiawnder Duw, [f] ‡ ac yn ceisio gosod eu cyfiawnder eu hunain, || nid [g] ymostyngasant i gyfiawnder Duw.

e pen. 1. 17. a 3. 22, 26. a 5. 19. a 9. 30. Salm 71. 15, 16, 19. Es. 51. 6, 8. a 56. 1. Jer. 23. 5, 6. Dan. 9. 24. Ioan 16. 9, 10. 2 Cor. 5. 21. 2 Pedr 1. 1. f pen. 9. 31, 32. Es. 57. 12. a 64. 6. Luc 10. 29. a 16. 15. a 18. 9—12. Gal. 5. 3, 4. Dat. 3. 17, 18. g Lef. 26. 41. Neh. 9. 33. Job 33. 27. Galar. 3. 22. Dan. 9. 6—9. Luc 15. 17—21.

* Sef yr Israel, adn. 1. † Heb wybod cyfiawnder hanfodol, neu gyfiawnder natur Duw, heb wybod cyfiawnder ei gyfraith ef, na'r cyfiawnder perffaith a dibechod oedd yn ofyn, heb wybod cyfiawnder y felltith a'r gosp oedd hi yn fygwth am y troseddiad lleiaf o hôni, ac heb wybod y ffordd a drefnodd Duw i gyfiawnâu pechadur trwy ffydd heb weithredoedd y ddeddf. Nid o ddiffyg moddion gwybodaeth yr oedd yr Iuddewon heb wybod y pethau uchod; yr oedd gair Duw ganddynt, yn dangos ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd hanfodol ef; yr oedd y ddeddf foesol ganddynt, yn dangos y cyfiawnder oedd efe yn ofyn; yr oedd y ddeddf seremoniol ganddynt, yn dangos trwy gysgodau gyfiawnder Crist, heblaw athrawiaeth y prophwydi, a Christ ei hun a'i apostolion hefyd gan yr Iuddewon oedd yn byw yn amser Paul: ond yr achos o'u hannwybodaeth hwy oedd, balchder a deddfoldeb eu calon, eu rhagfarn gref yn erbyn Crist a'i athrawiaeth, cam arweiniad eu "tywysogion deillion," eu dysgawdwyr cyfeiliornus ac arwynebol, a'r dallineb barnol y rhoddasid hwy o'r diwedd i fynu iddo, pen. 11. 8. ‡ O herwydd yr annwybodaeth hon, yr oeddynt yn ceisio gosod i fynu eu cyfiawnder eu hunain; fel dyn yn ceisio dàl ei dŷ i fynu trwy attegion pan mae ei sylfaen yn ddrwg, yn lle ei dynu i lawr a'i adeiladu ar sylfaen well. Ceisio yn

ddichellgar yw ystyr y gair, mewn gelyniaeth a llid tuag
t Grist, a threfn Duw o gyfiawnâu. Ceisio trwy gadw
r ddeddf foesol yn oreu y gallent yn allanol, yna trwy
yflawniadau y ddeddf seremonïol i wneyd i fynu am
vallau yn wyneb y foesol; ac yn olaf, ceisio trwy gyf-
awniadau traddodiadol a choel-grefyddol, i wneyd i
ynu y cyfan: ac wedi y cwbl, "eu cyfiawnder eu hun-
in" oedd, bratiau budron diles; yr oedd y sylfaen yn
ddrwg, y tŷ yn syrthio, a hwythau yn golledig byth yn
r adfeiliau. ‖ Fel hyn yr oeddynt yn gyndyn a beilch-
on; nid ymostyngasant i gyfiawnder Duw: nid ymos-
yngasant i feddwl bod deddf Duw mòr ysbrydol, mòr
anol, nac yn gofyn manylach cyfiawnder nag a fedrent
wy gyflawni; nid ymostyngasant i addef bod yn gyf-
awn i Dduw eu gwrthod a'u cospi, am eu cyfiawnder
nmherffaith eu hunain, ac am wrthod ei Fab ef a'i
yfiawnder; ac nid ymostyngasant i geisio a derbyn
yfiawnder Iesu trwy ffydd i fywyd tragywyddol. † 'Ni
ynent ddyfod ato ef fel y caffent fywyd.'

4 [h] * Canys Crist yw diwedd y ddeddf, † er
yfiawnder i bob un a'r y sydd yn credu.

h pen. 3. 25—31. a 8. 3, 4. Es. 53. 11. Mat. 3. 15. a 5. 17, 18. oan 1. 17. Act. 13. 38, 39. 1 Cor. 1. 30. Gal. 3. 24. Col. 2. 10, 17. Heb. 9. 7—14. a 10. 8—12.

* Nid gwiw i neb dynion geisio gosod eu cyfiawnder
eu hunain, oblegid, neu canys, Crist yn unig yw diwedd
ddeddf, i ateb iddi yn gyflawn yn mhob peth, ac nid
es neb arall a all hyny ond efe. Mae efe yn ddiwedd
yflawniadol, perffeithiol, y ddeddf foesol, yr hon sydd
n dywedyd, "Y dyn a wnel y pethau hyny, a fydd byw
rwyddynt;" mae efe wedi myned trwy, a chyflawni ei
holl ofynion hi o ufudd-dod, yn gystal a dyoddefiadau,
n ei fywyd a'i angau, er boddlonrwydd hollawl i gyf-
awnder Duw. Mae efe hefyd yn ddiwedd diddymol y
ddeddf seremonïol, a chwedi rhoddi terfyn arni, gan fod
i holl offrymau cysgodol hi, er puredigaeth ac iawn,
wedi eu hateb yn gyflawn ac yn sylweddol ynddo ef.
ac efe yw y dyben a'r diwedd mawr, i ba un y rhodd-
yyd y deddfau hyn i Israel; gan fod y ddeddf foesol,
rwy ddangos euogrwydd a pherygl, a'r ddeddf seremon-
ol, trwy gysgodi ei aberth mawr ef, wedi cael eu bwr-
adu i ddangos iddynt eu hangen o Grist, ac i'w cyfar-
wyddo a'u tueddu i ffoi ato ef am faddeuant a chym-
eradwyaeth. Tybia yr enwog *Parkhurst*, fod y gair
Telos, a gyfieithir yma, "diwedd," yn deilliaw o air
Hebraeg sydd yn arwyddo *dyhysbyddu*, *pallu*, neu o air
Hebraeg arall sydd yn arwyddo *peidio*, *gadael heibio*:
felly mae Crist wedi ateb i'r ddeddf foesol mewn
ufudd-dod a dyoddef, nes ei *dyhysbyddu*, gan nad oedd
anddi ddim ychwaneg i ofyn ganddo nac i'w roddi
rno: a chwedi ateb i gysgodau y ddeddf seremonïol
aes rhoddi *paid* am byth arnynt, heb ddim achos am
anynt mwyach. † Yn yr ystyriaethau uchod, mae efe
n ddiwedd y ddeddf, er cyfiawnder perffaith tragywydd-
ol i bawb a gredant ynddo: nid i bawb o'r Iuddewon,
aac i bawb o'r cenedloedd; ond i bawb a gredant, o Iu-
dewon a chenedloedd: pawb teimladwy o'u hannheil-
ngdod, a'u haeddedigaeth o ddigofaint Duw, a ymddir-
edant yn Nghrist fel yr unig Waredwr addas, holl-ddi-
gonol, a grasol, trwy gyfiawnder yr hwn yn unig y
allant gael eu cymmeradwyo gan Dduw, a'u cyfrif yn
yfiawn i fywyd tragywyddol. Ac mae yn anmhosibl i
neb fod felly trwy unrhyw gyflawniadau deddfol pa
ynag.

5 * Canys y mae Moses yn ysgrifenu † *am*
y cyfiawnder sydd o'r ddeddf, [i] ‡ Mai y dyn a
wnel y pethau hynny, a fydd byw trwyddynt.

i Lef. 18. 5. Neh. 9. 29. Ezec. 20. 11 13 21. Luc 10. 27 28. Gal. 3. 12.

* "Moses yn ysgrifenu:" *(graphei)* yn dysgrifio, neu
n darlunio mewn ysgrifen, yn Lefit. 18. 5. † Y cyf-
awnder sydd yn ol trefn y cyfammod gweithredoedd,
r hwn yr oedd yr Iuddewon "yn ceisio ei osod,"
adn. 3,) gan wrthod ymostwng i gyfiawnder Crist.
‡ Y dyn a wnel y pethau hyny yn berffaith, yn wyneb
pob gorchymyn o'r ddeddf, a hyny yn wastadol, heb y
coll lleiaf mewn un pwnc, o ddechreu hyd ddiwedd ei
einioes, a fydd byw: ac yn ol telerau yr un ddeddf, neu
yr un cyfammod, "melltigedig yw pob un nid yw yn
aros yn yr holl bethau a ysgrifenir yn llyfr y ddeddf,
i'w gwneuthur hwynt." Deut. 27. 26; Galat. 3. 10. Caled
yw yr ymadrodd hwn, pwy a ddichon wrando arno? mae
yn cauad pawb allan o'r nefoedd, ac yn troi pawb i
uffern: mae yn tòri pechaduriaid ymaith oddi wrth bob
gobaith yn y ffordd hon, oblegid ei fod yn gosod ammod-
dau anmhosibl i ddyn syrthiedig byth eu cyflawni. Yn
nghyfammod Sinai, nid oedd dim darpariaeth o faddeu-
ant o un pechod a wnai dyn yn wirfoddol ac yn ddrygion-
yn ei erbyn, ac felly yr oedd mewn gwirionedd yn gyf-
ammod gweithredoedd; er bod goruchwyliaeth Moses
yn cynnwys rhyw ddangosiad pellach o'r cyfammod
gras yr hwn a wnaethid âg Abraham, ac ydoedd beth
hollawl wahanol oddi wrth y ddeddf. Ac mae yr apos-
tol yn adeiladu cymmaint ar y syniadau hyn, yma ac
mewn mànau eraill, fel y mae yn beth o bwys eu
gwneyd hwy yn gydnabyddus i'r meddwl, ac i olrhain y
dystiolaeth a'r amlygiad o honynt yn ysgrifeniadau
Moses. Eiddo *Doddridge* yw y sylwad diweddaf
uchod.

6 [k] * Eithr y mae y cyfiawnder sydd o
ffydd yn dywedyd fel hyn; [l] † Na ddywed yn
dy galon, Pwy a esgyn i'r nef? (hynny yw,
[m] ‡ dwyn Crist i waered *oddi uchod*)

k pen. 3. 22, 25. a 4. 13. a 9. 31, 32. Phil. 3. 9. Heb. 11. 7. l Deut. 30. 11—13. Diar. 30. 4. m Ioan 3. 12, 13. a 6. 33, 38, 50, 51, 58. Eph. 4. 8—10. Heb. 1. 3.

* Eithr mae y cyfiawnder sydd o ffydd, neu, athraw-
iaeth yr efengyl am drefn Duw yn cyfiawnâu pechad-
ur trwy ffydd, yn dywedyd yn wahanol iawn i'r geiriau
uchod o'r blaen, sef fel hyn:—† Na ddigaloned neb o
honoch am gyfiawnder a chymmeradwyaeth gyda Duw,
fel mae yn dueddol i ddynion dàn argyhoeddiad
wneyd, pan welont na thâl eu cyfiawnderau eu hunain
ddim: na ddyweded neb mewn modd annobeithiol, Pwy
a ddichon ddringo i'r nef, i ddwyn Crist y Gwaredwr i
lawr oddi yno, i'n dysgu ni am gyfiawnder, i gyflawni
y gyfraith drosom, ac i wneyd iawn dros ein pechodau
ni? oblegid mae Crist eisoes wedi dyfod yn ein natur
ni, ac i'n byd ni, i dynu ymaith bechod trwy ei aberthu
ei hun. Mae y geiriau uchod, a rhanau o'r ddwy ad-
nod nesaf, yn Deut. 30. 11—14: yr oedd Moses yn eu
dywedyd am eglurdeb y gyfraith, ei bod yn hawdd i'r
bobl ei deall; ond y mae Paul yma trwy ysbrydoliaeth
Duw, yn eu defnyddio am gyflawnder, darpariaeth
barod, ac eglurdeb yr efengyl; a thybir hefyd, fod
Moses yn eu llefaru, gyda golwg yn y pen draw, ar
athrawiaeth yr efengyl, a dyddiau yr efengyl. Gwel
Deut. 30. 1—6. ‡ Agoriad yr apostol ar eiriau Moses
ydyw hyn: a thra yr oedd yr Iuddewon yn dywedyd fel
hyn, yr oeddynt mewn effaith yn gwadu fod Crist wedi
dyfod eisoes yn y cnawd.

7 * Neu, pwy a ddisgyn i'r dyfnder?
(† hynny yw, [n] dwyn Crist drachefn i fynu
oddi wrth y meirw)

n pen. 4. 25. Heb. 13. 20. 1 Pedr 3. 18, 22. Dat. 1. 18.

* Ac nid oes achos i neb ymholi, Pwy a ddisgyn i'r
bedd, neu i le yr ysbrydoedd a ymadawsant, i ddwyn y
Gwaredwr croeshoeliedig oddi wrth y meirw? oblegid
mae hyny hefyd wedi ei wneyd, a Christ wedi ei dder-
chafu ar ddeheu-law y Tad, i gyfranu y fendith i bawb
a'i ceisiont ganddo ef trwy wir ffydd. "Pwy a dram-
wya drosom ni, i'r tu hwnt i'r môr?" yw y geiriau yn
Deut. 30. 13; ac y mae Targum Jerusalem yn eu heg-
luro fel hyn:—"O na byddai genym ni un, fel y proph-
phwyd Jonas, yr hwn a âi i lawr i'r dyfnder, neu i
waelod y môr!" Yn awr, yr oedd Jonas yn ei ddisgyn-
iad i'r dyfnder yn gysgod o Grist yn *gorwedd dri diwr-
nod a thair nos yn nghalon y ddaear*, megys y dywedodd
ein Harglwydd ei hun. Matth. 12. 40. A chan fod y

môr yn cael ei alw yn *orddyfnder*, â *dyfnder*, Salm 104. 6; a 107. 24, 26; felly mae Dafydd, pan yn prophwydo am Grist, yn dywedyd, (Salm 71. 20,) y *cyfodai* Duw *ef drachefn o orddyfnder y ddaear.* † Agoriad Paul ar eiriau Moses eto ydyw hyn; a thra yr oedd yr Iuddewon yn dywedyd fel hyn, yr oeddynt mewn effaith yn gwadu marwolaeth ac adgyfodiad Crist. Meddwl y cwbl yw, nad yw yr athrawiaeth o gyfiawnâd trwy ffydd ddim yn gosod ammodau mòr anhawdd ac anmhosibl o flaen dynion, â'r athrawiaeth o gyfiawnâd trwy weithredoedd.

8 * Eithr pa beth y mae efe yn ei ddywedyd? [o] † Mae y gair yn agos attat, ‡ yn dy enau, ‖ ac yn dy galon: § hwn yw [p] gair y ffydd, yr hwn yr ydym ni yn ei bregethu;

o Deut. 30. 14. p adn. 17. pen. 1. 16, 17. Es. 57. 19. Marc 16. 15, 16. Act. 10. 43. a 13. 38, 39. a 16. 31. Gal. 3. 2, 5. 1 Tim. 4. 6. 1 Pedr 1. 23, 25.

* Ond pa beth yw iaith yr efengyl ar y mater pwysfawr hwn? Mae yr apostol yn dwyn ei atebiad eto o eiriau Moses, y deddfwr Iuddewig. (Deut. 30. 11, 14.) † Hyn yw yr atebiad:—Wele, yr efengyl, yr hon sydd yn datguddio ac yn egluro cyfiawnder Crist idd eich ffydd chwi, nid yw mwyach yn guddiedig oddi wrthych; ac nid yw bell oddi wrthych. Mae cyfiawnder ffydd yn awr yn cael ei ddatguddio yn eglur i chwi yn yr efengyl, mae wedi cael ei ddwyn yn agos atoch, hyd yn nôd at eich drysau yn y weinidogaeth, fel y derbynioch chwi ef. Nid oes achos teithio i wledydd pell am yr wybodaeth o hóno fel brenines Seba, ac fel y gwnai llawer o'r philosophyddion paganaidd yn aml, i ymofyn am wybodaeth anianol. ‡ Mae mòr agos fel y mae yn eich genau pan ddarllenoch ef, a phan grybwylloch ef mewn ymddyddanion, gweddïau, a mawl. ‖ Ie, mae yn agosach na hyny eto i lawer o honoch, ac a ddylai fod i bawb; mae yn eich calonau, ac yn gwneyd argraff effeithiol yno, pan yr ydych chwi yn ei dderbyn yn wirioneddol, trwy gymhwysiad yr Ysbryd Glân o hóno. § A'r athrawiaeth nefol hon, yr hon sydd wedi ei sylfaenu ar air ac awdurdod Duw, ac sydd yn dàl Crist allan fel gwrthddrych ffydd, ac sydd yn foddion i genedlu ffydd ynddo ef; hwn yw y gair yr ydym ni ei apostolion a'i weision ef yn ei egluro, yn ei bregethu, yn ei gynnyg, ac yn ei ganmol i chwi, fel ffordd hawdd ac esmwyth o iachawdwriaeth, trwy y gras a addawodd o *enwaedu y galon.* (Deut. 30. 6.)

9 [q] * Mai os cyffesi â'th enau yr Arglwydd Iesu, [r] † a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, ‡ cadwedig fyddi.

q pen. 14. 11. Mat. 10. 32, 33. Luc 12. 8. Ioan 9. 22. a 12. 42, 43. Phil. 2. 11. 1 Ioan 4. 2, 3. 2 Ioan 7. r pen. 8. 34. Ioan 6. 69—71. a 20. 26—29. Act. 8. 37. 1 Cor. 15. 14—18. 1 Pedr 1. 21.

* Yn fŷr, dyma swm y gwirionedd, swm ein gweinidogaeth ni, a swm yr hyn oll sydd angenrheidiol i gyfiawnder ac iachawdwriaeth; pob un a broffeso â'i enau ffydd yn yr Arglwydd Iesu, fel Arglwydd a Gwaredwr pechaduriaid colledig, † ac a gredo yn wirioneddol yn ei galon, ddarfod i Dduw ei gyfodi ef oddi wrth y meirw, fel prawf a thystiolaeth ei fod wedi cymmeradwyo ei iawn ef; ‡ efe a gedwir yn sicr, trwy gyfiawnder Crist yn gyfrifedig iddo trwy ffydd. Nid peth bychan yw *proffesu* Crist *â'r genau*, yn mhob tywydd a fu ar yr eglwys; ond y mae yn angenrheidiol, a lle byddo gwir ffydd yn y galon, fe'i gwneir. Mae athrawiaeth adgyfodiad Crist fel silltaeren, neu dorch mewn cadwyn, yn cyssylltu yr holl bethau blaen ac ol i hyny; ac felly, credu ei adgyfodiad ef ydyw credu pobpeth arall am dano, cyn a chwedi ei adgyfodiad.

10 [s] * Canys â'r galon y credir [t] † i gyfiawnder, [u] ac â'r genau y cyffesir i iachawdwriaeth.

s Luc 8. 15. Ioan 1. 12, 13. a 3. 19—21. Heb. 3. 12. a 10. 22. t Gal. 2. 16. Phil. 3. 9. u adn. 9. 1 Ioan 4. 15. Dat. 2. 13.

* Er crybwyll *cyffesu* o *flaen* credu yn adn. 9, eto mae yn cael ei osod *ar ol credu* yma; i ddangos bod yr apostol yn meddwl y cyfryw gyffesu ag sydd yn ffrwyth credu. "Credais," ebai Dafydd, "am hyny y lleferais," (Salm 116. 10,) ac felly y dywedodd yr apostol ar ei ol ef. (2 Cor. 4. 13.) † Dywedir bod credu â'r galon yn angenrheidiol i gyfiawnder, sef i dderbyn cyfiawnder Crist yn y cyfrifiad o hóno gan Dduw; † ond dywedir am gyffesu â'r genau, nid fel rhan o'r cyfiawnder hwnw sydd yn rhoddi hawl i fywyd; eithr fel prawf o wirioneedd ffydd, ac fel un ffordd nodedig o weithrediad ffydd, yn enwedig mewn amserau erledigaethus. Ffydd yma yw yr achos, neu foddion, o *iachawdwriaeth* yn gystal a *chyfiawnder;* ac nid ffydd yn achos o'r naill, a chyffesu yn achos o'r llall: ac felly, yn ol y rhëol hysbys hòno mewn Rhesymeg, *(Logic,)* yr *achos o'r achos*, yw yr achos o'r peth hyny a achosir ganddo.

11 * Oblegid y mae yr ysgrythyr yn dywedyd, [x] † Pwy bynnag sydd yn credu ynddo ef, ‡ ni chywilyddir.

x pen. 9. 33. Es. 28. 16. a 49. 23. 1 Pedr 2. 6.

* Yn Esaiah 28. 16: ac efallai bod golwg yr apostol ar Salm 25. 3, hefyd. † Pwy bynag sydd yn credu â'r galon ynddo ef fel y soniwyd uchod, ni bydd arno gywilydd ei gyffesu ef â'i enau, yn yr amseroedd gwaethaf, ac ni chywilyddir mo hóno yn y diwedd. ‡ Gwel ar pen. 9. 33. Yn yr adnodau blaenorawl, mae yr apostol yn cymmeryd meddwl cyffredinol yr ysgrythyrau a ddyfyna, ac yn eu gosod allan yn ei iaith, neu ei ymadrodd ei hun; yr hyn nid yw yn hollawl yn ol cyfieithiad Groeg y 70, nac yn ol yr Hebraeg chwaith, medd *Scott*, (Gwel Deut. 30. 11—14.)

12 [y] * Canys nid oes gwahaniaeth rhwng Iuddew a Groegwr: † oblegid yr un [z] Arglwydd ar bawb, [a] ‡ sydd oludog ‖ i bawb a'r sydd yn [b] galw arno.

y pen. 3. 22, 29, 30. a 4. 11, 12. a 9. 24. Act. 10. 34, 35. a 15. 8, 9. Gal. 3. 28. Eph. 2. 18—22. a 3. 6. Col. 3. 11. z pen. 14. 9. a 15. 12. Act. 10. 36. 1 Cor. 15. 47. Phil. 2. 11. Dat. 17. 14. a 19. 16. a pen. 2. 4. a 9. 23. 2 Cor. 8. 9. Eph. 1. 7. a 2. 4, 7. a 3. 8, 16. Phil. 4. 19. Col. 1. 27. a 2. 2, 3. b Salm 86. 5. a 145. 18. Es. 55. 6. Act. 9. 14. 1 Cor. 1. 2.

* Nid oes dim gwahaniaeth cyflwr wrth natur rhwng Iuddew a Groegwr; nag oes dim, "canys ni a brofasom o'r blaen fod pawb, yr Iuddewon a'r Groegwyr dàn bechod," pen. 3. 9: ac nid oes dim gwahaniaeth rhwng Iuddew a Groegwr o ran trefn Duw o gyfiawnâu pob un o'r ddau, oblegid wrth ffydd a thrwy ffydd mae efe yn cyfiawnâu yr enwaediad a'r dïenwaediad, pen. 3. 30. † Dyma y rheswm, nad oes dim gwahaniaeth rhwng yr Iuddew a'r Groegwr: oblegid yr un Arglwydd ar bawb, sydd oludog i bawb a'r sydd yn galw arno. Yr "un Arglwydd" yma yw, yr Arglwydd Iesu Grist, yr hwn y dywedir yn y ddwy adnod nesaf a *bregethir*, y *credir ynddo*, ac y *gelwir arno.* ‡ Mae ynddo ef anchwiliadwy olud, o ras a gogoniant, felly nid oes achos i'r Iuddewon eiddigeddu wrth alwad a dychweliad y cenedloedd; mae ynddo ef olud digonol i bawb. ‖ Nid pawb o ddynolryw a gânt y golud hwn, oblegid nid pawb a'i ceisiant: eithr pawb a alwant arno ef trwy ffydd, hwy a'i cânt yn ddigonol, heb arian ac heb werth.

13 [c] * Canys pwy bynnag a alwo ar enw yr Arglwydd, † cadwedig fydd.

c Joel 2. 32. Act. 2. 21.

* Cymmerwyd y geiriau hyn, mae yn debyg, allan o brophwydoliaeth Joel 2. 32. Byddai yr Iuddewon yn gyffredinol yn galw ar JEHOFAH am waredigaethau tymmorawl, ac am iachawdwriaeth dragywyddol, hyd yn nôd pan oeddynt yn gwrthod Crist; ond yr oeddynt yn galw yn ofer: gan hyny, rhaid mai nid y galw hyn a feddylir yn y brophwydoliaeth. Wrth "alw ar enw yr Arglwydd," rhaid i ni ddeall, un ai gweddio ar yr Arglwydd Iesu yn bersonol, fel gogyfuwch Fab Duw, a Duw wedi ymddangos yn y cnawd; neu ynte, galw ar y Tad, trwy ffydd yn y Mab, a thrwy ei eiriolaeth a'i gyfryngdod ef: ond y meddwl cynfaf sydd fwyaf cyson â phwnc yr apostol, ac y dehongliad mwyaf eglur a

uturiol o lawer o ystyr y geiriau. † Mae yr holl edinwyr yn galw fel hyn ar enw yr Arglwydd Iesu, ac d oes neb arall yn galw arno, hyny yw, yn ostyngedig yn ddiragrith trwy ffydd; gan hyny, mae pawb a want arno ef felly am ras a thrugaredd, yn sicr o fod gadwedig, pa un bynag ai Iuddewon ai Groegwyr yfyddont.

14 * Pa fodd gan hynny [d] y galwant ar yr wn ni chredasant ynddo? [e] † a pha fodd y redant yn yr hwn ni chlywsant am dano? a pha fodd y clywant, heb bregethwr?

d 1 Bren. 8. 41—43. Jona 1. 5, 9—14, 16. a 3. 5—9. Heb. 11. Iago 5. 15. e pen. 1. 5. a 16. 25, 26. Marc 16. 15, 16. Luc 46, 47. Ioan 20. 31. Act. 19. 2. a 26. 17, 18. 2 Tim. 4. 17. Tit. 1. 3.

* Ond pa fodd y geilw neb, y gweddïa neb ar yr Arwydd Iesu, y Gwaredwr dwyfol, a hwy heb gredu ynlo? † A pha fodd y gall neb gredu ynddo, a hwy heb rioed glywed am dano ef a'i iachawdwriaeth? A pha dd y gall y cenedloedd glywed am Grist a'r pethau a erthyn i Grist, heb i ryw un, neu ryw rai, o blith yr Iudewon, i'r rhai y datguddiwyd hwynt, fyned a'u pregthu iddynt?

15 [f] * A pha fodd y pregethant, onis dannnir hwynt? † megis y mae yn ysgrifenedig, Mor brydferth yw traed y rhai sydd yn efengylu tangnefedd, [i] y rhai sydd yn efengylu pethau daionus!

f Jer. 23. 32. Mat. 9. 38. a 10. 1—6. a 28. 18—20. Luc 10. 1. oan 20. 21. Act. 9. 15. a 13. 2—4. a 22. 21. 1 Cor. 12. 28, 29. Cor. 5. 18—20. Eph. 3. 8. a 4. 11, 12. 1 Pedr 1. 12. g Gwel ar Es. 52. 7. Nah. 1. 15. h Es. 57. 19. Luc 2. 14. Act. 10. 36. Eph. 2. 17. a 6. 15. i Es. 40. 9. a 61. 1. Luc 2. 10. a 8. 1. Act. 3. 26.

* A pha fodd y pregetha neb air y ffydd, (adn. 8.) efengyl Crist, heb gael eu danfon gan Dduw, a chan ei ei eglwys a'i bobl ef? Paham gan hyny y dylai yr Iuddewon feïo ar yr apostol ac eraill, am ymafaelyd yn y gwaith angenrheidiol a daionus hwn, pan yr oedd Duw wedi eu galw a'u danfon hwynt iddo? hwy a ddyasent yn hytrach fod yn ddïolchgar, a gorfoleddu o'r herwydd. † Yr oedd y prophwyd (Es. 52. 7.) wedi langos y pwys a'r angenrheidrwydd o bregethu yr efengyl, mewn iaith gref; ac mewn dull prydyddawl wedi dysgrifio hyd yn nôd traed y rhai sydd yn efengylu tangnefedd a phethau daionus, yn brydferth: er eu llychwino gan laid a chwŷs yn aml yn eu teithiau; eto, mewn ystyr foesol, yr oeddynt yn lân a dilychwiniad; yn brydferth ac yn werthfawr yn ngolwg y saint, a'r rhai hiraethlawn eu henaid am iachawdwriaeth Duw: yr oeddynt yn gwneuthur cyfrif mawr o honynt mewn cariad er mwyn eu gwaith.—Mae y ddwy adnod uchod yn dangos yn y modd egluraf, nas gall neb fod yn gadwedig heb alw ar yr Arglwydd Iesu; nas gall neb alw arno ef yn iawn heb ffydd ynddo; ac heb bregethu, neu gyhoeddi yr efengyl mewn rhyw fodd, nas gall neb gredu ynddo.—Nis gellir dangos cyfiwr truenus y paganiaid, a'n dyledswydd rwymedig ninnau tuag atynt, mewn geiriau cryfach na'r rhai hyn; ac nis gellir gwrthwynebu yn fwy grymus y dŷb gyfeiliornus hòno, y dichon i luoedd fod yn gadwedig trwy Grist, heb erioed glywed son am ei enw ef.

16 [k] * Eithr nid [l] ufuddhasant hwy oll i'r efengyl: † canys y mae Esaias yn dywedyd, [m] ‡ *O* Arglwydd, ‖ pwy a gredodd i'n hymadrodd ni?

k pen. 3. 3. a 11. 17. Ioan 10. 26. Act. 28. 24. Heb. 4. 2. 1 Pedr 2. 8. l pen. 1. 5. a 2. 8. a 6. 17. a 16. 26. Es. 50. 10. Gal. 3. 1. a 5. 7. 2 Thes. 1. 8. Heb. 5. 9. a 11. 8. 1 Pedr 1. 22. a 3. 1. m Es. 53. 1. Ioan 12. 38—40.

* Er gwerthfawroced yw yr efengyl, ac er mai newyddion da o lawenydd mawr i'r holl bobl yw ei chynnwysiad a'i chenadwri hi; eto nid ufuddâodd ond ychydig mewn cymhariaeth, o'r cenedloedd mwy na'r Iuddewon iddi, gan ei chredu a'i derbyn â'r galon fel y byddent gadwedig. † Nid oedd hyn ychwaith ddim mwy nac a rag-welodd ac a rag-fynegodd y prophwyd (Es. 53. 1.) pan grybwyllodd efe ei ofid a'i syndod wrth galedrwydd a difaterwch cyffredinol dynion, yn wyneb newyddion da yr iachawdwriaeth trwy ddyoddefaint y Messiah. ‡ Mae y dull mae yr apostol yn cymhwyso at Grist y geiriau a ddywedodd y prophwyd am y JEHOFAH, yn brawf cadarn o wir Dduwdod ein Harglwydd Iesu. ‖ Mae y geiriau hyn, "ein hymadrodd ni," yn cadarnâu y sylw blaenorawl a wnaed, (adn. 14, 15,) fod ffydd yn dyfod yn gyffredin, trwy glywed *ymadrodd* am Grist, yn cael ei lefaru wrth ddynion trwy bregethiad ffyddlawn o air Duw. Dyma'r moddion a drefnodd Duw, ac mae efe yn fendithio yn benaf i'r dyben hyn; gan hyny dyledswydd dyn yw eu defnyddio, gan ddysgwyl bendith yr Arglwydd arnynt.

17 * Am hynny [n] ffydd *sydd* trwy glywed, [o] † a chlywed trwy air Duw.

n adn. 14. pen. 1. 16. Luc 16. 29—31. 1 Cor. 1. 18—24. Col. 1. 4—6. 1 Thes. 2. 13. 2 Thes. 2. 13, 14. Iago 1. 18—21. 1 Pedr 1. 23—25. a 2. 1, 2. o Jer. 23. 28, 29. Marc 4. 24. Luc 8. 11, 21. a 11. 28. 2 Cor. 2. 17. Heb. 4. 12, 13. Dat. 1. 9.

* Gellid meddwl yn sicr, yn wyneb y geiriau hyn, mai nid trwy ryw weithrediadau digyfrwng mae yr Ysbryd Glân yn gyffredin, os unrhyw amser, yn cenedlu, neu yn gweithio ffydd yn enaid pechadur: oblegid "ffydd sydd *trwy* glywed," nid *heb* glywed; a'r rhai hyny a gredant trwy ras, trwy glywed y dygir hwy i gredu ar y cyntaf, y galluogir hwy i gredu yn wastadol, yr adeiledir ac y perffeithir hwynt mewn ffydd hyd y diwedd, pan y trý eu ffydd hwynt yn olwg, a'u gobaith yn fwynâd tragywyddol. † Nid trwy glywed pobpeth y mae ffydd, eithr trwy glywed gair Duw, yr efengyl am Grist, yr hon sydd wir air Duw. Ond clywed trwy air Duw yma, a arwydda orchymyn Duw i bregethu yr efengyl i'r cenedloedd: ar ddanfoniad a gorchymyn Duw yr oedd yr apostolion ac eraill yn pregethu yr efengyl i'r cenedloedd; am hyny yr oedd ganddynt awdurdod ddigonol am yr hyn oeddynt yn ei wneyd. A'r un gorchymyn ag oedd yn eu danfon hwy i bregethu, oedd yn galw hefyd ar y cenedloedd i wrando, a derbyn yr efengyl: ac felly mae eto o hyd.

18 * Eithr meddaf, [p] Oni chlywsant hwy? † Yn ddïau [q] i'r holl ddaear yr aeth ‡ eu swn hwy, a'u geiriau [r] hyd derfynau y byd.

p Act. 2. 5—11. a 26. 20. a 28. 23. q pen. 1. 8. a 15. 19. Salm 19. 4. Mat. 24. 14. a 26. 13. a 28. 19. Marc 16. 15, 20. Col. 1. 6, 23. r Salm 22. 27. a 98. 3. Es. 24. 16. a 49. 6. a 52. 10. Jer. 16. 19.

* Oni chlywodd yr Iuddewon? Pwy a all ddywedyd na chawsant *hwy* y cyfle blaenaf i glywed yr efengyl? Pregethodd yr apostolion, y deg dysgybl a thriugain, ac eraill, yr efengyl yn gyffredinol trwy holl ddinasoedd a threfydd Judea a Galilea, am hir o amser, cyn iddynt erioed fyned at y cenedloedd: ac hyd yn nôd Paul, apostol y cenedloedd, a bregethai yn wastad yn gyntaf i'r Iuddewon, yn mhob dinas lle yr clai. Gan hyny, nid oedd ond ychydig iawn o'r genedl hòno a allai ddywedyd na chawsent hwy glywed yr efengyl; ac effaith gelyniaeth cyndyn yn erbyn yr efengyl oedd eu hanghrediniaeth hwy, ac nid amwybodaeth o hóni, neu ddiffyg ei chlywed. Eto, oni chlywodd y cenedloedd yr efengyl? Do, yn sicr, yn helaeth iawn: † taenwyd yr efengyl mòr gyffredin ac mòr ehang, fel y gellid defnyddio geiriau Dafydd, (Salm 19. 4,) pan mae yn sôn am yr addysg a ddygir i bob cenedl trwy oleuadau y nefoedd, (fel yn gysgodol o Haul cyfiawnder) am yr hyn sydd wedi cymmeryd lle eisoes. Fel mae y nefoedd yn datgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegi gwaith ei ddwylaw ef, trwy yr holl ddaear ac hyd eithafoedd y byd; (Salm 19. 1, 4,) felly mae sŵn a geiriau pregethwyr yr efengyl wedi myned i'r holl ddaear, ac hyd derfynau y byd. Gan fod Duw wedi rhoddi y fath daeniad rhyfeddol i'r efengyl mewn cyn lleied amser, er dychweliad lluoedd mawrion o'r paganiaid; mae yn dystiolaeth amlwg o'r nefoedd, y dylasai gael ei phregethu iddynt, ac na ddylasai neb rwgnach,

na thramgwyddo wrth hyny. ‡ "Eu llinyn" yw y gair yn Salm 19. 4, ond dywedir fod y gair Hebraeg a gyfieithir "llinyn" yno, yn arwyddo hefyd *llef uchel*, neu *waedd:* ac felly mae yr apostol yn ei ddefnyddio yma. Tybir fod Dafydd trwy oleuadau y nefoedd, &c., yn y Salm a enwyd, yn llefaru yn brophwydoliaethol am daeniad goleuni yr efengyl, a bod Paul yma yn ei ddeall felly, ac am hyny yn defnyddio ei eiriau i'r perwyl hwnw. Wrth yr "holl ddaear" yma, deallwn yr Ymherodraeth Rufeinig, y rhan fwyaf o'r byd adnabyddus y pryd hwnw: ac wrth "derfynau y byd," deallwn parthau pellaf y byd o'r màn lle yr oedd Paul yn ysgrifenu. A phwy a ŵyr nad oedd Ynys Prydain y pryd hwnw (tua B. A. 58,) o fewn y cylch, a chwedi clywed y "sŵn," yr hyfryd lais?

19 [s] * Eithr meddaf, Oni wybu Israel? [t] † Yn gyntaf, y mae Moses yn dywedyd, Mi a baraf i chwi ‡ wynfydu trwy *rai* nid *yw* genedl; trwy [u] genedl anneallus y'ch digiaf chwi.

s adn. 18. pen. 3. 26. 1 Cor. 1. 12. a 7. 29. a 10. 19. a 11. 22. a 15. 50. t pen. 11. 11. Gwel ar Deut. 32. 21. Hos. 2. 23. 1 Pedr 2. 10. u pen. 1. 21, 22. Salm 115. 5—8. Es. 44. 18—20. Jer. 10. 8, 14. 1 Cor. 12. 2. Tit. 3. 3.

* Eithr oni wybu Israel fod Duw yn myned i'w bwrw hwy ymaith am eu hanghrediniaeth a'u hanufudd-dod, ac i gymmeryd i mewn eraill yn eu lle? Hwy a allasent wybod; ac yn yr adnod hon a'r ddwy ganlynol, mae yr apostol yn dyfynu tair o dystiolaethau o hyny, allan o'r Hen Destament. † Yn gyntaf, gallent wybod hyny drwy yr hyn a ddywedasai Moses, eu deddfwr a'u pen prophwyd; yr hwn a ddywedodd yn Deut. 32. 21, y gyrai Duw eiddigedd arnynt â'r rhai nid oeddynt yn bobl gyfammodol iddo ef y pryd hwnw, ac y digiai efe hwynt â chenedl ynfyd, neu anneallus, trwy alw y rhai hyny i'w eglwys, a'u gwrthod hwythau. ‡ "Gwynfydu" yma, "eiddigedd" yn Deuteronomium: mae yr apostol yn crybwyll y geiriau o gyfieithiad Groeg y Deg a thriugain.

20 * Eithr y mae Esaias yn [x] ymhyfhâu, ac yn dywedyd, [y] † Cafwyd fi gan y rhai nid oeddynt yn fy ngheisio; [z] ‡ *a* gwnaed fi yn eglur i'r rhai nid oeddynt yn ymofyn am danaf.

x Diar. 28. 1. Es. 58. 1. Eph. 6. 19, 20. y pen. 9. 30. Es. 65. 1. z Es. 49. 6. a 52. 15. a 55. 4, 5. Mat. 20. 16. a 22. 9, 10. Luc 14. 23. 1 Ioan 4. 19.

* Esaias hefyd, prophwyd enwog iawn yn mhlith yr Iuddewon, yn mhell ar ol dyddiau Moses, a dystiolaethodd yr un peth gyda gwroldeb a hyfdra mawr a sanctaidd, pan mae efe fel genau JEHOFAH ei hun yn dywedyd, † Cafwyd fi fel Gwaredwr, ac addolwyd fi yn gymmeradwy, gan y rhai nad oeddynt ychydig o'r blaen yn fy ngheisio, ‡ a gwnaed fi yn eglur fel Duw iachawdwriaeth a gras i'r rhai nid oeddynt yn ymofyn am danaf. Y cenedloedd tywyll a phaganaidd oedd y rhai hyn nid oeddynt yn ceisio Duw, nac yn ymofyn am dano; eto hwy a'i cawsant yn yr efengyl, ac efe a'i heglurodd ei hun iddynt trwy ei gweinidogaeth hi, a thrwy oleuni yr Ysbryd Glân yn cyd-fyned â'r weinidogaeth. Fel hyn yr oedd iachawdwriaeth y cenedloedd yn hollawl o rad ras, ac yn effaith etholedigaeth rad a diammodol Duw. Dylasai yr Iuddewon wybod y ddwy dystiolaeth uchod yn dda; oblegid yr oedd Cân Moses (Deut. 32.) a phrophwydoliaethau Esaias yn hysbys iawn iddynt, ac mewn bri ac arferiad mawr ganddynt.

21 * Ac wrth yr Israel y mae yn dywedyd, [a] † Ar hyd y dydd yr estynais fy nwylaw at [b] bobl ‡ anufudd ac yn gwrth-ddywedyd.

a Diar. 1. 24. Es. 65. 2—5. Jer. 25. 4. a 35. 15. Mat. 20. 1—15. a 21. 33—43. a 22. 3—7. a 23. 34—37. Luc 24. 47. Act. 13. 46, 47. b Deut. 9. 13. a 31. 27. 1 Sam. 8. 7, 8. Neh. 9. 26. Jer. 44. 4—6. Act. 7. 51, 52. 1 Thes. 2. 16. 1 Pedr 2. 8.

* Ond i'r gwrthwyneb, am wrthodiad yr Iuddewon anghrediniol, mae yr un prophwyd yn dywedyd fod Duw, a llefaru mewn dull dyn, wedi bod yn estyn ei ddwylaw ar hyd y dydd at bobl anufudd ac yn gwrth-ddywedyd: † hyny yw, wedi arfer pob moddion grasol a thirion i'w dênu hwynt i ddyfod ato, i wrando arno, i gredu ynddo, ac i gymmeryd eu hachub a'u hymgeleddu ganddo trwy ei Fab y Messiah. ‡ Ond yn lle dychwelyd at yr Arglwydd, anufudd a chaled oeddynt hwy, a thrwy eu hanghrediniaeth a llygredigaeth eu calonau gwrthodasant y cynnygiadau tirionaf, a gosodasant eu hunain i wrthwynebu pob peth, ac hyd yn nôd i wrth-ddywedyd a chablu y Messiah ei hun a'i apostolion sanctaidd. ‖ Un gair sydd gan Esaias, "gwrthryfelgar," ac mae yr apostol yn ei egluro trwy y ddau air hyn: yr oeddynt yn anufudd yn eu calonau, ac yn gwrth-ddywedyd â'u geneüau, yn groes i gredu â'r galon a chyffesu â'r tafod, yn adn. 9, 10. Mae yn "estyn y dwylaw" gyfeiriad at fam dyner a serchiadol, yn estyn ei dwylaw i gofleidio plentyn anynad, ac i'w ddênu ef i ddyfod ati; neu ynte, at areithiwr yn estyn ei ddwylaw i geisio gwrandawiad, ac yn arwydd o bwys y peth mae yn draddodi. Bu Duw yn "estyn ei ddwylaw" fel hyn "ar hyd y dydd" at yr Iuddewon, sef yn ddibaid trwy yr holl oesoedd, o'u galwad cyntaf hwy fel cenedl, hyd eu dystrywiad am eu hanufudd-dod. Ac onid yw efe yn gwneyd yr un modd tuag atom ninnau, trwy gydol ein hoes yn y byd?

PEN. XI.

Na fwriodd Duw ymaith holl Israel.

* AM hynny meddaf, [a] A wrthododd Duw ei bobl? [b] † Na atto Duw. [c] ‡ Canys yr wyf finnau hefyd yn Israeliad, o had Abraham, *o* lwyth Benjamin.

a 1 Sam. 12. 22. 2 Bren. 23. 27. Salm 77. 7. a 94. 14. Jer. 31. 36, 37. a 33. 24—26. Hos. 9. 17. Amos 9. 8, 9. b Gwel ar pen. 3. 4. c pen. 9. 3. Act. 22. 3. a 26. 4. 2 Cor. 11. 22. Phil. 3. 5.

* Oddi wrth yr hyn a ddywedasai yr apostol yn y bennod o'r blaen am ymddygiad cyfiawn a phen-arglwyddiaethol Duw tuag at yr Iuddewon digred, gallai rhai o honynt godi dadl âg ef, a dywedyd, Os felly mae y peth yn bod, rhaid i ni gasglu fod Duw yn gwrthod ei bobl gyfammodol, ac yn anffyddlawn i'w addewid, lle y dywedodd "Ni thòraf fy nhrugaredd oddi wrtho," "Ni thòraf fy nghyfammod," &c. Salm 89. 33, 34; ac eilwaith, "Ni âd yr Arglwydd ei bobl, ac ni wrthyd ef ei etifeddiaeth," Salm 94. 14. † Mae yr apostol yn gwadu y cyfryw gasgliad yn ei ddull cryf arferol; "Na atto Duw:" *(mê genoito,)* ni wrthododd efe hwynt *oll* fel *cenedl*, ac ni wrthododd hwynt *am byth.* Yn wir nis gellir dywedyd mòr briodol iddo ef eu gwrthod hwynt, â dywedyd iddynt hwy ei wrthod ef, trwy eu gwrthwynebiad penderfynol i'r Messiah, ei deyrnas a'i iachawdwriaeth ef: yr oedd efe yn barod i dderbyn yr holl Iuddewon ag oedd yn ewyllysgar i ddyfod yn ddysgyblion i Grist, y Messiah, fel yr oedd yn amlwg yn Paul ei hun. ‡ Pe buasai Duw yn gwrthod ei bobl, ei holl bobl, ni buasai yn derbyn Paul, yr hwn oedd un o honynt, a'r erlidiwr penaf o honynt oll un amser; ond efe a gafodd drugaredd gan Dduw, a derbyniad trwy dderbyn ei Fab ef, a chredu ynddo.

2 * Ni wrthododd Duw ei bobl, [d] † yr hwn a adnabu efe o'r blaen. [e] ‡ Oni wyddoch chwi pa beth y mae yr ysgrythyr yn ei ddywedyd am Elias? ‖ pa fodd y mae efe [f] yn erfyn ar Dduw yn erbyn Israel, gan ddywedyd,

d pen. 8. 29, 30. a 9. 6, 23. Act. 13. 48. a 15. 18 1 Pedr 1. 2. e Gen. 44. 15. Ex. 32. 1. Act. 3. 17. a 7. 40, Phil. 1. 22. f Num. 16. 15. Jer. 18. 19—23. Jona 4. 1—3, 11.

* Ni wrthododd Duw ei *wir* bobl, *had ysbrydol* Abraham er iddo yn gyfiawn adael lliaws o'i had naturiol ef i syrthio drwy eu hanghrediniaeth. † "Yr hwn a adnabu efe o'r blaen," sef y rhai a ragwybu, ac a ragluniodd efe, yn ei arfaeth a'i gyngor tragywyddol,

'w galw a'u cyflawnâu mewn amser, ac i'r rhai yn benodol yr oedd ei gyfammod a'i addewidion ef yn perthyn. ‡ Yn ngwrthgiliad cyffredin yr Iuddewon yn amser Paul, yr oedd yn debyg fel y buasai yn amser Elias o'r blaen: pan oedd Elias yn ei ofid yn tybied nad oedd braidd ddyn duwiol yn holl wlad Israel ond ef ei hun; yr oedd gan Dduw saith mil o wŷr y rhai ni phlygasent eu gliniau i Baal. Felly yn amser Paul, yr oedd gan Dduw liaws mawr o had Abraham wedi credu yn Nghrist, ac heb eu gwrthod. Tybir fod yr apostol yn crybwyll hyn rhag y cyhuddai yr Iuddewon ef o drahausder, yn dywedyd (adn. 1.) nad oedd ond ef ei hun heb ei wrthod. || Israel; y deg llwyth, y rhai a wrthryfelasent yn erbyn Duw, ac a syrthiasent i eilun-addoliaeth. Yn erbyn y rhai hyn a'u pechodau yr oedd Elias yn erfyn, neu yn cwyno ger bron Duw, fel y gwelwn yn yr adnod nesaf.

3 * *O* Arglwydd, [g] hwy a laddasant dy brophwydi, [h] † ac a gloddiasant dy allorau i lawr; ‡ ac myfi a adawyd yn unig, || ac y maent yn ceisio fy einioes innau.

g 1 Bren. 18. 4, 13. a 19. 10, 14. Neh. 9. 26. Jer. 2. 30.
h 1 Bren. 18. 30, 31.

* Yn 1 Bren. 18. 4, crybwyllir i Jezebel, gwraig Iddrygionus Ahab, ddystrywio prophwydi yr Arglwydd: nis gwyddom pwy oeddynt, na pha nifer a laddwyd. † Yn ol y ddeddf, nid oedd ond un allor i aberthu arni, ac yr oedd hòno yn Jerusalem, allan o gyrhaedd yr eilun-addolwyr hyn: gan hyny, tybia rhai mai yr allorau a adeiladasai Samuel, cyn adeiladu y deml, a feddylir yma, 1 Sam. 7. 17, a 11. 15, a 16. 2, 5; a'r allor hòno a adgyweiriodd Elias, 1 Bren. 18. 30. Tybir i'r Arglwydd trwy oruchwyliaeth neillduol, ganiatâu i'r rhai luwiol o'r deg llwyth aberthu iddo ef ar yr allorau hyn, pryd na chaniatêid iddynt ddyfod i Jerusalem i aberthu: a chan eu bod yn gâs gan Ahab, ac yn dystiolaethau parâus a chyhoeddus yn erbyn ei eilun-addoliaeth ef a'i ddeiliaid; cydunodd ef a hwythau eu tynu hwynt i lawr, ac hyd yn nôd cloddio i fynu eu sylfeini, fel na byddai dim o'u hôl hwynt i'w cadw mewn coffadwriaeth. ‡ Felly y tybiodd Elias, nad oedd neb ond efe o brophwydi a gwir addolwyr Duw, wedi eu gadael heb eu lladd. || Gwir oedd hyn, gwel 1 Bren. 19. 1, 2.

4 * Eithr pa beth y mae atteb Duw yn ei ddywedyd wrtho? [i] † Mi a adewais i mi fy hun ‡ saith mil o wŷr, || y rhai ni phlygasant eu gliniau i [k] Baal.

i Gwel ar 1 Bren. 19. 18. k Num. 25. 3. Deut. 4. 3. Barn. 2. 13. 1 Bren. 16. 31. 2 Bren. 10. 19, 20. Jer. 19. 5. Hos. 2. 8. a 13. 1. Zeph. 1. 4.

* Ateb cysurus a roddes Duw, a gwell nag oedd Elias yn feddwl o lawer, 1 Bren. 19. 18. Mae y gair (*chrêmatismos*) a gyfieithir yma "ateb," yn arwyddo y llafar, (*oracle*) neu yr ateb a fyddai Duw yn roddi yn y babell, neu oddi ar y drugareddfa: ond defnyddir ef yn gyffredin am unrhyw ateb, neu gyfarwyddyd oddi wrth Dduw. Gwel Matth. 2. 12; Heb. 11. 7, lle mae yr un gair yn cael ei addefnyddio. † Mi a neillduais, ac a gedwais i mi fy hun saith mil o wŷr, &c.: nid hwy a'u cadwasant eu hunain, eithr Duw a'u cadwodd hwynt, trwy ei Ysbryd a'i ras, rhag syrthio i eilun-addoliaeth fel y lleill o'r deg llwyth. Felly am y rhai duwiol o'r Iuddewon yn amser Paul, ac yn mhob cenedl ac oes o'r byd. ‡ Saith mil ar ben, efallai, yr hyn oedd lawer yn y fath amser o wrthgiliad; neu, ynte, efallai mai rhifedi terfynol am rifedi annherfynol yw y geiriau, yn arwyddo llawer mwy nag oedd Elias yn feddwl. || Baal ydoedd eilun y Sidoniaid, yr hwn a osododd Ahab i fynu i'w addoli pan briodwyd ef â Jezebel, merch brenin Sidon: yn ol esampl, ac mewn ufudd-dod i'r Ahab ddrygionus hwnw a'i frenines, aeth y rhan fwyaf o'r deg llwyth ar ol y gwarth hwnw i'w addoli. Gwel 1 Bren. 16. 31, 32, 33; a 18. 21. *I ddelw* Baal, yw y Saesoneg yn y fàn hon, ac felly yr oedd yn ddiau; ond nid yw y gair *delw* yn y Groeg mwy na chenym ninnau.

5 * Felly gan hynny [l] y pryd hwn hefyd y mae gweddill † yn ol [m] etholedigaeth gras.

l adn. 6, 7. Gwel ar pen. 9. 27. m adn. 28. pen. 9. 11. Eph. 1. 5, 6.

* Fel yr oedd yn nyddiau Elias, felly yr oedd hefyd yn nyddiau Paul, er mòr druenus yr oedd yr Iuddewon wedi myned yn y ddau amser, eto yr oedd gan Dduw ei weddill yn mhob un o honynt. † Yn ol etholedigaeth gras y galwyd hwynt, a thrwy ras yr etholedigaeth y cadwyd hwynt. Nid am eu bod yn fwy teilwng ynddynt eu hunain nac eraill, ond o herwydd y gwelai Duw fod yn dda i drugarâu wrthynt hwy rhagor eraill, pe amgen buasent hwythau hefyd yn golledig trwy anghrediniaeth. Tybiai Elias nad oedd neb ond efe ei hun o'r rhai duwiol wedi eu gadael; ond tybiai Paul fod gweddill lawer, heblaw efe ei hun yn ei amser ef.

6 [n] * Ac os o ras, nid o weithredoedd mwyach: † *os* amgen, nid yw gras yn ras mwyach. ‡ Ac os o weithredoedd, nid yw yn ras mwyach: || *os* amgen, nid yw gweithred yn weithred mwyach.

n pen. 3. 27, 28. a 4. 4, 5. a 5. 20, 21. Deut. 9. 4—6. 1 Cor. 15. 10. Gal. 2. 21. a 5. 4. Eph. 2. 4—9. 2 Tim. 1. 9. Tit. 3. 5.

* Mae yn rhaid bod etholiad a chadwedigaeth pechadur un o'r ddwy ffordd, un ai o ras neu o weithredoedd; nis gall fod o bob un: nid o ras Duw mewn rhan, ac o weithredoedd dyn mewn rhan, y mae; cymmysg o lin a gwlân (Deut. 22. 11.) fyddai hyny: rhaid ei bod o ras i gyd, neu o weithredoedd i gyd. † Os o weithredoedd y mae, nid yw gras yn ras mwyach, ac os o ras a gweithredoedd yn gymmysg y mae, nid yw gras yn ras mwyach. Mae rhai yn deall y rhan hon o'r adnod fel hyn:—"Na byddai yr efengyl ddim yn deilwng o'r enw *gras*, pe byddai cadw y ddeddf yn rhan o ammodau ein cymmeradwyaeth ni gyda Duw." Eraill fel hyn:—"Yr hyn a roddir i weithredoedd taliad dyled yw, lle mae y gair gras yn arwyddo heb ei haeddu; felly fel nas gall yr un fendith ddim deilliaw o'r ddau ar yr un pryd." Os yw iachawdwriaeth yn deilliaw o weithredoedd, neu o ras a gweithredoedd yn nghyd, mae pob un o'r ddau syniad yn dinystrio meddwl y gair *gras:* nid yw gras yn ras mwyach. ‡ Ac i'r gwrthwyneb eto, os o weithredoedd y mae, mewn rhan neu yn gwbl, nid yw o ras mwyach: nid yw o drugaredd rad ac anhaeddedigol Duw. || Oblegid pe dywedid ei bod, byddai hyny yn dinystrio holl deilyngdod a haeddiant gweithredoedd, gan fod gweithredoedd yn yr ystyr hyn i'w golygu yn gwbl anghyson â gras hollawl rad. Mae y pethau hyn mòr hollawl groes i'w gilydd, fel nas gellir byth eu cydgymmysgu; ond mae yn rhaid bod yr iachawdwriaeth, o'r dechreu i'r diwedd, yn gwbl o'r naill, i gaued igaeth allan y llall, o ran y gwir achos cynhyrfiol o hóni: mae yn rhaid ei bod o *ras*, neu ynte o *ddyled.* pen. 4. 4.

7 [o] * Beth gan hynny? [p] † Ni chafodd Israel yr hyn y mae yn ei geisio: [q] ‡ eithr yr etholedigaeth a'i cafodd, [r] || a'r lleill a galedwyd;

o pen. 3. 9. a 6. 15. 1 Cor. 10. 19. Phil. 1. 18. p pen. 9. 31, 32. a 10. 3. Diar. 1. 28. Luc 13. 24. Heb. 12. 17. q adn. 5. pen. 8. 28—30. a 9. 23. Eph. 1. 4. 2 Thes. 2. 13, 14. 1 Pedr 1. 2. r Es. 6. 10. a 44. 18. Mat. 13. 14, 15. Ioan 12. 40. 2 Cor. 3. 14. a 4. 4. 2 Thes. 2. 10—12.

* Pa beth gan hyny a ddywedwn ni oedd gwir sefyllfa y genedl Iuddewig? † Ni chafodd Israel yr hyn mae yn ei geisio yn ddifrifol, yn barâus, yn ymdrech am dano, ac yn ei ofyn fel dyled, (arwydda y gair *epizêtei* bob un o'r pethau uchod,) sef cyfiawnder trwy weithredoedd y ddeddf: a hyny am mai trwy weithredoedd y ddeddf yr oeddynt yn ei geisio, ac nid trwy ffydd yn Nghrist. Methasant a tharo y nôd: annelasant ato, ond saethasant ar ŵyr; cymmerasant lawer iawn o boen, ond i ychydig neu ddim dyben: a pha ryfedd, gan eu bod yn gwrthod yr efengyl, ac nad ymostyngent i gyfiawnder Duw? ‡ Ond y rhai a etholodd Duw yn ei ras i iachawdwriaeth o blith y genedl etholedig hòno, hwy

a gawsant gyflawnder i fywyd tragywyddol, trwy ffydd yn Iesu, yr hwn a aeth yn ddiwedd y ddeddf, er cyflawnder i bob un a'r y sydd yn credu. "Etholedigaeth" am etholedigion, fel yr enwaediad am y rhai enwaededig, mewn mànau eraill. Yr oedd Israel oll yn bobl etholedig mewn ystyr allanol, ond y mae yma etholedigaeth mewn etholedigaeth; yr hyn a ddengys yn amlwg y gwahaniaeth rhwng ethol *cenedl* i *freintiau allanol*, âg ethol *personau* i *fywyd tragywyddol.* || Y lleill, o Israel yn ol y cnawd, y rhai a adawyd iddynt eu hunain yn ol eu haeddiant, a aethant yn ddeillion, yn galed, ac yn gyndyn, o ran Crist a ffordd iachawdwriaeth: hwy a galedwyd gan eu rhagfarn eu hunain, a Duw yn eu rhoddi i fynu i hyny.

8 * Megis y mae yn ysgrifenedig, [s] † Rhoddes Duw iddynt yspryd ‡ trwmgwsg, [t] llygaid fel na welent, a chlustiau fel na chlywent, [u] || hyd y dydd heddyw.

s Es. 29. 10. t Deut. 25. 4. Es. 6. 9. Jer. 5. 21. Ezec. 12. 2. Marc 4. 11, 12. Luc 8. 10. Act. 28. 26, 27. u 2 Bren. 17. 34, 41. 2 Cor. 3. 14, 15.

* Yn Es. 6. 9, 10; a 29. 10. Er mòr galed y gall yr athrawiaeth hon ymddangos i rai, eto gellir ei gweled yn amlwg yn yr Hen Destament, lle y crybwyllir am amgylchiadau o'r fath hyn yn mhlith yr Iuddewon yn y dyddiau gynt, y rhai a ellir eu hystyried fel esamplau, ac fel prophwydoliaethau o'r hyn a gymmerai le mewn oesoedd i ddyfod. † Nid ydym mewn un modd i feddwl bod Duw yn rhoddi unrhyw ddryganiaeth newydd neu chwanegol yn nghalonau dynion; ond ei fod ef fel Barnwr cyfiawn, yn traddodi y rhai diras i satan ac i'w nwydau gwrthnysig eu hunain, i gael eu dallu a'u caledu ganddynt fwy fwy. ‡ Mae y gair *(katanuxêos)* a gyfieithir yma, "trwm-gwsg," yn arwyddo, meddant, y fath gwsg marwol a ddaw ar ddynion wedi eu brathu gan ryw fath o grëaduriaid gwenwynig, o'r hwn nid ydynt braidd byth yn deffro. || Felly yr oedd gynt yn amser Esaiah, ac felly yr oedd mewn graddau mwy dychrynllyd yn amser Paul; ac felly y mae gyda had Abraham yn ein dyddiau ninnau: ni welant â'u llygaid, ni chlywant â'u clustiau, ac ni chredant â'u calonau, hyd y dydd heddyw. O farn drom! crynwn rhag myned dàni!

9 [x] * Ac y mae Dafydd yn dywedyd, [y] † Bydded eu bord hwy yn rhwyd, ac yn fagl, ac yn dramgwydd, [z] ‡ ac yn daledigaeth iddynt.

x Salm 69. 22. y Deut. 6. 10—12. a 32. 13—15. 1 Sam. 25. 36—38. Job 20. 20—23. Diar. 1. 32. Es. 8. 13, 14. Luc 12. 20. a 16. 19—25. 1 Tim. 6. 17—19. z Deut. 32. 35. Salm 28. 4. Es. 69. 18. a 66. 6. Heb. 2. 2.

* Yn Salm 69. 22. Mae yn amlwg wrth amrywiol adnodau yn y Salm hon, yn enwedig adn. 9, 21, mai Salm brophwydol am y Messiah ydyw: cymhwysir y ddwy adnod uchod (9, 10,) yn bennodol at Grist yn y Testament Newydd, Ioan 2. 17; Rhuf. 15. 3; Matth. 27. 34, 48; Ioan 19. 28, 29. Mae yr apostol yn adrodd yr adnod hon a'r nesaf yn ol cyfieithiad Groeg y 70; hyny yw yr achos nad ydynt air yn air fel y maent yn y Salm genym ni. Gwel ar pen. 9. 28. † Yn ol y darlleniad uchod o eiriau Dafydd, gallwn sylwi, fod y ddarpariaeth a wnaed i eneidiau yr Iuddewon (yn gystal â'u digonoldeb tymmorawl) wedi myned, trwy farn gyfiawn, yn achlysur o'u maglu hwy yn ddyfnach mewn euogrwydd, a'u soddi dàn gondemniad mwy ofnadwy, fel taledigaeth eu hanghrediniaeth; nes o'r diwedd eu dallu yn gwbl, a'u rhoddi i fynu fel caeth-weision i orthrymder eu gelynion, i'w cyd grymu hwynt bob amser gan feichiau trymion a roddid arnynt: barn arwyddol o'u caethiwed gwael a dinystriol i bechod a satan. Er eu holl drugareddau tymmorawl, a'u holl freintiau crefyddol, nid oedd y cwbl iddynt hwy ond rhwyd, a magl, a thramgwydd: ‡ a'r cyfan o hyny yn daledigaeth iddynt am eu hanufudd-dod a'u didduwiaeth, ac yn enwedig am wrthod y Messiah.

10 [a] * Tywyller eu llygaid hwy, fel na welant, [b] † a chyd-grymma *di* eu cefnau hwy bob amser.

a adn. 8. pen. 1. 21. Salm 69. 23. Zec. 11. 17. Eph. 4. 18. 2 Pedr 2. 4, 17. Judas 6. 13. b Deut. 28. 64—68. Es. 51. 23. a 65. 12.

* Mae y geiriau hyn hefyd yn Salm 69. 23, sylwyd mewn rhan arnynt dàn yr adnod o'r blaen. Gan eu bod yn casâu y goleuni, ac yn coledd eu hunain mewn balchder a moethau, y rhai sydd yn gorwaelu yr enaid, rhoddwyd hwynt i fynu, yn marn gyfiawn Duw, i ddallineb eu calonau, o ran y pethau a berthynent i'w tragywyddol iachawdwriaeth, fel na welent y ffordd i ddianc rhag teilwng ddigofaint a dinystr. † A chan y mynent barâu yn eu gwrthryfel ystyfnig a'u gwargaledrwydd yn erbyn Crist, heb ymostwng i'w iau esmwyth a'i faich ysgafn ef; rhoddes Duw hwynt i fynu, i gaethiwed parâus gan awdurdodau y byd, a chan satan a'u llygredigaethau eu hunain; fel caeth-weision a'u cefnau yn crymu gan galed-waith, a'u llwynau yn crynu bob amser gan ofn. Cyfeiriad sydd yma at gaethiwed Israel yn yr Aipht, oddi wrth yr hwn pan waredwyd hwynt, dywedodd Duw, "A gwnaethum i chwi rodio yn sythion," Lefit. 26. 13: ac fel mae y geiriau "a chyd-gryma *di*," yn yr ail berson gweithredol, maent yn dangos fod gan Dduw law gyfiawn yn ngosodiad y gospedigaeth hon arnynt am eu hanwiredd.

11 * Gan hynny meddaf, [c] † A dramgwyddasant hwy fel y cwympent? ‡ Na atto Duw: [d] || eithr trwy eu cwymp hwy *y daeth* iachawdwriaeth i'r Cenhedloedd, [e] § i yrru eiddigedd arnynt.

c Ezec. 18. 23, 32. a 33. 11. d adn. 12, 31. Act. 13. 42, 46—48. a 18. 6. a 22. 18—21. a 28. 24—28. e adn. 14. pen. 10. 19.

* Hyd yma dangosodd yr apostol nad oedd Duw yn gwrthod yr Iuddewon i *gyd oll;* ond bod ganddo rai yn weddill o honynt, yn ol etholedigaeth gras: yma mae yn myned i ddangos nad oedd yn eu gwrthod yn *hollawl, am byth;* ond y cânt eu galw a'u dychwelyd yn gyffredinol, cyn diwedd y byd, fel y byddont hwy â'r cenedloedd gael eu gwneyd yn ddefaid, mewn un gorlan, dàn un Bugail, yr Arglwydd Iesu Grist. Paul yn unig sydd yn trin y dirgelwch hwn, ac mae yn ei brofi trwy amrywiol resymau, er cysur i'r Iuddewon tlodion, ac hefyd er hysbysrwydd a gwybodaeth i'r cenedloedd. † Hyny yw, fel y cwympent am byth, heb obaith adferiad? Ai hyny oedd bwriad Duw yn eu rhoddi i fynu i galedrwydd, ac yn ei wrthodiad o honynt? ‡ Nid felly mewn un modd: Na atto Duw: *(mê genoito:)* pell a fyddom o feddwl y fath beth, mòr annheilwng o'i drugaredd a'i ffyddlondeb ef! || Un o ddybenion Duw yn ngwrthodiad a chwymp yr Iuddewon oedd, danfon yr efengyl yn gynt i'r cenedloedd: gan i'r Iuddewon ei gwrthod, ac erlid yr apostolion, bu hyny yn foddion i'w gùru hwynt o Judea i wledydd eraill; a chàn fod yr Iuddewon yn yr holl wledydd hyny hefyd yn gwrthod yr efengyl, yr oedd hyny yn cynhyrfu ei gweinidogion i'w phregethu hi yn fwy buan a chyhoeddus i'r cenedloedd, yr hyn a fu yn foddion iachawdwriaeth i liaws mawr o honynt. § I ùru eiddigedd dda a sanctaidd ar rai o honynt, i dderbyn yr efengyl, wrth weled y cenedloedd yn ei derbyn, ac yn mwynâu o'i bendithion: er mai effaith wahanol oedd yn gael ar y rhan fwyaf o honynt, o herwydd eu balchder a'u rhagfarn.

12 * O herwydd paham os *ydyw* eu cwymp hwy [f] yn olud i'r byd, † a'u lleihâd hwy yn olud i'r Cenhedloedd; ‡ pa faint mwy *y bydd* [g] eu cyflawnder hwy?

f adn. 15, 33. pen. 9. 23. Eph. 3. 8. Col. 1. 27. g adn. 25. Es. 11. 11—16. a 12. a 60. a 66. 8—20. Mica 4. 1, 2. a 5. 7. Zec. 2. 11. a 8. 20—23. Dat. 11. 15—19.

* Gan hyny, os yw gwrthgiliad yr Iuddewon, a'u cwymp oddi wrth gyfammod Duw, fel nad ydynt mwy ach yn bobl briodol iddo ef, wedi ei oruwch-lywodraethu er cyfoethogi y byd yn gyffredinol â bendithion y

fengyl; † os yw lleiâd nifer y bobl hir-freintiawl hyny, wy gauad allan y fath nifer o honynt o'r eglwys weled-i; a'r barnedigaethau dilynol a dywalltwyd arnynt, yn chlysur o gyfranu y fath fendithion goludog i liaws irfawr o'r cenedloedd tywyll; ‡ pa faint mwy y bydd eu ychweliad hwynt, pan ddelo yr holl genedl, fel un orph cyflawn, i gydnabod eu Messiah hir dirmygus a ir wrthodedig! Bydd dychweliad yr Iuddewon yn hanw y byd â syndod, yr efengyl â gogoniant, a'r eglwys rhifedi aneirif o Genedloedd ac Iuddewon crediniol. hyn y cedwir hwy yn bobl wahanedig trwy yr holl esoedd, megys trwy wyrth barâus; (Num. 23. 9; Jer. 0. 10, 11.) ac fel y bydd eu dychweliad yn cyflawni awer o hen brophwydoliaethau am hyny, ac a effeithir, fallai, trwy gyflawniad o lawer o brophwydoliaethau raill; felly y bydd yn ddiammau yn tueddu yn rhagor-i i ddychweliad y gweddill o'r cenedloedd paganaidd.

13 * Canys wrthych chwi y Cenhedloedd r wyf yn dywedyd, † yn gymmaint a'm bod i yn apostol y Cenhedloedd, ‡ yr wyf yn aawrhâu fy swydd;

h pen. 15. 16—19. Act. 9. 15. a 22. 21. a 26. 17, 19. Gal. 1. 16. 2. 2, 7—9. Eph. 3. 8. 1 Tim. 2. 7. 2 Tim. 1. 12.

* Gyda'r hyfrydwch mwyaf y soniai Paul am y breint-au rhagorol hyn i'r cenedloedd: oblegid yr oedd yn eu ybwyll wrth y cenedloedd, rhan o'r eglwys yn Rhufain, eu cysur a'u gorfoledd; † oblegid yr oedd efe mewn odd arbenig wedi ei osod, a'i ddanfon gan Grist, i egethu yr efengyl i'r cenedloedd, pa le bynag yr elai, y caffai gyfle. ‡ A pha faint bynag y cenfigenai mai wrtho, y dirmygid ef gan eraill, gan ei erlid yn eulawn am hyn; eto yr oedd efe yn cyfrif ei swydd yn a anrhydeddus, yn ymogoneddu *(doxazo)* ynddi, yn ogoneddu Duw am dani, ac hyd yr oedd ynddo yr oedd gogoneddu y swydd, trwy iawn gyflawniad o hóni, ac narweddiad prydferth, addas iddi.

14 [i] * Os gallaf ryw fodd [k] yrru eiddigedd r [l] † fy nghig *a'm gwaed fy hun,* [m] ‡ ac achub hai o honynt.

i 1 Cor. 9. 20—22. 2 Tim. 2. 10. k adn. 11. l pen. 9. 3. Philemon 12. m 1 Cor. 7. 16. 1 Tim. 4. 16. Iago 5. 20.

* Gan fod y gair "eiddigedd" yn ein plith ni yn cael i ddeall a'i ddefnyddio yn gyffredin mewn ystyr ddrwg, m deimladau llidiog ac anfoddgar, mae yn bur dueddl i'r darllenydd ei gam-ddeall yn yr adnod hon ac adn. 11: amcan yr apostol oedd cynhyrfu yn yr Iuddewon eimladau sanctaidd, nid ansanctaidd a digllawn; y eth olaf, mae yn wir, oedd y canlyniad yn gyffredin, nd yn groes i'w fwriad ef. † Nid oes ond *sarka,* cig, eu gnawd, yn y Groeg, fel y gellir gweled wrth fod y eiriau eraill mewn llythyrenau Italaidd: ei gyd-genedl r Iuddewon oedd yr apostol yn feddwl, y rhai oedd fel mtau o had Abraham, (adn. 1.) ac mòr dda ganddo am unanynt â'i gnawd ei hun. ‡ Mae yr apostol mewn dull hagorol o gall a thyner, yn dangos ei awyddfryd am dychweliad y cenedloedd, megys yn cael ei ennyn gan dymuniad i gyffröi ei frodyr yr Iuddewon, i eiddigeddu n sanctaidd wrth eu ffydd hwynt, ac i ymgais am eu reintiau; fel y gallai yn y modd hyn fod yn offerynol i chub rhai o honynt hwythau hefyd, er y gwyddai efe od y ddedfryd a gyhoeddesid ar y genedl yn ddiwrth-röawi.

15 * Canys os *yw* [n] eu gwrthodiad hwy [o] yn ymmod i'r byd, † beth *fydd eu* derbyniad *wy* [p] ond bywyd o feirw?

n adn. 1, 2, 11, 12. o pen. 5. 10. Dan. 9. 24. 2 Cor. 5. 18—20. Eph. 1. 10. Col. 1. 20, 21. p Ezec. 37. 1—14. Dat. 11. 11. 20 4—6.

Mae cyssylltiad mòr naturiol rhwng yr adnod hon â'r deuddegfed, fel y mỳn rhai osod y 13 a'r 14 mewn romfachau. * Gan i wrthodiad cyfiawn Duw o'r Iuddewon anghrediniol, fod yn foddion i efengyl y cymmod ael ei phregethu i'r cenedloedd, ac i liaws mawr o'r enedloedd gael eu cymmodi yn wirioneddol â Duw, a'u dwyn i rodio mewn heddwch gydag ef a thuag at eu gilydd; † pa beth fydd eu derbyniad hwy i'r eglwys mewn amser a ddaw, ond megys bywyd o feirw? Y fath gyfnewidiad trwy yr holl fyd, ar yr Iuddewon eu hunain, ar y cenedloedd paganaidd, ac ar yr holl eglwysi cristionogol marwaidd trwy holl gred, tebycach i adgyfodiad cyffredinol y meirw yn y dydd diweddaf, na dim arall. Tybir y bydd y cyfnewidiad hwn yn sydyn, yn nerthol, yn amlwg, ac yn gyffredinol: cyflawna y tro hwn gynnifer o brophwydoliaethau, mewn modd mòr rhyfedd ac amlwg, fel y bydd raid i ddidduwiaeth ei hun gau ei safn a chywilyddio; ac y bydd raid i'r mwyaf annystyriol a difeddwl, sylwi ar yr amlygiad o allu rhyfeddol Duw yn cyflawni ei air: a chan ei fod ef yn "hoffi trugarâu," efe a gyd-weithreda yn rymus â'r argraffiadau hyn, trwy dywallt ei Ysbryd Sanctaidd i droi yr holl genedloedd, ac i wneuthur gwir grefydd yn fuddugoliaethus trwy y byd oll; a hyny, efallai, mewn gradd fawr, trwy weinidogion a chenadon o blith yr Iuddewon dychweledig.

16 [q] * Canys os sanctaidd y blaen-ffrwyth, *y mae* y clamp toes hefyd *yn sanctaidd;* [r] † ac os sanctaidd y gwreiddyn, *y mae* y canghennau *hefyd* felly.

q Ex. 22. 29. a 23. 16, 19. Lef. 23. 10. Num. 15. 17—21. Deut. 18. 4. a 26. 10. Neh. 10. 35—37. Diar. 3. 9, 10. Ezec. 44. 30. Iago 1. 18. Dat. 14. 4. r adn. 17. Gen. 17. 7. Jer. 2. 21. 1 Cor. 7. 14.

* Dyma reswm arall i brofi nad yw yr Iuddewon wedi eu gwrthod yn hollawl, ac am byth, oblegid y cyfammod a wnaed â'u tadau. Y "blaen-ffrwyth," a'r "gwreiddyn," yma, oedd y patriarchiaid Iuddewig, â'r rhai y gwnaethai Duw y cyfammod; ac yn enwedig Abraham, â'r hwn y gwnaed y cyfammod gyntaf, ac o'r hwn y deilliodd yr holl genedl. Tybia eraill mai yr ychydig ddychweledigion Iuddewig, a aethant gyntaf i'r eglwys Gristionogol, a feddylir wrth y "blaen-ffrwyth" a'r "gwreiddyn:" ac mae eraill eilwaith yn gwahaniaethu rhwng y *blaen-ffrwyth a'r gwreiddyn;* dywedant mai Abraham oedd y *gwreiddyn,* ac mai y cristionogion Iuddewig cyntaf oedd y *blaen-ffrwyth:* ond mae yn debyg mai y golygiad cyntaf sydd gywir, ac mai hyny oedd meddwl yr apostol. Fel yr oedd cyssegriad blaen-ffrwyth yr ŷd a blaenion y toes i'r Arglwydd gynt, yn sancteiddio yr holl gnŵd a'r holl does; (Lefit. 23. 10—17; Num. 15. 19—21,) felly yr oedd cyssegriad Abraham, Isaac, a Jacob i Dduw trwy gyfammod, yn sancteiddio yr holl genedl a ddeilliai o honynt hyd ddiwedd amser. Ond canfydda y darllenydd deallus yn hawdd, mai sancteiddrwydd *perthynasol, cyfammodol,* neu *gyssegriadol,* a feddylir yma; ac nid sancteiddrwydd *personol, greddfol,* a *thumewnol:* nid oedd y "clamp toes" a'r "cangenau," yr holl genedl Iuddewig, yn sanctaidd felly, pe amgen nis gwrthodasai Duw hwynt. Mewn ystyr gyfammodol, allanol, a neilldduedig i'r Arglwydd, dywedir bod holl genedl Israel yn *bobl sanctaidd;* mewn cyferbyniad i'r cenedloedd y rhai nid oeddynt yn ei gyfammod ef: ond yn nyddiau yr apostol yn enwedig, pell iawn oeddynt o fod yn sanctaidd mewn gwirionedd. † Yma cyffelybir y genedl a'r eglwys Iuddewig i olew-wydden (adn. 17.) ac Abraham yn wreiddyn cyfammodol yr olew-wydden hòno; a'r hyn a ddywedwyd am sancteiddrwydd y clamp toes uchod, a ellir ddywedyd am sancteiddrwydd y cangenau yma.

17 [s] * Ac os rhai o'r canghennau a dorrwyd ymaith, † a thydi [t] yn olew-wydden wŷllt a inpiwyd i mewn yn eu plith hwy, [u] ‡ ac a'th wnaethpwyd yn gyfrannog o'r gwreiddyn, ac *o* frasder yr olew-wydden.

s Salm 80. 11—16. Es. 6. 13. a 27. 11. Ezec. 15. 6—8. Mat. 8. 11, 12. a 21. 43. Ioan 15. 6. t Act. 2. 39. Gal. 2. 15. Eph. 2. 11—13. a 3. 6. Col. 2. 13. u Deut. 8. 8. Barn. 9. 8, 9. Salm 52. 8. Zec. 4. 3. Ioan 1. 16. Dat. 11. 4.

Gwedi taro ar y gymhariaeth o wreiddyn a changenau yn niwedd yr adnod o'r blaen, mae yr apostol yn helaethu ychydig ar hyny, i'r dyben o attal y cenedl-

oedd i orfoleddu yn nghwymp, gwrthodiad, a thòriad ymaith yr Iuddewon, ac i'w darbwyllo hwynt i gymmeryd rhybydd wrth esampl yr Iuddewon. * Tòrwyd rhai o'r cangenau naturiol ymaith, sef holl had naturiol Abraham a'r nad oeddynt yn credu; † ac impiwyd y cenedloedd, y rhai wrth natur oeddynt yn ddieithriaid i wladwriaeth Israel, ac yn estroniaid i ammodau yr addewid, i mewn yn mhlith y "gweddill" o had Abraham, yn yr eglwys efengylaidd. Arfer dynion yw impio cangen o rywogaeth dda mewn pren diffrwyth; a'r gangen hòno yn cyfranu o'i natur a'i brasder i'r gwreiddyn diffrwyth i'w ffrwythloni: ond yma mae Duw yn gwneyd i'r gwrthwyneb, yn impio cangenau diffrwyth mewn gwreiddyn da; a'r gwreiddyn da hwnw yn gwneyd y cangenau gwylltion yn ffrwythlawn. ‡ Wrth y gwreiddyn a'r brasder yma mae i ni ddeall, y cyfammod âg Abraham, yr holl addewidion a'r breintiau, y doniau a'r ordinadau, y bendithion ysbrydol a'r grasau, a berthynent i Abraham a'i had, neu i wir eglwys Dduw yn mhob oes. Mae dull yr apostol o resymu yn y fàn hon, yn dangos yn gryf iawn *unedd* yr eglwys weledig dàn bob goruchwyliaeth; ac y mae newidiad yr ordinâd dderbyniadol (sef bedydd yn lle yr enwaediad,) wedi dyfodiad Crist yn amlwg iawn: mae y geiriau hyn gan hyny, yn cynnwys rhesymau mwy sylweddol o blaid bedydd babanod, nac a feddyliwyd yn gyffredinol. Pan impier cangen, impir hi bob amser a'i blagur gyda hi; yr hyn a ddengys fod y cenedloedd yn cael eu himpio, neu eu dwyn i gyfammod Abraham, a'u plant gyda hwynt, i fod yn gyfranog o'r breintiau ag oedd i blant yr Iuddewon crediniol, ac oddi wrth y rhai yr oedd plant y rhai digred yn cael eu cauad allan, a'u tòri ymaith gyda eu rhieni.

18 [x] * Na orfoledda yn erbyn y canghennau. † Ac os gorfoleddi, [y] nid tydi sydd yn dwyn y gwreiddyn, eithr y gwreiddyn dydi.

x adn. 20. pen. 3. 27. 1 Bren. 20. 11. Diar. 16. 18. Mat. 26. 33. Luc 18. 9—11. 1 Cor. 10. 12. y pen. 4. 16. Zec. 8. 20—23. Ioan 10. 16. Gal. 3. 29. Eph. 2. 19, 20.

* Hyny yw, yn erbyn yr Iuddewon a dòrwyd ymaith am ac yn eu hanghrediniaeth: fel pe byddid ti wrth natur yn well na hwy, ac yn fwy teilwng o'r gras a roddwyd arnat. Arwydda y gair, Nac estyn dy wddf, paid ag ymddwyn yn ddiystyrllyd, a thrahâus, yn eu herbyn hwy er eu tòri ymaith. † Ac os byddi un amser yn teimlo tuedd ddrwg i hyny, ‡ cofia mai nid tydi sydd yn dwyn y gwreiddyn, eithr y gwreiddyn dydi: nid yw y gwreiddyn yn ddyledus i'r cangenau, eithr y cangenau yn ddyledus i'r gwreiddyn. Nid yr Iuddewon a impiwyd yn eglwys y cenedloedd, eithr y cenedloedd yn eglwys yr Iuddewon; a pha bethau daionus bynag sy gan y cenedloedd yn awr, oddi wrth yr Iuddewon y derbyniasant hwynt, ac nid yr Iuddewon oddi wrthynt hwy. Trwy ddirmygu had Abraham, yr ydym mewn effaith yn dirmygu Abraham ei hun, yr hwn, fel gwreiddyn, a'u dygodd hwy gynt, ac sydd yn ein dwyn ninnau yn awr.

19 * Ti a ddywedi gan hynny, Torrwyd y canghennau ymaith, [z] fel yr impid fi i mewn.

z adn. 11, 12, 17, 23, 24.

* Gan i Dduw eu tòri hwy ymaith fel yr impiai fi i mewn yn eu lle, yn ddìau mae genyf beth achos i dybied yn well am danaf fy hun nac am danynt hwy; ac i edrych arnynt hwy gyda diystyrwch, fel y trueiniaid mwyaf gwrthodedig. Efallai mai hyn yw agwedd ysbryd ac iaith calon llawer un ag *enw* Cristion arno, tuag at yr hen genedl Iuddewig. Yn wir mae yn anhawdd peidio eu diystyru hwynt, gan mòr elynol i gristionogaeth, ac mòr dwyllodrus mewn pob masnach, yw y rhan fwyaf o honynt; ond eto, tosturio wrthynt a gweddìo drostynt a ddylai Cristionogion, ac nid gorfoleddu yn eu herbyn a'u diystyru.

20 [a] * Da; [b] † trwy anghrediniaeth y torrwyd hwynt ymaith, [c] ‡ a thithau sydd yn sefyll trwy ffydd. [d] || Na fydd uchelfryd, [e] eithr ofna.

a Ioan 4. 17, 18. Iago 2. 19. b pen. 3. 3. Act. 13. 46, 47. a 18. 6. Heb. 3. 12, 19. a 4. 6, 11. c pen. 5. 1, 2. 2 Cron. 20. 20. Es. 7. 9. 1 Cor. 16. 13. 2 Cor. 1. 24. Col. 2. 7. 1 Pedr 5. 9, 12. d adn. 18. pen. 12. 16. Salm 138. 6. Diar. 28. 26. Es. 2. 11, 17. Hab. 2. 4. Zeph. 3. 11. Luc 18. 14. 2 Cor. 10. 5. 2 Thes. 2. 4. 2 Tim. 3. 3—5. Iago 4. 6. 1 Pedr 5. 5, 6. Dat. 3. 17. a 18. 7. e Diar. 28. 14. Es. 66. 2. 1 Cor. 10. 12. Phil. 2. 12. Heb. 4. 1. 1 Pedr 1. 17.

* Wele, caniatâer hyny, i Dduw eu tòri hwy ymaith, ac impio y cenedloedd i mewn, ac *fel* yr impid hwynt i mewn; caniatâer mai hyny oedd un o ddybenion mawr Duw yn ei wrthodiad cyfiawn o honynt hwy: † eto, dylid ystyried, mai o herwydd eu gwrthodiad hwy o Grist, a ffordd iachawdwriaeth trwyddo ef, y tòrodd Duw hwynt ymaith o'r eglwys weledig: ‡ a dylid ystyried hefyd yn wastad, mai trwy ffydd yn Nghrist y dygwyd y cenedloedd i mewn i'w breintiau hwy, ac y maent yn sefyll mewn meddiant o honynt hyd yn hyn. || Fel hyn, gan mai mewn barn gyfiawn y tòrwyd hwy ymaith, a chan mai trwy ras y dygwyd y cenedloedd i mewn ac y maent yn sefyll; ni ddylent fod yn uchelfryd, eithr ofni: yr ydym ni yn dueddol i anghrediniaeth a gwrthgiliad fel hwythau; am hyny arswydwn ac na phechwn, rhag os byddwn gyfranog o'u pechod hwy, y byddwn gyfranog o'u barn ofnadwy hefyd.

21 [f] * Canys onid arbedodd Duw y canghennau naturiol, *gwylia* rhag nad arbedo dithau chwaith.

f adn. 17, 19. pen. 8. 32. Jer. 25. 29. a 49. 12. 1 Cor. 10. 1—12. 2 Pedr 2. 4—9. Judas 5.

Mae yr adnod hon yn dangos yr achos o'r cyngor uchod. Na fydd uchel-fryd, eithr ofna. * Os arferodd Duw y fath doster tuag at ei hen bobl yr Iuddewon; † gallwch chwi y cenedloedd wrth reswn ddysgwyl toster cymmaint, neu fwy, os na wyliwch chwi atoch eich hunain a'ch sefyllfa.

22 [g] * Gwel am hynny ddaioni a thoster Duw: † *sef* i'r rhai a gwympasant, toster; ‡ eithr daioni i ti, [h] || os arhosi yn *ei* ddaioni *ef*. [i] § *Os* amgen, torrir dithau hefyd ymaith.

g pen. 2. 4, 5. a 9. 22, 23. Num. 14. 18—22. Deut. 32. 39—43. Jos. 23. 15, 16. Salm 58. 10, 11. a 78. 49—52. a 136. 15—22. Es. 66. 14. h pen. 2. 7. Luc 8. 15. Ioan 8. 31. a 15. 4—10. Act. 11. 23. a 14. 22. 1 Cor. 15. 2. Gal. 6. 9. 1 Thes. 3. 5, 8. Heb. 3. 6, 14. a 10. 35—39. 1 Ioan 2. 19. Judas 20, 21. i Ezec. 3. 20. a 18. 24. a 33. 17—19. Mat. 3. 9, 10. Ioan 15. 2. Dat. 2. 5.

* Yn lle gorfoleddu yn erbyn yr Iuddewon, a gorfoleddu ynddynt eu hunain, dylai y cenedloedd dychweledig ystyried gyda syndod, arswyd, a diolchgarwch, ddaioni anhaeddedigol, a thoster cyfiawn Duw. † I'r rhai a gwympasant oddi wrth eu breintiau cyfammodol trwy anghrediniaeth, "toster;" hyny yw, cyfiawnder llym a diwyrni Duw, yn cymmeryd ei efengyl oddi wrthynt wedi iddynt hwy ei gwrthod, ac yn eu tòri hwythau ymaith fel cangenau crinion a diffrwyth o'r olewwydden: hyny meddant yw ystyr y gair *(apotomian)* a gyfieithir yma "toster." Gwel adn. 19, 20. ‡ Ond i'r cenedloedd dienwaededig, "daioni" annhraethol, yn danfon yr efengyl iddynt, yn agor eu calonau i'w derbyn, ac felly yn eu cymmeryd hwy i'w eglwys, ac i fwynâd o'i holl freintiau a'i bendithion gogoneddus hi. || Eto, yr oedd yn iawn chwanegu, "os arosent hwy yn ei ddaioni ef;" hyny yw, os arosent hwy yn y ffydd oeddynt yn broffesu ei bod ganddynt, gan fyw mewn ymddiried parâus a gostyngedig, yn y gras a ddatguddid yn yr efengyl. § Ond, os trwy falchder, rhyfyg, ac anghrediniaeth, y dirmygai neb o honynt y daioni a'r gras hwn, mae yr apostol yn dywedyd y tòrai Duw y fath rithbroffeswyr ymaith, megys y tòrodd efe yr Iuddewon ymaith. Tòri oddi wrth freintiau allanol, nid syrthio oddi wrth ras sydd yma.

23 * A hwythau, [k] onid arhosant yn an-

ghrediniaeth, a impir i mewn. † Canys fe all Duw eu himpio hwy i mewn drachefn.

k Zec. 12. 10. Mat. 23. 39. 2 Cor. 3. 16.

Yma mae yr apostol yn dychwelyd eto at yr hyn a grybwyllodd efe o'r blaen, adn. 11 hyd 16, sef adferiad yr Iuddewon; er darostwng ac attal traha a gorfoledd y cenedloedd. * Os nad erys yr Iuddewon yn wastad mewn anghrediniaeth, eithr troi a chredu yn y Messiah; hwy a ddychwelir ac a impir i mewn eto yn eu hen olew-wydden eu hun. † Ac nid yw yn anmhosibl i hyny gymmeryd lle; oblegid pa mòr annobeithiol oynag mae eu cyflwr hwy yn ymddangos yn awr, fel angenau crinion, wedi eu tòri, ac yn llwyr farw, eto fe all Duw eu himpio hwy i mewn drachefn. Y rhwystr mawr yw anghrediniaeth; ond fe all Duw symmud hwnw. Pob peth sydd bosibl gyda Duw: gall ef fywâu er esgyrn sychion meirwon: yr un peth yw iddo ef adferu yr Iuddewon ag oedd galw y cenedloedd. Yr un a allo Duw mae yn bosibl.

24 * Canys os tydi [l] a dorrwyd ymaith o'r holew-wydden yr hon oedd wŷllt wrth naturiaeth, a'th impio yn erbyn naturiaeth, mewn gwir olew-wydden; † pa faint mwy y caiff y rhai hyn sydd wrth naturiaeth, eu himpio i mewn yn ‡ eu holew-wydden eu hun?

l adn. 17, 18, 30.

Ac nid yn unig mae y peth yn *bosibl*, o ran *gallu;* mae hefyd yn *debygol*, wrth *reswm:* * oblegid, os tòrodd Duw y cenedloedd ymaith o'u hen gyflwr drwg wrth naturiaeth, yr hwn oedd yn gyffelyb i olew-wydden wyllt, a'u himpio yn groes i naturiaeth, mewn gwir olew-wydden, sef yn y wir eglwys; † pa faint mwy debygol wrth reswm, yr adfera efe ei hen bobl gyfamodol o'u hanghrediniaeth, gan eu himpio hwy i mewn yn eu holew-wydden eu hun? Mae y ddwy admod olaf, yn nghyd a diwedd yr eilfed ar hugain, wedi cael eu llefaru yn brophwydoliaethol, am wrthgiliad eglwys Rufain, ac am adferiad yr Iuddewon. ‡ "Eu holew-wydden eu hun:" onid yw hyn yn brawf mai yr un yw eglwys Dduw yn awr ag ydoedd dan yr hen oruchwyliaeth? ond bod yr oruchwyliaeth a'r sacramentau wedi newid: bedydd a swper yr Arglwydd, yn lle yr enwaediad a'r oen pasg: ac os yr un yw yr eglwys, yr un fath yw ei haelodau; sef rhieni proffesedig a'u plant.

25 [m] * Canys ni ewyllysiwn, frodyr, eich bod heb wybod [n] y dirgelwch hwn ([o] fel na byddoch ddoethion yn eich golwg eich hun) † ddyfod dallineb o ran i Israel, [q] ‡ hyd oni ddêl cyflawnder y Cenhedloedd i mewn.

m Salm 107. 43. Hos. 14. 9. 1 Cor. 10. 1. a 12. 1. 2 Pedr 3. 8. n pen. 16. 25. Eph. 3. 3, 4, 9. Dat. 10. 7. o pen. 12. 16. Diar. 3. 5—7. a 26. 12, 16. Es. 5. 21. p Gwel ar adn. 7, 8. 2 Cor. 3. 14—16. q Salm 22. 27. a 72. 8—14, 17. a 117. Es. 2. 1—8. a 60. a 66. 18—23. Mica 4. 1, 2. Zec. 8. 20—23. a 14. 9—21. Luc 21. 24. Dat. 11. 15. a 20. 2—4.

Efallai bod yr apostol yn deall, bod "dirgelwch yr anwiredd" o anffaeledigrwydd, hòni uchafiaeth, a thraarglwyddiaethu ar eglwysi eraill yn dechreu "gweithio mysoes" yn eglwys Rhufain; am hyny mae yn ymdrechu yn fwy i attal ei gynnydd. * Ni fynai iddynt fod heb wybod bwriadau dirgel Duw yn mherthynas i'w hen bobl yr Iuddewon, rhag y byddai i oruwch-fanteision presenol y Rhufeiniaid eu gwneyd hwy yn feilchion o'u llwyddiannau a'u doethineb eu hunain. † Dyma un peth yn y dirgelwch a sonia yr apostol, "ddyfod dallineb o ran i Israel:" nid dallineb *o ran* ydoedd i'r rhai a gadwethant dano, eithr dallineb *hollawl*, mewn pethau ysbrydol; ond dallineb o ran ydoedd, am nad oedd wedi porchuddio yr *holl* genedl, yr oedd gan Dduw "weddill," y rhai a waredodd efe rhagddo. Dallineb o *ran* ydoedd efyd o ran parâd; nid oedd i barâu byth ar y genedl, eithr am ond hyd oni ddêl cyflawnder y cenedloedd i mewn: y peth olaf, mae yn debyg, oedd y "dirgelwch" yn benaf. ‡ Mae "cyflawnder y cenedloedd" yma, a "chyflawnder yr Iuddewon" yn adn. 12, i'w cymmeryd yn agos yn yr un ystyr; ac am hyny gan fod "cyflawnder yr Iuddewon" yn arwyddo eu tröedigaeth hwy fel cenedl; felly mae "dyfodiad cyflawnder y cenedloedd i mewn," debygid, yn arwyddo eu dychweliad cyffredinol hwythau, o bob cenedl trwy yr holl fyd. Er cael cynhauaf mawr, o Iuddewon a chenedloedd, yn amser yr apostolion; eto mae cynhauaf llawer mwy yn ol: mae y cyflawnder o Iuddewon a chenedloedd eto i ddyfod i mewn. Gweddïwn am yr amser hyfryd!

26 * Ac felly [r] holl Israel a fydd cadwedig; † fel y mae yn ysgrifenedig, [s] ‡ Y Gwaredwr ‖ a ddaw allan o Sion, [t] § ac a dry ymaith annuwioldeb oddi wrth Jacob.

r Es. 11. 11—16. a 45, 17. a 54. 6—10. Jer. 3. 17—23. a 30. 17—22. a 31. 31—37. a 32. 37—41. a 33. 24—26. Ezec. 34. 22—31. a 37. 21—28. a 39. 25—29. a 40—48. Hos. 3. 5. Joel 3. 16—21. Amos 9. 14, 15. Mica 7. 15—20. Zeph. 3. 12—20. Zec. 10. 6—12. s Salm 14. 7. a 106. 47. Es. 59. 20. t Mat. 1. 21. Act. 3. 26. Tit. 2. 14.

* Yn yr oesoedd cyfryngawl, cesglir lluoedd aneirif i'r eglwys; ond tuag amser cynhauaf mawr diweddaf y cenedloedd, tynir y "dallineb" oddi ar Israel, gwaredir y genedl o'i chyflwr gwasgaredig a gwrthodedig, a dygir hwy fel corph i gredu yr efengyl, i eglwys weledig yr Arglwydd Iesu Grist. Holl Israel fel *cenedl* a feddylir yma, ac nid holl Israel *ysbrydol*, o Iuddewon a chenedloedd, fel yn Galat. 6. 16, ac amryw fànau eraill. † Mae hyn yn ysgrifenedig yn Es. 59. 20, ac a gyflawnir tua diwedd y byd, yn y cyflawnder o Iuddewon a chenedloedd a ddygir i mewn i'r eglwys. ‡ Y Gwaredwr hwn yw y Messiah mawr, yr unig Waredwr oddi wrth bechod a digofaint. ‖ "*I* Sion," medd Esaiah; "allan *o* Sion," medd Paul yma: nid yw y gwahaniaeth o bwys; ac mae pob un o'r ddau ddywediad yn wir; e ddaeth y Gwaredwr *i* Sion, sef i'r eglwys Iuddewig, yn ei ymddangosiad yn y cnawd a'i weinidogaeth; ac efe a ddaw allan *o* Sion yn ei nerth a'i ogoniant mawr, yn ei Ysbryd, ei arddelwad a'i ras, pan ddelo i waredu holl Israel, ac i ddwyn cyflawnder y cenedloedd i mewn. § A dry ymaith galedwch a chalon ddïedifeiriol, anghrediniaeth, a gelyniaeth yn erbyn y Messiah, ei deyrnas a'i iachawdwriaeth; ac a wna y fath gyfnewidiad rhyfeddol arnynt trwy ei air a'i Ysbryd, fel y tröant hwy â'u holl galon oddi wrth annuwioldeb at Dduw trwyddo ef.

27 [u] * A hyn *yw* yr ammod *sydd* iddynt gennyf fi, [x] † pan gymmerwyf ymaith eu pechodau hwynt.

u Es. 55. 3. a 59. 21. Jer. 31. 31—34. a 32. 38—40. Heb. 8. 8—12. a 10. 16. x Es. 27. 9. a 43. 25. Jer. 50. 20. Ezec. 36. 25—29. Hos. 14. 2. Ioan 1. 29.

* Nis gwyddom am yr un adnod gyfan yn yr Hen Destament sydd air yn air â'r adnod hon: tybia rhai i'r apostol gymmeryd y geiriau allan o Jer. 3. 33, 34; a thybia eraill ei fod yn cyfeirio at Esa. 59. 21; a 27. 9. Hyn yw y cyfammod a wnaethum I â chenedl ac eglwys Israel, i sicrâu iddynt y bydd i mi sylw grasol ar eu hiliogaeth hwy yn y cenedlaethau pellaf; ac y cyflawnaf fi fy nghyfammod iddynt yn y modd rhyfeddaf mewn oesoedd i ddyfod; † pan gymmerwyf ymaith eu pechodau trwy faddeuant rhad a grasol, a phan dröwyf hwynt oddi wrthynt, yn enwedig oddi wrth anghrediniaeth, yr hyn a'm digiodd I, ac a barodd i mi eu bwrw hwynt ymaith. Mae hyn yn dangos fod amser gan Dduw i adferu ei bobl, ac i'w dwyn hwy i'w eglwys drachefn: efe a gyflawna hyny yn ei amser.

28 * Felly o ran yr efengyl, [y] gelynion *ydynt* † o'ch plegid chwi: [z] ‡ eithr o ran yr etholedigaeth, [a] caredigion *ydynt* ‖ oblegid y tadau.

y adn. 11, 30. Mat. 21. 43. Act. 13. 45, 46. a 14. 2. a 18. 6. 1 Thes. 2. 15, 16. z adn. 7. Es. 41. 8, 9. a Gen. 26. 4. a 28. 14. Lef. 26. 40—42. Deut. 4. 31. a 7. 7, 8. a 8. 18. a 9. 5. a 10. 15. Salm 105. 8—11. Jer. 31. 3. Mica 7. 20. Luc 1. 54, 55, 68—75.

* O ran efengyl Crist a ffordd iachawdwriaeth trwy-

ddo ef yn unig, mae yr Iuddewon yn elynion i'r pethau hyn yn bresenol, a Duw yn eu cyfrif hwy yn elynion iddo ef o herwydd hyny, ac yn eu gwrthod ac yn eu tòri ymaith. † "O'ch plegid chwi:" hyny yw, medd rhai, Maent yn casâu ac yn gwrthod yr efengyl o herwydd eich bod chwi genedloedd yn ei chael; ac yn meddwl yn waeth am dani am eich bod chwi yn ei derbyn ac yn ei phroffesu. Mae yn ddiammau fod llawer o wir yn hyna; ond yr oedd yr Iuddewon wedi gwrthod yr efengyl cyn i'r cenedloedd ei chael hi: am hyny gwell i ni ddeall y geiriau fel hyn; fod Duw o herwydd eu gwrthodiad hwy o'r efengyl wedi eu gwrthod hwythau, a chwedi cymmeryd y cenedloedd i mewn yn eu lle: wedi eu gwrthod hwy megys er mwyn derbyn y cenedloedd. Ac yn hyny yr oedd ei ddaioni at y naill blaid, a'i doster at y blaid arall, i'w gweled yn amlwg iawn, adn. 22. ‡ Ond o ran etholiad Duw o honynt fel cenedl, a'r nifer aneirif o etholedigion i fywyd tragywyddol, sydd eto i ddeilliaw o honynt, nid oes ac ni bydd dim cyfnewidiad ar hyny, maent o hyd yn garedidigion gan Dduw ac yn wrthddrychau ei drugaredd neillduol ef. ‖ Nid oblegid haeddiant a theilyngdod eu tadau, ond oblegid y cyfammod a wnaeth Duw â'u tadau, yn yr hwn yr addawodd efe fod yn Dduw iddynt hwy ac i'w had, ïe, i had eu had byth. Methodd holl anghrediniaeth yr Iuddewon yn mhob oes a thòri y cyfammod hwn.

29 [b] * Canys dïedifarus *yw* doniau a galwedigaeth Duw.

b Num. 23. 19. Hos. 13. 14. Mal. 3. 6.

* Os ystyriwn ni y geiriau hyn mewn cyssylltiad â'r adnodau o'r blaen, maent yn dangos fod doniau a galwedigaethau Duw, yn ei waith yn ethol ac yn mabwysiadu Abraham a'i had, ac yn ymrwymo mewn cyfammod i fod yn Dduw iddynt hwy, yn annhòredig ac yn anghyfnewidiol. Os ystyriwn hwy ar eu penau eu hunain fel darn o wirionedd dwyfol, maent yn dangos fod holl ddoniau grasol ac achubol Duw, megys etholedigaeth, cyfiawnâd, mabwysiad, galwedigaeth effeïthiol a pharâd ei bobl mewn gras, yn ddiedifarus, yn ddigyfnewid, ac yn ddialw yn ol byth. Nid yw Duw yn edifarâu eu rhoi, na'i bobl eu derbyn. Fel arall y mae o ran doniau a rhoddion cyffredinol Duw.

30 [c] * Canys megis y buoch chwithau gynt yn anufudd i Dduw, † eithr yr awrhon [d] a gawsoch drugaredd [e] trwy anufudd-dod y rhai hyn;

c 1 Cor. 6. 9—12. Eph. 2. 1, 2, 12, 13, 19—21. Col. 3. 7. Tit. 3. 3—7. d adn. 31. 1 Cor. 7. 25. 2 Cor. 4. 1. 1 Tim. 1. 18. 1 Pedr 2. 10. e adn. 11—19.

31 ‡ Felly hwythau hefyd yr awrhon a anufuddhasant, [f] fel y caent hwythau drugaredd ‖ trwy eich trugaredd chwi.

f adn. 15, 25.

* Dyma reswm olaf yr apostol i brofi galwad a dychweliad yr Iuddewon, yr hwn a gadarnêir yn mhellach yn adn. 32. Megys y bu y cenedloedd unwaith am oesoedd lawer yn anufudd i Dduw, megys wedi eu claddu mewn anwybodaeth ac ofergoelion ynfyd, heb obaith ganddynt, ac heb Dduw yn y byd; † eithr a gawsant drugaredd trwy anufudd-dod yr Iuddewon:—hwy a gawsant yr efengyl a'i bendithion trwy wrthodiad yr Iuddewon o hòni, a thrwy bregethwyr o'r genedl hòno; ‡ felly y caiff yr Iuddewon anghrediniol, gwrthnysig, ac anufudd o'r diwedd, drugaredd o drugaredd y cenedloedd, trwy y drugaredd a gafodd y cenedloedd, ac a dderbyniant yr efengyl yn y màn gan weinidogion o blith y cenedloedd, megys y derbyniodd y cenedloedd hi ar y cyntaf gan weinidogion o'u plith hwythau. Fel hyn ni a welwn, i'r efengyl fod yn nghadw gan yr Iuddewon am oesoedd lawer i'r cenedloedd; ac yn awr mae yr un efengyl yn nghadw gan y cenedloedd i'r Iuddewon: hwy a'i cânt, ac mae ynddi ddigon iddynt hwy a ninnau. ‖ Mae mwy o rym mewn peth da i ateb dyben da, nag y sydd mewn peth drwg i ateb yr un dyben: gan hyny os bu anghrediniaeth yr Iuddewon yn foddion i ateb dyben mòr dda ag i'r cenedloedd gael eu dychwelyd; pa faint mwy y bydd dychweliad y cenedloedd yn foddion i ddychwelyd ac adferu yr Iuddewon? Pan welont hwy drugaredd Duw i'r cenedloedd, yr holl fyd yn blodeuo mewn cristionogrwydd; pan welont mai yn ofer y dysgwyliant am y Messiah, pa fodd mae eu cenedl wedi ei gwasgaru, &c.; yna hwy a ddeuant o'r diwedd, ac a gredant yn Nghrist, ac a dderbynir yn drugarog ganddo ef.

32 [g] * Canys Duw a'u cauodd hwynt oll mewn anufudd-dod, [h] fel y trugarhâi wrth bawb.

g pen. 3. 9. Gal. 3. 22. h Ican 1. 7. a 12. 32. 1 Tim. 2. 4—6.

* Mae o bwys mawr i ni sylwi fod hyn yn cyfeirio at amserau gwahanol: Yn gyntaf, goddefodd Duw i'r cenedloedd, yn oesoedd boreuol y byd, i ymadael âg ef, ac i wrthryfela yn ei erbyn; ac y pryd hwnw a gymmerodd deulu Abraham fel pobl briodol iddo ei hun, gan eu cynnysgaethu hwynt â breintiau tra rhagorol. Gwedi hyny, efe a oddefodd iddynt hwythau syrthio trwy anghrediniaeth ac anufudd-dod, ac a gymmerodd y cenedloedd i mewn ar eu gwaith yn credu; ac efe a wnaeth hyn gyda bwriad i'w drugaredd ef i'r cenedloedd fod yn foddion i ỳru eiddigedd (Gwel ar adn. 11, 14.) ar yr Iuddewon, ac felly eu dwyn hwy i gredu trwy y peth hwnw a fuasai gynt yn dramgwydd ar y ffordd iddynt. Fel hyn cyd-gauodd Duw hwynt oll mewn anghrediniaeth ar wahanol amserau, megys mewn carchar, hyd yr amser terfynedig; fel y trugarhëai o'r diwedd wrthynt oll, trwy ddwyn Iuddewon a chenedloedd, sef holl genedloedd y ddaear, i wybodaeth o'i iachawdwriaeth ef trwy ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist.

33 [i] * O ddyfnder [k] golud doethineb a gwybodaeth Duw! [l] † mor anchwiliadwy *yw* ei farnau ef! ‡ a'i ffyrdd mor anolrheinadwy *ydynt!*

i Diar. 25. 3. Eph. 3. 18. k pen. 2. 4. a 9. 23. Eph. 1. 7. a 2. 7. a 3. 8, 10, 16. Col. 1. 27. a 2. 2, 3. l Job 5. 9. a 9. 10. a 11. 7—9. a 26. 14. a 33. 13. a 37. 19, 23. Salm 36. 6. a 40. 5. a 77. 19. a 92. 5. a 97. 2. Preg. 3. 11. Dan. 4. 35.

Yn yr adnod hon a'r adnodau canlynol, mae diweddglo yr hyn oll a ddywedasai yr apostol, yn enwedig yn y bennod hon a'r ddwy bennod o'r blaen. Efe a lefarasai am amryw ddirgeledigaethau dyfnion, ac a atebasai am amryw holiadau dyrys; ac yma mae yn sefyll, ac yn sỳnu wrth annrhraethol ddoethineb a gwybodaeth Duw: yr hyn sydd yn dysgu i ninnau hefyd, i ryfeddu ac addoli yn dduwiol, yn ostyngedig ac yn barchus, wrth y fath ddirgeledigaethau dyfnion, ac nid ceisio hyll-dremu yn ansanctaidd a chnawdol-gywrain iddynt, tu hwnt i derfynau y datguddiad dwyfol. * Mae yr apostol yma fel dyn wedi myned i fôr dirfawr, ac wedi dechreu colli y gwaelod, yn gwaeddi allan, O ddyfnder! yr oedd efe wedi myned cyn belled ag yr oedd yn addas ac yn ddefnyddiol i egluro ac amddiffyn arfaeth a bwriadau dirgeledig Duw; ac eto efe a wyddai yn dda fod llawer o dywyllwch ac anhawsderau yn aros arnynt, ac y byddai i ddynion rhyfygus, beilchion, ac anghrediniol o hyd, chwanegu llawer o holiadau a gwrthddadleuon yn eu cylch. † Wrth "farnau" Duw, mae rhai yn deall ei arfaeth dragywyddol ef, mewn perthynas i genedloedd a phersonau; ‡ ac wrth ei "ffyrdd" ef, deallant ffyrdd ei ragluniaeth ef, yn ei ymddygiadau tuag at ddynion. Dywed yr apostol eu bod yn "anchwiliadwy" ac yn "anolrheinadwy:" fel ffordd ac arogl y prŷf, i'r milgwn, yn aml; fel ffordd llong yn y môr, neu fel ffordd eryr yn yr awyr. Nis gall dynion ddeall ffyrdd a barnau Duw: ond y mae efe ei hun yn eu deall yn drwyadl, ac mae hyny yn ddigon gan bob credadyn sobr a gostyngedig.

34 [m] * Canys pwy a wybu feddwl yr Arglwydd? † neu pwy a fu gynghorwr iddo ef?

m Job 15. 8. a 36. 22, 23. Es. 40. 13. Jer. 23. 18. 1 Cor. 2. 16.

* Hyny yw, Pwy a ŵyr beth mae Duw yn myned i'w wneyd; † a phwy a fu yn ei gyngori ef yn nghylch ei arfaeth a'i weithredoedd? cymmerodd yr apostol y geiriau o Esa. 40. 13, 14. Pa ddyn, pa angel, pa unrhyw grëadur, a fu yn ei gyngor tragywyddol ef, i wybod ei gyngor a'i arfaeth ef? A phwy all ddywedyd iddo fod yn cyngori y Goruchaf a'r unig ddoeth Dduw mm yr un o'i weithredoedd? Neb, yn sicr, ac am hyny inis gall neb ddeall ei feddyliau ef, nac egluro ei arfaeth na'i ffyrdd rhyfeddol ef, yn mhellach nac y mae yr Unig-anedig Fab, yr hwn sydd yn ei fynwes ef, yn eu mysbysu hwynt.

35 * Neu pwy a roddes iddo ef yn gyntaf, † ac fe a delir iddo drachefn?

n Job 35. 7. a 41. 11. Mat. 20. 15. 1 Cor. 4. 7.

* Neu, os bydd i rai o'r Iuddewon taïogaidd, neu ryw Iddeddfolion eraill cyffelyb iddynt, ryfygu achwyn ar ffyrdd a goruchwyliaethau Duw, megys pe byddai efe rn rhŷ dost ac anghyfiawn yn gwrthod rhai, yn enwedig o'r Iuddewon, ac yn trugarâu wrth eraill; gofyner i'r yfryw feïwyr hyfion, Pwy a fu erioed yn mlaenllaw ar argluwydd mawr yr holl fydoedd, i'w osod ef dàn ewymau iddynt? Pwy a roddodd ddim iddo ef yn *nyntaf, cyn* derbyn llawer ganddo ef, digon i'w osod dàn y rhwymau mwyaf i gyflwyno ei hun a'i gwbl oll iddo ef a'i wasanaeth byth. † Od oes neb i'w gael rwy yr holl fyd, a all ddadlau y fath beth a hyn, deued m mlaen, a safed ger bron Duw i grybwyll ei hawl: os rall neb brofi fod Duw yn ddyledus iddo, efe a dâl yn dicr; ac ni chaiff neb byth le i ddywedyd nad yw Barnidd yr holl ddaear yn gyfiawn. Ond y mae yn gwbl nmhosibl, y gall yr un dyn pechadurus ddywedyd fod Duw mawr a sanctaidd yn ei ddyled ef, ac mae y fath ŷb afresymol yn gabledd o'r fath echrysder, fel y mae m ofnadwy meddwl am dani. Gan hyny mae iachwdwriaeth pawb a gedwir yn hollawl o ras, ac o benrglwyddiaethol ras Duw; ac nid oes gan neb le i achyn, os gwna efe ragor rhwng rhai âg eraill.

36 [o] * Canys o hono ef, † a thrwyddo ef, ac iddo ef, *y mae* pob peth. [p] ‖ Iddo ef *y yddo* gogoniant yn dragywydd. § Amen.

o 1 Cron. 29. 11, 12. Salm 33. 6. Diar. 16. 4. Dan. 2. 20—23. 4. 3, 34. Mat. 6. 13. Act. 17. 25, 26, 28. 1 Cor. 8. 6. Eph. 4. 6—D. Col. 1. 15—17. Dat. 21. 6. p pen. 16. 27. Salm 29. 1, 2. a B. 7, 8. a 115. 1. Es. 42. 12. Luc 2. 14. a 19. 38. Gal. 1. 5. Eph. 21. Phil. 4. 20. 1 Tim. 1. 17. a 6. 16. 2 Tim. 4. 18. Heb. 13. 21. Pedr 5. 11. 2 Pedr 3. 18. Judas 25. Dat. 1. 5, 6. a 4. 10, 11. a 5. 2—14. a 7. 10—12. a 19. 1, 6, 7.

* "O hóno ef," fel yr Achos effeithiol; † "trwyddo ef," fel yr Achos llywodraethol; ‡ ac "iddo ef," fel yr Achos diweddol. Mae pob peth "o hóno ef," heb un achos arall; "trwyddo ef," heb un cynnorthwy arall; ac "iddo ef," heb un dyben arall; hyny yw, er ei lwyn ef yn unig. Eto, "o hóno ef," fel yr Hunanhanfodol, yr Holl-ddigonol, a Ffynon dragywyddol pob hanfod a pherffeithrwydd, y deilliodd pob crëadur phob peth yn ddechreuol: "trwyddo ef," y mae pob peth yn cyd-sefyll ac yn bod, yn cael eu cynhal a'u trefnu; ac "iddo ef" y maent, neu y dylent fod, n hollawl gyssegredig byth: ac mewn rhyw ffordd a'i ffilydd, bydd raid i bawb a phob peth yn sicr, fynegi, eu amlygu, gogoniant ei berffeithiau ef, ac anrhydddu ei enw mawr. ‖ Gan hyny, yn lle grwgnach a wrth-ddadlau yn erbyn ei farnau a'i ffyrdd ef, dylai pawb ddywedyd, Iddo ef y byddo gogoniant yn dragywydd. § Amen: felly y dylai fod, ac y bydd byth ythoedd.

PEN. XII.

Pa dylai trugareddau Duw ein cynhyrfu ni i ryngu ei fodd ef.

* AM hynny yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, [b] † er trugareddau Duw, [c] ‡ roddi honoch eich cyrph yn [d] ‖ aberth byw, sanctaidd, [e] cymmeradwy gan Dduw; § *yr hyn yw* eich rhesymol wasanaeth chwi.

a pen. 15. 30. 1 Cor. 1. 10. 2 Cor. 5. 20. a 6. 1. a 10. 1. Eph. 4. 1. 1 Thes. 4. 1, 10. a 5. 12. Heb. 13. 22. b pen. 2. 4. a 9. 23. a 11. 30, 31. Salm 116. 12. Luc 7. 47. 2 Cor. 4. 1. a 5. 14, 15. Eph. 2. 4—10. Phil. 2. 1—5. Tit. 3. 4—8. 1 Pedr 2. 10—12. c pen. 6. 13, 16, 19. 1 Cor. 6. 13, 15, 19, 20. Phil. 1. 20. Heb. 10. 22. d Salm 69. 30, 31. Hos. 14. 2. 1 Cor. 5. 7, 8. 2 Cor. 4. 16. Phil. 2. 17. Heb. 10. 20—22. a 13. 15, 16. 1 Pedr 2. 5. e adn. 2. pen. 15. 16. Salm 19. 14. Es. 56. 7. Jer. 6. 20. Eph. 5. 10. Phil. 4. 18. 1 Tim. 2. 3. a 5. 4. 1 Pedr 2. 5, 20.

Hyd yma mae yr apostol wedi bod yn ymdrin â phethau athrawiaethol, dadleuol, a rhesymiadol: yn y bennod hon, a'r rhai canlynol, mae yn dyfod at bethau ymarferol crefydd, ac yn gosod i lawr rëolau buchedd sanctaidd, sylfaenedig ar egwyddorion efengylaidd. * Gwelwn ei garedigrwydd a'i daerineb ef yn nechreu yr adnod; mae yn cyfarch y saint yn Rhufain fel ei "frodyr" anwyl yn y ffydd, dyna ei garedigrwydd: mae yn danfon ei ddeisyfiad atynt dàn "attolwg" iddynt, dyna ei daerineb. † Mae efe yn defnyddio y gair yn y rhif liosog, i arwyddo amledd a mawredd eu trugareddau, megys eu hetholedigaeth, eu prynedigaeth, eu galwad, eu dychweliad, eu cyfiawnâd, eu mabwysiad, a'u holl fendithion ysbrydol a'u breintiau lïosog fel eglwys. Ar sail trugareddau Duw, nid oddi ar egwyddorion deddfol, yr oedd yr apostol yn annog y Rhufeiniaid i sancteiddrwydd a gweithredoedd da. ‡ Gosod yr aberth ger bron yr allor, yw ystyr y gair *Parastesai*, rhoddi, yma. "Eich cyrph," nid heb yr enaid yn ddïammau; eithr y cyrph a'r eneidiau: fel y bu ein cyrph yn arfau anghyfiawnder i bechod gynt, felly y dylent fod i sancteiddrwydd a gwasanaeth Duw yn awr, i dreulio ac ymdreulio yn ei waith ac er ei ogoniant ef. ‖ Rhaid cael anifeiliaid byw, glân, a dianaf, i'w haberthu gynt; a thybir mai cyfeiriad at hyny sydd yn y geiriau hyn, "aberth byw, sanctaidd:" ni bydd yn "gymmeradwy gan Dduw" yn awr mwy na chynt, heb fod felly. § Nis gall dim fod yn fwy rhesymol nag i ni gyssegru ein hunain i Dduw a'i wasanaeth felly; ac mae yn dra afresymol i un dyn, crëadur rhesymol beidio: mae yn rhesymol i ni fel crëaduriaid, ac yn fwy rhesymol byth fel pechaduriaid achubol. Rhesymol mewn cyferbyniad i'r aberthau gynt, medd rhai; crëaduriaid direswm a aberthid yno, ond yn awr dynion rhesymol yn eu haberthu eu hunain. Wrth "resymol wasanaeth," mae eraill yn deall *ysbrydol* wasanaeth, fel yn 1 Pedr. 2. 5, lle y dywedir am "aberthau ysbrydol."

2 [f] * Ac na chyd-ymffurfiwch a'r byd hwn: [g] † eithr ymnewidiwch ‡ trwy adnewyddiad eich meddwl; ‖ fel y [h] profoch beth *yw* [i] daionus, a chymmeradwy, a pherffaith ewyllys Duw.

f Ex. 23. 2. Lef. 18. 29, 30. Deut. 18. 9—14. Ioan 7. 7. a 14. 30. a 15. 19. a 17. 14. 1 Cor. 3. 19. 2 Cor. 4. 4. a 6. 14—17. Gal. 1. 4. Eph. 2. 2. a 4. 17—20. Iago 1. 27. a 4. 4. 1 Pedr 1. 18. a 4. 2. 2 Pedr 1. 4. a 2. 20. 1 Ioan 2. 15—17. a 3. 13. a 4. 4, 5. a 5. 19. Dat. 12. 9. a 13. 8. g pen. 13. 14. Salm 51. 10. Ezec. 18. 31. a 36. 26. 2 Cor. 5. 17. Eph. 4. 22—24. Col. 3. 10. Tit. 3. 5. h adn. 1. Salm 34. 8. Eph. 5. 10, 17. 1 Pedr 2. 3. i adn. 1. pen. 7. 12, 14, 22. Salm 19. 7—11. a 119. 47, 48, 72, 97, 103, 128, 174. Diar. 3. 1—4, 13—18. Gal. 5. 22, 23. Eph. 5. 9. Col. 4. 12. 1 Thes. 4. 3. 2 Tim. 3. 16, 17.

* Gwedi cyssegru eu hunain gyrph ac eneidiau fel hyn i Dduw a'i wasanaeth, dylai cristionogion fyned yn hollawl yn erbyn dull y byd hwn, a dyoddef barn, gwawd, a gelyniaeth dynion annuwiol, yr hyn a fydd lawer gwaith yn rhwystr a gwrthwynebiad i'w manteision bydol hwynt. Ni ddylent gan hyny geisio na dysgwyl dedwyddwch yn y byd hwn, na chyd-ymffurfio â rhëolau, egwyddorion, arferion, a defodau y byd yn gyffredinol, lle y byddo y pethau hyny yn groes i air Duw, yn groes i ysbryd yr efengyl, yn groes i gynnydd duwioldeb, i lwyddiant ysbrydol eu heneidiau eu hunain, ac i gynnydd a chwanegiad eu talentau. † Ond dylai holl ymgais ein heneidiau ni fod, mewn gweddïau ar Dduw, ac yn yr ymarferiad o bob moddion, ï

gael ein newid yn hollawl (*metamorphousthe*) i agwedd gwbl groes, gwell, a mwy gogoneddus, na dim ag sydd yn null a helynt y byd hwn. ‡ Rhaid i'r newidiad hwn gael ei wneyd ar y meddwl, ac yn y galon, gan Ysbryd Duw, yr hwn sydd yn gweithio ynom ewyllysio a gweithredu yn ol ei ewyllys da ef. Heb y cyfnewidiad gwreiddiol, a'r adnewyddiad parâus beunyddiol hwn ar ein meddyliau, nid oes dim a ddaw â ni i beidio a chyd-ymffurfio â'r byd hwn, dyma yr unig feddyginiaeth: cyd-ymffurfio â'r byd yn ei ysbryd, ei gyfeillach, a'i arferion llygredig, ac hyd yn nôd dadlau dros ddiniweidrwydd a chyfreithlondeb hyny hefyd, a wna proffeswyr iach pen-uchel, tra byddont yn ddïeithr i'r gweithrediadau a'r goruchwyliaethau sancteiddiol hyn. || Holl ewyllys Duw, sydd yn ddatguddiedig yn ei air: dywedir tri o bethau am dani; ei bod yn ddaionus, yn gymmeradwy, ac yn berffaith: ac eto nid yw na daionus, na chymmeradwy na pherffaith yn mhrofiad y proffeswr cnawdol, penrhydd, a bydol, sydd yn ddïeithr i'r newidiad a'r goruchwyliaethau a soniwyd uchod. Mewn hanes a chydsyniad oerllyd y mae pobpeth ganddynt hwy; dirgelwch yr Arglwydd sydd gyda'r rhai a'i hofnant ef, a'r rhai hyny yn unig a fedrant fwynâu yn sanctaidd, bethau gwerthfawr Duw.

3 * Canys [k] yr wyf yn dywedyd, trwy y gras a roddwyd i mi, † wrth bob un a'r sydd yn eich plith, [l] na byddo i neb uchel-synied yn amgen nag y dylid synied; ‡ eithr synied i sobrwydd, [m] fel y rhannodd Duw i bob un esur ffydd.

k adn. 6—8. pen. 1. 5. a 15. 15, 16. 1 Cor. 3. 10. a 15. 10. Gal. 2. 8, 9. Eph. 3. 2, 4, 7, 8. a 4. 7—12. Col. 1. 29. 1 Tim. 1. 14. 1 Pedr 4. 11. l pen. 11. 20, 25. Diar. 16. 18, 19. a 25. 27. a 26. 12. Mica 6. 8. Mat. 18. 1—4. Luc 18. 11. 1 Cor. 4. 7, 8. 2 Cor. 12. 7. Gal. 6. 3. Phil. 2. 3—8. Col. 2. 13. Iago 4. 6. 1 Pedr 5. 5. 3 Ioan 9. m adn. 6. Ioan 3. 34. 1 Cor. 4. 7. a 12. 7—11. 2 Cor. 12. 13. Eph. 4. 7, 13, 16.

* Yr oedd y cyngorion cyffredinol o'r blaen yn cael eu rhoddi yn iaith garedig brawdgarwch, ond mae y gorchymyn hwn yn cael ei roddi mewn awdurdod Apostolaidd: fel pe dywedasai Paul, Nid yn unig yr wyf yn *attolwg* i chwi fel *brawd*, ond yr wyf yma yn *gorchymyn* i chwi fel *Apostol*, yr hwn trwy ras Duw a gafodd ei osod yn y swydd anrhydeddus ac awdurdodol hòno. † Yr wyf yn dywedyd wrth *bob un* a'r sydd yn eich plith yn yr eglwys yn Rhufain, na byddo i *neb* o hónoch uchel synied yn amgen nag y dylid synied. Balchder ysbrydol yw y peth mae yr apostol yn ei wahardd, o herwydd cenedl, gwaedoliaeth, sefyllfa uchel yn y byd neu yn yr eglwys, neu ddoniau ysbrydol a dderbyniasai rhai o honynt gan Dduw: ac O mòr wrthun, ffiaidd, a niweidiol, yw balchder o bob math yn eglwys Dduw, ac yn nghanlynwyr yr Iesu addfwyn a gostyngedig! ‡ Synied i sobrwydd yw synied am danom ein hunain yn gywir fel yr ydym, fel pechaduriaid tlodion wedi cael trugaredd: barnu neu feddwl am danom ein hunain yn y fath fodd, a baro i ni ymddwyn gyda gwylder a doethineb, fel dynion sobr ac yn eu hiawn bwyll a'u synwyr. || Dylai pawb synied am dano ei hun fel derbyniwr annheilwng gan Dduw, ac yn ol fel y rhanodd Duw iddo o bob gras a dawn ysbrydol, heb dybied ei fod yn uwch nac ydyw mewn un modd nac mewn un dawn.

4 [n] * Canys megis y mae gennym aelodau lawer mewn un corph, † ac nad oes gan yr holl aelodau yr un swydd:

n 1 Cor. 12. 27. Eph. 4. 15, 16.

5 [o] ‡ Felly ninnau, *a ni* yn llawer, ydym un corph yng Nghrist, a phob un yn aelodau i'w gilydd.

o adn. 4. 1 Cor. 10. 17. a 12. 12—14, 27, 28. Eph. 1. 23. a 4. 25. a 5. 23, 30. Col. 1. 24. a 2. 19.

* Mae yr adnodau hyn yn rheswm yn erbyn balchder ysbrydol: aelodau yw yr holl gristionogion o'r un corph; am hyny ni ddylent ymfalchïo o'u gwahanol ddoniau, eithr eu defnyddio yn ostyngedig a ffyddlawn er daioni cyffredinol y corph, gan ystyried hyny yn rhagor-fraint fawr. † Nid yr un swydd sy gan aelodau y corph naturiol, ac eto mae pob aelod yn cyflawni ei swydd ei hun yn dawel: felly y dylai fod yn yr eglwys; peth mawr yw i bob un weled ei le ei hun, a bod yn ddiddig, yn dawel, ac yn ffyddlawn yn ei le ei hun: yna ni chuddia ei dalent yn y ddaear ar y naill law, ac nid ymawydda yn falch ar y llaw arall am le a dyledswyddau yn yr eglwys, nad yw efe yn gymhwys iddynt. ‡ Fel mae y corph naturiol ag iddo aelodau lawer yn gwasanaethu eu gilydd, ac eto yn un corph; felly y mae corph Crist, sef ei eglwys ef, mae iddo aelodau lawer, yn gwasanaethu eu gilydd yn ol eu gwahanol ddoniau a'u sefyllfäoedd, ac eto un corph ydyw oll, a phob un yn aelodau i'w gilydd: aelodau *i'w gilydd* ydynt, cofiwn, ac nid pob un iddo ei hun; dystrywiai hyny unoldeb y corph. Cofied pawb yn yr eglwys mai aelodau *i'w gilydd* ydynt, ac ystyried pawb beth a allant wneyd 'w gilydd er llesâd eu gilydd.

6 [p] * *A* chan fod *i ni* amryw ddoniau yn ol y gras a roddwyd i ni, [q] † pa un bynnag ai prophwydoliaeth, ‡ *prophwydwn* [r] || yn ol cyssondeb y ffydd;

p pen. 1. 11. 1 Cor. 1. 5—7. a 4. 6, 7. a 12. 4—11, 28—31. a 13. 2. 1 Pedr 4. 10, 11. q Mat. 23. 34. Luc 11. 49. Act. 2. 17. a 11. 27, 28. a 13. 1. a 15. 32. a 21. 9. 1 Cor. 12. 28. a 14. 1, 3—5, 24, 29, 32. Eph. 3. 5. a 4. 11. 1 Thes. 5. 20. r adn. 3. Act. 18. 24—28. 2 Cor. 8. 12. Phil. 3. 15.

* O ras Duw y mae pob dawn ysbrydol gan ddynion, am hyny ni ddylai neb fod yn falch o honynt, nac uchel-synied o'u plegid. Cawn sylwi ar yr "amryw ddoniau" a sonir yma, fel y delom yn mlaen atynt: tybia rhai mai doniau anghyffredinol, a phriodol i'r oes hòno yn unig, yw yr holl ddoniau a sonir yma; ond tybia eraill fod yr apostol yn meddwl, nid doniau felly yn unig, ond hefyd doniau ysbrydol cyffredin, y fath ag sydd yn angenrheidiol bob amser er adeiliadaeth yr eglwys. † Prophwydoliaeth yw un o'r doniau hyn; dawn, trwy ysbrydoliaeth Duw, i rag-fynegi pethau i ddyfod, neu ddawn i egluro prophwydoliaethau yr Hen Destament, er adeiladaeth yr eglwys, a chadarnâu ffydd y saint. Mae yn debyg fod dawn o'r fath hyn yn cael ei roddi i ryw ddynion neillduol yn yr eglwys y pryd hwnw. ‡ Nid yw y gair hwn, *prophwydwn*, yn y Groeg; ond yr oedd yn angenrheidiol yn y cyfieithiad, i wneyd y synwyr yn fwy amlwg: felly y gwelwn eto, bedair gwaith, yn y pedair adnod a gaulyn, sylwer ar y geiriau mewn llythyrenau Italaidd. || Sef yn ol trefn a rhediad cyffredin y datguddiad dwyfol, medd rhai, heb osod i fynu ryw ddehongliadau newyddion a dïeithr o'r ysgrythyrau, a fyddo yn niweidiol iddynt. Yn ol mesur dawn, goleuni, a ffydd y cyfryw brophwydi, medd eraill, gan ofalu yn wastad ar fod yr hyn a draddodent yn gyson â holl athrawiaeth y gwirionedd. Na fydded i neb yn fyrbwyll a rhyfygus, draddodi yr hyn ni ddatguddiwyd iddo. Taera rhai o'r pabyddion mai yr hyn a elwir Credo yr Apostolion a feddyliai Paul yma wrth "Gysondeb y ffydd," ond pwy a all brofi bod y fath rëol-wers wedi ei ffurfio y pryd hwnw, na chan yr apostolion o gwbl?

7 [s] * Ai gweinidogaeth, † *byddwn ddyfal* yn y weinidogaeth; [t] ‡ neu yr hwn sydd yn athrawiaethu, || yn yr athrawiaeth:

s Es. 21. 8. Ezec. 3. 17—21. a 33. 7—9. Mat. 24. 45—47. Luc 12. 42—44. Act. 20. 20, 28. Col. 4. 17. 1 Tim. 4. 16. 2 Tim. 4. 2. 1 Pedr 5. 1—4. t Deut. 33. 10. 1 Sam. 12. 23. Salm 34. 11. a 51. 13. Preg. 12. 9. Mat. 28. 19. Ioan 3. 2. Gal. 6. 6. Eph. 4. 11. Col. 1. 28, 29. 1 Tim. 2. 7. a 3. 2. a 5. 17. 2 Tim. 2. 2, 24.

* "Gweinidogaeth," neu diaconiaeth: *diakonian* yw y gair gwreiddiol. Mae yn debyg mai nid gweinidogaeth gyhoeddus y gair a feddylir yma wrth "weinidogaeth," ond rhai wedi eu galw i swydd diaconiaeth yn yr eglwys, i dderbyn elusenau a rhoddion y credinwyr, a'u cyfranu i'r tlodion, y cleifion, y carcharorion, ac eraill: ac yn ol meddwl rhai, i ofalu am fwrdd yr Ar-

lwydd, am weinidogion yr efengyl yn eu plith, yn nghyd â holl achosion amgylchiadol yr eglwys. 3 Bydded y cyfryw swyddwyr yn ddyfal, yn ddoeth, yn ffyddlawn, yn gynnil, ac yn haelionus a thirion hefyd, n eu gweinidogaeth; gan wasanaethu Crist, ei achos, a'u brodyr gweiniaid yn y gwaith da hwnw. ‡ Wrth athrawiaethu" yma, mae rhai yn deall, dysgu dynion neuaine, neu rai newydd eu dychwelyd i'r ffydd, yn egwyddorion dechreuol crefydd: a thybia eraill ychydig yn lwahanol, fod yr athrawiaethu yma yn arwyddo y rhan nyny o waith y weinidogaeth sydd yn gynnwysedig newn agoryd yr ysgrythyrau; gosod allan, agor, egluro, orofi, ac amddiffyn gwirioneddau yr efengyl mewn dull athrawiaethol; ac felly addysgu a chadarnâu y gwranawŵyr yn egwyddorion ac athrawiaeth crefydd. || Mae geiriau *byddwn ddyfal* i'w deall yma eto: byddwn ddyfal i chwilio a deall yr ysgrythyrau, trwy gymharu ethau ysbrydol â phethau ysbrydol, mewn ymddybynnad gostyngedig ar Ysbryd Duw am ei oleuni a'i gyfarwyddyd: a byddwn ddyfal i athrawiaethu yn ol ein dawn r'n gallu, gan fod yn foddlawn i'n swydd a'n gwaith, eb eiddigeddu wrth neb arall, na diystyru neb arall.

8 u * Neu yr hwn sydd yn cynghori, † yn v cynghor: x ‡ yr hwn sydd yn cyfranu, *gwnaed* mewn symlrwydd; z || yr hwn sydd rn llywodraethu, a mewn diwydrwydd; b § yr nwn sydd yn trugarhâu, mewn llawenydd.

u Act. 13. 15. a 15. 32. a 20. 2. 1 Cor. 14. 3. 1 Thes. 2. 3. Tim. 4. 13. Heb. 10. 25. a 13. 22. x adn. 13. Deut. 15. 8—11, 4. Job 31. 16—20. Salm 112. 9. Diar. 22. 9. Preg. 11. 1, 2, 6. Es. 2. 5, 8. a 58. 7—11. Mat. 6. 2—4. a 25. 40. Luc 21. 1—4. Act. 2. 4—46. a 4. 33—35. a 11. 28—30. 2 Cor. 8. 1—9, 12. 1 Pedr 4. 9—11. y 2 Cor. 1. 12. a 11. 3. Eph. 6. 5. Col. 3. 22. z pen. 13. . Gen. 18. 19. Act. 13. 12. a 20. 28. 1 Cor. 12. 28. 1 Thes. 5. 12—4. 1 Tim. 3. 4, 5. a 5. 17. Heb. 13. 7, 17, 24. 1 Pedr 5. 2, 3. a Preg. 9. 10 b Deut. 16. 11, 14, 15. Salm 37. 21. Es. 64. 5. 2 Cor. 9. 7.

* Dyma gangen arall o waith y weinidogaeth, cyngori: aef cymhwyso y gair at gydwybodau dynion, er ymarferiad a diwygiad, weithiau trwy annog i ddyledswyddau, weithiau trwy argyhoeddi o bechodau, a rhybuddio rhag maglau a pheryglon; ac weithiau trwy gysuro, cyfarwyddo, a chryfâu eneidiau trallodus, dan eu hofnau, eu hammheüon, eu beichiau, a'u haml wendidau o ob math. Gwelwn yn aml rai o weision yr Arglwydd wedi derbyn dawn i "athrawiaethu" yn dda, ond heb lawer o ddawn i "gyngori" yn y modd uchod: ac i'r gwrthwyneb, gwelwn lawer o ddawn rhagorol i gyngori efel y soniwyd, ond heb nemawr o ddawn i athrawiaethu. Os dysgwyliwn bob dawn yn yr un dyn, ni a ddysgwyliwn fwy nac mae yr Arglwydd yn ei roddi yn gyffredin: y peth mwyaf ywbod yn ffyddlawn, bob un yn ol ei ddawn ei hun; yr hwn sydd yn athrawiaethu, yn yr athrawiaeth; a'r hwn sydd yn cyngori, yn y cyngor. ‡ Yr hwn sydd ganddo dda y byd hwn, ac yn gallu cyfranu at yr achos cyffredin, ac er cynnorthwy ei frodyr tlodion, cyfraned yn haelionus, heb gybydd-dra; a chyfraned mewn symlrwydd, heb rodres, a thra awdurdodi oblegid hyny; ond gyda dyben cywir i ogoneddu Duw trwy wneyd daioni i ddynion. Mae y gair *(aplotês)* a gyfieithir yma "symlrwydd," yn cael ei gyfieithu "haelioni" yn 2 Cor. 8. 2. || Mae y gair *(proïstamenos,)* a gyfieithir yma ac mewn amryw fanau eraill "llywodraethu," yn arwyddo yn briodol, un yn blaenori, neu yn llywyddu, mewn unrhyw achos pa bynag, gwladol, eglwysig, neu deuluaidd: ond yma rhaid mai rhyw blaenoriaeth yn yr eglwys a feddylir, un ai mewn pethau ysbrydol, dysgyblaeth eglwysig, neu bethau eraill mwy amgylchiadol ac allanol. Pa beth bynag oedd, mae yr apostol yn annog ei wneyd mewn diwydrwydd, ffyddlondeb, a dyfalwch cydwybodol, gan ystyried fod eiles yr eglwys yn ymddybynu llawer iawn ar iawnllywodraeth, a'r llywodraethwyr eu hunain yn gyfrifedig i Dduw am eu hymddygiad yn ei holl dŷ ef. § Dylid swydd cristionogion yn gyffredin yw trugarâu; ond mae yr apostol debygid yma yn cyfeirio at ryw un neilldu

mewn swydd i hyny: nid y diaconiaid a feddylir; oblegid mae efe wedi dywedyd am y rhai hyny o'r blaen, adn. 7. Tybir fod un, neu ychwaneg, yn eglwys Rhufain wedi cael ei osod mewn swydd i ofalu am y cleifion, y rhai anafus a dirym, y carcharorion, a'r dieithriaid, ac i drugarâu wrthynt yn ol eu hangen a gallu yr eglwys. Mae yr apostol yn annog y cyfryw i drugarâu mewn llawenydd, er y byddai hyny yn ei osod yn agored i gost, a thrafferth, a pherygl, a llawer o amgylchiadau go annymunol lawer gwaith, yn ngweinyddiad ei swydd; eto dylai ei hystyried yn fraint ac yn ddedwyddwch i gael bod yn ddefnyddiol ryw fodd i'w gyd-grëaduriaid, a chydag achos Crist.

9 c * *Bydded* cariad yn ddiragrith. d † Casêwch y drwg, e ‡ *a* glynwch wrth y da.

c 2 Sam. 20. 9, 10. Salm 55. 21. Diar. 26. 25. Ezec. 33. 31. Mat. 26. 49. Ioan 12. 6. 2 Cor. 6. 6. a 8. 8. 1 Thes. 2. 3. Iago 2. 15, 16. 1 Pedr 1. 22. a 4. 8. 1 Ioan 3. 18—20. d Salm 34. 14. a 36. 4. a 45. 7. a 97. 10. a 101. 3. a 119. 104, 163. Diar. 8. 13. Amos 5. 15. Heb. 1. 9. e Act. 11. 23. 1 Thes. 5. 15. Heb. 12. 14. 1 Pedr 3. 10, 11.

Yr oedd y cyngorion o'r blaen i swyddogion eglwysig yn bennodol; mae y cyngorion a ganlyn i'r holl eglwys yn gyffredinol. * Cariad yw y peth cyntaf a enwir, fel gwreiddyn ac ysgogydd pob rhinwedd a daioni arall. Cariad at Dduw a Christ, at air a gwaith Duw: cariad at yr holl saint, fel plant a phobl Dduw, ac fel brodyr anwyl i ninnau: a chariad o heddwch ac ewyllys da tuag at ddynolryw yn gyffredinol. Annogir fod y cariad hwn ynom yn ddiragrith; yn y galon yn wirioneddol, ac nid ar air ac ar dafod yn unig, fel mae y byd rhagrithiol yn proffesu cariad. Nid oes dim yn fwy atgas na rhith o gariad, lle na byddo dim yn y galon: cryned proffeswyr rhag y rhagrith hwn. † Pob drwg, sydd yn digio Duw, yn ein halogi ein hunain, yn niweidio eraill, a phob peth mae gair Duw a'n cydwybod ein hunain yn ei farnu yn bechadurus. Oddi ar yr egwyddor flaenorawl o gariad diragrith, dylem *gasâu* y drwg â'n holl galon, ac nid yn unig ymattal rhagddo o ran gweithredinad o hono. ‡ O'r tu arall, pa beth bynag sydd yn sanctaidd, yn dda, ac yn rhagorol ynddo ei hun; yn gymmeradwy gan Dduw, yn anrhydeddus i'w enw, yn dda i ni ein hunain, ac yn llesol i eraill; glŷnwn wrth bobpeth felly o lwyr-fryd calon, gan eu caru, eu dewis, ymhyfrydu ynddynt, ac ymarfer â hwynt yn wastadol ac yn barâus. O mòr gyflawn o feddwl yw geiriau Duw! ac O mòr brydferth ac ardderchog yw ei bethau rhagorol ef!

10 f * Mewn cariad brawdol g † *byddwch* garedig i'ch gilydd; h ‡ yn rhoddi parch, yn blaenori eich gilydd:

f Ioan 13. 34, 35. a 15. 17. a 17. 21. Act. 4. 32. Gal. 5. 6, 13. 22. Eph. 4. 1—3. Col. 1. 4. 1 Thes. 4. 9. 2 Thes. 1. 3. Heb. 13. 1, 1 Pedr 1. 22. a 3. 8, 9. 2 Pedr 1. 7. 1 Ioan 2. 9—11. a 3. 10—18, 23. a 4. 11, 20, 21. a 5. 1, 2. g Job 1. 4. Salm 133. 1. h Gen. 13. 9. Mat. 20. 26. Luc 14. 10. Phil. 2. 3. 1 Pedr 5. 5.

* *Philostorgoi*, "cariad brawdol:" mae y gair yn arwyddo y serchawgrwydd cryfaf ag sydd bosibl ei fod, yn y rhieni o ddynion ac anifeiliaid, tuag at eu rhai bach, yn nghyd â'r hyfrydwch a deimlant hefyd yn y serchawgrwydd naturiol a chryf hwnw. Fel hyn, gyda math o serchawgrwydd naturiol sanctaidd tuag at ein brodyr yn Nghrist, effaith ad-genedliad a sancteiddrwydd cynnyddol, dylem ymhyfrydu yn ein brodyr, yn ein cariad atynt, ac yn mhob dangosiad gweithredol o'n cariad tuag at ein gilydd. † Ni wiw i ni *ddywedyd* ein bod yn caru ein gilydd, heb fod hefyd yn garedig i'n gilydd; hyny yw, rhoddi prawf gwastadol o'n cariad mewn gweithredoedd ac ymddygiadau. ‡ Mewn gostyngeiddrwydd mawr, a thuedd i sylwi ar ein beïau ein hunain, ac ar ddoniau, grasau, a rhinweddau eraill, dylem barchu ac anrhydeddu ein gilydd, gan dybied ein gilydd yn well na ni ein hunain. Gwers anodd ei dysgu yw hon, ond gwers dra angenrheidiol ei dysgu ydyw, a gwerthfawr iawn i'r neb a'i dysgodd, pa un bynag ai personau, ai cymdeithasau eglwysig cyfain.

11 [i] * Nid yn ddïog mewn diwydrwydd; [k] † yn wresog yn yr ysbryd; [l] ‡ yn gwasanaethu yr Arglwydd:

i Ex. 5. 17. Diar. 6. 6—9. a 10. 26. a 13. 4. a 18. 9. a 22. 29. a 24. 30—34. a 26. 13—16. Preg. 9. 10. Es. 56. 10. Mat. 25. 26. Eph. 4. 28. 1 Thes. 4. 11, 12. 2 Thes. 3. 6—12. 1 Tim. 5. 13. Heb. 6. 10, 11. k Mat. 24. 12. Act. 18. 25. Col. 4. 12, 13. Iago 5. 16. 1 Pedr 1. 22. a 4. 8. Dat. 2. 4. a 3. 15, 16. l 1 Cor. 7. 22. Eph. 6. 5—8. Col. 3. 22—24. a 4. 1. Tit. 2. 9, 10.

* Gellid egluro y geiriau hyn trwy eiriau Solomon, Preg. 9. 10. Dylai dynion crefyddol wylied rhag ysbryd a thueddiadau segurllyd, dïoglyd, a dïofal, ond bod yn ddiwyd ac yn ddyfal yn eu gorchwylion a'u galwedigaethau, pa beth bynag a fyddont: mae diwydrwydd felly yn orchymynedig gan Dduw, yn harddwch i'r efengyl, ac yn anrhydedd i'r dyn ei hun. Gwel Diar. 22. 29. † Yn enwedig yn ngwasanaeth Duw, dylid gwylied rhag ysbryd swrth, marwaidd, a dïoglyd: nid oes dim yn fwy ffiaidd, annheilwng, a phechadurus. Dylem ymosod at waith yr Arglwydd yn wastad â chalonau gwresog, â serchiadau tanllyd nefolaidd, a'n hysbrydoedd dàn ddylanwadau grymus a sanctaiddiol yr Ysbryd Glân, a chwedi eu llenwi â chariad Crist: heb hyn ni byddwn yn aberthau byw, sanctaidd, cymmeradwy gan Dduw, yr hyn yw ein rhesymol wasanaeth ni, adn. 1. O yr agwedd swrth a marwaidd sydd ar lawer yn gwasanaethu Duw! pryd maent yn ddigon diwyd, glew, a bywiog, yn eu gorchwylion eu hunain. A all cariad Duw fod yn nghalonau y dynion hyn? ‡ Gwasanaethu yr Arglwydd Iesu a feddylir, yr hwn a roes ei fywyd drosom; ac yn sicr, mae yn ddyled arnom ddyfod â'r ysbryd gwresocaf bob amser, i'w wasanaeth ef, a chyfrif ei wasanaeth yn wir fraint.

12 [m] * Yn llawen mewn gobaith; [n] † yn ddïoddefgar mewn cystudd; [o] ‡ yn dyfal barhâu mewn gweddi:

m pen. 5. 2. a 15. 13. Salm 16. 9—11. a 71. 20—23. a 73. 24—26. Diar. 10. 28. a 14. 32. Galar. 3. 24—26. Hab. 3. 17, 18. Mat. 5. 12. Luc 10. 20. 1 Cor. 13. 13. Phil. 3. 1. a 4. 4. Col. 1. 27. 1 Thes. 5. 8, 16. 2 Thes. 2. 16, 17. Tit. 2. 13. a 3. 7. Heb. 6. 17—19. 1 Pedr 1. 3—8. 1 Ioan 3. 1—3. n pen. 2. 7. a 5. 3, 4. a 8. 25. a 15. 4. Salm 37. 7. a 40. 1. Luc 8. 15. a 21. 19. Col. 1. 11. 1 Thes. 1. 3. 2 Thes. 1. 4. a 3. 5. 2 Tim. 3. 10. Heb. 6. 12, 15. a 10. 36. a 12. 1. Iago 1. 3, 4. a 5. 7, 10, 11. 1 Pedr 2. 19, 20. 2 Pedr 1. 6. Dat. 13. 10. o Gen. 32. 24—26. Job 27. 8—10. Salm 55. 16, 17. a 62. 8. a 109. 4. Jer. 29. 12, 13. Dan. 9. 18, 19. Luc 11. 5—13. a 18. 1, &c. Act. 1. 14. a 2. 42. a 6. 4. a 12. 5. 2 Cor. 12. 8. Eph. 6. 18, 19. Phil. 4. 6, 7. Col. 4. 2, 12. 1 Thes. 5. 17. Heb. 5. 7. Iago 5. 15, 16. 1 Pedr 4. 7. 1 Ioan 5. 14, 15.

* Yn llawen mewn gobaith o waredigaeth yma mewn amser dyladwy, ac o iachawdwriaeth dragywyddol yn y diwedd. Gwel ar pen. 5. 2. Dyma beth i ennyn gwresogrwydd yn ngwasanaeth yr Arglwydd, adn. 11: † a dyma beth hefyd i wneyd y saint yn ddyoddefgar mewn cystudd, pob rhyw gystudd, ac yn enwedig y cystuddiau a raid iddynt eu dyoddef er mwyn Crist a'i achos gogoneddus ef. ‡ A chan nas gall, hyd yn nôd dynion duwiol, fod yn dawel a dyoddefgar yn eu cystuddiau, a thàn eu croesau trymion, heb gael eu nerthu o'r nef; mae yn dra angenrheidiol iddynt ddyfal-barâu mewn gweddi am y nerth hwnw: er bod Duw yn oedi y waredigaeth weithiau yn hir, eto mae yn sicr o ddyfod yn y diwedd, mewn atebiad i weddïau taerion, ffyddiog, a dyfal-barâus ei bobl. Cyfeirjad at y milgwn, yn hèl y prŷf yn ddiroddi-i-fynu, nes ei ddàl, medd *Pool*, sydd yn y geiriau hyn.

13 [p] * Yn cyfranu i gyfreidiau y saint; [q] † ac yn dilyn llettygarwch.

p Gwel ar adn. 8.—pen. 15. 25—28. Act. 4. 35. a 9. 36—41. a 10. 4. a 20. 34, 35. 1 Cor. 16. 1, 2. 2 Cor. 8. 1—4. a 9. 1, 12. Gal. 6. 10. Philemon 7. Heb. 6. 10. a 13. 16. 1 Ioan 3. 17. q Gen. 18. 2—8. a 19. 1—3. 1 Tim. 3. 2. a 5. 10. Tit. 1. 8. Heb. 13. 2. 1 Pedr 4. 9.

* Mae y gair yn arwyddo pethau gwasanaethgar, defnyddiol, yn gystal â phethau angenrheidiol. Mae gan Dduw ofal mawr am ei saint tlodion, mae yn ewyllysio iddynt gael pethau gwasanaethgar a defnyddiol, yn gystal â phethau llwyr angenrheidiol, gan eu brodyr cyfoethocach na hwy, y rhai nid ydynt ond goruchwylwyr ar bethau da Duw. Treuliodd Paul ddwy bennod gyfan yn ei ail epistol at y Corinthiaid, (pen. 8. a 9.) yn nghylch y fath hyn o elusengarwch i'r saint; gwel hefyd Galat. 6. 10; Heb. 13. 16. † Gan nad oedd ond ychydig o west-dai cyhoeddus y pryd hwnw i lettya dïeithriaid, a chan fod llawer o gristionogion, efallai, yn cael eu dëol o wlad eu genedigaeth o herwydd eu crefydd, a thàn farn o esgymmundod yn mhlith Iuddewon a phaganiaid, yr hyn a'i gwnai yn dra pheryglus i neb o'u cyfeillion gynt eu derbyn hwy i'w tai; yr oedd yn dra angenrheidiol i'r apostol fynych wasgu y ddyledswydd hon o lettygarwch ar yr eglwysi. "Yn *dilyn* llettygarwch;" nid aros nes y delo rhyw gyfle damweiniol i hyny, a llawer llai goddef crefu a thaerineb am letty, nes gorfod ei roddi megys o anfodd; eithr fel Abraham a Lot, chwilio am wrthddrychau mewn angen lletty, a myned ar eu hol hwynt, i'w dychwelyd i'ch tai.

14 [r] * Bendithiwch y rhai sydd yn eich ymlid: † bendithiwch, ac na felltithiwch.

r adn. 21. Job 31. 29, 30. Mat. 5. 44. Luc 6. 28. a 23. 34. Act. 7. 60. 1 Cor. 4. 12, 13. 1 Thes. 5. 15. Iago 3. 10. 1 Pedr 2. 21—23. a 3. 9.

* Heblaw bod yn dirion wrth *frodyr* tlodion a dïeithriol, ni ddylai cristionogion goledd ysbryd dïgasog a dïalgar tuag at eu *gelynion;* ond bendithio y rhai sydd yn eu hymlid, gweddïo drostynt, ac ewyllysio yn dda iddynt. Gwel ar Luc 6. 28. † Mae ail ddywedyd y cyngor yn dangos anhawsdra y ddyledswydd; mae yn groes i natur lygredig: mae hefyd yn arwyddo parâd y ddyledswydd; rhaid i ni fendithio, a pheidio melltithio o hyd: ymlidient hwy faint y fynont, bendithio yw ein gwaith ni; a gwylied yn ofalus na felltithiom, ac na byddo dim yn tueddu i hyny yn ein hysbryd.

15 [s] * Byddwch lawen gyd â'r rhai sydd lawen, [t] † ac wylwch gyd â'r rhai sydd yn wylo.

s Es. 66. 10—14. Luc 1. 58. a 15. 5—10. Act. 11. 23. 1 Cor. 12. 26. 2 Cor. 2. 3. Phil. 2. 17, 18, 28. t Neh. 1. 4. Job 2. 11. Salm 35. 13, 14. Jer. 9. 1. Ioan 11. 19, 33—36. 2 Cor. 11. 29. Phil. 2. 26. Heb. 13. 3.

* Yn lle cenfigenu ac eiddigeddu wrth lwyddiant ein brodyr a'n cymmydogion, ïe ein gelynion, dylem gydlawenychu â hwynt yn garedigol a diragrith: † ac yn lle gorfoleddu yn aflwydd neb pwy bynag, yn enwedig ein brodyr; dylem gyd-ymdeimlo â hwynt yn eu hadfyd, cyd-alaru â hwynt, a gwneyd a allom i'w cynnorthwyo a'u dyddanu hwynt. Gwelwn y rheswm a rydd yr apostol dros y cyd-ymdeimlad caruaidd hwn, yn 1 Cor. 12. 26, 27. Dyma rëolau auraidd, a dyma grefydd brydferth a daionus yr efengyl; pa le y cair y cyffelyb yn mhlith holl grefyddau eraill y byd?

16 [u] * *Byddwch* yn unfryd â'ch gilydd: [x] † heb roi eich meddwl ar uchel-bethau; [y] ‡ eithr yn gyd-ostyngedig â'r rhai isel-radd. [z] ‖ Na fyddwch ddoethion yn eich tyb eich hunain.

u pen. 15. 5, 6. 2 Cron. 30. 12. Jer. 32. 39. Act. 4. 32. 1 Cor 1. 10. Phil. 1. 27. a 2. 2, 3. a 4. 2. 1 Pedr 3. 8. x Salm 131. 1 2. Jer. 45. 5. Mat. 18. 1—4. a 20. 21—28. Luc 4. 6—11. a 22. 24—27. 1 Pedr 5. 3. 3 Ioan 9. Dat. 13. 7, 8. y Job 31. 13—16. a 36 5. Diar. 17. 5. a 19. 7, 17, 22. Mat. 11. 5. a 26. 11. Luc 6. 20. a 14 13. Iago 2. 5, 6. z pen. 11. 25. Diar. 3. 7. a 26. 12. Es. 5. 21 1 Cor. 3. 18. a 4. 10. a 6. 5. a 8. 2. Iago 3. 13—17.

* Pa wahaniaeth bynag sydd yn eich sefyllfâoedd allanol, fel dynion, yn eich cyrhaeddiadau crefyddol, fel cristionogion, neu yn eich tybiau am bethau bychain fel Iuddewon a chenedloedd dychweledig; ymdrechwch yn wastad i fod mòr unfryd â'ch gilydd ag y byddo bosibl. Ymostynged pob un i'r lleill, a chytuned â hwynt, cyn belled ag y gallo yn deg ac anrhydeddus; a lle byddo raid gwahaniaethu, na chweryler mewn un modd yn nghylch hyny, ond caniatâed pob plaid yr un rhyddid meddwl i eraill a fynant gael eu hunain. Unfrydedd cariad, ac ewyllys da y naill i'r llall; a feddylir yma, yn fwy nac un-frydedd barn. † Pethau uwchlaw ein galluoedd, ein sefyllfâoedd, a'n galwedigaeth, megys

dyfoeth, gwaedoliaeth anrhydeddus, dyrchafiad, ac enw
awr: na chwennychwn y cyfryw bethau gweigion, ac
a roddwn ein meddwl arnynt lawer os cawn hwynt;
id ydynt o fawr werth er eu cael, ac lawer pryd yn
wiweidiol iawn; ‡ gwell i ni ymfoddloni i gymdeithasu
n ostyngedig â'r rhai isel-radd, ymostwng i sefyllfa
cael ac isel; bod mewn tlodi yn foddlawn, neu mewn
fyfoeth yn ostyngedig a haelfryd. ‖ Uwchlaw pob
eth dylem wylied na byddom ddoethion yn ein golwg
in hunain, fel pe byddem ni uwchlaw rhëolau cyffred-
n, heb achos gofyn doethineb gan Dduw, na chymmer-
rd ein cyngori gan ein brodyr. Mae y dynion hyn yn
neddwl y dylent hwy gael bod yn mlaenaf yn mhob
chos; ac nas gellir gwneyd dim yn iawn os nad ym-
yngorir â hwy yn ei gylch. Y cyfryw yw darluniad y
yn doeth yn ei olwg ei hun, ac mae llawer o'r fath i'w
ael yn eglwysi Crist, er bod yr apostol yn dywedyd yma
n eu herbyn.

17 [a] * Na thelwch i neb ddrwg am ddrwg.
† Darperwch bethau onest yng ngolwg pob
lyn.

a adn. 19. Diar. 20. 22. Mat. 5. 39. 1 Thes. 5. 15. 1 Pedr 3. 9.
pen. 14. 16. 1 Cor. 6. 6, 7. a 13. 4, 5. 2 Cor. 8. 20, 21. Phil. 4.
8, 9. Col. 4. 5. 1 Thes. 4. 12. a 5. 22. 1 Tim. 5. 14. Tit. 2. 4, 5.
Pedr 2. 12. a 3. 16.

Dangosodd yr apostol ddyledswyddau swyddogion yn
yr eglwys, adn. 6—8; wedi hyny ddyledswyddau crist-
onogion yn gyffredinol at eu gilydd, adn. 9—16; ac o
yn i ddiwedd y bennod mae yn dangos dyledswyddau
cristionogion tuag at eu cymmydogion annychweledig.

* Ni ddylai yr un rhyw gyffrôad byth, doed o'r màn y
delo, beri i ni dalu drwg am ddrwg; fel hyny byddem
yn dilyn esampl yr hwn a'n drygodd, ac yn gyfranogion
o'i ddrwg a'i euogrwydd ef. Gwel ar Matth. 5. 39, 40.
† Edrychwn yn ofalus, o ran cydwybod ger bron Duw,
ac hefyd o ran ein hanrhydedd a'n gair da ger bron
dynion, ar fod ein geiriau a'n holl ymddygiadau yn gyf-
iawn, ac yn hollawl ddiachos beïo arnynt, fel na allo
neb, na chyfeillion na gelynion, roddi dim yn ein
herbyn, i'n gwarthruddu na'n cablu fel drwg-weithred-
wyr na thwyllwyr anonest.

18 [c] * Os yw bosibl, † hyd y mae ynoch
chwi, ‡ byddwch heddychlawn â phob dyn.

c pen. 14. 17, 19. 2 Sam. 20. 19. Salm 34. 14. a 120. 5—7.
Diar. 12. 20. Mat. 5. 5, 9. Marc 9. 50. 1 Cor. 7. 15. 2 Cor. 13. 11.
Gal. 5. 22. Eph. 4. 3. Col. 3. 14, 15. 1 Thes. 5. 13. 2 Tim. 2. 22.
Heb. 12. 14. Iago 3. 16—18. 1 Pedr 3. 11.

* Y ddyledswydd nesaf mae yr apostol yn annog y
Rhufeiniaid iddi yw, ymddygiad tawel a heddychol tuag
at bob dyn, tuag at baganiaid yn gystal â christionog-
ion, tuag at rai drwg yn gystal a thuag at rai da. Mae
y geiriau *os yw bosibl*, yn dangos ei fod braidd yn an-
mhosibl i fyw mewn heddwch gyda rhai dynion: gyda
gelynion y gwirionedd ni wiw dysgwyl hyn; ac y mae
llawer a chanddynt enw o grefydd, o dymherau mòr
anynad a chyffrôus, fel y mae yn anhawdd iawn bod yn
heddychol â hwynt yn hir. † Gyda golwg ar anhaws-
derau felly, mae yr apostol yn dywedyd *hyd y mae ynoch
chwi*, byddwch heddychlawn â phob dyn, gwnewch *chwi*
eich gorau i gadw yr heddwch, a phe gwnelai pawb
felly hyd y mae ynddynt, byddai yn ddigon hawdd byw
yn heddychol â phawb. ‡ Mae anghydfod a chweryl
yn dra niweidiol i eneidiau dynion, ac i achos crefydd
yn gyffredinol; am hyny dylai cristionogion fod yn
ofalus ac yn ymdrechgar iawn i feithrin heddwch â
phawb, yn mhob modd, hyd y gallont hyny ar lwybr
sanctteiddrwydd a chydwybod dda: ond os rhaid ei
golli, mewn ymdrech o blaid y gwirionedd, nid oes dim
help am dani; ni ddylid aberthu y gwirionedd ac
athrawiaeth iachus i gadw heddwch â chyfeiliornwyr a
gelynion y pethau gwerthfawr hyny.

19 [d] * Nac ymddïelwch, rai anwyl, ond
[e] rhoddwch le i ddigofaint: canys y mae yn
ysgrifenedig, [f] † I mi y mae dïal; myfi a dalaf,
medd yr Arglwydd.

d adn. 14, 17. Lef. 19. 18. 1 Sam. 25. 26, 33. Diar. 24. 17—19, 29. Ezec. 25. 12. e Mat. 5. 39. Luc 6. 27—29. a 9. 55, 56.
f pen. 13. 4. Deut. 32. 35, 43. Salm 94. 1—3. Nah. 1. 2, 3. Heb. 10. 30.

* Er bod y cristionogion yn Rhufain yn cael eu drygu, eu twyllo, eu sarâu, a'u hanmharchu yn fawr gan eu gelynion paganaidd, ac Iuddewig hefyd, mae yn debyg; ac er nad oedd dim cyfiawnder iddynt i'w gael oddi wrth y llywodraethwyr gwladol; eto nid oedd yn ganiatâol iddynt ar un cyfrif i ddïal eu hunain ar eu gorthrymwyr, ond yn hytrach rhoddi lle i ddigofaint eu gelynion, a'i ddyoddef heb sefyll yn ei erbyn: neu fel y mae eraill yn deall y geiriau, dylent "roddi lle," neu adael i Dduw gospi eu gelynion, y rhai a'i digiasant ef trwy anmherchi ei bobl, fel y mae dynion yn "rhoddi lle," ac yn gadael i'r barnwr gwladol i gospi y neb a wnaethent gam â hwy. Rhaid mai un o'r ddau beth uchod, digofaint y gelynion neu ddigofaint Duw ar y gelynion, a feddylir; oblegid buasai annog y Rhufeiniaid i roddi lle i'w digofaint eu hunain, yn gwbl groes i'r cyngor o'r blaen, "Nac ymddïelwch." † Ac mae y geiriau nesaf hyn, "I mi y mae dïal," &c., yn lled arwyddo mai rhoddi lle i ddigofaint Duw yw meddwl y geiriau uchod, a bod yr apostol yn atolygu ar y Rhufeiniaid fel brodyr anwyl i beidio dïal ond gadael y mater yn llaw Duw, yr hwn a dâl gystudd i'r rhai a gystuddiant ei bobl ef. 2. Thes. 1. 6.

20 [g] * Am hynny os dy elyn a newyna,
portha ef; os sycheda, dyro iddo ddïod:
† canys wrth wneuthur hyn ti a bentyrri
[h] farwor tanllyd ar ei ben ef.

g Ex. 23. 4, 5. 1 Sam. 24. 16—19. a 26. 21. Diar. 25. 21 22. Mat. 5. 44. h Salm 120. 4. a 140. 10. Can. 8. 6, 7.

* Yn lle talu drwg am ddrwg i'n gelynion, ein dyledswydd yw talu da am ddrwg iddynt; eu porthi os newynant, a rhoi dïod iddynt os sychedant: fel hyn yr anrhydeddwn yr efengyl orau, fel hyn y dangoswn ein hysbryd maddeugar ac efengylaidd ein hunain; † ac fel hyn y byddwn fwyaf tebygol o faeddu a lladd gelyniaeth ein gwrthwynebwyr, a'u toddi hwynt i fwyneidd-dra trwy ein caredigrwydd iddynt yn eu hangen. Mae yr adnod hon wedi ei chymmeryd o Diar. 25. 21, 22; ac wrth feddwl fod Solomon yn cyffelybu cariad i "farwor tanllyd" mewn lle arall (Can. 8. 6.) mae yn naturiol meddwl mai yn ol yr agoriad uchod y dylid deall y geiriau; toddi ein gelynion trwy bentyru caredigrwydd arnynt, fel y mae dynion yn toddi meteloedd trwy bentyru marwor tanllyd arnynt yn y tawdd-lestr. Mae golygiad arall gan rai ar y geiriau, fel hyn: os na lwydda ein caredigrwydd ni i doddi ein gelynion yn yr ystyr uchod a enwyd, yna e bentyra Duw farwor tanllyd ei ddigofaint ar eu penau, am y drygau a wnaethant i ni, ac am eu caledwch yn wyneb ein caredigrwydd ni: ond y golygiad cyntaf sydd orau, a hyny oedd meddwl yr apostol, mae yn debyg.

21 [i] * Nà orchfyger di gan ddrygioni,
† eithr gorchfyga di ddrygioni trwy ddaioni.

i Diar. 16. 32. Luc 6. 27—30. 1 Pedr 3. 9.

* Gall rhai ddywedyd, Os gwnawn ni yn ol y cyngor uchod, o beidio dïal, a thalu da am ddrwg bob amser; cyfrifir ni yn llyfriaid anwraidd a digalon: pell iawn oddiwrth hyny; dyma y ffordd i ddangos y dewrder a'r gwroldeb mwyaf. Os gadawn ni i ddrygau dynion eraill yn ein herbyn, ein gorchfygu cyn belled â chwerwi ein hysbrydoedd, a thânio ein nwydau digofus, llidiog, a diamynedd; bydd hyn yn ein dangos yn grefyddwyr gwael yn wir, ac yn rhoddi yr achlysur mwyaf i'n gwrthwynebwyr i ymorfoleddu yn ein herbyn a buddugoliaethu arnom. † Ond i'r gwrthwyneb, gadewch i ni ymdrechu trwy ras Duw, i ddangos pob addfwynder, tiriondeb, a dyoddefgarwch, yn wyneb y drygau mwyaf, ac fel hyny ennill y fuddugoliaeth ardderchocaf ar ein gelynion, ac ar ein nwydau pòethion a dïalgar ein hunain hefyd: oblegid *gwell yw y dïog i ddigofaint nâ'r cadarn; a'r neb a rëola ei ysbryd ei hun, nâ'r hwn a ennillo ddinas.* Diar. 16. 32. Dyma'r ffordd, nid yn unig

i fod yn ogyfuwch â'r neb a'n drygo, ond i fod yn uwch nag ef. Fel hyn y gorchfygodd Dafydd Saul, ac Elisëus fyddin y Syriaid. 2 Bren. 6. 18—23.

PEN. XIII.

Ymddarostwng, a llawer o bethau eraill, sydd ddyledus i'r llywodraethwyr.

[a] * YMDDAROSTYNGED pob enaid i'r awdurdodau goruchel: [b] † canys nid oes awdurdod ond oddi wrth Dduw; ‡ *a*'r awdurdodau y sydd, gan Dduw y maent wedi eu hordeinio.

a Deut. 17. 12. Eph. 5. 21. Tit. 3. 1. 1 Pedr 2. 13—17. 2 Pedr 2. 10, 11. Judas 8. b 1 Sam. 2. 8. 1 Cron. 28. 4, 5. Salm 62. 11. Diar. 8. 15, 16. Jer. 27. 5—8. Dan. 2. 21. a 4. 32. a 5. 18—23. Mat. 6. 13. Ioan 19. 11. Dat. 1. 5. a 17. 14. a 19. 16.

* Fel yr oedd yr apostol yn rhoddi y *corph* am yr *holl ddyn* yn pen. 12. 1, fel yn fwyaf cydweddol â'r aberthau seremonïol, cyrph pa rai a offrymid i Dduw; felly mae efe yma yn rhoddi yr *enaid* am yr *holl ddyn*, i ddangos mai fel y mae genym *eneidiau* yr ydym yn ddeiliaid llywodraeth ddinasaidd a moesol, a bod yr enaid, yn gystal a'r corph i ymrwymo yn yr ufudd-dod dyledus i'r awdurdodau goruchel. Yr awdurdodau goruchel yma oedd yr awdurdodau a'r swyddogion gwladol yn Rhufain, ac nid esmwyth iawn oedd gan yr Iuddewon yn eglwys Rhufain i dalu ufudd-dod a gwarogaeth i lywodraethwyr paganaidd: ac efallai bod y cristionogion oll yno, yn lled-dybied eu hunain uwchlaw hyny. Darostyngiad mewn pethau cyfreithlawn mae yr apostol yn feddwl, yn ddïammau; nid mewn pethau anghyfreithlawn, a chroes i air Duw. † Nid am *bersonau* mewn awdurdod, nac am y modd y daethant i awdurdod, na'r modd y maent yn gweini yr awdurdod, mae yr apostol yma yn llefaru; ond am y *peth* ei hun, sef y swydd, neu yr awdurdod: mae yn dywedyd mai Duw sydd wedi gosod neu sefydlu yr awdurdod, ac o Dduw hefyd y mae gosodiad neu oddefiad y personau yn yr awdurdod. Gwel Diar. 8. 15; Dan. 4. 32; Ioan 19. 11. ‡ Nero oedd yr Ymherawdr yn Rhufain y pryd hwn, ac yr oedd yn anghenfil mewn creulondeb, gwamalrwydd, a drygioni, na bu braidd neb erioed o'i fath yn holl hanesion dynolryw: eto nid oedd dim gwahaniaeth i fod ar gyfrif hyny; Duw oedd wedi ordeinio yr awdurdod, er mai y Nero hwn oedd yn yr awdurdod, a dyledswydd pob enaid cristionogol yn Rhufain oedd ymddarostwng i'r awdurdod. Mae yn amlwg nad yw yr apostol yn dywedyd dim am un *ffurf* o lywodraeth mwy na'i gilydd; ond annog cristionogion i dalu ufudd-dod dyladwy i'r llywodraeth y byddont dani, beth bynag y fyddo ei ffurf: ac nid arwydd da am dduwioldeb neb yw, eu bod yn gwrthwynebu ac yn cablu y llywodraeth: yn wir nid ein lle ni yw ymyraeth llawer â materion y llywodraeth, nis gallwn ni wneyd pethau yn well er ymyraeth, "ymddarostwng" yn dawel a heddychol yw y peth a orchymynir yma i ni.

2 * Am hynny pwy bynnag sydd yn [c] ymosod yn erbyn yr awdurdod, [d] † sydd yn gwrthwynebu ordinhâd Duw: ‡ a'r rhai a wrthwynebant, a [e] dderbyniant farnedigaeth iddynt eu hunain.

c Jer. 23. 8—17. a 28. 14—17. Tit. 3. 1. d Es. 58. 2. 1 Pedr 2. 13. e adn. 5. Mat. 23. 14. Marc 12. 40. Luc 20. 47. Iago 3. 1.

* Gellir ymosod yn erbyn yr awdurdod mewn geiriau; trwy gablu yr awdurdod, a chablu y rhai sydd mewn awdurdod, peidio rhoi parch lle mae parch yn ddyledus: neu mewn gweithredoedd; trwy godi mewn gwrthryfel yn erbyn y llywodraeth, a nacâu toll lle mae toll yn ddyledus. † Pwy bynag a wnelo yr un o'r pethau hyn, beth bynag a fydd ei broffes grefyddol; neu ei sefyllfa fydol, mae yn gwrthwynebu ordinâd Duw, ei drefn a'i osodiad ef. Ymosod yn erbyn awdurdodau gwladol, y rhai a osododd Duw er iawn drefn, amddiffyn, a chysur dynolryw; sydd gyhoeddi rhyfel yn erbyn Duw ei hunan, a cheisio tafiu pob peth i derfysg, annhrefn, a dyryswch: ‡ a'r rhai a wrthwynebant fel hyn a dderbyniant farnedigaeth iddynt eu hunain; un ai gan y llywodraethwr gwladol, yr hwn nid yw yn dwyn y cleddyf yn ofer, neu ynte gan Dduw ei hun, ordinâd yr hwn y mae y cyfryw ddynion yn ei gwrthwynebu.

3 [f] * Canys tywysogion nid ydynt ofn i weithredoedd da, † eithr i'r *rhai* drwg. [g] ‡ A fynni di nad ofnech yr awdurdod? gwna yr hyn sydd dda, a thi a gai glod ganddo.

f adn. 4. Deut. 25. 1. Diar. 14. 35. a 20. 2. Preg. 10. 4—6. Jer. 22. 15—18. g 1 Pedr 2. 13. a 3. 13, 14.

* Canys tywysogion gwladol, *(archontes)* yn ol dyben eu gosodiad gan Dduw, ac i'r hwn maent yn gyfrifol, nid ydynt i gospi dynion am weithredoedd da; nid i hyny y gosodwyd hwynt, ni ddylent wneyd hyny, ac nid yw y rhai cyfiawn o honynt, y rhai sydd yn llywodraethu yn ofn Duw, yn gwneyd hyny. † Eu priodol waith hwynt yw attal a diwygio gweithredoedd drwg, anfoesol ynddynt eu hunain, a niweidiol i'r wladwriaeth, fel y maent yn aflonyddu heddwch, ac yn peryglu dïogelwch dynion a'u meddiannau. Eu gwaith hwy yw bod yn ddychryn i ddynion o'r fath hyn, a'u cospi trwy garchar, alltudiaeth, neu farwolaeth, yn ol haeddiant, er rhybudd a dïogelwch i eraill. ‡ Pwy bynag gan hyny a fyno fod yn ddïofn yn yr ystyr hyn, dylent arwain bywydau gonest a llonydd; ac yna gallant ddysgwyl yn y cyffredin gael eu hamddiffyn, ac hyd yn nôd eu canmol, gan eu llywodraethwyr; a gallant edrych arnynt fel gweinidogion er daioni iddynt hwy.

4 [h] * Canys gweinidog Duw ydyw efe i ti er daioni. † Eithr os gwnei ddrwg, [i] ofna; canys nid yw efe yn dwyn y cleddyf yn ofer: ‡ oblegid gweinidog Duw yw efe, [k] dïalydd llid i'r hwn sydd yn gwneuthur drwg.

h adn. 6. 1 Bren. 10. 9. 2 Cron. 19. 6. Salm 82. 2—4. Diar. 24. 23, 24. a 31. 8, 9. Preg. 8. 2—5. Es. 1. 17. Jer. 5. 28. Ezec. 22. 27. Mica 3. 1—4, 9. i Diar. 16. 14. a 20. 2, 8, 26. k pen. 12. 19. Num. 35. 19—27. Jos. 20. 5, 9. Ezec. 25. 14.

* Y swyddog gwladol, gweinidog Duw yw efe i ti er daioni: i hyny y gosododd Duw ef, er amddiffyn a dïogelu ein personau, ein meddiannau, a'n preswylfèydd rhag dynion drygionus. "Gweinidog:" mae yr un gair am y tywysog gwladol a phregethwr yr efengyl; a gwneyd daioni yw swydd y ddau, y naill yn dymmorawl, a'r llall yn ysbrydol. † Ond os gwnai ddrwg, trwy dòri neu ddianrhydeddu y cyfreithiau mewn un modd, ofna; oblegid nid yw efe yn dwyn y cleddyf yn ofer: ‡ ond fel "gweinidog Duw" mae ganddo awdurdod i ddïal ac i gospi am bob gweithred ddrwg, ac i hyny y rhoddwyd y cleddyf yn ei law ef. || Wrth "lid" yma, dylem ddeall cospedigaeth gyfiawn, fel yn pen. 2. 8; a Luc 21. 23.

5 [l] * Herwydd paham anghenrhaid yw ymddarostwng, nid yn unig o herwydd llid, † eithr o herwydd [m] cydwybod hefyd.

l 1 Sam. 24. 5, 6. Preg. 8. 2. Tit. 3. 1, 2. 1 Pedr 2. 13—15. m Act. 24. 16. Heb. 13. 18. 1 Pedr 2. 19. a 3. 16.

* Mae yr angenrhaid yma yn ddeublyg; yn *gyntaf*, o herwydd llid: dylem ymddarostwng er ein lles ein hunain, fel yr amddiffyner ni gan yr awdurdod gwladol, ac na ddelom dàn gospedigaethau y cleddyf. † Ac yn *ail*, o herwydd cydwybod: oddi ar egwyddor o grefydd a chydwybod tuag at Dduw: mewn ufudd-dod i'w osodiad ef o swyddogion gwladol, mewn ymostyngiad i'w ragluniaeth ef, yr hwn a roddodd y llywodraeth yn nwylaw y rhai hyny arnom ni; ac mewn ufudd-dod i orchymyn Duw, yr hwn sydd yn gofyn ein darostyngiad ni i'r rhai a osododd efe arnom ni, ac yn warcheidwaid y wladwriaeth. Mae yr "angenrhaid" cyntaf yn fawr; ond mae yr ail yn fwy, o gymmaint ag y mae trefn a gorchymyn Duw, ac anrhydedd yr efengyl, yn fwy na'n lles a'n dïogelwch personol ni.

6 * Canys am hyn yr ydych [n] yn talu teyrnged hefyd: † oblegid gwasanaethwyr Duw ydynt hwy, [o] ‡ yn gwylied ar hyn yma.

n Ezra 4. 13, 20. a 6. 8. Neh. 5. 4. Mat. 17. 24—27. a 22. 17 —21. Marc 12. 14—17. Luc 20. 21—26. a 23. 2. o pen. 12. 8. x. 18. 13—27. Deut. 1. 9—17. 1 Sam. 7. 16, 17. 2 Sam. 8. 15. 1 Cron. 18. 14. Job 29. 7—17.

* Hyny yw, yr ydym yn talu teyrnged fel arwydd o'n carostyngiad, ac fel tystiolaeth o'n hufudd-dod, i'n llywodraethwyr gwladol: † am mai "gwasanaethwyr Duw" ydynt hwy, yn rhoddi eu holl amser, eu llafur, a'u holl ofal, i wylied dros ddiogelwch, llonyddwch, iawn drefn, a heddwch y wladwriaeth, mae yn gyfiawn i bob gelod o'r wladwriaeth yn ol ei radd a'i sefyllfa, i gynorthwyo a gwobrwyo y gwasanaethwyr hyn: am hyn yr ydym yn talu teyrnged, ac am hyn y dylem mewn cyfrwnder a chydwybod dalu teyrnged, fel y rhoddodd Crist ei hun i ni esampl. Mae y gair yn y rhif liosog yn Groeg, (*phorous,*) ac felly yn arwyddo pob math o drethi, neu deyrngedion, a osodir yn gyfiawn ac arferol yn y deiliaid. ‡ Nid gwylied ar y dreth a feddylir, ond gwylied ar eu dyledswyddau gwladol fel gwasanaethwyr Duw, ac er diogelwch a daioni y wladwriaeth.

7 [p] * Telwch gan hynny i bawb eu dyledion: † teyrnged, i'r hwn *y mae* teyrnged *yn ddyledus;* toll, i'r hwn *y mae* toll; [q] ‡ ofn, i'r hwn *y mae* ofn; [r] parch, i'r hwn *y mae* parch *yn ddyledus.*

p Luc 20. 25. q Lef. 19. 3. 1 Sam. 12. 18. Diar. 24. 21. Eph. 5. 33. a 6. 5. 1 Pedr 2. 18. r Ex. 20. 12. Lef. 19. 32. Eph. 6. 2, 3. 1 Tim. 5. 3, 17. a 6. 1. 1 Pedr 2. 17. a 3. 7.

* Telwch i bawb eu dyledion; ac yn mhlith y pawb hyny, os nid yn mlaenaf ac yn benaf o bawb, y llywodraethwyr gwladol; beth bynag a fyddai da ai drwg, a hwy bynag a fyddont ai yr uwchaf ai yr isafiaid dano ef. Cair llawer yn ddigon gonest i dalu eu dyledion i'r offredin, i bawb y byddo rhyw gyd-fasnach rhyngddynt a hwynt, ond yn dra anewyllysgar i dalu trethi gwladol a theyrngedion breninol, er bod y cyfryw bethau mòr o ddyledus" yn ol yr adnod hon, ag unrhyw daliadau dyledus eraill. Mae yn wir fod anghyfiawnder yn cael ei wneyd yn ngosodiad llawer o drethi a thollau o'r fath yn yn aml, a cham-ddefnydd yn cael ei wneyd o honynt ar ol eu casglu; ond dyledswydd cristionogion yw dyoddef y cyfryw bethau yn amyneddgar, hyd oni dlliwygier hwynt mewn llwybr cyfreithlawn: a phe byddai i bawb rwgnach a nacâu talu, hyd oni ddelo yr holl swyddogion gwladol yn hollawl gyfiawn yn eu osodiadau a'u gofynion, ni thelid dim byth gan y rhan fwyddlyd ac afresymol o'r wladwriaeth, ac yna nis ellid byth ateb i'r draul a'r angenrheidiau gwladol a nyhoeddus. Mae yr adnod hon yn amlwg iawn yn ywedyd yn gryf yn erbyn prynu a gwerthu nwyddau nedeg, heb dalu y doll ofynol am danynt: ond ychydig niwed a dybia llawer sydd yn hyny; heb ystyried ei od yn erbyn gair Duw, yn gystal ag yn erbyn deddfau wladol. † Od oes gwahaniaeth i'w wneyd rhwng teyrnged a tholl, mae yn debyg bod y naill ar bersonau ar llall ar feddiannau, a phob un at gynnal y llywodraeth wladol, a thâl cyfiawn i'r llywodraethwyr. ‡ Hebiw bod teyrnged a tholl yn ddyledus i'n llywodraethwyr gwladol, mae hefyd ofn a pharch yn ddyledus iddynt: *ofn* o herwydd eu *hawdurdod,* a *pharch* o herwydd eu *hurddas: ofn* yn dumewnol yn y meddwl, a pharch yn allanol yn yr ymddygiad. Mae gwir grefydd yn dysgu ei deiliaid i barchu ac anrhydeddu pawb yn ôl eu sefyllfa.

8 [s] * Na fyddwch yn nyled neb o ddim, ond o garu bawb eich gilydd: ‡ canys yr hwn sydd yn caru arall, a gyflawnodd y gyfraith.

s adn. 7. Deut. 24. 14, 15. Diar. 3. 27, 28. Mat. 7. 12. a 22. 39, 40.

* Na fyddwch yn nyled neb o ddim heb ei dalu eyn gynted ag byddo modd, ac yn ol yr ammod o dalu. Nis gallwn feddwl bod yr apostol yn gwarafun tynu dyled *ar gyfrif yn y byd,* yr hyn sydd bron yn anmhosibl i'r rhan fwyaf o ddynolryw. Mae cristionogion yn sicr dàn y rhwymau mwyaf i dalu eu dyledion cyfreithlawn, yn ewyllysgar, yn fanwl, ac neb oediad afreidiol: a dylent ochelyd pob cost afraid, a gwylied yn ofalus rhag tynu dyledion, heb fod ganddynt obaith resymol am fodd i'w talu. Dylent hefyd ymgadw rhag pob anturiaethau rhyfygus, ac ymrwymiadau byrbwyll fel meichiau dros eraill tu hwnt i'w hamgylchiadau, a pha bethau bynag a'u dyryso hwynt mewn dyledion, ac a'u gosodo hwynt yn agored i'r perygl a'r dianrhydedd o fethu "talu i bawb eu dyledion." † Eto, wedi talu pob cyfryw ddyledion, a chadw yr holl rëolau uchod; byddwn o hyd mewn dyled o gariad at bawb, yn nghyd a'r amrywiol ddyledswyddau a ddeilliant oddi wrth yr ymarferiad helaeth o hóno. Dywed rhai y gellid darllen y geiriau fel hyn: Nid ydych yn nyled neb o ddim, ond o garu o honoch bawb eich gilydd: y modd *mynegol* yn lle y modd *gorchymynol,* fel pe dywedasai yr apostol, Ufuddêwch i gyfraith cariad yn ei holl gangenau, ac yna chwi a delwch i bawb eu dyledion, (adn. 7.) ac ni byddwch yn nyled neb o ddim, ond o garu o honoch bawb eich gilydd o hyd: mae y ddyled o gariad yn para bob dydd, er ei thalu bob dydd. ‡ Gofynion yr ail lech o'r gyfraith yw, "Câr dy gymmydog fel ti dy hun," Matth. 22. 39; a phe byddai ein cariad ni at ein gilydd yn berffaith, byddai ein cyflawniad o'r gyfraith *yn yr ystyr hyny,* yn berffaith hefyd.

9 * Canys hyn, [t] Na odineba, Na ladd, Na ladratta, Na ddwg gam dystiolaeth, [u] † Na thrachwanta; ac od *oes* un gorchymyn arall, y mae wedi ei gynnwys yn gryno yn yr ymadrodd hwn, [x] Câr dy gymmydog fel ti dy hun.

t Ex. 20. 12—17. Deut. 5. 16—21. Mat. 19. 18, 19. Marc 10. 19. Luc 18. 20. u pen. 7. 7, 8. x Lef. 19. 18, 34. Mat. 22. 39. Luc 10. 27. Gal. 5. 13, 14. Iago 2. 8—10.

* Mae y geiriau "Câr dy gymmydog fel ti dy hun" yn niwedd yr adnod, yn cynnwys yr holl waharddiadau hyn; a phwy bynag sydd yn euog o'r un o'r pechodau a waherddir yma, nid yw yn caru ei gymmydog fel ef ei hun; oblegid cariad ni wna ddrwg i'w gymmydog, a drwg dirfawr yw pob un o'r pechodau a waherddir yma. Nid yw yr apostol yn crybwyll y pummed gorchymyn, am ufudd-dod i rieni; oblegid bod yr Iuddewon yn cyfrif hwnw yn perthyn i'r llech gyntaf, medd rhai, ac yntau yn enwi dim ond gorchymynion yr ail lech. Dywed eraill iddo ei adael allan yma, oblegid ei fod yn gynnwysedig yn yr ufudd-dod i'r swyddogion gwladol, am yr hyn y soniodd efe o'r blaen. Gwedi y cwbl mae yr apostol yn cyfeirio at hwnw, yn yr ymadrodd "od oes un gorchymyn arall:" ac mae hwnw yn gynnwysedig yn y crynodeb ar ddiwedd yr adnod. † Mae y degfed gorchymyn yn cael ei symio i fynu mewn dau air, "Na thrachwanta." Mae yr apostol yma yn enwi y seithfed gorchymyn o flaen y chweched, oblegid atgasrwydd y pechod o odineb, medd rhai; oblegid ei fod yn bechod mòr gyffredin yn Rhufain medd eraill: felly mae yn ei enwi yn Galat. 5. 19, fel y cyntaf o weithredoedd y cnawd. Efallai ei fod yn ei enwi yn mlaenaf, am fod y Deg a thriugain yn *Exodus,* yn gosod y gorchymynion yn y drefn hon. Byddai yn rhŷ faith manylu yn helaethach ar bob un o'r gwaharddiadau a'r pechodau uchod.

10 [y] * Cariad ni wna ddrwg i'w gymmydog: [z] † am hynny cyflawnder y gyfraith *yw* cariad.

y 1 Cor. 13. 4—7. z adn. 8. Mat. 22. 40.

* Lle bynag y mae gwir gariad yn y galon, mae yn rymus iawn yn attal dynion i ddymuno na bwriadu, gwneuthur dim drwg na niwed i eraill; ac nid hyny yn unig, ond mae hefyd yn eu cymhell yn grŷf i wneuthur pob daioni a allont i bawb, fel y Samariad

hwnw gynt, yr hwn a dosturiodd wrth yr ymdeithiwr archolledig, ac a ymddygodd ato fèl pe buasai ei gyfaill anwylaf a'i gymmydog nesaf, er ei fod yn ddïeithr ac o wahanol grefydd iddo ef. † Gallwn gasglu gan hyny, fod cariad at ein cymmydog, yn enwedig at deulu y ffydd, yn deilliaw oddi wrth gariad at Dduw; a'i fod yn ei natur a'i weithrediadau yn amcanu ac yn ymgais am gyflawni yr holl gyfraith. Wrth fod yr apostol fel hyn yn cyfeirio at y ddeddf foesol fel rhëol dyledswydd, ar ol dangos o'r blaen yn helaeth bod yn anmhosibl i'r un dyn gael ei gyfiawnâu drwyddi; mae efe yn hollawl yn cadarnâu y gwahaniaeth rhwng y ddeddf *fel cyfammod*, a'r ddeddf *fel rhëol;* ac yn profi fod ein gwaredigaeth ni oddi wrthi *fel cyfammod*, i'r dyben fel yr ufuddâom iddi *fel rhëol.*

11 * A hyn, [a] gan wybod yr amser, [b] † *ei bod* hi weithian yn bryd i ni ddeffrôi o gysgu: [c] ‡ canys yr awrhon *y mae* ein hiachawdwriaeth ni yn nês nâ phan gredasom.

a Es. 21. 11, 12. Mat. 16. 3. a 24. 42—44. 1 Thes. 5. 1—3. b Jona 1. 6. Mat. 25. 5—7. a 26. 40, 41. Marc 13. 35—37. 1 Cor. 15. 34. Eph. 5. 14. 1 Thes. 5. 5, 6. c Preg. 9. 10. Luc 21. 28. 1 Cor. 7. 29—31. 1 Pedr 4. 7. 2 Pedr 3. 13—15. Dat. 22. 12, 20.

* Mae yr apostol yma yn annog i ddiwydrwydd bywiog, buan, a dïoed o'r dyledswyddau a grybwyllasai yn yr adnodau o'r blaen, o herwydd byrdra yr amser. Tybia rhai mai cyfeirio yr oedd at ddinystr buan Jerusalem, a sefydliad mwy hollawl cristionogaeth, yr hyn a ganlynai hyny; ond nis gallai dinystr y genedl Iuddewig effeithio nemawr ar y cristionogion yn Rhufain; ac mae yn amlwg mai sefyllfa credinwyr yn y bywyd hwn, fel yn dysgwyl iachawdwriaeth gyflawn a thragywyddol, a feddylir.—Yr oedd yn gweddu iddynt hwy (ac i ninnau hefyd,) ystyried, pa gyhyd y clywsant ac y proffesasant yr efengyl, a byrdra yr amser oedd yn ol, iddynt i ogoneddu Duw yn mhlith dynion. † Gan fod yr amser yn fŷr, y dyddiau yn ddrwg, a'u breintiau hwy er hyny yn fawr, yr oedd yn bryd iddynt ddeffroi o gysgadrwydd a marweidd-dra cnawdol, a chyflawni pob dyledswydd gyda gwresogrwydd a bywiogrwydd chwangegol. ‡ Mae iachawdwriaeth y saint yn dechreu, o ran ei heffeithiau arnynt hwy yn bersonol, pan maent yn credu yn Nghrist; ac yn cael ei pherffeithio o ran yr enaid yn angau, ac ar y corph yn yr adgyfodiad. Gan fod amser y perffeithiad hyny yn nesâu yn wastadol, ac yn nes-nes o hyd na phan gredasom; o ganlyniad mae y gweddill o'n hamser i lafurio ar y ddaear, yn bŷrâu yn gyfatebol o hyd. Gan hyny dylem ni fod fel rhai yn rhedeg gŷrfa; po nesaf at y nôd y byddom, dylem redeg yn gyflymach, rhag i eraill fyned o'n blaen, ac i ni golli y gamp.

12 [d] * Y nos a gerddodd ym mhell, † a'r dydd a nesâodd: [e] ‡ am hynny bwriwn oddi wrthym [f] weithredoedd y tywyllwch, [g] ‖ a gwisgwn arfau y goleuni.

d Can. 2. 17. 1 Ioan 2. 8. e Es. 2. 20. a 30. 22. Ezec. 18. 31, 32. Eph. 4. 22. Col. 3. 8, 9. Iago 1. 21. 1 Pedr 2. 1. f Job 24. 14—17. Ioan 3. 19—21. Eph. 5. 11. 1 Thes. 5. 5—7. 1 Ioan 1. 5—7. a 2. 8, 9. g adn. 14. 2 Cor. 6. 7. Eph. 6. 11—18. Col. 3. 10—17. 1 Thes. 5. 8.

* Gellid galw bywyd crefyddol y Rhufeiniaid yn ddydd, mewn cymhariaeth i dywyllwch eu bywyd paganaidd ac eilun-addolgar o'r blaen; ond mewn cymhariaeth i oleuni y nefoedd, a'r iachawdwriaeth gyflawn oedd yn nesâu iddynt, nid oedd ond nos, neu dòriad gwawr lwyd-oleu. Efallai bod y "nos" yma hefyd yn arwyddo eu herledigaethau a'u trallodau tywyll ac anghysurus y pryd hwnw. Pa beth bynag oedd, yr oedd wedi cerdded yn mhell, y rhan fwyaf o hóni wedi myned heibio; † a dydd goleu dysglaer wedi nesâu, ac yn nesâu fwy-fwy o hyd: dydd o oleuni efengylaidd, a gwybodoeth achubol; a dydd perffaith yn fuan o ddedwyddwch a gogoniant tragywyddol yn y nef: "ac ni bydd nos yno." ‡ Am hyny yr oedd yn angenrheidiol darpar erbyn y dydd hwn, trwy fwrw ymaith weithredoedd y tywyllwch, yr hen bechodau o'r blaen, yn y rhai y buasent byw yn eu tywyllwch paganaidd; fel y bwria dyn ymaith ei hen ddillad budron carpiog, neu fel y dïosga un ei ddillad nos, cyn myned allan o'i ystafell-wely yn y bore. Gelwir pechodau yn weithredoedd y tywyllwch am mai yn eu tywyllwch o annwybodaeth y mae dynion yn eu cyflawni, ac mewn tywyllwch *nos* hefyd, rai o honynt, gan fod yn gywilydd gan ddynion eu cyflawni *liw dydd.* Mae y gair *apothómetha* yn arwyddo bwrw ymaith gyda brys, a chyda'r casineb mwyaf. ‖ Arfau y goleuni yw yr holl rasau cristionogol, y rhai sydd yn dysgleirio yn brydferth ac yn ogoneddus yn mywydau y duwiolion, ac ar yr un pryd fel arfau iddynt yn wyneb rhuthrau eu gelynion dynol ac ysbrydol. Arfau dysglaer y rhyfelwr buddugoliaethus yw ei addurn-wisg fwyaf anrhydeddus ef.

13 [h] * Rhodiwn yn weddus, [i] megis wrth liw dydd; [k] † nid mewn cyfeddach a meddwdod, [l] nid mewn cyd-orwedd ac anlladrwydd, [m] nid mewn cynnen a chenfigen.

h Luc 1. 6. Gal. 5. 16, 25. Eph. 4. 1, 17. a 5. 2, 8, 15. Phil. 1. 27. a 3. 16—20. a 4. 8, 9. Col. 1. 10. 1 Thes. 2. 12. a 4. 12. 1 Pedr 2. 12. 1 Ioan 2. 6. 2 Ioan 4. i Act. 2. 15. 1 Thes. 5. 7. 2 Pedr 2. 13. k Diar. 23. 20. Es. 22. 12, 13. a 28. 7, 8. Amos 6. 4—6. Mat. 24. 48—51. Luc 16. 19. a 17. 27, 28. a 21. 34. 1 Cor. 6. 10. Gal. 5. 21. Eph. 5. 18. 1 Pedr 2. 11. a 4. 3—5. l 1 Cor. 6. 9. Gal. 5. 19. Eph. 5. 3—5. Col. 3. 5. 1 Thes. 4. 3—5. 2 Pedr 2. 14, 18—20. Judas 23. m Gal. 5. 15, 21, 26. Phil. 2. 3. Iago 3. 14—16. a 4. 5. 1 Pedr 2. 1, 2.

* Rhodio yn anrhydeddus ac yn brydferth, meddant, yw ystyr y gair *euschêmonôs:* nid yn unig rhodio yn weddus, ond rhodio yn *anrhydeddus*, a ddylai duwiolion, fel meibion brenin, fel plant. Rhodio fel plant y goleuni, yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol. Rhodio wrth oleuni yr Ysbryd, wrth oleuni gair Duw, ac mewn gobaith am oleuni y nefoedd. † Gweithredoedd y tywyllwch yw y rhai hyn oll, ac nis gellir rhodio yn weddus a bod yn euog o'r pethau aflan ac anweddus hyn. Mae yr apostol yn eu cymharu hwynt, yn dri phâr, yn 1. Cyfeddach a meddwdod; sef anghymmedrolder mewn bwyta ac yfed: yr hyn sydd yn poethi y gwaed, yn cyffrôi y nwydau, yn gwylltu y meddwl, ac yn aml yn gŷru dynion yn mlaen i bob rhysedd a drygioni. Gallwn sylwi fod y gair Cymraeg cyfeddach yn arwyddo cyd-yfed cyffredin, er mwyn digrifwch a chymdeithas lawen, ac o hyny daw meddwdod wrth ei hir arfer. Ond mae y gair Groeg *kómois* yn arwyddo mwy na chyfeddach; ac o hwnw y daeth *Chemos*, neu *Comus*, duw y gwleddoedd a'r llawenydd gan y paganiaid. Yr *ail* bâr yw cyd-orwedd ac anlladrwydd; sef pob chwantau anniwair a phob aflendid gweithredol, pethau a genedlir yn naturiol gan y pâr cyntaf, cyfeddach a meddwdod. Y *trydydd* pâr yw cynnen a chenfigen: mae y pechodau hyn yn gyssylltiedig oll â'u gilydd, ac yn deilliaw oll o'u gilydd; cyfeddach a meddwdod yn cenedlu cyd-orwedd ac anlladrwydd, a'r ddau bâr hyny yn nghyd yn cenedlu cynnen a chenfigen. Pethau anweddus iawn i'r saint yw y rhai hyn oll, a gwareded Duw ei bobl rhagddynt. Addefodd St. Awstin enwog, mai wrth ddarllen yr adnod hon a myfyrio arni, y cafodd efe ei dröedigaeth.

14 [n] * Eithr gwisgwch am danoch yr Arglwydd Iesu Grist, [o] † ac na wnewch raddarbod dros y cnawd, er mwyn *cyflawni ei* chwantau *ef.*

n Gal. 3. 27. Eph. 4. 24. Col. 3. 10—12. o pen. 8. 12, 13. Gal. 5. 16, 17, 24. Col. 3. 5—8. 1 Pedr 2. 11. 1 Ioan 2. 15—17.

* Gwisgwch gyfiawnder Crist, trwy weithrediadau beunyddiol ffydd, yn dywedyd yn wastadol "Ac y'm ceir ynddo ef:" gwisgwch ei ddelw sanctaidd ef, trwy ymarferiadau addas o bob gras, a thrwy rodiad ac ymarweddiad crefyddol, mewn tebygoliad iddo ef, i brofi gwirionedd eich ffydd, ac i'ch gwneuthur yn gymhwys i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni: a gwisgwch hefyd broffes o Grist, a fyddo yn amlwg ac yn brydferth i bawb o'ch hamgylch. Nid yw yr apostol

dywedyd gwisgwch y gras hyn neu y gras arall; ond wisgwch Grist, yr hyn a gynnwys bob peth ar unwaith. Dywedir y byddai breninoedd Persia ar ddydd eu coroniad gynt, yn gwisgo y wisg a fyddai gan Cyrus cyn ei ladd yn frenin, i'w hadgofio hwynt o'i gymmeriad a'i dimherau ef, ac i'w rhybuddio i debygoli iddo. Trwy wisgo Crist fel hyn, byddwn bob amser yn ei dderbyn, ac ei arddelwi, yn ei anrhydeddu ef, ac yn ei ddefnyddio yn ei holl swyddau, fel Eneiniog Duw, i'n harbedu, ac i'n llywodraethu, yn gystal ag i'n hachub byth. Byddwn wyliadwrus iawn hefyd na byddo i ni ofalu, arhag-ddarparu yn ormodol dros y corph, ac wrth hyny ddeuluso yr enaid; ac yn enwedig na byddo i ni ragbarbod yn ein meddwl, bethau a fydd yn danwydd i ddigaethau ein calonau, i gynnyddu, coledd, a boddini ein nwydau a'n chwantau cnawdol a phechadurus, *gyflawni trachwant y cnawd* mewn unrhyw fodd amgylchiad yn y byd. Galat. 5. 16. Meithrin a gynnal y corph sydd gyfreithlawn, Ephes. 5. 29; ond besgi yn ormodol er mewn cryfâu a chyflawni ei chwantau anifeilaidd, sydd anghyfreithlawn, a thra echadurus: nis gall neb yn ofn Duw, a thàn oruchliaethau ei Ysbryd sanctaidd ef, wneyd y fath beth.

PEN. XIV.

Na ddylai dynion na dirmygu na chondemnio eu gilydd, am bethau nad ydynt na da na drwg o honynt eu hunain.

* YR hwn sydd wan yn y ffydd, [b] † derbyniwch attoch, [c] nid i ymrafaelion rhesymmau.

a edn. 21. pen. 4. 19. a 15. 1. Job 4. 3. Es. 35. 3, 4. a 40. 11. a 3. Ezec. 34. 4, 16. Zec. 11. 16. Mat. 12. 20. a 14. 31. a 18. 6, Luc 17. 2. 1 Cor. 3. 1, 2. a 8. 7—13. a 9. 22. b pen. 15. 7. Mat. 10. 40—42. a 18. 5. Ioan 13. 20. Phil. 2. 29. 2 Ioan 10. 3 Ioan 9—10. c adn. 2—5.

Yn y bennod hon a rhan o'r nesaf, mae yr apostol yn ymdrin â rhai o bethau lleiaf crefydd, yn nghylch pa ffyd yr oedd cryn ddadl yn eglwys Rhufain. Rhai o'r Iuddewon, a gofleidiasent y grefydd Gristionogol yno, eddynt o hyd yn glŷnu yn gadarn wrth ddefodau y Iuddeddf seremoniol, o ran dyddiau gŵyl a bwydydd, &c., o oeddynt yn barod i feïo ar bawb a'r nad oedd yr un defnyddwl â hwy, fel dynion halogedig, a dirmygwyr cyfraith Duw. O'r tu arall, y cenedloedd crediniol yn yr eglwys, gan eu bod yn deall eu rhyddid cristionogol newn pethau fel hyn yn well na'r Iuddewon, wrth feeled eu brodyr Iuddewig yn dàl mòr grŷf ar bethau fel hyn, na bu erioed ddim gwir ddaioni ynddynt, ac oeddynt yn awr wedi ei dyddymu gan Grist; yr oeddynt yn barod i'w dirmygu hwy fel rhai annwybodus a phoel-grefyddol, a gwrthod cyd-gymuno â hwynt. Yn ir agwedd hyn ar bethau, mae yr apostol yn rhoddi barn ar y mater, ac yn ceisio heddychu rhyngddynt.

Yr hwn sydd anwadal ac ansefydlog ei feddwl am rai bethau lleiaf ffydd, yn enwedig yn athrawiaeth rhyddid cristionogol, a rhyddâd oddiwrth y ddeddf seremoniol: yr Iuddewon petrusgar a chyfeiliornus oedd ef yn feddwl, er y gellir cymhwyso y geiriau o hyd eto, at cristionogion petrusawl ac ammheüs. † Derbyniwch cyfryw un i'r eglwys, i'ch mynwes, ac i gymmundeb yda chwi: cyd-ymddygwch â'i wendid ef, ac addysgwch ef yn well mewn ysbryd addfwynder a chariad. Derbyniai *Bucer* bawb i'r eglwys, er y byddent yn gwaraniaethu oddi wrtho ef mewn rhai tybiau, os gwelai fe rywbeth o Grist ynddynt. ‡ Peidiwch a'i lenwi ef â dadleuon a rhesymau ofer, y rhai ni byddant adeiladol iddo, ond ei ddyrysu a meithrin rhagfarn ynddo. Derbyniwch ef i wellâu ei ddeall, nid i'w dywyllu a'i ddyrysu yn fwy nac o'r blaen.

2 * Canys y mae un yn credu [d] y gall fwytta pob peth; [e] † ac y mae arall, yr hwn sydd wan, [f] ‡ yn bwytta dail.

d adn. 14. 1 Cor. 10. 25. Gal. 2. 12. 1 Tim. 4. 4. Tit. 1. 15. Heb. 9. 10. a 13. 9. e adn. 22, 23. f Gen. 1. 29. a 9. 3. Diar. 15. 17. Dan. 1. 12, 16.

* Y "pob peth" yma yw pob math o fwydydd, heb ddim gwahaniaeth rhwng glân ac afian, fel cynt dàn y ddeddf seremoniol. Y rhai oedd yn credu y gallent fwyta pob peth oedd y cenedloedd cristionogol, yn benaf; er, efallai, fod rhai o'r Iuddewon cristionogol hefyd, wedi dyfod i ddeall eu rhyddid yn y cyfryw bethau: ac o'r tu arall, efallai bod rhai o'r cenedloedd dychweledig yn petruso bwyta pob peth, gwedi cael eu darbwyllo gan yr Iuddewon eiddigus i feddwl bod hyny yn anghyfreithlawn. † Yr "arall" hwn yw yr hwn sydd "wàn yn y ffydd," yn adn. 1, yr hwn oedd yn ofni nad oedd gyfreithlawn iddo fwyta "pob peth" yn ddiwahaniaeth. ‡ Er bod y cyfryw un yn wàn yn y ffydd, eto mae yn dangos fod ei gydwybod yn dyner, ac yn ofni pechu; ac yn hytrach na phechu yn wybodus nac yn ddiarwybod, mae yn ymattal oddi wrth fwyta cig yn hollawl, yn enwedig wrth gyd-fwyta â'r cenedloedd; ac yn bwyta dail a llysiau, fel Daniel a'i gyfeillion yn bwyta ffâ. Dywedir y byddai rhai o'r Iuddewon yn ymattal oddi wrth fwyta cig yn hollawl; ac eraill yn ymattal mewn gwledydd paganaidd, gan gyfrif hyny yn radd fawr o rinwedd, oblegid nas gwyddent nad oedd y cig a werthid yn marchnadoedd y paganiaid wedi ei aberthu i eilunod, neu wedi ei halogi yn seremoniol mewn rhyw fodd. Dywedir y byddai y blaid Iuddewig hòno a elwid yr Esseniaid, nid yn unig yn ymattal oddiwrth gig, ond hefyd oddi wrth ffrwythau; ac efallai mai rhai a ddaethent at grefydd oddi wrth y blaid hòno, oedd y rhai hyn oedd yn bwyta dail.

3 * Yr hwn sydd yn bwytta, [g] na ddirmyged yr hwn nid yw yn bwytta; † a'r hwn nid yw yn bwytta, [h] na farned ar yr hwn sydd yn bwytta: [i] ‡ canys Duw a'i derbyniodd ef.

g adn. 10, 15, 21. Zec. 4. 10. Mat. 18. 10. Luc 18. 9. 1 Cor. 8. 11—13. h adn. 13. Mat. 7. 1, 2. a 9. 14. a 11. 18, 19. 1 Cor. 10. 29, 30. Col. 2. 16, 17. i Act. 10. 34, 44. a 15. 8, 9.

* Nid oes achos manylu ar y geiriau hyn: lle byddo dynion o wahanol feddyliau am bethau dibwys yn yr un eglwys, dylid arfer tynerwch a chyd-ymddwyn brawdol o'r ddwy ochr; yr hwn sydd yn deall ac yn defnyddio ei ryddid, ni ddylai ddirmygu ei frawd gwàn, fel un annwybodus neu ofer-goelus. † O'r tu arall, ni ddylai y credadyn petrusgar mewn un modd farnu ei frawd, fel un hunan-goleddgar a phenrhydd ei ymddygiad. ‡ Derbyniodd Duw y ddau, yr hwn sydd yn bwyta pob peth, â'r hwn nid yw yn bwyta dim ond dail; ond yma tybir mai am yr hwn sydd yn bwyta mae yr apostol yn dywedyd: efe yw y blaeniedydd *(antecedent)* agosaf; efe oedd yn cael ei farnu fel pe buasai yn annerbyniol gan Dduw; ac â'i farnydd ef mae yr apostol yn ymresymu yn yr adnod nesaf. Derbyniodd Duw ef yn gymmeradwy yn Nghrist, ac a'i dygodd ef i'w deulu, ac i blith ei blant, heb ei osod dàn unrhyw attaliadau gan ddefodau y ddeddf seremoniol; âc yn sicr, lle byddo Duw yn derbyn, ni ddylai neb gymmeryd arno farnu a gwrthod.

4 * Pwy wyt ti yr hwn wyt yn barnu gwas un arall? † I'w arglwydd ei hun y mae efe yn sefyll, neu yn syrthio: [l] ‡ ac efe a gynhelir; canys fe a all Duw ei gynnal ef.

k pen. 9. 20. Act. 11. 17. 1 Cor. 4. 4, 5. Iago 4. 11, 12. l adn. 3. pen. 11. 23. a 16. 25. Deut. 33. 27—29. Salm 17. 5. a 37. 17, 24, 28. a 119. 116, 117. Ioan 10. 28—30. Rhuf. 8. 31—39. Heb. 7. 25. l Pedr 1. 5. Judas 24.

* Yma mae yr apostol yn rhoi cerydd llym am y bai blaenorawl, o farnu ein gilydd am bethau dibwys yn ngolwg Duw. Cawn gyffelyb eiriau yn Iago 4. 12. Pwy wyt ti grëadur tlawd, pechadurus, annwybodus, ffaeledig, a marwol, a gymmeri i ti dy hun yr awdurdod o eistedd mewn barn ar gydwybod gwas un arall, a gosod dedfryd euog-farnol ar ei gyflwr ef, am arfer y rhyddid y gŵyr efe fod ei Arglwydd yn ganiatâu iddo? Ti a dybit yn anweddus ymŷraeth felly âg achos gwas i un o'th gymmydogion, neu i un o'th gymmydogion

ymŷraeth felly yn achos un o'th weision dithau; ac a gymmeri di arnat lywodraethu teulu Duw, a barnu yn nghylch ei weinyddiad ef o achosion ei deulu? † I'w Arglwydd ei hun yn unig y mae y cristion proffesedig yn atebol, a'i Arglwydd ei hun a'i cyfiawnâ neu a'i condemnia ef, a'i cynnal neu a âd iddo syrthio, fel y gwelo fod ei gyflwr a'i galon ef mewn gwirionedd. ‡ Ac os ydyw efe mewn gwirionedd yn gredadyn, efe a gynnelir; mae gallu ac addewid Duw o'i blaid ef, ac yn llawn digonol i'w gynnal ef, *ei gadw yn ddigwymp, a'i osod ger bron ei ogoniant ef yn ddifeïus mewn gorfoledd.* Judas adn. 24.

5 * Y mae un [m] yn barnu diwrnod uwch law diwrnod; † *ac* arall yn barnu pob diwrnod yn *ogyfuwch.* [n] ‡ Bydded pob un yn sicr yn ei feddwl ei hun.

m Gal. 4. 9, 10. Col. 2. 16, 17. n adn. 14, 23. 1 Cor. 8. 7, 11.

* Gwedi gorphen yn nghylch bwydydd seremonïol, mae yr apostol yn myned i ymdrin yma â dyddiau seremonïol. Barnai yr Iuddewon cristionogol, rai o honynt, fod y sabbothau Iuddewig, y newydd-loerau, a gŵyliau arbenig eraill, o hyd mewn grym, ac i'w cadw fel dàn yr hen oruchwyliaeth: o ganlyniad, hwy a'u cadwent yn grefyddol, fel pethau gorchymynedig gan gyfraith Duw. † Barnai eraill yn sicr, fod yr oruchwyliaeth seremonïol wedi ei dyddymu, ac nad oedd y dyddiau hyny ddim mwyach mewn grym; felly *yn yr ystyr hyny* cyfrifent bob diwrnod yn ogyfuwch: oblegid nis gallwn feddwl nad oeddynt hwy yn cadw dydd yr Arglwydd, a dyddiau eraill hefyd, mae yn debyg, o ymbryd a gweddi, a dïolchgarwch. ‡ Mewn amgylchiad ac achos o'r fath hyn, y peth mwyaf angenrheidiol oedd, i bob un fod yn sicr yn ei feddwl ei hun, o ran ei ddyledswydd, ac ei fod yn ei chyflawni oddi ar iawn egwyddor: bydded pob un yn alluog i ddywedyd fel y dywed yr apostol ei hun, adn. 14, "Mi a wn, ac mae yn sicr genyf trwy yr Arglwydd Iesu," &c. Ni a gawn y rheswm am y cyngor hwn yn adn. 23: os gwna dyn yr hyn mae ei gydwybod yn petruso ei wneyd, mae yn pechu, ac efe a gondemniwyd. Ac eto, gall dyn bechu yn y peth mae yn meddwl yn sicr nad yw yn pechu ynddo: mae yn rhaid cael llawn sicrwydd yn y meddwl; ond nid yw hyny yn ddigon, i wneyd gweithred yn dda neu yn ddrwg. Geiriau cryfion yw y rhai hyn o blaid rhyddid cydwybod, a hawl pob dyn i farnu drosto ei hun. Eto, nid yw yn ddigon fod ein cydwybod ni yn rhydd i wneyd peth; ond mae yn angenrheidiol yn gyntaf, fod ein cydwybod wedi cael sicrwydd o air Duw am gyfreithlondeb y peth hwnw.

6 * Yr hwn sydd yn ystyried diwrnod, [o] † i'r Arglwydd y mae yn *ei* ystyried; ‡ a'r hwn sydd heb ystyried diwrnod, ‖ i'r Arglwydd y mae heb *ei* ystyried. § Yr hwn sydd yn bwytta, i'r Arglwydd y mae yn bwytta; [p] canys y mae yn dïolch i Dduw: a'r hwn sydd heb fwytta, i'r Arglwydd y mae heb fwytta; ac y mae yn dïolch i Dduw.

o Ex. 12. 14, 42. a 16. 25. Es. 58. 5. Zec. 7. 5, 6. p Mat. 14. 19. a 15. 36. Ioan 6. 28. 1 Cor. 10. 30, 31. 1 Tim. 4. 3—5.

* Sef yn ystyried diwrnod yn sancteiddiach, neu "uwchlaw," diwrnodau eraill. † *I'r Arglwydd* yma, ac yn adn. 8, meddylir *i'r Arglwydd* Iesu Grist; yr hwn a ymddangosodd i Moses dàn yr enw Jehofah, pan roddodd efe y gyfraith iddo; (gwel ar Act. 7. 38.) felly gellir ystyried y geiriau *Duw, a'r Arglwydd,* yn yr adnod hon fel enwau o'r un ystyr, yn arwyddo yr unig wir Dduw, a phob un o honynt yn perthyn i Grist, yr hwn yw y Duw i'r hwn mae y cristionogion *yn dïolch,* yn gystal ag i'r Tad trwyddo ef. Felly yr hwn sydd yn ystyried diwrnod yn ol deddf Moses, neu yn ei neilldüo yn gydwybodol er addoliad crefyddol; gellid meddwl ei fod yn gwneyd hyny o barch ac ufudd-dod i awdurdod a gorchymyn Duw: ‡ a'r hwn sydd heb ystyried diwrnod felly, ond yn ystyried pob diwrnod ond dydd yr Arglwydd yn ogyfuwch; ‖ dylid meddwl ei fod yntau yn gwneyd felly er anrhydedd i Grist, ei awdurdod llywodraethol ef, a'i gyflawniad o'r holl hen gysgodau a'r seremonïau: ac wrth ystyried o'r ddwy ochr felly, ni ddylai y naill ddirmygu y llall, na barnu eu gilydd: mae egwyddor a dyben pob un yn dda, pa un bynag o'r ddau sydd gywir neu anghywir yn y weithred. § Yr un peth sydd i'w ddywedyd hefyd am yr hwn sydd yn bwyta, a'r hwn sydd heb fwyta; dylai pob un ystyried mewn barn cariad am y llall, eu bod yn gweithredu er gogoniant i Dduw: mae y naill yn dïolch i Dduw am ei ymborth, a'i ryddid cristionogol i'w fwyta; a'r llall yn peidio bwyta o barch cydwybodol i ewyllys Duw, er y bernir ei betrusder yn hyny yn hollawl ddisail ac yn ddïachos. Mae yr hwn sydd heb fwyta yn dïolch i Dduw, efallai am ei betrusder, yr hyn a dybia efe yn dynerwch cydwybod; ac am fod ganddo ymborth arall, yr hwn a all efe ei fwyta yn rhydd, heb dramgwyddo ei gydwybod ei hun.

7 [q] * Canys nid oes yr un o honom yn byw iddo ei hun, † ac nid yw yr un yn marw iddo ei hun.

q adn. 9. 1 Cor. 6. 19, 20. 2 Cor. 5. 15. Gal. 2. 19, 20. Phil. 1. 20—24. Tit. 2. 14. 1 Pedr 4. 2.

8 ‡ Canys pa un bynnag yr ydym ai byw, i'r Arglwydd yr ydym yn byw; ‖ ai marw, [r] i'r Arglwydd yr ydym yn marw: [s] § am hynny, pa un bynnag yr ydym ai byw ai marw, eiddo yr Arglwydd ydym.

r Ioan 21. 19. Act. 13. 36. a 20. 24. a 21. 13. Phil. 2. 17, 30. 1 Thes. 5. 10. s 1 Cor. 3. 22, 23. a 15. 23. 1 Thes. 4. 14—18. Dat. 14. 13.

Yma mae yr apostol yn helaethu ar, yn profi ac yn cadarnâu, yr hyn a ddywedasai o'r blaen; sef bod pob dyn duwiol yn ystyried Duw a'i ogoniant yn yr hyn oll a wnelo, ac yn yr hyn oll a ddygwyddo iddo. * Nid oes yr un gwir gredadyn yn beiddio byw, fel pe byddai yn arglwydd ac yn feistr iddo ei hun, i geisio ei fympwy ei hun, ei olygiadau ei hun, ei elw a'i bleser ei hun, fel dyben llywodraethol ei fywyd: nag oes, na'r un gwir gredadyn yn ymollwng gyda'r fath egwyddorion gwael, isel, a hunanol, mewn achosion crefyddol. † Nid oes yr un gwir gristion ychwaith yn chwennychu marw, yn unig i gael gwared o'i drallodau presenol; nac yn dymuno yn unig gadael enw da iddo ei hun ar ei ol, yn mhlith ei blaid a'i gyfeillion, pan fyddo farw; nag oes, pell a fyddo *cristionogion* o bob enw, o feddwl am na byw na marw iddynt eu hunain fel hyny. ‡ Pa hyd bynag y byddo y credadyn byw, ei ddymuniad a'i ymgais yw byw i ogoniant yr Arglwydd Iesu ei Waredwr; ‖ a pha bryd bynag y byddo farw, mae yn gadael hyny i'r Arglwydd Iesu, i'w drefnu yn hollawl, y pryd a'r modd y gwelo ef fod yn dda, er gogoniant ei enw mawr ei hun. § Felly pa un bynag ai byw ai marw a fydd y cristion, eiddo yr Arglwydd yw; ac mae yn gwbl foddlawn i Fab Duw ei feddiannu, llywodraethu arno, a gwneyd y defnydd a fyno o hóno, yn fyw ac yn farw, yn y byd hwn, ac yn yr hwn a ddaw.

9 * Oblegid er mwynh yn [t] y bu farw Crist, ac yr adgyfododd, ac y bu fyw drachefn hefyd, [u] † fel yr arglwyddiaethai ar y meirw a'r byw hefyd.

t Es. 53. 10—12. Luc 24. 26. 2 Cor. 5. 14. Heb. 12. 2. 1 Pedr 1. 21. Dat. 1. 18. u Mat. 28. 18. Ioan 5. 22, 23, 27—29. Act. 10. 36, 42. Eph. 1. 20—23. Phil. 2. 10, 11. 2 Tim. 4. 1. 1 Pedr 4. 5.

* Oblegid i'r dyben pennodol hwn, y bu Crist farw ar y groes, y cyfododd drachefn o'r bedd, ac mae yn byw yn y nefoedd nid i farw mwyach; † fel yn y natur ddynol, ac fel Cyfryngwr mawr, y byddai efe yn Arglwydd ar ei holl bobl, yn ben uwchlaw pob peth i'w eglwys, ar y ddaear ac yn y nefoedd, yn y bywyd hwn a chwedi angau byth. Bu Iesu farw i wneyd iawn dros

n pechodau, cyfododd i'n cyfiawnâu, ac mae yn byw
b amser i eiriol drosom ac i arglwyddiaethu arnom:
n braint annhraethol ni yw cael ymddiried ynddo, a
oddi ein hunain iddo i fyw ac i farw.

10 * Eithr paham yr wyt ti yn barnu dy
awd? neu paham yr wyt [x] yn dirmygu dy
awd? [y] † canys gosodir ni oll ger bron gor-
edd-faingc Crist.

x adn. 3, 4. Luc 23. 11. Act. 4. 11. y pen. 2. 16. Preg. 12. 1. Mat. 25. 31, 32. Ioan 5. 22. Act. 10. 42. a 17. 31. 1 Cor. 4. 5. 2 Cor. 5. 10. Judas 14, 15, Dat. 20. 11—15.

* Yma mae yr apostol yn dychwelyd eto, at yr hyn a
lywedodd o'r blaen, adn. 4; sef paham yr oedd crist-
ogion yn dirmygu ac yn barnu eu gilydd? Y tro
r blaen gofynai, "*Pwy* wyt ti yr hwn wyt yn barnu?"
ma, "*Paham* yr wyt ti yn barnu?" cystal a phe dy-
edasai, Nid oes genyt ti *awdurdod* i farnu neb, ac nid
s *achos* barnu yn y rhai yr wyt ti yn eu barnu. O'r
aen, "Gwas un arall" a ddywedai; yma, "Dy frawd,"
ddywed: barnu gwas un arall oedd ryfygus, a barnu
awd oedd anghariadus. Gallwn sylwi yma hefyd, fel
ae y ddau beth yma yn canlyn eu gilydd; "barnu"
a gyntaf, ac yna "dirmygu:" ar ol i ni farnu dynion
a ein meddyliau, yna ni a'u dirmygwn; lle y dylem
n hytrach dosturio wrthynt, a'u dwyn i'r iawn, os
arnwn eu bod yn cyfeiliorni. † Rheswm arall a rydd
apostol yn erbyn i ddynion farnu a dirmygu eu gil-
dd yw, y gosodir ni oll ger bron gorsedd-fainc Crist.
aiff pob gwas yno sefyll neu syrthio ger bron ei Ar-
wydd ei hun. Y crŷf a'r gwàn, y barnwr a'r barned-
, y dirmygwr a'r dirmygedig: yn y dydd hwnw
engys y Barnwr mawr a chyfiawn, oddi ar ba egwydd-
yr oedd pob un yn gweithredu, a phob un a dder-
yn ei briod wobr ei hun.

11 * Canys y mae yn ysgrifenedig, [z] † Byw
yf fi, medd yr Arglwydd; [a] pob glin a blyga
mi, ‡ a phob tafod a [b] gyffesa i Dduw.

z Num. 14. 21, 28. Es. 49. 18. Jer. 22. 24. Ezec. 5. 11. Zeph. 9. a Salm 72. 11. Es. 45. 22—25. Phil. 2. 10. Dat. 5. 14. b pen. 10. 9. a 15. 9. Mat. 10. 32. 1 Ioan 4. 15. 2 Ioan 7.

* Mae yr adnod hon yn profi yr hyn a ddywedwyd o'r
laen, sef y gosodir ni oll ger bron gorsedd-fainc Crist:
ae y geiriau yn Es. 45. 23, † "I mi fy hun y tyngais,"
ddywed y prophwyd; ond mae yr apostol yn gosod i
wr eiriau y llŵ, "Byw wyf fi," neu, "fel mai byw fi."
wel Num. 14. 28; Jer. 22. 24; Ezec. 5. 11; a 14. 16,
B; a 20. 3. ‡ Yn lle "i mi y twng pob tafod," yn
saiah; mae yr apostol yn canlyn y Deg a thriugain, ac
n dywedyd, "Pob tafod a gyffesa i Dduw:" ac yn Phil.
11, efe a ddywed pa beth a gyffesant; sef fod Iesu
rist yn Arglwydd. Yr hwn sydd yn tyngu yn Esaiah
w yr Arglwydd, (JEHOFAH yn yr Hebraeg,) y Duw
fiawn ac achubydd, (adn. 21.) a'r unig Dduw, (adn.
2;) ac wrth fod yr apostol yn cymhwyso y geiriau at
rist fel Barnwr yma, onid yw hyny yn brawf amlwg a
hadarn ei fod ef yn JEHOFAH, yr unig wir Dduw, yn
mdeb y Tad a'r Ysbryd Glân? Yn nydd y farn y cyf-
wnir y geiriau hyn yn hollawl.

12 * Felly gan hynny [c] pob un o honom
drosto ei hun ‡ a rydd gyfrif i Dduw.

c Preg. 11. 9. Mat. 12. 36. a 18. 23, &c. Luc 16. 2. Gal. 6. 5. 1 Pedr 4. 5.

* Mae gwaith yr apostol yn trosi oddi wrth "orsedd-
ainc Crist," yn adn. 10, at "bob un yn rhoddi cyfrif
rosto ei hun i Dduw," yn yr adnod hon, yn dangos pa
hòr naturiol ydoedd iddo ef, i ddeall y prophwydol-
aethau 'a lefarid gan y JEHOFAH, (megys hòno yn Es.
5. 23, a grybwyllir ganddo yn adn. 11,) fel geiriau ei
rglwydd a'i Waredwr dwyfol: medrai ef ganfod Duw-
od Crist lle ni fŷn llawer eraill ei ganfod. † Nid dros
raill, ond pob un *drosto ei hun*, a rydd gyfrif i Dduw;
m hyny fel y dywed yr apostol yn yr adnod nesaf, "na
arnwn ein gilydd mwyach." ‡ A rydd gyfrif yn ei
efyllfa naturiol, fel dyn; yn ei sefyllfa ragluniaethol,
el dyn cyfoethog neu dlawd, uchel neu isel, &c.; yn ei
sefyllfa grefyddol, a moesol, wedi cael manteision gwybodaeth, a moddion gras; a rhydd pawb gyfrif hefyd am bob meddwl, gair, a gweithred, dirgel a chyhoedd. O mòr fanol fydd y cyfrif hwn, ac O mòr ofnadwy fydd i'r annuwiol!

13 * Am hynny na [d] farnwn ein gilydd
mwyach: [e] † ond bernwch hyn yn hytrach, na
bo i neb [f] roddi tramgwydd i'*w* frawd, [g] neu
rwystr.

d adn. 4, 10. Iago 2. 4. a 4. 11. e Luc 12. 57. 1 Cor. 11. 13. 2 Cor. 5. 14. f pen. 9. 32, 33. a 11. 9. a 16. 17. Lef. 19. 14. Es. 57. 14. Ezec. 14. 3. Mat. 16. 23. a 18. 7. Luc 17. 2. 1 Cor. 8. 9—13. 2 Cor. 6. 3. Phil. 1. 10. Dat. 2. 14. g 2 Sam. 12. 14. 1 Tim. 5. 14. 1 Ioan 2. 10.

* Gan y bernir ni oll gan Grist, na farnwn ein gilydd
mwyach, na ryfygwn gymmeryd ei waith priodol ef yn
ein dwylo ein hunain, ac na ragderfynwn ei farn ef,
trwy gymmeryd arnom feïo ac euog-farnu ein gilydd:
diwygiwn y bai hwn o hyn allan. † Mae yn debyg fod
y cyngor blaenorawl yn perthyn i'r Iuddewon yn benaf,
barnu y cenedloedd am eu rhyddid yn "bwyta pob
peth," adn. 2; a'r cyngor hwn yn perthyn i'r cenedloedd
yn benaf, peidio gadael i'w rhyddid hwnw fod yn achos
o dramgwydd, neu rwystr, i'w brodyr Iuddewig. Wrth
y nôd uchod (†) y dylai yr adnod hon ddechreu; a'r
rhan gyntaf o hóni yn ddiwedd yr adnod o'r blaen:
oblegid yma mae yr apostol yn dechreu ar ei gyngor,
neu ei ocheliad i'r cenedloedd. Yn lle arfer ein *doethineb i farnu* eraill, dylem ddysgu *ymddwyn yn ddoeth* ein hunain, fel na byddo i ni faglu ein brodyr, neu fod yn achlysur iddynt bechu: fel pe byddai i ddyn yn anystyriol roddi careg, neu fagl, ar ffordd un arall, yr hon a allai beri iddo syrthio, a briwio ei hun. Rhyw ddarn o bren mewn carfagl, meddant, yw ystyr y gair *Skandalon* "rhwystr."

14 * Mi a wn, [h] ac y mae yn sicr gennyf
trwy yr Arglwydd Iesu, [i] nad *oes* dim yn aflan
o hono ei hun: † ond i'r hwn sydd yn tybied
fod peth yn aflan, [k] i hwnnw *y mae* yn aflan.

h Act. 10. 28. i Gwel ar adn. 2. k adn. 23. 1 Cor. 8. 7.

* O'i ran ei hun, yr oedd yr apostol yn gwybod, ac yn
sicr ganddo trwy awdurdod a gair yr Arglwydd Iesu
(Marc 7. 19.) nad oedd dim a fwytêai dynion yn gyffredin, yn aflan o hóno ei hun. Gwyddai fod Crist wedi marw i gymmodi Iuddewon a Chenedloedd, i ddiddymu pob gwahaniaeth crefyddol rhyngddynt; ac i symmud y felldith a ddaeth trwy y cwymp ar y mwynâd o'r crëaduriaid, yn arwydd o'r hyn, y gwaherddid rhyw grëaduriaid dan y ddeddf seremoniol. Efallai fod yr apostol wedi cael datguddiad digyfrwng hefyd, gan yr Arglwydd Iesu, o'r mater uchod, fel y cawsai am swper yr Arglwydd, (1 Cor. 11. 23.) ac amryw bethau eraill. Pa fodd bynag am hyny, efe a wyddai yn sicr, "fod pob peth a grëodd Duw yn dda, ac nad oedd dim i'w wrthod, os cymmerid ef trwy dalu diolch.". 1 Tim. 4. 4. Nid dywedyd fel hyn i bleidio y cenedloedd yn eu rhyddid, yr oedd yr apostol; eithr *addef* yr oedd, nad oedd dim yn aflan o hóno ei hun, ac y gwyddai yntau hyny cystal a hwythau; ond yn yr adnod nesaf mae yn eu cyngori hwynt i fod yn gynnil ar eu harferiad o'u rhyddid rhag "tristâu," a "distrywio" eu brodyr, nad oedd yn gallu cydweled â hwy. † Os byddai neb o'r brodyr yn tybied, fod y gwahaniaeth seremoniol mewn bwydydd o hyd mewn grym; byddai y bwyd a fwytêai y cyfryw, yn groes i'w barn a'u cydwybod, yn aflan iddynt hwy, am hyny dylent beidio a'i fwyta nes cael eu goleuo yn well.

15 * Eithr os [l] o achos bwyd y tristêir dy
frawd, [m] † nid wyt ti mwyach yn rhodio yn ol
cariad. [n] ‡ Na ddistrywia ef â'th fwyd, dros
yr hwn y bu Crist farw.

l Ezec. 13. 22. 1 Cor. 8. 12. m pen. 13. 10. a 15. 2. 1 Cor. 8. 1. a 13. 1, 4, 5. Gal. 5. 13. Phil. 2. 2—4. n 1 Cor. 8. 11. 2 Pedr 2. 1. 1 Ioan 2. 2.

* Gallai y brawd gwàn gael ei dristâu yma mewn un o ddwy ffordd: yn 1. Trwy weled ei frawd goleuach nag ef ei hun yn gwneyd peth, a farnai ef yn ei gydwybod yn groes i air Duw: neu yn 2. Trwy gael ei hudo ei hunan, gan esampl hwnw, i wneyd y peth a ddygai euogrwydd ar ei gydwybod, a thristwch a gofid i'w feddwl ef wedi hyny. † Pa un bynag o'r ddwy ffordd y tristêid ef, nid oedd y brawd a fyddai yn achlysur o hyny yn rhodio mewn cariad cristionogol tuag ato. ‡ Mae rhai yn deall y geiriau hyn am *ddystryw tragywyddol* yr enaid, ac yn tybied nad oedd yr *ef, dros yr hwn y bu Crist farw*, ddim ond proffeswr crefydd yn unig, yr hwn a dybid unwaith, mewn barn cariad, ei fod yn un o'r rhai y bu Crist farw drostynt; ac y gallai y fath un a hwnw gael ei ddystrywio, er dywedyd o Grist am ei ddefaid, dros y rhai y rhoddes efe ei einioes, *na chyfrygollant hwy ddim byth, &c.* Ond nid am ddystryw tragywyddol y dywedir yma; eithr dystrywio cysur, a thawelwch cydwybod y brawd, a dystrywio ei gariad i raddau, ac am amser, tuag at y brawd a'i tristâodd. "Rhwystro un o'r rhai bychain hyn," y geilw Crist y peth. Y neb a ddystrywio ei frawd yn y mesur lleiaf fel hyn "â'i fwyd," mae yn dangos meddwl creulawn, dyn yn gwneyd mwy o gyfrif o'i flys ei hun, nac o iachawdwriaeth ei frawd.—Ni a ddylem ymddwyn yn ol esampl Crist, yr hwn yn hytrach na dystrywio y gweiniaid "â'i fwyd," a dywalltodd ei waed a'i einioes drostynt.

16 [o] * Na chabler gan hynny eich † daioni chwi.

o pen. 12. 7. 1 Cor. 10. 29, 30. 2 Cor. 8. 20, 21. 1 Thes. 5. 22.

* Dylai cristionogion fod yn dra gofalus na ddefnyddiont eu rhyddid, yr hwn sydd yn dda, ac yn werthfawr ynddo ei hun, mewn modd mòr annochelgar, a chyda'r fath effeithiau drwg, ag a baro i neb, crefyddol na digrefydd ei gablu, na dywedyd yn ddrwg am dano. † Wrth "ddaioni" yma, mae rhai yn deall y ffydd gristionogol, neu yr efengyl yn gyffredin; ond eraill, yn fwy priodol, a ddeallant ryddid cristionogol yn y peth a soniwyd uchod.

17 [p] * Canys nid yw [q] teyrnas Dduw fwyd a diod; [r] † ond cyfiawnder, [s] ‡ a thangnefedd, || a llawenydd yn yr Yspryd Glân.

p Dan. 2. 44. Mat. 3. 2. a 6. 33. Luc 14. 15. a 17. 20, 21. Ioan 3. 3, 5. 1 Cor. 4. 20. a 6. 9. 1 Thes. 2. 12. q 1 Cor. 8. 8. Col. 2. 16, 17. Heb. 13. 9. r Es. 45. 24. Jer. 23. 5, 6. Dan. 9. 24. Mat. 6. 33. 1 Cor. 1. 30. 2 Cor. 5. 21. Phil. 3. 9. 2 Pedr 1. 1. s pen. 5. 1—5. a 8. 6, 15, 16. a 15. 13. Es. 55. 12. a 61. 3. Act. 9. 31. a 13. 52. Gal. 5. 22. Phil. 2. 1. a 3. 3. a 4. 4, 7. Col. 1. 11. 1 Thes. 1. 6. 1 Pedr 1. 8.

* Gwedi y cwbl, nid yw natur, gogoniant, a dedwyddwch goruchwyliaeth yr efengyl, neu deyrnas gras Duw yn nghalonau ei bobl, i'w parotôi hwynt i deyrnas gogoniant, yn gynnwysedig yn y fath bethau amgylchiadol, allanol, a chnawdol, â defnyddio neu beidio defnyddio, gwahanol fwydydd, a diodydd, yn ol y trefniadau a sefydlwyd yn y ddeddf seremoniol, y rhai nid oeddynt i'w cadw ond yn unig hyd amser y diwygiad: (Heb. 9. 10.) † O, na; mae teyrnas nefoedd o natur a chyfansoddiad llawer mwy rhagorol, pur, ac ysbrydol: mae yn gynnwysedig mewn cyfiawnder ffydd, a sancteiddrwydd calon a buchedd; ‡ mewn tangnefedd sylweddol yn ein heneidiau ein hunain, mewn tymher ac ymddygiad tangnefeddus tuag at eraill, dàn deimlad profiadol o fod Duw yn dangnefeddus a heddychol tuag atom ni trwy waed Iesu; || ac mae yn gynnwysedig mewn cysur a llawenydd nefol ac ysbrydol, yr hwn mae yr Ysbryd Glân yn awdwr ac achos o hóno, fel y mae yn tywallt cariad Duw yn ein calonau ni, ac yn cyd-dystiolaethu â'n hysbryd ni ein bod yn blant ac etifeddion i Dduw, ac yn gyd-etifeddion â Christ, pen. 5. 5; a 8. 16, 17. *Tymher siriol*, yw ystyr y gair *chara*, "llawenydd," medd rhai; ond efallai ei fod yn beth mwy na hyny weithiau, pa un bynag a wyddent hwy hyny ai peidio.

18 * Canys yr hwn [t] sydd yn gwasanaethu Crist yn y pethau hyn, [u] † sydd hoff gan Dduw, [x] ‡ a chymmeradwy gan || ddynion.

t adn. 4. pen. 6. 22. a 12. 11. a 16. 18. Marc 13. 34. Ioan 12. 26. 1 Cor. 7. 22. Gal. 6. 15, 16. Col. 3. 24. Tit. 2. 11—14. u pen. 12. 1, 2. Gen. 4. 7. Preg. 9. 7. Act 10. 35. Phil. 4. 18. 1 Tim. 2. 3. a 5. 4. 1 Pedr 2. 5, 20. x 2 Cor. 4. 2. a 5. 11. a 6. 4. a 8. 21. 1 Thes. 1. 3, 4. Iago 2. 18—26. 1 Pedr 3. 16.

* Pwy bynag sydd yn gwasanaethu Duw yn y pethau hanfodol hyn, sef cyfiawnder, a thangnefedd, a llawenydd yn yr Ysbryd Glân, gan ymddwyn yn ffyddlawn fel gwas i Grist, mewn ymostyngiad ac ufudd-dod iddo ef, mewn ymddybyniad arno, a chyda golwg ar ei ogoniant; † mae y cyfryw un o ran ei berson a'i wasanaeth yn rhyngu bodd Duw ac yn hoff ganddo, nid o herwydd ei deilyngdod ei hun, ond yn a thrwy ei anwyl Fab ef: ‡ ac mae y cyfryw un hefyd yn ddyn o ysbryd ac ymarweddiad mòr efengylaidd a hawddgar, fel y mae yn ei brofi ei hun yn wir Gristion, ac yn cael ei addef a'i gymmeradwyo felly yn meddyliau pawb doethion a da, o bob enwad crefyddol, er ei fod yn gwahaniaethu oddi wrthynt hwy mewn rhai pethau dibwys a dihanfodol. || Dynion crefyddol yn unig, medd rhai; dynion yn gyffredin, crefyddol a digrefydd, medd eraill. Diar. 16. 7.

19 * Felly gan hynny [y] dilynwn y pethau a berthynant i heddwch, [z] † a'r pethau a berthynant i adeiladaeth ein gilydd.

y pen. 12. 18. Salm 34. 14. a 133. 1. Mat. 5. 9. Marc 9. 50. 2 Cor. 13. 11. Eph. 4. 3—7. Phil. 2. 1—4. Col. 3. 12—15. Heb. 12. 14. Iago 3. 13—18. 1 Pedr 3. 11. z pen. 15. 2. 1 Cor. 10. 33. a 14. 12—17, 26. Eph. 4. 29. 1 Thes. 5. 11, 12. 1 Tim. 1. 4.

* Felly gan hyny, gan nad oedd yr holl bethau seremoniol ond pethau ysgafn a dibwys, mewn cymhariaeth i bethau pwysig a hanfodol cristionogaeth; mae yr apostol yn cyngori y Rhufeiniaid i ochelyd ymrysonau a dadleuon anfrawdol yn eu cylch, i beidio sefyll gormod ar eu gwahanol dybiau a'u harferion eu hunain er briwio eu gilydd; ond yn hytrach dilyn, ac ymarfer â'r pethau ag oedd yn eu natur a'u canlyniadau eu hunain, yn tueddu at heddwch ac adeiladaeth ysbrydol eu gilydd, ac yn meithrin tymher ac ymddygiad heddychol tuag at eu brodyr yn Nghrist. Mae yr heddwch hwn yn dra angenrheidiol rhwng cristionogion, dylem wneyd pob peth a allom i'w feithrin, a gwylied rhag pob peth a'i niweidio: † ac nid yw byw yn heddychol yn ddigon chwaith; dylem geisio adeiladu ein gilydd hefyd, a bod yn fuddiol i gynnydd gras a gwybodaeth, y naill i'r llall.

20 [a] * O achos bwyd na ddinystria [b] waith Duw. [c] † Pob peth yn wir *sydd* lân; [d] ‡ eithr drwg *yw* i'r dyn sydd yn bwytta trwy dramgwydd.

a Gwel ar adn. 15.—Mat. 18. 6. 1 Cor. 6. 12, 13. a 8. 8, 13. a 10. 31. b Eph. 2. 10. Phil. 1. 6. c adn. 14. Mat. 15. 11. Act. 10. 15. 1 Tim. 4. 3—5. Tit. 1. 15. d adn. 15, 21. 1 Cor. 8. 9—12. a 10. 32, 33.

* Wrth "waith Duw" yma, mae rhai yn deall eneidiau dynion; (Es. 57. 16,) eraill, gwaith Ysbryd a gras Duw ar eneidiau y saint yn Rhufain; ac eraill, y cariad, yr heddwch, y cyd-gordiad, yr undeb, y cysur, a'r adeiladaeth ysbrydol, oedd Duw wedi wneyd yn eu plith yn yr eglwys hòno: gresyn fod ymrysonau yn nghylch bwydydd a diodydd yn dinystrio neu yn aflwyddo gwaith Duw yn un o'r ystyriaethau uchod. Am y dinystrio hwn, gwel ar adn. 15. † Er i Paul gael ei ddwyn i fynu yn Pharisead manol, eto yr oedd am i bawb wybod yn sicr, fod pob math o fwydydd yn lân ynddynt eu hunain, y naill cystal â'r llall; ‡ eto byddai yn ddrwg i ddyn eu bwyta, os byddai hyny yn tramgwyddo brawd gwàn, neu yn foddion i'w hudo ef i fwyta yn erbyn ei gydwybod ei hun. Gwel ar adn. 14, 15.

21 [e] * Da *yw* na fwyttâer cig, ac nad yfer gwin, na *dim* [f] trwy yr hyn † y tramgwydder, neu y rhwystrer, neu y gwanhâer dy frawd.

e adn. 17. pen. 15. 1, 2. 1 Cor. 8. 13. f adn. 13. Mal. 2. 8.

at. 16. 23. a 18. 7—10. Luc 17. 1, 2. Phil. 1. 10. Heb. 12. 13. Dat. 2. 14.

i * Cymmaint y dylai cariad brawdol, a thynerwch cwdwybod, wrth-bwyso pob ystyriaethau o rŷddid a cyfyreithlondeb, mewn bwydydd ammheüus gan frodyr gweiniaid; fel y byddai yn dda ymattal yn hollawl oddi wrth gig, a gwin, a phob peth, trwy yr hyn y tramgwyddaen, neu y rhwystrer, neu y gwanâer, y brodyr gweiniaid yny. Yr oedd yr ymattal hyn yn dda, o ran Duw; yr oedd yn gymmeradwy gan Dduw, ac yn rhyngu bodd iddo: yr oedd yn dda, o ran y brawd gwàn; fel yr oedd yn cael ei gadw drwy hyny rhag ei "dristâu," ei "ddyswyio," (adn. 15,) ei "dramgwyddo, ei rwystro, a'i wanâu:" ac yr oedd yn dda hefyd, i'r ymattaliwr ei hun; a'n ei fod yn cael ei gadw drwy hyny rhag hudo, tramgwyddo, a niweidio ei frawd. † Mae rhai yn gwaeniaethu rhwng y tri gair hyn, *tramgwyddo, rhwystro, gwanâu;* gan wneuthur y cyntaf, y niwed mwyaf, a'r olaf, y niwed lleiaf: tybia eraill i'r gwrthwyneb; fod y cyntaf yn arwyddo y niwed lleiaf, a'r olaf y niwed mwy-

Tybia eraill nad yw y tri gair yn arwyddo ond yr un peth; a dywed *Pool* nad oes ond un gair yn y Syrieg am y tri, sef tramgwyddo. Mae arfer amryw eiriau yn yr un peth, yn dangos mawr bwys y peth hwnw; a'r ffal mawr a ddylem ninnau gymmeryd rhag niweidio'n brodyr mewn un modd. Yn 1 Cor. 8. 13, ni a ellwn fod yr apostol ei hun yn ymattal, fel mae yn gorymyn i eraill ymattal yma: dylai dywedyd a gwneyd hegethwyr fod yn gyson a'u gilydd.

22 g * A oes ffydd gennyt ti? † bydded hi ydd â thi dy hun ger bron Duw. h ‡ Gwyn fyd yr hwn nid yw yn ei farnu ei hun yn yr yn y mae yn ei dybied yn dda.

g adn. 2, 5, 14, 23. Gal. 6. 1. Iago 3. 13. h pen. 7. 15, 24. t. 24. 16. 2 Cor. 1. 12. 1 Ioan 3. 21.

* Mae rhai yn darllen y rhan hon o'r adnod heb y ôd o holiad; "Y mae ffydd genyt ti:" pa un bynag o'r dwy ffordd, yr un peth yw y synwyr. † Pwy bynag edd â ffydd gadarnach, neu â gwybodaeth oleuach nddynt, ac yn credu yn sicr y gallant yn gyfreithlawn yta pob math o fwydydd, ni ddylent wneuthur rhodsis a balch-ddangosiad o hyny, a chymmeryd pob cyfle a anmhriodol i weithredu yn ol eu ffydd a'u goleu yn cyfryw bethau; ond yn hytrach ei bod ganddynt ger ron Duw, yr hwn a wyddai uniondeb eu calonau wynt, heb iddynt ddangos eu ffydd a'u goleu mewn weithred, lle yr oedd eraill yn eu barnu, neu yn tramwyddo wrthynt, o herwydd hyny. Fel hyn dylent arfer n rhyddid gyda gostyngeiddrwydd, gochelgarwch, oethineb, a hunan-ymwadiad; ac heb ddangos eu bod eu derchafu eu hunain, neu yn dirmygu eu brodyr wànach nâ hwynt-hwy: ‡ a dedwydd fyddai y dyn wnw, yr hwn oedd yn rhydd oddi wrth bob ammheüth a hunan-gondemniad, yn y pethau y caniatêai iddo hun eu gwneyd. Yr hwn a ŵyr pa fodd i arfer peth freithlawn yn wastad mewn modd cyfreithlawn, gwyn fyd hwnw; mae yn meddiannu ei enaid ei hun mewn ngnefedd, mae yn gymmeradwy gan Dduw, yn garedig an ei frodyr, ac yn ddiofid iddynt.

23 i * Eithr yr hwn sydd yn petruso, k os wytty, † efe a gondemniwyd, ‡ am nad yw *n bwytta* o ffydd: l || a pheth bynnag nid *yw* ffydd, pechod yw.

i 1 Cor. 8. 7. k pen 13. 2. 1 Cor. 11. 29—31. l Tit. 1. 5. Heb. 11. 6.

* Ond os byddai neb yn ammau, neu yn petruso, pa n a oedd y peth hyn neu y peth arall yn gyfreithlawn eu beidio; ac eto ei fod ef trwy esampl, darbwylliad, eu duedd, yn bwyta; † yr oedd efe yn sicr yn pechu, e yn sicr o gael ei gondemnio gan ei gydwybod ei hun, chan Dduw hefyd, oddieithr iddo edifarâu. ‡ Oblegid. an nad oedd efe yn bwyta o ffydd, gan nad oedd yn cer yn ei feddwl ei hun fod yr ysgrythyr yn caniatâu ldo fwyta o'r cyfryw beth; yr oedd yn euog o foddloni ei flys a'i dueddiadau ei hun, yn hytrach na gwrando ar lais ei gydwybod ac ewyllys Duw, yn ol fel yr oedd efe y pryd hwnw yn deall ewyllys Duw: nid oedd efe yn sicr fod Duw yn caniatâu y fath beth iddo, ac nis gwyddai yn sicr nad oedd Duw yn anfoddlawn iddo, am hyny yr oedd yn pechu, ac yn cael ei gondemnio fel y dywedwyd. || Yn mhob achos o natur grefyddol, pa beth bynag a wnelom heb gredu fod iddo sail yn ngair Duw, ac awdurdod i ninnau yn ol y gair i'w wneyd, mae yn bechod mawr i ni ei wneyd; gan ei fod yn ddirmyg ar Dduw a'i air, yn ddïystyrwch ar yr hyn a broffeswn ei fod yn rhëol ein ffydd a'n dyledswydd, ac yn drais ar gyfarwyddiadau cydwybod, yr hyn a ddylai ein hattal ni rhag pob peth y byddo arnom ofn na bydd yn gymmeradwy yn nydd y farn. Mae rhai dynion da yn petruso bwyta o swper yr Arglwydd o herwydd y geiriau hyn; ond mae yn amlwg mai disail iawn yw hyny, am fater arall yn hollawl mae yr apostol yn llefaru.

PEN. XV.

Y dylai y cryf gyd-ddwyn â'r ywan.

* A NYNI y rhai ydym a gryfion, b † a ddylem gynnal gwendid y rhai gweiniaid, ‡ ac nid c rhyngu ein bodd ein hunain.

a pen. 4. 20. 1 Cor. 4. 10. 2 Cor. 12. 10. Eph. 6. 10. 2 Tim. 2. 1. 1 Ioan 2. 14. b pen. 14. 1. 1 Cor. 9. 22. a 12. 22—24. Gal. 6. 1, 2. 1 Thes. 5. 14. c Gwel ar adn. 3.

Yma mae yr apostol yn myned rhagddo yn y mater oedd ganddo yn y bennod o'r blaen. * Mae yn addef bod y rhai oedd yn deall eu rhyddid mewn bwydydd a diwrnodau, yn y cyffredin yn "gryfion" mewn ffydd, yn gystal ag yn iach mewn barn, mewn cymhariaeth i'w brodyr mwy petrusgar. † Ond am y rheswm hyny, dylai y rhai cryfion, nid yn unig gyd-ymddwyn â gwendidau y rhai gweiniaid, y rhai nid oeddynt alluog i orfod eu gwendidau, a pheidio eu dirmygu hwynt; ond hefyd dylent *gynnal* eu gwendid hwy, trwy ymwadu â hwy eu hunain yn amyneddgar er eu mwyn hwynt, a dyoddef eu barn anghariadus hwy yn addfwyn; ac ar yr un pryd ymgais yn wastadol am fod o bob cymmorth a daioni iddynt, a chynnal cymmundeb heddychol â hwynt. Nid am gyfeiliornadau mewn athrawiaeth mae yr apostol yn sôn; ond am bethau dibwys, bwydydd a dyddiau gŵyl, &c. ‡ Gan nad ydyw cristionogion yn byw, nac i fyw iddynt eu hunain, (pen. 14. 7,) felly ni ddylent ryngu eu bodd eu hunain, llai o llawer coledd eu balchder, eu tymherau a'u nwydau eu hunain, a'u meddyliau dirmygus am eraill. Dylent ymddwyn tuag at eu brodyr gweiniaid, fel y bydd dynion yn gwneyd wrth gyd-deithio; y rhai cryfion ac iachus i sylwi yn dirion ar y rhai afiach a gweiniaid, dwyn eu beichiau, aros wrthynt, a'u gwahodd hwynt i bwyso arnynt.

2 d * Boddhâed pob un o honom *ei* gymmydog yn yr hyn sydd dda *iddo* er adeiladaeth.

d pen. 14. 19. 1 Cor. 9. 19—22. a 10. 24, 33. a 11. 1. a 13. 5. Phil. 2. 4, 5. Tit. 2. 9, 10.

* Fel hyny, yn lle rhyngu ein bodd ein hunain, fel y dywedwyd ar adn. 1, dylem fod yn barod yn wastad i foddâu ein brodyr a'n cymmydogion, yn mhob peth a fyddo er lles a daioni iddynt, er adeiladaeth ysbrydol eu heneidiau, trwy geisio dilëu eu rhagfarnau, ac ennill eu cariad a'u hewyllys da: ac wrth i bob un wneyd fel hyn tuag at bawb, caiff yr eglwys oll ei hadeiladu mewn gwybodaeth, cariad, a phob gras, er gogoniant i Dduw.

3 * Canys e Crist † nis boddhâodd ef ei hun; ‡ eithr megis y mae yn ysgrifenedig, f || Gwaradwyddiadau y rhai a'th waradwyddent di, a syrthiasant arnaf fi.

e Salm 40. 6—8. Mat. 26. 39, 42. Ioan 4. 34. a 5. 30. a 6. 38. a 8. 29. a 12. 27, 28. a 14. 30, 31. a 15. 10. Phil. 2. 8. f Salm 69. 9, 20. a 89. 50, 51. Mat. 10. 25. Ioan 15. 24.

* Crist, ein Harglwydd mawr a bendigedig, ei hun,

yr hwn nid oedd dàn rwymau i neb o honom, ac nid oedd raid iddo wrth neb yn y mesur lleiaf; † ni cheisiodd ei foddâu ei hun pan oedd ar y ddaear, trwy geisio ei fwyniant ei hun, ei ddïogelwch na'i anrhydedd ei hun; ond a'i rhoddodd ei hun i warth, erlid, ac angau, ïe, angau'r groes, er ein mwyn ni. ‡ Yn Salm 69. 9: fel mae y rhan olaf o'r adnod hòno yn cael ei chymhwyso yma at Grist, felly mae y rhan flaenaf o hóni yn Ioan 2. 17; ac adn. 21 o'r un Salm yn Ioan 19. 28, 29. ‖ Yma mae Crist yn llefaru wrth Dduw Dad, ac yn dywedyd, Y gwaradwyddiadau a dafiwyd ar dy enw di, gan y rhai a lefarent yn ddrwg am drefniadau dy raglunïaeth a'th ras, a wànasant fy nghalon I â gofid mawr; ïe, syrthiodd y gwaradwyddiadau hyny arnaf fi gyda phob math o anmharch a chreulondeb, ac mi a'u dygais hwy yn ewyllysgar er dy ogoniant di, pan *ddyoddefais y groes, gan ddïystyru gwaradwydd, ac y dyoddefais gyfryw ddywedyd yn fy erbyn gan bechaduriaid:* (Heb. 12. 2, 3.) a throseddau dy bobl di, trwy y rhai y dïanrhydeddasant ac y digiasant di, a roddwyd mewn modd cyfreithiol a barnol arnaf fi, fel y tarewid ac yr archollid fi am danynt; ac mi ddygais eu pechodau hwynt, a'r gospedigaeth ddyledus iddynt, yn fy nghorph fy hun ar y pren, pan ddyoddefais, y Cyfiawn dros yr anghyfiawn, i'w dwyn hwy at Dduw. 1 Pedr 2. 24; a 3. 18. Tybiwn fod yr alleiriad uchod yn cynnwys meddwl y geiriau, fel nad oes achos ymhelaethu yn fanylach arnynt.

4 [g] * Canys pa bethau bynnag a ysgrifenwyd o'r blaen, er addysg i ni yr ysgrifenwyd hwynt; [h] † fel trwy amynedd a diddanwch yr ysgrythyrau, ‡ y gallem gael gobaith.

g pen. 4. 23, 24. 1 Cor. 9. 9, 10. a 10. 11. 2 Tim. 3. 16, 17. 2 Pedr 1. 20, 21. h pen. 5. 3—5. a 8. 24, 25. a 12. 12. Salm 119. 81—83. Heb. 6. 10—19. a 10. 35, 36. Iago 5. 7—11. 1 Pedr 1. 13.

* Mae yr apostol yn cymmeryd achlysur oddi wrth y cyfyniad uchod o eiriau Dafydd, i ddangos fod y cwbl o ysgrythyrau yr Hen Destament, wedi eu hysgrifenu er addysg i *ni*, yn gystal ag i'r rhai y traddodwyd hwy iddynt gyntaf: pa bethau bynag a gynnwysant, ai cysgodau a rhag-fynegiadau o Grist ac am dano, ai ynte addewidion grasol, gorchymynion, rhybuddion, neu esamplau. † Mae efe yn dywedyd "amynedd a diddanwch yr ysgrythyrau," oblegid fod y grasau hyn yn cael eu gweithio a'u meithrin yn y saint trwy yr ysgrythyrau: arfogir hwy âg amynedd, a chynnysgaethir hwy â diddanwch, trwy yr esamplau a'r addewidion sydd yn yr ysgrythyrau. ‡ Gobaith am waredigaethau o drallodion a chyfyngderau y bywyd hwn, a gobaith am iachawdwriaeth berffaith a thragywyddol yn y diwedd. Dyma dri gras gwerthfawr mewn byd o drallod, amynedd, diddanwch, a gobaith; ac maent oll i'w cael drwy yr ysgrythyrau.

5 [i] * A Duw yr amynedd [k] a'r diddanwch [l] † a roddo i chwi synied yr un peth tu ag at eich gilydd ‡ yn ol Crist Iesu:

i adn. 13. Ex. 34. 6. Salm 86. 15. 1 Pedr 3. 20. 2 Pedr 3. 9, 15. k 2 Cor. 1. 3, 4. a 7. 6. l pen. 12. 16. 2 Cron. 30. 12. Jer. 32. 39. Ezec. 11. 19. Act. 4. 32. 1 Cor. 1. 10. 2 Cor. 13. 11. Phil. 1. 27. a 2. 2. a 4. 2. 1 Pedr 3. 8.

* Gelwir Duw yn "Dduw pob gras," yn 1 Pedr 5. 10; "Duw y gobaith," adn. 13; "Duw yr heddwch," adn. 33; "Duw y cariad a'r heddwch," 2 Cor. 13. 11; ac yn "Dduw yr amynedd a'r dyddanwch" yma; efe yw awdwr a gweithredwr y grasau hyn yn ei bobl: yn yr adnod o'r blaen darllenasom am amynedd a dyddanwch yr ysgrythyrau, ac yma mae yr apostol yn dangos nad yw yr ysgrythyrau ddim yn eu gweithredu o honynt eu hunain, ond Duw sydd yn eu gweithredu yn ei bobl trwy yr ysgrythyrau. † Fel mae Duw yn awdwr amynedd a dyddanwch, felly mae efe hefyd yn awdwr cydfod, cyd-syniad, a chyd-gordiad, yn mhlith ei bobl: doniau Duw yw pethau fel hyn; efe sydd yn gwneuthur ei bobl o un meddwl ac un galon; a dylai ei saint ymofyn âg ef, am wneuthur o hóno hyn iddynt. Buan iawn yr â eglwysi blodeuog yn ddrylliau gan derfysgoedd, ond fel y rhoddo Duw iddynt synied yr un peth tuag at eu gilydd fel brodyr ac aelodau o'r un corph. ‡ Yn ol athrawiaeth. gorchymyn, ac esampl Crist Iesu, er ei ogoniant ef, ac yn gymmeradwy gan Dduw trwyddo ef.

6 * Fel y galloch [m] yn unfryd, o un genau, ogoneddu Duw, [n] † a Thad ein Harglwydd Iesu Grist.

m adn. 9—11. Zeph. 3. 9. Zec. 13. 9. Act. 4. 24. n Ioan 10. 29, 30. a 20. 17. 2 Cor. 1. 3. a 11. 31. Eph. 1. 3. 1 Pedr 1. 3.

* Heb synied yr un peth tuag at ein gilydd, nis gallwn fod yn unfryd, ac o un genau yn gogoneddu Duw. Heb yr Ysbryd Glân yn ei ddylanwadau nefol, nis gall y saint ogoneddu Duw yn unfryd ac o un genau; ac nid yw yr Ysbryd Glân yn preswylio lle na byddo dynion yn synied yr un peth tuag at eu gilydd: nid yw efe awdwr anghydfod, eithr trefn; ac nid yw yn caru bod lle byddo anghydfod, terfysg, ac annhrefn. † Enw cyffredin ar Dduw yn yr epistolau; mae yn Dad ein Harglwydd Iesu Grist, yn 1. Fel y mae Crist yn Fab Duw; drwy genedliad tragywyddol ac annrhaethadwy. Yn 2. Fel mae yn ddyn; efe a'i cenedlodd ac a ffurfiodd ei ddynoliaeth ef. Yn 3. Fel mae yn Gyfryngwr; efe a'i gosododd ef yn, ac a'i cymhwysodd i'r, swydd hòno. Mae yr enw hwn ar Dduw yn cynnwys ein holl gysur a'n dedwyddwch ni; oblegid mae efe yn Dad i ni am ei fod yn Dad ein Harglwydd Iesu Grist.

7 * O herwydd paham [o] derbyniwch eich gilydd, [p] † megis ag y derbyniodd Crist ninnau, [q] ‡ i ogoniant Duw.

o pen. 14. 1—3. Mat. 10. 40. Marc 9. 37. Luc 9. 48. p Mat. 11. 28—30. Luc 15. 2. Ioan 6. 37. a 13. 34. q adn. 9. Eph. 1. 6—8, 12, 18. 2 Thes. 1. 10—12.

* Mae yr apostol yn dybenu ei ymadrodd mewn cyffelyb eiriau ag y dechreuodd, pen. 14. 1, 3: o'r blaen y cryfion oedd i dderbyn y gweiniaid, ond yma pawb i dderbyn eu gilydd; y cryfion y gweiniaid, a'r gweiniaid y cryfion: rhaid fod iddynt gyd-gymundeb oll â'u gilydd; gan barâu mewn cariad brawdol, a chyfrif eu gilydd yn frodyr, ac arfer hirymaros, a chyd-ddyoddef â'u gilydd. † Megys y derbyniodd Crist ninnau yn ei drugaredd ac i'w drugaredd, i'w dŷ ac i fwynâd o freintiau a bendithion yr efengyl: derbyniodd Crist ni yn rhad ac yn rhwydd, heb wneyd dim gwahaniaeth rhwng Iuddewon a Chenedloedd, cryfion a gweiniaid: derbyniwch chwithau eich gilydd yr un modd, yn ol ei esampl ef. ‡ Mae rhai yn cyssylltu y geiriau hyn â'r ail ran o'r adnod, sef bod Crist yn derbyn ei bobl i ogoniant Duw; hyny yw, i'w gwneyd yn gyfranogion o ogoniant Duw, ac i fynegi gogoniant ei wirionedd ef i'r Iuddewon, a'i drugaredd i'r cenedloedd, fel y dangosir yn yr adnodau a ganlyn. Mae eraill yn cyssylltu y geiriau â rhan flaenaf yr adnod; "derbyniwch eich gilydd i ogoniant Duw:" sef fel y caffo Duw ei ogoneddu yn eich cariad, eich brawdgarwch, eich undeb, a'ch cyd-gordiad chwi â'ch gilydd.

8 [r] * Ac yr wyf yn dywedyd, [s] wneuthur Iesu Grist yn weinidog i'r enwaediad, [t] † er mwyn gwirionedd Duw, er mwyn cadarnhâu ‡ yr addewidion *a wnaethpwyd* i'r tadau:

r pen. 3. 26. 1 Cor. 1. 12. a 10. 19, 29. a 15. 50. s pen. 9. 4, 5. Mat. 15. 24. a 20. 28. Ioan 1. 11. Act. 3. 25, 26. a 13. 46. Gal. 4. 4, 5. t pen. 3. 3. Salm 98. 2, 3. Mica 7. 20. Luc 1. 54—56, 70—73. 2 Cor. 1. 20.

* Mewn trefn i uno Iuddewon a chenedloedd yn un eglwys, a'u cymmodi hwy â'u gilydd, cymmerodd Iesu Grist ei ddynoliaeth ym mhlith yr Iuddewon; efe a wnaed dàn y ddeddf, ac a enwaedwyd arno: ac efe a arferodd ei weinidogaeth bersonol gyda llafur diflino a hunan-ymwadiad yn mhlith yr enwaediad, sef yr Iuddewon; ac efe a orchymynodd i'w apostolion bregethu yr efengyl i'r Iuddewon yn gyntaf. † Fel hyn efe a gyflawnodd y prophwydoliaethau a'r addewidion a roddasid i dadau y genedl hòno: ‡ sef yr addewidion a wnaed i Adda, Abraham, a Dafydd, y deuai y Messiah o'u

Lwynau hwy, yn yr hwn y bendithid holl genedloedd y
Delaear: gan hyny nid oedd gan y cenedloedd dychwel-
gnig ddim achos i'w dirmygu hwynt.

9 u * Ac fel y byddai i'r Cenhedloedd
ogoneddu Duw am *ei* drugaredd; † fel y mae
yn ysgrifenedig, x ‡ Am hyn y cyffesaf i ti ym
mhlith y Cenhedloedd, ac y canaf i'th enw.

u adn. 16. pen. 9. 23, 24. a 11. 22, 30. Es. 24. 15, 16. Ioan 10.
E. Eph. 2. 12—22. a 3. 1—8. 1 Pedr 2. 9, 10. x 2 Sam. 22. 50.
Salm 18. 49.

* Ar y llaw arall, ar ol esgyniad Crist, cafodd yr
efengyl ar ei orchymyn ef, ei phregethu yn helaeth
i'wyn, a chyda llwyddiant mawr, yn mhlith y cenedl-
oedd; fel y byddai iddynt hwy ogoneddu Duw am ei
drugaredd, megys y rhag-fynegasid yn amlwg gan
lawer o'r hen brophwydi. Sonia yr apostol am *wirion-
eidd* Duw i'r Iuddewon, ac am *drugaredd* Duw i'r cenedl-
oedd: nid am fod y naill heb y llall, na'r naill yn fwy
i'r llall i'r Iuddewon na'r cenedloedd; yr oedd trugar-
edd yn gystal a gwirionedd i'r Iuddewon, a gwirionedd
gystal a thrugaredd i'r cenedloedd: ond sonir am
drugaredd i'r cenedloedd, o herwydd fod trugaredd yn
ddangos yn nodedig o amlwg yn eu galwad a'u
dichweliad hwy, wedi iddynt gael eu hesgeuluso trwy
y oesoedd, Act. 14. 16; a 17. 30. † Yr oedd trugaredd
Duw i'r cenedloedd yn beth tra anghredadwy gan yr Iu-
dewon, am hyny mae yr apostol yma yn profi y mater
trwy amryw dystiolaethau o'r Hen Destament. ‡ Mae y
geiriau hyn wedi eu cymmeryd o Salm 18. 49: "am
hyny y moliannaf di, &c." yw y geiriau yno, ond yma,
yn ol y Deg a thriugain, "am hyn y cyffesaf i ti," &c.
Mae yn amlwg mai geiriau Crist yw y geiriau, wedi eu
cyfaru gan Dafydd megys yn mherson y Cyfryngwr:
megel yr adnodau o'r blaen yn y Salm, yn enwedig adn.
43, 44, 47: mae Crist yn dywedyd wrth y Tad, y byddai
iddo ef ei gyffesu a'i foliannu ef yn mhlith y cenedl-
oedd; hyny yw, peri i'r efengyl gael ei phregethu yn
mhlith y cenedloedd, er trugaredd arnynt, ac er gogon-
ant Duw am y drugaredd hono.

10 * A thrachefn y mae yn dywedyd,
Ymlawenhêwch, Genhedloedd, gyd â'i bobl
i.

y Deut. 32. 43. Salm 66. 1—4. a 67. 3, 4. a 68. 32. a 97. 1. a
c. 3, 4. a 138. 4, 5. Es. 24. 14—16. a 42. 10—12.

* Prophwydoliaeth arall, am yr un peth, a gair yn
Deut. 32. 43. Yno yr oedd dangosiad amlwg, y byddai
y cenedloedd gael eu gwneyd yn bobl i Dduw, eu
nno â'r Iuddewon yn ei addoliad a'i wasanaeth ef, ac
gyd-lawenâu â'r Iuddewon yn naioni a thrugaredd
Duw. Yn awr mae mur y gwahaniaeth wedi ei dynu i
lawr, a'r ddau bobl yn un gorlan a thàn un Bugail.

11 * A thrachefn, z Molwch yr Arglwydd,
yr holl Genhedloedd; a chlodforwch ef yr holl
bobloedd.

z Salm 117. 1.

* Tystiolaeth arall am yr un mater pwysig, a gair yn
Salm 117. 1. Yn yr adnod o'r blaen gelwid ar y cenedl-
oedd i ymlawenâu yn sanctaidd gyda phobl Dduw, yn
yn mwynâd gyda hwynt o freintiau ysbrydol yr efengyl:
yma gelwir arnynt i foliannu yr Arglwydd am y breintiau
hyny, a'i glodfori ef yn mhlith pob cenedl; yr hyn nis
allant ei wneyd heb iddynt ei adnabod ef yn iawn, a
derbyn o'i drugaredd achubol ef trwy yr efengyl.

12 * A thrachefn y mae Esaias yn dywed-
id, a † Fe fydd gwreiddyn Jesse, b ‡ a'r hwn a
yfyd i lywodraethu y Cenhedloedd: c || yn-
ddo ef y gobeithia y Cenhedloedd.

a Es. 11. 1, 10. Dat. 5. 5. a 22. 16. b Gen. 49. 10. Salm
4—12. a 22. 27, 28. a 72. 8—10, 17. Es. 42. 1—4. a 49. 6. Dan. 2.
4. a 7. 14. Mica 4. 1—3. a 5. 4. c Jer. 16. 19. a 17. 5—7. Mat.
2. 21. 1 Cor. 15. 19. Eph. 1. 12, 13. 2 Tim. 1. 12. 1 Pedr 1. 21.

* Y bedweredd brophwydoliaeth am drugaredd Duw
i'r cenedloedd, a gymmerodd yr apostol o Es. 11. 10;
ac mae hon yn fwy amlwg a phendant ar y mater nac yr
un o'r lleill: y Messiah, gwreiddyn Jesse, yn cael ei
enwi yn bennodol; yn cyfodi i llywodraethu y cenedl-
oedd, a'r cenedloedd yn cael eu dwyn i obeithio yn ei
enw ef. † "Fe fydd gwreiddyn Jesse," sef y "wïalen a
ddaw allan o gyff Jesse, a'r blaguryn a dŷf o'i wraidd,
sef o'i lwynau ef," Es. 11. 1: mae y geiriau mòr nodedig
a grymus, fel nas gellir eu cymhwyso yn briodol at
neb arall ond y Messiah. O ran ei ddynoliaeth yr
oedd Crist yn deilliaw, neu yn blaguro o Jesse, tad
Dafydd; o ran ei Dduwdod, a'i swydd gyfryngol, yr oedd
yn wreiddyn, bywyd, a nerth holl deulu Jesse: ac felly
mewn gwahanol olygiadau arno, yr oedd yn "wreiddyn
a hiliogaeth Dafydd," fel y dywedir am dano yn Dat.
22. 16. ‡ "Yr hwn a saif yn arwydd (neu faner) i'r
bobloedd," yw y geiriau yn Esaiah; ond yma, yn ol y
Deg a thriugain eto, "yr hwn a gyfyd i lywodraethu y
cenedloedd." Mae pob un o'r ddau ymadrodd yn wir;
efe a saif yn arwydd i'r cenedloedd yn ngweinidogaeth
yr efengyl, yr hon sydd yn codi baner fawr y groes yn
ngolwg yr holl genedloedd; ac efe a gyfyd i lywodraethu
y cenedloedd yn ol ei swydd fel Brenin ar Sïon ei fyn-
ydd sanctaidd, efe a lywodraetha arnynt trwy ei air, ei
Ysbryd, a'i ras. || "Ag ef yr ymgais y cenedloedd," yw
y darn hyn yn Esaiah; ac yma, yn ol y Deg a thriugain,
"Ynddo ef y gobeithia y cenedloedd." Pan welo y cen-
edloedd ei faner ogoneddus ef, a phan glywont am dano,
hwy a ddeuant dàn ddylanwadau ei Ysbryd i ymgais âg
ef am eu bywyd; ac wedi cael adnabyddiaeth brofiadol
o'i Berson, ei allu, a'i ras, hwy a obeithiant ynddo yn
dawel a hyderus, am drugaredd a bywyd byth. Fel hyn,
ni a welwn fod geiriau y prophwyd a geiriau yr apostol
yn berffaith gyson â'u gilydd; a'r ddau yn nghyd yn
cynnwys gwirionedd cyflawnach, a mwy gogoneddus, na
phe cymmerem ond un o honynt: ac felly y cawn mewn
llaweroedd o fànau lle mae ysgrythyrau o'r Hen Destament yn cael eu crybwyll yn y Newydd, a da y gwnawn
fod yn sylwi ar hyny, a defnyddio y ddau yn nghyd.

13 d * A Duw y gobaith e a'ch † cyflawno
o bob llawenydd a thangnefedd gan gredu,
f ‡ fel y cynnyddoch mewn gobaith trwy
|| nerth yr Ysbryd Glân.

d adn. 5. Jer. 14. 8. Joel 3. 16. 1 Tim. 1. 1. e pen. 14. 17.
Es. 55. 12. Ioan 14. 1, 27. Gal. 5. 22. Eph. 1. 2. a 5. 18, 19. 2 Thes.
2. 16, 17. 1 Pedr 1. 8. f pen. 5. 4, 5. a 12. 12. 2 Cor. 9. 8. Heb.
6. 11.

Mae yr apostol yn gorphen ei hir ymadrodd yn
nghylch cariad brawdol a chyd-gordiad, trwy weddi fèr
a gwresog, am i'r saint oll yn Rhufain, gael eu cyflawni
gan Dduw o bob llawenydd a thangnefedd gan gredu,
fel y cynnyddent mewn gobaith trwy nerth yr Ysbryd
Glân. * "Duw y gobaith:" mae efe felly fel y mae yn
unig wrthddrych gobaith ei holl bobl; ac mae felly
hefyd fel mae efe yn awdwr a gweithredydd gobaith yn
mhawb o'i saint. † Pob llawenydd a thangnefedd, y
rhai sydd yn llenwi y galon trwy fywiol ffydd yn Nghrist:
a phob cysur a chyd-gordiad yn mhlith eu gilydd, yn
eu cyd-broffes o'r ffydd gristionogol. Dyma'r pethau
mae teyrnas Dduw yn gynnwysedig ynddynt, pen. 14.
17; ac maent yn well na bod yn llawn o ymryson a
therfysg yn nghylch pethau diles a dibwys mewn cre-
fydd. ‡ Mae y llawenydd a'r tangnefedd uchod yn
werthfawr iawn i feithrin a chynnyddu gobaith y saint,
i gyrhaedd llawn sicrwydd gobaith, am bob cynnaliaeth
a bendithion presenol, ac am ddedwyddwch a bywyd
tragywyddol yn y diwedd. || Mae nerth yr Ysbryd
Glân yma, a nerth Ysbryd Duw yn adn. 19, yn dangos
gwahaniaeth amlwg rhwng yr Ysbryd Glân ei *hunan*,
a'r *nerth* mae efe yn weithredu, ac yn dangos ei fod ef
yn *Berson* dwyfol: a chan ei fod ef yn y ddwy adnod
hyn yn gwneyd pethau priodol i Dduw, mae yn amlwg
nad yw y nerth mae ef yn ei weithredu, ddim llai na
nerth Duw.

14 g * Ac yr wyf fi fy hun, fy mrodyr, yn
credu am danoch chwi, † eich bod chwithau yn

[h] llawn daioni, ‡ wedi eich cyflawni o bob gwybodaeth, [i] || ac yn abl i rybuddio eich gilydd hefyd.

g Phil. 1. 7. 2 Tim. 1. 5. Philemon 21. Heb. 6. 9. 2 Pedr 1. 12. 1 Ioan 2. 21. h Phil. 1. 11. Col. 1. 8—10. 2 Pedr 1. 5—8. i Col. 3. 16. 1 Thes. 5. 11, 14. Tit. 2. 3, 4. Heb. 5. 12. a 10. 24, 25. Judas 20—23.

* Yn y bennod gyntaf, adn. 8, o'r epistol hwn, dywed yr apostol fod ffydd y Rhufeiniaid yn gyhoeddus yn yr holl fyd: fel hyny yr oedd ef wedi dyfod i wybod am danynt, ac oddi ar hyny yr oedd yn credu am danynt, eu bod yn llawn daioni, &c., er nad oedd y pryd hwn wedi eu gweled, na bod erioed yn eu plith. † Mae yn eu canmol hwy yma am dri pheth: yn 1. Eu bod "yn llawn daioni," sef yn llawn o ffrwythau yr Ysbryd, fel yn Galat. 5. 22, ac yn llawn tiriondeb, boneddigeiddrwydd, a chariad tuag at eu gilydd. ‡ Yn 2. Eu bod "wedi eu cyflawni o bob gwybodaeth," hyny yw, bod ganddynt fesur mawr o bob gwybodaeth angenrheidiol, mewn athrawiaeth, rhyddid cristionogol oddi wrth hen ddefodau Iuddewig, a phob peth a berthynai i ddysgyblaeth eglwysig, ac achosion crefydd yn gyffredinol: || ac yn 3. Eu bod "yn abl i rybuddio eu gilydd hefyd:" sef i addysgu eu gilydd yn mhrif bynciau yr efengyl, i annog a bywiocâu eu gilydd i bob peth da, ac i rybuddio eu gilydd rhag pob peth niweidiol, anaddas i'r efengyl, a dinystriol i undeb a brawdgarwch yn mhlith eu gilydd. Er bod yno rai gweiniaid ac annwybodus yn eu mysg; eto yr oedd yr apostol yn credu fod yno lawer eraill yn meddu ar y doniau a'r cymhwysderau uchod.

15 [k] * Eithr mi a ysgrifenais yn † hyfach o beth attoch, *O* frodyr, [l] fel un yn dwyn ar gôf i chwi, [m] ‡ trwy y gras a roddwyd i mi gan Dduw;

k Heb. 13. 22. 1 Pedr 5. 12. 1 Ioan 2. 12—14. a 5. 13. Judas 3—5. l 1 Tim. 4. 6. 2 Tim. 1. 6. a 2. 14. Tit. 3. 1. 2 Pedr 1. 12—15. a 3. 1, 2. m pen. 1. 5. a 12. 3, 6. 1 Cor. 3. 10. a 15. 10. Gal. 1. 15, 16. a 2. 9. Eph. 3. 7, 8. 1 Tim. 1. 11—14. 1 Pedr 4. 10, 11. 2 Pedr 3. 15.

* Er bod yr apostol yn credu y pethau da uchod am y Rhufeiniaid yn gyffredin, eto cafodd ar ei feddwl ysgrifenu atynt ar amryw faterion pwysig, er dwyn ar gof iddynt eu hamrywiol ddyledswyddau a'u hamrywiol beryglon. † Yr oedd yn ysgrifenu "yn hyfach at yr Iuddewon yn eglwys Rhufain, oblegid mai Iuddew oedd ef ei hun; yn hyfach at y cenedloedd yno, oblegid ei fod yn apostol i'r cenedloedd, ac yn hyfach at bawb o honynt, oblegid ei fod yn credu pethau mòr dda am danynt, ac yn teimlo mòr frawdol tuag atynt. ‡ Yn wir nis gallai lai nag ysgrifenu atynt; o herwydd y gras a roddasid iddo gan Dduw: yr oedd dàn rwymau i ysgrifenu o herwydd ei swydd apostolaidd, yr hon a gawsai trwy ras Duw, ac yr oedd y gras hwnw yn ei gymhell ef i ysgrifenu yn hŷf.

16 [n] * Fel y byddwn weinidog i Iesu Grist at y Cenhedloedd, [o] † gan weini i efengyl Duw, [p] ‡ fel y byddai offrymiad y Cenhedloedd yn gymmeradwy, [q] || wedi ei sancteiddio gan yr Ysbryd Glân.

n adn. 18. pen. 11. 13. Act. 9. 15. a 13. 2. a 22. 21. a 26. 17, 18. 1 Cor. 3. 5. a 4. 1. 2 Cor. 5. 20. a 11. 23. Gal. 2. 7, 8. Eph. 3. 1. 1 Tim. 2. 7. 2 Tim. 1. 11. o adn. 29. pen. 1. 1. Act. 20. 24. Gal. 3. 5. 1 Thes. 2. 2, 9. 1 Tim. 1. 11. 1 Pedr 1. 12. p pen. 12. 1, 2. Es. 66. 19, 20. 2 Cor. 8. 5. Phil. 2. 17. a 4. 18. Heb. 13. 16. 1 Pedr 2. 5. q pen. 5. 5. a 8. 26, 27. 1 Cor. 6. 19. Eph. 2. 18, 22. 1 Thes. 5. 23.

* Trwy ras Duw y rhoddwyd yr apostol yn y weinidogaeth; ac yr oedd y weinidogaeth a gawsai trwy ras, yn ei rwymo ef i bregethu yr efengyl i'r cenedloedd yn gyffredinol, † ac i arolygu eu hachosion eglwysig hwy, fel y byddai eu personau a'u gwasanaeth hwy yn gymmeradwy gan Dduw, wedi eu sancteiddio gan yr Ysbryd Glân. ‡ Mae yma gyfeiriad pur amlwg at yr offeiriad Iuddewig yn gweini wrth yr allor, ac at yr offrymau a aberthent hwy, gyda'r diod-offrymau ag oedd orchymynedig i'w tywallt arnynt, fel y byddent yn gymmeradwy gan Dduw. Yn ganlynol i hyny, mae yr apostol yn dywedyd am dano ei hun megys yn gweini fel yr offeiriaid gynt; ond nid aberthau o anifeiliaid wedi eu lladd oedd efe yn offrymu i Dduw, eithr dynion wedi eu bywâu yn ysbrydol, sef y cenedloedd, y rhai a droisid oddiwrth eilunod i wasanaethu y gwir a'r bywiol Dduw. || A chan fod yr holl offrymau dàn y ddeddf i gael eu *puro*, felly yr oedd offrymiad y cenedloedd, wedi eu sancteiddio gan yr Ysbryd Glân, *megys offrwm i'r Arglwydd o blith yr holl genedloedd.* Es. 66. 20.

17 * Y mae i mi gan hynny [r] orfoledd † yng Nghrist Iesu, [s] ‡ o ran y pethau à berthyn i Dduw.

r pen. 4. 2. 2 Cor. 2. 14—16. a 3. 4—6. a 7. 4. a 11. 16—30. a 12. 11. s Heb. 5. 1.

* Yn y rhagor-fraint fawr hon o bregethu yr efengyl yn mysg y cenedloedd, a chyda'r fath lwyddiant anghyffredin, yr oedd gan yr apostol achos gorfoleddu: ‡ nid yn wir ynddo ei hunan, ei lafur, na'i ddawn, ond yn Nghrist Iesu, yr hwn a gymmerasai drugaredd arno, a'i gosodasai yn y weinidogaeth, ac a fendithiasai ei lafur mòr rhyfeddol. ‡ Fel hyny, nid ynddo ei hun nac yn ei bethau ei hun, yr oedd yr apostol yn gorfoleddu; ond yn y pethau a berthynent i Dduw. Peth mawr yw cael llafurio gyda rhyw ran o bethau Duw, a bod dàn fendith Duw yn y llafur hwnw.

18 [t] * Canys ni feiddiaf fi ddywedyd dim o'r pethau [u] ni † weithredodd Crist trwof fi, [x] i *wneuthur* y Cenhedloedd yn ufudd [y] ‡ ar air a gweithred,

t Diar. 25. 14. 2 Cor. 10. 13—18. a 11. 31. a 12. 6. Judas 9. u Marc 16. 20. Act. 14. 27. a 15. 4, 12. a 21. 19. 1 Cor. 3. 6—9. 2 Cor. 3. 1—3. a 6. 1. x pen. 1. 5. a 6. 17. a 16. 26. Mat. 28. 18—20. Act. 26. 20. 2 Cor. 10. 4, 5. Heb. 5. 9. a 11. 8. y Col. 3. 17. 2 Thes. 2. 17. Iago 1. 22. 1 Ioan 3. 18.

* Yn y gorfoledd gostyngedig a sanctaidd uchod, ni feiddiai Paul ymffrostio mewn dim o'r pethau ni weithredodd Crist trwyddo: trwy ddywedyd fod ychwaneg wedi cael eu dychwelyd trwy ei weinidogaeth ef nag oedd mewn gwirionedd; neu trwy briodoli i'w ddawn ei hun yr hyn oedd yn cael ei wneyd gan Grist trwyddo ef. Mae yn debyg fod rhai athrawon yn rhŷ barod i wneyd hyn, ond ni feiddiai Paul wneyd ei hun, yr hyn a gondemniai efe fel ynfydrwydd a phechod yn eraill. Yr hyn a wnaed oedd yn hollawl yn waith Crist; ond efe a ddewisodd wneyd defnydd o Paul fel offeryn yn ei law, ac yn hyny mae efe yn gorfoleddu. † Mewn mànau eraill efe a ddywed mai Duw a weithredodd trwyddo ef, yma Crist a weithredodd trwyddo ef: gan hyny Duw yw Crist. ‡ Mai rhai yn cyssylltu y geiriau hyn âg ufudd-dod y *cenedloedd;* trwy bregethiad yr efengyl gwnaethpwyd hwy yn ufudd ar air a gweithred: mae eraill yn eu cyssylltu â'r geiriau o'r blaen; Crist yn gweithredu trwy yr apostol ar air a gweithred: ar air, sef pregethiad yr apostol; ar weithred, sef ei ymarweddiad sanctaidd ef, ei lafur, ei ddyoddefiadau, a'r gwyrthiau a wnaeth Crist trwy ei ddwylaw ef, fel y crybwyllir yn yr adnod nesaf.

19 * Trwy [z] nerth arwyddion a rhyfeddodau, [a] † gan nerth Ysbryd Duw; [b] ‡ hyd pan o Jerusalem, ac o amgylch || hyd Ilyricum, [c] § y llenwais efengyl Crist.

z Act. 14. 10. a 15. 12. a 16. 18. a 19. 11, 12. 2 Cor. 12. 12. Gal. 3. 5. Heb. 2. 4. a Mat. 12. 28. Act. 1. 8. 1 Cor. 12. 4—11. 1 Pedr 1. 12. b adn. 24. Act. 9. 28, 29. a 13. 4, 5, 14, 51. a 14. 6, 20, 21, 25. a 16. 6—12, a 17. 10, 15. a 18. 1, 19. a 19. 1. a 20. 2, 3, 6. c Act. 20. 20. Col. 1. 25. 2 Tim. 4. 17.

* Neu trwy arwyddion nerthol, yn ol y Saesoneg. Yr oedd y nerthol arwyddion a'r rhyfeddodau hyn gyda gweinidogaeth Paul, yn brawf o wirionedd yr efengyl, yn brawf o'i ddanfoniad yntau i'w phregethu, ac yn foddion grymus i wneuthur y cenedloedd yn ufudd i'w derbyn, ei chredu, ac ymddarostwng iddi. † Mae y gair "nerth" *(dunamei)* yn cael ei ddefnyddio ddwy waith yn yr adnod hon, yn gyntaf am yr arwyddion a'r

dyfeddodau, i ddangos eu heffaith; ac yn ail prïodolir i Ysbryd Duw, i ddangos mai efe oedd yr effeithiol achos o'r effaith hyny. ‡ Bu Paul yn pregethu yn Damascus, ac yn Arabia, o leiaf dair blynedd, cyn myned i Jerusalem o gwbl; (Gwel Galat. 1. 17, 18,) ond yma mae yn gosod cychwyniad ei deithiau o Jerusalem, y lynon o ba un yr aeth yr efengyl fel dyfroedd bywiol, allan at y cenedloedd. ‖ Gwlad fawr oedd Ilyricum yn orwrop, rhwng Pannonia ar y gogledd, a môr Adria, a ywir yn awr culfôr Venice, ar y dê; ac a gynnwysir gan ywyaf dàn yr enw Sclafonia, neu Dalmatia, yn cyffinio â Hungary. Mae genym hanes am deithiau, llafur, a lwyddiant rhyfeddol yr apostol, yn llawer o'r parthau hyny, yn Act. 13, a'r amryw bennodau dilynawl. Yr oedd cannoedd lawer o filltiroedd, llawer mwy na mil, roedd rhai, o Jerusalem i Ilyricum, a myned ar hyd unell union; ond teithiodd Paul "o amgylch" yno, wy Syria, Asia Leiaf, a gwlad Groeg, yr hyn oedd mryw filoedd o filltiroedd. *Hyd* Ilyricum a ddywed aul, a thybia y rhan fwyaf nad aeth efe ddim i *mewn* wlad hòno, ond hyd ei therfynau; ac mai cyffiniau yricum oedd terfynau ei deithiau ef y ffordd hòno. ae yn wir nad oes dim hanes yn yr Actau am lafur yr postol o *fewn* y wlad hòno os aeth efe iddi; ond mae ie yn crybwyll amryw bethau yn ei epistolau, nad yw ric yn eu crybwyll yn llyfr yr Actau. § Ni bu gywilidd ganddo fynegi holl gyngor Duw, trwy bregethu Crist wedi ei groeshoelio yn mhob màn, a dysgu torfoedd lawer yn athrawiaeth sanctaidd yr efengyl.

20 [d] * Ac felly gan ymorchestu i bregethu yr efengyl, † nid lle yr enwid Crist; fel nad adeiladwn ar sail un arall:

d 2 Cor. 10. 14—16. e 1 Cor. 3. 9—15. Eph. 2. 20—22.

21 ‡ Eithr megis y mae yn ysgrifenedig, [f] Yr rhai ni fynegwyd am dano, hwynt-hwy a'i gwelant *ef;* a'r rhai ni chlywsant, a ddeallant.

f Es. 52. 15. a 65. 1.

* Caru anrhydedd, neu fawr awyddu am anrhydedd, eddant, yw ystyr y gair *(philotimoumenon)* a gyfieithyma "ymorchestu:" nid awyddu am anrhydedd gan dlynion yr oedd Paul; nid oedd fawr o hyny i'w gael i cregethwr yr efengyl y pryd hwnw, na chàn Iuddewon â chenedloedd. Ond yr oedd efe yn ei ystyried yn awr anrhydedd oddi wrth Dduw, iddo gael pregethu efengyl ei Fab ef, yn enwedig lle nad oedd wedi cael pregethu y c'r blaen, er cael anmharch a dianrhydedd gan ddynion am hyny. O ganlyniad yr oedd yn ymorchestu," hyd y daliai ei natur, y caniatêai rhagluniaeth, ac y cynnorthwyai Duw, i bregethu yr efengyl n mhob màn, yn enwedig lle nid enwasid Crist o'r aen: awydd-fryd a gorchest sanctaidd, ardderchog, a nymmeradwy gan Dduw, oedd hyn yn yr apostol. Mae yn sicr nad oedd Paul ddim yn ysgorniaw myned r ol apostolion a gweinidogion eraill; yr hyn a asai yn dangos ysbryd uchel, a gwahanol iawn i osngeiddrwydd arferawl yr apostol bendigedig hwn; ac n anghytunol â'r hanes a gawn am dano yn pregethu n Damascus, Antiochia, a Jerusalem, ac efallai amryw anau eraill. Mae y geiriau yn dangos fod yr apostol n teimlo yn ddwys dros y paganiaid truain oedd heb lywed yr efengyl erioed; ei fod yn mhell o ofni gwrthynebiadau a pheryglon, y rhai a allai ddysgwyl, yn nwedig ar ei fynediad cyntaf i blith y paganiaid, i ddechreu braenaru y tir; ac efallai ei fod yn cyfeirio rna hefyd, at y gau-athrawon hyny, y rhai a ymlusgent eglwysi a blanesid ganddo ef, ac a geisient sefydlu eu unain mewn parch ac awdurdod yno, trwy ddieithrio lladrata calonau ei ddychweledigion ei hun, oddi rtho ef eu tad ysbrydol: tra yr oeddynt, fel rhai yn in dyddiau ninnau, yn gwneuthur adeilad o wellt, wair, a sofl, ar sylfaen ardderchog yr apostol. ‡ Fel yn bu ei weinidogaeth ef gan mwyaf yn mhlith y cendloedd, ac am hir o amser yn mhlith y rhai tywyllaf o honynt, a'r mwyaf eilun-addolgar a thruenus, yn ol yr hen brophwydoliaeth hòno am y Messiah yn Es. 52. 15, lle mae yn ysgrifenedig, gyda chyfeiriad arbenig at alwad cenedloedd eraill heblaw yr Iuddewon, i'r rhai ni fynegwyd am Grist, y rhai oedd yn hollawl ddiwybodaeth o hóno, hwy a'i gwelant ef yn ngoleuni gogoneddus yr efengyl, gyda nerth a thywyniadau yr Ysbryd Glân; a'r rhai ni chlywsant air o sôn am Grist erioed, na'r iachawdwriaeth fawr sydd yndd o ef, hwy a glywant, a ystyriant, ac a ddeallant, fel y deuant i adnabyddiaeth achubol o hóno ef. Fel hyn trwy enau Paul, cafodd miloedd glywed y tro cyntaf erioed, a chlywed yn effeithiol i fywyd, am Grist a'i iachawdwriaeth, ac fel hyn cyflawnodd Duw ei air.

22 * Am hynny hefyd [g] y'm lluddiwyd yn fynych i ddyfod attoch chwi.

g pen. 1. 13. 1 Thes. 2. 18.

* Gwedi i'r apostol adrodd ei deithiau a'i lafur yn yr adnodau uchod, gallai rhai o'r Rhufeiniaid ryfeddu, a beïo arno hefyd, na ddaethai atynt hwy yn ei holl deithiau i gyd; yn enwedig gan iddo ddyfod mòr agos atynt ag "hyd Ilyricum." I hyn mae yn ateb yma, mai nid difaterwch am danynt, na diffyg cariad ac ewyllys da atynt, oedd yr achos; ond ei awydd ef am bregethu yr efengyl lle nad oedd neb wedi ei phregethu erioed o'r blaen: yr oedd hyny yn fwy angenrheidiol o lawer na dyfod atynt hwy lle yr oedd yr efengyl yn cael ei phregethu yn barod, a llawer yn eu plith "wedi eu cyflawni o bob gwybodaeth, ac yn abl i rybuddio eu gilydd." adn. 14. Yr oedd ei amser, ei ffyrdd, a'i waith ef, yn llaw Duw, a thàn ei lywodraeth a'i arweiniad ef; am hyny nis gallai fyned i'r màn a fynai, a'r pryd y mynai.

23 * Eithr yr awrhon, gan nad oes gennyf le mwyach yn y gwledydd hyn, [h] a hefyd bod arnaf hiraeth er ys llawer o flynyddoedd am ddyfod attoch chwi;

h adn. 32. pen. 1. 10—12. 1 Thes. 3. 10. 2 Tim. 1. 4.

24 [i] † Pan elwyf i'r Hispâen, myfi a ddeuaf attoch chwi. ‡ Canys yr wyf yn gobeithio, wrth fyned heibio, y câf eich gweled, [k] ‖ a'm hebrwng gennych yno, [l] § os byddaf yn gyntaf o ran wedi fy llenwi o honoch.

i adn. 28. Act. 19. 21. k Act. 15. 3. a 21. 5. 2 Cor. 1. 16.
l pen. 1. 12. 1 Cor. 16. 5—7.

* Gan fod yr apostol wedi pregethu yr efengyl, plànu eglwysi, ac ordeinio henuriaid yn mhob eglwys, trwy Asia Leiaf a holl wledydd Groeg; gan nad oedd rhagluniaeth yn agor drws amlwg iddo i un wlad baganaidd arall y ffordd hòno; a chan fod arno hiraeth er ys llawer o flynyddoedd am fyned i Rufain; † mae yn bwriadu yn bresenol myned i'r Hispâen, gwlad ehang, yn mhellach byth i'r gorllewin, lle na phregethasid yr efengyl erioed, mae yn debyg, y pryd hwnw; ac wrth fyned yno, yr oedd yn bwriadu myned trwy Rufain, yr hon oedd ar ei ffordd, ac aros rhyw yspaid o amser yno. Yn ol y rhëol a osodasai yr apostol iddo ei hun, o bregethu yr efengyl lle ni phregethasid hi gan neb arall o'r blaen; mae yn naturiol i ni feddwl mai gwlad felly oedd yr Hispâen y pryd hwn; yr hyn sydd bur anghytunol â'r chwedl babaidd am St. Iago, yr hon a ddywed ei fod ef er ys 15 mlynedd yn yr Hispâen pan ysgrifenodd Paul yr epistol hwn, ac ei fod wedi sefydlu amryw esgobaethau yno. ‡ Ar ei daith i'r Hispâen heibio i Rufain, yr oedd yr apostol yn "*gobeithio* cael gweled" y brodyr cristionogol yn y ddinas hòno: nid oedd yn sicr o hyny, nid oedd ganddo ddatguddiad yn nghlych y peth oddi wrth Dduw, ac yr oedd llawer o ddamweiniau, gwrthwynebiadau, a rhwystrau ar y ffordd, am hyny nis gallasai addaw yn bendant eu gweled: ac yn wir mae yn ansicr iawn pa un a aeth efe byth i'r Hispâen neu beidio. ‖ Os caniatâi Duw iddo ddyfod at y Rhufeiniaid, gobeithiai gael ei hebrwng gan rai o honynt ar ei ffordd oddi yno i'r His-

pâen; nid am ei fod ef yn caru rhwysg, a gosgordd rodresgar, ond er ei arweiniad, ei ddiogelwch, a'i gynnorthwy, mewn gwlad ddieithr: yr oedd hyn yn arferiad brawdol gan eglwysi eraill. Act. 15. 3; a 17. 15; a 21. 5; 2 Cor. 1. 16. § Bwriadai yr apostol aros am ryw hyd gyda ei frodyr yn Rhufain, a chael llawer iawn o hyfrydwch yn eu cyfeillach; ac eto ymadael heb gael ei lenwi o'r hyfrydwch hwnw ond mewn *rhan;* oblegid gwyddai, pe buasai yn ymollwng i'w serchiadau tuag atynt, y buasai yn aros lawer yn hwy nag y dylasai, yn ol ei ddyledswydd mewn mànau eraill. Nid yw hyfrydwch y saint yn nghymdeithas eu gilydd ond mewn *rhan* ar y gorau yma: nis gellir mwynâu *pob un* yn gydradd â'u gilydd; nid yw y gymdeithas ond am ychydig amser, heb rywbeth i'w haflonyddu; ac nid yw y gymdeithas orau, a'r hyfrydwch mwyaf, ond oer a diflas mewn cymhariaeth i'r hyn a fydd yn y nef: mewn *rhan* y mae pob daioni, a mwynâd o bob daioni yn y byd hwn.

25 [m] * Ac yr awrhon yr wyf fi yn myned i Jerusalem, i weini i'r saint.

m adn. 26—31. Act. 18. 21. a 19. 21. a 20. 16, 22. a 24. 17. 1 Cor. 16. 1—3. Gal. 2. 10.

* Gallai rhai yn Rhufain ddywedyd, Paham na ddaw yr apostol atom ni yn awr, gan "nad oes ganddo le mwyach yn y gwledydd lle mae?" Ond yn y cyfamser, yr oedd ganddo ef daith bell i'w chymmeryd ffordd arall o Corinth, i gyflawni gwasanaeth pwysig i'r cristionogion tlodion yn Jerusalem, i'r rhai yr oedd y cenedloedd dychweledig wedi gwneuthur casgliadau helaeth, i'w cynnorthwyo yn eu hangen.

26 [n] * Canys rhyngodd bodd i'r rhai o Macedonia ac Achaia wneuthur † rhyw gymmorth [o] i'r rhai tlodion o'r saint *sydd* yn Jerusalem.

n Act. 11. 27—30. 2 Cor. 8. a 9. Gal. 6. 6—10. o Diar. 14. 21, 31. a 17. 5. Zec. 11. 7, 11. Mat. 25. 40. a 26. 11. Luc 6. 20. a 14. 13. 1 Cor. 16. 15. 2 Cor. 9. 12. Philemon 5. Iago 2. 5, 6.

* Gweithred wirfoddol, ac ewyllysgar, yr eglwysi yn Macedonia ac Achaia oedd gwneuthur y cymmorth hyn i'r rhai tlodion o'r saint oedd yn Jerusalem, er dangos eu cariad atynt yn yr efengyl, a'u parodrwydd i'w cynnorthwyo hwynt yn mhob peth da ac angenrheidiol, er cymmaint y pellder rhyngddynt, y gwahaniaeth cenedl, a'r gwahanol dybiau mewn rhai pethau bychain. † "Rhyw gymmorth:" rhyw gyd-roddiad, neu gyd-gyfraniad, yn ol y Saesoneg: mae y gair Groeg *(koinônian)* yn arwyddo cymundeb, neu gyd-gyfranogiad, rhwng y rhoddwyr a'r derbynwyr; y cenedloedd yn cyfranu eu helusenau i'r saint yn Jerusalem, a hwythau yn gweddïo ar Dduw dros y cenedloedd.

27 * Canys rhyngodd bodd iddynt; [p] † a'u dyledwyr hwy ydynt. ‡ Oblegid os cafodd y Cenhedloedd gyfran o'u pethau ysprydol hwynt, hwythau hefyd a ddylent weini iddynt hwythau mewn pethau cnawdol.

p pen. 11. 17. 1 Cor. 9. 11. Gal. 6. 6. Philemon 19.

* Mae yr apostol yn crybwyll hyn yr ail waith, nid yn unig er canmoliaeth ac anrhydedd i haelioni y Groegiaid; ond hefyd er darbwyllo y Rhufeiniaid, mewn ffordd foneddigaidd, i wneyd yr un peth, yn enwedig y rhan genedlig o honynt. † Er iddynt hwy wneyd hyn o'u gwirfodd i'r saint tlodion yn Jerusalem a Judea, eto yr oeddynt yn ddyledwyr iddynt mewn gwirionedd, ac yn ddyledwyr mawr iawn: oblegid gweinidogion Iuddewig a ddygasant yr efengyl gyntaf iddynt hwy; ac yr oedd y credinwyr cyntefig yn Jerusalem wedi eu tlodi eu hunain wrth daenu yr efengyl, yr hon yr oedd y cenedloedd yn awr yn mwynâu o'i bendithion yn helaeth. ‡ Cafodd y cenedloedd bethau ysbrydol gan yr Iuddewon, ac nid oedd ond bychan i'r Iuddewon gael ychydig o'u pethau cnawdol, eu haur a'u harian hwythau, yn ad-daliad wrth eu hangen.

28 * Wedi i mi gan hynny orphen hyn, [q] † a selio iddynt y ffrwyth hwn, [r] ‡ mi a ddeuaf heibioch i'r Hispâen.

q Phil. 4. 17. Col. 1. 6. r adn. 24. Diar. 19. 21. Galar. 3. 37. Iago 4. 13—15.

* Gwedi gorphen y daith hon i Jerusalem, i ddwyn elusenau yr eglwysi Groegaidd yn ddiogel i'r saint yno. † Mae yr apostol yn galw elusenau y cenedloedd yn "ffrwyth," am ei fod yn effaith, neu ffrwyth eu ffydd a'u cariad, yn gymmeradwy gan Dduw trwy Iesu Grist; yn ffrwyth y byddai coffa am dano yn nydd eu cyfrif hwynt, Phil. 4. 17; yn wasanaethgar i achos a gogoniant Duw, ac yn gymmorth mawr i'r saint tlodion yn Jerusalem. Ymddiriedwyd y ffrwyth hwn i'r apostol fel trysor gwerthfawr wedi ei selio mewn côd neu flwch, ac yr oedd yntau yn dra gofalus am dano, na leiêid, ac nad afradlonid dim o hóno, nes ei ddosparthu rhwng y saint. Yr oedd yr apostol hefyd, megys yn gosod ei sêl o gymmeradwyaeth wrth y ffrwyth hwn, trwy fyned ag ef yn bersonol i Jerusalem. ‡ Gwel ar adn. 24: yr oedd yr apostol yn bwriadu cymmeryd Rhufain ar ei ffordd o Jerusalem i'r Hispâen; ond mae bwriadau dynion yn cael eu llywodraethu, eu goruwchlywodraethu, a'u gwrth-lywodraethu yn aml, gan Dduw.

29 * Ac mi a wn, pan ddelwyf attoch, y deuaf [s] â chyflawnder bendith efengyl Crist.

s pen. 1. 11. Salm 16. 11. Ezec. 34. 26. Eph. 1. 3. a 3. 8, 19. a 4. 13.

* Nid yw yr apostol yn dywedyd, Mi a wn y deuaf atoch; ond, Mi a wn *pan* ddelwyf, y deuaf â chyflawnder bendith efengyl Crist: fel llong marsiandwr, yn llawn o drysorau gwerthfawr, dàn ddylanwadau grasol yr Ysbryd Glân, a chyda rhyddid a hyfder mawr, i fynegi i chwi holl gyngor Duw; ac yn enwedig i egluro yn fanylach, a helaethu ar, yr athrawiaethau yn yr epistol hwn, a'ch cadarnâu chwi yn yr athrawiaethau hyny. Fel hyn gwyddai yr apostol, oddiwrth addewid Crist o fod bob amser gyda'i weision, (Matth. 28. 20,) oddi wrth y profiad helaeth a gawsai efe yn mhob màn o'i gynnorthwyon; ac oddi wrth yr hyn a glywsai efe eisoes am y grâs Duw a roddasid i'r Rhufeiniaid; y byddai ei ddyfodiad ef atynt yn foddion i gyfranu iddynt helaethrwydd o ddoniau, grasau, a chysuron nefol, hyd yn nôd cyflawnder bendith efengyl Crist. Mae rhai yn darllen y geiriau fel hyn:—Mi a wn pan ddelwyf, y câf chwi wedi eich cyflawni â bendithion efengyl Crist.

30 * Eithr yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, [t] † er mwyn ein Harglwydd Iesu Grist, [u] ‡ ac er cariad yr Ysbryd, [x] ‖ ar gyd-ymdrech o honoch gyd â myfi mewn gweddïau drosof fi § at Dduw;

t 2 Cor. 4. 5, 11. a 12. 10. 1 Tim. 6. 13, 14. 2 Tim. 4. 1. u Salm 143. 10. Phil. 2. 1. x Gen. 32. 24—29. 2 Cor. 1. 11. Eph. 6. 19, 20. Col. 2. 1, 2. a 4. 12, 13. 1 Thes. 5. 25. 2 Thes. 3. 1.

* Yn niwedd y cwbl, mae yr apostol yn deisyfu rhan yn ngweddïau y Rhufeiniaid, fel mae ei arfer yn ei epistolau eraill; gwel y cyfeiriadau dàn y llythyren *x.* † Nid yn unig er ei fwyn ef ei hun, ond yn benaf eu Harglwydd Iesu Crist yr hwn a garent hwy, ac i'r hwn yr oedd yntau yn was ac yn apostol: ‡ ac er cariad yr Ysbryd; sef y cariad Duw, a dywalltwyd yn eu calonau hwynt trwy yr Ysbryd Glân. Neu fel hyn; Os ydych chwi yn caru ein Harglwydd Iesu Grist, ac os yw y gras o gariad wedi ei roddi yn eich calonau chwi gan yr Ysbryd Glân, dangoswch hyny yn y peth hyn: ‖ cyd-ymdrechwch gyda myfi, mewn gweddïau taerion a pharâus, drosof fi at Dduw. Golygai yr apostol ei daith i Jerusalem o gymmaint pwys, fel na ddylai mewn un modd ei gochelyd; er y gwyddai yn sicr y byddai yn beryglus iawn iddo ef: am hyny mae yn deisyfu rhan yn ngweddïau y Rhufeiniaid drosto. § Cawsom yr ail a'r trydydd Personau yn y Drindod o'r blaen yn yr adnod hon; yr "Arglwydd Iesu Grist" a'r "Ysbryd;" ac yma cawn y Person cyntaf, "Duw," sef Duw Dad: onid oes yma dri o Bersonau yn amlwg?

31 [y] * Fel y'm gwareder oddi wrth y rhai anufudd yn Judea; [z] † ac a'r fod fy ngweinidogaeth, yr hon *sydd gennyf* i Jerusalem, [a] yn cymmeradwy gan y saint;

y Act. 21. 27—31. a 22. 24. a 23. 12—24. a 24. 1—9. a 25. 2, 24. 1 Thes. 2. 15, 16. z adn. 25, 26. 2 Cor. 8. 4. a 9. 1. Act. 21. 17—26.

* "Y rhai anufudd:" "y rhai nid ydynt yn credu," yn y Saesoneg: anufudd yw ystyr y gair Groeg *apeithantón;* anufudd i gredu, ac anufudd a gwrthryfelgar yn erbyn yr efengyl, am nad oeddynt yn credu. "Dyn- in anhywaith a drygionus" mae yn eu galw yn 2 Thes. 2; gwyddai yr apostol yn dda, yr enbydrwydd a fyddai a Jerusalem oddi wrth y dynion hyn; (Gwel Act. 20. —24.) a phwy bynag a ddarlleno yr hanes yn Act. —24, a wel y driniaeth ddychrynllyd a gafodd efe nddynt yno yn y daith hon. Er mwyn achos yr engyl yn ddïau, yr oedd efe gymmaint am gael ei waredu oddi wrth y rhai anufudd" hyn; pe amgen illwn fod yn sicr y buasai efe yn rhoddi ei fywyd i nu yn dra ewyllysgar. Gwel Phil. 1. 21, &c. † Dyma'r beth y dymunai yr apostol ran yn ngweddïau y aufeiniaid o'i herwydd: nid pregethiad yr efengyl sydd ii ddeall wrth ei "weinidogaeth ef i Jerusalem" yma; d yr elusenau oedd ganddo oddi wrth eglwysi y cen- doedd i'r cristionogion Iuddewig yn Jerusalem a dea. Yr oedd yn ofni y buasai rhagfarn y saint Iu- ewig yn erbyn y cenedloedd cristionogol, yn rhwystro lynt dderbyn y caredigrwydd oddi wrthynt, yr hyn a asai yn ofid mawr i feddwl yr apostol; yr oedd am iddymu rhagfarn, a meithrin cariad ac undeb rhwng Iuddewon a'r cenedloedd cristionogol. Mae yn ïgon amlwg bod rhagfarn y cristionogion Iuddewig Jerusalem a Judea, yn fawr y pryd hwnw yn erbyn y stionogion o'r cenedloedd, ac hefyd yn erbyn Paul, apostol y cenedloedd; ac mae hyd yn nôd rhoddion, elusenau, yn annerbyniol, pan fyddont yn dyfod oddi th, neu gan rai, y byddo rhagfarn gan y derbyniwr yn herbyn.

32 [b] * Fel y delwyf attoch mewn llawenydd, trwy ewyllys Duw, [d] ‡ ac y'm cyd-lonner rd â chwi.

b adn. 23, 24. pen. 1. 10—13. Act. 27. 1, 41—43. a 28. 15, 16, 31. Phil. 1. 12—14. c Act. 18. 21. 1 Cor. 4. 19. Iago 4. 15. Diar. 25. 13. 1 Cor. 16. 18. 2 Cor. 7. 13. 1 Thes. 3. 6—10. 2 Tim. 16. Philemon 7, 20.

* Gwedi i'r apostol lwyddo yn ei daith a'i weinidog- th i Jerusalem, a hyny trwy weddïau y Rhufeiniaid osto; gallai wedi hyny ddyfod atynt hwy, nid wedi ei dio a'i sïomi, ond mewn llawenydd a llonder calon. s gallwn fyned i leoedd dïeithr yn gysurus, i lafurio la gwaith Duw, os byddwn wedi aflwyddo a chael ein ïdio gartref, neu mewn mànau eraill lle buom. oniodd yr apostol o'r blaen am yr ammod hyn, rwy ewyllys Duw," pen. 1. 10; ac mae eto yn ei gry- yll, fel na thybid ef yn anwadal os methai ddyfod: hefyd i ddangos ei fod ef yn wastad, ac yn mhob th, yn ei roddi ei hun i fynu i ewyllys a rhagluniaeth w. ‡ Fel yn pen. 1. 12; ac adn. 24, o'r bennod hon: el y sylwadau yno.

33 [e] * A Duw yr heddwch [f] † *fyddo* gyd â wi oll. ‡ Amen.

e pen. 16. 20. 1 Cor. 14. 33. 2 Cor. 5. 19, 20. a 13. 11. Phil. 4. 1 Thes. 5. 23. 2 Thes. 3. 16. Heb. 13. 20. f pen. 16. 24. h 2. 4. Mat. 1. 23. a 28. 20. 2 Cor. 13. 14. 2 Tim. 4. 22.

* Enw aml ar Dduw yw hwn yn yr epistolau: gwel y eiriadau *e.* Mae efe yn Dduw yr heddwch wedi ym- mmodi â chredinwyr yn Nghrist, ac yn eu tueddu ynt i fyw mewn heddwch a chyd-gordiad â'u gilydd. oedd yn addas iawn ei enwi ef fel Duw yr heddwch aa, wedi i'r apostol annog cymmaint ar y Rhufeiniaid eddwch a chariad, a pheidio ymryson ac ymrafaelio nghylch pethau bychain. † Yr oedd yn gweddïo am oduw yr heddwch fod gyda hwynt; heb hyny nid oedd iddo fawr o obaith y byddent hwy yn heddychol â'u gilydd er ei holl gyngorion ef iddynt. Nid hir y bydd heddwch mewn eglwysi, oni bydd Duw yr heddwch yn preswylio gyda hwynt, ac yn eu llywodraethu drwy ei air a goruchwyliaethau ei Ysbryd. Mae presenoldeb Duw yn cynnwys pob da, ac yn cauad allan bob drwg. ‡ Fel hyn y byddo, fel hyn gobeithio y bydd; ac yn arwydd o hyny, dywedaf o'm calon, Amen.

PEN. XVI.

Paul yn ewyllysio i'r brodyr annerch llawer.

* YR wyf [a] yn gorchymyn i chwi Phebe [b] ein chwaer, † yr hon sydd [c] weinidoges i eglwys [d] Cenchrea:

a 2 Cor. 3. 1. b Mat. 12. 50. Marc 10. 30. 1 Tim. 5. 2. Iago 2. 15. 1 Pedr 1. 22, 23. c Luc 8. 3. 1 Tim. 5. 9, 10. d Act. 18. 18.

Gallwn ystyried y bennod hon fel math o ol-ysgrifen i'r epistol, lle mae yr apostol yn crybwyll amryw bethau, ac yn dymuno anerch amrai bersonau. * Yn gyntaf, mae yn gorchymyn Phebe, ei chwaer yn Nghrist, ac yn y broffes o'r un ffydd ag yntau, i'w sylw, eu derbyniad, a'u caredigrwydd hwynt. *Phœbe* y galwai y prydyddion paganaidd y lleuad, megys *Phœbus* yr haul; ac efallai mai fel hyn y galwai ei rhïeni paganaidd y wraig dduwiol hon pan oedd yn ei mabandod. Yr oedd ganddi ryw achlysur i fyned i Rufain, ac mae yn debyg mai gyda hi y danfonodd Paul y llythyr hwn at yr eglwys yno: felly y dywedir ar ddiwedd yr epistol; ond nid yw y chwanegiadau hyny ar ddiwedd yr epistolau o awdurdod yn y byd, ac weithiau maent yn hollawl gyfeiliornus. † Cenchrea ydoedd dref borthladdawl yn agos i Corinth, gwel ar Act. 18. 18; mae yn debyg fod yno eglwys, a'r Phebe hon fel gwraig dduwiol, a goludog efallai, yn llafurus ac yn wasanaethgar iawn yn yr eglwys hòno: nid yn ngweinidogaeth gyhoeddus y gair, ni buasai Paul yn cenadu hyny, (1 Tim. 2. 12,) ond mewn cynnorthwyo'r tlodion, ymweled â'r gwragedd cleifion, llettya pregethwyr a dïeithriaid, efallai yn ei thŷ, ac ar ei thraul ei hun, a llawer math o wasanaeth, efallai, nad oes achos am y cyfryw yn ein gwlad a'n dyddiau ni.

2 [e] * Dderbyn o honoch hi yn yr Arglwydd, [f] † *megis y mae* yn addas i saint, ‡ a'i chynnorthwyo hi yn mha beth bynnag y byddo rhaid iddi wrthych: [g] || canys hithau hefyd a fu gymmorth i lawer, § ac i minnau fy hun hefyd.

e pen. 15. 7. Mat. 10. 40—42. a 25. 40. Phil. 2. 29. Col. 4. 10. Philemon 12, 17. 2 Ioan 10. 3 Ioan 6—10. f Eph. 5. 3. Phil. 1. 27. 1 Tim. 2. 10. Tit. 2. 3. g adn. 3, 4, 6, 9, 23. Act. 9. 36, 39, 41. Phil. 4. 14—19. 2 Tim. 1. 18.

* Dymunai yr apostol iddynt dderbyn y wraig dduwiol ac enwog hon i'w cariad, eu cymdeithas, a'u breintiau eglwysig, † fel chwaer anwyl, ac fel y gweddai i saint o wahanol eglwysi dderbyn eu gilydd, ar dystiolaeth addas gyda hwynt oddi wrth y naill eglwys at y llall. ‡ Mae yn bur debygol i Phebe fyned i Rufain ar ryw aches tymhorol, a bod yr apostol yn deisyf ar y brodyr yno ei chynnorthwyo â'u cyngor, eu cyfarwyddyd, a pha beth bynag y byddai raid iddi hi wrthynt fel gwraig ddïeithr yn y ddinas fawr hòno: felly mae y "cynnorthwyo" yma yn beth hollawl wahanol oddi wrth y "derbyn yn yr Arglwydd" yn nechreu yr adnod; y cyntaf yn grefyddol a'r llall yn dymmorawl. Mae yr efengyl yn dysgu i ddynion fod yn ddaionus ac yn gymmwynasgar i'w gilydd yn mhob ystyr. || Yr oedd hyn yn ddyledus i Phebe pa le bynag yr elai, canys yr oedd hi ei hun wedi cynnorthwyo llawer o ddysgyblion a gweision Crist mewn llawer modd; § ac nid oedd yn gywilydd gan Paul ei hun addef ei fod dàn rwymau iddi am ei charedigrwydd iddo lawer gwaith.

3 * Anherchwch [h] Priscila ac Acwila, [i] † fy nghyd-weithwyr yng Nghrist Iesu.

h Act. 18. 2, 18, 26. 1 Cor. 16. 19. 2 Tim. 4. 19. i adn. 9. 1 Cor. 16. 16.

* Sylwasom ar y ddau hyn o'r blaen, yn Act. 18. 2, 18, 26: yno gwelsom iddynt gael eu gyru allan o Rufain, ac yma ni a'u cawn wedi dychwelyd i Rufain drachefn. Mae yn debyg na pharâodd y ddeddf o gadw yr Iuddewon allan o Rufain, ond ychydig amser; a chan fod y ddau hyn wedi bod yn hir gartrefu yno, bod llwybr eu bywioliaeth yno, ac eu bod mewn undeb agos ac anwyl iawn â'r eglwys yno, dewisasant ddychwelyd yno cyn gynted ag y gwelsant fod caniatâd y llywodraeth i hyny. † Bu yr apostol yn cyd-weithio â hwynt yn yr un gelfyddyd, i ennill ei fara beunyddiol, (Act. 18. 2, 3,) ac yr oeddynt hwythau yn ol eu sefyllfa, yn gyd-weithwyr ffyddlawn iddo ef yn ngwaith yr efengyl, ac yn ngwasanaeth Crist.

4 [k] * (Y rhai dros fy mywyd i [l] a ddodasant eu gyddfau eu hunain i lawr; † i'r rhai nid wyf fi yn unig yn diolch, [m] ‡ ond hefyd holl eglwysydd y Cenhedloedd)

k pen. 5. 7. Ioan 15. 13. Phil. 2. 30. 1 Ioan 3. 16. l Jos. 10. 24. 2 Sam. 22. 41. Mica 2. 3. m Act. 15. 41. a 16. 5. 1 Cor. 7. 17. a 16. 1. 1 Thes. 2. 14. Dat. 1. 4.

* Anturiodd Priscila ac Acwila eu bywydau i amddiffyn a diogelu yr apostol, un ai yn Corinth neu yn Ephesus, pan ymosododd yr Iuddewon yn ei erbyn ef yn y lle blaenaf, Act. 18. 6, 12; neu ynte yr Ephesiaid yn y lle olaf, Act. 19. 23, &c. Er nad oes genym hanes am yr hyn a wnaethant hwy yn llyfr yr Actau, eto mae yr apostol yn ei gydnabod yma, fel pe rhoisent eu gyddfau eu hunain i lawr dros ei fywyd ef: † ac mae yn diolch iddynt yn ei lythyr hwn am hyny. ‡ Ac nid efe ei hun yn unig, ond hefyd holl eglwysi y cenedloedd: gan fod ei fywyd ef mòr ddefnyddiol a gwerthfawr i'r eglwysi, nis gallent lai na diolch i'r ddau hyn am yr amddiffyniad a roisent iddo.

5 * *Anherchwch* hefyd [n] † yr eglwys sydd yn eu tŷ hwy. ‡ Anherchwch [o] fy anwyl Epenetus, [p] || yr hwn yw blaen-ffrwyth [q] Achaia yng Nghrist.

n Mat. 18. 20. 1 Cor. 16. 19. Col. 4. 15. Philemon 2. o adn. 8, 12. 3 Ioan 1. p pen. 11. 16. 1 Cor. 16. 15. Iago 1. 18. Dat. 14. 4. q pen. 15. 26. Act. 18. 12, 27. 2 Cor. 1. 1. a 9. 2.

* Mae y gair "anerchwch" yn y fàn hon, wedi ei roddi i mewn i wneyd i fynu y synwyr, nid yw yn y Groeg. † Wrth yr eglwys yn nhŷ Acwila a Phriscila, deallir yn gyffredin, eu teulu, neu dylwyth eu tŷ hwynt, yn nghyd, efallai, â rhai brodyr cristionogol, a fyddai yn arfer cyd-gyfarfod â'r teulu i addoli Duw. Mae yr apostol yn galw hyn yn eglwys, nid am fod yno eglwys, yn ystyr mwyaf priodol y gair; ond o herwydd yr iawndrefn sanctaidd, a'r addoliad crefyddol a gedwid yn eu tŷ hwynt, yr hyn a welsai yr apostol, mae yn debyg, pan fu yn cyfanneddu gyda hwynt yn Corinth, Act. 18. 3. Bydded y ddau hyn yn esampl i benau teuluoedd yn mhob màn; a bydded ein holl deuluoedd crefyddol yn eglwysi bychain. ‡ Ystyr y gair Epenetus (Groeg *Epaineton*) yw canmoladwy, neu deilwng o glod: felly yr oedd hwn mewn enw ac mewn gwirionedd: yr oedd yn anwyl iawn gan yr apostol, || fel un o'i ddychweledigion cyntaf ef yn Achaia, fel ernes a blaen-ffrwyth o lwyddiant ychwaneg yno, ac fel un wedi rhoi pob boddlonrwydd i'r apostol o ran ei ymddygiad a gwirionedd ei grefydd yn wastadol o'r dechreuad. Yn 1 Cor. 16. 15, dywed yr apostol mai tŷ Stephanes oedd blaenffrwyth Achaia: efallai mai Epenetus oedd y *person* cyntaf, ac mai tŷ Stephanes oedd y *teulu* cyntaf, a drôdd at gristionogaeth yn Achaia: efallai hefyd mai un o deulu Stephanes oedd yr Epenetus hwn, a'r cyntaf o'r teulu a gofleidiodd gristionogaeth. Nid oes achos deall y geiriau yn fanwl, am y *person cyntaf oll*, a dderbyniodd yr efengyl.

6 * Anherchwch Mair, [r] yr hon a gymmerodd lawer o boen erom ni.

r adn. 12. Mat. 27. 55. 1 Tim. 5. 10.

* Nis gwyddis pwy oedd y Fair hon, nac yn mha bethau y cymmerodd hi lawer o boen er yr apostol a'i gyfeillion: ond mewn rhyw fodd, hi a fuasai yn llafurus er eu cynnaliaeth a'u cysur hwynt. Cyfarfu yr apostol â hi yn rhyw le yn ei deithiau, ac erbyn hyn yr oedd hi wedi myned i Rufain, ac yntau yn gwybod ei bod hi yno, ac yn un hynod ac adnabyddus yn mhlith y saint.

7 * Anherchwch Andronicus a Junia, [s] † fy ngheraint [t] a'm cyd-garcharorion, [u] ‡ y rhai sydd hynod ym mhlith yr apostolion, y rhai hefyd [x] oeddynt yng Nghrist o'm blaen i.

s adn. 11, 21. t 2 Cor. 11. 23. Col. 4. 10. Philemon 23. Dat. 1. 9. u Gal. 2. 2, 6. x pen. 8. 1. Es. 45. 17, 25. Ioan 6. 56. a 14. 20. a 15. 2. 1 Cor. 1. 30. 2 Cor. 5. 17, 21. Gal. 1. 22. a 5. 6. a 6. 15. Eph. 2. 10. 1 Ioan 4. 13. a 5. 20.

* *Andronikon* a *Iounian* yn y Groeg: gan y gallai yr enw olaf fod yn enw dyn neu ddynes, tybia rhai mai brodyr oedd y ddau hyn; eraill, mai brawd a chwaer; ac eraill, mai gwr a gwraig oeddynt, fel Acwila a Phriscila. † Beth bynag am hyny, yr oeddynt o'r un llwyth a charenydd a Paul, a chwedi bod rywbryd yn gydgarcharorion âg ef yn achos yr efengyl. ‡ Efallai iddynt gael eu dychwelyd ar ddydd y pentecost, neu yn fuan gwedi hyny, ac eu bod yn dra adnabyddus i'r apostolion, ac yn barchus ganddynt, pan nad oedd Paul eto ond erlidiwr: oblegid efe a ddywed eu bod yn Nghrist o'i flaen ef, ac o ganlyniad yn wrthddrychau gelyniaeth ac erlid yr Iuddewon eu cyd-genedl.

8 * Anherchwch Amplias, [y] † fy anwyl yd yn yr Arglwydd.

y adn. 5. Phil. 4. 1. 1 Ioan 3. 14.

* Ampliatus, mae rhai yn ei ddarllen; enw Rhufeinig yw. † Pwy bynag oedd, a pha beth bynag oedd, o ran ei sefyllfa yn y byd, yn yr Arglwydd yr oedd yn anwylyd i Paul: nid am ei gyfoeth na'i fawredd bydol yr oedd efe yn ei garu, ond am ei ras, a delw Crist oedd i'w gweled arno.

9 * Anherchwch Urbanus, [z] † ein cydweithiwr yng Nghrist, ‡ a Stachys fy anwyl yd.

z adn. 2. 3, 21.

* Enw Rhufeinig oedd hwn eto; yn arwyddo caruaidd, a boneddigaidd: bu llawer o esgobion, neu babau Rhufain, yn awyddus iawn am yr enw hwn, ond ychydig oeddynt yn ei haeddu, rai o honynt. † Yr un peth ag a ddywed am Acwila a Phriscila yn adn. 3: efallai er fod yn bregethwr cyhoeddus, neu mewn rhyw ffordd wedi bod yn gyd-weithiwr â Paul a'i gyfeillion yn achos Crist a'r efengyl. ‡ Enw Groegaidd oedd hwn, yn arwyddo *tywysen o yd.* Dywed rhai mai y Stachys hwn a fu esgob cyntaf Caer-Custenyn; ond efallai nad oes dim sicrwydd am hyny: mae yn ddiammau ei fod yn ddyn enwog mewn gras a doniau, pe amgen ni buasai yr apostol yn ei anrhydeddu ef â'r enw, anwylyd. Nis gallwn feddwl fod Paul yn anerch *pob un* yn eglwys Rhufain yma; gan hyny rhaid i ni feddwl ei fod yn enwi y rhai mwyaf nodedig yn eu gras, eu doniau, a'u defnyddioldeb, yn yr eglwys hòno.

10 * Anherchwch Apèles, [a] † y profedig yng Nghrist. ‡ Anherchwch y rhai sydd [b] o *dylwyth* Aristobulus.

a pen. 14. 18. Deut. 8. 2. 1 Cor. 11. 19. 2 Cor. 2. 9. a 8. 22. Phil. 2. 22. 1 Tim. 3. 10. 1 Pedr 1. 7. b 2 Tim. 4. 19.

* Tybia rhai mai yr un yw yr Apèles hwn âg Apòlos, y darllenwn am dano yn Act. 18. 24, a mànau eraill, ond efallai nad oes sicrwydd am hyny. † Yr oedd efe wedi cael ei hir brofi trwy lawer o lafur, a llawer o ddyoddefiadau, ac ynddynt oll wedi ei brofi ei hun yn was ffyddlawn, doeth, a didwyll i Grist, yn gredadyn diffuant yn Nghrist, ac yn gymmeradwy gan Dduw trwy Grist Iesu yr Anwylyd. Canmoliaeth uchel yw hon; mae bod *yn* Nghrist yn beth mawr, mae bod yn *brofedig* yn Nghrist yn beth mwy. Aur wedi ei brofi sydd werthfawrocaf: sefyll, a dàl yr hyn sydd ganddo, yn nydd y prawf, yw clod mwyaf y credadyn. ‡ Wrth fod yr apostol yn anerch y rhai oedd o [dylwyth] Aristobulus, ac heb anerch Aristobulus ei hun, tybia rhai ei fod e wedi marw y pryd hwn, neu yn absenol o Rufain, neu

eb gael ei ddychwelyd ei hunan i'r ffydd: beth bynag n hyny, yr oedd amryw o'i deulu ef yn gristionogion unlwg, ac efallai llawer o honynt yn gaeth-weision; ac iseled oedd eu sefyllfa, yr oedd Paul yn eu hanerch n dirion a charedig. Rhaid fod gan yr apostol ofal awr am eglwysi dieithr a phellenig, pan yr oedd wedi ynu hysbysrwydd mòr fanol am enwau, teuluoedd, ac ngylchiadau cynnifer o'r saint yn Rhufain.

11 * Anherchwch Herodion, fy nghâr. Anherchwch y rhai sydd o *dylwyth* Narcissus, y rhai sydd yn yr Arglwydd.

* Nis gwyddom pwy oedd yr Herodion hwn, yn amgen a'i fod yn gâr i Paul, ac yn anwylach ganddo yn awr, l brawd anwyl yn yr efengyl. † Gwel ar ddiwedd yr nod o'r blaen. Dywed haneswyr Rhufeinig fod y arcissus hwn yn ŵr mawr iawn yn nghyfrif Claudius Ymherawdr, ac ei fod yn gyfoethog rhyfeddol, ond ddyn drygionus ac annuwiol dros ben: eto yr oedd un hwn rai o'i dylwyth yn gristionogion, efallai llawer gaeth-weision: yn Phil. 4. 22, dywedir fod saint yn aeulu Cesar, Nero, y lle mwyaf annhebyg ac anfanteisl ar y ddaear. Mae hyn yn dangos y gellir byw yn uwiol yn mhob màn; ac y gall cristionogion fod yn wasanaeth meistriaid drygionus gyda chydwybod dd, os bydd raid hyny, ac os cânt eu goddef i fyw yn efyddol yno: ac i ba raddau o annuwioldeb y rhaid il y rhai hyny wedi cyrhaedd, y rhai ni oddefant ddynon duwiol yn eu teuluoedd!

12 * Anherchwch Tryphena a Thryphosa, † y rhai a gymmerasant boen yn yr Arwydd. ‡ Anherchwch yr anwyl Persis, || yr wn a gymmerodd lawer o boen yn yr Arglwydd.

c Mat. 9. 38. 1 Cor. 15. 10, 58. a 16. 16. Col. 1. 29. a 4. 12. Thes. 1. 3. a 5. 12, 13. 1 Tim. 4. 10. a 5. 17, 18. Heb. 6. 10, 11.

* Yma mae yr apostol yn anerch y gwragedd duwiol; wsom ddwy o'r blaen, Priscila, yn adn. 3; Mair, adn. ac yma mae yn enwi tair yn chwaneg o honynt. Yr oedd y ddwy flaenaf hyn, pwy bynag oeddynt, wedi furio llawer yn yr Arglwydd, hyny yw, yn ngwasanth Crist a'i eglwys, yn ol eu gallu a'u sefyllfa, a'r postol yn eu hanerch yn barchus o herwydd hyny. ll pawb, o bob rhyw a sefyllfa, wneyd rhywbeth dros Arglwydd, ac er gwasanaeth i'w achos ef. ‡ Mae y rsis hon yn cael canmoliaeth rhagor; yr oedd yn wyl gan Dduw, gan Paul, a chan yr holl saint a wyddam dani. || Dywedir i'r ddwy eraill gymmeryd poen, d i hon gymmeryd llawer o boen yn yr Arglwydd: fel n mae yr had yn dwyn ffrwyth, peth ar ei ganfed, th ar ei dri-ugeinfed, a pheth ar ei ddegfed ar hugain.

13 * Anherchwch [d] Ruffus [e] † etholedig yn Arglwydd, [f] a'i fam ef a minnau.

d Marc 15. 21. e Mat. 20. 16. Ioan 15. 16. Eph. 1. 4. Thes. 2. 13. 2 Ioan 1. f Mat. 12. 49, 50. Marc 3. 35. Ioan 19. 1 Tim. 5. 2.

* Mae yn debyg mai Ruffus mab Simon o Cyrene, y rllenwn am dano yn Marc 15. 21, ydoedd y Ruffus wn. † Yr oedd yn gristion rhagorol, nodedig am ei oniau, ei ras, a'i ymarweddiad sanctaidd: felly y dyedir am yr arglwyddes etholedig yn 2 Ioan adn. 1: bir mai nid am etholedigaeth dragywyddol y sonia yr postol yma, yn amgen na bod rhagoroldeb crefyddol uffus, yn ei brofi ef yn etholedig felly gan yr Arglwydd, yn yr Arglwydd Iesu. Ephes. 1. 4. ‡ Mam naturiol uffus, a mam Paul o ran tiriondeb mam tuag ato rywyd, ac yntau yn ei charu fel mam o herwydd y tirion b mamaethawl hyny. Mae rhai a dybiant fod Paul a uffus yn hanner brodyr, sef o'r un fam; ond nid oes il i hyny, amgen na'r geiriau hyn.

14 * Anherchwch Asyncritus, Phlegon, Hermas, Patrobas, Mercurius, [g] ‡ a'r brodyr dd gyd â hwynt.

g pen. 8. 29. Col. 1. 2. Heb. 3. 1. 1 Pedr 1. 22, 23.

* Nis gwyddom ddim am y saint hyn, ychwaneg na'u henwau: gan mai enwau Groegaidd yw y rhan fwyaf o honynt, mae yn debyg mai Groegiaid o genedl oeddynt, wedi eu dychwelyd i'r ffydd ac yn byw yn Rhufain. † Tybiai Origen mai yr Hermas hwn a fu awdwr hen lyfr a elwid y Bugail: pa un a ydyw y fath lyfr ar gael yn awr, nid oes yr un o'n Hawdwyr yn dywedyd: cyfarwyddyd i weinidogion yr efengyl mae yn debyg oedd. ‡ Yr holl frodyr a'r chwiorydd oedd yn perthyn i'w gwahanol deuluoedd hwynt.

15 * Anherchwch Philologus, a Julia, † Nerëas, a'i chwaer, ‡ ac Olympas, [h] || a'r holl saint y rhai sydd gyd â hwynt.

h adn. 2. pen. 1. 7. Es. 60. 21. Eph. 1. 1. 1 Pedr 1. 2.

* Tybir mai gwraig Philologus oedd Julia. † Brawd a chwaer naturiol, ac yn y ffydd hefyd. ‡ Tybir mai enw gwrryw yw hwn, yn hytrach na benyw. || Yr holl broffeswyr oedd yn nheuluoedd y rhai hyn, fel y sylwyd ar yr adnod o'r blaen: bendith yr Arglwydd a orphwyso arnynt, ac ar bob un o honynt, o hyn allan byth. Dywedir y gwyddai Cyrus enwau holl swyddogion ei fyddin fawr a lliosog, ac y medrai gyfeirio ei orchymynion at bob un o honynt wrth ei enw personol: mae yr apostol yma yn debyg iddo; yn nghanol ei holl lafur gydag eglwysi eraill, mae yn rhyfedd fel y gwyddai efe enwau cynnifer o gristionogion yn Rhufain, lle na buasai efe ei hun erioed, pan ysgrifenodd yr epistol hwn. Gellid sylwi hefyd yma, na soniodd yr apostol air am enw Pedr yn yr holl res hon o anerchiadau, yr hyn a wnaethai yn sicr, pe buasai Pedr yno, ac yn esgob yno, fel y gwaghaera y Pabyddion ei fod. A phan mae Paul, yn hir wedi hyn, yn crybwyll am amryw yn Rhufain, ac amryw a ymadawsent o Rufain, i wahanol fànau; nid yw yn sôn gair yn y byd am Pedr, ei fod yno, na chwedi bod yno erioed; (Gwel 2 Tim. 4. 10, 11, 12, 21; epistol diweddaf Paul, yr hwn a ysgrifenodd efe ychydig cyn ei farw,) yr hyn sydd brawf lled gryf, nad yw y chwedl am Pedr yn Esgob Rhufain ond hollawl ddisail a chelwyddog. Mae yn dra ammheüus a fu Pedr yn Rhufain erioed; mae yn sicr na ddaeth efe yno yn nechreu ymherodraeth Claudius, ac yn y flwyddyn pump a deugain o oed ein Harglwydd, fel y taera y Pabyddion; ac ni bu efe yn esgob yno am bùm mlynedd ar hugain, fel y dywedant hwy: pe buasai, ni buasai Paul yn hollawl ddistaw am dano yma.

16 * Anherchwch y naill y llall [i] † â chusan sanctaidd. [k] ‡ Y mae eglwysi Crist yn eich annerch.

i Act. 20. 37. 1 Cor. 16. 20. 2 Cor. 13. 12. 1 Thes. 5. 26. 1 Pedr 5. 14. k adn. 4.

* "Y naill y llall;" pa un bynag ai Iuddewon ai cenedloedd, cyfoethogion ai tlodion: dylai pob gwahaniaeth felly gael ei anghofio yn mhlith y saint, yn eu cariad at eu gilydd, a'u cyfarchiadau brawdol i'w gilydd. Buasai cryn anghydfod yn eglwys Rhufain rhwng Iuddewon a chenedloedd, a barnu a dirmygu eu gilydd yn nghylch bwydydd a diodydd, a dyddiau gŵylion, &c.; ac yma mae yr apostol yn eu hannog i anghofio yr holl bethau dibwys ac ymryson-bair hyny, ac anerch eu gilydd mewn cariad â chusan sanctaidd. † Nid cusan o gariad a chyfarch dynol cyffredin; nid cusan o anlladrwydd; ac nid cusan rhagrithiol a bradychus, fel yr eiddo Judas; ond cusan sanctaidd, gyda'r diweirdeb mwyaf, y diragrithrwydd mwyaf, a'r serchiadau mwyaf sanctaidd ac ysbrydol, fel y gweddai i saint yn caru eu gilydd o galon bur yn helaeth. Byddai cyfarch eu gilydd ar y gwyneb, yn arferiad gan Iuddewon a chenedloedd, a pharàodd yr arferiad am hir o amser yn mhlith y prif gristionogion yn eu cyfarfodydd crefyddol, yn enwedig yn niwedd eu gweddiau, cyn cyfranogi o swper yr Arglwydd, er tystiolaeth o'u cariad at eu gilydd. Tybia rhai mai oddi wrth arferiad yr Iuddewon yn y synagogau, y daeth i blith y cristionogion; ac y byddai y gwŷr yn cusanu eu gilydd o'r neilldu, a'r gwragedd o'r neilldu: ac eto, er hyn i gyd, gan nad oedd sail i'r arferiad mewn un gorchymyn dwyfol, a chan iddo fyned

yn llygredig, ac yn achlysur o warth ar grefydd yn mhen amser; gadawyd yr arferiad heibio yn raddol, er attal pob ymddangosiad o anharddwch ac anweddeidd-dra mewn amserau mwy penrhydd. ‡ Heblaw ei anerchiadau personol ei hun, mae yr apostol yn anfon anerchiadau eglwysi Groeg atynt: eglwysi cyfain yn gyntaf, ac wedi hyny personau neillduol yn rhai o'r eglwysi hyny, adn. 21—23.

17 * Ac yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, [l] graffu ar y rhai sydd [m] yn peri † anghydfod a [n] rhwystrau yn erbyn yr athrawiaeth ‡ a ddysgasoch chwi; [o] || a chiliwch oddi wrthynt.

l Phil. 3. 17. 2 Thes. 3. 14, 15. m Act. 15. 1—5, 24. 1 Cor. 1, 10—13. a 3. 3. a 11. 18. Gal. 1. 7—9. a 2. 4. Phil. 3. 2, 3. Col. 2. 8. 2 Pedr 2. 1, 2. 1 Ioan 2. 19. 2 Ioan 7—10. Judas 19. n Mat. 18. 7. Luc 17. 1. o Mat. 18. 17. 1 Cor. 5. 9—11. 2 Thes. 3. 6, 14. 1 Tim. 6. 3—5. Tit. 3. 10. 2 Ioan 10, 11.

Yr oedd yr apostol yn ysgrifenu o helaethrwydd ei galon, a phryd yr oedd, debygid, yn dybenu, mae mater pwysig arall yn dyfod i'w feddwl, ac yn ngorlawnder ei gariad, mae megys yn ail ddechreu. * Mae yn attolwg i'r Rhufeiniaid i graffu yn fanol ar y rhai a allai fod yn eu plith yn peri adghydfod a rhwystrau, yn erbyn yr athrawiaeth a ddysgasent hwy; a chilio oddi wrth y cyfryw. † Wrth "anghydfod," mae rhai yn deall y sawl oedd yn gŵyro ac yn llygru athrawiaeth yr eglwys; ac wrth "rwystrau," y rhai oedd yn gŵyro dysgyblaeth yr eglwys: mae eraill yn tybied fod y gair cyntaf yn cyfeirio at ŵyrni mewn athrawiaeth, a'r ail air at ŵyrni mewn buchedd ac ymarweddiad. Mae yn ddiammau fod pob un o'r pethau uchod yn gynnwysedig; ac y mae gŵyrni mewn athrawiaeth, dysgyblaeth, a buchedd, yn dra niweidiol yn eglwys Duw, ac yn peri anghydfod a rhwystrau blinion a gwarthus yn mhlith y saint. Efallai bod yr apostol yn cyfeirio yn benaf at y rhai hyny oedd yn ceisio cymmysgu seremoniau y ddeddf âg athrawiaeth yr efengyl, fel yn hanfodol angenrheidiol i iachawdwriaeth: yr oedd gau-athrawon felly yn niwed ac yn ofid mawr i'r eglwysi yn mhob màn yn y dyddiau hyny. ‡ A ddysgasoch chwi yn y dechreu, gan weinidogion anfonedig ac ysbrydoledig Duw: chwi a ddysgasoch y wir athrawiaeth yn y dechreu; am hyny craffwch ar y dynion sydd yn ceisio eich llygru, ac yn terfysgu yr eglwys â'u cyfeiliornadau, || a chiliwch oddi wrthynt fel dynion a'r plâ arnynt; na fydded i chwi gymundeb eglwysig â hwynt, na chymdeithaswch mewn cyfeillach â hwynt; ac ymgedwch yn dra gochelgar yn mhell oddi wrthynt.

18 * Canys y rhai sydd gyfryw, [p] † nid ydynt yn gwasanaethu ein Harglwydd Iesu Grist, [q] ‡ eithr eu bol eu hunain; [r] || a thrwy ymadrodd teg a gweniaith, § yn twyllo calonnau [s] y rhai diddrwg.

p Mat. 6. 24. Ioan 12. 26. Gal. 1. 10. Phil. 2. 21. Col. 3. 24. Iago 1. 1. Judas 1. Dat. 1. 1. q 1 Sam. 2. 12—17, 29. Es. 56. 10—12. Ezec. 13. 19. Hos. 4. 8—11. Mica 3. 5. Mal. 1. 10. Mat. 24. 48—51. Phil. 3. 19. 1 Tim. 6. 5. 2 Pedr 2. 10—15. Judas. 12. r 2 Cron. 18. 5, 12—27. Es. 30. 10, 11. Jer. 8. 10, 11. a 23. 17. a 28. 1—9, 15—17. Ezec. 13. 16. Mica 3. 5. Mat. 7. 15. a 24. 11, 24. 2 Cor. 2. 17. a 4. 2. a 11. 13—15. Col. 2. 4. 2 Thes. 2. 10. 1 Tim. 6. 5. 2 Tim. 2. 16—18. a 3. 2—6. Tit. 1. 10—12. 2 Pedr 2. 18—20. 1 Ioan 4. 1—3. Judas 16. s adn. 19. Salm 19. 7. a 119. 130. Diar. 8. 5. a 14. 15. a 22. 3. 2 Cor. 11. 3.

* Y rhai sydd o gyfryw ysbryd, tymher, ac ymddygiad, beth bynag maent hwy yn ei broffesu fel dyben ganddynt, † nid gwasanaethu ein Harglwydd Iesu Grist y maent; nid yw eu llafur a'u prysurwch swyddgar yn wasanaeth iddo ef, nac yn cael ei gymmeryd felly ganddo ef; ac nid hyny yw eu gwir ddyben hwythau chwaith; ‡ eithr gwasanaethu eu bol eu hunain y maent, a hyny yw eu dyben yn y cwbl. Ceisio parch, dyrchafiad, budr-elw, esmwythder, a moethau cnawdol, yr oedd y rhai hyn, dàn yr esgus o *sel* dros Grist; ac mae yn ddychrynllyd iawn pan ddelo dynion i ymwthio i'r weinidogaeth er mwyn y cyfryw bethau, er pregethu y wir athrawiaeth; a pha faint mwy pan fydder yn pregethu cyfeiliornadau, i dynu dysgyblion ar eu hol! || Yn debyg fel y twyllodd Satan Efa, trwy addaw pethau da iddi, felly mae y gau-athrawon hyn yn gweniethio i'w canlynwyr, trwy ganmol eu personau a'u gweithredoedd, maglu ac ennill eu hewyllys da, a'r cwbl i'w porthi eu hunain. Ymadrodd teg a gweniaith oedd arfau y gau-athrawon hyn, ar gyfer ymadrodd iachus a gwyrthiau y gwir apostolion ac athrawon. § "Y rhai diddrwg:" rhai difeddwl drwg, rhai heb ddeall ganddynt, i wybod y gwahaniaeth rhwng gwir a gau athrawiaeth; a rhai heb feddwl mai dyben drwg oedd gan y gau-athrawon hyn yn eu hymadrodd teg a'u gweniaith.

19 [t] * Canys eich ufudd-dod chwi a ddaeth ar led at bawb. [u] Yr wyf fi gan hynny yn llawen o'ch rhan chwi; [x] † eithr myfi a ewyllysiwn i chwi fod yn ddoethion tu ag at y peth sydd dda, ac yn wirion tuag at y peth sydd ddrwg.

t pen. 1. 8. 1 Thes. 1. 8, 9. u Eph. 1. 15—17. Col. 1. 3—9. 1 Thes. 1. 2, 3. a 3. 6—10. x 1 Bren. 3. 9—12. Salm 101. 2. Es. 11. 2, 3. Mat. 10. 16. 1 Cor. 14. 20. Eph. 1. 17, 18. a 5. 17. Phil. 1. 9. Col. 1. 9. a 3. 16. 2 Tim. 3. 15—17. Iago 3. 13—18.

* "Eich ufudd-dod chwi:" eich parodrwydd chwi i dderbyn yr efengyl yn y dechreu, ac i roddi eich hunain i fynu yn hollawl i awdurdod Crist yn yr efengyl. Yr oedd hyn yn llawen gan yr apostol; eto mynai i'r Rhufeiniaid fod yn sefydlog a dianwadal yn yr ufudd-dod hwnw, ac na byddent yn barod i gymmeryd eu llithio at athrawiaeth arall y gau ddysgawdwyr uchod. † Yr oedd son am ufudd-dod y Rhufeiniaid wedi myned ar led trwy yr holl eglwysi yn yr holl wledydd, er anrhydedd mawr iddynt hwy, ac er calondid i weinidogion y gair lafurio mewn mànau eraill. † Cymmerwch ofal rhag cael eich twyllo gan y gau-athrawon; byddwch ddoeth a chraffus i wahaniaethu rhwng da a drwg, rhwng gwirionedd a chyfeiliorni mewn eraill; a byddwch gall fel seirph a diniwed fel colomenod eich hunain: byddwch ofalus na wneloch ddrwg i eraill ac na chaffoch ddrwg oddi wrth eraill.

20 [y] * A Duw y tangnefedd [z] a sathr Satan dan eich traed chwi ar frys. [a] † Gras ein Harglwydd Iesu Grist *fyddo* gyd â chwi. ‡ Amen.

y Gwel ar pen. 15. 33. z Gen. 3. 15. Es. 25. 8—12. Rhuf. 8. 37. Heb. 2. 14, 15. 1 Ioan 3. 8. Dat. 20. 1—3. a adn. 24. 1 Cor. 16. 23. 2 Cor. 13. 14. Gal. 6. 18. Phil. 4. 23. 1 Thes. 5. 28. 2 Thes. 3. 18. 2 Tim. 4. 22. Philemon 25. Dat. 22. 21.

* Fel y sathrodd Josua a thywysogion Israel ar yddfau breninoedd yr Amoriaid gynt. Jos. 10. 24. Gwaith Satan oedd "peri anghydfod a rhwystrau yn erbyn yr athrawiaeth," (adn. 17.) a "thwyllo calonau y rhai diddrwg," (adn. 18.) ac offerynau yn llaw Satan oedd y rhai oedd yn gwneyd hyny; yma mae yr apostol yn calonogi y Rhufeiniaid trwy addewid o fuddugoliaeth sicr a buan ar Satan, a'i offerynau oll: Duw sydd yn sathru Satan, ond dàn draed ei saint gweiniaid mae efe yn ei sathru ef. Mae yr addewid hon yn sylfaenedig ar yr addewid gyntaf, a chyffelyb iddi, yn Eden, Gen. 3. 15; a thrwy gyflawniad Crist, y Pen, o hóni, y cyflawnir hon i'w saint ef, a thàn eu traed hwynt. Sathru Satan yma, medd rhai, a arwydda fod Duw trwy weinidogaeth ei weision, yn rhoddi terfyn ar yr ymraniadau a'r anghydfod a gododd Satan a'i offerynau yn eglwys Rhufain. Tybia eraill fod yma gyfeiriad at ddinystr Jerusalem, pryd na byddai bosibl i'r gau-athrawon Iuddewaidd hudo na blino y saint mwyach. Tybia eraill fod yma gyfeiriad at daeniad yr efengyl gyda llwyddiant mawr yn mhlith y cenedloedd paganaidd, a thrwy hyny dinystrio eu heilun-addoliaeth, eu hofer-goelion ac awdurdod a rhwysg y diafol arnynt ac yn eu plith. Tybia eraill fod yma gyfeiriad at dröedigaeth yr Ymherodraeth Rufeinig dàn Custenyn Fawr, yr hyn a ddygai Satan a'i holl offerynau erlidgar i ystâd o ddarostyngiad i'r eglwys. Beth bynag am y tybiau uchod, gallwn ddeall y geiriau fel addewid o fuddugoliaeth lwyr a gogoneddus i'r saint, ar Satan a'i holl offerynau, mewn

shan yn y byd hwn, ac yn berffaith yn y byd a ddaw. X. Yr oedd eisiau gras mawr i wrthsefyll yn y dydd drwg, i ennill y fuddugoliaeth ar Satan a'i sathru ef dàn draed; ac mae yr apostol yn ei ddymuno i'r Rhufeiniaid, gydag ‡ Amen o'i galon: felly bydded, ac yr oedd yn credu yn gadarn mai felly y byddai.

21 [b] * Y mae Timothëus fy nghyd-weithwr, [c] † a Lucius, [d] ‡ a Jason, [e] || a Sosipater, § fy ngheraint, yn eich annerch.

b Act. 16. 1—3. a 17. 14. a 18. 5. a 19. 22. a 20. 4. 2 Cor. 1. 1, 9. Phil. 1. 1. a 2. 19—23. 1 Thes. 1. 1. a 3. 2, 6. 2 Thes. 1. 1. 1 Tim. 1. 2. a 6. 11, 20. 2 Tim. 1. 2. Heb. 13. 23. c Act. 13. 1. d Act. 17. 5. e Act. 20. 4. f adn. 7, 11.

Dyma ail ol-ysgrifen fèr eto, cyn danfon yr epistol cyntaf. Gwel adn. 1. * Am Timothëus cawsom ei hanes yn helaeth o'r blaen, yn llyfr yr Actau, pen. 16. 1, &c., yn nghyd â'i deithiau a'i lafur gyda'r apostol: dawn achlysur i sylwi eto yn ei gylch, pan ddelom at epistolau Paul ato ef. † Tybia rhai mai Luc yr Efengylwr oedd y Lucius hwn, gyda therfyniad Lladin i'w enw, efallai: bu Luc yn cyd-ymdaith â Paul yn hir, ac mae yn amlwg ei fod gydag ef pan ysgrifenodd ei epistol hwn at y Rhufeiniaid. Ond tybia eraill mai y Lucius hwnw o Cyrene ydoedd hwn, yr hwn y sonir am dano yn Act. 13. 1. ‡ Llettywr Paul yn Thessalonica, Act. 17. 5, 7; ac yn ol meddwl rhai yr un â Secundus, a sonir am dano yn Act. 20. 4, y naill ei enw Hebraeg, a'r llall ei enw Rhufeinig. || Yr un a Sopater o Berea, Act. 20. 4, a gyd-ymdeithiodd â Phaul a'i gyfeillion. § Mae hon debyg bod y ddau olaf hyn yn berthynasau yn ol y cnawd i'r apostol, ond yn awr yn anwylach na hyny fel crodyr a chyd-weithwyr yn Nghrist, a chyda'i achos nawr ef.

22 * Yr wyf fi Tertius, [g] † yr hwn a ysgrifenais yr epistol *hwn*, [h] ‡ yn eich annerch yn yr Arglwydd.

g Gal. 6. 11. h adn. 8. Col. 3. 17

* Tybir mai yr un â Silas, neu Silfanus, yw y Tertius hwn; o herwydd bod y gair Silas, yn yr Hebraeg, yn arwyddo *y Trydydd*, megys y mae Tertius, yn Lladin, hen arwyddo yr un peth: ond dywed *Scott* nad oes dim ddarwydd mai yr un oedd Silas a Thertius, a bod hyny hen beth pur annhebyg. † Tertius a ysgrifenodd yr epistol hwn dros Paul, o'i enau, ac wrth ei gyfarwyddyd ef: er mwyn arbed amser Paul, medd rhai; am nad oedd Paul ond ysgrifenydd lled wael, yn enwedig yn y gythyrenau Groeg, medd eraill. Tybia *Doddridge* mai ar achos o rai brawddegau, neu ymadroddion dyrys ac anmorphenol, a gair yn epistolau Paul weithiau yw, eu bod wedi eu hysgrifenu drosto ef gan rywun arall. ‡ Cawsai Tertius ganiatâd gan Paul, i ddanfon ei anerchiad brawdol ei hun at y saint yn Rhufain, ac mae yn dymuno iddynt bob daioni a llwyddiant yn yr Arglwydd, ac yn enw yr Arglwydd Iesu.

23 [i] * Y mae Gaius fy llettywr i, a'r holl eglwys, yn eich annerch. [k] † Y mae Erastus, y goruchwyliwr y ddinas, yn eich annerch, a'r brawd Cwartus.

i 1 Cor. 1. 14. 3 Ioan 1. 1—6. k Act. 19. 22. 2 Tim. 4. 20.

* Tybir mai yr un Gaius oedd hwn a'r Gaius yr ysgrifenodd Ioan ei drydydd epistol ato. Yr oedd Gaius o Macedonia (Act. 19. 29,) a Gaius o Derbe, (Act. 20. 4,) a thybia rhai mai yr un person a feddylir yn y ddau le hyny; ei fod yn preswylio yn Macedonia, ond yn ddechreuol o Derbe. Ond tybia rhai mai un arall yw y Gaius a grybwyllir yma, yr hwn a fedyddiasai Paul yn Corinth, (1 Cor. 1. 14,) o ba le mae yn debyg yr ysgrifenodd efe yr epistol hwn. Mae yn debyg ei bod ef yn wr cyfoethog, ac yn wr haelionus a llettygar iawn i'r saint. Gwel ei ganmoliaeth, os yr un oedd, yn 3 Ioan, adn. 5, 6. † Sonir am Erastus yn Act. 19. 22; ac yn 2 Tim. 4. 20. ‡ Y ddinas oedd Corinth, a'r goruchwyliwr *(oikonomos)* y ddinas oedd yr hwn oedd yn derbyn ac yn gofalu am gyllid a thrysorau cyffredin y ddinas. Sefyllfa uchel iawn oedd hon oedd cafodd Erastus ei alw i sefyllfa uwch, fel dysgybl i Grist, ac yn enwedig os galwyd ef i bregethu Crist, fel y barna rhai iddo wneyd. Pa un a arosodd ef yn ei oruchwyliaeth ddinasaidd ar ol ei ddychweliad i'r ffydd ai peidio, nis gwyddom; yn Act. 19. 22, ni a'i cawn ef gyda Paul yn ei daith i Asia, ac yn 2 Tim. 4. 20, dywedir iddo aros yn Corinth. || Am Cwartus nis gwyddom ddim ychwaneg na'i enw, ac ei fod o leiaf yn frawd cristionogol, os nid hefyd yn weinidog yr efengyl: mŷn rhai fod y gair "brawd" yn y fàn yma, yn arwyddo brawd yn y weinidogaeth gyhoeddus.

24 [l] * Gras ein Harglwydd Iesu Grist *a fyddo* gyd â chwi oll. Amen.

l Gwel ar adn. 20.

* Yr un geiriau yn hollawl, ag a gawsom yn niwedd adn. 20, ond bod y gair "oll" wedi ei chwanegu yma. Tybia rhai mai Tertius, ysgrifenydd Paul, a ysgrifenodd y geiriau yn adn. 20; a Phaul ei hun yn y fàn hon. Mae yr apostol yn debyg i dad tyner a serchog, yn cânu yn iach i'w blant drachefn a thrachefn; ac am fod yn anhawdd ganddo ymadael â hwy, mae yn dychwelyd yr eilwaith a'r drydedd waith, cyn gallu eu gadael yn hollawl: ac wrth eu gadael, nis gallai ddymuno gwell, na gras ein Harglwydd Iesu Grist, i fod gyda hwynt oll. Yn Nghrist y mae gras digonol i'r holl eglwys, ac yn Nghrist yn unig; nid oes dim, i'w gyfranu, gan neb arall.

25 [m] * I'r hwn a ddichon eich cadarnhau [n] † yn ol fy efengyl i, [o] a phregethiad Iesu Grist ([p] yn ol datguddiad ‡ y dirgelwch, [q] || yr hwn ni soniwyd am dano er dechreuad y byd;

m pen. 14. 4. Act. 20. 32. Eph. 3. 20, 21. 1 Thes. 3. 13. 2 Thes. 2. 16, 17. a 3. 3. Heb. 7. 25. 1 Pedr 5. 10. Judas 24, 25. n pen. 2. 16. 2 Cor, 4. 3. Gal. 2. 2. 2 Thes. 2. 14. 2 Tim. 2. 8. o Act. 9. 20. 1 Cor. 1. 23. a 2. 2. 2 Cor. 4. 5. p 1 Cor. 2. 7. Col. 1. 26. q Salm 78. 2. Dan. 2. 22. Amos 3. 7. Mat. 13. 17, 35. Luc 10. 23 24. Eph. 3. 3, 5, 9, 11. 1 Pedr 1. 10—12, 20.

* Mae yr apostol o'r diwedd yn terfynu gyda mawlwers ragorol: efe a wyddai nad oedd dim llai na hollalluawgrwydd Duw a allai gadw y Rhufeiniaid rhag ymosodiadau marwol eu gelynion cyfrwys a nerthol. † Ond fe allai Duw eu cadarnâu hwy yn athrawiaeth, ffydd, gobaith, ac ufudd-dod yr efengyl, yr hon a bregethasid iddynt; ac yr oedd yr efengyl a glywsent hwy, yr un peth ag athrawiaeth Crist am iachawdwriaeth pechaduriaid, a galwad y cenedloedd, a bregethasid gan Paul ei hun mewn eglwysi eraill. Wrth "fy efengyl I," efallai bod yr apostol yn meddwl hefyd, yr athrawiaeth efengylaidd a ysgrifenodd efe iddynt yn yr epistol hwn. Gallwn sylwi hefyd yma, er mai gallu Duw sydd yn cadarnâu ei bobl; eto yn ol yr efengyl, a thrwy yr efengyl, a phregethiad Iesu Grist, mae efe yn eu cadarnâu: trwy foddion, ac nid yn ddigyfrwng heb foddion: yr efengyl yw y moddion, a phregethiad Iesu Grist yw yr efengyl; nid oes dim yn efengyl heb hyny. ‡ Wrth y "dirgelwch" hwn mae rhai yn deall galwad y cenedloedd; ond byddai yn well ei ddeall am holl athrawiaeth yr efengyl, yr hon a fu yn ddirgelwch cuddiedig i ddynolryw yn gyffredin o'r dechreuad, ac nid oedd yn ddatguddiedig ond i'r Iuddewon, a hyny ond mewn rhan, yn anmherffaith iawn: || ni soniwyd am y dirgelwch hwn wrth y cenedloedd er dechreuad y byd; na thrwy gysgodau, prophwydoliaethau, nac addewidion.

26 [r] * Ac yr awrhon a eglurwyd, [s] † a thrwy ysgrythyrau y prophwydi, [t] yn ol gorchymyn [u] y tragywyddol Dduw, a gyhoeddwyd ym mhlith yr holl genhedloedd, [x] er mwyn ufudd-dod ffydd)

r Eph. 1. 9. Col. 1. 26. 2 Tim 1. 10. Tit. 1. 2, 3. s pen. 1. 2. a 3. 21. a 15. 4. Act. 8. 32—35. a 10. 43. a 26. 22, 23. Gal. 3. 8. Eph. 2. 20. Dat. 19. 10. t Mat. 28. 19, 20. Marc 16. 15. Luc 24. 44—47. Act. 13. 46, 47. a 26. 17, 18. u pen. 1. 20. Gen. 21. 33. Deut. 33. 27. Es. 9. 6. a 40. 28. Mica 5. 2. 1 Tim. 1. 17. Heb. 9. 14.

a 13. 8. 1 Ioan 5. 20. Dat. 1. 8—11, 17. x Gwel ar pen. 1. 5. a 15 18.—Act. 6. 7.

* Ac yr awr hon, dàn oruchwyliaeth yr efengyl, eglurwyd y dirgelwch gogoneddus hwn, o iachawdwriaeth râd a pharod i bechaduriaid o bob cenedl dàn y nef: eglurwyd ef i'r cenedloedd am y waith gyntaf erioed; ac eglurwyd ef i'r Iuddewon yn llawer goleuach nac o'r blaen dàn hen oruchwyliaeth y cysgodau. † Am ddatguddiad y dirgelwch hwn dywedir pedwar o bethau yn yr adnod hon:—1. Y moddion trwy ba rai y datguddiwyd ef; "sef ysgrythyrau y prophwydi." Gwel rai o honynt yn y cyfeiriadau, dàn y llythyren *s*. 2. Yr awdurdod trwy ba un yr eglurwyd ac y cyhoeddwyd y dirgelwch hwn; sef "gorchymyn y tragywyddol Dduw" i'w apostolion a'i efengylwyr. 3. Y personau i ba rai y datguddiwyd y dirgelwch; sef, "yr holl genedloedd," pob cenedl o dàn y nef, heb ddim gwahaniaeth mwyach. 4. Y dyben i ba un yr eglurwyd y dirgelwch mawr hwn, sef "er mwyn ufudd-dod ffydd;" hyny yw, fel y credid yr efengyl, ac yr ufuddêid o'r galon iddi. Mae llawer o dduwinyddion yn deall y ddwy adnod flaenorawl am alwad y cenedloedd i'r eglwys, fel y soniwyd dàn adn. 25; ac mae rhai o'r duwinyddion hyny yn meddwl fod y geiriau *chronois aiônios*, "er dechreuad y byd," (adn. 25.) yn cyfeirio at raniadau yr amser trwy *Jubilïau;* yr oedd Jubili yn dyfod bob degfed flwyddyn a deugain, a'r holl gaethion yn Israel yn cael myned yn rhydd ar y flwyddyn orfoleddus hòno os ewyllysient; ond yn yr holl *Jubilïau* hyny, nid oedd rhyddid, na neb yn meddwl am ryddid, i'r cenedloedd truain, o gaethiwed pechod a Satan, hyd oni ddaeth *Jubili* fawr a gogoneddus yr efengyl, i ddatguddio yr hyn oedd yn ddirgelwch trwy yr oesoedd, ac i gyhoeddi rhyddid ysbrydol i'r caethion o bob cenedl. Ond tybia eraill fod mwy o gywrain-ddychymmyg nac o sylwedd yn y golygiad uchod ar y geiriau.

27 [i] * I Dduw *yr* [z] unig ddoeth, *y byddo* gogoniant, † trwy Iesu Grist yn dragywydd. ‡ Amen.

y pen. 11. 36. Gal. 1. 4, 5. Eph. 3. 20, 21. Phil. 4. 20. 1 Tim. 1. 17. a 6. 16. 2 Tim. 4. 18. Heb. 13. 15, 21. 1 Pedr 2. 5. a 5. 10, 11. 2 Pedr 3. 18. Dat. 1. 5, 6. a 4. 9—11. a 5. 9—14. a 7, 10—12. a 19. 1—6. z pen. 11. 33, 34. Salm 147. 5. Eph. 1. 7, 8. a 3. 10. Col. 2. 2, 3. Judas 25.

* Dechreuodd yr apostol y fawl-wers hon yn adn. 25; "I'r hwn a ddichon eich cadarnâu," &c., sef "i Dduw yr unig ddoeth," &c. Mae Duw yn hanfodol ac yn anfeidrol ddoeth, o hóno ef y mae pob doethineb yn deilliaw; ac iddo ef y mae pob gogoniant yn ddyledus byth trwy Iesu Grist. Wrth y "Duw unig ddoeth," rhaid i ni ddeall y Duwdod, heb wahaniaethu y Personau; neu y Tad, heb gauad allan y Mab a'r Ysbryd Glân; y rhai yn yr holl ysgrythyrau a ddangosir yn ogyfuwch â'r Tad, mewn pob perffeithrwydd dwyfol. † Gan fod y Duwdod yn cael ei ddatguddio i ni, yn a thrwy y Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ein Cyfryngwr dwyfol; felly rhaid i ni weled gogoniant Duw ynddo ef, ac addoli a gogoneddu Duw trwy yr un cyfrwng. Gwel Heb. 13. 15. Trwy Iesu Grist mae mawl y saint, yn gystal a'u gweddïau, yn gymmeradwy gan Dduw: nid oes neb yn dyfod at y Tad, ar unrhyw achos na neges, ond trwyddo ef. ‡ Cawsom y gair hwn chwech o weithiau yn yr epistol hwn:—pen. 1. 25; a 9. 5; a 11. 36; a 15. 33; a 16. 20, 27. Gair Hebraeg ydyw, ond wedi ei gadw yn anghyfiaith yn mhob iaith: ac nis gellir ei gyfieithu, heb iddo golli llawer o'i bwys a'i rym. Mae yn cael ei ddefnyddio mewn tair ffordd:—1. Fel *enw* personol; Dat. 3. 14. 2. Fel *gorair;* defnyddir ef felly yn nechreu ymadrodd, ac arwydda, *yn wir;* ac yn niwedd ymadrodd, lle yr arwydda, *yyd-syniad.* 3. Fel *perwyddiad;* lle yr arwydda, *felly bydded*, fel gweddi, neu ddeisyfiad: O na byddai felly! Gwel Jer. 28. 6.

¶ At y Rhufeiniaid yr ysgrifenwyd o Corinthus, gyd â Phebe, gweinidoges yr eglwys yn Cenchrea.

EPISTOL CYNTAF PAUL YR APOSTOL

AT Y

CORINTHIAID.

PEN. I.

Ar ol iddo cyfarch iddynt, a diolch drostynt, y mae efe yn eu hannog i undeb.

* PAUL, [a] † wedi ei alw *i fod* [b] yn apostol Iesu Grist, [c] trwy ewyllys Duw, [d] ‡ a'r brawd Sosthenes,

a Rhuf. 1. 1. Gal. 2. 7, 8. b pen. 3. 9. a 9. 1, 2. a 15. 9. Luc 6. 13. Ioan 20. 21. Act. 1. 2, 25, 26. a 22. 21. Rhuf. 1. 5. 2 Cor. 11. 5. a 12. 12. Gal. 1. 1. Eph. 4. 11. 1 Tim. 1. 1. a 2. 7. c pen. 9. 16, 17. Ioan 15. 16. 2 Cor. 1. 1. Gal. 1. 15, 16. Eph. 1. 1. Col. 1. 1. d Act. 18. 17.

* Ein harfer ni yw ysgrifenu ein henwau ar ddiwedd ein llythyrau; mae yn ymddangos wrth yr epistolau mai fel arall yr oedd yr arfer gynt. † Yr oedd llawer yn eglwys Corinth yn ammau apostoliaeth Paul, am hyny yr oedd yn angenrheidiol iddo hòni ei awdurdod i'r swydd, fel un wedi ei alw i fod yn apostol Iesu Grist, trwy ewyllys Duw: nid wedi ei alw yn y modd cyffredin, fel gweinidegion cyffredin yr efengyl; ond wedi ei alw yn oruwch-naturiol ac yn ddigyfrwng, gan Iesu Grist ei hun. ‡ Darllenwn am y Sosthenes hwn yn Act. 18. 17; nid oedd yn gywilydd gan yr apostol ei alw ef yn frawd, wrth ei uno âg ef ei hun yn ei gyfarchiad at eglwys Corinth. Un o Corinth ydoedd Sosthenes, ac yr oedd yn ddoethineb yn Paul ei enwi ef fel ei frawd wrth ysgrifenu at yr eglwys yno, er cael gwell derbyniad i'w lythyr.

2 * At [e] eglwys Dduw yr hon sydd yn Corinth, [f] † at y rhai a [g] sancteiddiwyd yng Nghrist Iesu, [h] a alwyd yn saint, [i] ‡ gyd â phawb ag sydd yn galw ar enw [k] ein Harglwydd Iesu Grist, ym mhob man, ‖ o'r eiddynt hwy a ninnau.

e Act. 18. 8—11. 2 Cor. 1. 1. Gal. 1. 2. 1 Thes. 1. 1. 2 Thes. 1. 1. 1 Tim. 3. 15. f Judas 1. g adn. 30. pen. 6. 9—11. Ioan 17. 17—19. Act. 15. 9. a 26. 18. Eph. 5. 26. Heb. 2. 11. a 10. 10. a 13. 12. h Rhuf. 1. 7. 1 Thes. 4. 7. 2 Tim. 1. 9. 1 Pedr 1. 15, 16. i Act. 7. 59, 60. a 9. 14. a 22. 16. 2 Thes. 2. 16, 17. 2 Tim. 2. 22. k pen. 8. 6. Salm 45. 11. Act. 10. 36. Rhuf. 10. 12. a 14. 8, 9. 2 Cor. 4. 5. Phil. 2. 9—11. Dat. 19. 16.

* At y credinwyr yn Corinth, y rhai oedd wedi ymuno mewn cyfammod eglwysig yno, i gyflawni pob addoliad ac ordinâdau dwyfol yn ol gosodiad Crist mewn eglwys, lle mae efe yn preswylio fel yn ei deml sanctaidd. † Efallai bod y "sancteiddio yn Nghrist Iesu," yn arwyddo etholiad tragywyddol Duw o honynt yn Nghrist Iesu, (Ephes. 1. 4.) a'r "galw i fod yn saint," yn arwyddo y neilldua a wnaeth Duw o honynt mewn amser trwy yr efengyl: ond tybia eraill fod y cyntaf yn arwyddo eu sancteiddiad tumewnol a gwirioneddol, a'r ail yn arwyddo eu proffes allanol. ‡ Heblaw aelodau yr eglwys neilldu ol hòno, mae yr apostol yn cyfarch yr holl gristionogion o amgylch Corinth, ac yn mhob màn lle deuai yr epistol hwn i gael ei ddarllen. ‖ Yr Arglwydd Iesu Grist sydd yn eiddynt hwy a ninnau: eiddo Paul, Sosthenes, y Corinthiaid, a phawb a greduant ynddo.

3 [l] * Gras *fyddo* i chwi, a thangnefedd † oddi wrth Dduw ein Tad ni, a'r Arglwydd Iesu Grist.

l Gwel ar Rhuf. 1. 7.—1 Pedr 1. 2.

* Dyma gyfarchiad cyffredin Paul yn ei holl epistolau: mewn un neu ddau mae yn chwanegu y gair "trugaredd" hefyd. Mae yr apostol yn dymuno i'r Corinthiaid fendithion ysbrydol, a'r bendithion ysbrydol mwyaf; "gras a thangnefedd:" † a hyny nid oddi wrth ddynion, a chyda dynion, ond oddi wrth Dduw Dad, a'r Arglwydd Iesu Grist. Mae yn gweddïo am yr un bendithion oddi wrth Grist, ac oddi wrth Dduw Dad: onid yw hyny yn gwneyd Crist yn ogyfuwch â Duw Dad?

4 [m] * Yr ydwyf yn diolch i'm Duw bob amser drosoch chwi, am [n] y gras Duw a rodded i chwi † yng Nghrist Iesu:

m Gwel ar Rhuf. 1. 8. a 6. 17.—Act. 11. 23. a 21. 20. n adn. 3. Ioan 10. 30. a 14. 14, 16, 17, 26. a 15. 26. 1 Tim. 1. 14.

* Rhag i'r Corinthiaid dybied wrth yr adnod o'r blaen fod Paul yn meddwl nad oedd fawr o ras ganddynt hwy, mae efe yma yn dywedyd ei fod yn diolch i Dduw bob amser drostynt, am y gras Duw a rodded eisoes iddynt. Nid oes gan neb gymmaint o ras na bo arno eisiau chwaneg. Er bod llawer o afrëolaeth yn eglwys Corinth, eto yr oedd yno lawer o ras, a llawer o ddynion grasol, pe amgen ni buasai yr apostol yn diolch bob amser am y gras hwn: ni buasai yn diolch drostynt am beth nad oedd wedi ei roddi iddynt. † Rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder o ras yn Nghrist Iesu, ac o'i gyflawnder ef mae ei holl saint yn derbyn, a gras am ras: nid oes gan neb ras, ond a gafodd efe yn a thrwy Grist Iesu.

5 [o] * Am eich bod ym mhob peth wedi eich cyfoethogi ynddo ef, [p] † mewn pob ymadrodd, [q] ‡ a phob gwybodaeth;

o pen. 4. 7—10. Rhuf. 11. 12. 2 Cor. 9. 11. Eph. 2. 7. a 3. 8. p pen. 12. 10. a 14. 5. 6, 26. Act. 2. 4. 2 Cor. 8. 7. Eph. 6. 19. Col. 4. 3, 4. q pen. 8. 11. a 13. 2, 8. Rhuf. 15. 4. 2 Cor. 4. 6. Eph. 1. 17. Phil. 1. 9. Col. 1. 9, 10. a 2. 3. a 3. 10. Iago 3. 13. 2 Pedr 3. 18.

* Yr oedd y Corinthiaid wedi eu cyfoethogi, nid yn unig â phob gras achubol er iachawdwriaeth eu heneidiau eu hunain; † ond yr oeddynt hefyd fel eglwys wedi eu cyfoethogi â doniau rhagorol i lefaru yn gyhoeddus er adeiladaeth i eraill; ‡ ac â gwybodaeth helaeth o athrawiaeth sylfaenol yr efengyl. Yr oedd y cyfarchiadau parchus hyn, a'r gydnabyddiaeth hon o'r pethau yr oedd y Corinthiaid yn rhagori ynddynt, yn tueddu yn rhagorol i'w meddalu hwynt, ac i'w parotòi i dderbyn ceryddon yr apostol, yn y pennodau a ganlynant.

6 * Megis [r] y cadarnhâwyd [s] tystiolaeth Crist ynoch.

r pen. 2. 1, 2. Act. 18. 5. a 20. 21, 24. a 22. 18. a 23. 11. a 28. 23. 1 Tim. 2. 6. 2 Tim. 1. 8. 1 Ioan 5. 11—13. Dat. 1. 2, 9. a 6. 9. a 12. 11, 17. a 19. 10. s Marc 16. 20. Act. 11. 17, 21. Rhuf. 15. 19. 2 Cor. 12. 12. Gal. 3. 5. Heb. 2. 3, 4.

* Tystiolaeth Crist yw yr efengyl; yr hon sydd yn cyn-

nwys tystiolaeth a roddodd yr apostolion am dano. Gelwir hi yn "dystiolaeth Duw," yn pen. 2. 1; a "thystiolaeth ein Harglwydd," 2 Tim. 1. 8. Wrth dystiolaeth Duw mae eraill yn deall doniau yr Ysbryd; am fod yr Ysbryd yn un o'r tystion ar y ddaear, 1 Ioan 5. 8. Cadarnâwyd tystiolaeth Duw yn y Corinthiaid, yn eu plith, ac yn eu meddyliau a'u cydwybodau, trwy y gwyrthiau a wnaethai Paul yn eu plith, trwy yr arddelwad grymus a roddasai Duw ar ei weinidogaeth ef, a thrwy y doniau gwyrthiol a gyfranodd efe i rai o honynt, trwy arddodiad dwylaw yr apostol. Nis gallent lai na gwybod mai trwy ddwylaw Paul y cawsent y doniau hyny, gan hyny mae crybwyll y peth yma yn tueddu i'w dwyn hwy i barchu yr apostol fel eu tad ysbrydol.

7 [i] * Fel nad ydych yn ol mewn un dawn, [u] † yn disgwyl am ddatguddiad ein Harglwydd Iesu Grist:

t 2 Cor. 12. 13. u pen. 4. 5. Gen. 49. 18. Mat. 25. 1. Luc 12. 36. Rhuf. 8. 19. Phil. 3. 20. 1 Thes. 1. 10. 2 Tim. 4. 8. Tit. 2. 13. Heb. 9. 28. a 10. 36, 37. Iago 5. 7, 8. 2 Pedr 3. 12. Judas 21.

* Nid oeddynt yn ol am un ddawn ysbrydol, angenrheidiol er eu hiachawdwriaeth bersonol, ac er adeiladaeth eu gilydd. Nid oeddynt yn ol, a'u cymharu âg eglwysi eraill; yr oeddynt wedi eu cyfoethogi â doniau ysbrydol a gwyrthiol, cymmaint âg un eglwys, yn un màn, yn y dyddiau hyny. Ac nid oeddynt yn ol am ddoniau ysbrydol cyn dyfod neb gan athrawon i'w plith; ni chwanegodd y rhai hyny ddim ar eu doniau hwy, dim ond magu pleidiau ac ymraniadau yn eu plith, a meithrin rhagfarn ynddynt yn erbyn Paul, trwy yr hwn y cawsent eu cyfoethogi â doniau ar y cyntaf. † Fel hyn, mae yr apostol yn cymmeryd yn ganiatâol, eu bod yn eu darpar eu hunain a'r naill a'r llall, erbyn ail ddyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist i'r farn: neu o leiaf mae yn dwyn ar gof iddynt mai felly y dylent fod.

8 * Yr hwn hefyd [x] a'ch cadarnhâ chwi hyd y diwedd, [y] † yn ddiargyhoedd, [z] yn nydd ein Harglwydd Iesu Grist.

x Salm 37. 17, 28. Rhuf. 14. 4. a 16. 25. 2 Cor. 1. 21. 1 Thes. 3. 13. 2 Thes. 3. 3. 1 Pedr 5. 10. y Eph. 5. 27. Phil. 2. 15. Col. 1. 22. 1 Thes. 3. 13. a 5. 23. 2 Pedr 3. 14. Judas 24, 25. z Phil. 1. 6, 10. a 2. 16. 2 Pedr 3. 10.

* Yr hwn a ddechreuodd ynoch y gwaith da a'i perffeithia ef hefyd: Iesu yw y tywysog, neu awdwr a pherffeithydd ffydd ei bobl. Mae efe yn cadarnâu ei bobl yn eu proffes, yn eu ffydd, yn eu gobaith, yn eu cariad, ac yn mhob gras tumewnol, a phob dyledswydd allanol, trwy gyfraniadau parâus o'i ras iddynt, yn wyneb eu gwendidau a'u holl brofedigaethau "hyd y diwedd." † Er nad oes neb o'r saint yn berffaith ddiargyhoedd yma; eto maent oll yn ymgais at hyny, a hwy a fyddant felly yn nydd y farn, dydd yr Arglwydd Iesu Grist. A'ch cadarnâ hyd y diwedd *os byddwch* ddiargyhoedd, medd rhai! Onid agoriad gwael iawn ar y geiriau yw hyna, cwbl groes i feddwl yr apostol, yr hwn oedd yn annog y Corinthiaid i obeithio yn ngras Crist, ac nid ynddynt eu hunain?

9 [a] * Ffyddlawn *yw* Duw, [b] † trwy yr hwn y'ch galwyd i [c] gymdeithas ei Fab ef Iesu Grist ein Harglwydd ni.

a pen. 10. 3. Num. 23. 19. Deut. 7. 9. a 32. 4. Salm 89. 33—35. a 105. 5. Es. 11. 5. a 25. 1. a 49. 7. Galar. 3. 22, 23. Mat. 24. 35. 1 Thes. 5. 23, 24. 2 Thes. 3. 3. Tit. 1. 2. Heb. 2. 17. a 6. 18. a 10. 23. a 11. 11. Dat. 19. 11. b adn. 24. Rhuf. 8. 28, 30. a 9. 24. Gal. 1. 15. 1 Thes. 2. 12. 2 Thes. 2. 14. 2 Tim. 1. 9. Heb. 3. 1. 1 Pedr 5. 10. c adn. 30. pen. 10. 16. Ioan 15. 4, 5. a 17. 21. Rhuf. 11. 17. Gal. 2. 20. Eph. 2. 20—22. a 3. 6. Heb. 3. 14. 1 Ioan 1. 3, 7. a 4. 13.

* Mae ffyddlondeb yr un peth â gwirionedd, neu eirwiredd, yma; ac mae yn arwyddo bod Duw wedi addaw yn ei air, cadarnâu, cynnal, a pherffeithio ei saint, sydd yn ei ofni ac ymddiried ynddo: mae llawer o addewidion felly i'w cael yn yr ysgrythyrau; ac mae yn anmhosibl i Dduw fod yn anffyddlawn i'r hyn a addawodd. † Y rhai a alwodd Duw yn saint, yn adn. 2, yw y rhai a alwodd efe i gymdeithas ei Fab yma: nid oes neb yn cael eu galw i gymdeithas Mab Duw, ond y rhai a alwyd yn saint, neu i fod yn saint. Mae cymdeithas â Mab Duw yn arwyddo undeb âg ef, ac oddi ar yr undeb hyny y mae cymdeithas yn tarddu: mae pob un o'r ddau yn sicrâu cadernid, diogelwch, a pharâd y saint hyd y diwedd, a'u perffeithiad diargyhoedd hwy yn nydd ein Harglwydd Iesu Grist.

10 [d] * Ac yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, [e] † trwy enw ein Harglwydd Iesu Grist, [f] ‡ ddywedyd o bawb o honoch chwi yr un peth, ‖ ac na byddo ymbleidio yn eich plith; § eithr bod o honoch wedi eich cyfan-gyssylltu yn yr un meddwl, ac yn yr un farn.

d pen. 4. 16. Rhuf. 12. 1. 2 Cor. 5. 20. a 6. 1. a 10. 1. Gal. 4. 12. Eph. 4. 1. Philemon 9, 10. 1 Pedr 2. 11. e Rhuf. 15. 30. 1 Thes. 4. 1, 2. 2 Thes. 2. 1. 1 Tim. 5. 21. 2 Tim. 4. 1. f Salm 133. 1. Jer. 32. 39. Ioan 13. 34, 35. a 17. 23. Act. 4. 32. Rhuf. 12. 16. a 15. 5, 6. a 16. 17. 2 Cor. 13. 11. Eph. 4. 1—7, 31, 32. Phil. 1. 27. a 2. 1—4. 1 Thes. 5. 13. Iago 3. 13—18. 1 Pedr 2. 8, 9.

* Yma mae yr apostol yn dechreu ar un o'r prif achosion a barodd iddo ysgrifenu yr epistol hwn at y Corinthiaid: mae yn atolygu arnynt fel brodyr, i ddywedyd yr un peth, ac na byddai ymbleidio yn eu plith. † Mae yn gwneyd hyny trwy enw yr Arglwydd Iesu Grist, eu Harglwydd hwy ac yntau: trwy awdurdod yr Arglwydd Iesu, a thrwy bobpeth oedd yn fawr, ac yn anwyl, yn yr enw rhagorol a gogoneddus hwnw. Mae enw yr Arglwydd Iesu Grist yn cael ei gyferbynu yn hardd ac yn briodol yma, i'r gwahanol enwau dynol yr oeddynt hwy yn barod i ymbleidio gyda hwynt. Gwel adn. 12. ‡ Mewn pethau athrawiaethol yr oedd yn angenrheidiol iddynt oll fod yn un feddwl, a dywedyd yr un peth; ac yn mhob peth arall, yr oedd gwrth-ddywedyd eu gilydd yn dra niweidiol ac anhardd. ‖ Na byddoch o wahanol farnau a thybiau, fel na byddo ymbleidio yn cyfodi yn eich plith, oddi ar y gwahanol farnau hyny. Mae y gair *(schismata)* "ymbleidio," yn arwyddo ymraniadau yn mhlith dynion yn dàl yr un athrawiaeth sylfaenol, ac yn cyd-gyfarfod i addoli yn yr un eglwys ac ordinhadau: felly mae ymbleidiau yma yn wahanol i heresiau, mewn athrawiaeth. § Gan nad oes genym ond un rëol, un gwirionedd, ac un Ysbryd yn Ddysgawdwr i ni; felly, yn ol ein gostyngeiddrwydd, ein symledd, a'n diwydrwydd i geisio deall y gwirionedd, ni a fyddwn wedi ein cyfan-gyssylltu yn yr un meddwl, ac yn yr un farn. Efallai nad yw yn bosibl wedi y cwbl, i *bawb* mewn cymdeithas grefyddol, fod yn hollawl o'r un meddwl a'r un farn yn *mhob* pwnc; ond mae yn bosibl i ni fod o dymher heddychol, a chyd-oddef ein gilydd mewn cariad; ac efallai bod hyny yn fwy o anrhydedd i'r efengyl, nâ'r unffurfiaeth mwyaf perffaith a aller ei ddychymmygu.

11 [g] * Canys fe ddangoswyd i mi am danoch chwi, fy mrodyr, gan y rhai *sydd o dy* Chlöe, [h] fod cynhenau yn eich plith chwi.

g pen. 11. 18. Gen. 27. 42. a 37. 2. 1 Sam. 25. 14—17. h pen. 3. 3. a 6. 1—7. Diar. 13. 10. a 18. 6. 2 Cor. 12. 20. Gal. 5. 15, 20, 26. Phil. 2. 14. 1 Tim. 6. 4. 2 Tim. 2. 23—25. Iago 4. 1, 2.

* Yma cawn ddatguddiad o'r achos i'r apostol ysgrifenu fel y gwnaeth yn yr adnod o'r blaen: dywedasid iddo gan rywrai o dŷ Chlöe, fod cynhenau yn mhlith y Corinthiaid. Tybia rhai mai meibion Chlöe oedd y Fortunatus ac Achaicus, a grybwyllir pen. 16. 17. Mae yn debyg mai rhyw wraig o benteulu yn Corinth ydoedd Chlöe, ac mae yr apostol yn dywedyd yn onest, mai o'i thŷ hi y daeth yr hanes anghysurus iddo ef: nid o fwriad drwg i'r Corinthiaid y dywedwyd, ac yr oedd y peth yn ddigon gwir; gan hyny pa raid cuddio y neb a ddywedodd?

12 [i] * A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd bod pob un o honoch yn dywedyd, [k] † Yr ydwyf fi yn eiddo Paul; ‡ minnau yn eiddo [l] Apòlos; ‖ minnau yn eiddo [m] Cephas; § minnau yn eiddo Crist.

i pen. 7. 29. a 15. 50. 2 Cor. 9. 6. Gal. 3. 17. k pen. 3. 4—

6, 21—23. a 4. 6. l pen. 16. 12. Act. 18. 24—28. a 19. 1. m pen. 9. 5. a 15. 5. Ioan 1. 42. Gal. 2. 9.

* Yma cawn yr achos, neu y testyn, o'r cynhenau a soniwyd uchod; pob un yn gwaeddi i fynu ei athraw hoff ei hun, ac yn ddirmygus o bawb eraill. † Yr oedd rhai o'r cenedloedd yn gwaeddi Paul i fynu uwchlaw pawb, fel gweinidog y dienwaediad, ac offeryn eu tröedigaeth hwy. ‡ Yr oedd eraill yn hoff iawn o Apòlos, fel pregethwr ymadroddus, gwresog, a chadarn yn yr ysgrythyrau, (Act. 18. 24, 25,) yr hwn oedd yn dyfrâu yr had a hauasai Paul. (pen. 3. 6.) || Eraill, dychweledigion Iuddewig, oeddynt yn fawr iawn am Cephas, neu Pedr, fel gweinidog yr enwaediad: ac fel yhyn yr oeddynt yn gosod eu gwahanol weinidogion yn lle Crist ei hunan, fel pe buasent hwy arglwyddi ac iachawdwyr iddynt, ac ar yr un pryd yn dirmygu pawb eraill, fel pe na buasent yn werth gwneyd cyfrif yn y byd o honynt. § Yr oedd yno bedwerydd plaid yn cymmeryd arnynt fod yn gymmaint eiddo Crist, fel nad oedd arnynt eisiau moddion na gweinidogion yn y byd o gwbl: diystyrent yr apostolion a'r gweinidogion enwocaf, dàn yr esgus eu bod yn gymmaint dàn ddysgeidiaeth Crist a'i Ysbryd yn ddigyfrwng, fel nad oedd arnynt eisiau neb dynion i'w dysgu. Efallai i rai o honynt glywed Crist ei hun yn pregethu yn nyddiau ei cynawd.

13 * A [n] rannwyd Crist? [o] † ai Paul a groeshoeliwyd drosoch? [p] ‡ neu ai yn enw Paul y'ch bedyddiwyd chwi?

n 2 Cor. 11. 4. Gal. 1. 7. Eph. 4. 5. o pen. 6. 19, 20. Rhuf. 4. 9. 2 Cor. 5. 14, 15. Tit. 2. 14. p adn. 15. pen. 10. 2. Mat. 28. 19. Act. 2. 38. a 10. 48. a 19. 5.

* O ba le y daeth y pleidiau a'r ymraniadau afresymol hyn? Gofynaf i chwi sydd yn cymmeryd arnoch fod gymmaint yn eiddo Crist, fel nad oes arnoch eisiau dim moddion, ordinâdau, na gweinidogaeth neb. A rannwyd Person Crist oddi wrth ei swyddau; neu ei swyddau oddi wrth y modd mae yn cyflawni ei swyddau, sef trwy weinidogaeth ei weision? A rannwyd Crist oddi wrth Paul, Apòlos, neu Cephas, neu ywrai eraill o'i wir weinidogion, y rhai yr addawodd efe fod gyda hwynt hyd ddiwedd y byd? Ai nid ydynt wy oll yn pregethu drwy ei awdurdod ef, ac yn ol ei wyllys ef, fel Pen ac Iachawdwr yr holl eglwys? Neu a neilluduwyd ei gymdeithas a'i gyfraniadau grasol lf trwy ei Ysbryd, oddi wrth y moddion a drefnodd ef ei un i'w trosglwyddo hwynt? Gofynaf i chwithau sydd yn gosod i fynu y naill weinidog neu y llall yn ben i chwi yn lle Crist, ac yn rhedeg i lawr bawb eraill; Ai Paul a fu farw i wneyd iawn dros eich pechodau chwi? ‡ neu a fedyddiwyd chwi drwy awdurdod Paul, ww ffydd, ei addoliad, ac ufudd-dod iddo ef; fel y yddech ddysgyblion i Paul, ac yn gyssegredig i'w asanaeth ef? Pan fedyddiwyd chwi, oni chyflwynwyd chwi yn hytrach y pryd hwnw i'r Arglwydd Iesu ei unan, fel wedi eich bedyddio yn ei enw ef? Fel hyn, nid yw yn afresymol iawn derchafu Paul gan un llaid, Apòlos gan blaid arall, a Phedr gan y drydedd, n y cyferbyniad lleiaf i Grist? Mae yn debyg fod eraill yn cael eu gwaeddi i fynu fel blaenoriaid pleidiau yn Corinth, mwy na'r tri hyn; ond yr oedd yn well iau yr apostol beidio ag enwi neb o honynt, ond ef ei un, Apòlos, a Chephas: yr oedd hyny yn llai tramwyddus na phe buasai yn enwi y gau-athrawon, y rhai edd gwir achos yr ymraniadau yn eu plith.

14 [q] * Yr ydwyf yn diolch i Dduw, na edyddiais i neb o honoch, ond [r] Crispus † [s] a Gaius;

q adn. 4. pen. 14. 18. 2 Cor. 2. 14. Eph. 5. 20. Col. 3. 15, 17. 1Thes. 5. 18. 1 Tim. 1. 12. Philemon 4. r Act. 18. 8. s Rhuf. 16. 23.

* Cawn hanes Crispus, ei tröedigaeth, a'i fedyddiad, yn Act. 18. 8. † Am Gaius gwel ar Rhuf. 16. 23. Am y achos fod Paul yn diolch na fedyddiasai efe ond y llau hyn, cawn weled yn yr adnod nesaf.

15 * Fel na ddywedo neb [t] fedyddio o honof fi yn fy enw fy hun.

t Ioan 3. 28, 29. a 7. 18. 2 Cor. 11. 2.

* Trefnodd rhagluniaeth Duw na fedyddiasai Paul ond ychydig ei hunan yn Corinth, ac yr oedd yn dda ganddo hyny yn awr, o herwydd yr ymbleidio oedd yno; fel nas gallai neb ddywedyd iddo fedyddio yn ei enw ei hun, fel pe buasai yn eu rhwymo drwy hyny i'w gydnabod ef yn ben ac yn flaenor iddynt. Efallai nad oedd efe wedi bedyddio neb o'r rhai oedd yn gwaeddi "Myfi wyf eiddo Paul;" ac nad oedd neb o'r rhai a fedyddiasai efe yn y blaid derfysglyd hòno.

16 * Mi a fedyddiais hefyd dylwyth [u] Stephanas: † heb law hynny nis gwn a fedyddiais i neb arall.

u pen. 16. 15, 17. Act. 16. 15, 33.

* Mae yr apostol yn ei gywiro ei hun, wrth adgofio iddo hefyd fedyddio tylwyth Stephanas: yr oedd hyn yn well, na phe buasai heb ei grybwyll, a rhai o'i wrthbleidwyr yn edliw y gwall iddo gwedi hyny. Y cwbl o hanes sydd genym am dylwyth Stephanas, sydd yn y fàn hon, a pen. 16. 15; yno dywedir mai blaen-ffrwyth Achaia oedd ei dylwyth ef: Gwel ar Rhuf. 16. 5. Gan nad oes sôn am fedyddio Stephanas ei hun yma nac yn pen. 16. 15, tybia rhai mai dynion mewn oedran i gyd oedd tylwyth ei dŷ ef, ac yn cael eu bedyddio ar broffes o'u ffydd bersonol eu hunain; ac nid ar sail cyfammod Duw â'r credinwyr *a'u had*, fel yr ydym yn deall am Lydia *a'i theulu*, (Act. 16. 15,) a cheidwad y carchar *a'r eiddo oll.* (Act. 16. 33.) Dyma'r unig fàn, ar y wyddom, yn y Testament Newydd, lle sonir am fedyddio "tylwyth" heb y pen-teulu; ac nid ydym yn sicr na fedyddiwyd Stephanas ei hun yma: mae yn debycach o lawer iddo gael ei fedyddio ar unwaith â'i dylwyth; oblegid yn pen. 16. 17, dywed yr apostol ei fod yn llawen am ddyfodiad Stephanas, Ffortunatus, ac Achaica, ato ryw bryd o'r blaen; yr hyn a ddengys ei fod yn gristion, pe amgen ni buasai yr apostol yn llawen am ei ddyfodiad. Fel hyn, mae yn ansicr iawn, a gafodd neb teuluoedd, fel y cyfryw, eu bedyddio yn amser yr apostolion, heb fod y pen-teulu yn cael ei fedyddio hefyd yn mlaenaf. † Oddi ar ei gof yr oedd yr apostol yn ysgrifenu, nid oedd achos ei fod yn anffaeledig mewn peth mòr ddibwys a hyn, pa sawl un yn gymhwys a fedyddiasai ef ei hun. Gwel ar pen. 7. 12, 25.

17 * Canys [x] ni anfonodd Crist fi i fedyddio, † ond i efengylu; [y] ‡ nid mewn doethineb ymadrodd, [z] || fel na wnelid croes Crist yn ofer.

x Ioan 4. 2. Act. 10. 48. a 26. 17, 18. y pen. 2. 1, 4, 13. 2 Cor. 4. 2. a 10. 3, 4, 10. 2 Pedr 1. 16. z pen. 2. 5.

* Mae yn sicr fod Paul wedi cael ei anfon i fedyddio yn gystal ag i bregethu; ond nid bedyddio oedd ei brif waith ef: pregethu yr efengyl, a throi pechaduriaid i'r ffydd ydoedd gorchwyl mawr ei fywyd ef; ac yr oedd yn gadael bedyddio i eraill, llai enwog a defnyddiol yn y weinidogaeth. Tybia rhai fod gweini yr ordinâdau yn fwy peth na phregethu yr efengyl; ond fel arall mae yn ymddangos yma. † "Efengylu" yw pregethu Crist wedi ei groeshoelio yn Geidwad addas i'r penaf o bechaduriaid, a gwahodd pechaduriaid gyda phob taerineb i ddyfod ato: nid oes dim yn deilwng o'r enw "efengylu" heb hyn, na dim ond hyn. ‡ "Doethineb ymadrodd" yw hyawdledd ac areithyddiaeth uchel, ysgolheigaidd, uwchlaw deall y gwrandawwyr, ac annhebyg i iaith syml, brydferth, ac eglur yr ysgrythyrau. "Doethineb ymadrodd" hefyd yw, ceisio gosod allan bethau mawrion Duw trwy resymau dynol ac athron-ddysg anianol. || Nid yw pob doethineb ymadrodd o'r fath uchod, ond anhaddu a gwanychu athrawiaeth fawr y groes; mae yr efengyl yn well, yn harddach, ac yn fwy effeithiol, yn ei hymadroddion gwerthfawr ei hun, nac mewn dim ymadroddion dieithr a rhith flodeuawg, y medro dynion chwyddedig ac ysgafn ei gwisgo â hwynt. Ceisio eu

dangos eu hunain mae dynion felly, ac nid pregethu Crist yn syml, yn Geidwad i golledigion truenus.

18 [a] * Canys yr ymadrodd am y groes, [b] i'r rhai colledig, [c] ynfydrwydd yw; [d] † eithr i ni y rhai cadwedig, nerth Duw ydyw.

a adn. 23, 24. pen. 2. 2. Gal. 6. 12—14. b Act. 13. 41. 2 Cor. 2. 15, 16. a 4. 3. 2 Thes. 2. 10. c adn. 21, 23, 25. pen. 2. 14. a 3. 19. Act. 17. 18, 32. d adn. 24. Salm 110. 2, 3. Rhuf. 1. 16. 2 Cor. 10. 4, 5. 1 Thes. 1. 5. Heb. 4. 12.

* Tybiai llawer o'r doethion paganaidd mai yr ynfydrwydd mwyaf yn y byd oedd pregethu iachawdwriaeth, bywyd, a gogoniant, trwy un oedd wedi marw ar y groes fel drwg-weithredwr, dàn y gwarth mwyaf, ac, yn eu tŷb hwy, heb allu ei waredu ei hunan. Nid yw yr ymadrodd am y groes fawr gwell eto gan y bydol-ddoethion, y beilchion, y rhai anystyriol, a deddfol, yn ein gwlad ninnau: ond colledig yw y cyfryw ddynion, a cholledig a fyddant yn y diwedd, os parânt i ddirmygu yr ymadrodd am y groes. † Ond y rhai a fyddant byth yn gadwedig, ac ydynt yn awr mewn cyflwr cadwedig; maent yn gwybod trwy brofiad, fod nerth Duw gyda'r athrawiaeth ddirmygedig hon, i dynu i lawr deyrnas Satan, ac i ddychwelyd pechaduriaid ato ei hun.

19 * Canys ysgrifenedig yw, [e] † Mi a ddifethaf ddoethineb y doethion, a deall y rhai deallus a ddileaf.

e pen. 3. 19. Job 5. 12, 13. Es. 19. 3, 11. a 29. 14. Jer. 8. 9.

* Yr hyn a ddywedodd Esaiah 29. 14, am y doethion Iuddewig yn ei amser ef, yr oedd yn gymhwysiadol hefyd at y doethion paganaidd yn amser Paul, ac at ddoethion y byd hwn yn mhob oes; † mae Duw yn dyfetha eu doethineb, ac yn dileu eu deall hwynt: mae yn dyrysu ac yn siomi eu holl dybiau a'u dyfeisiau hwy, trwy eu dangos oll yn aneffeithiol a diles i iachawdwriaeth, a thrwy ddwyn i'r golwg drefn arall, hollawl groes i'r hyn a ddychymmygent hwy.

20 * Pa le [f] *y mae* y doeth? † pa le *mae* yr ysgrifenydd? ‡ pa le *y mae* ymholydd y byd hwn? [g] || oni wnaeth Duw ddoethineb y byd hwn yn ynfydrwydd?

f Es. 33. 18. a 53. 1. g adn. 19. 2 Sam. 15. 31. a 16. 23. a 17. 14, 23. Job 12. 17, 20, 24. Es. 44. 25. Rhuf. 1. 22.

Mae yr apostol yma yn rhoddi beiddiad hŷf i holl ddirmygwyr yr efengyl, o Iuddewon a chenedloedd, cyffelyb i'r hyn a roddwyd i flaenoriaid byddin Senacherib gynt, Es. 33. 18. * Pa le mae yr athronydd doeth a dysgedig yn mhlith y Groegiaid, sydd yn ymffrostio o'i ddoethineb, megys yn rhagori ar bawb o bob cenedl arall? † Pa le mae yr ysgrifenydd, neu y dyn dysgedig a'r penaeth yn mhlith yr Iuddewon, yr hwn sydd yn gwneuthur yr hòniadau mwyaf i wybodaeth ac awdurdod barnol, o ran cyfraith Moses, a thraddodiadau yr henafiaid? ‡ Pa le mae y dyn, bydded ef Iuddew neu Roegwr, sydd yn ymddigrifo mewn pynciau a dadleuaeth, ac yn cymmeryd balchder mawr iddo ei hun mewn dadleu yn nghylch y ddeddf, neu am natur ac achosion pethau? Dangosed un, neu bawb o'r rhai hyn, ryw ffordd i bechadur gael gobaith ger bron Duw am fywyd tragywyddol, cystal â'r hon a ddengys yr efengyl, ac mae y credadyn yn gael yn aberth ac iawn Crist. || Pa beth a ddaeth o'r dynion hyn a fu yn enwog yn eu dydd? a allodd eu hoff ddychymmygion hwy eu hachub yn y byd tragywyddol yr aethant iddo? Pa lesâd a wnaeth eu dysgeidiaeth hwy i'w cyd-grëaduriaid? onid oedd y byd yn myned waeth-waeth o oes i oes mewn pechod a thrueni, dàn addysg y Rabbiniaid Iuddewig a'r athronwyr *(philosophers)* Groegaidd? Ac oni ddewisodd Duw ffol-bethau y byd, yn y diwedd, o'u blaen hwy i bregethu yr efengyl? Ac oni wnaeth y rhai hyny fwy o'u hôl ar y byd mewn ychydig flynyddoedd, nac a wnaeth y doethion, yr ysgrifenyddion, a'r ymholwyr hyn, mewn oesoedd? Ac onid oedd Duw felly yn gwneyd doethineb y byd hwn yn ynfydrwydd noeth? Tybia rhai fod y gwr oedd yn brif wrthwynebydd Paul yn Corinth, yn ei alw ei hun yn "ysgrifenydd;" os felly, yr oedd addasrwydd mawr yn y beiddiad uchod iddo ef â'r doethion Groegaidd hefyd.

21 * Canys o herwydd [h] yn noethineb Duw, [i] † nad adnabu y byd trwy ddoethineb mo Dduw, ‡ fe welodd Duw yn dda trwy [k] ffolineb pregethu gadw y rhai sydd yn credu.

h adn. 24. Dan. 2. 20. Rhuf. 11. 33. Eph. 3. 10. i Mat. 11. 25. Luc 10. 21. Rhuf. 1. 20—22, 28. k Gwel ar adn. 18.

* Wrth "ddoethineb Duw" yma, y deallir yr amlygiad au a roddes Duw o'i ddoethineb, i'r Iuddewon yn ngosod iadau yr hen oruchwyliaeth, ac i'r cenedloedd yn ngwaith y grëadigaeth, ac yn ei weithredoedd rhyfeddol yn rhag luniaeth y byd. † Er cymmaint ymffrost y byd yn eu doethineb, nid adnabu y byd mo Dduw trwy y doethineb hyny, ac yn wyneb yr amlygiadau a enwyd o'i ddoethineb a'i fawredd ef: ni chyrhaeddasant gyfryw adnabyddiaeth o Dduw ag oedd yn effeithiol i ddiwygio eu calonau na'u bucheddau; llawer llai i'w dwyn hwynt i iawn feddwl am drefn a ffordd iachawdwriaeth. ‡ Yn yr amgylchiad hyn, gwelodd Duw yn dda o'i wir ras e hun, i ddwyn goruchwyliaeth arall i'r byd, nas meddyl iodd y rhan fwyaf o'r byd erioed am dani; ac yr hon gyfrifid yn ffolineb gan y rhai digred a cholledig; (adn 18.) a hon oedd pregethu yr efengyl, pregethu Crist wedi ei groeshoelio yn ffordd o fywyd a dedwyddwch bawb a gredant ynddo; a thrwy y ffolineb hyn o bregethu, yn nghyfrif y byd, y gwelodd Duw yn dda i gadw y rhai sydd yn credu, a'u dwyn i gredu.

22 [l] * Oblegid y mae yr Iuddewon yn gofyn arwydd, [m] † a'r Groegwyr yn ceisio doethineb

l Mat. 12. 38, 39. a 16. 1—4. Marc 8. 11, 12. Luc 11. 16, 29 Ioan 2. 18. a 4. 48. m Act. 17. 18—21.

* Am yr Iuddewon yn gofyn arwydd o hyd, gwel y ysgrythyrau cyfeiriol dàn y lythyren *l*. Tybir mai y arwydd oeddynt hwy yn ofyn oedd, rhyw arwydd bod Messiah yn dyfod fel brenin daearol, i osod i fynu llyw odraeth dymmorawl yn ngwlad Canaan: ni chreden mai Iesu oedd y Messiah er pob arwyddion a gawsen heb hyny. Gwel ar Matth. 16. 1. † Sef y doethion a'r athronwyr yn mhlith y Groegiaid: yr oeddynt hw yn ceisio dangosiad o bob peth yn ol natur a rheswm ac ni chredent ddim onid amlygid ef trwy resyma naturiol iddynt: doethineb athronawl a fynent hwy y mhob peth, addurniadau areithyddiaeth, ac ymadrod hyawdl a dênus.

23 [n] * Eithr nyni ydym yn pregethu Crist wedi ei groeshoelio, [o] † i'r Iuddewon yn dram gwydd, ‡ ac i'r Groegwyr yn [p] ffolineb;

n adn. 18. pen. 2. 2. Luc 24. 46, 47. Act. 8. 32—35. a 10. 39-43. 2 Cor. 4. 5. Gal. 3. 1. a 6. 14. Eph. 3. 8. o Es. 8. 14, 1 Mat. 11. 6. Luc 2. 34. Ioan 6. 53—61. Rhuf. 9. 32, 33. Gal. 5. 1 1 Pedr 2. 8. p adn. 18. pen. 2. 14.

* Eithr nyni, apostolion a gweinidogion yr efengyl ydym yn pregethu un Iesu Grist, yr hwn a groeshoeliwyd yn Jerusalem, nid am ei bechodau ei hun, ond am bechodau ei bobl: yr ydym yn pregethu hwn a'i groes fel unig a digonol Iachawdwr i bawb a gredant ynddo Iuddewon a Groegwyr. † Mae hyn yn tramgwyddo y Iuddewon yn fawr, am eu bod yn dysgwyl Messiah y frenin daearol, ac yn enwedig yn ei chyfrif yn wart mawr i gredu mewn un a groeshoeliwyd ganddynt hw eu hunain, fel Iachawdwr. Nid oedd dim yn gwneyd cristionogaeth yn fwy dirmygus gan yr Iuddewon na athrawiaeth y groes; am hyny galwent Grist mewn ffordd o ddïystyrwch, *Tolvi*, y dyn a grogwyd, hyny yw *ar y groes;* a'r cristionogion, *Abde tolvi*, dysgyblion drwg-weithredwr croeshoeliedig; a'r efengyl, *Aven gelo* datguddiad o wagedd. ‡ Pregethu iachawdwriaeth eraill trwy un wedi ei groeshoelio fel drwg-weithredwr a gyfrifid yn ffolineb mwyaf yn y byd gan y Groegiaid dysgedig ac anian-ddoeth: os dywedid fod y person hwnw yn Dduw, barnent hyny yn ffolineb; pa fodd gallai Duw farw? ac os dywedid ei fod yn Dduw-dy dwy natur yn un person, barnent hyny yn ffolin

hefyd: nid oedd yr un o'r tri pheth yn dyfod o fewn cyrhaedd eu hamgyffred a'u rhesymaeth anianol hwynt, am hyny ffolineb ynfyd oedd y cwbl.

24 * Ond iddynt hwy y rhai [q] a alwyd, Iuddewon a Groegwyr, † yn Grist [r] gallu Duw, [s] ‡ a doethineb Duw.

q adn. 2, 9. Luc 7. 35. Rhuf. 8. 28—30. a 9. 24. r adn. 18. Rhuf. 1. 4, 16. s adn. 30. Diar. 8. 1, 22—30. Col. 2. 3.

* Ond y rhai oll a alwodd Duw yn effeithiol yn ol ei arfaeth, Iuddewon a Groegwyr, † nid yn unig a welsant *allu* Duw yn y gwyrthiau trwy ba rai y cadarnâwyd yr efengyl; ‡ a *doethineb* Duw yn nhrefn ogoneddus yr iachawdwriaeth, fel mae yn mawrâu y ddeddf, ac yn anrhydeddu y priodoliaethau dwyfol; ond hefyd hwy a brofasant Grist yn allu Duw a doethineb Duw, i'w gwaredu hwynt o gaethiwed pechod, ac i'w gwneyd yn ddoeth i iachawdwriaeth. Gwelsant a phrofasant yn eglur, mai Crist a'i efengyl oedd y moddion ardderchog i amlygu gallu a doethineb Duw, yn nadymchweliad teyrnas Satan o eilun-addoliaeth a phechod, ac er dyrysu ei holl ddyfeisiau cyfrwys ef a'i offerynau.

25 * Canys [t] y mae ffolineb Duw yn ddoethach na dynion; † a gwendid Duw yn gryfach na dynion.

t adn. 18, 27—29. Ex. 13. 17. a 14. 2—4. Jos. 6. 2—5. Barn. 7. 2—8. a 15. 15, 16. 1 Sam. 17. 40—51. 1 Bren. 20. 14, &c. Zec. 4. 6, 7. a 12. 7, 8. Rhuf. 11. 33—36

Y pethau a dybir yn "ffolineb" a "gwendid Duw" gan ddynion deddfol, anianol, a rhagfarnllyd; mae y pethau hyny yn ddoethach ac yn gryfach na holl ddoethineb a chryfder dynion. * Yr hyn a gyfrifid yn ffolineb Duw oedd trefn yr efengyl o gadw pechaduriaid; methodd holl ddoethineb dynion a dyfeisio yr un drefn arall, na phrofi dim ffolineb yn nhrefn Duw. † Yr hyn a gyfrifid yn wendid Duw oedd meddwl troi a dychwelyd y byd trwy ychydig o apostolion a phregethwyr tlodion, ac annysgedig y rhan fwyaf o honynt: yr oedd hyn yn gryfach na dynion; methodd cadernid a chaledrwydd galon miloedd a dàl yn ngwyneb y cenadon a'r offerynau gwaelion dynion, a methodd gan holl gryfder erlidwyr roddi taw arnynt, ac attal rhediad yr efengyl. Eto, yr hyn ni fedrodd holl ddoethineb y byd, a holl gyfreithiau ac awdurdodau y byd ei wneyd drwy yr holl oesoedd, hsef diwygio y byd oddi wrth arferion drwg; e wnaeth Duw hyny trwy yr efengyl a'i chenadon gweiniaid, i traddau rhyfeddol iawn mewn ychydig flynyddoedd.

26 * Canys yr ydych yn gweled eich galwedigaeth, frodyr, [u] nad llawer o *rai* doethion yn ol y cnawd, [x] nad llawer o *rai* galluog, nad llawer o *rai* boneddigion, *a alwyd.*

u adn. 20. pen. 2. 3—6, 13. a 3. 18—20. Mat. 11. 25, 26. Luc 10. 21. Ioan 7. 47—49. Iago 3. 13—17. x Luc 1. 3. a 18. 24, 25. Ioan 4. 46—53. a 19. 38, 39. Act. 13. 7, 12. a 17. 34. Phil. 4. 22. Iago 1. 9—11. a 2. 5. 2 Ioan 1.

* I brofi gwirionedd yr hyn a ddywedwyd yn adn. 25, mae yr apostol yn cyfeirio y Corinthiaid at yr hyn a wyddent hwy am dano yn eu plith eu hunain: galwodd Duw *rai* yn eu plith hwy o'r doethion, y galluog, a'r boneddigion; i ddangos mai nid ffolineb a gwendid yw yr efengyl mewn gwirionedd, ond bod rhai o fawrion y byd yn gweled mawredd a gogoniant ynddi, ac yn ei phrofi yn allu a doethineb Duw i'w heneidiau. Ond nid *llawer* o'r doethion, y galluog, a'r boneddigion, a galwyd; i ddangos nad yw Duw dderbyniwr wyneb, ac mai nid yr hyn a gyfrif y byd hwn yn ddoethineb a nerth, yw doethineb a nerth trefn a moddion Duw i achub pechaduriaid. Gwedi y cwbl, tybir mai y rhai a galwodd Duw i bregethu yr efengyl yn Corinth a feddylir yn benaf, a galwedigaeth effeithiol y Corinthiaid trwy yr offerynau gwael hyny: nid llawer o rai doethion, galluog, a boneddigion a alwodd efe i'r weinidogaeth; ond pysgodwyr anllythyrenog, gwneuthurwyr pebyll, ac eraill heb fawredd bydol nac awdurdod yn y byd ganddynt, ac eto, drwy y rhai distadl hyn, efe a wnaeth gwaith rhyfedd yn Corinth, trwy yr hyn y dangosodd fod ffolineb Duw yn ddoethach na dynion, a gwendid Duw yn gryfach na dynion.

27 * Eithr Duw [y] a etholodd ffol-bethau y byd, † fel y gwaradwyddai y doethion; ‡ a gwan-bethau y byd a etholodd Duw, fel y gwaradwyddai y pethau cedyrn;

y Salm 8. 2. Es. 26. 5, 6. a 29. 14, 19. Zeph. 3. 12. Mat. 4. 18—22. a 9. 9. a 21. 16. Luc 19. 39, 40. a 21. 15. Luc 19. 39, 40. a 21. 15. Act. 4. 11—21. a 6. 9, 10. a 7. 35, 54. a 17. 18. a 24. 24, 25. 2 Cor. 4. 7. a 10. 4, 5, 10.

* Yr apostolion, ac efallai cristionogion eraill, dynion na chyfrifid mo honynt gan lawer ddim gwell na gwirioniaid, ffol-bethau y byd. † Dewisodd Duw y rhai hyn i waradwyddo y doethion, yn eu dadleuon â hwynt, ac yn rhagoriaeth eu dysgeidiaeth ar yr eiddynt hwy. Gwel Matth. 7. 29. A gwàn-bethau y byd; dynion isel iawn eu hamgylchiadau, a hollol ddiawdurdod gwladol, a'r rhai y tybid na ddalient ddim erlid, carchariad, na dyoddefiadau yn achos yr efengyl; || dewisodd Duw y rhai hyn i synu a gwaradwyddo eu herlidwyr cedyrn a chreulawn: cywilyddiwyd hwy am eu gelyniaeth yn erbyn yr efengyl, wrth weled ei heffeithiau ar bethau gweiniaid, eu dianwadalwch a'u cadernid, a hyny er gwaethaf eu holl ymgais hwy i geisio eu darostwng a'u dyddymu.

28 * A phethau distadl y byd, † a phethau dirmygus, a ddewisodd Duw, [z] ‡ a'r pethau nid ydynt, [a] || fel y diddymai y pethau sydd;

z Rhuf. 4. 17. 2 Cor. 12. 11. a pen. 2. 6. Deut. 28 63. Job 34. 19, 20, 24. Salm 32. 10. a 37. 35, 36. Es. 2. 11, 17. a 17. 13, 14. a 37. 36. a 41. 12. Dan. 2. 34, 35, 44, 45. Dat. 18. 17.

* Distadl o waedoliaeth a genedigaeth, yw ystyr y gair Groeg *agenê*, a ddefnyddir yn y fàn hon. † Dirmygus gan y mawrion, herwydd eu tlodi; gan y doethion, herwydd eu hannwybodaeth; a chàn y moesolion, herwydd eu hanfoesoldeb a'u harferion drwg, efallai, cyn i Dduw eu galw trwy ras. ‡ Tybir mai y cenedloedd galwedig a feddylir yma, ac fel hyn yr arferai yr Iuddewon eu galw, "pethau nid ydynt," o dra dirmyg arnynt. Gwel yn yr Apocrypha, Esther 14. 11; 2 Esdras 6. 56, 57; ac hefyd Rhuf. 4. 17. || Dewisodd Duw bethau distadl, dirmygus, a diddym y byd, i ddarostwng, gwaradwyddo, a diddymu y pethau sydd yn fawr ac yn uchel yn eu golwg eu hunain ac yn ngolwg y byd. Cymmerodd y llwybr hwn yn ngoruchwyliaeth ei benarglwyddiaethol ras, i dywallt dirmyg ar bob mawredd bydol.

29 [b] * Fel na orfoleddai un cnawd ger ei fron ef.

b adn. 31. pen. 4. 7. a 5. 6. Salm 49. 6. Es. 10. 15. Jer. 9. 23. Rhuf. 3. 19, 27. a 4. 2. a 15. 17. Eph. 2. 9.

* Fel na chaffai neb achlysur i ddywedyd, i Dduw ei ddewis ef o herwydd unrhyw ragoriaeth naturiol ynddo ef mwy nac eraill. Trefnodd yr Arglwydd bob peth yn iachawdwriaeth pechaduriaid i ddarostwng uchel-drem dyn, ac i ddiogelu y gogoniant iddo ei hun.

30 * Eithr yr ydych chwi o hono ef [c] yng Nghrist Iesu, [d] † yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw, [e] ‡ yn ddoethineb, ac yn [f] gyfiawnder, ac yn [g] sanctteiddrwydd, ac yn [h] brynedigaeth:

c pen. 12. 18, 27. Es. 45. 17. Ioan 15. 1—6. a 17. 21—23. Rhuf. 8. 1. a 12. 5. a 16. 7, 11. 2 Cor. 5. 17. a 12. 2. Eph. 1. 3, 4. a 2. 10. d Rhuf. 11. 36. 2 Cor. 5. 18—21. e adn. 24. pen. 12. 8. Diar. 1. 20. a 2. 6. a 8. 5. Dan. 2. 20. Luc 21. 15. Ioan 1. 18. a 8. 12. a 14. 6. a 17. 8, 26. 2 Cor. 4. 6. Eph. 1. 17, 18. a 3. 9, 10. Col. 2. 2, 3. a 3. 16. 2 Tim. 3. 15—17. Iago 1. 5. f Salm 71 15, 16. Es. 45. 24, 25. a 54. 17. Jer. 23. 6. a 33. 16. Dan. 9. 24. Rhuf. 1. 17. a 3. 21—24. a 4. 6. a 5. 19, 21. 2 Cor. 5. 21. Phil. 3. 9. 2 Pedr 1. 1. g adn. 2. pen. 6. 11. Mat. 1. 21. Ioan 17. 17—19. Act. 26. 18. Rhuf. 8. 9. Gal. 5. 22—24. Eph. 2. 10. a 5. 26. 1 Pedr 1. 2. 1 Ioan 5. 6. h pen. 15. 54—57. Hos. 13. 14. Rhuf. 3. 24. a 8. 23. Gal. 1. 4. a 3. 13. Eph. 1. 7. a 4. 30. Col. 1. 14. Tit. 2. 14. Heb. 9. 12. 1 Pedr 1. 18, 19. Dat. 5. 9. a 14. 4.

* Bod yn y noddfa ddiogel byth yw, bod yn Nghrist Iesu; a pheth o Dduw a'i ras yn unig yw, bod y saint yno, nid o ddim ynddynt eu hunain, na chyn na chwedi

eu tröedigaeth: O mòr fendigedig yw y dynion sydd yn Nghrist Iesu! † Pa beth bynag yw Crist Iesu i'w bobl, mae wedi ei wneuthur felly iddynt gan Dduw Dad, yn ei arfaeth a'i drefn rasol, ac yn ei gyngor a'i gyfammod tragywyddol. ‡ Mae wedi ei wneuthur yn ddoethineb, ar gyfer ein hynfydrwydd a'n hannwybodaeth ni; yn gyfiawnder, ar gyfer ein heuogrwydd a'n hanghyfiawnder ni; yn sancteiddrwydd, ar gyfer ein haflendid a'n halogrwydd ni; ac yn brynedigaeth, ar gyfer ein cyfiwr caeth colledig ni. Mae rhai yn darllen y geiriau fel hyn:—"oblegid o hóno ef, (yn Nghrist Iesu, yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb,) yr ydych chwi yn gyfiawnder, yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth:" hyny yw, yn berffaith gyfiawn, sanctaidd, a phrynedig. Yn erbyn hyn rhaid dywedyd, nad yw y saint yn berffaith sanctaidd ar y ddaear. Mae efe yn *ddoethineb* i ni, fel y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth ynddo ef yn guddiedig, i oleuo a dysgu ei bobl trwy ei air a'i Ysbryd. Mae yn *gyfiawnder* i ni, fel mae yr hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd efe yn ein deddfle yn cael ei gyfrif yn gyfiawnder i ni, trwy ffydd ynddo ef, er maddeuant o'n pechodau, a'n rhyddâu oddiwrth gondemniad. Mae efe yn *sancteiddrwydd* i ni, fel mae ei waed ef yn puro ein cydwybodau oddi wrth weithredoedd meirwon, ac yn ein glanâu oddi wrth bob pechod; ac fel mae pob gras adnewyddol, bywâol, a sancteiddâol ynddo ef, ac yn dyfod o hóno ef i ni, i'n sancteiddio yn dufewnol, trwy weithrediadau ei Ysbryd ynom. Mae efe yn *brynedigaeth* i ni, fel y mae wedi ein prynu er gwerth ar y groes, fel mae yn ein gwaredu oddi wrth Satan a phechod yn y byd hwn, ac fel y gweryd ein cyrph o'r bedd yn yr adgyfodiad mawr.

31 * Fel, megis ag y mae yn ysgrifenedig, [i] Yr hwn sydd yn ymffrostio, ymffrostied yn yr Arglwydd.

i 1 Cron. 16. 10, 35. Salm 105. 3. Es. 41. 16. a 45. 25. Jer. 4. 2. a 9. 24. 2 Cor. 10. 17. Gal. 6. 13, 14. Phil. 3. 3.

* Mae hyn yn ysgrifenedig yn Jer. 9. 23, 24: nid yw ddyfyniad cywir o eiriau y prophwyd, ond yn cynnwys eu meddwl cyffredin. † Dyben mawr Duw yn darpar iachawdwriaeth fel hyn yn Nghrist oedd, diogelu y gogoniant iddo ei hun: fel na orfoleddai un cnawd ger ei fron ef, (adn. 29,) ond bod i bawb o'r gwaredigion ymffrostio yn yr Arglwydd. Mae trefn fawr yr iachawdwriaeth yn gosod pob plaid yn ei lle priodol ei hun; Duw yn ei le ar yr orsedd, a phechadur yn ei le yn y llwch, wrth droed-fainc yr orsedd hòno: ac ar yr un pryd yn cael ei fywyd, ac yn clodfori Duw am y drefn i hyny.

PEN. II.

Paul yn dangos fod ei bregeth ef yn sefyll mewn nerth Duw, ac yn rhagori ar bob doethineb dynol, &c.

* AMYFI, [a] pan ddaethum attoch, frodyr, † a ddaethum nid [b] yn ol godidowgrwydd ymadrodd, neu ddoethineb, ‡ gan fynegi i chwi [c] dystiolaeth Duw.

a Act. 18. 1—4. b adn. 4, 13. pen. 1. 17. Ex. 4. 10. Jer. 1. 6, 7. Rhuf. 16. 18. 2 Cor. 10. 10. a 11. 6. c pen. 1. 6. Es. 8. 20. Act. 21. a 22. 18. 2 Thes. 1. 10. 1 Tim. 1. 11. 2 Tim. 1. 8. 1 Ioan 4. 14. a 5. 11—13. Dat. 1. 2, 9. a 19. 10.

* Pan ddaeth yr apostol, fel estron Iuddewig, i blith y Corinthiaid boneddigaidd, cymhen-ddoeth, a phenrhydd; † ni chynnygiodd efe dynu eu sylw trwy odidowgrwydd ymadrodd neu iaith oruchel, trwy goeg-addurn areithyddiaeth, neu resymau cywrein-ddoeth athroniaeth: ‡ ei holl amcan ef oedd mynegi iddynt dystiolaeth Duw, yn nghylch yr unig ffordd o iachawdwriaeth rhag tragywyddol drueni, ac i gael bywyd tragywyddol; ac nis goddefai cenadwri o'r fath bwys anfeidrol, iddo ef wag-ddefnyddio y fath addurniadau annheilwng a diwerth. Mae yn debyg bod iaith uchel a dysgedig mewn bri mawr gan y dysgedigion Groegaidd, ac yn cael ei harfer gan y gau-athrawon yn Corinth; ond nid oedd yn angenrheidiol nac yn gweddu i symledd y efengyl, nac i'r pwys oedd ar feddwl Paul am iachawdwriaeth eneidiau dynion, er y medrai lefaru yn ddiammau mòr ardderchog â neb o honynt.

2 [d] * Canys ni fernais i mi wybod dim yn eich plith, † ond Iesu Grist, a hwnnw wedi e groeshoelio.

d pen. 1. 22—25. Ioan 17. 3. Gal. 3. 1. a 6. 14. Phil. 3. 8—10

* Ni farnodd efe fod yr un gangen o wybodaeth a feddai, yn werth iddo ei dangos na sôn am dani, † ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio. Yr oedd ef e hun wedi cyfrif pob peth yn golled er mwyn ardderchawgrwydd gwybodaeth Crist Iesu ei Arglwydd; am hyny yr oedd yn myned i blith y Corinthiaid fel pe buasai heb wybod dim, na dysgeidiaeth Iuddewig nâ Groegaidd, ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio. Iesu Grist wedi ei groeshoelio, mae yn debyg, oedd yr enw oedd gan yr Iuddewon a'r Groegwyr ar y Cyfryngwr, mewn ffordd o wawd; a hwnw oedd gan Paul i'w bregethu, nid oedd yn meddwl cadw ei *groeshoeliad* ef o'r golwg, fel y dywedir i'r Jesuitiaid wneyd yn China, pan ddeallasant fod hyny yn rhwystr i'r Chineaid i dderbyn eu hathrawiaeth hwynt.

3 * A mi a fûm yn eich mysg [e] mewn gwendid, † ac ofn, ‡ a dychryn mawr.

e pen. 4. 10—13. Act. 18. 6—11. a 20. 18, 19. 2 Cor. 4. 1, 7—12, 16. a 6. 4. a 7. 5. a 10. 1, 10. a 11. 29, 30. a 12. 5—10. a 13. 4. Gal. 4. 13, 14.

* Gwendid areithyddiaeth, o ran godidowgrwydd ymadrodd; neu wendid sefyllfa, mewn amgylchiadau gwael ac isel; neu wendid corph, gan lafur caled a bywioliaeth galed; neu ynte wendid meddwl, wrth weled trueni y trigolion, mawredd ei waith, a'i annigonolrwydd ei hun at y gwaith: mae gwylder a gostyngeiddrwydd meddwl yn ymddangos i'r byd yn wendid a llwfrdra meddwl. † "Ofn," rhag y buasai i ragfarn yr Iuddewon yn erbyn yr efengyl, a rhagfarn y Groegiaid yn erbyn yr efengyl, a'i ymddangosiad gwael a'i araeth ddiaddurn yntau hefyd, beri i bawb yn Corinth wrthod yr efengyl, ac i'w genadwri yntau aflwyddo yno: efallai bod ofn terfysg ac erlid yn yr ofn hwn hefyd. ‡ Yr oedd yr ofn a'r wasgfa yn gymmaint ar feddwl yr apostol, fel yr oedd mewn "dychryn mawr," rhag y buasai i'w wendid ei hun llygredigaeth y Corinthiaid, ac awdurdod Satan, rwystro ei lwyddiant ef, a thaflu ei athrawiaeth ogoneddus i warth. Y llwybr goreu i ddeall yr adnod hon wedi y cwbl yw, troi at yr ysgrythyrau cyfeiriol a berthyn iddi.

4 [f] * A'm hymadrodd, a'm pregeth i, [g] † ni *bu* mewn geiriau denu, o ddoethineb dynol, [k] ‡ ond yn eglurhâd yr Yspryd a nerth:

f Act. 20. 27. g adn. 1, 13. pen. 1. 17. Barn. 14. 15. a 16. 5. 2 Sam. 14. 17—20. a 15. 2—6. 1 Bren. 22. 13, 14. 2 Cron. 18. 19—21. Diar. 7. 21. a 20. 19. Jer. 20. 10. Ezec. 13. 6, 10, 11. Rhuf. 16. 18. Col. 2. 4. 2 Pedr 1. 16. a 2. 18. h pen. 4. 20. Ioan 16. 8—15. Rhuf. 15. 19. 1 Thes. 1. 5. 1 Pedr 1. 12.

* Un ai yr oedd "ymadrodd a phregeth" Paul yn arwyddo yr un peth, sef ei athrawiaeth gyhoeddus ef, neu ynte yr oedd ei "ymadrodd" yn arwyddo ei ymddiddanion cyffredin ef â'r bobl, a'i "bregeth" yn arwyddo ei weinidogaeth gyhoeddus yn eu plith. † Pa un bynag o'r ddau, nid oedd ei ymadrodd nâ'i bregeth ef mewn geiriau denu, o ddoethineb dynol: nid rhywbeth i weithio ar y tymherau, y serchiadau, a'r dychymmygion heb agor y deall, yr hyn a elwir *ffraethoneg;* ac nid rhyw ymresymu yn gywrain ac athronawl, i lenwi penau dynion â phynciau oerion, sychion, heb effeithio dim ar eu calonau, yr hyn a elwir *rhesymeg*, neu *arbwylleg*. Nid goglais y glust, boddio y dychymmyg, a lladrata y meddwl, oedd ei amcan ef, er codi plaid iddo ei hun ond derchafu Crist ac achub eneidiau dynion. ‡ Fe'i dyben hyn yr oedd peth annhraethol mwy effeithiol na geiriau denu, o ddoethineb dynol, yn cyd-fyned â'i ymadrodd a'i bregeth ef; sef eglurâd yr Ysbryd a nerth nid gwyrthiau allanol yr Ysbryd yn unig, fel y tybir rhai, ond arddelwad nerthol yr Ysbryd ar y gair yn du

mewnol, yn argyhoeddi, yn ail-eni, ac yn bywâu pechaduriaid yn ysbrydol trwy y gwirionedd. Gwelodd llawer ei wyrthiau allanol ef, heb erioed gael eu cyfnewid yn rasol ganddo.

5 * Fel na byddai eich ffydd mewn doethineb dynion, [i] † ond mewn nerth Duw.

i pen. 1. 17. a 3. 6. Act. 16. 14. 2 Cor. 4. 7. a 6. 7.

* Fel na byddai eich ffydd wedi ei chenedlu gan ddoethineb dynion, nac yn ymddybynu ar ddoethineb dynion: † ond wedi ei chenedlu drwy nerth Duw, eglurâd a nerth Ysbryd Duw, ac yn cael ei chynnal mewn bod a gweithrediad gan nerth Duw yn wastadol. Mab Duw yw gwrthddrych gwir ffydd gadwedigol; gair a thystiolaeth Duw am ei Fab, yw ei sylfaen a'i rhëol; ac Ysbryd Duw yn ei eglurâd a'i nerth yw ei gweithredydd a'i chynnalydd: fel hyn nid oes dim dynol ynddi, nac yn achos o hóni: rhodd a gweithrediad Duw ydyw.

6 * A doethineb yr ydym ni yn llefaru † ym mysg [k] rhai perffaith: [l] ‡ eithr nid doethineb y byd hwn, [m] na thywysogion y byd hwn, [n] || y rhai sydd yn diflannu.

k pen. 14. 20. Job 1. 1. Salm 37. 37. Mat. 5. 48. a 19. 21. 2 Cor. 13. 11. Eph. 4. 11—13. Phil. 3. 12—15. Col. 4. 12. Heb. 5. 14. Iago 3. 2. 1 Pedr 5. 10. l adn. 1, 13. pen. 1. 18, 19. Luc 16. 8, 2 Cor. 1. 12, a 4. 4. Eph. 2. 2. Iago 3. 15. m adn. 8. Job 12. 19, 21. Salm 2. 1—6. Es. 19. 11—13. a 40. 23. Act. 4. 25—28. n Gwel ar pen. 1. 28.

* Er nad oedd yr apostol, a gwir weinidogion yr efengyl, yn gwisgo yr efengyl â blodau areithyddiaeth ddynol, ac er ei chyfrif yn ffolineb ac ynfydrwydd gan lawer; eto yr oeddynt hwy yn pregethu y ddyfais ogoneddus o drefniad Duw i gadw pechaduriaid; yr hon uwchlaw pobpeth arall, oedd yn arddangos mawr amryw ddoethineb Duw: ac yr hon oedd yn addas, wedi ei bwriadu, ac yn cael ei bendithio, i wneyd dynion yn ddoeth i iachawdwriaeth, trwy ffydd yn y Gwaredwr croeshoeliedig. † Ac felly cyfrifid eu gweinidogaeth hwy yn mysg a chàn y rhai oedd yn credu, y rhai oedd wedi eu galw yn effeithiol, y rhai oedd wedi eu goleuo gan yr Ysbryd Glân; a chwedi cyrhaedd graddau go fawr o wybodaeth a gras yn eu hadnabyddiaeth o'r efengyl. ‡ Nid "perffaith" yn ystyr eithaf y gair a feddylir; nid oedd y Corinthiaid felly, (pen. 3. 1—3.) ac nid oes neb arall ar y ddaear; ond perffaith o ran sefyllfa eu cyflwr, gwirionedd eu gras, a pherffaith mewn cymhariaeth i'r rhai digred, ac i'w brodyr gwànach a thywyllach na hwynt-hwy. ‡ Nid yr hyn a gyfrifai athronwyr, dysgedigion, tywysogion, a dynion anianol y byd hwn yn ddoethineb; yr oedd doethineb yr efengyl yn *wahanol* iiawn i ddoethineb y byd hwn, ac mewn llawer o bethau yn hollawl *groes* iddi, ac i dywysogion a gwŷr mawr y byd hwn. || Yr oedd tywysogion y byd hwn â'u doethineb i ddiflanu yn fuan; ond yr oedd yr efengyl a'i doethineb nefol hi i barâu byth; a phawb a wnelid yn ddoeth ganddi, i etifeddu bywyd tragywyddol. Tybia rhai mai cyfeiriad sydd yma at ddinystr gwŷr mawr yr Iluddewon, a diddymiad yr oruchwyliaeth Iuddewig; ond nid oes achos cyfyngu y geiriau i hyny.

7 * Eithr yr ydym ni yn llefaru doethineb Duw † mewn dirgelwch, [o] ‡ *sef y ddoethineb* guddiedig, yr hon a rag-ordeiniodd Duw || cyn yr oesoedd [p] i'n gogoniant ni.

o Salm 78. 2. Es. 48. 6, 7. Mat. 11. 25. a 13. 35. Rhuf. 16. 25, 26. Eph. 1. 4. a 3. 4—9. Col. 1. 26, 27. 2 Tim. 1. 9. 1 Pedr 1. 11, 12. Dat. 13. 8. p 1 Pedr 5. 1, 10. 2 Pedr 1. 3.

* Doethineb Duw yw yr efengyl, fel y sylwyd ar yr adnod o'r blaen. † Nid llefaru mewn dirgelwch yn ddiau a feddylir; er mai felly yr oedd yn llefaru hefyd i sawleroedd; (Gwel 2 Cor. 4. 3, 4,) ond doethineb Duw oedd mewn dirgelwch, nes ei hegluro trwy bregethu. ‡ Yr oedd y ddoethineb hon mewn dirgelwch, ac yn guddiedig gan Dduw, yn ei gyngor ei hun, wedi ei rhag-ordeinio cyn yr oesoedd, sef er tragywyddoldeb: ibu yn guddiedig hollawl i'r cenedloedd, trwy holl oesoedd y byd, hyd agoriad goruchwyliaeth yr efengyl; ac nid oedd ond tywyll ac aneglur iawn i'r Iuddewon, trwy holl oruchwyliaeth y cysgodau. Mae hefyd yn rhŷ ddofn ac anchwiliadwy i'w chwbl amgyffred gan un crëadur ar y ddaear, na chàn yr angelion eu hunain, (1 Pedr 1. 12,) ac mae yn rhŷ ysbrydol ac uchel, i'w deall a'i derbyn gan y dyn anianol, adn. 14. || "Cyn y byd," yw y Saesoneg; ond cyn yr oesoedd yw meddwl y geiriau Groeg, *(prò tôn aiónón)* fel yn ein cyfieithiad ni. Cyn oesoedd yr oruchwyliaeth Iuddewig, medd rhai; ond paham nad cyn oesoedd y byd oll yn gystal â hyny? § Rhag-ordeiniodd y dirgelwch cuddiedig hwn i'w ddatguddio dàn oruchwyliaeth yr efengyl, drwy yr efengyl, ac er gogoniant yr efengyl, ei gweinidogaeth, ei gweinidogion, a'i deiliaid; ac er tragywyddol ddedwyddwch a gogoniant pob un o honom, sydd yn caru Duw mewn gwirionedd, adn. 9.

8 [q] * Yr hon † ni adnabu neb o dywysogion y byd hwn: [r] ‡ o herwydd pes adwaenasent, ni chroeshoeliasent [s] Arglwydd y gogoniant.

q adn. 6. pen. 1. 26—28. Mat. 11. 25. Ioan 7. 48. r Luc 23. 34. Ioan 3. 19—21. a 8. 19. a 9. 39—41. a 12. 40—43. a 15. 22—25. a 16. 3. Act. 3. 17. a 13. 27. 2 Cor. 3. 14. 1 Tim. 1. 13. s Salm 24. 7—10. Act. 3. 15. a 7. 2. Iago 2. 1.

* Yr hon ddoethineb ddwyfol, a soniwyd yn yr adnod o'r blaen. † Nid adnabu Caiaphas, Pilat, Herod, na neb o dywysogion yr oes hòno, yn mhlith yr Iuddewon nâ'r cenedloedd, er iddynt glywed sôn am dani. ‡ Pe buasai y gwŷr mawrion hyny yn adnabod y ddoethineb ddwyfol hon, buasent yn cael eu hattal, o leiaf gan ofn, rhag croeshoelio Arglwydd y gogoniant: y Person Dwyfol hwnw, ag oedd yn Arglwydd y gogoniant hyd yn oed pan oedd yn grogedig ar y groes; yn Dduw yn natur dyn, yn Llywodraethwr a Barnwr yr holl fyd. Tybia rhai mai galwad y cenedloedd yn unig yw "doethineb Duw mewn dirgelwch" yma, yr hon nid adnabu neb o dywysogion y byd hwn; ond pe buasai blaenoriaid yr Iuddewon yn deall fod amcan Crist ar alw y cenedloedd, buasai hyny yn eu llidio hwynt yn fwy i'w erbyn, ac yn eu hannog yn fwy i'w groeshoelio. Cawsai pob un o'r tywysogion a feddylir yma gyfleusdra digonol i adnabod Arglwydd y gogoniant, a doethineb Duw ynddo ef; gan hyny gwirfoddol oedd eu hannwybodaeth, ac nid oedd mewn un modd yn esgusodi eu gwaith yn ei groeshoelio ef.

9 * Eithr fel y mae yn ysgrifenedig, [t] † Ni welodd llygad, ‡ ac ni chlywodd clust, || ac ni ddaeth i galon dyn, [u] § y pethau a ddarparodd Duw i'r [x] rhai a'i carant ef.

t Es. 64. 4. Ioan 3. 16. 1 Pedr 1. 12. u Salm 31. 19. Mat. 20. 23. a 25. 34. Heb. 11. 16. x Rhuf. 8. 28. Iago 1. 12. a 2. 5. 1 Ioan 4. 19.

* Eithr fel y mae yn ysgrifenedig yn Es. 64. 4: wrth grybwyll adnodau o'r Hen Destament, nid yw ysgrifenwyr y Testament Newydd yn eu rhwymo eu hunain i'w dyfynu air yn air â'r Hebraeg, nac â'r Dëg a thriugain; ond yn rhoddi eu sylwedd a'u meddwl cyffredin hwynt. Yr oedd Esaiah yn gosod allan fendithion teyrnas y Messiah; a'r apostol yn crybwyll ei eiriau, gyda pheth gwahaniaeth, i'r un dyben. † O bob peth a welodd llygad, ni welodd erioed ddim yn debyg i ogoniant Crist a gogoniant ei deyrnas ef. ‡ O bobpeth a glywodd clust, ni chlywodd ddim mòr hyfryd a gwerthfawr â'r newyddion da sydd yn yr efengyl. || Ac o bobpeth a ddychymmygodd calon dyn, ni ddychymmygodd ddim erioed mòr orfoleddus, daionus, a grasol, â bendithion yr iachawdwriaeth fawr, § y rhai a ddarparodd Duw yn ei arfaeth, ei gyfammod, ei ddoethineb, a'i ras, i'r rhai a'i carant ef am iddo ef yn gyntaf eu caru hwy. Nis gallasai neb feddwl byth, y buasai Duw yn rhoddi ei unig-anedig Fab yn ein natur ni, i farw drosom ar y groes; ac nis gall neb ar y ddaear feddwl na dychymmygu, y dedwyddwch a'r gogoniant sydd wedi eu darpar gyda Christ i'r rhai a garant Dduw.

10 [y] * Eithr Duw a'*u* heglurodd i ni [z] trwy ei Yspryd: [a] † canys yr Yspryd sydd yn chwilio pob peth; ïe, [b] dyfnion bethau Duw hefyd.

y pen. 14. 30. Amos 3. 7. Mat. 11. 25—27. a 13. 11. a 16. 17. Luc 2. 26. a 10. 21. Eph. 3. 3, 5. 1 Pedr 1. 12. Dat. 1. 1. z Es. 48. 16. a 59. 21. Ioan 14. 26. a 16. 13. 1 Ioan 2. 20, 27. a adn. 11. pen. 12. 8—11. Rhuf. 8. 26, 27. b Job 12. 22. Salm 92. 5, 6. Dan. 2. 22. Rhuf. 11. 33—36.

* Nid trwy eu doethineb a'u cyrhaeddiadau eu hunain y daeth yr apostolion neb o honynt, i ddeall dirgelwch doethineb Duw; ond Duw a'i heglurodd iddynt trwy ei Ysbryd, trwy agoryd eu deall fel y deallent yr ysgrythyrau, y rhai trwy gysgodau, addewidion a phrophwydoliaethau, oedd yn dywedyd am Grist, ei Berson, ei swyddau, a gogoniant ei deyrnas dàn oruchwyliaeth yr efengyl. † Gan fod yr Ysbryd Glân yn Berson dwyfol yn yr hanfod, ac yn ogyfuwch â'r Tad ac â'r Mab; gan ei fod wedi ei roddi yn ol trefn y cyfammod, i egluro pethau Duw i'r saint, ac yn anfeidrol ei ddeall; mae efe yn medru amgyffred yn berffaith, nid yn unig pob peth pa bynag *allan* o Dduw, ond hefyd pob peth *yn* Nuw; ei arfaeth, ei gyngor, a'i ddirgelion dyfnaf, fel y maent yn meddwl a mynwes Duw ei hunan: felly efe, ac efe yn unig, mewn cyferbyniad i bob crëadur, a all eu hegluro hwynt i'r saint, drwy y ffyrdd, y moddion, ac i'r graddau y mỳno efe ei hùn. Dylid ystyried yr adnod hon fel tystiolaeth amlwg, anwadadwy, a phenderfynol, o Dduwdod a phersonoliaeth yr Ysbryd Glân; ac hefyd ei undeb hanfodol â'r Tad â'r Mab.

11 [c] * Canys pa ddyn a edwyn bethau dyn, ond yspryd dyn yr hwn sydd ynddo ef? [d] † felly hefyd, pethau Duw nid edwyn neb, ond Yspryd Duw.

c Diar. 14. 10. a 20. 5, 27. Jer. 17. 9. d adn. 10. Rhuf. 11. 33.

* Oblegid fel nas gall un dyn dreiddio i ddirgelion deall a chalon dyn arall, a gwybod ei holl feddyliau a'i fwriadau, yn yr un modd ag mae ei ysbryd ef ei hun yn eu gwybod; † felly nis gall neb wybod, chwilio allan, nac amgyffred pethau Duw, ond ei Ysbryd anfeidrol ef ei hun; yr hwn sydd yn Un â'r Tad ac â'r Mab, yn undeb y Duwdod, a swydd yr hwn yw, egluro dirgelion dwyfol, dyfnion bethau Duw, i'r eglwys.

12 * A nyni a dderbyniasom, [e] nid yspryd y byd, [f] † ond yr Yspryd sydd o Dduw; [g] ‡ fel y gwypom y pethau a rad-roddwyd i ni gan Dduw.

e adn. 6. Rhuf. 8. 5, 6. 2 Cor. 4. 4. Eph. 2. 2. Iago 4. 5. 1 Ioan 4. 4, 5. a 5. 19. Dat. 12. 9. f Rhuf. 8. 15, 16. g pen. 3. 22. Ioan 16. 14, 15. Rhuf. 8. 32. 1 Ioan 2. 20, 27. Dat. 22. 6.

* Wrth ysbryd y byd, mae rhai yn deall y diafol, yr ysbryd drwg hwnw sydd yn y byd, ac yn llywodraethu ar ddynion bydol, anianol, a chnawdol. Wrth ysbryd y byd, mae eraill yn deall ysbryd dynol ac anianol yn unig, trwy yr hwn mae dynion yn deall ac yn amgyffred pethau bydol: ysbryd doethineb a dysgeidiaeth fydol, yn yr hwn yr ymfalchïa ac yr ymffrostia dynion y byd hwn, a'r hwn sydd yn eu cynhyrfu ac yn eu tywys i bob helyntion ac anturiaethau bydol. † Nid ysbryd o'r fath hyn oedd yr apostolion a'r gwir gristionogion wedi ei dderbyn; ond yr Ysbryd oedd o Dduw, ac o ganlyniad, y ddoethineb a'r ddysgeidiaeth oedd o Dduw hefyd. Mae yr Ysbryd Glân "o Dduw," o ran ei hanfodiad personol; yn deilliaw oddi wrth y Tad, Ioan 15. 26: ac hefyd "o Dduw," o ran ei breswyliad yn, a'i weithrediadau a'i ddylanwadau ar, y saint. ‡ Trwy ddysgeidiaeth a goleuni yr Ysbryd hwn yr oedd yr apostolion yn cael eu tywys i bob gwirionedd; efe oedd yn egluro dyfnion bethau Duw iddynt; a thrwyddo ef yr oeddynt yn dyfod i wir ac achubol wybodaeth o fendithion mawrion a gogoneddus yr efengyl, y rhai a ddarparodd ac a roddodd Duw i'w bobl, nid am unrhyw deilyngdod ynddynt hwy eu hunain, ond o'i rad ras a'i drugaredd ef.

13 * Y rhai yr ydym yn eu llefaru hefyd, [h] † nid â'r geiriau a ddysgir gan ddoethineb dynol, [i] ‡ ond a ddysgir gan yr Yspryd Glân; || gan gyd-farnu [k] pethau ysprydol â phethau ysprydol.

h adn. 4. pen. 1. 17. 2 Pedr 1. 16. i pen. 12. 1—3. a 14. 2. Luc 12. 12. Act. 2. 4. 1 Pedr 1. 12. k adn. 14. pen. 9. 11. a 10. 3—5. Eph. 5. 19. Col. 3. 16.

* Y pethau a eglurodd ac a rad-roddodd Duw trwy ei Ysbryd i'w apostolion, yr oeddynt yn llefaru ac yn pregethu y pethau daionus a gwerthfawr hyny i eraill; ac yr oeddynt yn eu llefaru oddi ar wybodaeth am danynt, ac oddi ar brofiad, mwynâd, a meddiant personol o honynt. † Am "y geiriau a ddysgir gan ddoethineb dynol," gwel ar adn. 1, 4: nid oedd geiriau felly yn angenrheidiol nac yn addas i lefaru am bethau mawrion Duw; ni buasent ddim ond megys goreuro y perl gwerthfawrocaf, neu arliwio yr aur puraf, er gwaelu a chuddio eu dysgleirder a'u gwerth cynhenid eu hunain. ‡ Ond yr oeddynt hwy (ac e ddylai pawb,) yn pregethu yr efengyl mewn geiriau syml, anghywreinddoeth, sobr, ac eto mawreddig a hardd, y fath a ddysgid iddynt gan yr Ysbryd Glan: efe oedd yn rhoddi y pethau â'r geiriau hefyd iddynt. || Wrth lefaru fel hyn, yr oeddynt yn cymharu pethau ysbrydol â phethau ysbrydol: hen ddatguddiedigaethau â rhai diweddarach, mewn cysgodau a sylwedd; ac mewn prophwydoliaethau â'r cyflawniadau o honynt: fel hyn yr oedd y naill beth yn taflu goleu ar y llall; a hwythau yn eu gosod allan yn iaith yr Ysbryd ei hun, fel yr oedd yn gynnwysedig yn yr ysgrythyrau sanctaidd: dyna'r dull mwyaf teilwng i bethau Duw, a mwyaf addas i'w dangos, a'u hargraffu ar feddyliau dynion. Gan egluro pethau ysbrydol trwy bethau ysbrydol, medd *Doddridge.*

14 [l] * Eithr dyn anianol [m] nid yw yn derbyn [n] y pethau sydd o Yspryd Duw: † [o] canys ffolineb ydynt ganddo ef; [p] ac nis gall *eu* gwybod, ‡ oblegid yn ysprydol y bernir hwynt.

l pen. 15. 44, 46. Iago 3. 15. Judas 19. m Mat. 16. 23. Ioan 3. 3—6. a 8. 43. a 10. 26, 27. a 12. 37, 38. Rhuf. 8. 5—4. n adn. 12. Ioan 14. 26. a 15. 26. a 16. 8—15. o pen. 1. 18, 23. Ioan 8. 51, 52. a 10. 20. Act. 17. 18, 32. a 18. 15. a 25. 19. a 26. 24, 25. p Diar. 14. 6. Ioan 5. 44. a 6. 44, 45. Act. 16. 14. 2 Cor. 4. 4—6. 1 Ioan 2. 20, 27. a 5. 20. Judas 19.

* Er mòr werthfawr oedd y pethau oedd o Yspryd Duw, ac er bod yr apostolion yn eu gosod allan yn y goleu egluraf ger bron dynion anianol a ddiadgenedledig; nid oeddynt hwy yn eu derbyn, ffolineb ac ynfydrwydd oeddynt ganddynt hwy. *(Psuchikos anthrópos,)* pa beth yw:—mae ymadrodd yr apostol yma yn ein rhwymo i ddeall, mai wrth y "dyn anianol" y meddyliai efe, dyn diadgenedledig, yn ei gyflwr natur, heb ei gyfnewid trwy ras; pa mòr ddoeth, dysgedig, boneddigaidd, moesol, a chymmedrol bynag a fyddo. Yr oedd llawer iawn o'r cyfryw ddynion "anianol" yn mhlith y Groegiaid; ac iddynt hwy yn anad neb eraill yr oedd yr efengyl yn ffolineb, er eu holl ddoethineb gnawdol a'u dysgeidiaeth ddynol. † Nis gall y dyn anianol mwyaf ei fanteision, mwyaf ei ddoethineb a'i ddysgeidiaeth, a mwyaf ei rinweddau da, tra byddo yn ddyn anianol, wybod na derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw; ‡ oblegid trwy oleuni, ac mewn goleuni ysbrydol, y deallir y cyfryw bethau, y gwelir eu gogoniant, ac y bernir yn iawn am danynt. Tra byddo yn ymddiried i'w ddeall ei hun, ac heb ymostwng i ddysgeidiaeth yr Ysbryd Glân, *nis gall* eu gwybod.

15 [q] * Ond yr hwn sydd ysprydol, † sydd yn barnu pob peth; [r] ‡ eithr efe nis bernir gan neb.

q pen. 3. 1. a 14. 37. Gal. 6. 1. Col. 1. 9. r pen. 4. 5. 2 Sam. 12. 16—23. Act. 15. 1—5. a 16. 3. Gal. 2. 3—5.

* Mae yr "ysbrydol" yma mewn cyferbyniad i'r "anianol" yn yr adnod o'r blaen: yr hwn sydd wir gristion, wedi ei adnewyddu yn ysbryd ei feddwl, a'i

dywys i adnabyddiaeth o bethau ysbrydol gan Ysbryd
Duw. † Mae hwn yn medru deall, ac iawn farnu am
bob peth angenrheidiol eu gwybod, yn nghylch ffordd
Duw o achub pechaduriaid trwy Iesu Grist: mae efe
yn medru gwahaniaethu rhwng gwirionedd a chyfeil-
iorni yn y pethau pwysig hyn; mae yn gweled gogon
iant, ac yn profi rhinwedd iachusol a sancteiddiol yn-
ddynt. ‡ Ond efe ei hun, o ran ei wybodaeth ysbrydol,
ei brofiad o bethau yr efengyl, a'i fwynâd o honynt;
nid oes neb yn ei ddeall, yn gallu barnu am dano, na
gwrth-ddywedyd y pethau mae efe yn gweled gwerth, ac
yn cael hyfrydwch ynddynt. Nid oes neb o'r dynion
anianol yn ei farnu, a feddylir; mae efe fel dyn yn
gweled yn nghanol deillion, y rhai nis gallant amgyff-
red yr hyn sydd eglur iddo ef: ac yn nghanol eu ty-
wyllwch eu hunain, nis gallant amgyffred am, na
chyfranogi o'r, syniadau gogoneddus, a'r teimladau
hyfryd, mae goleuni yr Ysbryd Glân ar bethau Duw,
yn roddi iddo ef.

16 [s] * Canys pwy a wybu feddwl yr Ar-
glwydd, † yr hwn a'i cyfarwydda ef? [t] ‡ Ond
y mae gennym ni feddwl Crist

s Job 15. 8. a 22. 2. a 40. 2. Es. 40. 13, 14. Jer. 23. 18. Rhuf. 11. 34. t Ioan 15. 15. a 16. 13—16. a 17. 6—8. Gal. 1. 12. Eph. 3. 3, 4.

* Cymmerwyd y geiriau hyn o Es. 40. 13, a defnyddiodd yr apostol hwy o'r blaen, Rhuf. 11. 34. Gwel yno. Pa ddyn anianol, trwy nerth rheswm a deall naturiol, er cael y manteision mwyaf tu yma i ddysgeidiaeth yr Ysbryd Glân, a allodd erioed wybod arfaeth a bwriadau Duw, a'i ddirgelion dwyfol ef yn iachawdwriaeth dynion? † Pwy a gyfarwydda yr "Arglwydd," medd rhai; pwy a gyfarwydda "yr hwn sydd ysbrydol," (adn. 15.) a thàn ysbrydoliaeth yr Ysbryd Glân, medd eraill: pwy a ddengys iddo ei fod yn camsynied am y pethau a eglurodd Duw iddo, pwy a fedr wrth-ddadleu yr hyn mae efe yn ddywedyd am danynt, a phwy a fedr rhoi argyhoeddi ef i'w droi oddi wrthynt? ‡ Ond nyni yr apostolion, a phawb o honom, sydd yr awr hon yn goleuni yn yr Arglwydd, y rhai mae Ysbryd Duw genym, yn aros ac yn gweithio ynom, yn ein dysgu ac yn ein goleuo; mae genym ni feddwl Crist, wedi cael ein dysgu ynddo gan ei Ysbryd ef: am hyny gallwn ni fod yn llawel ac yn sicr yn y gwirionedd a ddysgasom, heb ddderbyn dim croes iddo gan neb arall, nac ofni barn neb am yr hyn a dderbyniasom ac ydym yn gredu. Mewn mesur mae meddwl Crist gan bob dyn ysbrydol; ac nid yw dynion anianol yn addas i'w barnu hwynt: ond y mae pob peth i'w brofi a'i farnu wrth air Duw; ac nid oes dim mewn athrawiaeth na buchedd, i'w gyfiawnâu, ei esgusodi, na'i gondemnio, ond wrth y rhëol anffaeledig hòno, pan eglurer hi yn iawn.

PEN. III.

Am gnawdolrwydd, &c., y Corinthiaid.

A MYFI, frodyr, ni allwn lefaru wrthych [a] megis wrth rai ysprydol, † ond [b] megis rhai cnawdol, ‡ megis, wrth [c] rai bach yng Nghrist.

a pen. 2. 6, 15. Gal. 6. 1. b adn. 3, 4. pen. 2. 14. Mat. 16. 23. Rhuf. 7. 14. c pen. 14. 20. Rhuf. 2. 20. Eph. 4. 13, 14. 1 Ioan 2. 12.

* Cawsai llawer o'r Corinthiaid eu hudo gan eu gauathrawon pleidgar, i feddwl yn isel am weinidogaeth Paul, oblegid nad oedd wedi eu dysgu hwynt mewn nynciau uchel a dyrys; pethau y rhoddai rhai o honynt awy bwys mawr arnynt, ac y siaradent lawer am danynt: mae efe yma yn rhoddi rheswm dros ei ymddygiad yn hyny. Er bod yn eu plith hwy rai wedi eu cyfethogi mewn pob ymadrodd a phob gwybodaeth, ac iad oeddynt yn ol mewn un dawn; (pen. 1. 5, 7;) eto rr oedd yr apostol yn gweled pethau yn eu tymherau 'n tueddiadau hwynt yn gyffredin, yr hyn oedd yn eu gwneyd yn anmhriodol iddo ef lefaru wrthynt megys wrth rai "ysbrydol," addas i dderbyn datguddiedigaethau dyfnion o ddoethineb Duw † Nid cnawdol o ran cyfiwr, a thàn lywodraeth y cnawd a feddylir; pe felly, ni buasai yr apostol yn eu galw hwy yn "frodyr," ac "yn Nghrist:" ond cnawdol mewn cymhariaeth a feddylir; cristionogion o ychydig o wybodaeth brofiadol a gras, yn fwy dàn effeithiau egwyddorion cnawdol na rhai crediuwyr eraill, a mwy nac y gallesid dysgwyl iddynt hwythau fod, ac ystyried y manteision a gawsent. Felly rhai "ysbrydol" yw cristionogion o gyrhaeddiadau uchel mewn gwybodaeth, profiad, a gras; a rhai "cnawdol" yw rhai llai eu cyrhaeddiadau yn y pethau hyny, ond eto yn gristionogion gwirioneddol a diffuant. ‡ Yr un sylw a wna y tro am rai "bach yn Nghrist:" bach o gyrhaeddiadau, neu ieuanc o ran amser.

2 [d] * Mi a roddais i chwi laeth i'w yfed, ac nid bwyd: [e] † canys hyd yn hyn nis gallech, ac nis gellwch chwaith etto yr awrhon *ei dderbyn.*

d Heb. 5. 12—14. 1 Pedr 2. 2. e Ioan 16. 12. Heb. 5. 11, 12.

* Llaeth sydd yn fwyaf addas i fabanod, ac nid bwyd cryf; felly yr oedd yr apostol yn gorfod rhoi llaeth i'r Corinthiaid, ac nid bwyd: athrawiaeth ddechreuol crefydd, ac nid pethau mawrion, dyfnion, uchel, ac anhawdd eu deall: yr athrawiaeth eglur a syml am Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio, yr hon fel llaeth i blant, oedd yn fwy addas i adeiladaeth a chynnydd ysbrydol y Corinthiaid babanaidd, na'u difyru hwynt â phynciau mwy dyrys ac uchel y grefydd gristionogol, yr hyn, efallai, a fuasai yn eu llenwi â balchder a gwagedd y pryd hwnw, yn fwy na'u hadeiladu yn fuddiol. Am y "llaeth" a'r "bwyd," gwel eto, ar Heb. 5. 12—14; a 6. 1, 2. † Nis gallech dderbyn y bwyd cryf pan oeddwn I gyda chwi, nis gallasoch o hyny hyd yn hyn, ac nis gellwch chwaith yr awr hon: ynoch chwi yr oedd yr annallu, i dderbyn; ac nid ynof fi, i roddi. Er bod yn Corinth lawer o wir gristionogion; eto cristionogion lled ddigynnydd oeddynt, ac yn eu plith lawer o anmherffeithrwydd plentynaidd.

3 * Canys cnawdol ydych chwi etto: [f] † canys tra *fyddo* yn eich plith chwi genfigen, a chynnen, ‡ ac ymbleidio; onid ydych yn gnawdol, [g] ac yn rhodio yn ddynol?

f pen. 1. 11. a 6. 1—8. a 11. 18. 2 Cor. 12. 20. Gal. 5. 15, 19—21. Iago 3. 16. a 4. 1, 2. g Hos. 6. 7. Marc 7. 21, 22. Eph. 2. 2, 3. a 4. 22—24. Tit. 3. 3. 1 Pedr 4. 2.

* Gwel ar adn. 1: cnawdol oeddych chwi gynt, ac wrth yr hanes a glywais I gan y rhai sydd o dŷ Chlöe, (pen. 1. 11,) cnawdol ydych eto: mae yn eich plith chwi lawer o gnawdolrwydd tymher, a dull plentynaidd o feddwl am athrawiaeth yr efengyl, megys pe na byddai i'w derbyn fel peth o ddatguddiad dwyfol yn unig, ond ar awdurdod a chyfrifoldeb rhyw ddynion o enwogrwydd ac anrhydedd, sydd yn ei thraddodi i chwi. † Tra byddo cenfigen, cynnen, ac ymbleidio yn eich plith chwi, onid yw hyny yn ddigon o brawf eich bod yn gnawdol, ac yn rhodio yn ddynol? Gweithredoedd y cnawd yw cenfigen a chynnen, hyd yn nôd yn mhlith dynion duwiol; (Galat. 5. 19,) ac maent yn groes i gariad, yr hyn yw perffeithrwydd, a rhwymyn perffeithrwydd y saint. Colos. 3. 14. ‡ Am yr ymbleidio hyn, gwel ar pen. 1. 10. Cenfigen yn gyntaf, ac o hyny y daw cynnen; ac yna o gynnen y daw ymbleidio ac ymrann; pob terfysg a gweithred ddrwg: gwylied a gweddïed yr eglwysi rhag y peth cyntaf, fel na ddelo y pethau eraill i mewn.

4 * Canys tra dywedo un, [h] Myfi ydwyf eiddo Paul; ac arall, Myfi *wyf* eiddo Apòlos; onid ydych chwi yn gnawdol?

h pen. 1. 12. a 4. 6.

* Gwel ar pen. 1. 12: dyma'r achos o'r genfigen, y gynnen, a'r ymbleidio, a soniwyd yn yr adnod o'r

blaen. Nid Paul, nac Apòlos, na Chephas, oedd wedi gwneyd y drwg yn Corinth, eithr y gau-athrawon; ond doethineb yr apostol ar hyn o bryd oedd ei enwi ei hun ac Apòlos, a pheidio enwi y terfysgwyr hyny, fel na chaent ddim i feïo arno ef. Cwyno a chondemnio y drwg o anghydfod oedd ei amcan ef, fel pe buasai efe ei hun, neu ei gyfaill anwylaf yn y byd, wedi bod yn achlysur o hòno: ond gwyddai ar yr un pryd, nad efe na'i gyfaill Apòlos a fu yr achlysur; ac efallai mai nid yn eu cylch hwy, yn gymmaint ag yn nghylch y gau-athrawon, yr oedd yr ymbleidio.

5 * Pwy gan hynny yw Paul, a phwy Apòlos, [i] † ond gweinidogion trwy y rhai y credasoch chwi, [k] ‡ ac fel y rhoddes yr Arglwydd i bob un?

i adn. 7. pen. 4. 1, 2. Luc 1. 2. Rhuf. 10. 14, 15. 2 Cor. 3. 6. a 4. 5, 7. a 6. 1, 4. a 11. 23. k adn. 10. pen. 9. 17. a 12. 4—11, 28. Mat. 25. 15. Ioan 3. 27. Rhuf. 12. 3—6. 1 Pedr 4. 10, 11.

* I feddyginiaethu y Corinthiaid o'r genfigen, y gynnen, a'r ymbleidio annymunol uchod, mae yr apostol yn gofyn iddynt yn sobr iawn, Pwy a dybient hwy oedd Paul? A pha beth a wnaent hwy o Apòlos? A pha beth mewn gwirionedd oedd y naill neu y llall o'r ddau hyn? Nid oeddynt hwy na mwy na llai na gweinidogion Duw; offerynau yn ei law ef, trwy weinidogaeth pa rai y dygwyd y Corinthiaid i gredu yr efengyl: yr oedd yn ddigon gan Paul ac Apòlos gael eu hystyried a'u parchu fel gweinidogion; ac nid oedd yr un o honynt yn chwennych cael ei dderchafu ar gost y llall, ond eu parchu ill dau fel cyd-weithwyr Duw. ‡ Fel y rhoddes yr Arglwydd ddawn gweinidogaethol, a llwyddiant ar ei weinidogaeth, i bob un o'r ddau, Paul ac Apòlos. Neu ynte, fel y rhoddes yr Arglwydd i bob un o'r Corinthiaid gredu trwy eu gweinidogaeth hwy: y cyntaf, mae yn debyg, yw meddwl y geiriau.

6 [l] * Myfi a blennais, [m] † Apòlos a ddyfrhâodd; [n] ‡ ond Duw a roddes y cynnydd.

l adn. 9, 10. pen. 4. 14, 15. a 9. 1, 7—11. a 15. 1—11. Act. 18. 4—11. 2 Cor. 10. 14, 15. m Diar. 11. 25. Act. 18. 26, 27. a 19. 1. n pen. 1. 30. a 15. 10. Salm 62. 9, 11. a 92. 13—15. a 127. 1. Es. 55. 10, 11. a 61. 11. Act. 11. 18. a 14. 27. a 16. 14. a 21. 19. Rhuf. 15. 18. 2 Cor. 3. 2—5. 1 Thes. 1. 5.

* A llefaru mewn iaith llafurwr, garddwr, neu winllanydd, Myfi a blenais: rhoes Duw yr anrhydedd i mi Paul, yn gyntaf, i bregethu yr efengyl yn eich plith chwi y Corinthiaid; bûm yn eich plith am flwyddyn a hanner, (Act. 18. 11,) a bendigedig fyddo Duw, mi a blenais yr efengyl yn eich plith, mi a blenais eglwys yn eich dinas; ac, fel offeryn, mi a blenais lawer o honoch chwithau fel prenau cyfiawnder yn yr eglwys, ac yn wirioneddol yn Nghrist. † Am fynediad Apòlos i Corinth, ei lafur a'i ddefnyddioldeb yno, gwel Act. 18. 27, 28: yr oedd hyny ar ol i Paul fod yno flwyddyn a chwech mis, ac ar ol iddo ymadael oddi yno, a mordwyo ymaith i Syria, Act. 18. 18. Yn Act. 18. 27, dywedir i Apòlos "gynnorthwyo llawer ar y rhai a gredasent trwy ras yn Corinth;" a hyny yw yr eglurâd goreu ar y "dyfrâu" yma. ‡ Ond wedi plànu y naill, a dyfrâu y llall, Duw yn unig a roddes y cynnydd; ac a wnaeth i'r planigion dyfu a dwyn ffrwyth.

7 * Felly [o] nid yw yr hwn sydd yn plannu ddim, na'r hwn sydd yn dyfrhâu; † ond Duw yr hwn sydd yn rhoi y cynnydd.

o pen. 13. 2. Salm 115. 1. Es. 40. 17. a 41. 29. Dan. 4. 35. 2 Cor. 12. 11. Gal. 6. 3.

* Nid yw y plànwr "ddim," ond plànwr; na'r dyfrâwr "ddim," ond dyfrâwr: nid yw llwyddiant y weinidogaeth yn ymddybynu ar y naill na'r llall o honynt, mwy nag y mae tyfiant yr had naturiol yn ymddybynu ar y llafurwr naturiol. † Duw yn unig sydd yn rhoddi y cynnydd; yn darpar y galon i dderbyn y gair, ac yn bendithio y gair i'r galon.

8 [p] * Eithr yr hwn sydd yn plannu, a'r hwn sydd yn dyfrhâu, un ydynt; [q] † a phob un a dderbyn ei briod wobr ei hun, yn ol ei lafur ei hun.

p adn. 9. pen. 4. 6. Ioan 4. 36—38. q pen. 4. 5. a 9. 17, 18. a 15. 58. Salm 62. 12. Dan. 12. 3. Mat. 5. 11, 12. a 10. 41. 42. a 16. 27. Rhuf. 2. 6. Gal. 6. 7, 8. Heb. 6. 10. 1 Pedr 5. 4. 2 Ioan 8. Dat. 2. 23. a 22. 12.

* Er bod Duw yn donio ac yn danfon un i blànu, a'r llall i ddyfrâu, eto "un ydynt;" un yn eu danfoniad, un yn eu hathrawiaeth, un yn eu prif amcan, sef gogoneddu Duw, achub eneidiau, ac ehangu terfynau teyrnas y Cyfryngwr mawr yn y byd. Un ydynt hefyd yn eu diddymdra, o ran peri y cynnydd; maent yn foddlawn i Dduw fod yn bob peth yn hyny, a hwy eu hunain yn "ddim:" yr oedd hyn yn rheswm cadarn yn erbyn ymbleidio yn Corinth, a derchafu y naill weinidog uwchlaw y llall, ac yn enwedig derchafu y naill yn erbyn y llall. † Gall y naill lafurio mwy na'r llall, a chael ei anrhydeddu â mwy o lwyddiant na'r llall, a phob un a dderbyn ei briod wobr ei hun, nid yn ol ei lwyddiant ei hun, ond yn ol ei lafur ei hun. Nid yn ol cymmeradwyaeth a gogoniant dynion y bydd hyn, ond yn ol cyfiawnder a rhad ewyllys du y Barnwr mawr, yr hwn a fedr farnu yn gywir am ffyddlondeb a diwydrwydd pob un o'i weision, a'u gwobrwyo yn gyfatebol, nid o ddyled a haeddiant, ond o ras yn unig.

9 * Canys [r] cyd-weithwyr Duw ydym ni: [s] † llafur-waith Duw, [t] ‡ adeiladaeth Duw, ydych chwi.

r Gwel ar adn. 6.—Mat. 9. 37, 38. Marc 16. 20. 2 Cor. 6. 1. 3 Ioan 8. s Salm 65. 9—13. a 72. 16. a 80. 8—11. Es. 5. 1—7. a 27. 2, 3. a 28. 24—29. a 32. 20. a 61. 3, 5, 11. Jer. 2. 21. Mat. 13. 3—9, 18—30, 36—42. a 20. 1—14. a 21. 33—44. Marc 4. 26—29. Ioan 4. 35—38. a 15. 1—8. t adn. 16. pen. 6. 19. Salm 118. 22. Amos 9. 11, 12. Zec. 6. 12, 13. Mat. 16. 18. Act. 4. 11. 2 Cor. 6. 16. Eph. 2. 10, 20—22. Col. 2. 7. 1 Tim. 3. 15. Heb. 3. 3, 4. 1 Pedr 2. 5.

* Cyd-weithwyr â'u gilydd, nid yn groes i'w gilydd, ac oll yn gyd-weithwyr Duw, fel offerynau yn ei law ef, trwy ba rai mae yn myned a'i waith yn mlaen. Cyd-weithwyr Duw, nid cyd-weithwyr *â* Duw, fel mae yn y cyfieithiad Saesoneg, yr hwn a addefir yn anmhriodol gan ddau o leiaf o'n Hawdwyr, *Scott*, a *Doddridge*. † Yma cyffelybir eglwys a phobl Dduw i winllan, gardd, neu lafur-dir, fel mewn llawer o fànau eraill yn yr ysgrythyr, ac yn gyson â'r plànu a'r dyfrâu yn adn. 6, 7. ‡ Yma eto cyffelybir yr eglwys i adeiladaeth, yr hon oedd Duw yn ei chodi trwy offerynoldeb ei genadon, yn ol ei gynllun ei hun, i'w ogoniant ei hun, ac i fod yn deml sanctaidd iddo ei hun: gan hyny dylasai y Corinthiaid fod yn eiddo cyssegredig i Dduw, ac nid i neb arall.

10 [u] * Yn ol y gras Duw a roddwyd i mi, [x] † megis pen-saer celfydd, [y] myfi a osodais y sylfaen, [z] ‡ ac y mae arall yn goruwch-adeiladu. [a] Ond edryched pob un pa wedd y mae yn goruwch-adeiladu.

u adn. 5. pen. 15. 10. Rhuf. 1. 5. a 12. 3. a 15. 15. Eph. 3. 2—8. Col. 1. 29. 1 Tim. 1. 11—14. 1 Pedr 4. 11. x 1 Bren. 3. 9—11. 2 Cron. 2. 12. Dan. 12. 3. Mat. 7. 24. a 24. 45. 2 Tim. 2. 15. y Gwel ar adn. 6, 11. pen. 9. 2. Zec. 4. 9. Rhuf. 15. 20. Eph. 2. 20. Dat. 21. 14, 19. z pen. 15. 11, 12. Act. 18. 27, 28. 2 Cor. 10. 15. a 11. 13—15. a Preg. 12. 9. Luc 11. 35. a 21. 8. Col. 4. 17. 1 Tim. 4. 16. Iago 3. 1. 1 Pedr 4. 11. 2 Pedr 2. 1—3.

* Mae "gras Duw" yma yn arwyddo, un ai y dawn a roddes Duw i Paul i bregethu yr efengyl, neu y swydd apostolaidd y galwodd Duw ef iddi: mae efe yn priodoli pob un o'r ddau i Dduw, ac wedi eu rhoddi iddo ef o drugaredd a gras Duw yn unig. † Fel y mae adeiladydd medrus yn gofalu am osod sylfaen dda yn gyntaf, cyn goruwch-adeiladu; felly yr oedd Paul, y cyntaf a'r medrusaf a bregethodd yr efengyl yn Corinth, wedi gosod y sylfaen dda yno; a gwyddai ei bod yn ddigon cadarn i ddàl yr holl oruwch-adeilad oedd efe yn fwriadu ei gosod arni. Dengys yr adnod nesaf beth oedd y sylfaen a osododd efe. ‡ Ond wedi ei ymadawiad ef o Corinth, daeth Apòlos, a gweinidogion eraill yno, i fyned a'r gwaith mawr yn mlaen a ddechreuasid ganddo

f ef. || Ië, daeth yno lawer o gau-athrawon yn ei absen-
l oldeb ef, rhai anfedrus, cyfeiliornus, a diofal pa fodd y
r pregethent: at y rhai hyn, mae yn debyg yn benaf,
n mae yn cyfeiro ei ocheliad yn y rhan hon o'r adnod.
: Efallai ei fod yn rhoi y cyngor hefyd i'r gwir athrawon,
i edrych pa wedd y goruwch-adeiladent.

11 [b] * Canys sylfaen arall nis gall neb ei
s osod, † heb law yr un a osodwyd, yr hwn yw
6 Iesu Grist.

b Es. 28. 16. Mat. 16. 18. Act. 4. 11, 12. 2 Cor. 11. 2—4. Gal. 1. 7—9. 1 Pedr 2. 6—8.

* Nis gall neb yn gyfreithlawn, ac nis gall neb a
llwyddo, osod sylfaen arall: nis gall neb bregethu un
y gwaredwr arall i gadw pechaduriaid, ond Iesu Grist yr
hwn a bregethwyd genyf fi. Nid oes iachawdwriaeth
yn neb arall, nac enw arall wedi ei roddi dàn y nef-
oedd yn mhlith dynion, trwy yr hwn mae yn rhaid i ni
ofod yn gadwedig. Act. 4. 12. † Mae hwn wedi ei
osod gan Dduw, yn ei dragywyddol gyngor a'i gyfam-
mod; yn nghysgodau, prophwydoliaethau, ac addewid-
ion yr Hen Destament; yn ei gnawdoliad, ei ufudd-dod,
a'i aberth; yn athrawiaeth a gweinidogaeth yr efengyl;
gan yr holl apostolion, ac yn enwedig gan Paul yn
Corinth; a chan yr Ysbryd Glân yn nghalon pob cred-
adyn.

12 * Eithr os goruwch-adeilada neb ar y
sylfaen hon, [c] aur, arian, [d] meini gwerthfawr,
[e] † coed, gwair, sofl:

c Salm 19. 10. a 119. 72. Diar. 8. 10. a 16. 16. Es. 60. 17. 1 Tim. 4. 6. 2 Tim. 2. 20. 1 Pedr 1. 7. Dat. 3. 18. d Es. 54. 11—13. Dat. 21. 18—21. e Diar. 30. 6. Jer. 23. 28. Mat. 15. 3—9. Act. 20. 30. Rhuf. 16. 17. 2 Cor. 2. 17. a 4. 2. Col. 2. 8, 18—23. 1 Tim. 4. 1—3, 7. a 6. 3. 2 Tim. 2. 16—18. a 3. 7, 8, 13. a 4. 3, 4. Tit. 1. 9—11. a 3. 9—11. Heb. 13. 9. Dat. 2. 14, 15.

Er bod y sylfaen yn dda, ac yn anmhosibl ei newid,
eto yr oedd perygl rhag cam-oruwch-adeiladu ar y
sylfaen hon. * Gallai Apòlos ar y naill law, adeiladu
arni athrawiaeth a dyledswyddau ysbrydol, gwirioneddol, a sanctaidd, y rhai o ran purdeb, rhagoroldeb, a
defnyddioldeb, a ellid eu cyffelybu i aur, arian, a meini
gwerthfawr; y rhai ydynt baràus yn eu natur, a ddal-
iant y prawf eithaf, ac ydynt o werth mawr yn mhlith
dynion. † Ar y llaw arall, gallai y gau-athrawon Iudd-
ewaidd adeiladu ar y sylfaen hon, y fath gau-athraw-
iaethau, ac arferion afrëolaidd, a fyddent yn eu natur
eu hunain yn ddiwerth, yn wael, ac yn llygredig; pethau
nòr ddigyfrif â gwellt, gwair, a sofl, y rhai ni ddaliant
dlân. Mae yn ddiammau mai athrawiaeth dda a drwg,
neu weithredoedd da neu ddrwg, oedd meddwl yr apos-
ol wrth y defnyddiau da a drwg uchod.

13 [f] * Gwaith pob dyn a wneir yn amlwg:
† canys y dydd a'i dengys, ‡ oblegid trwy
tân y datguddir ef: [h] a'r tân a brawf waith
pawb, pa fath ydyw.

f adn. 14, 15. pen. 4. 5. 2 Tim. 3. 9. g pen. 1. 8. Mal. 3. 7, 18. Rhuf. 2. 5, 6, 16. 2 Thes. 1. 7—10. 2 Tim. 1. 18. 2 Pedr 3. 10—13. Dat. 20. 12. h Es. 8. 29. a 28. 17. Jer. 23. 29. Ezec. 13. 10—16.

* Mae yr amser yn dyfod pryd y profir athrawiaeth pob
dyn, hyny yw, pob athraw, pa un ai iach ai afiach yw,
pa un ai cywir ai cyfeiliornus, a pha beth yw ei thuedd
a'i heffaith, a ydyw yn gweithio dynion i sancteidd-
rwydd, neu ynte yn eu tywys i benrhyddid neu ddeddf-
oldeb. † Wrth y "dydd" yma, mae rhai yn deall hir
amser; dangosir rywbryd beth yw tuedd athrawiaethau
dynion: e syrthia Dagon yn y diwedd, er sefyll yn hir.
Dydd trallod a chyfyngder, medd eraill yw y "dydd"
yma; a dydd mawr y farn, medd eraill. ‡ Tybia eraill
mai dydd goleu yr efengyl yw y "dydd" uchod, yr hwn
a fydd fel tân yn chwilio ac yn profi pob cyfeiliorni
mewn athrawiaeth a gweithredoedd dynion. Y rhai
sydd o'r farn olaf hon a dybiant mai nid tân digofaint
Duw, na thân y farn ddiweddaf, a feddylir; ond goleuni
llyd yr efengyl, yn ysu ac yn llosgi holl sothach a
sofl athrawiaethau gau a llosgedig, ac yn dangos y wir
athrawiaeth yn ei phurdeb.

14 [i] * Os gwaith neb a erys yr hwn a oruwch-adeiladodd ef, † efe a dderbyn wobr.

i adn. 8. pen. 4. 5. Dan. 12. 3. Mat. 24. 45—47. a 25. 21—23. 1 Thes. 2. 19. 2 Tim. 4. 7, 8. 1 Pedr 5. 1, 4. Dat. 2. 8—11.

* Yr hwn a adeiladodd arian, a meini gwerthfawr,
athrawiaeth bur, a buchedd gyfatebol iddi; e saif gwaith
hwnw, ac e ddeil y profiad tanllyd a wneir o hóno:
† caiff yntau ei wobrwyo; dywed ei Arglwydd wrtho,
"Da, was da a ffyddlawn, dos i mewn i lawenydd dy
Arglwydd." Tybia rhai mai rhyw raddau uwch o ogoni-
ant na christionogion eraill, yw y "gwobr" yma; ac
uwch hefyd na gweinidogion eraill yr efengyl, y rhai ni
buont mòr ddoeth yn eu goruwch-adeiladaeth: dywedir
am y rhai hyny y byddant yn *gadwedig*, er y cânt
golled am eu gwaith; ond y neb yr aroso ei waith, mae
mwy na bod yn gadwedig iddo, efe a dderbyn *wobr*
hefyd.

15 [k] * Os gwaith neb a losgir, [l] † efe a
gaiff golled: ‡ eithr efe ei hun a fydd cadwed-
ig; [m] || etto felly, megis trwy dân.

k adn. 12, 13. Dat. 3. 18. l Act. 27. 21, 22, 44. 2 Ioan 8. m Amos 4. 11. Zec. 3. 2. 1 Pedr 4. 18. Judas 23.

* "Os gwaith neb," sef yr athrawiaeth a'r ymarferiad-
au a fabwysiadodd neb, mewn annwybodaeth a cham-
gymmeriad, a brofir yn anysgrythyrol ac anghywir, er
nad yn hanfodol gyfeiliornus; ac felly a wrthodir ac a
wnair yn ddiddym, fel defnyddiau gwael, diwerth, a
llosgadwy, y rhai a losgir i fynu yn lle eu cadw a'u puro
trwy dân; † caiff y dyn hwnw golled am yr holl fanteisi-
ion a ddysgwyliodd efe oddi wrth ei waith, un ai trwy
law geryddol Duw arno, trwy golli ei barch a'i ddef-
nyddioldeb fel athraw cyhoeddus, neu ryw ffordd arall.
Mae yn ddiammau mai pregethu athrawiaethau, defod-
au, a ffurfiau o ddychymmyg dynol, yw y "gwaith a
losgir" yma; a chyffelyb hefyd fydd tynged y rhai a
dreuliant eu hamser a'u dawn mewn dysgeidiaeth
gywrain ond anfuddiol, ac mewn dadlëuon anfuddiol
am bethau dibwys a dihanfodol; ac yr holl amser a
esgeulusant fywyd crefydd, ac achos mwyaf pwysig ene-
eidiau anfarwol a gwerthfawr dàn eu gofal: llosgir eu
gwaith yn y diwedd, a chant hwythau siomedigaeth a
cholled iddynt eu hunain. ‡ Gan ei fod ef ei hun wedi
ymsylfaenu ar Grist, fel ei graig, a sylfaen ei ffydd a'i
obaith am fywyd tragywyddol; ac heb gael ei arwain
ymaith i benrhyddid gan ei dybiau cyfeiliornus eraill;
efe ei hun a fydd cadwedig rhag y digofaint sydd ar
ddyfod: ni wrthyd Duw ei enaid ef am bob cyfryw
gyfeiliornad, os bydd efe wedi seilio ei grefydd ar y
sylfaen fawr ac unig, Iesu Grist. || Pentewyn wedi ei
achub a'i gipio allan o'r tân a fydd efe; fel dyn yn ffoi
allan o'i dŷ pan fyddo ar dân, heb ddim ond ei fywyd
yn ysglyfaeth ganddo, wedi gorfod gadael ei holl waith
a'i drysorau i losgi yn y goelcerth. Ar yr adnod hon
mae y pabyddion yn seilio athrawiaeth ffol y purdan;
ond nid yw yn werth gwrth-ddywedyd y fath ynfydrwydd,
nac yn angenrheidiol.

16 [n] * Oni wyddoch chwi mai [o] teml Duw
ydych, [p] † a bod Ysbryd Duw yn trigo ynoch?

n pen. 5. 6. a 6. 2, 3, 9, 16. a 9. 13, 24. Rhuf. 6. 3. Iago 4. 4. o 2 Cor. 6. 16, 17. Eph. 2. 21, 22. Heb. 3. 6. 1 Pedr 2. 5. p Ezec. 36. 27. Ioan 14. 17. Rhuf. 8. 11. 2 Tim. 1. 14. 1 Ioan 4. 12, 15, 16.

Mae y gyffelybiaeth o adeiladaeth (adn. 9.) yn
arwain yr apostol i ofyn, a wyddai y cristionogion yn
Corinth ddim mai teml Dduw oeddynt, a bod Ysbryd
Duw yn trigo ynddynt. * Oni wyddoch chwi eich bod
wedi eich adeiladu gan Dduw, ar Grist fel eich sylfaen,
eich bod wedi eich neilldu i Dduw yn ol ei drefn ei
hun, wedi eich sancteiddio a'ch cyssegru iddo ef fel ei
deml, mewn ystyr uwch a mwy ardderchog o lawer na'r
deml Iuddewig yn Jerusalem gynt? † Ac oni wyddoch
chwi fod yr hwn oedd yn ei amlygu ei hun trwy arwydd-
ion gweledig o'i bresenoldeb grasol, yn y tŷ sanctaidd
hwnw gynt, fel ag y dywedid ei fod yn trigo yno; oni

wyddoch chwi fod hwnw yn awr, mewn modd mwy ysbrydol, rhagorol, ac effeithiol, yn trigo drwy berthynas a meddiant neilluol, gweithrediadau ac ewyllys da, ynoch chwi, fel ei deml a'i drigfa ei hun, trwy ei Ysbryd? Gwel eto ar pen. 6. 19. Os gwir a ddywedir, mai Iuddew oedd prif wrthwynebydd Paul yn Corinth, mae y cyfeiriad hyn at y deml yn Jerusalem yn addas ac yn briodol iawn; a'r bygythiad am lygru y deml yn yr adnod nesaf yn dyfod yn rymus i gydwybod a meddwl y cyfryw un.

17 [q] * Os llygra neb deml Duw, † Duw a lygra hwnnw: [r] ‡ canys sanctaidd yw teml Duw, yr hon ydych chwi.

q pen. 6. 18—20. Lef. 15. 31. a 20. 3. Num. 19. 20. Salm 74. 3. a 79. 1. Ezec. 5. 11. a 7. 22. a 23. 38, 39. Zeph. 3. 4. r Gen. 28. 17. Ex. 3. 5. 1 Cron. 29. 3. Salm 93. 5. a 99. 9. Es. 64. 11. Ezec. 43. 12.

* Os llygrai, neu os halogai neb deml Dduw yn Jerusalem gynt, byddai yn agored i ddigofaint Duw, a gallai ddysgwyl y farn fwyaf ofnadwy a dinystriol, fel yn achos Nadab ac Abihu am offrymu â thân dieithr, Lefit. 10. 1, 2; ac yr un modd, yr oedd yn dra enbyd i neb lygru yr eglwys yn Corinth, âg athrawiaethau cyfeiliornus, neu drwy esamplau drwg a phenrhydd mewn dysgyblaeth neu ymarweddiad. † Pwy bynag a wnelo hyny, Duw a lygra hwnw; gall ddysgwyl barnedigaethau trymaf Duw, a rhyfyg fydd iddo ddysgwyl bod yn gadwedig o gwbl, hyd yn nôd megys trwy dân: cospir ef gan y Duw sanctaidd ac eiddigus â dinystr tragywyddol. ‡ Fel yr oedd y deml yn Jerusalem gynt yn sanctaidd i'r Arglwydd, felly mae yr eglwys yn awr, a phob gwir gredadyn yn yr eglwys: felly mae llygru yr eglwys yn awr yn bechod mwy erchyll na llygru y deml gynt, ac a gospir â thrymach barn yn y dydd olaf.

18 [s] * Na thwylled neb ei hunan. [t] † Od oes neb yn eich mysg yn tybied ei fod ei hun yn ddoeth yn y byd hwn, [u] ‡ bydded ffol, fel y byddo doeth.

s pen. 6. 9. a 15. 33. Es. 44. 20. Jer. 37. 9. Luc 21. 8. Gal. 6. 3, 7. Eph. 5. 6. 2 Tim. 3. 13. Tit. 3. 3. Iago 1. 22, 26. 1 Ioan 1. 8. t pen. 1. 18—21. a 4. 10. a 8. 1, 2. Diar. 3. 5, 7. a 26. 12. Es. 5. 21. Jer. 8. 8. Rhuf. 11. 25. a 12. 16. u Mat. 18. 4. Marc 10. 15. Luc 18. 17.

* Gwyddai yr apostol fod rhai yn Corinth a ddirmygent y rhybudd uchod, yn enwedig fel yr oedd yn dyfod oddi wrtho ef; tybient eu bod hwy eu hunain yn gwybod gwell, na dim a fedrai efe ddangos iddynt, am hyny mae yn eu rhybuddio na byddai i neb o honynt eu twyllo eu hunain. Efallai bod yma rybudd i'r rhai annichellgar yn Corinth hefyd, i beidio twyllo eu hunain trwy wrando ar y gau-athrawon hunan-ddoethion hyny oedd yn llygru yr eglwys, ac yn ei ddirmygu yntau. † Od oes neb yn eich plith, fel yr athronwyr Groegaidd, neu y Rabbiniaid Iuddewig, yn ei dybied ei hun yn ddoeth, yn yr hyn a gyfrifir yn ddoethineb yn y byd hwn, yn mhlith Iuddewon neu Roegwyr; ‡ ymwaded y cyfryw un â'r holl ddoethineb hòno, cyn belled ag y mae yn groes i athrawiaeth a doethineb yr efengyl; ac ymddarostynged dàn deimlad o annigonoldeb ei holl ddoethineb a'i ddysgeidiaeth, byth i gyrhaedd amgyffrediadau cywir ac ysbrydol o athrawiaeth yr efengyl sanctaidd. Os mỳn ef fod yn ddoeth tuag at Dduw, ac i iachawdwriaeth ei enaid trwy ffydd yn Iesu Grist; bydded foddlawn i gael ei wawdio fel un ffol gan yr hunan-ddoethion, am gofleidio athrawiaeth y groes, yr hon a gyfrifir yn ffolineb ganddynt hwy.

19 [x] * Canys doethineb y byd hwn *sydd* ffolineb gyd â Duw: [y] † o herwydd ysgrifenedig yw, [z] ‡ Y mae efe yn dal y doethion yn eu cyfrwysdra.

x pen. 1. 19, 20. a 2. 6. Es. 19. 11—14. a 29. 14—16. a 44. 25. Rhuf. 1. 21, 22. y Job 5. 13. z Ex. 1. 10. a 18. 11. 2 Sam. 15. 31. a 16. 23. a 17. 14, 23. Esther 7. 10. Salm 7. 14, 15. a 60. 15, 16. a 141. 10.

* Ffolineb yn nghyfrif Duw, yw yr hyn a eilw y byd yn ddoethineb penaf; ac felly y mae mewn gwirionedd, oblegid mae yn anmhosibl i Dduw gam-gymmeryd yn ei farn a'i gyfrif o bethau. Dedwyddwch yw prif amcan a dyben doethion y byd; cyn belled â hyny mae eu doethineb yn iawn; ond yn mha beth mae y dedwyddwch hwnw yn gynnwysedig, a'r ffordd a'r moddion i'w gyrhaeddyd, maent yn camgymmeryd; ac yn hyny mae eu doethineb yn ffolineb ynfyd. † Mae hyn yn ysgrifenedig yn Job 5. 13; ac yn brawf o ddwyfol ysbrydoliaeth y llyfr hwnw. ‡ Mae Duw yn dyrysu, yn rhwydo, ac yn dàl y bydol-ddoethion yn eu dyfeisiau cyfrwys eu hunain, ac yn troi eu mesurau doethaf, a'u trefniadau goreu, yn ddinystr iddynt eu hunain yn aml.

20 * A thrachefn, [a] Y mae yr Arglwydd yn gwybod meddyliau y doethion, [b] mai ofer ydynt.

a Salm 94. 11. b Job 11. 11, 12. Salm 2. 1. Rhuf. 1. 21. Col. 2. 8.

* A thrachefn, yn Salm 94. 11, dywedir fod yr Arglwydd yn gwybod meddyliau dynion, ïe, y rhai doethaf o honynt, o ran doethineb y byd hwn, mai gwagedd ydynt, ac ofer. Maent yn amcanu at ddybenion nas gallant byth eu cyrhaedd; ac yn ceisio eu cyrhaedd drwy foddion hollawl anaddas ac aneffeithiol, i gyrhaedd y dybenion hyny.

21 * Am hyny na [c] orfoledded neb mewn dynion: [d] † canys pob peth sydd eiddoch chwi:

c adn. 4—7. pen. 1. 12, &c. a 4. 6. d Rhuf. 4. 13. a 8. 28, 32. 2 Cor. 4. 15. Dat. 21. 7.

* Gan hyny na orfoledded neb mewn dynion o fath yn y byd; na orfoledded neb yn y gau-athrawon hunan-ddoethion, ni wna y rhai hyny ond eu harwain ar gyfeiliorn: na orfoledded neb ychwaith yn y gwir athrawon, Paul, Apòlos, a Chephas; nis gall y rhai hyny ddysgu neb yn ffordd iachawdwriaeth, ond fel y dysger hwy eu hunain gan Dduw. Na orfoledded neb, gan ei alw ei hun yn ddysgybl i'r gau-athrawon, a dirmygu y gwir athrawon: ac na orfoledded neb drwy ei alw ei hun yn ddysgybl i un o'r gwir athrawon, a dirmygu pob un arall o honynt; trwy ddywedyd, Myfi wyf eiddo Paul, minau yn eiddo Apòlos, &c., na orfoledded neb mewn dynion *fel hyn*, nac mewn *dynion* mewn un modd. † Pa raid gorfoleddu yn y gweinidog hyn neu y gweinidog arall, pan y maent oll yn eiddo i chwi? fel pe byddai dau gyd-etifedd, yn gorfoleddu yn y tŷ hwn, a'r tŷ arall, pan mae yr holl etifeddiaeth i gyd yn eiddo iddynt hwy ill dau cyd-rhyngddynt. Mae pob peth a berthyn i oruchwyliaeth a breintiau yr efengyl yn eiddo y saint, yr holl rai sydd yn credu yn Nghrist, yn ol trefn cyfammod Duw; a chwedi eu bwriadu a'u trefnu er eu lles a'u hadeiladaeth ysbrydol hwynt.

22 * Pa un bynnag ai [e] Paul, ai Apòlos, ai Cephas, [f] † ai y byd, ‡ ai bywyd, ‖ ai angau, § ai pethau presennol, ai pethau i ddyfod; y mae pob peth yn eiddoch chwi;

e adn. 5—8. pen. 9. 19—22. 2 Cor. 4. 5. Eph. 4. 11, 12. f Rhuf. 8. 37—39. Phil. 1. 21.

Yma mae yr apostol yn helaethu ac yn manylu ar y geiriau uchod, "Pob peth sydd eiddo chwi." * Mae doniau a gwasanaeth yr apostolion, a holl weinidogion Duw, yn eiddynt hwy er eu hadeiladaeth; † mae y "byd," a phobpeth yn y byd, yn eiddynt hwy, cyn belled ag y byddo er daioni iddynt; ei gyfoeth yn eiddo iddynt, os bydd hyny o wir lesâd; ei elyniaeth yn eiddo iddynt, i'w cymhwyso i'r nefoedd; a phob trefniadau rhagluniaethol yn eiddynt, i gynnyddu a dwyn yn mlaen eu sancteiddiad. ‡ Mae "bywyd" yn eiddynt, ac yn ddiogel iddynt, hyd oni orphenont eu gwaith, a hwythau yn addfed i'w gwobrwy; ‖ ac yna daw angau, ar yr awr derfynedig, fel eu cyfaill, i'w gwaredu hwynt oddi wrth bechod a gofid, ac i'w trosglwyddo hwynt i drigfanau eu Tad nefol. § Mae cysuron a thrallodau presenol yn cyd-weithio er eu lles; a bydd y farn a ddaw, a'i chanlyniadau tragywyddol, yn gwbl o'u plaid hwynt, ac er daioni a dedwyddwch iddynt byth. Fel hyn mae pob

peth yn eiddo i'r rhai sydd yn caru Duw; fel nad oes achos iddynt ymbleidio gyda'r naill, nac yn erbyn y llall, o'i wahanol genadon a'i weinidogion ef. Mae y ddaear, y nefoedd, a Duw ei hun, yn eiddo iddynt.

23 g * A chwithau yn eiddo Crist; h † a Christ yn eiddo Duw.

g pen. 6. 19, 20. a 7. 22. a 15. 23. Ioan 17. 9, 10. Rhuf. 14. 8. 2 Cor. 10. 7. Gal. 3. 29. a 5. 24. h pen. 8. 6. a 11. 3. Mat. 17. 5. Ioan 17. 18, 21. Eph. 1. 10. Phil. 2. 8—11.

* "A chwithau yn eiddo Crist;" nid yn eiddo Paul, Apôlos, na Chephas, fel y buoch chwi yn gwaeddi, pen. 1. 12; ond yn eiddo Crist: efe yw eich Pen, eich Prynwr, eich Athraw mawr, eich Meddiannydd, a'ch Gwaredwr rtragywyddol chwi; a'i feddiant ef o honoch sydd yn wdwyn pob peth arall i'ch meddiant chwi, ac yn eu diogelu yn wastadol yn eich meddiant. † Mae Crist eilwaith yn eiddo Duw: fel Person dwyfol mae yn eiddo Duw fel ei briod a'i unig-anedig Fab; o ran ei ddynolsiaeth a'i sefyllfa swyddol, mae yn eiddo Duw fel Cyfryngwr ac Iachawdwr, o ddarpariaeth Duw Dad ei hunan, i ofalu am ei bobl, ac i'w perffeithio yn y diwedd mewn gogoniant; ac mae yn eiddo Duw fel dysgleirdeb gogoniant y Tad, gwir lun ei Berson ef, a'r Cyfrwng mawr i amlygu ei holl berffeithiau, yn ngolwg yr holl fydoedd, ac i dragywyddoldeb diddiwedd byth.

PEN. IV.

Pa gyfrif a ddylid ei wneuthur o weinidogion.

a * FELLY cyfrifed dyn nyni, megis b gweinidogion i Grist, c † a goruchwylwyr ar d ddirgeledigaethau Duw.

a adn. 13. 2 Cor. 12. 6. b pen. 3. 5. a 9. 16—18. Mat. 24. 45. 2 Cor. 4. 5. a 6. 4. a 11. 23. Col. 1. 25. 1 Tim. 3. 6. c Luc 12. 42. a 16. 1—3. Tit. 1. 7. 1 Pedr 4. 10. d pen. 2. 7. Mat. 13. 11. Marc 4. 11. Luc 8. 10. Rhuf. 16. 25. Eph. 1. 9. a 3. 3—9. a 6. 19. Col. 1. 26, 27. a 2. 2. a 4. 3. 1 Tim. 3. 9, 16.

* "Felly cyfrifed dyn nyni, megys gweinidogion i Grist," dim mwy na dim llai na hyny: os cyfrifir ni yn ywy na hyny, dyrchefir ni yn ormodol, i le ein Harglwydd; ac os cyfrifir ni yn llai na hyny, darostyngir ni a'n swydd ardderchog yn ormodol, yr hyn a fydd yn ddianrhydedd hefyd i Grist ein Harglwydd. "Gweinidogion" (*upêretas*) rhwyf-weision: gweision yn rhwyfo dàn nywodraeth un arall: i arwyddo mai gwaith caled, fel rhwyfo yn erbyn gwynt a llanw, yw gweinidogaeth yr efengyl; ac mai wrth rëol a gorchymyn Crist, perchen y llestr, y mae rhwyfo o hyd. Gweinidogion Crist, ac nid gweinidogion Moses a'r ddeddf, yw gweinidogion y Testament Newydd; gweinidogion yr efengyl ydynt. - Goruchwylwyr ar ddirgeledigaethau Duw, i ddwyn allan bethau newydd a hen i glywedigaeth y bobl, i draddodi athrawiaeth yr efengyl, ac anchwiliadwy olud rras Duw i bechaduriaid, o luddewon a chenedloedd. am ddirgeledigaethau Duw, gwel ar pen. 2. 7; a Rhuf. 16. 25.

2 * Am ben hyn, yr ydys yn disgwyl mewn goruchwylwyr, e gael un yn ffyddlawn.

e adn. 17. pen. 7. 25. Num. 12. 7. Diar. 13. 17. Mat. 25. 21, 23. Luc 12. 42. a 16. 10—12. 2 Cor. 2. 17. a 4. 2. Col. 1. 7. a 4. 17.

* Mae pob arglwydd daearol yn dysgwyl i'w oruchwylwr fod yn ffyddlawn, a pho mwyaf fyddo gwerth y trysorau a ymddirieder i'w ofal, mwyaf i gyd yr angenrheidrwydd iddo fod yn ffyddlawn. Goruchwylwyr Crist, Arglwydd nef a daear, yw gweinidogion yr efengyl, "dirgeledigaethau Duw," yw y trysorau anfeidrol eu gwerth a ymddiriedwyd i'w gofal: O mòr angenrheidiol yw bod yn ffyddlawn mewn swydd mòr uchel, a chyda'r trysorau mòr werthfawr! yn ffyddlawn i'n Harglwydd; am cydwybodau ein hunain; i wirionedd, a holl wirionedd, yr efengyl; i draddodi holl gyngor Duw, i beidio ettal dim o'r pethau buddiol; ac yn ffyddlawn i eneidiau dynion, i iawn gyfranu i bob un air y gwirionedd, rel y byddom yn lân oddi wrth waed pawb oll. Pwy ydd yn ddigonol i'r pethau hyn? Onid yw hyn yn gofyn llafur mawr, poeni yn y gair a'r athrawiaeth, i ni ein hunain ddeall peth o ddirgeledigaethau Duw, cyn y gallom eu traddodi i eraill? a gras mawr hefyd i'w traddodi yn oleu, yn syml, yn wresog, ac yn ffyddlawn, yn eu hysbryd a'u godidawgrwydd priodol eu hunain?

3 * Eithr gennyf fi f bychan iawn yw fy marnu gennych chwi, † neu gan farn dyn: ‡ ac nid wyf chwaith yn fy marnu fy hun.

f pen. 2. 15. 1 Sam. 16. 7. Ioan 7. 24.

* Yr oedd llawer yn Corinth yn barnu yn isel iawn am Paul, ond bychan iawn oedd hyny ganddo ef, hyd ag yr oedd ei lwybr mewn athrawiaeth a buchedd yn gywir, ei gydwybod yn dawel, ac yntau ei hun yn gymmeradwy gan ei Arglwydd grasol. † Neu gan ddydd dyn ydyw yn y Groeg: nid yw dydd dyn i farnu ond bŷr, na'i farn yn ei ddydd ond o ychydig bwys, beth bynag a fyddo ei farn: am hyny bychan iawn oedd gan yr apostol. ‡ Gallai efe gam-gymmeryd yn ei farn am dano ei hun, am hyny yr oedd yn gadael y mater i Dduw, yr hwn a'i hadwaenai yn drwyadl, ac a farnai yn gyfiawn.

4 g * Canys ni wn i ddim arnaf fy hun; h † ond yn hyn ni'm cyfiawnhâwyd: i ‡ eithr yr Arglwydd yw yr hwn sydd yn fy marnu.

g Job 27. 6. Salm 7. 3—5. Ioan 21. 17. 2 Cor. 1. 12. 1 Ioan 3. 20, 21. h Job 9. 2, 20. a 15. 14. a 25. 4. a 40. 4. Salm 19. 12. a 130. 3. a 143. 2. Diar. 21. 2. Rhuf. 3. 19, 20. a 4. 2. i adn. 5. Salm 26. 12. a 50. 6. 2 Cor. 5. 10.

* Er yr adwaenai Paul ei galon a'i ddybenion ei hun yn well nac y gallai ei farnwyr yn Corinth na neb arall ei adnabod; eto nid oedd efe yn gwybod am ddim gauegwyddorion na gau-ddybenion yn ei galon gyda gwaith y weinidogaeth; ac nis gwyddai am ddim gŵyrni yn ei athrawiaeth, na dim ffaeledd gwirfoddol yn ei ymarweddiad fel apostol a gweinidog yr efengyl. † Eto, gan fod pawb, hyd yn nôd y goreu o ddynion, yn llithro mewn llawer o bethau; ni feiddiai yntau ei gyfiawnâu ei hun, fel pe buasai yn hollawl ddifai, ac ni feiddiai yn enwedig sefyll ar ei gyfiawnder a'i uniondeb ei hun ger bron Duw, a dysgwyl cael ei gyfiawnâu yno ar sail ei gyfiawnder ei hun. ‡ Gwyddai yr adwaenai Duw ef yn well nac yr adwaenai efe ef ei hun; am hyny yr oedd yn *apelio* yn ostyngedig am ei ddiniweidrwydd, at farn a phenderfyniad yr Arglwydd Iesu, barnwr hollwybodol pawb, gan aros i gael ei farnu ganddo ef yn y dydd diweddaf.

5 k * Am hynny na fernwch ddim cyn yr amser, l † hyd oni ddelo yr Arglwydd, m ‡ yr hwn a oleua ddirgelion y tywyllwch, ac a eglura fwriadau y calonnau: ‖ ac yna y bydd n y glôd i bob un gan Dduw.

k Mat. 7. 1, 2. Luc 6. 37. Rhuf. 2. 1, 16. a 14. 4, 10—13. Iago 4. 11. l pen. 1. 7. a 11. 26. a 15. 23. Mat. 24. 30, 46. 1 Thes. 5. 2. Iago 5. 7. 2 Pedr 3, 4, 12. Judas 14. Dat. 1. 7. m pen. 3. 13. Preg. 11. 9. a 12. 14. Mal. 3. 18. Luc 12. 1—3. Rhuf. 2. 16. 2 Cor. 4. 2. Heb. 4. 13. Dat. 20. 12. n Mat. 25. 21, 23. Ioan 5. 44. Rhuf. 2. 7, 29. 2 Cor. 10. 18. 1 Pedr 1. 7. a 5. 4.

* Gan fod pethau dirgel, ac ansicr i ddynion ffaeledig, yn perthyn i Dduw, ni ddylid barnu dim o bethau felly, cyn yr amser a osododd Duw i farnu pobpeth. Mae gweithredoedd y enawd yn amlwg, a gall dynion farnu am y rhai hyny; ond am bethau dirgel, egwyddorion a chalonau dynion, nid yw yn perthyn i ni eu barnu, gadawer pethau felly i farn Duw, † yr hwn a ddaw yn sicr i farnu pob dyn. ‡ Er y gall dynion fantellu dirgelion y tywyllwch dàn wisg o ragrith ac ymddangosiad teg; datguddir hwy oll yn sicr yn y dydd hwnw, a dygir meddyliau a bwriadau calonau pawb i eglurdeb ac eithaf goleuni: ‖ ac yna bydd y glod gan Dduw i bob un a wnaeth yn dda, er eu condemnio gan ddynion yn awr; ac i'r gwrthwyneb, caiff llawer eu condemnio y pryd hwnw, sydd yn fawr eu clod a'u canmoliaeth gan ddynion yn awr. Heblaw gwirionedd cyffredinol y rhan olaf o'r adnod hon, efallai bod yr apostol yn cyfeirio at ei wrthwynebwyr a'i farnwyr yn Corinth, ac yn adgofio iddynt y deuai eu meddyliau dirmygus, a'u

bwriadau drwg rhagrithiol yn ei erbyn ef, i'r goleu ddydd y farn.

6 [o] * A'r pethau hyn, frodyr, mewn cyffelybiaeth a fwriais i attaf fy hun, ac *at* Apòlos, [p] o'ch achos chwi: [q] † fel y gallech ddysgu ynom ni, na synier mwy nag sydd ysgrifenedig, ‡ fel na byddoch y naill dros y llall [r] yn ymchwyddo yn erbyn arall.

o pen. 1. 12. a 3. 4—7. 2 Cor. 10. 7, 12, 15. a 11. 4, 12—15. p pen. 9. 23. 2 Cor. 4. 15. a 12. 19. 1 Thes. 1. 5. 2 Tim. 2. 10. q Job 11. 11, 12. Salm 8. 4. a 146. 3. Es. 2. 22. Jer. 17. 5, 6. Mat. 23. 8—10. Rhuf. 12. 3. 2 Cor. 12. 6. r adn. 18, 19. pen. 3. 21. a 5. 2, 6. a 8. 1. a 13. 4. Num. 11. 28, 29. Ioan 3. 26. Col. 2. 18.

* Sylwyd o'r blaen, fod amryw ddynion yn cael eu gwaeddi i fynu, fel blaenoriaid pleidiau yn eglwys Corinth, heblaw Paul, Apòlos, a Cephas; ond rhag tramgwyddo y pleidwyr chwyddedig hyny a'u pleidiau, nid yw yr apostol o hyd wedi enwi neb ond efe ei hun ac Apòlos: ac felly megys mewn cyffelybiaeth, mae yn trosi yr achos oddi wrth y personau yr oedd yn perthyn yn benaf iddynt, ato ei hun a'i gyfaill; † fel ynddynt hwy ill dau, y gallai yr athrawon eraill, yn enwedig y gau-athrawon yn Corinth, ddysgu peidio synied am danynt eu hunain mwy nag oedd ysgrifenedig, dysgu peidio bod yn ddoeth yn eu golwg eu hunain: ‡ ac i ddysgu i'r bobl beidio ymchwyddo a therfysgu o blaid y naill athraw, ac yn erbyn y llall, a pheidio ymchwyddo fel pleidiau ymranedig yn erbyn eu gilydd. "Na synier mwy nag sydd ysgrifenedig:" mwy nag sydd ysgrifenedig gan Paul am dano ei hun ac Apòlos, yn pen. 3. 5—9, &c; neu mwy nag sydd yn ysgrifenedig yn yr ysgrythyrau yn gyffredin am weinidogion yr efengyl.

7 [s] * Pwy sydd yn gwneuthur rhagor rhyngot ti *ac arall*? [t] † a pha beth sydd gennyt a'r nas derbyniaist? ‡ ac os derbyniaist, [u] paham yr wyt ti yn gorfoleddu, megis pe bait heb dderbyn?

s pen. 12. 4—11. a 15. 10. Rhuf. 9. 16—18. Eph. 2. 3—5. 2 Thes. 2. 12—14. 1 Tim. 1. 12—15. Tit. 3. 3—7. t pen. 3. 5. a 7. 7. 1 Cron. 29. 11—16. 2 Cron. 1. 7—12. Diar. 2. 6. Mat. 25. 14, 15. Luc 19. 13. Ioan 1. 16. a 3. 27. Rhuf. 1. 5. a 12. 6. Iago 1. 17. 1 Pedr 4. 10. u pen. 5. 6. 2 Cron. 32. 23—29. Ezec. 28. 2—5. a 29. 3. Dan. 4. 30—32. a 5. 18—23. Act. 12. 22, 23.

* Mae yn amlwg mai balchder oedd pechod llywodraethol llawer yn eglwys Corinth; balchder yn eu cyrhaeddiadau a'u doniau, pa un bynag ai naturiol oeddynt, ai ynte doniau a dderbyniasent gan yr Ysbryd mewn modd goruwch-naturiol. I ddarostwng y chwydd hwn, mae yr apostol yn peri iddynt oll ystyried pwy oedd wedi gwneuthur rhagor rhyngddynt hwy ag eraill; rhyngddynt hwy â'r paganiaid o blith pa rai y cymmerwyd hwynt, rhwng y naill a'r llall o honynt yn yr eglwys, a rhyngddynt hwy fel eglwys â rhai eglwysi eraill llai eu doniau. † Fel pe dywedasai, Ai chwi yw awdwyr eich doniau a'ch talentau eich hunain? ai nid derbyn pob peth a wnaethoch? pa beth sydd genych chwi neb o honoch, yn naturiol neu oruwch-naturiol, a'r nas derbyniasoch? ‡ Ac os derbyn y cwbl a wnaethoch yn rhad heb eu haeddu, paham yr ydych chwi yn ymorfoleddu ynoch eich hunain, yn noniau y naill y llall, yn ymchwyddo, ac yn ymffrostio, fel pe byddech heb dderbyn? Ped ystyriai pawb o honom pwy a wnaeth ragor rhyngom ni ag eraill, ac nad oes genym ddim a'r nas derbyniasom, byddai yn hawdd ein cadw rhag ymchwydd a balchder.

8 [x] * Yr ydych chwi yr awrhon wedi eich diwallu, yr ydych chwi yr awrhon wedi eich cyfoethogi, † chwi a deyrnasasoch [y] hebddom ni: [z] ‡ ac och Dduw [a] na baech yn teyrnasu, || fel y caem ninnau deyrnasu gyd â chwi.

x pen. 1. 5. a 3. 1, 2. a 5. 6. Diar. 13. 7. a 25. 14. Es. 5. 21. Luc 1. 51—53. a 6. 25. Rhuf. 12. 3, 16. Gal. 6. 3. Dat. 3. 17. y adn. 18. Act. 20. 29, 30. Phil. 1. 27. a 2. 12. z Num. 11. 29. Act. 26. 29. 2 Cor. 11. 1. a Salm 122. 5—9. Jer. 28. 6. Rhuf. 12. 15. 2 Cor. 13. 9. 1 Thes. 2. 19, 20. a 3. 6—9. 2 Tim. 2. 11, 12. Dat. 5. 10.

* Gwedi i'r apostol adael Corinth, ac i'r eglwys yno gael athrawon mwy hyawdl a gwenieithgar, yr oeddynt wrth eu bodd ac yn ddedwydd: tybient eu hunain yn ddiwall ac yn gyfoethog, ac yr oeddynt megys yn teyrnasu fel breninoedd hebddo ef a'i gyd-weithwyr; y rhai a'u triniasent hwy fel plant, ac a'u cadwasent tànodd lawer mwy nag oedd ddymunol ganddynt hwy. † "Teyrnasu" yma sydd air diarhebol, am ddynion yn y llawnder a'r dedwyddwch mwyaf; felly y tybiai y Corinthiaid eu bod mewn pethau crefyddol gyda'u gwahanol hoff athrawon. ‡ Ac Och Dduw na byddech mewn gwirionedd yr hyn yr ydych yn tybied eich bod! Dymunai yr apostol o'i galon eu bod hwy mòr ddiwall, mòr gyfoethog, mòr llwyddiannus ac enwog, ag y dychymmygent hwy eu bod: || yna efe a wyddai y cawsai yntau gysur oddi wrthynt, a pharch dyledus yn eu plith. Pe buasent yn teyrnasu mewn gwirionedd, cawsai yntau deyrnasu gyda hwy; yn lle cael ei ddirmygu ganddynt, yn chwanegol at ei holl brofedigaethau a'i erlidiau eraill.

9 [b] * Canys tybied yr wyf ddarfod i Dduw ein dangos ni yr apostolion diweddaf, [c] fel rhai wedi eu bwrw i angau: [d] † oblegid nyni a wnaethpwyd yn ddrych i'r byd, [e] ac i'r angelion, ac i ddynion.

b pen. 15. 30—32. 2 Cor. 1. 8—10. a 4. 8—12. Phil. 1. 29, 30. 1 Thes. 3. 3. c Salm 44. 22. Rhuf. 8. 36. 1 Thes. 5. 9, 10. Dat. 6. 9—11. d Heb. 10. 33. a 11. 36. e Heb. 1. 14. Dat. 7. 11—14. a 17. 6, 7.

Mae yn yr adnod hon gyfeiriad amlwg a bywiog, at ddefod greulawn yn chwarëuyddiaethau cyhoeddus y Rhufeiniaid; lle byddid yn dwyn allan y drwg-weithredwyr oedd i farw, yn olaf, yn niwedd y dydd, i ymladd âg anifeiliaid gwylltion, heb ddim arfau i'w hamddiffyn eu hunain: ac os diangent hwy heb eu lladd un prydnawn, dygid hwy allan drachefn a thrachefn; felly yr oeddynt yn sicr o golli eu bywyd yn yr ymladdfa yn y diwedd. * Yn debyg i hyny, tybiai Paul fod Duw wedi ei ddewis ef a'r apostolion eraill, cenadon *digyfrwng "diweddaf"* Duw at yr eglwys, fel yr oeddynt yn dyfod ar ol y prophwydi; i'w dangos hwynt, fel rhai wedi eu bwrw i angau, yn gyffelyb i'r drwg-weithredwyr a soniwyd uchod. † Fel y byddid yn dwyn y trueiniaid hyny i'r chwarëufa, i gael eu gweled yn ymladd gan yr edrychwyr; felly yr oedd yr apostolion yn cael eu gwneyd yn ddrych i'r byd, i'r angelion ac i ddynion; pryd yr oedd yr holl angelion a dynion da, yn edrych ar eu llafur, eu dyoddefiadau, eu brwydrau, a'u dewrder anghyffredin, gyda chariad a gofal pryderus, a syndod; a'r holl rai drwg, gyda llid, cynddeiriogrwydd a siomedigaeth. Gwahanol iawn oedd hyn i fod yn "ddiwall," yn "gyfoethog," a "theyrnasu" fel breninoedd, fel y dychymmygai y Corinthiaid am danynt eu hunain: pa fodd y gallent hwy fod felly, a'r apostolion yn y fath ddrygfyd ac enbydrwydd gwastadol? Hyny a fynai Paul iddynt ystyried yn ddiammau.

10 [f] * *Yr ydym* ni yn ffyliaid [g] er mwyn Crist, † a chwithau [h] yn ddoethion yng Nghrist; [i] ‡ nyni yn weiniaid, [k] || a chwithau yn gryfion; § chwychwi yn anrhydeddus, [l] a ninnau yn ddirmygus.

f pen. 1. 18—20, 26—28. a 2. 14. a 3. 18. 2 Bren. 9. 11. Hos. 9. 7. Act. 17. 18, 32. a 26. 24. g Mat. 5. 11. a 10. 22—25. a 24. 9. Luc 4. 22. Act. 9. 16. 1 Pedr 4. 14. h adn. 8. pen. 10. 14, 15. Jer. 8. 8, 9. i pen. 2. 3. 2 Cor. 10. 10. a 11. 29. a 12. 9, 10. a 13. 3, 4, 9. k pen. 3. 2. a 10. 12. l Diar. 11. 12. Es. 53. 3. Luc 10. 16. a 18. 9. 1 Thes. 4. 8.

* Yn yr ymladdfa ysbrydol uchod, cyfrifid Paul a'i gyfeillion yn ffyliaid am boeni a dyoddef cymmaint er mwyn Crist; nid yn unig gan Iuddewon a Chenedloedd annychweledig, ond gan y Cristionogion "diwall," "cyfoethog," a "theyrnasol" (adn. 8.) yn Corinth hefyd; † rhai a'u cyfrifent eu hunain yn ddoethion yn Nghrist, trwy addysgiadau hoff eu ffug-athrawon gwenieithus, y rhyddid y tybient fod ganddynt hawl iddo, a'r ffyrdd cyfrwys-gall a gymmerent i ddianc rhag gwawd ac erlid

am eu crefydd. ‡ Tybient hwy yr apostol a'i gyffelyb yn gristionogion petrusgar, yn ddynion o feddyliau gweiniaid, galluoedd bychain, a chyrhaeddiadau isel: || ond tybient eu hunain yn gryfion mewn ffydd, yn ddynion o ddeall a chraffder mawr, ac uwchlaw yr ofnau a'r ammheüon oedd yn trallodi eraill. § Ie, yr oeddynt yn eu hystyried eu hunain yn wŷr anrhydeddus, o herwydd eu cyfoeth, eu gwybodaeth, a'u doethineb; ac yn dirmygu yr apostol a'i gyfeillion, fel dynion tlodion, gwaelion, ac anenwog.

11 [m] * Hyd yr awrhon yr ydym ni yn dwyn newyn a syched, [n] † ac yr ydym ni yn noethion, [o] ‡ ac yn cael cernodiau, [p] || ac yn grwydraidd;

m pen. 9. 4. 2 Cor. 6. 4, 5. a 11. 27. Phil. 4. 12. n Rhuf. 8. 35. o Act. 14. 19. a 16. 23. a 23. 2. 2 Cor. 11. 23—25. 2 Tim. 3. 11. p Mat. 8. 20.

* Tra yr oedd y Corinthiaid yn byw mewn llawnder a digonoldeb, yr oedd Paul, ei gyd-ymdeithwyr, a'r apostolion eraill, hyd yr awr hòno yn dyoddef newyn a syched: † yr oeddynt yn aml mewn angen am ddillad addas i ymddangos ger bron eu gwrandawyr: ‡ yr oeddynt yn aml yn cael eu cernodio mewn dirmyg a chreulondeb gan eu herlidwyr: || ac yr oeddynt fel crwydriaid ar hyd y byd, heb un cartref i breswylio ynddo. Ac er yr holl iselder a'r anfantais hyn i gyd, yr oedd y gwirionedd yn llwyddo, a'r efengyl yn buddugoliaethu yn ogoneddus ar bob gwrthwynebwyr a gwrthwynebiadau.

12 [q] * Ac yr ydym yn llafurio, gan weithio â'n dwylaw ein hunain. [r] † Pan y'n difenwir, yr ydym yn bendithio; [s] ‡ pan y'n herlidir, yr ydym yn ei ddioddef;

q pen. 9. 6. Act. 18. 3. a 20. 34. 1 Thes. 2. 9. 2 Thes. 3. 8. 1 Tim. 4. 10. r Mat. 5. 44. Luc 6. 28. a 23. 34. Act. 7. 60. Rhuf. 12. 14, 20. 1 Pedr 2. 23. a 3. 9. Judas 9. s Mat. 5. 11. 1 Pedr 3. 14. a 4. 12—14, 19.

* Tra yr oedd y Corinthiaid yn haelionus iawn i'w hathrawon newyddion; ac yn gallu, a thàn ddyled hefyd, i ddiwallu angenrheidiau Paul a'i gyfeillion; yr oeddynt hwy yn llafurio, gan weithio â'u dwylaw eu hunain, am eu cynnaliaeth wael a phrin. † Pan ddifenwid hwynt, ac y dywedid pob drygair celwyddog am danynt er mwyn enw Crist, yr oeddynt yn bendithio, ac yn gweddïo dros y rhai a'u gwaradwyddent heb achos, yn ol gorchymyn ac esampl eu Harglwydd a'u Hathraw mawr. ‡ Pan erlidid hwynt, yr oeddynt yn dyoddef yn amyneddgar. Fel hyn yr oedd yr apostol yn dangos rhan a dyledswydd Cristionogion yn y byd hwn, yn gystal a dangos ei ran a'i ymddygiad ei hun a'i gyfeillion: ac, efallai, yn taflu awgrym at y Corinthiaid, fod rhai yn eu plith hwy wedi bod yn achos o'r drygfyd, y difenwi, a'r erlid, mae efe yn son am dano.

13 * Pan y'n ceblir, yr ydym yn gweddïo: [t] † fel ysgubion y byd y gwnaethpwyd ni, ‡ *a* sorod pob dim hyd yn hyn.

t Galar. 3. 45. Act. 22. 22.

* Soniodd yr apostol am "ddifenwi" o'r blaen, yma mae yn dywedyd eu bod yn cael eu cablu hefyd. Wrth ystyried eu *swydd* sanctaidd hwy fel apostolion, yr oedd pob difenwad yn gabledd; ac efallai y byddid yn eu cablu hwynt trwy eu galw yn dwyllwyr, apostolion Satan, &c: ond pa fodd bynag y ceblid hwynt, gweddïo yr oeddynt hwy; gweddïo am nerth i ddyoddef, a gweddïo dros eu cablwyr, ar iddynt weled eu camsynied, edifarâu, a chael trugaredd a maddeuant. † Budreddi y byd, yn ol y Saesoneg: byddai y paganiaid yn arfer offrymu ddynion i'w duwiau yn flynyddawl, ac ar amserau neilldduol o bla a drygfyd: cymmerent y gwaelaf o ddynion i'w dhaberthu fel hyn; ac ar ol eu llosgi yn aberthau, ysgubent eu lludw ymaith i'r môr; gan feddwl cael gwared o bob aflwydd a drygfyd fel hyny. Tybir mai cyfeiriad at y ddefod hòno sydd yn y geiriau hyn; cyfrifid yr apostolion fel y lludw aberthawl hwnw; a pho gyntaf a llwyraf yr ysgubid hwy o'r byd, goreu oll: fel y caffai y byd lonydd gan eu hathrawiaeth a'u pregethu aflonyddawl hwy. ‡ Pob sothach a budreddi ffieiddiaf, ar hyd marchnadoedd a hëolydd dinasoedd mawrion, y rhai oedd ddigon i fagu plâ heb eu hysgubo ymaith. Gwel. Act. 24. 5.

14 [u] * Nid i'ch gwaradwyddo chwi yr ydwyf yn ysgrifenu y pethau hyn; [x] † ond *eich* rhybuddio yr wyf fel [y] fy mhlant anwyl.

u pen. 9. 15. 2 Cor. 7. 3. a 12. 19. x adn. 15. 2 Cor. 6. 11—13. a 11. 11. a 12. 14, 15. 1 Thes. 2. 11. y Ezec. 3. 31. Act. 20. 31. Col. 1. 28. 1 Thes. 5. 14.

* Mae yr apostol yma yn siarau i'r Corinthiaid, nad oedd efe ddim fel hyn yn crybwyll ei galedi, ei ddirmyg, a'i ddyoddefiadau mewn cyferbyniad i'w llawnder a'u llwyddiant hwy, i'w gwaradwyddo a'u cywilyddio hwynt am fod yn esgeulus o hòno, ei ddïystyru, a chwanegu at ei drallodau; † ond i'w rhybuddio hwynt yn garedig, fel ei blant anwyl, i wylied rhag balchder a hunan, rhag cymmeryd eu hudo gan gau-athrawon i bleidio ac ymranu, i beidio ag ymddwyn yn bechadurus ac anaddas tuag at y gwir athrawon, apostolion yr Arglwydd Iesu, ac i gyflawni eu dyledswyddau eu hunain, gyda phob gostyngeiddrwydd a gofal am yr amser i ddyfod. Mae yn sicr fod gwaradwydd yn perthyn i'r Corinthiaid am eu hymddygiad tuag at yr apostol a'i gyfeillion; ond nid i'r dyben o'u gwaradwyddo hwynt yr oedd efe yn adrodd ei drallodau, eithr i'w rhybuddio erbyn yr amser i ddyfod, fel y sylwyd uchod.

15 * Canys pe [z] byddai i chwi ddeng mil o athrawon yng Nghrist, er hynny nid *oes i chwi* nemmawr o dadau: [a] † canys myfi a'ch cenhedlais chwi yng Nghrist Iesu, trwy yr efengyl.

z 2 Tim. 4. 3. a pen. 3. 6, 10. a 9. 1, 2. Act. 18. 4—11. Rhuf. 15. 20. 2 Cor. 3. 1—3. Gal. 4. 19. Tit. 1. 4. Philemon 10—12, 19. Iago 1. 18. 1 Pedr 1. 23.

* Er y gallai fod i'r Corinthiaid ddeng mil, mwy na mwy, o athrawon, i'w dysgu hwy yn mhethau crefydd, fel y bydd ysgol-feistriaid yn cael eu cyflogi i ddysgu plant dynion eraill; eto nid oedd iddynt nemawr o dadau ysbrydol, na nemawr o'u holl athrawon yn teimlo ac yn ymddwyn fel tadau tuag atynt, nac yn haeddu yr awdurdod a'r anrhydedd dyledus i dadau oddi wrthynt. † Yr oedd yr apostol yn hòni hyn oll iddo ei hun; oblegid efe oedd yr offeryn a ddefnyddiasai Crist i'w dychwelyd hwynt i'r ffydd. trwy bregethu yr efengyl yn llwyddiannus iddynt. Prif wers yr adnod yw, y dylai dynion fod yn barchus iawn o'r rhai a ddefnyddiodd Duw i'w troi hwynt ar y cyntaf, a'u dwyn adref i Grist: dichon Duw ddefnyddio llawer o weinidogion i adeiladu a pherffeithio ei bobl: ond efe a ddefnyddiodd ryw un i'w troi hwy ar y cyntaf, a dylent fod yn barchus iawn o hwnw fel eu tad ysbrydol, ac offeryn eu dychweliad at Fab Duw.

16 * Am hynny yr wyf yn attolwg i chwi. [b] byddwch ddilynwyr i mi.

b pen. 11. 1. Ioan 10. 4, 5. Phil. 3. 17. 1 Thes. 1. 6. 2 Thes. 3. 9. Heb. 13. 7. 1 Pedr 5. 3.

* Byddwch ddilynwyr i mi megis yr wyf finnau i Grist, (pen. 11. 1.) Byddwch ddilynwyr i mi yn hytrach na'r athrawon newyddion sydd yn eich plith, ac yn rhanu yn bleidiau; glynwch wrth yr athrawiaeth, ystyriwch y cyngorion, ufuddêwch i'r gorchymynion, a dilynwch yr esampl, a gawsoch genyf fi. Y rhai hyny sydd yn pregethu yn dda ac yn bucheddu yn ddrwg, nid ydynt weinidogion da i Grist; nis gallant ddywedyd wrth y bobl "Byddwch ddilynwyr i ni."

17 * Oblegid hyn [c] yr anfonais attoch Timothëus, [d] † yr hwn yw fy anwyl fab, a [e] ffyddlawn yn yr Arglwydd, ‡ yr hwn a ddwg ar gôf i chwi [f] fy ffyrdd i yng Nghrist, megis yr

wyf ym mhob man yn athrawiaethu ym mhob eglwys.

c pen. 16. 10. Act. 19. 21, 22. Phil. 2. 19. 1 Thes. 3. 2, 3 d adn. 15. 1 Tim. 1. 2. 2 Tim. 1. 2. e adn. 2. pen. 7. 25. Num. 12. 7. Diar. 13. 17. Mat. 24. 45. a 25. 21, 23. Eph. 6. 21. Col. 1. 7. a 4. 9. 2 Tim. 2. 2. Dat. 2. 10, 13. f pen. 7. 17. a 11. 2, 16. a 16. 1. 2 Tim. 3. 10.

* Cawsom hanes Timothëus yn Act. 16. 1—3. I annog a chynnorthwyo y Corinthiaid i fod yn ddilynwyr i Paul, mewn gostyngeiddrwydd, ffydd, ac ymarweddiad sanctaidd, efe a anfonodd Timothëus atynt. Gan nas gallai fyned ei hunan y pryd hwnw, nid oedd ganddo neb anwylach ac addasach na Timothëus i'w ddanfon: † yr oedd yn ei ystyried ef fel ei anwyl fab, wedi ei ddychwelyd trwy ei weinidogaeth ef, mòr anwyl ganddo ef ag y gallai plentyn fod gan ei dad, ac mòr debyg i'r apostol ag y gallai plentyn fod i'w dad, mewn ysbryd, ymarweddiad, a ffyddlondeb yn yr Arglwydd. ‡ A phan ddeuai Timothëus atynt, efe a ddygai ar gof iddynt athrawiaeth yr apostol, ei ymarweddiad ef yn Corinth ac yn mhob màn arall, a'r trefniadau a wnaeth yn mhob eglwys a blànodd; fel trwy hyny yr adferid pob annhrefn a gymmerasai le yn eu plith hwynt, cyn y deuai Paul atynt drachefn.

18 * Ac y mae rhai [g] wedi ymchwyddo, † fel pe bawn i heb fod ar fedr dyfod attoch chwi.

g adn. 6—8. pen. 5. 2.

* Gwyddai yr apostol fod y gau-athrawon a'u pleidwyr yn Corinth, yn parâu yn eu drwg-arferion gyda llawer o ymchwydd a thraha; yn ymffrostio gyda math o orfoledd dïystyrllyd, † fel pe buasai yn anodd ganddo ef, neu fod arno ofn, eu cyfarfod hwy wyneb yn wyneb, ac ymyraeth â dim o'u materion hwy. Efallai bod yr apostol yn rhag-weled hefyd y byddent yn ymgryfâu yn yr ymchwydd hwnw, wrth iddo ef ddanfon Timothëus yno, yn lle myned ei hun.

19 [h] * Eithr mi a ddeuaf attoch ar fyrder, [i] os yr Arglwydd a'i myn; † ac a fynnaf wybod, [k] nid ymadrodd y rhai sydd wedi chwyddo, ond *eu* gallu.

h pen. 14. 5. Act. 19. 21. 2 Cor. 1. 15—17, 23. a 2. 1, 2. i Act. 18. 21. Rhuf. 15. 32. Heb. 6. 3. Iago 4. 15. k adn. 18. 2 Cor. 13. 1—4.

* Beth bynag oedd meddwl y bostwyr chwyddedig hyny, yr oedd Paul yn bwriadu myned atynt ar fyrder, ac yn awyddus am fyned os gwelai yr Arglwydd yn dda. Mae yn debyg nad allodd efe ddim myned mòr fuan ag yr oedd yn bwriadu, ac iddo gael amser i ysgrifenu ail epistol atynt. Gwel 2 Cor. 1. 15—17. † Pan ddelai yr apostol atynt, yr oedd yn bwriadu gwneuthur prawf, nid o areithyddiaeth a ffraethineb rhyfeddol, neu ddoethineb ymadrodd, y rhai oedd wedi ymchwyddo; ond o'u gallu i'w cynnal a'u hamddiffyn eu hunain, yn wyneb ei awdurdod apostolaidd ef, a'r gwyrthiau a wnelai efe i brofi ei awdurdod a'i apostoliaeth. Fel pe dywedasai, Pan ddelwyf mi a fynaf nabod yr athrawon hyn o'r eiddoch, sydd yn fy nirmygu I yn y fath fodd: ni sylwaf fi ddim cymmaint ar eu geiriau a'u hymadrodd ffraeth hwynt, âg ar ba faint o fywyd ysbrydol a nerth sydd ynddynt, yn eu hathrawiaeth a'u buchedd: pa mòr gyson ydyw â gwirionedd yr efengyl, a pha faint mae yn tueddu i ateb dyben yr efengyl: pa ddaioni mae y gwŷr hyn yn wneyd yn eich plith chwi, a pha fath fywyd maent yn fyw. Dyma'r pethau y bydd fy llygaid I arnynt, ac ar y pethau hyn y sylwaf.

20 [l] * Canys nid mewn ymadrodd *y mae* teyrnas Dduw; † eithr mewn gallu.

l pen. 1. 24. a 2. 4. Rhuf. 1. 16. a 14. 17. a 15. 19. 2 Cor. 10. 4, 5. 1 Thes. 1. 5.

* Teyrnas Dduw yn yr eglwys, neu deyrnas Dduw yn eneidiau dynion yn bersonol: yn y naill ystyr na'r llall, nid trwy eiriau dewisol, ac ymadrodd ffraeth, ysgolheigaidd, a hyawdl, y gosodwyd teyrnas Dduw i fynu; † ond trwy allu Duw, mewn gwyrthiau nerthol, i brofi dwyfol ddechreuad yr efengyl, ac yn enwedig yn ngweithrediadau grymus ac effeithiol yr Ysbryd Glân, yn troi ac yn dychwelyd eneidiau dynion.

21 * Beth a fynnwch chwi? [m] † ai dyfod o honof fi attoch chwi â gwïalen, ‡ ynte mewn cariad, [n] ac yspryd addfwynder?

m pen. 5. 5. 2 Cor. 10. 2, 6, 8. a 12. 20, 21. a 13. 2, 3, 10. n 2 Cor. 10. 1. 1 Thes. 2. 7. Iago 3. 17.

* Pa beth a ddewiswch chwi? chwi a wyddoch yn dda i'm gweinidogaeth i gael ei chadarnâu yn eich plith chwi trwy wyrthiau, ac y medraf eu gwneyd eto; † gan hyny, a fynwch chwi i mi ddyfod atoch â gwïalen cerydd, gan gyhoeddi barnau ysbrydol, a dwyn cospedigaethau gwyrthiol ar y rhai drwg ac anhywaith yn eich plith, fel y gwnaethum ar Elymas, ac y gwnaeth Pedr ar Ananïas a Sapphira? ‡ Neu ynte, a fynwch chwi i mi ddyfod mewn cariad, ac ysbryd addfwynder, i'ch cryfâu, eich calonogi, eich canmol, a'ch cysuro? Yr oedd hyn yn ymddybynu arnynt hwy, o ran y drygau mae efe yn myned i'w henwi; oblegid os na ddiwygient hwy y drygau a'r beïau hyny, byddai raid iddo ef arfer llymder iachusol tuag at y troseddwyr. Nid hyfrydwch oedd gan yr apostol fyned atynt â gwïalen dost ei awdurdod a'i allu gwyrthiol; (oblegid hyny yw meddwl y wïalen yma,) llawer gwell ganddo fyned mewn ysbryd cariad ac addfwynder, os na byddai *raid* myned fel arall.

PEN. V.

Bod y gwr godinebus yn achos o gywilydd iddynt, yn hytrach nag o orfoledd.

[a] * MAE y gair yn hollol, [b] † *fod* yn eich plith chwi odineb, [c] ‡ a chyfryw odineb ag na enwir unwaith ym mysg y Cenhedloedd; [d] || *sef* cael o un wraig ei dad.

a pen. 1. 11. Gen. 37. 2. 1 Sam. 2. 24. b adn. 11. pen. 6. 9, 13, 18. Act. 15. 20, 29. 2 Cor. 12. 21. Gal. 5. 19. Eph. 5. 3. Col. 3. 5. 1 Thes. 4. 7. Dat. 2. 21. a 21. 8. c Jer. 2. 33. Ezec. 16. 47, 51, 52. d Gen. 35. 22. a 49. 4. Lef. 18. 8. a 20. 11. Deut. 22. 30. a 27. 20. 2 Sam. 16. 22. a 20. 3. 1 Cron. 5. 1. Ezec. 22. 10. Amos 2. 7. 2 Cor. 7. 12.

* Yn pen. 1. 11, mae yr apostol yn dywedyd mai gan y rhai o dŷ Chlöe y dangosasid iddo fod cynnenau yn mhlith y Corinthiaid; ond yma mae yn dywedyd fod y pechod hwn yn fwy cyhoeddus, fod "y gair yn hollawl," am dano, pawb yn siarad yn gyffredin ac yn ddigon cyhoedd yn ei gylch. Po atgasaf fyddo pechodau dynion (pechodau proffeswyr yn enwedig,) mwyaf i gyd fydd o siarad am dano; ac afraid i'r troseddwr holi llawer Pwy a ddywedodd? fel y bydd rhai weithiau, yn lle cyfaddef y bai, a dywedyd yn edifeiriol, Myfi a bechais. † Mae y gair *(porneia)* a gyfieithir yma "godineb," yn arwyddo pob math o ymrewydd anghyfreithlawn, (allan o'r ystad briodasol, yn gystal â phriodasau anghyfreithlawn,) rhwng yr ystenau: ond yma mae yn arwyddo y llosgach ffiaidd ac annaturiol a enwir yn niwedd yr adnod; "sef cael o un wraig ei dad." ‡ Cyfrifid y pechod a enwir yma yn dra ffiaidd gan y paganiaid yn gyffredin, ac nid enwent ef ond gyda'r atgasrwydd mwyaf: galwai *Cicero* ef "Y drygioni anghredadwy, na chlywyd am ei gyffelyb." Dywedai yr erlidwyr paganaidd fod y prif gristionogion yn euog o'r pechod yn gyffredin; a thybir mai yr un amgylchiad hwn yn Corinth a gymmerasant yn achlysur i daeru y fath gyhuddiad celwyddog. || Efallai bod rhyw dad yn Corinth wedi ymadael â'i wraig, o herwydd ei hymddygiad drwg hi; ac i'w fab ef, i'r hwn yr oedd hi yn fam-yn-nghyfraith, ei phriodi hi, neu ei fod yn byw mewn llosgach gyda hi. Gellid meddwl wrth 2 Cor. 7. 12, bod ei gŵr hi, a thad y dyn drygionus hwn, (adn. 13,) yn fyw ar y pryd: pe buasai wedi marw, buasai y peth yn anghyfreithlawn; ond yr oedd yn ysgeler o bechadurus os oedd y gŵr yn fyw.

2 [e] * Ac yr ydych chwi wedi ymchwyddo,

† ac ni [f] alarasoch yn hytrach, [e] ‡ fel y tynnid o'ch mysg chwi y neb a wnaeth y weithred hon.

e adn. 6. pen. 4. 6—8, 18. f Num. 25. 6. 2 Bren. 22. 19. Ezra 9. 2—6. a 10. 1—6. Salm 119. 136. Jer. 13. 17. Ezec. 9. 4, 6. 2 Cor. 7. 9—11. a 12. 21. g adn. 5, 7, 13. Dat. 2. 20—22.

* Er fod peth mòr warthus â hyn yn yr eglwys, nid oedd neb yn sylwi arno, nac yn galaru am dano, i ddysgyblu y dyn oedd yn euog o hóno; ond pawb yn ymchwyddo ac yn ymbleidio, pob un gyda ei hoff lathraw ei hun. Efallai bod y godinebwr ei hun yn ŵr mawr ei ddawn, ei barch, ac yn flaenor un o'r pleidiau yn yr eglwys; a phlaid gref ganddo yn ei waeddi i fynu, ac yn ymffrostio ynddo, er ei fod yn byw yn y pechod ffiaidd hwn. † Dylasent yn hytrach alaru ac ymostwng ger bron Duw am y fath beth, ‡ a bwrw allan o'u mysg y neb a wnaethai y weithred hòno. Nid amser i ymchwyddo yn ymffrostgar ydoedd, pan oedd y fath warth arnynt drwy aelod braenllyd a ffiaidd yn eu plith.

3 * Canys myfi yn ddïau, [h] fel absennol yn y corph, eto yn bresennol yn yr yspryd, † a barnais eisoes, fel pe bawn bresennol, *am* yr hwn a wnaeth y peth hwn felly:

h 2 Cor. 10. 1, 11. a 13. 2. Col. 2. 5. 1 Thes. 2. 17.

* Er bod yr apostol yn mhell o Corinth pan oedd yn ysgrifenu hyn at yr eglwys yno, eto yr oedd gyda hwy ran ei feddwl a'i ysbryd, o ran ei gariad atynt, ac o ran ei ofal am danynt. Tybia rhai ei fod yn bresenol am yr ysbryd mewn modd gwyrthiol, neu yn cael datguddiad goruwch-naturiol i'w feddwl, o'r agwedd oedd yr bethau yn Corinth; yn debyg fel y cafodd Elisëus i'r was Gehazi, 2 Bren. 5. 26; a'r prophwyd Ezeciel o'r pethau a wnaid yn ddirgel yn Jerusalem, Ezec. 8. a'r 11. † Yr oedd yr apostol wedi barnu, a phenderfynu am hollawl, beth a ddylesid ei wneyd i'r dyn godinebus yn Corinth, yn gystal â phe buasai yno gyda hwynt; ac yn danfon ei orchymyn, gydag awdurdod apostolaidd, ar iddynt hwy ei ddiaelodi ef.

4 [i] * Yn enw ein Harglwydd Iesu Grist, † pan ymgynhulloch ynghyd, ‡ a'm hyspryd innau, ‖ gyd â gallu ein Harglwydd Iesu Grist,

i Act. 3. 6. a 4. 7—12, 30. a 16. 18. Eph. 5. 20. Col. 3. 17. Mat. 16. 19. a 18. 16—18, 20. a 28. 18, 20. Ioan 20. 23. 2 Cor. 10. a 13. 3, 10.

* Yr oedd hyn i gael ei wneyd mewn modd difrifol a sobr iawn, yn enw yr Arglwydd Iesu, trwy ei awdurdod ef, yn ei ofn ef, dàn ei gyfarwyddyd, ac er ei ogoniant ef. † Yr oedd hyn i fod yn weithred yr holl eglwys, a'i ewn cynnulliad eglwysig i'r perwyl hwnw; ac nid weithred rhyw bersonau yn yr eglwys, pa mòr uchel ynag eu swyddau, heb gyd-syniad yr holl frawdoliaeth. Sweithred i'w gwneyd yn yr eglwys yn unig ydoedd, ac d yn gyhoeddus ger bron y byd: mae yn anhawdd ybod, efallai, pa le mae esampl na gorchymyn yn y estament Newydd, i dderbyn i'r eglwys, na bwrw allan r eglwys, yn gyhoeddus ger bron y byd. ‡ Wrth neyd y weithred hon, yr oedd y Corinthiaid i ystyried aul megys yn bresenol yn yr ysbryd gyda hwynt, yn d-weithredu â hwynt; a thrwy ei awdurdod apostolaidd, yn cadarnâu y weithred o ddïarddelwi y dyn ygionus hwnw. ‖ Ac nid yn unig Paul; ond yr oeddut i ystyried fod gallu ac awdurdod ein Harglwydd su Grist hefyd gyda hwynt, i'w hawdurdodi yn y lysgyblaeth hon, ac megys ei rhwymo yn y nefoedd.

5 [l] * Draddodi y cyfryw un i Satan, † i dinystr y cnawd, [m] ‡ fel y byddo yr yspryd n gadwedig yn [n] nydd yr Arglwydd Iesu.

l adn. 13. 2 Cor. 2. 6. a 10. 6. a 13. 10. Act. 26. 18. 1 Tim. 1. m pen. 11. 32. 2 Cor. 2. 7. Gal. 6. 1, 2. 2 Thes. 3. 14, 15. Iago 5. 19, 20. 1 Ioan 5. 16. Judas 22, 23. n pen. 1. 8. Phil. 1. 2 Tim. 1. 18. 2 Pedr 3. 12.

* Yn awr dyma'r weithred bwysig, "traddodi y godinebwr i Satan, i ddinystr y cnawd, &c.;" ei droi ef allan o'r eglwys, teyrnas weledig Crist, a'i draddodi i'r byd agored, lle mae Satan yn teyrnasu: peidio ei ystyried ef mwy yn gristion, ond yn bagan, ac yn ddeiliad o deyrnas Satan. Tybia eraill fod mwy na hyna yn y traddodi hwn i Satan; sef bod Satan fel offeryn cospedigaeth gyfiawn, yn cael ei oddef i boeni ac arteithio y dyn hwn, yn ei gorph a'i feddwl, fel cosp a cherydd arno am ei bechod ysgeler. Ond y golygiad cyntaf sydd esmwythaf, a mwyaf cydnaws âg ysbryd tirion yr efengyl, ac â dyben yr apostol yn y ddysgyblaeth hon, sef puro'r eglwys oddi wrth bechod mòr warthus, a chadwedigaeth ysbryd y dyn yn y diwedd. † Er dinystr y corph naturiol, medd rhai; trwy arteithiau Satan, fel y sylwyd uchod: er dinystr tueddiadau llygredig, a chwantau cnawdol, medd eraill; fel y marweiddier ac y darostynger hwynt, trwy ofn, galar, a chywilydd; ac y dyger y dyn i wir edifeirwch a diwygiad, trwy fendith yr Arglwydd Iesu ar ei ordinâd ei hun. ‡ Beth bynag oedd y moddion, a pha fodd bynag mae i ni ddeall y ddau beth uchod, "traddodi i Satan," a "dinystr y cnawd;" dyben yr apostol oedd, "fel y byddai yr ysbryd yn gadwedig yn nydd yr Arglwydd Iesu." Pwy bynag a ddysgybler, a pha beth bynag fyddo y ddysgyblaeth, hyn a ddylai y dyben fod yn wastad; lles ysbrydol y neb fyddo yn cael ei ddysgyblu: beth bynag sydd dros ben hyn, neu yn fŷr o hyn, o'r drwg y mae, ac i'r drwg y mae yn tueddu. Gwyliwn ar ein hysbryd a'n dyben wrth ddysgyblu.

6 [o] * Nid da eich gorfoledd chwi. † Oni wyddoch chwi fod [p] ychydig lefain yn lefeinio yr holl does?

o adn. 2. pen. 21. a 4. 18, 19. Iago 4. 16. p pen. 15. 33. Mat. 13. 33. a 16. 6—12. Gal. 5. 9. 2 Tim. 2. 17.

* Yr oedd yn ddigon amlwg nad oedd gan y Corinthiaid ddim achos i ymorfoleddu yn eu doniau, eu mawredd, eu hathrawon, a'u llwyddiant; oblegid yr oedd eu goddefiad hwy o'r drygioni gwarthus a enwyd, yn brawf digonol, nad oedd gwir grefydd ysbrydol ond isel iawn yn eu plith. Pa fodd y gallent ymorfoleddu mewn ystyr yn y byd, tra yr oedd y fath ddyn gwarthus yn eu plith, ac yn cael ei oddef ganddynt? Gwybed meirw, (chwaithach dyn o'r fath hyn,) a wnânt i enaint yr *apothecari* ddrewi; ac a daflant warth ar yr eglwys fwyaf blodeuog, os goddefir hwynt. Ychydig yw geiriau yr apostol ("Nid da eich gorfoledd chwi,") ond y maent yn llymion ac effeithiol iawn. † Fel y mae ychydig lefain yn lefeinio yr holl does, felly mae un dyn pechadurus fel hyn yn cael ei oddef yn mynwes yr eglwys, yn llygru, yn gwarthruddu, ac yn niweidio yr holl eglwys: a pho mwyaf ei barch, ac uwchaf ei sefyllfa yn yr eglwys, mwyaf oll y niwed a wnâ: efe a lygra feddyliau a moesau rhai, a dristâ galonau rhai eraill; ac mewn rhyw ffordd a'i gilydd, a lygra ac a haloga yr holl eglwys i gyd. Dylasai y Corinthiaid wybod ac ystyried hyn.

7 [q] * Am hynny certhwch allan yr hen lefain, [r] † fel y byddoch does newydd, ‡ megis yr ydych ddilefeinllyd. ‖ Canys [s] Crist ein pasc ni a aberthwyd drosom ni.

q adn. 13. Ex. 12. 15. a 13. 6, 7. Eph. 4. 22. Col. 3. 5—9. r pen. 10. 17. s pen. 15. 3, 4. Ex. 12. 5, 6. Es. 53. 7—10. Ioan 1. 29, 36. Act. 8. 32—35. 1 Pedr 1. 19, 20. Dat. 5. 6—9.

* Certhwch allan yr hen lefain *hwn*, medd rhai: ïe, a phob hen lefain arall hefyd: pob peth afiach mewn athrawiaeth, ysbryd, ac ymarweddiad. Cyfeiriad sydd yma at yr Iuddewon yn carthu allan bob surdoes o'u tai cyn gŵyl y bara croyw, neu y pasg: dywedir y byddent yn chwilio yn ddyfal ac yn fanwl iawn, hyd yn nôd â chanwyllau, rhag y byddai dim surdoes yn nghonglau y tai, neu wedi ei gludo gan lygod i dyllau yn y muriau. † Yr oedd y lefain pechadurus a grybwyllwyd yn hollawl anweddus i burdeb eglwys o gristionogion, y rhai a ddylent fod yn does newydd, yn debyg i'r bara croyw gynt ar ŵyl y pasg. ‡ "Megys yr ydych ddilefeinllyd," o ran eich proffes, a'ch rhwymau i fod, ac fel yr ydys yn gobeithio mewn barn cariad am y cyffredin o honoch.

‖ Er bod y pasg Iuddewig wedi darfod, ac nad oedd y Corinthiaid yn rhwymedig i ddim o'r cyflawniadau seremonïaidd hyny; eto yr oeddynt dàn y rhwymau mwyaf i fyw mewn heddwch, purdeb, a gwirionedd, fel dynion ac fel eglwys: oblegid fod Crist, gwir Basg y cristionogion, wedi ei aberthu drostynt i'r dyben hyny, fel y glanâer hwy oddi wrth bob anwiredd, ac y purer hwy, yn bobl briodol iddo ef, yn awyddus i weithredoedd da.

8 * Am hynny [t] cadwn wyl, [u] † nid â hen lefain, [x] nac â lefain malais a drygioni; [y] ‡ ond â *bara* croyw purdeb a gwirionedd.

t Lef. 23. 6. Num. 28. 16, 17. Deut. 16. 16. Es. 25. 6. u adn. 1, 6. pen. 6. 9—11. 2 Cor. 12. 21. Eph. 4. 17—22. 1 Pedr 4. 2, 3. x pen. 3. 3. Mat. 16. 6, 12. a 26. 4, 5. Luc 12. 1. Ioan 18. 28—30. 2 Cor. 12. 20. 1 Pedr 2. 1, 2. y Jos. 24. 14. Salm 32. 2. Ioan 1. 47. 2 Cor. 1. 12. a 8. 8. Eph. 6. 24. 1 Ioan 3. 18—21.

* Gellid cymhwyso yr adnod hon at y wledd, neu yr ŵyl wastadol o gymdeithas â Duw, trwy ffydd yn Nghrist, neu ynte at yr wyl o gyfranogi o swper yr Arglwydd, i gofio aberthiad a marwolaeth Crist. † Nid â chymmysg o bechaduriaid anfad a gwarthus yn y gymdeithas a'r cymundeb eglwysig; ac nid âg unrhyw bechodau goddefol ynom ein hunain, y rhai sydd gyffelyb i hen lefain, am eu bod yn tarddu o lygriad gwreiddiol ein natur, yn ein llygru ni ein hunain ac eraill, fel y surdoes yn suro yr holl does; ac yn fwy atgas a gwaharddedig gan Dduw na'r surdoes gynt yn Israel. Tybia rhai mai anlladrwydd yn benaf oedd yr hen lefain yma; yr oedd y Corinthiaid yn ddïarhebol o ddrwg am y pechod hwnw. Am y lefain malais a drygioni, ni raid i ni ond darllen pen. 1. 11, 12; a 3. 3, 4, i wybod pa beth ydoedd. ‡ Ond â symledd a diniweidrwydd duwiol, (yr hyn yr oedd y bara croyw gynt yn ei gysgodi, efallai,) ac â gwir gariad brawdol, yn ol gwirionedd yr efengyl. Mae y geiriau yn cynnwys purdeb personol, a phurdeb cymdeithasol eglwysig: yr olaf yn benaf, efallai yma.

9 * Mi a ysgrifenais attoch mewn llythyr, [z] † na chyd-ymgymmysgech â godinebwyr.

z Salm 1. 1, 2. Diar. 9. 6. 2 Cor. 6. 17. Eph. 5. 11.

* Tybia rhai i'r apostol ysgrifenu epistol o'r blaen, cyn hwn, at y Corinthiaid, ond ei fod yn awr wedi myned ar goll, fel y tybir fod rhai o'i ysgrifeniadau eraill ef wedi myned; cyn erioed eu gosod yn nghorph, neu ganon yr ysgrythyr, yr hon sydd yn cynnwys yr holl ddatguddiad dwyfol, angenrheidiol i iachawdwriaeth. Tybia eraill ei fod yma yn cyfeirio at lythyr *arall*, y dechreuasai efe ei ysgrifenu cyn i'r cenadau o Corinth ddyfod ato; ac wedi iddo glywed pa fodd yr oedd pethau yno, iddo daflu *hwnw* o'r naill du, ac ysgrifenu *hwn:* a thybia eraill mai y llythyr hwn mae yn feddwl; y pethau a ysgrifenasai efe eisoes ynddo, yn enwedig y rhan flaenorawl o'r bennod hon. † Nid peidio cydymgymmysgu â godinebwyr yn eu gweithredoedd aflan yn unig a feddylir; ond gwahardd pob math o gyfeillach â'r cyfryw ddynion hyd ag y byddai dichon, yr oedd yr apostol, yn enwedig cyd-ymgymmysgu â hwynt fel aelodau eglwysig.

10 [a] * Ac nid yn hollol â godinebwyr [b] y byd hwn, neu â'r cybyddion, neu â'r † cribddeilwyr, neu âg eilun-addolwyr; [c] ‡ oblegid felly rhaid fyddai i chwi fyned allan o'r byd.

a pen. 10. 27. b pen. 1. 20. Ioan 8. 23. a 15. 19. a 17. 6, 9, 15, 16. 2 Cor. 4. 4. Eph. 2. 2. 1 Ioan 4. 5, 7. c Mat. 5. 14—16. Ioan 17. 15. Phil. 2. 15. 1 Ioan 5. 19. Dat. 12. 9.

* Byddai yn lled chwith gan lawer cybydd gael ei osod yn yr un rês â'r godinebwyr a'r eilun-addolwyr; ond felly y mae yma: enwir yma bedwar math o bechaduriaid, a phob un mòr atgas â'r llall o honynt; er y dywed y cybydd wrth y godinebwr, Saf ar dy ben dy hun, na nesâ ataf fi: canys sancteiddiach o lawer ydwyf na thi. † Cribddeilwyr, *(arpaxin)* dynion gwancus, rheibus, ysglyfgar, fel bleiddiau yn cipio pob peth iddynt eu hunain trwy drais a chreulondeb. ‡ Nid yw yr apostol yn dywedyd y dylasai y cristionogion ymgadw yn hollawl, heb gyd-ymgymmysgu mewn modd yn y byd â'r pechaduriaid hyn; buasai hyny yn anmhosibl yn y byd hwn, gan amled oedd y fath ddynion yn y byd, yn enwedig yn Corinth y pryd hwnw: nis gallent ymdrin â helyntion cyffredin ac angenrheidiol bywyd heb ymgymmysgu â rhai o'r cyfryw ddynion.

11 * Ond yn awr mi a ysgrifenais attoch, na chyd-ymgymmysgech: † os bydd neb a [d] enwir yn frawd yn [e] odinebwr, [f] neu yn gybydd, [g] neu yn eilun-addolwr, [h] neu yn ddifenwr, [i] neu yn feddw, [k] neu yn gribddeiliwr: [l] ‡ gyd â'r cyfryw ddyn na cyd-fwytta chwaith.

d pen. 6. 6. a 7. 12, 15. a 8. 11. Act. 9. 17. e Gwel ar adn. 1.—a 9, 10. Salm 50. 16—21. 2 Cor. 12. 20, 21. Gal. 5. 19—21. 1 Thes. 4. 3—8. Dat. 2. 14, 20. a 21. 8. a 22. 15. f Salm 10. 3. Marc 7. 21—23. Luc 12. 15, &c. Eph. 5. 5. Col. 3. 5. 1 Tim. 3. 3. a 6. 9, 10. 2 Pedr 2. 14, 15. g pen. 10. 7, 8, 14, 18—22. h pen. 6. 10. Salm 101. 5. i pen. 11. 21. Mat. 24. 49—51. Luc 12. 45, 46. a 21. 34. Rhuf. 13. 13. Eph. 5. 18. 1 Thes. 5. 7, 8. k Ezec. 22. 12. Mat. 23. 25. Luc 18. 11. l adn. 13. Mat. 18. 17. Rhuf. 16. 17. 2 Thes. 3. 6, 14, 15. 1 Tim. 6. 5. 2 Ioan 10, 11.

* Yma mae yr apostol yn egluro ei feddwl yn fanylach, pa fath gyd-ymgymmysgu oedd efe yn wahardd yn adn. 9: † os byddai neb a enwid yn frawd, neu yn aelod eglwysig, yn euog o'r un o'r pechodau a enwir, y dylai y gwir gredadyn, oedd yn gwir ofni Duw, gilio oddi wrth y cyfryw ddyn, a pheidio cyd-ymgymmysgu âg ef mewn cyfeillach o fath yn y byd: ‡ peidio cyd-fwyta âg ef wrth yr un bwrdd cyffredin, chwaithach yn y sacrament wrth fwrdd yr Arglwydd. Fel hyn yr oedd y llygriad pechadurus yn cael ei attal, y gwarth yn cael ei droi ymaith, a'r moddion mwyaf effeithiol yn cael eu harfer i argyhoeddi y troseddwyr o'u pechod a'u perygl. Os yw yn ganiatâol i gristionogion, gymmaint ag i gyd-fwyta yn gyffredin â dynion gwarthus o'r fath hyn; llawer llai y dylent gyd-ymbrïodi â hwynt. Enwir yma chwech math o bechodau, neu o bechaduriaid.

12 [m] * Canys beth sydd i mi a farnwyf [n] ar y rhai sydd oddi allan? [o] † onid y rhai sydd oddi mewn yr ydych chwi yn eu barnu?

m Luc 12. 14. Ioan 18. 36. n Marc 4. 11. Col. 4. 5. 1 Thes. 4. 12. 1 Tim. 3. 7. o pen. 6. 1—5.

* Nid oedd yr apostol yn ystyried bod yn ddyled arno ef, nac ychwaith fod ganddo awdurdod, i farnu dim yn nghylch y rhai oedd oddi allan i'r eglwys, y rhai nad oeddynt yn proffesu cristionogaeth, † ond yr oedd yn perthyn iddo ef a'r eglwys yn Corinth, i farnu y rhai oedd oddi mewn; i arfer awdurdod farnol ar aelodau eu heglwys eu hunain, ac i ddysgyblu y rhai gwarthus o honynt.

13 * Eithr y rhai sydd oddi allan, [p] Duw sydd yn eu barnu. [q] † Bwriwch chwithau ymaith y dyn drygionus hwnnw o'ch plith chwi.

p Salm 50. 6. Act. 17. 31. Rhuf. 2. 16. Heb. 13. 4. 2 Pedr 2. 9. q adn. 1, 5, 7. Deut. 13. 5. a 17. 7. a 21. 21. a 22. 21, 24. Preg. 9. 18.

* Er nad oes dim a fyno yr eglwys na'i swyddogion â'r rhai sydd oddi allan; eto y mae a fyno Duw, fel Barnwr cyffredinol pawb, â hwynt, ac efe a'u barna oll yn gyfiawn yn ol eu gweithredoedd: "puteinwyr a godinebwyr a farna Duw." Tybia rhai fod yr apostol yma yn cyfeirio at y fam-yn-nghyfraith y dyn godinebus; (adn. 1,) yr hon, mae yn debyg, oedd baganes ddibroffes, gan nad yw Paul yn rhoddi dim cyfarwyddyd i'r Corinthiaid mewn perthynas iddi hi. † Prysured y Corinthiaid yn ddïoed, a chyda llawn awdurdod, i wneuthur eu dyledswydd, trwy fwrw y dyn drygionus hwnw o'u plith, o'u cymdeithas a'u cymundeb eglwysig, ac o'u cyfeillach gyffredin hefyd, na byddo i neb gymmaint a chyd-fwyta âg ef mewn ffordd o gyfeillach agos, fel y cywilyddio efe. Na ofaled neb pa anfoddlonrwydd a grëa hyny yn ei bleidwyr ef, bwrier ef allan, gwell anfoddloni dynion nac anfoddloni Duw, am hyny carther allan y lefain hwnw.

PEN. VI.

Na ddylai y Corinthiaid flino eu brodyr, trwy fyned i gyfraith â hwynt.

1 * A FEIDDIA neb o honoch a chanddo [a] fatter yn erbyn arall, [b] † ymgyfreithio o flaen y rhai anghyfiawn, ac nid o flaen [c] y saint?

a Mat. 18. 15—17. Act. 18. 14, 15. a 19. 38. b adn. 6, 7. c pen. 1. 2. a 14. 33. a 16. 1, 15.

* Gwelsom o'r blaen am ymchwydd, cenfigenau, ymryson, ac ymbleidio yn mhlith y Corinthiaid; (pen. 1. 11; a 3. 3,) gan hyny nid rhyfedd fod dynion o ysbryd a'r tymherau hyn yn ymgyfreithio a'u gilydd. Er hyny, mae yr apostol fel dyn mewn syndod, yn gofyn yn sydyn, a oedd y fath beth yn bosibl? a feiddai y saint ymgyfreithio â'u gilydd? ac os byddai gan y naill fater yn erbyn arall, a feiddient hwy ymgyfreithio o flaen y rhai anghyfiawn, barnwyr paganaidd, y rhai nid oeddynt yn ofni Duw nac yn parchu dynion, ac nid o flaen y saint, eu brodyr yn yr un eglwys. † Nid oedd yr apostol yn dywedyd dim yn erbyn yr awdurdodau ywladol fel y cyfryw, er mai paganaidd oeddynt; ond ynu yr oedd efe na buasai aelodau eglwysig yn penderfynu eu hymrafaelion yn eu plith eu hunain, ac nid eu dwyn o flaen paganiaid annuwiol ac anghyfiawn, er eu dynoethi eu hunain, ac er gwarth i'r grefydd sanctaidd oeddynt yn broffesu.

2 * Oni wyddoch chwi y [d] barna y saint y byd? † ac os trwoch chwi y bernir y byd, a ddych chwi yn anaddas i farnu [e] y pethau lleiaf?

d Salm 49. 14. a 149. 5—9. Dan. 7. 18. Zec. 14. 5. Mat. 19. 28. Luc 22. 30. 1 Thes. 3. 13. Dat. 2. 26, 27. a 3. 21. a 20. 4. e adn. 4. 2 Cor. 4. 18. 1 Ioan 2. 16, 17.

* Pe na buasai ganddynt neb arall ond rhai digred i farnu eu materion, buasent yn esgusodol; ond hwy a ddylasent wybod fod eu brodyr, y saint, yn addas i farnu mwy pethau na'u hymrafaelion bychain hwy, ac ymosodwng i farn eu brodyr yn mhob peth. Barna y saint y byd, medd rhai, yn yr un ystyr ac y dywedodd Crist y byddai i'r Ninifeaid, a brenines y dëau, gyfodi mewn barn yn erbyn yr Iuddewon, a'u condemnio hwynt: ybia eraill fod mwy na hyny yn y geiriau; y bydd y saint gyda Christ, ac fel cyd-farnwyr âg ef, yn cymmeradwyo ei ddedfryd farnol ef ar y byd. Gwel ar Matth. 19. 28; Luc 22. 30. Tybia eraill eto, mai cyfeiriad ydd yma at yr amser, pryd y rhoddid barn, neu lywodraeth dymorawl a gwladol y byd hwn i'r saint, yn ol y brophwydoliaeth yn Dan. 7. 18, 27: os felly, dylasai y Corinthiaid wybod y brophwydoliaeth hòno, y barnai y saint y byd yn yr ystyr hyny. † Yn mha ystyr bynag y barna y saint y byd, ai yn y dydd olaf, ai ynte yn ol ystyr prophwydoliaeth Daniel, yr hyn a ddechreuodd yn amser Custeny. Fawr, yr Ymherawdr Cristionogol yntaf; yr oeddynt yn sicr yn addas i farnu pethau bychain, y pethau lleiaf, yn eglwys Corinth y pryd hwnw.

3 * Oni wyddoch chwi y [f] barnwn ni angelion? † pa faint mwy y pethau a [g] berthyn i'r bywyd hwn?

f Mat. 25. 41. 2 Pedr 2. 4. Judas 6. g adn. 4. Salm 17. 14. Luc 8. 14. a 21. 34. 2 Tim. 2. 4. a 4. 10.

* Dywed rhai fod yr angelion da o hyd mewn cyflwr brawf; ac y cânt eu gwobrwyo yn y dydd olaf, yn ol eu ffyddlondeb a'u diwydrwydd yn y gwasanaeth a bennoddd Crist, pen yr angelion, iddynt; yr hwn a gasgl ei saint yn nghyd y pryd hwnw i fod yn gyd-farnwyr âg ef n y ddedfryd hòno. Ond tybir mai golygiad disail awn yw yr un uchod ar y geiriau hyn; gan hyny rhaid ni droi at yr angelion drwg, ac fel hyny mae amryw lygiadau gan ddynion ar y mater. Tybia rhai mai y allu oedd gan lawer o'r saint ar gythreuliaid, i'w bwrw allan o ddynion, a feddylir: ond yr oedd hyny gan rai o'r saint y pryd hwnw; lle mae yr apostol yn dywedyd am y peth mewn amser i ddyfod: ac nid oedd ond gan rai; lle mae yr apostol yn dywedyd am y saint yn gyffredinol, y barnant angelion. Tybia eraill am y saint yn barnu angelion yma, mai yspeilio yr angelion drwg o'u llywodraeth yn y byd hwn a feddylir; trwy amlâd y saint mewn rhifedi, eu cynnydd mewn duwioldeb, a thaeniad yr efengyl a gwir grefydd yn y byd paganaidd, trwy lafur ac offerynoldeb y saint: bydd y saint, ac achos sanctaidd yr efengyl yn ennill y dydd ar Satan a'i deyrnas, ac fel hyny bydd y saint yn barnu angelion. Ond y dŷb fwyaf cyffredin yw, y bydd y saint yn barnu yr angelion drwg, yn debyg fel y dywedwyd y byddant yn barnu y byd, adn. 2; sef y byddant yn cytuno â Christ y Barnwr, ac yn cymmeradwyo ei farn ofnadwy ef arnynt, yn y dydd diweddaf. Pan welo yr angelion drwg fuddugoliaeth Crist arnynt yn y rhai hyn ei saint, y rhai a fuont yn gaethion iddynt hwy unwaith; pan welont y saint wedi buddugoliaethu arnynt trwy waed yr Oen, yn eistedd gydag ef i'w barnu hwynt, ac yn cael eu derchafu i'r eisteddfâu gogoneddus a gollasant hwy; bydd hyn yn gwneyd y farn ei hunan yn drymach, ac yn fwy annyoddefol ac ofnadwy, i grëaduriaid mòr llawn o lid a balchder ag yw yr angelion drwg. † Gan y barnwn ni angelion felly, crëaduriaid ysbrydol, a'u barnu am byth; pa faint mwy addas ydym i farnu pethau bychain, perthynol i'r bywyd gwael hwn, yn mhlith ein brodyr?

4 * Gan hynny, [h] od oes gennych farnedigaethau am bethau a berthyn i'r bywyd hwn, † dodwch ar y faingc [i] y rhai gwaelaf yn yr eglwys.

h pen. 5. 12. i Act. 6. 2—4.

* Fel pe dywedasai yr apostol, Mae yn resyn bod materion ymrafaelgar o fath yn y byd yn eich plith chwi, fel eglwys o gristionogion, ac yn enwedig yn eich plith *chwi*, sydd yn cymmeryd arnoch ragori llawer ar agos i bob eglwys, mewn athrawon, doniau, a gwybodaeth; † ond gan fod y cyfryw bethau annymunol yn eich plith, dodwch ar y faine y rhai a dybiwch yn waelaf yn yr eglwys, i'w penderfynu: bydd hyny yn weddeiddiach o lawer na myned i ymgyfreithio ger bron y rhai digred, paganaidd; byddwch yn debyg o gael gwell cyfiawnder, dynoethi llai arnoch eich hunain, a gwarthruddo llai ar grefydd ac enw sanctaidd Crist.

5 [k] * Er cywilydd i chwi yr ydwyf yn dywedyd. [l] † Felly, onid oes yn eich plith gymmaint ag un doeth, yr hwn a fedro farnu rhwng ei frodyr?

k pen. 4. 14. a 11. 14. a 15. 34. l pen. 3. 18. a 4. 10. Diar. 14. 8. Iago 1. 5. a 3. 13—18.

* Nid am fod yr apostol yn tybied mai y rhai gwaelaf yn yr eglwys oedd y rhai mwyaf addas i'w dodi ar y faine i farnu rhwng eu brodyr, y dywedai wrthynt am wneyd felly; ond i'r dyben o'u cywilyddio hwynt o'r arfer anweddaidd o ymgyfreithio â'u gilydd, ac yn enwedig ger bron y rhai digred. † Pa beth, ebai yr apostol, wedi eich holl ymffrost yn eich doethineb a'ch dysgeidiaeth, a oes mewn difrif yn eich plith chwi ddim cymmaint ag un doeth, neu o synwyr cyffredin, yr hwn a fedro farnu a phenderfynu am bethau bychain, y "pethau lleiaf," a phethau a berthyn i'r bywyd hwn, rhyngoch chwi? Pa le yr oedd eu holl athrawon yr ymorfoleddent gymmaint ynddynt, pan oedd pethau fel hyn eu plith?

6 [m] * Ond bod brawd yn ymgyfreithio â brawd, a hynny ger bron y rhai digred.

m adn. 1, 7. Gen. 13. 7—9. a 45. 24. Neh. 5. 8, 9. Salm 133. Act. 7. 26. Phil. 2. 14, 15. 1 Ioan 2. 9—11. a 3. 11—15.

* Yr oedd ymgyfreithio â'u gilydd felly ger bron rhai digred, ynadon paganaidd, a gelynol eisoes i'r efengyl, yn niwed mawr i achos yr efengyl, ac yn dangos ei phroffeswyr yn ddynion o ysbryd câs a chyfreithgar. Yr oedd Corinth yn awr yn meddiant y Rhufeiniaid, y

rhai a ganiatâent i'r Iuddewon yn mhob màn, bender-fynu eu hymrafaelion personol rhyngddynt â'u gilydd, heb eu dwyn ger bron yr ynad gwladol: a chan yr ystyriai y Rhufeiniaid y cristionogion fel plaid o Iuddewon, yr oedd yr un caniatâd iddynt hwythau hefyd pe gwnaethent ddefnydd o hòno. Ât y caniatâd hwn yr oedd Paul yn cyfeirio, tebygir.

7 * Yr awrhon gan hynny [n] y mae yn hollol ddiffyg yn eich plith, am eich bod yn ymgyfreithio â'ch gilydd. [o] † Paham nad ydych yn hytrach yn dïoddef cam? paham nad ydych yn hytrach mewn colled?

n Diar. 25. 8—10. Hos. 10. 2. Iago 4. 1—3. o Diar. 20. 22. Mat. 5. 39—41. Luc 6. 29. Rhuf. 12. 17, 18. 1 Thes. 5. 15. 1 Pedr 2. 19—23. a 3. 9.

* Diffyg gras, diffyg cariad, a diffyg iawn-lywodraeth, oedd yn peri fod ymrafaelion ac achos ymgyfreithio yn eu plith hwy: yn enwedig yr oedd diffyg mawr eu bod yn ymgyfreithio ger bron y rhai digred. Mae ymgyfreithio rhwng brodyr yn anghyfreithlawn ar amryw ystyriaethau:—1. Pan fyddont yn ymgyfreithio o flaen rhai digred; a thrwy hyny yn tynu gwaradwydd ar grefydd, yr hon a ddylai fod yn fwy gwerthfawr na dim arall. 2. Pan ymgyfreithiont am bethau bychain, dibwys, a diwerth; mae yn groes i gyfraith cariad, i ni wneuthur drwg mawr i eraill, er adferu i ni ein hunain ryw beth bychan y byddo genym hawl iddo. 3. Pan fydder yn ymgyfreithio mewn llid, digasedd, ysbryd cybydd-dod, a chwant dïal. Mae yn beth posibl, efallai, i ddyniòn ymgyfreithio heb bechu yn yr ystyriaethau uchod; ond ychydig iawn sydd yn ei wneyd, o herwydd y llygredigaeth sydd yn nglŷn â'n natur lygredig ni: at genfigen mae chwant yr ysbryd a gartrefa ynom ni; am hyny gwell gadael ymaith yr ymryson hyn cyn ymŷryd arni. † Yn hytrach nag ymgyfreithio yn bechadurus, mae yn well dyoddef cam, a bod mewn colled: ni a wyddom yr eithaf o hyny yn gyffredin; ond nis gwyddom beth fydd y diwedd o ddechreu ymgyfreithio: yn enwedig pan ddelo dysgyblion Iesu i ymgyfreithio â'u gilydd; nid hwy eu hunain fydd yn cael niwed yn unig, eithr bydd crefydd yn cael niwed ac anmharch drwyddynt hwy.

8 [p] * Eithr chwychwi sydd yn gwneuthur cam, a cholled, a hynny *i'r* brodyr.

p Lef. 19. 13. Mica 2. 2. Mal. 3. 5. Marc 10. 19. Col. 3. 25. 1 Thes. 4. 6. Iago 5. 4.

* Nid yn unig yr oedd y Corinthiaid yn rhŷ feilchion a hunanol i ddyoddef cam, a bod mewn colled; ond yr oeddynt hwy hefyd yn gwneuthur cam, a cholled, a hyny i'r brodyr: heb hyny ni buasai achlysur i ymgyfreithio. Pan elo un blaid i wneyd cam, a'r blaid arall yn rhŷ falch i ddyoddef cam, a hyny yn eglwys Dduw; mae yr eglwys yn myned yn debycach i ymladdle eirth a llewod, na dim arall: a'r rhai a broffesant gristionogaeth, yn debycach i gŵn yn cnoi ac yn traflyncu eu gilydd, nac i ganlynwyr Iesu.

9 [q] * Oni wyddoch chwi [r] na chaiff y rhai anghyfiawn [s] etifeddu teyrnas Dduw? † Na thwyller chwi: ‡ ni chaiff na [t] godinebwyr, nac eilun-addolwyr, na thorwyr priodas, na masweddwyr, na [u] gwrryw-gydwyr,

q adn. 2. 3, 15, 16, 19. pen. 3. 16. a 9. 24. r Ex. 23. 1. Lef. 19. 15, 35, 36. Deut. 25. 13—16. Diar. 11. 1. a 22. 8. Es. 10. 1, 2. a 55. 7. Zec. 5. 3. Act. 24. 25. Rhuf. 1. 18. 1 Tim. 1. 9. s adu. 10. pen. 15. 50. Mat. 19. 29. a 25. 34. Gal. 5. 21. t pen. 5. 1, 10. Gal. 5. 19—21. Eph. 5. 5. Heb. 12. 16. a 13. 4. Dat. 21. 8. a 22. 15. u Gen. 19. 5. Lef. 18. 22. a 20. 13. Deut. 22. 5. a 23. 17. Barn. 19. 22. Rhuf. 1. 26, 27. 1 Tim. 1. 10.

10 [x] Na lladron, na [y] chybyddion, na meddwon, na difenwyr, na chribddeilwyr, || etifeddu teyrnas Dduw.

x Salm 50. 17, 18. Es. 1. 23. Jer. 7. 11. Ezec. 22. 13, 27, 29. Mat. 21. 19. a 23. 14, 33. Ioan 12. 6. Eph. 4. 28. 1 Thes. 4. 6. 1 Pedr 4. 15. y Gwel ar pen. 5. 11.

* Wrth deyrnas Dduw yma, y meddylir teyrnas y gogoniant, dedwyddwch nefol y byd a ddaw. Dylasai y Corinthiaid wybod na chaiff y rhai anghyfiawn etifeddu y deyrnas hòno, a dylasai yr ystyriaeth o hyny beri iddynt ymddwyn yn gyfiawn, yn heddychol, ac yn frawdol tuag at eu gilydd. Nid oes gan yr anghyfiawn mewn cyflwr ac ymarweddiad, na hawl na chymhwysder i deyrnas Dduw; ac ni chaiff etifeddu y fendith hòno yn ei gyflwr anghyfiawn, pe byddai iddo fel Esau, trwy ddagrau ei thaer geisio hi. † Na thwyller chwi, gan eich calonau eich hunain, gan eich gau-athrawon cnawdol a gwenieithus, gan esamplau proffeswyr cnawdol a phenrhydd eraill, na chan eich barnwyr gwladol, sydd yn goddef pechodau ysgeler yn ddigerydd: nid felly y gwna Duw yn y dydd diweddaf. Mae grŷm mawr yn y gofyniad uchod "Oni wyddoch chwi," pan ystyriom ei fod yn cael ei gyfeirio at ddynion oedd wedi ymchwyddo, ac yn ymffrostio cymmaint yn eu gwybodaeth a'u doethineb rhagor pawb eraill. ‡ Yn pen. 5. 10, enwodd yr apostol *bedwar* math o bechadurialid; yn adn. 11 o'r un bennod, enwodd *chwech* math; ac yn y ddwy adnod hon, mae yn enwi *deg* math o honynt: ac yr oedd pob math o'r deg, a llawer math heblaw hyny, yn heidio wrth y cannoedd a'r miloedd, yn y ddinas gyfoethog, baganaidd, ac aflan hòno, Corinth. Maent yn taro yn erbyn pob gorchymyn o'r deg gair deddf, || a phob un o honynt yn ddigon i gauad dyn allan o deyrnas Dduw byth, oddigerth iddo gael y golchi, y sancteiddio, a'r cyfiawnâu, a sonir yn yr adnod nesaf.

11 * A [z] hyn fu rhai o honoch chwi, [a] † eithr chwi a olchwyd; [b] ‡ eithr chwi a sancteiddiwyd; [c] || eithr chwi a gyfiawnhâwyd, § yn enw yr Arglwydd Iesu, a thrwy Yspryd ein Duw ni.

z pen. 12. 2. Rhuf. 6. 17—19. Eph. 2. 1—3. a 4. 17—22. a 5. 8. Col. 3. 5—7. Tit. 3. 3. 1 Pedr 4. 2, 3. a Salm 51. 2, 7. Diar. 30. 12. Es. 1. 16. Jer. 4. 14. Ezec. 36. 25. Ioan 13. 10. Act. 22. 16. Eph. 5. 26. Tit. 3. 5. Heb. 10. 22. 1 Pedr 3. 21. Dat. 1. 5. a 7. 14. b pen. 1. 2, 30. Act. 26. 18. Gal. 5. 22, 23. 2 Thes. 2. 13. 1 Pedr 1. 2, 22. c Es. 45. 25. a 53. 11. Luc 18. 14. Act. 13. 39. Rhuf. 3. 24, 26—30. a 4. 5. a 5. 1, 9. a 8. 30, 33. Gal. 2. 16. a 3. 8, 11, 24. Tit. 3. 7. Iago 2. 21—26.

* E fu rhai o'r Corinthiaid oedd yn awr yn grefyddol, yn byw unwaith mewn arferiad o'r pechodau echryslawn uchod; ac efallai y rhan fwyaf o honynt mewn rhai o'r pechodau hyny. Amcan yr apostol yn adgoffa hyny iddynt yma oedd, darostwng eu balchder, ac nid peri iddynt feddwl nad oedd dim iachawdwriaeth i gael, i'r cyfryw bechaduriaid: † oblegid yr oedd llawer o honynt hwy wedi cael iachawdwriaeth; wedi eu golchi, nid â dwfr bedydd yn unig, ond hefyd yn y ffynon oedd wedi ei hagoryd i bechod ac i aflendid. ‡ Fel hyny yr oeddynt wedi eu sancteiddio oddi wrth gariad ac arferiad pechod, ac i gariad a gwasanaeth Duw, trwy weithredïadau sancteiddàol yr Ysbryd Glân: || ac hefyd wedi eu cyfiawnâu a maddeu iddynt, trwy ffydd yn enw yr Arglwydd Iesu: fel hyn yr oedd eu cyflwr, eu cymmeriad a'u hymarweddiad, wedi eu cyfnewid yn wirioneddol ac yn amlwg o'r peth oeddynt, neu a fuasent o'r blaen, a'r cwbl o drugaredd a gras Duw. Efallai fod y "golchi" uchod yn meddwl, yr "arwydd gweledig oddi allan" yn y bedydd; a'r "sancteiddio" yn meddwl, y "gras ysbrydol oddi fewn." Cafodd yr holl broffeswyr yn Corinth y peth cyntaf; a chafodd llawer o honynt yr ail beth hefyd. Nid yw bod "sancteiddio" yn cael eu grybwyll yn y fàn hon o flaen "cyfiawnâu," yn un praw yn y byd mai sancteiddio sydd flaenaf: cyfiawnâu, yn ddiammau, sydd flaenaf; (o ran trefn, nid o ran amser, ac yna sancteiddio yr hwn a gyfiawnâwyd: § ac yr niwedd yr adnod, ni welwn fod "enw yr Arglwydd Iesu," yn yr hwn y'n cyfiawnêir, yn cael ei grybwyll o flaen "Ysbryd ein Duw ni," trwy yr hwn y'n sancteiddir. Nid yw trefn gosodiad geiriau yn aml, yn un rëol ni farnu am drefn pethau, o ran cyntaf ac ail; ac ma yn yr adnod hon y dull ymadrodd a elwir traws-ddodiad

hyperbaton,) sef gosodiad geiriau allan o'u trefn briodol.

12 [d] * Pob peth sydd gyfreithlawn i mi, ond [e] nid yw pob peth yn llesâu; † pob peth sydd gyfreithlawn i mi, [f] eithr ni'm dygir i dan awdurdod gan ddim.

d pen. 10. 23. Rhuf. 14. 14. e pen. 8. 4, 7—13. a 9. 12. a 10. 24—33. Rhuf. 14. 15—23. 2 Thes. 3. 9. f pen. 9. 27. Rhuf. 1. 14. Heb. 12. 15, 16. Judas 12.

Nid yw yr adnod hon yn ddyrys iawn ynddi ei hun; ond nid mòr hawdd yw deall ei chyssylltiad â'r cydestynau, o'i blaen ac ar ei hol. Tybia rhai ei bod yn cyfeirio at ymgyfreithio ger bron y rhai digred, am yr hyn y soniodd yr apostol yn nechreu y bennod; gallasai rhai ddywedyd, Ai nid yw yn gyfreithlawn i broffeswyr ymned i gyfraith ar achos cyfiawn, lle na chaffout gyfiawnder heb hyny? * I hyna mae yr apostol megys yn dweud, Pob peth sydd gyfreithlawn i mi, ond nid yw pob peth yn llesâu: er bod ymgyfreithio yn gyfreithlawn ar rai achosion, eto nid yw yn llesâu; nid yw yn llesâu i ymbryd a meddwl y dyn, ac nid yw yn llesâu i achos perfydd. Gall llawer peth fod yn gyfreithlawn ynddo i hun, ond o herwydd rhyw amgylchiadau, neu gannyniadau, perthynol i'r peth hwnw, ni bydd yn llesol iac yn adeiladol i'r dyn ei hunan nac i neb arall. Tybia eraill fod yr apostol yma yn dechreu ar ymadrodd newydd yn nghylch godineb; ac yn son am fwyta ac yfed yn anghymmedrol, fel pethau yn cynhyrfu ac yn annyn y chwantau cnawdol i hyny. Gallai proffeswyr anrhydd Corinth ofyn iddo, Ai nid yw yn gyfreithlawn i ni fwyta ac yfed yn ddiwall? I hyna mae yntau yn ateb, fod bwyta ac yfed yn sicr yn gyfreithlawn; ond os bwnair hyny dros ben terfynau cymmedroldeb, nid yw yn llesâu: nid yw yn llesâu y corph yn naturiol, ac nid yw yn llesâu yr enaid mewn pethau ysbrydol, ond yn llesol ac yn niweidiol iawn yn mhob ystyr. † Gan fod llawer o bethau cyfreithlawn felly nad yw yr arferiad o bonynt bob amser yn llesâu; ni'm dygir I dàn awdurdod gan ddim, ebai yr apostol; ni'm dygir dàn awdurdod am farnau dynion eraill, ac ni'm dygir dàn awdurdod nn fy mlŷs a'm chwant fy hun, i goledd fy hun mewn pethau na byddont yn llesâu er eu bod yn gyfreithlawn. Peth mawr yw gallu arfer pethau cyfreithlawn heb eu cam-arfer; er niwed i ni ein hunain a thramgwydd i eraill: peidio myned yn gaethion iddynt.

13 [g] * Y bwydydd i'r bol, a'r bol i'r bwydydd: [h] † eithr Duw a ddinystria hwn a hwynau. ‡ A'r corph nid *yw* i odineb, [i] ‖ ond i'r Arglwydd; § a'r Arglwydd i'r corph.

g Mat. 15. 17. Marc 7. 19. Rhuf. 14 17. h pen. 10. 3—5. Ioan 6. 27, 49. Col. 2. 22, 23. i adn. 15, 19, 20. pen. 3. 16, 17. Rhuf. 6. 12, 13. a 7. 4. a 12. 1. a 14. 7—9. 2 Cor. 5. 15. a 11. 2. Eph. 5. 23. 1 Thes. 4. 3—7.

* Mae yr adnod hon yn egluro llawer ar yr adnod o'r blaen; ac yn ein tueddu i feddwl mai am fwydydd a bodydd yn benaf, yr oedd yr apostol yn sôn, pan oedd yn dywedyd, "Pob peth sydd gyfreithlawn i mi." * I'r bol yr ordeiniwyd y bwydydd, er cynnaliaeth ein natur; a'r bol i'r bwydydd yr ordeiniwyd y bòl, i'w derbyn, ac ymborthi arnynt, er maeth a magwriaeth yr holl gorph. § Ond yn fuan iawn, e ddinystria Duw hwn â hwythau; ond y bòl â'r bwydydd; gan hyny mae yn beth rhŷ ffiel i'r cristion fyned dàn awdurdod ei flŷs at fwydydd diodydd, a gorbesgi ei gorph marwol â phethau ffolly: ‡ oblegid mae arferiad gormodol ac anghymmedrol o'r pethau hyn, er eu bod yn gyfreithlawn ynddynt yn hunain, yn meithrin chwantau anniwair ac anifeilaidd y corph; a'r corph nid yw i odineb: i ddybenion eraill, llawer mwy anrhydeddus, y crëodd Duw ef; ‖ a'r benaf o'r dybenion hyny yw, gwasanaethu yr Arglwydd Iesu, fel aberth byw, sanctaidd, a chymmeradwy gan Duw, ac i fod yn deml i'r Ysbryd Glân. § Ac mae yr Arglwydd Iesu hefyd i'r corph, yn gystal a'r enaid; ac medi prynu y corph, yn ben ac Arglwydd y corph, yn Iachawdwr y corph, ac i adgyfodi a gogoneddu y corph yn y dydd diweddaf.

14 [k] * Eithr Duw a gyfododd yr Arglwydd, † ac a'n cyfyd ninnau [l] ‡ trwy ei nerth ef.

k pen. 15. 15—20. Act. 2. 24. a 17. 31. Rhuf. 6. 4—8. a 8. 11. 2 Cor. 4. 14. Phil. 3. 10, 11. 1 Thes. 4. 14. l Ioan 5. 28, 29. a 6. 39, 40. a 11. 25, 26. Eph. 1. 19, 20. Phil. 3. 21.

* Fel ernes a sicrwydd o adgyfodiad a gogoneddiad cyrph y saint, cyfododd Duw gorph yr Arglwydd Iesu, fel blaen-ffrwyth y rhai a hunasant, ac a hunant eto ynddo ef. † Ac mòr sicr ag iddo gyfodi corph yr Arglwydd Iesu, efe a'n cyfyd ninnau trwy ei nerth ef. ‡ Nid yw o bwys pa un o'r Personau dwyfol ydyw yr "ef" yma: cyfodir cyrph y saint trwy nerth Duw, heb wahaniaeth y Personau. "Trwy ei nerth ei hun" yw y Saesoneg; sef y "Duw" a gyfododd yr Arglwydd.

15 * Oni wyddoch chwi [m] fod eich cyrph yn aelodau i Grist? † gan hynny a gymmeraf fi aelodau Crist, a'u gwneuthur yn aelodau puttain? [n] ‡ Na atto Duw.

m adn. 19. pen. 11. 3. a 12. 27. Rhuf. 12. 5. Eph. 1. 22, 23. a 4. 12, 15, 16. a 5. 23, 30. Col. 2. 19. n Gen. 44. 17. Luc 20. 16. Rhuf. 3. 3, 4, 6, 31. a 6. 2, 15. a 7. 7, 13. Gal. 2. 17. a 3. 21. a 6. 14.

* Fel mae Crist yn ben ysbrydol, bywiol, a dirgeledig ei holl eglwys fawr, mae cyrph ei saint, yn gystal â'u heneidiau, mewn undeb ysbrydol âg ef, fel aelodau o'i gorph dirgeledig ef. Dylasai y Corinthiaid wybod ac ystyried hyn, ac nid tybied mòr ysgafn o'r pechod ffiaidd o buteindra, godineb, a llosgach annaturiol, ag oedd yn cael eu harfer a'u goddef yn eu plith. † Gan hyny, a ydyw yn weddaidd ac yn hardd, i mi neu ryw gredadyn arall, gymmeryd aelodau Crist, y rhai sydd mewn perthynas mòr anrhydeddus â Mab Duw, Arglwydd y gogoniant, a'u darostwng yn warthus drwy eu gwneuthur yn aelodau putain aflan? ‡ Och, na, byddai hyny yn bechod o'r ffieiddiaf; ac "na atto Duw" *(mê genoito)* i mi na neb arall ag sydd yn proffesu yr efengyl sanctaidd, fod yn euog o'r cyfryw beth!

16 * Oni wyddoch chwi fod yr hwn sydd yn cydio â [o] phuttain, yn un corph? [p] † canys y ddau (medd efe) fyddant un cnawd.

o Gen. 34. 31. a 38. 15, 24. Barn. 16. 1. Mat. 21. 31, 32. Heb. 11. 31. p Gen. 2. 24. Mat. 19. 5, 6. Marc 10. 8. Eph. 5. 31.

* Mae yn rhyfedd iawn na wyddoch *chwi*, sydd yn ymffrostio cymmaint mewn gwybodaeth o bob math, ac nad ydych yn ystyried; † fod yr hwn sydd yn cydio yn bechadurus â phutain, megys yn un corph â hi; ac ei fod o angenrheidrwydd, megys yn ei ddiaelodi ei hun oddi wrth Grist, sanctaiddrwydd yr hwn ni oddef y fath gyssylltiad aflan ac anghyfreithlawn. † Dywedodd Duw am ŵr a gwraig, Gen. 2. 24, "a hwy a fyddant yn un cnawd;" felly hefyd y mae "cydio â phutain," yn gwneyd y ddau "yn un cnawd," neu "un corph;" ond yn anghyfreithlawn, ac er diianrhydedd a gwarth ar y 'stad briodasol a ordeiniodd Duw. Nid oes dim gwahaniaeth o ran gweithred, yn y cyssylltiad rhwng gŵr a gwraig, a'r cydiad â phutain, ond yn unig yn moesoldeb y weithred; mae y naill yn gyfreithlawn ac yn onest, a'r llall yn anghyfreithlawn, yn anonest, ac yn aflan bechadurus: nid yw y naill yn diaelodi oddi wrth Grist, ond mae y llall o leiaf yn haeddu hyny.

17 [q] * Ond yr hwn a gyssylltir ar Arglwydd, † un yspryd yw.

q pen. 12. 13. Ioan 3. 6. a 17. 21—23. Eph. 4. 3, 4. a 5. 30. Phil. 2. 5.

* Tybir fod y geiriau hyn, "cyssylltu â'r Arglwydd," wedi eu cymmeryd allan o Deut. 10. 20, "wrtho ef y glŷni." Gwaith yr Ysbryd Glân yw y cyssylltu hyn â'r Arglwydd Iesu Grist, fel Pen ysbrydol ei bobl; ac mae yn ysbrydol ac yn sanctaidd yn ei natur, ac yn cynnwys cyd-ffurfiad barn a thueddiadau, ac undeb ysbrydol yr enaid â Christ: † gan hyny a all cristion feddwl am fod yn un ysbryd â Christ, ac yn un cnawd â phutain? Gan fod y credadyn yn un ysbryd â'r Arglwydd Iesu, ac mewn undeb âg ef drwy ffydd a chariad, a phob gras;

dylai y corph hefyd gael ei gadw yn anrhydeddus a sanctaidd, a'i ddefnyddio i'w wasanaeth a'i ogoniant ef, ac nid ei wneyd yn aelod putain.

18 [r] * Gochelwch odineb. † Pob pechod a wnelo dyn, oddi allan i'w gorph y mae; ‡ ond yr hwn sydd yn godinebu, [s] sydd yn pechu yn erbyn ei gorph ei hun.

r Gen. 39. 12—18. Diar. 2. 16—19. a 5. 3—15. a 6. 24—29. a 7. 5, &c. a 9. 16—18. 2 Tim. 2. 22. 1 Pedr 2. 11. s Rhuf. 1. 24. 1 Thes. 4. 5.

* "*Ffowch* rhag godineb," yn ol y Saesoneg: *pheugete* yw y gair Groeg; efallai yn arwyddo pob un o'r ddau, gochel a ffoi. Gan fod godineb a phuteindra yn mhob ystyr, mòr groes i sancteiddrwydd cristionogol; a chan fod hudoliaethau y Corinthiaid i hyny mòr aml a chryfion, oddi wrth hen arferion gynt, oddi wrth esamplau drwg eu cymmydogion yn barâus, ac oddi wrth aml gyfleusderau i gyflawni eu chwantau pechadurus; mae yr apostol yn eu hannog yn daer, i ochel godineb, i ffoi rhagddo, a rhag pob hudoliaeth iddo, yn ddïoed, yn benderfynol, ac yn wastadol, fel rhag y drwg mwyaf, a rhag y gelyn gwaethaf ar y ddaear. † Wrth y *pob pechod* yma, mewn cyferbyniad i'r pechod o *odineb*, mae rhai yn deall pob pechod a wnelo dyn yn erbyn Duw ac eraill, yn fwy nac yn erbyn ei gorph ei hun: mewn bwyta ac yfed i ormodedd, nis gellir dywedyd mai pechod oddi allan i'r corph yw; ac nis gellir dywedyd nad yw y glwth a'r meddw yn pechu yn erbyn ei gorph ei hun; ‡ ond nid i'r un graddau â'r godinebwr, yr hwn sydd yn dianrhydeddu ei gorph ei hun, ac yn ei gam-ddefnyddio i'r dybenion ffieiddiaf, ac yn aml yn dwyn arno y clefydau tostaf, atgasaf, a mwyaf dinystriol. Drylliaʼr saeth ei afu ef, archoll a gwarth a gaiff efe, ac yn y diwedd efe a ochain, wedi i'w gnawd a'i gorph gurio: yn ddïau nid oes yr un pechod yn niweidio y corph yn debyg i'r pechod ffiaidd a gwarthus hwn.

19 [t] * Oni wyddoch chwi fod [u] eich corph yn deml i'r Ysbryd Glân, *sydd* ynoch, † yr hwn yr ydych yn ei gael gan Dduw, [x] ‡ ac nad ydych yn eiddoch eich hunain?

t adn. 15, 16. u pen. 3. 16. 2 Cor. 6. 16. Eph. 2. 21, 22. 1 Pedr 2. 5. x 1 Bren. 20. 4. 1 Cron. 29. 14. Salm 12. 4. a 100. 3. Rhuf. 14. 7—9. 2 Cor. 5. 15. Tit. 2. 14.

* "Oni wyddoch chwi fod eich cyrph yn aelodau i Grist," ebai yr apostol yn adn. 15; ac yma, "Oni wyddoch chwi eu bod yn deml i'r Ysbryd Glân, sydd ynoch?" Yn pen. 3. 16, dywedodd fod yr eglwys yn deml i Dduw; i ddarbwyllo y Corinthiaid i undeb a chariad yn mhlith eu gilydd: yma mae yn dywedyd fod corph pob un o honynt yn deml i'r Ysbryd Glân; i'w hannog hwy i sancteiddrwydd a phurdeb. Yr hyn a elwir teml *Dduw*, pen. 3. 16, 17; a theml y *Duw byw*, 2 Cor. 6. 16; a elwir yma yn deml i'r *Ysbryd Glân*: yr hyn a ddengys fod yr Ysbryd Glân yn *Dduw*, ac yn *Dduw byw;* ac ar yr un pryd yn Berson gwahanrhedol oddi wrth y Tad a'r Mab: mae teml bob amser yn perthyn i ryw *dduw*, sydd yn ei phreswylio, ac yma i'r gwir Dduw. † Mae yr Ysbryd Glân yn trigo yn y saint fel rhodd y Tad trwy y Mab, i'w cyssegru hwy i Dduw, ac i'w parotôi hwy i ogoniant yn y nef: ‡ felly nid ydynt hwy mwyach yn eiddynt eu hunain, ond yn eiddo Ysbryd Duw, gyrph ac eneidiau, yr hwn a gymmerth feddiant o honynt, fel preswylfa sanctaidd iddo ei hun.

20 [y] * Canys er gwerth y prynwyd chwi: † gan hynny [z] gogoneddwch Dduw ‡ yn eich corph, ac yn eich ysbryd, ‖ y rhai sydd eiddo Duw.

y pen. 7. 23. Act. 20. 28. Gal. 3. 13. Heb. 9. 12. 1 Pedr 1. 18, 19. 2 Pedr 2. 1. Dat. 5. 9. z pen. 10. 31. Mat. 5. 16. Rhuf. 6. 19. a 12. 1. Phil. 1. 20.

* Pa beth oedd y gwerth hwn, dywedir i ni, yn nacâol ac yn gadarnâol, yn 1 Pedr 1. 18, 19: gwerthfawr waed Crist oedd y gwerth; ond pwy a all ddywedyd pa faint oedd y gwerth hwnw? Y cwbl a allwn ddywedyd am dano yw, ei fod yn ddigon i ateb holl ofynion cyfiawnder Duw, i fawrâu y gyfraith a'i gwneyd yn anrhydeddus, i ogoneddu holl brïodoliaethau y JEHOFAH; ac yn ddigon i lwyr-brynu yr holl eglwys oddi wrth felltith y ddeddf, oddi wrth bechod a Satan, ac o r cyflwr mwyaf isel a gresynol i ryddid, sancteiddrwydd, dedwyddwch, a bywyd tragywyddol. O anfeidrol a bendigedig "werth," dros bechaduriaid tlodion euog! † O Dduw y deilliodd iachawdwriaeth fawr pechadur oll, o ran ei harfaethiad, ei threfniad, ei darpariad, ei chyflawniad ar y groes, a'r cymhwysiad o hóni at ei gwrthddrychau: bu yr holl Bersonau dwyfol a llaw ganddynt yn yr iachawdwriaeth hon, ac mae yr holl brïodoliaethau dwyfol yn cyd-ddysgleirio yn annhraethol ynddi; am hyny Duw, yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân, a ddylai gael ei ogoneddu gan yr holl brynedigion byth. ‡ Rhoddes Iesu gorph ac enaid i brynu ei bobl, efe a brynodd eu cyrph a'u heneidiau hwy; ac efe a ogonedda eu cyrph a'u heneidiau yn y dydd diweddaf: am hyny dylai ei bobl ei ogoneddu ef yn awr, yn eu cyrph ac yn eu heneidiau, neu eu hysbrydoedd, y rhai sydd eiddo Duw. ‖ Gan mai Crist yw y Prynwr, yr hwn a dalodd y "gwerth," mae yn ddïammau mai Crist, yn gystal â'r Tad ac â'r Ysbryd, yw y *Duw* yma yr ydym yn eiddo iddo, ac i'w ogoneddu.

PEN. VII.

Y mae efe yn crybwyll am brïodas, &c.

* A C am y pethau yr ysgrifenasoch attaf: [a] † Da i ddyn na [b] chyffyrddai â gwraig.

a adn. 8, 26, 27, 37, 38. Mat. 19. 10, 11. b Gen. 20. 6. Ruth 2. 9. Diar. 6. 29.

* Mae yn debyg i'r apostol dderbyn llythyr o Corinthryw amser o'r blaen, oddi wrth y rhan hyny o'r eglwys oedd yn barchus o hóno ef yno, yn gofyn hyfforddiad yn nghylch amryw bethau mewn dadl yn eu plith yn yr eglwys hòno. † Un o'r pethau hyny oedd yn nghylch prïodi: yr oedd yno rai yn dadleu dros gyfreithlondeb puteindra ar y naill law, ac eraill, mae yn debyg, ar y llaw arall, yn dadleu dros dŷb y Pythagoriaid, neu athronwyr eraill, fod hyd yn nôd prïodas ei hunan yn anghyson â phurdeb cristionogol, ac yn anfanteisiol i efrydiaeth, a gwelliant meddwl a deall. Yn ateb ar y ddadl uchod, mae yr apostol yn dywedyd mai da oedd i ddyn na chyfhyrddai â gwraig; hyny yw, bod heb ei brïodi. Yr oedd hyny yn well y pryd hwnw, o herwydd y trallod oedd ar yr eglwys, ac fel y gallai dynion fod yn fwy rhydd i wasanaethu Duw, a llafurio gydag achos crefydd. Nid da hollol, fel pe byddai prïodas ynddi ei hun yn ddrwg, a feddylir; ond da mewn cymhariaeth, o herwydd amgylchiadau yr amser hwnw ar grefydd.

2 * Ond [c] *rhag* godineb, [d] † bydded i bob gwr ei wraig ei hun, a bydded i bob gwraig ei gwr ei hun.

c adn. 9. pen. 6. 18. Diar. 5. 18, 19. 1 Tim. 4. 3. d Diar. 18. 22. a 19. 14. Mal. 2. 14, 15. Eph. 5. 28, 33.

* "Ond o herwydd godinebau," yw yn y Groeg: mae y gair yn y rhif liosog, (*porneias*,) i arwyddo pob math o aflendid cnawdol ac anghyfreithlawn, yn gystal â'r hyn a alwn ni yn odineb mewn ystyr fanol. † I ochel pob aflendid felly, bydded i bob gŵr ei wraig, ac i bob gwraig ei gŵr: dim ond un wraig i bob gŵr, a dim ond un gŵr i bob gwraig: a bydded i bob gŵr ei wraig *ei hun*, nid gwraig rhyw un arall; ac i bob gwraig ei gŵr *ei hun*, nid gŵr neb arall. Yn mhob amgylchiad yr oedd hyn yn ganiatâol, ac mewn llawer amgylchiad yr oedd yn angenrheidiol, "rhag godineb." Nid oes yma ddim yn erbyn priodas, yr hon sydd anrhydeddus yn mhawb; ond mae yma bob peth yn erbyn aml-wreicaeth, yr hyn sy ddïanrhydeddus yn mhawb.

3 [e] * Rhodded y gwr i'r wraig ddyledus ewyllys da; † a'r un wedd y wraig i'r gwr.

e Ex. 21. 10. 1 Pedr 3. 7.

* Gwedi eu priodi, ymddyged gŵr a gwraig tuag at eu gilydd fel gŵr a gwraig, yn mhob peth. Yr hyn a elwir "dyledus ewyllys da" yma, a elwir, "dyled priodas" gan Moses, yn Exod. 21. 10; a dengys yr apostol yn adn. 5, beth yw hyny. Nis gallwn egluro ymadroddion gwylaidd a diwair yr ysgrythyrau am bethau fel hyn, heb ddefnyddio geiriau llai gwylaidd a diwair, yr hyn sydd berygl ei wneyd wrth ystyried llygredigaethau ein galonau. † Yr hyn sydd ddyledswydd ar y gŵr i'r wraig, sydd ddyledswydd ar y wraig i'r gŵr hefyd yr un modd; oac mae hyn yn gosod y ddau yn hollawl ar yr un tir, a'r naill yn hollawl yn meddiant ac at wâsanaeth y llall, yn ygydradd o bob tu. Heb hyn nis gall y naill na'r llall fod yn gysurus nac yn ddïeuog.

4 [f] * Nid oes i'r wraig feddiant ar ei chorph ei hun, ond i'r gwr; † ac yr un ffunud, nid oes i'r gwr feddiant ar ei gorph ei hun, ond i'r wraig.

f Hos. 3. 3. Mat. 19. 9. Marc 10. 11, 12.

* Yn y cyfammod priodasol, mae y naill blaid yn rhoddi ei hun i fynu yn hollawl i feddiant y llall: nid oes gan y wraig mwyach hawl, meddiant, nac awdurdod, ar ei chorph ei hun, i'w attal oddi wrth ei gŵr ar achlysuron priodol ac addas; a llai o lawer i'w rhoddi ei hunan i neb arall. † Ac o'r tu arall yr un modd, nid oes gan y gŵr mwyach hawl, meddiant, nac awdurdod, ar ei gorph ei hun, i'w attal oddi wrth ei wraig; a llawer llai i'w roddi i fenywaid anniwair eraill, gan ei fod yn hollawl yn meddiant ei wraig briodol, megys y mae ei chorph hi yn ei feddiant yntau. Mae y gair *(exousiazei,)* a gyfieithir yma meddiant, yn arwyddo hawl, rhyddid, neu awdurdod, i wneuthur fel y gwelo un fod yn dda: nid oes y fath hawl, rhyddid, nac awdurdod, gan y wraig ar ei chorph ei hun, na chau y gŵr chwaith; mae *ef* yn eiddo *hi* yn llawn cymmaint ag y mae *hi* yn eiddo *ef*, yn ol sanctaidd ordeiniad Duw: gras a gaffo pawb i ystyried hyny!

5 * Na thwyllwch eich gilydd, [g] † oddi eithr o gyd-syniad ‡ dros amser, fel y galloch ymcôi i ympryd a gweddi: ‖ a deuwch drachefn ynghyd, [h] § rhag temtio o Satan chwi o herwydd eich anlladrwydd.

g Ex. 19. 15. 1 Sam. 21. 4, 5. Joel 2. 16. Zec. 7. 3. a 12. 12—14. h Mat. 19. 11. 1 Thes. 3. 5.

* Hyny yw, nac attalied y gŵr ei hun oddi wrth ei wraig, na'r wraig oddi wrth ei gŵr: yr hyn mae yr apostol yn ei alw yn "dwyllo eu gilydd," o herwydd dywedodd o'r blaen mai "dyledus ewyllys da" ydoedd; a thwyll yw peidio talu dyled, beth bynag a fyddo. Mae yw gair *apostereite* yn arwyddo, amddifadu un o'r hyn sydd ddyledus iddo, trwy dwyll a cham. † Nac ymattalied gŵŷr a gwragedd oddi wrth eu gilydd, heb dalu eu "dyled priodas" i'w gilydd, ond trwy gyd-syniad o'r ddau du; ac yna ni bydd yn "dwyll." ‡ Ac hyd yn nôd fel hyny, ni ddylai fod ond dros amser; fel y galler ymroddi yn well i ympryd a gweddi: dylai y dyben fod yn dda, a'r amser yn gymmedrol. ‖ Gwedi cyflawni y dyben hyny, mae yn gyfreithlawn iddynt ddyfod yn ynghyd drachefn, i fwynâu eu gilydd yn ol trefn anrhydeddus priodas: § ac nid yn gyfreithlawn yn unig, ond yn ddyledswydd, ac yn angenrheidol hefyd; rhag i Satan gymmeryd mantais ar eu hir ymattaliad, a'u temtio i'wy, neu un o honynt, i anlladrwydd meddwl neu weithred.

6 * A hyn yr wyf yn ei ddywedyd [i] o ganiatâd, nid o orchymyn.

i adn. 12, 25. 2 Cor. 8. 8. a 11. 17.

Mae rhai yn deall y geiriau hyn am y cwbl a ddywedodd yr apostol o ddechreu y bennod hyd yma; ac eraill yn eu deall am yr hyn a ddywedodd ef yn yr adnod olaf yn unig. * Fel pe dywedasai, Yr wyf yn caniatâu i ddynion briodi; ond nid wyf yn gorchymyn hyny iddynt, os gallant ymgadw heb hyny, a bod yn ddiwair: mae yn gyfreithlawn, ac yn ganiatâol yn ol y gair iddynt briodi; ond nid oes gorchymyn pendant i bob un i briodi. Neu, gyda golwg ar yr adnod o'r blaen fel hyn, Yr wyf yn caniatâu i wŷr a gwragedd ymattal oddi wrth eu gilydd dros amser, fel y gallont ymrôi i ympryd a gweddi; ond nid wyf yn gorchymyn hyny iddynt: gall y cyfryw ymattaliad fod yn ganiatâol yn ol y gair; ond nid oes gorchymyn pendant gan Iesu Grist i bob gŵr a gwraig wneyd felly. Mae eraill yn deall yr adnod hon fel hyn; mai o hóno ei hun, ac o ganiatâd gan Grist, yr oedd yr apostol yn rhoddi y cyngorion uchod; ac nid oddi ar un gorchymyn a roddasai yr Arglwydd Iesu yn nyddiau ei gnawd, nac ychwaith trwy ysbrydoliaeth union-gyrchol ar ei feddwl ef wrth ysgrifenu y cyngorion hyn, yr hon ysbrydoliaeth oedd yn ei gyfarwyddo ef yn gyffredin.

7 [k] *Canys mi a fynnwn fod pob dyn fel fi fy hun: † [l] eithr y mae i bob un ei ddawn ei hun gan Dduw; i un fel hyn, ac i arall fel hyn.

k pen. 9. 5, 15. Act. 26. 29. l pen. 12. 11. Mat. 19. 12.

* Meddwl rhai yw, y mynai yr apostol fod yr holl gristionogion fel ef ei hun, heb eu priodi; ond mae yn anhawdd meddwl yr ewyllysiai efe ddiddymu priodas yn hollawl yn mhlith cristionogion. Meddwl eraill yw, y mynai efe i'r rhai oedd *heb eu priodi* yn Corinth, fod yn esmwyth ac yn dawel yn yr ystâd hono, a medru eu llywodraethu eu hunain, ac ymgadw mewn diweirdeb fel yr oedd ef ei hun. Buasai y "mynu" cyntaf yn diboblogi y byd, (a'r eglwys hefyd,) mewn ychydig amser: am "fynu" yn yr ail ystyr, gwel ar adn. 1, rhan olaf. † Er bod yr apostol yn rhoddi y cyngorion goreu a fedrai, eto efe a wyddai, nad oedd ei ddawn a'i brofiad ef, mewn pethau o'r fath hyn, yn rhëol i eraill; gwyddai mai dawn, neu rodd Duw, oedd yr oruchafiaeth hon ar dueddiadau anianol dynion, ac ei fod yn ei rhoddi i'r naill ac nid i'r llall, fel y gwelai yn dda, a hyny mewn gwahanol fesurau. Gwel ar Matth. 19. 11.

8 * Dywedyd yr wyf [m] wrth y rhai heb briodi, a'r gwragedd gweddwon, † Da yw iddynt os arhosant fel finnau.

m pen. 1. 26, 27, 32, 34, 35.

* Wrth fod yr apostol yn enwi y "gwragedd gweddwon" yma gyda'r rhai "heb briodi," tybia rhai mai gŵr gweddw oedd ef ei hun, wedi bod yn briod, ond wedi claddu ei wraig. Ond nid oes sail yn y byd i feddwl hyny, ond yn unig bod y Phariseaid, ei hen blaid ef, yn ei barnu yn bechod i neb fod heb briodi wedi cyrhaedd eu hugain oed. † Os gallent ymgadw heb briodi fel yntau, a hyny yn bur ac yn ddiwair, goreu i gyd ar amryw gyfrifon, fel y sylwyd ar yr adnod gyntaf.

9 * Eithr oni allant ymgadw, [n] † priodant: ‡ canys gwell yw priodi nag ymlosgi.

n adn. 2, 28, 36, 39. 1 Tim. 5. 11, 14.

* Ond os bydd eu tueddiadau anianol yn rhŷ gryfion iddynt eu cadw o fewn terfynau diweirdeb, trwy yr holl ras a dderbyniasant; † priodant yn weddus, â rhywun addas iddynt yn yr Arglwydd, rhag i'w chwantau ryw bryd a'i gilydd fyned yn drech nâ hwynt, a'u gorchfygu: ‡ oblegid mae yn well o lawer yn sicr, yn mhob ystyr dymmorawl a chrefyddol, o ran eu cysur, eu purdeb, a'u henwau da, iddynt briodi na chael eu halogi a'u poeni gan chwantau poethion, ac awydd aflan a llosgedig am fwyniant anghyfreithlawn. Byddai rhai o'r hen gristionogion gynt yn erbyn priodi yr ail waith, wedi marw y priod cyntaf; ond mae yr adnod hon yn annog y "gwragedd gweddwon," yn gystal â'r "rhai heb briodi" erioed, i briodi yr ail waith os na allant ymgadw. "Ymlosgi" mewn chwant, yw yr ymlosgi uchod, ac nid mewn gweithredoedd aflan: mae llawer o'r ymlosgi tumewnol hwn lle nad yw y fflam yn tòri allan mewn gweithredoedd allanol; ac mae yn llawer gwell priodi

nac ymlosgi felly, pe na thòrai allan mewn gweithred-oedd anniwair byth.

10 * Ac i'r rhai a brïodwyd yr ydwyf yn gorchymyn, [o] nid myfi *chwaith*, ond yr Arglwydd, [p] † Nad ymadawo gwraig oddi wrth *ei* gwr:

o adn. 12, 25, 40. p adn. 15. Jer. 3. 20. Mal. 2. 14—16. Mat. 5. 32. a 19. 6—9. Marc 10. 11, 12. Luc 16. 18.

* I'r rhai a brïodwyd, yr oedd yr apostol yn "gorchymyn," nid yn *cyngori;* ac nid drwy ei awdurdod ei hun, ond drwy awdurdod yr Arglwydd Iesu Grist; † na byddai iddynt hwy ymadael oddi wrth eu gilydd. Nid oedd y Groegiaid yn gwneuthur nemawr iawn o gyfrif o un gyfammod priodas, ond yn ei dòri pan fynent agos; a dysgai y Rabbiniaid Iuddewig fod yn gyfreithlawn i ddynion ysgar â'u gwragedd am bethau bychain iawn; ond gorchymyn yr Arglwydd Iesu oedd, na byddai iddynt ysgar am un achos ond godineb, gwel ar Matth. 5. 31, 32; a 19. 6, 9, ac yn ol y gorchymyn hwnw mae yr apostol yn gorchymyn yma. Beth bynag a barodd i'r apostol orchymyn "Nad ymadawo gwraig oddi wrth ei gŵr," mae yn ddïammau bod yr un rhwymau ar y gŵr hefyd, nad ymadawo oddi wrth ei wraig.

11 * Ac os ymedy hi, † arhoed heb brïodi, [q] ‡ neu gymmoder hi â'*i* gwr: [r] || ac na ollynged y gwr *ei* wraig ymaith.

q Barn. 19. 2, 3. Jer. 3. 1. r Deut. 22. 19. Es. 50. 1. Marc 10. 2.

* Ac os mewn rhyw nwyd poeth-wyllt, casineb, neu anghydfod, yr ymedy hi â'i gŵr; neu os trŷ efe hi ymaith, a'i bod yn gorfod ymadael, (canys parwyddiad goddefawl, medd *Pool*, yw y gair *Choristhé*, a gyfleithir "ymedy" yma,) am unrhyw achos llai na godineb, yr unig achos cyfreithlawn o ysgariaeth; † arosed heb brïodi â neb arall, mae hyny yn hollol anghyfreithlawn, Matth. 19. 9: ‡ yn hytrach gwnaed bob ymgais a allo hi i ymgymmodi â'i gwr; trwy addef ei bai a deisyf maddeuant, os oedd y bai o'i thu hi; a thrwy roddi heibio ysbryd croes a dïalgar, os o'i du ef y bu y bai. Un o'r ddau beth sydd raid ei wneyd; un ai "aros heb brïodi," neu "ymgymmodi â'r gŵr:" os na ellir yr ail, mae yn rhaid gwneyd y cyntaf. || A dyledswydd rwymedig y gŵr yw peidio gollwng ei wraig ymaith, (llai o lawer ei gŷru ymaith,) eithr cyd-gyfanneddu â hi, tra byddo hi yn foddlawn i fyw gydag ef, ac yn ffyddlawn fel gwraig iddo.

12 * Ac wrth y lleill, [s] † dywedyd yr wyf fi, nid yr Arglwydd, [t] ‡ Os bydd i un brawd wraig ddigred, a hithau yn foddlawn i drigo gyd âg ef, na ollynged hi ymaith.

s adn. 6, 25. 2 Cor. 11. 17. t Ezra 10. 2, 3, 11—19.

* Y "lleill" yma oedd y rhai a brïodasent â phaganiaid, cyn iddynt hwy eu hunain gael eu galw a'u dychwelyd trwy ras; a'r gŵr neu y wraig yn aros o hyd mewn paganiaeth, wedi i'r llall gael ei ddychwelyd: ac hefyd Iuddewon, efallai, a brïodasent â'u gilydd yn y grefydd Iuddewig, cyn i'r un o'r ddau ddyfod i gredu yr efengyl; ac un o'r ddau yn aros o hyd yn ddigred, wedi i'r llall gael ei alw. † Yn adnod 10, mae yr apostol yn dywedyd, "Nid myfi *chwaith*, ond yr Arglwydd;" ac yma mae yn dywedyd, "Fi, nid yr Arglwydd:" yr hyn sydd yn dangos ei wir onestrwydd ef; yn addef pa bryd, ac yn mha bethau, yr oedd yn cyngori o'i feddwl ei hun, ac nid oddi ar orchymyn pendant o eiddo yr Arglwydd Iesu. ‡ Mewn amser o ddiwygiad cyffredin dàn yr hen oruchwyliaeth, yr oedd yr Iuddewon yn gorfod rhoddi ymaith y gwragedd paganaidd a brïodasent, Ezra 10. 3, &c.; ond yr oedd yr apostol dàn gyfarwyddyd yr Ysbryd Glân, yn cyngori fel arall yma; os byddai i frawd wraig ddigred, a hithau yn foddlawn i drigo gydag ef, na ollyngai efe hi ymaith. Yn yr amgylchiad yn Ezra, yr oedd Iuddewon crefyddol yn prïodi paganiaid, yr hyn oedd anghyfreithlawn yn ol gair Duw; ond yma, yr oedd y prïodasau wedi cymmeryd lle cyn bod yr un o'r ddau yn credu: felly nid oedd yr un achos i'w hysgar hwynt, a buasai eu hysgar yn waradwydd mawr i'r efengyl, ac yn tafiu pobpeth i ddyryswch mawr.

13 * A'r wraig, yr hon y mae iddi wr digred, ac yntau yn foddlawn i drigo gyd â hi, na wrthoded hi ef.

14 † Canys y gwr digred a sancteiddir trwy y wraig, a'r wraig ddigred a sancteiddir trwy y gwr. ‡ Pe amgen, aflan yn ddïau fyddai eich plant; || eithr yn awr sanctaidd ydynt.

u pen. 6. 15—17. Ezra 9. 1, 2. 1 Tim. 4. 5. Tit. 1. 15. x Ezra 9. 2. Es. 52. 1. Mal. 2. 15. Act. 10. 23. Rhuf. 11. 16.

* Yr un rëol oedd i'r wraig grediniol ag oedd i'r gŵr crediniol, yr oedd hi i fyw gyda ei gŵr digred, fel y llall gyda ei wraig ddigred. † Ac ni ddylai neb dybied fod yr undeb hwn â'r digred mewn prïodas gyfreithlawn, yn anghyson â bod yn "un ysbryd â'r Arglwydd," pen. 6. 17; oblegid yr oedd y gŵr neu y wraig ddigred yn cael ei sancteiddio i'r credadyn, trwy drefniad a gorchymyn Duw; felly yr oedd eu prïodas yn sanctaidd ac yn anrhydeddus, er nas gallai y ddau yn mhob peth gyd-rodio fel cyd-etifeddion gras y bywyd. Nis gellir deall am sancteiddio yr anghredadyn trwy y credadyn mewn un ystyr uwch, neu amgen, nag y sylwyd uchod trwy y berthynas brïodasol â'r credadyn, mae y digred yn cael ei sancteiddio cyn belled, fel y gall y credadyn gyd-fyw âg ef neu hi, heb ddigio Duw, ac heb golli y breintiau cyfammodol a berthynant i bobl weledig Duw, ac i'w had. ‡ Oni byddai ei bod felly, a phe byddai gorchymyn i gristionogion roddi ymaith eu cymhariaid digred, fel yr Iuddewon eu gwragedd eilun-addolgar; (Ezra 10. 3;) byddai plant y cyfryw brïodasau yn cael eu cyfrif yn berthynasol "aflan," ac felly yn cael eu cauad allan oddi wrth fedydd, fel yr oedd plant yr Iuddewon hyny oddi wrth enwaediad: || ond i'r gwrthwyneb, nid felly yr oedd, eithr cyfrifid hwy yn sanctaidd yn yr eglwysi cristionogol, a derbynid hwy trwy fedydd i'r eglwysi, fel rhan o deyrnas weledig Duw. Llawer a ddadleuwyd yn erbyn yr agoriad blaenorawl ar y geiriau uchod; a mŷn rhai mai *cyfreithlawn* ac *anghyfreithlawn*, neu *blant o brïodas* a *basdarddiaid* yw meddwl "sanctaidd" ac "aflan" yma: ond yn yr holl fànau lle defnyddir y geiriau yn yr ysgrythyr, nid oes yr un o honynt a oddef y fath ystyr i'r geiriau "sanctaidd" ac "aflan." Mae yn ddïammau bod plant y paganiaid, mewn prïodas, mòr gyfreithlawn â phlant y cristionogion; eto ni ddywedir un amser eu bod yn sanctaidd. Gan fod y gair "aflan" yn cael ei ddefnyddio yn aml mewn ystyr berthynasol, i arwyddo *anaddasrwydd un i gael ei dderbyn i ordinâdau Duw*, a'r gair "sanctaidd" yn arwyddo i'r gwrthwyneb; megys yn yr ystyr hyn y gelwid plant yr Iuddewon yn "sanctaidd," a'r gwrrywaid o honynt yn cael eu henwaedu; tra yr oedd plant y paganiaid, ac hyd yn nôd y rhai yr oedd un o'u rhïeni yn eilun-addolgar, yn cael eu cyfrif yn *aflan*, ac yn cael eu cauad allan oddi wrth enwaediad; nis gellir llai na phenderfynu, bod yn y geiriau uchod gyfeiriad amlwg at fedyddio mabanod y cristionogion, fel peth arferedig y pryd hwnw yn yr eglwysi: ac y gwyddai y Corinthiaid nad oedd un ddadl yn erbyn hyny, lle na byddai ond un o'r rhïeni yn gristionogol. Fel yr oedd plant yr Iuddewon yn cael eu galw yn "had sanctaidd," ac felly yn aelodau o'r eglwys Iuddewig gynt; yr un modd mae yr apostol yma, yn galw plant y cristionogion yn "sanctaidd," ac o ganlyniad yn aelodau o'r eglwys gristionogol: ac fel hyn pwy a all warafun na lluddias eu bedyddio hwynt?

15 * Eithr os yr anghredadyn a ymedy, ymadawed. [y] † Nid yw y brawd neu y chwaer gaeth yn y cyfryw *bethau:* [z] ‡ eithr Duw a'n galwodd ni i heddwch.

y Mat. 12. 50. Iago 2. 15. z pen. 14. 33. Rhuf. 12. 18. a 14. 19. 2 Cor. 13. 11. Gal. 5. 22. Heb. 12. 14. Iago 3. 17, 18.

* Os bydd yr anghredadyn, pa un bynag ai y gŵr neu y wraig a fyddo, yn dewis ymadael oddi wrth y credadyn o herwydd ei grefydd, a diddymu y briodas yn ol y cyfreithiau y wlad, neu os ymedy heb ddiddymu y briodas felly, ac heb feddwl dychwelyd byth mwy; ymadawed: cymmered ei ffordd ei hun dàn ei berygl, wedi poob ymgais doeth a thirion i'w ddarbwyllo ef neu hi i'r gwrthwyneb; a bydded rhwng y cyfryw un â'r cantiyniad. † Yn y cyfryw amgylchiad, nid yw y brawd neu y chwaer grediniol dàn gaethiwed a rhwymau i ymadael â chrefydd er mwyn boddloni y cyfryw un; nid yw wu gaeth i dymherau a mympwy y cyfryw un; ac nid yw yn gaeth i barâu y berthynas briodasol â'r cyfryw un, yr hwn, neu yr hon, sydd wedi tòri y briodas, a dhwbl ddiddymu holl ddybenion priodas. Yr oedd yr ieu dadau yn gyffredin, yn deall y geiriau hyn fel yn ganiatâu i'r person a adewid i briodi drachefn: yr oedd y fath ymadawiad bythol yn llwyr ddiddymu y briodas, ac yn gwneyd y person ymadawol megys wedi marw i'r llall: ac odid na byddai yn ail briodi hefyd, eu yn byw mewn godineb, yn fuan ar ol ymadael. Ond dylai y credadyn gofio a gofalu, na byddo dim bai, nac achos ymadael o'i du ef neu hi; dylai wneyd pob peth, yn gyson â gwirionedd a sancteiddrwydd, i cyd-fyw mewn cariad a heddwch, hyd yn nôd â'r anghredadyn.

16 * Canys beth a wyddost ti, [a] wraig, a gedwi di *dy* wr? † a pheth a wyddost tithau, wr, a gedwi di *dy* wraig?

a pen. 9. 22. Diar. 11. 30. Luc 15. 10. 1 Tim. 4. 16. Iago 5. 19, 20. 1 Pedr 3. 1.

Mae undeb priodasol âg anghredadyn yn ddïau yn anghymharus iawn, ac yn sicr o fod yn achos gofid a marallod mawr i'r credadyn; ond wedi myned iddo, dlhaid ei oddef yn amyneddgar: * a pha beth a ŵyr y wraig rrediniol, na wna Duw ddefnydd o hôni hi fel offeryn, ar dychweliad ac iachawdwriaeth ei gŵr digred? † A Tha beth a ŵyr y gŵr crediniol, na bydd efe yn fendith yw wraig ddigred; trwy ei ymddygiad serchog a duwiol iag ati, ei ymddiddanion buddiol ac adeiladol â hi, a rrwy ei weddïau taerion drosti. Mae y rhai a ddadlmant dros "iaüo yn anghymharus â'r rhai digred," yn hoddi pwys mawr ar y geiriau hyn; y gall y cyfryw iaüo fod yn fendithiol i'r digred: ond dylent ystyried y ethau canlynol cyn dadleu ychwaneg:—1. Nad oes eb ond cristion mewn gradd mawr o wrthgiliad a iaüa felly. 2. Nad oes nemawr yn ysbryd nac ymarweddiad cristion gwrthgiliedig hwnw, neu hòno, a duedda i mnill y cymhar digred at grefydd, ond yn hytrach i'r wrthwyneb yn gyffredin: caledu y cyfryw un a wna yn wy na pheidio. 3. Pur anaml mae y cyfryw iaüo wedi ood mewn gwirionedd yn fendithiol i ddychwelyd y digred; ac nid yw yr apostol yn ei grybwyll ond fel peth *osibl;* ac nid fel peth o ddygwyddiad cyffredin. Efallai ad oes neb caletach, a mwy digrefydd yn ein gwlad, a rhai o'r dynion a briodwyd â phroffeswyr gwamal a wrthgiliedig. 4. Dylai y dadleuwyr dros iaüo â'r igred ystyried hefyd, mai am ddynion a briodwyd newn ystâd o baganiaeth ill dau, mae yr apostol yn ôn yma; ac nid am broffeswyr crefydd wedi priodi â hai dibroffes a digred: mae efe yn gwahardd hyny yn ollawl, yn 2 Cor. 6. 14. Gwel ar y geiriau hyny.

17 [b] * Ond megis y darfu i Dduw rannu i pob un, megis y darfu i'r Arglwydd [c] alw pob un, felly rhodied. [d] † Ac fel hyn yr wyf yn rdeinio yn yr eglwysi oll.

b adn. 7. Mat. 19. 12. Rhuf. 12. 3—8. 1 Pedr 4. 10, 11. adn. 18, 21. d pen. 4. 17. a 16. 1. 2 Cor. 11. 28

* Mewn amgylchiadau cyffredin, ac heb ryw reswm a i'r gwrthwyneb, mae yn addas i bob dyn i barâu i asanaethu Duw yn ol y doniau hyny a ranodd Duw iddo, ac yn y sefyllfa hòno y galwodd Duw ef iddi, ac gosododd ef ynddi. Mae y sylw hyn o eiddo yr apostol yn brïodol iawn; gan ei fod yn dadymchwelyd y syniad oedd gan yr Iuddewon, (ac eraill hefyd efallai,) fod cofleidio y wir grefydd yn dattod yr holl berthynasau oedd rhwng dynion â'u gilydd o'r blaen. Nid felly, ebai yr apostol, eithr mae yr efengyl yn gadael dynion, yn yr ystyr hyn, yn hollawl fel yr oeddynt o'r blaen; ac yn chwanegu, yn hytrach na lleiâu, y dyledswyddau perthynasol oedd arnynt i'w gilydd, er bod rhai o honynt yn parâu yn ddigrefydd. † Dyma rëol gyffredin yr apostol, nid i eglwys Corinth yn unig, ond yn holl eglwysi y saint yn mhob màn: gosodiad apostolaidd i bawb ydoedd, ac ydyw eto.

18 * A alwyd neb [e] wedi ei enwaedu? † nac adgeisied *ddienwaediad.* ‡ A alwyd neb mewn dienwaediad? nac enwaeder arno.

e Act. 15. 1, 5, 19, 24, 28. Gal. 5. 1—3. Col. 3. 11.

* Fel hyn, gyda golwg ar bethau *crefyddol* o natur allanol, os oedd neb o'r Iuddewon enwaededig wedi cael eu galw trwy ras; † er nad oedd enwaediad mwyach ddim, (adn. 19,) eto nid oeddynt i adgeisio dienwaediad: na fydded gwaeth ganddynt eu bod wedi eu henwaedu, neu na ddymunent pe buasent heb erioed eu henwaedu, fel pe buasent yn waeth o hyny. Gwnaeth yr Iuddewon gwrthgiliedig *gynnygiadau* lawer gwaith, trwy foddion a gweithrediadau llaw-feddygol, i'w dienwaedu eu hunain, er mwyn bod yr un fath a'r cenedloedd: sonir am hyny yn 1 Mac. 1. 15; ac at hyny y cyfeiria yr apostol yma, gan wahardd y cyfryw beth, na dymuno y cyfryw beth, i'r Iuddewon cristionogol. ‡ O'r tu arall, pwy bynag o'r cenedloedd dienwaededig a alwyd, na fydded neb yn anesmwyth o herwydd hyny, fel pe byddai ei sefyllfa yn waeth o herwydd ei ddienwaediad; ac nac enwaeder arno, fel y mynai rhai o'r gau-athrawon Iuddewig wneyd: nis gall enwaediad na dienwaediad wneuthur dim gwahaniaeth yn nghyflwr neb ger bron Duw, nac yn mreintiau eglwysig neb dàn yr efengyl.

19 [f] * Enwaediad nid yw ddim, a dienwaediad nid yw ddim, [g] † ond cadw gorchymynion Duw.

f pen. 8. 8. Rhuf. 2. 25—29. a 3. 30. Gal. 5. 6. a 6. 15. g 1 Sam. 15. 22. Jer. 7. 22, 23. Mat. 5. 19. Ioan 15. 14. 1 Ioan 2. 3, 4. a 3. 22—24. a 5. 2, 3. Dat. 22. 14.

* Beth bynag a fu enwaediad a dienwaediad gynt, nid yw y naill na'r llall o honynt ddim yn awr dàn oruchwyliaeth yr efengyl: nid yw cadw y ddeddf seremoniol o ddim cynnorthwy i iachawdwriaeth yr Iuddew, ac nid yw peidio ei chadw yn un rhwystr i iachawdwriaeth y cenedl-ddyn. † Ond y prif beth yw, bod ein ffydd ni yn gweithio trwy gariad; ac felly yn ei phrofi ei hun yn wirioneddol ac o'r iawn ryw, mewn ufudd-dod cydwybodol ac ewyllysgar i orchymynion moesol deddf Duw, fel y gweddai i greaduriaid newydd. Galat. 6. 15.

20 * Pob un [h] yn yr alwedigaeth y galwyd ef, yn honno arhosed.

h adn. 17, 21—23. Luc 3. 10—14. 1 Thes. 4. 11. 2 Thes. 3. 12.

* Felly eto, gyda golwg ar sefyllfâoedd a pherthynasau *gwladol* yn y byd hwn, (gwel ar adn. 18,) bydded pob un yn foddlawn i aros yn y sefyllfa a'r alwedigaeth y gosododd Duw ef ynddi yn ei ragluniaeth, cyn iddo ei alw ef trwy ras: nid yw ei alwedigaeth trwy ras yn gwneyd dim gwahaniaeth yn hyny; ond yn dysgu pob dyn i lanw ei sefyllfa, a chyflawni ei ddyledswyddau yn well.

21 [i] * Ai yn was y'th alwyd? [k] † na fydded gwaeth gennyt; ‡ etto os gelli gael bod yn rhydd, mwynhâ *hynny* yn hytrach.

i pen. 12. 13. Gal. 3. 28. Col. 3. 11. 1 Tim. 6. 1—3. 1 Pedr 2. 18—24. k Luc 10. 40, 41. a 12. 29. a 21. 34. Phil. 4. 6, 11. 1 Pedr 5. 7.

* Ai gwas oeddit pan y'th alwyd? ac hyd yn nôd caeth-was, canys hyny oedd cyflwr y rhan fwyaf o weision yn y dyddiau hyny: † na fydded gwaeth genyt o herwydd hyny; fel pe byddit yn llai cymmeradwy yn

ngolwg Duw am dy fod yn was, neu yn gaethwas; fel pe byddai dy grefydd yn waelach o herwydd hyny; neu fel pe byddai hyny yn anghyson â dy ddyledswydd i'th Arglwydd mawr yn y nefoedd; neu â'th broffes sanctaidd o'i enw; ac â'th freintiau ysbrydol a'th gymdeithas âg ef. Bydded y cyfryw un yn llai awyddus am ei ryddid, nac am ogoneddu Duw yn y sefyllfa brofedig hòno; ‡ eto os gall gael ei ryddid mewn ffordd deg a gonest, mwynâed hyny yn hytrach, mae yn llawer mwy cysurus a manteisiol yn mhob ystyr, na sefyllfa isel gwas, ac yn enwedig na sefyllfa ddirmygus caeth-was.

22 * Canys yr hwn, ac ef yn was, a alwyd yn yr Arglwydd, [l] gwr rhydd i'r Arglwydd ydyw: † a'r un ffunud yr hwn, ac efe yn wr rhydd, a alwyd, [m] gwas i Grist yw.

l Luc 1. 74, 75. Ioan 8. 32—36. Rhuf. 6. 18—22. Gal. 5. 1, 13. Eph. 6. 5, 6. Col. 3. 22—24. Philemon 16. 1 Pedr 2. 16. m pen. 9. 19. Rhuf. 1. 1. Gal. 1. 10. Col. 4. 12. 2 Pedr 1. 1. Judas 1.

* Os na all y cyfryw un gael bod yn rhydd, na ddigaloned; oblegid mae y caeth-was dychweledig, yr hwn a alwyd trwy ras, wedi ei alw i'r rhyddid mwyaf ardderchog, fel gŵr rhydd i'r Arglwydd Iesu, ac wedi ei ryddâu o gaethiwed Satan a phechod: † ac yr un ffunud y cristion ag oedd yn ŵr rhydd mewn ystyriaeth ddynol cyn ei alw, dylai ystyried ei hun fel gwas i Grist, yn eiddo iddo ef, ac yn rhwym i gyflwyno ei hunan iddo, ac i ufuddâu i'w ewyllys. O ran y dyn newydd, nid oes na chaeth na rhydd, ond Crist sydd bob peth, ac yn mhob peth. Wrth *Grist* a'r *Arglwydd* yn yr adnod hon, y meddylir yn amlwg yr un person, yr hwn sydd yn *galw*, yn *rhyddâu*, ac yn Arglwydd a meddiannydd y rhai a elwir ac a ryddêir. Nis gall hyn yn sicr berthynu i neb ond i'r Duw hwnw yr hwn a'n pïau, a'r hwn yr ydym yn ei addoli. Act. 27. 23.

23 [n] * Er gwerth y'ch prynwyd; [o] † na fyddwch weision dynion.

n pen. 6. 20. Lef. 25. 42. Act. 20. 28. Tit. 2. 14. 1 Pedr 1. 18, 19. a 3. 18. Dat. 5. 9. o Mat. 23. 8—11. Gal. 2. 4.

* Gwel ar pen. 6. 20. † Yno cyngorir y rhai a brynwyd er gwerth i ogoneddu Duw, yn eu corph ac yn eu hysbryd; yma cyngorir hwy na byddont weision dynion: sef na werthent eu hunain yn gaethion i baganiaid digred, medd rhai; na wasanaethent â llygadwasanaeth, fel boddlonwyr dynion, medd eraill; na byddent weision i chwantau dynion, medd eraill: na fyddwch weision dynion mewn pethau anghyfreithlawn a pechadurus, i dynu euogrwydd ar eich cydwybod, ac i rwystro eich gwasanaeth dyledus a chydwybodol i Dduw. Llawer o ryw fath o broffeswyr a esgusodant eu hunain am dòri y sabbath, o herwydd eu bod yn ei wneyd wrth orchymyn meistriaid annuwiol; ond hyn a ddywed Paul wrthynt, Na fyddwch weision i'r cyfryw ddynion.

24 * Yn yr hyn y galwyd pob un, frodyr, † yn hynny [p] arhosed gyd â Duw.

p pen. 10. 31. Gen. 5. 22—24. a 17. 1. 1 Sam. 14. 45. Col. 3. 23, 24.

* Yn mha sefyllfa bynag yr oedd pob un pan alwyd ef, prïod neu anmhrïodol, meistr neu was, enwaededig neu ddïenwaededig; na feddylied fod cristionogaeth yn ei alw i newid y sefyllfa hòno: gall aros ynddi o ran ei grefydd; † ond arosed ynddi gyda Duw, neu yn ngolwg Duw: cofied fod Duw yn ei weled, ac yn sylwi arno; ei fod yn rhwym i ryngu ei fodd ef, ac i gadw cydwybod dda tuag at Dduw, fel aelod o eglwys Dduw, a thàn ei deddfau hi. Hyd y gallom fod "gyda Duw," y dylem aros yn mhob sefyllfa, a dim yn hwy: mae y sefyllfa iselaf "gyda Duw," ei heddwch a'i foddlonrwydd, yn burion; ond y sefyllfa uwchaf heb Dduw, mae yn well ei gadael. Tybir fod rhai o'r caeth-weision yn eglwys Corinth wedi bod yn terfysgu am eu rhyddid, o herwydd eu bod yn gristionogion, ac fel y cyfryw yn gystal â'u meistriaid cristionogol; ac mai at hyny mae cyfeiriad yr apostol yn benaf yn yr adnod hon.

25 [q] * Eithr am wyryfon, [r] † nid oes gennyf orchymyn yr Arglwydd: ‡ ond barn yr ydwyf yn ei roi, || fel un a [s] gafodd drugaredd gan yr Arglwydd i fod yn ffyddlawn.

q adn. 28, 34, 36—38. Salm 78. 63. r adn. 6, 10, 12, 40. 2 Cor. 8. 8—10. a 11. 17. s pen. 4. 2. a 15. 10. 2 Cor. 2. 17. a 4. 1, 2. 1 Tim. 1. 12.

* Gwedi i'r apostol gyngori dynion prïod o'r blaen, a chael ei arwain megys yn ddiarwybod iddo ei hun at amryw bethau eraill, o adn. 17, hyd yma; mae yn yr adnod hon yn ail ddychwelyd at ei brif fater yn y bennod hon, ac yn cyngori pobl ieuainc, na buasent erioed yn y 'stâd brïodasol. Y rhyw fenywaidd a feddyliwn ni wrth y gair gwŷryfon; ond ystâd o wyryfdod yw meddwl y gair *parthenôn*, a ddefnyddir yma, heb wahaniaethu pa un ai mab ai merch: ac mae yn amlwg fod yr apostol yn ei ddefnyddio yn ddiwahaniaeth am y ddau yn yr adnodau dilynol. † Am wyryfon mae yn dywedyd, nad oedd ganddo yr un gorchymyn pendant oddi wrth yr Arglwydd Iesu, ar iddynt briodi na pheidio prïodi, ond eu bod yn rhydd i wneyd yr un a fynent, yn unig yn yr Arglwydd, adn. 29. ‡ Er nad oedd ganddo orchymyn pendant oddi wrth yr Arglwydd, eto mae efe yn rhoddi ei farn a'i gyngor ar y mater, fel apostol, ac fel un a gawsai drugaredd i fod yn ffyddlawn yn mhob peth, ac yn mhob achos, yn nhŷ yr Arglwydd. || Mae yr apostol yn prïodoli ei ffyddlondeb i drugaredd Duw, ac er nad oedd yn llefaru yma yn *orchymynol*, eto yr oedd yn dysgwyl y gwrandewid ar ei *farn*, a'i gyngor ef, fel apostol Iesu Grist, ac fel un a gawsai drugaredd gan yr Arglwydd Iesu i fod yn ffyddlawn.

26 * Am hynny yr wyf yn tybied [t] mai da yw hyn, † o herwydd yr anghenrhaid presennol, mai da, *meddaf*, i ddyn fod felly.

t adn. 1, 8, 28, 35—38. Jer. 16. 2—4. Mat. 24. 19. Luc 21. 23. a 23. 28, 29. 1 Pedr 4. 17.

* Dyma "farn" yr apostol yn nghylch gwŷryfon, mai da iddynt fod felly, sef aros yn wŷryfon, os gallent ymgadw yn ddibechod yn yr ystâd hòno. † Wrth "yr angenrheidrwydd presenol" yma, rhaid i ni ddeall yr erledigaethau oedd yn dyfod ar yr eglwys yn y dyddiau hyny; nis gallwn feddwl bod yr apostol yn dywedyd yn erbyn prïodas yn gyffredinol, gwyddai ef ei bod yn beth o osodiad Duw, yn anrhydeddus yn mhawb, ac yn wir angenrheidiol i hanfodiad a chysur yr holl genedlaethau i ddyfod.

27 [u] * A wyt ti yn rhwym i wraig? † na chais dy ollwng yn rhydd. ‡ A wyt ti yn rhydd oddi wrth wraig? || na chais wraig.

u adn. 12—14, 20.

* A wyt ti yn rhwym i wraig drwy fod wedi prïodi, neu trwy ddyweddïad, ac ammod i briodi? † "Na chais dy ollwng yn rhydd" trwy unrhyw foddion anghyfreithlawn a phechadurus; nag ymâd â hi, na fwrw hi ymaith, ac os nad oes ond adduned i brïodi, na thòr yr adduned hòno, eithr cyflawna hi yn gydwybodol yn ofn Duw. "Na chais dy ollwng yn rhydd" ar un cyfrif; o herwydd profedigaethau a helbulon y 'stâd brïodasol, o herwydd y drygfyd sydd yn dyfod ar grefydd, nac hyd yn nôd er mwyn cael bod yn fwy rhydd i wasanaethu Duw: nid oes dim a gyfreithlona y fath beth ond godineb yn unig. ‡ I'r gwrthwyneb, a oes rywun arall yn eich plith yn rhydd oddi wrth wraig, heb ei brïodi nac addunedu prïodi? || Na cheisied y cyfryw un wraig yn bresenol, os gall efe mewn un modd ymgadw yn ddiwair heb hyny: mae yr amserau yn debyg o fod yn drallodus iawn yn fuan ar grefydd, a bydd yn hawddach i ddyn ffoi neu ddyoddef ei hunan, na chyda gwraig a theulu. "Gwae y rhai beichiogion, a'r rhai yn rhoi bronau yn y dyddiau hyny." Matth. 24. 19.

28 * Ac os prïodi hefyd, [x] ni phechaist: † ac os prïoda gwŷryf, ni phechodd: [y] ‡ er hynny y cyfryw rai a gânt flinder yn y cnawd: [z] || eithr yr wyf yn eich arbed chwi.

x adn. 36. Heb. 13. 4. y adn. 26, 32—34. z adn. 35. 1 Cor. 1. 23.

* Gwedi y cwbl, os bydd dyn yn chwennych prïodi, ygall wneyd hyny yn gyfreithlawn; ni bydd yn troseddu yr un gorchymyn o'r eiddo Duw, (adn. 25.) ac ni ddylai neb ei feïo ef am bröodi. † A'r un modd hefyd am wŷryf, am ferch ieuanc; os prïodi a wna hi, hi all wneyd felly yn ddibechod: nid oes genyf fi orchymyn yr Arglwydd i'r gwrthwyneb; dim ond fy mod yn rhoddi fy marn, o herwydd yr angenrheidrwydd presenol. ‡ Er ffod prïodas yn ddibechod, yn gyfreithlawn, ac yn anrhydeddus ynddi ei hun; eto cofïed y rhai a bröodant, y byddant yn fwy agored i ofalon a thrallodau y bywyd whwn wedi prïodi na chyn prïodi, yr hyn a fydd yn flinder mawr i'r cnawd, i'w teimladau a'u natur; yn enwedig yn yr amseroedd hyn o drallod ac erlid o herwydd crefydd. || Ond yr wyf yn eich arbed chwi, ni soniaf wchwaneg am y cyfryw bethau, rhag digaloni neb o honoch sydd yn bröod: a rhag i mi wrth ddarogan dlinder, rwystro neb o honoch i bröodi, a chwennychai ac a ddylai bröodi; a rhag i neb yn eich plith chwi ygymmeryd achlysur i ddywedyd yn erbyn prïodas mwy nac a ddylent.

29 * A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, frodyr, [a] † am fod yr amser yn fyr. ‡ Y mae yn ol, [b] fod o'r rhai sydd â gwragedd iddynt, megis pe byddent hebddynt;

a Job. 14. 1, 2. Salm 39. 4—7. a 90. 5—10. a 103. 15, 16. Preg. 12. a 9. 10. Rhuf. 13. 11, 12. Heb. 13. 13, 14. 1 Pedr 4. 7. 2 Pedr 8, 9. 1 Ioan 2. 17. b Preg. 12. 7, 8, 13, 14. Es. 24. 1, 2. a 40. 8. Iago 4. 13—16. 1 Pedr 1. 24.

* Dywedodd yr apostol o'r blaen bethau oedd yn berthyn i *rai;* yma mae yn myned i ddywedyd pethau yn perthyn i *bawb;* mae yn cyfeirio at y "brodyr" oll yn Corinth. † "*Mae* yr amser yn fyr," yw y Sæsoneg, nid "*am fod* yr amser yn fyr." Mae y gair Groeg *synestalmenos*, yn arwyddo bŷrâu, plygu, neu gasglu yn nghyd yr hwyliau, pan fyddo llong yn myned i mewn i'r porthladd. Mae amser y byd hwn oll yn fyr, mewn cymhariaeth i dragywyddoldeb mawr; mae holl amser dynion ar y ddaear yn fyr; nid oedd yr amser oedd yn ol i'r Corinthiaid, heb ei dreulio, ond bŷr, yr oeddynt yn nesu i'r porthladd; neu yn ol meddwl rhai, nid oedd amser eu heddwch a'u llonyddwch fel eglwys, ond bŷr. Yn mhob golygiad o fyrdra yr amser, yr oedd yn wweddu iddynt ddefnyddio yr ychydig oedd "yn ol," i ŵyrâu a chasglu yr hwyliau; i ymryddâu oddi wrth bob gofalon, pleserau, a helyntion bydol, ac i ymddarpar erbyn erlid a thrallod, ac erbyn angau ei hun. Dylai rhai oedd â gwragedd a pherthynasau ganddynt, ystyried eu hunain megys pe buasent hebddynt; nis gallent eu mwynâu yn hir, ac ni ddylent fod yn rhwystr iddynt hwy mewn pethau mwy pwysig, mwy angenrheidiol, a mwy parâus.

30 * A'r rhai [c] a wylant, megis heb wylo; † a'r rhai a lawenhânt, megis heb lawenhâu; ‡ a'r rhai a brynant, megis heb feddu;

c Salm 30. 5. a 126. 5, 6. Preg. 3. 4. Es. 25. 8. a 30. 19. Luc 6. 21, 25. a 16. 25. Ioan 16. 22. Dat. 7. 17. a 18. 7.

* A'r rhai oedd yn wylo o herwydd colli gwragedd, blant, perthynasau, neu ryw gysuron a meddiannau ymmorawl eraill; gallent gymmedroli eu galar, ac attal eu dagrau; ni chollasant ond pethau benthyg: ac nis gallasant eu mwynâu yn hir, a hyny efallai yn gymmysg â llawer o drallod, pe'u cawsent hyd ddiwedd eu hoes. † A'r rhai oedd yn llawenâu, yn y mwynâd o bethau ymmorawl, dylasent fod megys heb lawenâu; nid oedd eu hamser i'w mwynâu ond bŷr iawn, na'u llawenydd ynddynt ond fel clindarddach drain tàn grochan, a bhael yr oes hwyaf. ‡ A'r rhai a brynant diroedd, tai, neu ryw feddiannau daearol; dylent edrych arnynt ar ol eu prynu, fel pethau heb fod yn eiddynt hwy, a'u defnyddio fel pethau nas meddiannant hwy yn hir. Ystyried bod yr amser yn fyr, angau yn sicr, a thragywyddoldeb yn ddiddiwedd, a ddylai ein cymmedroli yn mhob peth a berthyn i'r bywyd hwn.

31 * A'r rhai a [d] arferant y byd hwn, megis heb ei gam-arfer. [e] † Canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio.

d pen. 9. 18. Preg. 2. 24, 25. a 3. 12, 13. a 5. 18—20. a 9. 7—10. a 11. 2, 9, 10. Mat. 24. 48—50. a 25. 14—29. Luc 12. 15—21. a 16. 1, 2. a 19. 17—26. a 21. 34. 1 Tim. 6. 17, 18. Iago 5. 1—5. e Salm 73. 20. Preg. 1. 4. Iago 1. 10, 11. 1 Pedr 1. 24. 1 Ioan 2. 17.

* "Arfer y byd hwn heb ei gam-arfer" yw, bod yn gymmedrol yn yr arfer, neu y defnydd o bob peth: peidio ymserchu yn ormodawl yn mhethau y byd pan fyddont genym; a pheidio ymofidio yn ormodawl o'u herwydd pan y collom hwynt; peidio afradloni trugareddau ar y naill law, nac attal mwy nac a weddai ar y llaw arall: defnyddio pethau Duw i ogoniant Duw, er cynnaliaeth ei achos, er diwallu yr angenus, ac er ein lles ein hunain. † Mae dull *(schêma)* y byd hwn o ran ei agwedd a'i berthynasau presenol, a'n dull ni o'i fywnâu a'i arfer, ymddwyn, marchnata, a byw ynddo, yn ehedeg ymaith fel cysgod, ac a ddiflana ymaith yn fuan iawn. Felly y dywedodd Ioan, 1 Ioan 2. 17. Cyfeiriad sydd yma at chwareufa, lle mae un drychwedd ar ol y llall yn newid o hyd, nes darfod yr holl chwareu. Gwel Preg. 1. 4—11.

32 [f] * Eithr mi a fynnwn i chwi fod yn ddiofal. [g] † Yr hwn sydd heb bröodi, sydd yn gofalu am bethau yr Arglwydd, pa wedd y boddlona yr Arglwydd:

f Salm 55. 22. Mat. 6. 25—34. a 13. 22. Phil. 4. 6. g 1 Tim. 5. 5.

* Fel pe dywedasai yr apostol, Yr achos i mi ddywedyd cymmaint o blaid gweddwdod, (adn. 1, 7, 8, 26, 28,) yn hytrach na'r ystâd bröodasol oedd, am y mŷnwn i chwi fod yn ddiofal; ac mòr rhydd ag y byddo bosibl oddi wrth ofalon a thrafferthion y byd hwn, erbyn yr amseroedd trallodus ac enbyd sydd yn dyfod ar grefydd yn fuan: ac fel y galloch ddilyn gyda'r pethau a berthynant i achos Duw, a'ch iachawdwriaeth eich hunain, gyda llai o ddyryswch ac anhawsderau. † Oblegid mae yn amlwg fod y cristion sydd heb ei bröodi, yn fwy rhydd i ofalu am bethau yr Arglwydd, pa wedd y boddlona efe yr Arglwydd, yn ei feddwl, ei amser, a'i lafur, na'r hwn sydd yn bröod, a thàn lwyth o ofalon bydol.

33 * Ond y neb a wreiccâodd, [h] † sydd yn gofalu am bethau y byd, [i] ‡ pa wedd y boddlona *ei* wraig.

h Neh. 5. 1—5. Luc 12. 22. 1 Thes. 4. 11, 12. 1 Tim. 5. 8. i adn. 3. 1 Sam. 1. 4—8. Eph. 5. 25—33. Col. 3. 19. 1 Pedr 3. 7.

* O'r tu arall, yr hwn a wreicâodd, pa mòr dduwiol bynag y byddo, a pha mòr ffyddlawn bynag y dymunai fod gydag achos yr Arglwydd; † mae efe o angenrheidrwydd yn gorfod gofalu am bethau y byd, pa fodd i gynnal ei deulu, pa fodd i gyflawni dyledswyddau ei sefyllfa, ‡ a pha wedd y boddlona efe ei wraig, i'w gwneuthur hi yn esmwyth ac yn gysurus; ac yn enwedig os un o'r rhai "digredd" fydd hi, ac yn barod i feïo ar grefydd gyda phob achlysur bychan a gaffo. Mae gwŷr a gwragedd yn rhwym o geisio boddloni eu gilydd; heb hyny nis gallant fod yn gysurus, nac yn ymgeledd cymhwys i'w gilydd: ac eto wrth wneyd y peth cyfreithlawn ac angenrheidiol hyn, maent mewn perygl o gael eu rhwystro yn eu gofal am bethau yr Arglwydd, mwy na'r dynion aumhröodol, os bydd y rhai hyny yn ddynion ysbrydol.

34 * Y mae gwahaniaeth hefyd rhwng gwraig a gwŷryf. † Y mae yr hon sydd heb bröodi, [k] yn gofalu am y pethau sydd yn perthyn i'r Arglwydd, ‡ fel y byddo hi sanctaidd [l] y'nghorph ac yspryd: || ac y mae yr hon

sydd wedi prïodi, yn gofalu am bethau bydol, pa fodd y rhynga hi fodd i'*w* gwr.

k Luc 2. 36, 37. 2 Cor. 7. 11, 12. a 8. 16. a 11. 28. 1 Tim. 3. 5. Tit. 3. 8. l pen. 6. 20. Rhuf. 6. 13. a 12. 1, 2. Phil. 1. 26. 1 Thes. 5. 23.

* Yn y ddwy adnod o'r blaen, gwelsom y gwahaniaeth rhwng y dyn ieuanc heb ei brïodi â'r gŵr prïod, o ran cyfleusdra y naill, ac anghyfleusdra y llall mewn pethau yn perthyn i'r Arglwydd: yma mae yr apostol yn dangos fod gwahaniaeth rhwng gwraig brïodol, â gwŷryf heb ei phrïodi, yr un modd. † Yr hon sydd heb brïodi, os bydd hi yn ferch ieuanc dduwiol a gwir ysbrydol, mae ganddi hi hamdden a chyfleusdra, yn gystal âg ewyllys, i ofalu am y pethau sydd yn perthyn i'r Arglwydd: ‡ mae ei sefyllfa esmwyth a diddyryswch hi, yn rhoddi mantais iddi hi ogoneddu Duw yn ei chorph ac yn ei hysbryd, i gyssegru ei hunan, amser a meddwl, gorph ac ysbryd, i wasanaeth Duw, ac i ymarfer â'r moddion sydd a thuedd ynddynt i'w gwneyd hi yn sanctaidd yn nghorph ac ysbryd. || Ond mae y wraig sydd wedi prïodi, fel y gŵr prïodol yn adn. 33, yn gorfod gofalu am bethau bydol, am achosion y teulu, a dyledswyddau eraill ei sefyllfa; a pha fodd y rhynga hi fodd ei gŵr, yr hwn y gorchymynodd Duw iddi ufuddâu iddo. Gallwn sylwi ar amryw bethau addysgiadol oddi wrth yr adnodau uchod:—1. Mai dyledswydd gwŷr a gwragedd yw gofalu am gyflawni eu gwahanol ddyledswyddau, a cheisio boddâu eu gilydd mewn cariad. 2. Fod gwahanol dymherau mewn gwŷr a gwragedd yn ei gwneyd yn ddigon anodd iddynt yn aml i ryngu bodd eu gilydd. 3. Fod y pethau uchod yn ei gwneyd yn dra anfanteisiol iddynt ofalu am bethau yr Arglwydd, na mwynâu y pethau sydd mewn crefydd fel y dymunent. 4. Fod llawer mwy o gyfleusderau crefyddol gan bobl ieuainc, meibion a merched, nag sydd gan ddynion prïod, hyd yn nôd yr amser mwyaf tawel a heddychol ar grefydd.

35 * A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd er llesâd i chwi eich hunain; [m] † nid i osod magl i chwi, ‡ eithr er mwyn [n] gweddeidd-dra, [o] a dyfal lynu wrth yr Arglwydd yn ddïwahan.

m adn. 2, 5—9, 28, 36. Mat. 19. 12. n adn. 36. Eph. 5. 3. Phil. 4. 8, 9. 1 Tim. 1. 10. Tit. 2. 3. o adn. 33, 34. Luc 8. 14. a 10. 40—42. a 21. 34.

* Yr oedd yr apostol yn dangos y fantais uchod i'r ieuenctid, rhagor dynion prïod, er llesâd ysbrydol iddynt; fel yr elent trwy y byd trallodus, yn enwedig mewn amserau erledigaethus, gyda llai o ddyryswch a gofidiau ar eu ffordd. † Nid i osod magl iddynt, i beri iddynt ymwrthod â phrïodas yn hollawl, i gauad eu hunain i fynu mewn mynachlogydd a lleiandai; ac felly bod yn achlysur iddynt bechu yn erbyn Duw trwy weddwdod diachos, a thrwy rŷm nwydau anniwair. ‡ Nid yw prïodas ynddi ei hun yn *anweddaidd*, ac ni bu erïoed; ond mae y gair "gweddeidd-dra" yma yn dangos, fod y Corinthiaid y pryd hwnw mewn amgylchiad, ac yr oedd Duw megys yn gofyn dirwest llŷm a neilluol ynddynt oll, ac ei bod yn amser i bawb o honynt feddwl am erlidiau a merthyrdod, yn hytrach na choleddu nwydau dynol, prïodi a rhoi i brïodas. Mae amser i ymgofleidio, ac amser i ochel ymgofleidio; ac mae yn debyg mai amser i ochel ymgofleidio oedd hwn i'r Corinthiaid, gan hyny "gweddeidd-dra" oedd gochel, ac anweddeidd-dra oedd y gwrthwyneb. || Glŷnu yn hollawl, â'r holl galon, wrth yr Arglwydd, heb fod eu meddyliau a'u serchiadau yn cael eu rhanu a'u dyrysu, gan ofalon a gwrthddrychau eraill. Rhwng hudoliaethau y cnawd ar y naill law, ac erlidiau poethion am grefydd ar y llaw arall, mae yr apostol yn fawr am annog y bobl ieuainc yn Corinth i "*ddyfal* lynu wrth yr Arglwydd yn *ddïwahan*."

36 * Ond os yw neb yn tybied ei fod yn anweddaidd tu ag at ei wŷryf, † od â hi dros [p] flodau *ei* hoedran, [q] ‡ a bod yn rhaid gwneuthur felly; || gwnaed a fynno, [r] nid yw yn pechu: § prïodant.

p 1 Sam. 2. 33. q adn. 9, 37. r adn. 28.

* Er fod gweddwdod, neu wŷryfdod, yn fwy manteisiol i grefydd na'r ystâd brïodasol, fel y sylwyd o'r blaen; eto, od oes unrhyw dad, (a gellir dywedyd yr un peth am warcheidwad gwŷryf amddifad,) yn ofni ei fod yn ymddwyn yn anweddaidd tuag at ei ferch wŷryfawl, trwy ei hattal i brïodi wedi iddi ddangos tuedd i hyny; † ac os yw hi wedi myned dros flodau yr oedran y byddir arferol o brïodi, ac y tybir yn warth bod un heb brïodi: neu od oes unrhyw ŵr ieuanc, yr hwn sydd wrth ei law ei hun, yn tybied iddo roi gormod o attaliad ar ei dymher a'i duedd ei hun, a'i ddianrhydeddu ei hun trwy barâu yn weddw ar ol myned dros yr oedran cyffredin i brïodi: ‡ os bydd y tad yn gweled bod yn rhaid, o ddyledswydd, iddo roddi ei ferch wŷryfawl i'w phrïodi; neu y gŵr ieuanc, yr hwn sydd wrth ei law ei hun, ac wedi ymattal heb brïodi hyd yn hyn, yn gweled bod yn rhaid iddo "wneuthur felly," sef newid ei sefyllfa; || gwnaed yn ol ei gydwybod, gwnaed a fŷno, nid yw yn pechu os prïoda; ac nid yw y tad yn pechu o roi ei ferch i'w phrïodi. § Prïodant, yn y rhif-liosog, canys mae dau mewn priodas. Addefa ein Hawdwyr fod yr adnod hon a'r nesaf yn dra dyrys ac anhawdd eu deall: tybia rhai mai am dad rhyw ferch ieuanc wŷryfawl mae yr apostol yn llefaru yn yr adnod hon; ond tybia eraill mai am ryw ŵr ieuanc, yn ei gadw ei hun mewn ystâd o wŷryfdod, mae efe yn dywedyd: ceisiodd y Detholydd osod y ddau olygiad i mewn yn y sylwad uchod, yn debyg fel y mae yn alleiriad y *Dr. Guyse.* "Tuag at ei wŷryf:" tuag at ei *wyryfdod* a fuasai yn fwy dealladwy, os am ŵr ieuanc mae yr apostol yn llefaru; ond dywedir y byddai yr Iuddewon yn galw gwŷryf ar ŵr ieuanc a ymgadwai yn weddw er mwyn gwasanaethu yr Arglwydd: gwŷryf am wŷryfdod.

37 * Ond yr hwn sydd yn sefyll sicr yn ei galon, † ac yn afraid iddo, ‡ ac â meddiant ganddo ar ei ewyllys ei hun, || ac a roddodd ei fryd ar hynny yn ei galon, ar gadw o hono ei wŷryf; da y mae yn gwneuthur.

* Ond yr hwn sydd yn benderfynol yn ei feddwl, i beidio rhoddi ei wŷryf, sef ei ferch i'w phrïodi, † ac yn gweled yn ei thuedd a'i hymarweddiad hithau nad oes dim rhaid iddo hyny, ‡ ond ei fod yn gwbl rydd i weithredu yn ol ei ewyllys ei hun yn y peth hwn, heb niwed na thristwch iddi hi, || ac am hyny a roddodd ei fryd yn ei galon ar gadw ei ferch yn wŷryf ac heb ei phrïodi; § da mae y dyn hwnw yn gwneuthur, yn enwedig yn yr amser trallodus sydd ar grefydd: mae efe i'w ganmol am ei ofal doeth a thadol dros ei ferch. Felly hefyd y gŵr ieuanc, yr hwn ac efe yn o bell mewn oedran, sydd wedi penderfynu yn sefydlog yn ei feddwl na phrïoda efe, ac nid yw dàn un angenrheidrwydd i brïodi, o herwydd tueddiadau natur, nac unrhyw amgylchiadau eraill, ond sydd yn gallu llywodraethu ei nwydau, ac am hyny yn rhoddi ei fryd yn ei galon i barâu yn weddw; da mae y dyn hwn yn gwneuthur, mae yn gwneyd y peth goreu, a mwyaf canmoladwy, trwy gadw mewn ystâd o wŷryfdod, ac heb brïodi; ac yn enwedig wrth ystyried pa faint o drallod a helbul a gaffai efe mewn ystâd brïodasol, yn yr amseroedd erlidgar hyn. Gwelir eto fod y tad a'r gŵr ieuanc yn cael eu dwyn i mewn yn y sylwad uchod, yr hwn sydd agos air yn air âg alleiriad *Guyse.* "Cadw ei *wyryf*" yw y peth mwyaf tywyll yn yr adnod hon, gyda golwg ar y gŵr ieuanc; cadw ei wŷryfdod a fyddai yn fwy dealladwy. Gwel ddiwedd y sylwad ar adn. 36.

38 * Ac am hynny, yr hwn sydd yn *ei* rhoddi yn brïod, [s] sydd yn gwneuthur yn dda; † ond yr hwn nid yw yn *ei* rhoddi yn brïod, [t] sydd yn gwneuthur yn well.

s adn. 2. Heb. 13. 4. t adn. 1, 8, 26, 32—34, 37.

* Felly, gan hyny, swm y cwbl a ddywedwyd ar y
ater hwn yw; mae yr hwn sydd yn rhoddi ei wŷryf, ei
erch, yn briod, yn unol â'i hewyllys a'i dymuniad hi ei
un, yn gwneuthur yn ddigon cyfreithlawn, ac yn dda;
ond yr hwn nid yw yn ei rhoddi yn briod, a hithau yn
oddlawn, ac yn ewyllysio hyny, yn hytrach na newid ei
efyllfa; mae hwnw yn gwneuthur yn well: mae hyny
n fwy er ei chysur a'i mantais hi, wrth ystyried gofalon
a helbul y 'stâd briodasol, yn enwedig mewn amseroa
erfysglyd ac erlidigaethus ar yr eglwys. Y dyn ieuanc
nefyd, pan deimlo yn angenrheidiol iddo newid ei
efyllfa, a myned i'r ystâd briodasol, am nas gall gadw
ei wŷryf, neu ei wŷryfdod, mewn diweirdeb yn hwy;
mae yn gyfreithlawn, yn ddoeth, ac yn dda iddo briodi:
ond yr hwn a all ymgadw yn dawel, yn foddlawn, ac yn
didiwair heb briodi; mae hwnw yn gwneuthur yn well o
ymgadw felly: mae yn gwneyd yn well na phriodi, ac
n well na'r llall sydd yn priodi: mae yn fwy rhydd
ddi wrth ofalon a thrallodau y byd, mae yn fwy rhydd
wasanaethu Duw, ac mewn erlid bydd yn well iddo,
m na bydd gwraig a phlant yn gorfod dyoddef gydag
f, nac yn gofidio o'i herwydd.

39 [u] * Y mae gwraig yn rhwym wrth y
gyfraith, tra fyddo byw ei gwr: † ond o bydd
marw ei gwr, y mae hi yn rhydd i briodi y neb
ı fynno; [x] ‡ yn unig yn yr Arglwydd.

u adn. 10, 15. Rhuf. 7. 2, 3. x Gen. 6. 2. Deut. 7. 3, 4. Mal. 2. 11. 2 Cor. 6. 14—16.

Gwedi llefaru yn gyntaf wrth ddynion priod, ac wedi
yny am wŷryfon, pobl ieuainc heb eu priodi; mae efe
yma yn gorphen y mater yn nghylch priodas, gyda
hyngor i wragedd gweddwon. * Mae pob gwraig yn
dhwym wrth y gyfraith i'w gŵr, tra fyddo byw ei gŵr:
eeth bynag o drallod a gofid a gaiff hi gydag ef, nid oes
ilim ond godineb neu angau a'i rhyddâ hi oddi wrtho,
el y gallo hi briodi rhyw un arall. † Ond os bydd ei
ŵr marw o'i blaen hi, mae hi yn ddigon rhydd i briodi
neb a fynno. ‡ Eto, dylai pob gwraig weddw gristion-
gol, yn gystal a phawb eraill cristionogol, ofalu am
briodi "yn yr Arglwydd;" dylai ochelyd priodi â phagan
ilun-addolgar, â dyn sydd yn dàl cyfeiliornadau cabl-
eddus a dinystriol, âg erlidiwr a gwawdiwr crefydd, ac
phob dyn nad oes ganddi le i farnu yn sobr ac yn
iicr, ei fod yn wir gredadyn ac yn ofni Duw. Dylai
briodi yn yr Arglwydd i gael boddlonrwydd a bendith
r Arglwydd ar ei phriodas; fel y gallo hi â'i phriod
gynnorthwyo y naill y llall yn mlaen, fel cyd-etifeddion
yras y bywyd, 1 Pedr 3. 7; fel y gallont ddwyn yn mlaen
addoliad Duw yn gytun yn eu teulu; ac fel y gallont
yd-weithredu yn ymdrechgar i hyfforddi a maethu y
hai dàn eu gofal yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd,
na un bynag ai plant ai gweinidogion a fyddont. Dyma
ëol yr apostol yn nghylch priodi, ond mae llawer o
wristionogion y dyddiau hyn yn gwybod yn well na'r
postol; ac yn tybied nad oes achos i bobl grefyddol
fod mòr fanwl am briodi "yn yr Arglwydd!"

40 [y] * Eithr dedwyddach yw hi os erys
hi felly, yn fy marn i: [z] † ac yr ydwyf finnau
yn tybied fod Yspryd Duw gennyf.

y adn. 1, 8, 26, 35. z adn. 25. pen. 9. 1—3. a 14. 36, 37. 2 Cor. 10. 8—10. a 12. 11. 1 Thes. 4. 8.

* Ond os gall hi fyw heb briodi, heb fyned yn dry-
hyll, a gallu trin ei byd ei hunan; dedwyddach yw hi
o lawer, yn fy marn ddiduedd a sobr I o aros felly, yn
ŵr amseroedd drwg presenol. † Fel pe dywedasai, Yr
wyf yn meddwl yn ostyngedig ac yn ddiymffrost, y gŵn
I gymmaint am feddwl yr Ysbryd Glân, â neb o'r rhai
sydd yn eich dysgu chwi fel arall, neu y rhai sydd o
feddyliau gwahanol i mi yn y pethau hyn. Yr wyf yn
ybied fod Ysbryd Duw genyf, mai efe a'm cyfarwydd-
odd i roddi y cyngorion blaenorawl, ac mai ei feddwl ef
a draddodais i chwi ar y mater. Mae yn afresymol i ni
feddwl fod yr apostol yn ammheüus, pa un a oedd dàn
gyfarwyddyd yr Ysbryd Glân ai peidio, wrth ei fod yn
dywedyd "yr wyf yn *tybied*," yn y fân hon; efe a wydd-
ai yn hollawl ei fod, ond mae yn dewis dywedyd yn y
dull gwylaidd a gostyngedig hyn. Yn y bennod hon,
mae efe yn "caniatâu," yr hyn oedd *ganiatâol;* yn
"cyngori," yr hyn oedd *gymmesur;* ac yn "gorchymyn,"
yr hyn oedd *rwymedig:* ac yn y cwbl yr oedd yn ddi-
ammau dàn arweiniad ac ysbrydoliaeth yr Ysbryd
Glân.

PEN. VIII.

Bod iddynt ymgadw oddi wrth y bwydydd a offrymer i eilunod.

[a] * EITHR am yr hyn a aberthwyd i eilun-
od, † ni a wyddom [b] fod gan bawb o
honom wybodaeth. [c] ‡ Gwybodaeth sydd yn
chwyddo, [d] || eithr cariad sydd yn adeiladu.

a adn. 10. pen. 10. 19—22, 28. Num. 25. 2. Act. 15. 20, 29. a 21. 25. Dat. 2. 14, 20. b adn. 2, 4, 7, 11. pen. 1. 5. a 4. 10. a 13. 2. a 14. 20. a 15. 34. Rhuf. 14. 14, 22. Col. 2. 18. c pen. 4. 18. a 5. 2, 6. a 13. 4. Es. 5. 21. Rhuf. 11. 25. a 12. 16. d pen. 13. 8—13. Eph. 4. 16.

* Yma mae yr apostol yn ateb gofyniad arall a ddan-
fonasid ato gan y Corinthiaid, sef yn nghylch cyfreith-
londeb neu anghyfreithlondeb bwyta o'r hyn a aberthid
i eilunod. Byddai y paganiaid yn offrymu ychain a
defaid, a chrëaduriaid bwytadwy eraill i'w gau-dduwiau:
llosgid peth o'r aberthau hyn ar allorau yr eilunod, a
rhenid y gweddill rhwng yr offeiriaid a'r offrymwyr, y
rhai a wleddent arnynt, weithiau yn nhemlau yr eilun-
od, ac weithiau yn eu tai gartref; a gwahoddent yn aml
rai o'r cristionogion a fyddai yn gyfeillgar â hwy, i
gyd-wledda ar y pethau hyn: a'r hyn a fyddai dros ben
digon i'r aberth a'r wledd, hwy a'i gwerthent yn y
farchnad gyffredin, gwel pen. 10. 25. † Ni a wyddom
fod gan y rhan fwyaf o honom ni gristionogion wybod-
aeth, nad yw eilun ddim yn y byd; (adn. 4.) gwyddom
ni apostolion Crist hyny, ac ni a wyddom y gwyddoch
chwithau yn Corinth hyny; ac am eich bod yn gwybod
nad yw eilun ddim yn y byd, yr ydych mewn ffordd o
ymffrost o'ch gwybodaeth, yn bwyta yn ddibetrusder o'r
hyn a aberthwyd i eilunod: yr ydych yn gwag-feddwl ei
fod yn brawf o'ch gwybodaeth ragorol o ddiddymdra
eilunod, i fwyta o'r pethau a aberthwyd i eilunod, hyd
yn nôd yn nhemlau yr eilunod. ‡ Ond gwybydded y
cyfryw ddynion, fod gwybodaeth yn unig yn tueddu i
chwyddo'r meddwl; yn peri i ddyn dybied yn fawr o
hóno ei hun, ac yn ei wneyd yn drahäus tuag at ei
frodyr gweiniaid a llai eu gwybodaeth; yn ei lanw â
hunan a balchder, ac yn ei wneyd uwchlaw cymmeryd
ei ddysgu yn well gan neb; yr hyn sydd yn hollawl
groes i ysbryd gwir dduwioldeb, ac yn rhwystr i ddyn
gynnyddu dim gwir wybodaeth ysbrydol a phrofiadol.
|| I'r gwrthwyneb, mae serchiadau sanctaidd, cariad at
Dduw, at bethau ysbrydol, ac at y brodyr, yn darpar
dynion i dderbyn addysg chwanegol, yn tueddu er ad-
eiladaeth iddynt, ac yn eu cymhwyso hwy i adeiladu
eraill hefyd. Mae cariad yn sancteiddio gwybodaeth,
ac yn ei dwyn i fod yn wasanaethgar i'r dyn ei hun, ac
i eraill.

2 [e] * Eithr os yw neb yn tybied ei fod yn
gwybod dim, † ni ŵyr efe etto ddim fel y
dylai wybod.

e Diar. 26. 12. a 30. 2—4. Gal. 6. 3. 1 Tim. 1. 5—7. a 6. 4.

* Os yw neb yn hunan-dybiol a balch yn ei wybod-
aeth, fel pe byddai efe yn ddoethach nac eraill, ac felly
yn ddiystyrllyd o eraill, ac uwchlaw sylwi ar dybiau neb
ond ei hunan, heb gymmeryd ei ddysgu na'i rybuddio
gan neb, na gofalu am adeiladaeth neb; † ni ŵyr y
cyfryw un ddim eto fel y dylai wybod, mewn modd
gostyngedig a llesol, ac i ddyben ac adeiladaeth ysbryd-
ol, nac mewn modd cymmeradwy gan Dduw: nid yw
efe ddim mewn gwirionedd ond ymffrostiwr gwag-ogon-
eddgar, ac yn ei dwyllo ei hunan. Galat. 6. 3. Gwy-
bodaeth lawn o rodres, nid lles, ond afles yw.

3 * Ond od oes neb yn [f] caru Duw, † hwnnw [g] a adwaenir ganddo ef.

f pen. 2. 9. Rhuf. 8. 28. Iago 1. 12. a 2. 5. 1 Pedr 1. 8. 1 Ioan 4 19 a 5. 2, 3. g Ex. 33. 12, 17. Salm 1. 6. a 17. 3. a 139. 1, 2. Nah. 1. 7. Mat. 7. 23. Ioan 10. 14. a 21. 17. Rhuf. 8. 29. a 11. 2. Gal. 4. 9. 2 Tim. 2. 19. Dat. 2. 9, 13, 19. a 3. 8, 9, 15, 16.

* Od oes neb wedi cael yr wybodaeth sanctaidd hòno a ddaeth ag ef i garu Duw yn wirioneddol, ac oddi ar yr egwyddor hòno o gariad, i wneyd defnydd o'i wybodaeth er gogoniant i Dduw, a llesâd ei frodyr cristionogol; † mae y dyn hwnw yn adnabyddus ac yn gymmeradwy gan Dduw, fel gwir gredadyn gostyngedig, fel un sydd yn ei garu ef, ac yn defnyddio ei dalent yn ngwasanaeth ei Arglwydd. Gall dynion wybod llawer o bethau am Dduw, ac eto heb garu Duw; wrth y rhai hyn bydd Duw yn dywedyd yn y dydd olaf, Nis adnabum chwi erioed, ewch ymaith oddi wrthyf, chwi weithredwyr anwiredd: ond y rhai sydd yn ei garu ef, efe a'u hadnebydd ac a'u harddelwa yn y dydd hwnw.

4 * Am fwytta gan hynny o'r pethau a aberthir i eilunod, [h] † ni a wyddom nad *yw* eilun ddim yn y byd, [i] ‡ ac nad *oes* un Duw arall ond un.

h pen. 10. 19, 20. Salm 115. 4—8. Es. 41. 24. a 44. 8, 9. Jer. 10. 14. a 51. 17, 18. Hab. 2. 19, 20. Act. 19. 26. i adn. 6. Deut. 3. 24. a 4. 39. a 6. 4. a 32. 39. Es. 37. 16, 20. a 44. 6, 8. a 45. 5, 14. Jer. 10. 10. Marc 12. 29. Eph. 4. 6. 1 Tim. 1. 17. a 2. 5. Judas 25.

* Am y gofyniad, gan hyny, yn nghylch bwyta o'r pethau a aberthid i eilunod; (gwel ar adn. 1.) † gellid addef, ei fod yn ddigon gwybodus yn mhlith cristionogion, (gwel eto ar adn. 1.) nad oes dim *bod* gwirioneddol i eilun; dim ychwaneg na delw farw, a hòno yn cynddrychioli "dim yn y byd." Ni a wyddom oll, nad yw holl dduwiau y paganiaid ddim ond oferedd celwyddog, "dim yn y byd;" ac nad yw y delwau a wnair iddynt, ddim ond talpiau meirwon o goed neu feini: ac am nad ydynt "ddim yn y byd" ynddynt eu hunain, nid ydynt "ddim yn y byd," i sancteiddio na halogi y pethau a aberthir iddynt. "Dim yn y byd," y galwai yr Iuddewon eilunod y cenedloedd: sef "dim yn y byd" fel duwiau; ‡ oblegid nid oes un Duw arall ond un: y mae un gwir a bywiol Dduw, ac nid oes arall ond efe.

5 * Canys er bod rhai a [k] elwir yn dduwiau, † pa un bynnag ai yn y nef ai ar y ddaear (megis y mae duwiau lawer, ac arglwyddi lawer)

k Deut. 10. 17. Jer. 2. 11, 28. a 11. 13. Dan. 5. 4. Ioan 10. 34. Gal. 4. 8. 2 Thes. 2. 4.

* Yn mhlith y paganiaid eilun-addolgar, yr oedd llawer a elwid, ac a gam-enwid yn dduwiau, ac a addolid fel y cyfryw ganddynt hwy. † Tybient fod rhai o honynt yn y nef, rhai ar y ddaear, a rhai tàn y ddaear; oblegid yr oedd ganddynt hwy eu duwiau uffernol, yn gystal â rhai nefol a daearol: rhai o uchel radd, rhai o ganol radd, a rhai o isel radd. Tybiai y paganiaid mai duwiau mewn awdurdod o dàn ryw dduw mawr, a phennaf, oedd y duwiau eraill i gyd, pob un yn ol ei radd a'i sefyllfa; ac megys cyfryngwyr rhwng hwnw â dynolryw. Fel hyn y dywed *Pool* ar yr adnod:—Mae llawer a elwir yn dduwiau gan y paganiaid, a'r rhai a elwir yn dduwiau gan Dduw ei hunan: gelwir yr angelion sydd yn y nef, yn llu, neu wersyll Duw, Gen. 32. 2; yn llu nefol, Luc 2. 13; yn feibion Duw, Job 1. 6, a 2. 1. Gelwir swyddogion gwladol yn dduwiau, Salm 82. 6; o herwydd fod Duw wedi rhoddi llawer o'i lywodraeth iddynt hwy: fel hyn y mae duwiau lawer, ac arglwyddi lawer.

6 * Eithr i ni *nid oes ond* [l] un Duw, † y Tad, [m] ‡ o'r hwn *y mae* pob peth, [n] a ninnau ynddo ef; [o] ‖ ac un Arglwydd Iesu Grist, § trwy yr hwn *y mae* pob peth, [p] a ninnau trwyddo ef.

l Gwel ar adn. 4.—Jona 1. 9. Mal. 2. 10. Ioan 10. 30. a 14. 9, 10. a 17. 3. a 20. 17. Eph. 1. 3. a 3. 14. a 4. 6. 1 Pedr 1. 2, 3. m Act. 17. 28. Rhuf. 11. 36. Eph. 4. 6. n Ioan 14. 20. a 17. 21—23. o pen. 12. 3. Mat. 11. 27. a 28. 18. Ioan 5. 20—29. a 13. 13. a 17. 23. Act. 2. 36. a 5. 31. Eph. 1. 20—23. Phil. 2. 9—11. Col. 1. 16, 17. 1 Tim. 2. 5, 6. 1 Pedr 1. 21. Dat. 1. 18. p Ioan 1. 3. Heb. 1. 2, 3.

* Pa beth bynag yw dychymmygion a chrêd y paganiaid tywyll, am dduwiau lawer, ac arglwyddi lawer, gwyddom ni y cristionogion, nad oes ond un Duw, ac i *ni* nid oes ond un Duw, mewn cyferbyniad i'w holl gau-dduwiau hwy. † Yr un Duw hwn yw y Tad, yn undeb y Personau dwyfol eraill, y Mab a'r Ysbryd Glân; ‡ ac o'r un Duw anfeidrol hwn, yn dri Pherson mewn un hanfod, y mae pob peth yn deilliaw, mewn crëadigaeth, rhagluniaeth, a gras: ynddo ef y cafodd cristionogion eu bywyd ysbrydol a'u dedwyddwch, ac ynddo ef y maent yn byw, yn symmud, ac yn bod, fel crëaduriaid ac fel duwiolion. ‖ Ac i ni cristionogion nid oes ond un Arglwydd, sef yr Arglwydd Iesu Grist, Mab y Tad, yr hwn nid yw, fel duwiau y cenedloedd, yn Dduw arall, gwahanol i'r Tad, neu iselach ei hanfod nag ef; ond yr hwn sydd wir Dduw, yn ogyfuwch â'r Tad, ac yn un hanfod âg ef. § Hwn yw y Cyfryngwr a osodwyd rhwng Duw a dynion, Arglwydd ei bobl bryn-edig, ac Arglwydd pawb a phob peth er eu lles hwynt: trwyddo ef y crëwyd pob peth ar y cyntaf, a thrwyddo ef mae ei bobl wedi eu prynu, a chwedi eu cymmodi â Duw. Nid yw yr "un Duw, y Tad," yn nechreu yr adnod, yn cauad allan yr "un Arglwydd Iesu Grist," yn rhan arall yr adnod, fel pe byddai efe yn llai na Duw; ond "un Duw" mewn cyferbyniad i'r "duwiau lawer" yn yr adnod o'r blaen: felly nid oes yma ddim yn erbyn gwir Dduwdod yr Arglwydd Iesu, ei ogyfuchder â'r Tad, a'i undeb hanfodol ef â'r Tad, ac â'r Ysbryd.

7 [q] * Ond nid *yw* y wybodaeth *hon* gan bawb: † canys rhai [r] â chanddynt gydwybod o'r eilun, hyd y pryd hwn, sydd yn bwytta fel peth a aberthwyd i eilunod; ‡ a'u cydwybod hwy, a hí yn wan, a halogir.

q adn. 1, 10, 11. r adn. 9, 10. pen. 10. 28, 29. Rhuf. 14. 14, 23.

* Er fod gwybodaeth gan y Corinthiaid yn gyffredinol, nad oedd eilunod "ddim yn y byd," ac nad oedd y pethau a aberthid i eilunod yn cael eu sancteiddio na'u halogi drwy hyny: eto nid oedd yr wybodaeth hon gan *bob un* o honynt, ac i'r un graddau: † yr oedd o hyd rai yn eu plith, a chanddynt ormod o barch dirgelaidd i'w hen eilunod, er eu holl broffes o gristionogaeth; ac a fyddent yn bwyta o'r hyn a aberthid i eilunod, nid fel ymborth cyffredin, ond mewn ffordd o ryw fath o barch i'r eilun, megys pe buasai rhywbeth o ddwyfoldeb ynddo. ‡ A chan fod cydwybod y rhai hyn yn wàn, heb gael eu llawn ddysgu yn athrawiaeth bur yr efengyl, yr oeddynt yn eu halogi eu hunain yn dost âg euogrwydd eilun-addoliaeth.

8 [s] * Eithr nid yw bwyd yn ein gwneuthur ni yn gymmeradwy gan Dduw: † canys nid ydym, os bwyttâwn, yn helaethach; ‡ nac onis bwyttâwn, yn brinach.

s pen. 6. 13. Rhuf. 14. 17. Col. 2. 20—23. Heb. 13. 9.

* Os gall rhai fwyta o'r pethau hyn heb halogi eu cydwybodau, ac mewn dirmyg ar yr eilun yn hytrach nag o barch iddo, dylent ystyried er hyny, nad yw bwyd o un math yn eu cymmeradwyo hwy ger bron Duw; oblegid, "nid yw teyrnas Dduw fwyd a diod," Rhuf. 14. 17: † felly, os bwytânt o'r pethau a aberthwyd i eilunod, er ei wneyd heb un parch crefyddol i'r eilun, ni bydd o un lles crefyddol iddynt hwy eu hunain; nid ydynt yn well yn ngolwg Duw, nac yn helaethach yn ei gymmeradwyaeth ef, o fwyta: ‡ ac os ymatal eraill heb fwyta o'r pethau hyny, o herwydd gwendid eu deall a'u cydwybod, nid ydynt o hyny yn waeth cristionogion, nac yn brinach mewn gras, a chymmeradwyaeth yn ngolwg Duw: nid yw bwyta o ddim lles ysbrydol, na pheidio bwyta o ddim niwed ysbrydol, i'r dynion eu hunain.

9 [t] * Ond edrychwch rhag mewn un modd

i'ch rhyddid hwn fod yn [u] † dramgwydd i'r rhai
ysydd [x] weiniaid.

t adn. 10. pen. 10. 24, 29. Mat. 18. 6, 7, 10. Luc 17. 1, 2.
u Rhuf. 14. 20, 21. Gal. 5. 13. 1 Pedr 2. 16. 2 Pedr 2. 19. u pen.
10. 32. Lef. 19. 14. Es. 57. 14. Ezec. 14. 3. a 44. 12. Rhuf. 14. 13
—15. Dat. 2. 14. x adn. 12. pen. 9. 22. Es. 35. 3. Rhuf. 14. 1,
2. a 15. 1. 2 Cor. 11. 21.

* Pa mòr rhydd a chyfreithlawn bynag, y tybia y
rhai gwybodus y gallant fwyta o'r hyn a aberthwyd i
eilunod; eto dylent fod yn ofalus iawn mewn cariad,
rhag iddynt dramgwyddo eu brodyr gweiniaid, drwy
darfer y rhyddid tybiol hwnw yn ddiwahardd. † Gall eu
brodyr gweiniaid dristâu wrth eu gweled hwy yn bwyta;
neu gall eu hesampl hwy fod yn foddion i hudo eu
brodyr gweiniaid ei wneyd yr un peth yn groes i'w cyd-
gwybod; a bydd pob un o'r ddau beth yn "dramgwydd"
iddynt: y peth olaf a feddylir yma, fel mae yn amlwg
wrth yr adnod nesaf.

10 * Canys os gwêl neb † dydi [y] sydd â
gwybodaeth gennyt, [z] ‡ yn eistedd i fwytta yn
nheml yr eilunod, [a] || oni chadarnhêir ei gyd-
wybod ef, ac yntau yn wan, i fwytta y pethau
a aberthwyd i eilunod;

y adn. 1, 2. z pen. 10. 20, 21. Num. 25. 2. Barn. 9. 27.
Amos 2. 8. a pen. 10. 28, 29, 32. Rhuf. 14. 14, 23.

* "Os gwel neb" o'r "rhai sydd weiniaid," ac heb
nemawr o wybodaeth am ddiddymdra eilunod, natur yr
efengyl, a helaethder rhyddid cristionogol: † os gwel
neb o'r cyfryw dydi, sydd â gwybodaeth ragorach gen-
ert, ‡ yn eistedd i lawr i fwyta o'r hyn a aberthwyd i
eilunod, a hyny yn gyhoeddus yn nheml yr eilunod, yn
ymhlith yr offeiriaid ac addolwyr eilunod; || oni chad-
arnêir ei feddwl a'i gydwybod yntau i wneuthur yr un
peth drwy dy esampl di, y dyn cryf gwybodus? ac fel
hyny tramgwyddir y brawd gwàn, a halogir ei gydwy-
bod wàn ef, am nad yw yn sicr yn ei feddwl am gyf-
reithlondeb yr hyn mae yn wneyd. Byddai y gwledd-
oedd hyn yn cael eu cynnal yn aml yn nhemlau yr eil-
unod, a byddai llawer o gristionogion chwyddedig, a
hunan-ddoethion Corinth, mae yn debyg, yn myned i'r
gwleddoedd hyny ar wahoddiad eu cymmydogion a'u
cyfeillion paganaidd. Gwel ar adn. 1. Diwygiodd y
cristionogion wedi hyn yn y peth hwn, ac nid âent ar
un cyfrif i'r fath wleddoedd halogedig, er cael eu cym-
cell gan eu gelynion paganaidd i hyny, dàn berygl
merthyrdod.

11 [b] * Ac a ddifethir y brawd gwan trwy dy
wybodaeth di, † dros yr hwn y bu Crist farw?

b adn. 13. pen. 10. 33. a 11. 1. Rhuf. 14. 15, 20, 21. a 15.
1—3.

* Am y "dyfetha" hwn gwel ar Rhuf. 14. 15: yr un
peth yw â'r "tramgwyddo," yn adn. 9, uchod. Mae y
brawd gwàn, ammheüus, ac annwybodus, yn cael ei ar-
wain i bechod a chyfeiliorni, er dyfetha heddwch, hyder,
a thawelwch ei gydwybod; ac yn cael ei ddwyn dàn
euogrwydd, ag sydd yn ei natur ei hunan yn tueddu i
ddystrywio ei enaid byth; a hyny trwy ddilyn esampl
brawd a gymmer arno fod yn fwy gwybodus, beth sydd
gyfreithlawn, a pheth sydd anghyfreithlawn. † Er ei
fod yn wàn, eto os yw yn wir gredadyn, bu Crist farw
drosto *ef;* ac nid oes dim yn fwy niweidiol, a chroes i
gariad brawdol a christionogol, na bod yn achlysur i
"ddyfetha" yr hwn y daeth Crist i lawr o'r nefoedd i
farw drosto, ac i'w achub i fywyd tragywyddol. Nid i
ddyfetha brodyr gweiniaid y rhoddes Duw ragorach
gwybodaeth i rai eraill; ond i'w hadeiladu, ac i fod yn
gynnorthwywyr iddynt.

12 [c] * A chan bechu felly yn erbyn y brod-
yr † a churo eu gwan gydwybod hwy, [d] ‡ yr
ydych chwi yn pechu yn erbyn Crist.

c Gen. 20. 9. a 42. 22. Ex. 32. 21. 1 Sam. 2. 25. a 19. 4, 5. a
24. 11. Mat. 18. 21. d pen. 12. 12. Ex. 16. 8. Mat. 12. 49, 50.
18. 10, 11. a 25. 40, 45. Act. 9. 4, 5.

* Er mai peth yn erbyn Duw, yn briodol, yw pob
bechod; eto, pan fyddom yn troseddu y rhan hyny o'r
ddeddf, sydd yn dangos ein dyledswydd tuag at ein
cymmydogion, yr ydym yn pechu yn erbyn ein brodyr
hefyd: † yr ydym yn curo, yn archolli, yn terfysgu, ac
yn halogi, eu cydwybodau gweiniaid, ammheüus, ac
ansefydlog hwy. ‡ Ac fel mae ein brodyr gwànaf yn
anwyl gan Grist, ac yn aelodau o'i gorph dirgeledig ef;
yr ydym hefyd ar yr un pryd yn pechu yn erbyn Crist
ei hun: wrth eu tynu hwy i bechod, yr ydym hyd y mae
ynom ni, yn ei ddigio ef, ac yn croesi bwriadau ei gar-
iad ef tuag atynt, yn yr hyn a ddyoddefodd efe drostynt,
er eu lles, eu cysur, a'u hiachawdwriaeth. Mae y gair
(*typtontes,*) a gyfleithir yma "curo," yn arwyddo
archolli, a niweidio, yn gystal â "churo," mewn ystyr
gorphorol neu ysbrydol.

13 * O herwydd paham, [e] os yw bwyd yn
rhwystro fy mrawd, † ni fwyttâf fi gig fyth,
‡ rhag i mi rwystro fy mrawd.

e pen. 6. 12. a 9. 12, 19—23. a 10. 33. a 11. 1. a 13. 5. Rhuf.
14. 21. 2 Cor. 11. 29. 2 Thes. 3. 8, 9.

* Hyny yw, os yw bwyta cig, neu unrhyw fwyd a
aberthwyd i eilunod, yn rhwystro fy mrawd; † ni fwytâf
fi y cyfryw gig byth, ‡ rhag i mi rwystro fy mrawd.
Yn hytrach na phechu yn erbyn ei frodyr, curo eu
gwàn gydwybod hwy, ac felly pechu yn erbyn Crist,
mae yr apostol yn tystiolaethu na fwytêai efe gig byth;
pa mòr gyfreithlawn bynag a fyddai hyny ynddo ei
hunan iddo. Mae yr apostol yma yn rhoddi esampl
ragorol o gydwybod dyner, cariad brawdol, a hunan-
ymwadiad, i ddynion llawer îs nag ef ei hun yn Corinth,
y rhai nid oedd waeth ganddynt pa niwed a wnaent i'w
brodyr, trwy fwyta o'r hyn a *dybient* hwy yn gyfreithlawn;
ond nid oedd mòr gyfreithlawn ag y tybient hwy, fel
mae yn amlwg yn pen. 10. 20, 21.

PEN. IX.

Paul yn dangos ei ryddid; ac y dylai gweinidog fyw wrth yr efengyl; &c.

[a] * ONID wyf fi yn apostol? [b] † onid wyf fi
yn rhydd? [c] ‡ oni welais i Iesu Grist
ein Harglwydd? [d] || onid fy ngwaith i ydych
chwi yn yr Arglwydd?

a adn. 2, 3. pen. 1. 1. a 15. 8, 9. Act. 9. 15. a 13. 2. a 14. 4. a
22. 14, 15. a 26. 17, 18. Rhuf. 1. 1, 5. a 11. 13. 2 Cor. 11. 5. a 12.
11, 12. Gal. 1. 1, 15—17. a 2. 7, 8. 1 Tim. 2. 7. 2 Tim. 1. 11. Tit.
1. 1—3. b adn. 19. Gal. 5. 1. c pen. 15. 8. Act. 9. 3, 5, 17.
a 18. 9. a 22. 6—8, 14—21. a 23. 11. a 26. 16—18. d pen. 3. 6.
a 4. 14, 15. Act. 18. 8—11. 2 Cor. 6. 1.

Tybia rhai fod yr apostol yn dechreu yma ar fater
newydd; ac yn amddiffyn ei ymddygiad yn mhlith y
Corinthiaid pan fu gyda hwy am flwyddyn a hanner,
Act. 18. 11: ond mae yn fwy tebygol mai dywanu
ychydig oddi wrth ei brif fater, y mae efe, i'r dyben o'i
egluro trwy ei esampl ei hun, ac mewn gwahanol
ffyrdd; ac yna mae yn ail ddyfod ato, ac yn ei orphen,
yn y bennod nesaf. Soniodd o'r blaen (pen. 8. 13.)
am ei barodrwydd i ymwadu âg ef ei hun na fwytêai
gig byth, rhag y rhwystrai ei frawd; ac yma mae yn
myned i ddangos pa beth a *wnaethai* efe, *eisoes,* yn yr
ystyr hyn, er mwyn yr efengyl. * Ond mewn trefn i
ddangos hyn yn eglurach, yr oedd yn angenrheidiol
iddo ef brofi ei apostoliaeth, † a'i ryddid a'i hawl i gael
ei gynnal gan yr eglwys fel apostol, os byddai yn dewis
arfer y rhyddid hyny. Yr oedd rhai yn Corinth yn
ammau ei apostoliaeth ef, o herwydd nad oedd yn
cymmeryd ei gynnal gan yr eglwys pan oedd yno,
eithr yn gweithio â'i ddwylaw am ei fywioliaeth: am
hyny mae yn gofyn yn hŷf, "Onid wyf fi yn apostol?
onid wyf fi yn rhydd," i gymmeryd fy nghynnal neu
beidio gan yr eglwysi, fel y gwelwyf yn dda? ‡ Oni
welais I yr Arglwydd Iesu, yr hyn sydd angenrheidiol
i apostol, yn gystal â'r apostolion eraill, nid yn unig ar
ol ei adgyfodiad, ond hefyd ar ol ei esgyniad, ac o'r
nefoedd? || Ac onid fy ngwaith I fel apostol ydych
chwi eich hunain, y cristionogion yn Corinth? onid

trwy fy ngweinidogaeth I, dàn arddelwad yr Ysbryd Glân, y dychwelwyd chwi i'r ffydd, ac yr ydych yn gyfranog o'r doniau rhagorol sydd genych? ïe, "*sêl* fy apostoliaeth I ydych chwi," ac nid rhaid i chwi wrth un prawf arall fy mod I yn apostol.

2 * Onid wyf yn apostol i eraill, eto yr wyf i chwi: [e] † canys sêl fy apostoliaeth i ydych chwi yn yr Arglwydd.

e Ioan 6. 27. 2 Cor. 3. 1—3. a 12. 12.

* Beth bynag a allo *eraill* ammau am fy apostoliaeth, yr wyf yn sicr yn apostol i *chwi*; † canys *sêl* fy apostoliaeth *I*, ac nid neb arall, ydych chwi yn yr Arglwydd: mae eich tröedigaeth chwi trwy fy ngweinidogaeth I, yn dystiolaeth gadarn fy mod I yn apostol, wedi fy ngalw i'r swydd gan yr Arglwydd Iesu ei hunan.

3 * Fy [f] ymddiffyn i, i'r [g] rhai a'm holant, † yw hyn;

f Act. 22. 1. a 25. 16. Phil. 1. 7, 17. 2 Tim. 4. 16. g pen. 14. 37. 2 Cor. 10. 7, 8. a 12. 16—19. a 13. 3, 5, 10.

* Fy amddiffyn I, a'm hateb yn gyffredin, i'r rhai a'm holant, a ammheüant fy awdurdod, ac a eisteddant megys i farnu, pa un a ydwyf yn apostol ai peidio, † yw hyn; sef "oni welais I Iesu Grist ein Harglwydd," "onid fy ngwaith I ydych chwi," a "sêl fy apostoliaeth I yn yr Arglwydd?" Y pethau a wnaeth Duw trwof fi yn eich plith *chwi*, yw fy ateb I i'r rhai a ammheüant fy apostoliaeth yn mhob màn; ac a ammheüwch chwi eich hunain wedi y cwbl fy mod yn apostol? dylech chwi gredu fy mod yn apostol, ped ammheüai pawb.

4 [h] * Onid oes i ni awdurdod i fwytta ac i yfed?

h adn. 7—14. Mat. 10. 10. Luc 10. 7. Gal. 6. 6. 1 Thes. 2. 6. 2 Thes. 3. 8, 9. 1 Tim. 5. 17, 18.

* Gwedi i Paul brofi yn benderfynol ei fod yn apostol; mae efe yn nesaf yn gofyn, onid oedd iddo ef a'i frawd Barnabas (adn. 6,) awdurdod i fwyta ac i yfed ar draul yr eglwysi? onid oedd ganddynt awdurdod i gael cynnaliaeth angenrheidiol gan y bobl yr oeddynt yn treulio eu nerth a'u hamser i bregethu yr efengyl iddynt?

5 * Onid oes i ni awdurdod [i] i arwain o amgylch wraig *a fyddai* chwaer, † megis ag *y mae* i'r apostolion eraill, ac [l] i frodyr yr Arglwydd, [m] ac i Cephas?

i 1 Tim. 3. 2. a 4. 3. Tit. 1. 6. Heb. 13. 4. k pen. 7. 15, 39. Can. 4. 9, 10, 12. a 5. 1, 2. Rhuf. 16. 1. 1 Tim. 5. 2. l Mat. 12. 46—50. a 13. 55. Marc 6. 3. Ioan 2. 12. Act. 1. 14. Gal. 1. 19. m pen. 1. 12. Mat. 8. 14. Marc 1. 30. Ioan 1. 42.

* Ac nid cynnaliaeth i ni ein hunain yn unig, ond cynnaliaeth i'n gwragedd, a'n teuluoedd hefyd: beth, ai nid oes awdurdod i ni briodi yn yr Arglwydd, ac arwain ein gwragedd, chwiorydd duwiol, gyda ni, lle bynag y byddo yr Arglwydd yn ein galw i lafurio yn y weinidogaeth? † Mae gan yr apostolion eraill, brodyr yr Arglwydd, a Chephas, eu gwragedd priod; maent hwy yn eu harwain gyda hwynt i bob màn, ac yn cael eu cynnaliaeth gan yr eglwysi; ai iddynt hwy yn unig y mae yr awdurdod hyny? onid oes i ni yr un awdurdod a hwythau, pe gwelem yn dda i wneyd hyny? Mae yr adnod hon yn dangos i ni amryw bethau:—1. Nad oes gan gristionogion ddim awdurdod, yn unol â gair Duw, i briodi ond yn yr Arglwydd: "gwraig a fyddai *chwaer*," a ddywedir yma. 2. Y dylai gwŷr a gwragedd fod gyda'u gilydd, hyd y byddo dichon, bob amser; ac nid yn absenol yn hir oddi wrth eu gilydd. 3. Bod yn gyfiawn i weinidogion yr efengyl gael cynnaliaeth iddynt eu hunain a'u teuluoedd, oddi wrth yr eglwysi hyny sydd yn galw am eu hamser a'u llafur hwynt.

6 * Ai myfi yn unig a [n] Barnabas, [o] † nid oes gennym awdurdod i fod heb weithio?

n Act. 4. 36. a 11. 22. a 13. 1, 2, 50. a 14. 12. a 15. 36, 37. o pen. 4. 11, 12. Act. 18. 3. a 20. 34, 35. 1 Thes. 2. 9. 2 Thes. 3. 7, 8

* Am neilldüad Paul a Barnabas i waith y weinidogaeth, gwel Act. 13. 2, 3, 4; yn nghyd a'r sylwadau yno. † Mae yr apostol yn gofyn, ai efe a Barnabas yn unig oedd heb awdurdod ganddynt i fyw wrth yr efengyl? ai hwy yn unig o'r holl apostolion, nid oedd awdurdod ganddynt i fod heb weithio? Galwyd y ddau was ffyddlawn ac enwog hyn i waith y weinidogaeth, ar ol esgyniad Crist, ac aethant allan yn nghyd i bregethu yn mysg y cenedloedd paganaidd: yn y cyfryw amgylchiad, gwelsant fod yn rhaid iddynt fyw wrth lafur eu dwylaw eu hunain, a phregethu yr efengyl, ac felly y parhâsant i wneyd wedi ymadael â'u gilydd. Gan i'r apostolion eraill ddechreu eu gweinidogaeth yn mhlith yr Iuddewon, y rhai a fuasent arferol o gynnal eu hathrawon, nid oedd raid iddynt weithio am eu bywioliaeth; yr oeddynt yn gyffredin yn cael eu cynnal gan yr eglwysi heb hyny; ac yn cael eu cynnorthwyo yn eu teithiau i lëoedd eraill, lle nad oedd eglwysi wedi eu plànu. Mae hyna yn dangos pa fodd yr oedd Paul a Barnabas yn gorfod gweithio, mwy na'r apostolion eraill; a chan nad oeddynt hwy yn *gofyn* cynnaliaeth, aeth y Corinthiaid i feddwl nad oedd ganddynt *hwy* ddim *awdurdod* i gael eu cynnal: ac o hyny, aeth rhai o honynt i daeru, nad oedd Paul ddim yn apostol o gwbl. Mae yn debyg fod cryn chwerwder gan y gauathrawon Iuddewaidd yn erbyn Paul a Barnabas yn enwedig; oblegid hwy yn benaf a fu yn offerynol i ddiddymu yr enwaediad yn mhob màn, wrth dderbyn y cenedloedd dychweledig i'r eglwys.

7 * Pwy [p] sydd un amser yn rhyfela ar ei draul ei hun? [q] † pwy sydd yn plannu gwinllan, ac nid yw yn bwytta o'i ffrwyth hi? [r] ‡ neu pwy sydd yn porthi praidd, [s] ac nid yw yn bwytta o laeth y praidd?

p 2 Cor. 10. 4, 5. 1 Tim. 1. 18. a 6. 12. 2 Tim. 2. 3, 4. a 4. 7. q pen. 3. 6—8. Deut. 20. 6. Diar. 27. 18. Can. 8. 12. r Jer. 23. 2, 3. Ioan 21. 15—17. Act. 20. 28. 1 Pedr 5. 2. s Diar. 27. 27. Es. 7. 22.

Mae yr apostol yn dadleu ei hawl am gynnaliaeth, ar sail cyfiawnder cyffredin; * fel pe dywedasai, Milwyr ydym ni, wedi ymrestru dàn faner Crist, i ddadymchwelyd cestyll Satan a phechod, ac i gaethiwo meddyliau a chalonau dynion i ufudd-dod Mab Duw; a phwy erioed a welwyd yn rhyfela ar ei draul ei hun, heb gael tâl a chynnaliaeth yn y frwydr, ac heb gael rhan o'r yspail? † Eto, mae yr eglwys yn cael ei galw yn winllan; a gweinidogion yr efengyl yw y llafurwyr gan Dduw, i blànu, i drin, ac i ddyfrâu y winllan: pwy sydd yn llafurio fel hyn dàn bwys y dydd a'r gwres mewn gwinllan, ac nid yw yn bwyta o'i ffrwyth hi? ‡ Hefyd, bugeiliaid ydym ni, dàn Grist y Pen-bugail, wedi ein gosod i borthi a bugeilio ei ŵyn a'i ddefaid ef; a phwy sydd yn treulio ei amser, yn gofalu, ac yn llafurio i gyflawni y swydd hon, ac nid yw yn bwyta o laeth y praidd er ei gynnaliaeth? Gan hyny, gan fod yn rhesymol i bawb ddysgwyl, a phawb yn cael, tâl am ei lafur; yn sicr dylai gweinidogion yr efengyl, y rhai sydd yn llafurio megys milwyr, gwinllanwyr, a bugeiliaid, gael eu cynnal wrth eu gwaith yn ngwasanaeth Crist a'r eglwysi. Nid yw yr apostol yn dywedyd, Pwy sydd yn rhyfela, ac nid yw yn ymgyfoethogi? Pwy sydd yn plànu gwinllan, ac nid yw yn pentŷru aur ac arian oddi wrth ei ffrwyth hi? Pwy sydd yn porthi praidd, ac nid yw yn gwneyd masnach o'r praidd? Yr hyn sydd yn dangos y dylai gweinidog yr efengyl fod yn foddlawn ar ychydig, a cheisio dim ond yr hyn sydd angenrheidiol yn unig: ac mae yn galed os na chaiff efe hyny.

8 * Ai [t] yn ol dyn yr wyf fi yn dywedyd y pethau hyn? [u] † neu onid yw y ddeddf hefyd yn dywedyd hyn?

t pen. 7. 40. Rhuf. 6. 19. 1 Thes. 2. 13. a 4. 8. u pen. 14. 34. Es. 8. 20. Rhuf. 3. 31.

* Ai yn ol rheswm dynol, arferiâd cyffredin dynion, neu yn ol fy ysbryd ffaeledig fy hun, yr wyf fi yn dywedyd y pethau hyn? † Nid deddf natur, ac egwyddorion cyfiawnder cyffredin rhwng dyn a dyn, yw fy

nnig sail I i ddywedyd y pethau hyn, am hawl gwein-
idogion yr efengyl i gael byw wrth yr efengyl; onid yw
y datguddiad dwyfol, hyd yn nôd deddf Moses ei hun,
yr hon mae fy mhrif wrthwynebwyr I, y gau-athrawon
Iuddewaidd, mòr hoff o hóni, onid yw hon yn dywedyd
yr un pethau? ydyw yn ddiau, fel y dangosir yn yr
adnodau nesaf.

9 * Canys ysgrifenedig yw yn neddf
Moses, [x] † Na chau safn yr ych sydd yn dyrnu.
Ai dros ychain y mae Duw yn gofalu?
x Deut. 25. 4. 1 Tim. 5. 18. y Num. 22. 28—35. Deut. 5.
14. Salm 104. 27. a 145. 15, 16. a 147. 8, 9. Jona 4. 11. Mat. 6. 26
—30. Luc 12. 24—28.

* Edrychwch gwrthwynebwyr Paul, ac edrychwch yr
holl rai difater am gynnaliaeth gweinidogion yr efeng-
yl, ar yr hyn sydd ysgrifenedig yn neddf Moses, Deut.
25. 4; a dysgant wneuthur cyfiawnder â'u gweinidog-
ion llafurus, o leiaf fel y gwnânt â'u hychain. † Gor-
chymynir yno, na chauer safn yr ych sydd yn dyrnu i
draill gael ymborth; ‡ ac a ydych chwi yn tybied fod
Duw yn gofalu felly am ychain, anifeiliaid direswm,
nydd yn gwasanaethu cyrph dynion, ac nad oes ganddo
ddim gofal am weinidogion y gair, y rhai sydd fel
ychain llafurus, yn ei wasanaethu ef, ac yn gwasanaethu
meinidiau dynion?

10 * Ynte er ein mwyn ni yn hollol y mae
yn dywedyd? [z] † canys er ein mwyn ni yr
ysgrifenwyd, [a] mai mewn gobaith y dylai yr
arddwr aredig, a'r dyrnwr mewn gobaith, i fod
yn gyfrannog o'i obaith.
z Mat. 24. 22. Rhuf. 15. 4. 2 Cor. 4. 15. a pen. 3. 9. Luc
17. 7, 8. Ioan 4. 35—38. 2 Tim. 2. 6.

* Ac a ydych chwi yn tybied mai am ychain yn
unig yr oedd Duw yn llefaru yn y màn a grybwyllwyd?
a oes yno ddim cyfeiriad hefyd yn gysgodol at ddynion;
aa ddylai neb gymmeryd gwasanaeth gan y llall, heb
oddi tâl cyfiawn iddo am ei wasanaeth: ac yn enwedig
weinidogion y gair; y dylent hwy gael cynnaliaeth add-
as, fel gwobrwy am eu llafur serchiadol a defnyddiol?
O fy rhan fy hun, yr wyf fi yn meddwl mai er ein mwyn
ai fel gweinidogion yn benaf, os nid yn hollawl, y dywed-
wyd y peth uchod; dyledswyddau dynion tuag at eu
cilydd sydd o flaen, ac ar ol, y geiriau yn Deut. 25; ac
mae adn. 4, yn cael ei dwyn i mewn megys i egluro,
dangos rhesymoldeb y dyledswyddau hyny: gan
yny, *ar y cwbl, (pantôs)* er ein mwyn ni mae yn dy-
wedyd. † Mae yn ysgrifenedig hefyd mewn amryw
ànau, (gwel y cyfeiriadau dàn *a,)* mai mewn gobaith
y dylai yr arddwr aredig, a'r dyrnwr ddyrnu; mae yn
ihesymol i bob un o honynt obeithio am gynnaliaeth
o chyflog, a chyfranogi mewn iawn bryd o'r hyn y
gobeithiasant am dano. Yn awr, mae yn amlwg mai
er mwyn dynion, ac nid ychain, yr ysgrifenwyd hyn; ac
rn enwedig "er ein mwyn ni," gweinidogion yr efeng-
yl: gwedi poeni a llafurio yn galed yn mysg y cenedl-
oedd, am hir amser ar ein traul ein hunain, yr oeddym
rn gobeithio y cawsem rywbryd gynnaliaeth ganddynt;
ac mae yn rhesymol i ni weithian gael cyfranogi o'r
gobaith hwnw, ac nid tafiu yn ein gwynebau o hyd, nad
oes i ni, Barnabas a minnau, ddim awdurdod i fod heb
weithio, adn. 6. Yr ydych yn galetach tuag atom ni
na thuag at eich gweision cyflog.

11 * Os nyni [b] a hauasom i chwi bethau
ysprydol, [c] † *ai* mawr *yw* os nyni a fedwn eich
bethau cnawdol?
b Mal. 3. 8, 9. Mat. 10. 10. Rhuf. 15. 27. Gal. 6. 6.
2 Bren. 5. 13. 2 Cor. 11. 15.

* Wrth "bethau ysbrydol" y meddylir gair Duw,
athrawiaeth ac ordinâdau yr efengyl: maent yn "bethau
ysbrydol" am eu bod wedi dyfod o'r nef, am eu bod yn
effeithiol drwy Ysbryd Duw, i wneyd dynion yn sanct-
eiddiad ac ysbrydol, yn crëu bywyd ysbrydol ynddynt, ac
yn eu parotôi i'r nefoedd. † Wrth "bethau cnawdol"
y meddylir, pethau angenrheidiol er cynnaliaeth y
corph, a'r bywyd naturiol hwn; megys ymborth a dill-
ad, a phob ymgeledd corphorol, a modd i'w cael. Nid
yw pethau cnawdol ond pethau bychain a diwerth
iawn, mewn cymhariaeth i bethau ysbrydol; ac wedi i
weinidogion y gair dreulio ac ymdreulio i hau pethau
ysbrydol, nid yw ond peth bychan iddynt gael medi eu
cyfraid o bethau cnawdol y rhai y llafuriant yn eu
plith, ac er eu lles tragywyddol.

12 [d] * Os yw eraill yn gyfrannogion o'r
awdurdod *hon* arnoch; [e] † onid *ydym* ni yn
hytrach? [f] ‡ Eithr nid arferasom ni yr awd-
urdod hon: [g] || ond goddef yr ydym bob peth,
§ fel na roddom ddim [h] rhwystr i efengyl Crist.
d 2 Cor. 11. 20. e adn. 2. pen. 4. 14, 15. f adn. 15, 18.
Act. 20. 31—34. 2 Cor. 11. 7—10. a 12. 13, 14. 1 Thes. 2. 6—9.
2 Thes. 3. 8, 9. g pen. 4. 11, 12. a 6. 7. h Gen. 24. 56. Neh.
4. 8. Luc 11. 52. Rhuf. 15. 22.

* Os oedd gweinidogion eraill, ac hyd yn nôd y
gau-athrawon yn Corinth, yn cael cynnaliaeth gan yr
eglwys, ac yn cael eu hystyried ag awdurdod gan-
ddynt i hyny; † llawer mwy y dylasai Paul a'i gyd-
weithwyr gael eu cynnal: oblegid hwy a bregethasant
yr efengyl gyntaf yn eu plith, a osodasant y sylfaen, a
blànasant yr eglwys, a ddychwelasant y rhan fwyaf o
honynt i'r eglwys, ac a osodasant bob peth mewn trefn
eglwysig yn eu plith. ‡ Er bod yr awdurdod hon yn
ddiammau gan yr apostol, a'i gyfeillion, a hyny "yn
hytrach" na phawb eraill; eto, er dangos mai y bobl,
ac nid eiddo y bobl, oeddynt hwy yn geisio, nid arfer-
asant yr awdurdod hòno: || dewisasant yn hytrach
weithio â'u dwylaw am eu bywioliaeth, a dyoddef
newyn, sychedd, noethni, a phob caledi yn aml.
§ Dewisasant hyn oll fel na roddent rwystr i efengyl
Crist: fel na chaffai neb le i feddwl mai gau-ddybenion
oedd ganddynt yn pregethu yr efengyl, ac y byddai
hyny yn rhwystr i lwyddiant yr efengyl. Gwedi y cwbl,
nid oedd nemawr o ddiolch gan rai yn Corinth iddynt
am yr hunan-ymwadiad hyn; ac nid ymattaliai llawer
yno rhag gwledda yn foethus ar y pethau a aberthid i
eilunod, o gariad at eu brodyr gweiniaid! Yr oedd
gwahaniaeth mawr rhwng ymddygiad yr apostol â'r
eiddynt hwy; ac mae yn amlwg mai dangos y gwahan-
iaeth hwnw oedd ei fwriad ef yn crybwyll y pethau
hyn.

13 * Oni wyddoch chwi fod [i] y rhai sydd
yn gwneuthur pethau cyssegredig, yn bwytta
o'r cyssegr? a'r rhai sydd yn gwasanaethu yr
allor, yn gydgyfrannogion o'r allor?
i pen. 10. 18. Lef. 6. 16—18. a 7. 6—8. Num. 18. 8—20. Deut.
10. 9. a 18. 1—5. 1 Sam. 2. 28.

* Dyma brawf arall o hawl yr apostol, a gweinidog-
ion yr efengyl, i gael cynnaliaeth gan yr eglwysi: nis
gallai dynion mòr wybodus ag y bostiai y Corinthiaid
eu bod, lai na gwybod, fod yr offeiriaid a'r Lefiaid yn
mhlith yr Iuddewon, (a'r offeiriaid paganaidd hefyd yr
un modd, efallai,) y rhai oedd yn gwneuthur pethau
cyssegredig, ac yn gwasanaethu yr allor, yn bwyta o'r
cyssegr, ac yn gyfranogion o'r allor; hyny yw, yn cael
eu cynnaliaeth o'r pethau oeddynt yn aberthu, ac am
eu gwasanaeth dros y bobl. Nid oedd i'r Lefiaid eti-
feddiaeth yn mhlith eu brodyr, ac nid oeddynt i ganlyn
unrhyw alwedigaeth fydol; ond trefnodd a gofalodd
Duw, iddynt gael eu bywioliaeth oddi wrth eu gwaith
cyssegredig, oddi wrth y degymau, y blaen-ffrwythau, yr
offrymau, a'r aberthau, y gweinyddent ynddynt.

14 * Felly hefyd yr [k] ordeiniodd yr Ar-
glwydd, i'r rhai sydd yn pregethu yr efengyl,
fyw wrth yr efengyl.
k Gwel ar adn. 4.

* Cysgod o ddaionus bethau i ddyfod ydoedd hyny,
fel holl bethau eraill yr hen oruchwyliaeth; ac fel y
trefnodd Duw i'r offeiriaid gynt gael eu bywioliaeth
oddi wrth eu swydd, felly yr ordeiniodd efe hefyd i'r
rhai sydd yn pregethu yr efengyl, fyw wrth yr efengyl.

Yr un yw ewyllys ac ordeiniad Duw yn awr a chynt; ac nid ar ddewisiad dynion y mae, ped ystyrient hyny, pa un a gynnaliant eu gweinidogion ai peidio: cânt weled rywbryd, ei fod yn gymmaint pechod, ymddwyn yn groes i ewyllys ac ordeiniad Duw yn hyn, ag mewn unrhyw beth arall, neu efallai yn fwy.

15 [l] * Eithr myfi nid arferais yr un o'r pethau hyn: [m] † ac nid ysgrifenais y pethau hyn, fel y gwnelid felly i mi: [n] ‡ canys gwell *yw* i mi farw, nâ gwneuthur o neb fy ngorfoledd yn ofer.

l Gwel ar adn. 12. m 2 Cor. 40. 9—12. a 12. 13—18. n Mat. 18. 6. Act. 20. 24. Phil. 1. 20—23.

* Gwel ar adn. 12. Er nad oedd yr apostol wedi *arfer* yr awdurdod hon ar y Corinthiaid, nac yn meddwl ei harfer ar ol hyn; eto yr oedd yn hòni yn gadarn fod y cyfryw awdurdod ganddo, a chan holl weinidogion rhëolaidd yr efengyl. Profodd hyn yn 1. Trwy y gorchymyn am ychain, adn. 9; yn 2. Trwy yr arddwr a'r dyrnwr, adn. 10; yn 3. Trwy yr offeiriaid dàn y ddeddf, adn. 13; ac yn 4. Trwy ordeiniad yr Arglwydd Iesu dàn yr efengyl. † Nid oedd yr apostol yn crybwyll y profion hyn, o'i hawl i gael ei gynnal ar draul yr eglwys yn Corinth, fel y gwnelid felly iddo; megys ag nad arferodd efe yr awdurdod hòno arnynt hyd yn hyn, nid oedd yn meddwl ei harfer ychwaith o hyn allan: ‡ ond i'r gwrthwyneb, yr oedd efe yn ystyried ei hunan-ymwadiad, a'i ymddygiad diymgais yn hyn, yn gymmaint gorfoledd iddo, (ger bron dynion, nid ger bron Duw,) ag y byddai yn well ganddo farw, nac i neb wneyd ei orfoledd yn ofer yn hyny. Efallai iddo weled rhywbeth yn nhymherau y Corinthiaid, a barodd iddo wrthod cymmeryd dim cynnaliaeth ganddynt; cafodd achos i feddwl eu bod yn ymddwyn yn angharedig tuag ato, ac fel hyn yr oedd yn dewis dangos ei deimlad o'u cam-ymddygiad hwynt.

16 * Canys os pregethaf yr efengyl, [o] nid oes orfoledd i mi: [p] † canys anghenrhaid a osodwyd arnaf; [q] ‡ a gwaè fydd i mi, oni phregethaf yr efengyl.

o Rhuf. 4. 2. a 15. 17. p Jer. 20. 7. Amos 3. 8. a 7. 15. Act. 4. 20. a 9. 6, 15. a 26. 16—20. q Es. 6. 5. Luc 9. 62. Col. 4. 17.

* Er y gallai yr apostol orfoleddu ger bron dynion, ei fod wedi pregethu yr efengyl yn *rhad* i'r Corinthiaid, yr hyn ni allai y gau-athrawon, nac efallai neb o'r apostolion eraill; eto, nid oedd iddo orfoledd yn y byd o bregethu yr efengyl; ond yn unig y gorfoledd ei fod wedi cael y fath fraint. † Yr oedd efe wedi cael ei alw mewn modd mòr rhyfeddol i waith y weinidogaeth, fel yr oedd angenrhaid wedi ei osod arno, ‡ ac nis gallai beidio pregethu yr efengyl, heb dynu y gwae trymaf arno ei hun: gwae cydwybod euog yma, a gwae soriant Duw wedi hyn. Felly, pa fodd bynag y trinid ef gan ddynion, yr oedd yn rhaid iddo ef bregethu yr efengyl, dàn berygl gwae ofnadwy os na wnelai: felly nid oedd iddo ef orfoledd yn y byd o wneyd ei ddyledswydd; ei unig orfoledd ef oedd, ei fod yn ei phregethu yn *rhad*. Os caniatêir fod gweinidogaeth yr efengyl yn y byd eto, rhaid caniatâu fod rhyw ddynion yn cael eu gosod gan Dduw yn y weinidogaeth hòno, er mai nid yn yr un modd digyfrwng â Phaul a'r apostolion eraill: ac os ydynt wedi eu gosod ynddi gan Dduw, mae yr un angenrhaid arnynt i bregethu, a'r un gwae os peidiant.

17 [r] * Canys os gwnaf hyn o'm bodd, [s] † y mae i mi wobr: ‡ ond os [t] o'm hanfodd, [u] ‖ ymddiriedwyd i mi am y gorchwyl.

r 1 Cron. 28. 9. a 29. 5, 9, 14. Neh. 11. 2. Es. 6. 8. 2 Cor. 8. 12. Philemon 14. 1 Pedr 5. 2—4. s pen. 3. 8, 14. Mat. 10. 41. t Ex. 4. 13, 14. Jer. 20. 9. Ezec. 3. 14. Jona 1. 3. a 4. 1—3. Mal. 1. 10. u Gwel ar adn. 16.—pen. 4. 1. Mat. 24. 45. Luc 12. 42. Gal. 2. 7. Eph. 3. 2—8. Col. 1. 25. 1 Thes. 2. 4. 1 Tim. 1. 11—13.

* Os pregethaf yr efengyl o'm bodd, ar fy nhrauf fy hun, o gariad at Grist, *sêl* dros ogoniant Duw, ac awydd am achub eneidiau pechaduriaid; ac os gwnaf hyn oll yn wyneb anmharch, erlid, tlodi, ac angen; † yr wyf yn *bresenol* yn cael yr hyfrydwch o wneyd hyny, yr nyn sydd fwy na'r byd oll yn fy ngolwg I; ac yr wyf yn ostyngedig yn dysgwyl cael fy ngwobrwyo hefyd, gan yr Arglwydd Iesu yn y dydd diweddaf: efe a'm gosododd I yn y gwaith, ac efe yn rasol a gofia am danaf yn y diwedd. ‡ Ond os o'm hanfodd y pregethaf, am fod angenrheidrwydd wedi ei osod arnaf, a rhag ofn gwae; ‖ eto mae y weinidogaeth wedi ei hymddiried i mi, ac mae yn rhaid i mi ei chyflawni: a thrwy drugaredd, yr wyf yn ei chyflawni o'm bodd, ac nid o'm hanfodd.

18 * Pa wobr sydd i mi gan hynny? † Bod i mi, [x] pan efengylwyf, osod efengyl Crist yn rhad, [y] ‡ fel na cham-arferwyf fy awdurdod yn yr efengyl.

x Gwel ar adn. 6, 7.—2 Cor. 11. 7—9. a 12. 13—18. 1 Thes. 2. 6. 2 Thes. 3. 8, 9. y pen. 7. 31. a 8. 9. Rhuf. 14. 15.

* Dywedodd yr apostol o'r blaen, (adn. 17.) os pregethai efe yr efengyl o'i fodd, y byddai iddo wobr; yma mae yn gofyn, "Pa wobr sydd i mi gan hyny?" ac yna mae yn ateb, ac yn dywedyd, † Hyn, yn ddïau, yw fy ngwobr a'm gorfoledd, "bod i mi pan efengylwyf, osod efengyl Crist yn rhad," er ei fwyn ef yn unig, ac mewn cariad ato, ac ufudd-dod iddo ef, heb gael nac elw na chynnaliaeth fydol i mi fy hun oddi wrth fy llafur. Trwy bregethu yr efengyl yn rhad, heb bwyso dim ar y Corinthiaid. yr oedd yr apostol yn dangos uniondeb ei egwyddor a'i ddybenion yn y gorchwyl, ac yn dangos y gwahaniaeth rhyngddo ei hun â'r athrawon ariangar a hunan-geisiol yn eu plith hwynt; ac yr oedd yn ystyried hyny yn wobr presenol iddo, heb sôn am y gwobrwy grasol a ga'i efe yn y diwedd. ‡ Buasai yn eithaf cyfiawn i'r apostol gael tâl am ei lafur, fel y profodd hyny yn y bennod hon; (gwel ar adn. 15;) gan hyny, nid "*cam*-arfer ei awdurdod" a fuasai cymmeryd tâl: ond fel y buasai hyny yn "rhwystr i'r efengyl" (adn. 12.) yn meddyliau rhai bydol a chybyddlyd, ac yn attal ei ddefnyddioldeb yntau; yn yr ystyr *hyny* buasai arfer ei awdurdod yn *gam*-arferiad o hóni.

19 * Canys er [z] fy mod yn rhydd oddi wrth bawb, [a] † mi a'm gwneuthum fy hun yn was i bawb, [b] ‡ fel yr ynnillwn fwy.

z adn. 1. Gal. 5. 1. a pen. 10. 33. Mat. 20. 26—28. Ioan 13. 14, 15. Rhuf. 15. 2. 2 Cor. 4. 5. Gal. 5. 13. b adn. 20—22. pen. 7. 16. Diar. 11. 30. Mat. 18. 15. Rhuf. 11. 14. 1 Tim. 4. 16. 2 Tim. 2. 10. Iago 5. 19, 20. 1 Pedr 3. 1.

* *Pantôn* yw y gair Groeg a gyfieithir "pawb" yma, a gellid ei gyfieithu *pob peth* yn gystal â *phawb*. Felly mae rhai yn ei ddeall; ac yn tybied mai yn rhydd oddi wrth *bob peth* y ddeddf seremoniol oedd yr apostol yn ei feddwl. Mae yn sicr ei fod ef yn rhydd yn yr ystyr hyny; yr oedd yn rhydd hefyd i gymmeryd cynnaliaeth neu beidio gan yr eglwys; a chan nad oedd yn cymmeryd dim, yr oedd yn rhydd oddi wrth bawb; nid oedd dàn rwymau i neb, i wasanaethu neb, i gydsynio â meddyliau neb, nac i gydffurfio â defodau ac arferion neb. † Er bod yr apostol yn rhydd oddi wrth bawb yn yr ystyriaethau a enwyd; efe a'i gwnaeth ei hun yn was i bawb: efe a'i rhoddodd ei hun i wasanaethu pawb yn yr efengyl; efe a ymadawodd âg ef ei hun er lles pawb, ac a gymmerodd gymmaint gofal rhag tramgwyddo neu rwystro pawb, â phe buasai yn was rhwymedig i bawb. Pawb o bob cenedl, pawb o bob sefyllfa, a phawb o bob tybiau a daliadau crefyddol; cyd-ddygodd â'u rhagfarnau, eu cam-syniadau, a'u gwendidau, can belled ag y gallai hyny yn unol â'i ddyledswydd ac â'r gwirionedd. ‡ Ei ddyben yn hyny oedd, "fel yr ennillai fwy:" fel trwy ymostyngiad, hunan-ymwadiad, a chyd-syniad mewn pob peth cyfreithlawn a diniwed, y gallai dymheru eu hysbrydoedd, arddangos Crist, ei athrawiaeth a'i ffyrdd, yn yr olwg oreu a mwyaf ennillgar, i feddyliau pawb. Peth mawr iawn i weinidog yr efengyl yw gallu bod yn rhydd oddi wrth bawb, ac ar yr un pryd gwneyd ei hun yn was i bawb, yn yr ystyriaethau uchod: dyna y ffordd i ennill eneidiau at Grist.

20 c * Ac mi a ymwneuthum i'r Iuddewon megis yn Iuddew, fel yr ynnillwn yr Iuddewon; † i'r rhai d dan y ddeddf, megis dan y ddeddf, fel yr ynnillwn y rhai sydd dan y ddeddf;

c Act. 16. 3. a 17. 2, 3. a 18. 18. a 21. 20—26. d Rhuf. 3. a 6. 14, 15. Gal. 4. 5, 21. a 5. 18.

* Gyda golwg ar yr Iuddewon *annychweledig*, efe a'i gwnaeth ei hun megys Iuddew iddynt hwy: efe a ymgrysymodd â hwynt allan o ysgrythyrau yr Hen Destament, fel y ffordd fwyaf priodol i ymresymu âg Iuddewon; (Act. 17. 2, 3.) a chan belled ag y gallai efe, yn ymhol â chydwybod dda, ac â gwirionedd yr efengyl, efe a'u gyflawnodd eu defodau a'u seremonïau Iuddewig bywynt, megys yn enwaediad Timothëus, am fod ei dad yn Roegwr, Act. 16. 3: efe a wnaeth hyn i ddiddymu eu rhagfarn hwy, yn erbyn bod yr efengyl yn cael ei phregethu gan un dienwaededig, ac fel yr ennillai hwynt yn ffydd at Grist. † Gyda golwg ar yr Iuddewon *crediniol*, a'r *dychweledig*, y rhai o ddiffyg goleuni a gwybodaeth ffelll, a dybient eu hunain o hyd yn rhwym i gadw rhyw ddethau o'r ddeddf seremonïol; (Act. 21. 20.) gan y gwyddai efe nad oedd y cwbl o'i defodau hi eto yn hollawl anghyfreithlawn, a bod yn rhaid cael amser i'w newyn hwy yn llwyr oddi wrth eu hen feddyliau mewn uchrthynas iddi; efe a ymwnaeth i'r rhai hyn megys dàn y ddeddf: efe a ymollyngodd i'w rhagfarn hwy, ar rai ychlysuron o bwys, i gyd-ffurfio â rhai o ddefodau y ddeddf seremonïol, Act. 18. 18; a 21. 21—26: efe a ymwnaeth fel hyn hefyd, fel yr ennillai y rhai oedd dàn y ddeddf; fel y cymmeradwyai ei hun yn well yn eu golwg, ac fel y dygai efe hwy yn raddol i gofleidio holl ffrefn yr efengyl. Ar yr un pryd, yr oedd yr apostol yn ceisiau rhybuddio hwy, na roddent ddim pwys ar y cyflawnadau seremonïol yn mater eu hiachawdwriaeth; a rhysgai hwynt yn wastadol i wneuthur Crist yn unig sylfaen eu gobaith tuag at Dduw. Dywed *Scott* a *Guyse* am bendant, mai yr Iuddewon *anghrediniol* a feddylir wrth yr "*Iuddewon*" yn nechreu yr adnod; ac mai yr Iuddewon *crediniol*, a *dychweledig*, a feddylir wrth y rhai "*dàn y ddeddf*;" yn yr ail ran o'r adnod: nid yw *Pool* a *Doddridge* yn gwneuthur y gwahaniaeth uchod, ond fel pe byddai yr apostol yn ail ddywedyd yr un peth, gyda golwg ar yr un dynion.

21 e * I'r rhai diddeddf, † megis diddeddf (a f ‡ minnau heb fod yn ddiddeddf i Dduw, ‖ ond dan y ddeddf i Grist) § fel yr ynnillwn y rhai diddeddf.

e Act. 15. 28. a 16. 4. a 21. 25. Rhuf. 2. 12, 14. Gal. 2. 3, 4, 12—14. f pen. 7. 19, 22. Salm 119. 32. Mat. 5. 17—20. Rhuf. 7. 22, 25. a 8. 4. a 13. 8—10. Gal. 5. 13, 14, 22, 23. Eph. 6. 1—3. 1 Thes. 4. 1, 2. Tit. 2. 2—12. Heb. 8. 10.

* Y "rhai diddeddf" oedd y cenedloedd paganaidd, y rhai ni wyddent ddim am yr Hen Destament, ac ni buasent erioed dàn yr oruchwyliaeth Iuddewig. † Yr oedd yr apostol yn ymddiddan â'r rhai hyn fel pe na buasai yn Iuddew, ac fel pe na buasai erioed wedi bod dim am gyfraith Moses: yr oedd yn pregethu yr efengyl iddynt heb gyfeirio yn neilldduol at y gyfraith a'r prophwydi er cadarnâu ei athrawiaeth am Grist; ond yn gadael yr athrawiaeth i orphwys yn hollawl ar ei rhystiolaeth ei hun, ei gwirioneddau eglur, y gwyrthiau amlwg oedd efe yn wneyd i'w phrofi, ac Ysbryd Duw yn ei dwyn adref at eu calonau hwynt. ‡ Er ymddwyn yn ddiddeddf yn yr ystyr uchod yn mysg y cenedloedd; eto, yr oedd yr apostol yn dra gofalus bob amser, na byddai efe ddim yn ddiddeddf i Dduw; hyny yw, yn anfoesol nac yn ddrwg-fucheddol yn ei ymarweddiad: ‡ ond yr oedd efe dàn y ddeddf i Grist; yr oedd efe fel cristion a dyn duwiol, yn cymmeryd y ddeddf foesol yn rhëol o ymarweddiad sanctaidd iddo, bob amser ac yn mhob màn. § Ennill y rhai diddeddf eto, oedd ei amcan yn hyn; pe buasai yn ceisio gosod iau y ddeddf seremonïol arnynt, ni buasai yn eu hennill; a phe buasai yn rhodio yn anfoesol a chroes i'r ddeddf foesol yn eu plith, ni buasai yn debyg o'u hennill: ond trwy ymwrthod â'r gyntaf, a chadw yr olaf yn gydwybodol, yr oedd ar lwybr i ennill y paganiaid diddeddf. Adnod galed i'r *Antinomiaid*, y rhai a wadant y ddeddf foesol yn rhëol ymarweddiad i'r credadyn, yw hon.

22 g * Ymwneuthum i'r rhai gweiniaid † megis yn wan, ‡ fel yr ynnillwn y gweiniaid: h ‖ mi a ymwneuthum yn bob peth i bawb, § fel y gallwn yn hollol i gadw rhai.

g pen. 8. 13. Rhuf. 15. 1. 2 Cor. 11. 29. Gal. 6. 1. h pen. 10. 33. i Gwel ar adn. 19.

* Gyda golwg hefyd ar y rhai gweiniaid mewn gwybodaeth a gras, pa un bynag ai Iuddewon ai cenedloedd oeddynt; † yr oedd yr apostol yn ymostwng i gyd-ymddwyn â hwynt, fel pe buasai yn un o honynt: pob peth yr oeddynt hwy yn betrusgar yn ei gylch, yr oedd yntau yn ymollwng gyda hwynt, ac yn ymattal oddi wrth lawer o bethau cyfreithlawn, rhag iddo eu rhwystro a churo eu gwàn gydwybod hwy, ‡ a hyn oll fel yr ennillai efe y gweiniaid, i wrando ar ei athrawiaeth a'i gyngorion ef, i'w cadarnâu a'u sefydlu yn raddol yn mhethau pwysig a hanfodol yr efengyl, er eu cryfder, eu cysur, a'u hiachawdwriaeth. ‖ I ddywedyd y cwbl mewn gair, efe a ymwnaeth yn bob peth i bawb hyd y gallai, ac hyd yr oedd yn gyfreithlawn iddo, § fel y gallai yn hollawl ac yn effeithiol gadw rhai o bob math o ddynion, Iuddewon a chenedloedd, cryfion a gweinion. Mawr oedd cariad a gostyngeiddrwydd yr apostol enwog hwn! Pa esampl a roddodd efe i bawb!

23 * A hyn yr wyf fi yn ei wneuthur k er mwyn yr efengyl, l † fel y'm gwneler yn gydgyfrannog o honi.

k adn. 12. Marc 8. 35. 2 Cor. 2. 4. Gal. 2. 5. 2 Tim. 2. 10. l adn. 25—27. 2 Tim. 2. 6. Heb. 3. 1, 14. 1 Pedr 5. 1. 1 Ioan 1. 3.

* Dau ddyben mawr oedd gan yr apostol yn ei holl iafur a'i hunan-ymwadiad; gogoniant Duw yn llwyddiant yr efengyl, ac achub eneidiau gwerthfawr dynion o bob cenedl: † ac wrth lafurio i gyhoeddi yr efengyl a'i bendithion i eraill, yr oedd ef ei hun yn cael ei wneyd yn gyfranog o hóni hi a'i bendithion: wrth ddyfrâu eraill, yr oedd ef ei hun yn cael ei ddyfrâu hefyd; a hyn oedd rhan fawr o'i wobr ef, yn yr amddifadrwydd o bob cynnaliaeth a gwobrwy gan y Corinthiaid. Onid oes yma argyhoeddiad llym i'r rhai hyny sydd yn cymmeryd y weinidogaeth i fynu er mwyn budr-elw? ac onid yw ymddygiad rhydd, hynaws, a gostyngedig yr apostol yn y tair adnod o'r blaen, yn gywilydd mawr i'r rhai tyn ar eu barnau a'u tybiau eu hunain? ac hefyd yn dangos y cyfnewidiad rhyfedd a wnaed arno ef, rhagor y peth oedd, pan oedd fel Pharisead rhagfarnllyd yn erlid y saint yn greulawn am nad oeddynt o'r un farn a chrefydd âg ef ei hun a'i blaid?

24 * Oni wyddoch chwi fod m y rhai sydd n yn rhedeg mewn gyrfa, † i gyd yn rhedeg, ond bod un yn derbyn y gamp? o ‡ felly rhedwch, fel y caffoch afael.

m Hos. 12. 10. n Salm 19. 5. Preg. 9. 11. Jer. 12. 5. o adn. 26. Gal. 2. 2. a 5. 7. Phil. 2. 16. a 3. 14. 2 Tim. 4. 7, 8. Heb. 12. 1. Iago 1. 12. Dat. 3. 11.

Mae yr apostol yn gwasgu ei holl ymadroddion blaenorawl ar feddyliau y Corinthiaid, trwy adgoffa iddynt yr anhawsdra i fyned i'r nefoedd; a'r angenrheidrwydd oedd iddynt oll ymdrechu bod am y blaenaf yn y rhedegfa ysbrydol. * I egluro hyn yn well, mae yn crybwyll am y campau Groegaidd, y rhai oedd yn ddigon hysbys a chynnefin iddynt hwy. Yr oedd llawer o'r campau hyn mewn arferiad gan y Rhufeiniaid a'r Groegiaid: yr oedd ganddynt eu campau *Olympaidd*, *Pythaidd*, *Nemëaidd*, ac *Isthmaidd*; yr olaf o ba rai oedd yn arferol yn Corinth, lle byddid yn rhedeg, yn codymu, yn dyrnodio, yn neidio, yn taflu meini, &c.: ond am redeg y sonir yma, yr hyn a alwent hwy *stadium*, neu redegfa droed. † Gwyddai y Corinthiaid yn dda, fod yr ymdrechwyr yn y gamp hon "i gyd yn rhedeg;"

â'u holl nerth, eu cyflymdra, ac yn barâus, nes i rywun ennill y gamp; pryd y byddai y lleill i gyd yn cael eu siomi, ac mewn rhyw fesur eu gwaradwyddo. ‡ Felly rheded y rhai crefyddol yn Corinth, yn eu gyrfa ysbrydol; mỳnai yr apostol iddynt redeg o ddifrif, yn egniol, yn hunan-ymwadol, yn amyneddgar, ac yn barâus: heb ofni caledi a pheryglon, heb ddyhirio, heb gymmeryd eu hudo gan ddêniadau bydol; fel y gallent dderbyn y gamp, yr hon a gollai proffeswyr diofal a chnawdol yn sicr, er eu siomedigaeth a'u gwarth tragywyddol.

25 * Ac y mae pob un a'r [p] sydd yn ymdrechu, [q] † yn ymgadw yn mhob peth: a hwynt-hwy yn wir, fel y derbyniont goron lygredig; [r] eithr nyni, un anllygredig.

p Eph. 6. 12—18. 1 Tim. 6. 12. 2 Tim. 2. 5. a 4. 7. Heb. 12. 4. q Gal. 5. 23. Tit. 1. 8. a 2. 2. 2 Pedr 1. 6. r pen. 15. 54. 2 Tim. 4. 8. Heb. 12. 28. Iago 1. 12. 1 Pedr 1. 4. a 5. 4. Dat. 2. 10. a 3. 11. a 4. 4, 10.

* Beth bynag fyddo'r gamp, ai rhedeg ai un o'r pethau eraill a enwyd dan adn. 24; mae pob un a'r sydd yn ymdrechu, (*agônizomenos*, gwel ar Luc 13. 24.) † yn ymgadw yn mhob peth: nid yw yn trymâu ei natur trwy fwyta ac yfed i ormodedd ar y naill law; ac nid yw yn ei gwanychu ac yn ei meddalu trwy ormod seguryd ac anlladrwydd ar y llaw arall. Byddai yr ymdrechwyr yn gorfod byw wrth rëol lèm, a dysgyblaeth galed, i'w haddasu a'u caledu erbyn y campau hyn: ‡ a hwynthwy yn wir fel y derbynient goron lygredig; eithr y cristion, un anllygredig, gan hyny pa faint mwy y dylai efe ymdrechu, ac ymgadw yn mhob peth i ymdrechu? Coron o'r olew-wydden wyllt, oedd yn y campau Olympaidd; o'r llawr-wydden, yn y campau Pythaidd; o'r binwydden, yn y campau Isthmaidd, neu Gorinthiaidd; ac o'r perlys, (*parsley*,) neu fân lysiau cyffelyb, yn y campau Nemêaidd: ac am goronau mòr wael a llygredig â hyn, y byddent hwy yn ymdrechu!

26 * Yr wyf fi gan hynny felly yn rhedeg, [s] † nid megis ar amcan; [t] ‡ felly yr wyf yn ymdrechu, nid fel un yn curo yr awyr.

s 2 Cor. 5. 1, 8. Phil. 1. 21. 2 Tim. 1. 12. a 2. 5. Heb. 4. 1. 1 Pedr 5. 1. 2 Pedr 1. 10, 11. t Mat. 11. 12. Luc 13. 24. Eph. 6. 12. Col. 1. 29.

* Gallai yr apostol ddywedyd am dano ei hun ei fod yn ymgadw yn mhob peth, ac yn ymdrechu i redeg yr yrfa ysbrydol o ddifrif, ac â'i holl egni. † Nid ar amcan, ychwaith, yr oedd efe yn rhedeg; ond "ymdrech yn gyfreithlawn" yr oedd efe, yn ol rhëolau manylaf y gamp; neu mewn ymadroddion eraill, yn ol rhëolau sanctaidd gair Duw. Nid oedd ammheüaeth ganddo pa un a oedd ar lwybr ei ddyledswydd ai nid oedd, pa un a oedd yn boddloni Duw ai nid oedd, a pha un a oedd efe ar y ffordd i'r nefoedd ai nid oedd: ac nid ar amcan yr oedd ychwaith, pa un a gyrhaeddai efe y nefoedd yn y diwedd ai peidio. Nid fel un yn rhedeg blith-dra-phlith âg eraill heb sylw arno, medd rhai, yw ystyr y geiriau Groeg yma: yr oedd digon o sylw ar Paul; yr oedd yn "ddrych i'r byd, i'r angelion, ac i ddynion." ‡ Byddai y dyrnodwyr gynt yn arfer dyrnodio wrthynt eu hunain, er mwyn dysgu, pryd na byddai yr un gwrthwynebwr gyferbyn â hwy; yr hyn a elwid curo yr awyr: nid felly yr oedd Paul yn ymdrechu; yr oedd iddo ef ddigon o wrthwynebwyr creulawn, cryfion, a medrus bob amser. Tybia eraill mai yr ergyd a feddylir yma wrth guro yr awyr, curo yr awyr yn lle curo y gwrthddrych: nid felly ychwaith yr oedd Paul yn ymdrechu, neu yn ymladd, yn ol y Saesoneg. *Pukteuô*, ymladd â dyrnau.

27 [u] * Ond yr wyf fi yn cospi fy nghorph, ac yn ei ddwyn yn gaeth; [x] † rhag i mi mewn un modd, wedi i mi bregethu i eraill, fod fy hun [y] yn anghymmeradwy.

u adn. 25. pen. 4. 11, 12. a 6. 12, 13. a 8. 13. Rhuf. 8. 13. 2 Cor. 6. 4, 5. a 11. 27. Col. 3. 5. 2 Tim. 2. 22. 1 Pedr 2. 11. x pen. 13. 1—3. Salm 50. 16. Mat. 7. 21—23. Luc 12. 45—47. a 13. 26, 27. 2 Pedr 2. 15. y Jer. 6. 30. Luc 9. 25. Act. 1. 25. 2 Cor. 13. 5, 6.

* Gwelwn yma mai ei nwydau llygredig ei hun, oedd gelynion gwaethaf Paul; â'r rhai hyn yr oedd yn ymladd ac yn ymdrech yn wastadol. Yr oedd efe mewn ystyr yn cospi ei gorph naturiol, ac yn ei ddwyn yn gaeth, trwy lafur, anhunedd, ymprydiau, gweddiau, hunan-ymwadiad mewn pethau cyfreithlawn, chwaithach pethau anghyfreithlawn; a'r cwbl i ddarostwng e. lygredigaethau tumewnol, i groeshoelio yr hen ddyn, yn nghyd â'i ŵyniau a'i chwantau. Mae y gair a gyfieithir "cospi," yma, yn arwyddo dyrnodio yn y gwyneb, yn enwedig dàn y llygaid; fel y byddai y dyrnodwyr yn y campau gynt: a'r gair a gyfieithir "dwyn yn gaeth" yn arwyddo taflu y gwrthwynebwr i lawr, a'i gadw i lawr, hyd onid ildiai, a rhoddi i fynu yr ymdrech: felly y gwnai yr ymdrechwyr yn y campau gynt, felly y gwnai yr apostol â'i hen ddyn; ac felly y dylai pob cristion wneyd yn ddiarbed, os ydynt am fuddugoliaeth † Mae amryw o eiriau y rhan hon o'r adnod eto, wedi eu cymmeryd oddi wrth y campau mae yr apostol yn sôn am danynt, ac yn cyfeirio at bethau perthynol i'r campau hyny: gellid alleirio diwedd yr adnod fel hyn:—Rhag i mi mewn un modd, wedi i mi gyhoeddi rhëolau y gamp i eraill, ac arddangos y gwobrwyon i'r ymdrechwyr; fod yn euog fy hun o ymdrechu yn anghyfreithlawn, yn groes i'r rhëolau hyny a gyhoeddais, a chael fy marnu yn anghymmeradwy am hyny, ac yn annheilwng o'r goron yr ymdrechais am dani. Byddai rhyw un yn cyhoeddi rhëolau yr ymdrechion a'r gwobrwyau yn y campau gynt; ac os ymdrechai *hwnw* yn annheg, ac yn groes i'r rhëolau, bernid ef yn anghymmeradwy, ac yn annheilwng o'r gamp. Yn gyffelyb i hyny, yr oedd yr apostol wedi pregethu yr efengyl, ei rhëolau sanctaidd, a'i gwobrwy gogoneddus, i eraill; ac yr oedd yn "ymgadw yn mhob peth" yn ol rhëolau yr efengyl, "yn cospi ei gorph, ac yn ei ddwyn yn gaeth," rhag mewn un modd ei fod ef ei hun yn anghymmeradwy, a cholli y goron yn y diwedd. Nid oedd Paul yn ofni am ei gymmeradwyaeth gyda Duw; ond yr oedd yn arfer y moddion hyn fel na byddai yn anghymmeradwy: nid yw sicrwydd y credadyn am ei hawl i fywyd tragywyddol, yn ei wneyd yn ddiofal, ac yn esgeulus o'r moddion i gyrhaedd y bywyd hwnw. Mae y geiriau yn dangos hefyd, y gall llawer bregethu yr efengyl yn dda i eraill, a bod yn anghymmeradwy eu hunain: ac felly y bydd, rhaid ofni, i bawb sydd yn rhodio yn benrhydd, ac yn groes i rëolau sanctaidd yr efengyl. *Adokimos*, anghymmeradwy, a gwrthodedig, fel metel anmhur, a llawn o sothach, pan ei profer trwy dân y toddydd.

PEN. X.

Sacramentau yr Iuddewon yn gysgodau i ni.

* Ac [a] m fynnwn i chwi fod heb wybod, frodyr, † fod [b] ein tadau oll [c] dan y cwmmwl, [d] a'u myned oll trwy y môr;

a pen. 12. 1. a 14. 38. Rhuf. 11. 21. b Ioan 4. 20. Rhuf. 4. 11. Gal. 3. 29. c Ex. 13. 21, 22. a 14. 19. 20. Num. 9. 15—22. a 14. 14. Deut. 1. 33. Neh. 9. 12, 19. Salm 78. 14. a 105. 39. d Ex. 14. 22, 29. Num. 33. 8. Jos. 4. 23. Neh. 9. 11. Salm 66. 6. a 77. 16—20. a 78. 13, 53. a 106. 7—11. a 114. 3—5. a 136. 13—15. Es. 63. 11—13. Heb. 11. 29. Dat. 15. 2, 3.

Gwedi i'r apostol annog y Corinthiaid i redeg eu gyrfa gyda diwydrwydd a ffyddlondeb gwrol, mae efe yma yn myned i ddangos fel y methodd llawer o'r Iuddewon, pobl bröodol Duw, yn y mater pwysig hyny, neu beth cyffelyb i hyny. Felly y tybia *Doddridge* fod cyssylltiad y geiriau hyn â'r bennod o'r blaen; ond tybia eraill mai dychwelyd mae yr apostol at y mater o gyd-fwyta â'r paganiaid yn eu gwleddoedd eilun-addolgar; yr hyn y tybiai rhai o'r Corinthiaid nad oedd dim niwed ynddo, ac na wrthodai Duw mo honynt am hyny. * Ni fynai iddynt fod heb wybod fel y bu y tadau Iuddewig oll dàn y cwmwl, a'u myned oll trwy y môr coch, ar eu mynediad allan o'r Aipht tua gwlad yr addewid. † Ein tadau ni Iuddewon.

2 e * A'u bedyddio † *trwy* oil ‡ i Moses,
‖ yn y cwmmwl, ‖ ac yn y môr;

e pen. 1. 13—16. Ex. 14. 31. Ioan 9. 28, 29. Heb. 3. 2, 3.

* Rhaid deall y gair bedyddio yma yn ddiau yn ei ystyr naturiol, a llythyrenol, ac nid mewn rhyw ystyr ffigawl, gyfriniawl, neu rywbeth ysbrydol: am yr rswydd gweledig oddi allan y dywedir yma, ac nid am y gwas ysbrydol oddi fewn. † Fel hyn bedyddiwyd yr Israeliaid *oll* fel cenedl, yn hen ac yn ieuainc, yn wŷr, yn wragedd, a *phlant;* hyd yn nôd mabanod ar y bronau. ‡ Bedyddiwyd hwynt i Moses, sef i'r cyfammod a wnaeth Duw â hwynt trwy weinidogaeth Moses eu blaenor; yn yr hwn yr oedd Duw yn Dduw iddynt hwy, a hwythau yn bobl iddo yntau. Bedyddiwyd hwy i'r wir grefydd, a'r athrawiaeth a ddysgai Moses iddynt, fel prophwyd Duw yn eu plith, cysgod o Grist, y Cyfryngwr a'r gwir prophwyd. Yn y bedyddiad hwn, cymmerodd Duw yr holl genedl yn eglwys weledig iddo ei hun; mewn dull effelyb fel y mae yn cymmeryd yr holl gristionogion proffesedig â'u plant i'r eglwys eto trwy fedydd. Nid ysgu yn gyntaf, a bedyddio wedi hyny oedd yma; ond y gwrthwyneb, bedyddio yn gyntaf, a dysgu wedi hyny: (gwel ar Matth. 28. 19, 20,) ychydig a gawsai yr Israeliaid o'u dysgu y pryd hwn at a gawsant wedi hyn; ac nid oedd yma fawr o hamdden ychwaith i'w holi hwynt am eu proffes o edifeirwch a ffydd. Bedyddiwyd trwy *i* Moses, *trwy* Moses, *yn* Moses, *gyda* Moses, ac i gyd oll, *hyd yn nôd* Moses *ei hun:* dywedir y goddef y peiriau Groeg *(eis ton Môsên)* eu cyfieithu yn mhob un o'r ffyrdd yna. ‖ "Yn y cwmwl;" sef trwy wlithiad y cwmmwl arnynt: tybir fod cyfeiriad at hyny yn Salm 68. 7, 8, 9. § "Ac yn y môr;" sef trwy wasgariad, neu daenelliad ewynfriw, neu fân-ddefnynau o ddwfr y môr arnynt gan nerth y gwynt, fel yr oeddynt yn myned drwng y ddau fûr, neu y ddau bentwr o ddyfroedd ar ei ochr sych. Felly y tybia dynion dysgedig a duwiol, i'r Israeliaid gael eu bedyddio yn y cwmwl ac yn y môr; ac mae yn sicr mai trwy *daenelliad*, ac nid trwy *drochiad* y cawsant eu bedyddio: yr Aiphtiaid a gawsant eu *drochi*, ie, a'u claddu hefyd i farwolaeth, ac nid Israel.

3 f * A bwytta o bawb *o honynt* yr un
† bwyd ysprydol;

f Ex. 16. 4, 15, 35. Deut. 8. 3. Neh. 9. 15, 20. Salm 78. 23—25. a 105. 40. Ioan 6. 22—58.

* Bwytâodd y rhai a syrthiasant yn yr anialwch yr un manna ag a fwytâodd Caleb a Josua, y rhai a aethant i mewn i wlad Canaan: neu bwytâodd yr Iuddewon a drengasant yn yr anialwch, yr un "bwyd ysbrydol" ag ydym ninnau yn fwyta; hwynt-hwy yn y cysgod, a ninnau yn y gwirionedd: neu, hwy a fwytasant oll, y rhai da a'r drwg, yr un bwyd ysbrydol. † Gelwir y manna yn "fwyd ysbrydol," yn 1. Am iddo ddyfod i waered o'r nef; yn 2. Am ei fod yn dyfod yn wyrthiol; yn 3. Am ei fod yn fara angelion, yn cael ei roddi trwy weinidogaeth angelion; yn 4. Ac yn benaf, am ei fod yn gysgod o Grist, y gwir fara ysbrydol, a ddaeth i waered o'r nef.

4 g * Ac yfed o bawb *o honynt* yr un ddiod
ysprydol: † (canys hwy a yfasant o'r Graig
ysprydol a oedd yn canlyn: h ‡ a'r Graig oedd
Crist)

g Ex. 17. 6. Num. 20. 11. Salm 78. 15, 20. a 105. 41. Es. 43. 20. a 48. 21. Ioan 4. 10, 14. a 7. 37. Dat. 22. 17. h pen. 11. 24, 25. Gen. 40. 12. a 41. 26. Ezec. 5. 4, 5. Dan. 2. 38. a 7. 17. Mat. 13. 38, 39. a 26. 26—28. Gal. 4. 25. Col. 2. 17. Heb. 10. 1.

* Gelwir y dwfr hwn o'r graig yn "ddiod ysbrydol" (hefyd, am ei gael yn wyrthiol, (gwel Exod. 17. 6; Num. 20. 11,) ac am ei fod yn gysgod o fendithion yr efengyl i'r saint, ar eu taith trwy anialwch sych y byd hwn. † Nid y graig "oedd yn canlyn" yn ddiammau; eithr y dwfr a ffrydiodd allan o'r graig, ar waith Moses yn ei tharo hi. Canlynodd y dwfr hwn hwy am ryw yspaid hir o amser yn eu teithiau; ond yn rhyw fodd, un ai yn gosp am eu pechodau, neu er prawf pellach o'u ffydd, ni a'u cawn hwynt wedi ei golli pan ddaethant i Cades, a Duw yn adnewyddu y wyrth yno drachefn, Num. 20. 11. Ac wedi hyny drachefn, ni a'u cawn hwynt yn cael gorchymyn i brynu dwfr am arian gan yr Edomiaid, yn Deut. 2. 6: felly mae yn debyg na chanlynodd yr un o'r ddau ddwfr gwyrthiol hwynt, yr holl ffordd i Ganaan. ‡ "A'r Graig oedd Crist:" hyny yw, a'r graig oedd gysgod o Grist. Craig naturiol oedd y graig, ond yr oedd yn gysgod o Grist mewn amryw bethau:—1. Yn ei chadernid diysgog; Craig oesol, a chadernid tragywyddol yw efe i'w bobl. 2. Trwy daro a hollti y graig hon y rhoddodd hi ddwfr; felly trwy ddryllio Crist ar y groes mae bendithion ysbrydol yn deilliaw o hóno ef.

5 i * Eithr ni bu Dduw foddlawn i'r rhan
fwyaf o honynt: † canys cwympwyd hwynt yn
y diffaethwch.

i Num. 14. 11, 12, 28—33. a 26. 64, 65. Deut. 1. 34, 35. a 2. 15, 16. Salm 78. 32—34. a 90. 7, 8. a 95. 11. a 106. 26. Heb. 3. 17. Judas 5.

* Ond er mwynâu yr holl ragor-freintiau allanol a chysgodol hyn, fel pobl ac eglwys weledig Duw, yr oedd nifer mawr, y "rhan fwyaf o honynt," nad oedd Duw ddim yn foddlawn iddynt; ond yn cael ei ddigio ganddynt, o herwydd eu hanghrediniaeth, eu heilun-addoliaeth, eu grwgnachrwydd, a'u hamryw bechodau eraill. † O herwydd hyny, dystrywiwyd y fath liaws o honynt yn yr anialwch, yn y naill ffordd a'r llall, fel yr oedd eu cyrph yn gorwedd yn bentyrau ar hyd y ddaear, megys ar ol lladdfa mewn rhyw frwydr ofnadwy. Syrthiasant oll yn ol o wlad yr addewid; a llawer iawn yn ol o'r etifeddiaeth nefol. Yr oedd hyn yn ddangosiad eglur i'r Corinthiaid, (ac i ninnau befyd,) nad oedd enw o grefydd a breintiau allanol helaeth, ddim yn ddigon er achub eu heneidiau i fywyd tragywyddol.

6 k * A'r pethau hyn a wnaed yn siamplau
i ni, † fel na l chwennychem ddrygioni, megis
ag y chwennychasant hwy.

k adn. 11. Zech. 3. 6, 7. Heb. 4. 11. 2 Pedr 2. 6. Judas 7. l Num. 11. 4, 31—34. Salm 78. 27—31. a 106. 14, 15.

* Wrth gymhwyso y pethau uchod, mae yr apostol yn dywedyd eu bod yn esamplau i ni; wedi eu bwriadu fel cysgodau, neu gynlluniau, (felly yr arwydda y gair Groeg *typoi,)* i ddangos i ni pa fodd yr ymddyga Duw yn mhob oes tuag at ddynion a bechant yn ei erbyn ef, yn y mwynâd o freintiau mawrion a thàn enw o broffes grefyddol. † Fel trwy ddarllen am y canlyniadau dinystriol o anufudd-dod a gwrthryfel Israel, y byddo i ni gael ein hattal rhag coledd chwantau pechadurus yn ein calonau, na'u cyflawni mewn gweithredoedd, megys y gwnaethant hwy. Efallai bod yma gyfeiriad at flŷs y Corinthiaid i bethau wedi eu haberthu i eilunod, mewn cyferbyniad i flŷs yr Israeliaid am gig a danteithion yr Aipht, pan oedd digon o fanna ganddynt.

7 m * Ac na fyddwch eilun-addolwyr, † megis rhai o honynt hwy; fel y mae yn ysgrifenedig, n ‡ Eisteddodd y bobl i fwytta ac i yfed, ac a gyfodasant i chwareu.

m adn. 14, 20—22. pen. 5. 11. a 6. 9. a 8. 7. Deut. 9. 12, 16—21. Salm 106. 19, 20. 1 Ioan 5. 21. n Ex. 32. 6—8, 17—19.

* Nid oedd ond ychydig er pan fuasai y rhan fwyaf o'r cristionogion yn Corinth yn eilun-addolwyr hollawl; o ganol eilun-addoliaeth y galwyd hwy, am hyny yr oeddent mewn perygl mawr o syrthio yn ôl i eilun-addoliaeth, eu hen grefydd, drachefn: yn enwedig wrth ystyried fod llawer o'u perthynasau a'u hen gyfeillion yn eilun-addolwyr o hyd; y rhai hyny yn eu gwahodd i'r gwleddoedd eilun-addolgar, hwythau mòr hoff o fyned, ac yn barnu nad oedd dim niwed yn hyny, gan nad oeddent hwy yn addoli yr eilunod. "Na fyddwch eilun-addolwyr," ac na roddwch eich hunain mewn profedigaeth i hyny. † Cyfeiriad at y llô aur a wnaethai Aaron sydd yma; ‡ yno y bwytâodd ac yr yfodd y bobl o'r hyn a aberthasent i'r eilun, ac y cyfodasant i chwareu a dawnsio. Gwel Exod. 32. 6, 19. Gwel hefyd Act. 7. 41—43.

8 [o] * Ac na odinebwn, † fel y godinebodd rhai o honynt hwy, ‡ ac y syrthiodd mewn un dydd dair mil ar hugain.

o pen. 6. 9, 18. Num. 25. 1—9. Salm 106. 29. Dat. 2. 14.

* Sylwasom o'r blaen, mai lle ofnadwy ydoedd Corinth am odineb, puteindra, ac aflendid o bob math: dywed haneswyr fod ganddynt deml wedi ei chyssegru i Gwener, *(Venus,)* duwies y cariad; (duwies y trythyllwch yn hytrach;) a bod dros fil o ferched yn offeiriadesau, yn perthyn i'r deml hòno, i gyd yn buteiniaid proffesedig; yr oeddynt yn ystyried hyny yn addoliad crefyddol i'w duwies aflan. Mòr gyffredin oedd godineb yn y lle aflan hwnw, fel yr oedd un gair Groeg am buteindra, yn cael ei gymmeryd oddi wrth enw y ddinas; *Corinthiazein*, dilyn arferiad Corinth. Wrth ystyried y pethau uchod, nid heb achos yr oedd yr apostol yn dywedyd wrth y Corinthiaid "Na odinebwn." † Sef gyda merched Moab, trwy ddyfais felltigedig Balaam; Gwel yr hanes yn Num. 25. 1—9; Gwel hefyd, Dat. 2. 14. Hudwyd meibion Israel i odineb yn gyntaf, ac o hyny i eilun-addoliaeth. ‡ Digiodd Duw wrthynt am y tro hwn, fel y syrthiodd mewn un dydd o honynt *dair* mil ar hugain, medd yr apostol yma; *pedair* mil ar hugain medd Moses, yn Num. 25. 9. I gysoni Paul a Moses yma, tybia rhai i dair mil a'r hugain farw o'r pla, ac i fil yn ychwaneg gael eu rhoddi i farwolaeth gan y barnwyr am eu trosedd: Gwel Num. 25. 5—7. Felly y barna tri o'n Hawdwyr; mae gan *Pool* ffyrdd eraill i gysoni y ddau hanes, nad yw yn angenrheidiol eu crybwyll yma: y peth a enwyd sydd fwyaf tebygol.

9 * Ac na [p] themtiwn Grist, † megis ag y temtiodd rhai o honynt hwy, [q] ‡ ac a'u distrywiwyd gan seirph.

p Ex. 17. 2, 7. a 23. 20, 21. Num. 21. 5. Deut. 6. 16. Salm 78. 18, 56. a 95. 9. a 106. 14. Heb. 3. 8—11. a 10. 28—30. q Num. 21. 6.

* Yn nesaf, mae yr apostol yn rhybuddio y Corinthiaid (a ninnau hefyd,) na themtient Grist, trwy ammau ei allu, ei addewidion, ei ffyddlondeb, ei gariad, a'i ras: trwy gam-ddefnyddio ei ymaros a'i amynedd ef, a thrwy ei annog i ddigofaint â'u pechodau. † Megys y temtiodd rhai o honynt hwy ef, pan oedd yn gyfyng arnynt o herwydd y ffordd, Num. 21. 4, 5: anghredasant ei ofal a'i diriondeb ef, a llefarasant yn rwgnachlyd yn ei erbyn ef. Temtio Crist a wnaeth yr Israeliaid; yr hyn sydd yn dangos ei fod ef yn hanfodi fel Duw cyn ei gnawdoliad, ac mai efe oedd gyda hwynt yn yr anialwch fel JEHOFAH, neu Arglwydd y lluoedd eu Gwaredwr, ac Angel cyd-ddrychioldeb Duw. ‡ Gwel yr hanes, Num. 21. 6.

10 * Ac na [r] rwgnechwch, † megis y grwgnachodd rhai o honynt hwy, [s] ‡ ac a'u distrywiwyd gan [t] || y dinystrydd.

r Ex. 15. 24. a 16. 2—9. a 17. 3. Num. 14. 2, 27—30. a 16. 41. Salm 106. 25. Phil. 2. 14. Judas 16. s Num. 14. 37. a 16. 46—49. t Ex. 12. 23. 2 Sam. 24. 16. 1 Cron. 21. 15. 2 Cron. 32. 21. Mat. 13. 39—42. Act. 12. 23. 2 Thes. 1. 7, 8. Heb. 11. 28. Dat. 16. 1.

* Mae hefyd yn eu rhybuddio hwynt na rwgnachent yn erbyn rhagluniaeth Duw tuag atynt, yr attaliadau oedd crefydd yn roddi arnynt, a'r erlid a fyddai raid iddynt ddyoddef o herwydd eu crefydd. † Am dueddrwydd yr Israeliaid i rwgnach a thuchan, gwel y cyfeiriadau dàn y llythyren *r*; ‡ ac am y dystryw a ddaeth arnynt o herwydd hyny, gwel yr un modd dàn y llythyren nesaf, *s*. || *Sammael*, neu angel marwolaeth, oedd y dinystrydd hwn, yn ol dychymmyg yr Iuddewon. Pa an ai angel da ai angel drwg ydoedd, nis gwyddom; hawdd y gallai Duw ddefnyddio yr un a fynai i wneuthur ei air a'i farnau ef: byddwn ni wyliadwrus rhag ysbryd grwgnachlyd, rhag i Dduw ymweled â ninnau hefyd â rhyw farn ddinystriol.

11 * A'r pethau hyn oll a ddigwyddasant yn siamplau iddynt hwy, [x] † ac a ysgrifenwyd yn rhybudd i ninnau, [y] ‡ ar y rhai y daeth terfynau yr oesoedd.

x pen. 9. 10. Rhuf. 15. 4. y Phil. 4. 5. Heb. 10. 25, 37. 1 Ioan 2. 18.

* Gwel ar adn. 6. Trwy y barnedigaethau uchod ar rai o'r Israeliaid, yr oedd Duw yn eu gwneyd yn esamplau i'r lleill o honynt, † a chwedi peri ysgrifenu yr hanes athrist o'u pechodau a'u barnedigaethau hwy er rhybudd i ninnau o bob gwlad, cenedl, ac amser. ‡ *Telê aiônión*, "terfynau yr oesoedd," a arwydda yn briodol, yr *oes ddiweddaf*, neu oruchwyliaeth ddiweddaf Duw tuag at ddynion ar y ddaear, yr hon yw goruchwyliaeth yr efengyl.

12 * Am hynny, [z] yr hwn sydd yn tybied ei fod yn sefyll, † edrychedd na syrthio.

z pen. 4. 6—8. a 8. 2. Diar. 16. 18. Mat. 26. 33, 34, 40, 41. Rhuf. 11. 20. Dat. 3. 17, 18.

Y defnydd a ddylid wneyd o'r cwbl yw, "yr hwn sydd yn tybied ei fod yn sefyll, edrychedd na syrthio." * Sefyll yn nghymmeradwyaeth Duw, yn ffydd a rhyddid yr efengyl, ac mewn ymarweddiad a buchedd uniawn a diargyhoedd. Mae sefyll, a *thybied* ein bod yn sefyll; † ac mae y cyngor yn angenrheidiol i bob un o'r ddau gall yr hwn sydd yn sefyll mewn gwirionedd syrthio i raddau galarus, o eisiau gwylio; a'r hwn nid yw ond *tybied* ei fod yn sefyll, yn ei feddwl mawr ei hun, gall syrthio yn hollawl, a cholli hyd yn nôd ei broffes, a'r *ymddangosiad* o sefyllfa grefyddol oedd ganddo. Efallai mai at broffeswyr hunanol, chwyddedig, yn tybied eu bod yn ddigon cryfion i sefyll, ond heb erioed ddyfod i sefyllfa iawn ger bron Duw, mae yr apostol yn cyfeirio y cyngor hwn.

13 [a] * Nid ymaflodd ynoch demtasiwn, ond un dynol: [b] † eithr ffyddlawn *yw* Duw, [c] ‡ yr hwn ni âd eich temtio uwch law yr hyn a alloch; [d] || eithr a wna ynghyd a'r temtasiwn ddiangfa hefyd, fel y galloch *ei* ddwyn.

a Jer. 12. 5. Mat. 24. 21—24. Luc 11. 4. a 22. 31, 46. 2 Cor. 11. 23—28. Eph. 6. 12, 13. Heb. 11. 35—38. a 12. 4. Iago 5. 10, 11. 1 Pedr 1. 6, 7. a 5. 8, 9. Dat. 2. 10. a 3. 10. b pen. 1. 9. Deut. 7. 9. Salm 36. 5. a 89. 33. Es. 11. 5. a 25. 1. a 49. 7. Galar. 3. 23. Hos. 2. 20. 1 Thes. 5. 24. 2 Thes. 3. 3. 2 Tim. 2. 11—13. Heb. 6. 18. a 10. 23. a 11. 11. 1 Pedr 4. 19. 1 Ioan 1. 9. Dat. 19. 11. c Ex. 3. 17. Salm 125. 3. Luc 22. 32. Ioan 10. 28—30. Rhuf. 8. 28—39. 2 Cor. 1. 10. a 12. 8—10. 2 Tim. 4. 18. 1 Pedr 1. 5. 2 Pedr 2. 9. d Gen. 19. 20, 21. Salm 124. 7. Luc 16. 26. Act. 27. 44.

Gwedi rhybuddio yr hunanol a'r rhyfygus yn yr adnod o'r blaen, mae yr apostol yn yr adnod hon yn cysuro y rhai duwiol ac ofnus, yn wyneb temtasiynau oedd yn eu cyfarfod. * Nid oedd eto un demtasiwn wedi eu cyfarfod, ond yr hyn oedd gyffredin i ddynion eraill; ac yr hyn a allent ei wrthsefyll gydag ychydig ymrôad, gwyliadwriaeth, a gweddi am gymmorth gan Dduw. Dywed *Doddridge* fod y gair *anthropinos* yn arwyddo "dynol," ac hefyd *cyfatebol i nerth dynol.* † A pha demtasiynau bynag a'u cyfarfyddai ar ol hyn, oddi wrth y byd, y cnawd, a diafol; gallent hyderu fod Duw yn ffyddlawn i'w gyfammod a'i addewidion; ‡ ac na oddefai efe i neb o'i blant anwyl gael eu temtio uwchlaw eu gallu, a'u gorchfygu gan demtasiynau. Medr Duw roddi nerth i'w bobl, cyfatebol i'w profedigaethau, neu gymmedroli eu profedigaethau yn gyfatebol i'w nerth hwynt: ac mae yn ffyddlawn i wneyd hyny. || Yn nghyd â'r demtasiwn, efe a drefna ddiangfa hefyd yn rhywfodd, yn ei amser da ei hun: tra parâo y brofedigaeth, ni chaiff plant Duw ddim niwed mawr ganddi; ac yn ei amser ef hwy a gânt ddiangfa allan o hóni, fel yr aderyn allan o fagl yr adarwr, ac yna hwy a gânant am drugaredd a barn, i'r Arglwydd y cânant.

14 * O herwydd paham, [e] fy anwylyd, [f] ffowch oddi wrth eilun-addoliaeth.

e Rhuf. 12. 19. 2 Cor. 7. 1. a 11. 11. a 12. 15, 19. Phil. 4. 1. Philemon 1. 1 Pedr 2. 11. f adn. 7, 20, 21. 2 Cor. 6. 17. 1 Ioan 5. 21. Dat. 2. 14. a 13. 8. a 21. 8. a 22. 15.

* Mynai yr apostol i'r Corinthiaid ffoi rhag pob pechod, ond yn enwedig rhag eilun-addoliaeth: yr hyn

edd mòr gyffredin yn Corinth, yn bechod o'r natur
aethaf, yn odineb a phuteindra ysbrydol, ac yn gyff-
redin yn arwain i'r pechodau hyny yn naturiol, ac i
wwer o bechodau gwarthus eraill. Gwedi crybwyll
rarnedigaethau Duw am eilun-addoliaeth a phechodau
raill, yn yr adnodau blaenorawl, a'u calonogi hwy â
bobaith am nerth a diangfa yn adn. 13; mae yma yn eu
annog i ffoi yn benderfynol, a gwylied yn fanol, rhag
bob peth a dueddai i'w maglu hwynt, a'u dênu i eilun-
addoliaeth: os na fedrent hwy ymgadw rhag gwleddoedd
eilun-addolgar. nid oedd fawr o obaith yr ymgadwent
rhag eilun-addoliaeth ei hun, nac y dalient erlid o
nerwydd eu crefydd.

15 * Dywedyd yr wyf [g] fel wrth rai syn-
wyrol: † bernwch chwi beth yr wyf fi yn ei
ddywedyd.

g pen. 4. 10. a 6. 5. a 8. 1. a 11. 13. a 14. 20. Job 34. 2, 3. 1 Thes. 5. 21.

* Yr hyn a ddywedais wrthych eisoes, a'r hyn a ddy-
wedaf eto, dywedyd yr wyf fel wrth rai synwyrol: mae
rhai o honoch yn tybied eu hunain yn ddoethion ac yn
synwyrol iawn; a'r rhan fwyaf o honoch yn deall athraw-
aeth ac egwyddorion yr efengyl yn lled dda, ac yn
addynion o synwyr cyffredin; wrth rai felly yr wyf yn
dywedyd y pethau hyn, † bernwch chwi beth yr wyf fi
yn ei ddywedyd, yr wyf yn cyfeirio at eich synwyr, eich
rheswm, a'ch cydwybodau chwi, fel dynion gwybodus,
nac yn dymuno ar i chwi ystyried a phwyso yr hyn a
ddywedais ac a ddywedaf eto: cewch chwi eich hunain
bod yn farnwyr ar y mater, a dysgwyliaf i chwi farnu yn
ddiduedd yn ol eich synwyr a'ch cydwybod.

16 [h] * Phïol y fendith, † yr hon a fendig-
wn, [i] ‡ onid cymmun gwaed Crist ydyw? [k] ‖ y
bara yr ydym yn ei dorri, onid cymmun corph
Crist yw?

h adn. 21. pen. 11. 23—29. Mat. 26. 26—28. Marc 14. 22—25. Luc 22. 19 20. i adn. 20. pen. 1. 9. a 12. 13. Ioan 6. 53—58. Heb. 3. 14 1 Ioan 1. 3, 7. k Act. 2. 42, 46. a 20. 7, 11.

* Addefa pawb, mai y gwin yn sacrament swper yr
Arglwydd, a feddylir yma wrth phïol y fendith: a phïol
am y gwin yn y phïol. Gelwir hi yn phïol y fendith
am ei bod yn arwyddo bendithion ysbrydol trwy aberth
a gwaed Crist; am fod y saint yn y sacrament yn ben-
dithio Duw am yr iachawdwriaeth fawr; am fod y gwin
yn cael ei neilldüo i wasanaeth sanctaidd trwy weddi
am fendith; ac am fod y rhai a gyfranogant mewn
ffydd, yn derbyn bendith drwy yr ordinâd hon. † Mae
y geiriau hyn yn dangos yn eglur, fod yr elfenau sacra-
mentaidd mewn rhyw ystyr yn cael eu bendithio gan y
gweiny dwyr: pan mae rhyw beth yn cael ei neilldüo i
wasanaeth cyssegredig, dywedir fod y peth hwnw yn
cael ei fendithio. Gwel Gen. 2. 3 Exod. 20. 11.
Trais mawr (medd *Doddridge,)* ar y geiriau gwreiddiol
yw eu cyfieithu, *y phïol, uwch ben yr hon,* neu *am yr*
hon, yr ydym yn bendithio Duw. ‡ Yn y weithred o
gymmeryd o'r elfenau yn y sacrament, os ydym yn
cyfranogi yn deilwng, mae Crist yn ei roddi ei hunan
i'a ras i ni; a ninnau yn rhoddi ein hunain, gyrph ac
eneidiau iddo ef: felly, y mae cyd-gymundeb ysbrydol
a gwirioneddol rhwng Crist â'i bobl yn y weithred hon:
mae'nt hwy yn un ysbrydol â Christ, a Christ yn un
ysbrydol â hwythau, fel mae y corph a'r ymborth na-
turiol yn un â'u gilydd. ‖ Yr un peth a ellir ddywedyd
am y bara hefyd.

17 [l] * Oblegid nyni yn llawer ydym un
bara, ac un corph: † canys yr ydym ni oll yn
gyfrannogion [m] o'r un bara.

l pen. 12. 12, 27. Rhuf. 12. 5. Gal. 3. 26—28. Eph. 1. 22, 23. a 2. 15, 16. a 3. 6. a 4. 12, 13, 25. Col. 2. 19. a 3. 11, 15. m adn. 18, 4, 21. pen. 11. 26—28.

* Er bod y credinwyr yn llawer o rifedi, eto nid yd-
ynt ond un corph ysbrydol; fel y mae llawer o ronynau
gwenith yn un dorth o fara: ac y maent yn eu proffesu
eu hunain yn un yn eu cymundeb â'u gilydd yn swper
yr Arglwydd. † Maent oll yn gyfranogion o'r un bara,
(ac o'r un gwin hefyd) i arwyddo eu bod yn un corph
yn Nghrist, mewn un ffydd, ac un cariad oll. Mae y
ddwy adnod uchod yn dangos cyfeiliornad y pabyddion
yn fawr, nid yn unig yn ngwaith eu hoffeiriaid yn attal
y gwin oddi wrth y llëygion; ond hefyd yn eu gwaith
yn rhoddi afrlladen fechan i bob un o'r cymunwyr: fel
hyny nid ydynt yn tòri y bara; ac nid yw y cymunwyr
yn bwyta o'r un bara, fel y dywed yr apostol yma.

18 [n] * Edrychwch ar yr Israel yn ol y
cnawd: [o] † onid yw y rhai sydd yn bwytta yr
ebyrth, yn gyfrannogion o'r allor?

n Rhuf. 4. 1, 12. a 9. 3—8. 2 Cor. 11. 18, 22. Eph. 2. 11, 12. Phil. 3. 3—5. o pen. 9. 13. Lef. 3. 3—5, 11. a 7. 11—17. 1 Sam. 2. 13—16. a 9. 12, 13.

* Edrychwch fel yr oedd yn mhlith yr Iuddewon dàn
yr hen oruchwyliaeth, ac fel y mae o hyd yn mhlith y
rhai sydd yn ol y cnawd, ac yn ddigred o honynt; † pan
maent hwy yn bwyta o'r ebyrth a offrymwyd ar yr allor,
onid ydynt hwy yn proffesu ac yn addef, fod iddynt
gymundeb â Duw, a'u bod yn addoli Duw, i'r hwn yr
aberthwyd y bwydydd hyny; a'u bod yn gyd-gyfranog âg
ef yn yr offrymau a aberthwyd ar yr allor drostynt, un ran
iddo ef, a'r rhan arall iddynt hwythau? Yn yr un modd,
mae y credinwyr yn proffesu eu hunain yn gyfranogion
o Grist a'i aberth yn sacrament swper yr Arglwydd; ac
yr un modd hefyd, os bwytêai y Corinthiaid hyn o'r
pethau a aberthasid i eilunod, yr oeddynt mewn effaith
yn addef yr eilun yn dduw, ac yn gyfranog o'r addoliad
eilun-addolgar a roddid iddo.

19 * Beth gan hynny yr ydwyf yn ei ddy-
wedyd? [p] † bod yr eilun yn ddim, neu yr hyn
a aberthwyd i eilun yn ddim?

p pen. 1. 28. a 3. 7. a 8. 4. a 13. 2. Deut. 32. 21. Es. 40. 17. a 41. 29. 2 Cor. 12. 11.

* Yn awr, i gymhwyso y pethau uchod at y mater
dàn sylw, pa beth ydwyf fi yn ei feddwl wrth grybwyll
yr amgylchiadau uchod? † A ydwyf fi drwy hyn yn
gwrth-ddywedyd yr hyn a ddywedais o'r blaen, pen. 8.
4, "nad yw eilun ddim yn y byd?" neu yr hyn a
aberthwyd i eilun yn ddim? Nac ydwyf ddim: yr
ydwyf yn dàl càn gryfed â neb o honoch chwithau o
hyd, nad yw eilun ddim yn y byd; (gwel ar pen. 8. 4.)
ac nas gall eilun sancteiddio na halogi dim a aberthir
iddo, neu i'w ddelw. Yn eich gweithred chwi mae y
drwg, eich bod yn cyd-gyfranogi âg eilun-addolwyr;
eich gweithred chwi eich hunain sydd yn eich halogi
chwi, ac nid yr eilun, na'r hyn a aberthwyd i'r eilun.
Rhag-flaenu gwrthddadl mae yr apostol yma; yr oedd
efe megys yn rhag-weled, y buasai rhai o'r Corinthiaid
yn dywedyd rhywbeth fel hyn:—Os yw Paul yn beïo
cymmaint arnom am fwyta o'r hyn a aberthir i eilunod,
mae yn rhaid ei fod ef ei hun yn meddwl fod rhyw
beth o ddwyfoldeb mewn eilunod.

20 * Ond y pethau y mae y Cenhedloedd
yn eu [q] haberthu, i gythreuliaid y maent yn eu
haberthu, ac nid i Dduw. † Ni fynnwn i
chwi fod yn gyfrannogion â'r cythreuliaid.

q Lef. 17. 7. Deut. 32. 16, 17. 2 Cron. 11. 15. Salm 106. 38, 39. 2 Cor. 4. 4. Dat. 9. 20.

* Beth bynag oedd y paganiaid yn feddwl am eu
duwiau, nid oeddynt ddim amgen na chythreuliaid
(daimoniois) ysbrydion aflan cythreulig, yn twyllo y
trueiniaid tywyll, trwy roddi atebion iddynt allan o'r
delwau a addolent, a hwythau yn meddwl mai y gwir
Dduw oedd ynddynt, ac yn cyfrif yr atebion hyny yn
oraclau, neu leferydd Duw. Gan mai ysbrydion aflan
felly oedd eu duwiau, aberthau i gythreuliaid oedd eu
haberthau, ac nid i Dduw; a gallwn feddwl fod diafol
a'i angelion yn gwneyd eu goreu i gynnal addoliad o'r
fath hyn, o dra gelyniaeth yn erbyn Duw, ac er dian-
rhydedd iddo ef. † Dychymygai y paganiaid fod eu
duwiau yn bresenol gyda hwy yn yr aberthau hyn, ac
yn cyd-gyfranogi â'r addolwyr yn y wledd gyffredin;
trwy yr hyn yr oedd cymdeithas, brawdoliaeth, a chyf-

eillgarwch, yn ol eu tŷb hwy, yn cael eu meithrin rhyngddynt â'u duwiau, o herwydd eu bod yn eistedd wrth yr un bwrdd, ac yn bwyta o'r un ymborth. Ni fynai yr apostol i'r cristionogion fod yn gyfranogion â'r cythreuliaid, hyd yn nôd yn yr ystyr ddychymygol uchod.

21 r * Ni ellwch yfed o phïol yr Arglwydd, † a phïol y cythreuliaid. ‡ Ni ellwch fod yn gyfrannogion o ‖ fwrdd yr Arglwydd, a § bord y cythreuliaid.

r adn. 16. pen. 8. 10. Deut. 32. 37, 38. 1 Bren. 18. 21. Mat. 6. 24. 2 Cor. 6. 16, 17.

* Yr un peth yw "phïol yr Arglwydd" yma â "phïol y fendith" yn adn. 16: gwel y sylwad yno. † Wrth "phïol y cythreuliaid" y deallir y gwin, neu y ddïod-offrwm a aberthid i'r eilunod, ac a yfid fel peth wedi ei aberthu i eilunod yn eu gwleddoedd hwynt. ‡ Yr un pethau sydd i'w ddeall wrth "fwrdd yr Arglwydd a bord y cythreuliaid:" bwrdd y sacrament yw bwrdd yr Arglwydd, a bord y gwleddoedd eilun-addolgar yw bord y cythreuliaid. Dywed yr apostol nas gallai y cristionogion fod yn gyfranog o bob un o'r pethau uchod: nis gallent gydag un cysondeb âg anrhydedd Duw; gydag un cysondeb â'u proffes a'u henw da fel cristionogion; na chydag un cysondeb â'u lles ysbrydol, eu hadeiladaeth, a'u dïogelwch eu hunain. Ni ddylent gynnyg ar y fath beth, na dangos y tuedd lleiaf i hyny; gan mai un o brif ddybenion cristionogaeth oedd dystrywio pob eilun-addoliaeth allan o'r byd. ‖ "*Bwrdd* yr Arglwydd" a ddywedir yma, ac nid *allor;* o herwydd nid *aberth* yw swper yr Arglwydd, ond *gwledd* ar aberth. § Paham mae *bwrdd* a *bord* (llygriad o'r gair Saesoneg *board,)* yn y Gymraeg, nis gwyddom, oddigerth ei fod er amrywiaeth y sain; yr un gair Groeg *(trapèzês)* sydd yn y ddau le.

22 s * Ai gyrru yr Arglwydd i eiddigedd yr ydym? t † a ydym ni yn gryfach nag ef?

s Ex. 20. 5. a 34. 14. Deut. 4. 24. a 6. 15. a 32. 16, 21. Jos. 24. 19. Salm 78. 58. Zeph. 1. 18. t Job. 9. 4. a 40. 9—14. Ezec. 22. 14. Heb. 10. 31.

* Wrth wahardd eilun-addoliaeth yn Exod. 20. 5, mae yr Arglwydd yn dywedyd ei fod yn "Dduw-eiddigus;" ac mae eilun-addoliaeth yn cael ei ystyried gan Dduw yn odineb ysbrydol, a phawb sydd yn euog o hóno, yn enwedig pobl gyfammodol yr Arglwydd, maent yn ei ỳru ef i eiddigedd, fel gŵr yn eiddigeddu wrth ei wraig anffyddlawn: ni chymmer ef roddi ei ogoniant i arall, na'i fawl i ddelwau cerfiedig, heb eiddigeddu. Mae yn amlwg mai Crist yw yr "Arglwydd" yn yr adnod o'r blaen a hon; a chan fod yma gyfeiriad eglur at Exod. 20. 5, mae yn amlwg o ganlyniad, mai Crist oedd y "Duw eiddigus" yno: yr hyn sydd brawf arall dïymwad o'i wir a'i dragywyddol Dduwdod ef. † A ydym ni yn gryfach nag ef, i allu gwrthsefyll ei ddigofaint ef pan ennyno yn ein herbyn? Edrychwn ar ei farnedigaethau dychrynllyd ar yr Israeliaid gynt, adn. 5—10, a chrynwn rhag y daw y cyffelyb arnom ninnau, o gellwair ag eilun-addoliaeth drwy fwyta yn nhemlau yr eilunod.

23 u * Pob peth sydd gyfreithlawn i mi, † eithr nid yw pob peth yn llesâu: pob peth sydd gyfreithlawn i mi, ‡ eithr x nid yw pob peth yn adeiladu.

u Gwel ar pen. 6. 12. a 8. 9. Rhuf. 14. 15, 20. x pen. 8. 1. a 14. 3—5, 12, 17, 26. Rhuf. 14. 19. a 15. 2. 2 Cor. 12. 19. Eph. 4. 29. 1 Thes. 5. 11. 1 Tim. 1. 4.

* Taerai llawer yn Corinth, nad oedd dim niwed mewn bwyta o'r pethau a aberthid i eilunod, ond ei fod yn ddigon cyfreithlawn tra na byddent yn ei wneyd o barch i'r eilun, nac mewn ffordd o addoliad crefyddol iddo: yn ateb i hyny, mae yr apostol yn caniatâu y gallai y fath beth fod yn *gyfreithlawn;* † ond nad oedd bob amser, nac yn mhob amgylchiad, yn llesâu. Nid yw yn addas nac yn llesol i gristionogion bob amser, fyned hyd eithaf eu rhyddid, yn yr hyn sydd ynddo ei hunan yn gyfreithlawn iddynt: nid yw yn lles iddynt hwy eu hunain, o ran eu hysbryd, eu cydwybod, a'u henwau da; ac nid yw yn lles i'w brodyr gweiniaid, sydd yn cael eu tramgwyddo, eu rhwystro, a'u tristâu gan eu hymddygiad hwy. ‡ Mae y geiriau "Nid yw pob peth yn adeiladu" yn cadarnâu y sylwad uchod; ac yn dangos yn mha ystyr nid yw pob peth cyfreithlawn yn llesâu. Wrth "*bob peth* yn gyfreithlawn," rhaid i ni ddeall *llawer* o bethau; a thybia rhai nad yw bwyta o'r hyn a aberthwyd i eilunod yn un o'r llawer o bethau hyny, am fod yr apostol wedi dywedyd mòr grŷf yn ei erbyn o'r blaen.

24 y * Na cheisied neb yr eiddo ei hun; † ond pob un yr eiddo arall.

y adn. 33. pen. 9. 19—23. a 13. 5. Phil. 2. 4, 5.

* Ni ddylai yr un o ddysgyblion Iesu geisio ei bleser, ei fympwy, a'i elw bydol ei hunan yn unig; † ond dylai pob un ystyried ei hun yn rhwym i foddâu ei gymmydog hefyd, yn yr hyn sydd dda iddo er adeiladaeth. Rhuf. 15. 2. Nid yw cariad yn ceisio yr eiddo ei hun, ac ni wna ddrwg i'w gymmydog.

25 * Beth bynnag a z werthir yn y gigfa, bwyttêwch; † heb ofyn dim a er mwyn cydwybod.

z Rhuf. 14. 14. 1 Tim. 4. 4. Tit. 1. 15. a adn. 27—29. pen. 8. 7. Rhuf. 13. 5.

* Er ei fod yn beth tra phechadurus a niweidiol i fwyta o'r hyn a aberthwyd i eilunod yn nhemlau yr eilunod, neu mewn gwleddoedd eilun-addolgar gydag eilun-addolwyr fel y dangoswyd eisoes; (adn. 20—22.) eto, o ran y cristionogion eu hunain, gallent fwyta yn ddigon cyfreithlawn a diberygl, o bobpeth a werthid yn y farchnad gyhoeddus, fel ymborth cyffredin, † heb drallodi eu hunain i fanwl-hôli pa un ai peth wedi ei aberthu i eilunod ai peidio ydoedd. Gwel ar pen. 8. 1. Nid oedd y bwyd ddim gwaeth ynddo ei hunan o'i fod yn rhan o'r hyn a aberthasid i eilunod, na gwell os nad oedd; am hyny nid oedd achos gofyn dim yn ei gylch er mwyn cydwybod. Dywed un hanesydd paganaidd nad offrymai yr Aiphtiaid ond pen yr anifail i'r eilun; barnent yn anghyfreithlawn bwyta ei gorph, am hyny gwerthent ef i'r Groegiaid os gallent; ac os na allent, hwy a'i taflent i'r afon. Er nad oedd y ddefod hòno gan yr offeiriaid Groegaidd, eto byddai mwy o gig yr aberthau yn aml yn dyfod i'w rhan nag a allent hwy a'u teuluoedd fwyta; ac ar ryw amserau nodedig o aberthu, mae yn debyg mai cig o demlau yr eilunod a fyddai gan mwyaf yn eu marchnadoedd hwynt. Tafla hyna beth goleu ar y geiriau, "Beth bynag a werthir yn y gigfa."

26 b * Canys eiddo yr Arglwydd y ddaear, a'i chyflawnder.

b adn. 28. Ex. 19. 5. Deut. 10. 14. Job 41. 11. Salm 24. 1. a 50. 12. 1 Tim. 6. 17.

* Gan fod y ddaear a'i chyflawnder yn eiddo yr Arglwydd, (Salm. 24. 1.) ac yn eiddo yr Arglwydd Iesu hefyd fel Arglwydd pawb oll, ac Etifedd pob peth; mae yn rhydd i'r saint gyfranogi o'i drugareddau ef yn ddibetrusder, os na byddant yn gwybod am ryw achos yn groes i hyny. Nis gall eilunod, gau-dduwiau, a chythreuliaid, halogi na niweidio pethau da Duw; eto, dylid ystyried, pan fydder yn bwyta pethau wedi eu haberthu i gythreuliaid, yn wybodus, ac yn nhemlau yr eilunod, yr ydys yn eu derbyn megys o law y cythraul, ac fel hyny yn ymhalogi wrth eu derbyn a'u bwyta; ond pan y pryner hwynt fel pethau cyffredin, yn y gigfa, neu y farchnad gyffredin, yr ydys yn eu derbyn megys o law Duw, ac fel trugareddau Duw, ac mae yn gyfreithlawn eu bwyta fel rhan o gyflawnder y ddaear sydd yn eiddo yr Arglwydd.

27 * Os bydd i neb o'r rhai digred c eich gwahodd, † ac os mynnwch fyned; d ‡ bwyttêwch beth bynnag a rodder ger eich bron, ‖ heb ymofyn dim e er mwyn cydwybod.

c pen. 5. 9—11. Luc 5. 29, 30. a 15. 23. a 19. 7. d Luc 5. 7. e adn. 25. 2 Cor. 1. 18. a 4. 2. a 5. 11.

* Mewn amgylchiad arall, mae yn gyfreithlawn i gristion fwyta o'r hyn a aberthwyd i eilunod: os bydd ryw gymmydog, neu berthynas digred, paganaidd, ac eilun-addolgar, wahodd un o honoch i giniaw neu swper yn ei dŷ, mewn ffordd o gyfeillgarwch, † ac os bddwch yn ewyllysio myned er mwyn eu boddloni, a bw mewn heddwch cymmydogawl â hwynt; ‡ bwytewch beth bynag a rodder ger eich bronau yn ddiwahaniaeth, fel trugareddau Duw; || ond yn yr amgylchiad hwn, fel wrth brynu yn y gigfa, na ofynwch ddim er mwyn cydwybod, pa un ai pethau wedi eu haberthu i eilunod fydd ger eich bronau ai peidio. Nid gwledd gyfefyddol, er addoliad i'r eilun ydyw; eithr gwledd eilunaidd, er cyfeillgarwch rhwng cymmydogion neu berthynasau; am hyny gallwch fyned yn ddibetrus, a gwyta yn ddibetrusder hefyd, heb ofyn holiadau afreidiol, i rwystro eich cydwybodau eich hunain, a dyrysu a tramgwyddo y teulu.

28 * Eithr os dywed neb wrthych, † Peth wedi ei aberthu i eilunod yw hwn; f ‡ na bwyttêwch || er mwyn hwnnw yr hwn a'i mynegodd, ac er mwyn cydwybod: g § canys eiddo yr Arglwydd y ddaear, a'i chyflawnder.

f Gwel ar pen. 8. 10—13. Rhuf. 14. 15. g Gwel ar adn. 6.—Ex. 9. 29. Salm 115. 16. Jer. 27. 5, 6. Mat. 6. 31, 32.

* Eithr wedi myned, os dywed neb wrthych, yr hwn ych gwahoddodd neu ryw un arall presenol, † Peth wedi ei aberthu i eilunod yw hwn; ‡ yna er dangos ych atgasrwydd eithaf at eilun-addoliaeth, a phob peth a berthyn i'r fath bechod ffiaidd, na fwytêwch ac na phrofwch er dim o'r cyfryw fwydydd. || Na fwytewch er mwyn hwnw a'i mynegodd, rhag iddo gael ehlysur i'ch cablu chwi drachefn, am fwyta o'r hyn a berthwyd i eilunod, ac felly pleidio eilun-addoliaeth. Eu os brawd cristionogol yn y lle a'i mynega, na bwytêwch er mwyn hwnw; fel na thramgwyddoch ac na niweidioch ei gydwybod ef wrth eich gweled yn bwyta, eu fel na chryfâer ef wrth eich esampl chwi, i fwyta n groes i'w gydwybod. § Os na bydd yno ddim ond pethau wedi eu haberthu i eilunod, na fwytêwch ar ol mynegi hyny i chwi; gellwch gael digon o bethau cyfreithlawn i'w bwyta yn rhywle arall; canys megys y dywedwyd o'r blaen, (adn. 26.) eiddo yr Arglwydd y ddaear a'i chyflawnder. Mae yr apostol yn crybwyll y peiriau hyn i ddyben gwahanol yma, i'r hyn y crybwyllidd hwynt yn adn. 26: yno, i ddangos fod holl drugareddau Duw yn gyfreithlawn i'r saint eu bwyta; ma, i ddangos nad oedd raid iddynt fwyta o'r hyn a berthasid i eilunod, y gallent gael digon heb hyny.

29 * Cydwybod, meddaf, h nid yr eiddot ti, end yr eiddo arall: i † canys paham y bernir fy rhyddid i gan gydwybod un arall?

h adn. 32. pen. 8. 9—13. Rhuf. 14. 15—21. i Rhuf. 14. 16. 1 Cor. 8. 21. 1 Thes. 5. 22.

* Fel pe dywedasai yr apostol, Os ydych chwi yn ybied eich *hunain* yn ddigon gwybodus a chryfion, y gallwch fwyta o'r pethau a aberthwyd i eilunod heb analogi a niweidio eich cydwybod, eto er mwyn cydwybodau rhai eraill, ac yn enwedig cydwybodau eich brodyr gweiniaid, dylech beidio bwyta ar ol mynegi i chwi mai peth wedi ei aberthu i eilunod fydd ger eich bron. Cydwybod, nid yr eiddot dy hun yn *unig*, felly mae rhai yn deall y geiriau uchod. † Paham y dylwn na neb arall, arfer fy rhyddid cyn belled ag i dramgwyddo cydwybodau dynion eraill, a darostwng fy hun gael fy marnu gan eraill? Ond tybia rhai mai dadl rn ngenau y Corinthiaid cryfion a hunanol yw y geiriau hyn, fel pe dywedent, "Pa hawl sydd gan neb i barnu fy rhyddid I? a phaham y dylwn I oddef cael fy marnu a'm beio yn yr hyn sydd gyfreithlawn i mi, gan rai nad ydynt yn deall eu rhyddid cristionogol cystal â mi? A ddylwn I gymmeryd fy llywodraethu wrth farn a rhëol dynion eraill, lle mae Crist wedi fy ngadael yn rhydd," Clywsom rai dynion yn ymresymu yn debyg i hyna, ond nid dynion tyner eu cydwybodau oeddynt.

30 * Ac os wyf fi trwy ras yn cymmeryd cyfran, † paham y'm ceblir am y peth k yr wyf yn rhoddi diolch am dano?

k Rhuf. 14. 6. 1 Tim. 4. 3, 4.

* Os wyf fi trwy diriondeb rhagluniaeth yn cael y cyfle, a thrwy ras yr efengyl yn cael y rhyddid, i fwyta o bob peth yn ddiwahaniaeth, er ymgeledd a chynnaliaeth fy natur; † eto, paham y dylwn I arfer fy rhyddid hwnw cyn belled, a rhoddi achlysur i neb i gablu fy naioni I, (Rhuf. 14. 16.) a beio arnaf am fwyta o'r hyn yr wyf fi yn rhoddi diolch i Dduw am dano, er bod eraill yn meddwl nas gallaf fwyta heb bechu? Pa mòr gyfreithlawn bynag a fyddo i mi fwyta, pa mòr rhydd bynag a fyddo fy nghydwybod I fy hunan i fwyta, a pha mòr ddiolchgar bynag a fyddwyf am drugareddau Duw; eto dylwn beidio bwyta, yn hytrach na rhoddi achlysur i neb gablu, pa mòr ddisail a diachos bynag y byddo hyny. Ond gallwn ddeall y geiriau fel gwrthddadl y Corinthiaid, fel y sylwyd ar ddiwedd adn. 29; fel pe dywedent, Paham y ceblid ac y beiid hwynt gan eraill, am fwyta o'r hyn oeddynt yn gael trwy ras gan yr Arglwydd, ac yr hyn yr oeddynt yn diolch am dano fel trugaredd Duw.

31 * Pa un bynnag gan hynny l ai bwytta ai yfed, † ai beth bynnâg a wneloch, ‡ gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw.

l pen. 7. 34. Deut. 12. 7, 12, 18. Neh. 8. 16—18. Zec. 7. 5, 6. Luc 11. 41. Col. 3. 17, 23. 1 Pedr 4. 11.

Yn y tair adnod olaf hyn, mae yr apostol yn diweddgloi y mater hwn gyda thair rhëol gyffredin i gristionogion: 1. Gwneyd pob peth er gogoniant i Dduw. 2. Bod yn ddiachos tramgwydd i bawb. 3. Ceisio rhyngu bodd pawb, a cheisio llesâd llaweroedd. * Pa le bynag, yn mha gymdeithas bynag, ac ar ba achlysur bynag, y byddoch yn bwyta neu yn yfed; † a pha bethau bynag eraill o weithredoedd cyffredinol bywyd a wneloch, y rhai sydd gyfreithlawn ynddynt eu hunain; ‡ cedwch ogoniant Duw yn eich golwg, fel eich dyben penaf, ac ymddygwch yn mhob peth, yn y modd a dybioch chwi yn gydwybodol, a fyddo mwyaf er ei ogoniant ef. I'r dyben hyn, dylem ystyried gorchymynion Duw, addasrwydd a phriodoldeb ein gweithredoedd ein hunain, y lliw a all eraill roddi arnynt; ac yna ymddwyn a gweithredu yn ddoeth, yn gymmedrol, yn gydwybodol, yn gyson â'r gair, ac mewn cariad at ein brodyr, yn enwedig ein brodyr gweiniaid.

32 m * Byddwch ddiachos tramgwydd † i'r Iuddewon ac i'r Cenhedloedd hefyd, n ‡ ac i eglwys Dduw:

m adn. 33. pen. 8. 13. Rhuf. 14. 13. 2 Cor. 6. 3. Phil. 1. 10. n pen. 11. 22. Act. 20. 28. 1 Tim. 3. 5, 15.

* Dyma'r ail rëol: "byddwch ddiachos tramgwydd." Wrth "dramgwydd" yn gyffredin, byddwn ni yn deall, briwio, tristâu, neu anfoddloni a digio un; ond nid hyny a feddylir yma, eithr rhoddi achlysur i dynu eraill i bechod, i'w caledu mewn pechod, a chablu cref yddwyr am gydymffurfio yn ormodol â'r paganiaid eilun-addolgar. † Wrth fod yr Iuddewon a'r cenedloedd yma yn cael eu gosod mewn cyferbyniad i eglwys Dduw, rhaid i ni ddeall mai Iuddewon a chenedloedd heb eu dychwelyd oeddynt. Wrth weled y cristion yn bwyta o'r hyn a aberthasid i eilunod, cadarnêid rhagfarn a gelyniaeth yr Iuddew yn erbyn cristionogaeth, fel peth croes i'r gyfraith a'r prophwydi; ac hefyd cadarnêid y cenedl-ddyn paganaidd yn ei dŷb, nad oedd atgasrwydd y cristion at eilun-addoliaeth ddim yn wirioneddol, ond yn rhagrithiol; pe amgen pa fodd y bwytêai efe bethau wedi eu haberthu i eilunod. Yr oedd bron yn anmhosibl i gristionogion y pryd hwnw beidio a thramgwyddo y rhai nid oeddynt yn gristionogion mewn rhyw ffordd a'i gilydd; eto mae yr apostol yn eu hannog, na roddent ddim gwir *achos* tramgwydd

i neb o honynt. ‡ A mwy gofalus byth y dylent fod, rhag tramgwyddo eu brodyr gweiniaid, yn Iuddewon a chenedloedd; y rhai oedd yn gwneyd i fynu eglwys Dduw yn Corinth. Dylent wylied rhag tramgwyddo y rhai hyny, trwy eu hudo i fwyta pethau yn groes i'w cydwybod, neu dristâu a dolurio eu meddyliau wrth eu gweled hwy yn bwyta.

33 [o] * Megis yr ydwyf finnau yn rhyngu bodd i bawb ym mhob peth; † heb geisio fy llesâd fy hun, ‡ ond *llesâd* llaweroedd, fel y byddont hwy gadwedig.

o adn. 24. Gwel ar pen 9. 19—23.—Rhuf. 15. 2, 3. 2 Cor. 11. 28, 29. a 12. 19.

* Sef yn mhob peth cyfreithlawn, unol â gair Duw, ac oedd yn tueddu er ennill ac adeiladu eraill: (gwel ar pen. 9. 19—22:) nid oedd Paul yn ceisio rhy gu bodd neb yn groes i hyny. † Heb geisio ei feddwl, ei fympwy, ei barch, na'i elw ei hun; ‡ ond llesâd pawb eraill a allai efe, yn yr hyn oedd yn perthyn i w hiachawdwriaeth hwynt, fel y byddent hwy gadwedig. Dyma drydedd rëol yr apostol i'r cristionogion, ac mae yn ei roddi ei hun yn esampl iddynt, fel y crybwylla yn yr adnod flaenaf o'r bennod nesaf.

PEN. XI.

Paul yn ceryddu y Corinthiaid, am eu bod yn gweddio â pheth am eu penau, &c.

[a] * BYDDWCH ddilynwyr i mi, [b] † megis *yr wyf* finnau i Grist.

a pen. 4. 16. a 10. 33. Phil. 3. 17. 1 Thes. 1. 6. 2 Thes. 3. 9. Heb. 6. 12. b Rhuf. 15. 2, 3. Eph. 5. 1. 2. Phil. 2. 4, 5.

Mae *Doddridge* yn ei raniadau, yn gosod yr adnod hon gyda'r adnod olaf o'r bennod o'r blaen, ac felly y barna ein Hawdwyr ereill oll y dylasai fod: ond nid yw hyny o bwys mawr. * Mae yr apostol yn ei roddi ei hun yn esampl i'r Corinthiaid, "Byddwch ddilynwyr i mi," ebai efe; † ond gyda gwylder mawr, "Megys yr wyf finnau i Grist:" dim pellach na hyny. Nis gall un gweinidog ofyn na dysgwyl ychwaneg gan ei bobl, na'i ddilyn ef cyn belled ag y mae yntau yn dilyn Crist. Efallai bod yr apostol yma hefyd, yn lled daflu at y Corinthiaid, iddynt hwy ddilyn athrawon eraill, y rhai nid oedd yn gwneyd cydwybod fanol iawn o ddilyn Crist: ac fel hyny, mae y geiriau yn argyhoeddiadol iddynt hwy a'r athrawon hyny, os oeddynt yn eu deall felly.

2 [c] * Yr ydwyf yn eich canmol, frodyr, [d] † eich bod yn fy nghofio i ym mhob peth, [e] ‡ ac yn dal y traddodiadau, fel y traddodais i chwi.

c adn. 17, 22. Diar. 31. 28—31. d pen. 4. 17. a 15. 2. e pen. 7. 17. 1 Thes. 4. 1, 2. 2 Thes. 2. 15.

Mae yr apostol yma yn dechreu ar fater arall, ac yn myned i ymdrin âg amryw bethau perthynol i gyfarfodydd crefyddol cyhoeddus y Corinthiaid: * a chan ei fod yn myned i'w beio hwy am amryw bethau ag oedd yn feius iawn yn eu plith; mae yn tymheru eu hysbrydoedd hwy i dderbyn ei geryddon, trwy roddi canmoliaeth gyffredinol iddynt yn gyntaf. † Mae yn debyg bod y rhan oreu o'r eglwys yn Corinth yn haeddu y ganmoliaeth hon; eu bod yn cofio yr apostol yn eu gweddiau, yn cofio ei awdurdod apostolaidd ef gyda pharch; ‡ ac yn cofio ei athrawiaeth ef a'i addysgiadau yn mhob peth perthynol i drefniadau eglwysig, ac yn eu dàl ac yn eu cadw fel yr oedd ef wedi gorchymyn; a hyny efallai yn wyneb peth gwrthwynebiadau, oddi wrth gau-athrawon a dynion chwyddedig a phenrhydd eraill yn eu plith.

3 * Eithr mi a fynnwn i chwi wybod, mai pen pob gwr yw Crist; [g] † a phen y wraig *yw* y gwr; [h] ‡ a phen Crist *yw* Duw.

f Eph. 1. 22, 23. a 4. 15. a 5. 23. Phil. 2. 10, 11. Col. 1. 18. a 2. 10, 19. g Gen. 3. 16. Eph. 5. 22, 24. Col. 3. 18. 1 Tim. 2. 11, 12. 1 Pedr 3. 1, 5, 6. h pen. 3. 23. a 15. 27, 28. Es. 49. 3—6. a 52. 13. a 55. 4. a 61. 1—4. Mat. 28. 18. Ioan 3. 34—36. a 5. 20—30. a 14. 28. a 17. 2—5. Eph. 1. 20—22. Phil. 2. 7—11.

Yn y cyflawnder mawr o ddoniau ysbrydol oedd yn yr glwys yn Corinth, yr oedd yno amryw wragedd wedi eu ecynnysgaethu âg ysbryd prophwydoliaeth, yr hwn a'u galluogai hwynt trwy ysbrydoliaeth oruwch-naturiol, i weddio yn yr eglwys, neu gyngori, neu ragfynegi pethau i ddyfod. Dyma yr unig amgylchiad, yn yr hwn y caniatêir i wragedd lefaru yn gyhoeddus; ac er bod hyn trwy ddylanwad goruwch-naturiol ac anghyffredin; eto, fel hyny, ymlusgodd peth afrëolaeth i mewn. * I'r dyben o ddeall yr hyn oedd yn gweddu yn yr amgylchiad eithriol ac unig hwn; mynai yr apostol i'r Corinthiaid wybod ac ystyried, mai Crist, yn ei sefyllfa gyfryngol, ydoedd Pen a Llywodraethwr pob gŵr; a bod anrhydedd Crist yn ymddybynu ar ymddygiad pob gŵr: † ac mai y gŵr oedd pen union-gyrchol y wraig; i awdurdod yr hwn y darostyngodd Duw hi, ac y dianrhydeddid y gŵr trwy unrhyw ymddygiad anweddus yn y wraig: ‡ ac mai pen Crist, a'i ystyried yn ei sefyllfa gyfryngol, yw Duw; i ogoniant yr hwn yr oedd holl weinyddiad ei swydd gyfryngol ef yn tueddu. Gan hyny, fel yr oedd Crist yn gwneuthur ewyllys, ac yn ceisio gogoniant Duw; felly y dylai y cristion addef ei ymostyngiad i Grist, gwneuthur ei ewyllys a cheisio ei ogoniant ef; a dylai y wraig gydnabod ei darostyngiad i'w gŵr, a'i foddloni a'i anrhydeddu ef yn mhob peth cyfreithlawn a gweddus. Dywed yr apostol mai "pen Crist yw Duw" gyda golwg ar ei swydd gyfryngol ef, sef Crist; nis gall neb gasglu oddi wrth hyna nad ydyw Crist a Duw o'r un hanfod, ac yn ogyfuwch, fel Personau dwyfol; mwy nag y gellir casglu nad yw y gŵr a'r wraig o'r un natur ddynol, o herwydd y dywedir mai, "pen y wraig yw y gŵr."

4 * Pob gwr yn gweddio, [i] neu yn prophwydo, [k] † â pheth am *ei* ben, ‡ sydd yn cywilyddio ei ben.

i pen. 12. 10, 28. a 14. 1, &c. k adn. 14. 2 Sam. 15. 30. a 19. 4.

* Am brophwydo yn yr eglwysi yn y dyddiau hyny, sylwasom o'r blaen mewn amryw fànau yn y gwaith hwn: afraid yw sylwi yma eto. † Mae yn sicr mai arfer y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, yn gystal a'r Iuddewon, oedd bod â gorchudd ar eu penau yn eu haddoliadau crefyddol: ac mae yn sicr bod yr offeiriaid Iuddewig yn gwisgo math o benwisg pan fyddent yn gweini yn y deml. Ond mae yn ymddangos y byddai y gwŷr yn Corinth yn gwisgo gorchudd, o barch i draddodiadau Phariseaidd, ac i ddynwared defod yr Iuddewon yn y synagogau; yr hyn o herwydd hyny nid oedd yr apostol yn ei gymmeradwyo. Yn ngwledydd y dwyrain yr oedd gorchuddio y pen yn arwydd o ddarostyngiad, a bod heb orchudd yn arwydd o uchafiaeth; felly, os byddai gŵr yn gweddio, yn prophwydo, ac yn llefaru yn gyhoeddus â pheth am ei ben, neu orchudd ar ei wyneb, byddai yn ei ddangos ei hun islaw y rhai y byddai yn llefaru wrthynt; ‡ ac fel hyny yn dianrhydeddu Crist, ei Ben, (adn. 3.) yr hwn a'i dyrchafodd ef i'r anrhydedd hwn o weddio a phrophwydo yn yr eglwys: mae efe yn ymddwyn yn anweddus hefyd fel *gwr*, ac yn ymddangos fel pe byddai wedi ei osod mewn darostyngiad i'r *wraig*, yn lle bod mewn awdurdod arni hi; ac *fel hyny* mae yn cywilyddio, neu yn dianrhydeddu ei ben ei hun hefyd.

5 * Eithr pob gwraig yn gweddio, [l] neu yn prophwydo, yn bennoeth, † sydd yn cywilyddio ei phen: ‡ canys yr un yw a phe byddai wedi ei [m] heillio.

l Luc 2. 36. Act. 2. 17. a 21. 9. m Deut. 21. 12.

* O'r tu arall, pob gwraig yn gweddio, neu yn prophwydo yn gyhoeddus, dàn y dylanwadau a soniwyd; (adn. 3.) os gwna hi hyny yn ben-noeth, ac heb or-

hudd, † mae hi yn cywilyddio ac yn dïanrhydeddu y gŵr, yr hwn yw ei phen, (adn. 3.) trwy ymddwyn mewn dull mòr anweddus ger bron cynnifer o ddynion, gwrywaid, a fydd yn bresenol yn gyffredin mewn addoliad cyhoeddus. ‡ Byddai yn warth o'r mwyaf i wraig gael ei heillio o'i gwallt, yn enwedig gwraig grefyddol, anrhydeddus, a thàn ddylanwadau ysbrydol; ac nid yw gweddio neu brophwydo yn ben-noeth ddim gwell na bhe byddai wedi ei heillio. Arfer y gwŷr yn y gwleddd hyny oedd eillio eu gwallt yn fŷr iawn, ac arfer y rhyw fenywaidd oedd ei adael i dyfu yn llaes ac yn hir iawn: gan hyny gwarth fyddai eillio gwraig, a chymmaint gwarth yn nghyfrif yr apostol, oedd i wragedd ymddangos yn ben-noeth yn addoliad Duw: yr oeddynt yn tebygu gormod i offeiriadesau anniwair yr eilunod, i ddawnsient yn nhemlau yr eilunod â'u gwallt noeth rn hongian yn llaes ac yn annhrefnus o'u cwmpas. Mae yn debyg fod yr arfer anweddaidd hon yn eglwys Corinth; pe amgen ni soniasai yr apostol am dani.

6 * Canys os y wraig ni wisg *am ei phen,* † cneifier hi hefyd: [n] ‡ eithr os brwnt i wraig ei cneifio, neu ei heillio, || gwisged.

n Num. 5. 18.

* Os mŷn y gwragedd weddïo a phrophwydo yn ben-noeth fel gwrrywaid, a gwrthod y gorchudd, yr arwydd o'u darostyngiad i'w gwŷr; † cneifier eu gwallt hwy yn fŷr hefyd, fel y byddont yn debycach byth i wrrywaid: wydd hyny, er mòr warthus yw, yn weddeiddiach ger bron cynnulleidfa o ddynion, na'i fod yn hongian yn llaes, yn rhydd, ac yn annhrefnus o'u hamgylch hwynt. Dywedyd hyn i gywilyddio y gwragedd yr oedd yr apostol; nid am y mŷnai efe eu cneifio hwynt, ond am y mŷnai iddynt osod gorchudd gweddus ar eu penau. ‡ Ond gwyddai pawb mai peth tra anhardd, cywilyddus, anniwair, a chroes i bob arferiad, oedd i wraig ymddangos yn gyhoeddus, yn enwedig mewn cynnulleidfa crefyddol, wedi ei thalgrynu, neu dòri ei gwallt yn fŷr; am hyny gwisged orchudd gweddus ar ei phen a thros i gwyneb, fel y gweddai i wragedd wneyd pan anrhydder hwynt âg ysbryd prophwydoliaeth, ac ar bob amserau eraill o gyfarfodydd cyhoeddus.

7 * Canys gwr yn wir ni ddylai wisgo *am ei* ben, am [o] ei fod yn ddelw a gogoniant Duw: † a'r wraig yw gogoniant y gwr.

o Gen. 1. 26, 27. a 5. 1. a 9. 6. Salm 8. 6. Iago 3. 9. p adn. Gen. 3. 16.

* Gan fod y gŵr wedi ei osod yn ben y wraig, yn arlwydd a llywodraethwr ar y byd gweledig isod, ac fel yny yn gynddrychiolwr, yn "ddelw a gogoniant Duw;" ai ddylai wisgo am ei ben, i arwyddo darostyngiad anddas i'w ystlen: dylai y gŵr fod yn ben-noeth, i arwyddo y gallu, yr uchafiaeth, a'r awdurdod, a roddes Duw iddo, fel ei brif ddelw a'i ogoniant ef yn y byd. Crëwyd y wraig er anrhydedd i'r gŵr, ac er ymgeledd chynnorthwy iddo: crëwyd hi ar y cyntaf o hóno ef, negys gwrthran iddo; fel y mae delw a gogoniant Duw n adlewyrchu ynddo ef, felly mae ei ogoniant yntau yn dlewyrchu yn y wraig: hi yw y deiliad mwyaf anrhydddus a roddwyd dàn ei awdurdod ef; ac efe a all ymgoneddu ynddi hi, fel yr ymogoneddodd Adda yn Efa, an ddywedodd, "Hon weithian sydd asgwrn o'm hesyrn I, a chnawd o'm cnawd I; hon a elwir gwraig, blegid o ŵr y cymmerwyd hi." Er bod y wraig felly m ogoniant ei gŵr, eto nid yw yn ben ei gŵr; am hyny ylai hi wisgo am ei phen, i arwyddo ei hisafiaeth. Dylai gogoniant Duw fod yn ddatguddiedig, yn ddïorchudd, ac yn amlwg i bawb; ond dylai gogoniant y dyn bod yn guddiedig, a thàn orchudd gwylaidd a gweddus.

8 [q] * Canys nid yw y gwr o'r wraig; † ond wraig o'r gwr.

q Gen. 2. 21, 22. 1 Tim. 2. 13.

* Yn y grëadigaeth gyntaf, ni chrëwyd y dyn Adda o ylwedd y wraig, yr oedd ef yn bod o'i blaen hi; † ond wraig Efa a grëwyd o hóno ef, o un o'i asenau ef. Gen. 2. 22: am hyny dylai y wraig fod yn ddarostyngedig i'w gŵr, a gorchuddio ei phen yn arwydd o hyny.

9 * Ac ni [r] chrewyd y gwr er mwyn y wraig; † eithr y wraig er mwyn y gwr.

r Gen. 2. 18, 20, 24.

* Yn y grëadigaeth gyntaf hefyd, nid crëu y gŵr er mwyn y wraig a wnaed, nid oedd hi mewn bod y pryd hwnw; † ond crëu y wraig er mwyn y gŵr a wnaed, fel y byddai yn ymgeledd gymhwys ac yn gysur iddo, Gen. 2. 18: mae hyn eto yn dangos mai y gŵr yw pen y wraig, ac y dylai hithau fod yn ddarostyngedig iddo ef yn mhob peth cyfreithlawn a gweddus.

10 * Am hynny y dylai y wraig fod ganddi awdurdod ar *ei* phen [s] † o herwydd yr angelion.

s Preg. 5. 6. Mat. 18. 10. Heb. 1. 14.

* Am fod y wraig dàn awdurdod y gŵr, dylai fod ganddi orchudd ar ei phen mewn cynnulleidfâoedd cyhoeddus, i arwyddo ei hymostyngiad i'r awdurdod hyny. † Llawer o dybiau, nad ynt werth eu hadrodd yma, a fu gan ddynion am feddwl y geiriau hyn, "o herwydd yr angelion:" y dŷb fwyaf cyffredin, rhesymol, a gweddus hefyd yw, bod yr apostol yn cyfeirio at bresenoldeb angelion da yn nghynnulleidfâoedd y saint, fel edrychwyr arnynt, neu mewn rhyw ystyr yn gyd-addolwyr â hwynt: o herwydd hyny dylai y gwragedd (a'r gwŷr hefyd yn wir,) eu trefnu eu hunain yn y modd mwyaf addas a rhëolaidd, fel na byddai yr addolwyr nefol hyn yn dystion o ddim anaddas ynddynt ar achlysur mòr sanctaidd ag addoliad Duw. Mae y rhan fwyaf o'r tybiau eraill yn rhŷ ddychymmygol, a rhai o honynt yn wir yn rhŷ anweddus, i'w gosod i lawr yma.

11 * Er hynny [t] nid *yw* na'r gwr heb y wraig, na'r wraig heb y gwr, † yn yr Arglwydd.

t pen. 7. 10—14. a 12. 12—22. Gal. 3. 28.

* Rhag i neb gymmeryd achlysur oddi wrth eiriau blaenorawl yr apostol i dra-arglwyddiaethu yn afresymol ar eu gwragedd, mae efe yn dangos yma fod ar bob un o honynt eisiau help y llall, ac nas gall y naill wneyd yn gysurus heb y llall, mewn pethau bydol na chrefyddol. † Felly y trefnodd yr Arglwydd, iddynt fod yn ymgeledd ac yn gymmorth i'w gilydd: neu, ynte, meddwl y geiriau "yn yr Arglwydd" yw, bod y naill fel y llall yn yr Arglwydd o ran cyflwr grasol; yn Nghrist nid oes na gwrryw na benyw: pa fodd bynag y maent yn gwahaniaethu fel gŵr a gwraig, o ran uchafiaeth ac isafiaeth perthynasol; o ran eu cyflwr ysbrydol, a'u perthynas ysbrydol â Christ, bob un o honynt, nid oes dim gwahaniaeth. Cyd-etifeddion gras y bywyd ydynt yno.

12 * Canys yr un wedd ag *y mae* y wraig o'r gwr, † felly *y mae* y gwr trwy y wraig: [u] ‡ a phob peth *sydd* o Dduw.

u pen. 8. 6. Diar. 16. 4. Rhuf. 11. 36. Heb. 1. 2, 3.

* Fel yr oedd y wraig o'r gŵr yn ei chrëadigaeth ar y cyntaf; † felly o hyny allan byth mae y gŵr trwy y wraig, wedi ei eni o hóni, ac yn cael ei fagu a'i feithrin yn ei fabandod drwy ei gofal tyner hi. Am hyny eto, ni ddylai y gŵr dra-awdurdodi ar ei wraig; ond ymddwyn ati mewn cariad a thynerwch; a chyd fyw yn ymgeleddol i'w gilydd, mewn cyd-gordiad a serchawgrwydd. ‡ O Dduw mae eu crëu hwy yn ŵr ac yn wraig; o Dduw mae eu cyssylltu hwy mewn priodas fel y cyfryw; ac o Dduw mae bod y gŵr yn ben, a'r wraig yn ddarostyngedig iddo ef: am hyny dylid ymostwng yn dduwiol i'w drefniadau ef.

13 [x] * Bernwch ynoch eich hunain, † ai hardd yw i wraig weddïo Duw yn bennoeth?

x pen. 10. 15. Luc 12. 57. Ioan 7. 24.

* Nid oes neb a wel ei gyfeiliornad yn iawn, nes yr argyhoedder ef yn ei gydwybod ei hun o hóno: am hyny mae yr Arglwydd mewn llawer màn yn yr ysgrythyrau yn cyfeirio at farn a chydwybodau dynion eu hunain,

megys y mae yr apostol yn gwneyd yma. † Nid ai hardd yw i wraig *weddio*, yw y gofyniad; ond ai hardd yw i wraig weddio yn *ben-noeth* ger bron cynnulleidfa gyhoeddus, ac ymddwyn yn groes i drefn naturiol gwylder a gweddeidd-dra? Rhaid i bawb o honynt ateb yn ddiau, mai anhardd iawn ydoedd, a chroes i arfer eu cenedl; oblegid byddai y gwragedd Groegaidd bob amser, oddigerth offeiriadesau yr eilunod, yn gwisgo gorchudd pan ddeuent i gyfarfodydd cyhoeddus o unrhyw natur.

14 * Onid yw naturiaeth ei hun yn eich dysgu chwi, [y] † os gwallt-laes a fydd gwr, [z] mai ammharch yw iddo?

y 2 Sam. 14. 26. z pen. 14. 35.

* "Naturiaeth:" *deddf natur*, medd rhai; pe felly, buasai gwisgo llaes-wallt yn bechod ynddo ei hun i wrrywaid: ond mae yn amlwg nad yw, wrth fod y Nazarëaid yn ei wisgo felly. Wrth "naturiaeth," mae eraill yn deall *deddf cenedloedd;* ond nis gall hyny fod, oblegid mae llawer o genedloedd yn mhob oes, yn gwisgo eu gwalltau yn yr hyd mwyaf. Deddf *synwyr cyffredin*, medd eraill; ond mae synwyr cyffredin yr un peth agos yn mhawb: ac eto nid yw pawb yn gwisgo eu gwalltau yr un modd: rhai yn hir a rhai yn fŷr. *Arferiad cyffredin*, medd eraill: ond nis gall fod felly chwaith, oblegid nid oes, ac ni bu y fath arferiad cyffredin mewn un màn, ag i bawb dalgrynu eu gwalltau. *Tuedd naturiol*, medd eraill: nis gall fod felly chwaith; oblegid tuedd rhai gwrrywaid yn gystal â benywaid, yw gwisgo eu gwalltau yn yr hyd eithaf. Wrth "naturiaeth," mae eraill yn deall *gwahaniaeth yr ystlenau;* megys y deallir y gair yn Rhuf. 1. 26: onid yw gwahaniaeth yr ystlenau, neu wrrywaeth a benywaeth, yn dysgu hyn i ni? a hyn yw meddwl mwyaf tebygol y geiriau. Megys y mae ewyllys Duw i wrrywaid a benywaid ymwahaniaethu mewn gwisgiad, felly y dylent yn eu gwalltau hefyd; ‡ mae yr un mòr warthus i wrryw wisgo ei wallt yn hirllaes fel benyw, a phed ymwisgai mewn dillad benyw: mae yn ei anmharchu ei hun, ac yn ei ddangos ei hun yn ffol a merchedaidd.

15 * Eithr os gwraig a fydd gwallt-laes, † clod yw iddi: ‡ oblegid ei llaes-wallt a ddodwyd yn orchudd iddi.

* O'r tu arall, mae llaes-wallt ar wraig yn harddwch iddi; wedi ei wisgo yn drefnus ac yn weddus yn ol yr arferiad cyffredin, mae yn brydferthwch ac yn addurn iddi. † Ac nid hyny yn unig, mae yn glod iddi, ei bod yn cadw i fynu yr arwydd cyffredin o'i bod yn foddlawn i'r sefyllfa y gosododd Duw hi ynddi, fel y llestr gwanaf, ac mewn darostyngiad i'r gŵr. ‡ Y llaes-wallt hwn yw y gorchudd cyntaf, a roddes y Crëawdwr i wraig, pan oedd yn ei hystâd o ddiniweidrwydd perffaith, cyn erioed ddyfeisio yr un gorchudd arall, na bod angen am dano.—Yn yr yr adnodau hyn, dysgir i ni, 1. Y dylai gwŷr a gwragedd, hyny yw, gwrrywaid a benywaid, drefnu eu gwalltau yn y fath fodd fel ag i gadw gwahaniaeth rhwng yr ystlenau. 2. Na ddylai gwrrywaid o unrhyw oedran, ddim gwisgo eu gwalltau fel benywaid, yn hir-llaes, yn annhrefnus, neu wedi ei gyrchu yn fodrwyog a thwmpathog o amgylch eu penau; yr hyn sydd yn dangos tymher falch, göegaidd, fursenaidd, fenywaidd, ac annynol iawn, ac anaddas iawn i symledd a gweddeidd-dra cristionogol. Byddai yn burion i lanciau crefyddol Cymru, yn enwedig yn y trefydd, gymmeryd y wers hon at eu hystyriaeth: os tybiodd yr apostol yn angenrheidiol sylwi ar y fath beth, nid yw islaw ein sylw ninnau.

16 * Od oes neb [a] * a fyn fod yn ymrysongar, † nid oes gennym ni [b] gyfryw ddefod, ‡ na chan [c] eglwysi Duw.

a 1 Tim. 6. 3. b Act. 21. 21, 24. c pen. 7. 17. a 14. 33, 34. a 16. 1. 1 Thes. 2. 14.

* Ond wedi y cwbl a ddywedwyd yn nghylch y pethau uchod am wŷr a gwragedd, od oes neb o'ch gau-athrawon chwi, neu ryw rai eraill gwrthwynebus yn eich plith, a fŷn ddadleu yn ymrysongar dros y fath arferiadau gwrthun; † y cwbl a ddywedaf fi yn chwaneg yw, nad oes genym ni y gwir apostolion y fath ddefod, a chyndyn-ddadleu am bethau felly: ac nid oes genym ni gyfryw ddefod, ag i wŷr weddio neu brophwydo â pheth am eu penau (adn. 4.) ac i wragedd weddio neu brophwydo yn bennoeth (adn. 5.) ‡ Nid oes y fath ddefod yn cael ei goddef na'i chynnyg yn eglwysi Duw ychwaith, yn un màn arall; yn eich plith chwi yn Corinth, yn unig, y mae y fath ddefod hell, anweddaidd, ac annaturiol, yn cael ei harfer a'i goddef.

17 * Eithr wrth ddywedyd hyn, [d] † nid ydwyf yn *eich* canmol, [e] ‡ eich bod yn dyfod ynghyd, nid er gwell, ond er gwaeth.

d adn. 2, 22. Lef. 19. 17. Diar. 27. 5. Rhuf. 13. 3. 1 Pedr 2. 14. e adn. 20, 34. pen. 14. 23, 26. Es. 1. 13, 14. a 58. 1—4. Jer. 7. 9, 10. Heb. 10. 25.

* Ac wrth sôn am ddynion ymrysongar, ac arferion anweddaidd gwŷr a gwragedd yn eglwys Corinth; yr oedd peth arall, beïus iawn yn eu plith hwynt, yn dyfod i feddwl yr apostol. † Er y chwennychai eu canmol hwynt pe gallasai, ac er iddo ganmol rhai o honynt am ryw bethau; (adn. 2.) eto nid oedd yn eu canmol, ac nis gallai eu canmol, am y pethau blaenorawl a enwodd, nac am y pethau canlynol mae yn myned i'w henwi. ‡ Yr oeddynt mòr afrëolus a didrefn yn eu cyfarfodydd crefyddol, fel yr oeddynt yn troi allan yn aml, nid er lles ysbrydol iddynt hwy, ac er gogoniant Crist; ond yn hytrach er niwed mawr iddynt hwy eu hunain, ac er dianrhydedd mawr i enw yr Arglwydd Iesu.

18 * Canys yn gyntaf pan ddeloch ynghyd yn yr eglwys, [f] † yr ydwyf yn clywed fod ymrafaelion yn eich mysg chwi; ‡ ac o ran yr wyf fi yn credu.

f pen. 1. 10—12. a 5. 1. a 6. 1.

* I enwi un peth yn gyntaf. pan ddeuent at eu gilydd fel eglwys, i ymarfer â rhyw ranau o waith yr Arglwydd, ac âg ordinâdau yr efengyl; † yr oedd yr apostol wedi clywed fod ymrafaelion yn aml yn eu plith hwynt: nid ymraniadau *oddi wrth* yr eglwys, ond ymrafaelion *(schismata) yn* yr eglwys; ac yn yr ystyr hyn mae yr apostol yn defnyddio y gair *schismata* yn pen. 1. 10. a 12. 25, yr unig fanau yn y Testament Newydd, heblaw y fàn hon, lle sonir am ymbleidiadau eglwysig. Gan hyny, yn ol syniad yr ysgrythyrau, mae y pechod hwn yn beth gwahanol iawn i ymadawiad rhëolaidd *oddi wrth* eglwysi cyfeiliornus a llygredig; yr hyn y croch-lefwyd yn ofnadwy yn ei erbyn fel *rhwygiad*, mewn oesoedd diweddarach; ac a ddefnyddiwyd fel achlysur o'r erledigaethau mwyaf creulawn a gwaedlyd a ddyoddefodd y byd cristionogol erioed. Gallwn weled ychydig o destynau yr amrafaelion yn Corinth, yn yr adnodau a ganlyn; amrafaelient yn nghylch bwydydd a dïodydd, trefn eu heisteddiad i lawr, yr amser i ddechreu, ac nid arosent hyd oni ddeuai pawb yn nghyd, &c. ‡ Yr oedd yr apostol yn gorfod credu yr hyn a glywsai am yr amrafaelion hyn mewn rhan, ac âm rai o honynt; yr oedd efe yn gwybod yn rhŷ dda am dymherau y Corinthiaid, mòr dueddol oeddynt i amrafaelio fel hyn.

19 [g] * Canys rhaid yw bod hefyd † heresiau yn eich mysg, ‡ fel y byddo [h] y rhai cymmeradwy yn eglur yn eich plith chwi.

g Mat. 18. 7. Luc 17. 1. Act. 20. 30. 1 Tim. 4. 1, 2. 2 Pedr 2. 1, 2. h Deut. 13. 3. Luc 2. 35. 2 Cor. 13. 5—7. 1 Ioan 2. 19.

* Wrth ystyried llygriad y natur ddynol, ac mòr brysur oedd Satan a'i offerynau i hau efrau yn mhlith y gwenith; nis gellid llai na dysgwyl amrafaelion, a heresiau hefyd yn yr eglwysi, ac yn enwedig yn eglwys Corinth, oedd yn cael ei dyrysu gan gynnifer o gau-athrawon chwyddedig. Gwel ar Matth. 18. 7. † Mae yn amlwg fod yr "heresiau" a enwir yma yn rhywbeth gwaeth na'r "amrafaelion" yn yr adnod o'r blaen;

wyrni mewn athrawiaeth, efallai, a llygriad mewn dysgbliaeth, a phurdeb addoliad Duw: ac mae yn amlwg n pen. 15, fod rhai o'r Corinthiaid yn gyfeiliornus am r adgyfodiad. ‡ Mae gan Dduw ddybenion doeth yn i olwg ei hun, pan mae yn goddef amrafaelion a eresiau o'r fath hyn yn yr eglwysi: trwy hyn mae y iwir gristionogion yn cael eu profi, yn ymddysgleirio n fwy amlwg, yn cael eu dangos yn gymmeradwy gan duw, ac yn rhagori yn eglur ar y rhith gristionogion.

20 * Pan fyddoch chwi gan hynny yn yfod ynghyd i'r un lle, † nid bwytta swpper rr Arglwydd ydyw *hyn*.

* Dywedir nad yw y geiriau Groeg ddim o angenheidrwydd yn arwyddo, "i'r un lle;" y gellid eu cyfieithu yn llawn gystal, "i'r un peth;" mae pob un yn ir yma, yr oeddynt yn dyfod nghyd i'r un peth, sef wyta swper yr Arglwydd; ac i'r un lle i wneyd y peth wnw: † ond nid oeddynt yn ei wneyd yn iawn o lawer, mae yr apostol yn dywedyd mai nid bwyta swper yr rglwydd ydoedd, gan mòr annheilwng y dull oedd rnynt yn ei wneyd. Mae y sacrament yn cael ei alw n "swper yr Arglwydd," o herwydd mai yr Arglwydd esu a'i sefydlodd, ac o herwydd ei fod yn goffadwriaeth dangosiad o farwolaeth yr Arglwydd Iesu Grist.

21 [i] * Canys y mae pob un wrth fwytta, yn ymmeryd ei swpper ei hun o'r blaen; [k] † ac un sydd â newyn arno, ‡ ac arall sydd yn eddw.

i adn. 23—25. pen. 10. 16—18. k 2 Pedr 2. 13. Judas 12.

* Er eu bod yn proffesu mai dyfod yn nghyd i fwyta swper yr Arglwydd yr oeddynt, eto nis gellid dywedyd u bod yn gwneyd hyny; ond yn hytrach yn sefydlu wledd gnawdol iddynt eu hunain yn lle swper yr Arlwydd: oblegid yr oeddynt yn dwyn eu hymborth eu unain gyda hwynt, ac yn bwyta bob un o'r neilldu; eb aros wrth eu gilydd, na chyd-gyfranogi â'u gilydd. fn lle bod yr holl eglwys yn bwyta o'r un bara, ac yn fed o'r un cwpan, i arwyddo cyd-gymundeb mewn ariad brawdol, a chyd-gymdeithas â Christ; yr oedd ob plaid yn dwyn eu bwyd eu hunain, ac yn bwyta eu wper eu hunain pan oedd yn barod, cyn bod eraill yn wyta yr eiddynt hwy: ac yn lle cymmeryd ychydig fara gwin, fel arwyddion sacramentaidd o gorph a gwaed rist, yr oedd rhai o honynt yn gwneuthur pryd cyflawn hóni, † pan fyddai eraill o'u brodyr tlodion yn eu ymyl â newyn arnynt, oblegid nad oedd ganddynt ymborth i'w dwyn gyda hwynt i'r lle. Fel hyn yr oedd y Corinthiaid yn euog o ddau fai gwrthun iawn: yn 1. Yr eddynt yn bwyta swper yr Arglwydd fel pe buasai wledd gyffredin, gan dybied ei fod yn ddigon iddynt eddwl rhyw beth am farwolaeth Crist, wrth fwyta y ryd cyffredin hwn o fara a gwin: yn 2. Yr oeddynt yn mddwyn yn awyddus, yn wancus, ac yn angharedig awn, tuag at eu brodyr tlodion yn y *gwleddoedd* hyn; aeb gyd-gyfranogi â hwynt, a hwythau â newyn arnynt. Pan fyddai y Groegiaid yn cyd-gyfarfod i gyd-wledda a gyfeillgar, byddai pob un yn dwyn ei ymborth ei un; ac nid oeddynt bob amser yn cyfranu o'u hymborth i'r rhai tlodion a fyddai yn bresenol, mòr haelonus ag yr oedd deddfau cyfeillgarwch yn gofyn: fel yny gallai rhai fod â newyn arnynt, ac eraill wedi wyta ac yfed i ormodedd; ac yr un modd, mae yn debyg, y byddent yn ymddwyn wrth fwyta swper yr Arlwydd, yr hyn sydd yn ymddangos yn wrthun dros ben ni. ‡ Dywedir y byddai y Groegiaid a'r Iuddewon efyd, yn yfed i feddwdod yn aml yn eu gwleddoedd refyddol. Tybiai y cristionogion Iuddewig fod yn *haid* iddynt yfed yn helaeth ar yr achlysuron hyn, fel r eu hen wyliau Iuddewig gynt; pedwar cwpanaid hawr o win, ar swper y pasg, medd *Lightfoot;* a bod yn ollawl feddw ar wyl y Pwrim, medd *Buxtorf:* ac os edd yr Iuddewon dychweledig fel hyn, beth a allwn dysgwyl amgen ar y paganiaid newydd eu dychwelyd ddi wrth hen arferion eilun-addolgar? Yfed yn dda, yn fwy nac arferol, mwy na digon, efallai, yw ystyr y gair *methuei*, a gobeithia rhai na byddai y Corinthiaid yn *meddwi*, yn ystyr eithaf y gair.

22 [l] * Onid oes gennych dai i fwytta ac i yfed? [m] † ai dirmygu yr ydych chwi eglwys Dduw, ‡ a gwaradwyddo y rhai nid oes ganddynt? ‖ Pa beth a ddywedaf wrthych? a ganmolaf fi chwi yn hyn? § Nid wyf yn *eich* canmol.

l adn. 34. m pen. 10. 32. a 15. 9. Act. 20. 28. 1 Tim. 3. 5, 15.

* Pa beth a ellir ddywedyd am y fath ymddygiad gwarthus a hyn? Onid oes genych dai gartref i fwyta ac i yfed ynddynt? ac oni ellwch alw eich cyfeillion i gyd-wledda â chwi yno? Ai dirmygu lle addoliad Duw yr ydych, a'i wneyd yn gydradd â themi yr eilunod? neu ai dirmygu eglwys gynnulledig Duw yr ydych, fel pe byddent gymdeithas o feddwon afrëolus? A ydych chwi yn tybied mòr ysgafn o ordinâd sancteiddiaf yr Arglwydd Iesu ag y tröwch hi yn achlysur o lythineb a meddwdod? Na thybiwch mai bwyta swper yr Arglwydd yw peth fel hyn; mae y weithred yn ddrwg o herwydd eich dull afrëolus chwi o'i chyflawni: byddai y fath afrëolaeth yn anweddus yn eich tai eich hunain, chwaithach yn eglwys Dduw, a thàn rith o fwyta swper yr Arglwydd. ‡ Ai dyfod at eich gilydd yr ydych chwi y cyfoethogion i waradwyddo y saint tlodion, y rhai nid oes ganddynt ddim i'w fwyta yn y swper hon? Dylasech ddangos eich cariad atynt yma yn enwedig, a chyfranu iddynt o'ch gormodedd chwi, ac nid eu gadael mewn newyn o dra dirmyg a difaterwch am danynt. ‖ Pa beth a ddywedaf wrthych? A fynwch chwi i mi fel apostol Iesu Grist eich canmol chwi yn y fath arferiadau anfrawdol, halogedig, a chnawdol? § Na wnâf, nis gallaf eich canmol; ac wrth ddywedyd felly, yr wyf fi yn rhoddi i chwi y cerydd trymaf, dylech ei ystyried felly.

Mae bron yn anghredadwy y gallai eglwys gristionogol fyned i'r fath arferion halogedig gydag ordinâd sanctaidd, mòr fuan wedi bod yr apostol gyda hwynt ond yr oedd gwleddoedd cyhoeddus y Groegiaid yn aml yn cael eu dwyn yn mlaen fel hyn; oddi wrth ba rai yr oedd y cristionogion yn cymmeryd yr arferiad gyda swper yr Arglwydd. Yr oedd yr athrawon hunanol a chwyddedig yn Corinth hefyd, yn coledd eu syniadau am ryddid cristionogol, i eithafoedd mwy nag a allwn ni ddirnad yn awr: nid yn unig yr oeddynt yn cyduno â'u cymmydogion paganaidd mewn gwleddoedd eilunaddolgar; ond yr oeddynt yn dwyn arferion y gwleddoedd hyny i mewn i'r eglwys, ac felly yn cam-arfer yr ordinâd sanctaidd yn gywilyddus ac yn bechadurus iawn. Ac, i ddangos ynfydrwydd doethineb ddynol, cawsent eu gadael fel hyn, i'w gwarthruddo eu hunain yn fwy nac yr un eglwys arall; oblegid eu bod hwy yn tybied eu hunain yn ddoethach na phawb eraill.

23 [n] * Canys myfi a dderbyniais gan yr Arglwydd † yr hyn hefyd a draddodais i chwi; ‡ Bod i'r Arglwydd Iesu, [o] y nos y bradychwyd ef, [d] gymmeryd bara:

n pen. 15. 3. Deut. 4. 5. Mat. 28. 20. Gal. 1. 1, 11, 12. 1 Thes. 4. 2. o Mat. 26. 2, 17, 34. p Mat. 26. 26—28. Marc 14. 22—24. Luc 22. 19, 20. Act. 20. 7.

* Nid gan ddyn y derbyniodd Paul ddim o'i weinidogaeth, nac y dysgwyd ef ynddi, (Galat. 1. 12.) eithr gan yr Arglwydd Iesu: nid oedd efe yn bresenol pan sefydlodd Crist y sacrament, neu y swper sanctaidd gyda'i ddysgyblion, ac nis galwyd ef hyd ryw yspaid o amser ar ol esgyniad Crist i'r gogoniant; ac eto efe a dderbyniodd ei gyfarwyddiadau yn ei chylch gan yr Arglwydd, mewn modd digyfrwng yn ddiammau, fel y derbyniodd Moses hysbysrwydd am bethau a wnaed ac a gymmerasent le cyn ei eni ef. Mae yn beth nodedig fod y mater hwn yn rhan o'r datguddiad a roddodd yr Arglwydd Iesu i Paul; ac mae yn brawf cadarn fod

swper yr Arglwydd i barâu yn yr eglwys hyd ddiwedd y byd. † Yr oedd yr apostol wedi traddodi yr athrawiaeth am swper yr Arglwydd o'r blaen, pan oedd efe gyda hwynt, a phan gorpholodd efe hwy yn eglwys: ac yma yr oedd eisiau ail draddodi yr un pethau, i'w diwygio hwy oddi wrth yr annhrefn uchod oedd wedi dyfod i'w plith. ‡ Am y geiriau hyn gwel ar Matth. 26. 26, &c.; Marc 14. 22, &c.; a Luc 22. 19, &c.

24 * Ac wedi iddo ddïolch, † efe a'*i* torrodd, ac a ddywedodd, ‡ Cymmerwch, [q] bwyttêwch; [r] || hwn yw fy nghorph, § yr hwn a dorrir trosoch: gwnewch hyn er coffa am danaf.

q pen. 5. 7, 8. Salm 22. 26, 29. Diar. 9. 5. Can. 5. 1. Es. 25. 6. a 55. 1—3. Ioan 6. 53—58. r adn. 27, 28. pen. 10. 3, 4, 16, 17.

* "Ac wedi iddo ddïolch" i Dduw, rhoddwr pob bendith dymmorawl ac ysbrydol, a gofyn ei fendith ef ar y bara, i'r perwyl yr oedd yn cael ei neilldüo iddo, yr hyn a wneir o hyd gan bob gweinidog yn y weddi o flaen neilldüad yr elfenau. † "Efe a'i tòrodd," yn arwydd o ddrylliad ei gorph sanctaidd dros ei bobl. Gweithred hanfodol yn ngweinyddiad y sacrament yw tòri y bara, a thywallt y gwin hefyd, heb hyny ni byddwn yn dangos marwolaeth yr Arglwydd: ac *wedi* dïolch a gofyn bendith y gwnaeth Iesu hyn, nid *cyn* hyny. ‡ I arwyddo eich bod yn derbyn Crist a'i aberth mawr, yn ymddiried ynddo, ac yn ymborthi trwy ffydd arno. || Hwn yw yr arwydd o fy nghorph: nid yw y bara ond bara fel o'r blaen, eithr yn y neilldüad sacramentaidd a wnaed arno, mae yn arwydd o gorph Crist. § Nid yw y geiriau hyn gan Matthew na Marc, ac, "yr hwn yr ydys yn ei roddi drosoch," sydd yn Luc 22. 19.

25 * Yr un modd *efe a gymmerodd* y cwppan, wedi swpperu, gan ddywedyd, [s] Y cwppan hwn yw [t] y testament newydd yn fy ngwaed: gwnewch hyn, cynnifer gwaith bynnag yr yfoch, er coffa am danaf.

s adn. 27, 28. t Luc 22. 20. 2 Cor. 3. 6, 14. Heb. 9. 15—20. a 13. 20.

* Mae y geiriau "wedi swperu" yn dangos nad oedd cymmeryd y bara a'r gwin hwn yn un ran o swper y pasg, yr hon oeddynt newydd orphen; ond yn rhywbeth hollawl wahanol i'r swper hòno, yn dyfod i mewn yn ei lle, ac yn rhoddi terfyn arni byth. † I'r dyben o'i gofio ef, ei gariad a'i ddyoddefiadau, yr ordeiniodd Iesu y swper sanctaidd; ac i'r dyben hyny y dylem ninnau yn wastad gyfranogi o hóni, fel y caffo effaith sanctaidd ar ein calonau a'n bucheddau.

26 * Canys cynnifer gwaith bynnag y bwyttâoch † y bara hwn, ‡ ac yr yfoch y cwppan hwn, || y dangoswch farwolaeth yr Arglwydd [u] § oni ddelo.

u pen. 4. 5. a 15. 23. Ioan 21. 22. Act. 1. 11. 1 Thes. 4. 16. 2 Thes. 2. 2, 3. Heb. 9. 28. 2 Pedr 3. 10. 1 Ioan 2. 28. Dat. 1. 7. a 20. 11, 12. a 22. 20.

* Geiriau a dderbyniodd yr apostol gan yr Arglwydd yw y rhai hyn, nid ydynt yn yr un o'r Efengylwyr. † Bara y gelwir y bara ar ol ei gyssegru; nid oes air o sôn ei fod yn troi yn wir gnawd Crist, ond yn unig yn athrawiaeth ynfyd y Pabyddion. ‡ Yr oedd yr holl eglwys yn Corinth yn yfed o'r cwpan yn gystal ag yn bwyta o'r bara; athrawiaeth anghrist yw attal y cwpan oddi wrth bawb ond yr offeiriaid. || Yn y sacrament sanctaidd yr ydys yn "dangos marwolaeth yr Arglwydd;" hyny yw, yr ydys yn proffesu ffydd ynddo ef a'i aberth, yn ei ddangos i Dduw, i'n cydwybodau ein hunain, ac i'r holl fyd, fel unig obaith pechadur am fywyd tragywyddol. Mae rhai yn deall y geiriau yn y modd gorchymynol; Dangoswch farwolaeth yr Arglwydd: bydded hyny yn ddyben genych bob amser wrth gyfranogi o'r sacrament. § Mae yr ordinâd hon i barâu hyd oni ddelo yr Arglwydd Iesu yn y dydd mawr diweddaf, i gymmeryd ei holl waredigion ato i'r nef, lle ni bydd eisiau yr ordinâdau presenol i gofio am dano nac i ddangos ei farwolaeth ef. Ceir ei weled ef yno yn wastad megys ag y mae; fel Oen megys newydd ei ladd byth.

27 Am hynny, [x] pwy bynnag a fwyttâo y bara hwn, neu a yfo gwppan yr Arglwydd * yn annheilwng, [y] † euog fydd o gorph a gwaed yr Arglwydd.

x pen. 10. 21. Lef. 10. 1—3. 2 Cron. 30. 18—20. Mat. 22. 11 Ioan 13. 18—27. y adn. 29.

* "Yn annheilwng:" neu mewn agwedd a dull anaddas. Nid annheilyngdod y *person*, o ran ei *gyflwr* rhyngddo â Duw, a feddylir yma; ond cyfranogi mewn *dull* annheilwng: gall *person* a fyddo yn deilwng o ran ei gyflwr, gyfranogi mewn *dull* annheilwng yn aml; pan fyddo yn cymmeryd o swper yr Arglwydd yn dywyll am ei natur, mewn ysbryd anmharchus, yn ddigariad at Grist, yn ddiofid am ei bechodau a aethant heibio; heb fod mewn perffaith gariad tuag at bob dyn, ac heb sier amcanu dilyn buchedd newydd. Mae yr apostol yn cyfeirio yn ddïammau at y cenfigenau, yr ymrysonau, a'r ymbleidio, oedd yn Corinth; yn nghyd â'r aflywodraeth a grybwyllodd uchod, yn adn. 20—22. † A fydd yn euog o anmharchu yr ordinâd sanctaidd hon, yr hon sydd yn arwydd coffadwriaethol o gorph a gwaed yr Arglwydd: mae anmharchu arwydd o beth, yn anmharch ar y peth mae yn arwydd o hóno; fel y mae anmharchu llun brenin, yn anmharch ar y brenin ei hun. Mae y cyfryw un yn euog i raddau pell, o fathru Mab Duw, a barnu megys yn aflan, neu gyffredin, waed y cyfammod, trwy yr hwn y sancteiddiwyd ef: ydyw, mewn effaith, yn ail-groeshoelio iddo ei hun y Cyfryngwr mawr, ac yn ei osod yn watwar.

28 [z] * Eithr holed dyn ef ei hun; [a] † ac felly bwyttâed o'r bara, ac yfed o'r cwppan.

z adn. 31. Salm 26. 2—7. Galar. 3. 40. Hag. 1. 5, 7. Zec. 7. 5—7. 2 Cor. 13. 5. Gal. 6. 4. a Num. 9. 10—13. Mat. 5. 23, 24.

* Eithr er rhagflaenu y fath euogrwydd dychrynllyd, "holed pob dyn ef ei hun;" a ydyw efe yn adnabod Crist, yn ei garu, ac yn credu ynddo mewn gwirionedd. A ydyw efe yn deall natur a dyben yr ordinâd sanctaidd: a ydyw efe yn gymhwys o ran grasau, edifeirwch, ffydd, cariad, ac ufudd-dod efengylaidd, i gyfranogi o'r sacrament sancteiddiol: ac a ydyw efe yn addas o ran buchedd ac ymarweddiad cyffredin, i nesâu at fwrdd yr Arglwydd. Darpariaeth i'r plant yw y sacrament, nid i gŵn; i frodyr a chyfeillion Crist, ac nid i'w elynion rhagrithiol ef; am hyny "holed dyn ef ei hun." † Gyda'r holiadau difrifol, a'r ymarferiadau grasol hyn, bwytâed y cyfryw un o'r bara, ac yfed o'r cwpan, er y caiff ynddo ei hun lawer o bethau i ymofidio o'u herwydd.

29 * Canys yr hwn sydd yn bwytta ac yn yfed yn annheilwng, † sydd yn bwytta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun, [b] ‡ am nad yw yn iawn-farnu corph yr Arglwydd.

b adn. 24, 27. Preg. 8. 5. Heb. 5. 14.

* Gwel ar adn. 27. † Yr hwn sydd yn bwyta ac yn yfed yn annheilwng, nid yw yn cael dim lles iddo ei hun; ac nid hyny yn unig, ond mae yn tynu barnedigaeth a cherydd tymmorol Duw arno ei hun, o herwydd bwyta ac yfed yn annheilwng. Barnedigaeth dymmorol, yn ddïammau, a feddylir yma wrth y gair *krima*, megys hefyd yn 1 Pedr 4. 17; ac nid damnedigaeth dragywyddol, fel yr ofnodd llawer dyn duwiol gwàn ei feddwl, ac y bu yn achlysur i gadw rhai yn ol oddi wrth fwrdd yr Arglwydd. ‡ Yr annheilyngdod, a'r achos o'r farnedigaeth uchod yw, am nad ydys "yn iawn-farnu corph yr Arglwydd:" nid ydys yn ystyried y bara a'r gwin yn y sacrament yn arwyddion o gorph a gwaed Crist; ond yn eu cymmeryd yn anystyriol, yn ddibarch, fel bwyd cyffredin arall. Pwy a fedr ddarllen adn. 20—22 o'r bennod hon, heb weled mai felly yr oedd y

Corinthiaid, lawer o honynt, yn bwyta swper yr Arglwydd?

30 * Oblegid hyn [c] *y mae* llawer yn weinllid ac yn llesg yn eich mysg, † a llawer yn huno.

c adn. 32. Ex. 15. 26. Num. 20. 12, 24. a 21. 6—9. 2 Sam. 12. 1—18. 1 Bren. 13. 21—24. Salm 38. 1—8. a 78. 30, 31. a 89. 31—34. Amos 3. 2. Heb. 12. 5—11. Dat. 3. 19. d pen. 15. 51. Act. 13. 36. 1 Thes. 4. 14.

* Tybia rhai fod rhyw blâ, neu haint ddihoenllyd a darwol yn Corinth yr amser hwn trwy yr hon yr oedd llawer o aelodau yr eglwys yn weiniaid, yn llesg, ac yn huno. Tybir hefyd fod yr apostol wedi cael datguddiad gan Dduw, mai pechodau y proffeswyr yno, yn enwedig eu halogiad dychrynllyd o swper yr Arglwydd, oedd yr achos penaf o'r farnedigaeth arnynt ac ar y ddinas. Ffallai bod yr Arglwydd yn ceryddu ei bobl eto mewn effelyb fodd, am eu hanmharch o'r sacrament, yn amlwg nac yr ydym ni yn meddwl. A fyddai niwed crywyll yr adnod hon weithiau i ddynion wrth gyfranu? Ammau nad oes ond ychydig o feddwl am dani gan efyddwyr yr oes hon. † Wrth y gair hûno, deallir darwolaeth y duwiol yn gyffredin; a thybia rhai fod llawer o bobl dduwiol yn marw yn Corinth dàn y farn hon.

31 [e] * Canys pe iawn-farnem ni ein hunain, ni'n bernid.

e adn. 28. Salm 32. 3—5. Jer. 31. 18—20. Luc 15. 18—20. 1 Ioan 1. 9. Dat. 2. 5. a 3. 2, 3.

* Mae y gair barnu yn yr ysgrythyr yn arwyddo pob peth ag sydd mewn barnu, holi, cyhuddo, condemnio, etc.: yma mae yn arwyddo holi ein hunain, cyhuddo ein hunain, condemnio ein hunain, a gwahaniaethu ein hunain oddi wrth anghredinwyr, a dynion halogedig anedifeiriol, trwy edifeirwch a ffydd. † Pe iawn farnem ni ein hunain fel hyn, ni chyhuddai, ni chondemnisi, ni ni farnai Duw ni. Pe galwai dynion eu hunain i ryfrif am eu hymddygiadau, ac ymostwng ger bron Duw mewn edifeirwch dwys; hwy a ddiangent rhag llawer barn dymmorol, yn gystal â chondemniad tragywyddol.

32 * Eithr pan y'n bernir, [f] y'n ceryddir gan yr Arglwydd, fel na'n [g] damnier gyd â'r byd.

f Gwel ar adn. 30.—Deut. 8. 5. Job 5. 17, 18. a 33. 18—30. a 94. 31, 32. Salm 94. 12, 13. a 118. 18. Diar. 3. 11, 12. Es. 1. 5. Jer. 30. 28. Zeph. 2. 2. g Rhuf. 3. 19. 1 Ioan 5. 19.

* Rhag i'r rhai duwiol yn Corinth ddychrynu ac ofidrych ar y barnau uchod fel arwyddion o ddigofaint Duw yn eu herbyn i'r fath radd, nad edrychai efe ddim arnynt mwyach fel ei blant; mae yr apostol yn dywedyd, pan mae pobl Duw yn cael eu cystuddio drwy ethau ofnadwy mewn cyfiawnder, fod yr Arglwydd yn ymddwyn tuag atynt, nid fel Barnwr digllawn, † ond fel Tad tirion, yn ceryddu ei blant er lles iddynt, i'w dwyn allan i edifeirwch ac ymostyngiad am eu bai, ‡ ac fel na ddamnier hwy yn dragywyddol gyda phechaduriaid anuwiol ac anedifeiriol y byd hwn. Mae Duw yn rhoddi eu huffern i'w bobl yn y byd hwn, fel y caffont iddianc rhagddi yn y byd a ddaw.—*Pool.*

33 * Am hynny, fy mrodyr, pan ddeloch ynghyd i fwytta, † arhoswch eich gilydd.

* Mae yr apostol yn gorphen y mater hwn, trwy ryngori ei frodyr anwyl yn Corinth, i ochelyd am yr amser i ddyfod, yr ymddygiadau afrëolaidd, anmharchus, ac anghrefyddol a soniodd yn adn. 20—22, wrth ymwyta swper yr Arglwydd. † Ni ddylent fwyta o'r swper sanctaidd nes bod yr holl eglwys yn nghyd; dylai y cyfoethogion aros wrth y tlodion, ac nid cyfranogi yn ffleidiau, ond fel un corph, yn bwyta yr un bara, er cyd-gofio marwolaeth eu grasusaf Arglwydd mewn cariad a heddwch, yn gystal ag mewn ffydd a duwioldeb. Fel yn byddai iddynt wir gymdeithas a chymundeb â'r Arglwydd Iesu, ac â'u gilydd fel brodyr o'r un teulu, ac fel plant yr un Tad nefol, yn ol gwir feddwl a dyben yr ordinâd sanctaidd ei hun.

34 [h] * Eithr os bydd newyn ar neb, bwyttâed gartref; † fel na ddeloch ynghyd i farnedigaeth. ‡ Ond y pethau eraill [i] mi a'u trefnaf [k] pan ddelwyf.

h Gwel ar adn. 21, 22. i pen. 7. 17. Tit. 1. 5. k pen. 4. 19. a 16. 2, 5.

* Am luniaeth ac ymgeledd cyffredin, ac angenrheidiol y corph; os bydd newyn ar neb, diwalled y newyn hwnw gartref, yn ei dŷ ei hun; ac na feddylied ei wneyd wrth fwrdd yr Arglwydd, yr hwn ni fwriadwyd erioed i ddiwallu newyn corphorol dynion, llai o lawer i ymlenwi yn loddestgar hyd at feddwdod, adn. 21. † Rhag i chwi drwy barâu yn eich ymddygiad afrëolaidd ac anmharchus, ddigio Duw, a thynu ei farnedigaethau ef arnoch eich hunain yn drymach nac erioed. ‡ Mae yn debyg fod yr apostol wedi clywed am lawer o bethau eraill, afrëolaidd, neu mewn dadl, yn mhlith y Corinthiaid; ond mae yn gadael y pethau hyny, neu amryw o honynt, i'w trefnu pan ddelai efe ei hun i Corinth. Bu yn bwnc o gydwybod gan rai dynion duwiol, i dderbyn o'r sacrament wedi *ymprydio:* pa mòr ganmoladwy bynag y gall hyny fod; nid oes dim sail i'r arferiad yn yr adnod hon, oblegid, ebai yr apostol, "Os bydd newyn ar neb, bwytâed gartref."

PEN. XII.

Bod amryw ddoniau ysbrydol.

* EITHR am [a] ysprydol *ddoniau,* frodyr, [b] † ni fynnwn i chwi fod heb wybod.

a adn. 4—11. pen. 14. 1—18. Eph. 4. 11. b pen. 10. 1. 2 Cor. 1. 8. 1 Thes. 4. 13. 2 Pedr 3. 8.

* Nid yw y gair *doniau* yn y Groeg: *pneumatikôn* yw y gair yno, yn arwyddo *ysbrydolion,* neu bethau ysbrydol. Gellid ei gymhwyso at swyddwyr ysbrydol, gweinidogaethau ysbrydol, gweithrediadau ysbrydol, neu ddoniau ysbrydol: ac mae yr apostol yn son am bob un o honynt yn y blaen, ond yn benaf am *ddoniau* ysbrydol. Er nad oedd y doniau ysbrydol hyn ynddynt eu hunain o natur achubol; eto yr oeddynt yn angenrheidiol ac yn werthfawr yn yr eglwys y pryd hwnw: ac yr oedd eglwys Corinth yn enwog iawn am y doniau ysbrydol oedd ynddi, a llawer yn yr eglwys yn ymchwyddo yn falch o herwydd y doniau hyny. † Ni fynai yr apostol iddynt fod heb wybod, mai o ddaioni Duw y cawsent hwy y doniau hyny; mai i ogoniant Duw, a llwydd yr efengyl, y dylasent ddefnyddio y doniau hyny; ac ni fynai iddynt fod heb wybod y camddefnydd a wnaethai rhai o honynt o'r doniau ysbrydol a rodded iddynt, trwy ymfalchio arnynt, a chodi pleidiau yn yr eglwys drwyddynt.

2 * Chwi a wyddoch [c] † mai Cenhedloedd oeddych, ‡ yn eich arwain ymaith at yr [d] eilunod || mudion, [e] § fel y'ch tywysid.

c pen. 6. 11. Gal. 4. 8. Eph. 2. 11, 12. a 4. 17, 18. Tit. 3. 3. 1 Pedr 4. 3. d Salm 115. 5, 7. a 135. 16. Hab. 2. 18, 19. e Mat. 15. 14. 1 Pedr 1. 18.

* "Chwi a wyddoch," a chwi a ddylech ystyried a chofio yn wastad, er eich darostwng ger bron Duw, a'ch rhwymo i ufudd-dod sanctaidd, diolchgarwch, ac iawn-ddefnyddiad o'r doniau a roddwyd i chwi; † mai cenedloedd paganaidd oeddych chwi wrth naturiaeth, ac yn ddiweddar iawn mewn cyflwr o anwybodaeth gresynol; ‡ yn cael eich arwain ymaith bron fel anifeiliaid, gan eich offeiriaid, eich perthynasau, a'ch cymydogion, i addoli eilunod meirwon, mudion, o brenau a meini, gwaith dwylaw dynion. || Beth bynag oedd offeiriaid ac addolwyr yr eilunod hyn yn haeru ac yn ffrostio am atebion *(oracular)* eu duwiau, nid oeddynt mewn gwirionedd ond eilunod *mudion;* nis gallent na chlywed na llefaru, na gwneyd dim, na da na drwg, i'w haddolwyr: llawer llai y gallent roi y ddawn o lefaru â thafodau dieithr i neb, fel yr oedd y cristionogion wedi cael, trwy ddawn a nerth yr Ysbryd Glân. § Fel eu tywysid yn hollawl; gan eu dychymmygion a'u tuedd-

iadau llygredig eu hunain; trwy dwyll a chyfrwysder yr offeiriaid paganaidd, eu blaenoriaid; a thrwy hudoliaethau diefliig Satan.

3 * Am hynny yr wyf yn hysbysu i chwi, [f] nad oes neb yn llefaru trwy Yspryd Duw, yn galw yr Iesu yn ysgymmunbeth: [g] † ac ni all neb ddywedyd yr Arglwydd Iesu, eithr trwy yr Ysbryd Glân.

f Marc 9. 39. Ioan 16. 14, 15. 1 Ioan 4. 2, 3. g pen. 8. 6. Mat. 16. 16, 17. Ioan 13. 13. a 15. 26. 2 Cor. 11. 4.

* Mae yr apostol yma yn profi fod y Corinthiaid wedi derbyn eu doniau ysbrydol gan Ysbryd Duw; oblegid cyn iddynt dderbyn yr Ysbryd hwn a'i ddoniau, yr oeddynt yn cablu y grefydd gristionogol, ac yn galw yr Iesu yn ysgymmunbeth, yn felltigedig; yr hyn nis gallai neb ei wneyd, ac oedd yn llefaru trwy Ysbryd Duw. Taerai yr Iuddewon nad oedd yr Ysbryd Glân ddim yn cael ei roddi i'r cenedloedd, ac nad oedd yn aros ar neb allan o wlad Israel; ac yr oedd eu swyn-gyfareddwyr hwy yn elynion i Grist, yn ei alw ef yn ysgymmunbeth, ac eto yn cymmeryd arnynt eu bod hwy dàn ddylanwadau yr Ysbryd Glân. Tybir gan hyny, mai amcan yr apostol yn y geiriau hyn yw, gwrthbrofi ymffrost wâg a chelwyddog y swyn-gyfareddwyr hyny; nad all neb sydd yn llefaru trwy yr Ysbryd Glân byth alw yr Iesu yn ysgymmunbeth, neu felltigedig, *(anathema:)* mae hefyd yn amcanu yma, dynu ymaith ragfarn yr Iuddewon crediniol yn erbyn y cenedloedd dychweledig, trwy brofi fod yr Ysbryd Glân arnynt hwy. Ac eto, gan fod rhai o'r paganiaid yn cymmeryd arnynt eu bod dàn ryw fath o ysbrydoliaeth ddwyfol, ac ar yr un pryd yn cablu Crist a'i grefydd, efallai bod yr apostol yma yn amcanu dangos y gwahaniaeth rhwng dylanwadau Ysbryd Duw â'r hudoliaethau hyny. † Hyny yw, nis gall neb ddywedyd yr Arglwydd Iesu o'i galon, yn ddiragrith, o wir barch ac ymostyngiad iddo, fel Mab Duw, ac Arglwydd nef a daear, eithr trwy yr Ysbryd Glân. Mae y gwahaniaeth yn fawr iawn, rhwng galw yr Iesu yn ysgymmunbeth, a'i alw yn Arglwydd Iesu.

4 [h] * Ac y mae amryw ddoniau, † eithr yr un yspryd.

h adn. 8—11, 28. Rhuf. 12. 4—6. Eph. 4. 4. Heb. 2. 4. 1 Pedr 4. 10.

* Yr oedd amrywiaeth mawr yn y doniau ysbrydol, a roddwyd i'r Corinthiaid ac eglwysi eraill: amrywiaeth yn eu natur; rhai o un math, a rhai o fath arall: amrywiaeth yn eu dyben; rhai yn addas i un peth, a rhai i beth arall: ac amrywiaeth yn y graddau o honynt; rhai wedi derbyn mwy, a rhai lai o honynt. † Ond beth bynag oedd natur, dyben, graddau y doniau, nid oedd ond un Ysbryd Glân; a thrwy yr un Ysbryd hwn yr oeddynt oll yn cael eu rhoddi, a phob un yn cael ei alluogi i'w defnyddio.

5 * Ac y mae amryw weinidogaethau, [i] † eithr yr un Arglwydd.

i pen. 8. 6. Mat. 23. 10. Act. 10. 36. Rhuf. 14. 8, 9. Phil. 2. 11.

* Mae amryw weinidogaethau, neu swyddau yn eglwys Dduw, rhai yn bregethwyr, rhai yn henuriaid, a rhai yn ddiaconiaid: rhai yn uwch, a rhai yn is na'u gilydd, yn ol natur y gwaith a chymhwysderau y gwahanol swyddwyr. † Ond yr un Arglwydd Iesu a'u sefydlodd oll; ac a gymhwysodd, ac a osododd ei weision i weini ynddynt: dàn ei lywodraeth ef maent yn gwasanaethu, ac iddo ef y byddant yn gyfrifol am eu gwaith. Eu galw yn "*weinidogaethau*" ydoedd ddull boneddigaidd o adgofio i'r Corinthiaid, i ba ddyben y rhoddwyd y doniau ysbrydol uchod iddynt; ac felly o geryddu y rhai hyny o honynt, oedd wedi eu camddefnyddio i ddybenion drwg, i godi pleidiau a therfysg yn yr eglwys.

6 * Ac y mae amryw weithrediadau, † ond yr un yw Duw, yr hwn [k] sydd yn gweithredu [l] pob peth ym mhawb.

k adn. 11. pen. 3. 7. Job. 33. 29. Ioan 5. 17. Eph. 1. 19—22. Col. 1. 29. Phil. 2. 13. Heb. 13. 21. l pen. 15. 28. Eph. 1. 23. Col. 3. 11.

* Gweithrediadau gwyrthiol o amryw fath, efallai; neu weithrediadau ysbrydol grymus, ar eneidiau dynion yn eu hargyhoeddi a'u dychwelyd o'u ffyrdd cyfeiliornus. † Ond er bod y gweithrediadau yn amrywiol, yr oeddynt oll yn cael eu gwneyd trwy nerth yr un Duw, yn Dad, Mab, ac Ysbryd, yr hwn oedd yn gweithredu pob peth yn mhawb, er gogoniant ei enw mawr ei hun.

7 [m] * Eithr eglurhâd yr Yspryd † a roddir i bob un er llesâd.

m pen. 14. 5, 12, 17, 19, 22—26. Mat. 25. 14, &c. Eph. 4. 7—12. 1 Pedr 4. 11.

* Yr hyn a elwir yn "ysbrydol ddoniau" yn adn. 1, ac yn "weithrediadau" yn adn. 6, a elwir yma yn "eglurâd yr Ysbryd;" i ddangos mai o'r Ysbryd Glân yr oedd y doniau a'r gweithrediadau hyny, ac yr oedd yr Ysbryd yn ei egluro ei hun ynddynt, a thrwy yr arferiad a'r cyflawniad o honynt. † Yr oedd eglurâd yr Ysbryd yn yr ystyr uchod, yn cael ei roddi i bob un er llesâd; nid er enwogrwydd a mawredd y neb oedd yn ei gael, ond er lles ac adeiladaeth yr eglwys yn gyffredinol.

8 Canys i un, [n] trwy yr Yspryd, y rhoddir * ymadrodd doethineb; ac i arall, † ymadrodd gwybodaeth, trwy yr un Yspryd;

n pen. 1. 5, 30. a 2. 6—10. a 13. 2, 8. Gen. 41. 38, 39. Ex. 31. 3. 1 Bren. 3. 5—12. Neh. 9. 20. Job 32. 8. Salm 143. 10. Diar. 2. 6. Es. 11. 2. a 50. 4. a 59. 21. Dan. 2. 21. Mat. 13. 11. Act. 6. 3. Eph. 1. 17, 18.

Mae gwahanol feddyliau am y doniau a enwir yn yr adnod hon: a chan fod y doniau goruwch-naturiol hyny wedi darfod yn yr eglwys yn awr, nid rhyfedd ei bod yn anhawdd deall yn benderfynol beth oeddynt. * Wrth "ymadrodd doethineb," mae rhai yn deall, dawn i draddodi dywediadau bŷrion pwysig: eraill, dawn i agoryd dirgelion dyfnion crefydd: eraill, gwybodaeth ryfeddol o bethau ysbrydol, yn nghyd a dawn i'w traddodi yn addas, a chydag awdurdod mawr: eraill, dawn i egluro dyfn ddoethineb Duw. Efallai bod y geiriau yn arwyddo y fath wybodaeth uniongyrchol o drefn fawr yr iachawdwriaeth, yn nghyd â'r fath ddoniau grymus i ymadroddi am dani, ag oedd yn addas i wneyd dynion eraill yn ddoeth i iachawdwriaeth. † Wrth "ymadrodd gwybodaeth" y deallir, dawn i amgyffred pethau yn y gwybodaeth, a dawn i drosglwyddo yr hyn a wyddid mewn ymadrodd i eraill: neu ynte, gwybodaeth brophwydol o bethau ŷ ddyfod: neu ynte, dawn i ddeall yn gywir a rhyfeddol, brophwydoliaethau a chysgodau yr Hen Destament, a dawn i egluro pethau dyrys a thywyll, i ateb gwrthddadleuon, i benderfynu achosion cydwybod, neu i lefaru geiriau addas a phrydlawn wrth wahanol fathau o ddynion. Tybia rhai mai dawn o radd is nac "ymadrodd doethineb," oedd y ddawn o ymadrodd gwybodaeth, ac mai hyny yn unig yw y gwahaniaeth rhwng y geiriau. Mewn llawer o fànau lle sonir am *ddoethineb* a *gwybodaeth* yn nghyd, yn yr ysgrythyrau, enwir doethineb yn mlaenaf, fel y fwyaf rhagorol: a *gwyr doethion* y galwai yr Iuddewon yr urdd uwchaf o'u dysgawdwyr.

9 * Ac i arall [o] ffydd, trwy yr un Yspryd; † ac i arall [p] ddawn i iachâu, ‡ trwy yr un Yspryd;

o pen. 13. 2. Mat. 17. 19, 20. a 21. 21. Marc 11. 22, 23. Luc 17. 5, 6. 2 Cor. 4. 13. Heb 11. 33. p Mat. 10. 8. Marc 6. 13. a 16. 18. Luc 9. 2. a 10. 9. Act. 3. 6—8. a 4. 29—31. a 5. 15. a 10. 28. a 19. 11, 12. Iago 5. 14, 15.

* Nid y wir ffydd achubol, sydd yn gyffredin i bob gwir gristion, a feddylir; oblegid am ddoniau *anghyffredin* yr Ysbryd mae yr apostol yn llefaru yma, y rhai a roddid i *rai* o'r cristionogion, ac nid i bawb: nid

dd wyrthiol ychwaith a feddylir, mae yn debyg; olegid sonir drachefn am ddawn wyrthiol, yn yr ad-od nesaf, fel peth gwahanol i'r ffydd yma. "Ffydd," n y fàn hon a arwydda, crediniaeth gref yn y meddwl, d un wedi cael ei alw gan Dduw, ar ryw amser pen-odol, i gyflawni rhyw wasanaeth anhawdd a pheryglus; ac yn ngrŷm y grediniaeth hòno, mae yn ymaflyd n y gwaith heb ammheüaeth nac ofn, mewn hyder ysgog y caiff nerth cyfatebol i'r angen gan Dduw. "Ac i arall ddawn i iachâu" pob math o glefydau orphorol, yn y fàn, heb arferiad o'r moddion cyffredin hyny: ‡ a hyn oll trwy yr Ysbryd Glân, er cadarnâd r efengyl.

10 * Ac i arall, [q] wneuthur gwyrthiau; † ac arall, [r] brophwydoliaeth; ‡ ac i arall, [s] wa-aniaeth ysprydoedd; ‖ ac i arall, [t] *amryw* afodau; [u] § ac i arall, gyfieithiad tafodau.

q adn. 28, 29. Marc 16. 17, 20. Luc 24. 49. Ioan 14. 12. Act. 8. Rhuf. 15. 19. Gal. 3. 5. Heb. 2. 4. r pen. 13. 2. a 14. 1, 3, 24, 31, 32, 39. Num. 11. 25—29. 1 Sam. 10. 10—13. a 19. 20—2. 2 Sam. 23. 1, 2. Joel 2. 28. Ioan 16. 13. Act. 2. 17, 18, 29, 30. 11. 28. a 21. 9, 10. Rhuf. 12. 6. 1 Thes. 5. 20. 2 Pedr 1. 20, 21. pen. 14. 29. Act. 5. 3. 1 Ioan 4. 1. Dat. 2. 2. t adn. 28—30. en. 13. 1. a 14. 2—4, 23, 27, 39. Marc 16. 17. Act. 2. 4—12. a 10. 5, 47. a 19. 6. u adn. 30. pen. 14. 26—28.

* I arall yr oedd gallu i wneuthur gwyrthiau eraill o ob math, fel yr oedd yr achos am danynt; megys wyn barn union-gyrchol ar droseddwyr drygionus, fel r Annanias a Sapphira, ac Elymas y swynwr, cyfodi y neirw, a rhoddi yr Ysbryd Glân ar rai trwy arddodiad wylaw, &c. † I eraill ddawn prophwydoliaeth, trwy agfynegi pethau i ddyfod, fel y prophwydodd Agabus m y newyn yn Jerusalem, ac am rwymo Paul yno, act. 11. 27, 28; a 21. 10, 11. Tybir mai yn yr ystyr a enwyd y dylid deall y gair "prophwydoliaeth" *yn y fàn hon;* gan y byddai ei ddeall mewn ystyr helaeth-ach, am bregethu, ac egluro prophwydoliaethau yr Hen Destament, yn rhŷ debyg i "ymadrodd doethineb" ac "ymadrodd gwybodaeth," yn adn. 8, ac yn ormod o ail ddywedyd yr un peth. Cawn brophwydoliaeth eto, yn r ystyr olaf a enwyd, yn pen. 14. 5. ‡ *Diakriseis,* ad-aabod, barnu, a gwahaniaethu ysbrydoedd dynion; gallu wybod a barnu oddi ar ba egwyddor ac ysbryd yr oedd dynion yn gweithredu ac yn llefaru, ac felly gwybod pa an ai gwir ai gau brophwydi neu athrawon oeddynt: ac efyd adnabod tymherau, amcanion, a chymhwysiadau lynion, a gwybod trwy ddatguddiad union-gyrchol ac nffaeledig yr Ysbryd Glân, pwy oedd yn addas i'w osod mewn swyddau cyhoeddus yn yr eglwys, a phwy nid oedd. ‖ Ac i arall ddawn i lefaru mewn amryw ieith-oedd, anadnabyddus iddo o'r blaen, fel yr apostolion ar ddydd y pentecost; fel y gallai bregethu yr efengyl i ddieithriaid o wahanol wledydd ac ieithoedd. § Mae r apostol yn gwneyd hon yn ddawn wahanol i'r ddawn o lefaru âg "amryw dafodau;" mae yn debyg fod rhai rn gallu llefaru mewn amryw ieithoedd, ac eto nis gallent gyfieithu eu hymadroddion i ieithoedd eraill: rhoddes Duw ddawn, neu allu, i rywrai eraill yn yr eg-wys i wneuthur hyny. Er rhoddi doniau rhyfedd i rai, eto nid oedd yn rhoddi pob dawn i'r un dyn, fel nad ymchwyddai, ond y cydnabyddai mai dawn Duw oedd.

11 [x] * A'r holl bethau hyn y mae yr un a'r unrhyw Yspryd yn eu gweithredu, gan rannu i bob un o'r neilldu [y] † megis y mae yn ewyllysio.

x adn. 4. pen. 7. 7, 17. Ioan 3. 27. Rhuf. 12. 6. 2 Cor. 10. 13. Eph. 4. 7. y Dan. 4. 35. Mat. 11. 26. a 20. 15. Ioan 3. 8. a 5. 21. Rhuf. 9. 18. Eph. 1. 11. Heb. 2. 4. Iago 1. 18.

* Nid oes dim yn ddyrys ag eisiau manylu arno yn yr adnod hon. Mae yn ddigon addas sylwi, fod yr un "gweithredu" nerthol, rhydd, a phen-arglwyddiaethol, yn cael ei briodoli yma i'r Ysbryd, ag sydd yn cael ei briodoli i Dduw yn adn. 6; yr hyn sydd brawf amlwg a chadarn, o ddwyfoldeb a phersonoliaeth yr Ysbryd Glân. Ac wrth briodoli y doniau ysbrydol oll i'r tri pherson, "yr un Ysbryd," "yr un Arglwydd," ac "yr un Duw," yn adn. 4, 5, 6, mae yn brawf eglur iawn, fod y tri pherson dwyfol yn un Duw anfeidrol ac anwahanol. † Nid yn dra-arglwyddaidd, ond yn ol cyngor doeth a grasol Tri yn un.

12 [z] * Canys fel y mae y corph yn un, ac iddo aelodau lawer, a holl aelodau yr un corph, cyd byddont lawer, ydynt un corph; [a] † felly *y mae* Crist hefyd.

z pen. 10. 17. Rhuf. 12. 4, 5. Eph. 1. 23. a 4. 4, 12, 15, 16. a 5. 23, 30. Col. 1. 18, 24. a 2. 19. a 3. 15. a adn. 27. Gal. 3. 16.

Yn nesaf, mae yr apostol yn dangos doethineb a daioni yr Ysbryd Glân yn ei gyfraniadau o'r doniau ysbrydol hyn, trwy y gymhariaeth o'r corph naturiol. * Er bod hwn wedi ei wneyd i fynu o lawer o aelodau, eto, nid yw ond un corph; tra mae i bob aelod ei le a'i waith priodol ei hun, er gwasanaeth a lles cyffredin yr holl gorph. † "Felly y mae Crist hefyd;" sef eglwys, neu gorph dirgeledig Crist, sydd mewn undeb ysbrydol âg ef: er ei bod yn llawer o aelodau, ac i bob aelod ei ddawn, ei le, a'i waith priodol ei hun; eto nid yw yr holl eglwys ond un cyfan-gorph mawr yn Nghrist ei Phen. Mae yr apostol yma yn rhoddi Crist am yr eglwys, o herwydd yr undeb agos sydd rhwng Crist â'r eglwys: megys y dywedodd efe wrth Saul, "Paham yr wyt yn fy erlid *I?*" pryd nad oedd efe ond yn erlid ei bobl, ei eglwys ef.

13 [b] * O herwydd trwy un Yspryd † y bedyddiwyd ni oll yn un corph, [c] ‡ pa un bynnag ai Iuddewon ai Groegwyr, ai [d] caethion ai rhyddion; ‖ ac *ni* a [e] ddiodwyd oll i un Yspryd.

b pen. 10. 2. Es. 44. 3—5. Ezec. 36. 25—27. Mat. 3. 11. Luc 3. 16. Ioan 1. 33. a 3. 5. Act. 1. 5. Rhuf. 6. 3—6. a 8. 9—11. Eph. 5. 26. Col. 2. 11, 12. Tit. 3. 4—6. 1 Pedr 3. 21. c Rhuf. 3. 29. a 4. 11. Gal. 3. 23. Eph. 2. 11—16, 19—22. a 3. 6. Col. 1. 27. a 3. 11. d pen. 7. 21, 22. Eph. 6. 8. e Can. 5. 1. Es. 41. 17, 18. a 55. 1. Zec. 9. 15—17. Ioan 4. 10, 14. a 6. 63. a 7. 37—39.

* O herwydd trwy, ac yn ol gweithrediadau yr un Ysbryd, ac o herwydd bod yn gyfranogion o'i ddoniau grasol a bywiol ef, † y bedyddiwyd ni oll yn un corph dirgeledig; derbyniwyd ni oll yn y sacrament hwnw i undeb corph yr eglwys, y rhai *oll* a fedyddiwyd i undeb â'r eglwys weledig; a'r rhai oedd yn wir gyfranog o'r Ysbryd Glân a'i rasau, i undeb â'r eglwys ddirgeledig, gwir gorph dirgeledig Crist. ‡ Yn yr undeb hwn nid oes dim gwahaniaeth rhwng Iuddewon a Groegwŷr, caethion a rhyddion: pa beth bynag oedd dynion o'r blaen, o ran cenedl, graddau, sefyllfâoedd, neu grefydd, pan y trôant at y grefydd gristionogol, a chael eu bedyddio fel aelodau i Grist; maent oll i'w hystyried heb wahaniaeth yn un corph, i'r hwn y mae Crist yn Ben. ‖ Ni a yfasom oll o'r un Ysbryd, medd rhai: hyny yw, bod yn gyfranog o'r Ysbryd a'i ddoniau grasol, y rhai a osodir allan weithiau dàn y gymhariaeth o ddwfr bywiol. Ioan. 4. 10, 14; a 7. 38, 39. Ond tybia eraill mai yfed yn sacramentaidd, wrth fwrdd yr Arglwydd, a feddylir yma; ac felly mae undeb y saint yn cael ei ddangos trwy y ddwy ordinâd sanctaidd, bedydd a swper yr Arglwydd: a thybia rhai fod yr apostol yn cyfeirio at y *cwpan* yma yn hytrach na'r *bara,* am fod y gwin yn fwy gwirodawl, (*spiritous*) ac mewn modd bywiog yn arddangos effeithiau gwaed Crist, a'r Ysbryd a gyfranir drwyddo.

14 [f] * Canys y corph nid yw un aelod, eithr llawer.

f adn. 12, 19, 20, 27, 28. Eph. 4. 25.

* Fel nad yw y corph naturiol yn un aelod, eithr llawer; felly hefyd yr eglwys, corph dirgeledig Crist, nid un aelod ydyw, ond llawer o aelodau; rhai yn uwch, a rhai yn îs, mewn defnydd a rhagoroldeb: ac nid oes yr un o honynt yn ddiangenrhaid; ond pob un yn gwasanaethu i brydferthwch a pherffeithrwydd y cwbl.

15 [g] * Os dywed y troed, † Am nad wyf

law, nid wyf o'r corph; [k] ‡ ai am hynny nid yw efe o'r corph?

g Barn. 9. 8—15. 2 Bren. 14. 9. h adn. 16, 22. Rhuf. 12. 3, 10. Phil. 2. 3.

Oddi wrth y gymhariaeth eglurawl uchod, gallai y Corinthiaid weled yr ynfydrwydd a'r niwed o'u cenfigenau, eu hymrysonau, a'u hymbleidio, o herwydd eu hamryw ddoniau, eu lleoedd a'u swyddau yn yr eglwys. * O herwydd, a bwrw y gallai y troed amgyffred a llefaru, pe dywedai, † Am nad wyf law, aelod uwch na mi, ac yn gallu gweithredu pethau nas gallaf fi, nid wyf fi o'r corph, nac o un defnydd i'r corph: ‡ ai am hyny, sef am mai troed ydyw, ac nid llaw, nid yw efe o'r corph, nac o un gwasanaeth i'r corph? Ydyw yn sicr: er mai troed isel a llafurus ydyw, eto mae yn rhan o'r corph er hyny; ac yn angenrheidiol iddo er sefyll a cherdded, yn gystal â'r llaw at bethau eraill.

16 * Ac os dywed y glust, Am nad wyf lygad, nid wyf o'r corph; † ai am hynny nid yw hi o'r corph?

* A phe dywedai y glust, Am nad wyf fi lygad, ac yn gallu gweled, nid wyf fi o'r corph, nac o un gwasanaeth iddo; † a dybiai neb o herwydd hyny nad yw hi o'r corph, nac o ddim lles i'r corph? Nis gall neb feddwl y fath beth; oblegid er mai clust yw hi, ac nid llygad, eto mae o wasanaeth dirfawr i'r corph er clywed; ac felly yn aelod hanfodol o'r corph. Felly y mae gyda golwg ar yr eglwys, corph ysbrydol Crist; mae yr aelodau iselaf eu doniau a'u grasau yma, mòr angenrheidiol i'r corph, yn eu gwahanol sefyllfâoedd, ac mòr wirioneddol o hóno, â'r aelodau uwch eu doniau a'u swyddau, er gwasanaethu i ogoniant Iesu, ac er lles i'r holl eglwys.

17 [i] * Pe yr holl gorph *fyddai* lygad, pa le *y byddai* y clywed? † pe y cwbl *fyddai* glywed, pa le y *byddai* yr arogliad?

i adn. 21, 29. 1 Sam. 9. 9. Salm 94. 9. a 139. 13—16. Diar. 20. 12.

* Pe yr holl gorph naturiol a fyddai lygad, pa le y byddai y clywed? † Ac o'r tu arall, pe y cwbl fyddai glywed, pa le y byddai yr arogliad? Mae eisiau gweled, clywed, ac arogli, ar ddyn; mae yn rhaid iddo gael synwyrau, peiriannau, neu aelodau addas i bob un o'r pethau hyny; ac mae y naill o'r aelodau hyny o'r corph, ac yn wasanaethgar i'r corph, yn gystal â'r llall. Wrth ymresymu fel hyn, mae yr apostol yn dangos, pe na buasai doniau eraill yn eglwys Corinth, heblaw y rhai a ganmolid ac a ddyrchefid gymmaint mewn rhai o'u hathrawon hwynt, buasai yn anfantais ac yn golled fawr i'r eglwys fel corph.

18 * Eithr yr awrhon [k] Duw a osododd yr aelodau; bob un o honynt yn y corph, [l] fel yr ewyllysiodd efe.

k adn. 24, 28. l Gwel ar adn. 11.—pen. 3. 5. a 15. 38. Salm 110. 3. a 135. 6. Es. 46. 10. Jona 1. 14. Luc 10. 21. a 12. 32. Rhuf. 12. 3. Eph. 1. 5, 9. Dat. 4. 11.

* Yn ei fawr ddoethineb a'i ddaioni, mae Duw wedi gosod y corph naturiol, a'i gyfansoddi yn y dull goreu; y pen yn uchaf, i lywodraethu yr holl gorph; y troed yn isaf, i'w gynnal, a'i symmud o fàn i fàn; a'r holl aelodau eraill, yn y lle, a'r dull, a'r drefn oreu, er bod o wasanaeth i'r corph ac i'w gilydd. Felly mae efe yn gwneyd yn nghorph yr eglwys hefyd; pob aelod yn ei le, ac at ei wasanaeth priodol ei hun, fel y mae anfeidrol ddoethineb Duw yn gweled yn oreu: gan hyny, pwy a ryfyga feio, na chyfnewid ar ei drefn a'i osodiad ef, yn y corph ysbrydol, mwy nac yn y corph naturiol?

19 [m] * Canys pe baent oll un aelod, pa le *y byddai* y corph?

m adn. 14.

* Pe byddai yr holl aelodau ond un aelod, neu oll c'r un ffurf a wasanaeth, pa le felly y byddai y corph? Pe byddai i bob aelod yn nghorph yr eglwys awyddu am y lle blaenaf, a'r swydd uchaf, distrywiai hyny yr eglwys; yr hon sydd o angenrheidrwydd yn gynnwysedig o lawer, a gwahanol aelodau, wedi eu gosod a'u trefnu i wneuthur un corph cyfan.

20 * Ond yr awrhon llawer *yw* yr aelodau, eithr un corph.

* Ond yr awr hon llawer yw aelodau y corph naturiol, eithr un corph: ac yr un modd, llawer yw aelodau y corph ysbrydol, sef yr eglwys; eithr un corph. Nid yw lliosowgrwydd yr aelodau yn gwneuthur lliosowgrwydd o gyrph, un yw y corph o hyd; fel y mae lliosowgrwydd o ddefnynau gwlaw yn gwneyd un dwfr.

21 [n] * Ac ni all y llygad ddywedyd wrth y llaw, Nid rhaid i mi wrthyt: † na'r pen chwaith wrth y traed, Nid rhaid i mi wrthych.

n Num. 10. 31, 32. 1 Sam. 25. 32. Ezra 10. 1—5. Neh. 4. 16—21. Job 29. 11.

* Er bod yr aelodau yn llawer, eto mae pob un o honynt yn ymddybynol ar y llall, ac oll yn ymddybynol ar eu gilydd. Nis gall y llygad, peiriant y gweled, ddywedyd wrth y llaw, offeryn gwaith a llafur, Nid rhaid i mi wrthyt, gallaf wneyd y tro cystal hebddot: † ac nis gall y pen chwaith, y rhan uwchaf a rhagoraf o ddyn, yn yr hwn mae pob synwyr a dyfais, ddywedyd wrth y traed, yr aelodau iselaf o'r corph, Nid rhaid i mi wrthych. Felly hefyd yn y corph ysbrydol; y rhai mwyaf rhagorol eu doniau a'u cyrhaeddiadau, a'r rhai uwchaf eu swyddau a'u sefyllfâoedd yn yr eglwys, y rhai y gellir eu galw mewn ystyr yn benaethiaid a llygaid yr eglwys, nis gallant wneyd heb y rhai gwaelaf o'u cyd-aelodau, ac ni ddylent eu dirmygu fel pe byddent bethau diwerth a diddefnydd.

22 [o] * Eithr yn hytrach o lawer, yr aelodau o'r corph y rhai a dybir eu bod yn wannaf, † ydynt anghenrheidiol.

o Diar. 14. 28. Preg. 5. 9. 2 Cor. 1. 11. Tit. 2. 9, 10.

* Tybia rhai mai yr *ymenydd* a'r *coluddion* a feddylir yma wrth yr "aelodau a dybir yn wànaf," y rhai ydynt yn dyner a gweiniaid iawn, ac yn agored i lawer o anhwylion. Tybia eraill mai y *cyhyrau*, y *gwythenau*, a'r *rhedweliau* lleiaf a feddylir, yn nghyd â'r mân bibellau eraill yn y corph, y rhwystr lleiaf yn mha rai a fyddai yn angeuol. Tybia eraill eto, mai *llai anrhydeddus* a feddylir yma wrth *wànaf*, ac mai y rhanau hyny o'r corph a feddylir, a ddarparodd y Creawdwr i dafiu allan yr ysgarthion, &c. † Pa rai bynag o'r rhanau uchod a feddylir, maent oll mòr angenrheidiol at fywyd ac iechyd y corph, âg aelodau eraill, cryfach a mwy ardderchog: yn wir maent yn fwy angenrheidiol o lawer; gallai dyn fyw, a bod yn iach er colli braich neu goes, ond os daw rhyw ddyryswch a niwed ar yr aelodau gweiniaid hyn, mae poenau dirfawr, ac efallai angeu hefyd, yn sicr o ganlyn.

23 * A'r rhai a dybiwn ni eu bod yn ammharchediccaf o'r corph, † ynghylch y rhai hynny y gosodwn chwaneg o barch; ‡ ac y mae ein *haelodau* anhardd yn cael chwaneg o harddwch.

* Cyn y cwymp nid oedd un ran o'r corph yn anmharchus, ond pob rhan yn brydferth, yn hardd, ac yn ogoneddus. Trwy bechod, mae rhyw ranau o hóno yn cael eu hystyried genym ni yn anmharchedig; † ac yr ydym yn fwy ein gofal am y rhanau hyny, i'w gorchuddio a'u harddu, nac am y rhanau eraill, mwy hardd ac anrhydeddus. Yn hytrach na bod yr holl ofal am y rhanau mwyaf anrhydeddus, mae yn y gwrthwyneb yn gyffredin; mae y gofal mwyaf am y rhanau anmharchedicaf; i'w gwisgo a'u haddurno gyda llawer o draul a gofal: ‡ fel hyny gellir dywedyd mewn ystyr, fod y rhanau hyny yn cael ychwaneg o harddwch na'r rhanau sydd yn fwy anrhydeddus. Felly hefyd yn ystâd anmherffaith bresenol yr eglwys, neu gorph Crist; dylem fod yn barod i dafiu mantell cariad dros wendidau yr aelodau gwaelaf, a gwneyd y goreu o honynt, ac nid eu

noethi a'u gosod yn agored i warth a dirmyg, neu eu systyru a'u gwrthod fel pethau diddefnydd.

24 p * Oblegid ein *haelodau* hardd ni nid naid iddynt *wrtho:* † eithr Duw a gyd-dymerodd y corph, ‡ gan roddi parch chwaneg hyn oedd ddiffygiol:

p Gen. 2. 25. a 3. 11.

* Yn y corph naturiol, nid oes ar yr aelodau hardd, cregys y gwyneb a'r dwylo, eisiau eu gorchuddio a'u harddu fel rhai o'r aelodau eraill; gallant ymddangos yn eu prydferthwch noeth a naturiol eu hunain. Felly ifyfyd yn nghorph yr eglwys: mae y cristionogion awocaf a mwyaf dysglaer yn brydferth ac yn hardd rewn sancteiddrwydd, ac yn eu cymmeradwyo eu hunain yn hawdd i'w cyd-aelodau. † Mae Duw yn ei gwr ddoethineb wedi cyd-dymheru y corph yn y fath dd, fel y mae cyfran briodol o anrhydedd, yn gystal â wasanaeth, i bob aelod trwy yr holl gorph i gyd; a wedi rhoddi cyfarwyddyd i ddynolryw, i wneyd i fynu diffyg o harddwch naturiol, trwy roddi gorchudd durnawl ar y rhanau hyny oedd mewn angen am y th addurniadau. Yr un modd yn yr eglwys, ei ewyllys yw, ymddwyn yn dirion ac yn dyner iawn tuag at credinwyr hyny, a ddichon fod yn wànach, ac yn llai rhydeddus na rhai eraill yn yr eglwys: ‡ eu cynorthwyo a'u calonogi yn mhob peth ag sydd yn dda, u parchu am y cyfryw wasanaeth a allont hwy ei neyd, er mai diffygiol ydynt mewn cymhariaeth i wer eraill.

25 q * Fel na byddai anghydfod yn y orph; † eithr bod i'r aelodau r ofalu yr un eth dros eu gilydd.

q pen. 1. 10—12. a 3. 3. Ioan 17. 21—26. 2 Cor. 13. 11. r 2 Cor. 7. 12. a 8. 16.

* Fel na byddai rhwygiad, anghyd-gordiad, anserchgrwydd, na dim anghydfod o fath yn y byd yn y corph. Er bod yr aelodau yn gwahaniaethu mewn anrhydedd gwaith, eto dylent ofalu dros eu gilydd fel pe byddent ll yn yr un gradd o anrhydedd. Felly y mae yn y rph naturiol, ac felly y dylai fod yn nghorph yr eglwys, ol cyd-dymheriad Duw o hóno.

26 s * A pha un bynnag ai dïoddef a wna n aelod, y mae yr holl aelodau yn cyd-ddïoddef; † ai anrhydeddu a wneir un aelod, y mae r holl aelodau yn cyd-lawenhâu.

s Rhuf. 12. 15. 2 Cor. 11. 28, 29. Gal. 6. 2. Heb. 13. 3. 1 Pedr 3 8.

Yn yr adnod hon mae yr apostol yn dangos pa fodd mae i'r holl aelodau ofalu yr un peth dros eu gilydd. Os dyoddef a wna un aelod, mae yr holl aelodau eraill a cyd-ddyoddef âg ef, ac yn barod i wneyd a allont i'w cynnorthwyo a symmud yr achos o'i ddyoddefaint. O'r tu arall, os anrhydeddu a wnair un aelod, mae yr holl aelodau eraill yn cyd-lawenâu âg ef yn ei anrhydedd, gan gyfrif ei anrhydedd ef yn anrhydedd i'r holl orph. O na byddai fel hyn yn wastad yn eglwys Crist!

27 t * Eithr chwychwi ydych gorph Crist, ac aelodau ‡ o ran.

t Gwel ar adn. 12, 14—20.—Eph. 5. 30.

Yn yr adnodau uchod yr oedd yr apostol yn llefaru n gymhariaethol, am y corph naturiol; yma mae yn mhwyso y cwbl at y mater mewn llaw. * Corph dirbledig Crist yw yr eglwys; † a phob un o'r credinwyr n aelod, neu "ran," o'r corph dirgeledig hwnw. Tybia rhai fod y geiriau "o ran" yn cael eu defnyddio, iddangos fod y gwir gredinwyr yn aelodau o gorph Crist, mewn cyferbyniad i'r rhith broffeswyr yn Corinth, rhai nid oeddynt yn wir aelodau o'i gorph dirgeledig

28 u * A rhai yn wir a osododd Duw yn yr glwys; † yn gyntaf apostolion, ‡ yn ail prophwydi, || yn drydydd athrawon, § yna gwyrthiau; * wedi hynny doniau i iachâu, † cynnorthwyau, ‡ llywodraethau, || rhywogaethau tafodau.

u adn. 7—11. Act. 13. 1—3. a 20. 28. Rhuf. 12. 6—8. Eph. 2. 20. a 4. 11—13. Heb. 13. 17, 24. 1 Pedr 5. 1—4.

* Duw a osododd bawb yn yr eglwys, sef pawb sydd wedi eu gosod mewn gwirionedd ynddi; ond nis gosododd efe bawb yn yr un sefyllfa, swydd, ac anrhydedd, mwy nac aelodau y corph naturiol, neu ddynion mewn gwahanol swyddau gwladol. † Yn *gyntaf*, efe a roddes rai yn apostolion; y rhai a dderbyniasant eu danfoniad yn ddigyfrwng gan Grist ei hun, fel prif weinidogion ei deyrnas, ac a gynnysgaethwyd âg "ymadrodd doethineb," (adn. 8.) i wneuthur llawn ddatguddiad o feddwl ac ewyllys Duw dàn oruchwyliaeth y Testament Newydd. ‡ Yn *ail*, prophwydi; rhai yn gallu rhagfynegi pethau pwysig i ddyfod, trwy ysbryd prophwydoliaeth, (adn. 10.) ac egluro prophwydoliaethau yr Hen Destament, trwy ymadrodd gwybodaeth. (adn. 8; a pen. 13. 2.) || Yn *drydydd*, athrawon; y rhai oedd yn poeni yn y gair a'r athrawiaeth, i arolygu ac addysgu cynnulleidfâoedd neilduol, neu ynte i bregethu yn achlysurol yn y gwahanol eglwysi. § Yna gwyrthiau; sef dynion wedi derbyn gallu i wneyd pob math o wyrthiau. * Yna doniau i iachâu, trwy eneinnio y cleifion âg olew yn enw yr Arglwydd, a gweddïo am eu hiachâd hwynt, Iago 5. 14. † Rhai yn cynnorthwyo yr apostolion yn y weinidogaeth, medd rhai; cynnorthwywyr yn mhethau amgylch iadol yr eglwysi fel dïaconiaid, medd eraill; rhai yn cynnorthwyo y tlodion a'r rhai anghenus, medd eraill. ‡ "Llywodraethau:" dynion medrus, parod, i drin achosion cyffredin, wedi derbyn doethineb i ddeall a barnu pethau dyrys; ac yn meddu parch ac awdurdod naturiol i lywodraethu yn nghyfarfodydd yr eglwys. || Rhai wedi derbyn dawn oruwch-naturiol i lefaru mewn gwahanol ieithoedd, er argyhoeddiad a dychweliad y rhai ni chlywsent yr efengyl o'r blaen yn eu hiaith: ac efallai rhai yn medru cyfieithu tafodau hefyd. Gwel ar adn. 10.

29 x * Ai apostolion pawb? ai prophwydi pawb? ai athrawon pawb? ai gwneuthurwyr gwyrthiau pawb?

x adn. 4—11, 14—20.

30 A oes gan bawb ddoniau i iachâu? a yw pawb yn llefaru â thafodau? a yw pawb yn cyfieithu?

* Ai addas a fuasai i'r holl gristionogion yn Corinth fod i gyd yn apostolion, neu yn brophwydi, neu yn athrawon, neu yn wneuthurwyr gwyrthiau, neu yn meddu doniau i iachâu, neu yn llefaru â thafodau, neu yn cyfieithu? Er mòr rhagorol a gwerthfawr oedd pob un o'r "ysbrydol ddoniau" hyn, eto nid oedd yn addas fod pawb yn meddu y naill nac y llall o honynt: pe felly, buasai yr eglwys yn debyg i gorph i gyd yn llygad, neu i gyd yn glust, neu i gyd yn llaw; a phe byddai felly oll yn un aelod, pa le y byddai y corph? Mae yn debyg na ddiddymwyd y dymher genfigenus ac awyddus hon am flaenoriaeth o blith y Corinthiaid, hyd yn nôd drwy yr ymresymiad addas a bywiog hyn; oblegid mae un o'r hen dadau, wrth ysgrifenu atynt lawer o flynyddoedd wedi hyn, yn cwyno fod yr un ysbryd yn ffŷnu yn eu plith o hyd, ac yn eu harwain i esgeuluso rhoddi parch dyledus "i'r henuriaid hyny, ag oedd yn ol cyfarwyddyd dwyfol, wedi eu gosod yn eu plith, ac eu bod yn eu troi allan o'u swydd esgobaethol."

31 y * Eithr deisyfwch y doniau goreu. † Ac etto z yr wyf yn dangos i chwi ffordd dra rhagorol.

y pen. 8. 1. a 14. 1, 39. z pen. 13. 1, &c. Phil. 3. 8. Heb. 11. 4.

* Dywed pob un o'n Hawdwyr dysgedig, y gellid darllen y geiriau hyn (yn ol y Groeg,) yn y modd *arwyddawl*, neu *fynegawl;* "Yr ydych yn deisyfu, neu yn chwennychu y doniau goreu:" a thybiant mai felly

y maent yn fwyaf cyson âg amcan yr apostol, o roddi attalfa ar ymchwydd, cenfigenau, ac awydd y Corinthiaid o geisio y blaen ar eu gilydd mewn doniau a swyddau. Ac eto, gan ei bod yn gyfreithlawn ac yn ganmoladwy hefyd, iddynt ddeisyfu y doniau goreu mewn ysbryd gostyngedig, ac i ddybenion addas a daionus, gellir darllen y geiriau yn y modd *gorchymynol;* fel cyngor yr apostol iddynt eu deisyfu. † Gwedi y cwbl, nid y doniau goreu yw y pethau mwyaf rhagorol; mae gwir gariad, fel y dangosir yn y bennod nesaf, yn tra rhagori ar y doniau goreu: ffordd dra rhagorol yw ffordd cariad, i ogoneddu Duw, ac i gynnyddu lles ysbrydol ein heneidiau ein hunain a'r eiddo eraill. Dysgir ni yn y ffordd hon, i fod yn foddlawn ar y doniau sydd genym, i wneyd iawn ddefnydd o honynt, ac i fod o fwy o les, efallai, na rhai sydd yn meddu doniau llawer rhagorach, a mwy enwog a blodeuog.

PEN. XIII.

Nad yw y doniau godidocaf ddim heb gariad, &c.

* PE [a] llefarwn † â thafodau dynion ac angelion, [b] ‡ ac heb fod gennyf gariad, ‖ yr wyf [c] *fel* efydd yn seinio, neu symbal yn § tingcian.

a adn. 2, 3. pen. 12. 8, 16, 29, 30. a 14. 6. 2 Cor. 12. 4. 2 Pedr 2. 18. b pen. 8. 1. Mat. 25. 45. Rhuf. 14. 15. Gal. 5. 6, 22. 1 Tim. 1. 5. c pen. 14. 7, 8.

* Mae yr apostol yma yn llefaru yn ei berson ei hun, fel na roddai dramgwydd i neb o'r bobl chwyddedig yn Corinth. I ddynoethi yn fwy effeithiol eu cyfeiliornad gwreiddiol hwynt, o fawrygu doniau ysbrydol yn ormod, a cheisio eu hanrhydedd eu hunain yn yr ymarferiad o honynt, yn fwy na llesâd eu brodyr; mae efe yn y bennod hon yn dangos nad yw y doniau rhagoraf, mewn cymhariaeth, ddim yn y byd, a chariad yn bobpeth. † Mae yn dywedyd, pe gallai efe lefaru yn holl ieithoedd dynolryw yn y modd perffeithiaf; a phe gallai ymadroddi gyda hyawdledd angelion, a defnyddio eu hiaith nefolaidd hwynt; ‡ eto, heb gariad gwirioneddol at Dduw, ei air, ei waith, ei bobl, a'r holl fyd; ‖ ni byddai ond fel sŵn yr offerynau cerdd gwaelaf, a mwyaf diberoriaeth yn y byd: fel efydd yn seinio neu symbal yn tincian. Am leferydd angelion nis gwyddom ni ddim, ac mae yn debyg nas gwyddai Paul ddim; defnyddir y geiriau yma i osod allan yr hyawdledd goreu, mwyaf hyfryd ac ennillgar. Am yr efydd a'r symbal, mae ein Hawdwyr oll yn cytuno mae yr offerynau cerdd gwaelaf oeddynt; pethau yn gwneyd sŵn mawr, ond heb ddim pereidd-dra: cyffelyb yw doniau mawr heb gariad. § Tincian, *alalazon,* trwst seinfawr di-beroriaeth.

2 [d] * A phe byddai gennyf brophwydoliaeth, a [e] gwybod o honof y dirgelion oll, a phob gwybodaeth; [f] † a phe bai gennyf yr holl ffydd, fel y gallwn symmudo mynyddoedd, [g] ‡ ac heb gennyf gariad, [h] nid wyf fi ddim.

d pen. 12. 8—10, 28. a 14. 1, 6—9. Num. 24. 15—24. Mat. 7. 22, 23. e pen. 4. 1. Mat. 13. 11. Rhuf. 11. 25. a 16. 25. Eph. 3. 4. a 6. 19. Col. 1. 26. 1 Tim. 3. 16. f pen. 12. 9. Mat. 17. 20. a 21. 21. Marc 11. 22, 23. Luc 17. 5, 6. g adn. 1, 6. pen. 16. 22. Gal. 5. 6, 22. 1 Ioan 4. 8, 20, 21. h adn. 3. pen. 7. 19. a 8. 4. 2 Cor. 12. 11. Gal. 6. 3.

* Sef ysbryd prophwydoliaeth, i ddeall prophwydoliaethau a dirgelion yr Hen Destament oll; i rag-weled a rhag-fynegi damweiniau i ddyfod; i ddeall ac amgyffred holl ddirgeledigaethau Duw; ac i gynnwys pob math o wybodaeth anianol a chrefyddol a ellid ddychymmygu: † a phe byddai genyf ffydd wyrthiol mòr gref, ac i'r fath raddau, fel y gallwn symmudo mynyddoedd mwyaf y byd, er syndod i holl ddynolryw; ‡ ac heb genyf gariad, nid wyf fi ddim: nid wyf gristion o gwbl; nid wyf ond llai na'r credadyn gwaelaf ar y ddaear. Nid gwir ffydd achubol yn sicr, a feddylir uchod wrth "ffydd;" oblegid mae hòno bob amser yn gweithio trwy gariad, lle mae hon yn ffydd heb gariad: gan hyny rhaid mai ffydd wyrthiol a feddylir yma, fel y mae ei gwaith o symmudo mynyddoedd yn dangos yn amlwg. Am gariad, gwel ar adn. 1.

3 [i] * A phe porthwn y tlodion â'm holl dda, [k] † a phe rhoddwn fy nghorph i'm llosgi, ‡ ac heb gariad gennyf, [l] nid yw ddim llesâd i mi.

i Mat. 6. 1—4. a 23. 5. Luc 18. 22, 28. a 19. 8. a 21. 3, 4. Ioan 12. 43. Gal. 5. 26. Phil. 1. 15—18. k Dan. 3. 16—28. Ioan 13. 37. a 15. 13. Act. 21. 13. Phil. 1. 20, 21. a 2. 3. l Es. 57. 12. Jer. 7. 8. Ioan 6. 63. 1 Tim. 4. 8. Heb. 13. 9. Iago 2. 14—17.

Gwedi sôn am ddoniau, mae yr apostol yn myned at weithredoedd, ac yn enwi dwy; y gyntaf o wasanaeth mawr i ddynion, a'r ail yn ymddangosiad o wasanaeth neu ymroddiad mawr i Dduw. * Pe gwerthai efe ei holl feddiannau i borthi y tlodion, (yn ol gorchymyn Crist i'r gŵr goludog yn Matth. 19. 21,) hyd at ei newynu ei hun; a gwneyd hyny o falchder, rhodres, neu gyffelyb egwyddor, ac heb gariad, ni byddai o ddim llesâd iddo ef ei hun mewn pethau ysbrydol, er iachawdwriaeth ei enaid, wedi y cwbl. † A phe byddai yn ddigon dewr a gwresog i ddyoddef merthyrdod, a rhoddi ei gorph i'w losgi, dros ei broffes o Grist, heb wir gariad at Grist; ni byddai hyny ddim llesâd iddo chwaith. Gall dyn wneyd yr holl bethau hyn o wagogoniant, er gadael enw da ar ei ol yn y byd, neu o feddwl teilyngu bywyd tragywyddol yn ddeddfol gan Dduw drwy hyny: ond heb gariad, ni bydd y cyfryw un ddim gwell na gwallgof-ddyn hudol, neu ragrithiwr uchel-frydig, ac ni chaiff ddim llesâd o'i weithredoedd. ‡ Gallwn ddysgu yma yn 1. Nad yw y gweithredoedd goreu o les i ddynion, yn haeddu dim ar law Duw, nac yn un lles i'r neb a'u gwnelo, os na bydd egwyddor o wir ras yn yr enaid. Yn 2. Y gall dyn ddyoddef y pethau chwerwaf yn achos crefydd, ac eto bod heb egwyddor o wir ras yn ei galon. Yn 3. Nad oes yr un weithred, yr un dyoddefaint, a rydd hawl i enaid am y nefoedd, yn mhellach nag y byddont yn tarddu o egwyddor o gariad at Dduw, a dymuniad i ufuddâu iddo, a rhyngu ei fodd ef.

4 * Y mae cariad [m] yn hir-ymaros, [n] † yn gymmwynasgar; ‡ cariad [o] nid yw yn cenfigennu; ‖ nid yw cariad yn ymffrostio, [p] § nid yw yn ymchwyddo.

m Diar. 10. 12. 2 Cor. 6. 6. Gal. 5. 22. Eph. 4. 2. Col. 1. 11. a 3. 12. 2 Tim. 2. 25. a 3. 10. a 4. 2. Iago 3. 17. 1 Pedr 4. 8. n Neh. 9. 17. Diar. 19. 22. a 31. 20, 26. Luc 6. 35, 36. Eph. 4. 32. Col. 3. 12, 13. 1 Pedr 3. 8. 2 Pedr. 1. 7. 1 Ioan 3. 16—18. a 4. 11. o pen. 3. 3. Gen. 30. 1. a 37. 11. Mat. 27. 18. Rhuf. 1. 29. a 13. 13. 2 Cor. 12. 20. Gal. 5. 21, 26. Phil. 1. 15. 1 Tim. 6. 4. Tit. 3. 3. Iago 3. 14—16. a 4. 5. 1 Pedr 2. 1. p pen. 4. 6, 18, 19. a 5. 2. a 8. 1. Phil. 2. 1—5.

Gwedi crybwyll yr afles o bob doniau, gweithredoedd, a dyoddefaint, heb gariad; mae yr apostol yn yr adnod hon a'r rhai canlynol, yn dangos pa fath yw y cariad mae efe yn sôn am dano. Mae yn amlwg nad oes dim daioni naturiol, yn nghalon dyn heb ras, a all ateb i'r dysgrifiad a wnair o gariad yma; ac mae yn amlwg mai ffrwyth yr Ysbryd yw y cariad a ddysgrifir. * Mae y cariad hwn yn hir-ymarhôus, nid yn unig tuag at frodyr a'n tramgwyddant ac a'n hanfoddlonant; ond hefyd tuag at elynion a'n drygant ac a'n niweidiant. † Mae hefyd yn gymmwynasgar, yn dirion, yn garedig, a phob amser yn barod i wneyd daioni i bawb a allo. ‡ Nid yw yn cenfigenu wrth lwyddiant, dedwyddwch, a rhagoriaeth rhai eraill, pa un bynag ai mewn pethau tymmorawl neu bethau ysbrydol. ‖ Nid yw yn gwneyd dyn yn ymffrostgar, ac yn drahâus tuag at eraill, o radd iselach nac efe ei hun; nac yn tueddu i fynu ei ffordd ei hun yn dra-arglwyddiaethol, yn groes i feddyliau, ac er niwed i deimladau ei frodyr. § Nid yw yn llenwi dyn â meddyliau beilchion, uchel, a chwyddedig am dano ei hun; am ei ddoniau, ei gyrhaeddiadau, ei rasau, neu ei sefyllfa fydol ei hun: mae cariad yn hytrach yn darostwng dyn i fod yn gyd-ostyngedig â'r rhai isel-radd, ac i dybied eraill yn well nac ef ei hun.

5 * Nid yw [q] yn gwneuthur yn anweddaidd,
† nid yw yn ceisio yr eiddo ei hun, [s] ‡ ni
chythruddir, [t] || ni feddwl ddrwg.

q pen. 7. 36.—a 11. 13—16, 18, 21, 22. a 14. 33—40. Es. 3. 5. Phil. 4. 8. 2 Thes. 3. 7. r pen. 10. 24, 33. a 12. 25. Rhuf. 14. 2—15. a 15. 1, 2. Gal. 5. 13. a 6. 1, 2. Phil. 2. 3—5, 21. 2 Tim. 2. 10. 1 Ioan 3. 16, 17. s Num. 12. 3. a 16. 15. a 20. 10—12. Salm 106. 32, 33. Mat. 5. 22. Marc 3. 5. Iago 1. 19, 20. t 2 Sam. 10. 3. Job 21. 27. Jer. 11. 19. a 18. 18—20. a 40. 13—16. Mat. 9. 4. Luc 7. 39.

* Nid yw cariad yn gwneuthur yn anweddaidd, yn
canaddas i sefyllfa un, ei oedran, neu ei alwedigaeth:
nid yw yn gwneyd dim yn annheilwng i'r dyn neu y
cristion; na dim ag sydd yn anhardd, yn wael, ac yn
ffiaidd ynddo ei hun, neu yn nghyfrif cyffredinol y rhan
ynwyrol a sobr o ddynolryw. † Nid yw cariad yn
munan-geisiol, yn amcanu at elw a mantais bersonol y
yn ei hunan yn mhob peth; er difaterwch am, a rhwystr
cholled i, eraill yn gyffredin: nid yw chwaith yn an-
hymmedrol yn ymgais am gyfoeth, anrhydedd, mwyn-
ant, gair da, a chanmoliaeth, yn enwedig ar gôst rhai
raill. ‡ "Ni chythruddir," ni chyffrôir yn hawdd, i
eimladau gwylltion a therfysglyd, i ymdaeru ac ym-
ènu: nid yw y dyn mae cariad Duw ynddo, dàn lywod-
aeth ei nwydau poethion ac ansanctaidd, yn terfysgu
ac yn cyffröi yn erbyn ei frawd na neb arall, ar bob
achos bychan. || Nid yw yn meddwl neu yn bwriadu
drwg yn fradychus i'w gymmydog; ac nid yw chwaith
yn meddwl fod drwg yn mwriad ei gymmydog tuag ato
ntau: mae yn ewyllysio meddwl y goreu, a rhoi y lliw
goreu ar bob peth.

6 [u] * Nid yw lawen am anghyfiawnder,
† ond cyd-lawenhâu y mae â'r gwirionedd;

u 1 Sam. 23. 19—21. 2 Sam. 4. 10—12. Salm 10. 3. a 119. 136. Diar. 14. 9. Jer. 9. 1. a 13. 17. a 20. 10. Hos. 4. 8. a 7. 3. Mica 7. 8. Luc 19. 41, 42. a 22. 5. Rhuf. 1. 32. Phil. 3. 18. Ex. 18. 9. Jos. 22. 22—23. Rhuf. 12. 9. 2 Cor. 7. 9—16. Phil. 1. 18. a 2. 17, 18. 1 Thes. 3. 6—10. 2 Ioan 4. 3 Ioan 3.

* Nid yw yn llawen ganddo wneyd un tro twyllodrus
ac anghyfiawn â neb, nid yw lawen o weled neb arall
yn gwneyd felly; ac nid yw lawen o weled un cwymp,
anffawd, neu anghyfiawnder yn dygwydd i neb, pa fodd
bynag y dygwyddo. † Ond cyd-lawenâu y mae â phob
gwirionedd, â llwyddiant y gwirionedd yn y byd; neu
yn eglurâd y gwirionedd, neu ddiniweidrwydd neb a
cyhuddir yn anghyfiawn. Mae yn bur debyg fod yr
apostol a'i olwg o hyd ar y gwrthwyneb i'r holl ddar-
nuniad prydferth hwn, ag oedd yn ffynu gormod o lawer
yn mhlith y Corinthiaid, fel y mae yn amlwg wrth
lawer o fànau yn y ddau epistol hyn.

7 [y] * Y *mae* yn dioddef pob dim, † yn
credu pob dim, [z] ‡ yn gobeithio pob dim,
|| yn ymaros â phob dim.

y Gwel ar adn. 4.—Num. 11. 12—14. Deut. 1. 9. Diar. 10. 12. Can. 8. 6, 7. Rhuf. 15. 1. Gal. 6. 2. Heb. 13. 13. 1 Pedr 2. 24. 4. 8. z Luc 7. 37—39, 44—46. a 19. 4—10. a pen. 9. 18—22. Gen. 29. 20. Mat. 10. 22. 2 Cor. 11. 8—12. 2 Thes. 1. 4. 2 Tim. 3—10, 24. a 3. 11. a 4. 5. Iago 1. 12.

* Mae cariad yn dyoddef ac yn cuddio beïau mewn
araill cyn belled ag y byddo modd gwneyd hyny yn unol
â chydwybod rydd a thawel; mae yn cyd-ddyoddef â
gwendidau mewn brodyr, ac yn dyoddef niweidiau gan
elynion yn amyneddgar. † Mae yn credu pob peth da
am glywo am ei frodyr, ac hyd yn nôd ei elynion; ac yn
ennhawdd ganddo gredu dim drwg am neb, yn enwedig
ei frodyr: ‡ a phan mae pethau yn edrych yn lled am-
heüus a drwg-dybus, mae cariad yn gobeithio y goreu
am bawb hyd y gallo; ac os bydd achos rhyw frawd yn
ŵir ddrwg, nid yw cariad yn annobeithio am dano ar
unwaith, ond mae yn gobeithio y gellir meddyginiaethu
ac achub y cyfryw un trwy ras a chymmorth Duw eto.
Mae yn ymaros â phob dim y dylai dyn duwiol ymaros
hwynt: mae yn parâu yn gryf ac amyneddgar, ac yn
angos cadernid meddwl ardderchog, dàn bob caledi a
chriniaeth ddrwg sydd yn ei gyfarfod yn y byd.

8 * Cariad [b] byth ni chwymp ymaith:
† eithr pa un bynnag ai prophwydoliaethau,
hwy a ballant; [c] ‡ ai tafodau, hwy a beidiant;
|| ai gwybodaeth, [d] hi a ddiflanna.

b adn. 10, 13. Luc 22. 32. Gal. 5. 6. c adn. 1. pen. 12. 10, 28—30. a 14. 39. Act. 2. 4, 11. a 19. 6. d Jer. 49. 7. Heb. 8. 13.

* Heblaw rhagoriaethau uchod y cariad hwn, mae
efe hefyd yn ras anniflanedig yn yr eneidiau a'i caffo;
byth ni chwymp ymaith. Nid oes yr un gras a mwy o
ymosod arno gan Satan a'i offerynau; ond cariad sydd
grŷf fel angau, ei farwor sydd farwor tanllyd, a fflam
angerddol iddynt; dyfroedd lawer ni allant ddiffoddi
cariad, ac afonydd y fall nis boddant ef. Mae cariad o
wasanaeth parâus yn holl amgylchiadau y fuchedd hon,
ac yn dàl yn barâus yn wyneb pob amgylchiad heb
lwyr ddiffoddi; a phan ymadawo y credadyn â'r bywyd
hwn, nid yw cariad yn darfod mwy na'r enaid, ond yn
myned yn a chyda'r enaid i'r byd nefolaidd, lle bydd yn
hanfodi ac yn teyrnasu mewn perffeithrwydd a gogoni-
ant byth bythoedd. † Ond fel arall y bydd gyda'r
doniau ysbrydol sydd yn yr eglwys yn awr; e dderfydd
ysbryd prophwydoliaeth o'r eglwys yn fuan; ac ar ol yr
oes apostolaidd, caiff yr eglwys ei dysgu trwy foddion
mwy cyffredin, sef pregethiad yr efengyl: ac hyd yn nôd
prophwydoliaethau yr ysgrythyr a gyflawnir oll yn fuan;
ac wedi ateb eu dyben, ni byddant mwyach o un gwas-
anaeth i'r eglwys. ‡ Ac am lefaru â thafodau, neu
mewn amryw ieithoedd, nid oedd y ddawn hon i barâu
yn hir yn yr eglwys, ac yn y nefoedd ni bydd eisiau
ieithoedd dynol y byd hwn, bydd yno bawb yn llefaru
yr un iaith ysbrydol a nefolaidd byth. || Yr wybodaeth
philosophaidd hòno, yr oedd y Corinthiaid yn ymfawr-
ygu cymmaint o'i herwydd, a ddiflanai yn fuan fel
breuddwyd gwag: ac hyd yn nôd yr wybodaeth grefyddol
a gyrhaeddwyd ar y ddaear, a ddiflana yn nysgleirdeb yr
wybodaeth berffaith yn y nef, fel y diflana dysgleirdeb
y sêr gan oleuni yr haul ganol dydd. Wrth "wybod-
aeth" yma, mae rhai yn deall moddion presenol gwy-
bodaeth; sef, yr ysgrythyrau a phregethu, ni bydd eisiau
y cyfryw foddion yn y byd a ddaw.

9 [e] * Canys o ran y gwyddom, † ac o ran
yr ydym yn prophwydo.

e adn. 12. pen. 2. 9. a 8. 2. Job 11. 7, 8. a 26. 14. Salm 40. 5. a 139. 6. Diar. 30. 4. Mat. 11. 27. Rhuf. 11. 34. Eph. 3. 8, 18, 19. Col. 2. 2, 3. 1 Pedr 1. 10—12. 1 Ioan 3. 2.

* Gwir iawn a ddywedodd rhywun, Nad yw y rhan
fwyaf o'r pethau a wyddom ni eto, ond y rhan leiaf o'r
pethau ni wyddom. Gall y rhai a wyddant fwyaf ar y
ddaear ddywedyd am yr hyn oll a wyddant, "Wele,
dyma ranau ei ffyrdd ef; ond mòr fychan ydyw y peth
yr ydym ni yn ei glywed am dano ef! ond pwy a ddeall
daranau ei gadernid ef?" Job 26. 14. Mewn rhan y
gŵyr y doethaf, a'r goreu, eto, wrth yr hyn a gânt ei
wybod yn y nefoedd. † Gan mai mewn rhan y gwyddai
y prophwydi yn eglwys Corinth ac yn mhob màn arall,
o ran yr oeddynt yn prophwydo: nis gallent brophwydo
ond yn ol yr hyn oedd yn cael ei ddatguddio iddynt
drwy ysbrydoliaeth Duw; ac nis gall neb ddysgu eraill
ond yn ol a ddysgodd ef ei hun.

10 [f] * Eithr pan ddelo yr hyn sydd ber-
ffaith, † yna yr hyn sydd o ran a ddilëir.

f adn. 12. Es. 24. 23. a 60. 19, 20. 2 Cor. 5. 7, 8. Dat. 21. 22, 23. a 22. 4, 5.

* Pan gyrhaeddo y saint i ystâd o berffeithrwydd yn
y nef, † yna dilëir holl ddiffygion a thywyllni eu gwy-
bodaeth bresenol, gan oleuni a datguddiedigaethau
perffaith y byd a ddaw, mal y diffoddir canwyllen ddiles
yn ngoleuni y dydd. Nid colled a fydd dilëu yr hyn
sydd o ran, ond ennill annhraethol; newid yr hyn sydd
anmherffaith, am yr hyn sydd berffaith a chyflawn.

11 * Pan oeddwn fachgen, [g] fel bachgen y
llefarwn, fel bachgen y deallwn, fel bachgen y
meddyliwn: † ond pan aethum yn wr, mi a
rois heibio bethau bachgenaidd.

g pen. 3. 1, 2. a 14. 20. Preg. 11. 10. Gal. 4. 1.

Gellid egluro y cyfnewidiad uchod i raddau, trwy y
gwahaniaeth rhwng amgyffrediadau bachgenyn â dyn

mewn oedran, ac yn ei lawn wybodaeth. * Mae y bachgen yn siarad, yn deall, ac yn meddwl am bob peth yn blentynaidd ac yn isel; † ond wedi ei fyned i oedran a deall gŵr, mae yn rhoddi heibio y meddyliau, y syniadau, a'r siarad plentynaidd hyny, ac yn amgyffred ac yn ymddiddan am bethau yn fwy addas a phriodol, fel dyn deallus. Felly y saint yn y byd hwn, nid yw deall ac ymddiddanion y goreu o honynt am bethau mawrion Duw, ond anmherffaith a phlentynaidd iawn; ond pan elont i'r nefoedd, hwy a'u deallant yn annhraethol fwy perffaith. Er bod yr apostol yn cael ei gadw rhag pob cyfeiliornad mewn athrawiaeth wrth bregethu ac ysgrifenu; eto yr oedd yn gwybod nad oedd ei amgyffrediadau ef ond bŷrion a diffygiol iawn ar y ddaear, am bethau ysbrydol a nefol, wrth yr hyn a gaffai efe wybod mewn ystâd o berffeithrwydd yn y nef.

12 [h] * Canys gweled yr ydym yr awrhon trwy ddrych, † mewn dammeg; ‡ ond yna, [i] wyneb yn wyneb: [k] || yn awr yr adwaen o ran; § ond yna yr adnabyddaf megis y'm hadwaenir.

h 2 Cor. 3. 18. a 5. 7. Iago 1. 23. i Ex. 33. 11. Num. 12. 8. Mat. 5. 8. a 18. 10. Rhuf. 8. 18. 1 Ioan 3. 2. Dat. 22. 4. k adn. 9, 10. Ioan 10. 15.

Yma mae yr apostol yn defnyddio dwy gyffelybiaeth arall, drych a dammeg, i ddangos anmherffeithrwydd gwybodaeth y saint yn y byd hwn. * Fel y mae y pethau yn ymddangos yn anmherffaith trwy adlewyrchiad mewn drych, felly mae y saint yn canfod pethau ysbrydol ar y goreu yn awr, yn wyneb yr ysgrythyrau sanctaidd, ac ordinâdau yr efengyl: a rhaid i ni ddeall mai o bres llathr a gloyw, y gwnaid y drychau gynt, ac am hyny nad oeddynt yn adlewyrchu gwrthddrychau mòr danbaid a pherffaith â'n drychau ni yn awr o wydr. † Nid yw y dywedyd goreu a fedr dynion am bethau gogoneddus Duw, ond fel dammegion tywyll; ac fel nas gellir deall dammegion ond yn anmherffaith, felly nis gellir deall dyfnion bethau Duw yma ond yn anmherffaith iawn, a hyny drwy lawer o anhawsdra a llafur meddwl. ‡ Ond yn y nefoedd cair eu gweled yn llawer iawn eglurach, fel y maent ynddynt eu hunain, mòr eglur ag y mae y naill ddyn yn gweled wyneb y llall, pan y maent yn ymyl eu gilydd, a hyny heb un llèn rhyngom â hwynt. || Hyd yn nôd yr apostol ei hun, er yr holl weledigaethau a'r datguddiedigaethau a gawsai, (2 Cor. 12. 1, 4.) nid oedd ganddo ond gwybodaeth anmherffaith o wirioneddau mawrion yr efengyl ar y ddaear; § ond yn y nefoedd yr oedd yn dysgwyl adnabod megys yr adwaenid ef; a deall am bethau ysbrydol a nefol, i ryw raddau yn debyg fel yr oedd Duw yn ei adnabod yntau: cyn belled ag yr oedd dichon i feddwl meidrol i adnabod pethau anfeidrol.

13 * Yr awrhon y mae [l] yn aros [m] † ffydd, [n] ‡ gobaith, [o] || cariad, y tri hyn; § a'r [p] mwyaf o'r rhai hyn *yw* cariad.

l pen. 3. 14. 1 Pedr 1. 23. 1 Ioan 2. 14, 24—27. a 3. 9. m Luc 8. 13—15. a 22. 32. Gal. 5. 6. Heb. 10. 39. a 11. 1—7. 1 Ioan 5. 1—5, 9—13. n Salm 42. 11. a 43. 5. a 146. 5. Galar. 3. 21—26. Rhuf. 5. 4, 5. a 8. 24, 25. a 15. 13. Col. 1. 5, 27. 1 Thes. 5. 8. Heb. 6. 11, 19. 1 Pedr 1. 21. 1 Ioan 3. 3. o adn. 1—8. pen. 8. 1, 3. 2 Cor. 5. 14, 15. Gal. 5. 6. 1 Ioan 2. 10. a 4. 7—18. p adn. 8. pen. 14. 1. a 16. 14. Marc 12. 29—31. Luc 10. 27. Gal. 5. 13—22. Phil. 1. 9. Col. 3. 14. 1 Tim. 1. 5. 2 Tim. 1. 7. 1 Ioan 4. 7—9. 2 Ioan 4—6.

* Heblaw yr holl ddoniau ysbrydol a enwyd yn y bennod o'r blaen a hon, ac yn tra rhagori arnynt oll, mae yr awr hon yn aros, ac a erys yn mhawb o'r saint, wedi i'r doniau hyny ddarfod, y tri gras sylweddol a hanfodol hyn; sef ffydd, gobaith, a chariad. † Ffydd, er cyfiawnâd a maddeuant o'n pechodau, ac er sail a thystiolaeth o'r pethau ni welir â llygad natur na rheswm. Mae ffydd yn derbyn tystiolaeth Duw am bethau anweledig, yn defnyddio tystiolaeth, ac fel hyny yn cofleidio y Gwaredwr mawr, ac yn ymorphwys arno ef ac ar addewidion Duw ynddo ef, er iachawdwriaeth. ‡ Gobaith, i ddysgwyl am yr iachawdwriaeth a'i holl fendithion addawedig; ac fel hyn mae yn angor yr enaid, yn ei gynnal yn ddïysgog ac yn llawen, yn nghanol pob gorthrymder, gwrthwynebiadau, a digalondid. || Cariad, trwy yr hwn mae y credadyn yn ymhyfrydu yn Nuw, ac yn dangos ei ufudd-dod sanctaidd i'w ewyllys ef: dyma wreiddyn ac ysgogydd pob daioni ysbrydol, heb hwn nid yw y mwyaf ei ddoniau ddim, na'i holl ddoniau a'i weithredoedd o ddim llesâd iddo, adn. 2, 3. § O'r tri gras rhagorol hyn, y mwyaf yw cariad: mwyaf o ran ei ddefnydd presenol; pethau i'r dyn ei hunan yw ffydd a gobaith, ond mae cariad yn ei gymhell ef i wneyd daioni i eraill hefyd: mwyaf o ran ei barâd tragywyddol; pan elo y credadyn i'r nefoddd, e drŷ ei ffydd yn olwg, a'i obaith yn fwynâd, ond bydd cariad yno yn blodeuo yn berffaith, ac yn anniflanedig byth, ac megys yn uno Duw a holl deulu sanctaidd y nef, yn y cydgordiad a'r dedwyddwch mwyaf perffaith yn oes oesoedd.

PEN. XIV.

Canmol prophwydoliaeth, &c.

[a] * DILYNWCH [b] gariad, [c] † a deisyfwch *ddoniau* ysprydol; ‡ ond yn hytrach fel y [d] prophwydoch.

a Diar. 15. 9. a 21. 21. Es. 51. 1. Rhuf. 9. 30. a 14. 19. 1 Tim. 5. 10. a 6. 11. Heb. 12. 14. 1 Pedr 3. 11—13. 3 Ioan 11. b Gwel ar pen. 13. 1—8, 13.—2 Tim. 2. 22. 2 Pedr 1. 7. c pen. 12. 1, 31. d adn. 3—5, 24, 25, 37, 39. pen. 13. 2, 9. Num. 11. 25—29. Rhuf. 12. 6. 1 Thes. 5. 20. 1 Tim. 4. 14.

* Gwedi dangos mawr ragoriaeth cariad ar bob dawn arall yn y bennod o'r blaen, mae yr apostol yma yn annog y Corinthiaid i ddilyn cariad â'u holl ymgais, uwchlaw pob peth arall. Mae yn amlwg wrth pen. 3. 3, 4, ac yn wir yn y rhan fwyaf o'r epistol hwn, fod y Corinthiaid yn brin iawn yn eu cariad brawdol i'w gilydd, am hyny yr oedd y cyngor yn dra angenrheidiol iddynt. † Gwedi cyrhaedd cariad, gallent ddeisyfu am ddoniau ysbrydol; oblegid dàn effeithiau cariad, hwy a wnaent iawn ddefnydd o honynt, yn ofn Duw, ac er adeiladaeth eu gilydd. Peth trwm yw gweled proffeswyr crefydd yn gwag-awyddu am ddoniau i ragori ar eu gilydd, tra maent yn ddifater am garu eu gilydd. Braidd nas gellid dywedyd, Po mwyaf y dawn mwyaf y drwg, heb gariad. ‡ Wrth brophwydo yma, tybir mai nid rhagfynegi pethau i ddyfod a feddylir yn gymmaint; ond dawn drwy ysbrydoliaeth Duw i egluro yr ysgrythyrau, a mynegi holl gyngor Duw, mewn athrawiaeth ac ymarferiad er hyfforddi ac adeiladu yr eglwys.

2 [e] * Canys yr hwn sydd yn llefaru â tafod *dïeithr,* nid wrth ddynion y mae yn llefaru, † ond wrth Dduw: † canys nid oes neb yn gwrando; [f] || er hynny yn yr yspryd y mae efe yn llefaru dirgeledigaethau.

e adn. 9—11, 16, 21, 22. Gen. 11. 7. a 42. 23. Deut. 28. 49. 2 Bren. 18. 26. Act. 2. 4—11. a 10. 46. a 19. 6. f pen. 2. 7, 10. a 13. 2. a 15. 51. Salm 49. 3, 4. a 78. 2. Mat. 13. 11. Marc 4. 11. Rhuf. 16. 25. Eph. 3. 3—9. a 6. 19. Col. 1. 26, 27. a 2. 2. 1 Tim. 3. 9, 16. Dat. 10. 7.

* Tybia y *Dr. Lightfoot* mai yr hen iaith Hebraeg, a feddylir yma yn benaf wrth y "tafod dïeithr:" yr oedd hon wedi myned ar goll, ac i anarferiad er ys oesoedd, ond yn awr wedi cael ei hadnewyddu i rai yn yr eglwys trwy ddawn oruwch-naturiol. Tybia yr un gŵr hefyd, fod y personau oedd yn ngolwg yr apostol yn athrawiaethu Iuddewaeth yn yr eglwys, ac yn dàl i arfer yr iaith Hebraeg, er nad oedd y bobl gyffredin yn ei deall; gan ddilyn arfer y synagogau, lle y darllenid yr ysgrythyrau, y gweddïid, ac y pregethid yn yr iaith Hebraeg. Ond pa iaith bynag oedd, gan ei bod yn ddïeithr i'r gynnulleidfa, nid wrth ddynion yr oedd yr areithwyr hyn yn llefaru; hyny yw, nid er baddioldeb i ddynion, nac wrth ddeall dynion. † Ond yr oeddynt yn llefaru wrth Dduw; gan ei fod ef yn awdwr pob iaith, yr oedd ef yn eu deall hwynt, a pha beth oeddynt yn lefaru.

Hyny yw, nid oes neb, neu ond ychydig iawn, yn wrando i fuddioldeb, am nad ydynt yn deall. || Er fod dyn dàn ddylanwadau yr Ysbryd yn llefaru pethau anagorol, dirgelwch mawr pethau Duw; eto i'w ysbryd i feddwl ei hun mae yn eu llefaru, dirgelwch cuddiedig i'r bobl yw y cwbl, am nad ydynt yn deall.

3 * Eithr yr hwn sydd yn prophwydo, sydd yn llefaru wrth ddynion [g] ‡ er adeiladeth, a [h] chynghor, a [i] chysur.

g adn. 4, 12, 26. pen. 8. 1. a 10. 23. Act. 9. 31. Rhuf. 14. 19. a 5. 2. Eph. 4. 12—16, 29. 1 Thes. 5. 11. 1 Tim. 1. 4. Judas 20. 1 Luc 3. 18. Act. 13. 15. a 14. 22. a 15. 32. Rhuf. 12. 8. 1 Thes. 3. 3, a 4. 1. a 5. 11, 14. 2 Thes. 3. 12. 1 Tim. 4. 13. a 6. 2. 2 Tim. 2. 2. Tit. 1. 9. a 2. 6, 9, 15. Heb. 3. 13. a 10. 25. a 13. 22. 1 Pedr 2. 12. i adn. 31. 2 Cor. 1. 4. a 2. 7. Eph. 6. 22. Col. 4. 8. 1 Thes. 2. 11. a 3. 2. a 4. 18. a 5. 11—14.

* Ond yr hwn sydd mewn iaith ddealladwy yn egluro prophwydoliaethau yr Hen Destament, a thàn ysbryddiliaeth Duw yn traddodi gwirioneddau pwysig a gwerthawr yr efengyl mewn modd addysgiadol a buddiol; ac mae y cyfryw un yn llefaru wrth ddynion, hyny yw, wrth ddeall a chydwybodau dynion, ‡ er eu cynnydd mewn goleuni, gwybodaeth, a gras; ac er eu hannog iwy at ddyledswyddau eu galwedigaeth sanctaidd: yn ŵyr, mae yn llefaru wrth ddynion er eu hadeiladaeth, ac er cyngor a chysur iddynt yn eu profedigaethau a'u gwallodion.

4 * Yr hwn sydd yn llefaru â thafod *dieithr*, [k] sydd yn ei adeiladu ei hunan; † eithr yr hwn sydd yn prophwydo, [l] sydd yn adeiladu yr eglwys.

k adn. 14. l adn. 3, 18, 19.

* Yr hwn oedd yn traddodi ei bregethau mewn iaith, neu ymadroddion uwchlaw deall ei wrandawŵyr; ddfallai ei fod yn cael lles ei hun oddi wrth ei ymadroddion ei hun, os nad oedd balchder o'i ddawn wyrthbol yn ei dra-derchafu ef, ac yn attal gwir adeiladaeth ysbrydol oddi wrtho. † Ond yr hwn oedd yn prophwydo yn yr ystyr a grybwyllwyd yn adn. 3, yr oedd ewnw yn adeiladu eraill hefyd, heblaw ei hunan, yr ŷn oedd yn llawer gwell a mwy buddiol. Tybia rhai bod y doniau i lefaru gwahanol ieithoedd a phrophwydo, ac ob amser yn yr un person; ond bod y gyntaf yn arosol, ac'r llall ar amserau, nid yn wastadol: ond tybia eraill nad oedd felly ond yn anaml; y gallai y naill fod heb y llall.

5 [m] * Mi a fynnwn pettych chwi oll yn llefaru â thafodau *dieithr;* † ond yn hytrach prophwydo o honoch: [n] ‡ canys mwy *yw* yr hwn sydd yn prophwydo, nâ'r hwn sydd yn llefaru â thafodau; [o] || oddi eithr iddo *ei* gyfieithu, fel y derbynio yr eglwys adeiladaeth.

m pen. 12. 28—30. a 13. 4. Num. 11. 28, 29. n adn. 1, 3. o adn. 12, 13, 26—28. pen. 12. 10, 30.

* Gan fod yr apostol yn ewyllysio y doniau goreu i'r holl eglwys, a chan fod y ddawn wyrthiol o lefaru â thafodau dïeithr, yn fuddiol iawn er taeniad helaeth yr efengyl; dymunai efe pe buasai ei holl frodyr yn Corinth yn meddu y ddawn hòno, a gwneyd iawn ddefnydd hóni, Oddi wrth adn. 12, 18, 23, 26, 27, 28, mae yn amddangos fod llawer yn eglwys Corinth, ac yn enwedig y rhai mwyaf gwrthwynebus i'r apostol, yn ymfalchïo mn chwyddedig ar y ddawn o lefaru â *thafodau dïeithr*, ac yn ei defnyddio mewn modd afrëolus, er rhwystr i doddion eraill, mwy uddiol n yr eglwys: am hyny dymae yr apostol yn llefaru yn fwy iselaidd am y ddawn hon, er eu darostwng hwy, ac er ceryddu eu rhodres a'u diam-ddefnydd anfuddiol o hóni. † Gan nad oedd y ddawn hon o lefaru â thafodau dïeithr ond o ychydig ddefnydd, oddigerth pan elynt i blith dynion nad oeddent yn deall eu hiaith gyffredin hwynt; dymunai yr apostol yn hytrach o lawer i'r Corinthiaid cartrefol gael y ddawn i brophwydo, bod yn fedrus yn yr ysgrythyrau, ac yn heglurro a'u cymhwyso yn yr iaith a ddeallai yr eglwys. ‡ Tybiai y Corinthiaid mai y ddawn o lefaru â thafodau oedd y ragoraf, am eu bod hwy yn cael mwy o glod a dyrchafiad felly; ond dywed yr apostol mai mwy oedd yr hwn oedd yn prophwydo: mwy gwasanaethgar ac adeiladol i'r eglwys o lawer. Fel hyn mae yr apostol yn dysgu i ni werthfawrogi doniau, nid wrth eu mawredd a'u gloywder, ond wrth eu defnyddioldeb. Yr oedd llefaru â thafodau yn wasanaethgar i daenu yr efengyl ar led; ond i'r rhai oedd yn aros gartref yn yr unman, gwell oedd llefaru yn dda ar bethau buddiol yn eu hiaith eu hunain, || oddi eithr i'r cyfryw allu cyfieithu eu hymadroddion er adeiladaeth yr eglwys, yr hyn mae yn debyg ni allai llawer oedd wedi derbyn dawn i lefaru â thafodau. Gwel ar pen. 12. 10.

6 * *Ac* yr awrhon, frodyr, os deuaf attoch gan lefaru â thafodau, [p] pa lesâd a wnaf i chwi, † oni lefaraf wrthych naill ai trwy [q] weledigaeth, ‡ neu trwy [r] wybodaeth, || neu trwy [s] brophwydoliaeth, § neu trwy [t] athrawiaeth?

p pen. 10. 33. a 12. 7. a 13. 3. 1 Sam. 12. 21. Jer. 16. 19. a 23. 32. Mat. 16. 26. 2 Tim. 2. 14. Tit. 3. 8. Heb. 13. 9. q adn. 26—30. Mat. 11. 25. a 16. 17. 2 Cor. 12. 1, 7. Eph. 1, 17. Phil. 3. 15. r pen. 12. 8. a 13. 2, 8, 9. Rhuf. 15. 14. 2 Cor. 11. 6. Eph. 3. 4. 2 Pedr 1. 5. a 3. 18. s Gwel ar adn. 1. pen. 13. 2. t adn. 26. Rhuf. 16. 17. 2 Tim. 3. 10, 16. a 4. 2. 2 Ioan 9.

* I ddangos y mater uchod yn eglurach i'r Corinthiaid heb eu tramgwyddo, mae yr apostol yn ei osod ei hun megys yn eu plith; ac yn dywedyd, pe deuai efe atynt a llefaru mewn iaith nad oeddent hwy yn ei deall, pa lesâd a fyddai hyny iddynt? † Dim yn sicr, oni lefarai efe yn ddealladwy iddynt, un ai trwy "weledigaeth," neu ddatguddiad union-gyrchol oddi wrth Dduw; ‡ neu trwy ei wybodaeth ragor-fawr ei hun o ddirgeledigaethau Duw; || neu trwy ryw genadwri brophwydoliaethol addas i'w hachos hwy; § neu trwy ryw athrawiaeth, neu ar ryw bwnc o athrawiaeth, yr oeddynt hwy yn petruso neu yn camgymmeryd yn ei gylch. *Gweledigaeth:* eglurâd o gysgodau ac allegau yr Hen Destament, neu egluro dirgelwch yr efengyl neu y cyfryw weledigaeth a gafodd Ioan yn ynys Patmos. *Gwybodaeth:* gwybodaeth hanesiol, neu unrhyw wybodaeth gyffredin arall. *Prophwydoliaeth:* egluro rhanau dyrys ac anhawdd o'r ysgrythyr. *Athrawiaeth:* traddodi egwyddorion crefydd yn athrawiaethol ac ymarferol.—*Pool.* Dywed yr addfwyn a'r gostyngedig *Doddridge* fel hyn:—"Rhaid i mi gyfrif yr adnod hon yn mhlith yr amryw adnodau eraill, y rhai ni feiddiaf fi dybied fy mod yn eu llawn ddeall."

7 * Hefyd [u] pethau dïenaid wrth roddi sain, † pa un bynnag ai pibell ai telyn, [x] oni roddant wahaniaeth yn y sain, ‡ pa wedd y gwybyddir y peth a genir ar y bibell, neu ar y delyn?

u pen. 13. 1. x adn. 8. Num. 10. 2—10. Mat. 11. 17. Luc 7. 32.

* I ddangos eto yr afles o lefaru â thafodau dïeithr, mae yr apostol yn ei gymharu i sŵn celfydd offerynau cerdd, y rhai ynddynt eu hunain ydynt bethau meirwon a dïenaid, ac nid ydynt yn arwyddo dim, nac o werth dim, ond fel y chwareüir tônau arnynt. † Pa un ai pibell ai telyn, oni chwareüir y dôn yn gelfyddgar ac yn gywir arnynt, i roddi y gwahaniaeth dyladwy yn y sain; ‡ pa wedd y gall neb ddeall pa beth a gënir ar y naill neu y llall o honynt? Nis gall neb na galaru na dawnsio wrth seiniau anghelfydd a dïarwyddol felly. Cyffelyb i hyn yw pawb a lefarant mewn iaith ddïeithr ac annealladwy i'r gwrandawŵyr.

8 * Canys [y] os yr udgorn a rydd sain anhynod, pwy a ymbarottôa i ryfel?

y Num. 10. 9. Jos. 6. 4—20. Barn. 7. 16—18. Neh. 4. 18—21. Job 39. 24, 25. Es. 27. 13. Amos 3. 6. Eph. 6. 11—18.

* Mae gwahanol seiniau i'r udgorn mewn rhyfel; weithiau i ymdaith yn mlaen, weithiau i ymosod ar y gelynion, ac weithiau i encilio: ond os yr udgorn a rydd sain anhynod, na byddo yn arwyddo y naill nâ'r

llall o'r pethau uchod, pwy a ymbarotôa i ryfel, pa fodd y gall y fyddin wybod pa beth i wneyd, na pha fodd i ymddwyn? teflir hwy i ddyryswch ac annhrefn, ac odid na bydd canlyniadau drwg, o sain anhynod yr udgorn.

9 * Felly chwithau, oni roddwch â'r tafod ymadrodd deallus, pa wedd y gwybyddir y peth a leferir? [z] † canys chwi a fyddwch yn llefaru wrth yr awyr.

z pen. 9. 26.

* Felly pregethwyr y gair, udganwyr yn myddin Duw ydynt; ac oni roddant ymadrodd deallus i'r rhai a wrandawant, pa fodd y gall y gwrandawŵyr wybod pa beth a leferir fel y caffont les ac adeiladaeth, ac fel y dysgont eu dyledswydd? † Ni bydd y cwbl iddynt hwy ond sŵn heb sylwedd nac arwyddocâd; a'r pregethwyr megys yn llefaru wrth yr awyr. Chwilied ein pregethwyr am eiriau cymmeradwy, yn gystal ag iaith ddealladwy: peth gwael ac anfuddiol iawn yw llefaru wrth awyr; a phechadurus iawn yw anferthu pethau mawrion Duw â geiriau cöegaidd rhodresgar na byddo y cyffredin yn eu deall.

10 * Y mae cymmaint, ysgatfydd, o rywogaethau lleisiau yn y byd, † ac nid *oes* un o honynt yn aflafar.

* Ar y cyntaf yr oedd yr holl ddaear o un iaith ac un ymadrodd, Gen. 11. 1, ond wrth adeiladu tŵr Babel, cymmysgodd Duw yr ieithoedd, fel mae yn anodd gwybod pa nifer o ieithoedd ac o gangen-ieithoedd sydd yn y byd yn awr: cynnifer, mae yn debyg, ag sydd o wahanol genedloedd ar y ddaear. † Ac eto er mòr amled a gwahanol ydynt, nid oes yr un o honynt yn aflafar; hyny yw, heb fod yn ddigon dealladwy i'r rhai hyny a'i llefarant: mae iaith cynnwynawl pob cenedl yn ddealladwy i'r genedl hòno; ond nid yw felly i neb arall heb ei dysgu.

11 * Am hynny, oni wn i rym y llais, [a] myfi a fyddaf farbariad i'r hwn sydd yn llefaru, a'r hwn sydd yn llefaru *a fydd* i mi yn † farbariad.

a adn. 21. Act. 28. 2, 4. Rhuf. 1. 14. Col. 3. 11.

* Pe ceisiai unrhyw ddau ddyn ymddiddan â'u gilydd, ac heb ddeall iaith eu gilydd, byddent ill dau yn farbariaid y naill i'r llall. Nid ar iaith y naill nâ'r llall mae y bai; mae iaith rymus, a llawn-arwyddol gan bob un o honynt; ond y diffyg yw, nad ydynt hwy yn deall iaith eu gilydd, am hyny maent ill dau yn farbariaid i'w gilydd. † Barbariaid y galwai y Groegiaid agos bob cenedl ond hwy eu hunain, yn enwedig os na byddent yn deall eu hiaith.

12 * Felly chwithau, [b] gan eich bod yn awyddus i *ddoniau* ysprydol, [c] † ceiswch ragori tu ag at adeiladaeth yr eglwys.

b adn. 1. pen. 12. 7, 31. Tit. 2. 14. c adn. 3, 4, 26.

* Felly y Corinthiaid, tra yn oeddynt yn llefaru yn yr eglwys â thafod dïeithr, ac mewn iaith neu ieithoedd na ddeallai y bobl; yr oeddynt megys barbariaid iddynt, a'u holl ymadroddion goreu yn gwbl ddiles i'r gwrandawŵyr. † Ond gan fod llawer o honynt yn dra awyddus i ddoniau ysbrydol, mae yr apostol yn eu cyngori i awyddu am y doniau mwyaf buddiol i'r eglwys, ac i geisio rhagori ar eu gilydd er adeiladaeth yr eglwys, ac nid er eu clod a'u henwau eu hunain.

13 * O herwydd paham, yr hwn sydd yn llefaru â thafod *dieithr,* [d] gweddïed ar iddo allu cyfieithu.

d adn. 27, 28. pen. 12. 10, 30. Marc 11. 24. Ioan 14. 13, 14. Act. 1. 14. a 4. 29—31. a 8. 15.

* Tybir y byddai rhai yn derbyn dawn i lefaru â thafod dïeithr, ac heb ddeall eu hunain pa beth oeddynt yn ddywedyd: os felly, yr oedd yn angenrheidiol gweddïo ar iddynt allu cyfieithu, fel na byddai eu hymadroddion yn hollawl anfuddiol i bawb. Tybia eraill eu bod yn rhŷ feilchion a chwyddedig i gyfieithu; a bod yr apostol yn eu hannog i weddïo am ostyngeiddrwydd i gyfieithu. Mae eraill yn deall y geiriau fel hyn:—Yr hwn sydd yn awyddus am lefaru â thafod dïeithr, gweddïed am ddawn i gyfieithu yr hyn a lefaro eraill â thafod dïeithr yn hytrach: bydd hyny yn fwy buddiol i'r eglwys na llefaru â thafod dïeithr.

14 * Canys os gweddïaf â thafod *dieithr,* [e] † y mae fy yspryd yn gweddïo, ‡ ond y mae fy neall yn ddiffrwyth.

e adn. 2, 15, 16, 19.

* Pe buasai yr apostol ei hun yn dyfod i blith y Corinthiaid, a gweddïo yn gyhoeddus yn yr eglwys â thafod dïeithr, † gallai efe weddïo yn ddiragrith mae yn wir, yn ei ysbryd ei hun, rhyngddo â Duw; ‡ ond gan na byddai eraill yn ei ddeall ef, byddai ei ddeall ef ei hun yn ddiffrwyth iddynt hwy, ac yn hollawl aflesol i bawb ond ef ei hun. Mae hyn yn taro yn grŷf yn erbyn arfer yr offeiriaid pabaidd, o weddïo yn Lladin, lle nad oes braidd neb o'r bobl yn eu deall.

15 [f] * Beth gan hynny? [g] † Mi a weddïaf â'r yspryd, ‡ ac a weddïaf â'r deall hefyd: || canaf â'r yspryd, [h] § a chanaf â'r deall hefyd.

f pen. 10. 19. Rhuf. 3. 5. a 8. 31. Phil. 1. 18. g adn. 19. Ioan 4. 23, 24. Rhuf. 1. 9. Eph. 5. 17—20. a 6. 18. Col. 3. 16. Judas 20. h Salm 47. 7. Rhuf. 12. 1, 2.

* Beth gan hyny yw swm y cwbl a ddywedwyd ar y pen hwn? a pha beth sydd oreu ac addasaf ei wneyd yn yr amgylchiadau hyn? † Hyn yw y penderfyniad, pan weddiwyf fi neu rywun arall mewn cynnulleidfa gyhoeddus, ni a ddylem weddïo mewn ysbryd gwresog, a thàn ddylanwadau yr Ysbryd Glân; ‡ ac ni a ddylem arfer ein deall hefyd, trwy arfer iaith ac ymadroddion dealladwy i eraill, fel y caffont les trwy ein gweddïau, ac yr enniller hwynt i gyd-weddïo â ni. || Ac yr un modd y gellir dywedyd am gânu mawl; dylid ei wneyd â'r holl galon, â holl alluoedd yr enaid, yn wresog yn yr ysbryd, a thàn ddylanwadau nefol yr Ysbryd Glân: § ac hefyd â'r deall, fel dynion rhesymol, ac mewn geiriau addas a dealladwy i eraill.

16 * Canys os [i] bendithi † â'r yspryd, [k] ‡ pa wedd y dywed yr hwn sydd yn cyflawni lle yr anghyfarwydd, [l] Amen, ar dy ddodiad dïolch, gan nas gŵyr beth yr wyt yn ei ddywedyd?

i adn. 2, 14. k adn. 23, 24. Es. 29. 11, 12. Ioan 7. 15. Act. 4. 13. l pen. 16. 24. Num. 5. 22. Deut. 27. 15, &c. 1 Bren. 1. 36. 1 Cron. 16. 36. Salm 41. 13. a 72. 19. a 89. 52. a 106. 48. Jer. 28. 6. Mat. 6. 13. a 28. 20. Marc 16. 20. Ioan 21. 25. Dat. 5. 14. a 22. 20.

* Mae y "dodiad dïolch" yn niwedd yr adnod yn egluro beth yw y "bendithio" yma. † Hyny yw, os bendithi â'th ysbryd dy hun, ac hefyd drwy gynnorthwyon a dylanwadau yr Ysbryd Glân, ond â thafod dïeithr, ac mewn iaith na byddo eraill yn ei deall; ‡ pa fodd y dywed yr anghyfarwydd yn yr iaith hòno, Amen, ar dy ddodiad dïolch di, gan nas gŵyr beth yr wyt yn ei ddywedyd? "Cyflawni *lle* yr anghyfarwydd:" gwelwn yma fod yn yr eglwysi apostolaidd, leoedd i'r athrawon, ar wahân oddi wrth y gwrandawŵyr cyffredin; a gwelwn hefyd mai arferiad apostolaidd, yn gystal ag yn yr eglwys Iuddewig, oedd i'r bobl ddywedyd Amen, ar ddodiad dïolch y gweinidog cyhoeddus.

17 * Canys tydi yn ddïau ydwyt yn dïolch yn dda, [m] † ond y llall nid yw yn cael ei adeiladu.

m adn. 4, 26.

* Yr wyt ti yn dïolch yn dda, yn ddiragrith, ac yn wresog, o ran dy ysbryd a'th eiriau hefyd; † ond y llall nid yw yn cael ei adeiladu am nad yw yn gallu deall dy eiriau. Gydag addolï Duw, dylem amcanu bod yn adeiladol i eraill hefyd yn ein holl gyflawniadau crefyddol.

18 [n] * Yr ydwyf yn dïolch i'm Duw, fy

nod i yn llefaru â thafodau yn fwy nâ chwi
oll:

n pen. 1. 4—6. a 4. 7.

* Mae yn debyg fod y ddawn o lefaru â thafod dïeithr wedi ei rhoddi i'r apostol yn helaethach nac i'r un o'r lithrawon ymfrostfawr yn Corinth; ïe, yn helaethach nac i bawb o honynt gyda'u gilydd: mae yn debyg ei fod yn rhagori ar yr holl apostolion eraill hefyd yn y ddawn hon; oblegid fod cylch ei weinidogaeth ef yn llawer helaethach na'r eiddynt hwy oll, ac yn cyrhaedd at awahanol genedloedd ac ieithoedd. Mae y apostol yn eydnabod mai dawn Duw ydoedd, yn dïolch i Dduw am ulani, oblegid hebddi nis gallasai efe lafurio mòr heiaeth, na bod mòr ddefnyddiol yn ei weinidogaeth.

19 o * Ond yn yr eglwys gwell gennyf lefaru pum gair trwy fy neall, fel y dysgwyf eraill hefyd, nâ myrddiwn o eiriau mewn tafod *dieithr.*

o adn. 4, 21, 22.

* Cyn belled oedd yr apostol o ymchwyddo ac ymffrostio o herwydd y ddawn ryfeddol hon, nac ei chamddefnyddio er rhodres a gwag-ogoniant; fel yr oedd yn well ganddo lefaru pùm gair deallus yn yr eglwys, fel y dysgai eraill, na myrddiwn o eiriau mewn tafod dïeithr. Fel hyn yr oedd yn ceryddu rhodres y Corinthiaid, ac yn ei osod ei hun yn esampl iddynt. Gwael yw y pregethwr hwnw, yr hwn sydd i'w glywed yn unig, ond nid i'w ganlyn. Pe buasai yr apostol yn byw tuag amser y diwygiad oddi wrth babyddiaeth, nis gallasai ysgrifenu yn fwy pennodol yn erbyn arfer ddrygionus eglwys Rhufain o gyflawni pob gwasanaeth crefyddol yr iaith Ladin, yr hon nid yw y bobl gyffredin yn ei deall. Nid rhyfedd fod blaenoriaid yr eglwys hòno yn ceisio i fynu yr ysgrythyrau hefyd, mewn *tafod dïeithr*, ygan y gwyddant, pe caffai y bobl hwy yn eu hiaith eu hunain, y tystiolaethent yn rhŷ amlwg yn erbyn yr arfer bechadurus uchod, a llawer o arferion drwg eraill ssy ganddynt hwy.

20 * *O* frodyr, p na fyddwch fechgyn mewn deall: † eithr q mewn drygioni byddwch blant; ‡ ond mewn deall byddwch berffaith.

p pen. 3. 1, 2. a 13. 11. Salm 119. 99. Es. 11. 3. Rhuf. 16. 19. Eph. 4. 14. Phil. 1. 9. Heb. 5. 12, 13. q Salm 131. 1, 2. Mat. 11. 25. a 18. 3. a 19. 14. Marc 10. 15. 1 Pedr 2. 2.

* Na fyddwch fechgyn, neu blantos, mewn deall ygwahaniaeth rhwng dawn a dawn, pa un yw y ragoraf, na mwyaf defnyddiol er adeiladaeth yr eglwys: ac na ffyddwch yn blentynaidd yn eich arferiad o'r ddawn o llefaru â thafod dïeithr, ei harfer yn unig er sùnu dyndion y rhai nid ydynt yn deall dim a ddywedwch, er nclod ac enwogrwydd i chwi eich hunain, a magu cenfigenau a phleidiau yn mhlith eich gilydd: ymddygiad ygwael a phlentynaidd yw y fath beth â hyn yn mhlith cristionogion. † Chwi a ddylech yn wir fod yn debyg i blant mewn diniweidrwydd digenfigen, ac mewn gostyngeiddrwydd tymher ac ymddygiad; yn rhydd oddi wrth bob amcanion llidiog, balch, a chenfigenus. ‡ Ond mewn gwybodaeth, barn, a challineb, yn enwedig o ran deall ac iawn-ddefnyddiad o ddoniau ysbrydol; mae yn gweddu i chwi feddwl ac ymddwyn, fel dynion wedi tyfu i fynu i addfedrwydd a pherffeithrwydd deall.

* "Plant," *nêpiazete:* babanod cyn medru siarad yw ystyr y gair, meddant, ac nid yw y gair *plant* yn gosod allan ei feddwl yn ddigonol yma, oblegid mae plant yn aml yn ddigon gwageddus, ac weithiau yn dra chenfigenus a llidiog hefyd.

21 r * Yn y ddeddf † y mae yn ysgrifenedig, s ‡ Trwy rai estronieithus, a *thrwy* wefusau estronol, y llefaraf wrth y bobl hyn; || ac ni'm gwrandawant felly, medd yr Arglwydd.

r Ioan 10. 34. Rhuf. 3. 19. s Deut. 28. 49. Es. 28. 11. Jer. 5. 15.

* Gwel ar Ioan 10. 34; a 15. 25. † Mae geiriau tebyg i'r rhai hyn yn Deut. 28. 49; Esa. 28. 11; Jer. 5. 15: mae yn debyg mai o Esa. 28. 11, a diwedd adn. 12, y cymerodd yr apostol y geiriau sydd yn yr adnod hon: eithr nid ydynt air yn air felly; a pheth cyffredin gan ysgrifenwyr y Testament Newydd, yw crybwyll sylwedd adnodau o'r Hen Destament, heb eu hadrodd yn gywir fel y maent yno. † Mae y rhan fwyaf o'r beirniaid yn cyfeirio y geiriau hyn, fel y maent yn sefyll yn Esaiah, at y Babiloniaid, y rhai a ddeuent ac a lefarent wrth yr Iuddewon mewn iaith annealladwy iddynt: am na wrandawent ar yr hyn a ddeallent, llefarai Duw wrthynt trwy rai nis deallent: ac yna meddwl yr apostol yw, Gan i'r Arglwydd fygwth hyn fel barn gynt, peidiwch a'i thynu yn wirfoddol ar yr eglwys yn awr, yn unig i chwi gael dangos eich doniau eich hunain. Tybia eraill fel hyn:—Fod y geiriau yn Esaiah yn cynnwys bygythiad i Israel, fel y sylwyd eisoes; ond eu bod yn cynnwys addewid dàn yr efengyl, y caffai yr efengyl ei phregethu iddynt mewn gwahanol ieithoedd, trwy y ddawn ryfeddol hon. || Er i'r Arglwydd ddangos mòr amlwg drwy y ddawn uchod ar yr apostolion, eu bod o'i wir anfoniad ef, eto ni wrandawai yr Iuddewon arnynt felly.

22 * Am hynny tafodau ydynt t arwydd, nid i'r rhai sydd yn credu, ond i'r rhai digred: † eithr prophwydoliaeth, nid i'r rhai digred, u ond i'r rhai sydd yn credu.

t Marc 16. 17. Act. 2. 6—12, 32—36. u adn. 3.

* Fel hyn yr oedd y ddawn o lefaru â thafodau dïeithr, yn arwydd amlwg mai gwyrth ddwyfol ar ddynion oedd, ac yn foddion i daenu yr efengyl mewn gwledydd, ac yn mysg dynion digred, er dychwelyd rhai, ac yn dystiolaeth yn erbyn eraill, cyndyn ac annychweledig. A chan mai arwydd i'r rhai digred felly oedd, nid oedd yn addas ei defnyddio yn ddïangenrhaid yn yr eglwys, fel pe buasent o hyd mewn anghrediniaeth, ac achos parâus iddynt am yr arwydd hwn o wirionedd yr efengyl. † "Ond prophwydo," pregethu, egluro, a chymhwyso athrawiaethau yr Hen Destament a'r Newydd, mewn iaith ddealladwy; mae hyny wedi ei ordeinio fel moddion parâus dàn fendith Duw, er addysg, adeiladaeth, a chadarnâd y rhai sydd yn credu. Pan mae yr apostol yn dywedyd, "Prophwydoliaeth, nid i'r rhai digred," rhaid i ni ei ddeall, nid yn *hollol* i'r rhai digred, nid yn *unig* iddynt hwy; oblegid yr oedd prophwydo, neu bregethu, yn yr iaith a ddeallent yn fuddiol er dychweliad y rhai digred hefyd. Rhuf. 10. 14—17; 1 Cor. 1. 21

23 * Gan hynny x os daw yr eglwys oll ynghyd i'r un lle, † a llefaru o bawb â thafodau *dieithr,* ‡ a dyfod o rai annysgedig neu ddigred i mewn; y || oni ddywedant eich bod yn ynfydu?

x pen. 11. 18. y Hos. 9. 7. Ioan 10. 20. Act. 2. 13. a 26. 24.

* Mae y *Dr. Guyse* yn sylwi yma, mai tynnulleidfâol oedd yr eglwysi yn y dyddiau hyny, eu bod yn arferol o ymgasglu yn nghyd i'r un lle, i gadw moddion cyhoeddus; a bod yr holl aelodau yn ofalus iawn i ddyfod yn nghyd i'r cyfarfodydd hyny, hyd ag oedd bosibl. † A llefaru o bawb a fedrai â thafodau dieithr, pawb ag oedd wedi cael y ddawn i hyny: pawb ar unwaith, neu lawer ar unwaith mewn gweddïo, mawl, neu bregethu, a'r rhan arall o'r eglwys heb eu deall, a hwythau heb gyfieithu fel y gellid eu deall: ‡ ac os daw rhywrai annysgedig, digred, a phaganaidd i mewn ar y cyfamser, ac heb ddeall gair a ddywedo y llefarwyr hyn; || pa beth a feddyliant hwy am danoch oll? Ai ffordd debyg i'w hargyhoeddi a'u troi hwy a fyddai hyn? Oni ddywedent hwy yn hytrach mai torf o ynfydion gorphwyllog a gwallgofus a fyddech? Ac oni chadarnâi hyn eu rhagfarn hwy yn erbyn crefydd yr efengyl?

24 * Eithr os prophwyda pawb, † a dyfod

o un digred neu annysgedig i mewn, [z] ‡ efe a argyhoeddir gan bawb, || a fernir gan bawb:

z pen. 2. 15. Ioan 1. 47—49. a 4. 29. Act. 2. 37. Heb. 4. 12, 13.

* Eithr os prophwyda pawb, a phob athraw yn ei dro yn llefaru drwy Ysbryd Duw, yn addas, yn addysgiadol, ar ryw bwnc o athrawiaeth neu ddyledswydd; a hyny mewn iaith ddealladwy; † a dyfod rywun na ŵyr ddim am yr efengyl i mewn yn ddamweiniol neu o chwilfryddedd; ‡ efe a argyhoeddir gan bawb o'i bechod, ei drueni, a'i berygl ysbrydol: || ac fel hyny dygir ei gydwybod ef i ffurfio barn gywir am ei gyflwr a'i agwedd ei hun, fel yn euog ger bron Duw, trwy yr hyn a ddywedo pawb o honynt yn ol y gair.

25 * Ac felly y gwneir dirgelion ei galon ef yn amlwg; † ac felly [a] gan syrthio ar *ei* wyneb, efe a addola Dduw, ‡ gan ddywedyd [b] fod Duw yn wir ynoch.

a Gen. 44. 14. Deut. 9. 18. Salm 72. 11. Es. 60. 14. Luc 5. 8. a 8. 28. Dat. 5. 8. a 19. 4. b Es. 45. 14. Zec. 8. 23.

* Efallai y byddai rhyw bethau o fywyd y dynion digred hyn yn cael eu datguddio i'r prophwydi, y rhai a lefarent yn argyhoeddiadol wrthynt pan ddelent i mewn. ond heb sôn am un datguddiad digyfrwng felly, mae effeithiau cyffelyb i'r hyn a grybwyllir yma, gyda gweinidogaeth y gair eto yn aml; pechaduriaid yn cael eu hargyhoeddi, a meddyliau eu calonau yn cael eu hamlygu mewn modd rhyfedd iawn. Mae yn natur gair Duw yn wastad gyrhaeddyd trŵodd—a barnu meddyliau a bwriadau y galon. † Fel hyn wedi ei argyhoeddi o'i bechodau, dàn deimlad dwys o'i euogrwydd, a chan ofn a dychryn mawr, efe a syrthia ar ei wyneb, i addoli y Duw mawr y pechodd i'w erbyn yn ei annwybodaeth o hóno. ‡ Yn yr agwedd hyn efe a gred ac a addef mai peth o Dduw yw yr efengyl, a bod Duw mewn gwirionedd gyda ei bobl, yn eu nerthu i lefaru, ac yn arddelwi eu gweinidogaeth.

26 * Beth gan hynny, frodyr? † pan ddeloch ynghyd, [c] ‡ y mae gan bob un o honoch psalm, y mae *ganddo* athrawiaeth, y mae *ganddo* dafodiaith, y mae *ganddo* ddatguddiad, y mae *ganddo* gyfieithiad. [d] || Gwneler pob peth er adeiladaeth.

c Gwel ar adn. 6.—pen. 12. 8—10. d adn. 4, 5, 12. Rhuf. 14. 19. 2 Cor. 12. 19. a 13. 10. Eph. 4. 12, 16, 29. 1 Thes. 5. 11.

* Beth gan hyny, fy mrodyr, mae yn resyn meddwl am yr annhrefn a'r aflywodraeth sydd yn eich mysg chwi yn eich cyfarfodydd crefyddol; † oblegid pan ddeloch yn nghyd, mae pob un o honoch chwi sydd yn athrawon am arfer ei ddawn ei hun yn yr eglwys, er rhwystr i bob un arall, ac yn groes i bob trefn a gweddeidd-dra. ‡ Mae un o honoch yn llawn ysbryd am gànu rhyw salmyddiaeth hoff; un arall am draddodi rhyw hoff bwnc o athrawiaeth; un arall yn llawn am lefaru â thafod dïeithr; un arall a chanddo ryw ddatguddiad newydd ei gael trwy ysbrydoliaeth ddigyfrwng; ac un arall am ddangos ei ddawn i gyfieithu yr hyn a lefarodd rhywun â thafod dïeithr. Fel hyn y byddai llawer yn eglwys Corinth yn awyddu cael y blaen ar eu gilydd i lefaru, ac amryw yn llefaru ar unwaith yn ngwahanol ranau o'r eglwys; a thra yr oedd pob un yn fwy awyddus am gael ei wrando a'i ganmol, nac am wrando a chael ei ddysgu, yr oedd yr holl le yn llawn terfysg ac annhrefn, a dyben eu cynnulliad yn cael ei esgeuluso yn hollawl. || Fel rhëol gyffredin yn wyneb yr aflywodraeth hyn, mae yr apostol yn cyngori iddynt wneyd pob peth er adeiladaeth: ond nis gallasai y dull hyn fod er adeiladaeth i neb.

27 * Os llefara neb â thafod *dieithr*, † *gwneler* bob yn ddau, neu o'r mwyaf *bob yn* dri, ‡ a hynny ar gylch; || a chyfieithied un.

* Gwedi y cwbl a ddywedasai yr apostol am y ddawn o lefaru â thafodau dïeithr, nad oedd ond o ychydig ddefnydd yn yr eglwys; (gwel ar adn. 5.) eto os oedd rhai yn Corinth a fynent ei harfer, mae efe yn rhoddi y rhëolau canlynol iddynt:—† Na byddai i bawb ag oedd yn meddu y ddawn ei harfer oll ar unwaith; dim dros ddau, neu dri o'r mwyaf, yn yr un cyfarfod. ‡ Bod i'r rhai hyny lefaru ar gylch, un ar ol y llall; nid y ddau, neu y tri ar unwaith. || Bod i ryw un gyfieithu i'r eglwys yr hyn a draddodai y llefarwyr hyn, fel y caffai pawb fudd o'r pethau. Pe llefarai pob un ond hanner awr, a chyfieithu hyny drachefn, nis gallai yr amser fod yn llai na theirawr; yr hyn oedd lawn digon am un oedfa. Er mai dawn oruwch-naturiol oedd y ddawn o lefaru â thafod dïeithr, eto mae yn debyg ei bod yn hollawl dàn lywodraeth y rhai oedd yn ei chael, i lefaru neu beidio, fel y mynent; pe amgen buasai holl gyngorion a rhëolau uchod yr apostol yn ei chylch yn anmhriodol ac afreidiol.

28 * Eithr oni bydd cyfieithydd, tawed yn yr eglwys; † eithr llefared wrtho ei hun, ac wrth Dduw.

* Os na byddai neb yn bresenol a fedrai gyfieithu yr hyn a lefarid â thafod dïeithr, tawed y cyfryw lefarwyr annealladwy yn yr eglwys, canys pa lesâd iddynt lefaru pethau nad oedd neb yn eu deall? † Ymfoddloned y cyfryw i lefaru wrthynt eu hunain, ac wrth Dduw mewn gweddïau: mae efe yn deall pob iaith. "Llefared wrtho ei hun ac wrth Dduw" gartref, mewn cyflawniadau dirgel, mae yn debyg, oedd y cyngor yma; oblegid anaddas a fuasai hyny yn ngwasanaeth cyhoeddus yr eglwys: dylai pawb uno â'r gynnulleidfa yn yr eglwys.

29 * *A* llefared y prophwydi ddau neu dri, [e] † a barned y lleill.

e pen. 12. 10. 1 Thes. 5. 20, 21. 1 Ioan 4. 1—3.

* Llefared y prophwydi hefyd, bob yn ddau neu dri, y naill ar ol y llall; bydd hyny yn ddigon yn yr un cyfarfod. † A chan fod llawer o gau-brophwydi, o ysbrydoedd ac athrawiaethau cyfeiliornus, yn ymlusgo i mewn i'r eglwysi; barned y rhai deallus, ac yn enwedig y prophwydi na byddo yn llefaru, pa un a fydd yr athrawiaeth a draddodir yn gywir, ac yn gyson â'r ysgrythyrau, ai ni bydd.

30 * Ac os [f] datguddir *dim* i un arall a fo yn eistedd yno, [g] † tawed y cyntaf.

f adn. 6, 26. g Job 32. 15—20. a 33. 31—33. 1 Thes. 5. 19, 20.

* Ac os datguddir dim yn union-gyrchol ac yn oruwch-naturiol, trwy ysbryd prophwydoliaeth, i ryw brophwyd neu athraw a fyddo yn eistedd yno yn gwrando; † ac os rhydd efe amnaid am wrandawiad, tawed y neb fyddo yn llefaru y pryd hwnw, cyn gynted ag y gorpheno efe y pwnc oedd ganddo dàn sylw. Neu fel mae rhai yn deall y geiriau, Tawed yr hwn y datguddiwyd peth iddo, hyd oni orpheno y llall ei ymadrodd. Mae yn debyg mai y sylw diweddaf yw y goreu; oblegid pe buasai y cyngor, i'r hwn oedd yn llefaru dewi yn y fàn, càn gynted ag yr arwyddai un arall fod peth wedi ei ddatguddio iddo, buasai hyny yn taflu pob peth i ddyryswch, ac ni chawsai neb orphen ei ymadrodd.

31 * Canys chwi a ellwch oll brophwydo bob yn un, [h] † fel y dysgo pawb, [i] ac y cysurer pawb.

h adn. 3, 19, 35. Diar. 1. 5. a 9. 9 Eph. 4. 11, 12. i Rhuf. 1. 12. 2 Cor. 1. 4. a 7. 6, 7. Eph. 6. 22. 1 Thes. 4. 18. a 5. 11, 14.

* Er bod dau neu dri yn ddigon i lefaru yn yr un cyfarfod, adn. 29; eto mewn gwahanol gyfarfodydd ac oedfâon, yr oedd digon o gyflëusderau iddynt oll brophwydo, y naill ar ol y llall. Er bod ar y prophwydi rwymau i arfer y ddawn a dderbyniasent; eto nid oedd yn angenrheidiol iddynt ei harfer yn annhrefnus, yn derfysglyd, ac oll ar unwaith: canys nid i hyny y rhoddes Duw y ddawn iddynt, † eithr i'w defnyddio yn rhëolaidd ac yn syml, er dysgu, adeiladu, a chysuro yr holl eglwys.

32 [k] * Ac y mae ysprydoedd y prophwydi yn ddarostyngedig i'r prophwydi.

k adn. 29, 30. 1 Sam. 10. 10—13. a 19. 19—24. 2 Bren. 2. 3, 5. Job 32. 8—11. Jer. 20. 9. Act. 4. 19, 20.

* Er bod y prophwydi hyn dàn ddylanwadau grymus a nerthol yr Ysbryd Glân, eto nid oeddynt yn cael eu llywyru i wallgofrwydd penboeth, fel offeiriaid gorwyllt y paganiaid; ond yr oedd eu hysbrydoedd hwy dàn y dylanwadau cryfaf, dàn lywodraeth addas, a gallent eu cadw eu hattal, eu trefnu, a'u rhëoli, wrth reswm a barn, fel ar amserau eraill: tra byddai un yn prophwydo, gallai y lleill ymattal hyd oni orphenai; a'r hwn a fyddai yn llefaru, gallai feddiannu a llywodraethu ei hun o ran y matter, y dull, a'r amser i lefaru.

33 * Canys nid yw Duw *awdwr* anghydfod, [l] † ond tangnefedd, [m] ‡ fel yn holl eglwysi y saint.

l pen. 7. 15. Luc 2. 14. Rhuf. 15. 33. Gal. 5. 22. 2 Thes. 3. 16. Heb. 13. 20. Iago 3. 17, 18. m pen. 4. 17. a 7. 17. a 11. 16.

* Annhrefn, terfysg, ac anghydfod, a fuasai i lawer o'r prophwydi lefaru oll ar unwaith; ac wrth wneyd felly, buasent yn profi mai nid trwy ddylanwadau Ysbryd Duw yr oeddynt yn llefaru, canys nid yw Duw awdwr annhrefn, terfysg, ac anghydfod, † eithr tangnefedd, tawelwch, trefn a gweddeidd-dra yn mhob peth. ‡ Felly yr oedd yn holl eglwysi y saint, ac ni fynai yr apostol mewn un modd, fod y Corinthiaid crefyddol yn ffwy didrefn a therfysglyd gyda eu doniau, nac eglwysi eraill.

34 [n] * Tawed eich gwragedd yn yr eglwysi: † canys ni chaniattâwyd iddynt lefaru; [o] ‡ ond bod yn ddarostyngedig, [p] megis ag y mae y gyfraith yn dywedyd.

n pen. 11. 5. 1 Tim. 2. 11, 12. o adn. 35. pen. 11. 3, 7—10. Eph. 5. 22—24, 33. Col. 3. 18. Tit. 2. 5. 1 Pedr 3. 1, 6. p adn. 21. Gen. 3. 16. Num. 30. 3—8, 11—13. Esther 1. 17—20.

* Wrth yr hyn a ddywedodd yr apostol yn pen. 11. 5, 13, tybir nad oedd efe yn gwahardd i wragedd lefaru, prophwydo, a gweddïo yn yr eglwys, pan fyddent dàn effeithiau grymus dylanwadau dwyfol; ond mae yn debyg fod rhai gwragedd yn eglwys Corinth yn rhŷ barod i lefaru yn gyhoeddus, heb a dadleu â'u hathrawon, pryd na byddent dàn y dylanwadau hyny: am y rhai hyny, mae yr apostol yn gorchymyn iddynt dewi yn yr eglwysi. † Nid oedd yn weddus, nac yn ganiatâol, i wragedd lefaru fel athrawon cyhoeddus, na dadleu yn gyhoeddus â'u hathrawon yn yr eglwys, fel y byddai rhai o honynt yn bur hoff o wneyd. Byddai rhai o honynt hefyd yn cymmeryd arnynt fod dàn ysbrydoliaeth rymus, pryd nad oedd y cwbl ond rhith a ffuantrwydd; am hyny mae yr apostol yn peri iddynt dewi: na chan nad oes y fath ysbrydoliaeth â chynt yn yr eglwys yn awr, "Tawed eich gwragedd yn yr eglwysi" yw hi eto o hyd, "ni chaniatâwyd iddynt lefaru." ‡ Tybir mai at Gen. 3. 16, mae yr apostol yn cyfeirio yma; ond mae yr holl ysgrythyrau yn dangos mai y gŵr yw pen y wraig, ac y dylai hi fod yn ddarostyngedig yn mhob peth i'w gŵr priod. Y gwragedd hyny sydd yn ddigon hyfion a gwrrywaidd i lefaru yn yr eglwysi, maent yn ddigon cryfion hefyd i lywodraethu ar eu gwŷr, ac nid bod yn ddarostyngedig iddynt.

35 * Ac os mynnant ddysgu dim, [q] ymofynant â'u gwŷr gartref: [r] † oblegid anweddaidd yw i wragedd lefaru yn yr eglwys.

q Eph. 5. 25—27. 1 Pedr 3. 7. r adn. 34. pen. 11. 6, 14. Eph. 5. 12.

* Os bydd rhai o honynt heb iawn ddeall yr hyn a ddyweder yn yr eglwys, ymofynant â'u gwŷr gartref, ac nid holi yr athrawon, a dadleu â hwynt ar gyhoedd y gynnulleidfa, er dyrysu y gwaith, a dangos eu hyfdra anweddaidd. † Anweddaidd, ac anmhrïodol i wŷlder benywaidd, yw i wragedd lefaru a dadleu â dynion, ar gyhoedd torf o bobl: caniatëid i'r gwrrywaid holi eu hathrawon am bethau dyrys yn synagogau yr Iuddewon, ond nid oedd hyny yn gweddu nac yn ganiatâol i'r benywaid; cartref oedd y lle mwyaf addas iddynt hwy i siarad, ac â'u gwŷr eu hunain yn ostyngedig.

36 * Ai [s] oddi wrthych chwi yr aeth gair Duw allan? neu ai attoch chwi yn unig y daeth efe?

s Es. 2. 3. Mica 4. 1, 2. Zec. 14. 8. Act. 13. 1—3. a 15. 35, 36. a 16. 9, 10. a 17. 1, 10, 11, 15. a 18. 1, &c. 2 Cor. 10. 13—16. 1 Thes. 1. 8.

* Beth yw yr arferion afrëolaidd hyn oll sydd yn eich plith chwi yn Corinth, mòr wahanol i bob eglwys arall? Neu pa hawl sydd genych chwi mwy na'r holl eglwysi eraill, i goledd y fath arferion? A allwch chwi hòni mai yr eiddoch chwi yw mam-eglwys yr holl eglwysi; ac mai yn eich plith chwi y pregethwyd yr efengyl, ac y sefydlwyd ei hordinâdau hi gyntaf; ac mai oddi wrthych chwi yr aethant allan at eraill; a chan hyny fod genych chwi hawl i wneyd fel y mynoch, heb ystyried dim pa fodd y gwneir mewn eglwysi eraill? Nagê, o Jerusalem yr aeth gair yr Arglwydd allan gyntaf, ac oddi yno y taenwyd ef i'r holl eglwysi eraill, y rhai a ffurfiwyd, lawer o honynt, yn mhell o'ch blaen chwi; gan hyny ar ba sail yr ydych chwi yn gweithredu yn groes i bob eglwysi eraill?

37 * Os [t] ydyw neb yn tybied ei fod yn brophwyd, neu yn ysprydol, [u] † cydnabydded y pethau yr wyf yn eu hysgrifenu attoch, mai gorchymynion yr Arglwydd ydynt.

t pen. 8. 2. a 13. 1—3. Num. 24. 3, 4, 16. Rhuf. 12. 3. 2 Cor. 10. 7, 12. a 11. 4, 12—15. Gal. 6. 3. u pen. 7. 25, 40. Luc 10. 16. 1 Thes. 4. 1—8. 2 Pedr 3. 2. 1 Ioan 4. 6. Judas 17.

* Os ydyw neb yn eich plith chwi yn tybied ei fod yn brophwyd, neu yn ŵr ysbrydol, a meddwl yr Arglwydd gauddo, ac am hyny yn tybied ei fod yn ddigonol i osod deddfau a rhëolau yn yr eglwys, y rhai sydd groes i bob eglwys arall; † cydnabydded y cyfryw un, neu rai, fy mod innau hefyd yn apostol Iesu Grist, a chenyf feddwl yr Arglwydd cystal ag yntau; ac o ganlyniad, cydnabydded y pethau yr wyf yn eu hysgrifenu yn yr epistol hwn, mai gorchymynion yr Arglwydd Iesu ydynt.

38 * Eithr [x] od yw neb heb wybod, † bydded heb wybod.

x Hos. 4. 17. Mat. 7. 6. a 15. 14. 1 Tim. 6. 3—5. 2 Tim. 4. 3, 4. Dat. 22. 11, 12.

* Eithr od yw neb o'r prophwydi, a'r gwŷr ysbrydol hyny, heb wybod, ac ni fynant wybod, fy mod I yn apostol, ac mai gorchymynion yr Arglwydd yw y pethau yr wyf yn eu hysgrifenu; † bydded y cyfryw heb wybod, nis gallaf fi wrthynt, nid oes genyf ond eu gadael i'w barnwr hwy a minnau, yr hwn a ddengys pwy sydd brophwyd ac ysbrydol mewn gwirionedd, a phwy nid yw felly. Bydded heb gael ei wybod, neu heb gael ei gydnabod yn brophwyd, medd rhai: os na chydnabyddai efe apostoliaeth Paul, yr oedd hyny yn ddigon o brawf nad oedd efe ei hun yn brophwyd, ac na ddylasai gael ei gydnabod fel y cyfryw.

39 * Am hynny, frodyr, [y] byddwch awyddus i brophwydo, † ac na waherddwch lefaru â thafodau *dieithr.*

y adn. 1, 3, 5, 24, 25. pen. 12. 31. 1 Thes. 5. 20.

* Mae yr apostol o hyd, trwy yr holl bennod hon, yn canmol prophwydo, rhagor llefaru â thafodau dïeithr, fel y ddawn fwyaf buddiol i'r eglwys; (Gwel ar adn. 5.) ac yma mae yn annog y Corinthiaid i fod yn awyddus am y ddawn hon, ac i wneyd pob defnydd da o hòni er adeiladaeth eu gilydd yn yr Arglwydd. † Nid oedd ychwaith am iddynt gwbl wahardd llefaru â thafodau dïeithr; gallai y ddawn hòno fod o les ar achlysuron, ac mewn rhai amgylchiadau, ond iddynt ei harfer hi yn ol y rhëolau gweddus a roisai efe iddynt yn adn. 27, 28.

40 [z] * Gweneler pob peth yn weddaidd, † ac mewn trefn.

z adn. 26—33. pen. 11. 34.—Rhuf. 13. 13. Col. 2. 5. Tit. 1. 5

* Mewn lle mòr ofnadwy â thŷ Duw, mewn cynnull-

eidfa mòr anrhydeddus â saint Duw, ac mewn gwaith mòr fawr âg addoli Duw, mae yn dra dyledus gwneyd pob peth yn weddaidd ac mewn trefn. Gwylder a pharchedig ofn a ddylai fod yn argraffedig ac yn weledig ar bawb yn nghyssegr Duw, yn enwedig ar weinidogion y cyssegr: dylid gochel pob ymddangosiad plentynaidd, chwyddedig, ysgafn, neu benboeth, benywaid yn ymddwyn allan o'u lle, (adn. 34, 35.) a phob anweddeidd-dra arall. † Dylai pob peth gael ei ddwyn yn mlaen, nid yn ol dychymmygion a defodau o ddyfais dynion, ond yn ol y drefn a osododd yr Arglwydd Iesu yn ei eglwys: fel hyny bydd harddwch i'r efengyl, undeb ac adeiladaeth i'r eglwys, a gogoniant ac anrhydedd i Dduw.

PEN. XV.

Paul trwy adgyfodiad Crist, yn profi yr adgyfodir y meirw.

* HEFYD [a] yr ydwyf yn hysbysu i chwi, frodyr, yr efengyl a bregethais i chwi, [b] † yr hon hefyd a dderbyniasoch, ‡ ac yn yr hon [c] yr ydych yn sefyll;

a adn. 3—11. pen. 1. 23, 24. a 2. 2—7. Act. 18. 4, 5. Gal. 1. 6—12. b Marc 4. 16—20. Ioan 12. 48. Act. 2. 41. a 11. 1. 1 Thes. 1. 6. a 2. 13. a 4. 1. 2 Thes. 3. 6. c Rhuf. 5. 2. 2 Cor. 1. 24. 1 Pedr 5. 12.

Yr oedd y Saduceaid yn mhlith yr Iuddewon, ac amryw o'r philosophyddion yn mhlith y Groegiaid, yn gwadu yr adgyfodiad o feirw; a rhwng y ddwy blaid, tybir fod rhai o'r Iuddewon ac o'r Groegiaid crefyddol yn Corinth, wedi cael eu llygru, ac yn gyfeiliornus am athrawiaeth yr adgyfodiad. * I'r dyben o attal cynnydd y fath gyfeiliornad niweidiol, mae yr apostol yn dechreu y bennod hon, trwy hysbysu, neu ddwyn ar gôf iddynt, yr efengyl a bregethasai efe yn eu plith, † yr hon hefyd a dderbyniasent hwy trwy ffydd fel gwirionedd Duw, ‡ ac yn yr hon yr oedd y rhan fwyaf o honynt hyd yn hyn yn sefyll yn ddiysgog.

2 * Trwy yr hon [d] y'ch cedwir hefyd, † os ydych yn dal yn eich côf â pha ymadrodd yr efengylais i chwi, [e] ‡ oddi eithr darfod i chwi gredu yn ofer.

d pen. 1. 18, 21. Act. 2. 47. Rhuf. 1. 16. 2 Cor. 2. 15. Eph. 2. 8. 2 Tim. 1. 9. e adn. 14. Salm 106. 12, 13. Luc 8. 13. Ioan 8. 31, 32. Act. 8. 13. 2 Cor. 6. 1. Gal. 3. 4. Iago 2. 14, 17, 26.

* Trwy yr efengyl, a ffydd yn yr efengyl hon, yr oeddynt wedi cael eu dwyn i gyflwr cadwedig, ac yn sicr o fod yn gadwedig byth, † os oeddynt yn dàl yn eu côf yn gadarn, ac yn glynu yn ddiysgog wrth, yr ymadrodd a bregethasai yr apostol iddynt ar y cyntaf: ‡ hwy a wnaent hyn oddigerth iddynt gredu â ffydd ofer, wâg, a dieffaith,—ffydd farw, ac o gydsyniad presenol yn unig; os felly yr oeddynt wedi credu, gallent gael eu gadael i gofleidio cyfeiliornadau dinystriol, a chroes i holl athrawiaeth Crist. Mae y gair *eikê*, a gyfleithir yma "ofer," yn arwyddo *byrbwyll* ac *anystyriol*, ac mae yn wahanol yn y Groeg i ddau air a ddefnyddir yn y bennod hon, ac a gyfleithir "ofer" fel yn y fàn yma: mae un *(kenê)* yn adn. 10, 14, 58, yr hwn a arwydda *gwâg*, yn gystal ag *ofer;* a'r llall *(mataia)* yn adn. 17, yr hwn a arwydda *ynfyd*, ac *amddifad o unrhyw wir fuddioldeb*, yn gystal ag *ofer*.

3 * Canys [f] mi a draddodais i chwi ar y cyntaf yr hyn hefyd a dderbyniais, [g] † farw o Grist dros ein pechodau ni, [h] ‡ yn ol yr ysgrythyrau;

f pen. 4. 1, 2. a 11. 2, 23. Ezec. 3. 17. Mat. 20. 18, 19. Marc 16. 15, 16. Luc 24. 46, 47. Gal. 1. 12. g Mat. 26. 28. Rhuf. 3. 25. a 4. 25. 2 Cor. 5. 21. Gal. 1. 4. a 3. 13. Eph. 1. 7. a 5. 2. Heb. 10. 11, 12. 1 Pedr 2. 24. a 3. 18. 1 Ioan 2. 2. Dat. 1. 5. h Gen. 3. 15. Salm 22. a 69. Es. 53. Dan. 9. 24—26. Zec. 13. 7. Gwel ar Luc 24. 26, 27, 46.—Act. 3. 18. a 26. 22, 23. 1 Pedr 1. 11.

* Derbyniasai Paul ei apostoliaeth a'i holl weinidogaeth yn ddigyfrwng gan yr Arglwydd Iesu, gwel pen. 11. 23; Galat. 1. 12: ac fel y derbyniasai, felly y traddododd y gwirionedd i'r Corinthiaid ac i bawb eraill. † Ei bwnc blaenaf a mwyaf pwysig ef bob amser oedd Crist wedi ei groeshoelio; "farw o Grist dros ein pechodau ni," y cyfiawn dros yr anghyfiawn, fel y tynai ymaith bechod trwy ei aberthu ei hun, ac y dygai bawb a gredant ynddo yn achubol at Dduw. ‡ Bu Crist farw dros ein pechodau ni, yn ol holl rediad cysgodau, prophwydoliaethau, ac addewidion yr Hen Destament o hyny; ac yn ol yr ysgrythyrau hyny yr oedd Paul yn ei bregethu ef a'i groes yn Corinth a phob mân. Act. 28. 23; Rhuf. 16. 26.

4 [i] * A'i gladdu, [k] † a'i gyfodi y trydydd dydd, [l] ‡ yn ol yr ysgrythyrau;

i Es. 53. 9. Mat. 27. 57—60. Marc 15. 43—46 Luc 23. 50—53. Ioan 19. 38—42. Act. 13. 29. Rhuf. 6. 4. Col. 2. 12. k adn. 16—21. Mat. 20. 19. a 27. 63, 64. a 28. 1—6. Marc 9. 31. a 10. 33, 34. a 16. 2—7. Luc 9. 22. a 18. 32, 33. a 24. 5—7. Ioan 2. 19—21. a 20. 1—9. Act. 1. 3. a 2. 23, 24, 32. a 13. 30. a 17. 31. Heb. 13. 20. l Salm 16. 10, 11. Es. 53. 10—12. Hos. 6. 2. Jona 1. 17. Mat. 12. 40. Act. 2. 25—33. a 13. 30—37. a 26. 22, 23.

* Yr oedd Paul yn pregethu claddedigaeth Crist hefyd, er dangosiad i bawb ei fod wedi llwyr farw: lle y gallwn weled fod pob peth a berthyn i Grist a'i hanes, yn werth ac yn angenrheidiol ei bregethu, ei wybod, a'i gredu. † Pregethai hefyd ei adgyfodiad o feirw y trydydd dydd: ar hyn yr oedd ac y mae holl athrawiaeth cristionogrwydd yn gorphwys; oblegid heb adgyfodiad Crist oddi wrth y meirw, mae y cwbl oll, cyn a chwedi hyny, yn rhwym o syrthio yn chwilfriw i ddiddymdra: heb hyn nid yw ei gnawdoliad, ei fachnïaeth, a'i farwolaeth ef o un lles; ac heb hyn nid yw yn Offeiriad, yn Frenin, yn Brophwyd, yn Eiriolwr, nac yn ddim i'r rhai a gredant ynddo; ac nid oes gobaith am eu hadgyfodiad hwythau i fywyd tragywyddol. Ond bendigedig fyddo Duw! Efe a gyfodwyd, ac mae yn Iachawdwr cyflawn ac effeithiol i'r rhai oll a gredant ynddo. ‡ Yn ol yr ysgrythyrau y claddwyd ef, Es. 53. 9; yn ol yr ysgrythyrau y cyfodwyd ef y trydydd dydd, Salm 16. 10; Es. 53. 8; Hos. 6. 2; ac yn ol yr ysgrythyrau yr oedd Paul yn pregethu ei gladdedigaeth a'i adgyfodiad ef.

5 [m] * A'i weled ef gan [n] Cephas, [o] † yna gan y deuddeg.

m Luc 24. 34. n pen. 1. 12. a 3. 22. a 9. 5. Ioan 1. 42. o Marc 16. 14. Luc 24. 36, &c. Ioan 20. 19—26. Act. 1. 2—14. a 10. 41.

Gan fod athrawiaeth adgyfodiad Crist o gymmaint pwys yn y grefydd gristionogol fel y sylwyd uchod, efe a ymddangosodd i'r dysgyblion oll, yn fuan wedi ei adgyfodi, fel y byddent yn dystion o'r gwirionedd mawr hwn yn mhlith Iuddewon a chenedloedd. * I'r gwragedd yr ymddangosodd efe gyntaf; ond nid yw Paul yn sôn am hyny yma, eithr am ei ymddangosiad i'r dysgyblion: am ei ymddangosiad i Cephas, neu Pedr, gwel ar Luc 24. 34. † Os am hwyr y dydd yr adgyfododd efe mae yr apostol yn dywedyd, nid oedd ond deg o'r apostolion yn nghyd; yr oedd Judas wedi myned i'w le ei hun, a Thomas yn absenol: ond deuddeg oedd nifer yr apostolion wedi bod, ac i fod; am hyny enwir y cwbl yma, er nad oeddynt yn ddeuddeg cyfan. Ie, wedi eu gwneyd yn ddeuddeg, a chwanegu Paul a Barnabas at hyny, deuddeg y gelwir hwy o hyd. Dat. 21. 14.

6 * Wedi hynny [p] y gwelwyd ef gan fwy nâ phum cant brodyr † ar unwaith: ‡ o'r rhai y mae y rhan fwyaf yn aros hyd yr awrhon; ‖ eithr rhai [q] a hunasant.

p Mat. 28. 10, 16, 17. Marc 16. 7. q adn. 18. Act. 7. 60. a 13. 36. 1 Thes. 4. 13, 15. 2 Pedr 3. 4.

* Mae yn debyg mai yn Galilea yr ymddangosodd Crist i'r mwy na phum cant brodyr hyn; nid oedd ond tuag ugain a chant yn Jerusalem, pan ddewiswyd Matthias yn apostol. Act. 1. 15. Prawf gogoneddus iawn oedd y tro hwn o'i adgyfodiad ef; nis gallasai y fath nifer o ddynion gael eu twyllo; ac nis gallasai mwy nâ phum cant gytuno i dwyllo eraill trwy gau-dystiol-

eeth, pryd nad oedd dim iddynt ddysgwyl oddi wrth ddynion, ond erlid a dyoddefiadau am y dystiolaeth hòno. † Dylid sylwi hefyd mai ar unwaith y gwelsant mwy ef oll; nid bob yn ychydig nifer, ac ar wahanol rydiau, ond oll ar unwaith. ‡ Yr oedd y rhan fwyaf o'r mwy nâ phum cant hyny yn fyw pan oedd Paul yn ysgrifenu yr epistol hwn, gallent dystiolaethu â'u genau eu hunain, i wirionedd yr hyn oedd ef yn ddywedyd. ‖ Yr oedd rhai o honynt wedi hûno yn dawel yn yr Arglwydd Iesu, ac yn ffydd yr adgyfodiad trwy ei adgyfodiad ef, ac ni thynasant yn ol *wrth farw*, yr hyn a dystiasent yn eu bywyd am adgyfodiad eu Harglwydd.

7 * Wedi hynny y gwelwyd ef gan Iago; † yna gan yr holl apostolion.

r Luc 24. 50. Act. 1. 2—12.

* Pa Iago oedd hwn, a pha bryd, neu ar ba achlysur, ymddangosodd Crist iddo, ni ddywedir i ni gan yr efengylwyr: ond dywed yr henafiaid mai Iago Leiaf, yr hwn a elwid brawd yr Arglwydd ydoedd, yr hwn a ysgrifenodd yr epistol sydd ar ei enw. Yr oedd chwedl gan yr henafiaid, i'r Iago hwn wneuthur adduned, pan yn Iesu farw, na fwytêai ac nad yfai efe ddim, hyd oni elhaffai efe weled Crist wedi adgyfodi: ond chwedl oedd hòno, heb un sail iddi ar a wyddys; prin yr oedd neb o'r apostolion yn dysgwyl iddo adgyfodi, er mynyched y dywedasai efe yr adgyfodai. † Wrth fod yr apostol yn dywedyd "yr holl apostolion" yn y fàn hon, wedi dywedyd "y deuddeg" yn adn. 5, tybia rhai mai nid apostolion oll oedd y deuddeg hyny, ond bod yno rai eraill, nad oeddynt apostolion, yn gwneyd i fynu ddeuddeg o rifedi. Ond tybia eraill, mai am amser esgyniad Crist mae Paul yn dywedyd yma, ddarfod ei weled ef "gan yr holl apostolion." Mae yn ddiammau yr "holl apostolion" ei weled ef yn nghyd, amryw weithiau cyn ei esgyniad, yn gystal ag ar ei esgyniad.

8 * Ac yn ddiweddaf oll s y gwelwyd ef gennyf finnau hefyd, † megis gan un annhymmig.

s pen. 9. 1. Act. 9. 3—5. a 18. 9. a 22. 14, 18. a 26. 16. 2 Cor. 12. 1—6.

* Gwedi yr holl ymddangosiadau mynych, amlwg, a diammheüol uchod, o Grist wedi ei adgyfodi, i rai, i'r deuddeg, i'r holl apostolion, ac i fwy nâ phum cant drodyr ar unwaith; yn ddiweddaf oll, yn mhen amryw ynyddoedd ar ol ei esgyniad, ac yn ddiweddaf oll o nawb, gwelwyd Iesu gan Paul ei hun: ymddangosodd un bersonol, ac mewn modd rhyfeddol a gogoneddus iddo, ar ei ffordd i Damascus, ac wedi hyny mewn weledigaeth yn Jerusalem, Act. 22. 17, 18, fel nad oedd osibl iddo gam-gymmeryd am dano, ac fel y byddai yn apostol i dystiolaethu ei adgyfodiad ef yn mhob màn. Annhymmig, neu erthyl: un wedi ei eni allan o amser yladwy, yn ol y Saesoneg. Mae yr apostol yn cyffelybu ei dröedigaeth i erthyldod, am ei bod yn sydyn, yn diarwybod, gyda phoenau dychrynllyd, ac mewn modd annhebyg iawn i'r apostolion eraill, y rhai a ddychwelyd mewn dull mwy cyffredin o waith gras Duw, ac a dygwyd i fynu yn raddol i'r apostoliaeth, trwy ganlyniad personol ar Grist, pan oedd efe gyda hwynt. O herwydd y pethau hyn, ac yn enwedig wrth ystyried pa ath erlidiwr creulawn a fuasai efe o'r blaen, yr oedd yr apostol yn edrych arno ei hun mòr wael a dirmygus â he buasai erthyl annhymmig, ac yr oedd yn cofio hyny n wastad, i'w gadw yn ostyngedig. *Erthyliaid* y ialwai y Rhufeinwyr ryw seneddwyr annheilwng, y hai a ymwthiasent i'r swyddau uchel hyny drwy wobryon ar ol marwolaeth Augustus Cesar: a chyffelyb i yny yr ystyriai Paul ei hun; nid oedd o rifedi rhëoldidd yr apostolion yn amser bywyd Crist ar y ddaear, ac üd oedd yn deilwng mewn un modd i fod yn apostol; eto, cafodd y drugaredd o'i osod yn y swydd hon.

9 * Canys myfi yw t y lleiaf o'r apostolion, yr hwn nid wyf addas i'm galw yn apostol, ‡ am i mi erlid eglwys Dduw.

t 2 Cor. 11. 5. a 12. 11. Eph. 3. 8. u Act. 8. 3. a 9. 1, &c. a 22. 4, 5. a 26. 9—11. Gal. 1. 13, 23. 1 Tim. 1. 13, 14.

Mae yr adnod hon yn egluro y geiriau uchod, "un annhymmig," ac yn dangos yr olwg isel oedd gan Paul arno ei hun. * O'i ran ei hunan yr oedd yn lleiaf o'r holl apostolion yn ei olwg ei hun, ie, yn llai na'r lleiaf o'r holl saint, Ephes. 3. 8; † ac yn gwbl anaddas o'i ran ei hun ac yn ei olwg ei hun, o gael y fath enw a swydd âg apostol yn eglwys Dduw, ‡ am iddo gynt erlid yr eglwys hòno mòr llidiog a chreulawn.

10 * Eithr x trwy ras Duw yr ydwyf yr hyn ydwyf: y † a'i ras ef, yr hwn *a roddwyd* i mi, ni bu yn ofer; z ‡ ond mi a lafuriais yn helaethach nâ hwynt oll: a ‖ *ac* nid myfi chwaith, § ond gras Duw yr hwn oedd gyd â mi.

x pen. 4. 7. Rhuf. 11. 1, 5, 6. Eph. 2. 7, 8. a 3. 7, 8. 1 Tim 1. 15, 16. y adn. 2. 2 Cor. 6. 1. z Rhuf. 15. 17—20. 2 Cor. 10. 12—16. a 11. 23—30. a 12. 11. a Mat. 10. 20. 2 Cor. 3. 5. Gal. 2. 8. Phil. 2. 13. a 4. 13. Col. 1. 28, 29.

* Trwy rad a phen-arglwyddiaethol ras Duw yn unig, yr oedd efe yn awr y peth ydoedd, fel cristion ac fel apostol: † a'r gras nefol hwnw, yr hwn a roddes Duw mòr rhad a helaeth iddo ac arno, ni bu anffrwythlawn, yn ddiddefnydd, nac yn ofer; ni bu yn ofer iddo ef ei hun o ran ei gyflwr personol, ac ni bu yn ofer iddo fel pregethwr ac apostol: ‡ oblegid wedi iddo wybod ofn yr Arglwydd, a chael ei gymhell yn nerthol gan gariad Crist, efe a lafuriodd yn y weinidogaeth yn helaethach na'r holl apostolion eraill, a'u cymmeryd bob yn un ac un: yn helaethach yn ei deithiau, yn fwy diflino, mewn mwy o enbydrwydd, caledi, a dyoddefiadau, na neb o honynt. ‖ Eto, nid oedd hyn i'w briodoli iddo ef ei hun, nac i ddim yn ei dymherau naturiol ef mwy nac eraill; § ond yn unig ac yn hollawl i ras Duw yr hwn oedd gydag ef, ac yr hwn oedd yn ei wneyd yn ewyllysgar ac yn ei nerthu i lafurio yn helaeth yn ngwaith yr Arglwydd.—Mae y gair *gras* dair gwaith yn yr adnod hon; a thebygid ei fod yn dwyn ystyr wahanol yn mhob un o'r mànau. Yn y lle *cyntaf*, mae yn arwyddo *cariad rhad*, ac *ewyllys da* Duw, fel achos a ffynon pob bendithion ysbrydol. Yn yr *ail* lle, tebygid ei fod yn arwyddo effeithiau cariad ac ewyllys da Duw, yn noniau a grasau yr Ysbryd yn gyfranol i'r apostol, fel Ephes. 4. 7; 2 Pedr 3. 18. Ac yn y *trydydd* lle, efallai ei fod yn arwyddo y *cynnorthwyon parhâus* hyny o ras Duw, oedd gyda'r apostol yn ei gymhell ac yn ei nerthu ef yn ei holl lafur, er gogoniant Duw, a lles eneidiau dynion.

11 * Am hynny, b pa un bynnag ai myfi ai hwynt-hwy, † felly yr ydym yn pregethu, ‡ ac felly y credasoch chwi.

b adn. 3, 4. pen. 2. 2.

* Am hyny, pa un bynag ai myfi ai yr apostolion eraill, † yr ydym oll yn pregethu yr un athrawiaeth, am farwolaeth ac adgyfodiad Crist, fel sylfaen fawr a sylwedd yr holl efengyl: felly yr wyf fi yn pregethu, yn ol y dawn a'r gras a roddwyd i mi; ac felly maent hwythau yn pregethu, yn ol y dawn a'r gras a roddwyd iddynt hwythau. ‡ Ac yn ol yr hyn a bregethwyd genym ni, myfi a'r apostolion eraill, felly y credasoch chwithau: chwi a broffesasoch eich bod yn derbyn ein hathrawiaeth a'n tystiolaeth, ac yn credu yn mherson, aberth, ac adgyfodiad yr Arglwydd Iesu, er eich iachawdwriaeth dragywyddol.

12 c * Ac os pregethir Crist, ei gyfodi ef o feirw; d † pa fodd y dywed rhai yn eich plith chwi, nad oes adgyfodiad y meirw?

c Gwel ar adn. 4. d adn. 13—19. 2 Tim. 2. 17.

* Ac yn awr, os pregethir Crist, ei adgyfodi ef o feirw, gan y fath nifer o dystion geirwir, a thrwy y fath dystiolaethau a phrofion sicr ac anwadadwy; † pa fodd y dywed rhai o'r gau-athrawon yn eich plith chwi nad oes adgyfodiad y meirw? Pwy oedd y cyfeiliornwyr hyn, nis gwyddom; tybia rhai mai Hymeneus a Philetus oeddynt, y rhai a grybwyllir yn 2 Tim. 2. 17, 18. Pwy bynag oeddynt, mae yn debyg eu bod yn ystyried

adgyfodiad y meirw yn beth *anmhosibl*, ac *anghredadwy;* neu os cyfododd Crist, na chyfododd efe ddim fel *Person cyhoeddus*, fel *Pen* a *Chynnrychiolwr* ei bobl, ac felly nad oedd ei adgyfodiad ef yn un prawf o adgyfodiad ei bobl. Yn ol y golygiad diweddaf mae yr apostol yn ymresymu yn yr adnodau a ganlyn.

13 * Eithr [e] onid oes adgyfodiad y meirw, † ni chyfodwyd Crist chwaith.

e adn. 20. Ioan 11. 25, 26. Act. 23. 8. Rhuf. 4. 24, 25. a 8. 11, 34. 2 Cor. 4. 10—14. Col. 3. 1—4. 1 Thes. 4. 14. 2 Tim. 4. 8. Heb. 2. 14. a 13. 20. 1 Pedr 1. 3. Dat. 1. 18.

* Eithr onid oes y fath beth mewn gwirionedd âg adgyfodiad y meirw, ac os nad yw y fath beth yn *bosibl;* † yna y canlyniad annocheladwy yw, yn groes i'r gwirionedd diammheüol, a welodd ac a dystiolaethodd yr holl apostolion, na chyfodwyd Crist chwaith. Os ydyw yn anmhosibl i Dduw gyfodi cyrph eraill, yr oedd yn anmhosibl iddo gyfodi corph Iesu; ac os na chyfodir yr aelodau, ni chyfodwyd y pen chwaith: o'r tu arall, os oedd yn bosibl cyfodi Crist, mae yn bosibl hefyd cyfodi eraill; ac os cyfodwyd y pen, mae yn rhaid y cyfodir yr aelodau.

14 * Ac os Crist ni chyfodwyd, [f] † ofer *yn wir yw* ein pregeth ni, ‡ ac ofer hefyd *yw* eich ffydd chwithau.

f adn. 2, 17. Salm 73. 13. Es. 49. 4. Jer. 8. 8. Mat. 15. 9. Gal. 2. 2. Iago 1. 26. a 2. 20.

* Ac os na chyfodwyd Crist mewn gwirionedd, a hyny fel Person cyhoeddus, fel Pen a Chynnrychiolwr ei holl bobl; † yna, ofer yn wir yw ein pregeth ni; y cwbl a ddywedasom ni yr apostolion, a lluoedd o rai eraill, am ei adgyfodiad ef; y cwbl a adeiladasom ni ar hyny; ac yn wir y cwbl o holl athrawiaeth yr efengyl; nid yw y cyfan ond chwedlau ofer a gweigion, heb wirionedd na sylfaen, a diwerth ac annheilwng eu gwrando. ‡ Ofer hefyd yw eich ffydd chwithau; os na chyfododd efe o feirw, nid yw yn werth credu ynddo, nac ymddiried i ddim arall a wnaeth efe, ni bydd iachawdwriaeth i neb drwyddo er credu ynddo. Fel hyn ni a welwn o gymmaint pwys yw adgyfodiad Crist yn athrawiaeth yr efengyl, ac o gymmaint pwys yw credu y pwnc hwn o'r athrawiaeth fawr hòno.

15 * Fe a'n ceir hefyd [g] yn gau-dystion i Dduw; † canys [h] ni a dystiasom am Dduw, ddarfod iddo gyfodi Crist: [i] ‡ yr hwn nis cyfododd efe, os y meirw ni chyfodir.

g Ex. 23. 3. Job 13. 7—10. Rhuf. 3. 7, 8. h Act. 2. 24, 32. a 4. 10, 33. a 10. 39—42. a 13. 30—33. a 20. 21. i adn. 13, 20.

* Heblaw hyny, "os Crist ni chyfodwyd," nid yn unig mae ein pregeth ni yn ofer, ond fe a'n ceir ni hefyd yn gau-dystion, y peth ni haeddasom erioed, ac yn gau-dystion i Dduw a thros Dduw, yr hyn sydd annuwioldeb ofnadwy: † canys ni a dystiasom am Dduw, ddarfod iddo gyfodi Crist; ni a wnaethom hyny yn ei enw ef, gan broffesu mai yn ei awdurdod ef, o'i anfoniad ef, ac ar ei orchymyn ef, yr oeddem yn tystiolaethu. ‡ Yn awr, os y meirw ni chyfodir, ni chyfododd Duw gorph Crist; (gwel ar adn. 13,) ac felly rhaid i'r rhai a haerant yn erbyn adgyfodiad y meirw, ein cyfrif ni oll yn gau-dystion celwyddog, a'n holl bregethau yn gau-dystiolaeth anwireddus.

16 * Canys os y meirw ni chyfodir, ni chyfodwyd Crist chwaith.

* Cawsom yr un peth o'r blaen yn adn. 13, mae yr apostol yn ei ail ddywedyd i ddangos mawr bwys y peth, a niwed erchyll y cyfeiliornad.

17 * Ac os Crist ni chyfodwyd, [k] ofer *yw* eich ffydd chwi; [l] † yr ydych etto yn eich pechodau.

k adn. 2, 14. l Ezec. 33. 10. Ioan 8. 21—24. Act. 5. 31. a 13. 38, 39. Rhuf. 5. 10. a 8. 33, 34. Heb. 7. 23—28. a 9. 22—28. a 10. 4—12. 1 Pedr 1. 3, 21.

* Am ran flaenaf yr adnod hon, gwel ar adn. 14. † Os na chyfodwyd Crist, nid oedd ei farwolaeth yn iawn dros bechod, ac o ganlyniad yr ydych chwi eto yn eich pechodau: ni chaed aberth drostynt, ac nis maddëuwyd mo honynt.

18 * Yna hefyd y cyfrgollwyd y rhai a [m] hunasant yng Nghrist.

m adn. 6. 1 Thes. 4. 13, 14. Dat. 14. 13.

* Hefyd, y rhai a hunasant yn Nghrist, pa un bynag ai o farwolaeth naturiol ai trwy ferthyrdod, hwy a gyfrgollwyd yn y farn ac mewn byd arall, os na chyfodwyd ef. Ein tystiolaeth a'n pregeth ni yw, ddarfod ei draddodi ef dros bechodau, a'i gyfodi i gyfiawnâu, yr holl rai a gredant ynddo; ond os na chyfodwyd ef, nid oes gyfiawnder i'r rhai a gredasant ac a hunasant ynddo, buont feirw yn eu pechodau, a chyfrgollwyd hwy yn ddiymwared byth. Mae yr apostol yn yr adnod hon, ac amryw adnodau eraill yn y bennod hon, yn dywedyd yn erbyn y Saduceaid, y rhai a wadent anfarwoldeb yr enaid, yn gystal ag yn erbyn y philosophyddion Groegaidd, y rhai a wadent adgyfodiad y corph.

19 * Os yn [n] y byd yma yn unig y [o] gobeithiwn yng Nghrist, [p] † truanaf o'r holl ddynion ydym ni.

n Salm 17. 14. Preg. 6. 11. a 9. 9. Luc 8. 14. a 21. 34. 1 Cor. 6. 3, 4. 2 Tim. 2. 4. o Eph. 1. 12, 13. 1 Thes. 1. 3. 2 Tim. 1. 12. 1 Pedr 1. 21. p pen. 4. 9—13. Mat. 10. 21—25. a 24. 9. Ioan 16. 2, 33. Act. 14. 22. 2 Tim. 3. 12. Dat. 14. 13.

* Os na chyfodir y saint, yn y byd yma yn unig y gobeithiant yn Nghrist, nis gallant obeithio am ddim mewn byd arall; † ac fel hyny truanaf ac annedwyddaf o'r holl ddynion ar y ddaear yn sicr ydynt, a mwyaf i dosturio wrthynt. Nid yw yn canlyn y byddai credinwyr yn fwy annedwydd na dynion eraill mewn gwirionedd, pe na byddai adgyfodiad i wynfyd tragywyddol; oblegid *fel hyny*, byddai eu gobaith a'u cysur presenol, yn llawer mwy na chyd-bwys â'u profedigaethau, eu hunan-ymwadiad, a'u hadfyd: ond pe cymmerid y gobaith a'r cysur hyn oddi arnynt, hwy a fyddent yn wir yn druanaf o'r holl ddynion: byddai colli mwyniant a hyfrydwch y byd presenol, a phob gobaith o ddedwyddwch tragywyddol hefyd, yn eu gwneyd yn wir yn druanaf o'r holl ddynion. Ond y gwirionedd yw, yn lle bod yn druanaf o'r holl ddynion, mae y saint yn ddedwyddaf o'r holl ddynion, yn nghanol eu holl adfyd a'u gorthrymderau.

20 * Eithr [q] yn awr Crist a gyfodwyd oddi wrth y meirw, † *ac* a wnaed [r] yn flaen-ffrwyth y rhai a hunasant.

q Gwel ar adn. 4—8. r adn. 23. Act. 26. 23. Rhuf. 8. 11. Col. 1. 18. 1 Pedr 1. 3. Dat. 1. 5.

* Gwedi dangos yr amryw ganlyniadau dychrynllyd o wadu yr adgyfodiad, yn yr adnodau blaenorawl, mae yr apostol yn troi yma i'r ochr arall, ac yn hòni yn sicr, fod Crist wedi adgyfodi mewn gwirionedd; er prawf o berffaith gyflawniad ei waith, digonoldeb ei aberth, a'r derbyniad o hóno gan Dduw, fel iawn dros bechodau. † Ac yn ei adgyfodiad, gwnaed ef yn flaen-ffrwyth y rhai a hunasant, sef yr holl gredinwyr, y rhai a hunasant yn Nghrist, (adn. 18.) o ddechreu y byd hyd ei ddiwedd. "Blaen-ffrwyth:" Efe oedd y cyntaf, a'r unig un a gododd yn ei nerth ei hun; y cyntaf a gododd nid i farw mwyach, a'r gogoneddusaf o bawb a fydd marw ac a gyfodir. Cyfododd efe fel Person cyhoeddus, Machniydd, Cynnrychiolwr, a Rhagflaenor ei bobl: yr oedd ei adgyfodiad ef yn ernes a sicrwydd o'u hadgyfodiad hwy, ac yn flaen-ffrwyth i Dduw, i sancteiddio yr holl gnwd, ac i sicrâu ei fendith arno.

21 * Canys gan [s] *fod* marwolaeth trwy ddyn, [t] † trwy ddyn hefyd *y mae* adgyfodiad y meirw.

s adn. 22. Rhuf. 5. 12—17. t Ioan 11. 25, 26. Rhuf. 6. 23.

* Gan mai trwy ddyn, trwy *un* dyn, y daeth pechod a marwolaeth i'r byd; † trwy ddyn hefyd, trwy Un mewn undeb â dynoliaeth, y mae adgyfodiad y meirw. Cawn weled yn yr adnod nesaf pwy oedd y ddau "ddyn" hyn.

22 * Oblegid megis [u] yn Adda y mae pawb yn meirw, † felly hefyd yng Nghrist y bywhâeir pawb.

u adn. 45—49. Gen. 2. 17. a 3. 6, 19. Ioan 5. 21—29. Rhuf. 5. 12—21.

* Yr oedd holl ddynolryw o ddechreu y byd i'w ddiwedd, (ond y dyn Crist Iesu yn unig,) yn yr Adda cyntaf, fel eu tad a'u gwreiddyn naturiol, ac hefyd fel eu cynnrychiolwr a'u pen cyfammodol: fel pen cyfammodol, yr oedd ei gamwedd cyntaf ef yn gyfrifedig i'w holl had; ac fel gwreiddyn naturiol, yr oedd ei holl had yn cael eu llygru yn ei gwymp, ei bechod, a'i lygriad ef. O herwydd y berthynas ddeublyg, gyfammodol a naturiol uchod, mae pawb yn meirw yn Adda; yn meirw yn naturiol, yn ysbrydol, yn gondemniol, ac yn agored o ran haeddiant i farwolaeth dragywyddol, dàn ddigofiaint Duw mewn byd arall. † Mewn cyffelyb fodd, trwy ewefydliad cyfammodol arall, mae yr holl saint yn Nghrist, mewn cyfammod ac undeb ysbrydol âg ef; a thrwy rinwedd yr undeb annattodawl hyny, â'u cyrph a'u heneidiau, bywêir pawb o honynt yn y dydd diweddaf, trwy adgyfodiad nerthol a gogoneddus i ddedwyddwch anfarwol byth. Mae yn wir y cyfodir pawb, ffluwiol ac annuwiol, yn yr adgyfodiad cyffrediniol; ond mae yn amlwg mai am adgyfodiad y saint y llefara yr apostol yma; y pawb sydd yn Nghrist; ac nis gellir dywedyd fod y pawb a fu feirw yn Adda, yn Nghrist: aeth Adda a'i *bawb* ef i lawr, daw Crist a'i *bawb* yntau i fyny; ond nid yr un *pawb* sydd yn nwy ran yr adnod, eithr pob un a *phawb* ei gyfammod ei hun.

23 * Eithr [x] pob un yn ei drefn ei hun: † y blaen-ffrwyth *yw* Crist; ‡ wedi hynny [y] y rhai *ydynt* eiddo Crist, yn ei ddyfodiad ef.

x adn. 20. Es. 26. 19. 1 Thes. 4. 15—17. y pen. 3. 23. 2 Cor. 10. 7. Gal. 3. 29. a 5. 24.

* "Pob un yn ei drefn ei hun:" o ran amser, neu dawredd a gogoniant: † trefnwyd i Grist gyfodi yn ogoneddus iawn, ar fore y trydydd dydd ar ol ei gladdu, fel blaen-ffrwyth ac achos adgyfodiad ei bobl; ‡ yn rhen oesoedd wedi hyny, yn nyfodiad Crist i farnu byw a meirw, adgyfodir ei holl saint ef, cyn newid y rhai byw, (adn. 51, 52; 1 Thes. 4. 15—17,) dyna'r drefn; ac yn ddiweddaf oll, adgyfodir y rhai annuwiol, i warth a dirmyg tragywyddol. Crist yw y blaen-ffrwyth, yr ysgub cwhwfan, a'r holl saint yw y cynhauaf mawr.

24 * Yna [z] *y bydd* y diwedd, † wedi y rhoddo efe [a] y deyrnas i Dduw a'r Tad; ‡ wedi iddo ddilëu pob pendefigaeth, || a phob awdurdod a nerth.

z Dan. 12. 4, 9, 13. Mat. 10. 22. a 13. 39, 40. a 24. 13. 1 Pedr 4. 7. a Es. 9. 7. Dan. 7. 14, 27. Mat. 11. 27. a 28. 18. Luc 10. 22. Ioan 3. 35. a 13. 3. 1 Tim. 6. 15.

* Yna y bydd diwedd y byd hwn, yn nghyd â'r holl addamweiniau, y profedigaethau, y pechodau, a'r gofidiau, mae y saint yn ocheneidio danynt yn awr; yna y bydd diwedd ar yr ordinâdau, y moddion, a gweinidogaeth llynion ac angelion, y rhai mae angen ar y saint am danynt yn awr; ac yna y bydd diwedd ar y dull presenol mae Crist yn gweinyddu ac yn ardwyo helyntion ac achosion rhagluniaeth ‡ gras yn y byd hwn: yna hefyd y bydd perffeithiad dedwyddwch y saint; ac felly daw y diwedd gorfoleddus oeddynt hwy yn ei ddysgwyl, yn chiraethu ac yn gobeithio am dano. Daw pethau rhyfedd i'r golwg, ac i ben, pan ddelo y diwedd mawr hwn! † Yna, yr Arglwydd Iesu Grist, fel dyn a Chyfryngwr, wedi iddo gyflawni yn berffaith yr holl ymddiried mawr a roddwyd iddo, a rydd i fynu ei waith. ei ymddiried, a'i ofal, i Dduw y Tad, yr hwn a'i gosodoild ef yn ei swydd, ac a esyd ei holl saint yn gyhoeddus ger bron Duw, fel un eglwys ogoneddus byth. Gwedi dydd y farn, bydd diwedd ar deyrnas *gyfryngol* Crist, o ran ei dull presenol o hanfodi yn y byd hwn; ond byth ni ddaw diwedd ar ei deyrnas *hanfodol* ef fel Mab Duw, yn undeb y Tad a'r Ysbryd: bydd ef, yn undeb y Personau eraill, ac hefyd mewn undeb â'r natur ddynol, yn eistedd ar ei orseddfa byth; yn gwisgo anrhydedd ei swydd, ei holl gyflawniadau cyfryngol, yn nghyd â'u heffeithiau a'u canlyniadau sicr a pharâus, yn ddiddiwedd: ac mae yn ddiammau y bydd ef yn eistedd byth bythoedd, mewn ystâd o oruwch-awdurdod a gogoniant, fel Pen a Gwaredwr mawr ei holl eglwys; ac felly, yn yr ystyriaethau hyn, bydd ei lywodraeth yn llywodraeth dragywyddol, a'i freniniaeth nid â ymaith, ac ni ddyfethir. ‡ Hyn oll a ddygwydd, wedi iddo ddilëu a diddymu pob llywodraeth wladol ac eglwysig, o ran eu dull presenol yn y byd hwn, || yn nghyd â phob awdurdod a gallu, ag mae dynion neu gythreuliaid wedi eu harfer yn anghyfiawn ar eu gwahanol isafiaid, yn wrthwyneb iddo ef, ac i'w bobl a'i achos ef. Mae y gair *katargêzê*, "ddilëu," yn arwyddo ymddifadu o awdurdod, cyfreithlawn neu anghyfreithlawn; ac yn cael ei ddefnyddio weithiau am bob un o'r ddau.

25 * Canys [b] rhaid iddo deyrnasu † hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed.

b Salm 110. 1. Mat. 22. 44. Marc 12. 36. Luc 20. 42, 43. Act. 2. 34, 35. Eph. 1. 22. Heb. 1. 13. a 10. 12, 13.

* Yn ol arfaeth, addewid, a chyfammod Duw â'i Fab, (Salm 110. 1,) rhaid iddo ef yn ei natur ddynol, ac yn ei sefyllfa gyfryngol, eistedd ar ddeheulaw y Tad mewn mawredd a gogoniant, a theyrnasu fel Brenin ar ei orsedd, mewn llywodraeth gyffredinol ar bawb a phob peth, † hyd oni ddarostyngo y Tad (adn. 27,) ei holl elynion, a holl elynion ei eglwys, yn ddynion a chythreuliaid, dàn ei draed ef, fel caethion rhyfel, i'w mathru dàn draed eu gorchfygwr. Nid yw y geiriau *hŷd oni* yn arwyddo *na* theyrnasa efe wedi darostwng ei elynion: efe a deyrnasa byth; (gwel ar adn. 24,) ond nid yn nghanol ei elynion, ac i ddarostwng ei elynion, fel yn awr.

26 [c] * Y gelyn diweddaf † a ddinystrir *yw* yr angau.

c adn. 55. Es. 25. 8. Hos. 13. 14. Luc 20. 36. 2 Tim. 1. 10. Heb. 2. 14. Dat. 20. 14. a 21. 4.

* "Y gelyn diweddaf" o'r "holl elynion" uchod, yw yr angau; hwn a ofnir fwyaf yn aml gan y credinwyr, er nad oes ganddynt ddim i'w ofni wedi myned trwyddo, ac â hwn y bydd yr ymladdfa ddiweddaf: mae hwn yn ysgar corph ac enaid oddi wrth eu gilydd, ac yn aml trwy boenau mawrion; ac mae hwn yn cadw cyrph y saint dàn ei lywodraeth farwol yn y bedd: fel hyny mae yn elyn y credinwyr, yn elyn diweddaf, yn eu hymadawiad o'r byd hwn, ac yn elyn diweddaf, hyd fore mawr yr adgyfodiad. † Ond gelyn a ddinystrir yw hwn; dinystrwyd ei golyn, a'i niwed ef eisoes i'r saint, a dinystrir ei lywodraeth ef yn hollawl ar eu llwch hwynt yn yr adgyfodiad.

27 [d] * Canys efe a ddarostyngodd bob peth dan ei draed ef. † Eithr pan yw yn dywedyd fod pob peth wedi eu darostwng, amlwg *yw* mai oddi eithr yr hwn a ddarostyngodd bob peth iddo.

d Salm 8. 6, 7. Mat. 11. 27. a 28. 18. Ioan 3. 35. a 13. 3. Eph. 1. 20, 21. Phil. 2. 9—11. Heb. 1. 13. a 2. 8, 9. a 10. 12, 13. 1 Pedr 3. 22. Dat. 1. 18.

* Mae yr apostol yn cyfeirio yma at Salm 8. 6, lle mae Dafydd yn clodfori Duw am y rhagor-fraint a roddes i ddyn yn ei grëadigaeth, sef "gosod pob peth dàn ei draed ef:" ond yn Heb. 2. 6—8, mae yn amlwg fod y Salm hòno, neu ryw ranau o hòni, yn perthyn i Grist: ac mae yr ysgrifenydd yno yn ei chymhwyso at Grist, fel yr apostol yma: ond rhaid deall fod pob peth wedi eu darostwng dàn draed Crist, mewn ystyr llawer helaethach nag yr oeddynt wedi eu darostwng i Adda yn ei gyflwr goreu. † Eithr pan yw y Tad yn dywedyd trwy Dafydd, fod pob peth wedi eu darostwng i Grist, mae yn amlwg mai oddi eithr yr hwn a'u darostyngodd ydyw; nid yw y Tad ei hun i'w ddeall yn y "pob peth" a ddarostyngwyd.

28 [e] * A phan ddarostynger pob peth iddo, [f] † yna y Mab ei hun hefyd a ddarostyngir i'r hwn a ddarostyngodd bob peth iddo ef, † fel y byddo Duw [g] oll yn oll.

e Salm 2. 8, 9. a 18. 39, 47. a 21. 8, 9. Dan. 2. 34, 35, 40—45. Mat. 13. 41—43. Phil. 3. 21. Dat. 19. 11—21. a 20. 2—4, 10—15. f pen. 3. 23. a 11. 3. Ioan 14. 28. g pen. 12. 6. Eph. 1. 23. Col. 3. 11.

* Darostwng mewn addewid ydoedd yn yr adnod o'r blaen. a phan gyflawner yr addewid hòno yn berffaith, yn narostyngiad ei "holl elynion," hyd yn nôd angau, y gelyn diweddaf; † yna y Mab ei hun hefyd a ddarostyngir, i'r hwn a ddarostyngodd bob peth iddo ef. Gwedi i Grist roddi y deyrnas i Dduw a'r Tad, fel y sylwyd ar adn. 24, efe a'i rhydd ei hun i fynu hefyd i Dduw a'r Tad, fel Brenin y deyrnas gyfryngol hòno, mewn modd anrhydeddus a gogoneddus iawn. Wrth y gair "darostyngir," dylem ochelyd meddwl, y bydd Iesu y pryd hwnw yn cael ei iselu mewn un modd o'r peth ydoedd o'r blaen; mae undeb y ddwy natur yn mherson yr Emanuel mawr, mawredd anfeidrol ei enw ef, gogoniant ei weithredoedd, ei berthynas agos â'r Tad a'r Ysbryd ac â'i bobl, yn nghyd â'r ysgrythyrau sydd yn gosod allan dragywyddol barâd ei lywodraeth ef, yn gwarafun i ni feddwl y peidia efe byth a bod yn rhagori yn anfeidrol ar bawb eraill, dynion ac angelion, yn y drydedd nef yn oes oesoedd. ‡ Yna y bydd Duw, fel y mae yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân, oll yn oll mewn llywodraeth, gogoniant, a dedwyddwch diddarfod yr holl saint, ac i'r dyn Crist Iesu ei hunan, fel eu pen hwynt; a Duw oll yn oll, heb wahaniaeth personau, a drefna holl achosion y llywodraeth nefol, yn ddigyfrwng, o hyny allan byth.

29 * *Os* amgen, [h] beth a wna y rhai a fedyddir dros y meirw, os y meirw ni chyfodir ddim? † paham ynte y bedyddir hwy dros y meirw?

h adn. 16, 32. Mat. 20. 22.

Yma mae yr apostol yn dychwelyd at ei brif bwnc oedd ganddo mewn llaw, sef adgyfodiad y meirw a dedwyddwch y saint mewn byd i ddyfod. * Mae y geiriau hyn, "bedyddio dros y meirw" yn ddyrys iawn i ni. rhŷ faith o lawer, ac anfuddiol hefyd, fyddai enwi yr holl amrywiol syniadau a fu gan wahanol dduwinyddion arnynt; ceisiwn grybwyll yn fŷr yr hyn a gymmeradwyir fwyaf gan ein Hawdwyr.—Tybir fod yr apostol yn cyfeirio at y rhai hyny, a gynnygient eu hunain i'w bedyddio yn y fân ar ol merthyrdod rhai o'r cristionogion, neu ar eu claddedigaeth hwynt; fel pe byddai milwyr newyddion yn ymrestru yn y fyddin, ac yn cymhell eu hunain i'r frwydr, yn lle y rhai a fyddent newydd syrthio ar y maes. Fel hyn yr oeddynt yn proffesu eu ffydd yn Nghrist, ac yn anturio llid eu gelynion, hyd yn nôd ar yr amser yr oedd eraill newydd gael eu merthyru yn achos yr efengyl. Ond pa les a allasent ddysgwyl iddynt eu hunain os nad oedd adgyfodiad y meirw? Neu pa ddoethineb oedd iddynt wneyd y fath beth? Mae eraill yn cynnyg yr agoriad hyn ar y geiriau:—Os na chyfodir y meirw, pa beth a ddaw o fabanod rhïeni crediniol, y rhai a fedyddir er eu mwyn hwynt ar ol marw eu rhïeni, trwy rinwedd eu rhagor-freintiau cyfammodol oedd yn eiddo iddynt, er i'w rhïeni farw cyn eu bedyddio hwynt? Mae y golygiad diweddaf yn lled debyg i ddadl Crist dros yr adgyfodiad, oddi wrth y cyfammod âg Abraham. Matth. 22. 31, 32. † Paham, ac i ba beth, y bedyddir neb dros y meirw yn yr ystyriaethau uchod, nac mewn un ystyr arall, i gadw achos Crist yn mlaen yn y byd, os nad oes adgyfodiad y meirw, iddynt hwy â'r rhai y bedyddiwyd hwynt drostynt?

30 * A [i] phaham yr ydym ninnau mewn perygl bob awr?

i adn. 31. Rhuf. 8. 36—39. 2 Cor. 4. 7—12. a 6. 9. a 11. 23—27. Gal. 5. 11.

* Os nad oes dim gobaith am adgyfodiad i fuchedd dragywyddol trwy ein Harglwydd Iesu Grist; pa mòr ynfyd yw i ni gristionogion, ac yn enwedig i ni yr apostolion, a gweinidogion Crist, osod ein hunain yn agored bob amser, ac bron bob awr o'n bywyd, i beryglon ac enbydrwydd? yr ydym ni y ffyliaid mwyaf yn y byd, os nad oes adgyfodiad; oblegid yn y grediniaeth gadarn, a'r gobaith o hyny, yr ydym ni yn gosod ein hunain yn agored i'r fath beryglon am ein crefydd, ac ni buasai dim arall yn ddigon i'n gwroli ni i ddyoddef y fath drallodau.

31 [k] * Yr ydwyf beunydd yn marw, [l] myn eich gorfoledd yr hon sydd gennyf yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

k Gen. 43. 3. 1 Sam. 8. 9. Jer. 11. 7. Zec. 3. 6. l pen. 4. 9—13. Act. 20. 23. Rhuf. 8. 36. 2 Cor. 4. 10, 11. a 11. 23.

* "Mỳn *eich* gorfoledd:" mỳn *fy* ngorfoledd, medd rhai: yr oedd yr apostol yn tystiolaethu, yn y modd mwyaf difrifol, mỳn *eu* gorfoledd *hwynt*, neu mỳn *ei* orfoledd *ei hun* gyda hwynt, ac ar eu rhan, fel rhai wedi eu dychwelyd trwy ei weinidogaeth ef, ei fod yn marw beunydd; yr oedd bob dydd yn agored i beryglon a merthyrdod; yr oedd yn dysgwyl hyny yn wastad o hyd; ac yr oedd ei drallodau a'i galedi parâus, yn gwneyd ei fywyd megys math o ddienyddiad neu ferthyrdod araf poenus; ac nid oedd ganddo ddim i'w gynnal o dàn, ac yn wyneb hyn oll, ond y gobaith gwynfydedig o adgyfodiad dedwydd, a thragywyddol ogoniant gyda ei Arglwydd croeshoeliedig yn y nef.

32 * Os yn oll dull dyn † yr ymleddais âg [m] anifeiliaid yn [n] Ephesus, [o] ‡ pa lesâd *sydd* i mi, oni chyfodir y meirw? [p] || bwyttâwn ac yfwn; canys y fory marw yr ydym.

m 2 Pedr 2. 12. Judas 10. n Act. 19. 1, 23, &c. 2 Cor. 1. 8—10. o Job 35. 3. Salm 73. 13—15. Mal. 3. 14, 15. Luc 9. 25. p Preg. 2. 24. a 11. 9. Es. 22. 13. a 56. 12. Luc 12. 19, 20.

* Os yn ol dull *dynion* yw y Saesoneg: *anthrôpon* yw y gair Groeg, a *dynion* y cyfeithir ef mewn mànau eraill. Os yn ol y dull y byddai dynion yn yr amser hwnw, yn peri i gaethion a drwg-weithredwyr ymladd âg anifeiliaid gwylltion er cael eu dyfetha ganddynt; † yr ymleddais âg anifeiliaid yn Ephesus. Mae rhai yn cymmeryd y geiriau yn llythyrenol, ac yn tybied i Paul orfod ymladd âg anifeiliaid gwylltion yn y chwarëufa yn Ephesus, er difyrwch i'w erlidwyr; ond mae eraill yn tybied yn wahanol, mai dynion creulawn ac anifeilaidd a'i herlidient ef, mae yn feddwl. Pe buasai wedi ymladd ag anifeiliaid, yn yr ystyr lythyrenol, peth rhyfedd na buasai Luc yn yr Actau yn crybwyll am beth mòr hynod: a phan feddyliom fod gan Paul hawl i ddinas-fraint Rhufain, nid yw yn debyg y goddefai y fath driniaeth heb amlygu hyny i'w erlidwyr, y rhai ni feiddient ymddwyn ato felly wedi gwybod mai Rhufeiniad oedd. Felly, mae yn debyg mai mewn dull ffugyrawl mae i ni ddeall y geiriau; ac mae yr ymadrodd "Os yn ol dull dyn" yn hytrach yn cadarnâu hyny. ‡ Os ymleddais I â dynion creulawn yn debyg fel yr ymleddir âg anifeiliaid gwylltion yn y chwarëufa (*theatre*) yn Ephesus, pa lesâd sydd i mi oni chyfodir y meirw? gwel ar adn. 30. || Os nad oes adgyfodiad, na barn, na byd ar ol hwn, yna nis gwaeth i mi a chwithau, a phawb sydd yn proffesu ffydd yn Nghrist, beidio a gosod ein hunain yn agored i'r fath enbydrwydd a chaledi, ac ymollwng i gymmeryd ein rhan o feluswedd a moethau y byd hwn tra byddom ynddo; ni a fyddwn feirw bron yn union, a thyna ddiwedd am danom fel anifeiliaid: hyny yw, yn ol yr athrawiaeth nad oes adgyfodiad y meirw.

33 [q] * Na thwyller chwi: [r] † y mae ymddiddanion drwg yn llygru moesau da.

q pen. 6. 9. Mat. 24. 4, 11, 24. Gal. 6. 7. Eph. 5. 6. 2 Thes. 2. 10. Dat. 12. 9. a 13. 8—14. r pen. 5. 6. Diar. 9. 6. a 13. 20. 2 Tim. 2. 16—18. Heb. 12. 15. 2 Pedr. 2. 2, 18—20.

* Ond na thwyller chwi, frodyr, gan y fath athrawiaeth gyfeiliornus a niweidiol, yr hon sydd yn tueddu i

ddadymchwelyd y cwbl o wir grefydd a moesau da hefyd. † Mae athrawiaeth y bobl sydd yn gwadu adgyfodiad y meirw, a phob cyfeillach â'r cyfryw ddynion, yn ysu fel canor, ac yn llygru barn, meddyliau, a moesau, y rhai a gymmerant eu twyllo ganddynt. Geiriau y Bardd *Menander*, meddant, yw yr adnod uchod, y rhan olaf.

34 [s] * Deffrôwch † yn gyfiawn, ‡ ac [t] na phechwch: || canys [u] nid oes gan rai wybodaeth am Dduw. [x] § Er cywilydd i chwi yr wyf yn dywedyd hyn.

s Joel 1. 5. Jona 1. 6. Rhuf. 13. 11. Eph. 5. 14. t Salm 4. 4. a 119. 11. Ioan 5. 14. a 8. 11. u pen. 8. 7.—Gwel ar Rhuf. 1. 28.—1 Thes. 4. 5. x pen. 6. 5. Heb. 5. 11, 12.

* Mae yn debyg fod y cyfeiliornad uchod yn nghylch yr adgyfodiad wedi llygru a hudo y Corinthiaid, lawer o honynt, i gysgadrwydd ysbrydol a gwrthgiliad enawdol i raddau mawr iawn; am hyny mae yr apostol megys yn bloeddio yn uchel arnynt i ddeffrôi o'r cysgadrwydd a'r merwindod hyny. † Deffrôwch mewn modd cyfiawn, fel y gweddai i ddynion cyfiawn, ac i farnu yn gyfiawn am fater o gymmaint pwys ag adgyfodiad y meirw; a deffrôwch i fyw yn sobr, yn dduwiol, ac yn gyfiawn yn y byd sydd yr awr hon. ‡ Cymmerwch ofal rhag eich arwain i athrawiaethau pechadurus, ac o hyny i foesau a gweithredoedd pechadurus: neu, na phechwch trwy gynnal a phleidio athrawiaethau pechadurus sydd yn dadymchwel yr holl efengyl, ac yn iddinystriol i eneidiau dynion. || Er cymmaint yr ymffrostiai y Corinthiaid o'u gwybodaeth, yr oedd yno lawer o honynt, a'r ymffrostwyr mwyaf hefyd, efallai, heb memawr o wir wybodaeth o Dduw ganddynt, yn ol datguddiad yr efengyl o hóno; ac yr oeddynt yn byw fel pe na buasai ganddynt iawn syniad am Dduw na byd a chyflwr i ddyfod. § Yr oedd hyn yn gywilydd i rai a ymffrostient gymmaint o'u gwybodaeth, i rai yn proffesu eu hunain yn gristionogion, i rai a gawsent gymmaint o freintiau, ac yn gywilydd mawr i'w hathrawon ychwyddedig, na buasent wedi eu dysgu hwy yn well: mynai yr apostol iddynt hwy a'u hathrawon gywilyddio yn y llwch o herwydd yr annwybodaeth bechadurus hon. Mae annwybodaeth yn gywilydd i eglwysi, yn ygystal ag anfoesoldeb i bersonau.

35 * Eithr fe a ddywed rhyw un, [y] † Pa fodd y cyfodir y meirw? ‡ ac [z] â pha *ryw* gorph y deuant?

y Job 11. 12. a 22. 13. Salm 73. 11. Preg. 11. 5. Ezec. 37. 3, 11. Ioan 3. 4, 9. a 9. 10. z adn. 38—53. Mat. 22. 29, 30. Phil. 3. 21.

* Rhyw un yn mhlith y Corinthiaid ag oedd yn gwadu yr adgyfodiad, ac yn caru dadleu yn erbyn y ffath athrawiaeth. † Pa fodd, neu trwy ba foddion y cyfodir y meirw, pa fodd y dichon i'r fath beth fod? Ar ol i'r corph farw, troi yn bridd, y pridd llychlyd hwnw yn cael ei chwalu gan y gwynt i bedwar cŵr y byd, efallai; neu dyfu yn borfa ac yn llysiau, er ymborth i anifeiliaid, a dynion yn bwyta o'r anifeiliaid hyny drachefn; ac fel hyny yn troi i wahanol gyrph a sylweddau am oesoedd, ie, am filoedd o flynyddoedd; pa fodd y cyfodir y meirw wedi hyn oll? ‡ Ac os yw y fath beth anhygoel yn bosibl, â pha ryw gyrph y deuant? ai cyrph anianol, cnawdol, o gig a gwaed fel yn bresenol a fyddant, ai ynte rhyw lun ac ansawdd arall a fydd arnynt? Mae y gwrthddadl uchod yn iddeublyg; un am *bosiblrwydd* yr adgyfodiad, a'r llall am y *dull* o hóno: ac mae yr apostol yn ateb y ddau. Yn adn. 36, mae yn ateb y cyntaf; ac yn adn. 37, 38, mae yn ateb yr ail: ac oddi yno yn mlaen mae yn llefaru mewn modd ag sydd yn tueddu i ddadymchwel y ddau wrthddadl.

36 [a] * O ynfyd, [b] † y peth yr wyt ti yn ei hau, ni fywhêir oni bydd efe marw.

a Luc 12. 20. a 24. 25. Rhuf. 1. 22. Eph. 5. 15. b Ioan 12. 24.

* Nid mewn nwyd ddigofus yr oedd yr apostol yn galw "ynfyd" ar y gwrthddadleuwr hwn, ond mewn dull difrifol ac awdurdodol o geryddu y fath annwybodaeth a holiadau cecrus. † Cystal y gallasai ofyn am y gronyn gwenith, neu ryw rawn arall, pa fodd y byw hâi ac y tyfai, ar ol ei hau yn y ddaear a marw yno. Rhaid i'r hedyn farw yn y ddaear cyn y bywâo, ac y delo i fynu yn eginyn; ac er ei farw ni a welwn ei fod yn bywâu, er nas gwyddom ni pa fodd; ac oni all Duw yr un modd fywâu y meirw, er nas gallwn ni amgyffred pa fodd. Mae rhai anghredinwyr diweddar yn dadleu yn erbyn yr apostol yma, ac yn dywedyd, nad yw yr hedyn ddim yn *marw* ar ol ei hau; oblegid fod *bragodyn* bychan o hóno yn byw, ac yn tyfu; ac nad oes ond y sylwedd o amgylch y bragodyn (*Germen*) hwnw yn marw. Ond mewn gwirionedd, mae yr hedyn, fel y cyfryw, yn marw; ac yn darfod â bod yn ronyn o ŷd mwyach, er bod rhan o hóno yn blaguro, megys i fywyd newydd, mewn modd nas gwyddom ni, mwy nac y medrwn amgyffred am adgyfodiad y meirw.

37 * A'r peth yr wyt yn ei hau, † nid y corph a fydd yr ydwyt yn ei hau, ond gronyn noeth, ‡ ysgatfydd o wenith, neu o ryw *rawn* arall.

* Gwedi dangos *posiblrwydd* yr adgyfodiad yn yr adnod o'r blaen, mae yr apostol yma yn ateb i'r *ail* wrthddadl, yn adn. 35, am *ddull* yr adgyfodiad, "â pha ryw gorph y deuant." Gronyn noeth o wenith, efallai, neu o ryw rawn arall sydd yn cael ei hau; ac ar ol i hwn farw yn y ddaear, mae yn dyfod i fynu mewn dull arall; yn gyntaf yr eginyn, wedi hyny y dywysen, yna yr ŷd llawn yn y dywysen, Marc. 4. 28. † "Nid y corph a fydd yr ydwyt yn ei hau:" hyny yw, nid y gronyn a heüir sydd yn dyfod i fynu; mae hwnw yn marw yn y ddaear: ond o sylwedd hwnw mae y "corph a fydd;" sef yr eginyn, y gorsen, y dywysen, a'r ŷd llawn yn y dywysen. ‡ Am y gronyn gwenith a rhai grawn eraill yn marw, gwel ar Ioan 12. 24.

38 * Eithr [c] Duw sydd yn rhoddi iddo gorph fel y mynodd efe, † ac i bob hedyn ei gorph ei hun.

c pen. 3. 7. Salm 104. 14. Es. 61. 11. Marc 4. 26—29.

* Pan gyfodo yr hedyn o'r ddaear trwy nerth blaguriad, yr hyn mae yn gael gan Dduw naturiaeth, mae efe yn rhoddi iddo gorph, sef llun a sylwedd, fel y mỳno efe ei hun: nid oes gan ddynion ddim llaw yn hyny, ac nis gall dynion amgyffred pa fodd mae y naill eginyn, corsen, tywysen, a ffrwythlondeb y naill dywysen, yn rhagori ar un arall yn yr un màn. † Ac mae Duw yn rhoddi i bob hedyn ei gorph ei hun; os gwenithyn a heüir, gwenith a gyfyd o'r gronyn hwnw, ac os rhyw hedyn arall a heüir, o rywogaeth hwnw y bydd y ffrwyth, neu y corph; fel y mae perffaith wahaniaeth yn cael ei gadw, rhwng yr holl amrywiaeth o bethau tyfol, trwy yr holl fyd a thrwy yr holl oesoedd. Yn gyffelyb i hyn y bydd cyrph y saint, wedi iddynt fraenu a throi yn llwch, hwy a gyfodir mewn dull newydd a mwy gogoneddus; nid yn mhob ystyr yr un peth ag oeddynt, ond yn llawer gwell a mwy rhagorol. E wnair hyn trwy ddoethineb anfeidrol, yn ol ewyllys benarglwyddiaethol, a chan nerth hollalluog Duw; ond mewn modd anamgyffredadwy i ni. Am hunaniaeth holl ronynau y corph, fel yn angenrheidiol i adgyfodiad yr un corph, nid yw yr ysgrythyr mewn un màn yn dywedyd dim; ac mae y bennod hon yn dangos yn lled grŷf yn erbyn hyny: mae gan Dduw lawer o ffyrdd eraill i gadw *hunaniaeth corphorawl.* Nid yw yr un gronynau yn hollawl, yn gwneyd i fynu ein cyrph ni am ddwy awr yn nghyd, mewn un ran o'n bywyd; eto, yr un personau ydym ni, o ran corph ac enaid o'n mabandod hyd henaint: gan hyny nid oes achos llwytho a dyrysu athrawiaeth yr adgyfodiad â'r anhawsdra hyn, yr hwn sydd yn rhoddi y fantais fwyaf i anghredinwyr i ddadleu yn ei herbyn.

39 [d] * Nid *yw* pob cnawd unrhyw gnawd:

† eithr arall *yw* cnawd dynion, ‡ ac arall *yw* cnawd anifeiliaid, a *chnawd* arall *sydd* i bysgod, ‖ ac arall i adar.

d Gen. 1. 20—26.

* Fel y mae i bob hedyn ei gorph ei hun, felly hefyd y mae i bob rhywogaeth o grëadur ei gnawd ei hun, ac "nid yw pob cnawd unrhyw gnawd:" † mae cnawd dynion yn wahanol iawn i gnawd anifeiliaid, ‡ a chnawd anifeiliaid yn wahanol i gnawd pysgod; ‖ a hwnw eilwaith yn wahanol i gnawd adar; er gwneuthur y cwbl ar y cyntaf o'r un defnydd dechreuol. Gan fod y Crëawdwr yn gallu gwneyd a chadw y gwahaniaeth hyn yn y crëaduriaid, oni all efe hefyd adgyfodi ein cyrph ni, ac i bob un ei gorph prïodol ei hun, wedi ei addasu i'r ystâd a fwriedir i ni, mewn modd anamgyffredadwy i ni?

40 * *Y mae* hefyd gyrph nefol, a chyrph daearol: † ond arall *yw* gogoniant y rhai nefol, ‡ ac arall y rhai daearol.

* Heblaw cyrph a sylweddau daearol, o lysiau tyfol a chrëaduriaid bywiol, y mae hefyd gyrph nefol, neu wybrenol, yn gystal â chyrph daearol, a gwahaniaeth rhyngddynt. † Y rhai nefol yw yr haul, y lleuad a'r sêr, a'u gogoniant prïodol i bob un o honynt: ‡ a'r cyrph daearol yw pethau sydd ar y ddaear, a'u gogoniant prïodol i bob un o honynt hwythau, fel creaduriaid a gweithredoedd Duw. Mae gogoniant y cyrph nefol yn llawer mwy na gogoniant y cyrph daearol; ac nid yw gogoniant cyrph y saint ar y ddaear, mewn cymhariaeth i'r hyn a fydd yn yr adgyfodiad, ond megys gogoniant darn o bridd, mewn cymhariaeth i ogoniant yr haul yn y ffurfafen.

41 [e] * Arall *yw* gogoniant yr haul, † ac arall *yw* gogoniant y lloer, ‡ ac arall *yw* gogoniant y ser: ‖ canys y mae rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant.

e Gen. 1. 14—16. Deut. 4. 19. Job 31. 26, 27. Salm 8. 3. a 19. 4—6. a 148. 3—5. Es. 24. 23.

Yn mhlith y cyrph nefol eu hunain, mae gwahanol raddau o ogoniant; neu o leiaf y maent yn ymddangos felly i ni: * mae un gogoniant i'r haul, yr hwn sydd yn llewyrchu yn ddysglaer iawn, trwy ei oleuni cynnwynawl ei hun; † mae gogoniant arall i'r lloer, yr hon sydd yn derbyn ei goleuni, trwy adlewyrchiad, o'r haul, ac sydd o radd wànach; ‡ ac mae gogoniant arall i'r sêr, gwibiog a sefydlog: ‖ mae gogoniant y sêr yn llai na gogoniant yr haul a'r lloer; ac mae rhagor hefyd rhwng seren a seren mewn gogoniant: mae y sêr sefydlog yn llewyrchu drwy eu goleuni eu hunain, fel yr haul; a'r sêr gwibiog trwy oleuni benthyciol, fel y lloer: mae y sêr oll o wahanol raddau o ogoniant, neu ddysgleirdeb: ac eto, hwy a wnaed oll o'r un defnydd dechreuol, a'r defnydd hwnw ei hunan o ddim, trwy fawredd nerth Duw, er nas gwyddom ni pa fodd.

42 * Felly hefyd [f] *y mae* adgyfodiad y meirw. † Efe a heuir [g] mewn llygredigaeth, [h] ‡ *ac* a gyfodir mewn anllygredigaeth:

f adn. 50—54. Dan. 12. 3. Mat. 13. 43. Phil. 3. 20, 21. g Gen. 3. 19. Job 17. 14. Salm 16. 10. a 49. 9, 14. Es. 38. 17. Act. 2. 27, 31. a 13. 34—37. Rhuf. 1. 23. a 8. 21. h adn. 52—54. Luc 20. 35, 36. 1 Pedr 1. 4.

Yma mae yr apostol yn cymhwyso y pethau uchod oll at y pwnc sydd ganddo mewn llaw, sef "pa fodd yr adgyfodir y meirw, ac â pha ryw gorph y deuant," adn. 35. * Felly hefyd y mae, neu y bydd, yn adgyfodiad y meirw: yr un doethineb a gallu dwyfol, ac sy mewn ffyrdd anadnabyddus i ni, yn peri i'r had darddu a thyfu o'r ddaear, gyda gwahanol brydferthwch a ffrwythlondeb i'r hyn oedd pan hauwyd ef, ac wedi iddo farw yn y ddaear; a'r Duw hwnw, yr hwn a grëodd amryw fath o gnawd, ac o gyrph nefol a daearol, o ddim yn y dechreu; efe a all yn ddïammau, adnabod a didoli llwch prïodawl pob corph dynol; ac a all wneyd y fath gyfnewidiad gogoneddus ar y corph, a'i gynnysgaethu â'r fath ansoddau rhagorawl, ag a'i gwna yn gydymaith addas a dymunol i'r enaid, er nas gwyddom ni pa fodd. † Mae y corph yn cael ei hau, neu ei gladdu, mewn llygredigaeth; mae wedi marw eisoes, ac yn barod i lygru, ofi, a braenu: cyn pen hir o amser bydd wedi llygru yn hollawl, a throi yn llwch mân, fel pe na buasai gorph dynol erioed. ‡ Ond yn yr adgyfodiad, efe a gyfodir mewn anllygredigaeth: bydd wedi ei buro yn hollawl oddi wrth lygredigaeth y bedd, ni bydd yn ddarostyngedig i farwoldeb na llygredigaeth byth mwyach; bydd wedi ei addasu i ystâd o berffaith iechyd, nerth, a bywiogrwydd am byth bythoedd.

43 * Efe a heuir [i] mewn ammharch, *ac* a gyfodir mewn gogoniant: † efe a heuir [k] mewn gwendid, *ac* a gyfodir [l] mewn nerth: ‡ efe a heuir yn gorph anianol, *ac* a gyfodir yn gorph ysbrydol.

i Phil. 3. 20, 21. k Job 14. 10. Salm 102. 23. 2 Cor. 13. 4. l pen. 6. 14. Mat. 22. 29, 30. Marc 12. 24, 25. 2 Cor. 13. 4. Phil. 3. 10.

* Dylasem ddywedyd o'r blaen, mai dyfodiad dyn i'r byd hwn, mae rhai yn ddeall wrth hau yn yr adnodau hyn: fel hyny mae yn cael ei hau mewn llygredigaeth, (adn. 42.) sef trwy bechod yn ddarostyngedig i lygredigaeth; ac mewn anmharch, yn wael, yn ddirmygus, ac yn anhardd, fel mae yn rhaid rhoddi gorchudd dros y rhan fwyaf o'r corph, i guddio ei anharddwch ef, pen. 12. 23. Ond wrth ei hau yn y bedd, nid oes dim yn fwy gwael, atgas, a hyll yr olwg arno i'r byw, na chorph marw dyn: "fel y claddwyf fy marw allan o'm golwg," ebai Abraham am ei Sarah brydferth ac anwyl, ar ol iddi farw. Ond er hau corph y credadyn mewn anmharch, efe a gyfodir mewn gogoniant, yn gorph dysglaer a hardd iawn; mewn oedran perffaith, (tybia rhai,) ac heb ddim o'r anafau a'r anffurfiaeth, sydd yn gwneyd cyrph dynion yn annolygus ac anhawddgar yn awr yn aml: bydd yn un ffurf â chorph gogoneddus Iesu mawr ei hun; ond pa fath, a pha mòr ddysglaer fydd y gogoniant hwnw, nis gallwn ni yr awr hon ei wybod. † Yn y byd hwn mae yn gorph egwan, brau, ac afiach; a rhoddir ef yn y bedd yn wànach byth, yn hollawl ddinerth, a diamddiffyn, yn ysglyfaeth hawdd hyd yn nôd i bryfed mân, Job 19. 25. Ond efe a gyfodir yn fywiog, yn grŷf, a chyda'r fath ansoddau iachus nerthol, fel y bydd uwchlaw pob gwendid tumewnol, a phob niweidiau a pheryglon allanol byth: yna gall gydehedeg â'r enaid gogoneddawl, ac âg angelion Duw, yn nhrigfanau a gwaith y nefoedd yn ddiflino byth: ie, bydd yn ddigon nerthol i ddâl tragywyddol bwys gogoniant, yn nysgleirdeb y drydedd nef. ‡ Mae y rhan olaf hon o'r adnod yn yr adnod nesaf, yn y Saesoneg, ac felly yn y Groeg hefyd. Dygir y corph i'r byd hwn, ac mae yn byw ynddo, yn gorph anianol; yn cael ei gynnal a'i adgyfnerthu yn wastadol gan fwyd a diod, cwsg ac awyr, ac nid oes iddo ond bywyd tymmorawl, fel cyrph anifeiliaid: ac os metha yr ymgeledd trwy y pethau naturiol uchod, mae corph dyn yn cael ei roddi yn farw yn y bedd, fel celain oer anianol, neu dywarchen farwol. Ond yn yr adgyfodiad, efe a gyfodir yn gorph ysbrydol: nid o ran y sylwedd o hóno; oblegid yn yr ystyr hyny byddai *corph* ysbrydol yn wrthddyweddiad; ond o ran ei ansawdd a'i ystâd ogoneddawl. Yn yr ystyr hyny bydd cyrph y saint yn debycach i angelion nac i gyrph dynol; yn hardd, yn anllygradwy, heb ddim gwendid, yn anfarwol; ni byddant yn ddarostyngedig i newyn na syched, i niwed gan wres nac oerni; ni bydd arnynt eisiau bwyd na diod, dillad, meddyginiaeth, na phriodas. Byddant wedi eu puro a'u coethi yn berffaith, nid yn unig oddi wrth bechod, ond hefyd oddi wrth holl wendidau dibechod dynoliaeth yn y fuchedd hon: meddiennir ac ysgogir hwy gan yr Ysbryd Glân yr hwn a'u cyfododd; a bywiocêir hwy yn uniongyrchol gan yr enaid, yn ddiysgariad byth.

44 * Y mae corph anianol, † ac y mae corph ysbrydol.

* Y mae corph anianol, addas i'n sefyllfa ni yn y byd hwn, † ac y mae corph ysbrydol, addas i'r ystâd yn y nefoedd; ac nis gall y rhai hyn fod yn mhob ystyr yr un fath. Yn y fuchedd hon, yr ydym yn gorfod gwasanaethu ein cyrph, a gweini i'w hymgeledd hwynt; ac yr ydym yn ymddybynu llawer iawn ar y corph am gweithrediad y meddwl: ond yn y byd a ddaw, bydd ein cyrph yn hollawl yn gwasanaethu ein hysbrydoedd, yn gweini iddynt, yn ymddybynu arnynt, ac am hyny gellir ieu galw yn gyrph ysbrydol. Anianol ydynt yma, ysbrydol fyddant fry.

45 * Felly hefyd y mae yn ysgrifenedig, [m] † Y dyn cyntaf Adda ‡ a wnaed yn enaid byw, ‖ *a*'r Adda diweddaf [n] § yn ysbryd yn bywhâu.

m adn. 47—49. Gen. 2. 7. Rhuf. 5. 12—14. Dat. 16. 3. n Ioan 1. 4. a 4. 10, 14. a 5. 21, 25—29. a 6. 33, 39, 40, 57, 63, 68. a 10. 10, 28. a 11. 25, 26. a 14. 6, 19. a 17. 2, 3. Act. 3. 15. Rhuf. 6. 17, 21. a 8. 2, 10, 11. Phil. 3. 21. Col. 2. 4. 1 Ioan 1. 1—3. a 5. 11, 12. Dat. 21. 6. a 22. 1, 17.

* Mae y rhan flaenaf o'r adnod "yn ysgrifenedig" yn Gen. 2. 7. † "Y dyn cyntaf" o holl ddynion y byd; "Adda," tad cyffredin, a phen cyfammodol holl ddynolryw. Gwel ar adn. 22. ‡ Pau anadlodd Duw yn ei ffroenau ef anadl einioes, efe a aeth, neu yn ol yr apostol yma, a wnaed yn enaid byw: gwedi llunio ei gorph o bridd, cynnysgaethwyd ef âg enaid byw, yr hwn a roddodd fywyd anianol iddo, yr hwn hefyd a roddir i pawb o'i had ef, ond heb y bywyd ysbrydol oedd yn gysylltiedig âg ef yn y dechreu; fel byth o gwymp Adda, mae pawb o'i had naturiol ef yn feirw mewn camweddau a phechodau. ‖ Crist yw yr Adda diweddaf hwn; ac a elwir yn *Adda*, am ei fod yn ben-cyfammodwr ei holl had ysbrydol, fel yr oedd yr Adda cyntaf i'w holl had naturiol: a gelwir ef yn Adda *diweddaf*, am iddo ymddangos yn y byd ar ol yr Adda cyntaf; neu am fod goruchwyliaeth ei gyfammod ef yn cael ei datguddio ar ôl i'r Adda cyntaf syrthio a thòri ei gyfammod. § Mae yr Adda diweddaf, nid yn unig yn enaid byw, ond hefyd yn ysbryd yn bywâu; mae ganddo fywyd ynddo ei hun, ac mae yn bywâu y neb y mỳno yn ysbrydol trwy ei air, ei Ysbryd, a'i ras yn y byd hwn; ac a rydd fywyd anfarwol byth i'w holl saint yn yr adgyfodiad mawr. Mae y geiriau *a wnaed* yn ysbryd yn bywâu, yn y Saesoneg, mae yr Adda diweddaf yn gystal a'r Adda cyntaf: mae yn awir ei *wneyd* ef felly, a'i ystyried fel Cyfryngwr; ond a'i ystyried ef fel Duw anfeidrol, nid addas dywedyd ei *wneyd* ef yn ysbryd yn bywâu; ac nid yw y geiriau *a wnaed* yn y Groeg, ond am yr Adda cyntaf.

46 * Eithr nid cyntaf yr ysbrydol, † ond [o] yr anianol; ‡ ac wedi hynny yr ysbrydol.

o Rhuf. 6. 6. Eph. 4. 22—24. Col. 3. 9, 10.

* Nid Crist, yr Adda ysbrydol, neu yr ysbryd yn bywâu, a ymddangosodd gyntaf yn y byd; † ond yr anianol, yr Adda cyntaf, yr hwn a wnaed yn enaid byw: ‡ ac wedi i hwnw syrthio yn andwyol, a'i holl had ynddo; yna wedi hyny yr ysbrydol, yr ail Adda, a ddaeth i'r byd yn ysbryd i fywâu. Felly hefyd y mae gyda'r saint, nid y corph ysbrydol maent yn gael gyntaf, ond y corph anianol, syrthiedig a marwol; ac wedi hyny, yn yr adgyfodiad, hwy a gânt gorph ysbrydol, ac anllygredig byth. Rhaid i ni wisgo y corph anianol, a gawsom gan yr Adda cyntaf, cyn y caffom wisgo y corph ysbrydol, yr hwn a gawn gan yr ail Adda: ond ni a gawn hwnw yn y diwedd, adn. 49.

47 * Y [p] dyn cyntaf o'r ddaear yn ddaearol; † yr ail dyn [q] yr Arglwydd o'r nef.

p adn. 45. Gen. 2. 7. a 3. 19. Ioan 3. 31. 2 Cor. 5. 1. q Es. 9. 6. Jer. 23. 6. Mat. 1. 23. Luc 1. 16, 17. a 2. 11. Ioan 3. 12, 13. 31. a 6. 33. Act. 10. 36. Eph. 4. 9—11. 1 Tim. 3. 16.

* Y dyn cyntaf. Adda, a luniwyd o bridd y ddaear, ac felly oedd yn ddaearol, o ran ei natur a'i ddechreuad; † ond yr ail ddyn, yr Arglwydd o'r nef ydyw, Arglwydd y gogoniant, JEHOFAH, Duw wedi ymddangos yn y cnawd. Yn yr adnod hon a'r ddwy adnod o'r blaen, sonir am Adda a Christ fel dau ben cyfammodawl, fel pe na buasai neb dynion wedi bod ond hwynt-hwy: oblegid yn y diwedd caiff holl ddynolryw eu hystyried megys yn y naill neu y llall o honynt: yr anghredinwyr megys yn un â'r Adda syrthiedig, ac ynddo ef; a'r holl gredinwyr megys yn Nghrist, ac yn un âg ef. Tybia rhai fod y geiriau, "y dyn cyntaf o'r *ddaear* yn *ddaearol*," yn dangos, gyda phethau eraill, mai ar y ddaear hon y buasai Adda a'i hiliogaeth yn derbyn gwobr ei ufuddod, mewn ystâd o ddedwyddwch anfarwol, pe buasai heb bechu; a bod y geiriau, "*yr Arglwydd o'r nef*," am Grist, yr un modd yn dangos, y cyfyd ef ei holl had ysbrydol i'r nef, i fod yn ddedwydd byth gydag ef yno: gan hyny, pwy bynag a ddyrchefir i ddedwyddwch nefol, trwy bendodaeth Crist yn unig, a'r cyfammod a wnaed âg ef, ac â hwythau ynddo ef, y bydd hyny.

48 * Fel *y mae* y daearol, [r] felly *y mae* y rhai daearol hefyd; [s] † ac fel y mae y nefol, felly *y mae* y rhai nefol hefyd.

r adn. 21, 22. Gen. 5. 3. Job 14. 4. Ioan 3. 6. Rhuf. 5. 12—21. s Phil. 3. 20, 21.

* Yr holl rai sydd o'r Adda cyntaf, y daearol, ydynt fel yntau yn y bywyd hwn, a chyrph daearol, anianol, afiach, marwol, a llygredig ganddynt; † ac o'r tu arall, yr holl rai sydd wedi eu geni o'r Ysbryd, ac oddi uchod, mewn undeb ysbrydol â'r ail Adda, a chwedi eu cynnysgaethu â thueddiadau ysbrydol i fwynâu pethau nefol, a gânt gyrph ysbrydol, nefol, ac anfarwol, gan eu Harglwydd nefol yn yr adgyfodiad, yn gyffelyb i'r corph gogoneddus sydd ganddo ef yn awr yn ei ystâd o dderchafiad a gogoneddiad yn y nef.

49 * Ac megis y dygasom ddelw y daearol, [t] † ni a ddygwn hefyd ddelw y nefol.

t Mat. 13. 43. Rhuf. 8. 29. 2 Cor. 3. 18. a 4. 10, 11. 1 Ioan 3. 2.

* Yr oedd yr apostol a'r holl gredinwyr wrth natur, wedi dwyn delw wael yr Adda cyntaf, y daearol, nid yn unig mewn ystyr foesol ar eu heneidiau; ond hefyd mewn cyrph daearol, anianol, afiach, a marwol, y rhai a gawsent oddi wrtho ef eu gwreiddyn cyffredinol a'u pen cyfammodol. † Ond yr oeddynt yn sicr trwy addewid Duw, y câent o'r diwedd ddwyn delw y nefol, yr ail Adda, yr Arglwydd o'r nef; nid yn unig ar eu heneidiau, ond yn ac ar eu cyrph hefyd; y rhai a gyfodir mewn ymddangosiad ac ansawdd gwahanol iawn i'r hyn oeddynt ar y ddaear: byddant yn debyg i gorph Crist, mewn purdeb, gogoniant, ac anfarwoldeb byth.

50 * Eithr [u] hyn meddaf, *O* frodyr, [x] na ddichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw; † ac nad yw llygredigaeth yn etifeddu anllygredigaeth.

u pen. 1. 12. a 7. 29. 2 Cor. 9. 6. Gal. 3. 17. a 5. 16. Eph. 4. 17. Col. 2. 4. x pen. 6. 13. Mat. 16. 17. Ioan 3. 3—6. 2 Cor. 5. 1.

* Nid pechod a feddylir yma wrth gig a gwaed, neu natur ddi-adgenedledig, fel y tybia rhai; eithr y corph yn ei ansawdd anianol a llygredig yn y byd hwn. Mae yn rhaid i gig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw, pe amgen ni ogoneddid ein cyrph; ond mae yn rhaid eu cyfnewid, a'u gwneyd yn gyrph ysbrydol cyn y caffont nac y gallont etifeddu teyrnas Dduw. † Mae yn anmhosibl i gorph dyn, yn ei ansawdd wael a llygredig presenol, heb ei gyfnewid a'i buro, allu dàl dedwyddwch a gogoniant y nefoedd, na sefyll yn wyneb mawredd a gogoniant Duw, pan gaffer ei weled ef yn ddilèn, megys ag y mae, ac edrych arno wyneb yn wyneb. Mae diwedd yr adnod yn dangos paham nas dichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw; sef am nas gall llygredigaeth etifeddu anllygredigaeth.

51 * Wele, [y] yr wyf yn dywedyd i chwi ddirgelwch: [z] † Ni hunwn ni oll, ‡ eithr ni a [a] newidir oll mewn [b] moment, ar darawiad llygad, wrth yr [c] udgorn diweddaf.

y pen. 2. 7. a 4. 1. a 13. 2. Eph. 1. 9. a 3. 3. a 5. 32. z adn. 6, 18, 20. 1 Thes. 4. 14—17. a Phil. 3. 21. b Ex. 33. 5. Num. 16. 21, 45. Salm 73. 19. c Ex. 19. 16. a 20. 18. Num. 10. 4. Es. 18. 3. a 27. 13. Ezec. 33. 3, 6. Zec. 9. 14. Dat. 8. 2, 13. a 9. 15, 14.

* Ac am y cyfnewidiad uchod a fydd yn angenrheidiol ar gyrph y saint, mae yr apostol yma yn myned i ddywedyd dirgelwch i'r Corinthiaid: dirgelwch na buasai neb byth yn gwybod am dano heb gael datguddiad digyfrwng o hóno; a dirgelwch nas gall neb ei wybod eto ond trwy ffydd yn y datguddiad hwnw: ïe, dirgelwch nas gall neb ei amgyffred yn gyflawn, hyd oni ddatguddier ef yn y weithred yn y dydd diweddaf. † Un peth yn y dirgelwch hwn yw, "na hunwn ni oll;" ni bydd yr holl gredinwyr farw, a'u cyrph i ddychwelyd i'r bedd a llygredigaeth; bydd llawer o honynt yn fyw ar y ddaear, pan y daw Mab Duw ar y cwmwl, ac ni bydd y rhai hyny farw o gwbl. ‡ A pheth arall yn y dirgelwch uchod yw, y newidir y rhai hyny oll, yn ogoneddus annhraethadwy, ac mewn moment, ar darawiad llygad, wrth yr udgorn diweddaf. Bydd yr un fath gyfnewidiad rhyfedd yn cael ei wneyd ar gyrph y byw a'r meirw, a hyny ar yr un moment, fel na byddant mwyach yn gyrph anianol, llygredig, a marwol; ond yn gyrph ysbrydol, anllygredig, ac anfarwol byth.

52 [d] * Canys yr udgorn a gân, [e] † a'r meirw a gyfodir yn anllygredig, ‡ a ninnau a newidir.

d Mat. 24. 31. Ioan 5. 25. 1 Thes. 4. 16. e Gwel ar adn. 42, 50.

* Mae yn debyg y rhoddir bloedd fawr, cryfach na miloedd o udgyrn, a thebyg i'r udgorn ar Sinai gynt, uwch ben y byd y pryd hwnw; nes deffrôi yr holl brynedigion a gysgant yn llwch y ddaear, a'u hadgyfodi i gyfarfod â'r Arglwydd yn yr awyr. "Oblegid yr Arglwydd ei hun a ddisgyn o'r nef gyda bloedd, â llef yr arch-angel, ac âg udgorn Duw:" felly y dywed yr apostol yn 1 Thes. 4. 16, a thyna'r cwbl a allwn ni wybod yn bresenol am y "dirgelwch" hwn. † Yn y moment, ar darawiad llygad, gyda chânia yr udgorn; gwelir holl waredigion Iesu, y rhai a fuasent feirw o ddechreu hyd ddiwedd y byd, yn fyw, wedi codi, ac yn berffaith anllygredig eu cyrph: ‡ ac ar yr un moment hefyd, bydd y rhai byw yr amser hwnw, wedi eu newid i'r un agwedd anllygredig a gogoneddus: yr un fydd y corph ag o'r blaen; ond nid yr un fydd ei ansawdd, nac yr olwg arno. "A *ninnau* a newidir:" yr apostol yn ei roddi ei hun a'i frodyr y Corinthiaid yn nghorph yr eglwys, ond nid gan feddwl y byddai efe na hwythau o rif y saint *byw* yn y dydd diweddaf.

53 * O herwydd rhaid i'r llygradwy hwn [f] † wisgo anllygredigaeth, ‡ ac i'r marwol hwn || wisgo anfarwoldeb.

f Rhuf. 13. 12—14. 2 Cor. 5. 2—4. Gal. 3. 27. Eph. 4. 24.

Dyma fydd y cyfnewidiad ar y byw a'r meirw, y pryd hwnw; yn lle llygredigaeth, anllygredigaeth; ac yn lle marwoldeb, anfarwoldeb. * Llygradwy yw y corph yn awr ar y goreu, a llygru y mae yn angau ac yn y bedd; † ond yn yr adgyfodiad, efe a wisgir âg anllygredigaeth tragywyddol: ymadrodd cyffelyb i arwisgo â'r tŷ sydd o'r nef, 2 Cor. 5. 2. ‡ Marwol yw y corph yn awr ar y goreu, a marw a fydd yn fuan iawn; || ond yn yr adgyfodiad, efe a wisgir âg anfarwoldeb pur a diddiwedd: ni bydd mwyach byth yn ddarostyngedig i afiechyd na marwolaeth. Y corph *hwn* mae yr apostol yn ddywedyd, ac nid rhyw gorph *arall:* y corph sydd gan bob un yma, fydd ganddo yno a byth.

54 * A phan ddarffo i'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth, ac [g] i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb, † yna y bydd yr ymadrodd a ysgrifenwyd, [h] ‡ Angau a lyngcwyd mewn buddugoliaeth.

g Rhuf. 2. 7. a 6. 12. a 8. 11. 2 Cor. 4. 11. 2 Tim. 1. 10. h Es. 25. 8. Luc 20. 36. Heb. 2. 14, 15. Dat. 20. 14. a 21. 4.

* Gwedi i'r cyfnewidiad gogoneddus uchod gael ei wneyd yn berffaith ar yr holl waredigion, † yna y llwyr gyflawnir yr ymadrodd a ysgrifenwyd yn Es. 25. 8, a Hos. 13. 14. ‡ Angau a lyncwyd mewn buddugoliaeth gyflawn: bu ef yn buddugoliaethu ac yn teyrnasu hyd yn awr ar y credinwyr yn gystal ag eraill; darostyngodd hwynt i'w ergydion, a chadwodd eu cyrph yn garcharorion drwy holl oesoedd y byd; ond yn yr adgyfodiad, dinystrir, a diddymir y gelyn diweddaf hwn, ac ni bydd mwy o'i ôl mwyach ar y saint, na phe buasai heb fod erioed yn teyrnasu arnynt.

55 [i] * O angau, pa le *mae* dy [k] golyn? † O uffern, pa le [l] *mae* dy fuddugoliaeth?

i Hos. 13. 14. k Act. 9. 5. Dat. 9. 10. l Job 18. 13, 14. Salm 49. 8—15. a 89. 48. Preg. 2. 15, 16. a 3. 19. a 8. 8. a 9. 5, 6. Rhuf. 5. 14.

Gyda'r fath ragweliad hyfryd o adgyfodiad a chyfnewidiad gogoneddus o flaen ei feddwl, mae yr apostol yn tòri allan yn orfoleddus, i ymddiddan âg angau a'r bedd, fel pe byddent bersonau gwirioneddol: * O angau, pa le yn awr mae dy golyn digasog di? Pa niwed gwirioneddol a ellaist ti wneyd erioed i saint Duw? A pha niwed a elli di byth mwyach wneyd i neb o honom? Yr ydym ni yn dirmygu dy holl saethau gwenwynig. † O uffern, y bedd, neu y *'stâd anweledig,* pa beth yn awr a ddaeth o dy holl fuddugoliaethau di arnom, y rhai oeddit yn arfer eu hennill gyda nerth anwrthwynebol, a chan ofn y rhai yr oeddym yn cael ein cadw mewn caethiwed yn aml ar y ddaear? (Heb. 2. 15.) Pa beth yn awr a ddaeth o'th holl ysglyfaeth, yr hon a wnaethost o honom ni, ond yn awr wyt yn gorfod ei rhoddi i fynu i ystâd o berffaith ryddid, heb feiddio o honot gyfhwrdd â ni byth mwyach?

56 [m] * Colyn angau *yw* pechod, [n] † a grym pechod *yw* y gyfraith.

m Gen. 3. 17—19. Salm 90. 3—11. Diar. 14. 32. Ioan 8. 21, 24. Rhuf. 5. 15, 17. a 6. 23. Heb. 9. 27. n Rhuf. 3. 19, 20. a 4. 15. a 5. 13, 20. a 7. 5—13. Gal. 3. 10—13.

* Y peth gwaethaf, a mwyaf dinystriol yn angau yw euogrwydd pechod; yr hyn, heb ei symmud, sydd nid yn unig yn peri ysgar corph ac enaid, ond sydd hefyd yn ysgar pob un o'r ddau oddi wrth Dduw; nid yn unig dros amser, ond am byth bythoedd. *Hyn* yw y peth sydd yn llenwi angau â'i holl ddychryniadau; ac, fel colyn sarph, yn ei wneyd mòr ofnadwy a niweidiol ag ydyw: heb *hyn,* ni byddai marw ond o ychydig ganlyniad, wrth ystyried pa mòr dlawd, gwâg, a thrallodus, yw y byd yr ydym yn byw ynddo. † A'r hyn sydd yn rhoddi y fath rym ofnadwy i bechod, trwy yr hyn mae nid yn unig yn lladd y corph, ond hefyd yn ein trosglwyddo i farn i ddyfod, ac i'r holl boenau tragywyddol wedi hyny, yw cyfraith gyflawn a sanctaidd Duw, wedi ei harfogi â'i melltithion, y rhai ydynt yn dedfrydu pechaduriaid i farwolaeth dragywyddol a dinystr diddiwedd, fel cyflog haeddiannol pechod. Yn wyneb y ddeddf mae pechod yn ymddangos yn dra phechadurus, a'i gosp yn ofnadwy a thruenus.

57 * Ond [o] i Dduw *y byddo* y diolch, yr hwn sydd yn [p] rhoddi i ni fuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist.

o Act. 27. 35. Rhuf. 7. 25. 2 Cor. 1. 11. a 2. 14. a 9. 15. Eph. 5. 20. p adn. 51. 2 Bren. 5. 1. 1 Cron. 22. 11. Salm 98. 1. Diar. 21. 31. Ioan 16. 33. Rhuf. 8. 37. 1 Ioan 5. 4, 5. Dat. 12. 11. a 15. 2, 3.

* Mae y fuddugoliaeth ar bechod, angau, a'r bedd, yn dyfod i'r saint trwy farwolaeth ac adgyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist; yr hwn trwy ei angau a'n gwaredodd ni oddi wrth euogrwydd ac arglwyddiaeth pechod, ac yr hwn trwy farwolaeth a ddinystriodd yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, hyny yw diafol. I Dduw byddo'r diolch byth bythoedd am y fuddugoliaeth fawr hon, a dyweded holl waredigion yr Arglwydd yn unfryd, Amen!

58 [q] * Am hynny, fy mrodyr anwyl, [r] byddwch sicr, a dïymmod, † *a* [s] helaethion [t] y'ngwaith yr Arglwydd yn wastadol; ‡ a [u] chwi yn gwybod nad yw eich llafur chwi yn [x] ofer yn yr [y] Arglwydd.

q 2 Cor. 7. 1. 2 Pedr 1, 4—9. r Ruth 1. 18. Salm 55. 22.

a 78. 8, 37. a 112. 6. Col. 1. 23. a 2. 5. 1 Thes. 3. 3. Heb. 3. 14. 2 Pedr 3. 17, 18. s Phil. 1. 9. a 4. 17. Col. 2. 7. 1 Thes. 3. 12. a 4. 1. 2 Thes. 1. 3. t pen. 16. 10. Ioan 6. 28, 29. Phil. 2. 30. 1 Thes. 1. 3. Tit. 2. 14. Heb. 13. 21. u pen. 3. 8. 2 Cron. 15. 7. Salm 19. 11. Gal. 6. 9. Heb. 6. 10. x Salm 73. 13. Gal. 4. 11. Phil. 2. 16. 1 Thes. 3. 5. y Mat. 10. 40—42. a 25. 31—40. Phil. 1. 11. Heb. 13. 15, 16.

* Gan fod adgyfodiad y saint yn sicr, ac felly buddugoliaeth ar angau, y bedd, a phob gelyn yn sicr; am hyny mae yr apostol yn cyngori y Corinthiaid fel ei ffrodyr anwyl, i fod yn sicr, a diymmod, neu safadwy, a ffidianwadal, yn eu crediniaeth o'r athrawiaeth a'r gwirionedd gwerthfawr hyny: bod yn sicr a diymmod yn ffwyneb hudoliaeth gau-athrawon, yn wyneb erlidiau, ac yn wyneb ymosodiadau Satan a llygredigaethau eu galonau twyllodrus eu hunain. † Ar yr un pryd, ac oddi ar yr un athrawiaeth gysurus, mae yn eu cyngori chefyd i fod yn helaethion yn wastadol yn mhob rhan o gwaith yr Arglwydd; sef pob peth gorchymynedig gan yr Arglwydd, ac a fyddo er gogoniant i'r Arglwydd, gwasanaeth i'w achos, a lles ei bobl. ‡ Yn olaf, mae yn adgofio iddynt, ac yn cadarnâu eu crediniaeth, na byddai eu llafur yn ngwaith yr Arglwydd yn ofer; na byddai yn ddi-lwyddiant nac yn ddi-fendith yma, ac na byddai yn ddi-wobrwy iddynt hwy eu hunain yn nydd yr adgyfodiad mawr: pa beth bynag a ddyoddefent yma, byddent sicr o gael eu gwobrwyo yn llawn yn y diwedd.

PEN. XVI.

W mae yn eu hannog i borthi angen y brodyr yn Jerusalem.

* HEFYD [a] am y gasgl i'r [b] saint; † megis yr ordeiniais i [c] eglwysi Galatia, felly gwnewch chwithau.

a Act. 11. 28—30. a 24. 17. Rhuf. 15. 25, 26. 2 Cor. 8. a 9. Gal. 2. 10. b Act. 9. 41. Rhuf. 12. 13. 2 Cor. 9. 12—15. Philemon 5—7. Heb. 6. 10. 1 Ioan 3. 17. c Act. 16. 6. a 18. 23. Gal. 1. 2.

* Mae yn bur debyg y gwyddai y Corinthiaid fod yr apostol yn bwriadu gwneyd casgliadau yn eglwysi y cenedloedd i'r saint tlodion yn Judea, y rhai oedd tua'r amser hwnw mewn iseldder mawr o herwydd newyn ac erlidiau: a chan fod cristionogion Corinth yn gyfoethocach na'r rhan fwyaf o'r eglwysi eraill, nid yw yr apostol yn ammau dim am eu parodrwydd haelionus i'r gwaith da hwnw; † ond yr oedd yn barnu yn addas rhoddi cyfarwyddyd iddynt pa fodd i'w wneyd, sef yr un cyfarwyddyd ag a roddasai i eglwysi Galatia ychydig cyn hyny.

2 [d] * *Y dydd* cyntaf o'r wythnos, † pob un o honoch rhodded heibio yn ei ymyl, gan ffrysori, [e] ‡ fel y llwyddodd *Duw* ef, [f] ‖ fel na byddo casgl pan ddelwyf fi.

d Luc 24. 1. Ioan 20. 19, 26. Act. 20. 7. Dat. 1. 10. e Gen. 26. 12. a 30. 27, 30. a 32. 10. a 33. 11. Deut. 8. 18. a 15. 11—14. 2 Cron. 31. 10. Hag. 2. 16—19. Mal. 3. 9, 10. Marc 12. 41—44. a 14. 8. Luc 16. 10. 2 Cor. 8. 1—3, 12—15. f 2 Cor. 8. 11. a 9. 4—5.

* Y dydd cyntaf o'r wythnos yn ol rhaniad dechreuol amser, y dydd cyntaf o'r wythnos Iuddewig, dydd adgyfodiad Crist o'r bedd, a'r dydd sabbath cristionogol, yn goffadwriaeth o hyny. † Ar y dydd sabbath, yr oedd pob un i roddi heibio yn ei ymyl, ryw gyfran at achos y saint tlodion, ‡ yn ol fel y llwyddasai Duw ef yn ei gwaith a'i fasnach fydol yr wythnos o'r blaen: ‖ byddai yn well, ac yn rhwyddach i bawb, na gwneyd rhyw un porchest fawr i gasglu pan ddeuai yr apostol; byddai pob peth yn barod heb achos oedi na cholli amser.

3 [g] * A phan ddelwyf, [h] pa rai bynnag a ddangoswch eu bod yn gymmeradwy trwy lythyrau, y rhai hynny a ddanfonaf i ddwyn eich rhodd i Jerusalem.

g pen. 4. 19—21. a 11. 34. h Act. 6. 1—6. 2 Cor. 8. 19—24.

* Pa rai bynag a ddangosoch trwy lythyrau eu bod yn gymmeradwy, pan ddelwyf, mi a ddanfonaf y rhai hyny i ddwyn eich rhodd i Jerusalem: Neu fel hyn; (a rhoi y rhag-wahan-nod ar ol *cymmeradwy*,) pan ddelwyf, pa rai bynag a ddangosoch eu bod yn gymmeradwy, mi a ddanfonaf y rhai hyny i ddwyn eich rhodd i Jerusalem, trwy, neu gyda llythyrau, oddi wrthyf fy hun at yr apostolion a'r saint yno. Efallai y gallwn gymmeryd y ddau olygiad, llythyrau y Corinthiaid at Paul, a llythyrau Paul i Jerusalem, i ddangos cymmeradwyaeth y dygiedyddion hyn.

4 [i] * Ac os bydd y peth yn haeddu i minnau hefyd fyned, † hwy a gânt fyned gyd â mi.

i Rhuf. 15. 25. 2 Cor. 8. 4, 19.

* Os bydd y casgliad yn haelionus, yn fawr, ac felly yn haeddu i minnau hefyd fyned, mi a âf: neu os bernir yn angenrheidiol ac yn addas i minnau hefyd fyned, mi a âf, † a hwy a gânt fyned gyda mi, i weled na byddaf fi yn gwneyd dim twyll, anonestrwydd, na cham-ddefnydd o'r trysor a ymddirieder i mi.

5 * Eithr mi a ddeuaf attoch, [k] gwedi yr elwyf trwy Macedonia († canys trwy Macedonia yr wyf yn myned)

k Act. 19. 21. a 20. 1—3. 2 Cor. 1. 15—17.

* Fel pe dywedasai yr apostol, Pa fodd bynag y penderfynir eto am y mater uchod, yr wyf yn llawn fwriadu ymweled â chwi ar ol i mi fyned trwy Macedonia; † oblegid fy mwriad presenol yw, rhoddi taith trwy y dalaeth hòno o dir Groeg, cyn gynted ag y gorphenwyf y gwaith y'm galwyd iddo yn Ephesus, adn. 8. Felly yr oedd bwriad yr apostol y pryd hwn, ond nis gwyddis yn sicr pa un a allodd efe gyflawni ei fwriad hwn ai peidio.

6 * Ac nid hwyrach yr arhosaf gyd â chwi neu [l] y gauafaf hefyd, [m] † fel y'm hebryngoch i ba le bynnag yr elwyf.

l Act. 27. 12. a 28. 11. Tit. 3. 12. m Act. 15. 3. a 17. 15. a 20. 38. a 21. 5. Rhuf. 15. 24. 3 Ioan 6, 7.

* Os cyfarwyddai yr Arglwydd ei daith ef yn ol ei amcan presenol, yr oedd yn bwriadu aros, ac efallai gauafu, yn Corinth, wedi dyfod yno: yr oedd yno lawer o bethau allan o drefn, ac angenrheidrwydd iddo aros am hir amser gyda hwynt, i'w gosod mewn gwell trefn; ac er amled a chryfed y gwrthwynebwyr pleidiol oedd iddo yn Corinth, nid oedd yn meddwl cilio rhagddynt, ond dyfod yn wrol atynt, un ai â gwialen, neu mewn cariad, ac ysbryd addfwynder, fel y mynent ac yr haeddent hwy, pen. 4. 21. † Ar ei ymadawiad, dysgwyliai gael ei hebrwng gan rai o'r brodyr i ba le bynag yr elai oddi yna, er dangos eu parch a'u cariad ato fel brawd, ac apostol Iesu Grist.

7 * Canys nid oes i'm bryd eich gweled yn awr ar fy hynt; † ond yr wyf yn gobeithio yr arhosaf ennyd gyd â chwi, [n] ‡ os cenhada yr Arglwydd.

n pen. 4. 19. Diar. 19. 21. Jer. 10. 23. Act. 18. 21. Rhuf. 1. 10. Iago 4. 15.

* Nid oedd yr apostol yn bwriadu ymweled â hwy y pryd hwnw, ar ei hynt i Macedonia, am nas gallai fel hyny aros gyda hwy cyhyd ag yr ewyllysiai, yn unol â'i ddyledswydd i'r eglwysi mewn parthau eraill: † ond yr oedd yn gobeithio cael hamdden i aros cryn ennyd gyda hwy pan ddelai, i iawn drefnu pethau yn eu plith. ‡ Yr oedd yn gadael y cwbl i ganiatâd ac ewyllys Duw, yr hwn yn unig a fedr ganiatâu neu luddias, llwyddo neu aflwyddo, holl amcanion a bwriadau dynion.

8 * Eithr mi a arhosaf [o] yn Ephesus † hyd y [p] Sulgwyn.

o pen. 15. 32. p Ex. 23. 16. Lef. 23. 15—21. Act. 2. 1.

* Wrth yr adnod hon, yn nghyd a'r cyfarchiadau oddi wrth eglwysi Asia, adn. 19, mae yn bur amlwg mai yn Ephesus yr oedd Paul pan oedd yn ysgrifenu yr episto hwn, ac nid yn Philippi fel y dywedir yn yr ol-ysgrifen.

ar ddiwedd yr epistol. Dinas yn Macedonia, yn Europe, oedd Philippi; a gellir meddwl wrth adn. 5, fod yr apostol heb gychwyn eto i fyned trwy Macedonia. Mae yn ddigon tebyg fod cyfeiliornad arall yn yr olysgrifen hefyd; sef mai gyda Timothëus yn un y danfonwyd yr epistol hwn: yn pen. 4. 17, ni a welwn fod Paul *wedi* anfon Timothëus i Corinth pan oedd yn ysgrifenu, ac yn adn. 10 o'r bennod hon, mae yn llefaru yn ammheüus am ei ddyfodiad ef; a rhwng y ddau beth, nid yw yn debyg iawn mai efe oedd dygiedydd yr epistol hwn. † Sef hyd yr amser i fyned i Jerusalem erbyn y Sulgwyn, nid i gadw yr ŵyl hòno yn y dull Iuddewig mwyach, nid oedd hyny yn rhwymedig ar y cristionogion; ond er achub y cyfle i weled llawer o'i gyd-genedl, ac o broselytiaid yn nghyd, i lefaru wrthynt, ac i fynegi iddynt y pethau rhyfedd a wnaethai yr Arglwydd drwyddo ef yn mhlith y cenedloedd. Cyfrifai yr Iuddewon eu hamser wrth eu gŵyliau, ac felly y gwnai y cristionogion hefyd am ryw hyd.

9 * Canys [q] agorwyd i mi ddrws [r] mawr a grymmus, [s] † ac *y mae* gwrthwynebwyr lawer.

q Act. 19. 8, &c. r Act. 14. 27. 2 Cor. 2. 12. Col. 4. 3. Dat. 3. 7, 8. s pen. 15. 32. Act. 19. 9, 10. 2 Cor. 1. 8—10.

* Yr oedd yr Arglwydd wedi agoryd maes helaeth o flaen yr apostol yn Ephesus a'i hamgylchoedd, i bregethu yr efengyl, ac yr oedd gair Duw yn rhedeg yn rymus ac yn effeithiol dàn arddelwad yr Ysbryd Glàn, er tröedigaeth a dychweliad llawer o bechaduriaid: hyn, mae yn debyg, oedd yn peri iddo ef chwennychu aros yno hyd y Sulgwyn. † Nis gallai Satan a'i offerynau edrych yn llonydd, ar y gwaith mawr a grymus hwn yn myned yn mlaen, heb gynhyrfu a cheisio ei wrthwynebu a'i holl egni. Yr oedd hyn hefyd yn achos i'r apostol aros yno hyd y gallai, i wneuthur safiad teg a chadarn yn erbyn gelynion grymus y gwirionedd, ac nid gadael yr achos yn ei wendid a'i fabandod: peth a fuasai yn achos i lawer un gilio a ffoi, oedd yn achos i'r milwr dewr hwn i sefyll yn wrol ar y maes, yn mhoethaf ddydd y frwydr. "Agorwyd i mi ddrws mawr;" tybir fod yma gyfeiriad at agoryd drysau yr adeiladau hyny o ba le y byddai meirch a cherbydau yn dyfod allan i redeg mewn gyrfêydd gynt; yr apostol yn rhedeg ei yrfa ef gyda'r efengyl, a'r gelynion yn rhedeg eu gyrfa hwythau i'w wrthwynebu ef: dywedir fod y gair *antikeimenoi*, "gwrthwynebwyr," yn tueddu yn fawr o blaid y syniad uchod.

10 [t] * Ac os Timothëus a ddaw, edrychwch ar ei fod [u] yn ddïofn gyd â chwi: [x] ‡ canys gwaith yr Arglwydd y mae yn ei weithio, fel finnau.

t pen. 4. 17. Act. 19. 22. u adn. 11. 1 Tim. 4. 12. x pen. 15. 58. Rhuf. 16. 21. 2 Cor. 6. 1. Phil. 2. 19—22. 1 Thes. 3. 2.

* Sylwyd o'r blaen, pen. 4. 17, fod Paul wedi anfon Timothëus i Corinth: o herwydd ei deithiau trwy Macedonia, (Act. 19. 22,) nis gwyddai yr apostol yn sicr, pa un a allai efe gyrhaedd yno neu beidio: † ond os deuai, mae yn eu rhybuddio hwynt i edrych ar ei fod yn ddïofn yn eu plith pan ddelai. Dyn ieuanc o oed, duwiol, a gwylaidd iawn ei dymherau oedd Timothëus; a hawdd oedd ei fygylu ef yn y fath le â Chorinth, lle yr oedd llawer o ddynion chwyddedig, hunanol, a phleidgar; yn enwedig lle yr oedd cynnifer o athrawon uchelfeddwl, y rhai os oeddynt yn ddigon cryfion i ddirmygu Paul ei hun, pa faint mwy y dirmygent Timothëus ieuanc oedd wedi ei ddanfon yno gan Paul. Mae yr apostol yn erchi iddynt ymddwyn yn garedig ac yn barchus tuag ato ef, a'i bleidio yn hytrach na'i ddigaloni, yn ei geryddon oedd ganddo i'w rhoddi i'r rhai afrëolus yn eu plith hwynt. Mewn dwy ffordd y gall eglwysi golli eu lle, ac y collasant eu lle cyn hyn, tuag at bregethwyr ieuainc:—eu codi i fynu yn ormodol, ac yn rhŷ fuan, ar y naill law; neu eu tarfu, eu digaloni, a'u dychrynu, ar y llaw arall: ymgadwed crefyddwyr ein gwlad ni rhag cyfeiliorni ar y ddwy ochr a enwyd. ‡ Er nad oedd Timothëus yn apostol fel Paul, eto yr oedd yn weinidog yr efengyl, ac yn llafurio yn ngwaith yr Arglwydd fel yntau, ac am hyny yn deïlwng o gael ei gefnogi a'i barchu, ac nid ei ddychrynu gan ddynion hunanol, cryfion, cnawdol, ddïofn Duw, a dibarch i weision Duw.

11 [y] * Am hynny na ddïystyred neb ef; [z] † ond hebryngwch ef mewn heddwch, fel y delo attaf fi: ‡ canys yr wyf fi yn ei ddisgwyl ef gyd â'r brodyr.

y adn. 10. Luc 10. 16. 1 Thes. 4. 8. 1 Tim. 4. 12. Tit. 2. 15. z adn. 6. Act. 15. 33.

* Gan mai gwaith yr Arglwydd mae efe yn ei weithio fel finnau, gan hyny nac edrychED neb yn isel arno ef, nac ymddyged neb yn anmharchus tuag ato, ac na ddïystyred neb ef, na'r hyn a ddywedo drwy awdurdod yr Arglwydd Iesu, o herwydd ei ieuenctid, (1 Tim. 4. 12.) nac unrhyw ddiffyg hyfdra, neu ddawn ymadroddus, a dybier ynddo. † Ond i'r gwrthwyneb, ymddyged pawb yn heddychol, yn frawdol, yn gariadus ac yn barchus tuag ato tra yr arhoso yn eich plith; a phan ymadawo, hebrynger ef yn barchus, yn ol arfer eglwysi y saint, fel y delo yn ddiberygl ac yn ddïogel ataf fi; ‡ canys mae arnaf angen ei gymmorth ef yn y gwaith mawr yma, ac yr wyf yn ei ddysgwyl ef gyda'r brodyr eraill sydd i ddyfod gydag ef yma: Neu, yr wyf fi a'r brodyr yn ei ddysgwyl ef, medd rhai; lled amwys yw y geiriau gwreiddiol, meddant. Tybir i Timothëus ddyfod i Ephesus cyn i Paul fyned oddi yno, ac iddo aros yno ar ol i Paul fyned ymaith, ar ei ddeisyfiad ef. Gwel 1 Tim. 1. 3.

12 * Ac am [a] y brawd Apòlos, mi a ymbiliais lawer âg ef am ddyfod attoch chwi gyd â'r brodyr: † eithr er dim nid oedd ei ewyllys ef i ddyfod yr awrhon; ‡ ond efe a ddaw [b] pan gaffo amser cyfaddas.

a pen. 1. 12. a 3. 5, 22. Act. 18. 24—28. a 19. 1. Tit. 3. 13. b Preg. 3. 1. Marc 6. 21. Act. 24. 25.

* Gan fod llawer yn Corinth yn hoff iawn o Apòlos, dymunai Paul yn fawr arno fyned yno, un ai rywbryd o'r blaen, neu gyda dygiedyddion y llythyr hwn: tybiai y buasai presenoldeb ac ymdrechiadau gweinidog mòr enwog a chymmeradwy âg Apòlos, yn foddion i heddychu pleidiau, a distewi dadleuon yn yr eglwys hòno. † Ond ni fynai Apòlos fyned mewn un modd y pryd hwnw; efallai ei fod yn ofni mai chwanegu pleidgarwch ac ymryson a wnai ei bresenoldeb ef yno; neu fod ganddo lawn waith yn rhyw le arall mwy angenrheidiol; neu ei fod drwy hyn yn dangos ei anfoddlonrwydd i'w pleidgarwch hwy, er bod yno blaid gref iddo ef ei hun. Tybia rhai mai o herwydd eu pleidiau a'u hymryson y gadawsai efe hwy. ‡ Pa fodd bynag, nid oedd efe yn anfoddlawn i ymweled â hwy pan gaffai amser cyfaddas; mwy o hamdden gan lafur mewn mànau eraill, a hwythau mewn gwell ysbryd a thymher i'w dderbyn ef. Mynai Paul ei anfon ef, er y gwyddai fod plaid Apòlos yn ei erbyn ef; ac ni fynai Apòlos fyned, rhag ofn chwanegu y blaid hòno. Ysbryd rhagorol o frawdol, hunan-ymwadol, a charedig, oedd yn y ddau ŵr duwiol ac enwog hyn.

13 [c] * Gwyliwch, [d] † sefwch yn y ffydd, [e] ‡ ymwrolwch, [f] ‖ ymgryfhewch.

c Mat. 24. 42—44. a 25. 13. a 26. 41. Marc 13. 33—37. a 14. 37, 38. Luc 12. 35—40. a 21. 36. Eph. 6. 18. Col. 4. 2. 1 Thes. 5. 6. 2 Tim. 4. 5. 1 Pedr 4. 7. a 5. 8. Dat. 3. 2, 3. a 16. 15. d pen. 15. 1, 2, 58. 2 Cor. 1. 24. Gal. 5. 1. Phil. 1. 27. a 4. 1. Col. 1. 23. a 4. 12. 1 Thes. 3. 8. 2 Thes. 2. 15. e pen. 9. 25—27. 1 Sam. 4. 9. 2 Sam. 10. 12. 1 Cron. 19. 13. Eph. 6. 13—17. 1 Tim. 6. 12. 2 Tim. 2. 3—5. a 4. 7. Heb. 11. 32—34. f Jos. 1. 6, 7, 9, 18. 1 Bren. 2. 2. 1 Cron. 28. 10. Salm 27. 14. Es. 35. 4. Dan. 10. 19. a 11. 32. Hag. 2. 4. Zec. 8. 9, 13. 2 Cor. 12. 9, 10. Eph. 6. 10. Phil. 4. 13. Col. 1. 11, 12. 2 Tim. 2. 1.

* Cyn gorphen ei epistol, mae yr apostol yn cyngori ei frodyr a'i anwyl blant yn Corinth, yn hytrach nac ymchwyddo ar eu doniau a'u breintiau, i wylied yn ofalus rhag temtasiynau, a gochelyd maglau Satan a i offerynau. † Mae yn eu cyngori i sefyll yn gadaru yn

7 gwirionedd, o herwydd eu bod mewn perygl mawr o
gael eu hudo gan gyfeiliornwyr a gau-athrawon, ac
eisoes wedi dechreu anwadalu. ‡ Mae yn eu hannog i
od yn wrol ac yn gall, fel y gweddai i ddynion mewn
orwydr â'u gelynion; a pheidio a bod fel plantos, yn
ymryson â'u gilydd, ac yn eiddigeddu yn erbyn y naill
lr llall. ‖ Mae yn eu cyngori i ymgryfâu yn y gras sydd
yn Nghrist Iesu, at eu gwaith a'u brwydr ysbrydol, ac
nid difyru eu hunain â phethau ofer, chwilfrydaidd, a
Hiles i'w heneidiau.

14 g * Gwneler eich holl bethau chwi mewn
cariad.

g pen. 8. 1. a 12. 31. a 13. a 14. 1. Ioan 13. 34, 35. a 15. 17. 1 Rhuf. 13. 8—10. a 14. 15. Gal. 5. 13, 14, 22. Eph. 4. t—3. Phil. 2. 1—3. 1 Thes. 3. 6, 12. a 4. 9, 10. 2 Thes. 1, 3. 1 Tim. 1. 5. Heb. 13. 1. 1 Pedr 4. 8. 2 Pedr 1. 7. 1 Ioan 4. 7, 8.

* Ac uwchlaw pob peth, mae yn eu cyngori i wneyd
eu holl bethau mewn cariad, ac yn ol deddfau a rhëolau
cariad: pob peth o blaid y ffydd, gydag achos yr Ar-
glwydd, mewn addoliad a dysgyblaeth, ac yn mhob ym-
arweddiad a chyfeillachau cyffredin; gwneler pob peth
mewn cariad diffuant. Nid pawb yn wrol ac yn gryf
(adn. 13.) yn ei ffordd ei hun, ac am ei fympwy ei hun;
ond pawb yn unfryd mewn cariad, fel byddin yn wyneb
y gelyn cyffredin.

15 * Ond yr ydwyf yn attolwg i chwi,
ffrodyr (chwi a adwaenoch h dŷ Stephanas,
† mai i blaen-ffrwyth Achaia ydyw, ‡ ac iddynt
ymosod k i weinidogaeth y saint)

h adn. 17. pen. 1. 16. i Rhuf. 16. 5. Dat. 14. 4. k Act. 19. 36—41. Rhuf. 12. 13. a 15. 25. a 16. 2. 2 Cor. 8. 4. a 9. 1, 12—15. 1 Tim. 5. 10. Philemon 7. Heb. 6. 10. 1 Pedr 4. 10.

* Am y Stephanas hwn a'i dylwyth, gweler y sylwad-
au a wnaed ar pen. 1. 16, a Rhuf. 16. 5. Tybir ei fod
ef gyda Paul yn Ephesus pan oedd efe yn ysgrifenu yr
epistol hwn; ond yr oedd ei "dŷ," neu ei dylwyth, yn
aros yn Corinth, ac yn perthyn i'r eglwys yno. Mae yr
apostol yn dywedyd dau beth am ei "dŷ" ef; † Mai
blaen-ffrwyth Achaia ydoedd, sef y rhai cyntaf a dder-
byniodd yr efengyl yno: ‡ Iddynt ymosod i weinidog-
aeth y saint; sef i ymgeleddu achos, gweinidogion, a
phobl dlodion Duw, yn ffyddlawn ac yn garedig yn ol
eu dawn a'u gallu: mae yn debyg fod yr holl deulu
duwiol a charüaidd hwn wedi ymroddi i ryw wasanaeth
gydag achos Duw a'i saint, ac nad oedd yr un o honynt
neb wneyd ei ran yn ol ei allu. Mòr werthfawr yw
ambell i deulu o'r fath hyn, yn enwedig yn mabandod
a dechreuad achos Duw, mewn gwlad neu ardal.

16 * Fod l o honoch chwithau yn ddaros-
tyngedig i'r cyfryw, † ac i bob un sydd m yn
cyd-weithio, ac n yn llafurio.

l Eph. 5. 21. Heb. 13. 17. 1 Pedr 5. 5. m pen. 12. 28. 1 Cron. 12. 18. Rhuf. 16. 3, 9. Phil. 4. 3. 3 Ioan 8. n pen. 3. 9. Rhuf. 16. 6, 12. 1 Thes. 1. 3. a 2. 9. a 5. 12. 1 Tim. 5. 17. Heb. 5. 10. Dat. 2. 3.

* Dylesid sylwi ar y geiriau "chwi a adwaenoch," yn
yr adnod o'r blaen, y gellid eu darllen yn y *modd gor-
chymynol*, cydnabyddwch dŷ Stephanas, &c. Gan fod
y teulu hwn yn hŷnaf yn yr eglwys, ac wedi ymosod i
weinidogaeth y saint, dylasent gael parch mawr yn
mhlith y Corinthiaid, ac mae yr apostol yn attolygu
arnynt eu cydnabod hwy, ac i fod yn ddarostyngedig
iddynt, † ac i bob un cyffelyb iddynt, ag oedd yn cyd-
weithio â hwynt, ac yn llafurio fel hwythau gydag achos
yr Arglwydd. Tueddol iawn i dderchafu athrawon
newyddion a dieithr, oedd y Corinthiaid, a diystyru y
rhai henaf, duwiolaf, a mwyaf llafurus a defnyddiol yn
eu plith eu hunain; am hyny nid afraid oedd y cyngor
uchod yn mherthynas i dŷ Stephanas.

17 * Ac yr ydwyf yn llawen am ddyfodiad
o Stephanas, Ffortunatus, p ac Achaicus: † can-
ys eich diffyg chwi hwy a'i cyflawnasant;

o adn. 15. p Phil. 2. 30. Philemon 13.

* Nis gwyddom ychwaneg am y tri gŵr duwiol hyn
nag a ddywedir yma, ac a grybwyllir am Stephanas,
adn. 15. Mae yn debyg iddynt gael eu danfon gan rai
o eglwys Corinth at Paul yn Ephesus, â'r llythyr a gry-
bwylla efe yn pen. 7. 1. † Yr oedd yr apostol yn llawen
am ddyfodiad tri brawd mòr enwog ac anwyl oddi wrth
ei hen gyfeillion; oblegid yr oeddynt hwy yn rhoddi
hanes cyflawnach, gwell, a mwy cysurus, am yr eglwys
yn Corinth, nac oeddynt hwy eu hunain wedi roddi yn
eu llythyr a grybwyllwyd. Hyny, mae yn debyg, yw
meddwl y geiriau, "eich diffyg chwi hwy a'i cyflawnasa-
ant;" ac nid cyflawni rhyw gynnorthwy tymmorawl y
buasai y Corinthiaid yn ddiffygiol ynddo, oblegid gwrth-
odasai yr apostol bob cynnorthwy felly gan y Corinth-
iaid yn hollawl. Gwel pen. 9. 12—18. Yr oedd y llythyr
yn cwyno y pethau gwaethaf yn yr eglwys, fel mae yn
naturiol i ddynion gofidus am bethau felly wneyd; ond
yr oedd y brodyr hyn yn adrodd llawer o bethau mwy
cysurus wrth yr apostol, ac felly yn cyflawni diffyg yr
eglwys yn y llythyr.

18 * Canys q hwy a esmwythasant ar fy
yspryd i, † a'r eiddoch chwithau: r ‡ cydna-
byddwch gan hynny y cyfryw rai.

q Diar. 25. 13, 25. Rhuf. 15. 32. 2 Cor. 7. 6, 7, 13. Phil. 2. 28. Col. 4. 8. 1 Thes. 3. 6, 7. 3 Ioan 4. r 1 Thes. 5. 12. Heb. 13. 7. 3 Ioan 11, 12.

* Trwy gyfeillach hyfryd y brodyr hyn, a'r pethau
cysurus a ddywedasent am y Corinthiaid, hwy a es-
mwythasant lawer ar ysbryd a meddwl Paul; † ac yr
oedd yn ddiammau ganddo, y byddai hyny yn llonder
mawr i'r Corinthiaid hefyd, ar ol iddynt glywed mòr
dda y dywedasent am danynt, a chymmaint yr esmwyth-
asent ar ei ysbryd ef drwy hyny. ‡ Cydnabyddwch,
gan hyny, yn deilwng o'r parch mwyaf, ddynion o'r
fath ysbryd rhagorol, sydd yn dywedyd y pethau goreu
am danoch, ac fel hyny sydd yn meddyginiaethu pob
meddyliau a theimladau annymunol a allai fagu rhyng-
of fi a chwithau.

19 s * Y mae eglwysi Asia yn eich annerch
chwi. t † Y mae Acwila a Phriscila, ‡ gyd
a'r u eglwys sydd yn eu tŷ hwynt, yn eich an-
nerch chwi yn yr Arglwydd yn fynych.

s Act. 19. 10. 1 Pedr 1. 1. Dat. 1. 11. t Act. 18. 2, 18, 26. Rhuf. 16. 3, 4. 2 Tim. 4. 19. u Rhuf. 16. 5. Col. 4. 15 Philemon 2.

* Yna mae yr apostol yn yr ysbryd mwyneiddiaf, yn
danfon cyfarchiadau yr eglwysi yn Asia Leiaf atynt:
Asia Briodol, fel ei gelwid, sef y dosparth hyny o Asia
Leiaf, ag oedd o amgylch Ephesus, oedd yr Asia a
enwir yma. † Yr oedd Acwila a Phriscila yn Ephesus
y pryd hwn, mae yn debyg; ond yr oeddynt wedi dy-
chwelyd i Rufain erbyn i'r apostol ysgrifenu at yr eglwys
yno. Rhuf. 16. 3, 4. Hwy a fuasent gynt yn Corinth
am ryw yspaid, yno y daeth yr apostol yn gydnabyddus
â hwy gyntaf; (Act. 18. 1—3.) gan hyny nid yw ryfedd
eu bod yn anerch y Corinthiaid yn awr, yn fynych ac yn
wresog fel hen gyfeillion cristionogol. ‡ Tybia rhai
nad yw yr "eglwys yn eu tŷ hwy" yn arwyddo dim mwy,
na bod eu holl deulu fel hwy eu hunain yn ddynion
duwiol ac yn addoli Duw fel teulu: tybia eraill fod yr
eglwys yn cadw ei chyfarfodydd crefyddol yn eu tŷ
hwynt: y golygiad cyntaf sydd fwyaf tebygol. Mòr
brydferth yw teulu crefyddol, megys eglwys i Dduw.

20 x * Y mae y brodyr oll yn eich annerch.
y † Anherchwch eich gilydd ‡ â chusan sanct-
eiddiol.

x Rhuf. 16. 16, 21, 23. 2 Cor. 13. 13. Phil. 4. 22. Philemon 23, 24. Heb. 13. 24. y 2 Cor. 13. 12. 1 Thes. 5. 26. 1 Pedr 5. 14.

* Rhŷ faith fyddai crybwyll pawb wrth eu henwau,
mae y brodyr *oll* yn eich anerch: pe yr eglwys oll, yn
cyfarfod yn nhŷ Acwila a Phriscila a feddylid yn yr
adnod o'r blaen, ni buasai achos dywedyd y "brodyr
oll" yma eilwaith; ni buasai hyny ond dywedyd yr un
peth drosodd drachefn. † Fel y mae brodyr dieithr a
phellenig yn eich caru ac yn eich anerch chwi, gofel-
wch chwithau am garu ac anerch eich gilydd. Peth go

wael yw cael ein caru a'n cyfarch gan ddïeithriaid, os byddwn ni yn anghariadus yn mhlith ein gilydd: ni byddwn yn deilwng iawn o gariad eraill fel hyny. ‡ Gwel ar Rhuf. 16. 16. Felly yr oedd y ddefod o gyfarch y pryd hwnw yn mhlith y saint, ond am ei myned yn llygredig ac yn ansancteiddiol, syrthiodd i anarferiad yn raddol.

21 * Yr [z] annerch † â'm llaw i Paul fy hun.

z Gal. 6. 11. Col. 4. 18. 2 Thes. 3. 17.

* Yn ddiweddaf oll, ond nid yn llai gwresog, mae Paul ei hun yn anerch y Corinthiaid, † ac â'i law ei hun. Tybir mai llaw arall a ysgrifenodd yr epistol hyd yma, dàn gyfarwyddyd Paul, ond mai efe ei hun a ysgrifenodd yr adnod hon, a'r tair adnod ganlynol i ddiweddu yr epistol, ac i sicrâu y Corinthiaid mai ei lythyr diffuant ef ydoedd. Gwel ar Rhuf. 16. 22.

22 * Od oes neb [a] nid yw yn caru yr Arglwydd Iesu Grist, † bydded [b] Anathema, Maranatha.

a Can. 1. 3, 4, 7. a 3. 1—3. a 5. 16. Es. 5. 1. Mat. 10. 37. a 25. 40, 45. Ioan 8. 42. a 14. 15, 21, 23. a 15. 24. a 16. 14. a 21. 15—17. 2 Cor. 5. 14, 15. a 8. 8, 9. Gal. 5. 6. Eph. 6. 24. Heb. 6. 10. 1 Pedr 1. 8. a 2. 7. 1 Ioan 4. 19. a 5. 1. b Mat. 25. 41, 46. 2 Thes. 1. 8, 9. Judas 14, 15.—pen. 12. 3. Act. 23. 14. Rhuf. 9. 3. Gal. 1. 8, 9.

* Rhwng yr anerch garedig uchod, â'r fendith-wers ganlynol, mae yr apostol yn rhoddi bloedd ddychryn-llyd uwch ben y gau-athrawon beilchion, a'r rhith-broffeswyr chwyddedig, yn Corinth: od oes neb, pwy bynag, a pha beth bynag a fyddo ei ddawn, ei enw, a'i broffes, nid yw yn caru yr Arglwydd Iesu Grist yn ddiffuant, yn ddiragrith, ac o'i galon, uwchlaw pob peth arall: † bydded Anathema, Maranatha. *Anathema*, gair Groeg, yn arwyddo person, neu beth, wedi ei ddïofrydu a'i neillduo i felltith a dystryw. *Maranatha* neu *Maran atha*, gair Syriaeg, yn arwyddo, *mae yr Arglwydd yn dyfod:* ac felly mae y geiriau yn arwyddo y gospeddigaeth drymaf, ar bawb nad ydynt yn caru yr Arglwydd Iesu, yn ei ddyfodiad ef ddydd y farn. Yn mhlith yr amryw agoriadau ar y geiriau hyn, nid oes dim yn ymddangos yn fwy boddlonawl i mi (ebai *Doddridge* dduwiol,) na'r hyn a ganlyn:—Pan gollodd yr Iuddewon eu hawdurdod ar fywyd ac angau, yr oeddynt er hyny yn cyhoeddi *anathema* ar ddynion a ddylasent gael eu dienyddio wrth gyfraith Moses; ac yr oedd y cyfryw ddynion yn myned yn *anathema*, neu *cherem*, neu felltigedig; oblegid yr un peth yw ystyr y geiriau. Yr oeddynt hwy yn meddwl yn sicr na byddai y felltith yn ofer; ac yn wir mae yn ymddangos y byddent yn dysgwyl am i ryw farn, gyffelyb i'r gosp a gyhoeddai eu cyfraith hwy syrthio ar y troseddwyr; megys fel hyn, y syrthiai maen, neu rywbeth trwm arall, ar y neb a ddylasai gael ei labyddio; i'r neb a farnai y gyfraith i'w dagu, gael ei dagu trwy ryw ddamwain; neu yr hwn a farnai y gyfraith i'w losgi, y caffai ei losgi yn ei dŷ, a'r cyffelyb. Gan nad oedd ganddynt hwy awdurdod i osod y gyfraith mewn grym yn eu hamser diweddaf, yr oeddynt yn credu y deuai yr Arglwydd mewn ffordd o farn, i wneyd yr hyn ni allent hwy ei wneyd; ac mae yn bur debyg y byddent yn arfer y geiriau *Maran atha, mae yr Arglwydd yn dyfod;* neu efe a ddaw yn sicr yn fuan, i osod y farn mewn gweithrediad, ac i ddangos fod y person y syrth hi arno yn *anathema*, neu yn felltigedig mewn gwirionedd. Gyda chyfeiriad at hyn, mae yr apostol yn dywedyd am y rhai nad oeddynt yn caru Crist yn eu calonau, er gwneyd proffes o hono; er nas gallai dysgyblaeth yr eglwys gyrhaedd y cyfryw rai, eto eu bod yn felltigedig yn ngolwg yr Arglwydd Iesu, ac y deuai efe o'r diwedd i'w nodi hwynt allan, ac i'w cospi yn ol eu haeddiant.

23 [c] * Gras *ein* Harglwydd Iesu Grist [d] *fyddo* gyd â chwi.

c Gwel ar Rhuf. 16. 20, 24.

* Hyny yw, Bydded yr Arglwydd Iesu Grist yn dirion wrthych chwi, a bendithied chwi â phob bendith ysbrydol. Gyda llawer mwy o hyfrydwch yr oedd yr apostol yn gweddïo fel hyn drostynt, nac yr oedd yn cyhoeddi yr Anathema Maranatha uchod uwch eu penau: ond yr oedd hyny yn angenrheidiol i rai yn Corinth.

24 * Fy [d] serch innau *a fo* gyd â chwi oll yng Nghrist Iesu. [e] † Amen.

d adn. 14. pen. 4. 14, 15. 2 Cor. 11. 11. a 12. 15. Phil. 1. 8. Dat. 3. 19. e Gwel ar pen. 14. 16. Mat. 6. 13. a 28. 20.

* Er gorfod i'r apostol eu ceryddu hwy yn llym, herwydd amryw o bethau; eto yr oedd o hyd yn eu caru yn ddiragrith, ac yn eu ceryddu o gariad atynt, ac er lles iddynt. Mae y ddwy adnod olaf yn dangos, mai nid mewn ysbryd chwerw a digofus yr oedd yn eu ceryddu, ond mewn ysbryd cariad a serch diffuant: a pheth go ryfedd fod yr apostol yn meddu y fath ysbryd tuag at bawb o honynt, wrth ystyried y dirmyg a gawsai efe gan rai yn eu plith. Sylwn hefyd, nad yw efe yn dywedyd fel hyn ar ddiwedd yr un o'i epistolau eraill. † Ac i brofi diffuantrwydd ei weddi drostynt a'i serch atynt, mae yn ddifrifol yn rhoddi ei Amen.

¶ Yr *epistol* cyntaf at y Corinthiaid a ysgrifenwyd o Philippi, gyd â Stephanas, a Ffortunatus, ac Achaicus, a Thimothëus.

AIL EPISTOL PAUL YR APOSTOL

AT Y

CORINTHIAID.

PEN. I.

Paul yn dyddanu y Corinthiaid, &c.

* PAUL, apostol Iesu Grist, trwy ewyllys Duw, † a'r brawd [b] Timothëus, [c] ‡ at eglwys Dduw yr hon sydd yn Corinth, [d] gyd â'r holl seintiau y rhai sydd yn holl [e] || Achaia:

a Gwel ar Rhuf. 1. 1—5. 1 Cor. 1. 1. b Act. 16. 1. Rhuf. 16. 21. 1 Cor. 16. 10. Phil. 1. 1. a 2. 19—22. Col. 1. 1. 1 Thes. 1. 1. 2 Thes. 1. 1. Heb. 13. 23. c Act. 18. 1—11. 1 Cor. 1. 2. 1 Cor. 6. 11. Eph. 1. 1. e pen. 9. 2. a 11. 10. Act. 18. 12. Rhuf. 15. 26. a 16. 5. 1 Cor. 16. 15. 1 Thes. 1. 7, 8.

Tybia ein Hawdwyr oll, i'r epistol hwn gael ei ysgrifenu tua blwyddyn ar ol y llall, wedi i Paul adael Ephesus, a phan oedd ar ei daith trwy Macedonia, efallai o Philippi, fel y dywedir yn yr ol ysgrifen.

* Nid caniatâd i fod yn apostol yn unig a feddylir yma wrth "ewyllys Duw;" ond galwad ac anfoniad Duw i'r swydd. † Mae hyn yn dangos fod Timothëus gyda'r apostol erbyn hyn, (gwel 1 Cor. 16. 11.) ac yn dangos mawr ostyngeiddrwydd Paul yn ei enwi ef gydag ef ei hun; ac hefyd ei fod am godi Timothëus i barch a ddymmeriad yn ngolwg y Corinthiaid. ‡ Corinth oedd prif ddinas Achaia, ac yn Corinth yr oedd prif eglwys y wlad hòno; ond mae Paul yn danfon yr epistol hwn at yr holl gristionogion yn Achaia, yn gystal ag at eglwys Corinth. || Achaia, oddi wrth un Achaeus, a duasai yn frenin y wlad hòno ryw bryd.

2 [f] * Gras *fyddo* i chwi, a thangnefedd oddi wrth Dduw ein Tad, † a'r Arglwydd Iesu Grist.

f Gwel ar Rhuf. 1. 7.—2 Sam. 15. 20. 1 Cron. 12. 18. Dan. 4. 1. Gal. 6. 16. Eph. 6. 23.

* Cyfarchiad cyffredin yr apostol yw hwn, yn ei holl epistolau, gwel ar Rhuf. 1. 7; 1 Cor. 1. 3. † Onid yw cyssylltu yr Arglwydd Iesu Grist fel hyn yn mhob màn â Duw Dad, fel ffynon pob gras a thangnefedd, yn profrawf bod yr apostol yn ei ystyried ef yn ogyfuwch â Duw Dad; neu mewn geiriau eraill, yn wir Dduw? Dechreuai y paganiaid eu llythyrau, trwy ddymuno iechyd a llwyddiant; dechreua yr apostol trwy ddymuno gras a thangnefedd.

3 [g] * Bendigedig *fyddo* Duw, [h] † a Thad ein Harglwydd ni Iesu Grist, [i] ‡ Tad y trugareddau, [k] a Duw pob diddanwch;

g Gen. 14. 20. 1 Cron. 29. 10. Neh. 9. 5. Job 1. 21. Salm 18. 46. a 72. 19. Dan. 4. 34. Eph. 1. 3. 1 Pedr 1. 3. h pen. 11. 31. Ioan 5. 22, 23. a 10. 30. a 20. 17. Rhuf. 15. 6. Eph. 1. 3, 17. Phil. 1. 11. 2 Ioan 4, 9. i Salm 86. 5, 15. Dan. 9. 9. Mica 7. 18. Rhuf. 15. 5.

* Mae yn deilwng o'n sylw, fod *unarddeg* o epistolau Paul yn dechreu fel hyn gyda gorfoledd, clôd, a diolchgarwch. Cyn gynted ag y meddyliai ef am egwys i Grist yn rhyw le, gellid meddwl fod ei holl enaid, ei ysbryd, a'i serchiadau ef, yn dylenwi o orfoledd a diolchgarwch i Dduw, ac yn llyncu i fynu bob teimlad o'i drallodau tymmorawl ef yn nghanol ei adfyd i gyd, ac yn peri iddo dòri allan yn llawnder ei galon, i fendithio Duw am fod y fath beth ag eglwysi Cristionogol ar y ddaear. † Mae y *Tad* yn dwyn y berthynas hon â Christ, gyda golwg ar ei natur ddwyfol ef, trwy genedliad tragywyddol, anamgyffredadwy, ac angenrheidiol; gyda golwg ar ei ddynoliaeth ef, trwy genedliad gwyrthiol a digyfrwng o hóni; a chyda golwg ar ei swydd ef, fel Duw-ddyn a Chyfryngwr, trwy gyfammod neillduol; yr hyn sydd yn ei ddangos ef i'n ffydd ni dàn yr efengyl, mewn golwg mwy mawreddig, anwylaidd, a chalonogus, na'r hyn a amlygodd efe o hóno ei hun dàn yr Hen Destament, fel Duw Abraham, Isaac, a Jacob. ‡ Yma mae yn Dad y trugareddau, ac yn Dduw pob dyddanwch, i'w saint yn Nghrist ei briod a'i anwyl Fab.

4 [l] * Yr hwn sydd yn ein diddanu ni yn ein holl orthrymder, [m] † fel y gallom ninnau ddiddanu y rhai sydd mewn dim gorthrymder, ‡ trwy y diddanwch â'r hwn y'n diddenir ni ein hunain gan Dduw.

l pen. 7. 6, 7. Salm 86. 17. Es. 12. 1. a 49. 10. a 51. 3, 12. a 52. 9. a 66. 12, 13. Ioan 14. 16, 18, 26. 2 Thes. 2. 16, 17. m adn. 5, 6. Salm 32. 5, 6. a 34. 2—6. a 66. 16. Es. 40. 1. a 66. 14. Phil. 1. 14. 1 Thes. 4. 18. a 5. 11. Heb. 12. 12.

* Nyni, yr apostolion, a gweinidogion yr efengyl, y rhai sydd mewn llawer o erlid a gorthrymder o herwydd yr efengyl; yr ydym ni yn profi diddanwch Duw yn helaeth yn ein heneidiau yn ein holl orthrymder i gyd, a hyny sydd yn ein cynnal yn ein holl drallodau chwerwon. † Trwy hyn yr oedd yr apostolion yn cael eu dysgu a'u galluogi i ddyddanu y saint yn gyffredin, y rhai oedd mewn dim gorthrymder yn achos eu crefydd; trwy gyd-ymdeimlo â hwynt, eu cysuro, a chryfâu eu ffydd, trwy adrodd daioni Duw iddynt hwy eu hunain, a chrybwyll addewidion gwerthfawr Duw iddynt hwythau. ‡ Yr oeddynt yn cael eu holl ddyddanwch eu hunain gan Dduw, ac yn defnyddio y dyddanwch hyny i ddyddanu eraill o saint adfydus Duw.

5 [n] * Oblegid fel y mae dioddefiadau Crist yn amlhâu ynom ni; [o] † felly trwy Grist y mae ein diddanwch ni hefyd yn amlhâu.

n pen. 4. 10, 11. a 11. 23—30. 1 Cor. 4. 10—13. Phil. 1. 20. a 3. 10. Col. 1. 24. o Luc 2. 25. Phil. 2. 1. 2 Thes. 2. 16, 17.

* Fel mae y saint yn eiddo Crist, (adn. 5.) ac mewn undeb âg ef fel ei gorph dirgeledig, mae eu dyoddefiadau hwy yn ddyoddefiadau Crist ei hun: paham yr wyt ti yn fy erlid *I*, ebai efe wrth Saul, pan oedd yn erlid ei saint ef. Dyoddefiadau tebyg i ddyoddefiadau Crist ydynt hefyd, a dyoddefiadau er mwyn Crist, ac yn ei achos ef; am hyn dyoddefiadau Crist ydynt. † Ond fel yr oeddynt yn dyoddef yn achos Crist, felly hefyd yr oeddynt yn cael eu dyddanu gan Grist, a chan Dduw Dad a'i Ysbryd trwy gyfryngdod Crist, a thrwy ffydd ynddo ef. Po mwyaf eu dyoddefiadau dros Grist, mwyaf eu dyddanwch trwy Grist.

6 [p] * A pha un bynnag ai ein gorthrymmu

yr ydys, er diddanwch a iachawdwriaeth i chwi *y mae,* † yr hon a weithir trwy ymaros dan yr un dïoddefiadau, y rhai yr ydym ninnau yn eu dïoddef; ‡ ai ein diddanu yr ydys, er diddanwch a iachawdwriaeth i chwi *y mae hynny.*

p adn. 4. pen. 4. 15—18. 1 Cor. 3. 21—23. 2 Tim. 2. 10.

* Pan orthrymid yr apostolion, yr oeddynt yn ystyried eu trallodau wedi eu trefnu iddynt i'w cymhwyso at eu gwaith, er chwanegu cysur ac iachawdwriaeth eu gwrandawwyr; † ac yr oedd y bendithion hyn yn cael eu cyfranu yn effeithiol i'r credinwyr, trwy ddyoddefiadau yr apostolion; a thrwy yr esamplau o ddïanwadalwch, amynedd, a gwroldeb oeddynt hwy yn ddangos i'w brodyr, yr oeddynt hwythau yn cael eu gwroli i ddyoddef, a'u calonogi i ddàl dàn eu dyoddefiadau. Ac yr oedd cyngorion ac addysgiadau profiadol a chydymdeimladol yr apostolion, yn eu cyfarwyddo hwynt i ymddwyn yn addas yn eu trallodau, ac i dynu lles oddi wrthynt. ‡ O'r tu arall, pan ddyddenid yr apostolion, yr oedd eu dyddanwch hefyd wedi cael ei fwriadu er calondid i'r bobl; yn tueddu i ddangos ffyddlondeb Duw i'w addewidion, a'i barodrwydd grasol i gynnal y rhai a ddyoddefent er ei fwyn ef. Yr oedd yr ystyriaethau hyn yn gwneyd cristionogion gwresog yn foddlawn i ddyoddef, ac yn gwneyd dyddanwch yn dra gwerthfawr a derbyniol.

7 [q] * Ac *y mae* ein gobaith yn sicr am danoch; gan i ni wybod, [r] mai megis yr ydych yn gyfrannogion o'r dïoddefiadau, † felly *y byddwch* hefyd o'r diddanwch.

q adn. 14. pen. 7. 9. a 12. 20, 21. Phil. 1. 6, 7. 1 Thes. 1. 3, 4. r Mat. 5. 11, 12. Luc 22. 28—30. Rhuf. 8. 17, 18. 1 Cor. 10. 13. 2 Thes. 1. 4—7. 2 Tim. 2. 12. Iago 1. 2—4, 12.

* Mae genym ni obaith sicr am danoch chwi, gan i ni wybod eich bod wedi dyoddef eisoes er mwyn Crist a'r efengyl, y parêwch o hyd i ddyoddef, fel y gwnaethoch hyd yma. † Ac ni a wyddom, mai megys y buoch yn gyfranog o ddyoddefiadau er mwyn Crist; felly hefyd y byddwch yn gyfranog o'r dyddanwch nefol sydd i'r rhai a ddyoddefant y cyfryw bethau. Yr oedd gobaith da, a sicr, gan yr apostol am yr eglwys yn gyffredin yn Corinth, wrth yr hyn a glywsai efe am danynt, er yr holl bethau beïus a fuasai yn eu plith. Gwyddai fod y rhan amlaf o honynt yn cyd-ymdeimlo â'i ddyoddefiadau ef, a rhai wedi dyoddef eu hunain; am hyny yr oedd yn sicr y caent brofi hefyd o'r dyddanwch sydd yn Nghrist.

8 * Canys ni fynnem i chwi fod heb wybod, frodyr, [s] am ein cystudd a ddaeth i ni † yn Asia, ‡ bwyso arnom yn ddirfawr uwch ben *ein* gallu, [t] hyd onid oeddym yn ammeu cael byw hefyd.

s pen. 4. 7—12. Act. 19. 23—35. 1 Cor. 15. 32. a 16. 9. t pen. 4. 8. 1 Sam. 20. 3. a 27. 1.

* Soniodd yr apostol am ei orthrymder ei hun a'i gyfeillion yn yr adnodau o'r blaen, ac yma mae yn crybwyll yn fànylach am y gorthrymder hyny, a'r lle y dygwyddodd peth o hóno. Tybia rhai ei fod yn y fàn hon yn dechreu ei esgusodi ei hun am beidio dyfod at y Corinthiaid, yn gynt yn ol ei addewid; ac i'r dyben hyny yn dywedyd, "Ni fynem i chwi fod heb wybod, frodyr, am ein cystudd a ddaeth i ni," &c., megys fel un peth a'i lluddiodd ef i ddyfod. † Dyoddefodd Paul ei hun lawer yn Lystra, yn Asia, gwel Act. 14. 19; ond tybir yn hytrach mai at ei ddyoddefiadau ei hun a'i gyfeillion yn Ephesus, prif-ddinas Asia Bïodol, y cyfeiria efe yma yn benaf: am hanes y derfysg a'r erlid a fu amynt yno, gwel Act. 19. 23, &c. Gwel gyfeiriad hefyd at ei ddyoddefiadau yn Ephesus, yn 1 Cor. 15. 32; a 16. 9. ‡ Pa dro bynag oedd yr apostol yn feddwl, mae yn amlwg wrth ddiwedd yr adnod fod ei ddyoddefiadau yn fawr ac yn beryglus iawn.

9 * Eithr ni a gawsom ynom ein hunain farn angau, [u] † fel na byddai i ni ymddiried ynom ein hunain, [x] ‡ ond yn Nuw, yr hwn sydd yn cyfodi y meirw.

u pen. 3. 5. a 4. 7. a 12. 7—10. Job 40. 14. Salm 22. 29. a 44. 5—7. Diar. 28. 26. Jer. 9. 23, 24. a 17. 5—7. Ezec. 33. 13. Luc 18. 9. x pen. 4. 13, 14. Ezec. 37. 1—14. Rhuf. 4. 17—25. Heb. 11. 19.

* Ni a dybiasem yn sicr y cawsem ein lladd yn hollawl, neu nad oedd modd i ni fyw wedi y driniaeth ddychrynllyd a gawsom: felly mae diwedd yr adnod o'r blaen yn egluro y geiriau hyn. † Goddefodd Duw hyn, i ddysgu ei weision nad ymddiriedent ynddynt eu hunain mewn peryglon, ‡ nac mewn dim llai na Duw, yr hwn a all gyfodi y meirw. Yr oedd "ammau cael byw," a "barn angau," yn peri iddynt ddarfod yn hollawl â phob gobaith ac ymddiried ynddynt eu hunain, yn eu cyfeillion, ac yn mhawb o ddynion i'w pleidio a'u gwaredu; ond hwy a ymddiriedasant yn Nuw, yn eu cyfwng eithaf, ac efe a'u hachubodd, yr hyn oedd agos fel eu cyfodi o feirw.

10 [y] * Yr hwn a'n gwaredodd ni oddi wrth gyfryw ddirfawr angau, ac sydd yn ein gwaredu; yn yr hwn yr ydym yn gobeithio y gwared *ni* hefyd rhag llaw.

y 1 Sam. 7. 12. a 17. 37. Job 5. 17—22. Salm 34. 19, 20. Es 46. 3, 4. Act. 26. 21, 22. 2 Tim. 4. 17. 2 Pedr 2. 9.

* Nid eu dysgu i ymddiried yn Nuw am y tro hwnw yn unig a gawsant; ond ymddiried ynddo byth, yn mhob cyfyngder ac enbydrwydd, o hyny allan. Y Duw a'u gwaredodd o'r angau dirfawr hwnw, oedd yn eu gwaredu o hyd, ac yr oeddent yn gobeithio yn gadarn y gwaredai rhag llaw, hyd y diwedd: ïe, eu cadw hwynt enaid a chorph, i'w deyrnas nefol byth. 2 Tim. 4. 18.

11 [z] * A chwithau hefyd yn cyd-weithio drosom mewn gweddi, [a] fel, † am y rhoddiad *a rodded* i ni o herwydd llawer, ‡ y rhodder dïolch gan lawer drosom.

z pen. 9. 14. Es. 37. 4. a 62. 6, 7. Act. 12. 5. Rhuf. 15. 30—32. Eph. 6. 18, 19. Phil. 1. 19. Col. 4. 3. 1 Thes. 5. 25. 2 Thes. 3. 1. Philemon 22. Heb. 13. 18. Iago 5. 16. a pen. 4. 15. a 9. 11, 12.

* Heblaw ymddiried a gobaith personol yr apostol a'i gyfeillion yn Nuw, yr oedd efe hefyd yn ystyried eu gwaredigaethau aml a pharâus, fel ffrwyth gweddïau yr eglwysi drostynt. Nid yw ffydd yn rhwystro gweddïau, nac yn ei gwneyd yn afraid; er mai rhad a goruwchnaturiol yw gwaredigaethau a thrugareddau Duw oll, eto ar lwybr dyledswydd, a thrwy foddion y mae eu cael: ac nid yw gweddïau y saint gwaethaf yn ddiles i'r rhai enwocaf, nac yn ddiwerth yn eu golwg, nac yn ngolwg Duw chwaith. † Y "rhoddiad" yn ddïammau ydoedd gwaredigaeth yr apostol a'i gyfeillion, a grybwyllwyd yn yr adnod o'r blaen; gelwir hi yn "rhoddiad," o herwydd mai trwy allu a rhad drugaredd Duw y daeth, mewn atebiad i weddïau llaweroedd. ‡ Mae Duw yn trugarâu wrth bersonau neillduol trwy weddïau llaweroedd eraill drostynt, fel y dïolcher iddo, nid yn unig gan y neb a gaffo y drugaredd, ond gan eraill hefyd a weddïasant drosto. Gwelwn yma y dylem ddïolch am drugareddau, yn gystal â gweddïo am eu cael; a hyny dros eraill yn gystal a throsom ein hunain.

12 [b] * Canys ein gorfoledd ni yw hyn; *sef* tystiolaeth ein cydwybod, † mai mewn [c] symlrwydd, [d] a phurdeb duwiol, [e] nid mewn doethineb cnawdol, ond trwy ras Duw, yr ymddygasom yn y byd, ‡ ond yn hytrach tu ag attoch chwi.

b Job 13. 15. a 23. 10—12. a 27. 5, 6. a 31. 1—40. Salm 7. 3—5. a 44. 17—21. Es. 38. 3. Act. 24. 16. Rhuf. 9. 1. 1 Cor. 4. 4. Gal. 6. 4. 1 Tim. 1. 5, 19, 20. Heb. 13. 18. 1 Pedr 3. 16, 21. 1 Ioan 3. 19—22. c pen. 11. 3. Rhuf. 16. 18, 19. d pen. 2. 17. a 8. 8. Jos. 24. 14. 1 Cor. 5. 8. Eph. 6. 14. Phil. 1. 10, 16. Tit. 2. 7. e adn. 17. pen. 4. 2. a 10. 2—4. a 12. 15—19. 1 Cor 2. 4, 5, 13. a 15. 10. Iago 3. 13—18. a 4. 6.

* Beth bynag a feddylio efe a ddywedo eraill am danom, a pha beth bynag a ddyoddefom oddi wrth eraill yn ein ffordd a'n gwaith; mae genym y dystiolaeth, y

oddlonrwydd, a'r gorfoledd hyn yn ein cydwybod a'n mynwesau ein hunain ger bron Duw; † mai mewn symlrwydd a phurdeb duwiol, diragrith a diddichell, nc nid mewn doethineb cnawdol a chyfrwysder hudolaethus, yr ymddygasom trwy ras Duw yn mhob màn; ac yn enwedig tuag atoch chwi y Corinthiaid: gwyddoch chwi yn dda, mai gan weithio â'n dwylaw ein hunain, y pregethasom *i chwi* efengyl Duw yn rhad. Yn yr ystyr hyn bu yr apostol yn fwy hunan-ymwadol yn Corinth, nac mewn nemawr o fàn arall, er mai hwy oedd y parotaf i ddrwg-dybio a beïo ei ddybenion.

13 * Canys nid ydym yn ysgrifenu amgen ebethau attoch [f] nag yr ydych yn eu darllen, neu yn eu cydnabod, † ac yr wyf yn gobeithio a gydnabyddwch hyd y diwedd hefyd.

f pen. 4. 2. a 5. 11. a 13. 6. Philemon 6.

* Nid ysgrifenu chwedlau anwireddus yr wyf; y oethau yr wyf fi yn eu hysgrifenu, a chwithau yn eu darllen, chwi a wyddoch, a rhaid i chwi gydnabod, mai ywirionedd ydynt: † a gobeithio y cydnabyddwch hwy felly yn wastadol hyd y diwedd.

14 * Megis y cydnabuoch ni o [g] ran, [a] † mai nyni yw eich gorfoledd chwi, [i] ‡ fel chwithau yr eiddom ninnau hefyd [k] yn nydd yr Arglwydd Iesu.

g pen. 2. 5. Rhuf. 11. 25. 1 Cor. 11. 18. h pen. 5. 12. 1 Cor. 3. 21—23. Phil. 1. 26. i pen. 9. 2. 1 Cor. 15. 31. Phil. 2. 16. a 4. 1. 1 Thes. 2. 19, 20. k 1 Cor. 1. 8. Phil. 1. 6, 10. 1 Thes. 3. 13. a 5. 23.

* "O ran:" mae *rhai* o honoch yn cydnabod mai nyni yw eich gorfoledd er nad yw pawb yn cydnabod nyny: Neu, "o ran:" yr ydych weithiau yn cydnabod felly, er nad ydych bob amser. † Mai nyni, myfi Paul a'm cyfeillion, a fuom yn offerynol i ddwyn yr efengyl i'ch plith chwi, a thrwy yr efengyl i'ch dychwelyd, a'ch adeiladu yn y gwirionedd; yr hyn sydd achos cyfiawn i chwi orfoleddu ynom ni fel offerynau, ‡ megys yr ydych chwithau hefyd yn orfoledd i ninnau, fel ffrwyth ein llafur, a *sel* ein gweinidogaeth; a gobeithio y byddwch felly yn nydd yr Arglwydd Iesu.

15 [l] * Ac yn yr hyder hwn yr oeddwn yn ewyllysio dyfod attoch o'r blaen, [m] † fel y caffech ail ras;

l 1 Cor. 4. 19. a 11. 34. m Rhuf. 1. 11. a 15. 29. Phil. 1. 25, 26.

* Gan fy mod yn lled sicr o'ch meddyliau da chwi am danaf, ac yn hyderus y byddai yn orfoledd genych ffy ngweled drachefn yn eich plith; yn yr hyder hwn yr oeddwn yn bwriadu, ac yn mawr ewyllysio dyfod atoch, † fel y caffech ail ras; sef eich cadarnâu, eich adeiladu, a'ch adnewyddu yn chwanegol, trwy fy ymddiddanion a'm gweinidogaeth yn eich plith, a bendith Duw ar hyny.

16 * A myned heb eich llaw chwi i Macedonia, [n] † a dyfod drachefn o Macedonia attoch, ‡ a chael fy hebrwng gennych i Judea.

n Act. 19. 21, 22. 1 Cor. 16. 5—7.

* A mynd heb alw arnoch chwi, i Macedonia, felly mae rhai yn deall y rhan flaenaf o'r adnod; a byddai hyny yn ddigon cyson â 1 Cor. 16. 5—7: ond pa fodd y cysonir hyn â'r ail ran o'r adnod hon, † "a dyfod drachefn o Macedonia atoch?" Mae y geiriau yna yn ddangos i'r apostol fwriadu unwaith myned heibio Corinth i Macedonia, a dyfod *drachefn* o Macedonia i Corinth, ac felly ymweled â'r Corinthiaid ddwywaith, y tro cyntaf ar hyd y môr o Ephesus, a'r ail dro yn ei ol o Macedonia. Y brif wrth-ddadl yn erbyn hyna yw, 1 Cor. 16. 7; yr hyn nis gellir ei hateb, ond trwy dybied i'r apostol newid ei fwriad wedi iddo ysgrifenu ei epistol cyntaf, a chyn iddo ymadael o Ephesus: ac efallai iddo ddanfon gair rywfodd i hysbysu hyny i'r Corinthiaid, er nad oes sôn am hyny yn yr epistol o'r blaen. ‡ Gwedi "dyfod drachefn atynt o Macedonia," ac aros ennyd, neu hwyrach "gauafu hefyd gyda hwynt;" (1 Cor. 16. 6, 7.) bwriadai a dysgwyliai yr apostol gael ei hebrwng gan rai o'r Corinthiaid am ran o'r ffordd, neu efallai yr holl ffordd, i Judea. 1 Cor. 16. 3, 4.

17 * Gan hynny, pan oeddwn yn bwriadu hyn, a arferais i [o] ysgafnder? † neu y pethau yr wyf yn eu bwriadu, ai yn [p] ol y cnawd yr wyf yn eu bwriadu, fel y byddai gyd â mi, [q] ïe, ïe, a nag ê, nag ê?

o Barn. 9. 4. Jer. 23. 32. Zeph. 3. 4. p adn. 12. pen. 10. 2, 3. Ioan 8. 15. Gal. 1. 16. a 2. 2. 1 Thes. 2. 18. q adn. 18—20. Mat. 5. 37. Iago 5. 12.

Mae yn debyg fod rhai o wrthwynebwyr Paul yn Corinth yn ei feïo ef am newid ei fwriadau, ac yn barod i ddywedyd mai dyn ansefydlog ac anwadal oedd; hawdd ganddo newid ei feddwl, ei ymddygiad, a'i athrawiaeth hefyd, fel y byddai amgylchiadau yn gofyn, ac er gwasanaethu ei gyfleusdra a'i fuddioldeb ei hun. * Ond yma mae efe yn gofyn a oeddynt hwy yn credu y fath gyhuddiadau yn ei erbyn? A oedd y cristionogion yn y ddinas hòno yn priodoli ei ymddygiad ef i ysgafnder ac anwadalwch? † Neu a oeddynt hwy yn meddwl mai o gyfrwysder cnawdol, yr oedd efe yn ffurfio ac yn newid ei fwriadau gyda gwaith Duw; fel ag i ddywedyd a gwrth-ddywedyd, dysgu a gwrth-ddysgu, yn y modd mwyaf manteisiol i'w esmwythder, ei ddiogelwch, ei elw ei hun, a'i awydd-gais fydol? Angharedig iawn oedd meddwl y fath bethau am dano: ac ar yr un pryd gallwn weled yn yr adnod hon, mai pethau angenrheidiol iawn yw geirwiredd sobr, a dïysgogrwydd sefydlog mewn cristionogion, ac yn enwedig yn ngweinidogion yr efengyl.

18 [r] * Eithr ffyddlawn *yw* Duw, † a'n hymadrodd ni wrthych chwi ni bu ïe, a nag ê.

r adn. 23. pen. 11. 31. Ioan 7. 28. a 8. 26. 1 Ioan 5. 20. Dat. 3. 7, 14.

Ond fel mae Duw yn eirwir, ni bu ein hymadrodd ni wrthych chwi yn ïe, a nagê: felly y mae rhediad yr adnod yn ol y Saesoneg. Fel yna, mae yr apostol yn ardystio, yn y modd mwyaf difrifol, nad oedd ysgafnder cnawdol nac anwadalwch yn ei fwriadau, ei eiriau, nâ'i athrawiaeth ef. * Cyn wired a bod Duw yn eirwir ac yn ffyddlawn, † cyn wired a hyny fod ei fwriadau, ei addewidion, a'i athrawiaeth yntau a'i frodyr yn eirwir ac yn ffyddlawn hefyd. Ni wrth-ddywedodd efe erioed yr hyn a ddysgodd efe iddynt unwaith; ac ni ddywedodd efe erioed "Nagê," am un peth y dywedasai ïe o'r blaen

19 [s] * Canys Mab Duw, Iesu Grist, yr hwn a bregethwyd yn eich plith gennym ni, [t] *sef* gennyf fi, a Silfanus, a Thimothëus, [u] nid ydoedd ïe, a nag ê, eithr ynddo ef ïe ydoedd.

s Salm 2. 7. Mat. 3. 17. a 16. 16, 17. a 17. 5. a 26. 63, 64. a 27. 40, 54. Marc 1. 1. Luc 1. 35. Ioan 1. 34, 49. a 3. 16, 35, 36. a 6. 69. a 19. 7. a 20, 28, 31. Act. 8. 37. a 9. 20. Rhuf. 1. 3, 4. 2 Pedr 1. 17. 1 Ioan 1. 3. a 5. 9—13, 20. 2 Ioan 9. Dat. 2. 18. t Act. 18. 5. u Ex. 3. 14. Mat 24. 35. Ioan 8. 58. Heb. 1. 11, 12. a 13. 8. Dat. 1. 8, 11, 17.

* Un rheswm mawr am eirwiredd a dïanwadalwch yr apostol a'i frodyr oedd, nad ydoedd Mab Duw, Iesu Grist, yr hwn a bregethwyd yn mhlith y Corinthiaid ganddynt hwy, yn ïe, a nagê, eithr ynddo ef ïe ydoedd; hyny yw, yr oedd Mab Duw, Iesu Grist, "yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd:" yn ddigyfnewid byth yn ei ei berson, ei gyfammod, ei addewidion, ei athrawiaeth, a'i ffyddlondeb, fel Duw a Chyfryngwr: am hyny yr oedd eu tystiolaeth a'u hathrawiaeth hwythau yn gyffelyb i'w Hawdwr mawr, geirwir a digyfnewid. Paham y dywedir "Mab Duw," yn y fàn hon, a "Iesu Grist," wedi hyny; ond i ddangos fod yr ail Berson yn Fab Duw *fel* ail Berson, o genedliad tragywyddol; yn hollawl anymddybynol ar ei *swydd*, a'i *ddynoliaeth*, fel Iesu Grist? ‡ Cyfeillion gwastadol Paul yn ei deithiau oedd Silfanus (neu Silas,) a Timothëus; daethant ato pan oedd yn Corinth, (Act. 18. 5,) ac yr oeddynt gydag ef mae yn debyg pan oedd yn ysgrifenu yr epistol hwn.

20 [x] * Oblegid holl addewidion Duw ynddo ef *ydynt* ïe, ac ynddo ef [y] amen, [z] † er gogoniant i Dduw trwom ni.

x Gen. 3. 15. a 22. 18. a 49. 10. Salm 72. 17. Es. 7. 14. a 9. 6, 7. Luc 1. 68—74. Ioan 1. 17. a 14. 6. Act. 3. 25, 26. a 13. 32—39. Rhuf. 6. 23. a 15. 8, 9. Gal. 3. 16—18, 22. Heb. 6. 12—19. a 7. 6. a 9. 10—15. a 11. 13, 39, 40. 1 Ioan 2. 24, 25. a 5. 11, 12. y Es. 65. 16. Ioan 3. 5 Dat. 3. 14. z pen. 4. 6, 15. Salm 102. 16. Mat. 6. 13. Luc 2. 14. Rhuf. 11. 36. a 15. 7. Eph. 1. 6, 12—14. a 2. 7. a 3. 8—10. Col. 1. 27. 2 Thes. 1. 10. 1 Pedr 1. 12. Dat. 7. 12.

* Mae holl addewidion Duw i'w bobl, trwy yr holl ysgrythyr, wedi eu gwneyd yn a thrwy Iesu Grist; ac y maent oll yn cyd-gyfarfod ynddo ef, Machnïydd mawr y cyfammod gras, yn ol yr hwn maent wedi eu gwneyd i ddynion: a thrwy roddi ei Fab i fod yn Geidwad pechaduriaid, mae Duw wedi gwirioneddu, neu brofi gwirionedd, ei hen addewidion, gwedi arddangos dwyfol roddiad yr ysgrythyrau, a chwedi rhoddi sicrwydd o gyflawniad yr addewidion mwyaf i'r holl gredinwyr. Fel hyn mae Duw wedi gosod ei Amen yn ddigyfnewid byth wrth ei addewidion, y rhai a roddasai efe o'r blaen; mae wedi eu cadarnâu trwy y dystiolaeth sicraf a allai fod; yn wir mae wedi gwystlo ei ogoniant ei hun am y cyflawniad o honynt; byddai ei wirionedd a'i berffeithrwydd dàn ddianrhydedd pe methai eu cyflawni; † tra mae y cyflawniad o honynt yn tueddu yn mhob modd i ogoneddu Duw yn iachawdwriaeth pechaduriaid trwy weinidogaeth yr apostolion a gweinidogion eraill. Nid oes dim mewn gwirionedd a all wneuthur addewidion Duw yn sicrach nag ydynt, fel y maent yn dyfod o'i enau ef; ond wrth ei fod yn eu rhoddi i ni yn Nghrist, ei Fab, mae yn sicrâu yn amlwg i ni mai ei addewidion ef ydynt, a'i fod yn meddwl eu cyflawni, er gogoniant ei Fab fel Cyfryngwr, ac er gogoniant ei enw ei hun yn a thrwy y Cyfryngwr.

21 * A'r hwn sydd yn ein [a] cadarnhâu ni gyd â chwi yng Nghrist, † ac a'n [b] henneiniodd ni, *yw* Duw;

a pen. 5. 5. Salm 37. 23, 24. a 87. 5. a 89. 4. Es. 9. 7. a 49. 8. a 22. 7. Rhuf. 16. 25. Col. 2. 7. 1 Thes. 3. 13. 2 Thes. 2. 17. a 3. 3. 1 Pedr 5. 10. b Salm 45. 7. Es. 59. 21. a 61. 1. Ioan 3. 34. Act. 10. 38. Rhuf. 8. 9. 1 Ioan 2. 20, 27. Dat. 1. 6.

* Nid effaith doethineb ddynol, dysgeidiaeth allanol, na chadernid a gwroldeb naturiol, ydoedd crediniaeth "gadarn" yr apostol o'r gwirioneddau hyn, ei orphwysiad ar yr addewidion hyn, a'i ddïysgogrwydd yn y weinidogaeth; ond effaith gallu a gras Duw, yr hwn a ddygodd y Corinthiaid hefyd yr un modd, i grediniaeth ddïysgog yn Nghrist, ac i gymdeithas sanctaidd âg ef. † Duw a'u heneiniodd hwynt trwy ei ddysgeidiaeth nefol a'i ras sancteiddiol; ac felly y symmudodd eu dallineb naturiol a'u rhagfarn yn erbyn y gwirionedd. Trwy yr eneinniad hwn mae y saint wedi eu neilldüo a'u cyssegru yn freninoedd ac yn offeiriaid, neu yn freninol offeiriadaeth i Dduw; a gwaith Duw a'i Ysbryd yw eu cadarnâu a'u heneinnio.

22 * Yr hwn hefyd a'n [c] seliodd, † ac a roes [d] ernes yr Yspryd yn ein calonnau.

c Ioan 6. 27. Rhuf. 5. 11. Eph. 1. 13. a 4. 30. 2 Tim. 2. 19. Dat. 2. 17. a 7. 3. a 9. 4. d pen. 5. 5. Rhuf. 8. 23. Eph. 1. 14.

* Mae yr Arglwydd hefyd yn selio ei bobl, i'w nodi hwy fel eiddo iddo ei hun, ac i'w diogelu iddo ei hun, trwy argraffu ei ddelw sanctaidd ar eu heneiciau yn eu crëedigaeth newydd a'u hadgenedliad trwy yr Ysbryd Glân: † ac mae yr Ysbryd hwn hefyd yn ei rasau, a'i gysuron sanctaidd, yn ernes, yn wystl, ac yn flaen-brawf yn eu calonau, o'r etifeddiaeth nefol, i'r hon y galwyd hwynt. Mae rhai yn gwahaniaethu rhwng *eneinniad, seliad,* ac *ernes* yr Ysbryd, fel hyn:—bod yr *eneinniad* yn cyfeirio yn benaf at y doniau digyfrwng a rhyfeddol a gafodd yr apostolion, yn eu neilldüad hwy at eu gwaith; fel y byddai offeiriaid a breninoedd yn cael eu neilldüo i'w swyddau gynt trwy eneinniad:—bod y *seliad* yn cyfeirio at y sacramentau; y rhai oedd yn dynodi y saint fel pobl briodol Duw:—a bod yr *ernes* yn arwyddo llawenydd a gorfoledd yr Ysbryd Glân, yr hyn oedd flaen-ffrwyth dedwyddwch y nefoedd. Ond tybia eraill mai pethau prïodol i bawb o'r duwiolion yw pob un o'r tri pheth uchod; heb wahaniaeth rhwng apostolion ac eraill.

23 * Ac [e] yr wyf fi yn galw Duw yn dyst ar fy enaid, [f] † mai er eich arbed chwi na ddaethum etto i Corinth.

e adn. 18. pen. 11. 11, 31. Rhuf. 1. 9. a 9. 1. Gal. 1. 20. Phil. 1. 8. 1 Thes. 2. 5, 10. f pen. 2. 3. a 10. 2, 6—11. a 12. 20. a 13. 2, 10. 1 Cor. 4. 21. a 5. 5. 1 Tim. 1. 20.

* Wele yma dyngu perffaith; dim llai na galw Duw yn dyst, a hyny ar ei enaid, am wirionedd yr hyn a ddywedai yr apostol. Yr oedd cyhuddiad trwm yn ei erbyn, o anwadalwch, ac addaw heb gyflawni; ac yr oedd ei enw da ei hun, ac anrhydedd Crist a'r efengyl, yn galw arno i dyngu fel hyn ar ei enaid, ac yn enw Duw, chwiliwr y calonau a dïalydd am anwiredd, † mai er arbed y rhai beïus yn yr eglwys, na ddaethai efe eto i Corinth. Yr oedd efe yn chwennych aros, i weled pa effaith a gaffai ei lythyr o'r blaen ar y rhai beïus yn eu plith, (1 Cor. 5. 6,) gan obeithio yr edifarâent wrth hwnw, ac y diwygid y pethau beïus yn eu plith gan yr eglwys ei hunan; ac yr oedd yn anodd iawn ganddo ef arfer y llymder a'r awdurdod apostolaidd hyny tuag atynt, a fygwthiasai yn 1 Cor. 4. 19, os byddent yn gyndyn ac anmhlygedig; am hyny yr oedd yn llai ei frys i fyned i Corinth. pen. 2. 1. Nid hoff oedd gan yr apostol arfer y wïalen, os gwnelai ymaros, cariad, ac ysbryd addfwynder y tro heb y wïalen.

24 * Nid am [g] ein bod yn arglwyddiaethu ar eich ffydd chwi, † ond [h] yr ydym yn gydweithwyr i'ch llawenydd: [i] ‡ oblegid trwy ffydd yr ydych yn sefyll.

g Mat. 23. 8—10. a 24. 49. 1 Cor. 3. 5. 2 Tim. 2. 24—26. 1 Pedr 5. 3. h pen. 2. 1—3. Rhuf. 1. 12. Phil. 1. 25, 26. i pen. 5. 7. Rhuf. 5. 2. a 11. 20. 1 Cor. 15. 1. Eph. 6. 14—16. 1 Pedr 5. 8, 9.

* Er bod yr apostol yn hòni awdurdod *fel apostol,* i gadw trefn ar y Corinthiaid fel eglwys, o ran dysgyblaeth; eto, nid oedd efe yn chwennych arglwyddiaethu ar eu cydwybodau hwy, i beri iddynt gredu un athrawiaeth heb sail iddi yn ngair Duw: ac os oedd *Paul* mòr hunan-ymwadol, pa faint mwy y dylai gweinidogion ein hoes ni fod felly? † Ond heb arglwyddiaethu ar eu ffydd, yr oedd ef a'i gyfeillion yn ymdrechu bod yn gydweithwyr i'w llawenydd ysbrydol hwy, trwy eu hadferu o'r pethau oedd yn rhwystro eu llawenydd, a'u cadarnâu yn y gwirionedd: ‡ oblegid trwy ffydd yn ngwirionedd yr efengyl yr oeddynt yn sefyll hyd yn hyn, ac i sefyll o hyn allan.

PEN. II.

Paul yn dangos i'r Corinthiaid yr achos na ddaethai efe atynt.

* EITHR [a] mi a fernais hyn ynof fy hunan, [b] na ddelwn drachefn mewn tristwch attoch.

a pen. 1. 15—17. Act. 11. 29. a 15. 2, 37. 1 Cor. 2. 2. a 5. 3. Tit. 3. 12. b adn. 4. pen. 1. 23. a 7. 5—8. a 12. 20, 21. a 13. 10. 1 Cor. 4. 21.

* Tristwch a gofid mawr a fuasai i'r apostol orfod myned at y Corinthiaid â gwïalen, (1 Cor. 4. 21.) a thristwch iddynt hwythau a fuasai ei ddyfodiad felly; gan hyny efe a farnodd ynddo ei hun yn well oedi ei fynediad, tàn nes y gallai fyned atynt gyda chysur iddo ei hun â hwythau. Gwel ar pen. 1. 23.

2 * Oblegid [c] os myfi a'ch tristâf chwi, † pwy yw yr hwn a'm llawenhâ i, ‡ ond yr hwn a dristâwyd gennyf fi?

c pen. 1. 14. a 11. 29. Rhuf. 12. 15. 1 Cor. 12. 26.

* Pe byddai i mi eich tristâu chwi, y rhai ydwyf yn garu mòr anwyl, trwy geryddon a llymder, ni byddai

idim ond gwir angenrheidrwydd, a gobaith eich diwygio,
a barai i mi wneyd hyny; † a phwy o honoch chwi
mewn amgylchiad felly, a allai sirioli fy ysbryd I, a
gwneyd i mi lawenâu, ‡ ond y person, neu y personau
a geryddid genyf? Edifeirwch y rhai hyny, a'u hadfer-
iad oddi wrth eu pechodau, yn unig a allai droi fy
nhristwch I yn llawenydd. Hyd yn nôd y rhai difeïus
yn yr eglwys, a chyfeillion goreu Paul, byddai raid
iddynt ofidio wrth iddo ef arfer llymder; nid o anfodd-
lonrwydd i'r cerydd, ond o gyd-ymdeimlad â'r cerydd-
edig; ac fel hyny nis gallent ei lawenâu ef; ac ar y llaw
arall, rhoddai adferiad a diwygiad y rhai beïus, fwy o
lawenydd iddo na dim arall.

3 * Ac [d] mi a ysgrifenais hyn yma attoch,
[e] † fel pan ddelwn na chawn dristwch oddi
wrth y rhai [f] y dylwn lawenhâu; [g] ‡ gan hyderu
am danoch oll, fod fy llawenydd i *yn llawen-*
ydd i chwi oll.

d 1 Cor. 4. 21. a 5. 1, &c. e pen. 12. 21. a 13. 1, 2. f pen. 12. 11. g pen. 1. 15. a 7. 16. a 8. 22. Gal. 5. 10. Philemon 21.

* Mi a ysgrifenais atoch o'r blaen, (1 Cor. 5. 3—5,) ac yr wyf yn ysgrifenu yn awr eto, fel y diwygier y pethau beïus yn eich plith; † fel na byddai raid i mi fy hun iddyfod atoch â gwialen i'ch tristâu; ac fel na chawn iinnau dristwch oddi wrth yr hwn y dylwn gael fy llawenhâu, yn ei rodiad sanctaidd a chysurus. ‡ Ac yr oeddwn yn hyderu am danoch oll, y cymmeradwyech y drefn ihòno o ysgrifenu atoch; gan nad oedd ammheüaeth genyf, bod fy llawenydd I yn llawenydd i chwi oll. Gofid mawr, ac nid llawenydd, a fuasai i'r apostol fyned i Corinth i geryddu; a llawenydd mawr fyddai iddo, os atebai ei lythyrau y dyben i ddiwygio yr eglwys heb iddo fyned yno; ac yr oedd yn sicr ganddo, y buasai ei llawenydd ef yn hyny, yn llawenydd i'r holl rai duwiol yn yr eglwys.

4 * Canys [k] o orthrymder mawr a chyfyng-
der calon, yr ysgrifenais attoch â dagrau lawer;
[l] † nid fel y'ch tristâid chwi, ‡ eithr fel y gwy-
byddech y cariad sydd gennyf yn ‖ helaethach
tu ag attoch chwi.

h Lef. 19. 17, 18. Salm 119. 136. Diar. 27. 5, 6. Jer. 13. 15—17. Luc 19. 41—44. Rhuf. 9. 2, 3. Phil. 3. 18, 19. i pen. 7. 8, 9, 12. a 12. 15.

* Gwedi clywed am gynnifer o bethau beïus ac afrëolaidd yn mhlith y Corinthiaid, ysgrifenodd yr apostol ei lythyr o'r blaen, yn enwedig y rhanau cerddol o hòno, mewn gorthrymder mawr, mewn cyfyngder calon, ac â dagrau lawer; wrth feddwl am agwedd ddirywiol a thruenus yr eglwys, ac y byddai *raid* traddodi *un* o honynt o leiaf i Satan. † Nid i'w tristâu hwynt yn afreidiol, nid am fod yn bleser ganddo eu tristâu o gwbl, yr ysgrifenodd felly atynt; ac nid i'w tristâu o newydd yr oedd yn adgoffa hyny yn awr: ‡ ond fel y gwybyddent y cariad mawr a helaeth oedd ganddo tuag atynt, a'r gofal tadol oedd ganddo am danynt. Ni wna ceryddon eglwysig fawr o les, os na roddir hwy mewn ysbryd a modd ag y gwelo dynion mai o gariad helaeth y maent. ‖ "Helaethach:" sef helaethach nac y teimlasai yr apostol erioed o'r blaen, efallai, tuag at y Corinthiaid: yr oedd eu drwg hwy yn ennyn cariad a thosturi yr apostol yn helaethach tuag atynt.

5 * Ac os [k] gwnaeth neb dristâu, † ni
wnaeth efe [l] i mi dristâu, ond o ran; ‡ rhag i
mi bwyso arnoch chwi oll.

k Diar. 17. 25. 1 Cor. 5. 1—5, 12, 13. l Gal. 4. 12.

* Hyny yw, os gwnaeth neb achos tristwch, neu dristâu. Yr oedd pechod y dyn godinebus yn Corinth, a goddefiad yr eglwys o hòno, wedi tristâu yr apostol yn ddirfawr iawn; (Gwel adn. 4.) † ond nid oedd ef yn dwyn ond rhan o'r tristwch, yr oedd llawer yn ei ddwyn yn bwysig gydag ef; sef yr holl rai duwiol, ag oedd yn ofni Duw yn Corinth. Neu "o ran," fel hyn, nid oedd y tristwch ond am ychydig amser; yn awr mae y dyn wedi ei adferu, mae y tristwch wedi ei droi yn llawenydd. Neu eto fel hyn: "o ran," nid yw yr *holl* eglwys wedi rhoi achos tristwch, dim ond *rhan* o hòni, a'r dyn godinebus hwn yn benaf o bawb. ‡ Mae yr apostol yn crybwyll hyn, fel na thybid ei fod ef yn cyhuddo pawb o honynt; fel pe buasai yr holl gristionogion yn Corinth wedi bod yn gydradd o euog yn y mater hwn. "Fel na chyhuddwyf chwi yn ormodol," efallai, yw y cyfieithiad goreu o'r Saesoneg yn niwedd yr adnod. "Pwyso yn ormodol trwy gyhuddiad," ebai *Parkhurst*, yw meddwl y gair Groeg *epibarô*, yn y fàn hon.

6 * Digon i'r cyfryw *ddyn* † y cerydd yma
[m] ‡ *a ddaeth* oddi wrth laweroedd.

m pen. 13. 10. 1 Cor. 5. 4, 5. 1 Tim. 5. 20.

* Y "dyn" oedd y godinebwr; † y "cerydd" oedd ei ysgymmuniad, ei draddodi i Satan, i ddinystr y cnawd; ‡ y "llaweroedd" oedd yr holl eglwys wedi ymgynnull yn nghyd, a roes y cerydd hwnw arno. Mae yn debyg i'r cerydd hwnw fod dan fendith iddo, a chael effaith dda arno; am hyny dywed yr apostol ei fod yn "ddigon," heb achos llymder chwanegol tuag ato. Doethineb mawr mewn swyddogion eglwysig, yw gwybod pa le i roi terfyn ar geryddu; a pha bryd i dosturio wrth y ceryddedig, a'i dderbyn yn ol. Ceryddu chwanegol, a mwy na "digon," ar y dyn hwn, a fuasai nacâu ei dderbyn yn ol i'r eglwys ar broffes sobr o'i edifeirwch.

7 * Yn gymmaint ag [n] *y dylech,* yn y
gwrthwyneb, yn hytrach faddeu *iddo,* a'i ddi-
ddanu; † rhag [o] llyngcu y cyfryw gan [p] ormod
tristwch.

n Gal. 6. 1, 2. Eph. 4. 32. Col. 3. 13. 2 Thes. 3. 6, 14, 15. Heb. 12. 12—15. o pen. 5. 4. 2 Sam. 20. 19, 20. Salm 21. 9. a 56. 1, 2. a 57. 3. a 124. 3. Diar. 1. 12. Es. 28. 7. 1 Cor. 15. 54. p pen. 7. 10. Diar. 17. 22. Phil. 2. 27. 1 Thes. 4. 13.

* Yn hytrach nag ymddwyn yn angharedig mwyach tuag at y troseddwr, dylent yn y gwrthwyneb faddau iddo, a'i ddiddanu; † rhag iddo gael ei lyngcu gan ormod tristwch, meddyliau celyd am Dduw, am grefydd, a myned i annobaith. Dyma brif geryddwr y pechadur, wedi troi yn brif eiriolwr dros yr edifeiriol.

8 * Am hynny yr ydwyf yn attolwg i chwi,
[q] † gadarnhâu *eich* cariad tu ag atto ef.

q Gal. 5. 13. a 6. 1, 2, 10. Judas 22, 23.

* Dyma yr apostol yn awr yn *attolwg dros* y troseddwr, megys y buasai gynt yn *tystiolaethu yn ei erbyn:* † mae yn faer erfyn arnynt i gadarnâu eu cariad tuag ato, trwy ei dderbyn i'w cymdeithas a'u cymundeb, a chyd-ymdeimlo âg ef yn ei ofid a'i wasgfa; fel y byddai yn amlwg iddo fod eu cerydd hwynt, er ei fod yn llym, wedi ei roddi o'r un cariad ato, ac er llesâd iddo.

9 * Canys er mwyn hyn hefyd yr ysgrifen-
ais; [r] fel y gwybyddwn brawf o honoch, [s] a
ydych ufudd yn mhob peth.

r pen. 7. 12—15. a 8. 24. Ex. 16. 4. Deut. 8. 2, 16. a 13. 3. Phil. 2. 22. s pen. 7. 15. a 10. 6. Phil. 2. 12. 2 Thes. 3. 14. Philemon 21.

* Canys er mwyn hyn, gyda phethau eraill, yr ysgrifenais yr epistol o'r blaen atoch, ac yr ydwyf yn ysgrifenu hwn eto; † fel y gwybyddwn brawf o honoch, a ydych ufudd yn mhob peth: ac mae yn dda genyf glywed i chwi fod yn ufudd i ddiarddelwi y troseddwr, yn ol fy llythyr o'r blaen; a gobeithio y byddwch yn ufudd eto i faddau iddo, ei ddyddanu, a chadarnâu eich cariad ato ar ei edifeirwch, yn ol fy neisyfiad I yn y llythyr hwn. Fel hyn y caf brawf o honoch, pa ufudd-dod a roddwch i'm hawdurdod apostolaidd I, yr hon a roddwyd i mi gan Dduw.

10 * I'r [t] hwn yr ydych yn maddeu dim
iddo, † *yr wyf* finnau: ‡ canys os maddeuais
ddim, i'r hwn y maddeuais, er eich mwyn
chwi *y maddeuais,* ‖ yng ngolwg Crist;

t pen. 5. 20. Mat. 18. 18. Ioan 20. 23. 1 Cor. 5. 4.

* Nid maddau pechod y dyn, a dywedyd yn briodol, a feddylir wrth faddau iddo yn yr adnod hon, ac adn. 7;

gwaith Duw yw hyny, ac nis gallai eglwys Corinth na Phaul chwaith ei wneyd: ond wrth faddau yma, y deallir tynu ymaith gerydd eglwysig y troseddwr, a'i dderbyn i'r eglwys ar ei edifeirwch. † Os oedd y Corinthiaid yn maddau fel hyn iddo, yr oedd Paul hefyd yn maddau iddo yr un ffunud; yr oedd yn ymddiried i'w doethineb hwynt, ac yn barod i gyd-weithredu â hwynt, neu gydsynio â hwynt, i dderbyn y dyn yn ol. ‡ A phwy bynag yr oedd Paul fel hyn wedi maddau iddo yn mhlith y Corinthiaid, er eu mwyn hwynt yr oedd wedi maddau; o gariad atynt, ac er eu heddwch a'u cysur. ‖ Ond nid er eu mwyn hwynt heb ystyried a oedd yr Arglwydd Iesu yn foddlawn neu beidio; eithr yn ngolwg Crist, megys ger ei fron ef, yn ei enw ef, ac fel apostol trwy ei awdurdod ef.

11 * Fel na'n [u] siomer gan Satan: † canys nid ydym heb wybod ei ddichellion ef.

u pen. 11. 3, 14. 1 Cron. 21. 1, 2. Job 1. 11, 12. a 2. 3, 5, 9, 10. Zec. 3. 1—4. Luc 22. 31. Ioan 13. 2, 27. Act. 1. 25. 1 Cor. 7. 5. Eph. 6. 11, 12. 2 Tim. 2. 25, 26. 1 Pedr 5. 8. Dat. 2. 24. a 12. 9—11. a 13. 8.

* Yr oedd yr apostol yn fwy awyddus hefyd i dderbyn yr edifeiriol yn ol, ac i gyd-synio â'r Corinthiaid i wneyd hyny, rhag y caffai Satan, y gwrthwynebwr cyfrwys, fantais wrth iddynt oedi; un ai i demtio y troseddwr i annobaith; i ddwyn drygair ar y cristionogion, fel rhai tost-lym ac anfaddeugar; neu i ddigaloni eraill a syrthient i bechod; rhwystro dynion i dderbyn yr efengyl; cyffrôi ymraniadau chwanegol yn yr eglwys; neu trwy ryw foddion attal llwyddiant yr efengyl yn Corinth. † Oblegid nid oedd efe heb wybod amryw ac aneirif ddichellion y gelyn hwnw; a thrwy ba nifer o wahanol ystrywiau yr oedd ef yn ymgais i dwyllo a gwyro meddyliau dynion, ac aflonyddu heddwch yr eglwys. Mae hyn oll yn dangos i ni, pa mòr ofalus y dylem fod wrth geryddu a dysgyblu dynion; rhag y try Satan y pethau a fwriedir er daioni, er niwed i'r personau, i'r eglwys, ac i achos Duw.

12 * Eithr [x] gwedi i mi ddyfod i Troas † i *bregethu* efengyl Crist, [y] ‡ ac wedi agoryd i mi ddrws gan yr Arglwydd,

x Act. 20. 1—6. y Act. 14. 27. 1 Cor. 16. 9. Col. 4. 3. Dat. 3. 7, 8.

* Mae yn debyg y cenfydd y darllenydd rywbeth am Troas dàn Act. 16. 8, fel nad oes achos dywedyd dim am y lle hwnw yma. Nid y tro cyntaf y daeth Paul i Tröas, (Act. 16. 8,) a feddylir yma; na'r tro hwnw chwaith a grybwyllir Act. 20. 6: yr oedd y tro hwnw o Philippi yn Macedonia i Tröas, lle yr oedd y tro hwn o Tröas i Macedonia, (adn. 13.) Ond mae y rhan fwyaf yn barnu mai pan yr aeth yr apostol o Ephesus ydoedd, ac yr aeth drwy Tröas ar ei ffordd i Macedonia; am yr hwn mae hanes byr iawn gan Luc yn Act. 20. 1, 2: os nad y tro hwnw ydoedd, nid oes genym ddim hanes am y tro hwn o gwbl yn Actau yr apostolion. † Pa bryd bynag ydoedd, pregethu efengyl Crist ydoedd amcan Paul yno, fel yn mhob màn arall, yn ol ei ddanfoniad a gorchymyn yr Arglwydd Iesu i'w holl apostolion, Matth. 28. 19; Marc 16. 15. ‡ Un ai y rhyddid oedd ef yn gael yno i bregethu, neu y llwyddiant mawr oedd Duw yn roddi ar ei weinidogaeth ef. Gwel ar 1 Cor. 16. 9; ond nid oes yma sôn am y gwrthwynebwyr lawer fel yno.

13 [z] * Ni chefais lonydd yn fy yspryd, am na chefais [a] Titus fy mrawd: † eithr gan ganu yn iach iddynt, [b] mi a aethum ymaith i Macedonia.

z pen. 7. 5, 6. a pen. 8. 6, 16, 23. a 12. 18. Gal. 2. 1, 3. 2 Tim. 4. 10. Tit. 1. 4. b Act. 20. 1, 2.

* Er agoryd i'r apostol ddrws gan yr Arglwydd yn Tröas, eto ni chafodd lonydd yn ei ysbryd am na chafodd Titus ei anwyl frawd yno yn ol ei ddysgwyliad. Yr oedd yn dysgwyl Titus o Corinth, â gwybodaeth iddo pa effeithiau a gawsai ei lythyr cyntaf arnynt, a pha agwedd oedd ar y Corinthiaid o ran pethau ysbrydol. Gwel pen. 7. 6, 7. † O herwydd anesmwythder ei feddwl yn achos y Corinthiaid, ac heb gyfarfod â Thitus, efe a ganodd yn iach i'r eglwys yn Tröas, ac a aeth ymaith i Macedonia i chwilio am dano, lle y cafodd ef o'r diwedd, ac y cafodd hanesion cysurus am y Corinthiaid ganddo. pen. 7. 6, 7.

14 * Ond [c] i Dduw *y byddo* y diolch, [d] † yr hwn yn wastad sydd yn peri i ni oruchafiaeth yng Nghrist, ‡ ac sydd yn eglurhâu [e] arogledd ei wybodaeth trwom ni ym mhob lle.

c pen. 1. 11. a 8. 16. a 9. 15. Eph. 5. 20. 1 Thes. 3. 9. Dat. 7. 12. d Salm 106. 47. a 148. 14. Rhuf. 8. 37. 1 Cor. 15. 57. e adn. 15, 16. Can. 1. 3. Rhuf. 15. 19. Col. 1. 6, 23.

* Wrth sôn am y newyddion da a gawsai o Corinth, ei hyder o lwyddo i unioni a diwygio pethau beïus ac annymunol yno, y defnydd mawr oedd Duw yn wneyd o hóno, a'r oruchafiaeth oedd yn roddi iddo ef a'i gyfeillion yn mhob màn; mae yr apostol yma yn tòri allan yn sydyn i fendithio Duw â'i holl enaid, ac megys yn galw ar y Corinthiaid i gyduno âg ef mewn clodforedd iddo. † Er bod holl elyniaeth ealonau dynion, holl rym paganiaeth ac eilun-addoliaeth y Groegiaid, holl ragfarn yr Iuddewon, a holl byrth uffern, yn ei erbyn ef a'i fyddin fechan iawn; eto trwy nerth Duw yn Nghrist, yr oeddynt yn myned rhagddynt o ddinas i ddinas, ac o wlad i wlad, yn fuddugoliaethwyr gorfoleddus ar bob gwrthwynebiadau. ‡ Ac fel y byddid yn defnyddio llysiau peraidd ac arogl-darth gynt o amgylch buddugoliaethwyr, i'w croesawi yn orfoleddus adref o faes y gwaed; felly yr oedd Duw yn eglurâu arogledd ei wybodaeth trwyddynt hwy yn mhob lle. Nid yn unig yr oedd gwybodaeth o'r efengyl yn cael ei hegluro trwyddynt hwy; ond hefyd yr oedd gwerth, mawredd, gogoniant, a rhinwedd ac effeithiau hyfryd yr efengyl, yn cael eu hegluràu trwyddynt: yr oedd enw Crist, a'r ymadrodd am ei groes ef, fel yr enaint tywalltedig, yn arogli yn beraidd trwyddynt yn mhob màn.

15 * Canys [f] per-arogl Crist ydym ni i Dduw; [g] † yn y rhai cadwedig, ‡ ac yn y rhai colledig.

f Gen. 8. 21. Exod. 29. 18, 25. Ezec. 20. 41. Eph. 5. 2. Phil. 4. 18. g pen. 4. 3, 4. Es. 49. 5, 6. 1 Cor. 1. 18. 2 Thes. 2. 10.

* Yn eu gwaith mawr, a'r cyflawniad ffyddlawn o'u gweinidogaeth bwysig, yr oeddynt yn ber-arogl Crist i Dduw, sef yn gymmeradwy iawn gan Dduw yn a thrwy Grist. † Yr oedd Duw yn Nghrist yn cymmeradwyo eu llafur hwynt, gyda golwg ar y rhai cadwedig; i'r rhai yr oeddynt yn offerynau iachawdwriaeth a bywyd tragywyddol: ‡ ac er bod eraill yn dirmygu yr efengyl, ac yn gwrthod ei hyfryd lais hi, er eu colledigaeth; eto, o ran y rhai hyny hefyd, yr oeddynt hwy yn ber-aroglaidd ac yn gymmeradwy gan Dduw: "er nad ymgasglodd Israel, eto gogoneddus fyddaf fi yn ngolwg yr Arglwydd," ebai y prophwyd, Es. 49. 5.

16 * I'r naill *yr ydym* [h] yn arogl marwolaeth i farwolaeth; † ac i'r lleill, yn arogl bywyd i fywyd: ‡ a [i] phwy *sydd* ddigonol i'r pethau hyn?

h Luc 2. 34. Ioan 9. 39. Act. 13. 45—47. a 20. 26, 27. 1 Pedr 2. 7, 8. i pen. 3. 5, 6. a 12. 11. 1 Cor. 15. 10.

Per-arogl cymmeradwy i Dduw oedd yr apostolion yn y rhai colledig yn gystal â'r rhai cadwedig; ond nid felly i'r rhai colledig eu hunain. * I'r rhai hyny arogl marwolaeth i farwolaeth oeddynt: fel y mae aroglau peraidd yn hyfryd ac yn iachus i rai, ond yn niweidiol ac yn farwol i eraill; felly y mae per-arogl yr efengyl i wahanol ddynion. Mae hyd yn nôd yr efengyl yn ynfydrwydd, yn dramgwydd, yn anhyfryd, ac yn wrthodedig i rai, ac felly yn *achlysur* o chwanegu eu pechod, eu caledrwydd, eu damnedigaeth, a'u marwolaeth dragywyddol. † I'r lleill, sef y rhai cadwedig, yr oeddynt yn arogl bywyd i fywyd. I'r rhai a ordeiniwyd i fywyd tragywyddol, mae athrawiaeth yr efengyl yn hyfryd

awn, fel y per-arogl pereiddiaf, yn sirioli yr ysbryd-
oedd, yn adnewyddu yr iechyd, ac yn ymgeleddu y
bywyd; oblegid trwy dderbyn a charu y genadwri iach-
usol, maent yn ei phrofi yn fywyd ac iachawdwriaeth
i'w heneidiau. ‡ Gan fod gweinidogaeth yr efengyl yn
beth mòr fawr, a'r fath ganlyniadau dirfawr yn nglyn â
hi; pwy yn mhlith plant dynion sydd yn ddigonol i'r
fath waith pwysig? A phwy a feiddia ymaflyd yndde
heb grynu? Mae hyn, yn nghyd a'r adnod nesaf, yn
lled-gyfeirio at yr athrawon hunanol a gwobr-chwantus
yn Corinth, yn gystal ag yn dangos mòr bwysig oedd y
weinidogaeth ar feddwl Paul ei hun.

17 * Canys nid ydym ni, megis llawer, [k] yn gwneuthur masnach o air Duw: [l] † eithr megis o burdeb, ‡ eithr megis o Dduw, ‖ y'ngwydd Duw yr ydym yn llefaru § yng Nghrist.

k pen. 4. 2. a 11. 13—15. Jer. 5. 31. a 23. 27—32. Mat. 24. 24. 1 Tim. 1. 19, 20. a 4. 1—3. 2 Tim. 2. 6—18. a 4. 3, 4. Tit. 1. 11. 2 Pedr 2. 1—3. 1 Ioan 4. 1. 2 Ioan 7—11. Judas 4. Dat. 2. 14, 15, 20. a 12. 9. a 19. 20. l pen. 1. 12. a 4. 2. Act. 20. 20, 27.

* Y "llawer" yma oedd yr athrawon a soniwyd uchod, yn nghyd ag eraill o'r un egwyddorion mewn gwahanol fànau. † "Gwneuthur masnach:" dywedir fod y gair Groeg *kapêleuontes* o ystyr rymus iawn, ac yn cyfeirio at arferiad y rhai oedd yn masnachu mewn gwin a gwirodydd, y rhai a gymmysgent â dwfr er mwyn cael mwy o elw: ac mae y gair yn grŷf yn dangos tymher llygredig a drygionus y gau-athrawon; nid yn unig yn pregethu er mwyn budr-elw, ond hefyd yn llygru y wir athrawiaeth â chymmysgedd o gyfeiliornadau, er mwyn boddio dynion cnawdol, y rhai ni oddefent athrawiaeth iachus. † Nid oedd yr apostol a'i frodyr yn euog o beth felly; ond yn pregethu holl efengyl a chyngor Duw yn bur a digymmysg, fel y derbyniasent hi gan Grist; ac mewn purdeb ysbryd, egwyddor, a dyben, heb geisio eu llesâd eu hunain, ond llesâd eraill a gogoniant Duw. ‡ O Dduw yr oeddynt wedi derbyn eu cenadwri a'u danfoniad; ‖ yn ngŵydd Duw, chwiliwr y calonau yr oeddynt bob amser yn llefaru; § ac yn enw ac awdurdod Crist, yn gystal ag am Grist, yr oeddynt yn cyflawni eu gweinidogaeth fawr a phwysig.

PEN. III.

Am y ddeddf a'r efengyl, &c.

* AI dechreu yr ydym drachefn ein canmol ein hunain? † ai rhaid i ni, ‡ megis i rai, [b] wrth lythyrau canmoliaeth attoch chwi, neu *rai* canmoliaeth oddi wrthych chwi?

a pen. 2. 17. a 5. 12. a 10. 8, 12. a 12. 1, 19. 1 Cor. 3. 10. a 4. 15. a 10. 33. b Act. 18. 27. 1 Cor. 16. 3.

* Yr oedd gwrthwynebwyr beilchion a chenfigenus Paul yn Corinth yn barod i'w feïo ef am bob peth a ddywedai efe mewn amddiffyniad iddo ei hun, a dywedent mai ei ganmol ei hun yn rhodresgar y byddai: yr oedd efe yn gweled mai felly y dywedent am yr hyn sydd yn yr adnodau diweddaf o'r bennod o'r blaen; ac yma mae yn gofyn, a oedd y cristionogion yn gyffredin yn Corinth yn tybied ei fod ef mòr wageddus a hunanol a'i ganmol ei hun? ai hunan-ganmoliaeth rodresgar y galwent hwy hunan-amddiffyniad angenrheidiol? † A oedd yn angenrheidiol iddo ef a'i frodyr (pen. 1. 19,) wrth dystiolaethau dynol i'w canmol? A oedd yn angenrheidiol iddynt hwy wrth lythyrau canmoliaeth oddi wrth eglwysi eraill at y Corinthiaid. Ile yr oeddynt mòr gydnabyddus a chwedi llafurio cymmaint ac mòr ffyddlawn? ‡ Yr oedd rhai wedi dyfod i'w plith hwy yn ŵir, a chael eu derbyn, trwy y fath lythyrau pa fodd ynag y cawsent hwynt, ond nid oedd raid i Paul a'i gyfeillion wrth y fath dystiolaethau i'w cymmeradwyaeth yn Corinth. ‖ Nac ychwaith oddi wrth y Corinthiaid at eglwysi eraill. Nac oedd, nid oedd angen, ac nid oeddynt yn gofyn am y fath beth ganddynt: yr oedd eu personau a'u hymddygiadau hwy yn ddigon hysbys a chymmeradwy yn yr holl eglwysi yn mhob màn.

2 [c] * Ein llythyr ni ydych chwi † yn ysgrifenedig [d] yn ein calonnau, [e] ‡ *yr hwn* a ddeallir ac a ddarllenir gan bob dyn:

c 1 Cor. 3. 10. a 9. 1, 2. d pen. 7. 3. a 11. 11. a 12. 15. Phil. 1. 7. e Rhuf. 1. 8. 1 Thes. 1. 8.

* Yr oedd y cyfnewidiad rhyfeddol ac amlwg, a wnaethai Duw ar galonau a bucheddau y Corinthiaid, trwy weinidogaeth yr apostol a'i frodyr, yn ddigon o lythyr canmoliaeth ganddynt hwy; ac yn well na dim a allasai y Corinthiaid ysgrifenu yn eu hachos ac o'u plaid hwynt. † Fel hyn yr oedd Duw ei hunan wedi dwyn tystiolaeth o'u plaid hwy a'u gweinidogaeth, ac yr oedd y dystiolaeth hòno wedi ei hysgrifenu megys ar galonau yr apostol a'i gyfeillion mòr ddwfn, fel nas medrent byth ei hanghofio, na meddwl am dani un amser, heb orfoledd a diolchgarwch. ‡ Nid i'r apostol a'i frodyr yn unig yr oedd hyn yn hysbys; ond yr oedd yn hysbys hefyd i'r holl eglwysi yn mhob màn; ac mòr amlwg fel y gellid ei ddeall a'i ddarllen gan bob dyn a fedrai ddeall dim am y cyfryw bethau.

3 * *Gan fod* yn eglur mai [f] llythyr Crist *ydych,* [g] † wedi ei weini gennym ni, ‡ wedi ei ysgrifenu nid âg inc, ond âg Ysbryd [h] y Duw byw: [i] ‖ nid mewn llechau cerig, [k] eithr mewn llechau cnawdol y galon.

f Exod. 31. 18. Dat. 2. 1, 8, 12, 18. a 3. 1, 7, 14, 22. g 1 Cor. 3. 5—10. h pen. 6. 16. Jos. 3. 10. 1 Sam. 17. 26. Salm 42. 2. a 84. 2. Jer. 10. 10. Dan. 6. 26. Mat. 16. 16. 1 Thes. 1. 9. Heb. 9. 14. i Exod. 24. 12. a 34. 1. k Salm 40. 8. Jer. 31. 33. Ezec. 11. 19. a 36. 25—27. Heb. 8. 10. a 10. 16.

* Crist oedd wedi ysgrifenu ei gyfraith yn eu calonau, wedi eu cynnysgaethu â mawr ddoniau a grasau, a chwedi gwneyd y fath gyfnewidiad yn eu bucheddau; ac fel hyny yr oeddynt yn llythyr Crist, wedi ei ysgrifenu a'i gyhoeddi i'r byd ganddo ef ei hun: † Nid mewn modd digyfrwng: ond trwy weinidogaeth yr apostol a'i frodyr, y rhai a ddefnyddiodd efe fel offerynau, a thrwy fendithio eu llafur mòr amlwg, a dystiolaethodd i bawb mai ei weinidogion ef oeddynt, a'u bod yn gymmeradwy yn ei olwg. ‡ Nid âg inc ar bapur yr oedd y llythyr hwn wedi ei ysgrifenu; ond âg ysbryd y Duw byw, sef y "Crist," a enwyd o'r blaen, ac a elwir yma yn "Dduw byw," yn undeb y Tad, ac yn gystal â'r Tad: yr oedd y llythyr hwn wedi ei ysgrifenu, neu y gwaith grasol ar galonau y Corinthiaid wedi ei wneyd, trwy weithrediadau nerthol yr Ysbryd Glân. ‖ Nid mewn llechau cèrig yr oedd wedi ei ysgrifenu fel y deg gair deddf gynt; ac nid mewn calonau diadgenedlig, marwaidd, dideimlad, caled a gwrthnysig fel cèrig; ond ar lechau cnawdol y galon: hyny yw, ar galonau wedi eu hadnewyddu trwy ras, calonau o gig, yn derbyn argraffiadau sanctaidd ac ysbrydol y gwirionedd, yn ol yr addewid, Ezec. 36. 26.

4 * A [l] chyfryw hyder sydd genym trwy Grist ar [m] Dduw.

l pen. 2. 14. Phil. 1. 6. m Exod. 18. 19. 1 Thes. 1. 8.

* Yr oedd yr apostol yn hyderu ar Dduw trwy Grist, fod y gweithrediadau sanctaidd ac achubol a enwyd, wedi cael eu gwneyd ar y Corinthiaid: ac yr arddelwai Duw trwy Grist ei weinidogaeth ef a'i frodyr o hyd yn mhellach, i weithredu yn gyffelyb ar eraill yn mhob màn, er ei ogoniant ei hun, ac amddiffyniad chwanegol i'w henwau a'u cymmeriad hwythau.

5 * Nid [n] o herwydd ein bod yn ddigonol o honom ein hunain † i feddwl dim megis o honom ein hunain; [o] ‡ eithr ein digonedd ni *sydd* o Dduw.

n pen. 2. 16. a 4. 7. Exod. 4. 10. Ioan 15. 5. o pen. 12. 9. Exod. 4. 11—16. Jer. 1. 6—10. Mat. 10. 19, 20. Luc 21. 15. a 24. 49. 1 Cor. 3. 6, 10. a 15. 10. Phil. 2. 13. a 4. 13. Iago 1. 17.

* Nid oedd efe na'i gyfeillion yn hyderu ynddynt eu hunain, eu bod yn ddigonol o honynt eu hunain i'r fath waith mawr a phregethu yr efengyl, a throi calonau

dynion. † O honynt eu hunain, o ran doethineb naturiol, doniau, neu dueddiadau da, hwy a wyddent nad oeddynt yn ddigonol i feddwl dim daionus, a pha faint llai i weithredu yn ddaionus ar feddyliau a chalonau eraill. ‡ Ond yr oedd eu holl addasrwydd a'u digonedd i feddwl, llefaru, a gweithredu yn dda eu hunain, ac i lefaru er dychweliad effeithiol i eraill hefyd, yn hollawl o Dduw: am hyny yr oeddynt yn ymddiried yn hollawl ynddo ef am eu digonedd, ac yn priodoli yr holl ogoniant iddo ef am eu llwyddiant.

6 * Yr hwn hefyd [p] a'n gwnaeth ni yn weinidogion cymmwys [q] y testament newydd; [r] † nid i'r llythyren, ‡ ond i'r ysbryd: [s] || canys y mae y llythyren yn lladd, [t] ond yr ysbryd sydd yn bywhâu.

p pen. 5. 18—20. Mat. 13. 52. Rhuf. 1. 5. 1 Cor. 3. 5, 10. a 12. 28. Eph. 3. 7. a 4. 11, 12. Col. 1. 25—29. 1 Tim. 1. 11, 12. a 4. 6. 2 Tim. 1. 11. q adn. 14. Jer. 31. 31. Mat. 26. 28. Marc 14. 24. Luc 22. 20. 1 Cor. 11. 25. Heb. 7. 22. a 9. 15—20. a 12. 24. a 13. 20. r Rhuf. 2. 27—29. a 7. 6. s adn. 7, 9. Deut. 27. 26. Rhuf. 3. 20. a 4. 15. a 7. 9—11. Gal. 3. 10—12, 21, 22. t Ioan 6. 63. Rhuf. 8. 2. 1 Ioan 1. 1.

* Digonedd gras, doniau, cynnorthwy, ac arddelwad Duw arnynt hwy a'u llafur, a'u gwnaeth hwy yn weinidogion cymhwys y Testament Newydd; i bregethu yr efengyl, ac arddangos y cyfammod newydd yn ei eglurdeb, ei radlonrwydd, a'i gyfiawnder mwyaf. Nid eu *cael* yn gymhwys a wnaeth Duw, ond eu *gwneyd* yn gymhwys: nid yw efe yn *cael* neb yn gymhwys at un ran o'i waith ef; ond efe a fedr *wneyd* y neb a fyno yn gymhwys, hyd yn nôd y gwaelaf a'r mwyaf anghymhwys. † Nid gweinidogion y *ddeddf*, o'r hon mae yr athrawon Iuddewaidd mòr hoff, ac yr hon a ellir ei galw yn *llythyren*, (adn. 7; Rhuf. 2. 27,) gyda chyfeiriad at yr ysgrifeniad o hóni â bŷs Duw, ac i arwyddo gwendid yr oruchwyliaeth bresenol hòno, yr hon oedd ynddi ei hunan yn llythyren farw. ‡ Ond yr oeddynt hwy yn weinidogion yr efengyl, yr hon a roddwyd trwy yr Ysbryd, ac a arddelwir hefyd gan yr Ysbryd Glân, fel goruchwyliaeth a moddion i ddybenion ysbrydol, effeithiol ac achubol. || Mae y llythyren, neu y ddeddf ynddi ei hunan yn lladd, trwy ddangos i ddyn ei ddyledswydd, ac heb roi dim cymmorth iddo i gyflawni ei ddyledswydd, ac eto yn ei goll-farnu ef am bob diffyg; ac felly yn dinystrio ei holl obaith ef am fywyd, ac yn ei rwymo i golledigaeth dragywyddol tra mae efe dani hi. § Ond mae yr efengyl, gyda goleuni a nerth yr Ysbryd Glân, yn foddion i wneuthur pechaduriaid meirwon yn fyw i Dduw, i'w dwyn hwy i gyflwr o gymmeradwyaeth gydag ef, ac i fywyd tragywyddol. Wrth y *llythyren* a'r *ysbryd* yma, mae yn amlwg mai goruchwyliaeth y ddeddf a goruchwyliaeth yr efengyl a feddylir; sef holl oruchwyliaeth y ddeddf cyn dyfodiad y Messïah, oblegid mae yr apostol yn sôn am ei "dilëad" hi yn adn. 7, 11.

7 * Ac os [u] bu gweinidogaeth angau, [x] † mewn llythyrenau wedi eu hargraffu ar gerrig, [y] ‡ mewn gogoniant, fel [z] na allai plant yr Israel edrych yn graff ar wyneb Moses, gan ogoniant ei wynebpryd, [a] || yr hwn *ogoniant* a ddilëwyd •

u adn. 9. Gwel ar s. adn. 6. x adn. 3. Exod. 24. 12. a 31. 18. a 32. 15, 16, 19. a 34. 1. Deut. 4. 13. a 5. 22. a 9. 9—11, 15. a 10. 1—4. Heb. 9. 4. y Deut. 4. 8. Neh. 9. 13. Salm 19. 7, 8. a 119. 97, 127, 128, 174. Rhuf. 7. 12—14, 22. Gal. 3. 21. z Exod. 34. 29—35. Luc 9. 29—31. Act. 6. 15. a adn. 10, 11, 14. Rhuf. 10. 4. 1 Cor. 13. 10.

* Sef y "llythyren sydd yn lladd," gwel ar adn. 6. † Mewn llythyrenau ar gèrig yr argraffwyd y ddeddf gynt; ac nid oedd ond gweinidogaeth angau, fel y sylwyd uchod, gan ei bod yn dedfrydu pawb a'i troseddai i felltith tragywyddol. ‡ Ac eto, rhoddwyd y weinidogaeth hon gyda'r fath ogoniant ar ben Sinai, a gwyneb Moses yn dysgleirio wedi bod yn ymddiddan â Duw, fel na allai plant Israel edrych yn graff arno gan ogoniant ei wyneb-pryd. || Ond nid oedd gwyneb-pryd Moses bob amser yn dysgleirio, ac ni pharâodd ei oruchwyliaeth ef nâ'i gogoniant ond hyd ddyfodiad y Messïah. dilëwyd hi â'i gogoniant yn ngoleuni goruchwyliaeth yr efengyl, fel y mae lloer a sêr yn diflanu pan godo haul. Yn yr adnodau hyn mae yr apostol yn dangos y rhagoriaeth rhwng y ddeddf a'r efengyl, y naill yn weinidogaeth angau, a damnedigaeth; y llall yn weinidogaeth cyfiawnder a bywyd: y naill yn ogoneddus mewn rhan, ac i gael ei dilëu; a'r llall i ragori mewn gogoniant, ac i barâu. Oddi ar hyn mae efe hefyd yn dangos y rhagoriaeth mawr oedd i weinidogion cymhwys y Testament Newydd, ar yr athrawon deddfol oedd yn llygru y Corinthiaid, ac eto yn cael eu parchu ganddynt yn fwy nâ'u haeddiant.

8 * Pa fodd yn hytrach na bydd [b] gweinidogaeth yr Ysbryd † mewn gogoniant?

b adn. 6, 17. pen. 11. 4. Es. 11. 2. a 44. 3. a 59. 21. Joel 2. 28, 29. Ioan 1. 17. a 7. 39. Act. 2. 17, 18, 32, 33. Rhuf. 8. 9—16. 1 Cor. 3. 16. a 12. 4—11. Gal. 3. 2—5, 14. a 5. 5, 22, 23. Eph. 2. 18. 2 Thes. 2. 13. 1 Pedr 1. 2. Judas 19, 20.

* Gweinidogaeth yr Ysbryd oedd gweinidogaeth y Testament Newydd, gweinidogaeth yr efengyl, yn cael ei harddelwi gan yr Ysbryd Glân, er bywyd ysbrydol a thragywyddol i bechaduriaid: nid oedd dim a fynai yr Ysbryd â gweinidogaeth ddeddfol y gau-athrawon. † Os oedd y fath ogoniant am ychydig ar roddiad y ddeddf, ac ar Moses fel ei gweinidog hi; pa fodd yn hytrach na bydd yr efengyl, a'i gweinidogion cymhwys hi, yn llawer mwy mewn gogoniant? Fel hyn mae yr apostol yn mawrâu yr efengyl uwchlaw y ddeddf; ac nid hyny yn unig, ond hefyd yn mawrâu ei swydd, fel gweinidog yr efengyl, uwchlaw gweinidogaeth Moses ei hun, chwaithach yr athrawon deddfol, y rhai a gymmerent arnynt fod yn ddysgyblion mòr wresog iddo.

9 * Canys os [c] *bu* gweinidogaeth damnedigaeth *yn* ogoniant, † mwy o lawer y mae [d] gweinidogaeth cyfiawnder [e] yn rhagori mewn gogoniant.

c Gwel ar adn. 6, 7. Exod. 19. 12—19. a 20. 18, 19. Rhuf. 1. 18. a 8. 3, 4. Gal. 3. 10. Heb. 12. 18—21. d pen. 5. 21. Es. 46. 13. Jer. 23. 6. Rhuf. 1. 17. a 3. 21, 22. a 4. 11. a 5. 15—21. a 10. 3—10. 1 Cor. 1. 30. Gal. 5. 4, 5. Phil. 3. 9. 2 Pedr 1. 1. e adn. 10, 11. 1 Cor. 15. 41. Heb. 3. 5, 6.

* Os oedd y fath ogoniant, fel mae yn amlwg fod gogoniant tra ofnadwy, ar y weinidogaeth hòno oedd yn gadael dynion dàn gondemniad; † yn sicr rhaid i'r weinidogaeth hòno sydd yn datguddio cyfiawnder Duw, er cyfiawnâd i bawb a gredant yn Nghrist; a thrwy yr hon mae ffydd ei hunan, trwy yr hon y credir i gyfiawnder, yn cael ei gweithio yn y galon; rhaid i hon, meddaf, ragori yn annrhaethol mewn gogoniant; fel y mae gogoniant Duw yn ei waith yn achub trwy gyfiawnder, yn dysgleirio yn danbeidiach na phan mae yn condemnio yn ei gyfiawnder. Tybia rhai fod y gogoniant ar wyneb Moses, a'r tafodau gwahanedig megys o dân ar yr apostolion, yn meddwl yr apostol yn yr adnodau hyn, a'i fod yn eu cyferbynu i'w gilydd, gan roddi rhagoriaeth gogoniant i'r olaf.

10 * Canys hefyd [f] ni ogoneddwyd yr hyn a ogoneddwyd yn y rhan hon, † o herwydd y gogoniant tra rhagorol.

f Job 25. 5. Es. 24. 23. Hag. 2. 3, 7—9. Act. 26. 13. Phil. 3, 7, 8. 2 Pedr 1. 17. Dat. 21. 23, 24. a 22. 5.

* Oblegid mae gweinidogaeth y ddeddf, er ei bod yn dra gogoneddus mewn ymddangosiad, yn y rhoddiad mawreddig o hóni ar fynydd Sinai, yn colli ei holl ogoniant, ac yn diflanu ymaith, fel goleuad bychan pan gyfodo un mwy; † ac ni oddef un gymhariaeth â'r oruchwyliaeth efengylaidd o ras a goleuni nefol, oblegid rhagoroldeb a pharâd yr efengyl rhagor y ddeddf. Yr oedd rhagoroldeb a gogoniant gwirioneddol yn y ddeddf a'i holl oruchwyliaeth, fel yr oedd yn ddatguddiad o ewyllys Duw, a chwedi ei rhoddi a'i sefydlu gan Dduw; ac am hyny e roddes Duw ogoniant arni wrth ei rhoi: ond eto, wrth ei chymharu â'r efengyl, nid oedd iddi mewn cymhariaeth ddim gogoniant, gan gymmaint

edd rhagoroldeb yr efengyl. *Dyledswydd* a *digofain* edd y naill yn ddatguddio; a'r llall yn datguddio *gras*, *rugaredd*, *maddeuant*, a *bywyd tragywyddol* i bechadur, a hyny mewn cysondeb perffaith â chyfiawnder a gogoniant Duw. "Yn y rhan hon:" sef yn y gymharaeth rhyngddi â'r efengyl: yn y rhan, neu yn yr ystyr hyny, ni ogoneddwyd yr hyn a ogoneddwyd.

11 * Oblegid [g] os *bu* yr hyn a ddilëid yn ogoneddus, [h] † mwy o lawer *y bydd* yr hyn sydd yn aros yn ogoneddus.

g Gwel ar a. adn. 7. Heb. 7. 21—25. a 8. 13. a 12. 25—29.
h adn. 6. pen. 4. 1.

* Heblaw bod yr efengyl ynddi ei hun yn rhagori ar y ddeddf ynddi ei hun, yr oedd hefyd yn rhagori arni yn ei pharâd: nid oedd holl oruchwyliaeth y ddeddf, er mòr ogoneddus ydoedd, ond cysgod, ac i gael ei "dilëu;" sylwedd a gwirionedd oedd yr efengyl, ac i "aros" hyd ddiwedd amser. * Mae y ddeddf, o ran ei seremoniau a'i goruchwyliaeth gysgodol, wedi ei dilëu "o herwydd ei llesgedd a'i hafles:" nid oes mwyach ddim aberthau, offeiriaid a Lefiaid, na "chyssegr bydol," na dim o'u heisiau; † ond dywedodd ein Hiachawdwr y byddai i'r efengyl gael ei phregethu trwy yr holl fyd, ac hyd ddiwedd y byd. Myned rhagddi mewn gogoniant mae yr efengyl, hyd yn mherffaith ogoniant y nefoedd byth.

12 * Am hynny gan fod gennym gyfryw obbaith, [i] † yr ydym yn arfer hyfder mawr.

i pen. 4. 2, 3, 13. Ioan 10. 24. a 16. 25, 29. 1 Cor. 14. 19. Col. 4. 4.

* Gan hyny, gan fod gan yr apostol a'i gyfeillion "gyfryw obaith," eu bod wedi cael eu gwneuthur gan Dduw yn weinidogion cymhwys o'r oruchwyliaeth ragorol hòno, drwy yr hon mae dawn cyfiawnder, bywyd ysbrydol, a lliosowgrwydd o ras yn cael eu rhoddi i ddynion; † yr oeddynt yn arfer hyfder mawr, i draethu y gair yn ddiofn, a thraddodi holl gyngor Duw, heb attal dim o'r pethau buddiol. Nid oeddynt yn ofni nac yn digaloni ar y naill law; ac nid oeddynt yn defnyddio ymadroddion gwenieithus, coegion, a gorddysgedig ar y llaw arall; ond yn pregethu yr efengyl yn ei phurdeb syml, a chyda "hyfder mawr."

13 Ac nid megis y [k] gosododd Moses orchudd ar ei wyneb, [l] † fel nad edrychai plant Israel yn graff [m] ar ddiwedd yr hyn a ddilëid.

k Exod. 34. 33—35. l adn. 18. m Rhuf. 10. 4. Gal. 3. 23, 24. Eph. 2. 14, 15. Col. 2. 17. Heb. 10. 1—9.

* Nid oeddynt hwy mewn un modd yn cuddio prydferthwch, ac yn llènu gogoniant yr efengyl; ac nid oedd eu hathrawiaeth hwy yn guddiedig mewn tywyllwch ac amwysedd, neu dàn gysgodau fel y buasai yr hen oruchwyliaeth; o'r hyn yr oedd y llèn ar wyneb Moses yn arwydd, neu ffugr. † Fel yr oedd y llèn hon yn cuddio dysgleirdeb ei wyneb-pryd ef, felly yr oedd tywyllwch a chysgodau yr oruchwyliaeth hòno yn cuddio ei gwir ogoniant hi; fel nas gallai plant Israel edrych yn graff, yn eglur, ac yn sefydlog ar Grist, Diwedd mawr, Cynnwysiad, a Sylwedd, y seremoniau hyny, y rhai oedd yn fuan i gael eu dilëu. Hyd yn nod credinwyr yr oruchwyliaeth hòno, nid oeddynt yn cael ond ambell i gip-olwg, aneglur a diflanawl, ar y Gwrthddrych gogoneddus hwnw; ac anghredinwyr, nid oeddynt yn edrych yn mhellach na'r gosodiadau allanol, oddigerth fel yr oeddynt yn edrych am waredwr tymmorawl a Brenin.

14 * Eithr [n] dallwyd eu meddyliau hwynt; † canys hyd y dydd heddyw y mae yr un gorchudd, ‡ wrth ddarllen yn yr hen destament, yn aros heb ei ddatguddio; [o] ‖ yr hwn yng Nghrist a ddilëir.

n pen. 4. 3, 4. Salm 69. 23. Es. 6. 10. a 29. 10—12. a 42. 18—20. a 44. 18. a 56. 10. a 59. 10. Jer. 5. 21. Ezec. 12. 2. Mat. 6 28. a 13. 13—15. Ioan 9. 39—41. a 12. 40. Act. 28. 26, 27. Rhuf. 11. 8—10, 25. o pen. 4. 6. Es. 25. 7. Mat. 16. 17. Luc 18. 31—34. a 24. 25—27, 44—46. Ioan 8. 12. a 12. 46. Act. 16. 14. a 26. 18. Eph. 1. 17—20.

* Mae yn debyg bod y llèn ar wyneb Moses hefyd, yn cysgodi dallineb yr Iuddewon, gan falchder, rhagfarn, a chwantau cnawdol; yr hyn oedd yn dallu eu meddyliau, ac fel llèn ar eu calonau, yn chwanegol at y llèn oedd wedi ei thafluo dros yr oruchwyliaeth seremoniol. † Yr oedd y llèn hon yn aros ar feddyliau yr Iuddewon fel cenedl o hyd, yn cauad eu calonau hwy yn erbyn y gwirionedd, hyd yn nôd wedi i oleuni yr efengyl ddangos iddynt wir feddwl ac ystyr y gosodiadau seremoniol: ‡ oblegid er eu bod yn darllen prophwydoliaethau ac addewidion yr Hen Destament, am y Messiah a'i deyrnas ysbrydol, bob sabbath yn eu synagogau; yr oedd y llèn yn aros ar eu calonau hwynt, fel na ddeallent, na chredent, ac na chaent ddim lles ysbrydol oddi wrthynt. ‖ Mae y llèn ddeublyg hon, ar yr Hen Destament ac ar galonau yr Iuddewon hefyd, i gael ei dilëu yn Nghrist; mae ei athrawiaeth ef yn yr efengyl yn ei symmud oddi ar yr Hen Destament, a ffydd ynddo ef, trwy ddysgeidiaeth a goleuni yr Ysbryd Glân, yn ei symmud oddi ar y meddwl a'r galon; a'r credadyn yn cael ei alluogi i ddeall meddwl ysbrydol y cysgodau, y prophwydoliaethau, ac addewidion yr holl ysgrythyr. Mae yn amlwg fod yr apostol yn yr adnodau hyn yn sôn am ddwy lèn, un ar gysgodau yr Hen Destament, a'r llall ar feddyliau y bobl wrth ei ddarllen: y *gyntaf* a feddylir yn adn. 13: yr *ail* a feddylir yn nechreu yr adnod hon, ac adn. 15; ac efallai bod y ddwy i'w deall yn niwedd yr adnod hon, ac adn. 16. Arwyddai y gorchudd ar wyneb Moses bob un o'r ddwy; y dilëir y ddwy pan ddychweler yr Iuddewon at Grist.

15 * Eithr hyd y dydd heddyw, † pan ddarllenir Moses, [p] ‡ y mae y gorchudd ar eu calon hwynt.

p Act. 13. 27—29.

* "Hyd heddyw" pan yr oedd yr apostol yn ysgrifenu, ac hyd ein heddyw ninnau ysywaeth; † pan ddarllenid llyfrau Moses, a'r holl Hen Destament yn wir, yn eu synagogau hwy, fel y sylwyd uchod; (adn. 14,) ‡ mae y gorchudd yn aros ar galonau yr Iuddewon; a chyda eu holl ddiwydrwydd, eu sylw manol ar y ddeddf, a'u holl barch iddi, nis gallant ei deall yn ysbrydol, nac mewn modd achubol, am na fynant gredu mai Iesu oedd y Messiah, sylwedd a diwedd yr holl gysgodau a'r holl ddeddf.

16 * Ond [q] pan ymchwelo at yr Arglwydd, [r] † tynnir ymaith y gorchudd.

q Exod. 34. 34. Deut. 4. 30. a 30. 10. Galar. 3. 40. Hos. 3. 4, 5. Rhuf. 11. 25—27. r Es. 25. 7. a 29. 18. a 54. 13. Jer. 31. 34. Ioan 6. 45, 46.

* Ond, fel y tynai Moses y llèn oddi ar ei wyneb, pan drôai oddi wrth y bobl i fyned at Dduw; (Exod. 34. 34.) felly hefyd pan ymchwelo rhai personau o'r Iuddewon at yr Arglwydd, a phan ddelo yr amser dedwydd i holl gorph y bobl hyny gael eu dychwelyd fel un gŵr at yr Arglwydd Iesu; † yna tynir ymaith y gorchudd: tynir ymaith y gorchudd o ddallineb oddi ar eu calonau hwynt, ac yna hwy a ddeallant yr Hen Destament yn eglur yn ngoleuni yr efengyl. Ac mae hyn yn sicr o gymmeryd lle, i'r genedl yn gyffredin; pryd y deuant i gredu yn eu Messiah hir wrthodedig, fel y rhagfynegwyd gan yr holl brophwydi.

17 * Eithr [s] yr Arglwydd yw yr Ysbryd? [t] † a lle *mae* Ysbryd yr Arglwydd, yno *y mae* rhyddid.

s adn. 6. Ioan 6. 63. 1 Cor. 15. 45. t Salm 51. 12. Es. 61. 1. Rhuf. 8. 2, 15, 16. Gal. 4. 6. 2 Tim. 1. 7.

* Eithr yr Arglwydd Iesu Grist, yr hwn a dyn ymaith y gorchudd oddi ar galonau yr Iuddewon, efe ei hun, o ran ei Dduwdod, ac mewn ffordd o enwogrwydd, yw yr Ysbryd, fel y dywedir fod Duw yn Ysbryd, (Ioan 4. 24,) ac yn ei swydd gyfryngol mae efe yn "ysbryd yn bywâu;" (1 Cor. 15. 45,) "a'r geiriau mae efe yn

eu llefaru, ysbryd a bywyd ydynt;" (Ioan 6. 63,) gan fod ganddo allu "i fywâu y rhai a fyno;" (Ioan 5. 21,) ac i ddanfon yr Ysbryd Glân i fywâu eneidiau meirwon trwy yr efengyl. Efe yw yr *Ysbryd* hefyd, mewn cyferbyniad i'r *llythyren* yn adn. 6; ato ef fel Ysbryd, yr oedd y llythyren, sef yr holl ddeddf, yn cyfeirio; ac hebddo ef, nid yw pob athrawiaeth, addewidion, gorchymynion, ac ordinâdau, ond llythyren farw, a chorph difywyd o grefydd: mae nerth, bywyd, ac ysbrydolrwydd y cwbl, a phob rhan o grefydd, yn deilliaw trwy yr undeb â Christ, perthynas â'i berson, ei gyfryngdod, a'i ras ef; ac heb ffydd ynddo ef, a gras o hono ef, nid yw crefydd neb ond "rhith duwioldeb:" yr Arglwydd yw yr Ysbryd. † A lle mae Ysbryd yr Arglwydd, neu yr Arglwydd Iesu trwy ei Ysbryd, yn preswylio yn y galon, yno y mae rhyddid; rhyddid oddiwrth ddallineb y meddwl, oddiwrth gaethiwed deddfol ac ysbryd caethiwed, oddiwrth euogrwydd ac arglwyddiaeth pechod, oddiwrth felltith a chondemniad y ddeddf, ac oddiwrth lywodraeth Satan ac ofn dynion. Ac mewn canlyniad i hyn, mae hefyd ryddid ysbrydol, sanctaidd a hyfrydol, i nesâu at Dduw, ac i gymdeithasu âg ef, fel ein Duw cymmodlawn a'n Tad anwylaf.

18 * Eithr nyni oll [u] † âg wyneb agored, ‡ yn edrych ar [x] ogoniant yr Arglwydd [y] ‖ megis mewn drych, [z] § a newidir i'r unrhyw ddelw, * o ogoniant i ogoniant, † megis gan Yspryd yr Arglwydd.

u adn. 13. x 1 Cor. 13. 12. Iago 1. 23. y pen. 4. 4, 6. Ioan 1. 14. a 12. 41. 1 Tim. 1. 11. z pen. 5. 17. Rhuf. 8. 29. a 12. 2. a 13. 14. 1 Cor. 15. 49. Gal. 6. 15. Eph. 4. 22—24. Col. 3. 10. Tit. 3. 5. 2 Pedr 1. 5—9.

* "Nyni oll:" nyni yr apostolion oll, medd rhai, ond yr holl gorph o gredinwyr, mae yn debyg, oedd yr apostol yn feddwl wrth y "nyni oll" yma. Mae yr holl saint, y rhai mae Ysbryd yr Arglwydd ynddynt, y rhai a ddygwyd i oleuni a rhyddid yr efengyl, ac a waredwyd oddi wrth ddallineb ac annwybodaeth eu calonau; † yn awr "âg wyneb agored," nid trwy gysgodau gorchuddiawl yr hen oruchwyliaeth, nac â gorchudd ar eu calonau chwaith, ‡ yn edrych drwy ffydd ar ogoniant dysglaer a diorchudd yr Arglwydd Iesu, yn yr hwn y cyflawnwyd yr holl gyfraith, ac yr eglurwyd ac y mawrâwyd holl briodoliaethau Duw yn ogoneddus iawn ac mewn cyd-gordiad perffaith. ‖ Yr efengyl a'i gweinidogaeth ddysglaer, yn ddiammau, yw y "drych" yn mha un mae y saint yn gweled gogoniant yr Arglwydd; mewn cyferbyniad i weinidogaeth gysgodawl y seremoniau dàn yr hen oruchwyliaeth. § Nid golwg aneffeithiol yw yr olwg ar ogoniant yr Arglwydd Iesu; ond mae yn cyfnewid y saint i'r unrhyw ddelw âg ef ei hun, fel yr oedd gweled gogoniant Duw yn peri i wyneb Moses ddysgleirio gynt. * Delw ogoneddus ydyw hon; a pho amlaf ac egluraf mae y credadyn yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd, mwy-fwy mae y ddelw yn cynnyddu, o ogoniant i ogoniant, hyd oni byddo yr enaid yn berffaith ar ei ddelw ef o'r diwedd yn ngoniant y nef. † "Megys gan yr Arglwydd yr Ysbryd," yn llythyrenol yn ol y Groeg. Yr Arglwydd Iesu trwy ei Ysbryd sydd yn gwneyd hyn oll, trwy air Duw yn ngenau ei genadon; yn datguddio gogoniant Crist i'r credinwyr, ac yn argraffu ei ddelw ogoneddus ef arnynt hwythau drwy hyny.

PEN. IV.

Darfod i Paul ddangos ei hun yn weinidog ffyddlawn i Grist, &c.

* AM hynny [a] gan fod i ni y weinidogaeth hon, [b] † megis y cawsom drugaredd, [c] ‡ nid ydym yn pallu;

a pen. 3. 6, 12. a 5. 18. Eph. 3. 7, 8. b 1 Cor. 7. 25. 1 Tim. 1. 13. 1 Pedr 2. 10. c adn. 16. Es. 40. 30. Gal. 6. 9. Eph. 3. 13. Phil. 4. 13. 2 Thes. 3. 13. Heb. 12. 3. Dat. 2. 3.

* Gweinidogaeth yr efengyl, gweinidogaeth mòr arderchog, yn rhagori cymmaint ar weinidogaeth y ddeddf, fel y dangoswyd yn y bennod o'r blaen; a gweinidogaeth mòr effeithiol a grasol ar ac i eneidiau dynion. † Gan i'r apostol a'i frodyr, o drugaredd a gras Duw iddynt eu hunain, a thrwyddynt hwy i filoedd eraill, gael y weinidogaeth hon; ‡ nid oeddynt yn pallu: nid oeddynt yn llwfrâu yn wyneb peryglon, caledi, a dyoddefiadau oedd yn eu cyfarfod: nid oeddynt yn cilio oddi wrth eu gwaith, nac yn ymollwng yn ddiffygiol dano.

2 * Eithr *ni* a [d] ymwrthodasom â chuddiedig bethau cywilydd; [e] † heb rodio mewn cyfrwysdra, ‡ na thrin gair Duw yn dwyllodrus, ‖ eithr [f] trwy eglurhâd y gwirionedd yr ydym yn ein canmol ein hun wrth bob cydwybod dynion y'ngolwg Duw.

d 1 Cor. 4. 5. e pen. 1. 12. a 2. 17. a 11. 3, 6, 13—15. Eph. 4. 14. 1 Thes. 2. 3—5. f pen. 5. 11. a 6. 4—7.

* Yr oedd ef a'i frodyr yn ymwrthod gyda'r atgasrwydd mwyaf, nid yn unig â chyhoeddus bethau cywilydd, ond hefyd â chuddiedig a dirgel bethau cywilydd: yr hyn nis gallai neb o'r offeiriaid paganaidd, llawer o'r offeiriaid Iuddewig, a'r rhan fwyaf o'r gau-athrawon cristionogaidd, ei ddywedyd. Diammau fod yr apostol yn cyfeirio at dwyll a hoced, a bucheddau aflan dirgel, rhai o'r gau-athrawon yn Corinth. † Nid oeddynt hwy fel y rhai hyny yn arfer cyfrwysdra pechadurus yn eu hymarweddiad na'u gweinidogaeth; yn proffesu un peth, ac yn amcanu peth arall, yn gorchuddio cybyddod, awydd, a blysiau cnawdol, â rhith o grefyddgarwch a ffug-sancteiddrwydd. ‡ Nid oeddynt yn llunio eu hathrawiaeth yn dwyllodrus, i'w haddasu at ragfarn a thymherau dynion cnawdol, er parch ac elw iddynt eu hunain; ac nid oeddynt yn pregethu gair Duw i ddybenion felly. ‖ Pregethu y gwirionedd pur, yn ei eglurdeb mwyaf, yr oeddynt hwy, yn ddidderbyn wyneb i bawb; § ac fel hyny yr oeddynt yn eu canmol eu hunain wrth bob cydwybod dynion yn ngolwg Duw. Yr oedd tystiolaeth yn nghydwybod pawb, mai dynion gonest oeddynt, wrth y gwirionedd eglur oeddynt yn draddodi, ac wrth eu hymarweddiad sanctaidd a hunanymwadol: ac yr oeddynt yn ymdrechu i hyn yn ngolwg Duw yn wastadol.

3 * Ac os [g] cuddiedig yw ein hefengyl ni, [h] † yn y rhai colledig y mae yn guddiedig:

g Rhuf. 2. 16. 1 Thes. 1. 5. 1 Tim. 1. 11. h adn. 4. pen. 2. 15, 16. a 3. 14. Mat. 11. 25. 1 Cor. 1. 18. 2 Thes. 2. 9—11.

* "Ein hefengyl ni:" sef yr efengyl a dderbyniasom ni gan Grist, i'w chredu ein hunain a'i phregethu i eraill. Gwedi ein holl ymdrech ni, y dawn a gawsom, a'r cymmorth a rodded i ni, i bregethu yr efengyl hon yn eglurâd y gwirionedd; os yw yn guddiedig wedi y cwbl, o ran ei gwerth a'i gogoniant; o herwydd y gorchudd sydd ar galonau dynion y mae hyny: † ac mae hyn yn brawf mai mewn cyflwr colledig y maent hyd yma, ac mai colledig a fyddant yn y diwedd os byddant byw a marw a'r efengyl yn guddiedig iddynt.

4 * Yn y rhai [i] y dallodd [k] duw y byd hwn feddyliau y rhai digred, † fel na [l] thywynai iddynt [m] lewyrch ‡ efengyl gogoniant Crist, ‖ yr hwn yw [n] delw Duw.

i Mat. 4. 8, 9. Ioan 12. 31. a 14. 30. a 16. 11. 1 Cor. 10. 20. Eph. 2. 2. a 6. 12. 1 Ioan 5. 19. Dat. 20. 2, 3. k pen. 3. 14. 1 Bren. 22. 22. Es. 6. 10. Ioan 12. 40. l pen. 3. 8, 11, 18. Ioan 8. 12. a 12. 35. Act. 26. 18. Col. 1. 27. 1 Tim. 1. 11. Tit. 2. 13. m Ioan 1. 18. a 12. 45. a 14. 9, 10. a 15. 24. Phil. 2. 6. Col. 1. 15. Heb. 1. 3. n adn. 6. Salm 1. 2. Es. 60. 1, 2. 2 Pedr 1. 19. 1 Ioan 2. 8.

* Satan yn ddiammau yw Duw y byd hwn, addolid ef fel duw gan y paganiaid y pryd hwnw, a gwasanaethir ef yn ufudd gan y rhan fwyaf o'r byd eto. Dywed rhai mai *y duw sy'n dallu* y galwai yr Iuddewon ef, ac efallai fod cyfeiriad at hyny yma. Ei waith gwastadol ef yw dallu meddyliau dynion, drwy fydolrwydd, a chwantau cnawdol, a balchder calon; ac yn hyn mae

n llwyddo gyda'r rhai digred, i'w cadw a'u caledu newn anghrediniaeth, † fel na thywyno llewyrch sanctiidd ac achubol yr efengyl i mewn i'w calonau halogidig ac euog. ‡ "Efengyl gogoniant Crist" yw yr efengyl, am ei bod fel drych dysglaer (pen. 3. 18.) yn gosod allan ogoniant ei berson, ei swyddau, ei waith, a'i iachawdwriaeth ryfedd a gogoneddus ef: || ac mae y Crist a ddatguddir yn yr efengyl yn "ddelw y Duw anweledig," yn "ddysgleirdeb ei ogoniant, ac yn wir nun ei berson" ef. Mae Crist yn ddelw Duw o ran ei berson dwyfol; fel y mae holl briodoliaethau a pherffeithrwydd hanfodol y Duwdod, yn gyflawn yn ei berson ef fel yn y Tad a'r Ysbryd: ac fel Duw-ddyn a Chyfryngwr, mae yn ddelw Duw hefyd; gan fod mwy o Dduw i'w weled ynddo ef a'i waith, nac sydd bosibl i'w weled trwy unrhyw gyfrwng arall byth. Ond mae hyn ll yn dywyll i'r digred, ac am hyny maent yn golledig.

5 * Canys [o] nid ydym yn ein pregethu ein hunain, † ond [p] Crist Iesu yr Arglwydd; [q] ‡ a hinnau yn weision i chwi er mwyn Iesu.

o Mat. 3. 11. Ioan 1. 21—23. a 3. 27—31. a 7. 18. Act. 3. 12, 13. a 8. 9, 10. a 10. 25, 26. a 14. 11—15. Rhuf. 15. 17, 18. 1 Cor. 1. 14, 15. a 3. 5, 6. a 10. 33. Phil. 1. 15. 1 Thes. 2. 5, 6. Tit. 1. 11. 1 Pedr 5. 2—5. 2 Pedr 2. 3. p pen. 1. 19. Mat. 23. 8. Act. 2. 36. a 5. 31. a 10. 36. Rhuf. 14. 8, 9. 1 Cor. 1. 23. a 2. 2. a 8. 6. a 12. 3. a 15. 47. Phil. 2. 11. q pen. 1. 24. a 5. 14, 15. Mat. 20. 25—27. Luc 22. 25, 26. Ioan 13. 14, 15. Rhuf. 15. 1, 2. 1 Cor. 9. 19—23. Gal. 5. 13. 2 Tim. 2. 10.

* Mae dynion yn eu pregethu eu hunain pan maent yn pregethu eu dychymmygion eu hunain yn lle gair Duw, pan maent yn pregethu i ddangos eu doniau eu hunain, ac er parch a budr-elw iddynt eu hunain. Nid oddym yn pregethu *ein bod ni yn arglwyddi*, ond mai Crist sydd Arglwydd: felly mae rhai yn deall y geiriau. † Ond Iesu Grist oedd testyn mawr eu pregethau hwy yn gwastadol, o ran ei Berson a'i iachawdwriaeth fawr; a'u prif amcan hwy oedd dyrchafu a gogoneddu Crist; yr oeddynt yn tystiolaethu mai efe oedd yn Arglwydd, yn Arglwydd yr eglwys, ac yn "Arglwydd pawb oll;" ac yr oeddynt yn galw ar ddynion yn mhob màn i ddderbyn ei iachawdwriaeth ef, i ymostwng i'w awdurdod ef, ac i fod yn weision ufudd iddo ef. ‡ O'u rhan eu hunain, yr oeddynt hwy, nid yn unig yn gyd-ddeiliaid â'r cristionogion oll i'w Harglwydd cyffredin; ond yr oeddynt yn ewyllysgar i fod yn weision i'r eglwys er mwyn Crist: ac ybient eu hunain dàn y rhwymau mwyaf i lafurio, i ddyoddef, ac i ymostwng i'r iselder mwyaf, er gwneyd daioni i ddynion, cyn belled ag yr oedd gorchymyn eu Harglwydd yn gofyn hyny, a'i ogoniant yn cael ei dderchafu trwy hyny.

6 * Canys Duw, [r] yr hwn a orchymynodd i'r goleuni lewyrchu o dywyllwch, † *yw* yr hwn a lewyrchodd yn ein calonau, ‡ i *roddi* [t] goleuni || gwybodaeth gogoniant Duw, [u] § yn wyneb Iesu Grist.

r Gen. 1. 3, 14, 15. Salm 74. 16. a 136. 7—9. Es. 45. 7. s Eph. 1. 17, 18. a 5. 8. 2 Pedr 1. 19. t adn. 4. pen. 3. 18. Exod. 33. 18—23. a 34. 5—7. Salm 63. 2. a 90. 16. Es. 6. 1—3. a 35. 2. a 40. 5. a 60. 2. Ioan 11. 40. Act. 7. 55, 56. u Luc 2. 14. Ioan 1. 14. a 12. 41. a 14. 9, 10. Phil. 2. 6. Col. 1. 15. Heb. 1. 3. 1 Pedr 1. 12.

* Yr oeddynt yn cael eu tueddu a'u galluogi i hyn, trwy yr hyn a brofasent hwy eu hunain; oblegid gallasent hwythau hefyd fod wedi eu rhoddi i fynu i gael eu dallu gan dduw y byd hwn; a buasai Paul, yn enwedig, ymnwaith, mewn ystâd ofnadwy o elyniaeth a gwrthwynebiad i oleuni yr efengyl ogoneddus. Ond o'r diwedd, DUW, yr hwn a orchymynodd i'r goleuni lewyrchu o dywyllwch yn nghrëadigaeth y byd; † yn ei drugaredd oben-arglwyddiaethol, a wnaeth gyfnewidiad cyffelyb yn eu calonau hwythau, lle nad oedd dim ond annwybodaeth, cyfeiliorni, pechod, a thrueni yn ffynu o'r blaen. ‡ Trwy weithrediadau ei Ysbryd yn eu crëu o newydd, efe a symmudodd bob rhwystrau, ac a barodd i oleuni y gwirionedd dwyfol lewyrchu i mewn yn eu calonau; gan agor eu deall i dderbyn athrawiaeth yr efengyl, ac agor eu calonau i'w charu a'i gwerthfawrogi. || Yn y goleuni ysbrydol hwn, daethant hwy, fel y daw yr holl gredinwyr, i wybodaeth o ogoniant Duw yn nhrefn yr iachawdwriaeth, trwy gredu tystiolaeth yr efengyl am hyny, dàn ddysgeidiaeth ac yn ngoleuni yr Ysbryd Glân. § Yn ngwyneb, neu yn mherson (*prosópó*) Iesu Grist, mae gwybodaeth gogoniant, neu wybodaeth ogoneddus Duw, yn llewyrchu i'r saint; ac hefyd yn ei athrawiaeth, ei wyrthiau, ei gyfiawnder, ei aberth, a'i gyfryngdod ef; yr hwn ogoniant wrth edrych arno âg wyneb agored yn y drych hwn, sydd yn cyfnewid y credinwyr i'r unrhyw ddelw ogoneddus yr edrychant arni.

7 * Eithr y mae gennym [x] y trysor hwn [y] † mewn llestri pridd, [z] ‡ fel y byddai godidowgrwydd y gallu o Dduw, ac nid o honom ni.

x adn. 1. pen. 6. 10. Mat. 13. 44, 52. Eph. 3. 8. Col. 1. 27. a 2. 3. y pen. 5. 1. a 10. 10. Barn. 7. 13, 14, 16—20. Galar. 4. 2. 1 Cor. 1. 28. a 4. 9—13. Gal. 4. 13, 14. 2 Tim. 2. 20. z pen. 3. 5, 6. a 12. 7—9. a 13. 4. 1 Cor. 2. 3—5. Eph. 1. 19, 20. a 2. 5, 8, 9. Col. 2. 12. 1 Thes. 1. 5.

* "Y trysor hwn" oedd "goleuni gwybodaeth gogoniant Duw, yn wyneb Iesu Grist;" yn nghyd a'r weinidogaeth bwysig am y goleuni, yr wybodaeth, a'r gogoniant hyny, oedd wedi ei rhoddi i'r apostolion a gweinidogion eraill yr efengyl. Yr oedd y pethau hyn ganddynt, fel trysor o gadwedigol ras iddynt eu hunain; ac yr oedd ganddynt hefyd fel gweinidogion yr efengyl i'w gyhoeddi a'i amlygu i eraill, Iuddewon a chenedloedd. † Nid oeddynt hwy eu hunain ond pechaduriaid gwael, wrth natur ac ymarferiad hefyd; nid oedd eu cyrph ond brau a marwol, fel cyrph dynion eraill; yn ddarostyngedig i'r un gwendidau, yn agored i boen a dyoddefiadau, ac yn hawdd eu treulio allan gan ludded a chaledi, newyn, sychedd, ac anwyd: ac nid oedd eu meddyliau chwaith ddim llai darostyngedig i ofn, galar, petrusder, ac anesmwythder, na meddyliau eu brodyr ac eraill o ddynolryw. Nid oeddynt yn mhob ystyr ond llestri pridd; eithr rhoddes Duw drysor mawr yr efengyl yn y llestri pridd hyny; ‡ fel y gwelai y byd yn amlwg, pa bethau bynag a wnaid ar eneidiau dynion trwy eu gweinidogaeth hwy, mai o Dduw yr oedd godidawgrwydd y gallu, ac nid o honynt hwy eu hunain. Gallasai Duw ddanfon angelion i bregethu yr efengyl; neu yn wir ddefnyddio dynion enwocach ar lawer ystyr na'r rhai a ddefnyddiodd; ond ei amcan ef oedd, dangos ei allu ei hun yn eglurach trwy ddefnyddio offerynau gwael.

8 [a] * Ym mhob peth *yr ym* yn gystuddiol, [b] † ond nid mewn ing; ‡ *yr ydym* mewn cyfyng-gynghor, || ond nid yn [c] ddïobaith;

a pen. 1. 8—10. a 6. 4. a 7. 5. a 11. 23—30. b adn. 16, 17. pen. 12. 10. 1 Sam. 28. 15. a 30. 6. Salm 56. 2, 3. Diar. 14. 26. a 18. 10. Rhuf. 5. 3—5. a 8. 35—37. Iago 1. 2—4. 1 Pedr 1. 6, 7. a 4. 12—14. c 1 Sam. 31. 4. Job 2. 9, 10.

Dyma driniaeth arw ar lestri pridd, a rhyfedd fel y cadwodd Duw hwy heb dòri am gyhyd o amser. * Yn mhob peth, yn mhob màn, bob amser, ac agos gan bawb, byd ac uffern; yr oeddynt yn cael eu cystuddio: † ond er hyny nid oeddynt mewn ing; nid oeddynt yn gaethiwus yn eu hysbryd eu hunain, nac yn cael eu llethu gan betrusder a chyfyngder meddwl, fel rhai nas gwyddent pa beth i wneyd, ac heb obaith na help oddi wrth yr Arglwydd: ac nid oeddynt chwaith wedi eu gyru i gonglau, lle nis gallent bregethu yr efengyl, nac wedi eu cauad i fynu yn ddïymwared. Llethu mewn lle cyfyng, meddant, yw ystyr y gair (*stenochóroumenoi,*) a gyfieithir yma "ing." ‡ Yr oeddynt yn aml mewn cyfyng gyngor; yn ammheüus pa lwybr a ddylent gymmeryd mewn enbydrwydd presenol, ac heb wybod pa brofedigaethau a'u cyfarfyddai yn yr amser i ddyfod; || ond nid oeddynt byth yn ddïobaith, am i Dduw yn ei ddoethineb, ei allu, ei ddaioni, a'i ffyddlondeb, eu cynnal hwy dàn eu trallodau, eu dwyn trwyddynt, a'u gwaredu o honynt, er ei ogoniant ei hun, eu lles hwythau, a lles ei bobl a'r eglwysi.

9 * Yn cael *ein* herlid, [d] † ond heb *ein* llwyr adael; [e] ‡ yn cael *ein* bwrw i lawr, ‖ eithr heb *ein* difetha;

d Salm 9. 10. a 22. 1. a 37. 25, 28. Es. 62. 4. Heb. 13. 5, 6. e pen. 7. 6. Job 5. 17—19. a 22. 29. Salm 37. 24. a 42. 5, 11. Es. 43. 2.

* Yr oeddynt yn cael eu herlid o herwydd cyfiawnder, yn eu personau, yn eu henwau, yn eu rhyddid, ac yn eu meddiannau, trwy bob moddion o warth a chreulondeb a fedrai eu gelynion drygionus ddyfeisio. † Ond nid oeddynt yn cael eu gadael yn hollawl i ddwylo eu gelynion nac iddynt eu hunain, gan Dduw; nid oeddynt heb gysuron a chynnaliaeth Duw yn eu heneidiau eu hunain, nac heb dystiolaeth amlwg iddynt eu hunain ac i'r byd eu bod yn gymmeradwy gan Dduw. ‡ Yn eu hymdrech caled yn erbyn gwaed a chnawd, yn gystal ag yn erbyn tywysogaethau ac awdurdodau (Ephes. 6. 12.) yr oeddynt weithiau trwy ofnau dynol yn isel eu hysbryd, yn cael eu darostwng, ac yn cael eu bwrw i lawr, fel yr ymdrechwyr yn y chwarêydd cyhoeddus gynt; ‖ ond nid oeddynt yn cael eu llwyr orchfygu a'u dyfetha, na'u hachos chwaith; yr oeddynt yn cyfodi drachefn trwy ffydd, ac yn dysgwyl bod yn y diwedd yn fwy na choncwerwyr trwy yr hwn a'u carodd.

10 [f] * Gan gylch-arwain yn y corph bob amser farweiddiad yr Arglwydd Iesu, [g] † fel yr eglurer hefyd fywyd Iesu yn ein corph ni.

f pen. 1. 5, 9. Rhuf. 8. 17, 18. Gal. 6. 17. Phil. 3. 10, 11. Col. 1. 24. g pen. 13. 4. Ioan 14. 19. Act. 18. 9, 10. Rhuf. 8. 17. 2 Tim. 2. 11, 12. Dat. 1. 17, 18.

* Yr oeddynt yn cylch-arwain bob amser, neu yn dwyn yn eu cyrph eu hunain yn wastadol, farweiddiad yr Arglwydd Iesu; yn y briwiau, yr archollion, a'r gwialenodiau oeddynt yn gael er ei fwyn ef, a chan ddynion cyffelyb i'r rhai a'i croeshoeliasant ef: gellid gweled dyoddefiadau a marweiddiad Iesu, megys yn cael eu gweithredu drosodd drachefn yn eu cyrph hwy ei weision ef, ac yn ei achos ef. † Ac fel hyn yr oedd "bywyd Iesu" hefyd, yn ei adgyfodiad a'i ogoneddiad, yn cael ei egluro yn eu cyrph hwy; sef yn yr amddiffyn, y gwaredigaethau, y cynnorthwyon, a'r dyddanwch oeddynt yn gael yn eu holl orthrymderau; trwy yr hyn yr oeddynt yn gallu myned yn mlaen yn ddiysgog ac yn ŵrol yn eu gweinidogaeth, yn nghanol aneirif beryglon a dyoddefiadau.

11 [h] * Canys yr ydys yn ein rhoddi ni, y rhai ydym yn fyw, yn wastad i farwolaeth er mwyn Iesu, † fel yr eglurer hefyd fywyd Iesu yn [i] ein marwol gnawd ni.

h Salm 44. 22. a 141. 7. Rhuf. 8. 36. 1 Cor. 15. 31. i pen. 5. 4. Rhuf. 8. 11. 1 Cor. 15. 53, 54.

* Gwedi i rai o'u brodyr orfod selio eu tystiolaeth â'u gwaed, yr oedd y rhai oedd ar ol yn fyw, yn cael eu rhoddi yn wastad i farwolaeth er mwyn Iesu; trwy y rhwymau, y blinderau, a'r erledigaethau oedd yn eu haros bob amser yn mhob mân. Gwel ar pen. 15. 31. † Ac yr oedd hyn yn cael ei ddyoddef gan Dduw, fel yr eglurid hefyd fywyd Iesu yn eu marwol gnawd hwy; sef trwy gadw, cynnal, a galluogi eu cyrph breulyd a marwol hwynt o hyd mewn bywyd, ac yn addas i lafurio.

12 * Felly [k] y mae angau yn gweithio ynom ni, † ac einioes ynoch chwithau.

k pen. 12. 15. a 13. 9. Act. 20. 24. 1 Cor. 4. 10. Phil. 2. 17, 30. 1 Ioan 3. 16.

* Yr oedd angeu megys yn gweithio yn ddibaid ynddynt hwy, trwy y caledi gwastadol oeddynt yn ddyoddef mewn cyd-ffurfiad â marweiddiad Crist; † ond yr oedd bywyd ysbrydol wedi ei weithio yn eneidiau y Corinthiaid trwy eu gweinidogaeth a'u dyoddefiadau hwy: ac yr oedd y Corinthiaid hefyd yn cael bywyd tawel a diogel, ac yn mwynâu holl gysuron bywyd yn llonydd a diberygl. Ac fel pe dywedasai yr apostol, Byddwch chwi *byw* i anrhydeddu Crist, ac ninnau a fyddwn *feirw* i'w anrhydeddu, os felly y gorfydd. Wrth weled yr holl ddyoddefiadau uchod yn yr apostol, eu tad yn Nghrist, nid addas oedd i'r Corinthiaid i chwanegu y dyoddefiadau hyny, trwy eu difaterwch am dano, a'u hanghariadoldeb tuag ato: hyny mae efe am iddynt ystyried, mae yn debyg, pan mae yn adrodd ei ddyoddefiadau yn yr adnodau blaenorawl.

13 * *A* chan fod gennym [l] yr un yspryd ffydd, yn ol yr hyn a ysgrifenwyd, [m] † Credais, am hynny y lleferais; [n] ‡ yr ydym ninnau hefyd yn credu, ac am hynny yn llefaru.

l Act. 15. 11. 1 Cor. 12. 9. Heb. 11. 1, &c. 2 Pedr 1. 1. m Salm 116. 10. n pen. 3. 12. Diar. 21. 28.

* "Yr un ysbryd ffydd:" yr un ffydd ysbrydol, neu ffydd wedi ei rhoddi drwy yr un Ysbryd. Yr un ysbryd ffydd gan Paul â'i gyd-ddyoddefwyr; yr un ganddynt hwy â'u brodyr y Corinthiaid; yr un â holl saint yr Hen Destament; neu yr un â Dafydd, yr hwn a lefarodd y geiriau a ganlyn: y golygiad olaf, efallai, yw y cywiraf. † Yr oedd Dafydd yn credu y gwaredai yr Arglwydd ef o'i holl drallodau, am hyny yr oedd yn penderfynu llefaru am ei ddaioni ef, er gogoniant ei enw: ‡ yn gyffelyb Paul a'i gyfeillion, yr oeddynt yn credu y cynnaliai Duw hwynt, am hyny yn penderfynu llefaru yn ddiofn; ac yr oeddynt yn credu yr athrawiaeth oedd ganddynt, am hyny nis gallai neb na dim eu rhwystro hwy i'w llefaru a'i chyhoeddi.

14 * Gan wybod [o] y bydd i'r hwn a gyfododd yr Arglwydd Iesu, ein cyfodi ninnau hefyd trwy Iesu, [p] † a'*n* gosod ger bron gyd â chwi.

o Es. 26. 19. Ioan 11. 25, 26. Rhuf. 8. 11. 1 Cor. 6. 14. a 15. 20—22. 1 Thes. 4. 14. p pen. 11. 2. Eph. 5. 27. Col. 1. 22, 28. Jud. 24.

* Yn y rhag-ddysgwyliad beunyddiol o gael eu merthyru, yr oeddynt yn llawn sicr y cyfodai Duw eu cyrph merthyredig hwy o'r bedd, trwy nerth Iesu, a thrwy rinwedd eu hundeb ysbrydol âg ef, fel y cyfododd efe ef o feirw: † ac y gosodai efe hwynt, gyda'r holl gredinwyr yn Corinth, a phawb a ddychwelwyd at Dduw trwy eu llafur hwynt, ger bron ei orsedd-fainc ogoneddus yn y dydd diweddaf, fel gwrthddrychau ei gariad rhad, a chwedi eu perffeithio o'r diwedd i ogoniant a dedwyddwch byth.

15 [q] * Canys pob peth *sydd* er eich mwyn chwi, [r] † fel y byddo i ras wedi amlhâu, ‡ trwy ddiolchgarwch llaweroedd, ‖ ymhelaethu i ogoniant Duw.

q pen. 1. 4—6. Rhuf. 8. 28. 1 Cor. 3. 21—23 Col. 1. 24. 2 Tim. 2. 10. r pen. 1. 11. a 8. 19. a 9. 11, 12. Salm 50. 14, 23. Gal. 1. 24. Eph. 3. 24, 21. Col. 3. 16, 17. Heb. 13. 15, 16. 1 Pedr 2. 9. a 4. 11. Dat. 4. 8—11. a 5. 8—14. a 19. 4—6.

* "Pob peth" a wnaeth ac a ddyoddefodd Crist, ei farwolaeth a'i adgyfodiad o feirw; "pob peth" a wnaeth ac a ddyoddefodd Paul a'i frodyr; "pob peth" sydd yn holl oruchwyliaeth a gweinidogaeth yr efengyl; a "phob peth" sydd yn holl dröion rhagluniaeth Duw tuag at ei bobl; er mwyn y saint y mae y cwbl oll: er eu llesâd ysbrydol ac er eu bywyd tragywyddol. † Fel y byddo i oludoedd gras Duw, yr hwn sydd yn helaeth anchwiliadwy yn a thrwy Iesu Grist; ‡ trwy ddiolchgarwch y myrddiynau aneirif a wnaed ac a wneir eto yn gyfrangogion o hóno; ‖ ymhelaethu yn ddiderfyn byth i fawl a gogoniant Duw pob gras, a Thad pob trugaredd. Gellid darllen rhanau olaf yr adnod fel hyn, efallai, 'Fel y byddo i ras wedi amlâu, ymhelaethu i ogoniant Duw, trwy ddiolchgarwch llaweroedd.'

16 * O herwydd paham [s] nid ydym yn pallu; † eithr [t] er llygru ein dyn oddi allan, ‡ er hynny [u] y dyn oddi mewn [x] a adnewyddir [y] o ddydd i ddydd.

s Gwel ar adn. 1. Salm 27. 13. a 119. 81. Es. 40. 29. t pen. 12. 15. Job 19. 26, 27. Salm 73. 26. Es. 57. 1, 2. Mat. 5. 29, 30. u Rhuf. 7. 22. Eph. 3. 16. 1 Pedr 3. 4. x Salm 51. 10. Es. 40. 31. Rhuf. 12. 2. Eph. 4. 23. Col. 3. 10. Tit. 3. 5. y Luc 11. 3.

* O herwydd bod yr apostol a'i frodyr yn credu, (adn. 13.) o herwydd eu bod yn gwybod y cyfodid hwy trwy

: Arglwydd Iesu, ac y gosodid ‡ wy ger bron gyda'r
aint, (adn. 14.) ac o herwydd y gwyddent fod pob peth
r mwyn y saint, ac er gogoniant Duw; o herwydd hyny
ll, nid oeddynt yn pallu, gwel ar adn. 1. † Eithr er
ygru y dyn oddi allan, er treulio a gwasgu eu cyrph
an ludded, erledigaethau, ac aneirif galedi; ‡ er hyny
dyn oddi mewn a adnewyddid o ddydd i ddydd: yr
edd eu heneidiau, fel yr oeddynt wedi eu geni o Dduw,
n cael eu cryfâu mewn ffydd, gobaith, cariad, amynedd,
holl rasau yr Ysbryd, yn fwy-fwy o ddydd i ddydd yn
lu holl drallodion a'u profedigaethau.

17 * Canys [z] ein byr ysgafn gystudd ni,
sydd yn odidog ragorol [a] yn gweithredu
tragywyddol ‡ bwys gogoniant i ni:

z pen. 11. 23—28. Salm 30. 5. Es. 54. 8. Act. 20. 23, 24. Rhuf. 8. 18, 37. 1 Pedr 1. 6. a 4. 7. a 5. 10. a Salm 119. 67, 71. Mat. 5. 12. Rhuf. 5. 3—5. Phil. 1. 19. 2 Thes. 1. 4—6. Heb. 12. 10, 11. Iago 1. 3, 4, 12. b pen. 3. 18. Gen. 15. 1. Salm 31. 19. a 73. 24. Es. 64. 4. Luc 6. 23. Rhuf. 2. 7. 1 Cor. 2. 9. 1 Pedr 1. 7, 8. a 5. 6. 1 Ioan 3. 2. Judas 24.

* Dan yr ymgeleddiad ysbrydol ac adnewyddol hwn, cid oeddynt yn cyfrif eu holl gystuddiau meithion a rarymion iawn, ond 'bŷr ac ysgafn,' y rhai nid oeddynt raidd yn werth eu henwi mewn cymhariaeth i'r tragywyddol bwys gogoniant oedd yn eu haros yn y nef. Yma nae yr apostol yn rhoddi mewn cyferbyniad i'w gilydd, *ystudd* â *gogoniant; ysgafn* â *phwys; byr* â *thragywyddol:* ac felly *byr ysgafn gystudd,* mewn cyferbyniad *dragywyddol bwys gogoniant.* † Yr oedd eu bŷr ysgafn ystudd dàn fendith Duw, yn foddion rhagorol i'w addfedu hwy mewn sancteiddrwydd i dragywyddol wys gogoniant, yn sicr o ddybenu mewn gogoniant; ac n eu haddasu hwy i fwynâu y gogoniant hwnw yn iagorol pan elynt iddo. Yn y Saesoneg fel hyn mae r adnod hon:—"Canys ein hysgafn gystudd ni, yr wn nid yw ond am darawiad, sydd yn gweithredu i ni awer mwy rhagorol a thragywyddol bwys gogoniant:" ywedir fod y geiriau gwreiddiol yn yr adnod hon, am sgafnder y cystudd a phwys y gogoniant, yn llawer wy grymus nac y gellir eu cyfneithu mewn unrhyw iaith; fel pe buasai yr apostol yn pentyru geiriau ar iriau, a'r rhai hyny y mwyaf grymus a fedrai gael, i sod allan ragoroldeb a thragywyddol bwys gogoniant, x ysgafnder bŷr cystuddiau mewn cyferbyniad i hyny; x wedi y cwbl heb ddangos y naill na'r llall o honynt n eu cyflawnder. ‡ Pwys, sylwedd, dysglaerder, a iharâd gogoniant, tu hwnt i ddim a all tafod draethu, na eddwl ddychymmygu: pwys nas gallai neb byth ei ddàl, heb i'r Hollalluog ei hun addasu eu cyrph a'u eneidiau i hyny. Gogoniant, pwys gogoniant, rhagorol bwys gogoniant; a'r rhagorol bwys gogoniant hwnw n dragywyddol byth. Ni wiw ceisio dywedyd ychwaneg m dano, cymhwysed a dyged yr Ysbryd Glân ni iddo, w fwynâu yn ddi-ddiwedd!

18 * Tra [c] na byddom yn edrych ar y ethau a welir, † ond ar y pethau ni welir: ‡ canys y pethau a welir *sydd* dros amser, ond y pethau ni welir *sydd* dragywyddol.

c pen. 5. 7. Rhuf. 8. 24, 25. Heb. 11. 1, 25—27. a 12. 2, 3. Mat. 25. 46. Luc 16. 25, 26. 2 Thes. 2. 16. 1 Ioan 2. 16, 17, 25.

* Yn y rhag-ddysgwyliad am y rhagorol a'r tragywyddol bwys gogoniant uchod, nid oedd yr apostol a'i yfeillion yn edrych ar ddim o'r pethau a welir, i gymaeryd eu hudo a'u dênu gan hawddfyd, nac i gymmerid eu rhwystro nâ'u digaloni gan adfyd a chystuddiau: ŷr ac ysgafn oeddynt i gyd yn eu golwg, ac nid oeddynt n gwneuthur cyfrif o honynt. Rhuf. 8. 18. † Yr oedd n golwg a'u bryd hwy yn hollawl, ar bethau annweledig l lygaid cnawd a rheswm anianol, ond yn weledig i ygaid ffydd ysbrydol yn y trallodau mwyaf; y tragywyddol bwys gogoniant oedd yn nghadw iddynt yn y ef. Yr olwg hon, a'r dysgwyliad am hyn, oedd yn cynal eu hysbryd yn eu gwaith trwm, ac yn eu dyoddefiadau mawrion: yr oeddynt fel Moses, yn ymwroli fel rhai n gweled yr anweledig. ‡ Y pethau a welid, nid oeddynt ond tymmorawl, nac i barâu ond dros amser, pa un bynag ai da ai drwg oeddynt; || ond y pethau ni welid, y rhagorol a'r tragywyddol bwys gogoniant, yr oedd o natur ysbrydol, sylweddol, ac i barâu byth: ac am hyny i'w werthfawrogi, ac i ymgyrhaedd ato trwy bob peth, ac o flaen pob peth ar y ddaear hon.

PEN. V.

Sicrwydd o'r gogoniant tragywyddol, &c.

* CANYS [a] ni a wyddom [b] † os ein daearol dŷ o'r babell *hon* a [c] ddattodir, ‡ fod i ni [d] adeilad gan Dduw, [e] *sef* tŷ nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd.

a Job 19. 25, 26. Salm 56. 9. 2 Tim. 1. 12. 1 Ioan 3. 2, 14, 19. a 5. 19, 20. b adn. 4. pen. 4. 7. Gen. 3. 19. Job 4. 19. 1 Cor. 15. 46—48. 2 Pedr 1. 13, 14. c Job 30. 22, 2 Pedr 3. 11. d Ioan 14. 2, 3. 1 Cor. 3. 9. Heb. 11. 10. e Col. 2. 11. Heb. 9. 11, 24.

* Nid "edrych" pell, ac ansicr, oedd edrych yr apostol a'i frodyr ar y tragywyddol bwys gogoniant yn yr adnod uchod; (pen. 4. 18.) ond edrych agos a sicr ydoedd: yma mae yn dywedyd, "Ni a wyddom," fod i ni y cyfryw ogoniant "gan Dduw." Hwy a wyddent hyny ar dystiolaeth gair Duw i'w bobl, ar dystiolaeth yr Ysbryd, gyda'u hysbryd hwy, eu bod yn blant i Dduw; ac oddi ar y blaen-brawf oeddynt wedi gael eisoes yn fynych, o ddedwyddwch Duw yn eu heneidiau. † Gelwir y corph yn dŷ, o herwydd ei fod yn breswylfa yr enaid; yn "ddaearol dŷ," am ei lunio o bridd y ddaear; ac yn "babell," i arwyddo ei freuder, a'i ddattodiad hawdd a buan: fel pebyll milwyr a phererinion gynt, y rhai a ddattodid, a dynid i lawr, ac a ddodid heibio, pan ddarfyddai y filwriaeth a'r pererindod. Milwyr a phererinion yw y saint ar y ddaear; a phan ddarfyddo hyny, dattodir y babell bridd, a rhoddir hi heibio yn y bedd hyd fore yr adgyfodiad mawr. ‡ Yn nattodiad y daearol dŷ o'r babell hon, mae i'r saint adeilad gan Dduw, sef tŷ nid o waith llaw dyn, fel tai a phebyll daearol, ond tragywyddol yn y nefoedd, yr hwn ni thynir i lawr ac ni ddattodir byth. Wrth yr adeilad hyn gan Dduw, a'r tŷ nid o waith llaw, y meddylir yn ddiammau, yr holl ddarpariaeth sy gan Dduw er dedwyddwch ei bobl mewn byd arall, mewn ystâd o anfarwoldeb, yr hyn a alwai Crist yn 'dŷ ei Dad, yn yr hwn mae llawer o drigfanau.' Tybir mai nid y corph yn yr adgyfodiad a feddylir; oblegid dengys yr apostol fod yr enaid yn myned i'r tŷ hwn heb y corph, ac yn union ar ddattodiad y corph.

2 * Canys am hynny [f] yr ydym yn ocheneidio, [g] † gan ddeisyfu cael ein [h] harwisgo â'n tŷ sydd o'r nef:

f adn. 4. Rhuf. 7. 24. a 8. 23. 1 Pedr 1. 6, 7. g Phil. 1. 23. h adn. 3, 4. 1 Cor. 15. 53, 54.

* Yn y gobaith cadarn, a'r rhag-ddysgwyliad sicr hwn, o ddedwyddwch tragywyddol yn y nefoedd, yr oedd yr apostol a'i frodyr yn ocheneidio yn y daearol dŷ o'r babell hon, dàn bwys cystuddiau a phechod, † gan ddeisyfu cael eu har-wisgo â'u tŷ oedd o'r nef; lle y caent eu gorchuddio â goleuni, sancteiddrwydd, a llawenydd byth, megys â gwisg ogoneddus. "Ar-wisgo â thŷ" sydd ymadrodd crŷf a rhyfedd iawn, lle mae anfarwoldeb yn cael ei gyffelybu i wisg â thŷ hefyd, mewn cyferbyniad i'r wisg wael o gnawd llygredig sydd am yr enaid yn awr, ac a gyffelybir i ddaearol dŷ a phabell.

3 * Os hefyd [i] wedi ein gwisgo, † nid yn noethion y'n ceir.

i Gen. 3. 7—11. Ex. 32. 25. Dat. 3. 18. a 16. 15.

* Os wedi ein gwisgo fel hyn mewn gwisgoedd o ogoniant y byddwn, a chwedi ail-feddiannu ein cyrph yn anllygredig ac yn anfarwol; † ni byddwn yn amddifad o ddedwyddwch, nac yn agored i unrhyw drueni na halogrwydd fel yr ydym yn awr; a llawer llai y byddwn yn noethion fel yr annuwiolion a'r rhai digred yn y byd a ddaw. Neu, "os wedi ein gwisgo" fel y sylwyd uchod, er ein hyspeilio a'n dihatru o bob peth daearol,

nid yn noethion y'n ceir: bydd genym wisg er hyny wrth farw, a chwedi marw, na fedr neb ei dwyn oddi arnom, na'n gweled byth yn noeth.

4 * Canys [k] ninnau hefyd y rhai ŷm yn y babell *hon* [l] † ydym yn ocheneidio, yn llwythog: ‡ yn yr hyn nid ŷm yn chwennych ein diosg, [m] || ond ein harwisgo, [n] § fel y llyngcer yr hyn sydd farwol gan fywyd.

k 2 Pedr 1. 13. l Gwel ar adn. 2. m adn. 3. n Es. 25. 8. 1 Cor. 15. 53, 54.

* Am y "babell hon," gwel ar adn. 1. † Tra yr oeddynt yn y babell hon, fel pawb eraill o'r saint, yr oeddynt yn cael achos beunyddiol i "ocheneidio yn llwythog" gan bechod, temtasiynau, amryw brofedigaethau, a chaledi, oddi wrth ba rai yr oeddynt yn chwennychu cael eu rhyddâu. ‡ Nid chwennych eu diosg yr oeddynt, trwy roddi ymaith y corph yn angeu, i gael gwared e'i flinderau trymion a rhwystrus, nid oedd y dattodiad hwnw ynddo ei hun yn hyfryd ganddynt hwy mwy nac eraill; || ond dymunent yn hytrach gael eu har-wisgo, trwy gymmeryd eu cyrph a'u heneidiau yn union-gyrchol i'r nef, fel y gwnaed âg Enoch ac Elias, ac fel y gwnair eto â'r saint byw yn nyfodiad yr Arglwydd. § Fel hyny byddai i'r hyn oedd farwol gael ei lyncu i fynu ar unwaith, a'i golli byth mewn bywyd. Hiraethu yr oeddynt hwy am ryddâd oddi wrth bob peth marwol, ac am fwynâd o bob perffeithrwydd a dedwyddwch nefol; a hyny os gwelai Duw yn dda, trwy newidiad a gogoneddiad union-gyrchol corph ac enaid, heb ddattodiad ac ysgariad poenus y ddau gan farwolaeth.

5 * A'r hwn [o] a'n gweithiodd ni i hyn yma *yw* Duw, † yr hwn hefyd a roddodd i ni [p] ernes yr yspryd.

o pen. 4. 17. Es. 29. 23. a 60. 21. a 61. 3. Eph. 2. 10. p pen. 1. 22. Num. 13. 23—27. Rhuf. 8. 23. Eph. 1. 13, 14. a 4. 30. 1 Ioan 3. 24.

* Duw yn unig a barotôdd y fath ddedwyddwch â gogoniant i ddynion syrthiedig, a Duw yn unig a weithiodd y fath ysbryd, deisyfiad, a chymhwysder mewn dynion syrthiedig, i feddiannu a mwynâu y dedwyddwch a'r gogoniant hyny. Nid gwaith dynion eu hunain, na gwaith dynion ar ddynion; ond priodol waith Duw yn unig ar ddynion. Mae yr apostol yma, nid yn unig yn dywedyd mai Duw oedd yn eu gweithio hwy i hyn yma, ond hefyd mewn dull grymus iawn, yn priodoli Duwdod i'r gweithiwr. † Yr oedd Duw hefyd wedi rhoddi ernes yr Ysbryd iddynt hwy o'r gogoniant hwn, yn ei ddyddanwch a'i orfoledd sanctaidd, fel blaenffrwyth o hono yn eu calonau. Gwel ar pen. 1. 21. Mae yr Ysbryd Glân, wedi ei roddi i bobl Dduw, yn preswylio ac yn gweithio ynddynt, yn ernes sicr o'r gogoniant a'r bywyd tragywyddol a barotôdd efe iddynt.

6 * Am hynny [q] *yr ydym* yn hyderus bob amser, ac yn gwybod, [r] † tra yr ydym yn gartrefol yn y corph, ein bod oddi cartref oddi wrth yr Arglwydd:

q adn. 8. Salm 27. 3, 4. Diar. 14. 26. Es. 30. 15. a 36. 4. Heb. 10. 35. 1 Pedr 5. 1. Dat. 1. 9. r Gwel ar adn. 1. 1 Cron. 29. 15. Salm 39. 12. a 119. 19. Phil. 3. 20, 21. Heb. 11. 13. a 13. 14.

* Yn y mwynâd o ernes yr Ysbryd, yr oedd yr apostol a'i frodyr yn hyderus bob amser o gymmeradwyaeth ac ewyllys da Duw, ac o ogoniant tragywyddol yn y diwedd: † ac yr oeddynt yn gwybod tra yr oeddynt yn gartrefol yn y corph, eu bod oddi cartref oddi wrth yr Arglwydd. Dywedir mai *ymdaith* yn y corph y dylesid cyfieithu y gair *endêmountes*, ac nid yn *gartrefol* yn y corph: *ymdaith* yn y corph mae y saint, ac nid *cartrefu*; gyda'r Arglwydd mae eu cartref; a hyny mae yr apostol yn ddangos yn yr adnodau hyn, o hyd o ddechreuad y bennod.

7 * Canys [s] wrth ffydd yr ydym yn rhodio, † ac nid wrth olwg.

s pen. 1. 24. a 4. 18. Deut. 12. 9. Rhuf. 8. 24, 25. 1 Cor. 13. 12. Gal. 2. 20. Heb. 10. 38. a 11. 1, &c, 27. 1 Pedr 1. 8. a 5. 9.

* O herwydd y bywyd yr ydym yr awr hon yn ei fyw yn y cnawd, ac yn ol yr hwn yr ydym yn trefnu ein holl fuchedd, trwy ffydd yn yr Arglwydd Iesu yr ydym yn ei fyw; y ffydd hono sydd yn gorchfygu y byd, ac sydd yn sicrwydd y pethau ni welir; ac fel hyny mae yn fywyd o ddysgwyliad a gobaith gorfoleddus yn nghanol ein holl drallodau; † ond nid o berffaith wynfyd a mwynâd, fel y bydd yn fuan mewn byd a ddaw. Nid yw y saint yn gweled dim yma ond marwoldeb, llygredigaeth, a thrueni: eithr trwy ffydd maent yn gweled ystâd arall, mwy rhagorol a gogoneddus; ac maent yn trefnu eu bywyd yn ol eu ffydd, a'u golwg o bethau annweledig a thragywyddol.

8 * Ond yr ydym yn hŷf, [t] † ac yn gweled yn dda yn hytrach fod oddi cartref o'r corph, [u] ‡ a chartrefu gyd â'r Arglwydd.

t adn. 6. pen. 12. 2, 3. Luc 2. 29. Act. 21. 13. Phil. 1. 20—24. 2 Tim. 4. 7, 8. 2 Pedr 1. 14, 15. a 3. 11, 12. u adn. 9. Salm 16. 11. a 17. 15. a 73. 23—26. Mat. 25. 21, 23. Ioan 14. 3. a 17. 24. 1 Thes. 4. 17, 18. 1 Ioan 3. 2. Dat. 7. 14—17. a 22. 3.

* Yn yr agwedd hon, maent yn dàl i fynu yn hŷf, gyda nerth a bywiogrwydd dàn eu holl galedi a'u peryglon presenol, a chyda gobaith diysgog o'u diwedd dedwydd; † ac nid hyny yn unig, ond maent yn chwennychu yn fawr, a byddai yn dda iawn ganddynt, pe gwelai Duw yn dda, i gael ymadael o'r corph, a gadaw eu holl anmherffeithrwydd naturiol a moesol ar ol; ‡ a myned i gartrefu gyda'r Arglwydd Iesu lle mae efe, i weled ei ogoniant, ac i fod yn gwbl ar ei ddelw wrth ei weled ef fel y mae. Yr oeddynt yn sicr o gyflwr dedwydd, ac yr oedd hyny yn eu gwneyd yn ewyllysgar i ymadael â'r corph, fel y gallent fwynâu Duw yn ei bresenoldeb byth bythoedd.

9 * Am hynny hefyd [x] yr ydym yn ymorchestu, [y] pa un bynnag ai gartref y byddom, ai oddi cartref, † ein bod yn [z] gymmeradwy ganddo ef.

x Ioan 6. 27. 1 Cor. 9. 26, 27. a 15. 58. Col. 1. 29. 1 Tim. 4. 10. Heb. 4. 11. 2 Pedr 1. 10, 11. a 3. 14. y Gwel ar adn. 6, 8. Rhuf. 14. 8. z Gen. 4. 7. Es. 56. 7. Act. 10. 35. Eph. 1. 6. Heb. 12. 28.

* Eu hymgais penaf, fel y peth mwyaf anrhydeddus a gwerthfawr oedd, bod yn gymmeradwy gan yr Arglwydd, pa un bynag ai gartref yn y corph, ai oddi cartref, neu allan o'r corph y byddent: at hyn yr oeddynt yn amcanu yn eu holl waith ac yn eu holl ddyoddefiadau. † Nid oeddynt yn awyddu nac yn ymorchestu am anrhydedd a chymmeradwyaeth y byd, ond am fod yn gymmeradwy gan yr Arglwydd; o ran eu personau, eu llafur gweinidogaethol, a'u hymarweddiad cyffredin: hwy a wyddent eu bod felly eisoes yn a thrwy y Cyfryngwr; a'u hymgais penaf oedd, ymgadw yn heddwch, cariad, a chymmeradwyaeth Duw yn wastadol.

10 * Canys [a] rhaid i ni oll † ymddangos ‡ ger bron brawdle Crist; [b] || fel y derbynio pob un y pethau *a wnaethpwyd* [c] yn y corph, yn ol yr hyn a wnaeth, pa un bynnag ai da ai drwg.

a Gen. 18. 25. 1 Sam. 2. 3, 10. Salm 7. 6—8. a 9. 7, 8. a 50. 3—6. a 96. 10—13. a 98. 9. Preg. 11. 9. a 12. 14. Ezec. 18. 30. Mat. 25. 31—46. Act. 10. 42. a 17. 31. Rhuf. 14. 10—12. 1 Pedr 4. 5. Judas 14, 15. Dat. 20. 11—15. b 1 Bren. 8. 32, 39. Job 34. 11. Salm 62. 12. Es. 3. 10, 11. Mat. 16. 27. Rhuf. 2. 5—10. 1 Cor. 4. 5. Gal. 6. 7, 8. Eph. 6. 8. Col. 3. 24, 25. Dat. 2. 23. a 20. 12, 13. a 22. 12. c Rhuf. 6. 12, 13, 19. a 12. 1, 2. 1 Cor. 6. 13—20.

* "Rhaid i ni oll," yn bregethwyr a gwrandawwyr, Iuddewon a chenedloedd, duwiol ac annuwiol, a holl ddynion y byd, o bob oedran a sefyllfa, a fu, y sydd, ac a ddaw; ymddangos ger bron brawdle Crist. Bydd *raid* i bawb ymddangos, parod neu anmharod, ewyllysgar neu anewyllysgar: rhaid i'r mâr roddi i fynu y meirw sydd ynddo, a marwolaeth ac uffern a roddant i fynu y meirw sydd ynddynt hwythau, a hwy a fernir gyrph ac eneidiau, bob un yn ol eu gweithredoedd. Dat. 20. 13. † Rhaid i bawb *ymddangos* yno, sef ym-

ddangos yn gyhoeddus, y r amlwg, ac fel y maent mewn gwirionedd; nid fel y mae llawer yn rhith-ymddangos yma: hola, chwilia, a dynoetha y Barnwr mawr bob un yn eithaf manol ac amlwg, ar gyhoedd yr holl fyd, dynion ac angelion: daw y saint i farn o *holiad*, ond nid i farn o *gondemniad;* daw annuwiolion a gelynion Duw i farn o holiad a chondemniad hefyd. ‡ "Brawdle Crist," am mai Crist yw yr hwn a ordeiniodd Duw yn farnwr byw a meirw. ‖ Yn y farn gyfiawn hòno, caiff pob un dderbyn yn ol y pethau a feddyliodd, a ddywedodd, ac a wnaeth yn y corph; fel y bu y corph a'r enaid yn nghyd, yn cyd-weithredu da neu ddrwg ar y ddaear, felly y bydd y corph a'r enaid yn nghyd, yn cyd-dderbyn y gwobr neu y gosp yn y farn, heb ddim derbyn wyneb ni neb. Caiff y credadyn cyfiawnâol, yr hwn o gariad at Grist a wnaeth dda, ei gyfiawn wobrwyo am y da hyny er nad oedd ond anmherffaith; a bydd ei holl anmherffeithrwydd, ei bechodau a'i halogrwydd, wedi eu maddau a'u golchi ymaith trwy waed Crist. Ond y drygionus, yr anghredadyn, y Pharisead, y rhagrithiwr, y twrthgiliwr, yn nghyd â phob math o bechaduriaid annuwiol; hwy a gospir yn ol rhif, maint, ac echrysolonrwydd eu pechodau, gan nas gwnaethont hwy ond drwg yn unig ger bron Duw.

11 * A ni gan hynny yn gwybod [d] ofn yr Arglwydd, [e] † yr ydym yn perswadio dynion; ‡ eithr i Dduw y'n gwnaethpwyd yn hysbys; ‖ ac yr ydwyf yn gobeithio ddarfod ein gwneuthur yn hysbys yn eich cydwybodau chwithau hefyd.

d Gen. 35. 5. Job 6. 4. a 18. 11. a 31. 23. Salm 73. 19. a 76. 7. a 88. 15, 16. a 90. 11. Es. 33. 14. Nah. 1. 6. Mat. 10. 28. a 25. 46. Marc 8. 35—38. a 9. 43—50. Luc 12. 5. Heb. 10. 31. Dat. 20. 15. e adn. 20. pen. 6. 1. Luc 16. 31. Act. 13. 43. a 18. 4, 13. a 19. 26. a 20. 18—27. a 26. 26. a 28. 23. Gal. 1. 10. Col. 1. 28, 29. 2 Tim. 2. 24—26. f pen. 1. 12—14. a 2. 17. a 4. 1, 2. 1 Cor. 4. 4, 5. 1 Thes 2. 3—12.

* A ni gan hyny yn gwybod digter ofnadwy Duw yn erbyn pechaduriaid, y bygythion ofnadwy sydd yn ei air ef ar bechaduriaid, a'r farn ofnadwy uchod a ddaw i bechaduriaid, pryd y tywallt Duw ei ddigter, ac y cyflawna ei holl fygythion arnynt; † gan ein bod ni ein hunain wedi ein deffröi a'n goleuo, i wybod ofn yr Arglwydd yn yr ystyriaethau uchod, yr ydym yn teimlo ygwasgfa a thosturi dros bechaduriaid o ddynion, Iuddewon a chenedloedd yn ddiwahaniaeth; ac yr ydym hyd y mae ynom yn ceisio arfer pob moddion, i'w deffröi, eu hargyhoeddi, eu goleuo, a'u dênu, i ffoi rhag y ddigofaint sydd ar ddyfod, a dïanc i'r noddfa sydd i bechaduriaid yn Nghrist a'i aberth gwerthfawr. ‡ Yn yr ymgais hyn o berswadio (neu ddarbwyllo) dynion, yr oedd amcan a dybenion calonau yr apostol a'i frodyr yn hysbys i Dduw, ac yr oeddynt yn gwybod eu bod hwy, eu dybenion, a'u hymdrechiadau, yn gymmeradwy ganddo ef, er cael eu barnu a'u beïo gan lawer o ddynion. ‖ Beth bynag oedd barn *rhai* yn Corinth am danynt hwy a'u dybenion, yr oedd yr apostol yn gobeithio y gwyddai y rhan amlaf, a goreu, o'r Corinthiaid, eu bod yn gywir eu dybenion.

12 * Canys [g] nid ydym yn ein canmol ein hunain drachefn wrthych, [h] † ond yn rhoddi i chwi achlysur gorfoledd o'n plegid ni, ‡ fel y caffoch beth i *ateb* yn erbyn y rhai sydd yn gorfoleddu yn y golwg, ac nid yn y galon.

g pen. 3. 1. a 6. 4. a 10. 8, 12, 18. a 12. 11. Diar. 27. 2. h pen. 1. 14. a 11. 12—16. a 12. 1—9.

* Gwel ar pen. 3. 1. Pryd nad oedd Paul a'i frodyr ond ewn hamddiffyn eu hunain o angenrheidrwydd, yr oedd rhai yn Corinth yn cam-liwio hyny, ac yn dywedyd mai gwag-ymfrostio a chanmol eu hunain yr oeddynt: ar y llaw arall, pe buasent yn ddystaw, heb eu hamddiffyn eu hunain, buasai eu gwrthwynebwyr yn priodoli hyny i euogrwydd, eu bod yn addef pa bethau bynag a welent hwy yn dda eu cyhuddo o honynt. Gan hyny yr oedd yn angenrheidiol i'r apostol ddywedyd yma drachefn, mai nid canmol eu hunain yr oeddynt, ond amddiffyn eu hunain ger bron eu cyfeillion, yn wyneb y rhai a fynent eu gwaradwyddo a'u cam-gyhuddo; † a rhoddi achlysur gorfoledd i'w cyfeillion a'u hewyllyswyr da o'u plegid: gorfoledd a diolchgarwch am y defnydd a wnaeth Duw o honynt, y daioni a ddangosodd iddynt, ac i'r saint yn Corinth trwyddynt. ‡ Yr oedd yr amddiffyn cyfiawn ac angenrheidiol hwn hefyd, yn rhoddi modd i'r Corinthiaid ateb a gwrthbrofi cam-gyhuddiadau y gau-athrawon yno; a dystewi ymffrost y rhai oedd yn ymdecâu yn y cnawd, ac yn iselu yr apostol i'w derchafu eu hunain; er y gwyddent yn eu calonau eu hunain, nad oedd ganddynt achos cyfiawn i ymorfoleddu ynddynt eu hunain, nac yn erbyn Paul a'i gyfeillion: yn y golwg yr oedd eu holl *sel* a'u cariad hwy, nid oedd dim yn y galon.

13 * Canys pa un bynnag [i] ai ammhwyllo yr ydym, [k] † i Dduw *yr ydym;* ‡ ai yn ein [l] pwyll yr ydym, [m] i chwi *yr ydym.*

i pen. 11. 1, 16, 17. a 12. 6, 11. Gwel ar Act 26. 24 25. 1 Cor. 4. 10—13. 1 Thes. 2. 3—11. k 2 Sam. 6. 21, 22. 1 Act. 26. 25. Rhuf. 12. 3. m pen. 7. 12. Col. 1. 24. 1 Thes. 1. 5. 2 Tim. 2. 10.

* Tybia rhai fod y gau-athrawon Iuddewaidd yn barnu Paul allan o'i bwyll, am ei fod yn derbyn cenedloedd i'r eglwys heb eu henwaedu; ac mai at y cyhuddiad hyny mae efe yn cyfeirio yma: ac yn wir mae rhediad yr adnodau canlynol yn lled-ddangos mai amddiffyn ei hun yn hyny y mae efe; fod cariad Crist yn ei gymhell ef i dderbyn y cenedloedd dïenwaededig yn gystal â'r enwaediad; fod Crist wedi marw dros y naill yn gystal a thros y llall; ac nad oedd efe yn adnabod neb yn ol y cnawd mwyach. Ond heblaw hyny, yr oedd awydd Paul am ddiwygio pethau beïus yn Corinth, ei waith yn hòni ei awdurdod apostolaidd, ei wresawgrwydd rhagorol, ei lafur diflino a dïelw, yr erlidiau oedd yn ddyoddef, y pethau dyfnion oedd yn draddodi, a'r gweledigaethau oedd yn adrodd;—pethau dïeithr i'r gau-athrawon oedd y pethau hyn oll, nis gwyddent *hwy* ddim am y fath bethau; am hyny ceisient daeru mai anmhwyllo ac ynfydu yr oedd Paul. † Yn y pethau uchod oll, a gyfrifai rhai yn anmhwylledd, dywedai yr apostol mai anmhwylledd i Dduw ydoedd; o gydwybod ac ufudd-dod i Dduw, a dyben cywir i ogoneddu Duw, trwy sefyll dros anrhydedd yr efengyl, ac arddangos golud gras Duw, fel yr oedd yn awr yn cael ei estyn i'r cenedloedd. Os anmhwyllo yr ydym, i Dduw yr ydym yn attebol; a Duw a ŵyr nad anmhwyllo yr ydym. ‡ Ai yn ein pwyll yr ydym, fel y tybia eraill yn fwy tirion a chyfiawn am danom; yr ydym felly hefyd i Dduw, er ei ogoniant ef, ac i chwithau, er eich adeiladaeth a'ch iachawdwriaeth. Yn mha dymher bynag yr oeddynt, yr oeddynt felly er gogoniant Duw, ac er eu lles a'u hadeiladaeth hwythau: cariad at Dduw ac ewyllys da i ddynion oedd yn eu cynhyrfu hwy yn mhob peth.

14 * Canys [n] y mae cariad Crist † yn ein [o] cymmell ni, [p] ‡ gan farnu o honom hyn; os bu [q] un farw dros bawb, [r] ‖ yna meirw oedd pawb:

n pen. 8. 8, 9. Can. 1. 4. a 8. 6, 7. Mat. 10. 37, 38. Luc 7. 42—47. Ioan 14. 21—23. a 21. 15—17. 1 Cor. 16. 22. Eph. 3. 18, 19. a 6. 24. Heb. 6. 10. 1 Pedr 1. 8. o Job 32. 18. Luc 24. 29. Act. 4. 19, 20. p Rhuf. 2. 2. 1 Cor. 2. 14. q Es. 53. 6. Mat. 20. 28. Ioan 1. 29. a 11. 50—52. 1 Tim. 2. 6. Heb. 2. 9. 1 Ioan 2. 1, 2. r pen. 3. 7, 9. Luc 15. 24, 32. Ioan 5. 25. a 11. 25. Rhuf. 5. 15. Eph. 2. 1—5. Col. 2. 13. 1 Tim. 5. 6. Tit. 3. 3. 1 Ioan 5. 19.

* Yr ystyriaeth o gariad annhraethol Crist tuag at ddynion, ac hefyd y gras o gariad at Grist, yn dywallt-edig ac yn blanedig yn eu calonau eu hunain. † "Cymhell:" *(Synechei,)* dàl yn gadarn, bod mewn dwys gyfyngder a gwasgfa; a gorfod myned yn mlaen, fel rhyw beth nofiadwy gyda ffrŵd gref yn annwrthwynebol. Felly yr oedd cariad Crist yn cymhell yr apostolion yn rỳmus ac yn nerthol yn eu holl lafur, ac nis gallasai na hudoliaethau y byd ar y naill law, na'i erledigaethau ar y llaw arall, eu hattal hwy dàn gymhelliadau grỳmus y

cariad nerthol hwn. ‡ Yr oeddynt yn barnu yn ol datguddiad yr efengyl, os bu Crist farw dros, ac yn neddfle, pechaduriaid o bob math, Cenedloedd yn gystal âg Iuddewon, ac Iuddewon yn gystâl â Chenedloedd; || yna meirw oedd pawb wrth natur, yn ysbrydol a thàn gondemniad: ac felly nid oedd gan yr Iuddewon ddim hawl i'r efengyl, ei breintiau, a'i bendithion, mwy na'r cenedloedd. Cyfrifai rhai yr apostol wedi anmhwyllo; (adn. 13,) eto mae efe yma yn medru "barnu" yn gywir a rhesymol, ac yn gweithredu yn benderfynol yn ol y farn hòno.

15 * Ac efe a fu farw dros bawb, [s] † fel na byddai i'r rhai byw ‡ fyw [t] mwyach [u] iddynt eu hunain, || ond i'r hwn a fu farw drostynt, § ac a gyfodwyd.

s pen. 3. 6. Ezec. 16. 6. a 37. 9, 14. Hab. 2. 4. Zec. 10. 9. Ioan 3. 15, 16. a 5. 24. a 6. 57. Rhuf. 6. 2, 11, 12. a 8. 2, 6, 10. Gal. 2. 20. a 5. 25. Eph. 5. 14. Col. 2. 12. a 3. 1. 1 Pedr 4. 6. 1 Ioan 4. 9. t adn. 16. 2 Bren. 5. 17. Rhuf. 6. 6. Eph. 4. 17. 1 Pedr 1. 14, 15. a 4. 2—4. u Luc 1. 74. Rhuf. 6. 13. a 12. 1. a 14. 7—9. 1 Cor. 6. 20. a 10. 33. Gal. 2. 19. Phil. 1. 20, 21. Col. 3. 17, 23. 1 Thes. 5. 10. Tit. 2. 14. Heb. 13. 20, 21. Dat. 1. 18.

* Efe a fu farw dros "bawb" o'i eiddo, y rhai a roddes y Tad iddo i farw drostynt, ac i'w prynu *o blith* dynion. Bu farw dros "bawb" o'r Iuddewon etholedig, a thros "bawb" o'r cenedloedd etholedig, tyrfa fawr nas gall neb ei rhifo. Amddiffyn ei hun am bregethu yr efengyl i'r cenedloedd mae yr apostol yn yr adnodau hyn, trwy ddangos fod Crist wedi marw dros genedloedd yn gystal âg Iuddewon; felly trais mawr ar ei feddwl ef yn ddiau yw dirdynu y ddwy adnod hyn i geisio profi prynedigaeth gyffredinol pob dyn. Gwyddom mai ystyr derfynol sydd i'r gair *pawb* mewn llawer o fànau eraill; a phaham y ceisir rhoddi yr ystyr eithaf, a helaethaf, iddo yma? Dim ond i geisio dàl i fynu athrawiaeth gyfeiliornus. "Mi a dynaf 'bawb' ataf fy hun," ebai Crist, ac eto mae yn amlwg mai nid *pawb oll* o ddynolryw a feddylir; eithr pawb a ddeuant at Grist trwy dyniad ysbrydol, ac a fyddant gadwedig trwy ffydd ynddo. Y pawb a dyn efe ato, yw y pawb y bu efe farw drostynt; pe amgen byddai marwolaeth Crist yn helaethach na'i heffeithiau, yr hyn sydd athrawiaeth wrthun iawn, os nid cableddus hefyd. † Fel na byddo i'r rhai a fywêir yn ysbrydol, ac a ânt trwodd o farwolaeth i fywyd trwy ei angau ef, a thrwy weithrediadau bywâol a grasol yr Ysbryd Glân, ‡ fyw mwyach iddynt eu hunain, eu chwantau a'u pleserau bydol a chnawdol; || ond cyflwyno eu cyrph a'u heneidiau prynedig, a'u bywyd gwaredol, i wasanaeth, achos a gogoniant yr hwn a fu farw drostynt, i dynu ymaith eu pechodau trwy ei aberthu ei hun, § ac a gyfododd drachefn fel eu cynnrychiolwr cyhoeddus i'w cyfiawnâu. Y "pawb" y bu Crist farw drostynt, yw y "rhai byw, nad ydynt yn byw iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw drostynt ac a gyfodwyd:" fel hyny mae yr ail ran o'r adnod yn agoriad i'r rhan flaenaf o hòni.

16 * Am hynny [x] † nyni ‡ o hyn allan nid adwaenom neb yn ol y cnawd: || ac os buom hefyd yn adnabod Crist yn ol y cnawd, [y] § etto yn awr nid ydym yn *ei* adnabod *ef* mwyach.

x Deut. 33. 9. 1 Sam. 2. 29. Mat. 10. 37. a 12. 48—50. Marc 3. 31—35. Ioan 2. 4. Gal. 2. 5, 6. 1 Tim. 5. 21, 22. Iago 2. 1—4. a 3. 17. y Ioan 6. 63.

* "Am hyny," gan fod Crist wedi "marw dros bawb," sef dros genedloedd yn gystal âg Iuddewon; † nyni, yr apostolion, a gweinidogion eraill yr efengyl; ‡ o hyn allan nid adwaenom neb yn ol y cnawd; hyny yw, ni wnawn ni ddim gwahaniaeth rhwng Iuddewon â Chenedloedd mwyach yn ngweinidogaeth yr efengyl iddynt: meirw oedd y naill fel y lleill wrth naturiaeth; (adn. 14.) bu Crist farw dros y naill fel y lleill; am hyny rhaid i ni bregethu yr efengyl i'r naill fel y lleill, a derbyn pawb i'r eglwys ar broffes o'u ffydd yn Nghrist, pa un bynag ai Iuddewon ai Cenedloedd a fyddont: pa fodd y beiddiwn ni wneyd gwahaniaeth, lle na wnaeth Crist ddim gwahaniaeth? "Yn ol y cnawd:" sef yn ol gwaedoliaeth, cenedl, breintiau, ac enwaediad neu ddïenwaediad yn y cnawd. || Nis gwyddom a adnabu Paul ei hun Grist yn ol y cnawd ai peidio; ond yr oedd yr apostolion eraill wedi ei adnabod ef felly; rhai o honynt yn perthyn iddo yn ol y cnawd, ac oll wedi bod yn ganlynwyr iddo pan oedd yn y cnawd ar y ddaear. § Ond nid oddi ar yr adnabyddiaeth hòno, nac yn ol yr adnabyddiaeth hòno o Grist, yr oedd neb o honynt yn gweithredu yn awr fel apostolion a gweinidogion yr efengyl; ond dàn ddylanwadau mwy ysbrydol, a goleuni eglurach yr Ysbryd Glân, yr oedd ganddynt hwy olygiadau mwy ysbrydol am dano ef, a dybenion ei gnawdoliad, ei waith, a'i ddyoddefiadau, fel ffordd ryfeddol i ogoneddu Duw, sylfaenu a chynnyddu gwir grefydd a duwioldeb yn y byd, ac achub myrddiynau o ddynion, Iuddewon a Chenedloedd hefyd. Hwy a fuont yn adnabod Crist fel Messiah a brenin tymmorawl yn ol y cnawd; ond yn awr nid oeddynt yn ei adnabod ef felly mwyach, nac yn ei bregethu felly chwaith.

17 * Gan hynny od *oes* neb [z] yng Nghrist, † *y mae efe* [a] yn greadur newydd: [b] ‡ yr hen bethau a aethant heibio; wele, || gwnaethpwyd pob peth yn newydd.

z adn. 19, 21. pen. 12. 2. Es. 45. 17, 24, 25. Ioan 14. 20. a 15. 2, 5. a 17. 23. Rhuf. 8. 1. a 16. 7, 11. 1 Cor. 1. 30. Gal 3. 28. a 5. 6. Eph. 1. 3, 4. Phil. 4. 21. a Salm 51. 10. Ezec. 11. 19. a 18. 31. a 36. 26. Mat. 12. 33. Ioan 3. 3, 5. Gal. 6. 15. Eph. 2. 10. b adn. 16. Es. 43. 18, 19. a 65. 17, 18. Mat. 9. 16, 17. a 24. 35. Rhuf. 6. 4—6. a 7. 6. a 8. 9, 10. 1 Cor. 13. 11. Eph. 4. 22—24. Phil. 3. 7—9. Col. 3. 1—10. Heb. 6. 9—13. 2 Pedr 3. 10—13. Dat. 21. 1—5.

* Y farn, y profiad, yr egwyddorion, a'r golygiadau uchod a grybwyllodd yr apostol, ni ddylid eu hystyried fel pethau priodol iddo ef a'i gyfeillion yn unig; ond fel sylwedd a maen prawf gwir gristionogaeth yn mhob dyn, o ba genedl, gwlad, neu ddàliadau bynag y byddo: "od oes neb," Iuddew neu Genedl-ddyn, yn Nghrist, fel credadyn cyfiawnâol, † mae efe hefyd yn "grëadur newydd," neu yn grëadigaeth newydd Duw. Er mai yr un dyn ydyw o ran corph, enaid, a chynneddfau; eto mae y fath gyfnewidiad sanctaidd ac ysbrydol wedi ei wneyd arno, ac anian newydd a duwiol wedi ei rhoddi ynddo; fel y gellir ei alw yn "grëadur newydd:" nid yw ddim llai na hyny; ac nis gallasai neb llai na Duw, y Crëawdwr hollalluog, ei wneuthur y peth ydyw yn awr trwy ras, mwy na'r peth ydoedd o'r blaen o ran ei grëadigaeth naturiol. ‡ Mae ei hen egwyddorion, ei syniadau, ei ddybenion, ei bleserau, a'i ymarweddiad pechadurus, wedi myned heibio; wedi eu rhoddi heibio, a darfod â hwynt, o ran ei ddewisiad o honynt, ac o ran eu llywodraeth arno; || ac mae pob peth wedi ei wneyd o newydd: goleu newydd yn y meddwl, calon newydd, ysbryd newydd, hyfrydwch mewn pethau a chyfeillion newydd, a buchedd ac ymarweddiad newydd.

18 [c] * A phob peth *sydd* o Dduw, [d] † yr hwn a'n cymmododd ni âg ef ei hun trwy Iesu Grist, [e] ‡ ac a roddodd i ni weinidogaeth y cymmod;

c Ioan 3. 16, 27. Rhuf. 11. 36. 1 Cor. 1. 30. a 8. 6. a 12. 6. Col. 1. 16, 17. Iago 1. 17. d Lef. 6. 30. Ezec. 45. 15. Dan. 9. 24. Rhuf. 5. 1, 10, 11. Eph. 2. 16. Col. 1. 21. Heb. 2. 17. e adn. 19, 20. Es. 52. 7. a 57. 19. Marc 16. 15, 16. Luc 10. 5. a 24. 47. Act. 10. 36. a 13. 38, 39. Eph. 2. 17. Col. 1. 20.

* Fel yr oedd pob peth yn y grëadigaeth gyntaf o Dduw, felly hefyd mae pob peth yn y grëadigaeth newydd ac ysbrydol o Dduw. Mae holl drefn yr iachawdwriaeth fawr o Dduw yn unig, yr holl weithrediadau grasol ac achubol ar eneidiau dynion, a'r holl fendithion ysbrydol a gyfrenir i ddynion, o Dduw y maent oll. "O'i wir ewyllys yr ennillodd efe nyni trwy air y gwirionedd;" a "phob rhoddiad daionus, a phob rhodd berffaith, oddi uchod y mae, yn disgyn oddi wrth Dad y goleuni." † Duw a drefnodd y ffordd ryfeddol i gymmodi pechaduriaid, a'u heddychu byth âg ef ei hun, trwy aberth ac iawn ei anwyl Fab: ac efe

trwy ei air a'i Ysbryd sydd yn dwyn pechaduriaid i'r cymmod gwerthfawr a bendigedig hwn. ‡ Duw a wnaeth hyny i'r apostolion, fel i bawb eraill a gymmodir; ac efe a roddodd iddynt hwy weinidogaeth y cymmod, i'w chyhoeddi i bawb yn ddiwahaniaeth, fel y dygid eraill filoedd i gymmod â Duw yn ei Fab Iesu Grist.

19 * Sef, [f] bod Duw yng Nghrist [g] yn cymmodi † y byd âg ef ei hun, [h] ‡ heb gyfrif iddynt eu pechodau; ‖ ac wedi gosod ynom ni [i] air y cymmod.

f Mat. 1. 23. Ioan 14. 10, 11, 20. a 17. 23. 1 Tim. 3. 16. g Rhuf. 3. 24—26. a 11. 15. 1 Ioan 2. 1, 2. a 4. 10. h Salm 32. 1, 2. Es. 43. 25. a 44. 22. Rhuf. 4. 6—8. i adn. 18.

* Hyn yw swm a sylwedd gweinidogaeth fawr y cymmod, sef bod Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun. Nid *cymmodadwy*, eithr *cymmodi*, sydd yma; ac nid cyhoeddi yn unig, bod ffordd i gymmodi, eithr cymmodi yn weithredol ac mewn gwirionedd. † Ni ddylid deall y gair "byd," yn ei ystyr helaethaf yma, mwy na'r gair "pawb" yn adn. 14, 15; oblegid nid yw y byd, yn ei ystyr eithaf, sef pob dyn yn y byd, yn cael ei gymmodi â Duw: ond mae rhai o Iuddewon a chenedloedd y byd yn cael eu cymmodi â Duw trwy ffydd yn Nghrist a'i aberth mawr. ‡ Fel y mae Crist wedi cymmeryd natur ei bobl, mae hefyd wedi myned yn Fachnïydd ei bobl, ac yn eu deddfle; ac yn y sefyllfa hòno, mae Duw wedi cyfrif pechodau, a rhoddi y gosp ddyledus am bechodau ei bobl arno ef: ac yn awr, wrth gymmodi y byd âg ef ei hun, mae ganddo lwybr a threfn gyfiawn i beidio cyfrif eu pechodau i'r rhai a gymmodir, eithr eu maddeu, eu dilëu, a'u hanghofio byth. ‖ "Gair y cymmod" sydd yr un peth â "gweinidogaeth y cymmod," adn. 18: yr efengyl, trwy yr hon y cyhoeddir y cymmod, ac y dygir pechaduriaid i dderbyn y cymmod. Yr oedd y "gair" hwn *yn* yr apostolion, fel trysor gwerthfawr mewn llestri pridd, (pen. 4. 7.) i'w gario a'i gyhoeddi i Iuddewon a Chenedloedd yn mhob màn.

20 * Am hynny yr ydym ni yn [k] genhadau † dros Grist, [l] ‡ megis pe byddai Duw yn ‖ deisyf *arnoch* trwom ni: § yr ydym yn erfyn [m] dros Grist, [n] Cymmoder chwi â Duw.

k pen. 3. 6. Job 33. 23. Diar. 13. 17. Mal. 2. 7. Ioan 20. 21. Act. 26. 17, 18. Eph. 6. 20. l adn. 11. pen. 6. 1. 2 Bren. 17. 13. 2 Cron. 36. 15. Neh. 9. 29. Es. 55. 6, 7. Jer. 44. 4. Ezec. 18. 31, 32. m Job 33. 6. Luc 10. 16. 1 Cor. 5. 4, 5. 1 Thes. 4. 8. n Job 22. 21. Diar. 1. 22, &c. Es. 27. 5. Jer. 13. 16, 17. a 38. 20. Luc 14. 23.

* Weithiau mae yr apostol yn llefaru am dano ei hun a'i frodyr fel *gweision*, *gwyliedyddion*, *llafurwyr*, *cweithwyr*, a'r cyffelyb; i ochelyd pob ymddangosiad o fawredd a rhodres, ac i ddangos nad oedd un gwasanaeth yn achos Crist yn rhŷ wael a llafurus ganddynt hwy, er anrhydedd eu Harglwydd mawr a'u Meistr, ac er lles eneidiau anfarwol: ond rai prydiau eraill, pan mae eu henwau da a'u cymmeriad yn cael eu hiselu a'u dirmygu, megys gan rai yn Corinth, mae efe yn mawrâu eu swydd, i amddiffyn eu parch dyledus yn ngolwg yr eglwysi, ac yn erbyn gwaradwyddiadau anheilwng a diachos eu dirmygwyr gelynol. I'r dyben hyn mae yn llefaru am dano ei hun a'i frodyr dàn yr enw *goruchwylwyr*, 1 Cor. 4. 1, yr hyn sydd un o'r swyddau uwchaf mewn teulu mawr, ac yma dàn yr enw *cenadau*, yr hyn sydd un o'r swyddau anrhydeddusaf mewn teyrnas: oblegid cenadau brenin a feddylir, yn cael eu danfon i gyhoeddi ammodau heddwch i elynion a gwrthryfelwyr: a chyfryw genadau yw holl weinidogion anfonedig a ffyddlawn Crist, yn gystal â'r apostolion. † Yr oeddynt felly *dros* Grist, yn ei le ef wedi ei esgyniad, ac yn cyhoeddi y cymmod yn ei enw, ei awdurdod, ac ar ei orchymyn a'i anfoniad ef. ‡ Fel y mae cenadon breninoedd yn cynnrychioli y breninoedd a'r teyrnasoedd a'u danfono; felly yr oedd megys Duw ei hun trwy yr apostolion yn deisyfu ar bechaduriaid i ddyfod i gymmod âg ef. Byddai yn dda i bechaduriaid eto ystyried fod Duw ei hunan yn llefaru wrthynt trwy ei genadon anfonedig: dirmygu y cenadon a'u cenadwri yw dirmygu Duw ei hun. ‖ Nid *gorchymyn* yn unig y mae efe, ond *deisyfu* hefyd, ar bechaduriaid am ddyfod i gymmod: anfeidrol yw ymostyngiad a daioni y Duw mawr tuag at grëaduriaid gwael ac euog! § Mae hyn yn dangos ffyddlondeb yr apostolion, a holl wir weinidogion yr efengyl, i Grist; a'u gwasgfa ddifrifol yn achos pechaduriaid, am eu cadwedigaeth a'u hiachawdwriaeth dragywyddol: fel y mae Duw yn *deisyf*, felly y maent hwythau yn *erfyn*: os yw Duw o *ddifrif* am achub pechaduriaid, mae ei holl wir genadon felly hefyd o'r un ysbryd, ac yn amcanu yr un peth. Wrth fod Crist â Duw, Duw â Christ, yn cael eu henwi yma fel y maent, mae hyny yn dangos fod yr apostol yn ystyried Crist â Duw yn ogyfuwch; neu fod Crist yn Dduw, ac mai Duw yw Crist. Wrth fedwl fod Paul yn ysgrifenu at broffeswyr crefydd yn eglwys Corinth, ac yn dywedyd, "Cymmoder chwi â Duw;" mae yn debyg y gallai ystyried fod rhai o honynt yn broffeswyr, ond heb eu cymmodi â Duw mewn gwirionedd: dysger ni i grynu, rhag ein bod yn proffesu crefydd, ond heb y cymmod â Duw trwy ffydd yn ei Fab ef.

21 * Canys [o] yr hwn nid adnabu bechod, [p] † a wnaeth efe yn bechod drosom ni; fel [q] ‡ y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef.

o Es. 53. 4—6, 10—12. Dan. 9. 26. Zec. 13. 7. Rhuf. 8. 3. Gal. 3. 13. Eph. 5. 2. 1 Pedr 3. 18. 1 Ioan 2. 1, 2. p Es. 53. 9. Luc 1. 35. Heb. 7. 26. 1 Pedr 2. 22—24. 1 Ioan 3. 5. q adn. 17. Es. 45. 24, 25. a 53. 11. Jer. 23. 6. a 33. 16. Dan. 9. 24. Rhuf. 1. 17. a 3. 21—26. a 8. 1—4. a 10. 4. 1 Cor. 1. 30. Phil. 3. 9.

* Crist oedd yr hwn nid adnabu bechod: peth sanctaidd, difeïus a difrycheulyd oedd efe yn ei genedliad, ei enedigaeth, a'i holl fywyd; yr hwn ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau. Pwy o honoch a'm hargyhoedda I o bechod, ebai efe. Nid adnabu ei ddynoliaeth ef bechod, o herwydd ei llygru gan bechod, na bod yn euog o unrhyw bechod erioed: ac felly yr oedd yn ddiddrwg, dïhalog, yn ddidoledig oddi wrth bechaduriaid, ac yn Arch-offeiriad gweddus i ni. † Ond fel Cyfryngwr, a Machnïydd yn neddfle pechaduriaid, yr Arglwydd a roddes arno ef ein hanwireddau ni i gyd; fel hyn efe a wnaethpwyd yn bechod, neu yn bech-aberth drosom ni, yn gyfatebol i'r aberthau dros bechod dàn y ddeddf gynt. ‡ Fel y cyfrifid cyfiawnder Crist i ni, ac felly y gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef. Megys nas gwnaed, ac nas gellid gwneyd Crist yn bechod trwy unrhyw bechod ynddo ei hun, eithr trwy gyfrifiad o bechodau ei bobl arno; felly hefyd nis gwneir, ac nis gellir gwneyd neb o'i bobl ef yn gyfiawn, trwy unrhyw gyfiawnder o'r eiddynt eu hunain, eithr trwy gyfrifiad o'i gyfiawnder ef iddynt: fel y gwnaed ef yn bechod trwy gyfrifiad, felly y gwneir ei bobl yn gyfiawnder Duw trwy gyfrifiad hefyd. Mae yr adnod hon yn profi yn benderfynol, osodiad person Crist yn neddfle ei bobl, cyfrifiad o anwiredd ei bobl arno ef, bod ei ddyoddefaint ef yn aberth, iawn, a boddlonrwydd dros bechod, ac mai trwy gyfrifiad o'i gyfiawnder ef mae pawb a gredant ynddo yn cael eu cyfiawnâu: nis gellir defnyddio geiriau cryfach, ac amlycach, i osod allan y gwirioneddau gwerthfawr uchod, gan neb o'r dadlëuwyr mwyaf gwresog dros y cyfryw wirioneddau; ac nis gall neb byth o wrthwynebwyr athrawiaeth y cyfrifiad, a machnïaeth Crist *dros bersonau*, wrthsefyll yr adnod hon, na dywedyd yn ei herbyn. Dywedant hwy a fynont, fel y darllenwyd uchod y dywed Paul.

PEN. VI.

Paul yn hysbysu ddarfod iddo ddangos ei hun yn weinidog ffyddlawn i Grist.

* A NINNAU, † gan [a] gyd-weithio, [b] ‡ ydym yn attolwg *i chwi*, [c] na dderbynioch [d] ras Duw yn ofer.

a pen. 5. 18—20. 1 Cor. 3. 9. b Gwel ar pen. 5. 20.—a 10. 1. Mat. 23. 37. Rhuf. 12. 1. Gal. 4. 11, 12. c Jer. 8. 8. Gal. 3. 4. Heb. 12. 15, 25. d pen. 8. 1, 2. Act. 14. 3. Gal. 2. 21. Tit. 2. 11. 1 Pedr 4. 10, 11.

* A ninnau yr apostolion, a gwir weinidogion yr efengyl, † gan gyd-weithio Â'n gilydd fel cenadau dros Grist; ‡ ydym yn atolwg i chwi y Corinthiaid, a phroffeswyr yr efengyl yn mhob màn; na dderbynioch yr athrawiaeth uchod, o drefn rasol Duw yn cymmodi y byd âg ef ei hun yn Nghrist, heb gyfrif iddynt eu pechodau, yn ofer: na dderbynioch hi yn yr hanes a'r cydsyniad yn unig, heb iddi gael ei lle yn, a'i phriodol effaith ar, y galon. Mae yn ddiammau mai athrawiaeth yr efengyl a feddylir yma wrth "ras Duw;" oblegid "gras" mewn ystyr arall o'r gair, nis gellir ei dderbyn yn ofer. Yr oedd yr apostol yn ofni bod rhai yn Corinth yn gwrando yr efengyl, ac yn proffesu eu bod yn gwneyd derbyniad o hóni, ond hyd yma yn ofer; nad oeddynt wedi ei derbyn yn wirioneddol ac yn achubol yn y galon.

2 * (Canys y mae efe yn dywedyd, * † Mewn amser cymmeradwy y'th wrandewais, ac yn nydd iachawdwriaeth y'th gynnorthwyais: ‡ wele, yn awr yr amser cymmeradwy; wele, yn awr ddydd yr iachawdwriaeth)

e Es. 49. 8. a 61. 2. Ezec. 16. 8. Luc 4. 19. a 19. 42—44. Heb. 3. 7, 13. a 4. 7.

* Mae Duw Dad yn dywedyd y geiriau a ganlyn wrth ei Fab y Messiah, yn Esa. 49. 8. † Fel mae y geiriau hyn yn sefyll yn Esaiah, mae yn bur amlwg mai addewid i Grist ydynt; yn yr hon mae Duw yn ymrwymo ei gynnorthwyo ef yn ei waith, gwrando ei eiriolaeth, a rhoddi y Cenedloedd iddo ef, yn chwanegiad at ei eglwys, ac fel gwobr ei waith cyfryngol. Ac yn y cyssylltiad hyn, mae fel pe dywedasai yr apostol, "Gan fod y fath addewid wedi ei gwneyd, edrychwch chwi am ei cheisio, a chwi a'i cewch mewn amser cymmeradwy." Chwi a ddeuwch, megys mewn amser cyfaddas a da, fel y dywedir i Grist ddyfod. ‡ Geiriau yr apostol yw y rhai hyn, yn manylu ar, neu yn gwneyd defnydd cymhwysiadol o, eiriau Duw trwy y prophwyd: yn awr yw amser cymmeradwy Duw i roddi y cenedloedd i'w Fab, ac yn awr yw yr amser cymmeradwy a dydd yr iachawdwriaeth i'r cenedloedd i ddyfod at Fab Duw, am iachawdwriaeth a bywyd tragywyddol. Trwy fawr drugaredd mae yr amser cymmeradwy, a dydd yr iachawdwriaeth heb ddarfod arnom ninnau hyd yn hyn; gan nas gwyddom pa mòr fuan y derfydd, gwnawn y defnydd goreu o hóno i gaffael iachawdwriaeth i'n heneidiau.

3 f * Heb roddi dim achos tramgwydd mewn dim, † fel na feier ar y weinidogaeth:

f pen. 1. 12. a 8. 20. Mat. 17. 27. a 18. 6. Rhuf. 14. 13. 1 Cor. 8. 9—13. a 9. 12, 22. a 10. 23, 24, 32, 33.

* Tra yr oedd yr apostol a'i gyd-weithwyr yn dyfal lafurio yn eu gweinidogaeth fawr o gymmod a heddwch i'r byd; yr oeddynt hefyd yn ofalus iawn, na roddent ddim achos tramgwydd mewn dim i neb: † fel na chaffai neb achlysur i feio a dirmygu eu gweinidogaeth, ac felly ei gwneyd yn ddieffaith, anfuddiol, ac anghymmeradwy. Wrth y "weinidogaeth" yma, gellir deall un ai y *swydd* weinidogaethol, neu ynte *destyn* a *mater* y weinidogaeth, sef yr efengyl, gair y cymmod.

4 g * Eithr gan ein dangos ein hunain ym mhob peth h fel gweinidogion Duw, i † mewn amynedd mawr, ‡ mewn k cystuddiau, mewn l anghenion, mewn m cyfyngderau.

g pen. 2. 17. a 7. 11. Act. 2. 22. Rhuf. 14. 18. a 16. 10. 1 Cor. 11. 19. 1 Thes. 2. 3—11. 2 Tim. 2. 15. h pen. 3. 6. a 11. 23. Es. 61. 6. Joel 1. 9. a 2. 17. 1 Cor. 3. 5. a 4. 1. 1 Thes. 3. 2. 1 Tim. 4. 6. i pen. 12. 12. Luc 21. 19. Rhuf. 5. 3, 4. Col. 1. 11. 1 Thes. 5. 14. 1 Tim. 6. 11. 2 Tim. 3. 10. Heb. 12. 1. Iago 5. 7—10. Dat. 1. 9. a 3. 10. k pen. 4. 17. Act. 20. 23, 24. Col. 1. 24. 1 Thes. 3. 3. 2 Tim. 1. 8. a 3. 11, 12. a 4. 5. l pen. 11. 9, 27. a 12. 10. Act. 20. 34. 1 Cor. 4. 11, 12. Phil. 4. 11, 12. m pen. 4. 8. Rhuf. 8. 35, 36. 1 Thes. 3. 7.

* Gweinidogion Duw yw holl wir weinidogion yr efengyl, ac nis gall neb eu "dangos," neu eu profi eu hunain felly, ag sydd yn arwain bucheddau gwarthus a thramgwyddus: nid yw Duw yn danfon neb i osod tramgwyddiadau ar ffordd dynion, eithr i'w symmud oddi ar y ffordd. Nid mewn hawddfyd, esmwythder, a pharch, yr oeddynt hwy yn eu "dangos eu hunain fel gweinidogion Duw;" ond "yn mhob peth" gwrthwyneb i hyny; fel y mae yr amryw bethau a ganlyn yn dangos, y rhai nid oes achos sylwi yn fanwl ar bob un o honynt: † mae yn amlwg bod yr "amynedd mawr" a enwir, yn angenrheidiol i ymddwyn fel gweinidogion Duw, ynddynt oll. ‡ Tybia rhai fod gradd-iaith yn y tri gair hyn; megys esgyniad o "gystuddiau" cyffredin, i "anghenion" gwasgedig, ac o hyny eilwaith i "gyfyngderau" eithaf, ac anghyffredin.

5 * Mewn n gwialennodiau, † mewn o carcharau, p ‡ mewn terfysgau, ‖ mewn q poenau, mewn r gwyliadwriaethau, § mewn s ymprydiau,

n pen. 11. 24, 25. Deut. 25. 3. Es. 53. 2 Act. 16. 23. o 1 Bren. 22. 27. 2 Cron. 16. 10. Jer. 33. 1. a 37. 15, 16. a 38. 6. Mat. 14. 3, 10. Act. 5. 18. a 12. 4, 5. a 16. 24. a 22. 24. a 23. 35. a a 24. 27. a 26. 10, 29. a 28. 16, 17, 30. Eph. 3. 1. Phil 1. 13. 2 Tim. 1. 8. a 2. 9. Heb. 11. 36. a 13. 23. Dat. 2. 10. p pen. 1. 8—10. Act. 14. 19. a 17. 5. a 18. 12—17. a 19. 23—34. a 21. 27—35. a 22. 23. a 23. 10. q pen. 11. 23. 1 Cor. 15. 10. 1 Thes. 2. 9. 1 Tim. 4. 10. r pen. 11. 27. Ezec. 3. 17. Marc 13. 34—37. Act. 20. 31. 2 Tim. 4. 5. Heb. 13. 17. s Mat. 9. 15. Act. 13. 3. a 14. 23. 1 Cor. 7. 5.

* Cawn grybwylliad am y gwialenodiau hyn eto, yn pen. 11. 23—25, ac efallai achlysur i sylwi yn fanylach arnynt yno. † Am garchariad yr apostol a rhai o'i gyfeillion, gwel Act. 16. 23, 24; ac nid hwnw oedd yr unig dro fel mae yn amlwg wrth yr adnod hon. ‡ Nid terfysgau a barai yr apostolion eu hunain, eithr terfysgau a godai eu gelynion yn eu hachos ac i'w herbyn hwynt: cawn hanes am amryw o honynt yn llyfr yr Actau. Taflu, neu fwrw un draw ac yma, o drais a gorthrech, meddant, yw ystyr y gair *(akatastasiais)* a gyfieithir yma terfysgau. ‖ Diammau fod y gwialenodiau, y carcharau, a'r terfysgau uchod, yn boenus iawn i'r apostol a'i gyd-ddyoddefwyr, i'w cyrph a'u meddyliau hefyd; fel nad oeddynt yn cael y gorphwysiad oedd yn angenrheidiol i natur, ond yn aml iawn mewn anhunedd a gwyliadwriaethau, pryd y dylasent fod yn gorphwys ac yn cysgu yn dawel a chysurus. Mewn *llafuriau* yw y gair yn ol y Saesoneg; un ai llafurio â'u dwylo am gynnaliaeth, neu lafurio yn y weinidogaeth, a hyny yr amser y dylasai natur gael gorphwys. *Kopois* yw y gair Groeg, yn arwyddo poen a llafur hefyd. § Mae yn debyg y byddent yn *gorfod* ymprydio weithiau, am nad oedd ganddynt ymborth i'w fwyta, na neb a roddai ddim iddynt; a phrydiau eraill yn ymprydio yn *wirfoddawl*, fel arferiad crefyddol, er cospi eu cyrph, ac ymostwng yn alarus ger bron Duw.

6 * Mewn t purdeb, † mewn u gwybodaeth, ‡ mewn x hir-ymaros, ‖ mewn tiriondeb y yn yr Ysbryd Glân, ‡ mewn z cariad diragrith,

t pen. 7. 2. 1 Thes. 2. 10. 1 Tim. 4. 12. a 5. 2. Tit. 2. 7. u pen. 4. 6. a 11. 6. 1 Cor. 2. 1, 2, 16. Eph. 3. 4. Col. 1. 9, 10, 27. a 2. 3. x 1 Cor. 13. 4. Gal. 5. 22. Eph. 4. 2, 32. Col. 1. 11. a 3. 12. 2 Tim. 3. 10. a 4. 2. y pen. 3. 3. a 11. 4. Rhuf. 15. 19. 1 Cor. 2. 4. Gal. 3. 2, 5. 1 Thes. 1. 5, 6. 1 Pedr 1. 12. z pen. 2. 4. a 11. 11. a 12. 15. Barn. 16. 15. Ezec. 33. 31. Rhuf. 12. 9. 1 Pedr 1. 22. 1 Ioan 3. 18.

* Mewn "purdeb" egwyddor, dyben, ac ymarweddiad bucheddol, yn gystal ag mewn purdeb athrawiaeth. † Mewn "gwybodaeth" grediniol ac achubol o wirioneddau yr efengyl, ac mewn gwybodaeth a doethineb ysbrydol, yr hyn a gawsent gan Dduw, a thrwy yr hyn yr oeddynt yn addas i addysgu eraill. ‡ Trwy yr "hir-ymaros" hwn yr oeddynt yn gallu rhoddi i fynu gyda llawer o ddirmyg ac anmharch; i lywodraethu eu tymherau a'u hanfoddlonrwydd yn ngwyneb llawer amgylchiad cyffrôus; ac i feddiannu eu heneidiau mewn amynedd a thawelwch dàn bob dyoddefiadau; mewn gobaith a dysgwyliad am gynnaliaeth a dyddanwch Duw, yn eu holl drallodau a'u caledi hyd oni ddelai diwedd arnynt. ‖ Mewn tiriondeb addfwyn tuag at bawb, hyd yn nôd

eu gelynion a'u herlidwyr; a hyny trwy gynnorthwyon yr Ysbryd Glân, yn ei rasau ysbrydol i'w galluogi dhwynt i fod yn dirion wrth bawb ac yn fuddiol i bawb.

§ Mewn cariad diragrith at Grist, at y gwirionedd, ac at eneidiau gwerthfawr dynion. O'r cariad diragrith hwn yr oedd yr hir-ymaros a'r tiriondeb uchod yn edeilliaw; nid oes fawr o honynt yn neb lle nad oes cariad.

7 [a] * Y'ngair y gwirionedd, [b] † yn nerth Duw, ‡ trwy [c] arfau cyfiawnder [d] ar ddehau ac ar aswy,

a pen. 1. 18—20. a 4. 2. Salm 119. 43. Eph. 1. 13. a 4. 21. Col. 1. 5. 2 Tim. 2, 15. Iago 1. 18. b pen. 10. 4, 5. a 13. 4. Marc 16. 20. Act. 11. 21. 1 Cor. 1. 24. a 2. 4, 5. Eph. 1. 19, 20. a 3. 20. Heb. 2. 4. c Es. 11. 5. a 59. 17. Rhuf. 13. 12, 13. Eph. 6. 14. 1 Thes. 5. 8. 2 Tim. 4. 7. d Ex. 14. 22. Diar. 3. 16.

* Yr oeddynt yn eu dangos eu hunain fel gwenidogion Duw (adn. 5,) trwy bregethu "gair y gwirionedd" yn bur a digymmysg yn ngwyneb holl gyfeiliornadau dawb eraill; a thrwy fyw ac ymarweddu yn eu holl uchedd yn addas i air y gwirionedd: tybia *Pool* mai y oeth olaf yn benaf a feddylir yma. † Yn "nerth Duw" yr oeddynt yn gallu dàl i fynu dàn bwys eu holl lafur a'u dyoddefiadau; ac yr oedd nerth Duw yn cael ei amlygu yn eu gweinidogaeth a'u gwyrthiau hwynt, y rhai oeddynt yn wneyd er cadarnâd yr efengyl. ‡ Wrth "arfau cyfiawnder" yma, tybir mai y pethau a enwyd yn yr adnod o'r blaen a dechreu hon a feddylir; fel pe buasai yr apostol yn crynôi y pethau uchod oll yn nghyd, dàn yr enw hwn, "arfau cyfiawnder:" ac maent yn bur gyffelyb i'r "holl arfogaeth Duw," a grybwylla efe yn Ephes. 6. 13, &c. Yr arfau hyn o ddiniweidrwydd ac uniondeb oedd yn eu hamddiffyn hwy ar bob ddlaw, yn wyneb pob gelynion a ymosodent arnynt.

8 * Trwy [e] barch ac ammharch, † trwy anglod a chlod: [g] ‡ megis twyllwyr, ac *er hynny* [h] yn eirwir;

e Act. 4. 21. a 5. 13, 40, 41. a 14. 11—20. a 16. 20—22, 39. a 28. 4—10. 1 Cor. 4. 10—13. f Mat. 5. 11, 12. a 10. 25. Act. 6. 3. 10. 22. a 22. 12. a 24. 5. a 28. 22. Rhuf. 3. 8. 1 Tim. 3. 7. a 4. 10. Heb. 13. 13. 1 Pedr 4. 14. 3 Ioan 12. Dat. 3. 9. g Mat. 27. 63. Ioan 7. 12. h Mat. 22. 16. Marc 12. 14. Ioan 7. 18.

* Trwy barch cyfeillion, heb ymgodi ac ymchwyddo ar hyny; a thrwy anmharch gelynion, heb ymollwng na diligaloni o herwydd hyny. † Trwy ddywediadau caledion a gwaradwyddiadau cywilyddus erlidwyr, heb derfysgu na gwanychu; a thrwy glod a chanmoliaeth eleidwyr, heb fyned yn falch ac yn uchel-fryd ar hyny. Barch ac anmharch, anghlod a chlod, a fu rhan holl weinidogion Duw yn mhob oes; a pheth mawr yw nyned trwy y naill fel y llall o honynt, heb gael ein ewyro ar y ddê nac ar yr aswy ganddynt. ‡ Cyfrifai dhai hwynt yn dwyllwyr, a thrinid hwy fel twyllwyr; a ddarnai eraill hwy yn eirwir, gan eu parchu a'u gwrando ael y cyfryw: eu gwaith hwy oedd myned yn mlaen yn ddiysgog trwy y gwahanol dybiau a thriniaethau hyn, gan wybod yn eu calonau eu hunain yn ngolwg Duw, mai geirwir a didwyll oeddynt yn mhob peth.

9 * Megis [i] anadnabyddus, ac *er hynny* [k] yn adnabyddus; [l] † megis yn meirw, ac wele byw ydym; [m] ‡ megis wedi ein ceryddu, a heb ein lladd;

i Act. 17. 18. a 21. 37, 38. a 25. 14, 15, 19, 26. k pen. 4. 2. 5. 11. a 11. 6. Act. 19. 26. Rhuf. 15. 19. Gal. 1. 22—24. l pen. 8—10. a 4. 10, 11. Rhuf. 8. 36. 1 Cor. 4. 9. a 15. 31. m Salm 118. 17, 18. 1 Cor. 11. 32.

* Gwŷr mawr y byd ni fynent eu hadnabod hwy, neu ai chyfrifent hwy yn werth gwneyd sylw o honynt; ond yr oeddynt yn adnabyddus gan Dduw, ac yn adnabyddus i laweroedd o ddynion, fel offerynau eu dychweliad hwy at Dduw. † Yr oeddynt bob amser yn agored i angau, a pheryglon marwol, o herwydd y gwirionedd; ac eto yr oeddynt yn byw o hyd, trwy allu Duw, a'i nyfedd ofal am danynt yn eu holl enbydrwydd. ‡ Yr oeddynt fel ysgolheigion dàn ddysgyblaeth lèm a thaled, yn cael eu ceryddu gan Dduw, yr hwn oedd yn defnyddio eu herlidwyr fel gwïalen yn ei law; eto nid oeddynt yn cael eu lladd yn eu holl geryddon, a gwyddent mai nid eu lladd ydoedd bwriad eu Tad nefol, eithr eu haddasu yn fwy i'w gwaith mawr yma, ac i fwynâd o'u hiachawdwriaeth dragywyddol wedi myned oddi yma.

10 * Megis [n] wedi ein tristâu, ond yn wastad yn llawen; [o] † megis yn dlodion, ond [p] yn cyfoethogi llawer; ‡ megis heb ddim gennym, [q] ond *etto* yn meddiannu pob peth.

n pen. 2. 4. a 7. 4—10. Mat. 5. 4, 12. Luc 6. 21. Ioan 16. 22. Act. 5. 41. a 16. 25. Rhuf. 5. 2, 3. a 9. 2. a 12. 15. a 15. 13. Phil. 4. 4. 1 Thes. 3. 7—10. a 5. 16. Heb. 10. 34. Iago 1. 2—4. 1 Pedr 1. 6—8. a 4. 13. o Gwel ar adn. 4. p pen. 4. 7. a 8. 9. Rhuf. 11. 12. Eph. 3. 8, 16. Col. 3. 16. 1 Tim. 6. 18. Iago 2. 5. Dat. 2. 9. q pen. 4. 15. Diar. 16. 16. Mat. 6. 19, 20. Luc 16. 11, 12. 1 Cor. 3. 21—23. 1 Tim. 4. 8. Dat. 21. 7.

* Yr oedd ganddynt ddigon o achos tristwch ynddynt eu hunain, gan eu llygredigaethau tumewnol a'u profedigaethau allanol; ac achos tristwch hefyd oddi wrth y byd a llawer yn yr eglwysi; ac yr oeddynt yn ymddangos yn rhai tristion a gresynol, o ran pob ymddangosiad oddi allan; ond yn eu heneidiau yr oeddynt yn wastad yn llawen, gan dangnefedd cydwybod, a chysuron a dyddanwch yr Ysbryd Glân. † O ran pethau y byd hwn yr oeddynt yn dlodion, ac fel eu Harglwydd heb le yn aml i roddi eu penau i lawr; ond yn eu perthynas â Christ, yr oedd ganddynt bob peth; ac fel gweinidogion Crist, yr oeddynt yn cyfoethogi llawer o'r trysor oedd ganddynt mewn llestri pridd, pen. 4. 7. ‡ O ran meddiannau bydol, nid oedd ganddynt na thai na thiroedd, nac aur nac arian, yr oeddynt megys heb ddim; ac eto yr oeddynt mòr foddlawn a thawel â phe buasent yn meddiannu pob peth: ac yr oeddynt yn meddiannu pob peth yn eu perthynas â Christ, er nad oeddynt yn cael ond ychydig yn y crëadur. Gwyddent fod pob peth bydol yn eiddo iddynt, cyn belled ag y gwelai eu Tad nefol yn dda iddynt gael eu mwynâu; am hyny yr oeddynt mòr ddedwydd â phe buasent yn mwynâu yr holl fyd, ac yn gwybod y caent fwy na'r byd yn y diwedd.

11 [r] * Ein genau ni a agorwyd wrthych chwi, [s] † O Gorinthiaid, [t] ein calon ni a ehangwyd.

r Gal. 3. 1. Phil. 4. 15. s pen. 7. 3, 4. 1 Sam. 2. 1. Job 32. 20. a 33. 2, 3. Salm 51. 15. t pen. 2. 4. a 12. 15. Salm 119. 32. Hab. 2. 5. Phil. 1. 8.

* Gan fod yr apostol yn gwybod uniondeb ei galon, a'i gariad gwresog a diffuant at y Corinthiaid, mae efe yn agoryd ei enau fel hyn yn rhydd ac yn rymus, i fynegi ei egwyddorion, ei deimladau, ei brofedigaethau, ei gysuron, a'i ymddygiad; fel y caffai ei gyfeillion yn Corinth eu cadarnâu wrth ei brofiadau ef, a modd i'w amddiffyn ef yn wyneb y rhai a fynent ei waradwyddo ef. † Nid oedd efe yn gofalu pa ddryg-liw a roddai rhai yn Corinth ar ei eiriau ef, oblegid yr oedd ei galon ef a'i frodyr wedi ehangu gan ddymuniad gwresog am wneuthur daioni iddynt, ac nid oedd dim yn ormod ganddo i'w ddywedyd neu i wneuthur er eu lles hwynt.

12 [u] * Ni chyfyngwyd arnoch ynom ni, † eithr cyfyngwyd arnoch [x] yn eich ymysgaroedd eich hunain.

u Ex. 6. 9. Job 36. 16. Diar. 4. 12. Mica 2. 7. x Phil. 1. 8. 1 Ioan 3. 17.

* Nid oedd dim diffyg cariad ac ewyllys da yn nghalonau yr apostol a'i frodyr tuag at y Corinthiaid; na dim diffyg ymdrechiadau ffyddlawn i wneuthur yr hyn oll a allent er llesâd iddynt, er eu cadarnâd a'u cynnydd mewn goleuni, ffydd, cariad, cysur, a sanctteiddrwydd: ac nid oedd dim diffyg chwaith yn yr athrawiaeth rasol, yr addewidion, a'r breintiau gwerthfawr oeddynt hwy'yn bregethu ac yn weinyddu iddynt, i ateb y dybenion uchod. † Ond yr oedd achos i ofni bod diffyg mawr ynddynt hwy eu hunain, rai o honynt o leiaf; bod eu calonau hwy wedi cyfyngu gan anghrediniaeth, cnawdolrwydd, anghariad tuag at yr apostol a'i

frodyr, a difaterwch am y cysur a'r dyddanwch oedd yn Nghrist iddynt. Yr oeddynt wedi cyfyngu arnynt yn eu hymysgaroedd eu hunain hefyd, o herwydd goddef pethau beïus yn yr eglwys, yn enwedig y dyn godinebus, yn groes i ewyllys Duw, ac yn groes i feddwl a gorchymyn yr apostol. Fel hyn ni a gawn lawer o ddynion cnawdol, yn grwgnach nad ydynt yn cael dim lles trwy y weinidogaeth, ac yn enwedig trwy rai gweinidogion anghymmeradwy ganddynt hwy, pryd mae yr achos o'r nychdod hyny yn eu calonau hwy en hunain yn fwy nac mewn dim arall: chwilied pawb eu hunain yn y peth hwn.

13 * Ond am yr un tâl ([y] † yr ydwyf yn dywedyd megis wrth *fy* mhlant) [z] † ehanger chwithau hefyd.

y 1 Cor. 4. 14, 15. Gal. 4. 19. 1 Thes. 2. 11. Heb. 12. 5, 6. 1 Ioan 2. 1, 12—14. a 3. 7, 18. 3 Ioan 4. z 2 Bren. 13. 14—19. Salm 81. 10. Mat. 9. 28, 26. a 17. 19—21. Marc 6. 4—6. a 11 24. Iago 1. 6, 7. 1 Ioan 5. 14, 15.

* Y cwbl oedd yr apostol yn geisio fel tâl am ei fawr gariad atynt, a'i lafur a'i ddyoddefiadau er lles iddynt, († oblegid yr oedd yn eu hystyried, ac yn llefaru wrthynt fel ei anwyl blant,) ydoedd, ‡ iddynt hwythau ymehangu hefyd; a⁰ agoryd eu calonau mewn cariad, i ddderbyn y cyngorion iachusol, y rhybuddion, a'r gocheliadau, oedd efe yn eu rhoddi iddynt fel tad tirion, doeth, a serchiadol. Ei hyfrydwch mwyaf ef oedd gwneuthur daioni iddynt; a'u gweled hwythau yn ewyllysgar i dderbyn y gwirionedd mewn cariad.

14 * Na [a] iauer chwi yn anghymharus gyd â'r rhai † digred: [b] ‡ canys pa gyfeillach *sydd* rhwng cyfiawnder ac anghyfiawnder? [c] || a pha gymmundeb rhwng goleuni â thywyllwch?

a Ex. 34. 16. Lef. 19. 19. Deut. 7. 2, 3. a 22. 9—11. Ezra 9 1, 2, 11, 12. a 10. 19. Neh. 13. 1—3, 23—26. Salm 106. 35. Diar. 22. 24. Mal. 2. 11, 15. 1 Cor. 7. 39. a 15. 33. Iago 4. 4. b 2 Cron. 19. 2. Salm 16. 3. a 26. 4, 5, 9, 10. a 44. 20, 21. a 101. 3—5. a 119. 63. a 139. 21, 22. Diar. 29. 27. Ioan 7. 7. a 15. 18, 19. Act. 4. 23. Eph. 5. 6—11. 1 Ioan 3. 12—14. c Diar. 4. 18, 19. Rhuf. 13. 12—14. Eph. 4. 17—20. a 5. 8—14. Phil. 2. 15. 1 Thes. 5. 4—8. 1 Pedr 2. 9, 10. a 4. 2—4. 1 Ioan 1. 5—7.

* Yn enwedigol, yr oedd Paul yn attolygu ar y Corinthiaid fel ei anwyl blant, na byddai iddynt ymbrïodi, na ffurfio unrhyw gyssylltiad agos, â neb o'r rhai ddigred, i'r hyn y gallent gael eu tueddu gan egwyddorion a dybenion cnawdol. Oblegid byddai y fath beth yn gyffelyb i iaŭo anifeiliaid gwahan-ryw yn nghyd, yr hyn oedd waharddedig dàn gyfraith Moses; (Lefit. 19. 19; Deut. 22. 10.) ac yn tueddu i'w gwneyd yn anesmwyth y naill i'r llall; ac yn wir o lawer o ganlyniadau tra niweidiol: oblegid, os credinwyr a ymgyssylltent âg anghredinwyr, byddai raid fod eu hegwyddorion, eu golygiadau, eu harferion, a'u pleserau yn anghytunol ac yn anghydgordiol: byddai raid i'r credadyn gael ei rwystro, ei ddyrysu, a'i wanychu, yn ei gyflawniadau crefyddol, a'i wahanol ddyledswyddau yn y teulu, yn yr eglwys, a thuag at ddynolryw, neu ei dynu o'r neilldu oddi wrthynt. Mae yn sicr bod y geiriau uchod yn gwahardd iaŭo anghymharus â'r rhai digred mewn priodas; yr iaŭo agosaf o bob iaŭo; end mae yn sicr hefyd eu bod yn gwahardd pob math o gyfeillach a chydrwymiad afreidiol â dynion annuwiol, dïofn Duw, a dibarch i grefydd. † Am y digred, gwel y Drysorfa, Llyfr I, tu dal. 25. Dadleued dynion cnawdol a fynont o blaid yr iaŭo anghymharus uchod, anghymharus a fydd ef wedi y cwbl; anghyfreithlawn a phechadurus hefyd: gair Duw sydd yn ei le, ac nid dychymmygion a rhesymau dynion penrhydd a dïoruchwyliaeth. ‡ Tebygid fod yr anghymhariaeth yn eglur i bawb; oblegid pa gyfeillach gysurus a duwiol a all fod rhwng un cyfiawn, sydd wedi ei adnewyddu a'i sancteiddio gan yr Ysbryd Glân, âg un anghyfiawn, sydd yn farw mewn pechod, a thàn arglwyddiaeth pechod? || A pha gymundeb crefyddol a sanctaidd a ddichon fod rhwng goleuni â thywyllwch; sef rhwng plant y goleuni â phlant y tywyllwch?

15 * A [d] pha gyssondeb *sydd* rhwng Crist a † Belial? [e] ‡ neu pa ran *sydd* i gredadyn gyd âg [f] anghredadyn?

d 1 Sam. 5. 2—4. 1 Bren. 18. 21. 1 Cor. 10. 20, 21. e Ezra 4. 3. Marc 16. 16. Act. 8. 20, 21. 1 Ioan 5. 11—13. f 1 Tim. 5. 8.

* A pha gysondeb cysurus a chyd-gordiad a ddichon fod rhwng Crist â Belial; ac o ganlyniad rhwng y rhai a berthyn i Grist fel aelodau o'i gorph dirgeledig ef, â'r rhai ydynt blant y dïafol, Belial, y prif wrthryfelwr drygionus hwnw yn erbyn Duw a phob daioni? † Dywed *Guyse* mai gair cyfansawdd yw Belial, yn arwyddo *anfuddiol*, yn ol un geir-darddiad; ac yn ol geir-darddiad arall, yn arwyddo *heb iau:* hyny yw, ebai *Ainsworth* ddysgedig ar Deut. 13. 13, un *di-ddeddf*, gwrthryfelgar, *a drygionus:* ac mae efe yn dywedyd am yr enw hwn yn cael ei roddi i Satan yn yr adnod hon. Belial, pen a llywodraethwr yr holl rai digred, mewn cyferbyniad i Grist Pen ac Arglwydd yr holl gredinwyr; pa gysondeb a all fod rhwng y ddau bar deiliaid, mwy nac rhwng y ddau ben? dim oll yn sicr. ‡ Neu pa ran ddymunol a all fod i gredadyn, yn arferion halogedig, a phleserau ansanctaidd yr anghredadyn, yr hwn sydd yn dirmygu efengyl fendigedig a deddfau sanctaidd yr Arglwydd Iesu? Rhaid i ddynion mòr wahanol, fyw mewn gwahanol elfenau; tynu mewn gwahanol ffyrdd; a chroesweithredu y naill i'r llall; ac fel hyny rhaid i'r anghredadyn fod yn brofedigaeth wastadol, yn rhwystr ac yn fagl i'r credadyn tlawd.

16 * A [g] pha gydfod *sydd* rhwng teml Duw ac eilunod? † canys [h] teml y Duw byw ydych chwi; ‡ fel y dywedodd Duw, [i] || Mi a breswyliaf ynddynt, ac a rodiaf yn *eu mysg*, [k] § ac a fyddaf yn Dduw iddynt hwy, a hwy a fyddant yn bobl i mi.

g Ex. 20. 3. a 23. 13. a 34. 14. Deut. 4. 23, 24. a 5. 7. a 6. 14, 15. Jos. 24. 14—24. 1 Sam. 7. 3, 4. 1 Bren. 18. 21. 2 Bren. 17. 33, 34. a 21. 4, 5. a 23. 5—7. 2 Cron. 33. 4, 5. Ezec. 36. 25. Hos. 14. 8. Zeph. 1. 5. Mat. 6. 24. 1 Ioan 5. 20, 21. h 1 Cor. 3. 16, 17. a 6. 19. Eph. 2. 20—22. Heb. 3. 6. 1 Pedr 2. 5. i Ex. 29. 45. Lef. 26. 12. Salm 90. 1. Ezec. 43. 7, 9. Zec. 2. 10, 11. Ioan 6. 56. Rhuf. 8. 9, 11. Eph. 3. 17. 2 Tim. 1. 14. 1 Ioan 4. 12, 15. Dat. 21. 3. k Gen. 17. 7, 8. Jer. 24. 7. a 31. 33. a 32. 38. Ezec. 11. 20. a 36. 28. a 37. 26, 27. Hos. 2. 23. Zec. 8. 8. a 13. 9. Rhuf. 9. 26. Heb. 8. 10. Dat. 21. 7.

* Yma mae yr apostol yn dangos y gwrthuni, yr anghyfreithlondeb, a'r pechadurusrwydd, oedd i'r cristionogion i fwyta gyda'r paganiaid o'r pethau a aberthesid i eilunod, ac yn nhemlau yr eilunod: pa gydfod a allai fod rhwng teml Dduw ac eilunod? Mae grym nodedig yn y gofyniad hwn: os na oddefai Duw eilunod mewn un ran o'r tir lle y preswyliai; pa faint llai y goddefai hwy yn ei dŷ ei hun. Wrth iaŭo yn anghymharus â'r rhai digred, yr oedd y cristionogion yn cael eu harwain i demlau yr eilunod; ac yr oedd y rhai digred hyny megys eilunod yn eu calonau hwythau yn aml, y rhai a broffesent eu hunain yn demlau i Dduw. † Canys teml y Duw byw ydych chwi. Gwel ar 1 Cor. 6. 19. ‡ Fel y dywedodd Duw mewn amryw fànau yn yr Hen Destament (gwel y cyfeiriadau dàn *i.*) wrth y rhai crediniol o Israel, a chyda golwg ar ddyddiau yr efengyl; || y preswyliai efe yn ei bobl, y rhodiai yn eu mysg, fel gŵr yn ei gartref, ac felly y byddai yn Dduw iddynt, a hwythau yn bobl iddo ef. Gellir cymhwyso yr addewidion gwerthfawr uchod at eglwysi y saint fel y cyfryw, neu ynte at bob un o'r credinwyr yn bersonol. § Mae Duw yn Nghrist yn Dduw i'w bobl mewn cyfammod tragywyddol, yn yr hwn mae yn ei wneuthur ei hun a'i holl berffeithiau yn rhan iddynt byth; yn eu llunio hwythau iddo ei hun, yn eu hàrddelwi fel ei bobl, yn ymhyfrydu ynddynt, ac yn ymrwymo i wneuthur pob peth daionus ac achubol iddynt.

17 * O herwydd paham [l] deuwch allan *o'u* canol hwy, ac ymddidolwch, medd yr Ar-

glwydd, † ac na chyffyrddwch â dim aflan; ‡ ac mi a'ch derbyniaf chwi,

1 pen. 7. 1. Num. 16. 21, 26, 45. Ezra 6. 21. a 10. 11. Salm 1. 1—3. Diar. 9. 6. Es. 52. 11. Jer. 51. 6. Act. 2. 40. Dat. 18. 4. m Ioan 6. 37, 38. Rhuf. 15. 7.

* Gan hyny, fel yr oedd breintiau arbenig o'r fath uchod, yn rhwymo pobl Dduw, yr Iuddewon, gynt, i ymgadw rhag priodasau, a phob cyfeillach afreidiol â'r paganiaid; ac yn enwedig rhag cyd-ymagweddu â hwynt yn eu coel-grefydd a'u heilun-addoliaeth, ac rhag halogi eu hunain âg unrhyw beth aflan; felly mae yr apostol yn galw ar y Corinthiaid cristionogol, y rhai oedd yn fwy eu breintiau na'r Iuddewon gynt, ac o ganlyniad yn fwy eu rhwymau i sancteiddrwydd, i ddyfod allan ac ymddidoli oddi wrth y paganiaid digred hyd ag oedd ynddynt, † a bod yn ofalus na chyfhyrddent â dim aflan a berthynai i eilun-addoliaeth nac unrhyw bechod: mae yn debyg mai bwyta o bethau wedi eu haberthu i eilun-bod, yn eu gwleddoedd eilun-addolgar, yn benaf a ffeddylir. ‡ Er eu calondid a'u hannogaeth i ymddidoli yn sanctaidd felly, mae yr apostol yn sicrâu iddynt drwy air yr Arglwydd, y derbyniai Duw hwynt yn rasol, i'w gymmeradwyaeth a'i ofal yn y byd hwn, ac i'w deyrnas nefol yn y diwedd. Y geiriau tebygaf i'r adnod uchod a gawn, yn Es. 52. 11; ond nid yn gwbl yr un fath â'r adnod hòno, yn yr Hebraeg nac yn ol cyfieithiad y Deg a thriugain: "ac mi a'ch derbyniaf chwi," nid yw yno.

18 * Ac a fyddaf [n] yn Dad i chwi, † a chwithau a fyddwch yn feibion ac yn ferched i mi, ‡ medd [o] yr Arglwydd Hollalluog.

n Salm 22. 30. Jer. 3. 19. a 31. 1, 9. Hos. 1. 9, 10. Ioan 1. 12. Rhuf. 8. 14—17, 29. Gal. 3. 26. a 4. 5—7. Eph. 1. 5. 1 Ioan 3. 1, 22. Dat. 21. 7. o Gen. 17. 1. a 48. 3. Dat. 1. 8. a 21. 22.

* Derbyn fel tad yn derbyn ei blant, yw y derbyn a addawa yn yr adnod o'r blaen: nid derbyn oddi ar haeddiant dynol, ond derbyn grasol, ac o gariad tadol. Nid yn unig mi a *fyddaf* yn Dad, ond hefyd mi a'm *hegluraf* fy hun felly, yn y modd tirionaf, a mwyaf anwylaidd; ac a fyddaf yn well perthynas i chwi na neb a allwch chwi gael, na'i golli ar y ddaear. † A chwithau a fyddwch yn blant i mi, yn deulu o feibion a merched anwyl; ac fel y cyfryw mi a'ch harddelwaf, a ymddygaf atoch, ac a'ch bendithiaf byth bythoedd. ‡ Felly y dywed yr Arglwydd Hollalluog, (2 Sam. 7. 14; Jer. 31. 11, 9.) yr hwn sydd yn ffyddlawn i'w addewidion, ac yn ganfeidrol alluog i'w cyflawni oll. Braint fawr i'r cenedloedd, ac yn wir i bechaduriaid o bob cenedl, gael yr Arglwydd Hollalluog yn Dad cyfammodol yn Nghrist iddynt!

PEN. VII.

Y mae efe yn mhellach yn eu hannog hwy i burdeb buchedd, &c.

1 * AM hynny gan fod gennym yr addewidion hyn, anwylyd, [b] † ymlanhâwn oddi wrth bob [c] ‡ halogrwydd cnawd ac ysbryd, [d] ‖ gan berffeithio sancteiddrwydd [e] § yn ofn Duw.

a pen. 1. 20. a 6. 17, 18. Rhuf. 5. 20, 21. a 6. 1, &c. Heb. 4. 1. 2 Pedr 1. 4—8. b Salm 119. 9. Diar. 20. 9. a 30. 12. Es. 1. 16. Jer. 13. 27. Ezec. 18. 30—32. a 36. 25. Mat. 5. 8. a 12. 33. a 23. 25, 26. Luc 11. 39, 40. Tit. 2. 11—14. Iago 4. 8. 1 Pedr 1. 22. a 2. 11. 1 Ioan 3. 3. c Es. 55. 7. Jer. 4. 14. 1 Cor. 6. 20. Eph. 2. 3. 1 Thes. 5. 23. d Mat. 5. 48. Eph. 4. 12, 13. Phil. 3. 12—15. 1 Thes. 3. 13. a 4. 7. Heb. 12. 23. 1 Pedr 5. 10. e 2 Cron. 19. 9. Salm 19. 9. Diar. 8. 13. a 16. 6. Act. 9. 31. Heb. 12. 28.

* Mae cyssylltiad amlwg rhwng yr adnod hon â'r adnodau diweddaf o'r bennod o'r blaen; yr addewidion gwerthfawr a grybwyllir yno, yw yr "addewidion hyn," a grybwyllir yma. † Dylai addewidion gwerthfawr Duw yn yr efengyl, fod yn annogaeth i bawb a'u clywant i awyddu am sancteiddrwydd, ein bywiocâu a'n calonogi i ymgyrhaedd at y sancteiddrwydd hyny sydd yn gweddu i demlau y Duw byw, (pen. 6. 16.) ac i feibion a merched yr Arglwydd Hollalluog, (pen. 6. 18.) ‡ Mae pob rhyw bechod yn halogrwydd yn nghyfrif Duw, am ei fod yn wrthwyneb i'w natur sanctaidd a'i gyfraith ef. Gellir galw chwantau a gweithredoedd cnawdol yn "halogrwydd cnawd;" ac efallai mai balchder, cenfigen, dial, cybydd-dra, eilun-addoliaeth, &c., a feddylir wrth "halogrwydd ysbryd." Pethau y dylai cristionogion ymlanâu oddi wrthynt drwy bob moddion, yw y pethau uchod oll; ‖ ac ymestyn at berffaith sancteiddrwydd, hyd y mae yn bosibl yn y byd hwn, a thra byddont yn y byd hwn: § yr hyn nis gellir heb fod ofn Duw, yn sanctaidd a pharchedig yn y galon, ac yn gweithredu yn sanctaidd ar yr holl enaid. Pe byddai rywun yn berffaith sanctaidd, ni byddai y cyngor uchod yn briodol iddo: nid yw yn addas i angel sanctaidd, nac i ysbrydoedd y cyfiawn, y rhai a berffeithiwyd.

2 [f] * Derbyniwch ni. [g] † Ni wnaethom gam i neb; ‡ ni lygrasom neb; ‖ nid ysbeiliasom neb.

f pen. 11. 16. Mat. 10. 14, 40, 41. Luc 10. 8. Phil. 2. 29. Col. 4. 10. Philemon 12, 17. 2 Ioan 10. 3 Ioan 8—10. g pen. 1. 12. a 4. 2. a 6. 3—7. a 11. 9. a 12. 14—18. Num. 16. 15. 1 Sam. 12. 3, 4. Act. 20. 33. Rhuf. 16. 18. 1 Thes. 2. 3—6, 10. 2 Thes. 3. 7—9.

* "Derbyniwch ni:" gadêwch i ni gael lle yn eich calonau a'ch cyfrifiad: derbyniwch ni fel y dylech dderbyn a chymmeradwyo gweinidogion Crist. † Nid oedd un achos cyfiawn paham na dderbynient yr apostol a'i gyfeillion; oblegid ni wnaethent hwy gam â neb, yn ei berson, ei enw, ei deimladau, na'i feddiannau. ‡ Ni lygrasent hwy neb, trwy gau-athrawiaeth, drwgesampl, na thrwy unrhyw foddion eraill, mewn egwyddor na buchedd. ‖ Nid ysbeiliasent neb o'i feddiannau: ac ni *chwennychasent* erioed ddim ag oedd yn perthyn i neb. Ni thwyllasom neb, yw y gair hwn yn ol y Saesoneg. Efallai bod y gair Groeg *(epleonektêsamen)* yn arwyddo twyllo ac ysbeilio; sef dynion o ysbryd cybyddus, yn cymmeryd mantais ar eraill i'w hyspeilio trwy dwyll. Mae yn debyg fod yr apostol yma yn taflu at y gau-athrawon, y rhai oedd yn gwneyd "cam" â'r Corinthiaid, yn eu "llygru," a thrwy dwyll a hoced yn eu "hyspeilio." Ni buasai efe a'i frodyr yn euog erioed o'r fath ymddygiadau drygionus; am hyny dylasent gael eu derbyn, eu caru a'u parchu, ac ymostwng i'w hawdurdod fel gwir weinidogion Duw. Dylasai yr adnod gyntaf fod yn ddiwedd y chwechfed bennod, a'r adnod hon fod yn ddechreu y seithfed.

3 * Nid [h] i'*ch* condemnio yr wyf yn dywedyd: [i] † canys mi a ddywedais o'r blaen eich [k] bod chwi yn ein calonnau ni, [l] ‡ i farw ac i fyw gyd â *chwi.*

h adn. 12. pen. 2. 4, 5. a 13. 10. 1 Cor. 4. 14, 15. i pen. 6. 11, 12. k pen. 3. 2. a 11. 11. a 12. 15. Phil. 1. 8, 9. l Ruth 1. 16, 17. 1 Thes. 2. 8.

* Mae yn debyg fod rhai yn Corinth yn ceisio taeru, fod Paul a'i frodyr yn euog o'r pethau a grybwyllir yn yr adnod o'r blaen; a thrwy hyny wedi bod yn achos i amryw yn yr eglwys ei anmharchu ef, a bod yn annerbyniol o hòno: nid i gondemnio pawb o honynt am ddwyn y fath gyhuddiadau anwireddus yn ei erbyn, ac nid i gondemnio pawb am fod yn angharedig tuag ato, yr oedd efe yn amddiffyn ei hun fel y gwnaeth yn yr adnod o'r blaen: nagê, nis gallai efe feddwl mòr galed am danynt yn gyffredin; efe a wyddai bod yno lawer a chanddynt dybiau da am dano, parch diffuant iddo, ac eu bod yn dderbyniol o hòno. † Ac yr oeddynt hwythau fel eglwys yn anwyl iawn ganddo yntau a'i frodyr, megys wedi eu hysgrifenu yn eu calonau, fel y dywedasai efe o'r blaen, pen. 3. 2. ‡ A phe buasai eu galwad, ac amgylchiadau y gwaith mewn mànau eraill yn goddef, buasai yn dda ganddynt hwy dreulio ac ymdreulio, a byw a marw yn mhlith y Corinthiaid, gan eu caru hwynt a chael eu caru ganddynt.

4 * *Y mae* [m] hyfder fy ymadrodd yn fawr wrthych. [n] † *Y mae gennyf* orfoledd mawr o'ch plegid chwi: [o] ‡ yr wyf yn llawn o ddi-

ddanwch, ‖ yn dra-chyflawn o lawenydd yn ein holl orthrymder.

m pen. 3. 12. a 6. 11. a 10. 1, 2. a 11. 21. Eph 6. 19, 20. Phil. 1. 20. 1 Thes. 2. 2. n pen. 1. 14. a 9. 2—4. 1 Cor. 1. 4. 1 Thes. 2. 19. o adn. 6, 7. pen. 2. 14. a 6. 10. Act. 5. 41. Rhuf. 5. 3. Phil. 2. 17. Col. 1. 24. 1 Thes. 3. 7—9. Iago 1. 2.

* O herwydd cariad yr apostol atynt, a'i feddyliau da am danynt; yr oedd hyfder ei ymadrodd yn fawr wrthynt; nid oedd yn ofni na chymmerent y cwbl mewn ysbryd brawdol, a gostyngedig i'w awdurdod ef fel apostol Iesu Grist. † Yn y teimladau hyn, yr oedd ganddo orfoledd mawr o'u plegid hwy, y rhan fwyaf o honynt; ac yr oedd megys yn ymffrostio oblegid eu cariad a'u hufudd-dod hwy yn mhob màn. ‡ Yr oedd yn llawn o ddyddanwch yn ei enaid wrth feddwl am yr hyn a wnaethai Duw yn eu plith hwy trwyddo ef: ‖ ie, yr oedd yn dra chyflawn o lawenydd, efe a'i gyfeillion, yn eu holl orthrymder, o herwydd yr effeithiau daionus a gawsai ei lythyr blaenorawl ef ar y Corinthiaid.

5 * Canys [p] wedi ein dyfod ni i Macedonia, [q] ni chafodd ein cnawd ni ddim llonydd; [r] † eithr ym mhob peth cystuddiedig *fuom:* [s] ‡ oddi allan *yr oedd* ymladdau, ‖ oddi fewn [t] ofnau.

p pen. 1. 16, 17. a 2. 13. Act. 20. 1. 1 Cor. 16. 5. q pen. 4. 8—12. a 11. 23—30. Gen. 8. 9. Es. 23. 12. Jer. 8. 18. a 45. 3. Mat. 11. 28—30. r pen. 4. 8. Job 18. 11. Jer. 6. 25. a 20. 10. s Deut. 32. 25. 1 Cor. 15. 31, 32. t pen. 2. 3, 9. a 11. 29. a 12. 20, 21. Gal. 4. 11, 19, 20. 1 Thes. 3. 5.

* Gwedi i'r apostol fyned o Tröas i Macedonia, (Gwel ar pen. 2. 12, 13,) ni chafodd ei gnawd ef ddim llonydd gan brofedigaethau ac erlidiau; † yn mhob peth yr oedd yn gystuddiedig iawn, yn cael ei drallodi yn ei gorph ac yn ei feddwl gan Iuddewon a chenedloedd yn mhob màn: ‡ oddi allan i'r eglwys, nid oedd ond gelynion ac erlidwyr yn ei amgylchynu; ‖ ac oddi fewn i'r eglwys, yr oedd llawer o frodyr gau, a phroffeswŷr anwadal, yn peri ofnau yn ei gàlon ef am danynt: yn enwedig yr oedd ofnau o'i fewn ef, rhag i'r gauathrawon yn Corinth wneuthur mawr niwed i'r eglwys yno.

6 * Eithr Duw, [u] yr hwn sydd yn diddanu y rhai cystuddiedig, [x] † a'n diddanodd ni wrth ddyfodiad Titus.

u pen. 1. 3, 4. a 2. 14. Es. 12. 1. a 51. 12. a 57. 15, 18. a 61. 1, 2. Jer. 31. 13. Mat. 5. 4. Ioan 14. 16. Rhuf. 15. 5. Phil. 2. 1. 2 Thes. 2. 16, 17. x pen. 2. 13. 1 Cor. 16. 17, 18. 1 Thes. 3. 2, 6, 7. 3 Ioan 2—4.

* Mae yr apostol yn dra gofalus i briodoli pob cysur a chynnaliaeth oedd yn gael, i Dduw; yr hwn sydd yn dyddanu y rhai cystuddiedig. Dywediad gwerthfawr am Dduw yw hwn, i bawb a'i hofnant ef, ac a ymddiriedant ynddo dàn eu cystuddiau; Duw yn dyddanu y rhai cystuddiedig yw efe, efe a ŵyr pa bryd a pha fodd i'w dyddanu, ac efe a all eu dyddanu y pryd a'r modd y mỳno; mae yn ewyllysgar iawn i wneyd hyny. † Dyddanodd Duw yr apostol y tro hwn trwy ddyfodiad Titus o Corinth, a newyddion da am effeithiau ei lythyr cyntaf ef, i beri diwygiad mawr yn yr eglwys yno. Yn yr epistol hwn (pen. 2. 13.) mae sôn gyntaf am Titus, nid yw Luc yn sôn dim am dano yn yr Actau: cawn achlysur i sylwi rhyw bethau am dano eto, yn fwy priodol nac yn y fàn hon.

7 * Ac nid yn unig wrth ei ddyfodiad ef, [y] † ond hefyd wrth y diddanwch â'r hwn y diddanwyd ef ynoch chwi, [z] ‡ pan fynegodd efe i ni eich [a] awydd-fryd chwi, ‖ eich [b] galar chwi, § eich [c] zêl tu ag attaf fi; fel y llawenhêais i yn fwy.

y Act. 11. 23. Rhuf. 1. 12. Col. 2. 5. 1 Thes. 3. 8. 2 Ioan 4. z adn. 11. pen. 2. 9. Salm 141. 5. Diar. 9. 8, 9. a pen. 5. 2. a 8. 16. Luc 22. 44. Phil. 1. 20. Heb. 2. 1. Iago 5. 17. Judas 3. b adn. 10. Barn. 2. 4, 5. Salm 6. 1—6. a 30. 5. a 31. 9—11. a 38. 18. a 51. 1. a 126. 5, 6. Jer. 31. 18—20. Mat. 5. 4. a 26. 75. Iago 4. 9, 10. c pen. 1. 14. a 2. 3. 1 Thes. 3. 6.

* Nid dyfodiad Titus yn unig, wedi hir ddysgwyl a gweddïo am dano, a fu yn ddyddanwch i Paul; † ond hefyd yr hanes cysurus a roddodd efe, am y boddlondeb a'r hyfrydwch mawr a gawsai yn ei gymdeithas â'r Corinthiaid, ac yn yr olwg gysurus a dymunol oedd ar bethau yn eu plith hwy: yr oeddynt hwy wedi dyddanu Titus, ac yr oedd clywed hyny yn ddyddanwch mawr i Paul. ‡ Yn enwedig clywed am "awyddfryd" y Corinthiaid i dderbyn cyngorion a rhybuddion yr apostol yn ei lythyr cyntaf, ac i ddiwygio pethau yn yr eglwys yn gyfatebol i'r llythyr hwnw. ‖ Eu galar am y gwarth yn eu plith eu hunain, yn enwedig y dyn godinebus; neu ynte eu galar am ofidio meddwl yr apostol trwy oddef y gwarth hwnw, yr hyn a barasai iddo ysgrifenu mòr llym atynt y tro cyntaf. § Eu *sel* i weithredu yn ol ei gyngorion ef, er dangos eu parch a'u cariad ato, a'u hufudd-dod iddo.

8 * Canys [d] er i mi eich tristâu chwi mewn llythyr, † nid yw edifar gennyf, [e] er bod yn edifar gennyf; ‡ canys yr wyf yn gweled dristâu o'r llythyr hwnnw chwi, ‖ er *nad oedd ond* dros amser.

d adn. 6, 11. pen. 2. 2—11. Galar. 3. 32. Mat. 26. 21, 22. Luc 22. 61, 62. Ioan 16. 6. a 21. 17. Heb. 12. 9—11. Dat. 3. 19. e Ex. 5. 22, 23. Jer. 20. 7—9.

* Yr epistol cyntaf at y Corinthiaid yn ddiammau, a feddylir wrth y "llythyr" yma; yr oedd hwnw yn dra llym yn ei argyhoeddiadau a'i geryddon, fel yr oedd yn wir angenrheidiol ei fod, a chwedi tristâu yr eglwys yn gyffredinol, ond yn dduwiol, ac i edifeirwch. † Nid yw edifar genyf *yn awr*, wedi gweled effeithiau mòr ddaionus; er bod yn ofidus iawn genyf y *pryd hwnw*, orfod ysgrifenu mòr llym a cheryddol at rai a garwn mòr fawr. Hyna yn ddiammau yw meddwl y geiriau. "Nid yw edifar,—er bod yn edifar;" oblegid fel yr oedd yr apostol yn ysgrifenu dàn ysbrydoliaeth anffaeledig Duw, nis gallwn feddwl fod yn edifar ganddo (yn ystyr briodol y gair,) am ddim a ysgrifenodd. Pan mae meddyg yn rhoddi cyfferi cryfion iawn i'r claf, mae yn ofni am y canlyniad, ac braidd yn edifarâu eu rhoi: ond pan y gwelo hwynt yn effeithio yn dda, nid yw yn edifar ganddo eu rhoddi. A phan mae tad yn gorfod ceryddu ei blentyn yn llym iawn, mae yn dra gofidus ganddo wneyd hyny; ond pan welo effeithiau daionus o'r cerydd, nid yw yn edifar ganddo ei roddi, pa faint bynag a gostiodd hyny o boen i'w deimladau ef o'r blaen. ‡ Yr wyf yn gweled yn awr, wrth yr hyn a fynegodd Titus, i'r llythyr hwnw eich tristâu chwi yn fawr iawn; ‖ ond, bendigedig fyddo Duw, nid oedd ond dros amser; parodd i chwi edifarâu yn dduwiol, a diwygio pethau yn eich plith, ac yna trôdd y tristwch yn llawenydd.

9 * Yn awr [f] yr ydwyf yn llawen, nid am eich tristâu chwi, † ond am eich tristâu i edifeirwch: ‡ canys tristâu a wnaethoch yn dduwiol, [g] ‖ fel na chaech golled mewn dim oddi wrthym ni.

f Gwel ar adn. 6, 7. a 10. h.—Preg. 7. 3. Jer. 31. 18—20. Zec. 12. 10. Luc 15. 7, 10, 17—24, 32. Act. 20. 21. g pen. 2. 16. a 10. 8—10. a 13. 8—10. Es. 6. 9—11.

* Yn awr yr oedd yr apostol yn llawen, nid am iddo dristâu neb yn Corinth, fel pe buasai yn ymhyfrydu yn eu gofid hwy; † ond am iddo eu tristâu i edifeirwch, a bod yn foddion i'w dwyn i'w lle, ac i ddiwygio pethau beïus yn eu plith. ‡ Tristâu yn dduwiol a wnaethent; dàn ddylanwadau Ysbryd a gras Duw, dàn wir deimlad gofidus o bechod yn erbyn Duw, gan ei gyfaddef yn ostyngedig ger bron Duw, ei gasâu a'i roddi ymaith yn ol ewyllys sanctaidd Duw. ‖ Fel hyn nid oeddynt yn cael colled mewn dim oddi wrth yr apostol, eithr ennill a lles mawr: ymadael â'u pechodau, ac ymadnewyddu mewn sanctaiddrwydd, cysur, heddwch, a chymdeithas â Duw.

10 * Canys duwiol dristwch † sydd yn gweithio [h] edifeirwch, ‡ er iachawdwriaeth ‖ ni

bydd edifeirwch o honi: [i] § eithr tristwch y byd sydd yn gweithio angau.

h pen. 12. 21. 2 Sam. 12. 13. i Bren. 8. 47—50. Job. 33. 27, 28. Ezec. 18. 27—30. Jona 3. 8, 10. Mat. 21. 28—32. a 26. 75. Luc 15. 10. a 18. 13. Act. 3. 19. a 11. 18. 2 Tim. 2. 25, 26. i Gen. 4. 13—15. a 30. 1. 1 Sam. 30. 6. 2 Sam. 13. 4. a 17. 23. 1 Bren. 21. 4. Diar. 15. 13, 15. a 18. 14. Jona 4. 9. Mat. 27. 4, 5. Heb. 12. 17.

* "Duwiol dristwch," neu dristwch *yn ol Duw:* yn ôl gorchymyn Duw, o weithrediad Duw, cyfatebol i air Duw, ac er gogoniant i Dduw: † mae y duwiol dristwch rhwn yn gweithio edifeirwch; nid edifeirwch ydyw, (medd *Pool,*) ond mae yn gweithio y cyfnewidiad hwnw mewn calon a buchedd, ag sydd edifeirwch. Mae yn rhwyn y galon i agwedd ostyngedig a drylliedig, i ofni ddosp, i weddïo am drugaredd, i gasâu a marweiddio pob pechod, ac i ymgais am rodio mewn newydd-deb buchedd o hyn allan. ‡ Edifeirwch i iachawdwriaeth yw yr edifeirwch hwn, gan ei fod bob amser yn gyssylltedig â ffydd yn Nghrist, ac â rhan yn ei iawn a'i aberth ef; ac nid edifarâ neb byth o dristâu ac edifarâu fel hyn er iachawdwriaeth. || "Ni bydd edifeirwch o ddïoni," sef o'r iachawdwriaeth; ni bydd Duw yn edifarâu ei rhoddi, Rhuf. 11. 29; ac ni bydd neb a'i caffo yn edifarâu am ddim a ddyoddefasant i'w chael, bydd yn anfeidrol fwy na thaledigaeth i bawb a'i caffo. § Tristwch dylynion y byd, ac am bethau y byd, mae yn gweithio angau, tymmorol a thragywyddol hefyd, yn aml: mae yn ysychu i fynu yr ysbryd, yn tòri y galon falch wrthryfelgar, yn gyru dynion i gyflawni y drygau mwyaf, ac yn aml i hunan-laddiad: fel hyny mae yn gweithio angeu tymmorawl a thragywyddol i lawer.

11 * Canys wele hyn yma, [k] eich tristâu chwi yn dduwiol, † pa [l] astudrwydd ei faint a weithiodd ynoch, ïe, [m] ‡ *pa* ymddiffyn, ïe, ‖ *pa* [n] sorriant, ïe, § *pa* [o] ofn, ïe, * *pa* [p] awydd-fryd, ïe, *pa* [q] zêl, ïe, † *pa* [r] ddial! ‡ Ym mhob peth y [s] dangosasoch eich bod yn bur yn y peth hwn.

k adn. 9. Es. 66. 2. Zec. 12. 10—14. 1 Cor. 5. 2. 1 Gwel r a adn. 7. 1 Cor. 12. 25. Tit. 3. 18. m Gen. 44. 6, 7. 1 Cor. 5. 13. Eph. 5. 11. 1 Tim. 5. 21, 22. n 2 Sam. 12. 5—7. Neh. 5. 6, 6c. a 13. 25. Job 42. 6. Jer. 31. 18—20. Dan. 6. 14. Marc 3. 5. o adn. 1. Salm 2. 1. Diar. 14. 16. a 28. 14. Rhuf. 11. 20. Phil. 2. 12. Heb. 4. 1. a 12. 15, 16. 1 Pedr 1. 17. Judas 23. p Salm 38. 9. a 145. 19. Can. 8. 6. Es. 26. 8. 1 Pedr 2. 2. q pen. 9. 2. Salm 69. 9. a 119. 139. Ioan 2. 17. Act. 17. 16. r Salm 35. 13. Mat. 5. 29. Marc 9. 43—48. s pen. 6. 4. a 13. 7. Rhuf. 14. 18. 2 Tim. 2. 15.

* Gan i'r Corinthiaid gael eu tristâu yn dduwiol fel y dylwyd uchod, a'u tristâu i edifeirwch er iachawdwriaeth, yr oedd y ffrwythau yn amlwg iawn i'w gweled mnddynt: † pa astudrwydd, neu ofal, dïoed a phenderfynol, a weithiodd ynddynt, i ddiwygio pethau yn eu llith, yn enwedig i osod dysgyblaeth ar y dyn godineb-us; er dangos nad oeddynt yn goddef pechod oddi ar egwyddor ddrwg, eithr o esgeulusdra a gormod diofalwch. ‡ Pa awydd a ddangosasant i'w hymddiffyn a'u llanâu eu hunain oddi wrth bechod y dyn hwnw, er eu anrhydedd eu hunain fel cristionogion, ac er anrhydedd yr efengyl. ‖ Pa soriant sanctaidd a weithiwyd mnddynt, yn eu herbyn eu hunain am oddef y fath pechod cyhyd yn yr eglwys, ac hefyd yn erbyn y fath pechadur ffiaidd a'i bleidwyr. § Pa ofn duwiol, rhag digofaint a cheryddon Duw am y fath bechod, a rhag i'r fyfryw bechod dòri allan yn yr eglwys drachefn. * Am awydd-fryd a'r *sel,* gwel ar adn. 7: awydd-fryd am burdeb a sanctaiddrwydd yn yr eglwys, a feddylir yma mae yn debyg, a *sel* dros ogoniant Duw ac anrhydedd ei efengyl a'i achos. † Yr oedd eu hawydd-fryd a'u sel yn y pethau uchod mòr fawr, fel yr oeddynt yn barod negys i ddïal arnynt eu hunain, trwy ymostwng i bob erydd a darostyngiad, er anrhydedd i'r efengyl. ‡ Yn mhob peth hwy a ddangosasant eu bod yn bur yn y peth hwn, ac heb achos achwyn mwyach yn eu herbyn fel eglwys o'i herwydd. Dywed rhai fod yr adnod hon yn ynnwys saith o nodau gwir edifeirwch, i'w cael yn mhob dyn edifeiriol; ond efallai nad oeddynt oll yn mhob dyn yn eglwys Corinth, eithr rhai o'r pethau yn y naill, a rhai yn eraill o honynt, yn ol eu gwahanol amgylchiadau, a gwahanol raddau eu heuogrwydd neu eu dïeuogrwydd yn achos y dyn godinebus.

12 * O herwydd paham, er ysgrifenu o honof attoch, [t] ni *ysgrifenais* o'i blegid ef a wnaethai y cam, † nac oblegid yr hwn a gawsai gam, ‡ ond [u] er mwyn bod yn eglur i chwi ein gofal drosoch ger bron Duw.

t pen. 2. 9. 1 Cor. 5. 1. u pen. 2. 4, 17. a 11. 11, 28. 1 Tim. 3. 5.

* Mae yr apostol yn mhellach yn sicrâu i'r Corinthiaid, er eu cysuro wedi eu tristâu, nad ysgrifenasai efe mòr llym atynt yn achos y godinebwr, o gasineb a rhagfarn personol tuag at y dyn hwnw a wnaethai y cam, nac o herwydd y dyn hwnw *yn unig* mewn un ystyr; † nac ychwaith o ryw bleidgarwch personol i'w dad ef, yr hwn a gawsai y fath gam gwaradwyddus yn y tro ffiaidd hwnw: ‡ ond ei ddyben ef yn ysgrifenu fel y gwnaeth oedd, er dangos yn eglur iddynt, y gofal mawr oedd ganddo ef drostynt oll ger bron Duw. Yn nechreu yr adnod mae efe yn cyfeirio yn bennodol at y prif droseddwr, ac yn niwedd yr adnod efallai ei fod yn cyfeirio hefyd at rai beïus eraill yn Corinth, a barodd iddo ef ysgrifenu ei lythyr cyntaf at yr eglwys yno. "*Nac oblegid yr hwn a gawsai gam:*" gellir meddwl wrth y geiriau hyn fod tad y godinebwr yn fyw y pryd hwnw, ac iddo ef gymmeryd gwraig ei dad ag efe yn fyw yr hyn oedd gam gwrthun.

13 * Am hynny [x] nyni a ddiddanwyd yn eich diddanwch chwi: † a mwy o lawer y buom lawen am lawenydd Titus; [y] ‡ oblegid esmwythâu ar ei yspryd ef gennych chwi oll.

x pen. 2. 3. Rhuf. 12. 15. 1 Cor. 12. 26. a 13. 5—7. Phil. 2. 28. 1 Pedr 3. 8. y adn. 15. Rhuf. 15. 32. 1 Cor. 16. 13. 2 Tim. 1. 16. Philemon 20.

* Gwedi i'r apostol a'i frodyr glywed am edifeirwch a diwygiad y Corinthiaid, a'u dyddanwch oddi ar yr edifeirwch a'r diwygiad hyny; cawsant hwythau eu dyddanu hefyd yn eu dyddanwch hwy. † A chwaneg-wyd eu llawenydd yn fwy o lawer, wrth glywed fel y cawsai calon Titus ei llawenâu yn eu plith hwynt: ‡ aethai Titus atynt a baich trwm ar ei ysbryd yn eu hachos, ond esmwythâwyd ei ysbryd ef ganddynt oll, pan welodd eu hedifeirwch a'u diwygiad.

14 * Oblegid [z] os bostiais ddim wrtho ef am danoch, ni'm cywilyddiwyd: [a] † eithr megis y dywedasom wrthych bob dim mewn gwirionedd, felly hefyd gwirionedd oedd ein bost ni, yr hwn *a fu* wrth Titus.

z adn. 4. pen. 8. 24. a 9. 2—4. a pen. 1. 18—20.

* Mae yn debyg fod yr apostol wedi dywedyd rhyw bethau canmoladwy am y Corinthiaid o'r blaen wrth Titus, yr hyn mae efe yma yn ei alw yn fostio am danynt; a chwedi i Titus fyned yno, a chael ei foddloni mòr fawr ynddynt, nid oedd yn gywilydd gan Paul iddo fostio am danynt fel y gwnaethai, ac ni chafodd ei gywilyddio drwy ddim hanesion drwg am danynt gan Titus. † Fel yr oedd Paul wedi pregethu gwirionedd yr efengyl yn ddidwyll ac yn ddiragrith i'r Corinthiaid; felly yr oedd yn dda iawn ganddo glywed mai gwirionedd oedd ei fost ef wrth Titus am danynt, iddynt lawn ateb i'r ganmoliaeth a roddasai efe iddynt. Fel hyn mae yr apostol yn amlâu geiriau o dangnefedd, serchawgrwydd, a chariad, i dymheru meddyliau, ac ennill cariad y Corinthiaid yn mhob modd.

15 * Ac y mae ei ymysgaroedd ef yn helaethach tu ag attoch, wrth gofio o hono [b] eich ufudd-dod chwi oll, † pa fodd [c] trwy ofn a dychryn y derbyniasoch ef.

b pen. 2. 9. a 10. 5, 6, Phil. 2. 12. 2 Thes. 3. 14. c Gwel ar adn. 10, 11.—Ezra 9. 4. a 10. 9. Job 21. 6. Salm 2. 11. a 119. 120. Es. 66. 2. Hos. 13. 1. Act. 16. 29. Eph. 6. 5. Phil. 2. 12.

* Yr oedd ymysgaroedd, neu gariad Titus, wedi helaethu a chwanegu yn fawr tuag atynt, wrth gofio eu hufudd-dod hwy oll, yr hyn a ddangosasent hwy i awdurdod yr apostol megys ynddo ef, fel cenad oddi wrtho: ac hefyd wrth gofio eu hufudd-dod hwy oll i'r llythyr cyntaf a ddanfonasai yr apostol atynt. † Yr oedd yn eu caru yn fawr hefyd wrth gofio pa fodd y derbyniasent hwy ef; gydag ofn a dychryn rhag iddynt mewn un modd ei dristâu neu ei ofidio ef; neu fod dim yn eu plith nac yn ymddygiad neb o honynt, yn achos iddo ef feddwl yn ddrwg am danynt.

16 * Am hynny llawen wyf, [d] † am fod i mi hyder arnoch ym mhob dim.

d 2 Thes. 3. 4. Philemon 8. 21.

* Yr oedd Paul yn llawen iawn na chafodd ei sïomi ynddynt; † ac am y gallai weithian hyderu arnynt, y carent ac y parchent ef fel apostol Iesu Grist; y gwrandawent arno, yr ufuddâent iddo, ac yr ymddygent o hyn allan yn addas i'r efengyl sanctaidd.

PEN. VIII.

Paul yn annog y Corinthiaid i gyfranu yn helaeth i'r saint yn Jerusalem, &c.

[a] * YR ydym ni hefyd yn hysbysu i chwi, frodyr, [b] † y gras Duw a roddwyd yn [c] eglwysi Macedonia;

a pen. 5. 19. b adn. 2—7. pen. 9. 12. Act. 11. 23. 1 Cor. 15. 10. Eph. 3. 8. Col. 1. 29. c pen. 9. 2, 4. a 11. 9. Act. 16. 9. Rhuf. 15. 26. 1 Thes. 1. 7, 8. a 4. 10.

Mae y crybwylliad a wnaeth yr apostol am ei hyder yn y Corinthiaid, (pen. 7. 16,) yn agor y drws iddo i sôn am y casgliad, oedd efe yn wneuthur i'r saint yn Judea; yr hyn sydd yn cymmeryd i fynu y bennod hon a'r nesaf. * Gyda llawer o ddeheurwydd boneddigaidd, mae efe yn arwain at y mater, trwy grybwyll iddynt fel darn o hanes pwysfawr, yr hyn oedd eglwysi Philippi, Thessalonica, a Berea, yn Macedonia yn ei wneyd. † Wrth ganmol haelioni yr eglwysi hyn, mae efe yn ei alw yn "ras Duw a roddwyd ynddynt;" gan roddi yr achos am yr effaith: gras Duw oedd yr achos, a'u haelioni hwy oedd yr effaith, yn deilliaw o'r achos hyny.

2 * Ddarfod, [d] mewn mawr brofiad cystudd, [e] † i helaethrwydd eu llawenydd hwy, [f] a'u dwfn dlodi, ‡ ymhelaethu i [g] gyfoeth eu haelioni hwy.

d 1 Thes. 1. 6. a 2. 14. a 3. 3, 4. e Neh. 8. 10—12. Act. 2. 45, 46. f Marc 12. 42—44. Luc 21. 1—4. Iago 2. 5. Dat. 2. 9. g pen. 6. 10. a 9. 11, 13. Deut. 15. 4. Diar. 11. 25. Es. 32. 5—8.

* Am drallodau yr eglwysi yn Macedonia, gan Iuddewon a phaganiaid, gwel Act. 16. 19, &c.; a 17. 5, 13: † ond er cymmaint eu herlid, eu cystudd, a'u dwfn dlodi; eto yr oedd helaethrwydd eu llawenydd yn yr Arglwydd a'i iachawdwriaeth, wedi ehangu eu calonau hwy mewn cariad ato, ac at ei saint tlodion y rhai nis gwelsent; ‡ fel yr oeddynt yn helaeth iawn yn nghyfoeth eu haelioni tuag atynt, yr hyn oedd brawf o'u gras, eu cariad, a'u llawenydd yn yr Arglwydd.

3 * Oblegid [h] yn ol *eu* gallu ([i] yr wyf fi yn dyst) ac [k] uwch law eu gallu, *yr oeddynt* yn ewyllysgar o honynt eu hunain;

h pen. 9. 6, 7. Marc 14. 8. Act. 11. 29. 1 Cor. 16. 2. 1 Pedr 4. 11. i Rhuf. 10. 2. Gal. 4. 15. Col. 4. 13. k adn. 12, 16, 17. Ex. 35. 5, 21, 22, 29. 1 Cron. 29. 5, 6, 9, 13—17. Salm 110. 3. 1 Cor. 9. 17. Phil. 2. 13. 1 Thes. 2. 8. Philemon 14. 1 Pedr 5. 2.

* Mae yr apostol yn canmol dau beth yn haelioni y Macedoniaid; 1. Eu bod yn ewyllysgar o honynt eu hunain: heb iddo ef gymhell dim arnynt, dim ond crybwyll yr achos yn unig. 2. Haeledd eu rhoddion; yn ol eu gallu, ac uwchlaw eu gallu: bychan oedd eu gallu, ond mawr oedd eu rhoddion mewn cymhariaeth i hyny. Yr oedd yr apostol yn dyst o'r pethau uchod oll; eu tlodi, eu hewyllysgarwch, a'u rhoddion: ac yn tystio hyny er canmoliaeth iddynt.

4 * Gan ddeisyfu arnom trwy lawer o ymbil, [l] ar dderbyn o honom ni y rhodd, † a chymdeithas [m] gweinidogaeth y saint.

l adn. 18, 19. Gen. 33. 10, 11. 2 Bren. 5. 15, 16. Act. 16. 15. 1 Cor. 16. 3, 4. m pen. 9. 1, 12—14. Mat. 10. 42. a 12. 50. a 25. 40, 44, 45. Marc 14. 7. Ioan 19. 26, 27. Act. 6. 1, &c. a 9. 39—41. a 24. 17. Rhuf. 15. 25, 26. 1 Cor. 16. 1, 15. Gal. 2. 10. a 6. 10. 1 Tim. 5. 10. Philemon 5, 6. Heb. 6. 10. 1 Ioan 3. 16—18.

* Yn lle bod yr apostol yn gorfod ymbil arnynt hwy roddi, yr oeddynt hwy yn deisyfu trwy lawer o ymbil, arno ef a'i frodyr i dderbyn eu rhodd hwynt; † a chymmeryd y drafferth o drosglwyddo a chyfranu y rhodd hòno i'r saint tlodion yn Judea, fel y byddai hyny yn arwydd o'u cymdeithas a'u cyd-ymdeimlad hwy â'r cristionogion trallodus yno.

5 * A *hyn a wnaethant,* nid fel yr oeddym ni yn gobeithio, † ond [n] hwy a'u rhoddasant eu hunain yn gyntaf i'r Arglwydd, ‡ ac [o] i ninnau trwy ewyllys Duw:

n pen. 5. 14, 15. 1 Sam. 1. 28. 2 Cron. 30. 8. Es. 44. 3—5. Jer. 31. 33. Zec. 13. 9. Rhuf. 6. 13. a 12. 1. a 14. 7—9. 1 Cor. 6. 19, 20. o pen. 4. 5. 1 Cron. 12. 18. 2 Cron. 30. 12.

* A hyn oll a wnaethant, yn mhell uwchlaw, a thros ben yr hyn oedd yr apostol a'i frodyr yn obeithio; † hwy a roddasant eu personau eu hunain yn gyntaf i'r Arglwydd Iesu, fel ei bobl waredol a phriodol ef, yn awyddus i weithredoedd da; ‡ ac yna hwy a'u rhoddasant eu hunain i'r apostol a'i frodyr, fel gweinidogion Crist, i'w cyfarwyddo hwynt yn eu holl achosion, yn ol ewyllys Duw, ac i ddefnyddio eu talentau er ei ogoniant ef a chynnorthwy i'w achos a'i bobl. Pan roddo dynion eu hunain yn gyntaf i'r Arglwydd, yna bydd yn hawdd ganddynt roddi eu hunain i weision yr Arglwydd, i'w trin hwy yn mhob peth yn ol ewyllys a gair Duw.

6 * Fel [p] y dymunasom ni ar Titus, megis y dechreuasai efe o'r blaen, felly hefyd orphen o hono yn eich plith chwi † y gras hwn hefyd.

p adn. 16, 17. pen. 12. 18.

Os oedd y Macedoniaid tlodion a thrallodedig wedi rhagori ar obaith a dysgwyliad yr apostol yn nghyfoeth eu haelioni; nid oedd ammheuaeth ganddo nad atebai y Corinthiaid goludog i'w ddysgwyliad ef am danynt yn gyflawn. * Dechreuasai Titus y gwaith da hwn yn eu plith pan fuasai yn Corinth o'r blaen; am hyny dymunodd Paul arno fyned yno drachefn a'i orphen. † "Y gras hwn:" sef y casgliad i'r saint. Gwel ar adn. 1, *charin,* gras, neu rad rodd.

7 * Eithr [q] fel yr ydych yn mhob peth yn helaeth, † mewn [r] ffydd, a gair, a [s] gwybodaeth, a phob astudrwydd, ac [t] yn eich cariad tu ag attom ni; ‡ *edrychwch* ar fod o honoch yn [u] y gras hwn hefyd yn [x] ehelaeth.

q Rhuf. 15. 14. 1 Cor. 1. 5. a 4. 7. a 14. 12. Dat. 3. 17. r 1 Cor. 13. 2. s 1 Cor. 7. 1, 2. a 13. 8. t pen. 7. 7. u Phil. 1. 9, 11. 1 Thes. 4. 9, 10. 2 Thes. 1. 3. 1 Pedr 1. 22. 2 Pedr 1. 5—8. x adn. 6. pen. 9. 14. Eph. 4. 29. 2 Tim. 2. 1. Heb. 12. 28. 2 Pedr 3. 18.

* Er nad oedd yr apostol yn arfer ond ychydig hyawdledd areithyddawl yn ei bregethau a'i epistolau; eto efe a wyddai pa fodd i'w ddefnyddio pan fyddai yn angenrheidiol er gogoniant Duw, a lles yr eneidiau oedd dàn ei ofal ef. Nid oedd efe yn troi duwinyddiaeth i ymadrodd teg a chelfydd; eto yr oedd yn defnyddio hyny weithiau fel llaw-forwyn i dduwinyddiaeth. Am hyny, gan ei fod yma yn myned i wasgu y ddyledswydd fawr o elusengarwch ar y Corinthiaid, mae yn ceisio eu hennill hwy i hyny mewn dull hyawdlaidd iawn, a thrwy eu canmol hwynt am eu grasau a'u rhinweddau eraill. † Yn 1. Mewn "ffydd;" trwy yr hon y derbyniasent yr efengyl, a Christ yn yr efengyl. 2. Mewn "gair;" neu ddawn ymadrodd, i lefaru wrth Dduw mewn gweddiau, ac wrth ddynion â thafodau dïeithr, mewn athrawiaeth, neu drwy brophwydoliaeth. 3. Mewn "gwybodaeth;" o athrawiaeth a dirgelwch mawr yr efengyl, a gwybodaeth naturiol hefyd uwchlaw

lawer. 4. Mewn pob "astudrwydd," neu ddiwydrwydd, yn ol y Saesoneg; pob gofal a diwydrwydd am achos yr efengyl, a llwyddiant yr eglwys yn eu plith eu hunain. 5. Ac hefyd mewn cariad tuag at weinidogion yr efengyl; er bod rhai o honynt yn fŷr yn hyny, eto yr oedd eraill yn helaeth ynddo, ac yr oedd yn well gan Paul ganmol y rhai hyny na beïo y lleill. ‡ Gan eu bod yn helaeth yn y pethau eraill oll, mae yr apostol yn eu annog yn daer i fod yn helaeth hefyd yn eu helusengarwch a'u haelioni; "yn y gras hwn hefyd," fel prawf eu bod yn helaeth yn y grasau eraill.

8 [y] * Nid trwy orchymyn yr ydwyf yn dywedyd, † ond [z] oblegid diwydrwydd rhai eraill, ‡ a [a] chan brofi gwirionedd eich cariad chwi.

y adn. 10. pen. 9. 7. 1 Cor. 7. 6, 12, 25. z adn. 1—3. pen. 9. 2. Rhuf. 11. 12—14. Heb. 10. 24. a adn. 24. pen. 6. 6. Jos. 24. 14. Ezec. 33. 31. Rhuf. 12. 9. Eph. 4. 15. a 6. 24. Iago 2. 14—16. 1 Pedr 1. 22. 1 Ioan 3. 17—19.

* Nid gorchymyn yn dra-arglwyddiaethol iddynt gyfranu yr oedd yr apostol; na dywedyd pa faint a ddylasent hwy oll fel eglwys ei roddi: yn hytrach na hyny, ewell ganddo ei fod yn offrwm gwirfodd, fel y byddai Duw yn tueddu calon a meddwl pob un. † Ond yr oedd yn eu hannog i hyn, oblegid diwydrwydd a haelioni gwirfoddol eglwysi eraill; ni fynai er dim bod ei cyfeillion yn Corinth yn ol i gristionogion eraill yn eu cyfraniadau elusenawl. ‡ Ac yn hyn hefyd, caent hwy gyfle i brofi eu cariad at yr apostol, at y saint, ac at yr Arglwydd Iesu; ac y caffai pawb weled mai nid caru ar air ac ar dafod yn unig yr oeddent, ond mewn gweithred a gwirionedd hefyd. Fel mae ein cariad at Dduw yn cael ei brofi yn ein hufudd-dod i'w orchymynion ef, felly mae ein cariad at bobl Dduw yn cael ei brofi yn ein helusengarwch iddynt pan fyddont mewn angen a chyfyngder.

9 * Canys chwi a adwaenoch [b] ras ein Harglwydd Iesu Grist, † iddo ef, [c] ac yntau yn gyfoethog, ‡ fyned [d] er eich mwyn chwi [e] yn dlawd, [f] fel y cyfoethogid chwi trwy ei dlodi ef.

b pen. 13. 14. Ioan 1. 14, 17. Rhuf. 5. 8, 20, 21. 1 Cor. 1. 4. Eph. 1. 6—8. a 2. 7. a 3. 8, 19. c Salm 102. 25—27. Ioan 1. 1—4, 10. a 16. 15. 1 Cor. 15. 47. Phil. 2. 6. Col. 1. 16, 17. Heb. 1. 2, 6—14. d Es. 62. 1. a 65. 8. Ioan 12. 30. a 17. 19. Col. 1. 24. e Es. 53. 2. Mat. 8. 20. a 17. 27. a 20. 28. Marc 6. 3. Luc 2. 7. a 4. 3. a 9. 58. Phil. 2. 7, 8. f pen. 6. 10. Luc 16. 11. Rhuf. 8. 32. a 11. 12. 1 Cor. 3. 21, 22. Eph. 3. 8. 1 Tim. 6. 18. Iago 2. 5. Dat. 21. 27.

* Dyma y rheswm cryfaf o lawer eto, i'w hannog hwy y gynnorthwyo y saint tlodion; adnabyddiaeth athrawiaethol, grediniol, a phrofiadol, o gariad a gras ein Harglwydd Iesu Grist: os oeddynt yn gwybod rhywbeth am hyny, nis gallent lai na thosturio wrth ei saint tlodion ef. † Fel tragywyddol Fab Duw, yr oedd efe yn anfeidrol gyfoethog, yn berchen ar holl oludoedd, ac yn gogoniant a dedwyddwch y Duwdod, ac yn Arglwydd pawb a phob peth oll trwy yr holl grëadigaeth fawr i'r byd. Ac er ei wneuthur fel Cyfryngwr yn etifedd pob peth; ‡ eto, yn ei ras a'i dosturi digyffelyb tuag at ddynion a dirmyg y bobl, ac o'r diwedd i farw yn warthus a phoenus *fel* drwg-weithredwr ar y groes. ‖ Fel yn darfu i Arglwydd y gogoniant ymddarostwng, ymwagâu, a'i ddibrisio ei hun er ein mwyn ni; fel trwy ei dlodi annrhaethol ef y cyfoethogid ni byth, mewn gras a phob bendith ysbrydol yma, ac mewn gogoniant yn y nef. Yn marn yr apostol, yr oedd Iesu yn gyfoethog *cyn* ei fyned yn dlawd; myned yn dlawd a wnaeth o'i ras a'i wirfodd ei hun er ein mwyn ni; ond fel dyn efe a anwyd ac a ddygwyd i fynu mewn tlodi, mewn tlodi y treuliodd ei holl fywyd; ac ar ol ei adgyfodiad a'i esgyniad y dechreuodd fyned yn gyfoethog; gan hyny, os nad oedd efe ddim mwy na dyn, mae yn rhaid ei fod yn dlawd cyn bod yn gyfoethog, ac nid yn gyfoethog cyn myned yn dlawd: mae y testyn yn ddadl gref o blaid Duwdod a rhag-hanfodiad person yr Arglwydd Iesu.

10 * Ac [g] yr ydwyf yn rhoddi cynghor yn hyn: † canys hyn sydd [h] dda i chwi, ‡ y rhai a rag-ddechreuasoch, nid yn unig wneuthur, ond hefyd [i] ewyllysio er y llynedd.

g 1 Cor. 7. 25, 40. h pen. 12. 1. Diar. 19. 17. Ioan 11. 50. a 16. 7. a 18. 14. 1 Cor. 6. 12. a 10. 23. Phil. 4. 17. 1 Tim. 6. 18, 19. Heb. 13. 16. i adn. 8. pen. 9. 2.

* Rhoddi cyngor, ac nid gorchymyn, yr oedd yr apostol; a chwedi crybwyll am ras ein Harglwydd Iesu Grist fel y gwnaeth yn yr adnod o'r blaen, tybiai yn sicr nad oedd ond cyngor yn angenrheidiol, bod hyny yn llawn ddigon i annog y Corinthiaid i gynnorthwyo y saint yn haelionus. † Yr oedd y cyfryw weithred yn dda, neu yn gweddu iddynt hwy; yn addas ac yn anrhydeddus iddynt fel cristionogion, i debygu rhywfaint yn eu cariad i gariad Crist. ‡ Yr oeddynt wedi dechreu ar y gorchwyl hwn er ys blwyddyn yn ol, a chwedi dangos yr ewyllysgarwch mwyaf iddo y pryd hwnw. Ymdrechu yn wrol, a phenderfynol, gyda'r ewyllysgarwch a'r pleser mwyaf, meddant, yw ystyr y gair *(thelein)* a gyfieithir "ewyllysio" yma: *bod yn mlaenllaw* ydyw, yn ol y Saesoneg.

11 * Ac yn awr gorphenwch wneuthur hefyd; fel megis ag *yr oedd* y parodrwydd i ewyllysio, felly *y byddo* i gwblhâu hefyd † o'r hyn sydd gennych.

* Dangosasoch eich hunain yn barod i ewyllysio, a dechreu gwneuthur hefyd, er y llynedd; ac yn awr dangoswch yr un parodrwydd, ewyllys, ac ymdrech, i orphen, ac i gwblâu yr hyn a ddechreuasoch: mae eglwysi eraill, tlotach na chwi wedi gorphen, ac ni fynwn i chwi fod ar ol, ond mynaswn yn hytrach i chwi fod wedi gorphen, ac yn esampl i eraill. † Rhoddodd Duw ryw gyfran o bethau y byd i chwi, mwy nac i lawer o gristionogion eraill; ac yn awr, yn ol yr hyn sydd genych, gwnewch, gorphenwch, a chwblêwch yn ddïoed, fel na chaffoch y gair o broffesu pethau mawr, ac heb byth gwblâu hyny.

12 * Canys [k] os bydd parodrwydd meddwl o'r blaen, † yn ol yr hyn sydd gan un, *y mae* yn gymmeradwy, nid yn ol yr hyn nid oes ganddo.

k pen. 9. 7. Ex. 25. 2. a 35. 5, 21, 22, 29. 1 Cron. 29. 3—18 2 Cron. 6. 8. Diar. 19. 22. Marc 12. 42—44. a 14. 7, 8. Luc 7. 44—46. a 12. 47, 48. a 16. 10. a 21. 1—4. 1 Pedr 4. 10.

* Mae yr Arglwydd yn sylwi ar barodrwydd y meddwl mewn dynion, † ac yn cymmeradwyo y rhoddion yn ol yr hyn a fyddo ganddynt, nid yn ol yr hyn ni byddo ganddynt. Nid yw efe yn gofyn genym fwy nâ'r hyn a allom; ond mae yn gofyn yr hyn a allom genym oll, ac yn cymmeradwyo yr hyn a wnelom yn ol ein gallu, gan fendithio hefyd bawb a wnelont felly.

13 [l] * Ac nid fel y byddai esmwythdra i eraill, † a chystudd i chwithau;

l Act. 4. 34. Rhuf. 15. 26, 27.

* Nid oedd yr apostol yn gwasgu ar neb o honynt i gyfranu mòr helaeth, fel y byddai eu brodyr trallodedig yn gyfoethogion, † a hwy eu hunain yn dlodion, ac mewn angen drwy gynnorthwyo eraill. Neu ynte fel hyn; nid oedd am i'r Corinthiaid eu tlodi eu hunain i gynnorthwyo y saint yn Judea, ac eglwysi eraill yn cael eu harbed, heb ddwyn dim o'r baich gyda hwynt.

14 * Eithr o gymhwysdra: † y pryd hwn *bydded* eich helaethrwydd chwi *yn diwallu* eu diffyg hwy, ‡ fel y byddo eu helaethrwydd

hwythau *yn diwallu* eich diffyg chwithau; || fel y byddo cymhwysdra:

* "Eithr o gymhwysdra;" yn ol eich gallu chwi, ac yn ol eu hangen hwythau: fel na byddont hwy yn trengi o newyn, a chwithau yn meddu mwy na digon o lawer. † Y pryd hwn mae y saint yn Judea mewn angen mawr, a chwithau yn Corinth yn oludog; gan hyny y pryd hwn bydded eich helaethrwydd chwi yn diwallu eu diffyg hwy; ‡ a phan ddelo cyfnewidiad yn nhrefn rhagluniaeth er gwell arnynt hwy, ac er gwaeth arnoch chwithau, fel mae yn ddigon posibl i'r fath gyfnewidiad ddyfod rywbryd; yna bydd eu helaethrwydd hwythau yn diwallu eich diffyg chwithau; || ac fel hyn y bydd cymhwysdra, y cryf yn cynnorthwyo y gwàn; chwi yn eu diwallu hwy yn awr, a hwythau i'ch diwallu chwithau rywbryd arall os byth y daw angen am hyny: felly y dylai brodyr yn Nghrist wneyd.

15 * Megis y mae yn ysgrifenedig, [m] † Yr hwn *a gasglodd* lawer, nid oedd ganddo weddill; ac *a gasglodd* ychydig, nid oedd arno eisieu.

m Ex. 16. 18. Luc 22. 35.

* Megys y mae yn ysgrifenedig yn Exod. 16. 18, am y manna a roddes Duw yn wyrthiol i Israel yn yr anialwch. † Yr oedd rhai yn casglu ychwaneg o'r manna hwnw nag oedd yn angenrheidiol iddynt hwy eu hunain; a rhai gan wendid, afiechyd, henaint, neu ïosogrwydd teulu, yn methu a chasglu digon; ond erbyn dyfod a'r cwbl at ei gilydd, a mesur ei omer i bob un, yr hwn a gasglodd lawer, nid oedd ganddo weddill, a'r hwn a gasglodd ychydig, nid oedd arno eisiau. Efallai nad oes dim yn dangos gweithrediad rhagluniaeth Duw, mewn peth hollawl ddamweiniol debygid, yn eglurach na hyn yma; er bod gwahanol ddynion yn casglu gwahanol symiau neu ddognau o'r manna, fel y dygwyddai iddynt, eto, ar y cyfan, yr oedd omer i bob un, a dim ond hyny. Fel yr oedd y rhai a gasglent lawer o'r manna yn rhanu â'r rhai a gasglent ychydig; felly y dylai y rhai goludog yn y byd hwn gyfranu i'w brodyr gweiniaid a thlodion: i ddangos hyny mae yr apostol yn crybwyll y geiriau uchod yn ddiammau.

16 * Eithr [n] i Dduw *y byddo* y diolch, yr hwn a roddodd yr un [o] diwydrwydd trosoch y'nghalon Titus.

n Ezra 7. 27. Neh. 2. 12. Jer. 31. 31. a 32. 40. Col. 3. 17. Dat. 17. 17. o pen. 7. 7, 12. Phil. 2. 20.

17 † Oblegid yn wir efe [p] a dderbyniodd y dymuniad; [q] ‡ a chan fod yn fwy diwyd, || a aeth attoch o'i wir fodd ei hun.

p adn. 6. Heb. 13. 22. q Gwel ar adn. 8, 10.

* I ddychwelyd at y casgliad i'r saint; mae yr apostol yn diolch i Dduw, yr hwn a roisai yn nghalon Titus i ofalu dros y Corinthiaid, ar fod y cyfryw gasgliad yn cael ei wneyd yn eu plith. † Dymunasai yr apostol arno wneyd hyny, a derbyniodd yntau y dymuniad yn wir ewyllysgar; ‡ a chan fod yn fwy diwyd nac y tybiasai Paul, efe a aeth at y Corinthiaid i'r dyben hyny o'i wirfodd ei hun. || Yr hyn a ddywedir i Titus wneyd yma *o'i wirfodd ei hun*, a ddywedir i *Dduw ei roddi yn ei galon ef*, adn. 16; yr hyn a ddengys fod ffordd Duw o weithredu ar, a thueddu calon dyn, cyn belled o wneuthur trais ar ryddid ei ewyllys ef, fel y mae yn hytrach yn cadarnâu ac yn diogelu ei ewyllys.—*Guyse.*

18 * Ni a anfonasom hefyd gyd âg ef [r] y brawd, † yr hwn *y mae* ei glod yn yr efengyl [s] trwy yr holl eglwysi:

r adn. 19, 22, 23. pen. 12. 18. s Rhuf. 16. 4.

* Pwy oedd y brawd hwn, nis gwyddis yn sicr, ac nid yw o bwys i ni wybod: gwyddai y Corinthiaid pwy ydoedd, † ac yr oedd ei glôd yn yr efengyl trwy yr holl eglwysi; o herwydd ei oleuni yn yr efengyl, a'i ymlyniad calonog wrthi; ac o herwydd ei ffyddlondeb gwresog yn ei phregethu, a'i rodiad sanctaidd ac addas yn mhob màn. Tybia llawer mai Luc ydoedd, a bod ei glod trwy yr holl eglwysi, o herwydd y cymmeradwyaeth mawr oedd i'w efengyl ef yn mhob màn.

19 * (Ac nid *hynny* yn unig, [t] eithr hefyd a ddewiswyd gan yr eglwysi i gyd-ymdaith â ni â'r gras hwn, † yr hwn a wasanaethir gennym [u] er gogoniant i'r Arglwydd ei hun, ac *i amlygu* parodrwydd eich meddwl chwi)

t adn. 1—4. Act. 6. 3—6. a 15. 22, 25. 1 Cor. 16. 3, 4. u adn. 1, 2. pen. 4. 15. a 9. 12—14. Phil. 4. 18, 19. 1 Pedr 4. 10, 11.

* Nid yn unig yr oedd y brawd hwn yn glodfawr yn yr holl eglwysi, eithr dewiswyd ef hefyd gan yr eglwysi oedd wedi gwneyd eu casgliadau, i fyned gyda Paul a Titus â'r casgliadau hyny i Jerusalem. Mae y gair *cheirotonetheis*, dewis, yn arwyddo dewis trwy ddyrchafiad dwylo. Y *gras* hwn, sef rhoddion yr eglwysi i'r saint yn Judea. Gwel ar adn. 1. † Dyben yr apostol a'i frodyr yn ngweinyddiad y gwasanaeth haelionus hwn oedd, gogoniant i'r Arglwydd Iesu ei hun, ac amlygu cariad y Corinthiaid, a'u parodrwydd meddwl i gynnorthwyo eu brodyr tlodion yn 'ol ewyllys a gorchymyn Duw.

20 * Gan ochelyd hyn, [x] rhag i neb feio arnom yn yr helaethrwydd yma, yr hwn a wasanaethir gennym:

x pen. 11. 12. Mat. 10. 16. Rhuf. 14. 16. 1 Cor. 16. 3. Eph. 5. 15. 1 Thes. 5. 22.

* Ewyllysiai yr apostol i'r brawd clodfawr uchod gyd-ymdaith â Thitus ac yntau yn y gwasanaeth hwn, er mwyn gochelyd pob achlysur i neb feïo arnynt, am anonestrwydd neu anffyddlondeb, yn ngweinyddiad yr elusenau a ymddiriedwyd iddynt i'w dwyn i Jerusalem. Neu ynte, iddo fyned gyda Thitus i Corinth, i ddderbyn haelioni y Corinthiaid, fel na chaffai neb yno achlysur i feïo, na meddwl fod unrhyw anghyfiawnder yn cael ei wneyd â chyfraniadau yr eglwys. Mae hyn yn dysgu gweinidogion a chrefyddwyr, i fod yn ofalus iawn na chaffo neb achlysur i ddrwg-dybied eu gonestrwydd a'u ffyddlondeb hwy, mewn pethau amgylchiadol a berthyn i achos Duw.

21 * Y rhai ydym yn rhag-ddarpar [y] pethau onest, [z] nid yn unig y'ngolwg yr Arglwydd, † ond hefyd y'ngolwg dynion.

y Rhuf. 12. 17. Phil. 4. 8. 1 Tim. 5. 14. Tit. 2. 5, 8. 1 Pedr 2. 12. z pen. 2. 17. a 5. 9—11. Mat. 5. 16. a 6. 1, 4. a 23. 5. 1 Thes. 5. 22.

* Yn hyn yr oeddynt yn cymmeryd gofal mawr i rag-ddarpar pethau onest, nid yn unig yn ngolwg yr Arglwydd, yr hwn a wyddai eu calonau, ac oedd a'i lygad arnynt yn mhob màn; † ond hefyd ger bron dynion, ac i gydwybodau dynion, cyfeillion a gelynion, y rhai ydynt dueddol i ddrwg-dybied a beïo yn aml, pryd y gwyr Duw fod ei bobl yn ddiniwed a gonest. Nid yw ddigon ein *bod* yn onest ger bron Duw, rhaid i ni *ddangos* ein bod felly ger bron dynion.

22 * Ac ni a anfonasom gyd â hwynt † ein brawd, [a] ‡ yr hwn a brofasom mewn llawer o bethau, lawer gwaith, ei fod ef yn ddyfal, || ac yn awr yn ddyfalach o lawer, am y mawr ymddiried *y sydd gennyf* ynoch.

a Phil. 2. 20—22.

* "Gyda hwynt:" sef gyda Titus a'r brawd o'r blaen, (adn. 18.) pwy bynag oedd hwnw, ai Luc ai rhyw un arall. Fel yn ngenau *dau*, ac yn enwedig *tri* o dystion, y bydd pob gair yn safadwy; felly yma mae *tri* o frodyr credadwy a gonest yn cael eu danfon i Corinth ar y neges hwn. † Ond pwy oedd y brawd hwn nis gwyddom, ac nis gwaeth i ni: tybia rhai mai Apòlos ydoedd, ond nid yw hyny yn debyg iawn, oblegid gwyddai y Corinthiaid pa fath un oedd Apòlos, heb i'r apostol ei ganmol ef fel y gwna yma. ‡ Pwy bynag ydoedd, yr oedd yr apostol, ei frodyr, ac eglwysi Macedonia wedi cael digon o brawf o hóno, ei fod yn un dyfal,

gonest, a gofalus, ac yn mhob ystyr yn deilwng o gael ei ddanfon ar y neges uchod. ‖ Ac yn awr yr oedd yn ddyfalach ac yn fwy parod o lawer i fyned, wedi clywed y ganmoliaeth a roddasai yr apostol i'r Corinthiaid, a'r ymddiried oedd ganddo ynddynt.

23 * *Os gofynir* am [b] † Titus, [c] fy nghydymmaith *yw,* [d] a chyd-weithydd tu ag attoch chwi; ‡ neu *am* ein brodyr, [e] cenhadau yr eglwysi *ydynt, a* gogoniant Crist.

b adn. 6, 16. pen. 7. 6. a 12. 18. c Luc 5. 7, 10. Philemon 17. d Phil. 2. 25. a 4. 3. Col. 1. 7. 1 Thes. 2. 2. Philemon 1. 24. 3 Ioan 8. e adn. 19. Phil. 2. 25.

* Os gofyn neb dieithr, neu rywrai chwyddedig, drwg-dybus, a chwannog i feïo, pwy, a pha fath rai yw y brodyr hyn; † yr wyf yn ateb am Titus, mai fy nghydymaith anwyl I ydyw, a'm cyd-weithiwr llafurus a ffyddlawn I tuag atoch chwi, derbyniwch ef fel myfi. ‡ Os gofynir am y lleill, pwy ydynt, a pha hawl a chymhwysder sy ganddynt, i ofyn a derbyn casgliadau yn Corinth, yr wyf yn ateb, mai ein brodyr anwyl ydynt, a chenadau dewisedig a danfonedig yr eglwysi, a farnwyd yn addas ganddynt i'r fath orchwyl pwysfawr. Ac fel gweinidogion yr efengyl, a dynion hardd a sanctaidd eu hymarweddiad, gogoniant Crist ydynt: maent eisoes wedi dwyn mawr anrhydedd i'w enw ef, a byddant yn offerynau i'w ogoneddu ef yn chwaneg eto yn y byd.

24 * Am hynny [f] dangoswch iddynt hwy hysbysrwydd o'ch cariad, † ac o'n bost ninnau am danoch chwi, y'ngolwg yr eglwysi.

f adn. 8. pen. 7. 14. a 9. 2—4.

* Gan eu bod oll yn ddynion mòr enwog a theilwng, derbyniwch hwynt yn barchus a brawdol; dangoswch iddynt hysbysrwydd o'ch cariad, at Grist, at yr eglwysi, ac atynt hwythau fel cenadau yr eglwysi; † ac fel hyny dangoswch mai gwirionedd oedd ein bost ni am danoch chwi yn ngolwg, neu mewn eglwysi eraill. Mae gosodiad yr adnod hon yn y Saesoneg yn wahanol i'r Gymraeg, ac i'r Groeg hefyd, mae yn debyg; fel hyn:—"Am hyny dangoswch iddynt hwy, a cher bron yr eglwysi, y prawf o'ch cariad, ac o'n bost ninnau am danoch chwi."

PEN. IX.

Paul yn dangos yr achos paham y danfonasai efe Titus a'i frodyr o'r blaen, &c.

* CANYS * tu ag at am [b] y weinidogaeth i'r saint, [c] † afraid yw i mi ysgrifenu attoch.

a Gen. 27. 42. 1 Sam. 20. 23. 2 Bren. 22. 18. Job 37. 23. Salm 45. 1. Mat. 22. 31. Rhuf. 11. 28. Phil. 3. 5, 6. b adn. 12—14. Gwel ar pen. 8. 4. Gal. 6. 10. c 1 Thes. 4. 9, 10. a 5. 1. 1 Ioan 2. 27.

* "Am y weinidogaeth i'r saint," sef elusenau i gynnorthwyo y saint tlodion yn Judea, † afraid yw i mi ysgrifenu yn helaeth ac yn fanwl iawn atoch, neu afraid yw i mi ysgrifenu ar ol y tro hwn. Gan fod yr apostol yn dywedyd ychwaneg eto yn adn. 6, &c., i'w hannog hwy i haelioni, rhaid i ni ddeall y geiriau hyn mewn rhyw ystyr gyffelyb i'r hyn a roddwyd iddynt uchod.

2 * O herwydd mi a adwaen [d] barodrwydd eich meddwl chwi, yr hwn [e] yr ydwyf yn ei fostio wrth y Macedoniaid am danoch chwi, [f] † fod Achaia wedi ymbarottôi er y llynedd; ‡ a'r zêl *a ddaeth* oddi wrthych chwi a [g] annogodd lawer iawn.

d pen. 8. 8, 10, 19. 1 Thes. 1. 7, 8. e pen. 8. 24. f pen. 1. 1. a 8. 10. 1 Cor. 16. 15. g pen. 8. 8. Heb. 10. 24.

* Afraid oedd iddo ef gymhell yn daer arnynt i fod yn haelionus, oblegid efe a wyddai barodrwydd eu meddwl hwy i hyny, ac yr oedd yn bostio hyny am danynt yn mhob màn trwy holl eglwysi Macedonia. † Dywedai fod cristionogion Achaia, o'r hon yr oedd Corinth yn brif-ddinas, wedi ymbarotôi er ys blwyddyn yn ol; ‡ ac yr oedd clywed am eu *zel* hwy yn cynhyrfu eraill i wneuthur yr un modd. Trwy ganmol y Corinthiaid yn Macedonia, a chanmol y Macedoniaid yn Corinth, fel hyny yr oedd yr apostol yn annog y ddwy blaid o honynt i haelioni.

3 [h] * A mi a ddanfonais y brodyr, fel na byddo ein bost ni am danoch chwi yn ofer yn y rhan hon; † fel, megis y dywedais, [i] y byddoch wedi ymbarottôi:

h adn. 4. pen. 7. 14. a 8. 17—24. i adn. 5. 1 Cor. 16. 1, &c. Tit. 3. 1.

* Er ymddiried Paul yn y Corinthiaid, a'i fost am danynt, eto tybiodd yn addas ddanfon Titus a'r ddau frawd eraill atynt, nid am ei fod yn ammau eu hewyllysgarwch i gyfranu, ond rhag ofn nad oeddynt yn gwbl barod, wedi gorphen eu casgliadau, ac i'w fost ef am danynt yn hyny fyned yn ofer; † ac hefyd fel y byddent hwy wedi cwbl barotôi erbyn y delai efe ei hun a rhai o'r Macedoniaid gydag ef, i gymmeryd eu rhoddion hwy i Jerusalem.

4 * Rhag, os [k] y Macedoniaid a ddeuant gyd â mi, a'ch cael chwi yn ammharod, † bod i ni (ni ddywedaf, chwi) [l] gael cywilydd yn y fost hyderus yma.

k adn. 2. pen. 8. 1—5. l pen. 11. 17.

* Yr oedd efe wedi bostio am barodrwydd y Corinthiaid yn Macedonia; ac yn awr, os deuai rhai o'r Macedoniaid gydag ef i Corinth, a'u cael hwy wedi y cwbl yn anmharod; † byddai cywilydd iddo ef (heb sôn am danynt hwy,) yn y fost hyderus hòno: felly rhag cywilydd iddo ef ac iddynt eu hunain hefyd, efe a ddanfonodd y brodyr uchod i'w parotôi hwynt.

5 Mi a dybiais gan hynny yn anghenrheidiol attolygu i'r brodyr, ar iddynt ddyfod o'r blaen attoch, [m] * a rhag-ddarparu eich bendith chwi yr hon a fynegwyd; † fel y byddo parod megis bendith, ac nid megis *o* gybydd-dra.

m pen. 8. 6. 1 Cor. 16. 2.

* "A rhag-ddarparu eich bendith:" bendith yr Arglwydd ar eu hamgylchiadau bydol a roddes fodd iddynt i gyfranu i gyfreidiau y saint; o fendith yr Arglwydd y tueddwyd eu calonau i gyfranu; bendith i'r saint tlodion oedd eu cyfraniadau, ac yr oedd bendith iddynt hwythau o gyfranu: dedwyddach yw rhoddi yn hytrach na derbyn: yr hwn sydd yn rhoddi i'r tlawd, yn enwedig i'r duwiol tlawd, sydd yn rhoddi echwyn i'r Arglwydd, a'i rodd a dâl efe iddo. † Fel y byddo eich rhodd yn barod fel bendith rwydd, hael, ac ewyllysgar, ac nid yn dyfod trwy orfod, megys o galonau cybyddlyd.

6 [n] * A hyn *yr wyf yn ei ddywedyd,* [o] † Yr hwn sydd yn hau yn brin, a fêd hefyd yn brin; ‡ a'r hwn sydd yn hau yn helaeth, a fêd hefyd yn helaeth.

n 1 Cor. 1. 12. a 7. 29. a 15. 50. Gal. 3. 17. a 5. 16. Eph. 4. 17. Col. 2. 4. o adn. 10. Diar. 11. 18, 24, 25. a 19. 17. a 22. 9. Preg. 11. 1, 6. Luc 6. 38. a 19. 16—26. Gal. 6. 7—9. Heb. 6. 10.

* Am y swm i'w gasglu yn eich plith chwi, rhaid i hyny fod yn ol cydwybod a meddwl pob un o honoch, ni ddywedaf fi ond hyn ar y mater, rhag i neb o honoch dybied y tlodwch eich hunain wrth gyfranu i eraill: † tebyg i'r llafurwr yw hi mewn elusengarwch; os hau yn brin a wna hwnw, medi yn brin a wna hefyd: ‡ os hau yn helaeth a wna, efe a fêd hefyd yn helaeth. Felly chwithau, os prin y cyfranwch, prin hefyd, efallai, a fydd bendith Duw ar eich gweddill; ac os yn helaeth y cyfranwch, medr Duw roddi yn helaeth i chwithau. Nid oes yr un llafurwr daear mòr ffol a disynwyr, a thybied mai afradu ei had, a'i dlodi ei hun y mae, wrth hau ei faesydd fel mae yn angenrheidiol; gŵyr mai fel hyny mae iddo ddysgwyl cynnydd ar ei had, a medi yn helaeth trwy fendith yr Arglwydd; ac eto, cair llawer dàn enw cristionogion ysywaeth, na roddant ond yn brin iawn, at yr achosion goreu a rheidiolaf yn y byd,

rhag ofn eu colledu a'u tlodi eu hunain: beth yw hyny ond ysbryd cybydd-dra, meddyliau caledion am Dduw, ac anghrediniaeth o air ac addewidion Duw?

7 * Pob un megis y mae yn rhag-arfaethu yn ei galon, *felly rhodded;* [p] † nid yn athrist, neu trwy gymmell: [q] ‡ canys rhoddwr llawen y mae Duw yn ei garu.

p Deut. 15. 7—11, 14. Diar. 23. 6—8. Es. 32. 5, 8. Iago 5. 9. 1 Pedr 4. 9. q pen. 8. 12. Ex. 25. 2. a 35. 5. 1 Cron. 29. 17. Diar. 22. 9. Act. 20. 35. Rhuf. 12. 8.

* Ystyried pob un y pethau uchod, a rhodded fel mae yn arfaethu yn ei galon, yn gydwybodol rhyngddo â Duw, ac yn ngolwg Duw: nid âf fi i lywodraethu arnoch, nac i farnu pa faint a ddylai pob un o honoch roddi. † Pa faint bynag a roddo pob un, na rodded neb yn athrist, na thrwy gymhelliad pregethwyr a brodyr crefyddol eraill, fel pe byddai yn ddrwg ganddynt roddi dim tuag at achos Duw a'i bobl, ond fel y mae braidd gorfod arnynt, rhag cywilydd, ac er mwyn cadw i fynu eu henwau da eu hunain yn yr eglwys. ‡ Rhoddwr llawen, calonog, a gwirfoddawl, mae Duw yn ei garu; un a dyn allan ei *enaid*, chwaithach ei arian, i'r newynog, ac a ddefnyddia bob cyfle yn siriol i ddiwallu a chysuro y rhai angenus a thlodion: nis gall dim fod yn gymmeradwy ganddo ef, ar nad yw yn dyfod oddi ar yr egwyddor rydd a siriol hon: un felly yw ef ei hun.

8 [r] * Ac *y mae* Duw yn abl i beri i [s] bob † gras fod yn helaeth tu ag attoch chwi; ‡ fel y byddoch chwi [t] ym mhob peth, bob amser, a chennych bob digonoldeb [u] yn helaeth i bob gweithred dda:

r 2 Cron. 25. 9. Salm 84. 11. Diar. 3. 9, 10. a 10. 22. a 28. 27. Hag. 2. 8. Mal. 3. 10. Phil. 4. 18, 19. s pen. 8. 19. 1 Pedr 4. 10. t adn. 11. 1 Cron 29. 12—14. u pen. 8. 2, 7. Act. 9. 36. 1 Cor. 15. 58. Eph. 2. 10. Col. 1. 10. 2 Thes. 2. 17. 2 Tim. 3. 17. Tit. 2. 14. a 3. 8, 14.

* Yn yr adnod o'r blaen dangoswyd Duw megys dyledwr i'r rhai a gyfranent i'w saint tlodion ef; ac yma dangosir ef yn abl i dalu yn gyflawn i bawb, fel y mae yn holl gyfoethog ac yn hollalluog ynddo ei hun. † Mae y gair a gyfieithir yma "gras," yn arwyddo pob math o roddion a doniau, tymmorawl ac ysbrydol; ac efallai i'w ddeall felly yn y fàn hon, ond yn benaf am roddion tymmorawl, fel y mae diwedd yr adnod yn tueddu i ddangos. ‡ Pethau tymmorawl oedd y Corinthiaid yn gyfranu, ac mewn pethau tymmorawl yr oedd Duw yn talu yma; fel y byddai ganddynt bob amser bob digonoldeb iddynt eu hunain a'u teuluoedd, ac i bob gweithred dda o elusengarwch yn ol llaw. Rhoi digonoldeb i weithredoedd da mae Duw; ac nid i'w gybyddu, na'i afradu mewn gweithredoedd drwg.

9 * (Megis yr ysgrifenwyd, [x] Efe a wasgarodd; rhoddodd i'r tlodion: [y] † ei gyfiawnder ef ‡ sydd yn aros yn dragywydd.

x Gwel ar Salm 112. 9. y Salm 112. 3. Diar. 8. 18. a 21. 21. Es. 51. 8. 1 Cor. 13. 13. Gal. 5. 5, 6.

* Megys yr ysgrifenwyd am y gŵr da, cymmwynasgar; (Salm 112. 9.) Gwasgarodd ei dda i'r tlodion yn helaeth a haelionus; yr hyn a ellir ei alw † "ei gyfiawnder" personol ef, oblegid ei fod yn un ran fawr o gyfiawnder moesol, ac am ei fod ef yn ymddwyn fel goruchwyliwr cyfiawn a ffyddlon, yn cyfranu da ei Arglwydd a ymddiriedwyd iddo. ‡ Ac mae cyfiawnder o'r fath hyn yn aros yn dragywydd, yn yr ymarferiad o hóno, fel y parâo Duw i alluogi a thueddu y gŵr da i hyny; yn y ffrwythau a'r effeithiau daionus o hóno, ar y gwrthddrychau a gaffont les parâus oddi wrtho; mae yn aros yn dragywydd hefyd mewn coffadwriaeth a chymmeradwyaeth ger bron Duw, ac mewn côf anrhydeddus yn hir gan ddynion ar y ddaear: y cyfiawn a fydd byth mewn coffadwriaeth, a'i had a fendithir.

10 [z] * A'r hwn sydd yn rhoddi had i'r hauwr, rhodded hefyd fara yn ymborth, † ac [a] amlhâed eich had, [b] ‡ a chwaneged ffrwyth eich cyfiawnder;

z Gen. 1. 11, 12. a 47. 19, 23, 24. Es. 55. 10. a adn. 6. Diar. 11. 18. Preg. 11. 6. Phil. 4. 17. b Hos. 10. 12. Eph. 5. 9. Phil. 1. 11. 1 Thes. 3. 12. a 4. 10.

* Dymuniad calon yr apostol, a'i weddi dros y Corinthiaid oedd, bod i Dduw, yr hwn sydd yn rhoddi had i'r hauwr, roddi hefyd fara yn ymborth iddynt hwythau; sef eu diwallu yn wastad â phob peth angenrheidiol yn y bywyd hwn. † Yr had a hauasent, yn eu helusenau haelionus i eraill, amlâed Duw ef ar ei ganfed, mewn pob bendithion arnynt hwy a'u meddiannau: ‡ a galluoged hwy eto yn mhellach, i chwanegu ffrwyth eu cyfiawnder, mewn elusengarwch i bobl dlodion Duw, a chwaneged eu cysur a'u dedwyddwch yn eu heneidiau eu hunain. Dywedir fod yr adnod hon mewn rhai argraffiadau Groeg, yn yr amser dyfodawl:—"a rydd fara yn ymborth, a amlâ eich had, a chwanega ffrwyth eich cyfiawnder."

11 * Wedi eich [c] cyfoethogi ym mhob peth i bob haelioni, [d] † yr hwn sydd yn gweithio trwom ni ddiolch i Dduw.

c pen. 8. 2, 3. 1 Cron. 29. 12—14. 2 Cron. 31. 10. Diar. 3. 9, 10. Mal. 3. 10, 11. 1 Tim. 6. 17, 18. d adn. 12. pen. 1. 11. a 4. 15. a 8. 16, 19.

* Fel hyn byddent wedi eu cyfoethogi yn mhob peth i bob haelioni, i gyfranu i gyfreidiau y saint mewn symledd duwiol ac er gogoniant i Dduw; † yr hyn a barai i laweroedd ddiolch i Dduw o herwydd eu haelioni hwy: a diolchai yr apostol a'i frodyr hefyd, am gael bod yn offerynol i'r fath waith anrhydeddus a daionus. Dywedir bod y gair *(aplotêta)* a gyfieithir yma "haelioni," yn arwyddo haelioni yn tarddu oddi ar egwyddor neu feddwl rhydd, syml, pur, ac uniawn.

12 * Canys [e] y mae gweinidogaeth y swydd hon, nid [f] yn unig yn cyflawni diffygion y saint, † ond hefyd yn ymhelaethu trwy aml roddi diolch i Dduw;

e Gwel ar adn. 1. pen. 8. 4. f pen. 8. 14, 15. Phil. 2. 25. a 4. 18, 19. Philemon 4—7. Iago 2. 14—16. 1 Ioan 3. 17, 18.

Ni ddylai neb fyw iddo ei hun, ond i ogoneddu Duw a llesâu ei gyd-grëaduriaid: yr oedd gwasanaeth Paul a'i frodyr yn y swydd hon o gasglu i'r saint yn ateb y ddau ddyben mawr hyn: * yr oedd yn cyflawni diffygion y saint, ac fel hyny yn gwneyd lles iddynt; † ac yr oedd hefyd yn helaethu gogoniant Duw trwy ddiolchgarwch llaweroedd ag oedd yn derbyn o'r llesâd hyny. Mae y gair *(leitourgia,)* a gyfieithir yma "swydd," yn arwyddo gwasanaeth crefyddol; ac felly yn dangos fod yr apostol yn golygu cynnorthwyo y saint yn eu tlodi, nid yn unig yn weithred o elusengarwch *ddynol*, ond hefyd yn wasanaeth *crefyddol*, cymmeradwy gan Dduw, a phriodol i natur goruchwyliaeth yr efengyl. O'r gair uchod hefyd y daeth y gair *Liturgy*, gwasanaeth cyhoeddus yr Eglwys Sefydledig.

13 * (Gan eu bod, trwy brofiad y weinidogaeth hon, [g] † yn gogoneddu Duw o herwydd [h] darostyngiad eich cyffes chwi i efengyl Crist, [i] ac *o herwydd* haelioni eich cyfraniad iddynt hwy, ac i bawb)

g Salm 50. 23. Mat. 5. 16. Ioan 15. 8. Act. 4. 21. a 11. 18. a 21. 19, 20. Gal. 1. 24. 1 Pedr 2. 9. a 4. 11. h pen. 10. 5. Luc 6. 46. Rhuf. 10. 16. a 16. 26. Heb. 5. 9. i Heb. 13. 16.

* Wrth dderbyn y cynnorthwyon elusengar hyn oddi wrth y Corinthiaid, yr oedd y saint yn Judea yn cael prawf o'u darostyngiad a'u hufudd-dod hwy i'r efengyl, a gwirionedd eu proffes hwy o efengyl Grist: † ac yr oeddynt yn gogoneddu Duw am y prawf o hyny, ac o herwydd haelioni eu cyfraniad iddynt hwy i bawb. Mae gweled arwyddion o ras Duw ar eraill, yn achos o ddiolchgarwch i bob dyn duwiol; ac wrth weled eraill yn cael eu cynhyrfu i'n cynnorthwyo yn ein caledi, nis gallwn lai na gogoneddu Duw am hyny.

14 * A [k] thrwy eu gweddi hwythau drosoch

chwi, † *y rhai ydynt* [l]yn hiraethu am danoch chwi, am [m]y rhagorol ras Duw *yr hwn sydd* ynoch.

k pen. 1. 11. Ezra 6. 8—10. Salm 41. 1, 2. Diar. 11. 26. Luc 16. 9. Phil. 4. 18, 19. 2 Tim. 1. 16—18. l 2 Sam 13. 39. Rhuf. 1. 11. Phil. 1. 8. a 2. 26. a 4. 1. m pen. 8. 1, 6, 7. 1 Cor. 1. 4, 5. 1 Tim. 1. 14.

* Yr oedd y gwasanaeth hwn yn dda i'r Corinthiaid eu hunain hefyd, yn gystal ag er gogoniant Duw; oblegid yr oedd llawer ychwaneg o weddio taer ac effeithiol drostynt gan y saint duwiol a gynnorthwyasid ganddynt. † Yr oedd y saint o Iuddewon yn Judea erbyn hyn hefyd, yn hiraethu am adnabyddiaeth a chyfeillach bersonol â'r saint a'r cenedloedd yn Corinth; o herwydd y rhagorol ras Duw oedd yn amlwg ynddynt. Felly, yr oedd eu caredigrwydd hwy wedi ennill llawer o weddïau drostynt, llawer o gariad atynt, a llawer o ddïolch a gogoniant i Dduw drwyddynt.

15 [n]* Ac i Dduw *y byddo* y dïolch am [o]ei ddawn annhraethol.

n adn. 11. pen. 2. 14. 1 Cron. 16. 8, 35. Salm 30. 4, 12. a 92. 1. Luc 2. 14, 38. 1 Cor. 15. 57. Eph. 5. 20. Dat. 4. 9. o Es. 9. 6. a 49. 6. Ioan 1. 16. a 3. 16. Rhuf. 6. 23. a 8. 32. 1 Ioan 4. 9, 10. a 5. 11, 12.

* Yma mae yr apostol ei hun, yn llawnder gorfoledd ei galon, yn tòri allan i ddïolch i Dduw am ei ddawn annhraethol; iddo ei hun, i'r Corinthiaid, ac i'r saint yn Judea. Ac uwchlaw pob peth, yr oedd yn dïolch am Iesu Grist, dawn annhraethol Duw i bechaduriaid, yr hwn oedd yn cynnwys, ac yn achos, pob dawn ysbrydol ac annhraethol arall. "Ei ddawn annhraethol:" Iesu Grist, medd rhai, fel y sylwyd eisoes. Yr efengyl, medd eraill, trwy yr hon y darostyngir calonau dynion i ufuddâu i Dduw, i garu Duw, ac i'w ogoneddu ef. Cariad brawdol, medd eraill, yr hwn a weithiodd yn nghalonau y Corinthiaid tuag at eu brodyr tlodion yn Judea, ac a weithiodd eilwaith yn y rhai hyn tuag atynt hwythau. Cymmerwn y gair "dawn" yn ei ystyr iselaf, mae yn dangos fod pob teimlad daionus yn nghalon dyn, i'w brïodoli i weithrediadau daionus Duw arno.

PEN. X.

Yn erbyn y gau-apostolion, &c.

* A [a]MYFI Paul wyf fy hun [b]yn attolwg i chwi, [c]er addfwynder a hynawsedd Crist, † yr hwn yn bresennol *wyf* [d]wael yn eich plith, † ond yn absennol [e]ydwyf yn hŷf arnoch.

a 1 Cor. 16. 21, 22. Gal. 5. 2. 2 Thes. 3. 17. Philemon 9. Dat. 1. 9. b adn. 2. pen. 5. 20. a 6. 1. Rhuf. 12. 1. Eph. 4. 1. 1 Pedr 2. 11. c Salm 45. 4. Es. 42. 3, 4. Zec. 9. 9. Mat. 11. 29. a 12. 19, 20. a 21. 5. Act. 8. 32. 1 Pedr 2. 22, 23. d pen. 11. 30. a 12. 7—9. a 13. 4. 1 Cor. 2. 3. a 4. 10. Gal. 4. 13. e pen. 3. 12. a 7. 4. a 11. 21. a 13. 2, 3. Rhuf. 10. 20. a 15. 15.

Gwedi gorphen materion eraill, a chyn gorphen yr epistol hwn, mae yr apostol yma yn dechreu llefaru yn fwy union-gyrchol yn erbyn y gau-athrawon, y rhai a'i gwrthwynebent ef yn Corinth. * Myfi Paul, yr hwn a ddirmygwyd genych chwi; myfi Paul, apostol anfonedig Iesu Grist, ac a ddylaswn gael fy mharchu fel ei apostol ef; yr wyf fi fy hun yn attolwg i chwi er addfwynder a hynawsedd Iesu Grist tuag at ei elynion, ac a ddysgais innau gan Grist tuag at fy nirmygwyr a'm gwrthwynebwyr; yr wyf yn attolwg i chwi, na byddo raid i mi arfer awdurdod a thoster tuag at neb o honoch. † Geiriau rhai o ddirmygwyr Paul yw y rhai hyn, mae yn debyg, oblegid ei fod ef yn fychan o gorpholaeth, ac yn wael yr olwg arno o ran ei berson allanol, lle y byddai yr brèsenol. ‡ Ond er mòr wael ei olwg, a gŵyl ei ysbryd, oedd efe yn eu plith hwynt; yn absenol yr oedd yn dangos y medrai efe fod yn hŷf ac yn awdurdodol, fel y gweddai i apostol Iesu Grist.

2 * Ac yr ydwyf yn dymuno [f]na byddwyf yn bresennol yn hŷf â'r hyder yr wyf yn meddwl bod tu ag at rai, † y sydd yn ein cyfrif ni megis [g]rhai yn rhodio yn ol y cnawd:

f pen. 12. 20. a 13. 2, 10. 1 Cor. 4. 19—21. g pen. 11. 9—13. a 12. 13—19. Rhuf. 8. 1, 5. Gal. 5. 16—25. Eph. 2. 2, 3.

* Er bod ei wrthwynebwyr chwyddedig ef yn cymmeryd mantais ar ei wylder hynaws, ei ostyngeiddrwydd, a'i ymddangosiad gwael pan oedd yn Corinth, i ddywedyd yn ddirmygus am dano; eto, yr oedd yn dymuno ar yr eglwys i beidio ag ochri gyda hwynt, ac felly *peri* iddo ef, yn groes i'w ewyllys, i arfer ei awdurdod apostolaidd tuag atynt oll, fel yr oedd yn ofni y byddai raid iddo ei harfer tuag at rai yn eu plith. † Yr oedd y *rhai* hyny yn cyhuddo Paul a'i gyd-weithwyr, mai dynion yn rhodio yn ol y cnawd oeddynt; mai pregethu yr efengyl yr oeddynt yn unig er anrhydedd ac elw iddynt eu hunain, ac mai cnawdol oedd eu rhodiad yn mhob peth, a'u dybenion hefyd. Fel hyn yr oeddynt yn peri rhagfarn yn y Corinthiaid, yn erbyn Paul a'i frodyr hefyd.

3 * Canys, er [h]ein bod ni yn rhodio yn y cnawd, [i]† nid ydym yn milwrio yn ol y cnawd:

h Gal. 2. 20. 1 Pedr 4. 1, 2. i adn. 4. 1 Tim. 1. 18. 2 Tim. 2. 3, 4. a 4. 7. Heb. 12. 1.

* Er fod Paul a'i gyd-weithwyr yn pabellu ac yn rhodio yn y cnawd, sef yn y corph naturiol, ac yn darostyngedig i wendidau a thrallodau cyffredin y 'stâd a'r fuchedd hon fel eraill; † eto, gallai *apelio* at Dduw, adnabyddwr calonau pawb, nad oedd efe ddim yn milwrio yn y weinidogaeth sanctaidd yn ol doethineb y cnawd, nac oddi ar egwyddor gnawdol, hunanol, a phechadurus. Neu yn ol eraill fel hyn:—Er nad ydym ni yn gwbl rydd oddi wrth wendidau dynol, eto nid ydwyf fi yn arfer fy awdurdod apostolaidd mewn modd gwàn, gan ofni dynion, na gwenieithio i ddynion; ond yn defnyddio arfau ysbrydol, gwroldeb cristionogol, *zel*, rhyddid, a hyfdra i lefaru gwirioneddau Duw, a gwroldeb dïofn i weini ceryddon eglwysig, y rhai trwy gyd-weithrediad Duw, ydynt dra effeithiol.

4 * (Canys [k]arfau ein milwriaeth ni nid *ydynt* gnawdol, ond [l]nerthol trwy Dduw [m]i fwrw cestyll i'r llawr)

k pen. 6. 7. Rhuf. 6. 13. a 13. 12. Eph. 6. 13—18. 1 Thes. 5. 8. l pen. 3. 5. a 4. 7. a 13. 3, 4. Barn. 7. 13—23. a 15. 14—16. 1 Sam. 17. 45—50. Salm 110. 2. Es. 41. 14—16. Zec. 4. 6, 7. 1 Cor. 1. 18—24. a 2. 5. Heb. 11. 32, 33. m Jos. 6. 20. Es. 30. 25. Jer. 1. 10. Heb. 11. 30.

* Megys nad oeddynt hwy yn milwrio yn ol y cnawd, felly nid cnawdol oedd arfau eu milwriaeth: nid trwy nerth cyfreithiau, awdurdodau, ac arfau dynol, yr oeddynt yn myned yn mlaen yn eu milwriaeth yn erbyn byd, cnawd, Satan, a gau-grefyddau; nac ychwaith trwy rym dysgeidiaeth a doethineb y cnawd, nac unrhyw foddion i foddâu y cnawd ynddynt eu hunain nac mewn eraill. † Ond yn groes i hyn oll, arfau ysbrydol oeddynt; efengyl y tangnefedd, a chleddyf yr Ysbryd, yr hwn yw gair Duw, yn cael eu pregethu gyda goleuni, gwresawgrwydd, a hyfdra sanctaidd, yn eu symledd a'u harddwch naturiol eu hunain. Fel hyn yr oeddynt yn nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll pechod, Satan a'r byd i'r llawr, fel muriau Jericho gynt wrth sain y cyrn hyrddod. Wrth y cestyll hyn y meddylir pa bethau bynag a safant yn erbyn yr efengyl, ag sydd yn dàl dynion i fynu mewn ffyrdd drygionus; gan ddarostwng ewyllys dynion, yr hwn sydd gastell mòr grŷf, nas gall holl byrth uffern mo'i ystormiaw.

5 * Gan fwrw [n]dychymmygion i lawr, [o]† a phob uchder a'r sydd yn ymgodi yn erbyn gwybodaeth Duw, ‡ a [p]chan gaethiwo [q]pob meddwl i [r]ufudd-dod Crist;

n Luc 1. 51. Act. 4. 25, 26. Rhuf. 1. 21. 1 Cor. 1. 19, 27—29. a 3. 19. o Ex. 5. 2. a 9. 16, 17. 2 Bren. 19. 22, 28. Job 40. 11, 12. a 42. 6. Salm 10. 4. Es. 2. 11, 12, 17. a 60. 14. Dan. 4. 37. a 5. 23—30. Act. 9. 4—6. Phil. 3. 4—9. 2 Thes. 2. 4, 8. p Rhuf. 7. 23. q Deut. 15. 9. Salm 139. 2. Diar. 15. 26. a 24. 9. Es. 55. 7.

a 59. 7. Jer. 4. 14. Mat. 15. 19. Heb. 4. 12. r Salm 18. 44. a 110. 2, 3. Rhuf. 1. 5. a 16. 26. Heb. 5. 9. 1 Pedr 1. 2, 14, 15, 22.

* Dychymmygion, neu resymau cnawdol dynion anianol, oedd llawer o'r cestyll a grybwyllwyd uchod; dychymmygion y gau-athrawon luddewaidd am y ddeddf a hunan-gyfiawnder, a dychymmygion y philosophyddion paganaidd am ddysgeidiaeth a doethineb y cnawd, eu gau-grefydd a'u heilun-addoliaeth. Ond yr oedd goleu a nerth yr efengyl, trwy nerth Ysbryd Duw, yn effeithiol i fwrw y dychymmygion cryfion hyn i lawr; † yn nghyd â phob uchder meddwl ac ysbryd, mewn dynion beilchion a hunanol, yn gystal â holl nerth, awdurdod, a dyfeisiau daear ac uffern, ag oedd yn ymgodi mewn gwrthryfel ofnadwy yn erbyn gwybodaeth Duw: yn erbyn yr efengyl, moddion gwybodaeth, ac yn erbyn effeithiau yr wybodaeth hòno ar ddynion. ‡ "Nid bwrw i lawr" yn unig, ond "caethiwo" hefyd; "caethiwo pob meddwl i ufudd-dod Crist:" fel brenin, wedi iddo ddarostwng a chymmeryd rhai o filwyr ei wrthwynebwr, yn eu gosod i ymladd yn ei resau byddinawl ei hun; ond o wirfodd yn ysbrydol, nid o drais a gorfod anewyllysgar. Pan welo yr enaid ei amddiffynfèydd wedi eu dydymchwelyd, mae yn ymostwng i'r goresgynwr mawr; ac yna mae pob meddwl, pob cymhwylliant, yn cymmeryd deddf ganddo ef. Nid oes dim yn cael ei dderbyn a fyddo yn groes i'r efengyl; gan fod Crist yn cael ei addef yn hollawl Arglwydd. Mae y rhan flaenaf o'r adnod yn dangos mòr barod yw dynion i gadarnâu eu hunain yn erbyn Crist, trwy gyfodi megys un gwrthglawdd y tu cefn i'r llall, i rwystro ei ddyfodiad ef i mewn i'r enaid: a'r rhan olaf o'r adnod yn dangos mòr llwyr ac effeithiol mae efe yn gorchfygu, yn darostwng, ac yn meddiannu yr holl enaid, mewn ufudd-dod grasol, gwirfoddol, a hyfrydlawn iddo ei hun. Gorchfygu a wnelo yn ein heneidiau oll.

6 * Ac [s] yn barod gennym ddïal ar bob anufudd-dod, [t] † pan gyflawner eich ufudd-dod chwi.

s pen. 13. 2, 10. Num. 16. 26—30. Act. 5. 3—11. a 13. 10, 11. 1 Cor. 4. 21. a 5. 3—5. 1 Tim. 1. 20. 3 Ioan 10. t pen. 2. 9. a 7. 15.

* Am y rhai cyndyn, anufudd, ac anhywaith yn Corinth, y rhai oedd yn rhwystr i'r efengyl, ac hyd ag oedd ynddynt yn bychanu yr apostol a'i swydd; yr oedd ganddo ef allu ac awdurdod fel apostol i gospi y cyfryw rai yn ol eu haeddiant, ac yr oedd yn barod i wneyd hyny fel yr oedd yn ddyledswydd arno. † Ond yr oedd yn ewyllysio oedi hyny, nes cael gweled pa beth a wnaethai tynerwch yn gyntaf; a pha nifer o honynt a ufuddâent i awdurdod Crist trwyddo ef; a pha cyn belled y cyflawnent hwy ei orchymynion ef trwy Grist, mewn diarddelwi troseddwyr anniwygiadwy allan o'r eglwys. Tybir fod y "dïal" uchod yn arwyddo y barnau gwyrthiol a allai yr apostol ddwyn ar ei wrthwynebwyr drygionus yn yr eglwys: yr oedd hyn hefyd yn rhan o'r "arfau nerthol trwy Dduw," a ymddiriedwyd iddo ef a'i frodyr.

7 * Ai edrych yr ydych chwi ar bethau yn ol y golwg? [x] † os ymddiried neb ynddo ei hun, ei fod ef yn eiddo Crist, ‡ meddylied hyn drachefn o hono ei hun, megis ag *y mae* efe yn eiddo Crist, [y] felly *ein bod* ninnau hefyd yn eiddo Crist.

u adn. 1. pen. 5. 12. 1 Sam. 16. 7. Mat. 23. 5. Luc 16. 15. Ioan 7. 24. Rhuf. 2. 28, 29. x 1 Cor. 3. 23. a 14. 37. a 15. 23. Gal. 3. 29. y pen. 5. 12. a 11. 4, 23. a 12. 11. a 13. 3. Gal. 1. 11—13. a 2. 5—9. 1 Ioan 4. 6.

* Yr oedd rhai yn Corinth wedi cael eu hudo i feddyliau drwg am Paul, o herwydd ei ymddangosiad gwael, ei amgylchiadau angenus, a'r olwg anfanteisiol oedd arno ef oddi allan: ond mae efe yn gofyn ai edrych yr oe ldynt felly ar bethau yn ol y golwg, pethau nad oedd dim perthynas rhyngddynt â gwir ardderchawgrwydd? Neu a oeddynt hwy yn mawrygu dynion ar gyfrif rhagoriaethau allanol, golygusrwydd, ac ëondra hunanol?

† Os tybia rhyw ŵr mawr hunanol yn eich plith chwi, ei fod ef yn eiddo Crist, yn was cyhoeddus i Grist, ac yn cael ei arddelwi gan Grist yn ei weinidogaeth; ‡ meddylied hyn hefyd o hòno ei hun, y *gallwn* ninnau fod yn eiddo Crist, ac ein *bod* yn eiddo Crist, cystal ag yntau yn mhob un o'r ystyriaethau uchod. Pa faint bynag o sail sydd ganddo ef i ymddiried ynddo ei hun, ei fod yn eiddo Crist, os meddylia efe yn ddiduedd, gall weled fod genyf finnau lawn cymmaint, a mwy o sail, i ymddiried fy mod yn eiddo Crist, ac yn apostol iddo; fel hyny nid oes ganddo ef un achos i fawrygu ei hun, na'm dirmygu innau. Tybia rhai fod yr apostol yma yn cyfeirio at ryw *un* person yn Corinth, fel gau-apostol yn blaenori ar bawb; ond wrth adn. 2, 10, 12, mae yn amlwg fod mwy nac un yn gwrthwynebu Paul yno, er fod rhyw *un*, efallai yn fwy blaenoraidd a noded-ig nâ'r lleill.

8 * Oblegid [z] pe bostiwn beth ychwaneg hefyd † am ein hawdurdod (yr hon a roddodd yr Arglwydd i ni er adeilad, ac nid er eich dinystr chwi) [a] ‡ ni'm cywilyddid:

z pen. 1. 24. a 13. 8, 10. Gal. 1. 1. a pen. 7. 14. a 12. 6. 2 Tim. 1. 12.

* "Pe bostiwn beth ychwaneg" nac a wnaethum erioed hyd yn hyn; ychwaneg nac a garwn wneyd, oni b'ai gorfod, i amddiffyn fy hun; ychwaneg nac a ddichon y penaf, a'r enwocaf, o'm gwrthwynebwyr ei wneyd, yn unol â gwirionedd; † pe bostiwn felly am yr awdurdod a roddes yr Arglwydd Iesu i mi a'm brodyr, er eich hadeiladaeth ysbrydol chwi, ac nid er eich dinystr; ‡ ni'm cywilyddid o'r fost hyderus hòno, fel pe byddai yn ddisail, yn anmhrydlawn, nac yn anhardd, yn fy sefyllfa bresenol I; ni byddai ond gwirionedd, ac nis gallai neb fy ngwrth-ddywedyd. Cofied gweinidogion y gair mai er adeilad, ac nid er dinystr, y maent wedi derbyn eu dawn, eu gweinidogaeth, a'u hawdurdod; dwyn pechaduriaid at Grist, ac nid eu gyru i annobaith.

9 * Fel na thybier fy mod megis yn eich [b] dychrynu chwi trwy lythyrau.

b adn. 10. 1 Cor. 4. 5, 19—21.

* Ond yr oedd yn well gan yr apostol beidio dywedyd llawer am ei awdurdod, yn enwedig am ei allu gwyrthiol i gospi ei wrthwynebwyr, fel na thybiai neb o honynt ei fod megys yn eu dychrynu hwy trwy lythyrau.

10 * Oblegid y llythyrau yn wir (meddant) *sydd* drymion a chryfion, [c] † eithr presennoldeb y corph *sydd* wan, [d] a'r ymadrodd yn ddirmygus.

c adn. 1. pen. 12. 5—9. 1 Cor. 2. 3, 4. Gal. 4. 13, 14. d pen. 11. 6. Ex. 4. 10. Jer. 1. 6. 1 Cor. 1. 17, 21. a 2. 1—4.

* Byddai rhai o'i wrthwynebwyr ef yn dywedyd, ar ol y llythyr cyntaf, ei fod ef yn ysgrifenu pethau trymion a bygythiol iawn atynt, pan fyddai yn absenol, fel gŵr mawr ac awdurdodol iawn; † ond pan fyddai efe yn bresenol, nad oedd ond person gwael a distadl iawn, a'i ymadrodd yn ddirmygus. Dywed amryw o hen awdwyr am Paul, ei fod yn fyr o ran taldra, ei gorph yn grŵm, a'i ben yn foel, yr hyn a feddylir mae yn debyg wrth y geiriau hyn, "Presenoldeb y corph sydd wàn." Tybia rhai hefyd bod *attal* yn ei ddywedyd ef, ac mai am hyny y dywedai ei wrthwynebwyr ffraethlawn bod ei ymadrodd yn ddirmygus.

11 * Y cyfryw un meddylied hyn, mai y fath ydym ni ar air trwy lythyrau yn absennol, [e] † yr un fath hefyd *a fyddwn* ar weithred yn bresennol.

e pen. 12. 20. a 13. 2, 3, 10. 1 Cor. 4. 19, 20.

* Y rhai hyny a watworent ei awdurdod ef yn absenol, yn ei lythyrau; a'i waeledd yn bresenol, yn ei berson a'i ymadrodd; † gwybydded y cyfryw rai mai yr un fath a fydd ef ar weithred yn bresenol pan ddêl atynt, ag ydoedd ar air trwy lythyrau yn absenol: y medra ef

weithredu, os gorfydd, mòr awdurdodol ag y medrai ysgrifenu; ac y cyflawna ef mewn gweithred yn bresenol, pa beth bynag a ysgrifenodd efe mewn llythyrau yn absenol.

12 [f] * Canys nid ŷm ni yn beiddio ein cystadlu, neu ein cyffelybu ein hunain, i rai sydd yn eu canmol eu hunain: † eithr hwyntdhwy, gan eu mesur eu hunain wrthynt eu hunain, a'u cyffelybu eu hunain iddynt eu hunain, ‡ nid ydynt yn deall.

f pen. 3. 1. a 5. 12. Job 12. 2. Diar. 25. 27. a 27. 2. Luc 18. 11. Rhuf. 15. 18.

* Tybir fod y gau-athrawon a'u pleidwyr yn Corinth, yn cyfrif mai rhyfyg mawr oedd i Paul gystadlu ei hunan â'r fath wŷr doethion, enwog, a hyawdl ag oeddynt hwy; a thybir ei fod yntau mewn gwawd-iaith yn cyfeirio at hyny yn y geiriau hyn: fel pe dywedasai, Yn sicr, ni ddylai crëadur gwael a dirmygus o'r fath y'm cyfrifir I, ryfygu ymgystadlu nac ymgyffelybu â'r rhai sydd yn eu canmol eu hunain yn eich plith chwi, ac yn tybied nad oes neb yn gydradd â hwynt-hwy. Ond gellir deall y geiriau heb y wawd-iaith uchod; fel pe dywedasai Paul, Yn sicr, nis goddefai fy nghydwybod i mi fod mòr hunanol a gwag-ogoneddgar, ag ymffrostio dros ben pob terfynau, a chanmol fy hunan, fy noniau, fy ngalluoedd, a'm gweithredoedd, uwchlaw gwirionedd, i'r dyben o gystadlu fy hunan â'r rhai sydd yn eu canmol eu hunain ac yn dirmygu pawb eraill yn eich plith chwi. † Gwŷr oedd y rhai hyn yn meddwl yn fawr am danynt eu hunain, oddi ar ryw ragoriaethau dychymmygol oeddynt yn weled ynddynt eu hunain; ac yn lle edrych ar eraill, llawer mwy rhagorol na hwynt-hwy, yr peddynt yn eu mesur eu hunain wrthynt eu hunain, ac yn eu cyffelybu eu hunain iddynt eu hunain o hyd. Ni fynent edrych ar yr eiddo eraill, ond ar yr eiddynt eu hunain; ac ni fynent un amser dybied eraill yn well na hwy eu hunain. ‡ Fel hyn wrth edrych yn wastad ar eu rhagoriaethau tybiol eu hunain, ac heb byth edrych ar wir ragoriaethau eraill, nid oeddynt yn deall eu distadledd a'u diddymdra eu hunain, nac ardderchawgrwydd eraill.

13 * Eithr [g] ni fostiwn ni hyd at bethau allan o'*n* mesur, † ond [h] yn ol mesur y rheol a rannodd Duw i ni, ‡ mesur i gyrhaeddyd hyd attoch chwi hefyd.

g adn. 15. Diar. 25. 14. h adn. 14. Mat. 25. 15. Rhuf. 12. 6. a 15. 20. 1 Cor. 12. 11. Eph. 4. 7. 1 Pedr 4. 10, 11.

* Bostio hyd at bethau allan o'u mesur yr oedd y gau-athrawon; pethau na phrofasant, na feddiannasant, ac na chyflawnasant erioed: ni wnai yr apostol a'i frodyr felly, ac nid oedd raid iddynt: gallent fostio pethau llawer mwy na neb o'r gau-athrawon, ac hefyd o fewn eu mesur, o fewn terfynau y gwirionedd. † Ni fynai yr apostol fostio ond am y pethau a wnaeth efe yn nghyflawniad rhëolaidd ei weinidogaeth: nid trwy neidio o fàn i fàn, yn ol ei fympwy ei hun, ac i'w wagddybenion ei hun, fel y gau-athrawon; ond yn ol y mesur, y rhëol a'r terfynau, oedd gorchymyn a galwad Duw yn roddi iddo, i bregethu yr efengyl mewn cylch rhëolaidd, trwy yr amrywiol wledydd lle yr ymdeithiai. ‡ Yr oedd y mesur hwn yn cyrhaedd hyd at y Corinthiaid hefyd, lle y pregethodd efe yr efengyl ac y plànodd eglwys yn eu plith hwynt. Tybir fod cyfeiriad yn y geiriau hyn, ("allan o'n mesur," "yn ol mesur y rhëol,") at y campau rhedegawl yn mhlith y Groegiaid, lle byddai llinell wèn yn cael ei thynu, er dangos i'r rhedegwyr eu ffordd a'u terfynau. Yn ol y sylwad uchod, yr oedd "allan o'n mesur" yn cyfeirio at y naill redegwr yn myned dros ei rëol a'i derfynau ei hun, i derfynau un arall yn y rhedegfa.

14 * Canys [i] nid ydym, megis *rhai* heb gyrhaeddyd hyd attoch chwi, yn ymestyn allan tu hwnt i'*n mesur;* † canys hyd attoch chwi hefyd y daethom âg [k] efengyl Crist:

i pen. 3. 1—3. Rhuf. 15. 18, 19. 1 Cor. 2. 10. a 4. 15. a 9. 1, 2. k pen. 4. 4. Marc 1. 1. Act. 20. 24. Rhuf. 1. 16. a 2. 16. a 16. 25. Gal. 1. 6—8. Col. 1. 5. 1 Tim. 1. 11.

* Nid oedd Paul yn ymgyrhaeddyd allan o'i fesur, y rhëol a roddasai Duw iddo, nac yn gadael ei waith mewn mànau eraill, i frysio at y Corinthiaid allan o lwybr ei ddyledswydd, fel y gwnai y gau-athrawon yn aml, lle y tybient y câent well derbyniad; † ond yr oedd efe yn myned yn mlaen yn rhëolaidd yn ei waith o bregethu yr efengyl, fel yr oedd Duw yn ei raglunaieth yn dangos ei lwybr iddo, nes o'r diwedd iddo ddyfod hyd Corinth yn Achaia, yr hyd oedd terfyn eithaf ei lafur ef y pryd hwn yn y tueddau hyny. Deall rhai yr adnod fel hyn:—Wrth fostio am danoch chwi y Corinthiaid fel ein dychweledigion, nid ymgyrhaeddwn ni dros ben y gwirionedd, fel rhai; oblegid chwi a wyddoch i ni ddyfod hyd atoch chwi â'r efengyl, ac mai ffrwyth ein llafur ni, dàn fendith Duw, ydych chwi fel cristionogion: ymestyn allan o'u mesur mae y gau-athrawon a ddywedant mai trwy eu llafur hwy y dychwelwyd chwi.

15 * Nid [l] gan fostio hyd at bethau allan o'*n* mesur, † yn llafur rhai eraill; ‡ eithr gan obeithio, pan gynnyddo eich ffydd chwi, gael ynoch chwi ein mawrygu yn ol ein rheol yn ehelaeth,

l Gwel ar adn. 13.—Rhuf. 15. 20.

* Nid oedd yr apostol a'i frodyr yn bostio o ymyraeth â phethau oedd allan o'u mesur, neu dros ben terfyn eu dyledswydd bresenol hwy; † nac yn ceisio anrhydedd iddynt eu hunain o lafur rhai eraill, fel y gwnaethai y gau-athrawon trwy ymwthio i mewn i Corinth, a gŵyrdroi rhai o'r cristionogion yno. ‡ Eithr i'r gwrthwyneb, yr oedd efe yn gobeithio pan gynnyddai ffydd y Corinthiaid, ac yr adferid hwynt o derfysg a gŵyrdrôad y gau-athrawon, y ca'i efe a'i gyd-lafurwyr eu cydnabod a'u mawrâu ganddynt, ac hefyd eu cynnorthwyo i bregethu yr efengyl yn helaeth pa le bynag yr oedd Duw yn eu danfon hwy i hyny. Rhëol helaeth oedd rhëol yr apostol, "Mi a'th ddanfonaf yn mhell at y cenedloedd," ebai Duw wrtho.

16 * I [m] bregethu yr efengyl tu hwnt i chwi; † *ac* nid i fostio yn rheol un arall am bethau parod eisoes.

m Rhuf. 15. 24—28.

* "Tu hwnt i chwi;" sef yn Achaia, tu hwnt i ddinas Corinth: yno yr oedd Arcadia, enwog am ffraethineb a barddoniaeth; a Lacedæmia, enwog am ddewrder a mawrfrydigrwydd ei thrigolion. Yr oedd ar feddwl Paul fyned a phregethu yr efengyl yn yr ardaloedd hyny, a chael ei gefnogi a'i gynnorthwyo gan y Corinthiaid i hyny; ond nid ydym yn darllen dim yn y Testament Newydd, am blànu eglwysi yn y parthau hyny. Wrth y "tu hwnt i chwi" mae rhai yn deall y gwledydd pellenig, *Italy* a *Spain:* gan fod llawer o'r Corinthiaid yn ymarfer â morwriaeth, gallent hwy wneyd llawer o blaid yr efengyl a'i chenadon mewn gwledydd lle yr elent. † Am dòri tir newydd o hyd yr oedd yr apostol, ac nid cymmeryd ei esmwythder, a bostio yn anghyfreithlawn yn rhëol a gwaith dynion eraill, am bethau parod eisoes: nid oedd efe yn bostio yn ngwaith neb ond ei waith ei hunan, yr hyn a wnaethai yr Arglwydd trwyddo ef: nid felly y gau-athrawon, at y rhai mae efe yn taflu yma.

17 * Eithr [n] yr hwn sydd yn ymffrostio, ymffrostied yn yr Arglwydd.

n Salm 105. 3. a 106. 5. Es. 41. 16. a 45. 25. a 65. 16. Jer. 4. 2. a 9. 23, 24. Rhuf. 5. 11. 1 Cor. 1. 29, 31. Gal. 6. 13, 14. Phil. 3. 3. Iago 1. 9, 10.

* Nid oedd gau Paul y plànwr, nac Apòlos y dyfrâwr, na neb arall, ddim i ymffrostio ynddo o'u rhan eu hunain; cyd-weithwyr Duw oeddynt oll, Duw oedd yn

llwyddo eu llafur; yn yr Arglwydd y dylasent ymffrostio, ac iddo ef y dylasent ddiolch. Yr oedd gorfod ar yr apostol ddywedyd am ei lafur a'i lwyddiant; ond nid oedd yn ymffrostio yn gnawdol ynddo, llawer llai yn llafur rhai eraill; ond yr oedd yn ymffrostio yn yr Arglwydd Iesu, fel ei ran a'i iachawdwriaeth byth.

18 * Canys [o] nid yr hwn sydd yn ei ganmol ei hun, sydd [p] gymmeradwy; [q] † ond yr hwn y mae yr Arglwydd yn ei ganmol.

o adn. 12. pen. 3. 1. a 5. 12. Diar. 21. 2. Luc 16. 15. a 18. 10—14. p pen. 6. 4. a 13. 7. Act. 2. 22. Rhuf. 14. 18. a 16. 10. 1 Cor. 11. 19. 2 Tim. 2. 15. q Mat. 25. 20—23. Ioan 5. 42—44. a 12. 43. Rhuf. 2. 29. 1 Cor. 4. 5. 1 Pedr 1. 7.

* Pwy bynag sydd yn tybied yn fawr am dano ei hun, yn ei ganmol ei hun, ac yn ymgais am ogoniant gan ddynion, mae y cyfryw un yn mhell iawn o fod yn gymmeradwy gan Dduw, yr hwn sydd yn ffieiddio, ac yn gwrthwynebu y beilchion, ac yn rhoi gras i'r rhai gostyngedig. † Y gostyngedig a'r hunan-ymwadol sydd gymmeradwy gan yr Arglwydd, ac a wna efe yn gymmeradwy gan ei bobl hefyd; trwy ei anrhydeddu â'i ddoniau a'i rasau, ei bresenoldeb a'i fendith, a thrwy ddwyn tystiolaeth i'w lafur ef yma, ac i'w berson ef yn y dydd diweddaf.

PEN. XI.

Paul o'i eiddigedd dros y Corinthiaid yn dwyn ar gôf iddynt ei lafur anghydmarol yn ngwasanaeth Crist.

[a] * ONA [b] chyd-ddygech â myfi ychydig yn [c] *fy* ffolineb; † eithr hefyd cyd-ddygwch â myfi.

a Num. 11. 29. Jos. 7. 7. 2 Bren. 5. 3. Act. 26. 29. 1 Cor. 4. 8. b adn. 4. Act. 18. 14. Heb. 5. 2. c adn. 16, 17, 19, 21. pen. 5. 13. a 12. 11. 1 Cor. 1. 21. a 3. 18. a 4. 10.

* Yr hyn mae yr apostol yn alw ei "ffolineb" yma yw, ei waith yn dywedyd cymmaint yn ei ymddiffyniad a'i ganmoliaeth ei hun; yr hyn yn wir nid yw well na ffolineb os na bydd achos am y cyfryw beth: yr hyn oedd yma; o herwydd fod y gau-athrawon yn ceisio ei iselu ef: ac wrth ei iselu ef fel apostol, yr oeddynt yn iselu yr efengyl, ac fel hyny yn drygu achos Duw ac eneidiau dynion. Gan hyny mae efe yn deisyfu ar y Corinthiaid gyd-ddwyn âg ef ychydig yn ei ffolineb hwn; † ac yr oedd yn rhaid iddynt gyd-ddwyn âg ef, pa un bynag ai cymmeradwy ganddynt hyny ai peidio: yr oedd yn rhaid iddo ef ei amddiffyn ei hun er gwneyd hyny o'i anfodd.

2 * Canys [d] eiddigus wyf trosoch âg eiddigedd duwiol: † canys [e] mi a'ch dyweddïais chwi i un gwr, ‡ i'*ch* rhoddi *chwi megis* [g] morwyn bur i Grist.

d Gal. 4. 11, 17—19. Phil. 1. 8. 1 Thes. 2. 11. e Gen. 24. 2—5, 58—67. Salm 45. 10, 11. Es. 54. 5. a 62. 4, 5. Hos. 2. 19, 20. Ioan 3. 29. Rhuf. 7. 4. 1 Cor. 4. 15. f Eph. 5. 27. Col. 1. 28. g Lef. 21. 13—15. Ezec. 44. 22.

* Eiddigedd sydd nwyd mewn dyn, yn gwneyd yn annoddefol ganddo feddwl fod neb arall yn y flaenoriaeth arno ef yn serchiadau y neb fyddo yn garu. Dywed yr apostol ei fod yn eiddigeddu dros y Corinthiaid, rhag fod y gau-athrawon yn eu llygru hwy oddi wrth Grist, ei efengyl, ac oddi wrtho yntau fel apostol yr Arglwydd Iesu: yn yr ystyr uchod gallasai alw ei eiddigedd yn eiddigedd duwiol, gyda phob priodoldeb. ‡ Yr oedd efe wedi gofyn a chwedi cael eu cydsyniad hwy, i ddyfod i undeb sanctaidd a bendigedig â Christ, yr hyn a ellid ei alw yn ddyweddïo i'r un Priod-fab a Gŵr yr eglwys; i'r hwn yn unig y perthynai ei holl serchiadau gwresocaf, ffyddlonaf, ufuddaf, a gostyngeiddiaf, ac oddi wrth ba un y gallent ddysgwyl eu holl ddedwyddwch. ‡ Gellid egluro llawer ar y geiriau hyn drwy grybwyll, y byddai swyddog yn mhlith y Groegiaid, gwaith pa un oedd, addysgu a ffurfio meddwl ac ymddygiadau merched ieuainc, yn enwedig rhai o uchel radd a bonedd, i'w *priodi;* ac yna eu *rhoddi* hwynt i'r neb oedd i fod yn *wyr* iddynt: ac os trwy esgeulusdra, y goddefai y swyddog hwn iddynt gael eu halogi rhwng y dyweddïad â chyflawniad y briodas, cyfrifid ef o ganlyniad yn euog o fai mawr. Tybir fod yr apostol yn cyfeirio yn yr adnod hon at beth felly.

3 * Ond y mae arnaf [h] ofn, rhag mewn modd yn y byd, [i] megis y twyllodd y sarph Efa trwy ei chyfrwysdra, [k] felly bod eich meddyliau chwi wedi eu llygru oddi wrth y [l] symlrwydd sydd yng Nghrist.

h adn. 29. pen. 12. 20, 21. Salm 119. 53. Gal. 1. 6. a 3. 1. a 4. 11. Phil. 3. 18, 19. i Gen. 3. 4, 13. Ioan 8. 44. 1 Tim. 2. 14. Dat. 12. 9. a 20. 2. k adn. 13—15. pen. 2. 17. a 4. 2. Mat. 24. 24. Act. 20. 30, 31. Gal. 1. 6. a 2. 4. a 3. 1. Eph. 4. 14. Col. 2. 4, 8, 18. 2 Thes. 2. 3—11. 1 Tim. 4. 1—4. 2 Tim. 3. 1—9, 13. a 4. 3, 4. Tit. 1. 10. 2 Pedr 2. 1—14. a 3. 3, 17. 1 Ioan 2. 18. a 4. 1. Judas 4. Dat. 12. 9. l pen. 1. 12. Rhuf. 12. 8. a 16. 18, 19.

* Yn mhob eiddigedd y mae cymmysg o gariad ac ofn: yr oedd cariad yr apostol at y Corinthiaid, a'i chwennychiad mawr i'w rhoddi hwynt i Grist yn bur a dihalog, yn peri iddo ofni rhag fod y gau-athrawon wedi llygru eu meddyliau hwynt oddi wrth y symlrwydd sydd yn Nghrist, fel y twyllasai y sarph Efa gynt trwy ei chyfrwysdra. Yr oeddynt mewn perygl oddi wrth philosophyddion paganaidd ac athrawon Iuddewaidd hefyd, yn cymmysgu eu pethau drwg â'r efengyl bur.

4 * Canys yn wir os ydyw yr hwn sydd yn dyfod [n] yn pregethu Iesu arall yr hwn ni phregethasom ni, † neu *os* ydych yn [n] derbyn yspryd arall yr hwn nis derbyniasoch, ‡ neu [o] efengyl arall yr hon ni dderbyniasoch, ‖ teg y cyd-ddygech *ag ef.*

m Act. 4. 12. 1 Tim. 2. 5. n 1 Cor. 12. 4—11. Gal. 3. 2. Eph. 4. 4, 5. o Gal. 1. 7, 8.

* Canys yn wir pe gallai rhyw un sydd yn dyfod atoch chwi bregethu rhyw Iesu arall, mwy grasol a mwy gwerthfawr na'r hwn a bregethwyd genyf fi a'm brodyr; † neu pe gallai y cyfryw un roddi i chwi Ysbryd arall, rhagorach ei ddoniau a'i ddylanwadau, na'r Ysbryd Glân a dderbyniasoch trwy fy ngweinidogaeth I; ‡ neu pe gallai efe bregethu i chwi efengyl arall, mwy addas na'r hon a glywsoch ac a dderbyniasoch genyf fi; ‖ byddai rhyw reswm i chwi gyd-ddwyn â'r cyfryw athraw newydd, ei dderbyn a'i addef, ymostwng iddo, a'i ystyried o'm blaen I. Eto, pe gallai y pethau uchod fod, gweddus i chwi barchu eich dysgawdwr cyntaf mewn cristionogaeth. *Teg y cyd-ddygasoch âg ef,* medd *Pool,* yw priodol ystyr *kalôs êneichesthe,* fel cerydd ar y Corinthiaid am fawrygu gau-athrawon, y rhai nid oeddynt ond yn llygru eu meddyliau oddi wrth y symlrwydd sydd yn Nghrist, adn. 3.

5 * Canys yr ydwyf yn meddwl [p] na bûm i ddim yn ol i'r apostolion pennaf.

p pen. 12. 11, 12. 1 Cor. 15. 10. Gal. 2. 6—9.

* Nis gallai y Corinthiaid ddywedyd, i neb o'u hathrawon bregethu Iesu gwell, efengyl well, na rhoddi Ysbryd gwell, nac oeddynt hwy wedi glywed a derbyn trwy weinidogaeth Paul: nid oedd ef ddim yn ol i'r *apostolion* penaf, pa faint llai i'r gau-athrawon enwocaf. Yr oedd ef ei hun yn tybied felly, ac nid oedd yn rhyfyg iddo dybied. Mae yn debyg mai un llwybr a gymmerai y gau-athrawon i fychanu Paul oedd, cymmeryd arnynt ddyrchafu rhai o'r apostolion eraill uwchlaw iddo ef; i hyny mae efe yn ateb yma.

6 * Ac os *ydwyf* hefyd yn [q] anghyfarwydd ar ymadrodd, † etto nid *wyf felly* [r] mewn gwybodaeth; [s] ‡ eithr yn eich plith chwi nyni a eglurhâwyd yn hollol ym mhob dim.

q pen. 10. 10. 1 Cor. 1. 17, 21. a 2. 1—3. r Eph. 3. 4. 2 Pedr 3. 15, 16. s pen. 4. 2. a 5. 11. a 7. 2. a 12. 12.

* Tybia rhai (ond ar ba sail nis gwyddom,) fod rhyw ddiffyg naturiol yn llais yr apostol i lefaru yn gyhoeddus, mai gwànllyd a main ydoedd, os nad oedd attal arno hefyd: ond tybia eraill mai cyfeirio y mae

yma at y dull cyffredin a ddiaddurn o lefaru pethau mawrion yr efengyl, a ddewisai efe bob amser; ac o herwydd hyny dirmygid ef gan lawer o rai doethion a dysgedig yn ol y cnawd, fel un di-ddysg ac anfedrus yn rhëolau areithyddiaeth. Mae y gair *Idiótês*, a gyfieithir yma "anghyfarwydd," yn arwyddo *dyn cyffredin;* un nas medr lefaru yn well nâ'r cyffredinolrwydd o'i gymmydogion: a dywed rhai mai math o gangen-iaith lygredig o'r Groeg a lefarid yn Tarsus, lle y cafodd Paul ei ddwyn i fynu yn ieuanc. Ond mae yn hawdd gweled yn ei areithiau a'i epistolau ef, y medrai efe ymadroddi yn ol dull ardderchocaf areithyddiaeth, sut bynag yr oedd yn areithio yn ei bregethau cyffredin ac i bobl gyffredin. † Fel pe dywedasai, Caniatâer fy mod I yn anghyfarwydd ar ymadrodd, eto nid wyf felly mewn gwybodaeth: heblaw gwybodaeth anianol, yr oedd efe wedi cael ei ddysgu gan Grist a'i Ysbryd Sanctaidd yn nirgelwch yr efengyl, yn holl drefn yr iachawdwriaeth fawr, fel y gallai draddodi holl gyngor Duw i bechaduriaid. † Gallai alw y Corinthiaid eu hunain yn dystion o hyn; yr oeddynt hwy wedi cael digon o brawf ac eglurdeb o'i fawr wybodaeth yn yr efengyl, o'i anfoniad ef gan Dduw i'r gwaith apostolaidd, ac o allu Duw mewn gwyrthiau ac arddelwad, ar a thrwy ei weinidogaeth; eglurâwyd ef yn hollawl yn mhob dim yn eu plith hwy; a gwelsant nad oedd efe ddim yn ol i'r apostolion penaf.

7 * A wneuthum i fai [t] wrth fy ngostwng fy hun, fel y dyrchefid chwi, oblegid pregethu o honof i chwi efengyl Duw yn rhad?

t pen. 10. 1. a 12. 13. Act. 18. 1—3. a 20. 34. 1 Cor. 4. 10—12. a 9. 6, 14—18. 1 Thes. 2. 9. 2 Thes. 3. 8.

* Cecr arall yn erbyn yr apostol gan ei wrthwynebwyr oedd, ei fod yn ei ddarostwng ei hun trwy lafurio â'i ddwylaw fel gwneuthurwr pebyll, ac heb gymmeryd dim gan yr eglwys am ei lafur gweinidogaethol: dywedent fod hyny islaw apostol, a'i fod ef yn gystal ag addef nad oedd yn apostol, drwy wneyd felly. Yn wyneb hyn mae efe yn gofyn, A wnaeth efe fai wrth ei ddarostwng ei hun felly er arbed cost iddynt hwy, ac fel y dyrchefid hwy i freintiau pobl Dduw, trwy ei fod ef yn pregethu yr efengyl yn rhad iddynt? Gwel ar 1 Cor. 9. 6, 12, 15. Am fod y gau-athrawon yn *cymmeryd* tâl, a'r apostol yn *peidio*, yr oeddynt yn ceisio troi ei hunan-ymwadiad diymgais ef yn niwed ac yn fychaniad iddo.

8 [u] * Eglwysi eraill a yspeiliais, gan gymmeryd cyflog *ganddynt hwy*, i'ch gwasanaethu chwi.

u adn. 9. Phil. 4. 14—16.

* Rhaid i ni beidio a deall y gair "yspeilio" yma mewn ystyr ddrwg; mae yr apostol yn ei egluro yn y geiriau nesaf, "cymmeryd cyflog," yr hyn sydd yn gyfiawn i bob gweithiwr am ei lafur a'i amser. † Eto gan ei fod ef yn "cymmeryd cyflog" gan eglwysi eraill tra yr oedd yn llafurio yn Corinth, neu yn gwasanaethu y Corinthiaid â'r gyflog a dderbyniasai o'r blaen gan eglwysi eraill; gallai ddywedyd ei fod mewn rhyw ystyr yn yspeilio yr eglwysi hyny, i'w gwasanaethu hwynt, sef y Corinthiaid. *Esulêsa labón opsonion*, "yspeilio gan gymmeryd cyflog," ydynt eiriau milwraidd, yn arwyddo cyflog y milwyr, a'r yspail a gymmerid mewn rhyfel, yr hwn a ddefnyddid i ddwyn y rhyfel yn mlaen mewn mànau eraill. Felly y gwnai y milwr ysbrydol hwn, yr hyn a gaffai efe yn y naill fàn, efe a'i defnyddiai i bregethu yr efengyl mewn màn arall; a diammau bod ganddo ryw achos da i beidio cymmeryd dim yn Corinth.

9 * A phan oeddwn yn bresennol gyd â chwi, [x] ac arnaf eisieu, [y] ni ormesais ar neb: [z] † canys fy eisieu i a gyflawnodd y brodyr a ddaethant o Macedonia: ‡ ac ym mhob dim y'm cedwais fy hun heb [a] bwyso arnoch, ac mi a ymgadwaf.

x pen. 6. 4. a 9. 12. Phil. 2. 25. a 4. 11—14. Heb. 11. 37. y pen. 12. 13. Neh. 5. 15. Act. 20. 33. 1 Thes. 2. 9. 2 Thes. 3. 8. z pen. 8. 1, 2. Gwel ar adn. 8. a pen. 12. 14—16. 1 Thes. 2. 6.

* Pan oedd yr apostol yn Corinth, ac mewn eisiau o angenrheidiau a chysuron bywyd, ni wasgodd efe ar neb o honynt hwy trwy gymmeryd na cheisio dim ganddynt tuag at ei gynnaliaeth; ni ofidiodd neb o honynt â chwynion am beidio a rhoddi cynnaliaeth iddo, ac nid aeth yn afrywiog, nac yn ddifater am eu gwasanaethu o eisiau tâl am ei lafur. † Pa beth bynag oedd angenion yr apostol y pryd hwnw, diwallwyd hwy gan ei frodyr cristionogol a ddaethent o Macedonia, yn enwedig o Philippi, Phil. 4. 14—18: ‡ ac felly yn mhob amgylchiad angenus, yr oedd ef wedi ymgadw heb ormesu dim ar y Corinthiaid, ac yn penderfynu ymgadw felly am yr amser i ddyfod. Dywedir fod y gair *katenarkêsa*, a gyfieithir gormesu yn yr adnod hon, yn arwyddo syrthni a marweidd-dra: ni bu Paul yn swrth, marwaidd, a diog i bregethu yr efengyl am nad oedd yn cael tâl gan y Corinthiaid; ac ni bu syrthni a marweidd-dra ynddo ef i bregethu, yn achos i fagu syrthni na difaterwch ynddynt hwy i dderbyn yr efengyl, nac i oeri eu cariad ato ef.

10 * Fel y mae [b] gwirionedd Crist ynof, [c] ni argaeir yr ymffrost hwn yn fy erbyn [d] yngwledydd Achaia.

b adn. 31. pen. 1. 23. a 12. 19. Rhuf. 1. 9. a 9. 1. Gal. 1. 20. 1 Thes. 2. 5, 10. 1 Tim. 2. 7. c adn. 12, 16, 17. pen. 10. 15. 1 Cor. 9. 15—18. d pen. 1. 1. a 9. 2. Act. 18. 12, 27. Rhuf. 16. 5. 1 Cor. 16. 15. 1 Thes. 1. 7, 8.

* Yr oedd yn orfoledd ac yn ymffrost gan yr apostol, ei fod wedi pregethu yr efengyl yn rhad yn Corinth a phob màn yn Achaia, ac yr oedd yn penderfynu yn gadarn, fel yr oedd yn gristion, yn apostol, ac a gwirionedd Crist ynddo, na chaffai neb yn ngwledydd Achaia, na gelynion na chyfeillion, ei ymddifadu ef o'r ymffrost a'r gorfoledd hyny.

11 * Paham? [e] † *ai* am nad wyf yn eich caru chwi? [f] ‡ Duw a'i gŵyr.

e pen. 6. 11, 12. a 7. 3. a 12. 15. f Gwel ar b. adn. 10.—pen. 12. 2, 3. Jos. 22. 22. Salm 44. 21. Ioan 2. 24, 25. a 21. 17 Act. 15. 8. Heb. 4. 13. Dat. 2. 23.

* Paham yr oedd efe mòr benderfynol mewn peth felly yn Achaia, ac yntau yn "cymmeryd cyflog" gan eglwysi eraill? † Ai am nad oedd yn caru y Corinthiaid, ond wedi tramgwyddo wrthynt, ac yn rhŷ uchel i fod dàn ddim rhwymau iddynt? Felly y byddai rhai o'i wrthwynebwyr ef yn barod i liwio y peth; ‡ ond mae efe yn galw Duw yn dyst, mai nid felly yr oedd. Ni a gawn yr achos yn yr adnod nesaf.

12 [g] * Eithr yr hyn yr wyf yn ei wneuthur, a wnaf hefyd; [h] † fel y torrwyf ymaith achlysur oddi wrth y rhai sydd yn ewyllysio cael achlysur; [i] ‡ fel yn yr hyn y maent yn ymffrostio, y cair hwynt megis ninnau hefyd.

g adn. 9. pen. 1. 17. Job 23. 13. h 1 Cor. 9. 12. 1 Tim. 5. 14. i adn. 18. pen. 5. 12. a 10. 17. 1 Cor. 5. 6. Gal. 6. 13, 14.

* Yr hyn a wnaethai ef o'r blaen mewn pregethu yr efengyl yn rhad yn Corinth, mae yn penderfynu ei wneyd drachefn; † a hyny i'r dyben o dòri ymaith achlysur oddiwrth y gau-athrawon, y rhai a chwennychent gael achlysur i'w feïo ef fel dyn ariangar, yn pregethu am elw, neu ynte i'w cyfiawnâu eu hunain yn cymmeryd cyflog, wrth ei fod ef yn cymmeryd cyflog. ‡ Ymffrostiai y gau-athrawon lawer am eu haidd *(zeal)* dros anrhydedd Crist, a'u cariad at yr eglwys; ond yr oedd yr apostol yn ei hunan-ymwadiad yn rhoddi esampl iddynt, ac yn dangos yn ei ymddygiad ei hun pa fodd yr oedd iddynt brofi gwirionedd yr hyn a broffesent: sef bod fel yntau yn hunan-ymwadol. Arferai yr Iuddewon ddywedyd, "Bod yn well i'w gwŷr doethion hwy ennill eu bywiolaeth wrth fiingo anifeiliaid, na gofyn cynnaliaeth gan eu dysgyblion a

ddysgid ganddynt." Beth bynag oedd ymffrost y gau-athrawon yn Corinth, mae yn sicr mai ymffrost disail ydoedd.

13 * Canys y cyfryw [k] gau-apostolion [l] † *sydd* weithwyr twyllodrus, ‡ wedi ymrithio yn apostolion i Grist.

k adn. 15. pen. 2. 17. a 4. 2. Mat. 24. 24. Act. 15. 1, 24. a 20. 30. Rhuf. 16. 18. Gal. 1. 7. a 2. 4. a 4. 17. a 6. 12. Eph. 4. 14. Phil. 1. 16. Col. 2. 4, 8. 1 Tim. 1. 4—7. a 4. 1—3. a 6. 3—5. 2 Tim. 2. 17—19. a 3. 5—9. a 4. 3, 4. 2 Pedr 2. 1—3. 1 Ioan 2. 18. a 4. 1. 2 Ioan 7—11. Judas 4. Dat. 2. 2, 9, 20. a 19. 20. l Phil. 3. 2. Tit. 1. 10, 11.

* Beth bynag oedd proffes uchel y dynion hyn, gau-apostolion oeddynt, heb eu danfon gan Grist i'r weinidogaeth erioed: † a gweithwyr twyllodrus oeddynt, yn trin gair Duw yn dwyllodrus, ac yn gwneuthur masnach o hóno: ‡ ac yn y cyfan o'u proffes a'u gwaith, nid oeddynt ond wedi ymrithio yn apostolion i Grist.

14 * Ac nid rhyfedd: [m] canys y mae Satan yntau yn ymrithio yn † angel goleuni.

m adn. 3. pen. 2. 11. Gen. 3. 1—5. Mat. 4. 1—10. Gal. 1. 8. Dat. 12. 9.

* Ac nid rhyfedd bod dynion drygionus yn ymrithio felly; oblegid y mae Satan ei hun, eu meistr a'u harglwydd, yn ymrithio weithiau yn angel goleuni, i demtio dynion i bechod, ac i wneyd mwy o ddrygau. Felly y gwnaeth efe yn ddïau pan dwyllodd Efa, adn. 3, tybir iddo ymrithio yn y sarph fel un o'r seraphiaid nefol oedd yn gweini ar y Shechinah, ac i Efa dybied mai un o'r rhai hyny ydoedd, ac felly cymmeryd ei thwyllo. † "Angel goleuni," am y byddai angelion da gynt yn arfer ymddangos yn oleu ddysglaer: neu oblegid y goleuni a'r gogoniant nefol maent yn preswylio ynddo; neu oblegid y mesur mawr o oleuni gwybodaeth sydd gan yr ysbrydion nefol a gwynfydedig hyn.

15 * Gan hynny [n] nid mawr *yw*, er ymrithio [o] ei weinidogion ef [p] fel gweinidogion cyfiawnder, [q] † y rhai y bydd eu diwedd yn ol eu gweithredoedd.

n 2 Bren. 5. 13. 1 Cor. 9. 11. o adn. 13. Act. 13. 10. Eph. 6. 12. Dat. 9. 11. a 13. 2, 14. a 19. 19—21. a 20. 2, 3, 7—10. p adn. 23. pen. 3. 9. q Es. 9. 14, 15. Jer. 5. 31. a 23. 14, 15. a 28. 15—17. a 29. 32. Ezec. 13. 10—15, 22. Mat. 7. 15, 16. Gal. 1. 8, 9. Phil. 3. 19. 2 Thes. 2. 8—12. 2 Pedr 2. 3, 13—22. Judas 4, 10—13.

* Gan y medr Satan ei hun ymrithio yn angel goleuni, a chan ei fod yn gwneyd hyny pan gaffo genad neu oddefiad gan Dduw; nid mawr, rhyfedd, dïeithr, nac anmhosibl yw, er ymrithio o'i weinidogion ef fel gweinidogion cyfiawnder, sef gwir weinidogion anfonedig Crist. Ped ymddangosent yn gyhoeddus fel gwrthwynebwyr yr efengyl, a phleidwyr pechod ac annuwioldeb, nis gallent wneyd yn agos cymmaint o niwed; fel y mae lladron yn llwyddo oreu dàn rith dynion gonest. Tàn eu holl broffes a'u hymddangosiad apostolaidd, gweinidogion Satan oedd y gau-athrawon hyn; ac fel eu harglwydd, felly yr oeddynt hwythau yn eu rhagrith a'u drwg-ddybenion. † Ond gŵyr Duw eu calonau, ac yn nydd y farn efe a'u gwobrwya hwynt yn ol natur a haeddiant eu gweithredoedd: nid yn ol eu rhith ymddangosiad, eu poblogrwydd, eu dawn, a'u hyfdra; ond yn ol y peth oeddynt yn wirioneddol yn ngolwg Duw, ac yn ol effeithiau eu hegwyddorion a'u gweithredoedd yn mhlith dynion. Diwedd y rhai yw dystryw.

16 [r] * Trachefn meddaf, [s] † Na thybied neb fy mod i yn ffol: ‡ os amgen, etto derbyniwch fi fel ffol, fel y gallwyf finnau hefyd ymffrostio ychydig.

r adn. 1. s adn. 21—23. pen. 12. 6, 11.

* "Trachefn;" gwel adn. 1. † Gan fod y gau-athrawon yn cael eu goddef i ymffrostio, heb sail i ymffrostio ganddynt; na thybied neb fy mod innau yn ffol, os ymffrostiaf ychydig yn wirioneddol, am y pethau a wnaeth Duw erddof a thrwyddof. Mae amser i bob peth; amser i dewi ac amser i ddywedyd; amser i ddyn beidio ymffrostio, ac amser i ymffrostio; a'r olaf sydd, pan mae gogoniant Duw â'n henwau a'n cymmeriad ein hunain yn galw am eu hamddiffyn. ‡ Eto, os tybia neb fi yn ffol am ymffrostio; er hyny cyddygwch â mi fel crëadur ffol, fel y gallwyf finnau hefyd ymffrostio ychydig, am ychydig amser, ac am ychydig bethau, yn mha rai yr wyf fi mewn gwirionedd yn enwog. Nid hoffi canmol ei hun, ac ymffrostio yn wag-ogoneddgar yr oedd yr apostol; ond yma yr oedd yn wir angenrheidiol iddo wneyd hyny er amddiffyn gogoniant Duw, anrhydedd yr efengyl a'r apostoliaeth, a'i gymmeriad ei hun fel apostol Iesu Grist: fel hyny nid ffol oedd iddo ymffrostio.

17 * Yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd, [t] nid ydwyf yn ei ddywedyd yn ol yr Arglwydd, † eithr megis [u] mewn ffolineb, yn hyn o fost hyderus.

t 1 Cor. 7. 6, 12. u adn. 18—27. pen. 9. 4. Phil. 3. 4—6.

* Yr hyn oedd yr apostol yn ei ddywedyd yma mewn amddiffyniad iddo ei hun, nid oedd yn ei ddywedyd oddi ar unrhyw orchymyn pennodol o eiddo yr Arglwydd Iesu, nac yn ol ei esampl gyffredinol ef; eto, nid oedd yn dywedyd dim yn groes i'r Arglwydd, nac yn groes i gyfarwyddyd ei air ef; yr hwn nid yw un amser yn gorchymyn i ni ein gwaradwyddo ein hunain, na chelu yr hyn a wnaeth yr Arglwydd ynom, erddom, a thrwyddom. † Ond er nad oedd yn dywedyd y pethau hyn "yn ol yr Arglwydd," eto yr oedd ymffrostiau dirfawr ei elynion, i'r dyben o dwyllo a gŵyr-droi y Corinthiaid; a'u hymgais gwael i ddiraddio ei apostoliaeth ef, ac efengyl bur yr Arglwydd Iesu, ac fel hyny attal ei lwyddiant a'i ddefnyddioldeb ef yn ei phregethu; yn rhoi gorfod arno i lefaru gydag ymddangosiad o wendid a ffolineb, yn y dull ymffrostgar a hyderus hyn.

18 * Gan fod [x] llawer yn ymffrostio yn ol y cnawd, [y] † minnau a ymffrostiaf hefyd.

x adn. 12, 21—23. pen. 10. 12—18. Jer. 9. 23, 24. 1 Pedr 1. 24.

* Gan fod llawer o'r gau-athrawon luddewaidd yn ymffrostio yn ol y cnawd, ac yn ymfalchïo ar eu breintiau a'u manteision allanol, megys eu bod yn had Abraham, (adn. 22,) ac wedi eu henwaedu yn y cnawd, a'r cyffelyb; † mi a anturiaf ddywedyd, od oes lle i ymffrostio ac ymorfoleddu yn y pethau hyn, gallaf fi ymffrostio ynddynt gymmaint a hwythau; ac yn sicr nis gellwch fy nghyfrif I yn ffol nac yn feïus mwy na hwythau. Felly *Guyse*, a *Doddridge* hefyd; ond wrth y geiriau "yn ol y cnawd," dywed *Scott* eu bod yn arwyddo pobpeth a all fod gan ddyn anianol, dïadgenedlig; megys dysgeidiaeth, hyawdledd, ac amryw bethau enwog eraill, pa un bynag a ydyw gwaedoliaeth Iuddewig ac enwaediad yn gynnwysedig ai peidio: a chyffelyb yw golygiadau *Pool*.

19 * Canys yr ydych yn goddef ffyliaid yn llawen, [z] † gan fod *eich hunain* yn synhwyrol.

y pen. 12. 5, 6, 9, 11. z 1 Cor. 4. 10. a 8. 1. a 10. 15. Dat. 3. 17.

* Y gau-athrawon, y rhai oedd yn ymffrostio yn ol y cnawd, oedd y "ffyliaid" hyn; a ffyliaid mewn gwirionedd oedd y rhai hyny; oblegid ymffrostio yn ddisail yr oeddynt, er eu derchafu eu hunain, a chael gogoniant anhaeddiannol gan ddynion: eto yr oedd y Corinthiaid yn goddef y ffyliaid hyn yn llawen, heb eu cyfrif yn ffol; a phaham na oddefent yr apostol, pryd nad oedd efe ond yn ymffrostio o bethau gwirioneddol? † Mae yr apostol yn dywedyd hyn, tebygir, mewn gwawd-iaith; fel pe dywedasai, Wele, caniatâer fy mod I yn ffol, eto, chwychwi sydd yn tybied eich hunain mòr synwyrol, mae genych yn sicr ddigon o synwyr i gyd-ddwyn â mi, tra yr ydych yn ystyried mai un ffol felly ydwyf.

20 * Canys yr ydych yn goddef, [a] os bydd un i'ch caethiwo, † os bydd un *i'ch* llwyr-

fwytta, os bydd un [b] yn cymmeryd *gennych*, ‡ os bydd un yn ymddyrchafu, os [c] bydd un yn eich taro chwi ar *eich* wyneb.

a pen. 1. 24. Gal. 2. 4. a 4. 3, 9, 25. a 5. 1, 10. a 6. 12. b Rhuf. 16. 17, 18. Phil. 3. 19. 1 Thes. 2. 5. c Es. 50. 6. Galar. 3. 30. Luc 6. 29.

* Nid yn unig yr oedd y Corinthiaid yn goddef i'r gau-athrawon "ffyliaid" ymffrostio, ond yr oeddynt hefyd yn goddef iddynt dra-arglwyddiaethu yn galed arnynt; i'w caethiwo o ran eu personau, neu o ran rhyddid eu cydwybodau mewn pethau crefyddol. † Yr oeddynt yn goddef iddynt eu llwyr-fwyta, a chymmeryd eu meddiannau, un ai o drais, neu drwy dwyll, dàn rith o dâl am eu gweinidogaeth; ‡ yr oeddynt yn goddef iddynt ymddyrchafu mewn ymffrost a thrahausder fel pe buasent arglwyddi, a hwythau ddim ond caethweision danynt; || ac yr oeddynt yn goddef hyd yn nôd cymmeryd eu taro ar eu gwynebau ganddynt, pan elynt i nwydau drwg. Prin y gallai un ddychymmygu yr aethai y gau-athrawon i'r fath eithafoedd digywilydd a hyn, ond gwyddai yr apostol fod y peth yn wir; ac nid ydoedd nemawr o beth gan rai o'r Iuddewon uchelfryd i ymddwyn fel hyn tuag at y cenedloedd dirmygedig.

21 * Am ammharch yr ydwyf yn dywedyd, [d] megis pe buasem ni weiniaid: † eithr [e] ym mha beth bynnag y mae neb yn hŷf ([f] mewn ffolineb yr wyf yn dywedyd) hŷf wyf finnau hefyd.

d pen. 10. 1, 2, 10. a 13. 10. e adn. 22—27. Phil. 3. 3—6. f adn. 17, 23.

* Am anmharch yr wyf yn dywedyd y pethau uchod, anmharch mae y gau-athrawon yn roddi arnoch chwi, ac arnaf finnau a'm brodyr hefyd wrthych chwi, megys pe byddem weiniaid anwraidd a dirmygus, annheilwng o'r swydd weinidogaethol, a rhŷ ddigalon i hòni ein hawl iddi trwy gymmeryd tâl, yn Corinth, am ein llafur. † Ond dywedent hwy a fynont am ein gwendid ni, hyn a ddywedaf; pa beth bynag y maent hwy yn ddigon hyfion i fostio o hóno, ac i ymfawrygu arno; gallaf finnau hefyd siarad cyfuwch â hwythau, (er y bernir fi yn ffol am ddywedyd felly,) a gallaf yn hŷf feiddio cystadlu fy hun â hwy, yn mhob peth sydd yn werth ei enwi, ac ymffrostio o hóno, yn eu barn hwy a chwithau. Ond tybia rhai mai ei gystadlu ei hun â'r *gwir* apostolion mae yr apostol yn niwedd yr adnod, fel pe dywedasai, Yn mha beth bynag mae neb o wir apostolion Crist yn hŷf, hŷf wyf finnau hefyd; er cael fy nghyfrif gan y gau-apostolion yn wàn a ffol.

22 * Ai [g] Hebreaid ydynt hwy? felly finnau: † ai Israeliaid ydynt hwy? felly finnau: ‡ ai [h] had Abraham ydynt hwy? felly finnau.

g Ex. 3. 18. a 5. 3. a 7. 16. a 9. 1, 13. a 10. 3. Act. 22. 3. Rhuf. 11. 1. Phil. 3. 5. h Gen. 17. 8, 9. 2 Cron. 20. 7. Mat. 3. 9. Ioan 8. 33—39. Rhuf. 4. 13—18.

* Ai Hebreaid o ran iaith ydynt hwy, yn gallu deall yr ysgrythyrau yn yr iaith hòno, mewn cyferbyniad i'r Iuddewon Groegaidd y rhai ni allent? felly finnau, er y gall rhai feddwl i'r gwrthwyneb o herwydd fy ngeni yn Tarsus. † Ai Israeliaid ydynt hwy o waedoliaeth, wedi hànu o Jacob, yr hwn a gyfenwyd Israel, ac nid o Esau, nac o un gangen o'r teulu nad oedd y fendith yn perthyn iddi? felly finnau o lwyth Benjamin, Phil. 3. 5. ‡ Ai had Abraham ydynt hwy, o dad a mam, ac nid proselytiaid, neu o waedoliaeth ledryw a chymmysg? felly finnau hefyd, a gallaf olrhain fy achau i fynu trwy lwyth Benjamin hyd at dad y ffyddloniaid. Wrth yr adnod uchod mae rhai yn tybied mai Iuddewon oedd y gau-athrawon, gwrthwynebwyr Paul yn Corinth; ond tybia eraill mai nid cystadlu ei hun â'r gau-athrawon hyny y mae efe yma, eithr dangos nad oedd ef ddim yn ol i'r *gwir* apostolion, yr apostolion penaf, adn. 5: peth bychan iawn fuasai iddo ef ddangos ei hun can gystal â'r gau-apostolion, gweinidogion Satan; (adn. 15,) gan hyny tebycach yw, mai ei gystadlu ei hun â'r gwir apostolion y mae efe yn yr adnod hon.

23 * Ai [i] gweinidogion Crist ydynt hwy? (yr ydwyf yn dywedyd yn ffol) [k] † mwy *wyf* fi; [l] ‡ mewn blinderau yn helaethach, [m] mewn gwïalennodiau dros fesur, [n] mewn carcharau yn amlach, [o] || mewn marwolaethau yn fynych.

i pen. 3. 6. a 6. 4. 1 Cor. 3. 5. a 4. 1. 1 Thes. 3. 2. 1 Tim. 4. 6. k adn. 5. pen. 12. 11, 12. l 1 Cor. 15. 10. Col. 1. 29. m adn. 24, 25. pen. 6. 4, 5. Act. 9. 16. n Act. 16. 24. a 20. 23. a 21. 11. a 24. 26, 27. a 25. 14. a 27. 1. a 28. 16, 30. Eph. 3. 1. a 4. 1. a 6. 20. Phil. 1. 13. 2 Tim. 1. 8, 16. a 2. 9. Philemon 9. Heb. 10. 34. o pen. 1. 9, 10. a 4. 11. a 6. 9. Act. 14. 19. 1 Cor. 15. 30—32. Phil. 2. 17. Col. 1. 24.

* Os am y gau-athrawon mae yr apostol yn dywedyd, rhaid i ni ddeall nad oeddynt yn weinidogion Crist mewn gwirionedd, nac yn nghyfrif Paul chwaith; oblegid dywedodd o'r blaen mai gau-apostolion, gweithwyr twyllodrus, gweinidogion Satan wedi ymrithio yn apostolion Crist oeddynt, adn. 13, 15: nid oeddynt yn weinidogion Crist ond yn eu hymffrost a'u cyfrif eu hunain, ac yn nghyfrif eu plaid oedd yn cael ei hudo ganddynt. † Gan hyny nid "mwy" nâ'r rhai hyn oedd Paul yn feddwl; eithr mwy nâ'r gwir apostolion. (Gwel ar adn. 21, 22.) Er y cyfrifid ef yn ffol gan lawer o ymffrostio fel hyn o hyd, eto, gan fod yr achos yn galw, nis gallai efe beidio dywedyd, ei fod nid yn unig yn fwy na'r gau-athrawon, ond yn fwy na gwir weinidogion Crist, hyd yn nôd yr apostolion eu hunain: wedi ei alw mewn modd rhyfeddach na hwynt-hwy, wedi llafurio yn helaethach na hwynt oll, a chwedi dyoddef mwy na neb o honynt yn achos yr efengyl, fel y sylwa yn mlaen. ‡ Darllen hanes yr apostol yn yr Actau yw yr eglurâd goreu ar y pethau a enwir o hyn i ddiwedd yr adnod. Ychydig a allai neb o'r gau-athrawon ymffrostio o ddim o'r pethau a enwir yma; ac eto mae Paul yn dangos mai yn y *pethau hyn* yr oedd gwir fawredd yn gynnwysedig. || Mewn perygl o gael ei roddi i farwolaeth yn fynych, o herwydd tystiolaethu efengyl ein Harglwydd Iesu Grist.

24 * Gan yr Iuddewon bumwaith y derbyniais [p] ddeugain *gwialennod* ond un.

p Deut. 25. 2, 3. Mat. 10. 17. Marc 13. 9.

* Drwg-weithredwyr oedd i gael eu curo â gwïail, ond yma mae apostol Iesu Grist yn cael ei guro bumwaith, a hyny gan yr Iuddewon, ei genedl ei hun, à chenedl y Messïah o ran y cnawd, y rhai a ddylasent wybod yn well ac ymddwyn yn well. Deugain gwïalenod oedd cyfraith Duw, (Deut. 25. 2, 3.) a dim ychwaneg; er attal, a rhoddi terfyn ar nwydau cynddeiriog dynion: ond rhag dygwydd myned dros y rhif hwnw, gwnaeth yr Iuddewon gyfraith eu hunain, i roddi un wïalenod yn llai; a'r gyfraith hon a alwent *Septimenta Legis*, Muriau i gyfraith Duw. Yr oedd ganddynt ffrewyll o dair càrai, a thri ar ddeg o ergydion â hon a wnai ddeugain gwïalenod ond un. Fel yr oedd Paul yn Rhufeiniad, byddai yn dadleu y rhagor-fraint hòno weithiau i ddianc rhag cosp gan y swyddogion Rhufeinig; ond fel yr oedd yn proffesu ei hun yn ddeiliad cyfraith wladol yr Iuddewon, caniatâi y Rhufeiniaid iddynt hwy ei gospi yn ol eu cyfreithiau eu hunain, ac efallai nad oedd gwiw iddo ef ddadleu yn y cyfryw amgylchiad mai Rhufeiniad oedd. Pa bryd, ac yn mha le, y cafodd yr apostol ei ffrewyllu fel hyn gan yr Iuddewon, nis gwyddom, nid oes hanes yn yr Actau.

25 * Tair gwaith [q] y'm curwyd â gwïail; [r] † unwaith y'm llabyddiwyd; [s] ‡ teirgwaith y torodd llong arnaf; || noswaith a diwrnod y bûm yn y dyfnfor;

q Act. 16. 22, 23, 33, 37. a 22. 24. r Mat. 21. 35. Act. 7. 58, 59. a 14. 5, 19. Heb. 11. 37. s Act. 27. 41.

* Tair gwaith y curwyd ef â gwïail gan y Rhufeiniaid, er bod hyny yn groes i'w cyfraith hwy. Gwel ar Act. 16. 22, 23, 37, 38; a 22. 25. † Llabyddiwyd ef unwaith gan y werin derfysglyd yn Lystra, trwy annogaeth yr

Iuddewon, hyd oni thybiwyd ei fod ef wedi marw, Act. 14. 19; er mai braidd y gellid rhwystro y bobl ychydig o'r blaen ei addoli ef fel Duw, adn. 11, 18. ‡ Tair gwaith y tòrodd llong arno, ond pa bryd nis gwyddom, yr oedd pob un o honynt yn wahanol i'r llong-ddrylliad a grybwyllir yn Act. 27; oblegid yr oedd yr epistol hwn wedi ei ysgrifenu yn mhell cyn y tro hwnw. Yr oedd ei long-ddrylliad yn Melita o leiaf yn *bedwerydd* tro; a phe gwybuasai y trigolion hyny, buasent yn fwy cadarn yn eu meddyliau mai dyn drwg iawn oedd efe: ond mae y cwbl yn dangos yn eglur, y gall llawer o'r hyn a eilw y byd yn anffodion rhagluniaeth, ddygwydd i'r dynion goreu a duwiolaf ar y ddaear. || Noswaith a diwrnod y bu yn y dyfnfor, yn cael ei daflu gan y tònau geirwon, ar ryw ddarn o'r llong wedi iddi fyned yn ddrylliau cyn iddo allu cyrhaedd glàn mewn lle yn y byd. Y rhan fwyaf o'r peryglon a enwir yma, nid yw Luc yn yr Actau yn dywedyd dim am danynt, ond nid ydynt yn llai gwir o herwydd hyny: nid yw hanes Luc ond bŷr, a chan mwyaf o'r pethau y bu ef ei hun yn dyst o honynt. Mae y cwbl ar gael yn llyfr coffadwriaeth Duw.

26 * Mewn [t] teithiau yn fynych; † ym mheryglon llif-ddyfroedd; ‡ ym mheryglon lladron; [u] || ym mheryglon gan *fy* nghenedl *fy hun;* [x] § ym mheryglon gan y cenhedloedd; [y] * ym mheryglon yn y ddinas; † ym mheryglon yn yr anialwch; ‡ ym mheryglon ar y môr; || ym mheryglon ym mhlith brodyr gau:

t Act. 9. 26—30. a 11. 25, 26. a 13. a 14. a 15. 2—4, 40, 41. a 16. a 17. a 18. 1, 18—23. a 19. 1. a 20. 1, &c. Rhuf. 15. 19, 24—28. Gal. 1. 17—21. u Act. 9. 23—25, 29. a 13. 50. a 20. 3, 19. a 21. 28—31. a 23. 12, &c. a 25. 3. 1 Thes. 2. 15, 16. x pen. 1. 8—10. Act. 14. 5, 19. a 16. 19—24. a 19. 23—41. 1 Cor. 15. 32. y adn. 32. Act. 9. 24. a 17. 5.

* Am deithiau yr apostol trwy yr holl wledydd i bregethu yr efengyl, gwel ar Rhuf. 15. 19. † Mewn llawer o'r teithiau hyny bu mewn peryglon gan afonydd a llif-ddyfroedd yn aml; byddai ef yn teithio ar bob hin a thymmor, ac yn anturio hyd at berygl bywyd trwy afonydd llif-ddyfroedd, gan ei awydd i bregethu Crist croeshoeliedig yn Geidwad i bechaduriaid truain. ‡ Bu lawer gwaith yn mheryglon lladron yn ei deithiau, y rhai a gynniweirient i yspeilio a llofruddio teithwyr unig a diamddiffyn ar hyd y ffyrdd. || Bu mewn peryglon gan ei genedl ei hun, yr Iuddewon, y rhai a'i cyfrifent ef yn wrthgiliwr oddi wrth eu crefydd hwynt, yn hauwr twyll a chabledd; ac oeddynt fel bleiddiau rheibus yn sychedu am ei waed ef agos yn mhob màn. § Prydiau eraill byddai mewn perygl gan y cenedloedd paganaidd ac eilun-addolgar, am fod ei athrawiaeth yn dadymchwelyd eu heilun-addoliaeth hwy, megys y bu gan addolwyr Diana yn Ephesus. * Pan fyddai yn pregethu yn y dinasoedd, yn Jerusalem a dinasoedd eraill, yr oedd ei fywyd mewn perygl yn aml, gan Iuddewon neu genedloedd, neu bob un o'r ddwy blaid. † Pan fyddai yn teithio yn yr anialwch anghyfannedd, diffordd a disathr, yr oedd mewn perygl gan yspeilwyr llofruddiog, a chan fwystfilod rheibus, neu o syrthio dros glogwyni, neu ryw beryglon eraill. ‡ Pan fyddai ar y môr, yr oedd mewn peryglon oddi wrth fôr ladron, ystormydd, a llong-ddrylliad, fel y sylwyd eisoes. || Ac hyd yn nôd yn yr eglwysi, yn mhlith cristionogion, yr oedd mewn perygl yn fynych gan frodyr gau; ac yn enwedig brodyr gau o'r Iuddewon, y rhai oedd elynion i burdeb a rhyddid yr efengyl, ac iddo yntau fel apostol y cenedloedd.

27 * Mewn [z] llafur a lludded; † mewn anhunedd yn fynych; [a] ‡ mewn newyn a syched; || mewn [b] ymprydiau yn fynych; § mewn anwyd a [c] noethni.

z adn. 23. pen. 6. 5. Act. 20. 5—11, 34, 35. 1 Thes. 2. 9. 2 Thes. 3. 8. a Jer. 38. 9. 1 Cor. 4. 11, 12. Phil. 4. 12. b pen. 6. 5. Act. 13. 2, 3. a 14. 23. 1 Cor. 7. 5. c Rhuf. 8. 35, 36. Heb. 11. 37. Iago 2. 15, 16.

* Yn ngwaith ei Arglwydd mawr yr oedd efe mewn llafur a lludded, gan deithio a phregethu dibaid o ddydd i ddydd, gweithio â'i ddwylaw i ennill ei fara, ysgrifenu ei epistolau, ymprydio a gweddio; † fel nad oedd yn cael hamdden na seibiant i gysgu y nos, ond mewn anhunedd yn fynych trwy nosweithiau cyfain wedi ei lafur a'i ludded trwm y dydd. ‡ Byddai yn aml yn gorfod dyoddef newyn a syched caled, am nas gallai gael dim i'w ymgeleddu ac i dòri ei angen: || ac yn ymprydio yn wirfoddol yn fynych i gospi ei gorph a'i ddwyn yn gaeth, ac i weddio am wyneb a bendith Duw ar ei lafur. § Prydiau eraill byddai yn dyoddef anwyd a rhyndod, heb ddim i'w gludo nac i guddio ei noethni, na chartref cysurus i'w gysgodi. O weinidogion Iesu Grist, yn yr oes hon, ac yn Mhrydain ddedwydd, beth a ddywedwn ni wrth bethau o'r fath hyn!

28 * Heb law [d] y pethau *sydd yn digwydd* oddi allan, † yr ymosod yr hwn *sydd arnaf* beunydd, [e] y gofal dros yr holl eglwysi.

d adn. 23—27. e Act. 15. 36, 41. a 18. 23. a 20. 2, 18—35. Rhuf. 1. 14. a 11. 13. a 15. 16. a 16. 4. Col. 2. 1.

* Eto, wedi y cwbl, nid oedd y pethau uchod oll, a llawer ychwaneg nac a enwyd, ond pethau oddi allan, yn dygwydd oddi wrth ddynion a damweiniau oddi allan, ac yn gwasgu ar y corph, neu y dyn oddi allan yn unig. † Yr oedd pethau trymach o lawer na'r pethau oddi allan hyn yn dyfod fel byddinoedd mawrion i guro ar y meddwl, y dyn oddi fewn: yr oedd ymosod dirfawr arno ef beunydd, gan y gofal oedd arno dros yr holl eglwysi; yn enwedig holl eglwysi y cenedloedd, y rhai a blànesid ganddo ef, ac y rhai yr oedd ei feddwl megys mewn gwewyr esgor yn eu hachos am ffurfio Crist ynddynt. Efe oedd eu tad ysbrydol hwynt, ac arno ef yn fwy na neb arall yr oedd gofal eu purdeb, eu heddwch, eu llwyddiant, a'u holl gynnydd a'u diogelwch ysbrydol hwynt: yr oedd y gofal hwn yn drwm iawn ar ei feddwl ef, yn rhuthro ac yn gwarchae arno yn feunyddiol, megys byddin liosog, fel mae y gair *episustasis,* "ymosod," yn arwyddo.

29 * Pwy [f] sydd wan, nad wyf finnau wan? † pwy a dramgwyddir, [g] nad wyf finnau yn llosgi?

f pen. 2. 4, 5. a 7. 5, 6. a 13. 9. Ezra 9. 1—3. Rhuf. 12. 15. a 15. 1. 1 Cor. 8. 13. a 9. 22. a 12. 26. Gal. 6. 2. 1 Thes. 3. 5—8. g adn. 13—15. Num. 25. 6—11. Neh. 5. 6—13. a 13. 15—20, 23—25. Ioan 2. 17. 1 Cor. 5. 1—5. a 6. 5—7, 15—18. a 11. 22. a 15. 12, &c. 36. Gal. 1. 7—10. a 2. 4—6, 14. a 3. 1—3. a 4. 8—20. a 5. 2—4. 2 Ioan 10, 11. Judas 3, 4. Dat. 2. 2, 20. a 3. 15—18.

* Nid oedd yr un aelod o eglwys Crist yn wàn o gorph neu feddwl, o ras neu gynnydd ysbrydol, nad oedd ef yn cyd-ymdeimlo yn dyner a serchiadol âg ef, yn galaru drosto, ac yn gwneyd a allai i'w gynnorthwyo, fel pe buasai ef ei hun yn ei le ef. † Nid oedd yr un o honynt yn tramgwyddo, ac mewn perygl o syrthio oddi wrth ffydd, gobaith, proffes, a buchedd yr efengyl, nad oedd ei galon yntau yn llosgi gan ofid ac eiddigedd sanctaidd yn ei achos, a chan wresawgrwydd duwiol a thadol i'w gadarnâu, ei gryfâu, ei adferu, a'i sefydlu ef. Mae y gair "llosgi," neu danio *(puroumai)* yma, yn cyfeirio at y *cyffrôad ysbryd* sydyn y teflir dyn iddo drwy syrthiad peryglus rhywun anwyl ganddo; yn enwedig pan ddygwyddo hyny trwy ddiofalwch a ffolineb rhywun arall. Yma ni a welwn, nid yn unig pa fath weinidog oedd yr apostol, ond hefyd pa fath a ddylai holl weinidogion yr efengyl fod, yn eu cyd-ymdeimlad â'u pobl, ac yn eu gofal am danynt.

30 * Os [h] rhaid ymffrostio, [i] † mi a ymffrostiaf am y pethau sydd yn perthyn i'm gwendid.

h adn. 16—18. a 12. 1, 11. Diar. 25. 27. a 27. 2. Jer. 9. 23, 24. i pen. 12. 5—10. Col. 1. 24.

* Gan fod gelynion a dirmygwyr Paul yn peri *gorfod* arno i ddywedyd rhyw beth fel ymffrost, a bod yn *rhaid* iddo ymffrostio; † dewisai yn hytrach ymffrostio yn ei

ddyoddefiadau, ei galedi, ei erledigaethau, a'i waradwyddiadau; y pethau oedd achos darostyngiad a gofid iddo, ond y pethau oedd yn rhoddi y cyfle goreu i Grist ddangos a pherffeithio ei nerth yn ei wendid ef; nac ymffrostio yn ei ragor-freintiau uchel, a'r pethau mawrion a wnaethai Duw trwyddo ef. Gwendid y cyfrifai y gau-athrawon chwyddedig holl flinderau Paul, ei gydymdeimlad tyner â'r gwàn, a'i deimladau llosgedig yn achos y tramgwyddus; ond yn y pethau hyn yr ymffrostiai efe; fel yn debycach i apostol Iesu Grist na hwynthhwy, y rhai nis gwyddent ddim am y cyfryw ofidiau a theimladau. Hawdd y gallasai ymffrostio yn ei ragoriaeth arnynt hwy mewn pethau mwy ardderchog pe gwelsai hyny yn oreu.

31 [k] * Duw a Thad ein Harglwydd ni Iesu Grist, [l] † yr hwn sydd fendigedig yn oes oesoedd, [m] a ŵyr nad wyf yn dywedyd celwydd.

k pen. 1. 3. Ioan 10. 30. a 20. 17. Eph. 1. 3. a 3. 14. Col. 1. 3. Pedr 1. 3. l Neh. 9. 5. Salm 41. 13. Rhuf. 1. 25. a 9. 5. 1 Tim. 1. 11, 17. a 4. 16. m Gwel ar b. adn. 10.

* Nid peth mawr oedd gan y gau-athrawon eu hunain fyned dros ben terfynau y gwirionedd yn aml yn eu hymffrost uchel, ac am hyny nid peth mawr oedd ganddynt ammau gwirionedd yr hyn a ddywedodd yr apostol; a thaeru fod yn anmhosibl i un dyn fyned drwy y fath bethau a enwodd efe yn yr adnodau blaenorawl: ar gyfer hyny mae efe yn y modd mwyaf difrifol yn galw Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist yn dyst o wirionedd yr hyn a ddywedasai. † Gellir cymhwyso y geiriau hyn un ai at y Tad, neu at yr Arglwydd Iesu Grist; yn Rhuf. 1. 25, cymhwysir hwy at y Crëawdwr, ac yn Rhuf. 9. 5, at Iesu Grist: yma gellir eu cymhwyso at yr un a fŷner, y Tad neu Grist, ac yn y tri lle maent yn brawf annwrthwynebadwy o Dduwdod yr Arglwydd Iesu.

32 * Yn [n] Damascus, y llywydd dan Aretas y brenhin a wyliodd ddinas y Damasciaid, gan ewyllysio fy nal i:

n adn. 26. Act. 9. 24, 25.

33 A thrwy ffenestr mewn basged [o] y'm gollyngwyd ar hŷd y mur, ac y diengais o'i ddwylaw ef.

o Jos. 2. 12. 1 Sam. 19. 12.

* Cawsom hanes bŷr am y tro hwn gan Luc, yn Act. 9. 23, 24, 25: lle gwelwn iddo ddygwydd cyn pen hir wedi tröedigaeth yr apostol, ac oedd fel blaen-ffrwyth ac ernes iddo ef o'i holl beryglon a'i flinderau oedd i ganlyn. Tybia *Doddridge* mai tua thair blynedd ar ol ei dröedigaeth y bu. Damascus oedd brif-ddinas Syria, a thàn lywodraeth Aretas, brenin Arabia Garegog, medd *Josephus*. Gwel ychwaneg ar y lle a nodwyd yn Actau.

PEN. XII.

Paul yn gorfoleddu yn ei ddatguddiadau rhyfeddol, er mwyn gosod allan ei apostoliaeth, &c.

[a] * YMFFROSTIO [b] yn ddïau nid yw fuddiol i mi: † canys myfi a ddeuaf at [c] weledigaethau a datguddiedigaethau yr Arglwydd.

a pen. 8. 40. Ioan 16. 7. a 18. 14. 1 Cor. 6. 12. a 10. 23. b adn. 11. pen. 11. 16—30. c adn. 7. Num. 12. 6. Ezec. 1. 1, &c. a 11. 24. Dan. 10. 5—10. Joel 2. 28, 29. Act. 9. 10—17. a 18. 9. a 22. 17—21. a 23. 11. a 26. 13—19. Gal. 1. 12. a 2. 2. 1 Ioan 5. 20.

* Mewn amgylchiadau cyffredin nid oedd yn weddus nac yn fuddiol i'r apostol ymffrostio, a dywedyd llawer am ei ragor-freintiau a'i brofiadau uchel; yr hyn a allai feithrin balchder yn ei galon dwyllodrus ei hun, a rhoddi achlysur i eraill synied yn rhŷ uchel am dano, neu ynte ei farnu fel dyn chwyddedig balch: ond yr oedd efe dàn angenrheidrwydd gofidus y pryd hwn i wneyd hyny, fel na thwyllid y Corinthiaid gan ei elynion ef, y rhai oedd yn ceisio magu rhagfarn yn eu meddyliau hwy yn ei erbyn ef a'i weinidogaeth. † Ymffrostiodd yn ei flinderau a'i wendid o'r blaen, (pen. 11,) yma mae yn dyfod at bethau mwy goruchel, gweledigaethau a datguddiedigaethau yr Arglwydd. Tybir fod y gau-athrawon yn cymmeryd arnynt eu bod yn cael gweledigaethau a datguddiedigaethau felly, neu ynte yn taeru nad oedd Paul yn eu cael fel yr apostolion eraill. Dywedant y gall gweledigaeth fod, neb i'r neb a'i caffo ddeall ei meddwl, fel yn mreuddwydion Pharaoh a Nebucodonosor; ond fod datguddiedigaethau yn rhoddi deall a dehongliad o'r hyn a welid yn a thrwy y gweledigaethau, megys yn amgylchiadau Ezeciel a Daniel, neu yn ngweledigaeth Pedr o'r llenllïan. Dïammau i Paul gael y ddau beth.

2 * Mi [d] a adwaenwn ddyn [e] yng Nghrist † er ys rhagor i bedair blynedd ar ddeg (‡ pa un ai [f] yn y corph, ni wn; ai allan o'r corph, ni wn i: [g] Duw a ŵyr) ‖ y cyfryw *un* [h] a gipiwyd i fynu hyd [i] y drydedd nef.

d adn. 3, 5. e pen. 5. 17, 21. a 13. 5. Es. 45. 24, 25. Ioan 6. 56. a 15. 4—6. a 17. 21—23. Rhuf. 8. 1. a 16. 7. 1 Cor. 1. 30. Gal. 1. 22. a 5. 6. f pen. 5. 6—8. 1 Bren. 18. 12. 2 Bren. 2. 16. Ezec. 8. 1—3. a 11. 24. Act. 8. 39, 40. a 22. 17. Phil. 1. 22, 23. Dat. 1. 10. a 4. 2. g adn. 3. Gwel ar pen. 11. 11. h adn. 4. Luc 24. 51. 1 Thes. 4. 17. Heb. 9. 24. Dat. 12. 5. i Gen. 1. 14—20. 1 Bren. 8. 27. Es. 57. 15.

* I ochelyd cenfigen a phob ymddangosiad o rodres, nid yw yr apostol yn enwi ond un tro, er y gallasai enwi rhagor; a hyny hefyd yn y trydydd person, nid yn ei berson ei hun: dïammau mai efe ei hun ydoedd, pe amgen ni buasai y cwbl o'r hanes yn ateb dim dyben. † Mae yn ymddangos wrth hyn i Paul gelu y weledigaeth ryfeddol hon am bedair blynedd ar ddeg; ac os ysgrifenwyd yr epistol hwn tua B. A. 58. fel y tybir y gwnaed, dygwyddodd y weledigaeth hon yn y flwyddyn 44, yr hon oedd cyn belled ar ol ei dröedigaeth ef, fel mae yn amlwg ei bod yn wahanol i'r *llewyg* a grybwyllir, Act. 9. 9, ac nid yr un tro fel y tybiodd rhai. Tybia rhai iddo gael y weledigaeth ogoneddus hon pan oedd yn gweddïo yn y deml, (Act. 11. 30; 22. 17.) i'r dyben i'w galonogi yn wyneb peryglon ei daith i bregethu yr efengyl i'r cenedloedd. Nis gallai neb haeru ei fod ef yn chwannog i ymffrostio gan iddo gelu y weledigaeth hon am gyhyd o amser, a'i chrybwyll yn y diwedd megys trwy orfod a wnaeth. ‡ Mae hyn yn dangos fod Paul yn ystyried yr enaid yn beth gwahanol i'r corph, ac yn gallu gweled, clywed, gweithredu, a mwynâu, mewn ystâd o ysgariad oddi wrth y corph. Nis gwyddai ef pa un ai yn y corph ai allan o'r corph yr oedd ei enaid y pryd hwn, Duw yn unig a wyddai. ‖ Cipiwyd ef rywfodd, gan nerth yr Ysbryd, neu drwy weinidogaeth angelion, i'r drydedd nef, yn mhell goruwch yr haul, lloer, ser, a phlanedau, i'r màn lle mae yr Arglwydd yn ddigyfrwng yn egluro ei bresenoldeb a'i ogoniant, ac yn cael ei addoli gan y llu nefolaidd.

3 * Ac mi adwaenwn y cyfryw ddyn († pa un ai yn y corph, ai allan o'r corph, ni wn i: Duw a ŵyr)

* *Oida,* "mi a adwaenwn:" gellid cyfieithu y gair mi a adwaen, yn yr amser presenol, medd *Guyse;* ac felly y cyfieithir ef yn mhob un o'r llythyrau at eglwysi Asia: "Mi a adwaen dy weithredoedd di," &c. † Gwel ar adn. 2. Mae yr apostol yn ail grybwyll yr un peth; yr oedd yn hyfrydwch ganddo feddwl am y tro, yr oedd o bwys mawr ar yr achlysur presenol, ac yn dra theilwng o sylw y Corinthiaid, yn enwedig ei wrthwynebwyr ef yno. I ryw ddyben doeth, cuddiodd Duw oddi wrtho, pa un ai yn y corph ai allan o'r corph yr oedd, yn y tro rhyfedd hwnw.

4 * Ei gipio ef i fynu i [k] baradwys, † ac iddo glywed geiriau annhraethadwy, ‡ y rhai nid yw gyfreithlawn i ddyn eu hadrodd.

k Ezec. 31. 9. Luc 23. 43. Dat. 2. 7.

* Wrth "baradwys" yma, mae rhai yn deall lle gwa-

hanol i'r "drydedd nef," a enwyd o'r blaen, adn. 2; ac yn tybied fod yr apostol yn crybwyll yma am weledigaeth arall, wahanol i'r gyntaf: ond mwy tebygol mai yr un tro ydoedd, a'r ddau enw am yr un lle. Y rhai sydd o'r dŷb gyntaf a ddywedant, i'r apostol weled yr Arglwydd Iesu yn ei ogoniant, yn y "drydedd nef," ac iddo weled a chlywed y saint a berffeithiwyd, yn "mharadwys;" ond, onid yw geiriau Crist wrth y lleidr ar y groes, yn dangos fod ei saint gydag ef yn y drydedd nef, ac mai paradwys yw hòno? Am "baradwys" gwel ychydig ar Luc 23. 43. † Clywodd yr apostol yn ddïammau eiriau eglur a chroyw yn y drydedd nef, neu baradwys, ond yr oedd y cwbl mewn iaith, neu ymadroddion mòr dderchafedig, ag nas gallasai dyn, yn preswylio mewn cnawd, yr hwn mae ei eiriau a'i synïadau mòr isel a bŷr, eu hail-adrodd yn eu holl ystyr rymus, nefol, a mawreddig: ac os na allai efe eu traethu, ni wiw i ni geisio dychymmygu pa beth a glywodd efe. ‡ "Nid yw gyfreithlawn," neu *bosibl:* dywed *Doddridge* fod y gair *exon* yn arwyddo pob un o'r ddau. Gwelodd Duw yn dda i roddi y datguddiedigaethau hyn i *Paul ei hun,* er cadarnâu ei anfoniad ef, ac er cynnaliaeth iddo yn ei holl flinderau a'i beryglon; ond nid i'w gwneuthur yn hysbys i neb arall, pe buasai hyny yn bosibl iddo mewn geiriau.

5 * Am [l]y cyfryw *un* yr ymffrostiaf; [n] † eithr am danaf fy hun nid ymffrostiaf, oddi eithr yn fy ngwendid.

l adn. 2—4. m adn. 9, 10. pen. 11. 30.

* Mae yn amlwg yn adn. 7. mai am dano ei hun yr oedd yr apostol yn llefaru o hyd, ond yn y trydydd person hyd yr adnod hòno, fel y sylwyd ar adn. 2. Ei feddwl yma yw, Y dyn a gafodd y fath ddatguddiedigaethau gan Dduw, mae ganddo bethau y tâl iddo ymffrostio o honynt; † ond am dano ei hun, a'i ystyried ynddo ei hun, nid oedd efe yn ymffrostio oddi eithr yn ei wendid: am yr hwn wendid, gwel ar pen. 11. 30. Gall rhywun ofyn yma, Pa fodd yr oedd yr apostol yn dywedyd nad ymffrostiai efe am dano ei hun, ac efe o hyd yn llefaru am dano ei hun? Yn ateb i hyna, dywed rhai ei fod yn gwahaniaethu am dano ei hun o'ran y dyn oddi fewn, ei enaid, yr hwn a gafodd y fath ddatguddiedigaethau; ond am ei gorph, y dyn allanol, nad ymffrostiai efe ddim, am ddim a wnaeth ond yn yr hyn a ddyoddefodd, sef ei wendid. Mae eraill yn dehongli y geiriau fel hyn:—Yn y datguddiedigaethau hyn mae yr Arglwydd wedi rhoddi anrhydedd mawr arnaf fi; ond yn hyn oll nid oedd dim o honof fi fy hunan, gan hyny am danaf fy hunan nid ymffrostiaf fi ddim, oddi eithr yn y pethau a ddyoddefais I er mwyn yr efengyl ac enw yr Arglwydd.

6 * Canys os [n] ewyllysiaf ymffrostio, ni byddaf ffol; canys [o] mi a ddywedaf y gwir: † eithr yr wyf yn arbed, rhag i neb wneuthur cyfrif o honof fi [p] uwch law y mae yn gweled fy mod, ‡ neu yn ei glywed gennyf.

n pen. 10. 8. a 11. 16. 1 Cor. 3. 5, 9, 10. o pen. 1. 18. a 11. 31. Job 24. 25. Rhuf. 9. 1. p adn. 7. pen. 10. 9, 10.

* Gallasai yr apostol ymffrostio llawer ychwaneg am dano ei hun nac a wnaeth, ac heb ddywedyd dim ond y gwir; ac o ymffrostio y gwirionedd ni byddai ffol. Mae yn wir y gall dyn fod yn ffol o ymffrostio y gwirionedd, os bydd yn gwneyd hyny yn wag-ogoneddgar, i'w dderchafu ei hun; ond os bydd yn gwneyd hyny o orfod, i'w amddiffyn ei hun, ac er anrhydedd yr efengyl a gogoniant Duw, fel yr oedd Paul yma, nid yw yn ffol o ymffrostio felly. Efallai nad oedd holl ymffrost y gauathrawon i gyd yn wir; os felly, yr oeddynt hwy yn ffol, ac eto pwy oedd barotach nâ hwy i gyfrif Paul yn ffol, er nad oedd yn dywedyd ond y gwir. † Er y gallasai efe ymffrostio llawer chwaneg, eto yr oedd yn arbed, rhag i neb wneuthur cyfrif o hóno oddi ar ei ymffrost ei hun, eithr ei gyfrif ef fel yr oedd yn gweled ei fod, neu yn glywed ganddo yn ei weinidogaeth gyffredinol. ‡ "Neu yn ei glywed genyf:" *or that he heareth of me* yw y Saesoneg, a gellid ei gyfieithu "yr hyn mae yn glywed am danaf," *ê akouei ti ex emou* yw y Groeg; barned y dysgedig pa un ai *genyf* ai *am danaf* a ddylai fod.

7 * Ac [q] fel na'm tra-dyrchafer gan [r] oddiddowgrwydd y datguddiedigaethau, † rhoddwyd i mi [s] swmbwl yn y cnawd, [t] cennad Satan, [u] i'm cernodio, fel na'm tra-dyrchefid.

q pen. 10. 5. a 11. 20. Deut. 8. 14. a 17. 20. 2 Cron. 26. 16. a 32. 25, 26, 31. Dan. 5. 20. 1 Tim. 3. 6. r adn. 1—4. s Gen. 32. 25, 31. Barn. 2. 3. Ezec. 28. 24. Gal. 4. 13, 14. t Job 2. 7. Luc 13. 16. 1 Cor. 5. 5. u Mat. 26. 67. 1 Cor. 4. 11.

* Yma mae yr apostol yn llefaru yn ei berson ei hun, ac yn dangos mai efe ei hun a gafodd y weledigaeth a'r datguddiad uchod, ac amryw ddatguddiedigaethau eraill mae yn "arbed" eu crybwyll yma. Mae tuedd i falchder yn y dynion goreu, a duwiolaf, pan gaffont eu hanrhydeddu gan Dduw â doniau neu ddatguddiedigaethau mwy nac eraill o gristionogion. Mae Paul yn addef hyny ynddo ei hun yma; ac i attal y drwg hwnw i dòri allan, mae yr Arglwydd yn defnyddio moddion chwerwon i'w gadw ef yn ostyngedig, ac fel na thra-dyrchefid ef gan odidowgrwydd y datguddiedigaethau, fel pe buasai efe yn well, ac yn fwy teilwng na dynion eraill. † Llawer a ddychymmygwyd pa beth oedd y swmbwl hwn yn y cnawd, ond nid oes neb yn gwybod, ac nis gall neb wybod, gan na ddywedodd yr apostol: tybia rhai mai rhyw glefyd, neu boen corphorol, a'i cymmerodd ef yn fuan wedi y weledigaeth uchod; ac aeth rhai mòr bell a dywedyd, mai y graeanwst, neu ddolur y gàreg oedd. Tybia eraill i'r datguddiedigaethau a gafodd effeithio mòr grŷf ar ei gorph ef, fel y gwanychodd rhai o'r gewynau, yr hyn a barodd attal ar ei ymadroddiad ef, ac a anffurfiodd ei wynebpryd. Gallai efe ystyried y pethau olaf hyn yn rhwystr mawr i'w gymmeradwyaeth, ei boblogrwydd, a'i ddefnyddioldeb; ac nid rhyfedd ei fod mòr daer am i'r cyfryw beth ymadael âg ef, adn. 8. Tybia eraill eto, mai rhyw erlidiau trymion a ddaeth arno ef yn fuan ar ol y weledigaeth uchod, oedd y swmbwl yn y cnawd, a thybia eraill hefyd mai rhyw ŵyn, neu lygredd, ydoedd, a oddefodd Duw i weithio yn ei natur ef, i'w gadw yn isel yn y llwch: ond annhebyg mai hyny oedd, a'r gwirionedd yw, nas gŵyr neb pa beth oedd, ac na pherthyn i neb wybod; rhyw beth ydoedd, mòr boenus i feddwl yr apostol, ag ydyw draen parâus yn y cnawd. ‡ Wrth genad Satan yn cernodio, mae rhai yn deall Satan ei hun, a'i angelion, yn ei demtio ef i rwgnachrwydd, diffyg amynedd, a digalondid, gan y boen oedd yn ddyoddef oddi wrth y swmbwl yn y cnawd: ac hefyd dynion cnawdol a drygionus yn cael eu cynhyrfu gan Satan i'w watwor a'i niweidio ef. Tybia rhai mai rhyw *un* pennodol o'r gau-apostolion oedd efe yn feddwl wrth y cenad Satan yma: efallai bod yr apostol yn meddwl ymosodiadau tumewnol a digyfrwng Satan, ac hefyd ymosodiadau allanol dynion dàn lywodraeth Satan. Beth bynag oeddynt, yr oeddynt yn boenus iawn, eithr dyben Duw yn eu "rhoddi" oedd, fel nas tra-dyrchefid ef; felly yr oedd y cwbl mewn trugaredd

8 * Am y peth hwn [x] mi attolygais i'r Arglwydd deirgwaith, ar fod iddo ymadael â mi.

x Deut. 3. 23—26. 1 Sam. 15. 11. 2 Sam. 12. 16—18. Mat. 20. 21, 22. a 26. 39—44. Heb. 5. 7.

* Yn y gofid, a thàn y cernodiau gwastadol hyn, efe a atolygodd ar yr Arglwydd dair gwaith (fel y gwnaethai yr Arglwydd Iesu ei hun yn Gethsemane) am i'r peth hwn ymadael âg ef: gan feddwl, efallai, nad oedd modd iddo ef fyned yn mlaen yn ei weinidogaeth gydag un gobaith o lwyddiant, heb iddo gael ei waredu oddi wrth y brofedigaeth hon.

9 * Ac efe a ddywedodd wrthyf, [y] Digon i ti fy ngras i: [z] † canys fy nerth i a berffeithir mewn gwendid. [a] ‡ Yn llawen iawn gan

hynny yr [b] ymffrostiaf fi yn hytrach yn fy ngwendid, ‖ fel [c] y preswylio nerth § Crist ynof fi.

y adn. 10. pen. 3. 5, 6. Ex. 3. 11, 12. a 4. 10—15. Deut. 33. 25—27. Jos. 1. 9. Es. 43. 2. Jer. 1. 6—9. Mat. 10. 19, 20. Luc 21. 15. 1 Cor. 10. 13. a 15. 10. Col. 1. 28, 29. 1 Tim. 1. 14. Heb. 4. 16. z Salm 8. 2. Es. 35. 3, 4. a 40. 29—31. a 41. 13—16. Dan. 10. 16—19. Eph. 3. 16. Phil. 4. 13. Col. 1. 11. Heb. 11. 34. a adn. 10, 15. Mat. 5. 11, 12. b adn. 5. pen. 11. 30. c 2 Bren. 2. 15. Es. 4. 5, 6. a 11. 2. Zeph. 3. 17. Mat. 28. 18, 20. 1 Pedr 4. 13, 14.

* Mae yn gyfreithlawn i ni weddïo am symmudiad drygau a blinderau corphorawl, ond i ni wneyd hyny mewn darostyngiad i ewyllys Duw: gweddïodd Paul yma am i'r peth oedd yn ei flino ymadael âg ef; ond ni welodd yr Arglwydd yn dda i ganiatâu ei ddeisyfiad iddo fel yr oedd ef yn gofyn, o herwydd y gwyddai fod y brofedigaeth lèm hon yn angenrheidiol, i gadw yr apostol yn ostyngedig, ac iddo yntau i ddangos nerth a gallu ei ras ei hun. Gan hyny cadwodd ei was yn y brofedigaeth; ond ar yr un pryd sicrâodd iddo, trwy ddatguddiad a lleferydd diggyfrwng, y byddai ei ras ef yn ddigon iddo, i'w gynnal yn ei holl drallod, a'i nerthu yn ei weinidogaeth. † Addawodd yn sicr, y perffeithiai ac yr eglurai efe ei nerth yn ei wendid ef; a phan mae pobl Dduw yn teimlo wànaf ynddynt eu hunain, dyna'r pryd mae efe yn ewyllysio dangos ei nerth ynddynt, pryd hyny y gwelir ef yn fwyaf amlwg a gogoneddus, a'r pryd hyny y cydnabyddir ef fwyaf gan y saint eu hunain er gogoniant Duw. ‡ Gwedi cael yr addewid werthfawr uchod, mae yr apostol yn dawel a dyoddefgar yn ei brofedigaeth; ac nid hyny yn unig, ond yn ymffrostio yn llawen iawn yn ei wendid, yn y gwaradwyddiadau a'r erlidiau oedd yn dyfod arno er mwyn Crist: yr amgylchiadau hyny, yn mha rai mae y saint yn profi fwyaf o nerth Duw, yw yr amgylchiadau goreu, a mwyaf i ymorfoleddu ynddynt, er eu bod yn aml yn chwerwon, ac yn dangos ein "gwendid" ni. ‖ "Fel y gorphwyso nerth Crist arnaf," yn ol y Saesoneg, fel pabell drosto, ac o amgylch-ogylch iddo, yn ei nerthu, yn ei gysgodi, ac yn ei amddiffyn. *Pabellu*, ynddo neu arno, yw ystyr y geiriau gwreiddiol, meddant. § Gwelwn yma mai ar Grist yr oedd Paul yn gweddïo, (adn. 8,) ac mai ynddo ef yr oedd yn ymddiried ac yn ymffrostio, fel cyfranydd pob gras a nerth, yr hyn sydd brawf eglur o Dduwdod yr Arglwydd Iesu.

10 * Am hynny [d] yr wyf yn foddlawn [e] mewn gwendid, mewn ammharch, mewn anghenion, mewn erlidiau, mewn cyfyngderau [f] † er mwyn Crist: [g] ‡ canys pan wyf wan, yna yr wyf gadarn.

d pen. 1. 4. a 4. 8—10, 17. a 7. 4. Act. 5. 41. Rhuf. 5. 3. a 8. 35—39. Phil. 1. 29. a 2. 17, 18. Col. 1. 24. Iago 1. 2. 1 Pedr 1. 6, 7. a 4. 13, 14. e Gwel ar pen. 11. 23—30. f pen. 4. 5, 11. Mat. 5. 11. a 10. 18. Luc 6. 22. Ioan 15. 21. 1 Cor. 4. 10. Dat. 2. 3. g Gwel ar adn. 9.—pen. 13. 4, 9. Eph. 6. 10.

* Nid gwendid pechadurus oedd yr apostol yn feddwl, ni buasai yn *foddlawn* mewn gwendid felly; eithr gair cyffredin ydyw, yn cynnwys yr holl bethau eraill a enwir yn yr adnod hon, ac felly y dylid ei ddeall yn gyffredin trwy yr epistol hwn. Mae y dyoddefiadau a enwir yma yn dangos gwendid y natur ddynol, ei bod yn ddarostyngedig i'r cyfryw bethau, yn cael ei gwanychu, a'i gwneyd yn ddirmygus drwyddynt, ac yn analluog o hôni ei hun i'w dyoddef, yn enwedig mewn modd addas. † Nid boddlawn i'r pethau chwerwon uchod er eu mwyn eu hunain oedd yr apostol, ond "er mwyn Crist;" hyny oedd yn melysu holl ddyfroedd Mara iddo ef. ‡ Pan oedd wàn yn ei deimlad ei hun, ac yn nghyfrif ei ddirmygwyr, yna yr oedd yn gadarn yn nerth ei Arglwydd bendigedig Iesu: ac felly y mae gyda phlant Duw bob amser.

11 * Mi a [h] aethum yn ffol wrth ymffrostio; chwychwi a'm gyrrasoch. † Canys myfi a ddylaswn gael fy nghanmol gennych chwi: [i] ‡ canys ni bûm i ddim yn ôl i'r apostolion pennaf, [k] ‖ er nad ydwyf fi ddim.

h pen. 1. 6. a 11. 1, 16, 17. i adn. 12. pen. 11. 5. 1 Cor. 3. 4—7, 22. Gal. 2. 6—14. k 1 Cor. 15. 9, 10. Eph. 3. 8.

* Hyny yw, os oedd y Corinthiaid yn cyfrif iddo fyned yn ffol wrth ymffrostio a dywedyd cymmaint am dano ei hun, y canlyniad oedd, mai hwy a'i gyrasant ef; † oblegid dylasent hwy ei amddiffyn ef a'i weinidogaeth, yn wyneb ei ddirmygwyr, ac nid ei adael, a rhoi gorfod arno amddiffyn ei hun. ‡ Gwel ar pen. 11. 5. Nid oedd efe ddim yn ol i'r apostolion penaf yn ei alwad, ei ddanfoniad, ei ddoniau, ei lafur, ei lwyddiant, na'i ddyoddefiadau: gallai gyfeirio at y Corinthiaid eu hunain am y gwirionedd o hyny, fel mae yn dangos yn yr adnod nesaf. ‖ Ar yr un pryd, yr oedd yn hawdd ganddo addef, nad oedd efe ynddo ei hunan, ac yn ei dŷb am dano ei hunan, ond crëadur tlawd, gwael, a diwerth, nad oedd o hóno ei hun i feddwl dim megys o hóno ei hunan, eithr ei holl ddigonedd ef oedd o Dduw, pen. 3. 5; 1 Cor. 3. 7.

12 [l] * Arwyddion apostol yn wir a weithredwyd yn eich plith chwi, † mewn pob amynedd, ‡ mewn arwyddion, ‖ a rhyfeddodau, § a gweithredoedd nerthol.

l pen. 6. 4—10. a 11. 4. Rhuf. 15. 18, 19. 1 Cor. 1. 5—7. a 9. 2. a 14. 18.

* Er nad oedd yr apostol ddim ynddo ei hun, yn ei olwg ei hun, nac mewn cymhariaeth i'w Arglwydd mawr; ac er nad oedd efe ddim yn nghyfrif y gau-athrawon chwyddedig yn Corinth; eto trwy Grist yr hwn oedd yn ei nerthu ef, yr oedd efe wedi dangos arwyddion amlwg o apostoliaeth yn mhlith y Corinthiaid, y cyfryw arwyddion ag oedd yn dynodi yr apostolion eraill yn apostolion i Grist, wedi eu galw, eu danfon, ac yn cael eu harddelwi ganddo ef a'i Ysbryd. † Yn gyntaf yr oedd wedi ymddwyn mewn pob amynedd yn eu plith, dàn yr holl angenion, y caledi, a'r trallodion a ddyoddefasai efe yno wrth bregethu yr efengyl iddynt. ‡ Yr oedd ei athrawiaeth hefyd wedi cael ei chadarnâu drwy wyrthiau o amryw fath, y rhai oeddynt "arwyddion" amlwg o fod Duw gydag ef, ac yn ei arddelwi yn ei waith. ‖ Gellid ystyried y gwyrthiau, neu yr arwyddion hyny yn "rhyfeddodau," fel yr oeddynt yn weithrediadau rhyfeddol o allu Duw, goruwch, ac yn erbyn trefn gyffredin natur: § ac yn yr ystyr hyn gellid eu galw yn weithredoedd nerthol; fel yr oeddynt yn cyflawni y pethau mwyaf anhawdd, yr hyn nis gallai dim llai na braich holl-alluog Duw eu cyflawni.

13 * Canys beth yw yr hyn y buoch chwi yn ol am dano, mwy na'r eglwysi eraill, [m] † oddi eithr am na bûm i fy hun ormesol arnoch? [n] maddeuwch i mi hyn o gam.

m adn. 14. pen. 11. 8, 9. 1 Cor. 9. 6, 15—18. n pen. 11. 7.

* Yn mha beth yr oedd y Corinthiaid yn ol i eglwysi eraill, lle y bu Pedr, neu Ioan, neu rai o'r apostolion eraill yn llafurio? oni phregethodd Paul yr un athrawiaeth iddynt hwythau? oni wnaed cymmaint gwyrthiau yn eu plith hwynt? oni thywalltwyd yr Ysbryd Glân a'i ddoniau mòr helaeth arnynt hwy â neb o'r eglwysi eraill? Fel hyn nid oeddynt hwy yn ol am ddim, mwy na'r eglwysi eraill, † oddi eithr am na buasai yr apostol ei hun yn ormesol arnynt, trwy gymmeryd tâl am ei lafur yn eu plith; os oedd neb o honynt yn cyfrif hyny yn gam ac yn fai ynddo, mae yn gofyn maddeuant am un cam, a'r unig fai hwnw. Tybia rhai mai mewn gwawdiaith mae efe yn gofyn maddeuant yma; ond tybia eraill ei fod o ddifrif yn ei ofyn; o herwydd bod y ffyddloniaid y pryd hwnw mòr garedig a dïolchgar i'w hathrawon, fel yr oeddynt yn tristâu os na chymmerent rywbeth ganddynt, ac yn barod i dramgwyddo, gan feddwl ei fod yn arwydd o ddirmyg a dïystyrwch ynddynt.

14 [o] * Wele, y drydedd waith yr wyf fi yn barod i ddyfod attoch; † ac ni byddaf ormesol

arnoch: [p] ‡ canys nid ydwyf yn ceisio yr
eiddoch chwi, ond chwychwi: [q] || canys ni
ddylai y plant gasglu trysor i'r rhïeni, ond y
rhïeni i'r plant.

o pen. 1. 15. a 13. 1. 1 Cor. 4. 19. a 11. 34. a 16. 5. p Diar. 11. 30. Act. 20. 33. Phil. 4. 1, 17. 1 Thes. 2. 5, 6, 19, 20. 1 Pedr 5. 2—4. q Gen. 24. 35, 36. a 31. 14, 15. Diar. 13. 22. a 19. 14. 1 Cor. 4. 14, 15. 1 Thes. 2. 11.

* Unwaith y buasai Paul yn Corinth y pryd hwn ar a wyddom ni; a bwriadodd yn fynych ymweled â hwy, ac amlygodd y bwriadau hyny, ond lluddiwyd ef yn mhob un o honynt. Pa fodd bynag, y drydedd waith hon, yr oedd yn llawn ddysgwyl y deuai efe atynt, † ac yr oedd yn penderfynu na byddai efe ormesol arnynt mewn tâl na chynnaliaeth mwy na'r tro cyntaf. ‡ Nid eu meddiannau a'u heiddo bydol hwy oedd ef yn geisio; eithr ennill ac achub eu heneidiau oedd ei wir amcan a'i ymgais ef. || Canys ni ddylai y plant gasglu trysor i'r rhieni, ond y rhïeni i'r plant: felly yntau, fel eu tad ysbrydol hwy yn Nghrist, yr oedd yn penderfynu gwneyd a allai i'w cyfoethogi hwy â bendithion ysbrydol, heb gymmeryd dim o'u pethau tymmorawl hwynt.

15 [r] * A myfi yn ewyllysgar iawn a dreuliaf, ac a ymdreuliaf, dros eich eneidiau chwi, [s] † er fy mod yn eich caru yn helaethach, ac yn cael fy ngharu yn brinnach.

r adn. 9. pen. 1. 6, 14. a 2. 3. a 7. 3. Ioan 10. 10, 11. Gal. 4. 10. Phil. 2. 17. Col. 1. 24. 1 Thes. 2. 8. 2 Tim. 2. 10. s pen. 6. 12, 13. 2 Sam. 13. 39. a 17. 1—4. a 18. 33. 1 Cor. 4. 8—18.

* I'r dyben uchod, yr oedd yr apostol yn ewyllysgar iawn i dreulio ei amser, ei ddawn, ei iechyd, a'i nerth, dros eneidiau y Corinthiaid, ac i ymdreulio allan er eu lles ysbrydol a chadwedigol hwynt: † er, po helaethaf yr oedd ef yn eu caru hwynt, prinaf yr oedd yn cael ei garu ganddynt. Dyna'r tâl oedd efe yn gael gan rai yn Corinth; ei garu ef yn brinach, po mwyaf yr oeddynt yn ei weled ef yn eu caru hwy.

16 * Eithr bid, [t] ni phwysais i arnoch:
† ond, [u] gan fod yn gyfrwys, mi a'ch deliais
chwi trwy ddichell.

t adn. 13. pen. 11. 9, 10. u pen. 1. 12. a 4. 2. a 7. 2. a 10. 2, 3. 1 Thes. 2. 3, 5. 2 Pedr 2. 3.

* Eithr bydded eich cariad a'ch ymddygiad chwi tuag ataf fi fel y byddo, chwi a wyddoch na phwysais I arnoch, i gael fy nghynnal genych, ond i mi bregethu yr efengyl i chwi yn rhad. † Eto, wedi fy holl hunanymwadiad yn hyn, mi a wn fod rhai o'm gwrthwynebwyr yn eich plith chwi yn ceisio lled-daeru, fy mod I yn ddyn cyfrwys, yn gwrthod cymmeryd dim fy hunan, fel y gallwn eich dàl chwi felly yn dwyllodrus, a'ch tynu i mewn i fod yn fwy haelionus i rai eraill o'm cyfeillion a ddaeth gyda mi, neu a ddanfonais i'ch plith; ac fel hyny trwy dwyll, i gael ychwaneg i mi fy hunan trwyddynt hwy. Tybia rhai mai geiriau yr apostol ei hun yw y geiriau uchod, ond tybia eraill yn fwy cywir o lawer, mai cyhuddiad anwireddus y gau-athrawon yn ei erbyn ef ydynt, ac yn cael ei grybwyll yma ganddo ef, i'r dyben o'i ymddiffyn ei hun rhagddo yn yr adnodau canlynol.

17 [x] * A wneuthum i elw o honoch chwi
trwy neb o'r rhai a ddanfonais attoch?

x adn. 18. 2 Bren. 5. 16, 20—27. 1 Cor. 4. 17. a 16. 10.

* Yn atebiad i'r fath gyhuddiad anghyfiawn a disail, mae yr apostol yn gofyn yn ëofn, a fedrai neb o honynt hwy enwi unrhyw berson a ddanfonasai efe atynt, trwy yr hwn y gwnaethai efe erioed elw o honynt. Efe a ddanfonasai atynt i geisio cymmorth i'r saint tlodion yn Judea, ond nid erioed i wneyd elw iddo ei hun.

18 [y] * Mi a ddeisyfais ar Titus, a chyd âg
ef mi a anfonais frawd: † a elwodd Titus ddim
arnoch? [z] ‡ onid yn yr un yspryd y rhodiasom? [a] onid yn yr un llwybrau?

y pen. 2. 2, 13. a 7. 6. z pen. 8. 6, 16—23. Phil. 2. 19—22. a Num. 16. 15. 1 Sam. 12. 3, 4. Neh. 5. 14. Act. 20. 33—35. Rhuf. 4. 12. 1 Pedr 2. 21.

* Am ddanfoniad Titus a'r brawd hwn, gwelsom o'r blaen, pen. 8. 6, 16, 18, 22, gwel ar y mànau hyny. † A phan oedd y ddau hyny yn Corinth, a ddarfu i Titus neu y brawd arall elwa rhywbeth arnynt hwy, am eu llafur eu hunain neu i Paul? ‡ Onid yn yr un ysbryd hunan-ymwadol a diariangar y rhodiasant hwy ac yntau? oni chanlynasant hwy ei esampl ef yn hollawl, o wneuthur daioni yn rhad? Pwy o'i gyhuddwyr ef a fedrai brofi i'r gwrthwyneb? dyma feiddiad a chyfle têg iddynt wneyd hyny os gallent. Nid tebyg iawn y danfonai Paul neb atynt ond dynion o'r un ysbryd a llwybrau âg ef ei hun.

19 * Drachefn, [b] a ydych chwi yn tybied
mai ymesgusodi yr ydym wrthych? [c] † ger
bron Duw yng Nghrist yr ydym yn llefaru;
[d] ‡ a phob peth, [e] anwylyd, er adeiladaeth i
chwi.

b pen. 3. 1. a 5. 12. c Gwel ar pen. 11. 10, 31. d pen. 5. 13. a 10. 8. a 13. 10. 1 Cor. 9. 12—23. a 10. 33. a 14. 26. e adn. 15. pen. 7. 1. Rhuf. 12. 19. 1 Cor. 10. 14. Phil. 4. 1.

* Drachefn, a ydych chwi yn tybied fy mod yn dywedyd fel hyn am danaf fy hun a'r ddau frawd uchod, er mwyn ein canmol ein hunain, a gweithio ein hunain i barch a chymmeradwyaeth gyda chwi er mwyn rhyw gau-ddybenion? Neu, a ydych chwi yn tybied i mi ddanfon Titus a'r brawd arall atoch er mwyn esgusodi fy hun rhag dyfod? † Yr wyf yn tystiolaethu yn ddifrifol ger bron yr holl-wybodol Dduw, fel apostol Iesu Grist, a chredadyn ynddo ef, mai nid felly mae y peth; ‡ ond, fy anwyl frodyr yn yr Arglwydd, pa beth bynag a wnaethum tuag atoch chwi, yn hyn a phobpeth arall, er adeiladaeth i chwi y gwnaethum. Adeiladaeth ysbrydol dynion a ddylai fod prif amcan holl weinidogion yr efengyl yn yr hyn oll a wnelont: sonia Paul yn aml iawn am wneyd pob peth er adeiladaeth: os Crist yw y *sylfaen;* tröedigaeth pechaduriaid at Grist yw yr *adeiladaeth*, a'u hadeiladu ar Grist: neu, os y cyfraniad cyntaf o ras yn yr enaid a olygir yn *sylfaen; adeiladaeth* yw myned yn mlaen o ffydd i ffydd, cynnyddu mewn gras a gwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist, a myned rhagddom at berffeithrwydd. Dylai pob gweinidog yr efengyl wneyd *adeiladaeth* yn y ddau ystyr uchod, ei brif amcan: oblegid drwy hyn mae Duw yn cael ei ogoneddu, eneidiau yn cael eu llesâu, a'u hachub yn dragywyddol.

20 * Canys ofni yr wyf, rhag pan ddelwyf,
[f] na'ch caffwyf yn gyfryw rai ag a fynnwn,
[g] † a'm cael innau i chwithau yn gyfryw ag
nis mynnech: ‡ rhag *bod* [h] cynhenau, cenfig-
enau, llidiau, ymrysonau, goganau, [i] || hus-
tyngau, [k] ymchwyddiadau, anghydfyddiaethau:

f adn. 21. pen. 13. 9. g pen. 1. 23, 24. a 2. 1—3. a 10. 2, 6, 8, 9. a 13. 2, 10. 1 Cor. 4. 18—21. a 5. 3—5. h 1 Cor. 1. 11. a 3. 3, 4. a 4. 6—8, 18. a 6. 7, 8. a 11. 16—19. a 14. 36, 37. Gal. 5. 15, 19—21, 26. Eph. 4. 31, 32. Iago 3. 14—16. a 4. 1—5. 1 Pedr 2. 1. i Salm 41. 7. Diar. 16. 28. Rhuf. 1. 29. k 2 Pedr 2. 28. Judas 16.

* Yr oedd yr apostol yn ofni yn fawr, rhag pan ddelai efe i Corinth, wedi yr oediadau a wnaethai efe yn fwriadol gan ddysgwyl iddynt ddiwygio, y caffai efe yr eglwys o hyd, yn mhell iawn o'r agwedd bur hòne a ddymunai efe; † ac na chaent hwythau mo hóno ef mòr dirion a mwynaidd ag y dymunent ei gael: os caffai efe bethau a phersonau yn feïus ac afrëolus yn eu plith, byddai raid iddo arfer toster tuag atynt. ‡ Dyma *wyth* o bethau dychrynllyd iawn i feddwl eu bod mewn eglwys; a lle byddo un o honynt, yn gyffredin e fydd pob un; gwyddai Paul fod yr hen lefain hyn yn Corinth ychydig amser yn ol, ac yr oedd yn ofni nad oedd eto wedi ei lwyr garthu allan nid â y rhywogaeth hon allan ond trwy ympryd a gweddi: ni olchir y budreddi hyn o Sïon, ni cherthir y gwaed drwg hwn o Jerusalem, ond drwy ysbryd barn a thrwy ysbryd llosgfa.

|| Mwngial, neu ddywedyd chwedlau drwg yn ddistaw: am y geiriau eraill, nid oes achos manylu arnynt: dedwydd yw yr hwn ni ŵyr trwy brofiad beth ydyut.

21 * Rhag, pan ddelwyf drachefn, fod [l] i'm Duw fy narostwng yn eich plith, [m] ac i mi ddwyn galar dros lawer, [n] y rhai a bechasant eisoes, [o] ac nid edifarhasant am yr [p] aflendid, a'r godineb, a'r anlladrwydd a wnaethant.

l adn. 7. pen. 8. 24. a 9. 3, 4. m pen. 2. 1—4. Ex. 32. 31. Deut. 9. 15, 25. 1 Sam. 15. 35. Ezra 9. 3. a 10. 1. Salm 119. 136. Jer. 9. 1. a 13. 17. Luc 19. 41, 42. Rhuf. 9. 2. Phil. 3. 18, 19. n pen. 13. 2. o pen. 2. 5—11. a 7. 9—11. a 10. 6. 1 Cor. 6. 9—11. Dat. 2. 20—22. p Rhuf. 13. 13. 1 Cor. 5. 1, 9—11. a 6. 15—18. Gal. 5. 19. Eph. 5. 5, 6. Col. 3. 5. 1 Thes. 4. 3—7. Heb. 13. 4. 1 Pedr 4. 2, 3. 2 Pedr 2. 10—14, 18. Judas 7, 23. Dat. 21. 8. a 22. 15.

* Yn yr olwg ar y pethau blinion uchod, ofnai yr apostol pan ddelai i Corinth, mai ychwaneg o'r "swmbwl yn y cnawd" a gaffai; ac y byddai ei ymweliad yn achos darostyngiad a gofid iddo, yn hytrach na chysur a llawenydd. † Ofnai y byddai raid iddo alaru yn drwm dros lawer a bechasent eisoes, ac nid edifarasent am yr aflendid, y godineb a'r anlladrwydd a wnaethent. Mae yr adnodau diweddaf hyn yn dangos i ba rysedd ofnadwy, yr oedd y gau-athrawon chwyddedig wedi tynu eu canlynwyr hudol: ac nad oedd y dyn godinebus, (1 Cor. 5. 1.) yr hwn a ddygesid i edifeirwch, ond un o lawer, o rai a gyflawnasent bechodau cyffelyb; ac a safent i fynu mòr gadarn ynddynt, fel yr oedd perygl rhag iddynt gyduno i wrthsefyll awdurdod yr apostol, ac felly peri gorfod arno i arfer toster a llymder mawr. Gresyn iawn oedd fod pethau mòr druenus â hyn yn *Corinth;* yn mhlith dynion oedd newydd ddad-ymsoddi o dywyllwch ac aflendid paganiaeth; ond mwy gresyn o lawer, od oes pethau cyffelyb yn mhlith proffeswyr ein gwlad a'n hoes ni: byw mewn pechodau gwarthus, a chael plaid er hyny, i sefyll i fynu yn erbyn dysgyblaeth eglwysig. Yr Arglwydd a dŷr ymaith y gŵr a wnel hyn, yr athraw a'r dysgybl o bebyll Jacob, ac offrymydd offrwm i Arglwydd y lluoedd.

PEN. XIII.

Bygwth pechaduriaid diedifeiriol, &c.

[a] * Y DRYDEDD waith hon yr ydwyf yn dyfod attoch. [b] † Yng ngenau dau neu dri o dystion y bydd safadwy pob gair.

a Gwel ar pen. 12. 14. b Num. 35. 30. Deut. 17. 6. a 19. 15. 1 Bren. 21. 10, 13. Mat. 18. 16. a 26. 60, 61. Ioan 8. 17, 18. Heb. 10. 28.

* Gwel ar pen. 12. 14. Nid y drydedd waith yr oedd ar ei daith atynt, ond y drydedd waith yr oedd yn bwriadu ac yn darpar i ddyfod. † Fel y gorchymynodd Duw trwy Moses na roddid neb i farwolaeth ond trwy ddau neu dri o dystion, (Deut. 17. 6: a 19. 15.) ac megys y gorchymynodd yr Arglwydd Iesu ymddwyn yn yr eglwys tuag at frawd a droseddai; (Matt. 18. 16,) felly yr oedd yr amryw rybuddion a roddasai Paul, o'i fwriad i ddyfod a chospi y troseddwyr anedifeiriol yn Corinth, megys yn dystiolaethau yn eu herbyn hwy, ac yn gwneuthur ffordd i'r ceryddon neu y cospedigaethau hyny. Yn ei epistol cyntaf, soniodd am ddyfod atynt i gospi y rhai beïus; (1 Cor. 4. 19, 21.) ac yr oedd Sosthenes yno yn dyst o'r hyn a ddywedodd; (1 Cor. 1. 1,) yn rhanau blaenaf yr epistol hwn mae eilwaith yn eu rhybuddio; ac yma drachefn wrth ei orphen; ac yma mae Timothëus yn dyst o'r hyn a ddywedodd, yr hyn sydd lawn digon, fel pe byddai gynnifer o dystion yn tystiolaethu mewn llŷs gwladol.

2 [c] * Rhag-ddywedais i chwi, ac yr ydwyf yn rhag-ddywedyd fel *pe bawn* yn bresennol yr ail waith, [d] † ac yn absennol yr awrhon yr ydwyf yn ysgrifenu at y rhai a bechasant [e] eisoes, ac at y lleill i gyd, os deuaf drachefn, nad arbedaf:

c pen. 1. 23. a 10. 1, 2, 8—11. a 12. 20. 1 Cor. 4. 19—21. a 5. 5. d adn. 10. e pen. 12. 21.

* Yn ei lythyr cyntaf efe a'u rhybuddiodd hwynt pa beth a wnelai, ac yma eto mae yn eu rhybuddio hwy yr ail waith, yr hyn sydd yn dangos pa mòr anodd oedd ganddo ef arfer eithaf ei awdurdod os gallai mewn un modd beidio, ac yr hyn a ddylasai gael yr un effaith arnynt hwy â phe buasai efe gyda hwynt yn bresenol: † ond yn ei absenoldeb personol, mae efe yn awr yn ysgrifenu at y rhai oedd wedi pechu cyn a chwedi ei lythyr cyntaf ef, ac at y lleill i gyd, nad arbedai efe neb o'r rhai beïus ac anedifeiriol, os deuai drachefn atynt: fel pe dywedasai, Pwy bynag, a pha fath bynag ydynt, a pha nifer bynag sydd o honynt, mi a arferaf doster tuag atynt; fel y dyger hwy i edifeirwch, ac fel yr arswydo eraill ddilyn eu hesampl bechadurus hwy, 1 Tim. 5. 20.

3 * Gan eich bod yn [f] ceisio profiad o [g] Grist yr hwn sydd yn llefaru ynof, [h] † yr hwn tu ag attoch chwi nid yw wan, eithr sydd nerthol ynoch chwi.

f pen. 10. 8—10. g pen. 2. 10. Mat. 10. 20. a 18. 18—20. Luc 21. 15. 1 Cor. 5. 4, 5. h pen. 2. 6. a 3. 1—3. a 12. 12. 1 Cor. 9. 1—3.

* Er i'r Corinthiaid gael arwyddion helaeth a grymus o allu Crist yn llefaru yn, ac yn gweithredu trwy, yr apostol, pan oedd efe gyda hwynt; eto yr oedd yno rai o hyd, yn enwedig y gau-athrawon, mòr hŷf ag ammau ei anfoniad a'i awdurdod apostolaidd ef, ac yn ceisio profiad o Grist yn llefaru ac yn gweithredu ynddo. † Ni bu hyny ddim yn ol nac yn wàn tuag atoch chwi, ebai yr apostol, ond bu yn nerthol ynoch chwi, yn eich dychweliad oddiwrth eilunod mudion i broffesu a gwasanaethu y Duw byw; ond gan eich bod o hyd yn amman, ac yn ceisio chwaneg o brofiad o nerth Crist ynof, mi a ddangosaf i chwi brofiad o fath arall, yn y toster a arferaf tuag at y rhai pechadurus yn eich plith.

4 * Canys er ei [i] groeshoelio ef o ran gwendid, [k] † etto byw ydyw trwy nerth Duw: [l] ‡ canys ninnau hefyd ydym weiniaid ynddo ef, [m] || eithr byw fyddwn gyd âg ef trwy nerth Duw tu ag attoch chwi.

i Luc 22. 43, 44. Ioan 10. 18. 1 Cor. 15. 43. Phil. 2. 7, 8. Heb. 5. 7. 1 Pedr 3. 18. k Act. 2. 36. a 4. 10—12. Rhuf. 6. 4, 9, 10. a 14. 9. Eph. 1. 19—23. Phil. 2. 9—11. 1 Pedr 3. 18, 22. Dat. 1. 17, 18. l pen. 4. 7—12. a 10. 3, 4, 10. 1 Cor. 2. 3. m Act. 3. 16. Rhuf. 6. 8—11.

* Canys er croeshoelio Crist, fel pe na buasai ond dyn gwàn a digymmorth yn unig; ac er ei ddirmygu ef fel un analluog i'w achub na'i waredu ei hunan; † eto cyfodwyd ef o feirw, i fyw byth mewn gogoniant, trwy nerth anfeidrol Duw. ‡ Mewn cyffelyb fodd, yr oedd yr apostol a'i frodyr yn ymddangos yn weiniaid a dirmygus yn Nghrist, am eu cyd-ffurfio âg ef; ac yr oedd y *nerth* y sonient hwy am dano, debygid yn *farw*, am nad oeddynt hwy yn ei arfer ef; || eto yr oeddynt yn gwybod yr adfywiai, ac y caent hwy eu bywâu yn amlwg, a'u cynnysgaethu â gallu Duw, i drin y rhai beïus ac anhywaith yn Corinth, efallai â barn wyrthiol. Mae yr iaith hon tuag at y Corinthiaid afrëolus, yn cynnwys y prawf cadarnaf, y gwyddai yr apostol ei fod yn llefaru ac yn gweithredu drwy awdurdod ddwyfol; ac nad oedd yn ofni y delid ef allan yn dwyllodrus, ac ei fod yn sicr y dygai Duw ei holl wrthwynebwyr ef i warth.

5 [n] * Profwch chwychwi eich hunain, a ydych [o] yn y ffydd; † holwch eich hunain. [p] ‡ Ai nid ydych yn eich adnabod eich hunain, [q] || *sef* bod Iesu Grist ynoch, § oddi eithr i chwi fod yn [r] anghymmeradwy?

n Salm 17. 3. a 26. 2. a 119. 59. a 139. 23, 24. Galar. 3. 40 Ezec. 18. 28. Hag. 1. 5, 7. 1 Cor. 11. 28, 31. Gal. 6. 4. Heb. 4. 1. a 12. 15. Dat. 2. 5. a 3. 2, 3. o Col. 1. 23. a 2. 7. 1 Tim. 2. 15

Tit. 1. 13. a 2. 2. 1 Pedr 5. 9. p 1 Cor. 3. 16. a 6. 2, 15, 19. a 9. 24. Iago 4. 4. q pen. 6. 16. Ioan 6. 56. a 14. 23. a 15. 5. a 17. 23, 26. Gal. 2. 20. a 4. 19. Eph. 2. 20—22. a 3. 17. Col. 1. 27. a 2. 19. 1 Pedr 2. 4, 5. r adn. 6, 7. Jer. 6, 30. Rhuf. 1. 28. 2 Tim. 3. 8. Tit. 1. 16.—1 Cor. 9. 27. Heb. 6. 8.

* Yn lle barnu yr apostol yn rhyfygus ac ar gam, a gofyn yn watwarus am brofiad o'i awdurdod apostolaidd ef; yr oedd yn fwy gweddus i'r bobl hyn, ac yn wir i'r holl broffeswyr yn Corinth, i brofi eu hunain a oeddynt hwy mewn gwirionedd yn y ffydd; a pha un a oedd ganddynt hwy rywbeth heblaw proffes ffurfiol, a ffydd farw. † Holent a phrofent hwy eu hunain, eu hysbryd, eu hymarweddiad, a'u profiad, wrth rëol gair Duw, fel y profir aur wrth y maen prawf; oblegid yr oedd yr apostol yn ofni fod llawer o honynt yn eu twyllo eu hunain yn y mater mawr a phwysig hwn. ‡ Gwedi eu holl ymffrost o'u mawr wybodaeth, mae yr apostol yn gofyn iddynt, a oeddynt hwy ddim yn eu hadnabod eu hunain, eu cyflwr, eu calonau, a'u hagweddau fel cristionogion. ‖ Gwedi gofyn mòr hŷf am brofiad o Grist ynddo *ef*, peth trwm oedd os na wyddent hwy pa un a oedd Crist yn trigo trwy ffydd, trwy breswyliad ei Ysbryd, yn ei ddelw sanctaidd, ac yn ei deyrnas a'i lywodraeth, yn eu calonau hwy eu hunain: § ac os nad oedd felly, nid oeddynt hwy wedi y cwbl, ac nid yw neb arall, ond rhith gristionogion yn unig, yn anghymmeradwy gan Dduw, ac i gael eu gwrthod yn y diwedd, fel y sothach gan y toddydd.

6 [s] * Ond yr wyf yn gobeithio y gwybyddwch nad ydym ni yn anghymmeradwy.

s adn. 3, 4, 10. pen. 12. 20.

* Ond pa fodd bynag y caffai neb o'r Corinthiaid eu hunain yn y profiad, yr oedd yr apostol yn hyderu yn ostyngedig ar ras a nerth Crist, y caent hwy ddigon o amlygrwydd nad oedd efe a'i frodyr yn anghymeradwy, trwy yr hyn a wnelai yr Arglwydd yn mhellach trwyddynt hwy: os medrent hwy brofi eu hunain yn y ffydd, a bod Iesu Grist ynddynt, hwy a brofent ar yr un pryd fod Paul yn wir apostol; oblegid ffrwyth ei apostoliaeth ef oeddynt hwy, trwy ei weinidogaeth ef y dychwelwyd hwy i'r ffydd, ac y ffurfiwyd Crist ynddynt; felly nis gallent wadu apostoliaeth Paul, heb addef hefyd nad oedd ganddynt un prawf o'u gwir dröedigaeth.

7 [t] * Ac yr wyf yn gweddïo ar Dduw na wneloch chwi ddim drwg; † nid fel yr ymddangosom ni yn [u] gymmeradwy, ‡ ond fel y gwneloch chwi yr hyn sydd [x] dda, ‖ er bod o honom ni megis rhai [y] anghymmeradwy

t adn. 9. 1 Cron. 4. 10. Mat. 6. 13. Ioan 17. 15. Phil. 1. 9—11. 1 Thes. 5. 23. 2 Tim. 4. 18. u pen. 6. 4. a 10. 18. Rhuf. 16. 10. 1 Cor. 11. 19. 2 Tim. 2. 15.—Iago 1. 12. x pen. 8. 21. Rhuf. 12. 17. a 13. 13. Phil. 4. 8. 1 Tim. 2. 2. 1 Pedr 2. 12. y pen. 6. 8, 9. a 10. 10. 1 Cor. 4. 9—13.

* Yma mae yr apostol yn gweddïo dros y Corinthiaid, na wnelent hwy ddim drwg, na bod yn euog o anwiredd yn erbyn Duw, nac yn erbyn neb arall, ond yn hytrach edifarâu am yr hyn a wnaethent: † nid fel yr ymddangosai efe a'i gyfeillion yn gymmeradwy, trwy ddarostyngiad pob plaid o honynt i'w awdurdod ef; ‡ ond fel y gwnelent hwy yr hyn oedd dda ac yn gweddu iddynt, ‖ er cael o hóno ef ei anghymmeradwyo a'i feïo; ïe, ei ystyried heb awdurdod apostol ganddo, o herwydd na byddai achlysur iddo ei arferyd mewn cosp ar y troseddwyr anedifeiriol. Gwell oedd gan yr apostol gael ei ystyried ganddynt hwy yn anghymmeradwy, ac heb awdurdod apostol ganddo, ond iddynt hwy wneyd yr hyn oedd dda; na dangos ei awdurdod, a'i gymmeradwyaeth gan Dduw, trwy roddi cospau gwyrthiol ar neb o honynt am wneuthur drwg.

8 [z] * Canys ni allwn ni ddim yn erbyn y gwirionedd, † ond dros y gwirionedd.

z adn. 10. pen. 10. 8. Num. 16. 28—35. 1 Bren. 22. 28. 2 Bren. 1. 9—13. a 2. 23—25. Diar. 26. 2. Marc 9. 39. a 16. 17—19. Luc 9. 49—56. Act. 4. 28—30. a 5. 1—11. a 13. 3—12. a 19. 11—17. 1 Cor. 5. 4, 5. 1 Tim. 1. 20. Heb. 2. 3, 4.

* Os gwnâi y Corinthiaid ddrwg, nis gallai yr apostol eu harbed; oblegid gweithredu yn erbyn y gwirionedd fuasai hyny, ac nis gallai efe ddim yn erbyn y gwirionedd: o'r tu arall, os gwnaent hwy yr hyn oedd dda, nis gallai efe arfer toster tu ag atynt, gweithredu yn erbyn y gwirionedd fuasai hyny, ac ni allai efe ddim yn erbyn y gwirionedd. † Nis gallai efe na'i frodyr ddim yn erbyn y gwirionedd a ymddiriedwyd iddynt, ond pob dawn, awdurdod, a gallu gwyrthiol a roddwyd iddynt, yr oeddynt i'w arfer *dros* y gwirionedd, ac o *blaid* yr efengyl; ac nid gwneyd dim oddi ar dueddiadau a theimladau dynol a phersonol, er dïal ar y naill law, nac arbed o dynerwch cnawdol ar y llaw arall. A phe buasent hwy yn cynnyg gwneyd gwyrth *yn eu hysbryd eu hunain*, er chwanegu eu hanrhydedd, neu er dïal ar eu gwrthwynebwyr, yn groes i ewyllys Duw, a llesâd gwir grefydd, ni buasai Duw yn rhoddi ei nerth i bleidio y fath ysbryd ac ymddygiad cyfeiliornus; ac felly buasai eu cynnygiad yn ofer: fel hyn ni allent hwy ddim yn erbyn y gwirionedd, ond dros y gwirionedd.

9 * Canys llawen ydym [a] pan fyddom ni yn weiniaid, † a chwithau yn gryfion: ‡ a hyn hefyd yr ydym yn ei ddymuno, [b] *sef* eich perffeithrwydd chwi.

a adn. 8. pen. 11. 30. a 12. 5—10. 1 Cor. 4. 10. b adn. 7, 11. pen. 7. 1. Eph. 4. 13. Phil. 3. 12—15. Col. 1. 28. a 4. 12. 1 Thes. 3. 10. 2 Tim. 3. 17. Heb. 12. 23. a 13. 21. 1 Pedr 5. 10.

* Ond yr oedd yr apostol a'i frodyr yn caru eneidiau y Corinthiaid lawer yn fwy nâ'u hanrhydedd eu hunain; a buasai yn llawen iawn ganddynt fod yn "weiniaid" o ran gallu ac awdurdod i gospi, megys pe buasent mewn gwirionedd heb feddu y fath allu ac awdurdod; † ond iddynt hwy fod yn gryfion mewn edifeirwch, ffydd, sancteiddrwydd, ac ufudd-dod duwiol, fel na byddai raid arfer y fath awdurdod; ‡ ac yn wir hyn oedd prif ddymuniad eu calonau hwy, sef perffaith adsefydliad y Corinthiaid yn ffydd a sancteiddrwydd yr efengyl; fel dyn yn cael ei berffaith adferu o glefyd peryglus, neu o dòriad neu ddadgymmaliad ei esgyrn.

10 * Am hynny myfi yn absennol [c] ydwyf yn ysgrifenu y pethau hyn, [d] † fel pan fyddwyf bresennol nad arferwyf doster, yn ol yr awdurdod a roddes yr Arglwydd i mi ‡ er adeilad, ac nid er dinystr.

c pen. 2. 3. a 10. 2. a 12. 20, 21. 1 Cor. 4. 21. d Gwel ar adn. 2, 8.

* Gan hyny, ei ddyben ef yn ysgrifenu y pethau hyn atynt cyn ei ddyfod i Corinth oedd, fel y câent hwy amser i ddiwygio, ac ymadferu yn berffaith fel y sylwyd uchod: † fel na byddai raid iddo ef, yn groes i'w ewyllys, arfer toster tuag at neb o honynt, yn ol yr awdurdod apostolaidd a roddes yr Arglwydd iddo ef; ‡ i'w defnyddio er adeiladaeth y credinwyr, ac i ddwyn pechaduriaid i edifeirwch, ac felly rhagflaenu eu dinystr tragywyddol hwynt. Gwel ar pen. 10. 8; a 12. 19.

11 * Bellach, frodyr, [e] † byddwch wych. [f] ‡ Byddwch berffaith, [g] ‖ diddaner chwi, [h] § syniwch yr un peth, [i] * byddwch heddychol: [k] † a Duw y cariad a'r heddwch a fydd [l] gyd â chwi.

e Luc 9. 61. Act. 15. 29. a 18. 21. a 23. 30.—Phil. 4. 4. 1 Thes. 5. 16. f adn. 9. Mat. 5. 48. Ioan 17. 23. Iago 1. 4. 1 Pedr 5. 10. g pen. 1. 4. Marc 10. 49. Rhuf. 15. 13. 1 Thes. 4. 18. 2 Thes. 2. 16, 17. h Rhuf. 12. 16. a 15. 5, 6. 1 Cor. 1. 10. Phil. 1. 27. a 2. 1—3. a 3. 16. a 4. 2. 1 Pedr 3. 8. i Gen. 37. 4. a 45. 24. Marc 9. 50. Rhuf. 12. 18. a 14. 19. 1 Thes. 5. 13. 2 Tim. 2. 22. Heb. 12. 14. Iago 3. 17, 18. 1 Pedr 3. 11. k Rhuf. 15. 33. a 16. 20. Phil. 4. 9. 1 Thes. 5. 23. Heb. 13. 20. 1 Ioan 4. 8—16. l adn. 14. Mat. 1. 23. 2 Thes. 3. 16. Dat. 22. 21.

* Yma mae yr apostol yn diwedd-gloi y llythyr tra addysgiadol hwn, gyda'i gyfarchiadau brawdol a chyfeillgar, a'i weddïau a'i ddymuniadau serchiadol, am lwyddiant presenol a pharâus y cristionogion yn Cor-

inth. Gwedi pob argyhoeddion a cheryddon, mae yr apostol yn ystyried fod llawer o frodyr anwyl yn Corinth, ac yn eu cyfarch fel y cyfryw, mewn ysbryd perffaith dawel a heddychol ar ddiwedd ei epistol atynt. † "Byddwch wŷch:" *(chairete)* henffych well i chwi: pob daioni, llwyddiant, dedwyddwch, a llawenydd i chwi, yn y byd hwn, a byth. ‡ Ymgeisiwch at berffaith sancteiddrwydd tuag at Dduw, perffaith gariad tuag at eich gilydd, ac ail-drefniad perffaith ar y pethau sydd allan o drefn yn eich plith, fel y byddoch wedi eich cyd-gyssylltu yn berffaith yn un corph. || "Diddaner chwi:" *(parakaleisthe)* mae y gair yn arwyddo *cyngori, diddanu, cadarnâu:* cymmerwch eich *cyngori* i ufuddâu i'm gorchymynion a'm cyngorion I: *diddaner* chwi yn eich holl drallodau presenol, neu a ddelo arnoch o herwydd yr efengyl: *cadarnâer* chwi yn ngwirionedd a ffyrdd sanctaidd Duw. § "Sŷniwch yr un peth:" os bydd yn bosibl, byddwch o'r un farn a'ch gilydd am wirionedd Duw; pa fodd bynag, amcanwch at yr un dybenion, a byddwch yn un mewn serchiadau at eich gilydd. * "Byddwch heddychol:" gwyliwch rhag y cynhenau, y cenfigenau, y llidiau, a'r ymrysonau, &c., y soniais I wrthych o'r blaen am danynt, fel pethau beïus a niweidiol iawn yn eich plith. † Dyma'r ffordd i gael presenoldeb Duw gyda chwi, oblegid nid Duw cynhenau ac anghydfod yw efe, eithr Duw y cariad a'r heddwch, yr hwn sydd yn gorchymyn cariad a heddwch yn mhlith y brodyr, a'r saint, ac a rydd ei bresenoldeb yn unig lle mae cariad a heddwch yn ffŷnu.

12 [m] * Anherchwch eich gilydd â chusan sanctaidd. [n] Y mae yr holl saint yn eich annerch chwi.

m Rhuf. 16. 16. 1 Cor. 16. 20. 1 Thes. 5. 26. 1 Pedr 5. 14. n Rhuf. 16. 16, 21—23. Phil. 4. 21, 22. Philemon 23, 24. Heb. 13. 24. 1 Pedr 5. 13. 2 Ioan 13. 3 Ioan 14.

Mae yr adnod hon yn ddwy yn y Saesoneg, ac felly y bennod yn 14 o adnodau: ond yn y Groeg, un ydyw, a'r bennod yn 13 o adnodau, fel yn y Gymraeg. * Fel arwydd eu bod mewn cariad a heddwch, mae yr apostol yn eu cyngori i anerch eu gilydd â chusan sanctaidd, diwair, diragrith, a chrefyddol. Gwel ar Rhuf. 16. 16; 1 Cor. 16. 20. † Er meithrin ysbryd o fwynder a serchawgrwydd ynddynt hwy tuag at eu gilydd, a thuag at eglwysi Crist yn gyffredin, mae efe yn dywedyd fod yr holl saint lle yr oedd efe y pryd hwnw yn eu hanerch hwynt, yn cofio yn garedig a pharchus atynt, ac yn dymuno iddynt bob daioni.

13 [o] * Gras *ein* [p] Harglwydd Iesu Grist, [q] † a chariad Duw, [r] ‡ a chymdeithas yr Ysbryd Glân, *a fyddo* gyd â chwi oll. [s] || Amen.

o Num. 6. 23—27. Mat. 28. 19. Dat. 1. 4, 5. p Ioan 1. 16, 17.—Gwel ar Rhuf. 1. 7. a 16. 20. 1 Cor. 16. 23. q Rhuf. 5. 5. a 8. 39. Eph. 6. 23. 1 Ioan 3. 16. Judas 21. r Ioan 4. 10, 14. a 7. 38, 39. a 14. 15—17. Rhuf. 8. 9, 14—17. 1 Cor. 3. 16. a 6. 19. a 12. 13. Gal. 5. 22, 23. Eph. 2. 18, 22. a 5. 9. Phil. 2. 1. 1 Ioan 1. 3. a 3. 24. s Gwel ar Mat. 6. 13. a 28. 20. Rhuf. 16. 20, 27. 1 Cor. 14. 16.

Fel yr oedd swydd yr offeiriad gynt i fendithio plant Israel yn enw yr Arglwydd; (Num. 6. 23—27.) felly hefyd, i ddangos yr awdurdod a roddes Crist iddo, ac i ddangos ei ewyllys-da tuag at y Corinthiaid, mae yr apostol yma yn eu bendithio yn enw y Drindod. * Mae yn gweddïo am i rad ewyllys-da, trugaredd, ac iachawdwriaeth ein Harglwydd Iesu Grist; yr hyn sydd oll yn dyfod i gredinwyr trwy ei gyfryngdod, ei gyfiawnder, ei aberth, a'i eiriolaeth ef; † am i gariad Duw Dad at ei bobl, fel gwrthddrychau ei ddewisiad a'i blant mabwysiedig; ‡ ac am i gymdeithas yr Ysbryd Glân yn ei ddoniau, ei rasau, a'i gysuron, fod gyda hwynt oll. Fel hyn mae efe yn dymuno i bob bendithion oddi wrth Dduw Dad, Mab, ac Ysbryd; yn Un enw pa un y cawsent eu bedyddio, gael eu rhoddi iddynt, ac i aros arnynt oll yn ddiwahaniaeth; er gogoniant i'r Tri Pherson yn y Drindod sanctaidd, yn ol y rhanau a'r swyddau mae pob un o honynt yn gymmeryd, yn y gwaith mawr o iachawdwriaeth dynion. Arferir y fendith-wers gynnwysfawr hon yn gyffredin, ar ddiwedd ein haddoliadau crefyddol; ond, ysywaeth, mae yn rhŷ amlwg nad yw y rhan fwyaf o'r cynnulleidfâoedd, beth bynag am y gweinidogion, yn ei hystyried hi ond fel peth o ffurf a defod. || Nid felly yr apostol; yr oedd ef yn rhoddi ei Amen, boed felly, yn ddifrifol ac o'i galon, ar ddiwedd y weddi, a dysgwyliai y dywedai yr holl bobl Amen gydag ef, wedi darllen yr epistol hwn.

¶ Yr ail at y Corinthiaid a ysgrifenwyd o Philippi ym Macedonia, gyd â Thitus a Luc.

EPISTOL PAUL YR APOSTOL

AT Y

GALATIAID.

PEN. I.

Paul yn rhyfeddu iddynt ei adael ef a'r efengyl cyn gynted.

*PAUL [a] apostol ([b] † nid o ddynion, [c] na thrwy ddyn, [d] ‡ eithr trwy Iesu Grist, [e] a Duw Dad, ‖ yr hwn a'i [f] cyfododd ef o feirw)

a Gwel ar Rhuf. 1. 1. 1 Cor. 1. 1. b adn. 11, 12, 17. c Act. 1. 16—26. a 13. 2—4. d Act. 9. 15, 16. a 22. 10, 14—21. a 26. 16—18. Rhuf. 1. 4, 5. 2 Cor. 3. 1—3. Eph. 3. 8. 1 Tim. 1. 11—14. 2 Tim. 1. 1. Tit. 1. 3. e Mat. 28. 18—20. Ioan 5. 19. a 10. 30. a 20. 21. f Act. 2. 24—32. a 3. 15. Rhuf. 4. 24, 25. a 10. 9. a 14. 9. Eph. 1. 19, 20. Heb. 13. 20. 1 Pedr 1. 21. Dat. 1. 5, 18. a 2. 8.

* Mae yn dra thebygol fod yr athrawon Iuddewaidd yn Galatia yn gwadu yn grŷf, nad oedd Paul yn apostol; neu o leiaf yn taeru nad oedd efe yn gyd-radd â Phedr a'r apostolion eraill. Am hyny mae efe yn dechreu ei epistol drwy ei alw ei hun yn apostol; † ac yn tystiolaethu nad trwy awdurdod ddynol y danfonwyd ef allan, nac ychwaith trwy gyfryngiad dyn mewn un modd, hyd yn nôd fel y cawsai Matthïas ei wneyd yn apostol, Act. 1. 15—26. ‡ Ond gwnaed ef yn apostol trwy awdurdod digyfrwng Iesu Grist, a Duw Dad yr hwn a'i cyfododd ef o feirw. Megys y derbyniodd Crist ei deyrnas gyfryngol gan y Tad; felly y derbyniodd Paul ei apostoliaeth gan Grist, a chan Dduw Dad trwyddo ef. ‖ Gan fod yr apostol yn myned i drin am gyfiawnâd trwy ffydd yn Nghrist yn yr epistol hwn, yr oedd yn addas iawn iddo sôn am Dduw Dad yn ei gyfodi ef o feirw, yma yn y dechreu; oblegid fod Duw Dad *trwy ei gyfodi ef o feirw*, yn arddangos ei fod wedi cael ei foddloni yn yr iawn a wnaeth efe, ac yn ei ryddâu ef oddi wrth holl ofynion cyfiawnder mwyach; ac fel yr oedd Crist yn Fachnïydd ei bobl yn yr iawn a wnaeth, ei adgyfodiad ef yw eu sail hwy am gyfiawnder, "efe a gyfodwyd i'n cyfiawnâu ni." Rhuf. 4. 25. Yn nechreu epistol arall, cyffelyb i hwn, mae yr apostol yn taro ar yr un peth, adgyfodiad Crist trwy allu Duw. Rhuf. 1. 4.

2 [g] * A'r brodyr oll y rhai sydd gyd â mi, [h] † at eglwysi Galatia.

g Phil. 4. 21. h Act. 9. 31. a 15. 41. a 16. 5, 6. a 18. 23. 1 Cor. 16. 1.

* Un ai y brodyr oedd yn cyd-ymdaith â Paul yn y weinidogaeth, neu ynte aelodau yr eglwys lle yr oedd efe pan yn ysgrifenu yr epistol hwn: y cyntaf, mae yn debyg; oblegid mae yn eu crybwyll yma fel yn dystion o rai pethau a enwa efe yn yr epistol, ac fel yn cydsyniaw â'r athrawiaeth a gynnwysa. † Galatia ydoedd dalaeth o Asia Leiaf, a dywedir bod y trigolion o'r un gwelygordd â ni y Cymry; a thybir bod eu hiaith gynnwynawl a'u harferion ganddynt pan bregethwyd yr efengyl iddynt gyntaf, yr hyn a wnaed gan Paul a Barnabas, tybir, yn eu taith gyntaf drwy y parthau hyny, (Act. 16. 6—12; a 18. 18—23,) tua B. A. 50. Mae yn debyg bod yno amryw eglwysi pan ysgrifenodd Paul yr epistol hwn atynt, ond yr oeddynt wedi cael eu llygru yn dost, yn yr athrawiaeth sylfaenol o gyfiawnâd trwy ffydd; a thybia rhai mai dyna'r achos nad yw efe yn eu cyfarch dàn yr enw "saint, a ffyddlawn frodyr," &c., fel y gwna rai eglwysi eraill yn nechreu ei epistolau atynt.

3 [i] * Gras *fyddo* i chwi a heddwch † oddi wrth Dduw Dad, ‡ a'n Harglwydd Iesu Grist;

i Gwel ar Rhuf. 1. 7. 2 Cor. 13. 14.

* Dyma gyfarchiad Paul yn ei holl epistolau, yn ddiwahaniaeth, oddigerth yn ei epistolau at Timothëus a Titus, lle mae yn chwanegu y gair "trugaredd." Mae y cyfarchiad gwastadol hwn yn dysgu i ni ymddiddan â'n cyfeillion, (trwy lythyrau neu fel arall,) fel cristionogion; y rhai sydd yn deall ac yn credu mai y pethau mwyaf angenrheidiol a dymunol yw gras, trugaredd, a thangnefedd oddi wrth Dduw. † Oddi wrth Dduw Dad, y Person cyntaf yn y Drindod bendigedig, ffynon ac ysgogydd cyntaf yn holl drefn fawr ein iachawdwriaeth: ‡ ac oddi wrth ein Harglwydd Iesu Grist, tragywyddol Fab y Tad; yr ail Berson yn y Drindod sanctaidd; yr hwn yn ein natur ni yw yr unig Gyfryngwr rhwng Duw a dynion, yn yr hwn mae pob cyfiawnder yn trigo, a gweinydd pob bendithion i'w bobl. Gwel ar Rhuf. 1. 7; 1 Cor. 1. 3; 2 Cor. 1. 2.

4 [k] * Yr hwn a'i rhoddes ei hun dros ein pechodau, fel y'n gwaredai ni [l] oddi wrth y byd drwg presennol, [m] yn ol ewyllys Duw [n] a'n Tad ni:

k pen. 2. 20. Mat. 20. 28. a 26. 28. Marc 10. 45. Luc 22. 19. Ioan 10. 11. Rhuf. 4. 25. Eph. 5. 2. 1 Tim. 2. 6. Tit. 2. 14. Heb. 9. 14. a 10. 9, 10. 1 Pedr 2. 24. a 3. 18. 1 Ioan 2. 2. a 3. 16. Dat. 1. 5. l pen. 6. 14. Ioan 12. 31. a 14. 30. a 15. 18, 19. a 17. 14, 15. Rhuf. 12. 2. 2 Cor. 4. 4. Eph. 2. 2. a 6. 12. Heb. 6. 5. Iago 4. 4. 1 Ioan 2. 15—17. a 5. 4, 5, 19, 20. Dat. 5. 9. a 7. 9. m Salm 40. 8. Mat. 26. 42. Luc 22. 42. Ioan 5. 30. a 6. 38. a 14. 30, 31. Rhuf. 8. 3, 32. Eph. 1. 3, 11. Heb. 10. 4—10. n Mat. 6. 9. Rhuf. 1. 7. Eph. 1. 2. Phil. 4. 20. 1 Thes. 3. 11, 13. 2 Thes. 2. 16.

* Yr hwn, sef ein Harglwydd Iesu Grist, a'i *rhoddes ei hun* yn offrwm ac yn aberth gwirfoddol dros ein pechodau ni; † fel y gwaredai ni, sef pawb a gredant ynddo, oddi wrth gondemniad, halogrwydd, egwyddorion, ac arferion y byd drwg presenol, ‡ yn ol ewyllys a threfniad Duw Dad, ei Dad ef, a'n Tad ni ynddo ef. Nis gallai y waredigaeth hon fod, yn unol â gogoniant Duw, ond trwy aberth a phrynedigaeth Crist; trwyddo ef a'i iawn yn unig mae cymmod, derbyniad, a gras i bechaduriaid truenus a cholledig. "Y byd drwg presenol;" neu ddrwg y byd presenol, medd rhai. Yr oes ddrwg bresenol, medd eraill: diau fod pob un yn iawn.

5 [o] * I'r hwn *y byddo* gogoniant yn oes oesoedd. [p] † Amen.

o 1 Cron. 29. 13. Salm 41. 13. a 72. 19. Es. 24. 15. a 42. 12. Mat. 6. 13. Luc 2. 14. Rhuf. 11. 36. a 16. 27. Eph. 1. 12. Phil. 4. 20. 1 Tim. 1. 17. 2 Tim. 4. 18. Heb. 13. 21. 1 Pedr 5. 11. 2 Pedr 3. 18. Judas 25. Dat. 4. 9—11. a 5. 12. a 7. 12. a 14. 7. p Gwel ar Mat. 28. 20.

* I'r hwn, sef Duw a'n Tad ni, mewn undeb a'i dragywyddol Fab a'i Ysbryd, y byddo pob mawredd, an-

rhydedd, a gogoniant yn oes oesoedd, am y gwaith digyffelyb hwn o brynedigaeth ac iachawdwriaeth dyn; yn yr hwn mae anfeidrol ddoethineb, gallu, cyfiawnder, sanctteiddrwydd, cariad, trugaredd, gwirionedd y Tri Pherson yn Un Duw, yn cyd-ddysgleirio yn brydferth a gogoneddus iawn. † Am hyn, yn gystal ag am ei berffeithiau dwyfol ei hun, gogonedder Duw fel y dylid, ac fel y caiff ei ogoneddu byth. Amen.

6 [q] * Y mae yn rhyfedd gennyf eich symmud [r] mor fuan † oddi wrth yr hwn [s] a'ch galwodd [t] ‡ i ras Crist, [u] ‖ at efengyl arall:

q Marc 6. 6. Ioan 8. 30. r pen. 3. 1—5. a 4. 9—15. a 5. 7. Salm 106. 13. Es. 29. 13. Jer. 2. 12, 13. s pen. 5. 8. 1 Cor. 4. 15. 2 Thes. 2. 14. 2 Tim. 1. 9. 1 Pedr 1. 15. 2 Pedr 1. 3. t Act. 15. 11. Rhuf. 5. 2. 1 Tim. 1. 14. 2 Tim. 2. 1. Dat. 22. 21. u Rhuf. 10. 3. 2 Cor. 11. 4.

* Wrth ystyried mawredd a gogoniant yr iachawdwriaeth a'r efengyl oedd yn ei datguddio, yr angenrheidrwydd a'r addasrwydd o hóni i bechaduriaid andwyol, yn nghyd â'r derbyniad parod a chalonog a wnaethai y Galatiaid o hóni yn y dechreu; mae yr apostol yn rhyfeddu yn ofidus eu bod hwy wedi eu symmud mòr cyfuan oddi wrth yr hwn a'u galwodd i ras Crist at efengyl arall. Dywed un duwinydd enwog o Ffrainc, *(Mons. Saurin,)* mai trefedigaeth *(colony)* o'r Galwys, sef hen drigolion Ffrainc, ydoedd y Galatiaid, ac eu bod yn noddedig yn wastad am eu hanwadalwch; yn hawdd ganddynt dderbyn argraffiadau ar eu meddwl, ond yn hawdd eu diléu a'u gwisgo allan. Am berthynas y rhai ansefydlog hyn â ni y Cymry, gwel ar adn. 2. † Tybia rhai mai efe ei hun oedd Paul yn feddwl, wrth "yr hwn a'u galwodd i ras Crist;" tybia eraill mai Duw oedd yn feddwl: Paul fel offeryn a'u galwodd hwynt, (Gwel ar adn. 2,) a Duw trwy yr offeryn a'u galwodd yn effeithiol, y rhai a alwyd yn effeithiol o honynt. ‡ *I* ras Crist, a *thrwy* ras Crist y galwyd hwynt: mae y rhagddodiad *en* yn cael ei gyfieithu amryw ffyrdd, *yn, i, trwy, &c.* ‖ *Efengyl* y galwai y gau-athrawon Iuddewiaidd y peth oeddynt *hwy* yn bregethu; ond efengyl *arall* ydoedd, wahanol iawn i'r efengyl a bregethasai Paul iddynt: dywedai *efe* mai trwy ffydd yn Nghrist yr oedd cyfiawnâu pechadur; dywedent *hwythau* mai trwy weithredoedd y ddeddf yr oedd, ac fel hyny yr oeddynt hwy yn dadymchwelyd athrawiaeth sylfaenol y wir efengyl. Yn Corinth yr oedd y *sylfaen* yn cael ei gadael yn llonydd, ond eu bod yn adeiladu llawer o swellt, gwair, a sofl ar y sylfaen; eithr yn eglwysi Galatia yr oedd y sylfaen ei hun yn cael ei dadymchwelyd, am hyny yr oedd yr apostol yn ymosod ar y cyfeiliornad arma yn fwy sydyn, ac union-gyrchol, nac yn ei lythyrau at y Corinthiaid. Gallai y Corinthiaid fod yn gadwedig "megys trwy dân" er eu cyfeiliornadau a'u hafrëiblaeth; ond byddai raid i'r Galatiaid gyfrgolli byth, heddigerth eu hadferu hwynt o'u dyryswch a'u hudoliaeth dinystriol.

7 * Yr hon nid yw arall; [x] † ond bod rhai yn eich trallodi chwi, ‡ ac yn chwennych dattrôi efengyl Crist.

x pen. 2. 4. a 4. 17. a 5. 10, 12. a 6. 12, 13, 17. Act. 15. 1—5, 24. a 20. 30. Rhuf. 16. 17, 18. y Jer. 23. 26. Mat. 24. 24. Act. 13. 10. 2 Cor. 2. 17. a 4. 2. 1 Tim. 4. 1—3. 2 Tim. 2. 18. a 3. 8, 9. 4. 3, 4. Tit. 1. 10, 11. 2 Pedr 2. 1—3. 1 Ioan 2. 18, 19, 26. a 4. 1. Ioan 7, 10. Judas 4. Dat. 2. 2, 6, 14, 15, 20. a 12. 9. a 13. 14. a 19. 20. a 20. 3.

* Pa mòr hoff bynag oedd y Galatiaid o'u hathrawiaeth newydd, nid *efengyl* arall ydoedd; oblegid nid oedd yr un *efengyl* arall i gael, dim ond un ffordd o ryfiawnâu pechadur ger bron Duw, a hyny trwy ffydd yn Nghrist, heb weithredoedd y ddeddf, fel yr oedd Paul wedi efengylu y waith gyntaf iddynt. † Y "rhai" yma oedd y gau-athrawon, oedd wedi dyfod i eglwysi Galatia yn absenoldeb yr apostol, a chwedi dyrysu a thrallodi meddyliau y bobl â'u hathrawiaeth newydd; ‡ ac fel hyny yn chwennych ac yn ceisio "dattrôi," gwyro, a ddymchwelyd gwir efengyl Crist.

8 [z] * Eithr pe byddai i ni, † neu i angel o'r nef, efengylu i chwi amgen nâ'r hyn a efengylasom i chwi, [a] ‡ bydded [b] anathema.

z adn. 9. 2 Cor. 11. 13, 14. 1 Tim. 1. 19, 20. Tit. 3. 10. Dat. 22. 18, 19. a pen. 3. 10, 13. Gen. 9. 25. Deut. 27. 15—26. Jos. 9. 23. 1 Sam. 26. 19. Neh. 13. 25. Mat. 25. 41. 2 Pedr 2. 14. b Marc 14. 71. Act. 23. 14. Rhuf. 9. 3. 1 Cor. 12. 3. a 16. 22.

* Pe byddai i mi fy hun, neu rai o'r apostolion eraill, efengylu i chwi amgen na'r hyn a efengylasom, (yr hyn sydd anmhosibl i ni ei wneyd,) bydded anathema. † Ie, pe byddai i angel o'r nef (yr hyn sydd fwy anmhosibl byth,) ddyfod, ac efengylu i chwi amgen nâ'r hyn a efengylasom ni i chwi, bydded hwnw hefyd yn anathema. ‡ Pwy bynag a ryfygo wneyd y fath beth, bydded wrthodedig, fel un wedi ei felltithio gan Dduw, a chwedi ei ddïofrydu i ddinystr tragywyddol. "Neu angel o'r nef:" tybia rhai fod yr apostol yma yn cyfeirio at y cyfeiliornwr *Cerinthus*, yr hwn a ddywedai yn rhyfygus meddant, iddo dderbyn datguddiad gan *angel;* ond dywed eraill nad oes un prawf i'r cyfeiliornwr hwnw ddywedyd y fath beth mòr fore âg amser Paul, os dywedodd felly yn wir o gwbl.

9 * Megis y rhag-ddywedasom, [c] felly yr ydwyf yr awrhon drachefn yn dywedyd, † Os efengyla neb i chwi amgen [d] nâ'r hyn a dderbyniasoch, bydded anathema.

c 2 Cor. 1. 17. a 13. 1, 2. Phil. 3. 1. a 4. 4. d Deut. 4. 2. a 12. 32. a 13. 1—11. Diar. 30. 6. Dat. 22. 18, 19.

* Fel pe dywedasai yr apostol, Na thybied neb mai iaith fyrbwyll, mewn nwydau poethlyd ac annhymherus oedd yr hyn a ddywedais I uchod; (adn. 8.) yr wyf eto yn dywedyd yr un peth, † os efengyla neb pwy bynag i chwi, amgen nâ'r hyn a dderbyniasoch genym ni, bydded anathema. Nid melltithio, na dymuno melltith, yr oedd yr apostol, megys o hóno ei hun; ond cyhoeddi mai melltigedig oedd y neb a bregethai efengyl arall. Cryned eglwys Rufain, a phob cyfeiliornwyr, yn wyneb yr adnodau taranllyd hyn.

10 [e] * Canys yr awrhon † ai [f] peri credu dynion yr wyf, ‡ ynte Duw? ‖ neu a ydwyf fi yn ceisio rhyngu bodd dynion? [g] § canys pe rhyngwn fodd dynion etto, ni byddwn [h] was i Grist.

e Act. 4. 19, 20. a 5. 29. 2 Cor. 5. 9—11. 1 Thes. 2. 4. f Mat. 28. 14. Act. 12. 20. Rhuf. 2. 8. g Mat. 22. 16. Rhuf. 15. 1, 2. 1 Cor. 10. 33. Eph. 6. 6. Col. 3. 22. Iago 4. 4. h Gwel ar Rhuf. 1. 1.

* "Canys yr awr hon," gwedi i mi fod cyhyd yn gristion, a chyhyd yn y weinidogaeth fel apostol, a chwedi dyoddef cymmaint er mwyn Crist: "yr awr hon," wedi fy holl awydd, fy nymuniad, a'm hymdrechiadau i achub pechaduriaid, † ai ceisio darbwyllo pobl i gredu athrawiaeth dynion, ac ufuddâu i ddynion yr ydwyf wedi y cwbl? ‡ O'r tu arall, onid yw yn amlwg mai llafurio yr ydwyf i ennill dynion i gredu, i gofleidio, ac i dderbyn efengyl Duw, ac i ufuddâu iddo ef, fel yr achuber hwy ac y gogonedder yntau? ‖ Neu, ai ceisio yr ydwyf uwchlaw pob peth rhyngu bodd dynion, megys yr Iuddewon poethion a rhagfarnllyd, fel y caffwn er parch a'u hewyllys da hwynt, a dïanc rhag eu gŵg a'u hofn hwynt? Nage; pell yw hyny oddi wrth fy ymgais, yr wyf yn ffieiddio y fath feddwl; § oblegid pe ceisiwn I ryngu bodd dynion eto, a gwasanaethu eu mympwy a'u dybenion llygredig hwy; fel y gwnaethum gynt yn fy Iuddewaeth a'm cyflwr anianol, (Act. 9. 1, 2,) ni buaswn I byth yn dyfod i wasanaeth Crist; ac ni byddwn yn awr yn ffyddlawn yn ei wasanaeth ef, fel yr wyf yn ymgais ac yn dymuno bod uwchlaw pob peth arall.

11 * Eithr yr ydwyf yn hysbysu i chwi, frodyr, [i] *am* yr efengyl a bregethwyd gennyf fi, nad yw hi ddynol.

i Gwel ar adn. 1.—1 Cor. 2. 9, 10. a 11. 23. a 15. 1—3. Eph. 3. 3—8.

12 † Canys nid gan ddyn y derbyniais i hi,

nac y'm dysgwyd; ‡ eithr trwy ddatguddiad Iesu Grist.

* Yr oedd rhai, yn enwedig y gau-athrawon Iuddewaidd, yn ceisio beio ar athrawiaeth Paul, ac yn ceisio gwadu ei awdurdod ef fel apostol; ac ar gyfer hyny mae efe yma yn hysbysu yn sicr i'r Galatiaid, am yr efengyl a bregethwyd ganddo ef, iddynt hwy ac yn mhob màn arall, mai nid peth o ddychymmyg a thraddodiad dynol oedd hi, nac ychwaith peth i foddloni archwaeth a thymher dynion yn eu cyflwr anianol. † Nid gan ddyn ychwaith y derbyniodd efe hi, nac y dysgwyd ef; na chan yr apostolion eraill, na chan yr un dyn pwy bynag, ‡ eithr trwy ddatguddiad union-gyrchol a digyfrwng Iesu Grist: felly y dysgwyd ef yn yr efengyl, ac felly y danfonwyd ef i bregethu yr efengyl. Gwel ar adn. 1.

13 [k] * Canys chwi a glywsoch fy ymarweddiad i gynt yn y grefydd Iuddewig, [l] † i mi allan o fesur erlid eglwys Dduw, a'i hanrheithio hi;

k Act. 22. 3—5. a 26. 4, 5. l Act. 8. 3. a 9. 1, 2, 13, 14, 21, 26. a 22. 4, 5. a 26. 9—11. 1 Cor. 15. 9. Phil. 3. 6. 1 Tim. 1. 13.

* Yr oedd yn hawdd i'r Galatiaid wybod nad gan ddyn y derbyniasai efe yr efengyl, nac y dysgwyd ef ynddi, wrth a glywsent hwy yn fynych am ei ymarweddiad ef ynt yn y grefydd Iuddewig: † y pryd hwnw yr oedd efe yn gwadu athrawiaeth yr efengyl, yn erlid eglwys Dduw allan o fesur, ac yn ei hanrheithio hi; ac nid tebyg iawn y buasai yr un *dyn* ar y ddaear, na holl ddynion y byd, yn gallu ei droi ef o'r ysbryd erlidgar hwnw, i bregethu y ffydd yr hon gynt a anrheithiasai: yn enwedig yn sydyn, ac ar unwaith, fel y cawsai efe ei droi, yn nghanol ei rwysg cynddeiriog.

14 [m] * Ac i mi gynnyddu yn y grefydd Iuddewig yn fwy nâ llawer o'm cyfoedion yn fy nghenedl fy hun, [n] † gan fod yn fwy awyddus i [o] daddodiadau fy nhadau.

m Es. 29. 13. a 57. 12. n Act. 22. 3. a 26. 5. Phil. 3. 4—6. o Mat. 15. 2, 3, 6. Marc 7. 3—13. Col. 2. 8. 1 Pedr 1. 18.

* Wrth y "grefydd Iuddewig" yma ac yn yr adnod o'r blaen, yr ydym i ddeall, nid y grefydd a ddysgodd Moses ar y cyntaf, ond y grefydd hòno a arferid yn mhlith yr Iuddewon yn nyddiau Paul, yr hon oedd gan mwyaf wedi ei hadeiladu ar draddodiadau y tadau. I ddysgu hon, mae yn debyg, y danfonwyd ef i gael ei ddwyn i fynu wrth draed Gamaliel, ac yr oedd efe yn ysgolhaig hyddysg, yn rhagori yn ei gynnydd ar lawer o'i gyfoedion, † am ei fod yn fwy awyddus na chyffredin i draddodiadau ei dadau, yn gystal ag yn rhagori ar y cyffredim mewn athrylith naturiol. Gan ei fod yn ŵr ieuanc mòr hyddysg a chynnyddfawr, gallasai fod yn fwy ei barch a'i elw o lawer fel dysgawdwr yn y grefydd Iuddewig, nac fel gweinidog efengyl Crist; ac mae y cwbl yn dangos mai nid o ddynion yr oedd efe yn apostol, ac mai nid gan ddynion y derbyniodd efe yr efengyl, nac y dysgwyd ef ynddi.

15 * Ond [p] pan welodd Duw yn dda, [q] yr hwn a'm neillduodd i o groth fy mam, [r] † ac a'*m* galwodd *i* trwy ei ras,

p Deut. 7. 7, 8. 1 Sam. 12. 22. 1 Cron. 28. 4, 5. Mat. 11. 26. Luc 10. 21. 1 Cor. 1. 1. Eph. 1. 5, 9. a 3. 11. q Es. 49. 1, 5. Jer. 1. 5. Luc 1. 15, 16. Act. 9. 15. a 22. 14, 15. Rhuf. 1. 1. r Rhuf. 1. 5. a 8. 30. a 9. 24. 1 Cor. 1. 9, 24. a 15. 10. 2 Thes. 2. 13, 14. 1 Tim. 1. 12—14. 2 Tim. 1. 9. 1 Pedr 5. 10.

16 [s] ‡ I ddatguddio ei Fab ef ynof fi, [t] ‖ fel y pregethwn ef ym mhlith y cenhedloedd; [u] § yn y fan nid ymgynghorais [x] â chig a gwaed;

s Mat. 16. 17. 1 Cor. 2. 9—13. 2 Cor. 4. 6. Eph. 1. 17, 18. a 3. 5—10. t pen. 2. 7—9. Act. 22. 21. a 26. 17, 18. Rhuf. 1. 13, 14. a 11. 13. a 15. 16—19. Eph. 3. 1, 8. Col. 1. 25—27. 1 Thes. 2. 16. 1 Tim. 2. 7. 2 Tim. 1. 11. u adn. 11, 12. pen. 2. 1, 6. Deut. 33. 9. Luc 9. 23—25, 59—62. Act. 26. 19, 20. 2 Cor. 5. 16. x Mat. 16. 17. a 26. 41. 1 Cor. 15. 50. Eph. 6. 12. Heb. 2. 14.

* Ond yr oedd Duw wedi ei ddewis ef "o groth ei fam" i fod yn apostol, ac yn ei arfaeth dragywyddol wedi ei "neillduo" ef i'r gwasanaeth hwnw: † ac yn ol ei ddewisiad a'i arfaeth, gwelodd yn dda ei alw ef trwy ei ras yn ei amser ei hun; ‡ a chyda'r galwad hwnw, gwelodd yn dda hefyd i ddatguddio ei Fab, yn ngogoniant ei Berson a'i iachawdwriaeth ryfeddol i'w feddwl a'i galon ef; ac i arddangos ei allu, ei gariad, a'i ras, yn nhröedigaeth y gelyn rhagfarnus a ffyrnig hwn; ‖ fel y taenid ei enw ef yn helaethach ar y ddaear, trwy ddanfon hwn i'w bregethu ef yn mhlith y cenedloedd. § Pan wnaed y cyfnewidiad grymus a grasol hwn arno ef, parotôdd i ufuddâu yn y fàn, heb ymgyngori â dynion o un math; nac ymgyngori chwaith â'i resymau cnawdol a'i ddoethineb anianol ei hun, yn nghylch y canlyniad o'i ymddygiad hwn, o ran elw, anrhydedd, esmwythder, neu fywyd ei hun.

17 [y] * Ac nid aethum yn fy ol i Jerusalem at y rhai oedd o'm blaen i yn apostolion; † ond mi a aethum i Arabia; [z] ‡ a thrachefn y dychwelais i Damascus.

y adn. 18. Act. 9. 20—25. z 2 Cor. 11. 32, 33.

* Pan ddechreuodd yr apostol ar y gwaith mawr o bregethu yr efengyl, nid aeth efe ddim yn ol i Jerusalem i gael ei addysgu nac i gael ei ddanfon i'r gwaith gan y rhai oedd yn apostolion cyn ei dröedigaeth ryfeddol ef; † ond efe a aeth yn bur fuan i Arabia, i bregethu yno yn mhlith y cenedloedd, ïe y rhai gwylltaf a'r mwyaf barbaraidd o'r cenedloedd, meddant. Dywed eraill mai i Iuddewon yn Arabia y pregethodd efe: beth bynag am hyny, nid oedd yno neb o'r apostolion eraill i'w addysgu ef, na neb wedi bod yn pregethu yno o'i flaen ef. ‡ Pa hyd y bu efe yn Arabia nis gwyddom; ond yn ei ol i Damascus y dychwelodd efe oddi yno, ac yn Damascus y bu efe yn pregethu hyd oni ỳrwyd ef oddi yno gan erledigaeth. Act. 9. 23—26. Nid yw Luc yn yr Actau yn sôn dim am ei fynediad ef i Arabia, dim ond am ei waith yn pregethu yn Damascus, a'i fföedigaeth ef oddi yno.

18 * Yna ar ol tair blynedd [a] y daethum yn fy ol i Jerusalem † i ymweled â Phetr; ‡ ac a arhosais gyd âg ef bymtheng niwrnod.

a Act. 9. 26—29. a 22. 17, 18.

* Yna ar ol tair blynedd wedi ei dröedigaeth, aeth yn ei ol i Jerusalem, yn ddyn gwahanol iawn i'r hyn oedd efe pan ddaeth oddi yno, yn chwythu bygythion a chelanedd yn erbyn dysgyblion yr Arglwydd. Treuliodd y tair blynedd hyn mewn rhan yn Arabia, ac mewn rhan yn Damascus, nid mewn segurdod, ond yn ddiwyd iawn yn pregethu Crist, mai efe oedd Mab Duw, ac yn gorchfygu yr Iuddewon oedd yn preswylio yn Damascus, mai yr Iesu oedd y Crist, y Messiah. Act. 9. 20, 22. † Ei neges ef i Jerusalem y pryd hwn oedd, nid i gael ei addysgu yn fanylach yn ngwybodaeth yr efengyl, nac i gael cadarnâu ei anfoniad i'w phregethu hi; yr oedd wedi cael pob un o'r ddau eisoes, yn ddigyfrwng gan Fab Duw ei hun; ond i ymweled yn frawdol â Phedr, apostol mawr yr enwaediad, i gael clywed ganddo ef beth a wnaethai yr Arglwydd trwyddo ef a'i frodyr yn y parthau hyny; ac i fynegi iddo beth a wnaethai trwyddo yntau mewn mànau eraill, er pan y galwasai ef trwy ei ras. ‡ Gan i Barnabas ei ddwyn ef at Pedr ac Iago brawd yr Arglwydd, a'r dysgyblion eraill yn Jerusalem, (cymhara adn. 19 âg Act. 9. 26, 27.) a mynegi iddynt pa fodd yr ymwelsai yr Arglwydd âg ef ar y ffordd, &c., cafodd ei dderbyn yn garedig gan Pedr, ac arhosodd gydag ef bymtheg niwrnod, dim yn rhagor.

19 * Eithr *neb* arall o'r apostolion nis gwelais, ond [b] Iago [c] brawd yr Arglwydd.

b Mat. 10. 3. Marc 3. 18. Luc 6. 15. Act. 1. 13. Iago 1. 1. Judas 1. c Mat. 13. 55. Marc 6. 3. 1 Cor. 9. 5.

* Nid oedd neb o'r apostolion yn Jerusalem y pryd hwn, ond Pedr ac Iago mab Alphëus, brawd neu gâr yn ol y cnawd i'r Arglwydd Iesu. Fel hyn nid oedd dim lle i feddwl i Paul dderbyn ei wybodaeth o'r efengyl,

nâ'i anfoniad i'w phregethu gan ddynion, o'r Brodordŷ (*college*) apostolaidd.

20 * A'r pethau yr wyf yn eu hysgrifenu attoch, [d] wele, ger bron Duw, nad wyf yn dywedyd celwydd.

d Gwel ar 2 Cor. 11. 10, 11, 31.

* Gan fod y pethau uchod o fawr bwys er amddiffyn enw yr apostol *fel apostol*, a'r athrawiaeth oedd efe yn bregethu, pob un o ba rai a waradwyddid gan y gauathrawon yn Galatia, mae efe yma megys yn galw Duw yn dyst o wirionedd y pethau a ddywedodd, ac nad oedd yn dywedyd celwydd. Cael datguddiad o athrawiaeth a holl bethau cristionogrwydd yn ddigyfrwng gan Iesu Grist ei hunan, heb gynnorthwy unrhyw ddysgawdwr dynol; a'r cwbl yn cytuno mòr rhyfeddol â'r hyn a ddysgasai Crist pan oedd ar y ddaear cyn a chwedi ei adgyfodiad;—yr oedd hyn yn beth mòr anghyffredin, ac o gymmaint pwys i'r rhai y pregethai Paul iddynt, ac yr ysgrifenai atynt, fel nas gallwn ryfeddu ei fod ef fel hyn yn sicrâu y cwbl mewn modd mòr ddifrifol, megys trwy lŵ.

21 * Wedi hynny y [e] daethum i wledydd Syria a [f] Cilicia;

e Act. 9. 30. a 11. 25, 26. a 13. 1. a 15. 23, 41. a 18. 18. a 21. 3. f Act. 6. 9. a 21. 39. a 22. 3. a 23. 34.

* Gwedi aros y pymtheng niwrnod uchod yn Jerusalem, yn myned i mewn ac allan gyda'r eglwys yno; a chwedi bod yn hŷf yn enw yr Arglwydd Iesu, a llefaru ac ymddadleu yn erbyn yr Iuddewon Groegaidd, nes y ceisiasant ei ladd ef; (Act. 9. 28, 29,) wedi hyny efe a deithiodd i wledydd Syria a Cilicia, gan gael ei ddanfon gan rai o'r brodyr o Jerusalem cyn belled â Cesarea, i fyned ymaith i Tarsus, ei le genedigol, (Act. 9. 30,) yr hyn oedd arwydd o gymmeradwyaeth yr eglwys yn Jerusalem o hóno, eu cariad ato, a'u gofal am dano. Gwel yn mhellach ar yr adnodau uchod yn y nawfed o'r Actau.

22 * Ac yr oeddwn heb fy adnabod wrth *fy* wyneb yn [g] eglwysi † Judea ‡ y rhai oedd [h] yng Nghrist:

g Act. 9. 31. 1 Thes. 2. 14. h Gwel ar 1 Cor. 1. 30.—Phil. 1. 1. 1 Thes. 1. 1. 2 Thes. 1. 1.

* Y pryd hwn nid oedd neb o'r eglwysi cristionogol yn Judea yn ei adnabod ef wrth ei wyneb; y cwbl a wyddent hwy am dano oedd trwy glywed: (adn. 23,) felly nis gallai neb ddywedyd iddo ef gasglu ei wybodaeth o'r efengyl oddi yno, mwy nac oddi wrth yr apostolion. † Dywed *Pool* mai nid talaeth Judea yn unig a feddylir yma, ond holl wlad Canaan, yr hon a gynnwysai Judea, Samaria, a Galilea. ‡ Bod yn Nghrist a arwydda, 1. Bod yn gristionogion mewn gwirionedd; wedi derbyn Crist trwy wir a bywiol ffydd, a chwedi rhoddi ein hunain iddo ef, i ufuddâu i'w wir orchymynion o'r galon: yn yr ystyr hyn y dywed yr apostol, "od oes neb yn Nghrist, y mae efe yn grëadur newydd." 2 Cor. 5. 17. 2. Bod yn gristionogion mewn enw a phroffes; wedi ein bedyddio i Grist, ac yn addef ein hunain yn gristionogion. Yn yr ystyr olaf, yr oedd holl eglwysi Judea yn Nghrist, ac yr oedd Paul yn cymmeryd yn ganiatâol mewn barn cariad, eu bod felly hefyd yn yr ystyr flaenaf.

23 * Ond yn unig hwy a glywsant, [i] fod yr hwn oedd gynt yn ein herlid ni, yr awrhon yn pregethu y ffydd, yr hon gynt a anrheithiasai.

i Act. 9. 13, 14, 20, 21, 27. 1 Cor. 15. 8—10. 1 Tim. 1. 13—16.

* Er nad oedd eglwysi Judea yn adnabod Paul wrth ei wyneb, eto yr oeddynt wedi clywed dau beth rhyfedd am dano; yn 1. Yr oeddynt wedi clywed ei fod yn erlidiwr creulawn a nodedig unwaith; ac yn 2. Yr oeddynt wedi clywed i'r erlidiwr ffyrnig hwnw gael tröedigaeth ryfeddol iawn, ac ei fod yn awr yn pregethu y ffydd, yr athrawiaeth, a'r efengyl hòno, y buasai efe gynt yn ei hanrheithio â'i holl egni. Da iawn os ydym mòr noddedig yn ein duwioldeb yn awr, ag oeddym yn ein hannuwioldeb gynt: y mae rhai felly, ond nid pawb fel y mae gwaethaf.

24 [k] * A hwy a ogoneddasant Dduw ynof fi.

k Num. 23. 23. Luc 2. 14. a 7. 16. a 15. 10, 32. Act. 11. 18. a 21. 20. 2 Cor. 9. 13. Col. 1. 3, 4. 2 Thes. 1. 10, 12.

* Wrth glywed, hwy a ogoneddasant Dduw, am i'r fath bechadur anfad gael trugaredd a'r fath gyfnewidiad grasol; am i'r eglwysi gael llonydd gan y fath erlidiwr creulawn a gorthrymus; ac am gyfodi y fath weinidog doniol a llafurus i bregethu yr efengyl.

PEN. II.

Y mae efe yn dangos pa bryd yr aeth efe i fynu i Jerusalem, ac i ba beth.

*YNA wedi [a] pedair blynedd ar ddeg [b] † yr aethum drachefn ‡ i fynu i Jerusalem, gyd â [c] Barnabas, ‖ gan gymmeryd [d] Titus hefyd gyd â mi.

a pen. 1. 18. b Act. 15. 2—4. c adn. 13. Act. 4. 36, 37. a 11. 25, 30. a 12. 25. a 13. 2, 50. a 14. 12. a 15. 25, 36—39. 1 Cor. 9. 6. Col. 4. 10. d adn. 3. 2 Cor. 8. 16, 23. Tit. 1. 4.

* Pedair blynedd ar ddeg wedi marwolaeth Crist, medd *Pool;* pedair ar ddeg wedi tröedigaeth yr apostol, medd *Guyse* a *Doddridge:* pedair blynedd ar ddeg wedi y daith gyntaf i Jerusalem, (pen. 1. 18,) medd *Scott.* Nid hawdd i neb benderfynu yr amser yn sicr; ac nid yw cywirdeb mànol mewn peth fel hyn o gymmaint pwys i ni. † Nid ail fynediad Paul i Jerusalem ar ol ei dröedigaeth oedd hwn; am y tro hwnw cawn hanes yn Act. 11. 29, 30; a 12. 25: ond am ei fynediad i Jerusalem y drydedd waith y sonia efe yma; ar yr achlysur o'r ddadl a gyfodasai yn Antiochia yn nghych enwaedu y cenedloedd dychweledig; ac yr hwn y cawn hanes am dano yn Act. 15. 1—4. Er iddo ef a Barnabas fod yn Jerusalem âg elusenau i'r saint, rhwng y tro cyntaf â hwn, fel y nodwyd uchod; eto am nas gwelodd efe neb o'r apostolion y tro hwnw, (medd *Guyse* a *Doddridge,*) a bod ei neges ar achlysur arall, nid oedd achos sôn am dano yma, oblegid y ddadl yn awr oedd, yn nghylch y cyfleusderau a allasai efe gael i ymddiddan â'r apostolion. ‡ "I *fynu* i Jerusalem:" o herwydd y mynyddoedd o'i hamgylch oedd i'w dringo, neu ynte o herwydd enwogrwydd y lle. ‖ Cawn hanes am "Barnabas, a rhai eraill" o eglwys Antiochia, yn myned gyda Paul yn y daith hon, yn Act. 15. 2; mae yn debyg mai Titus oedd un o'r "rhai eraill" hyny: dyma'r crybwylliad cyntaf a gawn am Titus, nid yw Luc yn sôn dim am dano yn yr Actau; ac mae yr hyn a ddarllenwn am dano yn 2 Cor. 2. 13; a 7. 6, 14; a 8. 6, yn gystal ag yn 2 Tim. 4. 10, yn ddiweddarach o rai blynyddoedd. Gwel eto, ar adn. 3.

2 * Ac mi a aethum i fynu yn ol [e] datguddiad, [f] † ac a fynegais iddynt yr efengyl yr hon yr wyf yn ei phregethu ym mhlith y Cenhedloedd; ‡ ond o'r neilldu [g] i'r rhai cyfrifol, ‖ rhag mewn un modd fy mod yn [h] rhedeg yn ofer, neu ddarfod i mi redeg.

e Act. 16. 9, 10. a 18. 9. a 23. 11. f adn. 9. Gwel ar pen. 1. 16. Act. 15. 4, 12. 1 Cor. 1. 23. a 2. 2. g adn. 6, 9. Preg. 10. 1. Act. 5. 34. Phil. 2. 29. h Mat. 10. 16. 1 Cor. 9. 26. Phil. 2. 16. 1 Thes. 3. 5.

* Aeth yr apostol i Jerusalem y tro hwn, ac ar y neges pwysig oedd ganddo, yn ol datguddiad digyfrwng Duw i'r prophwydi yn eglwys Antiochia, Act. 13. 1, neu ynte yn ol datguddiad felly iddo ei hun, yn peri iddo gydsynio â chais yr eglwys i fyned, neu efallai bob un o'r ddau: nid oes dim sôn am y "datguddiad" hwn yn Act. 15. 2; dim ond i'r eglwys ordeinio, iddo ef a Barnabas, a rhai eraill o honynt fyned. † Tybia eraill mai meddwl yr apostol wrth y "datguddiad" uchod oedd, iddo ef weithredu yn y daith hon, yn ol y datguddiad a'i gwnaethai ef yn apostol i'r cenedloedd, (Act. 22. 17, 18, 21.) trwy fynegi i'r eglwys yn Jerusalem, yr efengyl a bregethasai efe yn mhlith y cenedl-

oedd mewn canlyniad i'r datguddiad hwnw. Y golygiad cyntaf a gymmeradwyir fwyaf gan ein hawdwyr. ‡ "Y rhai cyfrifol" mae yn debyg oedd yr apostolion a henuriaid yr eglwys yn Jerusalem: mynegodd Paul yr efengyl a bregethasai efe yn mhlith y cenedloedd o'r neilldu i'r rhai cyfrifol hyn; pe buasai yn mynegi yn gyhoeddus i'r holl eglwys y pryd hwnw, yn enwedig yn nghylch derbyn y cenedloedd i'r eglwysi heb enwaedu arnynt, yr hyn oedd mewn effaith yn ddiddymiad o'r ddeddf seremonïol oll; buasai rhagfarn cryf y dyrfa yn erbyn y cenedloedd, ac o blaid y ddeddf seremonïol, yn debyg o godi terfysg, ac arwain i'r fath ganlyniadau, ag a fuasai yn attal ei ddefnyddioldeb ef yn ol llaw, ac hyd yn nôd dadymchwelyd yr eglwysi a blànasai efe eisoes. || Mae yn debyg mai hyna oedd efe yn feddwl wrth y geiriau, "Rhag mewn un modd fy mod yn rhedeg yn ofer, neu ddarfod i mi redeg yn ofer.

3 [i] * Eithr Titus, yr hwn oedd gyd â mi, er ei fod yn Roegwr, † ni chymhellwyd chwaith i enwaedu arno:

i pen. 5. 2—6. Act. 15. 24. a 16. 3. 1 Cor. 9. 20, 21.

* Dywedir yma mai Groegwr oedd Titus, a chan ei fod o rieni cenedlig, nid oedd wedi ei enwaedu yn ei fabandod: pa le a pha bryd y dychwelwyd ef i'r ffydd nis gwyddom; gallwn gasglu mai trwy weinidogaeth Paul y dychwelwyd ef, wrth ei fod yn ei alw "ei fab naturiol yn ol y ffydd gyffredinol," Tit. 1. 4. † Ni chymhellwyd i enwaedu arno yn ei dröedigaeth nac yn nechreu ei weinidogaeth, ac ni chymhellwyd chwaith i enwaedu arno y tro hwn yn Jerusalem, gan yr apostolion na neb o'r cristionogion Iuddewig yno. Os gofyn neb paham yr oedd Paul yn enwaedu ar Timothëus, (Act. 16. 3,) ac heb enwaedu ar Titus, yr ateb yw hyn; yr oedd yn enwaedu ar Timothëus, fel na byddai ei ddienwaediad yn rhwystr iddo gael pregethu yn synagogau yr Iuddewon, yr hyn ni châi neb dienwaededig; ac yr oedd yn peidio enwaedu ar Titus, o herwydd y dywedai yr Iuddewon fod enwaediad yn hanfodol i iachawdwriaeth, Act. 15. 1. Mae gwahaniaeth mawr rhwng gwneyd peth er mwyn cyfleusdra a defnyddioldeb presenol, â gwneyd yr un peth er cynnal i fynu gyfeiliornad niweidiol; ac fel na wnelai Paul ddim i gynnal y cyfeiliornad uchod yn nghylch yr enwaediad, ni fynai enwaedu ar Titus.

4 * A hynny [k] o herwydd y gau-frodyr [l] a ddygasid i mewn, † y rhai a ddaethant i mewn i yspïo [m] ein rhyddid ni ‡ yr hon sydd genym yng Nghrist Iesu, || fel [m] y'n caethiwent ni:

k Act. 15. 1, 24. a 20. 30. 2 Cor. 11. 13, 26. 1 Ioan 4. 1. l 2 Tim. 3. 6. 2 Pedr 2. 1, 2. Judas 4. m pen. 3. 23—26. a 5. 1, 13. Salm 51. 12. a 119. 45. Ioan 8. 31—36. 2 Cor. 3. 17. 1 Pedr 2. 16. 2 Pedr 2. 19. n pen. 4. 3, 9, 10, 25. Es. 51. 23. 2 Cor. 11. 20.

* Bwriad yr apostol yn ei daith hon i Jerusalem, ac yn ei ymddygiad yno, yn enwedig yn achos Titus oedd, gwrthweithredu amcanion "y gau-frodyr," cristionogion ac athrawon mewn proffes, † y rhai mewn modd lleddradaidd a rhagrithiol a gawsent ddyfodiad i mewn i'r eglwys yn Antiochia; ac a ddaethent yno i yspïo rhyddid y cenedloedd a'r Iuddewon dychweledig, o ran y ddeddf seremonïol, ‡ yr hon ryddid oedd ganddynt yn gyfreithlawn, yn ol gwirionedd yr efengyl ac ewyllys Crist: || ac i'r dyben o ddwyn y cenedloedd i gaethiwed i'r ddeddf seremonïol, yn gystal a cheisio peri i'r apostol a'i gyd-weithwyr ei chadw hi yn fanylach. Tybia rhai fod yr un gau-frodyr yn Jerusalem yn awr, a fuasai yn Antiochia o'r blaen; wedi dyfod i gyhuddo yr apostol.

5 [o] * I ba rai nid ymroisom trwy ddarostyngiad, na ddo dros awr; [p] † fel yr arhosai gwirionedd yr efengyl gyd â chwi.

o pen. 3. 1, 2. Act. 15. 2. Col. 2. 4—8. Judas 3. p adn. 14. pen 4. 16. Eph. 1. 13. Col. 1. 5. 1 Thes. 2. 13.

* Er bod yr apostol bob amser yn barod i ymollwng hyd y gallai ar dir cyfreithlawn, gyda rhagfarnau yr Iuddewon, ac i ymddwyn yn dyner a hunan-ymwadol tuag at gydwybodau gweiniaid er mwyn yr efengyl; eto, yr oedd y cynnyg uchod o'r eiddo y gau-frodyr, y fath ddirmyg ar yr athrawiaeth efengylaidd o gyfiawnâd trwy ffydd, fel nad ymroddodd efe na'i frodyr iddynt, na ddo dros awr, trwy ymddarostwng i'r ddeddf, nac iddynt hwythau a fynent ei gosod hi ar gydwybodau dynion, fel peth hanfodol i iachawdwriaeth. † Na, efe a wrthwynebodd y fath gynnygiadau yn egnïol; fel y byddai i wirionedd yr efengyl, yr hwn y ceisiai yr athrawon Iuddewaidd hyn ei wyro a'i lygru, aros yn eglwysi y cenedloedd, yn Galatia a mànau eraill, yn ei burdeb dilwgr.

6 * A chan [q] y rhai a dybid eu bod yn rhyw beth († pa fath *gynt* oeddynt, [r] nid yw ddim i mi; [s] ‡ nid yw Duw yn derbyn wyneb dyn) || canys y rhai cyfrifol [t] ni chwanegasant ddim i mi.

q adn. 2, 9. pen. 6. 3. 2 Cor. 11. 5, 21—23. a 12. 11. Heb. 13. 7, 17. r adn. 11—14. Job 32. 6, 7, 17—22. Mat. 22. 16. Marc 6. 17—20. a 12. 14. Luc 20. 21. 2 Cor. 5. 16. s Gwel ar Job 34. 19. Act. 10. 34. 1 Pedr 1. 17. t adn. 10. Act. 15. 6—29.

* Yr oedd y "gau-frodyr" yn bychanu Paul, fel pe na buasai efe yn deilwng o barch yn y byd; ond am Pedr, ac Iago ac Ioan, hwy a "dybient fod y rhai hyny yn rhywbeth," yn "rhai cyfrifol:" ac hwy a wnaent y gwahaniaeth hyn fel y gallent wrthwynebu y gwirionedd yn fwy effeithiol, drwy ddefnyddio enwau yr apostolion hyny mewn cyferbyniad i Paul, ac fel yn rhagori arno ef. † Mae yntau yn dywedyd, nad oedd o ddim pwys iddo ef pa beth oedd yr apostolion hyny neu eraill, o ran eu doniau, eu hawdurdod, neu eu parch gan ddynion; ‡ oblegid nad oedd Duw ddim yn derbyn wynebau dynion, nac yn penderfynu pa beth oedd iawn neu gam, gwir neu anwir, wrth y parch a'r cyfrifiad oedd i'r dynion hyny gan eraill. || Gan hyny, pa mòr fawr bynag y carai ac yr anrhydeddai efe Pedr, Iago ac Ioan, fel brodyr, a gweision ffyddlawn eu Harglwydd; eto, ni roddai efe mo honynt yn lle Crist, ac ni chydnabyddai fod iddynt ddim awdurdod arno ef, nac iddynt chwanegu dim gwybodaeth nac awdurdod apostolaidd iddo ef pan fu yn cyfrinachu â hwynt. Rhan olaf yr adnod yn ol y Saesoneg sydd fel hyn: "canys y rhai a dybid *eu bod yn rhywbeth*, mewn cyd-ymddiddan ni chwanegasant ddim i mi." Addefai Paul yn gystal a'r gau-frodyr, mai gwŷr enwog, cyfrifol, a theilwng o barch, fel apostolion Crist, oedd y rhai hyn; ond nid oedd hyny ddim iddo *ef* fel *apostol;* ni chwanegasant hwy ddim iddo *ef*, na gwybodaeth, na dawn gwyrthiol, nac awdurdod apostolaidd: yr oedd ef wedi cael y cwbl gan Grist ei hun.

7 * Eithr yn y gwrthwyneb, [u] pan welsant [x] ddarfod ymddiried i mi am efengyl y dienwaediad, † megis am *efengyl* yr enwaediad i Petr:

u adn. 9. Act. 15. 12, 25, 26. 2 Pedr 3. 15. x Gwel ar pen. 1. 16.—Act. 13. 46—48. a 18. 6. a 28. 28. 1 Thes. 2. 4.

8 ‡ (Canys [y] yr hwn oedd yn gweithredu yn nerthol yn Petr i apostoliaeth yr enwaediad, [z] a nerthol-weithredodd ynof finnau hefyd tu ag at y Cenhedloedd)

y Act. 1. 8. a 2. 14—41. a 3. 12—26. a 4. 4. a 1. 12—16. a 8. 17. z pen. 3. 5. Act. 13. 2—11. a 14. 3—11. a 15. 12. a 19. 11, 12, 26. a 21. 19. 1 Cor. 1. 5—7. a 9. 2. 2 Cor. 11. 4, 5.

* Eithr yn y gwrthwyneb, yr oeddynt yn gweled yn amlwg, wrth yr hyn a adroddasai efe a Barnabas am "yr holl bethau a wnaethai Duw gyda hwynt," (Act. 15. 4,) fod yr Arglwydd Iesu yn ddigyfrwng wedi ei ordeinio ef yn apostol, ac yn brif weinidog i bregethu yr efengyl i'r cenedloedd; † megys yr oedd Pedr yn ddyn enwog gyda'r gwaith yn mhlith yr enwaediad: ‡ a gwelsant fod Crist wedi ei gymhwyso ef mòr llwyr, ac yn gweithredu trwyddo ef mòr rymus, yn mhlith y cenedloedd, ag yr oedd wedi gwneyd trwy Pedr yn mhlith yr Iuddewon: y rhyfeddodau o ras a gwyrthiau, oedd yn gweithio trwy apostoliaeth Pedr yn mhlith yr enwaed-

iad; yr oedd yr un nerthoedd rhyfeddol yn gweithio trwy ei apostoliaeth yntau yn mhlith y cïenwaediad. Hwy a welsant hyn yn amlwg, wrth iddo ef ynegi iddynt yr efengyl a bregethasai yn mhlith y cenedloedd; (adn. 2,) felly ni chwanegasant hwy ddim iddo ef, ond yn hytrach efe iddynt hwy.

9 * A phan wybu [a] Iago, a Cephas, ac Ioan, y rhai a dybid eu bod yn [b] golofnau, [c] † y gras a roddwyd i mi, ‡ hwy a roddasant i mi ac i Barnabas ddeheu-ddwylaw [d] cymdeithas; || fel [e] *yr elem* ni at y Cenhedloedd, a hwythau at yr enwaediad.

a Act. 15. 7, 13, 22—29. b adn. 2, 6, 12—14. Mat. 16. 18. Dat. 3. 12. a 21. 14—20. c Rhuf. 1. 5. a 12. 5, 6. a 15. 15. 1 Cor. 15. 10. Eph. 3. 8. Col. 1. 29. 1 Pedr 4. 10, 11. d 2 Cor. 8. 4. 1 Ioan 1. 3. e Act. 15. 23—30.

* Ystyrid y tri apostol enwog hyn yn golofnau yr eglwys y pryd hwnw, ac yn enwedig yr eglwys yn Jerusalem, ac felly yr oeddynt mewn ystyr; oblegid hwy oedd prif addurn a chynnaliaeth yr eglwys dàn Grist, ac ar eu llafur a'u hymddygiad doeth ac addas hwy yr oedd taeniad yr efengyl a llwyddiant crefydd mewn mesur mawr yn ymddybynu. † Pan welsant hwy y gras a roddes Duw i Paul, a'r defnydd rhyfeddol a wnaethai efe o hóno yn mhlith y cenedloedd; ‡ hwy a roisant iddo ef a'i gyfaill Barnabas ddehau-ddwylaw cymdeithas, yn y modd mwyaf brawdol a serchiadol, gan eu cydnabod hwy yn gyd-lafurwyr cydradd mewn awdurdod a chymhwysderau â hwy eu hunain. || Cyttunasant iddynt hwy fyned at y cenedloedd fel y dechreuasant, ac iddynt hwythau i lafurio yn mhlith yr Iuddewon dros yr amser presenol. Gan fod "y rhai cyfrifol," a'r "colofnau" hyn, wedi cydnabod Paul fel hyn yn apostol gogyfuwch â hwy eu hunain; nid oedd dim sail gan y gau-athrawon i'w fychanu ef yn ngolwg yr eglwysi: a dangos hyny oedd dyben yr apostol, mae yn debyg, yn mynegi yr amgylchiad uchod.

10 * Yn unig [f] ar fod i ni gofio y tlodion; yr hyn hefyd y bûm i ddiwyd i'w wneuthur.

f Act. 11. 29, 30. a 24. 17. Rhuf. 15. 25—27. 1 Cor. 16. 1, 2. 2 Cor. 8. 9. Heb. 13. 16. Iago 2. 15, 16. 1 Ioan 3. 17.

* Ni chwanegodd y tri apostol enwog hyn unrhyw wybodaeth neu athrawiaeth newydd i Paul a Barnabas, ni roddasant un gorchymyn nac awdurdod newydd iddynt; ond yn unig ceisio ganddynt gofio y tlodion, sef y saint tlodion yn Judea, trwy wneuthur casgliadau iddynt yn eglwysi y cenedloedd; † yr hyn y bu Paul yn ewyllysgar a diwyd iawn i'w wneuthur yn mhob màn, er cymmaint oedd rhagfarn llawer o'r tlodion hyny y pryd hwnw yn ei erbyn ef.

11 * A phan ddaeth Petr [g] î Antiochia, [h] mi a'i gwrthwynebais yn ei wyneb, [i] am ei fod i'w feio.

g Act. 15. 30—35. h adn. 5. 2 Cor. 5. 16. a 11. 5, 21—23. a 12. 11. 1 Tim. 5. 20. Judas 3. i Ex. 32. 21, 22. Num. 20. 12. Jer. 1. 17. Jona 1. 3. a 4. 3, 4, 9. Mat. 16. 17, 18, 23. Act. 15. 37—39. a 23. 1—5. Iago 3. 2. 1 Ioan 1. 8—10.

* Gan nad oes dim hanes yn unmàn arall am fynediad Pedr i Antiochia, mae amrywiaeth barn gan dduwinyddion am yr amser yr aeth yno: tybia rhai mai cyn y cyfymweliad uchod âg ef yn Jerusalem ydoedd; ond y dŷb fwyaf cywir a chyffredin yw, mai wedi hyny ydoedd. Yn un peth mae trefn yr hanes yn dangos hyny; ac mae yn sicr i Paul a Barnabas ddychwelyd â phenderfyniad y cyngor yn Jerusalem i Antiochia, ac iddynt aros yno yn dysgu ac yn efengylu am dalm o amser wedi hyny, Act. 15. 22, 35. Ond nid yw yn ymddangos i Paul weled Pedr uwchlaw unwaith cyn ei drydedd daith i Jerusalem, yr hon a grybwylla efe yn adn. 1 o'r bennod hon: ac yn Jerusalem, nid yn Antiochia, y gweloddd efe ef hefyd y tro cyntaf yn gystal a'r ail dro, pen. 1. 18. † Gan fod Pedr i'w feïo y tro hwnw, a chan y gwyddai Paul ei fod yn ogyfuwch âg ef o ran swydd, efe a'i gwrthwynebodd ef; nid yn fradychus yn ei absenoldeb, eithr yn hŷf yn ei wyneb ef, fel cyfaill ffyddlawn a gonest tuag ato.

12 * Oblegid cyn [k] dyfod rhai oddi wrth Iago, [l] efe a fwyttaodd gyd â'r Cenhedloedd: † ond wedi iddynt ddyfod, [m] efe a giliodd, ac a neillduodd ei hun oddi wrthynt, [n] gan ofni y rhai oedd o'r enwaediad.

k adn. 9. Act. 21. 18—25. l Act. 10. 28. a 11. 3. Eph. 2. 15, 19—22. a 3. 6. m Es. 65. 5. Luc 15. 2. 1 Thes. 5. 22. n Diar. 29. 25. Es. 57. 11. Mat. 26. 69—75.

* Bai Pedr oedd hyn; cyn i ryw gristionogion Iuddewaidd ddyfod i Antiochia, efe a fwytâodd yn ddigon tawel gyda'r cenedloedd, am y gwyddai nad oedd deddf y seremonïau mewn grym mwyach: ‡ ond wedi i'r rhai hyny ddyfod, efe a giliodd, ac a neillduodd oddi wrth y cenedloedd cristionogol, gan ofni y rhai oedd o'r enwaediad. Nid ei waith ef yn bwyta gyda'r cenedloedd oedd yn feïus; ond ei waith yn cilio ac yn neillduo oddi wrthynt ar ol bwyta gyda hwynt, rhag ofn yr enwaediad: fel hyn yr oedd yn dangos mwy o ofn dyn, nac o barch i wirionedd yr efengyl. Ai Pedr oedd hwn! Ai dyma ben anffaeledig eglwys Rufain!! Dywedir mewn gwirionedd, fod un o'r tadau pabaidd yn ceisio taeru, mai rhyw Bedr arall oedd hwn, ac nid Pedr yr apostol!!!

13 [o] * A'r Iuddewon eraill hefyd a gydragrithiasant âg ef; † yn gymmaint ag y [p] dygwyd Barnabas hefyd i'w rhagrith hwy.

o Gen. 12. 11—13. a 26. 6, 7. a 27. 24. Preg. 7. 20. a 10. 1. 1 Cor. 5. 6. a 8. 9—11. a 15. 33. p Job 15. 12. 1 Cor. 12. 2. Eph. 4. 14. Heb. 13. 9.

* Yr oedd yr ymddygiad hwn o eiddo Pedr yn ddrwg iawn yn ei ganlyniadau: yr oedd yn cadarnâu rhagfarn y cristionogion ieuainc o'r Iuddewon, yr oedd yn cryfâu breichiau y gau-athrawon Iuddewaidd, yr oedd yn gwànychu awdurdod Paul a gweinidogion eraill; ac yr oedd yn rhoddi esampl o ragrith i'r Iuddewon eraill yn yr eglwys, yr hon a ddilynasant, ac hyd yn nôd † Barnabas ei hun, yr hwn a fuasai gyd-lafurwr Paul yn mhlith y cenedloedd: ac yr oedd hyn hefyd yn taflu rhwystr chwanegol ar ffordd dychweliad y cenedloedd. Mòr ddrwg yw beïau athrawon.

14 * Eithr pan welais i [q] nad oeddynt yn iawn droedio at [r] wirionedd yr efengyl, [s] † mi a ddywedais wrth Petr yn *eu* gŵydd *hwy* oll, [t] ‡ Os wyt ti, a thi yn Iuddew, yn byw fel y Cenhedloedd, ac nid fel yr Iuddewon, [u] || paham yr wyt ti yn cymmell y Cenhedloedd i fyw yn Iuddewaidd?

q Salm 15. 2. a 58. 1. a 84. 11. Diar. 2. 7. a 10. 9. r Gwel ar adn. 5.—Rhuf. 14. 14. 1 Tim. 4. 3—5. Heb. 9. 10. s Gwel ar h. adn. 11.—Lef. 19. 17. Salm 141. 5. Diar. 27. 5, 6. t adn. 12, 13. Act. 10. 28. a 11. 3—18. u adn. 3. pen. 6. 12. Act. 15. 10, 19—21, 24, 28, 29.

* Er fod Paul yn ieuangach o lawer na Phedr, o ran oedran, ac yn yr apostoliaeth hefyd; eto pan welodd efe nad oedd Pedr, yr Iuddewon eraill, a Barnabas, yn iawn-droedio at wirionedd yr efengyl yn y peth hwn, † efe a ddechreuodd argyhoeddi Pedr, fel blaenor yn y bai, yn eu gŵydd hwynt oll: gan fod y bai yn gyhoeddus, yr oedd yn iawn iddo geryddu y beïus, er mai Pedr oedd, yn ngŵydd pawb; pe amgen, ei le fuasai ei geryddu ef o'r neilldu, a hyny yn ddïammau a wnaethai. ‡ Gofynai Paul iddo, os oedd efe, ac efe yn Iuddew, yn byw mewn rhai pethau, ac ar rai achlysuron, fel y cenedloedd, heb gadw y ddeddf seremoniol; || paham yr oedd efe hefyd ar brydiau ac achlysuron eraill, trwy ei esampl a'i awdurdod, yn tueddu, ac hyd yn nôd "yn cymhell," y cenedloedd dychweledig i fyw yn Iuddewaidd, i ymostwng i'r enwaediad, ac i ufuddâu i'r ddeddf seremoniol, fel pe nas gallent fod yn gadwedig heb hyny? Mòr wrthun, a chroes i wirionedd yr efengyl oedd hyn!

15 * Nyni, *y rhai* [x] wrth naturiaeth *ydym*

Iuddewon, † ac nid [y] o'r Cenhedloedd yn bechaduriaid,

x Mat. 3. 7—9. Ioan 8. 39—41. Rhuf. 4. 16. Eph. 2. 3.
y Marc 7. 26—28. Act. 22. 21, 22. Rhuf. 3. 9. Eph. 2. 11, 12. Tit. 3. 3.

* Mae yr apostol yma yn llefaru wrth Pedr am danynt hwy ill dau, ac am yr Iuddewon crediniol yn gyffredin; a thybir ei fod yn seilio ei ddadl ar gyffes a wnaethent hwy oll o annigonoldeb eu hufudd-dod eu hunain i'r ddeddf, a'i ystyried yn sail cyfiawnâd. † "Ac nid yn bechaduriaid o'r cenedloedd:" felly mae gosodiad y geiriau yn y Saesoneg. Pechaduriaid y cyffrifid y cenedloedd gan yr Iuddewon, heb y ddeddf, heb obaith, ac heb Dduw yn y byd: ac felly yn wir yr oeddynt.

16 * Yn gwybod [z] nad ydys yn cyfiawnhâu dyn trwy weithredoedd y ddeddf, [a] † ond trwy ffydd Iesu Grist, [b] ‡ ninnau hefyd a gredasom yng Nghrist Iesu, fel y'n cyfiawnhâer trwy ffydd Crist, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf: [c] ‖ oblegid ni chyfiawnhêir un cnawd trwy weithredoedd y ddeddf.

z adn. 19. pen. 3. 10—12. a 5. 4. Job 9. 2, 3, 29. a 25. 4. Salm 130. 3, 4. Luc 10. 25—29. Act. 13. 38, 39. Rhuf. 3. 19, 20, 27, 28. a 4. 2, 13—15. Phil. 3. 9. a pen. 3. 13, 14, 22—24. a 4. 5. Rhuf. 1. 17. a 3. 21—26, 30. a 4. 5, 6, 24, 25. a 5. 1, 2, 8, 9. a 8. 1—3, 30—34. 1 Cor. 6. 11. 2 Cor. 5. 19—21. Phil. 3. 9. Heb. 7. 18, 19.
b adn. 20. Ioan 6. 68, 69. a 20. 31. Act. 4. 12. 1 Pedr 1. 2, 8, 9, 18—21. a 2. 24. a 3. 18. 2 Pedr 1. 1. 1 Ioan 1. 7. a 2. 1, 2. Dat. 7. 9, 14. c Gwel ar z.—Salm 143. 2.

* Er eu bod hwy yn Iuddewon, yn had Abraham, a'r ddeddf a'r cyfammodau ganddynt, ac yn tybied eu hunain unwaith mewn llawer gwell cyflwr na'r pechaduriaid cenedlig; eto, pan ddaeth Duw i weithredu yn effeithiol arnynt trwy ei Ysbryd, daethant i wybod yn sicr ac yn brofiadol nad oedd bosibl cyfiawnâu dyn, Iuddew mwy na Groegwr, trwy yr ufudd-dod perffeithiaf a allai y dyn ei hunan roddi i'r ddeddf; † ond mai trwy ffydd Iesu Grist yn unig yr oedd hyny i gael ei wneyd. ‡ Hyd yn nôd hwy eu hunain, er mai Iuddewon oeddynt, wedi cael eu hargyhoeddi o hyn, a gredasant yn Nghrist Iesu, fel y cyfiawnêid hwy trwy ffydd ynddo ef, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf. § Oblegid wrth ystyried gofynion manol y ddeddf, a'r aneirif ddiffygion sydd yn y goreu o ddynion, mae yn anmhosibl cyfiawnâu un dyn byw, o un genedl mwy na'i gilydd, trwy ei ufudd-dod i orchymynion moesol, llawer llai trwy orchymynion seremoniol y ddeddf, neu trwy unrhyw gyfiawnder personol o'r eiddo ei hun, Salm. 143. 2. Am hyny, gan nas gallai yr Iuddewon, y rhai yr oedd y ddeddf ganddynt, gael eu cyfiawnâu trwy weithredoedd y ddeddf; pa ynfydrwydd oedd cymhell y cenedloedd, y rhai ni buasai y ddeddf ganddynt erioed yr un fath â'r Iuddewon, i ddyfod dan y ddeddf, a chadw ei defodau seremoniol hi, er mwyn cael eu cyfiawnâu drwyddi: yn enwedig yn awr pan oedd hi wedi ei diddymu, a Christ wedi myned yn ddiwedd iddi er cyfiawnder i bob un sydd yn credu?

17 [d] * Ac os wrth geisio ein cyfiawnhâu yng Nghrist, [e] y'n caed ninnau hefyd yn bechaduriaid, [f] † *a ydyw* Crist am hynny yn weinidog pechod? [g] ‡ Na atto Duw.

d Rhuf. 9. 30—33. a 11. 7. e adn. 11. Rhuf. 6. 1, 2. 1 Ioan 3. 8, 9. f Mat. 1. 21. Rhuf. 15. 8. 2 Cor. 3. 7—9. Heb. 7. 24—28. a 8. 2. 1 Ioan 3. 5. g Gwel ar Rhuf. 3. 4, 6.

* Ceisio ein cyfiawnâu yn Nghrist yw, ceisio ein cyfiawnâu yn unig trwy yr hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd efe yn ein lle, ac fel Machniydd drosom.—Ac os oedd yr apostolion a'r cristionogion Iuddewig, tra yr oeddynt yn ymwrthod â'u hyder a'u cyfiawnder deddfol, ac yn ceisio eu cyfiawnâu yn Nghrist; os caid allan yn y diwedd, eu bod hwy o hyd yn bechaduriaid, heb eu cyfiawnâu na maddeu eu pechodau, o herwydd annigonoldeb iawn a chyfiawnder Crist i'w cyfiawnâu; † y canlyniad a fyddai, fod Crist yn weinidog pechod, a'r efengyl yn weinidogaeth damnedigaeth, yn lle bod yn weinidogaeth yr Ysbryd, ac yn weinidogaeth cyfiawnder. ‡ Ond na atto Duw, i'r fath bethau gael eu dywedyd nâ'u meddwl am Grist a'i efengyl! Os nad yw cyfiawnder, gras, ac efengyl Crist, yn ddigon i gyfiawnâu pwy bynag a gredo, heb chwanegu pethau o'r ddeddf at hyny; yna nid yw efe ddim amgen na gweinidog pechod, yn gadael ei bobl o hyd dan euogrwydd ac arglwyddiaeth pechod; na'i efengyl ond goruchwyliaeth anmherffaith, ac annigonol i roddi bywyd i'r neb a'i credo: ond Och rhag y fath feddwl! na atto Duw i neb dybied y fath beth dychrynllyd! Rhoddwn olygiad arall, neu ddau, ar yr adnod ddyrys hon:—Megys pe dywedasai yr apostol, Os ydych yn ein gwneyd ni yn droseddwyr pechadurus am geisio ein cyfiawnâu yn Nghrist heb weithredoedd y ddeddf; yr ydych wrth hyny yn gwneyd Crist yn weinidog pechod; oblegid efe a'n dysgodd ni i geisio ein cyfiawnâu felly. Ond tybia eraill fod yr apostol yma yn rhagflaenu gwrthddadl gyffredin a wnaid, (ac a wnair eto yn aml,) yn erbyn cyfiawnâd trwy ffydd, sef bod y fath athrawiaeth yn arwain i benrhyddid, ac felly bod Crist yn weinidog pechod, megys pe buasai efe yn llaesu rhwymau y rhai a gredent ynddo, i'r ddeddf foesol. Am bob un o'r golygiadau anghywir uchod, iawn y gallasai yr apostol ddywedyd, Na atto Duw.

18 [h] * Canys os wyf fi yn adeiladu drachefn y pethau a ddistrywiais, † yr wyf yn fy ngwneuthur fy hun yn droseddwr.

h adn. 4, 5, 12—16, 21. a 4. 9—12. a 5. 11. Rhuf. 14. 15. 1 Cor. 8. 11, 12.

* Os oedd yr apostol drachefn yn myned i osod i fynu weithredoedd y ddeddf er cyfiawnder ger bron Duw, wedi iddo unwaith ymwrthod â hyny yn hollawl; byddai fel adeiladydd ffol, yn ail-adeiladu yr un fath dŷ a dynasai efe unwaith i lawr, fel yn annigonol i ateb ei ddyben ef: † ac fel hyny byddai yn ei wneuthur ei hun yn droseddwr anfad yn erbyn Duw ac yn erbyn ei gydwybod ei hun, trwy syrthio oddi wrth athrawiaeth gras, a diddymu ei amcan ei hun o gredu yn Nghrist er cyfiawnâd. Ond nis gallai efe byth feddwl am wneyd y fath beth â hyn. Ac os byddai i neb arall droi yn ol i ymddiried yn y ddeddf; byddent drachefn yn ceisio gosod i fynu yr hen adeilad a ddystrywiasent, i'r dyben o wneuthur Crist yn unig sylfaen.

19 [i] * Canys yr wyf fi trwy y ddeddf [k] wedi marw i'r ddeddf, [l] fel y byddwn fyw i Dduw.

i pen. 3. 10, 24. Rhuf. 3. 19, 20. a 4. 15. a 5. 20. a 7. 7—11, 14, 22, 23. a 10. 4, 5. k Rhuf. 6. 2, 11. a 7. 4, 6, 9. Col. 2. 20. a 3. 3. 1 Pedr 2. 24. l adn. 20. Rhuf. 14. 7, 8. 1 Cor. 10. 31. 2 Cor. 5. 15. 1 Thes. 5. 10. Tit. 2. 14. Heb. 9. 14. 1 Pedr 4. 1, 2, 6.

* Trwy y profiad dwfn oedd yr apostol wedi gael o ysbrydolrwydd, ehangder, a mànylrwydd y ddeddf, yn ei gofynion er cyfiawnâu, ac o ddyben Duw i argyhoeddi o bechod, ac nid cyfiawnâu y pechadur drwyddi; yr oedd efe wedi ei gymmeryd yn hollawl oddi wrthi, ac yn farw i'w holl ddysgwyliadau gynt am gyfiawnder a bywyd tragywyddol drwyddi. Yr oedd yn awr yn gweled ei fod wedi ei ryddâu oddi wrth y ddeddf fel cyfammod o weithredoedd; fel y gallai fyw mewn ystâd o gymmeradwyaeth gyda Duw trwy gyfiawnder Crist, yn yr hwn y credodd efe i'r dyben hyny. A chan ei fod wedi ei ryddâu oddi wrth y ddeddf, fel y gŵr cyntaf, a chwedi myned yn eiddo un arall, sef Crist; yr oedd yn gallu byw ar well egwyddorion, i well dybenion, a thàn rwymedigaethau newyddion, mewn pob sancteiddrwydd i Dduw, yn ol y rhëol ddigyfnewid o ufudd-dod, a roddasai Duw yn y gyfraith.

20 [m] * Mi a groeshoeliwyd gyd â Christ: [n] † eithr byw ydwyf; ‡ etto nid myfi, [o] ond Crist sydd yn byw ynof fi: [p] ‖ a'r hyn yr ydwyf yr awrhon yn ei fyw yn y cnawd, [q] ei fyw yr ydwyf trwy ffydd [r] Mab Duw, [s] § yr hwn a'm carodd, ac a'i dodes ei hun drosof fi.

m pen. 5. 24. a 6. 14. Rhuf. 6. 4—6. a 8. 3, 4. Col. 2. 11—14. n Rhuf. 6. 8, 13. a 8. 2. Eph. 2. 4, 5. Col. 2. 13. a 3. 3, 4. o Ioan 14. 19, 20. a 17. 21. 2 Cor. 4. 10, 11. a 13. 3, 5. Eph. 3. 17. Col. 1. 27. Dat. 3. 20. p 2 Cor. 4. 11. a 10. 3. 1 Pedr 4. 1, 2. q adn. 16. pen. 3. 11. Ioan 6. 57. Rhuf. 1. 17. a 5. 2. 2 Cor. 1. 24. a 5. 7, 15. Phil. 4. 13. 1 Pedr 1. 8. r Ioan 1. 49. a 3. 16, 35. a 6. 69. a 9. 35—38. Act. 8. 37. a 9. 20. 1 Thes. 1. 10. 1 Ioan 1. 7. a 4. 9, 10, 14. a 5. 10—13, 20. s pen. 1. 4. Mat. 20. 28. Ioan 15. 13. Rhuf. 8. 37. Eph. 5. 2, 25. Tit. 2. 14. Dat. 1. 5.

* Yn wir yr oedd efe wedi ei groeshoelio gyda Christ: yr oedd y gofynion oedd gan y ddeddf arno ef wedi eu hateb gan ei Fachnïydd, yn ei ufudd-dod hyd angau ar y groes; a thrwy ei undeb ef â Christ, yr oedd efe wedi marw i bob ymddybyniad deddfol, yn gystal ag i gariad a chyfeillach y byd, mwyniant a gwasanaeth pechod, yn nghyd â'r holl egwyddorion cnawdol hyny, oedd yn ei wneyd ef mòr fywiog gynt. † Eto yr oedd efe yn byw, mewn gobaith newydd ac efengylaidd, trwy gyf raniad o fywyd newydd i'w enaid, trwy alluoedd newydd ion o fwynâd, a chynhyrfiadau ac egwyddorion newydd ion, y rhai oedd fel cymhelliadau newyddion i lafur a bywiogrwydd. ‡ Eto nid efe yn gymmaint oedd yn byw fel hyn, ond Crist yr hwn oedd yn byw ynddo ef, trwy ei Ysbryd, ei allu, a'i ras; yn llywodraethu ei farn a'i gynneddfau ef, yn ei addfurfio ef i'w ddelw ei hun, ac yn ei ddefnyddio ef fel offeryn i'w ogoniant. || Felly, y bywyd yr oedd efe y pryd hwnw yn ei fyw yn y cnawd, wedi ei amgylchu â gwrthddrychau a themtasiynau bydol, nid oedd yn ei fyw ar egwyddorion cnawdol, neu gyda golwg ar bethau allanol, ond trwy ffydd Mab Duw; megys yr oedd yn ymddybynu arno ef am bob peth, ac yn ymgais am wneyd pob peth yn ol eiewyllys ef, a chyda golwg ar ei ogoniant ef. § Ac yr oedd efe yn cael ei gymhell i hyn gan yr ystyriaeth, ofod y Gwaredwr gogoneddus hwn wedi ei garu ef, pan oedd yn erlidiwr chwerw, a chwedi ei roddi ei hun i angau ar y groes, fel aberth dros ei bechodau ef.

21 [t] * Nid wyf yn dirymmu gras Duw: † canys os o'r ddeddf *y mae* [u] cyfiawnder, yna y bu [x] Crist farw yn ofer.

t adn. 18. Salm 33. 10. Marc 7. 9. Rhuf. 8. 31. u Gwel ar adn. 16. pen. 3. 21. a 5. 2—4. Rhuf. 10. 3. a 11. 6. x Es. 49. 14. Jer. 8. 8. 1 Cor. 15. 2, 14, 17.

* Yn hyn oll yr oedd yr apostol yn dàl yn gadarn at ei egwyddorion efengylaidd: nid oedd, ni feiddiai, ac ni fynai fod, mòr anniolchgar â dirmygu, gwrthod, neu ddirymu gras yr efengyl, cariad Crist, a rhad ewyllys da Duw, yn rhoddi ei Fab dros bechaduriaid, ac yn derbyn pechaduriaid fel yn gyfiawn trwy ffydd ynddo ef. † Y rhai oedd yn dadleu dros gyfiawnâd trwy weithredoedd y ddeddf, yr oeddynt hwy yn dirymu gras Duw hyd ag yr oedd ynddynt; oblegid os oedd cyfiawnder i fywyd tragywyddol i'w weithio allan trwy ufuddodd dynion i'r ddeddf, mewn unrhyw ystyr yn y byd o hòni; yna bu Crist farw yn ofer, i gyfiawni peth dros ddynion y gallasent hwy ei gyflawni iddynt a throstynt eu hunain: ïe, os oes gan ein gweithredoedd ni ryw ran yn ein cyfiawnâd ger bron Duw, yr oedd angau Crist yn annigonol o hòno ei hunan, i'n cyfiawnâu, ac yna nid yw gras yn ras mwyach. Rhuf. 11. 6. Dechreuodd Paul lefaru wrth Pedr yn adn. 14; ac nid yw duwinyddion yn cytuno, pa un ai parâd o'i ymadrodd ef wrth Pedr yw y cwbl hyd ddiwedd y bennod ai nidê, nac yn mha le mae yn dybenu os nadê. Tybia rhai mai diwedd adn. 17, yw diwedd ei ymadrodd ef wrth Pedr; ac mai wrth y Galatiaid mae yn llefaru oddi yno yn mlaen, allan o helaethrwydd ei galon ar yr un mater pwysig: ond pa fodd bynag am hyny, yr un yw yr athrawiaeth.

PEN. III.

Y mae efe yn gofyn pa beth a'u cynhyrfodd hwy i ymadael â'r ffydd.

* O [a] *Y* Galatiaid ynfyd, [b] pwy a'ch llygaddynodd chwi [c] fel nad ufuddhâech i'r gwirionedd, † i ba rai o flaen eu llygaid y portreiadwyd [d] Iesu Grist, wedi ei groeshoelio yn eich plith?

a adn. 3. Deut. 32. 6. 1 Sam. 13. 13. Luc 24. 25. Eph. 5. 15. 1 Tim. 6. 4. b pen. 1. 6. a 4. 9. a 5. 7, 8. Mat. 24. 24. Act. 8. 9—11. 2 Cor. 11. 3, 13—15. Eph. 4. c adn. 14. 2 Thes. 2. 9—12. 2 Pedr 2. 18. Dat. 2. 20. a 13. 13, 14. a 18. 3. c Act. 6. 7. Rhuf. 2. 8. a 6. 17. a 10. 16. 2 Cor. 10. 5. 2 Thes. 1. 8. Heb. 5. 9. a 11. 8. 1 Pedr 1. 22. a 4. 17. d 1 Cor. 1. 23, 24. a 2. 2. a 11. 26. Eph. 3. 8.

* Gwedi cadarnâu ei weinidogaeth a'i athrawiaeth ei hun trwy adroddiad o amgylchiadau gwirioneddol, mae yr apostol yn myned rhagddo i ddadleu y pwnc am gyfiawnâd trwy ffydd yn fwy union-gyrchol â'r Galatiaid; y rhai mae efe yn geryddu yn llym, fel dynion anystyriol, difeddwl, ac ynfyd, yn cymmeryd eu hudo a'u llygad-dynu fel hyn mòr rhyfeddol oddi wrth y gwirionedd. Ystyr y gair *ebaskane*, "llygad-dynu," meddant yw, swyno, hudo, â lledrith, fel na fedr y llygaid ganfod peth yn iawn fel y mae. Mae y gair a gyfieithir "ufuddâu," hefyd, yn arwyddo credu yn gystal ac ufuddâu: credu y gwirionedd sydd yn ein dwyn i ufuddâu iddo; ac mae ammau, neu anghredu y gwirionedd, yn gweithio anufudd-dod iddo, megys ag yn y Galatiaid hyn. † Yr oedd dyoddefaint a marwolaeth Crist, yn nghyd â'r dybenion a'r ffrwythau grasol o hyny, wedi cael eu pregethu mòr eglur yn mhlith y Galatiaid, â phe buasent wedi gweled ei groeshoeliad ef â'u llygaid, neu fel pe buasai wedi cael ei ddangos mewn portreiad yn eu plith.

2 * Hyn yn unig a ewyllysiaf ei ddysgu genych; Ai wrth weithredoedd y ddeddf y [e] derbyniasoch yr Ysbryd, [f] ynte wrth wrandawiad ffydd?

e adn. 5, 14. Act. 2. 38. a 8. 15. a 10. 44—47. a 11. 15—18. a 15. 8. a 19. 2—6. 1 Cor. 12. 7—13. 2 Cor. 11. 4. Eph. 1. 13, 14. Heb. 2. 4. 1 Pedr 1. 12. f Rhuf. 1. 17. a 10. 16, 17.

* Yr oedd yn bur hawdd penderfynu y ddadl mewn ychydig eiriau: nid oedd ar yr apostol ddim ond eisieu cael gwybod ganddynt hwy, pa un ai trwy arddodiad dwylaw y gau-athrawon Iuddewig y derbyniasent hwy ddoniau gwyrthiol yr Ysbryd Glân, ai ynte trwyddo ef, yr hwn a ddygodd iddynt y newyddion da a gorfoleddus am iachawdwriaeth rad trwy ffydd yn Nghrist. Pe buasai rai o'r gau-athrawon yn gallu gwneyd gwyrthiau i gadarnâu eu hathrawiaeth, a chyfranu doniau gwyrthiol i'w canlynwyr, buasai rhyw esgus gan y Galatiaid i wrando arnynt; ond gan y gwyddent hwy nas gallent, yr oeddynt yn dra dïesgus ac ynfyd yn gwrando arnynt.

3 * A ydych chwi mor ynfyd? [g] gwedi i chwi ddechreu yn yr Ysbryd, a berffeithir chwi yr awrhon yn y cnawd?

g pen. 4. 7—10. a 5. 4—8. a 6. 12—14. Heb. 7. 16—19. a 9. 2, 9, 10.

* Gan y gwyddent hwy mai drwy Paul, a gweinidogaeth yr efengyl, ac nid drwy y gau-athrawon deddfol, y derbyniasent yr Ysbryd; yr oeddynt yn dra ynfyd os oeddynt yn dysgwyl cyrhaedd graddau mwy o berffeithrwydd yn awr, drwy ymostwng i ddefodau cnawdol y gyfraith, nac a allasent ddysgwyl drwy lynu yn athrawiaeth bur yr efengyl, a gweinidogaeth yr Ysbryd yn yr hon y dechreuasent. A ydych chwi mòr ynfyd, ebai yr apostol, â meddwl y fath beth â hyny? gadael y pethau goreu i gael mwy o berffeithrwydd mewn pethau gwaelach, ïe, pethau hollawl ddiles a pharod i ddiflanu.

4 [h] * A ddioddefasoch gymmaint yn ofer? † os *yw* ofer hefyd.

h Ezec. 18. 24. Heb. 6. 4—6. a 10. 32—39. 2 Pedr 2. 20—22. 2 Ioan 8.

* Yr oedd y Galatiaid yn ddiammau wedi dyoddef llawer o erledigaethau, yn enwedig oddi wrth yr Iuddewon, o herwydd eu proffes o athrawiaeth yr efengyl a'u hymlyniad wrthi: ac a brofent hwy wedi y cwbl mai ofer oedd eu proffes, gan golli yr holl fudd o'u dyoddefiadau, trwy ymadaci âg athrawiaeth bur a syml yr efengyl, i ymddiried, mewn rhan o leiaf, mewn cyflawniadau deddfol? † Gobeithiai yr apostol nad

oedd y cwbl fel hyn yn ofer; ond rhaid ei fod felly yn sicr, oddigerth iddynt hwy gael eu hadferu o'u camgymmeriad andwyol.

5 * Yr hwn gan hynny sydd yn [i] trefnu i chwi yr Ysspryd, [k] ac yn gwneuthur gwyrthiau yn eich plith, [l] *ai* o weithredoedd y ddeddf, neu o wrandawiad ffydd *y mae?*

i Gwel ar adn. 2.—2 Cor. 3, 8. k Act. 14. 3, 9, 10. a 19. 11, 12. Rhuf. 15. 19. I Cor. 1. 4, 5. 2 Cor. 10. 4. a 12. 12. a 13. 3. l adn. 2.

* Gwel ar adn. 2: yno mae yr apostol yn gofyn pa fodd y *derbyniasent* hwy yr Ysbryd; yma mae yn gofyn pa fodd y *trefnwyd*, neu y *rhoddwyd* ef iddynt, a pha fodd y *gwnaed* gwyrthiau yn eu plith, ai o weithredoedd y ddeddf, neu o wrandawiad ffydd? pa un ai trwy offerynoldeb pregethwyr cyflawniadau deddfol, ai ynte trwy weinidogion yr efengyl? Mae y cyfeiriad union-gyrchol hwn at y Galatiaid, y rhai oedd dàn rëolaeth y gau-athrawon, gwrthwynebwyr yr apostol, yn ddangosiad amlwg mai trwy ei weinidogaeth ef yr oeddynt wedi cael y doniau hyny o eiddo yr Ysbryd Glân. Ac yr oedd mynychu y gofyniadau fel hyn, yn adn. 2 ac yma, yn dangos fod yr apostol wedi cythruddo yn fawr wrth eu cam-ymddygiad hwynt, ac yn ystyried eu cyfeiliornad hwynt yn beth o bwys mawr; ac nad oedd eu holl broffes hwynt, a'u dyoddefiadau o herwydd eu proffes, ond hollawl "ofer," os parâent hwy yn y cyfryw gyfeiliornad.

6 [m] * Megis y credodd Abraham i Dduw, † ac y cyfrifwyd iddo yn gyfiawnder.

m adn. 9. Gen. 15. 6. Rhuf. 4. 3—6, 9, 10. a 9. 32, 33. Iago 2. 23.

* Megys y cyfiawnâwyd Abraham, tad y ffyddloniaid, felly y rhaid cyfiawnâu holl had Abraham, sef ei had ef mewn ystyr ysbrydol, pa un bynag ai Iuddewon ai cenedloedd. Ond "credodd Abraham i Dduw;" hyny yw, efe a gydsyniodd â gwirionedd yr holl addewidion a roddasai Duw iddo, yn enwedig yr addewid am y Messïah o'i lwynau ef, ac ymddiriedodd yn Nuw am y cyflawniad o honynt, oblegid mae pob un o'r gweithredoedd hyny, o eiddo y meddwl yn gynnwysedig mewn credu; ac fel hyny cyfiawnâwyd ef. † Nid ffydd Abraham ynddi ei hun, neu ei waith ef yn credu, a gyfrifwyd iddo yn gyfiawnder; ond y peth y credodd efe ynddo, ac am dano, sef cyfiawnder Crist y Messïah, a gyfrifwyd iddo yn gyfiawnder. Credodd Abraham i Dduw, a chyfiawnâwyd ef trwy gredu, cyn enwaedu arno erioed; gan hyny nis gallai yr enwaediad fod yn ddim yn nghyfiawnâd na chadwedigaeth neb pwy bynag, fel y taerai y gau-athrawon ei fod: gallai Duw gyfiawnâu y neb a gredent wedi diddymu yr enwaediad, yn gystal â chyn ei ordeinio.

7 [n] * Gwybyddwch felly mai y [o] rhai sydd o ffydd, † y rhai hynny yw plant Abraham.

n Salm 100. 3. Luc 21. 31. Heb. 13. 23. o adn. 26—29. Ioan 8. 39. Rhuf. 4. 11—16, 24. a 9. 7, 8.

* Bydded sicr i'r Galatiaid gan hyny, mai y rhai oedd yn gwir gredu yn Nghrist, yn ol yr addewidion, megys y credodd Abraham enwog; † y rhai hyny mewn ystyr ysbrydol oedd ac ydyw gwir blant Abraham, y rhai a dderbynir ac a arddelwir gan Dduw fel y cyfryw, ac a fendithir gan Dduw gydag Abraham ffyddlawn. Yr oedd hyn yn dyfod yn agos iawn at yr Iuddewon, y rhai a ymffrostient gymmaint fod Abraham yn dad ganddynt; oblegid yr oedd yn gystal â dywedyd, nad oeddynt hwy yn wir blant i Abraham, nad oeddynt hwy ddim o'r had y gwnaethid yr addewidion iddynt, os oeddynt hwy yn dysgwyl cyfiawnder trwy weithredoedd y ddeddf yr hyn ni chafodd ac ni ddysgwyliodd Abraham erioed: nid trwy weithredoedd ond trwy gyfrifiad, y cyfiawnâwyd ef.

8 [p] * A'r ysgrythyr yn [q] rhag-weled mai trwy ffydd y mae [r] Duw yn cyfiawnhâu y Cenhedloedd, [s] † a rag-efengylodd i Abraham, *gan ddywedyd,* [t] ‡ Ynot ti y bendithir yr holl genhedloedd.

p adn. 22. pen. 4. 30. Ioan 7. 38, 42. a 19. 37. Rhuf. 9. 17. 2 Tim. 3. 15—17. q Act. 15. 15—18. r Rhuf. 3. 28—30. a 9. 30. s Heb. 4. 2. t adn. 16. Gen. 12. 3. a 18. 18. a 22. 18. a 26. 4. a 28. 14. a 49. 10. Salm 72. 7. Es. 6. 13. a 65. 9. Act. 3. 25, 26. Dat. 11. 15.

* "A'r ysgrythyr yn rhag-weled," sef yr Ysbryd Glân yn yr ysgrythyr, trwy ysbrydoliaeth yr hwn yr ysgrifenwyd yr Hen Destament. Yr oedd efe yn "rhag-weled," neu yn gwybod cyngor ac arfaeth Duw, mai trwy ffydd heb weithredoedd y ddeddf, yr oedd efe yn meddwl cyfiawnâu y cenedloedd pan ddelai cyflawnder yr amser i hyny. † Am hyny efe a rag-efengylodd felly i Abraham, gan hyny nid athrawiaeth newydd ydoedd hi; yr efengyl oedd Paul yn bregethu yn awr i'r Galatiaid, hòno a bregethodd Duw gynt i Abraham, pan welodd efe ddydd Crist ac y llawenychodd. ‡ I brofi hyny, mae yr apostol yn crybwyll addewid Duw i Abraham, mai ynddo ef y bendithid yr holl genedloedd, yr hon addewid sydd i'w deall am gyfiawnder a phob bendith ysbrydol yn Nghrist, yr hwn oedd i ddyfod o lwynau Abraham o ran y cnawd. Gelwir ef yn ddymuniant yr holl genedloedd, ac yn ei enw ef y gobeithiai y cenedloedd, a goleuni i oleuo y cenedloedd. Mae yn amlwg mai addewid i'w chyflawni yn nyddiau yr efengyl, a thàn oruchwyliaeth y Messïah, yw yr addewid hon; oblegid ni chyflawnwyd mo hóni tra parâodd yr hen oruchwyliaeth, ac ni fwriadwyd mo hòno yn beth cyffredin, i gynnwys "yr holl genedloedd," nac i'w derbyn i gyfranogi o ragor-freintiau a bendithion had naturiol Abraham.

9 * Felly gan hynny, [u] y rhai sydd o ffydd † a fendithir gyd âg Abraham ffyddlawn.

u adn. 7, 8, 14, 29. Rhuf. 4. 11, 16, 24.

* Y rhai sydd yn credu yn Nghrist Iesu â'r ffydd hòno mae yr efengyl yn ofyn, ac sydd yn ymofyn am gyfiawnder yn unig trwyddo ef; † y rhai hyny, a neb arall, a fendithir â bendithion ysbrydol gydag Abraham ffyddlawn; hyny yw, yr un modd ac y bendithiwyd Abraham, yr hyn oedd trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist iddo ar ei waith yn credu, ac nid trwy yr enwaediad, na dim gweithredoedd deddfol o'i eiddo ei hun.

10 [x] * Canys cynnifer ag y sydd o weithredoedd y ddeddf, [y] † dan felldith y maent: canys ysgrifenwyd, [z] ‡ Melldigedig *yw* pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenir yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt.

x adn. 11.—Gwel ar pen. 2. 16.—Luc 18. 9—13. Rhuf. 4. 15. a 7. 9—13. a 8. 7. y Deut. 11. 26—28. a 29. 20. Es. 43. 28. Mat. 25. 41. z Deut. 27. 26. Jer. 11. 3. Ezec. 18. 4. Rhuf. 3. 19, 20. a 6. 23. Iago 2. 9—11.

* Bod dàn y ddeddf, ac o weithredoedd y ddeddf, yw bod dàn y ddeddf fel cyfammod o weithredoedd, a dysgwyl cyfiawnder a bywyd trwy ein hufudd-dod ein hunain i'r ddeddf, yn ol telerau y cyfammod gweithredoedd hwnw. † Cynnifer ag sydd o weithredoedd y ddeddf felly, dàn felltith y maent, dàn ddedfryd gyfiawn o golledigaeth a marwolaeth dragywyddol. ‡ Yr achos o hyny ydyw, am nad oes neb a all aros yn yr holl bethau a ysgrifenir yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt: ufudd-dod perffaith, digoll, a pharâus mae y ddeddf yn ei ofyn; a lle ni chaffo hyny i'r manylrwydd eithaf, nis gall hi lai na melltithio: oblegid pwy bynag a gadwo y gyfraith i gyd oll, ac a ballo mewn un pwnc, mae efe yn euog o'r cwbl. "Canys ysgrifenwyd:" yn Deut. 27. 26. Mae yn wir mai deddf Moses, ac nid cyfammod Adda, a feddylir yn fwyaf union-gyrchol yn y lle crybwylledig yn Deuteronomium; eto rhaid i ni ystyried fod melltith yn neddf neu gyfammod Adda yn gystal ac yn neddf Moses; ac mae yn amlwg mai *y felltith fwy cyffredinol hòno* a feddylir yma gan yr apostol, fel y mae yn cael ei heglurò trwy yr hyn a ddywedodd Moses er cadarnâu ac awdurdodi ei gyfraith a'i oruchwyliaeth ef.

11 * * Ac na chyfiawnhêir neb trwy y

ddeddf ger bron Duw, eglur *yw:* oblegid,
[b] † Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd.

a 1 Bren. 8. 46. Job 9. 3. a 40. 4. a 42. 6. Salm 19. 12. a 130. 3, 4. a 143. 2. Preg. 7. 20. Es. 6. 5. a 53. 6. a 64. 6. Iago 3. 2. 1 Ioan 1. 8—10. Dat. 5. 9. a 7. 14, 15. b Hab. 2. 4. Rhuf. 1. 17. Heb. 10. 38.

* Mae yr apostol yn dangos trwy ysgrythyr arall, eto, allan o'r Hen Destament, na chyfiawnêir neb trwy weithredoedd y ddeddf ger bron Duw. Gallant gael eu cyfiawnâu ger bron dynion trwy eu hymarweddiad moesol a difai, fel nas gallo dynion roddi dim yn eu herbyn; ond nis gall neb gael ei gyfiawnâu felly ger bron Duw, yr hwn sydd yn gweled ysgogiadau pechadurus y galon, yn gystal â gweithredoedd allanol y fuchedd. † Mae efe yn profi hyn trwy y cyferbyniad sydd rhwng ffydd a gweithredoedd; a thrwy ffydd mae y cyfiawn yn byw, nid trwy weithredoedd: trwy gredin-iaeth gadarn o addewid Duw, ac ymorphwysiad ffyddiog ar Grist am gyfiawnder a bywyd tragywyddol. Gwel ar Rhuf. 1. 17.

12 [c] * A'r ddeddf nid yw o ffydd: † eithr,
[d] Y dyn a wna y pethau hynny, a fydd byw ynddynt.

c Rhuf. 4. 4, 5, 14, 16. a 9. 30—32. a 11. 6. d Lef. 18. 5. Neh. 9. 29. Ezec. 20. 11, 13. Mat. 19. 17. Luc 10. 25—28. Rhuf. 10. 5, 6.

* Ac mae yn sicr, mai nid o ffydd, nac yn ol trefn ffydd, mae y ddeddf yn cyfiawnâu; † eithr mae yr ammodau a sefydlodd hi i hyny yn wahanol iawn; y dyn a atebo ei holl ofynion hi yn berffaith, trwy wneuthur yr hyn oll mae hi yn orchymyn, hwnw, a neb ond hwnw, a gyfiawnêir ac a gaiff fywyd ganddi hi: felly, os na bydd ufudd-dod dyn i'r ddeddf yn barâus, yn ddibech-od, ac heb ddim diffyg ynddo, yr hyn sydd beth anmhosibl i un dyn yn ei ystâd syrthiedig bresenol, mae efe can belled o allu cael bywyd trwyddi hi, fel nas gall efe ei rydâau ei hunan oddi wrth ei melltith hi.

13 * Crist a'n [e] llwyr-brynodd oddi wrth felldith y ddeddf, [f] † gan ei wneuthur yn fell-dith trosom: [g] ‡ canys y mae yn ysgrifenedig,
[h] Melldigedig *yw* pob un sydd y'nghrog ar bren:

e Gwel ar adn. 10.—pen. 4. 5. Es. 53. 5—7, 10—12. Dan. 9. 24, 26. Zec. 13. 7. Mat. 26. 28. Rhuf. 3. 24—26. a 4. 25. a 8. 3, 4. 2 Cor. 5. 21. Eph. 5. 2. Tit. 2. 14. Heb. 7. 26, 27. a 9. 12, 15, 26, 28. a 10. 4—10. 1 Pedr 1. 18—21. a 2. 24. a 3. 18. 1 Ioan 2. 1, 2. a 4. 10. Dat. 1. 5. a 5. 9. a 13. 8. f 2 Bren. 22. 19. Jer. 44. 22. a 49. 13. Rhuf. 9. 3. g Deut. 21. 23. 2 Sam. 17. 23. a 18. 10, 14, 15. a 21. 3, 9. Esther 7. 10. a 9. 14. Mat. 27. 5. 1 Pedr 2. 24. h Jos. 10. 26, 27.

* Melltith y ddeddf yw y goll-farn hòno, sydd yn ein dedfrydu ni i drueni tragywyddol am ein hanufudd-dod iddi, a'n diffyg o'i chadw: ac yn awr, Crist a'n llwyr-brynodd ni, y rhai oll a gredwn ynddo, oddi wrth fell-tith y ddeddf, trwy ei roddi ei hun yn bridwerth drosom, ac yn iawn dros ein pechodau. † Yn ol trefn y cyfam-mod rhwng Duw Dad ag yntau, daeth Crist dàn ddedfryd a chosp y gyfraith, yn ein lle a throsom ni, pan fu efe yn hoeliedig, fel y gwaethaf o ddrwg weith-redwyr, rhwng y lladron ar y groes. Fel hyn gwnaed ef yn felltith drosom ni; fel yr arwyddid yn y *dull* o farwolaeth a ddyoddefodd; oblegid yr oedd y fath hyn o angau, nid yn unig y mwyaf gwarthus yn mhlith y Rhufeiniaid, ‡ ond dynodir ef hefyd yn felltigedig yn nghyfraith Moses, (Deut. 21. 23,) lle y dywedir, "Melltith Duw sydd i'r hwn a grogir," neu yn ol geiriau yr apostol yma, "Melltigedig yw pob un sydd yn nghrôg ar bren." Gan fod bwriad Duw i waredu dynion fel hyn oddi wrth felltith y ddeddf, trwy ddyoddefaint a marwolaeth warthus a phoenus ei anwyl Fab ar y groes, yn nghyd â'r holl gospedigaeth a ddyoddefodd efe yno; am hyny efe a gyhoeddodd y fath hyn o gospedigaeth yn felltigedig, fel yn arwyddawl o'i ddialedd ofnadwy ef, pan ysgrifenwyd, "Melltigedig yw pob un sydd yn nghrôg ar bren." Dywedwyd uchod mai melltith y ddeddf yw dedfrydiad pechadur i drueni, neu gosped-igaeth dragywyddol: ni ddyoddefodd Crist gospedigaeth na thrueni *tragywyddol;* o herwydd, am ei fod yn Dduw yn gystal ac yn ddyn, yr oedd ei ddyoddefiadau *amserol* ef yn gwneyd iawn, a boddlonrwydd anfeidrol, i gyfiawn-der Duw, yn dangos drwg pechod i'r graddau eithaf, ac yn anrhydeddu y ddeddf yn y modd cyfiawnaf. Gwnaed Crist yn felltith, nid yuddo ei hunan, ond drosom ni, fel yr oedd yn dyoddef melltith a digofaint Duw am ein pechodau ni.

14 [i] * Fel y delai bendith Abraham ar y Cenhedloedd, [k] trwy Grist Iesu; [l] † fel y der-byniem addewid yr Ysprvd trwy ffydd.

i Gwel ar adn. 6—9, 29. Gen. 12. 2, 3. Es. 41. 8. a 51. 2, 3. Rhuf. 4. 3—17. k adn. 16. Gen. 22. 18. Es. 49. 6. a 52. 10. Luc 2. 10, 11. Act. 2. 39. a 3. 25, 26. a 4. 12. Rhuf. 10. 9—15. l Tim. 2. 4—6. l adn. 2, 5. pen. 4. 6. Es. 32. 15. a 44. 3, 4. a 59. 19—21. Jer. 31. 33. a 32. 40. Ezec. 11. 19. a 36. 26, 27. a 39. 29. Joel 2. 28, 29. Zec. 12. 10. Luc 11. 13. a 24. 49. Ioan 7. 39. Act. 1. 4, 5. a 2. 33, 38. a 5. 32. a 10. 45—47. a 11. 15, 16. Rhuf. 8. 9—16, 26, 27. 1 Cor. 12. 13. 2 Cor. 1. 22. Eph. 1. 13, 14. a 2. 18, 22. a 3. 16. a 4. 30. 1 Pedr 1. 22. Judas 19, 20.

* Yn y modd tra rhyfeddol a grasol uchod, yr agorwyd ffordd i fendith Abraham, sef cyfiawnâd trwy ffydd ddyfod ar y cenedloedd yn gystal ag Iuddewon, trwy Grist Iesu: † ac fel y derbyniai y cenedloedd hefyd ddoniau addawedig yr Ysbryd Glân, trwy ffydd i selio iddynt wirionedd yr efengyl; a'i ras sancteiddâol ef, i selio iddynt eu rhad gyfiawnâd eu hunain. Yn lle y felltith drom oeddem ni yn haeddu, wele bob bendith a dawn ysbrydol yn dyfod ar, ac i'r neb a gredant; a'r cwbl trwy aberth ac iawn Iesu ar y groes: gwnaed ef yn felltith drosom, fel y bendithid ni yndd o a thrwyddo ef.

15 [m] * Y brodyr, dywedyd yr wyf ar wedd ddynol; [n] † Cyd na byddo ond ammod dyn, ‡ wedi y cadarnhâer, ‖ nid yw neb yn ei ddi-rymmu, neu yn rhoddi atto.

m Rhuf. 6. 19. 1 Cor. 15. 32. n Heb. 9. 17.

* "Ar wedd ddynol:" sef drwy esampl o bethau cyffredin yn mhlith dynion, ac mewn geiriau digon ad-nabyddus a dealladwy gan ddynion. † Ni a wyddom am natur cyfammod o addewidion, neu destament; lle na byddo ond ammod wedi ei gwneyd gan ddyn cyfnew-idiol a bŷr ei olwg; ‡ eto, os bydd yr ammod wedi ei chadarnâu yn rhëolaidd, trwy seliad ac enw y testa-mentwr, ‖ bydd yn anghyfreithlawn i neb arall, heb ei gydsyniad ef, wneyd un cyfnewidiad ynddi, trwy ei di-rymu ar y naill law, na chwanegu dim âti ar y llaw arall. Yn awr, yr oedd cadarnâd y cyfammod âg Abra-ham, a'r addewidion pennodawl iddo ef a'i had, wedi cymmeryd lle *yn mhell cyn* cyfraith a goruchwyliaeth Moses; gan hyny nis gellid ei ddirymu na rhoddi ato, drwy ddim yn y gyfraith a'r oruchwiliaeth hòno, fel yr oedd y gau-athrawon Iuddewaidd yn ceisio gwneyd. Nid oedd Duw yn meddwl cyfnewid ei drefn, ei gyfam-mod, na'i addewidion byth; ac ni ddylasai dynion ryfygu y fath beth. *Diathêkê* yw y gair a gyfieithir "ammod" yma, a chyfieithir yr un gair "testament" yn Matth. 26. 28, ac amryw fânau eraill: am ei briodol ystyr, edryched y darllenydd Cymreig dàn y geiriau *cyfammod*, a *Testament*, yn y Geiriadur Ysgrythyrol.

16 [o] * I Abraham y gwnaethpwyd yr addewidion, ac i'w had ef. † Nid yw yn dy-wedyd, Ac i'w hadau, megis am lawer; ‡ ond megis am un, Ac i'th had di, [p] ‖ yr hwn yw Crist.

o adn. 8. Gen. 12. 7. a 13. 15, 16. a 15. 5. a 17. 7, 8. a 21. 12. a 22. 17, 18. a 26. 3, 4. a 28. 13, 14. a 49. 10. p adn. 27—29. Rhuf. 12. 5. 1 Cor. 12. 12, 27. Eph. 4. 15, 16. a 5. 29, 30, 32. Col. 2. 19. a 3. 11.

* Ni a gawn yr addewidion hyn yn Gen. 12. 3, a 22. 18: yn y lle blaenaf dywedir, "A holl deuluoedd y ddaear a fendithir *ynot ti;*" ac yn yr ail le dywedir, "Ac *yn dy had* di y bendithir holl genedloedd y ddaear:" felly yr oedd yr addewidion i Abraham ac i'w had ef. Mae yr apostol yn dywedyd *addewidion*, un ai

o herwydd ail roddi yr un addewid, neu ynte, yn cymmeryd i mewn addewidion eraill hefyd. † Nid oedd yr Arglwydd ychwaith yn cynnwys holl hiliogaeth Abraham yn yr addewidion hyn, fel pe buasai yn rhoddi ei holl had naturiol ef i mewn; ‡ ond mae yn eu cyfyngu iddo ef a'i had, yn y rhif unigol; yr hyn oedd yn dangos, yn ol agoriad yr apostol ei hun ar y geiriau, ‖ mai Crist yn benaf a feddylid, yn nghyd ag eraill yn unig fel yn perthyn i Grist, ac yn cael eu hystyried fel yn un âg ef. Tybia rhai mai Crist ei *hun* yn *bersonol* a feddylir, fel yn deilliaw o ran y cnawd o Abraham; a thybia eraill mai Crist mewn ystyr *ddirgeledig* ac *ysbrydol* a feddylir, fel yn cynnwys ei holl had ysbrydol, neu bawb a gredant ynddo ef, pa un bynag ai Iuddewon ai cenedloedd a fyddont: mae pawb felly, mewn ystyr gyfammodol, yn "had Abraham, ac yn etifeddion yn ol yr addewid," (adn. 29.) ac nid oes neb arall, hiliogaeth Jacob, mwy na had Ishmael ac Esau, yn had ysbrydol Abraham, ond y credinwyr.

17 [q] * A hyn yr wyf yn ei ddywedyd, [r] † *am* yr ammod a gadarnâwyd o'r blaen gan Dduw yng Nghrist, ‡ nad yw y ddeddf oedd [s] bedwar cant a deg ar hugain o flynyddoedd wedi, [t] ‖ yn ei ddirymmu, [u] i wneuthur yr addewid yn [x] ofer.

q pen. 5. 16. 1 Cor. 1. 12. a 7. 29. a 10. 19. 2 Cor. 9. 6. Eph. 4. 17. Col. 2. 4. r Gen. 15. 18. a 17. 7, 8, 19. Luc 1. 68—79. Ioan 1. 17. a 8. 56—58. Rhuf. 3. 25. 2 Cor. 1. 20. Heb. 11. 13, 17—19, 39, 40. 1 Pedr 1. 11, 12, 20. s Gen. 15. 13. Ex. 12. 40, 41. Act. 7. 6. t adn. 15. Job 40. 8. Es. 14. 27. a 28. 18. Heb. 7. 18. u adn. 21. Num. 23. 19. Heb. 6. 13—18. x pen. 5. 4. Num. 30. 8. Salm 33. 10. Rhuf. 3. 3. 1 Cor. 1. 17.

* Mae yr un peth o ran sylwedd wedi ei ddywedyd "ar wedd ddynol," drwy y gyffelybiaeth o "ammod dyn," yn adn. 15, gwel ar yr adnod hòno. † Yn Nghrist, a chyda golwg ar Grist, fel pen, cyfryngwr, machnïydd, a sylwedd y cyfammod hwn o addewidion, y cadarnâodd Duw ef "o'r blaen" i Abraham trwy lŵ, trwy arwydd yr enwaediad, trwy fynych addewidion o hóno, trwy y fath gyflawniadau difrifol a arferid i gadarnâu cyfammodau; (Gen. 15. 9—18,) ond yn ddiweddaf cafodd ei gadarnâu yn berffaith a chyflawn yn marwolaeth ac aberth Crist. ‡ Pedwar cant a deg ar hugain o flynyddoedd wedi cadarnâu y cyfammod âg Abraham, y rhoddwyd y ddeddf ar Sinai; ac mae dysgedigion yn cyfrif yr amser fel hyn:—Gwnaed yr *addewid* gyntaf i Abraham pan oedd efe yn 75 mlwydd oed, Gen. 12. 3, 4; ac o hyny hyd enedigaeth Isaac, pan oedd efe yn *gant* oed, yr oedd 25 mlynedd, Gen. 21. 5; yr oedd Isaac yn 60 oed pan aned Jacob, Gen. 25. 26; aeth Jacob i'r Aipht yn 130 oed, Gen. 47. 9; ac ymdeithiodd yr Israeliaid yno, yn ol cyfieithiad y Deg a Thriugain, *(Septuagint.)* Exod. 12. 40, 215 mlynedd; yr hyn a wna y cyfrif cywir o 430 o flynyddoedd. Gwel hefyd ar Act. 7. 6. ‖ Y ddeddf a roddwyd fel hyn bedwar cant a deg ar hugain o flynyddoedd ar ol cadarnâu y cyfammod âg Abraham, nid oedd yn dirymu y cyfammod hwnw, i wneuthur yr addewid yn ofer: ni fwriadodd Duw y ddeddf i hyny, ac ni buasai y fath ddirymiad yn cydsefyll â'i ddoethineb, a'i ffyddlondeb digyfnewid ef. Dengys hyn yn amlwg, mai trwy ffydd yn Nghrist, mae cael bywyd tragywyddol, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf, y foesol na'r seremonïol: a dengys hefyd mòr gyfeiliornus oedd y gauathrawon Iuddewaidd hyny, oedd yn cymhell enwaediad a chyflawniadau deddfol eraill ar y Galatiaid, a christionogion y dyddiau a'r gwledydd hyny.

18 [y] * Canys os o'r ddeddf *y mae* yr etifeddiaeth, † nid *yw* hayach o'r addewid: [z] ‡ ond Duw a'i rhad-roddodd i Abraham trwy addewid.

y adn. 10, 12, 26, 29. pen. 2. 21. Rhuf. 4. 13—16. a 8. 17. z Gwel ar adn. 16.—Salm 105. 6—12, 42. Mica 7. 18—20. Luc 1. 54, 55, 72, 73. Heb. 6. 12—15.

* Os o'r ddeddf, a thrwy y ddeddf, mae hawl i fendith Abraham, ac i'r etifeddiaeth nefol, yr hon a gysgodid drwy yr etifeddiaeth o Ganaan gynt; † yna nid yw hayach (mwyach) o'r addewid, na thrwy yr addewid: oblegid y mae deddf ac addewid, gweithredoedd a gras, yn yr ystyr hyn o honynt, yn hollawl wahanol, a chyferbyniol i'w gilydd. ‡ Ond mae yn amlwg i Dduw rad-roddi yr etifeddiaeth i Abraham a'i had trwy addewid, trwy gyfiawnder ffydd; ac mae yr addewid a'r etifeddiaeth yn sicr byth i'r holl had ysbrydol.

19 [a] * Beth gan hynny *yw* y ddeddf? [b] † Oblegid troseddau y rhoddwyd hi yn ychwaneg, [c] ‡ hyd oni ddelai yr had, i'r hwn y gwnaethid yr addewid; ‖ *a hi* a drefnwyd [d] trwy angelion [e] yn llaw cyfryngwr.

a Rhuf. 3. 1, 2. a 7. 7—13. b adn. 21—24. Deut. 4. 8, 9. Salm 147. 19, 20. Luc 16. 31. Ioan 5. 45—47. a 15. 22. Rhuf. 2. 13. a 3. 19, 20. a 4. 15. a 5. 20, 21. a 7. 7—13. 1 Tim. 1. 8, 9. c adn. 16, 25. pen. 4. 1—4. d Deut. 33. 2. Act. 7. 53. Heb. 2. 2, 5. e Ex. 20. 19—21. a 24. 1—12. a 34. 27—35. Lef. 1. 18. Deut. 5. 23—34. a 9. 13—20, 25—29. a 18. 15—19. Salm 106. 23. Ioan 1. 17. Act. 7. 38.

* Gallai rhyw rai ofyn, I ba ddyben gan hyny y rhoddwyd y ddeddf o gwbl i Israel, os na roddwyd hi i gael bywyd tragywyddol drwy ei chadw? † I hyn mae yr apostol yn ateb, ddarfod i Dduw ei chwanegu hi at y cyfammod a'r addewid i Abraham, o herwydd troseddau; nid i ddwyn i mewn ffordd newydd i gyfiawnâu pechaduriaid, ond i fod fel llaw-forwyn i'r addewid ei hun yn ei hamcan mawr; i ddatguddio pechod, i wahardd pechod, ac i argyhoeddi yr Israeliaid o bechod, eu heuogrwydd, a'u perygl mawr; yn nghyd â'u hangen am y fath addewid rasol, a'u tueddu i droi eu gwynebau at Grist a'i aberth dros bechodau. Yr oedd y ddeddf foesol yn argyhoeddi o bechod, a'r ddeddf seremonïol trwy gysgodau, yn dangos aberth dros bechod, a gwaredigaeth oddi wrth bechod; a'r ddwy yn nghyd yn cadw addoliad Duw yn mhlith yr Iuddewon, heb iddynt syrthio ymaith yn hollawl i eilun-addoliaeth a drygioni. ‡ Fel hyn y gwelodd Duw yn dda i bethau fod hyd oni ddaeth yr had hwnw i Abraham, sef Crist; i'r hwn yn arbenig y perthynai yr addewidion, ac yn a thrwy yr hwn yr oeddynt yn cael eu cyflawni: ‖ a chyhoeddwyd y ddeddf ar Sinai, a ffurfiwyd hi yn gyfammod cenedlaethol, trwy weinidogaeth angelion, a thrwy gyfryngiad Moses fel cysgod o Grist y gwir Gyfryngwr. Mae yn amlwg wrth ysgrythyrau eraill i'r ddeddf gael ei rhoddi trwy weinidogaeth angelion; (gwel Salm 68. 17; Act. 7. 53; a Heb. 2. 2,) ond mae yn ddïammau bod y gair *(Logos)* yn *blaenori* yn eu plith hwy, ac mai yn ei *enw ef* yr oeddynt hwy yn ei chyhoeddi hi, fel ei herodron *(heralds)* a'i osgorddion gweinyddawl ef.

20 [f] * A chyfryngwr nid yw i un; [g] † ond Duw sydd un.

f Job 9. 33. Act. 12. 20. 1 Tim. 2. 5. g adn. 17. Gen. 15. 18. a 17. 1, 2. Rhuf. 3. 29, 30.

* Yn awr cyfryngwr, fel mae y gair ei hun yn arwyddocâu, sydd gyfaill yn cyfryngu rhwng dwy blaid, ac nid yw i weithredu gydag un, a thros un, heb weithredu gydag a thros y llall hefyd yr un modd: † ond Duw, oddi wrth yr hwn y rhoddwyd y ddeddf i Israel trwy law Moses, nid oedd ond *un* o'r pleidiau yn yr addewid i Abraham a'i had ysbrydol o bob cenedl; ac am hyny, gan fod credinwyr o'r cenedloedd yn gynnwysedig yn yr addewid hòno, ac nad oeddynt hwy nâ'u cynnrychiolwyr yn bresenol yn ngwneuthuriad cyfammod Sinai, nac yn perthyn dim i hwnw, yr hwn a wnaed yn unig â had naturiol Abraham; fel hyny nis gallai yr oruchwyliaeth rhwng Duw â'r Iuddewon ddirymu yr addewid rad, flaenorawl, yr hon oedd yn cyrhaeddyd at y cenedloedd hefyd. Nid oedd ond *un* o'r pleidiau yn nghyfammod Abraham yn bresenol pan roddwyd y ddeddf; sef Duw ei hunan: oblegid nid cenedl Israel fel y cyfryw oedd y blaid arall yn y cyfammod hwnw; nid oedd un ran i'r rhai digred o honynt yn y bendithion penaf ynddo; ac yr oedd yr holl credinwyr o bob oes a chenedl yn perthyn iddo, trwy rinwedd eu hundeb â'r had, i'r hwn y gwnaethid yr addewid. Gallai Moses yn wir gyf-

ryngu mewn cyfammod rhwng Duw ac Israel: ond nid oedd ganddo ef awdurdod i newid na dirymu y cyfammod âg Abraham; yr hwn gan hyny, oedd yn parâu mewn grym â'r holl gredinwyr, ar ol rhoddi y ddeddf, yn gystal â chyn hyny. Ond yn rhoddiad y ddeddf, nid oedd ond *un* o bleidiau cyfammod Abraham yn bresenol fel y dywedwyd, sef Duw: nid yw hyn yn dywedyd nad oedd Crist yn bresenol, fel JEHOFAH, a'r Gweithredydd mawr yn rhoddiad y ddeddf; ond yn unig ei fod ef yno yn gweithredu fel *deddfwr*, ac nid fel *cyfryngwr*, neu fel yn cynnrychioli yr holl gorph o gredinwyr: yn yr ystyr hyny dywedwn eto, nad oedd ond *un* blaid o gyfammod Abraham yn bresenol, sef Duw: Duw sydd *un*. Nid oes dim yn ddyrys nac yn dywyll yn yr adnod uchod a'i chymmeryd ar ei phen ei hun; ond yn ei chyssylltiad âg ymadrodd blaenorawl yr apostol, addef y duwinyddion oll ei bod yn bur anhawdd ei deall.

21 [h] * *A ydyw* y ddeddf gan hynny yn erbyn addewidion Duw? [i] † Na atto Duw: [k] ‡ canys pe rhoisid deddf a allasai fywhâu, [l] yn wir o'r ddeddf y buasai cyfiawnder.

h Mat. 5. 17—20. Rhuf. 3. 31. a 7. 7—13. i pen. 2. 17.—Gwel ar Rhuf. 3. 4, 6. k pen. 2. 19, 21.—Gwel ar Rhuf. 3. 20. l Rhuf. 3. 21, 22. a 9. 31. a 10. 3—6. Phil. 3. 6—9. Heb. 11. 7.

* A ydyw y ddeddf gan hyny, yn ol y dull hyn o osod pethau allan, yn groes yn ei bwriad a'i gweithrediad i rad addewidion Duw, fel y mŷn yr athrawon Iuddewaidd led-daeru? Neu a oes y fath gyferbyniad rhyngddynt, fel mae y naill yn dirymu y llall, ac yn ei gwneyd yn ddiles a dïeffaith? A ydyw deddf Sinai yn erbyn addewidion Duw i Abraham a'i had ysbrydol, ac yn erbyn y cyflawniad o honynt i'r rhai crediniol dàn yr oruchwyliaeth hòno? † Na atto Duw, gwrthoder y fath feddwl gyda'r atgasrwydd mwyaf; pell fyddom ni o dybied bod y fath anghysondeb a gwrthwynebiad yn ngoruchwyliaethau Duw: nid oes dim lle i'r fath dŷb; gan fod y naill wedi ei rhoddi er gwasanaeth i'r llall, ac nid fel y cyfiawnâer ni trwy y naill yn gystal a'r llall. Er bod cyfammod Sinai yn *wahanol* i gyfammod Abraham; y ddeddf foesol fel rhëol dyledswydd, yn *wahanol* i'r efengyl sylfaen gobaith pechadur; a chysgodau y seremoniau yn *wahanol* i Grist y sylwedd;—eto nid oeddynt yn *erbyn* eu gilydd, ond y naill fel y dywedwyd, yn mhob ystyr yn wasanaethgar i'r llall, ac felly mewn perffaith gysondeb a chyd-gordiad. ‡ Yn wir pe rhoisid deddf a allasai roi bywyd i bechadur syrthiedig, yna o'r ddeddf y buasai cyfiawnder, neu gyfiawnâd bywyd; a buasai holl drefn iachawdwriaeth trwy Grist, had addawedig Abraham, yn afreidiol: ac felly yn wir buasai y ddeddf yn erbyn addewidion Duw, yn eu dirymu ac yn eu gwneyd yn ofer, adn. 17.

22 [m] * Eithr cyd-gauodd yr ysgrythyr bob peth dan bechod, [n] † fel y rhoddid yr addewid trwy ffydd Iesu Grist [o] i'r rhai sydd yn credu.

m adn. 8—10, 23. Salm 143. 2. Rhuf. 3. 9—20, 23. a 5. 12, 20. a 11. 32. n adn. 14—17, 29. Rhuf. 4. 11—16. a 5. 20, 21. 2 Tim. 1. 1. Heb. 6. 13—17. a 9. 15. 2 Pedr 1. 4. a 3. 13. 1 Ioan 2. 25. a 5. 11—13. o Marc 16. 16. Ioan 3. 15—18, 36. a 5. 24. a 6. 40. a 11. 25, 26. a 12. 46. a 20. 31. Act. 16. 31. Rhuf. 10. 9. 1 Ioan 3. 23, 24. a 5. 13.

* Ond cyn belled oddi wrth roddi deddf a allasai fywâu, mae y ddeddf ei hun, a holl ysgrythyr sanctaidd yr Hen Destament, yn ei rhediad cyffredinol, yn cyhoeddi holl ddynion y byd, Iuddewon â chenedloedd, yn bechaduriaid; ac yn cauad pawb wrth natur i fynu, megys mewn carchar, dàn ddedfryd o gondemniad, yn analluog i wneyd iawn am bechodau a aethant heibio, na'u cymmeradwyo eu hunain i Dduw am yr amser a ddaw, trwy eu hufudd-dod eu hunain; oddi wrth yr hyn nid oes yr un ddeddf a all eu gwaredu byth. † Dyben Duw yn y cyd-gauad hwn i fynu oedd, dangos gwerth yr efengyl; fel y byddai i'r addewid rad o faddeuant, bywyd, ac iachawdwriaeth trwy ffydd yn Nghrist, gael ei rhoddi a'i chyfiawni, i bawb a gredant yn wirioneddol.

23 * Eithr cyn dyfod [p] ffydd, y'n cadwyd [q] dan y ddeddf, † wedi ein cyd-gau [r] i'r ffydd, yr hon oedd i'w datguddio.

p adn. 19, 24, 25. pen. 4. 1—4. Heb. 12. 2. q pen. 4. 4, 5, 21. a 5. 18. Rhuf. 3. 19. a 6. 14, 15. 1 Cor. 9. 20, 21. r Luc 10. 23, 24. Heb. 11. 13, 39, 40. 1 Pedr 1. 11, 12.

* Eithr cyn dyfod Gwrthddrych mawr ac Awdwr ffydd, a chyn i athrawiaeth ffydd gael ei chyhoeddi a'i hegluro yn gyflawn yn yr efengyl, yr oedd cenedl Israel, yr eglwys weledig, yn cael ei chadw dàn oruchwyliaeth y ddeddf: cedwid hwy mae yn wir fel hyny rhag myned i eilun-addoliaeth fel y cenedloedd eraill, ond cedwid hwy fel caethion mewn carchar, neu dàn warcheidwaeth, (fel yr arwydda y gair *ephrouroumetha,*) dàn ddedfryd orchymynol a chondemniol y ddeddf, dàn deimlad o euogrwydd, ac yn agored i ddigofaint. Nid yn unig yr oedd anghredinwyr yn nghadw dàn felltith y ddeddf y pryd hwnw fel pob amserau eraill; ond yr oedd hyd yn nôd credinwyr yr hen oruchwyliaeth yn cael eu cadw mewn ystâd o dywyllwch a chaeth ddysgyblaeth mewn cymhariaeth i ddyddiau yr efengyl. † Eto yr oeddynt fel hyn wedi eu cyd-gau i'r ffydd, yr hon oedd i'w datguddio; i gael eu dysgu yn raddol dàn ddysgyblaeth y ddeddf i dderbyn Crist, ac athrawiaeth y ffydd ynddo ef, yr hon oedd wedi hyny i gael ei datguddio gyda'r goleuni egluraf, dàn oruchwyliaeth newydd o oleuni a gras, llawer rhagorach na dim a fuasai o'i blaen erioed. Nid oedd neb ond y Messïah mawr, trwy ei aberth a'i efengyl, a allasai ollwng y rhai hyn yn rhydd, oedd yn nghadw dàn y ddeddf, a chwedi eu cyd-gau fel hyn i'r ffydd.

24 [s] * Y ddeddf gan hynny † oedd ein hathraw ni ‡ at Grist, [t] ‖ fel y'n cyfiawnhâid trwy ffydd.

s adn. 25. pen. 2. 19. a 4. 2, 3. Mat. 5. 17, 18. Act. 13. 38, 39. Rhuf. 3. 20—22. a 7. 7—9, 24, 25. a 10. 4. Col. 2. 17. Heb. 7. 18, 19. a 9. 8—16. a 10. 1—14. t Gwel ar pen. 2. 16.

* Yr oedd y ddeddf *foesol* yn dangos i'r Iuddewon eu trueni a'u hangen o Grist, a'r ddeddf *seremonïol* yn ei holl gysgodau a'i haberthau, yn dangos Crist a'i aberth mawr iddynt yn wyneb eu trueni a'u hangen. † Fel hyn yr oedd yr eglwys Iuddewig megys mewn ystâd o ysgolheigdod, fel plant dàn oed, tra parâodd yr hen oruchwyliaeth; a phob peth yn yr oruchwyliaeth hòno fel athraw, yn ei dysgu hi yn y gwersi arweiniol, o wybodaeth grefyddol, trwy lawer tasg anhawdd, gwaharddiad caled, a baich trwm, yn cael eu gosod iddi gyda llawer o lymder iachusol. ‡ Trefnodd Duw i hyn fod hyd ddyfodiad Crist, i'w dwyn hwynt at Grist, ac fel y byddai Crist a'i iachawdwriaeth yn fwy gwerthfawr a derbyniol ganddynt; ‖ ac fel y ceisient ac y caffent eu cyfiawnâu trwy ffydd ac nid trwy weithredoedd y ddeddf. Gan mai hyn oedd dyben mawr y ddeddf, sef yr holl oruchwyliaeth seremonïol, cyfeiliornad mawr yn yr Iuddewon oedd glŷnu ac ymorphwys o hyd ynddi wedi dyfod Crist, yn lle ymwrthod â hi i fyned ato ef fel y cyfiawnêid hwy trwy ffydd.

25 * Eithr wedi dyfod [u] ffydd, [x] † nid ydym mwyach dan athraw.

u adn. 23. x pen. 4. 1—6. Rhuf. 6. 14. a 7. 4. Heb. 7. 11—19. a 8. 3—13. a 10. 15—18.

* Ond yn awr, wedi i Grist, gwrthddrych ffydd, ac athrawiaeth cyfiawnâd trwy ffydd ynddo ef, gael eu llawn amlygu dàn oruchwyliaeth yr efengyl; a'r rhai crediniol o'r Iuddewon eu hunain, wedi eu dwyn i ymddiried ynddo ef am gyfiawnder a bywyd tragywyddol; † maent yn awr wedi myned heibio, neu yn mhellach yn mlaen, nâ'r oruchwyliaeth hòno; ac nid ydynt mwyach fel rhai dàn oed, mewn ystâd o annwybodaeth, gwendid, ac ofn deddfol, dàn ddysgyblaeth galed y ddeddf: wedi dyfod ffydd, nid ydynt mwyach dàn athraw; ond wedi eu derbyn i ryddid mwy breiniol, ac yn cael eu dysgu mewn modd mwy eglur a helaeth. Gellir cymhwyso yr adnodau uchod yn hawdd at brofiad pob credadyn; ond

mae yn amlwg mai yn debyg fel yr ysgrifenwyd arnynt yr oedd meddwl yr apostol wrth eu llefaru.

26 [y] * Canys chwi oll ydych blant i Dduw trwy ffydd yng Nghrist Iesu.

y pen. 4. 5, 6. Ioan 1. 12, 13. a 20. 17. Rhuf. 8. 14—17. 2 Cor. 6. 18. Eph. 1. 5. a 5. 1. Phil. 2. 15. Heb. 2. 10—15. 1 Ioan 3. 1, 2. Dat. 21. 7.

* Yr oedd y cenedloedd crediniol, yn gystal â'r Iuddewon crediniol, yn blant i Dduw trwy ffydd yn Nghrist Iesu, ac yn cael eu derbyn i lawn ragor-freintiau y berthynas uchel hòno, trwy eu hundeb â Christ, a'u rhan yn ei aberth a'i gyfiawnder ef. Yr oedd credinwyr yr Hen Destament yn blant i Dduw yn gystal â chredinwyr y Testament Newydd; gan hyny, rhaid i ni ddeall yr apostol yn llefaru yma am y cyfryw blant i Dduw ar nad oedd megys dàn oed, ond mewn llawn oedran; ac felly wedi eu gwaredu o gaethiwed a dysgyblaeth y ddeddf; a'u derbyn i rydd a llawn fwynâd o'u hetifeddiaeth, yn ol rhyddid yr efengyl, yr hyn nis gwyddai credinwyr yr Hen Destament fawr am dano, fel mae yr apostol yn egluro yn pen. 4. 1—7. Dywedir fod y gair *paidagôgos*, a gyfieithir "athraw" yn adn. 25, yn arwyddo un ag awdurdod ganddo i attal a cheryddu plant ieuainc, mewn oedran mabanaidd.

27 [z] * Canys cynnifer o honoch ag a fedyddiwyd yng Nghrist, [a] † a wisgasoch Grist.

z Mat. 28. 19, 20. Marc 16. 15, 16. Act. 2. 38. a 8. 36—38. a 9. 18. a 16. 15, 31—33. Rhuf. 6. 3, 4. 1 Cor. 12. 13. Col. 2. 10—12. 1 Pedr 3. 21. a Job 29. 14. Es. 61. 10. Luc 15. 22. Rhuf. 3. 22. a 13. 14. Eph. 4. 24. Col. 3. 10.

* Canys cynnifer o honynt, Iuddewon a chenedloedd, ag a fedyddiwyd yn enw Crist, yn y ffydd a'r broffes o Grist, yn ol ei drefniad a'i osodiad ef, ac fel hyny a dderbyniwyd i'w eglwys ef; † a wisgasant Grist fel eu mantell o gyfiawnder. Tybia llawer fod yr apostol yma yn cyfeirio at yr arferiad o ddiosg yr hen ddillad wrth fedyddio, a gwisgo dillad newydd, glân a gwynion yn y fàn wedi bedyddio: ond nid oes sicrwydd fod yr arferiad hyny mòr fore ag amser yr apostol; o leiaf nid oes dim sôn am dani yn yr ysgrythyrau. Ffydd yn Nghrist yw y peth a feddylir wrth wisgo Crist, ac nid dim yn y ddefod allanol: pan mae Duw yn edrych ar ei bobl wedi gwisgo Crist, nid oes dim yn ymddangos iddo ond Crist; maent megys wedi eu gorchuddio oll ganddo ef, fel y mae dyn yn y dillad a roddo am dano: ac fel hyn y dywedir yn yr adnod nesaf eu bod *oll yn un yn Nghrist;* fel pe na byddai ond yr un person hwnw. Gwel ar Rhuf. 13. 14.

28 [b] * Nid oes nac Iuddew na Groegwr, † nid oes na chaeth na rhydd, [c] ‡ nid oes na gwrryw na benyw: [d] canys chwi oll un ydych yng Nghrist Iesu.

b Rhuf. 1. 16. a 2. 9, 10. a 3. 29, 30. a 4. 11, 12. a 9. 24. a 10. 12—15. 1 Cor. 7. 19. Eph. 3. 5—10. Col. 3. 11. c 1 Cor. 7. 14. d Ioan 10. 16. a 11. 52. a 17. 20, 21. 1 Cor. 12. 12. Eph. 2. 13—22. a 4. 4, 15, 16.

* Nid oes yn awr ddim gwahaniaeth rhwng cenedl a chenedl, caeth a rhydd, gwrryw a benyw, o ran cymmeradwyaeth gyda Duw, breintiau a bendithion, dàn yr efengyl: nid oes dim derbyniad i'r naill o flaen y llall yn awr, fel yr oedd dàn yr hen oruchwyliaeth. † Mae y caethion crediniol yn awr yn "rhyddion i'r Arglwydd;" a'r rhyddion yn weision i'r Arglwydd: ac mae yr ystyriaeth o hyn yn gwneyd y rhyddion yn ostyngedig, a'r caethion yn llawen. ‡ Mae crybwyll am "wrryw a benyw" yn y cyssylltiad hyn o'r geiriau â bedydd, ac yma yn unig, yn cyfeirio yn amlwg at y gwahaniaeth rhwng *enwaediad*, yr hwn oedd i'r gwrrywaid yn unig, à *bedydd*, yr hwn a weinyddir i fenywaid hefyd. || Un corph dirgeledig yn Nghrist Iesu yw yr holl gredinwyr; a phob mûr gwahaniaeth wedi ei dynu i lawr byth, a hwythau oll wedi eu cymmodi â'u gilydd ac â Duw yndo ef.

29 * Ac os [e] eiddo Crist *ydych,* [f] † yna had Abraham ydych, [g] ‡ ac etifeddion yn ol yr addewid.

e pen. 5. 24. 1 Cor. 3. 23. a 15. 23. 2 Cor. 10. 7. f adn. 16, 28. pen. 4. 22—31. Gen. 21. 10—12. Rhuf. 4. 12, 16—21. a 9. 7, 8. Heb. 11. 18. g pen. 4. 7, 28. Rhuf. 4. 13, 14. a 8. 17. 1 Cor. 3. 22. Eph. 3. 6. Tit. 3. 7. Heb. 1. 14. a 6. 17. a 11. 7. Iago 2. 5. Dat. 21. 7.

* Os eiddo Crist mewn gwirionedd oedd y Galatiaid hyn, fel aelodau bywiol o'i gorph dirgeledig ef, yn credu ynddo ac wedi ymroddi iddo; † yna, er eu bod yn ddienwaededig o ran y cnawd, ac yn genedloedd wrth naturiaeth, eto yr oeddynt yn wir blant i Abraham mewn ystyr gyfammodol: ‡ ac felly yn etifeddion yn ol yr addewid, yr hon a wnaed iddo ef a'i had ysbrydol, y penaf a'r blaenor o ba rai yw Crist. Yr oedd hyn yn galondid mawr i'r Galatiaid, y rhai a ofnent nad oedd un ran iddynt hwy yn yr addewid, am nad oeddynt yn had Abraham yn ol y cnawd. Yr oedd hefyd yn ergyd trwm ar gyfeiliornad y gau-athrawon.

PEN. IV.

Ein bod ni dàn y ddeddf hyd ddyfodiad Crist, &c.

1 * A *HYN* yr wyf yn ei ddywedyd: dros gymmaint o amser ag y mae yr etifedd yn fachgen, nid oes dim rhagor rhyngddo â gwas, † er ei fod yn arglwydd ar y cwbl;

a pen. 3. 23, 29. Gen. 24. 2, 3. 2 Bren. 10. 1, 2. a 11. 12. a 12. 2.

* Er dangos y dirfawr ragoriaeth sy rhwng yr efengyl â goruchwyliaeth y ddeddf, trwy gyffelybiaeth eglur a hawdd ei deall; mae yr apostol yn dywedyd, bod yr etifedd i dreftadaeth fawr, tra byddo dàn oed, yn sefyll megys yn gydradd â gwas, heb ddim rhagoriaeth rhyngddo, o ran darostyngiad, a diffyg rhyddid i ddefnyddio a mwynâu ei etifeddiaeth: † er ei fod ar yr un pryd, o ran hawl, yn berchen ac yn arglwydd ar y cwbl; eto nid yw yn byw fel un â hawl ganddo i'r etifeddiaeth, tra mae yn fachgen.

2 * Eithr y mae efe dan ymgeleddwyr a llywodraethwyr, † hyd yr amser a osodwyd gan y tad.

* Yr etifedd, a soniwyd am dano yn yr adnod o'r blaen, tra mae yn fachgen, a thàn oed, mae ei dad yn ei gadw ef dàn ymgeledd a llywodraeth athrawon, i'w addysgu ef yn y modd mwyaf addas i'w amgylchiadau a'i oedran, ac yn y modd mwyaf cymhwys i amgyffred iadau ei feddwl ieuanc ef. † Mae hyn i barâu hyd yr amser a osodwyd iddo gan ei dad, yn ei ewyllys neu fel arall; hyd oni ddelo efe i'w oed, i'w osod mewn meddiant o'i etifeddiaeth. Hyd yma mae y gyffelybiaeth, ac weithian mae yr apostol yn dyfod at y peth ysbrydol, i'w egluro drwy y gyffelybiaeth uchod.

3 * Felly ninnau hefyd, [b] † pan oeddym fechgyn, [c] ‡ oeddym gaethion dan wyddorion y byd:

b pen. 3. 19, 24, 25. c adn. 25, 31. pen. 2. 4. a 5. 1. Mat. 11. 28. Ioan 8. 31—36. Act. 15. 10. Rhuf. 8. 15.

* Yn gyffelyb i'r hyn a ddywedwyd uchod am yr etifedd, yr oedd yr eglwys Iuddewig, mewn gradd o gaethiwed dàn oruchwyliaeth Moses; † a gellid dywedyd ei bod mewn oed bachgenaidd, o ran goleuni ysbrydol a rhyddid, breintiau a mwynâd, fel plant dàn oed, yn cael eu hyfforddi a'u dwyn i fynu i ystâd ragorach yr efengyl yn nyfodiad Crist. ‡ Gelwir defodau yr hen oruchwyliaeth yma yn "wyddorion y byd:" yr oeddynt yn dysgu y gwyddorion lleiaf, ac iselaf o wybodaeth grefyddol, fel mae y llythyrenau yn cynnwys gwyddorion dechreuol dysgeidiaeth; ac yr oedd cyflawniadau allanol yr oruchwyliaeth hòno wedi eu haddasu i syniadau dynion bydol, ac mewn llawer o bethau yn gyffelyb i ddefodau cenedloedd eraill; yn hytrach na bod yn foddion mwyaf cymhwys er addoliad ysbrydol, neu addas i

ddynion wedi addfedu mewn gwybodaeth a serchiadau ysbrydol. Y deml harddwych, yr offeiriaid yn eu gwisgoedd sanctaidd, yr aneirif aberthau a'r gŵyliau crefyddol, a phethau craill o'r cyffelyb; pan oedd eu hystyr cysgodawl heb ei ddeall neu yn cael ei esgeuluso, yr oeddynt oll yn gytunawl â syniadau pylaidd dynion cnawdol am Dduw a'i adoliad. Cam-ddefnyddid hwy felly bob amser gan y rhai digred; ac yr oedd hyd yn nôd y crediuwyr yn cael eu dàl mewn gradd fawr o gaethiwed a thywyllwch, gan gynnifer o gyflawniadau allanol o'r fath hyn. Nid oedd y cyflawniadau hyny oll, ond fel yr A. B. C. i blant; ac nis gallent ynddynt eu hunain, ddyrchafu meddwl yr addolwyr at bethau goruwch y byd hwn.

4 [d] * Ond pan ddaeth cyflawnder yr amser, [e] † y danfonodd Duw ei Fab, [f] ‡ wedi ei wneuthur [g] o wraig, [h] || wedi ei wneuthur dan y ddeddf;

d Gen. 49. 10. Dan. 9. 24—26. Mal. 3. 1. Marc 1. 15. Act. 1. 7. Eph. 1. 10. Heb. 9. 10. e Es. 48. 16, 17. Zec. 2. 8—11. Ioan 3. 16, 17. a 6. 38, 39. a 8. 42. a 10. 36. 1 Ioan 4. 9, 10, 14. f Es. 9. 6, 7. Mica 5. 2. Zec. 6. 12. Luc 2. 10, 11. Ioan 1. 14. Rhuf. 1. 3. a 9. 5. Phil. 2. 6—8. 1 Tim. 3. 16. Heb. 2. 14. a 10. 5—7. 1 Ioan 4. 2. g Gen. 3. 15. Es. 7. 14. Jer. 31. 22. Mica 5. 3. Mat. 1. 23. Luc 1. 31, 35. a 2. 7. h Mat. 3. 15. a 5. 17. Luc 2. 21—27. Rhuf. 15. 8. Col. 2. 14.

* Ond pan ddaeth cyflawnder yr amser i'r Messiah ddyfod, sef yr amser a arfaethodd Duw ynddo ei hun, ac a rag-fynegodd efe trwy brophwydoliaethau; a'r amser yr oedd cyflwr y genedl Iuddewig, ac agwedd dynolryw yn gyffredinol, yn ei ddangos yn nodedig o addas i ddwyn i mewn a sefydlu goruchwyliaeth newydd, helaethach, a gwell: † pan ddaeth cyflawnder yr amser hwn, yna danfonodd Duw ei Fab, ei briod Fab, yr hwn oedd yn Un âg ef ei hun yn yr hanfod ddwyfol, i ymddangos yn y cnawd. ‡ Y Gair, neu y tragywyddol Fab hwn, a wnaethpwyd yn gnawd, a wnaethpwyd o wraig, a gymmerodd wir a chwbl ddynoliaeth i undeb personawl â'r Duwdod, trwy genedliad gwyrthiol yn nghroth y wyryf, fel y gwnelid, neu y genid ef, (felly y darllenir mewn rhai argraffiadau,) o wraig, ac y byddai mewn modd arbenig yn *had* y wraig, trwy dderbyn ei gnawd dynol o'i sylwedd hi. Os y *Mab* a wnaethpwyd o wraig, rhaid ei fod ef yn *Fab* Duw *cyn* ei wneuthur o wraig; ac yn *briodol* felly o ran ei Dduwdod. || Fel hyn hefyd gwnaethpwyd ef dàn y ddeddf, wedi ei eni o Iuddewes, ac yn fab cyfrifedig i Iuddew, ac yn enwaededig. Fel hyn, gan ei fod dàn y ddeddf, (fel y cyfammod o weithredoedd ebai *Scott,*) efe a allai ateb ei holl ofynion hi fel Machnïydd ei eglwys. Yn wirfoddol y gwnaed hyn, heb ddim rhwymau o'r blaen. Fel Mab Duw, nid oedd efe yn ddarostyngedig i un ddeddf; fel dyn perffaith sanctaidd, nid oedd arno rwymau i ymddarostwng i'r ddeddf seremonïol; yr hon oedd yn mhob peth yn golygu dyn fel pechadur.

5 [i] * Fel y prynai y rhai *oedd* dan y ddeddf; [k] † fel y derbyniem y mabwysiad.

i adn. 21. pen. 3. 13. Mat. 20. 28. Act. 20. 28. Eph. 1. 7. a 5. 2. Col. 1. 13—20. Tit. 2. 14. Heb. 1. 3. a 9. 12, 15. 1 Pedr 1. 18—20. a 3. 18. Dat. 5. 9. a 14. 3. k adn. 7. pen. 3. 26. Ioan 1. 12. Rhuf. 8. 19, 23. a 9. 4, 5. Eph. 1. 5.

* Gwedi i Fab Duw babellu mewn cnawd ar y ddaear am yspaid o flynyddoedd, a rhoddi ufudd-dod perffaith i'r holl ddeddf trwy ei oes; o'r diwedd efe a'i rhoddodd ei hun yn aberth difai o anfeidrol werth, i brynu y rhai oedd dàn y ddeddf a'i melltith neu ei chondemniad cyfiawn, oddi wrth y felltith ofnadwy hòno: ac hefyd i waredu yr eglwys oddi wrth y ddeddf seremonïol; yr hon oedd fath o ysgrif-rwym *(bond)* wedi ei rhoddi, am daliad gan y Machnïydd, mewn amser i ddyfod: fel hyn efe a dalodd yr hyn oedd ddyledus i gyfiawnder Duw, am bechodau y rhai a gawsent faddeuant trwy ffydd yn y Gwaredwr addawedig. † Trwy y pryniad uchod oddi tàn y ddeddf, yr oedd y credinwyr yn cael eu gwneyd yn gyfranog o freintiau goruchwyliaeth yr efengyl, y rhai a berthynent i blant mabwysiedig, ac etifeddion wedi dyfod i oedran gwrolaeth. Gwel ar pen. 3. 26.

6 * Ac o herwydd eich bod yn feibion, [l] † yr anfonodd Duw [m] Ysbryd ei Fab i'ch calonnau chwi, [n] ‡ yn llefain, Abba, Dad.

l Luc 11. 13. Ioan 7. 39. a 14. 16—18. Rhuf. 5. 5. a 8. 15, 16. 2 Cor. 1. 22. Eph. 1. 13. a 4. 30. m Ioan 3. 34. a 15. 26. a 16. 7. Rhuf. 8. 9. 1 Cor. 15. 45. Phil. 1. 19. 1 Pedr 1. 11. Dat 19. 10. n Es. 44. 3—5. Jer. 3. 4, 19. Mat. 6. 6—9. Luc 11. 2. Rhuf. 8. 26, 27. Eph. 2. 18. a 6. 18. Heb. 4. 14—16. Judas 20.

* Yn pen. 3. 23, 24, 25, ac adn. 3, o'r bennod hon, soniai yr apostol am yr *Iuddewon,* megys ar wahân oddi wrth y *cenedloedd,* dàn y rhag-enwad *ni;* ond yma mae yn troi at y Galatiaid, fel cenedloedd, *chwi,* ac yn dywedyd eu bod hwythau hefyd yn feibion i Dduw trwy ffydd yn Nghrist Iesu, (pen. 3. 26,) yn gystal â'r Iuddewon, wedi derbyn y mabwysiad trwy y prynedigaeth gan Fab Duw, adn. 5. † Mae yr Ysbryd Glân yn Ysbryd y Mab yn gystal ag yn Ysbryd y Tad; *un* mewn hanfod yw y personau dwyfol oll; ac mae yr Ysbryd Glân yn cael ei ddanfon i holl blant Duw, trwy gyfryngdod Iesu, fel Pen a Gwaredwr ei bobl, yn ol trefn y cyfammod i hyny. Danfonwyd ef i breswylio yn y saint dàn yr efengyl, gyda helaethach doniau, grasau, a dylanwadau nefol, nag a ganiatêid i'r credinwyr dàn yr hen oruchwyliaeth. ‡ Gwel ar Marc 14. 36, a Rhuf. 8. 15. Sylwyd yno mai yr un peth yw ystyr y gair Abba a'r gair Tad, y naill yn cael ei arfer gan yr Iuddewon, a'r llall *(Patêr)* gan y Groegiaid; i arwyddo fod Duw yn Dad i'r naill fel y llall trwy eu ffydd hwy yn Nghrist, ac i arwyddo atgasrwydd, anwyldeb, a thaerineb y saint mewn gweddi. Nid oedd yn ganiatâol gynt i'r caethion *(slaves)* ddywedyd *Abba* wrth *feistr* y teulu y perthynent iddo, nac ychwaith i ddywedyd Imma, *mam,* wrth feistres y teulu: y *plant* yn unig oedd i ddefnyddio yr enwau perthynasol ac anwylaidd hyny; ac felly yma, o herwydd bod y Galatiaid yn *feibion* wedi derbyn y mabwysiad, am hyny yr oedd ysbryd mabwysiad yn eu calonau, a rhyddid iddynt i ddywedyd wrth Dduw, Abba Dad.

7 [o] * Felly nid wyt ti mwy yn was, [p] † ond yn fab; [q] ‡ ac os mab, [r] etifedd hefyd i Dduw trwy Grist.

o adn. 1, 2, 5, 6, 31. pen. 5. 1. p Gwel ar pen. 3. 26. q Gwel ar pen. 3. 29. r Gen. 15. 1. a 17. 7, 8. Salm 16. 5. a 73. 26. Jer. 10. 16. a 31. 33. a 32. 38—41. Galar. 3. 24. 1 Cor. 3. 21—23. 2 Cor. 6. 16—18. Dat. 21. 7.

* Felly, pa un bynag ai Iuddewon a'i cenedloedd oedd y rhai oedd yn eglwysi Galatia; pob un o honynt ag oedd yn credu yn Nghrist, nid oedd mwy yn was, mewn cyflwr nac ysbryd o ddarostyngiad gwasaidd i'r ddeddf, i ddysgwyl dim oddi wrth y ddeddf foesol fel cyfammod o weithredoedd, nac oddi wrth y ddeddf seremonïol chwaith er cyfiawnâd a bywyd. † Ond yr oedd pob gwir gredadyn o honynt hwy yn fab trwy fabwysiad; yr hyn a gynnwys ystyriaeth uwchaf o ryddid a rhagorfraint: ac yn fab o gyflawn oed; nid fel duwiolion yr Hen Destament, yn fechgyn dàn oed, ac heb ddim rhagor rhyngddynt â gweision. ‡ Ac os oeddynt yn feibion, yr oeddynt yn etifeddion hefyd i Dduw trwy Grist; yn etifeddion o'r efengyl a'i holl freintiau a'i bendithion yma, ac yn etifeddion y nefoedd a'i holl ddedwyddwch tragywyddol byth.

8 * Eithr y pryd hwnnw, [s] † pan oeddych heb adnabod Duw, [t] ‡ chwi a wasanaethasoch y rhai wrth naturiaeth nid ydynt dduwiau.

s Ex. 5. 2. Jer. 10. 25. Ioan 1. 10. Act. 17. 23, 30. Rhuf. 1. 28. 1 Cor. 1. 21. Eph. 2. 11, 12. a 4. 18. 1 Thes. 4. 5. 2 Thes. 1. 8. 1 Ioan 3. 1. t Jos. 24. 2, 15. Salm 115. 4—8. a 135. 15—18. Es. 44. 9—20. Jer. 10. 3—16. Act. 14. 12—15. a 17. 29. Rhuf. 1. 23, 25. 1 Cor. 8. 4. a 10. 19, 20. a 12. 2. 1 Thes. 1. 9. 1 Pedr 4. 3.

* "Y pryd hwnw," cyn iddynt hwy glywed yr efengyl, a chyn iddynt gael eu troi o dywyllwch paganiaeth trwy yr efengyl; † y pryd hwnw nis gwyddent hwy ddim am y gwir Dduw, nis gwyddent hwy ddim am

dano ef fel y mae, fel y dylasent wybod, ac fel y daethont i wybod wedi hyny: nis gwyddent chwaith ddim am y ffordd i wasanaethu Duw, nac i fod yn gymmeradwy yn ei olwg ef. ‡ Yn y cyflwr tywyll a phaganaidd hwnw, yr oeddynt yn gwasanaethu duwiau eraill, eilunod mudion a gau-dduwiau: nid oeddynt dduwiau mewn gwirionedd, o naturiaeth a hanfod; ond yn unig yn nhybiau eu haddolwyr: nid oedd dim gwir ddwyfoldeb ynddynt, am hyny ni ddylasent gael eu haddoli, eilun-addoliaeth oedd eu gwasanaethu. Mae hyn yn dangos fod ein Harglwydd Iesu o *naturiaeth* ac o *hanfod* yn Dduw, pe amgen pechod fuasai ei addoli yntau.

9 * Ac yn awr, [u]a chwi yn adnabod Duw, [x] † ond yn hytrach yn adnabyddus gan Dduw, [y] ‡ pa fodd yr ydych yn troi drachefn at yr egwyddorion llesg a thlodion, y rhai yr ydych yn chwennych ‖ drachefn o newydd eu gwasanaethu?

u 1 Bren. 8. 43. 1 Cron. 28. 9. Salm 9. 10. Diar. 2. 5. Jer. 31. 34. Hab. 2. 14. Mat. 11. 27. Ioan 17. 3. 1 Cor. 15. 34. 2 Cor. 4. 6. Eph. 1. 17. 2 Pedr 2. 20. 1 Ioan 2. 3, 4. a 5. 20. x Ex. 33. 17. Salm 1. 6. Ioan 10. 14, 27. Rhuf. 8. 29. 1 Cor. 8. 3. a 13. 12. 2 Tim. 2. 19. y Col. 2. 20—23. Heb. 7. 18.

* Ac yn awr, wedi iddynt ddyfod i adnabod Duw yn achubol yn Nghrist, a'i adnabod ef fel y mae yn ol yr ysgrythyr, a thrwy oleuni a nerth yr efengyl; † ond yn hytrach wedi iddynt hwy gael eu hadnabod gan Dduw, eu galw a'u cymmeradwyo ganddo ef, eu dwyn i ryddid yr efengyl, a'u gosod yn mhlith y plant; ‡ mae yr apostol yn gofyn iddynt, pa fodd yr oeddynt yn troi drachefn at egwyddorion llesg a thlodion cyffelyb i'r pethau o adawsent, fel pe byddent drachefn yn chwennych bod dàn gaethiwed i bethau felly. Seremonïau y ddeddf yw yr hyn a feddylir, y rhai a gymhellid ar y Galatiaid gan y gau-athrawon Iuddewaidd, a hwythau yn rhŷ barod i ymostwng iddynt. Egwyddorion *llesg* oeddynt, am nad oedd nerth na rhinwedd ynddynt i lanâu yr enaid oddiwrth bechod, nac i gyfiawnâu y pechadur ger bron Duw: a *thlodion* oeddynt, am nas gallent gynnysgaethu yr enaid â thrysorau ysbrydol yr efengyl, maddeuant a heddwch, gras a doniau ysbrydol, a mwynâd a sicrwydd o ddedwyddwch a bywyd tragywyddol. Yr oedd llawer o draddodiadau dynol y tadau yn cael eu cymhell ar y Galatiaid hefyd, yna nid rhyfedd fod Paul yn eu galw yn egwyddorion llesg a thlodion. ‖ Ni buasai y Galatiaid erioed dàn y ddeddf seremonïol, am hyny nis gallwn ddeall eu bod yn troi *drachefn o newydd* i wasanaethu hòno; ond wedi eu gwaredu oddi wrth eilun-addoliaeth, yr oeddynt yn troi at y ddeddf seremonïol ddiddymedig, yn lle yr ofergoelion paganaidd; ac yn eu rhoddi eu hunain dàn gaethiwed i athrawon Iuddewaidd a thraddodiadau phariseaidd, gwedi cael eu rhyddâu unwaith oddi wrth offeiriaid a defodau paganaidd. Yn yr ystyr uchod yn unig y gellid dywedyd bod y Galatiaid yn troi *drachefn* at yr egwyddorion llesg a thlodion: ond yr un egwyddorion llesg a thlodion.

10 [z] * Cadw yr ydych ddiwrnodiau, † a misoedd, ‡ ac amseroedd, ‖ a blynyddoedd.

z Lef. 23. a 25. 1—13 Num. 28. a 29. Rhuf. 14. 5. Col. 2. 16, 17.

* Yn gyffelyb fel y buasai y Galatiaid hyn yn cadw mwy na mwy o ŵyliau er anrhydedd i'w gau-dduwiau gynt, felly yr oeddynt yn awr, trwy hudoliaeth y gau-athrawon, yn cadw yr holl ŵyliau seremonïol Iuddewig: diwrnodau gŵyl, megis sabbathau a newyddleuadau; † misoedd, y cyntaf a'r seithfed mis, ar y rhai yr ymprydient; ‡ amseroedd, megys gŵyl y blaenffrwyth, gŵyl y pebyll, &c.; ‖ a blynyddoedd, sef y seithfed flwyddyn, blwyddyn y gollyngdod, a'r ddegfed a deugain, sef blwyddyn y Jubili. Meddwl yr apostol yw, eu bod yn gyfeiliornus yn ystyried eu hunain o hyd dàn rwymau i gadw y gŵyliau hyn yn grefyddol, fel pe buasai yr holl ddeddf seremonïol o hyd mewn grym.

11 [a] * Y mae arnaf ofn am danoch, [b] rhag darfod i mi boeni wrthych yn ofer.

a adn. 20. 2 Cor. 11. 2, 3. a 12. 20, 21. b pen. 2. 2. a 5. 2—4. Es. 49. 4. Act. 16. 6. 1 Cor. 15. 58. Phil. 2. 16. 1 Thes. 3. 5. 2 Ioan 8.

* Wrth feddwl am danynt, eu bod felly wedi ymollwng mòr bell gydâ'r gau-athrawon oedd yn eu hudo, yr oedd yr apostol yn ofni am danynt, rhag ei fod ef wedi poeni wrthynt yn ofer. Yr oeddynt hwy yn gosod *pwys* ar y cyflawniadau uchod a'u cyffelyb, fel pethau angenrheidiol er eu cyfiawnâd a'u hiachawdwriaeth; ac fel hyny yr oedd y cyfeiliornad yn gyfeiliornad sylfaenol, peryglus a phechadurus, yr hyn a barai i'r apostol ddywedyd fel hyn mòr rymus, ei fod yn ofni am danynt, rhag darfod iddo ef boeni wrthynt yn ofer. Yr un peth a ddywedai efe am y grefydd babaidd, a'i gŵyliau a'i hofer-goelion yn awr.

12 [c] * Byddwch fel fyfi, † canys *yr wyf* fi fel chwi, y brodyr, attolwg i chwi: [d] ‡ ni wnaethoch i mi ddim cam.

c pen. 2. 14. a 6. 14. Gen. 34. 15. 1 Bren. 22. 4. Act. 21. 21. 1 Cor. 9. 20—23. Phil. 3. 7, 8. d 2 Cor. 2. 5.

* Byddwch fel fyfi yn eich cariad, cerwch fi fel yr wyf fi yn eich caru chwi: a byddwch fel fyfi yn eich barn a'ch golygiadau am y ddeddf, ac am drefn cyfiawnâd ac iachawdwriaeth trwy Grist yn unig. † Yr wyf fi fel chwi o ran cariad attoch chwi, ac yn barod i gyd-oddef â chwi yn eich ymarferiadau o'r defodau Iuddewig, hyd ag nad ystyrioch hwynt yn bethau hanfodol i iachawdwriaeth: ac yr wyf fi wedi darfod â'r ddeddf yn hollawl, yn y pwnc o iachawdwriaeth, megys pe byddwn fel chwi yn genedl-ddyn, heb fod dàn y ddeddf seremonïol erioed. Gwelir fod y geiriau "*yr wyf*" yn y fàn hon mewn llythyrenau Italaidd, wedi eu gosod i mewn gan y cyfieithwyr; ac mae rhai yn darllen "yr *oeddwn* I fel chwi," sef yn dwyn mawr *zel* i'r ddeddf gynt, fel yr ydych chwithau yn awr, ond yn awr yr wyf yn cyfrif pob peth yn golled er mwyn Crist ac fel yr ennillwyf ef. ‡ Nid oedd gan yr apostol ddim drwg ewyllys tuag atynt, nac achos i hyny; nid oeddynt eto wedi dangos dim anmharch personol iddo ef; a pha faint bynag yr oedd y gau-athrawon wedi eu hudo hwy i gyfeiliornadau, nid oedd hyny ddim cam personol iddo ef; iddynt eu hunain yr oeddynt yn gwneyd yr holl niwed.

13 * A chwi a wyddoch mai [e] trwy wendid y cnawd yr efengylais i chwi [f] y waith gyntaf.

e 1 Cor. 2. 3. 2 Cor. 10. 10. a 11. 6, 30. a 12. 7—10. a 13. 4. f pen. 1. 6. Act. 16. 6.

* Gwyddai y Galatiaid yn burion pa beth oedd y "gwendid" hwn y cyfeiria yr apostol ato; nid oedd achos crybwyll yn fanylach iddynt hwy pa beth ydoedd, ac nid oes achos i ninnau wybod ond yr hyn a ysgrifenwyd. Gwaeledd personol ei ymddangosiad ef, medd rhai ydoedd; rhyw afiechyd corphorol oedd arno ef pan aeth gyntaf i Galatia, medd eraill; y driniaeth ddrwg a ddyoddefasai efe o herwydd yr efengyl, medd eraill.

14 * A'm profedigaeth, yr hon *oedd* yn fy nghnawd, [g] † ni ddïystyrasoch, ac ni ddirmygasoch; ‡ eithr chwi a'm derbyniasoch megis [h] angel Duw, [i] ‖ megis Crist Iesu.

g Gwel ar adn. 13.—Job 12. 5. Salm 119. 141. Preg. 9. 16. Es. 53. 2, 3. 1 Cor. 1. 28. a 4. 10. 1 Thes. 4. 8. h 2 Sam. 14. 17. a 19. 27. Zec. 12. 8. Mal. 2. 7. Heb. 13. 2. i Mat. 10. 40. a 18. 5. a 25. 40. Luc 10. 16. Ioan 13. 20. 2 Cor. 5. 20. 1 Thes. 2. 13.

* Yr hyn a alwai yr apostol yn "wendid y cnawd" yn yr adnod o'r blaen, a eilw efe yma yn "brofedigaeth, yr hon oedd yn ei gnawd ef:" efallai mai yr hyn a alwodd efe yn "swmbwl yn y cnawd," 2 Cor. 12. 7, ydoedd, beth bynag oedd y swmbwl yn y fàn hòno. † Yn yr adnod o'r blaen mae yr apostol yn dangos ei

rfawr gariad at eneidiau y Galatiaid, pan ddaeth atynt
y waith gyntaf, i efengylu iddynt, er bod dàn wendid y
genawd; yma mae yn canmol eu cariad hwythau tuag
ato ef, gan na ddïystyrasant, ac na ddirmygasant ef a'i
genadwri yn y gwendid hwnw, a'r brofedigaeth hòno.
14 ‡ Yn hytrach na dïystyru a dirmygu, hwy a dderbyn-
siasent ei genadwri ef, ac yntau er mwyn ei genadwri,
emegys pe buasai angel neu genadwr Duw, wedi ei
ddanfon yn union-gyrchol o'r nefoedd; ‖ ïe, megys pe
buasai y Messiah ei hunan, yr hwn a eneiniodd Duw
yn unig Waredwr.

15 * Beth wrth hynny oedd eich [k] ded-
wyddwch chwi? [l] † canys tystio yr wyf i chwi,
[m] pe *buasai* bosibl, y tynnasech eich llygaid,
ac a'i rhoisech i mi.

k pen. 3. 14. a 5. 22. a 6. 4. Luc 8. 13. Rhuf. 4. 6—9. a 5. 2.
l a 15. 13. 1 Rhuf. 10. 2. 2 Cor. 8. 3. Col. 4. 13. m adn. 19.
1 Rhuf. 9. 3. 1 Thes. 2. 8. a 5. 13. 1 Ioan 3. 16—18.

* Pa beth gan hyny yn awr sydd wedi dyfod o'r holl
ddedwyddwch oeddych chwi gynt yn broffesu i chwi
egael trwy yr efengyl a bregethais I i chwi, gan eich
bod yn myned oddi wrth yr efengyl hòno at y cyfam-
mod gweithredoedd, yr hwn nis gall ond eich caethiwo
a'ch condemnio? A pha beth oedd yr holl ddedwydd-
rwch a'r bendithion oeddych yn ddymuno i mi am
yfynegi yr efengyl i chwi, gan eich bod yn awr yn troi
oddi wrthyf fi i ganlyn gau-athrawon? Pa fodd y cyd-
ssaif y pethau gynt â'r agwedd bresenol arnoch chwi?
A ydyw y pethau hyny oll wedi eu hanghofio, wedi eu
ccolli, ac yn debyg o ddyfod i'r dim, a chwi wedi siarad
ycymmaint am danynt? † Yr amser hwnw gallaf fi fy
hun dystio, cyn belled ag y gellid barnu wrth eiriau a
gweithredoedd, y tynasech eich llygaid pe buasai bos-
ibl, ac y rhoisech hwynt i mi, gan gymmaint oedd eich
cariad ataf, a'ch llawenydd wrth yr athrawiaeth rasol a
bregethais i chwi.

16 [n] * A aethum i gan hynny yn elyn i
chwi, [o] wrth ddywedyd i chwi y gwir?

n pen. 3. 1—4. 1 Bren. 18. 17, 18. a 21. 20. a 22. 8, 27. 2 Cron.
24. 20—22. a 25. 16. Salm 141. 5. Diar. 9. 8. Ioan 7. 7. a 8. 45.
o pen. 2. 5, 14. a 5. 7.

* Pa beth a newidiodd eich meddwl chwi yn awr?
neu a barodd i chwi feddwl yn waeth am danaf? yn wha
ebeth y digiais I chwi? neu y gwnaethum niwed i
chwi? A aethum I yn elyn i chwi wrth fod yn ffydd-
lawn i bregethu y gwirionedd, ac wrth eich rhybuddio
chwi i ochelyd cymmysgu gweithredoedd y ddeddf â
ffydd yn Nghrist er cyfiawnâd ger bron Duw? Hyn
oedd y daioni mwyaf a allaswn I wneyd i chwi; felly
yr oeddwn yn ei fwriadu, ac felly y dylech chwithau ei
ystyried a'i dderbyn: ond od oes neb o honoch chwi yn
ystyried yn amgen, ac yn rhagfarnllyd yn fy erbyn I am
hyn; mwyaf oll yw eich euogrwydd, a mwyaf yr ydych i
resynu wrthych.

17 [p] * Y maent yn rhoi mawr-serch arnoch,
† *ond* nid yn dda; ‡ eithr chwennych y maent
eich cau chwi allan, ‖ fel y rhoddoch fawr-
serch arnynt hwy.

p pen. 6. 12, 13. Mat. 23. 15. Rhuf. 10. 2. a 16. 18. 2 Cor. 11.
2, 13—15. Phil. 2. 21. 2 Pedr 2. 3, 18.

* Mynai y gau-athrawon feithrin rhagfarn yn medd-
yliau y Galatiaid yn erbyn yr apostol, trwy gymmeryd
arnynt roddi mawr serch arnynt, a bod ganddynt ofal
mawr am danynt; † ond nid oedd yn dda: nid oedd i
ddyben da, er eu lles ysbrydol hwynt, ac nid oeddynt
yn ymddwyn yn onest nac yn anrhydeddus, trwy ymos-
od yn dwyllodrus felly arnynt. ‡ Chwennych yr oedd-
ynt i gauad eu calonau hwy yn erbyn Paul, ac yn erbyn
ei athrawiaeth efengylaidd, a'i awdurdod apostolaidd
hefyd; ‖ fel y gallent yn hawddach eu hennill i roi mawr-
serch arnynt hwy, ac i gymmeryd eu harwain a'u llyw-
ddraethu mewn dallineb ganddynt hwy, y rhai oedd
yn arglwyddiaethu ar eu ffydd hwynt. Mynent gauad
y Galatiaid allan oddi wrth ryddid ac iachawdwriaeth
yr efengyl, i'w cadarnâu hwy mewn ymlyniad dall wrth
eu hathrawiaeth ddeddfol a'u plaid hwy. Mae rhai yn
darllen "*ein* cau *ni* allan," sef yr apostol a'i frodyr o
fynwesau a chariad y Galatiaid, fel y rhoddent fawr-
serch arnynt hwy.

18 [q] * Eithr da *yw* dwyn mawr-serch mewn
peth da yn wastadol, † ac nid yn unig [r] tra
fyddwyf bresennol gyd â chwi.

q Num. 25. 11—13. Salm 69. 9. a 119. 139. Es. 59. 17. Ioan
2. 17. Tit. 2. 14. Dat. 3. 19. r adn. 20. Phil. 1. 27. a 2. 12.

* Eithr da, prydferth, canmoladwy, a rhagorol, yw
dwyn mawr-serch mewn peth da, neu tuag at ddyn da,
yn wastadol: da oedd dwyn mawr-serch tuag at yr
apostol fel *dyn* da, a thuag at ei athrawiaeth ef fel *peth*
da; a hyny yn *wastadol*, † nid yn unig tra yr oedd efe
yn bresenol gyda hwynt. Dywedir y gellid deall y
geiriau gwreiddiol am *ddyn* da yn gystal ac am *beth* da,
ac mai am dano ei hun a'i athrawiaeth mae yr apostol
yn llefaru, gan argyhoeddi y Galatiaid o anwadalwch eu
cariad wedi iddo ef ymadael â hwynt.

19 * Fy [s] mhlant bychain, [t] † y rhai yr wyf
yn eu hesgor drachefn, ‡ hyd [u] oni ffurfier
Crist ynoch,

s 1 Cor. 4. 14, 15. 1 Tim. 1. 2. Tit. 1. 4. Philemon 10, 19.
Iago 1. 18. 1 Ioan 2. 1, 12, 13. a 5. 21. t Num. 11. 11, 12. Es.
53. 11. Luc 22. 44. Phil. 1. 8. a 2. 17. Col. 2. 1. a 4. 12. Heb. 5. 7.
Dat. 12. 1, 2. u Rhuf. 8. 29. a 13. 14. Eph. 4. 24. Phil. 2. 5.
Col. 1. 27. a 3. 10.

* Wrth eu galw hwy yn "blant bychain," mae efe yn
dangos ei gariad tuag atynt, yn dangos mai efe oedd eu
tad ysbrydol yn Nghrist, ac yn lled-grybwyll nad oedd-
ynt ond gweiniaid eto yn y ffydd. Gwaeledd mawr
mewn plant bychain oedd gadael eu tad, a myned i
ganlyn dïeithriaid. † Er nad oeddynt hwy yn ei an-
rhydeddu ef fel eu tad ysbrydol, eto yr oedd ef yn eu
caru hwynt fel ei blant bychain yn yr efengyl, ac mewn
gwewyr dirfawr am eu lles ysbrydol, fel gwraig mewn
gwewyr esgor: yr oedd mewn cymmaint gwasgfa yn awr
am eu hadferiad ag a fuasai o'r blaen am eu dychwel-
iad o baganiaeth i wybodaeth o'r efengyl; ac yr oedd
megys yn eu hesgor drachefn, neu yn mhoenau yr
esgoreddfa drachefn arnynt, ‡ hyd oni ffurfid Crist
ynddynt; sef hyd oni byddai athrawiaeth cyfiawnâd
trwy ffydd, a holl wirionedd yr efengyl, wedi greddfu a
gwreiddio ynddynt yn sefydlog ac yn gadwedigol, a
Christ yn trigo trwy ffydd yn eu calonau hwynt.

20 * *Ac* mi a fynnwn [x] pe bawn yn awr
gyd â chwi, † a newidio fy llais; ‡ o herwydd
yr wyf yn ammeu o honoch.

x 1 Cor. 4. 19—21. 1 Thes. 2. 17, 18. a 3. 9.

* Cymmaint oedd cariad yr apostol atynt, a'i ofal am
danynt, fel y dymunai fod yn awr gyda hwynt, i ym-
ddiddan yn gyfeillgar wyneb yn wyneb â hwynt; fel y
gallai eu cadarnâu yn y gwirionedd, ateb gwrthddadl-
euon, dystewi cecraeth rhai gweigion, a symmud pob
ammheüon a phetrusder oddi ar feddyliau gweiniaid,
yr hyn nis gallai eu gwneyd càn gystal mewn llythyr fel
hyn. † Yna cawsai yr hyfrydwch, efallai, o newidio ei
lais tuag atynt, wrth weled cyfnewidiad er gwell ynddynt
hwy, a'u calonogi yn lle eu hargyhoeddi a'u ceryddu:
neu newidio ei lais fel y gwelai bersonau ac amgylch-
iadau yn gofyn, yr hyn nis gallai yn iawn yn absenol
mewn llythyr. ‡ O herwydd yr oedd efe yn awr yn
ammau am danynt; neu yn petruso, pa beth i feddwl o
honynt; pa un a oeddynt hwy wedi cael eu gwir ddy-
chwelyd ai nid oeddynt: ac yr oedd yn ammheüs pa
beth a fyddai canlyniad yr hudoliaeth bresenol oedd
wedi eu dyrysu, pa un a adferid hwynt, ai ynte syrthio
ymaith i wrthgiliad hollawl a wnai llawer o honynt.

21 * Dywedwch i mi, [y] y rhai ydych yn
chwennych bod dan y ddeddf; [z] † onid ydych
chwi yn clywed [a] y ddeddf?

y adn. 9. pen. 3. 10, 23, 24. Rhuf. 6. 14. a 7. 5, 6. a 9. 30—32.
a 10. 3—10. z Mat. 21. 42—44. a 22. 29—32. Ioan 5. 46, 47.
a Ioan 10. 34. a 12. 34. a 15. 25. Rhuf. 3. 19.

* Chwychwi sydd yn chwennych bod dàn y ddeddf, i

gael eich cyfiawnâu trwy eich ufudd-dod eich hunain i'r ddeddf foesol a seremoniol, mi a fynwn ofyn yn ddifrifol i chwi, ac a fynwn i chwithau ateb yn gydwybodol, yn ofn ac yn ngwydd Duw, megys pe byddech yn awr yn sefyll ger bron ei orsedd-fainc ef i gael eich barnu; † pan mae y ddeddf hòno yn cael ei darllen yn eich cyfarfodydd cyhoeddus chwi, onid ydych yn clywed y ddeddf; neu, onid ydych yn gwrando, yn deall, ac yn ystyried, pa bethau dychrynllyd mae hi yn gyhoeddi yn erbyn pawb sydd dàni, ac sydd i gael eu barnu wrthi hi? (pen. 3. 10.) Ac yn enwedig, a fyddwch chwi byth yn ystyried, pa fodd y mae ysgrifeniadau Moses, y rhai yr ydych chwi debygid mòr hoff o honynt, yn dangos y gwahaniaeth mawr sy rhwng y rhai a geisiant gyfiawnder trwy weithredoedd y ddeddf, â'r rhai a'i ceisiant trwy ffydd yn unig yn Nghrist? Mae yn sicr nad yw y dynion hyny eto, a chwennychont fod dàn y ddeddf, erioed wedi clywed y ddeddf yn effeithiol; pe amgen ni chwennychent fod dàni mwy.

22 * Canys y mae yn ysgrifenedig, [b] † fod i Abraham ddau fab; ‡ un o'r wasanaeth-ferch, ac un o'r *wraig* rydd.

b Gen. 16. 2—4, 15. a 21. 1, 2, 10.

* Mae hyn yn ysgrifenedig yn Gen. 16. 15; a 21. 2, 3. † Bu ychwaneg o blant i Abraham o'i ail wraig Cetura, (Gen. 25. 1, 2.) y rhai ni chrybwyllir gan yr apostol yma; yr hyn a ddengys fod rhyw beth arbenig o rag-ddangosiadol yn Ismael ac Isaac, mwy nac yn y rhai hyny. ‡ Agar oedd y wasanaeth-ferch, mam Ismael, a Sarah oedd y wraig rydd, mam Isaac.

23 * Eithr yr hwn *oedd* o'r wasanaeth-ferch, [c] a aned yn ol y cnawd; [d] † a'r hwn *oedd* o'r *wraig* rydd, trwy yr addewid.

c Rhuf. 9. 7, 8. d Gen. 17. 15—19. a 18. 10—14. a 21. 2. Rhuf. 4. 18—21. a 10. 8, 9. Heb. 11. 11, 12.

* Ismael, yr hwn oedd o'r wasanaeth-ferch a aned yn ol y cnawd, yn ol deddf gyffredin natur, tra yr oedd Abraham ac Agar yn ddigon ieuainc i blanta yn y ffordd gyffredin o genedlu; † ond Isaac, yr hwn oedd o Sarah y wraig rydd, a roddwyd i Abraham mewn modd anghyffredin, a gwyrthiol, trwy nerth addewid rad a grasol Duw, pan oedd ei dad a'i fam wedi myned dros oedran, ac wrth naturiaeth yn annalluog i eppilio. Mewn ystyr yr oedd y ddau yn ol y cnawd, sef yn ol y drefn naturiol o genedlu; ond yma mae "yn ol y cnawd," i'w ddeall mewn cyferbyniad i "trwy yr addewid."

24 * Yr hyn bethau ydynt [e] mewn alegori: [f] † canys y rhai hyn yw y [g] ddau destament; ‡ un yn ddiau o fynydd Sina, [h] ‖ yn cenhedlu i gaethiwed, yr hon yw [i] Agar:

e Ezec. 20. 49. Hos. 11. 10. Mat. 13. 35.—1 Cor. 10. 11. Heb. 11. 19. f adn. 25. Luc 22. 19, 20. 1 Cor. 10. 4. g pen. 3. 15—21. Heb. 7. 22. a 8. 6—13. a 9. 15—24. a 10. 15—18. a 12. 24. a 13. 20. h pen. 5. 1. Rhuf. 8. 15. i Gen. 16. 3, 4, 8, 15, 16. a 21. 9—13. a 25. 12.

* Aralleg, neu gyffelybiaeth yw y pethau uchod, wedi eu bwriadu felly gan Duw, i ragddangos cyfammod Sinai, a chyfammod Duw âg Abraham yn Nghrist er iachawdwriaeth yr holl gredinwyr. Efallai na buasem ni yn canfod yr *alegori* hon, yn hanes Agar a Sarah a'u meibion, oni buasai i'r apostol ei dangos i ni; a dylai fod llawer o sobrwydd a doethineb wrth ddefnyddio hanesion ysgrythyrol fel hyn: eto yr oedd yr amgylchiadau hyn mòr nodedig, y cyd-darawiad mòr gywir, a'r eglurâd mòr addysgiadol, fel nas gallwn ammau na fwriadwyd y peth o'r dechreuad gan yr Ysbryd Glân, fel cyffelybiaeth, neu gysgod, o'r pethau mae yr apostol dàn ysbrydoliaeth Duw yn ei gyfeirio atynt: a dylem sylwi fod yr apostol yn defnyddio yr hanes allegawl uchod fel *eglurâd* o'r mater dàn sylw, ac nid fel *rheswm* union-gyrchol, neu *brawf* o hòno. Gelwir peth yn *alegori*, pan y mae un peth "w ddysgu drwy beth arall; neu pan mae rhywbeth ysbrydol yn cael ei osod allan trwy beth naturiol. † Y rhai nyn ydynt ddangosiadau allegawl, neu gysgodawl, o'r ddau destament, neu y ddau gyfammod: ‡ un yn ddiau, sef Agar a'i mab Ismael, yn ddangosiad o gyfammod Sinai, yr hwn a dròai yr Iuddewon deddfol yn gyfammod o weithredoedd: ‖ fel Ismael yr oeddynt yn cael eu cenedlu mewn caethiwed ac i gaethiwed; yr oedd eu holl ufudd-dod o natur ddeddfol a chaeth; nid oedd eu breintiau ond allanol a thymmorol; ac nis gallai cyfammod Sinai eu gwaredu hwynt o'r cyflwr caethiwus hwnw. Fel yr oedd Agar yn gaeth-ferch ei hun, a'i mhab yn cael ei genedlu mewn caethiwed; felly yn gyffelyb yr oedd cyfammod Sinai, yr hwn trwy y dull ofnadwy o'i roddiad, manylrwydd ei orchymynion, a thoster ei felltithion, oedd yn tueddu i genedlu ysbryd gwasaidd, caeth a deddfol, ac a fuasai yn sicr yn darostwng y rhai oedd dano i'r tostaf o bob caethiwed a dinystr tragywyddol, pe gadewsid hwy i'w ammodau ef, heb ddim ymwared pellach, yr hyn oedd wedi ei ddarpar yn yr addewid i Abraham, ac a ddygwyd i mewn yn wirioneddol drwy yr efengyl.

25 * Canys yr Agar yma yw [k] mynydd [l] Sina yn [m] Arabia, † ac y mae yn cyfatteb i'r Jerusalem *sydd* yn awr, ‡ ac y mae yn gaeth *hi* [n] a'i phlant.

k adn. 24. l Deut. 33. 2. Barn 5. 5. Salm 68. 8, 17. Heb. 12. 18. m pen. 1. 17. Act. 1. 11. n Mat. 23. 37. Luc 13. 34. a 19. 44.

* Canys yr Agar yma ydoedd gysgod o fynydd Sinai yn Arabia, yr hon wlad a boblogwyd wedi hyny gan ei hiliogaeth hi, ac yr hon oedd allan o derfynau gwlad yr addewid. Nid oedd Agar yn wraig rydd i Abraham, ac nid oedd Ismael i etifeddu y bendithion addawedig i Abraham a'i had, ond yr oedd Agar ac Ismael i gael eu bwrw allan o deulu a chyfammod Abraham. Oddi ar fynydd Sinai y rhoddwyd y ddeddf, ac y gwnaed y cyfammod âg Israel: † ac yr oedd yn cyfateb i Jerusalem dàn yr oruchwyliaeth hòno, lle yr cedd yr Israeliaid yn addoli Duw yn allanol, trwy yr ordeiniadau a gyflawnid yn y deml. Ac yn enwedig yr oedd yn cyfateb i'r Jerusalem oedd *yn awr*, pan oedd yr apostol yn ysgrifenu, yr hon nid oedd breswylfa Duw mwyach, ond wedi ei gadael ganddo am annuwioldeb ei thrigolion; ‡ y rhai oeddynt yn y caethiwed mwyaf ofnadwy i bechod a Satan, fel yr oedd Agar ac Ismael, a'u hiliogaeth, pan fwriwyd hwy allan o deulu Abraham, ac oddi wrth holl fendithion ei gyfammod ef. Cyn belled ag yr oedd yr Iuddewon yn aros dàn gyfammod Sinai, yn enwedig wedi iddynt wrthod Crist a'r efengyl, nid oeddynt ond caethion yn unig, dàn effeithiau ysbryd caethiwed, ac nid oeddynt yn blant i Dduw.

26 * Eithr y [o] Jerusalem honno uchod † sydd [p] rydd, ‡ yr hon yw ein [q] mam ni oll.

o Salm 87. 3—6. Es. 2. 2, 3. a 52. 9. a 62. 1, 2. a 65. 18. a 66. 10. Joel 3. 17. Mica 4. 1. 2. Phil. 3. 20. Heb. 12. 22. Dat. 3. 12. a 21. 2, 10—27. p adn. 22. pen. 5. 1. Ioan 8. 36. Rhuf. 6. 14, 18. 1 Pedr 2. 16. q Can. 8. 1, 2. Es. 50. 1. Hos. 2. 2, 5. a 4. 5. Dat. 17. 5.

* Eithr y Jerusalem nefol, eglwys y Duw byw, yr hon sydd yn gynnyysedig o wir gredinwyr yn Nghrist, y rhai a geisiant gyfiawnder trwy ffydd yn unig yndd o ef; mae yr eglwys efengylaidd hon oddi uchod, yn nefol yn ei natur, o darddiad a dechreuad nefol, yn tueddu tua'r nefoedd, ac a derbynir i'r nefoedd yn y diwedd. † Mae hon hefyd fel Sarah yn wraig rydd, a'i holl blant fel Isaac yn rhyddion, pa un bynag ai Iuddewon ai cenedloedd ydynt: mae yn rydd oddi wrth ofynion a melltithion y ddeddf, oddi wrth iau a chaethiwed y seremoniau, ac oddi wrth arglwyddiaeth pechodau; a chwedi ei gwneyd yn gyfranog o holl freintiau a bendithion yr efengyl, y rhai a addawsid i Abraham a'i had ysbrydol. ‡ Mae y Jerusalem, neu yr eglwys hon hefyd, yn fam i'r holl gredinwyr, Iuddewon a chenedloedd, fel yr oedd Sarah yn y cysgod yn fam i Isaac, plentyn yr addewid: maent oll wedi cael eu had-genedlu a'u hail-eni ynddi, trwy rym yr addewid a gair y gwirionedd

yn cael eu dysgu, eu magu, a'u meithrin ynddi, trwy y weinidogaeth a'r ordinâdau o'i mewn, ac oll fel plant yr un fam yn cofleidio yr un athrawiaeth, ac yn rhodio yr un llwybrau. Brodyr ydym ni oll, un Tad sydd i ni holl, sef Duw, a Sïon yw ein mam ni oll.

27 * Canys ysgrifenedig yw, [r] Llawenhâ, iddi yr [s] ammhlantadwy, yr hon nid wyt yn peppilio; tòr allan a llefa, yr hon nid wyt yn esgor: † canys i'r [t] unig y mae llawer mwy o blant nag i'r hon y mae iddi wr.

r Es. 54. 1—5. s 1 Sam. 2. 5. Salm 113. 9. t Ruth 1. 11—13. a 4. 14—16. 2 Sam. 13. 20. Es. 49. 21. 1 Tim. 5. 5.

* Mae hyn yn ysgrifenedig yn Es. 54. 1: tybir fod y prophwyd yno megys yn gwaeddi ar Sarah i lawenâu a chânu, am yr hiliogaeth a gaffai hi ar ol hir ammhlantadrwydd, y rhai a fyddent yn lliosocach o lawer na hiliogaeth Agar y gaeth-forwyn. Fel hyn, os Sarah ac Agar oedd yn ngolwg y prophwyd, rhaid ei fod yn eu golygu yr un modd â'r apostol yma, Agar a'i had yn gysgod o'r eglwys dàn y ddeddf, a Sarah a'i had hithau yn gysgod o'r eglwys dàn yr efengyl; ac felly mae geiriau Esaiah yn brophwydoliaeth am alwad y cenedloedd i'r eglwys dàn oruchwyliaeth newydd yr efengyl; ac yn dangos y byddai yr eglwys efengylaidd yn llawer mwy lliosog, ffrhydd, a mwy ei breintiau, na'r hen eglwys gaeth Iuddewig. Ond y mae eraill yn erbyn y golygiad uchod ar geiriau y prophwyd, ac yn tybied nad yw yn addas i ni ysynied am Agar y gaeth-forwyn fel un ag "iddi wr," a Sarah y wraig rydd fel un "unig," ac wedi ei "gadael." Tybia y rhai hyn mai prophwydo yr oedd Esaiah am ddychweliad yr Iuddewon, wedi hir wrthodiad o honynt, neb un olwg ganddo ar Sarah nac Agar. Beth bynag am ddychweliad yr Iuddewon, mae yn ddiammau bod y geiriau yn cynnwys prophwydoliaeth am ddychweliad y cenedloedd hefyd; pe amgen ni buasai yr apostol yn eu defnyddio felly yn y fàn hon. † Sonia yr apostol am yr eglwys Iuddewig fel un â gŵr iddi, a rhai plant i Dduw; a sonia am y cenedloedd fel gwraig unig, ammhlantadwy, ac nad oedd yn esgor ar ddim plant i Dduw am oesoedd lawer; ond dàn yr efengyl y byddai llawer mwy o blant i Dduw o blith y cenedloedd diffrwyth, nac a fyddai o blith yr Iuddewon. Mae hyn yn awerth llawenâu a chânu o'i blegid, ar ran y cenedloedd; ond pa faint mwy pan ddelo cyflawnder y cenedloedd i mewn, a holl Israel i fod yn gadwedig?

28 [u] * A ninnau, frodyr, megis *yr oedd* Isaac, ydym blant yr addewid.

u adn. 23. pen. 3. 29. Act. 3. 25. Rhuf. 4. 13—18. a 9. 8, 9.

* Yn awr, i gymhwyso yr *alegori*, neu yr aralleg ywysig uchod, dywed yr apostol fod yr holl gredinwyr yn Nghrist, Iuddewon a chenedloedd yn ogystal, trwy ras arbenig Duw, yn wir blant yr addewid a wnaed i Abraham a'i had, mewn cyferbyniad i'r rhai oedd yn meisio ymgyfiawnâu trwy weithredoedd y ddeddf. Megys yr oedd Isaac, mab Sarah y wraig rydd, wedi cael ei eni trwy rinwedd yr addewid, ac yn etifedd o'i bendithion hi, mewn cyferbyniad i Ismael, mab Agar y gaeth-forwyn; felly mae y credinwyr oll yn blant addewid Duw, wedi eu geni yn ysbrydol trwy yr addewid, ac i'w hetifeddu byth, mewn cyferbyniad i'r rhai dàn y ddeddf.

29 * Eithr megis y pryd hwnnw, [x] yr hwn anwyd yn ol y cnawd † a erlidiai ‡ yr hwn *anwyd* [y] yn ol yr Ysbryd, [z] || felly yr awrhon hefyd.

x Gen. 21. 9. y Ioan 3. 5. Rhuf. 8. 1, 5, 13. z pen. 5. 11. a 6. 12—14. Mat. 23. 34—37. 1 Thes. 2. 14, 15. Heb. 10. 33, 34.

* Am Ismael yn cael ei eni yn ol y cnawd, gwel ar adn. 23. † Cawn hanes yr erlid hwn yn Gen. 21. 9. Dywatwar a ddywedir yno, a'r hyn a elwir yno yn watwar yn elwir yma yn erlid: mae erlid yn mhob gwatwar ar y saint, ac y mae pob un o'r ddau yn bechodau echrysawn ac ysgeler yn ol tystiolaeth yr ysgrythyrau. Dywyddai Ismael mai Isaac oedd yr etifedd, nad oedd of ei hun ond mab y gaethes, a thybir mai am hyny yr oedd yn cenfigenu wrtho ac yn ei watwar. ‡ Yn adn. 23, dywedir mai "trwy yr addewid" y ganed Isaac; yma dywedir mai "yn ol yr Ysbryd" y ganed ef; mae pob un yn wir, trwy addewid Duw a thrwy nerth Ysbryd Duw, y beichiogodd Sarah ar Isaac yn ei henaint: pan ddelo gair a nerth Ysbryd Duw eto i gyd-weithio, e wnair pethau rhyfedd iawn ar galonau hen bechaduriaid diffrwyth. || Megys yr oedd Ismael yn erlid Isaac y pryd hwnw, felly yr oedd yr Iuddewon deddfol a digred yn amser Paul, yn erlid y rhai oedd o ffydd Crist, wedi eu geni o'r Ysbryd, ac yn ceisio eu cyfiawnâu trwy ffydd heb weithredoedd y ddeddf: ac felly mae plant y cnawd o hyd yn erlid plant Duw, ac etifeddion yr addewid.

30 [a] * Ond beth y mae yr ysgrythyr yn ei ddywedyd? [b] Bwrw allan y wasanaeth-ferch, a'i mab: canys ni chaiff [c] mab y wasanaeth-ferch, etifeddu gyd â mab y *wraig* rydd.

a pen. 3. 8, 22. Rhuf. 4. 3. a 11. 2. Iago 4. 5. b Gen. 21. 10—12. Rhuf. 11. 7—11. c Ioan 8. 35. Rhuf. 8. 15—17.

* Pan welodd Sarah fab Agar yr Aiphtes yn gwatwar, hi a ddywedodd wrth Abraham, Bwrw allan y gaeth-forwyn hon a'i mab; o herwydd ni chaiff mab y gaethes hon gyd-etifeddu â'm mab I Isaac. Gen. 21. 9, 10. Ac yn adn. 12 o'r un bennod, yr ydym yn cael Duw yn dywedyd wrth Abraham hefyd, am wrando ar lais ei wraig yn y peth hyn, a gwneyd fel y dywedasai hi; felly yr oedd bwrw allan Agar a'i mab yn beth yn ol meddwl Duw, yn gystal ag yn ol ewyllys Sarah. Mewn cyffelyb fodd hefyd y cafodd yr Iuddewon digred, deddfol, a gwrthryfelgar, eu trin; y rhai, er ymffrostio eu bod yn had Abraham, a fwriwyd allan o eglwys a theulu Duw: hwy a dröwyd megys dros y drws, fel Ismael watwarllyd, am ddirmygu, gwatwar, ac erlid, y rhai a ddewisodd Duw yn blant cyfammodol iddo ei hun, ac ni chaent fod yn etifeddion yr addewid gyda hwynt. Mewn cyffelyb fodd hefyd y trŷ Duw bawb allan o'i eglwys, a geisiant ymgyfiawnâu trwy y ddeddf: ni chânt etifeddu teyrnas gras na gogoniant, gyda'r rhai sydd yn blant iddo ef trwy ffydd yn Nghrist. Prif amcan yr apostol yn y cysgod uchod yw, 1. Cauad allan y ddeddf o bob cyd-gyfranogaeth â Christ a'r efengyl, yn nghyfiawnâd pechadur ger bron Duw. 2. Dangos gwrthodiad yr Iuddewon ar alwad y cenedloedd. 3. Dangos llwyr ddinystr yr eglwys a'r genedl Iuddewig, am eu gwrthodiad o Grist, am ei erlid ef a'r eglwys gristionogol.

31 * Felly, frodyr, [d] nid plant i'r wasanaeth-ferch ydym, ond i'r *wraig* rydd.

d pen. 5. 1, 13. Ioan 1. 12, 13. a 8. 36. Heb. 2. 14, 15. 1 Ioan 3. 1, 2.

* Gan nad oedd eglwys y cenedloedd dàn yr efengyl yn cael ei chysgodi yn Agar, ond yn Sarah, mae yr apostol yn penderfynu oddi ar hyny, nad oedd ef a'r Galatiaid crediniol dàn y ddeddf, dàn rwymau i gyfiawni y defodau seremonïol; ond wedi eu rhyddâu oddi wrthynt, a chwedi eu cyfiawnâu trwy ffydd yn Nghrist yn unig, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf mewn un modd. Gan hyny os oedd breintiau y credinwyr yn rhagori mòr annhraethol, yn ol y cyfammod a'r oruchwyliaeth newydd; pa ynfydrwydd ydoedd i'r cenedloedd dychweledig "chwennych bod dàn y ddeddf," (adn. 21.) yr hon nis gallai waredu yr Iuddewon anghrediniol o gaethiwed nac oddi dàn gondemniad. Nid plant i'r wasanaeth-ferch, y ddeddf a goruchwyliaeth Sinai, oedd y Galatiaid crediniol, ond plant i'r wraig rydd, yr efengyl rasol, ac eglwys y Testament Newydd.

PEN. V.

Y mae efe yn eu hannog hwy i sefyll yn eu rhyddid.

[a] * SEFWCH gan hynny yn [b] y rhyddid â'r hwn y rhyddhâodd Crist ni; [c] † ac na ddalier chwi drachefn dan iau caethiwed.

a Diar. 28. 23. 1 Cor. 15. 58. a 16. 13. Phil. 1. 27. 1 Thes. 3.

8. 2 Thes. 2. 15. Heb. 3. 6, 14. a 4. 14. a 10. 23, 35—39. Judas 3, 20, 21. Dat. 2. 25. a 3. 3. b adn. 13. pen. 2. 4. a 3. 25. a 4, 26, 31. Salm 51. 12. Es. 61. 1. Mat. 11. 28—30. Ioan 8. 32—36. Rhuf. 6. 14, 18. a 7. 3, 6. a 8. 2. 1 Cor. 7. 22. 2 Cor. 3. 17. 1 Pedr 2. 16. 2 Pedr 2. 19. c pen. 2. 4. a 4. 9. Mat. 23. 4. Act. 15. 10. Col. 2. 16—22. Heb. 9. 8—11.

* Yr oedd Crist trwy yr efengyl wedi galw y credinwyr yn Galatia i ryddid oddi wrth gondemniad y ddeddf foesol fel cyfammod o weithredoedd, oddi wrth bob rhwymau i ddeddf seremonïol yr Iuddewon, oddi wrth eu heilun-addoliaeth eu hunain gynt, ac oddi wrth bob caethiwed, i bechod a Satan. Gan hyny mae yr apostol yn eu hannog hwy i sefyll yn gadarn a diysgog yn y rhyddid gwerthfawr hwnw: † ac na oddefent i'r gau-athrawon Iuddewaidd eu maglu, eu dyrysu, a'u dàl dàn iau caethiwed i'r ddeddf seremonïol; yr hyn a'u darostyngai hwy drachefn i gyflwr o gaethiwed mòr wael; a phan oeddynt yn eu hystâd o baganiaeth cenedlig. Trwy y boddlonrwydd a wnaeth Crist i'r ddeddf foesol fel Machnïydd; trwy gyflawni holl gysgodau y ddeddf seremonïol fel Arch-offeiriad; trwy sefydlu teyrnas a goruchwyliaeth yr efengyl yn y byd fel Brenin; a thrwy oleuo meddyliau ei bobl yn ysbrydol, am natur ei deyrnas a'i efengyl fel Prophwyd;—mae Crist yn rhyddâu y rhai oll a gredant ynddo, oddi wrth yr holl bethau a enwyd uchod: ac anfri mawr ar Grist, ei waith, a'i swyddau, yn gystal â niwed mawr iddynt eu hunain, oedd i'r Galatiaid gymmeryd eu dàl drachefn dàn iau caethiwed.

2 [d] * Wele, myfi Paul † wyf yn dywedyd wrthych, [e] ‡ Os enwaedir chwi, || ni lesâ Crist ddim i chwi.

d 1 Cor. 16. 21. 2 Cor. 10. 1. 1 Thes. 2. 18. Philemon 9. e adn. 4, 6. pen. 2. 3—5. Act. 15. 1, 24. a 16. 3, 4. Rhuf. 9. 31, 32. a 10. 2, 3. Heb. 4. 2.

Mewn rhai ysgrifau o'r epistol hwn, hon yw yr adnod flaenaf o'r bennod, a'r llall yn diweddu y bedwerydd bennod. * Myfi Paul, apostol anfonedig Iesu Grist; myfi Paul, y cam-achwynir arnaf gan rai, fy mod yn pregethu yr enwaediad weithiau, er gwasanaethu rhyw fantais; (adn. 11,) a myfi Paul, er fy mod yn wrthwyneb i lawer o athrawon Iuddewaidd hyfion; † wele, yr wyf fi yn dywedyd i chwi yn ddifrifol, yn tystiolaethu yn ngwydd Duw a thros Dduw, ac yr wyf yn gadael y peth fel gwirionedd safadwy yn yr eglwysi; ‡ os enwaedir chwi, neb o honoch, gyda golwg fod hyny yn angenrheidiol i'ch cyflawnâd a'ch cymmeradwyaeth gyda Duw; || na bydd dim llesâd i chwi o'r hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd Crist, nac oddi wrth ddim sydd yn ddatguddiedig yn yr efengyl. Os enwaedir chwi gydag ymddybyniad ar hyny, yn nghyd â'r defodau Iuddewig eraill, am gyflawnâd ger bron Duw, ni lesâ Crist ddim i chwi. Mae synwyr cyffredin yn peri i ni ddeall y geiriau yn yr ystyr hyny; yr hyn sydd angenrheidiol hefyd i'w cysoni â gobaith yr holl gredinwyr Iuddewig dàn yr hen oruchwyliaeth, ac âg ymddygiad Paul ei hun yn enwaedu ar Timothëus, Act. 16. 3. Yn y pwnc o gyflawnâd ger bron Duw, nid oedd enwaediad na dïenwaediad ddim, ond Crist a'i gyflawnder mawr a pherffaith yn bob peth.

3 * Ac yr wyf yn [f] tystiolaethu drachefn † i bob dyn a'r a enwaedir, [g] ‡ ei fod ef yn ddyledwr i gadw yr holl ddeddf.

f Deut. 8. 19. a 31. 21. Neh. 9. 29, 30, 34. Luc 16. 28. Act. 2. 40. a 20. 21. Eph. 4. 17. 1 Thes. 4. 6. 1 Ioan 4. 14. g pen. 3. 10. Deut. 27. 26. Mat. 23. 16, 18. Iago 2. 10, 11.

* Rhaid fod y pwnc hwn o bwys yn ngolwg yr apostol, gan ei fod fel hyn yn "tystiolaethu" mòr ddifrifol am dano. † "Pob dyn:" y cenedloedd, y rhai ni buont erioed dàn gyfammod yr enwaediad, neu ynte, pob dyn oedd am arfer enwaediad fel peth angenrheidiol i iachawdwriaeth. ‡ Fel yr oedd enwaediad yn rhwymo dynion i gadw holl ddefodau goruchwyliaeth Moses; felly yr oedd ei arfer yn awr er cyflawnâd, megys yn rhwymo pawb a'i harferent i holl fanylrwydd y cyfammod oedd yn gofyn ufudd-dod perffaith a dibechod, ac yn gadael y troseddwyr dàn felltith, oddi wrth yr hon nis gallent gael eu rhyddâu byth drwy y ddeddf. Efallai bod rhai o'r gau-athrawon yn dysgu y Galatiaid, nad oedd *holl* bethau y ddeddf ddim yn rhwymedig arnynt hwy broselytiaid, ac yn byw mòr bell o Jerusalem; ond dywed yr apostol yma i'r gwrthwyneb: os oeddynt am fyned dàn *ran* o'r ddeddf, yr oeddynt yn ddyledwyr i gadw yr *holl* ddeddf.

4 [h] * Chwi a aethoch yn ddifudd oddi wrth Grist, † y rhai ydych yn [i] ymgyfiawnhâu yn y ddeddf: [k] ‡ chwi a syrthiasoch ymaith oddi wrth ras.

h adn. 2. pen. 2. 21. Rhuf. 9. 31, 32. a 10. 3—5. i Rhuf. 3. 20. a 4. 4, 5. k pen. 1. 6—9. Rhuf. 11. 6. Heb. 6. 4—6. a 10. 38, 39. a 12. 15. 2 Pedr 2. 20—22. a 3. 17, 18. Dat. 2. 5.

* Chwi a aethoch i athrawiaeth, ysbryd, ac ymddygiad, na chewch chwi ddim budd oddi wrth Grist. Aeth Crist yn ddifudd, neu yn ddieffaith i chwi, yw y geiriau yn ol y Saesoneg. † Y dynion oedd yn ceisio ymgyfiawnâu trwy y ddeddf, yr oeddynt mewn gwirionedd yn ymwrthod â Christ, ac â threfn Duw o achub pechadur trwy Grist a'i gyfiawnder; ‡ oblegid yr oedd hyny yn wrthodiad o athrawiaeth gras, yn taflu ymaith bob gobaith am les o drugaredd rad Duw, ac yn ymysgar oddi wrth Grist i gymmeryd gafael yn y cyfammod gweithredoedd. Wrth ras yma yn ddïammau y deallir *athrawiaeth* gras, megys ag yn Tit. 2. 11, 12, a mànau eraill; oblegid am hyny mae yr apostol yn llefaru o hyd, mewn cyferbyniad i'r ddeddf a gweithredoedd y ddeddf.

5 [l] * Canys nyni yn yr Ysbryd trwy ffydd ydym yn [m] disgwyl [n] gobaith cyfiawnder.

l Ioan 16. 8—15. Eph. 2. 18. m Gen. 49. 18. Salm 25. 3, 5. a 62. 5. a 130. 5. Galar. 3. 25, 26. Hos. 12. 6. Rhuf. 8. 24, 25. 1 Thes. 1. 10. 2 Thes. 3. 5. n Rhuf. 5. 21. Phil. 3. 9. 2 Tim. 4. 8. Tit. 2. 13.

* Mewn cyferbyniad i geisio ymgyfiawnâu trwy y ddeddf, yr oedd yr holl wir gredinwyr, Iuddewon a chenedloedd, wedi eu dysgu a'u goleuo gan yr Ysbryd Glân, yn dysgwyl cyfiawnder, ac yn gobeithio am fywyd tragywyddol, trwy ffydd yn Nghrist yn unig, heb ddim o'u gweithredoedd deddfol eu hunain. Tybia rhai mai am Iuddewon crediniol yr oedd Paul yn llefaru yma; fel pe dywedasai, *Nyni*, y rhai a ddygwyd i fynu dàn oruchwyliaeth yr enwaediad, yr ydym *ni*, yn awr, yn ymwrthod â phob hyder yn y ddeddf, ac yn dysgwyl gobaith cyfiawnder trwy ffydd: pa faint mwy y dylech *chwi*, genedloedd, fod felly, y rhai ni buoch erioed dàn yr enwaediad?

6 [o] * Canys yng Nghrist Iesu † ni all enwaediad ddim, na dïenwaediad; [p] ‡ ond ffydd yn gweithio trwy gariad.

o adn. 2, 3. pen. 3. 28. a 6. 15. Rhuf. 2. 25—29. a 3. 29—31. 1 Cor. 7. 19. Col. 3. 11. p Mat. 25. 31—40. 2 Cor. 5. 14. 1 Thes. 1. 3. Heb. 11. 8, 17—19. Iago 2. 14—26. 1 Pedr 1. 8. 1 Ioan 3. 14—20. a 4. 18—21.

* Yn awr dàn oruchwyliaeth yr efengyl, yr hon a sefydlwyd gan Grist Iesu, ac a gadarnâwyd yn ei angau ef; ac i ni y rhai ydym yn Nghrist Iesu trwy ffydd; † ni all enwaediad na dïenwaediad ddim, yn y pwnc o gyfiawnâu na chondemnio ger bron Duw: nid oes rwymau ar neb, nac Iuddew na chenedl-ddyn, i enwaediad na dïenwaediad; mae y ddefod hòno, yn nghyd â'r holl oruchwyliaeth y perthynai iddi, wedi darfod a'i dirymu. ‡ Y cwbl am fywyd pechadur, a'r cwbl o hanfod crefydd yw, "ffydd yn gweithio trwy gariad," neu ffydd yn cael ei gweithio, ei hennyn, a'i pherffeithio trwy gariad: yn yr ystyr olaf mae rhai yn deall y geiriau, ac eraill yn ystyr y testyn: ffydd sydd yn cyfiawnâu pechadur, neu trwy ffydd y cyfiawnêir ef; ond nid ffydd ofer a diffrwyth yw hòno, eithr ffydd yn gweithio trwy gariad, mewn ufudd-dod i orchymynion Duw, ac er gogoniant i Dduw.

7 [q] * Chwi a redasoch yn dda; † pwy a'ch rhwystrodd chwi, [r] fel nad ufuddhâech i'r gwirionedd?

q Mat. 13. 21. 1 Cor. 9. 24. Heb. 12. 1. r Act. 6. 7. Rhuf.

8. 8, a 6. 17. a 10. 16. a 15. 18. a 16. 26. 2 Cor. 10. 5. 2 Thes. 1. 8. Heb. 5. 9. a 11. 8. 1 Pedr 1. 22.

* Ffydd yn gweithio trwy gariad ydoedd grefydd bur a diledryw, a thybiodd yr apostol unwaith ei bod gan y Galatiaid yn wirioneddol; hwy a ddechreuasent yn dda, yn ol pob ymddangosiad, ac a aethent rhagddynt yn rwrol ac yn wresog yn eu proffes o'r wir athrawiaeth, fel arhai yn rhedeg mewn gyrfa am y gamp uchel o gyfiawnlâd ac iachawdwriaeth trwy Grist yn unig. † Ond yn rawr yr oedd rhywun wedi eu rhwystro a'u dyrysu hwy â gau-athrawiaeth, a chwedi dadymchwelyd ffydd llawer o ohonynt, fel nad oeddynt mwyach yn credu y gwirionedd, nac yn ufuddâu i'r gwirionedd mewn barn nac ymddygiad. "Pwy a'ch rhwystr dd:" (*anekopse,*) gair yn cyfeirio at y rhedegfèydd yn y campau gynt, pan fyddai un yn dyfod ar draws y rhedegwyr, yn attal eu rhediad, neu yn eu troi oddi ar y llwybr.

8 * Y cynghor *hwn* † nid *yw* oddi wrth yr [h] hwn sydd yn eich galw chwi.

s Gwel ar pen. 1. 6.

* Pwy bynag a roddodd y cyngor drwg hwn, neu yr athrawiaeth gyfeiliornus hon iddynt, i'w rhwystro hwynt, ac i'w troi oddi wrth y gwirionedd, † gwyddai yr apostol yn sicr, nad oedd oddi wrth Dduw yr hwn a'u galwodd hwynt ar y cyntaf, ac oedd o hyd yn eu galw hwy i ddychwelyd; nac oddi wrtho ef ei hun, yr hwn a ufuasai yn offeryn dros Dduw i'w galw hwy yn y dechreu, nac oedd yn awr yn eu galw trwy yr epistol hwn. Os nad oedd y cyngor oddi wrth Dduw na'r apostol, rhaid ei fod oddi wrth ddiafol a'i offerynau, yr hen hauwyr efrau.

9 [t] * Y mae ychydig lefain † yn lefeinio yr holl does.

t Mat. 23. 33. a 16. 6—12. Marc 8. 15. Luc 12. 1. a 13. 21. 11 Cor. 5. 6, 7. a 15. 33. 2 Tim. 2. 17.

* Diareb arferedig yw y geiriau uchod, ac yn gymhwysiadol at amryw bethau. Defnyddiodd yr apostol hi yn 1 Cor. 5. 6, i beri i'r Corinthiaid fwrw allan y dyn godinebus o'u plith; mae yn ei defnyddio yma am athrawiaeth gyfeiliornus, megys y gwnaeth ein Hiachawdwr yn Matth. 16. 6, 12. † Fel y lefain, mae gau-athrawiaeth yn suro ac yn treiddio trwy bob peth; efallai mai un pwnc drwg, yr enwaediad, a ddaeth i eglwysi Galatia ar y cyntaf, wedi hyny daeth pethau eraill: un neu ddau a ddechreuodd, ac ychydig a lygrwyd ar y cyntaf; ond yn raddol amlâodd y gau-athrawon, a llygrwyd llawer yn yr eglwysi. Gan fod holl gangenau gwirionedd Duw yn gyssylltiedig â'u gilydd, yr hwn a gyfeiliorno mewn un pwnc, nid hir y bydd yn iach yn y pynciau eraill.

10 * Y mae gennf fi [u] hyder am danoch yn yr Arglwydd, na syniwch chwi ddim arall: [x] † ond y neb sydd yn eich trallodi a [y] ddwg farnedigaeth, [z] pwy bynnag fyddo.

u pen. 4. 11, 20. 2 Cor. 1. 15. a 2. 3. a 7. 16. a 8. 22. 2 Thes. 3. 4. Philemon 21. x pen. 1. 7. a 2. 4. a 3. 1. a 4. 17. a 6. 12, 13, 17. Act. 15. 1, 2, 24. 1 Ioan 2. 18—26. y adn. 12. 1 Cor. 5. 5. 2 Cor. 2. 6. a 10. 2, 6. a 13. 10. 1 Tim. 1. 20. z pen. 2. 6. 2 Cor. 5. 16.

* Yma mae yr apostol yn ol ei arfer, yn cymmysgu ac yn melysu ei gerydd â thybiau da am y Galatiaid: wrth gofio pa fodd y derbyniasent hwy ei athrawiaeth ef, yr oedd yn hyderu yn a thrwy yr Arglwydd Iesu, yr adferid hwy o'r hudoliaeth presenol, ac y deuent hwy drachefn i synied yn hollawl yr un modd ag yntau am yr athrawiaeth oedd yn ol duwioldeb. † Pan adferid hwy o'r cyfeiliornad presenol, byddent hwy eu hunain yn barod i roddi barn o esgymuniad ar y neb a'u trallododd â gau-athrawiaethau, a byddai y cyfryw yn sicr o fyned dàn farnedigaeth Duw, yn y byd hwn neu yn y byd a ddaw, oddigerth iddo gael edifeirwch i gydnabod y gwirionedd.

11 * A myfi, frodyr, [a] os yr enwaediad etto yr wyf yn ei bregethu, [b] † paham y'm herlidir etto? ‡ yn wir tynnwyd ymaith [c] dramgwydd y groes.

a pen. 2. 3. Act. 16. 3. b pen. 4. 29. a 6. 12, 17. Act. 21. 21, 28. a 22. 21, 22. a 23. 13, 14. 1 Cor. 15. 30. 2 Cor. 11. 23—26. c Es. 8. 14. Rhuf. 9. 32, 33. 1 Cor. 1. 18, 23. 1 Pedr 2. 8, 9.

* "Os yr enwaediad yr wyf yn ei bregethu:" nid oedd Paul yn pregethu enwaediad, nac yn addef yma ei fod; efe a enwaedodd ar Timothëus er mwyn iddo gael rhyddid i bregethu yn synagogau yr Iuddewon, a thybir fod y gau-athrawon yn cymmeryd mantais ar hyny i daeru fod Paul ei hun yn pregethu yr enwaediad. † Ac yn awr, os oedd efe yn pregethu yr enwaediad fel y taerent hwy ei fod, paham yr oedd yr Iuddewon yn ei erlid ef mòr llidiog yn mhob màn, fel gwrthgiliwr oddi wrth eu crefydd hwy? ‡ Pe buasai efe yn pregethu yr enwaediad, a gweithredoedd y ddeddf yn sail cyfiawnâd, buasai tramgwydd y groes, neu dramgwydd yr Iuddewon wrth yr athrawiaeth am y groes, yn cael ei symud yn y fàn, ac ni buasai efe yn cael ei erlid mwyach am bregethu yr ymadrodd am y groes. Gan hyny yr oedd yr erlidiau creulawn a gwastadol oedd ef yn eu dyoddef, yn brawf parâus o'r athrawiaeth oedd ef yn bregethu, ac yn gwrth-brofi haeriadau anwireddus ei waradwyddwyr.

12 * Mi a fynnwn, ïe, pe [d] torrid ymaith y rhai sydd yn aflonyddu arnoch.

d adn. 10. pen. 1. 8, 9. Gen. 17. 14. Ex. 12. 15. a 30. 33. Lef. 22. 3. Jos. 7. 12, 25. Ioan 9. 34. Act. 5. 5, 9. 1 Cor. 5. 13. Tit. 3. 10.

* Dymunai yr apostol yn ddifrifol, i'r rhai oedd yn hudo, yn dyrysu, yn trallodi, ac yn aflonyddu meddyliau y Galatiaid, â'u gau-athrawiaeth ddeddfol, gael eu tòri ymaith, sef eu bwrw allan o'r eglwysi trwy esgymuniad yn enw yr Arglwydd Iesu, fel y caffai yr eglwysi lonydd, ac y caffent hwythau weled eu cyfeiliornad, ac edifarâu i gydnabod y gwirionedd. Efallai bod yr apostol yn llefaru mewn ysbryd prophwydoliaeth; mai eu tòri ymaith a gaent hwy ryw fodd, un ai o'r eglwys ar y ddaear, neu gan Dduw yn y diwedd. Mae yn sicr nad oedd yr apostol yn dymuno dim niwed personol iddynt, yn dymmorawl nac yn ysbrydol; ond dymuno eu tòri ymaith er llonyddwch i'r eglwysi, ac er diwygiad iddynt hwythau. Nid oedd gwiw *gorchymyn* i'r eglwysi eu tòri ymaith, fel y dyn godinebus yn Corinth; yr oedd y fath nifer yn yr eglwysi wedi eu llygru ganddynt, a hwythau wedi ennill y fath awdurdod yn eu plith, fel nad oedd plaid digon cref i'w tòri hwynt ymaith. Mi a *fynwn pe* tòrid ymaith, oedd y cwbl a allasai yr apostol ddywedyd.

13 [e] * Canys i ryddid y'ch galwyd chwi, frodyr: [f] † yn unig nac *arferwch* y rhyddid yn achlysur i'r cnawd, [g] ‡ ond trwy gariad gwasanaethwch eich gilydd.

e adn. 1. pen. 4. 5—7, 22—31. Es. 61. 1. Luc 4. 18. Ioan 8. 32—36. Rhuf. 6. 18—22. f 1 Cor. 8. 9. 1 Pedr 2. 16. 2 Pedr 2. 19. Judas 4, 10—12. g adn. 14, 22. pen. 6. 2. Marc 10. 43—45. Ioan 13. 14, 15. Act. 20. 35. Rhuf. 15. 1, 2. 1 Cor. 9. 19. a 13. 4—7. 2 Cor. 4. 5. a 12. 15. 1 Thes. 1. 3. Iago 2. 15—17. 1 Ioan 3 16—19.

* Rhyddid oddi wrth yr hen gyfammod, oddi wrth felltith y ddeddf, oddi wrth ysbryd ac ofn deddfol, oddi wrth ddeddf y seremonïau, ac oddi wrth arglwyddiaeth pechod: a rhyddid efengylaidd i gymdeithasu ac ymdrin â Duw yn Nghrist, fel plant gyda'u Tad anwyl. I'r rhyddid ardderchog, breninol, a sanctaidd hwn, y galwyd hwy trwy yr efengyl, a gresyn oedd iddynt gymmeryd eu maglu a'u dàl drachefn mewn caethiwed gan y terfysgwyr cyfeiliornus uchod. † Yn unig dylent ofalu na cham-ddefnyddient y rhyddid hwn yn achlysur i'r cnawd, i borthi chwantau cnawdol a phechadurus: nid yw rhyddid sanctaidd yr efengyl yn rhyddâu dynion oddi wrth ddyledswyddau y ddeddf foesol, yr hon yw rhëol anffaeledig ymarweddiad pob dyn yn mhob ystâd a chyflwr, ac a fydd felly byth. ‡ Dyledswydd cristionogion yw gwasanaethu Duw yn benaf, a gwasanaethu eu gilydd mewn cariad, yn yr hyn a fyddo er lles ysbrydol a thymmorol i'w gilydd, fel brodyr o'r un teulu, a chydaelodau o'r un corph sanctaidd.

14 [h] * Canys yr holl ddeddf a gyflawnir
mewn un gair, *sef* yn hwn; [i] Câr dy gym-
mydog fel ti dy hun.

h Mat. 7. 12. a 19. 18, 19. a 22. 39, 40. Rhuf. 13. 8—10. Iago 2. 8—11. i Lef. 19. 18, 34. Marc 12. 31, 33. Luc 10. 27—37. 1 Tim. 1. 5.

* Holl ddeddf y llech gyntaf yw cariad at Dduw; a holl ddeddf yr ail lech, am yr hon y sonir yma, yw cariad at ein gilydd: Câr dy gymmydog fel ti dy hun, ac yn ol y graddau y gwnelom hyny y cyflawnwn y ddeddf. Dywedai y gau-athrawon mai cadw seremoniau y ddeddf oedd cyflawni y ddeddf, beth bynag a ddeuai o gariad; ond ar gyfer hyny dywedai yr apostol mai caru eu gilydd, a gwasanaethu eu gilydd yn ysbrydol mewn cariad, oedd y ffordd i gyflawni y ddeddf: cyflawnder y gyfraith yw *cariad;* a diwedd y gorchymyn yw *cariad* o galon bur yn helaeth, ac heb *gariad* nid wyf fi ddim.

15 * Ond [k] os cnoi a thraflyncu eich gilydd
yr ydych, † gwyliwch na ddifethir chwi gan
eich gilydd.

k adn. 26. 2 Sam. 2. 26, 27. Es. 9. 20, 21. a 11. 5—9, 13. 1 Cor. 3. 3. a 6. 6—8. 2 Cor. 11. 20. a 12. 20. Iago 3. 14—18. a 4. 1—3.

* Mae hyn yn dangos nad oedd nemawr o gariad, a gwasanaethu eu gilydd mewn cariad, yn mhlith y Galatiaid y pryd hwn; nad oedd nemawr o ofal gan y gau-athrawon i feithrin cariad, na nemawr o duedd yn eu hathrawiaeth na'u hysbryd hwy, i feithrin cariad yn yr eglwysi. O herwydd eu hamryw dybiau, a'u hanghytundeb yn nghylch yr athrawiaeth, yr oeddynt wedi myned yn debycach i gŵn a chrëaduriaid ffyrnig ysglyfaethus, nac i gristionogion; yn cnoi ac yn traflyncu eu gilydd yn yr ysbryd chwerwaf a mwyaf digasog. † Os cnoi a thraflyncu eich gilydd felly yr ydych, ebai yr apostol, gwyliwch, rhag i Dduw y cariad a'r heddwch o'r diwedd eich llwyr adael, a'ch rhoddi i fynu i ddyfetha eich gilydd yn gwbl fel eglwysi. Nid oddefai yr Iuddewon i neb dïenwaededig fyw yn eu plith hwy; ac efallai y mynai y gau-athrawon Iuddewig hyn na chaffai neb dïenwaededig fod yn eglwysi Galatia: felly hwy a ddyfethent yr holl eglwysi yn fuan.

16 [l] * Ac yr wyf yn dywedyd, [m] Rhodiwch
yn yr Yspryd, [n] † ac na chyflawnwch dra-
chwant y cnawd.

l Gwel ar pen. 3. 17.—1 Cor. 7. 29. m adn. 25. pen. 6. 8. Rhuf. 8. 1, 4, 5, 13, 14. 1 Pedr 1. 22. a 4. 6. Judas 19—21. n adn. 19—21. Rhuf. 6. 12. a 13. 13, 14. 2 Cor. 7. 1. Eph. 2. 3. Col. 2. 11. a 3. 5—10. 1 Pedr 1. 14. a 2. 11. a 4. 1—4. 1 Ioan 2. 15, 16.

* Er rhagflaenu canlyniadau dinystriol terfysgoedd, a chnoi a thaflyncu eu gilydd, mae yr apostol yn cyngori y Galatiaid, ac yn gorchymyn yn ddifrifol iddynt, am rodio yn yr Ysbryd, dàn ei arweiniad sanctaidd ef, dàn ei ddylanwadau, ac mewn gweddïau gwastadol am danynt. Yr Ysbryd Glân yn ddïau a feddylir; ond gellir cymmeryd i mewn yr egwyddor sanctaidd ac ysbrydol hefyd, yr hon sydd yn mhob credadyn, ac yr hon a roddwyd iddo gan Ysbryd Duw, gynnelir gan yr Ysbryd, ac sydd yn gweithredu yn ol a thàn ddylanwadau yr Ysbryd. † Y cnawd yw pechod, yr hen ddyn, yr egwyddor lygredig sy mewn dyn, pob peth ar nad yw wedi ei adnewyddu trwy ras, a chan Ysbryd Duw. At bechod a halogrwydd mae trachwant, neu dueddiad crŷf y cnawd bob amser; a'r unig ffordd i beidio cyflawni trachwant y cnawd yw rhodio yn yr Ysbryd: pawb sydd yn ddïeithr i oruchwyliaethau yr Ysbryd, cyflawni trachwant y cnawd y maent, mewn rhyw fodd a'i gilydd.

17 [o] * Canys y mae y cnawd yn chwen-
nychu yn erbyn yr Yspryd, † a'r Yspryd yn
erbyn y cnawd: [p] ‡ a'r rhai hyn a wrthwyneb-
ant eu gilydd, [q] || fel na alloch wneuthur beth
bynnag a ewyllysioch.

o Salm 19. 12, 13. a 51. 1—5, 10—12. a 65. 3. a 119. 5, 20, 24, 25, 32, 35, 40 136, 159, 176. Preg. 7. 20. Es. 6. 5. Mat. 16. 17, 23. a 26. 41. Ioan 3. 6. Rhuf. 7. 18, 23—25. a 8. 5, 13. Iago 4. 5, 6. p pen. 3. 21. Mat. 12. 30. Rhuf. 7. 7, 8, 10—14. a 8. 5—8. q Salm 119. 4—6. a 130. 3. Mat. 5. 6. Luc 21. 33, 46, 54—61. Rhuf. 7. 15—23. Phil. 3. 12—16. Iago 3. 2. 1 Ioan 1. 8—10.

* Am y cnawd a'r Ysbryd, gwel ar yr adnod o'r blaen: mae pob un o'r ddau yn mhob dyn adgenedledig; ac mae gwrth-chwennychiad a gwrth-weithrediad parâus a gwastadol rhwng y ddau, fel y dangosir yn helaeth ac yn eglur yn y seithfed bennod o'r Epistol at y Rhufeiniaid, ac fel y gŵyr pob dyn duwiol hefyd trwy brofiad. Mae y cnawd, neu yr hen ddyn, yn chwennychu yn hollawl groes i dueddiadau a chwennychiad y dyn newydd, y dduwiol anian, sydd yn mhob gwir gredadyn, yn gystal ag yn groes i arweiniad a chymhelliadau yr Ysbryd Glân; † ac mae yr Ysbryd Glân, a'r anian newydd ysbrydol, sydd yn y credadyn, yn gwrthwynebu tueddiadau llygredig y cnawd, trwy serchiadau a thueddiadau sanctaidd ac ysbrydol. ‡ Mae y ddau hyn o natur ac angenrhaid yn wrthwyneb i'w gilydd yn wastadol, ac i wrthwynebu eu gilydd yn barâus: ni thrŷ y cnawd byth yn Ysbryd, nac i bleidio yr Ysbryd; ac ni thrŷ yr Ysbryd byth yn gnawd, nac i bleidio y cnawd: bydd yn rhyfel gwastadol rhynggdynt, hyd oni ddelo yr amser dedwydd, pryd y llwyr orchfygir y cnawd gan yr Ysbryd, ac y llyncer yr hyn sydd farwol gan fywyd byth. || Tra parâo yr ymladdfa ysbrydol hon, *nis gall* y credadyn wneyd pa beth bynag a ewyllysio: nis gall y dyn newydd fyw mòr sanctaidd ag y dymunai gan weithrediadau yr hen ddyn; ac nis gall yr hen ddyn chwaith gael ei ffordd yn hollawl gan y dyn newydd. *Nid ydych* yn gwneuthur, &c., meddant, yw ystyr y geiriau *me poiête.*

18 [r] * Ond os gan yr Ysbryd y'ch arweinir,
[s] † nid ydych dan y ddeddf.

r adn. 16, 25. pen. 4. 6. Salm 25. 4, 5, 8, 9. a 143. 8—10. Diar. 8. 20. Es. 48. 16—18. Ezec. 36. 27. Ioan 16. 13. Rhuf. 8. 14. 2 Tim. 1. 7. 1 Ioan 2. 20—27. s pen. 4. 5. Rhuf. 6. 14, 15.

* Arwain gan yr Ysbryd, a rhodio yn yr Ysbryd, (adn. 16,) ydynt yr un peth; heb ddim gwahaniaeth, ond fel achos ac effaith: y rhai a arweinir *gan* yr Ysbryd yw y rhai a rodiant *yn* yr Ysbryd, a hwy yn unig. † Y rhai a arweinir gan yr Ysbryd, nid ydynt dàn y ddeddf fel cyfammod, nac yn agored i'w melltithion ofnadwy hi am bob ffaeledd mewn ufudd-dod. Ysbryd mabwysiad a rhyddid yw yr Ysbryd Glân, a lle bynag y mae efe, mae yn dysgu dynion i wasanaethu Duw yn ddïofn, oddi ar egwyddor rŷdd ac efengylaidd.

19 [t] * Hefyd amlwg yw gweithredoedd y
cnawd; y rhai yw, [u] † Tòr priodas, godineb,
aflendid, anlladrwydd,

t adn. 13, 17. pen. 6. 8. Salm 17. 4. Ioan 3. 6. Rhuf. 7. 5, 18, 25. a 8. 3, 5, 9, 13. 1 Cor. 3. 3. 1 Pedr 4. 2. u Ezec. 22. 6—13. Mat. 15. 18, 19. Marc 7. 21—23. Rhuf. 1. 21—32. 1 Cor. 6. 9, 10. 2 Cor. 12. 20, 21. Eph. 4. 17—19. a 5. 3, 4. Col. 3. 5—8. 1 Tim. 1. 9, 10. Tit. 3. 3. Iago 3. 14, 15. 1 Pedr 4. 3, 4. Dat. 21. 8. a 22. 15.

20 ‡ Delw-addoliaeth, [x] || swyn-gyfaredd,
§ casineb, cynhennau, * gwynfydau, llid, ym-
rysonau, ymbleidio, [y] † heresiau,

x Ex. 22. 18. Deut. 18. 10. 1 Sam. 15. 23. 1 Cron. 10. 13, 14. 2 Cron. 33. 6. Act. 8. 9—11. a 16. 16—19. y 1 Cor. 11. 19. Tit. 3. 10. 2 Pedr 2. 1.

21 Cenfigennau, ‡ llofruddiaeth, [z] meddw-
dod, [a] cyfeddach, || a chyffelyb i'r rhai hyn:
§ am y rhai yr wyf fi yn rhag-ddywedyd
wrthych, megis ag y rhag-ddywedais, [b] na
chaiff y rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw
bethau [c] etifeddu teyrnas Dduw.

z Deut. 21. 20. Luc 21. 34. Rhuf. 13. 13. 1 Cor. 5. 11. a 6. 10. Eph. 5. 18. 1 Thes. 5. 7. a 1 Pedr 4. 3. b Es. 3. 11. Rhuf. 2. 8, 9. a 8. 13. 1 Cor. 6. 9, 10. Eph. 5. 5, 6. Col. 3. 6. Dat. 21. 27. c Mat. 25. 34. 1 Cor. 6. 10. a 15. 50. Eph. 5. 5.

* Mae rhai o'r *gweithredoedd* a enwir yma, yn deilliaw yn benaf, os nid yn hollawl, o'r *meddwl;* megys delw-addoliaeth, swyn-gyfaredd, casineb, llid, heresiau, cenfigenau; ac eto gelwir hwy yn weithredoedd y *cnawd.* Gallwn gasglu gan hyny, mai nid y corph a'i chwantau teimladol mae yr apostol yn feddwl yn unig

yma wrth y *cnawd*, ond llygredigaeth y natur ddynol, l'el y mae yn ymdaenu trwy, ac yn halogi holl, alluoedd yr enaid yn gystal â holl aelodau y corph, trwy ba rai mae yn amlygu ei hun, ac yn tòri allan mewn gweithredoedd. Wrth y cnawd y deallir y cwbl o'r natur ysyrthiedig, yn y corph a'r enaid; mewn cyferbyniad i'r anian newydd a gyfrenir mewn adgenedliad, a dylanwadau grasol yr Ysbryd Glân yn gweithredu ar a thrwy yr anian newydd hòno. Mae gweithredoedd y cnawd yn ddigon amlwg i bawb a ystyriont ymddygiadau rhynion diadgenedlig, ac agwedd y byd yn gyffredinol. ‡ † Gweithredoedd y cnawd yn ddigon amlwg yw y pedwar peth cyntaf hyn a enwir; maent oll megys o'r un teulu, o'r un natur halogedig, ond yn cael eu cyflawni mewn gwahanol ffyrdd, ac i wahanol raddau o ysgelerder, o ysgogiad cyntaf anlladrwydd yn y meddwl a'r galon, hyd y weithred anfad mewn godineb a thòr-priodas. ‡ Delw-addoliaeth hefyd sydd waith y cnawd, yn gymmaint a'i bod yn tarddu o elyniaeth cnawdol yn ei natur sanctaidd, addoliad, a gwasanaeth Duw; yn lle yr hwn, mae efe yn dwyfoli bodau dychymygol, mwy cydnaws âg ef ei hun, ac yn eu haddoli hwynt mewn modd cydnaws â'i falchder a'i chwantau ei hun. § Swyn-gyfaredd, a'r holl gangenau drygionus o'r pechod hwnw, sydd un arall o weithredoedd amlwg y cnawd, yn deilliaw o anewyllysgarwch cnawdol dyn i wrthwynebu i Dduw, ac ymddiried ynddo ef; yn nghyd â dymuniad dyn i geisio help o fànau eraill: trwy bob un o'r rhai hyn, mae dynion mewn effaith yn addoli y diafol. *Pharmakeia* yw y gair Groeg, yn arwyddo rhyw gyffyr, *(drug)* meddygol neu wenwynig: trwy nerth rhyw gyffyriau felly y byddai y rhai dryglonus gynt yn cyflawni swyn-gyfareddau. § Casineb, cynhennau, llid, ymrysonau, ymbleidio, a chenfigenau yn adn. 21, ydynt eto oll o'r un teulu melltigedig, ac yn amlwg yn weithredoedd y cnawd, neu natur halogedig ddiras. † Gwynfydau, yn y cyssylltiad hyn, mae yn debyg a darwydda awydd am flaenoriaeth a gwag-ogoniant, yr hyn a gynhyrfa ddynion i eiddigeddu yn erbyn eu gilydd, a phob un megys i ddywedyd, Gwynfyd na welwn i bawb i lawr, a mi fy hun i fynu uwchlaw pawb: wyaith y cnawd yw hyn, a gwnaeth fwy o anrhaith a dilinystr mewn byd ac eglwys, na nemawr o un pechod arall. † Heresiau ydynt gau-dybiau a chyfeiliorni mewn athrawiaeth, a phob un yn dàl yn gydyn ar ei bwnc ei'i feddwl ei hun nes rhwygo yr eglwys yn ddarnau ac yn bleidiau ymrafaelgar a llidiog. ‡ Mae perthynas agos rhyngddynt â'u gilydd, a'r lleiaf o'r tri yn arwain i'r mwyaf yn aml: hir ac aml gyfeddach a arwain i eiddwdod, a meddwdod yn fynych a dywys i lofruddiaeth. || Gallasai yr apostol enwi llawer o bechodau eraill, "cyffelyb i'r rhai hyn," ac mae yn enwi llawer mewn mànau eraill: lle mae y rhai hyn, mae eraill cuefyd, cyffelyb iddynt, yn ffynu ac yn eu llawn rwysg yn gyffredin. § Pa fodd bynag y goddefid pechodau a phechaduriaid felly yn eglwysi Galatia, tystiolaetha yr apostol na chaiff neb sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau etifeddu teyrnas Dduw yn y nef.

22 [d] * Eithr ffrwyth yr Ysbryd yw, [e] † Cariad, ‡ llawenydd, || tangnefedd, § hir-ymaros, * cymmwynasgarwch, † daioni, [f] ‡ ffydd, || addfwyndar, [g] § dirwest:

d adn. 16—18. Salm 1. 3. a 92. 14. Hos. 14. 8. Mat. 12. 33. Luc 8. 14, 15. a 13. 9. Ioan 15. 2, 5, 16. Rhuf. 6. 22. a 7. 4. Eph. 5. 9. Phil. 1. 11. Col. 1. 10. e adn. 13. Rhuf. 5. 2—5. a 12. 9—18. a 15. 13. 1 Cor. 13. 4—7. Eph. 4. 23—32. a 5. 1, 2. Phil. 4. 4—9. Col. 3. 12—17. 1 Thes. 1. 3—10. a 5. 10—22. Tit. 2. 2—12. Iago 3. 17, 18. 1 Pedr 1. 8, 22. 2 Pedr 1. 5—8. 1 Ioan 4. 7—16. f 1 Cor. 13. 7, 13. 2 Thes. 3. 2. 1 Tim. 3. 11. a 4. 12. 1 Pedr 5. 12. g Act. 24. 25. 1 Cor. 9. 25. Tit. 1. 8. a 2. 2.

* Nid gwaith y credadyn yw y pethau canlynol a enwir, ond ffrwyth yr Ysbryd, yn preswylio yn y credadyn, ac yn gweithredu ar a thrwy yr anian dduwiol a roes efe ynddo yn ei adgenedliad. Yr oedd y pechodau o'r blaen yn tarddu yn naturiol o'r cnawd; ond ffrwyth Ysbryd Duw yw y grasau hyn, a'u gweithrediadau yn yr enaid. † Cariad at Dduw a dyn, at Grist, ei bobl, a phob dyn, er ei fwyn ef, yn ol ei orchymyn a'i esampl ef. ‡ Llawenydd sanctaidd yn yr Ysbryd Glân, mewn undeb a chymdeithas â Duw yn Nghrist, ac yn y mwynâd o orfoledd yr iachawdwriaeth rasol. || Cydwybod dawel, ac ysbryd llonydd a heddychol: tangnefedd tuag at Dduw a dynion, mewn cyferbyniad i'r casineb a'r cynhenau a enwyd uchod. § Amynedd a hir-ymaros yn wyneb cam a gofidiau, mewn cyferbyniad i dymher wyllt a byrbwyll, barod i ddïal, a rhoi sèn am sèn, &c. * Parodrwydd i ddangos pob tiriondeb a thosturi, a gwneyd pob daioni a allom i bawb, hyd yn nôd ein gelynion, a'r rhai a'n drygant. † Pob daioni mewn calon, ysbryd, a gweithredoedd tuag at Dduw, ei waith, ei bobl, a thuag at bawb yn gyffredinol. ‡ Y gras o ffydd tuag at Dduw, gwirionedd mewn geiriau, ffyddlondeb i'n haddewidion, ac yn ein holl ymddygiadau tuag at eraill. || Ymattal rhag nwydau poethion, gwylltion, a phob sarugrwydd annynol ac anfoneddigaidd: cofiwn mai un addfwyn oedd Iesu, a gostyngedig o galon, a cheisiwn fod yn debyg iddo. § Cymmedrolder mewn tymherau, mewn bwydydd a dïodydd, ac yn yr aferiad o bob peth cyfreithlawn ei fwynâu.

23 [h] * Yn erbyn y cyfryw nid oes ddeddf.

h 1 Tim. 1. 9.

* Yn erbyn y cyfryw bethau nid oes ddeddf, ac yn erbyn y cyfryw ddynion a gynnysgaethwyd â'r grasau a'r rhinweddau hyn, nid oes ddeddf. Ffrwyth yr Ysbryd yw y grasau, a thàn arweiniad yr Ysbryd mae y dynion, ac nid oes un ddeddf yn eu herbyn nac i'w condemnio.

24 [i] * A'r rhai *sydd* yn eiddo Crist, † a [k] groeshoeliasant y cnawd, ‡ a'i wŷniau, a'i chwantau.

i pen. 3. 29. Rhuf. 8. 9. 1 Cor. 3. 23. a 15. 23. 2 Cor. 10. 7. k adn. 16—18. pen. 2. 20. a 6. 14. Rhuf. 6. 6. a 8. 13. a 13. 14. 1 Pedr 2. 11.

* Y rhai ydynt eiddo Crist, nid mewn enw a phroffes yn unig, ond mewn gwirionedd, fel ei bobl briodol, fel aelodau o'i gorph dirgeledig ef, mewn undeb bywiol âg ef, a rhan iddynt ynddo, ac wedi ymgyssegru iddo. † Trwy rinwedd nerth a dderbynir o farwolaeth Crist, ac mewn cyd-ffurfiad â'i farwolaeth ef, mae y rhai hyn yn croeshoelio y cnawd, a'i wŷniau a'i chwantau: mae yr hen ddyn, yr anian lygredig, wedi ei dïorseddu, ei chaethiwo, ei chondemnio, yn cael ei chasâu, ei gwrthwynebu, ei gwànychu, a'i harcholli: penderfynwyd ar ei marweiddiad, er bod ei dïenydd yn araf, ac i'w gyflawni trwy hir yspaid o hunan-ymwadiad; ac er ei bod o hyd yn ymdrech am fywyd, rhyddid, ac hyd yn nôd buddugoliaeth; eto ar y groes y mae, a llwyr farweiddiad a ddaw iddi yn y diwedd. ‡ Gwelsom beth yw gwŷniau a chwantau y cnawd yn adn. 19—21.

25 [l] * Os byw yr ydym yn yr Ysbryd, [m] † rhodiwn hefyd yn yr Ysbryd.

l Ioan 6. 63. Rhuf. 8. 2, 10. 1 Cor. 15. 45. 2 Cor. 3. 6. 1 Pedr 4. 6. Dat. 11. 11. m Gwel ar adn. 16.—Rhuf. 8. 4, 5.

* Os bywâwyd ni gan Ysbryd Duw, os yw yr Ysbryd hwnw yn preswylio ynom, ac os ydym yn byw mwy trwyddo ef a'i ddylanwadau nefol, na thrwy unrhyw egwyddor naturiol ynom ein hunain, gan ymddybynu yn wastad ar ei nerthoedd sanctaidd ef i fyw yn dduwiol; † rhodiwn hefyd yn yr Ysbryd, gan drefnu ein holl ymarweddiad yn ol ei gyfarwyddyd nefol a'i arweiniad sanctaidd ef. Rhodio yn drefnus, a rhëolaidd, fel llu o filwyr, yw meddwl y gair, yn ol cyfarwyddyd a gorchymyn eu blaenor.

26 [n] * Na fyddwn wag-ogoneddgar, [o] † gan ymannog ein gilydd, ‡ gan ymgenfigennu wrth ein gilydd.

n Luc 14. 10. 1 Cor. 3. 7. Phil. 2. 1—3. Iago 4. 16. o Gwel ar adn. 15.—Iago 3. 14—16. 1 Pedr 5. 5.

* Gan ein bod yn ddyledus i Dduw a'i Ysbryd am bob daioni sydd ynom, na fyddwn yn wag-ogoneddgar,

gan synied yn rhŷ uchel am ein doniau a'n cyflawniadau, fel pe byddem ni ynom ein hunain yn well ac yn fwy teilwng nac eraill; ac na cheisiwn wneyd dangosiad rhodresgar o'n doniau a'n cyflawniadau, fel rhai yn ceisio gogoniant gan ddynion, gan ddirmygu eraill, llai eu doniau. † Na throseddwn gyfraith cariad, (adn. 14,) trwy annog y naill y llall i anfoddlonrwydd, a theimladau digasog; ‡ ac na roddwn achos cyffroi nwydau cenfigenus yn erbyn y naill y llall, o herwydd rhyw ragoriaeth y naill ar y llall. Gwag-ogoniant yw pob ymgais balch am glôd gan ddynion; a dyn felly a genfigena wrth eraill, ac a annog eraill i genfigenu wrtho yntau. O mòr werthfawr yw ysbryd addfwyn, llonydd a gostyngedig!

PEN. VI.

Y mae efe yn eu hannog hwy i ymddwyn yn llariaidd tu ag at frawd a lithrodd.

*Y BRODYR, os [a] goddiweddir dyn ar ryw fai, † chwychwi y [b] rhai ysprydol, [c] ‡ adgyweiriwch y cyfryw un [d] ‖ mewn yspryd addfwynder; [e] gan dy ystyried dy hun, rhag dy demtio dithau.

a pen. 2. 11—13. Gen. 9. 20—24. a 12. 11—13. Num. 20. 10—13. 2 Sam. 11. 2, &c. Mat. 26. 69—75. b Rhuf. 8. 6. a 15. 1. 1 Cor. 2. 15. a 3. 1. a 14. 37. c 2 Sam. 12. 1, &c. Job 4. 3, 4. Es. 35. 3, 4. Ezec. 34. 16. Mat. 9. 13. a 18. 12—15. Luc 15. 4—7. a 22. 32. Heb. 12. 13. Iago 5. 19, 20. 1 Ioan 5. 16. Judas 22, 23. d pen. 5. 23. Mat. 11. 29. 1 Cor. 4. 21. 2 Cor. 10. 1. 2 Thes. 3. 15. 2 Tim. 2. 25. Iago 3. 13. 1 Pedr 3. 15. e 1 Cor. 10. 12. Heb. 13. 3. Iago 3. 2.

Gwedi gorphen y rhan ddadleuol, ac athrawiaethol, o'r epistol, mae yr apostol yn rhoddi rhai cyngorion neillduol cyn ei ddiwedd-gloi. * Os byddai i ryw frawd gael ei oddiweddyd yn sydyn, yn ddirag-fwriad, ar ryw fai, neu gan ryw bechod, trwy hudoliaeth, a diffyg gwyliadwriaeth, yn groes i rediad cyffredin ei ymarweddiad; † dylai y rhai ysbrydol, neu y rhai mwyaf deallus mewn barn a phrofiad, ymdrechu i adgyweirio y cyfryw un, trwy ei argyhoeddi ef, ei ddwyn i edifeirwch, ei gyngori yn sobr a difrifol, a'i galonogi ef hefyd, rhag ei lyncu gan ormod tristwch ac annobaith. ‡ Dylid gwneyd hyn mewn ysbryd addfwynder, hynaws, a thosturiol, fel yr adferer y dyn i'w le, megys aelod a fuasai wedi datgymmalu: ‖ ac wrth wneyd hyn, dylai y rhai ysbrydol eu hystyried eu hunain, eu gwendid a'u ffaeledd; y gallent hwythau hefyd gael eu temtio a syrthio; ac yna byddai raid iddynt hwythau wrth addfwynder a thynerwch eraill i'w hadgyweirio. Rhai ysbrydol sydd yn addas i drin aelodau briwedig Crist, a'r rhai hyny mewn ysbryd addfwynder, gan eu hystyried eu hunain fel dynion ffaeledig.

2 [f] * Dygwch feichiau eich gilydd, † ac felly cyflawnwch [g] gyfraith Crist.

f adn. 5. pen. 5. 13, 14. Ex. 23. 5. Num. 11. 11, 12. Deut. 1. 12. Es. 58. 6. Mat. 8. 17. a 11. 29, 30. Luc 11. 46. Rhuf. 15. 1. 1 Pedr 2. 24. g Ioan 13. 14, 15, 34, 35. a 15. 12. 1 Cor. 9. 21. 1 Ioan 2. 8—11. a 4. 21.

* Fel hyn, yn lle gosod beichiau trymion ar y naill law, a nacâu pob cymmorth o diriondeb ar y llaw arall; dylem gyd-ymddwyn a chyd-ymdeimlo â'n gilydd, gweddïo dros, a chynnorthwyo ein gilydd; yn enwedig pan fyddo rhyw frawd mewn trallod ysbryd am ei fai y syrthiodd iddo. Fel hyn byddwn fel cyd-deithwyr tua Sïon, yn dwyn beichiau ein gilydd; y cryfion yn cynnal gwendid y rhai gweiniaid, yn dwyn eu beichiau, ac yn eu cynnorthwyo yn mlaen ar eu taith. † Fel hyn hefyd, y byddwn yn cyflawni y gyfraith ragorol hòno, a grybwyllwyd eisoes yn pen. 5. 14, ac yr hon a roddwyd gan Grist ei hun, fel sylwedd a chrynodeb holl orchymynion yr ail lech. Mat. 22. 39, 40; Ioan. 13. 34, 35.

3 [h] * Oblegid os tybia neb ei fod yn rhyw beth, [i] † ac yntau heb fod yn ddim, [k] ‡ y mae efe yn ei dwyllo ei hun.

h pen. 2. 6. Diar. 26. 14. a 26. 12. Luc 18. 11. Rhuf. 12. 3, 16. 1 Cor. 3. 18. a 8. 2. i 1 Cor. 13. 2, 3. 2 Cor. 3. 5. a 12. 11. k 1 Cor. 3. 18. 2 Tim. 3. 13. Iago 1. 22, 26. 1 Ioan 1. 8.

* Os bydd gan neb ryw feddwl mawr am ei gyrhaeddiadau ei hun, megys pe byddai efe yn ddigonol o hóno ei hun i wrth-sefyll temtasiynau, a gwneyd pethau mawrion mewn crefydd; ac fel hyny dirmygu a diystyru eraill, † ac yntau ar yr un pryd yn hollawl amddifad mewn gwirionedd, o'r hyn mae yn dybied fod ganddo, ac yn ymfawrygu arno; ‡ mae y dyn hwn yn twyllo ei hun a'i enaid yn ddychrynllyd iawn. Nis gall hwn adgyweirio brawd syrthiedig, ac nid yw yn ddiberygl rhag syrthio ei hun. Twyllo ei hun y mae, yr oedd eraill yn ei ganfod o'r blaen.

4 [l] * Eithr profed pob un ei waith ei hun; † ac yna y caiff [m] orfoledd ynddo ei hun yn unig, [n] ‡ ac nid mewn arall.

l Job 13. 15. Salm 26. 2. 1 Cor. 11. 28. 2 Cor. 13. 5. m Diar. 14. 14. 1 Cor. 4. 3, 4. 2 Cor. 1. 12. 1 Ioan 3. 19—22. n pen. 6. 13. 1 Cor. 1. 12, 13. a 3. 21—23. a 4. 6, 7. 2 Cor. 11. 12, 13.

* Yn hytrach na bod yn brysur i farnu a beïo eraill, a cham-gymmeryd yn dost am dano ei hun, mynai yr apostol i bob un fod gyda ei fater ei hun, i brofi ei weithredoedd a'i ymddygiad ei hun, yn wyneb rhëol anffaeledig gair Duw. † Yn y prawf syml a diduedd o hóno ei hun, os caiff efe ei egwyddor, ei waith, a'i ddyben, yn gywir ac yn dda yn wyneb ewyllys ddatguddiedig Duw, yna efe a gaiff achos gorfoledd ynddo ei hun; nid yn ei deilyngdod ei hun, a pherffeithrwydd ei waith, ond yn yr hyn a wnaeth Duw ynddo, erddo, a thrwyddo. ‡ Gwedi cael achos gorfoledd ynddo ei hun, ni bydd raid iddo awyddu am glod a thybiau da rhai eraill am dano, na gorfoleddu yn ei blaid a'i broselytiaid; ac ni bydd ei ddedwyddwch a'i orfoledd yn ymddybynu ar ei gymharu ei hun âg eraill, gwaeth nac ef ei hun. Cysur gwael yw cael clod gan *eraill*, os bydd ein calonau ein *hunain* yn ein condemnio: a bychan yw y gorfoledd, o ragori ar eraill, nad oes fawr na dim rhagoriaeth ynddynt.

5 [o] * Canys pob un a ddwg ei faich ei hun.

o Es. 3. 10, 11. Jer. 17. 10. a 32. 19. Ezec. 18. 4. Mat. 16. 27. Rhuf. 2. 6—9. a 14. 10—12. 1 Cor. 3. 8. a 4. 5. 2 Cor. 5. 10, 11. Dat. 2. 23. a 20. 12—15. a 22. 12.

* Rhaid i bob un sefyll neu syrthio yn y diwedd, nid yn ol y blaid y perthynai iddi, neu yn ol barn dynion eraill am dano; ond yn ol y peth oedd efe mewn gwirionedd yn ngolwg Duw. Yn wir, rhaid i bob un ateb drosto ei hun, a dwyn ei faich ei hun; felly, os oedd neb yn eglwysi Galatia wedi eu llithio i gyfeiliornadau dinystriol gan y gau-athrawon, rhaid i bob un ddwyn cosp ei euogrwydd ei hun; ac nid oedd bai y twyllwyr yn rhyddâu y rhai a gymmerent eu twyllo ganddynt.

6 [p] * A chyfranned yr hwn a ddysgwyd yn y gair, â'r hwn sydd yn ei ddysgu, ym mhob peth da.

p Deut. 12. 19. Mat. 10. 10. Rhuf. 15. 27. 1 Cor. 9. 9—14. 1 Tim. 5. 17, 18.

* Trefnodd Duw weinidogaeth a gweinidogion yr efengyl, er dychwelyd pechaduriaid ac er adeiladu y saint; gan hyny mae yr apostol yn annog y Galatiaid yma, i gyfranu er cynnaliaeth cysurus eu hathrawon, y rhai oedd yn eu dysgu hwynt yn ngair Duw; trwy roddi iddynt gyfran o'u pethau da tymmorawl yn ol eu gallu. Mae hyn yn beth cyfiawn ynddo ei hun; ac ordeiniodd yr Arglwydd Iesu, i'r rhai sydd yn pregethu yr efengyl fyw wrth yr efengyl; ac ni ddylai dim, ond anallu, beri i weision ffyddlawn ac anfonedig Crist, gael eu gadael heb gynnaliaeth yn awr mwy nac yn amser yr yr apostolion. Gwel ar 1 Cor. 9. 4—18.

7 [q] * Na thwyller chwi. [r] † Ni watwarir Duw: [s] ‡ canys beth bynnag a hauo dyn, hynny hefyd a fêd efe.

q adn. 3. Job 15. 31. Jer. 37. 9. Ob. 3. Luc 21. 8. 1 Cor. 3. 18. a 6. 9. a 15. 33. Eph. 5. 6. 2 Thes. 2. 3. Iago 1. 22, 26. 1 Ioan

8. a 3. 7. r Job 13. 8, 9. Judas 18. s Job 4. 8. Diar. 1. d. a 6. 14, 19. a 11. 18. Hos. 8. 7. a 10. 12. Luc 16. 25. Rhuf. 2. 1—10. 2 Cor. 9. 6.

* Yn y peth uchod, (adn. 6,) ac yn mhob peth o'r tiatur hyn, dylai y Galatiaid (a phob proffeswyr yr efengyl,) fod yn ofalus na chaffent eu twyllo, gan eu ealonau twyllodrus a chybyddlyd eu hunain, gan Satan, na chan y gau-athrawon: † oblegid pa fodd bynag yr esgusodent hwy eu hunain, ac y gadawent weinidogion ffyddlawn Iesu i lafurio heb gynnaliaeth; nid oedd Duw i'w dwyllo a'i watwar fel hyn. Mae dynion yn naml yn gwneyd cam âg eraill drwy gau-resymau a ffug-esgusodion, ac yna yn chwerthin am ben eu gwirionded n'u hygoeledd hwy; ond yn hyn oll, twyllo eu hunain yn ddychrynllyd, a gwatwar Duw yn dra rhyfygus y maent: yn enwedig pan wneler cam â'i genadon ef, oblegid am hyny y sonir yma. ‡ Beth bynag a hauo dyn yn yr ystyr hyn, fel mewn hau naturiol, hyny hefyd fêd efe: beth bynag yw ein gweithredoedd ni, ai da ai drwg, ai prin ai helaeth, mae canlyniad iddynt ar ol eu wneyd; cawn fedi o honynt eto, yn ol eu natur a'u maesur. Gwel ar 2 Cor. 9. 6.

8 * Oblegid yr hwn sydd yn t hau i'w gnawd ei hun, † o'r cnawd u a fêd lygredigaeth: ‡ eithr yr hwn sydd yn x hau i'r Yspryd, || || o'r Yspryd a fêd fywyd tragywyddol.

t Rhuf. 6. 13. a 8. 13. a 13. 14. u Diar. 22. 8. Jer. 12. 13. Hos. 10. 13. 2 Pedr 2. 12, 19. Dat. 22. 11. x Gwel ar adn. 7.—Salm 126. 5, 6. Preg. 11. 6. Es. 32. 20. Iago 3. 18. y Mat. 19. 29. Luc 18. 30. Ioan 4. 14, 36. a 6. 27. Rhuf. 6. 22. 1 Tim. 1. 16. Tit. 3. 7. Judas 21.

* Pa rawn bynag a hauo dyn yn naturiol, grawn o'r hyw hyny hefyd a fêd efe: ac felly y mae yn sicr yn esbrydol; caiff pob dyn fedi cynhauaf yn ol yr hyn a hauodd efe. Yr hwn sydd yn hau i'w gnawd ei hun, rwy gyflawni ei chwantau ef, a choledd ei flysiau cnawd-dol a hunanol, hyd yn nôd dàn rith o broffes grefyddol, efe a fêd o bethau *llygredig* y byd hwn; ei gorph, yr hwn a goleddodd ac a besgodd efe i ormodedd, a drŷ yn huan i *lygredigaeth* yn y bedd; ac efe ei hun a gyfrgollir tel dyn diadgenedlig, ac heb ran nac etifeddiaeth iddo mewn bywyd ac *anllygredigaeth* yn y nef. ‡ O'r tu arall, ir hwn sydd yn hau i'r Ysbryd, a thàn ddylanwadau yr Ysbryd Glân sydd yn arfer edifeirwch beunyddiol, ffydd rn Nghrist, cariad ato ef ac at ei frodyr, yn nghyd â bhob grasau ysbrydol eraill; || efe a fêd fywyd tragywyddol: caiff lawer ernes a blaen-ffrwyth o hóno yma; a chaiff fynediad helaeth iddo, a chyflawn fwynâd o hóno, yn y nefoedd byth.

9 * Eithr yn z gwneuthur daioni a na ddiog-wn: b † canys yn ei iawn bryd y medwn, ‡ oni ddiffygiwn.

z Mal. 1. 13. 1 Cor. 15. 58. 2 Thes. 3. 13. Heb. 12. 3, Rhuf. 2. 7. 1 Pedr 2. 15. a 3. 17. c 4. 19. b Lef. 26. 4. Deut. 11. 14. Salm 104. 27. a 145. 15. Iago 5. 7, 8. c Es. 40. 30, 31. Eph. 3. 16. Mat. 24. 13. Luc 18. 1. 2 Cor. 4. 1, 16. Eph. 3. 13. Heb. 3. 6, 14. a 10. 35—39. Dat. 2. 3, 7, 11, 17, 26—29. a 3. 5, 6, 12, 13, 21, 22.

* Gan hyny, na ddioged neb yn gwneuthur daioni, mewn ymddybyniad ar Grist, ac er anrhydedd ei achos a'i efengyl ef, pa rwystrau bynag, siomedigaethau, erlidau, neu brofedigaethau eraill a'u cyfarfyddo: † oblegid yn ei iawn bryd, yn nefodol amser y cynhauaf, caiff pob un yn sicr fedi yn helaeth o ffrwyth eu llafur, eu hunanymwadiad a'u holl draul, ‡ os dangosant wirionedd eu ffydd a'u cariad, trwy barâu hyd y diwedd, heb ddiffygio, yn ngwaith yr Arglwydd. Fel y mae oedi barn yn hyfâu pechaduriaid yn eu pechodau, felly mae oedi y wobr yn naml yn brofedigaeth i ddynion duwiol i laesu a diffygio mewn gweithredoedd da: yn erbyn hyn mae yr apostol yn rhoddi gocheliad yma. Gadâwn yr "iawn bryd" i'r Oduw.

10 * Am hynny tra yr ydym yn cael d amser cyfaddas, e gwnawn dda i bawb, f † ond yn enwedig i'r rhai sydd o deulu y ffydd.

d Preg. 9. 10. Ioan 9. 4. a 12. 35. Eph. 5. 16. Phil. 4. 10. Col. 4. 5. Tit. 2. 14. e Salm 37. 3, 27. Preg. 3. 12. Marc 3. 4. Luc 6. 35. 1 Thes. 5. 15. 1 Tim. 6. 17, 18. Tit. 3. 8. Heb. 13. 16. 3 Ioan 11. f Mat. 10. 25. a 12. 50. a 25. 40. Eph. 2. 19. a 3. 15. Heb. 3. 6. a 6. 10. 1 Ioan 3. 13—19. a 5. 1. 3 Ioan 5—8.

* Gan hyny, tra parâo ein bywyd, a thra caffom gyfleusderau, dylem wneyd pob ymdrech, a chyfrif hyny yn bleser mwyaf, yn anrhydedd ac yn fantais benaf, i wneuthur daioni hyd y gallom i ddynion o bob math; † ac yn benaf i'r rhai sydd yn frodyr i ni yn ffydd Crist, yn nheulu Duw, ac i gristionogion o bob enw, a ddangosant wirionedd eu proffes mewn tymher, ysbryd, ac ymarweddiad. Mae ein cyfleusderau, ein ffyrdd a'n moddion ni i wneyd daioni, yn amlach, ac yn fwy amrywiol, nac yr ydym ni yn meddwl eu bod; a'r gwrthddrychau i wneyd daioni iddynt hefyd, yn lliosocach nac yr ydym ni yn ystyried: bydd cyfrif am hyn oll yn y farn; gan hyny pa mòr ddiwyd a dyfal a ddylem ni fod!

11 * Gwelwch † cyhyd y llythyr g ‡ a ysgrifenais attoch â'm llaw fy hun.

g Rhuf. 16. 22. 1 Cor. 16. 21—23.

* Chwi a welwch, neu, Yr ydych yn gweled, yn ol y Saesoneg: gellir cyfieithu y gair *idete*, meddant, un ai yn y modd gorchymynol neu y modd mynegol. † Gwelwch pa bethau mawr eu pwys a ysgrifenais atoch, a hyny yn helaeth iawn hefyd, gan faint fy nghariad atoch a'm gofal am danoch. Tybia rhai fod y geiriau a gyfieithir "cyhyd y llythyr," yn arwyddo *â pha fath lythyrenau*, a bod yr apostol yn cyfeirio at ei anfedrusrwydd, a'i anghynnefindra âg ysgrifenu yn y llythyrenau Groeg: mae yn sicr nad yw y llythyr hwn yn faith iawn, mewn cymhariaeth i rai o epistolau eraill Paul. ‡ Ond yr oedd yn bur faith iddo ef ei ysgrifenu â'i law ei hun; ei arfer ef oedd rhoddi rhywun arall i ysgrifenu ei epistolau, o'i enau ac wrth ei gyfarwyddyd ef; ac ef ei hun yn ysgrifenu y cyfarchiad ar y diwedd; (gwel Rhuf. 16. 22; 1 Cor. 16. 21; Colos. 4. 18; 2 Thes. 3. 17,) ond efe a ysgrifenodd hwn oll â'i law ei hun, i ddangos ei fawr gariad at y Galatiaid, a'i fawr ofal am danynt.

12 * Cynnifer ag sydd yn h ewyllysio ymdeccâu yn y cnawd, i † y rhai hyn sydd yn eich cymmell i'ch enwaedu, k ‡ yn unig fel nad erlidier hwy || oblegid croes Crist.

h adn. 13. Mat. 6. 2, 5, 16. a 23. 5, 28. Luc 16. 15. a 20. 47. Ioan 7. 18. 2 Cor. 10. 12. a 11. 13. Phil. 1. 15. a 2. 4. Col. 2. 23. 1 pen. 2. 3, 14. Act. 15. 1, 5. k Gwel ar pen. 5. 11.—Phil. 3. 18.

* Cyfeirio mae yr apostol at y gau-athrawon Iuddewaidd yma, y rhai oedd yn mawr ewyllysio ymdecâu, neu wneyd ymddangosiad teg yn y cnawd, mewn pethau allanol, a defodau y ddeddf seremoniol. Cymmerai y rhai hyn arnynt fod yn dra chrefyddol oddi allan, ac mewn defodau afreidiol y pryd hwnw; a'r cwbl i ennill parch gyda dynion, i dynu dysgyblion ar eu hol, † ac i ddenu, annog, a chymhell eu proselytiaid i gymmeryd eu henwaedu: arferent bob moddion o gyfrwysdra a hyawdledd rhagrithiol i hyny, ac ni chymmerent nacâd gan neb os gallent lwyddo mewn un modd. ‡ Nid o gariad at eneidiau y Galatiaid yr oeddynt hwy yn eu cymhell i'w henwaedu, ond fel nad erlidid hwy eu hunain o herwydd croes Crist, neu yr efengyl. Yr oedd cyfreithiau llymion wedi myned allan o'r *Sanhedrim* Iuddewig yn erbyn pob Iuddew a addefai yr Arglwydd Iesu yn Grist; a'r cyfreithiau hyny yn cyrhaedd yr Iuddewon yn mhob màn, allan o'u gwlad yn gystal ag yn eu gwlad; a dyfais y gau-athrawon hyn, i ddianc rhag eu herlid gan y cyfreithiau hyny oedd, enwaedu ar y cenedloedd, fel y tybiai yr Iuddewon mai gwneyd proselytiaid i'r grefydd Iuddewig yr oeddynt. Fel hyn yr oeddynt yn twyllo y cenedloedd a'r Iuddewon, ac yn rhagrithiol yn y grefydd gristionogol ac Iuddewaeth: wrth geisio cymmysgu pob un, nid oeddynt yn ffyddlawn yn yr un. || Caniatêai *Tiberius Cesar* i'r Iuddewon arfer eu crefydd eu hunain yn mhob màn o'i ymherodraeth ef, ac ystyrid y *cristionogion enwaededig* yn Iuddewon; tra yr oedd cristionogion *heb* eu henwaedu yn cael eu herlid yn ddidrugaredd gan y paganiaid a'r Iuddewon; o herwydd hyny, byddai rhai o athrawon

boreuol yr eglwysi yn cymmeryd eu henwaedu, ac yn annog eu dysgyblion i gymmeryd eu henwaedu, yn unig fel nad erlidid hwy oblegid croes Crist.

13 * Canys nid yw y rhai a enwaedir, eu hunain yn [l] cadw y ddeddf; † ond ewyllysio y maent enwaedu arnoch chwi, [m] fel y gorfoleddont yn eich cnawd chwi.

l Mat. 23. 3, 15, 23. Rhuf. 2. 17—24. a 3. 9—19. 2 Pedr 2. 19.
m 1 Cor. 3. 21. a 5. 6. 2 Cor. 11. 18.

* Er bod y gau-athrawon hyn yn awyddus iawn i gael y cenedloedd dàn y ddeddf, cyn belled ag arwydd yr enwaediad, eto nid oeddynt yn gofalu nemawr am gadw y ddeddf yn ei holl ddefodau, nac am i'w dysgyblion chwaith ei chadw. Nid o wir egwyddor grefyddol yr oeddynt yn gwneyd proselytiaid iddi, ac nid oeddynt yn ei pharchu yn wirioneddol fel gosodiad ysbrydawl a dwyfol. † Ewyllysient enwaedu ar y cenedloedd, i ymffrostio am danynt yn mysg yr Iuddewon, ac i ymorfoleddu yn y nôd hwn yn eu cnawd hwy, fel cynnifer o ddysgyblion oeddynt hwy wedi ennill i'r enwaediad. Bŷr iawn oedd yr Iuddewon, o gadw y ddeddf foesol; ac efallai bod y rhai hyn hefyd yn lled esgeulus o bethau trymaf a mwyaf costfawr y ddeddf seremoniol, er maint eu hawydd i enwaedu ar bawb.

14 [n] * Eithr na atto Duw [o] i mi ymffrostio [p] ond y'nghroes ein Harglwydd Iesu Grist, [q] † trwy yr hwn y croeshoeliwyd y byd i mi, a minnau i'r byd.

n Gwel ar Rhuf. 3. 4, 6. o 2 Bren. 14. 9—11. Job 31. 24, 25. Salm 49. 6. a 52. 1. Jer. 9. 23, 24. Ezec. 28. 2. Dan. 4. 30, 31. a 5. 20, 21. 1 Cor. 1. 29—31. a 3. 21. 2 Cor. 11. 12. a 12. 10, 11.
p Es. 45. 24, 25. Rhuf. 1. 16. 1 Cor. 1. 23. a 2. 2. Phil. 3. 3, 7—11.
q pen. 1. 4. a 2. 20. a 5. 24. Act. 20. 23, 24. Rhuf. 6. 6. 2 Cor. 5. 14—16. Phil. 1. 20, 21. a 3. 8, 9. Col. 3. 1—3. 1 Ioan 2. 15—17. a 5. 4, 5.

* Gwahanol iawn oedd yr apostol i'r gau-athrawon uchod, ni fynai efe ymffrostio o ddim ynddo ei hunan, dim a dderbyniasai, a gyrhaeddasai, nac a wnaethai, cyn na chwedi ei dröedigaeth: ei ymddiried, a'i holl ymffrost ef oedd, dyoddefaint ac angau Crist ar y groes yn aberth dros bechod: yn hyn, yn nghyd â'r gobaith, y cysur, a'r bendithion oedd yn deilliaw o hyn, yr oedd ei holl ymddybyniad a'i holl ymffrost ef. † Yn yr olwg ar groes Crist, a threfn yr iachawdwriaeth fawr drwy ei groes ef, yr oedd y byd wedi ei groeshoelio iddo ef, ac yntau i'r byd: nid oedd ef yn prisio y byd mwy nac oedd y byd yn ei brisio yntau; yr oedd y byd yn ei ddirmygu ac yn ei ddibrisio ef, a'r ymadrodd am y groes oedd ef yn bregethu, ac yr oedd yntau yn dirmygu ac yn dibrisio y byd, ei holl rwysg a'i fawredd gwag. Trwy yr *hwn*, sef Crist: neu trwy yr *hyn* sef croes Crist: gellid cyfeithu y geiriau y naill ffordd neu y llall, medd *Pool.* Nid oedd Paul yn gweled dim mwy o hawddgarwch yn y byd a'i holl hudoliaethau, nac a welai edrychwr yn ngwyneb dyn ar y groes, pan fyddai yn gwelwi ac yn dûo gan loesion angau; ac nid oedd holl wychder y byd ddim iddo ef, mwy nac i ddyn a fyddai ar drengi ar y groes. Yr oedd efe yn diystyru cyfeillach, cyfoeth, anrhydedd, a mwyniant y byd, ac nid oedd yn prisio am ei warth, ei elyniaeth, a'i fygythion, mwy nac am yr eiddo dyn ar y groes; o herwydd yr oedd yn gweled condemniad yr holl anghredinwyr yn ddiwahaniaeth yn nghroes Crist. Dangos cariad ei Arglwydd croeshoeliedig, ei gyfeirio ef i sylw pechaduriaid, ei anrhydeddu ef yn ei ymarweddiad ei hun, a dysgu eraill i'w garu a'i ogoneddu, ydoedd gorchwyl mawr ei fywyd ef; yr oedd pob peth arall mewn cymhariaeth islaw ei sylw ef.

15 [r] * Canys yng Nghrist Iesu ni ddichon [s] enwaediad ddim, na dienwaediad, [t] † ond creadur newydd.

r Gwel ar pen. 5. 6. Rhuf. 8. 1. 2 Cor. 5. 17. s 1 Cor. 7. 19. t 2 Cor. 5. 17. Eph. 2. 10. a 4. 24. Col. 3. 10. Dat. 21. 5.

* Yr oedd y golygiadau ardderchog uchod yn derchafu meddwl yr apostol yn mhell uwch law pob sylw ar enwaediad a dienwaediad, yn nghyd â'r holl bethau yn y rhai y gallai gwir gristionogion feddwl a gweithredu yn wahanol: yn y pwnc o gyfiawnâd ac iachawdwriaeth pechadur, nid oedd enwaediad na dienwaediad ddim; ac yr oedd pob gwahaniaeth o'r fath hyny wedi darfod yn awr dàn y Testament Newydd, ac yn Nghrist Iesu. † Gwyddai efe yn sicr, mai adgenedliad, neu grëadigaeth newydd ar ddelw Crist, fel prawf ac amlygrwydd o ffydd ynddo ef, oedd yr unig beth hanfodol i iachawdwriaeth, a'r gwahaniaeth mawr rhwng y naill ddyn a'r llall dàn yr efengyl.

16 * A chynnifer ag a [u] rodiant yn ol y rheol hon, [x] † tangnefedd arnynt a thrugaredd, [y] ‡ ac ar Israel Duw.

u pen. 5. 16, 25. Salm 125. 4, 5. Phil. 3. 16. x pen. 1. 3. Num. 6. 23—27. 1 Cron. 12. 18. Ioan 14. 27. a 16. 33.—Gwel ar Rhuf. 1. 7.—Phil. 4. 7. y pen. 3. 7—9, 29. Salm 73. 1. Es. 45. 25. Hos. 1. 10. Ioan 1. 47. Rhuf. 2. 28, 29. a 4. 12. a 9. 6—8. Phil. 3. 3. 1 Pedr 2. 5—9.

* A chynnifer bynag, Iuddewon a chenedloedd dychweledig, a rodiant yn drefnus yn ol y rhëol hon; sef a rodiant gyda Duw, fel rhai yn Nghrist, fel crëaduriaid newydd, gan ymffrostio yn unig yn ei groes ef, a chwedi eu croeshoelio trwy Grist a'i groes i'r byd, a'r byd iddynt hwythau; † mae yr apostol yn dymuno helaethrwydd o dangnefedd a thrugaredd Duw ar y cyfryw rai, ‡ sef ar bawb o wir Israel Duw, mewn cyferbyniad i genedl anghrediniol Israel yn ol y cnawd. "Y rhëol hon:" holl rëol yr ysgrythyrau, neu athrawiaeth yr epistol hwn, neu ynte y pethau yn yr adnodau blaenorawl, fel y sylwyd uchod.

17 * O hyn allan [z] na fiined neb fi: [a] † canys dwyn yr wyf fi yn fy nghorph nodau yr Arglwydd Iesu.

z pen. 1. 7. a 5. 12. Jos. 7. 25. Act. 15. 24. Heb. 12. 15.
a pen. 5. 11. 2 Cor. 1. 5. a 4. 10. a 11. 23—25. Col. 1. 24.

* Gan fod yr hyn a ysgrifenwyd yn yr epistol hwn yn llawn ddigon i foddloni pob ymholydd duwiol a gostyngedig; mae yr apostol yn deisyfu na flinai neb mo hóno ef o hyn allan, â dadleuon a holiadau yn nghylch yr enwaediad, a defodau eraill y ddeddf seremoniol: ac na waradwyddai, ac nad erlidiai neb o'r gau frodyr ef mwyach, am yr athrawiaeth oedd yn bregethu, a'r rhyddid oedd yn arfer yn ol rhëol yr efengyl. † Ni ddylai neb chwanegu mwyach at ei ddyoddefiadau ef, yn ei enw, yn ei feddwl, nac yn ei gorph; oblegid yr oedd efe eisoes wedi dyoddef llawer, ac yn dwyn yn ei gorph nodau a chreithiau yr archollion a gawsai yr achos Crist; ac y rhai a gyfrifai efe yn llawer mwy anrhydeddus nâ nod allanol yr enwaediad yn y cnawd. Tybia rhai fod yr apostol yn cyfeirio yma at y nodau a roddid ar gyrph caeth-weision a milwyr, i ddangos i ba berchenog neu flaenor y perthynent: diammau mai yr archollion a gawsai efe yn achos Crist a'r efengyl oedd yr apostol yn feddwl.

18 [b] * Gras ein Harglwydd Iesu Grist *a fyddo* gyd â'ch yspryd chwi, frodyr. Amen.

b Gwel ar Rhuf. 16. 20, 24. 2 Cor. 13. 14. 2 Tim. 4. 22. Philemon 25. Dat. 22. 21.

* Mae yr apostol yn gorphen yr epistol hwn fel ei holl epistolau eraill yn gyffredinol, trwy ddymuno gras i'r Galatiaid; gras ein Harglwydd Iesu Grist; yr hyn a gynnwys holl effeithiau ewyllys-da a chariad Duw ar eneidiau y saint, yr hyn sydd yn dyfod er mwyn, yn, a thrwy yr Arglwydd Iesu Grist. † Mae efe yn dymuno iddynt deimlo y gras hwn yn ei holl effeithiau cysurus a sancteiddiol yn eu calonau ac yn eu hysbrydoedd hwy; yn eu bywiocâu, yn eu nerthu, yn eu dyddanu, ac yn eu cadarnâu yn mhob peth sanctaidd, hyd eu perffeithiad mewn bywyd tragywyddol yn y nefoedd byth. ‡ Ac fel tystiolaeth o wirionedd diragrith ei ddymuniad, a'i obaith am y gras hwnw iddynt; mae efe o'i galon yn dywedyd Amen, felly y byddo i chwi a holl Israel ysbrydol Duw.

¶ At y Galatiaid yr ysgrifenwyd o Rufain.

EPISTOL PAUL YR APOSTOL

AT YR

EPHESIAID.

PEN. I.

Paul yn cyfarch y saint yn Ephesus.

1 * PAUL, [a] apostol Iesu Grist † trwy ewyllys
Duw, [b] ‡ at y saint sydd yn ‖ Ephesus,
§ a'r [c] ffyddloniaid yng Nghrist Iesu:

a Gwel ar Rhuf. 1. 5. 1 Cor. 1. 1. Gal. 1. 1. b Gwel ar y. Rhuf. 1. 7. 1 Cor. 1. 2. 2 Cor. 1. 1. c pen. 6. 21. Num. 12. 7. Luc 16. 10. Act. 16. 15. 1 Cor. 4. 2, 17. Gal. 3. 9. Col. 1. 2. Dat. 2. 10, 13. a 17. 14.

* Paul, yr hwn a gawsai yr anrhydedd o fod yn apostol Iesu Grist, wedi ei ddanfon yn ddigyfrwng ganddo ef, ei awdurdodi a'i addasu i bregethu ei efengyl ogoneddus ef; † a chwedi ei alw i'r swydd oruchel a phwysig hon yn ol ewyllys ben-arglwyddiaethol Duw, yr hwn yn ei rad ras a'i galwodd ef iddi pan oedd yn gablwr, yn erlidiwr, ac yn drahâus. ‡ Yn y cyflawniad o'r swydd hon a ymddiriedwyd iddo, mae efe dàn ysbrydoliaeth Duw yn danfon yr epistol hwn at y saint yn Ephesus, y rhai oeddynt ffyddloniaid yn Nghrist Iesu. ‖ Ephesus oedd brif-ddinas Asia Briodol, neu Raglawiaethol, yr hon oedd dalaeth o Asia Leiaf: gwel ar Act. pen. 19. § Tybia rhai mai rhyw gristionogion eraill, gwahanol i'r "saint yn Ephesus," a feddylir wrth y geiriau "*a'r* ffyddloniaid yn Nghrist Iesu;" ond dywed eraill mai yr un dynion a feddylir, ac y gallesid cyfieithu y geiriau *kai pistois, sef* y ffyddloniaid. "Ffyddloniaid:" rhai yn credu yn Nghrist, ac yn profi eu hunain yn mhob ymarweddiad, yn filwyr a gweision ffyddlawn iddo ef.

2 * Gras [d] *fyddo* i chwi, † a thangnefedd
‡ oddi wrth Dduw ein Tad, a'r Arglwydd Iesu
Grist.

d Gwel ar z. a. b. Rhuf. 1. 7.—2 Cor. 1. 2.

* "Gras," sef pob gras sancteiddiol ac achubol. † "Tangnefedd," sef tangnefedd tuag at Dduw, yn eu cydwybodau eu hunain, yn mhlith eu gilydd, a thuag at bawb: mae y tangnefedd hwn yn ffrwyth, effaith, ac amlygrwydd o ras Duw yn y galon. ‡ Mae y gras hwn yn cael ei roddi i'r eglwys trwy gyfraniad yr Ysbryd Glân, oddi wrth y Tad a'r Mab; yr hyn yw yr achos nad enwir yr Ysbryd Glân, medd rhai, yn y cyfarchiadau hyn.

3 [e] * Bendigedig *fyddo* [f] Duw a Thad ein
Harglwydd Iesu Grist, [g] † yr hwn a'n ben-
dithiodd ni ‡ â phob bendith ysprydol ‖ yn y
nefolion *leoedd* [i] § yng Nghrist:

e Gen. 14. 20. 1 Cron. 29. 20. Neh. 9. 5. Salm 72. 19. Dan. 4. 34. Luc 2. 28. 1 Pedr 1. 3. Dat. 4. 9—11. a 5. 9—14. f adn. 17. Ioan 10. 29, 30. a 20. 17. Rhuf. 15. 6. 2 Cor. 1. 3. a 11. 31. Phil. 2. 11. g Gen. 12. 2, 3. a 22. 18. 1 Cron. 4. 10. Salm 72. 17. a 134. 3. Es. 61. 9. Gal. 3. 9. h adn. 20. pen. 2. 6. a 3. 10. a 6. 12. Heb. 8. 5. a 9. 23. i adn. 10. Ioan 14. 20. a 15. 2—5. a 17. 21. Rhuf. 12. 5. 1 Cor. 1. 30. a 12. 12. 2 Cor. 5. 17, 21.

Oddi yma hyd ddiwedd y ddeuddegfed adnod, nid oes ond un frawddeg; a sylwed y darllenydd, nad oes yr un ddiwedd-nod hyd y fàn hòno. Yr oedd meddwl yr apostol mòr llawn fel nad oedd efe yn gofalu am fanylrwydd mawr yn ei ddull-ymadrodd; ac mae hyn yn gofyn sylw manol y darllenydd os mỳn efe lawn ddeall ei feddwl ef. * Wrth feddwl am y pethau mawrion a rhyfeddol a wnaethai Duw erddo ef, a thrwyddo ef, yn enwedig yn mysg y cenedloedd, mae yr apostol yn tòri allan mewn gorfoledd calon i fendithio Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, ac yn rhoddi pob anrhydedd a gogoniant, diolchgarwch a mawl, i'w enw sanctaidd ef. † "Yr hwn a'n bendithiodd *ni:*" sef nyni Iuddewon crediniol, a chwithau Ephesiaid cenedlig, y rhai a alwyd, gyda ni, ac yr un modd â ninnau. Wrth fendithio Duw fel hyn, yr oedd efe yn daugos ei grediniaeth gadarn o *alwad y cenedloedd*, ac yn ymorfoleddu yn sanctaidd a dïolchgar yn hyny. ‡ Pob bendithion ysbrydol er cadwedigaeth eneidiau, yn wahanol i ddoniau ysbrydol neu wyrthiol, a bendithion tymmorawl y byd hwn, y rhai nid ydynt bob amser yn fendith i'r neb a'u caffont. ‖ Neu yn y nefolion *bethau:* felly mae rhai yn dewis darllen y geiriau: nid oes na *lleoedd* na *phethau* yn y Groeg *epouraniois*, nefolion, yw y gair Os nefolion *leoedd* a ddarllenwn, rhaid i ni ddeall eglwysi y saint ar y ddaear; a nefolion leoedd yw y rhai hyn, mewn cymhariaeth i leoedd gwychaf y byd hwn, yn enwedig pan fyddo Duw yn eu llenwi â'i bres enoldeb a'i fendithion nefol. Os nefolion *bethau* a ddarllenwn, rhaid deall y bendithion o'r blaen; y rhai sydd yn deilliaw o'r nefoedd, yn ei gwneyd yn nefoedd ar y ddaear, ac yn addasu y saint i'w lleoedd yn y nefoedd frŷ. Gall y gair *nefolion* berthyn i *leoedd* a *phethau*, mewn cyferbyniad i ragor-freintiau daearol yn Iuddewon gynt, a'u syniadau dychymmygol hwy am fendithion daearol yn nheyrnas y Messiah. § Fel y mae Crist yn Ben a Chyfryngwr ei eglwys, mae yr holl fendithion ysbrydol hyn ynddo ef; (Colos. 1. 19,) a thrwy undeb ysbrydol âg ef, mae y saint, fel aelodau bywiol yn cael eu gwneyd yn gyfranogion o honynt.

4 [k] * Megis yr etholodd efe ni ynddo ef
cyn seiliad y byd, [m] † fel y byddem yn sanct-
aidd ac [n] yn ddifeius ger ei fron ef [o] mewn
cariad:

k Deut. 7. 6, 7. Salm 135. 4. Es. 41. 8, 9. a 42. 1. a 65. 8—10. Mat. 11. 25, 26. a 24. 22, 24, 31. Ioan 10. 16. Act. 13. 48. a 18. 10. Rhuf. 8. 30, 33. a 9. 23, 24. a 11. 5, 6. 2 Thes. 2. 13, 14. 2 Tim. 2. 10. Tit. 1. 1, 2. Iago 2. 5. 1 Pedr 1. 2. a 2. 9. l Mat. 25. 34. Ioan 17. 24. Act. 15. 18. 1 Pedr 1. 20. Dat. 13. 8. a 17. 8. m pen 2. 10. Luc 1. 74, 75. Ioan 15. 16. Rhuf. 8. 28, 29. Col. 3. 12. 1 Thes. 4. 7. 2 Tim. 1. 9. a 2. 19. Tit. 2. 11, 12. 2 Pedr 1. 5—10. n pen. 5. 27. 1 Cor. 1. 8. Phil. 2. 15. Col. 1. 22. 2 Pedr 3. 14. o pen. 3. 17. a 4. 2, 15, 16. a 5. 2. Gal. 5. 6, 13, 22. Col. 2. 2. 1 Thes. 3. 12. 1 Ioan 4. 16.

* Deilliodd a pharotôwyd hyn oll, yn nghyngor tragywyddol Duw; ac o'r etholiad tragywyddol a wnaeth efe o'i bobl yn Nghrist, ac fel rhai wedi eu rhoddi iddo ef cyn seiliad y byd. Etholodd y Tad Ef, sef ei dragywyddol a'i briod Fab, yn gyntaf, fel Pen a Chyfryngwr mawr ei eglwys; ac yna etholodd ei holl eglwys ynddo ef; a sicrâwyd y cwbl am byth, mewn cyfammod tragywyddol, wedi ei luniaethu yn hollawl ac yn sicr: dyma sylfaen ein holl iachawdwriaeth ni, a bydded hyn yn sylwedd ein holl ddymuniad. † Nid am ddim teilyng-

dod ynom ni, nac o hêrwydd y rhagwelodd Duw y byddem ni, o honom ein hunain, yn fwy sanctaidd nac eraill o'n rhyw syrthiedig, yr etholodd efe ni; ond fel y byddem sanctaidd: fel y gwnelid ni yn sanctaidd, trwy ein glanâu oddi wrth bechod, ein cyssegru i Dduw, a'n sancteiddio gan yr Ysbryd Glân, mewn canlyniad i'n hetholedigaeth. Fel hyn arfaethodd Duw ein gwneyd yn ddifeïus ger ei fron ef mewn cariad; nid o ran perffaith gyflawnâd yn Nghrist yn unig, ond hefyd o ran egwyddor berffaith o gariad ato ef, ac ymgais at rodio yn ddifeïus yn ei holl ffyrdd a'i orchymynion ef hyd y diwedd. Gellir golygu etholedigaeth yn sail yr holl fendithion, neu yn un o'r bendithion uchod.

5 * Wedi iddo [p] ein rhagluniaethu ni [q] i fabwysiad [r] † trwy Iesu Grist ‡ iddo ei hun, [s] || yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ef,

p adn. 11. Rhuf. 8. 29, 30. q Jer. 3. 4, 19. Hos. 1. 10. Ioan 1. 12. a 11. 52. Rhuf. 8. 14—17, 23. 2 Cor. 6. 18. Gal. 4. 5, 6. Heb. 12. 5—9. 1 Ioan 3. 1. Dat. 21. 7. r Ioan 20. 17. Gal. 3. 26. Heb. 2. 10—15. s adn. 9, 11. Dan. 4. 35. Mat. 11. 26. Luc 10. 21. a 12. 32. Rhuf. 9. 11—16. 1 Cor. 1. 1. Phil. 2. 13. 2 Thes. 1. 11.

* Wedi iddo ein rhagluniaethu ni i ystâd o faboliaeth, a hawl i ogoniant. Mewn rhyw ystyr mae hyn yn fwy na'r peth o'r blaen, sancteiddiad; fel mae y dyben yn fwy na'r moddion i gyrhaedd y dyben hwnw: y dyben mawr yn ngolwg Duw oedd, gwneyd yr etholedigion oll yn etifeddion teyrnas nefoedd; a'r moddion cymhwysiadol i hyny oedd, eu sancteiddiad hwy. † Yn Nghrist yr etholodd Duw ei bobl, a thrwy eu dwyn i undeb â Christ mae efe yn eu mabwysiadu yn blant iddo ei hun. Dylid gwahaniaethu yn ofalus rhwng rhagluniaethu i fabwysiad, â mabwysiadu yn weithredol; yr hyn a wnair ar ol adgenedliad a chredu, (medd *Scott,*) ac sydd yn agor y ffordd i Ysbryd mabwysiad. ‡ Sef i'w ogoniant ei hun, ac i fwynâd tragywyddol o hóno ei hun. Dywed *Guyse* y gellir cyfeirio y geiriau "iddo ei hun" *(eis auton,)* at Grist neu at Dduw Dad. || Mae hyn oll yn cael ei wneyd gan Dduw o hóno ei hun, o'i ben arglwyddiaethol ras ei hun, ac yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ei hun, yr unig achos cynhyrfiol o'n holl iachawdwriaeth ni, gan na chafodd efe ddim achos yn neb ond ynddo ei hunan: felly y rhyngodd bodd iddo.

6 * Er [t] mawl gogoniant ei ras ef, † trwy yr hwn [u] y gwnaeth ni yn gymmeradwy yn [x] yr Anwylyd:

t adn. 7, 8, 12, 14, 18. pen. 2. 7. a 3. 10, 11. Diar. 16. 4. Es. 43. 21. a 61. 3, 11. Jer. 33. 9. Luc 2. 14. Rhuf. 9. 23, 24. 2 Cor. 4. 15. Phil. 1. 11. a 4. 19. 2 Thes. 1. 8—10. 1 Tim. 1. 14—16. 1 Pedr 4. 11 u Es. 45. 24, 25. Jer. 23. 6. Rhuf. 3. 22—26. a 5. 15—19. a 8. 1. 2 Cor. 5. 21. Phil. 3. 9. x Salm 22. 20. a 60. 5. Diar. 8. 30, 31. Es. 42. 1. a 49. 1—3. Zec. 13. 7. Mat. 3. 17. a 17. 5. Ioan 3. 35. a 10. 17. Col. 1. 13.

* Ac mae y cwbl yn cael ei wneyd hefyd er mawl gogoniant ei ras ef, neu er mawl ei ogoneddus ras ef, sef ei ras mawr, helaeth, a thra rhyfeddol ef. Yn nhrefn iachawdwriaeth mae efe yn amlygu ei ogoneddus ras i ddynion, ac yn cael ei foli am ei ras gan ddynion. Mae graddiant ardderchog a phrydferth yn y geiriau hyn, o'i *ras,* i *ogoniant ei ras ef;* ac o *ogoniant* ei ras, i *fawl* gogoniant ei ras ef. † Trwy ei ras, a gweithrediad ei ras ef, y gwnaeth ni yn gymmeradwy iddo ei hun, ac yn ei olwg ei hun, fel ei blant mabwysiadol ac anwyl, yn a thrwy ei briod Fab yr Anwylyd: gwedi ein dewis a'n mabwysiadu yn yr Anwylyd, mae yn ein gwneyd yn gymmeradwy yn yr Anwylyd hefyd. Yr oeddym yn atgas ynom ein hunain fel pechaduriaid; ond yn gymmeradwy yn Nghrist fel plant.

7 * Yn [y] yr hwn y mae'i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, [z] † *sef* maddeuant pechodau, [a] ‡ yn ol cyfoeth ei ras ef;

y Job 33. 24. Salm 130. 7. Dan. 9. 24—26. Zec. 9. 11. a 13. 1, 7. Mat. 20. 28. a 26. 28. Marc 14. 24. Act. 20. 28. Rhuf. 3. 24. 1 Cor. 1. 30. Col. 1. 14. 1 Tim. 2. 6. Tit. 2. 14. Heb. 9. 12—15, 22. a 10. 4—12. 1 Pedr 1. 18, 19. a 2. 24. a 3. 18. 1 Ioan 2. 2. a 4. 10. Dat. 5. 9. a 14. 4. z Ex. 34. 7. Salm 32. 1, 2. a 86. 5. a 130. 4. Es. 43. 25. a 55. 6, 7. Jer. 31. 34. Dan. 9. 9, 19. Jona 4. 2. Mica 7. 18. Luc 1. 77. a 7. 40—42, 47—50. a 24. 47. Ioan 20. 23. Act. 2. 38. a 3. 19. a 10. 43. a 13. 38, 39. Rhuf. 4. 6—9. Col. 2. 13. Heb. 10. 17, 18. 1 Ioan 1. 7—9. a 2. 12. a Gwel ar adn. 6.—pen. 2. 4, 7. a 3. 8, 16. Rhuf. 2. 4. a 9. 23. 2 Cor. 8. 9. Phil. 4. 19. Col. 1. 27. a 2. 2. Tit. 3. 6.

* Er bod y saint wrth natur ac ynddynt eu hunain yn bechaduriaid euog a chondemniol, mewn caethiwed a charchar, dàn felldith y ddeddf, a thàn lywodraeth pechod a Satan, heb allu byth eu gwaredu eu hunain; eto rhoddes Mab Duw, yr Anwylyd, iawn a phridwerth cyflawn drostynt, pan dywalltodd efe ei werthfawr waed ar y groes: a chwedi eu dwyn i undeb âg ef trwy ffydd ac adgenedliad, cawsant gyflawn waredigaeth: † gan dderbyn llawn faddeuant o'u holl bechodau, a rhyddâu eu heneidiau o lyffetheiriau a chaethiwed eu truenus gyflwr o'r blaen. ‡ Tarddodd y brynedigaeth, y waredigaeth, a'r maddeuant hyn, o gyfoeth annhraethol gras Duw, ac mae y fendith fawr yn cael ei rhoddi i bechaduriaid yn ol cyfoeth ei ras a'i drugaredd ef; yr hwn yn ei anfeidrol gariad a drefnodd y ffordd hon o waredigaeth, a ddarparodd y Gwaredwr, nid arbedodd ei briod Fab, a ddygodd ei bobl i glywed am, a derbyn yr, iachawdwriaeth, a faddeuodd eu holl bechodau yn rhad, a ryddâodd eu heneidiau caethion, a ddiwallodd eu holl angenion, ac a'u cynnysgaethodd â'r amrywiaeth goreu o bob bendithion. O ryfedd ryfedd ras!

8 * Trwy yr hwn [b] y bu efe helaeth i ni [c] ym mhob doethineb a deall,

b Rhuf. 5. 15, 20, 21. c adn. 11. pen. 3. 10. Salm 104. 24. Diar. 8. 12. Es. 52. 13. Dan. 2. 20, 21. Mat. 11. 19. Rhuf. 11. 33. 1 Cor. 1. 19—24. a 2. 7. Col. 2. 3. Judas 25. Dat. 5. 12.

* Gall "pob doethineb a deall" yn yr adnod hon fod yn perthyn i Dduw; yn ei drefn o iachawdwriaeth trwy Iesu Grist, yn ei amlygiad o hóni trwy yr efengyl, ac yn ei oruchwyliaethau ef tuag at ei bobl. Mae trugarâu wrth ddrwg-weithredwyr yn aml yn hyfâu dynion i wneuthur drwg, ac yn gwaradwyddo ac yn gwanychu breichiau llywodraethwyr; ond mae trefn gras Duw mòr ddoeth, fel mae yn dangos pechod yn ei holl atgasedd a'i deilyngdod o ddïal: yn arddangos cyflawnder a sancteiddrwydd yn y gogoniant mwyaf ofnadwy, hyd yn nôd wrth drugarâu a maddeu; yn dangos yr holl briodoliaethau dwyfol mewn cyd-gordiad hardd; yn cynnysgaethu y credadyn â'r egwyddorion mwyaf effeithiol i ufudd-dod sanctaidd; ac yn tueddu yn union-gyrchol i ddadymchwelyd ymherodraeth Satan o annuwioldeb a drygioni. Fel hyn ni thywynodd doethineb Duw erioed mòr ddysglaer, yn ngolwg dynion sanctaidd ac angelion, ag yn yr amlygiad hwn o hóni yn nghyfoeth ei ogoneddus ras ef. Gall y geiriau hefyd berthyn i'r saint, yn yr hyn mae Duw yn weithredu arnynt ac ynddynt: mae eu cyssylltiad âg adn. 7, yn ein harwain at y golygiad cyntaf; ac âg adn. 9, at yr ail.

9 * Gwedi iddo [d] hysbysu i ni ddirgelwch ei ewyllys, [e] † yn ol ei foddlonrwydd ei hun, ‡ yr hon a [f] arfaethasai efe ynddo ei hun:

d adn. 17, 18. pen. 3. 3—9. Mat. 13. 11, 35. Rhuf. 16. 25—27. 1 Cor. 2. 10—12. Gal. 1. 12, 16. Col. 1. 26—28. 1 Tim. 3. 16. e Gwel ar adn. 5. f adn. 11. pen. 3. 11. Job 23. 13, 14. Salm 33. 11. Es. 14. 24—27. a 46. 10, 11. Jer. 2. 29. Galar. 3. 27, 38. Act. 2. 23. a 4. 28. a 13. 48. Rhuf. 8. 28. 2 Tim. 1. 9.

* "Dirgelwch ei ewyllys:" sef holl drefn yr iachawdwriaeth, yn ol doethineb a deall Duw: gelwir hyn yn ddirgelwch am ei fod yn hir yn nghudd, nad oedd gan neb ond amgyffred byr iawn am dano, na dim gan y cenedloedd, hyd oni hysbyswyd ef trwy yr Ysbryd Glân i'r apostolion, a chanddynt hwythau i'r byd o Iuddewon a chenedloedd. Yn awr mae yr hysbysiad trwy lythyren yr efengyl, a thrwy oleuni tumewnol yr Ysbryd Glân, yn y rhai sydd yn credu. † Yn ol ei foddlonrwydd ei hun y trefnodd Duw iachawdwriaeth i fyd colledig, yn ol ei foddlonrwydd ei hun yr hysbysodd efe hi, ac yn ol ei foddlonrwydd ei hun mae yn ei chymhwyso yn effeithiol at bechaduriaid: ‡ ac mae y cwbl oll yn cael ei wneyd, ac i gael ei wneyd yn ol ei arfaeth dragy-

wyddol, ddigyfnewid, ac anwrthwynebol ef. Am arfaeth Duw, gwel y Geiriadur Ysgrythyrol, Llyfr cyntaf.

10 * Fel [g] y'ngoruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd, [h] † y gallai grynhôi ynghyd yng Nghrist ‡ yr holl bethau ‖ sydd yn y nefoedd, ac ar y ddaear, ynddo ef:

g Es. 2. 2—4. Dan. 2. 44. a 9. 24—27. Amos 9. 11. Mica 4. 1, 2. Mal. 3. 1. 1 Cor. 10. 11. Gal. 4. 4. Heb. 1. 2. a 9. 10. a 11. 40. 1 Pedr 1. 20. h adn. 22. pen. 2. 15. a 3. 15. Gen. 49. 10. Mat. 25. 32. Phil. 2. 9, 10. Col. 1. 20. a 3. 11. Heb. 12. 22—24. Dat. 5. 9. a 7. 4—12. a 19. 4—6.

* "Goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd" yw goruchwyliaeth yr efengyl, goruchwyliaeth olaf gras Duw yn y byd, pryd y cyflawna efe holl fwriadau ei arfaeth a'i gyngor tragywyddol, ac y cyflawna hefyd y gwaith a ddechreuodd efe yn y goruchwyliaethau a'r amseroedd eraill, cyn goruchwyliaeth yr efengyl; parotôad i'r oruchwyliaeth hon oedd yr holl oruchwyliaethau eraill, a dechreuad y gwaith a gyflawnir yn hon oedd y cwbl a wnaed dàn bob goruchwyliaeth flaenorawl. † "Crynhôi yn nghyd:" fel y gwna rhifyddwyr eu holl rifnodau yn un swm cyfan ar odre y golofn, neu fel y gwna areithwyr pan gasglont sylwedd eu haraeth i ychydig benau: felly y crynhôa Duw ei holl eglwys, ac a'i gesyd mewn trefn hardd a gogoneddus dàn Grist ei Phen, yn riwedd yr oruchwyliaeth bresenol, goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd. ‡ "Yr holl bethau:" *ta panta* yw y geiriau Groeg, yn y ganolryw, medd *Guyse*, ac a ddefnyddir weithiau am *holl bersonau* yn gystal ag am holl bethau. ‖ "Sydd yn y nefoedd ac ar y ddaear:" dywed rhai mai ymadrodd Hebreaidd yw hyn, i arwyddo yr *holl fyd:* a thybiant ei fod yma yn gyfystyr âg Iuddewon a chenedloedd: ond mwy rhesymol yw ei ddeall am y saint yn y nefoedd a'r saint ar y ddaear, a'r etholedig angelion hefyd, yn cael eu crynhôi oll yn nghyd yn Nghrist, a thàn ei lywodraeth ef, i'w addoli byth. Mae y gair *anakephalaiôsasthai*, "crynhôi yn nghyd," yn arwyddo ail uno drachefn dàn un pen.

11 * Yn yr hwn [i] y'n dewiswyd hefyd, [k] † wedi ein rhagluniaethu yn ol [l] arfaeth ‡ yr hwn sydd yn gweithio pob peth wrth [m] gynghor ei ewyllys ei hun:

i adn. 14. Salm 37. 18. Act. 20. 32. a 26. 18. Rhuf. 8. 17. Gal. 3. 18. Col. 1. 12. a 3. 24. Tit. 3. 7. Iago 2. 5. 1 Pedr 1. 4. a 3. 9. k Gwel ar adn. 5. l Gwel ar f. adn. 9. m Gwel ar c. adn. 8.- Job 12. 13. Diar. 8. 14. Es. 5. 19. a 28. 29. a 40. 13, 14. Jer. 23. 18. a 32. 19. Zec. 6. 13. Act. 2. 23. a 4. 28. a 20. 27. Rhuf. 11. 34. Heb. 6. 17.

* Yn yr hwn y cawsom etifeddiaeth, yn ol y Saesoneg: *eklêrôthêmen* yw y gair Groeg; dewis y saint i etifeddiaeth, neu ddewis etifeddiaeth i'r saint: a thybir fod yr apostol yma yn cyfeirio at ddewis etifeddiaethau trwy goelbren i lwythau Israel gynt. Dewis y saint *yn* etifeddiaeth i'r Arglwydd, medd un gŵr, gan gyfeirio at Deut. 22. 9. Mae pob un o'r golygiadau uchod yn dda, ac yn gyson â gwir athrawiaeth; dewisodd Duw ei bobl i etifeddiaeth, dewisodd etifeddiaeth iddynt, a dewisodd hwynt yn etifeddiaeth iddo ei hun. † Mae y saint wedi eu dewis, a'u rhagluniaethu gan Dduw, i'r etifeddiaeth a'r holl fendithion uchod, yn ol ei arfaeth dragywyddol: er eu bod yn dyfod yn rhad, ac heb ymofyn am danynt iddynt hwy; eto nid damweiniol ydynt i Dduw, ond wedi eu harfaethu erioed, a'i bobl wedi eu rhagluniaethu i'w mwynâu. ‡ Yn ol ei arfaeth, ac wrth gyngor ei ewyllys ei hun, mae Duw yn gwneyd pob peth, mewn crëadigaeth, rhagluniaeth, ac iachawdwriaeth; ac mae yn gwneyd pob peth yn effeithiol, a diwrthwynebiad; ei gyngor a saif, a'i holl ewyllys a wnâ; eto nid yw yn gwneyd dim yn anghyfiawn â neb, na dim mewn ffordd o drais ar ryddid ewyllys neb: ei bobl a fyddant ewyllysgar yn nydd ei nerth ef.

12 * Fel y byddem ni [n] er mawl i'w ogoniant ef, [o] † y rhai o'r blaen a obeithiasom yng Nghrist.

n Gwel ar t. adn. 6, 14. pen. 2. 7. a 3. 21. 2 Thes. 2. 13. o adn. 13. Salm 2. 12. a 146. 3—5. Es. 11. 10. a 12. 2. a 32. 1, 2. a 42. 1—4. a 45. 23—25. Jer. 17. 5—7. a 23. 6. Mat. 12. 18—21. Ioan 14. 1. Rhuf. 15. 12, 13. 2 Tim. 1. 12. 1 Pedr 1. 21.

* Tra yr oedd y rhan fwyaf o'r Iuddewon, cyd-genedl yr apostol, wedi eu gadael dàn ddalliñeb barnol ac anghrediniaeth, i fod yn gof-arwyddion o sòriant cyfiawn ac ofnadwy Duw; yr oedd Paul ei hun, a rhai o'r genedl, wedi eu dewis i fod er mawl ei ogoniant ef, gan eu bod trwy nerth gras Duw wedi eu dwyn i obeithio yn Nghrist am iachawdwriaeth, fel blaenffrwyth yr eglwys gristionogol; er eu bod ynddynt eu hunain mòr deilwng o ddigofaint â'u brodyr Iuddewig anghrediniol. "Y rhai o'r blaen a obeithiasom:" pregethwyd yr efengyl gan Grist ei hun i'r apostolion, a chanddynt hwythau i'w cyd-genedl, cyn ei phregethu i'r cenedloedd: ac mae yn debyg fod y rhan fwyaf o'r Iuddewon crediniol y pryd hwnw, wedi eu dwyn i obeithio yn Nghrist, cyn i'r cenedloedd glywed sôn am dano. Mae mawl gogoniant gras Duw yn cael ei ddatguddio *yn* ei bobl trwy y gwaith grasol a wnair arnynt: ac hefyd *gan* ei bobl, yn sancteiddrwydd, llafur, a ffrwythlonder eu bywydau.

13 * Yn yr hwn [p] *y gobeithiasoch* chwithau hefyd, [q] † wedi i chwi glywed [r] gair y gwirionedd, [s] ‡ efengyl eich iachawdwriaeth: ‖ yn yr hwn hefyd, wedi i chwi gredu, [t] y'ch seliwyd trwy [u] Lân Ysbryd yr addewid;

p pen. 2. 11, 12. Col. 1. 21—23. 1 Pedr 2. 10. q pen. 4. 21. Ioan 1. 17. Rhuf. 6. 17. a 10. 14—17. Col. 1. 4—6, 23. 1 Thes. 2. 13. r Salm 119. 43. 2 Cor. 6. 7. 2 Tim. 2. 15. Iago 1. 18. s Marc 16. 15, 16. Act. 13. 26. Rhuf. 1. 16. 2 Tim. 3. 15. Tit. 2. 11. Heb. 2. 3. t pen. 4. 30. Ioan 6. 27. Rhuf. 4. 11. 2 Cor. 1. 22. 2 Tim. 2. 19. Dat. 7. 2, 3. u Joel 2. 28. Luc 11. 13. a 24. 49. Ioan 14. 16, 17, 26. a 15. 26. a 16. 7—15. Act. 1. 4. a 2. 16—22, 33. Gal. 3. 14.

* Gwedi sôn uchod am yr Iuddewon crediniol, mae yr apostol yma yn troi at yr Ephesiaid, fel cenedloedd dychweledig: gwedi iddynt hwy glywed gair y gwirionedd, efengyl eu hiachawdwriaeth, gobeithiasant hwythau hefyd yn Nghrist, am fywyd tragywyddol i'w heneidiau. Nid yw y parwyddiad *(verb)* "gobeithiasoch," yn y Groeg yn yr adnod hon; "Yn yr hwn chwithau hefyd," sydd yno: ond mae yn amlwg mai "gobeithiasoch" yw y gair sydd yn eisiau: a chymerodd y cyfieithwyr ef o adn. 12. ‡ "Gair y gwirionedd:" Hebrëaeth arferedig ydyw hyn am air gwirioneddol, neu mewn ffordd o enwogrwydd, fel yn cynnwys y gwirionedd mwyaf rhagorol, gwerthfawr, ac angenrheidiol trwy Iesu Grist; neu ynte gair y gwirionedd mewn cyferbyniad i'r ddeddf seremoniol a'i chysgodau, y rhai a gyflawnir yn sylweddol yn yr efengyl. ‡ Efengyl iachawdwriaeth o ran ei chynnwysiad, fel mae yn cynnwys athrawiaeth, ac yn datguddio ffordd a threfn iachawdwriaeth; ac hefyd o ran ei heffeithiau, fel mae yn foddion yn llaw Duw i ddwyn grasau a bendithion yr iachawdwriaeth i ddynion: trwy glywed hon y daeth yr Ephesiaid i obeithio yn Nghrist. ‖ Gwedi clywed a chredu yr efengyl, a thrwy hyny gobeithio yn Nghrist, cafodd yr Ephesiaid eu selio trwy Lân Ysbryd yr addewid, yr hwn a addawsid trwy y prophwydi gynt, a chàn Grist ei hun cyn ei esgyniad. Nid doniau gwyrthiol a feddylir wrth y *selio* yma: nid oedd y rhai hyny yn ernes o'r etifeddiaeth, (adn. 14.) oblegid yr oedd llawer o ddynion ansanctaiddiol yn cael y doniau hyny. Ond mae dylanwadau a goruchwyliaethau sancteiddâol a chysurol yr Ysbryd Glân yn *selio* y credinwyr, fel plant i Dduw ac etifeddion teyrnas nefoedd; maent yn flaen ffrwyth o ddedwyddwch y nefoedd, ac yn argraffu delw sanctaidd Duw ar eu heneidiau.

14 * Yr hwn yw [x] ernes ein hetifeddiaeth ni, † hyd [y] bryniad y pwrcas, [z] ‡ i fawl ei ogoniant ef.

x Rhuf. 8. 15—17, 23. 2 Cor. 1. 22. a 5. 5. Gal. 4. 6. y pen. 4. 30. Lef. 25. 24, &c. Salm 74. 2. a 78. 54. Jer. 32. 7, 8. Luc 21. 28. Act. 20. 28. Rhuf. 8. 23. 1 Pedr 2. 9. z Gwel ar adn. 6, 12.

* "Yr hwn," sef yr Ysbryd Glân wedi ei roddi i'r saint, ac yn preswylio ynddynt yn ei ddoniau a'i rasau,

sydd yn ernes iddynt o sicrwydd eu hetifeddiaeth dragywyddol; fel mae dynion yn sicrâu taliad rhyw swm addawedig, trwy dalu rhyw gyfran o honynt yn mlaen fel ernes. Felly mae yr Ysbryd a'i ddoniau grasol, yn sicrwydd i'r saint o'u hetifeddiaeth, ac yn wir yn rhan o hóni. † "Pryniad y pwrcas:" hyny yw, gwaredigaeth gyflawn, a pherffaith y saint, oddi wrth bechod, angau, y bedd, a satan: er bod y brynedigaeth hon wedi ei chyflawni yn berffaith gan Grist, nid yw yn cael ei chymhwyso ond mewn rhan yn y bywyd hwn, ac i gael ei mwynâu yn berffaith yn y byd a ddaw. Neu, yn hytrach arwydda y geiriau waredigaeth gyflawn ac olaf yr holl saint yn niwedd y byd, y rhai a elwir yma yn bwrcas, neu yn eiddo prynedig. Y pethau uchod yw golygiadau *Pool* ar ddiwedd yr adnod, ac fel hyn y dywed *Doddridge*:—"Yr wyf fi yn meddwl fod y gair *peripoiêsis* (pwrcas) yma yn arwyddo *y bobl* a *brynwyd* gan Grist, i fod yn *eiddo priodol* iddo ef; yr hyn sydd gytunol iawn â meddwl y gair mewn mànau eraill." Dywed *Guyse* a *Scott* hefyd yr un peth; ond tybiant hwy fod yr etifeddiaeth hefyd yn gynnwysedig yn y geiriau. Tybia y Cyfieithydd ei hun, nad ydym yn darllen yn yr ysgrythyrau am ddim a brynwyd gan Crist, ond personau ei bobl. ‡ Bydd iachawdwriaeth gyflawn, a gwaredigaeth hollawl a diweddaf y saint, yn rhagorol er mawl gogoniant Duw.

15 * O herwydd hyn minnau hefyd, [a] wedi clywed † eich [b] ffydd yn yr Arglwydd Iesu, [c] ‡ a'ch cariad tu ag at yr holl saint,

a Col. 1. 3, 4. Philemon 5. b Gal. 5. 6. 1 Thes. 1. 3. 2 Thes. 1. 3. 1 Tim. 1. 5, 14. c Salm 16. 3. Col. 1. 4. 1 Thes. 4. 9. Heb. 6. 10. 1 Pedr 1. 22. 1 Ioan 3. 17. a 4. 21.

* Yr oedd yr apostol gyda'r Ephesiaid pan gredasant gyntaf, ac am ddwy flynedd a hanner wedi hyny; ond erbyn hyn yr oedd wedi bod yn absenol tua chwech neu saith mlynedd, ac yn clywed o bryd i bryd am eu ffydd yn yr Arglwydd Iesu, a'u cariad tuag at yr holl saint. † Nid cydsyniad oer â'r hanes a'r athrawiaeth am Grist yn unig, yn nghyd â phroffes allanol o hóno; ond ffydd ddiffuant a gwirioneddol ynddo er iachawdwriaeth eu heneidiau. ‡ Yr oedd hyn yn brawf o wirionedd diragrith eu ffydd hwy: ffydd yn gweithio trwy gariad yw gwir ffydd: cariad at yr *holl* saint, fel saint Duw.

16 [d] * Nid wyf yn peidio â diolch drosoch, [e] † gan wneuthur coffa am danoch yn fy ngweddïau;

d Gwel ar Rhuf. 1. 8, 9.—1 Sam. 7. 8. a 12. 23. 1 Thes. 5. 17. e Gen. 40. 14. Es. 62. 6. 1 Thes. 1. 2.

* Yr oedd yr apostol yn diolch yn ddibaid drostynt, am y ffydd a'r cariad, a phob ysbrydol ddoniau a roddasai Duw iddynt: † ac nid hyny yn unig, ond yr oedd yn gweddïo drostynt hefyd, am barâd o'r grasau hyn, ac am iddynt gynnyddu fwyfwy ynddynt. Fel yr oedd yr offrymau boreuol a hwyrol gynt yn cael eu galw yn boeth-offrwm *gwastadol;* (Exod. 29. 42,) felly y byddai yr apostol yn gweddïo ac yn diolch yn wastadol dros yr eglwysi, yn ei weddïau dirgel a chyhoeddus.

17 * Ar [f] i Dduw ein Harglwydd Iesu Grist, [g] † Tad y gogoniant, ‡ roddi i chwi [h] Ysbryd doethineb a [i] datguddiad, ‖ trwy ei [k] adnabod ef:

f Gwel ar adn. 3. g 1 Cron. 29. 11. Salm 24. 7, 10. a 29. 3. Jer. 2. 11. Mat. 6. 13. Luc 2. 14. Act. 7. 2. 1 Cor. 2. 8. Iago 2. 1. Dat. 7. 12. h Gen. 41. 38, 39. Es. 11. 2. Dan. 5. 11. Luc 12. 12. a 21. 15. Ioan 14. 17, 26. Act. 6. 10. 1 Cor. 12. 8. a 14. 6. Col. 1. 9. a 2. 3. Iago 3. 17, 18. i pen. 3. 5. Dan. 2. 28—30. a 10. 1. Mat. 11. 25. a 16. 17. 1 Cor. 2. 10. 2 Cor. 12. 1. k pen. 3. 18, 19. Diar. 2. 5. Jer. 9. 24. a 24. 7. a 31. 34. Mat. 11. 27. Ioan 8. 54, 55. a 16. 3. a 17. 3, 25, 26. Rhuf. 1. 28. Col. 1. 10. 2 Pedr 1. 3. a 3. 18. 1 Ioan 2. 3, 4.

* Duw ein Harglwydd Iesu Grist mewn cyfammod âg ef, yr hwn a'i galwodd i'r gwaith mawr cyfryngol, ac yr hwn yr oedd yr Arglwydd Iesu Grist fel dyn yn ei addoli ac yn ufuddâu iddo. † Tad y gogoniant, y mwyaf gogoneddus ynddo ei hun; Awdwr mawr pob gogoniant sydd yn weledig yn y grëadigaeth; yn holl drefn fawr yr iachawdwriaeth; pob gogoniant a berthyn i Grist o ran ei ddynoliaeth a'i swydd gyfryngol, a phob gogoniant sydd ar saint ac angelion, ac a gânt ei fwynâu byth bythoedd. Gelwir Crist yn Frenin y gogoniant, ac yn Arglwydd y gogoniant; a'r Ysbryd Glân yn Ysbryd y gogoniant; ac yma gelwir y Person cyntaf yn Dad y gogoniant; nid i ddangos ei ragoriaeth ar y Personau eraill, ond i'w wahaniaethu ef oddiwrth y lleill, ac i ddangos fod pob gogoniant cyfraniadawl yn deilliaw yn gyntaf o'r *Tad.* ‡ Ysbryd doethineb a datguddiad yw yr Ysbryd Glân, yr hwn mae y Tad yn ei roddi i'r holl saint, a thrwy ddylanwadau yr hwn mae pob doethineb a datguddiad ysbrydol yn cael ei roddi iddynt, i adnabod eu hunain, ac i adnabod trefn yr iachawdwriaeth fawr yn yr efengyl; ‖ a hyny trwy eu dwyn i adnabyddiaeth o Dduw yn Nghrist, fel eu Duw cyfammodol a'u Tad hwy.

18 [l] * Wedi goleuo llygaid eich meddyliau; † fel y gwypoch beth [m] yw gobaith ei [n] alwedigaeth ef, ‡ a pheth [o] *yw* golud gogoniant ei etifeddiaeth ef ‖ yn y saint,

l pen. 5. 8. Salm 119. 18. Es. 6. 10. a 29. 10, 18. a 32. 3. Mat. 13. 15. Luc 24. 45. Act. 16. 14. a 26. 18. 2 Cor. 4. 4, 6. Heb. 10. 32. m pen. 4. 4. Rhuf. 5. 4, 5. a 8. 24, 25. Gal. 5. 5. Col. 1. 5, 23. 1 Thes. 5. 8. 2 Thes. 2. 16. Tit. 2. 13. a 3. 7. 1 Pedr 1. 3. 1 Ioan 3. 1—3. n pen. 4. 1. Rhuf. 8. 28—30. Phil. 3. 14. Col. 3. 15. 1 Thes. 2. 12. 2 Thes. 1. 11. 1 Tim. 6. 12. 1 Pedr 3. 9. a 5. 10. o Gwel ar adn. 7, 11.—pen. 3. 8.

* Sef gan yr Ysbryd Glân, yr hwn a elwid "Ysbryd doethineb a datguddiad:" goleuo llygaid eich deall yn ol y Saesoneg; y peth yw y llygaid i'r corph, hyny yw y deall, neu y meddwl i'r enaid; a phan mae yr Ysbryd Glân yn goleuo llygaid y meddwl, yna mae efe yn Ysbryd doethineb a deall. † Fel y gwypoch yn fwy goleu, ac yn fwy profiadol, beth yw gwerth a sylwedd y *Gwrthddrych* mawr hwnw, yr hwn y galwyd chwi trwy yr efengyl i obeithio ynddo; beth yw y *sylfaen* sicr ar ba un yr ydych yn gobeithio; a pheth yw y *gras* o obaith a gawsoch chwi yn eich galwedigaeth trwy yr efengyl. Mae y gair gobaith yn myned weithiau am *wrthddrych* gobaith, weithiau am *sylfaen* gobaith, ac weithiau am y *gras* o obaith: tybir mai y ddau gyntaf a feddylir yn benaf yma. ‡ A pheth yw golud y gras, y dedwyddwch, a'r bendithion ysbrydol hyny, sydd yn gynnwysedig yn etifeddiaeth ogoneddus y saint; neu y golud annhraethol o ogoniant a gaiff yr Arglwydd byth oddiwrth ei saint, fel ei etifeddiaeth ddewisedig. ‖ "Yn y saint:" neu yn *mhlith* y saint; sef y rhai sydd wedi eu perffeithio: hwy yn unig sydd yn llawn feddiannu yr etifeddiaeth; nid yw ond mewn gobaith gan y rhai sydd ar y ddaear.

19 * A pheth *yw* [p] rhagorol fawredd ei nerth ef † tu ag attom ni y rhai ŷm yn credu, ‡ yn ol gweithrediad nerth ei gadernid ef;

p pen. 2. 10. a 3. 7, 20. Salm 110. 2, 3. Es. 53. 1. Ioan 3. 6. Act. 26. 18. Rhuf. 1. 16. 2 Cor. 4. 7. a 5. 17. Phil. 2. 13. Col. 1. 29. a 2. 12. 1 Thes. 1. 5. 2 Thes. 1. 11. Iago 1. 18.

* Yr oedd yr apostol hefyd yn gweddïo am iddynt wybod yn brofiadol, ac fwy-fwy yn barâus, beth oedd rhagorol fawredd nerth Duw, yr hwn a ddangosodd efe yn ngweithrediad nerth ei gadernid, yn eu dychweliad hwy i'r ffydd; ac oedd yn amlygu o hyd yn ei waith yn eu cynnal, eu nerthu, a'u hamddiffyn hwynt, i berffeithio eu crëadigaeth newydd hwynt, ac i lwyr gyflawni eu gwaredigaeth hwynt oddi wrth Satan, pechod, ac angau. † "Tuag attom *ni:*" mae yr apostol yma yn ei ddwyn ei hun a'i frodyr Iuddewig i mewn, yn gystal â'r Ephesiaid cenedlig; ac yn sylwi fod rhagorol fawredd nerth Duw i'w weled yn eu tröedigaeth *hwy*, yn enwedig yn ei dröedigaeth ei *hun*, braidd yn fwy nac yn nychweliad y paganiaid hollawl i'r ffydd. ‡ Mae yr apostol yn yr adnod hon megys yn dyhysbyddu holl rŷm yr iaith Roeg, trwy bentyriad hardd o eiriau cryfion, i ddangos mawr nerth Duw yn nychweliad ac iachawdwriaeth pechaduriaid: dywedir bod ein cyf-

ieithiad ni o'r geiriau yn dda iawn; ond nad yw grỳmusder anghyffredin yr iaith wreiddiol yn cael ei gadw, ac nas gellir, efallai, mewn unrhyw gyfieithiad. Mae yma *nerth, mawredd* nerth, a *rhagorol* fawredd nerth: ac wedi hyny *cadernid, nerth* cadernid, a *gweithrediad* nerth cadernid.

20 * Yr hon [q] a weithredodd efe yng Nghrist, [r] pan y cyfododd ef o feirw, [s] † ac a'i gosododd i eistedd ar ei ddeheulaw ei hun yn y [t] nefolion *leoedd,*

q pen. 2. 5, 6. Rhuf. 6. 5—11. Phil. 3. 10. 1 Pedr 1. 3.
r Salm 16. 9—11. Ioan 10. 18, 30. Act. 2. 24—32. a 4. 10. a 10. 40. a 26. 8. Rhuf. 1. 4. Heb. 13. 20. s pen. 4. 8—10. Salm 110. 1. Mat. 22. 43—45. a 26. 64. a 28. 18. Marc 14. 62. a 16. 19. Ioan 17. 1—5. Act. 2. 34—36. a 5. 31. a 7. 55, 56. Rhuf. 8. 34. Col. 3. 1. Heb. 1. 3. a 2. 9. a 10. 12. Dat. 1. 17. a 5. 11—14. t Gwel ar h. adn. 3.

* Yr un nerth anfeidrol a weithredodd Duw yn adgyfodiad corph Crist o feirw, sydd yn cael ei weithredu o hyd yn nychweliad pechaduriaid i'r ffydd, ac yn eu holl iachawdwriaeth hwynt o'r dechreu i'r diwedd. † Mewn canlyniad i ufudd-dod Crist hyd angau y groes, a'i adgyfodiad wedi hyny o feirw; gosododd Duw ef i eistedd, yn y natur ddynol, ar ei ddeheulaw ei hun mewn anrhydedd a gogoniant ar ei orsedd gyfryngol yn y nefolion leoedd; sef yn eithaf uchder nef.

21 [u] * Goruwch pob [x] tywysogaeth, ac awdurdod, a gallu, ac arglwyddiaeth, [y] † a phob enw a enwir, nid yn unig yn y byd hwn, ond hefyd [z] yn ‡ yr hwn a ddaw:

u Col. 2. 10. Heb. 1. 4. x pen. 3. 10. a 6. 12. Dan. 7. 27. Rhuf. 8. 38, 39. Col. 1. 15, 16. a 2. 15. Heb. 4. 14. 1 Pedr 3. 22. y Mat. 28. 19. Act. 4. 12. Phil. 2. 9—11. Dat. 19. 12, 13. z Mat. 25. 31—46. a 28. 18. Ioan 5. 25—29. Heb. 2. 5. Dat. 20. 10—15.

* Gosododd y Tad ef i eistedd mewn awdurdod mawr, nid yn unig goruwch holl dywysogion y ddaear; ond hefyd fel buddugoliaethwr ar, a dystrywiwr holl, alluoedd y tywyllwch; yn mhell goruwch holl angelion y nef, pa fodd bynag y gwahaniaethir hwynt yn dywysogaethau, yn awdurdodau, &c. Mae yr enwau hyn, neu rai o honynt, yn cael eu rhoddi i angelion *da,* pen. 3. 10; i angelion *drwg,* pen. 6. 12; ac i ddynion, Luc. 12. 11; Tit. 3. 1; a chàn fod yr apostol yma yn llefaru am rai yn y byd hwn, ac hefyd yn yr hwn a ddaw, rhaid i ni ddeall ei fod yn cynnwys y cwbl; y graddau uwchaf o ddynion, ac angelion da a drwg. Mae y geiriau hefyd yn dangos fod gwahanol urddau a graddau yn mhlith angelion da a drwg yn y byd anweledig a ddaw, yn gystal ac yn mhlith dynion yn y byd gweledig hwn; a bod Iesu wedi ei dderchafu yn mhell uwchlaw iddynt oll, hyd yn nôd yr uwchaf o honynt, beth bynag yw eu henwau a'u graddau: † ïe, goruwch pob enw a fu erioed, neu a fydd byth yn enwog ac yn ddyrchafedig, ar y ddaear neu yn y nef, tra paráo y byd hwn a'r hwn a ddaw. ‡ Er bod y byd hwnw yn *bod* yn awr, nid ein byd ni ydyw eto; byd a ddaw ydyw i ni hyd onid elom iddo.

22 * Ac a [a] ddarostyngodd bob peth dan ei draed ef, † ac [b] a'i rhoddes ef yn ben ‡ uwch law pob peth [c] i'r eglwys,

a Gen. 3. 15. Salm 8. 6—8. a 91. 13. 1 Cor. 15. 25—27. Heb. 2. 8. b pen. 4. 15, 16. 1 Cor. 11. 3. Col. 1. 18. a 2. 10, 19. c pen. 3. 21. Mat. 16. 18. Act. 20. 28. 1 Tim. 3. 15. Heb. 12. 22—24

* Mae darostwng dàn draed un yn arwyddo buddugoliaeth ac awdurdod hollawl ar y neb a ddarostyngir felly, Jos. 10. 23, 24; felly mae Crist y Cyfryngwr mawr wedi buddugoliaethu yn hollawl ar ei holl elynion, a Duw Dad wedi rhoddi llywodraeth ac arglwyddiaeth gyffredinol iddo ef ar bob crëadur yn y nef ac ar y ddaear; a chwedi darostwng ei holl elynion dàn ei draed ef, iddo eu sathru a'u dryllio fel y gwelo efe yn dda; ac efe a wna hyn o bryd i bryd, hyd oni ddinystrier y gelyn diweddaf. Tybir fod y weithred hon o ddarostwng pob peth dàn ei draed ef yn cyfeirio, nid at *osodiad cyntaf* Crist fel Pen yn nhragywyddoldeb, ond at ei *osodiad gweithredol* ef mewn llawn awdurdod i gyflawni ei waith mawr cyfryngol, ar ol ei adgyfodiad o feirw, ac mewn canlyniad i hyny. † Mae Crist yn Ben i'r eglwys, fel y mae brenin yn ben i'w ddeiliaid, i'w llywodraethu hwy yn allanol â'i gyfreithiau; ac hefyd yn Ben fel mae y pen naturiol i'r corph, yn llywodraethu yr holl gorph yn ddylanwadol, yn trosglwyddo bywyd a chynnaliaeth i bob rhan o hóno, ac felly yn achos paráus o bob teimlad ac ysgogiad iddo. Yr hyn yw y pen naturiol i'r corph, hyny yn ysbrydol yw Crist fel pen ei eglwys: yr hyn a ddengys mòr wir angenrheidiol yw, i bob un gael undeb ysbrydol âg ef. ‡ *Uwchlaw* pob peth, neu *ar* bob peth: gall y geiriau gyfeirio at *Arglwyddiaeth* Crist ar bob peth *yn gyffredinol* er daioni yr eglwys; neu ynte, at ei *bendodaeth neillduol* ef ar yr eglwys ei hun; megys prif amcan, a dyben olaf Duw, yn yr holl raddau blaenorawl o dderchafiad Crist, y rhai a grybwyllir mewn graddiant prydferth, hyd onid ydynt yn cyrhaedd i, ac yn dybenu yn, y derchafiad uwchaf a mwyaf gogoneddus. Mae efe yn Ben *ar* bob peth er lles ei eglwys; ond *uwchlaw* pob peth yn Ben i'r eglwys: mae agosach ac anwylach perthynas rhyngddo â'r eglwys, nac â phob peth arall, fel y gwelir yn yr adnod nesaf.

23 * Yr hon yw [d] ei gorph ef, [e] † ei gyflawnder ef, ‡ yr hwn sydd yn cyflawni oll yn oll.

d pen. 2. 16. a 4. 4, 12. a 5. 23—32. Rhuf. 12. 5. 1 Cor. 12. 12—27. Col. 1. 24. a 3. 15. e pen. 3. 19. a 4. 10. Ioan 1. 16. 1 Cor. 12. 6. a 15. 28. Col. 1. 19. a 2. 9, 10. a 3. 11.

* Fel y mae efe yn Ben dirgeledig ei eglwys, felly mae yr eglwys yn gorph dirgeledig iddo yntau: efe yw ei Phen hi, a hithau yw ei gorph yntau. † Ac fel corph dirgeledig, yr eglwys yw ei gyflawnder ef; sef ei gyflawnder *perthynasol* ef: felly pe byddai un o'r aelodau yn eisiau, ïe, y lleiaf o honynt, byddai ef fel eu pen yn anghyflawn, yn anmherffaith, er ei fod ynddo ei hun yn anfeidrol berffaith a chyflawn, ac heb angen yr un o honynt. Fel mae y pen naturiol yn anmherffaith heb y corph; felly mae Crist yn ei sefyllfa berthynasol a chyfryngol yn anmherffaith heb iachawdwriaeth gyflawn ei holl gorph dirgeledig. ‡ A thra mae efe yn llenwi nefoedd a daear â'i ogoniant, mae hefyd yn llanw ei ordinâdau â'i allu a'i bresenoldeb grasol; ac yn preswylio yn gyflawn yn mhob credadyn, trwy ei Ysbryd o fywyd, purdeb, a chariad. Peth anfeidrol ryfedd yw, bod yr hwn sydd yn cyflawni *oll* yn *oll,* yn ymostwng i ystyried yr eglwys fel yn hanfodol i'w gyflawnder ef ei hun. Fel hyn y dywed *Doddridge:*—Mae efe yn cyflawni *pob* dyn, yn *mhob* màn, â'r *holl* bethau da sydd ganddynt; ac eto yn ymhyfrydu yn ei eglwys fel ei breswylfa ddewisedig, ac fel teml sanctaidd yr hon a gyssegrodd efe iddo ei hun.

PEN. II.

Iachawdwriaeth trwy ras.

[a] * ACHWITHAU *a fywhaodd efe,* † pan oeddych feirw [b] ‡ mewn camweddau a phechodau;

a adn. 5, 6. pen. 1. 19, 20. Ioan 5. 25. a 10. 10. a 11. 25, 26. a 14. 6. Rhuf. 8. 2. 1 Cor. 15. 45. Col. 2. 13. a 3. 1—4. b pen. 5. 14. Mat. 8. 22. Luc 15. 24, 32. Ioan 5. 24. 2 Cor. 5. 14. 1 Tim. 5. 6. 1 Ioan 3. 14. Dat. 3. 1.

* A chwithau pan oeddych feirw, &c., sydd yn y Groeg, heb y geiriau "*a fywâodd efe.*" Tybia rhai fod yr adnod hon yn gyssylltiedig â'r 19 adnod o'r bennod o'r blaen, megys fel hyn:—"A pheth yw rhagorol fawredd ei nerth tuag atom ni, a thuag atoch chwithau pan oeddych feirw mewn camweddau a phechodau." Os felly, rhaid bod yr adnodau gweddill o'r bennod o'r blaen i'w hystyried mewn crymfachau; a sylwir mai peth cyffredin gan Paul yn ei epistolau, yw dechreu ar fater, ei adael a myned at beth arall, ac yna dychwelyd at y mater hwnw drachefn ar ol amryw adnodau. Yn adn. 5, o'r bennod hon hefyd, cawn ef yn dychwelyd at y

mater sydd ganddo yn yr adnod hon; ac yno cawn y gair bywâu yn y Groeg, o ba le, mae yn debyg y cymerodd y cyfleithwyr ef i gyflawni synwyr yr adnod hon. † Marw ysbrydol, nid naturiol; hyny yw, yn hollawl amddifad o egwyddor sanctaidd bywyd ysbrydol, heb ddim gallu nac ewyllys i fyw bywyd ysbrydol a sanctaidd, mwy nag sy gan ddyn marw i gyflawni gweithredoedd bywyd naturiol, a thàn lywodraeth pechod, fel y mae corph marw yn meddiant llygredigaeth yn y bedd. ‡ Pob math o bechodau greddfol a gweithredol, bychain a mawrion; neu yn hytrach pob rhyw bechodau yn gymmysg a diwahaniaeth, yr un pethau yn cael eu geirio mewn amryw ffyrdd, i ddangos eu mawr helaethrwydd a'u hatgasedd. Pechod yw yr achos [a] o farwolaeth ysbrydol, a lle mae pechod yn teyrnasu, mae amddifadrwydd o fywyd ysbrydol.

2 [c] * Yn y rhai y rhodiasoch gynt [d] yn ol † helynt y byd hwn, [e] ‡ yn ol tywysog llywodraeth [f] yr awyr, [g] || yr yspryd sydd yr awrhon yn gweithio [h] § ym mhlant anufudd-dod.

c adn. 3. pen. 4. 22. Job 31. 7. 1 Cor. 6. 11. Col. 1. 21. a 3. 7. 1 Pedr 4. 3. d Salm 17. 14. Jer. 23. 10. Luc 16. 8. Ioan 7. 7. a 8. 23. a 15. 19. Rhuf. 12. 2. 1 Cor. 5. 10. Gal. 1. 4. 2 Tim. 4. 10. Iago 1. 27. a 4. 4. 1 Ioan 2. 15—17. a 5. 4. e pen. 6. 12. Ioan 8. 44. a 12. 31. a 14. 30. a 16. 11. 1 Ioan 5. 19. Dat. 12. 9. a 13. 8, 14. a 20. 2. f Job 1. 7, 16, 19. Dat. 16. 17. g Mat. 12. 43—45. Luc 11. 21—26. a 22. 2, 3, 31. Ioan 13. 2, 27. Act. 5. 3. 2 Cor. 4. 4. 1 Ioan 3. 8. a 4. 4. h adn. 3. pen. 5. 6. Es. 30. 1. a 57. 4. Hos. 10. 9. Mat. 11. 19. a 13. 38. Col. 3. 6. 1 Pedr 1. 14. 2 Pedr 2. 14 1 Ioan 3. 10.

* Yn y camweddau a'r pechodau uchod y bu yr Ephesiaid yn rhodio gynt, yn byw yn eu helfen ac wrth eu bodd ynddynt, yn gorwedd ac yn ymdrybaeddu wrth eu bodd mewn drygioni: ac felly y mae pawb eto hyd oni fywâer hwynt trwy ras Duw. † Mae y gair a gyfleithir "helynt" *(ton aióna)* weithiau yn arwyddo *oes*, ac yn arwyddo cyflwr ac agwedd lygredig dynion yn y byd hwn: bydolrwydd y byd hwn, medd rhai: yn ol y bywyd mae dynion y byd hwn, heb ffydd yn Nghrist, yn ei fyw. Yn fyw *i* bechod pan yn farw *mewn* pechod; a thrwy bechod yn farw i bob peth da. Dywedir fod yr Ephesiaid paganaidd yn nodedig am eu bucheddau bydol ac afian yn nghanol eu dysgeidiaeth; ac iddynt alltudio un gŵr, Hermodorus, yn unig am ei rinwedd; felly mewn effaith yn gwneyd deddf, na chaffai yr un dyn diwair a chymmedrol fyw yn eu plith. ‡ Yn ol ewyllys a chynnyrfiad diafol fel eu tywysog, yr hwn hefyd yw tywysog yr holl luoedd uffernol, y rhai sydd wedi ymuno fel un corph grymus yn deyrnas dàno ef, yr hwn mae gorsedd ei lywodraeth yn yr awyr, lle mae weithiau yn codi ystormydd a thymhestloedd echryslawn, Job 1. 19, yn gwneuthur drychiolaethau lledrithiol yn yr awyr, Luc 4. 5; a lle mae efe a'i genadon dieflig yn crwydro yn wastadol o amgylch y byd isaf hwn, 1 Pedr 5. 8. Tybiai yr Iuddewon a'r paganiaid fod yr awyr yn llawn o ysbrydion, neu ellyllon; ac mae yn debyg fod Paul hefyd o'r un meddwl. || Gweithio yn rymus ac yn anwrthwynebol, fel pe buasent wedi eu llenwi, eu hysbrydoli, a'u cwbl feddiannu ganddo: felly yr oedd Satan yn gweithio yn y rhai digred yr awr hòno, er bod yr efengyl wedi dyfod i'w plith, ac o herwydd ei dyfod; po mwyaf oedd yr efengyl yn rwygo ar ei deyrnas ef, mwyaf grymus a chythreulig yr oedd yntau yn gweithio yn nghalonau halogedig ei ddeiliaid anufudd. § "Plant anufudd-dod:" Hebrëaeth, am blant anufudd; ac efallai y gwaethaf, o'r rhai mwyaf nodedig o honynt, fel meibion Belial.

3 * Ym mysg y rhai hefyd [i] y bu ein hymarweddiad [k] ni oll gynt, [l] † yn chwantau ein cnawd, [m] ‡ gan wneuthur ewyllysiau y cnawd, || a'r meddyliau; [n] § ac yr oeddym ni wrth naturiaeth [o] yn blant digofaint, [p] megis eraill.

i Es. 53. 6. a 64. 6, 7. Dan. 9. 5—9. Rhuf. 3. 9—19. 1 Cor. 6. 9—11. Gal. 2. 15, 16. a 3. 22. Tit. 3. 3. 1 Pedr 4. 3. 1 Ioan 1. 8—10. k pen. 4. 17—19. Act. 14. 16. a 17. 30, 31. Rhuf. 11. 30. 1 Pedr 2. 10. 1 Ioan 2. 8. l pen. 4. 22. Marc 4. 19. Ioan 8. 44. Rhuf. 1. 24. a 6. 12. a 13. 14. Gal. 5. 16—24. 1 Tim. 6. 9. Iago 4. 1—3. 1 Pedr 1. 14. a 2. 11. a 4. 2. 2 Pedr 2. 18. 1 Ioan 2. 16. Judas 16—18. m Rhuf. 8. 7, 8. 2 Cor. 7. 1. Gal. 5. 19—21. n Gen. 5. 3. a 6. 5. a 8. 21. Job 14. 4. a 15. 14—16. a 25. 4. Salm 51. 5. Marc 7. 21, 22. Ioan 3. 1—6. Rhuf. 5. 12—19. a 7. 18. Gal. 2. 15, 16. o Gwel ar h. adn. 2.—Rhuf. 9. 22. p Rhuf. 3. 9, 22, 23. 1 Cor. 4. 7.

* Llefarai yr apostol o'r blaen am y paganiaid dychweledig yn unig, neu o leiaf yn benaf; ond yma mae yn troi yr ymadrodd, ac yn ei gynnwys ei hun, a'r holl gristionogion. Iuddewig, yn mhlith y rhai oedd unwaith yn feirw mewn camweddau a phechodau, ac yn gaethion i Satan: fel hyn mae yn llefaru, yn y person cyntaf lliosog, hyd ddiwedd y seithfed adnod; ac yna mae drachefn yn llefaru wrth y cenedloedd dychweledig, yn yr ail berson lliosog, *chwi*. 'Nis gallai feddwl yr Iuddewon,' medd rhai gwŷr dysgedig, 'o herwydd na bu yr Iuddewon yn eilun-addolwyr.' Ond a soniodd yr apostol yma rywbeth am eilun-addoliaeth? ac a oes dim ffordd i gyd-ymffurfio â'r byd a gwasanaethu y diafol ond trwy eilun-addoliaeth hollawl? Nid yn unig yr oedd yr Ephesiaid paganaidd fel hyn yn feirw mewn camweddau a thàn lywodraeth Satan; ond yr oedd Paul ei hun, a'r holl gristionogion oedd ar y ddaear y pryd hwnw, Iuddewon a chenedloedd, wedi bod gynt yn yr un cyflwr ac ymarweddiad cnawdol, wedi ymddieithrio oddi wrth Dduw, ac yn anufudd iddo ef. † Chwantau y cnawd yw chwantau y natur lygredig, yr holl egwyddor o lygredd a phechod mewn dyn. ‡ Dywedir fod y gair *(thelêmata,)* a gyfleithir yma "ewyllysiau," yn arwyddo math o allu neu awdurdod *meistrolaidd*, yn *mynu* ufuddod yn ddiwrthladd: || a bod y gair lliosog *(dianoiôn)* "meddyliau," (gan nas gall arwyddo *gallueodd deallawl* y meddwl yn y fàn hon) yn arwyddo y gwahanol nwydau, yn ol grym pa rai mae y meddyliau megys yn cymmeryd gwahanol argraffiadau drwg a phechadurus. Fel hyn mae y dyn anianol yn byw yn ol chwantau y cnawd, dàn lywodraeth ewyllysiau meistrolaidd, a nwydau cryfion ac angerddol y cnawd; a'r rhai hyn oll yn cael eu hennyn a'u hyrddu gan Satan, tywysog llywodraeth yr awyr. § Nid rhyfedd, ynte, bod y cyfryw ddynion yn blant digofaint; sef yn deilwng o ddigofaint, ac yn agored i ddigofaint ofnadwy Duw. Y maent felly "wrth naturiaeth," yn gystal a thrwy weithredoedd; o herwydd, fel y maent wedi eu geni o hil syrthiedig Adda, maent yn elynol i bob da, ac yn dueddol i bob drwg o naturiaeth ac anian, ac y mae pawb wrth naturiaeth o'r un egwyddor a buchedd yn deilwng o ddigofaint Duw. "Wrth naturiaeth" a arwydda naturiaeth wedi syrthio; nid naturiaeth fel y daeth hi o law y Crëawdwr yn sanctaidd a dibechod.

4 * Eithr Duw, [q] yr hwn sydd gyfoethog o drugaredd, † o herwydd [r] ei fawr gariad trwy yr hwn y carodd efe ‡ ni,

q adn. 7. pen. 1. 7. a 3. 8. Ex. 33. 19. a 34. 6, 7. Neh. 9. 17. Salm 51. 1. a 86. 5, 15. a 103. 8—11. a 145. 8. Es. 55. 6—8. Dan. 9. 9. Jona 4. 2. Mica 7. 18—20. Luc 1. 78. Rhuf. 2. 4. a 5. 20, 21. a 9. 23. a 10. 12. 1 Tim. 1. 14. 1 Pedr 1. 3. r Deut. 7. 7, 8. a 9. 5, 6. Jer. 31. 3. Ezec. 16. 6—8. Ioan 3. 14—17. Rhuf. 5. 8. a 9. 15, 16. 2 Thes. 2. 13. 2 Tim. 1. 9. Tit. 3. 4—7. 1 Ioan 4. 10—19.

* Pan oedd yr apostol a'i gyd-gristionogion, Iuddewon a chenedloedd, yn feirw mewn pechodau, yn analluog i'w cynnorthwyo eu hunain, ac yn wrthddrychau cymhwys o gasineb a digofaint Duw, efe a'u carodd hwynt â "mawr gariad;" nid o herwydd dim a welodd nac a ragwelodd efe ynddynt hwy, ond am ei fod yn "gyfoethog o drugaredd," ac yn ymhyfrydu yn y gweithrediad mwyaf helaeth ac eglur o hóno. † Cariad mewn ystyr yw y ffynon, o ba un y ffrydia trugaredd; o herwydd i Dduw garu trueiniaid er tragywyddoldeb, mae yn trugarâu wrthynt mewn amser. ‡ "Ni," Iuddewon a chenedloedd, y rhai a garwyd ac a gawsom drugaredd.

5 * Ië, pan oeddym [s] feirw mewn camweddau, [t] † a'n cyd-fywhâodd ni ‡ gyd â Christ, ([u] || trwy ras yr ydych yn gadwedig)

s Gwel ar b. adn. 1. t Gwel ar a. adn. 1.—pen. 5. 14. Ioan

.5. 21. a 6. 63. Rhuf. 8. 2. u adn. 8. Rhuf. 4. 16. a 11. 5, 6. Tit. 12. 11.

* Cyfhyrddodd yr apostol â hyn yn yr adnod flaenaf, a chwedi egluro pa fath oedd marwolaeth mewn camweddau a phechodau yn adn. 2, 3, a sôn am drugaredd a chariad Duw yn adn. 4, mae yn ail grybwyll y farwolaeth hon eto yma; a hyny gyda phwys mawr, "Ië, pan oeddym feirw mewn camweddau;" am y farwolaeth hon, gwel ar yr adnodau blaenorol. † Ië, hyd yn nôd pan oeddym feirw mewn camweddau, yn ddigymmorth, yn ddïobaith, ac yn ffiaidd fel rhai meirw yn ein cyflwr syrthiedig; y pryd hwnw, ac yn yr agwedd hòno, efe a roddodd ynom ni egwyddor o fywyd ysbrydol, ac a'n hadferodd ni i ystâd o gymmeradwyaeth gydag ef ei hun, yn yr hon mae bywyd, trwy undeb â Christ, mewn cyd-ffurfiad âg ef, a chydag ef. ‡ "Gyda Christ:" adgyfodiad Crist oedd gynllun, ac achos effeithiol, bywâd ysbrydol y saint: pan gyfododd Crist fel Pen, yr oedd yr holl gorph megys yn gynnrychioledig, yn cael ei fywâu gydag ef: ac yr un gallu dwyfol a weithredodd i godi corph Crist, sydd o hyd yn gweithredu i fywâu ei saint ef yn ysbrydol. Nid gydag ef o ran *amser* a feddylir; ond rhywbeth yn debyg fel y sylwyd uchod. || Fel hyn mae y saint yn gadwedig yn hollawl trwy ras; yn eu hetholiad, eu pryniad, eu dychweliad, a'u bywâd, mae y cwbl o ras Duw, heb ddim teilyngdod ynddynt hwy. Mae yn y bywâu uchod "gyda Christ" rywbeth mwy na gobaith am faddeuant a bywyd tragywyddol trwy ei adgyfodiad a'i esgyniad ef; mae yn dangos yr undeb sydd rhyngddo ef â phob gwir gredadyn; trwy rinwedd yr hwn mae y saint yn edrych ar ei adgyfodiad, ei esgyniad, a'i ogoneddiad ef, fel gwystl a sicrwydd o rywbeth hollawl o'r un natur, i gael ei wneyd ynddynt eac arnynt hwythau mewn amser dyledus. Fel hyn ddysgir ni i ystyried Crist fel Person cyhoeddus, Brawd rhynaf y teulu, a Gwarcheidwad y cangenau ieuangaf o hóno; am yr hwn deulu y gellir dywedyd, ei fod yn *nderbyn yr etifeddiaeth ynddo Ef.*

6 * Ac [x] a'*n* cyd-gyfododd, ac a'*n* gosododd i [y] gyd-eistedd [z] yn y nefolion *leoedd* † yng Nghrist Iesu:

x Gwel ar pen. 1. 19, 20.—Rhuf. 6. 4, 5. Col. 1. 18. a 2. 13. a 3. 1—3. y Mat. 26. 29. Luc 12. 37. a 22. 29, 30. Ioan 12. 26. a 14. 3. a 17. 21—26. Dat. 3. 20, 21. z Gwel ar h. pen. 1. 3.

* Mae y "cyd-fywâu" yn yr adnod o'r blaen, y "cyd-gyfodi" a'r "cyd-eistedd" yn yr adnod hon, yn peyfeirio at Iuddewon a chenedloedd, y rhai heb ddim gwahaniaeth rhwng y naill a'r llall, oedd wedi cael y trugareddau hyn: yr oeddynt oll wedi *cyd*-fyned i lawr trwy bechod, ac yma yn cael eu *cyd*-gyfodi trwy ras. † Bernir gan lawer o dduwinyddion da, fod y "cyd-fywâu" yn adn. 5, i'w ystyried fel peth wedi ei wneyd eisoes ar ac yn y saint, a bod y "cyd-gyfodi," a'r "gosod i gyd-eistedd yn y nefolion-leoedd" yma yn peyfeirio, nid at yr hyn sydd wedi ei wneyd yn bersonol yn neu ar y saint, ond at yr hyn a wnaed yn mherson Crist, fel ein Pen a'n Cynnrychiolwr drosom ni; ac nas gellir deall y geiriau, gydag iawn briodoldeb, mewn un ystyr arall. Mae eu gogoniant dyfodawl hwy wedi ei addïogelu trwy ei esgyniad a'i ogoneddiad ef, a thrwy eu undeb hwy âg ef; ac mae eu trysor, eu calon, eu gobaith, a'u serch, eisoes yn y nef, gyda Christ eu bywyd. † Yn Nghrist mae pob peth y saint; eu bywyd, eu codiad, a'u heisteddiad yn y nefolion-leoedd.

7 * Fel [a] y gallai ddangos yn yr oesoedd a ddeuai, [b] ragorol olud ei ras ef, † trwy *ei* gymmwynasgarwch i ni ‡ yng Nghrist Iesu.

a pen. 3. 5, 21. Salm 41. 13. a 106. 48. Es. 60. 15. 1 Tim. 1. 17. b Gwel ar adn. 4.—2 Thes. 1. 12. 1 Tim. 1. 16. 1 Pedr 1. 12. Dat. 5. 9—14.

* Holl drefn fawr yr iachawdwriaeth a luniwyd ac a porphenwyd, fel yn yr oesoedd a ddeuai, sef yn mhob cenedlaeth ac oes tra parâo'r byd hwn ac yn y byd a ddaw; y gallai Duw ddangos rhagorol olud ei ras, † trwy ei gymmwynasgarwch rhyfeddol i elynion a gwrthryfelwyr, a phlant digofaint, yn Nghrist Iesu: trwy y moddion hyn caiff dynion ac angelion byth weled, rhyfeddu, ac addoli ei gariad a'i drugaredd ogoneddus ef, yn iachawdwriaeth trueiniaid euog a choelledig. ‡ Rhagorol olud gras Duw yw "anchwiliadwy olud Crist;" (pen. 3. 8,) wedi ei drysori ynddo, ac yn dyfod o hóno a thrwyddo ef i'r holl saint: rhoddodd Duw bob peth yn Nghrist, am hyny mae Crist yn bob peth i'w bobl.

8 [c] * Canys trwy ras yr ydych yn gadwedig, [d] † trwy ffydd; [e] ‡ a hynny nid o honoch eich hunain: || rhodd Duw *ydyw:*

c Gwel ar adn. 5.—Rhuf. 3. 24. d Marc 16. 16. Luc 7. 50. Ioan 3. 14—18, 36. a 5. 24. a 6. 27—29, 35, 40. Act. 13. 39. a 15. 7—9. a 16. 31. Rhuf. 3. 22, 26. a 4. 5, 16. a 10. 9, 10. Gal. 3. 14, 22. 1 Ioan 5. 10—12. e adn. 10. pen. 1. 19. Mat. 16. 17. Ioan 1. 12, 13. a 6. 37, 44, 65. Act. 14. 27. a 16. 14. Rhuf. 10. 14—17. Phil. 1. 29. Col. 2. 12. Iago 1. 16—18.

* Mae yr apostol yma eto yn ail grybwyll yr hyn a ddywedodd o'r blaen, (adn. 5,) ac yn helaethu ar y mater yn yr adnod hon a'r ddwy ganlynol. Nid trwy ras y *byddwch* gadwedig, mae efe yn ddywedyd, ond trwy ras yr *ydych* yn gadwedig; yr oedd y credinwyr eisoes wedi eu dwyn i ystâd o gadwedigaeth, a hyny yn hollawl o ras Duw, trwy ffydd yn Nghrist Iesu. † Trwy ffydd mae y credadyn yn cymmeryd gafael yn y gras sydd yn yr efengyl, ac yn cael ei wneyd yn gyfranog o hono. Ni ddylid ystyried ffydd yma fel ammod, neu waith yn cael ei wneyd gan y dyn; ond fel offeryn, neu foddion, yn derbyn ac yn cymhwyso gras Duw. ‡ A'r gras hwn o ffydd, nid yw o ddyn ei hunan; nis gall dyn byth roddi bod iddo; mae ei feddwl cnawdol a balch ef yn hollawl groes i'r athrawiaeth ysbrydol a darostyngol am ffydd, yn gystal âg i'r gras o ffydd ei hunan. || Rhad rodd Duw yw ffydd fel pob gras arall, ac fel y bywyd tragywyddol ei hun: effaith ydyw, o'n bywâd â'n hadgenedliad gan Ysbryd Duw. Trwy ras, a thrwy ffydd, mae dyn yn gadwedig, mewn cyferbyniad i weithredoedd a haeddiant; ac hyd yn nôd ffydd, nid o ddyn ei hunan y mae, rhodd Duw ydyw. Efallai bod y geiriau "rhodd Duw ydyw," yn perthyn i bob peth yn yr adnod, yn gystal ag i ffydd.

9 * Nid [f] o weithredoedd, † fel nad ymffrostiai neb:

f Rhuf. 3. 20, 27, 28. a 4. 2. a 9. 11, 16. a 11. 6. 1 Cor. 1. 29—31. 2 Tim. 1. 9. Tit. 3. 3—5.

* Iachawdwriaeth dynion gan hyny, nid yw mewn un gradd na modd o weithredoedd: nid yw o weithredoedd yr hen gyfammod, nid yw o weithredoedd y ddeddf foesol, ac nid yw o weithredoedd y ddeddf seremonïol: nid yw o weithredoedd o un math yn y byd; dywedir ei bod o ras, (adn. 5, 8,) gan hyny nis gall fod o weithredoedd; a phe buasai o weithredoedd, ni ddywedasai yr apostol ei bod o ras. † Gan ei bod oll o ras Duw, heb ddim o weithredoedd dyn, nid oes gan neb ddim sail i ymffrostio, iddo ef o hóno ei hun wneyd dim er ei gadwedigaeth ei hun, nac achos i ymffrostio unrhyw ragoriaeth ar ei gymmydog. Fel hyn nid oedd gan yr Iuddewon crediniol ddim i ymffrostio ar y cenedloedd a gawsent drugaredd: gras oedd yn achub y naill fel y llall.

10 * Canys [g] ei waith ef ydym, [h] † wedi ein crëu yng Nghrist Iesu ‡ i [i] weithredoedd da, [k] || y rhai a rag-ddarparodd Duw, § fel y [l] rhodiem ni ynddynt.

g Salm 138. 8. Es. 19. 25. a 29. 23. a 43. 21. a 60. 21. a 61. 3. Jer. 31. 33. a 32. 39, 40. Ioan 3. 3—6, 21. 1 Cor. 3. 9. 2 Cor. 5. 5. Phil. 1. 6. a 2. 13. Heb. 13. 21. h pen. 4. 24. Salm 51. 10. 2 Cor. 5. 17. Gal. 6. 15. Col. 3. 10. i Mat. 5. 16. Act. 9. 36. 2 Cor. 9. 8. Col. 1. 10. 2 Thes. 2. 17. 1 Tim. 2. 10. a 5. 10, 25. a 6. 18. 2 Tim. 2. 21. a 3. 17. Tit. 2. 7, 14. a 3. 1, 8, 14. Heb. 10. 24. a 13. 21. 1 Pedr 2. 12. k pen. 1. 4. Rhuf. 8. 29. l adn. 2. pen. 4. 1. Deut. 5. 33. Salm 81. 13. a 119. 3. Es. 2. 3—5. Act. 9. 31. Rhuf. 8. 1. 1 Ioan 1. 7. a 2. 6.

* Beth bynag yw y credadyn fel credadyn, ac fel dyn duwiol, gwaith Duw ydyw, ac nid ei waith ei hun. Mae yn rhagori llawer ar eraill, ac ar y peth oedd ef ei hun gynt; ond effaith gweithrediad dwyfol arno ac

ynddo yw hyny, gwaith Duw ydyw. † Nid oes neb a all grëu ond Duw; ac mae y credadyn wedi ei grëu yn Nghrist Iesu; wedi cael egwyddor, anian, a thuedd newydd yn ei holl enaid a'i gynneddfau, a chyfeiriad newydd i'w serchiadau a'i ewyllys. Mae y crëu hwn yn cael ei wneyd yn Nghrist Iesu, yr hwn fel Pen ei eglwys sydd yn bywâu yr holl aelodau mewn undeb âg ef. Megys yr oedd y grëadigaeth gyntaf trwyddo ef fel yr Ail Berson yn y Drindod; felly mae yr ail grëadigaeth trwy yr un Crist fel Cyfryngwr, Arglwydd a Phen y grëadigaeth newydd: ynddo ef yr ydym yn byw, yn symmud ac yn bod yn ysbrydol yn gystal ag yn naturiol. ‡ Crëu *i* weithredoedd da, ac nid *am* weithredoedd da ydyw: *effaith* y crëu o newydd yw holl dueddiadau a gweithredoedd da y saint, ac nid yr achos o hóno: nid oedd dim gweithredoedd da cyn crëu iddynt, a lle mae crëu o newydd wedi bod, mae yn rhaid fod yno weithredoedd da yn canlyn. || Felly y bwriadodd Duw i'w bobl fod; ac yn eu crëadigaeth newydd efe a'u rhag-ddarparodd hwynt â grasau sanctaidd ei Ysbryd i hyny; § sef i rodio mewn gweithredoedd da o'u tröedigaeth hyd ddiwedd eu gyrfa. Fel hyn mae bywydau y saint yn effaith ac yn dystiolaeth eglur a chanmoladwy o'u iachawdwriaeth trwy ras.

11 * Am hynny [m] cofiwch, † a chwi gynt yn [n] Genhedloedd yn y cnawd, ‡ y rhai a elwid yn [o] ddïenwaediad, || gan yr hyn a elwir enwaediad [p] o waith llaw yn y cnawd;

m Deut. 5. 15. a 8. 2. a 9. 7. a 15. 15. a 16. 12. Es. 51. 1, 2. Ezec. 16. 61—63. a 20. 43. a 36. 31. 1 Cor. 6. 11. a 12. 2. Gal. 4. 8, 9. n Rhuf. 2. 28. Gal. 2. 15. a 6. 12. Col. 1. 21. o 1 Sam. 17. 26, 36. Jer. 9. 25, 26. Phil. 3. 3. Col. 3. 11. p Col. 2. 11.

* Gwedi sôn am gyflwr dynolryw syrthiedig yn gyffredinol, ac iachawdwriaeth yr holl gredinwyr trwy ragorol olud gras a thrugaredd Duw; mae yr apostol yn myned rhagddo yma, i ddangos i'r cenedloedd dychweledig neilluduolrwydd eu hachos *hwy*, yr hyn a'u gosodasai hwynt lawer yn mhellach o ffordd trugaredd nag yr oedd yr Iuddewon wedi bod. † Mynai iddynt gofio, eu bod hwy gynt, nid yn unig yn feirw mewn camweddau a phechodau, ond eu bod hefyd yn "genedloedd yn y cnawd" o ran eu cyflwr allanol; yn ymrôi i eilun-addoliaeth, anfoesoldeb a phob aflendid. *Cenedloedd*, heb freintiau crefyddol, na moddion gwybodaeth grefyddol; a chenedloedd yn y *cnawd*, yn hollawl dàn lywodraeth y cnawd a'i holl wŷniau a'i chwantau llygredig. ‡ Fel hyn gelwid hwy yn ddïenwaediad, neu ddïenwaededig, mewn ffordd o ddirmyg a thra atgasrwydd, fel rhai halogedig ac allan o gyfammod Duw. || Gelwid hwy felly hyd yn nôd gan yr Iuddewon hyny, y rhai nid oedd ganddynt ond yr enwaediad allanol yn y cnawd, o waith llaw dyn, heb enwaediad y galon: dirmygai y rhai beilchion hyn bawb dïenwaededig, agos fel pe buasent gŵn, neu ryw grëaduriaid aflan a ffiaidd eraill.

12 * Eich bod chwi y pryd hwnnw [q] heb Grist, † wedi [r] eich dïeithrio oddi wrth wladwriaeth Israel, ‡ ac yn estroniaid oddi wrth [s] ammodau yr addewid, [t] || heb obaith gennych, § ac [u] heb Dduw yn y byd:

q Ioan 10. 16. a 15. 5. r pen. 4. 18. Ezra 4. 3. Es. 61. 5. Ezec. 13. 9. Heb. 11. 34. s Gen. 15. 18. a 17. 7—9. Ex. 24. 3—11. Num. 18. 19. Salm 89. 3, &c. Jer. 31. 31—34 a 33. 20—26. Ezec. 37. 26. Luc 1. 72. Act. 3. 25. Rhuf. 9. 4, 5. Gal. 3. 16, 17. t Jer. 14. 8. a 17. 13. Ioan 4. 22. Act. 28. 20. Col. 1. 5, 27. 1 Thes. 4. 13. 2 Thes. 2. 16. 1 Tim. 1. 1. Heb. 6. 18. 1 Pedr 1. 3, 21. a 3. 15. 1 Ioan 3. 3. u 2 Cron. 15. 3. Es. 44. 6. a 45. 20. Hos. 3. 4. Act. 14. 15, 16. Rhuf. 1. 28—32. 1 Cor. 8. 4—6. a 10. 19, 20. Gal. 4. 8.

* Y pryd hwnw yr oedd y cenedloedd yn mhob ystyr "heb Grist," neu ar wahân oddi wrth Grist;" heb wybodaeth am dano, heb ffydd na rhan ynddo, ac heb undeb âg ef. Dyma sylfaen pob trueni, fel y mae Crist yn sylfaen pob dedwyddwch a daioni; am hyny mae yr apostol yn enwi hyn yn mlaenaf. † Yr oeddynt hefyd "yn ddïeithriaid i wladwriaeth Israel," a'i breintiau neilluduol fel eglwys weledig Duw; yn yr hon y gweinyddid ef ordinâdau ef, yr addolid ef, y cedwid ei air ef, a lle yr oedd dysgwyliad am y Messïah wedi ei roddi ac yn cael ei gynnal. Nid oedd dim undeb, na hawl dinas-fraint â'r Iuddewon, iddynt hwy y pryd hwnw, mewn pethau crefyddol na gwladol. ‡ Yr oeddynt hefyd "yn estroniaid i ammodau," neu gyfammodau "yr addewid;" cyfammod Abraham, cyfammod Sinai, cyfammod y freniniaeth, a chyfammod yr offeiriadaeth; yn mhob un o ba rai, y Messïah oedd y fendith fawr a addawid. Er mai un oedd y cyfammod o ran sylwedd, eto mae yr apostol yn llefaru am dano yma yn y *rhif liosog*, (megys y mae hefyd yn Rhuf. 9. 4,) o herwydd ei roddi allan amryw weithiau, ac mewn gwahanol ffyrdd a geiriau; nid yn unig i Abraham, Isaac, a Jacob, ond wedi hyny i holl eglwys Israel, i Lefi a Dafydd. || Fel hyn heb Grist, heb gyfammod, ac heb addewid, pa syniad bynag oedd gan y cenedloedd am fyd a chyflwr i ddyfod, nid oedd ganddynt yr un sail i obeithio am gymmeradwyaeth a dedwyddwch mewn byd arall: dim gobaith am ddïanc rhag digofaint, adgyfodiad y corph, nac etifeddiaeth bywyd tragywyddol. § A pha ellyllon bynag, eilunod, neu fodau dy chymmygol oeddynt yn eu haddoli; didduwiaid oeddynt yn y byd o ran y gwir Dduw: nid oedd dim gwybodaeth am y gwir Dduw ganddynt, nid oeddynt yn credu ynddo, yn ei ofni, yn ei addoli, nac yn ei broffesu. Annuwioldeb oedd natur eu heilun-addoliaeth, ac yn eu tywys hwythau i annuwioldeb, anfoesoldeb, a phob aflendid a brynti. Yr oeddynt hwy heb adnabod Duw, yn gwasanaethu y rhai wrth naturiaeth nid oeddynt dduwiau. Gal. 4. 8.

13 * Eithr yr awrhon [x] yng Nghrist Iesu, chwychwi, y rhai [y] oeddych gynt ym mhell, [z] † a wnaethpwyd yn agos ‡ trwy waed Crist.

x Gwel ar Rhuf. 8. 1.—1 Cor. 1. 30. 2 Cor. 5. 17. Gal. 3. 28. y adn. 12, 17, 19—22. pen. 3. 5—8. Salm 22. 27. a 73. 27. Es. 11. 10. a 24. 15, 16. a 43. 6. a 49. 12. a 57. 19. a 60. 4, 9. a 66. 19. Jer. 16. 19. Act. 2. 39. a 15. 14. a 22. 21. a 26. 18. Rhuf. 15. 8—12. z adn. 16. pen. 1. 7. Rhuf. 3. 23—30. a 5. 9, 10. 1 Cor. 6. 11. 2 Cor. 5. 20, 21. Col. 1. 13, 14, 21, 22. 1 Pedr 1. 18, 19. a 3. 18. Dat. 5. 9.

* Ond o'r dïwedd hwynt-hwy, y rhai a fuasent gynt o *naturiaeth*, *gweithredoedd*, *arferiad*, a sefyllfa allanol, yn mhell iawn oddi wrth addoliad, gwasanaeth, cariad, heddwch, a delw y gwir Dduw; † a wnaethpwyd ac a ddygwyd yn agos ato ef yn yr ystyriaethau a enwyd, ‡ trwy aberth a gwaed Crist, a thrwy ffydd ynddo ef, ei aberth mawr a'i waed gwerthfawr. Tybir fod yma gyfeiriad amlwg at ragor-fraint yr Israeliaid hyny y rhai nid oeddynt dàn halogiad seremonïol, neu a oeddynt wedi eu glanâu oddi wrth eu heuogrwydd trwy waed y cymmod, ac felly oedd â rhyddid iddynt i fyned i mewn i'r deml a chymdeithasu â Duw; ar ba gyfrif y gelwid hwy yn *bobl agos ato* ef. Salm 148. 14. Cymhara Exod. 19. 4, 6; Lefit. 10. 3; â Salm 65. 4.

14 * Canys efe yw [a] ein tangnefedd ni, † yr hwn a wnaeth [b] y ddau yn ‡ un, || ac a ddattododd [c] ganol-fur y gwahaniaeth rhyngom ni;

a Es. 9. 6, 7. Ezec. 34. 24, 25. Mica 5. 5. Zec. 6. 13. Luc 1. 79. a 2. 14. Rhuf. 5. 1. Col. 1. 20. Heb. 7. 2. a 13. 20. b adn. 15. pen. 3. 15. a 4. 16. Es. 16. 24, 25. Ezec. 37. 19, 20. Ioan 10. 16. a 11. 52. 1 Cor. 12. 12. Gal. 3. 28. Col. 3. 11. c Esther 3. 8. Act. 10. 28. Col. 2. 10—14.

* Efe, sef Crist, yw yr unig dangnefeddwr mawr, cyfrwng, a chanol-bwynt undeb rhwng Duw â'i bobl, a'i bobl â u gilydd, pa un bynag ai Iuddewon ai cenedloedd a fyddont. Gelwir ef yma yn "dangnefedd," fel y gelwir ef mewn mànau eraill yn gyfiawnder, yn bryn-edigaeth, ac yn iachawdwriaeth, am mai ynddo a thrwyddo ef y mae y pethau gwerthfawr a bendigedig hyny i bechaduriaid. Duw sydd yn cymmodi y byd âg ef ei hun, ond yn Nghrist mae yn gwneyd hyny; (2 Cor. 5. 19,) Crist a'i aberth mawr yw cyfrwng, defnydd, a llwybr y cymmod. † "Y ddau" hyn oedd yr Iuddewon a'r cenedloedd crediniol, y rhai o'r blaen oedd yn casâu ac yn dirmygu eu gilydd, ac yn dra rhagfarllyd yn erbyn eu gilydd, y naill càn gymmaint

a'r llall. ‡ Yn un eglwys, un corph, un bobl, neu un
dyn newydd. ‖ Efe a wnaeth y ddau yn un trwy ddat-
tod y canol-fur hwnw oedd yn gwahânu rhwng yr
addolwyr Iuddewig a'r addolwyr cenedlig; sef y ddeddf
seremonïol, yr hon oedd yn dra châs gan y cenedloedd,
y rhai oddigerth hyny oedd yn tueddu i addoli y gwir
Dduw; ac yr hon oedd yn fawr ryfeddol gan yr Iudd-
ewon, hyd yn nôd i radd o ddall-bleidiaeth atgas. Mae
yma gyfeiriad at y *mur* hwnw yn y deml, a elwid y
chell, yr hwn oedd yn gwahânu cyntedd y cenedloedd
oddi wrth gyntedd yr Iuddewon, i'r hwn ni chaniatêid
i'r cenedloedd ar un cyfrif fyned. Gwel ar Act. 21. 28.

15 * Ac a ddirymmodd [d] trwy ei gnawd ei
hun y gelyniaeth, † *sef* [e] deddf y gorchymynion
mewn ordeiniadau, ‡ fel y crëai y ddau ynddo
ei hun yn [f] un dyn newydd, ‖ gan wneuthur
heddwch;

d Col. 2. 22. Heb. 10. 19—22. e Gal. 3. 10. Col. 2. 14, 20. Heb. 7. 16. a 8. 13. a 9. 9, 10, 23. a 10. 1—10. f pen. 4. 16, 24. 2 Cor. 5. 17. Col. 3. 10.

* Eithr Crist trwy gymmeryd y natur ddynol, a thrwy gyflawni y cysgodau seremonïol uchod fel arch-offeiriad, ac yn enwedig yn ei aberthiad ar y groes, a ddirymodd, neu a ddilëodd y seremonïau hyny; ac felly a dynodd ymaith yr achos o'r elyniaeth rhwng yr Iuddewon a'r cenedloedd yn eu cylch hwynt. † Felly, gan fod y ddeddf hòno, (gorchymynion yr hon oedd gynnwysedig mewn ordeiniadau cnawdol neu allanol,) wedi colli ei defnyddioldeb a'i rhwymedigaethau; yr oedd y cenedloedd yn cael eu derbyn i'r eglwys Gristionogol heb ymostwng i iau y ddeddf seremonïol, ac heb gael eu hystyried yn aflan am eu bod yn ddïenwaededig. ‡ Fel hyn daeth y cenedloedd yn un corph, neu "un dyn newydd" gyda'r Iuddewon; crëodd Crist yr holl gredinwyr o Iuddewon a chenedloedd, megys un dyn newydd adgenedledig, mewn undeb âg ef ei hun y Pen, wedi eu bywâu trwy ei Ysbryd, i rodio mewn newydd-deb buchedd, yn gyd-gordiol mewn addoliad ac ufudd-dod, yn caru eu gilydd, ac yn gwneuthur daioni y naill i'r llall. ‖ Yn y modd hyn, efe a wnaeth berffaith heddwch rhwng credinwyr o bob cenedl â'u gilydd, fel un corph ysbrydol, gan eu bod wedi eu huno mewn ffydd a chariad âg ef, ac â'u gilydd ynddo a thrwyddo ef.

16 * Ac fel y [g] cymmodai y ddau â Duw
† yn un corph ‡ trwy y groes, [h] ‖ wedi lladd y
gelyniaeth trwyddi hi.

g Rhuf. 5. 10. 2 Cor. 5. 18—21. Col. 1. 20—22. h adn. 15. Rhuf. 6. 6. a 8. 3, 7. Gal. 2. 20. 1 Pedr 4. 1, 2.

* Dyben arall yn ngwaith Crist yn dirymu y ddeddf seremonïol oedd, fel y cymmodai Iuddewon â chenedloedd (yr holl etholedigion yn nghyd,) â Duw: yn yr ystyr hyn yn benaf yr oedd ef yn "dangnefedd." † Yn awr mae y ddau yn un corph mewn undeb â'u gilydd; a'r ddau fel un corph mewn cymmod â Duw. ‡ "Trwy y groes," sef trwy aberthiad Crist ar y groes. Yr oedd y ddeddf seremonïol o hyd yn arwyddo bod dyn yn euog, yn gondemniol, yn aflan, ac yn elyn i Dduw; at yr hwn nis gallai ddyfod ond ar drugareddfa allanol achysgodol, a thrwy offeiriaid, aberthau, arogl-darth, a phuredigaeth; ac wedi y cwbl yn cael ei gadw yn mhell iawn oddi wrtho; ond angau Crist ar y groes a dynodd ymaith y pechod a'r euogrwydd, yr hyn oedd achos yr elyniaeth; ac fel hyny gallai Duw sanctaidd a chyfiawn ddaddeu yn anrhydeddus, ac ymgymmodi yn heddychol â'i grëaduriaid gwrthryfelgar. ‖ Trwy y groes hefyd, gwnaed ffordd i gyfranu yr Ysbryd Glân i bechaduriaid adgenedledig, ac felly i ladd gelyniaeth eu calonau hwynt yn erbyn sancteiddrwydd, addoliad, a gwasanaeth Duw.

17 * Ac efe a ddaeth [i] ac a bregethodd
dangnefedd † i chwi y rhai pell, ac i'r [k] rhai
agos.

i Salm 85. 10. Es. 27. 5. a 52. 7. a 57. 19—21. Zec. 9. 10. Mat. 10. 13. Luc 2. 14. a 10. 5, 6. Act. 2. 39. a 10. 36. Rhuf. 5. 1. 2 Cor. 5. 20. k adn. 13, 14. Deut. 4. 7. Salm 75. 1. a 76. 1, 2. a 147. 19, 20. a 148. 14. Luc 10. 9—11.

* Efe a ddaeth yn ei berson ei hun i bregethu efengyl y tangnefedd i'r Iuddewon; ac yn ei apostolion a'i weinidogion ar ol ei esgyniad i bregethu tangnefedd i Iuddewon a chenedloedd. † Yr Iuddewon oedd yn preswylio mewn gwledydd pell, a'r Iuddewon oedd yn preswylio yn ac o amgylch Jerusalem, medd rhai: ond cenedloedd yn ddïammau oedd yr apostol yn feddwl wrth y "rhai pell;" ac Iuddewon wrth y "rhai agos." "Pell" oddi wrth wybodaeth y gwirionedd, oddi wrth Grist, ac oddi wrth iachawdwriaeth: "agos" mewn cymhariaeth i'r cenedloedd, agos o ran perthynas allanol â Duw, fel eglwys weledig, o ran gwybodaeth am Dduw a'i ddeddf, a'r addewidion am y Messïah. Nid "agos trwy waed Crist" a feddylir yma; nid oedd yr Iuddewon yn agos felly mwy na'r cenedloedd, nes eu gwneyd yn agos. Gwel ar adn. 13.

18 * Oblegid [l] trwyddo ef y mae i ni ein
dau ddyfodfa [m] † mewn un Ysbryd at [n] y Tad.

l pen. 3. 12. Ioan 10. 7, 9. a 14. 6. Rhuf. 5. 2. Heb. 4. 15, 16. a 7. 19. a 10. 19, 20. 1 Pedr 1. 21. a 3. 18. 1 Ioan 2. 1, 2. m pen. 4. 4. a 6. 18. Zec. 12. 10. Rhuf. 8. 15, 26, 27. 1 Cor. 12. 13. Judas 20. n pen. 3. 14. Mat. 28. 19. Ioan 4. 21—23. 1 Cor. 8. 6. Gal. 4. 6. Iago 3. 9. 1 Pedr 1. 17.

* Trwy Berson, aberth, a chyfryngdod Crist, mae credinwyr o bob cenedl ac oes yn cael dyfodfa at Dduw fel Tad; ac yn cael eu dwyn yn gymmeradwy ger ei fron ef o ran eu personau, eu gweddïau, eu haddoliad, a'u gwasanaeth, † dàn ddysgeidiaeth a dylanwad union-gyrchol yr Ysbryd Glân, fel yn un â'r Tad ac â'r Mab, yn y gwaith mawr hwn o iachawdwriaeth, yn gystal ag yn undeb y Duwdod. Y Tad yw y gwrthddrych i fyned ato, y Mab yw y ffordd, neu y cyfrwng; a'r Ysbryd Glân yw yr arweinydd a'r dygiedydd. Mae cyfeiriad yn y geiriau at lŷs breninol; nid yw yn addas i un ymwthio i ystafell y gwyddfod, ond cael ei ddwyn a'i arwain yno gan ryw ŵr llŷs a bennodir i hyny, er cadw trefn a gweddeidd-dra boneddigaidd.

19 * Weithian gan hynny nid ydych chwi
mwyach yn [o] ddïeithriaid a dyfodiaid, [p] † ond
yn gyd-ddinasyddion â'r saint, ‡ ac yn [q] deulu
Duw;

o Gwel ar adn. 12. p pen. 3. 6. Gal. 3. 26—28. a 4. 26—31. Phil. 3. 20. Heb. 12. 22—24. Dat. 21. 12—26. q pen. 3. 15. Mat. 10. 25. Gal. 6. 10. 1 Ioan 3. 1.

* Nid oedd y cenedloedd crediniol mwyach yn "ddïeithriaid a dyfodiaid," wedi eu cauad allan o freintiau pobl Dduw, fel alltudion oddi wrth freintiau dinasaidd y deiliaid cynnwynawl: neu fel y rhai hyny o genedlaethau eraill, a ddeuent i addoli yn achlysurol yn Jerusalem; ond nid oeddynt yn addolwyr cyson a thrigiannol. † Ond yr oeddynt hwy yn awr yn gyd-ddinasyddion y Jerusalem nefol, gyda'r rhai mwyaf enwog o saint Israel, yr Iuddewon crediniol: ‡ yr oeddynt yn awr yn perthyn i deulu Duw, nid fel gweision, ond fel plant anwyl byth. Tybia rhai fod y geiriau "teulu Duw" yn cyfeirio at yr offeiriaid gynt, y rhai oedd yn cael nesâu agosaf at Dduw, ac yn ei wasanaethu ef yn nghyssegr y deml; yr hyn oedd fwy na braint y bobl oedd yn gweddïo yn nghyntedd cyffredin Israel: ac oni ddywed yr apostol mewn màn arall, "fod i ni ryddid i fyned i *mewn i'r cyssegr* trwy waed Iesu? Heb. 10. 19.

20 * Wedi eich [r] goruwch-adeiladu ar [s] sail
yr apostolion a'r prophwydi, [t] † ac Iesu Grist
ei hun yn ben congl-*faen*.

r pen. 4. 12. 1 Pedr 2. 4, 5. s pen. 4. 11—13. Es. 28. 16. Mat. 16. 18. 1 Cor. 3. 9—11. a 12. 28. Gal. 2. 9. Dat. 21. 14. t Salm 118. 22. Mat. 21. 42. Marc 12. 10, 11. Luc 20. 17, 18. Act. 4. 11, 12. 1 Pedr 2. 7, 8.

* Ië, yr oedd y cenedloedd crediniol wedi eu gwneyd yn rhan o'r deml ysbrydol, yr hon a gysgodid gan y deml gynt: yr oeddynt wedi eu hadeiladu ar y sail a osodasai y prophwydi gynt, a'r apostolion yn ddiweddar, yn eu hathrawiaeth a'u hysgrifeniadau. Y sail hon oedd Crist, fel unig a digonol Waredwr, a Chyfryngwr rhwng

Duw a dynion: a dywedir *sail*, yn y *rhif unigol*, i ddangos nad oes yr un sail i bechadur ond hon, ac i ddangos hefyd undeb a chyd-gordiad yr apostolion a'r prophwydi yn eu hathrawiaeth. † Heblaw bod Crist yn sail yr holl oruwch-adeiladaeth, mae efe hefyd yn ben congl-faen y cwbl; yn ganol-bwynt undeb, yn gyssylltiad, yn gynnaliaeth, ac yn goron prydferthwch ei holl eglwys fawr. *Penaethiaid* Israel, y rhai a gynnalient bwys y llywodraeth, ac oeddynt ei gogoniant, a elwir yn *benaethiaid*, ac yn *gynnaliaeth*, neu yn ol yr Hebraeg, *congiau y bobl;* (1 Sam. 14. 38; Es. 19. 13,) yn ganlynol i hyny gelwir Crist yn ben congl-faen, ac yn *ben i'r gongl*, yn Salm 118. 22; ac y mae efe felly yn yr ystyriaethau uchod a enwyd. Tybia rhai fod yr apostol yn sôn am yr eglwys dàn y gymhariaeth o adeiladaeth, er cyfaddasu ei hun at archwaeth yr Ephesiaid, y rhai oedd yn hoff a medrus iawn mewn adeiladaeth, fel y tystiai teml Diana yn eu plith hwynt: ond mae efe yn arfer yr un gymhariaeth mewn epistolau eraill.

21 * Yn yr hwn y mae [u] yr holl adeilad wedi ei [x] chymmwys gyd-gyssylltu, yn cynnyddu yn [y] deml sanctaidd yn yr Arglwydd:

u pen. 4. 13—16. Ezec. 40—42. 1 Cor. 3. 9. Heb. 3. 3, 4. x Ex. 26. 1 Bren. 6. 7. y Salm 93. 5. Ezec. 42. 12. 1 Cor. 3. 17. 2 Cor. 6. 16.

* Ar Grist y sylfaen, ac mewn undeb âg ef, mae yr holl adeilad wedi ei chymhwys gyd-gyssylltu, yn ol arfaeth a chynllun doeth a sanctaidd yr Adeiladydd dwyfol: mae yr holl gredinwyr wedi eu huno a'u cyssylltu â Christ y sylfaen a'r pen congl-faen, trwy ffydd; ac â'u gilydd mewn cariad. † Fel hyn mae yr holl adeilad yn cynnyddu hefyd, yn deml sanctaidd yn yr Arglwydd; wedi ei chyssegru i'w wasanaeth a'i ogoniant ef, yn lle ei bresenoldeb arbenig ef, a lle mae efe yn ymhyfrydu cael ei addoli ynddo. Mae cynnydd yn arwyddo bywyd; ac mae yr holl saint yn feini bywiol, ac yn derbyn rhinwedd parâus o Grist, i gynnyddu yn mhob peth iddo ef. Mae y cynnyddu hwn yn arwyddo chwanegiad nifer yr eglwys hefyd, yn gystal â chynnydd ysbrydol pob un yn bersonol.

22 * Yn yr hwn y'ch cyd-adeiladwyd chwithau yn [z] breswylfod i Dduw trwy yr Yspryd.

z Ioan 14. 17—23. a 17. 21—23. Rhuf. 8. 9—11. 1 Cor. 3. 16. a 6. 19. 1 Pedr 2. 5. 1 Ioan 3. 24. a 4. 13, 16.

* Gwedi dwyn y cenedloedd i undeb â Christ trwy ffydd, yr oeddynt hwythau hefyd wedi cael eu cyd-adeiladu â'r Iuddewon crediniol yn breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd: yr un eglwys yn gystal ag yr un corph, oeddynt hwy â'r Iuddewon: ac yr un ordinâdau, breintiau a bendithion oedd i'r naill â'r llall o honynt. † Preswylfod a adeiladodd ac a gyssegrodd Duw iddo ei hun, ac yn yr hon mae yn preswylio trwy ei Ysbryd, fel yn ei deml sanctaidd. ‡ Gall y geiriau "trwy yr Ysbryd" berthyn i'r gwaith o adeiladu yr eglwys, neu i breswyliad Duw yn yr eglwys: trwy yr Ysbryd mae efe yn ei hadeiladu, a thrwy yr Ysbryd mae yn preswylio ynddi yn gystal ag yn nghalon pob dyn duwiol.

PEN. III.

Datguddiad o gadwedigaeth y Cenedloedd.

* ER mwyn hyn, [a] myfi Paul, [b] carcharor Iesu Grist [c] trosoch chwi y Cenhedloedd;

a 2 Cor. 10. 1. Gal. 5. 2. b pen. 4. 1. a 6. 20. Luc 21. 12. Act. 21. 33. a 26. 29. a 28. 17—20. 2 Cor. 11. 23. Phil. 1. 7, 13—16. Col. 1. 24. a 4. 3, 18. 2 Tim. 1. 8, 16. a 2. 9. Philemon 9. Dat. 2. 10. c Gal. 5. 11. 1 Thes. 2. 15, 16.

* Mae rhai yn darllen y geiriau fel hyn:—Er mwyn hyn, myfi Paul *wyf* garcharor Iesu Grist drosoch chwi, neu o'ch achos chwi y cenedloedd. Yr oedd gwaith yr apostol yn pregethu yr efengyl i'r cenedloedd, ac yn eu derbyn hwy yn gyhoeddus i'r eglwys gristionogol heb enwaediad, yr hyn oedd yn arwyddo diddymiad yr holl ddeddf seremonïol, wedi cyffrôi yr Iuddewon i'r fath lid, fel y daliasant hwy ef yn Jerusalem; ac mewn canlyniad i hyny yr oedd ef yn garcharor yn awr yn Rhufain, yn achos Crist, ac er mwyn y cenedloedd. Mae pob un o'n Hawdwyr yn cytuno y dylid darllen yr adnod hon fel y dywedwyd uchod, ac fel hyny mae ei chyssylltiad yn amlwg, â diwedd y bennod o'r blaen, ac âg adnodau canlynol y bennod hon.

2 * Os [d] clywsoch am [e] † oruchwyliaeth gras Duw, ‡ yr hon a roddwyd i mi tu ag attoch chwi:

d pen. 4. 21. Gal. 1. 13. Col. 1. 4, 6. 2 Tim. 1. 11. e adn. 8. pen. 4. 7. Act. 9. 15. a 13. 2, 46. a 22. 21. a 26. 17, 18. Rhuf. 1. 5. a 11. 13. a 15. 15, 16. 1 Cor. 9. 17—22. Gal. 1. 15, 16. a 2. 8, 9. Col. 1. 25—27. 1 Tim. 1. 11. a 2. 7. 2 Tim. 1. 11.

* "*Os* clywsoch," neu *gan* i chwi glywed: gellir cyfieithu y gair *eige*, meddant, y naill ffordd neu y llall; ac nid oedd ammheüaeth yn meddwl Paul nad oedd yr Ephesiaid wedi clywed am oruchwyliaeth gras Duw, gwyddai iddynt glywed, ganddo ef ei hun a chan eraill: felly nid fel ammheüaeth y dylem ddeall yr "os" yma. † Holl drefn iachawdwriaeth gras Duw fel mae yn ddatguddiedig yn yr efengyl, neu ynte y weinidogaeth a'r anfoniad apostolaidd a gawsai Paul i bregethu goruchwyliaeth ac efengyl gras Duw yn mhlith y cenedloedd. ‡ Tuag atoch chwi yr Ephesiaid ac eraill o'r cenedloedd, yn fwy neillduol na thuag at yr Iuddewon: apostol y cenedloedd oedd Paul.

3 * Mai [f] trwy ddatguddiad yr hysbysodd efe i mi [g] y dirgelwch ([h] † megis yr ysgrifenais o'r blaen ar ychydig *eiriau*,

f pen. 1. 17. Act. 23. 9. a 26. 15—19. 1 Cor. 2. 9, 10. Gal. 1. 12, 16—19. g adn. 9. Rhuf. 11. 25. a 16. 25. Col. 1. 26, 27. h pen. 1. 9—11. a 2. 11—22.

* Dirgelwch cariad ac arfaeth Duw yn iachawdwriaeth pechaduriaid: neu, efallai, y dirgelwch o alwad y cenedloedd trwy yr efengyl: y peth olaf, mae yn debyg, a feddylir yn benaf, wrth yr hyn a ddywedir yn adn. 6. Nid gan ddynion y cawsai yr apostol hysbysiad o'r dirgelwch hwn, ond trwy ddatguddiad digyfrwng gan yr Arglwydd ar amryw weithiau. Gwel y cyfeiriadau dàn y llythyren *f*. † Yn y ddwy bennod flaenorawl o'r epistol hwn: yn enwedig pen. 1. 10; a 2. 11, hyd y diwedd.

4 * Wrth yr hyn y gellwch, pan ddarllenoch, [i] † wybod fy neall i yn [k] nirgelwch Crist)

i Mat. 13. 11. 1 Cor. 2. 6, 7. a 13. 2. 2 Cor. 11. 6. k pen 5. 32. a 6. 19. Luc 2. 10, 11. a 8. 10. 1 Cor. 4. 1. Col. 2. 2. a 4. 3. 1 Tim. 3. 9, 10.

* Wrth ddarllen yn ystyriol a chraff y rhanau a enwyd o'r epistol, † gallai yr Ephesiaid wybod ei ddeall dwfn a helaeth ef yn nirgelwch Crist. Tybia y *Doctor Goodwin*, medd *Doddridge*, mai dyma y ganmoliaeth fwyaf a rydd yr apostol ar yr un o'i epistolau ei hun; ac o hérwydd hyny tybia efe mai hwn yw y *goreu*, a'r *arddcrchocaf* o'i holl epistolau ef; a thybia bod yr apostol yn ei fwriadu i fod felly, i wobrwyo yr Ephesiaid am losgi eu llyfrau rhodreswaith, â llyfr o *wybodaeth ddwyfol*, annhraethol mwy gwerthfawr nâ'r rhai hyny oll. Mae yn anhawdd barnu yn benderfynol am ragoriaeth cymhariaethawl yr epistol hwn; ond nis gallem beidio crybwyll am dŷb mòr nodedig a chywraint.

5 * Yr hwn [l] yn oesoedd eraill † nid eglurwyd i feibion dynion, [m] ‡ fel y mae yr awrhon wedi ei ddatguddio i'w sanctaidd apostolion a'i ‖ brophwydi [n] § trwy yr Yspryd;

l adn. 9. Mat. 13. 17. Luc 10. 24. 2 Tim. 1. 10, 11. Tit. 1. 1—3. Heb. 11. 39, 40. 1 Pedr 1. 11, 12. m Gwel ar pen. 2. 20.—a 4. 11, 12. Mat. 23. 34. Luc 11. 49. l Cor. 12. 28, 29. 2 Pedr 3. 2. Judas 17. n Luc 2. 26, 27. Ioan 14. 26. a 16. 13. Act. 10. 19, 20, 28. 1 Cor. 12. 8—10.

* Yn holl oesoedd blaenorol y byd, cyn y ddeddf, na thàn y ddeddf, † nid eglurwyd y dirgelwch uchod o drefn ogoneddus yr iachawdwriaeth, a dygiad y cenedloedd i'r eglwys heb eu proselytio i'r ddeddf seremonïol; i neb o feibion dynion. Ni wyddai y cenedloedd *ddim* am y fath beth; ac ni wyddai dynion enwocaf

Duw ddim ‡ *fel* yr oedd yr awr hòno wedi ei ddatguddio i'w sanctaidd apostolion a'i brophwydi ef trwy yr Ysbryd. Gwyddid yn mhell o'r blaen y chwanegid y cenedloedd at yr eglwys; ond *nis gwyddid* y byddent yn mhob ystyr yn gyd-radd â'r Iuddewon, tybiai yr Iuddewon mai fel *caeth-weision iddynt hwy* y byddent; a allai o lawer y tybient y byddai i *ganol-fur* eu *seremoniau* hwynt gael ei ddattod a'i dynu i lawr, a'r cenedloedd i gael eu derbyn i gyflawn freintiau pobl Dduw, heb enwediad nac ymostyngiad i'r ddeddf seremonïol: sònodd yr Iuddewon dychweledig yn aruthr wrth hyn ar y cyntaf, a ffròmodd y lleill o honynt yn dra llidiog. ‖ Prophwydi y Testament Newydd oedd y rhai hyn, nid prophwydi yr Hen Destament: sylwyd arnynt amryw weithiau eisoes yn y gwaith hwn. § Trwy fod yr Ysbryd yn cael ei dywallt ar y cenedloedd, datguddiwyd i'r apostolion y byddent hwy yn gyd-gorph â'r Iuddewon credinïol: neu, yn hytrach, trwy ddatguddiad digyfrwng yr Ysbryd iddynt o'r dirgelwch hwn.

6 [o] * Y byddai y Cenhedloedd yn gyd-etifeddion, [p] † ac yn gyd-gorph, [q] ‡ ac yn gyd-gyfrannogion o'i addewid ef yng Nghrist, ‖ trwy yr efengyl:

o pen. 2. 13—22. Rhuf. 8. 15—17. Gal. 3. 26—29. a 4. 5—7.
p pen. 4. 15, 16. a 5. 30. Rhuf. 12. 4, 5. 1 Cor. 12. 12, 27. Col. 2. 19. q Gal. 3. 14. 1 Ioan 1. 3. a 2. 25.

* Dyma y dirgelwch yr oedd yr apostol yn benaf yn ysgrifenno am dano; sef y byddai i'r cenedloedd paganaidd yr un hawl i'r etifeddiaeth nefol â'r Iuddewon credinïol; † y byddent hwy yn gyd-gorph â'r credinwyr Iuddewig; ‡ ac yn gyd-gyfranogion â hwynt o holl addewidion Duw yn y cyfammod gras, yn enwedig yr addewid fawr uchòno am yr Ysbryd Glân; yr hyn oedd arwydd ac ernes y caent hwy gyfranogi o holl fendithion eraill teyrnas y Messïah. ‖ Hoff-dybiai yr Iuddewon mai iddynt *hwy* yn unig yr oedd y pethau hyn yn perthyn; ond yn awr yr oeddynt yn cael eu cynnyg yn rhad ac yn gyd-hoeddus i'r *cenedloedd* yn a thrwy yr efengyl, a hyny heb ymostwng i'r ddeddf seremonïol a'i hordeiniadau. Yr efengyl oedd y moddion i alw y cenedloedd, ac i weithio ffydd ynddynt, trwy yr hon yr oeddynt yn cael eu gwneyd yn gyd-etifeddion, yn gyd-gorph, ac yn gyd-gyfranogion o addewid Duw yn Nghrist.

7 [r] * I'r hon y'm gwnaed i yn weinidog, [s] † yn ol rhodd gras Duw yr hwn a roddwyd i mi, [t] ‡ yn ol grymmus weithrediad ei allu ef.

r Gwel ar adn. 2.—Rhuf. 15. 16. 2 Cor. 3. 6. a 4. 1. Col. 1. 23—25. s adn. 8. Rhuf. 1. 5. 1 Cor. 15. 10. 1 Tim. 1. 14, 15.
t adn. 20. pen. 1. 19. a 4. 16. Rhuf. 15. 18, 19. 2 Cor. 10. 4, 5. Gal. 2. 8. Col. 1. 29. 1 Thes. 2. 13. Heb. 13. 21.

* I'r efengyl, neu yr oruchwyliaeth newydd hon, y gwnaethpwyd Paul yn weinidog; † derbyniasai faddeuant rhad o'i holl bechodau, dodrefnwyd ef â gras a doniau Duw yn dra helaeth; ‡ a gweithiodd yr Ysbryd Glân yn rymus iawn ynddo i'w ddanfon i'r weinidogaeth a thrwy wyrthiau ac arddelwad nerthol ar ei weinidogaeth ef, i wneuthur y cenedloedd yn ufudd ar air a gweithred. Nid cymmeryd yr anrhydedd iddo ei hun a wnaeth Paul, ond cael ei *wneuthur* yn weinidog; nid gan ddynion ond gan Dduw; a hyny o ryfeddol ras, a thrwy rymus weithrediad ei allu ef: ni bu neb erioed yn fwy croes, ac yn fwy annheilwng i'r fath waith, nag y buasai Paul unwaith.

8 * I mi, [a] y llai nâ'r lleiaf o'r holl saint, ‡ y rhoddwyd [x] y gras hwn, [y] ‡ i efengylu ym mysg y Cenhedloedd [z] ‖ anchwiliadwy olud Crist;

u Diar. 30. 2, 3. Rhuf. 12. 10. 1 Cor. 15. 9. Phil. 2. 3. 1 Tim. 1. 13, 15. 1 Pedr 5. 5, 6. x 1 Cron. 17. 16. a 29. 14, 15. Act. 5. 41. Rhuf. 15. 15—17. y Gwel ar adn. 2.—Gal. 1. 16. a 2. 8.
z adn. 16, 19. pen. 1. 7, 8. a 2. 7. Salm 31. 19. Ioan 1. 16. Rhuf. 11. 33. 1 Cor. 1. 30. a 2. 9. Phil. 4. 19. Col. 1. 27. a 2. 1—3. Dat. 3. 18.

* "Llai na'r lleiaf:" *(elachistoterô.)* Sylwa dysgedigion fod yr apostol yn gwneyd gair newydd yma, (yr hwn yn ol iaith Gramadegwyr, sydd radd gymharol o'r eithafradd,) yr hwn, medd *Doddridge*, nis gellir ei gystadlu mewn unrhyw gyfieithiad, na gosod allan ei gyflawn gynnwysiad. Mae yn ddiammau bod yr apostol yn cyfeirio at yr hyn a fuasai efe gynt, fel erlidiwr eglwys Dduw; ac yn teimlo ei fawr annheilyngdod o herwydd hyny. Tybia rhai ei fod yn cyfeirio at ei enw *Paulus*, yr hwn yn iaith y Rhufeiniaid a arwydda *bychan;* ac ar yr un pryd at fychandra ei gorph, yr hyn a berai i Ioan-aur-enau *(Chrysostom)* ei alw ef *tripêchês anthrôpos*, dyn *tri chyfudd o uchder.* Mae yn wir i un Æmilius Paulus gael ei enw chwanegol o herwydd ei *fychandra* corphorol; ond mae yn ddiau mai y peth cyntaf a enwyd uchod a barodd i'r Paul hwn alw "llai na'r lleiaf" arno ei hun. † Nid y gras cadwedigol a gawsai efe iddo ei hun a feddylir yma, eithr y gras a'r rhagorfraint fawr o'i waeyd ef yn weinidog, a'i ddanfon ef i bregethu efengyl g as Duw i'r cenedloedd. Yn Preg. 5. 8, gelwir Duw yn *uwch na'r uwchaf;* ac yma, wele yr uwch na'r uwchaf wedi rhoddi y gras hwn i'r llai na'r lleiaf. ‡ Peth rhyfedd oedd i erlidiwr gael gras iddo ei hun; ond ei ddefnyddio ef fel *pregethwr*, fel *apostol*, ac i efengylu yn mysg y *cenedloedd*, oedd beth rhyfeddach o lawer; gwaith yr uwch na'r uwchaf oedd hyn; nid dyma arfer dyn: gallasai dyn feddwl y buasai pawb o'r apostolion yn addasach i'w danfon at y *cenedloedd*, na'r Pharisead a'r erlidiwr hwn. ‖ Golud, ac anchwiliadwy olud, a drysorwyd yn Nghrist, er iachawdwriaeth myrdd o bechaduriaid truenus. Anchwiliadwy oedd i Paul; ac yn sicr ni wiw i ni geisio egluro y golud anfeidrol a diderfyn hyn: peth mwy nas gall meddwl ei amgyffred na thafod ei draethu ydyw.

9 [a] * Ac i egluro i bawb beth *yw* [b] † cymdeithas y ‡ dirgelwch, yr hwn oedd [c] guddiedig o [d] ddechreuad y byd yn Nuw, ‖ yr hwn a [e] greodd bob peth trwy Iesu Grist:

a Mat. 10. 27. a 28. 19. Marc 16: 15, 16. Luc 24. 47. Rhuf. 16. 25. Col. 1. 23. 2 Tim. 4. 17. Dat. 14. 6. b adn. 3. pen. 1. 9, 10. c pen. 1. 4. Mat. 13. 35. a 25. 34. Act. 15. 18. Rhuf. 16. 25. 1 Cor. 2. 7. 2 Thes. 2. 13. 2 Tim. 1. 9. Tit. 1. 2. 1 Pedr 1. 20. Dat. 13. 8. a 17. 8. d Col. 1. 26. a 3. 3. e Salm 33. 6. Es. 44. 24. Ioan 1. 1—3. a 5. 17, 19. a 10. 30. Col. 1. 16, 17. Heb. 1. 2, 3. a 3. 3, 4.

* Trefnodd Duw weinidogaeth a gweinidogion yr efengyl, i egluro yn athrawiaethol i bawb, Iuddewon a chenedloedd, ac i egluro yn effeithiol a chadwedigol i bawb a gredant; † beth yw cymdeithas ddedwydd, neu gyd-gyfranogiad Iuddewon a chenedloedd, yn mendithion yr iachawdwriaeth, ac anchwiliadwy olud Crist. ‡ Fel y sylwyd eisoes, yr oedd hyn yn "ddirgelwch" y'r blaen; nid yn unig o herwydd dyfnder anghyrhaeddadwy pen-arglwyddiaeth, doethineb, a gras Duw yn y trefniad; ond hefyd fel yr oedd yn guddiedig yn ei dragywyddol gyngor a'i arfaeth ef cyn yr holl oesoedd; ac heb ei egluro ond yn brin a lled-dywyll, dàn bob goruchwyliaeth o ddechreuad y byd hyd amser yr apostolion. ‖ Trwy Iesu Grist fel y Gair tragywyddol y crëodd Duw bob peth ar y cyntaf, (Gwel ar Ioan 1. 3.) a thrwy Iesu Grist yr oedd yn awr yn gwneyd crëadigaeth newydd ogoneddus. Dywed rhai mai y crëu cyntaf a feddylir yma, a thybia eraill mai yr ail grëu a feddylir: mae y geiriau yn mhob ystyr yn wirionedd.

10 [f] * Fel y byddai yr awrhon yn hysbys i'r [g] tywysogaethau ac i'r awdurdodau yn y [h] nefolion *leoedd*, † trwy yr eglwys, [i] ‡ fawr amryw ddoethineb Duw,

f Ex. 25. 17—22. Salm 103. 20. a 148. 1, 2. Es. 6. 2—4. Ezec. 3. 12. 1 Pedr 1. 12. Dat. 5. 9—14. g Gwel ar pen. 1. 21.
h Gwel ar pen. 1. 3. i pen. 1. 8. Salm 104. 24. Mat. 11. 25—27. Rhuf. 11. 33. 1 Cor. 1. 24. a 2. 7. 1 Tim. 3. 16. Dat. 5. 12.

* Mae gweinidogaeth fawr yr efengyl yn egluro dirgelwch Duw, nid i bawb o ddynion yn unig, ond hefyd i'r holl raddau gogoneddus o'r llu angylaidd; "'r tywysogaethau a'r awdurdodau yn y nefolion *leoedd*," y rhai sydd o amgylch gorsedd-faine Duw. † Gwelsant ddoethineb a gogoniant Duw o'r dechreuad, yn ngwaith

y grëadigaeth a rhagluniaeth y byd; ac yn awr maent yn gweled annhraethol fwy o hyny, yn a thrwy yr eglwys o bechaduriaid gwaredol; gwelant wrthryfelwyr yn cael eu troi yn addolwyr ysbrydol; holl Bersonau a phriodoliaethau y Duwdod yn cael eu gogoneddu yn achubiaeth dynion syrthiedig; dichellion Satan yn cael eu troi yn ei erbyn ei hun; a'r dynion mwyaf gelynol i'w gilydd yn cael eu huno yn un teulu caredig, neu fel un corph yn Nghrist. ‡ Mae mawr amryw ddoethineb Duw, hyny yw, rhyfeddol ac annhraethol ddoethineb, yn gweithredu mewn amryw ffyrdd a thrwy amryw foddion, yn awr yn cael ei hysbysu i angelion; yn athrawiaeth, ordinâdau, bendithion, a rhagor-freintiau eglwys y Testament Newydd: ac ar yr hyn bethau mae yr angelion yn chwennychu edrych. Gan fod llawer o brophwydoliaethau am alwad y cenedloedd yn yr Hen Destament, mae yn ddïau y gwyddai yr angelion rywbeth am hyny o'r blaen; ond nid mòr eglur ag y daethant i wybod yn y cyflawniad o'r prophwydoliaethau hyny.

11 [k] * Yn ol yr arfaeth dragywyddol, † yr hon a wnaeth efe ‡ yng Nghrist Iesu ein Harglwydd ni:

k pen. 1. 4, 9, 11. Es. 14. 24—27. a 46. 10, 11. Jer 51. 29. Rhuf. 8. 28—30. a 9. 11. 2 Tim. 1. 9.

* Cyflawnwyd hyn oll yn ol arfaeth dragywyddol Duw, † yr hon a arfaethasai efe yn ei feddwl anfeidrol ei hun; ‡ am achub pechaduriaid o bob cenedl yn a thrwy Grist Iesu ein Harglwydd ni. Dywed *Guyse* fod y gair *prothesin* yn cael ei gyfieithu *arfaeth* yn mhob màn yn y Testament Newydd, (oddigerth am y bara gosod, yn Heb. 9. 2.) ac yn arwyddo gweithred *dufewnol* y meddwl, neu yr ewyllys; ac nad ydyw mewn un màn yn cael ei ddefnyddio am drefnu pethau drwy weithredoedd neu ddygwyddiadau *allanol:* am hyny, mae efe yn deall y gair yn y lle hwn, fel arferol mewn mànau eraill, am *fwriad dechreuol Duw cyn bod y byd.* Yn ol ei arfaeth dragywyddol mae efe yn gwneyd pob peth yn iachawdwriaeth ei bobl; ac nis gall neb luddias na gwyro ei arfaeth nâ'i weithredoedd ef; ei gyngor a saif, a'i holl ewyllys a wnâ.

12 [l] * Yn yr hwn y † mae i ni hyfdra, ‡ a dyfodfa ‖ mewn hyder, § trwy ei ffydd ef.

l pen. 2. 18. Ioan 14. 6. Rhuf. 5. 2. Heb. 4. 14—16. a 10. 19—22.

* *Yn* yr hwn, neu *trwy* yr hwn, neu yn yr hwn ein impiwyd ac ein cyd-gorphorwyd; sef "yn Nghrist Iesu ein Harglwydd," a enwyd yn yr adnod o'r blaen. † Ynddo a thrwyddo ef fel Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, mae i ni ryddid mawr, a hyfdra ysbryd, yn ein holl negesau â Duw, fel ein Duw cymmodawl, a'n Tad nefol. ‡ Ynddo ef mae i'r saint ddyfodfa at y Tad, yn eu gweddïau, a phob cymdeithas â Duw trwy ffydd yn Nghrist: ‖ a hyny mewn hyder; mewn hyder o ddïogelwch, cymmeradwyaeth, gwrandawiad, ac o gael y pethau a ofynant mewn ffydd yn unol â'i ewyllys ef. § Trwy ffydd o'i roddiad a'i weithrediad ef, a thrwy ffydd ynddo ef. Trwy ffydd yn Nghrist, wedi eu gwneyd yn gyfranogion o'i iachawdwriaeth ef, mae i'r credinwyr o Iuddewon a chenedloedd, ryddid i ddyfod at Duw gyda hyfdra parchus, er maint eu harswyd duwiol ger bron ei fawredd a'i burdeb anfeidrol ef; a hyny mewn hyder gostyngedig o gymmeradwyaeth, a derbyn llawnder o fendithion, er maint yr euogrwydd a'r aflendid a wyddant hwy sydd yn perthyn iddynt.

13 * O herwydd paham yr wyf yn dymuno na [m] lwfrhâoch oblegid fy [n] mlinderau i drosoch, † yr hyn yw eich gogoniant chwi.

m Deut. 20. 3. Es. 40. 30, 31. Zeph. 3. 16. Act. 14. 22. Gal. 6. 9. 2 Thes. 3. 13. Heb. 12. 3—5. n adn. 1. 2 Cor. 1. 6. Phil. 1. 12—14. Col. 1. 24. 1 Thes. 3. 2—4.

* Gan fod y fath anrhydedd i Dduw, a'r fath oluddedd o fendithion wedi dyfod i ddynion, trwy bregethu yr efengyl i'r cenedloedd; yr oedd yr apostol ei hun yn ddigon boddlawn i'w ddyoddefiadau o'r achos hyny; ac yr oedd yn atolygu ar ei frodyr yn Ephesus, na lwfrâent hwythau, ac na chilient oddi wrth eu proffes, o herwydd ei flinderau ef yn eu hachos hwynt; sef na lwfrâent gan ofn dyoddefiadau cyffelyb oddi wrth eu gelynion; neu drwy gau resymau athrawon Iuddewaidd, y rhai a geisient daeru, efallai, iddo ef wneyd ar fai drwy ymwrthod â'r ddeddf seremonïol, ac fel hyny gosod ei hun yn agored i erledigaeth heb raid. † Yn hytrach na bod ei garchariad a'i flinderau ef drostynt yn warth ac yn achos digalondid iddynt, eu gogoniant ydoedd, pan welid pethau yn iawn; yr oedd yn dangos mòr bwysig oedd eu hachos hwynt yn ei feddwl ef, ac yr oedd yn dangos ysbryd erlidgar yr Iuddewon rhagfarnllyd; gan hyny dylasai fod yn annogaeth iddynt i sefyll yn wrol dros, ac yn, rhyddid yr efengyl. Mae gwaed y merthyron yn *dyfrâu* yr eglwys, ond gwaed Crist sydd yn ei *golchi*, medd *Beza* dduwiol ar yr adnod hon.

14 * O herwydd hyn † yr wyf yn [o] plygu fy ngliniau at [p] ‡ Dad ein Harglwydd Iesu Grist,

o pen. 1. 16—19. 1 Bren. 8. 54. a 19. 18. 2 Cron. 6. 13. Ezra 9. 5. Salm 95. 6. Es. 45. 23. Dan. 6. 10. Luc 22. 41. Act. 7. 60. a 9. 40. a 20. 36. a 21. 5. p Gwel ar pen. 1. 3.

Cyngor i'r Ephesiaid na lwfrâent oedd yn yr adnod o'r blaen, yma mae yr apostol yn *gweddïo drostynt*, am iddynt gael nerth i sefyll. Pan oedd yn y carchar, nis gallai fyned o le i le i gadarnâu yr eglwysi â'i gyngorion personol; y cwbl a allai wneyd oedd ysgrifenu atynt, a phlygu ei liniau at Dad ein Harglwydd Iesu Grist, i weddio drostynt. * "O herwydd hyn:" sef o herwydd yr ymosod sydd gan elynion yr efengyl yn erbyn yr efengyl, ei chenadon, a'i phroffeswyr: "o herwydd hyn:" am i'r gwaith mawr lwyddo, am i'm blinderau I ac eraill droi allan er llwyddiant i'r efengyl, ac er cadernid i'r saint: ac "o herwydd hyn:" ar roddi o Dduw i chwi yn enwedig fod wedi ymgadarnâu mewn nerth, trwy ei Ysbryd ef, yn y dyn oddi mewn, adn. 16. † O mòr doddedig a melys yw y geiriau hyn, "Yr wyf yn plygu fy ngliniau at Dad ein Harglwydd Iesu Grist," &c.: agwedd hyfryd oedd hon ar ysbryd hen apostol duwiol yn y carchar! ‖ Tragywyddol a chyfammodol Dad ein Harglwydd Iesu Grist, a'n cyfammodol Dad a'n cyfaill ninnau byth ynddo ef.

15 * O'r hwn † yr enwir [q] yr holl deulu ‡ yn y nefoedd ac ar y ddaear,

q pen. 1. 10, 21. Phil. 1. 10. Col. 1. 20. Dat. 5. 8—14. a 7. 4—12. r Es. 65. 15. Jer. 33. 16. Act. 11. 26. Dat. 2. 17. a 3. 12.

* "O'r hwn:" sef o'r Tad, gwrthddrych gweddi yr apostol, medd rhai; o Iesu Grist ein Harglwydd, y Person a enwyd olaf yn adn. 14, medd eraill: gallwn gymmeryd pob un o'r ddau; o Grist, ac o'r Tad ynddo a thrwyddo ef. † "Yr enwir yr holl deulu:" ymffrostiai yr Iuddewon gynt o Abraham fel eu Tad, galwent eu hunain ar enw Jacob, ac ym-gyfenwent ar enw Israel; (Esa. 44. 5.) ond yn awr mae yr holl gredinwyr, hyd yn nôd y cenedloedd, yn un teulu i Dduw, ac yn ymgyfenwi ar enw Crist: o hóno ef yr enwir yr holl deulu mawr. ‡ Byddai yr Iuddewon yn arfer dywedyd am yr *angelion* fel *teulu* Duw *yn y nefoedd*, ac am *ddynion*, yn enwedig ei bobl gyfammodol ef, fel *ei deulu ar y ddaear:* ac os bwriwn fod yr apostol yn cyfeirio at y dull hyn o lefaru, rhaid bod yr angelion o leiaf yn gynnwysedig yn yr *holl deulu* a sonia efe yma. *Pasa patria* yw y geiriau Groeg, yn arwyddo "holl deulu" yn disgyn o un Tad cyffredin, ac yma yn cynnwys y saint ar y ddaear a'r saint yn y nefoedd, yn nghyd â'r etholedig angelion, wedi eu crynhôi yn nghyd yn un teulu mawr i Dduw yn Nghrist, pen. 1. 10.

16 * Ar roddi o hono ef i chwi, [s] † yn ol cyfoeth ei ogoniant, [t] ‡ fod wedi ymgadarnhâu mewn nerth, ‖ trwy ei Yspryd ef, [u] § yn y dyn oddi mewn;

s adn. 8. pen. 1. 7, 18. a 2. 7. Rhuf. 9. 23. Phil. 4. 19. Col. 1. 27. t pen. 6. 10. Job 23. 6. Salm 28. 8. a 138. 3. Es. 40. 29—

.31. a 41. 10. Zec. 10. 12. Mat. 6. 13. 2 Cor. 12. 9. Phil. 4. 13. Col. 1. .1. 2 Tim. 4. 17. Heb. 11. 34. u Jer. 31. 33. Rhuf. 2. 29. a 7. 22. 2 Cor. 4. 16. 1 Pedr 3. 4.

* Ar Dad yr Arglwydd Iesu Grist, a thad yr holl ddeulu yn y nefoedd ac ar y ddaear, gweddïai yr apostol ar iddo roddi i'r Ephesiaid † yn ol cyfoeth ei ogoniant, yn ol cyflawnder annhraethol eî ddoethineb, ei ffyddlondeb, ei allu, ei ddaioni, ei drugaredd, a'i ras, yr yhyn mewn modd arbenig yw ei ogoniant ef, ac yn y mwynâd o ba bethau mae y golud mwyaf gogoneddus yn gynnwysedig; ‡ gweddïai, meddaf, ar roddi o hóno ef iddynt fod wedi ymgadarnâu mewn nerth fwyfwy o yhyd, i wrthsefyll llygredigaethau eu calonau, temtasiynau Satan, a drygau y byd presenol; ac ar iddynt gael eu cryfâu yn mhob, ac i bob, dyledswydd a gwasanaeth; a'u bywiogi â gwroldeb sanctaidd i ddyoddef yn ol holl ewyllys Duw, i weithredu pob gras, i fod yn ygyflawn mewn pob cysur a sancteiddrwydd, ac i ddàl eu ffordd, a glŷnu yn eu proffes, trwy bob anhawsderau hyd y diwedd. ‖ Yr Ysbryd Glân a'i ddylanwadau yw gweithredydd a meithrinydd pob gras yn y saint, ac efe yn unig sydd yn eu cadarnâu hwy mewn nerth yn y dyn oddi mewn, sef yn ngalluoedd rhesymol eu eneidiau; fel y maent wedi eu hadnewyddu trwy ras, yr un peth â'r "galon" yn yr adnod nesaf.

17 x * Ar fod Crist yn trigo trwy ffydd yn eich calonnau chwi,

x pen. 2. 21, 22. Es. 57. 15. Ioan 6. 56. a 14. 17, 23. a 17. 23. Rhuf. 8. 9—11. 2 Cor. 6. 16. Gal. 2. 20. Col. 1. 27. 1 Ioan 4. 4, 16. Dat. 3. 20.

* Ir dyben o gael eu cadarnâu mewn nerth fel y ysylwyd uchod, gweddïai yr apostol ar fod i Grist trwy ei Ysbryd gael ei dderbyn, a phreswylio trwy ffydd yn eu calonau hwy; ar iddo drigo yno fel Arglwydd a Llywodraethwr eu holl serchiadau a'u gweithredoedd hwynt, ac fel ffynon eu holl gysur a'u gorfoledd. Cofiwn mai trigo trwy ffydd yn y galon y mae Crist yn ei bobl, ac nid mewn athrawiaeth a hanes yn unig yn y pen.

18 * Fel y galloch, wedi eich y gwreiddio a'ch seilio mewn cariad, z † amgyffred a gyd â'r holl saint, ‡ beth *yw* y lled, a'r hŷd, b ‖ a'r dyfnder, a'r uchder;

y Mat. 13. 6. Rhuf. 5. 5. 1 Cor. 8. 1. 2 Cor. 5. 14, 15. Gal. 5. 6. Col. 1. 23. a 2. 7. z Mat. 7. 24, 25. Luc 6. 48. a adn. 19. pen. 1. 18—23. Job 11. 7—9. Salm 103. 11, 12, 17. a 139. 6. Es. 55. 9. Ioan 15. 13. Gal. 2. 20. a 3. 13. Phil. 2. 5—8. a 3. 8—10. 1 Tim. 1. 14—16. a 3. 16. Tit. 2. 13, 14. Dat. 3. 21. b pen. 1. 10, 15. Deut. 33. 2, 3. 2 Cron. 6. 41. Salm 116. 15. a 132. 9. a 145. 10. Zec. 14. 5. 2 Cor. 13. 13. Col. 1. 4.

Mae y rhan flaenaf o'r adnod hon, hyd y gair "cariad," yn yr adnod o'r blaen yn y Saesoneg; ond yn y Groeg mae y rhaniad yr un fath ag yn y Gymraeg. Wele yma ddwy gymhariaeth rymus ac addas iawn, *gwreiddio* a *seilio:* wedi eich *gwreiddio* fel planigion ypyw, mewn daear ddofn a ffrwythlawn, mewn profiad sicr a helaeth o gariad anghymarol ac anwyl Crist tuag atoch chwi, ac mewn cariad gwresog a diffuant o'r eiddoch chwi tuag ato yntau, tuag at y Tad drwyddo fef, a thuag at holl blant Duw er ei fwyn ef, *am iddo ef yn gyntaf eich caru chwi.* Wedi eich *seilio* hefyd mewn cariad, yn yr ystyr a enwyd uchod; fel adeiladaeth ar sylfaen sicr a chadarn. Tir ffrwythlawn, a sylfaen ddiogel, yw cariad Crist; ac nid oes ffrwythlondeb na chadernid heb ein *gwreiddio* a'n *seilio* yn y cariad hwn. † Mae yr holl saint wedi eu gwreiddio a'u seilio mewn cariad; ac o herwydd hyny yn gallu amgyffred i ryw fesur bychan, anfeidroldeb cariad Crist tuag at ei bobl. ‡ Mae i'r cariad hwn "led," cyd-gymesurawl â therfynau y ddaear; gan ei fod yn cyrhaedd bechaduriaid o bob cenedl a math: a "hyd," cyhyd â pharâd y byd; ïe, yn cyrhaedd o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb. ‖ Mae iddo hefyd "ddyfnder ac uchder;" yr hyn a ellir ei synied wrth y *dyfnder* o drugni, yn mha un y gwelodd Crist bechaduriaid o *uchder* i ogoniant hanfodol; ac wrth y *dyfnder* o ddyoddefiadau a darostyngiad yr aeth efe danynt, er eu hiachawdwriaeth hwynt, a'r *uchder* o ragor-freintiau presenol a dedwyddwch i ddyfod, y cyfododd ac y cyfyd efe hwynt iddynt. Sylwyd yn aml gyda llawer o briodoldeb, fod yr *adnod hon yn anghyffredin o rymus:* gwyddis yn dda nad oes i gyrph, neu ddefnyddiau sylweddol, ond *tri* mesuriad; *hyd*, a *lled*, a *thewder:* ond mae yr apostol yma yn rhanu y tewder, i'w *ddyfnder* i waëred, ac i'w *uchder* i fynu, gan fesur o'r canol; ac felly yn ei ddefnyddio i osod allan y *dyfnder o drueni* mae cariad Crist yn ein gwared o hono, ac hefyd yr *uchder o ogoniant* y mae yn ein derch iddo.

19 c * A gwybod cariad Crist, † yr hwn sydd d uwch law gwybodaeth, e ‡ fel y'ch cyflawner â holl gyflawnder Duw

c adn. 18. pen. 5. 2, 25. Ioan 17. 3. 2 Cor. 5. 14. Gal. 2. 20. Phil. 2. 5—12. Col. 1. 10. 2 Pedr 3. 18. 1 Ioan 4. 9—14. d Phil. 4. 7. e pen. 1. 23. Salm 17. 15. a 43. 4. Mat. 5. 6. Ioan 1. 16. Col. 2. 9. Dat. 7. 15—17. a 21. 22—24. a 22. 3—5.

* Gwybod yn wir brofiadol a theimladwy, iddynt eu hunain ac ynddynt eu hunain: gwybod am rinwedd, nerth, a melusder rhagorol gariad Crist, yn yr amlygiad nefol, y ffrwythau, a'r effeithiau grasol o hóno yn eu calonau, ar eu heneidiau, ac yn eu holl fucheddau. † Gwedi y cwbl mae y cariad anfeidrol hwn uwchlaw gwybodaeth pawb, dynion ac angelion; nis gall neb byth ei amgyffred yn hollawl; am ei fod yn mhob ystyr yn anfeidrol ac anamgyffredadwy. Mae y gwrtheiriad hyn, "gwybod yr hyn sydd uwchlaw gwybodaeth," yn cael ei ddefnyddio yn addas iawn yma; ac yn mawr chwanegu prydferthwch yr ymadrodd, am fawredd anfeidrol cariad Crist. ‡ Fel y'ch llanwer â gwybodaeth nefol, â serchiadau sanctaidd, ac â chysuron ysbrydol i'r fath raddau, fel na byddo dim lle yn eich eneidiau i gyfeiliorni, anwybodaeth, pechod, nac annedwyddwch; ond bod y cyflawnder o allu, gras, goleuni, cariad, a dyddanwch Duw, wedi llenwi eich calonau yn hollawl; a bod eich cynneddfau wedi eu helaethu i'r fath raddau, fel y gallech dderbyn mwy-fwy o hyd o'r pethau uchod, hyd oni byddwch wedi eich llenwi "*â* holl gyflawnder Duw," neu *i* holl gyflawnder Duw, fel ei deml â'i bresenoldeb gogoneddus ef. Y cyflawnder eithaf a ddichon i'r saint ei ddàl, hyd eu perffeithiad mewn gogoniant, a feddylir.

20 * Ond i'r hwn f † a ddichon wneuthur yn g dra rhagorol, y tu hwnt i bob peth yr ydym ni yn eu dymuno, neu yn eu meddwl, h ‡ yn ol y nerth sydd yn gweithredu ynom ni,

f Gen. 17. 1. a 18. 14. 2 Cron. 25. 9. Jer. 32. 17, 27. Dan. 3. 17. a 6. 20. Mat. 3. 9. Ioan 10. 29, 30. Rhuf. 4. 21. a 16. 25. Heb. 7. 25. a 11. 19. Iago 4. 12. Judas 24. g Ex. 34. 6. 2 Sam. 7. 19. 1 Bren. 3. 13. Salm 36. 8, 9. Can. 5. 1. Es. 35. 2. a 55. 7. Ioan 10. 10. 1 Cor. 2. 9. 1 Tim. 1. 14. 2 Pedr 1. 11. h adn. 7. pen. 1. 19. Col. 1. 29.

Ar ol gweddïo mae yr apostol yn tòri allan i ddïolch: "yr hyn a ddechreu mewn gweddi a derfyna mewn mawl," sydd hen ddïareb grefyddol mewn rhai mànau. * "Ond i'r hwn:" sef i Dad ein Harglwydd Iesu Grist (adn. 14,) yn undeb y Mab a'r Ysbryd Glân; y tri Pherson yn un Duw anfeidrol. † Gwedi pobpeth a ddymunodd yr apostol ar ran yr Ephesiaid yn y weddi flaenorawl, a thu hwnt i bob peth a fedrai efe a hwythau eu dymuno neu feddwl am danynt; yr oedd Duw yn alluog i wneuthur yn dra rhagorol erddynt, tu hwnt i bob dymuniad a meddwl o'r eiddynt hwy, ‡ er gofyn o honynt yn ol y nerth grymusaf oedd yn gweithredu ynddynt i weddïo. Fel hyn gallent estynu eu meddyliau, helaethu eu deisyfiadau, a lliosogi eu gweddïau mwyaf cynnwysfawr i'r eithaf; eto nis gallent byth gyrhaedd y cwbl a allai Duw roddi iddynt, a'i wneuthur yn anrhydeddus erddynt yn Nghrist Iesu.

21 * Iddo ef i *y byddo* y gogoniant k † yn yr eglwys trwy Grist Iesu, l ‡ dros yr holl genhedlaethau, ‖ hyd yn oes oesoedd. § Amen.

i pen. 1. 6. 1 Cron. 29. 11. Salm 29. 1, 2. a 72. 19. a 115. 1. Es. 6. 3. a 42. 12. Mat. 6. 13. Luc 2. 14. Rhuf. 11. 36. a 16. 27. Gal. 1. 5. Phil. 2. 11. a 4. 20. 2 Tim. 4. 18. Heb. 13. 21. 1 Pedr 5. 11. Dat. 4. 9—11. a 5. 9—14. a 7. 12, &c. k Phil. 1. 11. Heb. 13. 15, 16. 1 Pedr 2. 5. l pen. 2. 7. 1 Pedr 5. 11. 2 Pedr 3. 18. Judas 25.

* I'r Duw hollalluog ac anfeidrol rasol hwn, y byddo gogoniant, addoliad, a mawl, † yn yr holl eglwys weledig a dirgeledig, yn y nef ac ar y ddaear, yn mhob eglwys neillduol, a chan holl aelodau pob eglwys; ‡ dros holl oesoedd a chenedlaethau y ddaear, || ac i dragywyddoldeb diderfyn byth! § Fel hyn y bydd, ac fel hyny yr oedd Paul, a phawb a garent Dduw mewn gwirionedd yn gweddïo ac yn dymuno o'u calon ei bod; ac fel arwydd o hyny, cytuned pawb âg ef i ddywedyd Amen. Yr eglwys yn unig a ŵyr y dirgelwch, ac sydd yn gyfranog o'r bendithion a soniwyd ac y gweddïwyd am danynt uchod; am hyny yr eglwys yn unig a all ogoneddu Duw yn iawn am danynt. *Dros yr holl genedlaethau, hyd yn oes oesoedd:* dywed rhai beirniaid dysgedig iawn, nad yw yn bosibl i neb osod allan rymusder y geiriau gwreiddiol mewn unrhyw gyfieithiad pa bynag: ac wrth geisio egluro y fath ranau o'r ysgrythyr, fod braidd yn anmhosibl gochelyd gwaeledd a diflasrwydd mewn cymhariaeth i'r ymadroddion gwreiddiol; ysgrifenydd dàn ddwyfol ysbrydoliaeth yn unig a all wneyd cyfiawnder â hwynt.

PEN. IV.

Annog i undeb, &c.

[a] * DEISYF gan hynny arnoch yr wyf fi, [b] † y carcharor yn yr Arglwydd, [c] ‡ ar rodio o honoch yn addas i'r [d] alwedigaeth y'ch galwyd iddi,

a Gwel ar pen. 3. 1. b Jer. 38. 20. Rhuf. 12. 1. 1 Cor. 4. 16. 2 Cor. 5. 20. a 6. 1. a 10. 1. Gal. 4. 12. Philemon 9, 10. 1 Pedr 2. 11. 2 Ioan 5. c adn. 17. pen. 5. 2. Gen. 5. 24. a 17. 1. Act. 9. 31. Phil. 1. 27. a 3. 17, 18. Col. 1. 10. a 4. 12. 1 Thes. 2. 12. a 4. 1, 2. Tit. 2. 10. Heb. 13. 21. d adn. 4. Rhuf. 8. 28—30. Phil. 3. 14. 2 Thes. 1. 11. 2 Tim. 1. 9. Heb. 3. 1. 1 Pedr 3. 9. a 5. 10. 2 Pedr 1. 3.

Gwedi ymdrin â phethau athrawiaethol yn y pennodau o'r blaen, mae yr apostol yma yn dyfod at bethau ymarferol crefydd; ac yn deisyfu ar yr Ephesiaid i rodio yn addas i'r alwedigaeth y galwyd hwynt iddi drwy yr efengyl. * "Gan hyny:" sef gan fod y fath ragorfreintiau a bendithion gogoneddus a grybwyllwyd o'r blaen, yn cael eu rhoddi yn rhad i bawb a gredent yn Nghrist, pa un bynag ai Iuddewon ai cenedloedd oeddynt. † Carcharor yn achos yr Arglwydd, am bregethu efengyl yr Arglwydd Iesu i'r cenedloedd. Gwel ar pen. 3. 1. ‡ Hyny yw, rhodio yn gyson ac yn barâus yn addas i'r efengyl, trwy yr hon y galwyd hwy i wneuthur proffes o hóni. Yr oedd pobpeth a wnaeth yr efengyl arnynt, ac a ddatguddiwyd trwy yr efengyl iddynt, mewn gras a gobaith gogoniant, yn galw arnynt i rodio yn addas i'w galwedigaeth nefol a sanctaidd.

2 * Gyd a phob [e] gostyngeiddrwydd † ac addfwynder, ‡ ynghyd â hir-ymaros, [f] || gan oddef eich gilydd § mewn cariad;

e Num. 12. 3. Salm 45. 4. a 138. 6. Diar. 3. 34. a 16. 19. Es. 57. 15. a 61. 1—3. Zeph. 2. 3. Zec. 9. 9. Mat. 5. 3—5. a 11. 29. Act. 20. 19. 1 Cor. 13. 4, 5. Gal. 5. 23. Col. 3. 12, 13. 1 Tim. 6. 11. 2 Tim. 2. 25. Iago 1. 21. a 3. 15—18. 1 Pedr 3. 15. f Marc 9. 19. Rhuf. 15. 1. 1 Cor. 13. 7. Gal. 6. 2.

Dyma rai o'r pethau a berthyn i rodiad addas, ac heb y rhai hyn nid yw neb, ac nis gall neb rodio yn addas. * "Gostyngeiddrwydd" a hunan-ymwadiad; heb dybied yn fawr am danom ein hunain, heb ymffrostio, cenfigenu wrth eraill, na dirmygu eraill, ond tybied eraill yn well na ni ein hunain. † "Addfwynder" hynaws, a lledneisrwydd boneddigaidd, tymher ac ysbryd llariaidd a digyffro, ac ymddygiad addfwyn tuag at ein gilydd a thuag at bawb. ‡ "Hir-ymaros:" bod i'r gostyngeiddrwydd a'r addfwynder uchod ein cadw rhag pob nwydau cyffrôus a digllawn pan gaffom ein tramgwyddo gan, neu achos i dramgwyddo wrth, eraill: || Ac am wendidau ac annoethineb ein brodyr, a thymerau pigog, anynad, ac anhywaith, rhai y gallasem ddysgwyl gwell oddi wrthynt; rhaid i gristionogion edrych dros bethau felly, neu eu goddef mewn ysbryd tawel a llonydd; gan dosturio wrth y cyfryw ddynion yn hytrach na digio wrthynt a dïal arnynt. § A rhaid i hyn oll gael ei wneyd oddi ar egwyddor o gariad at Grist, ac atynt hwythau er ei fwyn ef. Addurniadau prydferth yw y pethau uchod ar gristionogion, a phethau perthynol i gristionogion yn unig ydynt; nis gwyddai y philosophyddion gynt ddim am danynt. Os ystyriwn ni pa beth oeddym wrth natur, a'r fraint fawr a gawsom trwy ras a thrugaredd Duw, bydd yn help mawr i ni arfer y rhinweddau sanctaidd a phrydferth uchod.

* Gan fod yn ddyfal † i [g] gadw undeb yr Ysbryd ‡ y'nghwlwm tangnefedd.

g adn. 4. Ioan 13. 34. a 17. 21—23. Rhuf. 14. 17—19. 1 Cor. 1. 10. a 12. 12, 13. 2 Cor. 13. 11. Col. 3. 13—15. 1 Thes. 5. 13. Heb. 12. 14. Iago 3. 17, 18.

* Yn y modd uchod dylem fod yn ofalus iawn, ac ymdrechu hyd y mae ynom bob amser, † i gadw undeb ysbrydol, a chyd-gordiad eneidiau yn mhlith ein gilydd; yr hyn yw ffrwyth yr Ysbryd, ‡ ac sydd gynnwysedig mewn cariad a thangnefedd, yr hyn yw y cwlwm goreu a chadarnaf o undeb crefyddol, ac o gyd gymdeithas sanctaidd fel eglwys i Grist.

4 [h] * Un corph *sydd,* [i] † ac un Ysbryd, [k] ‡ megis ag y'ch galwyd yn un gobaith eich galwedigaeth;

h pen. 2. 16. a 5. 30. Rhuf. 12. 4, 5. 1 Cor. 10. 17. a 12. 12, 13, 30. Col. 3. 15. i pen. 2. 18, 22. Mat. 28. 19. 1 Cor. 12. 4—11. 2 Cor. 11. 4. k Gwel ar d. adn. 1.—pen. 1. 18. Jer. 14. 8. a 17. 7. Act. 15. 11. Col. 1. 5. 2 Thes. 2. 16. 1 Tim. 1. 1. Tit. 1. 2. a 2. 13. a 3. 7. Heb. 6. 18, 19. 1 Pedr 1. 3, 4, 21. 1 Ioan 3. 3.

* Yr un corph hwn yw yr holl eglwys wirioneddol, yn mhob màn, oes, a chenedl o'r byd; o ba un mae pob gwir gredadyn yn aelod, a Christ ei hun yn unig Ben. † Mae yr holl gorph hwn yn cael ei fywiocâu megys gan un bywyd neu un enaid; sef gan Ysbryd hollbresenol Crist: efe sydd yn bywâu, yn arwain, ac yn preswylio yn yr holl gorph dirgeledig. ‡ Mae yr holl saint wedi eu galw *yn* un, neu *i* un gobaith o'r un deddwyddwch tragywyddol, ar sail yr un gair dwyfol, a chanddynt oll yr un profiad o ras tröedigol a sanctaidd âol Duw. Un yw eu galwedigaeth, un yw eu gobaith, ac un yw eu hetifeddiaeth.

5 [l] * Un Arglwydd, [m] † un ffydd, [n] ‡ un bedydd,

l Act. 2. 36. a 10. 36. Rhuf. 14. 8, 9. 1 Cor. 1. 2, 13. a 8. 6. a 12. 5. Phil. 2. 11. a 3. 8. m adn. 13. Rhuf. 3. 30. 2 Cor. 11. 4. Gal. 1. 6, 7. a 5. 6. Tit. 1. 1, 4. Heb. 13. 7. Iago 2. 18. 2 Pedr 1. 1. Judas 3, 20. n Mat. 28. 19. Rhuf. 6. 3, 4. 1 Cor. 12. 13. Gal. 3. 26, 27. 1 Pedr 3. 21.

* "Un Arglwydd," sef Crist, fel Gwaredwr, Pen, a Phrïod yr holl eglwys; i'r hwn yn ol trefniad Duw y mae hi yn ddarostyngedig, fel teyrnas i'w Brenin, fel corph i'r Pen, fel gwraig i'w Phrïod, ac fel dynion i'w Duw. † "Un ffydd:" sef un o ran ei Gwrthddrych, ei Hawdwr, ei natur, a'i heffeithiau; ac mae yr holl gorph yn credu yr un athrawiaeth am bethau sylfaenol a hanfodol crefydd. ‡ "Un bedydd:" sef un *dull* o fedyddio; â dwfr, yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân; fel arwydd o adgenedliad, ac insel allanol y cyfammod newydd: fel hyn un ydyw o ran ei ddull, ei natur, ei arwyddocâd, ei duedd, a'i ddyben; ac un waith y dylid ei weinyddu. Os yw bedyddio babanod trwy daenelliad yn *fedydd,* rhyfyg a chabledd o'r mwyaf yw eu hail fedyddio: o'r tu arall, os *nad* ydyw hyny yn fedydd; rhyfyg mawr, a chymmeryd enw y Drindod yn ofer, yw eu bedyddio: cair gweled pwy sydd gywir a cham yn y dydd mawr.

6 [o] * Un Duw † a Thad oll, [p] ‡ yr hwn *sydd* goruwch oll, || a thrwy oll, [q] § ac ynoch oll.

o pen. 6. 23. Num. 16. 22. Es. 63. 16. Mal. 2. 10. Mat. 6. 9. Ioan 20. 17. 1 Cor. 8. 6. Gal. 3. 26—28. a 4. 3—7. 1 Ioan 3. 1—3. p pen. 1. 21. Gen. 14. 19. 1 Cron. 29. 11, 12. Salm 95. 3. Es. 40. 11—17, 21—23. Jer. 10. 10—13. Dan. 4. 34, 35. a 5. 18—23. Mat. 6. 13. Rhuf. 11. 36. Dat. 4. 8—11. q pen. 2. 22. a 3. 17. Ioan 14. 23. a 17. 26. 2 Cor. 6. 16. 1 Ioan 3. 24. a 4. 12—15.

* * Duw y Tad yn bersonol a feddylir yma wrth "Dduw;" enwyd y Personau eraill o'r blaen, adn. 4, 5. Nid yma yr oedd yr Ephesiaid cenedlig yn gystal â'r Iuddewon, wedi cael eu gwneyd yn addolwyr yr un Duw, a nwnw yr unig wir Dduw; am hyny dylasent fod yn ydyfal i gadw undeb yr Ysbryd yn nghwlwm tangnefedd. Nid yw galw y Tad yn "un Duw," yn cauad allan y Mab a'r Ysbryd Glân o fod yn Dduw gyda'r Tad; mwy nac yr oedd galw y Mab yn "un Arglwydd," a'r Ysbryd Glân yn "un Ysbryd," yn cauad allan y Tad o fod yn Arglwydd ac yn Ysbryd gyda hwynt. † Mae Duw yn Dad yr holl grëadigaeth yn gyffredinol, fel Grëawdwr pob peth; ond yma Tad yr holl gredinwyr, o Iuddewon a chenedloedd, a feddylir. ‡ Mae y Duw hwn goruwch oll yn anfeidrol, o ran mawredd ei hanfod, ei briodoliaethau dwyfol, a'i lywodraeth ar ei bobl ac ar bob peth oll. || Yn ei ragluniaeth fawr, ei weithredoedd, a'i offerynau, mae efe yn mhob màn, yn ei weithio trwy bob peth; ac yn nylanwadau ei Ysbryd a'i ras, mae efe yn gweithio trwy ei holl eglwys fawr: fel yn mae bywyd yn gweithio trwy yr holl gorph naturiol, felly mae Duw yn gweithio trwy yr holl grëadigaeth, ac yn enwedig trwy ei holl eglwys. § Yn fŷr, mae efe yn bresenoldeb, a thrwy breswyliad ei Ysbryd, yn ei holl eglwys, ac yn nghalonau ei holl saint, fel Duw yn ei teml sanctaidd.

7 [r] * Eithr i bob un o honom y rhoed ygras, † yn ol [t] mesur dawn Crist.

r adn. 8—14. Mat. 25. 15. Rhuf. 12. 6—8. 1 Cor. 12. 8—11, 27—30. s pen. 3. 8. 2 Cor. 6. 1. 1 Pedr 4. 10. t Ioan 3. 34. Rhuf. 12. 3. 2 Cor. 10. 13—15.

* * Yr oedd Pen ac Arglwydd cyffredin yr "un corph" wedi rhoddi i bob aelod o'r corph ras cadwedigol, sefyllfa, a doniau ysbrydol yn yr eglwys: pa fodd bynag y oeddynt yn gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd, ac yn ymagori ar eu gilydd, mewn sefyllfâoedd, grasau, a doniau ysbrydol; nid oedd gan yr un o honynt ddim i ymffrostio yn erbyn arall; oblegid rhoddion Duw oedd ganddynt oll: † a hyny yn ol y mesur a welodd efe yn dda, yn ei ddoethineb a'i ben-arglwyddiaeth, i gyfranu pob un o honynt, yn gyfatebol i'w angen, ei waith, a'i sefyllfa yn yr eglwys. Mae grâs yma yn arwyddocâu doniau anghyffredin, i lefaru â thafodau, gwneyd gwyrthiau, &c., a roddid i rai; neu ynte pob gras cadwedigol, sydd yn gyffredin i'r holl gredinwyr: neu efallai pob un o'r ddau. Er perffeithio y saint y rhoddwyd hwynt, ac nid er anghydfod yn y corph.

8 * O herwydd paham y mae efe yn dywedyd, [u] † Pan ddyrchafodd i'r uchelder, [x] efe y gaethiwodd gaethiwed, [y] ‡ ac a roddes roddion i ddynion.

u Gwel ar Salm 68. 18. x Barn. 5. 12. Col. 2. 15. y 1 Sam. 30. 26. Esther 2. 18.

* * Mewn perthynas i'r mater uchod, mae yr apostol yn ymhyddio geiriau y Salmydd (Salm 68. 18.) am fuddugoliaethau a dyrchafiad y Messiah; † pan ddyrchafodd efe i'r uchelder, efe a gaethiwodd gaethiwed, sef y gelynion hyny a gaethiwent ddynolryw; ‡ ac a roddes roddion, sef y gras a enwyd uchod, i ddynion, ïe, i'r rai cyndyn hefyd, medd y Salmydd; fel trwy gyfraniad y rhoddion hyny y preswyliai yr Arglwydd Dduw yn eu plith. Dywed tri o'n Hawdwyr mai prophwydoliaeth yn esgyniad Crist yw geiriau y Salmydd: ond mae *Goddridge* yn ammau hyny, ac yn dywedyd mai cânu yn ryw fuddugoliaeth ddiweddar yr oedd Dafydd; ac ei fod yn ei orfoledd yn myned yn ol at y fuddugoliaeth a'r yr Aiphtiaid, a'r yspail â pha un y cyfoethogodd Duw yr Israeliaid, er mòr anniolchgar a chyndyn a fuasent, ac â pha un y darparodd efe y babell i breswylio yn eu plith hwynt; oblegid â'r yspeilion hyn gan drwyaf yr adeiladwyd y babell. Yna dywed y gŵr dysgedig uchod, fod yr apostol megys yn *benthycio* geiriau y Salmydd, ac yn eu *cyfaddasu* yn brydferth at fuddugoliaeth ac esgyniad y Messiah, a doniau ei Ysbryd, y rai a dywalltodd efe ar yr eglwys, i'r hon y derbyniwyd llawer a fuasent unwaith yn gyndyn, ac yr hon a addaswyd trwy y doniau hyny i'r Arglwydd Dduw i breswylio ynddi. *Caethiwo caethiwed*, sef pechod, Satan, byd, ac angau. "*A roddes* roddion:" "*Derbyniaist* roddion" yw geiriau Dafydd: Ti a *gymmeraist* roddion, meddant, yw yr Hebraeg; un ai oddi ar ei elynion, neu allan o'i drysorau breninol ei hun. Efe a *gymmerodd*, neu a *dderbyniodd* fel y *rhoddai* i ddynion. Byddai buddugoliaethwyr gynt yn arfer rhoddi anrhegion lawer i'r bobl, yn enwedig i'w milwyr, i orfoleddu am y fuddugoliaeth; felly y gwnaeth Iesu mawr, ac felly y mae yn gwneyd eto o hyd, ïe, i rai cyndyn hefyd.

9 * (Eithr efe [z] a ddyrchafodd, † beth yw ond darfod iddo hefyd [a] ddisgyn yn gyntaf i [b] ‡ barthau isaf y ddaear?

z Diar. 30. 4. Ioan 3. 13. a 6. 62. a 20. 17. Act. 2. 34—36. a Gen. 11. 5. Ex. 19. 20. Ioan 16. 33, 38, 41, 51, 58. a 8. 14. a 16. 27, 28. b Salm 8. 5. a 63. 9. a 139. 15. Mat. 12. 40. Heb. 2. 7, 9.

Sylw yr apostol yw yr adnod hon a'r nesaf, ar y geiriau uchod o eiddo y Salmydd. * Yn awr os yw JEHOFAH (am yr hwn y llefarwyd uchod mae yn amlwg,) wedi "derchafu," † beth mae hyny yn arwyddo ond darfod iddo hefyd ddisgyn yn gyntaf i barthau isaf y ddaear? Fel hyn yr oedd cnawdoliad, darostyngiad, marwolaeth, a chladdedigaeth y Messiah, cyn ei adgyfodiad a'i esgyniad, yn cael eu rhag-ddangos yn amlwg gan y prophwyd. ‡ Yn yr Hen Destament wrth barthau isaf, iselder, ac iselderau y ddaear, y meddylir y *groth*, Salm 139. 15; a'r *bedd*, Salm 63. 9; a 71. 20; ac am *gladdedigaeth* Crist dywedir ei fod yn *nghalon y ddaear*. Ond fel y mae ei *dderchafiad* ef yma yn cynnwys pob peth a berthyn i'w *ogoneddiad;* felly mae ei *ddisgyniad* i'w ystyried fel yn cynnwys pob peth yn ei *ddarostyngiad* ar y ddaear: ei gnawdoliad, ei dlodi, ei ddyoddefiadau mawrion, ei farwolaeth chwerw, a'i gladdiad yn y bedd. Mae dywedyd iddo *ddisgyn* hefyd yn dangos, ei fod yn hanfodi o'r blaen, ac yn uchel fel Duw mawr a thragywyddol.

10 * Yr hwn a ddisgynodd, yw yr hwn hefyd a [c] esgynodd † goruwch yr holl nefoedd, [d] ‡ fel y cyflawnai bob peth)

c Gwel ar pen. 1. 20—23.—Act. 1. 9, 11. 1 Tim. 3. 16. Heb. 4. 14. a 7. 26. a 8. 1. a 9. 23, 24. d pen. 3. 19. Ioan 1. 16. Act. 2. 33. Col. 1. 19. a 2. 9.

* Efe a *ddisgynodd* heb newid lle fel yr oedd yn Dduw; ond a *esgynodd* drwy newid lle fel yr oedd yn ddyn: eto y cyfryw oedd undeb y ddwy natur, fel y dywedir i Grist cyfan esgyn; yr *hwn* a ddisgynodd yw yr *hwn* hefyd a esgynodd. Y Person a ddisgynodd i undeb â dynoliaeth, yw yr hwn a esgynodd â'r ddynoliaeth hòno ganddo, † goruwch yr holl nefoedd; yn mhell uwchlaw brô yr awyr, a'r holl nefoedd wybrenol a gweledig, i'r drydedd nef, i eistedd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwch-leoedd, ac i fod âg awdurdod ganddo ar bawb a phob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear. ‡ Fel y cyflawnai bob peth a berthyn i'w waith cyfryngol; fel y cyflawnai efe ei eglwys, ei weinidogion, a'i holl saint, â phob doniau a grasau o'i gyflawnder ei hun; fel y cyflawnai holl fwriadau arfaethol Duw; ac fel y cyflawnai nefoedd a daear â'i ogoniant: fel y cyflawnai hefyd bob prophwydoliaethau am dano ei hun a'i eglwys, ag sydd eto heb eu cyflawni. Dechreuodd y cyflawni hyn ar ddydd y pentecost, ac e barhâ Crist i gyflawni hyd ddiwedd y byd, hyd oni chyflawno bob peth.

11 [e] * Ac efe a roddes rai yn apostolion, † a rhai yn brophwydi, ‡ a rhai yn [f] efengylwyr, [g] || a rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon;

e adn. 8. pen. 2. 20. a 3. 5. Rhuf. 10. 14, 15. 1 Cor. 12. 28. Judas 17. Dat. 18. 20. a 21. 14. f Act. 21. 8. 2 Tim. 4. 5. g 2 Cron. 15. 3. Jer. 3. 15. Mat. 28. 20. Act. 13. 1. Rhuf. 12. 7. 1 Cor. 12. 29. Heb. 5. 12. 1 Pedr 5. 1—3.

* Yn gyntaf peth wedi derchafu i'w ogoniant, efe a dywalltodd yr Ysbryd Glân yn helaeth ar ei apostolion etholedig; fel trwy eu gweinidogaeth, a thrwy arddodiad eu dwylo hwy, y caffai dynion pechadurus eu

gwneyd yn gyfranogion o'i iachawdwriaeth ef, ac o ddoniau ysbrydol a galluoedd gwyrthiol yn ehelaeth: ac fel y caffai yr eglwys yn yr oesoedd i ddyfod, dderbyn pob gwirionedd dwyfol oddi wrthynt hwy; yn enwedig y rhanau hyny o'r ysgrythyrau a ysgrifenwyd ganddynt hwy, a thàn eu golygiad hwy, i fod fel maen prawf cristionogaeth a thrysorfa yr eglwys. † Yn nesaf i'r apostolion efe a roddes brophwydi, neu ddysgawdwyr anghyffredin, wedi eu cynnysgaethu â dawn prophwydol, ac yn llafurio mewn darostyngiad i'r apostolion. Sylwyd ar y prophwydi hyn o'r blaen, Act. 11. 27, ac mewn amryw fànau yn yr epistol cyntaf at y Corinthiaid. ‡ Efe a roddes rai eraill yn "efengylwyr," i bregethu o ddinas i ddinas gyda'r apostolion, fel eu cynnorthwywyr, a thàn eu cyfarwyddyd hwy. Swyddogion anghyffredin oedd y rhai hyn hefyd, yn cael eu dewis gan mwyaf gan yr apostolion, yn ol cyfarwyddyd yr Ysbryd Glân, i gyd-lafurio â hwynt fel y sylwyd, ac i ofalu am yr eglwysi yn eu habsenoldeb hwy. ‖ Tybia rhai mai yr un swydd a feddylir wrth fugeiliaid ac athrawon; a chan na ddywedir yma *rhai yn fugeiliaid*, a *rhai yn athrawon*, yn yr un dull gwahaniaethol ag y dywedwyd am y swyddau o'r blaen, gellir meddwl mai dau enw ar yr un swydd ydyw: ond tybia eraill mai dwy swydd wahanol a feddylir; y "bugeiliaid" yn weinidogion cyflawn a sefydlog mewn eglwysi, a'r "athrawon" yn pregethu yn achlysurol ac yn deithiol, heb eu neilldu o holl waith y weinidogaeth. Swyddogion anghyffredin, am yr oes hòno, oedd y tri math cyntaf a enwir; ond swyddogion cyffredin, i fod yn yr eglwys yn mhob oes, oedd y bugeiliaid a'r athrawon, pa un bynag a oes gwahaniaeth rhyngddynt ai nid oes: rhai i ddwyn yn mlaen y gwaith a ddechreuwyd gan yr apostolion a'r efengylwyr ydynt.

12 [h] * I berffeithio y saint, [i] † i waith y weinidogaeth, [k] ‡ i adeilad [l] corph Crist:

h Luc 22. 32. Ioan 21. 15—17. Act. 9. 31. a 11. 23. a 14. 22, 23. a 20. 28. Rhuf. 15. 14, 29. 2 Cor. 7. 1. Phil. 1. 25, 26. a 3. 12—18. Col. 1. 28. 1 Thes. 5. 11—14. Heb. 6. 1. a 13. 17. i Act. 1. 17, 25. a 20. 24. Rhuf. 12. 7. 1 Cor. 4. 1, 2. 2 Cor. 3. 8. a 4. 1. a 5. 18. a 6. 3. Col. 4. 17. 1 Tim. 1. 12. 2 Tim. 4. 5, 11. k adn. 16, 29. Rhuf. 14. 19. a 15. 2. 1 Cor. 14. 4, 5, 12, 26. 2 Cor. 12. 19. 1 Thes. 5. 11. l Gwel ar adn. 4.—pen. 1. 23. Col. 1. 24.

* Y dyben mawr o roddi y swyddogion uchod yn yr eglwys, a'u cynnysgaethu hwynt â'u gwahanol ddoniau a'u grasau nefol oedd, "i berffeithio y saint;" perffeithio nifer y saint, a'u perffeithio mewn gwybodaeth, sancteiddrwydd, a phob dawn a gras ysbrydol. † Efe a'u rhoddes hwy hefyd yn eu gwahanol swyddau, i gyflawni gwaith y weinidogaeth yn ffyddlawn, llafurus, a diwyd, ac fel y byddai pregethiad yr efengyl yn gredadwy, ac yn effeithiol i bob dyben ysbrydol ac achubol. ‡ Ac efe a'u rhoddes hwynt felly i adeiladu corph dirgeledig Crist, yr eglwys, mewn goleuni, ffydd, cariad, llawenydd, a phob ufudd-dod sanctaidd; ac hefyd i chwanegu yn barâus at yr eglwys y cyfryw a fyddant gadwedig; ac i chwanegu addasrwydd y credinwyr i'w gwahanol sefyllfâoedd yn yr eglwys, er prydferthwch a harddwch yr holl adeilad. Mae rhai yn darllen yr adnod hon fel hyn:—"I berffeithio dynion sanctaidd i waith y weinidogaeth, i adeilad corph Crist:" ac eraill yn ei darllen fel hyn:—"I waith y weinidogaeth, i berffeithio y saint, i adeilad corph Crist."

13 [m] * Hyd oni ymgyfarfyddom oll † yn undeb ffydd, [n] ‡ a gwybodaeth Mab Duw, [o] ‖ yn wr perffaith, § at fesur oedran [p] cyflawnder Crist:

m Gwel ar adn. 3, 5.—Jer. 32. 38, 39. Ezec. 37. 21, 22. Zeph. 3. 9. Zec. 14. 9. Ioan 17. 21. Act. 4. 32. 1 Cor. 1. 10. Phil. 2. 1—3. n Es. 53. 11. Mat. 11. 27. Ioan 16. 3. a 17. 3, 25, 26. 2 Cor. 4. 6. Phil. 3. 8. Col. 2. 2. 2 Pedr 1. 1—3. a 3. 18. 1 Ioan 5. 20. o adn. 12. pen. 2. 15. Col. 1. 28. p Gwel ar pen. 1. 23.

* Hyd oni *ddèlom* oll, yn ol y Saesoneg: yr holl gredinwyr o ddechreu y byd i'w ddiwedd, yn dyfod, neu gyrhaeddyd i'r un màn, neu at yr un peth, ac felly yn cyd-ymgyfarfod oll, † mewn undeb ffydd; un ai yr undeb o ysbryd a chariad mae ffydd yn weithredu yn y saint, neu ynte undeb golygiadau yr holl saint am Wrthddrych mawr ac athrawiaeth y ffydd, yr hyn nid ydynt wedi ei gyrhaeddyd eto. ‡ Gwybodaeth ysbrydol a phrofiadol o Fab Duw, yn ei Berson, ei ogoniant, a'i iachawdwriaeth fawr: neu *gydnabyddiaeth* o Fab Duw, nid gwybodaeth hanesiol a dieffaith; ond gwybodaeth yn gweithio cymmeradwyaeth o hóno, cariad ato, hyder ynddo, ufudd-dod iddo, a chyd-ymffurfiad sanctaidd âg ef. ‖ Yma mae yr holl eglwys, corph dirgeledig Iesu, yn cael ei chyffelybu i *un dyn*, er dangos ei hunoldeb; ac i ŵr perffaith, wedi myned trwy y gwahanol dymorau o febyd, ieuenctid, &c., i gyflawn oedran, maintioli, a synwyr, er dangos ei pherffeithiad hi yn y diwedd yn ngwybodaeth Mab Duw, ac ar ei ddelw sanctaidd. § Fel hyn caiff yr holl eglwys, (a phob gwir gredadyn,) gynnyddu a chyrhaeddyd hyd at yr hyn a ellir ei alw "mesur oedran," neu yn ol y Saesoneg, mesur maintioli "cyflawnder Crist;" gan gyrhaeddyd y graddau uchel hyny o ras a sancteiddrwydd, a'i gwna hi yn addas i fod yn breswylfa wastadol a thragywyddol iddo ef, ac i'w llenwi â'r arwyddion mwyaf gogoneddus o'i bresenoldeb a'i ewyllys da ef: er na bydd neb yn gyd-radd âg ef, eto bydd pawb o'i saint mewn rhyw raddau yn gyffelyb iddo ef. Ynfydrwydd cöeg-ffol yw casglu oddi wrth y geiriau uchod, y bydd y saint i gyd yn eu cyfodi yn y dydd diweddaf, yn gymhwys yr un *oedran* a *maintioli* ag oedd Crist pan fu efe farw; nid am oedran a maintioli *corphorol* y dywedir, ond am berffeithrwydd ysbrydol yr eglwys yn y dydd diweddaf.

14 * Fel na byddom [q] mwyach yn blantos, [r] † yn bwhwmman, ‡ ac yn ein [s] cylch-arwain ‖ â phob awel dysgeidiaeth, [t] § trwy hocced dynion, [u] trwy gyfrwysdra i gynllwyn i dwyllo ‡

q Es. 28. 9. Mat. 18. 3, 4. 1 Cor. 3. 1, 2. a 14. 20. Heb. 5. 12—14. r Act. 20. 30, 31. Rhuf. 16. 17, 18. 2 Cor. 11. 3, 4. Gal. 1. 6, 7. a 3. 1. Col. 2. 4—8. 2 Thes. 2. 2—5. 1 Tim. 3. 6. a 4. 6, 7. 2 Tim. 1. 15. a 2. 17, 18. a 3. 6—9, 13. a 4. 3. Heb. 13. 9. 2 Pedr 2. 1—3. 1 Ioan 2. 19, 26. a 4. 1. s Mat. 11. 7. 1 Cor. 12. 2. Iago 3. 4. t Mat. 24. 11, 24. 2 Cor. 2. 17. a 4. 2. a 11. 13—15. 2 Thes. 2. 9, 10. 2 Pedr 2. 18. Dat. 13. 11—14. a 19. 20. u Salm 10. 9. a 59. 3. Mica 7. 2. Act. 23. 21.

* Ffurfiwyd yr holl gynllun neu drefn uchod, i'r dyben fel na byddai y credinwyr mwyach yn blantos mewn gwybodaeth a phrofiad: † ac felly yn bwhwman mewn anwadalwch trwy ddiffyg gwybodaeth, barn, a gwendid ffydd. ‡ Yn ysgafn ac ansefydlog, fel llongau heb falasarn ynddynt, yn cael eu cylch-arwain a'u taflu gan y gwynt a'r tònau; neu fel cymylau diddwfr, a gylch-arweinir gan wyntoedd. ‖ Sef gau-athrawiaeth, a *phob* gau-athrawiaeth, y rhai sydd fel awelon cryfion o ran eu grym a'u hanwadalwch. § Cyfeiriad sydd yma at chwareüwyr *(gamblers)* cyfrwys a dichellgar, yn twyllo gwirioniaid o'u harian, neu y peth y chwareüant am dano: trwy gau resymau cyfrwys, yr oedd y dynion hocedus hyn yn cynllwyn i dwyllo eneidiau anwadal oddi wrth y gwirionedd i gredu cyfeiliorni.

15 [x] * Eithr, gan fod yn gywir mewn cariad, [y] † cynnyddu o honom iddo ef ym mhob peth, [z] ‡ yr hwn yw y pen, *sef*, Crist:

x adn. 25. Zec. 8. 16. 2 Cor. 4. 2. a 8. 8. y pen. 2. 21. Hos. 14. 5—7. Mal. 4. 2. 1 Pedr 2. 2. 2 Pedr 3. 18. z Gwel ar pen. 1. 22.—a 5. 23. Col. 1. 18.

* Neu ddilyn y gwirionedd mewn cariad, a glŷnu mewn cariad wrtho: dywedyd yn gywir am wirionedd yr efengyl, a dadleu drosto; a hyny mewn cariad a Grist, at y gwirionedd, ac at eneidiau dynion. † Fe hyn ni a gynnyddwn yn mhob peth, i agosach cym deithas â Christ, a chyd-ymffurfiad sanctaidd âg ef trwy ddylanwadau a rhinwedd yn deilliaw o hóno ef, yn ol ei gyfarwyddyd ef, ac i'w ogoniant ef, ‡ fel aeloda bywiol o'r corph hwnw mae efe yn Ben iddo, o'r hwn mae yr holl gorph i gyd yn derbyn ei holl fywyd, e nerth, a'i iechyd ysbrydol. "Gan fod yn gywir mewn cariad:" cofied holl weinidogion y gair yn enwedig, ma dyben y weinidogaeth yw cadw *heddwch* a *chariad*, y

ystal ag *athrawiaeth gywir, iawn drefn*, a *dysgyblaeth* n yr eglwys: heb hyn ni bydd dim "cynnyddu yn ahob peth iddo Ef."

16 * O'r [a] hwn y mae yr holl gorph [b] † wedi i gyd-ymgynnull a'i gyd-gyssylltu, ‡ trwy bob cymmal cynnaliaeth, [c] ‖ yn ol y nerthol weithrediad ym mesur pob rhan, § yn gwneuthur cynnydd y corph, [d] i'w adeiladu ei hun mewn cariad.

a Gwel ar adn. 12. b Job 10. 10, 11. Salm 139. 15, 16. Cor. 12. 12—28. Col. 2. 19. c pen. 3. 7. 1 Thes. 2. 13. adn. 15. pen. 1. 4. a 3. 17. 1 Cor. 8. 1. a 13. 4—9, 13. a 14. 1. al. 5. 6, 13, 14, 22. Phil. 1. 9. Col. 2. 2. 1 Thes. 1. 3. a 3. 12. a 4. 10. 2 Thes. 1. 3. 1 Tim. 1. 5. 1 Pedr 1. 22. 1 Ioan 4. 16.

* O'r hwn, sef Crist, fel Pen yr holl gorph dirgeledig, ef yr eglwys, yr hon a wnair i fynu o lawer o aelodau; y maent oll wedi eu "cyd-gynnull," a'u cyfaddasu yn refnus y naill i'r llall, a'u "cyd-gyssylltu" fel cymmal rth gymmal, ‡ a phob cymmal, neu aelod, yn wasanethgar i drosglwyddo cynnaliaeth i'r llall; ‖ yn ol nerthol weithrediad yr Ysbryd Glân ar bob aelod yn ol ran, ei fesur, ei ddawn, a'i le yn yr eglwys: § yr hyn ddd er cynnydd i'r holl gorph, i'w adeiladu ei hun ewn cariad. Mae yma gyfeiriad amlwg at y *corph unol*, yr hwn a gyfansoddir o amryw gymmalau ac lodau, wedi eu cyssylltu yn nghyd drwy amryw rwymau, a chwedi eu dodrefnu â gïau, gewynau, a llestri aill o gymundeb o'r pen i bob rhan o'r corph, yr hwn rwy y moddion hyn a feithrinir, a ysgogir, a gryfêir, a ddygir i'w gyflawn nerth a'i faintioli. O na byddai eglwys fel hyn!

17 [e] * Hyn gan hynny yr wyf yn ei ddyedyd, ac yn ei [f] dystiolaethu [g] yn yr Arwydd, [h] † na rodioch chwi mwyach fel y mae y Cenhedloedd eraill yn rhodio, [i] ‡ yn ieredd eu meddwl;

e 1 Cor. 1. 12. a 15. 50. 2 Cor. 9. 6. Gal. 3. 17. Col. 2. 4. Neh. 9. 29, 30. a 13. 15. Jer. 42. 19. Act. 2. 40. a 18. 5. a 20. 21. 1. 5. 3. 1 Thes. 4. 6. g 1 Thes. 4. 1, 2. 1 Tim. 5. 21. a 6. 13. Tim. 4. 1. h adn. 1, 22. pen. 2. 1—3. a 5. 3—8. Rhuf. 1. 23 2. 1 Cor. 6. 9—11. Gal. 5. 19—21. Col. 3. 5—8. 1 Pedr 4. 3, 4. Salm 94. 8—11. Act. 14. 15.

* Fel y byddai i'r cristionogion yn Ephesus wasanthu eu gilydd mewn cariad, a chynnyddu yn mhob lith iddo Ef, y Pen; mae yr apostol yn galw arnynt, ll yn unig fel cyngorwr caredig, ond fel un yn tystiolthu iddynt, ac yn eu gorchymyn, yn enw a thrwy ldurdod yr Arglwydd Iesu: † na rodient hwy mwyach, ol gwneyd proffes o'r efengyl, fel yr oedd y cenedlld eraill yn rhodio; ond y dylasent ddangos y fath haniaeth mewn ysbryd, tymher, ac ymddygiadau, ag ld yn gweddu i'w galwedigaeth sanctaidd, a'u proffes efengyl. ‡ Y "meddwl," sef yr holl ranau arddercaf o'r dyn wedi myned yn ofer, yn ymddifyru ar thau gwaelion a gweigion y byd; eilunod a mwyniant wdol, pethau siomedig a rhŷ isel i grëaduriaid sesymol.

18 [k] * Wedi tywyllu *eu* deall, † wedi [l] ymïieithrio oddi wrth fuchedd Dduw, [m] ‡ trwy yr wybodaeth sydd ynddynt, ‖ trwy ddallineb calon:

k Salm 74. 20. a 115. 4—8. Es. 44. 18—20. a 46. 5—8. Act. 30. a 26. 17, 18. Rhuf. 1. 21—23, 28. 1 Cor. 1. 21. 2 Cor. 4. 4. 4. 8. 1 Thes. 4. 5. l Rhuf. 8. 7, 8. Col. 1. 21. Iago 4. 4. Rhuf. 2. 19. 1 Ioan 2. 11.

* Yr oedd deall y cenedloedd paganaidd wedi ei wyllu gan falchder, rhagfarn, chwantau cnawdol, ac m-addoliaeth; a hyny hefyd drwy weithrediad Satan, w y byd hwn, yr hwn sydd yn dallu meddyliau y rhai red: ychydig gwell yw dynion anianol eto, er byw yn lad a sŵn yr efengyl. † Buchedd, neu fywyd, o ygrwydd sanctaidd i Dduw, o ymroddiad cyson i sanaeth Duw, a chwedi deilliaw yn ddechreuol o uw. Yr oedd y cenedloedd, nid yn unig yn ddïeithr n, ond hefyd wedi ymddïeithrio megys yn fwriadol, yn wirfoddol, ac yn weithredol; yn *casâu* addysg, ac heb *ewyllysio* gwybod ei ffyrdd ef. Mae y gair "ymddïeithrio" yn arwyddo gweithrediad y bobl eu hunain, ac nad oeddynt felly yn ddechreuol yn Adda. ‡ Yr oedd yr ymddïeithriad hyny yn tarddu, nid o ddiffyg cynneddfau a deall naturiol, nac o ddiffyg moddion gwybodaeth yn unig; (Rhuf. 1. 19, 20,) ond o'u hannwybodaeth gwirfoddol hwynt: am eu bod yn caru y tywyllwch yn fwy na'r goleuni. ‖ "Trwy *ddallineb* eu calon:" dywedir fod y gair Groeg *(pôrôsin)* yn arwyddo *caledrwydd* hefyd, a childynrwydd gwrthnysig, ac mae yn cael ei gyfieithu felly mewn amrai fànau. Yr oedd y deall, neu y galluoedd deallawl a rhesymol, yn cael eu tywyllu gan ddallineb a chaledrwydd y galon; a llygredigaeth aflan a gwrthnysig yr effeithiau, *(affections)* yr hyn a feddylir wrth y "galon" yn y fàn hon.

19 * Y rhai wedi [n] diddarbodi, [o] † a ymroisant i drythyllwch, ‡ i wneuthur pob aflendid yn [p] un chwant.

n 1 Tim. 4. 2. o Gwel ar adn. 17.—Rhuf. 1. 24—26. 1 Pedr 4. 3. p Job 15. 16. Es. 56. 11. 2 Pedr 2. 12—14, 22. Judas 11. Dat. 17. 1—6. a 18. 3.

* Fel hyn yr oeddynt wedi ymsyfrdanu gan egwyddorion gau, chwedlau llygredig, ac arferion pechadurus o ormod rhysedd, hyd oni chollasant bob teimlad o gydwybod, a phob syniad am weddeidd-dra, harddwch, a moesoldeb; † ac felly rhoddasant eu hunain i fynu i goledd eu tueddiadau cnawdol yn ddïymattal; ‡ ac i gyflawni y pechodau aflanaf, atgasaf, a mwyaf annaturiol, yn gynddeiriog o awyddus: yr oeddynt yn ymlosgi yn eu chwantau tumewnol, ac yn eu cyflawni mewn gweithredoedd allanol yn dra digywilydd, ac heb ofalu dim am y canlyniad. "Diddarbodi:" *apêlgêkotes* yw y gair Groeg, yn arwyddo braeniaid, marweiddiad, hollawl annheimladrwydd, a'r gradd eithaf o annobaith; a thybia rhai fod yr apostol yn meddwl y cwbl o'r pethau uchod yn y gair ofnadwy o rymus hwn. Yr oedd y cenedloedd heb obaith ganddynt, ac heb Dduw yn y byd; ac am hyny yn ymrôi i drythyllwch a phob aflendid yn un chwant. Nid yw y gair yn un màn arall yn yr ysgrythyr.

20 * Eithr [q] chwychwi nid felly y dysgasoch Grist;

q Luc 24. 47. Ioan 6. 45. Rhuf. 6. 1, 2. 2 Cor. 5. 14, 15. Tit. 2. 11—13. 1 Ioan 2. 27.

* Ond am yr Ephesiaid crefyddol, nid felly y dysgasent Grist, neu y grefydd hòno mae Crist yn Addysgydd ac yn Addysg o hóni; yn sylwedd a chanol-bwynt ei holl athrawiaethau, ei haddewidion, ei hordinâdau, a'i dyledswyddau. Nid felly y dysgasent hwy Grist, i fyw fe eu cymmydogion paganaidd. Mae rhai yn darllen y geiriau fel hyn:—Eithr nid felly chwi; chwi a ddysgasoch Grist. Mae y geiriau yn arwyddo efallai, *bod rhyw fath o ddysgu Crist*, ag oedd yn gadael dynion i fyw yn y pechodau a'r afrëolaeth a grybwyllwyd uchod; ac efallai bod yr apostol yn cyfeirio at rai athrawon a alwent eu hunain yn gristionogion, ond nid oeddynt yn gofalu nemawr am ddysgu na gwasgu crefydd ymarferol ar y bobl. Mae amryw ranau yn epistolau Paul yn dangos mai felly yr oedd mewn rhai mànau, er nad oedd yr athrawon hyn mae yn debyg, wedi cael llawer o le yn Ephesus.

21 * Os bu i chwi ei [r] glywed ef, † ac os dysgwyd chwi ynddo, [s] ‡ megis y mae y gwirionedd yn yr Iesu:

r Mat. 17. 5. Luc 10. 16. Ioan 10. 27. Act. 3. 22, 23. Heb. 3. 7, 8. s pen. 1. 13. Salm 45. 4. a 85. 10, 11. Ioan 1. 17. a 14. 6, 17. 2 Cor. 1. 20. a 11. 10. 1 Ioan 5. 10—12, 20.

* Os bu i chwi ei glywed ef yn effeithiol yn llefaru wrthych yn yr efengyl, trwy weinidogaeth ei apostolion a'i wir genadon. Mae dau fath o glywed Crist, sef clywed ei air ef â'r glust oddi allan, a'i glywed ef ei hun megys yn y gair: clywed ac heb glywed yw y naill; a chlywed yn effeithiol i fywyd yw y llall. † Os goleuwyd

chwi yn dumewnol ac yn achubol ganddo ef, trwy ei air a'i Ysbryd; ‡ i dderbyn y gwirionedd yn ei burdeb, megys y mae yn yr Iesu, ac nid fel y mae wedi cael ei lygru gan rai, a bregethant ryw gymmysgedd dàn enw efengyl Crist. Mae yr holl wirionedd ynddo ef fel mewn trysordŷ, i'w gyfranu o hóno ef i'w eglwys, trwy y gair a'r ordinâdau. "*Os* bu, *os* dysgwyd:" nid *os* o ammheüaeth, ond yn hytrach o gadarnâd, yw yr *os (eige)* yma; (Gwel ar pen. 3. 2,) eto yr oedd yn galw ar yr Ephesiaid i chwilio eu hunain yn ddifrifol, a oeddent wedi clywed a dysgu yn effeithiol ac achubol y gwirionedd fel yr oedd yn yr Iesu.

22 [t] * Dodi o honoch heibio, [u] † o ran yr ymarweddiad cyntaf, [x] ‡ yr hen ddyn, ‖ yr hwn sydd lygredig § yn ol y [y] chwantau twyllodrus;

t adn. 25. 1 Sam. 1. 14. Job 22. 23. Ezec. 18. 30—32. Col. 2. 11. a 3. 8. Heb. 12. 1. Iago 1. 21. 1 Pedr 2. 1, 2. u Gwel ar adn. 17.—pen. 2. 3. Gal. 1. 13. 1 Pedr 1. 18. 2 Pedr 2. 7. x Rhuf. 6. 6. Col. 3. 9. y Diar. 11. 18. Jer. 49. 16. Ob. 3. Rhuf. 7. 11. Tit. 3. 3. Heb. 3. 13. Iago 1. 26. 2 Pedr 2. 13.

* Dodi heibio fel hen ddillad budron, na byddom yn meddwl eu gwisgo byth mwyach. Mae hyn mewn cyferbyniad i wisgo, adn. 24, ac o'r un ystyr â marwâu, Colos. 3. 5, a chroeshoelio, Galat. 6. 14. † "Yr ymarweddiad cyntaf," sef eu hymarweddiad a'u harferion gynt yn eu 'stâd o baganiaeth ac annwybodaeth: gwelwn beth oedd hyny yn adn. 18, 19; a pen. 2. 3. ‡ "Yr hen ddyn," sef yr anian bechadurus a dderbyniasent o Adda syrthiedig, ‖ ac yr hon sydd lygredig yn ei holl egwydderion a'i nwydau, § yn ol y chwantau cryfion ac aflan am bethau bydol a chnawdol, y rhai sydd yn siomi dysgwyliadau dynion, yn twyllo eu heneidiau, ac yn eu gwneyd yn dwyllwyr i'w gilydd: fel hyn gellir eu galw yn chwantau twyllodrus, neu yn chwantau twyll. Cyssyllta rhai yr adnod hon â'r adnod o'r blaen, ac â'r adnod ganlynol, fel hyn:—"Chwi a ddysgwyd—i ddodi heibio yr hen ddyn—ac i ymadnewyddu yn ysbryd eich meddwl." Dyma beth yw dysgu yn effeithiol, megys y mae y gwirionedd yn yr Iesu; a phwy bynag nid ydynt yn dysgu hyn, nid ydynt yn dysgu ynddo na chanddo ef a'i Ysbryd. Gwel Tit. 2. 11, 12.

23 [z] * Ac ymadnewyddu [a] † yn yspryd eich meddwl;

z pen. 2. 10. Salm 51. 10. Ezec. 11. 19. a 18. 31. a 36. 26. Rhuf. 12. 2. Col. 3. 10. Tit. 3. 5. a Rhuf. 8. 6. 1 Pedr 1. 13.

* Ymadnewyddu ar y cyntaf, yn yr ad-genedliad; ac ymadnewyddu fwy-fwy yn barâus o hyd: mae eisiau adnewyddu yn wastadol ar y saint; ac mae dysgeidiaeth Crist yn gwneyd hyny, ac yn eu gweithio hwythau i lafur am hyny. † Galluoedd ardderchocaf yr enaid; y rhai a fawrygai y philosophyddion mòr uchel, ac a dybient eu bod mòr bur. Dywed *Doddridge* fod y gair *meddwl* yma yn cael ei roddi am yr *holl enaid;* a'r gair *ysbryd* am *gynneddf ddeallawl* ac arweiniol yr enaid, ar yr hon mae Ysbryd Duw yn gweithredu yn benaf, eto nid heb effeithio ar y cynneddfau *iselach.*

24 [b] * A gwisgo y [c] dyn newydd, † yr hwn yn [d] ol Duw a [e] grëwyd ‡ mewn [f] cyfiawnder ‖ a gwir sancteiddrwydd.

b pen. 6. 11. Job 29. 14. Es. 52. 1. a 59. 17. Rhuf. 13. 12, 14. 1 Cor. 15. 53, 54. Gal. 3. 27. Col. 3. 10—14. c pen. 2. 15. Rhuf. 6. 4. 2 Cor. 4. 16. a 5. 17. 1 Pedr 2. 2. d Gen. 1. 26, 27. 2 Cor. 3. 18. Col. 3. 10. 1 Ioan 3. 2. e Gwel ar pen. 2. 10. f Salm 45. 6, 7. Rhuf. 8. 29. Tit. 2. 14. Heb. 1. 8, 9. a 12. 14. 1 Ioan 3. 3.

* Yr "hen ddyn" (adn. 22,) ydoedd yr anian bechadurus sydd yn mhawb wrth natur; a'r "dyn newydd" yma, yw y dduwiol anian mae yr holl saint yn cael eu gwneyd yn gyfranogion o hóni. Nid *arferion drwg* yn unig, fel y dywed rhai, sydd i'w ddeall wrth yr hen ddyn; eithr *anian ddrwg*, o ba un mae arferion drwg yn tarddu: felly hefyd, nid *arferion da* yn unig, yw y dyn newydd; eithr *anian*, neu *egwyddor dda*, o ba un mae pob arferion da yn tarddu: y *pren* drwg sydd yn dwyn *ffrwythau* drwg; a'r *pren* da sydd yn dwyn *ffrwythau* da. *Gwisgo* y dyn newydd yw arddangos holl rasau yr Ysbryd yn eu gweithrediad hardd a phrydferth, yn ein hysbryd, ein tymherau, a'n holl ymddygiadau allanol. † Gwaith Duw yw y dyn newydd, wedi ei grëu gandd ef, yn ol ei ewyllys sanctaidd, ac yn ol neu ar ei ddelw fel y crëodd efe ddyn ar y cyntaf: ‡ ac mae y ddelw hon yn gynnwysedig mewn egwyddor a gweithredoedd gyfiawnder a gonestrwydd duwiol tuag at bawb o'n cyd grëaduriaid; ‖ ac mewn purdeb sanctaidd tuag a Dduw. Mae y sancteiddrwydd hwn hefyd yn bet gwirioneddol, tumewnol, ac effeithiol, mewn cyferbyn iad i ragrith arwynebol, ac i buredigaethau allanol seremoniol y ddeddf; ac yn gyssylltiedig â gwir wybod aeth o'r gwirionedd, yr hyn sydd ran arall o ddelw Duw. Colos. 3. 10. Sancteiddrwydd y gwirionedd medd rhai; a santeiddrwydd *trwy* y gwirionedd, medd eraill.

25 * O herwydd paham [g] gan fwrw ymaith gelwydd, [h] † dywedwch y gwir bob un wrth ei gymmydog: [i] ‡ oblegid aelodau ydym i'n gilydd.

g Lef. 19. 11. 1 Bren. 13. 18. Salm 52. 3. a 119. 29. Diar. 6. 17. a 12. 19, 22. a 21. 6. Es. 9. 15. a 59. 3, 4. a 63. 8. Jer. 9. 3—5. Hos. 4. 2. Ioan 8. 44. Act. 5. 3, 4. Col. 3. 9. 1 Tim. 1. 10. a 4. 2. Tit. 1. 2, 12. Dat. 21. 8. a 22. 15. h adn. 15. Diar. 8. 7. a 12. 17. Zec. 8. 16, 19. 2 Cor. 7. 14. i pen. 5. 30. Rhuf. 12. 5. 1 Cor. 10. 17. a 12. 12—27.

* Pob math o dwyll a dichell, a pha beth bynag sydd yn groes i wirionedd a gonestrwydd. Bwrw ymaith gelwydd yw dodi heibio yr hen ddyn; neu o leiaf dyn ran o'r gwaith hwnw. Bwrw ymaith bob celwydd, phob math o gelwydd, yw ystyr y geiriau gwreiddiol Dywedai llawer o'r moes-athrawon paganaidd goreu fod celwydd yn gyfreithlawn ar amryw achosion; a da iawn pe na byddai neb ond paganiaid yn dysgu y fath athrawiaeth benrydd a niweidiol: ond dysgir i ni yn well yma gan yr apostol. † Nid yn unig dywedyd gwir, ond hefyd gweithredu yn gywir a gonest tuag a ein cilydd yn mhob peth. ‡ Mae yr holl saint yn aelodau i'w gilydd fel corph dirgeledig Iesu; ac yn wir fel cymmydogion a chyd-wladyddion, mae pawb honom yn aelodau dinasaidd i'n gilydd; ac heb ddywed yd y gwir, ac ymddwyn yn onest a chywir tuag at ei gilydd, mae pob rhwymau eglwysig a dinasaidd yn cae eu dattod a'u dryllio.

26 [k] * Digiwch, † ac na phechwch: [l] ‡ n fachluded yr haul ar eich digofaint chwi:

k adn. 31, 32. Ex. 11. 8. a 32. 21, 22. Num. 20. 10—13, 24. 25. 7—11. Neh. 5. 6—13. Salm 37. 8. a 106. 30—33. Diar. 1. 29. a 19. 11. a 25. 23. Preg. 7. 9. Mat. 5. 22. Marc 3. 5. a 10. 14. Rhuf. 12. 19—21. Iago 1. 19. l Deut. 24. 15.

* "Digiwch;" nid gorchymyn i ddigio yw hyn, on goddefiad, neu ganiatâd. Mae yn addas dangos ar foddlonrwydd at yr hyn sy ddrwg, ar lawer achlysur mewn ardwyaeth teuluoedd, wrth geryddu am bechod ac wrth drin llawer o achosion bydol: felly nid yw po digio yn hollawl waharddedig. † Eto, dylai cristionog ion fod yn wyliadwrus a gofalus iawn i gadw y nwy beryglus hòno o fewn terfynau rheswm, addfwynde duwioldeb, a chariad; peidio digio heb achos, nè dros ben yr achos, neu ddigio mewn modd balch, hun anol, a sàrug; peidio dangos eu digter trwy warthrudd ac edliwio, neu arfer geiriau cas mewn tymher lidiog digio yn bechadurus fyddai hyny, mae yr hwn a ddig felly yn pechu mwy, efallai, na'r hwn a roes achos idd ddigio. ‡ Byddai Pythagoras, philosophydd paganaid yn dysgu i'w ddysgyblion heddychu ac ysgwyd dwylo y wastadol cyn machlud haul, os dygwyddai rhyw ymra ael rhyngddynt yn yspaid y dydd; a pha faint mwy dylai cristionogion, dysgyblion yr Arglwydd Iesu wne felly? Pe byddai gweddi deuluaidd yn cael ei harf yn wastad yn yr hwyr, byddai yn foddion da i gadw gorchymyn rhagorol hwn; yr hwn a roddir yn ddiamm i attal dynion i fyned i gysgu mewn digofaint, neu gael eu rhwystro i gysgu gan feddyliau poenus a diga og tuag at eu gilydd. Mae mayfyrdodau dybryd felly nyfnder nos, yn tueddu i fwyâu y digofaint, a thânio ysbryd llidiog, nes ei gynnyrfu efallai yn y ciwedd fwriadau o ddial tra pheryglus a phechadurus. Dyw

Scott fod y geirian "Digiwch ac na phechwch" wedi eu cymmeryd o gyfieithiad y 70 o Salm 4. 4: "ofnwch ac na phechwch" ydynt yn ein cyfieithiad ni.

27 * Ac na roddwch [m] le i † ddiafol.

m pen. 6. 11, 16. Act. 5. 3. 2 Cor. 2. 10, 11. Iago 4. 7. 1 Pedr 5. 8.

* Na roddwch le a mantais i ddiafol, i feddiannu a thânio eich calonau â digofaint yn erbyn eich gilydd, a'ch tueddu chwi i wrando ar chwedlau enllibaidd ac athroddaidd am y naill y llall, i'ch gwneuthur chwi mòr atgas a thruenus âg ef ei hun. † Mae y gair *(diabolos)* a gyfieithir yma "diafol" yn arwyddo unrhyw *gaugyhuddwr;* a dynion dieflig, yn offerynau yn llaw diafol yw pawb o'r cyfryw: da y gynnawn wylied rhagddynt, na roddom le na gwrandawiad iddynt.

28 [n] * Yr hwn a ladrattâodd, [o] na ladratted mwyach: † eithr yn hytrach [p] cymmered boen, gan weithio â'i ddwylaw yr hyn sydd dda; [q] ‡ fel y byddo ganddo beth i'w gyfrannu i'r hwn y mae angen arno.

n Ex. 20. 15, 17. a 21. 16. Diar. 30. 9. Jer. 7. 9. Hos. 4. 2. Zec. 5. 3. Ioan 12. 6. 1 Cor. 6. 10, 11. o Job 34. 32. Diar. 28. 13. Luc 3. 8, 10—14. a 19. 8. p Diar. 13. 11. a 14. 23. Act. 20. 34, 35. 1 Thes. 4. 11, 12. 2 Thes. 3. 6—8, 12. q Luc 3. 11. a 21. 1—4. Ioan 13. 29. 2 Cor. 8. 2, 12.

* Arferiad cyffredin oedd lladrata dirgelaidd gan y paganiaid, ar hyny yr oedd llawer o honynt yn byw, a thybient nad oedd fawr o niwed ynddo: efallai bod yr Ephesiaid heb gael eu cwbl waredu oddi wrth y meddwl o cyfeiliornus hyny am ddiniweidrwydd lladrata, os oeddynt yn hollawl oddi wrth yr arferiad o hóno. Mae yn ddiammau bod yno rai a fuasent yn lladron wedi cael eu galw trwy ras; ac wrth bob un o'r cyfryw mae yr apostol yn dywedyd, Yr hwn a latratâodd gynt yn ei annwybodaeth a'i bagandod, na ladrated mwyach wedi iddo ddysgu Crist, a gwneyd proffes o'i grefydd bur a gonest ef. † Ond yn hytrach ystyried pob un mai ei ddyledswydd yw gweithio, ac ennill ei fywioliaeth trwy ddiwydrwydd mewn rhyw alwedigaeth onest a da. ‡ Fel hyny ni bydd iddo brofedigaeth i ladrata, bydd ganddo fodd i fyw mewn gonestrwydd, a bydd ganddo fodd i gyfrannu i'r hwn sydd heb waith, neu yr hwn ni all weithio gan henaint neu afiechyd, ac sy mewn angen.

29 [r] * Na ddeued un ymadrodd llygredig allan o'ch genau chwi, [s] † ond y cyfryw un ag a fyddo da i adeiladu yn fuddiol, [t] ‡ fel y paro ras i'r gwrandawyr.

r pen. 5. 3, 4. Salm 5. 9. a 52. 2. a 73. 7—9. Mat. 12. 34—37. Rhuf. 3. 13, 14. 1 Cor. 15. 32, 33. Col. 3. 8, 9. Iago 3. 2—8. 2 Pedr 2. 18. Judas 13—16. Dat. 13. 5, 6. s Deut. 6. 6—9. Salm 37. 30, 31. a 45. 2. a 71. 17, 18, 24. a 78. 4, 5. Diar. 10. 31, 32. a 12. 13. a 15. 2—4, 7, 23. a 16. 21. a 25. 11, 12. Es. 50. 4. Mal. 3. 16—18. Luc 4. 22. 1 Cor. 14. 19. Col. 3. 16, 17. a 4. 6. 1 Thes. 5. 11. t Mat. 5. 16. 1 Pedr 2. 12. a 3. 1.

* Yn adn. 26, cawsom rëol am y tymherau; yn adn. 28, am y gweithredoedd; ac yma, am y geirian. "Ymadrodd llygredig:" ymadrodd mursenaidd, cnawdol ac aflan yn ddiau, yr hyn yn briodol iawn a elwir ymadrodd *llygredig* neu *fraenllyd*, mewn cyferbyniad hollawl i ymadrodd *grasol, wedi ei dymheru â halen;* (Colos. 4. 6.) yr hwn sydd yn tueddu i gadw rhag y fath lygredigaeth a braeniad. Mae ymadrodd llygredig yn deilliaw o galonau llygredig, yn ffrwyth meddyliau llygredig, yn llygredig yn ei natur, ac yn magu llygredigaeth yn mhawb a'i gwrandawo. Och fod dynion a ddylent wybod gwell, ie, rhai proffeswyr cnawdol, yn arfer ymadroddion llygredig! † Gwaharddai yr apostol y fath ymadrodd ffiaidd a gwenwynig, a chyngorai na ddelai dim o enau yr Ephesiaid ond y cyfryw ymadrodd ag a fyddai da, buddiol, ac adeiladol: ‡ y cyfryw a fyddai dàn fendith Duw yn tueddu i beri gras i'r gwrandawwyr; un ai trwy ddwyn dynion anystyriol i feddyliau sobr a difrifol; neu gryfâu, gwresogi, ac adnewyddu gras y credinwyr.

30 [u] * Ac na thristêwch Lân Yspryd Duw, [x] † trwy yr hwn y'ch seliwyd [y] ‡ hyd ddydd prynedigaeth.

u Gen. 6. 3, 6. Barn. 10. 6. Salm 78. 40. a 95. 10. Es. 7. 13. a 43. 24. a 63. 10. Ezec. 16. 43. Marc 3. 5. Act. 7. 51. 1 Thes. 5. 19. Heb. 3. 10, 17. x Gwel ar pen. 1. 13. y pen. 1. 14. Hos. 13. 14. Luc 21. 28. Rhuf. 8. 11, 23. 1 Cor. 1. 30. a 15. 54.

* Yn y pethau uchod a enwyd, ac yn mhob ystyriaethau eraill, dylai cristionogion fod yn dra gwyliadwrus na thristâont Lan Ysbryd Duw; ond iddo gael preswylio ynddynt yn ewyllysgar, wrth ei fodd, fel mewn annedd hyfryd a dymunol, heb gael dim achos o dristwch nac anfoddlonrwydd. Pan wnelo tad bob peth angenrheidiol er lles ei fab, mae efe yn tristâu os ymddwg ei fab yn anweddaidd: ac o ganlyniad, nid yw yn rhydd a siriol yn ei gymdeithas âg ef; efe a gilia oddi wrtho, neu a wga arno. Fel Duw anfeidrol ddedwydd, nis gall yr Ysbryd Glân dristâu; ond dywedir am dano yma mewn dull dynol, ac fel hyny priodolir tristwch iddo. † Mae dylanwadau sancteiddiol a chysurol yr Ysbryd Glân yn selio y saint, fel pobl briodol i Dduw, ‡ hyd ddydd prynedigaeth, sef hyd ddydd yr adgyfodiad cyffredinol. Gwel ar 2 Cor. 1. 22; pen. 1. 13. Fel y mae marsiandwyr yn selio eu nwyddau, er nodi mai eu heiddo hwy ydynt cyn eu dwyn adref; felly mae Duw trwy ei Ysbryd yn selio ei bobl yn y byd hwn, hyd oni wnelo efe i fynu yr holl briodoledd yn y dydd diweddaf.

31 * Tynner ymaith oddi wrthych bob [z] chwerwedd, [a] a llid, a dig, [b] † a llefain, ‡ a [c] chabledd, [d] || gyd â phob drygioni.

z Salm 64. 3. Rhuf. 3. 14. Col. 3. 19. Iago 3. 14, 15. a Gwel ar adn. 26.—Diar. 14. 17. a 19. 12. Preg. 7. 9. 2 Cor. 12. 20. Gal. 5. 20. Col. 3. 8. 2 Tim. 2. 23. Tit. 1. 7. Iago 1. 19. a 3. 14—18. a 4. 1, 2. b 2 Sam. 19. 43. a 20. 1, 2. Diar. 29. 9, 22. Act. 19. 28, 29. a 21. 30. a 22. 22, 23. 1 Tim. 3. 3. a 6. 4, 5. c Lef. 19. 16. 2 Sam. 19. 27. Salm 15. 3. a 50. 20. a 101. 5. a 140. 11. Diar. 6. 19. a 10. 18. a 18. 8. a 25. 23. a 26. 20. Jer. 6. 28. a 9. 4. Rhuf. 1. 29, 30. 1 Tim. 3. 11. a 5. 13. 2 Tim. 3. 3. Tit. 2. 3. a 3. 2. Iago 4. 11. 1 Pedr 2. 1. 2 Pedr 2. 10, 11. Judas 8—10. Dat. 12. 10. d Gen. 4. 8. a 27. 41. a 37. 4, 21. Lef. 19. 17, 18. 2 Sam. 13. 22. Diar. 10. 12. a 26. 24, 25. Preg. 7. 9. Rhuf. 1. 29. 1 Cor. 5. 8. a 13. 29. Col. 3. 8. Tit. 3. 3. 1 Ioan 3. 12, 15.

* Mae yr Ysbryd Glân hefyd yn Ysbryd o rad a heddwch, gan hyny os mynwn na thristâom ef, rhaid i ni ofalu am gael ein gwaredu oddi wrth yr holl bethau atgas a enwir yma, y rhai ydynt mòr groes i'w natur sanctaidd a heddychol ef. Nid oes achos manylu ar bob un o'r pethau a enwir yma; efallai mai amcan yr apostol yn pentyru cynnifer o eiriau ag sy bron yn gyfystyr oedd, dangos y mynai efe i'r Ephesiaid fod ar eu gwyliadwriaeth rhag *pob math* o *nwydau digasog*, a'r geiriau cyffrôus a therfysglyd hyny a gynnyrfid gan y fath nwydau. Gellir gwneyd yr un sylw ar lawer rhan arall o'r ysgrythyr, ac yn enwedig y rhanau hyny lle mae aflendid cnawdol yn cael ei grybwyll a'i wahardd mewn cyffelyb amrywiaeth o eiriau ac ymadroddion. † "Llefain:" siarad uchel dwrdiol, fel y bydd dynion cyffrôus a therfysglyd mewn nwydau drwg cynddeiriog. ‡ Cablu Duw, neu gablu eu gilydd; yr olaf a feddylir yn benaf yma: sènu, enllibio, a gwaradwyddo y naill y llall: effeithiau y chwerwedd, y llid, a'r dig uchod. || A phob malais, yn ol y Saesoneg; efallai bod y gair Groeg *(kakia)* yn arwyddo drygioni o bob math yn gyffredinol, yn enwedig cenfigen a malais.

32 * A byddwch [e] gymmwynasgar i'ch gilydd, [f] yn dosturiol, yn maddeu i'ch gilydd, † megis y maddeuodd Duw er mwyn Crist i chwithau.

e Ruth 2. 20. Salm 112. 4, 5, 9. Diar. 19. 22. Es. 57. 1. Luc 6. 35. Act. 28. 2. Rhuf. 12. 10. 1 Cor. 13. 4. 2 Cor. 6. 6. Col. 3. 12. 2 Pedr 1. 7. f Salm 145. 9. Diar. 12. 10. Luc 1. 78. Iago 5. 11. g pen. 5. 1. Gen. 1. 17, 18. Mat. 6. 12, 14, 15. a 18. 21—35. Marc 11. 25. Luc 6. 37. a 11. 4. a 17. 4. Rhuf. 12. 20, 21. 2 Cor. 2. 7, 10. Col. 3. 12, 13. 1 Pedr 3. 8, 9. 1 Ioan 1. 9. a 2. 12.

* Mewn cyferbyniad i'r pethau gwaharddedig uchod, gorchymynir y pethau hyn; a rhwng y pethau a waherddir â'r pethau a orchymynir, ni a welwn beth yw dodi heibio yr hen ddyn, a pha beth yw gwisg y dyn newydd. Nid oes achos manylu ar y geiriau hyn

chwaith, maent yn ddigon dealladwy i bawb a'u darlleno: cynnysgaethed Duw ni oll âg ysbryd i'w harfer hwynt tuag at ein gilydd. † Megys y mae Duw yn Nghrist, trwy ei iawn ef, ac er ei fwyn ef, yn maddeu yn rhad i ni, heb ofyn dim iawn genym ni; felly maddeuwn ninnau yn rhwydd ac yn rhad i'n gilydd.

PEN. V.

Cyngorion cyffredinol at gariad brawdol.

*BYDDWCH gan hynny [a] ddilynwyr Duw, [b] † fel plant anwyl;

a pen. 4. 32. Lef. 11. 45. Mat. 5. 45, 48. Luc 6. 35, 36. 1 Pedr 1. 15, 16. 1 Ioan 4. 11. b Jer. 31. 20. Hos. 1. 10. Ioan 1. 12. Col. 3. 12. 1 Ioan 3. 1, 2.

* Yn lle coledd y nwydau grymus a digofus a grybwyllwyd yn adn. 31, o'r bennod o'r blaen, mae yr apostol yn annog yr Ephesiaid i ddilyn Duw, neu i fod yn debyg i Dduw, yn enwedig yn y pethau a enwyd yn yr adnod olaf o'r bennod o'r blaen: † dylai plant geisio tebygu i'w tad yn yr hyn sy dda: a dylai plant Duw yn enwedig debygu i'w Tad nefol ac anwyl, yn ei holl berffeithiau moesawl, ac yn enwedig yn y cariad a grybwyllir yn yr adnod nesaf.

2 [c] * A rhodiwch mewn cariad, [d] † megis y carodd Crist ninnau, ‡ ac a'i rhoddodd ei hun drosom ni, yn offrwm ac yn [e] aberth i Dduw [f] || o arogl peraidd.

c pen. 3. 17. a 4. 2, 15, 16. Ioan 13. 34. Rhuf. 14. 15. 1 Cor. 16. 14. Col. 3. 14. 1 Thes. 4. 9. 1 Tim. 4. 12. 1 Pedr 4. 8. 1 Ioan 3. 11, 12. a 4. 20, 21. d adn. 25. pen. 3. 19. Mat. 20. 28. Ioan 15. 12, 13. 2 Cor. 5. 14, 15. a 8. 9. Gal. 1. 4. a 2. 20. 1 Tim. 2. 6. Tit. 2. 14. Heb. 7. 25—27. a 9. 14. 1 Pedr 2. 21—24. 1 Ioan 3. 16. Dat. 1. 5. a 5. 9. e Rhuf. 8. 3. 1 Cor. 5. 7. Heb. 9. 23. a 10. 12. f Gen. 8. 21. Lef. 1. 9, 13, 17. a 3. 16. Amos 5. 21. 2 Cor. 2. 15.

* "*Rhodiwch* mewn cariad," sef yn wastadol, nid weithiau yn frwd, weithiau yn oer, ac weithiau yn glaiar; ond bydded holl agwedd eich ysbryd bob amser yn llawn o gariad: cariad at Dduw, a Christ, a chariad at holl blant anwyl Duw, heb wneyd dim gwahaniaeth rhwng Iuddew na Groegwr. † Megys y carodd Crist ei holl bobl, heb wneyd dim gwahaniaeth rhwng un genedl mwy na'r llall; ‡ ac a'i rhoddes ei hun dros ei holl bobl yn offrwm gwirfoddol, ac yn aberth byw, pur, a difai, || o arogl peraidd i Dduw, fel sylwedd mawr yr aberthau cysgodol o hóno gynt. Gwel y cyfeiriadau dàn *f*. Nid am fod y Tad yn ymhyfrydu yn nyoddefiadau mawrion ei anwyl Fab ynddynt eu hunain; ond yr oedd ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd fel hyn yn cael eu gogoneddu, a ffordd gyfiawn ac anrhydeddus yn cael ei hagoryd i drugarâu wrth bechaduriaid a haeddasant ei ddialedd ofnadwy ef: yn y dangosiad hyn o'i ogoniant yr oedd efe yn ymhyfrydu yn fawr.

3 * Eithr [g] godineb, † a phob aflendid, [h] ‡ neu gybydd-dra, [i] || na enwer chwaith yn eich plith, [k] § megis y gweddai i saint;

g adn. 5. pen. 4. 19. Num. 25. 1. Deut. 23. 17, 18. Mat. 15. 19. Marc 7. 21. Act. 15. 20. Rhuf. 1. 29. 1 Cor. 5. 10, 11. a 6. 9, 10, 13, 18. a 10. 8. 2 Cor. 12. 21. Gal. 5. 19—21. Col. 3. 5. 1 Thes. 4. 3, 7. Heb. 12. 16. a 13. 4. 2 Pedr 2. 10. Dat. 2. 14, 21. a 9. 21. a 21. 8. a 22. 15. h adn. 5. Ex. 18. 21. a 20. 17. Jos. 7. 21. 1 Sam. 8. 3. Salm 10. 3. a 119. 36. Diar. 28. 16. Jer. 6. 13. a 8. 10. a 22. 17. Ezec. 33. 31. Mica 2. 2. Marc 7. 22. Luc 12. 15. a 16. 14. Act. 20. 33. 1 Cor. 6. 10. Col. 3. 5. 1 Tim. 3. 3. a 6. 10. 2 Tim. 3. 2. Tit. 1. 7, 11. Heb. 13. 5. 1 Pedr 5. 2. 2 Pedr 2. 3, 14. i Ex. 23. 13. 1 Cor. 5. 1. k Rhuf. 16. 2. Phil. 1. 27. 1 Tim. 2. 10. Tit. 2. 3.

* Eithr *putteindra* a phob aflendid, yw y geiriau yn ol y Saesoneg: *Moicheia* yw y gair Groeg am odineb, eithr *Porneia* yw y gair yn y fàn hon; eto defnyddir hwnw weithiau am odineb yn gystal ag am butteindra: am y ddau air Cymraeg, a'r pechodau ysgeler a arwyddant, nid oes achos manylu. † Pob aflendid yn y galon, y meddwl, y geiriau, yr ystumiau, y gwisgoedd, yr edrychiadau, a'r gweithredoedd: pob peth a dueddo i'n halogi ein hunain, neu i halogi eraill drwyddom ni. Arferid, cyfreithlonid, a dadleuid dros lawer math o aflendid, ac yn enwedig putteindra, i raddau anhygoel i ni gan y prydyddion cenedlig, ac hyd yn nôd gan y philosophyddion, y rhai a gymmerent arnynt fod yn athrawon doethion y bobl. ‡ "Neu gybydd-dra:" awydd gormodawl am elw a meddiannau bydol yn gyffredin a feddylir wrth gybydd-dra; ond mae llawer o dduwinyddion da yn meddwl mai awydd a chwant llosgedig ac anniwalladwy am gyflawni blysiau aflan y cnawd, yw meddwl y gair yn y fàn hon. || Na ddyweder byth fod neb o honoch chwi yn euog o'r cyfryw bethau; ac na enwer y cyfryw bethau yn eich plith, ond gyda'r atgasrwydd a'r ffieiddiad mwyaf: § mae yn anweddus i saint gyflawni y cyfryw bethau, eu coledd yn eu calonau, na siarad dim am danynt yn eu geiriau: dylai y saint fod yn ddiwair ac yn bur yn eu meddwl, eu geiriau, a'u cyrph; ac yn llestri cyssegredig i Dduw, yn ol eu proffes sanctaidd fel cristionogion.

4 * Na [l] serthedd, † nac ymadrodd ffol, ‡ na choeg ddigrifwch, [m] || pethau nid ydynt weddus: [n] § eithr yn hytrach rhoddi diolch.

l pen. 4. 29. Diar. 12. 23. a 15. 2. Preg. 10. 13. Mat. 12. 34—37. Marc 7. 22. Col. 3. 8. Iago 3. 4—8. 2 Pedr 2. 7, 18. Judas 10, 13, 15. m Rhuf. 1. 28. Philemon 8. n adn. 19, 20. pen. 1. 16. Salm 33. 1. a 92. 1. a 107. 21, 22. Dan. 6. 10. Ioan 6. 23. 2 Cor. 1. 11. a 9. 15. Phil. 4. 6. Col. 3. 15—17. 1 Thes. 3. 9. a 5. 18. Heb. 13. 15.

* Geiriau budron, aflan, cnawdol, ac anniwair. † Pob math o eiriau segur, ffol, a chellweirus; diles i'r gwrandawwyr, a chas gan Dduw, a phawb sydd yn ofni Duw. ‡ Dywedir fod y gair Groeg *(eutrapelia)* yn arwyddo dull rhwydd a pharod o droi yr ymddiddan, a'i chymhwyso i grëu llawenydd, ysgafnder, a chwerthin ynfyd. Cyfrifai Aristotle, athronydd paganaidd, hyny yn un o'r rhinweddau moesol; a chanmola y cyfryw beth fel peth dymunol mewn cyfeillach; || ond dywed yr apostol sanctaidd am hyny fel y pethau eraill, nad yw yn weddus i rai yn proffesu duwioldeb. § Y peth mwyaf gweddus i saint yw arfer eu hunain i ganmol Duw yn eu hymddiddanion; a rhoddi diolch yn wastadol iddo ef am ddaioni ei ragluniaeth, a thrugareddau annrhaethol ei ras.

5 [o] * Canys yr ydych chwi yn gwybod hyn, [p] am bob putteiniwr, neu aflan, † neu gybydd [q] ‡ yr hwn sydd ddelw-addolwr, nad oes iddynt etifeddiaeth yn || nheyrnas Crist, a Duw.

o 1 Cor. 6. 9, 10. p Gwel ar adn. 3. q Col. 3. 5. 1 Tim. 6. 10, 17. Dat. 21. 8. a 22. 15.

* Am butteinwyr a rhai aflan, nid rhyfedd y cânt eu cauad allan o deyrnas Crist, a Duw; barna y cybydd ei hun y dylai y cyfryw rai gael eu cauad allan; † ond mae yn chwith iawn gan lawer cybydd rhith-grefyddol yn awr feddwl, y caiff yntau hefyd ei gauad allan gyda'r putteinwyr a'r rhai aflan hyny. ‡ Beth bynag yw gwrthddrych ei gybydd-dod ef, delw-addolwr yw efe yn nghyfrif Duw, yn dewis ac yn caru peth arall yn lle Duw, ac yn fwy na Duw, ac yna pa ryfedd nad oes iddo etifeddiaeth yn nheyrnas Crist, a Duw? || Teyrnas Crist, sef Duw; neu deyrnas Crist, yr hwn yw Duw, neu sydd Dduw: un yw y deyrnas, ac un Duw yw y Personau; ond yma crybwyllir am Grist fel Cyfryngwr, megys yn wahanol i'r Tad.

6 [r] * Na thwylled neb chwi â geiriau [s] ofer: † canys oblegid y pethau hyn y [t] mae digofaint Duw yn dyfod ar [u] blant yr anufudd-dod.

r Jer. 29. 8, 31. Ezec. 13. 10—16. Mica 3. 5. Mat. 24. 4, 24. Marc 13. 5, 22. Gal. 6. 7, 8. Col. 2. 4, 8, 18. 2 Thes. 2. 3, 10—12. 1 Ioan 4. 1. s 2 Bren. 18. 20. Jer. 23. 14—16. t Num. 32. 13, 14. Jos. 22. 17, 18. Salm 78. 31. Rhuf. 1. 18. Col. 3. 6. u Gwel ar pen. 2. 2, 3.

* Na thwylled neb chwi, nac Iuddewon trwy gauagoriadau ar y ddeddf, na chenedloedd trwy gau philosophi a gwag resymau: efallai bod pob un o'r ddwy-blaid yn ceisio ymresymu yn erbyn Paul am y pechodau a enwyd uchod, nad oeddynt mòr anghyflawn, nac yn gymmaint pechodau, ac y mynai efe i ddynion feddwl eu bod. † Beth bynag a daerai y gau

ymresymwyr hyn, gwyddai yr apostol yn sicr fod digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudd-dod am y cyfryw bechodau; yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw. Os yw digofaint Duw yn dyfod ar y paganiaid am y cyfryw bechodau, pa faint mwy y daw ar ddynion a elwir yn cristionogion, a arferant yr un pechodau yn wyneb goleuni eglurach, a gwybodaeth helaethach?

7 [x] * Na fyddwch gan hynny gyfrannogion â hwynt.

x adn. 11. Num. 16. 26. Salm 50. 18. Diar. 1. 10—17. a 9. 6. a 13. 20. 1 Tim. 5. 22. Dat. 18. 4.

* Na fyddwch gyfranogion â phlant yr anufudd-dod yn eu pechodau, fel na byddoch gyfranogion â hwynt yn y digofaint, yr hwn drwy farn gyfiawn Duw a dywelltir yn ffrydiau ofnadwy arnynt.

8 * Canys [y] yr oeddych chwi gynt yn dywyllwch, [z] † ond yr awrhon goleuni *ydych* yn yr Arglwydd: [a] ‡ rhodiwch fel plant y goleuni:

y pen. 2. 11, 12. a 4. 18. a 6. 12. Salm 74. 20. Es. 9. 2. a 42. 16. a 60. 2. Jer. 13. 16. Mat. 4. 16. Luc 1. 79. Act. 17. 30. a 26. 18. Rhuf. 1. 21. a 2. 19. 2 Cor. 6. 14. Col. 1. 13. Tit. 3. 3. 1 Pedr 2. 9. 1 Ioan 2. 8. z Es. 42. 6, 7. a 49. 6, 9. a 60. 1, 3, 19, 20. Ioan 1. 4, 5, 9. a 8. 12. a 12. 46. 1 Cor. 1. 30. 2 Cor. 3. 18. a 4. 6. 1 Thes. 5. 4—8. 1 Ioan 2. 9—11. a adn. 2. Es. 2. 5. Luc 16. 8. Ioan 12. 36. Gal. 5. 25. 1 Pedr 2. 9—11. 1 Ioan 1. 7.

* Buasai yr Ephesiaid unwaith yn dywyllwch eu hunain, drwy eu hollawl annwybodaeth am Dduw a'i ewyllys; † ond yn awr drwy yr efengyl, yr oeddynt wedi cael eu gwneyd yn oleuni yn yr Arglwydd, wedi eu goleuo gan Grist, a'u huno â Christ, Goleuni y byd. ‡ Am hyny dylent rodio fel plant y goleuni; fel dynion wedi eu geni drachefn i'r byd ysbrydol, i gael eu hyfforddi a'u dwyn i fynu fel etifeddion goleuni y nef. Gan fod *tywyllwch* a *goleuni* yn yr ysgrythyr yn arwyddo *pechod* a *sanctaiddrwydd*, yn gystal â *chyfeiliornì* a *gwirionedd*, neu *annwybodaeth* a *gwybodaeth*, yr hyn yw y goleuni sydd yn egluro, adn. 13, gellir ddeall pob un o honynt yn yr adnod uchod, fel yn arddangos cyflwr blaenorol a phresenol yr Ephesiaid. Yn gyfatebol i hyny mae *plant y goleuni* yn yr adnod dhon yn sefyll mewn cyferbyniad i *blant yr anufuddddod*, yn adn. 6: a dull Hebreaidd o lefaru yw y ddau; yn arwyddo dynion dàn awdurdod eithaf tywyllwch ac anufudd-dod, fel pe buasent wedi eu geni o'r ddau ibeth hyny, yn ymroddi iddynt, ac yn ymhyfrydu ynddynt, fel y gwna plant yn naturiol yn eu rhieni.

9 * (Canys [b] ffrwyth yr Ysbryd *sydd* ym mhob [c] daioni, [d] a chyfiawnder, [e] a gwirionedd)

b Gwel ar Gal. 5. 22, 23. c Salm 16. 2, 3. Rhuf. 2. 4. a 15. 14. 1 Pedr 2. 28. 3 Ioan 11. d Phil. 1. 11. 1 Tim. 6. 11. Heb. 11. 8. a 11. 23. 1 Pedr 2. 24. 1 Ioan 2. 29. a 3. 9, 10. e Gwel ar pen. 4. 15, 25.—a 6. 14. Ioan 1. 47.

* Os oeddynt hwy wedi eu goleuo yn dumewnol, ceaent eu harwain gan yr Ysbryd Glân, awdwr y cyfnewidiad, i bob rhodiad ac ymarweddiad sanctaidd ac iaddas; oblegid yr oedd ffrwyth yr Ysbryd yn gynnwysedig yn mhob math o ddaioni, trugaredd, cyfiawnder, uniondeb, a gwirionedd diragrith, tuag at ddynion; yn gystal â chywirdeb ac uniondeb yn eu proffes gristionogol, eu hofn sanctaidd, a'u cariad tuag at Dduw. Ffrwyth y *goleuni*, a roddir mewn rhai ysgrifau Groeg o'r adnod hon, meddant, yn lle ffrwyth yr *Ysbryd:* yr un yw y meddwl; ffrwyth yr Ysbryd yw ffrwyth y goleuni, a ffrwyth y goleuni yw ffrwyth yr Ysbryd.

10 * Gan [f] brofi beth sydd [g] gymmeradwy gan yr Arglwydd.

f 1 Sam. 17. 39. Rhuf. 12. 1, 2. Phil. 1. 10. 1 Thes. 5. 21. g Salm 19. 14. Diar. 21. 3. Es. 58. 5. Jer. 6. 20. Rhuf. 14. 18. Phil. 4. 18. 1 Tim. 2. 3. a 5. 4. Heb. 12. 28. 1 Pedr 2. 5, 20.

* Mae yr apostol yn annog yr Ephesiaid, (ac yn ein thannog ninnau oll,) i brofi yn ngoleuni y gair a'r Ysbryd Glân, pa bethau sydd gymmeradwy gan yr Arglwydd, i ymhyfrydu yn y pethau hyny, ac i ymarfer yn gydwybodol â hwynt, er rhyngu bodd Duw, ei ogoneddu ef, a rhoddi prawf eglur o wirionedd diragrith eu proffes.

11 * Ac na [h] fydded i chwi gyd-gyfeillach [i] â gweithredoedd [k] anffrwythlawn † y tywyllwch, [l] ‡ eithr yn hytrach argyhoeddwch hwynt.

h adn. 7. Gen. 49. 5—7. Salm 1. 1, 2. a 26. 4, 5. a 94. 20, 21. Diar. 4. 14, 15. a 9. 6. Jer. 15. 17. Rhuf. 16. 17. 1 Cor. 5. 9—11. a 10. 20, 21. 2 Cor. 6. 14—18. 2 Thes. 3. 6, 14. 1 Tim. 6. 5. 2 Tim. 3. 5. 2 Ioan 10, 11. Dat. 18. 4. i pen. 4. 22. Job 24. 13—17. Ioan 3. 19—21. Rhuf. 1. 22—32. a 13. 12. 1 Thes. 5. 7. k Diar. 1. 31. Es. 3. 10, 11. Rhuf. 6. 21. Gal. 6. 8. l Gen. 20. 16. Lef. 19. 17. Salm 141. 5. Diar. 9. 7, 8. a 13. 18. a 15. 12. a 19. 25. a 25. 12. a 29. 1. Es. 29. 21. Mat. 18. 15. Luc 3. 19. 1 Tim. 5. 20. 2 Tim. 4. 2. Tit. 2. 15.

* Dywedir fod y gair Groeg *(akarpos)* a gyfieithir yma "anffrwythlawn," yn arwyddo *niweidiol* yn gystal âg *anffrwythlawn*, neu *anfuddiol;* a hyny yn ddiammau yw ei ystyr yn y fàn hon: nid anffrwythlawn ac anfuddiol yn unig yw gweithredoedd y tywyllwch, ond drwg a niweidiol iawn hefyd. Rhuf. 6. 21. Am hyny mae yr apostol yn cyngori na byddo i ni gyd-gyfeillach mewn un modd â'r cyfryw weithredoedd, nac â neb sydd yn eu gweithredu, ac na roddom y cefnogaeth lleiaf i'r cyfryw weithredoedd na gweithredwyr. † Gweithredoedd y tywyllwch ydynt, am mai dynion o feddyliau tywyll ac annwybodus mewn ystyr ysbrydol sydd yn eu gwneyd; yn cael eu gosod ar waith gan Satan tywysog y tywyllwch; gweithredoedd yn cael eu gwneyd yn y tywyllwch, am na oddefent y goleuni; a gweithredoedd yn addfedu ac yn arwain o'r diwedd i dywyllwch eithaf. ‡ Nid yw yn ddigon i ddynion crefyddol fod heb gyd-gyfeillach â'r cyfryw weithredoedd; dylent eu hargyhoeddi hefyd, mewn geiriau llymion a didderbyn-wyneb, a thrwy eu hymarweddiad sanctaidd a'u gweithredoedd da eu hunain, yr hyn efallai yw y ffordd oreu, mwyaf effeithiol a didramgwydd o argyhoeddi dynion o'u gweithredoedd drwg.

12 [m] * Canys brwnt yw adrodd † y pethau a wneir ganddynt hwy [n] yn ddirgel.

m adn. 3. Rhuf. 1. 24—27. 1 Pedr 4. 3. n 2 Sam. 12. 12. Diar. 9. 17. Preg. 12. 14. Jer. 23. 24. Luc 12. 1, 2. Rhuf. 2. 16. Dat. 20. 12.

* Yr oedd yn frwnt, yn warth, ac yn gywilydd dynoliaeth, hyd yn nôd i adrodd y pethau a gyflawnai y paganiaid yn aml, † nid yn unig mewn tafarn-dai a phuttein-dai, ond yn fwy neilduol yn nefodau dirgelaidd eu crefydd aflan a ffiaidd. Tybia dysgedigion yn gyffredin, bod yr apostol yn cyfeirio yma yn benaf at arferion echryslawn, ffiaidd, a halogedig y paganiaid, yn nghyflawniadau dirgel eu delw-addoliaeth, yr hyn nid oedd i gael eu hamlygu i eraill. Cyfrifai y paganiaid tywyll ac ynfyd y cyflawniadau hyny yn rhŷ *sanctaidd* a *chyssegraidd* i'w hadrodd; ond cyfrifai yr apostol hwynt yn rhŷ *fryntion* ac *aflan* i'w hadrodd. Beth bynag sydd o gyfeiriad yn y geiriau at y defodau ffiaidd a enwyd, mae yn ddiammau bod ynddynt gyfeiriad hefyd, at y gweithredoedd a grybwyllwyd yn yr adnod o'r blaen: brwnt yn y byd oeddynt, ond llawer bryntach o'u cyflawni dàn rith, ac fel rhan o addoliad crefyddol, i'w duwiau ffiaidd yn eu temlau. Och mòr druenus y mae Satan a phechod wedi darostwng, llygru, ac ynfydu dynolryw!

13 * Eithr pob peth, wedi yr argyhoedder a eglurir gan y goleuni: [o] † canys beth bynnag sydd yn egluro, goleuni yw.

o Mica 7. 9. Ioan 3. 20, 21. 1 Cor. 4. 5. Heb. 4. 13.

* Ond yr Ephesiaid crefyddol, y rhai oedd yr awr hon yn oleuni yn yr Arglwydd, (adn. 8,) hwy a allent drwy y goleuni hwnw farnu a chondemnio y gweithredoedd gwrthun a drygionus hyny, oedd yn rhŷ aflan i ddyoddef y goleuni, ac a argyhoeddid gan oleuni gair ac Ysbryd Duw, a chan eu hymarweddiad da hwythau. † Oblegid pa beth bynag a wnelo wrthddrychau yn weledig, ac a'u dangoso yn eu gwir agwedd, goleuni yw; felly yr hyn a ddangosodd iddynt hwy atgasrwydd, euogrwydd, ac enbydrwydd y gweithredoedd aflan a enwyd, ac a'u heglurodd hwy yn eu lliwiau ofnadwy, i beri i'r Ephesiaid eu casâu, eu gwrthod, a'u condemnio,

ydoedd oleuni mewn gwirionedd: goleuni a gwybodaeth Crist a'i air ydoedd, wedi llewyrchu yn eu calonau hwy, ac yn gwneuthur iddynt hwythau lewyrchu megys goleuadau yn y byd; fel yr oeddynt trwy eu cyngorion da a'u hymarweddiad da, yn argyhoeddi dynion drwg, ac yn eu cywilyddio o'u gweithredoedd aflan, y rhai ni welent niwed o honynt o'r blaen. Dyma y goleuni rhagorol y dygir y saint iddo, ac y gelwir hwynt i rodio ynddo.

14 * O herwydd paham y mae efe yn dywedyd, [p] † Deffro di yr hwn wyt yn cysgu, [q] ‡ a chyfod oddi wrth y meirw; [r] ‖ a Christ a oleua i ti.

p Es. 51. 17. a 52. 1. a 60. 1. Rhuf. 13. 11. 1 Cor. 15. 34. 2 Tim. 2. 26. q pen. 2. 5. Es. 26. 19. Ezec. 37. 4—10. Ioan 5. 25—29. a 11. 43, 44. Rhuf. 6. 4, 5, 13. Col. 3. 1. r Ioan 8. 12. a 9. 5. Act. 13. 47. 2 Cor. 4. 6. 2 Tim. 1. 10.

* "Mae *efe* yn dywedyd:" un ai Duw trwy weinidogaeth y prophwydi gynt, o'r hyn y swm yw, "Deffro di yr hwn wyt yn cysgu," &c., gan gyfeirio yn bennodol efallai at Esa. 60. 1. Neu ynte Crist trwy ei weinidogion yn mhregethiad yr efengyl, yr hwn sydd yn wastad yn galw ar bechaduriaid i ddeffrôi o gwsg marwol pechod drwy edifeirwch, ac yn eu calonogi âg addewid bywyd tragywyddol. † Mewn rhyw ystyr gellir dywedyd fod pechaduriaid yn eu cyflwr natur yn cysgu; maent mòr llawn o freuddwydion a gwag-ddychymmygion, ac mòr anaddas i bob gwaith da, â dynion mewn cwsg naturiol. ‡ Mewn ystyriaethau eraill maent yn feirw, ac yn gorwedd yn mhlith y meirw; yn fraenllyd, yn ddrewedig ac yn ffiaidd, fel cyrph meirw. Yma gan hyny, gelwir arnynt i ddeffrôi o bechod fel cwsg, ac i gyfodi o hóno fel marwolaeth: y meddwl yw, y dylent ddeffrôi mewn edifeirwch, a chyfodi mewn ffydd, o'r cyflwr hwnw o farwolaeth ysbrydol yr oeddynt yn gorwedd ynddo drwy bechod. ‖ Goleuni heddwch a llawenydd yma, a goleuni tragywyddol ogoniant yn y byd a ddaw: Crist ei hun yw y goleuni, ac efe sydd yn goleuo ei bobl yma ac yn y nef. Yn ol rhediad cyffredinol prophwydoliaethau yr Hen Destament, am alwad y cenedloedd, ac yn enwedig Esa. 60. 1; yr oedd Duw yn amser yr apostolion yn eu galw hwynt i ddeffrôi a chyfodi fel y sylwyd uchod: a dylai yr un adnod hon roddi dystawrwydd byth ar y dynion rhyfygus hyny, a daerant na ddylai gweinidogion yr efengyl alw a chymhell pechaduriaid fel y cyfryw, i ddychwelyd at Dduw, tra maent yn feirw mewn pechod. Mae rhai yn wir a hònant, mai at ddynion duwiol, ond dynion duwiol wedi myned yn gysglyd a gwrthgiliedig, yn eglwys Ephesus, yr oedd yr apostol yn cyfeirio y geiriau hyn, ac nid at bechaduriaid yn eu cyflwr natur.

15 [s] * Gwelwch gan hynny pa fodd y [t] rhodioch yn ddïesgeulus, [u] † nid fel annoethion, ‡ ond fel doethion;

s adn. 33. Mat. 8. 4. a 27. 4, 24. 1 Thes. 5. 15. Heb. 12. 25. 1 Pedr 1. 22. Dat. 19. 10. t Ex. 23. 13. Mat. 10. 16. 1 Cor. 14. 20. Phil. 1. 27. Col. 1. 9, 10. a 4. 5. u 2 Sam. 24. 10. Job. 2. 10. Salm 73. 22. Diar. 14. 8. Mat. 25. 2. Luc 24. 25. Gal. 3. 1, 3. 1 Tim. 6. 9. Iago 3. 13.

* Gan y gelwir arnoch i argyhoeddi drwg-fucheddau dynion eraill, (adn. 11,) edrychwch am rodio yn fanol a chywir eich hunain: gwyliwch rhag pob eithafion, a chedwch yn ddïesgeulus o fewn y rhëol, yn ol gorchymynion ac esiampl Crist. † Nid fel dynion annoeth, annwybodus, ac anystyriol, yn rhuthro yn rhyfygus i brofedigaethau, drygau a pheryglon; ‡ ond fel rhai doethion, yn gweled y drwg o bell, ac yn ymgadw rhagddo: rhai wedi eu dysgu gan Dduw, a'u cynnysgaethu â doethineb ysbrydol oddi uchod.

16 [x] * Gan brynu yr amser, [y] † oblegid y dyddiau sydd ddrwg.

x Preg. 9. 10. Rhuf. 13. 11. Gal. 6. 10. Col. 4. 5. y pen. 6. 13. Preg. 11. 2. a 12. 1. Amos 5. 13. Ioan 12. 35. Act. 11. 28, 29. 1 Cor. 7. 26, 29—31.

* Neu brynu y *cyfleusdra:* cyffelybiaeth oddi wrth fasnachwyr, medd *Pool*, y rhai a achubant y cyfle goreu, a'r amser mwyaf manteisiol, i brynu a gwerthu; ac mae yn hawdd ganddynt roddi heibio bleser er mwyn elw. Ymwadwch â chwi eich hunain mewn esmwythder, mwyniant, &c., i ennill cyfle i wneyd daioni. Dywed *Doddridge* fod y gair *exagorazomenoi* "prynu," yn arwyddo *adferu yr hyn a aethai ar goll;* a dywed fod yma gyfeiriad at oferedd tra phechadurus bywyd paganaidd yr Ephesiaid, yn yr hwn y collasent ac y camdreuliasent gymmaint o'u hamser gwerthfawr. † Drwg pechadurus, o herwydd drygioni y dynion oedd yn byw y dyddiau hyny; neu ynte drwg trallodus, i'r cristionogion, o herwydd gelyniaeth y byd yn erbyn crefydd: nis gwyddent pa mòr fuan y caent eu cauad i fynu mewn carcharau, neu eu tòri ymaith trwy ferthyrdod; felly os oeddynt am ddïogelu eu mater tragywyddol eu hunain, neu wneyd rhyw ddaioni dros Dduw i ddynion, nid oedd dim amser i'w golli.

17 * Am hynny [z] na fyddwch annoethion, † eithr yn [a] deall beth *yw* ewyllys yr Arglwydd.

z Gwel ar adn. 15. a Deut. 4. 6. 1 Bren. 3. 9—12. Job 28. 28. Salm 111. 10. a 119. 27. Diar. 2. 5. a 14. 8. a 23. 23. Jer. 4. 22 Rhuf. 12. 2. Col. 1. 9. 1 Thes. 4. 1—3. 1 Pedr 4. 2.

* Gan fod y dyddiau yn ddrwg fel y dywedwyd, n ddylent hwy fod yn annoethion mewn pethau yn perthyn i Dduw, i'w dyledswyddau, ac iachawdwriaeth eu hen eidïau: ac ni ddylent fod yn annoethion i osod eu hunain yn agored i lid eu gelynion yn afreidiol, yn y dyddiau drwg a pheryglus hyny. † Ond yn hytrach dylent ymdrechu trwy gymmorth gras Duw, i fyw a gweithredu fel rhai yn deall ac yn ystyried meddwl ac ewyllys yr Arglwydd Iesu, o ran eu hymddygiad doeth a gwyliadwrus hwynt, fel y byddent yn gall fel seirph, ac yn ddiniwed fel y colomenod; ac o ran purdeb eu hymarweddiad yn y byd, fel y byddent yn ddifeïus, fel y gweddai i saint, ac yn gyfryw a fyddai yn gymmeradwy gan yr Arglwydd, yn ol yr hyn mae efe yn ofyn yn ei air.

18 [b] * Ac na feddwer chwi gan win, † yn yr hyn y mae [c] gormodedd; [d] ‡ eithr llanwer chwi â'r Ysbryd;

b Gen. 9. 21. a 19. 32—35. Deut. 21. 20. Salm 69. 12. Diar. 20. 1. a 23. 20, 21, 29—35. Es. 5. 11—13, 22. Mat. 24. 49. Luc 12. 45. a 21. 34. Rhuf. 13. 13. 1 Cor. 5. 11. a 6. 10. a 11. 21. Gal. 5. 21. 1 Thes. 5. 7. c Mat. 23. 25. 1 Pedr 4. 3, 4. d Salm 63. 3—5. Can. 1. 4. a 7. 9. Es. 25. 6. a 55. 1. Zec. 9. 15—17. Luc 11. 13 Act. 2. 13—18. a 11. 24. Gal. 5. 22—25.

* Fel na byddai iddynt redeg i'r pechodau gwarthus a nodwyd ac a waharddwyd o'r blaen yn y bennod hon, mae yr apostol yma yn eu cyngori i ochel meddwdod; yr hyn sydd bechod gwrthun iawn ynddo ei hun, ac yn cynhyrfu dynion i chwantau a phechodau ffiaidd ac ysgeler eraill. Yr oedd *meddwdod* yn bechod llywodraethol yn Ephesus, ac yn arferiad yr oedd y paganiaid yn warthus enog o hóno mewn rhai o'u gwleddoedd eilun-addolgar, yn enwedig yn yr ŵyl a gadwent er anrhydedd i *Bacchus*, yr hwn a gyfrifent hwy yn *dduw y gwin.* Yn y gwleddoedd hyn yr oedd pawb, gwrryw aid a benywaid, yn ei wneyd yn bwnc o grefydd i feddwi; a rhedent ar hyd yr hëolydd, maesydd, a gwinllanoedd, dàn gânu a bloeddio mewn dull gorwyllt a therfysglyd: mewn cyferbyniad i'r fath fanllefau afresymol, mae yr apostol yn annog i ganiadau, crefyddol, gyda phriodoldeb mawr yn yr adnod nesaf. † "Gormodedd:" nid yn unig myned dros ben terfynau cymmedrolder, ond hefyd y dadwrdd a'r gwylltineb cynddeiriog a soniwyd uchod, ac sydd bob amser yn deilliaw o feddwdod. ‡ Yn lle meddwi ar win fel y dywedwyd, mae yr apostol yn eu hannog i arfer pob moddion i gael eu llenwi â'r Ysbryd Glân, yn ei ddylanwadau sanctaidd, ei ddoniau, ei rasau, ei lawenydd, a'i orfoledd. Yn y pethau hyn nid oedd dim perygl o ormodedd, nac o fyned i unrhyw ymddygiad anwedd aidd ac annheilwng; yn lle rhysedd gormodol, e gwylltineb ynfyd, llanwai hyn hwynt â'r hyfrydwch puraf, sancteiddiaf, ac ardderchocaf, yr hwn a dòrai allan yn y modd gweddeiddiaf. Gwelwn effeithiau

enwi â'r Ysbryd ar ddydd y Pentecost. Dywed yr athronydd *Plato*, nad oedd braidd yr un dyn na dynes gobr i'w cael trwy holl ardaloedd Attica, tra parâi y ywyl-wleddoedd atgas a ffiaidd a soniwyd uchod.

19 * Gan lefaru [e] wrth eich gilydd mewn psalmau, † a hymnau, ac odlau ysprydol; gan ganu a phyngcio [g] yn eich calon i'r Arglwydd;

e Act. 16. 25. 1 Cor. 14. 26. Col. 3. 16. Iago 5. 13. f Salm 5. 2. a 105. 2. Mat. 26. 30. g Salm 47. 7. a 62. 8. a 86. 12. a 105. 3. Es. 65. 14. Mat. 15. 8. Ioan 4. 23, 24.

* Yn lle y bloeddio a'r dadwrdd ynfyd mewn gwin, s. soniwyd uchod, mae yr apostol yn annog cristionogion dàn ddylanwadau nefol yr Ysbryd Glân, i ddifyru u hunain yn sanctaidd mewn ymdddianion crefyddol i'u gilydd, a chyd-gânu mawl i'r Arglwydd yn deuluidd ac yn gynnulleidfâol. † Wrth yr "hymnau a'r dlau ysbrydol" yma, mewn gwahaniaeth oddi wrth psalmau," tybia rhai mai yr hyn a roddodd yr Arlwydd Iesu i'w gânu ar weinyddiad y swper sanctaidd, Matth. 26. 30.) a feddylir: ond pa beth oedd hyny, nis wyddom yn sicr; ar y lle uchod yn Matthew, dywedyd mai rhai o'r psalmau yd oedd. Efallai mai caniadau Elizabeth, Mair, a Zacharias, a feddylir yma wrth ymnau ac odlau ysbrydol, neu ynte ryw gyfansoddiadau prydyddawl oedd dynion duwiol erbyn hyn wedi meyd, i'w cânu yn addoliadau y saint. ‡ Beth bynag edd yr hymnau a'r odlau, ysbrydol oeddynt, ac i gael u cânu a'u pyncio o'r galon i'r Arglwydd.

20 [h] * Gan ddiolch yn wastad i Dduw a'r Tad, † am bob peth, [i] ‡ yn enw ein Harglwydd Iesu Grist;

h Gwel ar adn. 4.—Job 1. 21. Salm 34. 1. Es. 63. 7. Act. 5. 41. 1 Cor. 1. 4. Phil. 1. 3. a 4. 6. Col. 1. 11, 12. a 3. 17. 1 Thes. 3. 9. a 5. 18. 2 Thes. 1. 3. a 2. 13. i Ioan 14. 13, 14. a 15. 16. a 16. 23—26. Col. 3. 17. Heb. 13. 15. 1 Pedr 2. 5. a 4. 11.

* Mae Duw o hyd trwy drugareddau newyddion yn roddi achosion newyddion o ddiolchgarwch, ac fel yny rhaid i ni ddiolch yn wastad tra byddom byw. † Am bob math o drugareddau, ïe, am drallodau, y rhai ydd yn cyd-weithio â phethau eraill er daioni i'r rhai ydd yn caru Duw. Am bob peth *dros bob dyn*, medd nai; fel pe dywedasai yr apostol, "Ystyriwch eich unain fel wedi eich trefnu i glodfori Duw *dros bob yn;* a thelwch iddo ef beunydd y diolchgarwch sy ddyledus i'w enw am ei drugareddau gwastadol i chwi, ch cyd-gristionogion, ac i'ch cyd-gräduriaid yn gyffedinol. Syniad mawreddig ac ardderchog yw hyn, a ian y dylai ein diolchgarwch fod felly dros bawb. Mae y diolch hwn i'w roddi i Dduw a'r Tad yn enw n Harglwydd Iesu Grist, yr hwn yw yr unig Gyfryngwr rhwng Duw a dynion, a thrwy yr hwn yn unig mae ein iolch a'n holl wasanaeth ni yn dderbyniol gan Dduw.

21 [k] * Gan ymddarostwng i'ch gilydd [l] † yn ofn Duw.

k adn. 22, 24. Gen. 16. 9. 1 Cron. 29. 24. Rhuf. 13. 1—5. 1 Cor. 16. 16. 1 Tim. 2. 11. a 3. 4. Heb. 13. 17. 1 Pedr 2. 13. a 5. 5. l 2 Cron. 19. 7. Neh. 5. 9, 15. Diar. 24. 21. 2 Cor. 7. 1. 1 Pedr 2. 17.

* Pawb i'w huwch-raddolion yn mhob perthynas, yn ddladol, yn eglwysig, ac yn deuluaidd: cyngor cyffredin ydd yma, ac mae yr apostol yn manylu arno yn yr addodau nesaf. Yr oedd yr Iuddewon mòr ddirmygus o'r enedloedd dienwaededig, fel y tybient nad oedd rhwymedigaeth arnynt i gyflawni y dyledswyddau hyny tuag atynt, ac edd rwymedig ar y perthynasau agosaf i'w gilydd; ac oedd syniad go gyffelyb yn mhlith cristionogion addewaidd, gyda golwg ar gristionogion dienwaededig; ac yn mhlith cristionogion o fysg y paganiaid, yda golwg ar wŷr a gwragedd, rhieni a phlant, meistriaid a gweision, nad oeddynt yn credu. Gyda golwg ar pethau felly, mae yr apostol yn penderfynu rhwymedigaethau pawb, yn mhob perthynas a sefyllfa, pa un bynag a fyddo pob un o'r pleidiau yn credu, neu heb credu, yn enwaededig neu yn ddienwaededig. † "Yn ofn Duw:" rhag ofn digio Duw, yr hwn sydd yn gorchymyn y darostyngiad hwn; neu ynte cyn belled ag y gellir ymddarostwng yn unol âg ofn Duw, sef mewn pethau nad ynt waharddedig ganddo ef.

22 * Y gwragedd, [m] ymostyngwch i'ch gwŷr priod, [n] † megis i'r Arglwydd.

m adn. 24. Gen. 3. 16. Esther 1. 16—18, 20. 1 Cor. 14. 34. Col. 3. 18. 1 Tim. 2. 11, 12. Tit. 2. 5. 1 Pedr 3. 1—6. n pen. 6. 5. Col. 3. 22, 23.

* Yn ol deddf natur a phriodas, ordeiniwyd y gŵr i fod yn ben y wraig, a hithau i ymddarostwng, i ufuddâu iddo, ac i'w anrhydeddu: a gwrthun iawn yw gwraig na wnelo hyn. † Er mwyn yr Arglwydd yr hwn a orchymynodd yr ymddarostwng hwn: felly nis gall hi fod yn ddarostyngedig i'r Arglwydd, heb fod yn ddarostyngedig i'w gŵr priod. Mae hyn yn gweddu er gogoniant i'r Arglwydd, yn gystal ag er cysur ac iawn-drefn yn y 'stâd briodasol. Mae yr apostol yn crybwyll y dyledswyddau perthynasol hyn yma yn y drefn naturiol, yn y drefn y dechreuodd y perthynasau eu hunain yn y byd; yn gyntaf gŵr a gwraig, yna rhieni a phlant, a meistriaid a gweision, yn y bennod nesaf. Felly hefyd yn Colos. 3. 18—25; a 4. 1, &c. Gallwn sylwi hefyd ei fod yn dechreu gyda'r blaid isel radd, ac yna yn myned at ddyledswyddau yr uchafion; ac felly hefyd y gwna yr apostol Pedr, 1 Pedr 3. 1—7. Yr achos o hyny efallai yw, bod dyledswyddau y pleidiau iselaf, gwragedd, plant, a gweision, yn fwy croes i rediad natur lygredig, yn fwy anhawdd ynddynt eu hunain, yn fwy i wrth-ddadleu yn eu herbyn, ac yn fwy tueddol o gael eu hesgeuluso a'u gadael heb eu cyflawni, na dyledswyddau y blaid arall: ac os cyflawnir y rhai hyn yn dda, maent yn ennill ac yn rhwymo y blaid uchelaf i gyflawni eu dyledswyddau hwythau yn well.

23 [o] * Oblegid y gwr yw pen y wraig, [p] † megis ag *y mae* Crist yn ben i'r eglwys; [q] ‡ ac efe yw Iachawdwr y corph.

o Gwel ar 1 Cor. 11. 3—10. p Gwel ar pen. 1. 22, 23. a 4. 15. q adn. 25, 26. Act. 20. 28. 1 Thes. 1. 10. Dat. 5. 9.

* Yn ol trefniad dechreuol Duw, y gŵr yw pen y wraig mewn awdurdod ac anrhydedd, yn gystal ag fel arweinydd, gwarcheidwad, ac amddiffynydd iddi. † Nid yw y gair "megys" yn arwyddo cyd-raddoliaeth, ond tebygrwydd: fel y mae Crist yn ol trefn y cyfammod gras, ac yn ei sefyllfa gyfryngol yn Ben i'r eglwys yr hon yw ei ddyweddi a'i briodas-ferch ef; felly, mewn rhyw radd o debygrwydd, mae y gŵr wedi ei ordeinio i fod yn ben i'r wraig, am hyny hi a ddylai ymostwng iddo. ‡ Crist yw Iachawdwr holl gorph yr eglwys; yr hyn a led-arwydda yma hefyd, fod y gŵr wedi ei roddi i'r wraig megys yn iachawdwr mewn pethau tymmorol, i'w chynnal, ei hamddiffyn, a'i hymgeleddu: felly os yw y wraig yn ystyried ei lles ei hun, hi a fydd yn ostyngedig i'w gŵr.

24 * Ond fel y mae yr eglwys yn ddarostyngedig i Grist, † felly hefyd *bydded* y gwragedd i'w gwŷr priod [r] ‡ ym mhob peth.

r adn. 33. Ex. 23. 13. a 29. 35. Col. 3. 20, 22. Tit. 2. 7, 9.

* Mae yr eglwys yn ddarostyngedig i Grist gyda sirioldeb ewyllysgar, mewn gostyngeiddrwydd ac ufuddddod calon, mewn diweirdeb sanctaidd, mewn cariad gwresog, ac mewn ffyddlondeb didwyll a pharâus. † Felly hefyd yn ol natur y berthynas, bydded y gwragedd i'w gwŷr priod. ‡ Yn mhob peth ag mae gan y gwŷr awdurdod cyfiawn i'w orchymyn; a phob peth cyn belled ag mae yn weddus yn yr Arglwydd. Colos. 3. 18.

25 * Y gwŷr, [s] cerwch eich gwragedd, † megis ag y [t] carodd Crist yr eglwys, ‡ ac a'i rhoddes ei hun drosti;

s adn. 28. Gen. 2. 24. a 24. 67. 2 Sam. 12. 3. Diar. 5. 18, 19. Col. 3. 19. 1 Pedr 3. 7. t adn. 2. Mat. 20. 28. Luc 22. 19, 20. Ioan 6. 51. Act. 20. 28. Gal. 1. 4. a 2. 20. 1 Tim. 2. 6. 1 Pedr 1. 18—21. Dat. 1. 5. a 5. 9.

* I wneuthur ymostyngiad y gwragedd yn fwy rhwydd, esmwyth, llesol, a chysurus, dylai y gwŷr hefyd garu eu gwragedd; gyda serchawgrwydd anwylaidd, tyner,

parâus, ffyddlawn, a thosturiol; † rywbeth yn debyg i'r cariad â'r hwn y carodd Crist yr eglwys. Pa fodd y gall gwŷr trawsion, diserch, tra-arglwyddaidd, a digariad, ddysgwyl cariad nac ymostyngiad oddi wrth eu gwragedd? Cariad a ennill gariad, ac ymostyngiad hefyd; ac nid yw câs yn haeddu ond câs yn mhawb, hyd yn nôd yn eu gwragedd tuag at eu gwŷr priod. ‡ Carodd Crist yr eglwys mòr fawr fel y rhoddodd ei hun i farw drosti ar y groes; a dylai hyn fod yn foddion effeithiol i beri i'r gwŷr garu eu gwragedd, a gwneyd pob daioni ac ymgeledd a allont iddynt.

26 * Fel y [u] sancteiddiai efe hi, † a'i glanhâu â'r [x] olchfa ddwfr, [y] ‡ trwy y gair;

u Ioan 17. 17—19. Act. 26. 18. 1 Cor. 6. 11. Tit. 2. 14. Heb. 9. 14. a 10. 10. 1 Pedr 1. 2. Judas 1. x Ezec. 16. 9. a 36. 25. Zec. 13. 1. Ioan 3. 5. Act. 22. 16. Tit. 3. 5—7. Heb. 10. 22. 1 Pedr 3. 21. 1 Ioan 5. 6. y Ioan 15. 3. a 17. 17. Iago 1. 18. 1 Pedr 1. 22, 23.

* Dyben Crist yn rhoddi ei hun i farw dros ei eglwys, heblaw ei phrynu a gwneyd iawn dros ei phechodau oedd, fel y sancteiddiai efe hi oddi wrth bob halogrwydd, ac y cyssegrai hi i Dduw; yr hyn a arwydda y cyfnewidiad hollawl a wnair arni, o gyflwr o bechod a thrueni, i gyflwr o ras a bywyd, trwy faddeuant pechodau, ac adnewyddiad anian. † Mae hyn yn cael ei wneyd trwy ddylanwadau sancteiddâol yr Ysbryd Glân, o'r hyn mae dwfr yn y bedydd yn arwydd allanol; ‡ ac a wnair trwy y gair, fel moddion dychweliad pechaduriaid, a'u cynnydd mewn sancteiddrwydd. Oddi wrth y geiriau "*golchfa* ddwfr," mae rhai yn taeru fod yr apostol yn cyfeirio yma at fedyddio trwy *drochiad;* ond mae yn sicr fod y gair *(loutron)* a gyfleithir yma "golchfa," yn arwyddo golchi yn gyffredin, pa fodd bynag y gwneler hyny, ac yn aml yn cael ei ddefnyddio am *lestr*, i ddàl dwfr i ymolchi âg ef: a dywed y dysgedigion, fod agos i bob sylweddair Groeg sydd yn terfynu yn *tron*, yn arwyddo rhyw *offerynau.* Tybia eraill mai cyfeirio mae yr apostol at y golchiadau Iuddewig; ac eraill, mai at y ddefod o olchi gwyryfon cyn eu dwyn at eu gwŷr, mae cyfeiriad y geiriau. Gwel Esth. 2. 3, 9, 12; ac Ezec. 16. 7—14.

27 * Fel y [z] gosodai efe hi yn [a] ogoneddus iddo ei hun, † yn eglwys heb arni na [b] brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw; [c] ‡ ond fel y byddai yn sanctaidd ac yn ddifeius.

z 2 Cor. 4. 14. a 11. 2. Col. 1. 22, 28. Judas 24. a Salm 45. 13. a 87. 3. Es. 60. 15—20. a 62. 3. Jer. 33. 9. Heb. 12. 22—24. Dat. 7. 9—17. a 21. 10—26. b Can. 4. 7. Heb. 9. 14. 1 Pedr 1. 19. 2 Pedr 3. 14. c pen. 1. 4. 2 Cor. 11. 2. Col. 1. 22, 28. 1 Thes. 5. 23. Judas 24. Dat. 21. 27.

* Fel y gosodai yr holl eglwys fawr, a phob aelod o hóni, ger ei fron ei hun, a'i harddangos yn ddigyfrwng i'w olwg ei hun, a'i gwneyd yn mhob ystyr yn ddymunol, yn gymmeradwy, ac yn hyfrydwch iddo ei hun, trwy y sancteiddiad perffaith, a'r addurniadau prydferth a roddes efe ei hun arni, fel priodas-ferch wedi ei pharotôi a'i thrwsio i'w gŵr. Yn y nefoedd, yn y dydd diweddaf, y bydd hyn. † Rhoddwn sylw *Doddridge* ar y geiriau hyn:—Pa syniad dysglaer, neu olwg ogoneddus, mae hyn yn roddi ar drefn a dyben mawr y grefydd gristionogol, dwyn yr holl fyrddiynau aneirif a wnant i fynu rif yr eglwys, i'r fath agwedd o berffaith sancteiddrwydd a gogoniant, fel na wêl llygad holl-dreiddiol Crist, ei phriod-fab mawr a sanctaidd, yr un *brycheüyn na chrychni*, na *dim o'r cyfryw* arni, i ddrygu ei harddwch hi yn y mesur lleiaf, nac i dramgwyddó ei lygaid ef! Pa le mae y fath drefn neu ddyfais i'w chael yn y byd, ond yn y Testament Newydd, ac yn y rhai a gawsant eu dysgu drwyddo? ‡ Yn berffaith sanctaidd, ac heb un bai i'w gael arni: tybir fod yr apostol yn cyfeirio at yr aberthau, y rhai oedd i fod yn berffaith ddianaf. Lefit. 1. 3. Gwel Can. 4. 7.

28 * Felly y dylai y gwŷr garu eu gwragedd, megis eu [d] cyrph eu hunain. † Yr hwn a garo ei wraig, sydd yn ei garu ei hun.

d adn. 31, 33. Gen. 2. 21—24. Mat. 19. 5.

* Gwedi dangos cariad mawr Crist tuag at ei eglwys, mae yr apostol yma eto yn dangos y dylai y gwŷr garu eu gwragedd gyda serch doeth, sanctaidd, cyson, a thirion, yn gyffelyb i'r cynllun perffaith hwnw; gan geisio eu cysur a'u lles yn mhob peth, cyd-ymdeimlo â'u gofidiau hwynt, cyd-ddwyn â'u gwendidau, ac yn mhob modd ceisio eu hiachawdwriaeth a'u sancteiddiad. Yn wir dylent eu caru fel eu cyrph eu hunain; oblegid o ŵr y cymmerwyd gwraig ar y cyntaf, ac mae y berthynas mòr anwyl, mòr agos, ac mòr annatodol, yn ei dyben cyntaf, â phan eler iddi, a phan gyflawner ei dybenion yn iawn; † fel y gellir dywedyd, bod dyn wrth garu ei wraig yn ei garu ei hunan; y dylai gyfrif ei chysur a'i dedwyddwch hi yn anwahanol oddi wrth ei gysur a'i ddedwyddwch ei hun.

29 * Canys ni [e] chasâodd neb erioed ei gnawd ei hun; † eithr ei [f] fagu a'i feithrin y mae, ‡ megis ag *y mae* yr Arglwydd am yr eglwys:

e adn. 31. Diar. 11. 17. Preg. 4. 5. Rhuf. 1. 31. f Es. 40. 11. Ezec. 34. 14, 15, 27. Mat. 23. 37. Ioan 6. 50—58.

* Yn awr, nis gall un dyn yn ei synwyrau gasâu ei gnawd ei hun, neu gymmeryd hyfrydwch mewn archolli a phoeni ei gorph ei hun: † eithr y mae hunan-gariad yn tarddu oddi ar ddeddf natur, yn dysgu i bob dyn i fagu a meithrin ei gnawd ei hun, âg ymborth, dillad, glanweithdra, a phob ymgeledd angenrheidiol. ‡ Felly y dylai pob gŵr wneuthur â'i wraig, yr hon sydd un cnawd âg ef; megys ag y mae yr Arglwydd Iesu, yn ei anfeidrol gariad, yn cymmeryd y gofal mwyaf, serchocaf, ac effeithiolaf, am ei eglwys, yr hon a ddyweddiodd efe, ac a wnaeth yn un âg ef ei hun. Onid oes yma olwg ryfedd ar gariad Crist tuag at ei bobl! Mae efe yn ei caru, yn eu magu, ac yn eu meithrin, fel y gwna dyn ei gorph ei hun!

30 * Oblegid [g] aelodau ydym o'i gorph ef, † o'i gnawd ef, ac o'i esgyrn ef.

g pen. 1. 23. Rhuf. 12. 5. 1 Cor. 6. 15. a 12. 12—27. Col. 2. 19.

* Nyni, sef pob un sydd yn credu, aelodau ydym o'i gorph dirgeledig ef. † Megys yr oedd Efa o Adda, Gen. 2. 23; ond yno mewn ystyr gnawdol a naturiol, yma mewn ystyr ysbrydol: mewn undeb mòr agos âg ef, mòr anwyl ganddo, ac yn derbyn pob gras a gogoniant o hóno, trwy rinwedd yn deilliaw o'i gorph ef yr hwn a ddrylliwyd drosom; fel pe trwy ein perthynas agos âg ef yn y natur ddynol, y byddem gnawd o'i gnawd ef, ac esgyrn o'i esgyrn ef, fel y sylwyd am Efa ac Adda uchod.

31 [h] * Am hynny y gâd dyn ei dad a'i fam, ac y glŷn wrth ei wraig, † a hwy a fyddant ill dau yn un cnawd.

h Gen. 2. 24. Mat. 19. 5. Marc 10. 7, 8. 1 Cor. 6. 16.

* Er ein dysgu ni yn y dyledswyddau hyn, gorchymynodd yr Arglwydd yn sefydliad cyntaf priodas, i ddynion adael hyd yn nôd eu rhïeni, i gyd-gyfanneddu mewn cariad â'u gwragedd, fel pe byddent wedi eu cyd-gyssylltu yn un corph, neu un cnawd anwahanol â hwynt. Pob peth croes i hyn, a bŷr o hyn, effaith pechod yw, a dylid gwylied rhagddo yn dra gofalus. † Dylai pob dyn ystyried gwraig ei ddewisiad, neu yn hytrach dewisiad Duw iddo ef, fel rhan o hóno ei hunan; yr hon nis gall ei niweidio, heb ei niweidio ei hun; ac yr hon nis gall gael ei niweidio gan neb, heb iddo yntau deimlo a chyfranogi o'r niwed; fel pe buasai rhyw ran o'i gorph ei hun yn cael ei archolli.

32 [i] * Y dirgelwch hwn sydd fawr: [k] † eithr am Grist ac *am* yr eglwys yr wyf fi yn dywedyd.

i pen. 6. 19. Col. 2. 2. 1 Tim. 3. 9, 16. k Salm 45. 9—17. Can. 1.—a 8. Es. 54. 5. a 62. 4, 5. Ioan 3. 29. 2 Cor. 11. 2. Dat. 19. 7, 8. a 21. 2.

* Dirgelwch mawr, a gwaith rhyfedd, oedd gwneyd dau o un, Efa o Adda, a gwneyd y ddau hyny yn "un cnawd" eilwaith; ac yr oedd syniad traddodiadol yn

mblith yr Iuddewon, bod prïodas Adda ac Efa yn gysgod o'r undeb rhwng y Messïah a'r eglwys, a diammau ei bod hefyd: ond dywed *Pool* nad oedd yn gysgod gosodedig, wedi ei drefnu gan Dduw i arwyddo hyny; eto ei bod yn fath o gysgod naturiol, a thebygrwydd ynddo i undeb Crist a'r eglwys. † Yr oedd dirgelwch yn y cysgod; ond am sylwedd y cysgod, Crist a'r eglwys, yr oedd yr apostol yn dywedyd: dywedyd yr oedd ef am yr undeb agos a rhyfeddol hwnw a wnaed rhwng Crist a'r eglwys, fel mae efe yn Brïod-fab a hithau yn brïodas-ferch, ac fel mae ef a hithau wedi eu huno megys un corph, efe yn Ben a'r saint yn aelodau; ac efe fel Pen yn bywâu, yn effeithioli, yn llywodraethu, ac yn ymgeleddu yr holl aelodau i gyd. Ac fel y dygwyd Efa allan o ystlys Adda pan oedd efe yn cysgu; felly y dygwyd yr eglwys allan yn ysbrydol, trwy rinwedd yn deilliaw o ystlys ei Gwaredwr croeshoeliedig, pan wanwyd ef, a thhan gysgodd efe hun marwolaeth, fel y byddai i'r holl saint gael byw gydag ef byth. Dirgelwch mawr yw hyn, bydd mawr ryfeddu arno byth!

33 * Ond chwithau hefyd [l] cymmain un, † felly cared pob un o honoch ei wraig, fel ef ei hunan; ‡ a'r wraig *edryched* a'r iddi [m] berchi ei gwr.

l adn. 25, 28, 29. Col. 3. 19. 1 Pedr 3. 7. m adn. 22. 1 Bren. 31. Esther 1. 20. Heb. 12. 9. 1 Pedr 3. 2—6.

* "Ond," heblaw y dirgelwch uchod yn Adda ac Efa d'u prïodas, mae yn y peth addysg naturiol hefyd, addas r mater mewn llaw, sef dyledswyddau gwŷr a gwragedd uag at eu gilydd: † gan hyny mae yr apostol yn gadael dirgelwch, ac yn dyfod i orphen ei gyngor trwy ddywedyd y drydedd waith, (adn. 25, 28,) y dylai pob gŵr garu ei wraig fel ef ei hunan; ‡ ac y dylai y wraig yr un modd edrych yn ofalus ar iddi berchi ac anrhydeddu ei gŵr; nid gydag ofn caethaidd, ond mewn cariad priodasaidd a pharch, ac ofn gofalus rhag ei ddigio, ei diramgwyddo, na'i dristâu ef mewn un modd. Hyn yw ewyllys Duw, hyn oedd deddf gyntefig prïodas, hyn a ddysgir drwy ryfedd gariad Crist at ei eglwys, hyn sydd yn gweddu i'r efengyl, a hyn sydd yn tueddu yn oreu at ysgysur teuluaidd a phriodasol pawb.

PEN. VI.

Dyledswydd plant tuag at eu rhïeni.

* Y PLANT, [a] ufuddhêwch i'ch rhïeni [b] † yn yr Arglwydd: [c] ‡ canys hyn sydd gyfiawn.

a Gen. 28. 7. a 37. 13. Lef. 19. 3. Deut. 21. 18. 1 Sam. 17. 20. Esther 2. 20. Diar. 1. 8. a 6. 20. a 23. 22. a 30. 11, 17. Jer. 35. 14. Luc 2. 51. Col. 3. 20. b adn. 5, 6. Rhuf. 16. 2. 1 Cor. 15. 58. Col. 3. 17, 16, 23, 24. 1 Pedr 2. 13. c Neh. 9. 13. Job 33. 27. Salm 19. 8. a 119. 75, 128. Hos. 14. 9. Rhuf. 7. 12. a 12. 2. 1 Tim. 4.

* Yn nesaf mae yr apostol yn cyngori plant y credinwyr, a phlant crefyddol yn eglwys Ephesus, i fod yn ufudd i'w rhïeni: mae y cyngor cyffredinol hwn i'w cyfyngu, yn ol oedran ac amgylchiadau neillduol plant; ebfallai bod i rai o honynt rïeni paganaidd, ac ni ddylent ufuddâu i'r rhai hyny pan fyddai eu gorchymynion yn groes i orchymynion Crist: eto yr oedd yn hollawl ddyledus arnynt i ufuddâu iddynt yn mhob peth cyfreithlawn, er anrhydedd yr efengyl. † "Yn yr Arglwydd," er mwyn yr Arglwydd, mewn ufudd-dod i orchymynion yr Arglwydd, ac er anrhydedd i'r Arglwydd d'i efengyl: yr Arglwydd Iesu a feddylir. ‡ Mae ufuddiod plant i'w rhïeni yn yr ystyriaeth hyn yn ddyledus, yn gyfiawn, ac yn rhesymol, yn beth teilwng i offerynau eu hanfod, a gwarcheidwaid tirion eu mabandod; ac yn gyffredin yn llesol i'r plant eu hunain. Mae hyn yn gyfiawn yn ol deddf Duw, yn ol deddf natur, ac yn ol deddfau pob gwlad a chenedl.

2 [d] * Anrhydedda dy dad a'th fâm († yr hwn yw y gorchymyn cyntaf mewn addewid)

d Ex. 20. 12. Deut. 27. 16. Diar. 20. 20. Ezec. 22. 7. Mal. 1. 6. Mat. 15. 4—6. Marc 7. 9—13. Rhuf. 13. 7.

* Mae ufudd-dod plant i'w rhïeni yn cael ei orchymyn yn y ddeddf foesol, Exod. 20. 12, yn cael ei gadarnâu gan yr Arglwydd Iesu trwy ei esampl a'i orchymyn, Luc 2. 51; Matth. 15. 4, &c., ac o ganlyniad mae o barâd gwastadol. † Mae addewid yn perthyn i'r ail orchymyn; (Exod. 20. 6,) ond mae yr addewid hòno o natur mwy cyffredin, ac yn perthyn i'r rhai sydd yn caru Duw, ac yn cadw, nid yn unig y gorchymyn *hwn*, ond ei holl orchymynion ef. Hwn yw y gorchymyn cyntaf yn yr ail lêch, am ddyledswyddau perthynasol dynion at eu gilydd; a hwn yw yr unig orchymyn sydd âg *addewid bennodol* yn perthyn iddo, priodol iddo ei hun.

3 [e] * Fel y byddo yn dda i ti, ac fel y byddech hir-hoedlog † ar y ddaear.

e Deut. 4. 40. a 5. 16. a 6. 3, 18. a 12. 25, 28. a 22. 7. Ruth. 3. 1. Salm 128. 1, 2. Es. 3. 10. Jer. 42. 6.

* Fel yr estyner dy ddyddiau ar y ddaear, yr hon mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi i ti, yw geiriau yr addewid yn Exod. 20. 12. Er bod yr addewid hon yn ei hystyr lythyrenol yn meddwl hir oes a hir fwynâd o gyflawnder gwlad Canaan; eto mae iddi gyrhaeddiad pellach, a chyflawnir hi yn gyffredin mewn trugareddau a thirionwch rhagluniaethol i blant duwiol ac ufudd yn y byd hwn, neu mewn ffordd well, trwy fod Duw yn rhoddi iddynt fywyd tragywyddol. † Sylwa amryw, nad yw yr apostol ddim yn dywedyd, "Ar y ddaear yr hon mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi i ti," fel y dywedir yn Exodus; fel na byddai iddo gefnogi gwagobaith yn yr Iuddewon o gael aros yn ngwlad Canaan. Ond wrth ystyried mai cenedloedd dychweledig oedd y rhan fwyaf o'r rhai yr oedd efe yn ysgrifenu atynt, mae crybwyll y geiriau mewn ffordd gyffredin fel hyn yn fwy addas a phriodol i'r holl eglwys.

4 [f] * A chwithau dadau, † na yrrwch eich plant i ddigio; [g] ‡ ond maethwch hwynt yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd.

f Gen. 31. 14, 15. 1 Sam. 20. 30—34. Col. 3. 21. g Gen. 18. 19. Ex. 12. 26, 27. a 13. 14, 15. Deut. 4. 9. a 6. 7, 20—24. a 11. 19—21. Jos. 4. 6, 7, 21—24. a 24. 15. 1 Cron. 22. 10—13. a 28. 9, 10, 20. a 29. 19. Salm 71. 17, 18. a 78. 4—7. Diar. 4. 1—4. a 19. 18. a 22. 6, 15. a 23. 13, 14. a 29. 15, 17. Es. 38. 19. 2 Tim. 1. 5. a 3. 15. Heb. 12. 7—10.

* Y tadau a enwir yma, am eu bod hwy yn gyffredin yn fwy caled a llym na'r mamau; ond diau fod y mamau hefyd yn gynnwysedig. † Mae yr apostol yn eu cyngori na ddefnyddiont eu hawdurdod ar eu plant gyda gormod o lymder, rhag digaloni eu plant, rhag magu rhagfarn ynddynt yn erbyn crefydd; a rhag eu cyffrôi hwynt i gyndynrwydd ac anufudd-dod; yr hyn sydd bob amser yn ofidus i rïeni, ac lawer gwaith yn ddystryw i'r plant. ‡ Dylai gwaharddiadau, argyhoeddiadau, a cheryddon rhïeni, gael eu gweinyddu bob amser gyda thynerwch, serchawgrwydd, a thymher faddeugar; tra byddont yn ddiwyd yn ymdrechu eu maethu hwynt yn addysg Crist a gwir grefydd; ac yn eu cyngori hwy yn dadol i ochelyd aneirif faglau y byd, a themtasiynau y diafol. Tybia rhai fod y gair *addysg* yn meddwl y cyfryw wybodaeth o lyfrau, dynion, a phethau, a alluogo y plant i ymddangos yn y byd gydag anrhydedd a defnyddioldeb; a'r geiriau *athrawiaeth yr Arglwydd*, yn arwyddo dysgeidiaeth *grefyddol:* ond diammau mai dysgeidiaeth grefyddol a feddylir wrth bob un o'r ddau air; yr hon sydd i'w gweinyddu i'r plant trwy bob moddion a ellir, ac egwyddori *(catechising)* sydd un ffordd ragorol i hyn yma.

5 * *Y* gweision, [h] ufuddhêwch i'r *rhai sydd* arglwyddi *i chwi* [i] yn ol y cnawd, [k] † gyd âg ofn a dychryn, [l] ‡ yn symlrwydd eich calon, [m] megis i Grist;

h Gen. 16. 9. Salm 123. 2. Mal. 1. 6. Mat. 6. 24. a 8. 9. Act. 10. 7, 8. Col. 3. 22. 1 Tim. 6. 1—3. Tit. 2. 9, 10. 1 Pedr 2. 18—21. i Philemon 16. k 1 Cor. 2. 3. 2 Cor. 7. 15. Phil. 2. 12. 1 Pedr 3. 2. l adn. 24. Jos. 24. 14. 1 Cron. 29. 17. Salm 86. 11. Mat. 6. 22. Act. 2. 46. 2 Cor. 1. 12. a 11. 2, 3. m pen. 1. 1 Cor. 7. 22. Col. 3. 17—24.

* Yn nesaf mae yr apostol yn cyngori gwasanaeth-ddynion crefyddol, i fod yn ufudd i'w meistriaid a'u harglwyddi yn ol y cnawd, sef y rhai oedd yn arglwyddiaethu arnynt mewn sefyllfâoedd a phethau tymmorawl, pa un bynag ai paganiaid ai credinwyr a fyddent. Caeth-weision oedd y gwasanaeth-ddynion gan mwyaf yn y dyddiau hyny, yn meddiant eu harglwyddi; ac yn cael eu trin gyda llawer o greulondeb yn aml: ond gweinidogion crefydd oedd yr apostolion, nid ymŷrwyr â phethau gwladol; nis gallent hwy wneuthur dim gyda llywodraethwyr a deddfwyr gwladol, i roddi terfyn ar gaeth-fasnach; y cwbl a allent hwy wneyd oedd cyngori dynion, bawb yn ol eu sefyllfa. † Yr oedd yr ufuddod hwn i fod gydag ofn a dychryn; sef mewn ffyddlondeb a pharch, gan ofni tramgwyddo a digio eu harglwyddi, ac yn enwedig gan ofni digio Duw, trwy anonestrwydd, anffyddlondeb, ac anufudd-dod yn eu gwasanaeth. ‡ Yr oedd hyn i gael ei wneyd hefyd gydag amcan syml a chywir, i wneuthur ewyllys Crist, eu Harglwydd mawr a grasol, i'r hwn yr oeddynt yn ufuddâu, hyd yn nôd pan oeddynt yn gwasanaethu arglwyddi daearol direswm a chreulawn, yn gydwybodol, ac er anrhydedd i grefydd Crist.

6 * Nid â [n] golwg-wasanaeth, fel boddlonwyr dynion, † ond fel gweision Crist, [o] ‡ yn gwneuthur ewyllys Duw [p] o'r galon;

n Phil. 2. 12. Col. 3. 22. 1 Thes. 2. 4. o pen. 5. 17. Mat. 7. 21. a 12. 50. Col. 1. 9. a 4. 12. 1 Thes. 4. 3. Heb. 10. 36. a 13. 21. 1 Pedr 2. 15. a 4. 2. 1 Ioan 2. 17. p Jer. 3. 10. a 24. 7. Rhuf. 6. 17. Col. 3. 23.

* Yr oeddynt hefyd i wneuthur eu holl wasanaeth yn ddiwyd a chyson, nid yn unig tra byddai llygaid eu meistriaid arnynt, fel pe na buasent ond ceisio boddloni eu meistriaid yn unig tra byddent yn y golwg, ac yna ymddwyn yn anffyddlawn; † ond yr oeddynt yn mhob peth, ac yn mhob màn, i ymddwyn yn eu gwasanaeth fel y gweddai i weision Crist, er anrhydedd i Grist, a chan ystyried fod Crist yn eu gweled bob amser, ac y byddai raid iddynt roddi cyfrif iddo ef. ‡ Fel hyn hwy a wasanaethent eu meistriaid yn ol y cnawd, nid gan wneuthur eu hewyllys hwy yn unig, ond gan wneuthur ewyllys Duw hefyd o'r galon; gan fod yn sicr, pa ddaioni bynag a wnelo unrhyw ddyn, oddi ar egwyddor gristionogol, er boddloni ac anrhydeddu Duw, y cymmeradwya ac y gwobrwya efe hyny yn rasol; yn ac i'r caeth-was llawd, yn gystal a'r gŵr rhydd yn ei sefyllfa a'i wasanaeth mwy uchel ac anrhydeddus. Gan fod gorchymyn i gaeth-weision wasanaethu fel hyn, pa faint mwy gweision cyflog, mewn gwlad rydd, gristionogol, a thàn feistriaid cristionogol?

7 * Trwy [q] ewyllys da yn gwneuthur gwasanaeth, [r] † megis i'r Arglwydd, ac ‡ nid i ddynion:

q Gen. 31. 6, 38—40. 2 Bren. 5. 2, 3, 13. r adn. 5, 6. 1 Cor. 10. 31.

* Nid o anfodd a gorfod, rhag ofn y wialen, neu y ffrewyll, ond o wir ewyllys da, fel rhai yn caru eu meistriaid, ac yn caru gwneuthur gwasanaeth iddynt, † megys i'r Arglwydd Iesu Grist, fel y gwasanaethent, y boddâent, ac y gogoneddent ef, yn y sefyllfa gaeth ac isel, yr oedd ef y pryd hwnw yn gweled yn dda iddynt fod. ‡ Nid yn unig er boddloni dynion, ac ufuddâu i ddynion er mwyn cael parch gan ddynion. Nid oes yma ddim yn pleidio nac yn cyfreithloni caeth-fasnach, a bod i'r naill ran o ddynolryw ddàl y rhan arall mewn caeth-wasanaeth; cymmeryd pethau fel yr oeddynt yr oedd yr apostolion, a chyngori pawb i ymddwyn yn addas i'r efengyl, yn ol pa sefyllfa bynag y byddent ynddi: nid oedd gwiw iddynt hwy fyned i gyffrôi lliniawgrwydd eu herlidwyr paganaidd, trwy bregethu yn gyhoeddus yn erbyn caeth-wasanaeth. Ond dylai llywodraethwyr cristionogol roddi terfyn ar y fath fasnach orthrymus ac anghyfiawn, a diammau y gwnair hyny fel y byddo yr efengyl yn llwyddo.

8 [s] * Gan wybod mai pa ddaioni bynnag a wnelo pob un, † hynny a dderbyn *efe* gan yr Arglwydd, [t] ‡ pa un bynag ai caeth ai rhydd *fyddo.*

s Diar. 11. 18. a 23. 18. Es. 3. 11. Mat. 5. 12. a 6. 1, 4. a 10. 41, 42. a 16. 27. Luc 6. 35. a 14. 14. Rhuf. 2. 6—10. 2 Cor. 5. 10. Heb. 10. 35. a 11. 26. t Gal. 3. 28. Col. 3. 11.

* Bydded gweision galonog a boddlawn, i gyflawni holl ddyledswyddau eu sefyllfâoedd yn ofalus a ffyddlawn; gan wybod yn sicr drwy air Duw, mai pa ddaioni bynag a wnelo pob un yn y modd a enwyd uchod; † er y dichon mai drwg am dda a gaiff efe gan ei feistr yn ol y cnawd; eto, yr Arglwydd Iesu, y Barnwr mawr a'r chyfiawn, a fydd yn sicr o'i wobrwyo ef yn rasol, ac mewn ffyddlondeb i'w addewid, a dâl yn ehelaeth iddo ef yn ol ei waith, yn nydd mawr y cyfrif; ‡ pa un bynag ai caeth-was, ai ynte gwas o sefyllfa mwy rhydd a fydd efe: yr hyn sydd wir hefyd am bob dyn ffyddlawn arall, pa un bynag ai caeth ai rhydd a fyddo. Gan mai am weision mae yr apostol yn llefaru yma, tybir mai caeth-weision a gweision cyflog a feddylir wrth gaeth a rhydd yn niwedd yr adnod.

9 * A chwithau [u] feistriaid, gwnewch [x] yr un pethau tu ag attynt hwy, † gan roddi bwgwth heibio: [y] ‡ gan wybod fod eich Arglwydd chwi a hwythau yn y nefoedd; [z] || ac nid oes derbyn wyneb gyd âg ef.

u Lef. 19. 13. a 25. 39—46. Deut. 15. 11—16. a 24. 14, 15. Neh. 5. 5, 8, 9. Job 24. 10—12. a 31. 13—15. Es. 47. 6, a 58. 3—6. Amos. 8. 4—7. Mal. 3. 5. Col. 4. 1. Iago 5. 4. x adn. 5—7. Mat. 7. 12. Luc 6. 31. Iago 2. 8, 13. y Salm 140. 12. Preg. 5. 8. Mat. 23. 8, 10. a 24. 48, 51. Luc 12. 45, 46. Ioan 13. 13. 1 Cor. 7. 22. z Gwel ar Act. 10. 34. Rhuf. 2. 11. Col. 3. 25.

* Nid gwnewch yr un pethau o wasanaeth tuag atynt hwy ag maent hwy yn wneyd tuag atoch chwi; ond gwnewch chwi eich dyledswydd fel meistriaid tuag atynt hwy, trwy ewyllys da, gyda golwg ar ogoniant Duw, a Christ, fel y cyngorwyd iddynt hwy wneyd tuag atoch chwithau. † Ymddygwch tuag atynt yn dirion a hynaws, nid mewn nwydau drwg, tra-arglwyddiaethol, ac arfer geiriau sàrug a bygythiol heb raid: gall meistriaid gadw awdurdod ar eu gweision, hyd yn nôd ar gaeth-weision, heb drahausder a chreulondeb felly. ‡ Er bod cyfreithiau dynol yn rhoddi awdurdod i feistriaid i drin eu caeth-weision gyda chreulondeb mawr; eto, dylent wybod ac ystyried, fod iddynt hwythau Arglwydd yn y nefoedd, yn gystal ag i'w gweision; ac nad yw ei gyfreithiau hynaws ac union ef yn caniatâu y fath awdurdod i'r naill ddyn ar y llall; ac eu bod hwy yn gyfrifol iddo ef am y defnydd a wnaent o'u hawdurdod. || Dylent wybod nad oes dim derbyn wyneb y meistr mwy na'r gwas gyda'r Arglwydd; ond y bernir pob un yn ol ei ymddygiad yn ei sefyllfa: nid arbedir y meistr am ei fod yn feistr, ac ni chospir y gwas am mai gwas ydoedd.

10 [a] * Heb law hyn, fy mrodyr, [b] † ymnerthwch ‡ yn yr Arglwydd, ac yng nghadernid ei allu ef.

a 2 Cor. 13. 11. Phil. 3. 1. a 4. 8. 1 Pedr 3. 8. b pen. 1. 19. a 3. 16. Deut. 20. 3, 4. a 31. 23. Jos. 1. 6, 7. 9. 1 Sam. 23. 16. 1 Cron. 28. 10, 20. 2 Cron. 15. 7. Salm 138. 3. Es. 35. 3. 4. a 40. 28—31. Hag. 2. 4. Zec. 8. 9, 13. 1 Cor. 16. 13. 2 Cor. 12. 9, 10. Phil. 4. 13. Col. 1. 11. 2 Tim. 2. 1. a 4. 17. 1 Pedr 5. 10.

* Heblaw y cyngorion gwahanrhedol uchod, mae yr apostol yn tynu at ddiwedd ei epistol gyda rhai cyngorion cyffredinol, ag oedd yn perthyn i bawb fel eu gilydd, yn mhob sefyllfa. † Byddwch gryfion, calonog, nerthol, a chyson, yn eich holl ddyledswyddau yn erbyn y diafol a'i holl ymosodiadau a'i ruthrau. ‡ Nid yn eich nerth eich hunain, ond yn nerth a chadernid yr Arglwydd Iesu Grist: yno mae eich nerth chwi, a gellwch ei gael oddi yno yn wastadol, trwy weithrediad ffydd a gweddi. Er mai gwendid yw nerth mwyaf y saint; eto, ei nerth ef a berffeithir mewn gwendid: a phan maent hwy yn wàn ynddynt eu hunain, maent yn gedyrn ynddo ef.

11 [c] * Gwisgwch [d] holl arfogaeth Duw,

† † fel y galloch sefyll yn erbyn [f] cynllwynion diafol.

c pen. 4. 24. Rhuf. 13. 14. Col. 3. 10. d adn. 13. Rhuf. 13. 12. 2 Cor. 6. 7. a 10. 4. 1 Thes. 5. 8. e adn. 13. Luc 14. 29—31. 1 Cor. 10. 13. Heb. 7. 25. Judas 24. f pen. 4. 14. Marc 13. 22. 2 Cor. 2. 11. a 4. 4. a 11. 3, 13—15. 2 Thes. 2. 9—11. 1 Pedr 5. 8. 2 Pedr 2. 1—3. Dat. 2. 24. a 12. 9. a 13. 11—15. a 19. 20. a 20. 2, 3, 7, 8.

* Mae yr apostol yn llefaru yma mewn dull milwraidd, ac mae y gair Groeg, *panaplia*, "holl arfogaeth," yn arwyddo *pob math o arfogaeth*, ymosodawl ac ymddiffynawl; yr hyn a gynnwysir yn yr arferiad, neu y gweithrediad o'r holl rasau sanctaidd a roddir i ni gan Dduw, i'w defnyddio yn ei nerth ef, i ddrygu y gelynion ysbrydol yn gystal ag i'n hamddiffyn ein hunain rhag-ddynt: ac wrth y dysgrifiad manol a rydd yr apostol yn yr adnodau nesaf o'r arfogaeth, gwelir ei bod yn *wisg o arfogaeth, gyflawn* yn mhob modd, ac addas i amddiffyn *pob rhan* o'r dyn; eto, sylwa rhai nad oes yma ddim i'r cefn, gan y rhaid i ni yn wastad wynebu y gelynion, os ymgen, buan yr awn yn agored i'w saethau ac heb ddim i'n hamddiffyn rhag y perygl. † Wrth ymladd rhyfeledd yr Arglwydd yn yr arfogaeth gyflawn hon, gallwn ofyll, a dàl ein tir, yn erbyn aneirif gynllwynion, maglau, ystrywiau, ac ymosodiadau cyfrwys a dichellgar y diafol a'i holl offerynau, a'u gorchfygu hefyd: ac mae yr angenrheidrwydd mwyaf i ni oll am yr arfogaeth hon, a chadernid gallu yr Arglwydd Iesu i'w trin yn ddeheu ac effeithiol. *Methodeias*, "cynllwynion:" arfeniadau, neu ddyfeisiau cyfrwys, i orchfygu un trwy ywyll a dichell.

12 * Oblegid nid yw ein [g] hymdrech ni yn erbyn gwaed a chnawd, [i] † ond yn erbyn tywysogaethau, ‡ yn erbyn awdurdodau, [k] || yn erbyn bydol-lywiawdwyr tywyllwch y byd hwn, ; yn erbyn drygau ysprydol yn y nefolion leoedd.

g Luc 13. 24. 1 Cor. 9. 25—27. 2 Tim. 2. 5. Heb. 12. 1, 4. Mat. 16. 17. 1 Cor. 15. 50. Gal. 1. 16. i pen. 1. 21. a 3. 10. Rhuf. 8. 38. Col. 2. 15. 1 Pedr 3. 22. k pen. 2. 2. Job 2. 2. Luc 22. 53. Ioan 12. 31. a 14. 30. a 16. 11. Act. 26. 18. 2 Cor. 4. 4. Col. 1. 13.

* Yn y rhyfel ysbrydol hon, nid yw ymdrech neb o'r saint *yn unig* yn erbyn rhesymau cnawdol, tueddiadau naturiol anifeilaidd, yr hon sydd gynnwysedig o "waed a chnawd," nac yn erbyn dynion cnawdol, llywodraethwyr a swyddogion annuwiol y byd hwn; nac ychwaith yn erbyn hudoliaethau dynion a phethau y byd hwn, sydd dòr hoff gan natur lygredig o waed a chnawd: † ond mae yr ymdrech *yn benaf* yn erbyn *tywysogaethau;* sef gelynion ysbrydol, anweledig, y rhai a ymosodant yn ddifnadwy, ar alluoedd mwyaf tefewnol yr enaid cyn y gyddom ni yn meddwl; ‡ mae ein hymdrech ni yn erbyn *awdurdodau;* sef pob urdd a gradd o ysbrydion diefliig, llidiog, cyfrwys, dichellgar, a galluog, y rhai a ddefnyddiant eu holl nerth cythreulig i geisio ein dysgrywio ni; ac mae holl lengau uffern wrth eu hawdurdod hwy, i weithredu ar y natur ddynol, ac i gyflawni eu dybenion dychrynllyd a drygionus. || Mae ein ymdrech ni hefyd yn erbyn *bydol lywiawdwyr tywyllwch y byd hwn,* a'r *oes hon;* sef ysbrydion drwg, sydd wedi cael eu goddef i hir lywodraethu ar y byd tywyllwn, ac sydd yr oes hon yn dàl dynion yn nghadwynau dmnwybodaeth, ofer-goelion, a chyfeiliornadau dinystrol, y rhai a draddodwyd i lawr iddynt o oes i oes, trwy yr holl genedlaethau a aethant heibio. § Mae ein ymdrech ni eto hefyd yn erbyn *drygau ysbrydol yn y nefolion leoedd;* sef ysbrydion drwg eto, sydd yn gwibio yn yr awyr yn agos atom, ac o amgylch-ogylch i ni yn ddhob màn, ac yn gwneyd a allont i genedlu drygau ysbrydol ynom; megys anghrediniaeth, balchder, aflendid, cenfigen, eilun-addoliaeth, a chyfeiliornadau am saethau ysbrydol. Troi yn ysbrydion drwg a wnaethant hwy yn y nefoedd ei hun, am hyny y bwriwyd hwy oddi yno; ac yn y lleoedd mwyaf nefol ar y ddaear, eu hymlais hwy yw cenedlu a meithrin drygau ysbrydol. Rhoddwyd sylwedd yr hyn a ddywed ein Hawdwyr ar yr adnod uchod; a gwylied y saint weithian rhag eu gelynion aneirif, cryfion, cyfrwys, ac uffernol.

13 * Am hynny [l] cymmerwch attoch holl arfogaeth Duw, † fel y galloch [m] wrth-sefyll ‡ yn y dydd drwg; || ac wedi gorphen pob peth, [n] sefyll.

l Gwel ar adn. 11—17. m pen. 5. 6. Preg. 12. 1. Amos 6. 3. Luc 8. 13. Dat. 3. 10. n Mal. 3. 2. Luc 21. 36. Col. 4. 12. Dat. 6. 17.

* Am yr "holl arfogaeth," gwel ar adn. 11; a chawn sylwi ar y gwahanol arfau a sonir eto yn yr adnodau canlynol. Arfogaeth Duw ydyw; wedi ei threfnu, ei darpar, a'i rhoddi gan Dduw i'r saint, ac Ysbryd Duw sydd yn eu dysgu ac yn eu nerthu i ymladd yn fedrus, yn ŵrol, ac yn effeithiol yn yr arfogaeth hon. "Cymmerwn atom" a "gwisgwn" yr holl arfogaeth ysbrydol hon, ac yna ni a fyddwn yn ofnadwy fel llu banerog, ac a wnawn rymusder. † Nid sefyll yn unig, ond *gwrth*-sefyll: nid anhawdd yw sefyll pryd na byddo gelynion; ond gorchwyl mawr yw *gwrth*-sefyll, yn wyneb yr holl elynion angeuol a enwyd yn adn. 12; ac eto yn holl arfogaeth Duw, e ddichon y credadyn gwanaf *wrth*-sefyll ei holl elynion. ‡ Pob dydd o brofedigaeth a pherygl oddi wrth y byd hwn, ac ymosodiadau cynddeiriog Satan a'i offerynau. Gwel ar pen. 5. 16. Dylem fod yn barod i'r frwydr bob dydd, a gelwir arnom yn wastadol i wrth-sefyll ein gelynion; ond mae rhai amserau a chyfleusderau yn rhoddi mantais neilduol i Satan i ymosod a rhuthro arnom, y rhai nis gallwn ni eu gwybod rhagllaw; am hyny dylem fod ar ein gwyliadwriaeth, ac fel milwyr dewrion yn ein harfau bob amser. || Ac wedi gorphen yr holl frwydr, a gorchfygu pob gelyn, sefyll; yn fuddugoliaethus ar faes y gwaed, a chael ein cymmeradwyo gan ein Pen-tywysog mawr, fel y safodd Dafydd ger bron y brenin, a phen Goliath yn ei law. Pan ddelo hyn, ni bydd raid *gwrth*-sefyll mwy.

14 * Sefwch gan hynny, [o] † wedi amgylchwregysu eich lwynau â gwirionedd, [p] ‡ a gwisgo dwyfronneg cyfiawnder;

o pen. 5. 9. Es. 11. 5. Luc 12. 35. 2 Cor. 6. 7. 1 Pedr 1. 13. p Es. 59. 17. 1 Thes. 5. 8. Dat. 9. 9, 17.

* Mae *sefyll* yma i'w ddeall yn wahanol i *sefyll* yn niwedd yr adnod o'r blaen; yno sefyll yn fuddugoliaethus wedi gorphen y frwydr a feddylir, ond yma sefyll yn barod *i'r* frwydr, fel milwyr dàn eu harfau ac yn eu rhesi; neu, ynte, sefyll yn ŵrol *yn* y frwydr, yr un peth â'r *gwrth*-sefyll yn yr adnod o'r blaen: geiriau milwraidd yw y cwbl a ddefnyddir yn yr adnodau hyn. † Dywedir bod y gwregys milwraidd gynt, nid yn unig yn addurn fel rhan o wisg y milwr, ond hefyd yn amddiffyniad fel rhan o'r arfogaeth; am ei fod yn gorchuddio cyssylltiadau ymagorawl y lluryg o gylch y lwynau, (gwel 1 Bren. 22. 34.) ac yn ei chadw yn dèn a dlysgog yn ei lle; ac ar yr un pryd yn cryfâu lwynau y neb a'i gwisgai, gan eu gwneyd yn fwy grymus ac addas i weithredu. Tybia rhai mai athrawiaeth gwirionedd yr efengyl a feddylir yma wrth *wirionedd;* ond tybia ein Hawdwyr yn hytrach, mai egwyddor o wirionedd yn y galon a feddylir: ‡ ac wrth ddwyfroneg *cyfiawnder* meddylir agos yr un peth; gwirionedd diragrith a sanctteiddrwydd mewn calon ac ymarweddiad: ufuddod cydwybodol a gwastadol i holl orchymynion Duw, yr hyn a fyddai fel dwyfroneg yn amddiffyn yr Ephesiaid rhag archollion marwol yn nydd y frwydr. Ni fedd y milwr ysbrydol nac addurn nac amddiffyn heb y gwirionedd a'r cyfiawnder uchod; mae ei lwynau a'i galon yn noeth, ac yn agored i saethau ei elynion.

15 [q] * A gwisgo am eich traed esgidiau parrottôad [r] efengyl tangnefedd:

q Deut. 33. 25. Can. 7. 1. Hab. 3. 19. Luc 15. 22. r Es. 52. 7. Rhuf. 10. 15. 2 Cor. 5. 18—21.

* Rhan o'r wisg a'r arfogaeth filwraidd yw yr esgidiau hyn eto; darllenwn am fotasau pres y cawr Goliath, yn 1 Sam. 17. 6; a phethau cyffelyb a feddylir yma yn

llythyreñol: math o fotasau cryfion, i gadw traed a choesau y milwyr rhag drain a mïeri, maglau a ffyrdd geirwon, a chethri heïyrn llymion a chèrig, a roddai y gelynion ar ffordd i attal eu mynediad hwy yn mlaen. Mae ffordd y cristion trwy leoedd geirwon, llithredig a pheryglus, o'r fath a enwyd uchod, am hyny mae yn rhaid iddo wrth y darn hyn o'r arfogaeth ysbrydol. Ond pa beth sydd i'w ddeall wrth "esgidiau parotôad efengyl y tangnefedd?" *Parodrwydd* gwastadol i rodio yn ffordd yr efengyl, medd rhai, pa mòr arw a pheryglus bynag a fyddo'r ffordd yn aml. Rhodïo mewn *tymer heddychol* a *thawel*, medd eraill, yr hon a ddysgir i ni, ac a weithir ynom, gan efengyl y tangnefedd; ac a fydd yn amddiffyn a dïogelwch i ni yn y brwydrau poethaf. Mae eraill yn dewis deall y geiriau am yr *hyder* hyny a weithir ynom, drwy yr efengyl, mewn canlyniad i'r heddwch a'r tangnefedd a wnaed rhwng Duw â'n heneidiau ni trwyddi hi. Gallwn gymmeryd pob un o'r pethau uchod: dylai ein holl ufudd-dod parod, ein heddwch tawel, a'n hyder cadarn, ddeilliaw oddi ar adnabyddiaeth eglur a helaeth o'r efengyl; trwy yr hon y datguddir Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun, ac mewn cymmod gwirioneddol â phob credadyn. Mae hyn yn gwneyd ufudd-dod yn hyfryd, ac yn calonogi y credadyn i fyned yn mlaen yn ewyllysgar, yn dawel, ac hyderus, yn y brwydrau poethaf, a thrwy y peryglon mwyaf.

16 * Uwch law pob dim, wedi cymmeryd [s] tarian y ffydd, [t] † â'r hon y gellwch ddiffoddi holl biccellau tanllyd y fall.

s Gen. 15. 1. Salm 56. 3, 4, 10, 11. Diar. 18. 10. 2 Cor. 1. 24. a 4. 16—18. Heb. 6. 17, 18. a 11. 24—34. 1 Pedr 5. 8, 9. 1 Ioan 5. 4, 5. t 1 Thes. 5. 19.

* "Uwchlaw pob dim," neu *dros* ac *ar*, bob peth: dywed *Doddridge* mai *dros*, neu *ar*, fuasai y cyfeithiad goreu o'r gair *epi* yn y fàn hon, am ei fod yn cyfeirio at sefyllfa y *darian*, yr hon oedd yn cysgodi ac yn gorchuddio y darnau eraill o'r arfogaeth; ac i'r hyn gyfeiriad mae prydferthwch mawr yma, gan fod *gwirionedd, cyfiawnder*, a *thangnefedd*, (adn. 14, 15.) yn cael eu cysgodi megys, gan ffydd, rhag ymosodiadau a fuasai heb hyny yn eu gorthrechu hwynt. Mae ffydd yn credu tystiolaeth Duw, yn gweled y pethau anweledig, yn rhoi yr enaid i orphwys ar yr addewidion, ac i ymddiried yn ngallu, gwirionedd, trugaredd, doethineb, gras, a rhagluniaeth Duw, yn ol ei air; ac fel hyny megys tarian grêf i gadw ymaith a dirỳmu temtasiynau cryfaf a mwyaf tanllyd y fall; fel y byddai milwyr yn derbyn picellau eu gelynion ar eu tarianau. † Mae rhuthrau Satan yn aml fel "picellau," yn eu sydynrwydd a'u nerth; ac fel "picellau tanllyd," o herwydd y niweidiau gwenwynig a wnair ganddynt. Tybir fod yma gyfeiriad at y saethau wedi eu gwenwyno, a ddefnyddid mewn rhyfeloedd gynt, y rhai a wenwynent ac a boethent waed y rhai a saethid â hwynt nes y byddent farw yn fuan. Dywedir y byddai gan y Groegiaid darianau o grwyn irion, y rhai a ddiffoddent, neu a ddirỳment wenwyn y saethau hyny yn y fàn. Temtasiynau mwyaf ofnadwy, grỳmus, a disymmwth y diafol, a feddylir yma wrth *bicellau tanllyd y fall*, y rhai sydd yn llanw yr enaid â'r trallod mwyaf, ac yn dwyn yr effeithiau mwyaf dychrynllyd, pan y coledder ac y cydsynier â hwynt: neu ynte sydd yn llanw y galon â llid, balchder, chwantau cnawdol, a thueddiadau drygionus eraill; oddigerth eu hattal a'u diffodd yn y fàn gan darian y ffydd, yn gorphwys ar addewidion Duw, ac ar ei allu a'i drugaredd i'w cyflawni hwynt. Mae ffydd yn eu diffodd, pan drwy gymmorth gras Duw mae yn eu gorchfygu.

17 * Cymmerwch hefyd [u] helm yr iachawdwriaeth, [x] † a chleddyf yr Ysbryd, [y] yr hwn yw gair Duw:

u 1 Sam. 17. 5, 38. Es. 59. 17. 1 Thes. 5. 8. x Es. 49. 2. Heb. 4. 12. Dat. 1. 16. a 2. 16. a 19. 15. y Mat. 4. 4, 7, 10, 11. Heb. 12. 5, 6. a 13. 5, 6. Dat. 12. 11.

* Fel y mae gan filwyr *helm*, neu benffestin, i ddïogelu eu penau yn nydd y frwydr, felly y dylai fod gan y saint obaith iachawdwriaeth yn lle helm, (1 Thes. 5. 8.) i'w hamddiffyn hwynt rhag ofnau a pheryglon, a phob archoll angeuol: i'w gwneyd yn amyneddgar i ddyoddef pob caledi, ac i'w gwroli hwy yn erbyn rhuthrau mwyaf ffyrnig a bygythiol Satan a'i holl gyd-ryfelwyr. Mae y saint yn barod i ofni a digaloni yn aml yn mhoethder y frwydr, ond mae gobaith buddugoliaeth ac iachawdwriaeth gyflawn o'r diwedd, yn eu hamddiffyn ac yn eu gwroli yn y brwydrau poethaf. † Ac i gyflawni y cwbl, rhaid i'r milwr cristionogol gymmeryd gair Duw yn gleddyf ysbrydol: mae adnabyddiaeth gywir ac ehang o'i holl athrawiaeth, ei addewidion, ei orchymynion, ei rybuddion, yn nghyd â pharodrwydd i gofio a defnyddio ysgrythyrau addas a pherthynol, ar bob achlysur profedigaethus, yn gỳru y temtiwr i ffoi ymaith, ac yn buddugoliaethu yn llwyr arno o'r diwedd. Cleddyf yr Ysbryd, am mai yr Ysbryd a'i rhoddodd, ac sydd yn ei wneyd yn effeithiol: hen gleddyf hir, llỳm, a chadarn yw hwn; efe a ennillodd lawer brwydr i filwyr Sïon cyn hyn, ac a ennill lawer eto, dàn gyfarwyddyd yr Ysbryd Glân i ymladd âg ef.

18 [z] * Gan weddïo bob amser † â phob rhyw weddi [a] a deisyfiad [b] ‡ yn yr Ysbryd, [c] ‖ a bod yn wyliadwrus at hyn yma, [d] trwy bob dyfal-bara, [e] § a deisyfiad dros yr holl saint;

z pen. 1. 16. Job 27. 10. Salm 4. 16, 17. Es. 26. 16. Dan. 6. 10. Luc 2. 36, 37. a 18. 1—7. a 21. 36. Act. 1. 14. a 6. 4. a 10. 2. a 12. 5. Rhuf. 12. 12. Phil. 4. 6. 1 Thes. 5. 17. 2 Tim. 1. 3. a 1 Bren. 8. 52, 54, 59. a 9. 3. Esther 4. 8. Dan. 9. 30. Hos. 12. 4. 1 Tim. 2. 1. Heb. 5. 7. b pen. 2. 22. Zec. 12. 10. Rhuf. 8. 15, 26, 27. Gal. 4. 6. Judas 20. c Mat. 26. 41. Marc 13. 33. a 14. 38. Luc 21. 36. a 22. 46. Col. 4. 2. 1 Pedr 4. 7. d Gen. 32. 24—28. Mat. 15. 25—28. Luc 11. 5—8. a 18. 1—8. e Gwel ar f. adn. 19.—pen. 3. 8, 18. Phil. 1. 4. Col. 1. 4. Philemon 5.

* Gan mai ysbrydol yw y rhyfel, ac ysbrydol yr holl arfogaeth, dylai y saint weddïo bob amser: heb hyny nis gallant gael yr arfau, nis gallant eu gwisgo am danynt, eu cadw yn loywon, na'u trin yn rymus, yn fedrus, nac yn effeithiol. Dylid gweddïo yn gyson, yn aml, ar amserau gosodedig, † mewn saeth-weddïau achlysurol, ac yn fwy taer a dyfal yn wyneb profedigaeth, neu yn awr y brofedigaeth; gan arfer pob math o weddïau a deisyfiadau, ‡ trwy gymmorth yr Ysbryd Glân, dàn ei ddylanwadau ef, ac mewn ymddybyniad ffyddiog arno. ‖ Dylid bod yn wyliadwrus hefyd at hyn yma; gan ochel esgeulusdra, digalondid, blinder, rhwystrau, a phob negeseüon anamserol a fyddo yn lluddias gweddi: a dylid dyfal-barâu yn hyn; gan wybod fod Satan uwchlaw pobpeth arall am ein temtio i esgeulusdra mewn gweddi, fel y gallo gael ychwaneg o fantais yn ein herbyn. § Dylem weddïo, nid yn unig drosom ein hunain, ond hefyd dros yr holl saint, y rhai sydd yn yr un frwydr, a thàn yr un blinderau â ni ein hunain: y neb ni weddïa dros ei frodyr, nid yw yn gweddïo yn dda drosto ei hun.

19 [f] * A throsof finnau, [g] † fel y rhodder i mi ymadrodd, [h] ‡ trwy agorwyd fy ngenau yn hŷf, i hysbysu [i] ‖ dirgelwch yr efengyl:

f Rhuf. 15. 30. 2 Cor. 1. 11. Phil. 1. 19. Col. 4. 3. 1 Thes. 5. 25. 2 Thes. 3. 1. Philemon 22. Heb. 13. 18. g Act. 2. 4. 1 Cor. 1. 5. 2 Cor. 8. 7. h Act. 4. 13, 29, 31. a 9. 27, 29. a 13. 46. a 14. 3. a 18. 26. a 19. 8. a 28. 31. 2 Cor. 3. 12. a 7. 4. Phil. 1. 20. 1 Thes. 2. 2. i pen. 1. 9. a 3. 3, 4. 1 Cor. 2. 7. a 4. 1. Col. 1. 26, 27. a 2. 2. 1 Tim. 3. 16.

* Gan fod gwaith a phrofedigaethau yr apostol yn fawr iawn, ac yntau ond dyn gwael ac annigonol ynddo ei hun; mae yn y modd gostyngeiddiaf, yn dymuno ar yr Ephesiaid i weddïo drosto yntau hefyd yn mhlith yr holl saint, gan ystyried ei hun yn llai nâ'r lleiaf o honynt oll. Ac yn *bennodol drosof finnau*, medd *Doddridge*. † "Fel y rhodder i mi ymadrodd:" tybia rhai fod Paul yma yn cyfeirio at ryw *attaliad* yn ei leferydd ef, neu ryw *anmherffeithrwydd* arall yn ei ddull ef o lefaru, yr hyn a allai fod yn ddigalondid iddo wrth bregethu, ac yn tueddu at aflwyddo ei wein-

idogaeth ef. Beth bynag am hyny, diau ei fod ef yn gwybod fod parotôad y galon ac ymadrodd y tafod mewn dyn, oddiwrth Dduw; ac am hyny yn deisyfu gweddïau ei frodyr drosto ar iddo gael pethau, ac ymadrodd addas a rhydd, i osod y pethau allan: ‡ ar iddo gael rhyddid a chynnorthwyon yr Ysbryd, i fynegi holl gyngor Duw yn hŷf a dïofn, yn wyneb peryglon, erlidiau, ac angau. "Cenad mewn cadwyn" oedd Paul y pryd hwn; (adn. 20,) a thybia rhai mai rhyddid o'i garchar, i bregethu yn gyhoeddus fel o'r blaen, oedd ef yn feddwl wrth "agor ei enau yn hŷf." ‖ "Dirgelwch yr efengyl:" trefn ryfeddol Duw o gadw pechaduriaid, anchwiliadwy olud Crist, a derbyniad y cenedloedd crediniol i fwynâd o freintiau yr efengyl, yr hyn oedd ddirgelwch rhyfedd a dïeithr i'r Iuddewon. Gwel ar amryw adnodau yn y drydedd bennod.

20 * Dros yr hon yr wyf yn [k] gennad [l] mewn cadwyn: † fel y traethwyf yn [m] hŷf am ddani, fel y perthyn i mi draethu.

k Diar. 13. 17. Es. 33. 7. 2 Cor. 5. 20. 1 Gwel ar pen. 3. 1. a 4. 1.—2 Sam. 10. 2—6. m Gwel ar h. adn. 19.—Jer. 1. 7, 8, 17. Ezec. 2. 4—7. Mat. 10. 27, 28. Act. 5. 29. Col. 4. 4. 1 Ioan 3. 16. Judas 3.

* Yr oedd Paul y pryd hwn yn garcharor Iesu Grist yn Rhufain: gwel ar pen. 3. 1. Cenad Duw mewn cadwyn gan elynion Duw; ac er ei fod yn genad heddwch dros Dduw at y cenedloedd, yr oedd y pryd hwnw yn cyflawni ei genadwri mewn carchar a chadwynau; mòr fawr y dirmygid ei Arglwydd gogoneddus ef yn mhlith dynion! Byddai y Rhufeiniaid yn arfer cadwyno braich ddeheu y carcharor wrth fraich aswy y milwr a'i gwarcheidwai ef: ond am fod cenadwyr brenhinoedd *(embassadors)* yn cael eu hystyried bob amser yn urddasol, mae yr apostol yma yn dangos y dirmyg a wnaid ar ei Arglwydd Dwyfol ef, yn y trais hwn ar ei ryddid ef: *cenad* mewn cadwyn! a hwnw yn genad Brenin breninoedd. † Gwel ar adn. 19. Nid yn unig traethu yn hŷf, ond hefyd gweithredu yn rhydd, yn mhob peth er taeniad yr efengyl; ac efallai dadleu yn hŷf ger bron ei elynion, pan ddygid ef i gael ei brofi: amddiffyn gwirionedd yr efengyl fel y perthynai iddo wneyd.

21 [n] * Ond fel y gwypoch chwithau hefyd fy helynt, beth yr wyf yn ei wneuthur, [o] † Tychicus, [p] ‡ y brawd anwyl, [q] a'r gweinidog ffyddlawn yn yr Arglwydd, ‖ a hysbysa i chwi bob peth:

n Phil. 1. 12. Col. 4. 7. o Act. 20. 4. 2 Tim. 4. 12. Tit. 3. 12. p Col. 4. 9. Philemon 16. 2 Pedr 3. 15. q 1 Cor. 4. 17. Col. 1. 7. 1 Tim. 4. 6. 1 Pedr 5. 12.

* Gwyddai yr apostol fod yr Ephesiaid yn awyddus am glywed ei helynt ef yn fanol; ond nid oedd achos iddo ysgrifenu am hyny, am ei fod yn danfon gyda'r epistol hwn frawd anwyl, a gweinidog ffyddlawn yn yr Arglwydd, yr hwn a hysbysai bob peth yn fanol iddynt am ei helynt ef yn Rhufain. † Tychicus ydoedd un o ngyfeillion a chyd-lafurwyr Paul, ac ydoedd gydag ef yn y cyf-ymweliad diweddaf a gawsai efe â henuriaid eglwys Ephesus, pan ddanfonodd efe am danynt i ddyfod ato yn Miletus. Gwel Act. 20. 4, 17. ‡ Dylai pob brawd fod yn frawd *anwyl*, a phob gweinidog fod yn weinidog *ffyddlawn;* ond a ydyw pawb felly? yr Arglwydd a'n gwnelo felly oll! ‖ A hysbysa i chwi pa lwyddiant sydd ar fy ngweinidogaeth I mewn cadwyn yn Rhufain, pa wrthwynebiadau a gyfarfyddais, pa gysuron a gefais yn fy nyoddefiadau, pa nifer o eneidiau a ennillais at Grist, a pha fodd mae tystiolaeth yr efengyl wedi effeithio ar feddyliau trigolion Rhufain yn gyffredin: pethau o'r natur uchod oedd "pob peth" Paul.

22 [r] * Yr hwn a anfonais attoch er mwyn hyn yma; fel y caech wybod ein helynt ni, † ac fel y diddanai efe eich calonnau chwi.

r Phil. 2. 19, 25. Col. 4. 8. 1 Thes. 3. 2. 2 Thes. 2. 17.

* Dyben Paul yn danfon Tychicus i Ephesus oedd, er mwyn hysbysu y pethau uchod a'u cyffelyb; † ac fel y dyddanai efe hwy trwy fynegi ei fod ef yn iach, yn llafurus, yn llwyddiannus, ac yn gysurus ei enaid, er bod ei gorph mewn carchar a chadwyn. A dïammau ei fod yn dyddanu eu calonau hefyd trwy ei weinidogaeth yn eu plith, a thrwy ei gyfeillach felus, a'i ymadroddion grasol am bethau profiadol.

23 [s] * Tangnefedd i'r brodyr, [t] † a chariad ‡ gyd â ffydd ‖ oddi wrth Dduw Dad, a'r Arglwydd Iesu Grist.

s Gwel ar Rhuf. 1. 7. 1 Cor. 1. 3.—Gen. 43. 23. 1 Sam. 25. 6. Salm 122. 6—9. Ioan 14. 27. Gal. 6. 16. 1 Pedr 5. 14. Dat. 1. 4. t Gal. 5. 6. 1 Thes. 1. 3. a 5. 8. 2 Thes. 1. 3. 1 Tim. 1. 14. Philemon 5—7.

* Tangnefedd rhyngddynt â Duw yn eu cydwybodau, rhyngddynt â'u gilydd fel brodyr, ac oddi wrth y byd terfysglyd a'u gelynion erlidgar ac aflonydd. † Cariad helaeth a gwresog at Dduw, at ei waith, at eu gilydd, ac at eneidiau dynion yn gyffredin. ‡ A ffydd hefyd, yr hon sydd yn gweithio trwy gariad, ac yn angenrheidiol i fod mewn gweithrediad parâus a gwastadol. ‖ Mae y grasau hyn yn deilliaw oddi wrth Dduw Dad, a'r Arglwydd Iesu Grist fel Cyfryngwr; oddi yno y deilliant yn ddechreuol, ac oddi yno mae eu parâd, eu cynnydd, a'u gweithrediadau bob amser. Yr oedd y grasau hyn gan yr Ephesiaid crediniol eisoes, ac mae yr apostol yn dymuno iddynt helaethrwydd chwanegol o honynt yn barâus.

24 [u] * Gras † *fyddo* gyd â phawb ‡ sydd yn [x] caru ein Harglwydd Iesu Grist mewn [y] purdeb. [z] ‖ Amen.

u 1 Cor. 16. 23. 2 Cor. 13. 14. Col. 4. 18. 2 Tim. 4. 22. Tit. 3. 15. Heb. 13. 25. x Gwel ar Ioan 21. 15—17. 1 Cor. 16. 22. y Mat. 22. 37. 2 Cor. 8. 8, 12. z Gwel ar Mat. 6. 13. a 28. 20.

* Y grasau uchod a enwyd, yn nghyd â phob gras sanctaiddiol, cysurol, a chadwedigol arall, † a fyddo gyda phawb, ac ar bawb, Iuddewon a chenedloedd, ‡ sydd yn caru ein Harglwydd Iesu Grist mewn purdeb diragrith, ac mewn modd sanctaidd ac anllygredig: ac ar y cyfryw yn unig y mae gras Duw a'i ewyllys da ef. ‖ Dyweded pawb sydd yn caru yr Arglwydd Iesu, Amen, am y fendith-wers uchod; felly boed, ac felly y bydd.

¶ At yr Ephesiaid yr ysgrifenwyd o Rufain, gyd â Tychicus.

EPISTOL PAUL YR APOSTOL

AT Y

PHILIPPIAID.

PEN. I.

Y mae efe yn tystiolaethu ei ddiolchgarwch i Dduw, a'i serch tuag atynt hwythau.

[a] * PAUL a [b] Thimothëus, [c] † gweision Iesu Grist, [d] ‡ at yr holl saint yng Nghrist Iesu y rhai sydd yn [e] ‖ Philippi, [f] § gyd â'r esgobion a'r [g] diaconiaid:

a Gwel ar Rhuf. 1. 1. 1 Cor. 1. 1. b Act. 16. 1—3. 1 Cor. 16. 10. 2 Cor. 1. 1. Col. 1. 1. 1 Thes. 1. 1 2 Thes. 1. 1. 1 Tim. 1. 2. Heb. 13. 23. c Marc 13. 34. Ioan 12. 26. Tit. 1. 1. Iago 1. 1. 2 Pedr 1. 1. Judas 1. Dat. 1. 1. a 19. 10. a 22. 9. d Rhuf. 1. 7. 1 Cor. 1. 2. 2 Cor. 1. 1. Eph. 1. 1, 15. 2 Thes. 1. 10. e Act. 16. 12, &c. 1 Thes. 2. 2. f Act. 1. 20. 1 Tim. 3. 1, 2. Tit. 1. 7. 1 Pedr 2. 25. Dat. 1. 20. a 2. 1, 8, 12. g Act. 6. 1—7. 1 Tim. 3. 8, 10, 12, 13.

* Paul yn ysgrifenu, a Thimothëus yn cymmeradwo, yr epistol; ac fel hyny yn dangos y cyd-gordiad brawdol oedd rhyngddynt â'u gilydd, ac yn debyg o gael gwell derbyniad i'r epistol wrth ei fod yn enwau y ddau. Adwaenai y Philippiaid Timothëus, oblegid buasai yno gyda Phaul. Act. 16. 1, 3, 12. † Nid ammheuwyd apostoliaeth Paul yn Philippi erioed, am hyny nid oedd raid iddo ddywedyd "*Paul apostol* Iesu Grist," fel yn rhai o'i epistolau eraill. "Gweision Iesu Grist" mewn modd arbenig, wedi ymroddi yn hollawl ac am byth i'w wasanaeth ef yn ngweinidogaeth yr efengyl. ‡ Saint mewn proffes, saint mewn rhodiad, a saint mewn gwirionedd, yn ol barn cariad; wedi eu sancteiddio trwy undeb ysbrydol â Christ Iesu, a thrwy dderbyn gras a rhinwedd sanctaidd o hóno ef. ‖ Am Philippi, gwel ar Act. 16. 12. § Wrth "esgobion" yma, dylem ddeall, mae yn debyg, gweinidogion cyhoeddus, neu athrawon yr eglwys; y rhai oedd yn pregethu y gair, yn gweini yr ordinâdau, ac yn porthi praidd Duw mewn pethau ysbrydol. Y "diaconiaid" oedd swyddwyr eraill, yn gofalu am bethau amgylchiadol yr eglwys. Esgobion, henuriaid, bugeiliaid, &c., ydynt wahanol enwau ar yr un dynion yn yr epistolau; ac nid enwau yn arwyddo gwahanol swyddau, fel y defnyddir hwynt yn awr: esgobion a diaconiaid oedd yr unig swyddwyr eglwysig y pryd hwnw, oddigerth yr apostolion eu hunain: a gallwn sylwi hefyd, bod esgobion i un eglwys y pryd hwnw, ac nid un esgob i lawer o eglwysi, fel yn ein dyddiau ni.

2 [h] * Gras i chwi, a thangnefedd, oddi wrth Dduw ein Tad ni, a'r Arglwydd Iesu Grist.

h Gwel ar Rhuf. 1. 7.

* Cawsom y cyfarchiad hwn yn mhob un o'r epistolau blaenorawl: Gwel ar Rhuf. 1. 7; 1 Cor. 1. 3; 2 Cor. 1. 2; Galat. 1. 3; Ephes. 1. 2. Dysgwn oddi wrth hyn gyfarch ein gilydd yn gristionogol, ac nid fel paganiaid.

3 * I'm Duw [i] † yr ydwyf yn diolch, [k] ym mhob coffa am danoch,

i Gwel ar Rhuf. 1. 8. a 6. 17. 1 Cor. 1. 4. k Eph. 1. 15, 16. Col. 1 3, 4. 1 Thes. 1. 2, 3. a 3. 9. 2 Thes. 1. 3. 2 Tim. 1. 3. Philemon 4, 5.

* "I'm Duw:" yr hwn a'm piau, yr hwn wyf yn wasanaethu yn efengyl ei Fab, yr hwn a gymmerodd drugaredd arnaf, a'm gosododd yn y weinidogaeth, ac a'm gwnaeth yn offerynol i'ch dychweliad chwi a llaweroedd eraill. † Nis gallaf lai na diolch iddo ef o'm calon, bob amser y meddyliwyf am danoch chwi, ac am yr hyn a wnaeth efe arnoch, erddoch, a thrwyddoch chwi er pan gredasoch. Yr oedd efe yn diolch am eu dychweliad, eu bywyd hardd, a'u llafur yn yr efengyl wedi eu dychweliad. Yr oedd pob coffa am danynt yn hyfrydwch, ac yn destyn diolchgarwch i feddwl yr apostol; ac yr oedd yn eu cofio yn fynych.

4 * Bob amser [l] ym mhob deisyfiad o'r eiddof drosoch chwi oll, † gan wneuthur fy neisyfiad [m] gyd â llawenydd,

l adn. 9—11.—Gwel ar Rhuf. 1. 9. m pen. 2. 2. a 3. 18. a 4. 1. Luc 15. 7, 10. Col. 2. 5. 1 Thes. 2. 19, 20. Philemon 7. 2 Ioan 4.

* Bob amser, ac yn mhob gweddi, dirgel neu gyhoedd, yr oedd yr apostol yn diolch drostynt, † ac yn gwneuthur ei ddeisyfiadau ar eu rhan gyda llawenydd mawr, yr hyn oedd lawer o help i'w gysuro ef yn ei gaethiwed. Yr oedd yn cofio am danynt *oll* hefyd, fel tad anwyl am *bob un* o'i blant, pan fyddo yn absenol oddi wrthynt.

5 * Oblegid eich [n] cymdeithas chwi yn yr efengyl, † o'r dydd cyntaf hyd yr awrhon;

n adn. 7. Act. 16. 15. Rhuf. 11. 17. a 15. 27. 1 Cor. 1. 9. Eph. 2. 19—22. a 3. 6. Col. 1. 21—23. Philemon 17. Heb. 3. 14. 2 Pedr 1. 1. 1 Ioan 1. 3, 7.

* Yr oedd yn diolch i Dduw am eu dychweliad hwy trwy ffydd i fwynâd o freintiau, addewidion, a bendithion yr efengyl; am eu cymdeithas hwy â Duw Dad, Mab, ac Ysbryd Glân; âg ef ei hun, â'u gilydd, ac â'r holl saint, yn yr efengyl: † a hyny o'r dydd cyntaf pan ddychwelwyd hwy, hyd yr awr hòno, (yr hyn oedd tua deuddeng mlynedd medd *Scott,*) heb ŵyro nac oeri yn eu proffes. Wrth eu "cymdeithas hwy yn yr efengyl," mae rhai yn deall eu cyfraniadau at achos yr efengyl, neu i'r saint tlodion er mwyn yr efengyl: ond tebycach mai fel y sylwyd uchod y dylid deall y geiriau.

6 * Gan fod yn [o] hyderus yn hyn, y bydd i'r hwn a [p] ddechreuodd ynoch waith da, [q] † *ei* orphen hyd [r] ddydd Iesu Grist:

o 2 Cor. 1. 15. a 2. 3. a 7. 16. a 9. 4. Gal. 5. 10. 2 Thes. 3. 4. Philemon 21. p adn. 29. pen. 2. 13. Act. 11. 18. a 16. 14. Rhuf. 8. 28—30. Eph. 2. 4—10. Col. 2. 12. 2 Thes. 2. 13, 14. Tit. 3. 4—6. Heb. 13. 20, 21. Iago 1. 16—18. 1 Pedr 1. 2, 3. q Salm 138. 8. Eph. 4. 12. 1 Thes. 5. 23, 24. 2 Thes. 1. 11. 1 Pedr 5. 10. r adn. 10.—Gwel ar 1 Cor. 1. 8.

* Y gwaith da o ras a sancteiddiad a feddylir yma wrth "waith da;" ac nid *haelioni* y Philippiaid tuag at achos yr efengyl, fel y dychymmyga rhai: eu gwaith hwy eu hunain fuasai hyny; ond gwaith un arall yn-ddynt hwy a ddywedir yma. Duw trwy ei air a'i Ysbryd a ddechreuasai y gwaith da a grasol hwn yn eu calonau hwy; † ac yr oedd yn sicr gan yr apostol oddi ar gariad, gallu, cyfoeth, arfaeth, cyfammod, addewidion, a ffyddlondeb Duw, y dygai efe y gwaith yn mlaen,

nes ei berffeithio mewn gogoniant yn nydd Iesu Grist,
esef dydd adgyfodiad a goneddiad y saint yn niwedd
y byd hwn. Nid oes dim *da* yn neb heb i Ysbryd Duw
ei weithio, neu ei roddi ynddynt: a lle dechreuo efe
waith da, mae yn sicr o'i orphen yn berffaith, er
gwaethaf holl wrthwynebiadau pechod a Satan: ac yn
y diwedd rhoddir y goron byth ar ei ben ef, am dde-
chreu a pherffeithio.

7 * Megis y mae yn iawn i mi synied hyn
am danoch oll, [t] † am eich bod gennyf yn fy
nghalon, ‡ yn gymmaint a'ch bod chwi oll,
[u] yn gystal yn fy rhwymau, [x] ag yn fy amddi-
ffyn a chadarnhâd yr efengyl, yn gyfrannogion
âmi o ras.

s 1 Cor. 13. 7. 1 Thes. 1. 2—5. a 5. 5. Heb. 6. 9, 10.
t 2 Cor. 3. 2. a 7. 3. u Act. 16. 23—25. a 20. 23. Eph. 3. 1. a
4. 1. a 6. 20. 2 Tim. 1. 8. a 2. 9. Heb. 10. 33, 34. x adn. 17.
Gen. 4. 14.

* Gan fod y Philippiaid eisoes wedi gwneyd proffes
ygredadwy ac anrhydeddus o'r efengyl, wedi parâu yn
ddïysgog ynddi lle yr oedd llawer wedi gwrthgilio, a
chwedi rhoddi prawf amlwg o'u diragrithrwydd ac o
wreiddyn y mater ynddynt; yr oedd yr apostol yn
rhwym mewn barn cariad i feddwl, bod y "gwaith da"
wedi ei ddechreu ynddynt yn gyffredinol trwy yr holl
eglwys. † Ac yr oedd yn fwy tueddol iddo synied hyn
am danynt, am ei fod yn eu caru oll yn ei galon, a
chariad ni feddwl ddrwg, ac a obeithia bob dim:
(1 Cor. 13. 5, 7.) yr oeddynt yn anwyl iawn ganddo, ac
yn fawr yn ei galon yn ei holl ddeisyfiadau ger bron
Duw drostynt. ‡ Yr oedd yn ymddangos yn amlwg, eu
bod yn gyfranogion o wir ras fel yntau: ac yr oeddynt
yn profi hyny yn eu gwaith yn dyoddef yn amyneddgar
fel yntau, yn eu cyd-ymdeimlad cristionogol âg ef, yn
eu cynnorthwyon iddo ef yn ei garchariad dros achos
Crist, ac yn ei holl lafur ef er amddiffyn yr efengyl yn
erbyn dadleüon cecrus ei gwrthwynebwyr, ac er cad-
arnhâd yr efengyl mewn gair a gweithred, er eu gor-
chfygu hwy, a chadarnâu y saint.

8 * Canys [y] Duw sydd dyst i mi, [z] † mor
chwiraethus wyf am danoch oll [a] ‡ yn ymysgar-
oedd Iesu Grist.

y Gwel ar Rhuf. 1. 9. a 9. 1. Gal. 1. 20. z pen. 2. 26. a 4.
1. 2 Cor. 13. 9. Gal. 4. 19. Col. 2. 1. 1 Thes. 2. 8. 2 Tim. 1. 4.
a pen. 2. 1. Es. 16. 11. a 53. 15. Jer. 31. 20. Luc 1. 78. 2 Cor. 6.
2 12. a 7. 15. Col. 3. 12. Philemon 12, 20. 1 Ioan 3. 17.

* Gallai yr apostol alw Duw, adnabyddwr y calonau,
yn dyst; † pa mòr fawr yr hiraethai efe am y Philip-
piaid oll, mewn serchawgrwydd sanctaidd, tŷner, a
thosturiol, tebyg i'r eiddo Crist tuag at ei bobl: ‡ ac
mis gallasai dim ond cariad neu ymysgaroedd Iesu
Grist, grëu y fath serchawgrwydd a hiraeth sanctaidd
yn ei ymysgaroedd ef. Yr oedd yn gwir hiraethu am
eu gweled; a buasai yn dda ganddo lafurio yn mhob
ffordd i fod o les iddynt, yn enwedig mewn pethau ys-
brydol, er adeiladaeth i'w heneidiau.

9 * A [b] hyn yr wyf yn ei weddïo, [c] ar amlhâu
o'ch cariad chwi etto fwy-fwy [d] † mewn gwy-
bodaeth, a phob synwyr;

b Gwel ar adn. 4. c pen. 3. 15, 16. Job 17. 9. Diar. 4. 18.
Mat. 13. 31—33. 2 Cor. 8. 7. 1 Thes. 3. 12. a 4. 1, 9, 10. 2 Thes.
1. 3. 1 Pedr 1. 22. d 1 Cor. 14. 20. Eph. 5. 17. Col. 1. 9. a 3.
10. 2 Pedr 1. 5, 6. a 3. 18.

* Gwedi dïolch i Dduw am y cariad a'r grasau eraill
a gawsent hwy eisoes, mae efe yma yn gweddïo am i'w
cariad hwy at Dduw, ei achos, ei wirionedd, a'i ordin-
âdau; at eu gilydd, ac at yr holl saint; *amlâu* o hyd
ffwy-fwy, yn ei holl amrywiol weithrediadau a'i effeith-
iau dedwydd. † Mae yn gweddïo hefyd am i'r cariad
hwnw gael ei lywodraethu gan wybodaeth helaethach a
chywir o bethau Duw; a chan synwyr a barn addas, yr
un a darddai o archwaeth sanctaidd at bethau ysbryd-
ol, dealltwriaeth trybwyll o wahanol ranau crefydd, a
phrofiad dwys o'i heffeithiau grymus ar y galon.
Gwybodaeth hanesiol, neu athrawiaethol, yw y cyntaf;
a gwybodaeth, barn, neu synwyr profiadol, ac ymarfer-
ol, yw yr ail. Ni wna gwybodaeth heb brofiad nemawr
o les, a phrofiad heb wybodaeth, nis gellir ei gael:
rhaid cael y ddau, ac yna byddwn yn gristionogion
gwirioneddol ac ymarferol; nid gwybodaeth heb *zel*, na
zel heb wybodaeth, a fydd genym yn ein crefydd, ond
pob un o'r ddau, wedi eu priodol gyd-dymheru.

10 * Fel [e] y profoch y pethau sydd â gwa-
haniaeth rhyngddynt; [f] † fel y byddoch bur a
[g] didramgwydd [h] hyd ddydd Crist;

e Es. 7. 15, 16. Amos 5. 14, 15. Mica 3. 2. Ioan 3. 20. Rhuf.
2. 18. a 7. 16, 22. a 8. 7. a 22. 2, 9. f adn. 16. Gen. 20. 5. Jos.
24. 14. Ioan 1. 47. 2 Cor. 1. 12. a 2. 17. a 8. 8. Eph. 4. 15. a 6. 24.
g Mat. 16. 23. a 18. 6, 7. a 26. 33. Rhuf. 14. 20, 21. a 16. 17. 1 Cor.
8. 13. a 10. 32. 2 Cor. 6. 3. Gal. 5. 11. 1 Thes. 3. 13. h Gwel
ar 1 Cor. 1. 8.

* Fel y cymmeradwyoch y pethau sy ragorol, neu
ardderchog, yw y geiriau hyn yn ol y Saesoneg. Mae
y wir athrawiaeth a gwir grefydd oll yn rhagorol, ac yn
haeddu cymmeradwyaeth; ond mae Satan a'i weinidog-
ion yn dwyn llawer o bethau gau a rhithiol i mewn, ac
yn eu cymmysgu am ben y gwirionedd, mewn athraw-
iaeth a phrofiad hefyd; am hyny mae eisiau "gwybod-
aeth" athrawiaethol, "a phob synwyr" profiadol, ar
y saint, i brofi a barnu y pethau sydd â gwahaniaeth
rhyngddynt, i "dynu y gwerthfawr oddi wrth y gwael,"
"i wrthod y drwg ac i ddewis y da," ac i gymmeradwyo
y pethau sy ragorol, gwerthfawr, ac ardderchog.
† Fel hyn trwy brofi y pethau sydd â gwahaniaeth
rhyngddynt, a chymmeradwyo y pethau sy ragorol,
bydd y saint yn bur a didramgwydd hyd ddydd Crist.
yn bur mewn egwyddor calon, yn bur mewn athraw-
iaeth, ac yn bur a didramgwydd mewn buchedd ac ym-
arweddiad, yn wyneb gair Duw, ger bron y Barnwr, a
chyhoeddir hwy felly yn nydd Crist. "Pur;" *(eilikrin-
eis)* cyffelybiaeth o bethau wedi eu puro a'u coethi drwy
dân, neu wedi eu hedrych a'u barnu yn ngoleuni pelydr
yr haul; ac wedi eu cael ar y prawf manylaf, yn bur a
dilwgr. "A didramgwydd;" *(aproskopoi)* cyffelybiaeth
o ddynion yn myned ar hyd eu ffordd yn ddiniwed, ac
heb rwystr na thramgwydd iddynt: heb dramgwyddo
na chael eu tramgwyddo.

11 * Wedi eich [i] cyflawni â ffrwythau cyf-
iawnder, [k] † y rhai sydd trwy Iesu Grist, ‡ er
gogoniant a moliant i Dduw.

i pen. 4. 17. Salm 1. 3. a 92. 12—14. Es. 5. 2. Luc 13. 6—9.
Ioan 15. 2, 8, 16. Rhuf. 6. 22. a 15. 28. 2 Cor. 9. 10. Gal. 5. 22, 23.
Eph. 5. 9. Col. 1. 6, 10. Heb. 12. 11. Iago 3. 17, 18. k Salm 92.
14, 15. Es. 60. 21. a 61. 3, 11. Mat. 5. 16. Ioan 15. 4, 5, 8. 1 Cor.
10. 31. 2 Thes. 1. 12. Heb. 13. 15, 16. 1 Pedr 2. 5, 9, 12. a 4. 10,
11, 14.

* Yma mae yr apostol yn eu cyffelybu i brenau cyf-
iawnder, wedi eu plànu yn nhŷ yr Arglwydd, ac yn
dymuno eu bod yn ffrwythlon iawn, yn gyflawn o
ffrwythau cyflawnder, sef ffrwythau sanctaidd a nefol yr
Ysbryd; (Galat. 5. 22.) ffrwythau yn eu pryd, cyfatebol
i sefylifa a mantais pob un, a chyfatebol i ofynion a
rhëolau anghyfnewidiol gair Duw. † Mae y saint yn
dwyn y ffrwythau hyn trwy eu hundeb â Christ, fel
cangenau yn y wir winwydden, a thrwy dderbyn rhinwedd
ysbrydol o hono ef yn barâus: ‡ a thrwy Grist hefyd
maent yn gymmeradwy gan Dduw, ac er gogoniant a
moliant iddo ef, yr hyn a ddylai fod y dyben mewn
golwg ynddynt oll. Ni chair ffrwythau cyflawnder ond
ar brenau cyflawnder; ni chair ffrwyth da ond ar bren
da; am hyny rhaid cael egwyddor gyflawn yn y galon,
cyn y cair ffrwythau cyflawnder yn y fuchedd.

12 * Ac mi a ewyllysiwn i chwi wybod,
frodyr, am y [l] pethau *a ddigwyddodd* i mi,
ddyfod o honynt yn [m] hytrach er llwyddiant
i'r efengyl;

l Act. 21. 28, &c. a 22. a 28. m Ex. 18. 11. Esther 9. 1.
Salm 76. 10. Act. 8. 4. a 11. 19—21. Rhuf. 8. 28, 37. 2 Tim. 2. 9.

* Efallai fod Paul wedi clywed, fod y Philippiaid yn
ofni rhag y buasai ei garchariad ef yn Rhufain yn rhwystr
i lwyddiant yr efengyl, ac yn foddion i attal eraill i'w

phregethu a'i derbyn hi: a dïammau fod Satan a'i weision yn dymuno ac yn dysgwyl mai felly y byddai. Pa fodd bynag, mynai yr apostol i'w gyfeillion wybod, fod ei ddyoddefiadau ef wedi dygwydd yn hytrach er llwyddiant i'r efengyl: yr oedd efe yn medru gweled trwy y cymylau tewaf, y goruwch-lywodraethai Duw y cwbl er llwyddiant yr efengyl a'i ogoniant ei hun, yn groes i bob ymddangosiad allanol, a dysgwyliadau ei elynion.

13 * Yn gymmaint â bod fy [n] rhwymau i yng Nghrist † yn eglur yn yr holl lys, ac ym mhob *lle* arall;

n Act. 20. 23, 24. a 21. 11—13. a 26. 29, 31. a 28. 17, 20. Eph. 3. 1. a 4. 1. a 6. 20. Col. 4. 3—18.

* Yr oedd ei rwymau ef yn achos Crist, ei ddïysgogrwydd ynddynt, yr athrawiaeth am ba un y carcherid ef, ac yr hon a bregethai ef yn y carchar; † wedi myned yn llawn hysbys hyd yn nôd yn llŷs Nero, yn mhlith ei fawrion ef, ac yn mhob lle arall yn Rhufain; yr hyn a gyffrôasai sylw cyffredin pawb at yr efengyl, trwy yr holl ddinas ehang-fawr hòno, o ba un y gallai y sôn ymdaenu agos trwy yr holl ddaear. Yn yr ystyr hyn yn un peth, yr oedd ei garchariad ef wedi dygwydd er llwyddiant i'r efengyl. Mae rhai yn darllen y geiriau fel hyn:—"Yn gymmaint â bod yn eglur yn yr holl lŷs, ac yn mhob lle arall, mai o herwydd Crist y mae fy rhwymau I," hyny yw, mai o achos cristionogrwydd yn *unig* yr wyf fi yn dyoddef, ac nid am un bai gwirioneddol. Os felly, yr oedd ei garchariad yn fwy o hyd er llwyddiant i'r efengyl.

14 * Ac i lawer o'r [o] brodyr yn yr Arglwydd [p] fyned yn hyderus wrth fy rhwymau i, a bod yn hyfach o lawer i draethu y gair [q] yn ddïofn.

o pen. 4. 1. Col. 4. 7. p Act. 4. 23—31. 2 Cor. 1. 3—7. Eph. 3. 13. a 6. 19, 20. Col. 4. 4. 1 Thes. 2. 2. q Luc 1. 74. a 12. 5—7.

* Heblaw hyny, yr oedd llawer o'r brodyr, addas ac anfonedig i'r weinidogaeth, y rhai a fuasent o'r blaen yn ofnus, wrth weled fel yr oedd yr apostol yn cael ei gadw, ei gysuro, a'i lwyddo yn ei ddyoddefiadau; wedi cael eu gwroli yn fawr i bregethu yr efengyl, yn hŷf, yn ddïofn, ac yn llwyddiannus, heb ofn erlid: a thrwy lafur y rhai hyn yr oedd gwybodaeth gristionogol yn ymdaenu, ac felly ei rwymau ef yn cael eu goruwchlywodraethu er llwyddiant i'r efengyl. Gwneled Satan a fyno, e fedr Duw ei wrth-weithredu ef, hyd yn nôd trwy ei foddion a'i ystrywiau ei hun.

15 * Y mae rhai yn wir [r] yn pregethu Crist [s] † trwy genfigen ‡ ac ymryson; [t] || a rhai hefyd o ewyllys da.

r adn. 16, 18. Act. 5. 42. a 8. 5, 35. a 9. 20. a 10. 36. a 11. 20. 1 Cor. 1. 23. 2 Cor. 1. 19. a 4. 5. 1 Tim. 3. 16. s pen. 2. 3. Mat. 23. 5. Rhuf. 16. 17, 18. 1 Cor. 3. 3, 4. a 13. 3. 2 Cor. 12. 20. Gal. 2. 4. Iago 4. 5, 6. t adn. 17. 1 Pedr 5. 2—4.

* Yr oedd rhai yn wir, o'r cristionogion Iuddewaidd, yn pregethu yr Iesu fel y gwir Fessïah, ac amryw gangenau pwysig eraill o athrawiaeth iachawdwriaeth trwyddo ef, † mewn ysbryd o genfigen wrth enwogrwydd a llwyddiant yr apostol; ‡ ac mewn ysbryd o ymryson a gwrthwynebiad iddo ef; gan feddwl wrth hyny iselu ei barch a'i awdurdod ef yn yr eglwysi, a derchafu eu hunain. || Ond yr oedd eraill yn pregethu pur athrawiaeth Crist yn ei holl helaethrwydd, o wir ewyllys da, gyda rhyddid a hyfrydwch, o wir gariad at Grist a'r efengyl, at eneidiau anfarwol, ac at Paul fel apostol Crist. Mae yn bur debyg mai athrawon Iuddewaidd oedd y rhai blaenaf uchod, y rhai a guddient ran o'u daliadau eu hunain, ac a bregethent sylwedd cyffredin yr efengyl, i'r dyben o godi plaid dàn eu hawdurdod eu hunain, ac mewn gwrthwynebiad i'r apostol, fel y gallent bob yn ychydig osod iau y ddeddf seremonïol ar y cenedloedd dychweledig.

16 * Y naill sydd yn pregethu Crist o gynnen, [u] nid yn bur, [x] † gan feddwl dwyn mwy o flinder i'm rhwymau i:

u Gwel ar f. adn. 10.—2 Cor. 2. 17. a 4. 1, 2. x Job 6. 14. a 16. 4. Salm 69. 26.

* Yr oedd ymddygiad drwg-fwriadol, gorfynawl, a hunanol, y fath gyntaf uchod o bregethwyr, yn profi yn amlwg nad oeddynt yn bur a diragrith yn yr hyn a bregethent, ac nad oeddynt ond yn ceisio ennyn cynhen a therfysg yn yr eglwysi; † gan feddwl wrth hyny flino ysbryd yr apostol yn ei rwymau, a chwanegu nifer ei wrthwynebwyr a'i erlidwyr, a'i ddwyn, efallai, o'r diwedd i ferthyrdod.

17 * A'r lleill o gariad, [y] † gan wybod mai er ymddiffyn yr efengyl y'm gosodwyd.

y adn. 7. Rhuf. 1. 13—17. 1 Cor. 9. 16, 17. Gal. 2. 7, 8. 1 Tim. 2. 7. 2 Tim. 1. 11, 12. a 4. 6, 7.—Luc 21. 14. Act. 22. 1. a 26. 1, 24. 2 Tim. 4. 16.

* Ond yr oedd y fath arall yn pregethu o wir gariad at Grist ac eneidiau dynion, at achos Crist, ac at yr apostol fel ei was ef: † hwy a wyddent yn sicr mai er amddiffyn yr efengyl y gosodwyd ef. Gwyddent iddo ef gael ei osod yn apostol i'r cenedloedd, i amddiffyn yr efengyl bur, fel cadfur crŷf, yn erbyn pawb a geisient ei gwrthwynebu neu ei gŵyro hi: a gwyddent ei fod ef yn awr mewn carchar yn y brif ddinas; nid yn unig fel tyst dros y gwirionedd, am gyfiawnâd a rhyddid cristionogol, yn erbyn gau-athrawon Iuddewaidd; ond hefyd i dystiolaethu am yr athrawiaeth sanctaidd o iachawdwriaeth trwy Iesu Grist, ger bron llywiawdwyr, ynadon, gwŷr llŷs, ïe, efallai, ger bron ymherawdr Rhufain ei hun. Dywedir fod y gair *(keimai)* a gyfieithir yma *gosod*, yn arwyddo gosod i *orwedd*, sef *gosod* yr apostol i *orwedd* yma yn y carchar, fel y byddai yn barod i amddiffyn yr efengyl, pa bryd bynag y dygid ef i gael ei brofi.

18 [z] * Beth er hynny? † etto ym mhob modd, [a] pa un bynnag ai mewn rhith, ai mewn gwirionedd, [b] ‡ yr ydys yn pregethu Crist: [c] || ac yn hyn yr ydwyf fi yn llawen, ïe, a llawen fyddaf.

z Rhuf. 3. 9. a 6. 15. 1 Cor. 10. 19. a 14. 15. a adn. 14—17. Mat. 23. 14. Marc 12. 40. b Gwel ar r. adn. 15. c Marc 9. 38—40. Luc 9. 49, 50. 1 Cor. 15. 11. 2 Ioan 9—11.

* Ond, os yw y pleidiau uchod yn cael eu tueddu i bregethu Crist oddi ar egwyddorion, ac i ddybenion gwahanol, beth er hyny, beth yw hyny i mi? A ddychwelaf fi genfigen am genfigen, neu a flinaf fi o herwydd hyn, fel y tybia rhai y gwnâf? Na, yr wyf yn gresynu wrth y rhai a bregethant oddi ar egwyddorion ac i ddybenion annheilwng, ac yr wyf yn ffieiddio eu rhagrith; † eto, yn mha fodd bynag mae y peth ei hun yn cael ei wneyd, pa un bynag ai mewn rhith, dàn y lliw o *zel* dros Grist a'r efengyl, a lles eneidiau dynion; neu ynte mewn gwirionedd a phurdeb, er gogoniant Crist a llesâd dynion; ‡ y gwirionedd yw, mae Crist yn cael ei bregethu fel hyn yn Rhufain a'r ardaloedd o amgylch: || ac yn hyn yr wyf fi yn llawen iawn, fel y gweddai i mi fod; a thrwy ras Duw mi a fyddaf yn llawen yn hyn, beth bynag a dybio ac a chwennycho rhai i'r gwrthwynebiad; a pha faint bynag a geisiont hwy ddrygu fy nghymmeriad I, ïe, fy rhyddid a'm bywyd. Nid oedd cwbl yr apotsol ond bychan yn ei olwg, mewn cymhariaeth i fod Crist yn cael ei bregethu.

19 [d] * Canys mi a wn y digwydd hyn i mi er † iachawdwriaeth, [e] trwy eich gweddi chwi, [f] ‡ a chynnorthwy Ysbryd Iesu Grist,

d Rhuf. 8. 28. 1 Cor. 4. 17. 1 Pedr 1. 7—9. e 2 Cor. 1. 11. Eph. 6. 18, 19. f Rhuf. 8. 9. Gal. 4. 6. 1 Pedr 1. 11.

* Gwyddai yr apostol y byddai i'r goruchwyliaethau trallodus hyn, er chwerwed oeddynt, ac er eu gwneyd yn fwy felly gan ei wrthwynebwyr, droi allan yn y diwedd er iachawdwriaeth iddo ef, trwy weddiau ei frodyr, a thriniaethau Ysbryd Iesu Grist ar ei enaid, i chwanegu ei ostyngeiddrwydd, ei ysbrydolrwydd, a'i gymhwysder i ogoniant. † Tybia rhai mai ei waredigaeth o'r carchar oedd yr apostol yn feddwl wrth ei "iachawdwriaeth" yn y fàn yma; ‡ ac mai cynnorthwy

i bregethu yr efengyl drachefn, oedd ef yn feddwl wrth "gynnorthwy Ysbryd Iesu Grist." Mae ein Hawdwyr oll yn cymmeryd y gair "iachawdwriaeth" yn ei ystyr ysbrydol, a *Guyse* yn y ddau ystyr; ond y mae *Doddridge* a *Scott* yn erbyn yr ystyr olaf, ac nid yw *Pool* yn dywedyd dim am dano.

20 * Yn ol fy [g] awydd-fryd a'*m* gobaith, [h] † na'm gwaradwyddir mewn dim, [i] ‡ eithr mewn pob hyder, fel bob amser, *felly* yr awrhon hefyd, [k] || y mawrygir Crist yn fy nghorph i, [l] pa un bynnag ai trwy fywyd, ai trwy farwolaeth.

g Salm 62. 5. Diar. 10. 28. a 23. 18. Rhuf. 8. 19. h Salm 25. 2. a 119. 80, 116. Es. 45. 17. a 50. 7. a 54. 4. Rhuf. 5. 5. a 9. 33. 2 Cor. 7. 14. a 10. 8. 1 Pedr 4. 16. 1 Ioan 2. 28. i Gwel ar adn. 14.—2 Cor. 2. 14—16. k pen. 2. 17. Rhuf. 6. 13, 19. a 12. 1. 1 Cor. 6. 20. a 7. 34. 2 Cor. 5. 15. 1 Thes. 5. 23. l adn. 23, 24. Ioan 12. 27, 28. a 21. 19. Act. 20. 24. a 21. 13. Rhuf. 14. 7—9. 1 Cor. 15. 31. 2 Cor. 4. 10. Col. 1. 24. 2 Tim. 4. 5—7. 2 Pedr 1. 12—15.

* Yr oedd yr wybodaeth uchod (adn. 19.) yn tawelu meddwl yr apostol am ei fater personol ei hun; oblegid yr oedd efe yn foddlawn i ddyoddef pob peth a fyddai er anrhydedd i Grist: ac yn wir yr oedd efe yn gobeithio, neu yn dysgwyl yn awyddus, am ddiwedd da i'w holl drallodau; fel un â gwddf estynedig yn dysgwyl yn awyddus am ddyfodiad rhyw gyfaill anwyl: † ac yr oedd efe yn gobeithio yn hyderus hefyd; na waradwyddid mo hóno mewn dim, trwy siomi ei ddysgwyliadau na'i ymdrechiadau: ‡ ond fel y safasai efe ei dir yn gadarn ac yn llwyddiannus o'r blaen; yr oedd yn gobeithio y ca'i efe ei nerthu a'i ŵroli y tro hwn hefyd, i sefyll yr un modd; || fel y mawrygid Crist yn ei gorph ef, pa un bynag ai trwy fywyd, i bregethu yr efengyl drachefn, ai trwy farwolaeth, i gadarnâu ei athrawiaeth fel merthyr â'i waed. Ei brif awydd ef oedd mawrygu Crist, mewn athrawiaeth a phob ymddygiad, pa fodd bynag y byddai arno ei hun.

21 [m] * Canys byw i mi *yw* Crist, [n] † a marw *sydd* elw.

m Gwel ar adn. 20.—pen. 2. 21. 1 Cor. 1. 30. Gal. 6. 14. Col. 3. 4. n adn. 23. Es. 57. 1, 2. Rhuf. 8. 35—39. 1 Cor. 3. 22. 2 Cor. 5. 1, 6, 8. 1 Thes. 4. 13—15. Dat. 14. 13.

* Soniodd yr apostol o'r blaen am ei awydd-fryd a'i obaith, y byddai i Grist gael ei fawrâu yn ei gorph ef, pa un bynag ai trwy fywyd ai trwy farwolaeth; ac yr oedd ganddo hyder i obeithio hyn, oddi ar y dymher a deimlai efe yn ei galon; oblegid, ebai efe, "Byw i mi yw Crist;" efe yw prif ddyben fy mywyd I, ac nid yw o werth yn fy ngolwg ond yn unig fel y gallwyf ei dreulio i'w wasanaeth a'i anrhydedd ef. † Ac mewn canlyniad i hyn, mae "marw yn elw;" oblegid fel mae yr agwedd hon ar fy ysbryd, yn dangos fod i mi ran yn nghariad y Gwaredwr hwnw sydd yn Arglwydd y byd anweledig yn gystal â'r byd gweledig hwn, mae yn ddiogel genyf y gwna efe lawn ddarpariaeth i'm dedwyddwch I pan yn-adâwyf â'r byd trancedig hwn, ac yr amgylchyna efe fi â bendithion llawer mwy eu gwerth na dim a gollaf fi wrth farw. Fel yr oedd Crist yn awdwr a chynnaliwr ei fywyd ysbrydol ef, felly efe oedd dyben a gwrthddrych ei fywyd ef ar y ddaear. Nid oedd ganddo un achos, dyben, na hyfrydwch arall i fyw o'i herwydd, ond gogoneddu Crist; am hyny efe a wyddai y byddai marw yn elw o'r mwyaf iddo.

22 * Ac os [o] byw fyddaf yn y cnawd, [p] † hyn *yw* ffrwyth fy llafur: [q] ‡ a pha beth a ddewisaf, nis gwn.

o adn. 24. 2 Cor. 10. 3. Gal. 2. 20. Col. 2. 1. 1 Pedr 4. 2. p Salm 71. 18. Es. 38. 18, 19. q Gen. 21. 26. a 39. 8. Ex. 32. 11. Act. 3. 17. Rhuf. 11. 2.

* Ond os ewyllysia yr Arglwydd i estyn fy nyddiau I yn y cnawd, i bregethu yr efengyl a dyoddef o'i herwydd am ychydig yn hwy: yr wyf yn dymuno bod yn dawel i hyny; † hyn yw ffrwyth fy llafur, i hyn yr wyf yn dymuno byw, fel y byddo fy llafur yn ffrwythlawn o ddaioni i mi fy hun, i eraill, ac i ogoniant ac anrhydedd Crist. ‡ Am hyny pe gadewid y mater i'm dewisiad I fy hunan, nis gwn I ar y cyfan pa beth a ddewiswn, ai bywyd ai angau.

23 * Canys y mae yn [r] gyfyng arnaf o'r ddeu-*tu*; † gan fod gennyf [s] chwant i'm dattod, [t] ‡ ac i fod gyd â Christ: || canys llawer iawn [u] gwell *ydyw*.

r 2 Sam. 24. 14. 1 Cron. 21. 13. Luc 12. 50. 2 Cor. 6. 12. s Luc 2. 29, 30. Ioan 13. 1. 2 Cor. 5. 8. 2 Tim. 4. 6. t Job 19. 26, 27. Salm 49. 15. Luc 8. 38. a 23. 43. Ioan 14. 3. a 17. 24. Act. 7. 59. 2 Cor. 5. 8. 1 Thes. 4. 17. Dat. 14. 13. u Salm 16. 10, 11. a 17. 15. a 73. 24—26. Dat. 7. 14—17.

* Mae yn gyfyng arnaf o'r ddau-tu; chwant byw a chwant marw: chwant byw, er mwyn yr eglwys; a chwant marw er mwyn fy nedwyddwch fy hun. Dywedir fod yr ymadrodd gwreiddiol yn grŷf iawn, ac ynddo gyfeiriad at long wrth angor, ac ar yr un pryd yn debyg o gael ei *gyru* i'r môr gan fawr nerth y gwyntoedd; yr hyn a rydd i ni ddangosiad bywiog o ymlyniad yr apostol yn ei sefyllfa yn yr eglwys, ac hefyd crŷfder ei ddymuniad i gael ei *ddadrwymo*, neu godi angor, a hwylio tua'r wlad nefol. † Yr oedd ynddo chwant crŷf i godi'r angor, i gael ei ddadrwymo, a'i ddattod o ran y cnawd, fel y gallai ymadael o'r byd hwn o bechod a gofid, ac i fod gyda Christ; i newid bywyd ffydd, gobaith, a chariad gwan, am olwg, mwynâd, a sanctaiddrwydd perffaith; yr hyn oedd lawer iawn gwell na dim a allasai efe fwynâu ar y ddaear. ‡ Bod yn y fân gyda Christ, ac yn ei bresenoldeb digyfrwng ac union-gyrchol ef. Mae yr athrawiaeth o ddedwyddwch union-gyrchol yr enaid gyda Christ mewn gogoniant, yn amlwg yma; ac nis gall neb ei gwadu, heb wadu holl ysgrifeniadau yr apostol. || *Polo mallon kreisson:* gwell o raddau amrhaethadwy, â thu hwnt i bob amgyffred, yw ystyr y geiriau, meddant; a dywed *Doddridge* fod yr apostol megys ar goll am eiriau yn y fân hon, gymmaint âg un mân yn ei ysgrifeniadau oll. Nis gallai fod gymmaint yn well, os cysgu mae yr enaid tân yr adgyfodiad, fel y breuddwydia rhai.

24 * Eithr [x] aros yn y cnawd *sydd* fwy anghenrheidiol o'ch plegid chwi.

x adn. 22, 25, 26. Ioan 16. 7. Act. 20. 29—31.

* Er y buasai yn llawer iawn gwell i'r apostol ei hun gael ei "ddattod," a bod gyda Christ; eto er mwyn y Philippiaid, a'r eglwysi ieuainc yn gyffredin, yr oedd aros yn y cnawd yn fwy angenrheidiol. Wrth ystyried y gau-athrawon, y gelynion, y profedigaethau, a'r peryglon o bob math, oedd yn amgylchu ac yn ymosod ar yr eglwysi, a'r angen am gymmorth yn eu herbyn oedd amynt; yr oedd efe yn foddlawn i fyw yn hwy yn y byd trallodus hwn, i gadarnâu y saint yn eu proffes a'u ffydd yn Nghrist, er y byddai hyny yn golled iddo ef, ac yn oedi ei ddedwyddwch.

25 * A chennyf yr [y] hyder hwn, † yr wyf yn gwybod yr arhosaf ac y cyd-drigaf gyd â chwi oll, [z] ‡ er cynnydd i chwi, [a] a llawenydd y ffydd.

y pen. 2. 24. Act. 20. 25. z Luc 22. 32. Ioan 21. 15—17. Act. 11. 23. a 14. 22. Rhuf. 1. 11, 12. a 15. 18, 29. 2 Cor. 1. 24. Eph. 4. 11—13. a Salm 60. 6. Rhuf. 5. 2. a 15. 13. 1 Pedr 1. 8.

* Yr oedd gan yr apostol hyder diammheüol am ddiogelwch ei fater personol ei hun, byw neu farw; ac yr oedd ganddo hyder da hefyd, y bendithiai Duw ei lafur, ac y llwyddai ei weinidogaeth, tra y gwelai yn dda iddo gael byw ar y ddaear. † Ac yn yr hyder hwn, yr oedd yn gwybod hefyd, trwy ddatguddiad union-gyrchol oddi wrth Dduw, fel y tybir; yr arosai, ac y cyd-drigai efe gyda hwy oll, am ryw ysbaid o amser yn hwy. Tybia rhai ei fod wedi cael gwybodaeth o lŷs yr Ymherawdr, na roddid mo hóno i farwolaeth, ond y ca'i ei ollwng yn rhydd: ond nid yw hyny yn debyg iawn; a rhaid fod Paul yn bur annwybodus am dywysogion a gwŷr llŷs, (yn enwedig yn nheyrnasiad Nero,) i adeiladu mòr hyderus ar y fath sylfaen. ‡ Gwedi

dyfod atynt drachefn, a chael aros am ryw yspaid gyda hwynt, gwyddai y byddai yn offerynol i'w cynnydd a'u llawenydd hwynt yn y ffydd a phob dawn a gras ysbrydol.

26 [b] * Fel y byddo eich gorfoledd chwi yn helaethach yng Nghrist Iesu † o'm plegid i, ‡ trwy fy nyfodiad i drachefn attoch.

b pen. 2. 16—18. a 3. 1, 3. a 4. 4, 10. Can. 5. 1. Ioan 16. 22, 24. 2 Cor. 1. 14. a 5. 12. a 7. 6.

* Fel y gorfoleddoch yn helaethach nac yr awr hon, nac erioed o'r blaen hefyd, yn Nghrist Iesu; † oblegid fy ngollyngdod a'm gwaredigaeth I o'm rhwymau presenol, ‡ a thrwy fy nyfodiad I drachefn atoch, megys o safn marwolaeth, "er cynnydd i chwi, a llawenydd y ffydd."

27 * Yn unig [c] ymddygwch yn addas i [d] efengyl Crist; [e] † fel pa un bynnag *a wnelwyf* ai dyfod a'ch gweled chwi, ai bod yn absennol, [f] ‡ y clywyf oddi wrth eich helynt chwi, [g] eich bod yn sefyll [h] yn un yspryd, âg un enaid, [i] || gan gyd-ymdrech gyd â ffydd yr efengyl;

c pen. 3. 18—21. Eph. 4. 1. Col. 1. 10. 1 Thes. 2. 11, 12. a 4. 1. Tit. 2. 10. 2 Pedr 1. 4—9. a 3. 11, 14. d Rhuf. 1. 9, 16. a 15. 16, 29. 2 Cor. 4. 4. a 9. 13. Gal. 1. 7. e pen. 2. 12, 24. f Eph. 1. 15. Col. 1. 4. 1 Thes. 3. 6. Philemon 5. 3 Ioan 3, 4. g pen. 2. 1, 2. a 4. 1. Salm 122. 3. a 133. 1. Mat. 12. 25. 1 Cor. 1. 10. a 15. 58. a 16. 13, 14. 2 Cor. 13. 11. h Jer. 32. 39. Ioan 17. 20, 21. Act. 2. 46. a 4. 32. Rhuf. 12. 4, 5. 1 Cor. 12. 12, &c. Eph. 4. 3—6. Iago 3. 18. Judas 3. i Diar. 23. 23. Act. 24. 24. Rhuf. 1. 5. a 10. 8. Eph. 1. 13. 1 Tim. 1. 11, 19. 2 Tim. 4. 7.

* Tra byddwyf yn absenol oddi wrthych, a pha un bynag a welwyf chwi byth mwyach ai peidio, fy neisyfiad taer a difrifol yw, ar i chwi ymddwyn yn addas i efengyl sanctaidd ein Harglwydd Iesu Grist: nid oes dim a all eich niweidio chwi, ond i chwi yn *unig* ofalu am ymddwyn yn addas i efengyl Crist. Mae hyny yn angenrheidiol i ogoneddu Duw, i anrhydeddu yr efengyl, i amlygu neu brofi gwirionedd ein proffes, ac i gadw a chynnyddu tangnefedd yn ein heneidiau ein hunain. Ymddwyn fel *dinasyddion*, o ddinas rydd, gorphoredig, a breintfawr, meddant, yw ystyr y gair *politenesthe*: ymddwyn er anrhydedd, diogelwch, heddwch, a llwyddiant yr holl ddinas, eglwys Dduw. † Nid yw yr apostol yma yn ammau yr hyn a ddywedodd a *wyddai* yn adn. 25; ond dangos ei ymroddiad hollawl i ewyllys Duw y mae, o ran *amser* ei ollyngdod a'i ddyfodiad atynt. ‡ Yn ei absenoldeb, yr oedd yn dymuno clywed oddi wrth eu helynt hwy, eu bod yn sefyll yn gadarn yn eu proffes, ac mewn ufudd-dod i Grist, yn nghanol profedigaethau ac esamplau drwg; gan ochel pob ymryson-au ac ymrafaelion; ond yn parâu yn un galon, un ysbryd, ac un enaid, yn mhethau mawrion crefydd; || fel ymdrechwyr mewn camp, neu fel un fyddin o filwyr dewrion, yn cyd-ymdrech gyda ffydd â holl achos yr efengyl, yn erbyn holl rym cynghreiriol y gelyn cyffredin; i fwrw allan y gau-athrawon, i attal drygau a chyfeiliornadau, i ddàl i fynu dàn erlidiau, ac yn mhob modd i hwylio yn mlaen achos mawr yr Arglwydd Iesu.

28 [k] * Ac heb eich dychrynu mewn un dim gan eich gwrthwynebwyr: † yr hyn iddynt hwy yn wir sydd [l] arwydd sicr o golledigaeth, [m] ‡ ond i chwi o iachawdwriaeth, [n] || a hynny gan Dduw.

k Es. 51. 7, 12. Mat. 10. 28. Luc 12. 4—7. a 21. 12—19. Act. 4. 19—31. a 5. 40—42. 1 Thes. 2. 2. 2 Tim. 1. 7, 8. Heb. 13. 6. Dat. 2. 10. l 2 Thes. 1. 5, 6. 1 Pedr 4. 12—14. m Mat. 5. 10—12. Rhuf. 8. 17. 2 Tim. 2. 11, 12. n Gen. 49. 18. Salm 50. 23. a 68. 19, 20. Es. 12. 2. Luc 3. 6. Act. 28. 28.

* Mae yn amlwg wrth hyn, yn nghyd âg amryw eiriau eraill yn yr epistol hwn, bod y Philippiaid y pryd hwn dàn erlid a dyoddefiadau; yr hyn a ddylem gadw yn ein meddwl fel yr elom yn mlaen; gan y rhydd hyny eglurâd ar lawer tarawiad ardderchog o'r eiddo yr apostol yn y llythyr hwn atynt. Yn eu cyd-ymdrech uchod gyda ffydd yr efengyl, ni ddylent mewn un modd ymddychrynu, na chymmeryd eu dychrynu, gan nifer, gallu, bygythion, na chreulonder eu gwrthwynebwyr; † nid oedd llid cynddeiriog y cyfryw rai yn erbyn y fath ddynion rhagorol, ond eu profi hwy yn elynion Duw a sancteiddrwydd, ac eu bod ar y ffordd, ac yn addfedu yn gyflym, i golledigaeth sicr a thragywyddol: ‡ ond yr oedd ymddygiad addfwyn ac amyneddgar y saint dàn y cyfryw erlidiau, yn nghyd â sancteiddrwydd cyffredin eu bywydau, yn brawf sicr eu bod hwy yn anwyl gan Dduw, ac yn gyfranogion ac etifeddion o'i iachawdwriaeth rasol a thragywyddol ef. || "A hyny gan Dduw:" iachawdwriaeth wedi ei dyfeisio, ei chyflawni, ei datguddio, ei rhoddi, ïe, wedi ei gweithio gan Dduw, yn nghalonau ei bobl.

29 * Canys i chwi y [o] rhoddwyd, *bod i chwi*, er Crist, [p] nid yn unig gredu ynddo ef, † ond hefyd ddioddef erddo ef.

o Act. 5. 41. Rhuf. 5. 3. Iago 1. 2. 1 Pedr 4. 13. p Mat. 16. 17. Ioan 1. 12, 13. a 6. 44, 45. Act. 13. 39. a 14. 27. Eph. 2. 8. Col. 2. 12. Iago 1. 17, 18.

* Heblaw *rhoddi* i'r Philippiaid, bod iddynt *gredu* yn Nghrist er iachawdwriaeth; yr oedd anrhydedd a braint chwanegol wedi ei *rhoddi* iddynt hefyd, † sef cael *dyoddef* erddo ef, neu er ei fwyn ef. Yn hyn yr oedd iddynt gyd-ffurfiad agosach â Christ, yn ei ddyoddefiadau, yr hyn oedd anrhydedd a braint iddynt; ac am hyn, byddai eu gwobr yn fawr yn y nef. Tybia cnawd a rheswm, mai trallod ac adfyd yw dyoddef o herwydd crefydd; ond deugys yr apostol yma mai anrhydedd a braint ydyw: peth wedi ei *roddi*, yn gystal â chredu.

30 * Gan fod i chwi [q] yr un ymdrin † ag a welsoch ynof fi, [s] ‡ ac yr awrhon a glywch *ei fod* ynof fi.

q Ioan 16. 33. Rhuf. 8. 35—37. 1 Cor. 4. 9—14. a 15. 30—32. Eph. 6. 11—18. Col. 2. 1. 1 Thes. 2. 14, 15. a 3. 2—4. 2 Tim. 2. 10—12. a 4. 7. Heb. 10. 32, 33. a 12. 4. Dat. 2. 10, 11. a 12. 11. r Act. 16. 19—40. 1 Thes. 2. 2. s Gwel ar adn. 13.

* Gan fod i chwi yr un, neu gyffelyb, erlidiau a dyoddefiadau, † ag a welsoch ynof fi pan oeddwn gyda chwi yn Philippi; (gwel Act. 16. 19—24;) ‡ ac yr awr hon a glywch ei fod ynof fi, mewn carchar a rhwymau yn Rhufain. Mynai yr Iuddewon ei ladd ef, a gorfu arno *appelio* at Cesar am ei fywyd; danfonwyd ef i Rufain *fel* drwg-weithredwr, ac yr oedd o hyd yn cael ei gadw mewn rhwymau a charchar fel y cyfryw. Yn hyn yr oedd ef yn esampl i'r Philippiaid o ddyoddef blinder dros ac yn achos Crist.

PEN. II.

Annog i undeb a gostyngeiddrwydd.

* OD *oes* gan hynny [a] ddim diddanwch yng Nghrist, [b] † od oes dim cysur cariad, [c] ‡ od oes dim cymdeithas yr Yspryd, [d] || od oes dim ymysgaroedd a thosturiaethau;

a pen. 3. 3. Luc 2. 10, 11, 25. Ioan 14. 18, 27. a 15. 11. a 16. 22—24. a 17. 13. Rhuf. 5. 1, 2. a 15. 12, 13. 1 Cor. 15. 31. 2 Cor. 1. 5, 6. a 2. 14. 2 Thes. 2. 16, 17. Heb. 6. 18. 1 Pedr 1. 6—8. b Salm 133. 1. Ioan 15. 10—12. Act. 2. 46. a 4. 32. Gal. 5. 22. Eph. 4. 30—32. Col. 2. 2. 1 Ioan 4. 7, 8, 12, 16. c Rhuf. 5. 5. a 8. 9—16, 26. 1 Cor. 3. 16. a 6. 19, 20. a 12. 13. 2 Cor. 13. 14. Gal. 4. 6. Eph. 1. 13, 14. a 2. 18—22. a 4. 4. 1 Pedr 1. 2, 22, 23. 1 Ioan 3. 24. d Gwel ar pen. 1. 8.

Mae yr apostol yma yn enwi rhai o'r pethau sydd yn hanfodol i ymddygiad addas i efengyl Crist, ac nis gall yr ymddygiad allanol fod yn iawn, heb y pethau hyn yn dumewnol. * Y peth *cyntaf* yw "dyddanwch yn Nghrist," ffynon pob dyddanwch; yn deilliaw o hono ef trwy faddeuant pechodau, a gwaredigaeth o gaethiwed pechod a Satan. Dywedir fod y gair gwreiddiol *(paraklésis,)* yn arwyddo cyngor, yn gystal â dyddanwch: awdurdod Crist yn llefaru drwy yr apostol, yn gystal â dyddanwch yn deilliaw o Grist, mae yn debyg a feddylir. † Yr *ail* beth yw cariad, a chysur cariad; od oes dim

ysur a hyfrydwch yn yr ystyriaeth o gariad Duw a hrist tuag atom ni, ac yn y teimlad a'r ymarferiad o'n iariad ninnau at Dduw, a thuag at ein gilydd. ‡ Y *rydydd* peth yw cymdeithas yr Ysbryd; sef cymdeithas ob un o'r saint â'r Ysbryd, a'u cymdeithas â'u gilydd n yr Ysbryd. || Y *pedwerydd* peth yw ymysgaroedd a nosturiaethau; sef ymysgaroedd a thosturiaethau tuag t yr apostol, eu tad ysbrydol yn yr efengyl, yr hwn iedd yn awr yn garcharor o herwydd yr efengyl; ac ymysgaroedd a thosturiaethau tuag at eu holl frodyr n Nghrist, y rhai a brynwyd gan yr un Gwaredwr, etiieddion o'r un nefoedd, a rhai yn dyoddef yr un erlidau a helbulon yn y byd hwn.

2 [e] * Cyflawnwch fy llawenydd, [f] † fel y yddoch [g] yn meddwl yr un peth, a'r un cariad ennych, [h] yn gyttûn, yn synied yr un peth.

e adn. 16. pen. 1. 4, 26, 27. Ioan 3. 29. 2 Cor. 2. 3. a 7. 7. ol. 2. 5. 1 Thes. 2. 19, 20. a 3. 6—10. 2 Thes. 2. 13. 2 Tim. 1. 4. hilemon 20. 1 Ioan 1. 3, 4. 2 Ioan 4. 3 Ioan 4. f Gwel ar en. 1. 27. g adn. 20. pen. 3. 15, 16. a 4. 2. Rhuf. 12. 16. a 15. 6. 1 Cor. 1. 10. 2 Cor. 13. 11. 1 Pedr 3. 8, 9. h Act. 1. 14. a 1, 46. a 5. 12.

* Od oes dim sylwedd gwirioneddol, gwerth, hyfrydich, rhwymedigaeth, neu anwyldeb yn y pethau uchod enwyd, fel mae yn sicr fod; ac os ydych chwi wedi eu eimlo yn eich eneidiau eich hunain, fel yr wyf yn bbeithio eich bod; gadêwch i'r pethau hyn eich cyffrôi ich rhwymo, i gyflawni y boddlonrwydd a'r llawenydd ffych eisoes wedi dechreu ei roddi i mi; sef y llawenidd a deimlais I yn eich tröedigaeth a'ch dychweliad nwi, ac ydwyf o hyd yn deimlo wrth gofio am danoch, c wrth weddio drosoch. † Pwnc mawr o ymddygiad ddas i'r efengyl oedd, eu bod hwy yn meddwl yr un peth, a'r un cariad ganddynt, yn gytun, yn synied yr un peth, a thrwy hyn hefyd yr oeddynt yn cyflawni llawenidd yr apostol. Mae y gwahanol eiriau hyn, heb nnylu ar bob un o honynt, yn arwyddo y cyd-gordiad nwylaf, yr undeb agosaf, a'r cyd-ymdeimlad tirionaf, a llir ei ddychymmygu, rhwng y saint â'u gilydd, fel yd-aelodau o'r un corph ysbrydol. Efallai bod y eiriau *meddwl yr un peth* i'w hystyried fel cyngor yffredin; a'r geiriau dylynol yn helaethiad eglurâol ar yny; a'r geiriau olaf, *synied yr un peth*, yn arwyddo ytundeb barn am athrawiaeth yr efengyl: heb ystyried r adnod felly, byddai yr apostol yn euog o adeiriad *tautology*) afreidiol, yr hyn nid yw efe yn euog o hóno.

3 * Na *wneler* [i] dim trwy gynnen † neu rag-ogoniant, [k] ‡ eithr mewn gostyngeiddwydd, || gan dybied eich gilydd yn well nâ hwi eich hunain.

i adn. 14. pen. 1. 15, 16. Diar. 13. 10. Rhuf. 13. 13. 1 Cor. 3. 2 2 Cor. 12. 20. Gal. 5. 15, 20, 21, 26. Col. 3. 8. 1 Tim. 6. 4. Iago 1 14—16. a 4. 5, 6. 1 Pedr 2. 1, 2. k Luc 14. 7—11. a 18. 14. huf. 12. 10. 1 Cor. 15. 9. Eph. 4. 2. a 5. 21. 1 Pedr 5. 5.

Wele yma eto bethau perthynol i "ymddygiad addas r efengyl;" gwedi annog i bethau da yn yr adnod o'r laen, mae yr apostol yn gwahardd pethau drwg yn echreu yr adnod hon. * Gan y byddai gwahaniaeth eddwl o angenrheidrwydd am rai pethau, wrth drin ynion a materion yn yr eglwys, a chan y cymmerai atan fantais ar hyny i oeri cariad a chodi terfysg; ae yr apostol yn eu hannog hwy oll, i wylied arnynt hunain ac ar eu gilydd, na wnelent ddim mewn bryd cyndyn, a thymher gynhenllyd, anfrawdol ac ngharadus; † nac ychwaith mewn ysbryd o waggoniant chwyddedig, o awydd am glod gan ddynion, a ael awdurdod a blaenoriaeth ar bawb yn yr eglwys. O'r tu arall, dylent fod mewn ysbryd isel a gostyngedig, heb synied am danynt eu hunain yn amgen nag y dylent synied; pob un yn ystyriol o ddrwg ei galon ei hun, ac anmherffeithrwydd mawr ei fuchedd a'i holl gyflawniadau. || Dylent dybied eu gilydd yn well nâ hwy eu hunain; dywedyd yn barchus am eu gilydd, a haflu mantell cariad dros feiau a cholliadau eu gilydd. "Gwell" mewn *gras*, a feddylir, ac nid gwell mewn *rhawn:* nis gall, ac ni ddylai dynion o ddawn mawr, dybied eraill o ddawn bychan, yn well nâ hwy yn yr *ystyr hyny;* dylai pob un brisio ei ddawn yn ol a gafodd o hóno, a'i ddefnyddio yn ffyddlawn i ogoniant y Duw a'i rhoddodd. Gwyddai Paul ei fod yn fwy ei ddawn nâ nemawr o'i frodyr; ond ar yr un pryd, yr oedd yn "llai nâ'r lleiaf o'r holl saint" yn ei olwg ei hun.

4 [l] * Nac edrychwch bob un ar yr eiddoch eich hunain, † eithr pob un ar yr eiddo eraill hefyd.

l Mat. 18. 6. Rhuf. 12. 15. a 14. 19—22. a 15. 1. 1 Cor. 8. 9—13. a 10. 24, 32, 33. a 12. 22—26. a 13. 4, 5. 2 Cor. 6. 3. a 11. 29. Iago 2. 8.

* Er tybied eu gilydd yn well na hwy eu hunain, dylent beidio ag edrych ar eu cyrhaeddiadau, eu manteision, eu hanrhydedd, a'u tueddiadau eu hunain yn unig neu yn benaf; † ond mewn cariad gostyngedig a hunan-ymwadol, dylent edrych ar deilyngdod, anrhydedd, a lles eraill hefyd, a gwneyd pob peth a allent i wasanaethu eu brodyr, ac er cysur a thangnefedd yr eglwys. Bod mòr barod i wasanaethu eraill, â phe byddent ddeiliaid ac îs-raddolion iddynt: felly mae esampl Crist yn gofyn, ac felly mae rhediad y gorchymyn; bod i'r hwn sydd fwyaf fod yn was i eraill. Matth. 20. 24—28.

5 * Canys bydded ynoch y [m] meddwl yma, † yr hwn *oedd* hefyd yng Nghrist Iesu:

m Mat. 11. 29. a 20. 26—28. Luc 22. 27. Ioan 13. 15. Act. 10. 38. a 20. 35. Rhuf. 14. 15. a 15. 3, 5. 1 Cor. 10. 33. a 11. 1. Eph. 5. 2. 1 Pedr 2. 21. a 4. 1. 1 Ioan 2. 6.

* Mewn cyferbyniad i ysbryd ymryson, gwag-ogoniant, a cheisio eu hunain, dylai yr un ysbryd o addfwynder, gostyngeiddrwydd, a chariad fod yn y saint, † ag oedd mòr nodedig o amlwg, ac yn cael ei arddangos mòr berffaith, yn yr Arglwydd Iesu Grist ei hun. Tybiai yr apostol nad oedd dim yn fwy grymus ac effeithiol i ennill y Philippiaid i ysbryd ac ymddygiad addas, na gosod esampl Crist o'u blaen. Hyd yn nôd wrth annog y Corinthiaid i wneyd casgliad i'r saint, gosodai efe esampl Crist ger eu bronau; ac yr oedd hyny fel allwedd yn agor eu calonau oll. 2 Cor. 8. 9.

6 * Yr hwn, [n] ac efe yn ffurf Duw, [o] † ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw;

n Es. 7. 14. a 8. 8. a 9. 6. Jer. 23. 6. Mica 5. 2. Mat. 1. 23. Ioan 1. 1, 2, 18. a 17. 5. Rhuf. 9. 5. 2 Cor. 4. 4. Col. 1. 15, 16. 1 Tim. 1. 17. a 3. 16. Tit. 2. 13. Heb. 1. 3, 6, 8. a 13. 8. o Gen. 32. 24—30. a 48. 15, 16. Ex. 3. 2—6. Jos. 5. 13—15. Hos. 12. 3—5. Zec. 13. 7. Ioan 5. 18, 23. a 8. 58, 59. a 10. 30, 38. a 14. 9. a 20. 28. Dat. 1. 17, 18. a 21. 6.

* Yr hwn, ac efe yn meddu y natur ddwyfol, yn nghyd â'i holl berffeithiau hanfodol, fel Mab Duw, ac fel *dysgleirdeb gogoniant y Tad, a gwir lun ei berson ef,* (Heb. 1. 3;) ydoedd felly mewn gwirionedd, ac yn yr ystyr uwchaf a manylaf, yn Dduw, yn ngwir a phriodol ffurf Duw: † ac ni thybiodd yn drais, yn gam, neu yn anghyfawnder, i hòni gogyfuchder natur a phriodoliaethau â Duw; gan ei fod ef a'r Tad a'r Ysbryd, yn *Un* mewn *hanfod*, er eu bod yn *bersonau gwahanawl,* Ioan 10. 30. Mae *ffurf Duw* yma mewn cyferbyniad i *agwedd gwas*, a *dull dyn*, yn yr adnodau nesaf; ac os yw y geiriau hyny yn arwyddo *gwir ddynoliaeth* a *gwir iselder* y Cyfryngwr ar y ddaear, rhaid fod y geiriau *ffurf Duw* yr un modd, yr arwyddo ei *wir Dduwdod* ef hefyd: nis gallasai fod yn *ffurf* Duw heb fod yn Dduw. Am feddwl gŵyr-draws, cyfeiliornus, ac oerllyd y Sociniaid ar y geiriau hyn, nid yw yn werth ei osod i lawr, ïe mae yn well peidio: i anghof a thywyllwch byth yr elo y fath gyfeiliornadau dinystriol!

7 [p] * Eithr efe a'i dibrisiodd ei hun, † gan gymmeryd arno [q] agwedd gwas, [r] ‡ ac a wnaed mewn cyffelybiaeth dynion:

p Salm 22. 6. Es. 49. 7. a 50. 5, 6. a 52. 14. a 53. 2, 3. Dan. 9. 26. Zec. 9. 9. Marc 9. 12. Rhuf. 15. 3. 2 Cor. 8. 9. Heb. 2. 9—18. a 12. 2. a 13. 13. q Es. 42. 1. a 49. 3. a 52. 13. a 53. 11. Ezec. 34. 23, 24. Zec. 3. 8. Mat. 12. 18. a 20. 28. Marc 10. 44, 45. Luc 22. 27. Ioan 13. 3—14. Rhuf. 15. 8. r adn. 6. Ioan 1. 14. Rhuf. 8. 3. Gal. 4. 4. Heb. 2. 14—17. a 4. 15.

* Ond, er ei fod ef mewn gwirionedd, ac o dragy-

wyddoldeb, yn ffurf Duw, ac na thybiodd yn drais i fod yn ogyfuwch â Duw; eto, yn ei anfeidrol gariad, a'i ryfedd ymostyngiad, efe a'i dibrisiodd, a'i gwagâodd, ac a'i dadwisgodd ei hun megys o'i ogoniant dwyfol, fel y gallai ymddangos ar y ddaear fel un heb fawredd nac anrhydedd yn perthyn iddo: fel y bydd breninoedd weithiau yn ymdaith heb wisgoedd ac arwyddion brenin-ol; ond yn ymddangos fel dynion cyffredin. Ni ddywedir iddo amddifadu, neu wagâu ei hun o *ffurf* Duw, nid oedd dichon hyny; ond efe a'i dadwisgodd ei hun o'i ogoniant mewn *ymddangosiad* i ddynion; ni ddaeth i'r byd yn ei ogoniant gweledig, fel yr ymddangosodd wrth roddi y ddeddf ar Sinai; nid ymddangosodd fel efe ei hun, "Arglwydd y gogoniant;" † ond efe a gymmerodd arno agwedd gwas, y gwas iselaf, hyd yn nôd agwedd caeth-was, ac fel y cyfryw yr ymddygwyd tuag ato ac y trinwyd ef. Fel yr oedd efe mewn gwirionedd yn *Was* i'r Tad pan oedd mewn agwedd gwas, felly yr oedd efe mewn gwirionedd yn Dduw pan oedd yn ffurf Duw. ‡ Mewn trefn i ddyfod i'r sefyllfa newydd a gwasaidd uchod, efe a wnaed mewn cyffelybiaeth dynion; sef yn wir ddyn; efe a gymmerth ein natur i undeb â'i Berson dwyfol, ac a wnaed fel ninnau yn mhob peth, ond pechod yn unig.

8 * A'i gael mewn [s] dull fel dyn, [t] † efe a'i darostyngodd ei hun, [u] ‡ gan fod yn ufudd || hyd angau, [x] § ïe, angau y groes.

s Mat. 17. 2. Marc 9. 2, 3. Luc 9. 29. t Diar. 15. 33. Act. 8. 33. Heb. 5. 5—7. a 12. 2. u Salm 40. 6—8. Es. 50. 5, 6. Ioan 4. 34. a 15. 10. Heb. 5. 8, 9. a 10. 7—9. x Deut. 21. 23. Salm 22. 16. Ioan 10. 18. a 12. 28—32. a 14. 31. Gal. 3. 13. Tit. 2. 14. Heb. 12. 2. 1 Pedr 2. 24. a 3. 18.

* Fel hyn yr Unig-anedig oddi wrth y Tad, a babellodd mewn cnawd yma ar y ddaear, mewn dull fel dyn, yn wir ddyn, ond ar yr un pryd yn fwy na dyn, yn Dduw anfeidrol yn gystal ag yn ddyn gwirioneddol. † Yr oedd hyn yn ddarostyngiad mawr, ond nid oedd hyn yn ddigon; efe a'i darostyngodd ei hun eto yn mhellach, trwy ymostwng i'r amgylchiadau mwyaf isel o dlodi ac angen, ac i'r caledi a'r dyoddefiadau mwyaf er ein hiachawdwriaeth ni. ‡ Yn enwedig efe a ufuddâodd i holl ddeddf Duw fel ein Machnïydd ni, ac a gyflawnodd bob cyfiawnder, yn nghanol anhawsderau a phrofedigaethau anamgyffredadwy. || Parâodd yn hyn hyd y diwedd: a chan fod y rhwymau a gymmerodd yn wirfoddol arno ei hun yn gofyn hyny ganddo, efe a ufuddâodd hyd ângau; § ïe, angau y groes, y fath mwyaf gwarthus, poenus, a melldigedig, o bob angau a dïenyddiad, i'r hwn y traddodid y drwg-weithredwyr gwaethaf a mwyaf atgas. Yn hyn oll yr oedd yn dangos ei fod yn sefyll yn neddfle troseddwyr euog, y rhai oedd yn gorwedd dàn felltith y ddeddf; ac iddo ef ddyfod i'w prynu hwynt oddi wrth y felltith hòno, trwy ei dyoddef yn eu lle. Galat. 3. 13.

9 * O herwydd paham, [y] † Duw a'i tra-dyrchafodd yntau, [z] ‡ ac a roddes iddo enw yr hwn *sydd* goruwch pob enw;

y Gen. 3. 15. Salm 2. 6—12. a 8. 5—8. a 45. 6, 7. a 69. 29, 30. a 72. 17—19. a 91. 14. a 110. 1—5. Es. 9. 7. a 49. 6—8. a 52. 13. a 53. 12. Dan. 2. 44, 45. a 7. 14. Mat. 11. 27. a 28. 18. Luc 10. 22. Ioan 3. 35, 36. a 5. 22—27. a 13. 3. a 17. 1—3, 5. Act. 2. 32—36. a 5. 31. Rhuf. 14. 9—11. 1 Cor. 15. 24—27. Heb. 2. 9. a 12. 2. 2 Pedr 1. 17. Dat. 1. 5. a 5. 12. a 11. 15. a 19. 16. z Salm 89. 27. Eph. 1. 20—23. Col. 1. 18. Heb. 1. 4. 1 Pedr 3. 22.

* Gwedi, ac o herwydd, i'r Gair tragywyddol, Mab Duw, mewn undeb â dynoliaeth, gyflawni ei ammodau â'r Tad fel ein Machnïydd ni; † Duw a'i tra-dyrchafodd yntau: sef a'i dyrchafodd ef yn ein natur ni, i'r gradd uwchaf o fawredd a gogoniant ar ei orsedd gyfryngol, ar ei ddeheulaw ei hun yn y goruwch leoedd. Dyrchafodd ef i uwch gogoniant nac oedd iddo o'r blaen fel Duw, medd rhai; ond nis gall hyny fod, mae y cyfryw beth yn anmhosibl: dyrchafodd ef fel dyn, a dyrchafodd ef fel Cyfryngwr, gan roddi iddo bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear, yr hyn sydd beth gwahanol i'w dragywyddol ogoniant a'i lywodraeth ef fel Duw, ac eto yn berffaith gyson â hyny. Dylid gwahaniaethu rhwng llywodraeth gyffredinol y Crëawdwr, â llywodraeth gyfryngol y Gwaredwr; a'r olaf a feddylir wrth dderchafiad Crist yn y fàn hon. ‡ Yn ei ddyrchafiad fel Cyfryngwr, rhoddes y Tad iddo enw newydd o anrhydedd ac awdurdod, annrhaethol goruwch pob enw, mawredd, ac awdurdod pa bynag, yn mhlith dynion ac angelion; ïe, rhŷ uchel i'r un crëadur yn y nef ac ar y ddaear, sef yr enw *Gwaredwr* ac *Arglwydd* gosododig pawb oll. Tybia rhai mai Iesu yw yr *enw* a feddylir yma: bu yr *enw* Iesu ar lawer heblaw efe, ond nid mewn ystyr mòr oruchel ag yr oedd yn perthyn iddo ef. Tybia eraill mai yr Unig-anedig oddi wrth y Tad a feddylir, yr hwn a amlygwyd ei fod felly yn ei ddyrchafiad, yn fwy eglur nac erioed o'r blaen. Mae eraill eto yn tybied mai nid *enw*, yn *llythyrenol*, sydd i'w ddeall; ond yr awdurdod, y mawredd, a'r gogoniant a roddwyd iddo ef yn ei ddyrchafiad, goruwch pawb, dynion ac angelion. Mae yn sicr fod *enw* yn arwyddo pethau felly mewn llawer o fànau yn yr ysgrythyr.

10 * Fel yn enw Iesu † y [a] plygai pob glin, ‡ o'r nefolion, || a'r daearolion, [b] § a thanddaearolion *bethau;*

a Gen. 41. 43. Es. 45. 23—25. Mat. 27. 29. Rhuf. 11. 4. a 14. 10, 11. Eph. 3. 14. Heb. 1. 6. Dat. 4. 10. a 5. 13, 14. b Mat. 12. 40. Ioan 5. 28, 29. Eph. 4. 9. Dat. 20. 13.

* Fel yn enw Iesu, yr enw a roddwyd i Faban llawd, a aned mewn aman, ac a ddodwyd yn y preseb, (oblegid fod y Baban hwnw yn Emmanuel, Duw gyda ni; am fod y Bachgen hwnw a anwyd, a'r Mab hwnw a roddwyd, yn Dduw cadarn,) † y plygai pob glin mewn ufudd-dod, ymostyngiad, ac addoliad: hyny yw, fel y byddai i bob crëadur rhesymol un ai ei addoli ef yn wirfoddawl, neu ynte gael eu cospi fel gwrthryfelwyr a gelynion Duw a'i deyrnas. ‡ "Y nefolion;" angelion a saint yn y nef: || "daearolion;" dynion da a drwg ar y ddaear: § "a'r thàn-ddaearolion bethau;" y meirw sydd yn gorwedd yn eu beddau, eneidiau y rhai annuwiol yn uffern, ac yn wir holl dywysogaethau a galluoedd y tywyllwch, yr holl angelion syrthiedig. Rhaid i bawb oll, un ai o fodd neu anfodd, blygu y glin yn enw ac i Iesu, gan addef ei Dduwdod, ei fawredd, a'i oruwch-lywodraeth ef.

11 [c] * Ac y cyffesai pob tafod [d] † *fod* Iesu Grist yn Arglwydd, [e] ‡ er gogoniant Duw Dad.

c Salm. 18. 49. Mat. 10. 32. Ioan 9. 22. a 12. 42. Rhuf. 10. 9. a 15. 9. 1 Ioan 4. 2, 15. 2 Ioan 7. Dat. 3. 5. d Salm 110. 1. Jer. 23. 6. Luc 2. 11. Ioan 20. 28. Act. 2. 36. a 10. 36. Rhuf. 10. 9—12. a 14. 11. 1 Cor. 8. 6. a 12. 3. a 15. 47. e Ioan 5. 23. a 13. 31, 32. a 14. 13, 23. a 16. 14, 15. a 17. 1. 1 Pedr 1. 21.

* Rhaid i bob tafod gyffesu, a phob crëadur rhesymol addef, mewn rhyw ffordd a'i gilydd, † fod Iesu Grist yn Arglwydd, yn Arglwydd pawb oll, yn Arglwydd y gogoniant, ïe, yn Jehofah y Gwaredwr. ‡ Bydd hyn càn belled o ysbeilio Duw Dad o'i ogoniant, (fel y taerai Sociniaid ac Undodiaid) fel y bydd yn ogoniant o'r mwyaf iddo: oblegid "Efe a'r Tad un ydynt;" ac mae yr holl Dduwdod yn cael ei arddangos a'i ogoneddu yn Mherson a Phrynedigaeth Crist, ger bron yr holl fydysawd, yn fwy nac yn yr holl weithredoedd a'r amlygiad au dwyfol eraill. Fel hyny mae yr holl anrhydedd a'r addoliad a roddir i Berson y Mab, fel Duw wedi ymddangos yn y cnawd, yn cael ei roddi mewn effaith i'r Duwdod trwy gyfrwng ei ddynoliaeth ef, trwy yr hon yn unig y gall pechaduriaid adnabod, nesâu at, ac addoli y Duw anfeidrol.

12 * Am hynny, [f] fy anwylyd, [g] † megis bob amser yr ufuddhasoch, nid fel yn fy ngŵydd yn unig, ‡ eithr yr awrhon yn fwy o lawer yn fy absen, [h] || gweithiwch allan [i] eich iachawdwriaeth eich hunain [k] § trwy ofn a dychryn.

f pen. 4. 1. 1 Cor. 4. 14. 1 Pedr 2. 11. g pen. 1. 5, 27, 29. h pen. 3. 13, 14. Diar 10. 16. a 13. 4. Mat. 11. 12, 29. Luc 13. 23, 24. Ioan 6. 27—29. Rhuf. 2. 7. 1 Cor. 9. 24—27. a 15. 58. Gal. 6. 7—9. 1 Thes. 1. 3. Heb. 4. 11. a 6. 10, 11. a 12. 1. 2 Pedr 1. 5—10.

3. 18. i pen. 2. 19. Rhuf. 15. 14. 14. 1 Cor. 9. 20—23. 2 Tim. 2. 10. k Ezra 10. 3. Salm 2. 11. a 119. 120. Es. 66. 2, 5. Act. 6. a 16. 29. 1 Cor. 2. 3. 2 Cor. 7. 15. Eph. 6. 5. Heb. 4. 1. a 12. 29.

* Gwedi gosod ger bron y Philippiaid yr esampl anghymharol uchod o ddarostyngiad, ufudd-dod, caru, a chymmwynasgarwch, yn nghyd â'r canlyniad gogoneddus o hyny; mae yr apostol yn dychwelyd yma et ei-gyngor o'r blaen, (adn. 5,) ac yn annog ei anwyl frodyr i debygu mewn ysbryd ac ymarweddiad i esampl agorol Crist. † Buasent bob amser yn barod i "ufuddâu" i ewyllys Crist, yr hon a hysbysasid iddynt gan yr apostol, nid yn unig pan oedd efe yn bersonol yda hwynt; ‡ ond hefyd yn fwy o lawer wedi hyny, yn absen ef, yr hyn oedd ganmoladwy iawn ynddynt, yn brawf amlwg o'u diragrithrwydd hwynt yn eu efydd. || Gan fod eu hufudd-dod mòr dda ac mòr anmoladwy, yn ei "ŵydd" ac yn ei "absen" ef hyd yn hyn, mae yn eu cyngori hwynt i fyned rhagddynt yn barâus, mewn ymarferiad dyfal o holl foddion gras, phob dyledswydd gristionogol, fel y caffent oruchaf-eth hollawl ar bob pechod, trwy adnewyddiad eu meidiau mewn sancteiddrwydd. Fel hyn dylent *eithio* allan eu hiachawdwriaeth eu hunain trwy ofn dychryn; rhag i neb o honynt fod yn debyg i fod yn a chael eu profi eu bod heb wreiddyn ynddynt eu nnain, trwy syrthio ymaith yn awr y brofedigaeth; ag iddynt trwy esgeulusdra golli eu cysur, a daros-ng eu hunain i dywyllwch a dychryn yn wyneb arw; neu rhag iddynt ddianrhydeddu Duw, a bod yn ihos o ragfarn mewn dynion yn erbyn yr efengyl, wy syrthio i bechodau gwaradwyddus. Nid *cyfiawn-d*, yn unig nac yn benaf, a feddylir yma wrth "iach-wdwriaeth;" ond gwaredigaeth oddi wrth bechod a'i oll ganlyniadau; yr hyn sydd raid llafurio am dano, y llafurir am dano yn ddiwyd, gan bob dyn duwiol, a mae unrhyw bechod yn aros ynddo; ac ni bydd yr chawdwriaeth hon yn berffaith yn mhob ystyr, hyd ai lyncer yr hyn sydd farwol gan fywyd, ac hyd oni ncer angau mewn buddugoliaeth. § Mae "ofn a chryn" yn arwyddo, nid yn unig gostyngeiddrwydd eddwl; ond hefyd diwydrwydd, gwyliadwriaeth, yder, ac ofn anfoddloni Duw. Er mai yn rhad ein achubir trwy ffydd yn Nghrist yn unig; eto rhaid i ni rchu yn mlaen i iachawdwriaeth yn ffordd cyfiawn-er, moddion, a dyledswydd; gan y gwelwn fod plant uw yn cael eu harwain gan Ysbryd Duw, gan yr hwn cyfiawnêir hwynt, fel y rhodiont mewn gweithredoedd a. Y sylw diweddaf sydd eiddo yr hen *Beza* dduwiol, gymmerwyd allan o *Scott*.

13 * Canys [l] Duw yw yr hwn sydd yn weithio ynoch [m] † ewyllysio ‡ a gweithredu || o'i ewyllys da *ef*.

l 2 Cron. 30. 12. Es. 26. 12. Jer. 31. 33. a 32. 39. Ioan 3. 27. Act. 11. 21. 2 Cor. 3. 5. Heb. 13. 21. Iago 1. 16—18. m 1 Bren. 58. 1 Cron. 29. 14—18. Ezra 1. 1, 5. a 7. 27. Neh. 2. 4. Salm 0. 3. a 119. 36. a 141. 4. Diar. 21. 1. Ioan 6. 45, 65. Eph. 2. 4, 5. Thes. 2. 13, 14. Tit. 3. 4, 5. 1 Pedr 1. 3. n Luc 12. 32. Rhuf. 11, 16. Eph. 1. 5, 9, 11. a 2. 8. 2 Thes. 1. 11. 2 Tim. 1. 9.

Nis gallwn ni nac ewyllysio na gweithredu yr hyn sy da o hónom ein hunain; Duw yw yr hwn sydd yn weithio pob un o'r ddau ynom o'i ewyllys da ei hun. Er calondid i'r Philippiaid yn wyneb drwg eu calon-n a byrdra eu cyfiawniadau, mae yr apostol yn ad-bofio iddynt mai Duw grasol a hollalluog sydd yn wneyd y cwbl ynddynt, ac nid oes dim yn rhŷ an-hawdd i Dduw. † Nid cynnorthwyo gwendid ewyllys naturiol dyn y mae efe; ond ei gwneyd yn dda lle yr edd yn ddrwg, trwy egwyddor, anian, a thuedd newydd sanctaidd ynddi: am hyny nid yw y saint fel prenau eu feini; ond yn ewyllysio yr hyn sy dda, ac yn ewyllysgar yn nydd nerth Duw. † Gwedi cael yr ewyllys mae yn hawdd gweithredu; sef gweithredu yr hyn sydd dda, mewn ufudd-dod rhydd a sanctaidd i holl ewyllys datguddiedig Duw. || Yn hyn oll, mae Duw yn weithredu o'i ewyllys da i ddynion; yr hyn a ddylai wneyd y goreu yn dra gostyngedig, a phawb yn dra diolchgar am ei ras anhaeddawl ef.

14 * Gwnewch bob dim [o] heb rwgnach, [p] † ac ymddadleu;

o adn. 3. Ex. 16. 7, 8. Num. 14. 27. Salm 106. 25. Mat. 20. 11. Marc 14. 5. Act. 6. 1. 1 Cor. 10. 10. Iago 5. 9. Judas 16. p Diar. 13. 10. a 15. 17, 18. Marc 9. 33, 34. Act. 15. 2, 7, 39. Rhuf. 12. 18. a 14. 1. a 16. 17. 1 Cor. 1. 10—12. a 3. 3—5. 2 Cor. 12. 20. Gal. 5. 15, 26. Eph. 4. 31, 32. 1 Thes. 5. 13, 15. 1 Tim. 6. 3—5. Heb. 12. 14. Iago 1. 20. a 3. 14—18. a 4. 1. 1 Pedr 3. 11.

* Yn eu holl achosion, pa un bynag ai bydol ai crefyddol, mae efe yn eu cyngori i ochelyd pob math o "rwgnach" yn erbyn trefniadau Duw yn ei ragluniaeth, † a phob "ymddadleu" â'u gilydd; pob ymrysonau cyffrôus a digllawn, a phob ymgais gorfynawl *(ambitious)* am flaenoriaeth ar eu gilydd. Gwel ar adn. 3.

15 * Fel y byddoch [q] ddïargyhoedd, [r] a diniwed, [s] yn blant [t] difeius i Dduw, † y'nghanol [u] cenhedlaeth ddrygionus a throfaus, ‡ ym mhlith y rhai yr ydych yn disgleirio megis goleuadau yn y byd.

q Luc 1. 6. 1 Cor. 1. 8. Eph. 5. 27. 1 Thes. 5. 23. 1 Tim. 3. 2, 10. a 5. 7. Tit. 1. 6. 2 Pedr 3. 14. r Mat. 10. 16. Rhuf. 16. 19. Heb. 7. 26. s Mat. 5. 45, 48. Luc 6. 35, 36. 2 Cor. 6. 17, 18. Eph. 5. 1, 2, 7, 8. 1 Pedr 1. 14—17. a 2. 9, 10. 1 Ioan 3. 1—3. t 1 Tim. 5. 14, 20. Tit. 2. 10, 15. Dat. 3. 9. u Deut. 32. 5, 6. Salm 125. 5. Mat. 17. 17. Act. 20. 30.

* Fel hyn byddent yn "ddïargyhoedd," heb achos eu cyhuddo gan y byd fel dynion cynhenus, hunanol, twyllodrus, a niweidiol; fel hyn byddent yn "ddifeius," yn gystal â chymmwynasgar a daionus; ac fel hyn y profent eu bod yn "blant i Dduw," trwy y purdeb, yr uniondeb, a'r cariad, a amlygent yn eu holl ymarweddiad, † yn nghanol cenedlaeth o Iuddewon a phaganiaid, nodedig o ddrygionus a llygredig yn eu meddyliau a'u harferion. Mae yn debyg mai y paganiaid, cenedl y Philippiaid eu hunain, a feddylir yn benaf, y rhai oeddynt dra "drygionus a throfâus" yn eu hymddygiad tuag at eu gilydd, yn gystal ag yn eu herlid ar y cristionogion. ‡ Ond yr oedd athrawiaeth ac ymarweddiad addas y credinwyr yn tueddu i'w goleuo hwynt, a'u cyfarwyddo at Grist a sancteiddrwydd; fel y mae goleudai yn rhybuddio y morwyr i ochelyd y creigiau, ac yn cyfarwyddo eu rhediad hwy i'r porthladd; neu fel y mae goleuadau dysglaer y nefoedd yn goleuo trigolion y byd hwn. Gwel ar Matth. 5. 14, 15, 16.

16 [x] * Yn cynnal [y] gair y bywyd; [z] † er gorfoledd i mi yn nydd Crist, [a] ‡ na redais yn ofer, ac na chymmerais boen yn ofer.

x pen. 1. 27. Salm 40. 9, 10. a 71. 17, 18. Mat. 10. 27. Luc 12. 8. Rhuf. 10. 8—16. Dat. 22. 17. y Ioan 6. 63, 68. Act. 13. 26. 2 Tim. 2. 15—17. Heb. 4. 12, 13. 1 Pedr 1. 23. 1 Ioan 1. 1. z pen. 1. 26. 2 Cor. 1. 14. 1 Thes. 2. 19, 20. a Es. 49. 4. Gal. 2. 2. a 4. 11. 1 Thes. 3. 5.

* Rhaid i'r saint geisio bod yn oleuadau yn y byd trwy gynnal gair y bywyd; yr efengyl sydd yn egluro bywyd, yn rhoddi bywyd, yn cynnal bywyd, ac yn rhëoi bywyd ysbrydol ac allanol i bob credadyn: a hyn nid mewn athrawiaeth iachus yn unig; ond hefyd mewn proffes, ymddiddanion, yn yr ordinâdau cyhoeddus, a phob gweithredoedd da ac ymarweddiad sanctaidd. † Yr oedd hyn yn orfoledd presenol i'r apostol, ac yr oedd yn gobeithio y byddai yn orfoledd iddo yn nydd Crist, dydd y farn, pan y gosodid ef â hwythau i sefyll ger bron y Barnwr; ‡ pryd y caffai pawb weled na bu ei lafur a'i boen ef yn ofer yn Philippi, ac na redodd efe fel un yn colli y gamp fawr o achub eneidiau.

17 * Ïe, [b] a phe y'm hoffrymmid ar [c] aberth a gwasanaeth eich ffydd, [d] † llawenhâu yr wyf, ‡ a chyd-lawenhâu â chwi oll.

b adn. 30. pen. 1. 20. Act. 20. 24. a 21. 13. 2 Cor. 12. 15. 1 Thes. 2. 8. 2 Tim. 4. 6. 1 Ioan 3. 16. c pen. 4. 18. Rhuf. 12. 1. a 15. 16. Heb. 13. 15, 16. 1 Pedr 2. 5. d Col. 1. 24. 1 Thes. 3. 7—9.

* Ac os byddai i ffydd y Philippiaid yn nghyd â'i ffrwythau gwerthfawr, gael ei chyflwyno fel hyn yn Iesu Grist, megys aberth a gwasanaeth cymmeradwy ac an-

rhydeddus i Dduw; ped offrymid yntau ar yr aberth hwnw, trwy dywallt ei waed fel merthyr yn yr achos gogoneddus, fel y tywelltid y ddiod-offrwm ar yr aberthau gynt; † cyn belled a fyddai ef o ymofidio o herwydd hyny, ag y byddai yn llawenydd ganddo ddyoddef felly er eu cadarnâu hwy yn y ffydd; ‡ ïe, cydlawenychai yn orfoleddus â hwynt, gan gyd-gyfranogi o'u dedwyddwch, hyd yn nôd pan fyddai yn dyoddef arteithion angau: hyny oedd ei deimlad ef yn awr, yn y rhag-olygiad o'r cyfryw ddamwain, "llawenâu yr *wyf;*" a gwyddai yn sicr mai felly y byddai pe dygwyddai y cyfryw beth. "Pe y'm hoffrymid:" pe y'm *tywelltid*, meddant, yw ystyr y gair *spendomai:* gŵyr pawb y byddai olew a gwin yn cael eu tywallt ar yr offrymau gynt, neu yn rhan o honynt; a dywedir y byddai y paganiaid hefyd yn arfer diod-offrymau, ac weithiau yn defnyddio gwaed yn gymmysg â gwin, er anrhydedd i'w gau-dduwiau. Gwel Salm. 16. 4. Mae yr apostol yn ystyried ffydd y Philippiaid megys aberth neu wasanaeth cymmeradwy gan Dduw; a phe buasai raid iddo ef ddyoddef merthyrdod am ei awydd-fryd yn cynnorthwyo eu ffydd hwynt, gallai sôn am dywallt ei waed fel diod-offrwm ar yr achlysur hwnw, gyda mwy o briodoldeb ac addasrwydd, nac y mae llawer o eglurwyr yr ysgrythyrau wedi meddwl.

18 * Oblegid yr un *peth* hefyd [e] byddwch chwithau lawen, a chyd-lawenhêwch â minnau.

e pen. 3. 1. a 4. 4. Eph. 3. 13. Iago 1. 2—4.

* Gan hyny, ni fynai efe i'r Philippiaid fod mewn trallod meddwl o'i blegid ef; ond yn hytrach llawenâu gydag ef, ac yn ei achos, fel dyn dedwydd iawn, hyd yn nôd yn ei rwymau a'i garchar, ac yn y tebygolrwydd o ddyoddef angau merthyrawl. Anrhydedd oedd iddo ef farw yn y modd a ddygai y dystiolaeth fwyaf ardderchog i Grist a'i efengyl; ac a fyddai er cryfder a chadarnâd i'w ffydd hwynt yn Nghrist. "Nis gallaf ddarllen yr ymadrodd arwraidd hyn o eiddo yr apostol," medd *Doddridge*, "heb feddwl am ymddygiad yr Atheniad dewrwych hwnw a grybwyllir gan *Plutarch*, yr hwn a ddychwelodd i Athen o frwydr fuddugol *Marathon*, yn gwaedu i farwolaeth gan yr archollion a gawsai yn y frwydr, a chan ddyfod yn union-gyrchol i'r tŷ lle yr oedd y penaethiaid wedi ymgynnull, dywedodd yn unig y ddau air hyn, *chairete, chairomen, cymmerwch eich rhan o'n llawenydd ni*, ac yn y fàn a syrthiodd i lawr yn farw wrth eu traed hwynt." Cyfrifid hwnw yn ddyn ardderchog; ond yn wyneb byd tragywyddol i ddyfod, nid rhesymol oedd ei lawenydd: gwnaeth ef hyny am goron lygredig; ond yr apostol am un anllygredig, iddo ei hun a miloedd lawer.

19 * Ac yr wyf [f] yn gobeithio yn yr Arglwydd Iesu, [g] anfon Timothëus ar fyrder attoch, [h] † fel y'm cysurer innau hefyd, wedi i mi wybod eich helynt chwi.

f adn. 24. Jer. 17. 5. Mat. 12. 21. Rhuf. 15. 12. Eph. 1. 13. 2 Tim. 1. 12. Iago 4. 15. 1 Pedr 1. 21. g adn. 23, 25. pen. 1. 1. Rhuf. 16. 21. 1 Cor. 4. 17. Eph. 6. 21, 22. Col. 4. 8, 9. 1 Thes. 3. 2, 6. h adn. 28. 1 Thes. 3. 6—8. 2 Thes. 1. 3. Philemon 5—7. 3 Ioan 3. 4.

* Er bod yr apostol yn dysgwyl mai ei ferthyru a ga'i rywbryd, eto nid oedd yn meddwl y rhoddid ef i farwolaeth yn fuan iawn: ac yn y cyfamser yr oedd yn gobeithio yn yr Arglwydd Iesu, yr hwn yr oedd pob galonau a damweiniau yn ei law, y gallai efe yn fuan ddanfon Timothëus at y Philippiaid, i edrych helynt eu heneidiau hwy, ac agwedd yr eglwys; † a gwyddai y byddai y newyddion da a ga'i efe glywed am danynt yn gysur mawr iddo, wrth fod gwaith yr Arglwydd yn llwyddo yn eu plith, a bod y gau-athrawon heb allu llwyddo, trwy ddichell na bygwth, i'w gŵyro nâ'u hysgogi hwynt. Mae yn debyg i Timothëus fod yn garcharor yn gystal â Phaul, ond yr oedd y pryd hwn wedi ei "ollwng yn rhydd," neu i gael ei ollwng yn rhydd yn fuan: (Gwel Heb. 13. 23.) a dywed *Doddridge* mai yn yr un flwyddyn (63) yr ysgrifenwyd yr epistol hwn â'r epistol at yr Hebreaid.

20 * Canys [i] nid oes gennyf neb o gyffelyb feddwl, † yr hwn a wir-ofala am y pethau a berthyn i chwi.

i adn. 2, 22. Diar. 31. 29. Ioan 10. 13. a 12. 6. 1 Cor. 1. 10, 11. Col. 4. 11. 1 Tim. 1. 2. 2 Tim. 1. 5.

* Nid oes genyf neb o gyffelyb enaid, meddwl, neu duedd; arwydda y cyfansodd-air *iso psychon* bob un o honynt. † Yr hwn a ofala yn naturiol, yn ddidwyll, ac yn wirioneddol; yr hyn a arwydda y gair *gnêsiôs:* a gofal pryderus, awyddus, llwyr-fryd, a thra gofalus, yw ystyr y gair *merimnêsei.* Dewisodd Paul Timothëus i'r gwasanaeth hwn, o herwydd nad oedd ganddo neb gydag ef y pryd hwnw, o feddwl ac ysbryd mòr rhagorol âg ef, ac mòr hollawl gydsyniol âg ef ei hun yn ei olygiadau a'i amcanion; na neb a ddorai am les a llwyddiant y Philippiaid, ac a ofalai am eu daioni hwynt mòr ddoeth, tŷner, a gofalus, gyda serchiadau mòr dirion, fel cariad tad neu fam tuag at eu plant.

21 [k] * Canys pawb sydd yn ceisio yr eiddynt eu hunain, [l] † nid yr eiddo Crist Iesu.

k adn. 4. Es. 56. 11. Mal. 1. 10. Mat. 16. 24. Luc 9. 57—62. a 14. 26. Act. 13. 13. a 15. 38. 1 Cor. 10. 24, 33. a 13. 5. 2 Tim. 1. 15. a 4. 10, 16. l pen. 1. 20, 21. 2 Cor. 4. 5. a 5. 14, 15.

* Yr oedd agos i bawb eraill o'r cristionogion a'r pregethwyr oedd gyda'r apostol yn Rhufain, yn ceisio eu hesmwythder, eu diogelwch, eu helw, eu hanrhydedd, neu eu hanwes, eu hunain; † yr hyn yn aml oedd yn rhwystro gwaith, anrhydedd, ac achos Crist Iesu: nid oeddynt yn gofalu am hyny fel y dylasent, ac fel y mynasai yr apostol sanctaidd iddynt wneyd. Nis gall y gair *pawb* yn y fàn hon feddwl *pob un yn hollawl*, o'r gweinidogion a'r brodyr yn Rhufain, fel pe na buasai *neb* o honynt yn gofalu am achos a gogoniant Crist; oblegid, yn adn. 25, mae yr apostol yn llefaru yn ganmoladwy am Epaphroditus; ac felly hefyd am lawer o frodyr eraill yn pen. 1. 14: ond efallai fod y rhai *goreu* o honynt y pryd hwn wedi myned i fànau eraill; a bod y rhan fwyaf o'r rhai oedd yn ol, o'u cymharu â Thimothëus, yn gofalu mwy am eu manteision eu hunain nac am achos Crist, yn enwedig yn Philippi, lle y costiai iddynt, efallai, lawer mwy o drafferth nac mewn rhai mànau eraill, lle y gallent obeithio bod yn ddefnyddiol. Efallai bod rhai o honynt yn amlwg euog o hyn, a'r rhan fwyaf o honynt oll wedi rhoddi achos i'r apostol i ddrwg-dybied eu ffyddlondeb yn achos Crist.

22 * Eithr [m] y prawf o hono ef chwi a'i gwyddoch, [n] † mai fel plentyn gyd â thad, y gwasanaethodd efe gyd â myfi yn yr efengyl.

m Act. 16. 3—12. 2 Cor. 2. 9. a 8. 8, 22, 24. n Gwel ar adn. 20.—1 Tim. 1. 18. 2 Tim. 1. 2. Tit. 1. 4.

* Yr oedd Timothëus wedi bod gyda Paul yn Philippi y tro cyntaf yr aeth efe yno, a thybir iddo aros yno am ryw yspaid o amser wedi i Paul ymadael, (Act. 16. 1—11.) am hyny yr oedd gan y Philippiaid brawd o'r blaen o hóno, † mai fel plentyn anwyl ac ufudd gyda thad y gwasanaethasai efe gyda'r apostol yn yr efengyl. Paul oedd ei dad ysbrydol ef yn y ffydd (1 Tim. 1. 2.) a gwyddai y Philippiaid ei fod bob amser yn cyd-weled âg ef, yn cyd-syniaw â'i fesurau, yn gweithredu yn ol ei gyfarwyddyd, yn golygu ei gysur ac yn llafurio, yn anturio, yn dyoddef, ac yn gwasanaethu gydag ef yn achos Crist, fel plentyn gyda thad.

23 * Hwn gan hynny yr ydwyf yn gobeithio ei ddanfon, [o] † cyn gynted ag y gwelwyf yn hyn a fydd i mi.

o 1 Sam. 22. 3.

* Wrth ystyried rhagoriaethau Timothëus, a'r olwg isel oedd ganddo ar agos i bawb eraill yn Rhufain (adn. 21,) nid rhyfedd i'r apostol ddewis y dyn ieuanc ardderchog "hwn" i'w ddanfon at y Philippiaid. † Ond tybiodd yn well peidio ei ddanfon ef, hyd on welai pa fodd y penderfynid ei achos ef ei hun, yr hw

eld efe yn feunyddiol yn ddysgwyl i gael ei ddwyn
bron brawdle yr Ymherawdr.

24 p * Ac y mae gennyf hyder yn yr Ar-
wydd † y deuaf finnau hefyd ar fyrder
coch.

p Gwel ar adn. 19. pen. 1. 25, 26. Rhuf. 15. 28, 29. Philemon
2 2 Ioan 12. 3 Ioan 14.

* Er nad oedd y prawf drosodd na chwedi dyfod eto,
'r apostol yn gwybod dim yn sicr pa fodd y tröai
an; eto yr oedd ganddo hyder crŷf yn yr Arglwydd
su, eiddo yr hwn oedd, a'r hwn oedd yn wasanaethu,
er mwyn yr hwn yr oedd yn awr mewn carchar; † y
ddai iddo trwy ei oruwch-lywodraeth ef a'i ymddan-
siad yn ei bladi, gael ei gyfiawnâu oddi wrth gyhudd-
lau cenfigenus ei elynion, a'i ollwng yn rhydd o'i
rchar: ac os felly, yr oedd yn hyderu y deuai efe ei
n at y Philippiaid ar fyrder. Tybir iddo fyned i
ilippi wedi ysgrifenu yr epistol hwn.

25 * Eithr mi a dybiais yn anghenrheidiol
anfon attoch q Epaphroditus, r † fy mrawd,
'm cyd-weithiwr, t a'm cyd-filwr, u ‡ ond eich
nnad chwi, x a gweinidog i'm cyfreidiau innau.

q pen. 4. 18. r 2 Cor. 2. 13. a 8. 22. Philemon 1. s pen.
3. 1 Cor. 3. 9. 2 Cor. 8. 23. Col. 1. 7. a 4. 11. 1 Thes. 3. 2.
ilemon 1, 24. t 2 Tim. 2. 3, 4. Philemon 2. u Diar. 25.
Ioan 17. 18. 2 Cor. 8. 23. Heb. 3. 1. x pen. 4. 18. 2 Cor.
7, 8.

* Ond cyn y gallai efe hebgor Timothëus na dyfod
hun, barnodd yn angenrheidiol i ddanfon atynt
paphroditus, † yr hwn a addefai efe yn frawd anwyl
ffydd yr efengyl, yn gyd-weithiwr dyfal yn ngweini-
gaeth yr efengyl, ac yn gyd-filwr dewr a ffyddlawn yn
ilwriaeth yr efengyl; ‡ ond cenad danfonedig y Phil-
ppiaid ato ef, i ddwyn eu rhoddion hwynt iddo ef yn
gaethiwed, ac felly gweinidog i'w gyfreidiau ef.
ybir fod Epaphroditus yn weinidog yr eglwys yn
hilippi; os felly, yr oedd yn angenrheidiol i'r apostol
ddanfon ef yn ei ol yn ddïoed. Tybia rhai mai yr
n oedd efe ac Epaphras, (Colos. 1. 7; 4. 12; Philem.
fln. 23.) ond nid oes sail ddigonol i hyny, dim mwy
allai na thebygrwydd y ddau enw.

26 * Canys yr oedd efe yn y hiraethu am
anoch oll, z † ac yn athrist iawn, a oblegid i
hwi glywed ei fod ef yn glaf.

y pen. 1. 8. a 4. 1. 2 Sam. 13. 39. Rhuf. 1. 11. 2 Cor. 9. 14.
Job 9. 27. Salm 69. 20. Diar. 12. 25. Es. 61. 3. Mat. 11. 28. a
5. 37. Rhuf. 9. 2. 1 Pedr 1. 6. a 2 Sam. 24. 17. Ioan 11. 35,
5. Act. 21. 13. Rhuf. 12. 15. 1 Cor. 12. 26. Gal. 6. 2. Eph. 3. 13.

* Un rheswm am yr angenrheidrwydd o ddanfon
paphroditus atynt yn fuan oedd, ei fod ef yn hiraethu
m danynt oll, yr hyn a ddengys y cariad a'r brawdgar-
wch cynhes oedd rhyngddo ef â'r holl eglwys yn Phil-
ppi: nid oes fawr o hiraeth yn absenol, ond lle byddo
ariad yn bresenol. † Rheswm arall oedd, ei fod ef yn
Christ iawn, oblegid i'r Philippiaid glywed ei fod ef yn
laf: gwyddai ef yn burion y byddai clywed hyny yn
ifid mawr iddynt hwy, ac yr oedd eu tristwch hwy yn
ristwch iddo yntau; ac yr oedd yn hiraethu am ddy-
dwelyd atynt fel y caffent sicrwydd ei fod ef yn fyw ac
edi gwellâu. Gan fod Philippi yn mhell iawn o
ufain, a dim llythyrau cyflym y pryd hwnw fel yn ein
wledydd ni yn awr; rhaid i Epaphroditus aros am
ryn amser gyda'r apostol, pe amgen nis gallasai y
ewydd am ei glefyd ef yn Rhufain gyrhaedd hyd
Philippi, a'r sôn am dristwch y Philippiaid o herwydd
yny gyrhaedd Epaphroditus cyn iddo adael Rhufain; ac
ganlyniad, rhaid i'r epistol hwn gael ei ysgrifenu tua
wedd y ddwy flynedd o garchariad Paul.

27 * Canys yn wir efe a fu glaf b yn agos i
ngau: c † ond Duw a drugarhâodd wrtho ef;
ac nid wrtho ef yn unig, d ond wrthyf finnau
efyd, || rhag cael o honof dristwch ar dristwch.

b adn. 30. 2 Bren. 20. 1. Salm 107. 18. Preg. 9. 1, 2. Ioan 11.
, 4. Act 9. 37. c Job 5. 19. Salm 30. 1—3, 10, 11. a 34. 19.
a 103. 3, 4. a 107. 19—22. Es. 38. 17. a 43. 2. Act. 9. 39—41.
d Es. 27. 8. Jer. 8. 18. a 10. 24. a 45. 3. Hab. 3. 2. 1 Cor. 10. 13.
2 Cor. 2. 7.

* Gwir iawn oedd i Epaphroditus fod yn glaf, yn glaf iawn, ac yn ol pob ymddangosiad dynol yn agos i angau, wedi ei ddwyn i byrth y bedd: † ond Duw a drugarâodd wrtho pan oedd pawb yn barod i'w roddi i fynu, ac a'i hadferodd ef i'w iechyd, ac i ychwaneg o wasanaeth. Pe buasai farw y pryd hwnw, buasai marw yn elw mawr iddo ef; ond wrth ystyried mai peth chwerw i natur, a theimladau natur, hyd yn nôd yn y dyn duwiol yw marw; yr oedd yr apostol yn ystyried mai *trugaredd* oedd adferiad y dyn duwiol hwn. Nid oes yma ddim sôn mai trwy wyrthiau yr iachâwyd ef; ond mae yn ddïammau mai mewn atebiad i weddïau taerion lawer, yr iachâodd Duw ef. ‡ Nid trugaredd i Epaphroditus yn unig oedd yr adferiad hwn, ond trugaredd fawr i Paul hefyd; || rhag cael o hóno dristwch ar dristwch: yr oedd ei garchariad yn dristwch iddo, clefyd trwm ei anwyl frawd yn dristwch ar hyny; a buasai ei farw ef yn dristwch eilwaith ar y cwbl, a mwy na'r cwbl.

28 * Yn fwy diwyd gan hynny yr anfonais
i ef, e † fel gwedi i chwi ei weled ef drachefn,
y byddech chwi lawen, f ‡ ac y byddwn innau
yn llai fy nhristwch.

e adn. 26. Gen. 45. 27, 28. a 46. 29, 30. a 48. 11. Ioan 16. 22.
Act. 20. 38. 2 Tim. 1. 4. f Gwel ar adn. 27.—2 Cor. 2. 3. 1 Ioan
1. 3, 4.

* Gan hyny, o herwydd afiechyd diweddar Epaphroditus, a thristwch y Philippiaid ac yntau o herwydd yr achlysur hyny; bu yr apostol yn fwy diwyd, gofalus, ac ewyllysgar i'w ddanfon ef, er bod yn anhawdd ganddo ei hebgor ac ymadael âg ef; † fel wedi i'w frodyr yn Philippi ei weled ef drachefn yn fyw, yn iach, ac yn ddïogel, y byddent hwy lawen, ‡ ac y byddai yr apostol ei hun yn llai ei dristwch wrth feddwl am eu llawenydd hwy, er yn mhell oddi wrthynt, ac er colli cynnorthwy a chymdeithas Epaphroditus.

29 g * Derbyniwch ef gan hynny yn yr
Arglwydd h gyd â phob llawenydd; i † a'r cyf-
ryw rai gwnewch gyfrif o honynt:

g Mat. 10. 40, 41. Luc 9. 5. Ioan 13. 20. Rhuf. 16. 2. 1 Cor.
16. 10. 2 Cor. 7. 2. Col. 4. 10. 3 Ioan 10. h Es. 52. 7. Luc 2.
10, 11. Act. 2. 46. a 8. 8. Rhuf. 10. 15. Eph. 4. 9—12. i 2 Cor.
10. 18. 1 Thes. 5. 12. Heb. 13. 17.

* Gan hyny, gan fod mòr dda genych am dano bob amser, a chan i chwi ofidio cymmaint o herwydd clywed am ei glefyd ef; derbyniwch ef yn yr Arglwydd pan ddelo, gyda phob llawenydd a diolchgarwch, fel y gwn y gwnewch. † A'r cyfryw weinidogion duwiol a ffyddlawn ag yw efe, pwy bynag fyddont, gwnewch gyfrif mawr o honynt mewn cariad er mwyn eu gwaith: a gwnewch gyfrif mawr o Epaphroditus yn enwedig.

30 * Canys oblegid k gwaith Crist y bu efe
l yn agos i angau, † ac y bu diddarbod am ei
einioes, m ‡ fel y cyflawnai efe eich diffyg chwi
o'ch gwasanaeth tu ag attaf fi.

k 1 Cor. 15. 53. a 16. 10. l adn. 17, 27. pen. 1. 19, 20
Mat. 25. 36—40. Act. 20. 24. Rhuf. 16. 4. 2 Cor. 12. 15. Dat. 12.
11. m pen. 4. 10, 18. 1 Cor. 16. 17. Philemon 13.

* Taflodd Epaphroditus ei hun i'r clefyd uchod, yr hwn a fu bron yn angau iddo, trwy lafur a lludded mwy nac a fedrai ei natur ef ddàl, gan faint ei awydd a'i *zel* i ddwyn yn mlaen waith Crist, mewn pregethu yr efengyl a gweini i angenrheidiau yr apostol. † Yn hyn bu yn ddiddarbod, neu yn ddifater am ei einioes; trwy lafurio yn galed, chwysu ac oeri, ac efallai ymattal gormod oddi wrth angenrheidiau, cysuron, ac ymgeledd natur, heb ystyried yn ddigonol beth fyddai y canlyniad o hyny i'w iechyd ef. ‡ Mynasai efe ei hun, pe buasai bosibl, gyflawni pob gwasanaeth i'r apostol, a allasai yr holl Philippiaid ei wneyd pe buasent yn bresenol, mewn pregethu yr efengyl, a gwasanaeth personol i Paul ei hun.

PEN. III.

Am ochelyd y gau-athrawon.

[a] * WEITHIAN, fy mrodyr, [b] byddwch lawen yn yr Arglwydd. [c] † Ysgrifenu yr un pethau attoch, ‡ gennyf fi yn wir nid *yw* flin, || ac i chwithau *y mae* yn ddiogel.

a pen. 4. 8. 2 Cor. 13. 11. Eph. 6. 10. 1 Thes. 4. 1. 1 Pedr 3. 8. b adn. 3. pen. 4. 4. Deut. 12. 18. a 16. 11. 1 Sam. 2. 1. 1 Cron. 15. 28. a 16. 10, 31—33. a 29. 22. 2 Cron. 30. 26, 27. Neh. 8. 10. Job. 22. 26. Salm 5. 11. a 32. 11. a 33. 1. a 37. 4. a 42. 4. a 97. 1. a 100. 1, 2. a 149. 2. Es. 12. 2, 3. a 41. 16. a 61. 10. a 65. 14. a 66. 11, 12. Joel 2. 23. Hab. 3. 17, 18. Zeph. 3. 14, 17. Zec. 10. 7. Mat. 5. 12. Luc 1. 47. Rhuf. 5. 2, 3, 11. 1 Thes. 5. 16. Iago 1. 2. 1 Pedr 1. 6—8. a 4. 13. c pen. 2. 17, 18. 2 Pedr 1. 12. a 3. 1.

* Weithian, gan fod Epaphroditus wedi cael ei adferu o'i glefyd a'i ddychwelyd drachefn atoch; gyda llawenâu yn ei adferiad a'i ddychweliad ef, byddwch lawen yn yr Arglwydd Iesu hefyd, gan gydnabod yn llawen ac yn ddiolchgar mai efe a'i hadferodd ac a'i dychwelodd ef. Heblaw llawenychu yn eich cynnorthwyon, eich moddion, a'ch breintiau, byddwch lawen hefyd yn yr Arglwydd Iesu, yn eich perthynas âg ef, fel eich gogoniant a'ch iachawdwriaeth: byddwch lawen yn ei gariad, ei gymdeithas, a'i ofal ef; ac yn y bendithion ydych yn gael, ac yn gobeithio eu cael eto ynddo ac o hóno ef. † "Yr un pethau" a ysgrifenasai efe at eglwysi eraill, medd rhai: *ysgrifenu* yr un pethau ag a *ddywedasai* efe wrthynt pan oedd gyda hwynt, medd eraill: ysgrifenu yr un pethau ag a barasai efe i Epaphroditus eu dywedyd wrthynt, medd eraill: a thybia eraill iddo ysgrifenu epistol atynt cyn hwn, yr hwn sydd yn awr ar goll, ond nid oes sail i hyny. ‡ Pa fodd bynag mae deall y geiriau, nid oedd yn ormod trafferth, nac "yn flin" gan yr apostol, ysgrifenu yr un pethau atynt drachefn a thrachefn, "llin ar lin, a gorchymyn ar orchymyn" i'w cadarnâu a'u hadeiladu hwy yn eu ffydd a'u proffes. || Ac iddynt hwythau yr oedd hyny "yn ddiogel" ac yn wir angenrheidiol, er eu hargraffu yn ddyfnach ar eu meddyliau, ac er eu cadarnâu yn eu crefydd yn wyneb eu hamgylchiadau trallodus a pheryglus. Gwel y gocheliadau yn yr adnod nesaf.

2 * Gochelwch [d] gŵn, † gochelwch [e] ddrwg-weithwyr, ‡ gochelwch y [f] cyd-doriad.

d Diar. 26. 11. Es. 56. 10. Mat. 7. 6, 15. a 24. 10. Gal. 5. 15. 2 Tim. 4. 14, 15. 2 Pedr 2. 22. Dat. 22. 15. e adn. 19. Mat. 7. 22, 23. 2 Cor. 11. 13. Gal. 5. 13. 1 Tim. 1. 19. 2 Tim. 3. 1—6. a 4. 3, 4. Tit. 1. 16. 2 Pedr 2. 18—20. Judas 4, 10—13. Dat. 21. 8. f adn. 3. Rhuf. 2. 28. Gal. 2. 3, 4. a 5. 1, 2, 6. Dat. 2. 9. a 3. 9.

* Galwai yr Iuddewon ysgornllyd y cenedloedd yn *gwn;* ond tybir mai y gau-athrawon Iuddewaidd rhagfarnus a hunanol, a feddylir yma wrth yr enw hwnw; y rhai fél cŵn a wenieithent i'r rhai a ddangosent barch a charedigrwydd iddynt; ac eto oeddynt yn wancus, yn chwyrnllyd, ac yn barod i gnôi a thraflyncu pawb a'u gwrthwynebent. Arferai y Rhufeiniaid gylymu eu cŵn wrth ddrysau eu tai, a rhoddent ysgrifen uwch eu penau, *Gochelwch y ci hwn,* a thybia rhai fod cyfeiriad at hyny gan yr apostol yma: dïau ei fod yn cyfeirio hefyd at Es. 56. 10—12. Gwel hefyd adn. 19; Rhuf. 16. 18; Galat. 6. 12, 13; Tit. 1. 11, 12. Tybia eraill mai gwrthgilwyr wedi troi yn gablwyr ac erlidwyr, a feddylir. † Wrth ddrwg-weithwyr efallai y meddylir hefyd, yr athrawon a'r proffeswyr hyny, oedd yn gŵyro athrawiaethau gras, ac yn eu cam-ddefnyddio i goledd eu hunain mewn pechodau, fel rhan o'u rhyddid cristionogol: neu, rai yn cymmeryd arnynt fod yn fawr dros y ddeddf, ond yn byw yn hollawl groes i'r ddeddf: neu, rai yn cymmeryd arnynt fod yn wresog iawn dros achos ac athrawiaeth yr efengyl, ond dàn y fantell hòno yn terfysgu ac yn drygu yr eglwys o ran cariad a heddwch. ‡ "Y cyd-dòriad," sef tòriad ymaith y blaen-groen yn yr enwaediad: rhoddai y gau-athrawon Iuddewaidd bwys mawr ar hyn, er nad oeddynt yn tòri ymaith eu chwantau, nac yn gofalu am farweiddio gweithredoedd y corph: mynent *dòri ymaith* y cenedloedd o'r eglwys, ond yr oeddynt yn *tòri* eu hunain ac eraill ymaith odd wrth iachawdwriaeth, trwy eu hymddiried yn ngweithredoedd y ddeddf. Dynion i'w gochel yn dra gofalus oedd y rhai hyn oll: tair gwaith mae yr apostol yn dywedyd "gochelwch" hwy.

3 * Canys yr [g] enwaediad ydym ni, † y rhai ydym yn [h] gwasanaethu Duw yn yr ysbryd, ‡ ac yn [i] gorfoleddu yng Nghrist Iesu, [k] || ac nid yn ymddiried yn y cnawd:

g Gen. 17. 5—11. Deut. 10. 16. a 30. 6. Jer. 4. 4. a 9. 26. Rhuf. 2. 25—29. a 4. 11, 12. Col. 2. 11. h Mal. 1. 11. Ioan 4. 23, 24. Rhuf. 1. 9. a 7. 6. a 8. 15, 26, 27. Eph. 6. 18. Judas 20. i Gwel ar b. adn. 1, 7—9. Salm 105. 3. Es. 45. 25. Jer. 9. 23, 24. 1 Cor. 1. 29—31. Gal. 6. 13, 14. k adn. 4—6. 1 Pedr 1. 23—25.

* Nid oedd yr enw anrhydeddus o enwaediad yn perthyn mwyach i'r rhai hyn, am nad oedd yr hen osodiad hwnw mwyach mewn grŷm; cristionogion weithiau oedd y gwir enwaediad, pobl gyfammodol Duw, a hadau ysbrydol Abraham: yr oedd cyflawnder y ffydd wedi eu *selio* iddynt hwy trwy enwaediad y galon, o'r hyn yr oedd bedydd yn arwydd allanol. Gwel Rhuf. 2. 25—29 a 4. 9—17. Ni fynai yr Iuddewon deddfol ac anghredaniol addef hyn; ond fel hyn yr oedd hi mewn gwirionedd. † Yr oedd y cristionogion yn gwasanaethu Duw yn yr Ysbryd; nid yn unig mewn ffurf allanol, ond yn ysbrydol, a'u calonau dàn ddysgeidiaeth a dylanwadau yr Ysbryd Glân. Dichon fod y geiriau "yn yr ysbryd," yn arwyddo ysbryd y saint eu hunain, ac yn yr Ysbryd Glân hefyd, fel y sylwyd uchod. ‡ Yr oeddynt hefyd yn gorfoleddu yn Nghrist Iesu, Gwrthddrych yr holl brophwydoliaethau, a sylwedd yr holl gysgodau dàn yr hen oruchwyliaeth; ac yn eu rhan ynddo ef fel yr Arglwydd eu cyflawnder, eu hunig Gyfryngwr, a sail eu gobaith am gymmeradwyaeth gyda Duw, ac am fywyd tragywyddol. || Fel hyn yr oeddynt wedi ymwrthod â phob ymddiried yn y cnawd; a phob peth a allai dyn wneyd neu feddiannu, tra yn ddiadgenedledig ac yn anghredadyn. Nid oeddynt yn ymddiried mwyach yn ngweithredoedd y ddeddf foesol, nac yn nghyflawniadau y ddeddf seremoniol chwaith.

4 [l] * *Ac* er bod gennyf *achos i* ymddiried ïe, yn y cnawd. † Os yw neb arall yn tybied *y gall* ymddiried yn y cnawd, ‡ myfi yn fwy:

l 2 Cor. 11. 18—22.

* Nid oedd yr apostol drwy ymwrthod âg ymddiried yn y cnawd, yn ei gyd-raddu ei hun â'r cenedloedd dychweledig chwaith, megys pe na buasai ganddo ddim o natur allanol a seremoniol i ymddiried ynddo mwy nâ hwythau; † oblegid os oedd neb arall o'r Iuddewon ac yn enwedig y gau-athrawon Iuddewaidd, yn tybied yn eu dychymmygion deddfol y gallent ymddiried yn y cnawd, ac yn y rhagoriaeth oedd rhyngddynt hwy â'r cenedloedd; ‡ gallai yr apostol brofi fod ganddo ef fwy o bethau felly i ymddiried ynddynt, nâ'r rhan fwyaf o honynt hwy. Tybia rhai fod yr apostol yma yn cyfeiriad at ryw berson neillduol yn mhlith y Philippiaid, y hwn oedd yn ceisio eu dênu hwynt oddi wrth gristionogaeth at Iuddewaeth; ac nad oedd y person hwnw e hun ond *proselyt* i'r grefydd Iuddewig, ac nid Iuddew o waedoliaeth; ac fel hyny yr oedd gan Paul fwy ymddiried ynddo, ac i ymffrostio o hóno, nâ'r person hwnw. Nid "*achos i* ymddiried" ger bron Duw mae y apostol yn feddwl; ond *achos i* ymddiried mewn cymhariaeth i eraill, ag oedd yn *tybied* y gallent ymddiried yn y cnawd, yn eu breintiau a'u cyflawniadau seremoniol a deddfol.

5 [m] * Wedi enwaedu arnaf yr wythfed dydd, [n] † o genedl Israel, [o] ‡ *o* lwyth Benjamin, [p] || yn Hebrëwr o'r Hebreaid; § yn ol y ddeddf [q] yn Pharisead;

m Gen. 17. 12. Luc 2. 21. Ioan 7. 21—24. n Act. 22. 3. 2 Cor. 11. 22. o Rhuf. 11. 1. p Gen. 14. 13. a 40. 15. a 41. 12. 1 Sam. 4. 6. Jona 1. 9. Act. 6. 1. 2 Cor. 11. 22. q Act. 26. 6. a 26. 4, 5.

Am freintiau ullanol, yr oedd ef wedi cael ei enedu yn ddyledus yr wythfed dydd, yn ol y ddefod a dchymyn Duw. Gen. 17. 12. Byddai yr Iuddewon yn oddi pwys mawr iawn, nid yn unig ar y ddefod o nwaedu, ond hefyd ar yr amser o'i chyflawni: sef yn nnhwys ar yr wythfed dydd. Yn y cyfieithiadau peg a Samaritanaidd o Bùm Llyfr Moses *(Pentateuch)* ywedir fod chwanegiad yn Gen. 17. 14, fel hyn:—*Y luntyn gwrryw, yr hwn nid enwaedir ar yr wythfed ydd, a dòrir ymaith o fysg ei bobl.* † Nid *proselyt* o ith y cenedloedd oedd yr apostol, eithr Iuddew diledyw o dad a mam; a gallai olrhain ei achau yn ol yn nffaeledig hyd Abraham. ‡ Yr oedd efe o lwyth Benjamin, yr hwn a ddeilliodd o Rachel, gwraig hoff a ivisedig Jacob; ac yr hwn lwyth ni wrthgiliodd erioed di wrth addoliad Duw yn y deml, fel y gwnaethai y ithau fwyaf o'r llwythau eraill. || Yr oedd efe yn ebrëwr o'r Hebreaid: hyny yw, yn Hebrëwr pur o dad mam, ac felly yn ol o genedlaeth i genedlaeth, fel y ywyd o'r blaen. Nid Iuddew Groegaidd *(Hellenist)* ld efe, yr hwn y gellid meddwl ei fod fel y cyfryw yn ei *zêl* dros y ddeddf; eithr Hebrëwr o'r fath hyny o breaid a arferent yr Iaith Hebraeg yn eu haddoliad y synagog. § Yr oedd efe hefyd o ddygiad i fynu a roffes, yn Pharisead; y blaid fanylaf o'r holl bleidiau ddewig, yn eu cyflawniad o gyfraith Duw a thraddodau au y tadau, ac hefyd o holl ddefodau y ddeddf sereoniol. Hon oedd y blaid enwocaf hefyd am ddysgeiaeth, gwybodaeth o'r ysgrythyrau, a chyfrifiad o nceiddrwydd: ac yr oedd ei dad o'r blaid hon o'i en ef. Act. 23. 6.

6 [r] * Yn ol zêl, [s] yn erlid yr eglwys; yn ol y cyfiawnder sydd yn y ddeddf, yn iargyhoedd.

r 2 Sam. 21. 2. 2 Bren. 10. 16. Act. 21. 20. Rhuf. 10. 2. Gal. 23, 14. s Act. 8. 3. a 9. 1, &c. a 22. 3, 4. a 26. 9, 10. 1 Cor. 9. 1 Tim. 1. 13. t Mat. 5. 20. a 23. 25. Marc 10. 20, 21. 26. 5. Rhuf. 7. 9. a 9. 31, 32. a 10. 2—5.

* Ac nid pethau bychain a diwerth oedd y breintiau chod (adn. 5.) yn ei olwg ef chwaith un amser; ond oedd efe yn wresog iawn drostynt; ac mewn "zêl" wilboeth yn erlid y cristionogion gyda'r creulonedd wyaf, am fod eu hegwyddorion, eu hathrawiaeth, a'u offes hwy yn hollawl groes i'r eiddo ef: † ac yr oedd holl ymarweddiad ef yn allanol, mòr gyd-ffurfiol â rthyren y ddeddf, fel yr oedd yn gwbl ddiargyhoedd, diachwyn arno, o ran y fath hyny o gyfiawnder. O n cyfiawnder y ddeddf, y foesol a'r seremoniol, nid dd ei gydwybod ei hun yn ei gyhuddo, ac nis gallai b eraill; a thybiai ei fod yn gwneyd gwasanaeth i luw wrth erlid yr eglwys.

7 * Eithr y pethau [u] oedd elw i mi, † y rhai ynny a gyfrifais i yn golled er mwyn Crist.

u adn. 4—6, 8—10. Gen. 19. 17, 26. Job 2. 4. Diar. 13. 8. a 23. Mat. 13. 44—46. a 16. 26. Luc 14. 26, 33. a 16. 8. a 17. 31 B3. Act. 27. 18, 19, 38. Gal. 2. 15, 16. a 5. 2—5.

* Yn yr amser gynt, yr oedd Paul fel yr holl Iuddewa anianol a deddfol, yn tybied fod y pethau uchod a awyd yn elw ac yn fantais fawr iddo yn ei fater ysbryd, megys yn ddigonol i'w gyfiawnâu a'i gymmeradwyo ger bron Duw yn y nefoedd: † ond pan argyhoeddyd, y goleüwyd, ac y galwyd ef trwy ras, newidiodd ei ddwl ef yn rhyfedd iawn; gwelodd nad oedd yr holl freintiau allanol hyny ond pethau gweigion, diffygiol, hollawl ddiles i ymddiried ynddynt: ïe, gwelodd eu od yn niweidiol, ac yn golled iddo, tra yr oeddynt yn gadw ef oddi wrth Grist; a chyfrifodd hwynt felly er wyn Crist, nid yn unig pan alwyd ef gyntaf, ond felly oedd yn eu cyfrif o hyd, wedi blynyddoedd o lafur lled a dyoddefiadau mawrion yn achos Crist. *Mi a'u oriais ymaith*, fel y gwna morwyr âg eiddo a gyfrifid 'r blaen yn werthfawr, rhag iddo fod yn achos o golli ywyd iddynt yn y 'storom: felly y defnyddir y gair *mia*, colled, yn Act. 27. 21. Mae y pellder mwyaf rwng *elw* a *cholled*; a chymmaint a hyny yw y cyfnewidiad a wna gras Duw ar ddyn deddfol: *tybied* yr oedd Paul yn ei annwybodaeth, fod ei freintiau Iuddewig yn elw iddo, nid oeddynt felly mewn gwirionedd: colled oeddynt mewn gwirionedd, a daeth yntau o'r diwedd i wybod hyny, ac i wybod hefyd yn sicr, mai Crist a'i bethau oedd y gwir elw.

8 * Ië, [x] yn ddiammeu, yr wyf hefyd [y] yn cyfrif pob peth yn golled, [z] † o herwydd arderchowgrwydd gwybodaeth Crist Iesu [a] fy Arglwydd: [b] ‡ er mwyn yr hwn y'm colledwyd ym mhob peth, || ac yr wyf yn eu cyfrif yn [c] dom, fel yr [d] ynnillwyf Grist,

x Num. 14. 30. Salm 126. 6. Luc 11. 20. 1 Cor. 9. 10. 1 Ioan 2. 19. y Act. 20. 24. Rhuf. 8. 18. z adn. 10. Es. 53. 11. Jer. 9. 23, 24. Mat. 11. 25—27. a 16. 16, 17. Luc 10. 21, 22. Ioan 14. 7, 20. a 16. 3. a 17. 8. 1 Cor. 2. 2. 2 Cor. 4. 4, 6. Gal. 1. 16. Eph. 1. 17, 18. a 3. 8, 9, 18, 19. Col. 2. 2, 3. 1 Pedr 2. 7. 2 Pedr 1. 3. a 3. 18. 1 Ioan 5. 20. a Luc 1. 43. a 20. 42—44. Ioan 20. 13, 28. b Gwel ar adn. 7.—Mat. 19. 27—29. 1 Cor. 4. 9—13. 2 Cor. 11. 23—27. 2 Tim. 4. 6. c 1 Bren. 14. 10. 2 Bren. 9. 37. Job 20. 7. Mal. 2. 3. d Mat. 13. 44—46. Heb. 3. 14. 1 Ioan 1. 3.

* Ië, yn awr, wedi blynyddoedd o wybodaeth a phrofiad am ffordd yr efengyl o iachawdwriaeth trwy Iesu Grist yn unig, yr oedd yr apostol can belled o newid ei feddwl am y mater hwn, fel yr oedd o hyd yn parâu i gyfrif pob peth yn golled, nid yn unig y breintiau uchod, ond hefyd pob peth a wnaethai efe, mewn ffordd o ufudd-dod cristionogol a moesol er pan ddychwelasid ef, er bod hyny yn llawer mwy a gwell, nac a allasai yr un Iuddew deddfol ymffrostio o hóno. † Yr oedd yn cyfrif hyn oll, yn nghyd â phob mwyniant bydol, yn golled, mewn cymhariaeth i wybodaeth dra goruwchragorol Crist Iesu ei Arglwydd; fel yr unig Waredwr mawr, yr hwn yr oedd efe yn ostyngedig yn hòni hawl ynddo, ac yn ymddiried iddo fel ei Arglwydd, yn ol datguddiad grasol yr efengyl o hóno. ‡ Mewn cymhariaeth i Grist, yr oedd efe yn cyfrif pob peth yn golled ac afles; ac er mwyn Crist, yr oedd efe wedi cael ei golledu yn mhob peth; wedi ymwrthod â'r holl bethau y buasai efe yn ymddiried ynddynt, a chwedi bwrw ei hun yn bechadur noeth, tlawd, ac euog, ar Grist a'i iachawdwriaeth rad a digonol ef. Mae yn dra thebygol hefyd, fod Paul wedi cael ei *esgymuno* gan yr Iuddewon, neu o leiaf ei fod wedi cael ei yspeilio o'i feddiannau o herwydd ei grefydd: gwyddom wneyd hyny â Hebreaid crediniol eraill, llai atgas gan eu cyd-wladwyr na'r apostol. Heb. 10. 33, 34. || Ond nid oedd efe yn cyfrif y pethau hyny oll ond megys tòm, neu sothach a deflid i gwn, fel yr arwydda y gair *skubalu*, ac yr oedd yn ymadael â hwynt yn llawen, fel yr ennillai Grist y perl gwerthfawr, yr hwn yn unig a allai ei wneyd ef yn gyfoethog, yn anrhydeddus, ac yn berffaith ddedwydd byth.

9 * Ac y'm [e] cair [f] ynddo ef [g] † heb fy nghyfiawnder fy hun, [h] yr hwn *sydd* o'r gyfraith, ‡ ond yr hwn sydd trwy ffydd Crist, [i] || *sef* y cyfiawnder sydd o Dduw trwy ffydd:

e Gen. 7. 23. Deut. 19. 3, 4. Heb. 6. 18. 1 Pedr 3. 19, 20. f Gwel ar Rhuf. 8. 1. a 16. 7. 1 Cor. 1. 30. 2 Cor. 5. 17. g adn. 6. 1 Bren. 8. 46. 2 Cron. 32. 25, 31. Job 9. 28—31. a 10. 14, 15. a 15. 14—16. a 42. 5, 6. Salm 14. 3. a 19. 12. a 130. 3, 4. a 143. 2. Preg. 7. 20. Es. 6. 5. a 53. 6. a 64. 5, 6. Mat. 9. 13. Rhuf. 9. 31, 32. a 10. 1—3. 2 Tim. 1. 9. Tit. 3. 5. Iago 3. 2. 1 Ioan 1. 8—10. h Deut. 27. 26. Luc 10. 25—29. Rhuf. 3. 19, 20. a 4. 13—15. a 7. 5—13. a 8. 3. a 10. 4, 5. Gal. 3. 10—13, 21, 22. Iago 2. 9—11. 1 Ioan 3. 4. i Salm 71. 15, 16. Es. 45. 24, 25. a 46. 13. a 53. 11. Jer. 23. 6. a 33. 16. Dan. 9. 24. Ioan 16. 8—11. Rhuf. 1. 17. a 3. 21, 22. a 4. 5, 6, 13. a 5. 21. a 10. 3, 6, 10. 1 Cor. 1. 30. 2 Cor. 5. 21. Gal. 2. 16. a 3. 11. 2 Pedr 1. 1.

* Prif, unig, a mawr ddymuniad yr apostol oedd, ei gael yn Nghrist; ynddo ef mewn bywyd, yn awr angau, ac yn nydd y farn; fel y caed Noah yn yr Arch, pan ysgubodd y dylif ymaith fyd o anghredinwyr; fel y caed Lot yn Soar, pan losgwyd y Sodomiaid; ac fel y caed y llofrudd yn y Noddfa, pan fyddai y dialydd yn ymofyn am ei waed ef. Dymunai ei gael ynddo ef hefyd, mewn undeb bywiol ac ysbrydol âg ef, fel aelod o'i gorph dirgeledig ef, ac yn gynnwysedig ynddo ef gyda'r holl saint, fel Pen cyfammodol. † Fel hyny ca'i sefyll

ger bron Duw yn y farn, nid yn ei gyfiawnder personol ei hun, yr hwn ar y goreu nid oedd ond anmherffaith iawn yn ngwyneb gofynion manwl deddf Duw; ‡ ond yn y cyfiawnder sydd trwy ffydd Crist, neu gyfiawnder Crist yn gyfrifedig iddo, ac wedi ei dderbyn trwy ffydd ganddo: || y cyfiawnder sydd o drefniad a chymmeradwyaeth Duw, ac o'i gyfrifiad ef i ryddâu pechadur oddi wrth gondemniad, ac i roddi hawl iddo i fywyd tragywyddol mewn ffordd o gredu. Fel hyn mae yr apostol yn ymwrthod â phob peth ynddo ei hun, cyn cael gras, a chwedi cael gras; ac yn ymddiried yn hollol yn Nghrist a'i gyfiawnder mawr a digonol ef.

10 * Fel yr [k] adnabyddwyf ef, † a grym ei adgyfodiad ef, [l] ‡ a chymdeithas ei ddioddefiadau ef, || gan fod wedi fy nghyd-ffurfio â'i farwolaeth ef;

k Gwel ar z. adn. 8.—l Ioan 2. 3, 5. l Ioan 5. 21—29. a 10. 18. a 11. 25, 26. Act. 2. 31—38. Rhuf. 6. 4—11. a 8. 10, 11. 1 Cor. 15. 21—23. 2 Cor. 1. 10. a 4. 10—13. a 13. 4. Eph. 1. 19—21. Col. 2. 13. a 3. 1. 1 Thes. 4. 14, 15. 1 Pedr 1. 3. a 4. 1, 2. Dat. 1. 18. m Mat. 20. 23. Rhuf. 6. 3, 5. a 8. 17, 29. 2 Cor. 1. 5. Gal. 2. 20. Col. 1. 24. 2 Tim. 2. 11, 12. 1 Pedr 4. 13, 14.

* Heblaw "ennill Crist," (adn. 8.) a'i "gael ynddo ef" yn y diwedd, (adn. 9.) mae yr apostol yn hiraethu hefyd yn y cyfamser, am "adnabyddiaeth" gynnyddawl a phrofiadol o hóno ef, yn ngogoniant ei berson a'i swyddau; † ac yn effaith a "grym ei adgyfodiad ef," fel Pen y corph, yn adnewyddu ei enaid ef mewn sanctteiddrwydd, ac yn cadarnâu ei obaith gorfoleddus ef am fywyd tragywyddol, ar sail, a thrwy rinwedd yr adgyfodiad hwnw. ‡ Hiraethai hefyd am "gymdeithas ei ddioddefiadau ef;" trwy farweiddiad ei natur bechadurus, a thrwy ddyoddef gelyniaeth y byd yn amyneddgar er ei fwyn ef. || Fel hyn byddai "wedi ei gyd-ffurfio â'i farwolaeth ef;" trwy farw i bechod a byw i Dduw; ac hefyd trwy roddi ei fywyd i lawr, ïe, ei groeshoelio os byddai raid, fel y croeshoeliwyd yntau, er mwyn, ac yn ngwasanaeth ei Arglwydd a'i Iachawdwr bendigedig.

11 * Os [n] mewn un modd † y gallwn [o] gyrhaeddyd adgyfodiad y meirw:

n Salm 49. 7. Act. 27. 12. Rhuf. 11. 14. 1 Cor. 9. 22, 27. 2 Cor. 11. 3. 1 Thes. 3. 5. 2 Thes. 2. 3. o Luc 14. 14. a 20. 35, 36. Ioan 11. 24. Act. 23. 6. Heb. 11. 35.

* Amcan a dyben gwastadol yr apostol oedd, yn yr holl bethau uchod, a thrwy bob moddion o drefniad Duw, † gallu cyrhaeddyd adgyfodiad y meirw; sef y perffaith sancteiddrwydd a'r dedwyddwch a fydd i holl blant Duw yn yr adgyfodiad, pan gyfodir eu cyrph hwynt, mewn ail undeb â'u heneidiau, i fywyd tragywyddol yn y nef. Fel y bydd morwyr yn gwynebu pob ystormydd, ac yn arfer pob moddion i gyrhaedd yr hafan a ddymunent; felly yr oedd yr apostol trwy bob moddion, yn amcanu ac yn cyrchu at ystâd berffaith adgyfodiad y meirw. Nid oedd efe yn ammau am y diwedd da wrth ddywedyd "*os*" yn y fân hon; ond dangos yr oedd efe beth oedd ei amcan, yn ei ymwrthodiad â phob peth ynddo ei hun, ac yn ei waith yn dyoddef ei holl drallodion a'i brofedigaethau: ac fel hyn mae yn dysgu i ninnau, pa fodd i gyrhaedd yr un diwedd dedwydd.

12 * Nid fel pe bawn [p] wedi ei gyrhaeddyd eisoes, [q] neu fod eisoes wedi fy mherffeithio; [r] † eithr dilyn yr wyf, ‡ fel y gallwyf [s] ymaflyd *yn y peth* hwn hefyd yr [t] ymaflwyd ynof gan Grist Iesu.

p adn. 13, 16. Salm 119. 5, 173—176. Rhuf. 7. 19—24. Gal. 5. 17. Iago 3. 2. q Job 17. 9. Salm 138. 8. Diar. 4. 18. 1 Cor. 13. 10. 2 Cor. 7. 1. a 13. 9. Eph. 4. 12. Heb. 12. 23. a 13. 21. 1 Pedr 5. 10. 2 Pedr 1. 5—8. a 3. 18. r adn. 14. Salm 42. 1. a 63. 1—3, 8. a 84. 2. a 94. 15. Es. 51. 1. Hos. 6. 3. 1 Thes. 5. 15. 1 Tim. 5. 10. a 6. 11. Heb. 12. 14. 1 Pedr 3. 11—13. s adn. 14. 1 Tim. 6. 12. t Salm 110. 2, 3. Act. 9. 3—6, 15. Eph. 1. 4. 2 Thes. 2. 13.

* Rhag i neb ddywedyd fod Paul yn ymffrostio ei fod eisoes wedi cyrhaeddyd perffeithrwydd, mae efe yn addef nad oedd eto wedi cyrhaeddyd y cyfryw ystâd ddedwydd: † ond yr oedd efe yn dilyn ar ei yrfa, ac yn ymgeisio at hyny â'i holl egni, a thrwy bob moddion, fel y rhai a redent mewn gyrfêydd, ac a ymdrechent mewn campiau eraill, yn mhlith y Groegiaid gynt. ‡ Fel y gallai gymmeryd gafael yn y bywyd tragywyddol, i'r dyben o gael pa un yr ymafaelwyd ynddo ef ar y cyntaf gan Grist Iesu yn ei allu a'i ras, y cipiwyd ef fe pentewyn o'r tân; ac y cymmerodd Iesu feddiant o hóno i'w achub ef byth bythoedd. *Yr ymaflwyd ynof* dywed *Pool* fod yma gyfeiriad at y rhai a redent mewn gyrfa gynt, un yn ymaflwyd yn y llall i'w dynu ar ei ol i ennill y gamp yn gystal âg ef ei hun.

13 * *Y* brodyr, [u] nid wyf fi yn bwrw ddarfod i mi gael gafael: † ond [x] un peth, ‡ gan [y] anghofio y pethau sydd o'r tu cefn, [z] || ac ymestyn at y pethau o'r tu blaen,

u adn. 8, 12. pen. 1. 18—21. a 4. 11—13. x Salm 27. 4 Luc 10. 42. 2 Pedr 3. 8. y Salm 45. 10. 2 Cor. 5. 16. Heb. 6. 1 z pen. 2. 12. Rhuf. 15. 23—29. 1 Cor. 9. 24—27. Heb. 12. 1, 2.

* Beth bynag oedd eraill yn mhlith y gau-athrawon Iuddewaidd yn ymffrostio o hóno, mae yr apostol yn addef yn rhydd i'w frodyr yr ail waith, nad oedd efe ddim yn bwrw ei fod eto wedi cyrhaedd, a chael gafael yn y 'stâd o berffaith sancteiddrwydd, mwy na'r ystâd o berffaith ddedwyddwch. Os nad oedd Paul wedi cyrhaedd hyn, ofer i neb crefyddwyr yn ein dyddiau ni freuddwydio a thaeru, fod perffeithrwydd dibechod yr gyrhaeddadwy yn y bywyd hwn. † Ond yr oedd "un peth," neu yr un peth hwnw o berffeithrwydd, yn ei olwg ef o hyd, fel y cyrch-nod yn ngolwg y rhedegwyr gynt; ‡ ac yn ei holl yrfa yr oedd fel hwythau yr anghofio, neu yn troi ei gefn ar y pethau y buasai yr ymddiried ynddynt gynt, || ac yr oedd yn ymestyn â'i holl egni at y pethau o'r tu blaen, y sancteiddrwydd a'i dedwyddwch yr oedd efe eto heb eu cyrhaeddyd. Mae yn ddiammau bod yr apostol yn cyfrif ei sancteiddrwydd a'i ddyledswyddau cristionogol wedi cael gras, yn mhlith y "pethau o'r tu cefn," yn gystal a'r pethau oedd ganddo cyn cael gras; ac yn ymestyn at ychwaneg o berffeithrwydd yn y pethau hyny nag oedd efe erioed eto wedi gyrhaeddyd.

14 * Yr ydwyf yn [a] cyrchu at y nôd, † am gamp [b] uchel alwedigaeth Duw yng Nghrist Iesu.

a Luc 16. 16. 2 Cor. 4. 17, 18. a 5. 1. 2 Tim. 4. 8. Dat. 3. 21 b Rhuf. 8. 28—30. a 9. 23, 24. 1 Thes. 2. 12. 2 Thes. 2. 13, 14 Heb. 3. 1. 1 Pedr 1. 3, 4, 13. a 5. 10. 2 Pedr 1. 3.

* Nid oedd efe yn edrych o'i ol, nac yn ddiog yn e yrfa; ond yn cyrchu at y nod â llygad diysgog, ac â rhediad cywir, dyfal, ac ymdrechgar: † a'r nod yn e olwg oedd, camp uchel alwedigaeth Duw yn Nghris Iesu; sef y dedwyddwch a'r gogoniant oedd yn ei aro yn y nefoedd. Gall y geiriau *yn Nghrist Iesu* fod y perthyn i'r *gamp*, neu i *uchel alwedigaeth Duw*, yr un ŷ fyner, neu yn wir i bob un: yn Nghrist Iesu mae *gamp* i'w chael, ac yn Nghrist Iesu mae yr *uchel alwedigaeth* i'r gamp hefyd. Mae yma o hyd gyfeiriad pryd ferth iawn at y campiau Olympaidd gynt, yn enwedig a y rhedegwyr traed, y rhan enwocaf o'r campiau hyny lle byddai y goron wobrwyol yn cael ei rhoddi mewn lle amlwg ar ben yr yrfa, fel y bywiocêid yr ymdrechwyr wrth ei bod o hyd yn eu golwg. Tybia rhai y bydda rhai gwobrwyon mwy ardderchog na'u gilydd, i'r rhedegwyr goreu; a bod Paul yma am fod yn gristion o'fath ardderchocaf, ac fel hyny ennill y gamp uwchaf *Uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu:* tybir fod yr hyn gyfeiriad at y rhai a safent ar le uchel ar ben y yrfa, ac a alwent y rhedegwyr wrth eu henwau, gan e hannog hwynt i redeg yn egnïol trwy *ddangos y goro* iddynt. Tybia eraill mai cyfeiriad sydd yma at *cyhoeddiad* a wnaid cyn dechreu yr ymdrech, yn gwa hodd dynion i ddyfod i redeg am y fath a'r fath wobr wyon: mae pob un o'r ddau yn ateb yn burion i'r cyhoeddiad cyffredinol a wnair yn yr efengyl, am y gamp a'r gwobrwy nefol

15 [c] * Cynnifer gan hynny ag ydym berfaith, [d] † synniwn hyn: ‡ ac os ydych yn synied dim yn amgenach, [e] ‖ hyn hefyd a ddatguddia Duw i chwi.

c Rhuf. 15. 1. 1 Cor. 2. 6. a 14. 20. Col. 1. 28. a 4. 12. 2 Tim. 2. 17. Heb. 5. 14. Iago 1. 4. 1 Ioan 2. 5. d adn. 12—14. Gal. 5. 10. e Salm 25. 8, 9. Diar. 2. 3—6. a 3. 5, 6. Es. 35. 8. Luc 11. 13. Ioan 7. 17. Iago 1. 5.

* Cynnifer ag oedd a'r gwaith da wedi ei ddechreuaddynt, (pen. 1. 6.) ac felly yn berffaith mewn egwyddor, ac mewn cymhariaeth i eraill yn eu cyflwr ysbiriol. Nid oedd yr apostol ei hun yn berffaith yn ystyr fanylaf y gair; (adn. 12.) a diammau nad oedd rhai o'r Philippiaid wedi cyrhaedd mwy o berffeithrwydd nac ef: felly rhaid i ni ddeall am berffeithrwydd ymadrewn ystyr gyfaddasawl, neu gymhariaethol; enw yw o roddir ar y saint, i'w gwahaniaethu oddi wrth bechaduriaid diadgenedledig. "Syniwn hyn;" na thâl ein cyfiawnderau ni ein hunain ddim ger bron Duw; y dylem ymwrthod â phob peth o'n heiddo ein hunain ac ôl tòm a cholled; mai adnabod Crist, ei ennill ef, a'n cael ynddo ef a'i gyfiawnder, yw yr unig ffordd i'n achub ni; a syniwn nad yw cyrhaeddiadau presenol y goreu o honom ond isel a bychain iawn; a syniwn i ymnestyn at y pethau o'r tu blaen â'n holl egni, nes cyrhaedd y gamp uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu: syniwn, neu gyd-syniwn â'r holl bethau a ddywedwyd yn yr adnodau blaenorol, mai gwirioneddau Duw ydynt. ‡ "Synied yn amgenach:" nid synied yn well, ond synied yn wahanol i'r hyn a ddywedasai yr apostol: os oedd rhai o honynt yn synied yn wahanol iddo ef am barâd a rhwymau y ddeddf seremoniol, medd rhai, fe datguddiai Duw hyn hefyd iddynt, a hyny cyn llawer o amser, pan ddinystrid y deml a'r wladwriaeth Iuddewig. Neu os oedd rhai o honynt yn gam-syniol mewn rhyw bethau bychain, ond yn iawn synied am bethau eraill, yn anfodol crefydd; datguddiai Duw y pethau eraill hefyd iddynt, fel y byddent yn cynnyddu mewn goleuni a phob peth crefyddol. Fel hyn byddai i'r hwn a ddechreuasai y gwaith da ynddynt, ei orphen, hyd ddydd Iesu Grist.

16 * Er hynny [f] y peth y daethom atto, † cerddwn wrth yr un rheol, [h] ‡ synniwn yr un peth.

f Gal. 5. 7. Heb. 10. 38, 39. 2 Pedr 2. 10—20. Dat. 2. 4, 5. a 3. 3. g Gal. 6. 16. Eph. 5. 2—8. Col. 2. 6. h Gwel ar pen. 27. a 2. 2.—a 4. 2.

* Er hyny, neu ar yr un pryd, dylai pob un o honynt yn ôl yn dra gofalus na wyrent oddi wrth y mesur o ddeall, ffydd, diwydrwydd, dianwadalwch, a sancteiddrwydd, ag oeddynt wedi gyrhaedd; † ond trwy rodio wrth yr un rhëol o wirionedd dwyfol ac anffaeledig, a synied yr un peth yn ol y rhëol gywir hòno, ac arfer y moddion er cynnyddu a arferasent hyd yn hyn; bod iddynt ddàl y tir a ennillasent, a myned rhagddynt yn ychellach: a gofalu yn enwedig rhag llaesu ac oeri mewn un ran o grefydd, trwy fyned yn *zelog* iawn gyda rhyw ran arall.

17 * Byddwch [i] ddilynwyr i mi, frodyr, † ac edrychwch ar y rhai sydd yn rhodio felly, megis yr ydym ni yn siampl i chwi.

i pen. 4. 9. 1 Cor. 4. 16. a 10. 32, 33. a 11. 1. 1 Thes. 1. 6. a 2. 10—14. 2 Thes. 3. 7, 9. 1 Tim. 4. 12. Heb. 13. 7. 1 Pedr 5. 3. Salm 37. 37. Rhuf. 16. 17. 2 Thes. 3. 14.

* Mewn llawn sicrwydd ei fod ef ei hun yn gweithredu yn addas, ac yn arddangos esampl dra addysgiadol yn ei ymddygiad a grybwyllodd uchod, mae yr apostol yn galw ar ei blant yn Philippi i gyd-ymuno â'u dilynydd i'w ddilyn ef, ac i ymdebygu iddo. † Ac yn ei ddoethineb a'i wylder arferol, ac i ragflaenu pob ymddangosiad o rodres a hunan, mae efe yn crybwyll eraill hefyd, megys Timothëus, Silas, &c., fel esamplau iddynt, gydag ef ei hun. Dynion oedd y rhai hyn wedi cael eu goleuo a'u dysgu yn ysbrydol, yn egwyddorion ffengylaidd y Testament Newydd; dynion a meddwl Crist ganddynt, ac yn canlyn Crist; a'r rhai hyn oedd oreu i'r Philippiaid eu canlyn, ac nid y gau-athrawon cyfeiliornus a sonir yn yr adnod nesaf.

18 * (Canys y mae [l] llawer yn rhodio, [m] † am y rhai y dywedais i chwi yn fynych, ac yr ydwyf yr awrhon hefyd [n] dan wylo yn dywedyd, ‡ *mai* [o] gelynion croes Crist *ydynt;*

l Es. 8. 11. Dan. 4. 37. Gal. 2. 14. Eph. 4. 17. 2 Thes. 3. 11. 2 Pedr 2. 10. Judas 13. m 1 Cor. 6. 9. Gal. 5. 21. Eph. 5. 5, 6. 1 Thes. 4. 6. n pen. 1. 4. Salm 119. 136. Jer. 9. 1. a 13. 17. Luc 19. 41. Act. 20. 19, 30, 31. Rhuf. 9. 2. 2 Cor. 2. 4. a 11. 29. o pen. 1. 15, 16. 1 Cor. 1. 18. Gal. 1. 7. a 6. 12.

* Yr oedd y cyngor uchod yn adn. 17, yn fwy angenrheidiol o herwydd bod llawer o gau-athrawon Iuddewaidd yn rhodio ac yn cynniwair ar hyd yr eglwysi, y rhai oedd yn llygru y cristionogion ieuainc, ac yn eu gwyro oddi wrth ffydd yr efengyl i gyfeiliornadau ac ymrysonau yn nghylch yr enwaediad a seremoniau eraill y ddeddf. † Yr oedd y rhai hyn yn blino ysbryd yr apostol hyd at ddagrau, ac fel gwyliedydd ffyddlawn ar furiau Sion, yr oedd wedi rhybuddio y Philippiaid rhagddynt o'r blaen, ac yn eu rhybuddio eto dàn wylo. ‡ Efe a wyddai mai gelynion i athrawiaeth croes Crist oeddynt yn y gwraidd, pa beth bynag oeddynt yn broffesu i'r gwrthwyneb; nid oeddynt yn caru athrawiaeth y groes, nac yn ymddiried yn Nghrist yn unig am gyfiawnder, ond yn chwanegu yr enwaediad a chyflawniadau deddfol at yr efengyl, fel pethau angenrheidiol i iachawdwriaeth, ac i'r dyben o ddianc rhag gwarth ac erlid yr Iuddewon, a chael porthi y cnawd yn lle ei groeshoelio, mewn cyd-ffurfiad â chroeshoeliad Crist. Ni fynent godi y groes a'i lwyr ganlyn ef.

19 [p] * Diwedd y rhai *yw* distryw, [q] † duw y rhai *yw eu* bol, [r] ‡ a'u gogoniant yn eu cywilydd, [s] ‖ y rhai sydd yn synied pethau daearol)

p Mat. 25. 41. Luc 12. 45, 46. 2 Cor. 11. 15. 2 Thes. 2. 8, 12. Heb. 6. 6—8. 2 Pedr 2. 1, 3, 17. Judas 4. 13. Dat. 19. 20. a 20. 9, 10. a 21. 8. a 22. 15. q pen. 2. 21. 1 Sam. 2. 11—16, 29. Es. 56. 10—12. Ezec. 13. 19. a 34. 3. Mica 3. 5, 11. Mal. 1. 12. Luc 12. 19. a 16. 19. Rhuf. 16. 18. 1 Tim. 6. 5. 2 Tim. 3. 4. Tit. 1. 12. 2 Pedr 2. 13. Judas 12. r Salm 52. 1. Hos. 4. 7. Hab. 2. 15, 16. Luc 18. 4. 1 Cor. 5. 2, 6. 2 Cor. 11. 12. Iago 4. 16. 2 Pedr 2. 18, 19. Judas 13, 16. Dat. 18. 7. s Salm 4. 6, 7. a 17. 14. Mat. 16. 23. Rhuf. 8. 6, 7. 1 Cor. 3. 3. 2 Pedr 2. 3.

* Fel yr oedd eu hegwyddorion a'u bucheddau yn arwydd sicr iddynt o golledigaeth, felly y byddai yn y diwedd; pan ddelo Duw i ddirwyn i fynu bob peth, bydd eu diwedd hwynt yn ol eu gweithredoedd, a dystryw byth a fydd hyny: hwy a geisiasant ddystrywio achos Crist, a dystrywio eneidiau ei ganlynwyr ef, ac wrth hyny tynasant ddystryw arnynt eu hunain. † Eu bòl oedd eu duw hwynt yr amser goreu; bwyta ac yfed, a phorthi a choledd eu blysiau corphorol, oedd y prif ddaioni yr oeddynt hwy yn ymgais am dano yn eu holl brysurwch; i'r eilun ffiaidd hwn, hwy a aberthent yr achos goreu a mwyaf pwysig; ac oddi wrth hyn yr oeddynt yn dysgwyl eu dedwyddwch, yn lle ei ymofyn oddi wrth yr Arglwydd. ‡ Dylasai fod arnynt gywilydd o hyn, fel dynion rhesymol chwaithach fel athrawon crefydd; ond yn lle hyny yr oeddynt hwy yn ymogoneddu ac yn ymffrostio yn gyhoeddus yn y cyfryw ymddygiad gwael ac anifeilaidd, yr hyn oedd yn fwy o warth a niwed i grefydd nac a allasai ei holl elynion eraill wneyd iddi. Cywilyddied a chryned *Antinomiaid* cnawdol yn wyneb y geiriau hyn. ‖ Y rhai nid oes ganddynt archwaeth at ddim ond pethau daearol a chnawdol.

20 [t] * Canys ein [u] hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd; [x] † o'r lle hefyd yr ydym [y] yn disgwyl yr Iachawdwr, yr Arglwydd Iesu Grist:

t pen. 1. 18—21. Salm 16. 11. a 17. 15. a 73. 24—26. Diar. 15. 24. Mat. 6. 19—21. a 19. 21. Luc 12. 21, 32—34. a 14. 14. 2 Cor. 4. 18. a 5. 1, 8. Eph. 2. 6. Col. 1. 5. a 3. 1—3. Heb. 10. 34, 35. 1 Pedr 1. 3, 4. u Es. 26. 1, 2. Gal. 4. 26. Eph. 2. 19. Heb. 12. 22. Dat. 21. 10—27. x Act. 1. 11. 1 Thes. 4. 16. 2 Thes. 1. 7,

8. Dat. 1. 7. y pen. 1. 10. 1 Cor. 1. 7. 1 Thes. 1. 10. 2 Tim. 4. 8. Tit. 2. 13. Heb. 9. 28. 2 Pedr 3. 12—14.

Mae yr adnod hon i'w darllen mewn cyssylltiad âg adn. 17, ac yn rheswm paham y dylasai y Philippiaid ddilyn esampl Paul a'i frodyr; canys eu hymarweddiad hwy oedd yn y nefoedd. Heblaw hyny hefyd, maent yn dangos y rhagoriaeth mawr oedd rhyngddynt hwy â'r gau-athrawon (adn. 18, 19;) gwasanaethu eu bòl, ymgoneddu yn eu cywilydd, a synied pethau daearol, yr oedd y rhai hyny; ond yr oeddynt hwy a'u hymarweddiad yn y nefoedd. * *Politeuma*, "ymarweddiad:" Priodol ystyr y gair yw *dinasyddiaeth*, neu freintiau ac ymarweddiad cyfatebol dinasyddion. Dinasyddion y nef yw gwir gristionogion; yno mae eu trysor yn nghadw, ac oddi yno mae eu gobaith a'u cysuron yn deilliaw; felly rhaid bod eu barn, eu serchiadau, a'u holl ymarweddiad yn nefol, yn ysbrydol, ac yn sanctaidd. † Oddi yno hefyd maent yn dysgwyl ac yn hiraethu am yr Iachawdwr, yr Arglwydd Iesu Grist, i'w barnu, eu llwyr waredu, a'u cymmeryd byth ato ei hun yn ol ei addewid, (Ioan 14. 3,) ac maent yn wastad yn ymbarotôi i gyfarfod âg ef.

21 * Yr [z] hwn a gyfnewidia ein corph gwael ni, [a] † fel y gwneler ni yr un ffurf â'i gorph gogoneddus ef, ‡ yn ol [b] y nerthol weithrediad ‖ trwy yr hwn y dichon efe, ïe, ddarostwng pob peth iddo ei hun.

z 1 Cor. 15. 42—44, 49—54. a Mat. 17. 2. Col. 3. 4. 1 Ioan 3. 2. Dat. 1. 13, &c. b Es. 25. 8. a 26. 19. Hos. 13. 14. Mat. 22. 29. a 28. 18. Ioan 5. 25—29. a 11. 24—26. 1 Cor. 15. 25, 26, 53—56. Eph. 1. 19, 20. Dat. 1. 8, 18. a 20. 11—15.

* Yn lle coledd blysiau anifeilaidd cnawdol, a gwneyd duw o'u bòl, (adn. 19;) maent yn ystyried y corph ei hun yn bresenol yn "gorph gwael," yn gorph o ddarostyngiad; am ei fod yn llawn o flysiau maglus, yn offeryn pechodau, yn rhwystr gorlwythawl i'r enaid mewn dyledswyddau, yn ddarostyngedig i lawer o glefydau ffiaidd, a chwedi ei ddyfarnu i ddychwelyd i lygriad a llwch yn y bedd. Corph gwael, neu ddarostyngawl, (yn ol ystyr y gair Groeg,) yw yn awr, mewn cymhariaeth i'r hyn ydoedd corph Adda cyn y cwymp, ac mewn cymhariaeth hefyd i'r hyn a fydd cyrph y saint yn yr adgyfodiad, pan gyfnewidir hwynt gan yr Iachawdwr, yr Arglwydd Iesu Grist. † Yna gwnair cyfnewidiad mawr ar gorph yr holl saint; byddant yr un ffurf â chorph gogoneddus Iesu; yn brydferth, yn hardd, yn ddysglaer, yn anfarwol, ac yn ysbrydol: ac fel hyn wedi eu darpar i ddàl a mwynâu tragywyddol bwys gogoniant, mewn cyrph ac eneidiau, yn y nefoedd gydag ef. Nid yr *un gradd*, yn berffaith, a feddylir wrth yr *un ffurf*, yn y fàn hon; eithr *cyffelybrwydd* i'w gorph gogoneddus ef: rhaid y bydd y flaenoriaeth iddo ef yn hyny fel yn mhob peth arall. ‡ Hyn a wnâ yr Iachawdwr, yr Arglwydd Iesu Grist, yn ol ei weithrediad nerthol a hollalluog ei hun; yr hyn nis gall fod yn llai na dwyfol, ac yn ei brofi yntau yn Dduw anfeidrol: ‖ a thrwy y nerthol weithrediad hyn, efe a ddichon, ac a wna yn sicr, orchfygu pob rhwystrau, darostwng pob gwrthwynebiadau, llwyr waredu ei bobl o'u beddau, a dinystrio eu gelyn diweddaf, yr hwn yw angau. Os *cyfnewid* ein cyrph a wnair, amlwg yw mai yr *un* cyrph a fyddant; ac nid cyrph *eraill:* ac mae y cyferbyniad rhwng y "cyrph *gwael*" presenol, â'i gorph *gogoneddus* ef, i ffurf yr hwn y cyfnewidir hwynt, yn beth nodedig iawn; a syndod fydd gweled y cyfnewidiad hwnw!

PEN. IV.

Rhybuddion neilldiol, &c.

[a] * AM hynny, † fy mrodyr anwyl a [b] hoff, [c] ‡ fy llawenydd a'm coron, [d] ‖ felly sefwch yn yr Arglwydd, anwylyd.

a pen. 3. 20, 21. 2 Pedr 3. 11—14. b Gwel ar pen. 1. 8. a 2. 26. c pen. 2. 16. 2 Cor. 1. 14. 1 Thes. 2. 19, 20. a 3. 9.

d pen. 1. 27. Salm 27. 14. a 125. 1. Mat. 10. 22. Ioan 8. 31. a 15. 3, 4. Act. 2. 42. a 11. 23. a 14. 22. Rhuf. 2. 7. 1 Cor. 15. 58. a 16. 13. Gal. 5. 1. Eph. 6. 10—18. Col. 4. 12. 1 Thes. 3. 8, 13. 2 Thes. 2. 15. 2 Tim. 2. 1. Heb. 3. 14. a 4. 14. a 10. 23, 35, 36. 2 Pedr 3. 17. Judas 20, 21, 24, 25. Dat. 3. 10, 11.

Mae yr adnod hon yn amlwg yn perthyn i'r hyn a drinwyd yn niwedd y bennod o'r blaen; ac nid oes dim mwy o achos ei gwneyd yn ddechreuad pennod newydd na phe buasai yn dadgyssylltu yr adnod olaf o'r 1 Cor. 15, yr hon sydd o ran synwyr yn hollawl yr un fath a'r adnod hon, yn gyngor ar ol trin am yr adgyfodiad. * Gan fod i'r Philippiaid y fath obaith cryf a chysurus, a'r fath Gyfaill cadarn, ffyddlawn, a grasol, i ofalu am danynt hyd y diwedd, ac am eu cyrph yn y diwedd; bydded iddynt sefyll yn gadarn mewn ffydd ac ufudd-dod, yn nghanol gelynion a phrofedigaethau, megys y safasent hyd yn hyn, ac fel y cyngorasid eisoes iddynt wneyd. † Mae yr adnod hon yn nodedig am y crug o eiriau mae yr apostol yn bentyru ar eu gilydd, i ddangos ei gariad at y Philippiaid, megys ei frodyr, neu yn hytrach ei blant, anwyl a hoff, y rhai y cârai gymdeithasu â hwy, a bod o wasanaeth chwanegol iddynt. ‡ Cyfrifai hwy yn llawenydd a choron iddo yn ei holl drallodau a'i waradwydd; a dysgwyliai y byddent felly iddo yn nydd yr Arglwydd Iesu. ‖ Sefyll yn yr Arglwydd yw sefyll mewn ffydd ynddo, mewn proffes o hóno, a sefyll yn ei nerth a'i gadernid ef. Nid oes dim sefyll iawn mewn crefydd, heb sefyll yn yr Arglwydd. Gwel dàn *.

2 * Yr ydwyf yn attolwg i Euodias, ac yn attolwg i Syntyche, [e] † synied yr un peth yn yr Arglwydd.

e pen. 2. 2, 3. Gen. 45. 24. Salm 133. Marc 9. 50. Rhuf. 12. 16—18. 1 Cor. 1. 10. Eph. 4. 1—8. 1 Thes. 5. 13. Heb. 12. 14. Iago 3. 17, 18. 1 Pedr 3. 8—11.

* Tybir yn gyffredin mai dwy wraig grefyddol ac enwog oedd Euodias a Syntyche, yn yr eglwys yn Philippi, y rhai oedd y pryd hwn wedi syrthio allan â'u gilydd o herwydd rhyw achos. † Gan fod ymrafael felly yn warth i grefydd, ac yn rhwystr i'w defnyddioldeb hwythau, mae yr apostol yn attolwg ar y ddwy, heb ochri dim i'r naill mwy na'r llall, i synied yr un peth, i roi terfyn heddychol ar eu hymrafael, a bod o'r un meddwl yn yr Arglwydd. Mae ymrafaelion gwragedd weithiau, yn enwedig gwragedd go fawr, wedi bod yn warth a niwed mawr i eglwysi y saint: bydded y gwragedd yn heddychol.

3 * Ac [f] yr ydwyf yn dymuno arnat tithau, [g] fy ngwir gymmar, [h] † cymmorth y gwragedd hynny ‡ y rhai yn yr efengyl a gyd-lafuriasant â mi, ‖ ynghyd â Chlement hefyd, a'm cyd-weithwyr eraill, [i] § y rhai *y mae* eu henwau yn llyfr y bywyd.

f adn. 2. Rhuf. 12. 1. Philemon 8, 9. g Gwel ar pen. 2. 20—25.—Col. 1. 7. h Act. 9. 36—41. a 16. 14—18. Rhuf. 16. 2—4, 9, 12. 1 Tim. 5. 9, 10. i Ex. 32. 32. Salm 69. 28. Es. 4. 3. Ezec. 13. 9. Dan. 12. 1. Luc 10. 20. Dat. 3. 5. a 13. 8. a 17. 8. a 20. 12, 15. a 21. 27.

* Gwyddai y Philippiaid yn dda pwy oedd y "gwir gymhar" hwn heb i'r apostol roddi yr un enw arall arno; ond mae yn anhawdd yn bresenol i ni wybod pwy ydoedd. Tybia rhai mai gŵr neu frawd i un o'r gwragedd uchod oedd; tybia eraill mai rhyw weinidog enwog yn Philippi ydoedd; eraill mai rhyw gyfaill a chyd-lafurwr a'r apostol oedd, yr hwn oedd yn Philippi y pryd hwnw; a thybia eraill mai gwraig Paul mewn gwirionedd ydoedd: ond nid oes yr un sail i feddwl ei fod ef yn briod y pryd hwn nac un amser yn ei oes. *Cyfieuydd*, efallai, fyddai y gair goreu am *syzyge*, a gyfieithir yma "cymhar;" un yn tynu yn yr un iau weinidogaethol; a dywedir mai gair yn y rhyw wrryw-aidd ydyw. † Pwy bynag oedd y person, mae yr apostol yn attolwg iddo arfer pob moddion i heddychu y gwragedd hyny; eu "cymhorth" i benderfynu eu hymrafael yn dangnefeddus ac mewn cariad. ‡ Yr oeddynt wedi bod yn cyd-lafurio â'r apostol yn yr efengyl: nid

y weinidogaeth gyhoeddus yn sicr; mae efe yn
ahardd hyny i'r gwragedd mewn epistolau eraill;
i yr oedd ganddynt lawer ffordd i gyd-lafurio âg ef
blaw hyny, trwy ymweled â'r cleifion, cynnorthwyo y
dion, cyngori eu chwiorydd yn bersonol, addysgu eu
ant a'u gwasanaethyddion, ac hysbysu iddo ef am
wedd crefydd yn mhlith eu cydnabod benywaidd.
ll ein gwragedd a'n chwiorydd wneyd llawer yn achos
yfydd os bydd ganddynt galon ac ewyllys i hyny.
wy oedd y Clement hwn nis gwyddom, ac nid yw o
sys ei wybod: un o gyd-weithwyr Paul ydoedd, ac yr
dd y gwragedd uchod wedi bod yn gynnorthwyol
do yntau hefyd, yn gystal ag i'r apostol a'i gyd-
ithwyr eraill. § Mynych y dywedir fod enwau dyn-
da wedi eu hysgrifenu yn y nefoedd, ac yn llyfr y
wyd; a naturiol oedd i'r apostol feddwl mewn barn
iad, fod y rhai hyn felly, pa un bynag a oedd yn
ybod hyn trwy *ddatguddiad* ai peidio.

4 k * Llawenhêwch yn yr Arglwydd [1] yn
astadol: m † *a* thrachefn meddaf, Llawen-
wch.

k Gwel ar b. pen. 3. 1. 1 Salm 34. 1, 2. a 145. 1, 2. a 146. l Mat. 5. 12. Act. 5. 41. a 16. 25. Rhuf. 5. 2 3. 1 Thes. 5. 16—18. Ioro 1. 2—4. 1 Pedr 4. 13. m pen. 3. 1. 2 Cor. 13. 1, 2. Gal. 4, 9.

* Gwedi eu cyngori oll i *sefyll* yn yr Arglwydd, a
wied yr un peth yn yr Arglwydd, mae yr apostol yma
eu hannog i *lawenâu* yn yr Arglwydd. Yn nghanol
holl drallodau, eu profedigaethau, a'u peryglon,
di fewn ac oddi allan, yr oedd ganddynt hawl ac
hos i lawenâu yn wastadol yn yr Arglwydd; ac wrth
tyried y breintiau a'r bendithion oedd ganddynt
ewn llaw ac mewn gobaith, eu dyledswydd a'u braint
dd llawenâu a gorfoleddu yn yr Arglwydd Iesu, fel
Pen a Duw eu hiachawdwriaeth. † Rhag y tyb-
nt mai cyngor dibwys oedd hwn, neu yn cael ei
ddi heb ystyried eu trallodau hwynt; mae efe dra-
efn yn dywedyd wrthynt am lawenâu: oblegid efe a
yddai, os byddent hwy byw yn gyfatebol i'w breintiau,
rhodio yn addas i'w galwedigaeth uchel, na byddent
wy byth heb achos llawenydd, ac y caent hwy yn gy-
edin eu galluogi i lawenâu. Nid tristwch, ofnau, a
aruddni yw crefydd i gyd; mae ynddi dangnefedd,
rioldeb, a llawenydd yn yr Ysbryd Glân hefyd: a
echreu bod yn llawen yw hi yma ar y goreu; mae lla-
enydd tragywyddol ac annhraethadwy yn ol i bobl
dduw.

5 * Bydded [n] eich arafwch yn hysbys i bob
yn. [o] † *Y mae* yr Arglwydd yn agos.

n Mat. 5. 39—42. a 6. 25, 34. Luc 6. 29—35. a 12. 22—30. a
34. 1 Cor. 6. 7. a 7. 29—31. a 8. 13. Tit. 3. 2. Heb. 13. 5, 6.
Pedr 1. 11. o Mat. 24. 48—50. 1 Thes. 5. 2—4. 2 Thes. 2. 2.
eb. 10. 25. Iago 5. 8, 9. 1 Pedr 4. 7. 2 Pedr 3. 8—14.

* "Bydded eich *cymmedrolder* yn hysbys," yn ol y
aesoneg: efallai bod y gair *epieikes* yn arwyddo pob
n; ysbryd, tymher, ac ymddygiad addfwyn, hynaws,
raf, a chymmedrol yn mhob peth, a thuag at bawb,
yd yn nôd tuag at eu herlidwyr; yn nghyd âg ysbryd
iawydd gormodol am bethau y byd hwn, ar yr hyn y
ydd dynion y byd yn gwylltio, yn ymryson, ac yn colli
bob arafwch a chymmedrolder. † Mae yr Arglwydd
esu yn agos, i sylwi ar eich ymddygiad ac i gymmeryd
ich plaid; efe a ddaw yn fuan i ddïal ar eich gelyn-
on, ac i farnu y ddaear; am hyny bydded eich arafwch
n hysbys i bawb, er anrhydedd i'r efengyl, er cywilydd
ich gelynion, ac er dangos eich bod yn gadael eich
oll achos i'r hwn a farna yn gyfiawn.

6 p * Na ofelwch am ddim: † eithr [q] ym
nhob peth mewn gweddi ac ymbil ‡ gyd â
diolchgarwch, gwneler eich deisyfiadau chwi
m [s] hysbys ger bron Duw.

p Dan. 3. 16. Mat. 6. 25—23. a 10. 19. a 13. 22. Luc 10. 41.
12. 29. 1 Cor. 7. 21, 32. 1 Pedr 5. 7. q Gen. 32. 7—12. 1 Sam.
15. a 30. 6. 2 Cron 32. 20. a 33. 12, 13. Salm 34. 5—7. a 51. 15.
55. 17, 22. a 62. 8. Diar. 3. 5, 6. a 16. 3. Jer. 33. 3. Mat. 7. 7, 8.
Luc 18. 1, 7. Eph. 6. 18. Col. 4. 2. 1 Thes. 5. 17, 18. 1 Pedr 4. 7.
Judas 20, 21. r 1 Sam. 7. 12. 2 Cor. 1. 11. Eph. 5. 20. Col. 3. 15, 17. s Diar. 15. 8. Can. 2. 14. Mat. 6. 8.

* Pa beth bynag a gymmerid oddi arnynt, neu a
fyddai yn angen iddynt; pa beth bynag a'u trallodai ac
a'u digalonai, yn eu hachos eu hunain neu yn achos
eu brodyr; dylent wylied rhag gofalu yn ormodol, yn
afreidiol, ac yn anghrediniol, a thrallodi eu hunain
fwy na mwy am bethau y byd hwn. Gwel ar Matth. 6.
25; Luc. 12. 22—34. † Pa bryd bynag y dygwyddai
unrhyw beth gofidus iddynt hwy eu hunain, eu teulu-
oedd, neu i'r eglwys; yn lle gofalu yn bryderus ac
ofnus, y ffordd oreu oedd gwneyd eu deisyfiadau yn
hysbys ger bron Duw eu Tad nefol, mewn gweddïau
ffyddiog, ac mewn ymbiliau taerion, ‡ gyda diolchgar-
wch hefyd am na buasai yn waeth, ac am y trugaredd-
au a dderbyniasent eisoes. Tybia rhai mai deisyfiad
am *ymborth* yw *gweddi* yn y fàn hon, ac mai erfyniad
yn erbyn *drwg* yw *ymbil:* efallai mai manylu yn rhŷ
gywrain ar y geiriau yw hyny; ac efallai mai y cwbl o
wahaniaeth rhwng y ddau air yw, bod yr olaf yn ar-
wyddo mwy o daerineb na'r cyntaf.

7 t * A thangnefedd Duw, [u] † yr hwn sydd
uwch law pob deall, [x] ‡ a geidw eich calonau
a'ch meddyliau [y] yng Nghrist Iesu.

t pen. 1. 2. Num. 6. 26. Job 22. 21. a 34. 29. Salm 29. 11. a 85. 5. Es. 26. 3, 12. a 45. 7. a 48. 18, 22. a 55. 11, 12. a 57. 19—21. Jer. 33. 6. Luc 1. 79. a 2. 14. Ioan 14. 27. a 16. 33.—Gwel ar Rhuf. 1. 7.—a 5. 1. a 8. 6. a 14. 17. a 15. 13. 2 Cor. 13. 11. Gal. 5. 22. Col. 3. 15. 2 Thes. 3. 16. Heb. 13. 20. Dat. 1. 4. u Eph. 3. 19. Dat. 2. 17. x Neh. 8. 10. Diar. 2. 11. a 4. 6. a 6. 22. y 1 Pedr 1. 4, 5. Judas 1.

* Wrth weddïo Duw fel hyn, dàn deimlad o'u han-
gen, eu hymddybyniad, a'u hannheilyngdod; ac mewn
ymorphwysiad ffyddiog ar ei drugaredd, ei allu, ei
wirionedd, a'i ras ef; hwy a gaent brofi ei "dangnefedd"
ef, yr hwn nis gallai neb ond efe ei roddi, yn cadw eu
calonau a'u meddyliau yn dawel ac yn ddirwgnach yn
Nghrist Iesu, yn nghanol yr ystormydd garwaf a gurai
arnynt. † Mae yn wir nas gallai neb ddeall am natur,
gwerth, ac effeithiau y tangnefedd hwn, ond y rhai
oedd yn ei brofi, ac nis gallai geiriau roddi iawn syn-
iad iddynt am dano; ‡ ond hwy a gaent brofi eu
calonau a'u holl eneidiau, yn cael eu meddiannu a'u
castellu ganddo, er cauad allan bob temtasiynau hud-
oliaethus, brawychus, a thrallodus, trwy deilyngdod
Iesu, dylanwadau ei Ysbryd, a gweithrediad ffydd arno
ef. Cadw y galon megys mewn twr cadarn, a chryfâu
y meddyliau â thawelwch sanctaidd; ac felly cadw yr
holl enaid rhag pechu nac ymollwng dàn helbulon, na
gwrthgilio o herwydd helbulon; a'r cwbl drwy fwynâu
tangnefedd Duw yn Nghrist, a thrwy undeb a chymun-
deb sanctaidd âg ef.

8 z * Yn ddiweddaf, frodyr, [a] † pa bethau
bynnag [b] sydd wir, ‡ pa bethau bynnag [c] *sydd*
onest, ‖ pa bethau bynnag [d] *sydd* gyfiawn,
§ pa bethau bynnag [e] *sydd* bur, * pa bethau
bynnag [f] *sydd* hawddgar, † pa bethau bynnag
[g] *sydd* ganmoladwy, ‡ od *oes* un [h] rhinwedd,
‖ ac od *oes* dim [i] clod, [k] § meddyliwch am y
pethau hyn.

z Gwel ar a. pen. 3. 1. a Rhuf. 12. 9—21. 1 Cor. 13. 4—7. Gal. 5. 22, 23. Iago 3. 17. 2 Pedr 1. 5—7. b Mat. 22. 16. Ioan 7. 18. Rhuf. 12. 9. 2 Cor. 6. 8. Eph. 4. 25. a 5. 9. a 6. 14. 1 Pedr 1. 22. 1 Ioan 3. 18. c Act. 6. 3. Rhuf. 12. 17. a 13. 13. 2 Cor. 8. 21. a 13. 7. 1 Thes. 4. 12. 1 Tim. 2. 2. Tit. 3. 14. Heb. 13. 18. 1 Pedr 2. 12. d Gen. 18. 19. 2 Sam. 23. 3. Salm 82. 2. Diar. 11. 1. a 16. 11. a 20. 7. Marc 6. 20. Luc 2. 25. a 23. 50. Act. 10. 22. Tit. 1. 8. e 1 Tim. 4. 12. a 5. 2. Tit. 2. 14. Iago 1. 27. a 3. 17. 2 Pedr 3. 1. 1 Ioan 3. 3. f 2 Sam. 1. 23. Can. 5. 16. 1 Pedr 4. 8. g Act. 6. 3. a 10. 22. a 22. 12. 1 Thes. 5. 22. 1 Tim. 3. 7. a 5. 10. h Ruth 3. 11. Diar. 12. 4. a 31. 10, 29. 2 Pedr 1. 3, 4. i Diar. 31. 31. Rhuf. 2. 29. a 13. 3. 1 Cor. 4. 5. 2 Cor. 8. 18. k Luc 16. 15. 1 Thes. 5. 21. 1 Ioan 4. 1.

* Yma, cyn diweddu, mae yr apostol yn gwneyd
crynodeb o'r cyngorion chwanegol oedd yn feddwl roi,
mewn ychydig eiriau bŷrion a chynnwysfawr. † "Pa
bethau bynag sydd wir" a didwyll mewn geiriau a
gweithredoedd, mewn addewidion ac ammodau, ac yn

gytunol â gair y gwirionedd ac addasrwydd pethau, yn rhydd oddi wrth bob dichell a rhagrith; "meddyliwch am y pethau hyn." ‡ "Pa bethau bynag sydd onest," parchus, hardd, a gweddus, mewn gwisgiad, iaith, ac ymddygiad, yn ol eich gwahanol sefyllfâoedd a'ch perthynasau, fel dynion a christionogion; "meddyliwch am y pethau hyn." ‖ "Pa bethau bynag sydd gyfiawn," a dyledus i Dduw a dynion, yn eich holl ymdriniaeth âg ef ac â hwythau; "meddyliwch am y pethau hyn." § "Pa bethau bynag sy bur," yn perthyn i ddiweirdeb a phurdeb meddwl, yn rhydd oddi wrth halogrwydd pechod yn y galon, yr ymadrodd, a'r ymddygiad; "meddyliwch am y pethau hyn." * "Pa bethau bynag sydd hawddgar" o ran eu natur, ac yn gwneuthur eu perchenogion a'u gweithredwyr yn hawddgar yn ngolwg Duw a dynion; "meddyliwch am y pethau hyn." † "Pa bethau bynag sy ganmoladwy," a chymmeradwy, yn enwedig gan y rhan sobr, gall, a chrefyddol o ddynolryw, yn mhlith y rhai mae *enw da yn fwy dymunol na chyfoeth lawer;* (Diar. 22. 1.) "meddyliwch am y pethau hyn." ‡ "Od oes un rhinwedd," fel mae yn sicr ei fod, yn yr holl bethau hyn, neu mewn unrhyw bethau eraill o natur foesol a chrefyddol a ellid chwanegu atynt; ‖ od oes dim clod, gair da, ac enw da, i'w ennill trwy ymarferiad didwyll â'r pethau uchod a'u cyffelyb; § meddyliwch am y pethau hyn, yn ddwys, yn aml, ac yn ddifrifol: ystyriwch eu natur, eu rhwymau, a'u pwysfawrogrwydd; i'r dyben o'u harferyd ar egwyddorion cristionogol ac efengylaidd, trwy gymmorth Duw, i ogoniant Duw ac anrhydedd eich proffes sanctaidd o enw Crist, ac er eich llesâd eich hunain ac eraill. Dywedir fod y gair *Semna*, a gyfieithir *gonest* yn yr adnod hon, yn arwyddo, nid gonestrwydd ymddygiad rhwng dyn â dyn, mae hyny yn y gair o'r blaen, *gwir*, ac yn y gair, dilynol, *cyfiawn;* ond yn arwyddo sobrwydd parchus, a harddwch ymddygiad anrhydeddus: ac mae yr holl adnod yn annogaeth i gristionogion i ofalu am eu cymmeriad a'u henw da, trwy ofalu am ymddwyn yn mhob peth i ennill parch a chyfrifiad yn mhob màn, ac yn ngolwg pawb, a hyny er anrhydedd i'r efengyl.

9 * Y rhai [l] a ddysgasoch ac a dderbyniasoch, † ac a glywsoch, ac a welsoch ynof fi, ‡ y pethau hyn [m] gwnewch: [n] ‖ a Duw yr heddwch a fydd [o] gyd â chwi.

l pen. 3. 17. 1 Cor. 10. 31—33. a 11. 1. 1 Thes. 1. 6. a 2. 2—12, 14. a 4. 1—8. 2 Thes. 3. 6—10. m Deut. 5. 1. Mat. 5. 19, 20. a 7. 21, 24—27. Luc 6. 46. a 8. 21. Ioan 2. 5. a 13. 17. a 15. 14. Act. 9. 6. 2 Thes. 3. 4. Iago 1. 22. 2 Pedr 1. 10. 1 Ioan 3. 22. n adn. 7. Rhuf. 15. 33. a 16. 20. 1 Cor. 14. 33. 2 Cor. 5. 19, 20. a 13. 11. 1 Thes. 5. 23. Heb. 13. 20, 21. o Es. 8. 10. a 41. 10. Mat. 1. 23. a 28. 20. 2 Tim. 4. 22.

* Yn fŷr, y pethau a ddysgasoch ac a ganddo ef, ac a dderbyniasent fel ysgolheigion hyd lysg; † a'r pethau a glywsent ganddo ef, ac a welsent yn ei esampl ef; ‡ y pethau hyn gwnaent yn ofalus a didwyll, o gariad at Grist a'r gwirionedd, er gogoniant i Dduw ac anrhydedd i'r efengyl, ac er adeiladaeth iddynt eu hunain a'r naill y llall; ‖ ac yna gallent fod yn sicr o gymdeithas a nodded Duw gyda hwy fel Duw yr heddwch a'r cymmod â'u heneidiau, trwy Iesu Grist a gwaed ei groes ef. Lle bynag y mae derbyniad crediniol o'r efengyl, ac ymddygiad addas i'r efengyl, mae Duw yr heddwch yn hoffi preswylio ac amlygu ei hun yno, yn arddelwi ac yn bendithio ei bobl, fel rhai anwyl ganddo ac agos ato. Craffwn oll ar y geiriau u hod:—clywed, gweled, dysgu, derbyn, a gwneyd.

10 [p] * Mi a lawenychais hefyd yn yr Arglwydd yn fawr, oblegid [q] i'ch gofal chwi am danaf fi yr awrhon o'r diwedd adnewyddu; † yn yr hyn y buoch ofalus hefyd, ond [r] eisieu amser cyfaddas oedd arnoch.

p Gwel ar pen. 3. 1, 3.—2 Cor. 7. 6, 7. q 2 Cor. 11. 9. Gal. 6. 6. r Gal. 6. 10.

* Ni fynai yr apostol orphen y llythyr hwn heb gydnabyddiaeth neilliduol o garedigrwydd y Philippiaid tuag ato: yr oedd hyny wedi ei lawenychu ef yn fawr yn yr Arglwydd, gyda golwg ar ei ragluniaeth, ei ewyllys, a'i ogoniant ef; fod eu gofal hwy am dano, wedi hir amser, yn adnewyddu drachefn, fel pren ar ol y gauaf yn blaguro drachefn yn yr eilir *(spring.)* Nid o herwydd ei fantais ei hun yr oedd yn llawenychu cymmaint am i Dduw roddi hyny yn eu calonau; ond yr oedd yn llawenychu ac yn ddiolchgar, fel yr oedd y caredigrwydd hwnw yn profi agwedd lwyddiannus ysbrydol eu heneidiau hwy. † Yn wir yr oedd efe yn gwybod yn sicr yn awr, eu bod hwy o hyd yn ofalus am dano, ac yn ewyllysio ei gynnorthwyo: ond eisiau amser cyfaddas, neu eisiau modd oedd arnynt i'w wneyd yn gynt. *Yr awr hon o'r diwedd adnewyddu:* cyffelybiaeth oddi wrth goed a llysiau yn ail flaguro ar ol y gauaf, fel y sylwyd uchod: yr oedd cariad at yr apostol yn y Philippiaid o hyd, fel y nôdd yn y coed a'r llysiau yn y gauaf; ond yn awr y daeth yr "amser cyfaddas" iddynt ddangos hyny.

11 * Nid am fy mod yn dywedyd [s] o herwydd eisieu: † canys [t] myfi a ddysgais ym mha gyflwr bynnag y byddwyf, fod yn foddlawn *iddo.*

s 1 Cor. 4. 11, 12. 2 Cor. 6. 10. a 8. 9. a 11. 27. t pen. 3. 8. Gen. 28. 20. Ex. 2. 21. Mat. 6. 31—34. Luc 3. 14. 1 Tim. 6. 6—9. Heb. 10. 34. a 13. 5, 6.

* Pa fodd bynag, nid oedd efe yn crybwyll pethau fel hyn, o herwydd yr eisiau a'r angen a fuasai arno, megys pe buasai hyny yn rhyw ofid annyoddefadwy iddo; † canys efe a ddysgasai yn ysgol profiad, dan ddysgeidiaeth Crist, ac yn ol ei esampl ef, i fod yn foddlawn i'w goelbren ac i drefn Duw, yn mha gyflwr neu sefyllfa bynag y byddai. Gwyddai yn dda y trefnai ei Dad nefol yr hyn fyddai oreu iddo, ac na lwyr adawai mo hóno. Heb. 13. 5.

12 [u] * *Ac* mi a fedraf ymostwng, † ac a fedraf ymhelaethu: ‡ ym mhob lle ac ym mhob peth [x] y'm haddysgwyd, ‖ i fod yn llawn ac i fod yn newynog, i fod mewn helaethrwydd ac i fod mewn prinder.

u 1 Cor. 4. 9—13. 2 Cor. 6. 4—10. a 10. 1, 10. a 11. 7. a 12. 7—10. x Deut. 32. 10. Neh. 9. 20. Es. 8. 11. Jer. 31. 19. Mat. 11. 29. a 13. 52. Eph. 4. 20, 21.

* "Efe a edrai ymostwng" yn y tlodi mwyaf ac isel af, gan weithio yn galed â'i ddwylaw am fywioliaeth mewn anmharch a dirmyg, heb rwgnach dim, nac arfer unrhyw foddion dianrhydeddus i wellâu arno e hun: † ac "efe a fedrai ymhelaethu," heb ŵyro dim oddi wrth rëolau manylaf cymmedrolder a gostyngeidd rwydd, ac heb fyned yn fwy anewyllysgar i'r llafur caletaf a mwyaf hunan-ymwadol. ‡ Yn mhob lle, yn mhob ystyriaeth, ac yn mhob peth, yr oedd efe wedi e addysgu, a'i arwain i mewn i'r bywyd cyfriniawl o ffydd a chymundeb â Duw, fel ffynon pob cysur a chynnal iaeth; ‖ am hyny efe a fedrai fod mewn llawnder a hel aethrwydd pan y gwelai Duw yn dda, a chyfranu i eraill heb fod yn euog o hunan-goleddiad, balchder, n chariad at bethau bydol: ac yr oedd wedi ei addysgu hefyd i ddyoddef newyn a phrinder pan fyddai fell arno, heb ddyrysu a chythryblu ei ysbryd, ac heb e anaddasu i'w le-a'i waith. *Y'm haddysgwyd:* dywedi fod y gair *memuémai* yn arwyddo y ddysgeidiaeth roddai yr offeiriaid paganaidd i'w dysgyblion, yn y hyn a alwent hwy *Dirgeledigaethau Sanctaidd* eu cref ydd. Ymffrostient hwy yn fawr o'u dysgeidiaeth yn pethau gwael a dychymmygol hyny; ac mewn cyfer byniad i hyny, mae yr apostol yn ymffrostio o'i ddysg eidiaeth yn y pethau a welsom uchod, a dysgeidiaet ryfedd oedd. Mae dysgu pethau mwyaf anhyfryd gwi grefydd, bod yn foddlawn mewn prinder ac angen, y well na'r ddysgeidiaeth am bob peth gall yn y byd, e maint a ffrostio dynion.

13 y * Yr wyf yn gallu pob peth z † trwy
ist yr hwn sydd yn fy nerthu i.
y Ioan 15. 4, 7. 2 Cor. 3. 4, 5. z Gwel ar 2 Cor. 12. 9, 10.
. 3. 16. a 6. 10. Col. 1. 11.—Es. 40. 29—31. a 41. 10. a 45. 24.
Fel hyn cafodd yr apostol wybod trwy brofiad, y
dai efe wneyd a dyoddef pob peth yn yr ystyr hyn,
yn mha beth bynag a berthynai i'w ddyledswydd
† nid trwy ei allu naturiol ei hun, nac ychwaith trwy
ras a dderbyniasai eisoes; ond trwy y nerth beunydd-
oedd yn cael ei gyfranu iddo oddi wrth Grist; gallu
hwn oedd yn gorphwys arno, ac yn ei nerthu ef i bob
asanaeth a sefyllfa y gelwid ef gan Dduw iddynt.

14 * Er hynny, a da y gwnaethoch b gyd-
frannu â'm gorthrymder i.
a 1 Bren. 8. 18. 2 Cron. 6. 8. Mat. 25. 21. 3 Ioan 5—8.
dn. 18. pen. 1. 7. Rhuf. 15. 27. 1 Cor. 9. 10, 11. Gal. 6. 6.
rim. 6. 18. Heb. 10. 34. a 13. 16.

* Er y gallasai yr apostol ddyoddef ei dlodi yn
wdd heb rwgnach; eto, nid oedd efe ddim llai teil-
g o gynnorthwy: a da y gwnaeth y Philippiaid gyd-
franu âg ef yn ei orthrymder; neu gyfranogi o hono
y wasgu arnynt eu hunain i'w gynnorthwyo ef.
wy a ymddygasant fel cristionogion a brodyr, fel
nt tuag at eu tad, ac yr oedd y peth yn gymmeradwy
ddo, ac yn llonder i'w ysbryd ef; ac yn gymmerad-
gan Dduw ei hunan trwy Iesu Grist, adn. 18.

15 * A chwithau, Philippiaid, hefyd, a
ddoch c yn nechreuad yr efengyl, † pan
ethum i ymaith o Macedonia, na chyfran-
dd un eglwys â mi o ran rhoddi a derbyn,
d chwychwi yn unig.
c 2 Bren. 5. 16, 20. 2 Cor. 11. 8—12. a 12. 11—15. d Act.
40. a 17. 1—5.

* Nid oedd yr apostol yn anniolchgar i'r Philippiaid
n y caredigrwydd uchod, nac ychwaith yn anghofus
n caredigrwydd o'r blaen tuag ato, yr hwn a ddangos-
ent o gylch deuddeng mlynedd cyn hyn, pan ddaeth-
efe i bregethu yr efengyl gyntaf yn eu plith hwynt, ac
y parthau hyny. † Yn enwedig pan oedd efe yn ym-
ael â hwynt, ac i fyned ymaith o barthau Macedonia i
egethu yr efengyl mewn gwledydd eraill, ni chyfran-
d yr un eglwys ddim iddo, ac ni dderbyniodd efe
im gan neb at ei gynnaliaeth, ond gan y Philippiaid yn
iig. *Cyfranu â mi o ran rhoddi a derbyn:* yr oedd ef
l offeryn yn cyfranu bendithion ysbrydol iddynt hwy,
hwythau yn derbyn: yr oeddynt hwythau yn cyfranu
n pethau tymmorawl iddo ef, ac yntau yn derbyn: y
th olaf a feddylir yma yn ddiau; oblegid yr oedd
lwysi eraill wedi "cyfranu âg ef o ran rhoddi a
rbyn" mewn pethau ysbrydol, yn gystal â'r Philip-
aid. Aeth Paul o Philippi yn gyntaf i Amphipolis ac
polonia, ac oddi yno i Thessalonica a Berea; (Act.
. 1, 10,) y rhai oedd oll yn Macedonia: o Berea aeth
Athen, ac oddi yno i Corinth, (Act. 17. 15, a 18. 1,)
rhai oedd yn Achaia; a thybir mai wedi iddo fyned
ddau le diweddaf, neu y diweddaf oll o honynt, y
nfonodd y Philippiaid y cymmorth a sonir yma.

16 * Oblegid e yn Thessalonica hefyd † yr
hfonasoch f i mi unwaith ac eilwaith ‡ wrth
y anghenrhaid.
e 1 Thes. 2. 9. f 1 Thes. 2. 18.

* Heblaw hyny, a chyn hyny, pan oedd efe yn Thes-
lonica, y lle cyntaf yr aethai iddo ar ol ymadael â
wynt; † hwy a anfonasent iddo gymmorth o leiaf ddwy
aith wrth ei angenrhaid; ac nid oedd efe wedi anghof-
y caredigrwydd hyny, nac yn anniolchgar am dano.
r oedd Thessalonica yn fwy dinas na Philippi, ac yn
rif ddinas Macedonia; (gwel ar Act. 17. 1,) ond
allai bod yr eglwys ieuanc yno yn dlotach na'r eglwys
n Philippi; felly yr oedd y Philippiaid yn cynnorth-
yo Paul "wrth ei angenrhaid" pan oedd yn llafurio
Thessalonica. ‡ Wedi y cwbl, mae yn ymddangos
rth 1 Thes. 2. 9; 2 Thes. 3. 7—9, mai nid ar haelioni
Philippiaid y bu Paul a'i gyd-weithwyr byw yn Thes-
salonica; eithr ar lafur eu dwylo eu hunain. Am yr erlid a fu arno ef a'i gyfeillion yn Thessalonica, gwel Act. 17. 5—9.

17 * Nid g o herwydd fy mod i yn ceisio rhodd: † eithr yr ydwyf yn ceisio h ffrwyth yn amlhâu i ‡ erbyn eich cyfrif chwi.
g adn. 11. Mal. 1. 10. Act. 20. 33, 34. 1 Cor. 9. 12—15. 2 Cor. 11. 16. 1 Thes. 2. 5. 1 Tim. 3. 3. a 6. 10. Tit. 1. 7. 1 Pedr 5. 2. 2 Pedr 2. 3, 15. Judas 11. h pen. 1. 11. Mica 7. 1. Ioan 15. 8, 16. Rhuf. 15. 28. 2 Cor. 9. 9—13. Tit. 3. 14. i Diar. 19. 17. Mat. 10. 40—42. a 25. 34—40. Luc 14. 12—14. Heb. 6. 10.

* Yr oedd yr apostol yn dra diolchgar am yr holl garedigrwydd uchod; nid am ei fod yn chwennych "rhodd" er ei fwyn ei hun, neu yn awyddu yn gybyddlyd am eiddo ei wrandawwyr; † ond am ei fod yn dymuno eu gweled hwy yn ffrwythlawn yn y gweithredoedd da hyny, y rhai a weinyddent i'w cysur presenol, ac i'w dedwyddwch dyfodawl hwynt: a diammau fod yn ofid ganddo ef weled cristionogion, neu rai yn proffesu cristionogaeth, yn gybyddlyd o'u meddiannau bydol, ac yn gadael eu gweinidogion i ymdrech yn galed â thlodi mawr, o'u rhan hwy. ‡ Nid am eu gweithredoedd da o un math y cedwir y saint yn nydd eu cyfrif; eto bydd coffa canmoladwy am eu gweithredoedd da hwynt, gan y Barnwr ei hun, yn nydd y cyfrif hwnw. Matth. 25. 34—36, 40.

18 * Ond y mae gennyf bob peth, ac y mae gennyf k helaethrwydd: † mi a gyflawnwyd, wedi i mi dderbyn gan l Epaphroditus y pethau *a ddaethant* oddi wrthych chwi; m ‡ *sef* arogl peraidd, aberth n cymmeradwy, boddlawn gan Dduw.
k adn. 12. 2 Thes. 1. 3. l pen. 2. 25, 26. m Ioan 12. 3—8. 2 Cor. 2. 15, 16. Eph. 5. 2. Heb. 13. 16. 1 Pedr 2. 5. n Rhuf. 12. 1. 2 Cor. 9. 12.

* Ond, yn mhob ystyriaeth, yr oedd ganddo ef bob peth a allai ddymuno; yr oedd yn llawn foddlon i ymddygiad y Philippiaid, ac i'w amgylchiadau tymmorawl ei hun: † efe a "gyflawnwyd" â phob peth angenrheidiol, hyd at "helaethrwydd," wedi iddo dderbyn gan Epaphroditus y pethau a ddanfonasent hwy iddo. ‡ Efe a wyddai fod hyn yn llawer mwy cymmeradwy gan Dduw na'r arogl mwyaf peraidd; ac yn dra boddlawn ganddo ef fel aberth ysbrydol, ac fel ffrwyth gwirioneddol ffydd yn yr Arglwydd Iesu, a chariad ato ef, ac ato yntau ei was a'i apostol ef. Mae y geiriau hyn yn rhyfeddol iawn; gan eu bod yn y dull cryfaf yr un fath â'r hyn a ddywedir am aberth Crist ei hunan; (Ephes. 5. 2,) ac maent yn dangos pa mòr gymmeradwy yw gwir weithredoedd da, "ffrwythau yr Ysbryd," gan Dduw trwy Iesu Grist. Ceisia y *Sociniaid* ddianrhydeddu aberth Crist, o ran ei wir ystyr, yn Ephes. 5. 2, trwy gystadlu yr hyn a ddywedir yma am weithredoedd da y Philippiaid, â'r hyn a ddywedir yno am aberth Crist; ond yno dywedir i Grist roddi *ei hun* yn aberth, eithr yma ni roddodd y Philippiaid ond *ychydig o'u meddiannau;* a gobeithio nad yw yr ynfydion cyfeiliornus mòr ffol a meddwl, fod ychydig o *aur neu arian* dynion mòr gymmeradwy gan Dduw, ac yn gyd-werth â marwolaeth ei *Fab ef yn bersonol,* neu *ei hun,* pa un bynag ai Duw ai dyn ydoedd. Gwael yw dyfeisiau dynion i geisio cymylu y gwirionedd, a dàl i fynu eu cyfeiliornadau!

19 o * A'm Duw i p † a gyflawna eich holl raid chwi q yn ol ei olud ef ‡ mewn gogoniant, r yng Nghrist Iesu.
o 2 Sam. 22. 7. 2 Cron. 18. 13. Neh. 5. 19. Dan. 6. 22. Mica 7. 7. Ioan 20. 17, 28. Rhuf. 1. 8. 2 Cor. 12. 21. Philemon 4. p Gen. 48. 15. Deut. 8. 3, 4. Neh. 9. 15. Salm 23. 1—5. a 41. 1—3. a 84. 11. a 112. 5—9. Diar. 3. 9, 10. a 11. 24, 25. Mal. 3. 10. Luc 12. 30—33. 2 Cor. 9. 8—11. q Salm 36. 8. a 104. 24. a 130. 7. Rhuf. 9. 23. a 11. 33. Eph. 1. 7, 18. a 2. 7. a 3. 8, 16. Col. 1. 27. a 3. 16. 1 Tim. 6. 17. r Rhuf. 8. 18. 2 Cor. 4. 17. 1 Thes. 2. 12. 1 Pedr 5. 1, 10.

* Gwyddai yr apostol nas gallai efe ei hun attalu i'r Philippiaid fel y dymunai; ond gwyddai hefyd ar yr un

pryd na chaent hwy ddim bod ar eu colled; y byddai i'w Dduw a'i Dad ef, eiddo yr hwn oedd, ac yr hwn oedd yn wasanaethu, † gyflawni eu holl raid hwy o bob math, yn ol golud ei holl ddigonoldeb a'i haelioni ef, ‡ yn enwedig trwy eu dwyn hwynt i'w dragywyddol ogoniant, yn a thrwy Grist Iesu, trwy ei aberth a'i gyfryngdod ef, a thrwy eu hundeb hwy âg ef.

20 [s] * Ond i Dduw a'n Tad ni † *y byddo* gogoniant yn oes oesoedd. [t] ‡ Amen.

s pen. 1. 11. Salm 72. 19. a 115. 1. Mat. 6. 9, 13. Rhuf. 11. 36. a 16. 27. Eph. 3. 21. 1 Tim. 1. 17. Judas 25. Dat. 1. 6. a 4. 9—11. a 5. 12. a 7. 12. a 11. 13. a 14. 7. t adn. 23. Gwel ar Mat. 6. 12. a 28. 20.

* I'r Duw hwn gan hyny, fel Tad cyfammodol a grasol yr holl saint, † bydded yr holl ogoniant, oddi wrth ac am yr hyn oll a wnaeth efe ynddynt, erddynt, a thrwyddynt: a gogonedded yr holl deulu mawr ei berffeithiau amlygiadol a'i weithredoedd rhyfeddol ef yn oes oesoedd: ‡ ac mewn tystiolaeth o gyd-syniad un-fryd a chalonog yn hyn, dyweded yr holl bobl Amen, felly y byddo byth bythoedd!

21 [u] * Anherchwch † yr holl [x] saint yng Ngìrist Iesu. [y] ‡ Y mae y brodyr sydd gyd â mi yn eich annerch.

u Gwel ar Rhuf. 16. 3—16. x adn. 1. 1 Cor. 1. 2. Eph. 1. 1. y Rhuf. 16. 21, 22. Gal. 2. 3. Col. 4. 10—14. Philemon 23, 24.

* Yn y teimlad gwresocaf o wir gariad cristionogol, mae efe yn anerch † yr holl saint yn Philippi; pob un ag oedd yn proffesu Crist a'i grefydd sanctaidd, yn aelodau i Grist, mewn undeb sanctaidd âg ef, a gwaith sancteiddiol ar eu heneidiau, ac yn rhodio mewn sancteiddrwydd. ‡ Nid efe yn unig oedd yn eu hanerch, ond y "brodyr" hefyd, y rhai oedd "gydag ef:" y gweinidogion yn Rhufain, efallai, neu frodyr a ddaethent yno o fànau eraill i fod gyda'r apostol: fel hyny mae y "brodyr" yma i'w gwahaniaethu oddi wrth y "saint oll" yn yr adnod nesaf.

22 [z] * Y mae y saint oll yn eich annerch chwi, ac yn bennaf [a] y rhai sydd o deulu Cesar.

z Rhuf. 16. 16. 2 Cor. 13. 13. Heb. 13. 24. 1 Pedr 5. 14. 3 Ioan 14. a pen. 1. 13.

* Yr holl gristionogion proffesedig yn eglwys Rhufain: yr oeddynt oll yn anerch y Philippiaid gyda brawdgarwch mwyaf. Saint yn anerch saint, sydd bet hyfryd ac ardderchog iawn, er o bellder daear; yn nefoedd cânt fod gyda'u gilydd byth, yn caru eu gilydd ac yn cyd-garu a chyd-foli yr hwn a fu farw drostyn ac a'u gwnaeth yn saint. † Ac yn benaf o'r holl saint y Rhufain, yr oedd y saint o deulu Cesar yn eu hanerch Mỳnodd Duw saint iddo ei hun hyd yn nôd yn nheul Nero; y rhai a gadwent eu lleoedd yno, ac a wasan aethent Grist yn y sefyllfa fwyaf peryglus a maglus, f Daniel yn llŷs Nebuchodonosor a Darius. Dywe rhai fod yr Athronydd *Seneca* yn un o'r saint hyn; on nid oes sail ddigonol i feddwl iddo ef gael ei droi y Gristion, o Seneddwr; nid gŵr llŷs oedd efe. Efall bod rhai o deulu breninol Prydain, yr Hen Gymry yn y pryd hwnw, ac yn rhai o'r saint uchod, yn yr eglwy os nad yn nheulu Cesar hefyd.

23 [b] * Gras ein Harglwydd Iesu Gris *fyddo* gyd â chwi oll. Amen.

b Gwel ar Rhuf. 16. 20, 24. 2 Cor. 13. 14.

* I orphen yn debyg fel y dechreuodd, pen. 1. 2 mae efe yn gweddïo am i ras ein Harglwydd Iesu Gris fod gyda hwy oll fel eglwys, a chyda phob un o honyn yn bersonol, i'w nerthu yn eu holl drallodau ar ddaear, ac i'w cymhwyso i'r gogoniant byth. † Ame oedd gwir ddymuniad ei galon erddynt, ac fel hyn byddai yn sicr iddynt.

¶ At y Philippiaid yr ysgrifenwyd o Rufain, gyd âg Epaphroditus

EPISTOL PAUL YR APOSTOL

AT Y

COLOSSIAID.

PEN. I.

ytr ol cyfarch y Colossiaid, y mae Paul yn diolch i Dduw am eu ffydd hwy.

PAUL, [a] † apostol Iesu Grist trwy ewyllys Duw, [b] ‡ a Thimothëus || *ein* brawd,

a Gwel ar Rhuf. 1. 1. 1 Cor. 1. 1. 2 Cor. 1. 1. b Phil. 1. 1. 1 Thes. 1. 1. 2 Thes. 1. 1. Philemon 1.

* Tybia llawer o ddynion beirniadol, fod yr apostol yn cymmeryd yr enw Groegaidd *Paul*, yn hytrach na'i enw dechreuol *Saul*, er bod hwnw yn enw y brenin cyntaf, ac yr hwn oedd o'r un llwyth âg yntau efyd, gyda golygiad arbenig ar y cenedloedd, i ba rai yr oedd efe mewn modd neillduol yn weinidog. † Mae efe yn hòni ei osod yn y swydd apostolaidd trwy ewyllys Duw, i ragflaenu yn fwy effeithiol wrth-ddadleuon y gau-athrawon yn erbyn ei ddwyfol osodiad ef: ‡ ac mae yn enwi y brawd Timothëus gydag ef ei hun, nid i hhwanegu at ei awdurdod ei hun, ond i ddangos y cariad a'r parch oedd ganddo at y brawd ieuanc, a'r gweinidog ffyddlawn hwnw, ac i gadarnâu ei gymmeriad ef yn mhlith y Colossiaid: || a chyda'r gwylder mwyaf difalch, mae efe yma yn ei alw ef yn *frawd*, yn hytrach nac ei *fab*, er ennill eu parch hwy i Timothëus yn fwy.

2 * At y [c] saint † a'r ffyddlawn frodyr yng Nghrist ‡ y rhai sydd yn Colossa. [d] || Gras i chwi, a thangnefedd, oddi wrth Dduw ein Tad, a'r Arglwydd Iesu Grist.

c Gwel ar 1 Cor. 1. 2.—Gal. 3. 9. Eph. 1. 1. d Gwel ar Rhuf. 1. 7.—1 Pedr 1. 2. 2 Pedr 1. 2. Judas 2. Dat. 1. 4.

* At y rhai oedd yn proffesu eu hunain yn saint, ac yr oedd pob lle i feddwl mewn barn cariad mai saint mewn gwirionedd oeddynt; † a brodyr didwyll mewn undeb â Christ, yn gredinwyr ffyddiog ynddo ef, ac yn ffyddlawn gyda ei bobl a'i achos ef yn y byd. ‡ Colossa ydoedd ddinas fawr a phoblogaidd yn nhalaeth Phrygia, yn Asia Leiaf, nid pell o Laodicea: yno yr oedd yr eglwys a gyferchir yma, dàn yr enwau anrhydeddus o saint a ffyddlawn frodyr. || Am y cyfarchiad cyffredinol a duwiol hwn, gwel ar Rhuf. 1. 7, yn nghyd â'r epistolau blaenorol eraill. Tybia rhai y gelwid y Colossiaid yn "ffyddlawn frodyr," o herwydd eu hymlyniad wrth burdeb y ffydd gristionogol mewn gwrthwynebiad i'r rhai a daerent dros yr angenrheidrwydd o gadw y gyfraith Iuddewig: dyna un prawf o'u ffyddlondeb hwy yn sicr; ond rhŷ gyfyng a thlawd yw hyna fel agoriad ar eiriau mòr gynnwysfawr, ac y mae llawer o agoriadau rhŷ gyfyng cyffelyb iddynt, gan rai a gymmerant arnynt egluro yr ysgrythyrau: rhoddant i ni ystenaid o ddwfr, a siaradant fel pe byddent wedi dyhysbyddu yr holl ffynon.

3 * Yr ydym yn [e] diolch i Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, [f] † gan weddio drosoch chwi yn wastadol;

e Gwel ar Rhuf. 1. 8, 9.—Eph. 1. 15, 16. Phil. 1. 3—5. 1 Thes. 1. 2. f adn. 9—13. Eph. 3. 14—19. Phil. 1. 9—11. 1 Thes. 3. 10—13. 2 Thes. 2. 16, 17. 2 Tim. 1. 3.

* Mae yr apostol yn dechreu ei lythyr fel arferol, trwy sicrâu i'r Colossiaid ei fod ef a'i frodyr, yn enwedig efe a Thimothëus, yn diolch i Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, am ei ras a roddodd efe iddynt hwy; † ac eu bod yn gweddio yn wastadol drostynt, am berffeithiad y gras a'r gwaith da hwnw ynddynt. *Duw a Thad:* Duw *sef* Tad, medd rhai; yr hyn sydd well na Duw *a* Thad, yr hyn sydd yn dangos Duw, a'r Tad, megys pe byddent Bersonau gwahanol. Mae efe yn Dad ein Harglwydd Iesu Grist o ran ei ddwy natur; fel y mae Crist yn Berson dwyfol, ac o ran ei ddynoliaeth hefyd: ac yn Dad ei holl bobl yn a thrwy Grist. Heblaw porthi y praidd, dylai pob bugail da weddio a diolch drostynt hefyd, felly y gwnai Paul.

4 * Er [g] pan glywsom am eich [h] ffydd yng Nghrist Iesu, † ac am y cariad *sydd gennych* tu ag at yr holl saint:

g adn. 9. 2 Cor. 7. 7. Eph. 1. 15. 1 Thes. 3. 6. 3 Ioan 3, 4. h Gal. 5. 6. 1 Thes. 1. 3. a 4. 9, 10. 2 Thes. 1. 3. Philemon 5. 1 Pedr 1. 21—23. 1 Ioan 3. 14, 23. a 4. 16.

* Yr oedd efe yn diolch ac yn gweddio drostynt er pan glywsai am eu ffydd hwy yn Nghrist Iesu; yr hyn a arwydda, nid yn unig eu gwybodaeth hwy am dano, a'u proffes o hóno, ond hefyd ymddiried ynddo, ac ymorphwysiad hollawl a diysgog eu heneidiau arno, fel unig a digonol Waredwr. † A ffydd yn gweithio trwy gariad oedd ffydd y Colossiaid; yr oedd ganddynt gariad helaeth tuag at eu gilydd, a thuag at yr holl saint yn mhob màn. Gefeilliaid yw ffydd a chariad, lle bynag y mae un mae y llall yno hefyd, ac nis dichon un fod heb y llall: Crist yn unig yw gwrthddrych ffydd; Crist a'i bobl, ei saint, yw gwrthddrychau cariad.

5 * Er mwyn [i] y gobaith a roddwyd i [k] gadw i chwi yn y nefoedd, † am yr hon y clywsoch o'r blaen [l] y'ngair gwirionedd yr efengyl;

i adn. 23, 27. Act. 23. 6. a 24. 15. a 26. 6, 7. 1 Cor. 13. 13. a 15. 19. Gal. 5. 5. Eph. 1. 18, 19. 2 Thes. 2. 16. Heb. 7. 19. 1 Pedr 3. 15. 1 Ioan 3. 3. k Salm 31. 19. Mat. 6. 19, 20. Luc 12. 33. 2 Tim. 4. 8. 1 Pedr 1. 3, 4. l pen. 3. 16. Act. 10. 36. a 13. 26. Rhuf. 10. 8. 2 Cor. 5. 19. a 6. 7. Eph. 1. 13. 1 Thes. 2. 13. 1 Tim. 1. 15. 1 Pedr 2. 2.

* Yr oedd y gobaith, neu wrthddrych y gobaith hwn, wedi ei roddi i gadw yn y nefoedd iddynt, lle nad oes ond perffaith burdeb, dedwyddwch, a llawenydd, goruwch cyrhaedd holl ddamweiniau a chyfnewidiadau y byd isod hwn. Yr oedd yn nghadw "iddynt hwy," ac nis gallai yr un gelyn eu hamddifadu o hóni: † ac yr oeddynt wedi clywed am dani o'r blaen, yn ngair gwirionedd yr efengyl, sef y newyddion da o iachawdwriaeth a ddanfonesid atynt hwy. *Er mwyn y gobaith*, &c., a arwydda, efallai, yr achos o weddiau a diolchgarwch yr apostol dros y Colossiaid; neu, ynte, yr achos o'u ffydd hwy yn Nghrist Iesu, a'u cariad at yr holl saint.

6 * Yr hon sydd [m] wedi dyfod attoch chwi megys ag *y mae* yn yr holl fyd; [n] † ac sydd

yn dwyn ffrwyth, ‡ megis ag yn eich plith
chwithau, er y dydd y clywsoch, ° ac y gwybu-
och ras Duw mewn gwirionedd:

m adn. 23. Salm 98. 3. Mat. 24. 14. a 28. 19. Marc 16. 15. Rhuf. 10. 18. a 15. 19. a 16. 26. 2 Cor. 10. 14. n adn. 10. Marc 4. 8, 26—29. Ioan 15. 16. Act. 12. 24. Rhuf. 1. 13. a 15. 28. Eph. 5. 9. Phil. 1. 11. a 4. 17. o Salm 110. 3. Act. 11. 18. a 16. 14. a 26. 18. 1 Cor. 15. 10, 11. 2 Cor. 6. 1. Eph. 4. 23, 24. 1 Thes. 1. 5. a 2. 13. 2 Thes. 2. 13, 14. Tit. 2. 11. 1 Pedr 1. 2, 3. a 5. 12.

* Bwriadwyd i'r efengyl hon gael ei phregethu drwy yr holl fyd; yr oedd eisoes wedi ymdaenu yn gyflym a rhyfeddol yn mhlith y cenedloedd, a chwedi dyfod at y Colossiaid yn mhlith eraill; † a chan ei bod dàn arddelwad dwyfol, a gallu Duw gyda hi, yr oedd yn dwyn ffrwyth yn mhob màn, yn nychweliad a thröedigaeth torfèydd lawer at wasanaeth sanctaidd ac addoliad ysbrydol y gwir Dduw, trwy ffydd yn Nghrist Iesu. Yr oedd wedi dwyn yr un ffrwythau bendithiol yn nghalonau a buchedd y Colossiaid, o'r dydd y clywsent yr efengyl, o'r dydd y credasent hi yn wirioneddol a phrofiadol trwy ras Duw, ac o'r dydd y gwnaed hwy yn wir gyfranogion o Grist, ei ras, a'i iachawdwriaeth.

7 * Megis ag y dysgasoch gan [p] Epaphras
[q] † ein hanwyl gyd-was, ‡ yr hwn sydd dros-
och chwi yn [r] ffyddlawn weinidog i Grist;

p pen. 4. 12. Philemon 23. q Gwel ar Phil. 2. 19—22, 25. r Num. 12. 7. Mat. 24. 45. a 25. 21. 1 Cor. 4. 2, 17. a 7. 25. 2 Cor. 11. 23. Eph. 6. 21. 2 Tim. 2. 2. Heb. 2. 17. a 3. 2.

* Yr oeddynt wedi clywed a dysgu yr efengyl uchod "o'r blaen," gan Epaphras, † yr hwn a arddelwai Paul a Thimothëus fel eu hanwyl gyd-was yn yr efengyl, ac oedd y pryd hwn, mae yn debyg, yn gyd-garcharor â hwynt yn achos yr efengyl. Gwel Philemon 23: ‡ yr oedd efe hefyd yn ffyddlawn weinidog i Grist dros y Colossiaid, wedi ei osod yn benaf i lafurio yn eu plith hwy; a thybiai y rhan fwyaf o'r henafiaid mai efe a bregethodd gyntaf, ac a ffurfiodd yr eglwys gyntaf yn Colossa.

8 * Yr hwn hefyd a amlygodd i ni [s] eich
cariad chwi † yn yr Yspryd.

s adn. 4. Rhuf. 5. 5. a 15. 30. Gal. 5. 22. 2 Tim. 1. 7. 1 Pedr 1. 22.

* Yr oedd yr Epaphras hwn hefyd wedi amlygu i Paul, am gariad y Colossiaid at Grist, ac ato yntau a'r holl saint er mwyn Crist, yr hwn gariad oeddynt hwy yn ddangos ac yn ei weithredu † "yn yr Ysbryd," dàn ei ddylanwadau sanctaidd ef, ac mewn modd ysbrydol; a hyn oedd yn gwneyd yr apostol mòr hyderus am eu rhan hwy yn y "gobaith" nefol a grybwyllwyd o'r blaen. Mae llawer o ragor rhwng cariad yn yr Ysbryd, a'r cariad goreu yn y cnawd; dynol a darfodedig yw yr olaf, ond ysbrydol a pharâus tragywyddol yw y blaenaf.

9 * O herwydd hyn † ninnau hefyd, [t] er y
dydd y clywsom, [u] nid ydym yn peidio â
gweddïo drosoch, [x] ‡ a deisyf eich cyflawni
chwi â gwybodaeth [y] ei ewyllys ef ‖ ym mhob
[z] doethineb § a deall ysprydol;

t adn. 4, 6. Rhuf. 1. 8—10. Eph. 1. 15, 16. u 1 Sam. 12. 23. Act. 12. 5. Phil. 1. 4. 1 Thes. 1. 3. a 5. 17. 2 Thes. 1. 11. 2 Tim. 1. 3, 4. Philemon 4. x Eph. 1. 15—20. a 3. 14—19. Phil. 1. 9—11. y pen. 4. 12. Salm 143. 10. Ioan 7. 17. Rhuf. 12. 2. Eph. 5. 10, 17. a 6. 6. Heb. 10. 36. a 13. 21. 1 Pedr 2. 15. a 4. 2. 1 Ioan 2. 17. z pen. 3. 16. a 4. 5. Iago 1. 5. a 3. 17.

* O herwydd hanes cysurus Epaphras am y Colossiaid, † o'r dydd y clywodd yr apostol am eu ffydd a'u cariad hwynt, nid oedd ef a Thimothëus yn peidio â gweddïo yn barâus drostynt; ‡ a deisyfu mewn modd neillduol ar iddynt hwy gael eu cyflawni, neu eu *perffaith gynnysgaethu*, â gwybodaeth o ewyllys Duw, am ei drefn ef o gadw pechaduriaid, ac hefyd am eu dyledswyddau hwy tuag ato ef a thuag at bob dyn, fel ei weision prynedig a gwaredol ef: ‖ ar iddynt gael eu cyflawni yn dra helaeth mewn doethineb synwyrol, brofiadol, ac adnabyddiaeth ymarferol o fawr amryw ddoethineb Duw, drwy yr hon mae efe yn cyflawni ei holl ewyllys; § ac mewn pob deall ysbrydol am bethau ysbrydol, o ran eu gwirionedd, eu rhagoroldeb, eu pwys, ac o ran defnydd daionus a sanctaidd a ddylent hwy wneyd honynt. *Gwybodaeth, doethineb*, a *deall:* mae yn d anhawdd rhoddi syniadau gwahanol i bob un o'r geiri hyn. *Doethineb*, a arwydda adnabyddiaeth o ddirgeli dyfnion a rhyfeddol yr efengyl, medd rhai; *deall*, arwydda gallineb priodol mewn ymddygiad; ond y m eraill yn gwrth-droi y geiriau uchod, ac yn rhoi *de* am y blaenaf, a *doethineb* am yr olaf. Mae yn sicr n yr un ystyr sydd i'r geiriau bob amser, ac yn mh màn yn ddigyfnewid; oblegid mae *gwybodaeth* weithi yn arwyddo rhywbeth *is na doethineb*, mewn gradd leiaf, (1 Cor. 12. 8,) lle mae yma yn amlwg yn *cynnw doethineb;* a thybygid fod y geiriau, *deall ysbrydol*, eglurâu beth yw y *ddoethineb* a grybwyllir, ac nid y arwyddo rhywbeth gwahanol oddi wrthi.

10 * Fel y [a] rhodioch yn addas i'r A
glwydd † i bob [b] rhyngu bodd, ‡ gan [c] ddwy
ffrwyth ym mhob gweithred dda, [d] ‖ a chyn
nyddu y'ngwybodaeth am Dduw;

a pen. 2. 6. a 4. 5. Mica 4. 5. Rhuf. 4. 12. a 6. 4. Eph. 4. a 5. 2, 15. Phil. 1. 27. 1 Thes. 2. 12. b pen. 3. 20. Diar. 16. Phil. 4. 18. 1 Thes. 4. 1. 2 Tim. 2. 4. Heb. 11. 5. a 13. 16. 1 Io 3. 22. c Ioan 15. 8, 16. Gal. 5. 22, 23. Eph. 2. 10. Phil. 1. 1 Tit. 3. 1, 14. Heb. 13. 21. 2 Pedr 1. 8. d pen. 2. 19. Es. 53. 1 Dan. 12. 4. Hab. 2. 14. Ioan 17. 3. 2 Cor. 2. 14. a 4. 6. a 9. Eph. 1. 17. a 4. 13. 2 Pedr 1. 2, 3. a 3. 18. 1 Ioan 5. 20, 21.

* Beth bynag am feddwl mànol pob un o'r geiris uchod, yr oedd yr apostol yn dymuno gwybodaet doethineb, a deall ysbrydol i'r Colossiaid, fel petha gwir angenrheidiol er eu rhodiad addas hwynt i'r A glwydd i bob rhyngu bodd: ei brif amcan ef yn epistol hwn oedd, eu hannog hwy i ysbryd ac yma weddiad addas i'r efengyl, a theilwng o'u proffes hwy hóni; ac mae yn amlwg mai hyn yw ei brif amcan yn ei holl epistolau eraill. Rhodio yn addas i'r A glwydd heb ei ddïanrhydeddu ef a'i achos drwy ünrhy ymddygiad anghyson ac anmhriodol; ond ymddwyn y wastad fel y gweddai i ddynion wedi eu breintio mò fawr, a'u dysgu mòr ddwyfol. † Fel hyn hwy a rynge ei fodd ef yn mhob peth, gan ymddwyn yn gytunol â natur a'i ewyllys sanctaidd ef, a gwneuthur pob pet mewn modd cymmeradwy a boddlawn ganddo ef. ‡ Ga ddwyn ffrwyth yn mhob gweithred dda; yn llawn ffrwythau sanctaidd yr Ysbryd, ffrwythau cyfiawnder, f planigion o blàniad deheulaw yr Arglwydd, fel y gogo edder ef. ‖ Ac fel hyn hwy a gynnyddent hefyd, fw fwy o ddydd i ddydd, mewn gwybodaeth iachusol a Dduw, am ogoniant a chyd-gordiad ei berffeithiau ef, mewn profiad dedwydd o'i gymdeithas a'i gysuro sanctaidd ef.

11 * Wedi eich [e] nerthu â phob nerth y
ol ei [f] gadernid gogoneddus ef, [g] † i bob dïodd
efgarwch a hir-ymaros gyd â llawenydd;

e Gwel ar 2 Cor. 12. 9. Eph. 3. 16. a 6. 10. Phil. 4. 1 f Ex. 15. 6. Salm 63. 2. Act. 1. 8. 2 Cor. 4. 7. Judas 25. g Dia 24. 10. Act. 5. 41. Rhuf. 2. 7. a 5. 3—5. 2 Cor. 6. 4, 6. a 12. 9, 1 1 Thes. 3. 3, 4. 2 Tim. 2. 1—3. Heb. 10. 34—38. a 11. 34—38. 12. 1, 2. Iago 1. 2—4. a 5. 7, 8. 2 Pedr 1. 6. Dat. 14. 12, 13.

* Yr oedd efe yn gweddïo hefyd am iddynt gael e cyflawn nerthu yn holl rasau yr anian newydd, gyd grymusder nerth cyfatebol i'w hangen mwyaf; yn gogoneddus allu a chadernid Duw, trwy yr hwn y d chwelodd efe hwy ar y cyntaf, y cynnaliodd ac y dydda odd hwynt a'r holl gredinwyr i fawl ei ogoniant e † fel wedi eu nerthu felly, y byddent alluog i ddyodd pob trallodau ac erledigaethau gyda ymostyngi amyneddus, dïysgogrwydd parâus, addfwynder a hi ymaros, gyda llawenydd yn yr Arglwydd. Nid oes di ond gras a nerth Duw a wna ddynion yn ddyoddefg a hir-ymarôus, a hyny gyda llawenydd, mewn trallod ac erlid: nis medr rheswm a philosophi dynion wne hyn.

12 * Gan [h] ddïolch [i] i'r Tad, yr hwn a
[k] gwnaeth ni yn gymmwys i [l] *gael* rhan
[m] etifeddiaeth y saint [n] † yn y goleuni.

h pen. 3. 15, 17. 1 Cron. 29. 20. Salm 79. 13. a 107. 21, 22. 16, 7. Dan. 2. 23. Eph. 5. 4, 20. i pen. 2. 2. Ioan 4. 23. a 6. a 20. 17. 1 Cor. 8. 6. Eph. 4. 6. Iago 3. 9. 1 Ioan 1. 3. Bren. 6. 7. Diar. 16. 1. Rhuf. 8. 29, 30. a 9. 23. 2 Cor. 5. 5. 2. 14. l Rhuf. 11. 17. a 15. 27. 1 Cor. 9. 23. Eph. 3. 6. b. 3. 1, 14. 1 Pedr 5. 1. 1 Ioan 3. 1—3. m Mat. 25. 34. Act. 18. Rhuf. 8. 17. Eph. 1. 18. 1 Pedr 1. 2—5. n Salm 36. 9. 37. 11. Diar. 4. 18. Es. 60. 19, 20. Heb. 12. 23. Dat. 21. 23. a 5.

* Gan ddiolch i'r Tad yn nghanol pob trallod a chys-dd, yr hwn trwy ei neilduol ras a'u gwnaeth hwy oll yn gymhwys i gael rhan o'r etifeddiaeth a barotôwyd i'r aint † yn y byd o berffaith oleuni, gwybodaeth, sanct-ddrwydd, a dedwyddwch; yn ddigon pell oddi wrth ob tywyllwch, annwybodaeth, cyfeiliorni, pechod, rofedigaeth, ofn, a thristwch byth. Mae y saint yn el eu "cymhwyso" i'r etifeddiaeth, trwy weithio ddynt bob tueddiadau a dymuniadau ysbrydol, sanct-dd, a nefol, ag sydd yn eu haddasu hwy i fwynâu y rfryw etifeddiaeth ysbrydol, sanctaidd, a nefol yn y leuni. *Rhan o etifeddiaeth y saint:* cyfeiriad sydd na yn ddïau at wlad Canaan yn etifeddiaeth i lwythau srael gynt, a rhanu y wlad hòno wrth goelbren iddynt. *n y goleuni;* cyfeiriad, medd rhai, at y *dysgleirdeb* dd ar *gyrph* y saint wedi eu *gogoneddu;* y rhai a isgir yn yr adgyfodiad â dysgleirdeb gogoneddus weledig, tebyg i'r *Shechinah* gynt. Ond goleu fydd ob peth yn y nef, a'i goleuni hi ydyw yr Oen.

13 * Yr hwn a'n [o] gwaredodd ni allan o'r feddiant y tywyllwch, [q] † ac a'*n* symmudodd [r] deyrnas ei anwyl Fab:

o Es. 49. 24, 25. a 53. 12. Mat. 12. 29, 30. Act. 26. 18. Heb. 14, 15. p Luc 22. 53. Ioan 12. 31, 32. 2 Cor. 4. 4. Eph. 4. 18. 5. 8. a 6. 12. 1 Pedr 2. 9. 1 Ioan 2. 8, 9. a 3. 8. q Luc 13. 24. an 5. 24. Rhuf. 6. 17—22. 1 Cor. 6. 9—11. 2 Cor. 6. 17, 18. Eph. 3—10. Tit. 3. 3—6. 1 Ioan 3. 14. r Salm 2. 6, 7. Es. 9. 6, 7. an. 7. 13, 14. Zec. 9. 9. Mat. 25. 34. Rhuf. 14. 17. 1 Cor. 15. 23—5.

* Fel credinwyr a saint, yr oeddynt eisoes wedi eu waredu o feddiant y tywyllwch; oddi dàn ymherodr-eth Satan tywysog y tywyllwch, annwybodaeth, hudol-aeth, pechod, gelyniaeth a thrueni, i'r hwn y buasent wy gynt yn gaeth-weision deillion a gwael. † A'r uw grasol a'u gwaredodd hwy yn ei nerth o feddiant t tywyllwch, a'u symmudodd hwy hefyd ar yr un pryd i eyrnas ei anwyl Fab, i ystâd o gyfiawnder, o ryddid, o leuni, o sanceiddrwydd, o gariad, ac o ddedwyddwch, r hon a sefydlodd ef fel teyrnas ysbrydol dàn ei anwyl ab, neu Fab ei gariad. *Errhusato*, gwaredu: gwaredu berygl, a gwaredu trwy nerth mawr, cipio fel pentewyn d'r tân, neu fel y gwaredwyd Lot allan o Sodom. Yn eddiant y tywyllwch yr oedd y Colossiaid gynt yn eu ystâd o baganiaeth; ac nid oedd yr apostol yn ei styried ei hun ddim gwell na hwythau wrth natur, an oedd yn gablwr, yn erlidiwr, ac yn drahaus; am yny mae yn ei roddi ei hun yma gyda hwynt, fel un o rthddrychau y waredigaeth fawr uchod.

14 [s] * Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth † trwy ei waed ef, [t] ‡ *sef* maddeuant pechodau.

s Mat. 20. 28. Act. 20. 28. Rhuf. 3. 24, 25. Gal. 3. 13. Eph. 1. a 5. 2. 1 Tim. 2. 6. Tit. 2. 14. Heb. 9. 12, 22. a 10. 12—14. Pedr 1. 19, 20. a 3. 18. 1 Ioan 2. 2. Dat. 1. 5. a 5. 9. a 14. 4. pen. 2. 13. a 3. 13. Salm 32. 1, 2. a 130. 4. Luc 5. 29. a 7. 47—0. Act. 2. 38. a 10. 43. a 13. 38, 39. a 26. 18. Rhuf. 4. 6—8. Eph. 32. 1 Ioan 1. 9. a 2. 12.

* Yn yr hwn, sef yn anwyl Fab y Tad, mae i'r holl saint brynedigaeth lwyr a thragywyddol oddi wrth elltith y ddeddf ac euogrwydd pechod, yr hon a gyn-nwys hefyd ac a ddwg gyda hi, waredigaeth oddi wrth echod a Satan, ac oddi wrth y digofaint sydd ar ldyfod, yr hwn a haeddodd pechod; ac yr hon sydd yn gor y ffordd hefyd i'r etifeddiaeth dragywyddol, ac i ob bendithion ysbrydol a gollwyd trwy bechod. † Pryn-edigaeth ddrud yw hon, trwy waed yr anwyl Fab; yr hwn a roes ei einioes, ei waed, ei enaid; ei *hun* yn gwbl oll, dros ei bobl i'w prynu hwynt byth iddo ei hun. ‡ Ac fel hyn trwy ei waed ef, a'r brynedigaeth trwy ei waed, mae maddeuant pechodau a phob ben-dithion ysbrydol, yn dylifo yn rhad ac yn gyfiawn i'r holl waredigion. Gwel ar Eph. 1. 7.

15 * Yr hwn yw [u] delw y [x] Duw anweledig, [z] † cyntaf-anedig [z] pob creadur:

u Ex. 24. 10. Num. 12. 8. Ezec. 1. 26—28. Ioan 1. 18. a 14. 9. a 15. 24. 2 Cor. 4. 4, 6. Phil. 2. 6. Heb. 1. 3. x 1 Tim. 1. 17. a 6. 16. Heb. 11. 27. y adn. 13. Salm 89. 27. Ioan 1. 14. a 3. 16. Heb. 1. 6. z adn. 16, 17. Diar. 8. 29—31. Dat. 3. 14.

* Am fawredd y Person hwn, yr hyn a chwanega werth anfeidrol ar ei aberth ef, mae efe yn ei natur ddwyfol, yn wir ffurf a delw Person Duw y Tad, fel y mae yn un mewn hanfod a pherffeithiau âg ef; ac o ganlyniad, yn ei gnawdoliaeth, ei gymhwysiadau swyddol, a'i weithredoedd, yr oedd efe yn ddelw ddan-gosedigol, neu weledig y Tad; yr hwn, am ei fod yn Ysbryd pur, sydd yn hollawl anweledig yn ei natur ei hun, yn un na welodd un dyn erioed ac nis gall ei weled. † Ac yr oedd y Person dwyfol hwn yn hanfodi o dragywyddoldeb diddechreu, wedi ei genedlu mewn modd neilduol anamgyffredadwy gan y Tad, cyn rhoddi bod i un crëadur; ac mewn undeb anwahanol â'r Tad, mae efe yn grëawdwr a lluniwr pob peth, ac o ganlyn-iad yn Arglwydd ac etifedd dechreuol pob peth, yn ol breintiau y cyntaf-anedig gynt.—Mae yn amlwg, debyg-id, *nad* yw Crist yn cael ei alw yn ddelw Duw o ran ei *natur ddwyfol*, fel y tybiai llawer o'r hen dduwinyddion yn enwedig; ac felly yr oedd eu hagoriadau yn gwan-ychu ac yn dyrysu y ddadl dros ei wir Dduwdod ef: oblegid nis gall yr hanfod ddwyfol fod yn fwy gweledig yn Mherson y Mab nac yn Mherson y Tad; am hyny nis gall y Mab fel *Person* dwyfol yn unig, fod yn ddelw, neu arddangosiad gweledig o'r Tad. Eithr Person Crist, fel Duw yn y natur ddynol, yw yr amlygiad *gweledig*, neu *deimladwy*, o'r Duw anweledig; a'r hwn a'i gwelodd ef a welodd y Tad.—Mae y geiriau (*prôtotokos pasês ktiseôs*) a gyfieithir "cyntaf-anedig pob crëadur," yn arwyddo *geni, neu genedlu cyn yr holl grëadigaeth.* Neu, (fel y dywed *Isidore*, hen ysgrifenydd Groegaidd) os rhoddir acen y gair *prôtotokos* ar y sill olaf ond un, yn lle ar yr olaf ond dwy, mae yn arwyddo, nid y *cyntaf-anedig*, yn oddefol, ond y *cyntaf-genedlydd*, neu luniwr pob peth, yn weithredol; ac fel prawf o fod Crist felly, dywedir yn yr adnod nesaf, mai trwyddo ef y crëwyd pob dim; ac yn adnod 17 dywedir, nid iddo *ef gael ei wneyd*, ond ei *fod ef* cyn pob peth. Yn y ffordd gyntaf o ddeall y geiriau hyn, yn ol ein cyfieithiad ni, maent yn perthyn i swydd Crist fel Pen yr eglwys: yn yr ail ffordd, maent yn perthyn i'r hyn a elwir yn gyff-redin tragywyddol genedliad y Mab: ac yn y drydedd ffordd, maent yn perthyn iddo ef fel yr achos effeithiol, neu y Crëawdwr o bob peth: ac yn yr holl olygiadau hyn, dywedir am dano ef yn yr adnodau canlynol. Tröed y darllenydd at yr adnodau cyfeiriol.

16 * Canys [a] trwyddo ef y crewyd pob dim [b] a'r sydd yn y nefoedd, ac sydd ar y ddaear, yn weledig ac yn anweledig, † pa un bynnag ai [c] thronau, ai arglwyddiaethau, ai tywysog-aethau, ai meddiannau; ‡ pob dim a grewyd [d] trwyddo ef, ‖ ac erddo ef.

a adn. 15. Salm 102. 25—27. Es. 40. 9—12. a 44. 24. Ioan 1. 3. 1 Cor. 8. 6. Eph. 3. 9. Heb. 1. 2, 10—12. a 3. 3, 4. b adn. 20. Deut. 4. 39. 1 Cron. 29. 11. Eph. 1. 10. Phil. 2. 10. Dat. 5. 13, 14. c pen. 2. 10, 15. Rhuf. 8. 38. Eph. 1. 21. a 3. 10. a 6. 12. 1 Pedr 3. 32. d Diar. 16. 4. Es. 43. 21. Rhuf. 11. 36. Heb. 2. 10.

* Trwyddo ef, fel yr achos effeithiol, yn undeb y Tad a'r Ysbryd, y crëwyd pob peth crëedig o ddim; sef yr holl grëaduriaid sydd yn nef y nefoedd, ac yn y nef serenog a'r awyr, a phob peth sydd yn trigo ar, neu yn perthyn i'r, ddaear a'r môr; pob peth gweledig ac an-weledig; † yr holl raddau uwchaf o angelion yn y nef a dynion ar y ddaear; y rhai o herwydd mawredd ac awdurdod yn y gwahanol fydoedd hyny, a elwir rai o honynt yn *thronau*, gyda chyfeiriad at orseddau brenin-ol tywysogion; eraill yn *arglwyddiaethau*, am fod llyw-odraeth ac arglwyddiaeth yn cael eu hymddiried iddynt

mewn unrhyw ddull pa bynag; eraill yn *dywysogaethau*, am eu bod mewn sefyllfaoedd uchel ac ardderchog: eraill *meddiannau (galluoedd* yn y Saesoneg) am eu bod yn fawr ac yn enwog mewn meddiannau ac awdurdod: ‡ ïe, pob graddau isel, yn gystal ag uchel o grëaduriaid, i lawr hyd at y pryfyn lleiaf a gwaelaf, a ddygwyd i fod gan ei allu crëawl ef fel eu hachos cyntefig: || a chrëwyd yr oll o honynt, o'r mwyaf hyd y lleiaf, nid yn unig "trwyddo ef," ond hefyd "erdd o ef," fel eu dyben eithaf; fel y caffo ef yn undeb y Tad a'r Ysbryd, mewn rhyw fodd a'i g lydd, ei ogoneddu ynddynt a thrwyddynt, fel gwaith ei law ef, ac fel pethau a wnair yn wasanaethgar i fwriadau ei deyrnas gyfryngol ef. *Thronau, arglwyddiaethau, tywysogaethau*, a *meddiannau*, ydynt enwau a ddefnyddir yn fynych i arwyddo y graddau uchelaf o angelion, am y rhai nis gwyddom ni farwolion ond ychydig; ac efallai mai angelion a feddylir yn benaf yma: ond gan fod y geiriau hefyd yn arwyddo gwahanol raddau yn mhlith dynion, nis gall fod yn anmhriodol i gynnwys dynion yma, yr hyn a ehanga y mater byth yn fwy.

17 * Ac y mae [e] efe cyn pob peth, [f] † ac yndd o ef y mae pob peth yn cyd-sefyll.

e adn. 15. Diar. 8. 22, 23. Es. 43. 11—13. a 44. 6. Mica 5. 2. Ioan 1. 1, 2. a 8. 58. a 17. 5. Heb. 13. 8. Dat. 1. 8, 11, 17. a 2. 8. f 1 Sam. 2. 8. Salm 75. 3. Ioan 5. 17, 18. Act. 17. 28. Heb. 1. 3.

* Os *erddo* ef y crëwyd pob peth, rhaid ei fod ef ei hun goruwch pob peth, yn Dduw bendigedig: ac os *trwyddo* ef y crëwyd pob peth, rhaid ei fod ef ei hun cyn pob peth, yn hanfodi er tragywyddoldeb; oblegid cyn pob peth crëedig, nid oedd ond Duw a thragywyddoldeb. † Ac ynddo ef Crëawdwr pob peth, y mae pob peth a grëwyd yn cyd-sefyll; neu yn cael eu cadw a'u cynnal mewn bod a threfn: heb ei allu cynnaliol ef, byddai raid i bob peth syrthio i dryblith, neu ddihanfodiad: nid oes a all gynnal ei hun ond Duw yn unig. Efallai nad oes dichon arfer geiriau cryfach, i osod allan allu crëawl a chynnaliol, Pen-arglwyddiaeth hollawl, a gwir Dduwdod, nac a ddefnyddir yn yr adnodau uchod; a gwell i Sociniaid ac Ariaid eu credu fel y maent, na rhyfygu eu dirdynu a'u cam-egluro, i geisio gwadu gwir Dduwdod y bendigedig Arglwydd Iesu, rhag y dywed efe yn y diwedd wrthynt, "Pwy a geisiodd hyn ar eich llaw chwi?"

18 * Ac [g] efe yw pen corph yr eglwys: † *efe* yr hwn yw [h] y dechreuad, [i] ‡ y cyntafanedig oddi wrth y meirw; [k] || fel y byddai efe yn blaenori ym mhob peth.

g adn. 24. pen. 2. 10—14. 1 Cor. 11. 3. Eph. 1. 10, 22, 23. a a 4. 15, 16. a 5. 23. h Ioan 1. 1. 1 Ioan 1. 1. Dat. 1 8. a 3. 14. a 21. 6. a 22. 13. i Ioan 11. 25, 26. Act. 26. 23. 1 Cor. 15. 20—23. Dat. 1. 5, 18. k Salm 45. 2—5. a 89. 27. Can. 5. 10. Es. 52. 13. Mat. 23. 8. a 28. 18, 19. Ioan 1. 16, 27. a 3. 29—31, 34, 35. Rhuf. 8. 29. 1 Cor. 15. 25. Heb. 1. 5, 6. Dat. 5. 9—13. a 11. 15. a 21. 23, 24.

* Y Person dwyfol a gogoneddus uchod yw "Pen corph yr eglwys" hefyd: nid yn unig Pen mewn llywodraeth, awdurdod, ac arweiniad, fel y mae brenin yn ben ei ddeiliaid, neu y gŵr yn ben y wraig; ond mae efe hefyd yn ben o ddylanwad bywiol, trwy ei air a'i Ysbryd, fel mae y pen naturiol i'r corph naturiol; ac o hóno ef mae bywyd ysbrydol, ymgeledd, cynnydd, a bywiogrwydd, yn cael eu gweinyddu i'r holl aelodau. Mae hyn yn perthyn i'w sefyllfa gyfryngol ef, yr hon a gymerodd efe yn wirfoddol, ac a ddygodd arno mewn dynoliaeth. † Efe hefyd yw y Dechreuad, Awdwr a Ffynon bywyd ysbrydol a thragywyddol i'w bobl, yr Adgyfodiad a'r bywyd, i'r corph ac i'r enaid hefyd. ‡ Ac efe yw y Cyntaf-anedig oddi wrth y meirw; y cyntaf a gyfododd nid i farw mwyach; Blaen-ffrwyth ei bobl, yr hwn a gyfododd i etifeddu yr orsedd gyfryngol, fel eu Machnïydd hwynt ac er eu lles. || Fel hyn yr oedd wedi ei fwriadu yn amlwg, oddi ef gael y flaenoriaeth yn mhob peth, ac yn yr holl fydoedd, ac yn mhob ystyr; o ran crëadigaeth, rhagluniaeth, prynedigaeth, mawredd hanfodol, pen-arglwyddiaeth gyffredinol, awdurdod gymmeredig a rhoddedig iddo, rhagoriaeth personol, ac amlygiad o Hollalluawgrwydd; fel Gorchfygwr angau, a'r hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo: mae y flaenoriaeth iddo ef yn y byd ac yn yr eglwys; a bob crëadur gweledig ac annweledig; yn y nef ac ar y ddaear, am amser ac i dragywyddoldeb; ac iddo ef yr unig y byddo y flaenoriaeth byth, Amen.

19 * Oblegid [l] rhyngodd bodd *i'r Tad* † drigo o bob cyflawnder ynddo ef;

l pen. 2. 3, 9. a 3. 11. Mat. 11. 25, 27. Luc 10. 21, 22. Ioan 1 16. a 3. 34. Eph. 1. 3, 23. a 4. 10, 11.

* Beth bynnag ydyw Mab Duw fel ceidwad pechad uriaid, a pha bethau bynag sydd ynddo ef er iachawd wriaeth pechaduriaid; mae hyny oll o wir ewyllys Tad, ac o'i osodiad ef yn y cyngor a'r cyfammod tra gywyddol: † ac fel hyny "rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef;" pob cyflawnder o allu dwyfol, awdurdod, gwybodaeth, doethineb, cyfiawnder sancteiddrwydd, gwirionedd, trugaredd, gras, ïe, holl gyflawnder Duw. Mae hyn oll ynddo ef i'w weithredu a'i gyfranu trwy y ddynoliaeth, neu trwy yr undeb rhwng y Duwdod a'r ddynoliaeth yn ei Berson rhyfedd ol ef; fel y caffo yr eglwys, o'i gyflawnder ef, dderbyn diwallrwydd helaeth o bob peth sydd yn angenrheidio i bob credadyn. Yn pen. 2. 9, dywedir fod "holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio ynddo ef yn gorph orol:" yr oedd hyny yn wir angenrheidiol iddo e fel Cyfryngwr, ac er ein hiachawdwriaeth ni; ond nid am ei gyflawnder *hanfodol* ef fel *Duw* y dywedir yma eithr am y cyflawnder a *roddwyd* ynddo fel *Cyfryngwr* i'w gyfranu i'w bobl er iachawdwriaeth: nid yw y cyntaf na derbyniedig nâ chyfraniadol; ond mae y ail yn dderbyniedig ac i'w gyfranu: o'r cyflawnder hwn y derbyniasom ni oll, a gras am ras.

20 * Ac (wedi iddo [m] wneuthur heddwch trwy waed ei groes ef) † trwyddo ef [n] gymodi pob peth âg ef ei hun, ‡ trwyddo ef *meddaf*, pa un bynnag ai [o] pethau ar y ddaear ai pethau yn y nefoedd.

m adn. 21, 22. Lef. 6. 30. Salm 85. 10, 11. Es. 9. 6, 7. Eze 44. 17, 20. Dan. 9. 24—26. Mica 5. 2, 5. Zec. 9. 9, 10. Luc 2. 14 Act. 10. 30. Rhuf. 5. 1. 2 Cor. 5. 19—21. Eph. 2. 13—17. Heb. 13 20, 21. 1 Ioan 4. 9, 10. n 2 Cor. 5. 18. Heb. 2. 17. o Eph 1. 10. Phil. 2. 10.

* Fel hyn rhyngodd bodd i bob cyflawnder, i'r cyf lawnder dechreuol, anfeidrol, ac annyhysbyddawl Fod a pherffeithrwydd, neu i gyflawnder y Duwdod drigo yn Nghrist, er lles ac er adeiladaeth ei eglwys fel wedi gwneuthur heddwch, neu osod y sylfaen gymmod anrhydeddus pechaduriaid âg ef ei hun "trwy waed ei groes ef," a'r iawn a wnaed ar y groes gyfiawnder dwyfol; † y gallai efe trwy, ac ar sail y iawn hwnw, gymmodi pechaduriaid o bob oes a chen edl, yn weithredol âg ef ei hun. ‡ Yr oedd ysbryd oedd y rhai cyfiawn, y rhai oedd y pryd hwnw yn y ne yn ddyledus am eu cymmod i'r hyn a wnaeth y Gwa redwr drostynt; ac yr oedd pawb ar y ddaear, Iuddew on a chenedloedd, y rhai a gredent yn Nghrist, yn cae eu cymmodi â Duw trwy eu hundeb âg ef, a thrwy rhan oedd iddynt yn ei aberth a'i waed ef. Mae y debyg mai felly y dylem ddeall y "pob peth ar y ddaea ac yn y nefoedd;" oblegid, er caniatâu fod yr angelio yn dyfod yn un teulu â'r gwaredigion trwy Grist; et nis gellir dywedyd ddarfod eu cymmodi hwy â Duw am na buont erioed yn elynion iddo. Duw Dad syd yn cymmodi, pechaduriaid edifeiriol sydd yn cael e cymmodi âg ef; ac aberth Crist yw y modd, neu ffordd drwy ba un mae y cymmod yn cael ei wneyd.

21 * A chwithau, y rhai [p] oeddych ddi eithriaid, † a gelynion mewn meddwl ‡ trw weithredoedd drwg, || yr awrhon hefyd a gym mododd efe,

p Rhuf. 1. 30. a 5. 9, 10. a 8. 7, 8. 1 Cor. 6. 9—11. Eph. 2. 2, 12, 19. a 4. 18. Tit. 3. 3—7. Iago 4. 4.

* Yr oedd y Colossiaid crefyddol wedi bod wr

tur yn ddïeitnriaid i Dduw a'i wasanaeth, † ïe, yn
ynion greddfol iddo yn eu meddyliau a'u calonau,
ac yn dangos hyny yn ddigon amlwg mewn gweith-
oedd drwg; fel ag yr haeddasant yn gyfiawn iddo ef
yddwyn tuag atynt fel gelynion: || eto yn nghyfoeth
awr ei drugaredd yn Nghrist Iesu, yr oeddynt hwy yn
yr wedi eu dwyn i ystâd o gymmod a heddwch âg ef.

22 [q] * Y'nghorph ei gnawd ef trwy farwol-
eth, [r] † i'ch cyflwyno chwi yn sanctaidd, ac
n ddifeius, ac yn ddïargyhoedd, [s] ger ei fron ef:

q Rhuf. 7. 4. Eph. 2. 15, 16. Heb. 10. 10, 20. r 2 Cor. 11.
Eph. 1. 4. a 5. 27, 1 Thes. 4. 7. Tit. 2. 14. 2 Pedr 3. 14. Judas
4. s Job 15. 15. a 25. 5. Salm 51. 7. Heb. 13. 21.

* Mae y cymmod hwn rhwng Duw â phechaduriaid
h cael ei wneyd yn nghorph ei gnawd ef, sef Iesu; yn
corph a gymmerodd efe o'n natur ni, fel y gallai fod
a ddarostyngedig i ddyoddefaint ac angau, fel aberth
gyfiawnder dwyfol am bechodau dynion. Mewn can-
rniad i hyn y pregethwyd yr efengyl yn eu plith
wynt, y Colossiaid, ac y cawsent eu tueddu i'w
nredu hi: fel hyn cawsent eu cyfiawnâu trwy ffydd,
chawsent heddwch â Duw trwy Iesu Grist; a
ygwyd hwy hefyd i garu a gwasanaethu Duw trwy
ymmod caruaidd o'r ddwy ochr. † Dyben hyn oll
edd, fel y caent hwy o'r diwedd eu cyflwyno i Dduw
n berffaith sanctaidd, yn ddifeïus, ac yn gwbl ddïar-
yhoedd, ger ei fron ef; wedi gwneyd eu sancteiddiad
dòr berffaith, ag y gwnaethid eu cyfiawnâd pan gred-
sent.

23 * Os [t] ydych yn parhâu yn y ffydd,
wedi eich [u] seilio a'ch sicrhâu, † ac heb eich
symmud oddi wrth [y] obaith yr efengyl, yr
non a glywsoch, ‡ *ac* a bregethwyd ym mysg
pob creadur a'r sydd [a] dan y nef; [b] || i'r hon
'm gwnaethpwyd i Paul yn weinidog:

t Salm 92. 13, 14. a 125. 5. Ezec. 18. 26. Hos. 6. 3, 4. Zeph.
. 6. Mat. 24. 13. Luc 8. 13—15. a 22. 32. Ioan 8. 30—32. a 15. 9,
0. Act. 11. 23, a 14. 22. Rhuf. 2. 7. Gal. 4. 11. a 5. 7. a 6. 9.
Thes. 3. 5. Heb. 3. 6, 14. a 4. 14. a 10. 38. 1 Pedr 1. 5. 2 Pedr
. 18—22. 1 Ioan 2. 27. Dat. 2. 10. u pen. 2. 7. Mat. 7. 24, 25.
Luc 6. 48. Eph. 2. 21. a 3. 17. a 4. 16. x Ioan 15. 6. Act. 20.
4. 1 Cor. 15. 58. 1 Thes. 3. 3. y adn. 5. Rhuf. 5. 5. Gal. 5. 5.
Eph. 1. 18. 1 Thes. 5. 8. 2 Thes. 2. 16. Tit. 3. 7. Heb. 6. 19. 1 Pedr
. 3. 1 Ioan 3. 1—3. z adn. 6. Marc 16. 15. Rhuf. 10. 18.
Deut. 2. 25. a 4. 19. Galar. 3. 66. Act. 2. 5. a 4. 12. b adn.
25. Act. 1. 25. a 26. 16. Rhuf. 15. 16. 1 Cor. 4. 1—3. 2 Cor. 3. 6.
a 4. 1. a 5. 18—20. a 6. 1. a 11. 23. Eph. 3. 7, 8. 1 Tim. 1. 12. a 2.
7. 2 Tim. 1. 11, 12. a 4. 5, 6.

* Fel hyn y byddai yn sicr gyda phob un a barâi yn
y broffes a'r ymarferiad o ffydd yn Nghrist, fel adeilad
wedi ei seilio a'i sicrâu yn ddïysgog ar sylfaen gadarn;
† ac felly heb gael eu symmud gan ofn dyn, neu un-
rhyw hudoliaeth neu demtasiwn, oddi wrth obaith y
bywyd tragywyddol, yn ol gwirionedd yr efengyl yr hon
a glywsent hwy, ‡ ac yr hon a orchymynodd yr Ar-
glwydd Iesu ei phregethu yn mysg pob creadur a'r
sydd dàn y nef, ac oedd y pryd hwnw wedi cael ei
phregethu yn helaeth iawn, yn mhlith Iuddewon a
chenedloedd yn ddiwahaniaeth: || ac i'r efengyl hon yr
oedd Paul wedi ei wneuthur yn weinidog ac yn apos-
tol, yn enwedig i'r cenedloedd, a hyny yn ddigyfrwng
gan Iesu Grist ei hun. Gellid darllen dechreu yr ad-
nod, "*Gan eich bod* yn parâu, &c.," yn arwyddo hyder
yr apostol yn mharâd y Colossiaid, oddi ar eu diysgog-
rwydd hwy hyd yn hyny.

24 * Yr hwn ydwyf yn awr [c] yn llawen-
ychu yn fy nïoddefiadau drosoch, [d] † ac yn
cyflawni yr hyn sydd yn ôl o gystuddiau Crist
yn fy nghnawd i, [e] ‡ er mwyn ei gorph ef, yr
hwn yw yr eglwys:

c Mat. 5. 11, 12. Act. 5. 41. Rhuf. 5. 3. 2 Cor. 7. 4. Eph. 3.
1, 13. Phil. 2. 17, 18. Iago 1. 2. d 2 Cor. 1. 6—8. a 4. 8—12.
a 11. 23—27. Phil. 3. 10. 2 Tim. 1. 8. a 2. 9, 10. e Gwel ar
adn. 18.

* Yr oedd dyoddefiadau yr apostol yn dyfod arno yn
benaf am bregethu i'r cenedloedd; ond wrth weled
effeithiau bendithiol ei weinidogaeth ef a'i frodyr ar y
cenedloedd, yr oedd efe yn llawenychu yn yr hyn ol
oedd yn ddyoddef yn eu hachos ac er eu mwyn hwynt:
† oblegid yr oedd efe fel hyny yn cyflawni yr hyn oedd
yn ol o gystuddiau Crist yn ei gnawd ef. Yr oedd
cystuddiau Crist ei hun yn berffaith ddigonol er pryn-
edigaeth ei gorph ef, yr eglwys, ac yn iawn o anfeidrol
werth; ac nis gallasai cystuddiau yr apostol wneyd i
fynu y diffyg mewn un mesur, pe buasai ddiffyg yn
bod. Ond yr oedd yn rhaid derbyn y cymmod trwy
iawn Crist; trwy ffydd yr oedd ei dderbyn; ffydd oedd
yn dyfod trwy glywed; clywed trwy bregethu; ac yr
oedd pregethu yn y dyddiau hyny yn gyssylltiedig an-
wahanol â dyoddef: ‡ felly yr oedd cystuddiau yr apos-
tol yn ei gnawd er lles i'r eglwys, yn angenrheidiol yn
eu lle, ac nis gellid bod hebddynt. Fel hyn yr oedd
efe yn cyflawni yr hyn oedd yn ol o gystuddiau Crist
yn ei gorph ef; fel y mae dyoddefiadau merthyron a
duwiolion yn gyffredin, yn gwneyd i fynu un swm neu
gasgliad o gystuddiau a phoen, gyda'r eiddo Crist, Pen
yr eglwys; y rhai ydynt oll yn angenrheidiol, ac yn tu-
eddu mewn gwahanol ffyrdd, er iachawdwriaeth gyf-
lawn yr holl gorph. Mae rhyw fesur o gystuddiau
wedi eu trefnu i bob aelod, ac fel mae yr holl aelodau
mewn undeb â Christ eu Pen, ei gystuddiau ef yw eu
holl gystuddiau hwynt. Cyflawni *bob yn ail,* neu *bob
un yn ei dro,* meddant, yw ystyr y gair gwreiddiol;
(antanaplêrô;) bu Crist yn dyoddef er prynedigaeth
Paul, yn awr yr oedd yntau yn dyoddef er gogoniant
Crist: neu, fel y bu ef yn peri i eraill ddyoddef yn
achos Crist gynt, felly yr oedd yntau yn dyoddef yn
yr un achos yn ei dro yn awr; a'r cwbl oll yn gystudd-
iau Crist.

25 * I'r hon [f] y'm gwnaethpwyd i yn wein-
idog, [g] † yn ol goruchwyliaeth Duw, ‡ yr hon
a roddwyd i mi || tu ag attoch chwi, § i gyf-
lawni gair Duw.

f Gwel ar b. adn. 23.—1 Thes. 3. 2. 1 Tim. 4. 6. g Rhuf.
15. 15—18. 1 Cor. 9. 17. Gal. 2. 7, 8. Eph. 3. 2.

* I'r hon eglwys y gwnaethid Paul yn weinidog,
(nid yn Arglwydd,) mewn modd digyfrwng gan yr Ar-
glwydd Iesu Grist ei hun, † yn ol goruchwyliaeth,
(oikonomian) neu drefn anfeidrol rasol a sanctaidd
Duw, yr hon a sefydlodd efe yn ei deulu, neu ei eg-
lwys. ‡ Yn ei ryfedd ras, efe a ymddiriedodd yr oru-
chwyliaeth bwysig hon i Paul, yr hwn a fuasai gynt
yn erlidiwr; || a hyny yn enwedig tuag at y cenedloedd,
er eu dychweliad, eu hadeiladaeth, a'u hiachawdwri-
aeth: § ac felly i gyflawni ei air prophwydoliaethol
ef am alwad y cenedloedd. (Esa. 11. 10, a 42. 1;
Zech. 2. 11; Mal. 1. 11.) Neu ynte, i gyflawn bre-
gethu gair Duw, mynegi ei holl gyngor ef. "Tuag
atoch *chwi:*" y cenedloedd a feddylir yn ddïau, o ba rai
yr oedd y Colossiaid yn rhan; oblegid ni ddywedir yn
unlle fod Paul wedi bod erioed yn Colossa y pryd
hwn: ac wrth ei ddystawrwydd ef ei hun am hyny yn
yr holl epistol hwn, mae yn debyg na bu. Gwel ar
pen. 2. 1.

26 * *Sef* y [h] dirgelwch † oedd guddiedig er
oesoedd ac er cenhedlaethau, [i] ‡ ond yr awrhon
a eglurwyd i'w saint ef:

h Rhuf. 16. 25, 26. 1 Cor. 2. 7. Eph. 3. 3—10. i Salm 25.
14. Mat. 13. 11. Marc 4. 11. Luc 8. 10. 2 Tim. 1. 10.

* Yr oedd "gair Duw," yr hwn oedd yn cael ei gyf-
lawni yn ngweinidogaeth Paul, ac yr hwn yr oedd ef yn
ei gyflawni bregethu, (adn. 25, §) yn cynnwys dirgel-
wch; yn un peth fel yr oedd yn cynnwys anchwiliadwy
olud Crist, a threfn ryfeddol Duw o gadw pechaduriaid
trwy Grist; ac hefyd fel yr oedd † yn guddiedig i radd-
au mawr, er oesoedd a chenedlaethau dàn y ddeddf, fel
nas gwyddai y cenedloedd ddim am dano, ac nid oedd
yr Iuddewon chwaith yn ei ddeall ond yn brin iawn
dàn yr hen oruchwyliaeth o'r blaen. ‡ Ond yr awr
hon, pan oedd Paul yn ysgrifenu, yr oedd wedi ei eg-
luro, cyn belled ag y goddefai natur pethau ei egluro,
i saint Duw o Iuddewon a chenedloedd. Yr oedd wedi

ei "egluro i'w sanctaidd apostolion a'i brophwydi ef trwy yr Ysbryd;" (Ephes. 3. 5;) a thrwyddynt hwythau i'r holl saint. Wrth *ddirgelwch*, yma, fel mewn amryw fànau eraill, mae i ni ddeall galwad y cenedloedd; yr hyn oedd o'r blaen i raddau mawr yn ddirgelwch i bawb, ond oedd yn awr wedi ei gwbl egluro. Nis gellid dywedyd ei fod yn ddirgelwch o'r blaen, am nad oedd crybwylliadau o'r fath beth; oblegid yr oedd lliaws o brophwydoliaethau eglur yn ŷr Hen Destament am alwad y cenedloedd yn nyddiau y Messïah, neu dàn oruchwyliaeth yr efengyl: ond nis gwyddai y cenedloedd eu hunain ddim am y prophwydoliaethau hyny gynt; ac o herwydd eu dallineb a'u rhagfarn, nid oedd, ac ni fynai yr Iuddewon eu deall yn eu hystyr iawn a phriodol, nes y gorfu arnynt eu deall yn y cyflawniad o honynt. Hefyd gellir galw athrawiaeth yr efengyl yn *ddirgelwch;* nid yn unig o herwydd ei bod felly i'r dyn anianol, yr hwn yn ei gyflwr natur "nis gall ei gwybod;" (1 Cor. 2. 14;) ond hefyd o herwydd y dyfnderoedd annhreiddiadwy o ddoethineb, rhyfeddodau, a gras, sydd yn gynnwysedig ynddi, y rhai nis gall y saint eu hunain eu deall yn berffaith yn yr ystâd anmherffaith hon.

27 * I'r [k] rhai yr ewyllysiodd Duw † hysbysu beth yw [l] golud gogoniant y dirgelwch hwn ym mhlith y Cenedloedd; ‡ yr hwn yw [m] Crist ynoch chwi, [n] gobaith y gogoniant:

k 1 Cor. 2. 12—14. 2 Cor. 2. 14. a 4. 6. Gal. 1. 15, 16. l pen. 2. 3. Rhuf. 9. 23. a 11. 33. Eph. 1. 7, 17, 18. a 3. 8—10, 16. Phil. 4. 19. m pen. 3. 11. Luc 17. 21. Ioan 6. 56. a 14. 17, 20, 23. a 15. 2—5. a 17. 22, 23, 26. Rhuf. 8. 10. 1 Cor. 3. 16. 2 Cor. 6. 16. Gal. 2. 20. a 4. 19. Eph. 2. 22. a 3. 17. 1 Ioan 4. 4. Dat. 3. 20. n adn. 5. Salm 16. 9—11. Rhuf. 5. 2. a 8. 18, 19. 2 Cor. 4. 17. 1 Pedr 1. 3, 4.

* I'r rhai, sef "i'w saint ef," (adn. 26,) y rhyngodd bodd i Dduw o'i wir ewyllys da, yn ol ei arfaeth dragywyddol, ac yn ol hen brophwydoliaethau dàn oruchwyliaeth yr Hen Destament, † hysbysu, a gwneyd datguddiad amlwg, o annhraethol olud ei drugaredd a'i ras, yn gystal â gogoniant ei holl briodoliaethau, "yn y dirgelwch hwn yn mhlith y cenedloedd." Hysbysodd Duw beth oedd golud gogoniant ei ras, yn ngalwad y cenedloedd; yr hyn oedd "ddirgelwch" o'r blaen: a hysbysodd beth oedd golud gogoniant ei ras, yn athrawiaeth yr efengyl; yr hon oedd ac sydd "ddirgelwch," fel y sylwyd dàn yr adnod o'r blaen: hysbysodd beth yw golud gogoniant, neu ogoniant goludog, yr efengyl ragorol ac anamgyffredadwy, a hyny yn mhlith y cenedloedd. ‡ Mae holl olud gogoniant y dirgelwch hwn wedi ei symio i fynu, ac yn gynnwysedig yn Nghrist; yr hwn a bregethwyd yn mhlith y cenedloedd, ac yr hwn, fel mae yn trigo yn nghalonau ei bobl trwy ei Ysbryd a thrwy ffydd, sydd yn awdwr a sylfaen eu holl obaith am ogoniant a bywyd tragywyddol.

28 [o] * Yr hwn yr ydym ni yn *ei* bregethu, [p] † gan rybuddio pob dyn, [q] ‡ a dysgu pob dyn [r] ym mhob doethineb; || fel y [s] cyflwynom bob dyn yn [t] berffaith yng Nghrist Iesu:

o Act. 3. 20. a 5. 42. a 8. 5, 35. a 9. 20. a 10. 36. a 11. 20. a 13. 38. a 17. 3, 18. Rhuf. 16. 25. 1 Cor. 1, 23. a 15. 12. 2 Cor. 4. 5. a 10. 14. Eph. 3. 8. Phil. 1. 15—18. 1 Tim. 3. 16. p Jer. 6. 10. Ezec. 3. 17—21. a 33. 4—9. Mat. 3. 7. Act. 20. 26, 27, 31. 1 Cor. 4. 14. 1 Thes. 4. 6. a 5. 12—14. q Deut. 4. 5. Ezra 7. 10. Preg. 12. 9. Mat. 28. 20. Marc 6. 34. Eph. 4. 11. 1 Tim. 3. 2. 2 Tim. 2. 24. r Diar. 8. 5. Jer. 3. 15. Luc 21. 15. 1 Cor. 2. 6, 15. a 12. 8. 2 Pedr 3. 15. s Gwel ar adn. 22. t pen. 2. 19. 1 Cor. 1. 30. Eph. 4. 12, 13. Heb. 10. 14. a 13. 21.

* Y "Crist," y Gwaredwr grasol a bendigedig hwn, oedd testyn mawr, a sylwedd gweinidogaeth Paul a'i gyfeillion yn wastad ac yn mhob màn; Crist, a hwnw wedi ei groeshoelio, a bregethent hwy fel unig a digonol geidwad i bechaduriaid o Iuddewon a chenedloedd: † fel hyn hwy a rybuddient bob dyn i ffoi i'r noddfa hon rhag y llid a fydd, ac oddi wrth bob ymddiried a gau loches arall; a rhybuddient bob dyn i ochelyd pob huddliaeth a chamsynied mewn mater mòr fawr, ac i ochelyd pob peth a dueddai i'w tynu hwy i unrhyw ymarweddiad anaddas i'r efengyl hon: ‡ a hwy a ddysgent bob dyn yn mhob doethineb, ac yn mhob peth a dueddai i'w gwneyd hwy yn ddoeth i iachawdwriaeth, ac yn ddoeth i wasanaethu Duw a chadw eu lle yn eu gwahanol sefyllfâoedd. || Yr oeddynt yn ddiwyd ac yn ffyddlawn yn hyn hyd eithaf eu gallu oblegid yr oeddynt yn chwennych uwchlaw pob peth arall, gyflwyno pob dyn a'u gwrandawai, yn berffaitl yn Nghrist Iesu, wedi eu perffaith gyfiawnâu, eu perffaith ddysgu, ac o'r diwedd wedi eu perffaith sanctei ddio. Y *pob dyn* a enwir dair gwaith yma, a'r *pob creàdur a'r sydd dàn y nef* yn adn. 23, nis gallant fedd wl yr holl bersonau o ddynolryw yn hollawl; eithr am lwg yw yr arwyddant Iuddewon a chenedloedd yn ddi wahaniaeth, i ba rai y pregethai yr apostol Grist, fel y gallai eu perffeithio hwynt oll ynddo ef, heb wahaniaeth cenedl, neu roddi y flaenoriaeth i'r naill rhagor y llall.

29 * Am yr hyn yr ydwyf hefyd [u] yn llafurio, [x] † gan ymdrechu [y] ‡ yn ol ei weithrediad ef, yr hwn sydd yn gweithio ynof fi yn [z] nerthol.

u pen. 4. 12. 1 Cor. 15. 10. 2 Cor. 5. 9. a 6. 5. a 11. 23. Phil. 2. 16. 1 Thes. 2. 9. 2 Thes. 3. 8. 2 Tim. 2. 10. Dat. 2. 3. x pen. 2. 1. Luc 13. 24. Rhuf. 15. 20, 30. 1 Cor. 9. 25—27. Phil. 1. 27, 30. Heb. 12. 4. y 1 Cor. 12. 6, 11. Eph. 1. 19. a 3. 7, 20. Phil. 2. 13. Heb. 13. 21. z 2 Cor. 12. 9, 10. a 13. 3.

* Yn y gwaith, ac am y dyben mawr a phwysig uchod, yr oedd yr apostol yn "llafurio" gyda diwydrwydd diflino, mewn gweddio a phregethu hyd y gallai ac mewn gweddïo ac ysgrifenu pryd nas gallai gael rhyddid i bregethu. † Yr oedd yn "ymdrechu" yn wyneb llawer o wendid, anhawsderau, a pheryglon, fel yr ymdrechwyr egniol yn y campau Groegaidd gynt, droi pechaduriaid at Grist, ac i gadarnâu y saint mewn gwybodaeth, ffydd, a sancteiddrwydd. ‡ Eto, nid oedd y dyfalwch, y llafur, a'r ymdrech hyn o hóno ef ei hun eithr yn ol gweithrediad gallu Duw ar ei enaid, || y hwn oedd yn gweithredu yn dra nerthol ynddo ef; yn ennyn dymuniadau cryfion a gwresog am Dduw ac iachawdwriaeth eneidiau; yn cyfranu nerth a bywiogrwydd i bob serchiadau sanctaidd; yn ei dderchafu e uwchlaw dybenion isel a hunanol; ac yn ei gynnal e mewn dianwadalwch, amynedd, a gwroldeb siriol, yn nghanol cyfyngderau ac erledigaethau. Tybia rhamai y gallu gwyrthiol a roid i'r apostol yn unig feddylir wrth y nerthol weithrediad hyn; ond rhaid bawb weled fod agoriad felly yn dystrywio grym, ac yn tywyllu meddwl y geiriau yn gwbl. O na byddai i'r fath ymadrodd lenwi enaid pob gweinidog a'i darlleno â dymuniad i ddefnyddio ei *ryddid* i'r dybenion goreu ac ymdrech fel yr apostol, yr hwn oedd yn awr mewn *caethiwed,* yn mhob modd i achub eneidiau!

PEN. II.

Y mae efe eto yn eu hannog hwy i fod yn ddianwadal yn Nghrist.

* CANYS mi a ewyllysiwn i chwi wybod [a] pa faint o ymdrech sydd arnaf er eich *mwyn* chwi, † a'r rhai [b] yn Laodicea, ‡ a chyn nifer ag [c] ni welsant fy wyneb i yn y cnawd

a pen. 1. 24, 29. a 4. 12. Gen. 30. 8. a 32. 24—30. Hos. 12. 3. 4. Luc 22. 44. Gal. 4. 19. Phil. 1. 30. Heb. 5. 7. b pen. 4. 13. 15, 16. Dat. 1. 11. a 3. 14—22. c adn. 5. Act. 20. 25, 38. 1 Pedr 1. 8.

* Gwedi sôn am ei ymdrech yn achos "pob dyn" yn gyffredin, yn niwedd y bennod o'r blaen; mae yr apostol yma yn ewyllysio i'r cristionogion yn Colossi wybod pa hiraeth a gofal calon a brofasai efe, a pha ymdrechiadau grymus a gweddïau taerion a wnaeth ef drostynt ac yn eu hachos hwy; † a'r cristionogion yn Laodicea eu tref gymmydogawl, ‡ a'r holl eglwysi a credinwyr eraill, y rhai ni welsent ei wyneb ef yn

owd. Wrth yr adnod hon mae tebygrwydd o leiaf, buasai yr apostol erioed yn Colossa y pryd hwn.

2 [d] * Fel y cysurid eu calonnau hwy, † wedi eu cyd-gyssylltu mewn cariad, ac i bob golud [g] sicrwydd [h] deall, ‖ i gydnabddiaeth dirgelwch Duw, [i] a'r Tad, a Christ;

d pen. 4. 8. Es. 40. 1. Rhuf. 15. 13. 2 Cor. 1. 4—6. 1 Thes. 3. 5. 14. 2 Thes. 2. 16, 17. e pen. 3. 14. Salm 133. 1. Ioan 7. 21. Act. 4. 32. Gal. 3. 28. Phil. 2. 1. 1 Ioan 4. 12, 16. f Gwel men. 1. 27. g 1 Thes. 1. 5. Heb. 6. 11. a 10. 22. 2 Pedr 1. 10 1 Ioan 3. 19. h Ioan 6. 69. a 17. 3. Rhuf 16. 25. 1 Cor. 2. 2 Eph. 1. 17—19. a 3. 9, 10. Phil. 3. 8. 2 Pedr 1. 3. a 3. 18. en. 1. 15—17. Es. 53. 11. Jer. 9. 24. Mat. 11. 25, 27. Luc 10. 22. Ioan 1. 1—3. a 5. 17, 23. a 10. 30, 38. a 14. 9—11. a 16. 15. 7. 21—23. 1 Tim. 3. 16.

* Yr oedd efe yn ymdrechu yn ddifrifol gyda Duw rwn gweddi, hyd yn nôd dros y rhai ni welsai erioed y cnawd, fel y cysurid eu calonau hwynt â dyddan- Duw, yn eu holl orthrymderau, ac yn eu holl ledswyddau; † ac fel y cyd-gyssylltid hwy yn y cariad ffeithiaf tuag at eu gilydd; fel y byddai i bob cen- enau, dïalau, drwg-dybiau, a chyd-ymrysonau, gael caead allan; y rhai oddigerth hyny, a fyddent yn r o feichio ac archolli eu cydwybodau hwynt, tânio nwydau, tristâu yr Ysbryd Glân, a dyfetha eu cysur- ‡ Yn yr undeb brawdol a diffuant hwn, yr oedd yn gweddio a'r iddynt allu cyrhaedd a meddiannu holl oludoedd ysbrydol hyny, y rhai oedd i'w cael wn dealltwriaeth eglur, gyflawn, sicr, a boddlonawl efengyl Crist; yr hyn a gauai allan bob ammheüaeth ohetrusder, gan ei fod yn gyssylltiedig â llawn sicr- ydd ffydd a gobaith. ‖ Fel hyn gallent gydnabod yn derus, ac addef yn gyhoeddus, eu crediniaeth yn nir- lwch Duw, sef y Tad, a Christ, fel yn Un âg ef, yn ol rgelwch mawr duwioldeb, Duw wedi ymddangos yn y nawd. *I bob golud sicrwydd deall:* y deall mwyaf ludog, helaeth, a sicraf o bethau yr efengyl, a feddyl- : ymadrodd rhyfeddol o rymus, a mwy priodol i'r dull ebraeg o lefaru nac i'r Groeg; ac arferir y dull grymus wn gan Paul mewn llawer o fânau heblaw y fân hon.

3 * Yn [k] yr hwn † y mae [l] holl drysorau oethineb a gwybodaeth ‡ yn guddiedig.

k pen. 1. 9, 19. a 3. 16. Rhuf. 11. 33. 1 Cor. 1. 24, 30. a 2. 6— Eph. 1. 8. a 3. 10. 2 Tim. 3. 15—17. l pen. 3. 3. Job 28. 21. ar. 2. 4. Mat. 10. 26. Eph. 3. 9. Dat. 2. 17.

* "Yn yr *hwn*," sef yn "Nghrist," fel Cyfryngwr a nen yr eglwys: neu "yn yr *hyn*," sef yn "nirgelwch uw," † mae holl drysorau goludog ac annyhysbyddad- y perffaith ddoethineb a gwybodaeth; er trin holl hosion teyrnas Iesu mewn rhagluniaeth a gras, er tguddio holl ewyllys Duw am iachawdwriaeth ei bobl, diwallu eu holl angenion ysbrydol hwynt; ac hefyd goleuo eu meddyliau, a'u cyfarwyddo yn eu ffordd a'u odiad trwy holl dywyllwch a pheryglon y bywyd hwn, u harwain yn ddïogel i dragywyddol ogoniant. ‡ Mae : "holl drysorau" hyn yn guddiedig i'r dyn anianol r anghredadyn, ac yn mhell uwchlaw amgyffred y iint eu hunain. Mae y gair *cuddio* hefyd yn arwyddo *rysori*, a chadw mewn diogelwch; a diammau ei fod yn rwyddo hyny yma. "Yn yr *hwn*," neu "yn yr *hyn*:" an mai Crist yw y blaeniedydd *(antecedent)* mwyaf nion-gyrchol, tybir mai am *Grist* y dywedir, ac nid am *dirgelwch;* er y goddef y geiriau Groeg, *(en ô,)* meddint, eu cyfieithu am y naill neu y llall. Mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth Duw yn guddiedig, neu m drysoredig yn Nghrist, ac yn cael eu hamlygu yn wy yn ei Berson a'i iachawdwriaeth ef, nac yn holl eithredoedd eraill y JEHOFAH: ac mae pob gwir doethineb a gwybodaeth yn gynnwysedig mewn deall rediniol, profiadol, ac ymarferol o'r dirgelion hyny, ac n y cyfryw addysgiadau ag sydd yn gasgladwy o hon- nt: ïe, o'r drysorfa hon rhaid i ni dynu pob gwir doethineb a gwybodaeth trwy ffydd a gweddïau; a liwerth iawn yw pob gwybodaeth a philosophi sydd yn rthwyneb i hyn: heb Grist nid oes dim gwir ddoeth- neb.

4 * A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, [m] † fel na thwyllo neb chwi ‡ âg [n] ymadrodd hygoel.

m adn. 8, 18. Mat. 24. 4, 24. Act. 20. 30. Rhuf. 16. 18, 19. 2 Cor. 11. 3, 11—13. Gal. 2. 4. Eph. 4. 14. a 5. 6. 2 Thes. 2. 9—11. 1 Tim. 4. 1, 2. 2 Tim. 2. 16. a 3. 13. Tit. 1. 10, 11. 2 Pedr 2. 1—3. 1 Ioan 2. 18, 26. a 4. 1. 2 Ioan 7. Dat. 12. 9. a 13. 8. a 20. 3, 8. n 1 Cor. 2. 4.

* Yr oedd yr apostol yn dywedyd y pethau uchod, ac yn sefyll yn gadarn arnynt, o wir a mawr ofal am y Colossiaid, ac er eu cadarnâu hwy yn y gwirionedd am wir ddoethineb a gwybodaeth; † rhag i neb o'r gau-athrawon Iuddewaidd, y philosophyddion paganaidd, neu ryw rai eraill pwy bynag, eu twyllo a'u hudo hwy, "megys y twyllodd y sarph Efa trwy ei chyfrwysdra," ac felly llygru eu meddyliau hwy oddi wrth y symlrwydd oedd yn Nghrist. ‡ Yr oedd llawer yn cynniwair trwy yr eglwysi, yn enwedig eglwysi y cenedloedd, i geisio gwneyd hyn â geiriau hygoel, neu â geiriau dênus; y fath ag mae areithwyr cyfrwys yn arfer yn aml, i dwyllo dynion yn eu barn a'u deall, trwy weithio ar eu nwydau a'u teimladau; neu trwy geisio dangos fel gwirionedd, yr hyn oedd mewn gwirionedd yn gyfeiliorni. *Pithanologia* yw y gair Groeg am "ymadrodd hygoel;" yn arwyddo geiriau neu ymadrodd darbwyllawl, hawdd eu coelio, ac felly yn dênu y rhai ni wyddant well. Yma yn unig y defnyddir y gair.

5 * Canys er fy [o] mod i yn absennol yn y cnawd, † er hynny yr ydwyf gyd â chwi yn yr yspryd, yn llawenychu, [p] ‡ ac yn gweled ‖ eich trefn chwi, [q] § a chadernid eich ffydd yng Nghrist.

o adn. 1. 1 Cor. 5. 3, 4. 1 Thes. 2. 17. p 2 Cron. 29. 35. 1 Cor. 11. 34. a 14. 40. q Ruth 1. 18. Salm 78. 8, 37. Act. 2. 42. 1 Cor. 15. 58. a 16. 13. 1 Thes. 3. 8. Heb. 3. 14. a 6. 19. 1 Pedr 5. 9. 2 Pedr 3. 17, 18.

* Er bod yr apostol yn absenol o ran ei gorph oddi wrth y Colossiaid, ac heb eu gweled erioed yn y cnawd, fel y bernir; † eto yr oedd gyda hwynt o ran ei ysbryd, ei galon, a'i feddwl, yn aml iawn; yn myfyrio gyda hyfrydwch ar yr hyn a glywsai efe am eu ffydd, eu cariad, a'u gobaith hwynt; (pen. 1. 4, 5;) ac yn llawenychu yn ei enaid wrth feddwl am hyny: ‡ ac yr oedd yn gweled yn amlwg, oddi ar yr hyn a glywsai, neu oddi ar argraffiadau yr Ysbryd Glân ar ei feddwl, neu trwy ddatguddiad union-gyrchol a gawsai am danynt, fel y tybia rhai:—‖ pa fodd bynag am hyny, yr oedd efe ryw fodd yn gweled eu trefn hwynt; y ddysgyblaeth dda oedd yn eu plith hwy fel eglwys, y dull trefnus a gweddaidd oedd ganddynt gyda holl wasanaeth ac addoliad Duw, ac ymddygiad trefnus a hardd yr aelodau yn gyffredin. § Yr oedd hefyd yn gweled gyda hyfrydwch, gadernid eu ffydd hwy yn Mherson, aberth, cyfryngdod, ac athrawiaeth Crist; yn wyneb holl ddychrynfêydd erledigaethau, a holl ddichellion cyfrwys y gau-athrawon.

6 * Megis gan hynny y [r] derbyniasoch Grist Iesu yr Arglwydd, † *felly* [s] rhodiwch ynddo;

r Mat. 10. 40. Ioan 1. 12, 13. a 13. 20. 1 Cor. 1. 30. Heb. 3. 14. 1 Ioan 5. 11, 12, 20. 2 Ioan 8. 9. s pen. 3. 17. Es. 2. 5. Mica 4. 2. Ioan 14. 6. 2 Cor. 5. 7. Gal. 2. 20. Eph. 4. 1. a 5. 1, 2. Phil. 1. 27. 1 Thes. 4. 1.

* Megys gan hyny y derbyniasent Grist Iesu yr Arglwydd trwy ffydd yn ei Berson a'i swyddau, fel eu Prophwyd i'w dysgu, fel eu Hoffeiriad i gymmodi ac eiriol drostynt, ac fel eu Brenin i'w llywodraethu, ïe, fel eu hunig Arglwydd a'u Gwaredwr; † felly bydded iddynt rodio yn wastadol mewn ymddybyniad arno ac mewn ufudd-dod iddo: bydded iddynt geisio yn barâus eu holl ddoethineb, eu nerth, eu gobaith, eu sancteiddrwydd, a'u cysur o hóno ef; ac yn mhob peth a phob modd, amcanu ei wasanaethu a'i ogoneddu ef.

7 [t] * Wedi *eich* gwreiddio [u] † a'ch adeiladu ynddo ef, [x] ‡ a'ch cadarnhâu yn y ffydd, megis

y'ch dysgwyd, ‖ gan gynnyddu ynddi [r] § mewn
dïolchgarwch.

t pen. 1. 23. Salm 1. 3. a 92. 13. Es. 61. 3. Jer. 17. 8. Ezec. 17. 23, 24. Rhuf. 11. 17, 18. Eph. 3. 17. Judas 12. u Mat. 7. 24, 25. Luc 6. 48. 1 Cor. 3. 9—15. Eph. 2. 20—22. 1 Pedr 2. 4—6. Judas 20. x pen. 1. 23. Rhuf. 16. 25. 1 Cor. 15. 58. 2 Cor. 1. 21. 2 Thes. 2. 17. 1 Pedr 5. 10. 2 Pedr 3. 17, 18. Judas 24. y pen. 1. 12, 13. a 3. 17. Eph. 5. 20. 1 Thes. 5. 18. Heb. 13. 15.

* Gwedi eu gwreiddio fel hyn yn Nghrist, fel prenau mewn daear ffrwythlawn, † ac wedi eu hadeiladu arno ef, fel tŷ ar sylfaen safadwy; ‡ a chwedi eu cadarnâu mewn ffydd fywiol ynddo ef, yn ol yr athrawiaeth yn mha un y dysgwyd hwynt; ‖ hwy a gynnyddent felly fwy-fwy, mewn cadernid chwanegol yn y ffydd hòno, § ac a âent rhagddynt yn eu gyrfa, gyda dïolchgarwch gwresog i Dduw am ei holl ddoniau.

8 [z] * Edrychwch na bo neb [a] yn eich anrheithio † trwy [b] philosophi, ‡ a gwag dwyll, [c] ‖ yn ol traddodiad dynion, [d] § yn ol egwyddorion y byd, ac nid [e] yn ol Crist.

z Deut. 6. 12. Mat. 7. 15. a 10. 17. a 16. 6. Phil. 3. 2. 2 Pedr 3. 17. a adn. 18. Can. 2. 15. Jer. 29. 8. Rhuf. 16. 17. Eph. 5. 6. Heb. 13. 9. 2 Ioan 8. b Act. 17. 18, 32. Rhuf. 1. 21, 22. 1 Cor. 1. 19—23. a 3. 18, 19. a 15. 35, 36. 2 Cor. 10. 5. 1 Tim. 6. 20. 2 Tim. 2. 17, 18. a 3. 13. c adn. 22. Mat. 15. 2—9. Marc 7. 3—13. Gal 1. 14. 1 Pedr 1. 18. d adn. 20. Eph. 2. 2. e Eph. 4. 20.

* Yr oedd yn dra angenrheidiol i'r Colossiaid fod ar eu gwyliadwriaeth rhag i neb wneyd ysglyfaeth o honynt, neu eu hanrheithio hwynt (fel y gwna byddinoedd buddugol â'r rhai a orchfygant,) o'u rhyddid ysbrydol, eu gobaith a'u cysuron: † trwy resymau cyfrwys athroniaeth baganaidd, llawer o'r hyn a gymmysgai yr athrawon Iuddewig â'u crefydd hwy; ‡ a thrwy "wag dwyll," sef pob peth a'u hannogai hwynt i ymddiried mewn pethau nad oeddynt yn werth nac yn deilwng ymddiried ynddynt; ac yn enwedig defodau a seremonïau coel-grefyddol, a phob tybiau a daliadau anfuddiol, y rhai oedd yn ngwrthwyneb i athrawiaeth syml yr efengyl. ‖ Traddodiadau dynion oedd y pethau hyn, wedi eu dychymmygu mewn oesoedd a aethent heibio, a chwedi eu trosglwyddo i lawr o oes i oes, gan athrawon a blaenoriaid y gwahanol bleidiau o philosophyddion; § ac yr oeddynt yn gwneyd i fynu elfenau, neu egwyddorion cyntaf doethineb dybiawl a dychymmygol, gyfaddas i ysbryd a thymher faleh, chwilfrydig, a chnawdol y byd; ond a oedd yn hollawl anghydweddus âg athrawiaeth Crist. Dywedwyd uchod fod yr athrawon Iuddewig wedi cymmysgu eu crefydd â llawer o bethau benthyciol gan y philosophyddion paganaidd; heb i ni dybied rhyw beth felly, bydd yn anodd deall geiriau yr apostol: oblegid yr oedd efe yn llefaru am hudoliaethau philosophyddawl a seremonïau deddfol ar yr un pryd; yr oedd yn dadleu yn erbyn pob un o honynt ar yr un waith: ond yr oedd yn cyfeirio ei resymau yn benaf yn erbyn yr athrawon Iuddewaidd. Y seremonïau Iuddewig a feddylir wrth "egwyddorion y byd." Gwel ar Galat. 4. 3, 9.

9 * Oblegid [f] ynddo ef † y mae holl gyflawnder y Duwdod ‡ yn preswylio ‖ yn [g] gorphorol.

f adn. 2, 3. pen. 1. 19. Es. 7. 14. Mat. 1. 23. Ioan 10. 30, 38. a 14. 9, 10, 20. a 17. 21. 2 Cor. 5. 19. 1 Tim. 3. 16. Tit. 2. 13. 1 Ioan 5. 7, 20. g Luc 3. 22. Ioan 1. 14. a 2. 21.

* Oblegid ynddo ef, sef yn Nghrist Iesu, † y mae y natur ddwyfol, yn nghyd â holl brïodoliaethau y Duwdod anfeidrol yn eu cyflawnder eithaf, ‡ yn preswylio, ac yn aros byth, yn sylweddol yn ei Berson ef wedi ymgnawdoli, ‖ megys yn nheml ei gorph ef, yr hon a breswylir gan y Duwdod mawr, mewn modd personol, ac anfeidrol mwy gogoneddus, nac y preswyliodd erioed yn y babell Iuddewig, nac yn y deml gynt.—Y *Duwdod, cyflawnder* y Duwdod, a *holl* gyflawnder y Duwdod; ydynt eiriau mòr gryfed a ellir braidd ddychymmygu, i ddangos bod y natur ddwyfol, yn nghyd a'i holl berffeithiau, neu brïodoliaethau hanfodol, yr un yn gwbl ag sydd yn y Tad ei hunan, yn preswylio yn sylwedd yn nghorph dynol Iesu. Tybia rhai nad yw y geiria uchod yn arwyddo dim mwy, na bod Duw wedi *gosod* y Nghrist *gyflawnder o ddoniau* i'w cyfranu i ddynion megys pe na byddai yr adnod ddim ond cyfystyr Ioan 1. 16, 17, ac Ephes. 3. 19: ac mae y Sociniaid y ei hiselu eto yn fwy, trwy ddywedyd nad yw yn meddw dim mwy, na bod Crist wedi ei gyflawni â *gwybodaeth berffaith* o ewyllys Duw. Ond mae yn ddïammeüi wirionedd, fel y mae ynddi gyfeiriad amlwg at y *Shechinah* yn yr hwn y preswyliai Duw gynt, felly mae y cyfeirio yn amlwg hefyd, at y *dirgelwch* gogoneddus undeb y *Duwdod* â'r *ddynoliaeth*, yn yr Emmanuel bendigedig; yr hyn sydd yn ei wneyd ef y fath Wrthddryc o ymddiried a gobaith i ni, ag nas gall y *crëadur* mwy dyrchafedig ei ragoriaethau byth fod. *Sómatikôs*, "y *gorphorol:*" hyny yw, yn *nghorph*, neu *ddynoliaeth* Crist, mewn cyferbyniad i'r *babell* a'r *deml* Iuddewig yn *wirioneddol*, mewn cyferbyniad i gysgodau ac allegau; nid yn unig *effeithiol*, neu *ddylanwadol*, fel y preswylia Duw yn y duwiolion, ond yn *sylweddol*, neu *bersonol*, trwy yr undeb agosaf, fel mae yr enaid y preswylio yn y corph, ac eto yr enaid a'r corph ond u person; felly nid yw Duw a dyn yma ond un Crist: os yw yn bosibl i eiriau dynol, osod allan undeb Duwdod â dynoliaeth yn un person, dïammau fod yr adnod hon yn gwneyd hyny.

10 * Ac yr ydych chwi [h] wedi eich cyflawn ynddo ef, † yr hwn yw [i] pen pob tywysogaeth ac awdurdod:

h pen. 3. 11. Ioan 1. 16. 1 Cor. 1. 30, 31. Gal. 3. 26—29. i pen. 1. 16—18. Eph. 1. 21—23. a 4. 15, 16. Phil. 2. 9—11. 1 Pedr 3. 22. Dat. 5. 9—13.

* A'r Colossiaid crediniol, y rhai a'i derbyniasent trwy ffydd, ac a unwyd âg ef fel aelodau o'i gorph dilygeledig; yr oedd iachawdwriaeth gyflawn iddynt ynddo ac o hòno ef fel eu Pen: yr oedd eu holl ddiffygion a hangenion yn cael eu gwneyd i fynu, a phob dïogelwch a bendithion yn cael eu cyflawni yn berffaith; a nad felly eto yn eu personau eu hunain, eto yr oedd felly iddynt ynddo ef, yr hwn y rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ar eu cyfer hwy a'r holl saint. † Ac, yn gyfatebol i fawredd ei berson ef, fel y oedd "holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio ynddo ef yr oedd ef wedi ei dderchafu yn ei sefyllfa swyddol, fod yn ben Arglwydd a Llywodraethwr mawr ar bob graddau a swyddau o ddynolryw; ïe, y graddau uwchaf o angelion gwrthgiliedig, y rhai sydd dàn ei lywodraeth ef fel gelynion wedi eu gorchfygu; (adn. 15;) a ar yr holl angelion sanctaidd, y rhai sydd yn gedyrnu nerth, ond yn hollawl dàn ei lywodraeth ef, ac yn cadw eu danfon ganddo i weini i etifeddion iachawdwriaeth. Nid oedd ar y Colossiaid eisiau dim a'r nas gallent cael ynddo ef; am hyny nid oedd raid iddynt geisio ychwaneg o ddysgeidiaeth, doethineb, cymmorth, neu chefnogrwydd, oddi wrth yr ordeiniadau a'r traddodiadau Iuddewig, nac oddi wrth y doethion paganaidd. Gan fod Iesu hefyd yn Ben ar bob peth, nid oes achos i gredinwyr ofni neb crëaduriaid, nac ymofyn am gymmorth gan un crëadur. Mae eu holl gyflawnder ynddo ef.

11 * Yn [k] yr hwn hefyd y'ch enwaedwyd † âg enwaediad [l] nid o waith llaw, [m] ‡ trwy ddiosg corph pechodau y cnawd, [n] ‖ yn enwaediad Crist:

k Deut. 10. 16. a 30. 6. Jer. 4. 4. Rhuf. 2. 29. Phil. 3. 3. 1 Marc 14. 58. Act. 7. 48. a 17. 24. 2 Cor. 5. 1. Eph. 2. 11. Heb. 9. 11, 24. m pen. 3. 8, 9. Rhuf. 6. 6. Eph. 4. 22. n Luc 21. 2 Cor. 5. 17. Gal. 2. 20. a 4. 4, 5. Eph. 2. 10—18.

* Nid oedd achos nac angen i ddysgyblion Iesu gaiff yr arwydd allanol o enwaediad, mewn trefn i'w cymeradwyaeth gyda Duw, a'u cyflawn iachawdwriaeth oblegid yn Nghrist, a thrwy eu hundeb âg ef, yr oeddyn wedi cael y gwir enwaediad; † yr hwn ni wnaethid gan eu cyrph trwy waith dwylaw dynion, ond ar eu calonau

yr Ysbryd Glân: ‡ ac mewn canlyniad i'r enwaed-
ysbrydol a thufewnol, neu yr ad-genedliad hwn, yr
dynt beunydd ar waith yn dïosg corph pechodau y
wd. Fel hyn yr oeddynt yn ymwrthod â phob
hod, ac yn gwylied rhag pob chwant ac arferiad
hadurus, i'r hyn yr oedd eu tueddiadau llygredig yn
ynhyrfu; ac yr oeddynt yn croeshoelio yr hen ddyn,
ei cenedlwyd o Adda, o ba un yr oedd y chwantau
g hyn yn tarddu; || a hyn oedd y gwir enwaediad,
hwn a wnaethai Crist ei hun ar galonau ei bobl, trwy
Ysbryd Glân. Wrth "enwaediad Crist" yma, y
llir ei waith ef ar galonau ei bobl, yn hytrach nâ'i
waediad personol ef ei hun: er bod hwnw yn rhan
ddarostyngiad cyfryngol ef, trwy yr hyn y caed y
r enwaediad iddynt hwy, ac yn yr hwn y cyd-ffurfir
y âg ef. Yn lle yr arwydd allanol o enwaediad,
dlwyd bedydd; yr hyn a dybia rhai a feddylir wrth
waediad Crist." Yn erbyn yr athrawon Iuddewaidd,
hai a fynent enwaedu y cenedloedd cristionogol,
e yr adnod uchod: nid oedd eisiau hyny.

12 [o] * Wedi eich cyd-gladdu âg ef yn y
edydd, [q] † yn yr hwn hefyd y'ch cyd-gyfod-
d ‡ trwy [r] ffydd gweithrediad Duw, [s] || yr
n a'i cyfododd ef o feirw.

o Rhuf. 6. 4, 5. p Rhuf. 6. 3. 1 Cor. 12. 13. Gal. 3. 27. a. 4. 5. Tit. 3. 5, 6. Heb. 6. 2. 1 Pedr 3. 21. q pen. 3. 1, 2. f. 6. 8—11. a 7. 4. 1 Cor. 15. 20. Eph. 1. 20. a 2. 4—6. a 5. 14. edr 4. 1—3. r Luc 17. 5. Ioan 1. 12, 13. a 3. 3—7. Act. 14. Eph. 1. 19. a 2. 8. a 3. 7, 17. Phil. 1. 29. Heb. 12. 2. Iago 1. 17. s Act. 2. 24. Rhuf. 4. 24, 25. Heb. 13. 20, 21.

[t] Yn lle yr enwaediad yn y cnawd, fel y dywedwyd
nod, mae i'r cristionogion yr ordinâd o fedydd wedi
sefydlu gan Grist; yr hon sydd o'r un arwyddocâd,
yn ateb yr un dyben â'r enwaediad; fel mae yn
wydd o'r, ac yn rhwymedigaeth i'r, holl sancteiddrwydd
ld, neu a ddylai fod, mewn cristionogion, fel pobl
ammodol Duw; trwy eu bod wedi eu cyd-ffurfio âg
gau neu farwolaeth Crist, mewn marw yn hollawl i
hod, a rhoddi llawn amlygrwydd o hyny yn barâus,
gys y bu ef farw fel y croeshoelid pechod, ac yr am-
wyd ei fod wedi llwyr farw, trwy gael ei gladdu, a
arâu am yspaid o amser yn y bedd. Mae y geiriau
l-gladdu âg ef, yn cyfeirio at *gladdedigaeth Crist*, yn
trach debygid nac at *ein bedydd ni*: ac mae *cyd-*
ddu âg ef yn y bedydd, yn sefyll mewn cyferbyniad i
l yn *feirw mewn camweddau*, adn. 13, ac o'r un ystyr
croeshoelio ein hen ddyn ni gyday ef, a bod wedi
irw gydag ef, Rhuf. 6. 6, 8, lle defnyddir y geiriau
m fel yn arwyddo yr un peth. Fel hyn nid yw "cyd-
ddu âg ef yn y bedydd" yn arwyddo *trochi*, mwy nac
mae "croeshoelio gydag ef," neu "farw gydag ef," yn
wyddo y pethau hyny mewn gwirionedd, ac yn eu
styr lythyrenol: ond gwel ar Rhuf. 6. 4. † Mae ein
eintiau a'n rhwymedigaethau hefyd yn cael eu har-
ddo yn yr ordinâd hon; fel yr ydym yn cael ein
rwâu, a'n cyfodi i fywyd o sancteiddrwydd gydag ef, ac
wn cyd-ffurfiad â'n Gwaredwr adgyfodedig, ‡ trwy y
dd hòno a weithredir gan nerth hollalluog Duw yn
n calonau; || trwy yr un rhagorol fawredd o nerth a
ithredodd efe yn Nghrist, pan y cyfododd efe ef o
rw; ac mae efe yn weithredu o hyd, trwy rinwedd ei
gyfodiad ef, yn nghodiad ei bobl i sancteiddrwydd a
wyd tragywyddol. "Trwy ffydd gweithrediad Duw,
hwn a'i cyfododd ef o feirw," neu, yn hytrach, trwy
der ffyddiog ar y gallu achubol ac effeithiol hyny o
ldo Duw, yr hwn a arddangosodd efe yn adgyfodiad
rist. Nid ffydd *o* weithrediad Duw, ond ffydd *yn*
weithrediad Duw, tybia *Scott*, yw meddwl y geiriau
hod: ac yr un modd y dywed *Doddridge*.

13 * A chwithau, pan oeddych yn [t] feirw
ewn camweddau, [u] † a dïenwaediad eich
awd, [x] ‡ a gyd-fywhâodd efe gyd âg ef,
|| gan faddeu i chwi yr holl gamweddau.

t Ezec. 37. 1—10. Luc 9. 60. a 15. 24, 32. Rhuf. 5. 13. 2 Cor. 14, 15. Eph. 2. 1, 5. a 5. 14. 1 Tim. 5. 6. Heb. 6. 1. a 9. 14. Iago 2. 17, 20, 26. u Eph. 2. 11. x Salm 71. 20. a 119. 50. Ioan 5. 21. a 6. 63. Rhuf. 4. 17. a 8. 11. 1 Cor 15. 36, 45. 2 Cor. 3. 6. 1 Tim. 6. 13. y Salm 32. 1. Es. 1. 18. a 55. 7. Jer. 31. 34. Act. 13. 38, 39. 2 Cor. 5. 19. Heb. 8. 10—12. 1 Ioan 1. 7—9. a 2. 12.

* Am fod yn "feirw mewn camweddau," gwel ar Ephes. 2. 1. † Fel yr oedd y cristionogion yn Colossa gan mwyaf yn ddychweledigion o baganiaeth ac eilun-addoliaeth, yr oeddynt wrth naturiaeth yn y cyflwr anianol hwnw, ag yr oedd "dienwaediad eu cnawd" yn arwydd allanol o hóno: yr oeddynt dàn lywodraeth natur lygredig, ac allan o gyfammod Duw â'i bobl yr Iuddewon. ‡ Eto, cyd-fywâodd Duw hwynt gyda Christ, trwy rinwedd ei adgyfodiad ef, i fywyd newydd o ras a sancteiddrwydd, mewn trefn i gael bywyd nefol o ddedwyddwch a gogoniant gyda Christ eu Pen yn y nefoedd byth. || Yn angau ac aberth y Cyfryngwr, yr oedd Duw wedi darpar modd, a chwedi agoryd llwybr, i faddeu iddynt yr holl gamweddau, gwreiddiol a gweithredol, mawrion a bychain, cyn a chwedi eu galw; a hyny yn rhad ac am byth er ei fwyn ef.

14 [z] * Gan ddilëu [a] ysgrifen-law yr ordein-
iadau, † yr hon oedd i'n herbyn ni, yr hon
oedd y'ngwrthwyneb i ni, [b] ‡ ac a'i cymmerodd
hi oddi ar y ffordd, || gan ei hoelio wrth y
groes;

z Num. 5. 23. Neh. 4. 5. Salm 51. 1, 9. Es. 43. 25. a 44. 22. Act. 3. 19. a adn. 20. Esther 3. 12. a 8. 8. Dan. 5. 7, 8. Luc 1. 6. Gal. 4. 1—4. Eph. 2. 14—16. Heb. 7. 18. a 8. 13. a 9. 9, 10. a 10. 8, 9. b Es. 57. 14. 2 Thes. 2. 7.

* Fel y mae dyled yn cael ei faddeu, a'r dyledwr yn cael ei ryddâu yn amlwg, trwy groesi a dilëu y llyfr; neu yr ysgrif-rwym a fyddo yn sefyll yn erbyn y dyledwr; felly gyda golwg ar bawb a gredant, pa un bynag ai Iuddewon ai cenedloedd a fyddont, mae Duw wedi dilëu camweddau ei bobl, megys â llinellau cochion o waed Crist; ac fel hyny wedi dirymu y rhwymau cyfreithiol i gospedigaeth am danynt, † yr hon gyfraith oedd yn tystioliaethu yn erbyn pawb fel troseddwyr, yn dydoli y cenedloedd o eglwys a breintiau yr Iuddewon, ac oedd yn achos o elyniaeth rhyngddynt. ‡ Efe a symmudodd y gyfraith hòno, neu "ysgrifen-law yr ordeiniadau" hyny hefyd, oddi ar y ffordd; fel nas gellir ei chael hi byth, na'i dwyn hi yn mlaen byth mwyach, i dystiolaethu yn erbyn y credinwyr yn Nghrist. || Ac fel y diddymid hi yn hollawl, efe a'i rhwygodd hi megys, ac a'i drylliodd yn ddarnau; trwy ei hoelio hi wrth y groes, ar yr hon yr hoeliwyd ein Harglwydd, ac â'r hoelion a'i gwânodd ef drwy ei ddwylaw a'i draed, pan fu efe farw yn aberth drosom, i'n llwyr brynu oddi wrth felltith y ddeddf, gan ei wneyd yn felltith drosom ni. "Ysgrifen-law yr ordeiniadau" oedd y ddeddf seremonïol, yr hon oedd megys ammod-rwym yr hen eglwys gynt am dalu dyled pechod, yr hon ddyled a dynwyd trwy dòri y ddeddf foesol; ond yr hon a dalodd Iesu fel Machnïydd trwy ei iawn a'i aberth holl-ddigonol, ac felly dilëwyd yr ysgrifen-law, cymmerwyd hi oddi ar y ffordd, a hoeliwyd hi wrth y groes. Yr oedd yr ysgrifen-law hon yn erbyn yr Iuddewon, ac yn wrthwyneb iddynt hwy yn gystal â'r cenedloedd; oblegid dylid sylwi fod yr apostol yma yn newid y person, ac yn dywedyd "i'n herbyn *ni*," nid *chwi*. Nid yn unig yr oedd y ddeddf seremonïol yn iau drom arnynt; ond yr oedd ei holl aberthau a'i golchiadau hi yn tystiolaethu yn barâus yn eu herbyn, eu bod yn euog ac yn halogedig: ac eto nis gallai yr aberthau cysgodol hyn dynu ymaith bechod na rhyddâu y dyledwyr: felly nis gallesid dilëu yr ysgrifen-law byth, oni buasai i Grist ddyfod a thalu y ddyled. Ac yr un pryd, y cenedloedd hefyd, y rhai nid oedd yr aberthau cysgodol hyny ganddynt, yr oeddynt dàn gondemniad fel troseddwyr, ac yn cael eu cauad allan gan y ddeddf seremonïol, hyd yn nôd o'r eglwys weledig; ac fel hyny yr oedd yn eu herbyn, ac yn ngwrthwyneb iddynt hwythau. Ond wedi i'r ddeddf seremonïol, a holl oruchwyliaeth y cysgodau, dderbyn eu cyflawniad bwriadol yn Nghrist; nid oedd y cwbl mwyach o ddim

grỳm na gwerth, mwy nac ysgrif-rwym *(bond)* wedi ei thalu a'i diddymu: a chan fod y cenedloedd wedi eu derbyn i'r eglwys trwy ffydd yn Nghrist, yr hwn a broffesent yn y bedydd; nid oedd raid iddynt wrth yr enwaediad na dim o'r cyflawniadau seremoniol, ac ni ddylent roddi unrhyw barch crefyddol iddynt. Byddid gynt yn arfer hoelio ysgrifau gofynawl ar byst mewn lleoedd amlwg, i arwyddo bod y ddyled gynnwysedig ynddynt wedi ei thalu, y dyledwr yn rhydd, a'r ysgrif yn ddirỳm byth mwyach.

15 [c] * Gan yspeilio *y* [d] tywysogaethau a'r awdurdodau, † efe a'u harddangosodd hwy ar gyhoedd, [e] ‡ gan ymorroleddu arnynt ‖ arni hi.

c Gen. 3. 15. Salm 68. 18. Es. 49. 24, 25. a 53. 12. Mat. 12. 29. Luc 10. 18. a 11. 22. Ioan 12. 31. a 16. 11. Eph. 4. 8. Heb. 2. 14. Dat. 12. 9. a 20. 2, 3, 10. d pen. 1. 16. 2 Cor. 4. 4. Eph. 6. 12. e Luc 23. 39—43. Ioan 12. 32. a 19. 30. Act. 2. 23, 24, 32—36.

* A chwedi gorchfygu a dïarfogi holl alluoedd y tywyllwch, diafol y penaf o honynt, a'r holl urddau a graddau o ysbrydion gwrthgiliedig gydag ef; Efe, fel had y wraig, yr hwn oedd i ysigo pen y Sarph, a Duw Dad drwyddo ef, † a'u dynoethodd hwy, gan eu gosod yn agored i warth a dirmyg yn ngolwg yr holl angelion sanctaidd, fel yspeilion rhyfel; ‡ gan ymorfoleddu fel buddugoliaethwr gogoneddus arnynt ‖ trwy ei groes; ïe, ar ei groes, lle yr oeddynt hwy yn meddwl cael buddugoliaeth arno ef.—Heblaw dilëu yr ysgrifen-law, ei chymmeryd oddi ar y ffordd, a'i hoelio wrth y groes; efe hefyd ar yr un pryd mewn effaith, a amddifadodd y tywysogaethau a'r awdurdodau, a galluoedd y tywyllwch o'u llywodraeth draws-feddiannol; ac a agorodd y ffordd i ddadymchwelyd eu teyrnas hwynt, yr hon o'r blaen oedd wedi ei sefydlu yn gyffredinol trwy y byd cenedlig a phaganaidd. Oblegid, trwy foddloni cyfiawnder Duw am bechod, efe a symmudodd yr achos o ddarostyngiad dyn syrthiedig i Satan; ac a agorodd y ffordd i bregethu yr efengyl i'r cenedloedd, gyda'r Ysbryd Glân wedi ei ddanfon o'r nef, i'w gwneyd yn llwyddiannus. Fel hyn efe a orchfygodd y gelynion hyny pan oedd yn grogedig ar y groes, gan ymorfoleddu arnynt yn fuddugoliaethus arni hi, a thrwyddi hi, sef ar a thrwy y groes hòno, trwy yr hon y gobeithient hwy ymorfoleddu arno ef. Pan gyfododd a phan esgynodd, efe a'u harweiniodd hwynt yn gaethion; a wnaeth ddangosiad amlwg o'i fuddugoliaeth, ac a eglurodd orfoleddau ei groes, pan drwy bregethiad ei efengyl yr aeth efe rhagddo i ddinystrio amddiffynfèydd Satan, ac i ryddâu ei gaethion ef yn mysg gwahanol genedloedd y ddaear. Tybia rhai dehonglwyr mai dystewi *oraclau* y paganiaid, a dymchweliad graddol, ond cyflym, eilun-addoliaeth y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, mewn canlyniad i farwolaeth Crist, yw unig feddwl y geiriau, "ymorfoleddu arnynt arni hi:" ond er mòr fawr a phwysig oedd y pethau hyn, nid oeddynt ond rhan fechan o'r fuddugoliaeth hòno ar alluoedd y tywyllwch, a ennillodd Crist ar y groes, a'r buddugoliaethau a ennillodd ef trwy y groes wedi hyny. Dïammau fod achubiaeth y lleidr ar y groes yn un o'r buddugoliaethau hyn, ac megys yn ernes o ychwaneg.—Darllened y Cymro *Ddyfyriad o Lithau Rollok* ar y ddwy adnod uchod, yn yr ail Lyfr o'r Drysorfa, tu dal. 113—117.

16 * Am hynny na [f] farned neb arnoch chwi † am [g] fwyd neu am ddïod, ‡ neu o ran [h] dydd gwyl, [i] ‖ neu newydd-loer, [k] § neu sabbathau:

f Rhuf. 14. 3, 10, 13. 1 Cor. 10. 28—31. Gal. 2. 12, 13. Iago 4. 11. g Lef. 11. 2—47. a 17. 10—15. Deut. 14. 3, &c. Ezec. 4. 14. Mat. 15. 11. Act. 11. 3—18. a 15. 20. Rhuf. 14. 2, 6, 14—17, 20, 21. 1 Cor. 8. 7—13. 1 Tim. 4. 3—5. Heb. 9. 10. a 13. 9. h Lef. 23. Num. 28. a 29. Deut. 16. 1—17. Neh. 8. 9. a 10. 31. Salm 42. 4. Rhuf. 14. 5, 6. i Num. 10. 10. a 28. 11, 14. 1 Sam. 20. 5, 18. 2 Bren. 4. 23. 1 Cron. 23. 31. Neh. 10. 33. Salm 81. 3. Es. 1. 13. Ezec. 45. 17. a 46. 1—3. Amos 8. 5. Gal. 4. 10. k Lef. 16. 31. a 23. 3, 24, 32, 39.

* Gan fod y cenedloedd crediniol yn gystal â'r Iuddewon crediniol wedi eu cyflawni yn Nghrist, (adn. 10,) a chan fod ysgrifen-law yr ordeiniadau ag oedd y erbyn, ac yn ngwrthwyneb i bob un o honynt yn a wedi ei dilëu a'i diddymu; (adn. 14.) na chymmer yr un Iuddew rhagfarnllyd arno mwyach farnu y Colo siaid, na neb o'r cenedloedd dychweledig, megys byddent wedi eu cauad allan oddi wrth iachawdwriaet am nad oeddynt yn cadw eu defodau seremoniol hw ni ddylent ryfygu eu barnu felly, ac nid oedd achos cenedloedd gymmeryd eu trallodi gan eu barn ehud chondemniol hwy. † Ni ddylai neb eu barnu am beid ymattal oddi wrth fwydydd a dïodydd ag oedd waharddedig gynt wrth y gyfraith Iuddewig; yr oe pob peth a grëodd Duw yn dda weithian, os cymmer trwy dalu dïolch: ‡ ni ddylent eu barnu am beid cadw eu gwyliau crefyddol hwy, megys y pasg, y pent cost, a gwyl y pebyll; nid oedd y rhai hyny i'w cad mwyach wedi newidiad yr oruchwyliaeth: ‖ nac ychwai eu gwyliau misawl hwy, y rhai a gadwent ar ymdda gosiad cyntaf y lloer newydd: (gwel y cyfeiriadau i § nac hyd yn nôd eu sabbath wythnosawl hwy b seithfed dydd; yr hwn a sefydlodd Duw i'w gadw neillduol dàn oruchwyliaeth Moses, ond a newidiw dàn oruchwyliaeth yr efengyl i'r dydd canlynol. Dïar mau fod cadw y sabbath Iuddewig yn orchymyn *moeso* ond nid yw ei foesoldeb yn awr yn ymddybynu ar seithfed dydd mwy na rhyw ddydd arall; moesoldeb y ei gadw ar y dydd a drefnodd Duw; ac os ordeiniodd Arglwydd Iesu ei gadw ar yr wythfed dydd, (Ezec. 4 27,) moesoldeb yw ei gadw ar y dydd hwnw. Wr fod y gair yn y rhif lïosog, *sabbathau*, dangosir, efall bod yr *holl* ddyddiau o *orphwysiad sanctaidd* a drefno Moses yn cael eu cymmeryd i mewn. A dealler hefy mai y sabbath *Iuddewig* a feddylir bob amser wrth gair sabbath yn yr ysgrythyrau; "*dydd yr Arglwyd* y gelwir y sabbath *cristionogol* yn mhob màn.

17 * Y rhai ydynt [l] gysgod pethau i ddyfo † ond [m] y corph *sydd* o Grist.

l Ioan 1. 17. Heb. 8. 5. a 9. 9. a 10. 1. m Mat. 11. 29. Heb. 4. 1—11.

* Nid oedd yr ordeiniadau uchod oll, cyn belled nad oeddynt ond seremoniol ac Iuddewig, ond cysgo au a rhag-arwyddion o ddaionus bethau i ddyfod, He 10. 1; † ond mewn cyferbyniad i'r cysgodau hyny, oedd y corph, y gwirionedd, a sylwedd y pethau hunain, yn cael eu dwyn i mewn gan Grist; ac i ceisio a'u cael yn unig ynddo ef. "Y *gyfraith* a rod wyd trwy Moses; ond y *gras* a'r *gwirionedd* a ddae trwy Iesu Grist." Ioan 1. 17. Rhaid cael rhyw *gorp* neu *sylwedd*, i wneyd *cysgod* bob amser; a'r corph, n y sylwedd, oedd yn ffurfio y cysgod hwn, sydd gynnwy edig yn y pethau a berthynant i Grist, yn yr efengyl holl oruchwyliaeth.

18 [n] * Na thwylled neb chwi am ei gwobr, † wrth ei ewyllys, mewn gostyngeid rwydd, ac [o] addoliad angelion, [p] ‡ gan ruthro bethau nis gwelodd, [q] wedi ymchwyddo y ofer gan ei [r] feddwl cnawdol ei hun;

n adn. 4, 8. Gen. 3. 13. Num. 25. 18. Mat. 24. 24. Rhuf. 18. 2 Cor. 11. 3. Eph. 5. 6. 2 Pedr 2. 14. 1 Ioan 2. 26. a 4. 1 2 Ioan 7—11. Dat. 12. 9. a 13. 8, 14. o Dan. 11. 38. Rhuf. 25. 1 Cor. 8. 5, 6. 1 Tim. 4. 1. Dat. 19. 10. a 22. 8, 9. p De 29. 29. Salm 131. 1, 2. Ezec. 13. 3. q adn. 8. 1 Cor. 4. 18 8. 1. a 13. 4. r Rhuf. 8. 6—8. 1 Cor. 3. 3. 2 Cor. 12. 20. Gal. 19, 20. Iago 3. 14—16. a 4. 1—6.

* Gan mai Crist ydoedd Pen pob tywysogaeth awdurdod, (adn. 10,) yr oedd yr apostol yn rhybudd y Colossiaid i ochelyd rhag i neb, Iuddew rhagfarn na philosophydd paganaidd, eu twyllo hwy am y gwo gogoneddus o fywyd tragywyddol yr oeddynt yn ymge am dano. Dywedir bod yma gyfeirnad amlwg at y *Bu beutæ*, neu y swyddogion, a farnent, ac weithiau a ga farnent y gwobr i godymwyr, rhedegwyr, &c., yn y cam iau Groegaidd gynt. Yn awr, os traws gymmerai n awdurdod o'r fath hyn yn mhlith y cristionogion, ef gam-arweiniai bawb a ymddarostyngent yn ewyllys iddo, ac a dra-arglwyddiaethai ar eu cydwybodau hv

Cynnygid hyn gan rai dynion, y rhai oeddynt "ewyllys-
r mewn gostyngeiddrwydd, ac yn cael eu tueddu i'w
orostwng eu hunain o'u gwirfodd, ac heb un gorchym-
n, i addoli angelion; gan gymmeryd arnynt fod yn an-
adas i grëaduriaid gwael pechadurus ddyfod â'u gwedd-
u at Dduw yn ddigyfrwng, ac am hyny ei bod yn weddus
efu am swyddau da cyfryngol yr angelion sanctaidd; ac
ncanent ddarbwyllaw eraill i'r arferiad cyfeiliornus
wn. Fel hyn rhoddent anrhydedd dwyfol i fodau crëed-
i; megys pe buasent yn bresenol gyda dynion yn mhob
àn ac ar bob amser, ac yn gwybod uniondeb eu
olonau a'u holl ddymuniadau: ïe, yr oeddynt yn lled-
angos debygid, eu bod yn fwy tosturiol a thyner nâ'r
rglwydd ei hun! ‡ Gellid galw hyn yn "ostyng-
eddrwydd;" ac yn wir yr oedd yn *ddarostyngiad*, an-
adas i grëadur rhesymol ymostwng iddo: eto, mewn
irionedd, yr oedd ei ddechreuad mewn *balchder;* ac
oedd yn rhuthriad tra rhyfygus i ystâd dybiedig yr
anweledig fyd: yr oedd yn gosod tybiau a dychym-
ygion beilchion dyn, yn lle y datguddiad Dwyfol; ac
oedd yn wir had ac eppil yr hunan-ddoethineb hòno,
y mae dyn anianol mòr dueddol o ymchwyddo arni.
ae yn ymddangos (medd *Scott)* fod yr athrawon Iu-
dewaidd wedi sugno ac ail lunio y syniadau pagan-
dd am dduwiau is-raddol; a chan gymhwyso hyny at
athrawiaeth ysgrythyrol am angelion, eu bod wedi
wyn i mewn addoliad cyfryngol iddynt hwy; trwy yr
n y ceisiasant lygru yr eglwys yn fore iawn, ac nid
hollawl ddilwyddiant. At hyny yn ddïau mae yr
postol yn cyfeirio yma, ac yn adn. 10 hefyd, pan mae
dywedyd fod Crist yn "ben pob tywysogaeth ac
ydurdod."

19 * Ac [s]heb gyfattal y Pen, † o'r hwn y
ae [t]yr holl gorph, [u]trwy y cymmalau a'r
ssylltiadau, ‡ yn derbyn [x]lluniaeth, ac wedi
y gyd-gyssylltu, yn [z]cynnyddu gan gynnydd
uw.

s adn. 6—9. pen. 1. 18. Gal. 1. 6—9. a 5. 2—4. 1 Tim. 2. 4—
t Eph. 4. 15, 16. u Job 10. 9—12. Salm 139. 15, 16.
Ioan 15. 4—6. Rhuf. 11. 17. Eph. 5. 29. y adn. 2. Ioan 17.
Act. 4. 32. Rhuf. 12. 4, 5. 1 Cor. 1. 10. a 10. 16, 17. a 12. 12—
Eph. 4. 3. Phil. 1. 27. a 2. 2—5. 1 Pedr 3. 8. z pen. 1. 10.
Cor. 3. 6. Eph. 4. 16. 1 Thes. 3. 12. a 4. 10. 2 Thes. 1. 3. 2 Pedr
18.

* Fel hyn trwy dderchafu angelion i swydd cyfryng-
wyr, a'u haddoli hwy yn y sefyllfa hòno; yr oeddynt yn
a dianrhydeddu Crist, yr "un Cyfryngwr rhwng Duw
dynion," i'r hwn, fel Duw wedi ymddangos yn y
awd, y dylasai y fath addoliad gael ei roddi. Nid
ddynt yn glynu wrth, yn cadw at, nac yn dàl y "Pen,"
f Crist, (adn. 10.) yr unig Gyfryngwr rhwng Duw a
nion; ac nid oeddynt yn dàl cymundeb âg ef; ond
oeddynt mewn gwirionedd yn ymadael â phrif eg-
wyddorion yr efengyl, trwy ddewis ac addoli cyfryngwyr
aill: a chan nad oes dyfodfa i un pechadur at Dduw,
chymmeradwyaeth gyda Duw, ond yn a thrwy Grist;
oedd y cyfeiliornad hwn yn tueddu yn union-gyrchol
ddystrywio eu heneidiau hwy. † Oblegid mae yr holl
r gredinwyr wedi eu huno â Christ: maent wedi eu
yd-gyssylltu" yn un corph, trwy eu hundeb âg ef ac
gilydd, a thrwy lenwi bob un ei le ei hun, a gwn-
thur bob un ei waith ei hun, yn yr eglwys; fel y mae
corph dynol yn cael ei wneyd i fynu o wahanol ael-
au, wedi eu cyd-gyssylltu trwy gymmalau, gïau,
ythenau, a rhanau cyfansoddawl eraill, wedi eu huno
un pen. ‡ Fel hyn mae cristionogion yn derbyn
hniaeth ac ymgeledd ysbrydol oddi wrth Grist eu
n, trwy ei ordinâdau ef; a ohan eu bod wedi eu cyd-
ssylltu fel y dywedwyd, maent yn cynnyddu mewn
ybodaeth, sancteiddrwydd, a phob gras, trwy allu
uw; ac yn tyfu i fynu i agosach cyd-ffurfiad âg ef, er
yngu bodd iddo, ac er ei ogoniant.

20 * Am hynny, [a]os ydych wedi meirw
rd â Christ [b]oddi wrth egwyddorion y byd,
† paham yr ydych, megis pettych yn [c]byw yn
y byd, ‡ yn [d]ymrôi i ordeiniadau;

a pen. 3. 3. Rhuf. 6. 2—11. a 7. 4—6. Gal. 2. 19, 20. a 6. 14.
1 Pedr 4. 1—3. b Gwel ar adn. 8.—Eph. 2. 15. c Ioan 15.
19. a 17. 14—16. 2 Cor. 10. 3. Iago 4. 4. 1 Ioan 5. 19. d Gwel
ar adn. 14, 16.—Gal. 4. 9—12. Heb. 13. 9.

* Os oedd y Colossiaid mewn gwirionedd wedi meirw
gyda Christ i'r ddeddf seremonïol, yn gystal ag i'w
drwg-arferion ofergoelus a phaganaidd, fel yr arwyddai
eu bedydd, ac fel y proffesent hwythau yn eu bedydd;
(adn. 12.) † paham yr oeddynt yn ymddwyn fel pe
buasent o hyd "yn byw yn y byd," dàn oruchwyliaeth
gnawdol neu seremonïol, ac yn ddïeithriaid i addoliad
a gwasanaeth mwy ysbrydol? ‡ A phaham yr oedd
neb o honynt mwyach yn ymroddi ac yn ymostwng i
ordeiniadau seremonïol, a thraddodiadau dynol, yn ol
gorchymynion ac athrawiaethau tra-arglwyddawl a chyf-
eiliornus dynion, adn. 22.

21 [e] * (Na chyffwrdd; † *ac* na archwaetha;
‡ *ac* na theimla;

e Gen. 3. 3. Es. 52. 11. 2 Cor. 6. 17. 1 Tim. 4. 3.

Yr oedd yr athrawon Iuddewaidd, y rhai a lyncasent
hefyd ddychymmygion yr athronwyr paganaidd, wedi
ymlusgo i'r eglwys yn Colossa, a chwedi dysgu eu heg-
wyddorion gydag awydd-fryd a diwydrwydd mawr; ac
mae yn ymddangos iddynt lwyddo gyda rhai dynion
yno. * Yr oedd yr athrawon meistrolaidd hyn yn galw
arnynt mewn modd arglwyddaidd a thra-awdurdodol,
na chyffyrddent â'r cyfryw fwydydd a fernid yn aflan
dàn y ddeddf seremonïol; † ïe, nad archwaethent y
cyfryw bethau, ‡ nac ychwaith eu teimlo, na'u trin
mewn un modd â'u dwylo, rhag eu halogi. Gorchym-
ynion gwaharddawl y gau-athrawon yw y rhai uchod, yn
cael eu hadrodd gan Paul yn eu geiriau hwy eu hunain;
ac mae rhai yn sylwi fod dylyniad cyflym y naill ar ol
y llall o honynt, heb ddim geiriau cydiadol rhyngddynt,
yn dangos awydd, brys, a thaerineb y gau-athrawon, i
wasgu a dirgymhell y cyfryw bethau ar y cristionogion.

22 * Y rhai ydynt oll yn [f]llygredigaeth
wrth eu harfer) [g] † yn ol gorchymynion ac
athrawiaethau dynion?

f Marc 7. 18, 19. Ioan 6. 27. 1 Cor. 6. 13. g Es. 29. 18.
Dan. 11. 37. Mat. 15. 3—9. Marc 7. 7—13. Tit. 1. 14. Dat. 17. 18.

* Nis gall y cyfryw bethau, sef bwydydd glân neu
aflan dàn y ddeddf, wneyd na da na drwg i ddynion
mewn ystyr ysbrydol, yn enwedig dàn yr efengyl;
oblegid er gwasanaeth y corph yn unig yr ordeiniwyd,
ac y cymmerir hwynt: a thra maent yn ymgeleddu y
corph, maent yn llygru, yn treulio, ac yn darfod eu
hunain wrth eu harfer a'u defnyddio. Felly y dywed-
odd ein Harglwydd, (Matth. 15. 17.) fod yr hyn oll
sydd yn myned i mewn i'r genau, yn cilio i'r bola, ac yn
cael ei fwrw allan i'r geudy: a hyna yw yr eglurâd goreu
ar y geiriau uchod "y rhai ydynt oll yn llygredigaeth
wrth eu harfer." † Yr oedd addysgiadau cysgodol yn
yr oesoedd gynt, yn cael eu trosglwyddo trwy y ddeddf
seremonïol; ond yr oedd hòno wedi darfod a'i dirymu
yn awr; ac nid oedd o fwy awdurdod na thraddodiadau
yr hynafiaid, a gorchymynion ac athrawiaethau eraill o
ddychymmyg dynol y gau-athrawon: gorchymynion ac
athrawiaethau dynion, yn groes i efengyl Duw, oedd y
pethau uchod oll, ac ni ddylasai y Colossiaid "ymrôi"
iddynt.

23 * Yr hyn bethau † sydd ganddynt [h]rith
doethineb [i] ‡ mewn ewyllys-grefydd ‖ a gos-
tyngeiddrwydd, § a bod heb arbed y corph,
nid mewn bri i ddigoni y cnawd.

h Gen. 3. 5, 6. Mat. 23. 27, 28. 2 Cor. 11. 13—15. 1 Tim. 4.
3, 8. i Gwel ar adn. 18, 22.

* "Yr hyn bethau," sef addoliad angelion, (adn. 18.)
gwaharddiad bwydydd, &c., (adn. 21.) † mae ynddynt
rith doethineb; ac mae gan y dynion sydd yn dysgu y
cyfryw bethau rith doethineb; megys pe byddent yn
dyfeisio ffordd a moddion i roddi anrhydedd gor-
ddigonawl i Dduw, ‡ trwy addoliad a gwasanaeth coel-

grefyddol, mewn ewyllys-grefydd, ac megys offrymau gwirfodd o'r eiddynt eu hunain, dros ben pob peth gorchymynedig yn y gair; ‖ ac mewn ymddangosiad allanol o ostyngeiddrwydd anghyffredin; eithr nid oedd hyn ond *rhith*, fel y rhith ddoethineb o'r blaen, ac yn cael ei arfer i dwyllo gwirioniaid na wyddent yn amgenach. § Yr oedd y dynion hyn hefyd yn arfer toster dïarbed tuag at eu cyrph eu hunain, trwy weithredoedd o hunan-ymwadiad a dirwest na orchymynodd Duw erioed; ac ni ddangosent fri yn y byd ar y pethau oedd yn gyfreithlawn ac angenrheidiol i foddâu, i adnewyddu, a digoni y cnawd, sef natur dyn. Yr oedd y gwaith o chwanegu yn wirfoddawl at rëol dyledswydd, a'i gwneyd fel hyn yn fwy caeth a manol, ag ynddo ymddangosiad o grefyddrwydd mawr, a sancteiddrwydd anghyffredin; ond yr oedd yn gystal â dywedyd i Dduw roddi rhëol anmherffaith; ac y byddai ef yn foddlawn i'r hyn nis gorchymynodd erioed. Gallai ymddangos yn "ostyngeiddrwydd" mawr hefyd "addoli angelion;" eto yr oedd hyn yn tarddu oddi ar falchder fliaidd ac anghrediniaeth. Gallai ymattal oddi wrth fwydydd, a thosterau hunan-osodawl eraill, fod ag ymddangosiad o ysbrydolrwydd anghyffredin ynddynt; eto nid oedd hyn oll er anrhydedd i Dduw, nac o ddim gwerth na theilyngdod ynddynt eu hunain: ïe, yr oedd y cwbl yn tueddu, mewn modd dïanrhydeddus, "i ddigoni," neu foddâu chwennychiadau y cnawd, neu y syniadau cnawdol, trwy borthi hunan-ewyllys, hunan-ddoethineb, hunan-gyfiawnder, rhagfarn, a dirmyg ar eraill. Tybia rhai mai am wahardd prïodi y dywedir; na chaniatâi y gau-athrawon ddim moddion anrhydeddus, sef prïodas, i foddloni y tueddiadau hyny a blànwyd yn natur dyn, a thrwy hyny eu bod yn eu darostwng eu hunain, a'r neb a wrandawai arnynt, i chwantau anghyfreithlawn a dïanrhydeddus. "*Esgeuluso* y corph," yw y Saesoneg; a phob doethineb sydd yn dysgu i esgeuluso y corph, nid doethineb ydyw, eithr ynfydrwydd.

PEN. III.

Y mae efe yn dangos pa le y dylem ni geisio Crist.

* AM hynny os [a] cyd-gyfodasoch gyd â Christ, [b] † ceisiwch y pethau *sydd* uchod, [c] ‡ lle mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw.

a pen. 2. 12, 13, 20. Rhuf. 6. 4, 5, 9—11. Gal. 2. 19, 20. Eph. 1. 19, 20. a 2. 5, 6. b adn. 2. Salm 16. 11. a 17. 14, 15. a 73. 25, 26. Diar. 15. 24. Mat. 6. 20, 33. Luc 12. 33. Rhuf. 8. 6. 2 Cor. 4. 18. Phil. 3. 20, 21. Heb. 11. 13—16. c Salm 110. 1. Mat. 22. 44. a 26. 64. Marc 12. 36. a 14. 62. a 16. 19. Luc 20. 42. a 22. 69. Act. 2. 34. a 7. 55. Rhuf. 8. 34. Eph. 1. 20. a 4. 10. Heb. 1. 3, 13. a 8. 1. a 10. 12. a 12. 2. 1 Pedr 3. 22.

* Os oedd y Colossiaid mewn gwirionedd wedi cyd-gyfodi gyda Christ o farwolaeth mewn pechod i fywyd o sancteiddrwydd, fel yr oedd eu bedydd a'u proffes, a'u hymarweddiad cyson hyd yn hyn yn arwyddocâu; yr oedd yn gweddu iddynt ddangos hyny fwy-fwy o hyd, a chyrchu yn mlaen yn y bywyd ysbrydol, † trwy geisio y pethau oedd uchod. Perffaith wybodaeth, sancteiddrwydd, a dedwyddwch, yn mhresenoldeb union-gyrchol Duw, ac yn ei wasanaeth a'i gariad, yn ddïammau a feddylir wrth y pethau sydd uchod. Dylent geisio gobaith sicr, ernes ddedwydd, a blaen-ffrwyth o'r pethau hyn, o flaen pob elw a mwyniant bydol, ac yn yr ymarferiad dyfal o bob moddion gosodedig. ‡ Fel hyn hwy a ganlynent Grist eu Rhag-flaenor: fel, megys yr oeddynt wedi meirw i bechod ac yn byw i Dduw, mewn cyd-ffurfiad â'i farwolaeth a'i adgyfodiad ef, felly hefyd y cyd-ffurfid hwy â'i esgyniad ef i'r nef; lle y derchafwyd ef fel eu Machniydd hwynt ar yr orsedd gyfryngol, ar ddeheulaw y Tad, i ymddangos ger ei fron ef, ac i barotôi lle iddynt hwy.

2 [d] * Rhoddwch eich serch ar bethau *sydd* uchod, [e] † nid ar bethau *sydd* ar y ddaear.

d Gwel ar b. adn. 1.—1 Cron. 22. 19. a 29. 3. Salm 62. 10 a 91. 14. a 119. 36, 37. Diar. 23. 5. Preg. 7. 14. Mat. 16. 23. Rhuf 8. 4—6. Phil. 1. 23. 1 Ioan 2. 15—17. e adn. 5. Salm 49. 1 —17. Mat. 6. 19. Luc 12. 15. a 16. 8, 9, 11, 19—25. Phil. 3. 19

* Gan edrych ar ogoniant Crist trwy ffydd, a dringo mewn gobaith i'r etifeddiaeth nefol hon; dylent werth fawrogi, dewis, blasu, dylyn, ac ymhyfrydu a serch mewn pethau ysbrydol a nefol, † ac nid mewn pethau daearol: nid yn mhleserau gweigion, anwadal, darfod edig, a halogedig y byd hwn; nac ychwaith yn sere moniau gweigion, a defodau cnawdol yr hen oruchwyl iaeth Iuddewig, y rhai oedd gymmaint is-law pethau goruchel ac ysbrydol mewn gwerth a mawredd, ag y y ddaear yn is na'r nefoedd.

3 * Canys [f] meirw ydych, [g] † a'ch bywyd [h] guddiwyd gyd â Christ yn Nuw.

f Gwel ar a. pen. 2. 20. g adn. 4. Ioan 3. 16. a 4. 14. a 21, 24, 40. a 6. 39, 40. a 10. 28—30. a 14. 19. Rhuf. 5. 10, 21. a 2, 34—39. 1 Cor. 15. 45. Heb. 7. 25. 1 Pedr 1. 3—5. h pen. 3. Mat. 11. 25. 1 Cor. 2. 14. Phil. 4. 7. 1 Pedr 3. 4. 1 Ioan 3. Dat. 2. 17.

* Yr oedd y Colossiaid trwy broffes a rhwymau, a yr oedd pob gwir gredadyn yn eu plith trwy gymunde â Christ yn ei angau, wedi marw mewn gwirionedd y ei galon a'i serchiadau, i'r ddeddf fel cyfammod, i ddeddf seremonïol, ac i'r byd a'r pethau ar y ddaea ac yn sicr wedi marw i bechod. Yr oeddynt wedi e croeshoelio gyda Christ i'r pethau uchod oll; fel ns oeddynt yn ceisio eu rhan, nac yn gosod eu dedwydd wch mewn dim o honynt. † Ac yr oedd holl gysurc a mwyniant eu bywyd ysbrydol, yn cael eu cynnal a' dwyn yn mlaen, mewn gweithrediadau dirgelaid rhwng Duw â'u heneidiau hwy eu hunain yma, hy oni pherffeithid hwy mewn bywyd tragywyddol, llaw o bob dedwyddwch a gogoniant ar ol hyn, trwy rinweé eu hundeb dirgeledig hwy â Christ eu Pen, yr hwn hun sydd mewn undeb hanfodol â Duw Dad, fel y m efe yn y Mab, a'r Mab ynddo yntau. Dangosir bywy y cristion yma megys *perl* anmhrisiadwy, ac mew *dïogelwch* deublyg, yn nghadw *yn y nefoedd*, ac y nghudd *gyda Christ yn Nuw;* mòr ddïogel, gan hyn ag yw arosiad Crist gyda'r Tad; neu mòr ddïogel ag gall ffyddlondeb ac anghyfnewidioldeb y Tad ei hun ei wneyd. Mae *cuddio* yn arwyddo dirgelwch natur bywyd hwn hefyd, yn gystal â'i ddïogelwch; mae allu o olwg, yn gymmaint felly ag yw Crist ei hunan awr, oddi wrth lygad rheswm, a syniadau y dyn aniai ol, ac wedi pob peth mae y credinwyr eu hunain brofi o hóno, ni wyddant eto nemawr am dano; *wyddom ni eto beth a fyddwn.* 1 Ioan. 3. 2.

4 * Pan [i] ymddangoso Crist [k] ein bywy ni, † yna hefyd yr [l] ymddangoswch chwitha gyd âg ef mewn gogoniant.

i Ioan 11. 25. a 14. 6. a 20. 31. Act. 3. 15 Gal. 2. 20. 2 Ti 1. 1. 1 Ioan 1. 1, 2. a 5. 12. Dat. 2. 7. a 22. 1, 14. k 1 Tim 14. 2 Tim. 4. 8. Tit. 2. 13. Heb 9. 28. 1 Pedr 5. 4. 1 Ioan 2. a 3. 2. l Salm 17. 15. a 73. 24. Es. 25. 8, 9. Mat. 13. 43. Io 6. 39, 40. a 14. 3. a 17. 24. 1 Cor. 15. 43. 2 Cor. 4. 17. Phil. 3. 1 Thes. 4. 17. 2 Thes. 1. 10—12. Judas 24.

* "Crist ein bywyd ni," yr hwn sydd yn byw yno (Galat. 2. 20,) a'r hwn mae ein bywyd yn guddied ynddo: prynwr, awdwr, cynnaliwr, a pherffeithiwr e bywyd; pan ymddangoso efe i farnu yr holl fyd, yn ogoniant ei hun, ac yn ngoniant ei Dad, gyda'i h angelion sanctaidd; (Luc. 9. 26;) † yna y caiff ei sa hefyd, y rhai a fywâwyd trwy ei Yspryd ef, eu gogo eddu gydag ef, a dysgleirio yn amlwg, enaid a chorp mewn gogoniant tebyg i'w ogoniant ef, fel Pen Gwaredwr mawr ei holl bobl. Phil. 3. 21. Yna bydd y briodas-ferch, gwraig yr Oen, yn berffaith wedd ei Phriod, ac yn addas i fod gyda ei Phriod by

5 [m] * Marwhêwch gan hynny eich [n] aelod y rhai sydd ar y ddaear; [o] † godineb, aflend [p] gwŷn, [q] ‡ drygchwant, [r] ‖ a chybydd-dod, § hon sydd eilun-addoliaeth:

m Rhuf. 6. 6. a 8. 13. Gal. 5. 24. n Rhuf. 7. 5, 23. Iago 1. o Mat. 15. 19. Marc 7. 21, 22. Rhuf. 1. 29. 1 Cor. 5. 1, 11. a 6. 9, 13, 18. 2 Cor. 12. 21. Gal. 5. 19—21. Eph. 5. 3. Thes. 4. 3. Heb. 12. 16. a 13. 4. Dat. 21. 8. a 22. 15. p Rhuf. 16. 1 Thes. 4. 5. q Rhuf. 7. 7, 8. 1 Cor. 10. 6—8. Eph. 4. 1 Pedr 2. 11. r 1 Cor. 6. 10. Gal. 5. 19—21.—Gwel ar Eph. 5.

* Wrth yr "aelodau y rhai sydd ar y ddaear," deallir amryw chwantau pechadurus sydd yn natur anianol n, aelodau yr "hen ddyn," corph pechod, fel mae yn ulwg wrth yr enwau a roddir arnynt yn y blaen. Yn credinwyr mae y cnawd wedi ei groeshoelio, yn yhyd â'i wyniau a'i chwantau; eto mae bywyd ynddo yhyd: am hyny rhaid ei farweiddio yn feunyddiol; aid ei wrthwynebu yn wastadol yn ei gynhyrfiadau gredig; rhaid megys tòri ymaith, ac attal ei borth- t ef; rhaid peidio gwneyd rhag-ddarbod er ei gol- l ef; rhaid gochel temtasiynau ac achlysuron i hu; a rhaid arfer hyd yn nôd tueddiadau cyfreith- rn i ddyoddef nacâd ac oediad. Fel hyn rhaid i odau yr hen ddyn, y rhai sydd yn caru pethau earol ac yn casâu pethau nefol, gael eu gwanychu wastad, a'u rhoddi i farwolaeth trwy ddienydd- graddol, nychlyd, a didosturi. † Yn yr enwau ahan-rhedol a ganlyn, gallwn sylwi, fod yr hyn lwir "gwŷn," i'w ddeall am chwantau anaddas anghymmedrol, hyd yn nôd am anwes a mwyn- t cyfreithlawn o unhryw fath: er fod rhai yn iddeall am bechodau gwrth-anianol, megys Sodom- ith, &c. ‡ "Dryg-chwant," a arwydda gnawdolrwydd galon a'r syniadau, y rhai sydd raid eu marweiddio, amgen pechodau anfad a ganlynant. || "Cybydd- d," yw ariangarwch, yr hyn sydd wreiddyn pob yg; ac mae ysgrythyr ac esamplau yn dangos yn eg- , ei fod yn un o'r rhwystrau mwyaf sydd bosibl i hawdwriaeth dynion, a'r gwaethaf o bob maglau i iffeswyr yr efengyl: § ac nid oes un pechod na vant, a ellir ei alw yn "eilun-addoliaeth," mòr odol â *chybydd-dod;* fel mae yn gosod elw bydol yn Duw, neu o leiaf mewn cystadleuaeth â Duw; ac yn rata y galon oddi wrtho ef at bethau y byd hwn. odineb ac aflendid, nid rhaid ysgrifenu arnynt.

6 * O [s] achos yr hyn bethau † y mae dig- int Duw yn dyfod ar [t] blant yr anufudd- d.

s Gwel ar Eph. 5. 6. t Es. 57. 4. Ezec. 16. 45, 46. Eph. 3. 3.—i Pedr 1. 14. 2 Pedr 2. 14.

Mae yr holl bethau drwg uchod, pob un o honynt, hob peth cyffelyb iddynt, yn tynu digofaint mawr w ar blant yr anufudd-dod sydd yn ymarfer â nynt. † Mae y gair Groeg *apeithias*, a gyfieithir a "anufudd-dod," yn aml yn arwyddo anghredin- th; diffyg o ufudd-dod ffydd; a "phlant anufudd- d" yn ddiammau yw yr holl rai hyny, pa fodd bynag aawrygir hwynt, y rhai nid ydynt yn credu yr efengyl yn ufuddâu iddi; tra mae y gwaelaf o ddynion, a'r aethaf o bechaduriaid, yn dyfod yn blant ufudd-dod y gredu yr efengyl ac ufuddâu iddi.

7 * Yn y rhai hefyd y [u] rhodiasoch chwi- au gynt, † pan oeddych yn byw ynddynt.

u pen. 2. 13. Rhuf. 6. 19, 20. a 7. 5. 1 Cor. 6. 11. Eph. 2. 2. 3. 3. 1 Pedr 4. 3, 4.

Yr oedd defodau *Bacchus* a *Cybele*, eilun-dduwiau ranaidd, yn cael eu harfer yn neilldiol yn Colossa, f-ddinas Phrygia, ac yn tueddu yn ddychryllyd i u moesau y trigolion, mewn amryw o'r pethau a wyd uchod; ac yr oedd y rhai oedd yn gristionogion awr, wedi bod yn eu harfer, † ac yn byw ynddynt, amser eu paganiaeth, a'u hannwybodaeth o'r efengyl: i och! mae lluoedd dirfawr mewn gwledydd a gyf- r yn gristionogol, ag eisiau yr un rhybuddion a ngorion yn hollawl arnynt.

8 * Ond yr awrhon [x] rhoddwch chwithau aith yr holl bethau hyn, [y] † digter, llid, gioni, [z] ‡ cabledd, [a] || serthedd, § allan o'ch hau.

x adn. 5, 9. Eph. 4. 22. Heb. 12. 1. Iago 1. 21. 1 Pedr 2. 1. y Salm 37. 8. Diar. 17. 14. a 19. 19. a 29. 22. Mat. 5. 22. Rhuf. 13. 13. 1 Cor. 3. 3. 2 Cor. 12. 20. Gal. 5. 15, 20, 26. Eph. 4. 26, 31, 32. 2 Tim. 2. 23, 24. Iago 1. 20. a 3. 14—16. z Lef. 24. 11—16. Marc 7. 22. 1 Tim. 1. 13, 20. Iago 2. 7. Judas 8. Dat. 16. 9. a Eph. 4. 29. a 5. 4. Iago 3. 4—6. 2 Pedr 2. 7, 18. Judas 8, 13.

* Ond yn awr, wedi eu galw trwy ras Duw, ac iddynt wneyd proffes o efengyl sanctaidd Iesu, yr oedd yn gweddu iddynt hwy, nid yn unig i farwâu y *chwantau* cnawdol ffiaidd uchod, (adn. 5,) y rhai a ennillasent gryfder drwy hir arferiad; ond yr oedd yn gweddu iddynt hefyd roddi heibio, a thaflu ymaith fel hen ddillad carpiog a budron, bob *arferion* drygionus, yn enwedig y rhai a enwir yn y geiriau nesaf; † y rhai nid oes achos am agoriad manol ar bob un o honynt: digter dïachos ac anghymmedrol; nwydau cynddeiriog gorwyllt, yr hyn sydd lid yn yr eithafoedd; ac ysbryd maleisus (Saesoneg *malice)* dialgar, yr hyn sy "ddrygioni" gwaethaf o bobpeth. ‡ "Cabledd," yr hyn a arwydda enllibiau ac absenau, yn gystal â geiriau gwatwarus am Dduw a phethau sanctaidd. || "Serthedd," pob geiriau cnawdol, aflan, a mursenaidd; halogedig ynddynt eu hunain, ac yn llygru meddyliau pawb a'u clywo. § Dylai pob peth o'r fath hyn gael eu rhoddi heibio, a'u bwrw allan o enau proffeswyr crefydd; ac och! mae yn gywilydd fod neb proffeswyr yn euog o honynt.

9 * Na [b] ddywedwch gelwydd wrth eich gilydd, † gan ddarfod i chwi [c] ddïosg yr hen ddyn ynghyd â'i weithredoedd;

b Lef. 19. 11. Es. 63. 8. Jer. 9. 3—5. Zeph. 3. 13. Zec. 8. 16. Ioan 8. 44. Eph. 4. 25. 1 Tim. 1. 10. Tit. 1. 12, 13. Dat. 21. 8, 27. a 22. 15. c adn. 8. Rhuf. 6. 6. Eph. 4. 22.

* Dylai cristionogion wylied hefyd na ddywedont gelwydd o fath yn y byd wrth eu gilydd, nac wrth neb; dim yn groes i'r gwirionedd, gyda bwriad i dwyllo y naill y llall, yr hyn a fyddai yn debygu i dad y celwydd, a gweithredu dàn ei lywodraeth ef. † Gan fod cristionogion wedi dïosg yr hen ddyn yn nghyd â'i weithredoedd trwy farweiddiad ei holl aelodau, dylent ymwrthod â'r holl arferion bryntion uchod, fel pethau cywilyddus, ac anweddus i broffes o'r efengyl sanctaidd.

10 * A [d] gwisgo y [e] newydd, † yr hwn a [f] adnewyddir mewn [g] gwybodaeth, [h] ‡ yn ol delw yr hwn a'i creodd ef.

d adn. 12, 14. Job 29. 14. Es. 52. 1. a 59. 17. Rhuf. 13. 12, 14. 1 Cor. 15. 53, 54. Gal. 3. 27. Eph. 4. 24. e Ezec. 11. 19. a 18. 31. a 36. 26. 2 Cor. 5. 17. Gal. 6. 15. Eph. 2. 10, 15. a 4. 24. Dat. 21. 5. f Salm 51. 10. Rhuf. 12. 2. Eph. 4. 23. Heb. 6. 6. g Ioan 17. 3. 2 Cor. 3. 18. a 4. 6. 1 Ioan 2. 3, 5. h Gen. 1. 26, 27. Eph. 4. 23, 24. 1 Pedr 1. 14, 15.

* Nid yn unig mae y saint wedi "dïosg yr hen ddyn," ond maent hefyd wedi "gwisgo y dyn newydd:" mae eu calonau wedi eu cyfnewid trwy ras, a hwythau wedi ymddilladu megys â grasau sanctaidd, ac addurniadau prydferth y crëadur newydd; † yr hyn sydd adferiad o ddelw Duw, ac yn gynnwysedig mewn gwybodaeth a goleuni ysbrydol yn adnewyddiad y meddwl, yn gystal ag mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd, yn adnewyddiad y galon a'r fuchedd. ‡ Mae yr adferiad a'r adnewyddiad hardd a grasol hyn yn cael ei wneyd, yn ol delw bur a difrycheulyd Duw, neu Grist; yr hwn ar y cyntaf a grëodd ddyn ar ei lun ac ar ei ddelw ei hun; yr hon ddelw a goilwyd yn y cwymp, ond a adferir yn yr adenedigaeth, trwy oruchel ras, a gweithrediad Duw yn Nghrist Iesu, ac mewn cyd-ffurfiad â'i ddelw ef. Gwel ar Ephes. 4. 24.

11 [i] * Lle nid oes na Groegwr nac Iuddew, [k] † enwaediad na dïenwaediad, [l] ‡ Barbariad *na* Scythiad, [m] || caeth *na* rhydd: [n] § ond Crist *sydd* bob peth, [o] ac ym mhob peth.

i Salm 117. Es. 19. 23—25. a 49. 6, a 52. 10. a 66. 18—22. Jer. 16. 19. Hos. 2. 23. Amos 9. 12. Mica 4. 2. Zec. 2. 11. a 8. 20—23. Mal. 1. 11. Mat. 12. 18—21. Act. 10. 34, 35. a 13. 46—48. a 15. 17. a 26. 17, 18. Rhuf. 3. 29. a 4. 10, 11. a 9. 24—26, 30, 31. a 10. 12. a 15. 9—13. 1 Cor. 12. 13. Gal. 3. 28. Eph. 3. 6. k 1 Cor. 7. 19. Gal. 5. 6. a 6. 15. l Act. 28. 2, 4. Rhuf. 1. 14. 1 Cor. 14. 11. m 1 Cor. 7. 21, 22. Eph. 6. 8. n pen. 2. 10. 1 Cor. 1.

29, 30. a 3. 21—23. Gal. 3. 29. a 6. 14. Phil. 3. 7—9. 1 Ioan 5. 11, 12. 2 Ioan 9. o Ioan 6. 56, 57. a 14. 23. a 15. 5. a 17. 23. Rhuf. 8. 10, 11. Gal. 2. 20. Eph. 1. 23. a 3. 17. 1 Ioan 5. 20.

Fel hyn trwy ddiosg yr hen ddyn, a gwisgo y dyn newydd, deuai y Colossiaid yn aelodau gwirioneddol o eglwys Crist; lle nad oedd dim gwahaniaeth yn cael ei wneyd rhwng dynion o wahanol genedlaethau, dygiad i fynu, a sefyllfa yn y byd: * lle nad oedd neb yn cael ei wrthod am ei fod yn *Roegwr;* na neb yn cael ei dderbyn yn unig am ei fod yn *Iuddew:* † lle nad allai neb hòni hawl i ddim am ei fod wedi ei *enwaedu;* na neb golli dim am ei fod *heb ei enwaedu:* ‡ lle nad oedd yr un *Barbariad* na *Scythiad* yn cael ei ddirmygu o eisiau y ddysgeidiaeth a'r moesau boneddigaidd hyny ag oedd yn mhlith cenedloedd eraill, mwy gwaraidd a boneddigaidd, ac uwch eu bri yn y byd: ‖ a lle ni sethrid yn drahaus ar neb *caeth,* fel yn annheilwng o sylw fel dyn, ac o barch fel brawd, gan ei fod yn berchen enaid gwerthfawr fel eraill, ac iddo ran efallai cystal ag eraill yn y Gwaredwr bendigedig; a lle ni fawrygid y gŵr *rhydd* ychwaith, am mai gŵr rhydd ydoedd, ond yn hytrach am ei ymostyngiad i'r Arglwydd Iesu, ac yn ol mesur yr ymostyngiad hwnw. § Oblegid hyn ydoedd y prif rwymyn undeb yn eu plith hwy oll, a thestyn eu holl ymffrost a'u gorfoledd; eu bod yn perthyn i *Grist,* yr hwn a addefid ei fod yn *bob peth* ag oedd yn hawddgar a rhagorol, ac yr hwn oedd yn preswylio yn mhawb o'r gwir gredinwyr, heb wneyd dim gwahaniaeth yn yr ystyriaethau uchod. Am y "Barbariaid" gwel ar Act. 28. 2; Rhuf. 1. 14. Scythia ydoedd wlad ddirfawr o faintioli, yn gorwedd yn ehang iawn yn Asia ac yn Europe hefyd, ac a ddosparthid yn amryw ranau yn ardaloedd Asia ac Europe; a dywedir fod y Scythiaid yn ddynion tra anifeilaidd a ffyrnig: a chan fod y Groegiaid y mwyaf dysgedig a boneddigaidd, a'r Scythiaid y mwyaf barbaraidd o'r cenedloedd, mae yr apostol yn cynnwys pob math o ddynion yn mhlith y cenedloedd, yn gystal ag yn gwahaniaethu yn gyffredinol rhyngddynt hwy â'r Iuddewon, yn nghyd â'r gwahanol raddau o ddynion yn eu plith hwy oll. "Yn *mhob peth:*" neu yn *mhawb;* sef yn mhawb o'r credinwyr: *en pasi.*

12 * Am hynny ([p]megis etholedigion Duw, [q] † sanctaidd ac [r] anwyl) [s] ‡ gwisgwch am danoch [t] ymysgaroedd [u] trugareddau, cymmwynasgarwch, gostyngeiddrwydd, addfwynder, ymaros;

p Gwel ar d. adn. 10. q Es. 42. 1. a 45. 4. a 65. 9, 22. Mat. 24. 22, 24, 31. Marc 13. 20, 22, 27. Luc 18. 7. Rhuf. 8. 29—33. a 9. 11. a 11. 5—7. 2 Tim. 2. 10. Tit. 1. 1. 1 Pedr 1. 2. 2 Pedr 1. 10. 2 Ioan 1. 13. Dat. 17. 14. r Rhuf. 8. 29. Eph. 1. 4. 1 Thes. 1. 3—6. 2 Thes. 2. 13, 14. s Jer. 31. 3. Ezec. 16. 8. Rhuf. 1. 7. Eph. 2. 4, 5. 2 Tim. 1. 9. Tit. 3. 4—6. 1 Ioan 4. 19. t Es. 63. 15. Jer. 31. 20. Luc 1. 78. Phil. 1. 8. a 2. 1. 1 Ioan 3. 17. u Rhuf. 12. 9, 10. Gal. 5. 6, 22, 23. Eph. 4. 32. Phil. 2. 2—4. 1 Thes. 5. 15. Iago 3. 17, 18. 1 Pedr 3. 8—11. 2 Pedr 1. 5—8. 1 Ioan 3. 14—20.

13 ‖ Gan [x] gyd-ddwyn â'ch gilydd, [y] a maddeu i'ch gilydd, os bydd gan neb gwerylˆ yn erbyn neb: [z] § megis ag y maddeuodd Crist i chwi, felly *gwnewch* chwithau.

x Rhuf. 15. 1, 2. 2 Cor. 6. 6. Gal. 6. 2. Eph. 4. 2. y Mat. 5. 44. a 6. 12, 14, 15. a 18. 21—35. Marc 11. 25. Luc 6. 35—37. a 11. 4. a 17. 3, 4. a 23. 34. Iago 2. 13. z Luc 5. 20—24. a 7. 48—50. 2 Cor. 2. 10. Eph. 4. 32. a 5. 2. 1 Pedr 2. 21.

* Am hyny fel etholedigion Duw, y rhai a garasid ac a ddewisasid er tragywyddoldeb yn Nghrist; † ac mewn amser a alwasid i fod yn saint, neu yn ddynion sanctaidd mewn calon ac ymarweddiad; ‡ yr oedd y cristionogion yn Colossa yn cael eu galw i wisgo am danynt, ac yn eu holl ymddygiad i amlygu tymher ac ysbryd tyner, tosturiol, hynaws, gostyngedig, dïuchelgais, trugarog, addfwyn, ac amyneddgar: ‖ gan gyd-ddwyn â'u gilydd, a maddeu i'w gilydd, os cyfodai rhyw ddadl, neu achos o gŵyn yn eu plith hwynt, § yn ol yr esampl o gariad Crist tuag atynt hwy, ac fel y gweddai i saint a chanlynwyr Crist. Heb sylwi yn fanol ar bob un o'r rhinweddau cristionogol uchod gallwn nodi, fod y gair "ymysgaroedd" yn arwyddo pethau oll yn y cynhesrwydd a'r tynherwch mwyaf, y nghyd a'r arferiad mwyaf brawdol a diragrith o bob un o honynt. Pa le ond yn yr efengyl, a chrefydd sanctaidd Iesu, y cair y fath addysgiadau ac annogaethau nefol?

14 * Ac am ben hyn oll, *gwisgwch* [a] gariad † yr hwn yw [b] rhwymyn perffeithrwydd.

a Ioan 13. 34. a 15. 12. Rhuf. 13. 8. 1 Cor. 13. 1 Thes. 4. 1 Tim. 1. 5. 1 Pedr 4. 8. 2 Pedr 1. 7. 1 Ioan 3. 23. a 4. 2 b Eph. 1. 4. 1 Ioan 4. 7—12.

* Soniwyd o'r blaen am wisgo y dyn newydd (adn. 10.) ac wedi hyny am wisgo ymysgaroedd trugareddau, &c., (adn. 12.) ac yma annogir y saint "am ben hyn oll," neu dros y cwbl, i wisgo cariad helaeth a diragrith, cymmwynasgarwch, ac ewyllys da i ddyn olryw yn gyffredin, ac yn enwedig i deulu y ffydd. Heb y gwisgo *cyntaf,* nis gallwn fod yn gristionogion o ran cyfiwr; ac hëb yr *ail* a'r *trydydd* gwisgo, ni gallwn ymddwyn fel cristionogion tuag at ein gilydd na thuag at neb. † Mae y cariad hwn yn rhwymyn undeb yr holl rasau eraill, yn cadw pob un o honynt yn ei weithrediad cyson a rhëolaidd; mae yn rhwymyn yr holl saint megys yn un corph, ac yn dwyn yr eglwys i'r ystâd o berffeithrwydd mwyaf a all gyrhaedd ar ddaear; a'r cariad hwn yn wir yw y rhwymyn sydd y uno Duw â phob bodau sanctaidd, yn nedwyddwch sancteiddrwydd perffaith y nef.

15 * A llywodraethed [c] tangnefedd Duw yn eich calonnau, [d] † i'r hwn hefyd y'ch galwyd yn un corph; [e] ‡ a byddwch ddïolchgar.

c Salm 29. 11. Es. 26. 3. a 27. 5. a 57. 15, 19. Ioan 14. 27. 16. 33. Rhuf. 5. 1. a 14. 17. a 15. 13. 2 Cor. 5. 19—21. Eph. 2. —18. a 5. 1. Phil. 4. 7. d 1 Cor. 7. 15. Eph. 2. 16. a 4. 1 e adn. 17. pen. 1. 12. a 2. 7. Salm 100. 4. a 107. 22. a 116. 1 Jona 2. 9. Luc 17. 16—18. Rhuf. 1. 21. 2 Cor. 4. 15. a 9. 11. Eph. 5. 20. Phil. 4. 6. 1 Thes. 5. 18. 1 Tim. 2. 1. Heb. 13. 15. Dat. 7. 12.

* A chan mai tangnefedd Duw, yn nghalonau chydwybodau y Colossiaid, ydoedd gwreiddyn a ffynon eu holl gysuron; dylai y tangnefedd hwnw lywodraeth o'u mewn, fel barnydd rhyngddynt yn eu holl ddadleuon. *Llanwed* eich calonau, â'r fath lawenydd a fydd i'r ymdrechwyr buddugol yn y campiau gynt wrth dderbyn eu gwobr, medd rhai; ond yn hytrach *llywodraethed* yn eich calonau, fel y byddai blaenor a barnydd y campiau hyny yn llywodraethu ac yn barnu pawb phobpeth yn yr ymdrechiadau Olympaidd. *Brabeuo* yw y gair Groeg, a defnyddir ef yn ei wahanol derfyniadau am y llywydd, y wobrwy, a barnu y wobrwy, yr ymdrechiadau a enwyd. † Yr oeddynt wedi cael galw i'r ystâd ddedwydd hon o dangnefedd tuag Dduw a thuag at eu gilydd, fel "un corph;" a th effaith a llywodraeth cariad a thangnefedd yn unig gallent fyw yn yr undeb sanctaidd a gwynfyded hwnw, yn gyfatebol i'w galwad: ‡ ac am y cyfryw deb, tangnefedd, a breintiau rhagorol, yr oedd gweddu iddynt fod yn dra dïolchgar, a dangos eu dïol garwch yn mhob ffordd ag oedd yn bosibl iddynt.

16 [f] * Preswylied [g] gair Crist ynoch [h] helaeth [i] † ym mhob doethineb; [k] ‡ gan ddysgu a rhybuddio bawb eich gilydd [l] ‖ mewn psalmau, a hymnau, [m] ac odlau ysprydol, [n] § ganu trwy ras yn eich calonnau [o] i'r Arglwydd.

f Ioan 5. 39, 40. 2 Tim. 3. 15. Heb. 4. 12, 13. 1 Pedr 1. 11 Dat. 19. 10. g Deut. 6. 6—9. a 11. 18—20. Job 23. 12. S 119. 11. Jer. 15. 16. Luc 2. 51. Ioan 15. 7. 1 Ioan 2. 14, 24 2 Ioan 2. h 1 Tim. 6. 17. Tit. 3. 6. i pen. 1. 9. 1 Bre 9—12, 28. Diar. 2. 6, 7. a 14. 8. a 18. 1. Es. 11. 2. Eph. 1. 5. 17. Iago 1. 5. a 3. 17. k pen. 1. 28. Rhuf. 15. 14. 1 The 18. a 5. 11, 12. 2 Thes. 3. 15. Heb. 12. 12—15. l Mat. 26 1 Cor. 14. 26. Eph. 5. 19. Iago 5. 13. m 1 Cron. 25. 7. 12. 46. Salm 32. 7. a 119. 54. Can. 1. 1. Es. 5. 1. a 26. 1. a 30 Dat. 5. 9. a 14. 3. a 15. 3. n pen. 4. 6. Salm 28. 7. a 30. 11 a 47. 6, 7. a 63. 4—6. a 71. 23. a 103. 1, 2. a 138. 1. 1 Cor. 14 o adn. 23.

Wrth "air Crist" mae yn debyg y meddylir yr holl
thyr sanctaidd; yr hon oedd oll o hóno ef fel
ni y byd, ac fel gair personol Duw; ac yr hon, yn
ill ffordd a'r llall, oedd oll yn perthyn iddo ef: ac
nwedig gellir golygu yr efengyl wrth "air Crist."
edd yn dra angenrheidiol i'r Colossiaid, trwy efryd
fyrdod dyfal, i lenwi eu cof a'u deall âg addysg-
yr ysgrythyr lân, fel y byddai drwy hyny yn pres-
yn helaeth yn eu calonau hwynt; ac fel y caffai
eall ei oleuo, eu barn ei hunioni, eu calonau eu
o, a'u cydwybodau eu cyfarwyddo, yn ol a thrwy y
sanctaidd. † Fel hyn hwy a gyfoethogid â phob
nineb a gwybodaeth ysbrydol, a dysgid hwy i
aredu yn ddoeth yn eu holl ymddygiad; neu, hwy
eddid fel hyn i ddefnyddio eu doethineb a'u gwy-
eth, trwy eu gosod mewn iawn ymarferiad. ‡ Fel
hefyd, galluogid hwy gyda pharodrwydd a deheu-
addysgu, rhybuddio, cyngori, argyhoeddi, ceryddu,
lonogi eu gilydd, fel y byddai achosion ac am-
iadau yn gofyn: || tra byddai y salmau, yr hymnau,
dlau ysbrydol hyny, a gyd-ganent hwy mewn
au nefol a sanctaidd, dàn ddylanwadau dwyfol
rn eu calonau i ogoniant yr Arglwydd, yn eu
fnu hwy â geiriau addas, i ddysgu a rhybuddio
eu gilydd. *Salmau, a hymnau, ac odlau ysbrydol:*
Calvin, medd *Doddridge*, fod yr holl eiriau uchod
dfeirio at gyfansoddiadau prydyddawl Dafydd; ond
w *Doddridge* ei hun yn cyd-weled â hyny: gan fod
n amrywiaeth o ddoniau rhyfeddol yn yr eglwys y
hwnw, tybiai efe yn afresymol i feddwl nad oedd
tionogion yn cyfansoddi *hymnau ac odlau ysbrydol*
ûnu yn addoliad Duw, ond yn eu caethiwo eu
in i gyfansoddiadau Dafydd yn unig yn eu holl
wniadau crefyddol.

[v] [p] * A pha beth bynnag a wneloch, [q] ar
eu *ar* weithred, † *gwnewch* bob peth [r] yn
yr Arglwydd Iesu, [s] ‡ gan ddiolch i Dduw
Tad trwyddo ef.

adn. 23. 2 Cron. 31. 20, 21. Diar. 3. 6. Rhuf. 14. 6—8. 1 Cor.
q 2 Thes. 2. 17. 1 Ioan 3. 18. r Mica 4. 5. Mat.
Act. 4. 30. a 19. 17. Phil. 1. 11. 1 Thes. 4. 1, 2. s pen.
a 2. 7. Rhuf. 1. 8. Eph. 5. 20. 1 Thes. 5. 18. Heb. 13. 15.
2. 5, 9. a 4. 11. t Eph. 1. 17. Phil. 2. 11. 1 Thes. 1. 1.
5. 1 Ioan 2. 23.

n y cyffredin, pa beth bynag a fyddent yn ei gylch,
a bynag ai mewn ymddiddan, ai mewn addoliad
ddus, teuluaidd, neu ddirgel; yn eu holl achosion
, yn eu cartrefydd, yn eu symmudiadau o fàn i
orchwylion galwedigaethol eu bywyd; wrth lunio
asau, iddynt eu hunain neu eu plant; ac yn eu holl
redoedd o elusengarwch; † dylent wneyd pob peth
w yr Arglwydd Iesu; mewn ymddybyniad ffyddiog
deilyngdod a'i ras ef, o gariad ato, mewn ufudd-
'w orchymynion, ac er anrhydedd i'w enw mawr:
ddiolch yn wastad i Dduw a'r Tad (neu y Tad)
lo ef fel Cyfryngwr, am bob bendith ysbrydol a
norawl: oblegid trwyddo ef yn unig mae gwasan-
goreu pechaduriaid yn gymmeradwy gyda Duw;
ddylid anturio ar ddim, nac ymaflyd mewn dim,
na chrefyddol, gan neb cristionogion, ar nas
eu gwneyd yn ei enw ef, ac er mwyn Iesu y
dwr.

* *Y* gwragedd, [u] ymostyngwch i'ch
priod, [x] † megis y mae yn weddus yn yr
wydd.

Gen. 3. 16. Esther 1. 20. 1 Cor. 11. 3. a 14. 34. Eph. 5. 22
3. 1 Tim. 2. 12. Tit. 2. 5. 1 Pedr 3. 1—6. x Act. 5. 29.
3. a 6. 1.

wedi dywedyd uchod yn gyffredinol am wneyd
eth yn enw yr Arglwydd Iesu, mae yr apostol yn
yll yma am ddyledswyddau neillduol cristionog-
ewn gwahanol sefyllfâoedd a pherthynas; ac yn
u ar y gwragedd, gan eu hannog i ymostwng i'w
priod yn mhob peth gweddus a dyladwy, yn ol
natur, dyled priodas, a rhwymau yr efengyl.

† Mae hyn yn weddus, yn briodol, ac yn gyson â chymmeriad gwragedd, ac â'u perthynas â'r Arglwydd Iesu, ac â'u proffes o hóno ef; yn gyson a'i orchymyn ef, yn anrhydeddus i'w efengyl ef; ac nid yw yn wrthwyneb i'r gorchymyn i ufuddâu i Dduw yn hytrach nac i ddyn. Y pryd hwnw, byddai raid i wragedd cristionogol yn aml ufuddâu i wŷr paganaidd ac eilun-addolgar, a byddai raid i wŷr cristionogol yn aml garu eu gwragedd paganaidd; ac yr oedd hyn oll yn gyson â'r efengyl.

19 * *Y* gwŷr, [y] cerwch *eich* gwragedd, † ac
na fyddwch [z] chwerwon wrthynt.

y Gen, 2. 23, 24. a 24. 67. Diar. 5. 18, 19. Preg. 9. 9. Mal. 2. 14—16. Luc 14. 26. Eph. 5. 25, 28, 29, 33. 1 Pedr 3. 7. z adn. 21. Rhuf. 3. 14. Eph. 4. 31. Iago 3. 14.

* O'r tu arall, dyledswydd gwŷr oedd caru eu gwragedd, ac ymddwyn tuag atynt yn wastad gyda thynerwch, tiriondeb, a serchawgrwydd; a gwneyd pob peth a allent er eu lles, eu cysur, a'u dedwyddwch ysbrydol a thymmorawl. † Dylent beidio a bod yn chwerwon wrthynt; nid arglwyddi oeddynt, eithr gwŷr: nid caethforwynion oedd ganddynt, eithr gwragedd; ewyllys Duw yw i'r gwŷr garu a llywodraethu eu gwragedd, neu eu llywodraethu trwy gariad, ac nid eu gorthrymu, a bod yn chwerwon wrthynt. Yn y gorchymyn hwn mae ffyddlondeb i'r cyfammod priodasol yn cael ei wasgu; yn gystal â gofal am ddarpar i'r wraig y cyfryw bethau ag sydd yn angenrheidiol i'w dedwyddwch a'i chysur hi, yn ol sefyllfa y gŵr.

20 * *Y* plant, [a] ufuddhêwch i'*ch* rhieni
[b] ym mhob peth: † canys hyn sydd yn
[c] rhyngu bodd i'r Arglwydd yn dda.

a Gen. 28. 7. Ex. 20. 12. Lef. 19. 3. Deut. 21. 18—21. a 27. 16. Diar. 6. 20. a 20. 20. a 30. 11, 17. Ezec. 22. 7. Mal. 1. 6. Mat. 15. 4—6. a 19. 19. Eph. 6. 1—3. b adn. 22. Eph. 5. 24. Tit. 2. 9. c pen. 1. 10. Phil. 4. 18. Heb. 13. 21.

* Y rhai oedd blant, meibion neu ferched, yn eglwys Colossa, yr oedd yn ddyled arnynt gofio bod eu rhwymau naturiol i'w rhieni, tadau a mamau, yn parâu, pa un bynag ai Iuddewon ai cenedloedd, ai cristionogion ai paganiaid oeddynt; ac yr oedd yn ddyled arnynt o ganlyniad i wneyd cydwybod o dalu pob parch iddynt fel eu rhieni, i ufuddâu iddynt yn mhob peth ag oedd yn gyfiawn a rhesymol i rieni ei orchymyn; † oblegid yr oedd hyn, ac y mae eto, yn unol âg ewyllys Crist, ac yn gymmeradwy gan Dduw trwyddo ef. Bu Crist ei hun yn ufudd i'w rieni, er esampl i holl blant y byd a glywant am dano; ac mae ufudd-dod plant i'w rhieni yn rhyngu bodd i'r Arglwydd yn dda; ac anufudd-dod i'r gwrthwyneb, yn ei ddigio yn fawr iawn.

21 * *Y* tadau, na [d] chŷffrôwch eich plant,
† fel na ddigalonnont.

d Salm 103. 13. Diar. 3. 12. a 4. 1—4.—Gwel ar Eph. 6. 4. —1 Thes. 2. 11. Heb. 12. 5—11.

* O'r tu arall, dylai y rhieni, tadau a mamau, fod yn gydwybodol a thyner ofalus, i ddeall ac ystyried tymherau eu plant, ac ymdrech i sefydlu eu hawdurdod arnynt, a'u dênu hwynt at eu dyledswydd, trwy foddion call, tyner, ac arafaidd; heb byth suro eu meddyliau hwy trwy eiriau sarâus a ffrochwyllt, trwy orchymynion afresymol, neu trwy geryddon creulawn a didrugaredd, i "gyffrôi" eu nwydau digofus hwynt. † Dylent ochelyd pob cyfryw driniaeth arw ac afrywiog, fel na thòrer eu hysbryd hwy, ac na ddigalonont; a chael eu llenwi â rhagfarn yn erbyn eu rhieni ac yn erbyn yr efengyl hefyd, yr hon a broffesir gan y rhieni, ond a ydynt yn mhell o ennill eu plant i'w chofleidio hi, drwy y fath dymher ddrwg ac ymddygiad tuag atynt hwy. Pan mae rhieni bob amser yn beio ar eu plant, ac heb wneyd dim gwahaniaeth rhwng diofalwch a gwallau plentynaidd, â drygau gwirfoddol, anufudd-dod gwrthnysig, neu ymddygiad anfoesol; a phan maent yn llym geryddu, hyd yn nôd diffygion eu hymdrech i ufuddâu, heb ganmol dim o'r hyn sydd yn iawn ynddynt; mae plant yn myned i feddwl nad oes dim dichon iddynt foddio eu rhieni, ac felly maent vn digaloni ac yn

myned yn ddifater: maent yn cilio, ac yn gochel cymdeithas eu rhieni gan eu hofn, mae yn well ganddynt gymdeithas rhywrai eraill; ac fel hyny ânt yn agored i aneirif demtasiynau cryfion.

22 * *Y* gweision, [e] ufuddhêwch ym mhob peth i'*ch* meistriaid yn ol y cnawd; † nid â llygad-wasanaeth, [f] ‡ fel boddlonwyr dynion, [g] || eithr mewn symlrwydd calon, [h] § yn ofni Duw:

e Salm 123. 2. Mal. 1. 6. Mat. 8. 9. Luc 6. 46. a 7. 8. Eph. 6. 5—7. 1 Tim. 6. 1, 2. Tit. 2. 9, 10. Philemon 16. 1 Pedr 2. 18, 19. f Gal. 1. 10. 1 Thes. 2. 4. g Mat. 6. 22. Act. 2. 46. Eph. 6. 5. h Gen. 42. 18. Neh. 5. 9, 15. Preg. 5. 7. a 8. 12. a 12. 13. 2 Cor. 7. 1.

* Am y rhai oedd weision a morwynion yn eglwys Colossa, pa un bynag ai am gyflog ai mewn caethiwed *(slavery)* yr oeddynt yn gwasanaethu, a pha un bynag ai cristionogion ai paganiaid oedd eu meistriaid hwy yn ol y cnawd, ac mewn pethau bydol a thymmorawl; eu dyledswydd hwy oedd bod yn ddiwyd ac yn ffyddlawn yn mhob rhan o wasanaeth y cyfryw feistriaid, cyn belled ag nad oedd hyny yn croesi eu dyledswydd hwy i'w Meistr uwch, yr hwn oedd yn y nefoedd, ac yn groes i achosion crefydd a'u heneidiau eu hunain. † Dylai gwasanaeth-ddynion ufuddâu i'w meistriaid yn yr ystyriaethau uchod yn ewyllysgar a siriol, nid yn unig â llygad-wasanaeth, sef tra byddo eu meistriaid yn y golwg, ac â'u llygaid arnynt; ‡ nid fel rhai a fyddai yn ymgais yn unig am foddloni dynion, ac ennill gair da ac ewyllys da dynion; || ond "mewn symlrwydd," a chywirdeb calon ddiragrith bob amser, § megys yn ngwydd a golwg yr hollwybodol Dduw, ac fel dynion yn gweithredu oddi ar egwyddor o gydwybod tuag ato ef, ac am ryngu ei fodd ef yn eu holl ffyrdd yn fwy na dim arall, heb wneyd dim i'w anfoddloni ef un amser, pa un bynag a fyddo neb dynion yn gweled neu beidio.

23 [i] * A pha beth bynnag a wneloch, gwnewch o'r galon, [k] † megis i'r Arglwydd, ‡ ac nid i ddynion;

i Gwel ar adn. 17.—2 Cron. 31. 21. Salm 47. 6, 7. a 103. 1. a 119. 10, 34, 145. Preg. 9. 10. Jer. 3. 10. 1 Pedr 1. 22. k Zec. 7. 5—7. Mat. 6. 16. Rhuf. 14. 6, 8. Eph. 5. 22. a 6. 7. 1 Pedr 2. 13, 15.

* Pa wasanaeth bynag y galwer gweision iddo, dylai gael ei wneyd, nid trwy orfod, anfodd, a grwgnach; eithr yn wir ewyllysgar ac o'r galon: † oddi ar ystyriaeth o ddyledswydd tuag at yr Arglwydd Iesu, mewn ufudd-dod i'w orchymynion ef, ac er ei anrhydedd a'i ogoniant ef a'i efengyl; ‡ ac nid oddi ar ysbryd hunanol a chyflogaidd, yr hwn yn unig a gais foddloni dynion.—Fel hyn pan fyddai y caeth-was tlawd, yn ufuddâu i orchymynion afresymol meistr caled ac afrywiog, byddai yn gwneyd hyny yn siriol ac ewyllysgar hyd eithaf ei allu, gan amcanu yn syml anrhydeddu Crist, ufuddâu iddo ef, a harddu ei efengyl ef yr hon a broffesai.

24 * Gan wybod mai gan yr Arglwydd [l] y derbyniwch daledigaeth yr etifeddiaeth: † canys [m] yr Arglwydd Crist yr ydych yn ei wasanaethu.

l pen. 2. 18. Gen. 15. 1. Ruth 2. 12. Diar. 11. 18. Mat. 5. 12, 46. a 6. 1, 2, 5, 16. a 10. 41. Luc 6. 35. a 14. 14. Rhuf. 2. 6, 7. a 4. 4, 5. 1 Cor. 3. 8. a 9. 17, 18. Heb. 9. 15. a 10. 35. a 11. 6. m Ioan 12. 26. Rhuf. 1. 1. a 14. 18. 1 Cor. 7. 22. Gal. 1. 10. Eph. 6. 6. 2 Pedr 1. 1. Judas 1.

* Er annogaeth a chalondid i bob parodrwydd a ffyddlondeb yn y gwasanaeth uchod, dylai y gweision gredu yn sicr, ac ystyried yn ddifrifol, pa faint bynag o driniaeth ddrwg ac anghyfiawnder a gaent gan eu meistriaid ar y ddaear yn lle gwobrwy addas a haeddiannol, y derbynient daledigaeth rasol yr etifeddiaeth nefol, gan yr Arglwydd Iesu, Barnwr mawr a chyfiawn pawb, yn y dydd diweddaf: a pha fodd bynag y byddai i'r cyfryw weision fethu a boddloni eu meistriaid daearol; byddai eu hymdrech ffyddlawn yn gymmeradwy gan yr Arglwydd, a chaent dderbyn yn sicr daled aeth gyfiawn; ond o ras, gan Dduw cyfiawn, yn enwe yn yr etifeddiaeth nefol: y rhai oedd gaeth-weision y ddaear, byddent etifeddion yn y nef. † Wrth lawni eu dyledswyddau i feistriaid daearol, yr oedd mewn gwirionedd yn gwasanaethu ac yn anrhydedd Arglwydd Iesu Grist ei hunan, y Meistr goreu o ba yr hwn yn ei ragluniaeth a'u gosodasai hwy yn yr ys hòno o wasanaeth, a'r hwn yn ei air oedd yn g ymddygiad addas iddi, "fel yr harddent hwy athr iaeth Duw eu Hiachawdwr yn mhob peth." Tit. 2. *Gwasanaethu yr Arglwydd Crist:* dywed *Schlieting* Sociniad, fel hyn ar y geiriau uchod:—"Dylem w anaethu Crist fel ein Harglwydd nefol, yr hyn (e efe) a gynnwys ffydd ynddo, ufudd-dod iddo, ac ad iad a mawrâd o hóno." A ddywed pawb o'r Socin yr un modd?

25 * Ond yr [n] hwn sydd yn gwneuth cam, † a [o] dderbyn *am* y cam a wnaeth: [p] ‡ nid oes derbyn wyneb.

n 1 Cor. 6. 7, 8. 1 Thes. 4. 6. Philemon 18. o 2 Cor. 5 Heb. 2. 2. p pen. 4. 1. Lef. 19. 15. Deut. 1. 17. 2 Sam. 14 2 Cron. 19. 7. Job. 34. 19. a 37. 24. Luc 20. 21. Act. 10. 34. R 2. 11. Eph. 6. 9. 1 Pedr 1. 17. Judas 16.

* "Yr hwn sydd yn gwneuthur cam," neu anghyfia der, pa un bynag ai gwas, trwy esgeuluso gwaith achos ei feistr, neu trwy ladrata ei eiddo ef; ai y meistr, trwy dalu drwg am dda, neu attal yr hyn ddyledus i'w was; † a dderbyn daledigaeth a gwob gyfiawn a diddüedd, am y cyfryw weithredoedd dryg us yn y dydd diweddaf. ‡ Oblegid yn nydd maw farn, ni thueddir ein Harglwydd bendigedig d unrhyw amgylchiadau allanol, ac ni wna efe wah iaeth rhwng meistriaid a gweision, caethion na rhy ion, mewn ochr i'r naill, nac mewn rhagfarn tuag llall, ar gyfrif eu gwahanol sefyllfâoedd yn y byd h ond efe a rydd farn gyfiawn ar bawb, yn ol y dystiolae gyfodo o'u plaid neu yn eu herbyn, oddi ar eu cymr iad moesawl a chrefyddol, beth bynag oedd eu sefy ddinasaidd hwy yn y byd hwn. *Yr hwn sydd yn g euthur cam:* ni byddai i gam-ymddygiad y gwas es odi creulondeb ac anghyfiawnder y meistr; ac ni byd i eilun-addoliaeth, drygioni, neu doster y me esgusodi y gwas dïog, anonest, neu anufudd, i cospedigaeth: pob un a ddwg ei fai a'i gosp ei hun bydd dim esgusodi na derbyn wyneb neb yno.

PEN. IV

Y mae efe yn eu hannog hwy i fod yn wresog m gweddi.

* Y MEISTRIAID, [a] gwnewch i'*ch* gw ion yr hyn *sydd* gyfiawn ac uniawn; † wybod [b] fod i chwithau Feistr yn y nefoed

a Lef. 19. 13. a 25. 39—43. Deut. 15. 12—15. a 24. 14 Neh. 5. 5—13. Job 24. 11, 12. a 31. 13—15. Es. 58. 3, 5—9. 34. 9—17. Mal. 3. 5. Iago 2. 13. a 5. 4. b Preg. 5. 8. Ma 8, 9. a 24. 48—51. Luc 16. 1—13. a 19. 15. Eph. 6. 8, 9. Da 14. a 19. 16.

Gan fod yr adnod hon yn gorphen y cyngorion ddyledswyddau *perthynasol*, buasai yn well ei bo *diweddu* y bennod o'r blaen nac yn *dechreu* hon: gw dynol oedd rhanu y Bibl yn bennodau, ac nid gymhwys y rhaniad yn mhob màn. * Yr oedd yr ad olaf o'r bennod o'r blaen yn perthyn i feistriaid gystal ag i weision; ac yma cyngorir y meistriai fwy neillduol, i roddi i'w gweision y cynnaliaeth taliad hyny ag oedd yn gyfiawn ac uniawn iddynt g am eu llafur a'u gwasanaeth; yr hyn a gynnwys ofa danynt mewn afiechyd, darpariaeth erbyn henai gwobrwyon cymmesur am ffyddlondeb a llafur mw chyffredin. † Fel hyn hwy a ymddygent tuag atyn mhob peth mewn modd ystyriol a rhesymol; heb ddefnyddio eu hawdurdod, ond cofio ac ystyried iddynt hwythau Feistr yn y nefoedd, yr hwn y byd

fyfrifedig iddo, ac y caent eu gwobrwyo ganddo, yn
[a] gweithredoedd a'u haeddiant.

[b] [c] * Parhewch mewn gweddi, † gan [d] wyl-
[e] ynddi [e] ‡ gyd â dïolchgarwch;

[a] adn. 12. pen. 1. 9. 1 Sam. 12. 23. Job 15. 4. a 27. 8—10. [b] 55. 16, 17. a 109. 4.—Gwel ar Luc 18. 1. Rhuf. 12. 12. Eph. [c] Phil. 4. 6. 1 Thes. 5. 17, 18. d Mat. 26. 41. Marc 13. 33. [e] 21. 36. 1 Pedr 4. 7. e Gwel ar pen. 3. 15, 17.

I'r dyben o gyflawni y gwahanol ddyledswyddau
[f] [g] yn iawn, mae yr apostol yn cyngori y Colossiaid
[h] yn mhob sefyllfa a pherthynas, i *barâu* yn ddïes-
[i] us mewn gweddi; i ddàl ati yn ddibaid, er oedi
[k] eu gwrando, ac yn wyneb temtasiynau a phob
[l] olondid. † Dylent wylied ynddi hi; rhag pob an-
[m] usder ysbryd yn dufewnol, a rhag pob rhwystrau
[n] nol. Dylent yn wastad fod mewn ysbryd gweddi,
[o] un barod i weddïo; fel yr aderyn rhwng ei ddwy
[p] yn barod i ehedeg: dylent bènu amserau gosoded-
[q] weddïo, yn ddirgel, yn deuluaidd, ac yn gynnull-
[r] ïol; a gwylied na byddai i ddim eu terfysgu na'u
[s] al ar yr amserau hyny: ‡ a dylent gymmysgu, neu
[t] ylltu, dïolchgarwch am drugareddau parâus blaen-
[u] ïol â'u gweddïau a'u herfyniau am drugareddau
[v] adawl, drostynt ac iddynt eu hunain ac eraill.—Os
[w] *y parâu mewn gweddi* i'w ystyried mewn cyssylltiad
[x] ddnod o'r blaen, lle y crybwyllir am ddyledswydd
[y] triaid tuag at eu gweision: mae hyny yn dangos
[z] un ran o ddyledswydd meistriaid crefyddol yw,
[a] ddïo yn feunyddiol gyda eu gwasanaeth-ddynion a
[b] tstynt; ac felly gofalu am les eu heneidiau yn gystal
[c] eyrph; a'u dwyn i gyd-ffurfiad a phenderfyniad
[d] taidd, tebyg i'r eiddo Joshua, pen. 24. 15. "Ond
[e] , mi â'm tylwyth a wasanaethwn yr Arglwydd."

* Gan [f] weddïo hefyd drosom ninnau,
[g] ar i Dduw agori i ni ddrws ymadrodd,
[h] adrodd [h] dirgelwch Crist [i] || am yr hwn yr
[k] yf hefyd mewn rhwymau:

[f] Rhuf. 15. 30—32. Eph. 6. 19. Phil. 1. 12. 1 Thes. 5. 25. [g] mon 22. Heb. 13. 18, 19. g 1 Cor. 16. 9. 2 Cor. 2. 12. [h] es. 3. 1, 2. Dat. 3. 7, 8. h Gwel ar pen. 1. 26. a 2. 2, 3. [i] 1. 3. 1. a 4. 1. Phil. 1. 13, 14. 2 Tim. 1. 16. a 2. 9.

Yn eu holl weddïau ger bron gorsedd gras, ac yn
[l] eddïau pob un o honynt, y caeth-was tlawd yn
[m] ïl a'r meistr; taer ddymunai yr apostol iddynt
[n] ïïo drosto yntau hefyd, a Thimothëus, a'i holl
[o] yr yn y weinidogaeth. Gan y byddai Paul yn gofyn
[p] yn ngweddïau ei frodyr cristionogol mòr aml ac
[q] daer, mae yn beth rhyfedd na fyddai efe byth yn
[r] ddim am eirioliaeth y Fair Forwyn, na neb o'r saint
[s] neddasid, na'r angelion, os oedd efe yn tybied yn
[t] edswydd arno ofyn iddynt weddïo drosto. † Dei-
[u] i'w frodyr weddïo drosto, am i Dduw roddi iddo
[v] i gyd-lafurwyr ddrws agored, o ran cyfleusdra a
[w] er ymadrodd, ‡ i adrodd dirgelwch Crist, dyfnion
[x] au Duw yn yr iachawdwriaeth, ac i efengylu yn
[y] y cenedloedd anchwiliadwy olud Crist; || yn achos
[z] wn, ac am wneuthur yr hyn, yr oedd efe hefyd
[a] n rhwymau a charchar y pryd hwn.

* Fel yr [k] eglurhâwyf ef, [l] † megis y mae
[m] dhaid i mi *ei* draethu.

[k] Mat. 10. 26, 27. Act. 4. 29. 2 Cor. 3. 12. a 4. 1—4. l adn. [l] 1. 5. 29. 1 Cor. 2. 4, 5. 2 Cor. 2. 14—17. Eph. 6. 20.

Deisyfai yr apostol ran yn ngweddïau y Colossiaid
[n] eilluol drosto ei hun, yn ei amgylchiadau caeth-
[o] a thrallodus presenol: ar iddo yn ei gaethiwed a
[p] ei rhyddêid, allu llawn egluro "holl gyngor Duw,"
[q] gelwch Crist," yn nhrefn fawr yr iachawdwriaeth,
[r] lwad y cenedloedd; † fel y dylasai wneyd, ac yr
[s] yn rhaid iddo wneuthur, heb ofni beth a allasai
[t] wneyd iddo: egluro yn rhad, dïymattal, yn helaeth,
[u] dleu, ac yn gyhoeddus; a chyda'r fath ysbryd a
[v] dai iddo, ac fel yr oedd dyled ei swydd, a mawredd
[w] chos, yn gofyn iddo wneyd.

[m] * Rhodiwch mewn doethineb [n] tu ag at
[o] nai sydd allan, [o] † gan brynu yr amser.

[m] pen. 3. 16. Mat. 10. 16. Rhuf. 16. 19. 1 Cor. 14. 19—25. Eph. 5. 15, 17. Iago 1. 5. a 3. 13, 17. n 1 Cor. 5. 12, 13. 1 Thes. 4. 12. 1 Tim. 3. 7. 1 Pedr 3. 1. o Gwel ar Eph. 5. 16.

* Wrth "rodio mewn doethineb tuag at y rhai oedd allan," mae rhai yn deall, bod yn ddoeth a gochelgar rhag gosod eu hunain yn agored i lid eu gelynion erledigaethus heb raid; ond dïammau bod y geiriau yn cynnwys rhëol mwy cyffredin na hyny, o gyrhaeddiad a phwys mawr; yn arwyddo y fath gymhwysedd arferol, gwyliadwriaeth, a doethineb yn yr holl ymarweddiad, a dueddai i gadw cristionogion rhag cael eu maglu a'u tynu i bechodau gan eu cymmydogion paganaidd ac annuwiol, a rhag rhoddi un achos iddynt i feddwl yn isel ac annheilwng am yr efengyl. Cynnwysa hefyd y fath ragoroldeb eglur o ymarweddiad, a dystawo enllib, a ddiddymo ragfarn, ac a ennillo y rhai oddi allan i chwilio i'r egwyddorion hyny o grefydd, y rhai a ddygant y fath ffrwythau sanctaidd, ac effeithiau dymunol a dedwydd, yn ac ar ddynion. † Fel hyn dylasai y Colossiaid, a dylai pawb crefyddol eto, ymdrechu i ddefnyddio pob cyfleusdra i gyflawni dyledswyddau eu gwahanol sefyllfâoedd; i wneuthur daioni hyd yn nôd i'w gelynion, a rhagflaenu y fath droseddau a thramgwyddiadau a allai gyffrôi eu gelynion i'w herlid hwynt; ac fel hyny bŷrâu eu dyddiau, neu eu tòri ymaith o fod o wasanaeth pellach i Grist a'i achos. Gwel ar Ephes. 5. 16.

6 * *Bydded* eich [p] ymadrodd bob amser yn rasol, [q] wedi ei dymheru â halen, † fel y gwypoch [r] pa fodd y mae yn rhaid i chwi ateb i bob dyn.

p pen. 3. 16. Deut. 6. 6, 7. a 11. 19. 1 Cron. 16. 24. Salm 37. 30, 31. a 40. 9, 10. a 45. 2. a 66. 16. a 71. 15—18, 23, 24. a 78. 3, 4. a 105. 2. a 119. 13, 46. Diar. 10. 21. a 15. 4, 7. a 16. 21—24. a 22. 17, 18. a 25. 11, 12. Preg. 10. 12. Mal. 3. 16—18. Mat. 12. 34, 35. Luc 4. 22. Eph. 4. 29. q Lef. 2. 13. 2 Bren. 2. 20—22. Mat. 5. 13. Marc 9. 50. r Diar. 26. 4, 5. Luc 20. 20—40. 1 Pedr 3. 15.

* Dylai ymadrodd ac ymddiddanion cristionogion fod bob amser, nid yn unig yn ddidramgwydd, ond hefyd yn rasol; yn iaith ddiragrith duwioldeb, purdeb, doethineb, symledd, a chariad; yn arogli ac yn sawyru o bethau nefol, fel y mae cig yn cael ei gadw, ac yn cael ei wneyd yn archwaethus a blasus, drwy ei dymheru â halen. "Yn rasol:" *(en chariti:)* dywedir fod y geiriau gwreiddiol yn arwyddo, yn *siriol* ac yn *ddymunol*, mewn cyferbyniad i *gwynfanllyd* a *phruddaidd:* gall yr ymadrodd fod yn *rasol* er bod yn *siriol;* nid yw pob ymadrodd pruddaidd yn rasol, na phob ymadrodd siriol yn ddiras. † Trwy gadw at y rhëol uchod, gallai y Colossiaid wybod pa fodd y dylent roddi ateb i bob dyn; pa un bynag ai gofyn rheswm am y gobaith oedd ynddynt a wnaed, a holi yn ddifrifol am natur y grefedd gristionogol; neu ofyn am eglurâd ar ryw beth ammheüs a dyrys; ai ynte rhywun a chwennychai wrth-ddadleu, cecru, ymryson, a chablu: os byddai yr ymadrodd yn rasol, wedi ei dymheru â halen, dysgid hwy gan addwynder doethineb nefol, i roddi ateb addas a chymhwys ar bob achlysur, a chadwai hyny hwy rhag ymrafaelion gwarthus. *Halen Attica,* (rhan o wlad Groeg,) y galwai y Groegiaid ymadroddion arebaidd, cywrain, a chymhenllyd, y rhai oedd arferedig ac mewn bri mawr ganddynt hwy, er y byddent yn aml yn cyfeirio at bethau aflan a drygionus; ac efallai bod yr apostol yn cyfeirio at hyn, ond yn dangos i'w ddarllenwyr ffordd llawer mwy rhagorol.

7 * Fy holl [s] helynt i a fynega [t] Tychicus i chwi, [u] † y brawd anwyl, ‡ a'r gweinidog ffyddlawn, [x] || a'r cyd-was yn yr Arglwydd:

s Eph. 6. 21—23. t Act. 20. 4. 2 Tim. 4. 12. Tit. 3. 12. u adn. 9, 12. Gwel ar Eph. 6. 21. Phil. 2. 25. x 1 Cor. 4. 1—4.

* Am yr hyn a berthynai i'r apostol ei hun, ac ystâd ei amgylchiadau ef, o ran pethau allanol â chynnaliaeth a chysuron ysbrydol, y rhai y gwyddai y byddai yn dda gan y Colossiaid gael clywed am danynt; yr oedd efe wedi peri i Tychicus, dygiedydd yr epistol hwn, i

fynegi iddynt yn helaeth ei holl helynt ef pan ddelai atynt: † ac hwy a allent ymddybynu ar yr hanes a roddai efe, am ei fod yn frawd anwyl yn y ffydd a chymdeithas yr efengyl; ‡ ac yn weinidog ffyddlawn i Grist; || ac yn gyd-was diwyd â'r apostol yn ngwaith yr Arglwydd.—Gwel ar Ephes. 6. 21. Wrth gymharu yr adnod hon â'r adnod a ddyfynwyd yn yr Ephesiaid, gallwn weled i'r ddau epistol gael eu hysgrifenu tua'r un pryd, a'u danfon gyda'r un dynion. "Gweinidog:" "*Diakonos: Diacon* ffyddlawn o'ch eglwys chwi," ebai *Doddridge;* ond mae yr ysgrifenydd duwiol hwn yn alleirio yr un gair yn yr Ephesiaid, "gweinidog." Mae bron yn sicr, fod Tychicus yn llawer uwch na *diacon* o ryw un eglwys neillduol: cynnorthwywr i'r apostol oedd efe yn hytrach, fel Timothëus a Titus. Defnyddir y gair *diakonos* gyda llawer o ehangder, ac mae Paul yn ei ddefnyddio am dano ei hun; pen. 1. 23, 25; 1 Cor. 3. 5; ïe, hefyd, am Grist ei Arglwydd. Rhuf. 15. 8.

8 * Yr hwn a [y] ddanfonais attoch er mwyn hyn, † fel y gwybyddai eich helynt chwi, ‡ ac y [z] diddanai eich calonnau chwi;

y 1 Cor. 4. 17. 2 Cor. 12. 18. Eph. 6. 22. Phil. 2. 28. 1 Thes. 3. 5. z pen. 2. 2. Es. 40. 1. a 61. 2, 3. 2 Cor. 1. 4. a 2. 7. 1 Thes. 2. 11. a 3. 2. a 4. 18. a 5. 11, 14. 2 Thes. 2. 17.

* Gan fod yr apostol mòr awyddus am glywed "helynt" y Colossiaid ag y gallent hwythau fod am glywed ei helynt yntau; yr oedd yn danfon Tychicus o fwriad i hyn, † fel y caffai weled a gwybod yn drwyadl, pa agwedd oedd ar bethau crefydd yn eu plith hwynt, i'w hysbysu iddo ef drachefn: ‡ ac hefyd fel y gallai weini cysur a dyddanwch iddynt hwy yn eu holl drallodau, trwy ei gyngorion daionus, a thrwy hysbysu iddynt fel yr oedd Duw mewn modd rhyfeddol yn ymddangos o blaid yr apostol; a thrwy adrodd iddynt lwyddiant mawr ei weinidogaeth ef, hyd yn nôd yn ei rwymau.

9 * Gyd âg [a] Onesimus, † y ffyddlawn a'r anwyl frawd, ‡ yr hwn sydd o honoch chwi. || Hwy a hysbysant i chwi bob peth *a wneir* yma.

a adn. 7. Philemon 10—19.

* Yr Onesimus hwn oedd y fföadur hwnw a ddïangodd oddi wrth ei feistr Philemon, ac a ladratodd ei eiddo ef; ond trwy ddygwydd crwydro i Rufain, dychwelwyd ef i'r ffydd trwy weinidogaeth Paul yno. Cawn sylwi yn mhellach am dano ef pan ddelom at yr epistol at Philemon. † Mae y ganmoliaeth a roddir iddo yma ac yn yr epistol a enwyd, yn dangos ei fod ef wedi cael gwir dröedigaeth, ei fod yn ddyn gwir a nodedig dduwiol, a bod gan yr apostol y meddyliau goreu am dano. ‡ Efallai mai brodor o ddinas Colossa oedd efe, neu ynte yr oedd wedi bod yn cyfanneddu yno; a thybia rhai ei fod erbyn hyn yn aelod o'r eglwys hòno; a thybia eraill ei fod yn llafurio yn ngwaith y weinidogaeth. Gallwn gasglu yma hefyd, nad oedd Tychicus yn un o honynt hwy, sef yn un o Colossa. || Y ddau frawd ffyddlawn hyn a hysbysent bob peth i'r Colossiaid, ag ydoedd yn myned yn mlaen yn achos crefydd yn Rhufain a'i hamgylchoedd; am ddyoddefiadau a chysuron yr apostol, am ei ymddygiad ef yn ei ddyoddefiadau, a'r hyn oedd Duw o hyd yn ei wneuthur drwyddo ac erddo ef.

10 * *Y* mae [b] Aristarchus, fy nghyd-garcharor, yn eich [c] annerch; [d] † a Marc, nai Barnabas fab ei chwaer (‡ am yr hwn y derbyniasoch orchymynion: || os daw efe attoch, [e] derbyniwch ef)

b Act. 19. 29. a 20. 4. a 27. 2. Philemon 24. c Gwel ar Rhuf. 16. 21—23. d Act. 12. 12. a 13. 5, 13. a 15. 37—39. 2 Tim. 4. 11. 1 Pedr 5. 13. e Rhuf. 16. 2. 3 Ioan 8, 9.

* Yr oedd Aristarchus yn aros gyda Phaul yn ei gaethiwed; nid yw sicr pa un ai yn wirfoddol yr oedd felly, ai ynte trwy orfod, yn achos yr efengyl, fel Paul ei hun: y peth olaf sydd fwyaf tebyg. Am yr Aristarchus hwn, gwel y cyfeiriadau *b*, a'r sylwadau ar y mà au hyny. † Am y Marc hwn, sylwasom o'r blaen, da Act. 12. 12; a 13. 13; a 15. 36—41. Yr oedd efe we ei lwyr gymmodi â'r apostol yn mhell cyn hyn; ac oedd meddyliau anghymmeradwy yr apostol am dan wedi eu llwyr ddileu, trwy ei ymddygiad da ef wedi tro yn Act. 15. 36—41. ‡ Efallai, (medd *Scott,)* fod Colossiaid wedi derbyn gorchymyn oddi wrth Pa rywbryd o'r blaen, i beidio derbyn Marc fel gweinido || ond yn awr yr oedd yn galw hyny yn ol, ac yn dei iddynt ei dderbyn ef gyda phob parch, os deuai e atynt, yr hyn a ddengys ragoroldeb ysbryd maddeug yr apostol. Tybir mai y Marc hwn a ysgrifenodd efengyl sydd dàn ei enw.

11 * A Jesus, † yr hwn a elwir Justu [f] ‡ y rhai ydynt o'r enwaediad. || Y rhai hy yn unig *yw fy* [g] nghyd-weithwyr i deyrn Dduw, § y rhai a fuant yn [h] gysur i mi.

f Act. 10. 45. a 11. 2. Rhuf. 4. 12. Gal. 2. 7, 8. Eph. 2. Tit. 1. 10. g adn. 7. 1 Cor. 3. 5—9. 2 Cor. 6. 1. Phil. 4 1 Thes. 3. 2. Philemon 1, 24. h 2 Cor. 7. 6, 7. 1 Thes. 3. 7.

* Un arall o gyd-lafurwyr Paul ydoedd Jesus, wrth enw Groegaidd, yr hyn a arwydda gwaredwr; ac sy yn ateb i Josua yn Hebraeg: † a gelwid ef Justus Lladin, yr hyn a arwydda un cyfiawn. Tybia rhai gwr da hwn newid ei enw o gydwybod, gan dybied n oedd yn gyfreithlawn iddo ef wisgo yr enw a roisid g Dduw ar y Gwaredwr mawr: ond tybia eraill mai p y buasai yn cymmeryd yr enw Justus, Cyfiawn, yn ei a thybiant mai ei gyfeillion a roddasant hwnw iddo chwanegol, o barch iddo. Enw cyffredin oedd Jes neu yn hytrach Josua, yn mhlith yr Iuddewon; c dywedir i'r cristionogion Iuddewig ar ol adgyfod Crist, beidio a galw eu plant wrth yr enw hwnw mwya o wir barch i'w Harglwydd. ‡ Yr oedd y Jesus, ne Justus hwn, yn gystal âg Aristarchus a Marc, enwaediad, hyny yw, o'r Iuddewon, ond wedi eu troi gristionogion; ac fel y cyfryw yr oeddynt yn annerc Colossiaid, (adn. 10,) er mai o'r cenedloedd dïenwa edig yr oeddynt, gyda'r brawdgarwch mwyaf. Ma doniad o Thessalonica oedd Aristarchus, y blaenaf tri hyn; (Act. 27. 2.) ond rhaid mai Iuddew o gen oedd, pe amgen ni ddywedasai Paul ei fod "o'r waediad:" neu ynte, os Groegwr o genedl ydoedd, rh ei fod wedi ei enwaedu fel *proselyt* i'r grefydd Iudd ig, rywbryd cyn iddo gael ei droi yn gristion. || Y hyn, mae yn debyg, oedd yr unig weinidogion "enwaediad" oedd gyda Phaul yn Rhufain, ac yn weithio âg ef yn yspaid ei gaethiwed, i bregethu teyr Dduw, sef gweinidogaeth yr efengyl yn mhlith y cen oedd. Am Timothëus, Groegwr oedd ei dad ef, ac oedd yr apostol yn ei gyfrif ef yn un o'r enwaed Gwel ar Act. 16. 3. Mae y geiriau uchod yn dango lled amlwg hefyd, nad oedd Luc yn Iuddew, nac broselyt enwaededig; oblegid yr oedd Luc yn gyst Thimothëus gyda Phaul yn Rhufain y pryd hwn, 14. Ac os nad oedd ond y tri uchod "o'r enwaed gydag ef, ac yn danfon eu hanerch at y Colossiaid le mae sail i hen chwedl y pabyddion, fod Pedr yn Esgob Rhufain am bùm mlynedd ar hugain? gallasai fod felly am gyhyd o amser *cyn* hyn; ac n byw am gyhyd o amser *wedi* hyn, mae yn debyg; hyny rhaid i ni gasglu na bu Pedr yn Esgob Rhufa gwbl yn ei oes, pe amgen soniasai Paul rywbeth dano fel y cyfryw, yn rhai o'i epistolau oddi yno. § y rhai hyn yn unig *o holl* gyd-weithwyr Paul a f yn gysur; ond y rhai hyn yn unig *o'r enwaediad* a f yn gysur iddo: a bu y tri hyn yn gysur mawr iddo, eu cyfeillach fywiocâol, trwy eu cyngorion cefnog trwy eu cyd-syniad calonog, a thrwy eu cynnorthw gwresog a ffyddlawn, yn ei holl amcanion a'i ymdr iadau ef gydag achos yr efengyl.

12 * Y mae [i] Epaphras, yr hwn sydd honoch, [k] gwas Crist, yn eich annerch; [l] †

ndrechu yn wastadol drosoch mewn gwedd-
u, [m] ‡ ar i chwi sefyll yn berffaith ac yn
flawn y'nghwbl o ewyllys Duw.

i pen. 1. 7. Philemon 23. k Ioan 12. 26. Gal. 1. 10. Iago 1. 1. 2 Pedr 1. 1. l Gwel ar adn. 2.—Luc 22. 44. Gal. 4. 19. b. 5. 7. Iago 5. 16. m adn. 1. Rhuf. 15. 30. Gwel ar pen. 9, 22, 28.—Mat. 5. 48. 1 Cor. 2. 6. a 14. 20. 2 Cor. 13. 11. Phil. 12—15. 1 Thes. 5. 23. Heb. 5. 14. Judas 24.

Gyda'r tri uchod o'r enwaediad, mae efe yn enwi ai eraill o'r dienwaediad, neu o'r cenedloedd cristion-ol, ag oedd gydag ef, yn anwyl iawn ganddo fel cyd-ithwyr ffyddlawn, ac yn danfon eu hanerch brawdol y Colossiaid. * Y cyntaf o'r rhai hyn oedd Epaphras, o'r Colossiaid eu hunain, gweinidog yr eglwys o, ac efallai ei sylfaenydd; am hyny yr oedd yn turiol iawn i'r gwas ffyddlawn hwn i Grist, ddanfon anerch caredicaf atynt fel ei hen gyfeillion anwyl. is gallai efe y pryd hwn lafurio yn eu plith, am ei l yn garcharor yn Rhufain; (Philem. 23.) ond yr id efe yn wastad yn gweddio drostynt mòr daer, fel oedd efe hyd yn nôd yn *ymdrech*, ac megys yn *dir-eni (agônizomenos)* gyda Duw yn eu hachos hwynt. Gweddiai ar iddynt gael eu cadarnâu a'u sefydlu yn y dd, ar iddynt fod yn ddysgyblion cywir a diysgog i sist, ac ar iddynt fod yn gyflawn yn yr wybodaeth a'r arferiad o holl ewyllys Duw; fel y byddent yn mhob th ac yn mhob modd, yn ei ogoneddu ef, yn mwynâu gymdeithas, ac yn gymmeradwy yn ei olwg.

13 * Canys yr [n] ydwyf yn dyst iddo, fod nddo zêl mawr trosoch chwi, a'r rhai o aodicea, a'r rhai o Hierapolis.

n Rhuf. 10. 2. 2 Cor. 8. 3. o adn. 15, 16. pen. 2. 1. Dat. 1. a 3. 14—18.

* Gallai yr apostol ei hun dystio, ac yr oedd yn stio yn ddifrifol yma, fod gan Epaphras fawr gariad y Colossiaid, mawr ofal am danynt, a mawr *zêl* dros-nt, ar iddynt gael eu cynnorthwyo gan Dduw, i sefyll berffaith ac yn gyflawn hyd y diwedd, yn nghwbl o'i yllys sanctaidd ef, adn. 12. † Ac nid drostynt hwy unig yr oedd ei *zêl* ef; eithr hefyd dros eu dwy lwys gymmydogaethol hwynt, un o ba rai oedd yn odicea, dinas agos atynt, ‡ a'r llall yn Hierapolis, nas fawr a phoblog yn Phrygia, ar làn yr afon *Mean-r*: Ystyr *Hierapolis* yw *Dinas sanctaidd;* a galwyd felly, meddant, o herwydd y lliaws o demlau i eilunod dd ynddi. Dywed rhai fod ffrŵd o ddwfr marwol yn lifaw o agoriad yn y ddaear yn agos yno; a dywed aill fod ffynonau o rinweddd meddygawl yno: llyncwyd ddinas gan ddaear-gryn, meddant, yn lled fuan wedi ànu cristionogaeth yno. Efallai i Epaphras fod yn erynol i ffurfio ac ymgeleddu yr eglwysi yn y ddau le weddaf yn gystal ag yn Colossa; am hyny yr oedd nddo fawr gariad atynt, a gofal am danynt.

14 * Y mae [p] Luc † y physygwr anwyl, ‡ a Demas, yn eich annerch.

p 2 Tim. 4. 11. Philemon 24. q 2 Tim. 4. 10. Philemon

* Yr oedd Luc wedi bod yn hir yn gydymaith anwyl" i Paul, mewn teithiau, mewn llafur, ac mewn oddefiadau: † cawsai ei ddwyn i fynu yn "physygwr," eu feddyg; pa un a roddes efe i fynu yr alwedigaeth ono yn hollawl nis gwyddom, ond mae yn amlwg ei ld ef yn efengylwr, neu bregethwr yr efengyl, yn yr nryw ddinasoedd lle y teithiai: gallasai fod yn ddef-rddiol iawn yn y ddwy alwedigaeth, fel meddyg corph meddyg enaid. ‡ Gyda Luc, yr oedd Demas yn nfon ei anerch; am yr hwn ar ol hyn cawn hanes go hel. 2 Tim. 4. 10.

15 * Anherchwch y brodyr *sydd* [r] yn Laodicea, † a Nymphas, ‡ a'r [s] eglwys *sydd* yn ei dŷ ef.

r Gwel ar o. adn. 13. s Rhuf. 16. 5. 1 Cor. 16. 19. Philemon 2.

* Gwedi anerch y Colossiaid dros eraill, o'r enwaediad a'r dienwaediad, mae yr apostol yma yn dymuno arnynt i anerch y brodyr yn Laodicea, drosto ac yn ei enw ef ei hun: † ac hefyd Nymphas; am yr hwn nis gwyddom fwy nac a ddywedir yma: mae yn sicr mai rhyw ŵr nodedig o dduwiol oedd efe yn Laodicea; ‡ ac yn cadw ei deulu mewn trefn mòr dda o ran crefydd, fel y gellid ei alw yn "eglwys," neu gymdeithas o ddynion duwiol "yn ei dŷ ef," lle yr oedd Duw yn cael ei addoli yn gyson: neu efallai y byddai moddion cyhoeddus yn cael eu cadw yn ei dŷ ef, fel mewn llawer o dai crefyddol yn ein gwlad ni.

16 * Ac [t] wedi darllen yr epistol hwn gyd â chwi, perwch ei ddarllen hefyd yn eglwys y Laodiceaid; a darllen o honoch chwithau yr un o Laodicea.

t 1 Thes. 5. 27.

* Mae yr apostol yn erchi darllen yr epistol hwn yn eglwys gyfagos Laodicea, o herwydd ei fod yn addas er addysg cyffredin; † ac i epistol a dderbynient hwy o Laodicea gael ei ddarllen yn gyhoeddus yn eu plith hwythau. Mae yn debyg i'r apostol ysgrifenu at y Laodiceaid, ond nad yw yr epistol hwnw ddim ar gael yn awr; oblegid nid yw yr holl epistolau a ysgrifenodd yr apostol ar gael, mwy na'r hanes am holl eiriau a gweithredoedd yr Arglwydd Iesu. Ioan 20. 30; a 21. 25. Tybia rhai mai eiluniad *(copy)* o'r epistol at yr Ephesiaid oedd yr epistol "o Laodicea:" a thybia eraill mai llythyr a ddanfonasid o Laodicea at yr apostol ydoedd.

17 * A dywedwch wrth [u] Archippus, [x] † Edrych at y [y] weinidogaeth ‡ a dderbyniaist yn yr Arglwydd, ar i ti ei [z] chyflawni hi.

u Philemon 2. x Lef. 10. 3. Num. 18. 5. 2 Cron. 29. 11. Ezec. 44. 23, 24. Act. 20. 28. 1 Tim. 4. 16. a 6. 11—14, 20. 2 Tim. 4. 1—5. y Act. 1. 17. a 14. 23. 1 Cor. 4. 1, 2. Eph. 4. 11. 1 Tim. 4. 14. 2 Tim. 1. 6. a 2. 2. z 2 Tim. 4. 5.

* Pwy oedd Archippus nis gwyddom; esgob Colossa, medd rhai; hen weinidog methianllyd yno, medd eraill; gweinidog lled ieuanc, medd eraill; † yr hwn y gwyddai Paul ei fod yn dangos arwyddion o ofn a llwfrdra, neu ynte o ddiofalwch yn ei weinidogaeth, am hyny mae yn peri i'r Colossiaid ei rybuddio ef, i edrych at ei weinidogaeth, i'w chyflawni hi yn ffyddlawn a diwyd, ‡ yn ofn Duw yr hwn a roddasai y weinidogaeth iddo. Gwel eto ar Philem. 2.

18 * Yr annerch [a] â'm llaw i Paul fy hun. [b] † Cofiwch fy rhwymau. [c] ‡ Gras *fyddo* gyd â chwi. Amen.

a 1 Cor. 16. 21. 2 Thes. 3. 17. b 2 Tim. 1. 8. Heb. 13. 3. c Gwel ar Rhuf. 16. 20, 24. 2 Cor. 13. 14. 1 Tim. 6. 21. 2 Tim. 4. 22. Heb. 13. 25.

* Mae yr apostol yn ysgrifenu yr anerch â'i law ei hun fel arferol. Gwel ar Rhuf. 16. 21—23; 1 Cor. 16. 21—24; 2 Thes. 3. 17. † Cofiwch fy rhwymau, sef fy holl flinderau, i weddïo drosof, i ddàl ar fy nghyngorion, ac i sefyll yn gadarn eich hunain mewn cyffelyb flinderau. ‡ Ac yna mae yn diweddu gan ddymuno i ras Duw fod gyda hwy oll. Amen: felly y byddo.

¶ At y Colossiaid yr ysgrifenwyd o Rufain, gyd â Tychicus ac Onesimus.

EPISTOL CYNTAF PAUL YR APOSTOL

AT Y

THESSALONIAID.

PEN. I.

Mòr feddylgar oedd yr apostol am danynt hwy bob amser.

PAUL, [a] * a Silfanus, [b] † a Thimothëus, [c] at eglwys y [d] ‡ Thessaloniaid, [e] yn ‖ Nuw Dad, a'r Arglwydd Iesu Grist. [f] § Gras i chwi a thangnefedd, oddi wrth Dduw ein Tad, a'r Arglwydd Iesu Grist.

a Act. 15. 27, 32, 34, 40. a 16. 19, 25, 29. a 17. 4, 15. a 18. 5. 2 Cor. 1. 19. 2 Thes. 1. 1. 1 Pedr 5. 12. b Act. 16. 1—3. a 17. 14, 15. a 18. 5. a 19. 22. a 20. 4. 2 Cor. 1. 1. Phil. 1. 1. Col. 1. 1. 1 Tim. 1. 2. 2 Tim. 1. 2. Heb. 13. 23. c Gwel ar 1 Cor. 1. 2. Gal. 1. 2. d Act. 17. 1—9, 11, 13. e Gal. 1. 22. 2 Thes. 1. 1. 1 Ioan 1. 3. Judas 1. f Gwel ar Rhuf. 1. 7.—Eph. 1. 2.

Tybir mai hwn yw y cyntaf o'r holl epistolau a ysgrifenodd Paul, yr hyn a wnaeth, debygir, tua B. A. 51, neu 52; a chytunir yn gyffredin iddo ei ddanfon, nid o Athen, fel y dywed yr ol-ysgrifen, eithr o Corinth, yn mhen tua blwyddyn wedi iddo fod yn Thessalonica: * oblegid ni ddaeth Silfanus, neu Silas, yr hwn a enwir gydag ef yma, ato ef pan ỳrwyd ef o Thessalonica a Berea, hyd wedi ei ddyfod ef i Corinth; † ac nid arosodd Timothëus gydag ef yn Athen, oblegid iddo ei ddanfon ef yn ol yn fuan i Thessalonica: (Gwel pen. 3. 1; Act. 17. 10—15; a 18. 1—6:) felly nis gallai yr epistol hwn gael ei ddanfon o Athen. ‡ Ystyr Thessalonica yw Buddugoliaeth Thessalia; ac a alwyd felly er côf am fuddugoliaeth Philip o Macedonia ar y Thessaliaid, meddant; Thermæ oedd ei henw o'r blaen, a hi ydoedd brif-ddinas Macedonia. Am ddechreu pregethu yr efengyl a phlàniad yr eglwys yno, gwel Act. 17. 1—10. ‖ Er mai paganiaid ac eilun-addolwyr oeddynt oll o'r blaen, yr oedd yno yn awr eglwys yn Nuw Dad, sef yr unig wir Dduw, a chredinwyr yn yr Arglwydd Iesu Grist, y gwir Fessïah. § Am y geiriau hyn, sylwasom arnynt o'r bláen, ar ddechreu pob epistol: gweled y darllenydd yno.

2 * Yr ydym yn [g] dïolch i Dduw yn wastadol drosoch chwi oll, † gan wneuthur coffa am danoch yn ein gweddïau,

g Gwel ar Rhuf. 1. 8, 9. a 6. 17.—1 Cor. 1. 4. Eph. 1. 15, 16. Phil. 1. 3, 4. Col. 1. 3.

* Yr oedd yr apostol a'i frodyr a enwyd uchod, yn dïolch i Dduw yn wastadol dros holl eglwys y Thessaloniaid; ac fel hyny yn cydnabod, pa lwyddiant bynag a fu ar yr efengyl yn eu plith hwynt, mai o fendith Duw y bu hyny trwy eu llafur a'u gweinidogaeth hwy. † Yr oeddynt hefyd yn coffa am danynt yn eu gweddïau gwastadol; am i'r hwn a ddechreuasai y gwaith da yn-ddynt ei berffeithio ef hyd ddydd Iesu Grist.

3 * Gan [h] gofio yn ddibaid [i] waith eich ffydd chwi, [k] † a llafur *eich* cariad, [l] ‡ ac ymaros *eich* gobaith yn ein Harglwydd Iesu Grist, [m] ‖ ger bron Duw a'n Tad;

h pen. 3. 6. 2 Tim. 1. 3—5. i pen. 2. 13, 14. Ioan 6. 27—29. Rhuf. 16. 26. 1 Cor. 15. 58. Gal. 5. 6. Heb. 4. 11. a 11. 7, 8, 17, 24—34. Iago 2. 17—26. Dat. 2. 19. k Gen. 29. 20. Can. 8. 7. Ioan 14. 15, 21—23. a 15. 10. a 21. 15—17. Rhuf. 16. 6. 1 Cor. 13. 4—7. 2 Cor. 5. 14, 15. a 8. 7—9. Gal. 5 13. Philemon 5—7. Heb. 6. 10, 11. 1 Ioan 3. 18. a 5. 3. Dat. 2. 2—4. l Rhuf. 2. 7. a 5. 3—5. a 8. 24, 25. a 12. 12. a 15. 13. 1 Cor. 13. 13. Gal. 6. 9. Heb. 6. 15. a 10. 36. Iago 1. 3, 4. a 5. 7, 8. 1 Ioan 3. 3. Dat. 3. 10. m Preg. 2. 26. Act. 3. 19. a 10. 31. 2 Cor. 2. 17. 1 Tim. 2. 3. Heb. 13. 21. 1 Pedr 3. 4. 1 Ioan 3. 21.

* Yr oedd y Thessaloniaid yn proffesu ffydd yn Nghrist; ac yr oedd eu hufudd-dod parod a gweithgar hwy yn profi mai ffydd fywiol a gwirioneddol ydoedd; ac ei bod yn gweithio trwy gariad at Grist, ei weinidogion, ei wirionedd, a'i achos ef: † ac yr oedd yr egwyddor rymus hon o "gariad," yn eu cymhell hwynt i lafurio yn ymdrechgar, yn mhob peth a berthynai i achos Crist, a'i anrhydedd, ac i les a chysur eu brodyr. ‡ Yr oeddynt oll yn proffesu gobaith yn addewidion Duw; ac eu bod yn dysgwyl bywyd tragywyddol fel dawn Duw yn Nghrist Iesu; ac yr oedd y gobaith bywiol hwn yn eu gwneyd yn ymarhôus, neu yn amyneddgar, ac yn ddïysgog a dïanwadal, yn eu hymlyniad wrtho ef, yn nghanol trallodion ac erledigaethau: ‖ ac yr oedd y grasau a'r gweithredoedd hyn ganddynt megys ger bron Duw hollwybydol, a'u Tad nefol; chymmodol yn yr Arglwydd Iesu. Neu mae rhai yn deall y geiriau olaf hyn fel yn perthyn i eiriau blaenaf yr adnod; sef bod yr apostol yn cofio yn ddibaid am danynt hwy, eu grasau a'u gweithredoedd, ger bron Duw a'r Tad. *Gwaith eich ffydd, &c.*, dull Hebrëaidd o lefaru ydyw hyn, am ffydd weithgar, cariad llafurus, a gobaith ymarhôus: a gallesid cyfieithu y geiriau felly hyny yn brïodol iawn, ebai *Doddridge*.

4 [n] * Gan wybod, frodyr anwyl, eich etholiad igaeth chwi gan Dduw.

n adn. 3. Rhuf. 8. 28—30. a 11. 5—7. Eph. 1. 4. Phil. 1. 6, 7. 1 Pedr 1. 2. 2 Pedr 1. 10.

* Gwyddai yr apostol yn ddïammheuol, oddi ar y ffrwythau amlwg uchod, mai brodyr anwyl iddo oedd y Thessaloniaid; wedi eu hethol i sancteiddrwydd a bywyd tragywyddol gan Dduw yn Nghrist. Nid trwy ddatguddiad digyfrwng yr oedd efe yn gwybod hyn ond wrth y ffrwythau; olrhain yr effaith yn ol at y achos: ac nid oes yr un ffordd arall i wybod am etholiad neb gan Dduw, wrth eu ffrwythau yr adnod byddir hwynt.

5 * Oblegid ni bu [o] ein hefengyl ni tu a attoch mewn [p] gair yn unig, [q] † eithr hefyd mewn nerth, [r] ac yn yr Ysbryd Glân, [s] a mewn sicrwydd mawr; ‡ megis y gwyddoch chwi [t] pa fath rai a fuom ni yn eich plith, [u] er eich mwyn chwi.

o Rhuf. 2. 16. 2 Cor. 4. 3. Gal. 1. 8—12. a 2. 2. 2 Thes. 2. 14. 2 Tim. 2. 8. p pen. 2. 13. 1 Cor. 4. 20. 2 Cor. 3. 6. q Salm 110. 2, 3. Marc 16. 20. Act. 11. 21. a 16. 14. Rhuf. 1. 16. a 15. 19. 1 Cor. 1. 24. a 2. 4, 5. a 3. 6. 2 Cor. 10. 4, 5. Eph. 1. 17—20. 2. 4, 5, 10. a 3. 20. Phil. 2. 13. Iago 1. 16—18. 1 Pedr 1. r Ioan 16. 7—15. Act. 2. 33. a 10. 44—46. a 11. 15—18. 1 Cor. 16. a 12. 7—11. 2 Cor. 6. 6. Gal. 3. 2—5. a 5. 5, 22, 23. Tit. 3. 5, Heb. 2. 4. 1 Pedr 1. 12. s Col. 2. 2. Heb. 6. 11, 18, 19. a 10. 22. 2 Pedr 1. 10, 19. t pen. 2. 1—11. Act. 20. 18, 19, 33—35. 1 Cor. 2. 2—5. a 4. 9—13. a 10. 33. 2 Cor. 4. 1, 2. a 6. 3—10. Phil. 4.

hes. 3. 7—9. 1 Tim. 4. 12—16. 1 Pedr 5. 3. u 1 Cor. 9. 19—
2 Tim. 2. 10.

* Yr oedd meddyliau hyderus yr apostol am y Thes-
loniaid, o ran eu hetholedigaeth gan Dduw, yn syl-
nedig ar yr hyn a welsai efe ei hun: oblegid yr
engyl, yr hon a bregethasai efe a'i frodyr, a ddaeth
ynt hwy, nid mewn gair yn unig; nis gadawyd hi i'w
ffaith naturiol ei hun fel llythyren farw, neu yn unig
nerth rhesymau a darbwylliadau dynol ar eu meddyl-
i u hwynt: yr oedd llaweroedd wedi ei chlywed hi
fylly, y rhai er hyny oedd yn parâu i fyw mewn eilun-
addoliaeth a drygioni. † Ond yr oedd wedi dyfod
ynt hwy mewn nerth, ac yn yr Ysbryd Glân; neu
da nerth, sef gyda'r Ysbryd Glân. Nid gwyrthiau
unig a feddylir wrth y nerth hyn; oblegid gwelodd
aweroedd wyrthiau, ac a barâsant yn anghredinwyr
hyny: ond wrth y nerth yma y meddylir, gallu
wyfol yr Ysbryd Glân, yn cyd-fyned â'r efengyl, ac yn
ëu y fath lawn ddarbwylliad o'i natur a'i phwysfawr-
rwydd hi, a'r fath sicrwydd o ffydd a gobaith, ac a
yr dueddodd y Thessaloniaid i'w chofleidio a'i phro-
su hi, doed a ddelai iddynt. Daeth yr efengyl atynt
llong dàn ei llawn hwyliau, yn cael ei dwyn gan
wn ddwfr a gwynt teg; ac felly yn myned dros bob
wystrau i'r porthladd: dywedir fod cyffelybiaeth
lly yn y geiriau. ‡ Gwyddai y Thessaloniaid, ac yr
iddynt wedi sylwi, pa fath ddynion a fuasai pregeth-
r cristionogaeth yn eu plith hwynt er eu mwyn;
velsent eu hamynedd, eu hunan-ymwadiad, eu di-
drwydd, eu *zêl*, eu sancteiddrwydd, a'u cariad; a
velsent pa fodd y llafuriasent hwy â'u dwylaw eu
unain am eu cynnaliaeth, fel na byddent yn bwys ar
eglwys; ac yr oedd hyn yn tueddu y dychweledigion
rwrando eu hathrawiaeth hwynt: felly, yr oeddynt yn
nddwyn fel hyn er eu mwyn hwynt, sef er eu hennill
a hachub hwynt.

6 * A [x] chwi a aethoch yn ddilynwyr i ni,
ac i'r Arglwydd, ‡ wedi [z] derbyn y gair
ewn gorthrymder mawr, [a] || gyd â llawenydd
Ysbryd Glân:

x pen. 2. 14. 1 Cor. 4. 16. a 11. 1. Phil. 3. 17. 2 Thes. 3. 9
Mat. 16. 24. Ioan 8. 12. a 13. 13—15. Eph. 5. 1. 1 Pedr 3. 13
Ioan 11. z pen. 2. 13, 14. a 3. 2—4. Hos. 2. 14. Marc 10. 29
. Act. 17. 5. 2 Cor. 8. 1, 2. 2 Thes. 1. 4. a Ioan 14. 16—18
Act. 5. 41. a 9. 31. Rhuf. 5. 3—5. a 8. 16—18. a 15. 13. Gal. 5. 22.
Heb. 10. 34. 1 Pedr 1. 6, 8.

* Yr oedd Paul a'i gyd-lafurwyr, nid yn unig yn ym-
alangos yn ddynion sanctaidd i eraill; ond yr oeddynt
illy yn amlwg mewn gwirionedd, yn mhlith eu cyfeill-
on agosaf: ac fel hyny ennillwyd y Thessaloniaid i
muno â'r gweision dirmygedig hyn i'r Gwaredwr croes-
beliedig. Aethant yn ddylynwyr iddynt; ymgyssyllt-
asant â hwy mewn addoliad dwyfol; canlynasant eu
esampl hwynt; † a thrwy wneuthur felly, aethant yn
ylynwyr i'r Arglwydd Iesu ei hun, yr hwn oedd yr
nig esampl berffaith i'r apostolion a hwythau. ‡ Hwy
dderbyniasent y gair yn eu calonau, yn nghanol
orthrymderau mawrion yn eu hamgylchiadau, ac oddi
rth erlidwyr: || eto hwy a'u derbyniasent gyda llawen-
dd yn yr Ysbryd Glân; ac yr oedd ganddynt y fath
wenydd yn barâus, ag oedd yn ddigon i'w cynnal yn
holl orthrymder, ac yn ddigon o dâl am y cwbl oll.

7 * Hyd onid aethoch yn [b] siamplau i'r
nai oll sydd yn credu [c] ym Macedonia ac *yn*
chaia.

b pen. 4. 10. 1 Tim. 4. 12. Tit. 2. 7. 1 Pedr 5. 3. c adn. 8.
Act. 16. 12. a 17. 13. a 18. 1. 2 Cor. 1. 1. a 9. 2. a 11. 9, 10.

* Fel hyn yr oedd y Thessaloniaid wedi myned yn
samplau, nid yn unig i'w cymmydogion paganaidd ac
ilun-addolgar; ond hefyd i'r rhai oll oedd yn credu yn
harthau eraill Macedonia, ac yn Achaia. Peth
awr a chanmoladwy iawn yw, bod eglwys yn es-
mpl o ddaioni a rhinwedd i eglwysi eraill; ac y
ae ambell un felly eto, fel yr oedd eglwys y Thessal-
niaid yn y dyddiau hyny: da y gwnawn ddynwared
yr eglwysi goreu a'r cristionogion goreu, yn y pethau
goreu.

8 * Canys [d] oddi wrthych chwi y seiniodd
gair yr Arglwydd, nid yn unig ym Macedonia
ac *yn* Achaia, † ond [e] ym mhob man hefyd
eich ffydd chwi ar [f] Dduw a aeth ar led, fel nad
rhaid i ni ddywedyd dim.

d Es. 2. 3. a 52. 7. a 66. 19. Rhuf. 10. 14—18. 1 Cor. 14. 36.
2 Thes. 3. 1. Dat. 14. 6. a 22. 17. e Rhuf. 1. 8. 3 Ioan 12.
f Ex. 18. 19. 2 Cor. 3. 4.

* Taenwyd yr efengyl yn fuan o Thessalonica, trwy
ardaloedd Macedonia ac Achaia, efallai gan ddynion a
aethent allan o Thessalonica i'r perwyl hwnw. † Yn
mhob màn hefyd, lle y teithiai yr apostol, yr oedd sôn
am dröedigaeth ac ymarweddiad da y Thessaloniaid
wedi cyrhaedd yno o'i flaen ef; a'r rhai a ddeuent ato
ef i Corinth o fànau eraill, yr oeddynt yn dywedyd yr un
peth, fel nad oedd raid iddo ef ei hun ddywedyd dim.
Fel hyn, drwy yr hanes canmoladwy am danynt, yr
oedd y Thessaloniaid wedi myned yn esamplau i'r holl
eglwysi yn mhell ac yn agos. Nis gellir ystyried eg-
lwys Thessalonica fel *mam-eglwys* Macedonia ac Ach-
aia, lle y gwnaed y dychweledigion *cyntaf*, ac o ba le
y cyhoeddwyd yr efengyl *gyntaf* yn y gwledydd hyny;
fel yr oedd eglwys Jerusalem yn fam-eglwys yr Iudde-
won, ac eglwys Antiochia yn fam-eglwys y cenedl-
oedd: oblegid y pregethwyd yr efengyl, a dychwelwyd
rhai i'r ffydd, yn Philippi yn Macedonia, *cyn* gwneyd
hyny yn Thessalonica, fel mae yn amlwg yn Act. pen.
16. a 17. Ond aeth yr efengyl allan o Thessalonica
gydag amlygrwydd mwy eglur, canmoliadol, a chym-
meradwyawl, o'i hardderchawgrwydd a'i nerth, o her-
wydd ei heffeithiau tra rhyfeddol ar y Thessaloniaid,
fel yr oedd yn ymddangos yn eu buchedd a'u hymar-
weddiad anghreifftiol a sanctaidd hwynt.

9 * Canys y maent hwy yn mynegi am
danom ni [g] pa ryw ddyfodiad i mewn a gawsom
ni attoch chwi, [h] † a pha fodd y troisoch at
Dduw oddi wrth eilunod, i wasanaethu y
[i] bywiol a'r gwir Dduw;

g adn. 5, 6. pen. 2. 1, 13. h Es. 2. 17—21. Jer. 16. 19.
Zeph. 2. 11. Zec. 8. 20—23. Mal. 1. 11. Act. 14. 15. a 26. 17, 18.
1 Cor. 12. 2. Gal. 4. 8, 9. i Deut. 5. 26. 1 Sam. 17. 26, 36. Salm
42. 2. a 84. 2. Es. 37. 4, 17. Jer. 10. 10. Dan. 6. 26. Hos. 1. 10.
Rhuf. 9. 26. 2 Cor. 6. 16, 17. 1 Tim. 4. 10. Heb. 12. 22. Dat. 7. 2.

* Yn mhob màn lle teithiai yr apostol, cyfarfyddai â
dynion, neu efe a glywai am ddynion, a sonient mewn
syndod a llawenydd, am y dyfodiad i mewn, a'r derbyn-
iad a gawsai efe a'i frodyr, gyda'r efengyl, yn mhlith y
Thessaloniaid: † a pha fodd y troisid hwy drwy yr
efengyl, at Dduw oddi wrth eilunod, (un ai dynion
meirwon, bodau dychymmygol, neu ysbrydion drwg,) i
wasanaethu y bywiol a'r gwir Dduw, trwy ffydd yn
Nghrist, yr hwn hefyd sydd Dduw yn gystal â'r Tad, ac
yn un hanfod â'r Tad, ac â'r Ysbryd Glân. *Bywiol*
Dduw, mewn cyferbyniad i'w duwiau *meirwon* o'r
blaen; a *gwir* Dduw, mewn cyferbyniad i'w duwiau *gau*
o'r blaen; troi bendithiol oedd y troi hwn!

10 * Ac i [k] ddisgwyl am ei Fab ef o'r nef-
oedd, [l] † yr hwn a gyfododd efe o feirw, [m] *sef*
Iesu, ‡ yr hwn a'n gwaredodd ni oddi wrth y
[n] digofaint sydd ar ddyfod.

k pen. 4. 16, 17. Gen. 49. 18. Job 19. 25—27. Es. 25. 8, 9. Luc
2. 25. Act. 1. 11. a 3. 21. Rhuf. 8. 23—25. 1 Cor. 1. 7. Phil. 3. 20.
2 Thes. 2. 7. 2 Tim. 4. 1. Tit. 2. 13. Heb. 9. 28. 2 Pedr 3. 12, 14.
Dat. 1. 7. l Act. 2. 24. a 3. 15. a 4. 10. a 5. 30, 31. a 10. 40, 41.
a 17. 31. Rhuf. 1. 4. a 4. 25. a 8. 34. 1 Cor. 15. 4—21. Col. 1. 18.
1 Pedr 1. 3, 21. a 3. 18. Dat. 1. 18. m pen. 5. 9. Mat. 1. 21.
Rhuf. 5. 9, 10. Gal. 3. 13. 1 Pedr 2. 21. n Mat. 3. 7. Luc 3. 7
Heb. 10. 27.

* Tröwyd hwynt hefyd i ddysgwyl am Fab Duw,
Iesu Grist y Gwaredwr a'r Barnwr mawr, i ddyfod o'r
nefoedd i gyfodi y meirw ac i farnu y byd: i ddysgwyl
am ei ddyfodiad ef mewn gobaith grediniol ac amyn-
eddgar, mewn ymbarotôad diwyd, ac mewn cydwybod-
oldeb cyffredinol yn mhob peth. Dyfodiad cyntaf

Crist oedd dysgwyliad eglwys yr Hen Destament, a'i ail ddyfodiad ef yw dysgwyliad eglwys y Testament Newydd, gan wybod, pan ymddangoso efe, y caiff hithau hefyd ymddangos gydag ef mewn gogoniant. † Gwyddai y Thessaloniaid oddi ar dystiolaeth sicr a dïammheuol yr apostol, ddarfod i Dduw gyfodi ei Fab Iesu o feirw, ac iddo ei dderchafu ef i'r orsedd gyfryngol, i deyrnasu ar ei ddeheulaw, hyd oni osodai ei holl elynion dàn ei draed ef: ‡ a'r Iesu hwn gan hyny oeddynt yn ddysgwyl am dano, fel eu Gwaredwr mawr oddi wrth y digofaint oedd ar ddyfod. Yr oedd Iuddewon a chenedloedd wrth natur yn agored i'r digofaint hwn yn gyfiawn am eu pechodau; a thàn y digofaint hwn buasai raid iddynt fod yn golledig byth, oni buasai i Fab Duw ymgnawdoli, cyflawni ei ufuddodd machnïol i'r ddeddf, rhoi ei einioes i lawr yn aberth dros bechod, cyfodi o'r bedd fel blaen-ffrwyth yr adgyfodiad, esgyn i'r nef fel Eiriolwr dros y troseddwyr, danfon ei efengyl i alw pechaduriaid i dderbyn iachawdwriaeth, a danfon ei Ysbryd nerthol gyda hi, i orchfygu gwrthwynebiad balch a chnawdol eu calonau hwynt. Fel hyn y gwaredodd efe y credinwyr oddi wrth ddigofaint haeddedigol Duw, yr hwn sydd yn dyfod, ac i ddyfod byth, ar bechaduriaid digred ac anedifeiriol. Yr oedd tröedigaeth y Thessaloniaid at Dduw yn dystiolaeth sicr o'r waredigaeth hon; a chan fod yr ernes a'r gwystl hyn o iachawdwriaeth yn y diwedd ganddynt, yr oeddynt yn dysgwyl mewn gobaith gorfoleddus am yr amser pwysig hwnw, pryd y perffeithir dedwyddwch yr holl saint, ac y llwyr ddinystrir yr holl rai annuwiol.

PEN. II.

Pa fodd y daeth ac y pregethwyd yr efengyl i'r Thessaloniaid.

* CANYS chwi eich hunain a wyddoch, frodyr, [a] ein dyfodiad ni i mewn attoch, [b] † nad ofer fu:

a adn. 13. pen. 1. 3—10. 2 Thes. 3. 1. b pen. 3. 5. Job 39. 16. Salm 73. 13. a 127. 1. Es. 49. 4. a 65. 23. Hab. 2. 13. 1 Cor. 15. 2, 10, 58. 2 Cor. 6. 1. Gal. 2. 2. a 4. 11. Phil. 2. 16.

* Gwyddai y Thessaloniaid yn dda, na ddaethai yr apostol a'i frodyr ddim atynt hwy † â chwedlau gweigion, neu mewn modd ofer ac aneffeithiol gyda gwirionedd yr efengyl: eithr hwy a wyddent yn sicr mai tystiolaeth gywir, ac nid chwedl ddisylwedd, oedd yr hyn a adroddasid yn mhob màn am danynt hwy: a thrwy brawf allanol gwyrthiau, ac effaith dumewnol gras Duw, gwnaed eu dyfodiad hwy yn llwyddiannus ac effeithiol yn Thessalonica.

2 * Eithr wedi i ni ddïoddef o'r blaen, [c] a chael ammharch, fel y gwyddoch chwi, yn Philippi, † ni a fuom [d] hŷf yn ein Duw i lefaru wrthych chwi efengyl Duw [e] ‡ trwy fawr ymdrech.

c Act. 5. 41. a 16. 22—24, 37. 2 Tim. 1. 12. Heb. 11. 36, 37. a 12. 2, 3. 1 Pedr 4. 14—16. d Act. 4. 13, 20, 31. a 14. 3. Eph. 6. 19, 20. e Act. 6. 9, 10. a 15. 1, 2. a 17. 2—9, 17. a 19. 8. Phil. 1. 27—30. Col. 2. 1. Judas 3.

* Oblegid wedi iddo ef a'i gymdeithion gael eu cyfarwyddo trwy ddatguddiad digyfrwng i fyned i Macedonia; (Act. 16. 9, 10.) nid ymollyngasant i ofnau digalonus, hyd yn nôd pan ddyoddefasant y driniaeth fwyaf dost, gwarthus, a drygionus yn Philippi: † eithr can gynted ag y rhyddâwyd hwy yno, hwy a ddaethant i Thessalonica, ac a fuont yn hŷf, mewn ymddybyniad ar Dduw, ac o *zêl* dros ei ogoniant ef, i bregethu yr efengyl yr oedd Ef yn Awdwr o hóni. ‡ Hyn a wnaethant trwy fawr ymdrech; gyda mawr ddifrifwch ysbryd, a dymuniadau cryfion i wneuthur daioni; a chyda'r dyfal-bara mwyaf dïysgog, yn wyneb gwrthwynebiadau yr Iuddewon, y dadleuon oeddynt yn orfod ddàl â hwynt, a'r erledigaethau tost oeddynt yn orfod eu dyoddef.

3 * Canys [f] ein cyngor ni † nid *oedd* o hudoliaeth, ‡ nac o aflendid, ‖ nac mewn twyll:

f adn. 5, 6, 11. pen. 4. 1, 2. Num. 16. 15. 1 Sam. 12. 3. Act. 20. 33, 34. 2 Cor. 2. 17. a 4. 2, 5. a 7. 2. a 11. 13. a 12. 16—18. 2 Pedr 1. 16.

* Canys eu gweinidogaeth hwy i'r Thessaloniaid, pe un bynag ai athrawiaeth, cyngor i ddyledswydd, neu ei cysur *(paraklêsis)* dàn drallodion yn achos Crist. † nid oedd yn gynnwysedig mewn gau-athrawiaeth fe yr eiddo y gau-athrawon, i'w hudo hwy ar gyfeiliorni eithr efengyl bur a dilwgr ydoedd. ‡ Nid oeddyn ychwaith yn dysgu neb rhyw egwyddorion ag oedd yn arwain i aflendid penrhydd: ond pethau oedd yn ar wain i bob sancteiddrwydd a phurdeb, mewn calon a ymarweddiad. ‖ Nid oedd eu gweinidogaeth ychwaith mewn twyll; mewn hòniadau rhagrithiol i sancteidd rwydd, duwioldeb, a *zêl:* nac mewn rhith o gariad atynt hwy i ddwyn yn mlaen amcanion twyllodrus e manteision bydol; ond yr oedd eu holl lafur hwy yn cael ei wneyd mewn cywirdeb calon er gogoniant Duw ac er lles eneidiau y Thessaloniaid: fel hyny nid oed dim hudoliaeth nac aflendid yn y pethau a bregethent na dim twyll na hunan-ymgais rhagrithiol yn y dul neu yr amcan o bregethu.

4 * Eithr megis [g] y'n cyfrifwyd ni gan Dduw [h] yn addas i ymddiried i ni am yr efengyl, † felly yr ydym yn llefaru; [i] ‡ nid megis yn rhyngu bodd i ddynion, [k] ond i Dduw, y hwn sydd yn profi ein calonnau ni.

g 1 Cor. 7. 25. Eph. 3. 8. 1 Tim. 1. 12, 13. h Luc 12. 42 a 16. 11. 1 Cor. 4. 1, 2. a 9. 17. Gal. 2. 7. 1 Tim. 1. 11. a 6. 20 2 Tim. 1. 14. a 2. 2. Tit. 1. 3. i 1 Cor. 2. 4, 5. 2 Cor. 4. 2. a 5 11, 16. Gal. 1. 10. Eph. 6. 6. Col. 3. 22. k Num. 27. 16. 1 Bren 8. 39. 1 Cron. 29. 17. Salm 7. 9. a 17. 3. a 44. 21. a 139. 1, 2. Dia 17. 3. Jer. 17. 10. a 32. 19. Ioan 2. 24, 25. a 21. 17. Rhuf. 8. 27 Heb. 4. 13. Dat. 2. 23.

* Ir gwrthwyneb yr oedd ganddynt hwy y sicrwydd llawnaf o wirionedd, awdurdod ddwyfol, ac ardderch awgrwydd yr athrawiaeth a bregethent; ac yr oeddyn yn sicr yn eu cydwybodau o'r uniondeb, y purdeb, a cywirdeb mwyaf, yn eu hymdrechiadau i'w phregeth hi: oblegid fel y cymmeradwywyd hwy gan Dduw o hunan, ac yr ymddiriedwyd iddynt ganddo ef am y efengyl; † felly yr oeddynt yn ei phregethu gyda'r dy muniad mwyaf gonest a chywir o ryngu ei fodd ef chael eu cymmeradwyo ganddo; gan wybod y chwili ac y profai efe megys trwy dân, fwriadau dirgelaf po calon dyn. ‡ Nid oeddynt yn wir wedi ceisio rhyng bodd dynion o gwbl, er mwyn eu hesmwythder, e helw, eu parch, neu eu cyfleusdra eu hunain; na mewn un modd ond fel y byddai yn tueddu at adeilad aeth dynion.

5 * Oblegid ni fuom ni un amser mewn [l] ymadrodd gwenhieithus, † fel y gwyddoch chwi, ‡ nac mewn [m] rhith cybydd-dod; [n] ‖ Duw yn dyst:

l Job 17. 5. a 32. 21, 22. Salm 12. 2, 3. Diar. 20. 19. a 26. 2 a 28. 23. a 29. 5. Es. 30. 10. Mat. 22. 16. 2 Pedr 2. 18. m Es 56. 11. Jer. 6. 13. a 8. 10. Mica 3. 5. Mal. 1. 10. Mat. 23. 14. Ac 20. 33. Rhuf. 16. 18. 2 Cor. 4. 2. a 7. 2. a 12. 17. 1 Tim. 3. 3, Tit. 1. 7. 1 Pedr 5. 2. 2 Pedr 2. 3, 14, 15. Judas 11. Dat. 18. 1 13. n Gwel ar Rhuf. 1. 9. a 9. 1.—Gal. 1. 20.

* Wrth ymdrin â dynion yn eu gweinidogaeth a hymddiddanion, ni buont hwy un amser yn euog arfer ymadrodd gweniaethus i ennill parch gyda hwyn trwy eu rhith ganmol hwynt, trwy beri iddynt ga obeithio am iachawdwriaeth mewn gyrfa o becho anedifeirwch, ac anghrediniaeth; neu ar sail eu ner a'u cyfiawnder eu hunain: † gwyddai y Thessalonia hyny yn dda iawn, wrth yr hyn a glywsent ac a welse pan oeddynt yn eu plith hwy. ‡ Ni buont yn euog wisgo mantell, neu rith o gau grefydd chwaith, i orchud io, a gosod lliw teg ar fwriadau dirgelaidd o wney

y a mantais o ddynion, fel y gau-athrawon hyny, y
i *mewn cybydd-dod, trwy chwedlau gwneuthur, a*
ment farsiandiaeth o'u gwrandawwyr, 2 Pedr 2. 3.
a, gallai yr apostol a'i frodyr yn y modd mwyaf
ifol, alw Duw, chwiliwr y calonau, yn dyst ar wir-
edd hyn yma. Yr oedd y Thessaloniaid yn dystion
peth cyntaf, a Duw yn dyst o'r ail; a hwythau yn
argyhoedd o'r pethau uchod yn wyneb dynion a
w.

6 [o] * Nac yn ceisio moliant gan ddynion,
chennych chwi, na chan eraill; † lle y
allasem [q] bwyso *arnoch,* [r] fel apostolion
ist.

o Esther 1. 4. a 5. 11. Diar. 25. 27. Dan. 4 30. Ioan 5. 41, 44.
18. a 12. 43. Gal. 5. 26. a 6. 13. 1 Tim. 5. 17. p adn. 9.
or. 9. 12—18. 2 Cor. 10. 1, 2, 10, 11. a 13. 10. q 2 Cor. 11.
12. 13, 14. 2 Thes. 3. 8, 9. r 1 Cor. 9. 4—6.

Ni buont erioed ychwaith yn awyddus am wag-
niant, nac yn ceisio yr anrhydedd sydd yn dyfod
i wrth ddynion yn unig, yn ol esampl y rhai hyny
d yn dilyn camrau yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid,
m 5. 44. a 12. 43. Ni ddarfu iddynt hwy erioed
feisio, bwriadu, na cheisio cael eu mawrygu, eu
arhydeddu, a'u canmol, tra yr oeddynt yn mhlith y
essaloniaid, nac yn mhlith neb eraill, lle y buasent
gweinidogaethu iddynt. † Ni ddarfu iddynt hwy
ed ryfygu arfer tôn uchel o awdurdod ar y Thessal-
iaid, na hòni eu hawl i'r anrhydedd o gynnaliaeth ar
traul hwynt; rhag y tybiai y buasai hyny yn faich
thrwm arnynt, er y gallasent hwy yn gyfiawn fynu
cynnaliaeth, fel apostolion Crist, ac fel gweision
ili eu danfon allan ganddo ef, yr hwn a ddywedodd,
eilwng yw i'r gweithiwr ei gyflog," Luc 10. 7. Gwel
yd y sylwadau ar 1 Cor. pen. 9. Gan fod *cynnaliaeth*
rhan o'r *parch* sydd i'w roddi i weinidogion yr
ngyl, (gwel eto ar 1 Tim. 5. 17, 18.) mae yn debyg
hyny yn gynnwysedig yn y *moliant,* yr hwn ni
eisiodd yr apostol gan y Thessaloniaid, na chan
Iill, er fod y gair a ddefnyddir yma yn wahanol:
egid mae y chwanegiad, *lle y gallasem bwyso arnoch,*
ein harwain yn naturiol i feddwl hyny; sef iddo ef
wrthod â'r rhan hyn o'r *moliant,* neu *gynnaliaeth,* yr
n a allasai yn gyfiawn ei ofyn a'i gymmeryd.

7 * Eithr [s] ni a fuom addfwyn yn eich
ysg chwi, [t] † megis mammaeth yn maethu ei
lant.

s Gen. 33. 13, 14. Es. 40. 11. Ezec. 34. 14—16. Mat. 11. 29,
Ioan 21. 15—17. 1 Cor. 2. 3. a 9. 22 2 Cor. 10. 1. a 13. 4. Gal.
22, 23. 2 Tim. 2. 24, 25. Iago 3. 17. t adn. 11. Num. 11. 12.
4. 49. 23. a 66. 13. Act. 13. 18.

* Ond yn y gwrthwyneb i geisio moliant a chynnal-
eth gan y Thessaloniaid, yr oeddynt hwy wedi ym-
wyn gyda phob gostyngeiddrwydd meddwl, gwylder,
rieidd-dra, ac addfwynder yn eu mysg hwynt; a
yda'r fath hunan-ymwadiad, ag oedd yn dangos oreu
gofal rhieniawl hwynt am eu mater a'u lles ysbrydol
ry. † Ie, buont yn eu mysg fel mam dirion a serch-
iol, yn rhoddi sugn i'w hanwyl blant, yn eu maethu
wynt yn ei mynwes, yn cyd-ddwyn yn dyner â'u gwen-
l a'u hanhyweithdra hwynt, ac yn gwneyd pob peth a
o hi gyda phleser, er eu daioni, eu lles, a'u cysur
wynt: felly y buont hwythau yn mysg y Thessaloniaid.

8 * Felly, [u] gan eich hoffi chwi, † ni a wel-
m yn dda gyfranu â chwi, nid yn unig efeng-
Duw, [x] ond ein heneidiau ein hunain hefyd,
‡ am eich bod yn anwyl genym.

u Jer. 13. 15—17. Rhuf. 1. 11, 12. a 9. 1—3. a 10. 1. 2 Cor.
1, 11—13. Gal. 4. 19. Phil. 1. 8. a 2. 25, 26. Col. 1. 28. a 4. 12.
eb. 13. 17. x Act. 20. 23, 24. 2 Cor. 12. 15. Phil. 2. 17. 1 Ioan
16. y Luc 7. 2. Phil. 2. 20. a 4. 1. Col. 1. 7. Philemon 1.

* Felly gan eu hoffi hwynt yn eu calonau, a hoff
dymuno eu cynnydd a'u llwyddiant ysbrydol hwynt;
buont yn dra ewyllysgar, nid yn unig i gyfranu yr
engyl iddynt, ond yr oedd teimladau tyneraf a gwres-
af eu calonau a'u heneidiau hefyd, yn cyd-fyned â'u
llafur yn eu plith: ïe, cymmaint oedd eu hawydd am eu
biachawdwriaeth hwynt, fel yr oeddynt mewn llafur
difiino yn treulio eu nerth a'u hysbrydoedd, ac yn
peryglu eu bywydau yn siriol er eu mwyn hwynt. † Yr
oeddynt yn gwneyd hyn oll, a mwy nac a fedrwn ni
weled yn y geiriau, am fod y Thessaloniaid yn anwyl
ganddynt, a'u hachos ysbrydol a thragywyddol hwynt yn
gorwedd yn bwysig ar eu calonau.

9 * Canys côf yw gennych, frodyr, [z] ein
llafur a'n lludded ni: † canys gan weithio
[a] nos a dydd, ‡ fel na [b] phwysem ar neb o hon-
och, ‖ ni a bregethasom i chwi [c] efengyl Duw.

z pen. 1. 3. Act. 18. 3. a 20. 34, 35. 1 Cor. 4. 12. a 9. 6, 15.
2 Cor. 6. 5. 2 Thes. 3. 8, 9. 1 Tim. 4. 10. a 3. 10. Salm 32. 4. a 88.
1. Jer. 9. 1. Luc 2. 37. a 18. 7. Act. 20. 31. 1 Tim. 5. 5. 2 Tim. 1.
3. b adn. 6. Neh. 5. 15, 18. 1 Cor. 9. 7, 18. 2 Cor. 11. 9. a 12.
13, 14. c adn. 2. Act. 20. 24. Rhuf. 1. 1. a 15. 16, 19. 1 Tim.
1. 11.

* Gallai y Thessaloniaid yn hawdd gofio llafur a
lludded caled a dïelw yr apostol a'i gyd-weithwyr:
† oblegid heblaw treulio eu nerth yn y weinidogaeth,
yr oeddynt hefyd yn gweithio yn galed nos a dydd, yn
fore ac yn hwyr, ac lawer gwaith drwy y rhan fwyaf o'r
nos, gyda eu galwedigaethau bydol i ennill eu bywiol-
iaeth eu hunain; ‡ am na fynent mewn un modd bwyso,
na chael y gair o fod yn pwyso, ar neb o honynt hwy.
‖ Fel hyn hwy a bregethasent efengyl Duw yn ffydd-
lawn, ac yn rhad; ac fel hyny tòrasent ymaith bob
achlysur oddi wrth eu gwrthwynebwyr, y rhai a fynent
daeru pe gallasent, mai ceisio gwneyd elw o'u gwran-
dawwyr yr oeddynt.

10 [d] * Tystion *ydych* chwi, † a Duw *hefyd,*
[e] ‡ mor sanctaidd, ac mor gyfiawn, a dïargy-
hoedd, ‖ yr ymddygasom yn eich mysg chwi y
rhai ydych yn credu:

d pen. 1. 5. 1 Sam. 12. 3—5. Act. 20. 18. 26, 33, 34. 2 Cor. 4.
2. a 5. 11. a 11. 11, 31. e Num. 16. 15. Job 29. 11—17. a 31.
1—39. Salm 7. 3—5. a 18. 20—24. Jer. 18. 20. Act. 24. 16. 2 Cor.
1. 12. a 6. 3—10. a 7. 2. 2 Thes. 3. 7. 1 Tim. 4. 12. 2 Tim. 3. 10.
Tit. 2. 7, 8. 1 Pedr 5. 3.

* Gallai yr apostol gyfeirio at gydwybodau y Thes-
saloniaid eu hunain i dystiolaethu drosto ef a'i frodyr,
cyn belled ag y gallasant hwy sylwi ar eu hymarwedd-
iad hwynt; † ac, yr hyn oedd fwy byth, ac yn llawer
mwy boddlonawl iddo ef a'i frodyr, gallent gyfeirio am
dystiolaeth at Dduw hollwybodol a chwiliwr y calonau,
yr hwn a wyddai eu hegwyddorion, eu hechlysion,
(motives) a'u dybenion tumewnol, yn gystal â'u gweith-
redoedd allanol. ‡ Yr oedd y Thessaloniaid a Duw yn
dystion, iddynt hwy wneyd cydwybod yn wastadol o
gyfiawni holl ddyledswyddau crefydd tuag at Dduw, a
phob dyledswydd o gyfiawnder tuag at ddynion; a hyny
yn y fath fodd difrifol, gostyngedig, cymmwynasgar, a
diniwed, yn eu holl ymarweddiad, ag oedd yn eu gwneyd
yn gwbl ddïargyhoedd, ac yn tueddu yn rhagorol i
harddu ffyrdd daionus Duw, ‖ yn mysg y Thessaloniaid
ag oedd wedi cael eu dwyn i gredu yn Nghrist trwy eu
gweinidogaeth hwynt. Nid yn unig yr oeddynt yn
ceisio dangos eu hunain yn "sanctaidd, yn gyfiawn, ac
yn ddïargyhoedd," yn ngolwg y byd paganaidd; ond yr
oeddynt felly mewn gwirionedd, mewn pob ymarwedd-
iad, yn eu cyfeillach agos a neillduedig, yn mysg y
rhai oedd yn credu.

11 * Megys y gwyddoch, [f] y modd *y buom*
yn eich [g] cynghori, ac yn eich cysuro, † bob
un o honoch, [h] fel tad ei blant ei hun,

f pen. 4. 1. a 5. 11. Act. 20. 2. 2 Thes. 3. 12. 1 Tim. 6. 2.
2 Tim. 4. 2. Tit. 2. 6, 9, 15. Heb. 13. 22. g Num. 27. 19. Deut.
3. 28. a 31. 14. Eph. 4. 17. 1 Tim. 5. 7, 21. a 6. 13, 17. 2 Tim. 4.
1. h Gen. 50. 16, 17. 1 Cron. 22. 11—13. a 38. 9, 20. Salm 34.
11. Diar. 1. 10, 15. a 2. 1. a 3. 1. a 4. 1—12. a 5. 1, 2. a 6. 1. a 7.
1, 24. a 31. 1—9. 1 Cor. 4. 14, 15.

* Heblaw bod yn ofalus i roddi esampl dda i'r Thes-
saloniaid, drwy eu hymddygiad sanctaidd, cyfiawn, a
dïargyhoedd yn eu plith; hwy a fuont hefyd yn ddyfal
yn eu cyngori, ac yn eu cysuro hwynt, fel y gwyddent
yn dda, drwy bob moddion a rhesymau ag oedd yn

bosibl iddynt eu harfer; a hyny gyda phob awdurdod, fel gweinidogion Duw, ac eto yn dyner iawn fel tadau, yn addysgu eu plant eu hunain: † a hyn a wnaethant, nid yn unig yn gyffredinol, yn gyhoeddus, ond hefyd yn neillduol, a phersonol, i bob un o honynt, fel yr oedd achosion yn gofyn.

12 * Ac yn ymbil, ar [i] rodio o honoch yn deilwng i Dduw, [k] † yr hwn a'ch galwodd chwi i'w deyrnas a'i ogoniant.

i pen. 4. 12. Gal. 5. 16. Eph. 4. 1. a 5. 2, 8. Phil. 1. 27. Col. 1. 10. a 2. 6. 1 Pedr 1. 15, 16. 1 Ioan 1. 6, 7. a 2. 6. k pen. 5. 24. Rhuf. 8. 30. a 9. 23, 24. 1 Cor. 1. 9. 2 Thes. 1. 11, 12. a 2. 13, 14. 2 Tim. 1. 9. 1 Pedr 1. 15. a 2. 9. a 3. 9. a 5. 10.

* Fel hyn yr oeddynt yn ymbil arnynt gyda'r taerineb mwyaf, am iddynt rodio yn mhob peth yn deilwng i berffeithiau sanctaidd y Duw hwnw yr oeddynt yn ei addoli, yn deilwng o esampl ei gariad a'i drugaredd ef tuag atynt, ac yn deilwng o'r rhwymau annhraethol oedd arnynt hwy iddo; † yr hwn yn ei anfeidrol ras a'u gwaredodd hwy o feddiant y tywyllwch, ac a'u symmudodd i deyrnas ei anwyl Fab, fel y cymhwysid hwy ar y ddaear, i ddedwyddwch sanctaidd a gogoniant tragywyddol yn y nef. *Rhodio yn deilwng i Dduw* medd un yw, 1. Rhodio er rhyngu bodd iddo ef. 2. Rhodio fel y gweddai i rai a alwyd i fwynâu teyrnas ogoneddus. 3. Rhodio fel y mae fwyaf er gogoniant i Dduw. 4. A rhodio fel ag i debygu i'w berffeithiau eilfyddadwy ef.

13 * Oblegid hyn yr ydym ninnau hefyd [l] yn diolch i Dduw yn ddibaid, [m] o herwydd i chwi, pan dderbyniasoch [n] air Duw, yr hwn a glywsoch gennym ni, *ei* dderbyn *ef* nid *fel* gair dyn, † eithr (fel y mae yn wir) yn air Duw, ‡ yr hwn hefyd sydd yn [o] nerthol-weithio ynoch chwi y rhai sydd yn credu.

l Gwel ar pen. 1. 2, 3. Rhuf. 1. 8, 9. m Jer. 44. 16. Mat. 10. 13, 14, 40. Act. 2. 41. a 10. 33. a 13. 45, 48. a 16. 14, 30—34. a 17. 11, 18—20, 32. Gal. 4. 14. 2 Pedr 3. 2, 3. n Jer. 23. 28, 29. Luc 5. 1. a 8. 11, 21. a 11. 28. Act. 8. 14. a 13. 44, 46. Rhuf. 10. 17. Heb. 4. 12. 1 Pedr 1. 25. 2 Pedr 1. 16—21. o pen. 1. 5—10. Ioan 15. 3. a 17. 17, 19. Rhuf. 6. 17, 18. 2 Cor. 3. 18. Col. 1. 6. Heb. 4. 12. Iago 1. 18. 1 Pedr 1. 23. a 2. 2. 1 Ioan 3. 3. a 5. 4, 5.

* Yr oedd Paul a'i frodyr yn diolch yn ddibaid i Dduw, o herwydd i'r cristionogion yn Thessalonica pan dderbyniasent air Duw, yr hwn a glywsent ganddynt hwy, ei dderbyn ef nid fel gair dyn. Gallesid dadleu yn erbyn gair dyn, ei wrthod, ïe, ei ddirmygu; neu gallesid ei dderbyn a'i gredu mewn rhan, ond nid yn gwbl neu yn ddiymholiad, heb lawer o fai na niwed, pa mòr rhesymol neu gywraint bynag y byddai. † Ond i'r gwrthwyneb, hwynt-hwy a'i derbyniasent ef fel gair Duw, yr hwn ydoedd mewn gwirionedd; pan ei clywsant o enau Paul a'i frodyr, agorodd yr Arglwydd eu calonau i'w dderbyn, a dàl arno, fel y gwnaeth â Lydia, (Act. 16. 14.) ac o ganlyniad hwy a'i parchasant ef fel gair Duw, a ymostyngasant iddo, ac a ufuddâsant iddo yn ddiwrth-ddadl. ‡ Fel hyn efe a weithiodd yn nerthol ynddynt hwy y rhai oedd yn credu, edifeirwch am bechod, casineb at eilun-addoliaeth, ffydd yn Nghrist, cariad ato ef a'i achos, hyfrydwch yn addoliad a gwasanaeth Duw, gwerth goruwch pob peth ar ei radgarwch ef, a golwg wir-brofawl o bethau tragywyddol. Yn fŷr, yr oedd gair Duw yn nerthol weithio yn eu calonau hwynt, i wneuthur cyfnewidiad sanctaidd a dedwydd yn eu holl feddyliau, eu hegwyddorion, eu golygiadau, eu hysbrydoedd, a'u bucheddau; ac yn para i nerthol-weithio ynddynt i addfedu a pherffeithio y cyfnewidiad grasol hwn.

14 * Canys chwychwi, frodyr, [p] a wnaethpwyd yn ddilynwyr [q] i eglwysi Duw, y rhai yn Judea [r] sydd yng Nghrist Iesu; [s] † oblegid chwithau a ddioddefasoch y pethau hyn gan eich cyd-genedl, [t] megis hwythau gan yr Iuddewon:

p pen. 1. 6. q Act. 9. 31. Gal. 1. 22. r pen. 1. 1. 2 Thes. 1. 1. s pen. 3. 4. Act. 17. 1—8. 2 Cor. 8. 1, 2. t Act. 8. 1 a 9. 1, 13. a 11. 19. a 12. 1—3. Heb. 5. 33, 34.

* Fel hyn trwy dderbyn y gair fel gair Duw, a thr ei nerthol weithrediad ef ynddynt, yr oedd y Thessalo iaid wedi myned yn ddilynwyr, neu yn eilfyddwyr eglwysi cristionogol yn Judea, mewn athrawiae addoliad, ac ufudd-dod sanctaidd: yr oeddynt hwy d yr un ddysgeidiaeth, a thàn ddylanwadau yr un Ysbr â'r eglwysi hyny, er na welsent mo honynt erioed gymmeryd esampl oddi wrthynt. Eglwysi Duw yw eglwysi cristionogol, y rhai sydd yn credu yn Nghr Iesu, yn mhob màn ac oes, pa un bynag ai Iuddew ai cenedloedd a fyddo yn eu gwneyd i fynu. † Ac oedd y Thessaloniaid hyn yn glŷnu wrth y gwirione ac ewyllys Crist, yn amyneddgar a siriol, yn nghanol erlidiau oeddynt yn ddyoddef gan eu cyd-genedl cymmydogion paganaidd, fel yr oeddynt yn cael cynhyrfu i erlid gan yr Iuddewon digred; megys oedd y cristionogion yn Judea yn cael eu casâu herlid gan eu cyd-genedl hwythau. Gwel Act. 17. 5—

15 * Y rhai a [u] laddasant yr Arglwy Iesu, † a'u prophwydi eu hunain, ‡ ac a'n h lidiasant ninnau ymaith; ‖ ac *ydynt* [x] h ryngu bodd Duw, [y] § ac yn erbyn pob dyn;

u Mat. 5. 12. a 21. 35—39. a 23. 31—35. a 27. 25. Luc 11. —51. a 13. 33, 34. Act. 2. 23. a 3. 15. a 4. 10. a 7. 52. x 12. 3. 1 Cor. 10. 5. y Esther 3. 8. Luc 11. 52, 53.

* Ac ni ddylid sŷnu llawer wrth ymddygiad uchod Iuddewon, oblegid er eu bod hwy yn proffesu addoli un gwir a bywiol Dduw, hwy a laddasent y Mess addawedig, yr Arglwydd Iesu Grist; † ac fel hyny d gosasant eu bod o'r un ysbryd ofnadwy â'u henafiai rhai a laddasent amrai o'u prophwydi eu hunain, y r a godasai Duw yn eu plith hwy; ‡ ac hwy a erlidias yr apostolion, a llawer o ddysgyblion yr Arglwydd I allan o'u gwlad, ac allan o ddinasoedd eraill hefyd, Asia Leiaf a gwlad Groeg; yn enwedig Paul ei hun Thessalonica a mànau eraill. § Yr oeddynt hwy tybied eu bod fel hyn yn gwneuthur gwasanaet Dduw, ond yn hyn nid oeddynt yn rhyngu ei fodd eithr yn ei ddigio ef yn dra dychrynllyd: § ac nid h yn unig, yr oeddynt hefyd yn erbyn pob dyn, ac gwrthwynebu iachawdwriaeth Iuddewon a chenedlo hyd ag oedd bosibl iddynt hwy.

16 [z] * Gan warafun i ni lefaru wrth y C hedloedd, [a] fel yr iachêid hwy, † i [b] gyflawni pechodau hwynt yn wastadol: [c] ‡ canys dig aint *Duw* a ddaeth arnynt hyd yr eithaf.

z Act. 11. 2, 3, 17, 18. a 13. 50. a 14. 5, 19. a 17. 5, 6, 13. 12, 13. a 19. 9. a 21. 27—31. a 22. 21, 22. Gal. 5. 11. Eph. 3. 8 a Es. 45. 22. Marc 16. 16. Act. 4. 12. Rhuf. 10. 13—15. 2 The 10. 1 Tim. 2. 4. b Gen. 15. 16. Zec. 5. 6—8. Mat. 23 c Joel 2. 30, 31. Mal. 4. 1, 5. Mat. 3. 7—10, 12. a 12. 45. a 2 —44. a 22. 6, 7. a 24. 21, 22. Luc 11. 50, 51. a 19. 42—44. a 2 —24. Heb. 6. 8. a 10. 27—30. Iago 5. 1—6.

* Yr oeddynt yn enwedig yn erbyn "pob dyn" cenedloedd; ac yn dangos eu rhagfarn gref ac ano fygadwy, yn eu gwaith yn gwarafun i weinido Crist i bregethu yr efengyl iddynt; megys pe gallasent ddyoddef iddynt hwy gael eu hiachâu yn brydol a'u hachub drwyddi hi. Nis gallasai dim sicr roddi prawf cadarnach o dymher lidiog yr Iudd on tuag at y cenedloedd, na'u gwrthwynebiad gwrth hwynt i athrawiaeth mòr ddaionus a grasol â'r efe gael ei phregethu iddynt, am yr hyn mae Paul y beio hwy mòr llym yn y fàn hon. † Trwy yr ymdr iadau gwrthnysig a dibaid hyn, yr oeddynt o hy cyflawni mesur eu pechodau personol ac fel cen hyd na oddefai Duw ganddynt fawr yn hwy, fel y gweled yn y canlyniad ofnadwy: ‡ oblegid yr digofaint Duw hyd yn nôd y pryd hwnw, yn ba ddyfod arnynt hwy hyd yr eithaf, yn ninystr y dd a'r deml; yn lladdiad torfèydd aneirif o'r genedl ngwasgariad, caethiwed, a thrueni gresynol y rh gedwid yn fyw; ac yn y trallodau a'r adfyd m anghyfredin o bob math, a'u canlynai hwynt trwy

dydd y ddaear, dros lawer o oesoedd olyn-ol, ïe, hyd
ydd heddyw. "A *ddaeth* arnynt:" nid oedd eto
i dyfod; ond yr oedd *bron* a dyfod, ac yn *sicr* o
fod: *ephthasi* yw y gair Groeg, a dywed *Guyse* y
id ei gyfieithu *yn* dyfod, neu *yn nghylch* dyfod, yn
al ag a *ddaeth*, yn y fân hon.

17 * A ninnau, frodyr, wedi ein gwneuthur
ynddifad am danoch † dros ennyd awr,
ngolwg, nid y'nghalon, ‡ a fuom [e] fwy astud
eled eich wyneb chwi mewn awydd mawr.

d 2 Bren. 5. 26. Act. 17. 10. 1 Cor. 5. 3. Col. 2. 5. e pen.
10, 11. Gen. 31. 30. a 45. 28. a 48. 11. 2 Sam. 13. 39. Salm 63.
uc 22. 15. Rhuf. 1. 13. a 15. 23. Phil. 1. 22—26.

Cawsai yr apostol ei ŷru ymaith trwy orthrech oddi
h y Thessaloniaid, Act. 17. 5—10, ond yr oedd ei
wl a serchiadau ei galon gyda hwy o hyd; "yn
wlwg, nid yn nghalon yr oedd wedi ei amddifadu o'u
billach: † ac nid oedd yr absenoldeb ond megys
ros ennyd awr;" dros ychydig iawn o amser; oblegid
edd ei feddwl ef mòr llawn o syniadau am dragy-
doldeb, fel nad oedd unrhyw yspaid o amser y
yd hwn ond megys dim yn ei olwg ef. ‡ Gadawodd
nt gyda chymmaint gofid â phe buasai tad yn
ael ei blant anwyl yn amddifad ar ei ol; am hyny
lai yn dra awyddus i ymweled â hwy drachefn, ac
rasai bob ymgais ag oedd bosibl i hyny.

18 * Am hynny yr ewyllysiasom ddyfod
och ([f] † myfi Paul) yn ddïau, [g] ‡ unwaith a
ywaith hefyd; ‖ eithr [h] Satan a'n lluddiodd ni.

f 1 Cor. 16. 21. Col. 4. 18. 2 Thes. 3. 17. Philemon 9. g Job
14. Phil. 4. 16. h Zec. 3. 1, 2. Rhuf. 15. 22. 2 Cor. 11. 12—
Dat. 2. 10. a 12. 9—12.

Yr oedd llawn ewyllys ganddo ef a'i frodyr, Silfanus
Thimothëus, i ddyfod atynt; † gan Paul ei hun yn
ewedig, ac yn ddïau, oblegid am dano ei hun mae efe
llefaru yma; ymwelodd Timothëus â hwynt fwy nac
waith, ac efallai Silfanus hefyd. ‡ Ond er ewyllysio,
heisio dyfod, unwaith a dwywaith hefyd, hyny yw,
rai weithiau, drachefn a thrachefn; ‖ lluddiwyd ef i
fod gan Satan, gelyn Crist a'i efengyl, a gelyn ei
hfnyddioldeb a'i lwyddiant yntau a'i frodyr, trwy
frôi terfysgoedd a gwrthwynebiadau yn ei erbyn ef yn
rea a mànau eraill, (Act. 17. 10—15,) yr hyn a'i
maeth yn angenrheidiol iddo ef sefyll ei dir yn y
nau hyny, i amddiffyn yr efengyl, a chadarnâu
eidiau y saint gweiniaid.

19 * Canys beth *yw* [i] ein gobaith ni, † neu
llawenydd, neu [k] goron *ein* gorfoledd? onid
wychwi, [l] ‡ ger bron ein Harglwydd Iesu
rist yn ei ddyfodiad ef?

i 2 Cor. 1. 14. Phil. 2. 16. a 4. 1. k Diar. 4. 9. a 12. 4. a
31. a 17. 6. Es. 62. 3. 1 Pedr 5. 4. Dat. 4. 10, 11. l pen. 3.
a 5. 23. 1 Cor. 4. 5. a 15. 23. Phil. 2. 16. 2 Thes 1. 7—12. a 2.
Tim. 6. 14, 15. 2 Tim. 4. 1, 2. Tit. 2. 13. 1 Ioan 2. 28.

Oni buasai y rhwystrau anorfod uchod, gallasai y
essaloniaid fod yn sicr y daethai efe yn ei ol atynt
ewyllysgar, a chyda'r cyfle cyntaf: * oblegid beth a
ent hwy feddwl oedd gwrthddrych ei "obaith" ef yn
waith y weinidogaeth, ond llwyddiant o'r fath a
wsai efe yn eu plith hwynt? † A pha beth oedd ei
wenydd ef, neu goron ei orfoledd yn yr ystyr hyny,
d gweled lliaws o'r fath ddychweledigion serchog at
rist ag oeddynt hwy; ‡ y rhai y gallai edrych arnynt,
rhai y caffai orfoleddu ynddynt ger bron yr Arglwydd
su, yn ei ddyfodiad i farnu y byd. Hwynt-hwy, yn
hlith eraill, oedd ei obaith ef am ffrwyth y weinidog-
th, i'w galonogi ef ynddi; ei brif lawenydd ef wrth
narfer â hi; a choron ei orfoledd fel gwobrwy am ei
ll lafur yn y diwedd.

20 * Canys chwychwi yw [m] ein gogoniant
n llawenydd ni.

m Diar. 17. 6. 1 Cor. 11. 7.

* Nid oedd yr apostol nâ'i frodyr yn ymorfoleddu nac
llawenychu yn eu doniau, yn ardderchawgrwydd eu
ymadrodd, nac yn eu poblogrwydd na'u henwogrwydd
yn mhlith dynion; ond yn unig yn mod Duw yn eu
llwyddo, fel ei offerynau ef i ddychwelyd pechaduriaid,
ac i annog credinwyr i rodiad ac ymarweddiad sanct-
aidd yn y byd: hyny, uwchlaw pob peth arall, oedd eu
gogoniant a'u llawenydd hwy, a gobeithient yn hyderus,
y byddai y cyfryw ddynion yn ogoniant ac yn llawenydd
iddynt yn y dydd diweddaf.

PEN. III.

Cariad Paul at y Thessaloniaid, &c.

* AM hynny, [a] gan na allem ymattal yn hwy,
[b] † ni a welsom yn dda ein gadael ni
ein hunain yn Athen;

a adn. 5. pen. 2. 17. Jer. 20. 9. a 44. 22. 2 Cor. 2. 13. a 11. 29
30. b Act. 17. 15.

* Cymmaint oedd gofal ac anesmwythder meddwl yr
apostol am y Thessaloniaid, fel proffeswyr ieuainc yn
yr amgylchiadau peryglus yn mha rai y gorfu iddo ef eu
gadael yn sydyn; fel pan ddaeth efe i Athen, (Act. 17.
15.) a chyfarfod âg amryw sïomedigaethau yn ei fwriad
i ddychwelyd atynt; aeth yn fwy anesmwyth yn eu cylch
nac y gallai ymattal yn hwy heb ddanfon cenad atynt, er
nas gallasai fyned ei hun. † Am hyny dewisodd gael
ei adael ei hunan yn Athen, i ymdrech â'r amryw
anhawsderau oedd yn ei gyfarfod, oddi wrth ddadleuon
yr Iuddewon, a'r philosophyddion a'r Epicuriaid a'r
Stoiciaid: (Act. 17. 17, 18.) gwell ganddo hyny, er ei
bod yn anghysurus iawn iddo gael ei adael heb gyfaill
yn y byd mewn lle mòr ddïeithr, na bod mewn petrus-
der yn hwy am y Thessaloniaid, neu fod heb wneyd
pob peth a allai er eu lles a'u cymmorth hwynt. Mae
yr apostol yma yn llefaru yn y *rhif lïosog*, am fod Tim-
othëus gydag ef, yn cyd-ymgyngori pa beth i'w wneyd;
wedi hyn, yn adn. 5, ni a'i cawn ef yn llefaru am yr un
peth yn y *rhif unigol*. Tybia rhai fod Silas hefyd gydag
ef yn Athen, ond barna eraill nad oedd ef ddim, a hyny
sy debycaf wrth Act. 18. 5.

2 * Ac a ddanfonasom [c] Timothëus, [d] † ein
brawd, a gweinidog Duw, a'n cyd-weithiwr yn
efengyl Crist, [e] ‡ i'ch cadarnhâu chwi, ac i'ch
diddanu y'nghylch eich ffydd;

c Act. 16. 1. a 17. 14. a 18. 5. d Rhuf. 16. 21. 1 Cor. 17.
10, 11. 2 Cor. 2. 13. a 8. 23. Eph. 6. 21. Phil. 2. 19—25. Col. 1. 7.
a 4. 9, 12. e adn. 13. Act. 14. 22, 23. a 16. 5. Eph. 6. 22. Phil.
1. 25.

* Yn Act. 17. 15, ni a gawn i'r apostol ddanfon gor-
chymyn o Athen at Silas a Thimothëus, ar iddynt
ddyfod ato ef yno ar ffrwst: mae yn sicr i Timothëus
fyned, beth bynag am Silas; (gwel ar adn. 1.) ond efe
a'i danfonodd ef yn ol at y Thessaloniaid yn fuan
iawn. † Mae efe yn dangos ei gariad at y Thessalon-
iaid trwy ddanfon un mòr rhagorol atynt; brawd, gwein-
idog Duw, a chyd-weithiwr yn efengyl Crist; un oedd
yn anwyl iawn ganddo, ac megys ei law ddehau yn y
weinidogaeth; ac un a adwaenent hwythau o'r blaen fel
y cyfryw, ac am hyny byddai yn fwy derbyniol ganddynt.
‡ Brawd addas iawn oedd Timothëus i'w ddanfon
atynt, i'w cadarnâu hwynt trwy athrawiaeth a chyngor-
ion ysgrythyrol, a'u diddanu hwynt trwy ddangos y
manteision gogoneddus a ddeuai iddynt o'u ffydd, hyd
yn nôd yn y byd hwn, a llawer mwy yn y byd oedd i
ddyfod.

3 * Fel na [f] chynhyrfid neb yn y gorthrym-
derau hyn: † canys chwychwi eich hunain a
wyddoch mai i hyn y'n [g] gosodwyd ni.

f Salm 112. 6. Act. 2. 25. a 20. 24. a 21. 13. Rhuf. 5. 3. 1 Cor.
15. 58. Eph. 3. 13. Phil. 1. 28. Col. 1. 23. 2 Thes. 1. 4. 2 Tim. 1.
8. 1 Pedr 4. 12—14. Dat. 2. 10, 13. g pen. 5. 9. Mat. 10. 16—
18. a 24. 9, 10. Luc 21. 12. Ioan 15. 19—21. a 16. 33. Act. 9. 16.
a 14. 22. a 21. 13. Rhuf. 8. 35—37. 1 Cor. 4. 9. 2 Tim. 3. 11, 12.
1 Pedr 2. 21. a 4. 12.

* Yr oedd y cadernid a'r diddanwch uchod yn dra
angenrheidiol iddynt, fel na chynhyrfid, ac nad ysgogid
neb o honynt, i wadu neu arguddio eu crefydd yn y

gorthrymderau oedd arnynt y dyddiau hyny gan erlidwyr. Mae y gair *(sainesthai)* a gyfieithir yma, "cynhyrfu," yn ateb i air arall *(saleuthênai)* a gyfieithir "siglo," yn 2 Thes. 2. 2; ac yn gyfystyr hefyd â'r gair *(throeisthai)* a gyfieithir "cynhyrfu" yn yr un adnod hòno: arwyddant oll, y môr yn cael ei gynhyrfu, a'r llongau yn cael eu tafiu a'u hysgwyd, gan wyntoedd cryfion; a chynnwys y "gorthrymderau" a enwir, y peryglon oddi wrth hudoliaethau i adael crefydd, yn gystal âg erlidiau ac ofnau. † Pan oedd yr apostol gyda hwynt, efe a ragfynegodd y gorthrymderau hyn iddynt cyn eu dyfod; hwy a wyddent fod holl weision a dysgyblion Iesu wedi cael eu gosod, yn ol trefn ddoeth a sanctaidd Duw, i ddyoddef er mwyn Crist, yn gystal ag i gael eu gogoneddu gydag ef. Yr oedd eu sefyllfa, yn nghanol gelynion Duw, eu hathrawiaeth a'u hymarweddiad, yn sicr o'u gwneyd yn gâs ac yn ddirmygedig gan bawb: byddai Satan yn sicr o gyffrôi erlid arnynt hyd y gallai ef: ac yr oedd Duw yn gweled yn dda i osod iddynt ryw fesur o ddyoddef, er profi eu ffydd, er cynnyddu eu sancteiddrwydd, ac anrhydedd i nerth ac effeithiau rhagorol ei ras ef ynddynt.

4 * Canys yn wir pan oeddym gyd â chwi, [h] ni a rag-ddywedasom *i chwi* y gorthrymmid ni; [i] † megis y bu, ac y gwyddoch chwi.

h Ioan 16. 1—3. i pen. 2. 2, 14. Act. 17. 1, 5—9, 13. 2 Cor. 8. 1, 2. 2 Thes. 1. 4—6.

* Pan oedd yr apostol a'i frodyr, Silas a Thimothëus, gyda'r Thessaloniaid, hwy a rag-ddywedasent iddynt y gorthrymid hwynt, ac a'u rhybuddiasent hwy yn mlaen llaw i ymbarotôi erbyn y gwaethaf; gan fod pawb a ewyllysient fyw yn dduwiol yn Nghrist Iesu yn sicr o gael eu herlid, (2 Tim. 3. 12.) felly y byddai yr apostol a'i frodyr yn sicr o gael eu rhan o'r coelbren cyffredin. † Ac fel y rhag-ddywedasent hwy, felly y bu yn fuan: yr hyn a wyddai y Thessaloniaid trwy brofiad chwerw, ac y buont dystion o'r ystorm a syrthiodd ar yr apostol a'i gyd-weithwyr yn Thessalonica. Act. 17. 5—10. Tybia rhai mai am ei erlid ei hun, a'r apostolion eraill a'r efengylwyr yn unig, mae yr apostol yn llefaru yma; ond yr oedd y Thessaloniaid eu hunain hefyd yn agored i gael eu herlid, ac yn cael eu herlid; ac mewn perygl o leiaf, o gael eu cynhyrfu gan yr erlidiau a'r gorthrymderau hyny, adn. 3. Oddi ar yr erlid oedd ar yr apostolion eu hunain, taerai gelynion yr efengyl, yn Iuddewon a phaganiaid, nas gallasai y grefydd gristionogol fod yn beth o Dduw; pe amgen ni buasai erlid ar ei phrif weinidogion hi; ac yr oeddynt drwy hyny yn "cynhyrfu" ac yn "siglo" rhai, yn gystal â thrwy eu herlid a'u bygwth.

5 * O herwydd hyn † minnau, [k] heb allu ymattal yn hwy, [l] ‡ a ddanfonais i *gael* gwybod eich ffydd chwi; [m] ‖ rhag darfod i'r temtiwr eich temtio chwi, [n] § a myned ein llafur ni yn ofer.

k Gwel ar adn. 1. l adn. 2, 6. Act. 15. 36. 2 Cor. 7. 5—7. m Mat. 4. 3. 1 Cor. 7. 5. 2 Cor. 2. 11. a 11. 3, 13—15. Gal. 1. 6—9. Eph. 4. 14. Iago 1. 13, 14. n Gwel ar pen. 2. 1.—Es. 49. 4. Gal. 2. 2. a 4. 11. Phil. 2. 16.

* O herwydd y peryglon a soniwyd uchod, o herwydd i'r apostol orfod eu gadael hwy yn nghanol profedigaeth dânllyd, fel ŵyn yn mysg bleiddiaid; † ac o herwydd nas gallai ymattal yn hwy heb glywed oddi wrthynt a rhoddi cymmorth iddynt; (gwel ar adn. 1.) ‡ efe a ddanfonodd y brawd ffyddlawn Timothëus atynt, i gael gwybod eu ffydd hwynt, pa fodd yr oeddynt yn dàl yn eu crefydd, ac yn glŷnu wrth yr Arglwydd yn eu proffes. ‖ Nis gallai ei feddwl ef fod yn esmwyth yn eu cylch hwynt, rhag darfod i'r temtiwr, sef Satan, lwyddo yn eu nerbyn hwy trwy ei amrywiol ddichellion, i wadu y ffydd, a throi yn ol at eilun-addoliaeth eu cymmydogion; § ac fel hyny myned ei holl lafur diflino ef a'i frodyr, am iachawdwriaeth eu heneidiau hwynt, yn ofer ac yn aneffeithiol: rhag i'r ymddangosiadau gobeithiol oedd arnynt fyned yn ddim o leiaf ar rai o honynt; ac iddynt droi allan yn gwbl wrthwyneb i'r hyn oedd ef a frodyr wedi ei feddwl mewn barn cariad am danyn Gwaith cyntaf Satan yw rhwystro dynion i gredu, waith nesaf yw ceisio distrywio eu ffydd hwynt; ac broffeswyr ieuainc yn gyffredin mae yn ymosod fwya

6 * Eithr yr awrhon, [o] wedi dyfod Timothëus attom oddi wrthych, [p] a dywedyd i ni nev yddion da am eich [q] ffydd chwi a'ch cariad, [r] bod genych goffa da am danom ni yn wasta ol, [s] gan hiraethu am ein gweled ni, megis ‡ *ydym* ninnau *am* eich *gweled* chwithau;

o Act. 18. 5. p Diar. 25. 25. Es. 52. 7. 2 Cor. 7. 5—q 1 Cor. 13. 13. Gal. 5. 6. Col. 1. 4. 2 Thes. 1. 3. 1 Tim. 1. Philemon 5. 1 Ioan 3. 23. r pen. 1. 3. a 2. 9. 1 Cor. 11. 2. C 4. 18. 2 Tim. 1. 3. Heb. 13. 3, 7. s adn. 9, 10. Gwel ar pen. 17.—Phil. 1. 8.

7 † Am hynny y [t] cawsom gysur, frody am danoch chwi, [u] yn ein holl orthrymder a hanghenoctid, ‡ trwy eich ffydd chwi.

t adn. 8, 9. 2 Cor. 1. 4. a 7. 6, 7, 13. 2 Ioan 4. u Act. 4—10. 1 Cor. 4. 9—13. 2 Cor. 11. 23—28. 2 Tim. 3. 10—12.

* Tra bu Timothëus yn Thessalonica, gadawodd apostol Athen, ac a aeth i Corinth; lle y daeth Timothëus a Silas ato. Gwel Act. 18. 1, 5. Gan fod newyddion da a glywsai efe ganddynt hwy o Thessalonica, am ffydd a chariad y brodyr yno, eu coffadwriaeth serchog am dano ef yn wastadol, a'u dymuniad h aethlawn hwy am ei weled ef drachefn, megys yntau frodyr am eu gweled hwythau; gan fod y newyddion hyn mòr foddlonawl, † hwy a esmwythasent ei fedd ef yn fawr, ac a roddasent iddo gysur nid bychan, a'i frodyr hefyd, yn nghanol eu holl orthrymder hangenoctid mewn pethau eraill: ‡ yr oedd eu cadern hwy yn y ffydd, yn nghyd â ffrwythau addas, aml helaeth y ffydd hòno, yn llenwi ei galon ddaionus ef chysur a gorfoledd. *Anangkê* yw y gair a gyfieitl angenoctid, yn adn. 7, cyd-glymu, rhwymo yn gal cyngwasgu, rhyw nerth gorthrechawl, mewn cyferbyni i ewyllysgarwch gwirfoddawl; rhyw galedi, neu ange rhaid, corphorol neu ysbrydol: *distress* (caledi) yd yn y Saesoneg; nis gwyddom pa un ai yn gorphorol ar y meddwl; yr olaf mae yn debyg, gan fod ffydd Thessaloniaid yn ei esmwythâu.

8 * Oblegid yr awrhon [x] byw ydym [y] † os ydych chwi yn sefyll yn yr Arglwydd.

x 1 Sam. 25. 6. Salm 30. 5. Phil. 1. 21. y Ioan 8. 31 15. 4, 7. Act. 11. 23. 1 Cor. 15. 58. a 16. 13. Gal. 5. 1. Eph. 3. a 4. 15, 16. Phil. 1. 27. a 4. 1. Col. 1. 23. Heb. 3. 14. a 4. 14. a 23. 1 Pedr 5. 10. 2 Pedr 3. 17. Dat. 3. 3, 11.

* Beth bynag, a pha faint bynag, oedd "gorthrym ac angenoctid" yr apostol a'i frodyr yn Corinth blaen, a pha faint bynag oedd eu hofnau a'u pryder y Thessaloniaid, yr hyn oedd fel angau iddynt; yn a byw oeddynt, a chysurus yn eu heneidiau, yn canlyn eu gwaith yn siriol a chalonog; † wedi iddynt glyw eu bod hwy yn sefyll yn ŵrol yn yr Arglwydd Iesu, os parâent i sefyll felly yn wastadol. Yn wir yr oe ynt yn mwynâu bywyd gyda hyfrydwch mawr, ac yn b i ryw ddyben, gwerth byw iddo; os oedd eu pl ysbrydol yn sefyll yn gadarn yn ffydd, gobaith, cari ac ufudd-dod yr Arglwydd Iesu a'i efengyl sanctaid Yn yr ysgrythyrau rhoddir *bywyd* am *ddedwyddwch* aml: felly, ond odid, y gallwn ddeall Phil. 1. 21; "b i mi yw Crist;" hyny yw, dedwyddwch bywyd i mi Crist, ei garu, ei fwynâu, a'i wasanaethu ef, a m ynddo fydd yn elw byth.

9 * Canys [z] pa ddiolch a allwn *ni* ei a dalu i Dduw am danoch, [a] † am yr holl lawe ydd â'r hwn yr ydym ni yn llawen o'ch ach chwi [b] ‡ ger bron ein Duw ni,

z pen. 1. 2, 3. 2 Sam. 7. 18—20. Neh. 9. 5. Salm 71. 14. 2 Cor. 2. 14. a 9. 15. a adn. 7, 8.—Gwel ar pen. 2. 19. b D 12. 12, 18. a 16. 11. 2 Sam. 6. 21. Salm 68. 3. a 96. 12, 13. a 8, 9.

* Nis medrai yr apostol a'i frodyr gael iaith na g

ddigon cryfion, i ddangos diolchgarwch eu calonau i
Iesw, ar ran y Thessaloniaid, am iddo eu cynnal hwy
s gorthrymderau oedd yn eu hamgylchu; † ac am yr
lawenydd a'r gorfoledd oedd hyny wedi ei grëu a'i
n yn eu calonau hwy ger bron Duw. ‡ Yr oedd
ch a llawenydd yn eu calonau ger bron Duw am
ac yn aml yn tòri allan ger bron dynion hefyd, yn
weddïau a'u haddoliadau cyhoeddus.

10 * Gan [c] weddïo mwy nâ mwy, [d] nos a
d, † ar *gael* gweled eich wyneb chwi,
a chyflawni diffygion eich ffydd chwi?

c Luc 2. 37. Act. 26. 7. 2 Tim. 1. 3. Dat. 4. 8. a 7. 15.
a n. 11. pen. 2. 17, 18. Rhuf. 1. 10. a 15. 30—32. Philemon 22.
Rhuf. 1. 11, 12. 2 Cor. 1. 15, 24. Phil. 1. 25. Col. 1. 28. a 4. 12.
Thes. 1. 11.

* Nos a dydd, yr oedd ef a'i frodyr yn tywallt gwedd-
ngwastadol a dibaid ger bron Duw, † am gael gweled
ebau eu hanwyl blant yn Thessalonica unwaith
hefn; ‡ fel y gallent gyflawni a pherffeithio yr hyn
l yn ddiffygiol yn eu ffydd hwynt, o ran gwybodaeth
hystiolaethau ac addewidion Duw, neu o ran y
wydd mwynâol, â pha un yr oeddynt yn eu credu,
yn ymorwedd arnynt, "mwy nâ mwy:" (*hyper
erissou:*) cyfieithir yr un geiriau yn *dra rhagorol*, yn
es. 3. 20: nis gellid eu cyfieithu yn well yma nac
naed, *mwy nâ mwy*.

11 * A [f] Duw ei hun a'n Tad ni, [g] † a'n
rglwydd Iesu Grist, ‡ a gyfarwyddo [h] ein
dd ni attoch chwi.

f adn. 13. Es. 63. 16. Jer. 31. 9. Mal. 1. 6. Mat. 6. 4, 6, 8, 9,
8, 26, 32. Luc 12. 30, 32. Ioan 20. 17. 2 Cor. 6. 18. Col. 1. 2.
an 3. 1. g Gwel ar Rhuf. 1. 3.—2 Thes. 2. 16. h Ezra
—23. Diar. 3. 5, 6.

* Yn y gweddïau "mwy nâ mwy" uchod, yr oeddynt
parâu i daer ddeisyfu ar i Dduw, yr hwn sydd a'i
odraeth ar bob peth, sef Tad cyfammodol a grasol
oll saint; † a'r Arglwydd Iesu Grist, yr hwn fel
yngwr sydd yn Ben uwchlaw pob peth i'r eglwys;
farwyddo eu ffordd hwy drachefn at y Thessalon-
, trwy symmud pob rhwystrau rhagluniaethol ag
d hyd yma wedi eu lluddias hwynt. Mae yr apostol
yr adnodau blaenorawl yn rhoddi esampl odiaeth i
weinidogion y gair a bugeiliaid eglwysi, i fod yn
tad yn ofalus am wybod agwedd eu pobl, i weddïo
ddibaid am eu llwyddiant, i fendithio Duw yn
yddiol ar eu rhan, ac i edrych ar lwyddiant ysbrydol
praidd, fel dedwyddwch penaf eu bywydau eu
ain.

12 * A'r [i] Arglwydd a'ch [k] lliosogo, † ac
h chwanego ym [l] mhob cariad i'ch gilydd,
c i bawb, [m] || megis ag *yr ydym* ninnau i
rvi:

i pen. 4. 10. Salm 115. 14. Luc 17. 5. 2 Cor. 9. 10. Iago 1. 17.
dr 3. 18. k pen. 4. 9, 10. Phil. 1. 9. 2 Thes. 1. 3. l pen.
. Mat. 7. 12. a 22. 39. Rhuf. 13. 8. 1 Cor. 13. Gal. 5. 6, 13, 14,
2 Pedr 1. 7. 1 Ioan 3. 11—19. a 4. 7—16. m pen. 2. 8.

* Yn gyffelyb fel yr oedd Moses yn gweddïo dros
uel, (Deut. 1. 11,) felly mae yr apostol yn gweddïo
a dros y Thessaloniaid, am i'r Arglwydd yr hwn a
u rhoddi pob llwyddiant, eu lliosogi hwynt mewn
r, trwy chwanegi atynt beunydd y rhai a fyddent
wedig. † Ac nid eu "lliosogi" yn unig, ond mae
gweddïo hefyd am iddynt gael eu chwanegi mewn
iad gwresog a diragrith, ac yn ei ffrwythau a'i
ithiau helaeth, yn mhob ffordd a moddion, tuag at
gilydd fel aelodau o'r un eglwys ac o gorph Crist,
fel plant i'r un Tad nefol: ‡ a thuag at bawb o'r
t yn mhob màn, o ba enwad bynag y byddont; ïe,
wn cariad o ewyllys da tuag at bob dyn, hyd yn nôd
gelynion; || megys yr oedd yr apostol ei hun a'i
lyr, yn helaeth ac mewn gwirionedd tuag atynt hwy,
yn awyddus am gael dangos hyny yn mhob ffordd y
dent fod yn wasanaethgar iddynt.

13 * I [n] gadarnhâu eich calonnau chwi [o] yn
iargyhoedd mewn sancteiddrwydd [p] † ger
bron Duw a'n Tad, [q] ‡ yn nyfodiad ein Har-
glwydd Iesu Grist [r] gyd â'i holl saint.

n pen. 5. 23. Rhuf. 14. 4. a 16. 25. 1 Cor. 1. 8. 2 Thes. 2. 16,
17. 1 Pedr 5. 10. o Eph. 5. 27. Col. 1. 22. Judas 24. p Gwel
ar adn. 11. q pen. 2. 19. a 4. 15. a 5. 23. 1 Cor. 1. 7. a 15. 23.
2 Thes. 2. 1. r Deut. 33. 2. Zec. 14. 5. 2 Thes. 1. 10. Judas
14.

* Dymunai yr apostol y "cariad" helaeth uchod iddynt, fel y cadarnêid eu calonau hwy mewn sancteiddrwydd; ac fel y byddai eu serchiadau, eu tymherau, a'u holl ymddygiadau hwynt yn ddïargyhoedd; yn mhob rhan o'u dyledswyddau tuag at Dduw, tuag at eu gilydd, a thuag at bob dyn yn eu gwahanol sefyllfâoedd perthynasol yn y byd: † ac fel yr ymddangosai yn y diwedd eu bod felly, megys ger bron eu Duw a'u Tad sanctaidd, chwiliwr y calonau; ‡ yn y dydd penderfynol hwnw, pan ddel yr Arglwydd Iesu Grist gyda ei holl saint, angelion, a gwaredigion, i farnu byw a meirw. Yn y dydd hwnw, daw eneidiau y gwaredigion, y rhai a fyddant wedi huno yn yr Arglwydd, gyda Christ i lawr o'r nef, i gael eu hail-uno â'u cyrph gogoneddedig; a'r saint ar y ddaear a gyfnewidir, i gyfarfod â'r Arglwydd yn yr awyr. Wrth fod yr apostol yn gweddïo ar Grist yn gystal ag ar y Tad mòr aml, rhaid ei fod ef yn tybied fod Crist yn hollalluog, yn holl-bresenol, yn holl-wybodol, ac yn chwiliwr y calonau; a phrïodoliaethau hanfodol i Dduw yn unig yw y rhai hyn. Pwy sydd iawn, ai Paul, ai ynte gwadwyr Duwdod Iesu?

PEN. IV.

Y mae efe yn eu nannog hwynt i fyned rhagddynt mewn pob math a'r dduwioldeb.

* YM mhellach gan hynny, frodyr, [a] yr ydym yn attolwg i chwi, † ac yn deisyf [b] yn yr Arglwydd Iesu, [c] ‡ megis y derbyniasoch gennym [d] pa fodd y dylech rodio a [e] boddloni Duw, [f] ar i chwi gynnyddu fwyfwy.

a pen. 2. 11. Rhuf. 12. 1. 2 Cor. 6. 1. a 10. 1. Eph. 4. 1. Philemon 9, 10. Heb. 13. 22. b adn. 2. Eph. 4. 20. 2 Thes. 2. 1. 1 Tim. 5. 21. a 6. 13, 14. 2 Tim. 4. 1. c adn. 11, 12. Act. 20. 27. 1 Cor. 11. 23. a 15. 1. Phil. 1. 27. Col. 2. 6. 2 Thes. 3. 10—12. d Gwel ar pen. 2. 12. e Rhuf. 8. 8. a 12. 2. Eph. 5. 17. Col. 1. 10. Heb. 11. 6. a 13. 16. 1 Ioan 3. 22. f adn. 10. Job 17. 9. Salm 92. 14. Diar. 4. 18. Ioan 15. 2. Phil. 1. 9. a 3. 14. 2 Thes. 1. 3. 2 Pedr 1. 5—10. a 3. 18.

* Yr oedd yn mhellach yn angenrheidiol i'r apostol attolygu ar y Thessaloniaid yn y modd taeraf, † ïe, deisyfu arnynt yn enw a thrwy awdurdod yr Arglwydd Iesu, i'r hwn yr oedd ef yn gyfrifol am ei swydd, a hwythau am eu rhodiad; ‡ ar iddynt gynnyddu fwy-fwy yn yr ymarferiad o bob dyledswydd sanctaidd, a rhodiad addas er boddloni Duw, megys y derbyniasent gyngorion, cyfarwyddyd, ac esamplau, ganddo ef a'i frodyr o'r blaen. Os mynwn rodio i foddloni Duw, rhaid i ni gael cariad Duw yn egwyddor, cymmeryd gair Duw yn rhëol, a gogoniant Duw yn ddyben bob amser.

2 * Canys chwi a wyddoch [g] † pa orchymynion a roddasom i chwi ‡ trwy yr Arglwydd Iesu.

g Ezec. 3. 17. Mat. 28. 20. 1 Cor. 9. 21. 2 Thes. 3. 6, 10.

* Hwy a wyddent yn dda, ac hwy a ddylasent gofio yn barâus, † pa orchymynion sanctaidd ac ysgrythyrol a roddasai yr apostol a'i frodyr iddynt pan oeddynt gyda hwy, fel rhëol ymarweddiad iddynt yn mhob peth: ‡ gwyddent hefyd gyda pha awdurdod y rhoddasent y gorchymynion hyny; sef trwy awdurdod ddigyfrwng yr Arglwydd Iesu ei hun: am hyny anufudd-dod i'w gorchymynion hwy, oedd anufudd-dod i'r Arglwydd Iesu.

3 * Canys [h] hyn yw ewyllys Duw, [i] † *sef* eich sancteiddiad chwi, [k] ar ymgadw o honoch rhag godineb:

h pen. 5. 18. Salm 40. 8. a 143. 10. Mat. 7. 21. a 12. 50. Marc 3. 35. Ioan 4. 34. a 7. 17. Rhuf. 12. 2. Eph. 5. 17. a 6. 6. Col. 1. 9. a 4. 12. Heb. 10. 36. a 13. 21. 1 Pedr 4. 2. 1 Ioan 2. 17. i adn. 4. pen. 5. 23. Ioan 17. 17—19. Act. 20. 32. a 26. 18. Rhuf. 6. 22.

l Cor. 1. 30. a 6. 11. Eph. 5. 26, 27. 2 Thes. 2. 13. Tit. 2. 14. l Pedr 1. 2. k Mat. 15. 19. Act. 15. 20, 29. Rhuf. 1. 29. 1 Cor. 5. 9—11. a 6. 9, 10, 13—18. a 7. 2. 2 Cor. 12. 21. Gal. 5. 19. Eph. 5. 3—5. Col. 3. 5. Heb. 12. 16. a 13. 4. Dat. 21. 8. a 22. 15.

* Ewyllys hanfodol, arfaethol, gymmeradwyol, a gorchymynol, neu ddatguddiedigaethol Duw yn mherthynas i'w bobl yw hyn, † sef eu sancteiddiad hwy; neu eu hollawl ymadawiad â phob drwg, a hollawl gyssegriad o honynt eu hunain iddo ef: cwbl farweiddiad yr hen natur lygredig, ac adnewyddiad eu heneidiau ar ddelw Duw, trwy ffydd a gorchwyliaethau sancteiddiol yr Ysbryd Glân.

4 [l] * A'r fedru o bob un o honoch feddiannu ei [m] lestr ei hun † mewn sancteiddrwydd a [n] pharch;

l Rhuf. 6. 19. a 12. 1. 1 Cor. 6. 18—20. m 1 Sam. 21. 5. Act. 9. 15. Rhuf. 9. 21—23. 2 Tim. 2. 20, 21. 1 Pedr 3. 7. n Phil. 4. 8. Heb. 13. 4.

* Wrth ei "lestr ei hun" mae rhai yn deall; pob un ei *wraig* ei hun; ond mwy tebygol mai pob un ei gorph ei hun oedd yr apostol yn feddwl, yr hwn a elwir "llestr" mewn mànau eraill, 1 Sam. 21. 5; 2 Cor. 4. 7. † Yr oedd yn angenrheidiol iddynt ymgadw oddi wrth odineb a phuteindra, a phob math arall o aflendid a arferid yn gyffredinol yn mysg y cenedloedd paganaidd; ac i bob un o honynt wybod pa fodd i feddiannu a llywodraethu ei gorph ei hun, llestr yr enaid rhesymol, mewn sancteiddrwydd a defnydd parchus ac anrhydeddus o'i aelodau, yn offerynau cyfiawnder i Dduw.

5 * Nid mewn [o] gwŷn trachwant, [p] † megis y Cenhedloedd ‡ y rhai nid [q] adwaenant Dduw:

o Rhuf. 1. 24, 26. Col. 3. 5. p Mat. 6. 32. Luc 12. 30. Eph. 4. 17—19. 1 Pedr 4. 3. q Act. 17. 23, 30, 31. Rhuf. 1. 28. 1 Cor. 1. 21. a 15. 34. Gal. 4. 8. Eph. 2. 12. 2 Thes. 1. 8.

* Ni ddylai y cristionogion mewn un modd ymollwng i goledd eu nwydau a'u gwŷniau blysig a thrachwantus, y rhai sydd yn ymgynhyrfu yn halogedig i gyflawni gweithredoedd aflan ac anghyfreithlawn. † Byddai y cenedloedd paganaidd, y rhai goreu ac enwocaf o honynt, yn enwedig yn mhlith y Groegiaid, meddant, yn ymarfer â'r aflendid mwyaf ffiaidd ag oedd bosibl i ddynoliaeth ddychymmygu; ‡ a pha beth ni wna dynion nid adwaenant Dduw!

6 * Na byddo *i neb* [r] orthrymmu na thwyllo ei frawd mewn dim: [s] † canys dïalydd *yw* yr Arglwydd ar y rhai hyn oll, [t] ‡ megis y dywedasom i chwi o'r blaen, ac y tystiasom.

r Ex. 20. 15, 17. Lef. 19. 11, 13. Deut. 24. 7. a 25. 13—16. Diar. 11. 1. a 16. 11. a 20. 14, 23. a 28. 24. Es. 5. 7. a 59. 4—7. Jer. 9. 4. Ezec. 22. 13. a 45. 9—14. Amos. 8. 5, 6. Zeph. 3. 5. Mal. 3. 5. Marc 10. 19. 1 Cor. 6. 7—9. Eph. 4. 28. Iago 5. 4. s Deut. 32. 35. Job 31. 13, 14. Salm 94. 1. a 140. 12. Diar. 22. 22, 23. Preg. 5. 8. Es. 1. 23, 24. Rhuf. 1. 18. a 12. 19. Eph. 5. 6. 2 Thes. 1. 8. t Luc 12. 5. Gal. 5. 21. Eph. 4. 17.

* Yn yr un modd rhybuddiai yr apostol y Thessaloniaid, na orthryment (*go beyond*, myned tu hwnt, yn y Saesoneg) ac na thwyllent eu brodyr na neb o'u cymmydogion, mewn un modd; trwy gymmeryd mantais ar eu hannwybodaeth, eu hangen, neu eu hygoeledd; trwy fynu elwa yn anghymmedrol arnynt, na thrwy unrhyw gyfrwysdra a hoced, a ddyfeisiai dynion crib-ddeilgar i dwyllo rhai gwirion, heb golli eu gair da, ac heb osod eu hunain yn agored i gospedigaeth y gyfraith wladol drwy hyny. † Er y gallai dynion anonest felly ddïanc heb gael eu dàl, na'u galw i gyfrif gan ddynion; ond ni oddefai Duw i'w rhagrith a'u hanghyfiawnder hwy ddïanc yn ddigosp; gan ei fod ef ei hun yn ddialydd ar bob twyll a hoced, yn gystal âg ar bob gorthrymder ac anghyfiawnder. ‡ Yr oedd yr apostol wedi rhybuddio, a thystio yn erbyn y pethau hyn o'r blaen, pan oedd yn Thessalonica; na chaffai y cyfryw arferion ddim dïanc rhag dialedd Duw. Yr oedd Thessalonica yn ddinas o fasnachaeth fawr, ac fel y cyfryw yn dra thueddol i orthrymu a thwyllo wrth brynu a gwerthu: ond tybia rhai mai nid gorthrymder a thwyll mewn masnach yn unig a feddylir; eithr hefyd gorthrymder a thwyll yn y meddiant oedd gan wŷ yn eu gwragedd, trwy fod y naill ddyn yn ddirgelaidd thwyllodrus, yn halogi gwraig ei gymmydog. Defn yddir y geiriau gwreiddiol, meddant, yn yr ystyr hyn weithiau; a dïammau bod hyny yn gynnwysedig, gy phethau eraill, yma; ac felly mae yr adnod hon y cynnwys yr un mater â'r adnod o'r blaen, ac â'r adno ddilynol.

7 * Canys ni [u] alwodd Duw nyni i [x] aflen did, † ond i sancteiddrwydd.

u Lef. 11. 44. a 19. 2. Rhuf. 1. 7. a 8. 29, 30. 1 Cor. 1. 2. Ep 1. 4. a 2. 10. a 4. 1. 2 Thes. 2. 13, 14. 2 Tim. 1. 9. Heb. 12. 1 l Pedr 1. 14, 15. a 2. 9—12, 21, 22. x pen. 2. 3. Gal. 5. 1 Eph. 4. 19. 2 Pedr 2. 10.

* Pan mae y Duw anfeidrol sanctaidd yn galw dy ion trwy yr efengyl a'i ras, i wybodaeth a chymdeith ein Harglwydd Iesu Grist, ac i'w eglwys a'i deulu; n yw yn eu galw i fyw yn benrhydd ac yn aflan, tr goledd eu chwantau cnawdol, neu eu hawydd gybyd lyd, orthrymus, a thwyllodrus; † ond eu galw y mae gael eu dysgu, eu tueddu, a'u galluogi i fyw a rhod ger ei fron ef mewn purdeb, uniondeb, a sancteid rwydd: dyben ein hetholiad, ac effaith ein galwad y fel y byddem yn sanctaidd ac yn ddifeïus ger ei fr ef mewn cariad.

8 * Am hynny y neb sydd yn dirmyg [y] nid dyn y mae yn ei ddirmygu, ond Du [z] yr hwn hefyd a roddes ei Ysbryd Gl ynom ni.

y Diar. 1. 7. a 23. 9. Es. 49. 7. a 53. 3. Luc 10. 16. Act. 41. Judas 8. z Neh. 9. 30. Act. 5. 3, 4. 1 Cor. 2. 10. a 7. 1 Pedr 1. 12. 2 Pedr 1. 21. 1 Ioan 3. 24.

* Er mòr rhagorol a da oedd agwedd yr eglwys yn Th salonica, gallai fod rhai ynddi a siaradent lawer athrawiaethau a chysuron y grefydd gristionogol, eto a ddirmygent y cyngorion ymarferol uchod, pethau rhŷ fanol, ac anghyson ,â gras a rhyddid efengyl: † ond mae yr apostol yn eu rhybuddio, oedd neb yn dirmygu felly, mai nid efe, a Silfanu Thimothëus, oeddynt yn ddirmygu, ‡ eithr Duw hunan; yr hwn a roddasai ei Ysbryd Glân ynddy hwy, trwy ysbrydoliaeth yr hwn yr ysgrifenasid cyngorion uchod. Yma mae yr apostol yn hòni ei brydoliad ei hun, yn y geiriau cryfaf, ac yn y mo mwyaf difrifol: ond tybia rhai fod y Thessaloni crediniol yn gynnwysedig hefyd, yn y *ni*, i ba rai rhoddasid yr Ysbryd Glân; a dywedant mai i *chwi* y darlleniad mewn rhai hen ysgrifau o'r adnod ho os felly, nid ei ddylanwadau anffaeledig ef ar yr ap tol a'i frodyr a feddylir; ond ei weithrediadau gra ef ar y saint yn gyffredin, y rhai a alwodd Duw i san eiddrwydd.

9 * Ond [a] am frawdgarwch, [b] † nid rhai chwi ysgrifenu o honof attoch: [c] ‡ canys ydych chwi eich hunain wedi eich dysgu g Dduw i garu eich gilydd.

a Lef. 19. 8. Salm 133. 1. Ioan 13. 34, 35. a 15. 12—17. 4. 32. Rhuf. 12. 10. Eph. 5. 1, 2. Heb. 13. 1. 1 Pedr 3. 8. 2 P 1. 7. 1 Ioan 2. 10. a 3. 11, 14—19, 23. a 4. 7—16. b pen. Jer. 31. 34. Heb. 8. 10, 11. 1 Ioan 2. 20, 27. c Es. 54. 13. I 6. 44, 45. Heb. 10. 16. 1 Ioan 5. 1.

* Am y "gorchymyn newydd," yr hwn a rodda Crist i'w ddysgyblion, "ar iddynt garu eu gilyd Ioan 13. 34; † nid oedd angenrheidrwydd i'r apos ysgrifenu at y Thessaloniaid, am achos, natur, ar iadau, ffrwythau, ac effeithiau daionus y cariad brawdgarwch hyn: ‡ oblegid yr oeddynt hwy eis wedi eu dysgu gan Dduw, trwy oleuni a sancteid yr Ysbryd Glân, i garu eu gilydd; ac hwy a wydd trwy brofiad melus, beth oedd y brawdgarwch cynh a'r serchiadau gwresog hyn, y naill tuag at y ll Yma ni a welwn, fod dysgeidiaeth Duw, nid yn unig goleuo y deall, ond hefyd yn cyrhaedd y serch, ac gweithredu yn rymus i ddwyn y galon i garu; oble Duw, cariad yw.

10 * Oblegid yr ydych yn gwneuthur hyn
a bawb o'r brodyr y rhai sydd trwy holl
Macedonia: † ond yr ydym yn attolwg i chwi,
frodyr, [e] gynnyddu o honoch fwyfwy;

i pen. 1. 7. 2 Cor. 8. 1, 2, 8—10. Eph. 1. 15. Col. 1. 4. 2 Thes. 1. 3. Philemon 5—7. [e] adn. 1. pen. 3. 12. Phil. 1. 9. a 3. 13—2 Pedr 3. 18.

Yn wir e wyddai yr apostol, bod y Thessaloniaid wneyd hyn, sef yn dangos cariad a brawdgarwch iant, i bawb o'r brodyr cristionogol, y rhai oedd yn glwysi trwy holl Macedonia: † eto yr oedd efe yn llysio eu cyngori hwy, ac attolygu arnynt, fel ei yl frodyr, ar iddynt gynnyddu o hyd fwy-fwy, yn resawgrwydd eu cariad, ac yn ei holl ffrwythau ef; yny tuag at bawb o'u brodyr yn mhob màn, yn edig tuag at eu brodyr Iuddewig, y saint tlodion erusalem. Gwel ar 2 Cor. 8. 1—4.

11 [f] * A rhoddi o honoch eich [g] bryd ar
yn llonydd, [h] † a gwneuthur eich gorchwyl-
eich hunain, [i] ‡ a gweithio â'ch dwylaw
hunain (‖ megis y gorchymynasom i chwi)

f Diar. 17. 1. Preg. 4. 6. Galar. 3. 26. 2 Thes. 3. 12. 1 Tim. 11 Pedr 3. 4. g Rhuf. 15. 20. 2 Cor. 5. 9. h Marc 13. Luc 12. 42, 43. Rhuf. 12. 4—8. Col. 3. 22—24. 1 Tim. 5. 13. 2. 4—10. 1 Pedr 4. 10, 11, 15. i Act. 20. 35. Rhuf. 12. 11. r. 4. 12. Eph. 4. 28. 2 Thes. 3. 7—12. Tit. 3. 14.

Tra yr oedd dynion eraill yn awyddu am fawredd, ch, ac awdurdod, trwy ymddygiadau ymyrgar a fysglyd, mewn sefyllfâoedd cyhoeddus a mwy dir-idd; dylent hwy, y cristionogion, "roddi eu *bryd*" fod yn llonydd, yn dawel, yn heddychlawn, ac yn illawn, yn y sefyllfâoedd lle'r oeddynt, pa mòr isel ag oedd hyny; † a rhoddi eu bryd hefyd ar wneu-r eu gorchwylion priodol eu hunain gyda diwyd-dd, yn y wladwriaeth, yn yr eglwys, ac yn eu uoedd a phob sefyllfa berthynasol. † A chan nad d y rhan fwyaf o honynt ond tlodion, neu yn ddigon yg o gael eu darostwng i dlodi ryw ffordd neu y l, o herwydd crefydd a chydwybod; dylent fod yn wyd bob un mewn rhyw alwedigaeth, fel y gallent nal eu hunain a'u teuluoedd trwy lafur a gwaith eu ylaw eu hunain. ‖ Yr oedd yr apostol wedi gorchym-hyn hefyd iddynt, pan oedd ef a'i frodyr yn gweith-am eu bara beunyddiol yn eu plith hwynt. Wrth mharu yr adnod hon â 2 Thes. 3. 11, ni a welwn fod yngor hwn yn dra angenrheidiol i rai yn eglwys essalonica; ac mae yn angenrheidiol yn ein heg-wysi cristionogol eto: da ein bod yn gwybod beth yw gorchwylion ni *ein hunain*, a bod yn ddiwyd ac yn ydd yn y rhai hyny.

12 [k] * Fel y rhodioch yn weddaidd tu ag at
[l] rhai sydd oddi allan, † ac na byddo arnoch
iau dim.

k pen. 5. 22. Rhuf. 12. 17. a 13. 13. 2 Cor. 8. 20, 21. Phil. 4. l Tit. 2. 8—10. 1 Pedr 2. 12. a 3. 16, 17. 1 Marc 4. 11. 1 Cor. 12, 13. Col. 4. 5. 1 Tim. 3. 7. 1 Pedr 3. 1.

* Fel hyn gallai y Thessaloniaid rodio yn weddus yn hardd, yn mysg a thuag at eu cymmydogion gred, y rhai oedd allan o'r eglwys: mynai yr apostol ylynt harddu yr efengyl ger bron paganiaid, yn y fryw weithredoedd a allent hwy farnu a chymmerad-o; trwy gynnal eu teuluoedd yn brydferth, talu i wb eu dyledion, byw yn llonydd a heddychol, ac ym-dw rhag ceisio cynnorthwy a bywioliaeth trwy un-yw wasanaeth neu ymostyngiadau gwaradwyddus. frwy ddiwydrwydd gonest felly hefyd, ni byddai ar-nt eisieu dim ag oedd yn addas i'w sefyllfa; ac yn genrheidiol i gynnorthwyo y naill y llall, mewn echyd a chyfyngderau.

13 [m] * Ond ni ewyllysiwn, frodyr, i chwi
d heb wybod [n] am y rhai a hunasant, [o] † na
ristâoch, megis eraill y [p] rhai nid oes gan-
lynt obaith.

m Rhuf. 1. 13. 1 Cor. 10. 1. a 12. 1. 2 Cor. 1. 8. 2 Pedr 3. 8. n adn. 15. pen. 5. 10. 1 Bren. 1. 21. a 2. 10. Dan. 12. 2. Mat. 27. 52. Luc 8. 52, 53. Ioan 11. 11—13. Act. 7. 60. a 13. 36. 1 Cor. 15. 6, 18. 2 Pedr 3. 4. o Gen. 37. 35. Lef. 19. 28. Deut. 14. 1. 2 Sam. 12. 19, 20. a 18. 33. Job 1. 21. Ezec. 24. 16—18. Ioan 11. 24. Act. 8. 2. p Gwel ar Eph. 2. 12.—Job 19. 25—27. Diar. 14. 32. Ezec. 37. 11. 1 Cor. 15. 19.

* Efallai bod yr apostol wedi clywed, fod rhai o'r Thessaloniaid crediniol wedi marw yn ddiweddar, neu wedi dyoddef merthyrdod; a bod eu perthynasau a'u brodyr crefyddol yn alarus iawn ar eu hol, heb gymmeryd y cysur sydd yn yr efengyl yn y cyfryw amgylchiadau, fel y dylasent wneyd. Am hyny ni fynai efe iddynt fod heb wybod am y rhai a hunasent yn Nghrist, eu bod yn ddiogel ac mewn cyflwr dedwydd: † am hyny nid oedd achos iddynt hwy dristâu ar y cyfryw achlysuron gyda'r fath anghysur, a chyda'r fath ymddangosiadau allanol o alar anghymmedrol, â rhai eraill, nad oedd ganddynt ddim gobaith am ddedwyddwch eu cyfeillion trancedig, na dysgwyliad am eu cyfarfod na'u gweled hwy byth mwyach. Byddai y paganiaid eilun-addolgar yn wylo ac yn udo yn ddirfawr ar ol eu cyfeillion trengedig, y rhai a ystyrient wedi eu colli byth iddynt hwy, ac yn enwedig o ran eu cyrph; am na wyddent ddim yn y byd am adgyfodiad y corph: a byddai y gau-athrawon Iuddewig hefyd yn taeru, na cha'i yr un cenedl-ddyn, dienwaededig, fyned i'r nef, er bod yr apostolion yn eu derbyn heb eu henwaedu i'r eglwys ar y ddaear. Efallai bod golwg yr apostol ar y ddau beth uchod yn yr adnodau hyn.

14 * Canys [q] os ydym yn credu farw Iesu,
a'i adgyfodi; † felly y [r] rhai a hunasant yn yr
Iesu, ‡ a ddwg [s] Duw hefyd gyd âg ef.

q Es. 26. 19. Rhuf. 8. 11. 1 Cor. 15. 12—23. 2 Cor. 4. 13, 14. Dat. 1. 18. r adn. 13. 1 Cor. 15. 18. Dat. 14. 13. s adn. 17. Gen. 49. 10. Zec. 14. 5. Mat. 24. 31. 1 Cor. 15. 23. Phil. 3. 20, 21. 2 Thes. 2. 1. Judas 14, 15.

* Canys os oeddynt yn credu, neu gan eu bod yn credu farw o Iesu dros eu pechodau, a'i adgyfodi i'w cyfiawnâu; † gallent gasglu oddi ar hyny yn sicr, y cyfodai Duw yn anllygredig, gyrph y rhai a hunasant yn yr Iesu, ‡ fel y dygai hwynt gydag ef, fel aelodau o'i gorph dirgeledig ef, i fywyd tragywyddol a gogoneddus yn y dydd diweddaf. "Y rhai a hunasant *yn yr Iesu;*" sef yn achos Iesu, trwy ferthyrdod, medd rhai: ond mwy tebygol mai y rhai oedd yn credu yn Iesu, ac mewn undeb âg ef trwy ffydd, oedd meddwl yr apostol, pa fodd bynag y buont feirw. Nid oedd marw ddim ond huno i'r rhai oedd yn yr Iesu; gan nad oedd y corph marw yn dyoddef dim poen, a'r enaid yn bresenol gyda'r Arglwydd, mewn sancteiddrwydd a dedwyddwch.

15 * Canys hyn yr ydym yn ei ddywedyd
wrthych [t] y'ngair yr Arglwydd, † na bydd i ni
[u] y rhai byw, y rhai a adewir hyd ddyfodiad yr
Arglwydd, [x] ‡ rag-flaenu y rhai a [y] hunasant.

t 1 Bren. 13. 1, 9, 17, 18, 32. a 20. 35. a 22. 14. u 1 Cor. 15. 51—53. 2 Cor. 4. 14. x Job 41. 11. Salm 88. 13. a 119. 147, 148. Mat. 17. 25. y Gwel ar n. adn. 13.

* I arwain meddyliau y Thessaloniaid i rywbeth pellach o hyd ar y mater hwn, yr hyn yr oeddynt yn hollawl annwybodus am dano hyd yn hyn; mae yr apostol a'i frodyr ysbrydoledig yn dywedyd wrthynt yn ngair yr Arglwydd, yr hwn a amlygodd efe iddynt trwy ddatguddiad digyfrwng, gydag awdurdod i'w gyhoeddi a'i hysbysu i eraill; † na byddai i'r credinwyr a fyddent byw ar y ddaear yn nyfodiad yr Arglwydd Iesu y dydd diweddaf, ‡ rag-flaenu y rhai a fuasent feirw ac a gladdwyd, yn eu mynediad i lawn fwynâd o ddedwyddwch y nefoedd, gyrph ac eneidiau. "*Ni* y rhai byw:" tybia rhai wrth y geiriau hyn fod yr apostol y *pryd hwnw* yn dysgwyl y deuai Crist ar y cwmwl yn ei amser ef a'i gyd-oeswyr crediniol: ond mae ei ymadroddion ef am farw, a chael ei adgyfodi, mewn mànau eraill, yn dangos nad oedd efe yn dysgwyl dim o'r fath beth: llefaru mae efe yma fel un o holl gorph yr eglwys gristionogol hyd ddiwedd y byd; heb feddwl dim

y byddai ef ei hun na'i frodyr cyfoesawl, yn fyw ar y ddaear yr amser y sonia efe am dano. Gwel yr un dull o lefaru yn Hos. 12. 4; Salm. 66. 6; a 81. 5.

16 [z] * Oblegid yr Arglwydd ei hun a ddisgyn o'r nef, † gyd â bloedd, [a] â llef [b] yr archangel, [c] ‡ ac âg udgorn Duw: [d] || a'r meirw yng Nghrist a gyfodant yn gyntaf:

z Es. 25. 8, 9. Mat. 16. 27. a 24. 30, 31. a 25. 31. a 26. 64. Act. 1. 11. 2 Thes. 1. 7. 2 Pedr 3. 10. Dat. 1. 7. a Num. 23. 21. Salm 47. 1, 5. Zec. 4. 7. a 9. 9. b Judas 9. c Ex. 19. 16. a 20. 18. Es. 27. 13. Zec. 9. 14. 1 Cor. 15. 52. Dat. 1. 10. a 8. 13. d 1 Cor. 15. 23, 51, 52.

* Yn yr amser mawr-ddwys a thra difrifol hwnw, pa bryd bynag y delo, a phwy bynag a fyddo ar y ddaear pan ddelo, e welir yr Arglwydd Iesu ei hun yn disgyn o'r nef, mewn cwmwl o ogoniant, tebyg i'r Shechina gynt, ac megys yr esgynodd yn ei ddynoliaeth i'r nef; † ac efe a ddaw gyda gwŷs ofnadwy, yr hon a roddir gyda mawredd arswydus, megys bloedd, neu lef uchel y penaf o'r holl angelion, a'r lleill yn ei ganlyn ef, (Matth. 25. 31,) ‡ a chyda llef annhraethol uwch a chrefach y Duw mawr ein Iachawdwr, Crist Iesu ei hunan, megys pe'i rhoddid hi â sain udgorn mawr, fel hwnw a glywyd ar Sinai gynt yn rhoddiad y ddeddf: || ac yna y cyfodir cyrph y rhai a fuont feirw mewn undeb cyfammodol a bywiol â Christ, i fywyd anfarwol a gogoneddus; nid yn unig cyn cyfodi y rhai annuwiol, ond hefyd cyn cyfnewid y saint, y rhai a fyddant byw ar y ddaear y pryd hwnw. Tybia rhai mai Crist ei hun yw yr arch-angel, ond yma gelwir Crist yn "Arglwydd," a'r arch-angel megys rhyw un arall, gwahanol iddo ef. *Keleusmati:* "bloedd:" bloedd orchymynawl, megys i filwyr, neu forwyr, fod yn barod, meddant, yw ystyr y gair: y rhai a fyddant yn y beddau a glywant y floedd hon, ac a ddeuant allan ar darawiad amrant, wedi gorwedd yn llwch y ddaear, rai o honynt am filoedd o flynyddoedd.

17 * Yna [e] ninnau y rhai byw y rhai a adawyd, [f] † a gipir i fynu gyd â hwynt, [g] yn y cymmylau, ‡ i gyfarfod â'r Arglwydd, yn yr awyr; [h] || ac felly y byddwn yn wastadol gyd â'r Arglwydd.

e adn. 15. 1 Cor. 15. 52. f 1 Bren. 18. 12. 2 Bren. 2. 11, 16. Act. 8. 39. 2 Cor. 12. 2, 4. Dat. 11. 12. a 12. 5. g Mat. 26. 64. Marc 14. 62. Act. 1. 9. Dat. 1. 7. h Salm 16. 11. a 17. 15. a 49. 15. a 73. 24. Es. 35. 10. a 60. 19, 20. Ioan 12. 26. a 14. 3. a 17. 24. 2 Cor. 5. 8. Phil. 1. 23. 2 Pedr 3. 13. Dat. 7. 14—17. a 21. 3—7, 22, 23. a 22. 3—5.

* Yna ninnau, sef y rhai o honom ni, y rhai ydym oll yn un corph dirgeledig o ddechreu byd i'w ddiwedd, a fyddo byw yr amser hwnw, ac a adewir ar y ddaear hyd ddyfodiad yr Arglwydd: gwel ar adn. 15. † Yn y fàn ar ol adgyfodiad gogoneddus y saint meirw, cyfnewidir y rhai byw mewn moment, ar darawiad llygad; (1 Cor. 15. 51,) a chipir hwy i fynu gyda'r rhai a adgyfodwyd, yn y cymylau o ogoniant, y rhai yr ymddengys Iesu a'i angelion ynddynt; ‡ lle y cânt gyfarfod dedwydd â'u Harglwydd anwyl a bendigedig, heb raid ymadael byth mwyach; || ond o hyny allan cânt fod yn wastadol, byth bythoedd, gyrph ac eneidiau, gyda'r Arglwydd. *A gipir i fynu:* trwy nerth Duw, neu trwy offerynoldeb angelion; neu, fel y tybia rhai, trwy nerthol fywiogrwydd cyrph y saint wedi eu gogoneddu; y rhai fel y tybir, a fyddant wedi eu puro i'r fath raddau o ysbrydolrwydd, fel y byddant yn gallu cerdded, neidio, a llàmu, yn yr awyr deneu: ond mae yn anodd barnu yn benderfynol am bethau o'r fath hyn, hyd oni chaffom weled a phrofi pa fodd y bydd. *Cymylau* ac *awyr* a arwyddant yr un peth; a pha fodd bynag y deallom am danynt, nid oes ynddynt yn sicr yr un cyfeiriad at *hanfod* a *sylwedd* y deyrnas, yr hon a gaiff y saint ei hetifeddu y pryd hwnw: ni bydd iddynt hwy ddim a wnelont â *chymylau* nac *awyr* ar ol y dydd mawr hwnw, "yn yr hwn y nefoedd gan losgi a ymollyngant, a'r defnyddiau gan wir wres a doddant." 2 Pedr 3. 10, 12. Yn yr awyr, mae yn debyg, y gesyd Crist ei orsedd i farnu y cyfiawn a'r drygionus; ac yna efe ddywed, "Deuwch," wrth y naill, ac "Ewch," wrth lleill. Matth. 25. 34, 41.

18 [i] * Am hynny diddenwch eich gilydd † â'r ymadroddion hyn.

i pen. 5. 11, 14. Es. 40. 1, 2. Luc 21. 28. Heb. 12. 12.

* Mewn ffordd o gymhwysiad, mae yr apostol y cyngori y Thessaloniaid, nid yn unig i fod yn ddyd anus eu hunain, ond hefyd i ddyddanu eu gilydd frawdol ac mewn cyd-ymdeimlad; † â'r ymadroddi hyn, o adn. 13, hyd yma: yr oedd yn yr ymadroddi hyn ddefnydd dyddanwch iddynt, (ac i ninnau hefyd yn wyneb colli eu brodyr anwyl yn yr Arglwydd, wyneb eu marwolaeth eu hunain, ac yn wyneb eu h brofedigaethau a'u gofidiau yn y byd hwn. Wr ddechreu (adn. 13,) mae yn gwahardd tristwch; wr orphen mae yn annog i ddyddanwch: a dylem sylw mai nid gwahardd tristâu *o gwbl* yr oedd; mae addas galaru ar ol ein cyfeillion; ond gwahardd trist yn *ormodol*, fel rhai *heb obaith*, yr oedd efe.

PEN. V.

Dull dyfodiad Crist i'r farn.

* EITHR [a] am yr amserau a'r prydiau, fro yr, [b] † nid rhaid i chwi ysgrifenu o ho of attoch.

a Mat. 24. 3, 36. Marc 13. 30—32. Act. 1. 7. b pen. 4 2 Cor. 9. 1. Judas 3.

Gorphenwyd y bennod o'r blaen gyda chrybwylli nodedig am ddyfodiad Crist i'r farn; a dylem dde dechreu hon, yn sicr, fel yn llefaru am yr un pe

* Am yr amser pennodawl o ddyfodiad Crist, neu prydiau a osodwyd gan Dduw, i gyflawni ei ragfyn iadau; † nid oedd yr apostol yn tybied yn angenrhe iol iddo ef ysgrifenu at y Thessaloniaid: nid mate ddatguddiad oedd hwn, ac nid oedd yn perthyn i ef na hwythau ymholi iddo, oddi ar gywreinfryd ofe rhyfygus.

2 * Oblegid chwi a [c] wyddoch eich hun yn hyspys, [d] † mai felly y daw dydd yr A glwydd fel lleidr yn y nos.

c Jer. 23. 20. d Mat. 24. 42—44. a 25. 13. Marc 13. 34 Luc 12. 39, 40. 2 Pedr 3. 10. Dat. 3. 3. a 16. 15.

* Heblaw hyny, hwy a wyddent yn gyffredin, oddi yr hyn a glywsent ganddo ef o'r blaen, † mai fel lle yn y nos y deuai dydd yr Arglwydd, am hyny nid o yn bosibl gwybod pa bryd. Mae y lleidr yn tòri i'r tra mae y teulu yn cysgu, ac yn anmharod i'w wr wynebu; ac fel hyn mae yn peri dychryn mawr, ac yspeilio neu yn lladd fel y mỳno: felly mae dydd Arglwydd yn dyfod ar yr annwybodus, yr anystyrio diofal, a'r anghrediniol, pryd nad ydynt yn meddwl dano; pair y braw mwyaf arswydus, a thafl hwyn dinystr mwyaf dychrynllyd ac ofnadwy yn ddisymmw

3 * Canys pan ddywedant, [e] Tangnefedd diogelwch, [f] † yna y mae dinystr disymmw yn dyfod ar eu gwarthaf, [g] ‡ megis gwew esgor ar un a fo beichiog; [h] || ac ni ddiang hwy ddim.

e Deut. 29. 19. Barn. 18. 27, 28. Salm 10. 11—13. Es. 2 a 56. 12. Dan. 5. 3—6. Nah. 1. 10. Mat. 24. 37—39. Luc 17. 30. a 21. 34, 35. f Ex. 15. 9, 10. Jos. 8. 20—22. Barn. 20 42. 2 Cron. 32. 19—21. Salm 73. 18—20. Diar. 29. 1. Es. 30 Act. 12. 22, 23. a 12. 41. 2 Thes. 1. 9. 2 Pedr 2. 4. Dat. 18. g Salm 48. 6. Es. 12. 8. a 21. 3. Jer. 4. 31. a 6. 24. a 22. 23. 13. 13. Mica 4. 9, 10. h Mat. 23. 33. Heb. 2. 3. a 12. 25.

* Pan fyddo pechaduriaid diofal ac annuwiol addaw tangnefedd a diogelwch iddynt eu hunain, oes na thangnefedd na diogelwch; † ond dinystr oft wy, disymmwth, a diymwared, yn dyfod ar eu gwar hwynt oll; † yn sydyn, yn ddiochel, yn dra phoe ac yn drymach drymach, fel gwewyr esgor ar u fyddo beichiog: || ac megys nas gall hòno ddianc r ei gwewyr pan ddelo, felly nis gallant hwythau ddi

y dinystr disymmwth sydd yn dyfod ar eu gwarth-
Fel mae achos gwewyr y feichiog yn ei chroth hi
nan; felly mae achos dinystr yr annuwiol ynddo
hun: chwant wedi ymddwyn a esgor ar bechod,
od hefyd pan orphener a esgor ar farwolaeth ofn-
a diddiwedd byth! Y peth fydd dydd y farn i
olryw yn gyffredin; cyffelyb i hyny fydd dydd
olaeth i bob dyn annuwiol yn bersonol: felly mae
riau deffrôus uchod yn berthynol iawn at y ddau
chiad.

4 * Ond chwychwi, frodyr, [i] nid ydych mewn
llwch, † fel y [k] goddiweddo y dydd hwnnw
megis lleidr.

i Rhuf. 13. 11, 12. Col. 1. 13. 1 Pedr 2. 9, 10. 1 Ioan 2. 8.
k Luc. 19. 6. a 28. 15, 45. Jer. 42. 16. Hos. 10. 9. Zec. 1. 6.

ybiai yr apostol yn angenrheidiol eu rhybuddio
er mwyn y rhai esgeulus, i barotôi erbyn dyfodiad
rglwydd; ond yr oedd efe yn dawel ei feddwl am y
ionogion yn Thessalonica yn gyffredin: nid yn
yr oeddynt hwy yn mwynâu goleuni allanol yr
yl, ac yn proffesu ei gredu a rhodio ynddo: ond
dd efe yn barnu yn sicr am danynt, eu bod hefyd
a gwirionedd wedi eu gwaredu o feddiant y ty-
wch, ac annwybodaeth a drygioni eu hystâd ba-
idd. † Gan hyny, nid oedd perygl iddynt hwy
teu goddiwes gan ddydd yr Arglwydd yn anmhar-
Fel y daw lleidr ar warthaf y neb a fyddo yn cysgu,
dychrynu, ei ypeilio, a'i ladd.

5 * Chwychwi oll, [l] plant y goleuni ydych,
phlant y dydd: ‡ nid ydym ni o'r nos,
o'r tywyllwch.

l Luc 16. 8. Ioan 12. 36. Act. 26. 18. Eph. 5. 8.

r oeddynt hwy oll, yn ol eu proffes eu hunain, ac
ei farn yntau mewn cariad am danynt, yn blant y
nni: wedi eu galw gan Dduw allan o dywyllwch i'w
dol oleuni ef, a chwedi eu goleuo â doethineb a
ysbrydol, yn yr wybodaeth am Grist, ac yn nhrefn
wdwriaeth gan Dduw drwyddo ef. † Yr oeddynt
d yn blant y dydd, sef dydd goleu goruchwyliaeth
hrawiaeth sanctaidd yr efengyl; ac fel y cyfryw yn
h ac yn agored i lygaid a sylw pawb o'u cwmpas.
d oedd neb o ddysgyblion gwirioneddol Crist y
d hwnw, (lawer llai yr awr hon,) o'r nos nac o'r
llwch: nid oeddynt yn parâu mewn annwybodaeth
nân hudoliaeth, nid oeddynt yn byw mewn drygioni,
yn chwennych tywyllwch i guddio arferion dir-
idd: ond wedi eu gwaredu o dywyllwch dudew
niaeth, neu dywyllwch cymhariaethol Iuddewaeth,
eddynt yn mwynâu goleuni eglur yr efengyl, ac yn
lio yn sanctaidd ynddo megys wrth liw dydd.

6 * Am hynny [m] na chysgwn, fel rhai er-
; † eithr [n] gwyliwn, ‡ a byddwn [o] sobr.

m Diar. 19. 15. Es. 56. 10. Jona 1. 6. Mat. 13. 25. a 25. 5.
14. 37. Luc 22. 46. Rhuf. 13. 11—14. 1 Cor. 15. 34. Eph. 5.
n Mat. 24. 42. a 25. 13. a 26. 38, 40, 41. Marc 13. 34, 35, 37.
38. Luc 12. 37, 39. a 21. 36. a 22. 46. Act. 20. 31. 1 Cor. 16.
ph. 6. 18. Col. 4. 2. 2 Tim. 4. 5. 1 Pedr 4. 7 Dat. 3. 2. a 16.
o adn. 8. Phil. 4. 5. 1 Tim. 2. 9, 15. a 3. 2, 11. Tit. 2. 6, 12.
dr 1. 13. a 5. 8.

Am hyny yr oedd yn gweddu iddynt hwy barâu i
ldwyn yn addas i'w breintiau; a pheidio bod yn
aidd, yn ddioglyd, yn ddiofal, ac yn gysglyd ac an-
adwrus fel rhai eraill, neu fel yr oedd dynolryw yn
redin: † ond yr oedd yn gweddu iddynt hwy fod yn
, yn ofalus, ac ar eu gwyliadwriaeth yn wastad rhag
sodiadau ac ystrywiau eu gelynion, ac yn fanol
a eu dyledswyddau ar bob cyfleusdra: ‡ ac i'r dyben
, dylent fod yn sobr, yn ddifrifol, yn ystyriol, yn
medrol yn mhob peth o natur dymmorawl, ac yn
arbedol mewn pob anwes a choleddiadau corphorol.

7 * Canys y [p] rhai a gysgant, y nos y
gant; [q] † a'r rhai a feddwant, y nos y
ddwant.

p Job 4. 13. a 33. 15. q 1 Sam. 25. 36, 37. Diar. 23. 29—
Es. 21: 4, 5. Dan. 5 4, 5. Act. 2. 15. 2 Pedr 2. 13.

* Yn gyffredin mae dynion yn dewis cysgu yn nistawrwydd a thywyllwch y nos, ac felly yr ordeiniodd Duw i ddynion gysgu yn naturiol: † a'r rhai a feddwant, y nos y meddwant rhag cywilydd, pan mae dynion sobr yn cysgu, fel na weler eu hannhrefn a'u haflywodraeth hwy. Yn y nos y cadwai paganiaid yr amserau hyny eu gwleddoedd ynfyd, lle byddai llawer o feddwdod ac anghymmedrolder: ond yn ein gwlad a'n dyddiau ni, mae dynion yn fwy digywilydd; nid yw nemawr o beth gan lawer a *elwir* yn gristionogion feddwi wrth liw dydd, a hyny yn y lleoedd mwyaf cyhoeddus. Ai ni chyfyl paganiaid yn y farn i gondemnio y genedlaeth hon?

8 * Eithr nyni, [r] gan ein bod o'r dydd,
† byddwn sobr, ‡ wedi ymwisgo [s] â dwy-fron-
neg ffydd ‖ a chariad, § ac â [t] gobaith iach-
awdwriaeth yn lle helm.

r adn. 5. Rhuf. 13. 13. Eph. 5. 8, 9. 1 Pedr 2. 9. 1 Ioan 1. 7.
s Es. 59. 17. Rhuf. 13. 12. 2 Cor. 6. 7. Eph. 6. 11, 13—18. t Job 19. 23—27. Salm 42. 5, 11. a 43. 5. Galar. 3. 26. Rhuf. 5. 2—5. a 8. 24, 25. 1 Cor. 13. 13. Gal. 5. 5. 2 Thes. 2. 16. Heb. 6. 19. a 10. 35, 36. 1 Pedr 1. 3—5, 13. 1 Ioan 3. 1—3.

* Eithr nyni, gristionogion, gan ein bod wedi ein hamgylchu â goleuni yr efengyl, ei gwirionedd a'i gras, yr hwn sydd yn llewyrchu yn ein calonau, † byddwn sobr a gwyliadwrus, (defnyddir y gair *néphômen* am bob un o'r ddau,) yn dra chymmedrol yn ein serchiadau at, ac yn ein hawdd am, bethau y byd hwn, fel rhai yn dysgwyl am ddyfodiad ein Harglwydd. ‡ A chan ein bod mewn ystâd o filwriaeth a rhyfel poeth a chaled, yn erbyn gelynion aml, cryfion, diwyd, a chyfrwys; dylem fod yn arfog fel milwyr, yn gystal ag yn sobr a gwyliadwrus fel gwylwyr: i'r dyben hyn, dylem fod wedi ymwisgo â ffydd yn Nghrist, crediniaeth gadarn yn ngair Duw, ac ymorphwysiad diysgog ar ei addewidion ef; ‖ yn nghyd â chariad crŷf a gwresog at Dduw, at Grist, at sancteiddrwydd, at y naill y llall, ac at bob dyn; yr hyn bethau ydynt fel dwyfroneg, i amddiffyn y galon a'r meddwl rhag archollion marwol. § Mae arnom hefyd eisiau gobaith da trwy ras, am ddedwyddwch tragywyddol ac iachawdwriaeth gyflawn; yr hyn fydd megys helm i guddio ein penau yn nydd y frwydr, ac i'n hamddiffyn rhag ofni yr erlidwyr creulonaf. Gwel ar Ephes. 6. 11—17.

9 * Canys nid [u] appwyntiodd Duw nyni i
ddigofaint, [x] † ond i gaffael iachawdwriaeth
‡ trwy ein Harglwydd Iesu Grist,

u pen. 3. 3. Ex. 9. 16. Diar. 16. 4. Ezec. 38. 10—17. Mat. 26. 24. Act. 1. 20, 25. a 13. 48. Rhuf. 9. 11—23. 2 Tim. 2. 19, 20. 1 Pedr 2. 8. 2 Pedr. 2. 3. Judas 4. x Rhuf. 11. 7, 30. 2 Thes. 2. 13, 14. 1 Tim. 1. 13, 16. 2 Tim. 2. 10. 1 Pedr 2. 10. 2 Pedr 1. 1.

10 Yr hwn [y] a fu farw drosom; ‖ fel pa un
bynnag a wnelom ai gwylied, ai cysgu, § y
byddom fyw gyd âg ef.

y Mat. 20. 28. Ioan 10. 11, 15, 17. a 15. 13. Rhuf. 5. 6—8. a 8. 34. a 14. 8, 9. 1 Cor. 15. 3. 2 Cor. 5. 15, 21. Eph. 5. 2. 1 Tim. 2. 6. Tit. 2. 14. 1 Pedr 2. 24. a 3. 18. z Gwel ar pen. 4. 13, 17.

* Yr oedd gan y Thessaloniaid sail dda i goledd y gobaith uchod; o herwydd yr oedd eu tröedigaeth a'u dychweliad yn brawf, nad oedd Duw wedi eu bwriadu hwy i ddyoddef ei sòriant a'i ddigofaint ef, er bod eu pechodau weidi haeddu hyny: † ond yr oedd ef yn ei rad drugaredd wedi eu harfaethu hwynt i gaffael iachawdwriaeth; i'w gwaredu hwynt, fel llestri trugaredd, a'u dwyn i fwynâu dedwyddwch a gogoniant tragywyddol. ‡ Yr oedd hyn oll trwy eu Harglwydd Iesu Grist; yr hwn o'i wirfodd a fu farw i wneyd iawn dros eu pechodau, ac i waredu eu heneidiau; ‖ fel pa un bynag a wnelent ai gwylied ai cysgu, pa un bynag ai byw ai marw a wnelent, neu yn mha amgylchiadau bynag y caid hwy yn angau, neu yn nyfodiad eu Harglwydd; § y caffent oll fyw gydag ef mewn gogoniant ar ol y fuchedd hon. *Ai gwylied ai cysgu:* soniodd yr apostol am "wylied a chysgu" mewn ystyr arall, yn adn. 6; ond yma *byw neu farw* yn ddiammau a feddylir, wrth *wylied neu gysgu.* Pa un bynag ai byw ai marw fyddo'r saint,

mae bywyd a dedwyddwch eu heneidiau anfarwol yn ddïogel yn eu hundeb â Christ; yr hwn undeb nis gall angau byth ei ddattod. Mae rhai yn darllen y geiriau uchod yn fwy llythyrenol, fel hyn:—"Pa un bynag a ddaw Crist yn y nos, pan fyddom yn cysgu ar ein gwelyau, neu ynte yn y dydd, pan fyddom yn effro, ac yn brysur gyda'n galwedigaethau cyffredin." Ond gan fod *cysyu*, neu *huno*, wedi ei roddi ychydig o'r blaen am *farw;* (pen. 4. 13—15.) mae yn fwy naturiol i ni ddeall y geiriau hyn am ystâd credinwyr, pa un bynag ai yn *fyw neu yn farw.* Ac yn yr ystyr hyny, rhaid eu bod yn cynnwys prawf union-gyrchol o *fywyd yr enaid,* tra mae y corph yn cysgu, neu yn huno yn y bedd. Na atto Duw i neb ddeall y geiriau hyn, fel pe byddent yn arwyddo fod angau Crist wedi ei fwriadu i ddïogelu ein hiachawdwriaeth ni, pa un a wnelom ofalu yn wyliadwrus am dani neu beidio; ac eto, mae y cyffredinolrwydd o gristionogion ysywaeth yn byw, fel pe hyny y fyddai gwir feddwl y geiriau!

11 [a] * O herwydd paham † cynghorwch eich gilydd, ‡ ac [b] adeiledwch bob un eich gilydd, [c] || megis ag yr ydych yn gwneuthur.

a Gwel ar pen. 4. 18. b Rhuf. 14. 19. a 15. 2. 1 Cor. 10. 23. a 14. 5, 12, 26. 2 Cor. 12. 19. Eph. 4. 12, 16, 29. 1 Tim. 1. 4. Judas 20. c pen 4. 10. Rhuf. 15. 14, 15. 2 Pedr 1. 12.

* O herwydd paham, yn y meddwl a'r gobaith cadarn am y dydd gwynfydedig a enwyd, † dylai y Thessalonaiid ddyddanu eu hunain, a dyddanu y naill y llall, trwy gyngori a chalonogi eu gilydd; a dylai pob un geisio bywiocâu a sirioli ei frodyr, ac yn enwedig ei gyfaill a'i gydymaith mwyaf agos a mynwesol; ‡ ac fel hyn byddent yn addysgu ac yn adeiladu bob un eu gilydd mewn ffydd a sancteiddrwydd, || megys yr oeddynt eisoes wedi dechreu gwneyd. Nid dyrysu; ond cyngori; nid tynu i lawr a rhwygo, ond adeiladu; a ddylai cristionogion wneyd, yn eu cymdeithas a'u cymundeb eglwysig â'u gilydd: cynnorthwyed Duw ni oll i wneyd hyn!

12 Ac yr ydym yn attolwg i chwi, frodyr, [d] * adnabod y rhai sydd yn [e] llafurio yn eich mysg, [f] † ac yn eich llywodraethu chwi yn yr Arglwydd, [g] ac yn eich rhybuddio;

d 1 Cor. 16. 18. Phil. 2. 29. e pen. 2. 9. Mat. 9. 37, 38. Luc 10. 1, 2, 7. Ioan 4. 38. Act. 20. 35. 1 Cor. 3. 9. a 15. 10. a 16. 16. 2 Cor. 5. 9. a 6. 1. a 11. 23. Gal. 4. 11. Phil. 2. 16. Col. 1. 29. 1 Tim. 5. 17, 18. 2 Tim. 2. 16. Dat. 2. 3. f Act. 20. 28. 1 Cor. 12. 28. Tit. 1. 5. Heb. 13. 7, 17. 1 Pedr 5. 2, 3. Dat. 1. 20. a 2. 1, 8, 12, 18. a 3. 1, 7, 14. g adn. 14. 1 Tim. 5. 1, 20. Tit. 1. 13. a 2. 15.

Mae yn amlwg y byddai yr apostol, un ai ei hun yn bersonol, neu trwy eraill o'i gyd-lafurwyr, yn arfer ordeinio henuriaid yn mhob dinas, neu eglwys: (Act. 14. 21—23; a 20. 17—28; 1 Tim. 5. 21, 22; 2 Tim. 2. 1, 2; Tit. 1. 5—9:) ac er na chrybwyllir am hyn yn yr hanes bŷr o'i lafur ef yn Thessalonica, nac yn nechreu yr epistol hwn; eto nis gall fod dim ammheüaeth iddo ef osod henuriaid ar yr eglwys yn y ddinas hòno hefyd. Eu gwaith hwynt oedd "llafurio" yn mhlith y bobl, mewn pregethu y gair, adeiladu yr eglwys yn mhob modd, ac ymgais am ddychwelyd pechaduriaid; blaenori yn nhrefn a chyflawniad addoliadau cyhoeddus, ac yn uhriniad materion ysbrydol; cyngori, ceryddu, a rhybuddio, rhai a fyddent yn euog o gam-ymddygiad, neu a fyddent yn debyg o gael eu harwain ar gyfeiliorn. Gan hyny, cyngorai yr apostol y bobl gyda phob taerineb, i adnabod y llafurwyr a'r llywodraethwyr ffyddlawn hyn, a'u cydnabod hwynt fel goruchwylwyr Duw, a derbyn eu cyngorion hwynt. * Mae y gair "adnabod" yn ddïau yn arwyddo cydnabyddiaeth o honynt, parch a chariad atynt, ac ufudd-dod iddynt fel goruchwylwyr wedi eu gosod gan Dduw yn ei dŷ a'i eglwys. † Heblaw yr angenrheidrwydd o lywodraethu mewn eglwysi yn gyffredinol, gellir meddwl bod mwy o angen llywodraethu ar eglwysi ieuainc y dyddiau hyny, y rhai oedd newydd gael eu galw o ganol tywyllwch paganiaeth: ac yr oedd y doniau gwyrthiol hefyd yn achos o lawer o annhrefn yn eglwys Corinth, a buasent felly yma hef yr un modd, ond odid, pe na buasai rhyw rai i gy medroli a llywodraethu. Yr oedd y cyfryw swyddogi hefyd yn synagogau yr Iuddewon, Luc 8. 41.

13 * A [h] gwneuthur cyfrif mawr o hony mewn cariad, † er mwyn eu gwaith. [i] ‡ Byd wch dangnefeddus yn eich plith eich hunain

h Mat. 10. 40. 1 Cor. 4. 1, 2. a 9. 7—11. Gal. 4. 14. a 6 i Gen. 45. 24. Salm 133. 1. Marc 9. 50. Luc 17. 3—5. Ioan 13. 35. a 15. 17. Rhuf. 14. 17—19. 2 Cor. 13. 11. Gal. 5. 22. Eph. 4 Col. 3. 15. 2 Thes. 3. 16. 2 Tim. 2. 22. Heb. 12. 14. Iago 3. 18.

* Dylai yr eglwys wneyd cyfrif mawr o'r cyfryw laf wyr a llywodraethwyr diwyd a ffyddlawn, a'u caru h yn wresog a diffuant; † nid yn unig fel brodyr cristi ogol a dynion duwiol, ond hefyd er mwyn eu gwaith, hwn maent yn llafurio ynddo er gogoniant Duw, a l ysbrydol eneidiau dynion. ‡ Yn nesaf mae yr apos yn eu cyngori oll i fod yn dangnefeddus yn eu plith hunain: dyna'r ffordd i fod yn gysurus, ac i gael D y cariad a'r heddwch i fod gyda hwynt.

14 * Ond yr ydym yn deisyf arno [k] frodyr, [l] † rhybuddiwch y [m] rhai afreol [n] ‡ diddenwch y gwan eu meddwl, [o] || cynh iwch y gweiniaid, [p] § byddwch ymarhous w bawb.

k Gwel ar adn. 12. l Jer. 6. 10. Ezec. 3. 17—21. a 33. 9. Act. 20. 27, 31. 1 Cor. 4. 14. Col. 1. 28. m Tit. 1. 6. n pen. 2. 7—12. Es. 35. 3, 4. a 40. 1, 2, 11. Ezec. 34. 16. Mat 20. Luc 22. 32. Ioan 21. 15—17. Rhuf. 14. 1. a 15. 1—3. Gal. 2. Heb. 12. 12. o Act. 20. 35. p Es. 63. 9. 1 Cor. 13. Gal. 5. 22. Eph. 4. 2, 32. a 5. 1, 2. Col. 3. 12, 13. 1 Tim. 3. 3. 11. 2 Tim. 2. 24, 25. a 4. 2. Heb. 5. 2, 3. a 13. 3.

* O'r tu arall, mae yr apostol yn annog y rhai oedd "llafurio" ac yn "llywodraethu," yn nghyd ag e gyda hwynt, † i rybuddio, ceryddu, ac argyhoeddi y afrëolus, y rhai fyddai fel milwyr yn myned o'u lle rhenciau; oblegid hyny yw meddwl y gair *(atakto* gyfieithir yma afrëolus; ac os felly, mae esgeul moddion a dyledswyddau gosodedig crefydd yn *afrëolus,* yn gystal â gwneuthur drygau anfoesol: o renciau y fyddin ydyw. ‡ Dylent ddyddanu y gwàn eu meddwl, y rhai llwfr gan brofedigaethau, a cael eu trallodi gan betrusder, ofnau, a cham-amg rediadau, fel milwyr gweiniaid a digalon yn wyneb gelynion. || Dylent gynnal trwy addysgiadau prïo a thrwy bob moddion calonogus, y rhai oedd bar dramgwyddo, neu yn weiniaid eu galluoedd a'u gra yn wyneb pob ymosodiad a ddeuai arnynt. § A dy fod yn ymarhôus ac amyneddgar wrth a thuag at bo y rhai afrëolus, gwàn eu meddwl, a'r gweiniaid: dy ffordd fwyaf tebygol o wneyd lles iddynt, ac ateb dy da. Dynion o *eneidiau bychain,* ebai *Pool,* yw yst gair *(oliyapsychous)* a gyfieithir yma "gwàn eu me wl:" dynion *athrist, isel o ysbryd,* digalon, ac ofnus, wyneb dyledswyddau peryglus, trallodau allanol, llygredd tumewnol eu hunain: a'r "gweiniaid," eba un gŵr, ydynt weiniaid mewn gwybodaeth, neu m ffydd; y rhai nid ydynt yn deall eu rhyddid eu hun yn yr efengyl. Mae llawer o'r gwendid cyntaf perthyn i gyfansoddiad naturiol rhai dynion, efal a'r ail, fel y dywedwyd, yn tarddu o ddiffyg mewn pet crefyddol: neu, efallai mai y rhai tlodion eu hamgy iadau a feddylir wrth y gweiniaid.

15 [q] * Gwelwch na thalo [r] neb ddrwg d ddrwg i neb: [s] † eithr yn wastadol dilynw yr hyn sydd dda, ‡ tuag at eich gilydd, [t] a ag at bawb.

q Gen. 45. 24. 1 Cor. 16. 10. Eph. 5. 15, 33. 1 Pedr 1. 22. 19. 10. a 22. 9. r Ex. 23. 4, 5. Lef. 19. 18. 1 Sam. 24. 13. 7. 4. Diar. 17. 13. a 20. 22. a 24. 17, 29. a 5. 21. Mat. 5. 39 45. Luc 6. 35. Rhuf. 12. 17—21. 1 Cor. 6. 7. 1 Pedr 2. 22, 23. 9. s pen 3. 12. Deut. 16. 20. Salm 38. 20. Rhuf. 14. 19. 1 14. 1. 1 Tim. 6. 11. Heb. 12. 14. 1 Pedr 3. 11—13. 3 Ioa t Rhuf. 12. 17, 18. Gal. 6. 10. 2 Tim. 2. 24. Tit. 3. 2. 1 1 edr 2

* Dylai pawb o honynt fod yn dra gofalus, na byd neb yn talu drwg am ddrwg i neb: gwylied pob u

ant rhag hyn; beth bynag fyddai yr achlysur a'u
ogai i'r cyfryw ynddygiad. Gwel ar Rhuf. 12. 17.
tu allu, dylent yn wastad ddilyn yr hyn oedd
tirion, cymmwynasgar, llesol, a buddiol, mewn
au tymmorawl ac ysbrydol; ‡ tuag at eu gilydd fel
ys a brodyr, a thuag at bawb yn gyffredinol, ïe, hyd
ôd eu herlidwyr gwaethaf. Gwahanol iawn yw hyn
u drwg am ddrwg; a chrefydd Crist yn unig sydd
sygu fel hyn.

16 u * Byddwch lawen † yn wastadol.

u Gwel ar 2 Cor. 6. 10. Phil. 4. 4.—Mat. 5. 12. Luc 10. 20. 12. 12.

Yma mae yr apostol yn dyfod at ddyledswyddau
ronol, ac yn gyntaf mae yn annog y Thessaloniaid
ionogol i fod yn llawen yn wastadol yn yr Arglwydd,
ystyried hyny yn ddyledswydd arnynt yn gystal ag
raint iddynt. Dylent fod yn llawen yn wastadol, yn
nnol eu profedigaethau a'u trallodau, gan wybod
eu hymwared cyflawn yn nesâu, a bod presenoldeb
Duw a'u Hiachawdwr gyda hwynt yn wastad, yr hyn
d ddigon i'w gwneyd hwy yn llawen ac yn hyfryd yn
nol eu gorthrymderau presenol. † Mae Duw yn
ei bobl i alaru weithiau, ond nid yw yn un màn
lywedyd, *Byddwch alarus yn wastadol:* eithr yma
yn dywedyd, *Byddwch lawen yn wastadol;* mae sail
chos llawenydd y cristion yn parâu yn wastadol, ac
anrhydedd i grefydd dylai yntau gymmysgu llawen-
hyd yn nôd â'i alar. Trist a phenbrudd yn wastad-
w yr agwedd ar rai cristionogion; fel pe meddylient
gellir bod yn grefyddol heb fod yn bendrwm.

17 x * Gweddïwch † yn ddibaid.

x Gwel ar Luc 18. 1. Eph. 6. 18. Col. 4. 2.

Mae perthynas agos rhwng llawenâu yn wastadol â
ddïo yn ddibaid: nid oes gwir lawenydd heb weddïo,
iawn weddïo heb lawenydd: mae y naill yn gyn-
thwyol i'r llall. Y cristion a fedr lawenâu yn yr
lwydd, a all fyned yn hyderus at yr Arglwydd mewn
eddi; ac mae gweddi yn foddion i gynnal a meithrin
wenydd, ac ysbryd siriol sanctaidd. † Dylem weddïo
ddibaid; ar amserau gosodedig, mewn amgylchiad-
achlysurol, ac mewn saeth-weddïau aml a gwastadol,
wylied rhag pob peth a dueddo i'n hanhwylusu ni
ddyledswydd a'r fraint bwysig hon. Pa amser bynag
ddo hi ar y credadyn, a pha amgylchiadau bynag y
ddo efe ynddynt, da neu ddrwg, dylai weddïo yn was-
ol, yn ddibaid.

18 y * Ym mhob dim dïolchwch, z † canys
m *yw* ewyllys Duw yng Nghrist Iesu tu ag
och chwi.

y Gwel ar Eph. 5. 20. Phil. 4. 6. Col. 3. 17.—Job 1. 21. Salm 1. Heb. 13. 15. z pen. 4. 3. 1 Pedr 2. 15. a 4. 2. 1 Ioan 7.

* Annogir y Thessaloniaid hefyd i fod yn ddïolchgar
mhob peth, ac yn mhob amgylchiad; gan fod eu
ll drugareddau yn anhaeddedig, ac y byddai eu holl
llodau yn llesol a thàn fendith: † felly hyn, sef yr
pryd hyn o ddïolchgarwch yn wastadol, oedd ewyllys
w tuag atynt hwy, fel ei blant anwyl yn Nghrist
su: hyn oedd y tâl oedd efe yn ewyllysio gael gan-
ynt, ac yr oedd yn gymmeradwy ganddo yn a thrwy
ist Iesu y Cyfryngwr.

19 * Na a ddiffoddwch yr b Ysbryd.

a Can. 8. 7. Eph. 6. 16. b Gen. 6. 3. 1 Sam. 16. 14. Neh. 30. Salm 51. 11. Es. 63. 10. Act. 7. 51. Eph. 4. 39. 1 Tim. 4. 14. Tim. 1. 6.

* Gan nas gellid cyflawni y dyledswyddau pwysig a
agorol uchod yn iawn heb ddylanwadau dwyfol, dylid
d yn ofalus rhag esgeuluso, mygu, a diffoddi doniau,
asau, a gweithrediadau yr Ysbryd Glân, y rhai a
ffelybir i dân, (Matth. 3. 11.) ac ydynt yn ennyn
m o dân sanctaidd yn nghalonau y saint. Gellir
ffodd yr Ysbryd yn yr ystyriaethau uchod i raddau
awr a galarus, trwy dymherau drwg, gofalon bydol,
ledd pethau anghyfreithlawn, neu bethau cyfreithlawn
ormodedd; trwy gyfeillach ysgafn, diofalwch ac
geulusdra: ïe, mae dynion diras yn diffodd ei ym-
rysoniadau, ei argyhoeddiadau, a'i gymhelliadau ef yn
aml, trwy oedi a gwrthwynebu y gweithrediadau hyny.
Fel y diffoddir tân gan ddwfr, ac yr â yn niffodd o
eisiau tanŵydd, o eisiau awyr, neu trwy gael ei or-
chuddio â lludw; felly y diffoddir yr Ysbryd, neu
weithrediadau a dylanwadau yr Ysbryd, trwy y ffyrdd a
enwyd, yn nghyd âg amryw eraill cyffelyb iddynt. Fel
hyn mae argyhoeddiadau yn cael eu mygu a'u diffoddi
yn aml o'r diwedd, ac nid ymryson yr Ysbryd â dynion
mwy: ac fel hyn mae credinwyr yn aml yn oeri gwres-
awgrwydd sanctaidd eu heneidiau, yn niweidio eu
cysur eu hunain, ac yn rhwystro eu cynnydd mewn
gras. Mae y geiriau hefyd yn annog i ymgeleddu yr
ysbryd yn mhob modd a allom, yn gystal â pheidio ei
ddiffodd.

20 c * Na ddirmygwch brophwydoliaethau.

c pen. 4. 8. Num. 11. 25—29. 1 Sam. 10. 5, 6, 10—13. a 19. 20—24. Act. 19. 6. 1 Cor. 11. 4. a 12. 10, 28. a 13. 2, 9. a 14. 1, 3—6, 22—25, 29—32, 37—39. Eph. 4. 11, 12. Dat. 11. 3—11.

* Gan fod yr Ysbryd a'r gair yn cyd-fyned, yn ol
addewid Duw, (Es. 59. 21,) a chan fod holl weithred-
iadau yr Ysbryd trwy ac yn ol y gair; ni ddylasai y
Thessaloniaid ddirmygu prophwydoliaethau yr Hen
Destament nâ'r Newydd, fel pe na buasai dim ynddynt
er eu haddysg a'u hadeiladaeth hwy: ac ni ddylasent
esgeuluso na thybied yn ysgafn o weinidogaeth osoded-
ig ac awdurdodedig gair Duw i egluro a defnyddio y
prophwydoliaethau hyny, pa un bynag ai trwy ddoniau
cyffredin neu anghyffredin a goruwch-naturiol y byddai
hyny. Sylwasom ar "brophwydoliaethau" lawer gwaith
o'r blaen: weithiau arwydda y gair, rhagfynegi pethau
i ddyfod, llefaru trwy ddatguddiad digyfrwng; weithiau
gelwir yr ysgrythyrau yn brophwydoliaethau, yn enwed-
ig yr Hen Destament; ac weithiau gelwir egluro a
chymhwyso yr ysgrythyrau felly, yr hyn a alwn ni
pregethu yn awr. Yr oedd rhyw ddynion a elwid yn
"brophwydi," ac wedi derbyn dawn i brophwydo, yn rhai
o'r ystyriaethau uchod, yn yr eglwysi y dyddiau hyny;
ac efallai bod rhai yn dueddol i ddirmygu y ddawn
hòno yn yr eglwysi, yn fwy na doniau goruwch-naturiol
eraill, y rhai a gyfrifid yn fwy rhagorol; yr hyn oedd yn
gwneyd cyngor yr apostol yn angenrheidiol.

21 d * Profwch bob peth: e † deliwch yr
hyn sydd dda.

d Es. 8. 20. Mat. 7. 15—20. Marc 7. 14—16. Luc 12. 57. Act. 17. 11. Rhuf. 12. 2. 1 Cor. 2. 14, 15. a 14. 28. Eph. 5. 10. Phil. 1. 10. 1 Ioan 4. 1. Dat. 2. 2. e Deut. 11. 6—9. a 32. 46, 47. Diar. 3. 1, 21—24. a 4. 13. a 6. 21—23. a 23. 23. Can. 3. 4. Ioan 8. 31. a 15. 4. Act. 11. 23. a 14. 22. Rhuf. 12. 9. 1 Cor. 15. 58. Phil. 3. 16. 2 Thes. 2. 15. 2 Tim. 1. 15. a 3. 6. a 4. 14. Heb. 10. 23. Dat. 2. 25. a 3. 3, 11.

* Er nad oeddynt i ddirmygu prophwydoliaethau pa
beth bynag a fyddent; eto, gan y byddai llawer o gau-
athrawon yn myned o amgylch, a llawer o gau-athraw-
iaethau yn cael eu taenu ganddynt; dylent fod yn ofal-
us i *brofi* pob peth, yr athrawon â'u hathrawiaethau,
wrth air Duw; † fel y gallent wrthod yr hyn oedd
gyfeiliornus, a dàl a glŷnu wrth yr hyn oedd dda ac
iachus. Trwm fod neb yn cam-ddefnyddio y geiriau
uchod, "profwch bob peth," i gyfreithloni gwrando
gau-athrawon yn achlysurol.

22 f * Ymgedwch rhag pob rhith drygioni.

f pen. 4. 12. Ex. 23. 7. Mat. 17. 26, 27. Rhuf. 12. 17. 1 Cor. 8. 13. a 10. 31—33. 2 Cor. 6. 3. a 8. 20, 21. Phil. 4. 8. Judas 23.

* Dylai cristionogion ymgadw yn ofalus, nid yn unig
rhag yr hyn sydd yn ddrygioni amlwg a diammeüol;
ond hefyd rhag pob peth tebyg i ddrygioni, neu bechod,
yn eu barn hwy eu hunain, neu yn marn rhai eraill; a
pheidio gwneyd dim y byddo yr ammheüaeth lleiaf
ganddynt am ei gyfreithlondeb; neu a fyddo yn ym-
ddangos yn ammheüus i'r rhai o'u cwmpas, ac felly yn
achos o fagu rhagfarn ynddynt yn erbyn crefydd.

23 * A gwir g Dduw y tangnefedd † a'ch
h sanctaiddio yn gwbl oll: ‡ a chadwer i eich
yspryd oll, a'ch enaid a'ch corph, k yn ddïargy-
hoedd yn nyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist.

g Rhuf. 15, 5, 13. 33. a 16. 20. 1 Cor. 14. 33. 2 Cor. 5. 19. Phil. 4. 9. 2 Thes. 3. 16. Heb. 13. 20. 1 Pedr 5. 10. h pen. 3. 13. a 4. 3. Lef. 20. 8, 26. Ezec. 37. 28. Ioan 17. 19. Act. 20. 32. a 26. 18. 1 Cor. 1. 2. Heb 2. 11. 1 Pedr 1. 2. Judas 1. i Heb. 4. 12. k pen. 3. 13. 1 Cor. 1. 8. Eph. 5. 26, 27. Phil. 1. 6, 10. a 2. 15, 16. Col. 1. 22. Judas 24.

* Gwyddai yr apostol mai gras effeithiol Duw yn unig, a allai roddi ewyllys a gallu yn y Thessaloniaid i wneuthur y cyngorion uchod; am hyny mae yn gweddïo yn ddifrifol drostynt, ar wir Dduw y tangnefedd, yr hwn sydd yn Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun, yr hwn sydd mewn cymmod gwirioneddol â'r credinwyr, ac yr hwn sydd yn Awdwr eu holl dangnefedd allanol a thumewnol; † ar iddo ef eu sancteiddio hwy yn hollawl, a thrwy eu holl natur; fel yr oedd yn gynnwysedig o enaid rhesymol ac anfarwol, o fywyd naturiol ac anifeilaidd, yn nghyd a'i nwydau teimladol, ac hefyd o gorph sylweddol. ‡ Gweddïai am i bob nwyd, teimlad, aelod, rhan, a chynneddf ynddynt, gael eu sancteiddio, eu puro, eu cadw yn ddïargyhoedd, a'u cyflwyno yn berffaith i wasanaeth Duw, hyd ddydd dyfodiad eu Harglwydd Iesu Grist. *Ysbryd, enaid, a chorph:* mae yn amlwg fod yr apostol yn cyfeirio yma at syniad oedd gan y Rabbiniaid Iuddewig yn gystal a'r philosophyddion paganaidd, fod *person* dyn wedi ei gyfansoddi o *dri sylwedd gwahanol;* yr *ysbryd rhesymol,* yr *enaid anianol,* a'r *corph gweledig.* Mae Gen. 2. 7; yr adnod hon; a Heb. 4. 12; debygid, yn cadarnâu ei gywirdeb.

24 [l] * Ffyddlawn *yw* yr hwn a'ch [m] galwodd, [n] † yr hwn hefyd a'*i* gwna.

l Deut. 7. 9. Salm 36. 5. a 40. 10. a 86. 15. a 89. 2. a 92. 2. a 100. 5. a 138. 2. a 146. 6. Es. 25. 1. Galar. 3. 23. Mica 7. 20. Ioan 1. 17. a 3. 33. 1 Cor. 1. 9. a 10. 13. 2 Thes. 3. 3. 2 Tim. 2. 13. Tit. 1. 2. Heb. 6. 17, 18. m pen. 2. 12. Rhuf. 8. 30. a 9. 24. Gal. 1. 15. 2 Thes. 2. 14. 2 Tim. 1. 9. 1 Pedr 5. 10. 2 Pedr 1. 3. Dat. 17. 14. n Num. 23. 19. 2 Bren. 19. 31. Es. 9. 7. a 14. 24—26. a 37. 32. Mat. 24. 35.

* Barnai yr apostol mewn cariad, bod y Thessaloniaid yn wir alwedigion Duw trwy ras; bod y Duw hwnw yn ffyddlawn i'w gyfammod a'i addewidion i'w bobl; † ac am hyny y gwnelai efe yr hyn oedd ef yn geisio ar eu rhan hwynt, sef eu sancteiddio a'u cadw hyd y diwedd: fel hyn yr oedd yn gweddïo drostynt mewn ffydd gref.

25 * *O* frodyr, [o] gweddïwch drosom.

o Rhuf. 15. 30. 2 Cor. 1. 11. Eph. 6. 18—20. Phil. 1. 19. Col. 4. 3. 2 Thes. 3. 1—3. Philemon 22. Heb. 13. 18, 19

* Gwedi iddo ef weddïo drostynt hwy, mae yn ta erfyn iddynt hwythau weddïo drosto yntau a'i frody Mae angen i weinidogion a'u pobl weddïo dros gilydd, a'u dyledswydd yw gwneyd hyny. Ni ddylai enwocaf o weinidogion fod uwchlaw ceisio rhan ngweddïau yr eglwys, mwy na gweddïo dros yr eglwy heb hyn ni bydd gweinidogion yn fendith, ac ni cha yr eglwys fendith.

26 [p] * Anherchwch yr holl frodyr † â chu an ‡ sancteiddiol.

p Gwel ar Rhuf. 16. 16. 1 Cor. 16. 20.

* Mae yn dymuno ei anerch grefyddol a mwy serchog at yr holl frodyr, † ac iddynt anerch eu gily hefyd yn eu holl gyfarfodydd â chusan sanctaidd, yn arferiad y gwledydd a'r dyddiau hyny: ‡ ond gofal pawb, brodyr a chwïorydd, am y gwylder mwyaf, diweirdeb sancteiddiaf, wrth gyfarch eu gilydd fel Gwel ar Rhuf. 16. 16.

27 [q] * Yr ydwyf yn eich tynghedu yn Arglwydd, [r] † ar ddarllen y llythyr hwn holl [s] frodyr sanctaidd.

q pen. 2. 11. Num. 27. 23. 1 Tim. 1. 3, 13. a 5. 7, 21. a 6. 17. 2 Tim. 4. 1. r Col. 4. 16. 2 Thes. 3. 14. s Heb. 3. 1.

* Gan fod y llythyr hwn wedi ei roddi trwy ysbryd iaeth Duw fel yr holl ysgrythyrau eraill, a chan ei f yn cynnwys pethau o fawr bwys i'r holl eglwys; mae apostol gyda'r difrifwch mwyaf, yn tynghedu y blaenc iaid at ba rai y danfonwyd ef, a hyny yn enw yr A glwydd, † ar iddynt ei ddarllen ef yn gyhoeddus, efallai yn aml hefyd, i'r holl frodyr sanctaidd. Eid yr eglwys oll ydoedd, am hyny dylai yr eglwys ei ga a buasai yn drosedd dirfawr ei attal wedi y fath dyn hedu difrifol.

28 [t] * Gras ein Harglwydd Iesu Gri *fyddo* gyd â chwi. † Amen.

t Gwel ar Rhuf. 1. 7. a 16. 20, 24.—2 Thes. 3. 18.

* Yn y weddi ymadawol hon, mae yr apostol dymuno pob daioni iddynt wrth ddymuno gras. Gw ar ddiwedd yr epistolau eraill, o'r blaen. † Amen; y gweddïwyd felly y byddo, ac y bydd.

¶ *Y* cyntaf at y Thessaloniaid a ysgrifen wyd o Athen.

AIL EPISTOL PAUL YR APOSTOL

AT Y

THESSALONIAID.

PEN. I.

- dda y meddyliai yr apostol am yr eglwys yn Thessalonica.

PAUL, [a] a Silfanus, a Thimothëus, at eglwys y Thessaloniaid, yn Nuw ein Tad, Arglwydd Iesu Grist.

a Gwel ar 2 Cor. 1. 19. 1 Thes. 1. 1.

2 Gras [b] i chwi, a thangnefedd, oddi wrth Duw ein Tad ni, a'r Arglwydd Iesu Grist.

b Gwel ar Rhuf. 1. 7. 1 Cor. 1. 8.

3 Dïolch yr ydym ni yn ddïarhebaidd i'r Arglwydd Dduw, [c] am y mae y ffydd chwi yn mawr gynnyddu, a'r cariad pob un o honoch oll tu ag at eich gilydd yn ychwanegu:

c pen. 2. 13.—Gwel ar Rhuf. 1. 8. 1 Cor. 1. 4. d Luc 15. 1 Phil. 1. 7. 2 Pedr 1. 13. e Job 17. 9. Salm 84. 7. a 92. 13. Dan. 4. 18. Es. 40. 29—31. Luc 17. 5. Ioan 15. 2. Phil. 1. 9. Colos. 4. 1, 9, 10. 1 Pedr 1. 22. 2 Pedr 1. 5—10. a 3. 18.

Mae yn debyg fod yr apostol wedi clywed hanes ymdïaol iawn, am gynnydd rhagorol y Thessaloniaid yn "ffydd" a "chariad," wedi iddo ysgrifenu ei lythyr cyntaf atynt; am yr hyn yr oedd yn teimlo llawenydd mawr arno ei hun a'i frodyr i ddiolch yn wastadol i Dduw drostynt. Yr oedd hyn yn "addas," ac yn "ddyledus;" am fod eu cynnydd yn atebiad i'w weddïau a thrwy offerynoldeb ei lythyr ef, dàn fendith Duw arnynt hwy.

4 * Hyd onid ydym ni ein hunain yn ymfoleddu ynoch chwi yn eglwysi Duw, † o ganlyniad i'r ffydd eich [g] amynedd chwi a'ch ffydd yn yr holl [h] erlidiau a'r gorthrymderau yr ydych chwi yn eu goddef:

f 2 Cor. 7. 14. a 9. 2, 4. 1 Thes. 2. 19, 20. g pen. 3. 5. Luc 21. 19. 2. 7. a 5. 3—5. a 8. 25. a 12. 12. 1 Thes. 1. 3. a 3. 2—8. Heb. 10. 36. a 12. 1—3. Iago 1. 3, 4. a 5. 7, 8. 2 Pedr 1. 6. Dat. 2. h 1 Thes. 2. 14. a 3. 3, 4.

* Yr oedd ef a'i frodyr yn gorfoleddu yn y Thessalonica yn eglwysi Duw yn mhob màn, gan ddangos pa mòr flodeuog cristionogion oeddynt hwy, a pha zêl a roddasai Duw ar ei weinidogaeth ef yn eu tröedigaeth a'u dychweliad hwynt. † Yr oeddynt hefyd yn gorfoleddu am eu bod yn cael eu nerthu i ddyoddef erledigaethau amryw, a thrallodau trymion, gyda'r fath amynedd rhagorol, a ffydd gadarn a dïysgog. Nid oes genym hanes pennodawl am yr erledigaethau hyn; ond mae yn ymddangos eu bod yn drymion, a'r Thessaloniaid yn cael eu darostwng i lawer o galedi ac enbydrwydd o'u herwydd.

5 * *Yr hyn sydd* [i] argoel goleu o [k] gyfiawn farn Duw, [l] † fel y'ch cyfrifer yn deilwng i deyrnas Dduw, [m] ‡ er mwyn yr hon yr ydych chwithau hefyd yn goddef.

i adn. 6. Phil. 1. 28. 1 Pedr 4. 14—18. k Job 8. 3. Salm 9. 7, 8. a 33. 5. a 50. 6. a 72. 2. a 99. 4. a 111. 7. Jer. 9. 24. Dan. 4. 37. Rhuf. 2. 5. Dat. 15. 4. a 16. 7. a 19. 2. l adn. 11. Luc 20. 35. a 21. 36. Act. 13. 46. Eph. 4. 1. Col. 1. 12. Dat. 3. 4. m adn. 7. Act. 14. 22. Rhuf. 8. 17. 1 Thes. 2. 14. 2 Tim. 2. 12.

* Yr oedd amynedd y Thessaloniaid, tra yn dyoddef yn achos Crist ac er mwyn cydwybod, yn "argoel goleu," neu yn amlygiad eglur o gyfiawn farn Duw; yr oedd yn llwyr brofi y deuai efe i farnu y byd mewn cyfiawnder, ac i unioni holl annhrefn ymddangosiadol y golygiant presenol; gan ei fod ef yn goddef i'w addolwyr difai a gwresog i fod dàn erlidiau a gorthrymderau ac i'w elynion lwyddo yn eu gwrthwynebiad annuwiol a drygionus, yn erbyn ei achos a'i bobl ef. † Yr oedd yn goddef i'w bobl gael eu herlid a'u gorthrymu, i'r dyben o brofi ac amlygu eu ffydd a'u holl rasau hwynt, i gynnyddu pob tueddiadau a serchiadau sanctaidd ynddynt; fel o'r diwedd y cyfrifid hwy yn deilwng, neu yn ddyn-ion cymhwys, i'r deyrnas hòno o nefol ogoniant, a barotôdd Duw i'r rhai sydd yn ei garu; ‡ er mwyn yr hon, sef er mwyn ei lledaeniad ar y ddaear, yn gystal ag er mwyn ei dedwyddwch yn y nef, yr oeddynt yn dyoddef eu gorthrymderau mòr amyneddgar. *Argoel goleu;* sef argoel goleu mai mewn dïal a dinystr y terfyna llwyddiant erlidwyr, ac argoel goleu bod dydd yn dyfod i'w barnu, a dïal arnynt hwy ;ac i wobrwyo y saint a erlidir ganddynt â dedwyddwch yn nheyrnas Dduw.

6 [n] * Canys cyfiawn *yw* ger bron Duw, dalu cystudd i'r rhai sydd yn eich cystuddio chwi;

n Deut. 32. 41—43. Salm 74. 22, 23. a 79. 10—12. a 94. 20—23. Es. 49. 26. Zec. 2. 8. Dat. 6. 10. a 11. 18. a 15. 4. a 16. 5, 6. a 18. 20, 24. a 19. 2.

* Trwy erlidiau y gelynion, ac amynedd y saint dàn yr erlidiau hyny; ymddengys yn "oleu" yn y dydd a ddaw i bawb, beth bynag yw meddwl rhai yn awr, mai perffaith gyfiawn ger bron Duw, fydd talu cystudd i'r rhai sydd yn cystuddio ei bobl a'i blant ef; ei gyfeillion a'i addolwyr diniwed a sanctaidd ef; o herwydd eu perthynas â Duw a'u tebygolrwydd iddo, yr oeddynt hwy yn eu casâu ac yn eu herlid; a thrwy hyny yr oeddynt yn profi yn amlwg mai gelynion i Dduw oeddynt, ac eu bod yn haeddu ei ddigofaint ef yn gyfiawn.

7 * Ac i chwithau, [o] y rhai a gystuddir, esmwythdra † gyd â ni, [p] ‡ yn ymddangosiad yr Arglwydd Iesu o'r nef, ‖ gyd â'i angelion nerthol,

o Es. 57. 2. Mat. 5. 10—12. Luc 16. 25. Rhuf. 8. 17. 2 Cor. 4. 17. 2 Tim. 2. 12. Heb. 4. 1, 9, 11. 1 Pedr 4. 1. Dat. 7. 14—17. a 14. 13. a 21. 4. p Mat. 13. 39—43. a 16. 27. a 25. 31. a 26. 64. Marc 8. 38. a 14. 62. Ioan 1. 51. Act. 1. 11. 1 Thes. 4. 16, 17. Tit. 2. 13. Heb. 9. 28. Judas 14, 15. Dat. 1. 7. a 20. 11.

* O'r tu arall, gwelir yn amlwg mai cyfiawn fydd ger bron Duw, rodd i esmwythdra a dedwyddwch yn y nef, i'r rhai a gystuddir yn ei achos ef, er ei fwyn ef, oddi wrth ei elynion ef, ac yn ol ei ewyllys ef: bydd hyn yn anrhydedd i'w gyfiawnder ef, yn gystal âg i'w drugaredd; ac yn wir, gan iddo roddi addewidion o hyn, bydd ei gyfiawnder yn gofyn am y cyfiawniad o honynt. † Gan fod yn gyfiawn ger bron Duw roddi esmwythdra i'r Thessaloniaid duwiol a gystuddid, byddai yn sicr o wneyd hyny, gyda'r apostol a'i frodyr, ei weision ef, a chyd-ddyoddefwyr â hwythau er ei fwyn ef; ‡ yn ymddangosiad yr Arglwydd Iesu o'r nef, gyda'i angelion nerthol, i farnu y byd. ‖ "Angelion nerthol," neu angelion ei nerth: ei grëaduriaid, ei addolwyr, a'i weision; y rhai y pryd hwnw a weithredant fel gweinidogion ei awdurdod ef, mewn dangos trugaredd, a chyflawni dïal.—*Scott.*

8 * A [q] thân fflamllyd, [r] † gan roddi dïal i'r sawl [s] nid adwaenant Dduw, [t] ‡ ac nid ydynt yn ufuddhâu i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist:

q Gen. 3. 24. Deut. 4. 11. a 5. 5. Salm 21. 8, 9. a 50. 2—6. Dan. 7. 10. Mat. 25. 41, 46. Heb. 10. 27. a 12. 29. 2 Pedr 2. 7, 10—12. Dat. 20. 10, 14, 15. a 21. 8. r Deut. 32. 35. Salm 2. 9—12. a 94. 1. Es. 61. 2. a 63. 4—6. Heb. 10. 30. Dat. 6. 10, 16, 17. s Ex. 5. 2. 1 Sam. 2. 12. Salm 9. 10. a 79. 6. Es. 27. 11. Jer. 9. 6. Ioan 3. 19. a 8. 19. Rhuf. 1. 28. 1 Cor. 15. 34. 1 Thes. 4. 5. t Deut. 4. 30. Salm 18. 44. Es. 1. 19. Act. 6. 7. Rhuf. 1. 5. a 2. 7, 8. a 6. 16. a 10. 16. a 15. 18. a 16. 26. 2 Cor. 10. 5. Gal. 3. 1. Heb. 2. 3. a 5. 9. a 11. 8. 1 Pedr 1. 2. a 3. 6. a 4. 17.

* Bydd ymddangosiad yr Arglwydd Iesu o'r nef yn ogoneddus ac yn ofnadwy iawn y dydd hwnw, oblegid efe a ddaw, â thân fflamllyd, i losgi y grëadigaeth weledig, yr hyn fydd yn arddangosiad o'i ddigofaint mawr ef yn erbyn y rhai drygionus. † Oblegid efe a rydd ddïal trwm a chyfiawn, nid yn unig ar baganiaid eilunaddolgar, Iuddewon erlidgar, a dynion o fucheddau annuwiol a gwarthus; ond hefyd ar bawb a barânt yn ddïeithriaid a gelynion i'r gwir Dduw, ei addoliad sanctaidd, a'i wasanaeth ef: ‡ ac ar bawb nid ufuddânt i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist, ei dderbyn ef trwy ffydd, ymorphwys arno, ac ymostwng iddo, fel eu Gwaredwr a'u Brenin.

9 [u] * Y rhai † a ddïoddefant yn gospedigaeth, ddinystr tragywyddol [x] oddi ger bron yr Arglwydd, ‡ ac oddi wrth [y] ogoniant ei gadernid ef:

u Es. 33. 14. a 66. 24. Dan. 12. 2. Mat. 25. 41, 46. a 26. 24. Marc 9. 43—49. Luc 16. 25, 26. Ioan 5. 14. Heb. 10. 29. 2 Pedr 2. 17. Judas 13. Dat. 14. 10, 11. a 20. 14. a 21. 8. a 22. 15. x Gen. 3. 8. a 4. 16. Job 21. 14. a 22. 17. Salm 16. 11. a 51. 11. Mat. 7. 23. a 22. 13. a 25. 41. Luc 13. 27. y Deut. 33. 2. Es. 2. 10, 19, 21. Mat. 16. 27. a 24. 30. Tit. 2. 13. Dat. 20. 11.

* Pa mòr lïosog bynag a fyddo y rhai hyn, a pha mòr enwog bynag a fyddo llawer o honynt o ran sefyllfa, cyrhaeddiadau, doniau, dysgeidiaeth, neu weithredoedd ysplenydd a gorchestol; † hwy a gospir â dinystr tragywyddol oddi ger bron, neu oddi wrth bresenoldeb yr Arglwydd, yn mha un yn unig y mae dedwyddwch i'w gael; ‡ ac oddi wrth ogoniant ei gadernid, neu ei gadernid gogoneddus ef: bydd ei ŵg dïaleddol ef yn dychrynu ac yn poeni eu heneidiau a'u calonau o'u mewn, ac yn eu *gyru* yn annwrthwynebol, gyda braw ofnadyw, i uffern y lle poenus. *Oddi ger bron yr Arglwydd, &c.:* yr hyn a ddengys, nid yn unig y cânt eu *hymlid* oddi wrth y llawelnydd a'r gogoniant hyny sydd ger bron, ac yn mhresenodeb Crist; ond hefyd y bydd ei *bresenoldeb* ef yn ymddangos yn *weithredol* yn eu cospedigaeth hwy, fel y byddant megys yn cael e *taraw* â melltenïad ei lygaid ef.

10 * Pan ddêl efe i'w [z] ogoneddu yn saint, † ac i fod yn rhyfeddol yn y rhai c sydd yn credu ([a] ‡ o herwydd i'n tystiolaet ni yn eich mysg chwi gael ei chredu) [b] yn dydd hwnnw.

z adn. 12. Num. 23. 23. Es. 43. 21. a 44. 23. a 49. 3. a 60. Jer. 33. 9. Ioan 11. 4. a 17. 10 Gal. 1. 21. Eph. 1. 6, 12, 14, a 2. 7. a 3. 10, 16. 1 Pedr 2. 9. Dat. 7. 11, 12. a pen. 2, 1 Thes. 1. 5. a 2. 13. b Mal. 3. 17. Mat. 7. 22. a 24. 36. L 10. 12. 2 Tim. 1. 12, 18. a 4. 8.

* Cyflawnir hyn oll, pan ddêl yr Arglwydd Iesu gy mawredd dwyfol mewn natur ddynol, i gael ei ogoned yn ei saint; pryd y bydd cyfoeth ei gariad, gwerthfaw ogrwydd ei brynedigaeth, effeithiau ei ras, nerth fraich, a'i ffyddlondeb i'w addewidion, yn cael eu hs ddangos yn annhraethol ogoneddus yn eu hiachawdw iaeth gyflawn, berffaith, a gorphenol hwy: † a phe ddêl efe i fod yn rhyfeddol yn y rhai oll a gredasa ynddo ef o ddechreu y byd hyd ei ddiwedd; y rhai welant y pryd hwnw, y bydd eu dedwyddwch yn a nhraethol tu hwnt i ddim a ddysgwyliasent erioed ar ddaear, ac a dybiant na bydd yn bosibl iddynt allu b yn ddigon dïolchgar i'r fath Waredwr anfeidrol. N yn unig rhyfeddir ef *gan* y saint eu hunain, ond rhy eddir ef *yn* y saint hefyd y pryd hwnw; gan holl drigo ion y nef, y rhai a glodforant y rhyfeddodau a wnae efe, yn achubiaeth a gogoneddiad y fath elynion gwrthryfelwyr gwael, euog, a halogedig; ac wrth wel y fath gyfnewidiad rhyfeddol a gogoneddus fydd we cael ei wneyd ar eu cyflwr a'u hagwedd hwynt. ‡ Cred yr apostol yn hyderus mai felly y byddai i'r cristiono ion yn Thessalonica, o herwydd i'w dystiolaeth ef frodyr am Grist yn eu mysg hwynt gael ei chredu, ac i ffydd hwynt gael ei hamlygu trwy ei ffrwythau gwiric eddol.

11 * Am ba achos yr ydym hefyd [c] gweddïo yn wastadol drosoch, [d] † ar fod i Duw ni [e] ‡ eich cyfrif chwi yn deilwng [f] alwedigaeth *hon,* [g] ‖ a chyflawni holl [h] foddlo rwydd *ei* ddaioni, [i] § a gwaith ffydd, nerthol:

c Gwel ar Rhuf. 1. 9.—Eph. 1. 16. a 3. 14—21. Phil. 1. 11. Col. 1. 9—13. 1 Thes. 3. 9—13. d Salm 48. 14. a 68. Es. 25. 9. a 55. 7. Dan. 3. 17. Dat. 5. 10. e Gwel ar adn f pen. 2. 14. Rhuf. 8. 30. a 9. 23, 24. Phil. 3. 14. 1 Thes. 2. Heb. 3. 1. 1 Pedr 5. 10. g Salm 138. 8. Diar. 4. 18. Es. 66 Hos. 6. 3. Zec. 4. 7. Marc 4. 28. 1 Cor. 1. 8. Phil. 1. 6. h Sa 51. 18. Luc 12. 32. Eph. 1. 5, 6. Phil. 2. 13. Tit. 3. 4—7. i Io 6. 27—29. Eph. 1. 19, 20. 1 Thes. 1. 3. a 2. 13. Heb. 12. 2.

* Yn yr olwg ar yr amser rhyfeddol a phenderfyn uchod a enwyd, yr oedd yr apostol a'i gyd-weithwyr gweddïo yn wastadol dros y Thessaloniaid; † ar fo Dduw pob gras, eu Duw cyfammodol hwy a'r holl sa yn Nghrist, ‡ ganiatâu iddynt bob peth ag oedd angenrheidiol i'w gwneyd hwy yn gymhwys i'r d wyddwch a'r gogoniant uchod, i'r hwn y galwyd h trwy yr efengyl; ar iddo eu cyfrif hwy yn deilwng hóno yn ol gras y cyfammod newydd yn Nghrist; ‖ ar iddo gyflawni y gwaith o berffaith sancteiddiad, parotôi hwynt i'r gogoniant hwnw, y rhyngodd bo iddo ef yn ei ddaioni a'i gariad, eu harfaethu hw iddo; § gweddïent drostynt ar i Dduw yn ei hollallu nerth, orphen y gwaith oedd ef wedi ei ddechreu yn heneidiau trwy ffydd, hyd oni pherffeithid y ffydd hò a'i gwaith o'r diwedd, mewn golwg a mwynâd yn y goniant. *Boddlonrwydd ei ddaioni:* y dull byrai hawddgaraf a gawn yn un màn, o osod allan *anfeid ddaioni* Duw, yr hyn sydd uwchlaw pob geiriau; c nis gosodwyd allan erioed mewn geiriau mòr adda chynnwysfawr, ag yn y fàn hon. Gallwn sylwi hef bod y gair *eudokia* yn arwyddo *boddlonrwydd arben* a bod yr Arglwydd megys yn teimlo *hyfrydwch san aidd* yn nangosiad ei ddaioni a'i ras tuag at ei bobl.

2 12 [k] * Fel y gogonedder enw ein Harglwydd Iesu Grist ynoch chwi, [l] † a chwithau ynddo yntau, [m] ‡ yn ol gras ein Duw ni, a'r Arglwydd Iesu Grist.

k Gwel ar z. adn. 10.—Ioan 17. 10. 1 Pedr 4. 14. l Gen. 1. 28. Salm 72. 17. Es. 45. 17, 25. Ioan 17. 21—26. Phil. 3. 9. m 1 2. 9, 10. 1 Pedr 1. 7, 8. m Gwel ar Rhuf. 1. 7.—1 Cor. 1. 4. Cor. 8. 9. a 13. 4. Tit. 2. 11. Dat. 1. 4.

1 Yr oedd yr apostol a'i frodyr yn gweddïo am y rhau mawrion uchod i'r Thessaloniaid, fel y caffai w Crist ei ogoneddu ynddynt hwy; yn eu proffes hŷf esenol o'i wirionedd ef, yn eu hymarweddiad sanctid, yn eu llafur gwresog a diwyd i daenu yr efengyl, o'r diwedd yn ngolwg yr holl fyd i dragywyddoldeb h. † Ac fel y gogoneddid hwythau hefyd ynddo cau; trwy fod yn berffaith ar ei ddelw, mwynâu ei iad, cael eu harddelwi ganddo fel ei frodyr, a chyfogi o'i holl anrhydedd ef, ‡ yn ol anfeidrol gyfoeth garedd a gras Duw Dad, a'r Arglwydd Iesu Grist. hyn a alwai yr apostol yn "foddlonrwydd daioni" w o'r blaen, (adn. 11.) mae yn ei alw yn "ras Duw" a; ac yn ras Crist hefyd, am ei fod wedi ei drysori Nghrist, yn deilliaw o hóno a thrwy ei gyfryngdod a Christ yn undeb y Tad a'r Ysbryd, yn cael eu cydneddu drwyddo ac am dano byth.

PEN. II.

Mae efe yn ewyllysio iddynt barau yn ddisigl yn y gwirionedd a dderbyniasant.

AC yr ydym [a] yn attolwg i chwi, frodyr' [b] er dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist' a'n cyd-gynnulliad ninnau atto ef,

a Gwel ar Rhuf. 12. 1. b Gwel ar 1 Thes. 4. 14—16. Gen. 49. 10. Mat. 25. 32. Marc 13. 27. Eph. 1. 10 1 Thes. 3. 13. Tim. 4. 1.

2 2 [d] ‡ Na'ch sigler yn fuan oddi wrth eich eddwl, ac na'ch cynhyrfer, [e] || na chan yspryd, chan air, [f] na chan lythyr, megis oddi wrthnni, § fel pe bai dydd Crist yn gyfagos.

d Es. 7. 2. a 8. 12. 13. a 26. 3. Mat. 24. 6. Marc 13. 7. Luc 9, 19. Ioan 14. 1, 27. Act. 20. 23, 24. 1 Thes. 3. 3. e Deut. 1—5. Jer. 23. 25—27. Mica 2. 11. Mat. 24. 4, 5, 24. 2 Pedr 2. 3. 1 Ioan 4. 1, 2. Dat. 19. 20. f 1 Thes. 4. 15. 2 Pedr 3. 8.

1 * Gwedi cryfâu ffydd, gobaith, ac amynedd y Thesaloniaid dàn eu herlidiau a'u cystuddiau, trwy gryfwyll am ddyfodiad Crist i berffeithio eu hiachawdwreth hwynt; mae yr apostol yma yn eu cyngori, ïe, yn attolygu" arnynt, er dyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist, ac fel yr oeddynt yn gobeithio cael eu cyd-gynnull da'r apostol, ei frodyr, a'r holl saint, ato ef mewn gogoniant; ‡ na byddai iddynt gymmeryd eu "siglo yn tan," eu hudo yn hawdd, na'u cynhyrfu, eu terfysgu, i'n dyrysu yn eu meddyliau; || na chan "air" dynion gymmerent arnynt lefaru drwy ysbrydoliaeth Duw, nd y rhai oeddynt mewn gwirionedd o ysbryd celyddog a thwyllodrus; na chan "lythyr" o fàn nac ddi wrth neb yn y byd, pe deuai oddi wrth yr apostol i hun a'i frodyr, neu yn hytrach oddi wrth ryw wyllwr wedi ffugio eu henwau hwy wrtho;—§ na rdded i ddim felly beri iddynt hwy feddwl fod dydd rist yn gyfagos. "*Er* dyfodiad yr Arglwydd:" "*am*, eu *yn nghylch*, dyfodiad yr Arglwydd," medd rhai; fel e dywedasai yr apostol, *Am* ddyfodiad yr Arglwydd, n nghylch yr hyn y soniais I yn y llythyr o'r blaen, a'ch sigler chwi yn fuan gan neb yn mherthynas i'r ater hwnw, fel pe byddai dydd Crist yn gyfagos, ac i dyfod bron yn union. Sylwa eraill fod y geiriau fel maent, "*Er* dyfodiad yr Arglwydd," yn cynnwys y *vadiad*, neu y *llw* mwyaf difrifol yn y Bibl; na ddyedasai yr apostol ddim yn ei lythyr cyntaf am ddydiad Crist i'r farn, i roi achlysur i neb feddwl bod y ydd hwnw yn gyfagos: ac fel hyny mae yn dangos pa òr niweidiol oedd y fath gyfeiliornad yn ei olwg ef. Tybiai llawer o'r cristionogion boreuol, meddant, fod dydd Crist yn agos iawn; a dywedir y byddent yn fwy awyddus am ferthyrdod, fel na welent olygfa mòr ddychrynllyd, a fyddai yn ol eu barn hwy, yn y dydd hwnw. *Na chan lythyr, megis oddi wrthym ni:* llythyr oddi wrth ryw dwyllwyr, wedi ffugio enw yr apostol a'i frodyr wrtho, efallai, fel y sylwyd uchod; neu ynte, cam ddeall y llythyr oedd ef wedi ei ddanfon atynt o'r blaen. Gwel ar pen. 1. 1.

3 * Na [g] thwylled neb chwi mewn un modd: † oblegid *ni ddaw y dydd hwnnw* [h] hyd oni ddêl ymadawiad yn gyntaf, [i] ‡ a datguddio y dyn pechod, [k] mab y golledigaeth:

g Gwel ar Mat. 24. 4. 1 Cor. 6. 9. Eph. 5. 6. h 1 Tim. 4. 1—3. 2 Tim. 3. 1—3. a 4. 3, 4. i adn. 8—10. Dan. 7. 25. 1 Ioan 2. 18. Dat. 13. 11, &c. k Ioan 17. 12. Dat. 17. 8, 11.

* Gwedi yr attolwg difrifol o'r blaen yn adn. 1, mae yr apostol yma eto yn taer gyngori y Thessaloniaid, na chymmerent eu twyllo gan neb am ddyfodiad dydd Crist; oblegid buasai y cyfryw ddysgwyliad cyfeiliornus yn cythryblu eu meddyliau, yn crëu trallodau a phryder afreidiol ynddynt; a phan welent eu sïomi, byddent mewn perygl o ammau gwirionedd yr efengyl ei hunan: byddai o leiaf yn debyg o'u gwneyd yn esgeulus o'u dyledswyddau yn eu gwahanol sefyllfâoedd bydol; a byddai eu hymddygiad, eu dysgwyliad, a'u sïomedigaeth yn y pen draw, yn debyg o'u gwneyd yn wawd i'w cymmydogion anghrediniol. † Am hyny mae yr apostol trwy gyfarwyddyd Ysbryd Duw, yn sicrâu iddynt, na ddeuai Crist i'r farn hyd oni ddeuai ymadawiad yn gyntaf; neu wrthgiliad corph mawr o broffeswyr cristionogaeth, oddi wrth wir efengyl Crist: ‡ ac yn yr ymadawiad, neu y gwrthgiliad mawr a chyffredin hwnw, y datguddid dyn pechod, mab y golledigaeth; yr hwn yw y Pab yn ddïammau; nid fel un person, ond olyniad o ddynion drygionus yn canlyn eu gilydd o oes i oes. Dygwyddodd amryw wrthgiliadau yn ddïammau yn y cyn-oesoedd, dàn arweiniad gwahanol brif-gyfeiliornwyr; ond ni chyflawnwyd erioed mo holl amgylchiadau y brophwydoliaeth hon, oblegid prophwydoliaeth yn sicr ydyw, ond yn yr ymadawiad hyny oddi wrth y ffydd, y gormes a'r tra-arglwyddiaeth ysbrydol hyny oedd yn cyd-fyned âg ef, yr hwn a gymmerodd le trwy offerynoldeb eglwys Rhufain, neu babyddiaeth. Ni bu gwrthgiliad mòr fawr, a pharâus; ni bu hudoliaethau mòr niweidiol, a ffiaidd; wedi dyddiau yr apostol: twyll Mahomet oedd y tebycaf iddo, ond nis gellir galw hwnw yn "ymadawiad;" ni bu y twyllwr hwnw na'i olynwyr erioed yn "eistedd yn nheml Duw," fel y dywedir fod y "dyn pechod" hwn; (adn. 4.) allan o'r eglwys weledig yr oedd ef, ac mewn gwrthwynebiad hollawl, hyd yn nôd i'r enw o gristionogaeth. Byddai y "dyn pechod" hwn yn sicr o fod yn "fab y golledigaeth;" gwir had Judas, apostol a bradwr, yr hwn a werthodd ei Arglwydd am arian, ac a'i bradychodd â chusan; dirprwywr a gweithredydd arbenig Satan, yn distrywio eneidiau dynion, ac yn soddi ei hunan o'r diwedd i golledigaeth, fel ei ran ofnadwy.

4 * Yr hwn sydd yn gwrthwynebu, [l] † ac yn ymddyrchafu goruwch pob peth [m] a elwir yn Dduw, neu a addolir; ‡ hyd onid yw efe, megis Duw, [n] yn eistedd yn nheml Duw, || ac yn ei ddangos ei hun mai Duw ydyw.

l Es. 14. 13. Ezec. 28. 2, 6, 9. Dan. 7. 8, 25. a 8. 9—11. a 11. 36. Dat. 13. 6. m 1 Cor. 8. 5. n Dan. 8. 12—14. a 11. 45. Dat. 13. 6, 7.

* Dywedai Paul y byddai i'r twyllwr hwn "wrthwynebu:" ac felly y mae pabau Rhufain wedi gwrthwynebu gwirionedd, gorchymynion, a dysgyblion yr Arglwydd Iesu, yn mhob oes a thrwy bob moddion; gwrthwynebasant swydd brophwydol Crist, trwy ddysgu dychymmygion dynion; ei swydd offeiriadol, trwy yr athrawiaeth o haeddiant dynol, a chyfryngwyr crëadigol; a'i

swydd freninol, trwy newid a rhoddi heibio ei gyfreithiau ef. † Mae y dyn pechod hwn yn ymddyrchafu goruwch pob peth a elwir yn Dduw, neu a addolir; gan gristionogion a chan baganiaid hefyd: felly y mae pabau Rhufain wedi gwneyd, ac yn gwneyd o hyd; trwy hòni awdurdod i faddeu pechod, hyd yn nôd i'r rhai sydd yn parâu yn amlwg yn anedifeiriol; trwy ganiatâu ysgrifau o ryddid i ddynion i dòri gorchymynion Duw; trwy roddi heibio ei gyfreithiau ef, a gosod eu deddfau eu hunain uwchlaw iddynt, megys pe byddent o rym rhagorach; a thrwy ryfygu rhoddi ystyr ac awdurdod i'r ysgrythyrau eu hunain; y rhai ni feiddia neb eu deall mewn un ystyr arall, ond yr hyn a roddont hwy iddynt. ‡ Eto, mae y dyn pechod hwn "megys Duw, yn eistedd yn nheml Duw;" gan hyny, rhaid i ni chwilio am dano o fewn yr eglwys weledig: yno mae efe yn gableddus yn traws-feddiannu gorsedd Duw, ac yn ei ddangos ei hun mai Duw ydyw. Bu amrai o'r ymherawdwyr Rhufeinig yn hòni hawl i anrhydedd dwyfol, ac yn gorchymyn eu haddoli; ond nid oedd "ymadawiad" blaenorol oddi wrth gristionogaeth nac addoliad y Jehofah wedi bod; a chymhwysach fuasai dywedyd eu bod hwy yn eistedd yn nheml Iau neu Mawrth, nac eu bod yn eistedd yn nheml Duw; yr hon oedd yn mhlith ei addolwyr proffesedig ef, ac nid yn mhlith paganiaid proffesedig. Ond pab Rhufain, wrth hòni ei hun yn ben cyffredinol holl eglwys Duw; wrth gymmeryd ei alw yn Rhag-Dduw, yn Dduw ar y ddaear, gan ei wenieithwyr; wrth amryfu yr enwau o "Ei sancteiddrwydd," bostiaw o anffaeledigrwydd, hòni awdurdod i ddiorseddu breninoedd, a rhoddi teyrnasoedd i'r neb a fyno efe; mae hyn oll, yn nghyd â'r hòniadau annuwiol a enwyd o'r blaen, yn ateb mòr hollawl i eiriau yr apostol, fel nas gallwn ammau am bwy yr oedd efe yn meddwl, ac at bwy yr oedd yn cyfeirio. ‖ Tra mae y pab yn gwrthwynebu addoliad Duw, trwy orchymyn addoli delwau, saint, ac angelion; a thra mae yn dirymu cyfreithiau Duw, i fynu ufuddod i'w ddeddfau ei hun; gellir ei alw ef yn eilun mawr, yn gystal ag yn orthrymwr mawr, yr eglwys Rufeinig: gan ei fod ef yn gofyn yr ymostyngiad iselaf, a'r gorchreiniad mwyaf dirmygus gan bob dyn, mewn corph ac enaid; ac yn tywallt dirmyg ar bob awdurdod, dynol a dwyfol. Dylem sylwi nad yw yr apostol byth yn sôn am y deml yn Jerusalem fel teml Duw; yn enwedig wedi i'r efengyl gael ei phregethu i'r cenedloedd: yr eglwys gristiongol yn gyffredin, neu gredinwyr yn neilldiol, a feddylir yn wastad wrth yr ymadrodd hwnw. Wrth ddilyn cyfeiriadau y ddwy adnod uchod, gwel y darllenydd gyd-darawiad rhyfeddol rhwng geiriau Paul yma, âg amryw ranau o brophwydoliaethau Daniel, a Datguddiad Ioan.

5 [o] * Onid côf gennych chwi, [p] pan oeddwn i etto gyd â chwi, † ddywedyd o honof y pethau hyn i chwi?

o Mat. 16. 9. Marc 8. 18. Luc 24. 6, 7. Act. 20. 31. p pen. 3. 10. Ioan 16. 4. Gal. 5. 21. 1 Thes. 2. 11. 2 Pedr 1. 15.

* Nis gallai y Thessalouiaid lai na chofio, pan oedd yr apostol ei hun gyda hwynt, yn pregethu ac yn ymddiddan â hwynt, † iddo ddaugos yn ddigon amlwg iddynt, na ddeuai dydd Crist i farnu y byd, hyd oni ddeuai yr ymadawiad, neu y gwrthgiliad mawr uchod yn gyntaf. Diammau iddo ddywedyd mwy wrthynt ar y mater y pryd hwnw, nag a ysgrifenodd efe yn ei epistol cyntaf, na hwn chwaith; ac hwy a ddylasent fod yn cofio hyny er eu tawelu a'u cadarnâu.

6 * Ac yr awrhon chwi a wyddoch yr hyn sydd yn attal, [q] † fel y datguddier ef yn ei bryd ei hun.

q adn. 3, 8.

* Pan gofient hwy yr hyn a ddywedasai efe ar y mater hwn, hwy a allent wybod yr hyn oedd yn "attal," neu yn oedi yr "ymadawiad," neu y gwrthgiliad hwn am yr amser presenol; ac felly yn rhwystro iddo gymeryd lle yn amlwg a chyhoeddus, hyd yr amser [illegible] bennodwyd iddo yn mwriad Duw. Yr oedd ymherodraeth Rhufain, yr hon oedd wedi ei huno dàn un lywodraeth alluog iawn, ac yn dra eiddigus o bob gallu a awdurdod arall, y pryd hwnw yn "attal" sefydliad gormes a'r camrwysg ysbrydol, trwy ba un yr oedd Satan yn cynnyg gwneuthur ei brif ymdrech yn erbyn cristionogaeth: ond ni buasai yn ddoeth i'r apostol enwi hyn yn amlwg, mewn llythyr i'w ddefnyddio y gyffredin; ac ni buasai yn cyd-weddu â dull prophwydol o lefaru ychwaith: pa fodd bynag, deallodd y tadau ef cyn belled, fel y dywedent yn gryf, na ddeuai y Anghrist, hyd ar ol syrthiad yr ymherodraeth Rufeinig. † Yr oedd yn rhaid dygwydd hyn yn gyntaf, wneuthur lle i flaenor a phen y gwrthgiliad i ddyfod mewn; fel y datguddid ef yn uchder ei allu a'i awdurdod, yn eithaf ei rwysg a'i fawredd, yn ei bryd priodol ei hun. sef yn yr amser a drefnodd Duw i oddef iddo

7 * Canys y mae [r] dirgelwch yr anwiredd [s] yn gweithio eisoes: [t] † yn unig yr hwn sydd yr awrhon yn attal, *a ettyl* nes ei dynnu ymaith.

r 1 Tim. 3. 16. Dat 17. 5, 7. s Act. 20. 29. Col. 2. 18—23. 2 Tim 2. 17, 18. 1 Ioan 2. 18. a 4. 3. t adn. 6.

* Oni buasai y rhwystr uchod oedd yn "attal," buasai y drwg yn tòri allan lawer yn gynt; oblegid y pryd hwnw, pan oedd Paul yn ysgrifenu y llythyr hwn, y oedd "dirgelwch yr anwiredd yn gweithio eisoes. Yr oedd y bwriad mawr a dwfn hwn o eiddo Satan, trefniant dirgelaidd hwn, yr hwn oedd wedi ei seilio mewn pob math o anwiredd, neu yn gynnyrchiol bob anwiredd, fel yr oedd yn hollawl groes i "dirgelwch duwioldeb;" yr oedd hwn yn gweithio eisoes yn ac ar feddyliau dynion. Yr oedd awydd a chybydd dod rhai, y rhai a bregethent yr efengyl, ac a arfer ent eu doniau ysbrydol oddi ar gau egwyddorion y rhai a wrthwynebent yr apostolion, i'r dyben gael awdurdod, mawredd, ac elw bydol iddynt e hunain; neu rai a ŵyr-dröent yr athrawiaeth o gy iawnâd trwy ffydd yn Nghrist, gan bregethu hyde gau a hunanol, ewyllys grefydd, llymderau hunan osodol, ac addoliad angelion; yn nghyd â pharod rwydd llawer o broffeswyr crefydd i ganlyn eu ffyrd niweidiol hwynt; yr oedd hyn oll fel lefain drwg, y gweithio yn ddirgelaidd eisoes, ac o'r diwedd yn sicr arwain i'r gwrthgiliad mawr a enwyd. † Ond yr ym herodraeth Rufeinig, yr hon oedd y pryd hwnw y "attal," neu yn rhwystro llawn effaith dirgelwch yr an wiredd, trwy gadw yr eglwys dàn erlid, a ffrwyno po awdurdod ond yr eiddo ei hun; a barâi i attal gwrthgiliad hwn, hyd oni thynid hi ymaith, ei symmu oddi ar y ffordd, trwy ei dadymchwelyd.

8 * Ac yna y datguddir [u] yr Anwir *hwnnw* [x] † yr hwn a ddifetha yr Arglwydd [y] âg ysbryd ei enau, ‡ ac a ddilëa [z] â disglaerdeb e ddyfodiad:

u adn. 3. Mat. 13. 19, 38. 1 Ioan 2. 18, 14. a 3. 12. a 5. 18, 19. x Dan. 7. 10, 11, 26. Dat. 18. 8—10. a 19. 20. a 20. 10. y Job 4. 9. Salm 18. 15. Es. 11. 4. Hos. 6. 5. Dat. 1. 16. a 2. 16. a 19. 15, 21. z Gwel ar pen. 1. 8, 9.

* Gwedi symmud y rhwystr uchod oedd yn "attal," oddi ar y ffordd, yna y datguddid yr Anwir hwnw, neu yr un digyfraith *(anomos)* hwnw: datguddid ef yn holl rwysg a'i fawredd anghyfreithlawn, digywilydd, chableddus; a datguddid ef yn holl anferthwch a hyll dod creulawn ei natur a'i gymmeriad yn ddiorchudd trwy ei ymdrech i ddyrchafu ei hun goruwch pob cy reithiau dynol a dwyfol. † Ond er i'r Anwir a'r gor meswr hwn fyned rhagddo a llwyddo am ei amser tes fynedig; eto gwybydded eglwys Duw er ei chysur, dyfetha yr Arglwydd ef o'r diwedd âg ysbryd neu anad ei enau: yn ol rhagfynegiad ei air, a thrwy bregethia ei efengyl dàn ddylanwadau ei Ysbryd, efe a dreulia a ddyfetha yn raddol, y gormes anghristaidd hwn, ac ddiddyma ei holl lygriadau ef o'r efengyl. Mae y

ylydd wedi bod yn gwneyd hyn er ys mwy na thri
o flynyddoedd, er gwawriad cyntaf y diwygiad:
o hir efe a ddistrywia yr holl awdurdod pabaidd,
wb sydd yn cyndyn lŷnu wrtho, ‡ "â dysgleirdeb
yfodiad," i daenu yr efengyl yn mhlith yr holl
loedd; ac yn y diwedd efe a gondemnia ac a
â dinystr tragywyddol, yr holl chwareüwyr yn yr
aeth ddirfawr hon, pan ddelo yn nysgleirdeb ei
ant i farnu y byd. Matth. 24. 27. "Dilëu:"
jèsei: dirỳmu, distrywio, gwneyd yn ddïeffaith.

9 * *Sef* yr hwn y mae ei ddyfodiad [a] yn ol
thrediad Satan, † gyd â phob nerth, [b] ‡ ac
ddion, ‖ a rhyfeddodau gau,
Ioan 8. 41, 44. Act. 8. 9—11. a 13. 10. 2 Cor. 4. 4. a 11. 3,
h. 2. 2. Dat. 9. 11. a 12. 9, 17. a 13. 1—5. a 19. 20. a 20. 10.
d. 7. 22. a 8. 7, 18. Deut. 13. 1, 2. Mat. 24. 24. Marc 13. 22.
3. 8. Dat. 13. 11—15. a 18. 23. a 19. 20.

elly yn sicr y bydd tynged yr "anwir," y diddeddf,
yn pechod," a "mab y golledigaeth" hwn; yr hwn
idai ei ddyfodiad i mewn, ei lwyddiant, a'i barâd
esoedd, nid trwy eglurdeb a thegwch gwirionedd,
trwy gyfrwysdra dwfn, a gweithrediad neilduol
n, tad pob hudoliaeth a chelwydd; † gyda'r hòn-
n mwyaf digywilydd o awdurdod a nerth, dàn yr
s o gael hyny gan Dduw; ‡ gyda ffug-arwyddion
yddog o wyrthiau, un ai trwy gyfrwysdra twyllod-
ynion, neu weithrediadau cyfareddawl Satan, trwy
i y byddai dynion yn dynwared gwyrthiau Crist a'i
tolion, fel y gwnâi y swynwyr yn yr Aipht â
rthiau Moses. ‖ Fel hyn byddai i'r *anwir* hwnw
i filoedd o wirioniaid ryfeddu, a myned ar ei ol
nd ni byddai y cwbl ond *gau;* nerth gau, arwydd-
gau, a rhyfeddodau gau: canys mae y *gau* yn
hyn i bob un o'r geiriau yn ddiammau, yn gystal
'r olaf; ac nid oes dim yn fwy naturiol, na chyfeir-
cwbl at *ffug wyrthiau eglwys Rhufain,* y rhai a
nyddasant i'r fath radd o ormodedd a digywilydd-
hyd onid aeth yn gywilydd gan eu pabau hwy eu
ain am danynt o'r diwedd.

10 * A phob [c] dichell anghyfiawnder [d] † yn
thai colledig; [e] ‡ am na dderbyniasant gariad
wirionedd, [f] fel y byddent gadwedig.
c Rhuf. 16. 18. 2 Cor. 2. 17. a 4. 2. a 11. 13, 15. Eph. 4. 14.
dr 2. 18. d 1 Cor. 1. 18. 2 Cor. 2. 15. a 4. 3. 2 Pedr 2. 12.
iar. 1. 7. a 2. 1—6. a 4. 5, 6. a 8. 17. Mat. 13. 11. Ioan 3. 19—
a 8. 45—47. Rhuf. 2. 7, 8. a 6. 17. Iago 1. 16—18. f Ioan
7. a 5. 34. Rhuf. 10. 1. 1 Thes. 2. 16. 1 Tim. 2. 4.

Byddai y twyll ofnadwy hwn yn cael ei ddwyn yn
en hefyd, gyda phob math o ffug, hudoliaeth, a
hell anghyfiawn, trwy ba rai y dyryswyd deall a syn-
au dynion gan dwyllwyr hocedus, yn ngwahanol
oedd a chenedloedd y byd; a chyda phob dyfais rag-
hiol, ag oedd yn bosibl i gyfrwysder a dychymmyg
hion a diafliaid i feddwl am dani; i gynnal achos
hyfiawnder, ac i dwyllo y byd i ryfeddu, i barchu, ac
fuddâu, yn syfrdan, yn ddall, ac yn ddïymholi, i aw-
dod amryfus, eilun-addoliaeth, a ffieidd-dra gwarth-
yr hudoliaeth gref a dirfawr hon. † "*Yn* y rhai
ledig:" neu *yn mhlith* y rhai colledig: sef y rhai a
nmerant eu twyllo gan y dichellion a enwyd i'w
ystr tragywyddol eu hunain, yr hyn a ddengys pwy
y rhai a dwyllir, y rhai colledig; a phwy yw y rhai
ledig, y rhai a dwyllir: ni thwyllir neb o etholedig-
n Duw. ‡ Yr oedd y rhai colledig hyn yn cael eu
yllo, am na dderbyniasant gariad y gwirionedd fel y
ldent gadwedig; ond gan eu bod yn dïystyru, yn
rthod, neu yn gwyro gwirionedd achubol yr efengyl,
y falchder a gelyniaeth cnawdol; yr oedd Duw yn ei
n gyfiawn yn eu gadael i ddallineb eu calonau.

11 * Ac [g] am hynny y [h] denfyn Duw iddynt
y amryfusedd cadarn, [i] † fel y credont gel-
dd:
g Salm 81. 11, 12. a 109. 17. Es. 29. 9—14. Ioan 12. 39—43.
f. 1. 21—25, 28. h 1 Bren. 22. 18—22. 2 Cron. 18. 18—22.
el ar Es. 6. 9, 10. Ezec. 14. 9. i Es. 44. 20. a 66. 4. Jer. 27.
Ezec. 21. 29.

* Ac am hyny hefyd, trwy offeryneldeb yr anwir hwnw a'i gyd-weithwyr, danfonai Duw iddynt hwy amryfusedd cadarn, yr hyn a'i rhwymai hwy yn gadarn yn llyffetheiriau cyfeiliorni a gau hyder; † ac fel hyny caent eu gorddênu i grediniaeth dïysgog o gelwydd Satan, ac anturient eu heneidiau ar y celwydd hwnw. Mae y chwedlau pabaidd tra ynfyd, y rhai a gredwyd ac a gredir eto i'r fath raddau, fel y maent wedi eu derbyn i'w gwasanaeth cyhoeddus hwy yn eu haddoliadau, yn ddigon i roddi eglurâd galarus ar y geiriau uchod.

12 [k] * Fel y barner yr holl rai nid oeddynt yn credu i'r gwirionedd, [l] † ond yn ymfoddloni mewn ‡ anghyfiawnder.
k Marc 16. 16. Ioan 3. 36. 1 Thes. 5. 9. 2 Pedr 2. 3. Judas 4, 5. l Salm 11. 5. a 50. 16—21. a 52. 3, 4. Hos. 7. 3. Mica 3. 2. Marc 14. 11. Ioan 3. 19—21. Rhuf. 1. 32. a 2. 8. a 8. 7, 8. a 12. 9. 2 Pedr 2. 13—15. 3 Ioan 11.

* Fel hyn yn rhwym mewn amryfusedd cadarn, caledwch, ac anghrediniaeth, a thân awdurdod Satan a'u chwantau eu hunain; caent eu gadael i amlygu eu gelyniaeth yn erbyn Duw a'i efengyl, ac i gyflawni mesur eu pechodau; fel y condemnier hwy ddydd y farn, ac y derbyniont y gospedigaeth a haeddasant; sef yr holl rai nid oeddynt yn credu y gwirionedd, † ond a oedd yn "ymfoddloni," neu yn ymhyfrydu mewn anghyfiawnder, ac yn hudoliaethau y gwrthgiliwr a'r gormeswr mawr, yr anwir hwnw, o herwydd eu bod yn cyd-fyned â'u balchder hwy, eu cariad at y byd, a'u casineb at addoliad a gwasanaeth ysbrydol Duw. ‡ Anghyfiawnder yw pob rhyw bechod, a phechod yw pob math o anghyfiawnder; ond efallai mai cyfeiliorni mewn athrawiaeth a feddylir yma wrth anghyfiawnder, yn nghyd a'r holl ddichellion anghyfiawn a arfera yr Anwir hwnw, i gynnal ei grefydd anghyfiawn a thwyllodrus. Tybia *Doddridge* fod y geiriau "ymfoddloni mewn anghyfiawnder," yn cyfeirio at lawer o'r offeiriaid ac eraill yn eglwys Rhufain, y rhai sydd yn twyllo y bobl o'u gwirfodd, er gwybod eu bod yn eu twyllo; ac yn ymhyfrydu yn hyny am ei fod yn dyfod âg elw bydol iddynt hwy: ofnadwy fydd barn y rhai hyn, a phawb cyffelyb iddynt o bob crefydd! Ond tybia *Scott* mai at y twylledig, yn hytrach nâ'r twyllodrus, mae y geiriau yn cyfeirio; ac os bernir y twylledig i golledigaeth, pa faint mwy y rhai sydd yn eu twyllo!

13 * Eithr [m] nyni a ddylem ddïolch yn wastad i Dduw drosoch chwi, frodyr [n] caredig gan yr Arglwydd, † oblegid i Dduw [o] o'r dechreuad eich [p] ethol chwi i iachawdwriaeth, [q] ‡ trwy sancteiddiad yr Ysbryd, [r] a ffydd i'r gwirionedd:
m pen. 1. 3. Gwel ar Rhuf. 1. 8. a 6. 17. n adn. 16. Deut. 33. 12. 2 Sam. 12. 25. Jer. 31. 3. Ezec. 16. 8. Dan. 9. 23. a 10. 11, 19. Rhuf. 1. 7. Col. 3. 12. 1 Ioan 4. 10, 19. o Gen. 1. 1. Diar. 8. 23. Es. 46. 10. Ioan 1. 1. a 8. 44. Heb. 1. 10. p Rhuf. 8. 33. a 9. 11. Eph. 1. 4, 5. 2 Tim. 1. 9. q adn. 10, 12. Luc 1. 75. 1 Pedr 1. 2—5. r Ioan 8. 45, 46. a 14. 6. Act. 13. 48. a 15. 9. Gal. 3. 1. Eph. 2. 8. Col. 1. 5. 2 Tim. 2. 15. a 3. 15. Iago 1. 18.

* Mae y geiriau hyn yn lled-ddangos fod amryfusedd cadarn wedi ei ddanfon eisoes mewn rhan, i'r rhai ni dderbyniasent gariad y gwirionedd fel y byddent gadwedig; am hyny yr oedd efe a'i frodyr yn rhwym i dalu dïolch yn wastad i Dduw dros y Thessaloniaid, ei frodyr anwyl, a brodyr caredig gan yr Arglwydd hefyd; † oblegid yr oedd yn amlwg iddo ef, ddarfod i Dduw o'r dechreuad eu hethol hwy i iachawdwriaeth dragywyddol, ‡ ac ei fod yn eu cymhwyso hwy i'r iachawdwriaeth hòno trwy oruchwyliaethau sancteiddâol yr Ysbryd Glân ar eu heneidiau, a thwy wir a bywiol ffydd yn y gwirionedd *o'r dechreuad:* o ddechreuad pregethu yr efengyl iddynt, medd y rhai a wadant etholedigaeth dragywyddol; ond mae yn amlwg fod yr apostol yn gwahaniaethu rhwng yr *ethol* hwn o honynt, â'u *galw* yn yr adnod nesaf, ac yn llefaru am eu galw fel effaith eu hethol. *Galwodd* hwynt pan bregethwyd yr efengyl iddynt; ond *etholodd* hwynt cyn seiliad y byd; a hyny

nid am iddo rag-weled y byddent yn sanctaidd, ond i'r dyben o'u sancteiddio, ac fel hyny eu cymhwyso i iachawdwriaeth dragywyddol yn y nef.

14 [s] * I'r hyn † y galwodd efe chwi [t] trwy ein hefengyl ni, [u] ‡ i feddiannu gogoniant ein Harglwydd Iesu Grist.

s Gwel ar Rhuf. 8. 28—30.—1 Thes. 2. 12. t Rhuf. 2. 16. a 16. 25. 1 Thes. 1. 5. u Salm 16. 11. Mat. 25. 21. Ioan 14. 2, 3. a 17. 22, 24. Rhuf. 8. 17. Eph. 1. 18. 1 Thes. 2. 12. 2 Tim. 2. 12. 1 Pedr 1. 4, 5. a 5. 10. Dat. 3. 21. a 21. 23. a 22. 3—5.

* "I'r hyn," sef i'r hyn iachawdwriaeth, sancteiddiad, a ffydd i'r gwirionedd am Grist yn ei Berson, ei swyddau, ei aberth a'i iachawdwriaeth; † y galwodd Duw hwynt trwy yr efengyl, yr hon a bregethasai Paul a'i frodyr iddynt: nid mewn gair yn unig y daeth hon atynt, ond yn nerth yr Ysbryd Glân; ac yr oedd eu hymarweddiad drwyddi hi yn brawf o'u hetholedigaeth gan Dduw, ‡ ac hefyd yn eu cymhwyso i feddiannu gogoniant yr Arglwydd Iesu Grist, yr hwn fel rhagflaenor, sydd wedi ei feddiannu i'w holl saint.

15 * Am hynny, frodyr, [x] sefwch, [y] † a deliwch [z] y traddodiadau a ddysgasoch, [a] ‡ pa un bynnag ai trwy ymadrodd, || ai trwy ein hepistol ni.

x Gwel ar 1 Cor. 15. 58. a 16. 13. Phil. 4. 1. y pen. 3. 6. 1 Cor. 11. 2. z Rhuf. 6. 17. Judas 3. a adn. 2. pen. 3. 14.

* Gan fod Duw yn ei ben-arglwyddol ras wedi ethol y Thessaloniaid hyn i iachawdwriaeth, a'u galw i feddiannu gogoniant; am hyny dylent sefyll yn gadarn yn wyneb erlid a thrallod, ac hefyd yn wyneb cyfeiliornadau gau-athrawon a thwyllwyr hocedus. † Cyngorai yr apostol iddynt ddâl y cyfryw athrawiaethau a ddysgasent hwy ganddo ef a'i frodyr, ‡ pa un bynag ai trwy eu hymadroddion hwy yn bersonol pan oeddynt gyda hwynt, || ai ynte trwy yr epistol hwn a'r un o'r blaen. *Sefwch:* gair milwraidd, yn cael ei roddi gan flaenor y fyddin i'r milwyr dàno: mae yn orchymyn addas iawn yma, wedi sôn o'r blaen am ddirgelwch yr anwiredd oedd yn gweithio eisoes, a'r ymadawiad, neu y gwrthgiliad mawr oedd i gymmeryd lle yn fuan. *Traddodiadau:* athrawiaeth bur yr efengyl oedd y traddodiadau hyn, yn cael eu rhoddi trwy ysbrydoliaeth Duw; ac felly yn wahanol iawn i traddodiadau ynfyd y Phariseaid, a rhai ynfytach y pabyddion: nid oes yn yr adnod hon ddim sail i'w traddodiadau hwy, byd oni fedront brofi eu bod yr un â thraddodiadau Paul a'i frodyr.

16 * A'n [b] Harglwydd Iesu Grist ei hun, a Duw a'n Tad, [c] † yr hwn a'n carodd ni, ‡ ac a roddes *i ni* [d] ddiddanwch tragywyddol, [e] || a gobaith da [f] § trwy ras,

b pen. 1. 2.—Gwel ar Rhuf. 1. 7. 1 Thes. 3. 11. c Gwel ar n adn. 13.—Ioan 3. 16. a 15. 9, 13. Rhuf. 5. 8. Eph. 2. 4, 5. a 5. 2, 25. Tit. 3. 4—7. 1 Ioan 3. 16. a 4. 9, 10. Dat. 1. 5. a 3. 9. d Salm 103. 17. Es. 35. 10. a 51. 11. a 60. 19, 20. a 61. 7. Luc 16. 25. Ioan 4. 14. a 14. 16—18. a 16. 22. 2 Cor. 4. 17, 18. Heb. 6. 18. 1 Pedr 1. 5—8. Dat. 7. 16, 17. a 22. 5. e Rhuf. 5. 2—5. a 8. 24, 25. Col. 1. 5, 23. 1 Thes. 1. 3. Tit. 1. 2. a 2. 13. Heb. 6. 11, 12, 19. a 7. 19. 1 Pedr 1. 3—5. 1 Ioan 3. 2, 3. f Act. 15. 11. a 18. 27. Rhuf. 4. 4, 16. a 5. 2. a 11. 5, 6.

* Mae yr apostol yma yn troi i weddïo dros y Thessaloniaid, ar ein Harglwydd Iesu Grist ei hun, a Duw a'n Tad, sef Duw *ein* Tad; ac mae yn enwi Crist yn gyntaf, yn y weithred amlycaf hon o addoliad dwyfol: oblegid efe a'r Tad un ydynt; a chyda'r Ysbryd Glân y Dyddanydd, yr un Duw hwnw, † a'u carodd hwynt yn rhad, er tragywyddoldeb, ac yn ddigyfnewid byth; ‡ ac a roddes iddynt ddyddanwch tragywyddol, ffynon o gysur yn yr efengyl, a thrwy ei Ysbryd yn eu calonau, yr hyn oedd i barâu i dragywyddoldeb, ac o'r hyn yr oeddynt yn mwynâu ernes a blaen-ffrwyth y pryd hwnw. || Yr oedd Duw hefyd wedi rhoddi iddynt obaith da, ar sail dda, am ran dda, ac am ddedwyddwch addas a digonol i'w heneidiau byth: § ac yr oedd y gobaith hwn yn tarddu o drugaredd Duw; yn cael ei amlygu a'i gadarnâu trwy ei "ras" ef yn eu calonau hwy; yn dwyn yr effeithiau goreu yn eu bucheddau; ac yn eu cynnal hwy yn ŵrol yn eu haml drallodau.

17 [g] * A ddiddano eich calonnau chwi, ac a'ch sicrhâo ym mhob [i] gair a gweithred dda.

g adn. 16. Es 51. 3, 12. a 57. 15. a 61. 1, 2. a 66. 13. Rhuf. 15. 13. 2 Cer. 1. 3—6. h pen. 3. 3. Es. 62. 7. Rhuf. 1. 11. a 16. 25. 1 Cor. 1. 8. 2 Cor. 1. 21. Col. 2. 7. 1 Thes. 3. 2, 13. Heb. 13. 9. 1 Pedr 5. 10. Judas 24. i Iago 1. 21, 22. 1 Ioan 3. 18.

* Gan hyny mae yr apostol yn gweddïo ar yr Arglwydd Iesu Grist, a Duw Dad, ar iddo ddyddanu calonau y Thessaloniaid o hyd fwy-fwy, trwy ffydd yn yr efengyl, â llewyrch ei wyneb, a thrwy gymdeithas ei Ysbryd: † ac ar iddo eu sicrâu hwy yn gadarn ac yn ddïysgog, nid yn unig mewn ffydd a gobaith, ond hefyd mewn gofal gwastadol am sancteiddrwydd a gweddeiddrdra, ‡ yn eu holl ymadroddion a'u hymddiddanion â phawb, || ac mewn parodrwydd greddfol a gwastadol i bob gweithred dda, tuag at Dduw a dynion. Nid yw geiriau da yn ddigon, heb weithredoedd da hefyd.

PEN. III.

Y mae efe yn deisyfu eu gweddïau hwy drosto ei hun.

* BELLACH, frodyr, [a] gweddïwch drosom ni, [b] † ar fod i air yr Arglwydd redeg, [c] ‡ a chael gogonedd, [d] || megis gyd â chwithau;

a Mat. 9. 38. Luc 10. 2. Rhuf. 15. 30. 2 Cor. 1. 11. Eph. 6. 19, 20. Col. 4. 3. 1 Thes. 5. 17. Heb. 13. 18, 19. b Act. 6. 7. a 12. 24. a 13. 49. a 19. 20. 1 Cor. 16. 9. 2 Tim. 2. 9. c Salm 138. 2. Act. 13. 48. d 1 Thes. 1. 5. a 2. 1, 13.

* Mae yr apostol yma yn tynu at ddiwedd ei epistol, fel mae y gair "Bellach" yn arwyddo: ond cyn diweddu, mae yn dymuno ar ei "frodyr" y Thessaloniaid weddïo drosto ef a'i gyd-lafurwyr, ar iddynt lwyddo yn eu gweinidogaeth: † ar i air yr Arglwydd Iesu, yr efengyl am dano ef a'i iachawdwriaeth, *redeg;* ar iddo ymledaenu yn gyflym, o galon i galon, o fàn i fàn, o deulu i deulu, ac o un dref neu ddinas i'r llall, trwy yr holl wledydd, ac yn mhlith yr holl genedloedd. ‡ Nid rhedeg felly yn unig, ond hefyd cael *gogonedd;* bod i'w natur a'i effeithiau rhagorol gael eu hamlygu, yn nychweliad llaweroedd o eilun-addoliaeth a drygioni at y gwir Dduw a'i addoliad; ac yn mywydau sanctaidd, a ffrwythau cynnyddol amlwg, proffeswyr cristionogaeth; || megys yr oedd gogoniant yr efengyl wedi cael ei amlygu yn rhyfeddol yn y Thessaloniaid eu hunain. *Rhedeg, a chael gogonedd:* tybia rhai fod yr apostol yn cyfeirio yma at y *gogonedd,* neu y *ganmoliaeth,* a roddid i'r rhedegwyr goreu a chyflymaf, yn y campiau Groegaidd gynt. Rhedeg yn llwyddiannus, er pob rhwystrau yw ystyr y gair *treché.*

2 * Ac ar ein [e] gwared ni † oddi wrth ddynion anhywaith a drygionus; [f] ‡ canys nid *oes* ffydd gan bawb.

e Rhuf. 15. 31. 1 Cor. 15. 32. 2 Cor. 1. 8—10. 1 Thes. 2. 18. 2 Tim. 4. 17. f Deut. 32. 20. Mat. 17. 17. a 23. 23. Luc 18. 8. Ioan 2. 23—25. Act. 13. 45, 50. a 14. 2. a 17. 5. a 28. 24. Rhuf. 10. 16. 2 Cor. 4. 3, 4.

* Dymunai arnynt weddïo hefyd, am i'r Arglwydd ei amddiffyn a'i waredu ef a gweinidogion eraill yr efengyl, † oddi wrth, a rhag llid a chreulondeb dynion anhywaith, afresymol, a drygionus, y cyfryw ag oedd yr Iuddewon anghrediniol, rhagfarnus, a phoethion; y rhai nis gellid eu hargyhoeddi trwy unrhyw resymau, na'u tyneru trwy unrhyw ddarbwyllion nac addfwynder. Yr oedd rhagfarn a chynddaredd y rhai hyn, fel effaith eu cyndynrwydd a'u drygioni, yn eu hyrddu hwynt i bob math o ddrygau, i'r dyben o wrthwynebu a distrywio yr apostol, ac eraill a bregethent Grist i'r cenedloedd: ac efallai bod y paganiaid tywyll ac eilun-addolgar, y rhai a gyffrôai yr Iuddewon i'w cynnorthwyo hwy i erlid, yn ngolwg yr apostol hefyd, yn y dynion anhywaith a drygionus hyn; ond yr Iuddewon poethion yn benaf. ‡ Er yr amledd o wyrthiau a wnaed, ac er cyflawniad y prophwydoliaethau mòr eglur, yr hyn oedd yn profi gwirionedd yr efengyl; eto nid oedd ffydd gan

bawb i gredu yr efengyl: effaith gallu Duw ar y galon, a rhodd Duw oedd ffydd; yn darostwng balchder cnawdol, cyndynrwydd, a gelyniaeth y natur syrthiedig. *Anhywaith a drygionus:* gwel eu hymddygiad yn Act. 17. 5—8, 13; yn nghyd â llawer o fânau eraill yn y llyfr hwnw.

3 * Eithr [g] ffyddlawn yw yr Arglwydd, † yr hwn a'ch [h] sicrhâ chwi, [i] ‡ ac a'*ch* ceidw rhag drwg.

g Gwel ar 1 Cor. 1. 9. a 10. 13. 1 Thes. 5. 24. h Gwel ar pen. 2. 17. i Gen. 48. 16. 1 Cron. 4. 10. Salm 19. 13. a 121. 7. Mat. 6. 13. Luc 11. 4. Ioan 17. 15. 2 Tim. 4. 18. 2 Pedr 2. 9. Judas 24.

* Ond er mòr anhywaith a drygionus oedd y dynion uchod, ïe, er bod llawer dàn enw brodyr yn anffyddlawn, oblegid "nid oedd ffydd gan bawb" a elwid yn frodyr; eto ffyddlawn oedd Duw, i'w gyfammod a'i holl addewidion: † a chredai yr apostol yn sicr, y cadarnâi efe y Thessaloniaid gwir grefyddol yn eu ffydd a'u proffes, ‡ ac y cadwai efe hwy rhag pob drwg; drwg diafol, drwg dynion, a drwg pechod, a'i holl effeithiau marwol a niweidiol.

4 [k] * Ac y mae gennym hyder yn yr Arglwydd am danoch, [l] † eich bod yn gwneuthur, ‡ ac y gwnewch, ‖ y pethau yr ydym yn eu gorchymyn i chwi.

k Rhuf. 15. 14. 2 Cor. 2. 3. a 7. 16. a 8. 22. Gal. 5. 10. Phil. 1. 6. Philemon 21. l adn. 6, 12. Mat. 28. 20. Rhuf. 2. 7. a 15. 18. 1 Cor. 7. 19. a 14. 37. 2 Cor. 2. 9. a 7. 15. Phil. 2. 12. 1 Thes. 4. 1, 2, 10, 11.

* Yr oedd efe yn hyderus hefyd yn yr Arglwydd am danynt, fel rhai yn credu ynddo, ac mewn undeb bywiol âg ef, † eu bod hwy trwy ras Duw y pryd hwnw yn gwneuthur, ‡ ac y caent eu tueddu a'u galluogi trwy barâd o'r un gras, i wneyd ‖ yr holl bethau a orchymynodd efe a'i frodyr iddynt o'r blaen, ac oeddynt yn orchymyn yn y llythyr hwn, neu a orchymynent ar ol hyn. Gorchymynion yr Arglwydd Iesu oedd gorchymynion yr apostol; (1 Cor. 14. 37;) am hyny hyderai y cydnabyddai y Thessaloniaid hwy fel y cyfryw, eu bod yn eu gwneuthur, ac y paràent i'w gwneuthur yn wastadol.

5 [m] * A'r Arglwydd † a gyfarwyddo eich calonnau chwi [n] at gariad Duw, [o] ‡ ac i ymaros am Grist.

m 1 Bren. 8. 58. 1 Cron. 29. 18. Salm 119. 5, 36. Diar 3. 6. Jer. 10. 23. Iago 1. 16—18. n Deut. 30. 6. Jer. 31. 33. Rhuf. 5. 5. a 8. 28. 1 Cor. 8. 3. Gal. 5. 22. Iago 2. 5. 1 Ioan 4. 19. o Salm 40. 1. a 130. 5, 6. Galar. 3. 26. Luc 12. 36, 37. Rhuf. 8. 25. Phil. 3. 20. 21. 1 Thes. 1. 3, 10. 2 Tim. 4. 8. Tit. 2. 13. Heb. 9. 28. 2 Pedr 3. 12. Dat. 3. 11, 12. a 13. 10.

* Am hyny efe a weddïai am i'r Arglwydd, yr Ysbryd Glân, † gyfarwyddo a thywys eu calonau hwy at brofiad cysurus o gariad Duw Dad tuag atynt, ac at weithrediad gwresog o'u cariad hwythau tuag ato yntau; ‡ ac i ymaros am Grist: i'r amynedd hyny a ddangosodd, a ddysgodd, a ofynodd, ac a roddodd efe; sef darostyngiad enaid dàn ddyoddefiadau, addfwynder a hirymaros dàn niweidiau, parâd ymarhôus mewn gweithredoedd da, ac ysbryd i ymaros yn dawel am amser yr Arglwydd Iesu i'w gwared hwy o'u holl drallodion. Gan y crybwyllir am "Dduw," a "Christ," yn niwedd yr adnod, tybir mai yr Ysbryd Glân a feddylir wrth yr "Arglwydd," yn nechreu yr adnod.

6 * Ac yr ydym yn gorchymyn i chwi, frodyr, [p] yn enw ein Harglwydd Iesu Grist, [q] † dynnu o honoch ymaith oddi wrth bob brawd ‡ a'r sydd [r] yn rhodio yn afreolus, ‖ ac nid [s] yn ol y traddodiad a dderbyniodd efe gennym ni.

p 1 Cor. 5. 4. 2 Cor. 2. 10. Eph. 4. 17. Col. 3. 17. 1 Thes. 4. 1. 1 Tim. 5. 21. a 6. 13, 14. 2 Tim. 4. 1. q adn. 14, 15. Mat. 18. 17. Rhuf. 16. 17. 1 Cor. 5. 11—13. 1 Tim. 6. 5. 2 Tim. 3. 5. Heb. 12. 15, 16. 3 Ioan 10. 11. r adn. 7, 11, 12. 1 Thes. 4. 11. a 5. 14. s adn. 10, 14—Gwel ar pen. 2. 15.

* Yr oedd yr eglwys yn Thessalonica yn gyffredin yn haeddu canmoliaeth fawr; ond yr oedd achos i'r apostol lefaru mewn modd awdurdodol, ceryddol, a gocheliadol, mewn un peth, am yr hyn y rhoddodd led-grybwylliad o'r blaen, 1 Thes. 4. 11, 12. Am hyny mae yma yn gorchymyn iddynt gydag awdurdod apostolaidd a thadol, yn enw yr Arglwydd Iesu Grist, os oeddynt yn parchu ei awdurdod ef, ac yn gwerthfawrogi ei gymeradwyaeth, ei ewyllys da, a'i ogoniant ef; † ar iddynt dynu ymaith, ac ymneilldu oddi wrth bob un a elwid yn frawd cristionogol yn yr eglwys, ‡ yr hwn oedd yn rhodio yn afrëolus, ac fel milwr yn cilio o'i renc, neu y lle y gosodwyd ef yn y fyddin; pob un a fynai rodiena mewn segurdod, ymyraeth â materion rhai eraill, ac fel hyny niweidio cysur a heddwch teuluaidd, eglwysig, a chymmydogaethol, a dwyn dianrhydedd a gwarth mawr ar grefydd. ‖ Yr oedd ymddygiad felly yn llwyr groes i'r traddodiad, neu yr addysg a gawsai y cyfryw gan yr apostol a'i frodyr, pan oeddynt yn Thessalonica, ac a dderbyniasent ganddynt yn yr epistol o'r blaen, (gwel ar pen. 2. 15.) neu a welsent yn eu hymarweddiad personol hwynt. *Gorchymyn:* gorchymyn oddi wrth arall, (sef oddi wrth Grist) medd *Pool*, yw ystyr y gair gwreiddiol. *Tynu ymaith:* gwahardd y cyfryw un i gymundeb, a pheidio cymdeithasu âg ef, fel y cywilyddio, adn. 14. Dywedir fod yma gyfeiriad at forwyr, yn hwylio oddi amgylch i ochelyd craig. Ymgadw rhag y peth hwnw, y byddo awyddfryd y meddwl yn tynu un ato: fel Joseph yn llefaru yn arw wrth ei frodyr, er eu lles, er bod ei galon ar yr un pryd yn llawn o gariad atynt. Dywed *Pool* nad yw y "tynu ymaith" hwn yn arwyddo diaelodi. *Afrëolus:* gwel ar 1 Thes. 5. 14.

7 * Canys chwi a wyddoch eich hunain [t] pa fodd y dylech ein dilyn ni: [u] † oblegid ni buom afreolus yn eich plith chwi,

t adn. 9. 1 Cor. 4. 16. a 11. 1. Phil. 3. 17. a 4. 9. 1 Thes. 1. 6, 7. 1 Tim. 4. 12. Tit. 2. 7. 1 Pedr 5. 3. u adn. 6. 1 Thes. 2. 10.

* Gwyddai y Thessaloniaid eu hunain oll yn dda, "pa fodd," ac yn mha ystyriaethau, y dylasent ddilyn a thebygu i'r apostol a'i frodyr; † oblegid ni buasent hwy afrëolus mewn dim yn eu plith hwynt; ni buont esgeulus yn eu dyledswydd fel cristionogion a gweinidogion yr efengyl, ni buont segur a diog yn eu galwedigaeth; ac ni wnaethent ddim i ddrygu teuluoedd neu gymdeithas ddynol.

8 * Ac ni [x] fwyttasom fara neb yn rhad; [y] † ond trwy weithio mewn llafur a lludded, [z] ‡ nos a dydd, ‖ fel na phwysem ar neb o honoch chwi:

x adn. 12. Diar. 31. 27. Mat. 6. 11. y Act. 18. 3. a 20. 34. 1 Cor. 4. 12. 2 Cor. 11. 9. 1 Thes. 4. 11. z Gwel ar 1 Thes. 2. 9.

* Ac yn arbenig ni fwytasent fara neb yn rhad; ni buont fyw mewn segurdod ar draul dynion eraill; † ond i'r gwrthwyneb, hwy a weithiasent yn galed mewn llafur a lludded, i ennill bywioliaeth iddynt eu hunain; ‡ a hyny yn aml ar hyd y nos, pryd nad oedd y dydd yn ddigon iddynt i ennill cynnaliaeth, neu fel y caent y dydd at waith y weinidogaeth. ‖ Fel hyn ymgadwasant rhag pwyso ar neb o'r Thessaloniaid, fel na byddai hyny yn achos o ragfarn i neb yn erbyn yr efengyl, ac fel y rhoddent esampl o ddiwydrwydd gweithgar i bawb.

9 [a] * Nid o herwydd nad oes gennym awdurdod, † ond [b] fel y'n rhoddem ein hunain yn siampl i chwi i'n dilyn.

a Mat. 10. 10.—Gwel ar 1 Cor. 9. 4—14.—Gal. 6. 6. 1 Thes. 2. 6. b Gwel ar t. adn. 7.—Ioan 13. 15. 1 Pedr 2. 21.

* Er bod yr apostol a'i frodyr yn gweithio er eu cynnal eu hunain yn ddibwys ar yr eglwys; eto mae yn rhoddi ar ddeall iddynt, mai nid am nad oedd ganddynt awdurdod i gael eu cynnal ganddynt hwy, yr oeddynt yn gwneuthur fel hyn: yr oedd ganddynt hawl gyfiawn i gael eu cynnal gan yr eglwys, yn ol natur eu swydd, yn ol rheswm pethau, ac yn ol gorchymyn Crist. Gwel ar 1 Cor. 9. 4—14. † Ond yr oeddynt yn dewis ymwadu

â'r awdurdod hyny, a pheidio pwyso ar yr eglwys, a gweithio yn galed nos a dydd, fel y rhoddent eu hunain yn siampl i'r Thessaloniaid i'w dilyn. Cofied yr eglwysi, bod awdurdod Crist gan weinidogion y gair i gael eu cynnal ganddynt, pa un bynag a ymostyngant hwy i'r awdurdod hòno neu beidio; a chofied gweinidogion, beidio sefyll yn rhŷ dyn ar yr awdurdod hòno.

10 * Canys [c] pan oeddym hefyd gyd â chwi, hyn a orchymynasom i chwi, [d] † Os byddai neb ni fynnai weithio, na chai fwytta chwaith.

c Luc 24. 44. Ioan 16. 4. Act. 20. 18. d Gen. 3. 19. Diar. 13. 4. a 20. 4. a 21. 25. a 24. 30—34.

* Efallai i'r apostol a'i frodyr ganfod tuedd i segurdod a diogi mewn rhai yn eglwys Thessalonica, pan oeddynt yno gyda hwynt; dynion yn gwneyd crefydd yn esgus dros ddiofalwch mewn pethau bydol, ac yn tueddu i fyw ar haelioni a llettygarwch eu brodyr mwy diwyd, heb weithio yn eu gorchwylion a'u galwedigaethau eu hunain. Gallai hyn ddechreu yn mhoethder y diwygiad, pan oedd dynion yn ngwres eu cariad cyntaf, yn dueddol i anghofio a dibrisio pob peth o natur fydol a daearol, gan awydd eu hysbryd i ganlyn moddion gras; † ond yr oedd niwed yn y cyfryw duedd ac arferiad o hir barâu ynddo; am hyny yr oedd yr apostol wedi gorchymyn y pryd hwnw, ac yn gorchymyn eilwaith yr awr hon, os byddai neb ni fynai weithio er ei fywioliaeth ei hun, na chaffai fwyta chwaith ar draul dynion eraill: dylent gael eu gadael i ddyoddef newyn ac angen, fel y gorfyddai arnynt weithio yn ol eu dyledswydd.

11 * Canys yr ydym yn clywed fod rhai yn [e] rhodio yn eich plith chwi yn afreolus, [f] † heb weithio dim, ‡ ond bod yn rhodresgar.

e Gwel ar r. adn. 6. f 1 Tim. 5. 13. 1 Pedr 4. 15.

* Yr oedd yr apostol yn adgoffa, ac yn ail roddi y gorchymyn uchod i'r Thessaloniaid, o herwydd ei fod yn clywed o hyd, fod rhai yn rhodio yn afrëolus yn eu plith hwynt; † a'r afrëolaeth hyny oedd, bod yn segur, heb weithio dim yn eu galwedigaeth, ond byw ar gost rhai eraill; ‡ a bod yn rhodresgar, yn crwydro oddi amgylch, yn cario chwedlau o dŷ i dŷ, yn ymyraeth â materion rhai eraill; ac fel hyny yn ennyn angharîad a therfysg rhwng cymmydogion, a rhwng brodyr a chwïorydd yn yr eglwys. Mae llawer gormod o hyn eto yn mhlith ein cenedl ni, yn enwedig yn y trefydd.

12 * Ond i'r cyfryw [g] gorchymyn yr ydym, a'u hannog trwy ein Harglwydd Iesu Grist, [h] † ar *iddynt* weithio trwy lonyddwch, ‡ a [i] bwytta eu bara eu hunain.

g Gwel ar p. adn. 6. h Gen. 49. 14, 15. Diar. 17. 1. Preg. 4. 6. 1 Thes. 4. 11. 1 Tim. 2. 2. i Gwel ar adn. 8.—Luc 11. 3.

* I'r cyfryw rai mae yr apostol yn gorchymyn eto, ac yn eu hannog trwy awdurdod yr Arglwydd Iesu Grist, fel yr oeddynt yn dymuno sefyll yn gymmeradwy ger bron ei orsedd-fainc ef; am iddynt beidio â'r afrëolaeth, y segurdod, a'r rhodres uchod; † ar iddynt weithio trwy lonyddwch a diwydrwydd; gadael achos pawb yn llonydd ond eu hachosion eu hunain; ‡ ac fel hyny bwyta eu bara eu hunain, ac nid byw ar lafur a diwydrwydd rhai eraill. Gwel ar 1 Thes. 4. 11.

13 * A [k] chwithau, frodyr, † na ddiffygiwch yn gwneuthur daioni.

k Es. 40. 30, 31. Mal. 1. 13. Rhuf. 2. 7. 1 Cor. 15. 58. Gal. 6. 9, 10. Phil. 1. 9. 1 Thes. 4. 1. Heb. 12. 3.

* Am y rhai eraill o honynt ag oedd yn gwneuthur daioni, ac yn mhob peth yn harddwch i'w proffes; † mae yr apostol yn cyngori y rhai hyny na ddiffygient yn gwneuthur daioni. Gan fod y cam ddefnydd a wnelai rhai, o haelioni ac elusengarwch eu brodyr, yn tueddu i oeri elusengarwch cristionogol; tybiai yr apostol yn angenrheidiol rhoi gocheliad iddynt, na ddiffygient yn y daioni hyn nac unrhyw ddaioni arall, lle byddai cyfle addas, a gwrthddrychau teilwng.

14 * Ond od oes neb [l] heb ufuddhâu i'n gair trwy y llythyr *yma*, [m] † hysbyswch hwnnw; ‡ ac na fydded i chwi gymdeithas âg ef, [n] megis y cywilyddio efe.

l Deut. 16. 12. Diar. 5. 13. Zec. 3. 2. 2 Cor. 2. 9. a 7. 15. a 10. 6. Phil. 2. 12. 1 Thes. 4. 8. Philemon 21. Heb. 13. 17. m adn. 6. Mat. 18. 17. Rhuf. 16. 17. 1 Cor. 5. 11. Tit. 3. 10. n Num. 12. 14. Ezra 9. 6. Salm 83. 16. Jer. 3. 3. a 6. 15. a 31. 18—20. Ezec. 16. 61—63. a 36. 31, 32. Luc 15. 18—21.

* Os byddai neb yn eu plith yn dàl yn gyndyn i anufuddâu i'r gorchymyn hwn, a roddwyd gan yr apostol a'i frodyr gyda chymmaint o bwys, difrifwch, ac awdurdod, i weithio trwy lonyddwch, a bwyta eu bara eu hunain; † cyngorai efe y brodyr eraill i hysbysu y dyn hwnw; i'w nodi ef allan, trwy ryw arwydd o hollawl anghymmeradwyaeth; ei attal ef i gymundeb, efallai, os nid ei ddiaelodi ef yn gwbl: ‡ a gwaharddai yr apostol i bawb o honynt gyd gymdeithasu yn gyfeillgar iawn â'r cyfryw, fel y cywilyddiai efe, ac y delai i edifeirwch am ei fai a'i gyndynrwydd yn y bai. Fel yr *adferer ef trwy gywilydd*, meddant, yw ystyr y gair *entrapê. Hysbyswch hwnw:* gosodwch nôd o warth arno, fel yr adnabyddo ac y gochelo pawb ef, fel y gwnai y barnwyr Rhufeinig â dynion drwg a gwarthus. Bu cyd-gymdeithasu â dynion afrëolus dàn ddysgyblaeth eglwysig, dàn y rhith o gariad atynt, o fwy niwed na lles i'r cyfryw ddynion lawer gwaith: yn lle cywilyddio am eu bai, mae hyn yn eu cryfâu ynddo, ac yn eu caledu mewn anedifeirwch.

15 * Er hynny [o] na chymmerwch *ef* megis gelyn, † eithr [p] cynghorwch *ef* ‡ fel brawd.

o Lef. 19. 17, 18. 1 Cor. 5. 5. 2 Cor. 2. 6—10. a 10. 8. a 13. 10. Gal. 6. 1. Judas 22, 23. p Salm 141. 5. Diar. 9. 9. a 25. 12. Mat. 18. 15. 1 Cor. 4. 14. Iago 5. 19, 20.

* Ar yr un pryd, nid oeddynt mewn un modd i ddangos drwg-ewyllys iddo, neu wneuthur niwed iddo, fel pe byddai elyn; † ond yr oeddynt i geisio ei adferu ef trwy bob math o gyngorion caredig a ffyddlawn, ‡ gan ei ystyried ef o hyd fel brawd, er ei fod wedi colli ei le, a'i oddiwes mewn bai. Mae gwahaniaeth mawr rhwng *cyngori* dyn beïus fel brawd, â *chymdeithasu* âg ef fel pe byddai frawd difai: *cymdeithasu* heb *gyngori* a waherddir, a *chyngori* heb *gymdeithasu* a orchymynir.

16 * Ac [q] Arglwydd y tangnefedd ei hun [r] a roddo i chwi dangnefedd † yn wastadol ym mhob modd. [s] ‡ Yr Arglwydd *a fyddo* gyd â chwi oll.

q Salm 72. 3, 7. Es. 9. 6, 7. Zec. 6. 13. Luc 2. 14. Ioan 14. 27. Rhuf. 15. 33. a 16. 20. 1 Cor. 14. 33. 2 Cor. 5. 19—21. a 13. 11. Eph. 2. 14—17. 1 Thes. 5. 23. Heb. 7. 2. a 13. 20. r Num. 6. 26. Barn. 6. 24. Salm 29. 11. a 85. 8—10. Es. 26. 12. a 45. 7. a 54. 10. a 66. 12. Hag. 2. 9. Ioan 16. 33.—Gwel ar Rhuf. 1. 7.—Phil. 4. 7—9. s adn. 18. 1 Sam. 17. 37. a 20. 13. Salm 46. 7, 11. Es. 8. 10. Mat. 1. 23. a 28. 20. 2 Tim. 4. 22. Philemon 25.

* Yma mae yr apostol yn gweddio, ar yr Arglwydd Iesu Grist, y Tangnefeddwr mawr gyda'r Tad, ac Awdwr mawr pob tangnefedd i ddynion, ar iddo roddi tangnefedd i'r Thessaloniaid, yn eu calonau a'u cydwybodau, tuag at eu gilydd a thuag at bawb; † a hyny yn wastadol ac yn mhob modd, yn ei ragluniaeth, trwy ei ras, trwy lafur ei weinidogion, trwy eu cyd-ymgais hwy i feithrin tangnefedd tuag at eu gilydd, a thrwy eu gweddïau dros eu gilydd: ‡ ac mae yn gweddio hefyd am i'r Arglwydd Iesu fod gyda hwy oll, fel unig Awdwr cysur a sancteiddrwydd yn eu heneidiau.

17 * Yr annerch [t] â'm llaw i Paul fy hun; † yr hyn sydd [u] arwydd ym mhob epistol: ‡ fel hyn yr ydwyf yn ysgrifenu.

t 1 Cor. 16. 21. Col. 4. 18. u Gwel ar pen. 1. 5.—Jos. 2. 12. 1 Sam. 17. 18.

* Tra byddai Paul ei hun yn gweithio â'i ddwylaw er ei gynnaliaeth, byddai rhyw ysgrifenydd medrus a chyflym yn ysgrifenu ei epistolau drosto, ac air yn air o'i enau, a thàn ei gyfarwyddyd ef; ac mae yn dra thebygol y byddai rhai dynion twyllodrus yn cymmeryd mantais ar hyny i ddanfon llythyrau at yr eglwysi,

wedi ffugio ei enw ef wrthynt: (gwel ar pen. 2. 2.) gan hyny mae efe yn ysgrifenu yr anerch â'i law ei hun; † a hyn oedd yr arwydd yn mhob epistol o'r eiddo ef, ei fod yn dyfod mewn gwirionedd oddi wrtho ef ei hun: ‡ fel hyn yr oedd yn ysgrifenu ar ddiwedd pob un o honynt. Efallai bod y "fel hyn yr wyf yn ysgrifenu" yn cyfeirio at *hun*, neu *dòriad y llythyrenau*, yn ysgrifen-law Paul, yr hyn nis gallai neb yn hawdd ei ddynwared na'i ffugio.

18 [x] * Gras ein Harglwydd Iesu Grist † *fyddo* gyd â chwi oll. ‡ Amen.

x Gwel ar Rhuf. 16. 20, 24.

* Yn olaf, mae yn gweddïo am i rad gariad ac ewyllys da yr Arglwydd a'r Iachawdwr Iesu Grist, yr hyn a gynnwys yr holl amlygiadau o'i gariad, a'r cyfraniadau o'i ras ef, eu ffrwythau a'u heffeithiau; † i fod yn wastad gyda'r Thessaloniaid oll, a chyda phob un o honynt yn bersonol: ‡ ac fel tystiolaeth o ddiragrithrwydd a gwresawgrwydd ei ddymuniad, ac o'i obaith hyderus mai felly y byddai, mae yn dywedyd o'i galon, Amen.

¶ Yr ail at y Thessaloniaid, a ysgrifenwyd o Athen.

EPISTOL CYNTAF PAUL YR APOSTOL

AT

TIMOTHEUS.

PEN. I.

Paul yn dwyn ar gôf i Timotheus y siars a roddasai efe iddo, wrth fyned i Macedonia.

*PAUL, [a] apostol Iesu Grist [b] † yn ol gorchymyn [c] Duw ein Hiachawdwr, ‡ a'r Arglwydd Iesu Grist, [d] || ein gobaith;

a Gwel ar Rhuf. 1. 1. 1 Cor. 1. 1. b pen. 2. 7. Act. 9. 15. a 26. 16—18. 1 Cor. 9. 17. Gal. 1. 1, 11. 2 Tim. 1. 11. Tit. 1. 3. c pen. 2. 3. a 4. 10. Salm 106. 21. Es. 12. 2. a 43. 3, 11. a 45. 15 21. a 49. 26. a 60. 16. a 63. 8. Hos. 13. 4. Luc 1. 47. a 2. 11. 2 Tim. 1. 10. Tit. 1. 3. a 2. 13. a 3. 4, 6. 2 Pedr 1. 1. 1 Ioan 4. 14. Jude 25. d Rhuf. 15. 12, 13. Col. 1. 27. 2 Thes. 2. 16. 1 P dr 1. 3, 21.

* Paul, yr hwn sydd apostol Iesu y gwir Messiah, † yn ol awdurdod, gorchymyn, a threfniad grasol Duw y Tad, yr hwn yw trefnydd a lluniaethydd cyntaf holl ddyfais ryfedd yr iachawdwriaeth; ‡ a Iesu Grist, yr Arglwydd a'r Gwaredwr mawr; || yr hwn yw awdwr, gwrthddrych, a sylfaen ein holl obaith tuag at Dduw, mewn cyferbyniad i bob hyder ar weithredoedd y ddeddf, am gyfiawnâd a bywyd tragywyddol. Mae y geiriau uchod yn dangos y Tad fel yn arfaethu iachawdwriaeth i bechaduriaid, yn llunio y drefn o hóni, ac yn rhoddi ei briod Fab mewn dynoliaeth i fod yn Iachawdwr; ond cyssylltai yr apostol yr Arglwydd Iesu hefyd yn rhoddiad y gorchymyn uchod, fel yn un â'r Tad, mewn hanfod, awdurdod, a chyngor: a galwai ef yn "obaith;" am fod holl obaith pawb o'r saint am fywyd tragywyddol ar ei Berson, ei gyfiawnder, ei aberth, a'i gyfryngdod ef.

2 * At [e] Timothëus, [f] † *fy* mab naturiol yn y ffydd: [g] ‡ Gras, trugaredd, *a* thangnefedd oddi wrth Dduw ein Tad, a Christ Iesu ein Harglwydd.

e Gwel ar Act. 16. 1—3.—1 Thes. 3. 2. f adn. 18. 1 Cor. 4. 14—17. Phil. 2. 19—22. 2 Tim. 1. 2. a 2. 1. Tit. 1. 4. g Gwel ar Rhuf. 1. 7.—2 Tim. 1. 2. Tit. 1. 4. 1 Pedr 1. 2.

* Cawn hanes Timothëus yn Act. 16. 1—3; 2 Tim. 1. 5; a 3. 15: gwel ar y mànau hyny, ac amryw fànau eraill lle mae crybwylliadau am dano. † Mae yr apostol yn ei gyfarch ef yn anwylaidd iawn, fel ei "fab naturiol," neu ei fab *gwirioneddol* yn y ffydd: yn ol pob tebygolrwydd efe a fu yn offerynol yn ei dröedigaeth ef i'r ffydd; efe a'i dysgodd, ac a'i dygodd ef i fynu megys, yn yr efengyl; ac yr oedd Timothëus yn ei barchu yntau, ac yn gwasanaethu gydag ef yn y weinidogaeth, fel plentyn ufudd gyda thad caredig. ‡ Yn nghyflawnder ei gariad at Timothëus, mae efe yn chwanegu y gair "trugaredd" at ei gyfarchiad cyffrediniol yn ei epistolau eraill; neu efallai bod profedigaethau aml, a gwaith mawr Timothëus, yn gofyn cysur a chynnaliaeth neilldduol, o drugaredd yr Arglwydd tuag ato. Yr un modd mae yn ei gyfarch yn yr ail epistol, ac yn cyfarch Titus hefyd, (Tit. 1. 4.) gyda'r gair chwanegol hwn. Sylwyd eisoes ar y cyfarchiad hwn, ond y gair "trugaredd," yn yr epistolau blaenorawl.

3 * Megis y deisyfais arnat aros [h] yn Ephesus, [i] pan aethum i Macedonia, † fel y gellit [k] rybuddio rhai na ddysgont ddim amgen,

h Act. 19. 1, &c. i Act. 20. 1—3. k pen. 4. 6, 11. a 5. 7. a 6. 3, 17. Gal. 1. 6, 7. Eph. 4. 14. Col. 2. 6—11. Tit. 1. 9—11. 2 Ioan 7. 9, 10. Dat. 2. 1, 2, 14, 20.

4 ‡ Ac na ddaliont [l] ar chwedlau, || ac [m] achau anorphen, § y rhai sydd yn peri [n] cwestiynau yn hytrach nag [o] adeiladaeth dduwiol, yr hon sydd trwy ffydd; *gwna felly.*

l pen. 4. 7. a 6. 20. 2 Tim. 2. 16—18. a 4. 4. Tit. 1. 14. 2 Pedr 1. 16. m Tit. 3. 9. n pen. 6. 4, 5. 2 Tim. 2. 23. o pen. 3. 16. a 6. 3, 11. 2 Cor. 1. 12. a 7. 9, 10. Eph. 4. 12—16. Tit. 1. 1. Heb. 13. 9.

* Yn Act. 19. 23, &c., cawn hanes am yr erlid mawr a fu ar Paul yn Ephesus, ac yn Act. 20. 1, &c., cawn hanes am y mynediad hwn o'r eiddo ef i Macedonia; pryd y bernir iddo ddeisyf ar Timothëus aros yn Ephesus, am ryw yspaid o amser ar ei ol ef. Tybir i'r apostol ddanfon y llythyr hwn at Timothëus i Ephesus, yn fuan ar ol ei ymadawiad ef oddi yno; ac os felly, rhaid mai o Macedonia yr ysgrifenwyd ef, ac nid o Laodicea, fel y dywedir yn yr ol-ysgrifen: ond nid oes sicrwydd am y lle na'r amser. † Ei ddyben yn gadael Timothëus ar ei ol yn Ephesus oedd, fel y gallai rybuddio rhyw ddynion yno, neu rai a ddeuent yno, na phregethent hwy ddim athrawiaethau ond yr hyn oedd ef wedi eu pregethu a'u dysgu o'r blaen: byddai yr athrawon Iuddewaidd yn sicr o gymmeryd mantais ar absenoldeb yr apostol i bregethu eu daliadau hwy; a gwyddai efe yn dda, eu bod hwy yn dra gwresog dros ‡ chwedlau a thraddodiadau yr hynafiaid a'r Phariseaid, yn gystal â thros y ddeddf seremoniol. Ond yr oedd yn angenrheidiol rhybuddio yr Ephesiaid i beidio gwneyd sylw o'r chwedlau hyn; || nac ychwaith o'r "achau annorphen" oedd gan y gau athrawon hyn, am eu disgyniad o Abraham, neu y patriarchiaid, neu o Aaron, neu Dafydd; ar gyfrif yr hyn y tybient hwy fod ganddynt hawl i ragor-freintiau arbenig. § Yr oedd yr achau hyn yn arwain i ddyryswch a dadleuon annorphen, ac i lawer o holiadau anhawdd eu hateb, ac ymrafaelion anfuddiol; yn magu rhyfyg cnawdol a thymerau hunanol, yn fwy nac adeiladaeth mewn duwioldeb a sancteiddrwydd calon a buchedd; yr hyn oedd i gael ei feithrin yn unig trwy ffydd yn ngwirionedd addewidion Duw trwy Iesu Grist. *Achau annorphen:* nid achau ysgrythyrol oedd y rhai hyn, ond eu hachau meithion a dyrys hwy eu hunain, trwy y rhai yr oeddynt yn profi eu hunain yn Iuddewon, yn Lefiaid, yn offeiriaid, a'r cyffelyb: at yr hyn gallwn chwanegu âch a bonedd eu traddodiadau hwynt, y rhai a olrheinient hir oesoedd yn ol, trwy ddwylo llawer o *ddoctoriaid.* Tybia rhai yn wir, mai dychymmygion ynfyd ac annealladwy y Gwybedyddion (*Gnosticks*) a chyfeiliornwyr eraill, a feddylir wrth yr "achau" hyn; y rhai a synient bethau digrif iawn, a hollawl gyfeiliornus, am Dduw, am yr enaid, am ddechreuad y byd, ac a wadent ddydd y farn: ond mae yn debyg nad oedd y rhai hyny wedi dechreu mòr fore ag amser Paul.

5 * Eithr [p] diwedd y gorchymyn yw [q] cariad † o [r] galon bur, ‡ a [s] chydwybod dda, ‖ a [t] ffydd ddiragrith.

p Rhuf. 10. 4. a 13. 8—10. Gal. 5. 13, 14, 22. 1 Ioan 4. 7—14. q Marc 12. 28—34. Rhuf. 14. 15. 1 Cor. 8. 1—3. a 13. a 14. 1. 1 Pedr 4. 8. 2 Pedr 1. 7. r Salm 24. 4. a 51. 10. Jer. 4. 14. Mat. 5. 8. a 12. 35. Act. 15. 9. 2 Tim. 2. 22. Iago 4. 8. 1 Pedr 1. 22. 1 Ioan 3. 3. s adn. 19. pen. 3. 9. Act. 23. 1. a 24. 16. Rhuf. 9. 1. 2 Cor. 1. 12. 2 Tim. 1. 3. Tit. 1. 15. Heb. 9. 14. a 10. 22. a 13. 18. 1 Pedr 3. 16, 21. t Gal. 5. 6. 2 Tim. 1. 5. Heb. 11. 5, 6. 1 Ioan 3. 23.

* Wrth y "gorchymyn" yma mae rhai yn deall y ddeddf foesol; diwedd, neu sylwedd pa un yw cariad at Dduw a dyn. Tybia eraill mai y datguddiad a roddes Duw i ddynion trwy yr efengyl, a feddylir; diwedd, neu ddyben pa un yw, adferu pechaduriaid syrthiedig, i'r cariad a orchymynir yn y ddeddf. Ond tybia eraill mai y gorchymyn a roddasai Paul i Timothëus, pan y gadawodd efe ef yn Ephesus, a feddylir, sef y gorchymyn i rybuddio rhai na ddysgent ddim amgen, adn. 3: ac mae yn debyg mai hyn yw y gwir ddehongliad; oblegid fel hyn mae yn cyfeirio at y ddeddf fel rhëol dyledswydd, ac at brif ddyben yr efengyl hefyd. † Rhaid i'r cariad hwn a grybwyllir darddu o "galon bur," o enaid wedi ei adnewyddu trwy ras, a chwedi ei lanâu oddi wrth gariad ac halogrwydd pechod, ac oddi wrth elyniaeth a hunan cnawdol. ‡ Rhaid ei fod yn tarddu hefyd oddi ar gydwybod dda; cydwybod wedi ei iawn oleuo am ewyllys Duw, wedi ei gwneyd yn dyner a deffro gan ras Duw, ac wedi ei phuro oddi wrth cuogrwydd gan waed Crist, fel y byddo ei pherchenog yn gweithredu yn gydwybodol yn mhob peth. ‖ Yn olaf, rhaid ei fod yn deilliaw o ffydd ddiragrith; neu wir grediniaeth yn y tystiolaethau dwyfol, y gwirioneddau datguddiedig yn yr ysgrythyrau; ymorphwysiad ar Grist, ac ar addewidion Duw ynddo a thrwyddo ef. Y pethau hyn oedd sylwedd yr athrawiaeth a orchymynasai Paul i Timothëus ei phregethu yn Ephesus, a'i hamddiffyn yn wyneb y rhai a fynent ddysgu pethau eraill.

6 * Oddi wrth yr hyn bethau y [u] gwyrodd rhai, † ac [x] y troisant heibio at ofer-siarad;

u pen. 6. 21. 2 Tim. 2. 18. x pen. 5. 15. a 6. 4, 5, 20. 2 Tim. 2. 23, 24. Tit. 1. 10. a 3. 9.

* Oddi wrth y cariad, y galon bur, y gydwybod dda, a'r ffydd ddiragrith uchod, yr oedd rhai proffeswyr crefydd wedi gŵyro, wedi methu y nôd, a chrwydro ar gyfeiliorn, yn eu *zêl* dros gyflawniadau deddfol, a thraddodiadau dynol. † Fel hyn hwy a droisent heibio oddi wrth y pethau daionus uchod, ac a ddyryswyd mewn "ofer-siarad," a dadleuon poethion, yn nghylch pynciau ammheüus o ychydig iawn o bwys a gwerth.

7 * Gan ewyllysio [y] bod yn athrawon o'r ddeddf, [z] † heb ddeall na pha bethau y maent yn eu dywedyd, nac am ba bethau y maent yn taeru.

y Act. 15. 1. Rhuf. 2. 19—21. Gal. 3. 2, 5. a 4. 21. a 5. 3, 4. Tit. 1. 10, 11. z pen. 6. 4. Es. 29. 13, 14. Jer. 8. 8, 9. Mat. 15. 14. a 21. 27. a 23. 16—24. Ioan 3. 9, 10. a 9. 40, 41. 2 Tim. 3. 7. 2 Pedr 2. 12.

* Er bod y dynion hyn wedi gŵyro a chyfeiliorni fel y dywedwyd uchod, eto, cymmerent arnynt fod, ac ewyllysient yn fawr i bawb feddwl eu bod, yn athrawon o'r ddeddf, yn Rabbiniaid a Doctoriaid y gyfraith; a chwennychent arfer y swydd hòno yn mhlith cristionogion, er ennill parch, a chael eu galw yn Rabbi. † Ond nid oedd y rhai annwybodus hyn yn deall y pethau oeddynt yn ddywedyd, nac am ba bethau yr oeddynt yn taeru: yr oeddynt yn siarad, yn baldordd, ac yn taeru, mewn dull annyben a dyrys ar bynciau cyffredin; heb ddeall natur a dyben ysbrydol y ddeddf foesol, yr hon a gymmerent arnynt ei hegluro; na meddwl ysbrydol y seremonïau cysgodawl; y rhai oedd y pryd hwn wedi diflanu, ond a geisient hwy eu cadw i fynu mewn grym.

8 * Eithr nyni † a wyddom mai [a] da *yw* y gyfraith, ‡ os arfer dyn hi yn [b] gyfreithlawn;

a Deut. 4. 6—8. Neh. 9. 13. Salm 19. 7—10. a 119. 96—105, 127, 128. Rhuf. 7. 12, 13, 16, 18, 22. a 12. 2. Gal. 3. 21. b 2 Tim. 2. 5.

* Ond am yr apostol ei hun, a holl weinidogion cymhwys y Testament Newydd, ac yn wir yr holl gristionogion oedd wedi eu goleuo a'u sefydlu; † hwy a wyddent mai da oedd y gyfraith ynddi ei hun, ac i'r dyben y bwriadodd Duw hi, ‡ os arferai dyn hi yn gyfreithlawn, yn ol ei gwir feddwl a'i hystyr, ac yn ol dyben y Deddfwr mawr yn y rhoddiad o hóni. Mae y ddeddf foesol yn sanctaidd, yn gyfiawn, ac yn dda, yn briodol i natur y Duw a'i rhoddodd, a natur y dyn a'i cafodd; ac yn addas i berthynas dynion â Duw ac â'u gilydd. Ië, yr oedd i'r ddeddf seremonïol ddaioni perthynasol, am amser, fel yr oedd yn cysgodi Crist a phethau da yr efengyl: ac yr oedd holl oruchwyliaeth Moses yn dda; fel yr oedd yn neillduo Israel oddi wrth genedloedd eraill, yn rhoddi moddion o ras iddynt, ac yn arwain i mewn yr efengyl a'r grefydd gristionogol. Ond gwasgu y ddeddf seremonïol ar gristionogion, neu annog dynion i ymddiried yn ngweithredoedd y ddeddf foesol am gyfiawnâd; nid arfer y gyfraith yn gyfreithlawn oedd hyny, oblegid yr hyn ni allai y ddeddf oedd hyny.

9 * Gan wybod hyn, [c] nad i'r cyfiawn † y rhoddwyd y gyfraith, ‡ eithr i'r [d] *rhai* digyfraith ac [e] anufudd, ‖ i'r *rhai* [f] annuwiol a phechaduriaid, § i'r *rhai* disanctaidd a [g] halogedig, [h] * i dad-leiddiaid a mam-leiddiaid, [i] i leiddiaid dynion,

c Rhuf. 4. 13—16. a 5. 20. a 6. 14. Gal. 3. 10—14, 19. a 5. 23. d 2 Thes. 2. 8. e Rhuf. 1. 30. Tit. 1. 16. a 3. 3. Heb. 11. 31. 1 Pedr 2. 7. a 3. 20. f 1 Pedr 4. 18. g Jer. 23. 11. Ezec. 21 25. Heb. 12. 16. h Lef. 20. 9. Deut. 27. 16. 2 Sam. 16. 11. a 17 1—4. 2 Bren. 19. 37. 2 Cron. 32. 21. Diar. 20. 20. a 28. 24. a 30 11, 17. Mat. 10. 21. i Gen. 9. 5, 6. Ex. 20. 13. a 21. 14. Num 35. 30—33. Deut. 21. 6—9. Diar. 28. 17. Gal. 5. 21. Dat. 21. 8. a 22. 15.

* Wrth y "cyfiawn" yma, rhaid deall y rhai sydd wedi eu cyfiawnâu yn Nghrist, trwy gyfrifiad o'i gyfiawnder ef; oblegid nid oes neb cyfiawn yn nghyfrif Duw mewn un ffordd arall: † a rhoddwyd y gyfraith i'r cyfiawn yn gystal ag eraill, i fod yn rhëol ymarweddiad iddo; ond ni roddwyd hi i *euog-farnu* y cyfiawn, "yn *erbyn* y cyfryw nid oes ddeddf." Nid yw cyfreithiau yn gyffredin yn cael eu rhoddi i attal na chondemnio y deiliaid ufudd a ffyddlawn; ond y rhai anufudd a gwrthryfelgar: felly y mae hefyd gyda golwg ar gyfraith Duw; ‡ ei dyben, mewn ystyr *gospedigawl*, yw attal a chondemnio y digyfraith a'r anufudd, y rhai ni fynant ymostwng i gyfraith Duw, ond a ddangosant eu gelynaieth ati a'u dirmyg o hóni, yn eu hymarweddiad allanol. ‖ Ar ol yr enwau cyffredin o "ddigyfraith ac anufudd," mae yr apostol yn crybwyll y "rhai annuwiol a phechaduriaid;" neu y rhai a esgeulusant eu dyledswyddau tuag at Dduw a'u cymmydogion; y rhai nid ofnant Dduw, ac ni pharchant ddyn; y rhai o dòrant ei orchymynion sanctaidd ef yn wirfoddol; ac a addolant gau-dduwiau fel paganiaid eilun-addolgar § Crybwylla hefyd y "rhai di-sanctaidd a halogedig;" yr hyn a gyfeiria mae yn debyg at yr aflendid a'i brynti ffiaidd iawn, yr oedd lluoedd yn ymdrybaeddu ynddynt, yn enwedig y paganiaid. * Yn nesaf mae yn enwi rhes o bechodau neilldiol, o'r fath mwyaf erchyll ac ysgeler; ac yn gyntaf dynion yn lladd eu tadau, a'u mamau, ac yn lladd eu gilydd: ar hyn nid oes achos manylu, diau fod llawer o hyn yn mhlith y paganiaid, ac weithiau yn mhlith yr Iuddewon hefyd, dàn rith o zêl dros eu cyfraith a'u crefydd, ac o elyniaeth at yr efengyl, a phawb a'i proffesent, hyd yn nôd eu perthynasau agosaf.

10 * I [k] butteinwyr, [l] † i wrryw-gydwyr, [m] ‡ i ladron-dynion, [n] ‖ i gelwyddwyr, i [o] anudonwyr; § ac os *oes* dim arall [p] yn wrthwyneb i athrawiaeth iachus,

k Marc 7. 21, 22. 1 Cor. 6. 9, 10. Gal. 5. 19—21. Eph. 5. 3—6. Heb. 13. 4. l Gen. 19. 5. Lef. 18. 22. a 20. 13. Rhuf. 1. 26, 27. Judas 7. m Gen. 37. 27. a 40. 15. Ex. 21. 16. Deut. 24. 7. Dat. 18. 13. n Ioan 8. 44. Dat. 21. 8, 27. a 22. 15. o Ex. 20. 7. Ezec. 17. 16—19. Hos. 4. 1, 2. a 10. 4. Zec. 5. 4. a 8. 17. Mal. 3. 5. Mat. 5. 33—37. p pen. 6. 3. 2 Tim. 1. 13. a 4. 3. Tit. 1. 9. a 2. 1

* Mae y gyfraith hefyd yn erbyn puteinwyr a godinebwyr, y rhai a farna Duw yn y dydd diweddaf yn ol ei ddeddf sanctaidd, yr hon sydd yn dywedyd, "Na wna odineb." Defnyddir y gair *pornois* am puteinwyr a godinebwyr hefyd. † Am y pechod hwn, ni ddywedwn ond ei fod yn rhŷ ffiaidd ac atgas i sylwi arno, a bod cyfraith Duw yn ofnadwy yn ei erbyn. ‡ Lladron dynion i'w defnyddio mewn Sodomiaeth, neu ynte i'w gwerthu yn gaethion, fel y bu *cristionogion* Brydain yn gwneyd yn hîr â'r Affricaniaid truain: mae deddf Duw yn cyfeirio ei melltithion arswydus yn erbyn y pechod gorthrwm a rhyfygus hwn, ac yn erbyn pawb sydd yn ymarfer âg ef, y cristion yn gyntaf, a'r pagan hefyd: "Na ladrata" medd y ddeddf: a'r gwaethaf o bob lladrad yw lladrata dynion: crŷned y lladron hyn, yn werthwyr ac yn brynwyr hefyd. Gwel Exod. 21. 16. || Mae celwydd yn mhob anudon, ac anudon yn mhob celwydd; ond bod celwydd yn cael ei ddywedyd mewn geiriau cyffredin, ac anudon yn cael ei dyngu trwy lŵ mewn llysoedd barnol. Mae y gyfraith yn erbyn hyn hefyd; Na ddwg gam-dystiolaeth yw ei hiaith hi yn wastadol. § Ac os oes dim rhyw bechodau eraill, nad enwyd uchod, mewn calon neu fuchedd, y rhai ydynt yn wrthwyneb i air Duw, ac i athrawiaeth iachus y gwirionedd; mae yr holl bechodau hyny, a phawb sydd yn byw ynddynt, yn cael eu condemnio gan ddeddf gyfiawn Duw, yr hon sydd yn llŷm warafun pob math o bechodau.

11 [q] * Yn ol [r] efengyl gogoniant [s] † y bendigedig Dduw, [t] ‡ am yr hon yr ymddiriedwyd i mi.

q Rhuf. 2. 16. r Salm 138. 2. Luc 2. 10, 11, 14. 2 Cor. 3. 8—11. a 4. 4, 6. Eph. 1. 6, 12. a 2. 7. a 3. 10. 1 Pedr 1. 11. 12. s pen. 6. 15. t pen. 2. 7. a 6. 20. 1 Cor. 4. 1, 2. a 9. 17. 2 Cor. 5. 18—20. Gal. 2. 7. Col. 1. 25. 1 Thes. 2. 4. 2 Tim. 1. 11, 14. a 2. 2. Tit. 1. 3.

* Athrawiaeth yn ol efengyl gogoniant y bendigedig Dduw, yw yr athrawiaeth iachus uchod, ac mae y pechodau a grybwyllwyd mòr wrthwyneb i'r efengyl ag ydynt i'r ddeddf, ac yn cael eu condemnio gan y naill fel gan y llall. Gelwir yr efengyl yma yn efengyl gogoniant y bendigedig Dduw, am ei bod yn datguddio ei holl berffeithiau ef yn y modd mwyaf anrhydeddus a chyd-gordiol, yn achubiaeth ei bobl oddiwrth eu pechodau, yn gystal ag oddi wrth ddigofaint: † oblegid fel y mae efe yn "fendigedig Dduw," Ffynon a Pherffeithrwydd pob dedwyddwch a sancteiddrwydd; efe a drefnodd foddion i wneyd dynion syrthiedig yn gyfranogion o'i ddedwyddwch ef, trwy eu hadnewyddu i fod yn gyfranogion o'i sancteiddrwydd ef. ‡ Trwy ddatguddiad a danfoniad dwyfol, yr oedd yr efengyl hon wedi ei hymddiried i Paul, fel trysor gwerthfawr a sanctaidd, i'w chadw yn ofalus, a'i phregethu yn ffyddlawn, pa ie bynag yr elai efe.

12 * Ac [u] yr ydwyf yn diolch i'r [x] hwn a'm nerthodd i, *sef* Crist Iesu ein Harglwydd, [y] † am iddo *fy* nghyfrif yn ffyddlawn, [z] ‡ gan fy ngosod yn y weinidogaeth,

u Ioan 5. 23. Phil. 2. 11. Dat. 5. 9—14. a 7. 10—12. x 2 Cor. 3. 5, 6. a 4. 1. a 12. 9, 10. Phil. 4. 13. 2 Tim. 4. 17. y Act. 16. 15. 1 Cor. 7. 25. z Gwel ar adn. 11. Act. 9. 15.

* Tra yr oedd yr apostol yn meddwl am yr anrhydedd mawr a gawsai, o ymddiried iddo am efengyl gogoniant y bendigedig Dduw, yr oedd hyny yn creu diolchgarwch gostyngedig a gwresog yn ei enaid ef i Iesu Grist, am ei ryfedd drugaredd tuag ato, y gallu gwyrthiol a roddes iddo, ac am ei gynnysgaethu â gwroldeb sanctaidd, amynedd, ffydd, a chariad, yn ei waith mawr a'i brofedigaethau aml. Fel hyn yr oedd Iesu Grist wedi ei addasu a'i "nerthu" ef, i'r gwaith anrhydeddus hwn, † a chwedi ei "gyfrif ef yn ffyddlawn," yn berson addas i'w ddefnyddio fel ei oruchwyliwr a'i genadwr ef; ‡ ac efe a ddangosodd hyn trwy ei "osod of yn y weinidogaeth," a thrwy ei arddelwi ef fel ei apostol anfonedig.

13 * Yr hwn [a] oeddwn o'r blaen yn gablwr, † ac yn erlidiwr, ‡ ac yn drahaus. [b] || Eithr mi a gefais drugaredd, [c] § am i mi yn ddiarwybod *ei* wneuthur trwy anghrediniaeth:

a Act. 8. 3. a 9. 1, 5, 13. a 22. 4. a 26. 9—11. 1 Cor. 15. 9. Gal. 1. 13. Phil. 3. 6. b adn. 16. Hos. 2. 23. Rhuf. 5. 20, 21. a 11. 30, 31. Heb. 4. 16. 1 Pedr 2. 10. c Num. 15. 30. Luc 12. 47. a 23. 34. Ioan 9. 39—41. Act. 3. 17. a 26. 9. Heb. 6. 4—8. a 10. 26—29. 2 Pedr 2. 21, 22.

* Yn y ddwy adnod o'r blaen enwa yr apostol bedwar o bethau a wnaed iddo gan Grist Iesu ei Arglwydd, sef ymddiried iddo am yr efengyl, adn. 11, ei nerthu, ei gyfrif yn ffyddlawn, a'i osod yn y weinidogaeth: yn yr adnod hon, mae yn dangos fod hyny oll o ras, o ryfeddol a phen-arglwyddiaethol ras; gan ei fod ef ei hun o'r blaen yn gablwr o'r mwyaf rhyfygus o enw yr Iesu, ac yn cymhell eraill i'w gablu ef; † buasai o'r blaen yn erlidiwr cynddeiriog ar ei ddysgyblion ef, ac yn eu llusgo hwynt i garcharau yn ddidrugaredd; ‡ a hyny gyda'r traha mwyaf, a'r brath-eiriau chwerwaf, o wir elyniaeth at enw ac achos eu Harglwydd ei hun. || Ond er bod ei ysbryd a'i ymddygiad ef yn y pethau uchod yn dra drygionus; eto, efe a gafodd drugaredd, rad a maddeuol, nid oedd ei bechodau echryslawn yn gwbl anfaddeuawl, § am iddo eu cyflawni yn ddiarwybod mewn anghrediniaeth: pe buasai ei wybodaeth yn fwy, a'i lid yn gweithredu yn groes i lawn oleuni ei gydwybod, buasai ei bechod yn anfaddeuadwy, a chawsai yntau ei roddi i fynu i galedwch anedifeiriol. Trwy gael ei addysgu wrth draed Gamaliel, ac yn mhlith y Phariseaid, lle nad oedd yn clywed dim ond drygair i Grist yn wastad, ac heb weled fawr, os dim, o'i wyrthiau ef; nid rhyfedd ei fod ef heb wybod yn well am dano, ei fod heb gredu ynddo, ac ei fod mòr elynol tuag ato: eto, mae efe yn mhell o esgusodi ei hun, a lleiâu ei bechod, o herwydd yr annwybodaeth hòno; mae efe yn ystyried ei hun yn dra phechadurus, ond o herwydd annwybodaeth, yr oedd ei bechod o *braidd* yn faddeuadwy.

14 [d] * A gras ein Harglwydd ni a [e] dra-amlhâodd † gyd â ffydd a chariad, [f] ‡ yr hwn sydd yng Nghrist Iesu.

d Act. 15. 11. Rhuf. 16. 20. 2 Cor. 8. 9. a 13. 14. Dat. 22. 21. e Ex. 34. 6. Es. 55. 6, 7. Rhuf. 5. 15—20. 1 Cor. 15. 10. Eph. 1. 7, 8. 1 Pedr 1. 3. f Luc 7. 47—50. 1 Thes. 5. 8. 2 Tim. 1. 13. 1 Ioan 4. 10.

* Mae yr apostol yn addef yn amlwg, y buasai efe yn golledig byth am y pechodau uchod, pe buasai yr Arglwydd yn ymddwyn tuag ato yn ol cyfiawnder manol; ac oni buasai i'w ras ef dra amlâu, neu amlâu yn rhyfeddol a rhagorol, tu hwnt i bob dysgwyliad, cyfrif, ac amgyffred, tuag ato: † nid yn unig yn ei barodrwydd i faddeu iddo, ei fendithio, a'i osod yn y weinidogaeth, pan edifarâodd; ond hefyd yn ei waith yn ei fywâu ef lle yr oedd yn farw mewn pechod, ac felly gweithio ffydd a chariad at Iesu yn ei galon ef, fel y caid ef ynddo ef, ac y byddai gyfranog o'i gyfiawnder ef. Mae yr apostol yn enwi ffydd a chariad, y ddau brif ras, mewn cyferbyniad i'w bechodau llywodraethol ef yn ei gyflwr o'r blaen; ffydd yn athrawiaeth yr efengyl, ac yn Nghrist trwy yr efengyl, mewn cyferbyniad i'w annwybodaeth a'i anghrediniaeth gynt; a chariad at Grist, ei achos, a'i bobl, mewn cyferbyniad i'w elyniaeth a'i greulondeb tuag atynt gynt: ‡ ac yr oedd y grasau hyn, yn eu mawr amledd rhyfeddol, yn deilliaw iddo ef o Grist, trwy ddylanwad a chyfraniad ei Ysbryd ef.

15 [g] * Gwir *yw* y gair, [h] † ac yn haeddu pob derbyniad, [i] ‡ ddyfod Crist Iesu i'r byd || i gadw pechaduriaid; [k] § o ba rai pennaf ydwyf fi.

g adn. 19. pen. 3. 1. a 4. 9. 2 Tim. 2. 11. Tit. 3. 8. Dat. 21. 5. a 22. 6. h Ioan 1. 12. a 3. 16, 17, 36. Act. 11. 1, 18. 1 Ioan 5. 11, 12. i Mat. 1. 21. a 9. 13. a 18. 11. a 20. 28. Marc 2. 17. Luc 5. 32. a 19. 10. Ioan 1. 29. a 12. 47. Act. 3. 26. Rhuf. 3. 24—26. a 5. 6, 8—10. Heb. 7. 25. 1 Ioan 3. 5, 8. a 4. 9, 10. Dat. 5. 9. k adn. 13. Job 42. 6. Ezec. 16. 63. a 36. 31, 32. 1 Cor. 15. 9. Eph. 3. 8.

* "Gwir yw y gair," sef y gair a ddywedir gan yr apostol yn yr adnod hon, "ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid:" dyma sylwedd yr holl efengyl, a dyma sylwedd ei weinidogaeth yntau, yn nghyd â phawb a anfonwyd gan Dduw i bregethu yr efengyl: dyma air yr iachawdwriaeth. Gwir yw y gair hwn, bob iot, a thipyn o hóno, wedi ei roddi gan y Duw digelwyddog, wedi ei amlygu felly trwy foddion a thystiolaethau diammeuol ac anwadadwy, ac wedi ei brofi felly gan Paul yn enwedig, yn mater ei gyflwr a'i enaid ei hun; yn nychweliad, cyfiawnâd, cymmodiad, ac achubiaeth, y fath elyn ac erlidiwr cableddus, creulawn, a thrahâus. † Fel mae yn wir, ac yn wir mòr werthfawr i bechaduriaid, mae yn haeddu gan bawb a'i clywo bob derbyniad a chrediniaeth calon, gyda'r llawenydd a'r diolchgarwch mwyaf gwresog: o herwydd mae pawb yn bechaduriaid; nis gall neb gael ei achub mewn un ffordd arall; ac ni wrthodir neb a geisio iachawdwriaeth yn y ffordd hon. ‡ Y gair gwirioneddol, ac sydd yn haeddu pob derbyniad yw hyn; ddyfod Iesu Grist, Emmanuel, Mab Duw, y gwir Fessiah, i'r byd o'i fodd, mewn undeb â'r natur ddynol; || ac i'r dyben mawr ac unig, o gadw pechaduriaid; trwy farw dros eu pechodau, ac adgyfodi i'w cyfiawnâu; trwy eu gwaredu oddi wrth eu pechodau yma, a'u gogoneddu byth yn y nef. § O'r holl bechaduriaid hyn a achubir, ac o holl bechaduriaid y byd, barnai Paul ei hun y penaf; y gelyn mwyaf i Grist gynt, a'r mwyaf teilwng o ddigofaint o bawb a achubir ganddo ef. *Pechaduriaid:* gwel ar Matth. 9. 10; a Rhuf. 5. 7, 8; lle y crybwyllir am dri dosparth o ddynion, cyfiawn, da, a phechaduriaid: ac yma mae yr apostol yn ei osod ei hun yn y dosparth gwaethaf, ac yn benaf, neu waethaf, yn y dosparth gwaethaf hwnw: mynegodd yr achos yn adn. 13, ac yr oedd yn drwm ar ei feddwl o hyd.

16 [l] * Eithr o achos hyn [m] y cefais drugaredd, fel y dangosai Iesu Grist ynof fi yn gyntaf bob [n] hir-oddef, [o] † er siampl i'r rhai a [p] gredant rhag llaw ynddo ef i fywyd tragywyddol.

l Num. 23. 23. Salm 25. 11. Es. 1. 18. a 43. 25. Eph. 1. 6, 12. a 2. 7. 2 Thes. 1. 10. m Gwel ar b. adn. 13.—2 Cor. 4. 1. n Ex. 34. 8. Rhuf. 2. 4, 5. 1 Pedr 3. 20. 2 Pedr 3. 9, 15. o 2 Cron. 33. 9—13, 19. Es. 55. 7. Luc 7. 47. a 15. 10. a 18. 13, 14. a 19. 7—9. a 23. 43. Ioan 6. 37. Rhuf. 5. 20. Heb. 7. 25. p Ioan 3. 15, 16, 36. a 5. 24. a 6. 40, 54. a 20. 31. Rhuf. 5. 21. a 6. 23. 1 Ioan 5. 11, 12.

* Yn lle dychymmygu pob rhyw *deilyngdod* yn ei *zêl* ddall a chyndyn ef gynt, (fel y dalia rhai, yn groes i eiriau yr apostol ei hun!) ystyriai efe ei fod wedi ei ddewis o fwriad, o herwydd ei fod yn fwy pechadur na neb arall yn y byd; fel ynddo ef yn *gyntaf*, neu y pechadur *penaf*, y dangosai Iesu Grist gyda'r eglurdeb mwyaf ynddo ef, i ba raddau y gallai efe hir-oddef a maddeu hefyd, i'w elynion mwyaf ffyrnig a chynddeiriog, a'r pechadur mwyaf ysgeler yn mhlith dynolryw. Dangosodd ynddo ef *bob* hir-oddef, nid er ei iachawdwriaeth ef ei hun yn unig; † ond hefyd fel y safai mewn coffadwriaeth hyd ddiwedd y byd, er siampl, annogaeth, a chalondid i bawb eraill, o bob oes a chenedl, a gredant rhagllaw yn Iesu Grist, gan ymorphwys ar ei deilyngdod a'i ras ef, am faddeuant pechodau a bywyd tragywyddol: fel nad ymollyngo neb dàn ddigalondid, yn yr olwg ar nifer, natur, ac echryslonedd eu pechodau gynt.

17 [q] * Ac i'r Brenin tragywyddol, anfarwol, [r] anweledig, [s] † i'r Duw unig ddoeth, [t] ‡ *y byddo* anrhydedd a gogoniant yn oes oesoedd. [u] || Amen.

q pen. 6. 15, 16. Salm 10. 16. a 45. 1, 6. a 47. 6—8. a 90. 2. a 145. 13. Jer. 10. 10. Dan. 2. 44. a 7. 14. Mica 5. 2. Mal. 1. 14. Mat. 6. 13. a 25. 34. Heb. 1 8—13. Dat. 17. 14. a 19. 16. r Ioan 1. 18. Rhuf. 1. 20. Col. 1. 15. Heb. 11. 27. 1 Ioan 4. 12. s Rhuf. 16. 27. Judas 25. t 1 Cron. 29. 11. Neh. 9. 5. Salm 41. 13. a 57. 11. a 72. 18, 19. a 106. 48. Dan. 4. 34, 37. Eph. 3. 20, 21. 1 Pedr 5. 11. 2 Pedr 3. 18. Dat. 4. 8—11. a 5. 9—14. a 7. 12 a 19. 1, 6. u Gwel ar adn. Mat. 6. 13. a 28. 20.

Tybia rhai fod y fawl-wers nefolaidd hon yn cael ei chyfeirio yn bersonol at Grist fel Duw, o herwydd bod yr apostol wedi bod yn llefaru o'r blaen am dano ef: ond tebygid ei bod yn cael ei chyfeir o yn hytrach at y Duwdod, heb wahaniaeth personau. Mae y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, tri Pherson yn un Duw, Duw ein iachawdwriaeth; yn gwneyd i fynu wrthddrych ein haddoliad ni, pa un bynag o'r personau yr ydym yn cyfeirio yn fwyaf union-gyrchol ato. * I Dduw, fel y Brenin tragywyddol, yn mhob oes, a thàn bob gorucb wyliaeth, erioed a byth; yr hwn sydd yn anfarwol fel Duw, ac yn annweledig fel Ysbryd pur anfeidrol: † i'r Duw unig ddoeth, yr hwn sydd yn Ffynon anrhydedd byddadwy o bob doethineb; ‡ i'r Duw anfeidrol a grasol hwn y rhoddai yr apostol yr holl anrhydedd o'i dröedigaeth, ei ddychweliad, ei iachawdwriaeth, ei ddoniau, ei ffyddlondeb, ei nerth, a'i ddefnyddioldeb yn ei waith: a chwennychai yn ei galon i Dduw gael ei ogoneddu yn ei holl berffeithiau hanfodol, ac yn ei holl weithredoedd grasol a rhyfeddol, gan bob creäduriaid rhesymol byth bythoedd. || Amen, felly bydded, felly y dylai fod, ac felly y bydd, gan bawb a'i hadwaenant ac a'i carant ef mewn gwirionedd. "Brenin *tragywyddol:*" neu, Brenin yr *oesoedd*, medd rhai, gan feddwl yr oesoedd patriarchaidd, seremoniaidd, ac efengylaidd: a chyda llawer o bröodoldeb y gellir ystyried Crist fel y Brenin hwnw, yr hwn yn aml a ymddangosodd fel y JEHOFAH mawr, yn trefnu ac yn llywodraethu y ddwy gyntaf; ac sydd eto yn gweithredu yn benaf, fel Brenin yr eglwys, dàn oruchwyliaeth yr efengyl, yr olaf o'r oesoedd hyn. "*Annweledig:*" os am Grist y dywedir, rhaid mai ei Berson dwyfol ef a feddylir, ac nid ei natur ddynol, a'i ymddangosiadau swyddol dàn yr Hen Destament.

18 * Y [x] gorchymyn hwn yr ydwyf yn ei roddi i ti, [y] † *fy* mab Timothëus, [z] ‡ yn ol y prophwydoliaethau a gerddasant o'r blaen am danat, [a] || a'r filwrio o honot ynddynt filwriaeth dda,

x Gwel ar adn. 11, 12.—pen. 4. 14. a 6. 13, 14, 20. 2 Tim. 4. 1—3. y Gwel ar adn. 2.—Phil. 2. 22. 2 Tim. 1. 2. a 2. 1. Tit. 1. 4. Philemon 10. z pen. 4. 14. a pen. 6. 12. 2 Cor. 10. 3, 4. Eph. 6. 12—18. 2 Tim. 2. 3—5. a † 7.

* Tybia llawer o esponwyr fod yr adnod hon i'w chyssylltu âg adn. 5, a bod yr adnodau cyfryngol oll i'w hystyried megys rhwng cromfachau: os felly, y gorchymyn o "rybuddio rhai na ddysgont ddim amgen," &c., a gawn yn adn. 3, 4, 5, yw y "gorchymyn" a grybwylla yr apostol yr ail waith yma. Neu ynte, gallwn ei ystyried yn orchymyn am y peth a enwir yn niwedd yr adnod; sef ar i Timothëus filwrio milwriaeth dda; ond mae y cyfan yn dyfod i'r un peth yn y diwedd. † "Fy mab:" nid enw o berthynas naturiol, ond ysbryddol; ac yn arwyddo cyfeillgarwch ac anwyldeb serchogaidd. Gwel ar adn. 2. ‡ Yr ymddiried a roddasai Iesu Grist i Paul fel ei apostol, (adn. 11.) Yr oedd yntau yn ei roddi i'w Fab Timothëus; ac yr oedd ganddo hyder i roddi ymddiried mòr fawr iddo, nid yn unig o herwydd yr hyn a wyddai efe am ei egwyddorion a'i gymmeriad ef; ond hefyd o herwydd y gobaith mawr oedd ganddo am dano, oddi ar ryw brophwydoliaethau, a draddodasai rhai o brophwydi y dyddiau hyny yn ei gylch ef, cyn ei bennodi ef i'r weinidogaeth. Mae yn debyg i rai o brophwydi yr eglwys yn y dyddiau hyny gael rhyw ddatguddiedigaethau am Timothëus, ac iddynt lefaru am dano ef trwy ysbrydoliaeth Duw; er nad oes genym hanes am hyny ond yn y fàn hon, a pen. 4. 14: efallai hefyd bod cyfeiriad at hyny yn Act. 16. 2. || Dysgwyliai yr apostol iddo ef, trwy fyfyrio ar

y prophwydoliaethau hyny a gerddasent am dano, gael ei addysgu a'i galonogi i filwrio ynddynt, neu yn gyfatebol iddynt, filwriaeth dda, neu yn hytrach y filwriaeth dda; fel milwr dewr, ffyddlawn, a diwyd Iesu Grist, yn ymladd ei frwydrau ef, dano ef, yn erbyn pechod, Satan, a'r byd; a thrwy sefyll i fynu yn ŵrol o blaid y gwirionedd, yn erbyn pob gwrthwynebiadau a gelynion.

19 [b] * Gan fod gennyt ffydd, † a chydwybod da; [c] ‡ yr hon a wrthododd rhai, [d] || ac a wnaethant long- drylliad [e] am y ffydd:

b Gwel ar adn. 5.—pen. 3. 9. Tit. 1. 9. Heb. 3. 14. 1 Pedr 3. 15, 16. Dat. 3. 3, 8, 10. c Phil. 3. 18, 19. 2 Tim. 3. 1—6. 2 Pedr 2. 1—3, 12—22. Judas 10—13. d pen. 4. 1, 2. 1 Cor. 11. 19. Gal. 1. 6—8. a 5. 4. 2 Tim. 4. 4. Heb. 6. 4—6. 1 Ioan 2. 19. e pen. 6. 9. Mat. 7. 27.

* Cyn gallu milwrio yn ddewr, yn anrhydeddus, ac yn fuddugoliaethus yn y filwriaeth hon, fel y gweddai i'w swydd a'i gymmeriad ef; yr oedd yn angenrheidiol i Timothëus ieuanc fod yn gadarn yn ffydd yr efengyl, i'w dàl yn ddïysgog, a'i phregethu yn hŷf ac yn oleu yn ei weinidogaeth. † Rhaid bod ganddo hefyd gydwybod dda, ddirwystr tuag at Dduw â dynion; fel y gallai fod yn gywir, yn ddiargyhoedd, ac yn ffyddlawn yn pregethu y ffydd, neu athrawiaeth yr efengyl, ac yn byw yn gyfatebol iddi. Heb ffydd ein hunain, nis gallwn bregethu y ffydd i eraill, gyda chysondeb; ac heb gydwybod dda, ni bydd ein holl bregethu yn gymmeradwy nac yn fendithiol. ‡ Yr oedd rhai proffeswyr o'r efengyl y pryd hwnw, mae yn debyg, wedi gwrthod, a chwedi myned yn gwbl ddifater, am gadw cydwybod dda; || ac yn mhen ychydig wedi gwrthod y ffydd, neu athrawiaeth yr efengyl hefyd; a chwedi gwneyd megys llong-ddrylliad o'u holl grefydd, trwy wrthgiliad hollawl oddi wrth y broffes o hóni, neu trwy lygru gwirionedd yr efengyl â chyfeiliornadau. Rhaid i ni ddeall mai *athrawiaeth* y ffydd, neu *gydsyniad âg* athrawiaeth y ffydd, a feddylir yma, ac nid y *gras* o ffydd; gan hyny nid oes yma ddim o blaid yr athrawiaeth gyfeiliornus o syrthiad y saint oddi wrth ras. "A *wrthododd* rhai:" gwrthod yr hyn a *gydnygiwyd*, ac nid gwrthod yr hyn a *feddiannwyd* unwaith: fel hwnw yn gwrthod cynnyg Moses i athrywyn rhyngddo â'i gymmydog. Gwel Act. 7. 27: yr un gair a gyfleithir "cil-gwthio" yno, ag a gyfleithir "gwrthod" yma.

20 * O ba rai y mae [f] Hymenëus ac [g] Alexander; [h] † y rhai a roddais i Satan, [i] ‡ fel y dysgent na [k] chablent.

f 2 Tim. 2. 17. g Act. 19. 33. 2 Tim. 4. 14, 15. h Mat. 18. 17. 1 Cor. 5. 4, 5. 2 Cor. 10. 6. a 13. 10. i 1 Cor. 11. 32. 2 Thes. 3. 15. Dat. 3. 19. k Act. 13. 45. 2 Tim. 3. 2. Dat. 13. 1, 5, 6.

* Yr oedd y ddau hyn o rifer y *rhai* uchod, a wnaethent long-ddrylliad am y ffydd: mae yn ddïammau y gwyddai Timothëus pwy oeddynt wrth eu henwau fel hyn. Yr *Hymenëus* hwn, mae yn debyg, oedd yr Hymenëus a enwir yn 2 Tim. 2. 17, 18, gwel ei gyfeiliornad a'i ddrygioni yno. Ac *Alexander* oedd y *gôf copr*, mae yn debyg, a grybwyllir yn 2 Tim. 4. 14, 15; ac yr un Alexander, tybir, â hwnw a grybwyllir yn Act. 19. 33; ac a aeth rhagddo waeth-waeth, efallai, ar ol i Paul ymadael o Ephesus, er ei fod unwaith yn rhyw fath o broffeswr crefydd. Sylwa rhai, pan mae yr apostolion yn crybwyll gwrthgilwyr wrth eu henwau, ac yn eu beïo gyda'r fath ryddid a llymder; eu bod yn gwybod eu bod allan o'u cyrhaedd, ac nas gallai y gwrthgilwyr hyny wneuthur dim niwed iddynt: ond nis gwyddom a oedd yr apostolion yn ystyried peth fel hyny ai peidio. † Am y traddodi i Satan, gwel ar 1 Cor. 5. 5. Gwelodd yr apostol yn llwyr angenrheidiol, i esgymmuno y ddau wrthgiliwr uchod yn gyhoeddus, a'u bwrw allan o'r eglwys, i deyrnas weledig Satan; ‡ fel y dysgent trwy y ddysgyblaeth hon na chablent enw Crist, ac na waradwyddent ei efengyl ef, â'u daliadau drygionus ac annuwiol. Tybir yn gyffredin, i ryw gystudd trwm gael ei roddi yn wyrthiol arnynt, pan ddiarddelwyd hwynt o'r eglwys, yr hwn a dueddai i'w dwyn hwynt i deimlad o'u heuogrwydd a'u perygl, ac i'w hadferu hwynt i edifeirwch gwirioneddol; ond nid yw yn ymddangos i'r un o honynt gael eu hadferu felly. Yr oedd cyhoeddi a diarddelwi gwrthgilwyr fel hyn wrth eu henwau, yn brawf nad oedd ar yr apostol ddim ofn rhag iddynt ddatguddio unrhyw gyfrinach, neu arfer ddrwg, a welsent hwy yn mhlith y cristionogion: yr oedd ei ymddygiad ef megys yn hèr gyhoeddus iddynt, yn yr ystyr hyn; ac yn brawf amlwg o uniondeb cydwybodol, a gŵroldeb diofn yn tarddu oddi ar hyny.

PEN. II.

Bod yn iawn gweddio a diolch dros bob dyn.

* CYNGHORI yr ydwyf am hynny, [a] ym mlaen pob peth, † fod [b] ymbiliau, gweddïau, deisyfiadau, [c] *a* thalu diolch, [d] ‡ dros bob dyn;

a 1 Cor. 15. 3. b pen. 5. 5. Gen. 18. 23—32. 1 Bren. 8. 41—43. Salm 67. 1—4. a 72. 19. Mat. 6. 9, 10. Iago 5. 16. c Rhuf. 1. 8. a 6. 17. Eph. 5. 20. Phil. 1. 3. 2 Thes. 1. 3. d adn. 4. Act. 17. 30. 1 Thes. 3. 12. 2 Tim. 2. 24. Tit. 2. 11. a 3. 2.

* Yma mae yr apostol yn myned rhagddo yn ei gyfarwyddyd i Timothëus, ac yn cyngori, yn gyntaf ac yn mlaenaf o bob peth; † fod "ymbiliau" taerion, "gweddïau" aml, "deisyfiadau" gwresog, "a thalu diolch" calonog, ‡ dros bob dyn, o bob cenedl, a phob gradd a sefyllfa wladol neu eglwysig. Fel hyn yr oedd cyngor Paul iddo ef, ac fel hyn yr oedd yntau i wneyd, a chyngori yr eglwys i wneyd yn wastadol; yn enwedig yn eu holl gyfarfodydd cyhoeddus: rhan sefydlog, a blaenaf, gwasanaeth cyhoeddus Duw, yw gweddïau a thalu diolch. Am y tri gair hyn, "ymbiliau, gweddïau, a deisyfiadau," nid oes achos gwahaniaethu rhyngddynt; arwyddant bob math o weddi a deisyfiad. Mae rhai yn dadleu yn erbyn gweddio "dros *bob* dyn," fel peth anghyson â phen-arglwyddiaeth, arfaeth, ac etholedigaeth Duw; ond os oedd Paul yn "cyngori" i hyn yma trwy ysbrydoliaeth Duw, gwell i'r dadleuwyr rhyfygus hyny dewi.

2 * Dros [e] frenhinoedd, [f] a phawb sydd mewn goruchafiaeth; [g] † fel y gallom ni fyw yn llonydd ac yn heddychol [h] ‡ mewn pob duwioldeb ac onestrwydd.

e Ezra 6. 10. Neh. 1. 11. Salm 20. 1—4. a 72. 1. Jer. 29. 7. f Rhuf. 13. 1. 1 Pedr 2. 13, 14. g Gen. 49. 14, 15. 2 Sam. 20. 19. Diar. 24. 21. Preg. 3. 12, 13. a 8. 2—5. Rhuf. 12. 18. 1 Thes. 4. 11. Heb. 12. 14. h Luc 1. 6. a 2. 25. Act. 10. 22. a 24. 16. Phil. 4. 8. Tit. 2. 10—14. 1 Pedr 2. 9—13. 2 Pedr 1. 3—7.

* Cyngorai yr apostol i'r saint weddio dros frenin-oedd, a phawb ag oedd mewn goruchafiaeth, neu swyddau ac awdurdod uchel yn y wladwriaeth; er mai paganiaid oedd y cyfryw oll y pryd hwnw, a gelynion yr efengyl hefyd. Byddai hyn yn foddion i leiâu eu rhagfarn hwy, ac i ennill eu hewyllys da; yn enwedig pan welent fod y cristionogion yn parâu i weddio a thalu diolch drostynt, yn wyneb cael eu herlid ganddynt. † Fel hyn byddent hwy yn fwyaf tebygol o gael byw, a thrin eu hachosion bydol a chrefyddol, yn llonydd ac yn heddychol; ‡ mewn pob duwioldeb tuag at Dduw, a phob gonestrwydd tuag at ddynion, heb gael eu haflonyddu gan erlid, na'u drygu gan afiwydd a barnau gwladol. Yr oedd hyn yn orchymynedig i'r Iuddewon dàn yr hen oruchwyliaeth: (Ezra. 6. 10; Jer. 29. 7.) a pha faint mwy i'r cristionogion dàn yr efengyl?

3 * Canys [i] hyn *sydd* dda † a chymmeradwy ger bron [k] Duw ein ceidwad;

i pen. 5. 4. Rhuf. 12. 1, 2. a 14. 18. Eph. 5. 9, 10. Phil. 1. 11. a 4. 8. Col. 1. 10. 1 Thes. 4. 1. Heb. 13. 16. 1 Pedr 2. 5, 20. k Gwel ar pen. 1. 1.—Es. 45. 21. Luc 1. 47.

* Yr oedd, ac y mae, yr ymddygiad a orchymynir uchod, yn dda ynddo ei hun, ac yn dda yn ei effeithiau a'i ganlyniadau; † ac hefyd yn gymmeradwy ger bron Duw ein ceidwad, fel effeithiau a ffrwythau ffydd a

duwioldeb, ac yn anrhydedd a gogoniant i'w enw ef a'r efengyl.

4 * Yr hwn [l]sydd yn ewyllysio bod pob dyn yn gadwedig, [m] † a'u dyfod i [n] wybodaeth y gwirionedd.

l Es. 45. 22. a 49. 6. a 55. 1. Ezec. 18. 23, 32. a 33. 11. Luc 14. 23. Ioan 3. 16, 17. a 6. 37.. Rhuf. 3. 29, 30. 2 Cor. 5. 17—19. 1 Thes. 2. 15, 16. Tit. 2. 11. 2 Pedr 3. 9. m Mat. 28. 19. Marc 28. 19. Marc 16. 15. Luc 24. 47. Rhuf. 10. 12—15. Dat. 14. 6. n Es. 53. 11. Hab. 2. 14. Luc 1. 77. Ioan 14. 6. a 17. 17. 2 Tim. 2. 25. a 3. 7. Heb. 10. 26.

* Mae "Duw ein ceidwad," fel y gelwir ef uchod, wedi darpar iachawdwriaeth i ddynolryw, heb wahaniaeth cenedl, sefyllfa, na chymmeriad blaenorol; ac efe a ddichon yn anrhydeddus, ac a wna yn sicr, achub a chadw pob dyn, a ddaw ato ef yn y ffordd a drefnodd efe: yn yr ystyr hyn mae efe yn ewyllysio bod pob dyn yn gadwedig. † A'i ewyllys ef ydyw, ïe, ei orchymyn pennodol ac aml, i ni wneyd yr hyn oll a allom, i ddwyn pob dyn i wybodaeth y gwirionedd: ei ewyllys ef yw, i'r efengyl gael ei phregethu i bob crëadur; gorchymynir i ni dystiolaethu yn sicr i bawb, fod yr Arglwydd yn alluog ac yn ewyllysgar, i achub unrhyw, neu bob rhyw bechadur a gredo: dywed yr Arglwydd Iesu wrth filoedd yn y dydd diweddaf, "Mi a'ch gwahoddais, a chwithau a wrthodasoch;" "Mi a *fynaswn* eich casglu, fel y casgl iâr ei chywion dàn ei hadenydd, ond nis mynech" chwi. Os deallir y geiriau uchod, am rywbeth mwy nac ewyllys Duw i gadw pob dyn a gredo, trwy wybodaeth y gwirionedd; mae yn canlyn o angenrheidrwydd, ei fod ef yn ewyllysio, neu yn arfaethu, yr hyn nid yw yn ei gyflawni: pob dyn a ddaw i wybodaeth gredíniol ac achubol o'r gwirionedd, yw y pob dyn mae efe yn ewyllysio ei fod yn gadwedig. Sonia un o'n Hawdwyr am ewyllys *arfaethol* ac ewyllys *orchymynol*, neu *ddatguddiadol* Duw; sonia arall mai rhai o bob math o ddynion, a feddylir yma wrth *bob dyn;* a sonia arall am iachawdwriaeth ddigonol wedi ei darpar i bob dyn: ceisiasom roddi y golygiadau egluraf, a mwyaf cywir, yn y sylwadau uchod, gan mwyaf o waith *Scott*, ond â'r hwn y cytuna ein Hawdwyr eraill.

5 * Canys [o] un Duw *sydd*, [p] † ac un Cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion, [q] ‡ y dyn Crist Iesu;

o Deut. 6. 4. Es. 44. 6. Marc 12. 29—33. Ioan 17. 3. Rhuf. 3. 29, 30. a 10. 12. 1 Cor. 8. 6. Gal. 3. 20. Eph. 4. 6. p Job 9. 33. Heb. 7. 25. a 8. 6. a 9. 15. a 12. 24. q Mat. 1. 23. Luc 2. 10, 11. Ioan 1. 14. 1 Cor. 15. 45—47. Phil. 2. 6—8. Heb. 2. 6—13. Dat. 1. 13.

* Fel rheswm chwanegol, paham y dylai cristionogian weddïo dros bob dyn, mae yr apostol yn sylwi, mai un Duw sydd, yn Grëawdwr, Cynnaliwr, ac Arglwydd cyffredin pawb o ddynolryw: † ac fel y mae pawb wedi syrthio oddi wrtho ef, a chanddo yntau fwriadau o drugaredd tuag atynt; felly hefyd y mae un Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu; yr hyn a ddengys nad oes ond un Cyfryngwr, ac sydd yn cauad allan gydnabyddiaeth o, ac addoliad i, bob cyfryngwyr eraill. ‡ Mae Iesu Grist yn wir ddyn: ac er bod effaith ei gyfryngdod ef yn deilliaw o undeb y Duwdod â'r ddynoliaeth, yn ei ryfedd Berson ef; eto mae y cyfryngdod hyny rhwng Duw â dynion yn cael ei ddwyn yn mlaen gan ei natur ddynol ef; yr hon yn unig a allai ufuddâu, dyoddef, a marw, fel cyfiawnder ac iawn cymmodol ei bobl, mewn trefn i adgyfodi, esgyn, ac eiriol fel ei Harch-offeiriad a'u Heiriolwr hwy gyda'r Tad. Nid yw ei alw ef yn *ddyn* yma, yn un prawf nad yw yn Dduw; mwy nac y mae ei alw yn *Dduw* mewn mànau eraill, yn brawf nad yw yn ddyn. *Un Duw:* nid Person y Tad yn unig a feddylir, ond y Duwdod; mewn gwrthgyferbyniad i bob duwiau eraill: gan hyny, mae dyndod Crist yn cyfryngu rhwng Duw pur, cyfiawn a sanctaidd, â ni bechaduriaid; ond mae y dyndod hyn mewn undeb hanfodol ac anwahanol â Pherson y Mab, yr hwn sydd fel hyn yn cyfryngu rhwng Duw ei Dad, â dynion ei frodyr. Mae y ddarpariaeth a'r drefn hon wedi ei gwneyd a'i datguddio, er lles cyffredin dynolryw, Iuddewon a chenedloedd o bob cenedl; fel y gallo pawb a ewyllysio ddyfod yn y ffordd hon, at orsedd-faine trugaredd Duw maddeugar, i geisio cymmod âg ef, a thrugaredd a bywyd ganddo.

6 * Yr hwn a'i [r] rhoddes ei hunan † yn bridwerth ‡ dros bawb, ‖ i'w dystiolaethu [s] § yn yr amseroedd priod.

r Job 33. 24. Es. 53. 6. Mat. 20. 28. Marc 10. 45. Ioan 6. 51. a 10. 15. 2 Cor. 5. 14, 15, 21. Eph. 1. 17. a 5. 2. Tit. 2. 14. Heb. 9. 12. 1 Pedr 1. 18, 19. a 2. 24. a 3. 18. 1 Ioan. 2. 1, 2. a 4. 10. Dat. 1. 5. a 5. 9. s pen. 6. 15. Rhuf. 5. 6. a 16. 26. Gal. 4. 4. Eph. 1. 10. a 3. 5. Tit. 1. 3.

* Gan fod Crist Iesu yn Arglwydd ei fywyd ei hun, (Ioan 10. 18.) a chanddo anfeidrol fawredd yn ei Berson ei hunan fel Duw-ddyn, efe a'i rhoddes ei hunan, gorph ac enaid, yn ewyllysgar ac o'i wirfodd; † yn bridwerth, neu yn aberth cymmodawl i Dduw, trwy roddi ei einioes i lawr i'n prynu ni oddi wrth ein pechodau a melltith y ddeddf, a gwneuthur iawn drosom ni i gyfiawnder dwyfol. *Antilutron* yw y gair a gyfieithir yma "pridwerth;" gair eglur a grymus iawn, yn arwyddo *newid sefyllfa* âg arall, neu eraill: un yn rhoi ei fywyd i lawr i achub bywydau rhai eraill; a hyn a wnaeth Crist yn ein deddf-le a throsom ni. ‡ Efe a wnaeth hyn dros bawb; sef dros dyrfa fawr yr hon nis gall neb ei rhifo, o bob cenedl, gradd a sefyllfa, y rhai a brynodd efe *o blith dynion.* Dat. 5. 9; a 14. 4. Nid oes yr un dyn duwiol ac ystyriol a daera, i Grist roddi ei hun felly yn bridwerth dros bawb, fel ag i *fwriadu* mewn gwirionedd iachawdwriaeth pawb o'r rhai ni chredant byth ynddo; ac iddo fel hyn fethu yn ei fwriad, a marw yn ofer. O'r tu arall, nid oes ond ychydig o'r rhai a gyfyngant ystyr y cyfryw ymadroddion i "rai o bob math o ddynion," ar ni chaniatânt fod aberth ac iawn Crist yn holl-ddigonol i achub pawb; ac addefant y dylid gwahodd a gorchymyn pawb i gredu ynddo ef, ac y caiff pawb a gredant eu hachub ganddo a thrwyddo-ef. Gan hyny gallwn sylwi bod aberth Crist yn sylfaen a llwybr iachawdwriaeth pawb a gedwir; na chedwir neb trwy ei aberth ef heb wir ffydd; bod gwir ffydd yn "rhodd Duw," ac yn ffrwyth adgenedliad; mai hysbys i Dduw yw ei weithredoedd oll erioed; ac y cedwir pawb yn sicr, o'r rhai a roddwyd i Grist, a'r rhai a fwriadodd efe yn neilldduol eu hachub, pan aeth efe yn Fachnïydd ei bobl. ‖ Yr oedd y pridwerth hwn o eiddo Crist i gael ei dystiolaethu i bawb, sef i bob cenedl yn ddiwahaniaeth: gan hyny yr oedd yn ddyledus ar bob cristion i wneyd a allai i gynnorthwyo y gwaith mawr o daenu yr efengyl; ac oddi ar hyn mae yn ddyledus arnom oll i ddanfon a chynnal cenadon yr efengyl yn mhob rhan o'r byd paganaidd. § Tystiolaethwyd am yr aberth hwn gan y prophwydi gynt yn eu dyddiau hwy; ac yn fwy eglur a helaeth wedi hyny, dàn oruchwyliaeth y Testament Newydd, trwy bregethu yr efengyl yn yr amserau priod; i'r Iuddewon yn gyntaf, ac wedi hyny i'r cenedloedd.

7 [t] * I'r hyn y'm gosodwyd i yn [u] bregethwr ac yn apostol ([x] † y gwir yr *wyf* yn ei ddywedyd yng Nghrist, nid wyf yn dywedyd celwydd) [y] ‡ yn athraw y Cenhedloedd [z] mewn ffydd [a] a gwirionedd.

t Gwel ar pen. 1. 11, 12. u Preg. 1. 1, 2, 12. a 7. 27. a 12. 8—10. Rhuf. 10. 14. Eph. 3. 7, 8. 2 Tim. 1. 11. 2 Pedr 2. 5. x Gwel ar Rhuf. 1. 9. a 9. 1. 2 Cor. 11. 31. Gal. 1. 20. y Ioan 7. 35. Act. 9. 15. a 22. 21. a 26. 17, 18, 20. Rhuf. 11. 13. a 15. 16. Gal. 1. 16. a 2. 9. z Act. 14. 27. Gal. 2. 16. a 3. 9. a Salm 111. 7.

* I'r gorchwyl mawr uchod yr oedd Paul wedi ei osod yn bregethwr ac yn apostol. Herodr, *(Herald)* yw ystyr y gair *kêrux*, a gyfieithir yma "pregethwr;" un yn cyhoeddi heddwch neu ryfel, neu esgyniad brenin i'w orsedd: hyny oedd gwaith yr apostol, ac ydyw gwaith holl weinidogion yr efengyl eto; cyhoeddi esgyniad Crist i'w orsedd yn y nef, heddwch trwy ei aberth ef i bawb a gredant ynddo, a rhyfel yn erbyn pawb a'i gwrth-

odant ac a ddigiant wrtho. † Wrth hòni ei osodiad yn y weinidogaeth hon, mae Paul yn cyfeirio at Grist, yr hwn a'i gosodasai ynddi, fel ei Farnwr a adwaenai ei galon ef, am wirionedd yr hyn oedd yn ddywedyd. Ni fynai athrawon yr enwaediad fod Crist wedi ei roddi ei hun yn bridwerth dros bawb, cenedloedd yn gystal âg Iuddewon, ac ni fynent fod Paul wedi ei anfon i bregethu y cyfryw athrawiaeth i'r cenedloedd; hyny, mae yn debyg, oedd yn galw am yr ardystiad difrifol hwn, o blaid yr athrawiaeth a'i anfoniad yntau. ‡ Yr oedd efe mewn modd arbenig wedi ei osod gan Dduw, yn bregethwr, yn apostol, ac yn athraw; yn enwedig i'r cenedloedd, mewn ffydd a gwirionedd, neu wir ffydd yr efengyl, i hysbysu ei ewyllys ef am iachawdwriaeth, mewn ffyddlondeb a gwirionedd i bawb yn ddiwahaniaeth.

8 [b] * Am hynny yr wyf yn ewyllysio i'r gwŷr [c] weddïo ym mhob man, † gan [d] ddyrchafu dwylaw sanctaidd, [e] ‡ heb na digter [f] ‖ na dadl.

b pen. 5. 14. 1 Cor. 7. 7. Tit. 3. 8. c 2 Cron. 33. 11, 12. Salm 130. 1, 2. Galar. 3. 55, 56. Jona 2. 1, 2. Mal. 1. 11. Luc 23. 42, 43. Ioan 4. 23, 24. Act. 21. 5. d Job 16. 17. Salm 26. 6. a 66. 18. a 134. 2. Diar. 15. 8. a 21. 27. Es. 50. 15. a 58. 7—11. Jer. 7. 9, 10. Mal. 1. 9, 10. Act. 10. 2, 4, 31. Iago 4. 8. 1 Ioan 3. 20—22. e 1 Bren. 3. 11. Salm 35. 13. Mat. 5. 22—24, 44. a 6. 12, 14, 15. Marc 11. 25. Luc 23. 34. Act. 7. 60. 1 Pedr 3. 7. f Mat. 21. 21. Marc 11. 23, 24. Iago 1. 6—8.

* Yn ol yr awdurdod apostolaidd a rodded iddo ef, mae Paul yn gorchymyn i'r cristionogion weddïo yn mhob màn, yn ol y cyfarwyddyd a roddasai uchod, adn. 1, 2. Gall y geiriau yn sicr gynnwys gweddïau dirgelaidd, teuluaidd, a chynnulleidfàol; ond mae y bennod hon yn fwyaf neilduol yn son am gyfarfodydd cyhoeddus, pa le bynag y cedwid hwy; am hyny mae yr apostol yn dangos mai y *gwyr*, ac nid y *gwragedd*, oedd i weddïo yn gyhoeddus, fel geneuau dros y gynnulleidfa. Byddai gan y paganiaid offeiriadesau, yn gystal âg offeiriaid, nid yn unig i'w duwiesau, ond i'w duwiau hefyd; ond ni chaniatêid y cyfryw arferiad i'r Iuddewon, ac nid yw yr apostol yn ei ganiatâu yn yr eglwys gristionogol. Tawed eich gwragedd yn yr eglwysi. † I'r dyben o gyflawni y swydd hon yn gymmeradwy, yr oedd yn rhaid i'r gwŷr fel arwydd o barch addoliadol, "dderchafu dwylaw sanctaidd:" nid ymfoddloni ar olchi eu dwylaw cyn addoli, fel y gwnâi yr Iuddewon, a llawer o'r paganiaid hefyd yn wir; ond dylai cristionogion ofalu am eu cadw yn lân oddi wrth bob anghyfiawnder, a phob ymarferiad â phechod. ‡ Dylent hefyd wylied rhag pob llid a digter, yn erbyn eu gilydd, neu yn erbyn eu gelynion; fel y byddai eu gweddïau yn tarddu oddi ar wir ewyllys da i bob dyn; ac nid wedi eu cymmysgu â nwydau digofus, pa gyffrôadau bynag fyddent wedi gael. ‖ Ar yr un pryd, dylent fod heb ddadl, neu ammheuaeth, o barodrwydd Duw trwy Grist, i wrando eu gweddïau, faint bynag eu pechodau gynt, a'u hannheilyngdod presenol: ac ni ddylent boeni eu hunain â rhesymau a dadleuon ofer, yn nghylch y modd yn mha un y gwrandewai Duw hwynt, neu pa un a achubai efe genedloedd yn gystal âg Iuddewon, ai ni wnai.

9 * Yr un modd hefyd [g] bod i'r gwragedd eu trefnu eu hunain mewn dillad gweddus, [h] † gyd â gwylder a sobrwydd; [i] ‡ nid â gwallt plethedig, neu aur, neu emmau, neu ddillad gwerthfawr,

g 1 Pedr 3. 3—5. h Diar. 7. 10. Es. 3. 16. Tit. 2. 3—5. i Gen. 24. 53. Ex. 35. 22, 23. 2 Bren. 9. 30. Esther 5. 1. Salm 45. 13, 14. a 149. 4. Diar. 31. 22. Es. 3. 18—24. a 61. 10. Jer. 2. 32. a 4. 30. Ezec. 16. 9—16. Mat. 6. 28, 29. a 11. 8.

* I'r dyben o gael trefn weddus yn eu haddoliadau crefyddol, yn gystal ag yn ymddygiadau cyffredinol cristionogion; mae yr apostol yn gorchymyn yn mhellach, yn y modd mwyaf penderfynol, bod i'r gwragedd crefyddol eu trefnu, neu eu haddurno eu hunain mewn dillad gweddus, addas i'w sefyllfa yn y byd; † â'r hyn a fyddai yn gweddu i'r gŵylder a'r sobrwydd hyny o ymarweddiad, a ddysgwylid ynddynt ac arnynt hwy gan fyd ac eglwys. Dylent beidio a chanlyn dulliau y benywaid hyny a wisgent er mwyn ymddangos yn wŷch i'r edrychwyr; yr hyn oedd ar unwaith yn arwydd o ysgafnder a gwamalrwydd eu meddwl, ac yn tueddu i gynhyrfu nwydau mewn eraill: ‡ gan hyny ni ddylent addurno eu hunain â gwallt plethedig, fel benywaid anllad, neu âg aur, neu emmau, neu ddillad drudfawr, uwchlaw eu sefyllfa, yr hyn a fyddai yn arwydd o falchder calon, ac yn dangos mwy awydd am ymddangos yn wŷch ger bron dynion, nac yn gymmeradwy a phryderth ger bron Duw. Mae yn anhawdd gosod rhëol bennodawl a dï-eithriad am ddillad gweddus; gan fod yr hyn ïyddo yn weddus i rai, yn anweddus i eraill, yn ol y byddo eu sefyllfa: ond mae yn sicr y gall pawb, o bob sefyllfa, fod yn *weddus*, heb y pethau gwychion a drudfawr a waherddir gan yr apostol yn niwedd yr adnod hon. Gwelwyd esamplau gwragedd beilchion, o dipyn gwell sefyllfa nâ'r cyffredin, wedi bod o fawr niwed mewn eglwysi cyn hyn; gan eu bod yn hudo merchedos gweini tlodion i geisio eu dynwared hwy mewn gwisgiadau, yr hyn oedd dra anweddus a phechadurus hefyd. Mae yn deilwng iawn i'r rhyw fenywaidd ystyried, na ddylent ddïystyru y rhëol uchod, gan ei bod wedi ei rhoddi gan ddau o'r apostolion. Gwel 1 Pedr 3. 3.

10 * Ond (yr hyn sydd yn gweddu i [k] wragedd a fo yn proffesu duwioldeb) [l] † â gweithredoedd da.

k 1 Pedr 3. 3—5. 2 Pedr 3. 11. l pen. 5. 6—10. Diar. 31. 31. Act. 9. 36, 39. Eph. 2. 10. Tit. 2. 14. a 3. 8. 1 Pedr 2. 12. 2 Pedr 1. 6—8. Dat. 2. 19.

* Ond (yr hyn sydd fwyaf hardd ac anrhydeddus i wragedd crefyddol, y rhai a wnant broffes o dduwioldeb, a pharch goruwch pob peth i bethau byd arall,) † eu prif ofal hwy a ddylai fod, i ymdrwsio â'r addurniadau hyny o rasau, arferion, a gweithredoedd, ag ydynt yn dda ynddynt eu hunain, yn gyd-ffurfiol â chyfraith sanctaidd Duw, yn werthfawr yn ei olwg ef, ac yn ddefnyddiol a gwasanaethgar i eraill. Dyma'r addurniadau mwyaf gweddus i wragedd yn proffesu duwioldeb, y rhai a ddylent ddirmygu crychiad a phlethiad gwallt, ychydig o ddaear felen, càreg, neu waith y pryf sidan gwael. Cwynai Ioan aur enau *(Chrysostom)* yn ei amser ef, fod y benywaid yn myned i dŷ gweddi yn rhŷ debyg o ran gwisgiad, i rai yn myned i'r ysgol ddawnsio: beth a ddywedai efe pe gwelai hwy yn yr oes bresenol, yn enwedig yn rhai o'n trefydd mawrion?

11 [m] * Dysged gwraig mewn distawrwydd † gyd â phob gostyngeiddrwydd.

m Gen. 3. 16. Esther 1. 20. 1 Cor. 11. 3. a 14. 34, 35. Eph. 5. 22—24. Col. 3. 18. 1 Pedr 3. 1, 5, 6.

* Yn ol y gŵylder gweddus gyda pha un y dylai gwragedd ymddangos ac ymddwyn mewn cyfarfodydd eglwysig, bydded iddynt hwy wrando a dysgu mewn addfwynder a dystawrwydd; † ac mewn dyledus ymostyngiad i uchafiaeth eu gwŷr, a'r gweinidogion sydd yn eu dysgu hwy yn mhethau Duw. Mae yn debyg bod eithriad hefyd i'r rhëol hon y pryd hwnw; yn amgylchiad y gwragedd a lefarent trwy ysbryd prophwydoliaeth yn yr eglwysi. Gwel ar 1 Cor. 14. 34, 35.

12 * Ond nid wyf yn cenhadu i wraig athrawiaethu, † nac ymawdurdodi ar y gwr, ‡ eithr bod mewn distawrwydd.

* Nid oedd yr apostol mewn un modd yn cenadu i wraig athrawiaethu yn gyhoeddus yn yr eglwys fel pregethwr; a rhaid deall mai am athrawiaethu cyhoeddus y mae efe yn llefaru yma, nid am addysgu plant, gwasanaeth-ddynion a chymmydogion gartref: gall y gwragedd wneyd hyny i'r helaethrwydd a fynont, un ai eu hunain neu gyda eu gwŷr; fel y gwnâi mam a nain Timothëus, ac fel y gwnâi Priscila gyda ei gŵr Acwila. Act. 18. 26. † Ni chenadai yr apostol chwaith i'r wraig mewn un modd, nac ar un cyfrif yn y byd ymawdurdodi ar y gŵr, nac mewn pethau crefyddol yn yr eglwys, nac mewn pethau tymmorawl yn y teulu gartref. ‡ Mynai

efe yn mhob gwedd i'r wraig fod mewn dystawrwydd ac ymostyngiad i'w gŵr: hyn oedd ewyllys Crist yn ddatguddiedig i'r apostol; hyn ydoedd deddf gyntaf natur; ac fel hyn yr ordeiniodd Duw yn y fàn ar ol y cwymp.

13 * Canys [n] Adda a luniwyd yn gyntaf, † yna Efa.

n Gen. 1. 27. a 2. 7, 18, 22. 1 Cor. 11. 8, 9.

* Canys Adda, tad cyffredin holl ddynolryw, a luniwyd, ac a ddygwyd i fodoliaeth gan y Crëawdwr mawr, o flaen ei wraig Efa; † ac yna, wedi hyny, y lluniwyd ac y gwnaed Efa, o un o'i asenau ef; yr hyn a ddengys na chrëwyd y gŵr er mwyn y wraig, eithr y wraig er mwyn y gŵr; (1 Cor. 11. 9.) ac o ganlyniad y dylai hi fod mewn darostyngiad priodol iddo ef. Gwelir y gwrthwyneb weithiau; a gwrthun, annaturiol, ac annghristionogol iawn ydyw: trefn Duw sydd oreu, a mwyaf gweddus a chysurus i bawb.

14 * Ac nid Adda a dwyllwyd; [o] † eithr y wraig, wedi ei thwyllo, ‡ oedd yn y camwedd.

o Gen. 3. 6, 12. 2 Cor. 11. 3.

* Ac am y distryw a ddaeth ar ddynolryw trwy y cwymp, nid Adda a dwyllwyd, ac a dynwyd i bechod, trwy gyfrwysdra union-gyrchol y sarff; † ond Efa, ei wraig ef, wedi ei thwyllo gan y gelyn cyfrwys hwnw, ‡ a fu gyntaf o'r ddau i fyned i'r camwedd o dòri gorchymyn a deddf Duw: a hi a fu yn offeryn a moddion i beri i'w gŵr wneyd yr un peth; yr hyn o'i ystyried yn ddifrifol, a ddylai ddarostwng y gwragedd, a dysgu iddynt nad ymawdurdodont ar y gwŷr, ac na ryfygont ymyraeth âg athrawiaethu yn gyhoeddus. Gan i'r wraig gael ei thwyllo pan oedd yn ei hystâd o berffeithrwydd, yn hytrach na'r gŵr, rhaid i ni feddwl ei bod y *pryd hwnw* yn llestr gwànaf, ac yn îs na'i gŵr; ac os felly y pryd hwnw, pa faint mwy felly yn awr? a pha mòr afresymol yn awr yw i'r wraig ymawdurdodi a blaenori ar ei gŵr?

15 [p] * Etto cadwedig fydd wrth [q] ddwyn plant, † os arhosant hwy [r] mewn ffydd, a chariad, a sancteiddrwydd, ynghyd â [s] sobrwydd.

p Gen. 3. 15. Es. 7. 14. a 9. 6. Jer. 31. 22. Mat. 1. 21—25. Luc 2. 7, 10, 11. Gal. 4. 4, 5. q Gen. 3. 16. r Gwel ar pen. 1. 5. s Gwel ar adn. 9. Tit. 2. 12. 1 Pedr 4. 7.

* Rhoddodd Duw boenau a gwewyr ar wragedd wrth ddwyn plant, fel nôd arbenig o'i anfoddlonrwydd am drosedd y wraig gyntaf; ac i adgofio ei merched hi o hyny yn mhob oes o'r byd: eto gallai y rhai a broffesent efengyl Crist gymmeryd cysur, trwy obeithio cael eu cynnal a'u cadw yn a thrwy yr amgylchiad poenus a pheryglus hwnw, ïe, a chael lles hefyd oddi wrth eu holl ddyoddefiadau a'u poenau: o leiaf gallent fod yn sicr nad oedd dim melltith na digofaint ynddo; † os arosent hwy yn ddïysgog yn y ffydd, ac mewn cariad at Grist a'i bobl, gyda sancteiddrwydd, purdeb, gwylder duwiol, a sobrwydd. Tybia rhai mai meddwl yr apostol oedd, mai megys y daeth pechod i'r byd drwy y wraig, o'r hyn y deilliodd holl boenau a gwewyr esgor; felly hefyd drwy y poenau hyn, y daeth Un i'r byd wedi ei eni o wraig, trwy feichiogiad gwyrthiol, heb adnabod gŵr, trwy yr hwn y cedwir pawb a gredo ynddo ac a aroso yn y ffydd: dywedir fod y dehongliad uchod yn hen iawn, ac y goddef y geiriau gwreiddiol eu dehongli felly yn esmwyth iawn. Tybir yn gyffredin i Efa ei hun gael ei chadw, wrth neu *trwy* ddwyn plant, sef trwy Un a hànodd o hóni hi; er i boen a gwewyr esgor gael ei osod arni hi, fel cosp arbenig am ei herchyll drosedd; ac fel hyn tröwyd ei thristwch hi yn llawenydd, a'i melltith yn fendith iddi. Yr un modd ei merched hi hefyd, er eu bod yn gyd-gyfranog â hi yn y ddedfryd o ddwyn plant trwy boen, hwy a gânt gyd-gyfranogi â hi hefyd yn yr un iachawdwriaeth, bendith a gorfoledd, trwy yr had addawedig; os dilynant ei hesampl hi o ffydd, ufudd-dod, cariad, sancteiddrwydd, yn nghyd â sobrwydd. Er nad yw pob gwraig dduwiol yn cael ei chadw o ran ei bywyd naturiol wrth ddwyn plant; eto mae y geiriau yn dangos y gall gwragedd duwiol orchymyn eu hunain i Dduw yn hyderus, yn yr amgylchiad cyfyng a pheryglus hwnw o wasgfa natur, gydag ymgadw mewn ffydd, cariad, sancteiddrwydd, sobrwydd diwair, ac yn rhëolau manol cymmedrolder yn mhob peth.

PEN. III.

Cynneddfau esgobion, a diaconiaid, &c.

* GWIR [a] *yw* y gair, † Od yw neb yn chwennych [b] swydd [c] esgob, ‡ gwaith da y mae yn ei [d] chwennych.

a pen. 1. 15. a 4. 9. 2 Tim. 2. 11. Tit. 3. 8. b adn. 2—7. Act. 1. 20. Phil. 1. 1. Tit. 1. 7. 1 Pedr 2. 25. c Act. 20. 28. Heb. 12. 15. 1 Pedr 4. 15. a 5. 2. d Diar. 11. 30. Luc 15. 10. Rhuf. 11. 13. Eph. 4. 12. 1 Thes. 5. 14. Iago 5. 19, 20.

Yma mae yr apostol yn myned rhagddo i roddi rhai cyfarwyddiadau eraill i'w fab Timothëus, pa fodd i gyflawni ei ddyledswyddau fel efengylwr yn eglwys Dduw. * Gwir yw y gair mae yn myned i'w ddywedyd, nis gall neb ei wrth-ddadleu, ac ni ddylai neb ei ammau; ond dylai pawb y perthyna iddynt ei gydnabod yn wir, a sylwi arno fel gwirionedd o bwys mawr. † Od oes yr un gwir gristion, yr hwn sydd yn meddu cymhwysderau, gyda golwg ar ogoniant Duw, a lles eneidiau dynion, yn chwennych swydd esgob, bugail, neu arolygwr ar braidd Duw, i'w bugeilio, eu llywodraethu, a'u porthi yn ysbrydol; ‡ gwaith da y mae yn ei chwennych: gwaith mawr, llafurus, a gwasanaeth o bwys, defnyddioldeb ac anrhydedd mawr iawn. Dangoswyd o'r blaen, mai yr un swydd yw esgob âg henuriad yn y Testament Newydd. Gwel ar Act. 20. 17, 28.

2 * Rhaid gan hynny i [e] esgob fod yn [f] ddïargyhoedd, [g] † yn wr un wraig, [h] ‡ yn wyliadwrus, ‖ yn sobr, § yn weddaidd, [i] * yn llettygar, [k] † yn athrawaidd;

e Tit. 1. 6—9. f adn. 10. Luc 1. 6. Phil. 2. 15. g pen. 4. 3. a 5. 9. Heb. 13. 4. h Es. 56. 10. 1 Pedr 4. 7. a 5. 8. i Rhuf. 12. 13. Tit. 1. 8. Heb. 13. 2. 1 Pedr 4. 9. k 2 Tim. 2. 24.

Er cyfarwyddyd i Timothëus, i'r rhai a chwennychent y swydd, ac i'r eglwysi yn gyffredin, mae yr apostol yma ac yn yr adnodau a ganlynant, yn dangos pa fath a ddylai esgob fod. * Rhaid ei fod yn *ddïargyhoedd* yn ei fuchedd; o rodiad gweddus a diachwyn arno yn mhob màn ac yn mhob peth; wedi llwyr ymwrthod â phob pechodau ac arferion gwarthus, o leiaf er pan y daeth i broffesu yr efengyl. † "Yn *wr un wraig;*" nid yw y geiriau hyn yn ei rwymo i briodi, nac yn ei wahardd i briodi yr ail waith, wedi marw ei wraig gyntaf; ond yn ei rwymo na byddo ganddo ond un wraig ar unwaith; na byddai yn euog o ami-wreigiaeth fel llawer o'r paganiaid, ac na byddai iddo ysgar â'i wraig heb achos, er mwyn priodi rhywun arall wrth ei flys cnawdol. Bu rhai mòr ffol a thybied oddi ar y geiriau hyn, na ddylai neb fyned i'r weinidogaeth nes eu priodi, nac aros ynddi ar ol marw eu gwragedd. ‡ Dylai esgob hefyd fod yn dra *gwyliadwrus* a diwyd yn ei waith, ac yn erbyn Satan, ei offerynau, a'i demtasiynau: yn wyliadwrus ar ei ysbryd ei hun, ei eiriau, ei weithredoedd, a thros yr eneidiau a ymddiriedwyd i'w ofal ef. ‖ Dylai fod yn *sobr;* yn dra chymmedrol yn ei arferiad o fwydydd a diodydd, yn ei dymherau, ei nwydau, a'i bleserau cyfreithlawn: nid *sobr* mewn cyferbyniad i *feddw* yn gymmaint a feddylir, ond sobr mewn cyferbyniad i bob ysgafnder, gwylltineb, a gwammalrwydd. § Dylai fod yn *weddaidd; (kosmion,)* yn drefnus ac yn hardd yn mhob peth; yn garuaidd, yn addfwyn, yn ddoeth, ac yn hyserch ac ennillgar yn ei holl ymddygiad cyffredin tuag at bob dyn. * Dylai hefyd fod yn *llettygar; (philoxenon)* yn gyfaill dieithriaid; yn enwedig cristionogion tlodion a fyddai y pryd hwnw yn gorfod ffoi rhag eu herlidwyr, a gweinidogion yr efengyl a fyddai yn ymdaith o le i le, yn nghyd â phobl dlodion yn gyffred-

inol: yn fŷr, dylai esgob fod yn ddyn rhwydd galon, o ysbryd hael a chymmwynasgar i bawb yn ol ei allu, a hyny yn siriol ac heb rwgnach. Os oedd hyn yn ddyledswydd ar esgobion *tlodion* y pryd hwnw, pa faint mwy ar rai sydd yn *derbyn eu miloedd* yn y flwyddyn yn ein gwlad a'n dyddiau ni? † Uwchlaw pob peth dylai esgob fod yn *athrawaidd;* yn gyflawn o wybodaeth a phrofiad o'r athrawiaeth ei hunan, yn byw yn ol yr athrawiaeth, yn fedrus i egluro ei feddyliau yn rhydd ac yn oleu er addysgu rhai eraill, ac er dàl ac amddiffyn gwirioneddau yr efengyl; ac hefyd i fod yn barod, yn awyddus, ac yn chwannog i wneyd hyny, ar bob cyfle a allo gael, yn bersonol, yn deuluaidd, ac yn gyhoeddus. Pa fodd bynag y deallom y gair "esgob," efe a ddylai bregethu ac addysgu, a hyny yn aml ac yn ewyllysgar; ac nid cymmeryd yr enw a'r gyflog, heb braidd byth wneyd dim o'r gwaith.

3 * Nid [l] yn win-gar, [m] † nid yn darawydd, [n] ‡ nid yn [o] budr-elwa; [p] ‖ eithr yn dirion, [q] yn anymladdgar, [r] § yn ddïarian-gar;

l Lef. 10. 9. Es. 5. 11, 12. a 28. 1, 7. a 56. 12. Ezec. 44. 21. Mica 2. 11. Mat. 24. 45—51. Luc 12. 42—46. a 21. 34—36. Eph. 5. 18. Tit. 1. 7. a 2. 3. m 2 Tim. 2. 24, 25. Tit. 1. 7. n Diar. 1. 19. a 15. 27. Es. 56. 11. Judas 11. o adn. 8. 1 Sam. 8. 3. Tit 1. 7, 11. 1 Pedr 5. 2. p pen. 6. 11. Preg. 7. 8. 1 Thes. 5. 14. 2 Tim. 2. 24. Dat. 1. 9. q Tit. 3. 2. Iago 4. 1. r 1 Sam. 2. 15—17. 2 Bren. 5. 20—27. Jer. 6. 13. a 8. 10. Mica 3. 5, 11. Mal. 1. 10. Mat. 21. 13. Ioan 10. 12, 13. a 12. 5, 6. Act. 8. 18—21. a 20. 33. Rhuf. 16. 18. 2 Pedr 2. 3, 14, 15. Dat. 18. 11—13.

* Y neb a chwennycho swydd esgob, dylai fod yn rhydd oddi wrth bob gradd o anghymmedroldeb, yn yr arferiad o win, dïodydd cryfion, a gwirodydd poethion meddwawl; yr ymarferiad â pha rai a fyddai yn warth iddo ef, ac yn ei fawr anaddasu i ddyledswyddau pwysig ei sefyllfa. Mae y gair *(paroinon)* yn arwyddo dïotwr cyffredin, un chwannog i ddïota, pa un bynag a yfo efe i feddwdod hollawl neu beidio. † Dylai esgob hefyd fedru meistroli ei dymherau; heb fod yn chwannog ar unrhyw achlysur o gyffrôad, i ddangos poethder ei nwydau trwy daro y neb a'i tramgwyddo, fel yr arferai dynion bydol poethion. Nid yn unig dylai wylied rhag hyn ar ben y ffair, yn y farchnad, ac yn ei ymdriniaethau bydol, ac â dynion bydol, ond hefyd yn yr eglwys; dylai fod yn fwy parod i faddeu ac ymgeleddu, na tharo ei frodyr â geiriau chwerwon a digofus, er cael ei flino ganddynt: da i rai blaenoriaid eglwysig ddàl ar hyn. ‡ Ni ddylai esgob fod yn chwannog i fudr-elwa; yr hyn a'i harwain ef i gam-ddefnyddio ei swydd a'i weinidogaeth er mwyn elw budr; neu i ddwyn yn mlaen ryw orchwylion gyda ei weinidogaeth, mewn modd gwaradwyddus, er mwyn elw. Dywed *Doddridge* nad yw y gair hwn, *(aischrokerdê)* budr-elwa, braidd un amser yn cael ei ddefnyddio yn y Testament Newydd am *unrhyw elw*, ond yr elw hwnw a wnair neu a ennillir trwy *gybydd-dod gweinidogion cristionogol;* ac yn sicr nid oes awydd am elw bydol yn ymddangos yn fwy dïanrhydeddus a brwnt yn neb, nac mewn dynion o'r alwedigaeth ardderchog hòno. ‖ Ond yn groes i'r pethau anweddus uchod, rhaid i esgob fod o dymher ac ysbryd llariaidd, tirion, a digyffro; yn heddychol, maddeugar, a thawel; heb fod yn ymladdgar, yn ddadleugar, ac yn derfysglyd, mewn un amgylchiad, yn y byd nac yn yr eglwys. § Rhaid iddo fod yn rhydd oddi wrth ariangarwch; bod heb *garu* pethau y byd hwn, pa mòr gyfreithlawn bynag y byddo wedi dyfod i feddiant o honynt: ac yn enwedig dylai ochel bod yn fwy am y cnu nac am y praidd, a cheisio yr eiddynt hwy yn fwy na'u lles hwy eu hunain.

4 [s] * Yn llywodraethu ei dŷ ei hun yn dda, † yn dal ei blant mewn ufudd-dod, [t] ‡ ynghyd â phob onestrwydd;

s adn. 12. Gen. 18. 19. Jos. 24. 15. Salm 101. 2—8. Act. 10. 2. Tit. 1. 6. t Phil. 4. 8. Tit. 2. 2, 7.

* Dylai yr esgob, neu y bugail hefyd, wybod pa fodd, a bod yn dra gofalus, i lywodraethu ei dŷ neu ei dylwyth ei hun, mewn trefn ddoeth, rhëolaidd, a chreffyddol; gan gadw awdurdod addfwyn, a chadarn ar yr un pryd, ar ei holl deulu: † yn enwedig dylai ddàl ei blant mewn ufudd-dod, gan eu llywodraethu hwynt gyda phob sobrwydd duwiol, a'u hattal hwynt rhag pob ysgafnder a rhodres; fel y byddo eu hymddangosiad, eu hymddygiad, a'u dyfalwch gydag addoliad Duw, ac yn mhob lle arall, yn anrhydedd iddo ef, ac yn esampl i eraill. ‡ "Yn nghyd â phob gonestrwydd:" gyda phob sobrwydd yn ol y Saesoneg; sobrwydd, difrifwch, a harddwch parchus, mae yn debyg, yw ystyr y gair Groeg *Semnotêtus.*

5 * (Oblegid [u] oni fedr un lywodraethu ei dŷ ei hun, † pa fodd y cymmer efe ofal dros [x] eglwys Dduw?)

u 1 Sam. 2. 29, 30. a 3. 13. x adn. 15. Act. 20. 28. Eph. 1. 22. a 5. 24, 32.

* Oblegid od oes gofal teulu ar un, yr hwn sydd hawddach ei lywodraethu, ac o lai pwys a chanlyniad, ac nis gŵyr pa fodd i'w lywodraethu "yn dda," fel y gweddai i arglwydd ar ei dŷ ei hun; † pa fodd y gellir dysgwyl yn rhesymol, y bydd gan y cyfryw un ddigon o ddoethineb, gofal, a gŵroldeb meddwl, i ofalu am, a llywodraethu achosion mwy anhawdd a phwysig eglwys y Duw byw, (adn. 15.) yn yr hon rhaid gwneyd pob peth yn weddaidd ac mewn trefn, yn hollawl yn ol gosodiad a threfn yr Arglwydd? Mae gan *Confucius*, hen athronydd *China*, eiriau tebyg iawn i'r rhai uchod, pan mae yn cyfarwyddo breninoedd i ofalu am eu teuluoedd: "Mae yn anmhosibl," ebai efe, "i'r hwn nas gŵyr pa fodd i lywodraethu a diwygio ei dŷ ei hun, allu llywodraethu a diwygio gwlad o ddynion."

6 * Nid yn newyddian *yn y ffydd,* [y] † rhag iddo ymchwyddo, [z] ‡ a syrthio i ddamnedigaeth diafol.

y Deut. 8. 14. a 17. 20. 2 Bren. 14. 10. 2 Cron. 26. 16. a 32. 25. Diar. 16. 18, 19. a 18. 12. a 29. 23. Es. 2. 12. 1 Cor. 4. 6—8. a 8. 1. 2 Cor. 12. 7. 1 Pedr 5. 5. z Es. 14. 12—14. Luc 10. 18. 2 Pedr 2. 4. Judas 6.

* Nid cymhwys iawn yn gyffredin yw dewis un newydd ei ddychwelyd at grefydd, i waith y weinidogaeth; neu un anhyddysg ac anmhrofiadol, un nad oes ganddo ond gwybodaeth arwynebol o'r natur ddynol ac o bethau Duw: † rhag i fawredd ei sefyllfa, neu y clod a roddir iddo, ei chwyddo ef âg uchel-fryd a balchder; ‡ ac iddo ef fel hyny syrthio yn debyg fel y syrthiodd y dïafol, a thàn gondemniad cyffelyb i'r eiddo yntau.—Mae yn amlwg oddi wrth hyn, mai balchder ysbrydol a gorfynt *(ambition)* oedd dechreuad syrthiad Satan: rhyfygu bod yn *gydradd â Duw*, medd rhai: tòri rhyw gyfraith bennodawl, medd eraill, a berthynai i'r modd y mynai Duw gael ei addoli, neu a berthynai i drefn, graddau, a sefyllfâoedd y lluoedd angelaidd; gwrthod llywodraeth Mab Duw yn y natur ddynol, medd eraill, pan ddatguddiwyd y byddai efe yn Ben angelion, yn gystal â dynion, yn y natur hòno. Y peth olaf oedd tŷb *Milton* yn ei Goll Gwynfa; gwel Caniad. 5: ond er bod yn sicr mai *balchder* oedd y bai, nis gallwn wybod yn sicr beth oedd yr achlysur pennodol o ddangos y balchder hwnw, ac nid yw yr ymofyniad mewn un modd yn angenrheidiol, os nad yw yn rhyfyg.

7 * Ac y mae yn rhaid iddo ef hefyd gael [a] tystiolaeth dda gan y [b] rhai oddi allan; [c] † rhag iddo syrthio i waradwydd, [d] ‡ ac i fagl diafol.

a pen. 5. 24, 25. 1 Sam. 2. 24. Act. 6. 3. a 10. 22. a 22. 12. 3 Ioan 12. b 1 Cor. 5. 12. Col. 4. 5. 1 Thes. 4. 12. c pen. 5. 14. 1 Cor. 10. 32. 2 Cor. 6. 3. a 8. 21. 1 Thes. 5. 22. Tit. 2. 5, 8. 1 Pedr 4. 14—16. d pen. 6. 9. 2 Tim. 2. 26.

* Rhaid i'r person a ddewiser i'r swydd oruchel a sanctaidd hon hefyd gael gair da, enw a chymmeriad difai a dïachwyn arno, gan y rhai oddi allan, yn mhlith ei gymmydogion annychweledig; † rhag iddo ef syrthio i waradwydd, colli ei barch, dianrhydeddu yr efengyl, ‡ a chael ei faglu gan Satan i'r ymarferiad o'i ddrygau gynt, a'i ddyrysu gan y byd a chan bechod. Hawdd y

gall Satan impio llawer temtasiwn beryglus ar yr enw a'r gair drwg a allai fod i ddyn cyn ei fyned i'r weinidogaeth, neu yn flaenor eglwysig; un ai trwy geisio ei hudo i gyflawni ei hen bechodau, neu wànâu ei feddwl ef mewn ymdrechiadau o ddefnyddioldeb, trwy ofn y bydd côf am ei hen afrëolaeth ef yn gwneyd yr ymdrechiadau hyny yn aneffeithiol: nid oes grym digonol mewn esgob i drin dynion drwg-fucheddol, os bydd y gair ei fod ef ei hun yn ddrwg-fucheddol cyn ei fyned i'r swydd, er nad yw felly yn awr. Meddyliau teilwng o ystyriaeth pawb a chwennychant y swydd, yn enwedig rhai a fuont unwaith yn dra didrefn.

8 * *Rhaid* i'r [e] dïaconiaid yr un ffunud [f] † *fod* yn onest; [g] ‡ nid yn ddau-eiriog, [h] ‖ nid yn ymrôi i win lawer, § nid yn budr-elwa;

e Act. 6. 3—6. Phil. 1. 1. f Gwel ar t. adn. 4. g Salm 5. 9. a 12. 2. a 50. 19. a 52. 2. Rhuf. 3. 13. Iago 3. 10. h Gwel ar adn. 3.

* Dïaconiaid a drefnwyd yn benaf i ddosparthu elusenau yr eglwys, ac i drin ei hachosion amgylchiadol a thymmorawl hi: eto byddent yn pregethu yn achlysurol, neu yn addysgu yn ddirgel, neu yn ddarllenwyr mewn cyfarfodydd cyhoeddus; a dewisid bugeiliaid ac efengylwyr yn aml o'u plith hwy. Gwel ar Act. 6. 1—8; a 8. 5—40. Er bod dïaconiaeth yn swydd wahanol i esgobiaeth, ac yn îs na hi, eto mae amryw o'r un rhinweddau yn ofynol yn y dïaconiaid â'r esgobion: † "rhaid i'r dïaconiaid fod yn onest," gan mai yn eu dwylo hwy mae arian yr eglwys at achos y tlodion, cynnal y weinidogaeth, a phob achosion eglwysig: ond sobr, difrifol, ystyriol, a phwyllog, efallai, yw ystyr y gair gwreiddiol, fel y nodwyd dàn adn. 4, yr un gair sydd yn y ddau le. ‡ Dylent fod yn eirwir, a chyson yn eu dywediadau; nid yn ddau-eiriog, yn dywedyd un peth yn ngwŷdd dynion, a pheth arall yn eu cefnau: nid yn gwenieithio, yn enllibio, yn twyllo, ac yn croeseirio, mewn unrhyw gymdeithas, nac ar unrhyw achlysur. ‖ Gwel ar adn. 3. § Ni ddylent fod yn chwannog i fudr-elwa; yr hyn a allai eu temtio hwy fel Judas, i ladrata yr arian a ymddiriedid iddynt, neu eu hanaddasu hwynt i fod yn haelionus a diduedd yn eu cyfraniadau i'r tlodion angenus.

9 * Yn [i] dala [k] dirgelwch y ffydd † mewn cydwybod bur.

i Gwel ar pen. 1. 5, 19. k adn. 16. 2 Ioan 9, 10.

* Am eu cymmeriad *crefyddol* hwynt, dylent fod yn iach yn y ffydd, yn glŷnu yn ddïysgog wrth, ac yn parâu yn gadarn yn, athrawiaeth bur a digymmysg yr efengyl; yr hon yn wir sy ddirgelwch i'r byd cnawdol ac anghrediniol, ac uwchlaw amgyffred hyd yn nôd y rhai a oleuwyd eu hunain. † Rhaid i'r dïaconiaid yn gystal â'r esgobion, ddàl y pethau hyn yn gadarn yn eu cred a'u proffes, gyda phob diragrithrwydd calon wedi ei phuro trwy ffydd, a chydwybod wedi ei glânâu a'i phuro â gwaed Crist; a'u dàl hefyd yn eu hymarweddiad uniawn, cyson, a gwir gydwybodol, fel y gallont drwy hyny arddangos harddwch crefydd i eraill.

10 * A [l] phrofer y rhai hynny hefyd yn gyntaf; [m] † yna gwasanaethant swydd dïaconiaid, [n] os byddant ddïargyhoedd.

l adn. 6. pen. 5. 22. 1 Ioan 4. 1. m adn. 13. Act. 6. 1, 2. n adn. 2. 1 Cor. 1. 8. Col. 1. 22. Tit. 1. 6, 7.

* Ac mewn trefn i ddewis y rhai hyn i'w swydd, yn gystal â'r esgobion, neu weinidogion y gair, yr oedd yn angenrheidiol eu profi hwy yn gyntaf, a'u cymmeradwyo, o ran eu hymarweddiad moesol a chrefyddol; † ac yna, os caid hwy yn ddïargyhoedd, o ran dim pechodau nodedig, neu unrhyw ddiffyg neilluol yn y cymhwysderau uchod a enwyd; gosoder hwy yn y swydd, ac ymddirieder holl achosion dïaconiaeth yn ei holl rànau iddynt hwy. Yr oeddynt i gael eu profi yn ddïau trwy eu holi, ymddiddan â hwy, a thrwy hir a manol sylw yr eglwys ar eu holl ymarweddiad hwynt.

11 * *Y mae yn rhaid* [o] *i'w* gwragedd yr un modd [p] *fod* yn onest, [q] † nid yn enllibaidd, [r] ‡ yn sobr, [s] yn ‖ ffyddlawn ym mhob peth.

o Lef. 21. 7. 13—15. Ezec. 44. 22. Luc 1. 5, 6. p Gwel ar t. adn. 4. q Salm 15. 3. a 50. 20. a 101. 5. Diar. 10. 18. a 25. 23. Jer. 9. 4.—Mat. 4. 1. Ioan 6. 70. 2 Tim. 3. 3. Tit. 2. 3. Dat. 12. 9, 10. r adn. 2. 1 Thes. 5. 6—8.—2 Tim. 4. 5. Tit. 3. 2. 1 Pedr 5. 8. s Gwel ar pen. 1. 12.—a 6. 2.

* Os bydd y dïaconiaid yn wŷr priod, rhaid i'w gwragedd hefyd (a llawer mwy gwragedd gweinidogion y gair,) fod yn onest, neu o ymddygiad dwys a difrifol; (gwel ar adn. 4.) nid yn dueddol i ysgafnder, gwagedd, ac afradlonedd y byd: † "nid yn enllibaidd," neu yn chwannog i daenu chwedlau drwg a gau-gyhuddiadau am ac yn erbyn eu cymmydogion, yr hyn yw gwir ysbryd y dïafol ei hunan; a llawer llai y dylent ddywedyd drwg am y tlodion, i beri i'w gwŷr, y dïaconiaid, fod yn rhagfarnllyd yn eu herbyn, ac yn galed wrthynt. ‡ Dylai gwragedd y dïaconiaid fod yn sobr *(néphaleous)* mewn corph a meddwl, yn wyliadwrus ar eu tafodau a'u tymherau, yn gymmedrol mewn gwisgo, bwyta ac yfed; ‖ a dylent fod yn ffyddlawn yn mhob peth, yn ffyddlawn i'w gwŷr priod, yn ffyddlawn yn eu gofal a'u dyledswyddau teuluaidd, yn ffyddlawn yn holl ddyledswyddau crefydd a moddion gras, yn ffyddlawn i'w brodyr a'u chwiorydd eglwysig, ac yn ffyddlawn yn nhrysorau yr eglwys dàn ofal eu gwŷr. *Nid yn enllibaidd:* nid yn ddïaflaidd, yw ystyr y geiriau *me dïabolous*, a cheisiwyd dwyn hyny i mewn yn y sylwad uchod. Gwragedd blaenoriaid eglwysig, ag oeddynt groes i'r dysgrifiad uchod, (a bu llawer o'r cyfryw, ysywaeth,) a fuont o niwed mawr mewn eglwysi cyn hyn; a pha mòr gymhwys bynag oedd y *gwyr* eu hunain i flaenori, yr oedd y gwragedd yn eu hanghymhwyso yn fawr iawn, a phrin iawn y dylasent gael eu dewis i'r swydd o herwydd hyny: dylid cadw golwg ar *holl* gyfarwyddyd yr apostol yn y peth hyn fel yn mhob peth arall; heb hyny ni lwyddwn.

12 * Bydded y dïaconiaid [t] yn wŷr un wraig, † yn llywodraethu eu plant a'u tai eu hunain yn dda.

t Gwel ar adn. 2. 4, 5.

* Gallai fod rhai yn yr eglwys wedi cymmeryd mwy nac un wraig cyn eu dychwelyd o baganiaeth, neu wedi ysgar yn ddïachos âg un er mwyn cymmeryd un arall; nid oedd yn addas dewis neb o'r cyfryw i swydd dïaconiaeth, mwy nac i swydd esgob neu weinidog. † Dylai y dïaconiaid hefyd lywodraethu eu plant a'u teuluoedd yn dda fel yr esgobion. Gwel ar adn. 2, 4, 5.

13 * Canys y [u] rhai a wasanaethant swydd dïaconiaid yn dda, † ydynt yn ynnill iddynt eu hunain [x] radd dda, [y] ‡ a hyfder mawr yn y ffydd *sydd* yng Nghrist Iesu.

u Mat. 25. 21. Luc 16. 10—12. a 19. 17. x Act. 21. 35. y Act. 6. 5, 8, 15. a 7. 1, &c. Phil. 1. 14. 1 Thes. 2. 2.

* Wrth ymarfer â llywodraethu eu plant a'u tai eu hunain yn dda, hwy a ddysgent lawer pa fodd i wasanaethu swydd dïaconiaid, a llywodraethu achosion eglwys Dduw, yn dda; oblegid eglwys mewn cylch bychan yw teulu pob dyn crefyddol, ac mae llawer o'r un dyledswyddau ag sydd i'w cyflawni yn yr eglwys, i'w cyflawni hefyd yn y teulu. † Ac wrth wasanaethu swydd dïaconiaid yn dda, yr oeddynt yn ennill iddynt eu hunain radd dda, sef anrhydedd a pharch mawr yn nghyfrif yr eglwys; ac efallai o hyn yn cael eu derchafu i sefyllfa uwch, sef i fod yn bregethwyr cyhoeddus ac yn efengylwyr. Gwel ar adn. 8. Tybia dau o'n Hawdwyr mai y peth olaf a enwyd a feddyliai yr apostol y *radd dda*, ond tybia y ddau eraill i'r gwrthwyneb, mai anrhydedd a pharch yn unig a feddyliai. *Grîs*, neu *eistddfa*, wedi ei derchafu ychydig yn uwch na'r llawr, meddant, yw ystyr y gair *bathmos*, a gyfieithir yma *gradd;* a byddai meinciau felly, wedi eu derchafu goruwch eu gilydd, yn synagogau yr Iuddewon, i ddynion eistedd arnynt yn ol eu graddau o fawredd a pharch: tybia rhai fod cyfeiriad at hyny gan yr apostol yma. ‡ Beth

bynag oedd meddwl y "radd dda" uchod, yr oedd dïaconiaid da a ffyddlawn, trwy weinyddiad eu swydd yn ennill hyfder mawr yn y ffydd yn Nghrist: yr oeddynt lawer yn mhlith y tlodion a'r cleifion, a'r rhai mewn carcharau o herwydd yr efengyl, yn eu cyngori ac yn eu dyddanu; ac wrth fynych ymarfer â hyn, yn nghyd â chydwybod dawel eu hunain, a chymmeradwyaeth eu brodyr o'u ffyddlondeb; yr oeddynt yn cynnyddu yn yr hyfdra sanctaidd uchod, ac yn cynnyddu hefyd mewn dawn a pharodrwydd i lefaru yn fwy cyhoeddus am y ffydd yn Nghrist Iesu.

14 * Y pethau hyn yr ydwyf yn eu hysgrifenu attat, [z] † gan obeithio dyfod attat ar fyrder.

z pen. 4. 13. 1 Cor. 11. 34. a 16. 5—7. 2 Cor. 1. 15—17. 1 Thes. 2. 18. Philemon 22. Heb. 13. 23. 2 Ioan 12. 3 Ioan 14.

* Yr oedd yr apostol yn ysgrifenu hyn yn fŷr at Timothëus, er cyfarwyddyd iddo ef, ac i'w roddi er cyfarwyddyd i eraill, fel y byddai achlysuron yn gofyn, † gan obeithio ar yr un pryd dyfod ei hun ato ef ar fŷrder, i Ephesus neu rywle arall, i'w addysgu ef o hyd yn mhellach: ond tybir na ddaeth efe at Timothëus yn ol ei fwriad hwn, ond i Timothëus ddyfod ato ef i Macedonia, yn gynt nag yr oeddid wedi bwriadu. Act. 20. 4.

15 * Ond os tariaf yn hir, † fel y [a] gwypech pa fodd y mae yn rhaid *i ti* ymddwyn yn [b] nhŷ Dduw, ‡ yr hwn yw [c] eglwys y [d] Duw byw, [e] ‖ colofn a sylfaen y [f] gwirionedd.

a adn. 2. Deut. 31. 23. 1 Bren. 2. 2, 4. 1 Cron. 22. 13. a 28. 9—21. Act. 1. 2. b Eph. 2. 22. 2 Tim. 2. 20. Heb. 3. 2—6. 1 Pedr 2. 5. c Gwel ar adn. 5. d pen. 4. 10. a 6. 16. Deut. 5. 26. Jos. 3. 10. 1 Sam. 17. 26, 36. 2 Bren. 19. 4. Salm 42. 2. a 84. 2. Jer. 10. 10. a 23. 36. Dan. 6. 26. Hos. 1. 10. Mat. 16. 16. Ioan 6. 69. Act. 14. 15. Rhuf. 9. 26. 2 Cor. 3. 3. a 6. 16. 1 Thes. 1. 9. Heb. 3. 12. a 9. 14. a 12. 22. Dat. 7. 2. e Jer. 1. 18. Mat. 16. 18, 19. a 18. 18. Rhuf. 3. 2. Gal. 2. 9. f adn. 16. Ioan 1. 17. a 14. 6. a 18. 37. 2 Cor. 6. 7. Gal. 3. 1. Eph. 4. 21. Col. 1. 5.

* Nis gwyddai yr apostol yn sicr y pryd hwn, pa un a allai efe ddyfod at Timothëus yn fuan ai peidio; yr oedd yn "gobeithio" dyfod; ond yr oedd yn llaw Duw, i drefnu ei ffordd a'i waith iddo fel y gwelai efe yn dda: ac os na welai efe Timothëus yn fuan, yr oedd y llythyr hwn iddo i'w gyfarwyddo, † fel y gwypai efe pa fodd y dylai ymddwyn yn nhŷ Dduw, fel gweinidog a llywodraethwr ei deulu anwyl ef. Peth mawr yw gwybod pa fodd i ymddwyn yn mhob màn a sefyllfa, ond yn benaf yn eglwys a thŷ Duw, ac fel gweinidog a blaenor yno: gwasged y geiriau hyn, *ymddwyn yn nhy Dduw*, ar bawb o honom! ‡ Tŷ Dduw yw eglwys y Duw byw, cynnulleidfa a chymmanfa y credinwyr, lle mae y Duw byw yn preswylio, megys yn ei deml sanctaidd. O mòr ofnadwy yw y lle hwn! nid oes yma onid tŷ i Dduw, a dyma borth y nefoedd!! ‖ Trwy fod eglwys y Duw byw yn dàl, yn arddelwi, yn amddiffyn, ac yn arddangos gwirionedd yr efengyl, trwy bregethiad cyhoeddus a phroffes sanctaidd o'r gwirionedd hwnw, a thrwy yr addoliad a'r gwasanaeth a gyflawnir ynddi; gellir ei hystyried hi fel sylfaen yn dàl holl adeilad y gwirionedd, ac fel colofn yn cynnal ac yn addurno y gwirionedd: fel y byddai breninoedd gynt, wedi ysgrifenu eu cyfreithiau, yn eu gosod yn grogedig ar golofnau, mewn llysoedd agored i bawb, i'w gweled a'u darllen. Tybia rhai mai Timothëus a feddylir wrth "golofn a sylfaen y gwirionedd," fel y gelwir Iago a Cephas, ac Ioan yn golofnau, Galat. 2. 9; gwel hefyd Dat. 3. 12: eithr nis gellir galw gweinidogion yr efengyl felly, ond yn unig fel y maent yn dàl y gwirionedd yn eu gweinidogaeth; y gwirionedd yn hytrach yw eu colofn a'u sylfaen hwy â'r eglwys hefyd. Mae eraill yn dad-gyssylltu y geiriau oddi wrth yr adnod hon, ac yn eu cyssylltu â'r adnod nesaf; fel pe buasai yr apostol yn meddwl, mai "dirgelwch duwioldeb, Duw wedi ymddangos yn y cnawd," ydoedd colofn a sylfaen y gwirionedd. Felly y gwna *Doddridge;* ond tybia *Scott* nas gall hyny fod yn iawn, oblegid fod y "dirgelwch mawr" hwn yn rhan hanfodol o'r gwirionedd ei hun; yr hwn mae yr eglwys yn golofn a sylfaen iddo, ac wedi ei gynnal a'i arddangos trwy yr holl oesoedd, mewn byd tywyll a drygionus. Nis gallwn ddywedyd chwaneg ar y pethau dyfnion hyn.

16 [g] * Ac yn ddi-ddadl, [h] † mawr yw dirgelwch duwioldeb; [i] ‡ Duw a ymddangosodd yn y cnawd, [k] ‖ a gyfiawnhâwyd yn yr Ysbryd, [l] § a welwyd gan angelion, [m] * a bregethwyd i'r Cenhedloedd, [n] † a gredwyd iddo yn y byd, [o] ‡ a gymmerwyd i fynu mewn gogoniant.

g Heb. 7. 7. h adn. 9. Mat. 13. 11. Rhuf. 16. 25. 1 Cor. 2. 7. Eph. 1. 9. a 3. 3—9. a 6. 19. Col. 2. 2. 2 Thes. 2. 7. Dat. 17. 5, 7. i Es. 7. 14. a 9. 6. Jer. 23. 5, 6. Mica 5. 2. Mat. 1. 23. Ioan 1. 1, 2, 14. Act. 20. 28. Rhuf. 8. 3. a 9. 5. 1 Cor. 15. 47. Gal. 4. 14. Phil. 2. 6—8. Col. 1. 16—18. Heb. 1. 3. a 2. 9—13. 1 Ioan 1. 2. Dat. 1. 17, 18. k Es. 50. 5—7. Mat. 3. 16. Ioan 1. 32, 33. a 15. 26. a 16. 8, 9. Act. 2. 32—36. Rhuf. 1. 3, 4. 1 Pedr 3. 18. 1 Ioan 5. 6—8. l Salm 68. 17, 18. Mat. 4. 11. a 28. 2. Marc 1. 13. a 16. 5. Luc 2. 10—14. a 22. 43. a 24. 4. Ioan 20. 12. Act. 1. 10, 11. Eph. 3. 10. 1 Pedr 1. 12. m Luc 2. 32. Act. 10. 34. a 13. 46—48. Rhuf. 10. 18. Gal. 2. 8. Eph. 3. 5—8. Col. 1. 27. n Act. 14. 27. Col. 1. 6, 23. Dat. 7. 9. o Marc 16. 19. Luc 24. 51. Ioan 6. 62. a 13. 3. a 16. 28. a 17. 5. Act. 1. 1—9. Eph. 4. 8—10. Heb. 1. 3. a 8. 1. a 12. 2. 1 Pedr 3. 22.

* A rhaid addef yn rhwydd a diddadl, gan bawb a chwiliasant i bethau ysbrydol o'r natur hyn, ac a dreiddiasant fwyaf i mewn iddynt; † bod gwir athrawiaeth yr efengyl, yr hon sydd yn ol duwioldeb, yn ddirgelwch mawr, gogoneddus, ac anamgyffredadwy i bawb. ‡ Rhai o brif gangenau yr athrawiaeth hon yw y rhai a ganlyn:—sef bod tragywyddol Fab Duw, yr hwn sydd yn Dduw mewn gwirionedd, yn uudeb y Tad a'r Ysbryd, ac uwchlaw pawb yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd; wedi ymddangos yn y cnawd, wedi ei wneuthur yn gnawd, ac felly yn Emmanuel, Duw gyda ni, i'r dyben mawr a rhyfeddol o brynu a gwaredu ei bobl euog a cholledig: y cwbl a allwn ddywedyd am hyn yw, mai *dirgelwch mawr* ydyw, i'w gredu a'i ryfeddu, ond nid i'w amgyffred. ‖ Gwedi iddo foddloni cyfiawnder Duw trwy ei ufudd-dod, ei ddyoddefaint, a'i angau; efe a gyfiawnâwyd yn gyhoeddus, ac a gymmeradwywyd gan Dduw, fel cyfiawn Ben yr holl eglwys; a rhyddâwyd ef oddi wrth holl waradwyddiadau anghyfiawn ei elynion, yn ei adgyfodiad, trwy gydweithrediad yr Ysbryd Glân â'i nerth ef ei hun, fel Person dwyfol; ac felly cyfodwyd ef drachefn, er cyfiawnâd i ni oddi wrth yr holl bechodau, dros ba rai y traddodwyd ef i farwolaeth. Rhuf. 4. 25. § Gwedi hyny gwelwyd ef gan angelion Duw, y rhai a dystiolaethasant yn anrhydeddus am dano yn ei esgyniad, (Act. 1. 10, 11,) a lluoedd dirfawr o ba rai a'i hamgylchynent ef, fel ei weision a'i osgordd ef i'w addoli, ar ei fynediad buddugoliaethus i'r nef. Salm 68. 17. * Ac mewn canlyniad i hyn oll, efe a bregethwyd i'r cenedloedd yn gystal ag i'r Iuddewon, fel unig Iachawdwr mawr a digonol i bawb a gredant ynddo drwy yr holl fyd. † Mewn canlyniad i'r pregethu hyn, e gredwyd iddo yn y byd, gan lawer mwy o genedloedd paganaidd, nac Iuddewon deddfol a rhagfarnllyd; ac felly derbyniwyd ef mewn modd gogoneddus ganddynt hwy, y rhai a gyd-gasglent yn dorfèydd ato, dàn ddylanwadau gogoneddus yr Ysbryd, y rhai a dywalltodd ef i lawr o uchelder. ‡ Effaith ydoedd hyn oll o'i gymmeriad ef i ogoniant, ac yr oedd yn brawf amlwg o'i esgyniad ef i'w orsedd gyfryngol, i dderbyn pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear, i gyfiawni pob peth, ac d eiriol dros y troseddwyr. Mae *cyfiawnâu yn yr Ysbryd* yn cyfeirio yn ddïammau at y dystiolaeth a roddodi yr Ysbryd Glân am gyfiawnder yr Arglwydd Iesu, yn ei gyfodiad ef o'r bedd, fel Person cyfiawn, wedi cyflawni cyfiawnder y ddeddf a'i boddloni fel Machnïydd ei bobl. *A gymmerwyd i ogoniant: anelêphthê en doxê* yw y geiriau Groeg; a dywed *Guyse* y gellid eu darllen, *a dderbyniwyd yn ogoneddus*, sef gan y torfèydd lliosog a gredasant ynddo yn oes a thrwy weinidogaeth yr apostolion, ac a'i derbyniasant ef yn holl ogoniant e'

berson, ei gyfryngdod, a'i dderchafiad. Mae hyna a'r hyn a ddywedwyd o'r blaen yn wir, cymmered y darllenydd ei ddewis o'r ddau agoriad.

PEN. IV.

Y mae efe yn prophwydo ymadawiad oddi wrth y ffydd, yn yr amseroedd diweddaf.

* AC y mae [a] yr Yspryd yn [b] eglur yn dywedyd † yr [c] ymedy rhai yn yr [d] amseroedd diweddaf oddi wrth y ffydd, ‡ gan roddi coel i [e] ysprydion cyfeiliornus, ‖ ac i [f] athrawiaethau cythreuliaid;

a Ioan 16. 13. Act. 13. 2. a 28. 25. 1 Cor. 12. 11. Dat. 2. 7, 11, 17, 29. a 3. 6, 13, 22. b Ezec. 1. 3. c Num. 24. 14. Deut. 4. 30. a 32. 29. Es. 2. 2. Jer. 48. 47. a 49. 39. Ezec. 38. 16. Dan. 10. 14. Hos. 3. 5. Mica 4. 1. 2 Tim. 3. 1. 2 Pedr 3. 3. Judas 18. d Dan. 11. 35. 2 Thes. 2. 3. 2 Tim. 3. 1—5. a 4. 4. e Gen. 3. 3—5, 13. 1. Bren. 22. 22, 23. 2 Cron. 18. 19—22. 2 Cor. 11. 3, 13—15. 2 Thes. 2. 9—12. 2 Tim. 3. 13. Dat. 9. 2—11. a 13. 14. a 16. 14. a 18. 2, 23. a 19. 20. a 20. 2, 3, 8, 10. f Dan. 11. 35—38. 1 Cor. 8. 5, 6. a 10. 20. Col. 2. 18.—Act. 17. 18. Dat. 9. 20.

* Er annog a chyffrôi Timothëus, ac eraill trwyddo ef, i lŷnu yn gadarn wrth wirionedd Duw, a dirgelwch mawr duwioldeb, mae yr apostol yma yn tystiolaethu, bod yr Ysbryd Glân wedi llefaru yn y modd mwyaf eglur a phenderfynol, nid yn unig trwy Daniel ac eraill o'r hên brophwydi, ond hefyd wrth Paul ei hun, trwy ddatguddiad digyfrwng, ac efallai wrth amryw o'i frodyr; † yr ymadawai rhai dynion yn yr amseroedd diweddaf, sef yn ysgaid goruchwyliaeth ddiweddaf Duw dàn lywodraeth y Messïah, oddi wrth wir ffydd yr efengyl, sef gwir athrawiaeth yr efengyl. ‡ Cymmerai y gwrthgiliad hyn le trwy roddi coel i gau-athrawon, y rhai a fyddent dàn ddylanwad ysbrydion cyfeiliornus, neu hudol; ‖ ac fel hyn hwy a gofleidient athrawiaethau cythreuliaid, i addoli ysbrydoedd y meirw, ac angelion, fel cyfryngwyr rhyngddynt â Duw. Onid oes pethau fel hyn yn eglwys Rhufain hyd y dydd heddyw?

2 * Yn dywedyd [g] celwydd mewn rhagrith, † a'u [h] cydwybod eu hunain wedi ei serio â haiarn poeth;

g 1 Bren. 13. 18. a 22. 22. Es. 9. 15. Jer. 5. 31. a 23. 14, 32. Dan. 8. 23—25. Mat. 7. 15. a 24. 24. Act. 20. 30. Rhuf. 16. 18. Eph. 4. 14. 2 Tim. 3. 5. 2 Pedr 2. 1—3. Dat. 16. 14. h Rhuf. 1. 28. Eph. 4. 19.

* Dygid y cyfeiliornadau annuwiol hyn yn mlaen trwy ddywedyd celwydd mewn rhagrith, neu trwy ragrith celwyddwyr, y rhai a ddychymmygent laweroedd o chwedlau, a dwyllent ddynion trwy rith o wyrthiau a datguddiedigaethau; ac fel hyn y dygent eu masnach ddrygionus yn mlaen trwy ffug a thwyll, dàn y rhith o fawr sancteiddrwydd, a *zêl* dros grefydd, i'w mawrâu eu hunain, a hudo y torfèydd gwirion-ffol. † Ac ni theimlai y dynion hyn ddim euogrwydd am eu celwyddau a'u rhagrith, pa mòr annuwiol a dinystriol bynag a fyddent; gan y byddai ymarferiad â'r fath ysgelerder, dàn y ffug o dduwioldeb, yn serio eu cydwybodau hwynt, ac yn eu caledu, fel y mae cnawd naturiol yn myned yn ddideimlad wrth gael ei fynych serio â haiarn poeth. "Trwy ragrith y rhai a ddywedant gelwyddau, a'r rhai mae eu cydwybod wedi eu serio â haiarn poeth." Felly, medd *Pool*, mae yr adnod yn ol y Groeg.

3 [i] * Yn gwahardd priodi, † *ac yn erchi* [k] ymattal oddi wrth fwydydd, [l] ‡ y rhai a greodd Duw i'w derbyn, [m] ‖ trwy roddi diolch, gan y [n] ffyddloniaid, a'r rhai a adwaenant y gwirionedd.

i Dan. 11. 37. 1 Cor. 7. 28, 36—39. Heb. 13. 4. k Rhuf. 14. 3, 17. 1 Cor. 8. 8. Col. 2. 20—23. Heb. 13. 9. l Gen. 1. 29, 30. a 9. 3. Act. 10. 13—15. 1 Cor. 6. 13. m adn. 4. 1 Sam. 9. 13. Mat. 14. 19. a 15. 36. Luc 24. 30. Ioan 6. 23. Act. 27. 35. Rhuf. 14. 6. 1 Cor. 10. 30, 31. Col. 3. 17. n pen. 2. 4. Ioan 8. 31, 32. 2 Thes. 2. 13, 14.

* Un o gyfeiliornadau y twyllwyr hyn oedd gwahardd priodi: er dàl i fynu eu harglwyddiaeth ar feddyliau dynion, ac er tynu llïaws mawr at eu plaid hwy oddi wrth gyrph eraill o grefyddwyr; yn gystal ag i hudo dynolryw trwy ymddangosiad o sancteiddrwydd anghyffredin; hwy a ddywedent yn erbyn priodi, ïe, hwy a waharddent briodi, fel pe byddai hyny yn beth rhŷ an sanctaidd ac anaddas i ddynion crefyddol: gwahardd ent ryddid priodi i laweroedd, yn enwedig i wŷr eglwysig; trwy yr hyn y deuai pob aflendid i arferiad, ac i gael ei oddef, gan eu bod fel hyn yn diddymu trefn Duw, ac yn gosod dynion yn agored i bob temtasiynau o anniweirdeb. † Yr oeddynt hefyd yn gorchymyn i ddynion ymattal oddi wrth y fath hyn ac arall o fwydydd; un ai yn hollawl, neu ynte ar ryw ddyddiau ac amseroedd neilldu: trwy hyn hefyd byddent yn cadw eu tra-arglwyddiaeth ar gydwybodau dynion, ac yn twyllo y werin â rhith o grefyddoldeb; tra byddent hwy eu hunain yn cyflawni pob math o bechodau yn ddirgel, fel y gwnâi y Phariseaid o'u blaen hwynt: ac onid yw y ddau beth uchod yn mhlith y pabyddion y dydd heddyw? ‡ Ond crëodd Duw bob math o fwydydd iachus er lles i ddynion, a chaniatâodd i gristionogion ddefnyddio pobpeth yn ddiwahaniaeth, ar bob amserau a phrydiau yn ddiwahardd: ‖ gan hyny gellid derbyn ei holl drugareddau crëedigol ef, gyda diolchgarwch, gan y rhai a gredent y gwirionedd, ac a'i hadwaenent càn belled ag i wybod eu rhyddid cristionogol mewn pethau felly.

4 * Oblegid *y mae* [o] pob peth a greodd Duw yn dda, [p] † ac nid *oes* dim i'w wrthod, ‡ os cymmerir trwy dalu diolch:

o Gen. 1. 31. Deut. 32. 4. p Act. 11. 7—9. a 15. 20, 21, 29. a 21. 25. Rhuf. 14. 14, 20. 1 Cor. 10. 23, 25.

5 ‖ Canys y mae [q] wedi ei sancteiddio [r] gan air Duw a gweddi.

q Gwel ar m. adn. 3.—Luc 11. 41. 1 Cor. 7. 14. Tit. 1. 15. r Luc 4. 4.

* Oblegid yr oedd pob crëadur a grëodd ac a wnaeth Duw yn dda ynddo ei hun, fel y daeth o'i law ef, ac i'r dybenion i ba rai y crëwyd ef; † ac nid oedd dim ag oedd yn addas er ymborth i'w wrthod, nac i betruso yn ei gylch; ‡ os cymmerid ef gyda diolchgarwch a chydnabyddiaeth grefyddol i Dduw, fel y crëwr a'r rhoddwr o hono; ‖ oblegid yr oedd caniatâd ei air ef, y defnydd cymmedrol o hono yn ol y gair, a gweddi am fendith arno; yn ei sancteiddio ef i wasanaeth y credadyn, ac yn ei addasu yntau i wasanaeth Duw. *Wedi ei sancteiddio gan air Duw:* sef gan efengyl Duw, yr hon sydd wedi diddymu y gwahaniaeth rhwng bwydydd glân ac aflan dàn y ddeddf seremoniol. Act. 10. 15. Daeth y gwrthgiliad a'r llygredigaethau uchod i mewn yn fore, yn hollawl yn ol y rhagfynegiad blaenorawl; trwy yr athrawon Iuddewaidd, y Gwybedyddion *(Gnosticks)* a chyfeiliornwyr eraill; ond yn eglwys Rhufain y cyflawnwyd y cwbl.

6 * Os [s] gosodi y pethau hyn o flaen y brodyr, † ti a fyddi [t] weinidog da i Iesu Grist, ‡ wedi dy [u] fagu y'ngeiriau y ffydd, ac [x] athrawiaeth dda, [y] ‖ yr hon a ddilynaist.

s Act. 20. 31, 35. Rhuf. 15. 15. 1 Cor. 4. 17. 2 Tim. 1. 6. a 2. 14. 2 Pedr 1. 12—15. a 3. 1, 2. Judas 5. t Mat. 13. 52. 1 Cor. 4. 1, 2. 2 Cor. 3. 6. a 6. 4. Eph. 6. 21. Col. 4. 7. 1 Thes. 3. 2. 2 Tim. 2. 15. u Jer. 15. 16. Eph. 4. 15, 16. Col. 2. 19. a 3. 16. 2 Tim. 3. 14—17. x pen. 1. 10. a 4. 16. a 6. 3. Salm 19. 7. Diar. 4. 2. Ioan 7. 16, 17. 2 Tim. 4. 3. Tit. 2. 1, 7—10. 2 Ioan 9. y Phil. 3. 16. 2 Tim. 3. 14.

* Cyfarwyddai yr apostol Timothëus i ddàl ar y gocheliadau uchod ei hun; ac hefyd i'w gosod ger bron y brodyr oll, a'u dwyn ar gôf iddynt, a thàn eu sylw; fel y byddent hwy ar eu gwyliadwriaeth yn erbyn pob hudoliaeth dwyllodrus. † Fel hyn byddai efe yn weinidog da i Iesu Grist; yn ymddwyn yn anrhydeddus, yn ddoeth, yn ffyddlawn, ac yn onest; ‡ fel y gweddai i un ag oedd wedi ei fagu, a'i lwyr addysgu, yn ngeiriau y ffydd ac athrawiaeth dda, ac wedi ymborthi arnynt, a'u troi yn faeth ysbrydol i'w enaid: ‖ oblegid yr oedd efe wedi ei

ddwyn i fynu "er yn fachgen" yn y pethau hyn, wedi eu hystyried hwynt yn ddyfal, wedi cynnyddu yn fawr ynddynt, ac wedi eu dilyn yn fyddlawn hyd yma. Cofied gweinidogion yr efengyl mai gweinidogion i Grist ydynt yn gyntaf, ac yna gweinidogion hefyd i eglwys a phraidd Crist, i roddi bwyd iddynt yn ei bryd; am hyny dylent hwy eu hunain fod wedi eu magu, ac yn ymborthi yn wastadol, ar eiriau y ffydd ac athrawiaeth dda, a'i dilyn.

7 * Eithr [z] gâd heibio halogedig a gwrachïaidd chwedlau, [a] † ac ymarfer dy hun i dduwioldeb.

z pen. 1. 4. a 6. 20. 2 Tim. 2. 16, 23. a 4. 4. Tit. 1. 14. a 3. 9. a pen. 1. 4. a 2. 10. a 3. 16. a 6. 11. Act. 24. 16. 2 Tim. 3. 12. Tit. 2. 12. Heb. 5. 14. 2 Pedr 1. 5—8.

* Yr halogedig a'r gwrachïaidd chwedlau hyn oedd traddodiadau, a "chwedlau ac achau annorphen" yr Iuddewon, a dywed y rhai a'u darllenodd yn llyfrau yr hên Rabbiniaid Iuddewig, eu bod yn dra theilwng o'r enw uchod, *gwrachïaidd chwedlau;* am eu bod, nid yn unig yn anhygoel, ond hefyd yn bethau mwyaf difias a disynwyr, a luniodd neb erioed: yn fwy ynfyd na dim chwedlau, a ddywed hên wrachod i ddifyru neu ddychrynu plant. Yr oedd y rhai hyn yn llygru symledd a phurdeb yr efengyl, ac yn halogi meddyliau y rhai a'u gwrandawent; am hyny rhaid i Timothëus eu gadael hwy heibio; peidio a'u harfer ei hun, a pheidio gwrando ar y rhai a'u harferent: nid yw chwedlau gwrachïaidd yn gweddu i'r areithfa, nac yn gweddu i'r dynion sydd yn myned i'r areithfa: geiriau cymmeradwy, geiriau sobrwydd a gwirionedd, ac ymadrodd iachus, yr hwn ni aller beïo arno, sydd yn gweddu i'r lle hwnw, ac i'r dynion hyny, yn mhob màn. † Cyngor Paul i Timothëus oedd, ymarfer ei hun trwy ddarllen, myfyrdod, gweddïau, a phob llafur; i gynnyddu duwioldeb yn ei enaid ei hun, ac yn eneidiau y bobl a wrandawent arno. Ymarfer yn ymdrechgar, â holl egni y meddwl, yw ystyr y geiriau, *(gynnaze de seauton,)* fel ymdrechwyr am y gamp yn y chwareüau gynt.

8 * Canys i [b] ychydig y mae ymarfer corphorol yn fuddiol: [c] † eithr duwioldeb sydd fuddiol i bob peth, [d] ‡ a chanddi addewid o'r bywyd *y sydd* yr awrhon, ‖ ac o'r hwn a fydd.

b 1 Sam. 15. 22. Salm 50. 7—15. Es. 1. 11—16. a 58. 3—5. Jer. 6. 20. Amos 5. 21—24. 1 Cor. 8. 8. Col. 2. 21—23. Heb. 13. 9. c pen. 6. 6. Job 22. 2. Tit. 3. 8. d Deut. 28. 1—14. Job 5. 19—26. Salm 37. 3, 4, 16—19, 29. a 84. 11. a 91. 10—16. a 112. 1—3. a 128. 1—6. Diar. 3. 16—18. Preg. 8. 12. Es. 3. 10. a 32. 17, 18. a 33. 16. a 65. 13, 14. Mat. 5. 3—12. a 6. 33. a 19. 29. Marc 10. 29, 30. Luc 12. 31, 32. Rhuf. 8. 28. 1 Cor. 3. 22. 2 Pedr 1. 3, 4. 1 Ioan 2. 25. Dat. 3. 12, 21.

* Yr ymarfer corphorol yn y campiau hyny, nid oedd ond o ychydig fuddioldeb, hyd yn nôd i'r ennillwyr; ychydig glôd, am ychydig amser, yn nghyd â choron o ddail a blodau gwywedig, oedd y cwbl a gaent hwy am eu holl boen a'u hymdrech caled. Yr ymarfer â'r cyflawniadau seremoniol, ni bu ond o ychydig fuddioldeb i'r Iuddewon yn gyffredin, na dim i'r rhai oedd yn ymddybynu ar y cyflawiadau hyny; ac nid oeddynt o ddim buddioldeb yn awr i'r Iuddewon cristionogol. A phob dychymmyg dynol, a phob cyflawniadau allanol mewn crefydd, heb y galon a'r ysbryd, nid ydynt yn fuddiol ond i ychydig, ïe, dim: nid ydynt o les yn y byd i'r enaid, nac yn ogoniant i Dduw. Rhaid mai un, neu rai, o'r pethau uchod, oedd meddwl yr apostol wrth yr "ymarfer corphorol;" tybia *Doddridge* mai y cyntaf a feddyliai, ond tybia ein Hawdwyr eraill, mai manylrwydd allanol mewn crefydd, seremoniol neu gristionogol, a feddyliai. † Beth bynag am yr ymarfer corphorol a'i anfuddioldeb, mae yn sicr fod duwioldeb efengylaidd, fywiol, ac ymarferol, mewn galon a buchedd, yn fuddiol i bob peth a berthyn i ddynion: ‡ mae ganddi addewidion am bethau y bywyd presenol: gwel pen. 2. 15; Matth. 6. 25—33; Rhuf. 8. 28; Phil. 4. 19: ‖ ac hefyd mae ganddi addewidion amlach a mwy rhagorol, am y bywyd a fydd: ïe, hyn yn bennodol yw yr addewid a addawodd efe i'r duwiolion, sef bywyd tragywyddol, 1 Ioan 2. 25. Am yr addewidion a grybwyllir uchod, tröed y darllenydd at yr ysgrythyrau a nodir dàn y llythyren *d.*

9 [e] * Gwir *yw* y gair, † ac yn haeddu poo derbyniad.

e Gwel ar pen. 1. 15.

* Gellir ymddybynu yn hollawl ar yr addewid uchod, yn nghyd â phob addewid arall o eiddo Duw, fel gwirionedd sicr, yr hwn a gyflawna efe yn fyddlawn; † ac mae yn deilwng o'r grediniaeth grefaf, y sylw a'r parch mwyaf, a'r derbyniad gwresocaf, fel y calonogid ef â'r cyfnerth cryfaf i wasanaethu yr Arglwydd, ac i lynu wrtho ef yn nghanol caledi, gwrthwynebiadau, a pheryglon; pwy bynag, a pha nifer bynag, a wrthgiliant oddi wrtho. Gwel ar pen. 1. 15.

10 * Canys [f] er mwyn hyn † yr ydym yn poeni, ‡ ac yn cael ein gwaradwyddo, [g] ‖ o herwydd i ni obeithio yn y [h] Duw byw, § yr hwn yw [i] Achubydd pob dyn, [k] yn enwedig y ffyddloniaid.

f 1 Cor. 4. 9—13. 2 Cor. 4. 8—10. a 6. 3—10. a 11. 23—27. 2 Tim. 2. 9, 10. a 3. 10—12. Heb. 11. 26. a 13. 13. 1 Pedr 4. 14, 15. g pen. 6. 17. Salm 37. 40. a 52. 8. a 84. 12. a 118. 8. Es. 12. 2. a 50. 10. Jer. 17. 7. Dan. 3. 28. Nah. 1. 7. Mat. 27. 43. Rhuf. 15. 12, 13. 1 Pedr 1. 21. h Gwel ar pen. 3. 15. i Gwel ar pen. 2. 4, 6.—Salm 36. 6. Es. 45. 21, 22. Ioan 1. 29. a 3. 15—17. 1 Ioan 2. 2. a 4. 14. k Ioan 5. 24. 1 Ioan 5. 10—13.

* Mewn ymddybyniad ffyddlog ar yr addewid a'r gwirionedd uchod, ac yn y gobaith sicr am gyflawniad o'r cyfryw iddynt eu hunain; † yr oedd yr apostolion a gweision Crist yn myned trwy boen a lludded dirfawr yn eu gweinidogaeth sanctaidd, er gogoneddu Duw, dwyn yn mlaen ei achos a'i deyrnas ef, ac ennill eneidiau ato ef. ‡ Yn hyn, ac am hyn, yr oeddynt yn amyneddgar ac yn llawen, yn dyoddef eu gwaradwyddo a'u henllibio gan eu gelynion a'u gwrthwynebwyr; ‖ am eu bod yn ymorphwys yn dawel, yn ddïysgog, ac yn obeithiol, ar allu, gwirionedd, a ffyddlondeb y Duw byw a hollalluog, yr hwn mae ganddo fywyd ynddo ei hun, ac sydd yn ffynon bywyd naturiol ac ysbrydol ei holl grëaduriaid, ac yn ffynon pob bendith angenrheidiol er cynnaliaeth a chysur bywyd o bob math i bawb. § Fel hyn mae efe yn Achubydd pob dyn, yn awdwr a rhoddwr eu holl ddaioni a'u gwaredigaethau tymmorawl yn nhrefn ei ragluniaeth fawr: mae efe yn dda i bawb, a'i drugaredd sydd ar ei holl weithredoedd; (Salm 145. 9;) ac y mae felly yn enwedig, trwy neillduol ofal ei ragluniaeth, a thrwy ei ras a'i ffyddlondeb cyfammodol, i'r ffyddloniaid, y rhai a gredant ynddo am achubiaeth eu heneidiau, ac iachawdwriaeth dragywyddol yn y byd a ddaw, pa un bynag ai Iuddewon ai cenedloedd a fyddont. Mae y "Duw byw" yn "Achubydd *pob* dyn" o rau eu bywydau a'u pethau tymmorawl; am hyny efe a gymmer neilldual ofal, "yn enwedig" am y ffyddloniaid, fel rhai a rhan iddynt yn ei gariad a'i fendithion cyfammodol ef.

11 * Y pethau hyn [l] gorchymyn a dysg.

l pen. 6. 2. 2 Tim. 4. 2. Tit. 2. 15. a 3. 8.

* Yr oedd y pethau uchod o bwys a gwerth mawr, er cefnogi ffydd a meithrin sancteiddrwydd; am hyny ewyllysiai yr apostol i Timothëus eu gorchymyn a'u dysgu, trwy awdurdod dwyfol, a'u hargraffu yn effeithiol ar gydwybodau gweinidogion a phroffeswyr yr efengyl: mynai iddo eu hegluro a'u hamlygu yn helaeth yn ei weinidogaeth gyffredin; fel y gwelai dynion ardderchawgrwydd a buddioldeb gwir grefydd a sancteiddrwydd.

12 * Na [m] ddïystyred neb dy ieuengctid di; [n] † eithr bydd yn esampl i'r ffyddloniaid, [o] mewn gair, ‡ mewn ymarweddiad, ‖ mewn cariad, § mewn ysbryd, * mewn ffydd, † mewn purdeb.

m Mat. 18. 10. 1 Cor. 16. 10, 11. 2 Tim. 2. 22. n 1 Cor. 11. 1. 1 Thes. 1. 6. a 2. 10. 2 Thes. 3. 7—9. Tit. 2. 7. 1 Pedr 5. 3.

o 2 Cor. 6. 4—17. Phil. 4. 8. 2 Tim. 2. 22. Iago 3. 13, 17. 2 Pedr 1. 5—8.

* Gan fod Timothëus yn ieuangach nâ dynion yn gyffredin, i ba rai yr ymddiriedid gwaith mòr fawr a phwysig, ac yn ieuangach, efallai, nac amryw o henuriaid eglwys Ephesus; yr oedd yn dra angenrheidiol iddo ef ymddwyn yn mhob peth gyda'r fath arafwch a doethineb, fel na chaffai neb yr achlysur lleiaf i ddïystyru ei berson na'i gyngorion ef, o herwydd ei ieuenctid: na rodded ef achos ei ddïystyru, ac na ddïystyred neb ef heb achos, yn unig o herwydd ei ieuenctid. † Yr oedd yn gweddu iddo ef, gan hyny, fod yn esampl i'r holl ffyddloniaid, holl gymdeithas y credinwyr, trwy ymlynïad cyson a dianwadal wrth air yr efengyl, yn ei broffes, ei weinidogaeth, a'i holl ymddyddanion: ‡ mewn ymarweddiad duwiol, pur, ac adeiladol, yn wastad ac yn mhob màn: ‖ mewn cariad gwresog at yr Arglwydd Iesu, ei bòbl, a thuag at bob dyn: § mewn ysbrydolrwydd meddwl mawr, mewn gwresawgrwydd dros ogoniant Duw, ac yn helaeth yn holl ffrwythau yr Ysbryd: * mewn ffydd fywiol yn nhrugaredd, addewidion, a rhagluniaeth Duw, yn nghanol pob caledi a pheryglon; † ac mewn purdeb sanctaidd a diragrith, yn gwylied yn ofalus rhag pob peth a allai dueddu i grëu drwg-dybiaeth, gyda golwg ar y "chwantau ieuenctid" hyny, trwy y rhai y cafodd cynnifer o ddynion ieuaine eu llygru. Dyna'r ffordd i holl weinidogion yr efengyl ymgadw rhag cael eu "dïystyru," pa ffyrdd bynag eraill a ddyfeisiont hwy, hwy a gânt weled y cyflawna Duw yr hyn a ddywedodd efe yn 1 Sam. 2. 30; "Fy anrhydeddwyr a anrhydeddaf fi, a'm dirmygwyr a ddirmygir."

13 * Hyd oni [p] ddelwyf, † glŷn [q] wrth ddarllen, [r] ‡ wrth gynghori, [s] ‖ wrth athrawiaethu.

p Gwel ar pen. 3. 14, 15. q Deut. 17. 19. Jos. 1. 8. Salm 1. 2, 3. a 119. 97—104. Diar. 2. 4, 5. Mat. 13. 51, 52. Ioan 5. 39. Act. 6. 4. a 17. 11. 2 Tim. 2. 15—17. r Rhuf. 12. 8. 1 Cor. 14. 3. Tit. 2. 15. s adn. 6, 16. 1 Cor. 14. 6, 26. 2 Tim. 4. 2.

* Bwriadai yr apostol y pryd hwn fyned at Timothëus yn fuan, i'w addysgu ef yn mhellach yn bersonol, pen. 3. 14; † ond hyd oni ddeuai, mae yn ei gyngori ef i lynu wrth ddarllen yr ysgrythyrau, a llyfrau da eraill, os oedd rhai da y pryd hwnw, èr chwanegu gwybodaeth fuddiol iddo ef. Mae yn debyg nad oedd nemawr o lyfrau crefyddol, a buddiol i'w darllen y pryd hwnw, ond yr ysgrythyrau sanctaidd, yr Hen Destament, yr epistol hwn, a rhyw ranau eraill, efallai, o'r Testament Newydd. Dyledswydd pregethwr yw darllen, glŷnu wrth ddarllen, a myfyrio yn ddwys ar yr hyn a ddarlleno; a gwael o bregethwr yw yr hwn sydd yn rhŷ ddïog a segurllyd i ddarllen. ‡ Fel hyn mynai yr apostol i Timothëus gynnysgaethu ei hun â thrysor o wybodaeth fuddiol, ac yna defnyddio yr wybodaeth hòno, i gyngori, adeiladu, a chysuro ei frodyr a'i wrandawwyr; ‖ a phregethu athrawiaeth iachus, gadarn, ac ysgrythyrol yn eu plith hwy, er eu dychweliad, eu cynnydd, a'u cadarnâd yn y gwirionedd.

14 * Nac [t] esgeulusa y dawn sydd ynot, [u] † yr hwn a rodded i ti trwy brophwydoliaeth, [x] ‡ gyd âg arddodiad dwylaw yr henuriaeth.

t Mat. 25. 14—30. Luc 19. 12—26. Rhuf. 12. 6—8. 1 Thes. 5. 19. 2 Tim. 1. 6. 1 Pedr 4. 9—11. u pen. 1. 18. x pen. 5. 22. Act. 6. 6. a 13. 3. 2 Tim. 1. 6.

* Gan fod yr Arglwydd wedi cynnysgaethu Timothëus â doniau rhagorol at ei waith a'i wasanaeth ef, yr oedd yn ddyledus iawn arno beidio esgeuluso y doniau gwerthfawr hyny; ond eu harfer a'u defnyddio hwy yn ddyfal ac yn gydwybodol, mewn cyngori ac athrawiaethu, ac ymgais am eu cynnyddu hwynt trwy ddarllen, myfyrio, gweddïo, a phob ymarferiad o honynt. Mae rhai yn esgeuluso y dawn a roddwyd iddynt, ac efallai yn gwneyd defnydd drwg o hòno; ac mae yr Arglwydd weithiau yn ymddifadu y dynion hyny o'u dawn, am yr esgeulusiad a'r cam-ddefnydd o hòno. † "A rodded i ti trwy brophwydoliaeth," neu yn ol y prophwydoliaethau a gerddasent o'r blaen am dano ef: gwel ar pen. 1.

18. ‡ Nis gwyddom pa le, na pha bryd, yr urddwyd Timothëus i waith y weinidogaeth; mae yn amlwg i hyny gael ei wneyd gydag arddodiad dwylaw Paul, yn nghyd â rhyw henuriaid eglwysig eraill; ac i ddoniau anghyffredin yr Ysbryd Glân gael eu rhoddi iddo ef y pryd hwnw, a thrwy hyny. Gwel ar Act. 6. 6. Er cael y doniau rhagorol ac anghyffredinol hyn, a'u cael hefyd mewn modd goruwch-naturiol; eto yr oedd y parâd o honynt yn ymddybynu mewn mesur mawr, ar yr iawn ddefnyddiad ffyddlawn a diesgeulus o honynt.

15 [y] * Myfyria ar y pethau hyn, [z] † *ac* yn y pethau hyn aros; [a] ‡ fel y byddo dy gynnydd yn eglur i bawb.

y Jos. 1. 8. Salm 1. 2. a 19. 14. a 49. 3. a 63. 6. a 77. 12. a 104. 34. a 105. 5. a 119. 15, 23, 48, 97, 99, 148. a 143. 5. z Act. 6. 4. 1 Cor. 16. 15. 2 Cor. 5. 14, 15. a 8. 5. Tit. 2. 14. a adn. 6. Mat. 5. 16. Phil. 2. 15, 16.

* Am hyny dylai Timothëus fyfyrio yn ddifrifol ar y cyngorion, gocheliadau, a'r annogaethau uchod, † ac "aros ynddynt," neu roddi ei hunan yn hollawl iddynt, yn ol y Saesoneg; eu gwneyd yn un achos mawr, a hyfrydwch penaf ei fywyd; a defnyddio ei holl amser a'i ddawn o lwyr-fryd calon, i wasanaeth yr Arglwydd a'i achos mawr. ‡ Fel hyn, ac fel hyn yn unig, byddai ei gynnydd ef mewn doethineb, gwybodaeth, profiad, cymhwysderau gweinidogaethol, sancteiddrwydd, a defnyddioldeb, yn eglur i bawb. *Aros ynddynt:* bydded dy holl enaid ynddynt, yn wastadol; fel yn dy wir elfen, dy alwedigaeth, dy hyfrydwch, a'th hoff waith.

16 [b] * Gwylia arnat dy hun, [c] † ac ar yr athrawiaeth; [d] ‡ aros ynddynt: [e] ‖ canys os gwnai hyn, ti a'th gedwi dy hun [f] § a'r rhai a wrandawant arnat.

b 1 Cron. 28. 10. 2 Cron. 19. 6. Marc 13. 9. Luc 21. 34. Act. 20. 28. 1 Cor. 3. 10, 11. Col. 4. 17. 2 Tim. 4. 2. Tit. 2. 7, 15. Heb. 12. 15. 2 Ioan 8. c adn. 6. pen. 1, 3. Rhuf. 16. 17, Eph. 4. 14. Tit. 2. 7. Heb. 13. 9. 2 Ioan 9. d Act. 6. 4. a 26. 22. Rhuf. 2. 7. 2 Tim. 3. 14. Tit. 1. 9. e Ezec. 3. 19—21. a 33. 7—9. Act. 20. 26, 27. 1 Cor. 9. 27. f Es. 55. 11. Jer. 23. 22. Rhuf. 10. 10—14. a 11. 14. 1 Cor. 9. 22. 1 Thes. 2. 16, 19, 20. 2 Tim. 2. 10. Philemon 19. Iago 5. 20.

* Yr oedd Timothëus ieuanc yn sefyll yn nghanol aneirif faglau ac anhawsderau, ac yr oedd ganddo yr un galon dwyllodrus ag oedd gan ddynion eraill, er maint ei ddoniau; am hyny yr oedd yn dra angenrheidiol iddo fod yn wyliadwrus iawn arno ei hun; ar agwedd ei ysbryd a'i enaid ei hun, ar ei gynnydd ei hun mewn gras; ar ei ddybenion, ei dymherau, a'i holl ymddygiad yn mhob peth. † Dylai hefyd wylied yn fanol ar ei athrawiaeth ei hun, (ac efallai ar athrawiaeth eraill hefyd,) ar ei bod yn ysgrythyrol, yn efengylaidd, ac yn ymarferol; yn cael ei hiawn draethu, ei hegluro, ei hamddiffyn, ei chadarnâu, a'i chymhwyso yn priodol: ar fod pob rhan o hòni yn cael ei osod yn ei iawn le a'i berthynas, i wneuthur un cyfan-waith perffaith; ac fel hyn tystiolaethu holl gyngor Duw i bechaduriaid. ‡ A pha brofedigaethau a digalondid bynag a gyfarfyddai efe yn ei waith, ei ddyledswydd ef oedd dàl ati, a myned yn mlaen yn ddïysgog yn ei yrfa; aros yn gadarn yn y pethau hyn, fel ei waith priodol a gosodedig iddo, hyd ddiwedd ei oes. ‖ Os gwnâi efe hyn, a thrwy y moddion hyn, dàn fendith yr Ysbryd Glân, byddai yn offeryn-ol i'w gadw ei hun yn ddigwymp yma, ac i gadw ei enaid i fywyd tragywyddol; § ac hefyd i gadw eneidiau y rhai a wrandawent arno, ac a gredent ei athrawiaeth achubol ac iachusol ef. Gwrando yn grediniol a feddylir.

PEN. V.

Rhëolau i'w dilyn wrth geryddu.

* NA [a] cherydda [b] hynafgwr, † eithr [c] cynghora *ef* megis tad; ‡ *a'r* rhai ieuainge, [d] megis brodyr;

a adn. 19, 20. Lef. 19. 32. Deut. 33. 9. Gal. 2. 11—14.

b adn. 17. Act. 14. 23. a 15. 4, 6. a 20. 17. Tit. 1. 5, 6. Iago 5. 14. 1 Pedr 5. 1. 2 Ioan 1. 3 Ioan 1. Dat. 4. 4. c Rhuf. 13. 7. Gal. 6. 1. 2 Tim. 2. 24, 25. Philemon 9, 10. Iago 3. 17. 1 Pedr 5. 5, 6. d Mat. 18. 15—17. a 23. 8.

* "Na cherydda *henuriad*," yn ol y Saesoneg: ond addefa ein Hawdwyr eu hunain mai "henafgwr" a ddylai fod, ac nid henuriad o ran swydd: mae cyferbyniad y gair â'r rhai *ieuainc* yn niwedd yr adnod hefyd, yn dangos yr un peth. Na cherydda yn *rhy arw*, ebai *Pool*, yw ystyr y gair *(epiplêxês)* a gyfleithir yma, "ceryddu:" ffrewyllu yn dost ac yn haerllug, â'r tafod. Rhaid i ni ystyried hefyd mai am feïau o wendid, a damwain, mewn hên bobl, mae yr apostol yn llefaru: ac nid am bechodau cyhoeddus a gwarthus: pe amgen, byddai y cyngor "Na cheryddа" yn anmhriodol, ac yn anghyson â'r hyn a ddywed efe yn adn. 20. Gan mai dyn ieuanc oedd Timothëus, nid oedd yn gweddu iddo ef drin hên gristionogion yn drahaus ac yn galed, er eu bod wedi syrthio i feïau bychain mewn profedigaethau a gwendid: † ond ei le ef oedd eu hystyried hwy fel tadau, a'u cyngori hwy yn barchus a thirion, i fod yn fwy gochelgar. Mae cerydd yn mhob cyngor o'r fath hyn; ond nid oes cyngor mewn llawer cerydd, a roddir mewn ysbryd a geiriau digofus a phigog. ‡ Wrth geryddu ei gyfoedion ieuainc hefyd, pa un bynag ai gweinidogion, ai proffeswyr yn unig a fyddent; dylai efe wneyd hyny yn dirion a serchiadol, gan eu hystyried hwy fel brodyr, a'u trin hwy fel y cyfryw, nid yn afrywiog a meistrolaidd

2 * Yr [e]hen wragedd, megis mammau; † y rhai ieuaingc, megis chwiorydd, [f] ‡ gyd â phob purdeb.

e adn. 3. Mat. 12. 50. Ioan 19. 26, 27. f pen. 4. 12. Phil. 4. 8. 1 Thes. 5. 22. 2 Tim. 2. 22.

* Dylai geryddu a chyngori yr hên wragedd crefyddol fel mamau; fel y gweddai i blant ymddwyn tuag at eu mamau naturiol, pan fyddai achos dywedyd wrthynt am ryw fai ynddynt. † Dylai ymddwyn tuag at y gwragedd a'r merched ieuainc fel chwiorydd, gyda phob tirionwch carüaidd a serchawgrwydd: ‡ ac ar yr un pryd gyda phob purdeb sanctaidd, fel na byddai dim croes i harddwch a gweddeidd-dra diwair, yn ei ymddygiad ef fel gweinidog Duw tuag atynt.

3 [g] * Anrhydedda y [h] gwragedd gweddwon † y rhai sydd [i] wir-weddwon.

g adn. 2, 17. Ex. 20. 12. Mat. 15. 6. 1 Thes. 2. 6. 1 Pedr 2. 17. a 3. 7. h adn. 9. Deut. 10. 18. a 14. 29. a 16. 11, 14. a 27. 19. Job 29. 13. a 31. 16. Salm 68. 5. a 94. 6. a 146. 9. Jer. 49. 11 Mat. 23. 14. Luc 7. 12. Act. 6. 1. a 9. 39. Iago 1. 27. i adn. 4, 5, 9—11, 16. Luc 2. 37. Ioan 1. 47.

* Am y gwragedd gweddwon crefyddol, y rhai ydynt dueddol i dybied eu bod yn cael eu hesgeuluso, neu yn cael cam; mynai yr apostol i Timothëus dalu pob parch i'r rhai hyny, a gofalu am iddynt gael eu hanrhydeddu a'u cynnal gan yr eglwys yn ol ei gallu: † os oeddynt yn sicr yn wir weddwon; nid yn unig wedi colli eu gwŷr, ond hefyd yn amddifad o bob perthynasau, a allai ac a wnâi eu cynnorthwyo a'u cynnal hwynt. Mae yn debyg wrth yr adnod nesaf a'r wythfed, mai cynnorthwy a chynnaliaeth tymmorawl a feddylir wrth yr "anrhydedd" yma i'r gwragedd gweddwon: gwel hefyd Matth. 15. 4, 5, 6; a Marc 7. 10—13.

4 * Eithr o bydd un weddw ag iddi blant neu [k] ŵyrion, [l] † dysgant yn gyntaf arfer duwioldeb gartref, [m] a thalu y pwyth i'w rhïeni: ‡ canys hynny sydd [n] dda a chymmeradwy ger bron Duw.

k Barn. 12. 14. Job 18. 19. Es. 14. 22. l 1 Sam. 22. 3, 4. Diar. 31. 28. Luc 2. 51. Ioan 19. 26, 27. m Gen. 45. 10, 11. a 47. 12, 28. Ruth 2. 2, 18. Eph. 6. 1—3. n Gwel ar pen. 2. 3.

* Eithr os byddai un weddw yn yr eglwys ag iddi blant neu ŵyrion mewn amgylchiadau i allu ei chynnal hi, nid "gwir weddw" a fyddai hòno; † dylai y cyfryw blant neu ŵyrion gael eu dysgu, fel dyledswydd o'r pwys mwyaf, i "arfer duwioldeb," neu serch dïolchgar a pharchus "gartref;" i "dalu y pwyth" o ofal tyner, llafurus, a chostfawr eu rhïeni tuag atynt hwy yn eu babandod a'u gwendid, trwy ofalu am danynt hwythau yn eu henaint a'u hangen. ‡ Mae y cyfryw ymddygiad mewn plant neu ŵyrion yn dda ynddo ei hun, yn deilwng ac yn anrhydeddus i'w rhïeni; ac yn gymmeradwy ger bron Duw, yr hwn a sefydlodd y berthynas a'r dyledswyddau hyn rhwng rhïeni a phlant.

5 * Eithr yr hon sydd [o] wir-weddw ac [p] unig, † sydd yn [q] gobeithio yn Nuw, ‡ ac yn [r] parhâu mewn ymbiliau, a gweddïau, nos a dydd.

o adn. 3. Ruth 1. 5, 12, 20, 21. p Es. 3. 26. a 49. 21. a 54. 1. Galar. 1. 13. q Ruth 2. 12. Salm 91. 4. Es. 12. 2. a 50. 10. 1 Cor. 7. 32. 1 Pedr 3. 5. r Gwel ar Luc 2. 37. a 18. 1, 7. Eph. 6. 18.

* Ond y "wir-weddw," yr hon oedd yn wrthddrych teilwng o gynnorthwy ac elusen yr eglwys, ydoedd un ag oedd yn "unig," mewn amgylchiadau angenus, ac heb ganddi neb perthynasau i'w chynnorthwyo; † yr hon oedd yn gobeithio yn Nuw trwy ffydd am gynnaliaeth dymmorawl yn gystal ag am fywyd tragywyddol; ‡ ac un oedd yn parâu mewn ymbiliau a gweddïau yn wastadol, hwyr a bore, nos a dydd yn aml, yn gweddio mwy na mwy, drosti ei hun, dros ei chyd-gristionogion, a thros bob dyn. Dros y fath hyn yn mlaenaf ac yn benaf y dylai yr eglwys ofalu.

6 * Ond [s] yr hon sydd drythyll, † a fu [t] farw, ‡ er ei bod yn fyw.

s 1 Sam. 25. 6. Job 21. 11—15. Salm 73. 5—7. Es. 22. 13. Amos. 6. 5, 6. Luc 12. 19. a 15. 13. a 16. 19. Iago 5. 5. Dat. 18. 7. t Mat. 8. 22. Luc 15. 24, 32. 2 Cor. 5. 14, 15. Eph. 2. 1, 5. a 5. 14. Col. 2. 13. Dat. 3. 1.

* Ond y weddw hòno sydd yn rhoddi ei hunan i fynu i fywioliaeth lònwych, benrhydd, gnawdol, a chwantus, dàn lywodraeth tueddiadau y cnawd a thrythyllwch; † mae hòno yn farw mewn ystyr ysbrydol, yn farw i Dduw, ac yn farw mewn camweddau a phechodau, ‡ tra mewn ystyr naturiol mae yn fyw, ac yn byw mewn pleserau trythyll, nwyfus, ac anllad: ni ddylai hòno gael ei chynnal, na'i harddelwi gan yr eglwys, fel aelod o'r corph sanctaidd. *Trythyll:* byw yn foethus, mewn pleserau cnawdol, meddant, yw ystyr y gair *spatalôsa*, yr hyn a arwain yn naturiol i drythyllwch. *A fu farw:* arferai y philosophyddion paganaidd yr un dull o ddywedyd, am y rhai a wrthgilient oddi wrth eu haddysg hwy, ac a ymroddent i bleserau y cnawd.

7 * A [u] gorchymyn y pethau hyn, † fel y byddont ddïargyhoedd.

u pen. 1. 3. a 4. 11. a 6. 17. 2 Tim. 4. 1. Tit. 1. 13. a 2. 15.

* Mynai yr apostol i Timothëus orchymyn y pethau uchod, a'u gwasgu ar feddyliau y gweinidogion a'r dïaconiaid; † fel y cedwid y cristionogion yn Ephesus yn ddïargyhoedd; fel na roddid cefnogrwydd mewn un modd trwy eu helusengarwch hwy, i'r cyfryw ddynion a fyddai yn warth i'r eglwys a'r achos. *Fel y byddent ddïargyhoedd:* mae rhai yn cyfeirio hyn at y gweddwon trythyll a soniwyd uchod; eraill at y dïaconiaid, oedd yn cyfranu o gynnorthwyon yr eglwys i'r gweddwon; ond mae yn ddïamman bod llawer yn y fath le moethus ag Ephesus, mewn perygl o fyned i'r agwedd drythyll a soniwyd heblaw y gweddwon, am hyny gall y geiriau fod yn gyfeiriol at bawb yn yr eglwys.

8 * Ac od oes neb heb ddarbod dros yr eiddo, [x] ac yn enwedig ei deulu, † efe a [y] wadodd y ffydd, [z] ‡ a gwaeth yw nâ'r diffydd.

x Gen. 30. 30. Es. 58. 7. Mat. 7. 11. Luc 11. 11—13. 2 Cor. 12. 14. Gal. 6. 10. y 2 Tim. 3. 5. Tit. 1. 16. Dat. 2. 13. a 3 8. z Mat. 18. 17. Luc 12. 47, 48. Ioan 15. 22. 2 Cor. 2. 15, 16. a 6. 15.

* Ac od oedd yno neb yn nacâu, neu yn peidio a darbod, neu ofalu dros ei berthynasau agos, yn enwedig dros ei wraig, ei blant, a thylwyth ei dŷ; neu dros ei dad neu ei fam oedranus; a hyny o ddïogi, cybydd-dod, afradlondeb, neu ormod hunan-goleddiad; † dylid ys-

tyried y cyfryw ddyn fel un wedi gwadu y ffydd, trwy anufudd-dod amlwg a chyffredinol i orchymyn Crist; ‡ ïe, trwy weithredu yn y peth hyn yn waeth, yn fwy gwarthus ac afresymol, nac y gwnâi yr anghredadyn hollawl ddiffydd, yn y cyffelyb amgylchiad: ystyriai y paganiaid hollawl ei bod yn ddyledswydd resymol a rhwymedig arnynt, i ofalu am eu perthynasau agôsaf, yn enwedig eu rhïeni oedranus pan syrthient i dlodi.

9 * Na ddewiser yn [a] weddw *un* a fo dan [b] driugain-mlwydd oed, [c] † yr hon fu wraig i un gwr;

a Gwel ar adn. 3, 4. b adn. 11, 14. Luc 2. 36, 37. c pen. 3. 2, 12. 1 Cor. 7. 10, 11, 39, 40.

* Nis gallai yr apostol feddwl yma, nad oedd yr un weddw dàn driugein-mlwydd oed i gael ei dewis i'w chynnorthwyo gan yr eglwys; oblegid gallai amgylchiadau gweddwon ieuangach, na hyny, yn gystal â thlodion eraill, fod yn gyfyng iawn. Gan hyny tybir yn gyffredin mai llefaru y mae efe yma am ryw nifer o weddwon, y rhai oedd yn cael eu rhyddâu oddi wrth bob gofalon a gorchwylion bydol, a'u cynnal yn hollawl gan yr eglwys; o ba rai y dewisid y rhai oedd alluog o honynt, i weithredu fel diaconesau, i ymweled â'r gwragedd cleifion a thlodion, i'w cynnorthwyo a'u cyngori hwynt; i addysgu gwragedd a merched ieuainc, ac efallai plant; neu i weini mewn unrhyw achosion eraill a berthynai i'r eglwys, ei gweinidogion, a dïeithriaid crefyddol a ddeuai ar ymdaith o fewn cylch eu gwasanaeth hwy. Er nad oes cymmaint o angen am weinyddesau felly yn awr yn ein gwlad ni; eto yr oeddynt yn dra defnyddiol ac angenrheidiol y pryd hwnw, ac yn y wlad hòno; a hawdd gweled prïodoldeb yr oedran yn mha un yr oeddynt i gael eu dewis. † Heblaw yr oedran uchod, rhaid bod pob un o honynt hefyd wedi bod yn wraig i un gŵr; nid wedi bod yn brïod âg amryw wŷr ar y tro, na chwedi rhoi y naill ŵr ymaith yn ddiachos er mwyn prïodi un arall.

10 * Yn [d] dda ei gair am [e] weithredoedd da: [f] † os dygodd hi blant i fynu, [g] ‡ os bu lettygar, [h] ‖ o golchodd hi draed y saint, [i] § o chynnorthwyodd hi y rhai cystuddiol, [k] * o dilynodd hi bob gorchwyl da.

d pen. 3. 7. Act. 6. 3. a 10. 22. a 22. 12. 3 Ioan 12. e adn. 25. pen. 2. 10. a 6. 18. Mat. 5. 16. Act. 9. 36. Eph. 2. 10. 2 Tim. 3. 17. Tit. 2. 7. a 3. 8, 14. Heb. 10. 24. a 13. 21. 1 Pedr 2. 12. f 2 Tim. 1. 5. a 3. 15. g Act. 16. 14, 50. Rhuf. 12. 13. Heb. 13. 2. 1 Pedr 4. 9. h Gen. 18. 4. a 19. 2. a 24. 32. Luc 7. 38, 44. Ioan 13. 5—15. i Lef. 25. 35. Es. 1. 17. Act. 9. 39. k Salm 119. 4. Col. 1. 10. 2 Tim. 2. 21. Tit. 2. 14. a 3. 1, 8.

* Dylai y weddw a ddewisid fel y soniwyd uchod, fod hefyd â gair da cyffredinol iddi am weithredoedd da, o leiaf er pan ddaeth hi i broffesu cristionogaeth; wedi cyflâwni dyledswyddau y 'stâd brïodasol yn ffyddlawn, yn ddoeth, ac yn hardd. † Yn enwedig os llafuriodd hi i ddwyn ei phlant ei hun i fynu yn grefyddol, gan eu maethu hwy yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd; ac os gwnaeth hi yr un peth yn ol ei gallu â phlant ei pherthynasau tlodion a'i chymmydogion. ‡ Os yn ei hamgylchiadau mwy llwyddiannus y bu hi lettŷgar i ddïeithriaid, yn enwedig i ddïeithriaid crefyddol, gweinidogion neu eraill, a ddygwyddent ddyfod yn ei ffordd hi. ‖ Os bu hi yn barod ac mòr ostyngedig, a gwneyd y gwasanaeth iselaf er ymgeledd i'r dynion sanctaidd hyny, hyd yn nôd golchi eu traed hwy, fel yr oedd yn angenrheidiol ac yn arferol wedi teithio mewn sandalau yn y gwledydd poethion hyny. § Os cynnorthwyodd hi y rhai cystuddiol mewn corph neu feddwl, trwy gyngorion dyddanus neu fel arall, gyda thosturi, cyd-ymdeimlad, a thiriondeb addfwyn. * Yn fŷr, os trwy ei bywyd crefyddol yn gyffredin, yr ymgeisiodd hi at ddilyn pob gorchwyl da tuag at Dduw a dynion, yn ol ei gallu a'i chyfleusderau: dyma'r fath weddwon oedd i gael eu dewis, nid yn unig i dderbyn o gynnorthwy yr eglwys, ond hefyd i gynnorthwyo yr eglwys, yn y pethau a enwyd dàn adn. 9. Cymhared y darllenydd y gwasanaeth a enwir dàn yr adnod hòno, â'r cymhwysderau a enwir yn yr adnod hon, a chaiff weled bod y naill yn ateb i'r llall yn brïodol iawn.

11 [l] * Eithr gwrthod y gweddwon ieuaingc: † canys pan ddechreuont [m] ymdrythyllu yn erbyn Crist, [n] ‡ prïodi a fynnant;

l adn. 9, 14. m Deut. 32. 15. Es. 3. 16. Hos. 13. 6. Iago 5. 5. 2 Pedr 2. 18. n adn. 14. pen. 4. 3. 1 Cor. 7. 39, 40.

* Eithr os byddai gweddwon ieuainc yn ymgais am y sefyllfa uchod yn yr eglwys, neu yn cael eu cynnyg gan neb o'r eglwys i'r cyfryw sefyllfa; nid doethineb mewn un modd fyddai eu dewis hwy, ond yn hytrach dylai Timothëus yn benderfynol eu gwrthod hwynt: † oblegid os unwaith y dechreuant hwy fyned yn foethus, yn ysgafn, ac yn drythyll, (o'r hyn byddai mawr berygl,) yn groes i'w proffes o Grist; a cheisio eu hesmwythder a'u pleserau eu hunain, yn hytrach na'i anrhydedd a'i wasanaeth ef a'i achos; ‡ prïodi a fynent hwy yn mhob gwedd, beth bynag fyddai y canlyniad, ac efallai prïodi â phaganiaid, ac i deuluoedd paganaidd a digred; er gwarth i'r eglwys, ac i'r swydd y dewisasid hwy iddi yn yr eglwys. Tybia rhai y byddai y gweddwon a ddewisid i'r swydd uchod yn addunedu wrth gael eu dewis, na phrïodent mwyach; ac os felly, byddai perygl mawr rhag i'r gweddwon ieuainc dòri yr adduned hòno; oblegid pan ddechreuent ymdrythyllu, ar ol bwrw galar eu gweddwdod ymaith, prïodi a fynent. Pan ddechreuent ymdrythyllu hefyd, byddent yn debyg o gael eu dwyn dàn gerydd yr eglwys, a cholli eu parch yn mhlith y rhai symlaf o'r cristionogion; ac yn yr amgylchiad hwnw, a hwy yn drythyll a gwrthgiliedig eisoes, ni byddai nemawr o beth ganddynt brïodi â'r paganiaid mwyaf annuwiol a gelynol i grefydd.

12 * Gan gael [o] barnedigaeth, † am iddynt ddirmygu y [p] ffydd gyntaf.

o 1 Cor. 11. 34. Iago 3. 1. 1 Pedr 4. 17. p Gal. 1. 6. Dat. 2. 4, 5.

* Fel hyn hwy a'u gosodent eu hunain yn agored i warth a chondemniad yn ngolwg ac yn nghyfrif y byd, yn agored i esgymmundod o'r eglwys, yn agored i farn gyfiawn Duw yn y byd hwn, ac yn agored i farnedigaeth dragywyddol yn y byd ïdd yfod, oddigerth iddynt gael edifeirwch; † am iddynt ddirmygu a gwrthod eu proffes o'r blaen o ffydd yn Nghrist, neu ddirmygu a gwrthod yr athrawiaeth a gredasent hwy o'r blaen yn hanesiol am Grist, ac ymwrthod â'r gwaith a ymddiriedasid unwaith iddynt hwy.

13 * A hefyd y maent yn dysgu [q] *bod* yn segur, [r] gan rodio o amgylch o dŷ i dŷ; † ac nid yn segur yn unig, ond hefyd yn wag-siaradus, [s] ‡ ac yn rhodresgar, [t] ‖ gan adrodd pethau nid ynt gymmwys.

q Diar. 31. 27. 2 Thes. 3. 6—11. r Lef. 19. 16. Diar. 20. 19. Luc 10. 7. Act. 20. 20. s 2 Thes. 3. 11. 1 Pedr 4. 15. t Act. 20. 30. Tit. 1. 11. Iago 3. 10.

* Heblaw y pethau uchod, yr oedd perygl rhag i'r gweddwon ieuainc hyn, wedi cael eu rhyddâu oddi wrth ofalon bydol a theuluaidd, esgeuluso defnyddio eu hamser fel y dylent, i gyflawni dyledswyddau eu sefyllfa; ac felly dysgu bod yn segur, a threulio eu hamser mewn rhodiena o dŷ i dŷ: † ac nid bod yn segur yn unig, ond hefyd yn wâg-siaradus; yn ymyraeth â materion rhai eraill, ac yn hèl a thraddodi chwedlau cleberddus, gwir neu anwir, am ddynion eraill a'u hachosion: a hyny, er mwyn boddloni rhai, a dynoethi ac enllibio eraill. ‡ "Rhodresgar:" *busy-bodies* yw y Saesoneg: rhai prysur ac ymyrgar yn materion dynion eraill, fel y sylwyd eisoes uchod: a chyffelyb yw ystyr y gair Groeg *periergoi.* ‖ Pethau nad oeddent gymhwys oedd eu holl wâg-siarad a'u rhodres ymyrgar hwy; yn dangos tymherau a thueddiadau drwg a llygredig iawn ynddynt hwy eu hunain, yn dra anaddas i'r efengyl, ac yn dra niweidiol i heddwch ac enwau da cymmydogion a chydnabyddion. *Gwâg-siaradus:* sŵn dwfr, pan mae yn barod

i ferwi drosodd mewn crochan, meddant, yw ystyr y gair Groeg: ac mae yn addas iawn i ddangos y berw tufewnol sydd yn meddyliau y bobl hyn, yr hwn a dywalltant allan mewn adroddion cleberddus.

14 [u] * Yr wyf yn ewyllysio gan hynny i'r [x] rhai ieuainge briodi, † planta, [y] ‡ gwarchod y tŷ, [z] || heb roi dim achlysur i'r gwrthwynebwr i ddifenwi.

u Gwel ar pen. 2. 8. x adn. 11. pen. 4. 3. 1 Cor. 7. 8, 9. Heb. 13. 4. y Gen. 18. 6, 9. Diar. 14. 1. a 31. 27—29. Tit. 2. 5. z pen. 6. 1. 2 Sam. 12. 14. Dan. 6. 4. Rhuf. 14. 13. 2 Cor. 11. 12. Tit. 2. 5, 8. 1 Pedr 4. 14, 15

* Gan y byddai y gweddwon ieuainc yn dueddol i'r pethau uchod, a pherygl o'r natur uchod i'w ofni oddi wrth rai o honynt; penderfynai yr apostol, fel un â gwybodaeth ac awdurdod ganddo; mai gwell oedd iddynt hwy briodi, os ewyllysient, a bod amgylchiadau yn goddef; † fel y gallent blanta, yn ol trefn y Crëawdwr, a magu eu plant, a'u dwyn i fynu yn gryfyddol i Dduw; ‡ a bod ar waith mewn dyledswyddau teuluaidd eraill, fel gwragedd, mamau, a meistresi, yn eu teuluoedd: cymhwysach iddynt hwy fod ganddynt dai eu hunain, a gwarchod y rhai hyny yn weddus, na bod yn segur, yn rhodio o dŷ i dŷ, yn wâg-siaradus, ac yn rhodresgar, mewn ystâd o weddwdod trythyll, a hyny ar draul yr eglwys, a thàn yr esgus o wasanaethu yr eglwys. || Fel hyn hwy a ymgadwent heb roi dim achlysur i wrthwynebwyr yr efengyl gablu, difenwi, na gwaradwyddo yr efengyl, ei phroffeswyr, na hwy eu hunain. *Rhai ieuainc:* gan mai am y *gweddwon* ieuainc yr oedd yr apostol yn llefaru yn y tair adnod o'r blaen; mae yn debyg mai am danynt *hwy* mae yn llefaru yma hefyd: nid oes dim ammheuaeth am ei foddlonrwydd i'r *merched* ieuainc briodi. Nid *peri* i'r gweddwon briodi yr oedd; ond *ewyllysio* iddynt wneyd felly, yn hytrach na'u derbyn i blith y gweddwon a grybwyllwyd yn adn. 9, 10.

15 * Canys y mae rhai eisoes [a] wedi gwyro ar ol Satan.

a Phil. 3. 18, 19. 2 Tim. 1. 15. a 2. 18. a 4. 10. 2 Pedr 2. 2, 20—22. a 3. 16. 1 Ioan 2. 19. Judas 4, 5. Dat. 12. 9.

* Yr oedd y gocheliad a'r cyngor uchod yn dra angenrheidiol, o herwydd e wyddai yr apostol am rai gweddwon ieuainc, ag oedd eisoes wedi gwyro ar ol Satan. Mae yn debyg fod rhai o'r cyfryw, un ai heb eu dewis, neu wedi cael eu dewis yn anmhriodol, i blith y gweddwon gweinyddawl, wedi cael eu hudo gan Satan a thrythyllwch y cnawd, i ŵyro oddi wrth grefydd, priodi â rhai digred, a syrthio drachefn i eilunaddoliaeth. Lle byddo'r eglwys wedi cael gwarth a gofid oddi wrth ryw ddynion eisoes; dylid bod yn ochelgar iawn mewn amgylchiadau felly drachefn.

16 * Od oes gan wr neu wraig ffyddlawn, *wragedd* gweddwon, [b] cynnorthwyant hwynt, † ac na phwyser ar yr eglwys; fel y gallo hi ddiwallu y [c] gwir-weddwon.

b Gwel ar adn. 4, 8. c Gwel ar adn. 3.

* Wrth orphen y mater hwn, mae yr apostol yn gorchymyn i'r holl rai ffyddlawn, neu gredinwyr, y rhai oedd alluog i hyny, i gynnorthwyo y gwragedd gweddwon a berthynent iddynt hwy; † fel na byddent yn bwys ar yr eglwys i'w cynnal, ac fel y gallai hi ddiwallu y gwir-weddwon, y rhai nid oedd ganddynt berthynasau yn y byd i'w cynnorthwyo. Am y "gwir weddwon," gwel ar adn. 5. Tybia rhai bod y gorchymyn hwn yn cyrhaedd y rhai oedd yn berchenogion caeth-weision; a'i fod yn eu rhwymo hwy i gynnal eu caethion, wedi yr elent yn analluog i weithio. Mae yn ddiammau ei fod yn cynnwys gwasanaeth-ddynion o bob math; wedi iddynt dreulio eu nerth yn ngwasanaeth eu meistriaid, dylai y meistriaid hyny eu cynnal os gallant, yn eu henaint a'u methiant: ac mae rhai meistriaid yn gwneyd hyny mewn rhan fawr, er nas gwyddant fawr am grefydd chwaith.

17 [d] * Cyfrifer yr henuriaid sydd yn [e] llywodraethu yn dda, [f] † yn deilwng o [g] barch dau-ddyblyg; ‡ yn enwedig y rhai sydd yn [h] poeni yn y [i] gair a'r athrawiaeth.

d Gwel ar b. adn. 1. e pen. 3. 5. Mat. 24. 45. Luc 12. 42. Rhuf. 12. 8. 1 Thes. 5. 12, 13. Heb. 13. 7, 17, 24. f Gwel ar adn. 3.—Act. 28. 10. Rhuf. 15. 27. 1 Cor. 9. 5—14. Gal. 6. 6. Phil. 2. 29. g 2 Bren. 2. 9. Es. 40. 2. Jer. 16. 18. a 17. 18. Zec. 9. 12. h pen. 4. 10. Mat. 9. 37, 38. Luc 10. 1, 2, 7. Ioan 4. 38. Act. 20. 35. Rhuf. 16. 12. 1 Cor. 3. 9. a 15. 10. a 16. 16. 2 Cor. 6. 1. Phil. 2. 16. a 4. 3. 2 Tim. 2. 6. i Gwel ar pen. 4. 6, 16.—2 Tim. 4. 2.

* Pwy, a pha fath oedd yr henuriaid llywodraethol hyn yn yr eglwys, sydd wedi bod yn ddadl fawr gan dduwinyddion: tybia rhai mai yr aelodau hynaf yn yr eglwys oeddynt, y rhai oedd gyda'r gweinidogion yn llywodraethu yr eglwys, ond nid yn pregethu. Tybia eraill mai hên weinidogion wedi methu gan oedran oeddynt: ond prin y gallai hên weinidogion fod mewn eglwys ieuanc, fel yr oedd Ephesus y pryd hwnw. Tybia eraill mai y diaconiaid oeddynt, yn cael eu galw yma "henuriaid." Tybia eraill mai gweinidogion sefydlog yr eglwys oeddynt, y rhai oedd yn pregethu y gair, ac yn llywodraethu yr eglwys mewn dysgyblaeth a phethau ysbrydol: a hyny sydd fwyaf tebygol; † oblegid yr oedd y rhai a gyflawnent eu swydd yn y pethau hyny "yn dda," yn deilwng o barch dau-ddyblyg; sef o barch mawr yn meddyliau yr eglwys, a chynnaliaeth hael ac anrhydeddus gan yr eglwys, yn cael ei roddi yn ewyllysgar a siriol iddynt, oddi ar y parch hwnw. ‡ Yn enwedig y rhai hyny o honynt a fyddent yn nodedig ac enwog yn eu poen a'u llafur yn y gair a'r athrawiaeth; yn pregethu yr efengyl yn ddiflino, yn ei thaenu, ac yn ymdrech i amddiffyn a sefyll dros ei hathrawiaeth bur a digymmysg hi: haeddai y rhai hyn yn sicr barch dau-ddyblyg, a chynnaliaeth mwy anrhydeddus na neb arall; cyfatebol i'w gwaith, a'u ffyddlondeb llafurus a diwyd yn eu gwaith. Yn ol y sylwadau uchod, yr un urdd, neu swydd o ddynion a feddylir yn nechreu yr adnod â'i diwedd, ond bod y rhai olaf yn rhagori o ran helaethrwydd eu llafur yn y swydd hòno, ar rai o'u brodyr yn yr un swydd; ond y mae eraill a dybiant yn wahanol, nad oedd y rhai blaenaf yn pregethu, ond bod y rhai olaf.

18 * Canys y mae [k] yr ysgrythyr yn dywedyd, [l] † Na chau safn yr ych sydd yn dyrnu yr ŷd: ac, [m] *Y mae* y gweithiwr yn haeddu ei gyflog.

k Rhuf. 4. 3. a 9. 17. a 10. 11. a 11. 2. Gal. 3. 8. Iago 4. 5. l Deut. 25. 4. 1 Cor. 9. 9, 10. m Lef. 19. 13. Deut. 24. 14, 15. Mat. 10. 10. Luc 10. 7.

* Mae yr ysgrythyr yn dywedyd y pethau a ganlynant yn yr adnod hon, yn Deut. 25. 4; Matth. 10. 10; Luc 10. 7: gwel ar y ddau le olaf yn y mànau hyny. Wrth fod yr apostol yn dywedyd fod y geiriau olaf *yn yr ysgrythyr*, rhaid ei fod ef wedi darllen efengyl Matthew neu Luc, cyn iddo ysgrifenu yr epistol hwn; a rhaid ei fod yn eu hystyried hefyd yn *ysgrythyr*, cystal â'r Hen Destament; oblegid nid yw y geiriau "Mae y gweithiwr yn haeddu ei gyflog" i'w cael yn yr Hen Destament. † Mae yr adnod hon yn dangos yn eglur, mai cyflog a chynnaliaeth ddyledus, yw un peth yn y "parch dau-ddyblyg," a orchymynir i henuriaid neu athrawon yn yr adnod o'r blaen.

19 * Yn erbyn henuriad na [n] dderbyn achwyn, † oddieithr dan [o] ddau neu dri o dystion.

n Ioan 18. 29. Act. 24. 2—13. a 25. 16. Tit. 1. 6. o Deut. 17. 6. a 19. 15—18, 19. Mat. 18. 16. Ioan 18. 17. 2 Cor. 13. 1. Heb. 10. 28.

* Yr oedd enw da henuriad neu athraw yn beth o bwys mawr iawn, tuag at ei gymmeradwyaeth a'i ddefnyddioldeb ef, ac er anrhydedd i'r efengyl a bregethai; am hyny ni ddylesid derbyn achwyn yn erbyn y cyfryw un, chwaithach ei gondemnio, † heb i hyny gael ei sicrâu gan ddau neu dri o dystion geirwir, cyfrifol, a chred-

adwy. Byddai llawer yn barod i enllibio gweinidogion ffyddlawn, o herwydd y byddai eu hathrawiaeth a'u ceryddon yn eu tramgwyddo ac yn eu condemnio hwy; ac yn wir yr oedd yn naturiol dysgwyl y byddai i holl lid cyhuddwr y brodyr a'i weision, ymgynhyrfu yn erbyn y cyfryw ddynion; am hyny yr oedd yn dra rhesymol, na dderbynid dim achwyn, a ddygai henuriad dàn holiad cyhoeddus yn yr eglwys, ac fel hyny beïo a niweidio ei enw da a'i ymddygiad ef, heb fod mwy nac un tyst unigol i brofi y peth yn wir.

20 * Y rhai sydd yn pechu, [p] † cerydda y'ngwydd pawb, [q] ‡ fel y byddo ofn ar y lleill.

p Gal. 2. 11—14. 2 Tim. 4. 2. Tit. 1. 13. q pen. 1. 20. Deut. 13. 11. a 17. 13. a 19. 20. a 21. 21. Act. 5. 5, 11. a 19. 17.

* Ond os caid neb, henuriaid neu eraill, ar dystiolaeth a phrawf anwadadwy, yn euog o bechodau gwarthus, anaddas i'r swydd weinidogaethol ac i'r efengyl; † gorchymyn Paul i Timothëus oedd, ceryddu y cyfryw ddynion yn llŷm a didderbyn wyneb, gyda phob awdurdod gweinidogaethol; a hyny yn ngŵydd yr holl eglwys; ‡ nid yn unig i'w cywilyddio hwy a'u dwyn i edifeirwch; ond hefyd fel yr ofnai pawb eraill, yn grynedig, rhag syrthio i bechodau, a dyfod dàn yr un cerydd.

21 [r] * Gorchymyn yr ydwyf ger bron Duw, † a'r Arglwydd Iesu Grist, [s] ‡ a'r etholedig angelion, [t] ‖ gadw o honot y pethau hyn [u] § heb ragfarn, heb wneuthur dim o [x] gydbartïaeth.

r pen. 6. 13. 1 Thes. 5. 27. 2 Tim. 2. 14. a 4. 1. s Mat. 16. 27. a 25. 41. 2 Pedr 2. 4. Judas 6. Dat. 12. 7—9. a 14. 10. t Salm 107. 43. a 119. 34. Mat. 28. 20. u Lef. 19. 15. Deut. 33. 9. Diar. 18. 5. Luc 20. 21. Act. 15. 37, 38. 2 Cor. 5. 16. x Mal. 2. 9. Iago 2. 1—4. a 3. 17.

* Yma mae yr apostol yn y modd mwyaf difrifol ag sydd bosibl, yn gorchymyn i Timothëus megys ger bron Duw hollwybodol, † a'r Arglwydd Iesu Grist, yr hwn a ŵyr bob peth, ac sydd yn chwilio y calonau a'r arenau; ‡ a cher bron yr etholedig angelion, y rhai sydd dystion o bob ymddygiad yn yr eglwys, ac a fyddant dystion yn y farn; ‖ ar gadw o hóno ef y gorchymynion a'r cyfarwyddiadau uchod yn ofalus ac yn fanwl, pwy bynag a dynai efe yn ei ben wrth hyny; § heb wneuthur dim o ragfarn yn erbyn rhai ar y naill law, nac o bartïaeth gydag eraill ar y llaw arall. *Yr etholedig angelion:* mae un gŵr *(Mr. Joseph Mede,* ebai *Doddridge,)* yn deall hyn am y *saith arch-angel* sydd wedi eu dewis gan Dduw i fod yn agosaf ato ef, ac i gael yr anrhydedd mwyaf yn llŷs y nef. Ond tybia y Doctor mai gwael a dirym iawn yw ei resymau ef i brofi y *fath* nifer o ysbrydion nefol, yn y fath *sefyllfa o anrhydedd,* rhagor eraill o'r angelion sanctaidd. Pa rai bynag oeddynt, rhaid i ni ddeall mai fel tystion yr oedd Paul yn cyfeirio atynt, ac nid fel barnwyr.

22 * Na [y] ddod ddwylaw yn [z] ebrwydd ar neb, [a] † ac na fydd gyfrannog o bechodau rhai eraill: [b] ‡ cadw dy hun yn bur.

y pen. 4. 14. Act. 6. 6. a 13. 3. 2 Tim. 1. 6. Heb. 6. 2. z pen. 3. 6, 10. Jos. 9. 14. 2 Tim. 2. 2. Tit. 1. 5—9. a Eph. 5. 11. 2 Ioan 11. Dat. 18. 4. b pen. 4. 12. Act. 18. 6. a 20. 26.

* Mewn ordeinio henuriaid a gweinidogion yn enwedig, mynai Paul i Timothëus fod yn ofalus iawn na wnelai efe ddim yn fyrbwyll; ond cymmeryd amser i chwilio yn fanol i gymmeriad, egwyddorion, cynhyrfiadau, dybenion, a chymhwysiadau dynion i swyddau eglwysig, fel na roddai efe ei ddwylaw ar bersonau anaddas, trwy ddarbwylliad a thaerni cyfeillion a phleidwyr y personau hyny. † Yr oedd yn angenrheidiol iddo ef ofal mawr yn yr achos tra phwysig hwnw, fel na byddai yn "gyfranog o bechodau rhai eraill;" a dyfod yn atebol, mewn rhan o leiaf, am bechodau y rhai a ymwthient fel hyn yn annheilwng i'r swydd sanctaidd, er dianrhydedd i Dduw, niwed mawr i'r eglwys, a dinystr i eneidiau anfarwol: ‡ oblegid gallai tymer laith, garüaidd, esmwyth, ac ymollyngar, ei dynu ef yn ddifwriad i lawer o ddrwg; am hyny yr oedd yn gweddu iddo ei gadw ei hun yn bur, rhag y canlyniadau o ordeinio y fath ddynion anghymhwys. Cafwyd niwed a gwarth nid bychan mewn rhai eglwysi, trwy weithredu yn groes i'r cyngor uchod; oddi ar hoffder mewn personau llwyr annheilwng o swydd na blaenoriaeth mwy na'i gilydd yn eglwys Dduw.

23 * Nac ŷf ddwfr yn hŵy; [c] † eithr arfer ychydig win, ‡ er mwyn dy gylla, a'th fynych wendid.

c pen. 3. 3. a 4. 4. Lef. 10. 9—11. Salm 104. 15. Diar. 31. 4—7. Ezec. 44. 21. Eph. 5. 18. Tit. 1. 7. a 2. 3.

Gan nad oes dim perthynas rhwng yr adnod hon â'r flaenorawl nà'r ganlynol, tybia rhai mai ar ymyl y ddalen yr ysgrifenodd Paul hi; ond i rywun arall ei gosod i mewn wedi hyny wrth ail-ysgrifenu ysgrif gyntaf yr apostol. Ond tybia eraill fel hyn;—wrth fod Paul yn crybwyll am fawr ac amryfaeth lafur Timothëus, efe a gofiodd yn sydyn am ei wendid corphorawl ef ar gyfer y fath lafur, ac yna efe a dòrodd ar draws ei ymadrodd i roddi y gocheliad a'r cyngor hwn iddo. * Mae yn amlwg wrth hyn mai gŵr ieuanc cymmedrol iawn oedd Timothëus, fel yr oedd yn gweddu iddo ef a phawb yn y weinidogaeth fod; ond yn yr oedd perygl hefyd rhag iddo ef fod yn rhŷ arbedol, ac yfed dwfr yn unig ar ol ei fawr lafur a'i ludded. † Am hyny cyngora yr apostol ef yn dirion iawn i arfer ychydig win, mewn cymmedroldeb, un ai ei hunan neu yn gymmysg â'r dwfr: ‡ byddai hyny yn dda iddo er cryfâu y cylla, y treuliad, a'r mynych wendid a deimlai efe wedi llafur trwm a gormodol i natur. Yma cawn esampl deg o fawr ddirwest ac arbedrwydd y cyffredin o weinidogion y dyddiau hyny, y rhai a lafurient yn galed i bregethu y gair mewn amser ac allan o amser; y rhai a ddadleuent mòr gadarn dros ryddid cristionogol mewn bwyta ac yfed, (1 Cor. 9. 4.) y rhai ni roddent ddim ymddiried yn eu gweithredoedd eu hunain; a'r rhai ni roddent eu hymddygiad eu hunain yn y pethau hyn, yn rhëol i eraill.

24 * Pechodau rhyw ddynion [d] sydd amlwg o'r blaen, † yn rhag-flaenu i farn; ‡ eithr rhai sydd yn eu canlyn hefyd.

d Jer. 2. 34. Act. 1. 16—20. a 5. 1—11. a 8. 18. Gal. 5. 19—21. 2 Tim. 4. 10. 2 Pedr 2. 20, 21.

* Ond mewn perthynas i ddewis ac urddo gweinidogion, y pwnc dàn sylw o'r blaen; (adn. 22.) dylid ymddwyn yn wahanol ar wahanol amgylchiadau, a thuag at wahanol ddynion, fel y byddo'r achosion yn ymddangos: a sylwer, fod pechodau rhyw ddynion, mòr amlwg, ac mòr hawdd eu profi, fel y maent yn ddigon eglur a noeth o'r blaen, † ac yn rhag-flaenu y farn a ddylid roddi ar ymddygiad y dynion hyny, a'u hawl a'u cymhwysder i swydd mòr fawr yn yr eglwys. ‡ Mewn rhai amgylchiadau eraill, mae eu pechodau yn canlyn, yn dyfod i'r golwg ar ol eu gosod yn y swydd; ac fel hyny mae arafwch, ac ymchwiliad mànwl a diduedd yn angenrheidiol, i gael y pechodau hyny allan mewn pryd. Neu gallwn egluro yr adnod yn fŷrach fel hyn:—Pechodau rhyw ddynion sydd amlwg, yn arwain i basio barn arnynt heb ddim anhawsdra; lle mae rhai eraill yn canlyn gwedi, ac a ddirgelir mòr gyfrwys, hyd oni chaffo y dynion eu gosod yn y swydd, fel y bydd yn gofyn dyfalwch mawr, a chwiliad mànol i'w cael hwy allan mewn pryd. Dynion yn ymgais am swyddau eglwysig yw y "dynion;" a barn yr eglwys am danynt yw y "farn."

25 * Yr un ffunud hefyd y mae [e] gweithredoedd da yn amlwg o'r blaen; † a'r rhai sydd amgenach, [f] nis gellir eu cuddio.

e pen. 3. 7. Mat. 5. 16. Act. 9. 36. a 10. 22. a 16. 1—3. a 22. 12. Gal. 5. 22, 23. Phil. 1. 11. f Salm 37. 5, 6. Mat. 6. 3—6. Luc 11. 33.

* Ar y llaw arall, rhai dynion a geisient swyddau yn yr eglwys, fel henuriaid neu weinidogion, yr oedd ganddynt dystiolaethau digonol o'u plaid, yn eu gweithredoedd da gwybyddus a lliosog, y rhai oedd ddigon

amlwg i'r holl eglwys o'r blaen, cyn gwneyd unrhyw holiad neillduol yn eu cylch hwynt: † a lle nad ydoedd felly; eto, wrth chwilio a holi yn ddyledus, gallai Timothëus ac eraill ddyfod i wybodaeth am danynt, oblegid nis gellid eu cuddio. Fel hyn wrth chwilio yn fànol ac yn ddiduedd, heb "ragfarn" yn erbyn rhai, na "chyd-bartiaeth" i eraill, (adn. 21.) gallai Timothëus a'r eglwys yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, wybod pwy oedd yn addas a phwy nid oedd, i'w gosod mewn swyddau cyhoeddus yn yr eglwys. Ac os na allent wybod yn sicr bob amser; ni byddent hwy yn gyfranog o bechodau y "rhai eraill" a ddewisid, a hwy wedi gwneyd eu goreu i'w chwilio hwynt allan. *A'r rhai sydd amgenach:* gan y defnyddir y gair *amgenach* yn aml yn ein iaith ni, am ryw beth *gwell* na pheth arall, efallai bod y gair hwnw yn tywyllu yr adnod hon i rai: "a'r rhai sydd *fel arall,*" ydyw yn ol y Saesoneg; sef y rhai nid yw eu gweithredoedd da *yn amlwg o'r blaen,* fel y sylwyd uchod, ond a ddeuant i'r amlwg wrth chwilio am danynt.

PEN. VI.

Dyled gweision i'w meistriaid.

* CYNNIFER ag sydd [a] wasanaethwyr dan yr iau, [b] † tybiant eu meistriaid eu hun yn deilwng o bob anrhydedd; [c] ‡ fel na chabler enw Duw, a'i athrawiaeth *ef.*

a Deut. 28. 48. Es. 47. 6. a 58. 6. Mat. 11. 9, 30. Act. 15. 10. 1 Cor. 7. 21, 22. Gal. 5. 1. b Gen. 16. 9. a 24. 2, 12, 27, 35, &c. 2 Bren. 5. 2, 3, 13. Mal. 1. 6. Act. 10. 7, 22. Eph. 6. 5—8. Col. 3. 22—25. Tit. 2. 9. 1 Pedr 2. 17—20. c pen. 5. 14. Gen. 13. 7, 8. 2 Sam. 12. 14. Neh. 9. 5. Es. 52. 5. Ezec. 36. 20, 23. Luc 17. 1. Rhuf. 2. 24. 1 Cor. 10. 32. Tit. 2. 5, 8, 10. 1 Pedr 2. 12. a 3. 16.

* Y "gwasanaethwyr dàn yr iau" yma oeddynt gaeth-weision a chaeth-forwynion, wedi eu galw trwy ras, a'u dwyn yn aelodau eglwysig: † ac mae yr apostol yn dysgu y cyfryw gaethion cristionogol, mai eu lle oedd cyflawni dyledswyddau eu sefyllfa isel trwy lonyddwch; ac ystyried eu meistriaid eu hunain, pa un bynag ai paganiaid ai cristionogion oeddynt, yn deilwng o bob anrhydedd, parch, ac ufudd-dod oddi wrthynt hwy, fel rhai mewn sefyllfa uwchlaw iddynt hwy, ac yn feistriaid arnynt. Tybiai y Rabbiniaid Iuddewig ei bod yn anghyfreithlawn gwerthu Israeliad yn gaethwas i baganiaid; ac mae yn bur debygol wrth adn. 3, o'r bennod hon, fod gau-athrawon Iuddewig yn dysgu yr un peth i'r caethion cristionogol; na ddylent hwy fod yn gaeth-weision ar ol cofleidio cristionogaeth, yn enwedig i feistriaid paganaidd. Ond y mae Paul yma yn gwrthwynebu yr athrawiaeth derfysgaidd a niweidiol hòno, ac yn annog y cyfryw gaethion i anrhydeddu eu meistriaid, ac ufuddâu iddynt; ‡ a hyny fel na cheblid enw Duw a'i athrawiaeth ef gan y paganiaid, o herwydd anufudd-dod caethion cristionogol i'w meistriaid: fel na ddywedai neb fod crefydd Crist yn meithrin anufudd-dod, yn dryllio rhwymyn dyledswyddau, ac yn magu terfysg a gwrthryfel yn erbyn uwch-raddolion.

2 * A'r rhai sydd â [d] meistriaid ganddynt yn credu, [e] na ddïystyrant *hwynt,* [f] o herwydd eu bod yn frodyr; † eithr yn hytrach gwasanaethant *hwynt,* [g] am eu bod yn credu, ac yn anwyl, [h] yn gyfrannogion o'r llesâd. [i] ‡ Y pethau hyn dysg, a chynghora.

d Col. 4. 1. Philemon 10—16. e Gen. 16. 4, 5. Num. 16. 3. Mat. 6. 24. 2 Pedr 2. 10. Judas 8. f pen. 5. 1. Mat. 23. 8. a 25. 40. Rhuf. 8. 29. Gal. 3. 26—29. Col. 3. 11. g Gal. 5. 6. Eph. 1. 1, 15. Col. 1. 2, 4. a 3. 12. 2 Thes. 1. 3. Philemon 5—7. h Joel 2. 28. Rhuf. 11. 17. Eph. 3. 6. Heb. 3. 1, 14. 1 Pedr 5. 1. i pen. 4. 11. Tit. 2. 1, 15. a 3. 8.

* A chynnifer o'r cyfryw gaethion ag oedd yn mwynâu y fraint o fod yn eiddo meistriaid crediniol; ni ddylent mewn un modd eu dïystyru hwynt, neu attal parch ac ufudd-dod dyledus oddi wrthynt, am eu bod yn frodyr yn Nghrist, ac fel hyny yn cydradd o ran breintiau crefyddol; † ond yn hytrach dylent eu gwasanaethu hwynt yn fwy siriol a ffyddlawn o hyny; am eu bod yn credu yn Nghrist, yn gyfranogion o'i gariad ef, ac yn anwyl gan eu cyd-gristionogion; ac am eu bod yn gyfranogion o lesâd anmhrisiadwy yr iachawdwriaeth fel hwythau. ‡ Gan fod y pethau uchod o gymmaint pwys er anrhydedd crefydd, ac er iawn-drefn a thawelwch gwladol; mynai yr apostol i Timothëus eu dysgu i bawb, a chyngori pawb i'r ymarferiad o honynt.

3 * Od oes [k] neb yn dysgu yn amgenach, † ac heb gyttuno [l] âg iachus eiriau [m] ein Harglwydd Iesu Grist, [n] ‡ ac â'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb;

k pen. 1. 3, 6. Rhuf. 16. 17. Gal. 1. 6, 7. l pen. 1. 10. 2 Tim. 1. 13. a 4. 3. Tit. 1. 9. a 2. 1, 2. Diar. 15. 4. Tit. 3. 8. m Mat. 22. 21. a 28. 20. l Thes. 4. 1, 2, 8. n pen. 4. 7, 8. Tit. 1. 1. a 2. 11—14. 2 Pedr 1. 3—7.

* Ac od oedd neb yn dysgu yn amgenach, (fel yr oedd rhai mae yn debyg, gwel ar adn. 1,) † ac heb gytuno â'r fath iachus eiriau, y rhai yn wir oeddynt eiriau ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn oedd yn llefaru yn a thrwy yr apostol, ‡ a'r hyn eiriau oedd ran o'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb: od oedd neb nid oedd yn cyd-synio âg athrawiaeth iachus yr efengyl, yr hon sydd yn dysgu ac yn gorchymyn crefydd ymarferol, mewn pob addoliad a gwasanaeth i Dduw, ac mewn pob dyledswyddau perthynasol tuag at ddynion; ond a oedd yn dysgu pethau gwahanol a chroes i hyny; chwyddo yr oedd y cyfryw, fel y gwelir yn yr adnod nesaf.

4 [o] * Chwyddo y mae, † heb wybod dim, ‡ eithr ammhwyllo [p] ynghylch cwestiynau, ac ymryson ynghylch geiriau; [q] ‖ o'r rhai y mae cenfigen, ymryson, cableddau, drwg-dybiau, yn dyfod.

o pen. 1. 7. a 3. 6. Diar. 13. 7. a 25. 14. a 26. 12. Act. 8. 9, 21—23. Rhuf. 12. 16. 1 Cor. 3. 18. a 8. 1, 2. Gal. 6. 3. Col. 2. 18. 2 Thes. 2. 4. 2 Tim. 3. 4. 2 Pedr 2. 12, 18. Judas 10, 16. Dat. 3. 17. p pen. 1. 4. 2 Tim. 2. 23. q Es. 58. 4. Act. 15. 2. Rhuf. 2. 8. a 13. 13. a 14. 1. 1 Cor. 3. 3. a 11. 16, 18. 2 Cor. 11. 20. Gal. 5. 15, 20, 21, 26. Phil. 1. 15. a 2. 3, 14. Tit. 3. 9. Iago 1. 19, 20. a 2. 14—18. a 4. 1, 2, 5, 6. 1 Pedr 2. 1, 2.

* Pwy bynag yw y dyn hwnw, a pha beth bynag yw ei hòniadau, ei broffes, a'i sefyllfa yn yr eglwys, rhaid ei ystyried ef yn ddyn chwyddedig, hunan-dybus, balch, a thrahaus; † tra mae efe ar yr un pryd heb wybod dim yn iawn am wirionedd, nac effeithiau gwirionedd yr efengyl, na gwybod dim fel y dylai am Dduw, nac am ei ddyledswyddau ei hun. ‡ Mae hwn fel dyn gwallgof, yn anmhwyllo gan hoffder ynfyd, i ymdrin â chwestiynau dyrus a llwyr anfuddiol, ac ymryson yn gecrus a dadleugar yn nghylch geiriau dibwys a disylwedd: ‖ y rhai nid ydynt dda i ddim ond i genedlu a meithrin nwydau drwg cenfigenus; ymrysonau diglawn; enllibiau ac edliwion cableddus yn erbyn eu gilydd, ac efallai yn erbyn gwirionedd Duw; a drwg-dybiau pechadurus, niweidiol, a dïsail am eu gilydd: dyma ffrwyth gwenwynllyd anmhwyll ac ymryson y dynion chwyddedig uchod.

5 * Cyndyn ddadlau [r] dynion llygredig eu meddwl, heb fod y gwirionedd ganddynt; [s] † yn tybied mai elw yw duwioldeb; [t] ‡ cilia oddi wrth y cyfryw.

r Mat. 7. 17—20. a 12. 33. Ioan 3. 19—21. Eph. 4. 17—19. 2 Thes. 2. 8—11. 2 Tim. 3. 8. Tit. 1. 15, 16. Heb. 3. 12, 13. 2 Ioan 8—10. s adn. 6. pen. 3. 3, 8. 2 Bren. 5. 20—27. Es. 56. 11. Jer. 6. 13. a 8. 10. Ezec. 33. 31. Mat. 21. 13. a 23. 14. Act 8. 18—20. a 19. 24—28. 2 Pedr 2. 3, 15. Judas 11. Dat. 18. 3, 13. t Rhuf. 16. 17, 18. 2 Thes. 3. 6. 2 Tim. 3. 5.

* Y dynion chwyddedig, annwybodus, anmhwyllus, ac ymrysongar, yn yr adnod o'r blaen, dywedir mai dynion llygredig eu meddwl ydynt yn yr adnod hon; dynion dàn lywodraeth nwydau llygredig ac ansanctaidd eu calonau eu hunain: a dynion heb y gwirionedd ganddynt; heb wybod athrawiaeth y gwirionedd, heb gariad

y gwirionedd ac heb chwennych llwydd y gwirionedd, ond cael eu henwau a'u plaid eu hunain i fynu, doed y peth a ddelo o'r gwirionedd: nid rhyfedd bod y dynion hyn yn cyndyn-ddadleu yn erbyn eu gilydd, ac yn erbyn y gwirionedd ei hun hefyd. † Tybiai y dynion llygredig hyn fod crefydd yn werthfawr yn ol y graddau yr oedd yn foddion i'w cyfoethogi hwynt; neu mai y grefydd hòno oedd yr oreu, a ddygai fwyaf o elw bydol iddynt hwy; megys pe na buasai *elw* a *duwioldeb* ond dau enw ar yr un peth: fel hyn yr oeddynt am wneyd masnach o grefydd, a llunio cristionogaeth ei hun yn ol eu meddyliau eu hunain, yn y ffordd fwyaf gwasanaethgar i'w golygiadau cnawdol a bydol hwy. ‡ Cyngorai yr apostol i Timothëus gilio oddi wrth y cyfryw ddynion; na fyddai yn gyfranog â hwynt, na chyfeillachai â hwynt, ac na threuliai ei amser i ddadleu â hwynt, nid oeddynt yn werth ei sylw mewn un modd.

6 * Ond elw mawr yw [u] duwioldeb [x] † gyd â boddlonrwydd.

u Gwel ar pen. 4. 8.—Salm 37. 16. a 84. 11. Diar. 3. 13—18. a 8. 18—21. a 15. 16. a 16. 8. Mat. 6. 32, 33. Luc 12. 31, 32. Rhuf. 5. 3—5. a 8. 28. 2 Cor. 4. 17, 18. a 5. 1. Phil 1. 21. x adn. 8. Ex. 2. 21. Luc 3. 14. Phil. 4. 11—13.

* Gellid rhoi ystyr a meddwl arall i'r geiriau uchod, "mai elw yw duwioldeb;" ac fel hyny mae y dywediad yn cynnwys gwirionedd pwysig a gwerthfawr: y mae duwioldeb, gyda meddwl boddlonus, yn elw mawr yn wir; mae yn gweinyddu at gysur presenol, a lles tragywyddol dynion, beth bynag fyddo eu hamgylchiadau allanol yn y byd hwn. † Dywed rhai fod y gair *autarkeias*, "boddlonrwydd," yn y fàn hon yn arwyddo *digonoldeb;* ond rhoddai ystyr mwy ardderchog i'r geiriau, o feddwl bod yr apostol yn arwyddo, fod *boddlonrwydd* bob amser yn cyd-fyned â *duwioldeb;* llawer mwy nag a all elw bydol roddi, beth bynag fyddo amgylchiadau y dyn duwiol.

7 * Canys [y] ni ddygasom ni ddim i'r byd, [z] † *ac* eglur *yw* na allwn ddwyn dim allan chwaith.

y Job 1. 21. Preg. 5. 15, 16. z Salm 49. 17. Luc 12. 20, 21. a 16. 22, 23.

* Fel rheswm paham y dylai y dyn duwiol fod yn foddlawn, beth bynag fyddo ei amgylchiadau yn y byd hwn; mae yr apostol yn crybwyll, na ddygasom ni ddim i'r byd gyda ni; ond daethom iddo yn noeth ac yn ddigymmorth, ac felly y buasem o hyd oddigerth fod rhagluniaeth Duw yn gofalu am danom, i gyflawni ein holl reidiau: † mae hyny yn eglur i bawb; ac mòr eglur a hyny yw, nas gall neb ddwyn dim gydag ef pan ymadawo â'r byd hwn. Noeth y daethom iddo, bỳr y byddwn ynddo, a rhaid gadael pob peth ar ol pan elom allan o hòno: am hyny byddwn foddlawn os cawn dduwioldeb, beth bynag arall fyddo yn eisieu; hòno yn unig a ddaw gyda ni i fyd arall, ac a fydd o les i ni yn y byd a ddaw.

8 * Ac o [a] bydd genym ymborth a dillad, † ymfoddlonwn ar hynny.

a Gen. 28. 20. a 48. 15. Deut. 2. 7. a 8. 3, 4. Diar. 27. 23—27. a 30. 8, 9. Preg. 2. 24—26. a 3. 12, 13. Mat. 6. 11, 25—33. Heb. 13. 5, 6.

* Tra byddom yn myned trwy y byd hwn fel teithwyr, dieithriaid, a phererinion; os gofala Duw yn ei raglunlunaieth am i ni gael ymborth a dillad, yr unig bethau angenrheidiol i ni yma, † ni ddylem fod yn awyddus, ac yn anghymmedrol ein rhygais am ychwaneg; ond yn ymfoddloni ar y trugareddau sydd genym, ac yn ddiolchgar iawn i Dduw am danynt.

9 * Ond [b] y rhai *sydd* yn ewyllysio ymgyfoethogi, † sydd yn syrthio i brofedigaeth a [c] magl, [d] ‡ a llawer o chwantau ynfyd a niweidiol, [e] ‖ y rhai sydd yn boddi dynion i ddinystr a choll edigaeth.

b Gen. 13. 10—13. Num. 22. 17—19. Jos. 7. 21. 2 Bren. 5. 20—27. Diar. 15. 27. a 20. 21. a 21. 6. a 22. 16. a 28. 20—22. Es. 5. 8. Hos. 12. 7, 8. Amos 8. 4—6. Zec. 11. 5. Mat. 13. 22. a 19. 22. a 26. 15. Iago 5. 1—4. 2 Pedr 2. 15, 16. Judas 11. c pen. 3. 7. Deut. 7. 25. Salm 11. 6. Diar. 1. 17—19. Luc 21. 35. 2 Tim. 2. 26. d Marc 4. 19. Eph. 4. 22. 1 Ioan 2. 15—17. e Num. 31. 8. Jos. 7. 24—26. Mat. 27. 3—5. Act. 5. 4, 5. a 8. 20. 2 Pedr 2. 3.

* Mae *anfoddlonrwydd* mewn sefyllfa isel, yn gyffredin yn crëu awydd a phenderfyniad mewn dynion i ymgyfoethogi, os bydd bosibl; ac yn eu harwain o lwybrau eglur diwydrwydd gonest, a doeth gynnildeb, i lwybrau anghyfiawn a thwyllodrus i gasglu cyfoeth. Mae yn amlwg, yn wir, oddi wrth bethau a welwyd, bod y rhai sydd yn *ewyllysio*, ac yn rhoi eu *bryd* ar gyfoethogi, yn rhoi cyfle a mantais i Satan, i'w hudo a'u maglu hwynt i weithredoedd, nas gallent fod yn gweddu i dduwioldeb na chydwybod dda, trwy eu temtio hwy i arfer moddion anonest, a llawer o ddyfeisiau twyllodrus, i chwanegu eu cyfoeth. † Mae hyn oll yn eu tỳnu hwynt i fwy na mwy o orchwylion, a brys a phenbleth masnach; fel nad oes ganddynt na hamdden na thuedd at grefydd ysbrydol; ac mae yn eu tỳnu hwynt i'r fath gymdeithasau a chyfeillach, ag sydd yn eu harwain hwy byth yn mhellach i bechodau ac ynfydrwydd. ‡ Fel hyn maent yn cael eu dwyn dàn awdurdod llawer o chwantau ynfyd a thra niweidiol; nid amgen chwant y cnawd, chwant y llygad, a balchder y bywyd; ‖ y rhai sydd yn sìomi eu dysgwyliadau, yn troi yn niweidiol iddynt hwy eu hunain ac i eraill; hyd onid ydynt yn eu soddi hwynt mewn distryw anocheladwy a choll edigaeth dragywyddol: fel y sodda llong wedi ei llwytho yn ormodol; neu fel y tỳnir dynion i mewn gan sugniad pwll tro, pan elont yn rhỳ agos ato, ac felly llyncir hwynt i fynu, a boddir hwynt, heb fod dichon iddynt ddianc. Collant eu cyfoeth yn aml, collant eu henwau da, a chollant eu heneidiau, efallai, hefyd.

10 * Canys gwreiddyn pob drwg yw [f] arian-garwch: † yr hon, a rhai yn [g] chwanog iddi, hwy a gyfeiliornasant oddi wrth y ffydd, [h] ‡ ac a'u gwânasant eu hunain â llawer o ofidiau.

f Gen. 34. 23, 24. a 38. 16. Ex. 23. 7, 8. Deut. 16. 19. a 23. 4, 5, 18. Barn. 17. 10, 11. a 18. 19, 20, 29—31. 2 Sam. 4. 10, 11. Diar. 1. 19. Es. 1. 23. a 56. 11. Jer. 5. 27, 28. Ezec. 13. 19. a 16. 33. a 22. 12. Mica 3. 11. a 7. 3, 4. Mal. 1. 10. Mat. 23. 14. Act. 1. 16—19. Tit. 1. 11. Dat. 18. 13. g adn. 21. 2 Tim. 4. 10. Judas 11. Dat. 2. 14, 15. h Gen. 19. 14, 26, 31, &c. 2 Bren. 5. 27. Salm 32. 10. Diar. 1. 31. 2 Pedr 2. 7, 8.

* Pan unwaith y caniatâer i ariangarwch, neu chwant anghymmedrol i gyfoeth bydol, gael y llywodraeth yn y galon, mae yn dyfod yn wreiddyn ffrwythlawn pob math o ddrygau. Twyll, hoced, celwydd, lladrad, yspail, gorthrymder, cribddail, llofruddiaeth, annuwioldeb, rhagrith, gwrthgiliad, ymryson, cyfreithio, rhyfela, creulondeb, balchder, moethau, cnawdolrwydd, neu gybyddra crintachus, ydynt rai o'r chwỳn niweidiol, a dyfant yn doreithiog oddi arno yn wastadol, yn ol gwahanol dymherau, arferion, ac amgylchiadau dynolryw. Mae pob math o annuwioldeb, anwiredd, a phechod, mewn rhyw fodd a'i gilydd yn tyfu oddi ar y gwreiddyn niweidiol hwn; ac y mae y rhan fwyaf o drueni a gofidiau dynolryw, yn gystal a'u pechodau, yn deilliaw yn ddechreuol oddi ar ariangarwch. † A thra yr oedd rhai proffeswyr crefydd, hyd yn nôd yn amser yr apostol, yn chwannog i ariangarwch, yr oeddynt wedi eu hudo i wrthgiliad, neu wedi eu harwain i lygru athrawiaeth y ffydd, neu i weithredu yn wrthyn o anghyson â'r athrawiaeth hòno; ‡ ac fel hyny yr oeddynt wedi eu gwânu eu hunain â llawer o ofidiau, megys âg archollion cleddyf, yn mhob rhan o'r corph; felly, y rhai nid oeddynt yn dragywyddol golledig, yr oeddynt yn cael eu llenwi â gofidiau, ac yn gorfod dyoddef dygnaf boenau cydwybod o herwydd eu hynfydrwydd.

Aur a wna frodyr yn atgas elynion,
Aur mewn teuluoedd a gyfyd ddadleuon;
Aur a wahana rhwng anwyl gyfeillion,
Aur wna ryfeloedd cartrefol rhwng dynion.

Gwel Doddridge ar y lle.

11 * Eithr tydi, [i] gwr Duw, [k] † gochel y pethau hyn; [l] ‡ a dilyn [m] gyfiawnder, duwioldeb, ffydd, cariad, amynedd, addfwyndra.

i adn. 20. Deut. 33. 1. 1 Sam. 2. 27. a 9. 6. 1 Bren. 13. 1, 26. a 17. 18, 24. a 20. 28. 2 Bren. 1. 9, 13. a 5. 20. a 23. 17. 1 Cron. 23. 14. 2 Cron. 8. 14. Neh. 12. 24, 36. Jer. 35. 4. 2 Tim. 3. 17.
k 1 Cor. 6. 18. a 10. 14. 2 Tim. 2. 22. l pen. 5. 10. Deut. 16. 20. Salm 34. 14. a 38. 20. Es. 51. 1. Rhuf. 14. 19. ‖ 1 Cor. 14. 1. 2 Tim. 2. 22. Heb. 12. 14. 1 Pedr 3. 11. m pen. 4. 12. Gal. 5. 22, 23. Phil. 4. 8, 9. Tit. 2. 11, 12. 2 Pedr 1. 5—7.

* Yn ol iaith yr Hen Destament am yr hen brophwydi gynt, mae yr apostol yn llefaru wrth Timothëus yn dra difrifol fel gŵr Duw; un anwyl gan Dduw, wedi ei gynnysgaethu yn helaeth iawn â doniau a grasau ei Ysbryd; un wedi ymroddi i Dduw; ac un ar waith gan Dduw, fel ei genad ffyddlawn at ddynolryw. † Fel un yn dwyn yr enwad uchel a phwysig hyn, mae yr apostol yn ei annog ef i ochel yr ariangarwch uchod, ei ffrwythau drwg, a'i chanlyniadau gofidus: mynai iddo ffoi yn ddioed, ac heb edrych yn ei ol, i'r pellder eithaf, oddi wrth y trobwll dinystriol hwnw, yr hwn oedd bob amser yn llyncu i fynu y fath nifer o ddynion i ofidiau, dinystr, a cholledigaeth. ‡ Mynai iddo ddilyn cyfiawnder mewn athrawiaeth, ac mewn ymddygiad union a ffyddlawn tuag at bob dyn; tymher ac ymarweddiad duwiol ac addas tuag at Dduw yn mhob peth; ffydd fywiol yn Nghrist, ac addewidion Duw ynddo ef, yn gystal a ffyddlondeb yn ei oruchwyliaeth; cariad gwresog at Dduw, ei frodyr, a holl ddynolryw; amynedd tawel mewn dyoddefiadau; ac addfwyndra yn nghanol pob niweidiau a chyffröadau. Dyma'r pethau mae "gŵr Duw" i'w dilyn, cyn belled ag mae yn gyson â gwroldeb dros y gwirionedd, yr hwn ni ddylid ei roddi i fynu trwy lwfrdra, neu ar unrhyw ammodau annheilwng pa bynag. Wrth alw Timothëus yn "ŵr Duw," mae yr apostol yn dangos iddo y dylai efe yn mhob modd ddibrisio y byd, ac ariangarwch.

12 [n] * Ymdrecha hardd-deg ymdrech y ffydd; [o] † cymmer afael ar y bywyd tragywyddol; [p] ‡ i'r hwn hefyd y'th alwyd, [q] ac y proffesaist broffes dda ger bron llawer o dystion.

n pen. 1. 18. Zec. 10. 5. 1 Cor. 9. 25, 26. 2 Cor. 6. 7. a 10. 3—5. Eph. 6. 10—18. 1 Thes. 5. 8, 9. o adn. 19. Salm 63. 8. Diar. 3. 18. Can. 3. 4. Phil. 3. 12, 13. Heb. 3. 14. a 6. 18. 1 Ioan 2. 25. Dat. 3. 3. p Rhuf. 8. 28—30. a 9. 23, 24. Col. 3. 15. 1 Thes. 2. 12. 2 Thes. 2. 14. 2 Tim. 1. 9. 1 Pedr 3. 9. a 5. 10. q adn. 13. Deut. 26. 3, 17—19. Es. 44. 5. Luc 12. 8, 9. Rhuf. 10. 9, 10.

* Yn y dull uchod a enwyd, mae yr apostol yn ei annog ef i ymdrechu yn ŵrol ac yn ddifrifol o blaid y ffydd a rodded unwaith i'r saint; (Judas adn. 3.) i ymestyn allan gydag awydd ac angerdd sanctaidd, fel milwr da i Iesu Grist, (2 Tim. 2. 3.) i ymladd y frwydr dda, hardd-deg, ac ardderchog hon, yn erbyn y byd, y cnawd, a'r diafol; dros Feistr da, mewn achos da, ac a ddaw i derfyniad da. Ymdrech y ffydd ydyw hefyd, o herwydd mai mewn ffydd yr ymdrechir, neu yr ymleddir; a'r ffydd hòno yn tynu nerth i ymladd o Grist, er cynnal a bywiocâu yr ymladdwr yn y frwydr, i'w ddwyn ef yn mlaen drwyddi, ac i'w ddwyn ef o'r diwedd yn fuddugoliaethus allan o hóni. † Gan ymdrech felly, yr oedd ef i ymestyn yn y blaen, hyd oni chaffai afael mewn meddiant gwirioneddol, ar y bywyd tragywyddol; ‡ i'r hwn hefyd y galwyd ef, yn gystal â'r holl saint, trwy nerthol ac achubol ras Duw: ‖ ac mewn canlyniad i'r galw nerthol a grasol hyny, efe a broffesodd broffes dda, ac anrhydeddus i'r gwirionedd, ger bron llawer o dystion; yn ei fedydd, yn ei urddiad i'r weinidogaeth, ac yn enwedig yn ei athrawiaeth, ei lafur, a'i ddyoddefiadau wedi hyny, fel pregethwr yr efengyl. *Ymdrecha*, &c. Mae y gair hwn a'r adnod oll, yn cyfeirio yn amlwg at y campiau Groegaidd, a'r ymdrech mawr a fyddai yno i ennill y gamp, a chymmeryd gafael yn y goron wobrwyol. Ond gan mai *ymladd y frwydr dda* yw y darlleniad yn ol y Saesoneg, ceisiwyd rhoddi hyny hefyd i mewn yn y sylwadau blaenorawl. Ein cyneithiad ni, yn sicr, sydd fwyaf cyson â'r Groeg; *Agônizou tòn kalòn agóna.*

13 * Yr ydwyf yn [r] gorchymyn i ti ger bron Duw, [s] † yr hwn sydd yn bywâu pob peth, ‡ a *cher bron* Crist Iesu, yr hwn dan [t] Pontius Pilat a dystiodd broffes dda;

r Gwel ar pen. 5. 21. s Deut. 32. 39. 1 Sam. 2. 6. Ioan 5. 21, 26. a 11. 25, 26. a 14. 6. Act. 17. 25. Dat. 21. 6. a 22. 1.
t Mat. 27. 11. Ioan 18. 36, 37. a 19. 11. Dat. 1. 5. a 3. 14.

14 [u] ‖ Gadw o honot y gorchymyn *hwn* [x] yn ddifeius, [y] yn ddïargyhoedd; [z] § hyd ymddangosiad ein Harglwydd Iesu Grist:

u adn. 20. pen. 4. 11—16. 1 Cron. 28. 9, 10, 20. Col. 4. 17.
x Can. 4. 7. Eph. 5. 27. Heb. 9. 14. ‖ 1 Pedr 1. 19. 2 Pedr 3. 14.
y Phil. 2. 15. Col. 1. 22. Judas 24. z ‖ Cor. 1. 8. Phil. 1. 6, 10. ‖ Thes. 3. 13. a 5. 23. 2 Thes. 2. 1. 2 Tim. 4. 1. Tit. 2. 13. Heb. 9. 28. 1 Pedr 1. 7. ‖ Ioan 3. 2. Dat. 1. 7.

* I'r dyben o gadarnâu Timothëus yn y bwriad o barâu yn ddewr a ffyddlawn yn nghanol ei holl brofedigaethau a'i beryglon, mae yr apostol yn gorchymyn iddo ef yn y modd mwyaf difrifol, yn enw Duw, a cher bron Duw, y mwyaf a'r uwchaf o'r holl dystion i gyd; † yr hwn sydd yn bywâu pob peth, neu yn rhoddi ac yn cynnal bywyd i bawb a phob peth, ac o ganlyniad a allai gadw ei fywyd yntau yn nghanol pob peryglon, ac a'i cyfodai ef yn sicr drachefn i anfarwol ogoniant; ‡ a cher bron Crist Iesu, yr hwn ger bron a thàn Pontius Pilat, a dystiodd yn hŷf broffes dda i'r gwirionedd, mai efe ei hun ydoedd Mab Duw a Brenin Israel, pryd y gwyddai efe y ca'i ei draddodi i'w groeshoelio am dystiolaethu y cyfryw broffes;—‖ ger bron ac yn ngŵydd y Personau Dwyfol a gogoneddus hyn, yr oedd yr apostol yn rhoddi ar Timothëus i gadw y gorchymyn a roddasai efe iddo eisoes, yn ei holl gangenau; neu i gadw yr holl ymddiried gweinidogaethol a roddasid iddo ef gan Duw a Christ Iesu trwy yr apostol, yn ddifeius, yn ddïargyhoedd, yn ddiesgeulus, ac yn dra ffyddlawn a didwyll. § hyd ymddangosiad yr Arglwydd Iesu Grist i'w alw ac i roddi cyfrif o'i oruchwyliaeth, ac i'w wobrwyo ef ar ei lafur, ei ddyoddefaint, a'i ffyddlondeb. *A dystiodd broffes dda:* mae hyn yn cyfeirio at Ioan 18. 37. Yr oedd proffes Crist ger bron yr arch-offeiriad Iuddewig, pan holwyd ef trwy lŵ, (Matth. 26. 63, 64; Marc 14. 61, 62) yn fwy *eglur*, ond yr oedd hon ger bron Pilat yn fwy *peryglus;* oblegid proffesu ei hun yn *frenin* oedd yr unig esgus tebygol o'i ddwyn ef dàn ddigofaint y rhaglaw Rhufeinig, yr hwn oedd ag awdurdod bywyd ac angau ganddo; Ioan 19. 10. Gelwir hi yn *broffes dda*, nid yn unig am ei bod yn dda ac yn ardderchog ynddi ei hun; ond hefyd am fod holl obaith ein iachawdwriaeth ni yn sylfaenedig ar y *gwirionedd* o hóni.

15 * Yr hwn yn ei amserau priod a ddengys [a] y bendigedig a'r unig Bennaeth, [b] † Brenhin y brenhinoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi;

a Gwel ar pen. 1. 11, 17.—Salm 47. 2. a 83. 18. Jer. 10. 10. a 46. 18. Dan. 2. 44—47. a 4. 34. Mat. 6. 13. b Ezra 7. 12. Diar. 8. 15. Dat. 17. 14. a 19. 16.

* Yr hwn, sef Crist yn ei ail ddyfodiad, a ddengys y bendigedig a'r unig Benaeth yn ei amserau priod; neu yr hwn ymddangosiad o'r eiddo Crist, a ddengys y bendigedig a'r unig Benaeth yn ei amserau priod. Fel y dywedir fod dyfodiad cyntaf Crist oddi wrth y Tad, felly y bydd ei ail ddyfodiad ef hefyd: ond y mae eraill yn tybied mai Crist ei hun a ddylid ddëall wrth y bendigedig a'r unig Benaeth, &c., yr hwn yn ei amserau priod a ddengys ei ddyfodiad ei hun i farnu byw a meirw, fel Mab Duw, a Brenin mawr, yn gyfatebol i'r broffes a dystiodd efe ger bron Pilat. † Mewn ffordd o ragoriaeth anfeidrol ar bob penaethiaid, breninoedd, ac arglwyddi eraill, gellir dywedyd fod Crist Iesu, yn undeb y Tad a'r Ysbryd, yn fendigedig ac unig Benaeth; yn Frenin y breninoedd, ac yn Arglwydd yr arglwyddi oll: uwchlaw pawb, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd. Fel y sylwyd eisoes, mae rhai yn priodoli yr enwau hyn i'r Tad, eraill i'r Mab, ac eraill i'r Duwdod mawr ei hun, heb wahaniaethu y Personau.

16 * Yr hwn yn [c] unig sydd ganddo anfarwoldeb, † *sydd* yn [d] trigo yn y goleuni ni

ellir dyfod atto, [e] ‡ yr hwn nis gwelodd un dyn, ‖ ac nis dichon ei weled: [f] § i'r hwn *y byddo* anrhydedd a gallu tragywyddol. Amen.

e Gwel ar pen. 1. 17.—Ex. 3. 14. Deut. 32. 40. Salm 90. 2. Es. 57. 15. Ioan 8. 58. Heb. 13. 8. Dat. 1. 8, 17, 18. d Salm 104. 2. Hab. 3. 4. 1 Ioan 1. 5. Dat. 21. 23. a 22. 5. e Ex. 33. 20. Ioan 1. 18. a 6. 46. a 14. 9. Col. 1, 15. f Gwel ar pen. 1. 17. —Rhuf. 16. 25—27. Eph. 3. 21.

* Yr hwn yn unig sydd ganddo anfarwoldeb; sef bywyd diddechreu a diddiwedd o berffaith ddedwyddwch a gogoniant, yn hanfodol, yn wreiddiol, yn angenrheidiol, yn anghyfnewidiol, ac yn anymddibynol ynddo ei hun. † Yr hwn sydd yn trigo yn y fath oleuni tanbaid, neu Shechina dysglaer a gogoneddus yn nef y nefoedd, fel nas gall yr un dyn marwol ddyfod ato; ‡ yr hwn nis gwelodd un dyn erioed yn y 'stâd anmherffaith a llygredig hon, ‖ ac nis gall byth ei weled yn ei lawn ogoniant tanllyd, a byw; (Exod. 33. 20,) ac nis gall yr un llygad corphorawl byth ei weled ef yn ei ddwyfol natur, fel y mae efe yn Fod ysbrydol pur. § I'r Duw anfarwol, gogoneddus, ac annweledig hwn, fel y mae yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân; neu ynte i'r Duw hwn yn Mherson y Mab yn unig, y byddo anrhydedd a gallu tragywyddol yn cael eu priodoli, fel y maent yn hanfodol ynddo ac yn ddyledus iddo, a dyweded pob crëadur Amen. Mae y Duw annweledig yn cael ei ddatguddio i ni, yn unig yn a thrwy ddynoliaeth a chyfryngdod Crist, fel yr Unig-anedig oddi wrth y Tad; a bydd y datguddiad hwn o'r gogoniant dwyfol yn fwy amlwg ac ardderchog, pan welir Crist fel dyn, yn arfer holl awdurdod, gallu, a pherffeithiau Duw, gan yr holl ddynion ac angelion cynnulledig, yn y dydd diweddaf.

17 [g] * Gorchymyn i'r rhai sydd [h] goludog yn y byd yma, [i] na byddont uchel feddwl, [k] † ac na obeithiont mewn golud anwadal, [l] ‡ ond yn y Duw byw, [n] ‖ yr hwn sydd yn [o] helaeth yn rhoddi i ni bob peth i'w mwynhâu:

g Gwel ar adn. 13. pen. 1. 3. a 5. 21. h Gen. 13. 2. Job 1. 1—3. Mat. 19. 23. a 27. 57. Luc 19. 2, 9, 10. i Deut. 6. 10—12. a 8. 17. a 33. 15. 2 Cron. 26. 16. a 32. 25, 26. Salm 10. 3, 4. a 73. 5—9. Diar. 30. 9. Jer. 2. 31. Ezec. 16. 49, 50, 56. Dan. 4. 30. a 5. 19—23. Hos. 13. 6. Hab. 1. 15, 16. Rhuf. 11. 20. Iago 1. 9, 10. Dat. 18. 6, 7. k Job 31. 24, 25. Salm 52. 7. a 62. 10. Diar. 11. 28. Jer. 9. 23, 24. Marc 10. 24. Luc 12. 15—21. Eph. 5. 5. l Salm 62. 8. a 84. 11, 12. a 118. 8, 9. Jer. 17. 7, 8. m Gwel ar pen. 3. 15. 1 Thes. 1. 9. n Salm 104. 28. Mat. 6. 32, Act. 14. 17. a 17. 25. o Col. 3. 16. Tit. 3. 6.

* Mae yn debyg fod rhai dynion goludog wedi derbyn yr efengyl yn Ephesus; ac efallai mewn rhai mànau eraill, o fewn cylch gweinidogaeth a gofal Timothëus. Yn awr gallai efe a gweinidogion eraill gael eu hudo i fawrygu wynebau y cyfoethogion hyny yn fwy nac y dylent; neu ynte ofni dywedyd eu meddyliau yn onest wrthynt, yn gyhoeddus neu yn ddirgel; yr hyn a effeithiai yn niweidiol iawn ar eu gweinidogaeth hwy; ac yr oedd yn gofyn llawer o gadernid, hŷfdra, ac annhueddgarwch, i roddi cyngorion, rhybuddion, gocheliadau, ceryddon, ac addysgiadau priodol iddynt hwy. Am hyny mae yr apostol yn rhoddi ar Timothëus yn enwedig, i orchymyn i'r cyfryw ddynion na byddent uchelfeddwl, neu ymchwyddo ac ymdderchafu o herwydd eu cyfoeth, ac uchelder eu sefyllfa a'u hamgylchiadau; fel pe byddai hyny yn arwyddo mwy o ddoethineb a rhagoroldeb, yn rhoddi iddynt uwch breintiau, mwy o gymmeradwyaeth gyda Duw, mwy o awdurdod yn yr eglwys, yn en rhyddâu hwynt oddi wrth argyhoeddiad a cherydd, neu yn rhoddi awdurdod iddynt hwy i ddibrisio a dirmygu eraill: pethau fel hyn a welwyd lawer gwaith mewn rhai goludog uchel-feddwl, er gofid mawr i ddynion duwiolach o lawer na hwynt-hwy, ond eu bod yn iselach yn y byd. † Hefyd ni ddylent obeithio neu ymddiried mewn golud *anwadal;* gan fod pob golud bydol yn agored i gael ei gymmeryd oddi arnynt; gan ei fod yn aml yn achos o galedi, temtasiynau, a phechod; a chàn y rhaid ei adael yn fuan, yn angau, a rhoddi cyfrif am dano yn nydd y farn. ‡ Gan hyny, rhaid i Timothëus orchymyn i'r cyfoethogion yn gystal â'r tlodion, i obeithio ac ymddiried yn y Duw byw; am ddiogelwch, cynnaliaeth, a chysuron presenol, ac am ddedwyddwch tragywyddol; ‖ gan gofio ei fod ef yn helaeth yn rhoddi iddynt hwy bob peth i'w fwynâu; ac i fod yn ddiolchgar iddo am y mwynâd o bob peth.

18 * Ar iddynt [p] wneuthur daioni, [q] ymgyfoethogi mewn gweithredoedd da, [r] fod yn hawdd ganddynt roddi *a* chyfranu;

p 2 Cron. 24. 16. Salm 37. 3. Preg. 3. 12. Luc 6. 33—35. Act 10. 38. Gal. 6. 10. Heb. 13. 16. 1 Pedr 3. 11. 3 Ioan 11. q pen. 5. 10. Luc 12. 21. Act. 9. 36. Tit. 2. 14. a 3. 8. r Deut. 15. 7—11. Salm 112. 9. Diar. 11. 14, 25. Preg. 11. 1, 2, 6. Es. 32. 8. a 58. 7. Luc 6. 35. a 14. 12—14. Act. 2. 44, 45. a 4. 34—37. a 11. 29. Rhuf. 12. 8. 1 Cor. 16. 2. 2 Cor. 8. 1, 2, 9, 12. a 9. 6—15. Phil. 4. 18, 19. Heb. 13. 16. 1 Ioan 3. 17.

* Dylai y rhai goludog hyn hefyd gael eu cyngori â'u hannog yn ddifrifol, trwy awdurdod Duw ei hunan, i "wneuthur daioni" â'u cyfoeth, a chyfrif hyny fel eu dyledswydd a'u hyfrydwch; yn lle trysori yn gybyddlyd, neu afradu eu meddiannau mewn moethau a rhysedd. Dylent ddiwallu yr angenog, cyfranu yn helaeth i gynnal a chysuro eu brodyr tlodion; a thrwy weithredoedd crefyddol ac elusengar eraill gydag achos Crist yn ei holl ranau, † ymgyfoethogi mewn gweithredoedd da, ffrwythau gwir a diledryw ffydd a chariad. ‡ Dylai fod yn hawdd ganddynt roddi a chyfranu at bob achos teilwng, ac i bob dybenion da; fel mae y llafurwr yn hau ei had yn ddirwgnach, mewn gobaith am gynhauaf llawn i ddyfod. Dylent wneyd hyn yn aml, yn gysou, ac yn helaeth; trwy eu llafur, eu hamser, eu hawdurdod, eu hesampl, a'u meddiannau.

19 [s] * Yn trysori iddynt eu hunain [t] sail dda erbyn *yr* [u] *amser* sydd ar ddyfod, † fel y caffont [x] afael ar y bywyd tragywyddol.

s Salm 17. 14. Mat. 6. 19—21. a 10. 41, 42. a 19. 21. a 25. 34—40. Luc 12. 33. a 16. 9. a 18. 2, 22. Gal. 6. 8, 9. t Diar. 10. 25. Luc 6. 48, 49. Gal. 5. 6. Eph. 3. 17. 2 Tim. 2. 19. u Diar. 31. 25. Luc 16. 9, 25. x Gwel ar o. adn. 12.—1 Pedr 1. 4.

* Trwy wneuthur daioni, ymgyfoethogi mewn gweithredoedd da, a rhoddi a chyfranu felly, hwy a drysorent "iddynt eu hunain" (nid i'w plant, neu rywrai nas gwyddent pwy,) y gwir olud; ac a osodent iddynt eu hunain "sail dda" am obaith a chysur, erbyn amseran o gystudd ac angau: fel hyn hwy a ddangosent eu ffydd yn Nghrist, Craig yr iachawdwriaeth, trwy ddiammëus ffrwythau cariad ac ufudd-dod. † Ac fel hyn hefyd gallent gymmeryd gafael ar y bywyd tragywyddol, yn awr mewn gobaith crŷf; ac yn y diwedd mewn meddiant gwirioneddol, pan fyddo'r cyfoethogion hunan-goleddawl, cybyddlyd, ac annuwiol o'u hamgylch, yn codi eu golygon yn uffern, a hwy mewn poenau. Nid gweithredoedd da neb o'r credinwyr yw eu "sail" hwy am fywyd tragywyddol; ond mae eu gweithredoedd da hwy yn brawf fod ganddynt sail dda; yn gymmaint a'u bod yn cael eu gwneyd er mwyn Crist, mewn ffydd ynddo, o gariad ato, ac mewn ufudd-dod iddo.

20 [y] * O Timothëus, [z] cadw yr hyn a roddwyd i'w gadw attat, [a] † gan droi oddi wrth halogedig ofer-sain, [b] ‡ a gwrthwyneb gwybodaeth, a gam-enwir *felly:*

y adn. 11. 2 Tim. 2. 1. z adn. 14. pen. 1. 11. Rhuf. 3. 2. 2 Thes. 1. 4. a 2. 15. 2 Tim. 1. 13, 14. a 3. 14. Tit. 1. 9. Dat. 3. 3. a adn. 4, 5. pen. 1. 4, 6. a 4. 7. 2 Tim. 2. 14—16, 23. Tit. 1. 4. a 3. 9. b Act. 17. 18, 21. Rhuf. 1. 22. 1 Cor. 1. 19—23. a 2. 6. a 3. 19. Col. 2. 8, 18.

* Wrth ystyried mawredd gwaith Timothëus, yr anhawsder i'w gyflawni, a'r maglau a'r peryglon aneirif oedd ar ei ffordd, mae yr apostol yn y modd mwyaf taer a serchiadol, yn deisyfu arno gadw yr holl weinidogaeth a ymddiriedwyd i'w ofal ef, a'r holl gyngorion a roddwyd iddo, yn ddilwgr ac yn ddiesgeulus hyd y diwedd: † gan droi ymaith oddi wrth halogedig ofersain yr athrawon gau Iuddewig, a phob peth gwâg, disylwedd, anfuddiol, a gwrthwyneb i athrawiaeth iachus; ‡ yr hyn a bregethid gan rywrai yn lle a thàn enw gwybodaeth, ond a gam enwid felly, gwrthwyneb gwybod-

aeth ydoedd y fath bethau; ac arweinyddion deillion i'r deillion oedd y rhai a'u pregethent. Er nad yw sicr fod y Gwybedyddion (*Gnosticks*) fel plaid wedi dechreu mòr fore â hyn, eto mae yn sicr fod y rhai y cyfeiria Paul atynt yma, yn cymmeryd arnynt fod ganddynt *wybodaeth* anghyffredin: ond gwrthwyneb i wybodaeth yr efengyl ydoedd, a cham-enw oedd galw gwybodaeth arni.

21 * Yr hon tra yw rhai yn ei phroffesu,
e † hwy a gyfeiliornasant o ran y ffydd.
d ‡ Gras *fyddo* gyd â thi. Amen.

o Gwel ar g. adn. 10.—pen. 1. 6, 19. 2 Tim. 2. 18. Heb. 3. 10—12. d Gwel ar Rhuf. 1. 7. a 16. 20, 24.—2 Tim. 4. 22. Tit. 3. 15. Heb. 13. 25. e Gwel ar o. Mat. 6. 13.

* Efallai bod amryw gau-athrawiaethau yn cael eu pregethu, y naill yn wrthwyneb i'r llall, ac oll yn wrthwyneb i athrawiaeth bur yr efengyl; neu amryw gyfeiliornadau yn cael eu cymmysgu yn nghyd, i geisio gwneyd i fynu un athrawiaeth; yr hon tra yr oedd rhai yn ei phroffesu, yn wresog iawn drosti, ac yn cymmeryd arnynt fod yn wybodus ac yn fedrus iawn ynddi; † hwy a gyfeiliornasant o ran y wir ffydd; tywyllwyd a chollwyd y gwirionedd gan y rhai hyn, yn eu dychymmygion a'u dadleuon ynfyd a phoethlyd, a mabwysiadwyd y dàliadau mwyaf direswm a gorwyllt yn ei le. ‡ Gwedi rhybuddio Timothëus rhag y pethau niweidiol uchod, mae yr apostol yn gorphen ei lythyr, gyda gweddïo am i ras Duw ei gadw, ei fendithio, a'i lwyddo ef yn wastad ar lwybr ei ddyledswydd. Amen, felly y byddo.

¶ Y cyntaf at Timothëus a ysgrifenwyd o Laodicea, yr hon yw prif-ddinas Phrygia Pacatiana

AIL EPISTOL PAUL YR APOSTOL

AT

TIMOTHEUS.

PEN. I.

Serch Paul tuag at Timothëus.

*PAUL, [a] apostol Iesu Grist trwy ewyllys Duw, [b] † yn ol addewid y bywyd, yr hwn sydd yng Nghrist Iesu,

a Gwel ar Rhuf. 1. 1. 2 Cor. 1. 1. b Ioan 5. 24, 39, 40. a 6. 40, 54. a 10. 28. a 17. 3. Rhuf. 5. 21. a 6. 23. 2 Cor. 1. 20. Eph. 3. 6. Tit. 1. 2. Heb. 9. 15. 2 Pedr 1. 3, 4. 1 Ioan 2. 25. a 5. 11—13.

Tybir i'r apostol ysgrifenu yr epistol hwn tua naw mlynedd ar ol y cyntaf, rywbryd tua diwedd ei ail-garchariad yn Rhufain, ac ychydig cyn ei ferthyrdod; gwel pen. 4. 6, 7, 8: o ganlyniad mae yn bur debyg mai hwn yw yr epistol diweddaf a ysgrifenodd efe. * Yn nechreu yr epistol o'r blaen, dywedodd ei fod yn apostol yn ol *gorchymyn* Duw, ac yma yn ol ei *ewyllys* ef: am iddo ewyllysio yr oedd yn gorchymyn; a pha beth bynag sydd yn ol ei orchymyn ef, mae hyny yn ol ei ewyllys; ei orchymyn ef sydd yn datguddio ei ewyllys i ni. † Ymddiriedwyd yr efengyl iddo ef drwy ewyllys a gorchymyn Duw, yn ol addewid y bywyd a'r iachawdwriaeth, a roddwyd o'r dechreuad i ddynion syrthiedig, yn a thrwy y Messïah a addawyd ac y prophwydwyd am dano: cyflawnwyd yr holl brophwydoliaethau hyn yn Nghrist; ac yna anfonwyd addewid y bywyd i Iuddewon a chenedloedd yn ddiwahaniaeth. Fel hyn mae yr apostol yn dangos mai nid peth newydd oedd yr efengyl; ond yr hen addewid a addawsai Duw drwy ei brophwydi erioed.

2 [c] * At Timothëus, *fy* mab anwyl: [d] † Gras, trugaredd, *a* thangnefedd, oddi wrth Dduw Dad, a Christ Iesu ein Harglwydd.

c Gwel ar 1 Tim. 1. 2.—Rhuf. 12. 19. Phil. 4. 1. d Gwel ar Rhuf. 1. 7.

* "Mab naturiol yn y ffydd" y galwai efe ef yn yr epistol cyntaf, (gwel ar 1 Tim. 1. 2.) ac am ei fod yn fab naturiol yn y ffydd, yr oedd yn "fab anwyl" ganddo: yno yr oedd yn dangos y berthynas, yma mae yn dangos yr anwyldeb. † Am y cyfarchiad hwn, gwel ar 1 Tim. 1. 2; a dechreu yr epistolau cyn hyny.

3 [e] * Y mae gennyf ddïolch i Dduw, [f] yr hwn yr ydwyf yn ei wasanaethu o'*m* rhïeni [g] † â chydwybod bur, [h] ‡ mor ddibaid y mae gennyf goffa am danat ti yn fy ngweddïau [i] nos a dydd:

e Gwel ar Rhuf. 1. 8. Eph. 1. 16. f adn. 5. pen. 3. 15. Act. 22. 3. a 24. 14. a 26. 4. g Act. 23. 1. a 24. 16. Rhuf. 1. 9. a 9. 1. 2 Cor. 1. 12. 1 Tim. 1. 5, 19. Heb. 13. 18. h Gwel ar Rhuf. 1. 9. 1 Thes. 1. 3. a 3. 10. i Gwel ar Luc 2. 37.

* Dïolchai yr apostol yn wresocaf yn achos Timothëus, i'r unig wir a bywiol Dduw, yr hwn a addolai efe yn ol dull ei henafiaid duwiol yn yr oesoedd a aethent heibio, o Abraham hyd y pryd hwnw; neu yn ol y datguddiedigaethau o Waredwr a wnaed iddynt hwy. Yr oeddynt hwy oll yn dysgwyl am y Messïah, ac yn gwasanaethu Duw gyda golwg grediniol arno ef; er i'w hiliogaeth hwy wedi hyny ei wrthod a'i groeshoelio ef; ac oeddynt yn awr yn erlid y rhai a gredent ynddo ef † Buasai yr apostol yn wir gynt yn flaenor yr erlidwyr hyn; ond yr oedd ei gydwybod yn awr wedi ei phuro oddi wrth weithredoedd meirwon, trwy waed cymmodol Crist, a chwedi ei goleuo a'i thyneru trwy effeithiau gras Duw, fel ag yr oedd efe yn gwasanaethu Duw â chydwybod bur, gydag addoliad siriol, ysbrydol, ac ufuddod crediniol. Am y mater hwn, gwel o'r blaen, ar Act. 23. 1. ‡ Yr oedd efe yn dra dïolchgar i Dduw am ei fod yn cael ei gynhyrfu a'i alluogi yn wastad, i gofio Timothëus yn ei weddïau taerion a mynych nos a dydd. Dyledswydd cristionogion, yn enwedig cyd-weinidogion y gair, yw gweddïo a dïolch dros eu gilydd; a braint fawr, gwerth dïolch i Dduw am dani, yw cael ysbryd a meddwl i wneyd hyny.

4 * Gan [k] fawr-ewyllysio dy weled, [l] † gan gofio dy ddagrau, [m] ‡ fel y'm llanwer o lawenydd:

k pen. 4. 9, 21. Rhuf. 1. 11. a 15. 30—32. Phil. 1. 8. a 2. 26. 1 Thes. 2. 17—20. a 3. 1. l Act. 20. 19, 31, 37, 38. Dat. 7. 17. a 21. 4. m Salm 126. 5. Es. 61. 3. Jer. 31. 13. Ioan 16. 22, 24. 1 Ioan 1. 4.

* Nis gwyddom pa faint o amser oedd er pan welsent eu gilydd, ond yr oedd Paul yn hiraethus iawn am weled Timothëus unwaith eto cyn ei farw; y cyfryw oedd ei gariad ato: ac yn wir yr oedd cariad y saint yn fawr iawn at eu gilydd yn y dyddiau boreuol hyny. † Felly yr oedd cariad Timothëus at Paul hefyd, fel plentyn at ei dad; wylodd ddagrau lawer wrth ymadael âg ef y tro diweddaf, ac yr oedd Paul yn cofio hyny o hyd. Nis gwyddis pa bryd y bu hyn; tybia rhai mai cyfeirio mae yr apostol at yr ymadawiad â henuriaid eglwys Ephesus, (Act. 20. 37, 38.) a thybiant fod Timothëus yno yn un, yn mhlith y rhai a wylent yn dost y tro hwnw. Ond nid yw yn sicr ei fod ef yno y pryd hwnw: a thybia eraill mai cyfeirio at ryw dro wedi hyny mae yr apostol yma. ‡ Byddai gweled Timothëus drachefn, a chael ychydig gymdeithas âg ef yn yr Arglwydd, yn llawenydd mawr i'r apostol, ar fin merthyrdod a thragywyddol ogoniant. Pa un a gafodd efe ei weled ai peidio wedi hyn, nid yw ein Hawdwyr yn dywedyd.

5 [n] * Gan alw i'm côf y [o] ffydd ddiffuant sydd ynot ti, † yr hon a drigodd yn gyntaf yn dy nain Loïs, ac yn dy [p] fam Eunice, [q] ‡ a diammeu gennyf *ei bod* ynot tithau hefyd.

p Salm 77. 6. o Salm 17. 1.—a 18. 44. a 66. 3. a 81. 15. Jer. 3. 10. Ioan 1. 47. 2 Cor. 6. 6. 1 Tim. 1. 5. 1 Pedr 1. 22. p Salm 22. 10. a 86. 16. a 116. 16. Act. 16. 1. q adn. 12. Act. 26. 26. Rhuf 4. 21. a 8. 38. a 14. 5, 14. a 15. 14. Heb. 6. 9. a 11. 13.

* Yr oedd yn fawr gan Paul am Timothëus hefyd, a hiraeth arno am ei weled, wrth fynych gofio y ffydd ddiffuant oedd ynddo ef; yr hon oedd yn amlwg ei bod ynddo, yn ei holl ymarweddiad a'i fuchedd sanctaidd, heb yr ymddangosiad lleiaf o ragrith, twyll, na ffuantrwydd. † Yr oedd hon yr un ffydd werthfawr a diffuant a drigasai yn gyntaf yn ei nain ef, Loïs, ac yn ei fam, Eunice; mae yn debyg fod y gwragedd duwiol hyn o

nifer y rhai a fuasent yn "dysgwyl am ddyddanwch yr Israel," y Messiah, cyn iddynt glywed yr efengyl; ac eu bod felly wedi cael eu darpar i'w dderbyn ef a chredu ynddo. ‡ A chan iddynt fod yn ofalus a diwyd i roddi pob dysgeidiaeth grefyddol i Timothëus; bu hyny yn foddion rhagorol i'w wneuthur yntau yn gyfranog o'r un ffydd; yr hon nid oedd ammheuaeth gan yr apostol ei bod ynddo: fel hyn yr oedd cyfammod Duw â'r credinwyr a'u hâd, yn cael ei gyflawni yn nodedig yn y teulu hwn; y nain yn gyntaf, yna y fam, wedi hyny yr ŵyr. Nid yw yr apostol yn dywedyd dim am ei dad ef, yr hwn oedd Roegwr, (Act. 16. 1.) un ai pagan neu broselyt, heb ei enwaedu, ac felly allan o gyfammod Duw âg Israel.

6 * O herwydd pa achos yr [r] ydwyf yn dy goffâu, [s] † i ail-ennyn dawn Duw, ‡ yr hwn sydd ynot [t] trwy arddodiad fy nwylaw i.

r pen. 2. 14. Es. 43. 26. 1 Tim. 4. 6. 2 Pedr 1. 12. a 3. 1. Judas 5. s pen. 4. 2. Ex. 35. 26. a 36. 2. Mat. 25. 15, &c. Luc 19. 13. Rhuf. 12. 6—8. 1 Thes. 5. 19. 1 Pedr 4. 10, 11. t Act. 8. 17, 18. a 19. 6. 1 Tim. 4. 14. Heb. 6. 2.

* Yn ei fawr gariad at Timothëus, a'i fawr ofal am dano; mewn ystyriaeth o'r ffydd ddiffuant oedd ynddo; ac mewn ystyriaeth hefyd o'r doniau rhagorol a roddasai Duw iddo, i'w gymhwyso yn nodedig i waith y weinidogaeth; yr oedd yr apostol etc yn ewyllysio ei goffâu ef o'i gyngorion o'r blaen, ac o'r doniau rhagorol a gawsai ef gan Dduw; † fel y byddai iddo arfer pob moddion i ail-ennyn y doniau hyny, trwy fyfyrdod, gweddi, a phob diwydrwydd; fel yr ail-ennynir tân trwy chwanegu y tânwydd, ei gyffrôi, a chwythu arno, er ei fod o'r blaen bron yn diffoddi. Fel hyn wrth ddwyn cariad, *zêl*, a thosturi tuag at eneidiau, i weithrediad grymus a pharâus; byddai i Timothëus gael ei fywiocâu i ddefnyddio a gwella ei ddoniau, ac i gyflawni ei weinidogaeth, gyda gwresawgrwydd ac effaith grymus. *Anazô-purein:* "ail-ennyn tân drwy ei gyffrôi a'i chwythu yw ystyr y gair, fel y sylwyd uchod; a thybia rhai fod yma gyfeiriad at waith yr offeiriaid gynt, yn trwsio y lampau yn y deml, a'u hadlenwi âg olew, i'w cadw i losgi yn wastadol. ‡ Gwel ar 1 Tim. 4. 14. Rhoddwyd y doniau hyn i Timothëus trwy arddodiad dwylaw yr apostol, mae yn debyg, yn ei urddiad i'r weinidogaeth: neu, efallai mai y swydd ei hun a feddylir, yr hon a gafodd efe trwy arddodiad dwylaw Paul.

7 * Canys ni roddes Duw i ni [u] yspryd ofn; [x] † ond *yspryd* nerth, [y] ‡ a chariad, [z] || a phwyll.

u Act. 20. 24. a 21. 13. Rhuf. 8. 15. Heb. 2. 15. 1 Ioan 4. 18. x Mica 3. 8. Zec. 4. 6. Luc 10. 19. a 24. 49. Act. 1. 8. a 6. 8. a 9. 22. a 10. 38. 1 Cor. 2. 4. y Rhuf. 5. 5. Gal. 5. 22. Col. 1. 8. 1 Pedr 1. 22. z Salm 119. 80. Diar. 2. 7. a 8. 14. Luc 8. 35. a 15. 17. Act. 26. 11, 25. 2 Cor. 5. 13, 14.

* Oblegid yr Ysbryd Glân, yr hwn a roddes Duw i gredinwyr sefydlog yn Ddyddanydd, nid oedd yn Awdwr tymher ddigalon, nac ofnau caethiwaidd. Efallai i'r apostol ddywedyd hyn, gan feddwl y byddai ysbryd tyner Timothëus mewn perygl o gael ei ddychrynu i raddau yn wyneb erledigaethau. † Ond fel Ysbryd mabwysiad, mae yr Ysbryd Glân yn llenwi calonau y credinwyr â nerth a hyfdra sanctaidd; yn eu gwroli yn wyneb eu holl elynion, pa un bynag ai dynion ai cythreuliaid a fyddont; ac yn cryfâu eu heneidiau yn wyneb pob caledi a pheryglon. ‡ Mae yn eu llenwi hefyd â serchiadau sanctaidd, ac â chariad gwresog at Grist, ei achos, ac eneidiau anfarwol dynion; || ac yn olaf, â meddwl sobr, pwyllig, ac iawn farn; mewn llywodraeth addas ar eu nwydau, ac i feddiannu eu hunain mewn arafwch ac amynedd, mewn amgylchiadau cyfrôus a pheryglus.

8 [a] * Am hynny na fydded arnat gywilydd o [b] dystiolaeth ein Harglwydd, † nac o honof finnau [c] ei garcharor ef: [d] ‡ eithr cyd-oddef di gystudd â'r efengyl, [e] || yn ol nerth Duw:

a adn. 12. Salm 119. 46. Es. 51. 7. Marc 8. 38. Luc 9. 26. Act. 5. 41. Rhuf. 1. 16. a 9. 33. Eph. 3. 13. 1 Pedr 4. 14. b Salm 19. 7. Es. 8. 20. Ioan 15. 27. a 19. 35. Eph. 4. 17. 1 Tim. 2. 6. 1 Ioan 4. 14. a 5. 11, 12. Dat. 1. 2. a 12. 11. a 19. 10. c adn 16, pen. 2. 9. Gwel ar Eph. 3. 1. a 4. 1. d pen. 2. 3, 11, 12. a 4. 5. Rhuf. 8. 17, 18. 36. 1 Cor. 4. 9—13. 2 Cor. 11. 23—27. Phil. 3. 10. Col. 1. 24. 1 Thes. 3. 4. 1 Pedr 4. 13—15. Dat. 1. 9. a 12. 11. e pen. 4. 17. Rhuf. 16. 25. 2 Cor. 6. 7. a 12. 9, 10. Phil. 4. 13. Col. 1. 11. 1 Pedr 1. 5. Judas 24.

* Oddi ar, ac o herwydd, y pethau uchod, (adn. 7.) cyngorai yr apostol Timothëus, na byddai arno gywilydd mewn un modd, o'r dystiolaeth hono a ddygasai efe i'r Arglwydd Iesu ac am dano; sef yr efengyl a bregethasai efe, yr hon a bregethodd Crist ei hunan, ac yr hon a gadarnâwyd trwy ei farwolaeth a'i adgyfodiad ef, a thrwy y tywalltiad o'i Ysbryd ef. † Ac nid hyny yn unig, ond hefyd na fydded arno gywilydd addef ei hun yn gyd-lafurwr â Phaul, apostol a charcharor dirmygedig yr Arglwydd Iesu, ac o herwydd ei efengyl ef: na fydded gywilydd arno ei arddelwi, ei amddiffyn, ac ymweled âg ef yn ei rwymau. ‡ Ond i'r gwrthrwyneb, dylai fod yn ewyllysgar i gyd-gyfranogi âg ef yn y cystuddiau hyn, y rhai a oddefai efe gyda'r efengyl, ac yn achos yr efengyl; || gan ymddybynu am gynnaliaeth, amddiffyn, a chysur ynddynt, ar "nerth Duw." yr hyn yn sicr a ga'i efe yn ol yr angenrhaid am dano.

9 [f] * Yr hwn a'n hachubodd ni, [g] † ac a'n galwodd â galwedigaeth sanctaidd, [h] ‡ nid yn ol ein gweithredoedd ni, [i] || ond yn ol ei arfaeth ei hun a'i ras, [k] § yr hwn a roddwyd i ni yng Nghrist Iesu, [l] cyn dechreu y byd,

f Act. 2. 47. 1 Cor. 1. 18. Eph. 2. 5, 8. 1 Tim. 1. 1. Tit. 3. 4, 5. g Rhuf. 8. 30. a 9. 24. 1 Thes. 4. 7. 2 Thes. 2. 13, 14. Heb. 3. 1. 1 Pedr 1. 15, 16. a 2. 9, 20, 21. h Rhuf. 3. 20. a 9. 11. a 11. 5, 6. Eph. 2. 9. Tit. 3. 5. i Es. 14. 26, 27. Mat. 11. 25, 26. Luc 10. 21. Rhuf. 8. 28. Eph. 1. 9, 11. k Ioan 6. 37. a 10. 28, 29. a 17. 9. 1 Cor. 3. 21, 22. Eph. 1. 3. l Ioan 17. 24. Act. 15. 18. Rhuf. 16. 25. Eph. 1. 4. a 3. 11. Tit. 1. 2. Dat. 13. 8. a 17. 8.

* Yr oedd Duw wedi "achub" yr apostol a Thimothëus, yn nghyd a'u brodyr cristionogol; neu wedi eu dwyn hwynt i gyflwr achubol, i ystâd o iachawdwriaeth; lle yr oeddynt o'r blaen yn golledig, ac yn myned i golledigaeth dragywyddol, ond fel yr achubodd Duw hwynt, cyn eu myned i'r golledigaeth hono. † Yr oedd efe wedi eu galw hwy yn effeithiol trwy yr efengyl; â galwedigaeth sanctaidd; i'w sancteiddio hwynt yma, i'r dyben o'u cymhwyso hwynt, a'u dwyn i feddiant a mwynâd o berffaith ddedwyddwch byth wedi hyn. Galwedigaeth *sanctaidd* oedd, am mai yr Ysbryd Glân, gan yr hwn y galwyd hwynt, yw Awdwr pob sancteiddrwydd; ac am fod yr efengyl, trwy yr hon y galwyd hwynt, yn berffaith sanctaidd yn ei natur, ei gorchymynion, a'i heffeithiau. ‡ Nid yn ol eu gweithredoedd hwynt y bu yr achub na'r galw hyn; oblegid pe buasai Duw yn ymddwyn tuag atynt yn ol y rhëol hono, buasai raid eu gadael hwy dàn gondemniad byth: || ond achubwyd a galwyd hwy yn ol arfaeth a gras Duw ei hun; o'i wir s'i ben-arglwyddiaethol ewyllys da ef, yn arfaethu eu hachub a'u galw, ac yn trefnu moddion addas i hyny, heb ddim o'u gweithredoedd hwy eu hunain. § Arfaethodd Duw er cyn dechreu y byd, roddi y gras hwn iddynt, yn a thrwy Grist Iesu; yr hwn a osododd efe i fod yn Ben a Machnïydd ei holl bobl etholedig a gwaredol. Amryw ddyfeisiau a ddychymmygwyd i wyro meddwl eglur yr adnod hon; a thrwy hyny i wadu etholedigaeth bersonol, ddiammodol, a thragywyddol, er cyn dechreu y byd; ond ni ddeil yr un o honynt yn wyneb geiriau noethion ac amlwg Duw; yn wir crybwyllir arfaeth Duw yma yn bennodol, fel yr *achos* paham y mae rhai yn cael eu hachub a'u galw mwy nac eraill.

10 [m] * Eithr a eglurwyd yr awrhon trwy ymddangosiad [n] ein Hiachawdwr Iesu Grist, [o] † yr hwn a [p] ddiddymmodd angau, [q] ‡ ac a

ddug fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl;

m Es. 25. 7. a 60. 2, 3. Luc 2. 31, 32. Rhuf. 16. 26. Eph. 1. 9. Col. 1. 26, 27. Tit. 1. 3. a 2. 11. 1 Pedr 1. 20, 21. 1 Ioan 1. 2. n Es. 43. 3. a 45. 15, 21. Luc 2. 11. Ioan 4. 42. Act. 5. 31. a 13. 23. Tit. 1. 4. a 2. 13. a 3. 4. 2 Pedr 1. 1, 11. a 2. 20. a 3. 2, 18. 1 Ioan 4. 14. o Es. 25. 8. Hos. 13. 14. Ioan 11. 25, 26. 1 Cor. 15. 54, 55. Heb. 2. 14, 15. Dat. 20. 14. p Luc 13. 7. Rhuf. 3. 31. a 6. 6. Gal. 5. 4. q adn. 1. Ioan 5. 29, 40. a 14. 6. a 20. 31. Rhuf. 2. 7. a 5. 17, 18. 1 Cor. 15. 53. 2 Cor. 5. 4. 2 Pedr 1. 3. 1 Ioan 1. 2. Dat. 2. 7. a 22. 1, 2, 14, 17.—Luc 11. 36. Ioan 1. 9. 1 Cor. 4. 5. Eph. 1. 18. Heb. 10. 32. Dat. 18. 1.

* Yr arfaeth hon o eiddo Duw, am achub a galw pechaduriaid, trwy ras wedi ei roddi iddynt yn Nghrist cyn dechreu y byd; a eglurwyd o'r diwedd trwy ei ymddangosiad ef fel "Iachawdwr" mewn dynoliaeth: † yr hwn trwy ei gyfiawnder, ei aberth, ei adgyfodiad, ei esgyniad, a'i gyfryngdod, a ddiddymmodd angau; a roes derfyn ar ei lywodraeth a'i deyrnasiad ef, ac a'i hamddifadodd ef o'i golyn a'i ddychryn, gyda golwg ar yr holl gredinwyr: y rhai trwy Grist a allant wynebu y gelyn ofnadwy hwnw, yn ei ddull mwyaf arswydus, gyda chysur a hyder; gan fod yn sicr y caiff eu heneidiau fynediad union-gyrchol i ogoniant, ac adgyfodiad buddugol a gorfoleddus i'w cyrph o'r bedd yn y dydd diweddaf. ‡ Trwy bregethiad yr efengyl hefyd, mae Crist wedi dwyn bywyd ysbrydol a thragywyddol, ac ystâd o ddedwyddwch anllygredig ac anfarwol, caffaeladwy i bechaduriaid, i lawn oleuni; ac mae wedi rhoddi y datguddiad mwyaf eglur i ni, o natur a sicrwydd y dedwyddwch dyfodawl hwnw, a'r ffordd yn mha un mae i ni gael gafael ynddo a dyfod iddo, trwyddo ef. Pa syniadau bynag oedd gan yr hen genedloedd gynt am anfarwoldeb yr enaid, nis gwyddent ddim am y ffordd i bechadur gael "bywyd ac anllygredigaeth," neu fywyd o ddedwyddwch anfarwol a gogoniant; hyd oni ddaeth hyny i oleuni iddynt trwy yr efengyl: ac er fod amlygiadau o hyny gan yr Iuddewon yn yr Hen Destament, eto nid oeddynt hwy yn deall fawr o honynt, ac nid oeddynt ond tywyll ac aneglur, mewn cymhariaeth i'r goleuni a ddaeth wedi hyny trwy yr efengyl.—Diddymodd Iesu angau naturiol o ran ei golyn a'i niwed; a diddymodd angau tragywyddol yn hollawl i'w saint; ni chânt hwy *ddim* niwed gan yr ail farwolaeth: llyncwyd eu hangau hwy mewn buddugoliaeth, trwy ei angau chwerwaf ef.

11 r * I'r hon y'm gosodwyd i yn bregethwr, † ac yn apostol, ‡ ac yn athraw y Cenhedloedd.

r Act. 9. 15. Eph. 3. 7, 8.—Gwel ar 1 Tim. 1. 7.

* Efengyl ogoneddus a bendigedig iawn yn wir oedd hon; i weinidogaeth pa un y cawsai Paul ei osod, fel cenadwr cyhoeddus a chredadwy, wedi ei anfon i gyhoeddi heddwch trwy Iesu Grist: hyny oedd ei waith ef fel "pregethwr" danfonedig; † ac fel "apostol" yr oedd yn dyst o adgyfodiad Crist wedi ei groeshoelio, trwy ddanfoniad digyfrwng ganddo ef ei hun. ‡ Yr oedd efe wedi ei ddanfon yn benaf at y cenedloedd, (Act. 9. 15.) i fod yn "athraw" iddynt *hwy*, i'w haddysgu hwynt yn y ffordd i fywyd ac anllygredigaeth trwy yr efengyl; fel y clywent ac y credent hwy y newyddion da am iachawdwriaeth, er achubiaeth eu heneidiau byth.

12 s * Am ba achos yr ydwyf hefyd yn dioddef y pethau hyn: t † ond nid oes arnaf gywilydd: u ‡ canys mi a wn i bwy y credais; x ‖ ac y mae yn ddiammeu gennyf y ei fod ef yn abl i z gadw a § yr hyn a roddais atto b erbyn y dydd hwnnw.

s adn. 8. pen. 2. 9. a 3. 10—12. a 4. 16, 17. Act. 9. 16. a 13. 46, 50. a 14. 5, 6. a 21. 27—31. a 22. 21—24. Eph. 3. 1—8. 1 Thes. 2. 16. t adn. 8. Salm 25. 2. Es. 50. 7. a 54. 4. Act. 21. 13. Rhuf. 1. 16. a 5. 4, 5. a 9. 33. Phil. 1. 20. Heb. 12. 2. 1 Pedr 4. 16. u Salm 9. 10. a 56. 9. Phil. 3. 8, 10. x Gwel ar q. adn. 5. y Ioan 10. 28—30. Phil. 3. 21. Heb. 2. 18. a 7. 25. z Ioan 6. 39, 40. 44. a 17. 11, 12, 15. 1 Pedr 1. 5. Judas 24. a Salm 31. 5. Luc 23. 46. Act. 7. 59. 1 Pedr 4. 19. b adn. 18. pen. 4. 8. Mat. 7. 22. a 24. 36. Luc 10. 12. 1 Thes. 5. 4.

* Ond yn lle cael anrhydedd, mawredd, a chyfoeth, fel tâl am ei lafur, yr oedd efe yn dyoddef pob math o galedi a niweidiau; ac yr oedd y pryd hwnw mewn carchar tywyll fel drwg-weithredwr, a phob dydd yn dysgwyl marwolaeth boenus a gwaradwyddus; a'r cwbl am ei fod yn bregethwr, yn apostol, ac yn athraw i'r cenedloedd. † Pa fodd bynag, nid oedd arno ddim cywilydd yn y mesur lleiaf; nid oedd arno ddim cywilydd iddo ddechreu, na pharâu am gynnifer o flynyddoedd, yn ngwasanaeth y Gwaredwr hwnw a gasêid ac a ddirmygid gymmaint gan ddynion: ac nid oedd arno chwaith gywilydd dyoddef hyd farw yn ei achos ac er ei fwyn ef. ‡ Efe a wyddai trwy grediniaeth gadarn o air Duw, trwy ddwyfol ddysgeidiaeth, a thrwy brofiad dedwydd, i bwy yr oedd wedi credu, a pha beth oedd ei allu, ei gariad, a'i ffyddlondeb grasol ef: ‖ a chan nas gallai efe ammau tosturi a thirionded yr hwn y credasai ynddo; felly yr oedd yn "ddiammau ganddo" ei fod ef yn alluog i ofalu am dano yn mhob amgylchiad; yn ei fywyd, yn ei angau, ac yn nydd y farn. § Yr oedd efe wedi ymddiried a rhoddi ei fywyd, ei enaid, a'i holl achos tragywyddol, i law a gofal Iesu: yr oedd wedi gweled gwerth a pherygl ei enaid anfarwol; gwyddai nad oedd neb yn yr holl grëadigaeth a fedrai ei gadw ond Iesu; gwyddai y gallai ac y gwnâi efe; am hyny yr oedd wedi ei roddi ei hunan iddo filoedd o weithiau, i gael ei gadw erbyn y dydd hwnw, dydd y farn ddiweddaf, dydd cyflawniad ei holl obeithion ef, a dydd mwynâd ei holl ddedwyddwch anorphenol.

13 c * Bydded gennyt d ffurf yr ymadroddion iachus, e † y rhai a glywaist gennyf fi, f ‡ yn y ffydd a'r cariad *sydd* yng Nghrist Iesu.

c adn. 14. pen. 3. 14. Diar. 3. 18, 21. a 4. 4—8, 13. a 23. 23. Phil. 1. 27. 1 Thes. 5. 21. Heb. 3. 6. a 4. 14. a 10. 23. Judas 3. Dat. 2. 25. a 3. 3, 11. d Diar. 8. 14. Rhuf. 2. 20. a 6. 17. 1 Tim. 1. 10. a 6. 3. Tit. 2. 1, 8. e pen. 2. 2. Phil. 4. 9. f Gwel ar Col. 1. 4. 1 Tim. 1. 14.

* Gwedi y dystiolaeth fywiog uchod o brofiad yr apostol a'i hyder gorfoleddus ei hun, yn nghanol dyoddefiadau, ac yn wyneb angau; mae efe yn annog Timothëus fod ganddo ffurf yr ymadroddion iachus; neu yn ol y Saesoneg, iddo ddâl yn gadarn ffurf yr ymadroddion iachus, mewn proffes ddiysgog, a thrwy eu pregethu yn ffyddlawn. Ffurf yr ymadroddion iachus hyn oedd y wir athrawiaeth, corph a sylwedd gwirionedd yr efengyl, mewn cyferbyniad i gyfeiliornadau afiach y gau-athrawon: † pethau a glywsai ef gan yr apostol ei hun, a pha rai yr oedd yr apostol, efallai, wedi rhoddi iddo ef grynodeb byr o honynt. ‡ Rhaid bod y pethau hyn ganddo, nid mewn gwybodaeth o honynt, a chydsyniad â hwynt yn unig, ond hefyd yn y ffydd a'r cariad oedd yn Nghrist Iesu: ffydd yn y gwirionedd, a chariad at y gwirionedd, a'u traddodi hefyd i eraill yn yr ysbryd hwn o ffydd a chariad; heb yr hyn ni wnai y gwirionedd les iddo ef ei hun, ac ni byddai dân arddelwad i'r neb a'i gwrandawai. *Bydded genyt ffurf yr ymadroddion iachus:* ymgadw yn agos at y geiriau a'r ymadroddion, yn mha rai yr arferai yr apostol bregethu yr efengyl. Pregethwyr y dyddiau hyn, y rhai sydd hoff ganddynt arfer geiriau dieithr, ac ymadroddion gwahanol iawn i iaith eglur a syml yr ysgrythyrau; byddai yn dda iddynt ddâl mwy ar y gorchymyn apostolaidd uchod.

14 g * Y peth da a rodded i'w gadw attat, † cadw h ‡ trwy yr Ysbryd Glân, i ‖ yr hwn sydd yn preswylio ynom.

g pen. 2. 2. Luc 16. 11. Rhuf. 3. 2. 1 Cor. 9. 17. 2 Cor. 5. 19, 20. Gal. 2. 7. Col. 4. 11. 1 Tim. 1. 11. a 6. 20. h Rhuf. 8. 13. Eph. 5. 18. 1 Thes. 5. 19. 1 Pedr 1. 22. i Ioan 14. 17. Rhuf. 8. 11. 1 Cor. 3. 16. a 6. 19. 2 Cor. 6. 16. Eph. 2. 22.

* Y peth da a rodded i'w gadw at Timothëus, mae yn debyg, oedd y weinidogaeth, a'r efengyl a ymddir-

iedwyd i'w ofal ef: ei swydd weinidogaethol, ac efallai y doniau a rodded iddo i'w addasu i'r swydd hòno. Gwel ar 1 Tim. 6. 20. Peth da iddo ef ei hun, peth da i eneidiau eraill, a pheth da er gogoniant Duw, ydoedd y peth da hwn; wedi ei roddi ato, a chwedi ei ymddiried iddo ef gan yr Arglwydd Iesu a'i Ysbryd sanctaidd. † Ei ddyled ef oedd cadw y peth da hwn: dàl y gwirionedd yn ffyddlawn yn wyneb holl ymdrechiadau gwrthwynebus ei elynion, a'i gadw yn bur ac yn ddilwgr yn wyneb pob cyfeiliornwyr; ‡ ac yr oedd yn rhaid iddo wneyd hyn trwy gymmorth yr Ysbryd Glân, mewn ymddybyniad ar ei gyfarwyddyd, ei oleuni, a'i ddylanwadau sanctaidd ef yn wastadol. ‖ Mae yr Ysbryd hwn yn preswylio yn yr holl saint, ac yn enwedig yn ngwir weinidogion yr efengyl, i'w galluogi hwynt i gyflawni dyledswyddau eu sefyllfa, yn wyneb pob llesgedd, gwrthwynebiadau, a pheryglon.

15 * Ti a wyddost hyn, ddarfod i'r [k] rhai oll sydd yn Asia [l] droi oddi wrthyf fi; † o'r sawl y mae Phygèlus a Hermogenes.

k Act. 16. 6. a 19. 10, 27, 31. a 20. 16. 1 Cor. 16. 19. l pen. 4. 10, 16. Phil. 2. 21.

* Yr oedd yn fwy angenrheidiol iddo ef fod yn ffyddlawn a diwyd yn y peth uchod, am nas gallai efe lai na gwybod, fod agos i bawb o broffeswyr Asia, wedi troi yn gywilyddus oddi wrth yr apostol, a'i adael ef yn ei ddyoddefiadau presenol yn achos Crist; un ai gan ofn, neu o gywilydd ei arddelwi ef, a sefyll o'i blaid yn y dyoddefiadau hyn. † Fel y rhai mwyaf nodedig o'r gwrthgilwyr hyn, yr oedd Phygèlus a Hermogenes yn deilwng o'u crybwyll wrth eu henwau. *Rhai oll sydd yn Asia:* rhai oedd yn byw yn Asia medd rhai; rhai o Asia oedd y pryd hwnw yn Rhufain, medd eraill: gwel eto ar pen. 4. 16. Dywedir bod yr Asiaid yn nodedig am eu llyfrder a'u maswedd-dra benywaidd. Tybia rhai mai proffeswyr Ephesus a'i chyffiniau a feddylir, y rhai a gymmerasant eu hudo, lawer o honynt, gan y gau-athrawon, i droi oddi wrth Paul a'r wir-athrawiaeth, pan welsant ei fod ef yn garcharor oblegid yr athrawiaeth hòno. Am y ddau berson a enwir yma, nid oes yr un crybwylliad am danynt yn un màn arall, gan hyny nis gwyddom ddim am danynt ond a ddywedir yma: efallai eu bod yn flodeuog mewn proffes unwaith; ac y gallesid dysgwyl pethau gwell oddi wrthynt.

16 [m] * Rhodded yr Arglwydd drugaredd [n] i dŷ Onesiphorus; [o] † canys efe a'm llonnodd i yn fynych, [p] ‡ ac nid oedd gywilydd ganddo fy [q] nghadwyn i.

m adn. 18. Neh. 5. 19. a 13. 14, 22, 31. Salm 18. 25. a 37. 26. Mat. 5. 7. a 10. 41, 42. a 25. 35—40. 2 Cor. 9. 12—14. Heb. 6. 10. a 10. 34. n pen. 4. 19. o 1 Cor. 16. 18. Philemon 7, 20. p Gwel ar adn. 8. q Act. 28. 20. Eph. 6. 20.

* Yma ni a welwn na ddylid deall y gair *oll* yn adn. 15, yn ei ystyr helaethaf, am *bob un* oedd yn Asia; oblegid mae yn ddiammau mai un o Asia, ac efallai o Ephesus, oedd yr Onesiphorus hwn: gwel adn. 18. Mae yn debyg fod ei deulu ef o hyd yn Ephesus, (gwel adn. 18, a pen. 4. 19.) ac yntau gyda'r apostol yn Rhufain, neu wedi bod yno; ac o hyd yn rhywle yn absenol oddi wrth ei deulu; oblegid i'w *dy* ef mae yr apostol yma yn gweddio am drugaredd, ac at ei *deulu* ef mae gorchymyn ei anerch yn pen. 4. 19. † Pan oedd agos i bawb yn troi oddi wrth yr apostol yn ei gyfyngder, eto cafodd ei lòni yn fynych gan y gŵr duwiol uchod; trwy ei aml ymweliadau, ei ymddyddanion, ac efallai trwy ddiwallu ei angenrheidiau corphorol ef yn ei garchar: fel hyn yr oedd yn llòni ei ysbryd a'i natur ef hefyd, a hyny yn aml ac yn fynych. ‡ Ac mòr fawr oedd ei gariad ef at yr apostol, a'r achos mawr dros ba un yr oedd yn dyoddef; fel nad oedd gywilydd ganddo ei arddelwi ef yn ei garchar, dàn bob gwarth a dirmyg oedd yn nglŷn a'i gadwyn ef, yn yr hon y rhwymid ef fel carcharor yr Arglwydd, i'w roddi i farwolaeth. Bendith a thrugaredd i deulu y dyn hwn; mewn pob peth tymmorawl, ysbrydol, a thragywyddol byth!

17 * Eithr pan oedd yn Rhufain, [r] *efe* a m ceisiodd yn ddiwyd iawn, ac a'*m* cafodd.

r Act. 28. 30, 31.

* "Pan *oedd* yn Rhufain:" gellir meddwl wrth hyn nad oedd efe yno y pryd hwn, pan oedd Paul yn ysgrifenu, ond ei fod wedi ymadael i rywle arall: tybia rhai ei fod wedi marw y pryd hwn, ond nid yw yr apostol yn dywedyd dim am hyny. Beth bynag oedd ei neges ef yn Rhufain, efe a geisiodd yr apostol yn ddiwyd, ac o'r diwedd efe a'i cafodd; ac wedi ei gael, efe a'i llònodd ef yn fynych fel y sylwyd uchod. Mae y *ceisio diwyd iawn* uchod yn dangos fod carchariad Paul yn fwy caeth o lawer y tro hwn na'r tro cyntaf; pan oedd efe yn cael aros yn ei dŷ ardrethol ei hun, ac yn derbyn pawb ar oedd yn dyfod i mewn ato, gan bregethu teyrnas Dduw iddynt yn ddiwahardd. Act. 28. 30, 31.

18 * Rhodded yr Arglwydd [s] iddo gael [t] trugaredd gan yr Arglwydd [u] yn y dydd hwnnw: [x] † a maint a wnaeth efe o wasanaeth yn [y] Ephesus, ‡ goreu y gwyddost ti.

s Gwel ar adn. 16.—1 Bren. 17. 20. t Salm 130. 3, 4. Luc 1. 72, 78. Rhuf. 3. 23, 24. a 9. 15—23. Eph. 2. 4. 1 Pedr 1. 10. u Gwel ar b. adn. 12. x Luc 8. 3. 2 Cor. 9. 1. Heb. 6. 10. y pen. 4. 12. Act. 19. 1. 1 Cor. 16. 8. 1 Tim. 1. 3. Dat. 2. 1.

* Yn llawnder a gwresawgrwydd ei galon, ac mewn ysbryd tra diolchgar am yr holl garedigrwydd uchod o'r eiddo Onesiphorus; mae yr apostol yn gweddio yn wir ddifrifol ar iddo gael trugaredd gan yr Arglwydd yn y dydd hwnw, sef y dydd olaf o holl ddyddiau y byd, a dydd y farn ddiweddaf. Rhodded yr Arglwydd Dduw Dad, iddo gael trugaredd gan yr Arglwydd Iesu, yn y dydd hwnw: neu i'r gwrthwyneb; Rhodded yr Arglwydd Iesu iddo gael trugaredd gan Dduw Dad, yn y dydd hwnw. Wrth y weddi hon, mae yn debyg fod Onesiphorus yn fyw y pryd hwnw, pe amgen buasai Paul yn gweddio dros y marw: yn wir taera y pabyddion ei fod wedi marw, a bod yr apostol yn gweddio drosto felly; i gael rhyw fath o ddadl dros eu harferiad hwy o weddio dros y meirw. † Gwyddai Timothëus ei hun yn dda, pa faint o wasanaeth a wnaethai Onesiphorus i'r apostol ac achos Crist yn Ephesus, am ei fod yno yn dyst presenol o hyny. ‡ *Goreu y gwyddost ti:* gwyddai Timothëus am ei wasanaeth ef yn Ephesus, yn well nac y gwyddai am ei wasanaeth yn Rhufain.

PEN. II.

Annog Timothëus i wneuthur rhan gweinidog ffyddlawn yn yr Arglwydd.

*TYDI gan hynny, [a] fy mab, [b] † ymnertha yn y gras sydd yng Nghrist Iesu.

a pen. 1. 2.—Gwel ar 1 Tim. 1. 2, 18. b pen. 1. 7. Hag. 2. 4.—Gwel ar 1 Cor. 16. 13. 2 Cor. 12. 9, 10. Eph. 6. 10. Phil. 4. 13. 2 Pedr 3. 18.

* Gwedi dangos i Timothëus fawredd ei swydd a'i waith, yn nghyd â'r peryglon oedd ar ei flordd ef; mae yr apostol yma yn ei gyngori ef yn dadol ac yn anwylaidd iawn, i beidio a bod yn hunanol, nac ymddiried yn y gras a dderbyniasai efe eisoes, yr hwn a ballai yn fuan o'i adael iddo ei hun; † ond bod iddo ef fyned allan o hóno ei hunan, a chyrchu yn wastad at ffynon pob gras; ymnerthu yn yr Arglwydd, ac yn nghadernid ei allu ef: ymnerthu yn feunyddiol yn y cyflawnder annyhysbyddadwy o ras oedd yn Nghrist Iesu.

2 * A'r [c] pethau a glywaist gennyf trwy † [d] lawer o dystion, [e] ‡ traddoda y rhai hynny i [f] ddynion ffyddlawn, [g] y rhai a fyddant gymmwys i ddysgu eraill hefyd.

c pen. 1. 13. a 3. 10, 14. d 1 Tim. 4. 14. a 6. 12. e Gwel ar pen. 1. 14. 1 Tim. 1. 18. a 5. 22. f Num. 12. 7. 1 Sam. 2. 35. Neh. 7. 2. Salm 101. 6. Diar. 13. 17. Jer. 23. 28. Mat. 24. 45. Luc 12. 42. a 16. 10—12. 1 Cor. 4. 2. Col. 1. 7. 1 Tim. 1. 12. Heb. 2. 17. a 3. 2, 3. Dat. 2. 10—13 g adn. 24, 25. Ezra 7. 10, 25. Mal. 2. 7. Mat. 13. 52. 1 Tim. 3. 2—9. a 4. 6. Tit. 1. 5—9.

* Y "pethau" a glywsai Timothëus gan yr apostol oedd holl wirioneddau yr efengyl, yr athrawiaeth fawr am Grist a'r iachawdwriaeth, yn ei holl ranau a'i changenau. † Yr oedd yr apostol wedi traddodi y "pethau" hyn *trwy* lawer o dystion; sef y gyfraith a'r holl brophwydi, oedd wedi llefaru am y pethau hyn, a thrwy ba rai yr oedd yntau yn profi gwirionedd ei athrawiaeth: neu yn *mhlith* llawer o dystion; sef yr holl rai oedd yn bresenol pan urddwyd Timothëus i waith y weinidogaeth, pryd y traddododd Paul iddo ef grynodeb o'r athrawiaeth a'r gwirioneddau oedd efe i'w pregethu, ac i sefyll arnynt yn ei weinidogaeth. ‡ Mewn trefn i gadw a thaenu y gwirioneddau hyny yn mhlith dynion ar ol yr oes bresenol hòno, yr oedd Timothëus i'w traddodi hwy i ddynion ffyddlawn, i gredinwyr cedyrn sefydlog, a dynion addas a chymhwys o ran gras a doniau, i ddysgu eraill hefyd: eu traddodi hwynt yn ei bregethau cyffredinol, a'u traddodi ar achosion neillduol, wrth urddo dynion ffyddlawn i waith y weinidogaeth. Mae hyn yn dangos fod gan Timothëus awdurdod uchel yn yr eglwys; ac ei fod ef i ofalu na byddai yr eglwys yn galw neb i'r weinidogaeth ond dynion ffyddlawn, cymhwys i ddysgu eraill. Fel hyn hefyd yr oedd darpariaeth yn cael ei wneyd, i gyfranu gwirionedd Duw i ddynion, trwy olynol ddilyniad o dystion, o oes i oes.

3 * Tydi gan hynny [h] goddef gystudd, megis [i] milwr da i Iesu Grist.

h adn. 10. pen. 1. 8. a 3. 11. a 4. 5. 1 Cor. 13. 7. 2 Cor. 1. 6. Heb. 6. 15. a 10. 32. a 11. 27. a 12. 2, 3. Iago 1. 12. i 2 Cor. 10. 3—5. Eph. 6. 11—18.—Gwel ar 1 Tim. 1. 18.

* Galwai yr apostol Timothëus eto i'w ystyried ei hun fel milwr da i Iesu Grist, ac annogai ef i ddyoddef cystudd fel y cyfryw, er mwyn ei Arglwydd a'i achos mawr. Gan iddo ymrestru dàn ei faner ef, yr oedd yn rhwym i'w ganlyn ef, ac ufuddâu i'w orchymynion ef: rhaid iddo fod yn barod i anturio ei fywyd yn ei achos ef a'r efengyl, ac ymdrechu ei thaenu hi yn wyneb pob enbydrwydd a damwain. Gan hyny fel y mae milwyr ar faes y gwaed yn gorfod dysgwyl a dyoddef lludded mawr, caledi, a pheryglon; felly rhaid iddo yntau fod yn barod i ddyoddef caledi ac enbydrwydd o bob math. Yr oedd hi yn amser enbyd ar yr eglwys y pryd hwnw, gwahanol iawn i'n dyddiau ni; ac yr oedd Timothëus mewn sefyllfa uchel yn myddin Iesu, yn nôd i'r gelynion yn fwy nac eraill; ac yr oedd efe trwy ei esampl o ddewrder, i arwain y fyddin yn mlaen yn y frwydr boeth.

4 * Nid yw neb a'r sydd yn [k] milwrio, yn [l] ymrwystro â negeseuau y bywyd *hwn,* [m] † fel y rhyngo fodd i'r hwn a'i dewisodd yn filwr.

k Deut. 20. 5—7. Luc 9. 59—62. l pen. 4. 10. Luc 8. 14. 1 Tim. 6. 9—12. 2 Pedr 2. 20. m 1 Cor. 7. 22, 23. 2 Cor. 5. 9. 1 Thes. 2. 4.

* Yn ol deddfau ac arferion milwraidd, nid oedd neb milwyr yn ymrwystro â negeseuau y bywyd hwn, megys trin daear a masnachu; ond yn gadael pethau felly i eraill, † fel y byddent yn hollawl rydd i ddilyn eu galwedigaeth filwraidd, ac i ryngu bodd y pen-capten, yr hwn a'u dewisodd yn filwyr, a thàn yr hwn y gwasanaethent. Felly Timothëus, ni ddylai efe ymdrafferthu gyda negeseuau bydol, na dim o fasnachau ac achosion y bywyd hwn; y rhai a fyddent yn rhwystr iddo ef yn ei filwriaeth ysbrydol fel gweinidog yr efengyl, ac yn rhwystr iddo ryngu bodd Crist yr hwn a'i dewisasai ef yn filwr, ac yr hwn a allai wneyd i fynu yn helaeth bob colled iddo ef. Mae yn amlwg wrth esampl yr apostol ei hun, bod yn gyfreithlawn i weinidogion yr efengyl ar rai achlysuron, i ennill eu bara trwy lafur eu dwylaw, ac mae llawer ysywaeth yn gorfod gwneyd hyny; ond mae hyn yn wahanol iawn i weinidogion yn ymgais am gyfoeth trwy fasnach, neu trwy alwedigaethau afreidiol, sydd yn lladrata y meddwl a'r amser, yn eu dwyn hwy i gymdeithasau a phenbleth, ag sydd yn niwed i'w henwau da hwy eu hunain, ac yn ddianrhydedd i'r efengyl.

5 * Ac od [n] ymdrech neb hefyd, † ni choronir ef onid ymdrech yn gyfreithlawn.

n Luc 13. 24. 1 Cor. 9. 24—27. Phil. 1. 15. Col. 1. 29. Heb. 12. 4. o pen. 4. 7, 8. Heb. 2. 7, 9. Iago 1. 12. 1 Pedr 5. 4. Dat. 2. 10. a 3. 11. a 4. 4, 10.

* Yn y campau Groegaidd hefyd, y dyn a ymdrechai am yr oreuaeth a'r wobr, † ni choronid ef fel buddugoliaethwr, os na byddai efe wedi ymdrech yn gyfreithlawn yn ol rhëolau gosodedig yn y campau hyny: am hyny yr oedd yn gweddu i Timothëus a'i frodyr lywodraethu eu diwydrwydd a'u hymdrechiadau wrth air Duw: heb hyny nis gallent ddysgwyl derbyn y goron wobrwyol yn y diwedd. Yn yr adnod hon a'r bedwaredd, mae cyfeiriad amlwg at y gyfraith filwraidd gan y Rhufeiniaid, a chyfraith y campau cyhoeddus gan y Groegiaid: yn ol y gyntaf, nid oedd y milwr i ymyraeth â galwedigaethau gwladol, neu fydol; ac yn ol yr ail, yr oedd yr ymdrechwr i gadw yn fànol at rëolau y gamp heb hyny ni cha'i efe ei goroni â blodau fel buddugoliaethwr. Milwyr ac ymdrechwyr hefyd yw gweinidogion; edrychant at y cyfreithiau, y rhai sydd lawer mwy eu pwys na deddfau Groeg a Rhufain.

6 * Y [p] llafurwr sydd yn llafurio, † sydd raid iddo yn gyntaf dderbyn y ffrwythau.

p Es. 28. 24—26. Mat. 9. 37, 38. a 20. 1. a 21. 33—41. Luc 10. 2. Ioan 4. 35—38. 1 Cor. 3. 6—9. a 9. 7—11.

* Gwedi cymharu gweinidog yr efengyl i filwr, adn. 3, 4, ac i ymdrechwr mewn camp, adn. 5, mae yr apostol yma yn ei gymharu i lafurwr, neu amaethydd yn trin y ddaear; ac addas iawn yw y gymhariaeth hon hefyd fel y rhai blaenorol, wedi ei defnyddio gan Grist ei hun. Luc 10. 2; a 20. 9, &c. † Fel mae yn rhaid i'r llafurwr yn gyntaf lafurio, cyn y gallo dderbyn o ffrwythau y maes; felly y rhaid i weinidogion yr efengyl yn *gyntaf* gyflawni eu gweinidogaeth yn ddiwyd ac amyneddgar, cyn y caffont dderbyn ei gwobr grasol. Dyna feddwl mwyaf amlwg y geiriau; ond gallant arwyddo, bod yn rhaid i'r llafurwr yn *gyntaf* gael ei gynnal â ffrwythau y ddaear, os amgen nis gall efe lafurio: ac nis gellir cyflawni gwaith y weinidogaeth yn iawn, heb i'r gweinidogion fyw trwy ffydd ar Grist eu hunain, yn gystal â'i bregethu ef i eraill. Yn ol y golygiad diweddaf, mae gosodiad yr adnod yn iawn fel y mae: ond yn ol y golygiad cyntaf, rhaid traws-ddodi y geiriau fel hyn:—'Rhaid i'r llafurwr lafurio yn gyntaf, cyn derbyn y ffrwythau:' ac mae y cyffelyb draws-ddodiadau yn angenrheidiol mewn amryw fànau eraill.

7 [q] * Ystyria yr hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd; [r] † a'r Arglwydd a roddo i ti ddeall ym mhob peth.

q Deut. 4. 39. a 32. 29. Salm 64. 9. Diar. 24. 32. Es. 1. 3. a 5. 12. Luc 9. 44. Phil. 4. 8. Heb. 3. 1. a 7. 4. a 12. 3. a 13. 7. r Gen. 41. 38, 39. Ex. 36. 1, 2. Num. 27. 16, 17. 1 Cron. 22. 12. a 29. 19. 2 Cron. 1. 8—12. Salm 119. 73, 125, 144. a 143. 8, 9. Diar 2. 3—6. Es. 28. 26. Dan. 1. 17. Luc 21. 15. a 24. 45. Ioan 14. 26. a 16. 13. Act. 7. 10. 1 Cor. 12. 8. Eph. 1. 17, 18. Col. 1. 9. Iago 1. 5. a 3. 15, 17. 1 Ioan 5. 20.

* Annogai yr apostol Timothëus i ystyried y cyffelybiaethau a'r addysgiadau uchod yn dda; † a dymunai i'r Arglwydd roddi iddo ef ddeall yn mhob peth a berthynai i'w waith a'i amgylchiadau, fel y byddai iddo weithredu ac ymddwyn yn addas i'r addysgiadau pwysig a gawsai; fel milwr, ymdrechwr, a llafurwr yn ngwaith yr Arglwydd.

8 [s] * Cofia gyfodi [t] Iesu Grist o had Dafydd, [u] o feirw, [x] yn ol fy efengyl i:

s Heb. 12. 2, 3. t Gwel ar Mat. 1. 1. Act. 2. 30. a 13. 23. Rhuf. 1. 3, 4.—Dat. 5. 5. u Gwel ar Luc 24. 46. Act. 2. 24. 1 Cor. 15. 11—20. x Rhuf. 2. 16. a 16. 25. 2 Thes. 2. 14. 1 Tim. 1. 11. a 2. 7.

* Fel pwnc hanfodol a sylfaenol yn athrawiaeth fawr yr efengyl, yr oedd Timothëus i gofio yn wastad, ddarfod cyfodi Iesu Grist o hâd Dafydd, o feirw, wedi ei holl ddyoddefaint a'i angau chwerw ar y groes. Yr oedd i gofio hyn er ei gysur ei hun yn ei holl orthrymder a'i enbydrwydd; ac yr oedd i gofio hyn i'w bregethu yn wastad, fel sylfaen iachawdwriaeth a bywyd i bechadur-

iaid tlodion. Mae yma bump o bethau i'w cofio; Duwdod y Person; ei gnawdoliad; ei swydd gyfryngol fel Messiah, Iesu Grist; ei farwolaeth; a'i adgyfodiad: a thyma ddigon byth am gadwedigaeth pechadur. *Cofia gyfodi Iesu Grist*, yw ein cyfieithiad ni; fel pe dywedasai yr apostol, Glŷn wrth hyn, fel sylfaen fawr yr efengyl; ond er bod hyn yn sicr yn wirionedd, eto tybir mai peth arall oedd yr apostol yn feddwl yn y fàn hon: "Cofia Iesu Grist yr hwn a gyfodwyd o feirw, wedi ei holl ddyoddefaint a'i angau: a bydd hyny yn well i ti na mil o annogaethau, i'th gynnal yn a thrwy dy holl ddyoddefiadau dy hun." Yn ol y drefn uchod mae y geiriau gwreiddiol, ac nid yn ol ein cyfieithiad ni: "Cofia Iesu Grist yr hwn a gyfodwyd," &c.; ac nid "Cofia gyfodi Iesu Grist," &c. † Dylai gofio hefyd fod yr Iesu Grist hwn wedi dyfod o hâd Dafydd: felly y prophwydwyd am y Messiah; ac o hâd Dafydd y dysgwyliai yr Iuddewon i'r Messiah ddyfod. Matth. 22. 42. Yr oedd hyn hefyd yn brawf o wir ddynoliaeth Crist; i'w gofio a'i ddadleu gan Timothëus yn erbyn y rhai a wadent ei wir ddynoliaeth ef. ‡ Yn ol efengyl Crist, yr hon a ymddiriedwyd i Paul, ac a bregethid ganddo ef yn ei phurdeb.

9 * Yn yr hon yr ydwyf yn [y] goddef cystudd hyd rwymau, [z] fel drwg-weithredwr; [a] † eithr gair Duw nis rhwymir.

y Gwel ar pen. 1. 8, 12, 16. z 1 Pedr 2. 12, 14. a 3. 16. a 4. 15. a Act. 28. 31. Eph. 6. 19, 20. Phil. 1. 12—14. 2 Thes. 3. 1.

* O herwydd pregethu yr efengyl am y pethau mawrion uchod, yr oedd yr apostol ei hun y pryd hwnw yn goddef cystudd mewn carchar, ac hyd rwymau: † eto nid oedd gair Duw wedi ei rwymo, nac i gael ei rwymo chwaith; ond yr oedd yn cael ei bregethu yn llwyddiannus gan laweroedd, ac i gael ei bregethu trwy yr holl fyd, er tystiolaeth i'r holl genedloedd. *Yn yr hon:* yn achos yr hon, neu er mwyn yr hon. *Fel* drwg-weithredwr, ond nid *yn* ddrwg-weithredwr.

10 * Am hynny yr ydwyf yn [b] goddef pob peth [c] er mwyn yr etholedigion, † fel y gallent hwythau [d] gael yr iachawdwriaeth sydd yng Nghrist Iesu, [e] gyd â gogoniant tragywyddol.

b Gwel ar adn. 3.—Eph. 3. 13. c Mat. 24. 22, 24, 31. Ioan 11. 52. a 17. 9. 1 Cor. 9. 22. 2 Cor. 4. 15. Col. 1. 24. d Diar. 8. 35. Ioan 17. 24. 1 Thes. 5. 9. 1 Tim. 1. 13, 14. 1 Pedr 2. 10. e Rhuf. 2. 7. a 9. 23. 2 Cor. 4. 17. Col. 1. 27. 2 Thes. 2. 14. 1 Pedr 5. 10.

* "Am hyny," wrth ystyried y pethau mawrion oedd yn cael eu gwneyd, ac a wnêid o hyd, trwy nerth Duw gyda phregethiad ei air, yr efengyl; yr oedd yr apostol yn dyoddef pob peth a roddid arno, o gariad at etholedigion Duw, ac o *zêl* dros eu llês ysbrydol hwynt; † fel trwy gael eu calonogi wrth ei esampl dyoddefus ef, y dygid hwythau i gredu, i gofleidio, ac i broffesu gwirionedd yr efengyl, a thrwy hyny gael yr iachawdwriaeth oedd yn Nghrist, sef perffaith waredigaeth oddi wrth bechod a phob drwg, yn nghyd â pherffaith fwynâd yn y diwedd o dragywyddol ddedwyddwch a gogoniant.

11 [f] * Gwir *yw* y gair: [g] † Canys os buom feirw gyd âg ef, [h] ‡ byw fyddwn hefyd gyd âg *ef:*

f Gwel ar 1 Tim. 1. 15. a 3. 1.—Tit. 3. 8. g Rhuf. 6. 5, 8. 2 Cor. 4. 10. Gal. 2. 19, 20. Col. 3. 3, 4. h Ioan 14. 19. 2 Cor. 13. 4. 1 Thes. 4. 17. a 5. 10.

* Mae rhai yn cyfeirio y darn blaenaf o'r adnod yma at ddiwedd yr adnod o'r blaen; mai gwir oedd y peth a ddywedasai yr apostol am ei ddyoddefgarwch er mwyn yr etholedigion: ond mwy tebyg ei bod yn perthyn i'r hyn sydd yn canlyn; fel y mae yr un geiriau yn y rhan fwyaf o fànau eraill. Gwel 1 Tim. 1. 15; a 4. 8, 9. Mae yn debyg fod hyn yn *ddywediad enwog* yn mhlith y cristionogion gynt; ac yr oedd o duedd crŷf i'w cadw hwy yn ddiysgog a dianwadal yn eu crefydd; felly nid rhyfedd eu bod yn ei fynych arfer. Gwel ar yr adnodau a ddyfynwyd uchod. † Os bu y saint feirw gyda Christ i bechod â'r byd, ac os oeddynt barod i farw gydag ef er mwyn a thros yr efengyl; ‡ byddant sicr o gael byw gydag ef hefyd, yn y gogoniant hwnw yr aeth efe iddo, ar ol ei groeshoeliad a'i adgyfodiad.

12 * Os [i] dioddefwn, † ni a deyrnaswn gyd âg *ef:* [k] ‡ os gwadwn *ef,* ‖ yntau hefyd a'n gwad ninnau:

i Mat. 19. 28, 29. Act. 14. 22. Rhuf. 8. 17. Phil. 1. 28. 2 Thes. 1. 4—8. 1 Pedr 4. 13—16. Dat. 1. 6, 9. a 5. 10. a 20. 4, 6. k Diar. 30. 9. Mat. 10. 33. a 26. 35, 75. Marc 8. 38. Luc 9. 26. a 12. 9. 1 Ioan 2. 22, 23. Judas 4. Dat. 2. 13. a 3. 8.

* Os dyoddefent hwy waradwydd a thrallod yn amyneddgar er mwyn Crist, megys y dyoddefodd yntau er mwyn a thros ei bobl; hwy a gâent yn sicr eu derchafu i'r anrhydedd o eistedd gydag ef ar ei orsedd-fainc, yn freninoedd ac yn offeiriaid i Dduw a'i Dad ef: ‡ Ond, os gwadent hwy ef, rhag ofn y dyoddef hyny, neu oddi ar unrhyw achlysur cnawdol arall, a pharâu i wadu felly; ‖ gwadai Crist hwythau hefyd, nad adnabu mo honynt erioed, a gŷrai hwy i golledigaeth gyda'r rhagrithwyr a gweithredwyr anwiredd.

13 * Os ŷm ni heb gredu, [l] † *etto* y mae efe yn aros yn ffyddlawn: [m] ‡ nis gall efe ei wadu ei hun:

l Es. 25. 1. Mat. 24. 35. Rhuf. 3. 3. a 9. 6. 1 Thes. 5. 24. 2 Thes. 3. 3. m Num. 23. 19. Tit. 1. 2. Heb. 6. 18.

* Os oeddynt hwy yn methu ymorphwys ar ei air ef, heb gredu ei dystiolaethau ef, neu os oeddynt hwy yn *anffyddlawn* iddo ef, hwy a'u dinystrient eu hunain; † eto, efe a arosai o hŷd yn ffyddlawn i'w gyfammod a'i addewidion i'w wir ddysgyblion, ac yn ffyddlawn hefyd i gyflawni bygythion dialeddol ei air ar ei wadwyr a'i elynion: ‡ Oblegid nis gall efe ei wadu ei hun, neu weithredu yn groes i'w air, a'i berffeithiau dwyfol a hanfodol ei hun, oddi ar unrhyw hoffedd pleidiol, na thosturi gwàn. *Nis gall efe:* nid o eisiau *gallu,* neu *ryddid;* ond o herwydd uniondeb moesol perffaith: fel hyn mae yn anmhosibl iddo ef fod yn gelwyddog; gwadu ei hun fyddai hyny.

14 [n] * Dwg y pethau hyn ar gôf, [o] † gan orchymyn ger bron yr Arglwydd, [p] ‡ na byddo iddynt ymryson ynghylch geiriau, [q] ‖ *yr hyn* nid yw fuddiol i ddim, [r] § *ond* i ddadymchwelyd y gwrandawyr.

n Gwel ar pen. 1. 6. o pen. 4. 1. Eph. 4. 17. 1 Thes. 4. 1. 2 Thes. 3. 6. 1 Tim. 5. 21. a 6. 13. p adn. 16, 23, 24. Rhuf. 14. 1. 1 Tim. 1. 4, 6. a 6. 4, 5. Tit. 3. 9—11. q 1 Sam. 12. 21. Jer. 2. 8, 11. a 7. 8. a 16. 19. a 23. 32. Hab. 2. 18. Mat. 16. 26. 1 Tim. 4. 8. Heb. 13. 9. r Jer. 23. 36. Act. 13. 10. a 15. 24. Gal. 1. 7. Tit. 3. 11.

* Mynai yr apostol yn mhob gwedd, i Timothëus ddwyn y gwirioneddau ymarferol pwysig uchod, ar gôf i gristionogion a gweinidogion yr efengyl: † a gorchymyn iddynt yn y modd mwyaf difrifol, megys ger bron yr Arglwydd Iesu, yn ei enw, a thrwy ei awdurdod ef; ‡ na byddai iddynt ymryson a dadleu yn nghylch geiriau, a phethau distadl a dibwys, megys chwedlau Iuddewig ac achau annorphen, (Gwel ar 1 Tim. 1. 4.) y rhai a fawrâi rhyw ddynion gweigion ymrysongar fel pethau o'r pwys mwyaf. Dylent ymattal rhag pethau fel hyn yn yr areithfa, yn yr eglwys, ac yn mhob ymddiddan â'u gilydd: ‖ oblegid nid oeddynt, ac nis gallent fod yn fuddiol i ddim daioni ac adeiladaeth; § ond i'r gwrthwyneb, yr oeddynt yn tueddu i ddadymchwelyd y gwrandawwyr, yn eu dyrysu hwynt yn nghylch pynciau gweigion, yn porthi balchder a hunan, yn peri iddynt ddirmygu a chasâu eu gilydd, ac yn eu tynu hwynt ymaith oddi wrth symledd ffydd ac ufudd-dod yr efengyl. *Gan orchymyn ger bron yr Arglwydd:* mae y pwys mwyaf arswydlawn yn y geiriau hyn; yr hyn sydd yn dangos y mawr niwed o ymryson a dadleu yn nghylch pethau bychain: ac yn wir *ymryson* yn nghylch unrhyw beth a berthyn i grefydd; yr ydym fel hyny yn dryllio ac yn rhwygo y peth a gyfrifwn ni yn *sanctaidd,* wrth ymryson yn nghylch ei *eddi.*

15 [s] * Bydd ddyfal i'th osod dy hun [t] yn brofedig gan Dduw, [u] † yn weithiwr difefl, [x] ‡ yn iawn-gyfranu gair y gwirionedd.

s Heb. 4. 11. 2 Pedr 1. 10, 15. a 3. 14. t Act. 2. 22. Rhuf. 14. 18. a 16. 10. 2 Cor. 5. 9, 10. a 10. 18. Gal. 1. 10. 1 Thes. 2. 4. u Mat. 13. 52. 2 Cor. 3. 6. a 6. 3, 4. 1 Tim. 4. 6, 12—16. x Marc 4. 33. Luc 12. 42. Ioan 21. 15—17. Act. 20. 20, 27. 1 Cor. 2. 6. a 3. 1, 2. 2 Cor. 4. 2. 1 Thes. 5. 14. Heb. 5. 11—14.

* Dylai Timothëus fod yn ofalus a dyfal iawn, trwy gymmorth o'r nef, i'w osod ei hun yn brofedig, neu yn gymmeradwy gan Dduw, yn ei holl ymarweddiad a'i weinidogaeth, fel milwr da, fel ymdrechwr cyfreithlawn, ac fel llafurwr diwyd ac amyneddgar. Nid ceisio boddloni dynion a ddylai efe, ond boddloni Duw, yr hwn a'i dewisodd ac a'i galwodd ef i'r gwaith, ac i'r hwn y byddai yn gyfrifol yn nydd y farn. O pa beth a dâl i bregethwr foddloni dynion trwy ei ddoniau llithrig, a chweryl rhwng Duw âg ef yr holl amser! † Yn weithiwr na raid iddo gywilyddio, yn ol y Saesoneg: yn weithiwr a ŵyr pa fodd i fyned yn nghylch ei waith, na raid iddo gywilyddio o'i waith, nac ofni i eraill chwilio i'w waith ef i'r manylrwydd eithaf: gweithiwr heb esgeulusdra, anfedrusrwydd, anffyddlondeb, nac unrhyw ddiffyg nodedig arall; a gweithiwr ni aller beio arno. Dywed awdwr duwiol y Wisg Wèn yn rhywle yn y llyfr hwnw, fod y gair *mefl* yn y fàn hon, yn arwyddo cywilydd â'r *achos* o'r cywilydd: felly, bod yn ddifefl yw bod yn ddiachos cywilydd. Rhyw glwyf brwnt a ffiaidd yn tòri allan, yw *mefl*. ‡ Tybia rhai fod yma gyfeiriad at yr offeiriaid neu y Lefiaid Iuddewig yn tòri neu yn darnio yr aberth, ac yn iawn ddosparthu y rhanau; peth ar yr allor i Dduw, a pheth i'r bobl oedd i gyfranogi o'r aberth. Tybia eraill fod yma gyfeiriad at ddàl yr arad yn gywir, i ddosparthu y cŵysau yn iawn, ac i gadw y rhŷchau yn uniawn. Tybia eraill fod yr apostol yn cyfeirio at oruchwyliwr mewn teulu, yn dosparthu i bob un o'r teulu ei waith a'i ymborth, yn gyfatebol i'w oed, ei allu, a'i angen. Felly yr oedd Timothëus i iawn-gyfranu gair y gwirionedd; fel yr offeiriad, fel yr arddwr, ac fel y goruchwyliwr; trwy ei gymhwyso ef at bob un yn ol ei gyflwr, ei sefyllfa, a'i amgylchiadau. Gwel y cyfeiriadau dàn *x*.

16 * Ond [y] halogedig ofer-sain, gochel: [z] † canys cynnyddu a wnant i fwy o annuwioldeb.

y adn. 14. 1 Tim. 4. 7. a 6. 20. Tit. 1. 14. a 3. 9. z pen. 3. 13. Ezra 10. 10. Hos. 12. 1. 1 Cor. 5. 6. a 15. 33. 2 Thes. 2. 7, 8. Tit. 1. 11. Heb. 12. 15. 2 Pedr 2. 2, 18. Dat. 13. 3, 14.

* Wrth y geiriau dianrhydeddus hyn mae yr apostol yn condemnio pob ymadroddion anweddus yn ngwaith y weinidogaeth, ac yn holl ymddyddanion gweinidog yr efengyl, a phawb a'i proffesent hi. Nid yw pethau felly ond *sain, ofersain*, a *halogedig* ofersain: yn llygru pawb a'u harferant ac a'u gwrandawant. † Pa mór ddibwys a diniwed bynag y tybiai rhai y chwedlau ofer uchod, *halogedig* oeddynt yn nghyfrif yr apostol; ac yr oedd ef yn gweled mai cynnyddu a wnâent i fwy o annuwioldeb yn mhlith proffeswyr crefydd, oni ochelid hwynt, ac ymgadw oddi wrthynt yn fànol gan bawb, yn enwedig gan y gweinidog ei hun. Gwel ar 1 Tim. 6. 20, 21.

17 * A'u [a] hymadrodd hwy a ysa fel cancr: † ac o'r cyfryw rai y mae [b] Hymenëus a Philetus;

a Nah. 3. 15. Iago 5. 3. b 1 Tim. 1. 20.

* Yr oedd ymadroddion halogedig y gau-athrawon, a'r rhai oedd yn ymarfer â'r halogedig ofersain uchod, yn wenwynig yn eu natur a'u heffeithiau; ac yn taenu eu heffeithiau niweidiol ac atgas yn ddiarwybod, nes y byddent wedi ysu, neu fwyta bywyd a grŷm gwir grefydd yn meddyliau ac ysbrydoedd dynion; fel y bydd *cancr*, onid attèlir ef, yn ymdaenu trwy y corph naturiol, nes llygru a distrywio pob rhan o hóno, a lladd y dyn. Dywed *Pool* mai fel hyn mae y geiriau yn y Groeg:—A'u hymadrodd hwy a gaiff borfa (neu le i ymborthi arno) fel cancr: rhŷ wir yw hyn ysywaeth; cair llaweroedd o ddynion yn barod iawn i roi porthiant i chwedlau ac ymadroddion afiach. Braenedd y cnawd, (*mortification*) meddant, yw ystyr y gair Groeg *gangraina*, ac nid y peth a alwn ni cancr: mae y ddau yn bur wahanol i'w gilydd: ond pob un yn ysawl, a phob un yn farwol. † Yr oedd amryw fath o'r oferddadleuwyr uchod, ond mae yr apostol yn enwi y ddau hyn o honynt yn bennodol; fel y rhai gwaethaf, a mwyaf cyfeiliornus a pheryglus, efallai, o bawb o honynt. Clywsom am Hymenëus o'r blaen, gydag Alexander, 1 Tim. 1. 20; am Philetus nid oes dim sôn ond yn y fàn hon.

18 * Y rhai [c] o ran y gwirionedd a gyfeiliornasant, [d] † gan ddywedyd ddarfod yr adgyfodiad eisoes; ‡ ac y maent yn [e] dadymchwelyd ffydd rhai.

c Mat. 22. 29. 1 Tim. 1. 19. a 6. 10, 21. Heb. 3. 10. Iago 5. 19. d 1 Cor. 15. 12. Col. 3. 1. e adn. 14. Mat. 15. 13. Luc 8. 13. a 22. 31, 32. Act. 5. 39. 1 Cor. 11. 19. 1 Ioan 2. 19.

* Yr oedd y ddau gyfeiliornwr uchod wedi gŵyro yn mhell ac yn dra dychrynllyd oddi wrth wirionedd yr efengyl, a chwedi myned i'r cyfeiliornadau mwyaf dinystriol; † yn enwedig yn nghylch adgyfodiad y meirw: taerent fod yr adgyfodiad wedi myned trosodd eisoes o ran y duwiolion; yn newidiad yr oruchwyliaeth, neu yn y cyfnewidiad moesol oedd wedi cael ei wneyd arnynt hwy. Fel hyn yr oeddynt yn egluro (neu dywyllu yn hytrach,) athrawiaeth yr adgyfodiad yn allegawl a chyfriniawl, ac felly yn gwadu yr adgyfodiad i ddyfod. Yn ysgolion philosophyddawl y paganiaid, gelwid pechod yn *angau* neu *farwolaeth;* ac adferiad i fuchedd foesol a rhinweddol yn *adgyfodiad* o feirw; ac mae yn debyg mai yn ol hyny yr oedd y cyfeiliornwyr hyn yn dywedyd ddarfod yr adgyfodiad eisoes, o ran y cristionogion. Pa fodd bynag, eu hamcan hwy oedd gwadu y gwir adgyfodiad; ‡ ac yr oeddynt yn llwyddo i ddadymchwelyd rhai proffeswyr oddi wrth y ffydd i'r cyfeiliorni hwnw.

19 * Eithr y mae [f] cadarn sail Duw yn [g] sefyll, † a chanddo [h] y sel hon; [i] ‡ Yr Arglwydd a edwyn y rhai sydd eiddo ef. ‖ A, [k] Phob un sydd yn enwi enw Crist, [l] ymadawed oddi wrth anghyfiawnder.

f Diar. 10. 25. Es. 14. 32. a 28. 16. Mat. 7. 25. Luc 6. 48. 1 Cor. 3. 10, 11. Eph. 2. 20. 1 Tim. 6. 19. Heb. 11. 10. Dat. 21. 14. g Mat. 24. 24. Marc 13. 22. Rhuf. 8. 31—35. a 9. 11. Heb. 6. 18, 19. h Hag. 2. 23. Zec. 3. 9. a 4. 7—9. Eph. 4. 30. i Num. 16. 5. Salm 1. 6. a 37. 18, 28. Nah. 1. 7. Mat. 7. 23. Luc 13. 27. Ioan 10. 14, 28—30. a 13. 18. Rhuf. 8. 28. a 11. 2. 1 Cor. 8. 3. Gal. 4. 9. Dat. 17. 8. k Num. 6. 27. Es. 63. 19. a 65. 15. Mat. 28. 19 Act. 9. 14. a 11. 26. a 15. 17. Rhuf. 15. 9, 20. 1 Cor. 1. 2. Eph. 3. 15. Dat. 2. 13. a 3. 8. a 22. 4. l Job 28. 28. Salm 34. 14. a 37. 27. Diar. 3. 7. Rhuf. 12. 9. 2 Cor. 7. 1. Eph. 4. 17—22. a 5. 1—11. Col. 3. 5—8. Tit. 2. 11—14. 1 Pedr 1. 13—19. 2 Pedr 1. 4—10. a 3. 14. 1 Ioan 3. 7—10.

* Er bod rhai yn syrthio ymaith i'w dinystr eu hunain trwy yr hudoliaethau cyfeiliornus uchod, eto dylid credu yn sicr, fod "cadarn sail Duw yn sefyll," neu sail Duw yn sefyll yn gadarn. Mae rhai yn deall y geiriau hyn am athrawiaeth yr adgyfodiad, eraill am etholedigaeth; eithr Crist ei hunan, yn nghyd a'r iachawdwriaeth fawr, a'r addewidion o fywyd tragywyddol i bawb a gredant ynddo ef, yn ddiammau yw cadarn sail Duw yn ol meddwl yr apostol. Mae hon yn sefyll yn gadarn, nis gall pyrth uffern ei gorchfygu, ac nis gall neb a wir adeiledir arni gyfr-golli byth. † Yn ol yr hên arferiad gynt, o osod sêl ar sylfaeni adeiladau mawrion, a cherfio rhyw eiriau arni; felly y mae sêl Duw ar y sylfaen ysbrydol a chyfriniol hon, ac arysgrifiad deublyg arni. ‡ Ar y naill ochr, mae yn gerfiedig, megys er calondid i'r credadyn, "Yr Arglwydd a edwyn y rhai sydd eiddo ef:" mae efe yn adnabod ei etholedigion; mae efe yn cymmeradwyo, ac yn gofalu mewn modd neillduol am, y rhai a alwodd efe, a'r rhai ydynt ei bobl grediniol ac ufudd ef; mae efe yn adnabod gwahaniaeth rhwng y gwaelaf o honynt hwy â'r rhagrithwyr mwyaf gwŷch-

ymddangosiadol; ac efe a geïdw bob un o honynt hwy, pryd y mae eraill yn cael eu twyllo i golledigaeth eu heneidiau. Tybia rhai bod yma gyfeiriad at eiriau Moses, am dano ei hun ac Aaron, yn ngwrthryfel Cora, Dathan, ac Abiram. Num. 15. 5. ‖ Ar yr ochr arall i'r sêl hon, mae yn gerfiedig, er rhybudd i holl broffeswyr cristionogaeth, i ddangos pa fath ddynion a ddylent fod, ac i gyfarwyddo ymarweddiad gwir gredinwyr; "Pob un sydd yn enwi enw Crist, ymadawed oddi wrth anghyfiawnder." Fel hyn mae yn rhaid i ddynion ymofyn am y sicrwydd o'u galwedigaeth a'u hetholedigaeth: fel hyn rhaid iddynt amlygu gwirionedd eu ffydd a'u cariad, a dangos eu diolchgarwch am wahaniaethol ras; fel hyn yr ymgadwant oreu rhag maglau twyllwyr, ac y dangosant wahaniaeth rhyngddynt hwy eu hunain â phob math o ragrithwyr. Dywedir fod y gair *sphragis* yn aml yn arwyddo yr *argraff*, neu y *nôd* a wnair *â sêl*, yn gystal *â'r sêl* ei hunan; gwel Dat. 9. 4: ac addas iawn yw yr ymadrodd yn y fàn hon, gyda chyfeiriad at y ddefod o gerfio ar feini sylfaen adeiladau, enw yr adeiladydd, a'r dyben i ba un yr adeiledid hwy.

20 * Eithr mewn [m] tŷ mawr † nid oes yn unig [n] lestri o aur ac o arian, ‡ ond hefyd o bren ac o bridd; [o] ‖ a rhai i barch, § a rhai i ammharch.

m 1 Cor. 3. 9, 16, 17. Eph. 2. 22. 1 Tim. 3. 15. Heb. 3. 2—6. 1 Pedr 2. 5. n Ex. 27. 3. Ezra 1. 6. a 6. 5. Galar. 4. 2. Dan. 5. 2. 2 Cor. 4. 7. o Rhuf. 9. 21—23.

* Er dangos o hyd yn mhellach, fod cyfeiliornadau a gwrthgiliadau rhai proffeswyr cristionogaeth, yn hollawl gyson âg ymrwymiadau i'w bobl yn ei gyfammod; mae yr apostol yn sylwi, bod mewn tŷ mawr, preswylfa brenin, pendefig, neu ryw ŵr goludog, † nid yn unig lestri o ddefnyddiau gwerthfawr, megys o aur ac o arian, ‡ ond eraill hefyd o ddefnyddiau gwaelach, megys o bren ac o bridd, neu glai; ‖ y rhai cyntaf yn hardd, ac i wasanaeth anrhydeddus yn y tŷ; § a'r lleill i wasanaeth gwaelach, a mwy anmharchus. Yr un modd y mae yn eglwys weledig Duw, yr hon sydd dŷ mawr iawn, yn cynnwys teulu mawr, ac â gwaith mawr yn cael ei wneyd ynddo: cair yn y tŷ hwn, nid yn unig wir gristionogion, dynion rhagorol, a gweinidogion ffyddlawn, yn offerynau hardd ac ewyllysgar yn y gwaith anrhydeddus o wasanaethu a gogoneddu Duw, a llesâu dynion; ond y mae yno hefyd ddynion o gymmeriad gwahanol iawn, a gwaelach o lawer; anwiredd a rhagrith pa rai a oruwchlywodraethir yn aml, yn groes i'w hamcanion hwy, i gyflawni cyfiawn fwriadau Duw, er y bydd hyny i'w dinystr a'u dirmyg tragywyddol hwy eu hunain. Felly yr oedd y pryd hwnw yn nhŷ Dduw, felly y mae eto, ac felly y bydd hyd y diwedd.

21 * Pwy bynnag gan hynny [p] † a'i glanhâo ei hun oddi wrth y pethau hyn, ‡ efe a fydd yn [q] llestr i barch, ‖ wedi ei sancteiddio ac yn [r] gymmwys i'r Arglwydd, § wedi ei [s] ddarparu i bob gweithred dda.

p Salm 119. 9. Es. 1. 25. a 52. 11. Mal. 3. 3. 1 Cor. 5. 7. 2 Cor. 7. 1. 1 Pedr 1. 22. 1 Ioan 3. 3. q adn. 20. 1 Pedr 1. 7. r Act. 9. 15. s pen. 3. 17. Eph. 2. 10. Tit. 3. 1, 8, 14.

* Pwy bynag gan hyny fel proffeswr yr efengyl, ac yn enwedig pwy bynag fel gweinidog yr efengyl, † a'i glanâo ei hun, ac a ymgadwo oddi wrth y fath gauathrawon llygredig, eu cyfeiliornadau, a'u harferion annuwiol; ‡ efe a gyfrifir, ac a fydd mewn gwirionedd, yn un o'r llestri aur neu arian uchod, yn llestr trugaredd, (Rhuf. 9. 24.) ac yn llestr i barch, ‖ wedi ei goethi a'i gyssegru i wasanaeth Duw gan yr Ysbryd Glân; § wedi ei ddarpar a'i gymhwyso yn hollawl i bob dyledswydd a gweithred, sydd yn dda ynddi ei hun, ac yn dda o ran ei heffeithiau a'i chanlyniadau, yn ol rhëol gair Duw, er ei ogoniant ef, ac er llês i enaid y dyn ei hunan, ac i eneidiau rhai eraill.

22 * Ond [t] chwantau ieuengctid, [u] ffo *oddi wrthynt:* † a [x] dilyn gyfiawnder, ffydd, [y] cariad, [z] tangnefedd, ‡ gyd â'r rhai sydd yn [a] galw ar yr Arglwydd o galon bur.

t Diar. 6. 5. 1 Cor. 6. 18. a 10. 14. 1 Tim. 6. 11. u Salm 119. 9. Preg. 11. 9. 1 Pedr 2. 11. x Gwel ar 1 Tim. 4. 12. a 6. 11.—3 Ioan 11. y Gwel ar 1 Cor. 14. 1. z Rhuf. 14. 17, 19. a 15. 5, 6. 1 Cor. 1. 10. Heb. 12. 14. 1 Pedr 3. 11. a 1 Cron. 29. 17, 18. Salm 17. 1. a 66. 18, 19. Diar. 15. 8.—Gwel ar 1 Tim. 2. 8.

* Mae yr apostol yn rhybuddio Timothëus, nid yn unig i ochelyd gau-athrawiaeth, ond hefyd i ffoi rhag chwantau ieuenctid: y chwantau cnawdol hyny mae pobl ieuainc yn fwyaf agored a thueddol iddynt: ac hefyd y nwydau poethion a ffròmwyllt hyny, yr ehudrwydd hyny, a'r hoffder mewn newyddiant a dadleuaeth, a'r awydd am enwogrwydd, mae dynion ieuainc yn dra thueddol iddynt. Nid chwantau y cnawd yn unig a feddylir yma wrth "chwantau ieuenctid," ond hefyd chwantau ysbrydol y meddwl, balchder, hunan, ac awydd am ragoriaeth gwâg-ogoneddgar mewn pethau crefyddol: mynai yr apostol i Timothëus ffoi rhag pethau felly gyda'r atgasrwydd mwyaf o honynt, a'r dychryn mwyaf rhag y niwed oedd ynddynt. † A chyngorai ef i ddilyn pob tymher sanctaidd, a dyfal ymarfer â phob peth da ei hunan, yn gystal a'u pregethu i eraill; yn enwedig cyfiawnder, ffydd, cariad, a thangnefedd; ‡ gyda'r holl rai oedd yn galw ar yr Arglwydd, yn ei addoli ac yn ei wasanaethu ef, o galon bur, ac mewn gwir ffydd a chariad, er cymmaint oedd eu gwendidau, a'u camsyniadau mewn pethau o lai pwys. Dyna'r fath ddynion y mynai yr apostol i'w fab Timothëus gymdeithasu â hwynt, ac nid cyfeiliornwyr, a dynion o feddyliau ac arferion llygredig a chnawdol.

23 * Eithr [b] gochel ynfyd ac annysgedig gwestiynau, † gan wybod eu bod yn magu ymrysonau.

b Gwel ar adn. 14, 16. 1 Tim. 6. 4, 5.

* Rhoddodd yr apostol gyngor tebyg i hwn i Timothëus o'r blaen, yn adn. 16; a gwelai yn angenrheidiol ei gyngori ef drachefn, i ochel ynfyd ac annysgedig gwestiynau: y cyfryw bynciau cywrain, rhyfygus, a dilês, y rhai a ymddangosant yn aml fel pe byddent yn tarddu o ddyfnder deall, myfyrdod, a dysgeidiaeth; ond y rhai mewn gwirionedd a ddeilliant o ynfydrwydd a ffolineb, ac o ddiffyg adnabyddiaeth sylweddol o fawredd Duw, o gyflwr a sefyllfa druenus dyn, ac o bethau eraill o'r pwys a'r canlyniad mwyaf. † Byddai gwahanol ddynion yn debyg o ateb y cwestiynau hyn mewn gwahanol ffyrdd, am nad oedd un rëol ysgrythyrol i'w penderfynu; ac fel hyny byddent yn foddion sicr i fagu ymrysonau ffyrnig, a dadleuon llidiog, rhwng dynion beilchion a chyndyn, ac efallai y tòrent allan i ymladdau, a chanlyniadau gwarthus a niweidiol eraill yn y diwedd. Rhaid i Timothëus ei hun ochel y pethau hyn, a gorchymyn i eraill, gyda phob awdurdod, eu gochel hefyd.

24 [c] * Ac ni ddylai [d] gwas yr Arglwydd [e] ymryson; [f] † ond bod yn dirion wrth bawb, [g] ‡ yn athrawus, ‖ yn ddioddefgar,

c Deut. 34. 5. Jos. 1. 1. 2 Cron. 24. 6. Dan. 6. 20. 1 Tim. 6. 11. Tit. 1. 1. Iago 1. 1. d Mat. 12. 19. Act. 15. 2. 2 Cor. 10. 4. Phil. 2. 3, 14. 1 Tim. 3. 3. Tit. 1. 7. Iago 1. 19, 20. Judas 3. e Ioan 6. 52. Act. 7. 26. a 23. 9. Iago 4. 2. f Es. 40. 11. 2 Cor. 10. 1. Gal. 5. 22. 1 Thes. 2. 7. Tit. 3. 2. Iago 2. 17. 1 Pedr 3. 8. g 1 Tim. 3. 2. Tit. 1. 9.

* Beth bynag a wnâi dadleuwyr Iuddewig neu baganaidd, a pha beth bynag a wnâi gau-athrawon dàn rith o *zêl* dros grefydd; ni ddylai gwas yr Arglwydd Iesu, yn enwedig gweinidog efengyl y tangnefedd, ymryson fel hyn, nac âg arfau o'r fath hyn: ni ddylai efe ymryson mewn ysbryd cwerylgar a lidiog â neb: oblegid digofaint gŵr nid yw yn cyflawni cyfiawnder Duw. (Iago 1. 20.) † Ond i'r gwrthwyneb, dylai gwas yr Arglwydd fod yn dirion yn ei ymadrodd a'i ymddygiad, tuag at bawb, hyd yn nôd gwrthwynebwyr a gŵyr-drôwyr gwaethaf a mwyaf direswm y gwirionedd. ‡ Dylai ef fod yn "athrawaidd:" yn hyfedr a parod i ddysgu dynion yn athrawiaeth Crist, trwy egluriadau goleu, trwy ymdriniadau llariaidd, trwy resymau ac ysgrythyrau

penderfynol, trwy ddehongliadau addas, ac mewn ymadroddion addfwyn a hynaws. ‖ Ar yr un pryd, dylai fod yn "ddyoddefgar;" a chadw llywodraeth ar ei dymher a'i deimladau; nid yn unig cyd-ddyoddef â'r gweiniaid tywyll a hwyrfrydig, ond hefyd dyoddef anfri, cecraeth, a gwatwar gelynion a gwrthwynebwyr y gwirionedd, heb ddïal arnynt, na sènu a danneddu â hwynt.

25 [h] * Mewn addfwynder [i] yn dysgu y rhai gwrthwynebus; [k] † *i edrych* a [l] roddo Duw iddynt hwy ryw amser [m] edifeirwch i gydnabod y gwirionedd;

h Mat. 11. 29. Gal. 6. 1. 1 Tim. 6. 11. 1 Pedr 3. 15. i Jer. 13. 15—17. a 26. 12—15. Ioan 5. 34. Act. 22., &c. k Jer. 31. 18, 19, 33. Ezec. 11. 19. a 36. 26, 31. Zec. 12. 10. Act. 5. 31. a 11. 18. Iago 1. 17. 1 Ioan 5. 16. l Act. 8. 22. 1 Tim. 2. 4. m pen. 3. 7. Mat. 21. 32. Marc 1. 3, 4, 15. Act. 2. 38. a 20. 21.

* Fel hyn mewn ysbryd addfwyn, digyffro, goddefus, a maddeugar, dylai barâu'i geisio dysgu hyd yn nôd y rhai gwrthwynebus; pa mòr anhywaith a chyndyn bynag y byddent, hyd ag y deuent i wrando gair Duw, ac i ymddiddan am dano. † Gan obeithio wrth arfer y moddion hyn, a dàl ati yn yr ysbryd hwn, y rhoddai Duw iddynt hwy ryw amser edifeirwch i gydnabod ac i dderbyn y gwirionedd. Gellir dysgwyl hyn weithiau hyd yn nôd yn amgylchiad y mwyaf cyndyn a gwrthwynebus; a phan roddo Duw i'r cyfryw edifeirwch i gydnabod y gwirionedd, hwy a'i derbyniant ac a'i proffesant yn ostyngedig, yn ddïolchgar, ac yn ffyddlawn; gan ymddiried yn nhrugaredd a gras Duw yn ei Fab, am faddeuant, cymhorth, ac iachawdwriaeth. Ac os cymmer hyn le, bydd yn ofid ac yn gywilydd mawr i was yr Arglwydd feddwl, iddo ef arfer toster anaddfwyn tuag at y rhai y cyd-oddefodd Duw â hwynt, ac y trugarâodd wrthynt yn y diwedd, er eu holl gyndynrwydd a'u pechodau.

26 * A bod iddynt ddyfod i'r iawn [n] † allan o fagl diafol, [o] y rhai a ddelid ganddo [p] wrth ei ewyllys ef.

n Salm 124. 7. Es. 8. 15. a 28. 13. Act. 26. 18. 2 Cor. 2. 11. Col. 1. 13. 2 Thes. 2. 9—12. 1 Tim. 3. 7. a 6. 9, 10. Dat. 12. 9. a 20. 2, 3. o Es. 42. 6, 7. a 49. 25, 26. a 53. 12. Mat. 12. 28, 29. Luc 11. 21, 22. 2 Pedr 2. 18—20. p Job 1. 12. a 2. 6. Luc 22. 31, 32. Ioan 13. 2, 27. Act. 5. 3. 1 Tim. 1. 20.

* Gan hyny dylai gwas yr Arglwydd obeithio a dysgwyl i'r cyfryw ddynion ddyfod atynt eu hunain; deffrôi megys o gysgu, neu ymddebru fel dynion o feddwdod; ac fel hyny dyfod i'r iawn, † a dianc o fagl y diafol, yn yr hon y dàliesid hwy ganddo ef trwy ei ddyfeisiau cyfrwys a'i demtasiynau cymhwys, fel y dèlir adar gan adarwyr yn eu rhwydau angeuol. Neu fel yr ad-ennillent eu rhyddid, wedi eu cymmeryd yn gaethion gan Satan, fel carcharorion rhyfel, y rhai a drinir gan y buddugoliaethwr yn ol ei ewyllys ei hun; i'w rhoi i farwolaeth, mewn cadwynau, neu mewn caeth-wasanaeth, fel y mỳno. Oblegid byddai y cyfryw ddynion yn hollawl yn meddiant diafol o hyd, oddigerth i Dduw yn ei drugaredd roddi iddynt edifeirwch i gydnabod y gwirionedd, ac i'r gwirionedd hwnw eu rhyddâu yn effeithiol. "A bod iddynt ddyfod i'r iawn," &c. *Ac fel yr adferont eu hunain*, &c., yn ol y Saesoneg. Er iawn ddeall y gyffelybiaeth hardd a ddefnyddir yma, mae yn angenrheidiol sylwi, bod y gair *ananêpsôsin* yn arwyddo *adferu pwyll y meddwl*, neu *ddeffrôi o gwsg trwm*, neu o *feddwdod mawr;* ac yn cyfeirio at ddyfais adarwyr, y rhai a daflont hadau ar y ddaear wedi eu mwydo mewn rhyw gyfferi a barant i'r adar a'u bwytâo gysgu, fel y gallont hwy eu dàl yn eu rhwydau yn hawddach. *A ddèlid ganddo : (ezógrêmenoi)* dàl yn fyw, fel pryfed neu anifeiliaid a hèlir, neu fel carcharorion rhyfel.

PEN. III.

Y mae yn ei rybuddio ef am amseroedd blinion.

* GWYBYDD hyn hefyd, [a] y daw amseroedd enbyd [b] yn y dyddiau diweddaf.

a Gen. 49. 1. Es. 1. 2. Jer. 48. 47. a 49. 39. Ezec. 38. 16. Dan. 10. 14. Hos. 3. 5. Mica 4. 1. 1 Tim. 4. 1. 2 Pedr 3. 3. 1 Ioan 2. 18. Judas 18. b Dan. 7. 8, 20—25. a 8. 8—14. a 11. 36—45. a 12. 1, 7, 11. 2 Thes. 2. 3—12. 1 Tim. 4. 1—3. Dat. 8.—a 17.

* Wrth y dyddiau diweddaf mae ein Hawdwyr oll yn deall dyddiau goruchwyliaeth yr efengyl, o esgyniad Crist hyd ei ail-ddyfodiad, ac yn benaf, efallai, yr amseroedd olaf o'r dyddiau diweddaf hyn. Dyma y dyddiau goreu, a goleuaf; y dyddiau nesaf i'r farn; a'r dyddiau yn y rhai y dyrwyna Duw i fynu holl oruchwyliaeth ei ragluniaeth a'i ras: ac mae yr apostol yn rhybuddio Timothëus, ac wrth ei rybuddio ef, yn rhybuddio yr holl eglwys, trwy yr holl oesoedd i ddyfod; y deuai amseroedd enbyd yn y dyddiau diweddaf, neu amseroedd anhawdd, yn ol y Groeg, meddant; yn y rhai y byddai yn anhawdd i gristionogion ddïanc rhag cael eu niweidio gan esamplau drwg ac athrawiaethau llygredig, ac yn anhawdd i weinidogion bregethu gwirionedd pur a digymmysg yr efengyl; ac amseroedd yn y rhai y byddai yn anhawdd i'r gwir ddduwiolion, iach yn y ffydd, a chywir eu hymarweddiad, ddianc rhag llid eu gelynion, a brâd rhith frodyr.

2 * Canys bydd dynion [c] â'u serch arnynt eu hunain, [d] † yn arian-gar, [e] ‡ yn ymffrostwyr, yn [f] feilchion, [g] ‖ yn gablwyr, yn [h] anufuddion i rïeni, § yn annïolchgar, yn annuwiol,

c adn. 4. Rhuf. 15. 1—3. 2 Cor. 5. 15. Phil. 2. 21. Iago 2. 8. d Luc 12. 15. Rhuf. 1. 29. Col. 3. 5. 2 Pedr 2. 3, 14, 15. Judas 11, 16. Dat. 18. 12, 13. e Salm 10. 3. a 49. 6. a 52. 1. Es. 10. 15. Act. 5. 36. Rhuf. 1. 30. a 11. 18. 2 Thes. 2. 4. Iago 4. 16. 2 Pedr 2. 18. Judas 16. f Diar. 6. 17. 1 Tim. 6. 4. Iago 4. 6. 1 Pedr 5. 5. g Dan. 7. 25. a 11. 36. 1 Tim. 1. 20. 2 Pedr 2. 12. Judas 10. Dat. 13. 1, 5, 6. a 16. 9, 11, 21. h Mat. 15. 6. Marc 7. 11, 12. Rhuf. 1. 30.

* Yma mae yr apostol mewn ysbryd prophwydoliaeth yn rhoddi arwyddion yr "amseroedd enbyd" i Timothëus, ac i ninnau hefyd:—Tra byddai cariad at Grist, at eu gilydd, ac at bob dyn, yn dynodi y gwir gristionogion; cyfodai dynion yn eu plith hwy dàn enw cristionogion, a fyddai a'u serch arnynt eu hunain, mewn modd cnawdol, anghymmedrol, a hollawl; † yn ariangar, yn gybyddlyd, yn awyddus am gael a chadw cyfoeth uwchlaw pob peth, ac yn ymddiried yn eilun-addolgar yn eu cyfoeth. ‡ Byddai y dynion hunan-serchus ac ariangar hyn yn ffrostwyr chwyddedig a gwâg-ogoneddgar; yn feilchion o honynt eu hunain, eu cyfoeth, eu dawn, eu dysg, eu doethineb, a'u teilyngdod dychymmygol a thybiedig: ‖ yn gablwyr Duw, ei air, ei ffyrdd, ei achos, a'i wir bobl; yn anufuddion i'w rhïeni naturiol, ac yn wrthryfelgar yn erbyn eu huwch-raddolion mewn gwlad ac eglwys: § yn annïolchgar i Dduw, i'w rhïeni, ac i bob cymmwynaswyr eraill; ac yn annuwiol, ansanctaidd, a halogedig, mewn calon ac ymarweddiad.

3 * Yn [i] angharedig, [k] † yn torri cyfammod, ‡ yn enllibaidd, [l] ‖ yn anghymmesur, [m] § yn anfwyn, [n] yn ddi-serch i'r rhai da,

i Mat. 10. 21. Rhuf. 1. 31. k 2 Sam. 21. 1—3. Salm 15. 4. Ezec. 17. 15—19.—Rhuf. 1. 31. l 1 Cor. 7. 5, 9. 2 Pedr 2. 14, 19. a 3. 3. Judas 16, 18. m Gen. 49. 7. Dan. 8. 23. Dat. 13. 15, 17. a 16. 6. a 17. 6. n Salm 22. 6. Es. 53. 3. a 60. 14. Luc 10. 16. a 16. 14. 1 Thes. 4. 8. Iago 2. 6.

* "Yn angharedig;" neu *yn amddifad o serchiadau naturiol*, yn ol y Saesoneg: heb y cariad hwnw sydd yn ddyledus i ddynolryw yn gyffredin, ac i berthynasau agos yn enwedig; heb serch at eu plant eu hunain, yr hyn sydd gan hyd yn nôd anifeiliaid direswm tuag at eu hiliogaeth. † "Yn dòrwyr ammod," pa mòr bwysig a chyssegraidd bynag y byddo'r ammod, a'r modd y gwnaed ef; mae y rhai hyn yn barod i dòri pob addewid a chytundeb, gwladol, priodasol, a chrefyddol, ac maent yn anffyddlawn i bob ymddiried a rodder yndd ynt, a choel a rodder arnynt; er dryllio pob rhwymau cymdeithas trwy hyny, a drygu dynion yn eu meddiannau, eu meddyliau, a'u bywydau. ‡ Maent hefyd yn enllibaidd, neu yn ddiaflaidd; *(diabolai)* fel genau Satan ei hun, hen a phrif enllibwr a chyhuddwr y brodyr, a hwy sydd yn olyniaid Judas y bradwr, yr hwn oedd yn

ddiafol. Ioan 6. 70. Fel diafol a Judas, hwy a eullibiant bobl ddiniwed Duw er porthi eu gwŷn ddïalgar a chythreulig. || Yn anghymmesur yn eu hawydd i goledd a phorthi eu blysiau corphorol ac anifeilaidd, ac hefyd yn anghymmesur yn eu nwydau a'u tymherau anllywodraethus a dirëol: os unwaith y digir y dynion hyn, yn iach byth am gael cymmod mwyach â hwynt, na maddeuant ganddynt; nid oes dim mesur na therfyn ar eu câs a'u dïal hwynt. § O ganlyniad, maent yn anfwyn; yn greulawn a ffyrnig yn eu tymherau a'u hymddygiadau tuag at eraill, yn enwedig y rhai da; po goreu a duwiolaf y byddont, mwyaf diserch yw y rhai hyn iddynt a thuag atynt.

4 [o] * Yn fradwyr, † yn waed-wŷllt, [p] ‡ yn chwyddedig, [q] || yn caru melus-chwant yn fwy nag yn caru Duw;

o 2 Pedr 2. 10. Judas 8, 9. p Rhuf. 11. 20. 1 Tim. 6. 17. q Rhuf. 16. 18. Phil. 3. 18, 19. 1 Tim. 5. 6. 2 Pedr 2. 14, 15.

* Mae y rhai hyn eto fel Judas ei hun, yn fradwyr i bawb a ymddiriedo ddim iddynt, os gallant hwy eu bradychu: hwy a fradychant y câr agosaf, y dyn duwiolaf, a'r cymmwynaswr penaf iddynt, i ddyoddefaint ac angau, er cyflawni eu tuedd fradychus, ac o elyniaeth at Grist a'i wir ganlynwyr. † Yn waed-wyllt, yn boethion a chynddeiriog, yn eu geiriau a'u hymddygiadau, tuag at bawb a'u hanfoddlono, ac a ddelo i'w gafaelion didrugaredd hwy: ‡ mewn amgylchiad felly yn enwedig, hwy a'u dangosant eu hunain yn eu llawn chwydd, balchder, a gwagedd eu calonau a'u meddyliau; || ac maent yn mhob peth yn caru melus-chwant a phleserau cnawdol, yn fwy nag y maent yn caru Duw, a'r pethau sydd yn rhyngu ei fodd ef ac er gogoniant iddo. Dynion yn addoli pleserau, ac yn ymroddi iddynt, yn lle Duw, a feddylir.

5 * A chanddynt [r] rith duwioldeb, † eithr wedi gwadu ei grym hi: [s] ‡ a'r rhai hyn gochel di.

r Es. 29. 13. a 48. 1, 2. a 58. 1—3. Ezec. 33. 30—32. Mat. 7. 15. a 23. 27, 28. Rhuf. 2. 20—24. 1 Tim. 5. 8. Tit. 1. 16. s pen. 2. 16, 23. Rhuf. 16. 17, 18. Eph. 4. 14. 2 Thes. 3. 6, 14. 1 Tim. 6. 5. Tit. 3. 10. 2 Ioan 10—12.

* Eto, gyda'r holl bechodau atgas a dychrynllyd uchod, mŷnai y dynion a enwyd gadw i fynu rith o dduwioldeb; mŷnent broffesu crefydd, dyfod i foddion ac ordinâdau yr eglwys, ac *ymddangos* yn grefyddol; † tra yr oeddynt wedi gwrthod grŷm duwioldeb, ac yn gwadu mewn *ymarferiad* o leiaf, y dylai crefydd gael unrhyw effaith sancteiddiol ar eu serchiadau, eu tymherau, a'u hymddygiadau hwynt. ‡ Mŷnai yr apostol i Timothëus ochel y cyfryw ddynion yn mhob gwedd; eu gochel yn benderfynol, a hollawl, gan ddangos iddynt hwy a phawb yn amlwg, ei fod yn casâu eu ffyrdd a'u rhagrith gyda'r ffleiddiad mwyaf: ni ddylai fod yr un gymdeithas eglwysig, na chyfeillach o fath yn y byd rhyngddo â'r fath ddynion.

6 * Canys [u] o'r rhai hyn y mae y rhai *sydd* yn ymlusgo i deiau, † ac yn dwyn yn gaeth wrageddos [x] ‡ llwythog o bechodau, [y] wedi eu harwain gan [z] amryw chwantau,

u Mat. 23. 14. Tit. 1. 11. Judas 4. x Salm 38. 4. Es. 1. 4. Mat. 11. 28. y 1 Cor. 12. 2. 2 Pedr 3. 17. z Marc 4. 19. 1 Tim. 6. 9. Tit. 3. 3. 2 Pedr 2. 18. Judas 16, 18.

* Hyd yn nôd yn nyddiau yr apostol yr oedd y fath ddynion ag a ddarluniodd efe uchod; y rhai dàn law yn ddirgelaidd, a thwy hudoliaeth cyfrwys, a ymlusgent i deiau, gan chwilota i amgylchiadau a helyntion teuluoedd, ymddyrwyn i hoffder gyda dynion difeddwl drwg, ennill awdurdod ar eu cydwybodau, gŵyr-droi eneidiau rhai annwadal, er eu mantais eu hunain neu eu plaid. † Byddai y twyllwyr hyn yn ymosod ar y gwrageddos gwànaf, mwyaf hygoel, a hawddaf eu hudo; fel y gallent gymmeryd mantais ar eu hannwybodaeth hwy, a gweithio ar eu dychymmygion a'u teimladau. ‡ Yr oeddynt yn llwyddo yn benaf hefyd gyda'r gwrageddos hynv oedd yn llwythog o bechodau, ac yn cael eu harwain gan amryw chwantau; y rhai, efallai, a fuasent yn dilyn arferion drwg a chnawdol cyn dyfod i broffesu crefydd: a chan nad oeddynt wedi cael eu gwir adnewyddu trwy ras Duw, dim ond eu hattal gan argyhoeddiadau ysgafn ac amserol; oeddynt yn barod i wrando ar wëniaeth a hudoliaethau boddâus y gau-athrawon hyn, a chofleidio crefydd gnawdol, yr hon a ganiatâi ryddid iddynt hwy i goledd eu chwantau llygredig, ac a ddistawai eu cydwybodau hefyd ar yr un pryd. *Gwraged*d, y llestri gwànaf; *gwrageddos*, y rhai gwaelaf a distadlaf o'r gwragedd; a *gwrageddos llwythog o bechodau*, y rhai gwaelaf a gwaethaf oll o'r rhyw fenywaidd: fel hyn yr oedd y gau-athrawon yn myned yn mlaen â'u gwaith y pryd hwnw, a go debyg, efallai, y cair hwy bob amser; *gwrayeddos* yw eu caethion hwy.

7 [a] * Yn dysgu bob amser, † ac heb allu dyfod un amser i [b] wybodaeth y gwirionedd.

a pen. 4. 3, 4. Deut. 29. 4. Diar. 14. 6. Es. 30. 10, 11. Ezec. 14. 4—10 Mat. 13. 11. Ioan 3. 20, 21. a 5. 44. a 12. 42, 43. 1 Cor. 3. 1—4. Eph. 4. 14. Heb. 5. 11, 12. b Gwel ar pen. 2. 25.

* Yr oedd y gwrageddos annwadal a llygredig hyn bob amser yn rhedeg ar ol pob athraw newydd, yn gwrando arno, ac yn derbyn pob athrawiaeth newydd; yr oeddynt yn dysgu bob amser, ebynt hwy, † ond nid oeddynt un amser yn gallu dyfod i wybodaeth o'r gwirionedd: ac nid rhyfedd, wrth eu bod yn cael eu cylch arwain felly gan bob awel dysgeidiaeth gau, ac heb byth glywed y gwirionedd. Heb gael caniatâd byth gan eu chwantau i *gydnabod* y gwirionedd mewn ymarferiad a buchedd. *Epignôsin*, "adnabod:" yr un gair a gyfieithir *cydnabod* yn pen. 2. 25.

8 * Eithr [c] megis y safodd Jannes a Jambres yn erbyn Moses, † felly y mae y rhai hyn hefyd [d] yn sefyll yn erbyn y gwirionedd; [l] dynion o feddwl llygredig, yn anghymmeradwy o ran y ffydd.

c Ex. 7. 11, 22. a 8. 7, 18. d pen. 4. 15. l Bren, 22. 22—24. Jer. 28. 1, &c. Act. 13. 8—11. a 15. 24. Gal. 1. 7—9. a 2. 4, 5. Eph. 4. 14. 2 Thes. 2. 9—11. Tit. 1. 10. 2 Pedr 2. 1—3. 1 Ioan 2. 18. a 4. 1. Dat. 2. 6, 14, 15, 20. e Act. 8. 21, 22. Rhuf. 1. 28. a 16. 18. 2 Cor. 11. 13—15. 1 Tim. 1. 19. a 4. 2. a 6. 5. Tit. 1. 16. 2 Pedr 2. 14. Judas 18, 19.

* Dau o swynwyr yr Aipht yn amser Moses oedd y Jannes a'r Jambres hyn: nid yw eu henwau i'w cael yn un màn yn yr Hen Destament, ond y maent i'w cael mewn amryw o hen lyfrau Iuddewig, a sonir am danynt fel tywysogion, neu benaethiaid y swynwyr. Fel yr oedd y swynwyr hyn yn sefyll yn erbyn Moses drwy ffugio, neu ddynwared ei wyrthiau ef; ac fel hyny yn dyrysu meddwl Pharaoh, fel na wrandawai efe ar genadwri Duw; † felly yr oedd y gau-athrawon hyn yn sefyll yn erbyn y gwirionedd, trwy dwyllo dynion âg efengyl gau, yn nghyd â llawer o hòniadau ffugiol a chelwyddog, efallai rhyw fath o wyrthiau a rhyfeddodau gau. ‡ Yr oedd y dynion hyn yn ddigon caled a rhyfygus i arfer pob twyll a dichell, am eu bod o gynneddfau a meddyliau llygredig a drygionus, wedi ymddïeithrio a gŵyro oddi wrth ffydd y gwirionedd; ac yn anghymmeradwy a gwrthodedig gan Dduw, wedi eu rhoddi i fynu fel rhagrithwyr a gwrthgilwyr annuwiol.

9 * Eithr nid ânt rhagddynt ym mhellach: † canys [f] eu hynfydrwydd fydd amlwg i bawb, ‡ megis y bu yr eiddynt hwythau.

f adn. 3. Ex. 7. 12. a 8. 19. a 9. 11. 1 Bren. 22. 25. Salm 76. 10. Jer. 28. 15—17. a 29. 21—23, 31, 32. a 37. 19. Act. 13. 11. a 19. 15—17.

* Ond yr oedd hyn o gysur yn yr amseroedd mwyaf enbyd; (adn 1.) nis gallai y cyfeiliornwyr hyn fyned yn mlaen yn eu gwrthwynebiad i'r efengyl, yn mhellach nag y goddefai Duw yn ei ddoethineb iddynt: † yn y diwedd byddai eu hynfydrwydd annuwiol yn sicr o gael ei wneyd yn amlwg i bawb, hyd yn nôd i'w canlynwyr mwyaf gwresog; ‡ megys y bu yr eiddo y swynwyr gynt, pan fethasant â dynwared rhai o wyrthiau Moses, a phan oedd y cornwyd arnynt hwy fel ar yr Aiphtiaid eraill.

10 * Eithr ti a [g] lwyr-adwaenost [h] fy nysg-
eidiaeth, [i] † fy muchedd, [k] ‡ fy arfaeth, [l] ‖ ffydd,
§ hir-ymaros, cariad, amynedd,

g Luc 1. 3. 1 Tim. 4. 6. h adn. 16, 17. pen. 4. 3. Act. 2. 42. Rhuf. 16. 17. Eph. 4. 14. 1 Tim. 1. 3. a 4. 12, 13. Tit. 2. 7. Heb. 13. 9. 2 Ioan 9, 10 i Act. 20. 18. a 26. 4. 1 Thes. 1. 5. 2 Pedr 3. 11. k Dan. 1. 8. Act. 11. 23. 2 Cor. 1. 17. l pen. 2. 22. 2 Cor. 6. 4—10. 1 Tim. 4. 12. a 6. 11. 2 Pedr 1. 5—7.

* Mewn cyferbyniad i ysbryd gwael, ac ymddygiadau annuwiol y twyllwyr uchod, ac er gwarchadw Timothëus rhag y fath ddynion a'u holl ffyrdd; mae yr apostol yn adgofiaw iddo ei ysbryd, ei weinidogaeth, a'i ymddygiadau ei hun. Yr oedd Timothëus wedi cael digon o gyfleusderau i wybod yn fanwl, pa fath athrawiaeth a bregethai ac a ddysgai Paul yn mhob màn; † ei fuchedd a'i ymarweddiad ef, pa mòr hunan-ymwadol, gonest, sanctaidd, a chrefyddol oedd yn mhob màn, mewn cysondeb â'r athrawiaeth sanctaidd a bregethai; ‡ ei arfaeth, a'i amcan penaf ef, sef gogoneddu Duw ac achub eneidiau dynion, yr hyn a geisiai efe ei gyflawni yn mhob màn, yn ei holl weinidogaeth, ac yn mhob amgylchiad: ‖ gwyddai hefyd am ei ffydd gref a diffuant ef yn yr efengyl, a'i ffyddlondeb llafurus ef dàn effeithiau y ffydd hòno, i bregethu yr efengyl i eraill; § yn fŷr, efe a wyddai am ei hir-ymaros, ei gariad, ei amynedd, a holl agwedd ei ysbryd ef yn ei holl ymddygiad a'i weinidogaeth.

11 [m] * *Yr* erlidiau, *y* dïoddefiadau, y rhai
a ddigwyddasant i mi [n] yn Antiochia, yn Iconium, yn Lystra, pa erlidiau a ddïoddefais:
[o] † eithr oddi wrthynt oll y'm gwaredodd yr
Arglwydd.

m Act. 9. 16. a 20. 19, 23, 24. Rhuf. 8. 35—37. 1 Cor. 4. 9—11. 2 Cor. 1. 8—10. a 4. 8—11. a 11. 23—28. Heb. 10. 33, 34. n Act. 13. 50, 51. a 14. 2, 5, 19—21. o pen. 4. 17, 18. Gen. 48. 16. 2 Sam. 22. 1, 49. Job 5. 19, 20. Salm 34. 19. a 37. 40. a 91. 2—6, 14. Es. 41. 10, 14. a 43. 2. Jer. 1. 19. Dan. 6. 27. Act. 9. 23—25. a 21. 32, 33. a 23. 10. 12—24. a 25. 3, 4. a 26. 17, 22. 2 Cor. 1. 10. 2 Pedr 2. 9.

* Am yr erlidiau a'r dyoddefiadau a ddygwyddasant i Paul yn Antiochia yn Pisidia, gwel Act. 13. 14, 45, 50: am yr hyn a ddygwyddodd iddo yn Iconium ac yn Lystra, gwel Act. 14. 2, 5, 6, 19. Un o Lystra oedd Timothëus, Act. 16. 1, ac mae yn bur debygol iddo gael ei ddychwelyd i'r ffydd pan oedd Paul ar ei daith gyntaf trwy ddinasoedd Asia Leiaf, ac ei fod yn dyst gweledig o'r erlidiau uchod a ddyoddefodd yr apostol yn y dinasoedd hyny: ac yr oedd efe yn dewis crybwyll yr erledigaethau hyny a welsai Timothëus, yn hytrach na rhai diweddarach, y rhai nid oedd efe yn dyst o honynt. † Gwyddai Timothëus hefyd i'r Arglwydd Iesu waredu yr apostol oddi wrth yr holl erledigaethau hyny; ac yn wir oddi wrth yr olaf o honynt, sef hòno yn Lystra, mewn modd gwyrthiol, pan dybiai y dysgyblion ei fod ef wedi marw, Act. 14. 19, 20. Mae yr apostol yn crybwyll y gwaredigaethau hyn o eiddo yr Arglwydd, er calonogi Timothëus yn wyneb erlidiau, ac i'w annog ef i ymddiried yn yr Arglwydd.

12 * Ië, a phawb a'r sydd yn ewyllysio
[p] byw yn dduwiol yng Nghrist Iesu, [q] † a
erlidir.

p 2 Cor. 1. 12. 1 Tim. 2. 2. a 3. 16. a 6. 3. Tit. 1. 1. a 2. 12. 2 Pedr 3. 11. q Salm 37. 12—15. Mat. 5. 10—12. a 10. 22—25. a 16. 24. a 23. 34. Marc 10. 30. Luc 14. 26, 27. Ioan 15. 19—21. a 16. 2, 33. a 17. 14. Act. 14. 22. 1 Thes. 3. 3, 4. Heb. 11. 32—38. 1 Pedr 2. 20, 21. a 3. 14. a 4. 12—16. a 5. 9, 10. Dat. 1. 9, 10. a 7. 14. a 12. 4. 7—10.

* Gosodai yr apostol i lawr fel rhëol gyffredin yr amseroedd enbyd yn y dyddiau diweddaf; (adn. 1.) os ewyllysiai neb yn benderfynol i fyw yn dduwiol, mewn ymddybyniad ar iawn a gras yr Arglwydd Iesu, ac yn ol ei air a'i orchymynion ef; † y byddai y cyfryw yn sicr o gael ei erlid gan annuwiolion, a gelynion creulawn a lliosog Crist a'i efengyl. Rhith o dduwioldeb, heb un cyssylltiad union-gyrchol â'r athrawiaeth o ffydd mewn Gwaredwr croeshoeliedig; neu broffes o ffydd, heb yr esampl o fywyd duwiol a manol; gellid goddef a chaniatâu hyny: ond proffes gyhoeddus o'r gwirionedd fel y mae yn yr Iesu; ac ymlŷniad gŵrol a phenderfynol wrth holl ddyledswyddau gwir dduwioldeb; byddai hyny yn sicr o ennyn a chyffrôi gwatwar a gelyniaeth annuwiolion: ac nis gallai holl ddoniau, doethineb, hawddgarwch, a chymmwynasgarwch addfwyn a daionus y dyn duwiol, ei ddïogelu ef rhag effeithiau eu gelyniaeth erlidgar hwy. Ni ddïangodd y Blaenor ei hunan, yr hwn oedd berffaith mewn duwioldeb a phob daioni; ac ni ddïanc neb o'i ganlynwyr ef, sydd yn ymgais am fod yn debyg iddo.

13 * Eithr [r] drwg-ddynion a thwyllwyr a
ânt rhagddynt waethwaeth, † gan dwyllo, [s] ‡ a
chael eu twyllo.

r Gwel ar adn. 8. pen. 2. 16, 17. 2 Thes. 2. 6—10. 1 Tim. 4. 1. 2 Pedr 2. 20. a 3. 3. Dat. 12. 9. a 13. 14. a 18. 23. s Job 12. 16. Es. 44. 20. Ezec. 14. 9, 10. 2 Thes. 2. 11.

* Eithr dynion o egwyddorion a meddyliau drygionus, a thwyllwyr cyfrwys dàn rith o grefydd, a fyddant yn mhell iawn o ymostwng i ddyoddef erlid er mwyn crefydd, nis gwaeth ganddynt beth a wnelont i ochel hyny, neu i ddwyn erlid ar eraill, na chwympont i mewn â'u mesurau hwy; hwy a ânt rhagddynt waeth-waeth o hŷd, mewn creulondeb a drygioni, a phob peth sydd yn bechadurus mewn egwyddor ac ymarferiad, † gan ymgais hyd a allont i dynu eraill i lwybrau cyfeiliornus a phechadurus; ‡ a hwy eu hunain wedi crwydro oddi wrth y gwirionedd, ac yn dwyllwyr mwyaf eu heneidiau eu hunain, megys yr ymddengys yn y modd amlycaf, yn y dydd y datguddio Duw ddirgeloedd dynion. Y twyllwyr a grybwyllodd yr apostol yn adn. 9, dynoethid eu hynfydrwydd hwy yn fuan, ac attelid hwy; ond cyfodai eraill cyffelyb iddynt ar eu hol, o oes i oes, a ddygent yn mlaen eu hudoliaeth gyda mwy o gyfrwysdra dieflig ac anwiredd; wedi eu twyllo eu hunain gan Satan, ac ar waith ganddo ef yn twyllo eraill. Ai nid y pabyddion yw y tebycaf o bawb, wedi dyddiau yr apostol, i'r twyllwyr hyn a grybwyllir ganddo ef?

14 [t] * Eithr aros di yn y pethau a ddysg-
aist, [u] † ac a ymddiriedwyd i ti am danynt,
[x] ‡ gan wybod gan bwy y dysgaist;

t pen. 1. 13. a 2. 2.—Gwel ar 1 Tim. 4. 16. u Act. 17. 31. Rhuf. 14. 5. Col. 2. 2. 1 Thes. 1. 5. Heb. 6. 11. a 10. 22. x adn. 15. 1 Thes. 2. 13.

* Mewn cyferbyniad i'r twyllwyr annwadal a gwrthgiliedig uchod, mae yr apostol yn annog Timothëus i aros a glŷnu yn ddïysgog yn mhroffes a gweinidogaeth yr athrawiaeth a ddysgasai efe ac a gredasai yn sicr; † ac yr hon a ymddiriedasid iddo ef gan Dduw, i'w phregethu i eraill; ‡ gan wybod ac ystyried hefyd mai ganddo ef, yr apostol, fel gweinidog Iesu Grist, y derbyniasai efe yr athrawiaeth hòno, yn nghyd a'i holl addysg fel cristion a gweinidog.

15 * Ac i ti [y] er yn fachgen wybod yr
[z] ysgrythyr lân, [a] † yr hon sydd abl i'th
wneuthur di yn ddoeth i iachawdwriaeth,
‡ trwy y ffydd sydd Nghrist Iesu.

y pen. 1. 5. 1 Sam. 2. 18. 2 Cron. 34. 3. Salm 71. 17. Diar. 8 17. a 22. 6. Preg. 12. 1. Luc 1. 15. a 2. 40. z Dan. 10. 21. Mat 22. 29. Luc 24. 27, 32, 45. Act. 17. 2. Rhuf. 1. 2. a 16. 26. 1 Cor 15. 3, 4. 2 Pedr 1. 20, 21. a 3. 16. a Salm 19. 7. Ioan 5. 39, 40. Act. 10. 43. a 13. 29, 38, 39. 1 Pedr 1. 10—12. 1 Ioan 5. 11, 12. Dat. 19. 10.

* Yr oedd Timothëus er yn fachgen, er yn blentyn, *(brephous)* trwy addysg ei fam Eunice, ac efallai ei nain Loïs, yn gwybod yr ysgrythyr lân o ran y llythyren o hòni; yr hyn a ddengys i ni y gellir dysgu llawer o bethau buddiol yr ysgrythyrau i blant ieuainc iawn, bod yn ddyledswydd ar rieni wneyd hyny, ac y gellir dysgwyl bendith Duw ar y cyfryw addysg boreuol. † Ysgrythyrau yr Hen Destament a feddylir yma wrth yr "ysgrythyr lân," nid oedd dim o ysgrythyrau y Testament Newydd wedi eu hysgrifenu pan oedd Timothëus yn blentyn; ac eto dywedir fod y rhai hyny yn abl dàn fendith Duw i'w wneyd ef yn ddoeth i iachawdwriaeth, pa faint mwy yr holl ysgrythyr, fel y mae

genym ni yn awr. ‡ Yr oedd ysgrythyrau yr Hen Destament yn dywedyd yn eglur am Grist, a threfn iachawdwriaeth trwy Grist; ac yn foddion yn llaw yr Ysbryd Glân i weithredu ffydd yn yr enaid yn Nghrist, er iachawdwriaeth dragywyddol. Trwy ffydd yn Nghrist, yn ol tystiolaeth yr ysgrythyrau am dano, ac nid trwy weithredoedd dynol, y mae bod yn gadwedig yn mhob oes: hyny yw bod yn ddoeth i iachawdwriaeth.

16 [b] * Yr holl ysgrythyr *sydd* wedi ei rhoddi gan ysprydoliaeth Duw, [c] † ac *sydd* fuddiol i [d] athrawiaethu, [e] ‡ i argyhoeddi, ‖ i geryddu, [f] § i hyfforddi mewn cyfiawnder:

b 2 Sam. 23. 2. Mat. 21. 42. a 22. 31, 32, 43. a 26. 54, 56. Marc 12. 24, 36. Ioan 10. 35. Act. 1. 16. a 28. 25. Rhuf. 3. 2. a 15. 4. Gal. 3. 8. Heb. 3. 7. a 4. 12. 2 Pedr 1. 19—21. c Salm 19. 7—11. a 119. 97—104, 130. Jer. 23. 22, 32. Mica 2. 7. Act. 20. 20, 27. 1 Cor. 12. 7. Eph. 4. 11—16. d Gwel ar h. adn. 10. e pen. 4. 2. Diar. 6. 23. a 15. 10, 31. Ioan 3. 20. Eph. 5. 11—13.—Heb. 11 1. f pen. 2. 25. Deut. 4. 36. Neh. 9. 20. Salm 119. 9, 11. Mat. 13. 52. Act. 18. 25. Rhuf. 2. 20.

* "Yr *holl* ysgrythyr," yr Hen Destament yn gystal â'r Newydd, a'r Newydd yn gystal â'r Hen, a phob rhan o bob un o honynt, sydd wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw; dynion sanctaidd Duw a'i llafarasant megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân: † ac mae pob rhan o'r ysgrythyr yn wirionedd perffaith anffaeledig, ac yn fuddiol oll i ddysgu dynion mewn athrawiaeth bur ac iachus, am Dduw, am danynt eu hunain, am y byd a'r cyflwr tragywyddol, am ffordd cymmeradwyaeth a sancteiddrwydd, a phethau eraill lawer, o'r pwys, y gwerth, a'r canlyniad mwyaf. ‡ Mae yn fuddiol hefyd i argyhoeddi dynion o'u cyfeiliornadau a'u pechodau, fel y teimlont eu heuogrwydd a'u perygl, ac y delont i werthfawrogi a derbyn y waredigaeth a'r feddyginiaeth a gynnygir iddynt: ‖ maent yn fuddiol i geryddu am bethau beïus, ac fel hyny i ddiwygio dynion mewn barn, mewn ysbryd, ac mewn ymddygiadau: § ac yn olaf, maent yn fuddiol i hyfforddi dynion mewn cyfiawnder; pa fodd i gael cyfiawnder ger bron Duw trwy ffydd yn Nghrist, yr angenrheidrwydd o gyfiawnder a sancteiddrwydd egwyddorol yn y galon, a phob cyfiawnder ymarferol mewn gweithredoedd a buchedd.

17 * Fel y [g] byddo dyn Duw yn berffaith, [h] wedi ei berffeithio i bob gweithred dda.

g Gwel ar 1 Tim. 6. 11. h pen. 2. 21. Neh. 2. 18. Act. 9. 36. 2 Cor. 9. 8. Eph. 2. 10. Tit. 2. 14. a 3. 1. Heb. 10. 24.

* Fel hyn mae yr holl ysgrythyr, a'i chymmeryd oll yn nghyd, yn ddigonol ac yn addas, nid yn unig i wneyd y cristion yn ddoeth i iachawdwriaeth, ac i gyfarwyddo ei holl ymddygiad ef; ond hefyd i wneuthur dyn Duw, gweinidog ffyddlawn Iesu Grist, yn berffaith: † i'w gyflawn ddiwallu ef â gwybodaeth a doethineb, ac â phob peth arall, angenrheidiol i'w berffeithio ef i bob gweithred dda, yn ei ymarweddiad personol, ac yn ei wasanaeth cyhoeddus. Os yw yr *holl* ysgrythyr, a *dim ond* yr ysgrythyr, yn ddigonol i'r pethau uchod oll; nid oes eisiau dychymmygion na thraddodiadau dynion, yn chwanegol at yr ysgrythyr, ac yn aml yn groes i'r ysgrythyr, er cyfarwyddyd i ni mewn pethau crefyddol: ymaith, gan hyny, â holl ddefodau drwg eglwys Rufain a phawb eraill; ac ymofynwn ni yn wastadol, "Pa beth a ddywed yr ysgrythyr."

PEN. IV.

Y mae yn ei annog ef i fod yn ofalus ac yn ddiwyd i gwblâu ei swydd.

* YR ydwyf fi gan hynny yn [a] gorchymyn † ger bron Duw, ‡ a'r Arglwydd Iesu Grist, [b] ‖ yr hwn a farna y byw a'r meirw [c] § yn ei ymddangosiad a'i [d] deyrnas;

a pen. 2. 14.—Gwel ar 1 Tim. 5. 21. a 6. 13. b Salm 50. 6. a 96. 13. a 98. 9. Mat. 16. 27. a 25. 31, &c. Ioan 5. 22—27. Act. 10. 42. a 17. 31. Rhuf. 2. 16. a 14. 9—11. 1 Cor. 4. 4, 5. 2 Cor. 5. 9, 10. 2 Thes. 1. 7—10. 1 Pedr 4. 5. Dat. 20. 11—15. c adn. 8. Col. 3. 4. 1 Thes. 4. 15, 16. 1 Tim. 6. 14. Tit. 2. 13. Heb. 9. 27, 28. 1 Pedr 1. 7. a 5. 4. 1 Ioan 2. 28. Dat. 1. 7. d Luc 19. 12, 15. a 23. 42. 2 Pedr 1. 11, 17.

* Wrth fod yr apostol yn rhoddi y gorchymynion tra difrifol hyn mòr fynych, i weinidog mòr ffyddlawn a gwresog ag oedd Timothëus; mae yn dangos yn amlwg iawn i ni, pa mòr anhawdd yw cyflawni gwaith pwysfawr y weinidogaeth yn iawn, hyd ddiwedd ein hoes, yn enwedig mewn amseroedd enbyd. † "Ger bron Duw," yr hwn oedd yn sylwi arno, ac a'i galwai ef i gyfrif am ei holl weinidogaeth: yr oedd Paul yn gorchymyn ger bron Duw, a Thimothëus yn derbyn y gorchymyn megys ger bron Duw: ‡ "a'r Arglwydd Iesu Grist," yr hwn sydd hollwybodol, ac yn chwilio yr arenau a'r calonau yn gystal â Duw Dad; (Dat. 2. 23.) ‖ ac hefyd yr hwn a ordeiniwyd gan y Tad i farnu byw a meirw, duwiolion ac annuwiolion, gweinidogion a christionogion; § yn ei ymddangosiad diweddaf ef, yn nydd mawr y farn, i orphen gweinyddiad ei deyrnas gyfryngol, i'w rhoddi i fynu i Dduw a'r Tad, (1 Cor. 15. 24.) ac i gasglu ei holl saint i'w deyrnas nefol.

2 [e] * Pregetha y gair: [f] † bydd daer [g] ‡ mewn amser, allan o amser; ‖ [h] argyhoedda, cerydda, annog gyd â [i] phob hir-ymaros ac athrawiaeth.

e Salm 40. 9. Es. 61. 1—3. Jona 3. 2. Luc 4. 18, 19. a 9. 60. Rhuf. 10. 15.—Gwel ar Col. 1. 25, 28. f Luc 7. 4. a 23. 23. Act. 13. 5. Rhuf. 12. 12. 1 Tim. 4. 15, 16. g Ioan 4. 6—10, 32—34. Act. 16. 13, 31—33. a 20. 7, 18—21. a 28. 16, 30, 31. h Col. 1. 28, 29. 1 Thes. 2. 11, 12. a 5. 14. 1 Tim. 5. 20. Tit. 1. 13. a 2. 15. Heb. 13. 22. Dat. 3. 19. i Gwel ar pen. 2. 24, 25. a 3. 10.

* Gorchymynai yr apostol iddo yn y modd difrifol uchod, i "bregethu y gair;" sef yr holl ysgrythyr sydd wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw, (pen. 3. 16.) yr Hen Destament â'r Newydd, ei gyhoeddi ef yn uchel, yn ddifrifol, yn awdurdodol, ac yn hŷf, fel un o genadon *(heralds)* anfonedig Crist: y *gair* oedd ef i'w bregethu, ac nid ei ddychymmygion ei hun; ewyllys datguddiedig Duw, ac nid ei dybiau mympwyawl ei hunan. † Y taerineb mwyaf difrifol a weddai wrth bregethu gair Duw, nid cysgadrwydd a ffurfioldeb marwaidd, nid chwilio am eiriau dïeithr i ddangos dysg a doethineb cnawdôl, ac nid arfer digrifwch gwael ac isel, i beri i'r bobl chwerthin. Moddion achub pechaduriaid euog a cholledig yw pregethu y gair; am hyny dylai y pregethwr fod yn daer, gan geisio eu cipio hwy, fel pentewynion o'r tân. ‡ Dylai y pregethwr hefyd fod yn ddiflino yn ei waith, mewn amser, ac allan o amser; ar y sabbathau ac amserau gosodedig, ac hefyd ar amserau achlysurol eraill; pan fyddo y cyfleusdra yn fanteisiol a diberygl, a phryd na byddo felly; i gynnulleidfâoedd mawrion ac anrhydeddus, ac hefyd i ychydig, o rai tlodion a dirmygus. *Amser* pregethu yw *pob* amser y byddo cyfle, a galwad i hyny; doethineb y cnawd yn unig sydd yn dywedyd ei bod hi "*allan* o amser" ar unrhyw amser. Corph egwan oedd gan Timothëus, (1 Tim. 5. 23.) ac eto nid oedd hyny i'w esgusodi ef rhag llafurio yn daer ac yn ddyfal, mewn amser, ac allan o amser. Wrth ystyried *anfynychedd* pregethu rhai, a *dull* pregethu rhai eraill; gallwn dybied na bu yr adnodau hyn nemawr ar eu meddyliau erioed: a pha fodd y bydd arnynt yn nydd y cyfrif, hwy eu hunain a ddylent ystyried yn benaf. ‖ Wrth bregethu y gair, yr oedd Timothëus i argyhoeddi dynion o'u cyfeiliornadau, eu beïau, a'u hesgeulusdra; i geryddu yn llym y rhai oedd yn euog o bechodau amlwg a gwarthus; ac i annog pawb, gyda phob hir-ymaros ac athrawiaeth, i dderbyn y gwirionedd, ac i gyd-ymgweddu â'r gwirionedd mewn barn, mewn ysbryd, ac mewn ymarweddiad.

3 * Canys [k] daw yr amser pryd na [l] ddioddefont athrawiaeth iachus; [m] † eithr yn ol eu chwantau eu hunain y pentyrrant iddynt eu hunain athrawon, [n] ‡ gan fod eu clustiau yn merwino;

k Gwel ar pen. 3. 1—6. l Tim. 4. 1—3. l 1 Bren. 22. 8,

18. 2 Cron. 16. 9, 10. a 24. 20—22. a 25. 15, 16. Es. 28. 12. a 30. 9—11. Jer. 6. 16, 17. a 18. 18. Amos 7. 10—13. Luc 20. 19. Ioan 8. 45. Gal. 4. 16. m 1 Bren. 18. 22. 2 Cron. 18. 4, 5. Jer. 5. 31. a 23. 16, 17. a 27. 9. a 29. 8. Mica 2. 11. Luc 6. 26. Ioan 3. 19—21. 2 Pedr 2. 1—3. n Ezec. 33. 32. Act. 17. 21. 1 Cor 2. 1, 4.

* Yr oedd yn dra angenrheidiol i Timothëus fod yn daer, ac yn ddifino gyda'i orchwyl uchod y pryd hwnw; oblegid yr oedd yr apostol yn rhag-weled fod yr amser yn dyfod yn fuan iawn, pryd na ddyoddefai proffeswyr cnawdol athrawiaeth iachus: ni oddefent eu hargyhoeddi, eu ceryddu, eu hannog, nâ'u hathrawiaethu, (adn. 2.) am bethau ymarferol crefydd. Mae yr amser hwnw wedi dyfod, ac yn bod yn bresenol ar yr eglwys; mae dynion beilchion, llygredig, ac afrëolus yn yr eglwysi, nas gallant ddyoddef argyhoeddiad, cerydd, nac annogaeth; ac mae yn *gâs* ganddynt y neb a geryddo yn y porth, pe gallent, hwy a osodent faglau iddo, ac a gauent ei enau; † o herwydd grym eu chwantau llygredig eu hunain, mae y bobl hyn yn ymgynddeiriogi yn erbyn athrawiaeth iachus finiog, yn ei chasâu, ac yn casâu ei phregethwyr; ac o ganlyniad hwy a bentyrant fwy na mwy o athrawon iddynt eu hunain, athrawiaeth wyrgam, esmwyth, a gwenieithgar pa rai, a âd iddynt hwy fyw yn dawel ac yn ddiarswyd yn eu pechodau. ‡ Ac wedi y cwbl, ni byddant yn hir yn foddlawn ar yr un rhai; rhaid iddynt bentyru amrywiaeth parâus o honynt, i borthi blys newyddiant, ac ysfa eu clustiau merwinawl, ac i'w cryfâu a'u difyru hwy yn eu hudoliaeth ac yn eu harchwaeth lygredig.

4 ° * Ac oddi wrth y gwirionedd y troant ymaith *eu* clustiau, ᵖ † ac at chwedlau y troant.

o pen. 1. 15. Diar. 1. 32. Zec. 7. 11. Act. 7. 57. Heb. 13. 25. p 1 Tim. 1. 4. a 4. 7. Tit. 1. 14. 2 Pedr 1. 16.

* Trwy hoffder mewn newyddiant *(novelty)* ac amrywiaeth, yr hyn a foddlona eu clustiau merwinaidd a'u calonau halogedig hwynt, hwy a dröant ymaith eu clustiau oddi wrth y gwirionedd pur a syml, o dra diflasder a dirmyg arno; † ac a dröant yn awyddus iawn at bob math o chwedlau a thraddodiadau gweigion, ofer, a disylwedd; y rhai a ddifyrant eu meddwl gwagsaw hwynt, ac a'u gadawant i fyw yn esmwyth yn eu pechodau. Y *cyfryw athrawon*, a'r *cyfryw chwedlau*, oeddynt hwy yn garu, ac yr oedd digonedd o'r cyfryw, ysywaeth, iddynt i'w cael, a'u "pentyru iddynt eu hunain."

5 * Eithr ᵍ gwylia di ym mhob peth, ʳ † dïoddef adfyd, ‡ gwna waith ˢ efengylwr, ‖ cyflawna dy weinidogaeth.

q Es. 56. 9, 10. a 62. 6. Jer. 6. 17. Ezec. 3. 17. a 33. 2, 7. Marc 13. 34, 37. Luc 12. 37. Act. 20. 30, 31. 1 Thes. 5. 6. Heb. 13. 17. Dat. 3. 2. r Gwel ar pen. 1. 8. a 2. 3, 10. a 3. 10—12. s Act. 21. 8. Eph. 4. 11.

* I'r dyben o wrthsefyll y lefain llygredig uchod yn yr eglwysi, yr hwn oedd y pryd hwnw yn dechreu gweithio; cyngorai yr apostol i Timothëus wylied yn mhob peth, yn erbyn y cyfeiliornwyr a'r cyfeiliornadau hyn a'u cyffelyb, trwy y rhai y ceisiai Satan a'i weision, mewn amryw ffyrdd, hudo meddyliau dynion oddi wrth symledd a gwirionedd yr efengyl. Dylai wylied am bob cyfle i'w gwrthwynebu hwynt ac amddiffyn y gwirionedd; gwylied rhag pob profedigaeth i'w ysbryd a'i ymddygiad ei hun wrth eu gwrthwynebu hwynt; a gwylied dros eneidiau y rhai oedd dân ei ofal ef. † Rhaid iddo ddyoddef yn amyneddgar a siriol, bob adfyd a ddeuai arno o herwydd ei *zêl* a'i ffyddlondeb, oddi wrth gau-athrawon, gau-frodyr, a gelynion proffesedig. ‡ Rhaid iddo ddâl ati yn wrol, trwy anghlod a chlod, trwy barch ac anmharch, i wneyd gwaith efengylwr, yn y gwahanol fânau lle caffai fynediad iddynt: ‖ ac fel hyny cyflawni ei weinidogaeth yn ei holl ranau, yn ofalus, yn ddiwyd, ac yn ffyddlawn, hyd ddiwedd ei oes. *Gwna gyflawn brawf o dy weinidogaeth*, yn ol y Saesoneg, trwy ei chyflawni yn ddiesgeulus yn ei holl ranau, er boddlonrwydd Duw a'i bobl.

6 ᵗ * Canys myfi yr awrhon a aberthir, ᵘ † ac amser fy ymddattodiad i a nesâodd.

t Phil. 2. 17. u Gen. 48. 21. a 50. 24. Num. 27. 12—17. Deut. 31. 14. Jos. 23. 14. 2 Pedr 1. 14, 15.

* Yr oedd yn angenrheidiol i Timothëus ymddwyn gyda mawr wyliadwriaeth a gwroldeb, am fod yr apostol yn rhag-weled ei fod ef ei hun i ddyoddef merthyrdod yn fuan; ac yr oedd efe y pryd hwnw, megys, yn tywallt ei waed fel diod-offrwm er anrhydedd i'r Arglwydd. Gwel ar Phil. 2. 17. *Spendomai:* mae y gair, meddant, yn arwyddo aberthu fel diod-offrwm ar yr aberthau gynt. *A aberthir*, nid yn iawn am bechod, ond er anrhydedd i Dduw, ac er cadarnâd yr efengyl a bregethasai. † Gwyddai yr apostol y pryd hwn fod amser ei ymddattodiad ef yn agos iawn, ei fod i ymadael â'r byd hwn, fel y bydd ymdeithydd yn dattod ei babell, pan fyddo yn ymsymmud i le arall. *Dattod* y corph a'r enaid oddi wrth en gilydd yw marw, pa fath bynag o farwolaeth y byddom farw o hóni: a rhyfedd y *dattod* fydd ar ein pebyll pridd yn y bedd wedi yr elont yno. Gwyddai yr apostol fod amser ei aberthiad a'i ddattodiad ef yn agos, un ai trwy ddatguddiad gan Dduw, neu wrth weled llid a gelyniaeth Nero, a'i ymddygiad creulawn ef tuag ato.

7 * Mi a ˣ ymdrechais ymdrech dêg, ʸ † mi a orphenais fy ngyrfa, ᶻ ‡ mi a gedwais y ffydd.

x Gwel ar 1 Tim. 6. 12. y Ioan 4. 34. Act. 13. 25. a 20. 24. 1 Cor. 9. 24—27. Phil. 3. 13, 14. Heb. 12. 1, 2. z pen. 1. 14. Luc 8. 15. a 11. 28. Ioan 17. 6. 1 Tim. 6. 20. Dat. 3. 8, 10.

* Gwel ar 1 Tim. 6. 12: *ymladd bruydr deg*, neu *dda*, yw y Saesoneg yma fel yno; ond *ymdrechu ymdrech deg* yw y Groeg yn mhob un o'r ddau le. Ymdrechwr, neu ymladdwr caled ac egnïol a fuasai yr apostol, trwy holl yspaid ei weinidogaeth, yn erbyn pechod, byd, a Satan: wrth orchymyn, ac yn nerth Crist, efe a ymdrechodd trwy lafur, peryglon, a dyoddefiadau, i ddadymchwel teyrnas Satan, i ryddâu ei gaethion ef, ac i helaethu a derchafu teyrnas ac achos ei Arglwydd mawr, a'i Waredwr grasol: ac efe a ymdrechodd fel hyn yn *deg;* âg arfau milwriaeth o drefniad Duw; trwy bregethu ffyddlawn, bywyd sanctaidd, gweddiau taerion, a dyoddef amyneddus. † Un yn rhedeg gyrfa ydoedd hefyd; efe a gychwynasai i redeg yr yrfa gristionogol yn ei alwad a'i dröedigaeth, rhoddodd heibio bob pwys, cyrchodd at y nôd trwy bob rhwystrau, ac yn awr yr oedd ar orphen ei yrfa, a chymmeryd gafael ar y bywyd tragywyddol. ‡ Yr oedd efe hefyd wedi cadw y ffydd; sef athrawiaeth y ffydd, mewn barn, mewn proffes, ac yn ei weinidogaeth bwysfawr: bu fyw ei hun trwy ffydd ar yr athrawiaeth, a phregethodd hi yn ffyddlawn i eraill, gan ei hamddiffyn ac ymdrech o'i phlaid, yn erbyn pob cyfeiliornwyr a chyfeiliornadau.

8 * O hyn allan ᵃ rhoddwyd ᵇ coron cyfiawnder i'w chadw i mi, † yr hon a rydd yr Arglwydd, ᶜ y Barnwr cyfiawn, i mi yn y ᵈ dydd hwnnw: ‡ ac nid yn unig i mi, ond hefyd i bawb a ᵉ garant ei ymddangosiad ef.

a Salm 31 19. Mat. 6. 19, 20. Col. 1. 5. 1 Tim. 6. 19. b pen. 2. 5. Diar. 4. 9. 1 Cor. 9. 25. Iago 1. 12. 1 Pedr 5. 4. Dat. 2. 10. a 4. 4, 10. c Gwel ar b. adn. 1. Gen. 18. 25. Salm 7. 11. Rhuf 2. 5. 2 Thes. 1. 5, 6. Dat. 19. 11. d pen. 1. 12, 18. Mal. 3. 17 Mat. 7. 22. a 24. 36. Luc 10. 12. 1 Thes. 5. 4. e Rhuf. 8. 23. 2 Cor. 5. 2. 1 Thes. 1. 10. Tit. 2. 13. Heb. 9. 28. Dat. 1. 7. a 22. 20.

* O herwydd y pethau uchod, dysgwyliai yr apostol yn sicr a diammeüol o hyn allan, fod coron cyfiawnder wedi ei rhoddi i'w chadw iddo ef; y gogoniant a'r anllygredigaeth, y bywyd a'r dedwyddwch tragywyddol hyny, a barotôwyd i'r holl wir gredinwyr yn Nghrist, yn ol mesur eu gras, eu gwasanaeth, a'u dyoddefiadau yn ei achos ef. *Coron*, gyda chyfeiriad at goronau o ddail a blodau, a roddid i'r ennillwyr yn y campau gynt: coron *cyfiawnder*, am ei bod yn dyfod i ran y credadyn trwy iawn a chyfiawnder Crist, ac fel gwobrwy grasol y Barnwr cyfiawn i'r rhai a'i carant ac a'i gwasanaethant ef. Gwyddai yr apostol fod y goron hon wedi ei rhoddi yn nghadw iddo ef, ac nid oedd ganddo mwyach nemawr ond marw i fyned trwyddo, i'w derbyn a'i mwynâu hi byth. † Dysgwyliai y goron hon o law yr Arglwydd

Iesu Grist, y Barnwr cyfiawn, yn y fàn ar ei "ymddattodiad," (adn. 6.) ac yn gyhoeddus yn nydd mawr y farn gyffredinol, "y dydd hwnw," at yr hwn mae efe yn galw sylw dynion yn aml iawn. ‡ Ac nid iddo ef yn *unig* yr oedd y goron hon o gyfiawnder wedi ei rhoddi i gadw; ac nid i weinidogion enwog a merthyron yn *unig* y darparwyd hi; eithr hefyd i'r holl gredinwyr ffyddlawn yn mhob oes a lle, pawb a garant, a hiraethant, a ddysgwyliant, ac a obeithiant am ymddangosiad yr Arglwydd Iesu, eu Gwaredwr a'u Barnwr mawr; y rhai a ddyoddefant drosto, ac a hiraethant am dano.

9 * Bydd [f] ddyfal i ddyfod attaf yn ebrwydd:

f adn. 21. pen. 1. 4.

* Ar yr un pryd, pa un bynag ai yn hwyr ai yn fuan y deuai ei ymddattodiad ef, dymunai yn fawr i Timothëus wneyd pob brys a allai i ddyfod ato ef yn ebrwydd; am ei fod y pryd hwn wedi ei adael bron yn unig yn ei garchar, heb braidd neb gydag ef i'w ddyddanu, nac i wneyd unrhyw wasanaeth angenrheidiol drosto. Wrth Phil. 2. 19, mae yn ymddangos i Timothëus fyned ato ef yn ol ei ddeisyfiad.

10 * Canys [g] Demas a'm [h] gadawodd, [i] gan garu y byd presennol, ac a aeth ymaith i [k] Thessalonica; † Crescens i [l] Galatia, [m] ‡ Titus i Dalmatia.

g Col. 4. 14. Philemon 24. h adn. 16. pen. 1. 15. Mat. 26. 56. Act. 13. 13. a 15. 38. 2 Pedr 2. 15. i Luc 9. 61, 62. a 14. 26, 27, 33. a 16. 13. a 17. 32. Phil. 2. 21. 1 Tim. 6. 10. 1 Ioan 2. 15, 16. a 5. 4, 5. k Act. 17. 1, 11, 13. l Act. 16. 6. a 18. 23. Gal. 1. 2. m 2 Cor. 2. 13. a 7. 6. a 8. 6, 16. Gal. 2. 1—3. Tit. 1. 4.

* Bu gan yr apostol feddyliau da mae yn debyg am Demas cyn hyn; (Col. 4. 14; Philem. 24.) ond yn awr yr oedd y dyn llwfr a bydol hwnw wedi ei sïomi ef, trwy ei adael yn ei sefyllfa beryglus, gan ofn sefyll gydag ef, efallai, a chan garu y byd presenol. Nid oedd efe yn ddigon gwrol i anturio ei fywyd gyda'r apostol yn wyneb erlid; yr oedd yn caru y byd yn ormod i roddi pob peth i fynu er mwyn Crist; ac am hyny, efe a aeth ymaith i Thessalonica i ganlyn rhyw alwedigaeth neu fasnach fydol oedd yn ymgynnyg iddo yn y lle hwnw. Pa un a oedd efe yn ddyn duwiol yn ei amser goreu, nis gwyddom; a pha un a adferwyd ef o'r gwrthgiliad hwn, nis gwyddom chwaith: y cwbl a ddywed yr apostol yw, iddo ei adael ef, gan garu y byd presenol, &c. † Nis gwyddom pwy oedd y Crescens hwn, nid oes son am dano yn un màn arall: mae yn debyg iddo fyned i Galatia i bregethu yr efengyl ar ddeisyfiad Paul, ac efallai mai gydag ef y danfonodd ef ei epistol at y Galatiaid. ‡ Talaeth yn neheubarth hen Illyricum, meddant, oedd Dalmatia, o du y dwyrain i gyfyng-fôr Venice: er pan bregethodd Titus yno hyd y pryd hwn, dywedir fod y grefydd gristionogol heb lwyr ddarfod yno hyd heddyw.

11 [n] * Luc yn unig sydd gyd â mi. † Cymmer [o] Marc, a dwg gyd â thi: canys [p] buddiol yw efe i mi i'r weinidogaeth.

n Act. 16. 10. Col. 4. 14. Philemon 24. o Act. 12. 12, 25. a 15. 39. Col. 4. 10. 1 Pedr 5. 13. Hos. 14. 4. p Mat. 19. 30. a 20. 16. Luc 13. 30.

* Nid oedd neb gyda'r apostol y pryd hwn yn ei gaethiwed a'i helbul, ond Luc y physygwr anwyl, (Colos. 4. 14.) cydymaith Paul yn llawer iawn o'i deithiau a'i lafur, ac ysgrifenydd yr efengyl sydd ar ei enw, a llyfr yr Actau. † Am y Marc hwn gwel yr ysgrythyrau cyfeiriol dan *o*, yn nghyd â'r sylwadau arnynt, yn enwedig ar Col. 4. 10. Chwennychai yr apostol i Timothëus gymmeryd Marc gydag ef pan ddeuai i Rufain; am y byddai efe yn fuddiol iddo ef, i'w ddanfon ar negeseuau o bwys, ac hefyd i weinidogaeth yr efengyl, lle bynag y danfonai yr apostol ef; yr hyn oedd fwy yn ngolwg Paul yn ei garchariad a'i holl helbul, na phob gwasanaeth iddo ei hun. Mae galw fel hyn am Marc, yn dangos fod yr apostol wedi llwyr gymmodi âg ef, ar ol y tro a enwir yn Act. 15. 37—39; ac ei fod yntau wedi cael ei lwyr adferu o'r enciliad a grybwyllir yno: ni ddywedir dim fel hyn am Demas.

12 [q] * Tychicus hefyd a [r] ddanfonais i Ephesus.

q Act. 20. 4. Eph. 6. 21. Col. 4. 7. Tit. 3. 12. r Act. 20. 16, 17, 25. 1 Tim. 1. 3.

* Yr oedd yr apostol hefyd yn amddifad o Tychicus, yr hwn a ddanfonasai efe i Ephesus, i weinidogaethu yno. Tybia rhai wrth hyn mai nid yn Ephesus yr oedd Timothëus y pryd hwn; pe amgen ni buasai raid i'r apostol ddywedyd iddo ddanfon Tychicus yno: eithr tybia eraill mai hysbysu yr oedd, iddo ddanfon Tychicus yno i gyflawni lle Timothëus, yn ei absenoldeb ef; ond ei fod wedi myned ryw ffordd wahanol i ddygiedydd y llythyr hwn, ac na chyrhaeddai Ephesus mòr fuan a'r llythyr.

13 [s] * Y cochl a adewais i yn [t] Troas gyd â Carpus, pan ddelych, dwg *gyd a thi,* † a'r llyfrau, ‡ yn enwedig y memrwn.

s 1 Cor. 4. 11. 2 Cor. 11. 27. t Act. 16. 8, 11. a 20. 5—12.

* Os cochl, neu fath o fantell-wisg, a feddylir yma wrth y gair *phailonên,* fel y tybia y rhan fwyaf; mae yn dangos tlodi yr apostol yn fawr iawn, pan oedd yn angenrheidiol iddo ddanfon mòr bell am ddilledyn i'w gynhesu erbyn y gauaf, (adn. 21.) ac mae yn bur debyg nad oedd yn newydd nac o werth mawr. Ond tybia eraill mai math o folgan, *(portmanteau)* neu gist fechan, yn mha un y cadwai efe ei ychydig lyfrau a'i bapyrau ydoedd, a bod y pethau oedd yn y cochl yn fwy gwerthfawr na'r cochl ei hun: ond mae efe yn son am ei lyfrau eto, fel pethau gwahanol i'r cochl. Am Tröas, gwel ar Act. 16. 8. Pwy oedd Carpus nis gwyddom, yn chwaneg na'i fod yn gyfaill i Paul pan oedd efe yn Tröas, a chyda'r hwn efallai y llettyai efe yno: tybia rhai ei fod yn un o'r deg dysgybl a thriugain. † Gwyddai Timothëus pa lyfrau a memrwn oedd y rhai hyn, ond ofer yw i ni geisio dychymmygu beth oeddynt. Yr oedd dau fath o lyfrau gan yr henafiaid: un math wedi eu plygu yn ddalenau fel ein llyfrau ninnau, a'r fath arall wedi eu rholiaw i fynu o ben bwy gilydd. Tybir mai y fath *gyntaf* a feddyir wrth y *llyfrau,* a'r *ail* fath wrth y *memrwn,* neu y croen, *(membranes.)* ‡ Gan fod yr apostol yn dywedyd "yn *enwedig* y memrwn," rhaid bod hwnw o werth a phwys mawr yn ei olwg: tybia rhai mai yr Hen Destament ydoedd; eraill mai yr ysgrifau cyntefig o'i epistolau ef at y gwahanol eglwysi, y rhai a fwriadai efe eu gadael yn meddiant Timothëus ar ol ei farwolaeth; a thybia eraill mai ysgrif o'i ryddfraint ef fel dinasydd Rhufain ydoedd, yr hon a allai fod o wasanaeth iddo ef yn ei brawf ger bron Nero. Wrth iddo adael y pethau hyn oll ar ol, mae yn debyg iddo gael ei *yru* ymaith ar *ffrwst* i garchar gan ei erlidwyr, heb hamdden i gymmeryd dim o'i bethau angenrheidiol gydag ef.

14 [u] * Alexander y gôf copr a wnaeth i mi ddrygau lawer: [x] † taled yr Arglwydd iddo yn ol ei weithredoedd.

u Act. 19. 33, 34. 1 Tim. 1. 20. x 1 Sam. 24. 12. 2 Sam. 3. 39. Salm 28. 4. a 109. 5—20. Jer. 15. 15. a 18. 19—23. 2 Thes. 1. 6. 1 Ioan 5. 16. Dat. 6. 10. a 18. 6, 20.

* Cawsom achlysur i sylwi ar Alexander o'r blaen, Act. 19. 33; 1 Tim. 1. 20; (gwel ar y mànau hyny) ac mae yn bur debyg mai yr un Alexander yw hwn, er nad ydym yn hollawl sicr o hyny. Os yr un ydoedd, bu unwaith yn broffeswr, a thrôdd wedi hyny yn wrthgiliwr, ac yn elyn atgas i'r apostol, gan wneuthur iddo ddrygau lawer, un ai gynt yn Ephesus, neu wedi hyny yn Rhufain: gwyddai yr apostol er ei ofid pa ddrygau oeddynt, a pha le y gwnaeth efe hwynt. Gelynion gwaethaf gweinidogion yr efengyl yn aml, yw gwrthgiliwyr diras, y rhai y gorfu arnynt hwy eu troi allan o eglwys Dduw. † Gwyddai Paul mai gelyn greddfol i Grist a'i achos oedd y dyn hwn, am hyny mae yn ei roddi ef i fynu i gyfiawn farn Duw, i'r Arglwydd dalu iddo yn ol ei weithredoedd drygionus. Nis gallwn *ni*

wybod yn *sicr* pwy sydd wedi eu rhoddi i fynu gan Dduw i galedrwydd anfeddyginiaethol; am hyny ein lle ni yw gweddio dros ein gelynion a'n herlidwyr: nid yw geiriau yr apostol yn y fàn hon yn rhëol i *ni*. Tâl tymhorol medd rhai, oedd yr apostol yn ddymuno iddo, er rhybudd i eraill i wylied rhag ei ffyrdd ef, ac er ei ddwyn yntau i edifeirwch, ac adferiad o'i ddrygioni.

15 * Yr hwn hefyd [y] gochel dithau; † canys efe a [z] safodd yn ddirfawr yn erbyn ein hymadroddion ni.

y Mat. 10. 16, 17. Phil. 3. 2. z Gwel ar pen. 3. 8.

* Mae yn debyg bod yr Alexander hwn o hyd mewn cyfle i wneyd drwg i Timothëus hefyd, un ai yn Ephesus neu mewn rhyw le arall; am hyny cyngorai yr apostol ef i'w ochel yn dra gwyliadwrus, fel dyn esgymmunedig, ac fel gelyn marwol pob daioni: † oblegid yr oedd efe wedi sefyll yn ddirfawr, yn grŷf, ac yn dra llidiog, yn erbyn ymadroddion ac athrawiaeth Paul a Timothëus, yr hyn oedd waeth ganddo ef na phob drygau personol a wnaethai iddo.

16 * Yn fy [a] atteb cyntaf [b] † ni safodd neb gyd â mi, ‡ eithr pawb a'm gadawsant: [c] || *mi a archaf ar Dduw* nas cyfrifer iddynt.

a Act. 22. 1. a 25. 16. 1 Cor. 9. 3. 2 Cor. 7. 11. Phil. 1. 7, 17. 1 Pedr 3. 15. b Gwel ar adn. 10.—Salm 31. 11—13. Marc 14. 50. Ioan 16. 32. c Act. 7. 60.

* Pan ddygwyd yr apostol gyntaf, yn amser ei ail garchariad, i'w brofi ger bron Nero, neu ger bron ei ben-swyddog ef, ac i wneuthur ei ateb amddiffynol ger bron y frawdle Rufeinig; † nid oedd neb o'r cristionogion yn Rhufain yn ddigon calonog a dïofn i sefyll gydag ef, i'w amddiffyn a'i bleidio ef; ‡ eithr pawb a'i gadawsant ef yn ei berygl, i ofalu am eu diogelwch eu hunain, yn gyffelyb fel y gadawodd y dysgyblion eu Harglwydd pan ddaliwyd ef. || Gwyddai yr apostol mai o wendid y bu hyn, am hyny mae yn gweddio ar Dduw na chyfrifai efe hyny fel pechod yn eu herbyn. Nid ei adael fel Demas a wnaethant, nac ychwaith fel Alexander; gan hyny mae ei ymadrodd ef yn wahanol iawn yma, i'r hyn a ddywedodd efe am y gwrthgiliwr hwnw, adn. 14. Gwyddai cristionogion Rhufain beth oedd erlid Nero cyn hyny; yr oedd y rhai mwyaf dewr o honynt wedi cael eu rhoddi i farwolaeth; yna nid rhyfedd fod y gweddill yn rhŷ ofnus i sefyll o blaid a chyda'r apostol yn ei brawf.

17 * Eithr yr [d] Arglwydd a safodd gyd â mi, [e] † ac a'm nerthodd; [f] ‡ fel trwof fi y byddai y pregethiad yn llawn hysbys, || ac y clywai yr holl Genhedloedd: [g] § ac mi a waredwyd o enau y llew.

d Salm 37. 39, 40. a 109. 31. Jer. 15. 20, 21. a 20. 10, 11. Act. 18. 9, 10. a 23. 11. a 27. 23, 24. e Es. 41. 10, 14.—Gwel ar 2 Cor. 12. 9, 10. f Luc 21. 15. Act. 9. 15. a 26. 17, 18. Rhuf. 16. 25, 26. Eph. 3. 8. Phil. 1. 12—14. g Salm 22. 21. Diar. 20. 2. a 28. 15. Jer. 2. 30. Dan. 6. 22, 27. Heb. 11. 33. 1 Pedr 5. 8.

* Ond er ei adael ef gan ddynion, nis gadawyd ef gan Dduw; eithr yr Arglwydd Iesu, ei gyfaill diysgog a hollalluog, a safodd gydag ef, a'i gwnaeth ef yn deimladwy o'i bresenoldeb, ei ewyllys da, a'i amddiffyniad; † ac fel hyny a'i nerthodd ef mewn ffydd a chadernid yn ei enaid; ‡ fel trwyddo ef y pryd hwnw, ger bron brawdle yr ymherawdwr erlidgar a'i holl fawrion paganaidd, y byddai ei bregethiad ef, sef efengyl Crist, yn llawn hysbys i bawb ag oedd yno yn bresenol; || ac yr elai hysbysrwydd o hôni ar led trwy y tro hwnw, i blith yr holl genedloedd mewn ardaloedd pell, gyda thystiolaeth annwrthwynebadwy o'i natur a'i tharddiad dwyfol. Tro rhyfeddol oedd hwn; yr apostol yn sefyll i fynu ei hunan, wedi i bawb ei adael, ac yn amddiffyn yr efengyl ac achos yr efengyl yn hŷf, ger bron holl frawd-lŷs a mawrion Nero Cesar:—dïammau i son am hyn fyned trwy yr holl wledydd, a hyny er anrhydedd i'r efengyl a'i hachos, ac er calondid i'w holl weinidogion i'w phregethu hi yn mhlith yr holl genedloedd. § Er bod barnwr Paul yn alluog ac yn gynddeiriog; eto efe a waredwyd y tro hwnw rhagddo ef, megys allan o enau llew: neu, efallai mai Satan, y llew rhuadwy, oedd ef yn feddwl; tad a mab oedd y ddau.

18 * A'r Arglwydd a'm [h] gwared i rhag pob gweithred ddrwg, [i] † ac a'm ceidw i'w deyrnas nefol, [k] ‡ i'r hwn *y byddo* gogoniant yn oes oesoedd. || Amen.

h Gen. 48. 16. 1 Sam. 25. 39. 1 Cron. 4. 10. Salm 121. 7. Mat. 6. 13. Luc 11. 4. Ioan 17. 15. 1 Cor. 10. 13. 2 Cor. 1. 10. 2 Thes. 3. 3. i pen. 1. 12. Salm 37. 28. a 73. 24. a 92. 10. Mat. 13. 43. a 25. 34. Luc 12. 32. a 22. 29. Ioan 10. 28—30. 1 Thes 5. 23. Heb. 12. 28. Iago 2. 5. 1 Pedr 1. 5. Judas 1, 24. k Gwel ar Rhuf. 11. 36.—a 16. 27. Gal. 1. 5. 1 Tim. 1. 17. a 6. 16. Heb. 13. 21. 1 Pedr 5. 11. Judas 25.

* Mae ffydd yn cryfâu trwy brofiad; am i'r apostol gael ei waredu eisoes o enau y llew, yr oedd yn credu y ca'i ei waredu drachefn rhag pob gweithred ddrwg. Nid oedd efe yn dïanc rhag merthyrdod; (adn. 6.) ond yr oedd yn sicr ganddo y gwaredai yr Arglwydd ef rhag pob gweithred ddrwg; na oddefai efe ddim i Satan lwyddo yn ei erbyn ef, i'w demtio ef i wneuthur dim anaddas i'w broffes ac anrhydedd yr efengyl, neu er digio Duw, ac er niwed i'w enaid ei hun. † Credai hefyd y cadwai yr Arglwydd ef i'w deyrnas nefol; trwy ei nerthu i fod yn ffyddlawn hyd angau, ac yna rhoddi iddo goron y bywyd, a mynediad i mewn i'w dragywyddol deyrnas a'i ogoniant. ‡ Gan hyny, yn lle cwyno, ofni, a digaloni, yn yr olwg ar ei ddyoddefiadau; yr oedd efe yn gogoneddu yr Arglwydd Iesu yn orfoleddus; iddo ef, yn undeb y Tad a'r Ysbryd, y byddo gogoniant yn oes oesoedd, neu dros oesoedd o oesoedd, sef i dragywyddol oesoedd, byth heb ddiwedd. || Amen, felly y dylai fod, felly bydded, ac felly y bydd yn sicr.

19 * Annerch [l] Prisca ac Acwila, [m] † a theulu Onesiphorus.

l Act. 18. 2, 18, 26. Rhuf. 16. 3, 4. 1 Cor. 16. 19. m pen. 1. 16—18.

* Am y ddau hyn, Prisca, neu Priscila ac Acwila, gwel ar Act. 18. 2, 3, ac amryw fànau eraill lle y crybwyllir am danynt. Mae yn debyg eu bod y pryd hwn yn preswylio yn agos i Timothëus yn rhywle; ond gan y byddent hwy yn aml yn symmud eu preswylfa, nis gallwn benderfynu oddi wrth yr adnod hon pa le yr oedd Timothëus y pryd hwn, ai yn Ephesus ai yn rhywle arall. Yr oedd yn dda iawn gan yr apostol am y gŵr a'r wraig enwog hyn mewn duwioldeb; am hyny mae yn danfon ei anerch caredig atynt, ac efallai ei anerch diweddaf cyn ei farw. † Yr un modd mae yn anerch teulu Onesiphorus: gwyddai nad oedd ef ei hun ddim gartref, am hyny mae yn anerch y teulu, ac nid efe. Gwel ar pen. 1. 16—18.

20 [n] * Erastus a arhosodd yn Corinth: [o] † ond Trophimus a adewais ym [p] Miletum [q] ‡ yn glaf.

n Act. 19. 22. Rhuf. 16. 23. o Act. 20. 4. a 21. 29. p Act. 20. 15, 17. q Phil. 2. 26, 27.

* Am yr Erastus hwn, gwel ar Rhuf. 16. 23. Corinth, mae yn debygol, oedd ei le genedigol ef, ac yr oedd efe unwaith yn oruchwyliwr y ddinas yno; ond mae yn debyg mai aros yno i oruchwylio eglwys Dduw a wnaeth ef y pryd hwn: nid yw yr apostol yn dywedyd am dano fel am Demas, iddo ei adael ef, gan garu y byd presenol. Am Trophimus, gwel ar Act. 20. 4; a 21. 29. Yr un lle yw Miletum yma, a Miletus yn Act. 20. 15, 17, lle y danfonodd Paul am henuriaid eglwys Ephesus: ond mae yn debyg mai rywbryd wedi hyny, hir o amser, y gadawodd efe Trophimus yn glaf yno, pan dramwyodd efe y ffordd hòno ar ol ei garchariad cyntaf yn Rhufain. ‡ *A adewais yn glaf:* mae yn debyg nad oedd gallu gwyrthiol yn beth arosawl yn yr apostolion, i'w ddefnyddio pan fynent, ac ar y neb y mynent; pe amgen ni buasai Paul yn gadael Trophimus ar ei ol yn glaf: ac yn wir pe buasai felly, gallem feddwl na chawsai yr un dyn duwiol fod yn glaf, na marw, trwy wybodaeth yr

apostolion; yr hyn a fuasai yn gwbl anghyson â gosodiad Duw a threfn rhagluniaeth. Pe gallasai Paul wneyd gwyrthiau pan fynai, ac ar y neb y mynai, ni chawsai ei anwyl fab Timothëus lafurio mewn "mynych wendid," fel yr oedd yn gorfod gwneyd: ac nid oedd ar yr apostolion a'r credinwyr eisiau iachâd gwyrthiol i'w clefydau eu hunain, i gadarnâu eu ffydd yn yr efengyl; yr oedd ganddynt dystiolaeth ddigonol ynddynt eu hunain heb hyny.

21 [r] * Bydd ddyfal i ddyfod cyn y gauaf. † Y mae Eubulus yn dy annerch, a Pudens, a Linus, ‡ a Claudia, [s] a'r brodyr oll.

r adn. 9, 13. pen. 1. 4. s Rhuf. 16. 21—23. 1 Cor. 16. 20. 2 Cor. 13. 13. Phil. 4. 22. 2 Ioan 13. 3 Ioan 14.

* Gan nad oedd dim amser i'w golli, a bod teithio yn anhyfryd a pheryglus ar dywydd oer a garw, dymunai yr apostol ar Timothëus i wneyd pob ymdrech a dyfalwch i ddyfod ato ef cyn y gauaf: neu, efallai ei fod yn ofni, os elai y gauaf heibio, y byddai yn rhŷ ddiweddar iddo ei weled ef ar dir y byw. † Nid oes genym hanes yn un màn arall o'r ysgrythyr am y duwiolion hyn: enw Groeg yw y cyntaf, Lladin yw y lleill, (medd *Pool*) ac enw benyw yw Claudia. ‡ Dywedir mai Cymraes oedd Claudia, (Gwladus Ruffudd) ac mai ei gŵr hi oedd Pudens: gwel y sylwad ar odre y ddalen dàn y gair Claudia, yn y Geiriadur Ysgrythyrol, ac hefyd Drych y Prif Oesoedd, tu dal. 179. Tybir mai rhai o fawrion teulu Cesar oedd y rhai hyn oll, ac iddynt gael eu dychwelyd i'r ffydd trwy weinidogaeth yr apostol, yn ei garchariad cyntaf neu yr ail: maent hwy a'r brodyr oll yn Rhufain, yn uno mewn cyd-anerchiad caredig at Timothëus, yr hyn sydd brawf da o wirionedd crefydd a gostyngeiddrwydd dynion mòr fawr, ac uchel eu sefyllfa.

22 [t] * Yr Arglwydd Iesu Grist *fyddo* gyd â'th yspryd di. [u] † Gras *fyddo* gyd â chwi. ‡ Amen.

t Mat. 28. 20.—Gwel ar Rhuf. 16. 20. 2 Cor. 13. 14. Gal. 6. 18.—Philemon 25. u Gwel ar Rhuf. 1. 7.—1 Cor. 16. 23. Eph. 6. 24. Col. 4. 18. 1 Tim. 6. 21. 1 Pedr 5. 14. Dat. 22. 21.

* Wrth ddiweddu yr epistol, gwir ddymuniad ealon yr apostol oedd, bod yr Arglwydd Iesu gydag ysbryd Timothëus bob amser, i'w arwain, ei gynnal, ei nerthu, ei gysuro, a'i sancteiddio ef yn gwbl oll. † A bod gras mawr arno ef, a'r holl saint, a'r ffyddlawn frodyr oedd gydag ef a thàn ei ofal: ‡ ac fel tystiolaeth ddifrifol o wirionedd ei ddymuniad erddynt, mae yn dywedyd Amen.

Mae yn amlwg i bawb a ddarlleno ddiwedd yr epistol hwn, nad oedd Pedr ddim yn Rhufain pan ysgrifenwyd ef: gan hyny os dyoddefodd ef ferthyrdod yr un pryd a'r apostol Paul, yn ol hen draddodiad, rhaid iddo ddyfod i Rufain ar ol danfon yr epistol hwn: nid oes yma air o sôn am dano yn mhlith yr holl anerchiadau at Timothëus.

¶ Yr ail *epistol* at Timothëus, yr esgob cyntaf a ddewiswyd ar eglwys yr Ephesiaid, a ysgrifenwyd o Rufain, pan ddygwyd Paul yr ail waith ger bron Cesar Nero.

EPISTOL PAUL YR APOSTOL

AT

TITUS.

PEN. I.

I ba beth y gadawodd Paul Titus yn Creta.

* PAUL [a] gwas Duw, † ac apostol Iesu Grist, [b] ‡ yn ol ffydd etholedigion Duw [c] ‖ ac adnabyddiaeth y gwirionedd, [d] § yr hon *sydd* yn ol duwioldeb;

a Gwel ar 1 Cron. 6. 49. Rhuf. 1. 1. Phil. 1. 1. b Ioan 10. 26, 27. Act. 13. 48. Eph. 2. 8. 2 Thes. 2. 13, 14. 1 Tim. 1. 5. c Col. 2. 2. 2 Tim. 2. 23. 1 Ioan 2. 23. d pen. 2. 11, 12. 1 Tim. 1. 4. a 3. 16. a 6. 3. 2 Pedr 1. 3. a 3. 11.

* Yr oedd Paul yn was Duw fel yr oedd yn ddyn duwiol ac yn weinidog yr efengyl; † ac yr oedd yn apostol Iesu Grist trwy ddanfoniad digyfrwng ganddo ef: y cyntaf oedd ei gymmeriad cyffredinol ef, yr ail ei swydd a'i waith neillduol: mae eto lawer o *weision* Duw, ond nid oes neb yn awr yn *apostolion* Iesu Grist, yn ystyr fanylaf y gair. ‡ Yr oedd ei waith apostolaidd ef yn ol ffydd etholedigion Duw, i ddwyn dynion i gredu yn Nghrist, ac i gryfâu, cynnyddu, a chyfarwyddo ffydd y rhai a gredasent eisoes: hyn oedd amcan a thuedd ei lafur a'i apostoliaeth ef. Yr oedd ei athrawiaeth ef hefyd yn ol ffydd etholedigion Duw yn mhob oes, o ddechreu y byd hyd y pryd hwnw; felly nid rhyw athrawiaeth a ffydd newydd oedd efe yn bregethu. ‖ Trwy adnabyddiaeth y gwirionedd mae y ffydd hon yn cael ei chenedlu, ei chryfâu, ei chynnyddu, yn mhawb o etholedigion Duw; a thrwy gydnabyddiaeth y gwirionedd, neu broffes sanctaidd o hôno, mae hi yn gweithredu ac yn ei harddangos ei hun; § ac fel hyn mae hi yn ol duwioldeb, yn meithrin duwioldeb mewn egwyddor ac ymarferiad, mewn gwir addoliad i Dduw, ac mewn ufudd-dod efengylaidd a chyffredinol i'w holl ewyllys datguddiedig ef: neu, efallai mai *athrawiaeth* y gwirionedd, a'r *adnabyddiaeth* o'r athrawiaeth hôno, a feddylir wrth yr "*hon* sydd yn ol duwioldeb."

2 [e] * I obaith [f] bywyd tragywyddol, † yr [g] hon a addawodd y [h] ‡ digelwyddog Dduw [i] ‖ cyn dechreu y byd;

e pen. 2. 13. a 3. 7. Ioan 5. 39. a 6. 68. Rhuf. 2. 7. a 5. 2—4. Col. 1. 27. 1 Thes. 5. 8. 2 Tim. 2. 10. 1 Pedr 1. 3, 4. 1 Ioan 2. 25. a 3. 2, 3. Judas 21. f Mat. 25. 46. Marc 10. 17, 30. Ioan 3. 15, 16. a 6. 54. a 10. 28. a 17. 2. Rhuf. 5. 21. a 6. 23. 1 Tim. 6. 12, 19. 1 Ioan 5. 11—13, 20. g Num. 23. 19. 1 Sam. 15. 29. 2 Tim. 2. 13. Heb. 6. 17, 18. h 2 Tim. 1. 1, 9. Dat. 17. 8. i Diar. 8. 23—31. Mat. 25. 34. Ioan 17. 24. Act. 15. 18. Rhuf. 16. 25. 1 Pedr 1. 20—23. Dat. 13. 8.

* Yr oedd Paul yn pregethu y gwirionedd uchod, a dynion yn ei gredu, yn ei gydnabod, ac yn byw yn gyfatebol iddo, yn wyneb llawer o flinderau, mewn gobaith ffyddiog am fywyd tragywyddol; † ac yr oedd y gobaith hyn yn gwaelodi ar addewid rasol y digelwyddog Dduw, yr hon a addawodd efe cyn dechreu y byd i Grist, fel Pen y cyfammod gras, a Machnïydd ei bobl. ‡ Gan fod yn anmhosibl i Dduw fod yn gelwyddog, mae ei addewid ef am fywyd tragywyddol ei bobl yn sicr; er ei gwneyd, neu ei rhoddi cyn dechreu y byd, nid oes dim a all ddygwydd mewn amser a bair iddo ef anghofio na thôri ei addewid. ‖ Tybia rhai mai yr addewid a roddwyd i'n rhïeni cyntaf yn fuan ar ol y cwymp, a feddylir; ond *gwedi* dechreu y byd y rhoddwyd hôno, lle mae yr apostol yn dywedyd *cyn* dechreu y byd: felly rhaid mai yr addewid i Grist yn y cyfammod tragywyddol, oedd yr apostol yn feddwl.

3 * Eithr mewn [k] amseroedd prïodol efe a [l] eglurhâodd ei air trwy bregethu, [m] † am yr hyn yr ymddiriedwyd i mi, ‡ yn ol gorchymyn [n] Duw ein Hiachawdwr;

k Dan. 7. 23. a 9. 24—27. a 10. 1. a 11. 27. Hab. 2. 3. Act. 17. 26. Rhuf. 5. 6. Gal. 4. 4. Eph. 1. 10. 1 Tim. 2. 6. l Marc 13. 10. a 16. 15. Act. 10. 36. Rhuf. 10. 14, 15. a 15. 19. a 16. 26. Eph. 2. 17. a 3. 5—8. Phil. 1. 13. Col. 1. 6, 23. 1 Tim. 2. 5, 6. Dat. 14. 6. m Gwel ar 1 Cor. 9. 17. 1 Tim. 2. 7. 2 Tim. 1. 11. n pen. 2. 10, 13. a 3. 4—6. Es. 12. 2. a 45. 15, 21.—Gwel ar 1 Tim. 1. 1. a 2. 3. a 4. 10.

* Bu yr arfaeth, neu yr addewid uchod yn nghudd, neu y datguddiad o hôni yn lled aneglur, yn yr oesoedd gynt; ond yn yr amseroedd prïodol, sef yr amseroedd a arfaethasai Duw yn ei dragywyddol gyngor a'i ddwyfol ddoethineb, efe a eglurâodd yr addewid hôno fel ei *air* sicr, trwy bregethu, sef trwy bregethiad yr efengyl, i Iuddewon a chenedloedd yn ddiwahaniaeth. † Ymddiriedwyd y gorchwyl mawr hwn, o bregethu addewid ac efengyl y bywyd tragywyddol, i Paul; ‡ yn ol gorchymyn Iesu Grist, yr hwn yw Duw ein Hiachawdwr, yr hwn drwy ei gnawdoliad sydd Emmanuel, Duw gyda ni, wedi rhoddi ei hun drosom ni, i'n prynu a'n gwaredu i fywyd tragywyddol. Ond tybia rhai fod Duw ein Hiachawdwr yma yn arwyddo y Duwdod heb wahaniaethu y Personau; arferir ef weithiau am y Tad, fel mae yn achub trwy y Mab, pen. 3. 4—7.

4 * At [o] Titus, [p] *fy* mab naturiol [q] yn ol y ffydd gyffredinol: [r] † Gras, trugaredd, *a* thangnefedd oddi wrth Dduw Dad, a'r Arglwydd Iesu Grist [s] ein Hiachawdwr ni.

o 2 Cor. 2. 13. a 7. 6, 13. 14. a 8. 6, 16, 23. a 12. 18. Gal. 2. 3. p Gwel ar 1 Tim. 1. 2. 2 Tim. 1. 2. q Rhuf. 1. 12. 2 Cor. 4. 13. 2 Pedr 1. 1. Judas 3. r Gwel ar Rhuf. 1. 7. 1 Tim. 1. 2. 2 Tim. 1. 2. s Gwel ar adn. 3.—Luc 2. 11. Ioan 4. 42. 2 Pedr 1. 11. a 2. 20. a 3. 2, 18. 1 Ioan 6. 14.

* Gwedi y rhagymadrodd gwerthfawr a chynnwysfawr uchod, mae yr apostol yma yn dechreu ei epistol at Titus ei fab naturiol, diledryw, a gwirioneddol, yn y ffydd hôno oedd yn gyffredinol i'r holl saint, Iuddewon a chenedloedd gwir grediniol. Yr oedd Titus yn fab mewn ystyr ysbrydol i Paul, wedi ei ddychwelyd i'r ffydd trwy ei weinidogaeth ef, wedi ei fagu yn ngeiriau y ffydd ganddo ef, a chwedi ei addysgu i waith y weinidogaeth fel efengylwr ganddo ef, ac yr oedd yn ei garu ef fel pe buasai ei fab naturiol. Nid yw Luc yn sôn dim am Titus yn yr Actau, y crybwylliad cyntaf a gair am dano sydd yn Galat. 2. 1, (gwel ar y fân hôno) oblegid ysgrifenwyd yr epistol hwnw o flaen yr epistolau eraill lle y sonia Paul am Titus. † Am y cyfarchiad hwn, gwel ar 1 Tim. 1. 2.

5 * Er mwyn hyn [t] y'th adewais yn [u] Creta,

[x] fel yr iawn drefnit y pethau sydd yn ol, [y] † ac y gosodit henuriaid ym mhob dinas, megis yr ordeiniais i ti.

t 1 Tim. 1. 3. u Act. 2. 11. a 27. 7, 12, 21. x 1 Cron. 6. 32. Preg. 12. 9. Es. 44. 7. 1 Cor. 11. 34. a 14. 40. Col. 2. 5. y Act. 14. 23. 2 Tim. 2. 2.

* Creta ydoedd ynys yn Môr y Canoldir, yn mhell i'r gogledd o'r Aipht, ac i'r gorllewin o Syria: yr oedd tua 270 milltir ei hŷd, o'r dwyrain i'r gorllewin, a thua 50 milltir o lêd: dywed eraill ei bod yn rhagor, sef yn 280 ei hŷd, ac yn 55 ei llêd. Dywedir bod ynddi gynt gant o ddinasoedd, ond galwai yr henafiaid agos i bob tref yn ddinas. Poblogwyd yr ynys hon yn fore, efallai gan rai o'r Philistiaid, a ffoisant o wlad Canaan yn amser Josua; neu gan y Caphtoriaid o'r Aipht, yn foreuach na hyny. Pwy a bregethodd yr efengyl yn yr ynys hon gyntaf nis gwyddom, diammau i Paul lafurio yn helaeth ac yn llwyddiannus yno, a gosod llawer o bethau mewn trefn yn yr eglwysi; ond am nas gallasai efe aros yn hŵy, efe a adawodd Titus ar ei ol, i iawn drefnu pethau eraill oedd yn ddiffygiol yn eu plith; † ac i osod henuriaid yn mhob ddinas lle yr oedd eglwys, neu eglwysi, megys yr ordeiniasai efe iddo cyn ymadael. *Henuriaid: (presbuterous)* rhai i lafurio yn y weinidogaeth gyhoeddus, a rhai i ofalu am y ddysgyblaeth eglwysig hefyd, efallai: yr eglwysi oedd i ddewis a galw yr henuriaid hyn, a Thitus fel efengylwr oedd i flaenori yn eu plith, ac i gyd-weithredu â hwynt, yn y neillduad a'r gosodiad o honynt.

6 * Os yw neb yn [z] ddiargyhoedd, [a] yn wr un wraig, [b] † a chanddo blant ffyddlawn, [c] ‡ heb gael y gair o fod yn afradlawn, [d] neu yn anufudd:

z Gwel ar 1 Tim. 3. 2—7. a Lef. 21. 7, 14. Ezec. 44. 22. Mal. 2. 15. Luc 1. 5. 1 Tim. 3. 12. b Gen. 18. 19. 1 Sam. 2. 11, 22, 29, 30. a 3. 12, 13. 1 Tim. 3. 4, 5. c Diar. 28. 7. d adn. 10. 1 Thes. 5. 14.

* Am rai o'r cymhwysderau hyn, gwelsom o'r blaen, yn y cyfarwyddyd i Timothëus: gwel ar y mànau hyny. † "Plant ffyddlawn," neu blant yn credu: os nad oeddynt wedi maethu eu plant yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd, a'u plant o leiaf yn *proffesu* cristionogaeth, nid oeddynt i gael eu dewis yn henuriaid: peth chwithig iawn fuasai gweled y tadau yn blaenori yn eglwys Dduw, a'u plant yn addoli yn nheml yr eilunod; ‡ ac â gair cyffredin iddynt, eu bod yn blant afradlon, anufudd, a dilywodraeth: buasai hyny yn warth i'w rhieni a'u swydd, ac yn brawf nad oeddynt wedi cymmeryd nemawr o drafferth i addysgu eu plant yn ieuainc, nac i'w hennill at gristionogaeth wedi iddynt dyfu i fynu.

7 [e] * Canys rhaid i esgob fod yn ddiargyhoedd, [f] † fel goruchwyliwr Duw; [g] ‡ nid yn gyndyn, [h] ‖ nid yn ddigllawn, [i] § nid yn wingar, [k] nid yn darawydd, [l] nid yn budr-elwa;

e adn. 5. Phil. 1. 1. 1 Tim. 3. 1. f Mat. 24. 45. Luc 12. 42. 1 Cor. 4. 1, 2. 1 Pedr 4. 10. g Gen. 49. 6. 2 Pedr 2. 10. h Diar. 14. 17. a 15. 18. a 16. 32. Preg. 7. 9. Iago 1. 19, 20. i pen. 2. 3. Lef. 10. 9. Diar. 31. 4, 5. Es. 28. 7. a 56. 12. Ezec. 44. 21. Eph. 5. 18. 1 Tim. 3. 3. k 2 Tim. 2. 24, 25. l Es. 56. 10, 11.—Gwel ar 1 Tim. 3. 3, 8.—1 Pedr 5. 2.

* "Henuriaid" yn adn. 5, ac "esgob" yn yr adnod hon, dau enw ar yr un urdd o ddynion, ac nid dau enw yn dynodi gwahanol swyddau. Rhaid i esgob, neu henuriad eglwysig fod yn ddiargyhoedd yn mhob peth; † am ei fod ef megys goruchwyliwr Duw yn yr eglwys lle y mae, wedi ei osod gan Dduw i ofalu am ei deulu ef. ‡ Am hyny rhaid iddo ef beidio a bod yn ddyn cyndyn, ysdyfnig, a thrahaus, yn mynu ei ffordd a'i feddwl ei hun yn mhob peth, heb wrando ar, nac ymostwng i eraill mewn dim: mae rhai o'r dynion hyn wedi myned rywfodd i swyddau eglwysig, a chwedi bod o fawr niwed yn yr eglwysi lle yr oeddynt. ‖ Ysbryd anwahanol â'r "cyndyn" yw y "digllawn:" nis gall y cyndyn oddef ei wrthwynebu gan neb, heb fyned i nwydau a thymherau digllawn; ac yn yr ysbryd digllawn hwnw efe a rydd dŷ Dduw ar dân, neu a rwyga yr eglwys yn ofnadwy iawn. Gwareded yr Arglwydd ei holl eglwysi rhag y cyndyn a'r digllawn, na chaffo y rhai hyn eu gosod mewn swyddau i'w drygu! §.Am y tri gair a ganlyn, gwel ar 1 Tim. 3. 3.

8 Eithr [m] yn llettygar, [n] * yn caru daioni, [o] † yn sobr, ‡ yn gyfiawn, ‖ yn sanctaidd, § yn dymherus;

m Gwel ar 1 Tim. 3. 2. n 1 Sam. 18. 1. 1 Bren. 5. 1, 7. Salm 16. 3. Amos 5. 15. 1 Ioan 3. 14. a 5. 1. o pen. 2. 7. 2 Cor. 6. 4—8. 1 Thes. 2. 10. 1 Tim. 4. 12. a 6. 11. 2 Tim. 2. 22.

"Yn llettygar:" gwel ar 1 Tim. 3. 2. * Rhaid fod esgob yn "caru daioni;" yn caru gwneyd pob daioni ei hun, yn caru pleidio a chefnogi pob daioni a wnelo eraill, ac yn caru dynion da, a fyddo yn hoff ganddynt wneyd daioni. † "Yn sobr:" gwel ar 1 Tim. 3. 2, 11. ‡ Dylai fod yn gyfiawn fel aelod o gymdeithas wladol, yn ei holl ymddygiad a'i ymdriniaeth â dynion; ‖ a dylai fod yn sanctaidd, ac yn esampl o sancteiddrwydd, fel cristion, ger bron y byd, ger bron yr eglwys, a cher bron Duw. § Dylai hefyd fod yn dymherus yn mhob peth; yn ei ysbryd, yn ei chwennychiadau, ac yn ei ymarferiad a'i ddefnyddiad o bob peth bydol a chorphorol: nid yn anghymmedrol mewn dim.

9 [p] * Yn dal yn lew y [q] gair ffyddlawn, † yn ol yr addysg, ‡ fel y gallo gynghori yn [r] yr athrawiaeth iachus, [s] ‖ ac argyhoeddi y rhai sydd yn gwrth-ddywedyd.

p Job 2. 3. a 27. 6. Diar. 23. 23. 1 Thes. 5. 21. 2 Thes. 2. 15. 2 Tim. 1. 13. Judas 3. Dat. 2. 25. a 3. 3, 11. q 1 Tim. 1. 15. a 4. 9. a 6. 3. 2 Tim. 2. 2. r pen. 2. 1, 7, 8. 1 Tim. 1. 10. 2 Tim. 4. 3. s adn. 11. Act. 18. 28. 1 Cor. 14. 24. 2 Tim. 2. 25.

* Dylai hefyd fod yn ddyn wedi ei sefydlu yn dda yn ngwirioneddau mawrion yr efengyl; yn eu dàl hwy yn lew a chadarn yn ei grêd a'i broffes ei hun; yn eu dàl yn lew yn ei weinidogaeth; ac yn eu hamddiffyn yn ŵrol fel geiriau ffyddlawn a gwirioneddol Duw: † a hyn yn gwbl yn ol yr addysg a dderbyniasai efe gan Paul a'r apostolion eraill; heb ŵyro, na llygru y gwirionedd yn dwyllodrus a chyfrwys, fel y gwnâi llawer o gau-athrawon yn y dyddiau hyny. ‡ Fel hyn byddai yn addas a galluog i egluro, i ddàl allan, ac i amddiffyn athrawiaeth bur, ddilwgr, ac iachus Crist; a thrwy iawn gymhwysiad o hóni, i gysuro a dyddanu y saint, i'w hannog hwynt i'w dyledswyddau; ‖ ac i argyhoeddi a gorchfygu gwrth-ddywedwyr cyfeiliornus, rhoi taw ar eu dadleuon, a cheryddu eu gwrthgasrwydd.

10 [t] * Canys y mae llawer yn anufudd, † yn ofer-siaradus, † ac yn dwyllwyr meddyliau, [u] ‖ yn enwedig y rhai o'r enwaediad:

t Act. 20. 29. Rhuf. 16. 17, 18. 2 Cor. 11. 12—15. Eph. 4. 14. 2 Thes. 2. 10—12. 1 Tim. 1. 4. a 6. 3—5. 2 Tim. 3. 13. a 4. 4. 2 Pedr 2. 1, 2. 1 Ioan 2. 18. a 4. 1. Dat. 2. 6, 14. u Act. 15. 1, 24. Gal. 1. 6—8. a 2. 4. a 3. 1. a 4. 17—21. a 5. 1—4. Phil. 3. 2, 3.

* Yr oedd y cymhwysderau diweddaf uchod yn fwy angenrheidiol, o herwydd bod yn mhob màn, (yn enwedig yn Creta,) lawer o ddynion anufudd, di-lywodraeth, ac afrëolus; y rhai a gymmerent arnynt fod yn gristionogion, ond heb wybod dim am effaith crefydd Crist ar eu calonau. † Yr oedd y dynion hyn yn siaradwyr mawr am grefydd, ac yn ddadleuwyr hunanol a chyndyn am bethau gweigion ac ofer, nad oedd yn werth nac o un lles dadleu yn eu cylch; ‡ a thrwy ofer-siarad a dadleu felly yn gyfrwys, yr oeddynt yn twyllo meddyliau rhai gwirion, annwybodus, ac annwadal. ‖ A'r rhai amlaf a gwaethaf o bawb o'r siaradwyr anufudd hyny oedd, yr Iuddewon a broffesent gristionogaeth, ac a ddadleuent hefyd dros yr enwaediad, a defodau eraill y ddeddf seremonïol, fel pethau hanfodol i iachawdwriaeth.

11 [x] * Y rhai y mae yn rhaid cau eu safnau, [y] † y rhai sydd yn dymchwelyd tai cyfain, gan athrawiaethu y pethau ni ddylid, [z] ‡ er mwyn budr-elw.

x adn. 9. pen. 3. 10. Salm 63. 11. a 107. 42. Ezec. 16. 63. Luc

20. 40. Rhuf. 3. 19. 2 Cor. 11. 10. y Mat. 23. 14. 2 Tim. 3. 6 z Gwel ar adn. 7.—Es. 56. 10, 11. Jer. 8. 10. Ezec. 13. 19. Mica 3. 5, 11. Ioan 10. 12. 2 Pedr 2. 1—3.

* Yr oedd yn rhaid cau safnau y siaradwyr cyfeiliornus a thwyllodrus hyn, trwy athrawiaeth iachus, rhesymau annwrthwynebadwy, a thystiolaethau o air Duw; i ddangos yn eglur i bawb anghywirdeb a thuedd drwg eu hegwyddorion a'u daliadau hwynt, a drygioni eu dybenion, fel na byddai ganddynt ddim i'w ddywedyd i amddiffyn eu hunain. † Yr oedd y dynion hyn yn dra niweidiol; yr oeddynt yn dymchwelyd teuluoedd cyfain oddi wrth athrawiaeth bur yr efengyl, gan athrawiaethu pethau ni ddylid am y ddeddf seremonïol a thraddodiadau dynol a choel-grefyddol; ‡ a hyn oll, nid o annwybodaeth a cham-gymmeriad, ond er mwyn budr-elw gwael.

12 [a] * Un o honynt hwy eu hunain, † un o'u prophwydi hwy eu hunain, ‡ a ddywedodd, Y Cretiaid *sydd* bob amser [b] yn gelwyddog, || drwg-fwystfilod, § boliau gorddïog.

a Act. 17. 28. b Rhuf. 16. 18. 1 Tim. 4. 2. 2 Pedr 2. 12—15. Judas 8—13.

* Epimenides, prydydd Groegaidd, a brodor o ynys Creta, oedd yr un hwn o honynt hwy eu hunain; † a chyfrifid ef yn "brophwyd" gan ei gyd-wladwyr. Dywed un o'r hen ysgrifenwyr Groegaidd ei fod ef yn hoff iawn gan y duwiau; ond dywed un arall o honynt na rag-fynegodd efe erioed yr un ddamwain ddyfodawl. Dengys hyn fod y gair prophwyd yn cael ei ddefnyddio weithiau mewn ystyr helaeth, am un a gyfrifir yn athraw i ddynion mewn pethau dwyfol a chrefyddol. ‡ Gwyddai y gŵr uchod yn dda pa fath ddynion oedd y Cretiaid, a dywedodd mewn llinell o'i waith, eu bod bob amser yn dueddol iawn i ffalsedd a chelwydd, ac i dwyll a hoced yn mhlith eu gilydd; || eu bod yn debyg i fwystfilod rheibus a gwenwynig am eu creulondeb a'u ffyrnigrwydd; § ac yn nodedig am eu diogi a'u glythineb. Yr oedd yn y bobl hyn megys cyfrwysder y llwynog, gwenwyn y sarff, ffyrnigrwydd y llewod, a gwanc a diogi y moch: cymmaint oedd eu glythineb, fel yr oeddynt megys i gyd yn foliau; ac er eu bod yn ffyrnig a chreulawn fel llewod a'r bleiddiau, eto nis gallent braidd symmud gan faint eu boliau a'u brasder: am eu celwydd, yr oedd yn ddiareb gynt am ddyn celwyddog, ei fod yn *siarad fel Cretiad.* Yn adn. 10, soniai yr apostol yn benaf am y rhai o'r enwaediad; ond wrth yr adnod hon gallwn ddeall, fod llawer o'r Cretiaid hefyd yn mhlith y rhai "anufudd ac ofer-siaradus" a grybwyllir yno.

13 * Y dystiolaeth hon sydd wir. † Am ba achos [c] argyhoedda hwy yn llym, [d] ‡ fel y byddont iach yn y ffydd;

c pen. 2. 15. Diar. 27. 5. 2 Cor. 13. 10. 1 Tim. 5. 20. 2 Tim. 4. 2. d pen. 2. 2. Lef. 19. 17. Salm 119. 80. a 141. 5. 2 Cor. 7. 8—12. 1 Tim. 4. 6.

* Gwyddai yr apostol yn dda, mai gwir oedd y dystiolaeth uchod am y Cretiaid; ac yr oedd hyny yn ymddangos yn rhŷ amlwg yn ymddygiadau llawer o'r gau-athrawon a phroffeswyr crefydd yn yr ynys hono. † Am hyny gorchymynai yr apostol i Titus eu hargyhoeddi hwy yn llym, eu ceryddu yn ddiarbed, eu rhybuddio yn ddifrifol, a'u bygwth yn ofnadwy trwy air Duw: ‡ fel y byddai hyny yn foddion dàn fendith, i'w dwyn hwy i'r iawn allan o'u cyfeiliorni mewn barn ac ymarweddiad, ac fel y byddent iach yn y ffydd. Neu ynte, fel y byddai yr eglwysi yn iach yn y ffydd, wedi cau safnau y twyllwyr fel hyn, (adn. 11.) wedi dynoethi a datguddio rhagrithwyr, a chwedi rhybuddio cristionogion ansefydlog i wylied rhagddynt hwy. Gorchymynai Paul i Timothëus *addysgu y rhai gwrthwynebus mewn addfwynder;* (2 Tim. 2. 25.) ond yma mae yn gorchymyn i Titus eu *hargyhoeddi hwy yn llym.* Tybia rhai fod Timothëus yn dueddol i ormod poethder o ran ei ysbryd naturiol, a Thitus o'r tu arall yn rhŷ lwfr a meddal: tybia eraill mai yr achos o'r gwahaniaeth yn y cyngor i'r ddau oedd, y gwahaniaeth rhwng y ddau fath bobl oedd i'w hargyhoeddi a'u ceryddu; pobl Titus yn fwy anfad a drygionus na phobl Timothëus. Ond, yn wir, mae addfwynder cristionogol can belled oddi wrth gyd-oddefiad llyfraidd â phechod a chyfeiliornadau, ag ydyw oddi wrth ddiglonedd gorwyllt, a phoethder diamynedd: gwelir hyny yn amlwg yn ymddygiad yr apostol ei hun, ac yn wir yn ysbryd ac ymddygiad yr Arglwydd Iesu ei hun.

14 * Heb ddal ar [e] chwedlau Iuddewaidd, [f] † a gorchymynion dynion, [g] ‡ yn troi oddi wrth y gwirionedd.

e 1 Tim. 1. 4—7. a 4. 7. 2 Tim. 4. 4. f Es. 29. 13. Mat. 15. 9. Marc 7. 7. Col. 2. 22. g Gal. 4. 9. 2 Tim. 4. 4. Heb. 12. 25. 2 Pedr 2. 22.

* Fel y byddai yr eglwysi yn Creta yn iach yn y ffydd, cyngorai yr apostol i Titus eu rhybuddio hwy na ddalient ar chwedlau Iuddewaidd, traddodiadau dynol, ïe, a defodau seremonïol; † rhai nid oeddynt y pryd hwn ond gorchymynion dynion oll, am fod yr holl oruchwyliaeth Iuddewig yn awr wedi darfod; ‡ a'r dynion oedd yn siarad am y cyfryw bethau, ac yn ceisio eu gwasgu ar y cristionogion, yn troi oddi wrth wirionedd yr efengyl, ac yn ceisio troi eraill oddi wrth y gwirionedd hefyd.

15 [h] * Pur yn ddïau *yw* pob peth i'r rhai pur: [i] † eithr i'r rhai halogedig ‡ a'r di-ffydd, || nid pur dim, [k] § eithr halogedig yw hyd yn nôd eu meddwl a'u cydwybod hwy.

h Luc 11. 39—41. Act. 10. 15. Rhuf. 14. 14. 1 Cor. 6. 12, 13. a 10. 23, 25, 31. 1 Tim. 4. 3, 4. i Diar. 21. 4. Hag. 2. 13. Zec. 7. 5, 6. Mat. 15. 18. Rhuf. 14. 20, 23. 1 Cor. 11. 27—29. k 1 Cor. 8. 7. Heb. 9. 14. a 10. 22.

* Mae yn debyg mai am fwydydd glân ac aflan, y dychymmygion Phariseaidd am olchi dwylo, a defodau gwaelion eraill cyffelyb, yr oedd y dynion uchod yn ofer-siarad ac yn dadleu: ond i'r rhai pur, y gwir gredinwyr, y rhai a gawsent heddwch â Duw trwy Iesu Grist, ac y rhai y purwyd eu calonau a'u cydwybodau trwy ffydd yn ei waed ef; pur yn ddïau oedd pob peth i'r rhai hyn: pur ynddynt eu hunain, ac yn cael eu defnyddio yn bur a sanctaidd, trwy ganiatâd, yn ol gorchymyn, ac er gogoniant i Dduw. † Eithr i'r rhai halogedig gan bechod heb edifarâu am dano, a chael eu glanâu oddi wrtho; ‡ a'r rhai diffydd yn ngwirionedd yr efengyl, a digonolrwydd aberth a gwaed Crist; || nid pur dim i'r rhai hyny: oblegid am fod eu calonau heb eu sancteiddio, a'u cydwybodau yn gyfeiliornus, yn galed, ac yn halogedig; § felly yr oedd eu holl fwyniant a'u gweithredoedd, pa mòr ddiniwed bynag oeddynt ynddynt eu hunain; yr oeddynt yn halogedig gan falchder, cybydd-dod, cnawdolrwydd, a gelyniaeth yn erbyn Duw.

16 * Y maent yn [l] proffesu yr adwaenant Dduw; † eithr ar weithredoedd *ei* wadu y maent, [m] ‡ gan fod yn ffiaidd, [n] || ac yn anufudd, [o] § ac at bob gweithred dda yn anghymmeradwy.

l Num. 24. 16. Es. 29. 13. a 48. 1. a 58. 2. Ezec. 33. 31. Hos. 8. 2, 3. Rhuf. 2. 18—24. 2 Tim. 3. 5—8. Judas 4. m Job 15. 16. Dat. 21. 8, 27. n 1 Sam. 15. 22—24. Eph. 5. 6. 1 Tim. 1. 9. o Jer. 6. 30. Rhuf. 1. 28. 2 Tim. 3. 8.

* Yr oedd y dynion uchod, pa un bynag ai Iuddewon ai gau-athrawon o'r cenedloedd oeddynt, yn proffesu yr adwaenent Dduw, eu bod yn bobl iddo ef; ac yr oeddynt yn cymmeryd arnynt y gwyddent lawer am Dduw, ei feddwl, a'i bethau, efallai mwy na neb arall; gwel Rhuf. 2. 17—20. † Ond yr oedd eu harferion yn wrthwyneb hollawl, ac yn rhoddi y celwydd i'r broffes a'r hòniadau uchod: yr oeddynt mewn effaith yn gwadu ar weithredoedd yr hyn a broffesent ac a hònent mewn geiriau: yr oeddent ar weithredoedd yn gwadu Duw; yn arddangos y diystyrwch mwyaf ar ei awdurdod, ei ddaioni, a'i ddigofaint ef. ‡ Yr oedd eu holl ymddygiad gweithredol hwy, tuag at yr apostolion ac yn mhlith

yr eglwysi, yn eu profi hwynt yn elynion ffiaidd i Dduw a duwioldeb; ‖ yn anghrediniol o'r efengyl, ac yn anufudd i'r efengyl; § yn anfedrus ac annhueddol i bob gweithred dda, a phob peth a wnelent yn anghymmeradwy a gwrthodedig gan Dduw, a hwy eu hunain wedi eu rhoddi i fynu i dywyllwch a dallineb barnol.

PEN. II.

Paul yn hyfforddi Titus yn ei athrawiaeth.

* EITHR llefara di y pethau [a] † a weddo i athrawiaeth iachus:

a adn. 11—14. pen. 1. 9. a 3. 8. 1 Tim. 1. 10. a 6. 3. 2 Tim. 1. 13.

* Er dangos digon o wahaniaeth rhwng gwir weision Crist â'r gau-athrawon uchod, er argyhoeddi yr olaf, a chadw yr eglwysi rhag cael eu llygru ganddynt; mae yr apostol yn annog Titus i lefaru y pethau a weddai i athrawiaeth iachus, sef gwirioneddau iachusol ac iachâol yr efengyl; o ba rai, a thrwy ba rai, mae pob egwyddor gywir, ac ufudd-dod sanctaidd yn deilliaw. † Ac yr oedd yn *gweddu* i athrawiaeth iachus, fod pregethwyr yn gwasgu ar eu gwrandawwyr, yr ymarferiad o'u gwahanol ddyledswyddau oddi ar egwyddorion efengylaidd, fel y gwelwn yn yr adnodau canlynol.

2 * Bod o'r [b] hynaf-gwŷr yn [c] sobr, yn onest, [d] † yn gymmesur, [e] ‡ yn iach yn y ffydd, [f] ‖ y'nghariad, § mewn amynedd:

b Lef. 19. 32. Job 12. 12. Salm 92. 14. Diar. 16. 31. Es. 65. 20. c adn. 7. 1 Tim. 3. 4, 8, 11.—Phil. 4. 8. d pen. 1. 8. Act. 24. 25. 1 Cor. 9. 25. Gal. 5. 23. 2 Pedr 1. 6.—Marc 5. 15. Luc 8. 35. Rhuf. 12. 3. 2 Cor. 5. 13. 1 Pedr 4. 7. e Gwel ar pen. 1. 13. f Gwel ar 1 Tim. 1. 5.

* Dylai Titus gyngori yr hen frodyr i fod yn "sobr," yn wyliadwrus, ac yn ddichlynaidd, yn eu tymher a'n hymddygiad; gan ymarweddu yn "onest," yn ddifrifol, ac yn hardd yn mhob peth: † yn "gymhesur," neu yn gymmedrol yn mhob peth, mewn gwisgiad, mewn bwyta, ac mewn yfed, fel y gweddai i gristionogion, yn enwedig i henafgwyr cristionogol fod. ‡ Dylent hwy yn anad neb fod yn iach "yn y ffydd," er mwyn eu heneidiau eu hunain, ac fel y gallent arwain y rhai ieuainc i'r un iachusrwydd a chywirdeb mewn athrawiaeth a dyledswyddau. ‖ Dylent fod yn llawn o gariad tuag at Dduw, a thuag at yr holl saint er ei fwyn ef: ac yn llawn o gymmwynasgarwch a daioni cariadus tuag at ddynion o bob cenedl, math, a sefyllfa, fel eu cyd-grëaduriaid: § a dylent fod yn amyneddgar mewn trallodau a thramgwyddiadau, darostwng eu tymherau anfoddog a chroesion, a chyd-ymddwyn â gwendidau rhai eraill.

3 * *Bod* o'r hynaf-wragedd yr un ffunud mewn ymddygiad fel y [g] gweddai i sancteiddrwydd; [h] † nid yn enllibaidd, [i] ‡ nid wedi ymrôi i win lawer, [k] ‖ yn rhoi athrawiaeth o ddaioni:

g Rhuf. 16. 2. Eph. 5. 3. 1 Tim. 2. 9, 10. a 3. 11. a 5. 5—10. 1 Pedr 3. 3—5. h Gwel ar 1 Tim. 3. 8, 11. i Gwel ar pen. 1. 7. k adn. 4. Heb. 5. 12. Dat. 2. 20.

* Dylai gyngori yr hynaf-wragedd crefyddol hefyd i fod mewn ymddygiad fel y gweddai i sancteiddrwydd yn mhob peth, mewn gwisgiad, mewn ymddiddan, ac mewn pob arweddiad gŵyl a pharchus. † "Nid yn enllibaidd:" nid yn ddiaflaidd: gwel ar 1 Tim. 3. 11. Wrth fod hyn yn cael ei warafun i'r *gwragedd* yn hytrach na neb arall yn y ddau le, mae yn debyg y gwyddai yr apostol fod y gwragedd yn fwy tueddol i'r bai hwn na neb arall; ac atgas iawn o beth ar hen wragedd yw eu bod yn enllibaidd. ‡ Nid yn *dueddol*, a llai o lawer wedi *ymroi*, i yfed gwin, nac unrhyw ddiodydd cryfion meddwawl, dàn yr esgus o fod eisiau rhywbeth i gynnal natur adfeiliedig, ac i adgryfâu a nerthu ysbrydoedd llesg ac isel. Efallai bod llawer o honynt yn Creta yn dueddol i'r ddau beth uchod, enllib a gwin, yn eu hystâd o baganiaeth; ac yr oedd yn angenrheidiol gofal mawr i'w tòri hwynt oddi wrth yr hen arferion hyny wedi dyfod at gristionogaeth. ‖ Yn lle difyru eu hunain âg enllib a chwedlau gwrachïaidd, dylent roddi athrawiaeth o ddaioni; ymddiddanion grasol a buddiol, a phob cyngorion ac esamplau da, yn eu teuluoedd, ac yn mhlith eu cydnabod ieuangach na hwynt-hwy, er addysg i eraill.

4 * Fel y gallont wneuthur y [l] gwragedd ieuaingc yn bwyllog, [m] † i garu eu gwŷr, i garu eu plant,

l 1 Tim. 5. 2, 11, 14. m 1 Tim. 5. 14.

* Yn enwedig dylai yr hynaf-wragedd, trwy eu cyngorion a'u hesamplau, fod fel mamau i'r gwragedd ieuainc; ac ymdrechu eu gwneyd hwy yn "bwyllog" a sobr, a gochel pob peth a fyddai yn debyg i ysgafnder a gwammalrwydd, yr hyn fyddai yn anweddus iawn i'w hystâd briodasol, ac i'w proffes gristionogol. Mae angen hyn ar y gwragedd ieuainc o hyd, yn mhob gwlad; ond nid cymmaint, efallai, ag oedd y pryd hwnw yn Creta, yn mhlith paganiaid gwylltion ac ammhwyllog: gwel ar pen. 1. 12. † Gan fod yn naturiol i wragedd ieuainc garu eu gwŷr a'u plant, tybir mai nid gorchymyn eu *caru* yr oedd yr apostol yma; ond yn hytrach gorchymyn eu caru yn *weddaidd*, yn *gymmedrol*, ac *fel y dylid;* cyflawni dyledswyddau gwragedd a mamau yn weddus, a chyda hyfrydwch; gan ochelyd pob rhith o anffyddlondeb i'w gwŷr priod, a difaterwch am feithriniad naturiol, a lles ysbrydol eu plant. Un peth yw caru gwŷr a phlant yn naturiol, yr hyn a all fod yn gnawdol ac ynfyd; peth arall yw eu caru yn sanctaidd, yn grefyddol, ac yn weddus.

5 [n] * Yn sobr, yn bur, † yn gwarchad gartref, [p] ‡ yn dda, [q] ‖ yn ddarostyngedig i'w gwŷr priod, [r] § fel na chabler gair Duw:

n Gwel ar adn. 2. o Gen. 16. 8, 9. a 18. 9. Diar. 7. 11, 12. a 31. 10—31. 1 Tim. 5. 13. p Act. 9. 36, 39. 1 Tim. 5. 10. q Gen. 3. 16. 1 Cor. 11. 3. a 14. 34. Eph. 5. 22—24, 33. Col. 3. 18. 1 Tim. 2. 12. 1 Pedr 3. 1—5. r 2 Sam. 12. 14. Salm 74. 10. Rhuf. 2. 24. 1 Tim. 5. 14. a 6. 1.

* "Yn sobr, yn bur:" yn gall ac yn ddiwair, yw y geiriau hyn yn ol y Saesoneg. Mae yn debyg fod y geiriau Groeg *(Sophromas, agnas,)* o ystyr helaeth; y cyntaf yn arwyddo sobrwydd a challineb i lywodraethu y tymherau, a'r ail yn arwyddo purdeb diwair yn y meddwl a'r holl ymddygiad. † Dylai y gwragedd ieuainc gael eu dysgu i warchod gartref hefyd, a thrin eu hachosion teuluaidd fel y dylent: *gartref* y dylent fod, ac nid yn rhodiena allan, ac o dŷ i dŷ: a *gwarchod* gartref, nid yn segur a diffrwyth yno. Mae digon o waith gartref i bob gwraig; ac nid oes nemawr o drefn ar gartref y gwragedd hyny sydd yn hoff o grwydro allan. Pan ofynodd yr angel i Abraham pa le yr oedd Sarah ei wraig, "Wele hi yn y babell," ebai efe: (Gen. 18. 9.) merched yr hon ydych chwi, wragedd, os ydych yn gwneuthur fel hithau. ‡ "Yn dda:" yn dda tuag at Dduw, yn dda gartref, tuag at eu gwŷr, eu plant, a'u gweinidogion, ac yn dda tuag at bawb o'u hamgylch, yn y byd ac yn yr eglwys. ‖ Gwel ar Ephes. 5. 23, 24; Colos. 3. 18. § Mae ymddygiad hardd a gweddaidd gwragedd crefyddol yn anrhydedd i'r efengyl, a'r gwrthwyneb yn ddianrhydedd mawr, ac yn achos o gabledd arni, yn mhlith annuwiolion gwatwarus ac erlidgar.

6 * Y [s] gwŷr ieuaingc yr un ffunud † cynghora i fod yn sobr;

s Job 29. 8. Salm 148. 12. Preg. 11. 9. a 12. 1. Joel 2. 28. 1 Pedr 5. 5. 1 Ioan 2. 13, 14.

* Dylai Titus hefyd gyngori y gwŷr ieuainc, pa un bynag ai priod ai heb eu priodi, † i fod yn "sobr," yn gymmedrol, yn gall, ac yn ddoeth: gan ymgadw rhag pob gwagedd a chwantau ieuenctid, a chyflawni eu gwahanol ddyledswyddau yn ofn Duw. Mae yn athrist meddwl, leied o'r sobrwydd uchod a welir ar lawer o'n gwŷr ieuainc proffesedig yn ein heglwysi!

7 [t] * Gan dy ddangos dy hun ym mhob peth yn esampl i weithredoedd da: † *a dangos*, mewn athrawiaeth, [u] anllygredigaeth, [x] ‡ gweddeidd-dra, [y] || purdeb;

t Act. 20. 33—35. 2 Thes. 3. 9. 1 Tim. 4. 12. 1 Pedr 5. 3. u 2 Cor. 2. 17. a 4. 2. x Gwel ar c. adn. 2. y 2 Cor. 1. 12. a 8. 8. Eph. 6. 24. Phil. 1. 10.

* Ac yr oedd yn dra angenrheidiol i Titus osod ei hun yn mhob peth yn esampl i weithredoedd da: nis gallai ddysgwyl nemawr o effaith dda ar ei gyngorion goreu i eraill, heb ei fod ef ei hun yn rhoddi esampl ymarferol o ddaioni hefyd. Mae cyngorion heb esampl yn gyffelyb i feddyg yn rhoi moddion i eraill, ac ef ei hun yn gwrthod eu cymmeryd, er ei fod yn yr un clefyd. † Yn ei athrawiaeth, neu ei addysgiadau cyhoeddus, hefyd, dylai ofalu am gadw a dangos "anllygredigaeth;" heb chwanegu dim at y gwirionedd, tynu oddi wrtho, ei ŵyro, na'i gymmysgu; trwy yr hyn y llygrid ac y niweidid natur ac effeithiau sanctaidd y gwirionedd dwyfol. ‡ Dylai hefyd ddangos "gweddeidd-dra" sanctaidd yn mhob peth; gan ochelyd pob ysgafnder a digrifwch, pob cymhendod ymadrodd, a phob peth nad oedd yn gyson â'r difrifwch a weddai i bethau mawrion Duw a thragywyddoldeb. || Dylai hefyd feddiannu ac arfer "purdeb;" neu uniondeb amcan a dyben yn ei holl waith; sef gogoniant Duw a lles eneidiau: heb geisio clod a manteision bydol, na dangos fod ganddo unrhyw amcan neu ddyben hunanol mewn dim a wnelai.

8 [z] * Ymadrodd iachus yr hwn ni aller beio arno; [a] † fel y byddo i'r hwn *sydd* yn y gwrthwyneb [b] gywilyddio, [c] heb ganddo ddim drwg i'w ddywedyd am danoch chwi.

z Marc 12. 17, 28, 32, 34. 1 Tim. 6. 3. a Neh. 5. 9. 1 Tim. 5. 14. 1 Pedr 2. 12, 15. a 3. 16. b Es. 66. 5. Luc 13. 17. 2 Thes. 3. 14. c Phil. 2. 14—16.

* Rhaid iddo chwilio am eiriau cymmeradwy, ac arfer "ymadrodd iachus yr hwn nis gellid beio arno," fel yn gyfeiliornus, yn amwys, yn annealladwy, neu mewn un modd o duedd niweidiol. † Fel hyn, wrth i'r gwirionedd dwyfol gael ei osod allan mewn ymadroddion eglur, argyhoeddiadol, ac ysgrythyrol; nis gallai y gwrthwynebwyr, pa un bynag ai paganiaid ai cyfeiliornwyr a fyddent, gael dim yn wàn, yn ddisylwedd, neu yn anwyliadwrus a byrbwyll, i ddywedyd drwg am Titus a'i frodyr o'i herwydd; ond bod i'r rhai a wrthwynebent yn hytrach gywilyddio, am geisio beio ar yr hyn oedd mòr amlwg yn dda ac yn llesol, yn ei natur a'i effeithiau.

9 * *Cynghora* [d] weision i fod yn ddarostyngedig i'w meistriaid eu hun, [e] † *ac* i ryngu bodd *iddynt* ym mhob peth; ‡ nid yn gwrthddywedyd:

d Eph. 6. 5—8. Col. 3. 22—25. 1 Tim. 6. 1, 2. 1 Pedr 2. 18—25. e Eph. 5. 24.

* Pa un bynag ai gweision cyflog ai ynte caethweision, dylai gweision o bob math fod yn ddarostyngedig i'w meistriaid eu hun; † ac ymdrechu bob amser i ryngu bodd iddynt yn mhob peth, a rhoddi llawn foddlonrwydd iddynt yn eu holl ymddygiad, ac yn mhob dyledswydd: ‡ ac yn enwedig ni ddylent wrthddywedyd, neu ateb drachefn, yn ol y Saesoneg: ni ddylent wneyd felly gydag anfoesgarwch a phoethder pan feiid arnynt, er, efallai, nad oeddynt ar fai; ond dylent ddyoddef eu ceryddu yn ddystaw, yn hytrach nac ymdaeru â'u meistriaid, a rhoddi ychwaneg o dramgwydd, neu gael eu cyhuddo o daëogrwydd a chrasder. Gwel ar 1 Tim. 6. 1, 2; a mànau eraill lle y sonir am weision.

10 * Nid yn [f] darn-guddio, [g] † ond yn dangos pob ffyddlondeb da; ‡ fel yr [h] harddont [i] athrawiaeth [k] Duw ein Hiachawdwr ym mhob peth.

f 2 Bren. 5. 20—24. Luc 16. 6—8. Ioan 12. 6. Act. 5. 2, 3. g Gen. 31. 37, 38. a 39. 8, 9. 1 Sam. 22. 14. a 26. 23. Salm 101. 6. Mat. 24. 45. Luc 16. 10. 1 Cor. 4. 2. h Mat. 5. 16. Eph. 4. 1. Phil. 1. 27. a 2. 15, 16. a 4. 8. 1 Pedr 2. 12. a 3. 16. i 1 Tim. 5. 17. a 6. 1, 3. 2 Ioan 9. k Gwel ar pen. 1. 3. 1 Tim. 1. 1.—Es. 12. 2.

* Dylent hefyd yn gydwybodol ochelyd darn-guddio, neu chwilèna eiddo eu meistriaid yn eu habsenoldeb, i'w defnyddio at eu hachos eu hunain, neu i'w rhoddi neu eu gwerthu i eraill. Mae y gair *(nosphizomenous)* a gyfieithir yma "darn-guddio," *cadw yn ol ran o werth unrhyw beth*, ac a ddefnyddir yn achos *Ananias, yn darn-guddio peth*, lle yr oedd yn cymmeryd arno osod y *cwbl* o werth y tir wrth draed yr apostolion, (Act. 5. 1, 2.) Mae yn debyg y byddai hyn yn cael ei wneyd yn aml gan weision mewn gwledydd paganaidd; mòr gyffredin, fel mae yr un gair Lladin *(fur)* yn cael ei arfer am *was* ac am *leidr*. Gobeithio pethau gwell am weision yn ein gwlad gristionogol ni. † Dylai gweision cristionogol arfer pob gonestrwydd yn y pethau hyn, a dangos pob ffyddlondeb da, mewn pob ymddiried a roddir iddynt, yn absenoldeb eu meistriaid yn gystal ag yn eu gŵydd: ‡ ac fel hyn hwy a harddant athrawiaeth Duw ein Hiachawdwr yn mhob peth. Er bod athrawiaeth Duw yn anfeidrol hardd a gogoneddus ynddi ei hun; eto ni welai paganiaid yr harddwch hyny ynddi, ond barnent hi yn ffolineb; a chadarnêid hwy yn y dŷb hòno trwy gam-ymddygiadau proffeswyr; ac ar y llaw arall, byddai ymddygiad gonest a ffyddlawn proffeswyr, yn dangos harddwch yr athrawiaeth ger bron anghredinwyr.

11 [l] * Canys ymddangosodd gras Duw, † yr hwn sydd yn dwyn iachawdwriaeth [m] ‡ i bob dyn;

l pen. 3. 4. Salm 84. 11. Zec. 4. 7. a 12. 10. Ioan 1. 14, 16, 17. Act. 11. 23. a 13. 43. a 20. 24. Rhuf. 4. 4, 5. a 5. 2, 15, 20, 21. a 11. 5, 6. 2 Cor. 6. 1. Gal. 2. 21. Eph. 1. 6, 7. a 2. 5, 8. 2 Thes. 2. 16. 1 Tim. 1. 14. Heb. 2. 9. a 12. 15. 1 Pedr 1. 10—12. a 5. 5, 12. m Salm 96. 1—3, 10. a 98. 1—3. a 117. Es. 2. 2, 3. a 45. 22. a 49. 6. a 52. 10. a 60. 1—3. Mat. 28. 19. Marc 16. 15. Luc 3. 6. a 24. 47. Act. 13. 47. Rhuf. 10. 18. a 15. 9—19. Eph. 3. 6—8. Col. 1. 6, 23. 2 Tim. 4. 17.

* Yr oedd natur cristionogaeth yn gofyn, am i'r fath gyngorion gael eu rhoddi a'u cyflawni, oblegid yr oedd efengyl gras Duw, yn enwedig yr oruchwyliaeth o hòni dàn y Testament Newydd; (Ephes. 3. 2.) yr hon sydd effaith rhad ras Duw, a datguddiad o hòno i ddynion; —yr oedd hon yn awr wedi ymddangos yn ei holl ddysgleirdeb a'i gogoniant, fel codiad haul; † ac yn dwyn y newyddion da am iachawdwriaeth, gwaredigaeth rhag digofaint, ac yn dangos y ffordd i fywyd tragywyddol, ‡ i bob dyn, Iuddewon a chenedloedd, hen ac ieuainc, meistriaid a gweision yn ddiwahaniaeth; a gorchymynid i weinidogion yr efengyl hon ei phregethu i bawb, ac i alw pawb, pa le bynag y caffent gyfle. "Canys gras Duw yr hon sydd yn dwyn iachawdwriaeth, a ymddangosodd i bob dyn:" felly y mae gosodiad y geiriau yn ol y Saesoneg: ond nyni sy debycaf i'r Groeg.

12 * Gan ein [n] dysgu ni i [o] wadu annuwioldeb a chwantau bydol, [p] † a byw [q] yn sobr, ac yn gyfiawn, [r] ac yn dduwiol, [s] ‡ yn y byd sydd yr awr hon;

n Mat. 28. 20. Ioan 6. 45. 1 Thes. 4. 9. Heb. 8. 11. 1 Ioan 2. 27. o Es. 55. 6, 7. Ezec. 18. 30, 31. a 33. 14, 15. Mat. 3. 8—10. a 16. 24. Rhuf. 6. 4—6, 12. a 8. 13. a 13. 12, 13. 1 Cor. 6. 9—11. 2 Cor. 7. 1. Gal. 5. 24. Eph. 4. 22—25. Col. 3. 5—9. Iago 4. 8—10. 1 Pedr 2. 12. a 4. 2—5. 2 Pedr 1. 4. a 2. 20—22. 1 Ioan 2. 15—17. Judas 18. p Salm 105. 45. Ezec. 36. 27. Mat. 5. 19, 20. Luc 1. 6, 75. a 3. 9—13. Act. 24. 16, 25. Rhuf. 6. 19. 1 Tim. 4. 12. 1 Pedr 1. 14—18. 2 Pedr 1. 5—8. a 3. 11. 1 Ioan 2. 6. Dat. 14. 12. q Gwel ar adn. 4. r Salm 4. 3. 2 Cor. 1. 12. 2 Pedr 2. 9. s Ioan 14. 30. a 17. 14, 15. Rhuf. 12. 2. Gal. 1. 4. Eph. 2. 2. 2 Tim. 4. 10. 1 Ioan 5. 19.

* Mae yr efengyl rasol hon mewn modd arbenig, yn dysgu dynion i wadu annuwioldeb a chwantau bydol: i ffieiddio, i wrthod, ac i ymwadu yn hollawl, â phob eilun-addoliaeth, drygioni, aflendid, ac annuwioldeb calon a buchedd: pob annuwioldeb, fel tòriad o orchymynion y llêch *gyntaf;* a phob chwantau bydol, fel

tòriad o orchymynion yr *ail* lêch. Mae yr efengyl yn dysgu y *dylem* wadu annuwioldeb a chwantau bydol, ac hefyd pa *fodd i gael nerth* i ymwadu â hwynt, ac yn rhoddi y calondid a'r annogaethau cryfaf i hyny. † Gydag ymwadu â'r pethau drwg uchod ar y naill law, mae yr efengyl hefyd yn dysgu dynion mewn pethau daionus ar y llaw arall: yn 1. I fyw yn sobr tuag atom ein hunain; i lywodraethu ein blysiau, ein nwydau, a'n defnyddiad o bethau y byd hwn, mewn cymmedroldeb a gweddeidd-dra. Yn 2. I fyw yn gyfiawn tuag at ddynion; i dalu i bawb eu dyledion, ac i ymddwyn yn onest ac yn gymmwynasgar tuag at bob dyn; gan wneuthur i eraill fel y dymunem iddynt hwy wneuthur i ninnau, hyd eithaf ein gallu. Ac yn 3. I fyw yn dduwiol tuag at Dduw; mewn pob cyflawniadau o addoliad dirgel, teuluaidd, a chyhoeddus, yn ol ei air ef, ac yn yr ymarferiad o bob gras tumewnol, er gogoniant i enw yr Arglwydd. ‡ Mae hyn oll i gael ei wneyd yn y byd sydd yr awr hon; byd llawn o bechod, temtasiynau, a maglau; ac i gael ei barâu tra byddom ni yn y byd drwg presenol. Am fyw yn dduwiol, gwel ar 2 Tim. 3. 12.

13 [t] * Gan ddisgwyl am y [u] gobaith gwynfydedig, [x] † ac ymddangosiad gogoniant y Duw mawr, [y] ‡ a'n Hiachawdwr Iesu Grist:

t 1 Cor. 1. 7. Phil. 3. 20, 21. 2 Tim. 4. 8. 2 Pedr 3. 12—14. u pen. 1. 2. a 3. 7. Rhuf. 5. 5. a 8. 24, 25. a 15. 13. Col. 1. 27. 2 Thes. 2. 16. Heb. 6. 18, 19. 1 Pedr 1. 3. 1 Ioan 3. 3. x Job 19. 25—27. Es. 25. 9. Mat. 16. 27. a 25. 31. a 26. 64. Marc 8. 38. a 14. 62. 1 Tim. 6. 13, 14. Heb. 9. 28.—2 Cor. 4. 4, 6. y pen. 3. 4, 6. 2 Pedr 3. 18. 1 Ioan 4. 14.

* Y rhai a ddysgir i fyw fel y dywedwyd uchod gan yr efengyl, mae hi yn eu dysgu i fyw felly mewn dysgwyliad am y gobaith gwynfydedig sydd i bobl Dduw, trwy ffydd yn ei Fab ef; sef y gobaith am annhraethol a thragywyddol wynfyd yn y byd a ddaw; † yr hwn a gair ei fwynâu yn berffaith yn ymddangosiad gogoniant y Duw mawr, sef ein Hiachawdwr Iesu Grist, yr hwn a ddaw yn y dydd diweddaf yn ngogoniant ei Dad, i gael ei ogoneddu yn ei saint, ac i fod yn rhyfeddol yn y rhai oll sydd yn credu. ‡ Yr un Person yn ddiammau a feddylir wrth y "Duw mawr," â'r "Iachawdwr Iesu Grist;" yr Iachawdwr Iesu Grist yw y Duw mawr, yr hwn a ordeiniodd y Tad i farnu y byd yn y dydd diweddaf, pryd yr ymddengys efe yn ei anfeidrol ogoniant fel y dywedwyd: ac nid ydym yn darllen am *ymddangosiad y Tad* yn un màn yn y Testament Newydd. Mae yn y geiriau uchod dystiolaeth gref ac annymchweladwy o wir Dduwdod yr Arglwydd Iesu; gelwir ef, nid yn unig yn Dduw, ond hefyd yn Dduw mawr, *(megalou Theou)* yr hyn nis gellir ei ddeall am Dduw gwneuthurol, neu swyddol, rhyw ddynion.

14 * Yr hwn a'i [z] rhoddes ei hun drosom, [a] † i'n prynu ni oddi wrth bob anwiredd, [b] ‡ ac i'n puro ni [c] iddo ei hun [d] ‖ yn bobl briodol, [e] § awyddus i weithredoedd da.

z Mat. 20. 28. Ioan 6. 51. a 10. 15. Gal. 1. 4. a 2. 20. a 3. 13. Eph. 5. 2, 23—27. 1 Tim. 1. 15. a 2. 6. Heb. 9. 14. 1 Pedr 3. 18. Dat. 1. 5. a 5. 9. a Gen. 48. 16. Salm 130. 8. Ezec. 36. 25. Mat. 1. 21. Rhuf. 11. 26, 27. b Mal. 3. 3. Mat. 3. 12. Act. 15. 9. Iago 4. 8. 1 Pedr 1. 22. 1 Ioan 3. 3. c Act. 15. 14. Rhuf. 14. 7, 8. 2 Cor. 5. 14, 15. d Ex. 15. 16. a 19. 5, 6. Deut. 7. 6. a 14. 2. a 26. 18. Salm 135. 4. 1 Pedr 2. 9. e adn. 7. pen. 3. 8. Num. 25. 13. Act. 9. 36. Eph. 2. 10. 1 Tim. 2. 10. a 6. 18. Heb. 10. 24. 1 Pedr 2. 12.

* "Yr hwn," sef y "Duw mawr," a'r "Iachawdwr Iesu Grist" a enwyd uchod, a'i rhoddes ei hun drosom ni, yn Fachniydd yn ein deddfle, i farw yn y natur ddynol, fel aberth ac iawn dros ein pechodau, ac i effeithio ein iachawdwriaeth: † fel trwy ei aberth a'i iawn ef, y prynai efe ni oddi wrth y gosp ddyledus am ein holl anwiredd; a thrwy ei nerth a'i ras y gwaredai ni oddi wrth arglwyddiaeth a halogrwydd ein holl dueddiadau pechadurus; ‡ ac fel y purai ni trwy ei air a'i Ysbryd, a thrwy oruchwyliaethau cyd-weithredol ei ragluniaeth, oddi wrth holl weddillion halogrwydd, ‖ fel y byddem yn bobl briodol a chyssegredig iddo *ef ei hun*, fel ein Harglwydd a'n Duw, i'w addoli a'i wasanaethu ef, a byw er ei ogoniant. § Fel hyn y mae pob gwir gredadyn, holl waredigion Iesu, o egwyddor yn gystal a rhwymau, yn awyddus i weithredoedd da; ymhyfrydu mewn ufudd-dod efengylaidd; yn ymgais yn awyddus am bob cyfle i wneyd daioni; fel y cybydd am chwanegu ei gyfoeth.

15 * Y pethau hyn [f] llefara † a chynghora, ac ‡ argyhoedda gyd â [g] ‖ phob awdurdod. [h] Na ddiystyred neb di.

f Gwel ar pen. 1. 13. 2 Tim. 4. 2. g Mat. 7. 29. Marc 1. 22, 27. Luc 4. 36. h 1 Tim. 4. 12.

* Gan fod y pethau uchod yn cynnwys crynodeb o wirioneddau pwysig a dyledswyddau cristionogaeth, gorchymynai yr apostol i Titus eu llefaru hwynt yn amlwg a phenderfynol; † i gyngori i grediniaeth ac ymarferiad o honynt, yn y modd egluraf a mwyaf grymus a chymhelliadol; ‡ ac i argyhoeddi gyda phob awdurdod, yn enw Crist, y dynion hyny a'u hesgeulusent, a'u gwyrent, neu a'u gwrthwynebent. ‖ Fel hyn trwy weithredu ac ymddwyn yn gadarn, yn ŵrol, yn ddoeth, ac yn ffyddlawn, yn ei holl weinidogaeth, nis gallai neb ei ddiystyru ef na'i ymadroddion, heb fod yn amlwg yn diystyru Crist yr hwn a'i danfonodd ef. Rhaid i'r pethau uchod a'u cyffelyb gael eu trin gyda'r fath ffyddlondeb, doethineb, a sobrwydd; ag a godo y gweinidog a'i swydd, uwchlaw diystyrwch a dirmyg y gelynion mwyaf gwatwarus, ffroen-uchel, a thrahaus: dylai y gweinidog ymddwyn yn mhob peth, fel na roddo achos i neb ei ddiystyru ef.

PEN. III.

Y mae Paul yn hyfforddi Titus pa bethau a ddysg, a pha bethau ni ddysg efe iddynt.

[a] * DWG ar gôf iddynt [b] fod yn ddarostyngedig i'r tywysogaethau a'r awdurdodau, [c] † fod yn ufudd, ‡ fod yn barod i bob gweithred dda.

a Es. 43. 26. 1 Tim. 4. 6. 2 Tim. 1. 6. 2 Pedr 1. 12. a 3. 1, 2. Judas 5. b Deut. 17. 12. Diar. 24. 21. Preg. 8. 2—5. a 10. 4. Jer. 27. 17. Mat. 22. 21. a 23. 2, 3. Rhuf. 13. 1—7. 1 Tim. 2. 2. 1 Pedr 2. 13—17. c adn. 8, 14. pen. 2. 14. 1 Cor. 15. 58. Gal. 6. 9, 10. Eph. 2. 10. Phil. 1. 11. Col. 1. 10. 1 Tim. 5. 10. 2 Tim. 2. 21. Heb. 13. 21.

* Gwasgai yr apostol ar feddwl Titus hefyd, i gyngori y Cretiaid yn aml ac yn ddifrifol, i fod yn ddarostyngedig i'r tywysogaethau a'r awdurdodau; neu y llywodraethwyr gwladol oedd yr Arglwydd yn ei ragluniaeth wedi eu rhoddi arnynt: ac hyd yn nôd y swyddogion iselaf a osodid gan y tywysogaethau a'r awdurdodau hyny. Eilun-addolwyr paganaidd oedd y rhai hyn, a dynion gorthrymus a niweidiol yn gyffredin oeddynt, yn enwedig i'r cristionogion; eto yr oedd yr apostol tra bu yn Creta, wedi eu hannog hwy i ymddarostwng i'r rhai hyn, yn mhob peth ond mewn materion o gydwybod tuag at Dduw: ac yma mae yn annog Titus i ddwyn hyny ar gof iddynt, fel na byddai diianrhydedd ar yr efengyl trwy eu hymddygiad terfysglyd a gwrthryfelgar hwynt. Tybia rhai y byddai yr athrawon Iuddewaidd yn dysgu y cristionogion, nad oedd achos iddynt ymostwng i lywodraethwyr paganaidd. † Bod yn ufudd i lywodraethwyr, neu benaethiaid, mae yn debyg, yw ystyr y gair Groeg *peitharchein*, a ddefnyddir yn y fàn hon, ac felly y cyfieithir ef yn y Saesoneg: ‡ a chyda hyny bod yn barod i bob gweithred dda i bawb, hyd yn nôd i'w cymmydogion paganaidd, yn gystal ag i'w brodyr cristionogol.

2 [d] * Bod heb gablu neb, [e] † yn anymladdgar, [f] ‡ yn dirion, gan ddangos pob addfwynder tu ag at [g] bob dyn.

d Salm 140. 11. Diar. 6. 19. Act. 23. 5. 1 Cor. 6. 10. 2 Cor. 12. 20. Eph. 4. 31. 1 Tim. 3. 11. Iago 4. 11. 1 Pedr 2. 1. a 3. 10. a 4. 4. 2 Pedr 2. 10. Judas 8, 10. e Diar. 19. 19. a 25. 24. 1 Tim. 3. 3. f 2 Sam. 22. 36. Es. 40. 11. Mat. 11. 29. 2 Cor. 10. 1. Gal. 5. 22. a 6. 1. Eph. 4. 2. Col. 3. 12, 13. 1 Thes. 2. 7.

2 Tim. 2. 24, 25. Iago 1. 19, 20. a 3. 17. 1 Pedr 3. 8. 9. 19. Gal. 6. 10. 1 Thes. 5. 14, 15. 1 Pedr 2. 17. g 1 Cor.

* Dylent wylied rhag cablu neb, na gwaradwyddo neb; ïe, dylent beidio taenu chwedlau drwg gwirionedd-ol am neb, oni byddai angenrheidrwydd iddynt wneyd hyny. Beth bynag, a pha mòr ddrwg bynag y byddo dyn'on, dyledswydd cristionogion yw bod yn ddystaw am bawb, bod heb gablu nac enllibio neb: a gwŷn fyd na ddaliai proffeswyr crefydd ar y cyngor hwn. † Nid yn gecraidd, neu gynhenllyd, yn ol y Saesoneg, yr hyn sydd o natur ymladd, ac yn arwain yn aml i ymladd: dylai cristionogion wylied rhag ysbryd felly, na byddont yn dueddol i'r cyfryw beth; ‡ ond yn hytrach yn dirion, ac addfwyn yn eu hysbryd a'u hymddygiadau tuag at bob dyn.

3 [h] * Canys yr oeddym ninnau hefyd gynt yn [i] annoethion, [k] † yn anufudd, [l] ‡ yn cyfeiliorni, [m] || yn gwasanaethu chwantau ac amryw feluswedd, [n] § gan fyw mewn drygioni a chenfigen, yn [o] ddigasog, yn casâu ein gilydd.

h Rhuf. 3. 9—20. 1 Cor. 6. 9—11. Eph. 2. 1—3. Col. 3. 7. 1 Pedr 4. 1—3. i Diar. 1. 22, 23. a 8. 5. a 9. 6. k Mat. 21. 29. Act. 9. 1—6. a 26. 19, 20. Eph. 2. 2. 1 Pedr 1. 14. l Es. 44. 20. Ob. 3. Luc 21. 8. Gal. 6. 3. Iago 1. 26. Dat. 12. 9. a 13. 14. m Ioan 8. 34. Rhuf. 6. 17, 22. n Rhuf. 1. 29—31. 2 Cor. 12. 20. 2 Tim. 3. 2, 3. o Salm 36. 2. Dat. 18. 2.

Er annog Titus yn fwy i wasgu y cyngorion uchod ar y Cretiaid crefyddol, mae yr apostol yn dwyn ar gof iddo beth ydoedd y cristionogion yn gyfiredinol, ac efe ei hun a Thitus yn bersonol, cyn eu tröedigaeth. * Yr oeddynt hwy eu hunain hefyd gynt yn annoethion; yn annwybodus am Dduw, am danynt eu hunain, ac am y gwirionedd. † Y pryd hwnw yr oeddynt yn anufudd i Dduw yn eu buchedd gyffredinol; ac yn anufudd i'r rhai a osodai Duw i lywodraethu arnynt; ‡ am eu bod wedi cyfeiliorni trwy dwyll Satan a'u calonau eu hunain, ac yn cael eu harwain ar gyfeiliorn allan o'r iawn ffordd. || Y pryd hwnw hefyd, yr oeddynt yn gaeth-weision i'w chwantau ac amryw feluswedd cnawd-ol; § yn byw mewn drygioni yn erbyn Duw, a chenfigen a digasedd tuag at eu gilydd; Iuddewon yn casâu cenedloedd, a chenedloedd yn casâu Iuddewon, a'r naill gymmydog yn casâu y llall, yn debycach i wylltfilod rheibus nac i ddynion rhesymol. "Yn *ddiyasog:" stugêtoi:* yn atgas fel uffern. O'r gair uchod y daeth y gair *styx*, enw afon ddychymmygol, a ddywedir fod yn uffern.

4 * Eithr pan [p] ymddangosodd [q] daioni a chariad [r] † Duw ein Hachubwr tu ag at ddyn,

p Rhuf. 5. 20, 21. Eph. 2. 4—10. q Gwel ar pen. 1. 3. a 2. 10. 1 Tim. 1. 1. a 2. 3. a 4. 10. r pen. 2. 11. 2 Tim. 1. 10. Heb. 9. 26.

* Gallasai Duw yn gyfiawn adael yr apostol a Thitus, yn nghyd â'u holl frodyr cristionogol, i farw yn gondemniol yn eu pechodau; oblegid cyn eu dychweliad, nid yn unig yr oeddynt yn haeddu hyny, ond yr oeddynt hefyd yn llestri digofaint wedi eu cymhwyso i golledigaeth. Eto, efe a'u harbedodd hwynt; ac nid hyny yn unig, ond efe a wnaeth gyfnewidiad grasol a bendithiol ar eu cyflwr a'u hymarweddiad hwynt, pan ymddangosodd ei ryfeddol ddaioni a'i gariad ef tuag at ddyn pechadurus, yn rhoddiad ei Fab, a'i ddanfoniad ef i'r byd, i gadw pechaduriaid euog a cholledig. † Dylid sylwi mai *Duw Dad* a feddylir yma wrth *Dduw ein Hachubwr;* yr hyn a ddengys mai ei gariad tadol ef tuag atom ni, a barodd iddo osod ei Fab yn Waredwr i ni, ac i gyflawni yr holl swyddau pwysfawr hyny erddom ni, trwy y rhai y mae efe yn perffeithio ein hiachawdwriaeth ni. *Pan ymddangosodd:* fel codiad haul dysglaerwych, yn nyfodiad Crist i'r byd, ac yn mhregethiad yr efengyl. *Cariad:* cariad at ddyn yw y gair Groeg *philanthrópia;* mae y *dyn* a'r cariad yn yr un gair, ac nid ar wahan fel yn ein faith ni.

5 * Nid o [s] weithredoedd cyfiawnder y rhai a wnaethom ni, [t] † eithr yn ol ei drugaredd yr achubodd efe nyni, [u] ‡ trwy olchiad yr adenedigaeth, [x] || ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân;

s Job 9. 20. a 15. 14. a 25. 4. Salm 143. 2. Es. 57. 12. Luc 10. 27—29. Rhuf. 3. 20, 28. a 4. 5. a 9. 11, 16, 30. a 11. 6. Gal. 3. 16—21. Eph. 2. 9. 2 Tim. 1. 9. t adn. 4. Salm 62. 12. a 86. 5, 15. a 130. 7. Mica 7. 18. Luc 1. 50, 54, 72, 78. Eph. 1. 6, 7. Heb. 4. 16. 1 Pedr 1. 3. a 2. 10. u Ioan 3. 3—5. 1 Cor. 6. 11. Eph. 5. 26. 1 Pedr 3. 21. x Salm 51. 10. Rhuf. 12. 2. Eph. 4. 23. Col. 3. 10. Heb. 6. 6.

* Pan ymddangosodd daioni a chariad Duw tuag at ddyn fel y soniwyd uchod, dygwyd yr apostol a'i frodyr i gyfranogi o'r iachawdwriaeth fawr; nid trwy haeddiant nac effaith gweithredoedd cyfiawnder, y rhai a wnaethent hwy eu hunain, neb o honynt; † eithr yn ol ei drugaredd helaeth a dihaeddedig ef, a'i dosturiol ewyllys da tuag atynt, yr achubodd efe hwynt: ‡ a hyny trwy olchiad yr adenedigaeth, yr enedigaeth newydd hyny o'r Ysbryd, || a'r adnewyddiad grasol a sancteiddiol mae efe yn wneyd ar yr enaid; yr hyn mae bedydd yn arwydd sacramentaidd o hóno, a dim yn chwaneg. Mae hyn, nid yn unig yn glanâu y galon oddi wrth gariad, arglwyddiaeth, a halogrwydd pechod, ond hefyd yn adnewyddu yr enaid ar ddelw Duw, trwy weithrediadau nerthol a sancteiddiol yr Ysbryd Glân.

6 * Yr hwn a [y] dywalltodd efe arnom ni yn helaeth, [z] † trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr:

y Diar. 1. 23. Es. 32. 15. a 44. 3. Ezec. 36. 25. Joel 2. 28. Ioan 1. 16. a 7. 37. Act. 2. 33. a 10. 45. Rhuf. 5. 5. z pen. 1. 4. Ioan 4. 10. a 14. 16, 17. a 16. 7. Rhuf. 8. 2.

* Yr hwn Ysbryd Glân a dywalltodd Duw Dad yn helaeth ar yr apostolion, yr efengylwyr, a christionogion eraill y dyddiau hyny, yn holl amrywiaeth ei ddoniau, ei rasau, a'i ddyddanwch nefol, † trwy gyfryngdod, derchafiad, ac eiriolaeth Iesu Grist ein Hiachawdwr, yn ol addewidion Duw i amseroedd yr efengyl, (gwel y cyfeiriadau dàn *y.*) ac yn ol addewidion Iesu Grist ei hun pan oedd yn y byd. Ioan 14. 16, 26; a 16. 7.

7 * Fel [a] gwedi ein cyfiawnhâu trwy ei ras ef, [b] † y'n gwneid yn etifeddion ‡ yn ol [c] gobaith bywyd tragywyddol.

a Rhuf. 3. 24, 28. a 4. 4, 16. a 5. 1, 2, 15—21. a 11. 6. 1 Cor. 6. 11. Gal. 2. 16. b Rhuf. 8. 17, 23, 24. Gal. 3. 29. a 4. 7. Heb. 6. 17. a 11. 7, 9. Iago 2. 5. 1 Pedr 3. 7. c Gwel ar pen. 1. 2 a 2. 13.

* Fel hyn wedi eu dwyn i edifarâu, ac i gredu yn Mab Duw, hwy a gawsant eu cyfiawnâu trwy ei ras ef, heb ddim o'u gweithredoedd na'u haeddiant eu hunain; dim ond cyfrifiad grasol Duw o gyfiawnder perffaith ei Fab iddynt, i'w rhyddâu oddi wrth bechod, ei euogrwydd a'i gondemniad. † Ac fel hyn cawsant eu mabwysiadu yn blant i Dduw, eu dwyn i'w deulu ef yma, a'u gwneyd yn etifeddion iddo ef, ac yn gyd-etifeddion â Christ; ‡ yn ol *sail* y gobaith cadarn a roddes Duw iddynt hwy yn a thrwy Grist, ac yn yr addewidion; ac hefyd yn ol y *gras* o obaith, a weithiodd efe ynddynt ar sail yr addewidion hyny, am fywyd tragywyddol trwy Grist eu Gwaredwr. Gan hyny, wrth ystyried fod yr holl drugareddau a'r breintiau hyn wedi dyfod iddynt hwy trwy ras Duw, yn wyneb eu hollawl annheilyngdod eu hunain; yr oedd yn gweddu iddynt hwythau debygu i Dduw yn eu hymddygiad tuag at eu brodyr, eu cymmydogion paganaidd, a phob dyn, yn ol y cyngor yn adn. 2.

8 [d] * Gwir *yw* y gair, [e] † ac am y pethau hyn yr ewyllysiwn i ti fod yn daer, ‡ fel y byddo i'r sawl a [f] gredasant i Dduw [g] || ofalu ar flaenori mewn gweithredoedd da. § Y pethau hyn sydd [h] dda a buddiol i ddynion.

d Gwel ar pen. 1. 9. 1 Tim. 1. 15. e Diar. 21. 28. Act. 12. 15. 2 Cor. 4. 13. f Salm 78. 22. Ioan 5. 24. a 12. 44. Rhuf. 4. 5. 1 Pedr 1. 21. 1 Ioan 5. 10—13. g Gwel ar adn. 14. pen. 2. 14. h Job 22. 2. a 35. 7, 8. Salm 16. 2, 3. 2 Cor. 9. 12—15 Philemon 11.

* Y "gair" a ddywedasai yr apostol, am ddyledswyddau y cristionogion, (adn. 1, 2.) am eu cyflwr truenus wrth natur, ac am drefn a llwybr grasol Duw o'u cadw; (adn. 4—7.) "gwir" a ffyddlawn ydoedd oll,

yr hyn a ellid ei gredu, ac a ddylid ei gredu, yn gadarn a dibetrusder: † ac am y pethau hyn a'u cyffelyb, efe a ewyllysiai i Titus fod yn daer; eu pregethu yn gadarn ac yn gyson, a'u gwasgu yn daer a difrifol ar feddyliau pawb; ‡ fel y byddai i'r sawl a gredasent i Dduw, am ei drugaredd a'i ras yn a thrwy Iesu Grist, ‖ ofalu am ddàl i fynu, *sefyll yn mlaenaf, (proïstasthai)* a rhagori ar bawb eraill, yn yr ymarferiad o bob gweithredoedd da; fel rhai yn cael eu cymhell gan gariad a dïolchgarwch, a'u calonogi gan addewidion gwerthfawr yr efengyl, i fod yn helaethion yn y cyfryw weithredoedd daionus. § Er nas gallai y gweithredoedd da hyn oll, mewn un mesur gyfiawnâu pechaduriaid ger bron Duw; eto, yr oeddynt yn "dda" ynddynt eu hunain, ac yn "fuddiol i ddynion," o ran eu lles tymmorawl a thragywyddol, i'r rhai oedd yn eu cyflawni, ac i eraill hefyd. Fel hyn ni a welwn fod athrawiaeth rhad ras yn cymhell dynion yn rymus i weithredoedd da; ac nid yn eu gwneyd yn esgeulus o weithredoedd da, fel y taera deddfolion, a gwrthwynebwyr yr athrawiaeth hòno.

9 * Eithr [i] gochel gwestiynau ffol, ac achau, † a chynhennau, ac ymrysonau ynghylch y ddeddf: ‡ canys [k] anfuddiol ydynt ac ofer.

i Gwel ar pen. 1. 14. 1 Tim. 1. 3—7. a 4. 7. 2 Tim. 2. 23. k Job 15. 3. 1 Cor. 8. 1. a 13. 2. 2 Tim. 2. 14.

* Yr oedd yn ddyled ar Titus i sefyll yn gadarn ar a thros brif wirioneddau yr efengyl; a gochelyd yn mhob modd y "cwestiynau ffol" a distadl, a'r "achau" diddiwedd yr ymffrostiai yr athrawon Iuddewig gymmaint o honynt; fel pe buasent hwy yn well na dynion eraill, ac yn fwy cymmeradwy gan Dduw, am eu bod wedi hànu o'r patriarchiaid. Dywedir y byddai yr Iuddewon yn rhyfeddol o hoff o olrhain eu hen achau, ac eu bod mòr adnabyddus o enwau eu henafiaid o Adda hyd Zorobabel, ag oeddynt o'u henwau eu hunain; a chymmerent arnynt y gwyddent yn hollawl o ba lwyth a theulu yr oedd pob un o honynt yn deilliaw o'r dechreuad. † Nid oedd y pethau hyn oll, yn nghyd â'r "cynhenau" a'r "ymrysonau" oedd ganddynt hwy yn nghylch y ddeddf seremoniol a'i gosodiadau, ‡ ond hollawl anfuddiol ac ofer wedi dyfod y Messïah, a thàn yr oruchwyliaeth Gristionogol; nid oeddynt ond difyru dynion âg oferedd, ag oedd yn tynu eu meddyliau ymaith oddi ar wirioneddau mawrion, a dyledswyddau pwysig yr efengyl, ac yn magu cynhenau ac ymrysonau afraid a niweidiol yn yr eglwysi. Mae y cyferbyniad rhwng y pethau "da a buddiol" yn adn. 8, â'r pethau "anfuddiol ac ofer" yn yr adnod hon, yn werth sylwi arno: canlynwn y pethau da buddiol, a gochelwn y pethau ofer ac anfuddiol.

10 [l] * Gochel y dyn a fyddo [m] heretic, [n] † wedi un ac ail rybudd:

l 1 Cor. 11. 19. Gal. 5. 20. 2 Pedr 2. 1. m Mat. 18. 15—17. 2 Cor. 13. 2. n Rhuf. 16. 17. 1 Cor. 5. 4—13. Gal. 5. 12. 2 Thes. 3. 6, 14. 2 Tim. 3. 5. 2 Ioan 10.

* *Heretic*, debygid yn ol meddwl yr apostol, yw dyn yn proffesu cristionogaeth, ac yn cyndyn wadu a gwrthwynebu, rhyw gangen sylfaenol o athrawiaeth neu wirionedd yr efengyl, megys y dysgwyd hi gan yr apostolion: yn enwedig os bydd efe o ddifrif, am daenu ei gyfeiliornad, oddi ar ddymuniad gwag i godi plaid, a bod yn ben iddi, ac fel hyny gwneyd rhwyg ac ymraniad yn yr eglwys. Dau beth, medd *Pool*, a wna *heretic;* cyfeiliornad mewn athrawiaeth, a chyndynrwydd gwrthnysig i ddàl y cyfeiliornad hwnw: ac â'r golygiadau uchod y cytuna ein Hawdwyr oll. † Y llwybr i Titus ymddwyn tuag at yr *heretic* oedd hyn:—ei gyngori a'i rybuddio ef yn ddifrifol, unwaith ac eilwaith, ger bron yr eglwys yn ddïammau; ac os na lwyddid i'w gael ef o'i gyfeiliornad, eithr dàl o hòno yn gyndyn yn ei ŵyrni, yna ei "ochel ef;" ymwrthod âg ef yn hollawl fel aelod eglwysig, a'i esgymmuno ef; gochelyd pob cymdeithas âg ef, a rhybuddio eraill i ochelyd y fath gyfeiliornwr dinystriol ac anfeddyginiaethol.

11 * Gan wybod fod y cyfryw un wedi ei [o] ŵyrdroi, † ac yn pechu, [p] ‡ gan fod yn ei ddamnio ei hunan.

o pen. 1. 11. Act. 15. 24. 1 Tim. 1. 19, 20. 2 Tim. 2. 14. Heb. 10. 26. p Mat. 25. 26—28. Luc 7. 30. a 19. 22. Ioan 3. 18. Act. 13. 46. Rhuf. 3. 19.

* Gallai Titus wybod, wrth gyfeiliornadau peryglus y cyfryw un, a'i gyndynrwydd yn glynu ynddynt, ei fod ef wedi ei "ŵyrdroi;" neu wedi ei droi ymaith oddi wrth Grist, Sylfaen yr eglwys, trwy dwyll Satan; mai nid oddi ar annwybodaeth yr oedd ei gyfeiliorni, ond oddi ar ragfarn balch a chnawdol; † fel yr oedd efe yn pechu yn wirfoddawl, o'i galon, ac yn erbyn goleuni a gwybodaeth; ‡ ac felly yn ei gondemnio ei hun yn ei gydwybod ei hun, ac yn amlwg i bawb eraill, gan fod ei waith yn dàl y fath gyfeiliornadau yn ddigon o brawf yn ei erbyn heb ddim arall.

12 * Pan ddanfonwyf Artemas attat, † neu [q] Tychicus, [r] ‡ bydd ddyfal i ddyfod attaf i Nicopolis: [s] ‖ canys yno yr arfaethais auafu.

q Gwel ar Act. 20. 4. 2 Tim. 4. 12. r 2 Tim. 4. 9, 21. s 1 Cor. 16. 6, 8, 9.

* Pwy oedd yr Artemas hwn nis gwyddom, nid oes sôn am dano yn un màn arall. † Am Tychicus, gwel ar Ephes. 6. 21, ac amryw fànau eraill. Bwriadai yr apostol ddanfon un o'r ddau hyn i gyflawni lle Titus yn Creta, fel y gallai yntau ddyfod i gyfarfod âg ef ‡ i Nicopolis, *dinas buddugoliaeth:* yr oedd amryw ddinasoedd o'r enw hyn, yn enwedig un yn Macedonia, ac un arall yn Epirus, ond nis gwyddom pa un oedd Paul yn feddwl yma. Mynai i Titus fod yn ddyfal i ddyfod ato i Nicopolis, ‖ canys yno yr arfaethai aros dros y gauaf, yr hyn a ddengys ei fod ef yn rhydd y pryd hwn, ac nid mewn carchar: ac a ddengys hefyd mai nid o Nicopolis yr ysgrifenodd efe yr epistol hwn, fel y dywedir yn yr ol-ysgrifen; canys pe felly, dywedasai "*Yma* yr arfaethais auafu," ac nid *yno*. Mae yn lled amlwg hefyd nad oedd Titus yn esgob Creta, fel y dywed yr ol-ysgrifen; eithr efengylydd teithiol oedd efe, i ofalu am yr eglwysi yn absenoldeb yr apostol, ac i symmud o fàn i fàn, ar ei ddeisyfiad ef, ac fel y byddai yr angen yn gofyn.

13 * Hebrwng Zenas [t] y cyfreithiwr, ac [u] Apòlos, [x] yn ddiwyd; † fel na byddo arnynt eisieu dim.

t Mat. 22. 35. Luc 7. 30. a 10. 25. a 11. 45, 46, 52. a 14. 3. u Gwel ar Act. 18. 24. x Act. 21. 5. a 28. 10. Rhuf. 15. 24. 1 Cor. 16. 11. 3 Ioan 6—8.

* Nis gwyddom chwaith pwy oedd Zenas y cyfreithiwr, nid oes son am dano yn un màn arall. Wrth ei fod yn cael ei enwi gydag Apòlos, Iuddew, (Act. 18. 24.) yn y fàn hon, tybia rhai mai Iuddew ydoedd yntau, un o ddysgawdwyr y gyfraith Iuddewig gynt, ond yn awr yn gristion ac yn bregethwr yr efengyl. Tybia eraill mai un o'r cyfreithwyr Rhufeinig a fuasai, ond yn awr wedi ei droi i'r ffydd a'i osod yn y weinidogaeth. *Hebrwng* yw y gair Cymraeg, *dwg* yw y gair Saesoneg, sef gyda Thitus, mae yn debyg, at Paul i Nicopolis. Wrth hyn yr oeddynt gyda Thitus y pryd hwn yn Creta, a mynai yr apostol iddo ef ofalu yn "ddiwyd," am bob peth angenrheidiol iddynt ar eu taith i Nicopolis: neu efallai eu bod i ddyfod o flaen Titus ei hun, ac yntau i'w "hebrwng" hwy, † a gofalu na byddai arnynt eisiau dim, fel y sylwyd eisoes. Gwelwn yma dlodi gweinidogion y gair y pryd hwnw, hyd yn nôd Zenas y cyfreithiwr ac Apòlos y doniol, a gwelwn hefyd ofal tadol yr apostol am danynt, na byddai eisiau dim arnynt.

14 [y] * A dysged yr eiddom ninnau † flaenori mewn gweithredoedd da ‡ i anghenrheidiau, [z] ‖ fel na byddont yn ddiffrwyth.

y Gwel ar adn. 8. z Es. 61. 3. Mat. 7. 19. a 21. 19. Luc 13. 6—9. Ioan 15. 8, 16. Rhuf. 15. 28. Phil. 1. 11. a 4. 17. Col. 1. 10. Heb. 6. 6—12. 2 Pedr 1. 8.

* "Yr eiddom ninnau;" y rhai o'n hurdd ni, sef cydweinidogion â ni; neu ynte, y rhai a berthynant i ni, ein brodyr cristionogol yn Creta: † dysgent hwythau

hefyd, fel yr eglwysi yn mhob màn arall, flaenori am y goreu mewn gweithredoedd da; (gwel ar adn. 8.) ‡ yn enwedig i ddiwallu angenrheidiau y saint tlodion, ac yn benaf oll i gynnorthwyo gweinidogion yr efengyl yn eu teithiau o fàn i fàn; y rhai a ddanfonid atynt, (adn. 12.) a'r rhai a ymadawai oddi wrthynt, (adn. 13.) ‖ Fel hyn ni byddent yn ddiffrwyth yn eu crefydd; ond yn ffrwythlawn er gogoniant Duw a lles ei achos a'i bobl, ac yn rhoddi esampl dda i grefyddwyr eraill yn mhob màn. Och mòr wael a gwrthun yw crefyddwyr diffrwyth, heb ddim ond y siarad am dani! Mae rhai yn deall y geiriau uchod am ddysgu a llafurio mewn rhyw alwedigaethau buddiol, fel na byddent yn ddiffrwyth, ond yn gallu cyfranu i angenion rhai eraill.

15 [a] * Y mae yr holl rai sydd gyd â mi yn dy annerch. [b] † Annerch y rhai sydd yn ein [c] caru ni yn y ffydd. [d] ‡ Gras *fyddo* gyd â chwi oll. ‖ Amen.

a Gwel ar Rhuf. 16. 21—24. b Gwel ar Rhuf. 16. 1—20. c Gal. 5. 6. Eph. 6. 23. 1 Tim. 1. 5. Philemon 5. 2 Ioan 1 2. 3 Ioan 1. d Gwel ar 1 Cor. 16. 23. Eph. 6. 24. 2 Tim. 4. 22.—Heb. 13. 25.

* Nis gwyddom pa le yr oedd Paul y pryd hwn, ond yr oedd yn rhywle gyda'i waith, a chyda phobl Dduw, y rhai oedd yn caru Titus, ac yn ei anerch ef mewn gwir gariad a brawdgarwch cristionogol. Mae yn dda gan bobl Dduw am eu gilydd er nas gallant weled eu gilydd. † Mae yn gorchymyn i Titus ei anerch ef a'i frodyr at y rhai oll yn Creta, ag oedd yn eu caru hwy yn y ffydd, ac er mwyn ffydd yr efengyl: mae y saint oll mewn undeb ffydd yn nghwlwm tangnefedd ac yn rhwymau cariad. ‡ Gras a rhad gariad Duw a fyddo dy ran di, a rhan yr holl frodyr yn Creta: ‖ hyn a ddymunaf, am hyn y gweddïaf, fel hyn bydded, ac fel hyn yn ddïau y bydd gyda'r holl saint. Amen.

¶ At Titus, yr esgob cyntaf a ddewiswyd ar eglwys y Cretiaid, yr ysgrifenwyd o Nicopolis ym Macedonia.

EPISTOL PAUL YR APOSTOL

AT

PHILEMON.

PEN. I.

Y mae yn wych ganddo ef glywed am ffydd a chariad Philemon.

[a] * PAUL carcharor Crist Iesu, † a'r [b] brawd Timothëus, ‡ at Philemon ein hanwylyd, [c] a'n cyd-weithiwr,

a adn. 9.—Gwel ar Eph. 3. 1. a 4. 1. a 6. 20. b Gwel ar 2 Cor. 1. 1. Col. 1. 1. 2 Thes. 1. 1. c adn. 24. 1 Cor. 3. 9. Phil. 4. 3. Col. 4. 11. 1 Thes. 3. 2.

* Mae yn amlwg bod yr apostol yn garcharor yn Rhufain pan ysgrifenodd yr epistol hwn; ac wrth yr hyn a ddywed efe yn adn. 22, mae yn debyg mai tua diwedd ei garchariad cyntaf yno yr ysgrifenodd efe; tua'r flwyddyn triugain a thair o oedran ein Harglwydd, tebygir, a thua'r nawfed o ymherodraeth Nero. Nid yw yn ei enwi ei hun yn apostol yma, gan mai ysgrifenu yn gyfeillachol at frawd yr oedd; a barna dynion deallus bod yr epistol bŷr hwn yn gynllun rhagorawl o ysgrifenu llythyraidd a chyfeillachol, tu hwnt i ddim a welir yn ngwaith neb o'r henafiaid. † Mae yn amlwg hefyd bod Timothëus gydag ef y pryd hwn yn Rhufain, ac megys yn cyd-ysgrifenu âg ef at Philemon ar ran y gwas Onesimus. ‡ Dinasydd cyfoethog a chyfrifol o Colossa, mae yn debyg, oedd Philemon, a thybia rhai wrth fod Paul yn ei alw ef yn "gyd-weithiwr," ei fod yn pregethu yr efengyl, ac yn un o weinidogion yr eglwys yn Colossa.

2 * Ac at Apphia *ein* hanwylyd, † ac at [d] Archippus ein [e] cyd-filwr, ‡ ac at yr [f] eglwys sydd yn dy dŷ di.

d Col. 4. 17. e Phil. 2. 25. 2 Tim. 2. 3, 4. f Rhuf. 16. 5. 1 Cor. 16. 19. Col. 4. 15.

* Tybir yn gyffredin mai gwraig Philemon oedd Apphia, ond tybia rhai mai ei chwaer ydoedd: mae y gair *agapêtê*, anwylyd, yn y rhyw fenywaidd; ac enw Rhufeinig ar wraig, neu fenyw, ydoedd Apphia. † Am Archippus, gwel ar Colos. 4. 17: yr hyn a elwir yn weinidogaeth yno, a elwir yn filwriaeth yma. Gwel ar 2 Cor. 10. 4; 1 Tim. 1. 18; 2 Tim. 2. 3, 4. Tybia rhai fod Archippus yn fab, neu ryw berthynas agos i Philemon, ac yn aros yn ei dŷ ef; ‡ yr hwn oedd mòr drefnus a chrefyddol, fel yr oedd yr holl deulu i'w ystyried fel eglwys gristionogol a hardd yn addoli Duw. Mae yr apostol yn cyfarch y ddau berson uchod a'r eglwys yn nhŷ Philemon, i ddangos ei gariad atynt, ac i'r dyben o'u hennill i'w bleidio ef yn achos y gwas Onesimus.

3 [g] * Gras i chwi, a thangnefedd, oddi wrth Dduw ein Tad, a'r Arglwydd Iesu Grist.

g Gwel ar Rhuf. 1. 7. 2 Cor. 13. 14.

* Gwel ar y cyfarchiad hwn, yn yr epistolau cyntaf: mae yn dangos mai yr un yw natur a hanfod y Tad a'r Mab; gan fod y Mab yn gallu gwneyd yr hyn mae y Tad yn ei wneyd, a'r Tad yn gwneyd yr hyn mae y Mab yn ei wneyd.

4 * Yr wyf yn [h] diolch i'm Duw, † gan wneuthur coffa am danat yn wastadol yn fy ngweddïau,

h Gwel ar Rhuf. 1. 8. Phil. 1. 3. Col. 1. 3. 1 Thes. 1. 2. 2 Thes. 1. 3. 2 Tim. 1. 3.

* Yr oedd yr apostol yn diolch i Dduw am y gras mawr a roisai efe i Philemon, † ac yn ei gofio yn wastadol yn ei weddïau. Gwel ar 2 Tim. 1. 3, a'r ysgrythyrau eraill y cyfeirir atynt dàn y llythyren *h*.

5 [i] * Wrth glywed dy gariad, † a'r ffydd sydd gennyt [k] tu ag at yr Arglwydd Iesu, a thu ag at yr holl saint;

i Gal. 5. 6. Eph. 1. 15. Col. 1. 4. k adn. 7. Salm 16. 3. Act. 9. 39—41. Rhuf. 12. 13. a 15. 25, 26. 1 Cor. 16. 1. 1 Ioan 3. 23. a 5. 1, 2.

* Mae yn amlwg y dylid deall yr adnod hon fel hyn:—"Wrth glywed dy gariad tuag at yr holl saint, a'r ffydd sy genyt tuag at yr Arglwydd Iesu." Neu ynte fel hyn:—"Wrth glywed y ffydd sy genyt tuag at yr Arglwydd Iesu, a'th gariad tuag at yr holl saint," † dylai ffydd gael ei gosod o flaen cariad; oblegid ffydd yn yr Arglwydd Iesu sydd yn achos a gwreiddyn cariad tuag at saint Iesu: ac yn y drefn ddiweddaf uchod mae yr apostol yn llefaru am yr un pethau yn Colos. 1. 4: gwel ar y fàn hòno. Dywedir fod gosodiad y geiriau fel y maent, yn gweddu yn burion i'r iaith Roeg, ond nid ydynt mewn un modd yn gweddu i'n iaith ni, heb y traws-osodiad uchod. Mae ffydd yn gweithio trwy gariad; am hyny mae ffydd yn blaenori cariad: a thuag at Grist y mae ffydd; nid tuag at y saint, fel y dywedir yn yr adnod uchod, a'i darllen fel y mae. Mae trawsddodiad cyffelyb yn angenrheidiol hefyd yn 1 Cor. 6. 11: gwel ar yr adnod hòno.

6 [l] * Fel y gwneler cyfraniad dy ffydd di yn nerthol, [m] † trwy adnabod pob peth daionus, [n] ‡ a'r sydd ynoch chwi yng Nghrist Iesu.

l 2 Cor. 9. 12—12. Tit. 3. 14. Heb. 6. 10. m Mat. 5. 16. 1 Cor. 14. 25. 1 Pedr 2. 12. a 3. 1, 16. n 2 Pedr 1. 8.

Yr oedd yr apostol yn gweddïo hefyd am i gyfraniad ffydd Philemon gael ei wneyd yn nerthol, neu yn effeithiol, &c. Mae rhai yn deall hyn am ei gyfraniadau helaeth ef o'i olud bydol, yn cael ei wneyd yn nerthol, neu effeithiol, i gynnorthwyo y saint tlodion, ac er dangosiad amlwg o'i ffydd ef, o'r hon yr oedd ei haelioni yn tarddu. Tybia eraill mai meddwl yr apostol oedd, bod i'w gyfraniad, neu ei gyfranogiad ef o ffydd yn Nghrist, gael ei gwneyd yn nerthol yn llywodraethiad ei dymherau a'i ymddygiadau ei hun. Tybia eraill eto, bod yr apostol yn gweddïo, ar i ymdrechiadau Philemon i gyfranu ei ffydd yn Nghrist i'r rhai o amgylch iddo, gael eu gwneyd yn nerthol ac effeithiol, trwy ragoroldeb eglur ei esampl ef ei hun, a'i deulu; † fel y byddai i ddynion drwy hyny, gael eu dwyn i adnabod a chydnabod, gwirionedd a gwerth "pob peth daionus," ‡ ag oedd ynddo ef a'i deulu, trwy eu perthynas â Christ; ac fel hyny dyfod i feddwl yn dda am y grefydd hòno, yr hon oedd yn effeithio mòr rhagorol ar ymddygiad y rhai a'i cofleidient. Felly *Scott;* a chyffelyb yw ein Hawdwyr oll.

7 * Canys y mae gennym [o] lawer o lawenydd a diddanwch yn dy gariad di, † herwydd bod [p] ymysgaroedd y saint wedi eu llonni trwot ti, ‡ frawd.

o 1 Thes. 1. 3. a 2. 13, 19. a 3. 9. 2 Ioan 4. 3 Ioan 3—6. p adn. 20. 2 Tim. 1. 16.

* Felly y gobeithiai yr apostol am Philemon; canys yr oedd iddo ef lawer o lawenydd a dyddanwch wrth yr hanesion a glywsai efe am ei gariad ef, a'i haelioni tuag at y saint; † o herwydd tra yr oedd efe yn diwallu eu hangenrheidiau corphorol hwy yn fynych, yr oedd yn llòni eu calonau hwy hefyd yn aml, trwy ei esampl ragorol, a'i ymddiddanion duwiol a brawdol. Yr oedd efe yn llòni ymysgaroedd corphorol y saint â'i haelioni; ac yn llòni ymysgaroedd eu meddwl â'i gyfeillach siriol; ac yr oedd pob un o'r ddau yn llawenydd a dyddanwch mawr i'r apostol a'i frodyr yn y màn lle yr oeddynt. ‡ O herwydd clywed y pethau uchod am dano, yr oedd yr apostol yn ei arddelwi ef o'i galon, ac yn ei garu yn ddiffuant, fel brawd anwyl yn yr efengyl. Mae y gair "brawd," fel hyn ar ddiwedd ymadrodd, yn rymus iawn, ac yn dangos y cariad mwyaf gwresog a serchoglawn.

8 * O herwydd paham, er bod gennyf [q] hyfdra lawer yng Nghrist, [r] i orchymyn i ti † y peth sydd weddus;

q 2 Cor. 3. 12. a 10. 1, 2. a 11. 21. 1 Thes. 2. 2, 6. r 2 Cor. 10. 8.

Mae yr apostol yma yn dechreu ar brif ddyben ei lythyr, rhagymadrodd oedd y cwbl hyd yma. * Fel apostol Iesu Grist, yr oedd ganddo lawer o hyfdra, ïe, pob awdurdod apostolaidd, i *orchymyn* i Philemon † y peth oedd weddus; neu yn gyson ac unol âg ysbryd caredig a maddeugar y grefydd gristionogol, yn y mater yr oedd efe yn myned i'w grybwyll yn y blaen. *Hyfdra:* mae y gair Groeg *(parrhesiau)* yn arwyddo *rhyddid* a *hyfdra* diymattal i lefaru, ac *awdurdod* hefyd, i *orchymyn* ufudd-dod.

9 * Etto o [s] ran cariad yr ydwyf yn hytrach yn attolwg, † er fy mod yn gyfrýw un a [t] Phaul yr hynaf-gwr, ‡ ac yr awrhon hefyd yn [u] garcharor Iesu Grist.

s Rhuf. 12. 1. 2 Cor. 5. 20. a 6. 1. Eph. 4. 1. Heb. 13. 19. 1 Pedr 2. 11. t Salm 71. 9, 18. Diar. 16. 31. Es. 46. 4. u adn. 1. Gwel ar Eph. 3. 1. a 4. 1.

* Er bod yr hyfdra a'r awdurdod uchod i orchymyn gan Paul fel apostol a hynaf-gwr; eto, o ran cariad a brawdgarwch, yr oedd efe yn hytrach yn dewis arfer iaith ostyngedig a diarglwyddaidd; ac *attolwg* ar Philemon i dderbyn ei was yn ol, a maddeu iddo. † Mynai ar yr un pryd adgofio iddo, bod yr *attolwg*, y deisyfiad taer a gostyngedig hwn yn dyfod, oddi wrth y cyfryw un â Phaul yr *hynaf-gwr: Paul*, apostol Iesu Grist at y cenedloedd; a Phaul yr *hynaf-gwr*, yn haeddu parch a gwrandawiad fel hynaf-gwr. Tybia rhai mai tua 53 oedd oedran Paul y pryd hwn; ond tybia eraill ei fod dros 60 mlwydd oed: mae yn anhawdd penderfynu yn hollawl beth oedd ei oed, ond ei fod yn hynaf-gwr; a chwedi llafurio a dyoddef llawer yn ngwasanaeth ei Arglwydd: ‡ ac y pryd hyny hefyd yn garcharor Iesu Grist, sef yn achos Iesu Grist a'i efengyl. Erbyn yr ystyriai Philemon y pethau uchod oll, nid oedd ammheuaeth gan Paul na chaniatâi efe ei ddeisyfiad ef.

10 * Yr ydwyf yn attolwg i ti dros [x] fy mab [y] Onesimus, [z] † yr hwn a genhedlais i yn fy rhwymau:

x 2 Sam. 9. 1—7. a 18. 5. a 19. 37, 38. Marc 9. 17. 1 Tim. 1. 2. Tit. 1. 4. y Col. 4. 9. z 1 Cron. 4. 15. Gal. 4. 19.

* Nid drosto ei hun yr oedd efe yn attolygu mòr daer a gostyngedig, ond dros ei fab ysbrydol Onesimus; † yr hwn a genedlasai efe yn ysbrydol i Dduw yn ei rwymau a'i garchar: fel hyn yr oedd yn fab ei rwymau ac yn fab ei henaint, ac yr oedd yn anwyl iawn ganddo am dano yn yr Arglwydd. Yn y Groeg mae yr adnod fel hyn:—"Yr wyf yn attolwg i ti dros fab i mi, yr hwn a genedlais I yn fy rhwymau, Onesimus." Fel hyn wrth ei alw yn fab, wedi ei genedlu ganddo yn ei rwymau, cyn crybwyll ei *enw*, yr oedd yr apostol mewn dull odiaeth iawn, yn darpar meddwl Philemon i faddeu i Onesimus ei drosedd, ac i'w dderbyn ef yn ol fel brawd.

11 * Yr hwn gynt *a fu* i ti yn [a] anfuddiol, † ond yr awrhon yn [b] fuddiol i ti ac i minnau hefyd;

a Job 30. 1, 2. Mat. 25. 30. Luc 17. 10. Rhuf. 3. 12. b Luc 15. 24, 32. 2 Tim. 4. 11.

* *Buddiol* yw ystyr y gair Onesimus; ac mewn cyfeiriad at hyny mae yr apostol yn addef, mai anghyfatebol i'w enw, sef *anfuddiol*, a fuasai y caeth-was hwn i Philemon gynt: mae yn debyg iddo fod yn anffyddlawn, yn anonest, yn aflywodraethus, ac efallai yn euog o ddrygau eraill; † ond yr awr hon, pan oedd Paul yn ysgrifenu, yr oedd cyfnewidiad mawr ac amlwg wedi cymeryd lle arno, trwy yr hyn yr oedd efe yn debyg o ddyfod i ateb i'w enw, sef yn *fuddiol*, i Philemon ac i'r apostol hefyd. Yr oedd efe yn awr yn barod i fod yn was buddiol i Philemon, ac wedi bod yn fuddiol eisoes i Paul mewn amryw bethau yn ei garchariad. Peth rhyfedd oedd i Onesimus barâu mòr ddrwg mewn teulu mòr grefyddol a theulu Philemon; ac wedi hyny cael ei droi a'i ddychwelyd trwy ras yn ei grwydr i Rufain: gwelwyd troion cyffelyb o ben-arglwyddiaethol weithrediadau Duw lawer gwaith; ond ni ddylai neb ymddybynu ar bethau o'r fath hyn, rhyfygus fyddai hyny, a pheryglus rhag i ddynion gael eu gadael iddynt eu hunain, a'u rhoddi i fynu yn hollawl i galedrwydd.

12 * Yr hwn a ddanfonais drachefn: [c] † a derbyn dithau ef, ‡ yr hwn yw [d] fy ymysgaroedd i.

c Mat. 6. 14. 15. a 18. 21—35. Marc 11. 25. Eph. 4. 32. d Deut. 13. 6. 2 Sam. 16. 11. Jer. 31. 20. Luc 15. 20.

* Fel caeth-was, yr oedd Onesimus yn eiddo prïodol ei feistr Philemon; a llwyddodd yr apostol gydag ef ar ol ei dröedigaeth, i ddychwelyd at ei feistr a'i iawn berchenog: † ac mae efe yn attolygu ar Philemon ei dderbyn ef, gyda'r un tirionded ag y derbyniai efe fab yn ol y cnawd, i'r apostol oedranus ei hun. ‡ Yr oedd yr apostol yn ei garu ef fel plentyn ei ymysgaroedd ei hun; am hyny nis gallai Philemon fod yn gâs tuag ato heb ofidio Paul, na'i dderbyn yn garedig heb ei fawr lawenychu ef.

13 * Yr hwn yr oeddwn i yn ewyllysio ei ddal gyd â mi, [e] † fel drosot ti y gwasanaethai efe fi [f] ‡ yn rhwymau yr efengyl.

e 1 Cor. 16. 17. Phil. 2. 30. f Gwel ar adn. 1. Eph. 3. 1. a 4. 1.

* Buasai yn dda gan Paul gadw Onesimus gydag ef, i wasanaethu iddo ef yn ei gaethiwed; buasai yn dda gan Onesimus gael aros gydag ef i'w wasanaethu, † a gwyddai yr apostol na buasai Philemon yn anfoddlawn i hyny, y gwnaethai efe unrhyw wasanaeth yn bersonol iddo, pe buasai efe yn Rhufain, ac yr ystyriai efe ei was Onesimus fel yn gwasanaethu drosto ef, ‡ i'r apostol oedranus yn ei rwymau a'i orthrymder o herwydd yr efengyl. Fel hyn yr oedd gan yr apostol feddyliau da am Onesimus a Philemon hefyd.

14 * Eithr [g] heb dy feddwl di ni ewyllysiais wneuthur dim; † fel [h] na byddai dy ddaioni di megis o anghenrhaid, ond o fodd.

g adn. 8, 9. 2 Cor. 1. 24. 1 Pedr 5. 3. h 1 Cron. 29. 17. Salm 110. 3. 1 Cor. 9. 17. 2 Cor. 8. 12. a 9. 5, 7. 1 Pedr 5. 2.

* Ond ni fynai yr apostol gadw Onesimus gydag ef, na gwneuthur dim arall mewn perthynas iddo, heb feddwl a chydsyniad ei feistr Philemon; † fel na byddai efe megys yn *mynu* y daioni hwnw, a Philemon megys yn gweithredu o *orfod*, ac nid o'i wir-fodd ei hun. Nid felly y buasai mewn gwirionedd, pe buasai Paul yn ei gadw ef; ond gallasai *ymddangos* i eraill; ac ni fynai yr apostol mo hyny.

15 * Canys [i]ysgatfydd er mwyn hyn yr ymadawodd dros amser, † fel y derbynit ef yn dragywydd;

i Gen. 45. 5—8. a 50. 20. Salm 76. 10. Es. 10. 7. Act. 4. 28.

* Gan hyny yr oedd efe yn ei ddychwelyd ef i'w feistr gyda'r cyfle cyntaf; heb wybod nad bwriad yr Arglwydd mewn perthynas iddo oedd, goddef iddo adael ei feistr yn lledradaidd fel y gwnaeth dros amser, crwydro yn ffoadur i Rufain, a chael ei droi a'i wneyd yn grëadur newydd yno trwy weinidogaeth Paul; † fel y derbyniai Philemon ef drachefn fel brawd a chyd-etifedd gras y bywyd; i gyd-fyw ar y ddaear weddill eu hoes, ac i gyd-fwynâu dedwyddwch a gogoniant yn y nef yn dragywydd. Tybia rhai fod cyfeiriad yn y gair *tragywydd* yma, at gyfraith y caeth-weision yn Israel gynt; gwel Exod. 21. 6; Lefit. 25. 44, 26. Yno nis gallai *byth* fod yn hwy nac einioes y caeth-was; ond yma tybir fod llygad yr apostol ar gyd-breswyliad Philemon ac Onesimus yn dragywydd yn y nef.

16 * Nid fel gwas bellach, † eithr uwch law gwas, [k] ‡ yn frawd anwyl, ‖ yn enwedig i mi; § eithr pa faint mwy i ti, [l] yn y cnawd ac yn yr Arglwydd hefyd?

k Mat. 23. 8. Act. 9. 17. Gal. 3. 28, 29. 1 Tim. 6. 2. Heb. 3. 1. 1 Pedr 1. 22, 23. 1 Ioan 5. 1. l Eph. 6. 5—7. Col. 3. 22.

* Fel hyn gwyddai yr apostol, nad ystyriai Philemon mo Onesimus fel caeth-was ffoedig mwyach, i hir wgu arno, a'i gadw draw, am ei feiau gynt; ac nad ymddygai efe tuag ato mwyach fel *gwas* cyffredin; † ond weithian uwchlaw gwas o lawer; fel un yn sefyll mewn perthynas arall, llawer mwy anwyl ac anrhydeddus; ‡ yn frawd anwyl yn yr Arglwydd, wedi ei adgenedlu fel yntau, i obaith bywiol trwy yr efengyl, yn blentyn Duw, yn aelod i Grist, ac yn etifedd teyrnas nefoedd. ‖ Yr oedd efe yn "frawd anwyl" i Paul yn enwedig; yr hwn a fuasai yn offeryn ei dröedigaeth ef, ac a gawsai gymmaint o gyfle i weled ei ffyddlondeb ef, a gwirioniedd diragrith ei ddychweliad a'i broffes ef; § a pha faint mwy o hyd yr oedd ef felly i Philemon, yn ol y cnawd, fel ei was, un o'i deulu, ac o'r un genedl âg ef; ac yn yr Arglwydd hefyd bellach, yn gyd-gyfranog âg ef o holl ragor-freintiau eglwys Crist ar y ddaear, ac o wynfyd tragywyddol yn y nef.

17 * Os [m] wyt ti gan hynny yn fy nghymmeryd i yn gydymmaith, [n] † derbyn ef fel myfi.

m Act. 16. 15. 2 Cor. 8. 23. Eph. 3. 6. Phil. 1. 7. 1 Tim. 6. 2. Heb. 3. 1, 14. Iago 2. 5. 1 Pedr 5. 1. 1 Ioan 1. 3. n adn. 10, 12. Mat. 10. 40. a 12. 48—50. a 18. 5. a 25. 40.

* Os oedd Philemon gan hyny yn cymmeryd Paul yn gydymaith, neu yn gyfranog o'r un gras ag yntau, *(koinônòn,)* ac yn ei garu ef er mwyn ac yn Nghrist; † mynai iddo ddangos ei gariad tuag ato ef trwy dderbyn Onesimus; a'i dderbyn ef gyda'r un caredigrwydd ag y derbyniai efe Paul ei hun, pe daethai ato yn ei berson ei hun: mynai iddo dderbyn Onesimus fel ef ei hun, a chyfrifai ei dderbyniad ef fel derbyniad iddo ei hun.

18 * Ac os gwnaeth efe ddim cam â thi, † neu *os* yw yn *dy* ddyled, [o] ‡ cyfrif hynny arnaf fi.

o Es. 53. 4—7.

* Os oedd Onesimus wedi gwneyd dim cam â Philemon, trwy anffyddlondeb yn ei wasanaeth ef gynt, † neu os oedd efe wedi rhedeg yn ei ddyled ef mewn rhyw fodd cyn ymadael; ‡ mae yr apostol yn peri iddo gyfrif hyny arno ef, fel yn ngolwg y gyfraith wladol y byddai ef yn fachnïydd dros Onesimus, ac yn atebol am ei gam a'i ddyled ef.

19 [p] * Myfi Paul a'*i* hysgrifenais â'm llaw fy hun, myfi a'i talaf: † fel na ddywedwyf wrthyt, [q] dy fod yn fy nyled i ym mhellach am danat dy hun hefyd.

p 1 Cor. 16. 21, 22. Gal. 5. 2. a 6. 11. q 1 Cor. 4. 15. a 9. 1, 2. 2 Cor. 3. 2. 1 Tim. 1. 2. Tit. 1. 4. Iago 5. 19, 20.

* Mae yr apostol yn ysgrifenu y geiriau uchod, yn nghyd â'r geiriau ymrwymawl nesaf, "Myfi a'i talaf," yn ei enw ac â'i law ei hun; ac felly yn ymrwymo yn gadarn, i wneyd iawn a digollediad i Philemon, am holl gam a dyled Onesimus. Mae yma ddangosiad eglur o natur mechnïaeth; dyled yn cael ei gyfrif i'r naill berson, a dynwyd gan un arall; ac ymrwymiad gwirfoddol y naill berson i ateb dros fai a cham un arall; fel y byddai i'r dyledwr a'r camweddwr gael ei ryddâu oddi wrth y gosp ddyledus i'w gam a'i ddyled, a chyfranogi o ddaioni nad oedd ganddo ddim hawl iddo. Mae hyn yn hollawl gyson â'r athrawiaeth o fechnïaeth wirfoddawl Crist; a'i waith ef yn myned dàn y gosp am ein pechodau ni, fel y cyfiawnêid ni ynddo a thrwyddo ef: a'r cwbl drwy *gyfrifiad* gan Dduw; *cyfrifiad* o'n pechodau ni arno ef, a chyfrifiad o'i gyfiawnder ef i ninnau. † Gwedi ymrwymo fel y sylwyd uchod am gam a dyled Onesimus, mae yr apostol yma yn crybwyll i Philemon, bod arno ef ddyled mwy na hyny i Paul; sef dyled am dano ei hun, achubiaeth ac iachawdwriaeth ei enaid ei hun; o herwydd efe fel offeryn a fu yn foddion i'w ddwyn ef i adnabyddiaeth o Grist, ac i gredu ynddo er bywyd tragywyddol. *Fel na ddywedwyf*, &c., hyny yw, mi a allwn ddywedyd, ond gwybydd di y peth heb i mi ei ddywedyd; ac yna ni bydd madd eu i Onesimus ond peth bychan iawn, yn wyneb dy ddyled fawr dy hun.

20 * Ïe, † frawd, [r] gâd i mi dy fwynhâu di yn yr Arglwydd: [s] ‡ llonna fy ymysgaroedd i yn yr Arglwydd.

r 2 Cor. 2. 2. a 7. 4—7, 13. Phil. 2. 2. a 4. 1. 1 Thes. 2. 19, 20. a 3. 7—9. Heb. 13. 17. 3 Ioan 4. s adn. 7, 12. Phil. 1. 8. a 2. 1. 1 Ioan 3. 17.

* Mae y gair *(Naì)* a gyfieithir yma *Ïe*, yn cael ei ddefnyddio am dyngu, cadarnâu, darbwyllo, a deisyfu: yn yr ystyr olaf y defnyddir ef yma; ïe, yr wyf yn attolygu arnat ti, † fel brawd anwyl a sanctaidd i mi, ac hefyd i Onesimus, derbyn ef er fy mwyn i, er ei fwyn ei hun, ac yn benaf er mwyn Iesu Grist ac anrhydedd yr efengyl, fel y byddo i mi dy fwynâu di a'th ysbryd maddeugar a thirion yn yr Arglwydd. neu yn ol y Saesoneg, "Gâd i mi gael llawenydd o honot ti yn yr Arglwydd." ‡ Llòna fy ymysgaroedd i yn yr Arglwydd; gâd i'm calon a'm hysbryd i gael eu llòni yn awr yn fy rhwymau, trwy glywed y derbyni di y brawd hwn yn yr Arglwydd, ac yr wyf finnau yn deisyfu arnat ei dderbyn er mwyn ac yn enw yr Arglwydd Iesu. Mae yn debyg fod derbyniad Onesimus yn beth pwysig iawn ar feddwl yr apostol, ac y byddai yn hyfrydwch a llonder mawr i'w ysbryd ef, glywed fod Philemon wedi ei dderbyn ef yn faddeugar a thirion.

21 [t] * Gan hyderu ar dy ufudd-dod, yr ysgrifenais attat, gan wybod y gwnai, † ïe, fwy nag yr wyf yn ei ddywedyd.

t 2 Cor. 2. 3. a 7. 16. a 8. 22. Gal. 5. 10. 2 Thes. 3. 4.

* Yr oedd yr apostol yn llawn hyderu ar ufudd-dod Philemon wrth ysgrifenu hyn ato, gan wybod yn sicr y gwnâi efe y cwbl oedd ef yn geisio yn achos Onesimus; † ïe, a mwy nac oedd ef yn ddywedyd. Nis gwyddom ni beth a fu canlyniad yr epistol hwn; ond mae yn bur debyg i Philemon faddeu i Onesimus, ei dderbyn ef yn garedig, ei ryddâu oddi wrth y ddyled, ac yna ei ollwng ef o'i gaeth-wasanaeth, i wasanaethu yr apostol, yr hyn oedd fwy nac oedd ef wedi ddywedyd. Wrth Colos. 4. 7—9, mae yn debyg fod Paul yn bwriadu ei ddefnyddio ef fel gweinidog yr efengyl, ac efallai iddo wneyd felly wedi hyny. Peth rhyfedd yw gras Duw.

22 * Heb law hyn hefyd, [u] parottôa i mi letty: [x] † canys yr ydwyf yn gobeithio [y] trwy eich gweddïau chwi y rhoddir fi i chwi.

u Act. 28. 23. x Rhuf. 15. 24. Phil. 1. 25, 26. a 2. 24. Heb. 13. 23. 2 Ioan 12. 3 Ioan 14. y Rhuf. 15 30—32. 2 Cor. 1. 11. Phil. 1. 19. Iago 5. 16.

* Heblaw y cais ar ran Onesimus, mae yr apostol yn dymuno ar Philemon i barotôi lletty iddo ef ei hun, erbyn y deuai i Colossa; pryd y caffai gyfle i ddïolch yn bersonol iddo ef am ei garedigrwydd i Onesimus, ac i dalu ei ddyled ef os byddai raid. Yr oedd crybwyll ei fwriad fel hyn o ddyfod ei hun i lettya at Philemon, neu yn agos ato, yn ddïammau yn gwneyd ei gais ef ar ran Onesimus yn fwy effeithiol, ac yn fwy anhawdd ei nacâu. † Yr oedd yn sicr gan yr apostol fod yr eglwys yn Colossa, yn nghyd â Philemon a'i deulu, yn gweddïo yn ddyfal am ei ryddâd ef o'i garchar; ac yr oedd yn gobeithio yn hyderus y rhoddai yr Arglwydd ef iddynt y tro hwnw, yn atebiad i'w gweddïau: mae yn ddïau y gwyddai efe yr hyn a wnaethai Duw i Pedr, yn atebiad i weddïau yr eglwys. Act. 12. 1—19.

23 * Y mae yn dy annerch, [z] Epaphras, [a] † fy nghyd-garcharor yng Nghrist Iesu;

z Col. 1. 7. a 4. 12. a Rhuf. 16. 7. Col. 4. 10.

* Am Epaphras, gwel ar Colos. 1. 7; a 4. 12: † yr oedd efe mòr gyson a gwastadol gyda Phaul, fel y gellid ei ystyried ef megys ei gyd-garcharor ef yn achos Crist a'r efengyl; neu efallai ei fod ef yn garcharor gydag ef y pryd hwn. Pa fodd bynag am hyny, yr oedd efe yn anerch Philemon yn garedig, fel brawd a hen gyfaill anwyl iawn.

24 [b] * Marc, [c] † Aristarchus, [d] ‡ Demas, [e] || Luc, [f] § fy nghyd-weithwyr.

b Act. 12. 12, 25. a 13. 13. a 15. 37—39. Col. 4. 10. 2 Tim. 4. 11. c Act. 19. 29. a 27. 2. d Col. 4. 14. 2 Tim. 4. 10. e 2 Tim. 4. 11. f adn. 1, 2. 2 Cor. 8. 23. Phil. 2. 25. a 4. 3. 3 Ioan 8.

Yr oedd y personau canlynol hefyd yn anerch Philemon yn garedig iawn; gweinidogion yr efengyl oeddynt oll, ac yr oeddynt y pryd hwn gyda Phaul yn Rhufain. * Nid Marc yr Efengylwr, mae yn debyg, oedd hwn, eithr Marc yr hwn a gyfenwid Ioan, neu yn hytrach Ioan a gyfenwid Marc: gwel am dano ar yr ysgrythyrau cyfeiriol dàn y llythyren *b*. Mae rhai yn wir yn tybied mai yr un person oedd Marc yr Efengylwr, â'r Ioan a gyfenwid Marc; ond nid yw hyny yn debyg iawn: cyfaill a chyd-ymdeithydd Pedr oedd y cyntaf, a chyfaill a chyd-ymdeithydd Paul yn benaf oedd yr ail. Gwel ar Act. 12. 25; Colos. 4. 10. † Am Aristarchus, gwel ar Act. 19. 29; a 20. 4; a 27. 2; Colos. 4. 10: yn y lle olaf dywedir ei fod yn gyd-garcharor â'r apostol. ‡ Hwn yw y Demas a adawodd Paul wedi hyn, yn ei ail garchariad yn Rhufain, gan garu y byd presenol yn hytrach na dyoddef er mwyn yr efengyl. Gwel ar 2 Tim. 4. 10. || Luc y physygwr anwyl oedd hwn, ysgrifenydd Efengyl Luc, a Llyfr yr Actau; a chydymaith ffyddlawn Paul yn ei holl deithiau, ei lafur, a'i ddyoddefiadau. Gwel ar Colos. 4. 14, a mànau eraill yn yr Actau, lle y sonir am Luc. § Yr oedd y rhai hyn oll yn gyd-weithwyr ffyddlawn â'r apostol y pryd hwn, yn achos a gweinidogaeth yr efengyl; a ddïammau iddynt barâu felly hyd y diwedd, ond Demas.

25 [g] * Gras ein Harglwydd Iesu Grist † *fyddo* gyd [h] â'ch yspryd chwi. ‡ Amen.

g Gwel ar Rhuf. 16. 20, 24. h 2 Tim. 4. 22.

* I ddiweddu, mae yr apostol yn dymuno am i rad gariad ac ewyllys da yr Arglwydd Iesu Grist, yn nghyd a'i holl ddoniau grasol a bendithiol ef; † i fod gydag ysbryd Philemon a'r holl saint yn Colossa, i'w harwain, eu dyddanu, eu cadarnâu, a'u sancteiddio yn fwy-fwy o hyd, ac i ddiwallu eu holl raid ysbrydol hwynt hyd yn nheyrnas nefoedd. ‡ Ac er tystiolaeth o wirionedd ei ddymuniad a'i obaith ar eu rhan, mae efe yn chwanegu ei Amen yn ddifrifol; felly bydded, ac felly y bydd yn ddïau. Cawn y weddi hon yn gyflawnach yn 2 Cor. 13. 13; gwel yno, ac ar ddiwedd epistolau eraill.

¶ At Philemon yr ysgrifenwyd o Rufain, gyd â'r gwas Onesimus.

EPISTOL PAUL YR APOSTOL

AT YR

HEBREAID.

PEN. I.

Duw yn y dyddiau diweddaf a lefarodd wrthym ni trwy ei Fab ei hun.

*DUW, † wedi iddo lefaru [a] lawer gwaith, a [b] llawer modd, gynt wrth [c] y tadau trwy y prophwydi, ‡ yn y [d] dyddiau diweddaf hyn a [e] lefarodd wrthym ni || yn *ei* Fab;

a Gen. 3. 15. a 6. 3. 13, &c. a 8. 15, &c. a 9. 1, &c. a 12. 1—3. a 26. 2—5. a 28. 12—15. a 32. 24—30. a 46. 2—4. Ex. 3. 1, &c. Luc 24. 27, 44. Act. 28. 23. 1 Pedr 1. 10—12. 2 Pedr 1. 20, 21. b Num. 12. 6—8. Joel 2. 28. c Luc 1. 55, 72. Ioan 7. 22. Act. 13. 32. d Gen. 49. 1. Num. 24. 14. Deut. 4. 30. a 31. 29. Es. 2. 2. Jer. 30. 24. a 48. 47. Ezec. 38. 16. Dan. 2. 28. a 10. 14. Hos. 3. 5. Mica 4. 1. Act. 2. 17. Gal. 4. 4. Eph. 1. 10. 2 Pedr 3. 3. Judas 18. e adn. 5, 8. pen. 2. 3. a 5. 8. a 7. 3. Mat. 3. 17. a 17. 5. a 26. 63. Marc 1. 1. a 12. 6. Ioan 1. 14, 18. a 3. 16. a 15. 15. Rhuf. 1. 4.

Addefai yr Hebreaid ddwyfoldeb ysgrythyrau yr Hen Destament, gan hyn mae yr apostol yn y fân, heb ddim rhagymadrodd, yn prysuro i ymresymu â hwy allan o'u hysgrythyrau eu hunain.—* Duw, sef "Duw Abraham, Isaac, ac Israel," "Arglwydd Dduw yr Hebreaid;" † wedi iddo lefaru yn yr oesoedd gynt wrth yr hynafiaid, o alwad Abraham hyd ddyddiau diweddaf y genedl; a hyny lawer gwaith, ac mewn llawer modd, trwy y prophwydi, dynion fel eu brodyr, ac o'r un natur syrthiedig â'u brodyr; ‡ yn y dyddiau diweddaf hyn, dyddiau goruchwyliaeth yr efengyl, || a lefarodd wrth eu hiliogaeth hwy yn ei Fab ei hun, yr hwn a ymddangosodd yn bersonol yn eu plith hwy yn y natur ddynol; y Gair wedi ei wneuthur yn gnawd, a Duw wedi ymddangos yn y cnawd. *Llawer gwaith:* bob yn rhan, ac o amser i amser, yr oedd Duw yn datguddio ei ewyllys gynt i'r tadau; ond yn ngorpheniad y Testament Newydd, rhoddodd i ni gyflawn ddatguddiad o'i holl ewyllys, can belled ag mae yn angenrheidiol i ni er ein iachawdwriaeth. *Llawer modd:* trwy ymddiddan personol, wyneb yn wyneb, fel â Moses; trwy freuddwydion a gweledigaethau; a thrwy weithrediadau cryfion, digyfrwng, a goruwch-naturiol, ar feddyliau dynion. *Yn ei Fab:* llefarodd Duw yn ei Fab o'r blaen, dàn yr hen oruchwyliaeth; ond yn awr yr oedd yn ddyn, ac yn llefaru fel dyn wrth ddynion; yn eglurach, ac yn fwy noeth-amlwg, nac y llefarai gynt fel yr Angel JEHOFAH. Credai yr Iuddewon a'r Samariaid, y rhoddai y Messiah pan ddelai, y datguddiad egluraf o feddwl Duw i'r byd, o bob datguddiad a gawsai y byd erioed. Tra bu Moses, ac eraill, o oes i oes, yn brophwydi yr hen oruchwyliaeth; Mab Duw, wedi ymddangos yn y natur ddynol, oedd, ac ydyw, Prophwyd mawr yr oruchwyliaeth newydd.

2 * Yr hwn a [f] wnaeth efe yn etifedd pob peth, [g] † trwy yr hwn hefyd y gwnaeth efe y bydoedd:

f pen. 2. 8, 9. Salm 2. 6—9. Es. 9. 6, 7. a 53. 10—12. Mat. 21. 38. a 28. 18. Ioan 3. 35. a 13. 3. a 16. 15. a 17. 2. Act. 10. 36. Rhuf. 8. 17. 1 Cor. 8. 6. a 15. 25—27. Eph. 1. 20—23. Phil. 2. 9—11. Col. 1. 17, 18. 1 Pedr 3. 22. g Diar. 8. 22—31. Es. 44. 24. a 45. 12, 18. Ioan 1. 3. 1 Cor. 8. 6. Eph. 3. 9. Col. 1. 16, 17.

* Yr hwn, sef Mab Duw, yn ei undeb â dynoliaeth, ac yn ei sefyllfa gyfryngol rhwng Duw a dynion, "a wnaeth," ac a osododd y Tad, yn etifedd a meddiannydd pob peth: gosododd ef yn Arglwydd pawb oll, yn Ben uwchlaw pob peth i'r eglwys; a rhoddes iddo ef bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Fel gogyfuwch Fab Duw, yr oedd llywodraeth yr holl fydoedd, o hawl ddechreuol yn perthyn iddo ef; a chan ei fod yn meddu ar holl berffeithiau hanfodol y Duwdod, yr oedd efe yn alluog i lywodraethu pob peth; yr hyn nis gallasai yr un crëadur ei wneyd: ac o ran ei ddynoliaeth a'i swydd gyfryngol, gosodwyd ef gan y Tad yn etifedd pob peth, ac i lywodraethu yr holl fydoedd, ar ei orsedd gyfryngol, gyda phob awdurdod a gogoniant anghymharol. † Yr oedd y gosodiad hwn yn ymddangos yn fwy priodol, o herwydd mai trwyddo ef hefyd y gwnaeth y Tad y bydoedd: gan ei fod ef yn un â'r Tad a'r Ysbryd tragywyddol, mewn hanfod, gallu, a chyngor, yr oedd efe yn Grëawdwr digyfrwng y nefoedd a'r ddaear, yn nghyd a phob math a gradd o fodolion drwy yr holl fydysawd *(universe)* mawr. Gwel ar yr ysgrythyrau cyfeiriol dàn *g*. Os nad yw yr adnod uchod yn brawf eglur a digonol o wir Dduwdod y Cyfryngwr; mae yn anhawdd gwybod pa beth a brawf hyny: pa fodd y gallai crëadur wneyd y bydoedd? A pha fodd y gallai crëadur lywodraethu y bydoedd, yn etifedd pob peth? Atebed y rhai a wadant Dduwdod ein Harglwydd mawr, os gallant, neu addefant y gwirionedd.

3 * Yr hwn, *ac* efe yn [h] ddisgleirdeb *ei* ogoniant *ef*, † ac yn [i] wir lun ei berson ef, [k] ‡ ac yn cynnal pob peth trwy [l] air ei nerth, || wedi [m] puro ein pechodau ni trwyddo ef ei hun, [n] § a eisteddodd ar ddeheulaw y [o] Mawredd yn y goruwchleoedd;

h Ioan 1. 14. a 14. 9, 10. 2 Cor. 4. 6. i 2 Cor. 4. 4. Col. 1. 15. k Salm 75. 3. Col. 1. 17. Dat. 4. 11. l Preg. 8. 4. Rhuf. 1. 16. 2 Cor. 4. 7. m pen. 7. 27. a 9. 12, 14, 26. Ioan 1. 29. 1 Ioan 1. 7. a 3. 5. n pen. 4. 14. a 8. 1. a 10. 12. a 12. 2. Salm 110. 1. Mat. 22. 44. Marc 16. 19. Luc 20. 42, 43. Act. 2. 33. a 7. 56. Rhuf. 8. 34. Eph. 1. 20—22. Col. 3. 1. 1 Pedr 1. 21. Dat. 3. 21. o 1 Cron. 29. 11. Job 37. 22. Mica 5. 4. 2 Pedr 1. 16. Judas 25.

* Mae hanfod Duw o angenrheidrwydd yn annweledig i ddyn: hyn nis gwelodd un dyn, ac nis gall ei weled. Ond mae yr oll a ellir ei weled o Dduw yn dysgleirio yn ogoneddus yn yr "unig-anedig Fab," yr hwn a osododd efe i hysbysu ei ogoniant a'i berffeithiau i ddynion, (gwel ar Ioan 1. 18.) fel y mae efe yn un â'r Tad, ac yn ogyfuwch âg ef yn yr hanfod, neu y natur ddwyfol; ac eto yn Berson gwahanol oddi wrth y Tad. Trwy gymeryd dynoliaeth i undeb â'i Berson dwyfol ei hun, efe a ddaeth yn ddysgleirdeb gogoniant y Tad; neu yn *ddysgleiriad allan* gogoniant Duw i ddynion; ac fel hyn a hysbysodd, neu a amlygodd berffeithiau y Duwdod i ni, fel y gallai ddywedyd, "y neb a'm gwelodd I a welodd y Tad." † Oblegid yr oedd y Mab yn wir lun, delw, ac argraff, Person y Tad; ac yn ddangos ynddo ei hun natur a pherffeithiau Duw i ddynion, gyda'r cywirdeb mwyaf, ac yn y modd mwyaf effeithiol ag oedd yn bosibl; fel yn ol y graddau yr adnabydder Crist, yn ei

Berson, ei gymmeriad, a'i iachawdwriaeth, yr adnabyddir y Tad hefyd: a'r hwn nid yw yn adnabod Crist, nid yw yn adnabod y Tad chwaith. Tybir fod y geiriau *dysyleirdŵ ei ogoniant ef*, yn dangos *undeb* y Mab â'r Tad o ran *hanfod;* a'r geiriau *gwir lun ei Berson ef*, yn dangos y *gwahaniaeth* rhwng y Mab â'r Tad o ran *personoliaeth:* er bod y Mab yn *Berson* gwahanol, eto mae yn *wir lun* Person y Tad: fel mae yr argraff ar y cŵyr yn wir lun y cerfiad ar y *sel*, ac yn annhraethol fwy na hyny: ni ddichon geiriau na chyffelybiaethau dynol osod allan y pethau annhraethadwy uchod. ‡ Y Person anfeidrol hwn, trwy yr hwn y *gwnaeth* Duw y bydoedd, sydd hefyd yn *cynnal* pob peth trwy air ei nerth; pob peth yn y nef, yn yr holl wybrenau, ac ar y ddaear, o'r pryfyn gwaelaf hyd yr angel uwchaf; mae ef yn eu cynnal oll, mòr hawdded a llefaru gair o'i enau, a thrwy air ei hollalluog nerth. ‖ Ac efe a wnaeth lawer mwy na hyny oll; oblegid fel Arch-offeiriad mawr ei bobl, efe a burodd ac a dynodd ymaith eu holl bechodau hwy, trwy ei aberth ar y groes. Dangosodd yr apostol ragoriaeth Crist ar y prophwydi yn yr adnod flaenaf, ar freninoedd yn yr ail adnod, ac yma mae yn dangos ei ragoriaeth ar yr offeiriaid, yr hyn yw prif amcan a thestyn yr epistol hwn, tra mae y swyddau prophwydol a breninol yn cael cyfhwrdd â hwy yn awr ac eilwaith. Am buro pechodau yn y fàn hon, rhaid ei ddeall mewn ystyr aberthawl, a chymmodawl, fel yn Lefit. 16. 30. § Gwedi gorphen y gwaith rhyfeddol hwn o buro ein pechodau ni, efe a adgyfododd yn ŵr rhydd, a buddugoliaethus ar angau ac uffern, a esgynodd yn y natur ddynol i'r drydedd nef, ac a eisteddodd fel "Etifedd pob peth" ar ei orsedd fawr gyfryngol, ar ddeheulaw y Mawredd, sef y Tad, mewn gogoniant annhraethadwy. Mae yma gyfeiriad yn ddiammau, at yr arch-offeiriad gynt yn myned i mewn i'r sancteiddiolaf, lle yr oedd y *Shechinah*, ar ol aberthu yn y cyssegr; ond gyda hyn o wahaniaeth, *sefyll* y byddai yr arch-offeiriad gynt ger bron y drugareddfa a'r *Shechinah*, ond mae Iesu, ein Harch-offeiriad mawr ni, yn *eistedd* ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwch-leoedd, pen. 10. 11, 12.

4 * Wedi *ei* wneuthur [p] o hynny yn well nâ'r angelion, † o gymmaint [q] ag yr etifeddodd efe enw mwy rhagorol nâ hwynt-hwy.

p adn. 9. pen. 2. 9. Eph. 1. 21. Col. 1. 18. a 2. 10. 2 Thes. 1. 7. 1 Pedr 3. 22. Dat. 5. 11, 12. q Salm 2. 7, 8. Phil. 2. 9—11.

* Mae y Person gogoneddus hwn, nid yn unig yn well, neu yn rhagori yn anfeidrol ar y prophwydi, y breninoedd, a'r arch-offeiriaid gynt; ond y mae hefyd yn rhagori ar y graddau uwchaf o'r holl angelion eu hunain: mae yn rhagori yn annhraethol arnynt oll fel Duw, ac wedi ei osod i ragori arnynt oll mewn mawredd ac awdurdod fel Duw-ddyn, fel Cyfryngwr, ac fel Etifedd pob peth, ac Arglwydd pawb oll. † Mae y rhagoriaeth hyn yn amlwg, o gymmaint ag yr etifeddodd efe enw mwy rhagorol na neb o'r angelion; sef yr enw *Mab Duw;* (adn. 5.) enw priodol iddo ef ei hun, mewn ystyr wahanol i bawb eraill, ac yn dangos ei ragoriaeth ef ar bawb eraill; enw yn arwyddo ei dragywyddol genedliad a'i Faboliaeth ef fel Person dwyfol, ac enw yn arwyddo ei oruwch-awdurdod ef ar ddynion ac angelion oll, fel Etifedd pob peth. Yr oedd ganddo ef hawl i'r enw hwn fel unig-anedig Duw, fel Cyfryngwr hefyd rhwng Duw â dynion; ac efe a'i hetifeddodd yn gyfiawn. Yr oedd gan yr Iuddewon feddyliau mawr am yr angelion, o herwydd rhoddi y ddeddf trwy angelion; (pen. 2. 2.) ac o herwydd hyny, gyda llawer o briodoldeb, mae yr apostol yn dangos fod Crist, trwy yr hwn y llefarodd Duw wrthynt hwy yn y dyddiau diweddaf, yn rhagori ar yr angelion, ac y dylent hwy wrando arno ef a derbyn ei efengyl, gyda mwy o barch nac y derbynient yr hyn a roddwyd trwy angelion.

5 * Canys wrth bwy o'r angelion y dywedodd efe un amser, [r] † Fy mab ydwyt ti; ‡ myfi heddyw a'th genhedlais di? ‖ A thrachefn, [s] Myfi a fyddaf iddo ef yn Dad, ac efe a fydd i mi yn Fab?

r pen. 5. 5. Salm 2. 7. Act. 13. 33. s 2 Sam. 7. 14. 1 Cron 17. 13. a 22. 10. a 28. 6. Salm 89. 26, 27.

* Canys wrth bwy o'r angelion, hyd yn nôd yr uwchaf o honynt, y dywedodd Duw un amser erioed, "Fy Mab ydwyt ti?" Ni ddywedodd efe felly erioed wrth yr un o honynt hwy, a gwyddai yr Hebreaid nad oedd yr un crybwylliad am y cyfryw ddywediad yn yr Hen Destament. † Ond efe a ddywedodd felly wrth y Messiah, yn Salm 2. 7; a chaniatâi yr Iuddewon oll yn unfryd, mai at y Messiah yr oedd y geiriau hyny yn cyfeirio. Gelwir yr angelion yn feibion Duw, mae yn wir, trwy grëadigaeth, a gelwir y saint felly, trwy fabwysiad; ond yma Mab hanfodawl a feddylir, priod, ac unig-anedig Fab Duw, mewn ystyr annhraethol uwch nâ dynion nac angelion, a chyn bod yr un o honynt: ‡ oblegid "Myfi heddyw a'th genedlais di," ebai Duw, yr hyn nis gall feddwl cenedliad, neu ffurfiad ei ddynoliaeth ef mewn amser: oblegid nid o ran ei ddynoliaeth yr oedd efe yn well na'r angelion, yr hyn yw y pwnc gan yr apostol i'w brofi yn y fàn hyn. Tragywyddoldeb yw heddyw Duw yn y fàn hon, yr hwn o herwydd ei barâd gwastadol a digyfnewid, sydd megys un diwrnod iddo ef. Nis gellir deall y geiriau, "Fy Mab ydwyt ti, myfi heddyw a'th genedlais di," chwaith, am ei osodiad ef yn y swydd gyfryngol; oblegid y *canlyniad* o'i fod ef yn well na'r angelion oedd y gosodiad hwnw, ac nid yr *achos* o'i fod yn well na'r angelion: *am* ei fod yn well na'r angelion y gosododd Duw ef yn gyfryngwr; neu, mewn geiriau eraill, *am* ei fod yn Fab Duw, o dragywyddol genedliad, ac o'r un hanfod â'r Tad, y gosodwyd ef yn gyfryngwr. Gweler hefyd yr hyn a ddywed ef ei hun am ei dragywyddol genedliad a'i osodiad fel cyfryngwr, yn Diar. 8. 22—31. ‖ Yn y rhan flaenaf o'r adnod, mae y Tad yn dywedyd yr hyn a wnaethai efe eisoes, yn nghenedliad ei Fab; ac yn y rhan hon mae yn dywedyd yr hyn a wnai efe iddo ar ol ei ddwyn ef i'r byd, sef ei addef a'i gydnabod ef fel ei Fab, ac ymddwyn tuag ato fel y cyfryw: yr hyn a wnaeth efe yn amlwg trwy ei holl oes ar y ddaear. Dywedir y geiriau hyn yn llythyrenol am Solomon; (2 Sam. 7. 14; 1 Cron. 17. 13.) ond yr oedd Solomon yn gysgod arbenig o Grist, fel yr addefai yr Iuddewon oll; ac mae yr apostol yma trwy ysbrydoliaeth Duw, yn eu cymhwyso hwy at y Messiah, sylwedd mawr y cysgod hwnw.

6 * A thrachefn, pan yw yn dwyn [t] y Cyntaf-anedig i'r byd, † y mae yn dywedyd, [u] Ac addoled holl angelion Duw ef.

t adn. 5. Diar. 8. 24, 25. Ioan 1. 14, 18. a 3. 16. Rhuf. 8. 29. Col. 1. 15, 18. 1 Ioan 4. 9. Dat. 1. 5. u Salm 97. 7. Luc 2. 9—14. 1 Pedr 3. 22. Dat. 5. 9—12.

* A thrachefn, mae genym dystiolaeth arall eto, o Dduwdod y Messiah, a'i ragoriaeth ef ar yr angelion, yn Salm 97. 7; lle mae y Tad, gyda golwg ar ddwyn y Cyntaf-anedig hwn i'r byd yn nghyflawnder yr amser, wedi ei wneuthur o wraig, † yn dywedyd, "Ac addoled holl angelion Duw ef;" yr hyn sydd brawf mai efe yw Duw eu Crëawdwr hwy, a hwythau yn waith ei ddwylaw, a'i grëaduriaid ef; pe amgen ni buasai Duw yn gorchymyn iddynt ei addoli ef, yr hyn ni ddylid ei wneyd ond i'r Duwdod yn unig. "Addolwch ef yr holl *dduwiau*," sydd yn y Salm a grybwyllwyd, ond yn lle duwiau, rhoddwyd *angelion Duw* yn nghyfieithiad Groeg y Deg a thriugain, medd *Pool*, ac felly y mae gan yr apostol yma. *A phan yw drachefn, neu yr ail waith, yn dwyn y Cyntaf-anedig i'r byd, &c.*, yw rhediad y geiriau Groeg, a thybia rhai mai nid ei ddygiad ef i'r byd yn ei enedigaeth a feddylir, eithr ei ddygiad ef i'r byd oddi wrth y meirw, ac i sefydlu ei deyrnas yn y byd drwy yr efengyl, a feddylir: ac mae hyny yn fwy tebyg wrth y Salm a grybwyllwyd uchod, lle y gelwir ar yr holl *dduwiau* i'w addoli ef: prophwydoliaeth am ogoniant a breniniaeth y Messiah sydd yno. Ond pa un bynag am

feddwl y gair *drachefn,* gorchymynir *addoli* y Cyntafanedig, yr hyn sydd brawf o'i Dduwdod ef.

7 * Ac am yr angelion y mae yn dywedyd, [x] Yr hwn sydd yn gwneuthur ei angelion yn ysprydion, † a'i weinidogion yn fflam dân.

x adn. 14. 2 Bren. 2. 11. a 6. 17. Salm 104. 4. Es. 6. 2. Ezec. 1. 13, 14. Dan. 7. 10. Zec. 6. 5.

* Ac yn mhellach eto, er dangos fod yr angelion lawer yn is nâ'r Mab, Etifedd pob peth; mae Duw wrth lefaru am danynt hwy, yn dywedyd, Yr hwn sydd yn gwneuthur ei angelion, y rhai ardderchocaf o honynt, yn weision i gyfiawni ei ewyllys ef, gyda nerth, cyflymdra, a bywiogrwydd ysbrydol, fel y gwyntoedd; † ac yn gwneuthur ei weinidogion ysbrydol hyn yn angerddol, yn rymus, ac yn dreiddiol yn eu gweithrediadau, fel y mellt neu unrhyw fflamau tân. Mae y gair *(pneumata)* a gyfieithir yma "ysbrydion," yn arwyddo *gwyntoedd* hefyd, fel y crybwyllwyd uchod; ac efallai bod yr apostol yn cyfeirio at weithrediadau yr angelion yn y taranau, y mellt, a'r dymhestl ofnadwy, oedd ar fynydd Sinai yn rhoddiad y gyfraith. Gwel Exod. 19. 16; Heb. 12. 18. Mae y geiriau uchod yn Salm 104. 4.

8 * Ond wrth y Mab, [y] Dy orsedd-faingc di, [z] O Dduw, *sydd* [a] yn oes oesoedd: [b] † teyrnwïalen uniondeb yw teyrn-wïalen dy deyrnas di.

y Salm 45. 6. z pen. 3. 3, 4. Es. 7. 14. a 9. 6, 7. a 45. 21, 22, 25. Jer. 23. 6. Hos. 1. 7. Zec. 13. 9. Mal. 3. 1. Mat. 1. 23. Luc 1. 16, 17. Ioan 10. 30, 33. a 20. 28. Rhuf. 9. 5. 1 Tim. 3. 16. Tit. 2. 13, 14. 1 Ioan 5. 20. a Salm 145. 13. Es. 9. 7. Dan. 2. 44. a 7. 14. 1 Cor. 15. 25. 2 Pedr 1. 11. b 2 Sam. 23. 3. Salm 72. 1—4, 7, 11—14. a 99. 4. Es. 9. 7. a 32. 1, 2. Jer. 23. 5. a 33. 15. Zec. 9. 9.

* Mae yr apostol yn cymmeryd y geiriau hyn o Salm 45. 6, prophwydoliaeth nodedig iawn am y Messïah a'i Dduwdod, lle mae y Tad yn dywedyd wrtho, "Dy orsedd-fainc di, O Dduw, sydd yn oes oesoedd." Yma mae y Tad yn llefaru wrth y Mab fel Duw, ac yn dywedyd bod ei orsedd-fainc a'i lywodraeth hanfodol ef fel Duw yn oes oesoedd, heb ddechreu, heb gyfnewidiad, ac heb ddiwedd byth: a'i orsedd a'i lywodraeth gyfryngol ef hefyd i barâu hyd ddiwedd y byd, ac ar ei bobl brynedig yn oes oesoedd. † Y deyrn-wïalen, â'r hon y llywodraetha efe ei bobl, a'r byd oll, er eu llesâd, sydd deyrn-wïalen uniondeb: bydd ei waith yn maddeu ac yn trugarâu, yn anrhyddeddus i gyfiawnder ac uniondeb Duw, ac yn dra effeithiol i feithrin uniondeb a chyfiawnder yn y byd. Mae ei gyfreithiau a'r gweinyddiad o honynt yn berffaith uniawn oll, yn ei waith yn achub ei eiddo ac yn cospi ei elynion. Arwyddion breninoliaeth yw gorsedd a theyrn-wïalen; ac yma priodolir tragywyddoldeb i'r naill ac uniondeb i'r llall.

9 * Ti a [c] geraist gyfiawnder, ac a [d] gaseaist anwiredd: † am hynny [e] y'th enneiniodd Duw, *sef* [f] dy Dduw di, âg [g] olew gorfoledd ‡ tu hwnt [h] i'th gyfeillion.

c pen. 7. 26. Salm 11. 5. a 33. 5. a 37. 28. a 40. 8. a 45. 7. Es. 61. 8. d Salm 119. 104, 128. Diar. 8. 13. Amos 5. 15. Zec. 8. 17. Rhuf. 12. 9. Dat. 2. 6, 7, 15. e Salm 89. 26. Ioan 20. 17. 2 Cor. 11. 31. Eph. 1. 3. 1 Pedr 1. 3. f Salm 2. 2, 6. a 89. 20. Es. 61. 1. Luc 4. 18. Ioan 1. 41. a 3. 34. Act. 4. 27. a 10. 38. g Salm 23. 5. Es. 61. 3. Rhuf. 15. 13. Gal. 5. 22. h pen. 2. 11. 1 Cor. 1. 9. 1 Ioan 1. 3.

* Nid yn unig mae ei deyrn-wïalen ef yn deyrn-wïalen uniondeb a chyfiawnder, ond y mae efe ei hun hefyd yn caru cyfiawnder ac yn casâu anwiredd: fel Mab Duw yr oedd efe yn hanfodol gyfiawn ac yn ddigyfnewid sanctaidd; yr oedd ei ddynoliaeth ef yn berffaith rydd oddi wrth anghyfiawnder ac anwiredd; yr oedd ei holl ymarweddiad ef, hyd angau, yn berffaith gyfiawn; a bydd holl lywodraethiad ei deyrnas ef felly byth. Efe a gyflawnodd bob cyfiawnder yn ei ufudd-dod, efe a wnaeth gymmod dros anwiredd â'i waed, ac a fyn weled ei holl bobl yn gyfiawn oll, ac heb ddim anwiredd ynddynt. † Am hyn yr eneinniwyd ef gan Dduw, sef ei Dduw a'i Dad ef, yr hwn a ddarparodd gorph iddo, a'r hwn sydd yn Dduw cyfammodol iddo fel Cyfryngwr, âg olew gorfoledd, neu ddoniau a grasau yr Ysbryd Glân, ffynon pob gwir lawenydd a gorfoledd; ‡ tu hwnt, ac uwchlaw ei holl gyfeillion, pawb o'r saint enwocaf a fu o'i flaen ef ar y ddaear, a phawb a ddeuai ar ei ol ef hyd ddiwedd amser. Nid wrth fesur y rhoddodd Duw iddo ef yr Ysbryd, ac o'i gyflawnder ef mae ei holl gyfeillion yn derbyn, yn wastadol, a gras am ras, yn ol mesur dawn Crist. Mae yma gyfeiriad yn ddïammau at y ddefod gynt, o eneinnio, neu gyssegru prophwydi, breninoedd, ac offeiriaid, i'w gwahanol swyddau: ond Crist tu hwnt i bawb, yn Brophwyd, Brenin, ac Arch-offeiriad mawr tragywyddol. Dywed rhai mai angelion a feddylir yma wrth *gyfeillion* Crist, o herwydd mai dangos ei ragoriaeth ef ar angelion yr oedd yr apostol yn yr adnodau o'r blaen: ond ni chymmerodd efe erioed naturiaeth angelion; a sôn am ei ddynoliaeth ef y mae yr apostol yn y fàn hon, wrth grybwyll am ei eneinniad.

10 * Ac, [i] † Tydi [k] yn y dechreuad, Arglwydd, [l] a sylfaenaist y ddaear: a [m] gwaith dy ddwylaw di yw y nefoedd.

i Salm 102. 25—27. k Gen. 1. 1. Ioan 1. 1—3. Dat. 3. 14. 1 Diar. 8. 29. Es. 42. 5. a 48. 13. a 51. 13. Jer. 32. 17. Zec. 12. 1. m Deut. 4. 19. Salm 8. 3, 4. a 19. 1. Es. 64. 8.

* Prawf arall a gymmerir eto o'i Dduwdod ef, allan o Salm 102. 25—27. Gweddi eglwys drallodedig Israel sydd yno, am y Gwaredwr dysgwyliedig; ac mae yr apostol yma yn dangos i ni mai at Fab Duw yn bersonol yr oedd yn cael ei chyfeirio. † Addefai yr eglwys hòno ef yn Arglwydd, neu JEHOFAH, ac addefai mai efe a sylfaenasai y ddaear, ac mai gwaith ei ddwylaw ef oedd y nefoedd; ac fel hyny wrth ei enw a'i waith, addefai ef yn wir Dduw: yr oedd iddo enw mwy rhagorol na'r angelion, a gwaith nas gallent hwy ei wneyd: ïe, ei waith ef oeddynt hwy.

11 * Hwynt-hwy [n] a ddarfyddant; † ond [o] tydi sydd yn parhâu: ‡ a hwynt-hwy oll [p] fel dilledyn a heneiddiant;

n pen. 12. 27. Es. 34. 4. a 65. 17. Mat. 24. 35. Marc 13. 31. Luc 21. 33. 2 Pedr 3. 7—10. Dat. 20. 11. a 21. 1. o Salm 10. 16. a 29. 10. a 90. 2. Es. 41. 4. a 44. 6. Dat. 1. 11, 17, 18. a 2. 8. p Es. 50. 9. a 51. 6, 8.

* Yn yr adnod o'r blaen dangoswyd fod Mab Duw cyn y nefoedd a'r ddaear, ac mai ei waith ef oeddynt; yn yr adnod hon dangosir y pery efe ar ol i'r nefoedd a'r ddaear ddarfod; yr hyn a'i dengys ef yn Dduw o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb; yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd. Er mòr gadarn a pharâus mae y ddaear a'r nefoedd weledig yn ymddangos i ni, ac er y tybiai rhai o'r philosophyddion paganaidd eu bod yn anllygradwy ac i barâu byth; eto hwy a ddarfyddant, medd yr ysgrythyr, † ond e bery Iesu byth, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd, ac e bery ei orsedd a'i bobl ef byth, wedi i'r ddaear a'r nefoedd ddarfod. ‡ Ac fel yr ydym beunydd yn gweled crëaduriaid y ddaear isod hon yn heneiddio ac yn adfeilio yn raddol; felly y ddaear ei hun, a'r nefoedd, a phob peth gweledig ynddynt, a heneiddiant, a dreuliant allan, ac o'r diwedd a ânt yn llwyr anghymhwys i ateb eu dyben presenol, fel hen ddilledyn pwdr a charpiog.

12 * Ac megis gwisg y plygi di hwynt, † a hwy a newidir: [q] ‡ ond tydi yr un ydwyt, [r] ‖ a'th flynyddoedd ni phallant.

q pen. 13. 8. Ex. 3. 14. Ioan 8. 58. Iago 1. 17. r Salm 90. 4.

* Ac mòr hawdd ag y dïosgir dilledyn, y plygir ef i fynu, ac a'i gosodir o'r neilldu fel y mỳno dyn, pryd nad yw o wasanaeth mwy, a phryd mae ei berchenog wedi darfod âg ef, neu yn bwriadu ei droi i rywbeth arall; felly y gwna Mab Duw, Crëawdwr y nefoedd a'r ddaear, trwy ei allu dwyfol, yn niwedd amser; efe a blyg y nefoedd fel gwisg, ac fel llyfr, a phob mynydd ac ynys a symmudir allan o'u lleoedd. Esa. 34. 4; Dat. 6. 14. † A thrwy ei hollalluog nerth efe a wna y fath gyfnewidiad rhyfeddol ar y cwbl, fel yn lle eu diddymu a'u dystrywio yn hollawl, hwy a newidir yn nefoedd newydd

a daear newydd, yn y rhai y bydd cyfiawnder yn cartrefu: ond pa fath a fyddant wedi y newidiad hwn, nid oes genym ni ddim amgyffred yn bresenol; ar ol eu plygu fe'u dadblyga Iesu hwy drachefn, yn ogoneddus iawn iddo ei hun. ‡ Ond y mae efe ei hun yn dragywyddol a digyfnewid yr un, yn ei hanfod a'i berffeithiau, ac yn ei gariad at ei bobl, ac effeithioldeb ei eiriolaeth drostynt: ‖ nid oes iddo ef ddechreu dyddiau na diwedd einioes, cyfnewidiad na chysgod tröedigaeth byth: Alpha ac Omega, y cyntaf diddechreu, a'r diweddaf diddiwedd yw efe.

13 * Ond [s] wrth ba un o'r angelion y dywedodd efe un amser, [t] † Eistedd ar fy neheulaw, [u] ‡ hyd oni osodwyf dy elynion yn droed-faingc i'th draed?

s adn. 5. t pen. 10. 12. Salm 110. 1. Mat. 22. 44. Marc 12. 36. Luc 20. 42. Act. 2. 34—36. a 7. 55. u Salm 21. 8, 9. a 132. 18. Es. 63. 3—6. Luc 19. 27. 1 Cor. 15. 25, 26. Dat. 19. 11—21. a 20. 15.

* Ni lefarodd y JEHOFAH erioed wrth yr un o'r angelion, yn y fath eiriau ag a gynnwysir mewn prophwydoliaeth nodedig ac addefawl arall am y Messïah, yn Salm 110. 1; † lle mae efe yn ei alw ef i eistedd, fel Tywysog mawr, ar ei ddeheulaw ei hun, ‡ hyd oni ddrylliai efe ei holl elynion rhyfygus a gwrthryfelgar ef, a'u gosod yn droed-fainc i'w draed ef, yn ol arfer brenïnoedd buddugoliaethus gynt. Felly yr addawodd y Tad i'r Mab, felly y mae efe yn eistedd yn awr, a sicr yw y gosodir ei holl elynion fel hyn mewn darostyngiad iddo. Gwel ar Matth. 22. 44; Act. 2. 34, 35.

14 * Onid [v] ysprydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, [x] † wedi eu danfon i [y] wasanaethu er mwyn [y] rhai a gânt [z] etifeddu iachawdwriaeth?

v pen. 8. 6. a 10. 11. Luc 1. 23. Act. 13. 2. Rhuf. 13. 6. a 15. 16, 27. 2 Cor. 9. 12. Phil. 2. 17, 25.—1 Bren. 22. 19. Job 1. 6. Salm 103. 20, 21. a 104. 4. Es. 6. 2, 3. Dan. 7. 10. Mat. 13. 41, 49, 50. a 18. 10. Luc 1. 19. 2 Thes. 1. 7. Judas 14. x Act. 11. 22. 1 Pedr 1. 12. Dat. 5. 6. y Salm 34. 7. a 91. 11, 12. Dan. 6. 22 a 9. 21—23. a 10. 12. Mat. 1. 20. a 2. 13. a 24. 31. Luc 16. 22. Act. 5. 19. a 10. 3, 4. a 12. 7, 23. a 16. 26. a 27. 23. z pen. 6. 12, 17. Mat. 25. 34. Rhuf. 8. 17. Gal. 3. 7, 9, 29. Eph. 3. 6. Tit. 3. 7. Iago 2. 5. 1 Pedr 1. 4. a 3. 7.

* O'r tu arall, gwyddai yr Hebreaid yn dda, bod yr holl angelion wedi eu gosod mewn sefyllfa is o lawer na'r hyn a ddywedwyd uchod am Fab Duw, y Messïah: gwyddent mai ysbrydion gwasanaethgar oeddynt hwy oll, gweision yr Arglwydd, i wneuthur ei air ef, mewn ufudd-dod parod a diwrthwyneb. † Nid gweision y Tad yn unig, ond gweision Crist hefyd; yn cael eu hanfon ganddo ef, i weini i'r rhai o ddynolryw a gânt etifeddu iachawdwriaeth, er diogelwch, amddiffyn, a lles ysbryddol iddynt yn y byd drwg presenol, ac yn eu mynediad yn angau i'w hetifeddiaeth dragywyddol. Oni ddylai y meddwl fod angelion yn gweini i ni, ein gwneyd yn ostyngedig ac yn ddïolchgar iawn? ac yn enwedig pan feddyliom fod hyn oll o ddaioni a gofal yr Arglwydd Iesu, yr hwn, fel y gwelsom, sydd yn anfeidrol uwchlaw yr angelion oll.

PEN. II.

Y dylem ni fod yn ufudd i Grist Iesu.

[a] * AM hynny y mae yn rhaid i ni [b] ddal yn well ar y pethau y glywsom, [c] † rhag un amser i ni *eu* gollwng *hwy* i golli.

a adn. 2—4. pen. 1. 1, 2. a 12. 25, 26. b Deut. 4. 9, 23. a 32. 46, 47. Jos. 23. 11, 12. 1 Cron. 22. 13. Salm 119. 9. Diar. 2. 1—6. a 3. 21. a 4. 1—4, 20—22. a 7. 1, 2. Luc 8. 15. a 9. 44. c pen. 12. 5. Mat. 16. 9. Marc 8. 18. 2 Pedr 1. 12, 13, 15. a 3. 1.

Yn nghanol y mater o brofi goruchel fawredd y Cyfryngwr, mae yr apostol megys yn ymattal, i gymhwyso ei athrawiaeth ato ei hun a'r Hebreaid; ac at bawb, yn mhob mân ac oes, lle y delo yr efengyl: * rhaid i ni oll ddàl yn well, mewn sylw, myfyrdod, deall, a chredu, ar y pethau a glywsom yn flaenorol am Grist; † rhag un amser trwy ddifaterwch, temtasiynau, gofalon bydol, neu erledigaethau, i ni eu gollwng hwy i golli, neu i *redeg allan* fel dwfr o lestr agenog: neu fel dwfr pur a bywiol yn rhedeg heibio i ni, a ninnau yn esgeuluso gwneyd dim defnydd o hóno. Mae pob anghof gwirfoddol, a phob gwrthgiliad mewn calon a phroffes, yn cael eu gwahardd gan yr Ysbryd Glân yn y geiriau uchod.

2 * Canys os bu gadarn y gair a [d] lefarwyd trwy angelion, † ac os derbyniodd [e] pob trosedd ac anufudd-dod [f] gyfiawn daledigaeth;

d Deut. 33. 2. Salm 68. 17. Act. 7. 53. Gal. 3. 19. e pen. 10. 28. Ex. 32. 27, 28. Lef. 10. 1, 2. a 24. 14—16. Num. 11. 33. a 14. 28—37. a 15. 32—36. a 16. 31—35, 49. a 20. 11, 12. a 21. 6. a 25. 9. Deut. 4. 3, 4. a 17. 5, 12. a 27. 26. 1 Cor. 10. 5—12. Judas 5. f pen. 10. 35. a 11. 6, 26.

3 [g] ‡ Pa fodd y diangwn ni, os esgeuluswn [h] iachawdwriaeth gymmaint, ‖ yr hon, [i] wedi dechreu ei thraethu trwy yr Arglwydd, [k] § a sicrhâwyd i ni gan y rhai a'*i* clywsant *ef:*

g pen. 10. 29. a 12. 25. Es. 20. 6. Ezec. 17. 15, 18. Mat. 23. 33. Rhuf. 2. 3. 1 Thes. 5. 3. 1 Pedr 4. 17, 18. Dat. 6. 16, 17. h pen. 5. 9. a 7. 25, 26. Es. 12. 2. a 51. 5, 8. a 62. 11. Luc 1. 69. Ioan 3. 16—18. Act. 4. 12. 1 Tim. 1. 15. Tit. 2. 11. Dat. 7. 10. i Gwel ar pen. 1. 2. Mat. 4. 17. Marc 1. 14. Luc 34. 19. Act. 2. 22. k Marc 16. 15—19. Luc 1. 2. a 24. 47, 48. Ioan 15. 27. Act. 1. 22. a 10. 40—42.

* Y gair a lefarwyd trwy angelion oedd y ddeddf, y deg gorchymyn: cyfrifai yr Iuddewon awdurdod y ddeddf yn fawr a chadarn, a pharâd ei chadernid a'i hawdurdod yn dragywyddol a diammëus; o herwydd ei llefaru gan angelion, fel gweinidogion Duw JEHOFAH, yn y rhoddiad o hóni ar Sinai. Ac os bu gadarn felly y gair a lefarwyd trwy angelion, † fel nas goddefai y JEHOFAH mewn un modd i neb o'r bobl droseddu nac anufuddâu, heb dywallt arnynt gosp haeddiannol, a chyfiawn daledigaeth; ‡ pa fodd y gallai yr Hebreaid hyny yr oedd yr apostol yn ysgrifenu atynt, ddïanc rhag digofaint a dïaledd Duw, os esgeulusent hwy iachawdwriaeth mòr fawr â'r hon a ddatguddid iddynt yn yr efengyl? Mae mawredd yr Iachawdwr, yr hwn a grëodd ac sydd yn cynnal pob peth; anfeidroldeb y gwerth a dâlodd efe dros iachawdwriaeth dynion; dyfnder y trueni o ba un mae efe yn gwaredu ei bobl; mawredd eu hangen hwy o'r iachawdwriaeth; ei rhadlonrwydd hollawl hi i bawb a'i ceisiant, heb derfyn nac eithriad; y ddarpariaeth anfeidrol a wnaed i ddiwallu eu holl raid hwynt; yn nghyd â'r dedwyddwch gogoneddus i ba un mae yn arwain;—mae y pethau hyn oll, yn nghyd â llawer yn chwaneg, yn gwneyd yr iachawdwriaeth yn deilwng o gael ei galw yn "iachawdwriaeth gymmaint;" ïe, mòr fawr, fel y mae uwchlaw pob amgyffred. Mae gwrthod y fendith anmhrisiadwy hon, o falchder, cariad at y byd a phechod, neu ymlŷniad wrth wageddau coel-grefyddol; mae ei hesgeuluso, trwy ddiogi, oediad, casineb at foddion gras, neu ofn erlid; ac mae ei gwrthwynebu neu ei llygru, o elyniaeth tuag at Dduw a sancteiddrwydd; nid yn unig yn gadael dynion dàn felltith y ddeddf, ond hefyd yn eu gwneyd yn euog o drin gwirionedd Duw fel celwydd, o ddïystyru ei drugaredd ef, o arfeiddio ei gyfiawnder a'i allu ef, ac o wrthod ei gynnygion graslonaf a thaeraf ef o gymmod a maddeuant. Pa fodd, gan hyny, y gall y cyfryw ddynion ddïanc rhag y digofaint sydd ar ddyfod? ‖ Dechreuwyd traethu yr iachawdwriaeth hon, yn yr eglurdeb goleuaf o hóni dàn oruchwyliaeth yr efengyl, gan yr Arglwydd Iesu ei hun, wedi ymddangos yn y natur ddynol, fel Prophwyd mawr ei eglwys. Ymostyngodd Mab Duw ei hun i fod yn Bregethwr cyntaf yr iachawdwriaeth fawr hon: § ac ar ol ei esgyniad ef i'r nefoedd, i ymddangos ger bron Duw drosom ni, hi a sicrâwyd i'r Iuddewon ac eraill, gan ei apostolion a'i efengylwyr ef, y rhai a welsent ei ogoniant ef, a glywsent ei athrawiaeth ef, ac a ddanfonasid i'r weinidogaeth yn ddigyfrwng ganddo ef. Mae diwedd adn. 3, yn dangos nad oedd ysgrifenydd yr epistol hwn yn

wrandawwr personol ar weinidogaeth Crist pan oedd ar y ddaear: a pha un o'r apostolion ond Paul a allasai hwnw fod. *Dechreu* llefaru a wnaeth Crist, gadawodd ei farwolaeth, ei adgyfodiad, ei esgyniad, ac amryw bethau eraill i'r apostolion eu llefaru drachefn: ni lefarodd ef y pethau hyny ond fel pethau i ddyfod; llefarodd yr apostolion hwy yn eglurach, fel pethau wedi eu cyflawni.

4 [1] * *A* Duw hefyd yn cyd-dystiolaethu, † trwy arwyddion a rhyfeddodau, ac amryw nerthoedd, ‡ a doniau yr Ysbryd Glân, [m] yn ol ei ewyllys ei hun?

l Marc 16. 20. Ioan 15. 26. Act. 2. 32, 33. a 3. 15, 16. a 4. 10. a 14. 3. a 19. 11, 12. Rhuf. 15. 19. m Dan. 4. 35. Eph. 1. 5, 9.

* Yr oedd Duw hefyd yn cyd-dystiolaethu âg athrawiaeth yr apostolion, fel athrawiaeth ei anwyl Fab, † trwy amryw wyrthiau ac arwyddion nerthol a rhyfeddol a wnaid ganddynt hwy; ‡ a thrwy amryw ddoniau yr Ysbryd Glân, a roddid iddynt hwy yn ol ei ewyllys ef ei hun. Fel hyn yr oedd ymostyngiad Mab Duw, yn ei ddyfodiad yn y cnawd, yn ei waith yn llefaru ei athrawiaeth ei hun yn ei berson ei hun yn gyntaf, ei dderchafiad i'r nef, danfoniad ei apostolion, gyda'r fath dystiolaeth ddwyfol o'u plaid, i bregethu iachawdwriaeth i bechaduriaid;—yr oedd hyn oll yn cyd-weithredu i dynu yr Iuddewon oddi wrth y ddeddf seremoniol ddirymedig, at gristionogaeth yr efengyl.

5 * Canys nid i'r angelion y darostyngodd efe y [n] byd a ddaw, † am yr hwn yr ydym yn llefaru.

n pen. 6. 5. Dat. 11. 15.

* Mae yr apostol yma yn ail ddychwelyd at y pwnc o ragoriaeth ac uwchafiaeth y Messiah ar yr angelion. Tybir mai amser neu oruchwyliaeth y Messiah a feddyliai yr Iuddewon wrth yr ymadrodd "byd a ddaw." Dechreuodd yr amser hwn yn nyfodiad cyntaf Crist, ac a bery hyd ei ail ddyfodiad ef. Ond nid yw y geiriau i'w cael yn un màn arall, a thybia rhai fod yr apostol yn cyfeirio at eiriau y prophwyd, (Esa. 65. 17—19.) am y nefoedd newydd a'r ddaear newydd. Mae hyn yn cynnwys goruchwyliaeth y Messiah a'r mil blynyddoedd, fel yn gyssylltiedig â dedwyddwch y nef. Nid i'r angelion y darostyngwyd y pethau hyn, ond iddo Ef, yr hwn mae angelion yn ufuddâu iddo ac yn ei addoli; ac nid oedd angelion yn weinidogaethol ar waith yn sefydliad goruchwyliaeth yr efengyl, fel y buasent yn rhoddiad y ddeddf, ac mewn llawer o bethau a berthynent i sefydliad Israel yn Nghanaan: Tywysog yr Iachawdwriaeth yn unig ac yn gyhoeddus, oedd yn gweithredu yn sefydliad goruchwyliaeth yr efengyl, y byd a ddaw, † am yr hwn yr oedd yr apostol yn awr yn llefaru, ac i lefaru eto yn helaethach yn yr epistol hwn: iddo ef fel Messiah mawr, y darostyngodd y Tad bob peth, a'i ddyfodiad cyntaf i'r byd, hyd ei ail ddyfodiad i farnu y byd; pryd y rhydd efe y deyrnas i fynu i Dduw a'r Tad, ac y bydd Duw oll yn oll.

6 * Eithr un [o] mewn rhyw fan a dystiolaethodd, † gan ddywedyd, [p] Pa beth yw dyn, i ti i feddwl am dano? ‡ neu [q] fab y dyn, i ti i [r] ymweled âg ef?

o pen. 4. 4. a 5. 6. 1 Pedr 1. 11. p Job 7. 17, 18. a 15. 14. Gwel ar Salm 8. 4—8. a 144, 3. Es. 40. 17. q Job 25. 6. Salm 146. 3, 4. Es. 51. 12. r Gen. 50. 24. Luc 1. 68, 78. a 7. 16.

* Yr "un" hwn "mewn rhyw fàn" ydoedd Dafydd, yn Salm 8. 4, 5, 6; a digon adnabyddus i'r Iuddewon y geiriau hyn. † Yn yr olwg ar y nefoedd serenog, y dangosiadau mawreddus hyny o allu crëawl Duw, gwaeddai y Salmydd allan "Pa beth yw dyn," &c. Gellid dëall y geiriau yn sicr, am sylw a daioni Duw tuag at grëadur mòr ddistadl a dyn, yn nghanol anfeidroldeb ei weithredoedd. Pa mòr fychan ac isel yw dyn ynddo ei hunan, mewn cymhariaeth i bethau mawrion eraill Duw, fel yr ymostyngai yr Arglwydd i ddangos y fath ddaioni iddo, fel ag i fawreddu ei natur ef yn nghnawdoliad ei Fab ei hun. Neu pa beth yw natur dyn, a'i hystyried yn unig fel y cyfryw, yn y Messiah ei hunan, enw nodedig yr hwn yw *Mab y dyn;* fel y derchafai Duw ef yn y natur ddynol, i'r swydd gyfryngol er mwyn dynion; ‡ ac felly drwyddo ef ymweled â dynion yn ei drugaredd, gwaredu ei bobl, a'i gyfodi ef yn gorn iachawdwriaeth iddynt, yn nhŷ Dafydd ei wasanaethwr, Luc 1. 68, 69. Tybia tri o'n Hawdwyr fod y geiriau hyn o'r eiddo Dafydd, yn cyfeirio yn brophwydoliaethol at y Messiah, y *dyn* Crist Iesu, a Mab y *dyn;* ac na chyflawnwyd hwynt yn hollawl mewn un dyn arall: ond tybia *Doddridge* yn wahanol, nad oedd gan Dafydd ddim cyfeiriad at Grist wrth lefaru y geiriau; ond bod yr apostol drwy ysbrydoliaeth Duw, yn eu defnyddio i osod allan fawredd y Cyfryngwr, ei lywodraeth a'i ogoniant ef, ac iachawdwriaeth dynion trwyddo ef.

7 * Ti a'i [s] gwnaethost ef ychydig îs nâ'r angelion; † â gogoniant ac anrhydedd y coronaist ti ef, ‡ ac a'i gosodaist ef ar weithredoedd dy ddwylaw:

s Gwel ar adn. 9.

* Yr dyben o gyflawni y bwriad grasol a gogoneddus o gadw pechaduriaid, gwnaeth Duw ei Fab ei hun yn Fab y dyn; ac felly am ychydig amser mewn cyflwr o ddarostyngiad mawr, dàn boen a thrueni corph ac enaid, dàn gnddiad wyneb Duw, ac yn aberth ar y groes: fel hyn yr oedd ef yn îs o lawer nâ'r angelion sanctaidd, y rhai ydynt bob amser yn gweled wyneb Duw yn y nef, yn berffaith ddedwydd, ac nid ydynt yn marw byth. † Ond wedi iddo ef fyned trwy ei ddarostyngiad, ei ufudd-dod, a'i ddyoddefiadau, hyd yn nôd angau poenus ac gwaradwyddus ar y groes; mewn canlyniad o hyny, ac fel gwobr am hyny, cyfododd Duw ef o feirw, derchafodd a choronodd ef yn anrhydeddus a gogoneddus iawn, fel Brenin ar ei orsedd; ‡ ac a'i gosododd ef fel Cyfryngwr yn Arglwydd a Llywodraethwr ar holl weithredoedd ei ddwylaw; fel y trefnai ac y llywodraethai efe bob peth, a phob crëadur, yn y modd mwyaf gwasanaethgar i'w eglwys a'i achos ef.

8 * Ti a [t] ddarostyngaist bob peth dan ei draed ef. † Canys wrth ddarostwng pob peth iddo, ni adawodd efe ddim heb ddarostwng iddo. [u] ‡ Ond yr awr hon nid ydym ni etto yn gweled pob peth wedi ei ddarostwng iddo.

t adn. 5. pen. 1. 13. Salm 2. 6. Dan. 7. 14. Mat. 28. 18. Ioan 3. 35. a 13. 3. 1 Cor. 15. 27. Eph. 1. 21, 22. Phil. 2. 9—11. 1 Pedr 3. 22. Dat. 1. 5, 18. a 5. 11—13. u Job 39. 1—12. a 41.

* Wrth osod y Messiah ar weithredoedd ei ddwylaw, darostyngodd y Tad bob peth dàn ei draed ef, a thàn ei lywodraeth ef: † a gellir deall hyny yn yr ystyr helaethaf; "canys wrth ddarostwng pob peth iddo, ni adawodd efe ddim heb ddarostwng iddo:" rhoddes iddo ef gwbl awdurdod ar bob peth yn y nef, yn yr wybrenau, ar y ddaear, ac yn uffern; i'w defnyddio at wasanaeth ei eglwys yn ei ras a'i ddoethineb, ac i sathru ei holl elynion ei hun a'i eglwys dàn ei draed. Yma y derfydd geiriau Dafydd, sylw yr apostol arnynt yw yr hyn a ganlyn. ‡ Mae y geiriau uchod o'r eiddo y Salmydd, (fel pe dywedasai yr apostol,) yn dangos yn eglur fod ganddo ef olwg uwch na'r llywodraeth hòno a roisai Duw i Adda ar grëaduriaid y ddaear isod: nid oedd hòno yn llywodraeth *hollawl, ddiderfyn,* ar *bob* peth, fel y dywedodd Dafydd; ac ni bu y fath lywodraeth gan un dyn, na chan holl ddynion y byd, o ddechreu y byd hyd yr awr hon; am hyny rhaid mai yr *ail ddyn,* yr Arglwydd o'r nef, oedd yn ei olwg ef. Ond yr awr hon, nid ydym ni *eto* yn gweled pob peth wedi eu darostwng i'r Arglwydd Iesu ei hun; mae llawer o bethau *eto* yn y byd ac o uffern, yn ymgyfodi yn ei erbyn ef a'i achos, ac heb eu llwyr ddarostwng ganddo, er eu bod wedi eu darostwng iddo: nid yw yr amser i hyn wedi dyfod eto. Tybia rhai mai am ddyn yn gyffredin mae yr apostol yn llefaru yma, mewn cyfer-

byniad i'r Iesu, yn yr adnod nesaf; ond tybia eraill mai am Grist ei hun y llefara, nad oedd efe *eto* yn gweled pob peth wedi eu darostwng iddo *ef*, fel y sylwyd yn flaenorawl.

9 * Eithr yr ydym ni yn [x] gweled Iesu, † yr hwn a wnaed ychydig yn îs nâ'r angelion, ‡ o herwydd dioddef marwolaeth, [y] || wedi ei goroni â gogoniant ac anrhydedd; § fel trwy [z] ras Duw y [a] profai efe farwolaeth [b] dros bob dyn.

x pen. 8. 3. a 10. 5. Gen. 3. 15. Es. 7. 14. a 11. 1. a 53. 2—10. Rhuf. 8. 3. Gal. 4. 4. Phil. 2. 7, 8. y Salm 21. 3—5. Act. 2. 33. Dat. 19. 12. z Ioan 3. 16. Rhuf. 5. 8. a 8. 32. 2 Cor. 5. 21. a 6. 1. 1 Ioan 4. 9, 10. a Mat. 16. 28. Marc 9. 1. Luc 9. 27. Ioan 8. 52. b Ioan 1. 29. a 12. 32. 2 Cor. 5. 15. 1 Tim. 2. 6. 1 Ioan 2. 2. Dat. 5. 9.

* Eithr (yr hyn nis gellir ei ddywedyd am yr un dyn arall,) ni a wyddom yn sicr, wrth dystiolaethau amlwg yr ysgrythyrau, y rhai a lefarwyd gan ddynion sanctaidd Duw, megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân; ac wrth effeithiau rhyfeddol eu hathrawiaeth hwy ar galonau a bucheddau aneirif o ddynion, Iuddewon a chenedloedd, trwy nerth a dylanwadau yr Ysbryd, yr hwn a dywalltwyd yn helaeth gan yr Iachawdwr dyrchafedig; ac yr ydym trwy ffydd yn gweled yr Arglwydd Iesu, † yr hwn am ychydig amser, (gwel ar adn. 7.) dros ychydig flynyddoedd ei ddarostyngiad ar y ddaear, a osodwyd mewn agwedd a sefyllfa anrhraethol îs nâ'r angelion sanctaidd, ‡ *fel* y dyoddefai efe chwerwaf boenau angau a marwolaeth ar y groes, ac *o herwydd* dyoddef marwolaeth, fel gwobr ei ufuddod a'i angau, || yr ydym ni yn ei weled ef yn awr wedi ei dderchafu o ran ei ddynoliaeth ar ddeheulaw Duw, ac wedi ei goroni yn y nefoedd â gogoniant ac anrhydedd, yn anfeidrol uwchlaw holl angelion Duw; lle yr eistedd efe ar ei orsedd-fainc hyd oni ddarostynger ei holl elynion dân ei draed ef. § Trwy ei gnawdoliad a'i ddarostyngiad, daeth i allu dyoddef a marw; ac efe a brofodd farwolaeth dros bob dyn a gredo ynddo am iachawdwriaeth: pob dyn o'r "meibion lawer" a ddygwyd ac a ddygir i ogoniant, (adn. 10.) pa un bynag ai Iuddewon ai cenedloedd ydynt: a thrwy ras ac anfeidrol gariad Duw tuag at ddynion, y bu hyn oll. *O herwydd dyoddef marwolaeth:* yr oedd Iesu yn îs na'r angelion *o herwydd* dyoddef marwolaeth, fel y sylwyd ar adn. 7, ac efe a wnaed yn îs na'r angelion yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus, *fel* y dyoddefai farwolaeth, megys y sylwyd eisoes ar yr adnod hon. Ond mae rhai yn cyssylltu y geiriau "o herwydd dyoddef marwolaeth," â'r hyn sydd yn eu canlyn, "wedi ei goroni," &c.: o herwydd iddo ddyoddef marwolaeth y coronwyd ef â gogoniant ac anrhydedd, megys Phil. 2. 8, 9, &c. *Profi marwolaeth:* mae rhai yn deall y gair *profi* yma, am y poenau dirfawr a ddyoddefodd Iesu wrth farw: ac eraill yn eu deall am yr amser byr y parâodd efe yn farw, cyn adgyfodi drachefn: ond mae yn debyg mai ymadrodd cyffredin yn mhlith yr Iuddewon am *farw* yw y geiriau.

10 * Canys [c] gweddus oedd iddo ef, [d] o herwydd yr hwn *y mae* pob peth, a thrwy yr hwn *y mae* pob peth, † wedi *iddo* ddwyn [e] meibion lawer i [f] ogoniant, berffeithio [g] Tywysog eu hiachawdwriaeth hwy [h] trwy ddioddefiadau.

c pen. 7. 26. Gen. 18. 25. Luc 2. 14. a 24. 26. Rhuf. 3. 25, 26. Eph. 1. 6—8. a 2. 7. a 3. 10. 1 Pedr 1. 12. d Diar. 16. 4. Es. 43. 21. Rhuf. 11. 36. 1 Cor. 8. 6. 2 Cor. 5. 18. Col. 1. 16, 17. Dat. 4. 11. e Hos. 1. 10. Ioan 11. 52. Rhuf. 8. 14—18, 29, 30. a 9. 25, 26. 2 Cor. 6. 18. Gal. 3. 26. Eph. 1. 5. 1 Ioan 3. 1, 2. Dat. 7. 9. f Rhuf. 9. 23. 1 Cor. 2. 7. 2 Cor. 3. 18. a 4. 17. Col. 3. 4. 2 Tim. 2. 10. 1 Pedr 5. 1, 10. g pen. 6. 20. a 12. 2. Jos. 5. 14, 15. Es. 55. 4. Mica 2. 13. Act. 3. 15. a 5. 31. h pen. 5. 8, 9. Luc 13. 32. a 24. 26, 46. Ioan 19. 30.

* Pa beth bynag a wrth-ddadleuai yr Iuddewon anianol a thywyll yn erbyn bod i'r Messiah ddyoddef a marw; eto yr oedd yn sicr yn *gweddu* i'r tragywyddol Dduw, o herwydd yr hwn y mae pob peth, a thrwy yr hwn y mae pob peth, o'i allu ac er ei ogoniant, i gymmeryd y drefn hon i ddangos ei gariad a'i gyfiawnder, i'w ogoneddu ei hun, ac i achub pechaduriaid. Mae y geiriau yn arwyddo, nid yn unig fod y drefn a gymmerwyd yn deilwng i Dduw; ond hefyd ei bod yn llwyr angenrheidiol, cyn y gallai efe weithredu yn deilwng o hóno ei hun yn achubiaeth pechaduriaid: nid oedd modd i achub pechadur yn gyfiawn heb i'r Messiah farw yn ei le a throsto ef. † Gan i'r Tad ar faethu mabwysiadu miloedd aneirif o hil syrthiedig Adda yn feibion iddo ei hun; rhyngodd bodd iddo ef drefnu Tywysog iddynt, yr hwn a'u galwai hwynt allan o'u cyflwr o bechod a thrueni, ac a'u harweiniai hwy trwy fywyd ac angau i dragywyddol ogoniant. Yr oedd yn gweddu hefyd i'r Tywysog mawr hwn, yr hwn sydd yn arwain y fath fyddin liosog o blant Duw i fuddugoliaeth ar Satan, pechod, y byd, ac angau, ac i dragywyddol ogoniant—bod i Dywysog hwn eu hiachawdwriaeth hwy gael ei berffeithio trwy ddyoddfiadau: hyny yw, cael ei berffaith awdurdodi, yn gystal a'i berffaith addasu, i bob rhan o'i waith mawr, trwy ddyoddefiadau. Oblegid trwy gymmeryd iddo ei hun naturiaeth dynion, a darostwng ei hun i angau'r groes dros ein pechodau ni; efe a wnaeth iachawdwriaeth pechaduriaid yn gyson â chyfiawnder Duw, ac a ddangosodd i ni y ffordd i ymdrechu yr ymdrech deg, ac i gynchu yn mlaen at goron y buddugoliaethwr. *Tywysog ein hiachawdwriaeth:* yr hwn mae ein holl iachawdwriaeth wedi ei hymddiried yn ei law ef; o'r iawn ar y groes, hyd ei pherffeithiad mewn gogoniant. Mae yn wir mai *wedi* i Dduw ddwyn meibion lawer i ogoniant y perffeithiodd efe Dywysog eu hiachawdwriaeth hwy trwy ddyoddefiadau, ond efallai mai *wedi arfaethu* eu dwyn i ogoniant, a feddylir yma yn benaf: gan iddo arfaethu hyny, yr oedd yn weddus iddo ddarpar Tywysog i'w dwyn hwynt yno, a pherffeithio y Tywysog hwnw trwy ddyoddefiadau. Sylwer mai *in bringing* yw y Saesoneg; sef yn y drefn fawr o ddwyn meibion lawer i ogoniant, yr oedd yn weddus i Dduw berffeithio Tywysog eu hiachawdwriaeth hwy trwy ddyoddefiadau.

11 * Canys yr hwn [i] sydd yn sancteiddio, † a'r rhai a sancteiddir, [k] ‡ o'r un *y maent* oll. || Am ba achos nid yw [l] gywilyddus ganddo eu [m] galw hwy yn frodyr;

i pen. 10. 10, 14. a 13. 12. Ioan 17. 19. k adn. 14. Act. 17. 26. Gal. 4. 4. l pen. 11. 16. Marc 8. 38. Luc 9. 26. m Mat. 12. 48—50. a 25. 40. a 28. 10. Ioan 20. 17. Rhuf. 8. 29.

* Canys y *Gwaredwr*, yr hwn sydd yn sancteiddio, neu yn puro ei bobl oddi wrth euogrwydd a phechod, ac yn eu cyssegru hwynt i Dduw, † a'r *gwaredigion*, y rhai a sancteiddir felly ganddo ef; ‡ o'r un y maent oll; hyny yw, o'r un tad Adda; neu, fel yr oedd yr apostol yn llefaru wrth yr Iuddewon, efallai mai o'r un tad Abraham oedd efe yn feddwl. Daeth Crist yn Un â'i bobl yn y natur ddynol, ac yn un â hwynt mewn cyfammod, ac mewn ystyr gyfreithiol a mechniol, fel y byddai ei angau ef yn iawn dros eu pechodau hwynt, ac y cyfiawnêid hwynt yn ei gyfiawnder ef. Mae Crist a'i bobl hefyd yn un teulu nefol; efe yn gyntaf-anedig yn mhlith brodyr lawer, a'i holl bobl mewn undeb ysbrydol âg ef trwy ffydd; ac ar ol eu sancteiddio mae yr un anian dduwiol ynddynt hwy ac ynddo yntau. || Ac o herwydd ei fod ef â hwythau fel hyn o'r un oll, nid yw gywilyddus ganddo ef eu galw hwy yn frodyr; er cymmaint ei ogoniant, ei fawredd, a'i sancteiddrwydd ef, ac er eu gwaeledd, eu heuogrwydd, a'u halogrwydd hwythau.

12 * Gan ddywedyd, [n] Myfi a fynegaf dy enw di i'm brodyr; [o] † y'nghanol yr eglwys y'th folaf di.

n Salm 22. 22, 25. o Salm 40. 10. a 111. 1. Ioan 13. 20.

* Fel hyn mewn prophwydoliaeth nodedig am ei ddyoddefiadau ef, a'r gogoniant ar ol hyny, yn Salm

22. 22; dangosir ef megys yn dywedyd wrth y Tad, "Mi a fynegaf dy enw di i'm brodyr." Hyn a wnaeth efe trwy amlygu gogoniant perffeithiau a chyngor Duw, ei ffyrdd a'i weithredoedd ef, er anrhydedd ei enw mawr, yn nhrefn ogoneddus yr iachawdwriaeth. Gwnaeth hyn yn gyntaf trwy ei weinidogaeth bersonol ei hun, ac wedi hyny yn eglurach a helaethach trwy weinidogaeth ei apostolion a'i genadon gyda goleu a nerth yr Ysbryd Glân; ac efe a barâ i wneyd hyn hyd oni chaffo ei holl frodyr adnabod enw Duw yn gadwedigol. † Mae yn dywedyd hefyd wrth y Tad yn yr un adnod "Yn nghanol yr eglwys y'th folaf di." Os yw hyn i'w ddeall yn *llythyrenol*, e wnaeth Crist hyn gyda'i ddysgyblion, yr unig eglwys efengylaidd oedd ganddo y pryd hwnw ar y ddaear, ar ddiwedd y swper sanctaidd, y nos y bradychwyd ef: a dïammau iddo foli Duw gyda'i ddysgyblion, yn nghanol ei eglwys, lawer gwaith heblaw y tro hwnw. Os cymmerwn y geiriau mewn ystyr helaethach, am foli Duw yn nghanol yr eglwys, e wnaeth Crist hyny, mae yn ei wneyd o hyd, ac a barâ i wneyd trwy yr holl oesoedd yn yr eglwys, trwy ei air a'i Ysbryd, yn amrywiol foddion, ordinâdau, ac addoliad dwyfol yn mhlith ei bobl.

13 * A thrachefn, [p] Myfi a fyddaf yn ymddiried ynddo. † A thrachefn, [q] Wele, fi, a'r plant a [r] roddes Duw i mi.

p 2 Sam. 22. 3. Salm 16. 1. a 18. 2. a 36. 7, 8. a 91. 2. Es. 50. 7—9. Mat. 27. 43. q Es. 8. 18. a 53. 10. r Gen. 33. 5. a 48. 9. Salm 127. 3. 1 Cor. 4. 15.

* Ac mewn lle arall, (Salm 18. 2.) lle y prophwydir am waredigaethau, buddugoliaethau, a theyrnas y Messïah, dàn Dafydd fel cysgod o hóno; dangosir ef megys yn llefaru fel dyn, am ymddiried yn yr Arglwydd yn nghanol ei drallodion, fel yr ymddiriedai ei frodyr: yr hyn sydd yn dangos ei fod ef yn gyfranog â'i frodyr mewn teimladau dynol, dyoddefaint, a gras, yn gystal ag mewn natur, neu ddynoliaeth. Yr oedd holl ymddiried y Cyfryngwr yn Nuw ei Dad, am bob cymmorth a chynnaliaeth yn ei waith a'i ddyoddefiadau, am fuddugoliaeth ar ei holl elynion cryfion, ac am ei dderchafiad a'i ogoneddiad yn y diwedd: ac yn hyn yr oedd yn gyffelyb i'w frodyr. † Prophwyd arall a grybwylla am dano ef yn arddelwi ei bobl fel ei frodyr; pan mae yn dywedyd, Wele fi a'r plant a roddes Duw i mi: (Esa. 8. 18.) yr hyn sydd yn dangos yr un cydraddoldeb natur, a serchiadau anwylaidd, ynddo ef a hwythau fel brodyr. Wele fi, yn barod i wneyd a dyoddef yr hyn oll sydd yn ofynol, er iachawdwriaeth fy mrodyr hyn, y plant a roddes Duw i mi yn ei gyfammod tragywyddol. Ac wele fi, yn eu cyflwyno hwy gyda mi fy hun i ti; er dy gymmeradwyaeth di o honynt, ac er eu tragywyddol ddedwyddwch, gyda mi, ac er fy mwyn i. Gwyddai yr Iuddewon dysgedig yn dda, mai prophwydoliaeth am y Messïah oedd y geiriau diweddaf uchod, fel amryw bethau eraill yn yr wythfed o Esaiah: gwyddai yr apostol hefyd yn dda, beth oedd eu meddyliau hwy am y geiriau hyn; ac ni ddefnyddiai efe mo honynt yn wahanol i'r dehongliad cyffredin a roddent hwy arnynt: pe gwnaethai, buan y buasent hwy yn ei wrthwynebu ef, fel un yn gwyrdroi yr ysgrythyrau.

14 * Oblegid hynny, gan fod y [s] plant yn [t] gyfrannogion o gig a gwaed, [u] † yntau hefyd yr un modd a fu gyfrannog o'r un *pethau;* [x] ‡ fel trwy farwolaeth y [y] dinystriai efe yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, hynny yw, [z] diafol;

s Gwel ar adn. 10. t 1 Cor. 15. 50. u adn. 18. pen. 4. 15. Gen. 3. 15. Es. 7. 14. Ioan 1. 14. Rhuf. 8. 3. Gal. 4. 4. Phil. 2. 7, 8. 1 Tim. 3. 16. x pen. 9. 15. Es. 53. 12. Ioan 12. 24, 31—33. Rhuf. 14. 9. Col. 2. 15. Dat. 1. 18. y Es. 25. 8. Hos. 13. 14. 1 Cor. 15. 54, 55. 2 Tim. 1. 10. z Mat. 25. 41. 1 Ioan 3. 8—10. Dat. 2. 10. a 12. 9. a 20. 2.

* Oblegid hyny, gan fod y plant, am y rhai y llefarodd Crist trwy y prophwyd, yn gyfranogion o gig a gwaed, sef o'r natur ddynol; † yntau hefyd, sef Mab Duw, a ymostyngodd yn wirfoddol i gymmeryd yr un natur, ac a fu gyfranog o'r un pethau, sef cig a gwaed, y cwbl o ddynoliaeth ond ei llygredd. Yr oedd hyn yn angenrheidiol, fel y gallai efe ddyfod i'r berthynas agosaf â'r plant, yn frawd a chyfathrachwr iddynt, ac felly yn Fachnïydd drostynt ac yn Waredwr iddynt ‡ Fel hyn hefyd y daeth efe i allu dyoddef a marw drostynt; a thrwy farwolaeth efe a ddinystriodd yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, hyny yw, dïafol: oblegid dïafol, trwy hudo dyn i bechod, a'i dygodd ef gyntaf dàn ddedfryd marwolaeth, ac mae pob dyn yn agored i golyn, dychryn, ergyd, a chanlyniadau ofnadwy marwolaeth, tra mae yn aros heb faddeuant a gwaredigaeth: ac mae gan ddïafol, fel cyhuddwr a phoenwr, lawer o nerth i wneyd marwolaeth yn dra dychrynllyd i'r annychweledig. Ond yn marwolaeth Crist, a'r brynedigaeth trwy ei farwolaeth ef, caed ffordd i waredu y plant o gaethiwed dïafol, ac i faddau eu pechodau hwy trwy ffydd. Yna mae dïafol yn colli ei nerth o ran marwolaeth hefyd; mae y saint yn cael eu gwaredu oddi wrth golyn, dychryn, a chanlyniadau echryslawn marwolaeth, a hedd a gobaith bywyd yn cael eu rhoddi yn eu heneidiau. Gallasai Mab Duw ddinystrio dïafol heb ddyfod yn ddyn; ond nis gallasai ei ddinystrio ef *trwy farwolaeth* heb fod yn ddyn: a'i ddinystrio ef *fel hyny* oedd yn gwneyd y fuddugoliaeth yn dra gogoneddus. Tynodd ef ddyn i farwolaeth, a thrwy farwolaeth dyn, (mewn undeb â Pherson Mab Duw,) dinystriwyd yntau: dinystriwyd ef megys â'i arf ei hun, a chan y ddynoliaeth a ddystrywiwyd ganddo ef. Bydd cânu byth am y fuddugoliaeth hon!

15 * Ac y [a] gwaredai efe hwynt y rhai [b] trwy ofn marwolaeth † oeddynt dros eu holl fywyd [c] dan gaethiwed.

a Job 33. 21—28. Salm 33. 19. a 56. 13. a 89. 48. Luc 1. 74, 75. 2 Cor. 1. 10. b Job 18. 11, 14. a 24. 17. Salm 55. 4. a 73. 19. 1 Cor. 15. 50—57. c Rhuf. 8. 15, 21. Gal. 4. 21. 2 Tim. 1. 7.

* Pan feddyliodd dïafol gael buddugoliaeth ar Grist ei hun, trwy ei ddwyn ef i wlad marwolaeth; gorchfygodd Tywysog iachawdwriaeth ef megys ar ei dir ei hun: a thrwy y moddion hyny a ymddangosent yn fwyaf annhebygol o bobpeth, a thrwy y rhai y gellid meddwl ei fod ef ei hun yn cael ei orchfygu, efe a ddïarfogodd Satan o'i holl nerth; fel trwy ei farwolaeth ei hun, y gwaredai efe ei holl frodyr oddi wrth golyn angau ac ofn marwolaeth, ac oddi wrth lywodraeth angau arnynt: a thrwy gymwysiad effeithiol o'i waed, mae efe yn weithredol yn eu gwaredu hwynt oddi wrth euogrwydd ac arglwyddiaeth pechod, ac yn rhoddi iddynt fuddugoliaeth hollawl, a goruchafiaeth ar angau ei hun, 1 Cor. 15. 26, 55, 56, 57. † Ië hwynt, y rhai trwy eu meddyliau ofnus am boenau angau, neu ei ganlyniadau dychrynllyd, neu bob un o'r ddau; oeddynt dros eu holl fywyd megys mewn caethiwed athrist yn eu meddyliau, gan ofn marw, pa un bynag oeddynt, ai Iuddewon dàn ddychrynfèydd yr hen oruchwyliaeth, paganiaid heb obaith ganddynt am fyd gwell tu draw i'r bedd, neu dduwiolion ofnus a gwàn eu meddwl. Llawer a fu yn ofni marw yn eu hen gyflwr annuwiol, pan feddylient hefyd am farw, a waredwyd oddi wrth yr ofn hwnw trwy gredu yr efengyl, ac a ddygwyd i feddwl am farw gyda boddlonrwydd a hyder tawel: a llawer o'r duwiolion, a fu mewn caethiwed blin gan ofn marwolaeth trwy eu hoes, a waredwyd yn hollawl oddi wrth eu hofnau, pan ddaeth yr awr gyfyng hòno. Mae gras cynnaliol a gwedd wyneb y Cyfryngwr, a'u ffydd hwythau yn y Cyfryngwr a'i aberth, yn eu gwneyd hwy yn fwy na chonowerwyr ar y gelyn diweddaf: buont yn ei ofni yn hir o bell; ond erbyn dyfod i'w wyneb, er bod cnawd a chalon yn pallu, gwaeddant mewn syndod a gorfoledd, "O angau pa le mae dy golyn? I Dduw y byddo'r diolch, yr hwn sydd yn rhoddi i ni y fuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist!"

16 * Canys ni [d] chymmerodd efe *natur-*

iaeth angelion; [e] † eithr had Abraham a gymerodd efe.

d pen. 6. 16. a 12. 10. Rhuf. 2. 25. 1 Pedr 1. 20. e Gen. 22. 18. Mat. 1. 1, &c. Rhuf. 4. 16, &c. Gal. 3. 16, 29.

* I gyflawni y dybenion pwysig uchod, mae yn wirionedd dilys, na chymmerodd Mab Duw afael ar naturiaeth angelion, i'w chymmeryd i undeb personol âg ef ei hun, fel pe buasai yn meddwl achub rhai o'r angelion a syrthiasent; † ond, gan fyned heibio i'r natur angelaidd, efe a ymostyngodd yn rasol i gymmeryd naturiaeth dynion, yr hon oedd lawer îs, ac a'i hunodd hi â'i berson dwyfol, megys y cymmerodd hi oddi wrth y patriarch Abraham, i'r hwn yr addawodd Duw, y *bendithid holl genedloedd a chenedlaethau y ddaear yn ei had ef.* Gen. 22. 18; a 26. 4. Nid i waredu angelion syrthiedig y daeth Mab Duw, ond i waredu dynion syrthiedig: ac nid mewn undeb â naturiaeth angelion da y daeth efe, ond mewn undeb â naturiaeth dynion; had Abraham a gymmerodd efe, yr hyn oedd ddarostyngiad mwy annhraethol byth. Nid yw y gair *naturiaeth* yn yr adnod hon yn y Groeg; a gellid darllen y geiriau, *Ni chymmerodd efe afael ar angelion;* (i'w gwaredu hwynt,) *eithr efe a gymmerodd afael yn had Abraham,* (i'w gwaredu.) Mae hyna yn wir; ond amcan penaf yr apostol oedd, dangos mai nid naturiaeth angelion a gymmerodd Mab Duw, ond naturiaeth dynion, pan ddaeth efe i waredu dynion. *Had Abraham:* mae yn wir mai o had Abraham, yn yr ystyr naturiol, y cymmerodd Crist ei ddynoliaeth; ond tybia rhai fod yma olwg ar had ysbrydol Abraham, y credinwyr oll, pa un bynag ai Iuddewon ai cenedloedd oeddynt.

17 * Am ba achos y [f] dylai efe ym mhob peth fod yn gyffelyb i'w frodyr; † fel y byddai [g] drugarog ac Arch-offeiriad ffyddlawn, ‡ mewn pethau *yn perthyn* i Dduw, [h] i wneuthur cymmod dros bechodau y bobl.

f Gwel ar adn. 11, 14. Phil. 2. 7, 8. g pen. 3. 2, 5. a 4. 15. a 5. 1, 2. Es. 11. 5. h Lef. 6. 30. a 8. 15. 2 Cron. 29. 24. Ezec. 45. 15, 17. 20. Dan. 9. 24. Rhuf. 5. 10. 2 Cor. 5. 18—21. Eph. 2. 16. Col. 1. 21.

* Gan hyny, gallwn gasglu oddi wrth hyn oll, mewn trefn i Grist allu cyflawni ei swydd yn iawn, fel Gwaredwr ac Iachawdwr ei frodyr; fod yn wir angenrheidiol a dyladwy, ac yn addas yn mhob ystyr yn ol natur pethau; iddo ef fod yn mhob peth yn gyffelyb i'w frodyr: iddo gyfranogi o'u natur hwynt, yn mhob peth ag oedd yn hanfodol iddi; cymmeryd holl wendidau ei frodyr, ond pechod: a bod mewn sefyllfa isel, brofedigaethus, yn ŵr gofidus a chynnefin â dolur, fel ei holl frodyr. † Yr oedd hyn yn angenrheidiol, fel y byddai yn drugarog wrthynt yn wyneb eu trueni a'u dyoddefiadau; gan ei fod ef ei hun wedi dyoddef yr un pethau er eu mwyn hwynt a throstynt: ac fel y byddai yn Arch-offeiriad ffyddlawn, i wneyd iawn a chymmod dros eu pechodau trwy ei aberthu ei hun; ac felly gosod sail i eiriol drostynt wedi hyny yn y nef. ‡ Nid yw y gair *perthyn* yn y Groeg; "pethau i Dduw" sydd yno: pethau i Dduw oedd yr hyn oll a wnaeth Iesu fel Arch-offeiriad, a chymmod dros bechodau y bobl.

18 * Canys yn gymmaint a [i] dïoddef o hono ef, † gan gael ei demtio; [k] ‡ efe a ddichon gynnorthwyo y [l] rhai a demtir.

i pen. 4. 15, 16. a 5. 7—9. Mat. 4. 1—10. a 26. 37—39. Luc 22. 53. k pen. 7. 25, 26. Ioan 10. 29. Phil. 3. 21. 2 Tim. 1. 12. Judas 24. l 1 Cor. 10. 13. 2 Cor. 12. 7—10. 2 Pedr 2. 9. Dat. 3. 10.

* Ac fel yr oedd yr arch-offeiriad cysgodol gynt yn gallu tosturio wrth y rhai oedd mewn annwybodaeth ac amryfusedd, am ei fod yntau hefyd wedi ei amgylchu â gwendid; (pen. 5. 2.) mae hyn yn nodedig o wir am Grist: oblegid yn gymmaint a dyoddef o hóno ef yn ei gorph ac yn ei enaid, i raddau annhraethadwy tu hwnt i bawb eraill; † a chael ei demtio gan ddynion a chan Satan, ond eto heb bechod; ‡ gan iddo ef orchfygu yr holl demtasiynau hyn, a myned yn fuddugoliaethus trwy ei holl ddyoddefiadau, efe a ddichon, ac mae yn wir ewyllysgar, i gynnorthwyo, cynnal, a chysuro ei holl frodyr, y rhai a ddyoddefant gyffelyb drallodau a themtasiynau: mae efe yn cofio yn dda pa beth a ddyoddefodd ef ei hun, ac efe a ŵyr yn dda pa fodd i wneyd gwrthddrychau ei gariad, ei gyd-ymdeimlad, a'i dosturi, yn fuddugoliaethus ar eu holl demtasiynau, megys y buddugoliaethodd ef ei hun. Heblaw a ddyoddefodd Crist yn ei gorph a'i enaid oddi wrth ddynion, a chuddiad wyneb y Tad; yr oedd temtasiynau dïafol yn ddïau, yn dra phoenus iddo ef, yn ol fel yr oedd sancteiddrwydd ei natur yn eu casâu, ac yn gwneyd yn anmhosibl iddo gael ei halogi ganddynt: a thrwy y cwbl efe a ddichon gynnorthwyo y rhai a demtir.

PEN. III.

Bod Crist yn rhagori ar Moses.

* O HERWYDD paham, [a] † frodyr sanctaidd, [b] ‡ cyfrannogion o'r [c] galwedigaeth nefol, [d] ‖ ystyriwch [e] Apostol [f] § ac Arch-offeiriad ein cyffes ni, Crist Iesu;

a Col. 1. 22. a 3. 12. 1 Thes. 5. 27. 2 Tim. 1. 9. 1 Pedr 2. 9. a 3. 5. 2 Pedr 1. 3—10. Dat. 18. 20. b adn. 14. Rhuf. 11. 17. a 15. 27. 1 Cor. 9. 23. a 10. 17. 2 Cor. 1. 7. Eph. 3. 6. Col. 1. 12. 1 Tim. 6. 2. 1 Pedr 5. 1. 2 Pedr 1. 4. 1 Ioan 1. 3. c Rhuf. 1. 6, 7. a 8. 28—30. a 9. 24. Eph. 4. 1, 4. Phil. 3. 14. 1 Thes. 2. 12. 2 Thes. 2. 14. 1 Tim. 6. 12. 1 Pedr 5. 10. 2 Pedr 1. 10. Judas 1. Dat. 17. 14. d Es. 1. 3. a 5. 12. a 41. 20. Ezec. 12. 3. a 18. 28. Hag. 1. 5. a 2. 15. Ioan 20. 27. 2 Tim. 2. 7. e Ioan 20. 21. f pen. 2. 17. a 4. 14, 15. a 5. 1—10. a 6. 20. a 7. 26. a 8. 1—3. a 9. 11. a 10. 21. Salm 110. 4.

* Oddi wrth yr hyn a ddywedwyd ac a brofwyd am uchafiaeth y Messïah ar yr angelion, a'i fawredd ef fel Mab Duw wedi ymgnawdoli; mae yr apostol yn nesaf yn galw sylw yr Hebreaid at y swyddau a gyflawnodd efe er lles ei eglwys. † Mae efe yn eu cyfarch hwy fel "brodyr sanctaidd;" un ai am eu bod o'r genedl Iuddewig, yr hon a gyfrifid yn sanctaidd, (Exod. 19. 6.) neu yn hytrach am eu bod yn awr yn gristionogion ac yn gredinwyr sanctaidd yn Nghrist. ‡ "Cyfranogion" hefyd "o'r alwedigaeth nefol;" â'r hon y galwodd Duw hwynt trwy yr efengyl, i adael pethau gweigion y ddaear, ac i geisio y pethau sydd uchod: yr oeddynt yn gyd-gyfranogion â'r holl saint, heb wahaniaeth cenedl mwyach, o'r alwedigaeth nefol ac effeithiol hon; a hyn a'u gwnaeth hwy yn frodyr sanctaidd. ‖ Mae yr apostol yn eu cyngori hwynt i ystyried yn ddifrifol a diduedd, yr hyn a ddywedasai ac a ddywed efe eto, am Grist fel Apostol, neu Genad anfonedig Duw, i fynegi ei ewyllys a'i iachawdwriaeth ef i ddynion. Yn y swydd hon yr oedd efe yn annhraethol fwy na Moses a'r holl brophwydi a anfonodd Duw o'i flaen ef, ac yn fwy nâ'r holl apostolion a'r cenadon a ddaeth ar ei ol ef, wedi eu danfon ganddo ef ei hun, megys y danfonwyd yntau gan y Tad. § Mae yn eu cyngori hwynt i'w ystyried ef hefyd fel Arch-offeiriad mawr, yn rhagori yn mhell ar Aaron, a'r holl arch-offeiriaid a fu ar ei ol ef. Moses ac Aaron, neu brophwydi ac arch-offeiriaid, oedd y swyddwyr penaf yn yr eglwys dàn yr hen oruchwyliaeth; ond mae Iesu fel Apostol ac Arch-offeiriad yn rhagori arnynt oll dàn yr efengyl. Neu, fel Arch-offeiriad yr hen oruchwyliaeth, ac Apostol yr oruchwyliaeth newydd, mae efe yn crynôi ac yn uno y ddwy oruchwyliaeth ynddo ei hun. Ystyriwn ef fel Apostol, i ddysgu gan ddo; ac fel Arch-offeiriad, i ymddiried ynddo.

2 * Yr hwn sydd [g] ffyddlawn i'r hwn a'i hordeiniodd ef, [h] † megis ag *y bu* Moses yn [i] ei holl dŷ ef.

g pen. 2. 17. Ioan 6. 38—40. a 7. 18. a 8. 29. a 15. 10. a 17. 4. h adn. 5. Num. 12. 7. Deut. 4. 5. 1 Tim. 1. 12. i adn. 6. Eph. 2. 22. 1 Tim. 3. 15.

* Yr hwn a ordeiniodd y Cyfryngwr i'r swyddau uchod oedd y Tad, yn ei gyngor tragywyddol, ac a'i danfonodd ef i'w gweinyddu mewn amser. Ac efe a fu

yn ffyddlawn fel Apostol, i hysbysu perffeithiau, gwirioneddau, ac ewyllys Duw i ddynion, yn y modd perffeithiaf a mwyaf eglur: ac efe a fu yn ffyddlawn fel Arch-offeiriad, i wneyd cymmod dros anwiredd, i anrhydeddu a mawrâu deddf a phriodoliaethau Duw, ac i gyflawni yr holl waith a ymddiriedwyd iddo, er gogoniant Duw, ac er cadwedigaeth ei bobl. † Bu Moses, yn wir, y penaf o'r hen brophwydi, a chysgod nodedig o Grist, yn ffyddlawn yn holl dŷ neu deulu Duw, dàn yr oruchwyliaeth hòno; a bu Crist felly megys Moses, a llawer mwy na Moses, mewn gwaith annhraethol fwy nag a roddwyd mewn ymddiried i Moses.

3 * Canys [j] fe a gyfrifwyd hwn yn haeddu mwy gogoniant nâ Moses, † o gymmaint ag y mae [k] yr hwn a adeiladodd y tŷ ‡ yn cael mwy o barch nâ'r tŷ.

j adn. 6. pen. 1. 2—4. a 2. 9. Col. 1. 18. k Zec. 4. 9. a 6. 12, 13. Mat. 16. 18. 1 Cor. 3. 9. 1 Pedr 2. 5—7.

* Canys fe a gyfrifwyd hwn, sef Crist y Messiah, yn haeddu mwy gogoniant na Moses, yr enwocaf o'r holl brophwydi; ac o ganlyniad yr oedd yn haeddu mwy gogoniant na'r holl brophwydi eraill, a ddaeth ar ol Moses: cyfrifid ef felly gan y Tad, yr hwn a ddywedodd wrtho, "Fy Mab i ydwyt ti, Eistedd ar fy neheulaw," &c; cyfrifwyd ef felly gan Moses ei hun, a'r holl brophwydi; a chyfrifid y Messiah pan ddelai, gan yr Iuddewon oll, yn haeddu mwy gogoniant na Moses. Gan mai parch i Moses, ac ysgrifeniadau yr Hen Destament, oedd yn rhwystro cynnifer o'r Iuddewon i dderbyn cristionogaeth; mae yr apostol gyda'r priodoldeb mwyaf yn dyfod a hyn i mewn, i ddangos rhagoriaeth Crist ar Moses. † Nid oedd Moses er ei enwoced, ond rhan o'r tŷ, neu un o deulu Duw; eithr Crist oedd ei Grëawdwr ef, a'r holl genedl; efe a'u ffurfiodd hwynt yn eglwys, a drefnodd bob peth yn ei oruchaf awdurdod, yn eu cyfansoddiad gwladol ac eglwysig hwynt; ac efe a roddes i'r credinwyr yn eu plith hwynt fywyd ysbrydol, gras, doethineb, a phob dawn. ‡ Fel hyn yr oedd efe, fel Duw, yn Adeiladydd, yn Feddiannydd, a Phen ei eglwys, hyd yn nôd cyn ei gnawdoliad, yn gystal ac wedi hyny: ac fel hyny yr oedd yn haeddu mwy o barch na neb o'r teulu, ac na phawb o'r teulu yn nghyd. Dywedir fod y gair a gyfieithir "adeiladodd" yma, yn arwyddo yn hytrach *trefnu*, neu *lywodraethu;* megys y mae y gair *ty* yn arwyddo *teulu*, ac nid adeiladaeth.

4 * Canys pob tŷ a adeiledir gan ryw un; [l] † ond yr hwn a adeiladodd bob peth *yw* Duw.

l Gwel ar adn 3. pen. 1. 2. Eph. 2. 10. a 3. 9.

* Rhaid bod i bob tŷ mewn ystyr naturiol ryw adeiladydd, pe amgen ni byddai yno dŷ; † felly, yr hwn a adeiladodd bob peth fel Crëawdwr, ac a drefnodd bob peth yn nhŷ ac eglwys Israel, nis gallai fod yn neb arall ond Duw ei hunan; ac Iesu Grist y Messiah yw y Duw hwnw, yr hwn o'r diwedd a ymddangosodd yn y cnawd, fel Apostol, neu Brophwyd y Tad, i ddwyn i mewn oruchwyliaeth newydd, ac i ddybenu yr hen: i adeiladu ei dŷ, neu ei eglwys, ar sail y Testament Newydd, ac i weini fel Arch-offeiriad iddi. *Yr hwn a adeiladodd:* neu a ddarparodd, a ddodrefnodd, ac a osododd mewn trefn: dywedir nad yw y gair *kataskeuásas* byth yn cael ei ddefnyddio am waith Duw yn *crëu;* ac nid am hyny yr oedd yr apostol yn llefaru yma, eithr am adeiladu ei eglwys; neu o leiaf adeiladu yr eglwys yn benaf oedd yn ei olwg: nis gallai adeiladydd yr eglwys fod yn llai na Duw.

5 * A Moses yn wir *a fu* [m] ffyddlawn yn ei holl dŷ [n] † megis gwas, [o] ‡ er tystiolaeth i'r pethau oedd i'w llefaru;

m adn. 2. Num. 12. 7. Mat. 24. 45. a 25. 21. Luc 12. 42. a 16. 10—12. 1 Cor. 4. 2. 1 Tim. 1. 12. n Ex. 14. 31. Deut. 34. 5. Jos. 1. 2, 7, 15. a 8. 33. Neh. 9. 14. Salm 105. 26. o pen. 8. 5. a 9. 8—13, 24. Deut. 18. 15, 18. Luc 24. 27, 44. Ioan 5. 39, 46, 47. Act. 3. 22, 23. a 7. 37. a 26. 23. Rhuf. 3. 21. 1 Pedr 1. 10—12.

* Er canlyn yn mhellach ar y gyffelybiaeth uchod o dŷ, ac i'w chymhwyso hi at yr achos mewn llaw, mae yr apostol yn dywedyd eto, megys y dywedasai o'r blaen, (adn. 2.) i Moses ymddwyn yn ffyddlawn ac union iawn, yn rhoddiad a gweinyddiad y ddeddf, a'r holl osodiadau a berthynent i dŷ Duw dàn oruchwyliaeth yr Hen Destament; † ond dylid cofio nad oedd efe ddim ond gwas gweinyddawl yn yr hyn oll oedd yn wneuthur, ac nid Arglwydd a pherchenog y tŷ: ‡ ei waith ef oedd gosod i fynu yr oruchwyliaeth seremoniol, yn ol cyfarwyddyd Duw, yr hon oedd yn rhag-ddangos ac yn tystiolaethu am bethau efengylaidd, y rhai oedd i gael eu llefaru yn eglurach mewn amser i ddyfod, dàn oruchwyliaeth y Testament Newydd.

6 * Eithr Crist, [p] megis Mab ar ei dŷ ei hun: [q] † tŷ yr hwn ydym ni, [r] ‡ os nyni a geidw ein hyder a [s] gorfoledd ein gobaith yn sicr hyd y diwedd.

p pen. 1. 2. a 4. 14. Salm 2. 6, 7. Es. 9. 6, 7. Ioan 3. 35, 36. Dat. 2. 18. q adn. 2, 3. Mat. 16. 18. 1 Cor. 3. 16. a 6. 19. 2 Cor. 6. 16. Eph. 2. 21, 22. 1 Tim. 3. 15. 1 Pedr 2. 5. r adn. 14. pen. 4. 11. a 6. 11. a 10. 23, 35. Mat. 10. 22. a 24. 13. Gal. 6. 9. Col. 1. 23. Dat. 2. 25. a 3. 11. s Rhuf. 5. 2. a 12. 12. a 15. 13. 1 Thes. 5. 16. 2 Thes. 2. 16. 1 Pedr 1. 3—6, 8.

* Ond wele fwy na Moses yma, a ffyddlonach na Moses hefyd: yr oedd Crist yn ffyddlawn megys Mab ar ei dŷ ei hun; yr hwn yr oedd ganddo feddiant o hóno, yn gystal â swydd a gwaith ynddo: oblegid yr oedd eglwys Duw yn eiddo iddo ef megys yr oedd yn eiddo y Tad; er iddo gymmeryd arno agwedd gwas, a dyfod yn Brophwyd ac Apostol y Tad i ddynolryw. † Yr oedd y tŷ, neu y teulu ysbrydol hwn yn gynnwysedig o'r rhai hyny oll a roddwyd i'r Mab, ac a brynwyd ganddo; y rhai a alwyd trwy ras, ac a wnaed yn breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd; felly yr oedd yr apostol ei hun, yn nghyd â'r Hebreaid crediniol yr oedd efe yn ysgrifenu atynt, yn rhan o'r deml ysbrydol hòno, yr hon yr hoffodd Duw breswylio ynddi, i amlygu ei bresenoldeb, ac i gyfranu ei fendithion yn dragywydd. ‡ Hyn a fyddai eu dedwyddwch hwy, os cadwent eu "hyder" yn Nghrist, eu "gobaith" am iachawdwriaeth trwyddo ef, a'u "gorfoledd" a'u llawenydd ynddo ef; ac os byddent yn "sicr" a diannwadal yn eu hymddybyniad arno ef, ac yn eu hufudd-dod iddo, yn nghanol yr amryw brofedigaethau a'r erlidiau, a ddeuai arnynt o herwydd y pethau uchod; oblegid y parâd diysgog hwn a fyddai y dysticlaeth a'r prawf mwyaf priodol o wirionedd eu crefydd hwynt.—Gan fod holl lywodraeth yr eglwys wedi ei rhoddi yn hollawl i Grist, fel ei Phen a'i Harglwydd mawr, rhaid ei fod ef yn Dduw; oblegid ni roddasai y Tad byth y fath lywodraeth i grëadur yn unig, na dyn nac angel.

7 * Am hynny, [t] megis y mae yr Ysbryd Glân yn dywedyd, [u] † Heddyw, os [x] gwrandêwch ar ei leferydd ef,

t pen. 9. 8. 2 Sam. 23. 2. Mat. 22. 43. Marc 12. 36. Act. 1. 16. a 28. 25. 2 Pedr 1. 21. u adn. 13, 15. pen. 4. 7. Salm 95. 7—11. Diar. 27. 1. Preg. 9. 10. Es. 55. 6. 2 Cor. 6. 1, 2. Iago 4. 13—15. x Salm 81. 11, 13. Es. 55. 3. Mat. 17. 5. Ioan 5. 25. a 10. 3, 16, 27. Dat. 3. 20.

Mae yn debyg bod yr apostol yn cyfeirio y geiriau hyn at y cristionogion hyny ag oedd mewn perygl o wrthgilio, neu y rhai nad oeddynt yn ymddangos yn wresog ac o ddifrif yn eu proffes; ond yr oeddynt yn briodol iawn hefyd i gyffrôi ystyriaeth a sylw yr Iuddewon yn gyffredin, pwy bynag a'u darllenai. Crybwyllir esamplau eu henafiaid anghrediniol hwynt, yn nghyd â geiriau eu hysgrythyrau hwy eu hunain am y cyfryw, gyda llawer o briodoldeb, a nerth argyhoeddiadol, ar yr achlysur hwn. * Y rhybudd a roddasai yr Ysbryd Glân yn nyddiau Dafydd, a thrwy enau Dafydd, (Salm 95. 7—11.) gyda golwg ar bethau yn y dyddiau hyny; yr oedd yn llawn mòr briodol i'r Iuddewon yn nyddiau yr apostol. † Yn y dydd hwnw, yr hwn a allai fod yr olaf o'u bywyd, neu yr olaf o hir amynedd Duw tuag atynt, neu yr olaf y caent fwynâu moddion gras; cyngorai yr apostol hwynt yn daer i wrando ar leferydd Duw mewn ffydd ac ufudd-dod, os oeddynt hwy byth yn meddwl cael ei gymmeradwyaeth ef, a dianc rhag ei ddigofaint.

Mae ein *Heddyw* genym ninnau, a lleferydd Duw tuag atom *heddyw;* nis gwyddom a gawn ni *yforu,* am hyny *heddyw* gwrandâwn ar ei leferydd grasol a rhybuddiol ef.

8 [y] * Na chaledwch eich calonnau, [z] † megis yn y cyffrôad, ‡ yn nydd y * profedigaeth yn y diffaethwch:

y adn. 12, 13. Ex. 8. 15. 1 Sam. 6. 6. 2 Bren. 17. 14. 2 Cron. 30. 8. a 36. 13. Neh. 9. 16. Job 9. 4. Diar. 28. 14. a 29. 1. Jer. 7. 26. Ezec. 3. 7—9. Dan. 5. 20. Zec. 7. 11, 12. Mat. 13. 15. Act. 19. 9. Rhuf. 2. 5, 6. z Num. 14. 11, 22, 23. Deut. 9. 22—24. Salm 78. 56. a Ex. 17. 7. Deut. 6. 16. Salm 78. 18. a 106. 14. 1 Cor. 10. 9.

* Cymmerwn ofal na byddo i ni gauad ein llygaid rhag gweled ei oleuni ef, na chauad ein clustiau rhag clywed ei leferydd ef, na chaledu ein calonau rhag derbyn ei eiriau ef; ac felly gwrthwynebu ei Ysbryd ef, a dibrisio holl foddion ei ras, ei ddoethineb, a'i gariad ef, er ein dedwyddwch presenol a thragywyddol. † Hyny a wnaeth eu henafiaid hwynt, yr Iuddewon, yn y dydd y cyffrôisant yr Arglwydd yn y diffaethwch; pan, wedi yr holl ymddangosiadau o'i allu ef, a'i aml ddaioni tuag atynt, y blinasant ei amynedd ef â'u hanniolchgarwch, eu grwgnach, a'u hatgas wrthryfel yn ei erbyn. ‡ Gellid galw yr amser hwnw mewn modd nodedig yn "ddydd y profedigaeth;" oblegid yr oeddynt hwy yn ymddwyn fel pe buasent yn meddwl profi Duw, i weled pa faint o "gyffrôad" pechadurus a ddyoddefai efe, cyn tywallt ei lid, a dial arnynt.

9 * Lle y temtiodd eich tadau fyfi, y profasant fi, [b] † ac y gwelsant fy ngweithredoedd [c] ddeugain mlynedd.

b Ex. 19. 4. a 20. 22. Deut. 4. 3, 9. a 11. 7. a 29. 2. Jos. 23. 3. a 24. 7. Luc 7. 22. c Num. 14. 33. Deut. 8. 2, 4. Jos. 5. 6. Amos 2. 10. Act. 7. 36. a 13. 18.

* Y "lle," sef y "diffaethwch," (adn. 8.) ar y daith o'r Aipht tua Chanaan: yno y temtiodd ac y profodd yr Iuddewon eu Duw, fel y sylwyd ar yr adnod o'r blaen. Darllen eu hanes yn llyfrau Moses a rydd yr eglurâd goreu ar y geiriau hyn. "Tadau" yr Hebreaid yr oedd yr apostol yn ysgrifenu atynt oedd wedi ymddwyn fel hyn; am hyny dylent hwythau wylied, fel na byddent yn genedlaeth gyndyn fel eu tadau, y rhai hefyd yr ymffrostient gymmaint o honynt. † Ei weithredoedd yn yr Aipht, wrth y môr coch, ar Sinai, ac yn y diffaethwch am ddeugain mlynedd: gweithredoedd o farn ar ei elynion, ac o drugaredd a gwaredigaethau i'w bobl. Er gweled y gweithredoedd rhyfeddol hyn am ddeugain mlynedd, profi a themtio Duw yr oeddynt hwy, heb wrando ar ei leferydd ef, yr hyn oedd yn gwneyd eu hymddygiad yn fwy diesgus, pechadurus, a chyffrôus.

10 * Am hynny [d] y digiais wrth y genhedlaeth honno, † ac y dywedais, Y maent bob amser [e] yn cyfeiliorni yn *eu* calonnau; ‡ ac [f] ni adnabuant fy ffyrdd i.

d Gen. 6. 6. Barn. 10. 16. Salm 78. 40. Es. 63. 10. Marc 3. 5. Eph. 4. 30. e adn. 12. Salm 78. 8. Es. 28. 7. Hos. 4. 12. Ioan 3. 19, 20. a 8. 45. Rhuf. 1. 28. 2 Thes. 2. 10—12. f Salm 67. 2. a 95. 10. a 147. 20. Jer. 4. 22. Rhuf. 3. 17.

* Am hyny y digiodd Duw yn chwerw o'r diwedd, wrth y genedlaeth drofâus hòno, o herwydd eu hymddygiadau gwrthnysig yn wyneb ei holl ddaioni ef, fel na ddyoddefai yn mhellach eu gwrthryfel a'u gweithredoedd drwg hwynt. † Efe a ddywedodd am danynt wedi hir ymoddef â hwynt, eu bod bob amser yn cyfeiliorni yn eu calonau; yn wastad yn ymadael oddi wrtho ef, ac yn gwrthryfela yn gildynus yn ei erbyn; ‡ ac nad oeddynt yn adnabod ac yn cymmeradwyo ffyrdd ei ragluniaeth ef, mewn trugaredd na barn; ond bob amser yn dewis eu ffyrdd gŵyr-geimion, a'u dychymmygion cyfeiliornus eu hunain, yn groes i ffyrdd Duw.

11 * Fel [g] y tyngais yn fy llid, † na chaent ddyfod i mewn i'm [h] gorphwysfa.

g adn. 18, 19. pen. 4. 3. Num. 14. 20—23, 25, 27—30, 35. a 32. 10—13. Deut. 1. 34, 35. a 2. 14. h Gwel ar pen. 4. 9.

* Am y pethau uchod oll, penderfynodd Duw yn ddigyfnewid, a thyngodd yn ei lid; † na chaffai y dynion hyny byth fyned i mewn i'w orphwysfa ef, y Ganaan ddaearol, yr hon oedd gysgod o'r nef a nefol ddedwyddwch. Gelwir y Ganaan ddaearol yn "orphwysfa," am fod Israel yn cael gorphwys i raddau mawr yno, wedi hir ryfel, a hir daith flinderus; ac hefyd yn cael dechreu ar drefn sefydlog o addoliad, yr hyn oedd yn ymddangos megys math o gadw sabbath gwastadol, mewn cymhariaeth i'r Aipht a'r anialwch. Iesu Grist y Gwaredwr oedd yn llefaru yr holl eiriau hyn, fel mae yn amlwg wrth Esa. 63. 8—10; ei eiddo ef oedd yr "orphwysfa" gysgodol hòno, megys yr orphwysfa nefol; ac efe sydd yn cauad allan o'r nef, ac yn gollwng i mewn i'r nef. Gwel Matth. 7. 21—23; Ioan 17. 24.

12 [i] * Edrychwch, frodyr, na byddo un amser yn neb o honoch [k] galon ddrwg anghrediniaeth, [l] † gan ymado oddi wrth [m] Dduw byw.

i pen. 2. 1—3. a 12. 15. Mat. 24. 4. Marc 13. 9, 23, 33. Luc 21. 8. Rhuf. 11. 21. 1 Cor. 10. 12. k Gwel ar adn. 10. Gen. 8. 21. Jer. 3. 17. a 7. 24. a 11. 8. a 16. 12. a 17. 9. a 18. 12. Marc 7. 21, 22. l pen. 10. 38. a 12. 25. Job. 21. 14. a 22. 17. Salm 18. 21. Diar. 1. 32. Es. 59. 13. Jer. 17. 5. Hos. 1. 2. m Gwel ar 1 Thes. 1. 9.

* Gan hyny yr oedd yn dra angenrheidiol i'r Hebreaid hyn edrych yn ofalus, na byddai un amser yn neb o honynt, yr un neu gyffelyb galon ddrwg anghrediniol ag oedd yn eu henafiaid uchod; yr un ysbryd balch, cnawdol, gwrthryfelgar, ac anniolchgar, yn meithrin anghrediniaeth ynddynt fel yn eu tadau: † a rhag i'r galon ddrwg anghrediniaeth hòno eu tynu hwy i ymadael oddi wrth Dduw byw fel eu tadau; un ai trwy wrthod derbyn crefydd Crist, yr hwn sy Dduw byw, neu, ynte, trwy wrthgilio a'i gwadu ar ol proffesu ei derbyn hi. Yn mhob un o'r ddwy ffordd, hwy a fyddent yn ymadaw oddi wrth y Duw byw, a hwy a gaent eu cospi yn gyfatebol, er eu bod o hyd yn proffesu addoli Duw eu tadau.

13 * Eithr [n] cynghorwch eich gilydd [o] bob dydd tra y gelwir hi Heddyw; † fel na chaleder neb o honoch trwy [p] dwyll pechod.

n pen. 10. 24, 25. Act. 11. 23. 1 Thes. 2. 11. a 4. 18. a 5. 11. 2 Tim. 4. 2. o Gwel ar adn. 7. p Diar. 28. 26. Es. 44. 20. Ob. 3. Rhuf. 7. 11. Eph. 4. 22. Iago 1. 14.

* I ragflaenu y drwg uchod, mỳnai yr apostol iddynt gyngori eu gilydd yn frawdol ac yn effro iawn o ddydd i ddydd, ac annog y naill y llall yn feunyddiol i lỳnu yn eu proffes o Grist a'i efengyl, tra yr oedd amynedd Duw yn parâu tuag atynt fel personau ac fel cenedl: oblegid yn fuan iawn, hwy a beidient a bod yn bobl i Dduw fel cenedl o Iuddewon; ac yr oedd Duw ar ddyfod i ymweled â'r genedlaeth bresenol hòno, mewn modd mwy ofnadwy nag yr ymwelsai efe â'u tadau gynt yn y diffaethwch. Tybir fod y geiriau *tra y gelwir hi Heddyw,* yn y fàn hon, yn golygu *amynedd* Duw tuag at y genedlaeth hòno, yr hon oedd i gael ei dinystrio yn fuan gan ei farn ofnadwy ef. † Yr oedd cyngori eu gilydd yn angenrheidiol iawn iddynt oll; fel na chaledid neb o honynt trwy dwyll pechod: oblegid yr oedd eu llygredd pechadurus hwy yn tueddu i'w twyllo i feddwl, y gallent hwy gael ymbleseru yn ddigerydd yn y byd ac mewn anufudd-dod; a bod hunan-ymwadiad a dyoddef o herwydd cristionogaeth yn afreidiol ac yn annyoddefol. Fel hyn hwy a dwyllid i esgeulusdra, gohiriad, ac amwes pechadurus; yr hyn, trwy fynych drais ar oleuni eu cydwybodau eu hunain, a'u caledai hwy bob yn ychydig; ac a annogai yr Arglwydd i'w rhoddi hwynt i fynu i hudoliaethau dinystriol, ac i galedwch eithaf ac anadferol.

14 * Canys [q] fe a'n gwnaed ni yn gyfrannogion o Grist, [r] † os daliwn ddechreuad ein hyder yn sicr hyd y diwedd.

q adn. 1. pen. 6. 4. a 12. 10. Rhuf. 11. 17. 1 Cor. 1. 30. a 9. 23. a 10. 17. Eph. 3. 6. 1 Tim. 6. 2. 1 Pedr 4. 13. a 5. 1. 1 Ioan 1. 3. r Gwel ar r. adn. 6.—pen. 6. 11.

* Tuag at ymgadw rhag y twyll pechod a'r caledrwydd calon uchod, yr oedd o'r pwys a'r canlyniad mwyaf

iddynt i ystyried, a oeddynt hwy mewn gwirionedd yr hyn oeddynt yn proffesu eu bod, sef yn wir gristionogion: oblegid os oeddynt felly, hwy a wnaethpwyd yn gyfranogion o Grist; yn ei gyfiawnder, ei Ysbryd, ei ras, a'i holl fendithion; fel dynion mewn undeb bywiol âg ef, ac â rhan iddynt yn yr hyn oll ag ydyw ac a fedd efe. † Y *prawf* o'r gyfranogaeth uchod o Grist oedd, os dalient hwy ddechreuad eu hyder, neu eu bodoliaeth ysbrydol ynddo ef trwy ffydd, yn sicr hyd y diwedd, ac felly dangos eu bod mewn gwirionedd yr hyn y proffesent eu bod. Mae parâd dynion yn eu crefydd, yn enwedig mewn erlid a gwrthwynebiadau, yn brawf da o wirionedd eu crefydd hwynt.

15 * Tra y dywedir, [s] Heddyw, os gwrandêwch ar ei leferydd ef, † na chaledwch eich calonnau, megis yn y cyffrôad.

s Gwel ar adn. 7, 8.—pen. 10. 38, 39.

* Gan hyny, wrth ystyried y manteision dirfawr o barâu, a'r canlyniadau dychrynllyd o wrthgilio; dylent ystyried geiriau yr Ysbryd Glân trwy enau Dafydd, fel yn ceel eu llefaru yn union-gyrchol wrthynt hwy eu hunain. Yr oedd efe megys yn llefaru wrthynt *hwy*, "Heddyw os gwrandêwch ar ei leferydd ef," &c. Gwel ar adn. 7, 8, 13. Yr oedd y mater o gymmaint pwys, a pharâd yr amser mòr ansicr, fel nad oedd cymmaint ag un diwrnod i'w golli na'i esgeuluso; *Heddyw* os gwrandêwch, a phob dydd tra y gelwir hi *heddyw*, gwrandêwch; † ac na chaledwch eich calonau yn erbyn ei leferydd ef, megys y gwnaeth eich tadau yn y cyffrôad.

16 * Canys [t] rhai, wedi gwrando, a'*i* digiasant *ef:* † ond [u] nid pawb a'r a ddaethant o'r Aipht trwy Moses.

t Gwel ar adn. 9, 10.—Num. 14. 11. a 26. 65. Salm 78. 17. u Num. 14. 24, 30, 38. Deut. 1. 36, 38. Jos. 14. 7—11. Rhuf. 11. 4, 5.

* Er i holl genedl Israel gael eu dwyn allan o'r Aipht, i glywed a gwrando geiriau Duw trwy Moses; eto, rhai o honynt (pa gymmaint oedd y nifer dirfawr nid oedd achos crybwyll,) a ddigiasant Dduw trwy eu hanufuddôod, ac a'i hannogasant ef i'w cauad hwy allan o Ganaan. † Er hyny, yr oedd rhai eithriadau, hyd yn nôd yn mhlith y genedl ddiofrydawl hòno; megys Caleb a Josua, a rhai o'r Lefiaid, ac o'r gwragedd: ni wrthryfelodd pawb oll, ar a ddaethent o'r Aipht trwy Moses, ac ni chauwyd pawb allan o'r orphwysfa. Felly hefyd yn nyddiau yr apostol; yr oedd rhai o'r Iuddewon yn credu yn Nghrist, tra yr oedd corph y genedl ar fin cyfrgolli mewn anghrediniaeth.

17 * Ond [x] wrth bwy y digiodd efe ddeugain mlynedd? [y] † onid wrth y rhai a bechasent, [z] ‡ y rhai y syrthiodd eu cyrph yn y diffaethwch?

x Gwel ar adn. 10. y Num. 26. 64, 65. 1 Cor. 10. 1—13. z Num. 14. 29, 32, 33. Deut. 2. 15, 16. Jer. 9. 22.

* Eto, ni phallodd Duw o gyflawni ei addewidion, pan gauodd efe y genedlaeth hòno o Ganaan; ac nid oedd hyny yn anghyson â'i gyfiawnder ef: oblegid wrth bwy y digiodd efe, a hyny am ddeugain mlynedd cyn eu dyfetha hwynt; † onid wrth y rhai a bechasent, y trosseddwyr cildynus hyny, y rhai oedd yn wastad yn gwrthryfela yn ei erbyn ef? ‡ Gan hyny efe a'u tòrodd hwynt ymaith, a syrthiodd eu cyrph meirwon yn garneddau yn y diffaethwch; tra yr oedd ei addewidion ef yn cael eu cyflawni i'r gweddill o gredinwyr, ac i blant y gwrthryfelwyr, megys yr oeddynt yn cael eu cyflawni hefyd yn amser yr apostol, i'r gweddill crediniol o'u hiliogaeth hwy.

18 [a] * Ac wrth bwy y tyngodd efe, na chaent hwy fyned i mewn i'w orphwysfa ef? [b] † onid wrth y rhai ni chredasant?

a Gwel ar adn. 11. b Num. 14. 11. a 20. 12. Deut. 1. 26—32. a 9. 23. Salm 106. 24—26.

* Ac yn yr amgylchiad nodedig hwnw, pan y tyngodd Duw yn ei lid cyfiawn ac arswydol, na chaent hwy fyned i mewn i'w orphwysfa ef, pwy o had Abraham oedd yn gynnwysedig dàn y ddedfryd ofnadwy hòno? † Nid y rhai crediniol yn eu plith hwy, eithr y rhai ni chredasent; y rhai er eu holl broffes a'u rhwymau, ac er holl ymddangosiadau a gweithredoedd rhyfeddol Duw yn eu plith, a'u gwrthodasent ef trwy anghrediniaeth: wrth y rhai hyn y tyngodd efe, na chaent fyned i mewn i'w orphwysfa.

19 * Ac yr ydym ni yn gweled [c] na allent hwy fyned i mewn † o herwydd anghrediniaeth.

c pen. 4. 1, 2. Marc 16. 16. Ioan 3. 18, 36. 2 Thes. 2. 12. 1 Ioan 5. 10. Judas 5.

* Ar y cyfan gan hyny, yr ydym ni yn gweled yn amlwg, a dylem ei ystyried er ein darostyngiad a'n gocheliad, ac er ein rhwymo i ymddybynu yn wastad ar ras Duw i'n cadw yn agos at Grist; nas gallent hwy gael eu goddef i osod troed ar dir Canaan, i fwynâu bendithion y wlad dda hòno, pa faint bynag y dymunent hyny; † o herwydd eu hanghrediniaeth, yr hyn oedd gwreiddyn ac achos eu holl wrthryfel a'u drwg-weithredoedd eraill, a thrwy yr hyn y collasant bob hawl ac iawn i'r addewid o fyned i mewn i'r orphwysfa hòno, ac o herwydd yr hyn y cauwyd hwynt allan o hòni. Yr un modd nis gallai yr Hebreaid, y rhai yr oedd yr apostol yn ysgrifenu yr epistol hwn atynt, fyned i mewn i'r nefoedd, oni chredent hwy yn Iesu Grist o'r galon.

PEN. IV.

Trwy ffydd y mae cael gorphwysfa y Cristionogion.

[a] * OFNWN gan hynny, [b] † gan fod addewid wedi ei adael *i ni* i fyned i mewn i'w [c] orphwysfa ef, ‡ rhag bod [d] neb o honoch yn debyg i fod yn ol.

a adn. 11. pen. 2. 1—3. a 12. 15, 25. a 13. 7. Diar. 14. 16. a 28. 14. Jer. 32. 40. Rhuf. 11. 20. 1 Cor. 10. 12. b adn. 9. Num. 14. 34. 1 Sam. 2. 30. Rhuf. 3. 3, 4. 2 Tim. 2. 13. c adn. 3—5. —Gwel ar pen. 3. 11. d Mat. 7. 21—23, 26, 27. a 24. 48—51. a 25. 1—3. Luc 12. 45, 46. a 13. 25—30. Rhuf. 3. 23. 1 Cor. 9. 26, 27.

* Yr oedd barn gyfiawn ac ofnadwy y JEHOFAH ar ei hen bobl gynt am na chredasent, yn galw yn uchel ar eu hiliogaeth hwy i "ofni," gyda phryder eiddugus a gostyngedig am eu calonau eu hunain, gydag ymdriniad manwl a hunan-holiadol â phob moddion o ras, a chyda gwyliadwriaeth ofalus yn erbyn pob temtasiynau, rhag iddynt hwy syrthio dàn farn mwy dychrynllyd byth na'u henafiaid. † Yr oedd addewid yn wir, wedi ei adael iddynt hwy yn yr ysgrythyrau, o fyned i mewn i orphwysfa y Messiah yn y nef, fel cymun-rodd *(legacy)* oddi wrth eu henafiaid crediniol, er mwyn pa rai y cawsant y rhagor-fraint hon; ac yr oeddent yn cael eu gwahodd yn daer trwy bregethiad yr efengyl, i gymmeryd cyfran o'r fendith addawedig hòno: ‡ ond yr oedd yn gweddu iddynt ofni, "rhag bod neb o honynt yn debyg o fod yn ol," ac felly cael eu cauad allan o'r nef ei hun, megys y cawsai eu henafiaid o wlad Canaan. Ië, dylent ofni rhag bod yn *debyg* o fod yn ol, yn eu golwg eu hunain neu eraill; ofni bod mewn perygl o hyny, yn eu bywyd, neu pan ddelai angau; yr hyn a fyddai yn sicr, os gwrthodent neu os gwadent hwy yr efengyl; a hwy a fyddent yn *debyg* o fod yn ol, os aent yn ddiofal, neu annwadal yn eu proffes o hòni. Yr oedd y gocheliad hwn yn addas iawn i'r Hebreaid, gan y cymmerid ef oddi wrth eu henafiaid hwy eu hunain; y drwg yr un peth, sef anghrediniaeth; yr amser yn gyffelyb, sef ar sefydliad goruchwyliaeth newydd; a'r canlyniad yn gyffelyb, sef cauad allan o'r orphwysfa. Yr oedd rhagoriaeth Crist ar Moses, a rhagoriaeth y nefoedd ar wlad Canaan, hefyd, yn gwneyd y gocheliad yn fwy pwysig.

2 * Canys [e] i ninnau y pregethwyd yr efengyl, megis ag iddynt hwythau: † eithr y gair a glybuwyd [f] ni bu fuddiol iddynt hwy,

am nad oedd [s] wedi ei gyd-dymheru â ffydd yn y rhai a'*i* clywsant.

e Act. 3. 26. a 13. 46. Gal. 3. 8. a 4. 13. 1 Pedr 1. 12. f Rhuf. 2. 25. 1 Cor. 13. 3. 1 Tim. 4. 8. g adn. 6. pen. 3. 12, 18, 19. a 11. 6. 1 Thes. 1. 5. a 2. 13. 2 Thes. 2. 12, 13. Iago 1. 21.

* Yr oedd efengyl iachawdwriaeth trwy Iesu Grist, a'r newyddion da am fyned i mewn i'r orphwysfa nefol trwy ffydd ynddo ef, wedi cael eu pregethu i'r Hebreaid presenol, yn gystal ag i'w tadau hwynt yn fwy aneglur dàn yr hen oruchwyliaeth; † eithr y gair a glybuwyd, neu air y clywed, ni bu fuddiol i'w henafiaid, am nad oedd wedi ei gyd-dymheru, ei gyd-gymmysgu, neu ei uno â ffydd yn y rhai a'i clywsant. Yr oedd yr hen Israeliaid gynt yn amddifad o ffydd, i dderbyn y gair a lefarwyd trwy Moses yn eu calonau, fel y gallent gael llesâd o hóno, a'i droi yn egwyddor o ufudd-dod: ac yn yr un modd, byddai datguddiad eglurach o'r efengyl yn anfuddiol i'r Hebreaid hyn; os na byddai ganddynt ffydd ynddi, ac felly ei derbyn mewn modd crediniol ac ufuddawl.

3 * Canys [h] yr ydym ni, y rhai a gredasom, yn myned i mewn i'r orphwysfa, † megis y dywedodd efe, [i] Fel y tyngais yn fy llid, Os ânt i mewn i'm gorphwysfa i: ‡ er [k] bod y gweithredoedd wedi eu gwneuthur [l] er seiliad y byd.

h adn. 6, 10, 11. pen. 3. 14. Es. 28. 12. Jer. 6. 16. Mat. 11. 28, 29. Rhuf. 5. 1, 2. i Gwel ar pen. 3. 11.—Salm 95. 11. k Gen. 1. 31. Ex. 20. 11. l pen. 9. 26. Mat. 13. 35. Eph. 1. 4. 1 Pedr 1. 20.

* Yr oedd yr apostol ei hun, a phawb ag oedd fel yntau yn gwir gredu yr efengyl, ac yn ei chadw hi yn ffyddlawn; mòr sicr o ddedwyddwch yn y diwedd, fel y gallai efe ddywedyd gyda gradd mawr o briodoldeb, eu bod hwy eisoes yn myned i mewn i'r orphwysfa nefol: yr oeddynt eisoes yn mwynâu cymmod a chymdeithas â Duw yn Nghrist; yn myned yn mlaen yn galonog tu a'r wlad nefol; ac yn gobeithio yn hyderus y caent orphwys byth gyda Duw o fewn y llèn. † Gwyddent hefyd na cha'i neb ond gwir gredinwyr fyned i mewn i'r orphwysfa hòno; oblegid tyngasai Duw yn ei lid, na chaffai neb o'r Israeliaid anghrediniol fyned i mewn i wlad Canaan, yr hon oedd gysgod o'r orphwysfa nefol; ac megys na allai yr anghredinwyr fyned i mewn i'r Ganaan gysgodol gynt, felly nis gall anghredinwyr eto, fyned i mewn i'r Ganaan nefol. O'r holl dyrfa fawr a syrthiodd yn y diffaethwch, ni ddaeth yr un o honynt yn fŷr o Ganaan trwy nerth neb rhyw elynion, nac o herwydd eu pechodau o'r blaen, nac o herwydd eu gwendid presenol; nac o herwydd unrhyw achos arall, ond anghrediniaeth: ac nid oes neb a wrandawant yr efengyl yn cael eu cauad allan o'r nefoedd, am unrhyw achos pa bynag, ond diffyg gwir ffydd. ‡ Mae yn dra anhawdd deall yr apostol yn y fàn hon; ac yn fwy anhawdd gosod allan feddyliau ein Hawdwyr mewn cyn lleied geiriau ag y dymunid. Er bod gweithredoedd Duw wedi eu gwneuthur, a'i orphwysfa ef yn barod, er seiliad y byd; eto, efe a dyngodd yn ei lid na cha'i yr anghredinwyr fyned i mewn i'w orphwysfa ef, o herwydd eu hanghrediniaeth: neu fel hyn:—Er i Dduw rag-ddangos yr orphwysfa nefol yn mhell cyn iddo sôn am orphwysfa Canaan; hyd yn nôd pan orphenodd efe ei weithredoedd er seiliad y byd; eto, efe a dyngodd yn ei lid na cha'i y rhai anghrediniol fyned i mewn iddi. Gwedi i Dduw orphen ei weithredoedd o grëu, efe a orphwysodd ar y seithfed dydd oddi wrth ei holl waith, ac a sancteiddiodd y seithfed dydd i ddyn orphwys arno hefyd; felly yn yr orphwysfa hòno yr oedd gan ddynion gysgod o'r orphwysfa nefol er seiliad y byd, yn agos i dair mil o flynyddoedd cyn yr orphwysfa yn Nghanaan: ond er hyny oll, efe a dyngodd yn ei lid na cha'i y rhai anghrediniol fyned i mewn i'w orphwysfa nefol ef.

4 * Canys efe a ddywedodd [m] † mewn man am y seithfed *dydd* fel hyn; ‡ A [n] gorphwysodd Duw y seithfed dydd oddi wrth ei holl weithredoedd.

m Gwel ar pen. 2. 6. n Gen. 2. 1, 2. Ex. 31. 17.

* Yr "efe" yma "a ddywedodd" ydoedd Moses, neu yr Arglwydd trwy Moses, † yn Gen. 2. 2, 3; Exod. 31. 17: nid oedd achos i'r apostol ddywedyd pa le yr oedd hyn yn ysgrifenedig, yr oedd yr Hebreaid yn ddigon cynnefin â'r geiriau. ‡ Gwedi i Dduw orphen ei holl waith yn y chwech diwrnod, efe a orphwysodd ar y seithfed dydd; nid am ei fod ef yn lluddiedig, ac angen gorphwys arno fel ar ddynion; ond efe a orphwysodd i ddangos ei hyfrydwch yn yr hyn oll a wnaethai, i ddangos trwy ei esampl ei hun y dylai dynion orphwys yn sanctaidd ar y dydd sabbath, ac i osod gorphwysiad y dydd hwnw yn gysgod o'r orphwysfa dragywyddol yn y nef.

5 * Ac yma drachefn, [o] † Os ânt i mewn i'm gorphwysfa i.

o adn. 3. pen. 3. 11.

* Ac yma drachefn, sef yn Salm 95. 11; † mae yr Arglwydd yn sôn am orphwysfa arall, heblaw gorphwysfa y seithfed dydd, (adn. 4.) ac yn mhell ar ol hòno; sef gorphwysfa Canaan, am yr hon y tyngodd efe os elai yr Israeliaid anghrediniol i mewn iddi. Ond gan fod yr Iuddewon yn mwynâu gorphwysfa Canaan, ac yn cadw eu sabbathau yn orphwysol yno, pan lefarodd Dafydd y geiriau hyn; mae yn amlwg fod Dafydd a'r apostol hefyd, yn golygu y geiriau fel yn cyfeirio at orphwysfa arall, gwahanol i'r seithfed dydd a gorphwysfa Canaan, sef yr orphwysfa nefol, o ba un y byddai yr anghredinwyr yn mhob oes yn sicr o gael eu cauad allan. Pan lefarodd Duw y geiriau yn yr anialwch, yr oeddynt yn golygu y Ganaan ddaearol; ond pan lefarodd Dafydd a'r apostol hwynt, yr oeddynt yn sicr yn golygu y Ganaan nefol: a'r amgylchiad cyntaf yn gysgod o'r ail. Nid yr un peth, medd *Pool*, yw y gair Hebraeg am *orphwys* gan Moses â'r gair sydd gan Dafydd: yn Gen. 2. 2, 3, mae yn arwyddo gorphwys, neu sabbath, yn unig; ond mae y gair sy gan Dafydd yn Salm 95. 11, yn arwyddo llawn, tragywyddol, a dedwydd orphwysiad eneidiau mewn gogoniant, yr hyn a dyngodd Duw i'r rhai a gredant yr efengyl.

6 * Gan hynny gan fod [p] hyn wedi ei adael, fod [q] rhai yn myned i mewn iddi, † ac [r] nad aeth [s] y rhai y pregethwyd yn gyntaf iddynt i mewn, o herwydd anghrediniaeth;

p adn. 9. 1 Cor. 7. 29. q Num. 14. 12, 31. Es. 65. 15. Mat. 21. 43. a 22. 9, 10. Luc 14. 21—24. Act. 13. 46, 47. a 28. 28. r adn. 2. Gal. 3. 8. s Gwel ar pen. 3. 18, 19.

* Gan hyny, (megys y dangosir yn lled amlwg yn y bygythiad yn erbyn y rhai ni chredasant,) y mae o hyd addewid o orphwysfa wedi ei adael yn ngair Duw, (adn. 1.) yr hon y caiff credinwyr yn sicr fyned i mewn iddi, megys y cafodd plant yr Israeliaid anghrediniol yn y diffaethwch fyned i Ganaan; † er na chafodd eu tadau, i'r rhai y dywedwyd am y Ganaan hòno yn gyntaf, fyned i mewn, o herwydd anghrediniaeth. Aeth llawer i mewn i'r Ganaan ddaearol trwy ffydd; a chollodd llawer eraill hi trwy anghrediniaeth, er clywed am dani o flaen eu plant: felly am y Ganaan nefol yn mhob oes; mae y rhai sydd yn credu yn myned i mewn iddi, a'r rhai ni chredant yn fŷr o hóni.

7 * Trachefn, y mae efe yn pennu rhyw ddiwrnod, [t] gan ddywedyd yn Dafydd, [u] † Heddyw, [x] ar ol cymmaint o amser; megis y dywedir, Heddyw, os gwrandêwch ar ei leferydd ef, na chaledwch eich calonnau.

t pen. 3. 7, 8. 2 Sam. 23. 1, 2. Mat. 22. 43. Marc 12. 36. Luc 20. 42. Act. 2. 29—31. a 28. 25. u pen. 3. 7, 15. Salm 95. 7. x 1 Bren. 6. 1. Act. 13. 20—23.

Er i lawer o'r Iuddewon golli y nefoedd trwy anghrediniaeth, er cael preswylio yn ngwlad Canaan; eto, arfaethodd Duw i rai fyned i mewn i'r orphwysfa nefol hòno: * ac er prawf o hyny, mae yr Ysbryd Glân trwy

Dafydd yn pènu rhyw ddiwrnod, neu amser arall i ddyfod, yn yr hwn y byddai i gredinwyr fyned i mewn i orphwysfa Duw, ond gwedi yr hwn byddai i anghredinwyr gael eu cauad allan byth. † Gwel ar pen. 3. 7, 8, 15. Yr oedd Dafydd (Salm 95. 7, 8, 11.) yn llefaru y geiriau hyn wrth y rhai oedd mewn mwynâd o wlad Canaan er ys pedwar cant o flynyddoedd, ac yn uchder eithaf eu llwyddiant y pryd hwnw fel cenedl; am hyny mae yn amlwg bod ei eiriau yn cyfeirio at orphwysfa arall, a gwell na'r Ganaan ddaearol; o'r hon byddai anghrediniaeth yn sicr o gauad allan, hyd yn nôd trigolion y wlad dda hòno. *Ar ol cymmaint o amser:* sef ar ol cymmaint o amser wedi eu dyfodiad i wlad Canaan, a'u sefydliad a'u gorphwysiad dedwydd yno.

8 * Canys pe [y] dygasai Jesus hwynt i orphwysfa, † ni soniasai efe ar ol hynny am ddiwrnod arall.

y pen. 11. 13—15. Deut. 12. 9. a 25. 19. Jos. 1. 15. a 22. 4. a 23. 1. Salm. 78. 55. a 105. 44.

* Josua a feddylir, a buasai hyny yn well na Jesus yn y fàn hon, i ragflaenu cam-gymmeriad ac amwysedd: *Jesus*, neu *Iêsous*, yw y dull Groeg o ysgrifenu Josua. Pe dygasai Josua yr Israeliaid i'r wir orphwysfa a fwriadesid i gredinwyr; † ni soniasai Duw trwy Dafydd (adn. 7.) ar ol hyny, 400 mlynedd, am ddiwrnod arall. Yr oedd Josua yn gysgod o'r Iesu yn ei *enw;* Gwaredwr yw ystyr pob un o'r ddau: ac yn gysgod o hóno yn ei *waith;* yn arwain Israel i'r orphwysfa gysgodol; ond Iesu Mab Duw sydd yn arwain y gwir Israel i'r orphwysfa nefol.

9 * Y mae [z] gan hynny orphwysfa *etto* yn ol i [a] bobl Dduw.

z adn. 1, 3. pen. 3. 11. Es. 11. 10. a 57. 2. a 60. 19, 20. Dat. 7. 14—17. a 21. 4. a pen. 11. 25. Salm 47. 9. Mat. 1. 21. Tit. 2. 14. 1 Pedr 2. 10.

* Yr oedd yn wir i Josua ddwyn Israel i orphwysfa, oddi wrth deithiau blinion a lluddedig yr anialwch, ac oddi wrth galedi ac enbydiau rhyfel, trwy eu sefydlu hwy yn Nghanaan; (Jos. 23. 1.) er hyny yr oedd yn amlwg fod gorphwysfa eto yn ol i bobl Dduw; llawer gwell na Chanaan a'i holl freintiau, sef cadw sabbath tragywyddol, a dedwydd orphwys oddi wrth bob gofid yn y nef. *Gorphwysfa:* er mai yr un gair sy genym ni yma ag yn yr adnodau o'r blaen; eto, gair cwbl wahanol sydd yma yn y Groeg: *katapausin* yw y gair a gyfieithir "gorphwysfa" yn yr adnodau eraill, a *sabbatismos* ydyw yn yr adnod hon. Tybir i'r apostol amrywio y gair yn y fàn hon, i ddangos rhagoriaeth tra mawr yr orphwysfa nefol sydd yn ol i bobl Dduw, ar yr orphwysfa ddaearol oedd yn gysgod o hóni. Tybia rhai hefyd iddo amrywio y gair, i arwyddo y sabbath cristionogol, mewn cyferbyniad i sabbath y seithfed dydd, dàn yr hen oruchwyliaeth, adn. 4.

10 * Canys [b] yr hwn a aeth i mewn i'w orphwysfa ef, hwnnw hefyd [c] a orphwysodd oddi wrth ei weithredoedd ei hun, [d] † megis *y gwnaeth* Duw oddi wrth yr eiddo yntau.

b pen. 1. 3. a 10. 12. Dat. 14. 13. c Ioan 19. 30. 1 Pedr 4. 1, 2. d Gwel ar adn. 3, 4.

Dadleuai yr apostol yn gadarn, allan o ysgrythyrau yr Hen Destament, dros y pwnc hwn, sef fod gorphwysfa eto yn ol i bobl Dduw; (adn. 9.) oblegid bod y Saduceaid yn hollawl wadu, bod unrhyw ddedwyddwch gwell na llwyddiant a gwynfyd yn y byd hwn i'w ddysgwyl; ac yr oedd yr Iuddewon oll yn rhŷ dueddol i ddifaterù am y bendithion ysbrydol a gynnygid iddynt, yn yr addewidion a wnaed i'w tadau, ac i gyfyngu eu meddyliau yn hollawl gyda phethau tymmorol y cyfammod a wnaed â hwynt fel cenedl wrth Sinai. * Gan hyny mae yr apostol yma yn dywedyd, fod yr hwn a aethai i mewn i orphwysfa Duw yn y nef, wedi gorphwys hefyd oddi wrth ei weithredoedd ei hun, † megys y gwnaeth Duw oddi wrth ei weithredoedd yntau o grëu, pan orphwysodd ef ar y seithfed dydd.—Fel hyn Iesu, y Messiah, ar ol iddo orphen ei waith mawr ar y ddaear, a aeth i'w orphwysfa yn y nef, fel Rhag-flaenor ei bobl: fel hyn mae eneidiau y cyfiawnion, wedi iddynt orphen eu llafur trwm ar y ddaear, yn myned i orphwys uchod yn mhresenoldeb Duw: ac fel hyn pob credadyn, pan ddygir ef i orphwys ar ac yn nhrugaredd a chariad Duw yn Nghrist, mae yn peidio â'i weithredoedd o bechod ac ynfydrwydd, yn gystal ag â'i ymgais ofer o "geisio gosod ei gyfiawnder ei hun," neu effeithio ei iachawdwriaeth ei hun. Tybia rhai mai am Grist yn unig y dywedir yn rhan flaenaf yr adnod; tybia eraill mai am y credadyn y dywedir: rhoddasom y ddau olygiad i mewn yn y sylwad uchod.

11 [e] * Byddwn ddyfal gan hynny † i fyned i mewn i'r orphwysfa honno, [f] ‡ fel na syrthio neb, yn ol yr un siampl o anghrediniaeth.

e adn. 1. pen. 6. 11. Mat. 7. 13. a 11. 12, 28—30. Luc 13. 24. a 16. 16. Ioan 6. 27. Phil. 2. 12. 2 Pedr 1. 10, 11. f Gwel ar pen. 3. 12, 18, 19.

* Gan fod yr orphwysfa nefol hon, a'i holl fendithion gwerthfawr, yn sicr yn gyrhaeddadwy; yr oedd yn gweddu i'r Hebreaid ac i bawb, arfer pob dyfalwch, yn yr ymarferiad â phob moddion gosodedig, ac yn y cyflawniad parâus o bob dyledswydd; † i fyned i mewn i'r orphwysfa hòno, ac i gael ernes a sicrwydd o hóni yn eu heneidiau yn awr ar y ddaear: ‡ fel na syrthiai neb o honynt, a bod yn ol, yn ol yr un siampl o anghrediniaeth a fu yn achos i'w tadau gael eu cauad allan o'r Ganaan ddaearol. Mae yr apostol yn yr adnod hon yn dychwelyd yn ol, at ei oeheliad a ddechreuodd efe yn yr adnod flaenaf; ac mae y geiriau "fel na syrthio *neb,*" yn dyfod â'r gocheliad at bob un o honom yn bresenol. Taera rhai, nad oedd yr athrawiaeth o gyflwr i ddyfod, da neu ddrwg, yn un rhan o grefydd yr hen Israeliaid; ond mae yr apostol yma yn dangos i'r gwrthwyneb yn amlwg iawn, trwy brofi allan o'r Hen Destament, fod gorphwysfa eto yn ol i bobl Dduw; ac o ganlyniad, fod cospedigaeth eto yn ol i elynion Duw.

12 * Canys [g] bywiol *yw* [h] gair Duw, a nerthol, [i] † a llymmach nag un cleddyf daufiniog, ‡ ac yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r yspryd, ‖ a'r cymmalau, a'r mer; [k] § ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon.

g pen. 13. 7. Luc 8. 11. Act. 4. 31. 2 Cor. 2. 17. a 4. 2. Dat 20. 4. h Salm 110. 2. a 119. 130. Preg. 12. 11. Es. 55. 11. Jer. 23. 29. Rhuf. 1. 16. 1 Cor. 1. 24. 2 Cor. 10. 4, 5. 1 Thes. 2. 13. Iago 1. 18. 1 Pedr 1. 23.—Ioan 6. 51 1 Pedr 2. 4, 5. i Salm 45. 3. a 149. 6. Diar. 5. 4. Es. 11. 4. a 49. 2. Act. 2. 37. a 5. 33. Eph. 6. 17. Dat. 1. 16. a 19. 15, 23. k 1 Cor. 14. 24, 25. Eph. 5. 13.

* Bu llawer o ddadleu pa un ai yr ysgrythyrau sanctaidd, ai ynte gair personol Duw, Iesu Grist, a feddylir yn yr adnod hon a'r nesaf; ac nid hawdd yw penderfynu pa un. Dywed *Scott* nad yw St. Paul un amser yn galw yr Arglwydd Iesu wrth yr enw hwn, Gair Duw, a thybia efe mai y gair ysgrifenedig oedd yr apostol yn feddwl yma; ac ei fod yn ymlithro yn raddol oddi wrth y gair llafaredig, at yr hwn a'i llefarodd, yn yr adnod nesaf. Go gyffelyb yw meddyliau ein Hawdwyr eraill, tybiant fod y ddau i'w cymmeryd, y gair ysgrifenedig, a'r Gair personol yn gweithio trwyddo, i'w wneyd yn fywiol ac yn nerthol, &c. Ac yn y geiriau hyn, *bywiol a nerthol,* tybia rhai fod cyfeiriad at y mellt, trwy y rhai y syrthiodd llawer o'r Israeliaid yn y diffaethwch, am y rhai mae yr apostol wedi llefaru mòr fynych o'r blaen. Nid peth egwan, dieffaith, a difywyd yw gair Duw, fel traddodiadau ac athrawiaeth oerllyd a ffurfiol yr ysgrifenyddion; eithr "bywiol a nerthol," treiddgar a grymus, ydyw; addas i fod yn offeryn yn llaw yr Ysbryd Glân, i fywâu y rhai sydd yn feirw mewn pechodau, ac i ddeffrôi, argyhoeddi, a dychrynu y mwyaf caled ac anystyriol o ddynion. † Mae hyd yn nôd yn "llymach nag un cleddyf daufiniog," yr hwn a dòra bob ffordd: (Ephes. 6. 17; Dat. 1. 16.) mae yn fwy awchlym a threiddgar i ddirgeloedd

mwyaf tufewnol y galon, nac y gall y cleddyf llymaf fod, pan drywenir y corph âg ef. ‡ Yn llaw Crist, y Gair personol, mae y gair ysgrifenedig yn nerthol i gyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd, y ddau egwyddor o fywyd naturiol a rhesymol: ie, i wahanu rhynggdynt, i'w dwyn i drefn sanctaidd trwy sancteiddio pob un o honynt, a'u cadw yn eu gwahanol a'u priodol leoedd, gyda dyledus ddarostyngiad o'r nwydau a'r serchiadau anianol, i'r deall rhesymol mewn gwir gredinwyr; neu ynte i ddwyn angau a dinystr mewn barn ar gau-broffeswyr, trwy nerth Crist yn ol ei air. ‖ Ac y mae gair Duw, trwy nerth Crist a'i Ysbryd, yn treiddio ar unwaith, mewn ffordd o drugaredd neu farn, i'r rhanau mwyaf dirgelaidd; megys y trywenir y cymmalau a'r mêr yn y corph dynol, gan gleddyf llym a chadarn, yr hwn a dery hyd adref, ac a rydd yr archoll ddyfnaf. § Ac, i lefaru yn amlwg heb gyffelybiaeth, mae gair Duw, pa un bynag ai Mab Duw ai y gair ysgrifenedig ydyw, yn craffu af feddyliau a bwriadau y galon mewn dyn, ac yn eu barnu: mae yn aml yn dangos i ddynion eu meddyliau a'u bwriadau dirgelaf, ac yn peri iddynt ofni rhag cael eu henwi a'u dynoethi yn gyhoeddus; megys pe byddai y pregethwr yn gwybod eu calonau hwy lawer yn well na hwy eu hunain, ac fel pe byddai ganddo gofrestr o'u pechodau hwy o'i flaen, y rhai yr oeddynt hwy wedi eu hanghofio. —Pethau agos a chlymedig â'u gilydd yw yr enaid a'r ysbryd, a'r cymmalau a'r mêr; felly mae y pechadur a'i bechod: pethau tumewnol a dirgelaidd yw y pethau uchod mewn dyn; felly mae pechod a chalon ddrwg yn y pechadur: pan wahaner y pethau uchod mewn dyn, mae angau yn canlyn; felly pan ddelo gair Duw i farnu meddyliau a bwriadau y galon yn y pechadur, mae efe yn cael barn angau ynddo ei hun: "pan ddaeth y gorchymyn—minnau a fûm farw," ebai Paul. Rhuf. 7. 9. "Y cymmalau a'r *mêr:*" nid *mêr yr esgyrn* a feddylir, eithr *mêr y cefn;* oblegid y mae agosach perthynas a chyssylltiad o lawer rhwng hwn â'r *cymmalau* nac sydd rhwng y llall â hwy: a gwahanu rhwng hwn â giau a chyhyrau y cymmalau, a ddiffrwytha y cymmalau hyny yn fuan, os na bydd hefyd yn angau i'r dyn.

13 * Ac [l] nid oes greadur anamlwg yn ei olwg ef: † eithr pob peth *sydd* [m] yn noeth ac yn agored i'w ei lygaid ef [n] ‡ am yr hwn yr ydym yn son.

l 1 Sam. 16. 7. 1 Cron. 28. 9. 2 Cron. 6. 30. Salm 7. 9. a 33. 14, 15. a 44. 21. a 139. 11, 12. Diar. 15. 3, 11. Jer. 17. 10. a 23. 24. Ioan 2. 24, 25. a 21. 17. 1 Cor. 4. 5. Dat. 2. 23. m Job 26. 6. a 34. 21. a 38. 17. n Preg. 12. 14. Mat. 7. 21, 22. a 25. 31, 32. Ioan 5. 22—29. Act. 17. 31. Rhuf. 2. 16. a 14. 9—12. 2 Cor. 5. 10. Dat. 20. 11—15.

* Os y gair ysgrifenedig, neu yr ysgrythyrau sanctaidd, oedd i'w ddeall wrth "air Duw" yn yr adnod o'r blaen, mae yr apostol yn eglur yn llefaru am y gair personol, neu Fab Duw ei hun, yn yr adnod hon, pan mae yn dywedyd "nad oes grëadur anamlwg yn ei olwg ef," fel Duw hollwybodol, ac fel Barnwr cyfiawn a manol † Tybir fod y geiriau "pob peth yn noeth ac yn agored i'w ei lygaid ef," yn cyfeirio at yr aberthau gynt, y rhai a flingid ac a agorid, ac a holltid i lawr y cefn; ac yna byddai pob rhan o'r corph a'r ymysgaroedd, y rhai oedd yn guddiedig o'r blaen, yn noeth ac yn agored, oddi allan ac oddi fewn, ger bron llygaid yr offeiriad; fel y gallai weled a barnu a oedd y grëadur yn ddianaf ai nid oedd. Fel hyn mae pawb o honom ninnau ger bron Duw, ac fel hyn y byddwn yn y farn; yn noeth oddi allan, wedi diosg y croen, neu bob hug allanol oddi am danom: ac yn agored oll oddi mewn, heb ddim o'n pethau dirgelaf yn guddiedig oddi wrth ei lygaid treiddiol ef. ‡ Am y Duw hwn yr oedd yr apostol yn sôn, ger bron yr hwn y byddwn yn cael ein barnu oll; a dylai yr ystyriaethau hyn am dano beri i ni fod yn dra dyfal a gofalus, na chollom ni mo'r orphwysfa nefol trwy anghrediniaeth na dim arall.

14 * Gan fod wrth hynny i ni [o] Arch-offeiriad mawr, [p] † yr hwn a aeth i'r nefoedd, [q] Iesu Mab Duw, [r] ‡ glynwn yn *ein* proffes.

o Gwel ar pen. 2. 17. a 3. 1.—a 5. 5, 6. p pen. 1. 3. a 6. 20. a 7. 25, 26. a 8. 1. a 9. 12, 24. a 10. 12. a 12. 2. Marc 16. 19. Luc 24. 51. Act. 1. 11. a 3. 21. Rhuf. 8. 34. q Gwel ar pen. 1. 2, 8.—Marc 1. 1. r Gwel ar pen. 2. 1. a 3. 6, 14.

* Gan fod barn a chondemniad yn annocheladwy i bechaduriaid, ger bron Barnwr hollwybodol, gair bywiol a nerthol pa un a bair i ddynion gondemnio eu hunain hyd yn nôd yn y byd hwn; yr oedd yn fwy angenrheidiol i'r Hebreaid ystyried a pharchu yr Arch-offeiriad mawr, yr hwn yr oedd ef yn ei adganmol iddynt, sef Iesu Mab Duw. † Oblegid wedi iddo ymddangos yn y natur ddynol, megys yn nghyntedd y cyssegr, i offrymmu ei aberth cymmodawl; efe a aeth i'r nefoedd, i bresenoldeb digyfrwng y Tad; fel y byddai yr arch-offeiriad gynt yn myned trwy y cyssegr cyntaf i'r cyssegr sancteiddiolaf, i daenellu y gwaed ac i arogl-darthu, ar ddydd mawr y cymmod. ‡ A chàn fod iddynt y fath Arch-offeiriad mawr â hwn, wedi aberthu ei hun a myned i'r nefoedd drostynt; yr oedd yn gweddu iddynt hefyd lynu yn ddiysgog yn eu proffes o'r efengyl, a'r broffes hòno o ffydd yn Nghrist, a wnaethent hwy pan eu bedyddiwyd, yn nghanol pob enbydiau ac erledigaethau a ddygwyddai iddynt.

15 * Canys [s] nid oes i ni Arch-offeiriad heb fedru cyd-ddioddef gyd â'n gwendid ni; † ond [t] wedi ei demtio ym mhob peth yr un ffunud â ninnau, [u] ‡ *etto* heb bechod.

s pen. 5. 2. Ex. 23. 9. Es. 53. 4, 5. Mat. 8. 16, 17. a 12. 20. Phil. 2. 7, 8. t Gwel ar pen. 2. 17, 18.—Luc 4. 2. a 22. 28. u pen. 7. 26. Es. 53. 9. Ioan 8. 46. 2 Cor. 5. 21. 1 Pedr 2. 22. 1 Ioan 3. 5.

* Canys nid oedd iddynt hwy Arch-offeiriad yr hwn oedd yn ddiystyr, neu heb allu cyd-ymdeimlo â hwy, yn eu poenau a'u dyoddefiadau er ei fwyn ef; neu un na wnâi ddim ystyriaeth o'u gwendidau hwynt, neu ni chynnorthwyai hwynt yn eu profedigaethau. † Ond yr oedd ganddynt hwy Arch-offeiriad, yr hwn, i'r dyben o gael maddeuant ac iachawdwriaeth iddynt, a ymostyngodd yn wirfoddol i gael ei brofi a'i demtio, yn mhob peth yr un ffunud â hwythau; cyn belled ag yr oedd yn bosibl iddo *ef* gael ei demtio, ‡ yr hwn oedd heb natur bechadurus, ac heb y pechod lleiaf yn ei fywyd: ac yr oedd yr eithriad hyn yn angenrheidiol, fel y byddai efe yn Aberth ac yn Eiriolwr drostynt. Temtiwyd Crist i bechod fel ei bobl, ond nid oedd pechod ynddo, ac ni wnaeth bechod: cafodd ei gasâu a'i erlid fel ei bobl, ac o'r diwedd ei groeshoelio; ond oll heb bechod: ac er iddo ef fyned trwy y cwbl ei hun yn berffaith ddibechod, eto efe a fedr gyd-ymdeimlo â gwendidau y gwànaf o'i holl bobl.

16 * Am hynny [x] awn yn hyderus at [y] orsedd-fainc y gras, † fel y [z] derbyniom drugaredd, ac y caffom ras yn gymmorth cyfamserol.

x pen. 10. 19—23. a 13. 6. Rhuf. 8. 15—17. Eph. 2. 18. a 3. 12. y pen. 9. 5. Ex. 25. 17—22. Lef. 16. 2. 1 Cron. 28. 11. z Es. 27. 11. a 55. 6, 7. Mat. 7. 7—11. 2 Cor. 12. 8—10. Phil. 4. 6, 7. 1 Pedr 2. 10.

* Am hyny, fel yr oedd trugareddfa gynt ar arch y cyfammod yn y Sancteiddiolaf, ger bron yr hon yr ymddangosai yr arch-offeiriad unwaith bob blwyddyn dros y bobl, ac uwch ben yr hon yr oedd gogoniant Duw yn ymddangos, fel yn foddlawn iddynt; felly yn awr mae Duw Dad, megys yn eistedd ar orsedd-fainc y gras, y drugareddfa, yn y cyssegr nefol, ger bron yr hon mae Iesu yn ymddangos fel Arch-offeiriad ei bobl, trwy yr hwn mae Duw yn dysgwyl i dderbyn gweddiau, i roi maddeuant, ac i gyfranu bendithion, i bawb a'u ceisiant mewn ffydd ostyngedig a thrwy weddi daer. Gan hyny, mae yr apostol yn annog pawb o'r Hebreaid, cyn eu galw i ymddangos ger bron *gorsedd-fainc barn,* i ddyfod gyda hyder gostyngedig yn Nghrist, ac yn nghariad y Tad trwyddo ef, † i grefu am faddeuant a thragarodd wrth orsedd-fainc y gras; ac i ofyn am ras

cyfamserol a digonol, i'w cynnal, eu cysuro, eu nerthu, a'u sancteiddio, fel y byddai eu temtasiynau, eu profedigaethau, eu llafur, a'u gwasanaeth, yn gofyn: nid oedd achos iddynt ofni eu nacâu; ond helaethu a lliosogi eu deisyfiadau yn hyderus ac yn rhydd; eto, gyda pharch a gostyngeiddrwydd, gan fod yn llawn sicr o barodrwydd eu Tad nefol trwy Grist, i wneuthur erddynt, ie, fwy nac a allent hwy eu dymuno neu eu meddwl. Gorsedd y *Tad* yw gorsedd gras, ac nid gorsedd *Crist*, fel y tybia rhai: yr Arch-offeiriad yw Crist drosom ni ger bron y Tad, ac er mwyn pa un mae y Tad yn trugarâu ac yn rhoddi gras.

PEN. V.

Awdurdod a braint Offeiriadaeth ein Hachubwr.

* CANYS [a] pob arch-offeiriad, wedi ei gymmeryd o blith dynion, a osodir [b] dros [c] dynion yn y pethau *sydd* tu ag at Dduw, † fel yr offrymmo [c] roddion ac aberthau dros bechodau:

a pen. 10. 11. Ex. 28. 1, &c. a 29. 1, &c. Lef. 8. 2, &c. b Num. 16. 46—48. a 18. 1—3. c pen. 8. 3, 4. a 9. 9. a 10. 11. a 11. 4. Lef. 9. 7, 15—21.

Fr dyben o ddangos yn fwy cyflawn natur ac effaith arch-offeiriadaeth Crist, mae yr apostol yn gwneyd rhai sylwadau rhag-arweiniol ar offeiriadaeth Aaron; y rhai a ddangosant ei hannigonoldeb, ei hystyr gysgodol, ac a dueddant i egluro ei fater ef. * Pob arch-offeiriad, wedi ei ddewis a'i gymmeryd o blith dynion, a ordeinid ac a osodid dros ddynion, er lles i ddynion, i weini yn y pethau a berthynent i Dduw, neu achosion pwysig crefydd. † Yr oedd y swydd hòno yn gofyn i'r neb a safai ynddi, i gyflwyno ger bron Duw offrymau, neu roddion ac aberthau y bobl dros bechodau: ac ni dderbyniai efe uurhyw roddion nac aberthau, y rhai nid offrymid yn y ffordd hon; ac yr oedd hyn yn dangos yn wastadol, fod pechaduriaid yn annheilwng i nesâu at eu Crëawdwr digiedig, ond trwy aberth cymmodlonawl ac eiriolwr.

2 [d] * Yr hwn a ddichon dosturio wrth y rhai [e] sydd mewn anwybodaeth [f] ac amryfusedd; † am ei fod yntau hefyd [g] wedi ei amgylchu â gwendid:

d pen. 2. 18. a 4. 15. e Num. 15. 22—29. 1 Tim. 1. 13. f pen. 12. 13. Ex. 32. 8. Barn. 2. 17. Es. 30. 11. g pen. 7. 28. Ex. 32. 2—5, 21—24. Num. 12. 1—9. a 20. 10—12. Luc 22. 32. 2 Cor. 11. 30. a 12. 5, 9, 10. Gal. 4. 13.

* Yr oedd yn angenrheidiol hefyd fod yr arch-offeiriad dàn y ddeddf yn medru dosturio, mewn graddau rhesymol, wrth ei frodyr, y rhai a bechasent trwy annwybodaeth a gwendid; neu y rhai a ŵyrasid oddi ar yr iawn ffordd, trwy neb rhyw dwyllwyr, neu hudoliaeth; dros yr hyn bethau yn benaf yr oedd offrymau dros bechod wedi eu gosod. Nid digio wrth y cyfryw rai yn angerddol oedd ei le ef, ond dosturio yn dòner wrthynt, ac offrymu yn ffyddlawn drostynt: † gan ystyried ei fod ef ei hun hefyd wedi ei amgylchu â gwendid fel hwythau; gwendid naturiol a moesol, ac felly yn agored i amryfusedd a phechod fel pawb eraill.

3 * Ac o achos hyn y dylai, [h] megis dros y bobl, † felly hefyd drosto ei hun, offrymmu dros bechodau.

h pen. 7. 27. a 9. 7. Ex. 29. 12—19. Lef. 4. 3—12. a 8. 14—21. a 9, 7. a 16. 6, 15—19.

* Am fod yr arch-offeiriad gynt wedi ei amgylchu â gwendid fel ei frodyr, yr oedd yn angenrheidiol iddo, ac yn orchymynedig arno, megys dros y bobl oll, † felly hefyd drosto ei hun, offrymu dros bechodau; yr hyn oedd ddangosiad eglur nad oedd yr arch-offeiriaid gynt ond cysgodol, gan nad oeddynt deilwng i ymddangos ger bron Duw yn eu hachos eu hunain, heb aberth a thywallt gwaed. Mae yn debyg bod yr apostol yn bwriadu yr adnodau hyn oll, i gymmedroli parch yr Hebreaid i'r offeiriadaeth seremoniol, ac i roddi syniadau mwy derchafedig iddynt am Grist, fel y glynent yn fwy diysgog wrtho ef.

4 * Ac [i] nid yw neb yn cymmeryd yr anrhydedd hwn iddo ei hun, † ond yr hwn a alwyd gan Dduw, ‡ megis Aaron:

i Ex. 28. 1. Lef. 8. 2. Num. 3. 3. a 16. 5, 7, 10, 35, 46—48. a 17. 3—11. a 18. 1—5. 1 Cron. 23. 13. 2 Cron. 26. 18. Ioan 3. 27.

* Nid oedd neb ychwaith i gymmeryd y swydd anrhydeddus hòno o arch-offeiriadaeth iddo ei hun, o'i ewyllys ei hun, neu trwy osodiad dynol; † ond yr oedd yn perthyn yn unig i'r rhai a elwid yn ddigyfrwng ac yn union-gyrchol gan Dduw i'w chyflawni; ‡ megys y galwodd ef Aaron, a'i hiliogaeth ar ei ol ef. Yr arch-offeiriad oedd pen yr holl offeiriadaeth, ac Aaron oedd y blaenaf o'r holl arch-offeiriaid dàn y ddeddf; ond yr oedd yr holl arch-offeiriaid eraill yn disgyn o Aaron, ac mewn rhyw ystyr yn un âg ef, ac yr oedd ei alwad ef gan Dduw, yn alwad iddynt hwythau oll, ol-yn-ol. Pe buasai rywun arall, heb ei alw gan Dduw, yn rhyfygu cyfhwrdd â dim o waith yr arch-offeiriadaeth, buasai yn gwneyd hyny dàn berygl am ei fywyd; yr hyn oedd yn dangos bod holl effaith y swydd yn deilliaw o ordeiniad Duw, ac nid o ddim gwerth cynnwynawl, neu hanfodol ynddi ei hun.

5 * Felly [k] Crist hefyd nis gogoneddodd ei hun i fod yn Arch-offeiriad; † ond yr hwn a ddywedodd wrtho, [l] Tydi yw fy Mab; myfi heddyw a'th genhedlais di.

k Ioan 7. 18. a 8. 54. l pen. 1. 5. Salm 2. 7. Mica 5. 2 Ioan 3. 16 Act 13. 33. Rhuf. 8. 3.

* Yn gyfatebol i'r cysgodau uchod, ni chymmerodd ychwaith anrhydedd iddo ei hun, ac nis gogoneddodd ei hun, trwy weithredu fel Arch-offeiriad ei bobl, heb ei alw i'r swydd, a'i osod yn y swydd gan Dduw: † eithr dangosodd y Tad yn amlwg, a thystiolaethodd yn gyhoeddus yn yr Hen Destament, mai y Messiah a ga'i y swydd hòno; pan ddywedodd efe "Tydi yw fy Mab; myfi heddyw a'th genedlais di," wrth fynegi y ddeddf am deyrnas y Messiah. Yn y geiriau uchod, (a gymmerwyd o'r ail Salm, adn. 7,) mae y Tad yn tystiolaethu am fawredd Person y Messiah, fel ei dragywyddol Fab ei hun, a rhagoriaeth ac awdurdod ei swydd offeiriadol ef; fel yr eglurid ac yr addefid ei faboliaeth a'i offeiriadaeth ef gan Dduw wedi hyny, drwy ei adgyfodiad ef oddi wrth y meirw, wedi iddo lwyr foddloni cyfiawnder dwyfol trwy ei un aberth ar y groes. Mae rhai yn cyfyngu y geiriau uchod at adgyfodiad Crist, ac yn dywedyd na ddechreuodd efe ddim gweini fel Arch-offeiriad tàn ar ol ei adgyfodiad; fel pe na buasai ei waith yn aberthu ei hun dros bechod yn un rhan o'i waith a'i swydd offeiriadol ef! Y *prawf*, ac nid yr *achos*, a'r *dechreuad*, o'i Faboliaeth a'i Offeiriadaeth ef, oedd ei adgyfodiad oddi wrth y meirw.

6 * Megis y mae yn dywedyd mewn *lle* arall, [m] Offeiriad *wyt* ti yn dragywydd † yn ol urdd [n] Melchisedec.

m adn. 10. pen. 6. 20. a 7. 3, 15, 17. Salm 110. 4. n Gen. 14. 18, 19.

* Yma mae yr apostol eto yn dwyn tystiolaeth mwy pennodol o offeiriadaeth Crist, allan o Salm 110. 4, lle mae Duw Dad yn dywedyd wrth ei Fab, Offeiriad wyt ti, ac a fyddi yn dragywyddol; † nid yn ol urdd Aaron, offeiriadaeth yr hwn oedd yn rhedeg mewn llinell barâus o olyniaeth, o oes i oes yn ei deulu ef; ond yn ol urdd ragorach Melchisedec enwog, yr hwn ni bu iddo flaeniedydd na chanlynydd yn ei swydd, yr hon a berthynai iddo ef ei hun yn unig. Yn hyn yr oedd Melchisedec a'i offeiriadaeth yn gysgod tra nodedig o Grist a'i Offeiriadaeth, yr hon oedd i fod yn ei berson ef ei hun yn unig, ac am byth; heb neb yn ei flaenu ef nac yn ei ganlyn, nac yn cyfranogi âg ef yn anrhydedd

a gwaith ei offeiriadaeth; ond yr oedd efe i ddwyn yn
mlaen holl achosion mawrion y swydd yn gwbl, ac yn
unig drwyddo ei hun. Cawn eto achlysur i sylwi ar
Melchisedec, a'i urdd offeiriadol ef.

7 * Yr hwn [o] yn nyddiau ei gnawd,
[p] † gwedi iddo, trwy lefain cryf a [q] dagrau,
[r] offrwm gweddïau ac erfyniau [s] ‡ at yr hwn
oedd abl i'w achub ef oddi wrth farwolaeth,
[t] ‖ a chael ei wrando, yn yr hyn [u] a ofnodd;

o pen. 2. 14. Ioan 1. 14. Rhuf. 8. 3. Gal. 4. 4. 1 Tim. 3. 16. 1 Ioan 4. 3. 2 Ioan 7. p Salm 22. 1—21. a 69. 1, &c. a 88. 1, &c. Mat. 26. 38—44. Marc 14. 32—39. Luc 22. 41—44. Ioan 17. 1, &c. q Mat. 27. 46, 50. Marc 15. 34, 37. r Es. 53. 3, 4, 11. Ioan 11. 35. s Mat. 26. 52, 53. Marc 14. 36. t pen. 13. 20. Salm 18. 19, 20. a 22. 21, 24. a 40. 1—3. a 69. 13—16. Es. 49. 8. Ioan 11. 42. a 17. 4, 5. u Mat. 26. 37, 38. Marc 14. 33, 34. Luc 22. 42—44. Ioan 12. 27, 28.

* Er bod ein Harglwydd bendigedig yn berffaith rydd
oddi wrth bob pechod, eto efe a ddaeth mòr agos i
gyflwr neu agwedd pechadur ag oedd yn bosibl iddo
ddyfod. Yr oedd efe wedi ei amgylchu â gwendidau
dibechod ein natur egwan a breüawl ni; efe a ymddan-
gosodd "yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus;" ym-
ddygwyd tuag ato fel pe buasai bechadur, gan Dduw a
dynion hefyd; dyoddefodd y temtasiynau, y poenau, a'r
gwasgfâon mwyaf enbyd ac angerddol; ac yr oedd hyd
yn nôd ei enaid yn llawn ofnau, a dychryn annhraeth-
adwy. Hyn ydoedd "yn nyddiau ei gnawd," ar ol iddo
gymmeryd dynoliaeth, a chyn ei dderchafiad; pryd y
gwnaed ei ddynoliaeth ef uwchlaw gallu dyoddef, ac y
gogoneddwyd hi uwchlaw pob amgyffred. † Yr oedd ei
ddarostyngiad a'i galedi ef yn annhraethadwy yn ei ing
a'i gyfyngder yn yr ardd: yno yn enwedig yr offrymodd
efe "weddïau ac erfyniau at y Tad," gyda "llefain cryf
a dagrau," fel tywalltiad grymus ac angerddol o ing a
thrallod tumewnol ei enaid. ‡ Yno efe a weddïodd ar
"yr hwn oedd abl i'w achub ef oddi wrth farwolaeth;"
neu, yr hwn a allai (os gwelai yn dda,) ei waredu ef
oddi wrth ofnau y farwolaeth oedd o'i flaen ef: ‖ ac efe
a gafodd ei wrando, a'i ateb; "*o herwydd ei dduwioldeb,*"
medd rhai; o herwydd ei barchedig ofn o fawredd Duw,
ei gariad, a'i *zêl* dros ogoniant y Tad; neu, yn ol eraill,
Efe a wrandâwyd *ac a waredwyd* oddi wrth ei *ofn.*
—Priodolir llawer o'r teimladau dynol i Dduw, ond
byth ni phriodolir *ofn* iddo ef; eto dyma Fab Duw,
mewn undeb â dynoliaeth, wedi ymddarostwng i *ofn*, y
nwyd, neu y teimlad mwyaf dieithr i'r Duwdod mawr;
fel y byddai efe yn mhob peth yn gyffelyb i'w frodyr,
wedi ei demtio yn mhob peth yr un ffunud â hwythau;
fel y gallai gyd-ddyoddef â'n gwendid ni, ac y gwaredai
ei bobl oddi wrth eu holl ofn. Mae yn wir nad *arbedwyd*
ef mewn un ran o'i ddyoddefiadau aberthol; a gwyddai
nad oedd yn bosibl i hyny fod, yn gyson â gogoniant
Duw ac iachawdwriaeth ei bobl; eto, cafodd ei wrando
o ran ei *ofn;* lleiâwyd dychryn ei feddwl, nerthwyd ef i
ddàl yr annhraethol bwys o ddyoddefiadau a roddwyd
arno; cyfodwyd ef o feirw, derchafwyd ef i'r orsedd
gyfryngol, a rhoddwyd gallu iddo i gwbl iachâu y rhai
trwyddo ef a ddeuant at Dduw. Sylwa rhai nad ym-
ddangosodd dim yn debyg i *ofn* ar Grist, ar ol ei
weddïau yn yr ardd, pryd yr ymddangosodd angel o'r
nef iddo yn ei nerthu. Luc 22. 43.

8 * Er [x] ei fod yn Fab, [y] a ddysgodd
ufudd-dod † trwy y pethau a ddïoddefodd:

x Gwel ar pen. 1. 5, 8. a 3. 6. y pen. 10. 5—9. Es. 50. 5, 6. Mat. 3. 15. Ioan 4. 34. a 6. 38. a 15. 10. Phil. 2. 8.

* Er bod Crist yn Fab Duw, ac yn gwybod ei fod
felly; eto, pan osodwyd ef yn Arch-offeiriad, efe a ddysg-
odd ufuddâu i orchymynion Duw, yn amgylchiadau
presenol ei ddynoliaeth pan ar y ddaear, ac yn nghanol
temtasiynau a phrofedigaethau oedd yn ymosod arno.
Efe a ddysgodd hyn yn brofiadol, cyn belled ag y gallai
hyny fod yn gyson â pherffeithrwydd dibechod; ac yr
oedd hyd yn nôd ei berffaith ufudd-dod ef yn myned yn
fwy-fwy derchafedig ac anrhydeddus o hyd trwy ei holl
fywyd, trwy ymehangiad ei alluoedd dynol ef, † a thrwy
y pethau a ddyoddefodd; fel nad ymddangosodd ei
ufudd-dod ef erioed mòr rhyfeddol a gogoneddus, â
phan oedd efe mewn ymdrech yn yr ardd, ac yn hoel-
iedig ar y groes.—Mae yr adnod hon, debygid, mewn
cyferbyniad prydferth iawn âg adn. 5. *Yno*, wrth
ystyried Crist fel dyn, sonir am y swydd offeiriadol fel
anrhydedd wedi ei roddi arno; ond *yma*, wrth ei ystyr-
ied ef fel *Mab Duw*, sonir am y swydd yn hytrach fel
darostyngiad iddo ef ei chymmeryd hi arno, ac i fyned
trwy y gwasanaeth a'r dyoddefiadau perthynol i'r swydd.
A ddysgodd ufudd-dod: sef a ddysgodd ufudd-dod i
eraill, medd rhai, trwy ei esampl ei hun: mae hyny yn
ddigon gwir; ond ei ufudd-dod cyfryngol ef i'r Tad yw
meddwl y geiriau.

9 * Ac [z] wedi ei berffeithio, [a] † efe a
wnaethpwyd yn Awdwr [b] iachawdwriaeth dra-
gywyddol [c] i'r rhai oll a ufuddhânt iddo;

z pen. 2. 10. a 11. 40. Dan. 9. 24. Luc 13. 32. Ioan 19. 30. a pen. 12. 2. Salm 68. 18—20. Es. 45. 22. a 49. 6. Act. 3. 15. a 4. 12. b pen. 2. 3. a 9. 12, 15. Es. 45. 17. a 51. 6, 8. 2 Thes. 2. 16. 2 Tim. 2. 10. 1 Ioan 5. 20. Judas 21. c pen. 11. 8. Es. 50. 10. a 55. 3. Zec. 6. 15. Mat. 7. 24—27. a 17. 5. Act. 5. 32. Rhuf. 1. 5. a 2. 8. a 6. 17. a 10. 16. a 15. 18. 2 Cor. 10. 5. 2 Thes. 1. 8. 1 Pedr 1. 22.

* Fel hyn trwy ei osodiad ef yn Arch-offeiriad, trwy
yr ufudd-dod a gyflawnodd efe yn nghanol dyoddefaint
ac hyd angau, trwy effaith ei aberth ef, a thrwy ei
dderchafiad wedi hyny; efe a berffeithiwyd fel Cyfryng-
wr, wedi ei gyflawn addasu a'i awdurdodi i'w holl waith
mawr, i eiriol yn y nef mewn canlyniad i'w aberth ar y
ddaear: † ac felly efe a wnaed yn Awdwr iachawdwr-
iaeth dragywyddol i'r rhai oll o ddynolryw a ufuddânt
iddo ef, mewn edifeirwch, ffydd, ac a gymmerant ei iau
ef arnynt. Nid gwaredigaeth dymhorawl ac amserawl
yw hon; ond iachawdwriaeth ysbrydol a thragywyddol;
trwy faddeuant o'r holl anwiredd, a rhoddi pob peth
angenrheidiol i'n iachawdwriaeth, ein harwain yn
ddïogel trwy bob enbydrwydd, a'n dwyn yn ddïangol i
deyrnas nefoedd.—*Wedi ei berffeithio:* wedi cyrhaedd
pen ei yrfa trwy ddyoddefiadau, medd rhai; wedi ei
gyssegru i holl waith ei offeiriadaeth, medd eraill, i
eiriol yn y nef ar sail ei aberth ar y ddaear.

10 [d] * Wedi ei gyfenwi gan Dduw yn
Arch-offeiriad † yn ol urdd Melchisedec.

d Gwel ar adn. 5, 6.

* Mae efe wedi ei gyfenwi, ac felly wedi ei osod a'i
gydnabod gan Dduw, yn Arch-offeiriad yn dragywydd
(adn. 6.) † yn ol urdd Melchisedec, Salm 110. 4; yr
hwn oedd frenin yn gystal ac arch-offeiriad, ac felly o
urdd mwy ardderchog nac Aaron, ac yn gysgod mwy
ardderchog o'r Arch-offeiriad hwn. Mae yn beth i
sylwi arno, nad oes dim sôn yn un màn yn yr Hen
Destament am Melchisedec, ar ol yr hanes am ei gyfar-
fod ef âg Abraham yn Genesis; ond yn unig yn y ddeg-
fed Salm wedi cant: na dim yn y Testament Newydd,
ond gan yr apostol yn yr epistol hwn, wrth sôn am
offeiriadaeth Crist; pwnc o bwys annhraethol, ac a
brofir tu hwnt i bob ammheüaeth, trwy yr un rhesym-
iad hyn. Gwelwn wrth hyn, pa faint a ddichon ddy-
bynu ar un dystiolaeth neilldüedig o'r ysgrythyr, yr
hyn mae darllenwyr arwynebol yn myned drosto yn
ddisylw, ac ar yr hyn nid oes ond ychydig, efallai, yn
sylwi yn ddigon gofalus. Gan nad amlygodd yr Ysbryd
Glân trwy Moses, Dafydd, na'r apostol yma, pwy oedd
Melchisedec; gwell i ninnau beidio a dychymmygu am
bethau na ddatguddiodd Duw: y pethau amlwg a rodd-
wyd i ni. Deut. 29. 29.

11 * Am yr hwn [e] y mae i ni lawer i'w
dywedyd, † ac anhawdd eu traethu, ‡ o achos
eich bod chwi yn [f] hwyr-drwm eich clustiau.

e 1 Bren. 10. 1. Ioan 6. 6. a 16. 12. 2 Pedr 3. 16. f Es. 6. 10. Mat. 13 15. Marc 8. 17, 18, 21. Luc 24. 25. Act. 28. 27.

* *Am yr hwn:* am Melchisedec, medd rhai; am Grist,
medd eraill. Yr oedd gan yr apostol yn ddïau lawer
i'w ddywedyd am Melchisedec, fel cysgod, ond llawer
mwy am Grist, fel sylwedd mawr y cysgod hwnw.

† Ond y pethau oedd ganddo ef i'w dywedyd, yr oedd yn anhawdd iddo eu traethu mewn modd priodol; nid yn gymmaint am fod y pethau yn ddyrys ynddynt eu hunain, nac yn dywyll i'w ddeall a'i feddwl yntau; ‡ ond am fod yr Hebreaid yn hwyr-drwm eu clustiau, trwy eu hymlŷniad rhagfarnus a rhŷ bleidiol wrth y ddeddf a'r offeiriadaeth seremoniol. *Anhawdd eu traethu:* anhawdd eu hegluro, yn ddealladwy i wrandawŵwyr tywyll, yw ystyr y gair Groeg a ddefnyddir yma. *Hwyr-drwm:* diog yw ystyr y gair *nothroi:* am fod yr Hebreaid o hyd yn glŷnu cymmaint yn y ddeddf, yr oeddynt yn rhŷ ddiog i chwilio yn fanol i bethau yr efengyl, ac yn bur anhawdd ganddynt dderbyn ei holl bethau hi.

12 * Canys [g] lle dylech fod yn [h] athrawon o ran amser, † y mae arnoch [i] drachefn eisiau dysgu i chwi beth *ydyw* [k] egwyddorion dechreuad [l] ymadroddion Duw: ‡ ac yr ydych [m] yn rhaid *i chwi* wrth laeth, ac nid bwyd cryf.

g Mat. 17. 17. Marc 9. 19. h Ezra 7. 10. Salm 34. 11. 1 Cor. 14. 19. Col. 3. 16. Tit. 2. 3, 4. i Es. 28. 9, 10, 13. Phil. 3. 1. k pen. 6. 1. l 2 Sam. 16. 23. Act. 7. 38. Rhuf. 3. 2. 1 Pedr 4. 11. m adn. 13. Es. 55. 1. 1 Cor. 3. 1—3. 1 Pedr 2. 2.

* Yr oeddynt hwy wedi gwrando a phroffesu yr efengyl cyhyd, fel y dylasent fod weithian yn athrawon i addysgu eraill, o ran amser a manteision, yn yr athrawiaeth fawr o iachawdwriaeth trwy Grist: † ond yn lle hyny, yr oeddynt hwy wedi cynnyddu càn lleied mewn gwybodaeth, neu wedi gŵyro cymmaint oddi wrth burdeb y ffydd, fel yr oedd arnynt eisiau rhywun i'w dysgu hwy o newydd, drachefn, yn egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw; yn egwyddorion cyntaf crefydd, fel yr oeddynt yn gynnwysedig yn yr Hen Destament, pan eu deallid hwynt yn iawn. ‡ Yr oeddynt hwy wedi myned yn eu hol yn blantos, ac eisiau eu porthi hwy fel mabanod â llaeth; neu eu dysgu hwy yn ngwirioneddau lleiaf ac egluraf yr efengyl; gan eu bod yn annalluog i dderbyn ei hathrawiaethau dyfnach a mwy ysbrydol hi, na chael lles oddi wrthynt.

13 * Canys pob un a'r sydd yn ymarfer â llaeth, † *sydd* anghynnefin â [n] gair cyfiawnder: canys [o] maban yw.

n Salm 119. 123. Rhuf. 1. 17, 18. a 10. 5, 6. 2 Cor. 3. 9. 2 Tim. 3. 16. o Es. 28. 9. Mat. 11. 25. Marc 10. 15. Rhuf. 2. 20. 1 Cor. 13. 11. a 14. 20. Eph. 4. 14. 1 Pedr 2. 2.

* Yn wir pob dyn, yr hwn nis gall dderbyn ond gwirioneddau egluraf a mwyaf cyffredin crefydd, ac heb byth droi ei feddwl at y rhanau mwyaf profiadol a derchafedig o hóni; rhaid ei ystyried ef fel maban yn Nghrist, pa hyd bynag y bu efe yn proffesu yr efengyl, † gan ei fod ef yn amlwg yn anghynnefin â gair cyfiawnder, ac yn anfedrus i'w ddeall a'i ddefnyddio ef.—Wrth "air cyfiawnder" yn y fàn hon, mae rhai yn deall yr ysgrythyrau hyny yn yr Hen Destament a soniant am *gyfiawnâd trwy ffydd,* y rhai a ddyfynir gan yr apostol yn ei epistolau at y Rhufeiniaid a'r Galatiaid; ac y rhai efallai oedd yn ddisylw gan yr Hebreaid hyn. Y gair a ddengys i ddynion y ffordd o gyfiawnâd trwy ffydd, a sancteiddiad yr Ysbryd i ufudd-dod; gresyn fod neb proffeswyr crefydd yn anghynnefin â hwn.

14 * Eithr bwyd cryf a berthyn i'r rhai perffaith, † y rhai o herwydd cynnefindra y mae ganddynt [p] synwyr wedi ymarfer [q] i ddosparthu drwg a da.

p Job 6. 30. a 12. 11. a 34. 3. Salm 119. 103. Can. 1. 3. a 2. 3. Mat. 6. 22, 23. Eph. 1. 18. q Gen. 3. 5. 2 Sam. 14. 17. 1 Bren. 3. 9, 11. Es. 7. 15. Rhuf. 14. 1. 1 Cor. 2. 14, 15. Phil. 1. 9, 10. 1 Thes. 5. 21.

* Ond gwirioneddau mwy ardderchog a goruchel cristionogrwydd, y rhai a berthynant yn union-gyrchol i gyngor Duw er ei ogoniant ei hun, a'r amlygiad o'i berffeithiau ef yn yr iachawdwriaeth trwy Grist; a'r rhai yn wir a led-ddangosid yn o dywyll yn nefodau y ddeddf seremoniol; yr oedd y pethau hyn fel "bwyd crŷf," i'r rhai oedd wedi addfedu mewn gwybodaeth, barn, a phrofiad: y pethau hyn oedd priodol faeth eu ffydd, eu gobaith, eu cariad, a'u harchwaeth ysbrydol hwynt. † Oblegid y cyfryw gristionogion o herwydd cynnefindra, neu ymarferiad, wedi ei ennill trwy ddyfal fyfyrdodau, a sylw diragfarn ar y gwirionedd, yr oeddynt wedi cael archwaeth ysbrydol, a blas ar bethau ysbrydol; yr oedd ganddynt eu synwyrau ysbrydol, yn cael eu harfer i farnu a dosparthu rhwng drwg a da, cyfeiliorni a gwirionedd: gallent yn hawdd adnabod natur a thuedd y pethau a gynnygid iddynt, a'r rhagoriaeth neu y gwaeledd cymhariaethol oedd ynddynt: fel y bydd hyd yn nôd dynion anianol, ar unwaith yn barnu am bethau naturiol, trwy rym synwyr a hir-ymarfer â hwynt; neu fel y bydd y synwyrau corphorol ar unwaith yn adnabod ac yn barnu am eu priodol wrthddrychau.

PEN. VI.

Y. mae efe yn eu cyngori hwy na chilient oddi wrth y ffydd.

* AM hynny, [a] gan roddi heibio yr ymadrodd sydd yn dechreu rhai yng Nghrist, [b] † awn rhagom at berffeithrwydd; [c] ‡ heb osod i lawr drachefn sail i [d] edifeirwch oddi wrth [e] weithredoedd meirwon; [f] ‖ ac i ffydd tu ag at Dduw,

a Gwel ar pen. 5. 12—14. b pen. 7. 11. a 12. 13. Diar. 4. 18. Mat. 5. 48. 1 Cor. 13. 10. 2 Cor. 7. 1. Eph. 4. 12. Phil. 3. 12—15. Col. 1. 28. a 4. 12. Iago 1. 4. 1 Pedr 5. 10. 1 Ioan 4. 12. c Mat. 7. 25. Luc 6. 48. 1 Cor. 3. 10—12. 1 Tim. 6. 19. 2 Tim. 2. 19. d Es. 55. 6, 7. Ezec. 18. 30—32. Zec. 12. 10. Mat. 3. 2. a 4. 17. a 21. 29, 32. Marc 6. 12. Act. 2. 38. a 3. 19. a 11. 18. a 17. 30. a 20. 21. a 26. 20. 2 Cor. 7. 10. 2 Tim. 2. 25, 26. e pen. 9. 14. Gal. 5. 19—21. Eph. 2. 1, 5. f Ioan 5. 24. a 12. 44. a 14. 1. 1 Pedr 1. 21. 1 Ioan 5. 10—13.

* Mae yr apostol yma yn rhoddi heibio yr ymadrodd, neu yr egwyddorion a'r elfenau sydd yn dechreu rhai yn Nghrist, fel y mae plant yn dechreu gyda llythyrenau yr egwyddor cyn dysgu darllen; † ac yn cynnyg arwain yr Hebreaid yn mlaen i gyflawnach adnabyddiaeth o bethau dyfnion yr iachawdwriaeth, ac felly i fyned rhagddynt at berffeithrwydd. ‡ Yr oedd yr angenrheidrwydd am "edifeirwch oddi wrth weithredoedd meirwon," y fath a wnair gan ddynion meirwon mewn pechodau, a'r rhai a'u gwnant hwy yn agored i farwolaeth dragywyddol, yn sicr yn athrawiaeth sylfaenol i wir gristionogaeth; ond yr oeddynt hwy wedi cael eu dysgu eisoes yn hyny, er dechreuad cyntaf yr oruchwyliaeth newydd: nid oedd eisiau bod o hyd yn gosod y "sail" hòno, heb fyned dim pellach yn mlaen. ‖ Ni fynai yr apostol chwaith lefaru yn neilldduol yma am natur ac angenrheidrwydd "ffydd tuag at Dduw," neu grediniaeth o'i dystiolaeth ef, ac ymddybyniad ar ei drugaredd, ei ras, a'i addewidion ffyddlawn ef yn Nghrist Iesu. Er mai athrawiaeth sylfaenol oedd hon fel y llall; eto, yr oedd wedi ei goeod a'i dysgu o'r blaen, ac yn un o'r egwyddorion oedd yn dechreu rhai yn Nghrist.

2 [g] * I athrawiaeth bedyddiadau, [h] † ac arddodiad dwylaw, [i] ‡ ac adgyfodiad y meirw, [k] ‖ a'r farn dragywyddol.

g pen. 9. 10. Mat. 3. 14. a 20. 22, 23. a 28. 19. Marc 7. 4, 8. a 16. 16. Luc 3. 16. a 11. 38. a 12. 50. Ioan 1. 33. a 3. 25, 26. a 4. 1, 2. Act. 2. 38, 41. a 8. 12, 13, 16, 36—38. a 10. 47. a 16. 15, 33. a 19. 2—5. Rhuf. 6. 3, 4. 1 Cor. 1. 12—17. a 10. 2. a 12. 13. Col. 2. 12. 1 Pedr 3. 20, 21. h Gwel ar Act. 6. 6. a 8. 17, 18. a 13. 3. i pen. 11. 35. Es. 26. 19. Ezec. 37. 1—14. Dan. 12. 2. Mat. 22. 23—32. Luc 14. 14. Ioan 5. 29. a 11. 24, 25. Act. 4. 2. a 17. 18. a 23. 6. a 24. 15, 21. Rhuf. 6. 5. 1 Cor. 15. 13—57. Phil. 3. 21. 1 Thes. 4. 14—18. 2 Tim. 2. 18. k Preg. 12. 14. Mat. 25. 31—46. Act. 17. 31. a 24. 25. Rhuf. 2. 5—10, 16. 2 Cor. 5. 10. 2 Pedr 3. 7. Judas 14, 15. Dat. 20. 10—15.

* Nid oedd efe am lefaru yn awr yn nghylch "athrawiaeth bedyddiadau;" y golchiadau seremoniol, pa un bynag ai trwy drochiad, tywalltiad, neu daenelliad; nac am fedydd Ioan, na bedydd Crist, y rhai oeddynt yn wahanol i'w gilydd; nac am fedyddiadau traddodiadol

y Phariseaid. Yr oedd edifeirwch a ffydd (adn. 1.) yn cael eu gosod allan trwy yr amryw olchiadau, neu fedyddiadau dàn y ddeddf seremoniol; y rhai hefyd a ddangosent athrawiaeth puredigaeth oddi wrth bechod; ac a rag-arwyddent rinwedd glânâol gwaed ac Ysbryd Crist: ond nid oedd achos sefyll arnynt yma, gan eu bod wedi eu dysgu o'r blaen. † Ni fynai yr apostol lchwaith ymdrin yma âg "arddodiad dwylaw" yr apostolion, trwy yr hyn yr oedd donian gwyrthiol yn cael eu rhoddi, fel yn dystiolaethol o wirionedd yr efengyl; neu ynte "arddodiad dwylaw" yn urddiad gweinidogion, fel arwydd o'u neilluad, a'r awdurdod a ymddiriedwyd iddynt. ‡ Ni soniai efe chwaith yma am "adgyfodiad y meirw," na'r cyfiawnion na'r anghyfiawnion; ‖ nac ychwaith am y "farn dragywyddol," canlyniad yr hon a ffydd, tragywyddol wynfyd neu dragywyddol wae.—Mae yn dra anhawdd gwybod yn benderfynol, pa beth i'w ddeall wrth y pethau a enwir yn y ddwy adnod flaenorawl, ac a elwir "ymadrodd sydd yn dechreu rhai yn Nghrist," (neu *air dechreuad Crist*, yn ol y Groeg, medd *Scott*,) yn yr adnod flaenaf; ac mae duwinyddion ar goll, ac yn dyrysu yn fawr iawn, meddant, wrth geisio eu hegluro. Tybia rhai fod yr "ymadrodd sydd yn dechreu rhai yn Nghrist," yn perthyn yn hollawl i addysgiadau cynnwyse lig yn yr Hen Destament, am deyrnas y Messïah; ac mae rhai yn eu cyfyngu yn hollawl at yr oruchwyliaeth newydd. Mae eraill, y rhai sydd yn bleidiol i'r golygiad cyntaf, yn tybied fod "athrawiaeth bedyddiadau ac arddodiad dwylaw," yn cyfeirio at y puredigaethau seremoniol, ac arddodiad dwylaw yr offrymwr ar ben yr aberth, fel yn gysgodawl, neu yn arwyddawl, o edifeirwch a ffydd; ac a fynant osod y geiriau mewn cromfachau. Ond, os deallwn ni wrth yr "ymadrodd sydd yn dechreu rhai yn Nghrist," mid y rhanau, neu y gwirioneddau *mwyaf sylfaenol* o gristionogaeth; eithr yr *elfenau rhag-arweiniol*, y dechreuadau iselaf a hawddaf o hóni, fel y mae llythyrenau yn *egwyddorion*, yn *elfenau*, neu *ddechreuad* cyntaf dysgeidiaeth; gallwn weled addasrwydd yn y ddehongliad a roddwyd uchod. Amryw o'r pethau a enwyd yn y ddwy adnod flaenorol, er eu bod yn bethau o'r pwys mwyaf ynddynt eu hunain, eto nid oeddynt ond y rhanau amlycaf a mwyaf cyffredin o gristionogaeth; a'r lleill oeddynt bethau allanol, yn perthyn i'r broffes gyntaf o hóni, ar y rhai yr oedd yr Iuddewon yn dueddol i roi llawer mwy o bwys nac a ddylasent: yr oedd yn naturiol i'r apostol enwi y pethau hyn, pan fynai efe ddùnu yr Hebreaid oddi wrth egwyddorion dechreuol cristionogaeth, at ei hathrawiaethau mwy goruchel ac ysbrydol hi.

3 * A hyn a wnawn, [l] os caniattâ Duw.

l Act. 18. 21. Rhuf. 15. 32. 1 Cor. 4. 19. a 16. 7. Iago 4. 15.

* Ond gan "roddi heibio" y pethau uchod yn bresenol, fel pethau wedi eu dysgu, ac na ddylasent byth gael eu hanghofio; mae yr apostol yn bwriadu myned rhagddo, i egluro i'r Hebreaid ddirgelion dyfnach a mwy ysbrydol yr iachawdwriaeth fawr trwy Grist; ac mae yn porysuro i gyflawni ei fwriad, yn y rhan ddilynol o'r epistol hwn, os caniatâ Duw, os rhydd efe ei gymmorth, ac os deuai yr epistol hwn atynt hwy ar ol ei ysgrifenu.

4 [m] * Canys ammhosibl *yw* i'r rhai a [n] oleuwyd unwaith, [o] † ac a brofasant y rhodd nefol, ‡ ac a wnaethpwyd yn [p] gyfrannogion o'r Ysbryd Glân,

m pen. 10. 26—29. a 12. 15—17. Mat. 12. 31, 32, 45. Luc 11. 24—26. 2 Tim. 2. 25. a 4. 14. 2 Pedr 2. 20—22. 1 Ioan 5. 16. n pen. 10. 32. Num. 24. 3, 15, 16. o Mat. 7. 21, 22. Luc 10. 19, 20. Ioan 3. 27. a 4. 10. Act. 8. 20. a 10. 45. a 11. 17. Rhuf. 1. 11. 1 Cor. 13. 1, 2. Eph. 3. 7. a 4. 7. 1 Tim. 4. 14. Iago 1. 17, 18. p pen. 2. 4. Act. 15. 8. Gal. 3. 2, 5.

Mae yr adnodau hyn, oddi yma hyd y chweched yn unwedig, wedi bod yn achlysur o ddyryswch a thrallod i rifawr i lawer o gristionogion gweiniaid a chydwybodol; a thybiodd rhai eu bod yn wrthddadl gref yn erbyn ir athrawiaeth o barâd y saint mewn gras. Dylid cofio fod yr apostol yn ysgrifenu mewn oes o wyrthiau · ac at yr Hebreaid, yn mhlith pa rai y tywalltwyd yr Ysbryd Glân gyntaf, yn ei weithrediadau anghyffredinol, yn gystal ag yn ei ddylanwadau grasol ac achubol. * Yr oedd y personau a grybwyllir yma wedi cael eu "goleuo unwaith," a chwedi cyrhaeddyd y mesur hyny o wybodaeth am wirionedd a natur y grefydd gristionogol, a'u galluogodd hwynt i wneyd proffes foddlonawl o hóni, mewn trefn i gael eu derbyn i'r eglwys. † Yr oeddynt hefyd wedi "profi y rhodd nefol," a chanddynt ryw faint o archwaeth at oruchwyliaeth gras, yr hon a sefydlwyd trwy yr efengyl, dàn arweiniad a dylanwadau yr Ysbryd Glân, yr hwn sydd mewn modd nodedig yn rhodd neu ddawn Duw, a hyny gyda golwg bennodol ar ei weithrediadau gwyrthiol ef. Act. 8. 20. ‡ Yr oeddynt hefyd yn gyfranogion o'r Ysbryd Glân yn ei ddoniau gwyrthiol; megys prophwydoliaeth, gwahaniaeth ysbrydoedd, amryw dafodau, a chyfieithiad tafodau. 1 Cor. 12. 10. Yn hyn oll nid oedd dim gwir ras, na dim gwaith achubol, yn gynnwysedig: gellid "syrthio ymaith" oddi wrth hyn oll; (adn. 6.) ond yr oedd yn anmhosibl ymadnewyddu drachefn i edifeirwch, ebai yr apostol, ar ol syrthio ymaith wedi derbyn a phrofi y pethau uchod a'r pethau a ganlyn.

5 [q] * Ac a brofasant ddaionus air Duw, [r] † a nerthoedd y byd a ddaw,

q Mat. 13. 20, 21. Marc 4. 16, 17. a 6. 20. Luc 8. 13. 1 Pedr 2. 3. 2 Pedr 2. 20. r pen. 2. 5.

* Yr oeddynt hefyd wedi profi daionus air Duw; ac yr oeddynt yn gwybod trwy brofiad o'i effeithiau ar eu cydwybod, eu meddwl, a'u teimladau, mai gair daionus ydoedd; o duedd sanctaidd ac iachusol, ac mai da oedd iddynt hwy wrandaw arno: tra buont yn gwneyd hyny, profasant lewenydd a gobaith, cyffelyb i'r hyn a ddy wedir am wrandawwyr y tir creigiog. Matth. 13. 20, 21. † Hwy a brofasant hefyd "nerthoedd y byd a ddaw;" yn eu hamgyffrediadau profiadol ar amserau o fyd i ddyfod, ac o'i ddedwyddwch neu ei drueni: neu ynte, hwy a brofasant y nerthoedd a gyfrenid, dàn oruchwyliaeth y Messïah. Yn un o'r ddau olygiad uchod rhaid deall am y byd a ddaw.—Mae y pethau uchod oll, ond y doniau gwyrthiol, yn cymmeryd lle yn aml yn nghalonau a chydwybodau dynion, yn ein dyddiau ni, y rhai er hyny sydd yn parâu yn ddi-adgenedledig, ac yn eu cyfiwr natur. Mae ganddynt wybodaeth, goleu, argyhoeddiadau, ofnau, gobaith, llawenydd, a thymmorau o ddifrifwch ymddangosawl, a gofal mawr am bethau tragywyddol; ac y mae ganddynt y fath ddoniau, a'u gwna hwynt yn aml yn gymmeradwy ac yn ddefnyddiol i eraill; ond nid ydynt wedi eu gwir *ddarostwng;* nid ydynt yn ddynion *ysbrydol;* nid crefydd yw eu helfen a'u hyfrydwch hwynt; nid ydynt o'r galon yn derbyn Crist yn ei holl swyddau, nac yn ddiragrith yn caru ardderchawgrwydd ysbrydol ei bobl ef, ei ordinâdau a'i orchymynion ef. Yn fyr, nid *oes dyn newydd* yn ddynt.

6 * Ac a syrthiant ymaith, [s] ymadnewyddu drachefn i edifeirwch; † gan eu bod yn [t] ail groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw, ‡ ac yn *ei* osod [u] yn watwar.

s Gwel ar m. adn. 4.—Salm 51. 10. 2 Tim. 2. 25. t pen. 10. 29. Zec. 12. 10, &c. Mat. 23. 31, 32. Luc 11. 48. u pen. 12. 2. Mat. 27. 38—44. Marc 15. 29—32. Luc 23. 35—39.

* Os byddai i neb o'r dynion uchod bechu o'u gwirfodd (pen. 10. 26.) fel ag i syrthio ymaith yn hollawl, a gwrthgilio oddi wrth Grist at Moses, neu oddi wrth broffes o'r efengyl at Iuddewaeth; yr oeddynt yn benderfynol yn gwrthod yr unig foddion er eu hadferiad, yr unig feddyginiaeth er eu hiachâd: yr oeddynt yn cael eu rhoddi i fynu yn gyfiawn gan Dduw, i ddallineb a chaledrwydd calon gwirfoddol ac annobeithiol, fel nad oedd dim lle i ddysgwyl y posiblrwydd lleiaf byth, trwy unrhyw foddion pa bynag, iddynt hwy gael eu hadnewyddu yn eu meddyliau a'u calonau, i gydnabod eu pechodau, ac i edifarâu er cadwedigaeth eu heneidiau. † Oblegid yr oeddent yn y syrthiad ymaith hwnw mewn effaith, yn cymmeradwyo drygioni yr Iuddewon

yn croeshoelio tragywyddol Fab Duw; ac yn dangos y croeshoelient hwythau ef drachefn iddynt eu hunain, fel twyllwyr, pe cawsent gyfle i wneyd hyny; ac yr oeddynt yn ei ail groeshoelio ef yn ei aelodau. ‡ Yr oeddynt hefyd yn gosod ei enw ef yn agored i'r gwarth ffieiddiaf, trwy ei wadu ef, a gwadu eu proffes o hóno; fel pe buasai efe mewn gwirionedd y fath ddyn gwaradwyddus ag yr haerai ei groeshoelwyr ei fod, ac nad oedd yn deilwng i ymddiried ynddo, i lŷnu wrtho, na'i gydnabod fel person dwyfol nac yn Fessiah: yr oeddynt yn gystal â dywedyd ar ol gwneyd prawf, nad oedd na gwirionedd na daioni yn Mab Duw na'i efengyl; ac fel hyny yr oeddynt yn cauad eu hunain allan yn gyndyn, oddi wrth holl fendithion ei groes ef, ac yn peri i'w enw gogoneddus ef gael ei watwar yn gableddus drwy y byd. Dyma'r darluniad dychrynllyd a wnâi yr apostol o wrthgilwyr y dyddiau hyny; a chryned gwrthgilwyr ein gwlad a'n hoes ninnau, rhag cael eu rhoddi i fynu yn anadferol byth fel y gwrthgilwyr hyny.

7 * Canys y [x] ddaear, yr hon sydd yn yfed y gwlaw sydd yn mynych ddyfod arni, † ac yn dwyn llysiau cymmwys i'r rhai y llafurir hi ganddynt, [y] ‡ sydd yn derbyn bendith gan Dduw:

x Deut. 28. 11, 12. Salm 65. 9—13. a 104. 11—13. Es. 55. 10—13. Joel 2. 21—26. Iago 5. 7. y Gen. 27. 27. Lef. 25. 21. Salm 24. 5. a 126. 6. Es. 44. 3. Ezec. 34. 26. Hos. 10. 12. Mal. 3. 10.

Yn yr adnod hon a'r nesaf mae yr apostol yn cyffelybu y gwir a'r gau broffeswyr i ddaear ffrwythlawn a daear ddiffrwyth. * Mae y credadyn yn debyg i faes, yr hwn a ddyfrêir yn fynych gan wlaw y nefoedd, † ac a ddwg ffrwythau gwerthfawr a thoreithiog i wobrwyo llafur y llafurwr; ‡ ymddangosiad ffrwythlawn, a chnwd toreithiog yr hwn sydd yn dangos, ei fod wedi ei fendithio gan Dduw. Fel hyn trwy ras, mae y gwir gristion yn cael ei alluogi i iawn ddefnyddio ordinâdau a moddion, fel ag i ddyfod yn ffrwythlawn mewn gwir weithredoedd da, anrhydeddus i'r Arglwydd, a buddiol i ddynion; mae efe wedi ei fendithio, ac a gaiff ei fendithio eto yn chwaneg.

8 * Eithr yr hon sydd yn [z] dwyn drain a mïeri, † *sydd* anghymmeradwy, ac agos i felldith; [a] ‡ diwedd yr hon *yw*, ei llosgi.

z pen. 12. 17. Gen. 3. 17, 18. a 4. 11. a 5. 29. Deut. 29. 28. Job 31. 40. Salm 107. 34. Es. 5. 1—7. Jer. 17. 6. a 44. 22. Marc 11. 14, 21. Luc 13. 7—9. a pen. 10. 27. Es. 27. 10, 11. Ezec. 15. 2—7. a 20. 47. Mal. 4. 1. Mat. 3. 10. a 7. 19. a 25. 41. Ioan 15. 6. Dat. 20. 15.

* Ond y tir diffrwyth, yr hwn er y gwlaw a llafur yr amaethydd, ni ddygai ddim gwell na drain a mieri; † yr oedd hwn yn anghymmeradwy, gadêwid ef yn gyffredin fel anialwch gwrthodedig, dàn y felltith ddechreuol, ‡ nid oedd y tir a'i holl ffrwythau yn addas i ddim ond i'w losgi, a hyn a fydd ei ddiwedd ef rywbryd. Felly y rhith broffeswr, yr hwn sydd yn parâu yn anffrwythlawn dàn foddion gras, neu heb ddwyn dim ond rhagrith, hunanoldeb, ac anwiredd, mae yn debyg o gael ei adael dàn felltith y ddeddf, mae yn agos i'r cyflwr dychrynllyd a ddarluniwyd uchod; (adn. 6.) a thragywyddol drueni yn nhân uffern fydd ei ddiwedd, os pery efe o hyd yn anffrwythlawn.—Yr oedd hyn yn rhybudd difrifol i broffeswyr cristionogaeth i wylied, rhag iddynt hwy gael eu gadael i syrthio ymaith a gwrthgilio, fel cosp am eu hanffrwythlondeb.

9 [b] * Eithr yr ydym ni yn coelio am danoch chwi, anwylyd, bethau gwell, [c] † a *phethau* y'nglŷn wrth iachawdwriaeth, er ein bod yn dywedyd fel hyn.

b adn. 4—6, 10. pen. 10. 34, 39. Phil. 1. 6, 7. 1 Thes. 1. 3, 4. c pen. 2. 3. a 5. 9. Es. 57. 15. Mat. 5. 3—12. Marc 16. 16. Act. 11. 18. a 20. 21. 2 Cor. 7. 10. Gal. 5. 6, 22, 23. Tit. 2. 11—14.

* Er bod yr apostol yn ysgrifenu y gwirioneddau pwysig a dychrynllyd uchod mewn cyfeiriad at rai, y gwyddai efe eu bod yn perthyn iddynt; eto ni fynai efe i'r Hebreaid feddwl fod ganddo ef dŷb neu farn galed am y cyffredinolrwydd o honynt. I'r gwrthwyneb, yr oedd efe a'i gyd-lafurwyr yn coelio pethau gwell am danynt hwy, † a phethau yn nglŷn wrth iachawdwriaeth; sef eu bod hwy yn ddynion gwir edifeiriol, yn gredinwyr gostyngedig, yn ddynion ysbrydol, ac wedi eu gwreiddio a'u seilio yn nghariad Crist, a'i achos a'i bobl ef. Mae y geiriau hyn yn hynod ac yn bwysig, gallai y pethau a ddywedwyd o'r blaen (adn. 4, 5.) fod yn nglŷn wrth iachawdwriaeth neu beidio bod; ond am y pethau mae efe yn llefaru yn awr, y maent i'w cael yn wastad mewn gwir gredinwyr, ac nid yn neb eraill.—Yn Nghrist nid oes dim a lesâ heb "ffydd yn gweithio trwy gariad."—"Crëadur newydd."—"Ni a wyddom ddarfod ein symmud ni o farwolaeth i fywyd, oblegid ein bod yn caru y brodyr."—"Syniad yr Ysbryd bywyd a thangnefedd yw." Nid oes yr un crybwylliad yn yr holl Fibl, i'r un dyn erioed a gafodd y pethau hyn, ddyfod yn ol am iachawdwriaeth, na syrthio ymaith i golledigaeth; ac nid oes yr un prawf i'r un gwrthgiliwr erioed eu cael. Bydded Duw a'i air yn eirwir, a phob dyn a'i gwrthddywedo ef yn gelwyddog.

10 [d] * Canys nid *yw* Duw yn anghyfiawn, [e] † fel yr anghofio eich [f] gwaith, ‡ a'r llafurus gariad, [g] yr hwn a ddangosasoch tu ag at ei enw ef, y rhai a weiniasoch i'r saint, || ac ydych yn gweini.

d Deut. 32. 4. Rhuf. 3. 4, 5. 2 Thes. 1. 6, 7. 2 Tim. 4. 8. 1 Ioan 1. 9. e Neh. 5. 19. a 13. 22, 31. Salm 20. 3. Jer. 2. 2, 3. a 18. 20. Act. 10. 4, 31. f 1 Cor. 13. 4—7. Gal. 5. 6, 13. 1 Thes. 1. 3. 1 Ioan 3. 17, 18. g pen. 13. 16. Diar. 14. 31. Mat. 10. 42. a 25. 35—40. Marc 9. 41. Act. 2. 44, 45. a 4. 34, 35. a 9. 36—39. a 11. 29. Rhuf. 12. 13. a 15. 25—27. 1 Cor. 16. 1—3. 2 Cor. 8. 1—9. a 9. 1, 11—15. Gal. 6. 10. Phil. 4. 16—18. Col. 3. 17. 1 Tim. 6. 18. 2 Tim. 1. 17, 18. Philemon 5—7. Iago 2. 15—17. 1 Ioan 3. 14—17.

* Mae *anghyfiawn (adikos)* weithiau yn arwyddo *anffyddlawn*, ac a ddefnyddir mewn cyferbyniad i *ffyddlawn (pistos)* Luc 16. 10, ac mae *anghyfiawnder* yn sefyll mewn cyferbyniad i *wirionedd*, Rhuf. 2. 8; ac yn yr ystyr hyn mae i'w ddeall yn benaf yn y fân hon, gyda golwg ar *ffyddlondeb Duw* yn cyflawni addewidion y cyfammod newydd: ac eto, gellir dywedyd ei fod ef yn hyn yn *gyfiawn* hefyd, yn ei waith yn cyflawni ei ammod â'i Fab, trwy gyfranu y bendithion addawedig ar sail ei aberth ef. † Mae y Duw cyfiawn hwn yn cofio pob peth ond pechodau maddeüedig ei bobl; (pen. 8. 12.) efe a gofia weithredoedd drwg ei elynion i'w cospi, ac a gofia weithredoedd da ei bobl i'w gwobrwyo yn ei ras. ‡ Mae yr apostol yn cyfeirio yma yn benaf at yr Iuddewon dychweledig hyny, y rhai a ddangosasant eu cariad tuag at enw Duw, yn ddatguddiedig yn Nghrist, trwy eu gweithredoedd; ïe, eu llafurus wasanaeth, yn gweini i'r saint er mwyn ei enw ef. Cafwyd cynllun rhyfeddol o hyn ar ol dydd y pentecost; || ac yr oedd llawer o honynt o hyd yn parâu yn yr un ymddygiad ffyddlawn a hunan-ymwadol. Yr oedd y pethau uchod yn brofion eglur o "ffydd yn gweithio trwy gariad," ac nid anghofiai Duw cyfiawn a ffyddlon mo honynt.

11 * Ac [h] yr ydym yn chwennych fod i bob un o honoch ddangos yr un diwydrwydd, [i] † er mwyn llawn-sicrwydd [k] gobaith [l] hyd y diwedd:

h Rhuf. 12. 8, 11. 1 Cor. 15. 58. Gal. 6. 9. Phil. 1. 9—11. a 3. 15. 1 Thes. 4. 10. 2 Thes. 3. 13. 2 Pedr 1. 5—8. a 3. 14. i pen. 10. 22. Es. 32. 17. Col. 2. 2. 1 Thes. 1. 5. 2 Pedr 1. 10. 1 Ioan 3. 14, 19. k adn. 18—20. Rhuf. 5. 2—5. a 8. 24, 25. a 12. 12. a 15. 13. 1 Cor. 13. 13. Gal. 5. 5. Col. 1. 5, 23. 2 Thes. 2. 16, 17. 1 Pedr 1. 3—5, 21. 1 Ioan 3. 1—3. l pen. 3. 6, 14. a 10. 32—35. Mat. 24. 13. Dat. 2. 26.

* Chwennychai yr apostol a'i frodyr yn fawr iawn, i bawb o'r Hebreaid yr oedd yn ysgrifenu atynt, i ddangos yr un diwydrwydd o hyny allan, yn y gweithredoedd da a'r "llafurus gariad," ag oedd rhai o honynt wedi ei ddangos cyn hyny, ac hyd hyny: † fel y byddai iddynt drwy hyny ddangos gwirionedd eu ffydd, tu hwnt i bob achos o ddadl ac ammheüaeth; ac fel y byddai ganddyn

"lawn sicrwydd gobaith" am eu hiachawdwriaeth dragywyddol yn y diwedd, i'w cysuro a'u cynnal hwynt yn eu holl drallodau hyd ddiwedd eu hoes. Dylid gwahaniaethu rhwng *sicrwydd gobaith* yma, â *sicrwydd deall* yn Col. 2. 2, ac â *llawn hyder ffydd* yn Heb. 10. 22: y dyn sydd yn deall yr efengyl yn dda, mae ganddo *sicrwydd deall:* y dyn sydd yn credu gwirionedd yr efengyl yn gadarn, fel datguddiad a thystiolaeth Duw, mae ganddo *lawn hyder ffydd;* ond yr hwn sydd yn sicr tu hwnt i bob ammheüaeth a phetrusder, ei fod ef ei hun yn wir gredadyn, a rhan iddo yn yr holl addewidion gwerthfawr, wedi ei "selio trwy Lân Ysbryd yr addewid," ac yn "gyfranog o'r gogoniant a ddatguddir;" mae ganddo ef *lawn sicrwydd gobaith.*—Mae *llawn hyder ffydd* yn ddyledswydd ar bawb; oblegid yr hwn sydd yn ammau gwirionedd tystiolaeth, neu ffyddlondeb addewidion Duw, mae yn ei wneuthur ef yn gelwyddog: ond am *lawn sicrwydd gobaith,* rhaid ei chyrhaeddyd a'i chadw trwy ddiwydrwydd; ac er y gellir olrhain y diffyg o hóni yn gyffredin i ryw achos pechadurus, eto nid yw yn ddyledswydd *union-gyrchol,* ac *agosaf* pob dyn ei meddiannu, yn wir i bur ychydig y mae felly. Gall dyn ammau pa un ai gwir ysgrif ariandŷ *(bank-bill)* yw y papyr sy ganddo yn ei feddiant, ai ynte ffûg ydyw; ac eto, bod heb ammau dim am allu nac ewyllys blaenoriaid yr ariandŷ i dalu pob *gwir* ysgrif.—"Llawn sicrwydd gobaith," yn ystyr uwchaf y gair, ni chyrhaeddir ond gan ychydig mewn cymhariaeth; ac ni chedwir ond anfynych, os byth, heb ryw fesur o leïâd neu gyfnewidiad, trwy weddill yr oes: ond y mae sicrwydd o gymmeradwyaeth a bywyd tragywyddol yn rhagor-fraint gyrhaeddadwy i bob gwir gristion dyfal a chyson; ac ynddo ef nid yw yn colli yn ami, ond trwy gam-gymmeriad, trwy demtasiynau cryfion, neu trwy gael ei dynu i bechod. Tybiai y detholydd y sylwadau uchod yn dda iawn; talfyriad o *Scott* ydynt.

12 [m] * Fel na byddoch fusgrell, [n] † eithr yn ddilynwyr i'r rhai trwy [o] ffydd ac amynedd ‡ sydd yn [p] etifeddu yr addewidion.

m pen. 5. 11. Diar. 12. 24. a 13. 4. a 18. 9. a 24. 30—34. Mat. 25. 26. Rhuf. 12. 11. n pen. 12. 1. a 13. 7. Can. 1. 8. Jer. 6. 16. Rhuf. 4. 12. Iago 5. 10, 11. 1 Pedr 3. 5, 6. o adn. 15. pen. 10. 36. a 11. 8—16. Luc 8. 15. Rhuf. 2. 7. a 8. 25, 26. 1 Thes. 1. 3. Dat. 13. 10. a 14. 12. p pen. 1. 14. a 10. 36. a 11. 9, 17, 33. Mat. 22. 32. Luc 16. 22. a 20. 37, 38. 1 Ioan 2. 25. Dat. 14. 13.

* Trwy ddangos y diwydrwydd uchod byddai yr Hebreaid oll yn rhagori llawer ar y proffeswyr "musgrell" ac anffrwythlawn; rhai dïog, dïofal, ac esgeulus, yn yr ymarferiad o foddion gras, ac yn y cyflawniad o'u dyledswyddau cristionogol. † I'r gwrthwyneb, hwy a fyddent yn ddilynwyr eu henafiaid duwiol yn yr oesoedd gynt, a christionogion eraill yr oes hòno, y rhai trwy "ffydd" yn addewidion Duw, a thrwy "amynedd" yn eu holl lafur a'u trallodau, oeddynt yn dysgwyl amser eu rhyddâd; ‡ ac a gawsent o'r diwedd fyned i'w gorphwysfa; ac oeddynt yn awr yn mwynâu y perffaith ddedwyddwch hwnw, a ddangosasid iddynt yn addewidion Duw.—Yn ol y dehongliad uchod o'r geiriau, (ac afresymol iawn yw pob dehongliad arall, medd ein Hawdwyr,) mae yma brawf cadarn ac amlwg, o ddedwyddwch *union-gyrchol* y credinwyr wedi marw; dengys yr apostol fod pawb o'r saint ag oedd wedi marw y pryd hwnw, yn etifeddu yr addewidion; sef yn eu hetifeddu mewn perffaith ddedwyddwch yn y nef.

13 * Canys Duw, wrth wneuthur addewid i Abraham, † oblegid na allai dyngu i neb *oedd* fwy, [q] a dyngodd iddo ei hun,

q adn. 16—18. Gen. 22. 15—18. Ex. 32. 13. Salm 105. 9, 10. Es. 45. 23. Jer. 22. 5. a 49. 13. Mica 7. 20. Luc 1. 73.

* Nid oedd dim achos ammau y cyflawnai Duw ei addewidion, i'r rhai a ymddiriedent ynddo, ac a ddysgwylient am dano: oblegid yr oedd y cyfammod a wnaeth efe âg Abraham, mewn rhai ystyriaethau yn gysgod, ac mewn ystyriaethau eraill o ran sylwedd yr un peth, â'r cyfammod y mae holl addewidion y credinwyr ynddo; pan wnaeth efe addewid i dad y ffyddloniaid, yn mhen ychydig efe a'i cadarnâodd hi trwy lŵ; er dangos ei fwriad digyfnewid i'w chyflawni: † a chan nas gallai dyngu i neb oedd fwy, efe a dyngodd iddo ei hun; ac felly a wystlodd anrhydedd ei enw mawr a'i holl berffeithiau, fel sicrwydd am y cyflawniad o hóni: cyn gynted y peidiai *Efe* a *bod,* ag y pallai yr addewid a wnaeth efe.

14 * Gan ddywedyd, † Yn ddïau gan fendithio y'th fendithiaf, [r] ‡ a chan amlhâu y'th amlhâf.

r Gen. 17. 2. a 48. 4. Ex. 32. 13. Deut. 1. 10. Neh. 9. 23.

* A dyma yr addewid a wnaeth Duw i Abraham, fel hyn y dywedodd, ac ar hyn y tyngodd efe iddo ei hun: † Yn ddïau ac yn sicr, gan fendithio y'th fendithiaf di yn helaeth; â chyflawnder ac amrywiaeth o bethau daionus y bywyd hwn, ac â bendithion ysbrydol yn aneirif: ‡ a chan amlâu y'th amlâf; bydd dy had fel sêr y nefoedd o rifedi, ac fel y tywod sydd ar fin y môr; ac un o'th hâd di fydd y Messïah ei hun, yn yr hwn y bendithir, nid yn unig dy hiliogaeth naturiol di yn mhlith yr Iuddewon, ond cenedloedd hefyd yn mhob rhan o'r byd, sef dy holl blant ysbrydol di o Iuddewon a chenedloedd, a rodiant lwybrau dy ffydd di; hwy oll a fendithir â phob bendith ysbrydol a nefol. Fel hyn yr addawodd Duw fendithio Abraham, am hyn y tyngodd; fel hyn y cyflawnodd, ac mae o hyd yn cyflawni.

15 [s] * Ac felly, wedi iddo hir-ymaros, † efe a gafodd yr addewid.

s Gwel ar adn. 12.—Gen. 12. 2, 3. a 15. 2—6. a 17. 16, 17. a 21. 2—7. Ex. 1. 7. Hab. 2. 2, 3. Rhuf. 4. 17—25.

* Yna, dysgwyliodd Abraham amser Duw yn amyneddgar a hir-ymarhôus trwy ffydd; † ac o'r diwedd efe a gafodd yr addewid: rhoddodd Duw y bendithion addawedig iddo ef a'i had. Pan oedd efe yn hen ac yn llawn o ddyddiau, efe a fu farw; ac a fendithiwyd yn bersonol yn Nuw, ei Wobr mawr iawn: amlâodd ei hiliogaeth hefyd; daeth y Messïah o'r diwedd, ac yr oedd holl genedloedd y ddaear, pan ysgrifenwyd yr epistol hwn, yn nghylch cael eu bendithio ynddo ef.

16 * Canys dynion yn wir sydd yn [t] tyngu i un a fo mwy: [u] † a llw er sicrwydd, *sydd* derfyn iddynt ar bob ymryson.

t adn. 13. Gen. 14. 22. a 21. 23. Mat. 23. 20—22. u Gen. 21. 30, 31. a 31. 53. Ex. 22. 11. Jos. 9. 15—20. 2 Sam. 21. 2. Ezec. 17. 16—20.

* Canys y mae dynion ar achlysuron o bwys, yn arfer cadarnâu eu tystiolaethau a'u haddewidion trwy lŵ; ac, fel mae yn addas yn ol natur pethau, ac yn orchymynedig yn y gair dwyfol, (Deut. 6. 13.) mae dynion yn tyngu i'r goruchaf Dduw, yr hwn sydd yn anfeidrol "fwy" nâ hwy eu hunain, i roddi y cadernid a'r rhwymiad mwyaf difrifol ar y llŵ. † A phan gymmero dynion lŵ difrifol felly i gadarnâu y peth a ddywedont, mae y dystiolaeth yn cael ei hystyried yn safadwy; a'r llŵ er sicrwydd yn boddloni pob ammheüon, yn penderfynu pob dadl, ac yn rhoddi terfyn ar bob ymryson a gwrthddywediad ar y mater, pa beth bynag a fyddo. Mae hyn yn dangos fod llŵ yn gyfreithlawn dàn yr efengyl, pan wneler ef ar achos cyfreithlawn, ac mewn modd cyfreithlawn, yn ofn Duw, ac megys yn ei ŵydd ef: dylai llŵ felly roddi terfyn ar bob ymryson; nid llawer o ddynion, gobeithio, sydd mòr annuwiol â beiddio dïaledd Duw, trwy dyngu anudon yn ei enw.

17 * Yn yr hyn Duw, yn ewyllysio [x] yn helaethach ddangos i [y] etifeddion yr addewid [z] ddïanwadalwch ei gynghor, † a gyfryngodd trwy lw:

x Salm 36. 8. Can 5. 1. Es. 55. 7. Iago 10. 10. 1 Pedr 1. 3. y adn. 12. pen. 11. 7, 9. Rhuf. 8. 17. Gal. 3. 29. Iago 2. 5. 1 Pedr 3. 7. z adn. 18. Job 23. 13, 14. Salm 33. 11. Diar. 19. 21. Es. 14. 24, 26, 27. a 46. 10. a 54. 9, 10. a 55. 11. Jer. 33. 20, 21, 25, 26. Mal. 3. 6. Rhuf. 11. 29. Iago 1. 17.

* Gwedi dangos natur a chadernid llŵ yn yr adnod o'r blaen, mae yr apostol yma yn dangos i Dduw y nef-

oedd hefyd, mewn ymostyngiad i wendid dynion, a'u tuedd i anghrediniaeth; ac yn ewyllysio rhoddi i'w bobl y sicrwydd helaethaf o ddiannwadalwch ei gyngor, † gyfryngu trwy lŵ; neu gadarnâu yr addewid a'r cyfammod am eu hiachawdwriaeth hwy, trwy y llŵ mwyaf difrifol: gan na allai dyngu i neb oedd fwy, efe a dyngodd iddo ei hun. "A *gyfryngodd* trwy lŵ:" "a'i cadarnâodd trwy lŵ," yn ol y Saesoneg. Buasai cyngor a chyfammod Duw yn sicr a diannwadal byth heb lŵ; ond er *dangos* y sicrwydd a'r diannwadalwch hyny "i ctifeddion yr addewid," efe a gyfryngodd trwy lŵ, neu a gadarnâodd ei gyngor a'i gyfammod trwy lŵ.

18 * Fel trwy [a] ddau beth dianwadal, † yn y rhai *yr oedd* yn [b] ammhosibl i Dduw fod yn gelwyddog, [c] ‡ y gallem ni gael cysur cryf, [d] || y rhai a ffoisom i [e] gymmeryd gafael yn y [f] gobaith a [g] osodwyd o'n blaen:

a pen. 3. 11. a 7. 21. Salm 110. 4. Mat. 24. 35. b Num. 23. 19. 1 Sam 15. 29. Rhuf. 3. 4. 2 Tim. 2. 13. Tit. 1. 2. 1 Ioan 1. 10. a 5. 10. c Es. 51. 12. a 66. 10—13. Luc 2. 25. Rhuf. 15. 5. 2 Cor. 1. 5—7. Phil. 2. 1. 2 Thes. 2. 16, 17. d pen. 11. 7. Gen. 19. 22. Num. 35. 11—15. Jos. 20. 3. Salm 46. 1. a 62. 8. Es. 32. 1, 2. Zec. 9. 12. Mat. 3. 7. 2 Cor. 5. 18—21. 1 Thes. 1. 10. e 1 Bren. 2. 28. Diar. 3. 18. a 4. 13. Es. 27. 5. a 56. 4. a 64. 7. 1 Tim. 6. 12. f Col. 1. 5, 23, 27. 1 Tim. 1. 1. g pen. 12. 1, 2. Rhuf. 3. 25.

* Y ddau beth dianwadal hyn oedd *addewid* a *llw* Duw; neu yn ol meddyliau eraill, ei *gyngor* a'i *lw* ef. † Yn y ddau beth hyn, fel yn mhob peth arall, yr oedd yn "anmhosibl i' Dduw fod yn gelwyddog;" trwy gael ei dwyllo ei hun, trwy gael ei dueddu i dwyllo eraill, na thrwy weled unrhyw achos i gyfnewid ei feddwl a'i fwriad am na thuag at ei bobl: gydag ef nid oes gyfnewidiad na chysgod tröedigaeth; ac am na newidir ef, ni ddyfethir meibion Jacob. ‡ Am fod y pethau uchod yn ddiannwadal, a Duw yn ddigelwyddog; mae sylfaen gadarn am gysur crŷf, helaeth a thragywyddol; yn wyneb eu hofnau, eu trallodau, eu hannheilyngdod, a'u holl elynion; || i'r rhai a ffoisant am noddfa rhag y llid a fydd, i gymmeryd gafael yn y gobaith am faddeuant a bywyd, a osodwyd o'u blaen yn addewidion a thystiolaethau yr efengyl werthfawr. O ba genedl bynag, neu oes, yr oedd y dynion hyn, hwy oedd etifeddion yr addewid, had ysbrydol Abraham; ac iddynt hwy yr oedd rhan yn y cyfammod a sicrâwyd iddo ef ac i'w had: am hyny yr oedd y llŵ i Abraham, yn cadarnâu bendithion ysbrydol y cyfammod hwnw yn ddigyfnewid, i bob un o honynt hwy. I'r dyben o wybod yn sicr ein bod ni o'r nifer hyn, (yn gystal â'r apostol a'r credinwyr gynt,) mae yn angenrheidiol i ni holi, a ydym wedi gweled ein perygl yn wyneb deddf a digofaint Duw, wedi ymwrthod â phob ymddiried ynom ein hunain; a chwedi tòri trwy boo rhwystrau, i ffoi am noddfa (fel y llofrudd gynt,) at oludog drugaredd Duw yn Nghrist Iesu, yn ol trefn y cyfammod gras; gan gymmeryd gafael yn y Gwrthddrych hwn o obaith pechadur, yr hwn a osododd Duw ei hun o'n blaen i'r dyben hyny. Pwy bynag sydd wedi ffoi fel hyn, i gymmeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'u blaen, mae iddynt gysur cryf yn nghyfammod a llŵ Duw; a hwy a "allant ei gael" trwy gredu ynddo ef a'i addewid ddiannwadal.

19 * Yr hwn sydd gennym ni [h] megis angor yr enaid, [i] † yn ddiogel ac yn sicr, [k] ‡ ac yn myned i mewn hyd at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen,

h Act. 27. 29, 40. i Salm 42. 5, 11. a 43. 5. a 62. 5, 6. a 146. 5, 6. Es. 12. 2. a 25. 3, 4. a 28. 16. Jer. 17. 7, 8. Rhuf. 4. 16. a 5. 5—10. a 8. 28—39. 1 Cor. 15. 58. 2 Tim. 2. 19. k pen. 4. 16. a 9. 3, 7. a 10. 20, 21. Lef. 16. 2, 15. Mat. 27. 51. Eph. 2. 6. Col. 3. 1.

* Trwy y gobaith uchod, megys llong wrth angor mewn ystormydd cryfion, hwy a gedwid yn eu lle, heb gael eu gyru oddi wrth eu proffes na'u dyledswyddau gan drallodion na themtasiynau o un math; tra byddai eraill yn cael eu gyru i wrthgiliad gan ofn neu hudoliaethau bydol, neu yn cael eu tynu ar ŵyr gan amryw demtasiynau; fel y bydd llongau heb angor yn cael eu gyru o'u lle gan ystormydd, un ai i'r môr, yn erbyn creigiau, ar y tywod, neu i ymddryllio wrth guro yn erbyn eu gilydd. † Er hyny, nid oes yr un angor a geidw long bob amser heb gael ei gyru neu ei dryllio; ond mae y gobaith uchod yn addewid Duw, eli lŵ, a'i gyfammod, yn "ddiogel ac yn sicr" ynddo ei hun, ac yn diogelu ei feddiannydd mòr sicr, yn ei ymlynïad wrth wirionedd ac achos Duw, fel y mae bob amser yn ei ddiogelu rhag dinystr tragywyddol; ac, yn gyfatebol i rymus weithrediad y gobaith, mae yn ei ddiogelu hefyd rhag ffaeleddau amserol, a rhag ystormydd cryfion profedigaethau. ‡ Oblegid mae "yn myned i mewn hyd at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen;" ac yn sefydlu y galon mewn undeb diysgog â'r pethau hyny sydd yn y gwir Sanctaddiolaf, yn y nef ei hun, ac mewn dysgwyliad gorfoleddus am danynt, ac felly mae yn peri i'r credadyn ymgynnal ar allu, gwirionedd, a chariad Duw tuag at bechaduriaid yn Iesu Grist, i'w ddwyn ef i fwynâd o'r dedwyddwch hyny. Tybir mai nid y *gras* o obaith *yn* y credinwyr, a feddylir wrth "obaith" yn yr adnod hon a'r un flaenorol; eithr *gwrthddrych* gobaith, neu yr hyn y *gobeithir ynddo:* "gobaith a osodwyd *o'n blaen*" ydyw, i ffoi ato, ac i gymmeryd gafael ynddo: (adn. 18.) ac nid yw yr angor yn diogelu y llong tra mae *yn* y llong, eithr wedi ei thaflu allan, ac yn ngafael â daear ddiogel. Gwedi y cwbl, ni wnair dim â *gwrthddrych* gobaith o'n blaen, heb y *gras* o obaith i weithredu arno o'n mewn.

20 * I'r man yr aeth [l] † y rhag-flaenor [m] drosom ni, *sef* Iesu, ‡ yr hwn a wnaethpwyd yn [n] Arch-offeiriad yn dragywyddol yn ol urdd Melchisedec.

l pen. 2. 10. Ioan 14. 2, 3. m pen. 1. 3. a 4. 14. a 8. 1. a 9. 12, 24. a 12. 2. Rhuf. 8. 34. Eph. 1. 3, 20—23. 1 Pedr 3. 22. 1 Ioan 2. 12. n Gwel ar pen. 5. 6, 10. a 7. 1—21.

* "I'r màn," sef y "tu fewn i'r llèn," (adn. 19.) "i'r nef ei hun," (pen. 9. 24.) yr aeth Gwrthddrych gobaith y saint, Iesu eu Gwaredwr mawr, yr hwn sydd yn gweini yn wastadol ger bron y Tad, ar ran, ac er lles yr holl greidiwyr. † Efe yw y Rhag-flaenor mawr, a Chynddrychiolwr ei bobl; nid fel Ioan fedyddiwr yn *llai* nâ'r hwn oedd yn ei ganlyn, ond yn anfeidrol fwy na'i holl ganlynwyr, yn ei Berson a mawredd ei swydd; ac mae yn annhraethol anrhydedd i'w holl ganlynwyr ef, fod ganddynt y fath Rag-flaenor gogoneddus âg IESU, i ymddangos drostynt, ac ar eu rhan, ger bron Duw. ‡ Heblaw Rhag-flaenor, mae efe yn Arch-offeiriad hefyd; ac fel Arch-offeiriad, efe a wnaeth iawn dros bechodau ei bobl ar y ddaear trwy aberthu ei hun; ac wedi ei gyfodi o feirw, efe a aeth o'u blaen hwy i'r nef, i barotôi lle iddynt, i symmud pob rhwystrau oddi ar eu ffordd a'u derbyniad, i gymmeryd meddiant o'r etifeddiaeth yn eu lle ac ar eu rhan hwynt, ac i lywodraethu ac eiriol drostynt; gan ddarfod ei wneuthur ef yn Arch-offeiriad yn dragywyddol yn ol urdd Melchisedec, am ba urdd mae yr apostol yn myned i lefaru yn fwy cyflawn yn y bennod nesaf. Gwel hefyd ar pen. 5. 6, 10. Gallwn weled yn yr adnod hon, mai ar sail yr hyn a wnaeth Crist drosom ni fel Arch-offeiriad ar y ddaear, y mae efe yn Rhag-flaenor drosom ni yn y nef.

PEN. VII.

Crist yn Offeiriad yn ol urdd Melchisedec.

* CANYS [a] y Melchisedec hwn, brenhin [b] Salem, † offeiriad y [c] Duw Goruchaf, ‡ yr hwn a gyfarfu âg Abraham wrth ddychwelyd o [d] ladd y brenhinoedd, || ac a'i bendithiodd ef;

a pen. 6. 20. Gen. 14. 18—20. b Salm 76. 2. c Salm 57. 2. a 78. 35, 56. Dan. 4. 2. a 5. 18, 21. Mica 6. 6. Marc 5. 7. Act. 16. 17. d Gen. 16. 14—16. Es. 41. 2, 3.

Cyfeiriodd yr apostol amryw weithiau at y brophwyd-

oliaeth, y byddai y Messïah yn offeiriad yn dragywyddol yn ol urdd Melchisedec, (Salm 110. 4.) sef y byddai ei offeiriadaeth ef yn gyffelyb i'r eiddo Melchisedec, ac nid i'r eiddo Aaron. Gan hyny mae efe yma yn myned rhagddo i egluro y brophwydoliaeth hòno, ac i ymresymu yn fwy pennodol oddi wrthi, fel mae yn ei chymharu â'r hanes ysgrythyrol am y person rhyfeddol hwnw. * Yr oedd y Melchisedec hwn yn un peth yn frenin enwog yn Salem, yr hon mae yn debyg a alwyd Jerusalem wedi hyny, † ac hefyd yn offeiriad Duw Goruchaf, trwy osodiad nad oes genym ni ddim hanes am dano: ac yn y ddwy swydd hyn yr oedd efe yn gysgod nodedig o'r Arglwydd Iesu, brenin ac offeiriad ei bobl yn y Salem ysbrydol. ‡ Cyfarfu y Melchisedec hwn âg Abraham pan oedd yn dychwelyd o ladd y breninoedd, am yr hyn mae genym hanes yn Gen. 14. 18—20; || ac yn ol ei swydd fel offeiriad Duw Goruchaf, efe a'i bendithiodd ef; (gwel eiriau y fendith yn y lle a nodwyd,) hyny yw, efe a gyhoeddodd fendith arno yn enw Duw Goruchaf, yr hwn yr oedd efe yn gweini fel offeiriad iddo.—Fel hyn yr oedd Melchisedec yn offeiriad cyn Aaron, ac yn uwch nac Aaron; nid i un genedl yn unig fel Aaron, ond i wahanol genedloedd; a chyn neilldu o Israel yn bobl briodol i Dduw: ac yn hyn yr oedd efe yn gysgod mwy arbenig o Grist, yr hwn sydd yn Arch-offeiriad y cenedloedd yn gystal a'r Iuddewon. (1 Ioan 2. 1, 2.)

2 * I'r hwn hefyd y cyfrannodd Abraham [e] ddegwm o bob peth: † yr hwn yn gyntaf, o'i gyfieithu, *yw*, [f] Brenhin cyfiawnder, ‡ ac wedi hynny hefyd, Brenhin Salem, yr hyn yw, Brenhin heddwch;

e Gen. 28. 22. Lef. 27. 32. Num. 18. 21. 1 Sam. 8. 15, 17. f 2 Sam. 8. 15. a 23. 3. 1 Bren. 4. 24, 25. 1 Cron. 22. 9. Salm 45. 4—7. a 72. 1—3, 7. a 85. 10, 11. Es. 9. 6, 7. a 32. 1, 2. a 45. 22—25. Jer. 23. 5, 6. a 33. 15, 16. Mica 5. 5. Luc 2. 14. Rhuf. 3. 26. a 5. 1, 2. Eph. 2. 14—18.

* Cyfranodd Abraham ddegwm o bob peth, sef o bob peth a gymmerasai efe yn anrhaith yn y rhyfel, i'r Melchisedec hwn; fel cydnabyddiaeth o anrhydedd iddo ef fel offeiriad Duw Goruchaf, ac fel diolchgarwch am y bendithion â pha rai y bendithiasai efe ef yn enw Duw Goruchaf. † Yr oedd enw yr offeiriad hwn, o'i gyfieithu, yn arwyddo "Brenin cyfiawnder;" yr hyn yn ddiammau ydoedd ef o ran ei gymmeriad a gweinyddiad ei swyddau, ac felly yn gysgod nodedig o'r Messïah ei hun. ‡ Enw ei ddinas oedd yn arwyddo *Heddwch;* ac fel Brenin heddwch, yr oedd efe yn cysgodi Crist, Tywysog tangnefedd, Cymmodwr mawr Duw â dynion, a dynion â'u gilydd, mewn perffaith gysondeb â chyfiawnder Duw, ac anrhydedd ei gyfraith ef. Gwahanwyd y freniniaeth a'r offeiriadaeth wedi hyn i deulu Dafydd a theulu Aaron; ond yma yr oeddynt yn yr un person, i'w wneuthur yn gysgod mwy arbenig o Grist. Gwel Zech. 6. 12, 13.

3 * Heb dad, heb fam, heb achau, † Heb fod iddo na dechreu dyddiau, na diwedd einioes; ‡ eithr wedi ei wneuthur yn gyffelyb i Fab Duw, sydd yn aros yn [g] Offeiriad yn dragywydd.

g adn. 17. 23—28.

* Nid oes dim hanes wedi ei roddi am rieni nac achau Melchisedec, fel yn achos yr offeiriaid dàn y ddeddf; y rhai oedd raid iddynt oll brofi eu disgyniad o Aaron; ac i'r dyben hyn, yn nghyd â phethau eraill, yr oedd rhëolau manol wedi eu rhoddi yn nghylch eu priodasau hwynt. Ond nid oes gymmaint a gwybodaeth, o ba un o feibion Noah y disgynodd Melchisedec; oblegid dygir ef i mewn yn yr hanes sanctaidd, fel "offeiriad Duw Goruchaf," heb dad, heb fam, ac heb achau; fel y byddai iddo yn fwy cymhwys gysgodi yr Arch-offeiriad mawr, yr hwn fel Mab y dyn, nid oedd iddo dad dynol; fel Mab Duw, nid oedd iddo fam: ac yr hwn a wnaethpwyd yn Offeiriad heb olrhain ei achau o Aaron, na'r un blaeniedydd arall. Arferai amryw genedloedd gynt ddywedyd am ddynion, eu bod *heb dad, heb fam, heb achau,* os na *wyddid* pwy oedd eu rhieni a'u hachau hwynt; a thybia rhai mai felly mae yr apostol yn llefaru yma am Melchisedec: tybia eraill mai gyda golwg ar yr offeiriadaeth mae yn dywedyd; nad oedd neb o'i achau ef, o du tad na mam, yn yr offeiriadaeth o'i flaen ef. † Nid oedd dim hanes ychwaith am Melchisedec o ran "dechreu ei ddyddiau, na diwedd ei einioes," a'i offeiriadaeth; nis gwyddid dim pa bryd y ganed ef, na pha bryd y bu farw; pa bryd y dechreuodd offeiriadu, na pha bryd y dybenodd ei offeiriadaeth: ‡ yn hyn hefyd yr oedd wedi ei wneuthur yn gyffelyb i Fab Duw; yr hwn mae ei hanfodiad o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb, ac yr hwn ni bu iddo flaeniedydd, ac ni bydd iddo ganlynydd, yn ei offeiriadaeth effeithiol, ddybrynawl, a thragywyddol: mae efe yn aros yn Offeiriad yn dragywydd. Yr oedd yr offeiriaid Iuddewig i ddechreu a diweddu eu hoffeiriadaeth ar ryw amser pennodol o'u hoed; ond nid felly Melchisedec, nid oes hanes am ddechreu dyddiau na diwedd einioes offeiriadol, mwy na naturiol, iddo ef; fel y byddai yn hyn yn gyffelyb i Fab Duw, yr offeiriad tragywyddol. Cysgodai Aaron offeiriadaeth Crist mewn amryw bethau; ond nid oedd ef na'i olynwyr yn ei chysgodi yn yr hyn a grybwyllir yma: Melchisedec yn *unig* oedd yn cysgodi *tragywyddoldeb* ei offeiriadaeth freninol ef.

4 * Edrychwch faint *oedd* hwn, † i'r hwn hefyd y rhoddodd [h] Abraham y [i] patriarch [k] ddegwm o'r anrhaith.

h Act. 2. 29. a 7. 8, 9. i Gen. 12. 2. a 17. 5. 6. Rhuf. 4. 11—13, 17, 18. Gal. 3. 28, 29. Iago 2. 23. k Gen. 14. 20.

* I'r dyben o roddi i'r Hebreaid feddyliau mwy dyrchafedig am berson ac offeiriadaeth Crist, ac i'w tynu hwynt oddi wrth ymlyniad gormodol wrth offeiriadaeth Lefi; mae yr apostol yn eu hannog hwynt i ystyried, pa mòr fawr, yn ol tystiolaeth Moses eu deddfwr hwynt, oedd y Melchisedec hwn; nid o ran ei awdurdod breninol yn gymmaint a'i offeiriadaeth: † i'r hwn y darfu i Abraham, tad anrhydeddus eu holl genedl hwynt, yr hwn nid oedd un o ddeiliaid Melchisedec, nac mewn un modd yn perthyn iddo ef; addef ei oruchafiaeth ef, a thalu degwm iddo, fel cynddrychiolwr ac offeiriad y Duw Goruchaf: ac eto, nid oedd Melchisedec a'i offeiriadaeth, ond cysgod o Grist a'i offeiriadaeth ef.—Ergyd trwm ar yr Iuddewon oedd hyn, nid yn unig fel yr oedd y geiriau yn profi rhagoriaeth Crist ar offeiriadaeth Aaron; ond fel y maent hefyd yn dangos fod gan Dduw bobl gynt yn mhlith y cenedloedd, a bod dyn yn eu plith hwynt yn uwch nac Abraham ei hun; a Iesu Grist drachefn yn uwch na hwnw: os oedd Melchisedec, y cysgod yn uwch nac Abraham, ac Aaron, pa faint mwy y rhaid bod y gwrth-gysgod, a'r sylwedd mawr ei hun?

5 * A'r rhai yn wir *sydd* o feibion Lefi yn [l] derbyn swydd yr offeiriadaeth, † y mae ganddynt orchymyn i [m] gymmeryd degwm gan y bobl yn ol y gyfraith; ‡ sef gan eu brodyr, || er eu bod [n] wedi dyfod o lwynau Abraham:

l pen. 5. 4. Ex. 28. 1. Num. 16. 10, 11. a 17. 3—10. a 18. 7. m Lef. 27. 30—33. Num. 18. 26—32. 2 Cron. 31. 4—6. Neh. 13. 10. n adn. 10. Gen. 35. 11. a 46. 26. Ex. 1. 5. 1 Bren. 8. 19.

* Ac yn wir, i egluro pa fodd yr oedd anrhydedd yr offeiriadaeth yn ymddangos yn yr amgylchiad o *ddegymu;* yr oedd hiliogaeth Aaron yn mhlith meibion Lefi, y rhai oedd yn derbyn swydd yr offeiriadaeth dàn y ddeddf, † a chanddynt orchymyn ac awdurdod, i ofyn ac i gymmeryd degwm (yr hyn oedd eiddo neilldüedig Duw, Lefit. 27. 30, 31.) gan holl bobl Israel, yn ol y sefydliad oedd wedi ei wneyd yn nghylch y dyledion hyn yn nghyfraith Moses, o ran y defnydd a'r modd o honynt: (Num. 18. 21, 26.) ‡ A hyn oeddynt i'w gymmeryd gan yr holl lwythau eraill, sef gan eu brod-

yr yn ol y cnawd; || er bod y rhai hyny oll wedi dyfod o lwynau Abraham yn gystal â hwythau, ac fel y cyfryw, a'r un hawl ganddynt â hwythau, i bob rhagor-fraint a berthynai iddynt fel had Abraham. Ac fel hyn yr oedd cyfraith y degwm yn dangos, fod mwy o anrhydedd yn perthyn i'r rhai oedd yn ei dderbyn, nâ'r rhai oedd yn ei dalu. Er mai cydradd o ran gwaedoliaeth oedd yr offeiriaid â'u "brodyr;" eto yr oeddynt yn uwch o ran swydd, fel offeiriaid Duw.

6 * Eithr yr hwn, nid oedd ei achau o honynt hwy, [o] † a gymmerodd ddegwm gan Abraham, ‡ ac a fendithiodd || yr hwn yr oedd yr [p] addewidion iddo.

o adn. 4. p pen. 6. 13—15. a 11. 13, 17. Gen. 12. 2, 13. a 13. 14—17. a 17. 4—8. a 22. 17, 18. Act. 3. 25. Rhuf. 4. 13. Gal. 3. 16.

* Eithr Melchisedec, yr hwn nid oedd hanes na gwybodaeth am ei achau, nis gellid ei gyfrif ef yn esillydd o'r offeiriaid o lwyth Lefi, gan ei fod yn byw yn mhell cyn hanfodiad y llwyth hwnw. † Yr oedd y dyn rhyfeddol hwn gymmaint yn fwy nâ'r Lefiaid, fel y cafodd ef yr anrhydedd o gymmeryd degwm gan eu tad enwog hwy, sef gan Abraham ei hun, fel y sylwyd yn adn. 2, 4. ‡ A mwy na hyny hefyd; fel offeiriad, efe a gyhoeddodd fendith yn awdurdodol, yn enw *Duw Goruchaf*, ar dad y ffyddloniaid; || â'r hwn y gwnaethai Duw gyfammod yr addewidion, ac a'i cadarnâsai â llŵ, (pen. 6. 13—16.) fel yr oedd yn perthyn iddo ef a'i had, y rhai sydd yn mwynân eu holl ragorfreintiau a'u bendithion dàno ef, eu cynnrychiolwr yn y cyfammod hwnw.

7 [q] * Ac yn ddiddadl, [r] † yr hwn *sydd* leiaf a fendithir gan ei well.

q 1 Tim. 3. 16. r pen. 11. 20, 21. Gen. 28. 20—40. a 28. 1—4. a 47. 7—10. a 48. 15—20. a 49. 28. Num. 6. 23—27. Deut. 32. 1. 2 Sam. 6. 20. 1 Bren. 8. 55. 2 Cron. 30. 27. Luc 24. 50, 51. 2 Cor. 13. 14.

* Ac yn awr mae yn amlwg ac yn sicr tu hwnt i bob dadl, ar egwyddorion cyffredin rheswm ag ysgrythyr hefyd, † bod Melchisedec o ran ei swydd yn berson mwy ardderchog nac Abraham; oblegid *efe* a fendithiodd *Abraham*, ac nid Abraham efe: a'r hwn sydd leiaf a fendithir gan ei well, yn y dull awdurdodawl hwn; megys plant gan eu rhieni, a'r bobl gan yr offeiriaid. Gwyddai yr Hebreaid yn burion am yr offeiriad yn bendithio y bobl; (Gwel Num. 6. 23—27.) a chydnabyddent yn "ddiddadl," bod yr offeiriad fel gweinidog Duw yn bendithio, yn well, neu yn fwy anrhydeddus, na'r bobl a fendithid ganddo. Rhaid bod Crist, y sylwedd, gan hyny, yn Arch-offeiriad gwell byth, na Melchisedec nâ'r arch-offeiriaid Iuddewig; gan ei fod ef drwy ei aberthiad ei hun, yn bendithio ei bobl yn effeithiol, â phob bendith ysbrydol.

8 [s] * Ac yma y mae dynion y rhai sydd yn meirw yn cymmeryd degymmau: † eithr yno, yr hwn y tystiolaethwyd am dano [t] ei fod ef yn fyw.

s adn. 23. pen. 9. 27. t pen. 3. 16, 24, 25. Ioan 11. 25, 26. a 14. 6, 19. Dat. 1. 18.

* "Ac yma," sef dàn y ddeddf seremoniol, yr oedd dynion pechadurus marwol yn cymmeryd degymau gan eu brodyr; ac felly un genedlaeth ar ol y llall yn cyfodi i'w derbyn hwynt: † "eithr yno," yn achos Melchisedec, un y tystiolaethwyd am dano ei fod ef yn fyw, oedd yn cymmeryd: hyny yw, un na ddywedwyd dim am ei enedigaeth nâ'i farwolaeth yn yr ysgrythyr; dim ond ei fod ef yn *fyw;* megys pe na buasai iddo "na dechreu dyddiau, na diwedd einioes," o ran ei berson a'i offeiriadaeth. Fel hyn mae yr hanes yn sefyll am dano megys pe buasai efe yn byw byth; dyben yr hyn yw, ei ddangos ef fel cysgod mwy nodedig o Grist, yr hwn o ran ei Dduwdod sydd a bywyd anfarwol o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb ganddo; ac er iddo o ran ei ddynoliaeth farw unwaith, sydd yn awr yn fyw; ac ni bu farw o'i swydd erioed, ond mae yn byw yn dragywyddol yn ei offeiriadaeth, yn ol urdd Melchisedec. Wrth i Melchisedec gymmeryd degwm gan Abraham, a'i fendithio ef, fel cynnrychiolwr ei holl had; yr oedd yn rhag-ddangos y cyfodai offeiriad, yr hwn yr ymostyngid iddo gan holl Israel Duw, a chan yr hwn y bendithid hwy â phob bendith ysbrydol.

9 * Ac (fel y dywedwyf felly) [u] † yn Abraham y talodd Lefi hefyd ddegwm, ‡ yr hwn oedd yn cymmeryd degymmau.

u adn. 4. Gen. 14. 20. Rhuf. 5. 12.

* Ac, i ddangos yn mhellach ragoriaeth Melchisedec ar yr offeiriaid o lwyth Lefi; gallai yr apostol ddywedyd, a dywedyd y gwirionedd hefyd, † i holl lwyth Lefi yn a thrwy Abraham, eu tad cyffredin, a'u cynnrychiolwr yn y cyfammod a wnaeth Duw âg ef, dalu degwm i Melchisedec; ‡ ie, llwyth Lefi, yr hwn wedi hyny a gafodd orchymyn i gymmeryd degwm. Gwel ar adn. 5. *Fel y dywedwyf felly:* fel y dywedwyf y gair, neu fel y dywedwyf y gwirionedd, medd rhai: harddwch Groegaidd o ymadroddi, medd *Pool*, yw y dull hyn, lle y dywedir rhywbeth tra nodedig, ond anhawdd ei ddeall.

10 * Oblegid yr ydoedd efe etto [x] yn lwynau ei dad, † pan gyfarfu Melchisedec âg ef.

x adn. 5. Gen. 35. 11. a 46. 26. 1 Bren. 8. 19.

* Oblegid yr oedd Lefi a'i holl hiliogaeth yn gynnwysedig yn lwynau eu tad naturiol a chyfammodol Abraham, † pan gyfarfu Melchisedec âg ef, y cymmerodd ddegwm ganddo, ac y bendithiodd ef. Yr oedd Lefi yn lwynau Abraham y pryd hwnw, nid yn unig fel mae yr effaith yn ei achos, a'r plant yn eu rhieni; ond hefyd fel y mae pobl yn eu cynnrychiolwyr; yr hyn ydoedd Abraham i holl Israel yn nghyfammod yr addewidion, yr hwn a wnaethai Duw âg ef, iddo ei hun a'i had, cyn i Melchisedec gyfarfod âg ef. Gen. 12. 1—3.—Wrth hyn rhaid bod Melchisedec yn uwch yn ei swydd na neb o'r Lefiaid: a chan nad oedd ef ei hun ond cysgod o Grist, rhaid bod offeiriadaeth Crist yn uwch na'r eiddo ef â hwythau: a hyny mae yr apostol yn brofi yn y bennod hon.—Yn wir gellir dywedyd bod Crist yn lwynau Abraham o ran ei ddynoliaeth; (pen. 2. 16.) ond o herwydd ei Dduwdod, ei genedliad gwyrthiol a dihalog, ac mai efe oedd y Gwrth-gysgod a'r Sylwedd mawr; yr oedd hyny yn ddigon i'w eithrio, neu ei lysu, fel yr Had, i'r hwn yn bennodol y gwnaethid yr addewidion. Heb yr eithriad uchod, buasai dadl yr apostol yn ofer a dirym; am y buasai yn profi i Grist hefyd dalu degwm yn Abraham, yn gystal a Lefi. Mae y rhesymiad uchod o eiddo yr apostol yn dangos natur ein hundeb ni âg Adda, a'n cynnrychioliad ganddo ef, a'n cyfranogiad ni o gaulyniadau ei gwymp ef; yn gystal â threfn ein hadferiad trwy yr ail Adda, yr Arglwydd o'r nef.

11 * Os ydoedd gan hynny [y] berffeithrwydd trwy offeiriadaeth Lefi (oblegid dan hono y rhoddwyd y gyfraith i'r bobl) [z] † pa raid *oedd* mwyach godi [a] Offeiriad arall yn ol urdd Melchisedec, ‡ ac nas gelwid ef yn ol urdd Aaron?

y adn. 18, 19. pen. 8. 7, 10—13. a 10. 1—4. Gal. 4. 3, 9. Col. 2. 10—17. z adn. 26—28. a adn. 15, 17, 21.—Gwel ar pen. 5. 6, 10. a 6. 20.

Tybir mai nid parâd o'r mater blaenorawl yn hollol sydd yma, eithr dechreu ar fater newydd yn hytrach; sef dangos rhagoriaeth offeiriadaeth Crist ar offeiriadaeth Lefi. * Yn awr os oedd Duw yn bwriadu i'r eglwys ddyfod i'w hystâd berffeithiaf ar y ddaear trwy offeiriadaeth Lefi; ac os gallesid cael iachawdwriaeth berffaith trwy yr offeiriadaeth, neu yr oruchwyliaeth hòno, heb unrhyw gyfeiriad at offeiriadaeth y Messiah; † "pa raid oedd mwyach godi Offeiriad arall," ac o urdd arall, sef "o urdd Melchisedec?" ‡ A phaham nas gelwid yr "Offeiriad arall" hwnw, yr hyn nis gelwir ef yn un màn, yn ol urdd Aaron, yr hon oedd urdd offeiriadaeth Lefi yn gyffredinol?—*Dàn hòno y rhoddwyd y gyfraith.* Nis gallesid sylwi ar y geiriau uchod

yn iawn yn eu lle priodol, heb dòri ar draws prif resymiad yr adnod. Gellid meddwl wrth y geiriau hyn, fod offeiriadaeth Lefi wedi ei sefydlu *cyn* rhoddiad y gyfraith; eithr rhoddwyd y ddeddf ar Sinai cyn sefydlu yr offeiriadaeth hòno. Ond er bod y ddeddf *foesol* wedi ei rhoddi (Exod. 20.) cyn sefydlu offeiriadaeth Lefi; eto yr oedd cyflawniad cymmeradwy Israel o'r gwasanaeth oedd hi yn ofyn dàn yr oruchwyliaeth hòno, yn ymddybynu ar yr offeiriadaeth hòno; a'r gyfraith *seremonïol*, yr hon a gynnwysai yr holl wasanaeth, yr aberthau, a threfniadau addoliad, a berthynai i'r offeiriadaeth, a roddwyd *ar ol* sefydliad yr offeiriadaeth ei hun. Lefit. 1. 1—9. Mae yn debyg mai y gyfraith seremonïol, yn benaf, a feddyliai yr apostol, pan ddywedai mai *dàn* offeiriadaeth Lefi y rhoddwyd hi.

12 * Canys wedi newidio yr Offeiriadaeth, † anghenrhaid yw bod [b] cyfnewid ar y gyfraith hefyd.

b Es. 66. 21. Jer. 31. 31—34. Ezec. 16. 61. Act. 6. 13, 14.

* Canys wedi newid urdd yr offeiriadaeth Iuddewig, yn gystal â diddymu yr offeiriadaeth hòno ei hun; † angenrhaid hefyd oedd bod cyfnewid ar y gyfraith, sef yr holl oruchwyliaeth seremonïol; oblegid nis gallesid cyflawni defodau yr oruchwyliaeth neu y gyfraith hòno, wedi newidio yr offeiriadaeth. Os oedd Offeiriad arall yn codi, neu yn hytrach wedi codi, o urdd Melchisedec, ac nid o urdd Aaron; yr oedd yn rhaid diddymu y gyfraith seremonïol, a rhoddi terfyn ar yr holl oruchwyliaeth hòno, fel y sefydlid offeiriadaeth a goruchwyliaeth arall, gwell a mwy rhagorol. Mae y geiriau hyn, "*cyfnewid ar y gyfraith,*" yn dangos mai y gyfraith *seremonïol* a feddylid yn yr adnod o'r blaen, yr hon a roddwyd *dàn* offeiriadaeth Lefi; oblegid nid oes dim *cyfnewid* i fod ar y gyfraith *foesol*, dàn un offeiriadaeth na goruchwyliaeth.

13 * Oblegid am yr hwn y dywedir y pethau hyn, † efe a berthyn i lwyth arall, [c] o'r hwn nid oedd neb yn gwasanaethu yr allor.

c Num. 16. 40. a 17. 5. 2 Cron. 26. 16—21.

* Mae yn amlwg bod yr offeiriadaeth wedi ei newid fel y dywedwyd uchod; oblegid am yr hwn y dywedir y pethau hyn, sef ei fod yn offeiriad yn ol urdd Melchisedec, ac nid yn ol urdd Aaron, (adn. 12; Salm 110. 4.) † efe a berthyn i lwyth arall, cwbl wahanol i lwyth Lefi; o'r hwn nid oedd hawl gan neb i wasanaethu swydd offeiriadol, trwy offrymu aberthau ar yr allor bres, na chyflawni unrhyw wasanaeth a berthynai i hòno, nac allor yr arogl-darth. Pan ryfygodd y brenin Uzziah ymyraeth â gwaith yr offeiriadaeth, (2 Cron. 26. 16—21.) ni a welwn beth fu y canlyniad iddo; lle y dangosodd Duw ei ddirfawr anfoddlonrwydd fod neb dàn yr oruchwyliaeth hòno, hyd yn nôd brenin o lwyth Juda, yn cyfhwrdd âg un rhan o'r gwaith offeiriadol: ac yma, yn yr adnod nesaf, dywedir mai o'r *llwyth hwnw* "y cyfododd ein Harglwydd ni," yr hwn a osododd Duw yn offeiriad yn dragywyddol.

14 * Canys hysbys *yw* mai o [d] Juda y cododd [e] ein Harglwydd ni; † am yr hwn lwyth ni ddywedodd Moses ddim tu ag at offeiriadaeth.

d Luc 1. 43. Ioan 20. 13, 28. Eph. 1. 3. Phil. 3. 8. e Gen. 46. 12. a 49. 10. Ruth 4. 18—22. Es. 11. 1. Jer. 23. 5, 6. Mica 5. 2. Mat. 1. 3—16. Luc 2. 23—33. Rhuf. 2. 3. Dat. 5. 5. a 22. 16.

* Yr oedd yn ddigon hysbys i'r Iuddewon oll, oddi wrth hen brophwydoliaethau, mai o Juda yr oedd y Messiah i ddyfod: ac efallai ei fod yn ddigon hysbys i'r Hebreaid hyn weithian, mai o Juda y cyfododd yr Arglwydd Iesu; oddi wrth olrheiniad ei achau yn Luc 3. 23—38. Neu tybiai rhai o'r hen dadau boreüol, fod yr apostol yn cyfeirio yma at y llechres a wnaed yn amser y trethiad, (Luc 2. 1—5.) fel prawf o hyn: diammau na buasai efe yn llefaru mòr hŷf, oni buasai fod y peth yn cael ei addef yn gyffredin. † Ni ddywedodd Moses ddim yn ei holl ysgrifeniadau am lwyth Juda tuag at offeiriadaeth: a chan na ddywedodd Moses ddim, nis gallasai neb arall ddywedyd ddim am y cyfryw beth â hyn, ond Duw ei hun: ac efe a'i dywedodd yn Salm 110. 4; a Zec. 6. 13. Fel hyn yr oedd y rhagfynegiad a'r cyflawniad o hòno yn cyd-brofi, bod offeiriadaeth Aaron a'r gyfraith seremonïol, yn cael eu diddymu drwy ddyfodiad ac offeiriadaeth y Messiah, ac nad oeddynt o ddim grŷm nac effaith mwyach.

15 * Ac y mae yn eglurach o lawer eto; [f] † od oes yn ol cyffelybrwydd Melchisedec Offeiriad arall yn codi,

f adn. 3, 11, 17, 21. Salm 110. 4.

Tybir fod yr adnod hon a'r ddwy ganlynol, yn cael eu dwyn i mewn fel ail brawf o newidiad yr offeiriadaeth a'r gyfraith, a grybwyllir yn adn. 12. Y prawf cyntaf, yn adn. 13, 14, a gymmerwyd oddi wrth nad oedd Crist o lwyth Lefi, eithr o Juda; a'r prawf "eglurach o lawer eto," yn yr adnod hon a'r ddwy nesaf, a gymmerir oddi wrth yr hollawl wahaniaeth natur rhwng yr offeiriadaeth seremonïol, âg offeiriadaeth Crist. * Ac mae yn eglurach o lawer eto, hyd at ddangosiad diammeüol, fod yr offeiriadaeth seremonïol, ac o ganlyniad y gyfraith oedd yn ymddybynu arni, wedi ei newid fel ag i'w diddymu, megys y soniwyd yn adn. 12; † oblegid, yn ol y rhagfynegiadau o'r blaen, mae "Offeiriad arall" yn awr wedi ei godi drwy ordeiniad Duw, "yn ol *cyffelybrwydd* Melchisedec," yr hyn sy bron yr un peth âg "yn ol *urdd* Melchisedec:" yn ol cyffelybrwydd ei offeiriadaeth ef, yr hon a ddangoswyd ei bod o natur wahanol i offeiriadaeth Aaron, ac yn fwy rhagorol na hòno. *Od oes:* dylem ddeall hyn mewn ystyr gadarnâol, ac nid mewn ystyr ammeüol; sef *bod* Offeiriad arall yn codi: a dywedir bod y geiryn Groeg *ei*, weithiau yn arwyddo *bod*, megys y mae yn y fàn hon yn ddigon amlwg.

16 * Yr hwn a wnaed, [g] nid yn ol cyfraith gorchymyn cnawdol, [h] † eithr yn ol nerth bywyd annherfynol.

g pen. 9. 9, 10. a 10. 1. Gal. 4. 3, 9. Col. 2. 14, 20. h adn. 3, 17, 21, 24, 25, 28. Dat. 1. 18.

* Yr oedd yr "Offeiriad arall" hwn wedi cael ei osod yn ei swydd, nid yn ol cyfraith Moses, yr hon oedd yn sefydlu offeiriadaeth Lefi, ac oedd gynnwysedig o gyfreithiau y gallesid eu galw yn *orchymynion cnawdol*; fel yr oeddynt yn gofyn aberthau o anifeiliaid, ac yn cynnwys defodau at *sancteiddio i bureiddiad y cnawd* yn unig; ac fel yr oedd yr offeiriaid eu hunain yn cael eu cyssegru i'w swydd trwy seremonïau cnawdol ac allanol, ac nad oeddynt ond dynion cnawdol, gweiniaid, a marwol, ac felly yn gofyn y naill genedlaeth o honynt i olynu y llall yn y swydd o oes i oes; ac fel yr oedd hyn oll yn cael ei orchymyn drwy gorph o gyfreithiau oedd gynnwysedig mewn *defodau cnawdol*, wedi eu gosod ar yr Israeliaid *hyd amser y diwygiad*, (pen. 9. 10.) yr hwn oedd i gael ei wneyd dàn oruchwyliaeth mwy ysbrydol a sanctaidd yr efengyl, yn mherthynas i addoliad, breintiau, a bendithion yr eglwys. † Ond, yn wrthwyneb i natur yr offeiriadaeth hòno, yr oedd Crist wedi cael ei wneyd yn Arch-offeiriad trwy sefydliad mwy rhagorol a byth-barâol; yn yr hwn y cafodd efe ei gyssegru i'r swydd hòno, yn ol y gallu sydd ganddo ef i'w chyflawni, trwy nerth a rhinwedd y bywyd anfarwol hwnw, sydd ganddo ef ynddo ei hun fel tragywyddol Fab Duw; a thrwy nerth a rhinwedd y bywyd dynol a ail gymmerodd efe yn ei adgyfodiad ac yn y nef, yn ol yr hwn mae efe yn byw yn dragywyddol, i gyflawni ei offeiriadaeth ogoneddus yn ei Berson ei hun, ac i roddi bywyd tragywyddol i bawb mae efe yn Offeiriad drostynt; heb neb yn cyd-weithredu âg ef, na neb i'w ganlyn yn y swydd. Fel hyn mae ei offeiriadaeth ef tu hwnt i bob cymhariaeth, yn fwy rhagorol, perffaith, effeithiol, a pharâus, nâ'r un offeiriadaeth a'i blaenorodd hi dàn y ddeddf.—Er i Grist farw yn wir-foddol yn ei natur ddynol, eto yr oedd hyny yn rhan o'i waith offeiriadol ef; marw yn *aberth* dros bechodau ei bobl a

wnaeth: ni bu farw allan o'i swydd, ond yr oedd yn offeiriadu *yn* ei farwolaeth; ac yr oedd ganddo allu i gymmeryd ei fywyd drachefn, ac i fyw byth i gyflawni y rhan arall o'i offeiriadaeth yn y nef. Mae nerth bywyd annherfynol yn ei offeiriadaeth ef; am hyny nid oedd yr un i ddyfod yn offeiriad ar ei ol ef. Nid trwy olchi â dwfr, eneinnio âg olew, taenellu â gwaed, ei wisgo â gwisgoedd; ac nid trwy aberthu anifeiliaid, &c., y cyssegrwyd ef i'w swydd; eithr eneinniwyd ef â'r Ysbryd Glân ac â nerth: ac nid mewn teml ddaearol, ac mewn seremonïau cnawdol, yr oedd ef i weini; ond ar Galfaria ac yn y nef ei hun, mewn pethau ysbrydol, er iachawdwriaeth ei bobl.

17 * Canys tystiolaethu y mae, † Offeiriad *wyt* ti yn dragywydd yn ol urdd Melchisedec.

* Canys, fel y sylwyd o'r blaen amryw weithiau (pen. 5. 6, 10; a 6. 20.) tystiolaethodd Duw Dad trwy enau Dafydd (Salm 110. 4.) hyd yn nôd pan oedd offeiriadaeth Lefi yn ei llawn ogoniant; † "Offeiriad *wyt* ti yn dragywydd yn ol urdd Melchisedec:" hyny yw, yr wyt ti yn offeiriad mewn modd neilduol a nodedig; nid yn ol cyffelybrwydd offeiriadaeth îs Aaron, ond yn ol cyffelybrwydd offeiriadaeth uwch Melchisedec; nid dros unrhyw oruchwyliaeth derfynol a rydd le i un well, nac mewn olyniad o un offeiriad ar ol y llall; ond yn ddigyfnewid yn dy Berson dy hun, hyd oni chaflawner dybenion dy swydd yn berffaith; ac o hyny allan i dragywyddoldeb, yn yr anrhydedd a berthyn i ti am berffaith gyflawni yr offeiriadaeth hòno, ac yn ei heffeithiau gogoneddus er tragywyddol iachawdwriaeth yr holl eglwys fawr.

18 * Canys yn ddïau [i]y mae dirymmiad i'r gorchymyn sydd yn myned o'r blaen, [k] † o herwydd ei lesgedd a'i afles.

i adn. 11, 12. pen. 8. 7—13. a 10. 1—9. Rhuf. 3. 31. Gal. 3. 15, 17. k adn. 19. pen. 8. 7, 8. a 9. 9, 10. a 10. 1—4. a 13. 9. Act. 13. 39. Gal. 4. 21. 1 Tim. 4. 8.

* Yr oedd y rhag-dystiolaeth uchod, a'r cyflawniad o hóni, yn arddangos dirymiad a *difodiad* y gorchymyn oedd wedi ei roddi o'r blaen, am yr offeiriadaeth, yr aberthau, a'r puredigaethau, sef holl gorph yr oruchwyliaeth seremonïol, a'i holl osodiadau, y rhai oedd yn perthyn i offeiriadaeth Lefi, ac yn myned o flaen goruchwyliaeth yr efengyl, yr hon a adeiledir ar offeiriadaeth Crist. † Ac yr oedd y dirymiad a'r difodiad hyn i'r gorchymyn oedd yn myned o'r blaen, wedi cael ei fwriadu yn bennodol gan yr Arglwydd, o herwydd llesgedd ac afles pob peth yn yr oruchwyliaeth hòno: oblegid er eu bod o ddefnydd a lles amserol a chysgodol i genedl Israel, hyd ddyfodiad y Messïah, ac i greddinwyr yn eu plith fel moddion o ffydd a gras; eto nid oedd gwir effaith yn y pethau eu hunain, i buro y gydwybod a'r galon, ac nid oeddynt o un lles i'r rhai hyny a ymorphwysent ynddynt. Nis gallent gyfiawnâu pechaduriaid nâ'u sancteiddio; oblegid cysgod daionus bethau i ddyfod oeddynt, ac nid gwir ddelw y pethau, pen. 10. 1.

19 [l] * Oblegid ni pherffeithiodd y gyfraith ddim, [m] † namyn dwyn gobaith gwell i mewn ‡ *a berffeithiodd;* [n] ‖ trwy yr hwn yr ydym yn nesâu at Dduw.

l Gwel ar adn. 11. m pen. 6. 18. a 8. 6. a 11. 40. Ioan 1. 17. Rhuf. 8. 3. Col. 1. 27. 1 Tim. 1. 1. n pen. 4. 16. a 10. 19—22. Salm 73. 28. Ioan 14. 6. Rhuf. 5. 2. Eph. 2. 13—18. a 3. 12.

* Oblegid yr hyn a ddywedwyd uchod, ni pherffeithiodd y gyfraith seremonïol ddim, ac nis gallasai berffeithio dim, nac yn ystâd yr eglwys, nac ar galonau a chydwybodau dynion i'w cyfiawnâu, eu cymmodi â Duw, na'u sancteiddio: ni fwriadwyd mo hóni ond i rag-ddangos, i barotôi y ffordd, ac i gyfeirio at, yr hyn wnelai y pethau uchod yn effeithiol; ac felly yr oedd yn athraw i ddynion at Grist fel y cyfiawnêid hwy trwy ffydd. † Eithr dygiad i mewn, a sefydliad goruchwyliaeth yr efengyl, a Christ, yr Arch-offeiriad arall, yn nghyd â'i aberth gwir gymmodawl ef, yw gwrthddrych ein gobaith ni; ac sydd yn rhoddi i ni well sail o hyder, a sicrach gobaith ar Dduw, nag a allasai y gyfraith roddi byth; ‡ ac mae hyn wedi perffeithio y cwbl oedd yn ddiffygiol yn y gyfraith ei hun, ac yn cael ei rag-ddangos trwyddi. Trwy y "gobaith gwell" hyn, mae cymmeradwyaeth gyda Duw, trwy aberth ac eiriolaeth Crist; trwy hyn mae yr eglwys wedi ei dwyn i'w hystâd uwchaf o ryddid a breintiau, a'i haddoliad i'r agwedd fwyaf ysbrydol, ag sydd bosibl ei gyrhaedd yn y byd hwn: a thrwy hyn darparwyd yn effeithiol er cyfiawnâd, heddwch tumewnol, a sancteiddiad yr holl gredinwyr. ‖ Trwy hyn hefyd y caniatêir i ni nesâu at Dduw, sef at ei drugareddfa ef gyda gostyngedig hyfdra; ac nid ydym yn cael ein cauad allan fel y cenedloedd dàn y gyfraith; nac yn cael ein cadw yn mhell fel yr oedd yr Israeliaid eu hunain.—Gellir darllen rhan olaf yr adnod fel hyn, medd *Scott:*—"Dwyn gobaith gwell i mewn yw y peth, trwy yr hwn yr ydym yn nesâu at Dduw."—Mae y gair gwreiddiol (medd yr un gŵr, yn arwyddo mwy na "dwyn i mewn" yn unig; ac yn dàl allan fod y "gobaith gwell" wedi cael ei ddwyn i mewn, hyd yn nôd dàn yr hen oruchwyliaeth, trwy addewidion a phrophwydoliaethau am y Messïah, a thrwy gysgodau y ddeddf seremonïol; ond yn fwy cyflawn a goleu, pan ddaeth Crist yn y cnawd, pan orphenodd efe ei waith ar y ddaear, ac yr aeth i mewn i'w ogoniant.—*Ni pherffeithiodd y gyfraith ddim:* gan na pherffeithiodd hi *ddim,* nis gallasai berffeithio yr offeiriadaeth; ac o ganlyniad, nis gallasai yr offeiriadaeth hòno berffeithio y bobl.

20 * Ac yn gymmaint nad heb lw *y gwnaethpwyd ef yn Offeiriad:*

* Yr oedd mawr ragoriaeth offeiriadaeth y Messïah, ar offeiriadaeth Aaron, yn amlwg hefyd oddi wrth amgylchiad arall, yr hyn sydd i'w sylwi yn bennodol yn ngeiriau sanctaidd Duw; oblegid nid heb lŵ, fel Aaron, y gwnaethpwyd ef yn offeiriad, eithr trwy lŵ difrifol Duw; yr hyn sydd yn dangos *edmygedd* a *phwys,* yn gystal hefyd âg *anghyfnewidioldeb* y weithred. Mae y llŵ hwn yn Salm 110. 4.

21 * (Canys y rhai hynny yn wir ydynt wedi eu gwneuthur yn offeiriaid heb lw: † ond hwn trwy lw, gan yr hwn a ddywedodd wrtho, [o] ‡ Tyngodd [p] yr Arglwydd, ac ni bydd edifar ganddo, ‖ Ti *sydd* Offeiriad yn dragywydd yn ol urdd Melchisedec)

o Salm 110. 4. p Gwel ar pen. 6. 16—18.

* Canys yr holl offeiriaid gynt dàn y gyfraith a osodid yn eu swydd heb y cadarnâd o lŵ; nid oedd dim o'r cyffelyb yn cael ei orchymyn na'i arfer wrth eu cyssegru hwynt; yr hyn oedd yn gadael eu swydd hwy yn ddiddymadwy, ac i'w difodi pan welai Duw yn dda. † Ond yr Arch-offeiriad mawr a gogoneddus hwn, Iesu Grist, efe a wnaed yn offeiriad trwy lŵ gan Dduw ei Dad; er ei sicrâu ef yn ddigyfnewid byth yn ei offeiriadaeth. ‡ Tyngodd yr Arglwydd fel'y iddo yn ngŵydd ei angelion sanctaidd, a datguddicdd hyny i ddynion trwy enau Dafydd; (Salm 110. 4.) ac ni bydd yn edifar ganddo byth, ni eilw byth ei air a'i lŵ yn ol, ac ni thrŷ ei Fab o'r offeiriadaeth yn dragywyddol. ‖ Dyma eiriau y llŵ unwaith eto:—Ti *sydd,* yn dy Berson dy hun, heb yr un olynydd, yn Offeiriad yn dragywydd ac yn ddigyfnewid, yn ol urdd Melchisedec, hyd gyflawniad pob peth. Gwel ar pen. 5. 10; ac amrai fànau oddi yno hyd yma.

22 [q] * Ar destament gwell o hynny † y gwnaethpwyd Iesu yn [r] Fachnïydd.

q Gen. 43. 9. a 44. 32. Diar. 6. 1. a 20. 16. r pen. 8. 6—12. a 9. 15—23. a 12. 24. a 13. 20. Dan. 9. 27. Mat. 26. 28. Marc 14. 24. Luc 22. 20. 1 Cor. 11. 25.

* Yn gyfatebol, gan hyny, i fawr ragoriaeth offeiriadaeth Crist ar yr eiddo Aaron, yr oedd yr apostol yn casglu fod Iesu yn *Fachnïydd,* ar destament, goruchwyl-

iaeth, neu gyfammod, gwell na'r eiddo Aaron.—Mae y gair *Machnïydd* yn arwyddo person yn rhwym gyda, neu dros un arall, neu eraill, i dâlu dyled, neu gyflawni rhyw ammod. Aeth Iesu, "Machnïydd" ei bobl, yn atebol am eu dyled hwy o bechod, ac ymrwymodd i foddloni cyflawnder dwyfol, a mawrâu y gyfraith sanctaidd, a'i gwneyd yn anrhydeddus; ac hefyd i ddwyn ei bobl i'r edifeirwch, y ffydd, a'r sancteiddrwydd hyny, sydd yn angenrheidiol iddynt hwy, fel y caffont gyfranogi o fendithion ei gyfammod ef. Trwy fyned i'r ymrwymiad hyn hefyd, a'i gyflawni ar ran ei bobl, efe a ddaeth yn Fachnïydd y Tad iddynt hwy, yn rhwym i gyflawni holl addewidion y cyfammod; wedi ei awdurdodi a'i dderchafu yn y natur ddynol, i roddi iddynt hwy yr holl fendithion y cytunwyd am danynt yn y cyfammod hwnw. Felly y dywed *Scott*, ond mae *Guyse* yn dywedyd yn erbyn y golygiad diweddaf uchod, ac yn dàl mai Machnïydd *drosom ni i Dduw* yw Crist, ac nid *dros Dduw i ni:* nyni oedd wedi tòri, syrthio, a myned yn euog; ac o gànlyniad, *drosom ni* yr oedd eisiau Machnïydd. A chan fod yr apostol yn sôn am *offeiriadaeth* Crist trwy yr holl bennod, mewn cyferbyniad i offeïriadaeth Aaron; rhaid bod ei fachnïaeth ef yn perthyn i'w swydd offeiriadol: ac yn awr, gweini *dros y bobl* tuag at Dduw, yr oedd Aaron, ac nid *dros Dduw* tuag at y bobl.—Y *testament*, neu y cyfammod, *(dïathêkê)* gwell, ar ba un mae Iesu yn Fachnïydd, nid yw yma yn cael ei osod mewn cyferbyniad i'r cyfammod gweithredoedd, trwy yr hwn mae pob troseddwr yn cael ei gauad dàn felldith; eithr mewn cyferbyniad i gyfammod Duw âg Israel wrth Sinai, yn nghyd â'r oruchwyliaeth seremonïol y bu yr eglwys dàni am gyhyd o amser: oblegid nid oedd dim perthynas rhwng y cyfammod gweithredoedd âg offeiriadaeth Aaron, nac â'r ddeddf seremonïol, yr hon oedd yn dangos drwy gysgodau fendithion y cyfammod gras. Ond yr oedd y testament, neu y cyfammod yr oedd Iesu yn Fachnïydd arno, yn llawer "gwell" na hwnw yr oedd offeiriaid Israel yn fachnïwyr ynddo; ac a ddygodd yr eglwys, a phob credadyn, i lawer eglurach goleuni, mwy perffaith rhyddid, a mwy llawnder o freintiau, nag y gallasai goruchwyliaeth Sinai ei wneyd. † Yr oedd yr archoffeiriad fel math o fachnïydd dàn yr hen oruchwyliaeth, yn aberthu dros y bobl ar ddydd y cymmod; ond cysgod oedd hwnw, o Iesu, sydd yn Fachnïydd anfeidrol well, ac ar destament llawer gwell.

23 * A'r rhai hynny yn wir, [s] llawer sydd wedi eu gwneuthur yn offeiriaid, † o herwydd lluddio iddynt gan farwolaeth barhâu:

s adn. 8. 1 Cron. 6. 3—14. Neh. 12. 10, 11.

Yn nesaf mae yr apostol yn dwyn prawf arall o ragoriaeth offeiriadaeth Crist ar yr eiddo Aaron. * Yn offeiriadaeth Aaron, yr oedd llawer wedi cael eu gwneyd yn offeiriaid o oes i oes, er nad oedd ond un archoffeiriad i fod ar y tro; † oblegid, gan nad oeddynt hwy ond dynion pechadurus marwol, yr oeddynt yn cael eu symmud o'u swydd yn fuan, ac eraill yn dyfod yn eu lle: ac wrth fod y swydd yn myned o un i'r llall mòr aml, yr oedd hyny yn dangos ei gwendid a'i haneffeithioldeb hi yn amlwg iawn.—Am rifedi yr arch-offeiriaid Iuddewig, gwel ar Ioan. 11. 49.

24 * Ond hwn, am ei fod ef yn [t] aros yn dragywydd, † sydd âg offeiriadaeth dragywyddol ganddo.

t Gwel ar adn. 8—25, 28. pen. 13. 8. Es. 9. 6, 7. Ioan 12. 34. Rhuf. 6. 9. Dat. 1. 18.

* "Ond hwn," sef Iesu, am ei fod ar ol iddo farw yn aberth dros bechod, wedi adgyfodi o feirw, yn byw yn oes oesoedd, ac yn aros o ran ei berson yn dragywydd; † sydd ag offeiriadaeth dragywyddol ganddo yn ei Berson ei hun, yr hon nis gall fyned oddi wrtho ef i un arall, fel yn mhlith yr offeiriaid Iuddewig gynt: mae efe yn aros, ac yn eistedd byth yn Offeiriad ar ei frenin-fainc.

25 * Am hynny efe a [u] ddichon hefyd yn gwbl iachâu † y rhai [x] trwyddo ef sydd yn [y] dyfod at Dduw, ‡ gan ei fod ef [z] yn byw bob amser [a] i eiriol drostynt hwy.

u pen. 2. 18. a 5. 7. Es. 45. 22. a 63. 1. Dan. 3. 15, 17, 29. a 6. 20. Ioan 6. 37—40. a 10. 29, 30. Eph. 3. 20. Phil. 3. 21. 2 Tim. 1. 12. Judas 24. x adn. 19. pen. 11. 6. Job 22. 17. a 23. 3. Salm 68. 31, 32. Es. 45. 24. Jer. 3. 22. y pen. 13. 15. Ioan 14. 6. Rhuf. 5. 2. Eph. 2. 18. a 3. 12. 1 Ioan 2. 1, 2. z Gwel ar adn. 8, 16, 24. a pen. 9. 24. Es. 53. 12. a 59. 16. Dan. 9. 24. Ioan 14. 13, 16. a 16. 23, 24. a 17. 9—26. Rhuf. 8. 34. 1 Ioan 2. 1, 2. Dat. 8. 3, 4.

* Am ei fod ef yn aros yn dragywydd, ac âg offeiriadaeth dragywyddol ganddo, "efe a ddichon," nid yn unig drwy ei holl-alluawgrwydd, ond hefyd trwy ei swydd offeiriadol a'i aberth, "gwbl iachâu," yn *berffaith, hyd y diweddd;* yn yr angen mwyaf, a'r caledi cyfyngaf; oddi wrth bob euogrwydd, aflendid, a themtasiynau; yn mhob peryglon, ac yn wyneb pob gelynion; † y rhai oll o bob oes a chenedl, sydd yn dyfod at Dduw fel pechaduriaid am iachawdwriaeth, trwyddo ef; gan gredu yn ei enw ef, ymorphwys ar ei iawn a'i eiriolaeth ef, a gofyn pob bendith er ei fwyn ef, fel rhad roddion Duw trwy ei gyfryngdod ef. ‡ "Efe a ddichon" hyn oll, oblegid nad yw efe fel dyn marwol, yr hwn a gymmer arno amddiffyn neu waredu arall, ac efallai a fydd marw yn yr adeg gyfyngaf; ond mae efe "yn byw bob amser," ac yn llywodraethu fel Offeiriad ar ei frenin-fainc; i eiriol dros y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw; i ddadleu ei waed a'i aberth ar eu rhan; i gyflwyno eu personau, eu gwasanaeth, a'u gweddïau yn gymmeradwy ger bron y Tad; i sefyll rhyngddynt hwy â phawb a roddo ddim yn eu herbyn; i'w hamddiffyn a'u gwared hwynt yn ei holl-alluog nerth; ac i roddi pob peth iddynt allan o'i anchwiliadwy olud. *Cwbl iachâu:* achub hyd yr eithaf, yn ol y Saesoneg. *Dyfod trwyddo ef at* Dduw: fel y byddai pobl Israel â'u haberthau gynt, trwy yr arch-offeiriad.

26 * Canys y [b] cyfryw Arch-offeiriad [c] sanctaidd, † diddrwg, ‡ dihalog, ‖ didoledig oddi wrth bechaduriaid, [d] § ac wedi ei wneuthur yn uwch nâ'r nefoedd, [e] * oedd weddus i ni;

b adn. 11. pen. 8. 1. a 9. 23—26. a 10. 11—22. c pen. 2. 10. Luc 24. 26, 46. d pen. 4. 15. a 9. 14. Ex. 28. 36. Es. 53. 9. Luc 1. 35. a 23. 22, 41, 47. Ioan 8. 29. a 14. 30. Act. 3. 14. a 4. 27. 2 Cor. 5. 21. 1 Pedr 1. 19. 1 Ioan 2. 2. a 3. 5. Dat. 3. 7. e pen. 1. 3. a 4. 14. a 8. 1. a 12. 2. Salm 68. 18. Mat. 27. 18. Marc 16. 19. Eph. 1. 20—22. a 4. 8—10. Phil. 2. 9—11. 1 Pedr 3. 22. Dat. 1. 17, 18.

* Canys y cyfryw Arch-offeiriad "sanctaidd," yr hwn nid oedd ei hun yn bechadur fel nyni, ac fel yr oedd yr offeiriaid dàn y ddeddf; ond un ag oedd yn ddifrycheulyd bur yn ei natur, ei feddyliau, ei eiriau, a'i weithredoedd; un llwyr ymroddgar i Dduw, a llawn trugaredd i ddynion: † un "di-ddrwg," diniwed, a difai; un heb ddrwg ynddo ei hun, ac ni wnaeth ddrwg i neb arall; un pur a difrychau yn ei holl ufudd-dod, ac ni allai neb ei gyhuddo ef o ddrwg: ‡ un perffaith "dihalog," oddi mewn ac oddi allan; yn ei fywyd ac yn ei weinidogaeth; heb gael ei halogi erioed gan na dynion na phethau aflan, fel y byddai yr offeiriaid gynt yn cael yn aml: ‖ un "didoledig oddi wrth bechaduriaid;" yn achos y rhai yr oedd yn cyfryngu; didoledig o'r groth, heb ddim pechod gwreiddiol; am nas ganed ef mewn ffordd o undeb naturiol na chyfammodol âg Adda, fel eraill o ddynolryw; a didoledig hollawl oddi wrthynt o ran eu hegwyddorion, eu ffyrdd, a'u gweithredoedd drwg: § ac un "wedi ei wneuthur yn uwch nâ'r nefoedd," yn nghyd a holl drigolion gogoneddus y nef oedd; fel y byddai i fawredd ei Berson, a gorucheledd ei dderchafiad, roddi effeithioldeb i weinyddiad ei swyddau ef, ac arddangos cyflawnder a sancteiddrwydd Duw yn ei waith yn achub pechaduriaid er ei fwyn ef, a thrwy ei gyfryngdod a'i waith offeiriadol ef. * Dyma y fath Arch-offeiriad oedd ac ydyw ein Iesu mawr, a dyma y fath Arch-offeiriad oedd weddus i ni bechaduriaid: i wneyd iawn dros ein pechodau ni, i eiriol dros-

om ni, ac i'n hadferu ni i gymmeradwyaeth a delw Duw, mewn modd cyson â gogoniant ei enw ef, ac mewn modd neilldiol addas i amlygu y gogoniant hwn: llai Arch-offeiriad na hwn ni wnaethai y tro i Dduw, a llai na hwn ni wnaethai y tro i bechadur: hwn yn unig oedd weddus i'r ddwy blaid.

27 * Yr hwn nid yw raid iddo [f] beunydd, megis i'r offeiriaid hynny, offrymmu aberthau yn [g] gyntaf dros ei bechodau ei hun, [h] ac yna dros yr eiddo y bobl; [i] † canys hynny a wnaeth efe unwaith, pan offrymmodd efe ef ei hun.

f pen. 10. 11. Ex. 29. 36—42. Num. 28. 2—10. g pen. 5. 3. a 9. 7. Lef. 4. 3, &c. a 9. 7, &c. a 16. 6, 11. h Lef. 4. 13—16. a 9. 15. a 16. 15. i pen. 9. 14, 25, 28. a 10. 6—12. Es. 53. 10—12. Rhuf. 6. 10. Eph. 5. 2, 25. Tit. 2. 14.

* Rhaid ei fod, ac yr oedd efe yn un, nad oedd achos iddo offrymu dim o gwbl drosto ei hun, nac offrymu yn fynych, drachefn a thrachefn, dros eraill; fel yr oedd yr offeiriaid gynt, cyd-weinyddion yr arch-offeiriad, yn gorfod gwneuthur *beunydd;* a'r arch-offeiriad ei hun ar bob dychweliad o ddydd mawr y cymmod. † Am ei bechodau ei hun, nid oedd gan Iesu ddim, i aberthu drostynt; ac am bechodau ei bobl, efe a wnaeth hyny, ac a'i gorphenodd *oll ar unwaith,* trwy roddi cyflawn aberth, a pherffaith iawn drostynt, pan offrymodd efe ef ei hun trwy yr Ysbryd tragywyddol yn ddifai, ac yn arogl peraidd i Dduw; mewn cyferbyniad i'r mynych aberthau dros bechodau y bobl dàn y ddeddf, ac mewn cyferbyniad i'r offeiriaid hyny nad oedd ganddynt ddim o'r *eiddynt eu hunain,* dim gwell nac *anifeiliaid ac adar* i'w haberthu. Yma mae Crist *ei hun* ar gyfer *aberthau* y gyfraith; a'i *unwaith* ef ar gyfer *beunydd* yr "offeiriaid hyny."—*Beunydd*: tybia *Guyse* mai nid *offrymau beunyddiol* yr offeiriaid cyffredin, a feddylir yma; eithr offrymau *blynyddawl* yr arch-offeiriad, ar bob dydd y cymmod: oblegid am swydd *yr arch-offeiriaid* y sonia yr apostol; ac ar ddydd y cymmod bob blwyddyn, yr offrymai yr arch-offeiriaid drostynt eu hunain a thros y bobl. Felly y dywed *Pool* hefyd, a *Doddridge.*

28 * Canys y [k] gyfraith sydd yn gwneuthur dynion a gwendid ynddynt, yn arch-offeiriaid; [l] † eithr gair y llw, yr hwn a fu wedi y gyfraith, [m] ‡ *sydd yn gwneuthur* y Mab, [n] ‖ yr hwn a berffeithiwyd yn dragywydd.

k. Gwel ar pen. 5. 1, 2. Ex. 32. 21, 22. Lef. 4. 3. l Gwel ar adn. 21.—Salm 110. 4. m Gwel ar adn. 3. pen. 1. 2. a 3. 6. a 4. 14. a 5. 5, 8. n adn. 21, 24.

* Yr oedd y gyfraith seremoniol yn gwneuthur dynion gweiniaid, anmherffaith, a phechadurus, yn arch-offeiriaid; ac yr oedd rhai o honynt yn ddynion o fucheddau a chymmeriad drwg; am hyny yr oedd arnynt hwy eu hunain a'u gwasanaeth, eisiau mynych aberthau, a maddeuant gwastadol. † "Eithr gair" Duw, yr hwn a gadarnâodd efe â llŵ, ac yr hwn a lefarodd efe yn hir cyn y gyfraith, yn ei gyngor tragywyddol; a lefarodd efe drachefn trwy Dafydd, (Salm 110. 4.) bedwar cant o flynyddoedd wedi rhoddiad y gyfraith; ac yr hwn sydd yn cyrhaedd yn mhell tu hwnt i'r gyfraith, ac wedi ei darfod hi;—‡ mae y gair hwn yn gosod, neu wedi gosod Mab Duw yn Arch-offeiriad, yr hwn oedd yn mhob ystyr yn addas i'r swydd, ac efe yn unig a allai fod: ‖ ac efe hefyd a gafodd ei "berffeithio," neu ei gyssegru yn dragywydd i'r swydd;—trwy ddynoliaeth lân, dianaf, a dibechod; trwy eneinniad yr Ysbryd Glân; trwy ei ddyoddefaint a'i aberth ar y groes, a thrwy ei ogoneddiad ar ddeheulaw Duw.—Fel hyn yr oedd yn amlwg i'r Hebreaid, fod offeiriadaeth Lefi wedi cael ei bwriadu fel cysgod, ac i barotôi y ffordd at offeiriadaeth Crist; yr hon a rag-ordeiniwyd i ddiddymu, a chymmeryd lle y gyntaf, mewn amser priodol.—"Gwedi y gyfraith:" *metà tòn nómon* yw y geiriau Groeg; a dywedir fod y gair *metà* yn arwyddo *tu hwnt* yn aml. Yr oedd gair y llŵ *cyn* y gyfraith, er tragywyddoldeb; amlygwyd ef yn Salm 110. 4, *wedi* y gyfraith; ac yr oedd yn cyrhaedd o ran ei effaith, a'r cyflawniad o hóno, *tu hwnt* i'r gyfraith, sef wedi iddi ddarfod. Y gyfraith seremoniol, am offeiriadaeth Lefi, a feddylir.

PEN. VIII.

Rhagoriaeth offeiriadaeth Crist ar yr eiddo Aaron.

* APHEN ar y pethau a ddywedwyd *yw hyn.* [a] † Y mae gennym y fath Arch-offeiriad, [b] ‡ yr hwn a eisteddodd ar ddeheulaw gorsedd-faingc [c] y Mawredd yn y nefoedd;

a Gwel ar pen. 7. 26—28. b Gwel ar pen. 1. 3, 13.—a 12. 2. Dat. 3. 21. c 1 Cron. 29. 11. Job 37. 22. Salm 21. 5. a 45. 3, 4. a 104. 1. a 145. 12. Es. 24. 14. Mica 5. 4.

* Mae y gair *(kephalaion)* a gyfieithir yma *pen,* yn arwyddo *symiad byr,* neu ynte, y *peth penaf.* † Sylwedd, swm, neu y peth penaf, o'r hyn a ddywedwyd yn y bennod o'r blaen oedd hyn; sef bod gan gristionogion y fath Arch-offeiriad ag oedd yn weddus iddynt, ac yn angenrheidiol: ‡ yr hwn wedi gorphen ei waith ar y ddaear, a esgynodd i'r nef, ac a dderchafwyd i'r anrhydedd a'r awdurdod uwchaf ar ddeuheulaw Duw, yn y lle mae efe yn dangos ei ogoneddus fawredd, ac a ellir ei alw ei orsedd-fainc ef.

2 * Yn [d] Weinidog y gyssegrfa, [e] † a'r gwir dabernacl [f] yr hwn a osododd yr Arglwydd, ‡ ac nid dyn.

d pen. 9. 8—11. a 10. 21. Ex. 28. 1, 35. Luc 24. 44. Rhuf. 15. 8. e pen. 9. 11, 23, 24. f pen. 11. 10. 2 Cor. 5. 1. Col. 2. 11.

* Fel hyn mae Crist wedi ei osod yn weinidog y gyssegrfa, neu y Sancteiddiolaf, sylwedd y gyssegrfa neu y Sancteiddiolaf gynt yn y babell: † ac yn y swydd hon yr oedd efe yn weinidog y gwir dabernacl, yr hwn a osododd yr Arglwydd drwy ei ddoethineb a'i hollalluog nerth; ‡ ac nis gosodwyd trwy lafur a medrusrwydd dynol, fel y tabernacl yn yr anialwch gynt.—Mae rhai yn deall y "gwir dabernacl" am y nef yn unig, ac yn arwyddo yr un peth â'r "gyssegrfa" o'r blaen; mae eraill yn ei ddeall am natur ddynol Crist, yn yr hon y "trigodd," neu y *tabernaclodd* efe yn mhlith dynion, ac yn yr hon mae efe yn gweini fel Arch-offeiriad, yn y gyssegrfa fry: eto, gan fod ei ddynoliaeth ef o angenrheidrwydd mewn undeb â'i Berson ef fel Arch-offeiriad, yn hytrach na bod yn lle, neu dabernacl ei weinyddiad ef, mae y syniad olaf hwn yn lled annaturiol a gwrthun. Ond fel yr oedd yr holl dabernacl gynt yn gynnwysedig o gyssegr allanol a thumewnol; a chan mai yr arch-offeiriad yn unig a âi i mewn i'r olaf, tra byddai yr offeiriaid eraill yn gweini yn y cyntaf, dàno ef, gwasanaeth cysgodol yr hwn oedd yn cymmeradwyo eu gwasanaeth hwy; ac fel yr oedd y tabernacl yn gysgod o holl eglwys Dduw, er ei fod yn cysgodi dynoliaeth Crist hefyd; mae yn fwy tebyg y dylem ddeall y "gwir dabernacl" am holl eglwys y gwaredigion ar y ddaear ac yn y nef, fel yn un eglwys trwy ei hundeb â Christ Iesu: oblegid credinwyr, yn wahanedig ac yn gasgledig, ydynt yn breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd.—Dywed *Pool* y dylid ystyried Crist yma fel "gweinidog" yn ei holl swyddau; breninol, offeiriadol, a phrophwydol; yn gweini ac yn llywodraethu yn y nef ac ar y ddaear. Am y gair *cyssegrfa,* rhoddir *pethau sanctaidd* ar ymyl y ddalen; a deall rhai hyny am *bersonau,* sef y *saint;* eraill am *bethau,* sef *grasau* a *bendithion* cyfranedig Crist; ac eraill am *le,* sef y *gyssegrfa,* y *Sancteiddiolaf* yn y nef.

3 * Canys [g] pob arch-offeiriad a osodir i offrymmu rhoddion ac aberthau: † o herwydd paham rhaid *oedd* bod gan hwn hefyd [h] yr hyn a offrymmai.

g Gwel ar pen. 5. 1.—a 7. 27. h pen. 9. 14. a 10. 9—12. Ioan 6. 51. Eph. 5. 2. Tit. 2. 14.

* Oblegid pob arch-offeiriad dàn y gyfraith, a osodid gan Dduw i offrymu rhoddion gwirfodd, ac aberthau

dros bechod, y rhai a Iaddesid ac a offrymesid *cyn* iddo ef fyned â'u gwaed i'r sancteiddiolaf, ac *i'r dyben* iddo ef allu myned i mewn yno: † "o herwydd paham," fel y byddai y sylwedd yn ateb i'r cysgod, "rhaid oedd bod gan hwn hefyd," sef Crist ein Harch-offeiriad ni, "yr hyn a offrymai;" ac o herwydd achosion llawer mwy pwysig nac ateb i'r cysgod yn unig. Am hyn efe a gymmerodd ddynoliaeth, a ymddangosodd ar y ddaear, ac a'i rhoddes ei hun yn aberth i Dduw dros bechodau ei bobl. *Anifeiliaid* oedd gan yr arch-offeiriaid gynt i'w haberthu; ond *ei hun*, ei holl ddynoliaeth, mewn undeb â'i Berson dwyfol, a roddodd Crist yn aberth, ac a aeth i'r cyssegr nefol drwy ei waed *ei hun*, pen. 9. 12.

4 [i] * Canys yn wir pe bai efe ar y ddaear, ni byddai yn offeiriad chwaith; † gan fod offeiriaid y rhai sydd yn offrymmu rhoddion yn ol y ddeddf:

i pen. 7. 11—15. Num. 16. 40. a 17. 12, 13. a 18. 5. 2 Cron. 26. 18, 19.

* Pe buasai Crist yn aros o hyd ar y ddaear, nis gallasai efe fod yn offeiriad o gwbl, yn gyson â deddf offeiriadaeth Lefi; † gan fod wrth y ddeddf hòno urdd arall o offeiriaid, y rhai oedd yn offrymu rhoddion ac aberthau yn ol y ddeddf seremonïol, yr hon ni oddefai yr un offeiriad ond o Iwyth Lefi ac o urdd Aaron: o ganlyniad, nis goddefai i Grist, yr hwn oedd o Iwyth Juda, fod yn offeiriad. Gwedi aberthu ei hun ar y ddaear, y nef oedd ei gyssegrfa ef, i weini y rhan arall o'i offeiriadaeth fawr; lle mae Duw JEHOFAH yn amlygu ei ogoniant, ac yn cyfranu ei fendithion oddi ar y drugareddfa rasol.

5 * Y rhai sydd yn gwasanaethu [k] i siampl a chysgod y pethau nefol, † megis y rhybuddiwyd Moses gan Dduw, pan oedd efe ar fedr gorphen y babell. ‡ Canys, [l] Gwel (medd efe) ar wneuthur o honot bob peth yn ol y portreiad a ddangoswyd i ti yn y mynydd.

k pen. 9. 9, 23, 24. a 10. 1. Col. 2. 17. l Ex. 25. 40. a 26. 30. a 27. 8. Num. 8. 4. 1 Cron. 28. 12, 19. Act. 7. 44.

* Yr oedd yr offeiriaid a offryment aberthau a rhoddion yn y cyssegr daearol, yn gwasanaethu yn addoliad Duw yn ol ffurf osodedig, yr hon a luniesid i fod yn gynllun a chysgod y pethau nefol; sef Crist, y gras a'r gwirionedd a ddaeth trwyddo, a'i waith offeiriadol ar y ddaear, ac yn y "gwir dabernacl" yn y nef. † Rhoddodd Duw grybwylliadau rhybuddiol o hyn i Moses, pan gafodd efe orchymyn ganddo pa fodd i ffurfio a gorphen y tabernacl daearol hwnw: ‡ canys pan oedd efe yn myned i ddechreu y gwaith hwnw, dywedodd Duw wrtho, Bydd ofalus iawn, a manol, yn dy holl arolygiad a'th gyfarwyddiadau, i wneuthur pob peth, hyd yn nôd y rhanau lleiaf, o'r tabernacl y preswyliaf fi ynddo, heb y gwyriad lleiaf, ond yn gymhwys yn ol y portreiad a ddangoswyd yn eglur i ti mewn gweledigaeth yn y mynydd; yr hwn bortreiad, am ei fod o Dduw, ac yn hollawl yn ol ei feddwl ef am y tabernacl, ydoedd hefyd yn gynllun cysgodawl o ddynoliaeth Crist, y tabernacl lle y preswyliai y Duwdod; ac o'r eglwys oll ar y ddaear ac yn y nef, lle mae Duw yn preswylio, a Christ yn gweini fel Arch-offeiriad mawr.—Efallai nad oedd Moses ei hun yn deall meddwl ysbrydol y tabernacl y pryd hwnw; ond efe a fu yn fanol ac yn ffyddlawn i wneuthur pob peth fel y gorchymynodd yr Arglwydd iddo, ac yn ol y portreiad a ddangosodd Duw iddo yn y mynydd. Exod. 40. 16, 19, 21, 23, 25, 27, 29.

6 * Ond yn awr efe a [m] gafodd weinidogaeth mwy rhagorol, † o gymmaint ag y mae yn [n] Gyfryngwr cyfammod gwell, ‡ yr hwn sydd wedi ei osod [o] ar addewidion gwell.

m adn. 7—13. 2 Cor. 3. 6—11. n pen. 7. 22. a 12. 24. Gal. 3. 19, 20. o adn. 10—12. Rhuf. 9. 4. Gal. 3. 16—21. Tit. 1. 2. 2 Pedr 1. 4.

* Yn lle ymyraeth â gwaith yr offeiriaid yn ngwasanaeth cysgodawl y deml, yr oedd Crist wedi cael gweinidogaeth mwy rhagorol; o wir werth, sylwedd, ac effaith, yn y cyssegr nefol; lle yr oedd efe yn rhagori yn mhell, ac yn uwch o lawer, nâ'r holl offeiriaid o urdd Aaron. † Profai yr apostol hyny wrth ei fod ef yn Gyfryngwr cyfammod gwell, yr hwn oedd wedi ei osod ar addewidion gwell, na chyfammod Duw âg Israel yn Sinai. ‡ Cyfammod oedd hwn wedi ei ffurfio yn sefydliad awdurdodawl; ar addewidion mwy ysbrydol, manteisiol a nefol, helaeth a diammodol, (adn. 10, 11, 12.) nâ'r rhai oedd gynnwysedig yn y gweinyddiad seremonïol o hóno gynt wrth Sinai; ac mae yn amlwg fod hwn yn gyfammod gwell, a mwy perffaith, nâ hwnw. Yn awr, os yw y cyfammod yn well nâ chyfammod Sinai, rhaid bod gan Grist, Cyfryngwr y cyfammod, weinidogaeth mwy rhagorol nâ'r offeiriadaeth Iuddewig.

7 * Oblegid yn wir pe buasai y cyntaf hwnnw yn [p] ddifeius, † ni cheisiasid lle i'r ail.

p adn. 6. pen. 7. 11, 18. Gal. 3. 21.

Gallasai yr Hebreaid ddysgu yn ddiddadl gan eu prophwydi eu hunain, pe gwrandawsent yn iawn arnynt, nad oedd y cyfammod â hwy fel cenedl, na'r oruchwyliaeth seremonïol hòno, wedi eu bwriadu i barâu yn ddigyfnewid. * Oblegid pe buasai y cyfammod hwnw yn ddifeïus, heb ddim diffyg ynddo, ac yn addas a digonol i ddwyn yr eglwys i'r ystâd uwchaf o berffeithrwydd yr oedd i gael ei dwyn iddi ar y ddaear; † ni buasai dim lle i ail gyfammod, nac achos i geisio lluniaethu na sefydlu yr un; gan nad yw yr Arglwydd byth yn newid ei drefniadau heb achos am hyny. Yr oedd y ddeddf seremonïol, a chyfammod Sinai, yn addas ddigon i arwain i mewn y Messïah addawedig, a goruchwyliaeth yr efengyl, ac i ffurfio megys esgynlawr i'r adeilad fawreddus hòno; eto nid oeddynt yn diogelu sancteiddiad ac iachawdwriaeth y bobl, nac ychwaith yn rhag-flaenu y fath wrthgiliadau yn y genedl, ag oedd yn achos iddynt golli eu holl freintiau.

8 * Canys yn beio arnynt hwy [q] † y dywed *efe*, [r] Wele, y mae y dyddiau yn dyfod (medd yr Arglwydd) ‡ ac mi a wnaf â thŷ Israel ac â thŷ Juda [s] || gyfammod [t] newydd:

q Gwel ar Jer. 31. 31—34. r pen. 10. 16, 17. Jer. 23. 5, 7. a 30. 3. a 31. 27, 31, 38. Luc 17. 22. s pen. 9. 15. a 12. 24. Mat. 26. 28. Marc 14. 24. Luc 22. 20. 1 Cor. 11. 25. 2 Cor. 3. 6. t Es. 55. 3. Jer. 32. 40. a 33. 24—26. Ezec. 16. 60, 61. a 37. 26.

* Canys tuag amser caethiwed Babilon, mae yr Arglwydd trwy y prophwyd Jeremïah, yn beïo ar genedl Israel, ac yn eu ceryddu am eu tòriadau o'i gyfammod ef: † ac wrth wneyd hyny, mae efe yn addaw fod y dyddiau yn dyfod, sef dyddiau y Messïah, ‡ pryd y gwnâi efe â'i bobl yn mhlith yr Iuddewon, rhai yn mhlith deg llwyth gwrthgiliedig Israel, yn gystal â llwythau Juda a Benjamin, || gyfammod newydd; neu oruchwyliaeth newydd, o fendithion rhad, ysbrydol, a diammodol, a hyny yn ddigyfnewid a dïalw yn ol byth. Ac nid â rhai o dŷ Israel a thŷ Juda yn unig yr oedd Duw yn gwneyd y cyfammod newydd hwn; ond â'i holl Israel ysbrydol, y rhai a gysgodid ganddynt hwy, ac a elwir dàn yr efengyl yn *Israel Duw*, (Galat. 6. 16.) pa un bynag ai Iuddewon ai cenedloedd ydynt. Mae y geiriau a ddyfyna yr apostol yn yr adnod hon, ac oddi yma hyd ddiwedd adn. 12, wedi eu cymmeryd o Jer. 31. 31—34, gydag ychydig wahaniaeth, ond yn rhoddi synwyr yr Hebraeg, medd *Scott*.

9 * Nid fel y [u] cyfammod a wnaethum â'u tadau hwynt, † yn y dydd yr [x] ymaflais yn eu llaw hwynt i'w [y] dwyn hwy o dir yr Aipht: [z] ‡ oblegid ni thrigasant hwy yn fy nghyfammod i, || minnau a'u [a] hesgeulusais hwythau, § medd yr Arglwydd.

u pen. 9. 18—20. Ex. 24. 3—11. a 34. 10, 27, 28. Deut. 5. 2, 3. a 29. 1, 12. Gal. 3. 15—19. a 4. 24. x Gen. 19. 16. Job 8. 20. Can. 8. 5. Es. 41. 13. a 51. 18. Marc 8. 23. Act. 9. 8. a 13. 11. y Ex. 19. 4, 5. Salm 77. 20. a 78. 52—54. a 105. 43. a 136. 11—14. Es. 40. 11. a 63. 9, 11—13. z Ex. 32. 8. Deut. 29. 25. a 31. 16

—18. Jos. 23. 15, 16. 2 Bren. 17. 15—18. Salm 78. 10, 11, 57. Es. 24. 5, 6. Jer. 11. 7, 8. a 22. 8, 9. a 31. 32. Ezec. 16. 8, 59. a 20. 37, 38. a Barn. 10. 13, 14. Galar. 4. 16. Amos 5. 22. Mal. 2. 13.

* Nid oedd y cyfammod newydd hwn i fod yn wàn ac aneffeithiol, fel y cyfammod gynt a wnaethai Duw â thadau y genedl Iuddewig; † yn y dydd yr ymaflodd efe yn eu llaw hwynt fel Tad tyner, tosturiol, a gofalus, i'w dwyn hwynt fel plant gweiniaid a digymmorth, ac i'w gwaredu yn mawredd ei nerth a'i drugaredd, allan o'u holl orthrymder, trueni, a'u caethiwed yn nhir yr Aipht. ‡ Dywedasom nad oedd y cyfammod hwn i fod o'r un dull a chyfansoddiad â hwnw; oblegid trwy dwyll a drygioni calonau y "tadau," yn derbyn yr hyn nid oedd darpariaeth yn y cyfammod hwnw, ni thrigasant hwy yn ffyddlawn ynddo; ond dìystyrasant ef, a gwnaethant ef yn ddirym, trwy dòri dros ben ei holl rwymiadau sanctaidd ef. || Ac o herwydd hyn, tynodd Duw ei ewyllys da a'i amddiffyn oddi wrthynt, ac, yn ol telerau y cyfammod hwnw, nid edrychodd arnynt gyda chariad, gofal, a thynerwch prïod mwyach; eithr esgeulusodd hwynt yn gyfiawn, fel tòrwyr ei gyfammod. § Dyma air safadwy a dialw yn ol Duw; wedi ei lefaru bedair gwaith ganddo trwy y prophwyd Jeremiah, pen. 31. 31, 32, 33, 34. *Minnau a'u hesgeulusais hwythau:* felly mae y geiriau yn ol cyfieithiad Groeg y LXX, meddant, o ba un tybia rhai y cymmerodd yr apostol hwynt yma: *Er fy mod i* yn prïod iddynt yw yr Hebraeg, ac felly yn yr Hen Destament genym ninnau. Jer. 31. 32. Dywedir fod y gair Hebraeg *(Baal)* yn arwyddo *Arglwydd, prïod,* ac *esgeuluso, dìystyru,* a *gwrthod:* hyny, mae yn debyg, a barodd ei gyfieithu *esgeuluso* gan y LXX. Ceisiasom roddi y ddau feddwl yn y sylwad uchod. Gwel dàn y nodyn ||.

10 [b] * Oblegid hwn *yw* y cyfammod a ammodaf fi â thŷ Israel † ar ol y dyddiau hynny, medd yr Arglwydd; [c] ‡ Myfi a ddodaf fy nghyfreithiau yn eu meddwl, || ac yn eu calonnau yr ysgrifenaf hwynt: [d] § a mi a fyddaf iddynt hwy yn Dduw, [e] a hwythau a fyddant i minnau yn bobl.

b pen. 10. 16, 17. c Ex. 24. 4, 7. a 34. 1, 27. Deut. 30. 6. Jer. 31. 33. a 32. 40. Ezec. 11. 19. a 36. 26, 27. 2 Cor. 3. 3, 7, 8. Iago 1. 18, 21. 1 Pedr 1. 23. d pen. 11. 16. Gen. 17. 7, 8. Can. 2. 16. Jer. 24. 7. a 31. 1, 33. a 32. 38. Ezec. 11. 20. a 36. 28. a 37. 27. a 39. 22. Hos. 1. 10. a 2. 23. Zec. 8. 8. a 13. 9. Mat. 22. 32. 2 Cor. 6. 16. e Ex. 19. 5, 6. Rhuf. 9. 25, 26. Tit. 2. 14. 1 Pedr 2. 9, 10.

* Bydd y cyfammod newydd hwn o natur llawer gwell a sicrach: oblegid hyn fydd swm a sylwedd y cyfammod a wnaf fi o'm gwir ras a'm hewyllys da, â'm holl Israel ysbrydol, yr Iuddewon yn gyntaf, a'r cenedloedd hefyd; † "ar ol y dyddiau hyny," sef yn nyddiau goruchwyliaeth yr efengyl, gwedi i oruchwyliaeth yr Hen Destament ddarfod, medd yr Arglwydd, y JEHOFAH mawr: ‡ mi a oleuaf ac a adnewyddaf eu deall hwynt, fel y gweloṅt ysbrydolrwydd, purdeb, ac changder y gyfraith foesol, trwy weithrediad tumewnol ar eu meddyliau; ac a roddaf iddynt ddeall i weled yn eglur i mewn i athrawiaeth yr iachawdwriaeth trwy y Messiah: || nid yn unig mi a ddatguddiaf hyn yn eglur o flaen eu meddyliau; ond hefyd mi a wnaf gyfnewidiad trwyadl ar eu hewyllys a'u serchiadau, ac ar holl alluoedd ymarferol eu heneidiau; trwy ysgrifenu fy nghyfreithiau, nid ar lêchau o gèrig fel y deg gair deddf gynt; ond, trwy weithrediad goruwch-naturiol a grasol fy Ysbryd, ar lêchau cnawdol eu calonau, (2 Cor. 3. 3.) i'w tywys a'u llywodraethu hwynt yn eu holl ffyrdd. § Ac, yn ol y cyfammod newydd a gwell hwn, mi a fyddaf iddynt hwy yn Dduw holl-ddigonol, i'w hamddiffyn, eu cymmeradwyo, a'u bendithio; ac mi a'u harddelwaf hwynt, ac a wnaf bob daioni iddynt fel eu Duw: a hwy a gânt eu tueddu a'u galluogi trwy fy ngras i, i ateb eu rhwymedigaethau i mi; mewn ffordd o ffydd a chariad, dyledswydd ac ufudd-dod, ac i'm haddef i mewn proffes addas o fy enw, fel fy mhobl prïodol a chyfammodol; ac fel hyn mi a gymmeraf ofal effeithiol, na chaffo fy nghyfammod i mo'i ddiddymu ar eu rhan hwy, mwy nac ar fy rhan fy hun, fel y bu i'r cyfammod o'r blaen.—Wrth *fy nghyfreithiau* uchod, gallwn ddeall y ddeddf *foesol* yn mlaenaf; a chyda hyny, holl ddatguddiad Duw yn ei air: pob peth a ddylai gael ei dderbyn mewn ffydd yn y galon.

11 [f] * Ac ni ddysgant bob un ei gymmydog, a phob un ei frawd, † gan ddywedyd, [g] Adnebydd yr Arglwydd: [h] ‡ oblegid hwynthwy oll a'm hadnabyddant i, [i] || o'r lleiaf o honynt hyd y mwyaf o honynt.

f Es. 2. 3. a 54. 13. Jer. 31. 34. Ioan 6. 45. 1 Ioan 2. 27. g 2 Bren. 17. 27, 28. 1 Cron. 28. 9. 2 Cron. 30. 22. Ezra 7. 25. h Jer. 24. 7. Ezec. 34. 30. Hab. 2. 14. 1 Ioan 5. 20. i Jer. 6. 13. a 42. 1, 8. a 44. 12. Act. 8. 10.

* Bydd goleuni a grym y llewyrchiad goruwch-naturiol uchod ar eu meddyliau, a'r ysgrifeniad uchod o'm cyfreithiau ar eu calonau, mòr eglur, helaeth, a nerthol yn mhob mater o bwys; fel mewn cymhariaeth, na bydd raid i neb o honynt, megys dàn yr oruchwyliaeth dywyll gynt, addysgu bob un ei frawd, i adnabod yr Arglwydd, a phethau yr Arglwydd: dàn yr hen oruchwyliaeth nid oedd ganddynt ond cysgodau tywyll, ac yr oedd yn angenrheidiol iddynt eu hegluro, y naill i'r llall; ond nid felly o lawer dàn oruchwyliaeth oleuach yr efengyl. Llawer llai yr ymddybynant hwy ar, ac yr ymorphwysant mewn, addysgiadau *allanol,* fel y gwnâi llawer o'r Iuddewon gynt, a *hyny* yn ol syniadau llygredig, arwynebol, a chyfeiliornus eu Rabbiod. † Ni bydd raid iddynt, yn y dull hyn, ddywedyd bob un wrth ei gymmydog a'i gyfaill, wrth ei berthynas yn ol y cnawd, neu wrth ei "frawd" mewn perthynas grefyddol, *Canlyn* fy addysgiadau *i* i'th ddwyn i wybodaeth am Grist, ac am Dduw ynddo ef; ‡ oblegid caiff *holl* blant Sion eu dysgu yn effeithiol gan fy Ysbryd i; (Es. 54. 13; Ioan 6. 45.) fel y gallont yn brofiadol, yn greddiniol, yn serchiadol, ac yn ymarferol, fy adnabod i ynddynt, erddynt; a throstynt eu hunain; yn ol y datguddiad eglur a wnaf fi o'm perffeithiau, fy nghyngorion, fy ewyllys, a ffordd iachawdwriaeth trwy y Messiah, yn yr efengyl. || A hyn a fydd i'r credinwyr gwànaf a lleiaf yn eu plith, yn gystal âg i'r rhai cryfaf a mwyaf; neu pa wahaniaeth bynag arall a allo fod yn eu mysg, o ran graddau eu hadnabyddiaeth o hónof fi.—Nid ydym i ddeall wrth y geiriau uchod, *ni ddysgant,* eu bod yn cauad allan bob addysgu cyhoedd a phersonol, gweinidogaethol, teuluaidd, a chyfeillachol; byddai hyny yn groes i ddeddf natur a rheswm, ac yn groes i orchymynion aml y Testament Newydd: gan hyny rhaid eu deall un ai mewn ystyr gymharol, fel y mae y cyfryw ymadroddion i'w deall yn aml: (Gwel Es. 43. 18; Jer. 23. 18; Matth. 9. 13.) neu ynte gyda golwg ar y *dull* o ddysgu a arferid, ac a orphwysid arno, dàn oruchwyliaeth yr Hen Destament; yn nghyd ag addysgiadau llygredig a chyfeiliornus y doctoriaid Iuddewig: efallai bod pob un o'r ddau beth uchod i'w deall yn y geiriau.

12 [k] * Canys trugarog fyddaf wrth eu hanghyfiawnderau, † a'u pechodau hwynt ‡ a'u hanwireddau || ni chofiaf ddim o honynt mwyach.

k pen. 10. 16, 17. Salm 25. 7. a 65. 3. Es. 43. 25. a 44. 22. Jer. 33. 8. a 50. 20. Mica 7. 19. Act. 13. 38, 39. Rhuf. 11. 27. Eph. 1. 7. Col. 1. 14. 1 Ioan 1. 7—9. a 2. 1, 2. Dat. 1. 5.

* Ac, fel na byddo dim rhwystr i'r cyfraniad rhydd o'm gras i, a chyflawniad addewidion fy nghyfammod iddynt; mi a faddeuaf yn drugarog eu holl weithredoedd anghyfiawn hwynt, trwy eu ffydd hwy yn iawn Crist: † ac am eu troseddiadau pechadurus ac aneirif hwynt o'm gorchymynion i, eu mynych ymadawiad oddi wrth rëol eu dyledswydd, a'u hanghyddfurfiad aml a phechadurus â'm cyfreithiau; ‡ myfi, yr hwn a bïau maddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod, a hyny yn ogoniant i mi; ïe, myfi a faddeuaf iddynt mòr llwyr a hollawl, || â phe byddwn wedi eu hanghofio oll: ni chofiaf

ddim o honynt byth mwyach, i euog-farnu neb o'm pobl gyfammodol o'u plegid; eithr mi a'u *dilëaf* hwynt oll, ac a'u *taflaf y tu ol i'm cefn*, ac megys *i ddyfnderoedd y môr.* (Es. 38. 17; a 42. 22; Mica 7. 19.) Fel hyn wedi eu maddeu, eu dilëu, a'u hanghofio; ni ddeuant byth mwyach i goffadwriaeth; fel pechodau Israel bob blwyddyn dàn yr hen oruchwyliaeth: (pen. 10. 3.) ac ni chaiff fy mhobl eu hedliw iddynt byth mwyach; genyf fi, gan y ddeddf, na chan neb o'u gelynion.

13 * Wrth ddywedyd, [l] *Cyfammod* newydd, [m] efe a farnodd y cyntaf yn hen. † Eithr yr hwn a aeth yn hen ac yn oedranus, [n] *sydd* agos i ddiflanu.

l Gwel ar adn. 8. m pen. 7. 11, 12, 18, 19. a 9. 9, 10. n Es. 51. 6. Mat. 24. 35. 1 Cor. 13. 8. 2 Cor. 5. 17.

* Mae yr apostol gan hyny yn casglu yn *benderfynol* oddi wrth y brophwydoliaeth uchod, bod yr addewid o gyfammod newydd, mewn effaith wedi gwneyd y cyntaf yn hen: wrth fod Duw yn dywedyd, Cyfammod newydd, *efe* a farnodd (neu a *wnaeth*, yn ol y Saesoneg) y cyntaf yn hen; i'w ddiddymu a'i roddi heibio, fel hen-beth diddefnydd ac allan o amser. † Ac fel mae pob peth a dreulio allan drwy wendid, neu a ddettyd ac a edwina drwy henaint, megys dynion a dillad, neu unrhyw bethau eraill a heneiddiant, yn agos iawn a darfod, ac na byddant o wasanaeth mwy; felly yr oedd yr hen oruchwyliaeth Iuddewig, yn nghyd a'i holl ddefodau, ei seremoniau a'i gosodiadau, wedi myned yn oedranus, ac yn agos iawn i ddiflanu a chael eu taflu o'r golwg. Yn gyfatebol i hyn, rhag-ddywedodd yr Arglwydd Iesu, (Matth. 24. 2, 34.) y llwyr ddinystrid teml Jerusalem yn fuan iawn, ar yr hon yr oedd y rhan benaf o'r addoliad Iuddewig a'r ordinâdau yn ymddybynu: ac oddi wrth y brophwydoliaeth uchod yn Jeremïah, ac eraill cyffelyb iddi, gallasai yr Iuddewon ddysgwyl terfyn a diddymiad ar y cyfammod â hwynt fel cenedl, ac ar yr holl oruchwyliaeth seremoniol, pan ddelai y Messïah, oni buasai eu bod wedi cyfeiliorni heb wybod yr ysgrythyrau. Yr oedd yn llawn bryd ynte i'r Hebreaid hyn lwyr ddarfod â'r oruchwyliaeth ddiflanedig hòno, a glŷnu wrth Grist y gwir Arch-offeiriad; am fod eu teml a'u dinas, a holl ordinâdau eu hen grefydd i gael eu dystrywio a'u terfynu yn fuan iawn, pan ysgrifenodd yr apostol y geiriau hyn.

PEN. IX.

Y mae gn dangos dull seremoniau ac aberthau gwaedlyd y gyfraith.

* AM hynny yn wir yr ydoedd hefyd [a] i'r tabernacl cyntaf [b] ddefodau gwasanaeth Duw, [c] † a chyssegr bydol.

a pen. 8. 7, 13. b adn. 10. Lef. 18. 3, 4, 30. a 22. 9. Num. 9. 12. Ezec. 43. 11. Luc 1. 6. c adn. 10, 11. pen. 8. 2. Ex. 25. 8. Col. 2. 8.

Gan y gwyddai yr apostol yn dda am ymlŷniad gormodol a pheryglus wrth seremoniau yr hen oruchwyliaeth, mae efe yma yn myned rhagddo i ddangos yn fwy neilldiol iddynt, eu cyfeiriad cysgodol hwy at Grist. * Yr oedd i'r "tabernacl cyntaf" yn wir, sef hwnw dàn y ddeddf seremoniol, "ddefodau gwasanaeth Duw," y cyflawniad o ba rai oedd yn gwneyd i fynu ran fawr o gyfiawnder deddfol Israel fel cenedl: † ac yr oedd yn perthyn iddo hefyd "gyssegr bydol," wedi ei adeiladu o'r fath ddefnyddiau, a'i harddu â'r fath wychder, ag a gair yn y byd hwn, ag a hoffir gan ddynion anianol. "*Tabernacl* cyntaf:" "*cyfammod* cyntaf" sy gan y Saeson; a'r gair "cyfammod" mewn llythyrenau Italaidd, megys yn adn. 13, o'r bennod o'r blaen, o ba le hefyd y cymmerasant y gair, mae yn debyg, gan ystyried yr adnod hon fel parâd o'r mater yno. Y gair *skênê*, "tabernacl," sydd yn y Testament Groeg; ond dywed ein Hawdwyr nad oes na *thabernacl* na *chyfammod* mewn amryw hen ysgrifau o'r adnod hon; a thybia rhai o honynt mai rhyw ysgrifenydd a roddodd y gair *skênê* i mewn yn ddiweddarach. *Cyfammod* a ddylai fod yn ol barn tri o honynt, ond mae *Doddridge* yn grŷf o'r farn mai *tabernacl* a ddylai fod.

2 * Canys yr oedd [d] tabernacl wedi ei wneuthur; [e] † y cyntaf, yn yr hwn *yr oedd* y canhwyllbren, ‡ a'r bwrdd, a'r bara gosod; ‖ yr hwn dabernacl a elwid, Y cyssegr.

d Ex. 26. 1—30. a 36. 8—38. a 39. 32—34. a 40. 2, 18—20. e Ex. 25. 23—40. a 26. 35. a 37. 10—24. a 39. 36—38. a 40. 22—24.

* Canys Moses, wrth orchymyn Duw, a barodd adeiladu y tabernacl, neu y babell yn yr anialwch, yr hon heblaw y cynteddau a'r porth, oedd gynnwysedig o ddwy ran; † yn y rhan gyntaf, yr oedd y canwyllbren a'i lampau wedi eu goleuo âg olew; yr hyn efallai oedd yn gysgod o'r cyflawnder o oleuni ysbrydol sydd yn Nghrist, i'w gyfranu trwy yr Ysbryd Glân, yn ordinâdau yr efengyl i'r eglwys, (lle y preswylia Duw, fel yn ei deml neu ei dabernacl ysbrydol) yn ol mesur dawn Crist, yr hwn sydd yn rhodio yn nghanol y saith ganwyllbren aur, ac yn dàl y saith seren yn ei ddeheulaw. ‡ Ac yn y rhan hon o'r tabernacl yr oedd y "bwrdd, a'r bara gosod" arno; yr hyn, efallai, oedd yn cysgodi y cymundeb sydd i gredinwyr â Duw yn Nghrist, a'r ddarpariaeth a wnaeth iddynt ynddo ef, fel bara y bywyd. Dyma rai o'r prif ddodrefn, priodol i wasanaeth y rhan *gyntaf* hon o'r tabernacl; ‖ yr hon a elwid "Y cyssegr," (Exod. 26. 33.) am ei bod wedi ei chyssegru i anrhydedd ac addoliad Duw, wedi ei sancteiddio â'i bresenoldeb ef; ac yn lle y gweinyddai yr offeiriaid yn gyffredin a beunyddiol ynddo, yn nghylch pethau sanctaidd. Gwel y Geiriadur Ysgrythyrol am ddysgrifiad ar y dodrefn a enwir yn yr adnod hon a'r rhai a ganlyn, dàn eu gwahanol enwau.

3 * Ac yn ol yr [f] ail len, *yr oedd* y babell, † yr hon a elwid, [g] Y cyssegr sancteiddiolaf;

f pen. 6. 19. a 10. 20. Ex. 26. 31—33. a 36. 35—38. a 40. 3, 21. 2 Cron. 3. 14. Es. 25. 7. Mat. 27. 51. g adn. 8. pen. 10. 19. 1 Bren. 8. 6.

* Yr oedd yr *ail* ran o'r adeilad sanctaidd hon yn y pen gorllewinol, y tu arall i'r ail lèn, yr hon oedd o wneuthuriad tra chywrain, ac yn gwahanu rhwng y cyssegr a grybwyllwyd o'r blaen â'r ystafell hon; † yr hon mewn ffordd o enwogrwydd a elwid Y cyssegr Sancteiddiolaf, gan ei fod y lle sancteiddiolaf o gwbl; am fod Duw yma yn amlygu ei bresenoldeb yn yr arwyddion mwyaf ardderchog a mawreddus o ogoniant; a'r arch-offeiriad yn unig oedd i fyned i mewn yma, â gwaed yr aberth, a hyny ond unwaith yn y flwyddyn, ar ddydd mawr y cymmod. Yr oedd hyn yn gysgod o'r nef, ac o Iesu ein Harch-offeiriad mawr ni yn myned i mewn yno, trwy lèn ei gnawd, ac â'i waed ei hun, i eiriol drosom ni, ac i gael i ni dragywyddol ryddâd.

4 * Yr hwn yr oedd y [h] thuser ynddo, [i] † ac arch y cyfammod wedi ei goreuro o amgylch; ‡ yn yr hon *yr oedd* y [k] crochan aur a'r manna ynddo, [l] ‖ a gwïalen Aaron, yr hon a flagurasai, [m] § a llechau y cyfammod;

h Lef. 16. 12. 1 Bren. 7. 50. Dat. 8. 3. i Ex. 25. 10—16. a 37. 1—5. a 39. 35. a 40. 3. k Ex. 16. 33, 34. l Num. 17. 5, 8, 10. Salm 110. 2, 3. m Ex. 25. 16. a 26. 33. a 40. 3, 21. Deut. 10. 2—5. 1 Bren. 8. 9, 21. 2 Cron. 5. 10.

* Yn, neu ar y "thuser aur," y llosgai yr arch-offeiriad yr arogl-darth o fewn y wahan-lèn, ar ddydd y cymmod; a thybia rhai y byddai yn cael ei gadael yn y Sancteiddiolaf, yn union o fewn y wahan-lèn, drwy y flwyddyn. Paham na buasai yr *allor aur* yn cael ei henwi? tybia rhai ei bod yn gynnwysedig yn y gair *thumiaterion*, a gyfieithwyd *thuser aur.* Gallai y *thuser aur*, a llosgi yr arogl-darth arni, fod yn gysgod o ddyoddefaint dirfawr Crist, ac o ber-arogl ei eiriolaeth ef ger bron Duw. † Am hyd a lled yr "arch" hon, a'r defnyddiau o ba rai y gwnaed hi, cyfeiriwn y

darllenydd at ei hanes hi yn Exodus: gelwid hi yn "arch y cyfammod," ac "arch y dystiolaeth," am ei bod yn arwydd o gyfammod Duw âg Israel, ac yn dystiolaeth o'u plaid neu yn eu herbyn hwynt, yn ol eu hufudd-dod neu eu hanufudd-dod hwynt i'r gyfraith a gedwid o'i mewn hi: a gellid ei hystyried hi fel yn cyfeirio Israel at Grist, yr hwn a ddaeth i gyflawni y ddeddf, ac i fod yn ddiwedd y ddeddf, er cyfiawnder i bob un sydd yn credu. ‡ Yn ymyl yr arch, (nid o'i mewn, gwel ar 1 Bren. 8. 9.) yr oedd y "crochan aur," yn cynnwys cyfran o'r *manna*, â'r hwn y porthasai Duw Israel yn yr anialwch: gwnaed hyn yn ol gorchymyn Duw, (Exod. 16. 33, 34.) a chadwodd Duw ef yn wyrthiol heb fraenu na llygru, fel coffadwriaeth barâus ger bron yr Arglwydd yn y Sancteiddiolaf, ac hefyd fel cysgod o Grist, y gwir fara bywiol a thragywyddol. ‖ Yma hefyd yr oedd "gwialen" wyrthiol Aaron, â'r hon y gwnaethai ef a Moses gynnifer o wyrthiau yn yr Aipht; ac yr hon, er nad oedd ond pren sych, a flagurodd, a flodeüodd, ac a ddug almonau, oll mewn un noswaith; i ddangos fod Duw wedi dewis tŷ Aaron i'r offeiriadaeth o fiaen pawb eraill; ac hi a gadwyd yn wyrthiol yn ei blodau o hyny allan, *yer bron* arch y dystiolaeth, (Num. 17. 10.) yn arwydd gwastadol o'r amgylchiad uchod, (Num. 17. 2—10.) Yn gyffelyb i hyny, daeth Crist allan, nid heb y gwyrth rhyfeddaf yn ei genedliad; fel *gwialen o gyff* gwywedig *Jesse, a blaguryn o'i wraidd ef*, ac *fel gwreiddyn o dir sych;* a dangosodd Duw yn amlwg mai efe oedd ein Harch-offeiriad ni dàn yr efengyl, yr hwn y parâ ei swydd yn llwyddiannus byth. § Yno hefyd yr oedd dwy lêch y ddeddf foesol yn yr arch ei hun, y rhai a gynnwysent y deg gorchymyn, wedi eu hysgrifenu gan Dduw ar y ddwy lêch faen, y rhai a naddesid gan Moses; (Deut. 10. 1, 2.) ac a gynnwysent y "cyfammod," o ran ei sylwedd, a wnaethai Duw âg Israel yn Horeb. Ac yr oedd gosod y rhai hyn *yn* yr arch yn arwyddo, efallai, y byddai i'r ddeddf foesol barâu byth, yn rhëol ddigyfnewid o bob ufudd-dod sanctaidd, yn llaw Crist; ac y caffai ei chyflawni ganddo ef, fel cyfammod, er cyfiawnder i bawb a gredant ynddo.—Tybia ein Hawdwyr oll, nad oedd dim *yn* yr arch ond dwy lêch y cyfammod; ac i gysoni y fàn hon, (am y crochan aur a'r manna, a gwialen Aaron,) â 1 Bren. 8. 9, dywedant fod y geiriau Groeg *(en ê)* a gyfieithir yma *yn yr hon*, yn arwyddo *wrth*, neu *yn ymyl yr hon*, ac y gallesid eu cyfieithu felly yma. Tybia eraill fod y geiriau *yn yr hon*, yn cyfeirio, nid at yr *arch*, ond at y *Sancteiddiolaf;* (adn. 3.) lle yr oedd y crochan aur a'r manna, a gwialen Aaron, yn ddiamau, yn gystal â'r arch a llêchau y cyfammod; ond wrth ystlys yr arch, ac nid *yn* yr arch ei hun: efallai mewn cist fechan wrth ei hystlys, gyda llyfr y gyfraith, (Gwel Deut. 31. 26.) Gwel *Parkhurst*, am wahanol feddyliau y gair *en*.

5 * Ac uwch ei phen [n] cherubiaid y gogoniant, † yn cysgodi y [o] drugareddfa: ‡ am y rhai ni ellir yn awr ddywedyd bob yn rhan.

n Ex. 25. 17—22. a 37. 6—9. Num. 7. 89. 1 Sam. 4. 4. 1 Bren. 8. 6, 7. 2 Bren. 19. 15. Salm 80. 1. a 99. 1. Eph. 3. 10. 1 Pedr 1. 12. o pen. 4. 16. Lef. 16. 2, 13. 1 Cron. 28. 11.

* Uwch ben yr arch, yr oedd llun dau gerub adeiniog, a gogoneddus yr agwedd arnynt; wedi eu gwneuthur o aur pur, un ar bob pen i'r drugareddfa, ac o un cyfanwaith â hi. (Exod. 37. 8.) † Cauad ar wyneb yr arch oedd y drugareddfa, o'r un hŷd a llêd yn gymhwys â'r arch ei hun; ac fel yr oedd y cerubiaid un yn mhob pen, ac aden y naill yn cyfhwrdd âg aden y llall yn y canol, yr oeddynt yn "cysgodi y drugareddfa" fel y dywed yr apostol; a'r cwbl oll megys gorsedd fawreddus, ar yr hon yr ymddangosai y presenoldeb dwyfol yn y *Shechinah*, yn eistedd rhwng y cerubiaid, ac yn ymddysgleirio oddi yno. Salm 80. 1; Esa. 6. 1. Gall y darllenydd weled dysgrifiad o'r cerubiaid yn Ezec. 1. 10; tybir eu bod yn arddangos yr angelion sanctaidd, yn syllu ar ryfeddodau yr iachawdwriaeth fawr trwy iawn Crist, yr hyn hefyd oedd y drugareddfa aur yn ei gysgodi yn y Sancteiddiolaf. ‡ Yr oedd y crybwylliad am y gwahanol bethau uchod oll yn y tabernacl, yn dangos eu bod o bwys dàn yr hen oruchwyliaeth, ac yn cysgodi pethau o bwys dàn yr efengyl; ond nid oedd yr apostol yn meddwl llefaru yn fanol am danynt yn awr, am nad oedd hyny yn angenrheidiol i'w amcan union-gyrchol ef: gwell ganddo adael y cysgodau, a dyfod at y sylwedd.

6 * A'r pethau hyn wedi eu trefnu felly, [p] † i'r tabernacl cyntaf yn ddïau yr âi bob amser yr offeiriaid, ‡ y rhai oedd yn cyflawni gwasanaeth *Duw:*

p Ex. 27. 21. a 30. 7, 8. 2 Cron. 26. 16—19. Dan. 8. 11. Luc 1. 8—11.

* Gwedi trefnu a gorphen y pethau uchod oll yn ol gorchymyn Duw, ac yn ol y portreiad a ddangoswyd i Moses yn y mynydd; † âi yr offeiriaid cyffredin bob dydd, a phob amser, fel y byddai yr achos yn gofyn, i'r tabernacl cyntaf, sef y cyssegr, (adn. 2.) yr hwn a elwid felly i'w wahaniaethu oddi wrth y Sancteiddiolaf; ‡ ac yno cyflawnent bob gwasanaeth a berthynai i'w swydd hwynt yn addoliad Duw; megys offrymu aberthau, trwsio y lampau, ac arogl-darthu ar yr allor aur.

7 [q] * Ac i'r ail unwaith bob blwyddyn *yr âi* yr arch-offeiriad yn unig; [r] † nid heb waed, yr hwn a offrymmai efe drosto ei hun, [s] a *thros* anwybodaeth y bobl.

q adn. 24, 25. Ex. 30. 10. Lef. 16. 2—20. r pen. 5. 3. a 7. 27. a 10. 19, 20. s Lef. 5. 18. 2 Sam. 6. 7. 2 Cron. 33. 9. Salm 19. 12. a 95. 10. Es. 3. 12. a 9. 16. a 28. 7. a 29. 14. Hos. 4. 12. Amos 2. 4.

* Ond i'r "ail," sef y cyssegr Sancteiddiolaf, nid âi neb ond yr arch-offeiriad yn unig, yr hwn oedd gysgod nodedig o Grist; ac nid oedd yntau chwaith i fyned i mewn yno ond unwaith, neu ar un diwrnod, yn y ffwyddyn, sef ar ddydd mawr y cymmod. † Ac nid oedd i fyned yno y pryd hwnw heb waed; rhaid iddo aberthu dros ei bechodau ei hun yn gyntaf, am ei fod wedi ei amgylchu â gwendid, (pen. 5. 2.) ac yn bechadur fel eraill; yna dros annwybodaeth y bobl, sef holl genedl Israel; ac yna myned â gwaed yr aberthau hyny o fewn y wahan-lèn, i'w daenellu ger bron y drugareddfa.—Yr oedd hyn oll yn gysgod o aberth mawr Crist ar y ddaear, a'i eiriolaeth yn y nef: ac yn dangos i ni nad oes maddeuant am bechod, na dyfodiad i bresenoldeb grasol Duw, a chael cymmeradwyaeth gydag ef, ond trwy aberth, gwaed, ac eiriolaeth ein Iesu mawr. *Annwybodaeth:* yr holl bechodau a wnaid mewn annwybodaeth, ag yr oedd aberth drostynt: pob peth ond pechodau rhyfygus.

8 * A'r [t] Ysbryd Glân yn hyspysu hyn, [u] † nad oedd y ffordd i'r cyssegr sancteiddiolaf yn agored etto, ‡ tra fyddai y tabernacl cyntaf yn sefyll:

t pen. 3. 7. a 10. 15. Es. 63. 11. Act. 7. 51, 52. a 28. 25. Gal. 3. 8. 2 Pedr 1. 21. u adn. 3. pen. 4. 15, 16. a 10. 19—22. Ioan 10. 7, 9. a 14. 6. Eph. 2. 18.

* Trwy yr holl attaliadau a'r terfynau hyn, y rhai oedd yn cadw hyd yn nôd addolwyr y JEHOFAH yn y fath bellder arswydlawn; yr oedd yr Ysbryd Glân, trwy yr hwn y sefydlodd Moses hwynt, ac yr ysgrifenodd am danynt, yn hysbysu y gwirionedd pwysfawr hyn; † sef nad oedd y ffordd i'r cyssegr Sancteiddiolaf yn agored, neu yn rhydd dàn yr oruchwyliaeth hòno i'r offeiriaid oll, a llawer llai i'r bobl oll; ac nad oedd y ffordd i gredinwyr at orsedd gras yn y byd hwn, ac i'r nef yn y diwedd, trwy ffydd yn ngwaed Crist, wedi ei datguddio mòr agored ac eglur eto, ag ydyw hi yn awr dàn yr efengyl. ‡ Nis gallasai hyny fod tra yr oedd y tabernacl cyntaf (a'r deml hefyd wedi hyny yr un modd,) yn sefyll, a'i wasanaeth yn cael ei gyflawni fel gosodiad dwyfol, ac yn addas yn unig i gyflwr cysgodawl yr eglwys y pryd hwnw.—Tybia rhai mai y Sancteiddiolaf yn y tabernacl daearol yn unig, a feddylir

yma wrth y *cyssegr Sancteiddiolaf:* tybia eraill mai presenoldeb grasol Duw yn Nghrist a feddylir, yr hyn a gysgodid yn rhagorol yn yr arch, cerubiaid y gogoniant, a'r drugareddfa, adn. 4, 5; a thybia eraill eto, mai y nef ei hun a feddylir; yr hon a gysgodid drwy y cyssegr Sancteiddiolaf, ac a elwir y *cyssegr* yn adn. 12, a pen. 10. 19. Gwedi y cwbl, nid hawdd yw penderfynu pa un o'r pethau uchod yn bennodawl oedd yr apostol yn feddwl. "Tra fyddai y tabernacl cyntaf yn *sefyll:*" yr oedd y deml, a ddaeth ar ol ac yn lle y tabernacl, ac sydd gynnwysedig gyda'r tabernacl yn y geiriau hyn oll, yn *sefyll* yn amser yr apostol; ond gwedi sefydlu goruchwyliaeth yr efengyl, yr oedd mewn effaith wedi colli ei safiad a'i defnyddioldeb, mewn gwir grefydd.

9 * Yr hwn *ydoedd* [x] gyffelybiaeth dros yr amser presennol, † yn yr hwn yr offrymid [z] rhoddion ac aberthau, [a] ‡ y rhai ni allent o ran cydwybod berffeithio yr addolydd,

x adn. 24. pen. 11. 19. Rhuf. 5. 14. 1 Pedr 3. 21. y pen. 7. 11. a 11. 39, 40. 1 Pedr 1. 11, 12. z Gwel ar pen. 5. 1. a adn. 13, 14. pen. 7. 18, 19. a 10. 1—4, 11. Gal. 3. 21.

* Yr oedd y tabernacl hwnw, (a'r deml yr un modd ar ei ol,) yn nghyd a'i holl ddodrefn a'i wasanaeth, yn gyffelybiaeth, neu arddangosiad cysgodawl o ddaionus bethau dàn yr efengyl; a hyny *dros* yr amser presenol hwnw; ac yn cyfeirio *at* yr amser presenol pan oedd yr apostol yn ysgrifenu; sef amser goruchwyliaeth yr efengyl: † yn yr amser a'r tabernacl hwnw gynt, offrymid rhoddion ac aberthau i Dduw; rhai o honynt yn rhoddion, heb waed; ac eraill yn aberthau lladdedig trwy waed; ac felly yn fwy union-gyrchol o natur gymmodawl: ‡ ond er eu bod yn gwasanaethu i bureiddiad y cnawd oddi wrth halogrwydd seremonïol, (adn. 13.) ac i dynu ymaith gospedigaethau *tymmorol* am bechodau Israel; eto nid oedd ynddynt ddim gwerth na rhinwedd i wneyd iawn dros *bechod*, nac i dynu ymaith euogrwydd oddi ar gydwybodau yr addolwyr; nis gallent berffeithio yr addolwyr oedd yn aberthu, o ran cydwybod; trwy eu cymmodi â Duw, eu cyfiawnâu, nâ'u sancteiddio. Eu hunig ddefnydd oedd, cysgodi aberth mawr y Cyfryngwr, ac felly tywys yr addolwyr i gredu ynddo ef, ac i ymorphwys arno am berffeithiad yn y pethau uchod. *Perffeithio: (teleiósai:)* yr oedd rhywbeth chwaneg yn eisiau, sef yr hyn a arwyddid drwy y cysgodau hyn.

10 * *Y rhai oedd yn sefyll* yn unig [b] ar fwydydd, a dïodydd, [c] † ac amryw olchiadau, [d] ‡ a defodau cnawdol, ‖ wedi eu gosod *arnynt* [e] hyd amser y diwygiad.

b pen. 13. 9. Lef. 11. 2, &c. Deut. 14. 3—21. Ezec. 4. 14. Act. 10. 13—15. Col. 2. 16. c pen. 6. 2. a 10. 22. Ex. 29. 4. a 30. 19—21. a 11. 12. Lef. 14. 8, 9. a 16. 4, 24. a 17. 15, 16. a 22. 6. Num. 19. 7—21. Deut. 21. 6. a 23. 11. d adn. 1. pen. 7. 16. Gal. 4. 3, 9. Eph. 2. 15. Col. 2. 20—22. e pen. 2. 5. a 6. 5. Gal. 4. 4. Eph. 1. 10.

* Ordinâdau eraill yr oruchwyliaeth hòno, y rhai oedd gyssylltiedig â'i haberthau hi, oeddynt gynnwysedig gan mwyaf mewn rhëolau yn nghylch bwydydd a dïodydd; pa fwydydd oedd yn lân, a pha rai oedd yn aflan; a pha ddïodydd oedd yn ganiatâol ac yn waharddedig i'r offeiriaid a'r Nazarëaid; a pha rai oedd i'w defnyddio fel dïod-offrymau yn ngwasanaeth Duw: † hefyd, yn nghylch "amryw olchiadau" neu *fedyddiadau, â* dwfr neu *mewn* dwfr; megys golchi yr aberthau, yr offeiriaid, a'r bobl, yr hyn oedd gysgod, a dim ond cysgod, o sancteiddiad yr enaid; ‡ oblegid nid oedd hyn oll, ac amryw bethau eraill cyffelyb, ond "defodau cnawdol," yn sancteiddio yn unig i bureiddiad y cnawd, ac yn tueddu i grëu syniadau cnawdol am bethau ysbrydol, mewn dynion anianol eu meddyliau. ‖ Gan fod y pethau uchod yn annigonol i buro y gydwybod, ac i berffeithio ystâd yr eglwys, ni fwriadwyd erioed iddynt barâu yn wastadol; ond a roddwyd fel iau caethiwed ar y bobl dàn y ddeddf, (Act. 15. 10.) am ryw amser pennodol yn unig, hyd ddyfodiad y Messïah; pryd yr oedd pob peth i gael eu dwyn i'w priodol drefn a'u lle, i ddiwygio pob anmherffeithrwydd yn addoliad Duw, ac i'w sefydlu mewn ystâd berffaith o sancteiddrwydd ac ysbrydoldeb, goleuni a gras, er ei ogoniant ef, ac iachawdwriaeth yr eglwys.—"Y *rhai* oedd yn sefyll:" "yr *hyn* oedd yn sefyll," yw y Saesoneg; ond nid yw y naill nâ'r llall yn y Groeg, a dywedir fod y beirniaid yn methu cytuno, pa fodd i sefydlu cyssylltiad yr adnod hon â'r adnod o'r blaen: tebyg mai y "rhoddion a'r aberthau" yn adn. 9, oedd y *rhai*, neu yr *hyn*, oedd yn "*sefyll* ar fwydydd a dïodydd," &c., yn yr adnod hon; hyny yw, nid oedd y cyntaf yn gymmeradwy heb yr ail.

11 * Eithr [f] Crist, wedi dyfod [g] yn Arch-offeiriad [h] y daionus bethau a fyddent, [i] † trwy dabernacl mwy a pherffeithiach, [k] nid o waith llaw, ‡ hynny yw, nid o'r adeiladaeth yma.

f Gen. 49. 10. Salm 40. 7. Es. 59. 20. Mal. 3. 1. Mat. 2. 6. a 11. 3. Ioan 4. 25. 1 Ioan 4. 2, 3. a 5. 20. 2 Ioan 7. g Gwel ar pen. 2. 17. a 3. 1. a 4. 15.—a 5. 5, 6. a 7. 1—11, 26, 27. a 8. 1. h pen. 10. 1. i adn. 1—9. pen. 8. 2. Ioan 1. 14. k adn. 23, 24. Act. 7. 48. a 17. 24, 25. 2 Cor. 5. 1. Col. 2. 11.

* Gwedi hir ddysgwyl, daeth y Gwaredwr addawedig o'r diwedd, i fod yn Arch-offeiriad mawr, i dywallt bendithion yr iachawdwriaeth ar yr holl gredinwyr, yn mhlith pob cenedl ar y ddaear heb wahaniaeth, trwy holl oesoedd dyfodawl y byd, ac i dragywyddoldeb: ïe, efe a ddaeth i gyflawni holl hen addewidion Duw i'w bobl. † Pennodwyd ef i wneuthur hyn trwy weinyddu fel Arch-offeiriad, mewn tabernacl mwy a pherffeithiach, nâ hwnw a wnaed gan Moses, nâ'r deml a wnaed gan Solomon, ac nâ phob adeilad o waith llaw gan ddynion: ‡ hyny yw, mae efe yn offeiriadu mewn tabernacl nid o'r adeiladaeth yma; nid o adeiladaeth dynion, na dim yn debyg i'r grëadigaeth ei hun; ond mewn tabernacl o drefniad dwyfol ddoethineb, ac o waith anfeidrol allu. Gellir deall hyn am ei ddynoliaeth sanctaidd ef, yn yr hon y pabellodd efe ar y ddaear, ac y mae yn offeiriadu yn y nef; neu ynte, yn hytrach, am y nef ei hun, lle mae efe yn ymddangos ger bron Duw drosom ni. Dynoliaeth Crist, medd *Guyse*, oedd y "tabernacl mwy a pherffeithiach" hwn: *nid* y ddynoliaeth, medd *Pool*, oblegid hòno oedd yr aberth, yn ateb i'r aberthau cysgodol, yn y tabernacl cysgodol: ac â'r golygiad olaf y cytuna *Doddridge*, a *Scott* hefyd yn hytrach.

12 * Nid chwaith [l] trwy waed geifr a lloi, [m] † eithr trwy ei waed ei hun, [n] ‡ a aeth [o] unwaith i mewn i'r cyssegr, [p] ‖ gan gael *i ni* dragywyddol ryddhâd.

l adn. 13. pen. 10. 4. Lef. 8. 2. a 9. 15. a 16. 5—10. m pen. 1. 3. a 10. 9—14. Act. 20. 28. Eph. 1. 7. Col. 1. 14. Tit. 2. 14. 1 Pedr 1. 19. Dat. 1. 5. a 5. 9. n Gwel ar adn. 7.—a 24—26. pen. 10. 12. o Zec. 3. 9. p adn. 15. pen. 5. 9. Dan. 9. 24. Marc 3. 29. Gal. 3. 13, 14. 1 Thes. 1. 10.

* Nid trwy waed geifr a lloi ychwaith, y gwnaeth Iesu aberth dros bechod; ac nid â gwaed felly yr aeth efe i mewn i'r cyssegr yn y nef: † eithr wedi iddo ef dywallt ei werthfawrocaf waed ei hun ar y ddaear, megys yn nghyntedd y cyssegr, ‡ efe a aeth i mewn unwaith am byth, i'r gwir gyssegr yn y nef; i ddadleu teilyngdod ei waed ger bron gorsedd-fainc y Tad, fel perffaith iawn dros holl bechodau ei bobl; ‖ gan gael felly iddynt hwy dragywyddol ryddâd oddi wrth ddigofaint, a phechod, a'i holl ganlyniadau; a chan gael sicrwydd, nas gofynid iawn mwyach drostynt hwy byth. Dyma well Arch-offeiriad, gwell aberth a gwaed, a gwell eiriolaeth, nac ydoedd dàn y ddeddf: moler Duw byth, am fod y daionus bethau hyn wedi ddyfod.

13 * Oblegid os ydyw gwaed teirw a geifr, [q] a lludw anner wedi ei daenellu ar y rhai a halogwyd, yn sancteiddio i [r] bureiddiad y cnawd;

q Num. 19. 2—21. r Num. 8. 7. a 19. 12. 2 Cron. 30. 19. Salm 51. 7. Act. 15. 9. 1 Pedr 1. 22.

14 [s] † Pa faint mwy y bydd i [t] waed Crist, ‡ yr hwn [u] trwy yr [x] Yspryd tragywyddol a'i [y] hoffrymmodd ei hun [z] yn ddi-fai i Dduw, [a] || buro eich cydwybod chwi oddi wrth [b] weithredoedd meirwon, [c] § i wasanaethu y [d] Duw byw?

s Deut. 31. 27. 2 Sam. 4. 11. Job 15. 16. Mat. 7. 11. Luc 12. 24, 28. Rhu. 11. 12, 24. t Gwel ar adn. 12.—1 Ioan 1. 7. u Es. 42. 1. a 61. 1. Mat. 12. 28. Luc 4. 18. Ioan 3. 34. Act. 1. 2. a 10. 38. 1 Pedr 3. 18. x Deut. 33. 27. Es. 57. 15. Jer. 10. 10. Rhuf. 1. 20. 1 Tim. 1. 17. y Gwel ar adn. 7. pen. 7. 27. Mat. 20. 28. Eph. 5. 2. Tit. 2. 14. 1 Pedr 2. 24. a 3. 18. z Lef. 22. 20. Num. 19. 2—21. a 28. 3, 9, 11. Deut. 15. 24. a 17. 1. Es. 53. 9. Dan. 9. 24—26. 2 Cor. 5. 21. 1 Pedr 1. 19. a 2. 22. 1 Ioan 3. 5. a adn. 9. pen. 1. 3. a 10. 2, 22. b Gwel ar pen. 6. 1. c Luc 1. 74. Rhuf. 6. 13, 22. Gal. 2. 19. 1 Thes. 1. 9. 1 Pedr 4. 2. d pen. 11. 22. Deut. 5. 26. 1 Sam. 17. 26. 2 Bren. 19. 16. Jer. 10. 10. Dan. 6. 26. Act. 14. 15. 2 Cor. 6. 16. 1 Tim. 3. 15.

* Oblegid os oedd gwaed teirw a geifr, a chrëaduriaid direswm eraill, y rhai a offrymid dàn y ddeddf; ac os oedd lludw anner goch, yr hon nid aethai iau arni, ac yr hon a losgid yn bech-aberth; os oedd gwaed y crëaduriaid hyny, a'r lludw hwnw wedi ei gymmysgu â dwfr, a'i daenellu ar ddynion a halogasid yn seremoniol trwy gyfhwrdd â'r marw, neu unrhyw foddion eraill, yn ddigon i'w sancteiddio hwy i bureiddiad y cnawd yn allanol, i'w hail-dderbyn hwynt i'r addoliad cyhoeddus yn y tabernacl, ac i gynnulleidfa yr Arglwydd, o'r hon yr oeddynt wedi eu cauad allan; † pa faint mwy rhinweddol ac effeithiol y rhaid bod gwaed gwerthfawr Crist, y Duw-ddyn, ein Harch-offeiriad a'n haberth ni, ‡ yr hwn trwy anfeidrol fawredd a chynnaliaeth ei dduwdod ei hun, yr hwn fel yr allor oedd yn sancteiddio y rhodd; a thwy eneinniad yr Ysbryd tragywyddol, yr hwn a roddwyd iddo ef fel dyn a Chyfryngwr dros fesur;—yr hwn felly, meddwn, a'i hoffrymodd ei hun, sef ei holl ddynoliaeth mewn undeb â'i Berson dwyfol, heb y bai na'r llychwiniad lleiaf arni ac yaddi, yn aberth difai, ac o anfeidrol werth, i Dduw;—|| pa faint mwy effeithiol, gofynwn eto, yw y gwaed hwn, uwchlaw yr holl waed seremoniol, i buro cydwybodau y neb a gredant ynddo, oddi wrth euogrwydd a halogrwydd pechodau, y rhai ydynt *weithredoedd meirwon*, am eu bod yn deilliaw o egwyddorion meirwon ysbrydol, am eu bod yn anfuddiol a ffiaidd fel cyrph meirwon, ac am eu bod yn haeddu marwolaeth dragywyddol, ac yn arwain iddi: § a pha faint mwy effeithiol ydyw i ryddâu cydwybodau y credinwyr oddi wrth ofn ac arswyd digofaint a chondemniad am y gweithredoedd meirwon hyny; ac i roddi iddynt hyder tuag at Dduw, fel eu Duw cymmodawl hwy, fel y gallont ei wasanaethu ef gyda rhyddid a hyfrydwch, fel yr unig wir a bywiol Dduw, yr hwn ni dderbyn gyflawniadau meirwon; ac i'w galluogi hwynt i ufuddâu yn siriol ac o'r galon iddo ef yma, fel rhai y maddeuwyd iddynt ac a gymmeradwywyd gan Dduw, trwy angau aberthawl ei anwyl Fab, hyd oni chaffont ei wasanaethu a'i fwynâu ef yn berffaith, yn y cyssegr nefol ar ol hyn?—*Pa faint mwy y bydd i waed Crist:* grym y rhesymiad yn y geiriau uchod sydd debygid yn gynnwysedig yn hyn; trwy *osodiad pennodawl* yn unig, yr oedd *gwaed* a *lludw* yn foddion glânâu; pethau yn tueddu i lychwino yn hytrach ynddynt eu hunain oeddynt: ond am *angau* Crist, y mae *ynddo ei hunan* nerth priodol a grymus, i buro yr enaid a'r gydwybod.—*Trwy yr Ysbryd tragywyddol:* y Duwdod yn Mherson y Mab, mewn undeb â'r ddynoliaeth, ebai *Pool;* yr Ysbryd Glân, ebai *Scott* a *Doddridge;* a barna *Guyse* fod yn anhawdd penderfynu pa un; am hyny mae yn gosod y ddau olygiad i mewn, megys y ceisiwyd gwneyd hefyd yn y sylwad blaenorawl uchod.—Cysgodau o bethau nefol oedd yr holl wasanaeth seremoniol; am hyny rhaid bod yr aberthau cymmod yn cysgodi rhyw *wir* aberth: yn awr pa aberth cymmod sydd i'w gael yn yr holl grëadigaeth, os cauir allan aberth Crist?

15 * Ac am hynny y mae efe yn [e] Gyfryngwr y [f] cyfammod newydd, † megis [g] trwy fod marwolaeth [h] yn ymwared oddi wrth y troseddau oedd dan y [i] cyfammod cyntaf, [k] ‡ y cai y rhai a alwyd dderbyn [l] addewid yr [m] etifeddiaeth dragywyddol.

e pen. 7. 22. a 8. 6. a 12. 24. 1 Tim. 2. 5. f Gwel ar pen. 8. 8. 2 Cor. 3. 6. g adn. 16, 28. pen. 2. 14. a 13. 20. Es. 53. 10—12. Dan. 9. 26. h adn. 12. pen. 11. 40. Rhuf. 3. 24—26. a 5. 6, 8, 10. Eph. 1. 7. 1 Pedr 3. 18. Dat. 5. 9. a 14. 3, 4. i adn. 1. pen. 8. 7, 13. k pen. 3. 1.—Gwel ar Rhuf. 8. 28, 30. a 9. 24. 2 Thes. 2. 14. l pen. 6. 13. a 11. 13, 39, 40. Iago 1. 12. 1 Ioan 2. 25. m Salm 37. 18. Mat. 19. 29. a 25. 34, 46. Marc 10. 17. Luc 18. 18. Ioan 10. 28. Rhuf. 6. 23. 2 Tim. 2. 10. Tit. 1. 2. a 3. 7. 1 Pedr 1. 3, 4. a 5. 10.

* O herwydd effaith ddibaid a diddarfod aberth Crist, gosodwyd ef yn Gyfryngwr y cyfammod newydd, neu y Testament Newydd, yn ol y Saesoneg. Efe a gymmerodd arno ei hun achos pechaduriaid, yr hwn heb hyny a fuasai o angenrhaid wedi ei adael ac yn annobeithiol; gan mai efe yn unig oedd yn alluog i roddi aberth o werth digonol i wneuthur gwir a sylweddol iawn: † ac efe a ddaeth i'r byd yn y natur ddynol i'r perwyl hwnw; fel trwy ei farwolaeth y rhoddai efe iawn i Dduw, am y troseddau a wnaethid gan gredinwyr dàn y cyfammod cyntaf, neu yr oruchwyliaeth seremoniol; sef y rhai oeddynt yn byw cyn ei ddyfodiad ef; ‡ ac fel y caffai pawb a alwyd trwy ras Duw i gredu ynddo ef, dderbyn addewid yr etifeddiaeth dragywyddol. Yr etifeddiaeth *dymmorawl* yn unig oedd wedi ei sicrâu i Israel, trwy eu cyflawniad o'r aberthau seremoniol; a'r rhai hyny o honynt a geisiasant ac a gawsant fendithion ysbrydol a thragywyddol, hwy a'u cawsant trwy ffydd yn aberth Crist yr hwn oedd i ddyfod.

16 * Oblegid lle *byddo* testament, † rhaid *yw* digwyddo marwolaeth y testamentwr.

* Sicrâwyd y bendithion uchod i'r saint trwy angau Crist: a gellid ystyried y *cyfammod* yr oedd ef yn Gyfryngwr ynddo, fel *Testament* hefyd, trwy yr hwn mae dyn yn cymmynu rhyw feddiannau i rai a enwir yn y testament hwnw, i'w rhoddi iddynt ar ol, neu mewn canlyniad i'w farwolaeth ef. Fel hyn gellir ystyried Crist, fel wedi caffael hawl ammodawl yn ei swydd gyfryngol, i gyfranu bendithion ysbrydol a thragywyddol, megys drwy ei lythyr cymmyn neu Destament. † Mae efe wedi rhoddi, neu gymmynu y bendithion hyn i bawb a'u ceisiant trwy ffydd: ac er i rai eu cael hwynt, o nodedig ewyllys da, cyn ei ddyfodiad ef, ar gyfrif ei ymrwymiad anffaeledig ef i gymmeryd dynoliaeth, a gwneyd iawn dros eu pechodau; eto yr oedd eu hawl *hwy* yn anmherffaith hyd ar ol ei farwolaeth ef, a rhaid i bawb eraill eu gofyn ar y sail hòno yn unig: oblegid lle byddo testament, (neu ewyllys,) rhaid dygwyddo marwolaeth y testamentwr, cyn y gallo y cymmynderbynwyr hòni hawl i'r meddiannau. Dywedir mai geiriau *cyfreithiawl* yw *anakê pheresthai*, "rhaid *yw* dygwyddo," yn dangos y rhaid dwyn prawf o farwolaeth y testamentwr ger bron llys cyfreithiol; cyn y gallo neb hòni hawl i'r meddiannau cymmynedig iddynt yn y testament.

17 [n] * Canys wedi marw dynion, *y mae* testament mewn grym: † oblegid nid oes etto nerth ynddo tra fyddo y testamentwr yn fyw.

n Gen. 48. 21, 22. Ioan 14. 27. Gal. 3. 15.

* Canys fel y mae testament yn arwydd awdurdodawl o ewyllys diweddaf dynion yn nghylch cyfraniad eu meddiannau, o ran y modd, yr amser, ac i bwy, ar ol eu marwolaeth hwy; felly y mae mewn grym, ac i hòni hawl ynddo, yn unig ar ol marwolaeth y neb a'i gwnaeth: † oblegid tra byddo y testamentwr yn fyw, mae ganddo hawl i gyfnewid ei destament, neu ei ewyllys, fel y mỳno; ac nid yw yn rhoddi un hawl gyfreithlawn i neb i ofyn ei feddiannau ef tàn ar ol ei farw: ond ar ol ei farw ef unwaith, mae ei holl gymmynion cyfreithlawn ef i bob derbynydd, wedi eu cadarnâu yn anniddymadwy, fel nas gellir eu newid na'u

ddirỳmu.—Felly hefyd yr oedd yn angenrheidiol i Grist *farw;* fel, heblaw amryw resymau eraill, y byddai addewidion y cyfammod, y rhai a wnaeth efe hefyd yn rhoddion ei destament, yn llawn sicr i bawb a'u dadleuant trwy ffydd, ar gyfrif ei farwolaeth ef. Ond y mae efe yn rhagori llawer ar bob testamentwyr dynol: yr oedd ei farwolaeth ef yn cyrhaedd yn ol, i gredinwyr yr hen oruchwyliaeth; ni bu efe farw erioed yn ei holl Berson; ac, fel Dyn a Chyfryngwr, mae efe yn byw yn awr yn y nefoedd, i ofalu am weinyddiad ffyddlawn o'i destament, neu ei ewyllys ei hun; ac mae yn rhoddi yr holl etifeddiaeth o ras a gogoniant i holl etifeddion yr addewid, heb golli ei feddiant ei hun o hóni; na'i rhanu, fel na byddo ond un gyfran i'r naill a chyfran i'r llall; ond y cwbl i bob un, fel pe na byddai ond un i'w ymwynaf oll. Gall y darllenydd Cymreig weled sylwadau beirniadol ar y tair adnod uchod, yn y Geiriadur Ysgrythyrol, dan y gair TESTAMENT.

18 °* O ba achos ni chyssegrwyd y cyntaf heb waed.

o pen. 8. 7—9. Ex. 12. 22, 23. a 24. 3—8.

* I rag-ddangos yr angenrheidrwydd o dywallt gwaed Crist, ni chyssegrwyd, neu ni chadarnâwyd cyfammod Sinai, heb waed. Yr oedd y dull hyn o gadarnâu y cyfammod efengylaidd, yn cyfateb rhyw beth i'r modd y cafodd cyfammod Sinai ei gyssegru, ei neillduo i wasanaeth sanctaidd, a'i gadarnâu; trwy ammodau pa un yr aeth Duw i berthynas neilldud â'i bobl Israel. Ni chadarnâwyd hwnw heb waed yr aberthau cysgodol y rhai a laddesid; llawer llai y gallesid cadarnâu y cyfammod newydd, yr hwn sydd yn fwy union-gyrchol â natur testament, heb farwolaeth a gwaed Crist.

19 * Canys wedi i Moses adrodd yr holl orchymyn yn ol y gyfraith wrth yr holl bobl, † efe a gymmerodd [p] waed lloi a geifr, gyd â dwfr, [q] a gwlan porphor, [r] ac isop, [s] ‡ ac a'i taenellodd ar y llyfr a'r bobl oll,

p adn. 12. pen. 10. 4. Ex. 24. 5. Lef. 1. 2, 3, 10. a 3. 6. a 16. 14—18. q Lef. 14. 4—6, 49—52. Num. 19. 6. r Ex. 12. 22. Num. 19. 18. Salm 51. 7. s pen. 12. 24. Ex. 24. 8. Es. 52. 15. Ezec. 36. 25. 1 Pedr 1. 2.

Yma cawn hanes cyssegriad cyfammod Sinai trwy waed:—* Canys wedi rhoddi y deg gair deddf o ben y mynydd, ac wedi i Moses adrodd pob gorchymyn wrth yr holl bobl wedi hyny, (Exod. 24. 3.) yn ol y gyfraith hòno ar yr hon y sylfaenwyd cyfammod Duw â hwy fel cenedl, ac wedi iddynt hwythau gydsỳnio â'r cyfammod hwnw, (Exod. 24. 3.) yna Moses a ysgrifenodd holl eiriau yr Arglwydd mewn llyfr; (Exod. 24. 4, 7.) † ac er tystiolaeth o gyssegriad a chadarnâd y cyfammod, efe a gymmerth waed lloi a geifr, y rhai a offrymasid yn boeth-offrymau ac yn ebyrth hedd, (Exod. 24. 5, 6.) ac a'i gosododd mewn cawgiau; ac wedi cymmysgu y gwaed â dwfr i'w wneuthur yn deneu, efe a gymmerth sypyn o wlân porphor i sugno i mewn y cymmysg-lyn, a thusw o isop i'w daenellu ef yn ddafnau; ‡ ac fel hyn efe a daenellodd ei hanner ef ar lyfr y gyfraith, fel yr oedd yn agored ar yr allor, i'w gyssegru i wasanaeth sanctaidd, fel yn cynnwys y cyfammod yr oedd Duw yn un blaid ynddo; ac a daenellodd yr hanner arall o hóno ar y bobl oll, neu o leiaf ar eu cynnrychiolwyr hwynt, sef deg a thringain henuriaid Israel, (Exod. 24. 1, 9.) fel y blaid arall yn y cyfammod hwnw; ac felly efe a'u glânâodd hwynt oddi wrth eu halogrwydd seremoniol, ac a gadarnâodd y cyfammod rhwng Duw â hwynt. Yr oedd hyn oll yn ddangosiad cysgodol, y byddai i'r cyfammod newydd o ras efengylaidd, rhwng Duw yn Nghrist â'r holl wir gredinwyr, gael ei gadarnâu trwy waed aberth Iesu; yr hwn mewn ffordd o enwogrwydd a elwir yn *waed y taenelliad,* (pen. 12. 24.) ac sydd yn effeithiol yn y cymhwysiad o hóno, i lânâu oddi wrth euogrwydd a halogrwydd pechod. Efallai bod cymmysgu y gwaed â'r dwfr hefyd, yn arwyddo gras maddeuol a sancteiddâol i bechaduriaid, ac a arwyddwyd wedi hyny yn y gwaed a'r dwfr a ddaeth allan o ystlys Iesu. Mae amryw bethau yn yr adnod hon nad ydynt yn hanes cyssegriad cyfammod Sinai; (Exod. pen. 24.) ond gan fod yr apostol yn llefaru trwy ysbrydoliaeth Duw, mae yn sicr genym ei fod ef yn dywedyd yn gywir, pa fodd bynag y gwyddai efe yr hyn ni chrybwyllir yno.

20 * Gan ddywedyd, [t] † Hwn yw gwaed y testament a orchymynodd Duw i chwi.

t pen. 13. 20. Zec. 9. 11. Mat. 26. 28.

* Pan oedd Moses fel y sylwyd uchod yn taenellu y gwaed, ac yn ei ddangos i'r bobl, efe a ddywedodd wrthynt, (Exod. 24. 8.) † *Wele waed y cyfammod, &c.:* hyny yw, mae y gwaed hwn yn arwydd o'i gadarnâd ef rhwng Duw â chwi, trwy ddwyfol awdurdod; lle mae efe ar y naill law yn ymrwymo i gyflawni ei addewidion, a chwithau ar y llaw arall yn ymrwymo mewn ufuddod i gyflawni eich dyledswyddau; yn ol yr hyn a adroddais i chwi oddi wrth Dduw, ac yn ol yr hyn a addunedasoch chwithau pan fynegais I y geiriau hyny, Exod. 24. 3.—Yr un gair *(diathêkê)* a gyfieithir *testament* yma, ag a gyfieithir *cyfammod* yn adn. 15: a dïammau mai *cyfammod* a ddylasai fod yn y fàn hon; oblegid "Wele waed y *cyfammod*" yw y geiriau yn Exod. 24. 8: ac mae "gwaed y *testament,*" medd *Scott,* yn ymadrodd nad yw yn hawdd rhoddi un meddwl pennodawl iddo.

21 [u] * Y tabernacl hefyd a holl lestri y gwasanaeth, † a daenellodd efe â gwaed yr un modd.

u Ex. 29. 12, 20, 36. Lef. 8. 15, 19. a 9. 8, 9, 18. a 16. 14—19. 2 Cron. 29. 19—22. Ezec. 43. 18—26.

* Yn mhellach hefyd, pan godwyd y tabernacl, ac y dodrefnwyd ef â'r holl lestri gwasanaeth a berthyn iddo, † gorchymynodd Moses daenellu y cwbl â gwaed yr aberthau, a gwneuthur hyny bob blwyddyn ar ddydd mawr y cymmod; ac fel hyny yr oedd y tabernacl a'i holl lestri, yn cael eu glânâu oddi wrth aflendid meibion Israel, ac yn cael eu cyssegru a'u sancteiddio i wasanaeth Duw, bob blwyddyn ar ddydd y cymmod. Gwel Lefit. 16. 14—19. Tybia *Guyse* mai am yr hyn a wnaid yn flynyddawl, ar ddydd y cymmod, mae yr apostol yn llefaru yma, yn fwy nac am yr hyn a wnaed y tro cyntaf, pan godwyd ac y dodrefnwyd y tabernacl: oblegid o hyn hyd ddiwedd y bennod, ei brif fater ef yw, dangos y gymhariaeth rhwng gwaith Crist *yn y nefoedd,* â gwaith yr arch-offeiriad *yn y cysseyr* ar y dydd hwnw.

22 [x] * A chan mwyaf trwy waed y purir pob peth wrth y gyfraith; [y] † ac heb ollwng gwaed nid oes maddeuant.

x Lef. 14. 6, 14, 25, 51, 52. y Lef. 4. 20, 26, 35. a 5. 10, 12, 18. a 6. 7. a 17. 11.

* Yn fỳr, y rhëol gyffredin oedd, bod agos i bob peth gael ei buro trwy waed wrth y gyfraith seremoniol; yr hyn oedd yn dangos nad allai dim fod yn lân i bechadur, hyd yn nôd ei gyflawniadau crefyddol, ond fel y caffai ei ddieuogi a'i lânâu trwy aberth a gwaed o werth a rhinwedd digonol i'r dyben hyny, ac ond fel yr ymorphwysai yn wastadol ar y gwaed aberthawl hwnw. † Ac yn wir yr oedd yn rhëol gyffredinol *hollawl,* nad oedd heb ollwng gwaed ddim maddeuant, o un math na gradd o bechod, na modd i'r troseddwr ddïanc rhag y gosp: yr hyn oedd yn cysgodi yn amlwg, ac yn cyfeirio yn eglur, at waed Iesu Grist, am lânâd effeithiol oddi wrth bob pechod, (1 Ioan 1. 7.) ac oedd yn dangos nad oedd dim gwir lânâd oddi wrth bechod ond trwy ei waed ef.

23 * Rhaid *oedd* gan hynny [z] i bortreiadau y pethau sydd yn y nefoedd gael eu puro â'r pethau hyn; [a] † a'r pethau nefol eu hunain âg aberthau gwell nâ'r rhai hyn.

z adn. 9, 10, 24. pen. 8. 5. a 10. 1. Col. 2. 17. a adn. 11, 12, 14, 24. pen. 10. 4, 10—17. Luc 24. 26, 46. Ioan 14. 3. 1 Pedr 1. 19—21. Dat. 5. 9.

* Rhaid oedd gan hyny, trwy osodiad y gyfraith, i bortreiadau, neu gysgodau y pethau nefol, neu y nef ei hun, a'r bendithion perthynol iddi, gael eu puro âg aberthau o anifeiliaid diniwed, a thrwy daenelliad o'u gwaed hwynt: oblegid heb hyny nis gellid eu defnyddio hwy yn gymmeradwy yn addoliad a gwasanaeth Duw, ac heb hyny ni buasent yn bortreiadau o gwbl, yn cysgodi y pethau nefol. † Ond yr oedd yn angenrheidiol hefyd, o herwydd rhesymau mwy pwysig, parâus, a digyfnewid, i'r "pethau nefol eu hunain," y cyssegr nefol ac oll a berthynai iddo, "gael eu puro âg aberthau gwell nâ'r rhai hyn," neu âg aberth mwy rhagorol, sef un aberth Crist, yr hwn oedd yn anfeidrol fwy gwerthfawr na'r holl aberthau hyny gynt, ac a elwir yma *aberthau* mewn ffordd o enwogrwydd a rhagoroldeb. I'r dyben i Grist eiriol yn effeithlawn dros bechaduriaid yn y nef, ac agoryd iddynt y ffordd at orsedd-fainc y gras; ac fel y gallent gymdeithasu â Duw fel eu Tad cymmodawl, yn ei ordinâdau yma, a chael eu derbyn yn y diwedd i'r nef; yr oedd yn wir angenrheidiol i Grist yn ein natur ni ar y ddaear, dywallt ei waed, a marw yn aberth ar y groes; fel y byddai ganddo anfeidrol werth a theilyngdod yr aberth hwnw, i'w ddadleu ger bron yr orsedd, dros bawb a ddeuant trwyddo ef at Dduw; heb hyny buasai dangos trugaredd i bechaduriaid yn ddianrhydedd i gyfiawnder a sancteiddrwydd Duw; a buasai eu derbyniad hwy i'r nef, megys yn halogi y lle sanctaidd hwnw.—Ymadrodd rhyfedd yw dywedyd fod eisiau puro y pethau nefol; ond dylid ystyried, fel yr oedd y *tabernacl* a *llestri y gwasanaeth* yn cael eu cyfrif megys wedi eu halogi gan yr Israeliaid, trwy eu dyfodfa atynt, a'u hymdriniad â hwynt; felly y buasai y *nefoedd*, megys yn cael ei halogi trwy ddyfodiad pechaduriaid i mewn iddi, oni buasai i waed Crist gyfryngu. Sylw *Doddridge* yw yr olaf hwn, a thybia ei fod yn fwy naturiol na deall y geiriau gyda'r Esgob *Fell*, am ryw halogrwydd trwy bechod yr angelion drwg yn y nef. Ond tybia *Pool* mai yr eglwys efengylaidd ar y ddaear, ei gwasanaeth a'i hordinâdau, a feddylir yma wrth y "pethau nefol eu hunain."

24 * Canys [b] nid i'r cyssegr o waith llaw, [c] portreiad y gwir *gyssegr*, † yr aeth Crist i mewn; [d] ‡ ond i'r nef ei hun, [e] ‖ i ymddangos yn awr ger bron Duw § trosom ni.

b Gwel ar adn. 11.—Marc 14. 58. Ioan 2. 19—21. c Gwel ar adn. 9, 23. pen. 8. 2. d pen. 1. 3. a 6. 20. a 7. 26. a 8. 2, 5. a 12. 2. Salm 68. 18. Marc 16. 19. Luc 24. 51. Ioan 6. 62. a 16. 28, 29. Act. 1. 9—11. a 3. 21. Eph. 1. 20—22. a 4. 8—11. Col. 3. 2. 1 Pedr 3. 22. e pen. 7. 25. Ex. 28. 12, 29, 30. Zec. 3. 1. Rhuf. 8. 34. 1 Ioan 2. 1, 2. Dat. 8. 3.

* Y "cyssegr o waith llaw" oedd y cyssegr daearol; pa un bynag ai y tabernacl yn yr anialwch, ai y deml wedi hyny; gwaith llaw gan ddynion oedd pob un o honynt, ac nid oeddynt ond portreiad, neu gysgod o'r "gwir gyssegr." † Nid i'r cyssegr o waith llaw yr aeth Crist i weinyddu ei swydd, fel yr âi yr arch-offeiriad Iuddewig gynt ar ddydd y cymmod; ‡ ond efe a esgynodd yn ei natur ddynol, gyda gwaed ei aberth gwerthfawr, i'r nef ei hun, sef nef y gogoniant, nef y nefoedd, lle mae Duw yn eistedd ar ei orsedd fawr; ‖ ac yn awr mae efe yno fel Arch-offeiriad gogoneddus, yn ymddangos ger bron Duw, i eiriol dros elynion a gwrthryfelwyr, ar iddynt hwy gael llawn faddeuant, helaeth ras, a bywyd tragywyddol: ac yr oedd aberth o anfeidrol werth yn angenrheidiol, iddo ef allu cyflawni y weinidogaeth hon, er gogoniant i Dduw, ac er iachawdwriaeth i bawb a gredant ynddo. § "Drosom ni;" yn cynnrychioli personau yr holl waredigion ger bron Duw; fel y byddai yr arch-offeiriad gynt yn cynnrychioli holl lwythau Israel yn y sancteiddiolaf, ar ddydd mawr y cymmod.—"*Lŷssegr* o waith llaw:" "*lleoedd* sanctaidd o waith llaw," sydd yn y Saesoneg; a thybia *Guyse* fod y geiriau n cyfeirio at, neu yn arwyddo yr holl adeilad cyfan, y sancteiddiolaf, a chyntedd yr offeiriaid, trwy yr hwn yr âi yr arch-offeiriad i'r sancteiddiolaf. *Agia*, "cyssegr," yw y gair Groeg, yma fel mewn adnodau eraill yn y bennod hon; a barned y cyfarwydd pa un ai *unig* ai *lliosog* y dylid ei gyfieithu.

25 * Nac fel yr [f] offrymmai efe ei hun yn fynych, [g] † megis y mae yr arch-offeiriad yn myned i mewn i'r cyssegr bob blwyddyn, ‡ â gwaed arall:

f Gwel ar adn. 7, 14, 26. pen. 10. 10. g adn. 12. Ex. 30. 10. Lef. 16. 2—34.

* Yr oedd gwerth mòr fawr yn aberth Crist, fel nad oedd raid iddo efe ei offrymu ei hun yn fynych, † fel y byddai yr arch-offeiriaid dàn y ddeddf yn myned i mewn i'r cyssegr sancteiddiolaf bob blwyddyn ar ddydd y cymmod, â gwaed arall. Yr oedd yn rhaid iddynt hwy fyned i mewn i'r cyssegr bob blwyddyn, a chael gwaed newydd bob blwyddyn i fyned i mewn; o ganlyniad, yr oedd yn rhaid lladd ac aberthu crëaduriaid i gael y gwaed hwnw: ‡ ac wedi y cwbl, "gwaed arall" ydoedd, gwaed anifeiliaid yn unig; yr hwn nis gallai byth dynu ymaith bechod, na chymmodi y pechadur â Duw.

26 * (Oblegid yna rhaid fuasai iddo yn fynych ddioddef [h] er dechreuad y byd) † eithr yr awr hon unwaith [i] yn niwedd y byd yr [k] ymddangosodd efe, i ddilëu pechod trwy [l] ei aberthu ei hun.

h Mat. 25. 34. Ioan 17. 24. 1 Pedr 1. 20. Dat. 13. 8. a 17. 8. i pen. 1. 2. Es. 2. 2. Dan. 10. 14. Mica 4. 1. 1 Cor. 10. 11. Gal. 4. 4. Eph. 1. 10. 1 Pedr 1. 20. k adn. 12. pen. 7. 27. a 10. 4, 10. Lef. 16. 21, 22. 2 Sam. 12. 13. a 24. 10. Job 7. 21. Dan. 9. 24. Ioan 1. 29. 1 Pedr 2. 24. a 3. 18. 1 Ioan 3. 5. l adn. 14. pen. 10. 12, 26. Eph. 5. 2. Tit. 2. 14.

* Pe na buasai Crist ond crëadur, neu ddim ond dyn yn unig, ni buasai ei aberth ond o werth bychan a meidrol; ac fel hyny buasai yn rhaid iddo ddyoddef ac aberthu ei hun yn fynych, er dyfodiad cyntaf pechod i'r byd, yn fuan ar ol dechreuad y byd, pan ddechreuodd effaith ei gyfryngdod grasol ef ar ran pechaduriaid; oblegid heb hyny, nis gallasai bod iawn trwy ei waed ef dros bechodau y rhai oedd yn byw yn yr hen oesoedd boreüol: † ond yr oedd gwerth, rhinwedd, a mawredd ei aberth ef yn gyfryw; ac yr oedd ehangder ei effaith mòr fawr yn ol ac yn mlaen, i'r oesoedd gynt yn gystal ag i'r oesoedd dyfodawl; fel yr "awr hon," yn niwedd yr oruchwyliaeth Iuddewig, i ddiddymu *hòno*, ac ar ddechreu goruchwyliaeth yr efengyl, i sefydlu *hon*, yr hon yw yr olaf a'r oreu a sefydlir byth yn ein byd ni; —efe yr "awr hon," unwaith am y cwbl, a ymddangosodd yn y cnawd, i wneyd iawn dros bechod, ac i ddiddymu ei lywodraeth, yn nghyd â'i holl effeithiau ofnadwy; trwy ei aberthu ei hun gorph ac enaid, sef ei holl ddynoliaeth cyfan a pherffaith, a hòno mewn undeb mawreddus â'r Duwdod yn Mherson y gair, neu dragywyddol Fab Duw. "Er dechreuad y byd:" er dechreuad pechod yn y byd a feddylir; nid oedd eisiau aberth o iawn cyn hyny. *Yn niwedd y byd:* yn niwedd yr oesoedd, medd *Doddridge*, yw y geiriau Groeg: yr oruchwyliaeth ddiweddaf, sef yr efengyl, a feddylir. *Dilëu pechod:* ei *osod ymaith* yw y Saesoneg, *(athetêsin)* ei ddystrywio a'i ddiddymu: sef trwy iawn a maddeuant, ac hefyd o galonau a natur y saint trwy sancteiddiad, fel y byddont o'r diwedd yn berffaith gyfiawn, sanctaidd, a dedwydd, fel pe na buasent erioed yn bechaduriaid. Mòr anfeidrol werthfawr ac effeithiol, yw un aberth ein Iesu mawr!

27 * Ac [m] megis y gosodwyd i ddynion farw unwaith, [n] † ac wedi hynny *bod* barn:

m Gen. 3. 19. 2 Sam. 14. 14. Job 14. 5. a 30. 23. Salm 89. 48. Preg. 3. 20. a 9. 5, 10. a 12. 7. Rhuf. 5. 12. n pen. 6. 2. Job 19. 25. Preg. 11. 9. a 12. 14. Mat. 25. 31, &c. Ioan 5. 26—29. Act. 17. 31. Rhuf. 2. 5. a 14. 9—12. 1 Cor. 4. 5. 2 Cor. 5. 10. 2 Tim. 4. 1. Judas 15. Dat. 20. 11—15.

* Trwy y ddedfryd a gyhoeddwyd ar ddynolryw yn Adda, machniydd neu ben a chynnrychiolwr y cyfammod gweithredoedd, "gosodwyd i ddynion farw unwaith;" Enoch ac Elias yn unig a ddiangodd rhag y ddedfryd hon. † Gosodwyd hefyd i bob dyn, heb gymmaint ag un eithriad, bod i bawb wedi marw, ym-

ddangos ger bron Duw mewn barn, i dderbyn tragywyddol a chyfiawn wobr am eu gweithredoedd tra buont yn byw ar y ddaear: a rhaid y bydd y farn hon i gondemniad i bob *pechadur*, yr hwn ni cheisiodd ac ni chafodd faddeuant o'r blaen.—Er y rhaid i *ddynion yn gyffredin* farw, da a drwg, yn ol y gosodiad; eto, megys yr aeth Enoch ac Elias i ogoniant heb farw, felly yr â y saint a fyddo byw ar y ddaear eto, yn nyfodiad yr Arglwydd; ond nid yw hyny yn tòri ar y gosodiad cyffredin. Mae llawer o ragor rhwng marw y saint hefyd â marw yr annuwiolion; nid oes dim niwed yn marw y duwiolion, na dim colyn yn eu hangau hwy. Ac er y bydd barn i'r saint fel eraill; eto nid barn o gondemniad fydd eu barn hwy, ond barn o gyfiawnâd a bywyd tragywyddol, trwy Iesu Grist eu Prynwr.

28 * Felly Crist hefyd, [o] wedi ei offrymmu unwaith i [p] ddwyn ymaith bechodau llawer, [q] † a ymddengys yr ail waith, [r] heb bechod, [s] i'r rhai sydd yn ei ddisgwyl, [t] ‡ er iachawdwriaeth.

o Gwel ar adn. 25. p Lef. 10. 17. Num. 18. 1, 23. Es. 53. 4—6, 11, 12. 1 Pedr 2. 24. q Phil. 3. 20. 1 Thes. 1. 10. 2 Tim. 4. 8. Tit. 2. 13. 2 Pedr 3. 12. r Zec. 14. 5. Ioan 14. 3. Act. 1. 11. 1 Thes. 4. 14—16. 2 Thes. 1. 5—9. a 2. 1. 1 Ioan 3. 2. Dat. 1. 7. s Rhuf. 6. 10. a 8. 3. t Es. 25. 9. Rhuf. 8. 23. 1 Cor. 15. 54. Phil. 3. 21. 1 Thes. 4. 17. 2 Thes 1. 10.

* Megys y gosodwyd i ddynion farw unwaith, (adn. 27.) felly Crist hefyd, yn neddfle dynion, i dynu ymaith *felltith* dedfryd y ddeddf am bechod, a fu farw unwaith, a dim ond unwaith; a thrwy hyny a offrymodd un aberth, a dim ond un, i ddwyn ymaith bechodau a chosp ei bobl; y rhai a ellir eu galw yn "llawer," am eu bod yn dyrfa fawr aneirif, sef pawb a gredant ynddo ef. † Ac iddynt hwy, y rhai trwy ffydd, gobaith, hiraeth, a chariad, sydd yn dysgwyl ei ddyfodiad ef eto i farn, efe a ddaw, ac a "ymddengys yr *ail waith*;" nid fel y tro cyntaf mewn ystâd o ddarostyngiad a dyoddefaint am eu pechodau hwy, ond yn ei holl fawredd a'i ogoniant; nid yn dwyn eu hanwireddau hwynt mwyach, ‡ ond efe a ymddengys i roddi iddynt berffaith fwynâd o holl ddedwyddwch nef y nefoedd, er eu cyflawn a'u tragywyddol iachawdwriaeth oll.—Yr oedd Crist "heb bechod" y tro cyntaf; ond yr oedd dàn gyfrifiad o bechodau ei bobl: yr ail waith ni bydd hyny; canys efe a ddileodd bechod trwy ei aberthu ei hun.

PEN. X.

Gwendid aberthau y gyfraith, &c.

* OBLEGID y gyfraith, [a] yr hon sydd ganddi gysgod daionus bethau i ddyfod, † *ac* nid gwir-ddelw y pethau, ‡ nis gall trwy yr [b] aberthau hynny, y rhai y maent bob blwyddyn yn eu hoffrymmu yn wastadol, byth berffeithio y rhai a ddêl atti.

a Gwel ar pen. 8. 5. a 9. 9, 23.—Col. 2. 17. b adn. 3, 4, 11—18. pen. 7. 18, 19. a 9. 8, 25

Gan y byddai yr Hebreaid yn dra anewyllysgar i gydsyniaw â barn yr apostol yn nghylch aneffeithioldeb yr aberthau seremonïol; mae efe yn myned rhagddo yn mhellach yma, i ymresymu ar y mater pwysfawr hwnw. * Mae efe yn sylwi nad oedd gan y gyfraith seremonïol ddim ond *cysgod* o'r daionus bethau oedd i ddyfod i'r eglwys drwy y Messïah; rhyw beth tebyg i lun dyn yn anmherffaith yn ei *gysgod*, † ac nid ei *wir ddelw* mewn drych, yr hyn sydd ddangosiad mwy cywir a pherffaith o hóno. Nid yw y *corph* yn *sylweddol* yn y *gwir ddelw* yn y drych, dim ond arddangosiad o hóno; ac eto, nid oedd cymmaint a *hyny* gan y gyfraith, dim ond y *cysgod* mwy tywyll ac anmherffaith. Wrth yr agoriad uchod, nid *sylwedd* y daionus "bethau," neu y "daionus bethau" *eu hunain*, a feddylir wrth y *gwir ddelw*; eithr dangosiad mwy eglur a chywir o honynt na'r *cysgod*: ac eto y *cysgod* yn unig oedd gan y gyfraith; nid oedd yn cyrhaedd i'r *gwir ddelw*, chwaithach i'r *sylwedd* ei hun. Tybir fod yma gyfeiriad at luniedydd yn tynu darlun. pan mae yn tynu ei linellau cyntaf, nid ydynt ond tywyll ac anmherffaith iawn, er bod yno ryw beth o lun y person hefyd; ond wedi iddo orphen y darlun, mae yno *wir ddelw* y person, ac eto nid y person ei hun yn sylweddol: nid oedd gan y gyfraith ond y brasluu dechreuol, y *cysgod* tywyll. ‡ Gan hyny, yr aberthau a offrymid yn wastadol bob blwyddyn, ar ddydd y cymmod, nis gallent byth berffeithio y rhai a ddeuent i gynteddoedd y deml ar yr amserau difrifol hyny, trwy eu rhyddâu oddi wrth euogrwydd eu pechodau, nâ'u gwneyd yn gymmeradwy gyda Duw, (Gwel ar pen. 9. 9.) Yr oedd efe yn wir yn gweled bod yn dda i arbed Israel rhag cospedigaethau tymmorawl, a pharâu iddynt eu breintiau a'u bendithion allanol, tra yr oeddynt hwy yn glynu wrth yr addoliad gorchymynedig hwnw; ond y rhai hyny o honynt a gawsant faddeuant ac iachawdwriaeth, hwy a gawsant y bendithion hyny trwy ffydd yn y Messiah addawedig.

2 * Oblegid yna hwy a beidiasant â'u hoffrymmu, [c] † am na buasai gydwybod pechod mwy gan y rhai a addolasent wedi eu glanhâu unwaith.

c adn. 17. pen. 9. 13, 14. Salm 103. 12. Es. 43. 25. a 44. 22. Mica 7. 19.

* Rhaid mai fel y dywedwyd uchod yr oedd y pryd hwnw: oblegid pe buasai yr aberthau hyny yn ddigonol i wneyd perffaith iawn a boddlonrwydd i Dduw am bechodau y bobl, yna hwy a beidiasent â'u hoffrymu; ni buasai angen mwyach am danynt: † gwedi puro yr addolwyr unwaith oddi wrth euogrwydd a halogrwydd eu pechodau; ni buasai y baich o hyny ar eu cydwybodau mwyach, fel ag i ofyn ychwaneg o aberthau i'w dynu ymaith. *Oblegid yna hwy a beidiasant â'u hoffrymu:* gwelir mai yn y dull *gofynawl* mae y geiriau yn y Saesoneg; *Oblegid yna oni pheidiasent â'u hoffrymu?* a dylid sylwi mai felly y mae yn y Groeg, *gofyn-nod* sydd ar ol y geiriau: a thybia *Scott* mai felly y dylai fod yn sicr; ond mae *Doddridge* o farn arall, mai yn ein dull ni y dylai y geiriau fod. *A beidiasant*: ai nid *a beidiasent* a ddylai fod?

3 * Eithr yn *yr aberthau* hynny [d] † *y mae* adgoffa pechodau bob blwyddyn.

d pen. 9. 7. Ex. 30. 10. Lef. 16. 6—11, 21, 22, 29, 30. a 23. 27, 28. Num. 29. 7—11. 1 Bren. 17. 18. Mat. 26. 28.

* Dadl yr apostol oedd, nad oedd yr un aberth a allai wneyd iawn gwirioneddol am bechod, neu ddwyn pechaduriaid i ystâd o gymmeradwyaeth gyda Duw i fywyd tragywyddol, yr hwn ni roddai berffaith foddlonrwydd i'w gyfiawnder digofus a gofynol ef; fel ag i'w wneuthur yn anrhydeddus yn maddeuant pechaduriaid, a pheidio eu cospi hwynt am bechod. Ond yr oedd yr aberthau seremonïol oll, càn belled o fod yn ddigonol i hyn, fel nad oedd y rhai mwyaf arbenig o honynt, y rhai ar ddydd mawr y cymmod, ond *coffadwriaeth* bob blwyddyn o bechodau Israel, yn hytrach na moddion i dynu ymaith yr euogrwydd o honynt oddi ar gydwybodau y bobl. † Yn yr aberthau hyny bob blwyddyn, yr oedd *cyffes gyhoeddus* yn cael ei gwneyd gan yr archoffeiriad, o holl bechodau *Israel*, ac yr oeddynt hwy i *gystuddio eu heneidiau* am danynt, (Lefit. 16. 21, 22, 29, 31.) yr hyn oedd yn dwyn eu pechodau hwy i *goffa* poenus, ac yn dangos yn eglur nad oedd eu haberthau blaenorawl hwynt wedi gwneyd iawn drostynt, ac yn wir nas gallent hyny yn ol natur pethau.—Mae yr *adgoffa* hyn o *bechodau* yn cyrhaeddyd trwy bob moddion gosodedig o addoliad, er cwymp Adda; yn y bedydd, swper yr Arglwydd, gweddi, a thalu diolch: ond coffa dynion, ac nid coffa Duw, ydyw yn awr; mae efe wedi anghofio pechodau ei bobl byth, trwy yr un aberth mawr a wnaeth iawn drostynt ar y groes.

4 [e] * Canys ammhosibl *yw* i waed teirw a geifr [f] † dynnu ymaith bechodau.

e adn. 8. pen. 9. 9, 13. Salm 50. 8—12. a 51. 16. Es. 1. 11—15. a 66. 3. Jer. 6. 20. a 7. 21, 22. Hos. 6. 6. Amos 5. 21, 22. Mica 6. 6, 7. Marc 12. 33. f adn. 11. Hos. 14. 2. Ioan 1. 29. Rhuf. 11. 27. 1 Ioan 3. 5.

* Yn wir nid oedd yn bosibl i beth mòr wael a diwerth â gwaed teirw a geifr, † dynu ymaith bechodau, trwy wneyd iawn gwirioneddol drostynt i gyfiawnder Duw. Fel *gosodiadau dwyfol*, gallai y fath aberthau fod yn gydnabyddiaeth addas o bechodau, ac yn gyffes o edifeirwch, ac ymorphwysiad ar drugaredd Duw, ar gyfrif yr hyn y gallai efe gyd-ddwyn â'r Israeliaid, a rhoddi iddynt fendithion tymmorol; ac yr oeddynt yn gysgodau addas hefyd o aberth Crist. Ond nid oedd yn *bosibl* iddynt wneuthur trugaredd faddeuol, yn yr ymarferiad helaethaf o hóni, yn gyson âg anfeidrol gyfiawnder a sancteiddrwydd Duw; heb yr hyn nid oedd dim a allasai dynu ymaith bechod, yn ol ystyr ymresymiad yr apostol yn y fàn hon. Mae yr un ymresymiad yn profi hefyd yr un modd, nas gallasai gwaed dyn yn unig, neu grëadur yn unig, dynu ymaith bechod: am hyny, os tynodd Iesu ymaith bechod drwy ei aberth a'i waed, rhaid ei fod ef yn fwy na dyn, yn fwy nac unrhyw grëadur; a pha beth a allasai efe fod felly ond Duw anfeidrol, mewn undeb â dynoliaeth?

5 * O herwydd paham [g] † y mae efe, wrth ddyfod i'r byd, ‡ yn dywedyd, [h] Aberth ac offrwm nis mynnaist, [i] || eithr corph a gymhwysaist i mi.

g adn. 7. pen. 1. 6.—Mat. 11. 3. Luc 7. 19. h Salm 40. 6—8. i adn. 10. pen. 2. 14. a 8. 3. Gen. 3. 15. Es. 7. 14. Jer. 31. 22. Mat. 1. 20—23. Luc 1. 35. Ioan 1. 14. Gal. 4. 4. 1 Tim. 3. 16. 1 Ioan 4. 2, 3. 2 Ioan 7.

* I brofi ei athrawiaeth yn y modd cadarnaf a mwyaf diwrthddadl, mae yr apostol yma yn cyfeirio yr Hebreaid at brophwydoliaeth dra nodedig am y Messïah; yr hon oedd yn dangos mai *canlyniad angenrheidiol* o annigonoldeb yr aberthau seremonïol oedd ei ddyfodiad ef, ac o arfaeth benderfynol Duw i gadw pechaduriaid. † Yn Salm 40. 6—8, mae y Messïah wrth ddyfod i'r byd, neu gyda golwg ar ei ddyfodiad i'r byd yn nghyflawnder yr amser, yn dywedyd wrth y Tad, ‡ "Aberthau ac offrymau seremonïol nis mynaist," fel priodol iawn am bechod; am eu bod o werth rhŷ fychan i foddloni dy ddeddf sanctaidd, a'th gyfiawnder gofynol di. || Ond fel y caid i ti aberth digonol, a chyfatebol i'r camwedd; tydi yn dy anfeidrol ddoethineb a'th ewyllys da, ac mewn trugaredd i'th eglwys, trwy weithrediad rhyfeddol yr Ysbryd Glân, a gymhwysaist i mi gorph dynol, wedi ei fywâu âg enaid rhesymol, ac felly a ffurfiaist i mi wir a phrïodol ddynoliaeth; fel y byddai i mi dy dragywyddol Fab, ei chymmeryd hi i undeb personol â mi fy hun, ac fel hyny ei hurddasu a'i mawreddu âg anfeidrol werth, i'w gwneuthur yn addas ac effeithiol i fod yn aberth ac iawn perffaith a digonol dros bechod.—*Corph a gymhwysaist i mi:* "Agoraist fy nghlustiau," yw y geiriau yn y Salm: ac mae llawer yn rhyfeddu paham yr oedd yr apostol, wrth ysgrifenu at yr Hebreaid, yn dyfynu y geiriau uchod o'r cyfieithiad Groeg, yr hwn sydd yn amlwg yn gwahaniaethu oddi wrth yr Hebraeg. Ond yr oedd efe yn ystyried, efallai, fod y geiriau yn ol y cyfieithiad Groeg, yn trosglwyddo meddwl cyffredin yr Hebraeg; ac mai ffurfiad dynoliaeth sanctaidd Crist oedd y cymhwysiad hwnw i'w ufudd-dod cyfryngol ef, yr hyn a arwyddid yn y geiriau, "agoraist fy nghlustiau." Pa fodd bynag, mae y geiriau yn y ddwy ffordd, yn dangos perffaith ewyllysgarwch ac addasrwydd Crist i fod yn *Was* y Tad, yn mater iachawdwriaeth pechaduriaid; fel Mab Duw, a Pherson dwyfol yn unig, nis gallasai fod yn *Was* y Tad; am hyny, cymhwysodd y Tad iddo gorph fel y byddai felly; ac yntau fel y gwas yn Israel gynt, yn cymmeryd tyllu ei glust wrth yr orsin, i wasanaethu yn ffyddlawn yn ei swydd gyfryngol. Exod. 21. 5, 6.

6 [k] * Offrymmau poeth, † a thros bechod, [l] ‡ ni buost foddlawn iddynt.

k Gwel ar adn. 4. Lef. 1. a 4. a 5. a 6. 1—7. l Salm 147. 11. Mal. 1. 10. Mat. 3. 17. Eph. 5. 2. Phil. 4. 18.

* Er bod dàn y ddeddf gynt *offrymau*, yn offrymau *poeth*, o grëaduriaid glân perffeith-gwbl, ac yn cael eu llosgi oll ar yr allor i'r Arglwydd, heb ddim i'r offeiriaid na'r bobl; † ac er bod yno aberthau dros bechod, y rhai nid oeddynt yn cael eu llosgi oll, ond bod rhan o honynt i'r offeiriaid; ‡ eto, ni bu Duw foddlawn i'r rhai hyn oll, i ymhyfrydu ac ymlonyddu ynddynt, fel pe buasent yn gyfatebol i ofynion ei gyfraith a'i gyfiawnder ef, neu yn deilwng i'w ddoethineb a'i sancteiddrwydd ymfoddloni ynddynt, neu o werth a rhinwedd digonol ynddynt eu hunain i dynu ymaith bechod. *A thros bechod:* "ac *aberthau* dros bechod," sydd yn y Saesoneg: ac mae *Pool* yn gwneyd yr *Aberth* ac *offrwm*, yn adn. 5, a'r *offrymau poeth* ac *aberth dros bechod*, yn yr adnod hon, yn bedwar math gwahanol o aberthau, neu offryman; ac efe a ddywed fod y pedwar hyn yn cynnwys y ewbl o aberthau Aaron, neu yr arch-offeiriad, fel iawn dros bechod.

7 * Yna y dywedais, [m] Wele fi yn dyfod [n] † (y mae yn ysgrifenedig yn nechreu y llyfr am danaf) ‡ i wneuthur dy ewyllys di, O Dduw.

m adn. 9, 10. Diar. 8. 31. Ioan 4. 34. a 5. 30. a 6. 38. n Gen. 3. 15.

* Pryd nad oedd Duw JEHOFAH yn cael dim boddlonrwydd yn yr aberthau seremonïol, nid yn unig am fod y bobl yn ymorphwys arnynt mewn modd ffurfiol a hunan-gyfiawn, ond yn benaf am nad oeddynt yn dangos yn ddigonawl anrhydedd ei gyfiawnder ef yn ei waith yn maddeu i bechaduriaid; yna tystiolaethodd y tragywyddol Fab ei barodrwydd i ddyfod i'r byd yn y natur ddynol i'r dyben hyny; † yn ol fel yr oedd yn ysgrifenedig am dano yn nechreu y llyfr, neu yn agoriad rhòl y brophwydoliaeth, yn yr hon yr addawyd ef fel "Hâd y wraig." ‡ Y dyben a enwyd uchod oedd, gwneuthur ewyllys y Tad; cyflawni ei fwriadau grasol ef, ac ymrwymiadau cyfammodol y Mab iddo ef, a'r holl addewidion a'r prophwydoliaethau am dano ei hun: a gwneuthur ewyllys y Tad hefyd yn nghyflawniad ei waith ef; yn enwedig mewn ufuddâu, dyoddef, a marw, yn ol ewyllys y Tad, i anrhydeddu ei gyfraith a'i gyfiawnder ef, a gwneyd priodol a pherffaith iawn a boddlonrwydd am bechod.—*Yn nechreu y llyfr:* "yn rhòl y llyfr" yw y geiriau yn Salm 40. 7: *kephalidi* yw y gair Groeg, yn cael ei ddefnyddio am ròl, a phen, neu ddechreu, hefyd: gwel *Parkhurst*, dàn y gair *kephallis*. Mae holl arfaeth Duw am Grist wedi ei hysgrifenu i ni yn y Llyfr, (yr Ysgrythyrau Sanctaidd) yn nechreu y Llyfr, (Gen. 3. 15.) ac oddi yno drwyddo hyd ei ddiwedd: a dylid sylwi mai rhòliau oedd llyfrau yr Hebreaid, nid wedi eu plygu yn ddalenau fel yr eiddom ni; ac felly yr oedd yn ysgrifenedig am ddyfodiad Crist yn *mhen*, neu *ddechreu* y *rhòl*, pan agorid hi.

8 * Wedi iddo ddywedyd uchod, Aberth ac offrwm, ac offrymmau poeth, a thros bechod, nis mynnaist, ac nid ymfoddlonaist *ynddynt* (y rhai yn ol y gyfraith a offrymmir)

9 † Yna y dywedodd, [o] Wele fi yn dyfod i wneuthur dy ewyllys di, O Dduw. [p] ‡ Y mae yn tynnu ymaith y cyntaf; fel y gosodai yr ail.

o pen. 9. 11—14. p pen. 7. 18, 19. a 8. 7—13. a 12. 27, 28.

* Gwedi i'r Arglwydd Iesu ddywedyd yn y lle uchod a grybwyllwyd (Salm 40. 6—8.) Aberth ac offrwm o un math, ac offrymau poeth, a thros bechod, nis mynaist, ac nid ymfoddlonaist yn y gradd lleiaf ynddynt, fel gwir ac effeithiol iawn; (y rhai yn ol y gyfraith seremonïol a offrymir;) † yna, wrth weled hollawl annigonoldeb yr aberthau hyny, y dywedodd efe, O Dduw cyfiawnder ac iachawdwriaeth, wele fi, cymmer genyf fi y boddlonrwydd mae dy gyfiawnder yn ofyn; wele yr

wyf fi yn dyfod yn wir ewyllysgar, i'm gosod fy hun yn lle y pechadur, i ddwyn ei felldith ef, ac i ateb yr eithaf o'th ofynion di; yn ol yr hyn a osodaist ti dy hun, ac sydd gyflawniad o'th ewyllys, a boddlawn a chymmeradwy genyt, i agoryd y ffordd er maddeuant pechodau. ‡ Yn awr, wrth fod yr Arglwydd Iesu yn dywedyd fel uhyn, mae efe yn dangos yn amlwg nad oedd y cyfammod cyntaf, neu oruchwyliaeth y seremonïau, i fod mewn grym nac ymarferiad mwyach; mae efe wrth ddywedyd felly yn tynu ymaith, ac yn difodi, y gosodiad *cyntaf* hwnw, fel y gosodai, ac y sefydlai yn gadarn, yr *ail* oruchwyliaeth, yr hon sydd yn awr wedi ei gosod a'i sefydlu yn arosawl, trwy ei un aberth ddigonol ef ei hun.—Yr oedd y brophwydoliaeth uchod yn sicr, yn dangos cyferbyniad amlwg rhwng aberthau yr hen oruchwyliaeth, âg aberth Crist; annigonolrwydd y rhai hyny i foddloni Duw, a digonoldeb ei ufudd-dod a'i aberth ef: ac oddi wrth hyna mae yr apostol yn dadleu dros ddiddymiad yr hen oruchwyliaeth, a gosodiad yr oruchwyliaeth newydd.

10 * Trwy yr hwn ewyllys [q] † yr ydym ni wedi ein sancteiddio, [r] ‡ trwy offrymmiad corph Iesu Grist ‖ unwaith.

q pen. 2. 11. a 13. 12. Zee. 13. 1. Ioan 17. 19. a 19. 34. 1 Cor. 1. 30. a 6. 11. 1 Ioan 5. 6. r adn. 5, 12, 14, 20. a 9. 26, 28.

* Dywedwyd uchod (adn. 9.) i Grist ddyfod i wneuthur ewyllys Duw; ac yn awr trwy yr ewyllys hwnw, wedi ei gyflawni yn berffaith gan Grist, yn ei ufudd-dod a'i aberth ar y groes; † yr oedd pawb a gredent ynddo ef wedi eu "sancteiddio" a'u cyssegru i Dduw, fel addolwyr ysbrydol a chymmeradwy: ‡ nid mewn modd seremonïol a chysgodawl, trwy yr aberthau seremonïol, fel Israel gynt; eithr trwy offrymiad corph Iesu Grist, sef ei holl ddynoliaeth ef, o'r hon y corph oedd y rhan weledig, ac yn ateb i gyrph yr anifeiliaid a offrymid gynt: ‖ ac nid oedd raid iddo ef offrymu ei hun yn fynych, fel y gwnaid dàn y ddeddf, i sancteiddio y bobl yn fynych; eithr unwaith yn unig, a hyny am byth; gan fod ei un offrwm ef yn hollawl berffaith ynddo ei hun, ac yn ddigonawl i wneyd perffaith a chwbl iawn ar unwaith: nid oedd Duw yn gofyn chwaneg; am hyny mae yr un aberth hwn yn ddigonol ac yn effeithiol byth.

11 * Ac y mae pob offeiriad yn sefyll [s] beunydd yn gwasanaethu, † ac yn offrymmu yn fynych yr un aberthau, [t] ‡ y rhai ni allant fyth ddileu pechodau:

s pen. 7. 27. Ex. 29. 38, 39. Num. 28. 24. a 29. 6. Ezec. 45. 4. Dan. 8. 11. a 9. 21, 27. a 11. 31. a 12. 11. Luc 1. 9, 10. t Gwel ar adn. 4.

* Dàn y ddeddf, yr oedd "pob offeiriad" o urdd Aaron yn "*sefyll* beunydd," fel gwas yn gwasanaethu; yr hyn oedd arwydd o barch a gwylder gostyngedig, yn gystal ag o barodrwydd ewyllysgar i gyflawni gwasanaeth gosodedig Duw: yr oedd rhai o'r offeiriaid yn sefyll fel hyn bob dydd; a'r arch-offeiriad bob blwyddyn, ar ddydd mawr y cymmod. † Ac yr oeddynt hwy yn offrymu yn fynych yr un aberthau; yr un fath grëadurïaid amryw weithiau yr un diwrnod, ac am lawer o ddiwrnodau yn nghyd; ‡ y rhai ni allent oll, yn ddyddiol ac yn flynyddol, byth ddileu pechodau, na gwneyd iawn er boddlonrwydd i gyfraith a chyfiawnder Duw am *un* rhyw bechod, chwaithach am *bob math* o bechodau.

12 [u] * Eithr hwn, wedi offrymmu un aberth dros bechodau, † yn dragywydd a eisteddodd ar ddeheulaw Duw;

u Gwel ar pen. 1. 3. a 8. 1. a 9. 12.—Act. 2. 33, 34. Rhuf. 8. 34. Col. 3. 1.

* Ond y mae y fath ragoriaeth anghymharol yn mawredd Crist, o ran ei berson a'i aberth, ar yr offeiriaid Iuddewig a'u haberthau hwy, fel wedi i'r Arch-offeiriad mawr hwn offrymu un aberth dros bechodau ei bobl, yr hyn oedd yn ddigonol am byth; † efe a gyfododd o feirw i anfarwol anrhydedd, fel y byddai byw, a gweini y rhan arall o'i swydd, mewn ystâd ddiddiwedd o oruchaf fawrhydi, gorphwysiad, ac awdurdod; yr hyn a ddangosir i ni drwy ei fod ef yn *eistedd* yn dragywyddol, mewn mawredd, gogoniant, a chymmeradwyaeth, ar ddeheulaw Duw.—Yma mae *un* aberth Iesu mewn cyferbyniad i *fynych* aberthau yr offeiriaid Iuddewig; a'i *eistedd* ef ar gyfer eu *sefyll* hwynt, adn. 11.

13 [x] * O hyn allan yn disgwyl † hyd oni osoder ei elynion ef yn droed-faingc i'w draed ef.

x pen. 1. 13. Salm 110. 1. Dan. 2. 44. Mat. 22. 44. Marc 12. 36. Luc 20. 43. Act. 2. 35. 1 Cor. 15. 25.

* Addawodd y Tad yr hyn a grybwyllir yma i Grist, (Salm 110. 1.) am hyny mae yn dysgwyl weithian yn awyddus, yn hyderus, ac yn amyneddgar, hyd oni chyflawner yr addewid hòno; † sef gosod ei elynion oll yn droed-fainc i'w draed ef: pryd y caiff pechod, Satan, byd, ac angau; ïe, holl wrthwynebwyr ei berson a'i awdurdod, ei bobl a'i achos; eu cwbl ddarostwng, fel gelynion gorchfygedig a dirmygedig, y rhai a sethrir dàn draed y buddugoliaethwr, yn arwydd o'u llwyr ddinystr hwy, ac o'i hollawl fuddugoliaeth a'i arglwyddiaeth yntau arnynt. Gwel ar Act. 2. 35; Rhuf. 16. 20; 1 Cor. 15. 25, 26.

14 * Canys âg un offrwm [y] y perffeithiodd efe yn dragywyddol, [z] † y rhai sydd wedi eu sancteiddio.

y adn. 1. pen. 7. 19, 25. a 9. 10, 14. z pen. 2. 11. a 9. 13, 14. a 13. 12. Act. 20. 32. a 26. 13. Rhuf. 15. 16. 1 Cor. 1. 2. Eph. 5. 26. Judas 1.

* Rhaid y cyflawnir yr addewid uchod o ddarostwng ei elynion ef, a rhaid yr achubir ei holl bobl ef; oblegid âg un offrwm o hóno ei hun ar y groes, efe a ddarparodd yn effeithiol er perffaith ryddâu, a chyfiawnâu i fywyd tragywyddol, † y rhai oll a dderbyniant ei aberth a'i iawn ef, trwy ffydd yn tarddu o galonau wedi eu hadnewyddu trwy ras, ac yn cael ei hamlygu trwy sancteiddiad yr Ysbryd i ufudd-dod; ac y rhai a neillduwyd ac a gyssegrwyd fel hyn i wasanaeth Duw. Mae perffaith gyfiawnder, sancteiddiad, a dedwyddwch, wedi eu diogelu i'r rhai oll a neillduodd Duw i fywyd, yn a thrwy ei "un offrwm" ef: a hyny nid am amser, ond "yn dragywyddol."

15 * *Ac* y mae yr [a] Ysbryd Glân hefyd yn tystiolaethu i ni: † canys wedi iddo ddywedyd o'r blaen,

a pen. 2. 3, 4. a 3. 7. a 9. 8. 2 Sam. 23. 2. Neh. 9. 30. Ioan 15. 26. Act. 28. 25. 1 Pedr 1. 11, 12. 2 Pedr 1. 21. Dat. 2. 7, 11, 17, 29. a 3. 6, 13, 22. a 19. 10.

16 ‡ Dyma [b] y cyfammod yr hwn a ammodaf fi â hwynt ar ol y dyddiau hynny, medd yr Arglwydd; ‖ Myfi a osodaf fy nghyfreithiau yn eu calonnau, ac a'u hysgrifenaf yn eu meddyliau;

b Gwel ar pen. 8. 8—12.—Jer. 31. 33, 34. Rhuf. 11. 27.

* Ac mae yr Ysbryd Glân ei hun hefyd, fel Person dwyfol, wedi rhoddi i ni yn ysgrythyrau yr Hen Destament, dystiolaeth eglur a melys o'r gwirionedd pwysig a gwerthfawr uchod; yn y dangosiad a wnaeth efe yno o'r cyfammod newydd, yr hwn yn awr a gadarnâodd Crist, yn nghyd a'i holl fendithion, trwy ei angau a'i aberth ar y groes. † Canys wedi iddo ddywedyd o'r blaen mewn rhagfynegiad am amseroedd yr efengyl, yn Jer. 31. 33, 34. ‡ Dyma rediad y cyfammod o wir ras, yr hwn a wnaf fi â'm pobl, pan ddarfyddo dyddiau yr oruchwyliaeth bresenol, medd JEHOFAH; ‖ yn lle ysgrifenu fy nghyfreithiau o'r deg gorchymyn ar lêchau o gèrig, fel y gwnaethum wrth fynydd Sinai; mi a'u hysgrifenaf hwynt, yn nghyd a'm holl wirionedd datguddiedig, trwy weithrediad neillduol a thumewnol fy Ysbryd, ar lêchau cnawdol eu calonau a'u meddyliau hwynt. Gwel ar pen. 8. 10: ac hefyd ar 2 Cor. 3. 3.

17 * A'u pechodau a'u hanwireddau ni chofiaf mwyach.

* Ac yna, i sicrâu i'w bobl na chaiff dim luddias y cyflawniad o'i gyfammod newydd ef iddynt, mae efe yn chwanegu mewn ffordd o addewid ddiammodawl, gyda holl ras ac awdurdod y Duw, yr hwn yn unig a all faddeu pechodau; Mi a faddeuaf eu pechodau a'u hanwireddau hwynt mòr llwyr a hollawl, fel na thòrwyf fy nghyfammod â hwynt byth o'u herwydd, ac na chofiwyf ddim o honynt byth mwyach, fel pe na byddai perffaith iawn wedi ei gael drostynt, megys y byddwn yn cofio anwireddau Israel bob blwyddyn, yn y mynych aberthau annigonol hyny; (adn. 3.) ac nid edliwiaf hwynt iddynt byth, ac ni ddygaf hwynt mewn barn yn eu herbyn yn y dydd diweddaf. Gwel ar pen. 8. 12.

18 [c] * A lle *y mae* maddeuant am y rhai hyn, † nid *oes* mwyach offrwm dros bechod.

c Gwel ar adn. 2, 14.

* Ac yn awr mae yn wirionedd amlwg ac anwadadwy, lle mae y fath faddeuant hollawl a thragywyddol o bob pechod ac anwiredd, yn ol rhediad grasol y cyfammod hwn, ag a dystiolaethodd yr Ysbryd Glân ei hun; † nis gall fod achos nac angen am offrwm mwyach dros bechod, nac am i Grist mwyach offrymu ei hun; oblegid mae yr aberth *hwnw*, a offrymodd efe unwaith eisoes, wedi ateb y dyben yn effeithiol, i gaffael y maddeuant uchod i bawb a brynwyd ganddo, ac a gredant ynddo. Er bod dynion duwiol a chyfiawn yn tynu euogrwydd newydd yn barâus, a'u cyflawniadau goreu yn gofyn maddeuant; eto, trwy weithredu ffydd yn barâus ar un aberth Crist, maent yn cael maddeuant o'u pechodau, a heddwch gwastadol yn eu heneidiau.

19 [d] * Am hynny, frodyr, gan fod i ni ryddid i [e] fyned i mewn i'r cyssegr † trwy waed Iesu,

d pen. 4. 16. a 12. 28. Rhuf. 8. 15. Gal. 4. 6, 7. Eph. 3. 12. 2 Tim. 1. 7. 1 Ioan 3. 19—21. a 4. 17. e pen. 7. 25. a 9. 3, 7, 8, 12, 23—25. Rhuf. 5. 2. Eph. 2. 18. 1 Ioan 2. 1, 2.

Gwedi i'r apostol orphen y rhan *athrawiaethol* o'i epistol, am ragoriaeth Person, offeiriadaeth, ac aberth Crist; mae efe yn yr adnod hon, ac o hyn yn mlaen hyd ddiwedd ei lythyr, yn gwneuthur cymhwysiad *ymarferol* o'r cwbl. * Gan fod i'r holl gredinwyr fel cynnulleidfa o "frodyr" sanctaidd, "ryddid," a "dyfodfa mewn hyder," i bresenoldeb union-gyrchol Duw yn y Sancteiddiolaf, ac at y drugareddfa, hyd yn nôd tu hwnt i'r hyn oedd yn ganiatâol i'r arch-offeiriad ei hun dàn y ddeddf; yr oedd yn gweddu iddynt hwy wneyd defnydd o'r rhagor-fraint hon, † oblegid nid oedd dim perygl iddynt hwy gael eu cospi fel rhai rhyfygus, er eu pechadurusrwydd hwy a sancteiddrwydd Duw, pa mòr fynych bynag y deuent ger ei fron ef, ond iddynt ddyfod gan ymddiried yn "ngwaed Iesu" am dderbyniad; yr hwn a aeth ei hun i mewn i'r cyssegr trwy ei waed ei hun, i'w gyflwyno a'i ddadleu dros ei bobl yno, fel y caffent hwythau ddyfodfa at Dduw yn eu gweddïau yn wastadol, ac o'r diwedd ddyfodfa o ran eu personau i'r drydedd nef, trwy ei waed, ei aberth, a'i eiriolaeth ef.

20 [f] * Ar hyd ffordd newydd † a bywiol, ‡ yr hon a gyssegrodd efe i ni, [g] || trwy y llen, [h] sef ei gnawd ef;

f Iean 10. 7, 9. a 14. 6. g pen. 6. 19. a 9. 3. Ex. 26. 31, &c. a 36. 35, &c. Lef. 16. 2, 15. a 21. 23. Mat. 27. 51. Marc 15. 38. Luc 23. 45. h Ioan 6. 51—56. Eph. 2. 15. 1 Tim. 3. 16. 1 Pedr 3. 18. 1 Ioan 4. 2. 2 Ioan 7.

* Mae yn awr ryddid i fyned i mewn i'r cyssegr "ar hyd ffordd *newydd*." Mae y ffordd gyntaf o heddwch a chymdeithas â Duw, trwy gyfiawnder gweithredoedd, wedi ei chauad i fynu am byth, trwy ddyfodiad pechod i mewn. Nis gallai yr aberthau cysgodol agor yr un ffordd arall, megys y dangoswyd eisoes: (pen. 9. 8.) ac yr oedd y gwaharddiad hyd yn nôd i'r arch-offeiriad, i fyned i mewn i'r Sancteiddiolaf ond unwaith yn y flwyddyn, ac y pryd hwnw nid heb aberth a gwaed *newydd ei dywallt*, (pen. 9. 7.) yn dangos nad oedd y ffordd i'r cyssegr yn agored eto. Ond y mae gwaed Iesu o hyd megys newydd ei dywallt; nid yw byth yn colli ei effaith, a gall unrhyw bechadur, ar unrhyw amser, ei gyflwyno a'i ddadleu ef mewn ffydd ger bron y drugareddfa; ac nid yw byth yn methu cael rhyddid a dyfodfa gymmeradwy at Dduw, i'r neb a'i dadleüo fel hyn ger bron yr orsedd-fainc. Felly dyma ffordd *newydd* i'r cyssegr trwy waed Iesu, gwahanol i *hen* ffordd y cyfammod gweithredoedd, a ffordd yr aberthau seremoniol. † Mae hon hefyd yn ffordd *fywiol:* am fod Iesu ein Harch-offeiriad ni yn *byw* bob amser, i eiriol drosom ger bron gorsedd Duw; am fod y ffordd ei hun yn *rhoddi bywyd* i'r rhai sydd yn dyfod iddi; ac am ei bod yn arwain i *fywyd tragywyddol.* ‡ Mae y "ffordd newydd a bywiol" hon wedi ei chyssegru, ei hawdurdodi, a'i neilldduo gan Grist i'r perwyl hwn, fel y gallom ni ddyfod at Dduw yn y Sancteiddiolaf, ar orsedd ei drugaredd: || ac mae wedi ei chyssegru trwy y llèn, sef ei gnawd ef; fel y gallom ni ganlyn ein Harch-offeiriad mawr i'r nef ei hun, trwy groeshoeliad ei gorph ef, yr hyn a agorodd y ffordd hon i ni, pan "rwygwyd llèn y deml yn ddau oddi fŷnu hyd i waered," heb ei chauad mwy; yr hyn oedd yn arwyddo, gyda phethau eraill, fod pob rhwystr i ni fyned i mewn i'r nef ei hun, yn awr wedi ei symmud ymaith, trwy farwolaeth ac aberth Crist.—*Ffordd newydd a bywiol:* yr oedd yn rhaid i waed yr aberthau gynt gael ei ddefnyddio yn y fàn ar ol ei dywallt; os oerai a cheulo, nis gellid ei daenellu: ond y mae gwaed Crist megys o hyd yn newydd ac yn gynhes, ac o hyd ag ysbryd bywyd a sancteiddiad ynddo; felly mae y ffordd i'r cyssegr at Dduw, o hyd yn *newydd* ac yn *fywiol* trwy ei waed ef.—*Trwy y llèn:* mae yn hysbys ddigon, mai gorchudd oedd *llèn* y deml, yn gwahanu rhwng y *cyssegr* â'r *cyssegr Sancteiddiolaf:* nis gallai yr arch-offeiriad fyned i'r Sancteiddiolaf heb fyned drwy y *llèn;* felly nis gallai Crist fyned i'r nef fel ein *Harch-offeiriad* ni, heb iddo gymmeryd dynioliaeth, *llen* o gnawd, ar ei ffordd; ac heb iddo ei gosod hi o'r neilldu, neu ei rhwygo megys, trwy farwolaeth. Ac efallai bod yma gyfeiriad hefyd at y *Shechinah* oedd yn cael ei *orchuddio* gan y llèn gynt, yr hwn oedd gysgod mòr nodedig o Dduwdod a gogoniant Crist, yn cael ei lènu gan ei ddynoliaeth ef. Yr oedd Duw yn egluro ei ogoniant ar y drugareddfa, yn y Sancteiddiolaf, cyn dyfodiad Crist; ond yr oedd yn cael ei guddio a'i ddirgelu gan y llèn; hyny yw, nid oedd y cyd-gordiad rhwng anfeidrol sancteiddrwydd â thrugaredd faddeuol, yn ymddygiad y JEHOFAH mawr, i'w ganfod yn eglur ac yn ddealladwy y pryd hwnw. Ond pan gafodd dynioliaeth Crist, Mab Duw, ei harcholli a'i dryllio am ein camweddau ni; a phan bu efe farw ar y groes, rhwygodd y llèn oddi fynu hyd i waered. Yna symmudwyd y tywyllwch, a datguddiwyd Duw cyfiawn ac Achubwr yn amlwg i ddynolryw; gwelir ef yn awr yn egluro ei ogoniant oddi ar y drugareddfa, ac yn trugarâu yn ei ras helaethaf wrth y penaf o bechaduriaid; a hyny yn y modd mwyaf anrhydeddus i'w burdeb anfeidrol ei hun.

21 * A *bod i ni* [i] Offeiriad mawr [k] † ar dŷ Dduw;

i Gwel ar pen. 2. 17. a 3. 1. a 4. 14, 15. a 6. 20. a 7. 26. a 8. 1. k pen. 3. 3—6. Mat. 16. 18. 1 Cor. 3. 9—17. 2 Cor. 6. 16, 17. Eph. 2. 19—22. 1 Tim. 3. 15.

22 [l] ‡ Nesâwn â [m] chalon gywir, [n] || mewn llawn hyder ffydd, [o] § wedi glanhâu ein calonnau oddi wrth [p] gydwybod ddrwg, [q] * a golchi ein corph â dwfr glân.

l pen. 4. 16. a 7. 19. Salm 73. 28. Es. 29. 13. Jer. 30. 21. Iago 4. 8. m 1 Bren. 15. 3. 1 Cron. 12. 33. a 28. 9. a 29. 17. Salm 9. 1. a 32. 11. a 51. 10. a 84. 11. a 94. 15. a 111. 1. a 119. 2, 7, 10, 34, 58, 69, 80, 145. Diar. 23. 26. Jer. 3. 10. a 24. 7. Act. 8. 21. Eph. 6. 5. n Gwel ar adn. 19. Mat. 21. 21, 22. Marc 11. 23, 24. Iago 1. 6. 1 Ioan 3. 19, 21, 22. o pen. 9. 13, 14, 19. a 11. 28. a 12. 24. Lef. 14. 7. Num. 8. 7. a 19. 18, 19. Es. 52. 15. Ezec. 36. 25. 1 Pedr 1. 2. p Ioan 8. 9. 1 Tim. 4. 2. 1 Ioan 3. 20. q Gwel ar pen. 9. 10.—Ex. 29. 4. Lef. 8. 6. Ezec. 16. 9. a 36. 25. Zec. 13. 1. Mat. 3. 11. Ioan 3. 5. a 13. 8—10. 1 Cor. 6. 11. 2 Cor. 7. 1. Eph. 5. 26. Tit. 3. 5. 1 Pedr 3. 21. Dat. 1. 5.

* Gan fod i ni y fath ffordd at Dduw, ac hefyd y fath Arch-offeiriad mawr a gogoneddus, yn rhagori yn anrhraethol ar bawb a fu o'i flaen ef, yn ei berson, ei swydd, a'i dderchafiad; Arch-offeiriad o anfeidrol fawrledd ac awdurdod, † yr hwn sydd Ben ar yr eglwys ffilwriaethus ar y ddaear, a'r eglwys orfoleddus yn y nef; ac yr hwn sydd hefyd, fel Arglwydd a meddiannydd iei eglwys, yn ei llywodraethu hi ac oll a berthyn iddi, efel ei dŷ ei hun, (pen. 3. 6.) lle y preswylia Duw mewn modd rhagorach nac y gwnaeth erioed yn y tabernacl na'r deml Iuddewig; ‡ nesâwn gan hyny, ar yr ystyriaethau annogaethol hyn, yn ostyngedig, ac eto yn dyderus, at Dduw, fel ein Duw a'n Tad cymmodawl ni yn a thrwy Iesu Grist, ac fel mae yn eistedd ar orsedd gras. Nesâwn ato mewn gweddiau, ac mewn pob cyflawniad arall o addoliad crefyddol; a nesâwn â chalonau cywir ac uniawn, fel dynion gwir edifeiriol, ac addolwyr diffüant, heb ofni dim ond twyll a rhagrith ynom ein hunain. ‖ A nesâwn hefyd "mewn llawn hyder ffydd;" gan gredu yn y modd cadarnaf, y derbyn Duw bersonau a gwasanaeth pawb a ddeuant ato ef yn y ffordd hon a ordeiniodd efe; ac y dyry efe iddynt bob peth a ofynont yn ol ei ewyllys ef, ac mewn ffydd yn enw ei Fab ef. § Mewn trefn i nesâu at Dduw fel hyn, rhaid i ni gael ein calonau wedi eu glanâu oddi wrth gydwybod ddrwg, trwy ffydd yn ngwaed Crist; i dynu ymaith y teimlad o euogrwydd ac ofn digofaint, ac i roddi i ni heddwch gwir a sefydlog: a rhaid glanâu ein cydwybod ni hefyd oddi wrth halogrwydd a chysgadrwydd mewn pechod, a'n calonau oddi wrth serchiadau cnawdol, aflan, a phechadurus. * Yr oedd yn rhaid i'r Hebreaid hyn hefyd nesâu at Dduw wedi golchi eu cyrph â dwfr glân; fel y byddai yr offeiriaid Iuddewig yn ymolchi mewn dwfr wrth eu cyssegru i'w swydd, ac yn ymolchi yn wastad, mewn rhyw fesur, cyn myned i offeiriadu; ac fel yr oedd amryw olchiadau wedi cael eu gosod i'r addolwyr dàn y ddeddf. Yn gyffelyb i hyny mae dwfr yn y bedydd, yn goffadwriaeth gwastadol i gristionogion, y dylai eu hymarweddiad allanol fod yn bur a sanctaidd ger bron dynion, yn gystal â'u calonau a'u cydwybodau yn lân ger bron Duw. "*Glanâu* ein calonau:" "*taenellu* ein calonau," yw yn y Saesoneg: glanâu trwy daenelliad, efallai, yw ystyr y gair Groeg; *(errhantismenoi)* sef trwy daenelliad o waed Crist, yr hwn yn unig a lanâ y galon a'r gydwybod. *A golchi ein corph â dwfr glân:* heblaw a nodwyd uchod am y cyfeiriad sydd yn y geiriau at y golchiadau seremoniol gynt, gallwn sylwi fod y *corph* yma yn arwyddo y dyn a'r ymarweddiad *allanol*, fel mae y *galon* a'r *gydwybod* yn arwyddo y dyn a'r agwedd *dufewnol* yn y geiriau o'r blaen; a *golchi* y corph *â dwfr glân* yn arwyddo sanctaiddrwydd allanol yn y rhai a nesânt at Dduw. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at fedydd, yr hyn sydd arwydd o sancteiddrwydd, ac yn cael ei grybwyll trwy daenellu. Ezec. 36. 25.

23 [r] * Daliwn gyffes ein gobaith yn [s] ddisigl [t] † (canys ffyddlawn *yw* yr hwn a addawodd)

r Gwel ar pen. 3. 6, 14. a 4. 14.—Dat. 3. 11. s Iago 1. 6. t Gwel ar pen. 6. 18. 1 Cor. 1. 9. a 10. 13. 1 Thes. 5. 24. Tit. 1. 2.

* Mae yr apostol yn mhellach yn galw ar ei frodyr yr Hebreaid, gydag ef ei hun, i ddàl cyffes eu gobaith yn ddisigl; heb ysgog ynddi, petruso am dani, nac osgöi rhag yr erlidiau a gâent hwy o'i herwydd hi: † gallent fod yn sicr y rhoddai Duw iddynt y cynnorthwyon presenol, a'r dedwyddwch dyfodawl, a addawodd efe; a gallent ymddiried yn ei ffyddlondeb ef am hyn yma yn wastadol. "Cyffes ein *gobaith*:" "cyffes (neu broffes) ein *ffydd*," ydyw yn y Saesoneg: ond addef dau o'n Hawdwyr mai *gobaith* a ddylai fod, ac nid ffydd: *elpidos*, gobaith, yw y gair Groeg, ac nid *pisteôs*, ffydd, oddigerth mewn un ysgrif yn unig, medd *Doddridge*.

24 [u] * A chyd-ystyriwn bawb ein gilydd, [x] † i ymannog i [y] gariad ‡ a gweithredoedd da:

u pen. 13. 3. Salm 41. 1. Diar. 29. 7. Act. 11. 29. Rhuf. 12. 15. a 15. 1, 2. 1 Cor. 8. 12, 13. a 9. 22. a 10. 33. Gal. 6. 1. Col. 3. 16. 1 Thes. 5. 11. 2 Thes. 3. 9. x Rhuf. 11. 14. 2 Cor. 8. 8. a 9. 2. y pen. 6. 10, 11. a 13. 1. Gal. 5. 6, 13, 22. Phil. 1. 9—11. 1 Thes. 1. 3. a 3. 12, 13. 1 Tim. 6. 18. Tit. 2. 14. a 3. 8. 1 Ioan 3. 18.

* Tuag at ddàl yn eu proffes yn ddisigl, yr oedd yn angenrheidiol iddynt gyd-ystyried eu gilydd yn serchiadol a gofalus: ystyried lles, peryglon, a sefyllfâoedd y naill y llall, ac ymofyn trwy ba foddion y gallent hwy fod o wasanaeth a chryfder i'w gilydd. † Yn enwedig hwy a ddylent trwy esamplau a chyngorion, annog y naill y llall i ymarferiad mwy gwresog, grymus, a helaeth o gariad at Dduw, at Grist, ac at wirionedd yr efengyl; ‡ ac annog eu gilydd yn mhob modd, i bob dyledswyddau moesol ac efengylaidd, ac i bob gweithredoedd da, gweddus, a rhagorol, ag oedd yn deilwng ac yn addas i rai yn proffesu efengyl Crist, a gobaith sanctaidd yn Nghrist.

25 * Heb [z] esgeuluso ein cyd-gynnulliad ein hunain, † megis *y mae* arfer rhai; [a] ‡ ond annog *bawb ein gilydd:* ‖ a hynny yn fwy, [b] o gymmaint a'ch bod yn gweled y dydd yn nesâu.

z Mat. 18. 20. Ioan 20. 19—29. Act. 1. 13, 14. a 2. 1, 42. a 16. 16. a 20. 7. 1 Cor. 5. 4. a 11. 17, 18, 20. a 14. 23. Judas 19. a Gwel ar u. adn. 24. pen. 3. 13.—Rhuf. 12. 8. 1 Cor. 14. 3. 1 Thes. 4. 18. a 5. 11. b Mat. 24. 33, 34. Marc 13. 29, 30. Rhuf. 13. 11—13. Iago 5. 8. 1 Pedr 4. 7.

* Ac ni ddylent hwy gan ofn gwarth ac erlid eu gelynion, nac o ragfarn a diogi, esgeuluso ymgynnull yn nghyd, ar ddydd yr Arglwydd nac ar amserau gosodedig eraill, i addoli Duw yn ei ordinâdau, ac i wrando ei air ef: † hyn ydoedd "arfer rhai;" y rhai wedi dechreu gwneyd proffes o gristionogaeth, a dueddwyd wedi hyny gan ofn, rhagfarn, neu glaüarineb, i esgeuluso cyd-ymgynnull â'u brodyr yn addoliad cyhoeddus yr Arglwydd. Hyn ydyw *arfer* rhai, ie llawer, eto; ac os oedd yn arfer ddrwg a beïus y pryd hwnw, pan oedd cymmaint o erlid ar grefydd, pa faint mwy beïus ydyw yn awr, pryd nad oes dim ond ysbryd gwrthgiliedig ac anffyddlawn yn achos o hóni? Pa fodd yr ymdery pobl yr *arfer* hon yn y farn!—‡ Ond i'r gwrthwyneb, hwy a ddylent annog bawb eu gilydd yn wastadol, i fod yn ddïofn, yn gyson, ac yn ddyfal yn holl foddion eu crefydd sanctaidd, i anrhydeddu Duw ger bron ei elynion, ac yn ceisio eu lles eu hunain a'u gilydd, a'u cadarnâd yn y ffydd. ‖ Dylasent ymegnïo i hyn yn fwy; oblegid y gallent weled yn amlwg yr arwyddion o "ddydd" dinystr Jerusalem yn nesâu; yr hyn a grybwyllodd yr Arglwydd Iesu pan ragfynegodd efe y dygwyddiad ofnadwy hwnw.—Ysgrifenwyd yr epistol hwn ychydig flynyddoedd cyn y dygwyddiad hwnw; ac megys y byddai y tro hwn yn waredigaeth arbenig i gristionogion, oddiwrth erledigaethau yr Iuddewon, felly hefyd byddai yn dra dychrynllyd i wrthgilwyr, y *rhai* uchod, oedd yn *arfer* esgeuluso eu cyd-gynnulliad. Gallwn *ni* ystyried dydd marw a barn, sydd yn nesâu i bob un o honom.—Tybia rhai y byddai yr Iuddewon, rai o honynt, yn arfer esgeuluso eu cyd-gynnulliad, o ragfarn yn erbyn y cenedloedd dychweledig oedd yn eu cynnulleidfâoedd; ac y byddai rhai o'r cenedloedd yn arfer yr un peth, o ragfarn at yr Iuddewon: ond mae yr agoriad uchod, debygid, yn ddigon esmwyth a naturiol, beth bynag oedd yr achos o'r gocheliad.

26 [c] * Canys os o'n gwirfodd y pechwn, [d] ar ol derbyn gwybodaeth y gwirionedd, [e] † nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach;

c Gwel ar pen. 6. 4—6.—Lef. 4. 2, 13. Num. 15. 28—31. Deut. 17. 12. Salm 19. 12, 13. Dan. 5. 22, 23. Mat. 12. 31, 32, 43—45. Ioan 9. 41. 1 Tim. 1. 13. 2 Pedr 2. 20—22. 1 Ioan 5. 16. d Luc 12. 47. Ioan 13. 17. a 15. 22—24. 2 Thes. 2. 10. Iago 4. 17. e Gwel ar adn. 3—10.

* Byddai yr Hebreaid hyn yn sicr o gael eu temtio yn gryf i wrthgiliad, nid yn unig gan ffyrnigrwydd erlidiau eu cyd-wladwyr, ond hefyd trwy eu hymlŷniad annyladwy hwy eu hunain wrth yr aberthau seremoniol.

Cyhyd ag y tybient hwy y gallai gwaed teirw, ŵyn, a geifr, dynu ymaith bechod, hwy a obeithient am faddeuant ac iachawdwriaeth, hyd yn nôd trwy wadu cristionogaeth; ac felly, dianc rhag colledigaeth: ac fel hyny gallent gael eu tueddu i bechu o'u gwirfodd, ar ol derbyn gwybodaeth o'r gwirionedd. Y pechod a feddylir yma, fel mae yn ymddangos oddi wrth y cyd-destunau ol a blaen, yw *gwrthgiliad gwirfoddol, penderfynol, dirmygus,* a *hollawl,* oddi wrth y broffes o gristionogaeth: ac er y dylem ni wylied rhag *pob gradd a math o bechod gwirfoddol,* rhag iddo arwain i'r diweddiad ofnadwy hwn; eto, nid yw y testun hwn i'w ddeall am bob pechod a wnelo dyn dàn rym profedigaeth, ac yn erbyn goleuni ac argyhoeddiad; fel y bydd rhai cristionogion tyner eu cydwybod yn aml yn ei ddeall, er eu mawr ddigalondid a'u dychryn, bron i annobaith eithaf. † Gwrthgilio fel y dywedwyd oddi wrth Grist, a dychwelyd at y grefydd Iuddewig, oedd y pechu o wirfodd a sonir yma; a thros hyny nid oedd aberth wedi ei adael mwyach: oblegid yr holl aberthau seremoniol nid oeddynt o ddim defnydd yn addoliad Duw mwyach, ac ni buont erioed yn effeithiol i dynu ymaith euogrwydd moesol pechod; ac fel na bu erioed aberth wedi ei osod dàn y ddeddf dros bechodau rhyfygus a gwirfodd, felly nid oedd yr un arall ond aberth Crist i gael maddeuant trwyddo; a'r dynion hyn oedd wedi gwrthod hwnw, nid oedd iddynt obaith byth am faddeuant trwy yr un aberth arall.

27 [f] * Eithr rhyw ddisgwyl ofnadwy am farnedigaeth, [g] † ac angerdd tân, [h] ‡ yr hwn a ddifa y gwrthwynebwyr.

f pen. 2. 3. a 12. 25. 1 Sam. 28. 19, 20. Es. 33. 14. Dan. 5. 6. Hos. 10. 8. Mat. 8. 29. Luc 21. 26. a 23. 30. Dat. 6. 15—17.
g pen. 12. 29. Num. 16. 35. Salm 21. 9. Jer. 4. 4. Ezec. 36. 5. a 38. 19. Joel 2. 30. Nah. 1. 5, 6. Zeph. 1. 18. a 3. 8. Mal. 4. 1. Mat. 3. 10, 12. a 13. 42, 50. a 25. 41. Marc 9. 43—49. Luc 16. 24. 2 Thes. 1. 8. Iago 5. 3. Dat. 20. 15. h Deut. 32. 43. Salm 68. 1, 2. Nah. 1. 2, 8—10. Luc 19. 27. 1 Thes. 2. 15, 16.

* Y cwbl oedd wedi ei adael i'r dynion hyn, fel eu rhan druenus, oedd rhyw ddysgwyl ofnadwy yn eu cydwybodau am gyfiawn farn Duw, yr hon a fyddai yn sicr o'u goddiweddyd hwynt, ac i ddechreu yn fuan yn ninystyr Jerusalem; † a rhaid iddynt ddysgwyl am ei ddigofaint angerddol ef, yr hwn a losgai yn y modd mwyaf dychrynllyd, fel y tân poethaf, ‡ i ddyfetha yn dragywyddol y cyfryw elynion a ymosodent i wrthwynebu ei Fab ef, yr unig a'r bendigedig Iachawdwr.—Tân digofaint cyfiawn Duw yn difa y gwrthwynebwyr, fel y byddai y tân yn difa yr aberthau ar yr allor gynt. Tybir fod yn yr adnod ddychrynllyd hon gyfeiriad pennodol at y drygfyd a'r trueni digyffelyb, a ddaeth yn fuan ar ol hyn ar y genedl Iuddewig; ac at eu cynddeiriogrwydd gorwyllt ac ofnadwy hwy eu hunain, yn nghanol y drygfyd a'r trueni hyny. Gellid dysgwyl fod y braw cydwybod hyn, yn nghyd âg annobaith a'i ganlyniadau arswydol, (fel yn amgylchiad Judas) yn bethau tra chyffredin yn mhlith *gwrthgilwyr* oddi wrth gristionogaeth; y rhai a wnaethent drais ar eu cydwybodau eu hunain, ac a bechasent o elyniaeth rhyfygus yn erbyn eu goleuni gwell, pan welsant yn amlwg fod pethau yn dyfod i'r eithafion hyny a ragfynegasid gan Grist. Eithr nid oedd y dychryn a'r annobaith hyn ond cysgod yn unig, o'r ing annhraethol a ddeuai arnynt, pan ddelai y Gwaredwr a ddirmygasent hwy i dywallt diialedd arnynt, rhag yr hwn ni byddai yn bosibl iddynt ddianc. Weithiau mae gwrthgilwyr yn gweled eu cyflwr annobeithiol cyn marw; ac, yn holl ddychrynfeydd a chynddeiriogrwydd cableddus ysbrydion colledig, cawsant eu gwneyd yn arwyddion er rhybudd i eraill, fel na phechent mewn cyffelyb fodd â hwy. Efallai nad oedd braidd neb o'r fath wrthgilwyr *goleuedig* a *gwirfoddol* yn cael eu hadferyd: efallai y gwyddai yr Hebreaid am lawer o honynt a roddasid i fynu i'r braw cydwybod mwyaf dychrynllyd; ac yr oedd yn dra phriodol i osod y mater hwn allan yn y fath iaith gref, er rhybudd a lles i eraill.

28 [i] * Yr un a ddirmygai gyfraith Moses, [k] † a fyddai farw heb drugaredd, [l] dan ddau neu dri o dystion:

i Gwel ar pen. 2. 2.—Num. 15. 30, 31, 36. Deut. 13. 6—10. a 17. 12, 13. 2 Sam. 12. 9, 13. k Deut. 19. 13. Es. 27. 11. Jer. 13. 14. Rhuf. 9. 15. Iago 2. 13. l Deut. 17. 6, 7. a 19. 15. Mat. 18. 16. Ioan 8. 17. 2 Cor. 13. 1.

* Trefnwyd aberthau y gyfraith yn benaf dros bechodau o annwybod, gwendid, a diofalwch; ond nid oedd i'r troseddwr rhyfygus ran yn y lles o honynt. Gan hyny yr hwn a *ddirmygai* gyfraith Moses, ac a droseddai ei gorchymynion eglur hi yn fwriadol, ac mewn dirmyg a beiddiad i awdurdod a dial Duw; † a gospid yn ddidrugaredd â marwolaeth, pan brofid y trosedd yn gyfreithlawn gan ddau neu dri o dystion; er y byddai y bai yn gyfryw ag y gellid ei faddeu drwy offrwm dros bechod, oni buasai ei fod wedi ei wneyd o ryfyg, a dirmyg ar y gyfraith. Gwel Num. 15. 27—31; Deut. 17. 6.

29 [m] * Pa faint mwy cospedigaeth (dybygwch chwi) y bernir haeddu o'r [n] † hwn a fathrodd Fab Duw, ‡ ac a farnodd yn aflan [o] waed y cyfammod, [p] trwy yr hwn y sancteiddiwyd ef, [q] ‖ ac a ddifenwodd [r] Ysbryd y gras?

m Gwel ar pen. 2. 3.—a 12. 25. n 2 Bren. 9. 33. Salm 91. 13. Es. 14. 19. a 28. 3. Galar. 1. 15. Ezec. 16. 6. Mica 7. 10. Mat. 7. 6. Rhuf. 16. 20. 1 Cor. 15. 25, 27. o Gwel ar pen. 9. 20.—a 13. 20. p pen. 2. 11. a 9. 13. Jer. 1. 5. Ioan 10. 36. a 17. 19. 1 Cor. 11. 27, 29. q Es. 63. 10. Mat. 12. 31, 32. Luc 12. 10. Act. 7. 51. Eph. 4. 30. r Salm 143. 10. Zec. 12. 10.

* Os marw heb drugaredd oedd y gosp am ddirmygu cyfraith Moses, fel y gwyddai yr Hebreaid hyn yn dda mai felly yr oedd; pa faint mwy cospedigaeth na marw yn naturiol, (debygent hwy eu hunain) y bernid haeddu o'r hwn a wadodd yr efengyl, yn y modd diystyrllyd a rhyfygus a nodwyd uchod! † Yr oedd y cyfryw un yn wir megys yn "mathru Mab Duw," gyda beiddiad trahaus a dirmyg; trwy wneyd yr hyn oll a allai i'w ddianrhydeddu ef, ac i'w gyffrôi ef i ddigofaint; gyda'r anniolchgarwch a'r annuwioldeb mwyaf diriaid ac afresymol. ‡ Yr oedd y cyfryw hefyd yn "barnu," neu yn cyfrif gwerthfawr waed y cyfammod newydd, trwy dywalltiad yr hwn y sancteiddiwyd, neu y cyssegrwyd Crist, i fod yn Arch-offeiriad ac Eiriolwr dros bechaduriaid yn y cyssegr nefol, fel pe buasai yn beth aflan; yn llai sanctaidd a gwerthfawr nâ gwaed teirw a geifr, ïe, mòr aflan â gwaed drwg-weithredwr pechadurus! ‖ Yr oedd y cyfryw hefyd eto yn "difenwi," yn tremygu, neu yn sarâu *(enubrisas)* Ysbryd y gras; Awdwr grasol a dwyfol bywyd ysbrydol, a phob dyddanwch sanctaidd yn eneidiau y credinwyr. Yr oedd y cyfryw yn gweithredu mewn gwrthwynebiad hollawl i argyhoeddiadau yr Ysbryd, a'i ymrysoniadau ef â'i gydwybod. Wrth wadu cristionogaeth, yr oedd gyda'r gwarth a'r gelyniaeth mwyaf llidiog, yn gwaradwyddo y grefydd hòno, yr hon oedd yn cael ei harddu â ffrwythau yr Ysbryd yn mucheddau ei phroffeswyr: ac uwchlaw pob peth, yr oedd yn difenwi Ysbryd y gras, trwy briodoli ei wyrthiau ef i swyn-gyfaredd a gweithrediadau Satan; a hyny yn groes i'w wybodaeth ei hun: fel hyn yr oedd yn gweithredu fel pe buasai yn penderfynu digio yr Ysbryd Glân yn y modd mwyaf *dirmygus* ag oedd yn bosibl: ac fel hyn yr oedd awdurdod a thrugaredd y Tad; Person, cariad, a gwaed aberthawl y Mab; a Pherson a gwaith yr Ysbryd Glân; yn cael eu cyd-ddirmygu a'u cablu ganddo ef, gwedi iddo wneyd proffes o'r efengyl, a chael ei fedyddio yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân!—Tybia rhai mai y *gwrthgiliwr* oedd wedi ei *sancteiddio* trwy waed y cyfammod; ond nid yn *dumewnol* a *grasol;* eithr yn *allanol,* yn ei neilldüad i Dduw, yn ei fedydd a'i broffes: ond tybia eraill mai *Crist* a *sancteiddiwyd,* fel y dywedwyd uchod. Gwel Ioan 17. 19.

30 * Canys nyni a adwaenom y neb a ddywedodd, [s] Myfi *biau* dial, myfi a dalaf, medd

r Arglwydd. † A thrachefn, [t] Yr Arglwydd farna ei bobl.

s Deut. 32. 35. Salm 94. 1. Es. 59. 17. a 61. 2 a 63. 4. Nah. 1. 2. Rhuf. 12. 19. a 13. 4. t Deut. 32. 36. Salm 50. 4. a 96. 13. a 98. 9. a 135. 14. Ezec. 18. 30. a 34. 17. 2 Cor. 5. 10.

* Ac ni ddylai neb, pan demtier ef i bechod mòr echryslawn, wenieithio iddo ei hun â gobaith y dianc efe yn ddïgosp, o herwydd mawredd trugaredd Duw; am y gŵyr efe fod yr Arglwydd wedi tystiolaethu, mai efe biau dial fel ei hawl briodol ac arbenig; † a'i fod wedi tystiolaethu hefyd y barna efe ei bobl, gan ei fod wedi penderfynu cospi yn y modd cyfiawnaf a llŷmaf, y rhai a ymwrthodant â'i addoliad, neu a wnânt ac a parânt mewn drygioni, er gwarth a gwaradwydd i'w proffes. Mae y geiriau trymion a ddyfynir yma, yn Deut. 32. 35, 36.—*Ei bobl:* efe a farna ei wir bobl trwy eu hamddiffyn, a dial ar eu gelynion; ac a farna y rhai a broffesasant eu hunain yn bobl iddo, ond a'i gwadasant ef wedi hyny, â barnedigaeth ac angerdd fân, yr hwn a ddifa y gwrthwynebwyr, adn. 27.—Os dial Duw ar ei elynion am ddirmygu a sarâu *ei bobl*, pa faint mwy am ddirmygu a chablu ei *Fab*, a'i *Ysbryd* ef! Tybir fod y cyd-destunau yn gofyn dehongliad o'r fath yna i'r geiriau.

31 * Peth [u] ofnadwy † *yw* [x] syrthio yn nwylaw y Duw byw.

u adn. 27. Es. 33. 14. Luc 21. 11. x pen. 12. 29. Salm 50. 22. a 76. 7. a 90. 11. Mat. 10. 28. Luc 12. 5.

* Gallai y gwrthgilwyr uchod wybod, a chaent brofi yn y diwedd, mai peth ofnadwy iawn, tu hwnt i bob ntraethu a dychymmyg, † fyddai syrthio yn nwylaw y Duw byw, digllawn, holl-alluog, a thragywyddol; fel aberthau i'w gyfiawnder ef, a gwrthddrychau ei atgasrwydd a'i ddialedd; heb un aberth, na Chyfryngwr, i ddyhuddo ei ddigofaint ef. Dyma yr amgylchiad oedd i ddyfod ar y genedl Iuddewig yn fuan iawn; ac yn neilduol ar wrthgilwyr gwirfoddol a gelynol, o'r genedl hòno.—*Duw byw:* un yn byw byth i gospi ei elynion: ystyriaeth arswydus i'w elynion i feddwl am dani.

32 [y] * Ond gelwch i'ch côf y dyddiau o'r blaen, † yn y [z] rhai, wedi eich goleuo, [a] ‡ y dïoddefasoch ymdrech mawr o helbulon:

y Gal. 3. 3, 4. Phil. 3. 16. 2 Ioan 8. Dat. 2. 5. a 3. 3. z Gwel ar pen. 6. 4.—Act. 26. 18. 2 Cor. 4. 6. a pen. 12. 4. Act. 8. 1—3. a 9. 1, 2. Phil. 1. 29, 30. 2 Tim. 2. 3, &c. a 4. 7, 8.

Mae yr apostol yma yn myned rhagddo i rybuddio a chyngori yr Hebreaid trwy ystyriaethau eraill. * I gryfâu eu meddyliau yn wyneb temtasiynau i wrthgiliad, neu i bechodau eraill rhyfygus a gwirfoddol, hwy a ddylent alw i gof yn aml y dyddiau blaenorawl o'u proffes; † yn y rhai pan oleuwyd hwynt yn ngwybodaeth yr efengyl, a ffordd yr iachawdwriaeth trwy Iesu Grist, ‡ daeth arnynt erlidiau poethion oddi wrth eu cydwladwyr anghrediniol; a galwyd hwy fel milwyr ysbryd-ol dàn Gadben mawr eu hiachawdwriaeth, ac fel ymdrechwyr yn y campau gynt, i sefyll ac i ymdrechu yn ŵrol yn mhlaid y ffydd, ac i ddyoddef ymdrech mawr o helbulon, y rhai a enwir yn yr adnodau a ganlyn. Os dyoddefasant hwy bethau felly heb dynu yn ol yn y dechreu; pa faint mwy y dylasent ddyoddef yn awr, wedi blynyddoedd o broffes? *Wedi eich goleuo:* wedi eich *bedyddio*, medd rhai: mae yn sicr y byddai yr hen dadau yn arfer y gair *goleuo* am *fedydd;* eithr nid oedd bedydd ond ordinâd i rai a gyfrifid mewn barn cariad, eu bod wedi cael eu goleuo, a thrwy yr ordinâd hòno yn dyfod i'r eglwys i gael eu goleuo yn chwaneg.

33 * Wedi eich gwneuthur weithiau yn [b] wawd, [c] trwy waradwyddiadau a chystuddiau; [d] † ac weithiau yn bod yn gyfrannogion â'r rhai a drinid felly.

b pen. 11. 36. Salm 71. 7. Nah. 3. 6. Zec. 3. 8. 1 Cor. 4. 9. c pen. 11. 26. a 13. 13. Salm 69. 9. a 74. 22. a 79. 12. a 89. 51. Es. 51. 7. 2 Cor. 12. 10. d Phil. 1. 7. a 4. 14. 2 Tim. 1. 8, 16—18.

* Byddai rhai o honynt weithiau yn cael eu gwneyd yn wrthddrychau gwawd cyhoeddus i'w cymmydogion, trwy gam-gyhuddiadau llidiog eu gelynion a ddygid yn eu herbyn; a thrwy y gwarth, y dirmyg, a'r gosp a roddid arnynt mewn canlyniad i'r cam-gyhuddiadau hyny. Mae y gair *theatrizomenoi*, a arferir yn y fàn hon, yn dangos y byddent yn cael eu dwyn i le cyhoeddus, i gael eu gwaradwyddo, eu cystuddio, a'u dirboeni, ger bron lliaws o elynion er difyrwch, fel y gwnâi y Rhufeiniaid â drwg-weithredwyr anfad. † Byddai eraill o honynt weithiau yn cael eu dwyn i edrych ar eu brodyr yn cael eu trin felly, ac fel hyny yn bod yn gyfranogion â hwynt; mewn cyd-ymdeimlad â'r rhai a fyddai yn dyoddef y pryd hwnw, ac mewn ofn a braw am danynt eu hunain. Neu, efallai eu "bod yn gyfranogion â'r rhai a drinid felly" yn wirfoddol; trwy fyned yn mlaen i'w hamddiffyn hwy, eu cysuro, a'u gŵroli i ddyoddef yn gadarn yn achos Crist.

34 * Canys chwi a gyd-ddïoddefasoch [e] â'm rhwymau i hefyd, [f] † ac a gymmerasoch eich yspeilio am y pethau oedd gennych yn llawen; [g] ‡ gan wybod fod gennych i chwi eich hunain olud gwell yn y nefoedd, ac un parhâus.

e Act. 21. 33. a 28. 20. Eph. 3. 1. a 4. 1. a 6. 20. 2 Tim. 2. 9. f Mat. 5. 11, 12. Act. 5. 41. Iago 1. 2. g Mat 6. 19, 20. a 19. 21. Luc 10. 42. a 12. 33. 2 Cor. 5. 1. Col. 1. 5. a 3. 2—4. 1 Tim. 6. 19. 2 Tim. 4. 8. 1 Pedr 1. 4. 1 Ioan 3. 2.

* Yn mhlith y rhai yr oedd yr apostol yn ysgrifenu hyn yn fwyaf pennodol atynt, yr oedd amryw a gyddyoddefasant âg ef rai blynyddoedd o'r blaen, pan rwymwyd ef yn Jerusalem, a phan garcharwyd ef wedi hyny: (gwel y cyfeiriadau dàn *e.*) † a phan yspeiliwyd hwy o'u meddiannau oblegid eu crefydd, pa fodd, a pha bryd bynag y bu hyny, hwy a gymmerasant hyny gan eu gelynion, nid yn unig yn ddyoddefgar, ond hefyd yn llawen; ‡ gan wybod yn sicr er eu mawr ddyddanwch, fod ganddynt ac iddynt yn y nefoedd "olud gwell, ac un parâus;" yr hwn nis gallai eu holl elynion, o ddynion na diafol ei gymmeryd oddi arnynt, ond a fyddai yn ddedwyddwch sylweddol iddynt byth bythoedd. Hwy a wyddent hyny trwy addewidion a datguddiad yr efengyl, ac a wyddent hyny hefyd trwy y blaen-ffrwyth a'r ernes oeddynt wedi gael o hòno eisoes yn eu heneidiau eu hunain.

35 [h] * Am hynny na fwriwch ymaith eich hyder, [i] † yr hwn sydd iddo fawr wobr.

h Gwel ar pen. 3. 6, 14. a 4. 14. i pen. 11. 26. Salm 19. 11. Mat. 5. 12. a 10. 42. Luc 14. 14. 1 Cor. 15. 58. Gal. 6. 8—10.

* Y rhai oedd wedi ymddwyn hyd yn hyn mòr ddïysgog, anrhydeddus, a chyson yn eu proffes, yn wyneb y fath ddyoddefiadau; na fydded iddynt mewn un modd fwrw ymaith eu hyder yn Nghrist, na gwadu eu proffes o'i enw a'i efengyl ef, yr hon a wnaethent mòr hŷf a chalonog; † ac i'r hon yr oedd gwobr mawr, helaeth, a grasol yn addawedig ac yn sicr. Yr oedd y mawr wobr hwn yn ddigon o dâl tragywyddol iddynt hwy am bob peth a ddyoddefasant eisoes, ac a fyddai raid iddynt ddyoddef o hyn allan. Duw ei hun yn Nghrist, yn ei holl gyfiawnder, oedd eu "gwobr mawr iawn" hwy, i fod gydag ef, i'w addoli, a'i weled, a'i fwynâu byth, wedi i holl ofidiau y fuchedd fèr drancedig hon ddarfod a myned drosodd.

36 [k] * Canys rhaid i chwi wrth amynedd; [l] † fel, wedi i chwi wneuthur ewyllys Duw, [m] ‡ y derbynioch yr addewid.

k pen. 6. 15. a 12. 1. Salm 37. 7. a 40. 1. Mat. 10. 22. a 24. 13. Luc 8. 15. a 21. 19. Rhuf. 2. 7. a 5. 3, 4. a 8. 25. a 15. 4, 5. 1 Cor. 13. 7. Gal. 6. 9. Col. 1. 11. 1 Thes. 1. 3. Iago 1. 3, 4. a 5. 7—11. Dat. 13. 10. a 14. 12. 1 pen. 13. 21. Mat. 7. 21. a 12. 50. a 21. 31. Ioan 7. 17. Act. 13. 22, 36. Rhuf. 12. 2. Eph. 6. 6. Col. 4. 12. 1 Ioan 2. 17. m Gwel ar pen. 6. 12, 15, 17. a 9. 15.—1 Pedr 1. 9.

* Rhai yn wir, a ymddangosent unwaith yn gredinwyr gwresog, a wrthgiliasent; a byddai y lleill yn sicr o gael eu profi i'r eithaf: am hyny yr oedd yn wir angenrheidiol iddynt hwy gael eu meddyliau wedi eu harfogi âg amynedd, ymostyngiad, dïysgogrwydd cadarn, parâus, a phenderfynol: † "fel, wedi iddynt wneuthur

ewyllys Duw," trwy gadarn lŷnu wrth Grist, ac ufuddâu iddo ef, yn eu holl erlidiau a'u profedigaethau, ‡ y caent dderbyn y fendith addawedig o fywyd tragywyddol; yr hwn a roddid yn rasol iddynt yn iachawdwriaeth berffaith eu heneidiau, ar ddiwedd eu gyrfa a'u milwriaeth ysbrydol, yr hon a ddarfyddai yn fuan iawn, ac a gyfnewidid am dragywyddol hedd, dedwyddwch, a llawenydd, yn nefoedd y gogoniant frŷ.

37 [n] * Oblegid ychydig bachigyn etto, † a'r hwn sydd yn dyfod a ddaw, ‡ ac nid oeda.

n Es. 26. 20. a 60. 22. Hab. 2. 3. Luc 18. 8. Iago 5. 7—9. 2 Pedr 3. 8, 9. Dat. 22. 20.

* "Oblegid," gyda golwg ar eu gwaredigaeth ddiweddaf hwynt o bob trallod, yn gystal â chyda golwg ar ddyfodiad Crist i ddïal ar y genedl Iuddewig, ac fel hyny i waredu yr eglwys gristionogol oddi wrth yr erlidiau a ddyoddefent o'r parth hwnw; nid oedd ond ychydig iawn o amser hyd oni ddeuai yr hwn oedd i ddyfod, sef y Messiah; i waredu ei bobl, ac i ddïal ar eu gelynion, fel y sylwyd. † Yr hwn sydd yn dyfod a ddaw yn *sicr*, ac a ddaw yn *fuan iawn;* yn ddïalydd ofnadwy i'w elynion, ac yn waredydd grasol i'w saint: ‡ ac er eu bod hwy yn gweled yr amser yn faith, tra maent yn ocheneidio dàn eu gorthrymderau; eto, gallant fod yn sicr nad oeda efe ei ddyfodiad, gymmaint ag un tarawiad amrant dros yr amser gosodedig yn nghyngor Duw, yr hwn yw yr amser goreu yn ol ei ddoethineb grasol ef, er ei ogoniant ei hun, a lles ysbrydol ei bobl. *Ychydig bachigyn: mikron oson oson* yw y geiriau Groeg, yn arwyddo *amser*, ac *ychydig iawn* o amser: y cythrym lleiaf a ellir feddwl am dano. *Yr hwn sydd yn dyfod: (erchomenos.)* Gwel ar Matth. 11. 3. Mae cyfeiriad yn y geiriau yn ddïau at Hab. 2. 3: neu yn bytrach dyfyniad o'r geiriau hyny ydynt, lle mae yr apostol yn eu cymhwyso at yr achos presenol, sef dyfodiad Crist i waredu ei bobl, ac i ddïal ar eu gelynion, fel y sylwyd eisoes; yr hyn oedd gysgod hefyd o'i ddyfodiad diweddaf ef i farnu y byd, ac i *lwyr* waredu ei *holl* bobl.

38 [o] * A'r cyfiawn a fydd byw trwy ffydd: [p] † eithr o thyn *neb* yn ôl, [q] ‡ nid yw fy enaid yn ymfoddloni ynddo.

o Hab. 2. 4. Rhuf. 1. 17. Gal. 3. 11. p Gwel ar adn. 26, 27. pen. 6. 4—6.—Salm 85. 8. Ezec. 3. 20. a 18. 24. Zeph. 1. 6. Mat. 12. 43—45. a 13. 21. 2 Pedr 2. 18—22. 1 Ioan 2. 19. q Salm 5. 4. a 147. 11. a 149. 4. Es. 42. 1. Mal. 1. 10. Mat. 12. 18. 1 Thes. 2. 15.

* Er calondid chwanegol i'r Hebreaid, mae yr apostol yn adgofio y geiriau hyn iddynt hefyd, sydd yn Hab. 2. 4: "y cyfiawn," yr hwn a gyfiawnâwyd trwy ffydd, ac y purwyd ei galon trwy ffydd, (Rhuf. 5. 1; Act. 15. 9.) trwy ei ffydd a fydd byw fywyd ysbrydol a sanctaidd, mewn ystâd o gymmeradwyaeth gyda Duw, a chymdeithas âg ef; ac mewn dysgwyliad amyneddgar a gostyngedig am y diwedd dedwydd a soniwyd uchod, (adn. 37.) i'w ddyddiau a'i holl ofid ar y ddaear: ac efe a fydd byw mewn pob dedwyddwch a gogoniant gyda Christ yn ol yr addewid, (adn. 36.) byth ac yn dragywydd yn y nef. † Ond yn y gwrthwyneb, pwy bynag ar ol gwneyd proffes o ffydd yn Nghrist, a dyno yn ol oddi wrtho ef i wrthgiliad, trwy falchder ysbryd heb ei ddarostwng, a thrwy galon ddrwg anghrediniaeth, y rhai a ymgyfodant yn ei erbyn ef, ac a wadant y broffes o'i enw ef, o hervydd y trallodau a'r erlidiau a raid eu goddef oblegid hyny; ‡ nid yw fy enaid i, medd Duw, a llefaru mewn dull dynol, yn ymfoddloni ynddo: yr wyf fi yn mhell o gael boddlonrwydd na hyfrydwch ynddo, pwy bynag ydyw; ïe, mae yn atgas genyf, ac ni chymmeraf drugaredd arno; yn lle bod fy ewyllys da i tuag ato, bydd yn wrthddrych fy nigofaint llidiog i, yr hwn a ennyna yn ei erbyn ef fel *tân. O thyn neb yn ol:* nid o thyn neb o'r *cyfiawn* yn ol a feddylir; oblegid dywedwyd o'r blaen, y bydd y cyfiawn byw trwy ffydd, a dywedir eto yn yr adnod nesaf, nad yw y cyfiawn, neu y neb sydd "o ffydd," yn tynu yn ol i golledigaeth: am hyny rhaid mai rhith-broffeswyr, mewn cyferbyniad i'r "cyfiawn," a'r rhai sydd "o ffydd," yw y rhai sydd yn tynu yn ol. Ymgilio ymaith, neu dynu yn ol yn *lledradaidd*, ac yn *fawaidd*, meddant, yw ystyr y gair Groeg *(hyposteilêtai)* a ddefnyddir yma. *Yr hwn a ymchwydda*, yw y geiriau yn Hab. 2. 4, ac nid *o thyn neb yn ol;* a dywedir fod y cyfnewidiad o *un llythyren* yn newid y darlleniad i'r ystyr hyn, yn yr hwn ei cymmerwyd gan y LXX, a chan yr apostol o'r cyfieithiad hwnw: mae y ddau ystyr o bwys mawr, *ymchwyddo* yn gyntaf, ac yna *tynu yn ol*, yn yr ymchwydd a'r balchder hwnw. O pa nifer o broffeswyr chwyddedig a welsom ni yn tynu yn ol! Ddarllenydd, na fydd uchel-fryd, eithr ofna!

39 * Eithr [r] nid ydym ni o'r rhai sydd yn tynnu yn ol i [s] golledigaeth; [t] † namyn o ffydd, i gadwedigaeth yr enaid.

r pen. 6. 6—9. 1 Sam. 15. 11. Salm 44. 18. Diar. 1. 32. a 14. 14. Luc 11. 26. 1 Ioan 5. 16. Judas 12, 13. s Ioan 17. 12. 2 Thes. 2. 3. 1 Tim. 6. 9. 2 Pedr 3. 7. Dat. 17. 8, 11. t pen. 11. 1. Marc 16. 16. Ioan 3. 15, 16. a 5. 24. a 6. 40. a 20. 31. Act. 16. 30, 31. Rhuf. 10. 9, 10. 1 Thes. 5. 9. 2 Thes. 2. 12, 13. 1 Pedr 1. 5. 1 Ioan 5. 5.

* Llawer o'r Hebreaid a ddangosasant anghywirdeb eu proffes fel hyn trwy dynu yn ol, a gwrthgilio; ac eraill a ddechreuent esgeuluso eu cyd-gynnulliad eu hunain, (adn. 25.) y rhai yr oedd angen eu ceryddu a'u rhybuddio: ond gobeithiai yr apostol yn hyderus, nad oedd ef ei hun, a'i frodyr yr Hebreaid yn gyffredin, o'r rhai hyny oedd yn tynu yn ol i golledigaeth eu heneidiau; † eithr eu bod yn ddiragrith o nifer y rhai oedd yn credu â'r galon i gyfiawnder, ac yn cyffesu â'r genau i iachawdwriaeth: (Rhuf. pen. 10.) ac yr oedd yn dra sicr ganddo, y câi ef a hwythau gymmorth i barâu hyd y diwedd; ac y caent eu cadw trwy allu Duw i iachawdwriaeth dragywyddol yr enaid. Fel y mae pob tynu yn ol yn ei natur yn arwain i golledigaeth, felly mae ffydd fywiol yn Nghrist yn galluogi yr enaid i ddàl ei ffordd, ac arwain i gadwedigaeth a bywyd tragywyddol. *Namyn o ffydd, &c.:* bu y geiriau hyn yn dywyll i'r Cyfieithydd am lawer o flynyddoedd, pryd nas gwyddai ddim ond y Gymraeg; ac efallai eu bod felly eto i rai eraill yn y cyffelyb amgylchiad: pe darllenid hwynt yn ol y Saesoneg byddent yn fwy dealladwy, fel hyn:—"Eithr nid ydym ni o'r rhai sydd yn tynu yn ol i golledigaeth; ond *o'r rhai sydd yn credu*, i gadwedigaeth yr enaid."—Mae gwir ffydd yn Nghrist yn dwyn iachawdwriaeth i'r enaid, ac o'r diwedd yn dwyn yr enaid i iachawdwriaeth, neu fywyd tragywyddol yn ynef.

PEN. XI.

Beth ydyw ffydd.

[a] * FFYDD yn wir [b] yw sail y pethau yr ydys yn eu [c] gobeithio, [d] † a sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled.

a adn. 13. pen. 10. 22, 39. Act. 20. 21. 1 Cor. 13. 13. Gal. 5. 6. Tit. 1. 1. 1 Pedr 1. 7. 2 Pedr 1. 1. b Salm 27. 13. a 42. 11. c Gwel ar pen. 6. 12, 18, 19. d adn. 7, 27. Rhuf. 8. 24, 25. 2 Cor. 4. 18. a 5. 17. 1 Pedr 1. 8.

* Gwedi i'r apostol gyfeirio uchod at dystiolaeth y prophwyd, fod y cyfiawn yn byw trwy ffydd, (pen. 10. 38.) mae efe yma yn myned rhagddo i ddangos yn fanylach natur ac effeithiau y ffydd hono; ac i brofi drwy esamplau ysgrythyrol, ei bod hi yn un o brif nodau gwahaniaethol addolwyr y gwir Dduw, bob amser o ddechreuad y byd. Mae efe yn dwyn yr esamplau hyn i mewn gyda rhagymadrodd dysgrifiadol o ffydd; yn yr hwn nid yw yn caethiwo ei olygiadau i ryw un gweithrediad o'r gras sylfaenol hwnw, ond yn cymmeryd i mewn holl amrywiaeth ei weithrediadau, yn y cwbl o brofiad ac ymarweddiad y credadyn. Lle mae yr egwyddor, o ba un y tardda ffydd, wedi ei phlànu gan Ysbryd Duw, yn adgenedliad pechadur, mae yn tueddu yr enaid, nid yn unig i dderbyn y gwirionedd am gyfiawnâd trwy aberth Crist, yn ol y mesur o oleu mae yn

gael; ond mae hefyd yn derbyn holl air Duw, ac yn dysgwyl cyflawniad o hono, i'r holl helaethrwydd y defarodd ac yr addawodd efe. Fel hyn mae y ffydd ddwyfol hon yn sail, neu sylwedd (yn ol y Saesoneg) y pethau yr ydys yn eu gobeithio; mae yn credu sicr dystiolaethau Duw, yn ymorphwys ar ei addewidion ef, ac yn dysgwyl am gyflawniad o honynt; ac felly mae yn rhoddi i'r *peth y gobeithir am dano* ryw amser *a addaw*, megys *sylwedd*, neu *hanfodiad* presenol yn yr enaid, megys pe byddai mewn meddiant sicr eisoes; oblegid mae y credadyn yn ymfoddloni ar y sicrwydd mae yn gael, ac mae yn gweithredu dàn y llawn ddarbwylliad na fetha ac na phalla Duw o'r hyn a ddywedodd ac a addawodd. Fel hyn mae y credadyn yn rhoddi i fynu fanteision presenol, ac yn dyoddef caledi presenol, mewn ufudd-dod i Dduw, ac mewn dysgwyliad am ei addewid ef; fel y bydd dynion yn ymadael âg barian parod am dda neu etifeddiaeth i'w meddiannu mewn amser a ddaw; neu yn dyoddef llafur presenol, mewn gobaith am esmwythder a hawddfyd dyfodawl. † Ond nid golwg ar y pethau da yr ydys yn eu gobeithio sy gan ffydd yn unig; mae ganddi hi hefyd sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled. Y pethau a ddatguddir i *ffydd*, ond ydynt yn annweledig i'r *llygad*, ac nis gellir eu canfod gan *reswm*, gallant berthyn i'r amser a fu, y sydd yn awr, neu a ddaw eto; pethau am Dduw, am waith y grëadigaeth, rhagluniaeth, ac iachawdwriaeth; ei gynddrychioldeb holl-bresenol ef, a'i farn ddyfodawl; byd yr ysbrydoedd, a'r ystâd dragywyddol o ddedwyddwch neu drueni; pethau yn perthyn i'r ddeddf a'i dedfrydau, neu i'r efengyl a'i breintiau; yn fŷr, mae gan ffydd sicrwydd o bethau rhŷ amrywiol a rhŷ aneirif i'w henwi: y mae gan ffydd *dystiolaeth*, a *sicrwydd* tufewnol, neu *arddangosiad* amlwg o honynt oll. I anghredinwyr mae y pethau uchod yn ymddangos yn gau, yn ammheüus, ac yn ddychymmygol; oblegid ni feddant hwy yr un cyfrwng, trwy yr hwn y gallant gael boddlonrwydd yn eu cylch; ond y mae credinwyr yn cymmeryd tystiolaeth eglur Duw am danynt fel gwirionedd wedi ei arddangos eisoes, ac nad oes raid prawf chwanegol o'i gywirdeb: eu pwnc hwy yw hyn, "Duw a'i dywedodd, am hyny rhaid ei fod yn wir." Fel hyn ynte, mae gwir ffydd yn rhoddi math o hanfod neu sylwedd presenol yn yr enaid, i'r pethau mae y credadyn yn gobeithio am danynt ar ol hyn; ac ar sail gwirionedd Duw, mae yn rhoddi golwg eglur a sicr i'r enaid crediniol, ar y pethau ni welir â llygad o gnawd, nac wrth oleuni rheswm dynol.—Dywedir pan fyddo llygad dyn yn edrych ar ryw wrthddrych, y gellir canfod megys delw y gwrthddrych hwnw yn ffurfiedig ar rwydlèn *(retina)* y llygad: yn gyffelyb i hyny mae ffydd yn rhoddi *bod*, neu *sylweddiad* ysbrydol, i bethau ysbrydol yn yr enaid.

2 * Oblegid [e] trwyddi hi y cafodd yr henuriaid † air da.

e adn. 4—39.

* Trwy weithrediadau y ffydd uchod y cafodd hynafiaid Israel, a duwiolion eraill yn yr hen oesoedd, o roddiad yr addewid yn Eden, hyd ddiwedd yr oruchwyliaeth seremoniol, † air da; sef tystiolaeth dda gan Dduw, o'i gymmeradwyaeth ef o honynt, er cael drygair gan ddynion: trwyddi hi y cyfiawnâwyd hwynt; a hi oedd egwyddor gynhyrfiol eu holl ufudd-dod sanctaidd hwynt, yr hyn a barodd fod gair da am danynt yn yr ysgrythyrau dwyfol. Hwy a broffesasant broffes dda, ac a ddilynasant fuchedd dda trwy ffydd ger bron Duw, am hyny hwy a gawsant dystiolaeth dda ganddo ef, a gair da yn ei air ef.—Nid oes yr un gweithrediad o eiddo yr enaid dynol a all mewn un modd dderbyn lles drwy *dystiolaeth*, ond *ffydd*, neu *credu*: *tystiolaeth*, neu *ddatguddiad*, heb *ffydd*, sydd o angenrhaid mòr ddidefnyddio â *goleuni* heb *lygaid*.

3 [f] * Wrth ffydd yr ydym yn deall † wneuthur y bydoedd ‡ trwy air Duw, ‖ yn gymmaint nad o bethau gweledig y gwnaed y pethau a welir.

f pen. 1. 2. Gen. 1. 1, &c. a 2. 1. Salm 33. 6. Es. 40. 26. Jer. 10. 11, 16. Ioan 1. 3. Act. 14. 15. a 17. 24. Rhuf. 1. 19—21. a 4. 17. 2 Pedr 3. 5. Dat. 4. 11.

* Am "sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled," yr hyn sydd un ran o'r dysgrifiad o ffydd; (adn. 1.) er y gellir drwy oleuni natur gasglu yn rhesymol, fod rhyw achos cyntaf i'r grëadigaeth fawr a rhyfeddol, wrth ganfod ei harddwch a'i threfn; eto, trwy ffydd yn y datguddiad dwyfol, a thrwy hyn yn unig, fel yn ymorphwys ar awdurdod Duw yn ei air, y gallwn ni wybod yn sicr ac yn eglur, tu hwnt i bob peth a allem ei wybod wrth oleuni rheswm; † fod y bydoedd uchaf ac isaf, y nefoedd a'r ddaear, ac oll sydd ynddynt, wedi eu crëu, eu llunio, a'u gorphen, ‡ trwy effeithiol a holl-alluog air gorchymynol Duw: wrth lunio gwahanol ranau y bydoedd, ac wrth eu gosod yn eu priodol drefn, efe a ddywedodd "Bydded" felly, "ac felly y bu;" (Gen. 1. 7, 9, 11, 15, 24, 30.) "efe a ddywedodd, ac felly y bu; efe a orchymynodd, a hyny a safodd." Salm 33. 9. ‖ A hyn a wnaeth y Crëawdwr i roddi *bod* i holl bethau gweledig y grëadigaeth; megys yr haul, y lleuad, y sêr, y ddaear, a'r holl wrthddrychau a ellir eu gweled; allan o'r tryblith *(chaos)* cymmysg a didrefn, yr hwn (neu yr *hyn)* a grëwyd o ddim; a chan ei fod yn orchuddiedig gan *dywyllwch*, oedd yn *afluniaidd*, a gwâg; (Gen. 1. 1, 2.) ac, yr hwn dryblith ei hun, nid oes iddo yn awr hanfodiad gweledig; gan fod pob peth wedi eu gosod yn eu trefn briodol, a chwedi eu gwneyd yn weledig trwy allu annweledig Duw.—Y pethau gweledig presenol a ddygwyd i *fod* o'r cruglwyth tryfysg, *(chaotick)* oedd yn afluniaidd a gwâg, trwy y gair holl-nerthol hwnw, yr hwn a alwodd y tryblith ar y cyntaf allan ddim, ac o ddihanfodiad. Cyflawnwyd hyn yn chwe' diwrnod y grëadigaeth: ac wrth gyferbynu y sicrwydd boddlonawl mae y credinwyr yn gael am grëad y bydoedd yn yr ysgrythyrau, a thybiau anghyson, a dadleuon di-ddiwedd, yr heu athronwyr a doethion diweddar; mae yn rhoddi eglurâd amlwg iawn ar y gwirionedd uchod, mai "ffydd yw sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled." Y byd hwn a welwn ni, nis gwnaed ef o ddefnyddiau gweledig neu hanfodol eisoes, eithr o ddim; yn groes i resym-air *(axiom)* yr holl philosophyddion, "O ddim, nis gellir gwneyd dim." Yn wir nis gallai hyn fyned i feddwl neb o'r philosophyddion, hyd yn nôd y rhai hyny a ddywedent mai Duw a grëodd y byd; gan hyny mae yr holl sicrwydd o hyn yn perthyn i *ffydd* yn ngair Duw. "Gwneuthur:" *(katértisthai)* priodol a chyntefig ystyr y gair yw *taclusu*, neu *gydrwymo* pethau yn nghyd, megys aelodau yn y corph, neu wahanol ranau mewn adeilad. "Trwy *air* Duw:" *rêma* yw y gair Groeg yn y fàn hon am *air*, ac nid *Logos*: gair *gorchymynol*, ac nid Gair *Personol* Duw. Trwy y *Logos*, y Gair *Personol*, yn sicr, y gwnaethpwyd y bydoedd; (Ioan 1. 3.) ond gair *gorchymynol* y *Logos* hwnw a feddylir yma.

4 [g] * Trwy ffydd yr offrymmodd Abel i Dduw † aberth [h] rhagorach nâ Chain; ‡ trwy yr hon y [i] cafodd efe dystiolaeth ei fod yn gyfiawn, ‖ gan i Dduw ddwyn tystiolaeth i'w roddion ef: [k] § a thrwyddi hi y mae efe, wedi marw, yn llefaru etto.

g Gen. 4. 3—5, 15, 25. 1 Ioan 3. 11, 12. h pen. 9. 22. Diar. 15. 8. a 21. 27. Tit. 1. 16. Judas 11. i Lef. 9. 24. 1 Bren. 18. 38. Mat. 23. 35. Luc 11. 51. k pen. 12. 1, 24.

* Am y rhan arall o'r dysgrifiad o ffydd, fel y mae yn "sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio;" (adn. 1.) trwy ffydd yn y gosodiad o aberthau cymmod cysgodol gan Dduw, yr offrymodd Abel, mab ieuengaf a duwiol Adda, aberth rhagorach, mwy, a chyflawnach, nâ'i frawd annuwiol Cain; yr hwn nid offrymodd ond y *mincha* yn unig, neu y bwyd-offrwm, o ffrwyth y ddaear a ddygwyddai ddyfod i'w law ef; er cydnabod Duw fel Crëawdwr a Llywodraethwr y byd. Nid offrymodd Cain unrhyw aberth

er cymmod, ac iawn; er cydnabod ei bechod, a'i angen am faddeuant; lle yr offrymodd Abel, heblaw y goreu o'r fath hyny o ffrwythau y ddaear, aberth gwaedlyd hefyd, o flaen-ffrwyth y defaid, yn nghyd â'u brasder hwynt, yn offrwm i'r Arglwydd. (Gen. 4. 4.) Dàn deimlad gostyngedig o'i euogrwydd, a'i angen o iawn dros ei bechodau, efe a offrymodd fel hyn i Dduw; gyda chyfeiriad crediniol at Oen Duw, neu yr aberth mawr cymmodol, yr hwn yr oedd ei aberth ef yn gysgod o hóno, ac yr hwn a offrymai y Messïah yn nghyflawnder yr amser er maddeuant pechodau. † Dywedir fod y geiriau *pleiona thusian,* "aberth rhagorach," yn arwyddo aberth *mwy,* a *chyflawnach;* sef mwy, a chyflawnach, o ran *nifer* y pethau a aberthodd Abel, yn hytrach nag o ran *gwerth:* offrymodd ef y *bwyd-offrwm,* ac aberth o'r *defaid* hefyd; yr hwn oedd yn cysgodi aberth Crist, ac yn dangos ei ffydd ef yn yr aberth hwnw; yr hyn oedd fwy nac a wnaeth Cain, yr hwn nid offrymodd ond y *mincha,* neu y *bwyd-offrwm* o ffrwythau y ddaear yn unig. ‡ A thrwy yr *hon,* sef trwy ffydd, cafodd Abel dystiolaeth gan Dduw yn ei gydwybod ei hun, ac efallai trwy ryw arwydd gweledig, megys tân o'r nefoedd; ei fod ef wedi ei gyfiawnâu yn Nghrist, ac mewn cymmod â Duw; ‖ gan i Dduw ddwyn tystiolaeth amlwg trwy un, neu bob un o'r moddion uchod, ei fod yn cymmeradwyo ei roddion aberthawl ef: cafodd dystiolaeth o gyfiawnâd ei berson yn gyntaf, ac yna o gymmeradwyad ei roddion. § A thrwy y ffydd uchod o'r eiddo Abel, coffadwriaeth am ba un sydd o hyd yn ngair Duw; er ei fod ef wedi marw er ys cynnifer o oesoedd, mae efe yn llefaru eto wrthym ni yn yr hanes am ei waith a'i farwolaeth; ac yn dangos nad oes dim maddeuant pechod heb iawn; nas gall pechaduriaid ddyfod at Dduw ond trwy ffydd yn yr iawn hwnw; bod ffydd yn wastad yn gyssylltiedig â chyfiawnder ac ufudd-dod diragrith; bod rhan credinwyr mewn byd gwell, ac nid ar y ddaear; na wiw iddynt hwy ddysgwyl dim daioni ar ddwylo anghredinwyr beilchion a hunan-gyfiawn; a bod eu gwaed hwy, a dywelltir gan erlidwyr, yn galw o'r ddaear i'r nefoedd am ddïal.—Gan nad oedd cig yn ganiatâol i ddynion hyd ar ol y dylif, (Gen. 1. 29; a 3. 18, 19; a 9. 3.) rhaid y buasai Abel yn ei hystyried yn anghyfreithlawn i ladd unrhyw anifail, oni buasai i Dduw orchymyn iddo ei ladd yn aberth: yr hyn a brawf mai peth o ddechreuad dwyfol oedd aberthu.

5 * Trwy ffydd y [l] symmudwyd [m] Enoch, fel na welai farwolaeth; [n] † ac ni chaed ef, am ddarfod i Dduw ei symmud ef: ‡ canys cyn ei symmud, [o] efe a gawsai dystiolaeth, [p] ddarfod iddo ryngu bodd Duw.

l Gen. 5. 22—24. Luc 3. 37. Judas 14. m 2 Bren. 2. 11. Salm 89. 48. Ioan 8. 51, 52. n 2 Bren. 2. 16, 17. Jer. 36. 26. Dat. 11. 9—12. o adn. 3, 4. p adn. 6. Gen. 5. 22. Rhuf. 8. 8, 9. 1 Thes. 2. 4. 1 Ioan 3. 22.

* Trwy ffydd y cafodd Enoch y fath diriondeb rhyfeddol gan Dduw, fel y symmudwyd ef i'r nefoedd heb *weled* marwolaeth, na phrofi ergyd poenus angau; gan ddarfod cyfnewid ei gorph ef a'i wneyd yn anllygradwy, fel y gallai yn y fàn fyned i mewn i'w gyflawn ddedwyddwch. † Fel hyny ni chaed ef ar y ddaear, gan y rhai a ymofynent am dano, fel y bu meibion y prophwydi wedi hyny yn ymofyn am Elias; (2 Bren. 2. 11—18.) am ddarfod i Dduw ei symmud ef, a'i gymmeryd ato ei hun. ‡ Ond cyn ei symmud ef felly, efe a gawsai ryw dystiolaeth eglur, trwy fod Ysbryd Duw yn cyd-dystiolaethu â'i ysbryd ef ei hun, neu ryw fodd arall, ddarfod iddo ef ryngu bodd Duw, a bod Duw yn foddlawn iddo yn ei anwyl Fab, ei fod yn gymmeradwy yn yr Anwylyd: ac efallai i hyn gael ei wneyd yn hysbys i'w gyd-oeswyr ef, megys y gwnaed i ninnau yn ysgrifeniadau Moses. Mae yn ddiammau mai ffydd yn y Messïah oedd ffydd Enoch; oblegid efe a brophwydodd am dano: (Judas 14, 15.) ac heb ffydd yn y Messiah, nis gall neb ryngu bodd Duw.

6 * Eithr [q] heb ffydd ammhosibl *yw* rhyngu *ei* fodd *ef.* [r] † Oblegid rhaid yw i'r neb sydd yn dyfod at Dduw, [s] gredu ei fod ef, [t] ‡ a'i fod yn obrwywr i'r rhai sydd yn ei [u] geisio ef.

q pen. 3. 12, 18, 19. a 4. 2, 6. Num. 14. 11. a 20. 12. Salm 78. 22, 32. a 106. 24. Es. 7. 9. Marc 16. 17. Ioan 3. 18, 19. a 8. 24. Gal. 5. 6. Dat. 21. 8. r Gwel ar pen. 7. 25. Job 21. 14. Salm 73. 28. Es. 55. 3. Jer. 2. 31. Ioan 14. 6. s Rhuf. 10. 14. t adn. 26. Gen. 15. 1. Ruth 2. 12. Salm 58. 11. Diar. 11. 18. Mat. 5. 12. a 6. 1, 2, 5, 16. a 10. 41, 42. Luc 6. 35. u 1 Cron. 28. 9. Salm 105. 3, 4. a 119. 10. Diar. 8. 17. Can. 3. 1—4. Jer. 29. 13, 14. Mat. 6. 33. Luc 12. 31. 2 Pedr 1. 5, 10. a 3. 14.

* Eithr heb ffydd o'r fath a ddarluniwyd, (adn. 1.) ac a oedd gan Abel ac Enoch; (adn. 4, 5.) mae yn anmhosibl i neb ryngu bodd Duw: † oblegid rhaid i bawb a ddeuant at Dduw i'w addoli a'i wasanaethu ef, "gredu ei fod ef:" rhaid iddynt gredu ei hanfodiad annweledig ef, ei bresenoldeb, a'i berffeithiau; yr hyn nis gellir ei wneyd ond trwy ffydd yn unig, yn derbyn y datguddiad a roes efe o hóno ei hun; heb hyny, rhyw dduw dychymmygol, rhyw eilun, a osodir yn ei le ef. ‡ Hefyd, rhaid i'r neb sydd yn dyfod at Dduw "gredu ei fod ef yn Wobrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio ef:" ond fel y mae pawb oll o ddynion yn *haeddu* condemniad am eu pechodau, ac hyd yn nôd eu cyflawniadau goreu mewn angen am faddeuant; nis gall neb *wybod,* nac ar sail dda *gasglu,* y gwobrwya Duw eu gwasanaeth hwynt, nac y cymmeradwya efe hwy yn eu gwasanaeth; ond trwy dderbyn tystiolaeth y datguddiad dwyfol, un ai yn ddigyfrwng, yn draddodiadol, neu yn ysgrifenedig. Hyn a wnaeth Enoch yn ddiammau; ac felly efe a gredodd yn Nuw, ac a ddaeth ato ef yn ol ei drefn, trwy ffydd yn ei air a'i addewidion ef, ac felly a gymmeradwywyd ac a wobrwywyd yn rasol gan Dduw. *Credu* yr oedd Enoch, ac nid cydsynio yn oerllyd â rhyw ddychymmyg am Dduw, heb ddim iawn syniad am ei berffeithiau, ei ewyllys, a'i addoliad ef; a cheisio ei foddloni ef mewn ffyrdd o ddyfais dynion. Tybia rhai mai y pethau olaf yn unig yw yr holl "ffydd" a feddyliai yr apostol yn y fàn hon; er nad yw hyny mewn un modd yn debyg i grefydd neb a enwir yn y bennod hon, oddigerth yr eiddo Cain. Rhaid bod gan ffydd gyfeiriad at ryw *air a lefarwyd;* ond tybiau, a chasgliadau oddi wrth reswm, yn meddwl dyn ei hunan, nis gallant fod yn *ffydd,* yn ol defnyddiad cyffredin y gair; a llai o lawer y gellir cael ffydd o'r fath ystyr yn yr ysgrythyrau. Crediniaeth o'r gwirioneedd, o air a thystiolaeth Duw, yw ffydd; ac am hyny y sonir yma, trwy y bennod oll.

7 * Trwy ffydd, [x] Noë, wedi ei [y] rybuddio gan Dduw † am y [z] pethau nis gwelsid etto, ‡ gyd â pharchedig ofn, [a] a ddarparodd arch i achub ei dŷ, [b] ‖ trwy yr hon y condemniodd *efe* y byd, § ac a wnaethpwyd yn [c] etifedd y cyfiawnder sydd o ffydd.

x Gen. 6. 13—22. a 7. 1, 5. Mat. 24. 38, 39. Luc 17. 26, 27. 2 Pedr 2. 5. y Gen. 6. 13. a 19. 14. Ex. 9. 18—21. Diar. 22. 3. a 27. 12. Ezec. 3. 17—19. Mat. 3. 7. a 24. 15—25. 2 Pedr 3. 6—8. z Gwel ar adn. 1. a Gen. 6. 18. a 7. 1, 23. a 8. 16. Ezec. 14. 14, 20. 1 Pedr 3. 20. b Mat. 12. 41, 42. Luc 11. 31, 32. c Rhuf. 1. 17. a 3. 22. a 4. 11. a 9. 30. a 10. 6. Gal. 5. 5. Phil. 3. 9. 2 Pedr 1. 1.

* Yma eto cawn ffydd fel mae yn "sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled." Hybysodd yr Arglwydd trwy ddatguddiad digyfrwng i Nöah, ei fwriad o ddyfetha trigolion yr holl ddaear â dwfr y dylif, a rhybuddiodd yntau i ddarpar erbyn y dygwyddiad mawr hwnw. † "Pethau nis gwelsid eto," oedd y pethau hyn: nid oedd dim cyffelyb wedi dygwydd erioed: nid oedd dim tebyg i'r fath ddylif yn ymddangos y pryd hwnw: gallai anghrediniaeth farnu y fath beth yn anmhosibl; neu waeddi yn ei erbyn fel peth anghyson â chyfiawnder a daioni Duw. Ond yr oedd gan Nöah ffydd, yr hon ynddo ef oedd yn gweled pethau annweledig: yr oedd efe yn sicr gredu yr hyn a ddywedasai Duw, ac y deuai y fath ddylif; yr oedd efe yn dysgwyl yn hyderus y cyflawnai Holl-alluawgrwydd y ddedfryd a

yhoeddwyd gan anfeidrol gyfiawnder, ac y cyflawnid air anffaeledig wirionedd: ‡ am hyny efe a barchodd awredd Duw gydag ofn sanctaidd, ac a arswydodd yn dduwiol rhag syrthio dàn ei soriant ef. Gwyddai y gwnai anghrediniaeth ac anufudd-dod ef yn agored i ddïaledd dyfodawl, ac y maglai ef yn y drygfyd cyffredin; am hyny yr oedd yn barod i ddefnyddio unrhyw oddion o ymwared a welai Duw yn dda i orchymyn iddo. O ganlyniad, pan gafodd efe orchymyn a chyfarwyddyd i wneyd arch, nid oedodd efe ufuddâu yn y modd mwyaf hollawl a dïymattal; er y byddai y llafur, y draul, a'r amser, i adeiladu y fath lestr yn fawr iawn; ac er y byddai i'r gorchwyl ei osod ef yn agored bob math o wawd a gogan, fel dyn dychymmygol ac allan o'i bwyll, yn nghyfrif y byd anghrediniol. Ond efe a ufuddâodd mewn ffydd: efe a anturiodd bob canyniadau, ac a arferodd bob hunan-ymwadiad angenrheidiol: dysgwyliodd amser Duw; a phregethodd, ond yn afiwyddiannus, i ddynion ei genedlaeth. Dysgwyliodd ddiogelwch yn yr arch, er mai Holl-alluawgrwydd yn unig a allai ei ddïogelu ef, mewn llestr o'r fath wneuthuriad, ac mewn dylif mòr ddychrynllyd. Fel hyn yr achubwyd ef, ac efe a achubodd ei dŷ hefyd, rhag dinystr cyffredin dynolryw, i ail boblogi y ddaear: || a thrwy ei esampl a'i gyngorion, efe a condemniodd y byd, ac a ddangosodd gyfiawnder Duw, yn ecospi drygioni cyffredinol ac anfeddyginiaethol dynion fel hyn. § Trwy yr un ffydd yr ymorphwysodd efe ar addewidion Duw am y Messïah, ac y daeth fel hyny yn etifedd y cyfiawnder sydd o ffydd, ac o fywyd tragywyddol ynddo a thrwyddo ef. Yn gyffelyb i hyn mae pechadur, wedi ei rybuddio gan Dduw i ddïanc rhag y llid a fydd, yn cael ei feddiannu â pharchedig ofn, yn cymmeryd noddfa yn Nghrist, yn ymadael â phob peth er ei fwyn ef, yn aml yn cael ei wneyd yn offeryn iachawdwriaeth i'w deulu hefyd, yn condemnio y byd, ac yn dyfod yn etifedd cyfiawnder a bywyd tragywyddol trwy ffydd yn Nghrist Iesu. *Condemnio y byd:* dywed yr Iuddewon bod Nöah o'r arch yn ymresymu â'r bobl oedd yn boddi yn y dylif: dadleuent hwy iddynt arfer amryw foddion i'w dïogelu eu hunain os deuai dylif, er iddynt wrthod ei wahoddiad ef i ddyfod i'r arch: ond yntau yn eu dystewi ar unwaith, trwy ddywedyd, iddynt wrthod trefn Duw i'w hachub, a bod pob moddion eraill o angenrheidrwydd yn aneffeithiol. "Pa fodd y dïangwn ni os esgeuluswn iachawdwriaeth gymmaint?"

8 * Trwy ffydd, [d] Abraham, pan ei galwyd, † a [e] ufuddhâodd, gan fyned i'r man [f] yr oedd efe i'w dderbyn yn etifeddiaeth: ‡ ac a aeth allan, heb wybod i ba le yr oedd yn myned.

d Gen. 11. 31. a 12. 1—4. Jos. 24. 3. Neh. 9. 7, 8. Es. 41. 2. a 51. 2. Act. 7. 2—4. e Gen. 12. 7. a 13. 15—17. a 15. 7, 8. a 17. 8. a 26. 3. Deut. 9. 5. Salm 105. 9—11. Ezec. 33. 24. f adn. 33. pen. 5. 9. Gen. 22. 18. a 26. 5. Mat. 7. 24, 25. Rhuf. 1. 5. a 6. 17. a 10. 16. 2 Cor. 10. 5. Iago 2. 14—16. 1 Pedr 1. 22. a 3. 1. a 4. 17.

* Y nesaf o ran trefn amser i'r ddau enwog uchod o'r hen fyd, ac i Nöah tad y byd newydd, ac yn wir rhagorach nac yr un o honynt mewn enwogrwydd, ydoedd Abraham; tad etholedig Israel, tad cenedloedd lawer, tad y Messïah o ran ei ddynoliaeth, a thad ysbrydol yr holl grëdinwyr. Pan ddewiswyd ef gyntaf i fod megys yn gronfa yr addewidion, efe a "alwyd;" a gorchymynwyd iddo adael ei wlad enedigol, a'i holl bethau hoff yr ymlynai efe wrthynt; † a myned allan i wlad yr oedd efe wedi hyny i'w derbyn yn etifeddiaeth, hyny yw, yn ei hiliogaeth. ‡ Yr oedd yn perthyn i'r gorchymyn hwn amryw addewidion iddo ef a'i hâd; a thrwy ffydd efe a gredodd yr addewidion, ac a ufuddâodd i'r gorchymyn; ac a aeth allan, heb wybod y pryd hwnw i ba le yr oedd yn myned. Ond yr oedd efe yn sicr ei fod yn canlyn arweiniad neilldduol Duw, dàn ei amddiffyniad dïogel ef; am hyny efe a ddibrisiodd wrth-ddadleuon, a darbwyllion, a dirmygion y rhai hyny, a edrychent ar y fath anturiaeth yn afresymol ac ynfyd i'r gradd eithaf. Peth mawr fuasai i Abraham fyned allan o'i wlad, i wlad ddïeithr bellenig, pe buasai yn gwybod pob peth cyn cychwyn; peth mwy o lawer oedd myned allan *heb* wybod dim i ba le yr oedd yn myned; ond nid oes dim yn ormod gan ffydd ei wneyd mewn ufudd-dod i Dduw: yma yr oedd hi yn sail y pethau yr oedd Abraham yn eu gobeithio, ac yn sicrwydd y pethau nid oedd yn eu gweled.

9 * Trwy ffydd [g] yr ymdeithiodd efe yn nhir yr addewid, † megis *mewn* tir dïeithr, [h] ‡ gan drigo mewn lluestai gyd âg Isaac a Jacob, [i] || cyd-etifeddion o'r un addewid.

g Gen. 17. 8. a 23. 4. a 26. 3. a 35. 27. Act. 7. 5, 6. h Gen. 12. 8. a 13. 3, 18. a 18. 1, 2, 6, 9. a 25. 27. i pen. 6. 17. Gen. 26. 3, 4. a 28. 4, 13, 14. a 48. 3, 4.

* Trwy ffydd yn addewid JEHOFAH, y parâodd efe i ymdeithio fel alltud, yn y tir addawedig i'w hiliogaeth ef, heb gael dim etifeddiaeth ynddo, gymmaint a lled troed; (Act. 7. 5.) † ond yr oedd efe yn ymdeithio yno megys mewn tir dïeithr, lle yr oedd y trigolion oll yn ddïeithr iddo ef, ac yn hollawl wahanol iddo mewn ysbryd, tymher, crefydd, arferion, a moesau. Fel hyn yr oedd efe yn agored i bob rhyw galedi a pheryglon, fel dyn estronaidd ac o wahanol grefydd; ond yr oedd efe yn ymddiried yn amddiffyn Duw, tra yr oedd yn ymdaith mewn ufudd-dod iddo ef. ‡ Ni wnaeth efe gymmaint âg adeiladu tŷ yn y wlad hòno; eithr trigo yr oedd ef gydag Isaac a Jacob mewn lluestai, neu bebyll gwaelion, y rhai a symmudai o fàn i fàn fel y byddai yn ymdeithio: eto yn ymgadw o fewn i wlad Canaan, oddigerth pan fyddai newyn yn peri iddo fyned allan. || Fel hyn y treuliodd efe ei fywyd, hyd yn nôd wedi geni Isaac, a Jacob wedi hyny; y rhai oeddynt gyd-etifeddion âg ef o'r un addewid, ac a'i canlynasant ef yn y dull hyn o fywyd, ac mewn ufudd-dod crediniol i orchymyn Duw; yr hyn oedd gysgod nodedig o fywyd y saint ar y ddaear.

10 * Canys [k] disgwyl yr ydoedd am ddinas ag iddi sylfeini, [l] † saer ac adeiladydd yr hon *yw* Duw.

k pen. 12. 22, 28. a 13. 14. Ioan 14. 2. Phil. 3. 20. Dat. 21. 2, 10—27. l pen. 3. 4. Es. 14. 32. 2 Cor. 5. 1.

* Nid oedd Abraham yn chwennych dinas yn Nghanaan, nac yn un lle arall ar y ddaear; oblegid yr oedd efe yn dysgwyl am ddinas o natur mwy rhagorol, yr hon yn unig mae iddi sylfeini nas gellir byth eu symmud; sef yr hon yw tragywyddol, sicr, a gwynfydedig ddinas Duw, lle mae efe yn amlygu ei ogoniant, ac yn cyfranu dedwyddwch pur a digymmysg. † Duw ei hun yw Saer ac Adeiladydd y ddinas hon: ei ddoethineb a'i gariad ef a ffurfiodd y cynllun mawr, a'i holl-alluawgrwydd a'i cyflawnodd: er gogoniant ei enw ei hun, ac er tragywyddol breswylfa i'r rhai yr ewyllysia efe eu hanrhydeddu a'u bendithio. A pha beth a all y dinasoedd gwychaf hyny fod, y rhai mae beilchion marwol y byd hwn yn eu hadeiladu, mewn cymhariaeth i'r hon mae Duw holl-alluog a thragywyddol yn Saer ac Adeiladydd iddi, ac yn preswylio yn ei ogoniant ynddi!

11 * Trwy ffydd [m] Sara hithau yn ammhlantadwy, † a dderbyniodd nerth i ymddwyn had; ‡ ac wedi amser oedran, a esgorodd; [n] || oblegid ffyddlawn y barnodd hi yr hwn a addawsai.

m Gen. 17. 17—19. a 18. 11—14. a 21. 1, 2. Luc 1. 36. 1 Pedr 3. 5, 6. n pen. 10. 23. Rhuf. 4. 20, 21.

* Yr oedd Sarah ar y cyntaf yn anghredu, pan addawyd mab iddi yn ei henaint; ond wedi hyny hi a adferwyd o'r anghrediniaeth hwnw, † ac a dderbyniodd nerth mewn modd gwyrthiol, a thu hwnt i bob dysgwyliad, yn ol trefn natur ac oedran; i ymddwyn hâd, ac i feichiogi ar blentyn gwrryw, yn y ffordd gyffredin o genedliad. ‡ Ac yn yr amser dyledus hi a esgorodd ar fab, er ei bod yn anmhlantadwy trwy ei hoes o'r blaen, ac yn awr wedi amser oedran i blanta; || oblegid ffydd-

lawn y barnodd hi yr hwn a addawsai: hi a gredodd y gallai Duw yr hwn a addawsai, roddi plentyn iddi; hi a gredodd ei fod ef yn ffyddlawn i'w addewid; ac megys y credodd, felly y bu iddi: nid *am* ei ffydd hi, ond *yn ol* ei ffydd, a *thrwy* ei ffydd.

12 * O herwydd paham hefyd y cenhedlwyd o un, [o] † a hwnnw yn gystal a marw, ‡ *cynnifer* [p] â sêr y nef mewn llïaws, ac [q] megis y tywod ar lan y môr, *y sydd* yn aneirif.

o Rhuf. 4. 19. p Gen. 15. 5. a 26. 4. Ex. 32. 13. Deut. 1. 10. a 28. 62. 1 Cron. 27. 23. Neh. 9. 23. q Gen. 22. 17. a 32. 12. Jos. 11. 4. Barn. 7. 12. 1 Sam. 12. 5. 2 Sam. 17. 11. 1 Bren. 4. 20. Es. 10. 22. a 48. 19. Jer. 33. 22. Hos. 1. 10. Hab. 1. 9. Rhuf. 4. 18. a 9. 27. Dat. 20. 8.

* Fel hyn, mewn atebiad i ddysgwyliad ffydd Abraham a Sarah, cenedlwyd o un tad, († a hwnw yn yr ystyr hyn yn gystal â phe buasai wedi marw, am nad oeddid yn dysgwyl hâd oddi wrtho mwyach,) ‡ y fath dyrfa aneirif, fel yr oeddynt wedi hyny fel sêr y nef mewn llïaws, ac fel tywod y môr, y rhai nis gellir byth eu rhifo—cyfeiria hyn yn benaf at hiliogaeth Abraham drwy Isaac a Jacob: ond os cymmerwn ni ei hiliogaeth ef drwy Ismael, a meibion Cetura, ac o Isaac drwy Esau, bydd cyflawniad yr addewid iddo ef, yn yr ystyr hyn, yn fwy rhyfeddol byth.—Dywed rhai y gellir cyfrif sêr y nef yn lled gywir, ond nis gall neb gyfrif tywod y môr.—Pa fodd y gellid dywedyd fod Abraham yn *gystal â marw* y pryd hwn, ac yntau yn cael plant o Cetura yn mhen deugain mlynedd wedi hyn?—Ateb rhai yw, I'r Arglwydd adnewyddu ei nerth ef yn *wyrthiol* y pryd hwn, ac iddo barâu felly am lawer o flynyddoedd wedi hyn. Tybia eraill fod plant Abraham o Cetura wedi eu geni *cyn* iddo gael Isaac o Sarah; ond bod Moses yn gadael yr hanes am Cetura, nes iddo orphen yr hanes am Sarah a phlentyn yr addewid. Yn 1 Cron. 1. 32, gelwir Cetura yn "*ordderch-wraig* Abraham;" a pha fodd y gallai hi fod yn ordderch-wraig iddo, os nad oedd felly yn amser bywyd Sarah?

13 [r] * Mewn ffydd y bu farw y rhai hyn oll, [s] † heb dderbyn yr addewidion; [t] ‡ eithr o bell eu gweled hwynt, [u] a chredu, ‖ a chyfarch, [x] § a chyfaddef mai dïeithriaid a phererinion oeddynt ar y ddaear.

r Gen. 25. 8. a 27. 2—4. a 48. 21. a 49. 18, 28, 33. a 50. 24. s adn. 39. t adn. 27. Gen. 49. 10. Num. 24. 17. Job 19. 25. Ioan 8. 56. a 12. 41. 1 Pedr 1. 10—12. u Rhuf. 4. 21. a 8. 24. 1 Ioan 3. 19. x Gen. 23. 4. a 47. 9. 1 Cron. 29. 14. Salm 39. 12. a 119. 19. 1 Pedr 1. 17. a 2. 11.

* Parâodd y rhai hyn oll, sef Abraham, Sarah, Isaac, a Jacob, yn y ffydd, ac yn ufudd-dod ffydd, hyd eu marw; ac ymadawsant yn y grediniaeth a'r dysgwyliad, am gyflawniad o addewidion Duw iddynt hwy â'u hiliogaeth. † Ni dderbyniasant yr addewidion, neu y pethau a addawyd; nac etifeddiaeth Canaan, nâ'r Had addawedig, sef y Messïah, tra buont hwy byw; yn hytrach dyoddefasant lawer o galedi a helbulon, heb gael dim arwyddion neilldiol o'r ewyllys da rhagorol, a dystiolaethodd Duw fod ganddo tuag atynt: ‡ ond hwy a welsant y bendithion addawedig o bell, ac a gredasant y cyflawnid hwynt yn eu hamser priodol; ‖ hwy a'u cyfarchasant, neu a'u cofleïdiasant (yn ol y Saesoneg) trwy ffydd, fel eu rhan hwy, ac etifeddiaeth eu hiliogaeth; § ac a roisant i fynu fanteision presenol er mwyn y bendithion hyny, gan gyfaddef mai dïeithriaid a phererinion oeddynt, nid yn unig yn ngwlad Canaan, ond hefyd ar y ddaear oll. *A chyfarch: (aspasamenoi)* fel môrwyr, yn gweled yr hafan a ddymunent yn mhell o'u blaen, maent gyda bloeddiadau gorfoledd yn ei gyfarch ac yn tynu ato: neu fel dyn yn ymestyn yn mlaen, i gofleïdio perthynas anwyl, wedi hir absenoldeb.

14 * Canys y mae y rhai sydd yn dywedyd y cyfryw bethau, † yn dangos yn eglur [y] eu bod yn ceisio gwlad.

y adn. 16. Rhuf. 8. 23—25. 2 Cor. 4. 18. a 5. 1—7. Phil. 1. 23.

* Yn awr, y rhai sydd yn ystyried eu hunain fel hyn yn ddïeithriaid yn y byd hwn, ac yn bererinion ar eu taith drwyddo; † maent yn dywedyd ac yn dangos yn eglur yn eu hysbryd a'u hymarweddiad, eu bod yn ceisio eu gwlad enedigol, ac yn cyrchu adref i breswylfa eu Tad a'u cyfeillion anwylaf, a lle eu preswylfod a'u dedwyddwch tragywyddol hwy eu hunain. *Ceisio gwlad:* mae y gair gwreiddiol *(patrida)* yn gynnwysfawr iawn; ac yn arwyddo gwlad *enedigol* megys, neu y wlad lle yr oedd eu *Tad* yn byw: ac mae mewn cyferbyniad i'r wlad lle yr oeddynt yn *ddïeithriaid a phererinion* ynddi.

15 * Ac yn wir, pe buasent yn [z] meddwl am *y wlad* honno, o'r hon y daethent allan, † hwy a allasent gael amser i ddychwelyd:

z Gen. 11. 31. a 12. 10. a 24. 6—8. a 31. 18. a 32. 9—11.

* Yn wir pe buasent hwy wedi blino ar y bywyd crwydredig uchod, ac am ddychwelyd i Ur y Caldêaid yn Mesopotamia, y wlad o ba un y daethai Abraham a Sarah allan; † hwy a allasent gael digon o amser a chyfle i ddychwelyd, a gallasent ymsefydlu yno yn mhlith eu perthynasau: ond buasai hyny yn weithred o anghrediniaeth ac anufudd-dod, ac yn ymwrthodiad o'r addewid.

16 * Eithr yn awr [a] *gwlad* well y maent hwy yn ei chwennych, hynny ydyw, *un* nefol. † O achos paham [b] nid cywilydd gan Dduw [c] ei alw yn Dduw iddynt hwy: [d] ‡ oblegid efe a barottôdd ddinas iddynt.

a Gwel ar adn. 14.—pen. 12. 22. b pen. 2. 11. c Gen. 17. 7, 8. Ex. 3. 6, 15. Es. 41. 8—10. Jer. 31. 1. Mat. 22. 31, 32. Marc 12. 26, 27. Luc 20. 37, 38. Act. 7. 32. d Gwel ar adn. 10. —Mat. 25. 34. Luc 12. 32.

* Ond wrth ymdeithio mewn tir dïeithr hyd angau, yr oeddynt hwy yn dangos yn eglur, bod eu chwennychiad a'u gobaith penaf hwynt am wlad well, na'r un wlad a allent gael ar y ddaear; hyny yw, gwlad nefol, yr hon yr oedd Canaan yn gysgod o hóni. † Gan hyny, fel yr oeddynt hwy yn ewyllysgar i ymwrthod â phob dysgwyliadau eraill, i ganlyn Duw mewn ufudd-dod ffyddiog, er mwyn etifeddiaeth dragywyddol ac annweledig; felly nid oedd gywilydd gan Dduw ei alw yn Dduw iddynt hwy, yn Gyfaill, ac yn Rhan dragywyddol iddynt. ‡ Ac efe a roddodd y prawf helaethaf, a chryfaf, ei fod yn Dduw iddynt, ac nad oedd gywilydd ganddo ei alw felly; oblegid yn gyfatebol i'w berthynas neilldiol ef â hwy, ac yn ol eu ffydd a'u gobaith hwythau ynddo ef, efe a barotôdd ddinas ogoneddus iddynt, fel y gallent gyrph ac eneidiau breswylio gydag ef ynddi yn ddedwydd byth bythoedd.—Os oedd y patrïeirch yn ymofyn am "wlad well" na'r byd hwn, rhaid eu bod hwy y pryd hwnw wedi cael datguddiad gan Dduw o anfarwoldeb yr enaid, ac ystâd o ddedwyddwch i'r ffyddloniaid mewn byd ar ol hwn. Gwel ar y mater hwn ar Matth. 22. 32.

17 * Trwy [e] ffydd yr offrymmodd Abraham Isaac, [f] pan ei profwyd: † a'i [g] unig-anedig *fab* [h] a offrymmodd *efe,* ‡ yr hwn a [i] dderbyniasai yr addewidion:

e Gen. 22. 1—12. Iago 2. 21—24. f Deut. 8. 2. 2 Cron. 32. 31. Job 1. 11, 12. a 2. 3—6. Diar. 17. 3. Dan. 11. 35. Zec. 13. 9. Mal. 3. 2, 3. Iago 1. 2—4, 12. a 5. 11. 1 Pedr 1. 6, 7. a 4. 12. Dat. 3. 10. g pen. 7. 6. h 2 Cor. 8. 12. i Gen 22. 2, 16.

* Yma mae yr apostol yn dychwelyd eto at ffydd Abraham, a'r gweithredïadau o hóni mewn rhai o'r amgylchiadau mwyaf anhawdd a phrofedig. Gwedi iddo ef gael Isaac o Sarah yn y modd gwyrthiol a enwyd uchod, a chwedi iddo gael gorchymyn gan Dduw ar ol hyny i offrymu ei fab, sef ei unig fab Isaac, yr hwn a hoffai, yn boeth-offrwm i'r Arglwydd, er prawf a thystiolaeth o wirionedd a grym ei ffydd, ei gariad, a'i ufudd-dod: (Gen. 22. 1, 2.) efe a ufuddâodd i orchymyn Duw yn ewyllysgar; càn belled ag i benderfynu yn ddifrifol, a gwneyd yr hyn a allodd efe, i gyflawni y gorchymyn hwnw; yn wyneb pob peth a allai teimladau

natur, rheswm anianol, ac anghrediniaeth, ddywedyd yn ei erbyn. † Ac wedi darpar pob peth at y weithred ryfedd, yr oedd efe ar fin lladd ei fab, ac a fuasai yn sicr yn gwneyd hyny, oni buasai i Dduw ar y tarawiad hwnw ei attal ef trwy lais digyfrwng o'r nef. (Gen. 22. 10—12.) Fel hyn o herwydd iddo amcanu yn ddiragrith, ac o lwyr-fryd calon, i wneyd yr hyn a orchymynodd Duw; a myned yn mlaen mòr agos i gyflawni y weithred; dywedodd yr Ysbryd Glân trwy yr apostol yma, iddo mewn gwirionedd ac yn weithredol, offrymu ei fab, ei unig-anedig fab; ‡ yn yr hwn yr oedd Duw ei hun megys wedi trysori yr addewidion: felly wrth ei aberthu ef, gallasai Abraham feddwl ei fod yn gwneyd y cyflawniad o honynt yn anmhosibl; oblegid yn Isaac yr oedd yn rhaid eu cyflawni, neu beidio eu cyflawni o gwbl.

18 * Wrth yr hwn y dywedasid, [k] † Yn Isaac y gelwir i ti had:

k Gen. 17. 19. a 21. 12. Rhuf. 9. 7.

* Am y mab hwn Isaac, dywedasai Duw wrth Abraham, i'w gysuro ef herwydd gorfod ymadael âg Ismael, † yn Isaac y gelwir i ti had; (Gen. 21. 12.) gan sicrâu iddo ef drwy hyny, mai nid yn mab Agar y wasanaethferch, nac yn yr un o'i feibion eraill ef; ond yn y mab hwn i Sarah y wraig rydd yn unig, (Galat. 4. 30.) yr oedd yr addewid i gael ei chyflawni: sef yr addewid a wnaethai Duw y byddai i Abraham had aneirif, y rhai a gaent etifeddu bendithion tymmorawl ac ysbrydol; ac yn enwedig yr addewid fawr y byddai i'r Messiah ddeilliaw o'i lwynau ef o ran y cnawd, yn yr hwn y ca'i ei had ysbrydol ef o bob cenedl, eu bendithio trwy ffydd yn y Messiah hwnw.

19 * Gan gyfrif [l] bod Duw yn abl i'*w* gyfodi *ef* o feirw; [m] † o ba le y cawsai efe ef hefyd ‡ mewn cyffelybiaeth.

l Gen. 22. 5. Mat. 9. 28. Rhuf. 4. 17—21. Eph. 3. 20. m adn. 11, 12. pen. 9. 24. Gen. 22. 4, 13. Rhuf. 5. 14.

* Rhwng addewid Duw yn Isaac ar y naill law, a'i orchymyn ef am aberthu Isaac ar y llaw arall, yr hwn orchymyn oedd yn milwrio yn erbyn yr addewid, yr oedd ffydd ac ufudd-dod Abraham yn cael eu profi i'r eithaf: ond yr oedd ef yn gadael y dyryswch a'r dirgelwch hyn i Dduw; gan gyfrif bod Duw yn ddigon galluog i gyfodi Isaac o feirw ar ol ei aberthu ef, ac er troi ei gorph ef yn lludw gan y tân. † Ac yn wir math o adgyfodiad o feirw oedd cenedliad Isaac i Abraham ar y cyntaf; (gwel ar adn. 12.) ac efe a'i cafodd ef megys o feirw yn y tro hwn; gan iddo fod am dri diwrnod, sef o'r gorchymyn am ei offrymu hyd ei ryddâd, dàn ddedfryd marwolaeth, ac mòr agos i farwolaeth, fel yr oedd ei ollyngdod ef megys ei gyfodiad o feirw i Abraham ac iddo ei hun. ‡ Yr oedd hyn oll "mewn cyffelybiaeth" nodedig, yn arddangos croeshoeliad ac adgyfodiad Crist, unig-anedig y Tad; yr hwn mewn cyffelyb fodd a draddodwyd drosom ni bechaduriaid colledig, i waedu a marw, ac i ddyoddef digofaint Duw drosom, trwy gariad yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth.—*Gan gyfrif bod Duw yn abl i'w gyfodi ef o feirw:* yr oedd ffydd Abraham yn fwy *rhyfeddol* yn hyn, o gymmaint ag nad oedd *neb*, ar a wyddom ni, wedi cael eu cyfodi o feirw *yn* ei amser ef, nac erioed *cyn* hyny.—Tybir mai at *waredigaeth* Isaac mae diwedd yr adnod yn cyfeirio, ac nid at ei *genedliad* ef.

20 * Trwy [n] ffydd † y bendithiodd Isaac Jacob ac Esau ‡ am bethau a fyddent.

n Gen. 27. 27—40. a 28. 2, 3.

* Trwy ffydd yn addewid Duw i Abraham ac iddo ei hun, a thrwy ffydd mewn gweithrediad a datguddiad dwyfol oedd ef yn gael y pryd hwnw ar ac yn ei feddwl ei hun, † y bendithiodd Isaac ei ddau fab, Jacob ac Esau; a llefarodd brophwydoliaethau nodedig am bob un o honynt, ‡ ac am bethau a fyddent i'w hiliogaeth hwynt wedi hir amser, ac o natur o'r fath, nad oedd dim yn bosibl i unrhyw rag-weliant dynol eu cyrhaeddyd, na gwybod dim am danynt. Yr oedd ef yn sicr y byddai i Dduw, mewn rhyw ffordd a'i gilydd, gyflawni ei addewidion, a'r prophwydoliaethau hyn iddynt; er nas gallai efe ddywedyd yn sicr *pa fodd*, ac er ei fod yn camgymmeryd yn y personau.—Yr oedd Isaac, yn gystal â Rebeca â Jacob, yn sicr yn dra beïus yn amgylchiadau y weithred y cyfeirir ati yma; eto efe a fendithiodd ei ddau fab mewn ffydd gadarn, y cyflawnai Duw yr addewidion i'w hiliogaeth ef: ac er iddo gam-gymmeryd etifedd y fendith, (effaith ei duedd at, a'i hoffder beïus yn Esau,) a bendithio Jacob, gan feddwl mai Esau oedd; eto wedi hyny, ac wedi iddo weled ei gam-gymmeriad, ni alwodd efe y fendith a roddasai i Jacob yn ol, eithr efe a'i cadarnâodd iddo yn ei bwyll a'i wybodaeth; ac a lefarodd bethau mawrion hefyd am Esau a'i hiliogaeth yntau. Rhoes fendithion ysbrydol y cyfammod i Jacob a'i had ef; a rhoes fendithion tymmorawl cyffredin i Esau a'i had yntau: ac er iddo ef wneyd hyny mewn cam-gymmeriad ar y cyntaf, eto fel hyny y mynai Duw ei bod, ac felly y cafodd fod ganddo yntau.

21 [o] * Trwy ffydd, Jacob, wrth farw, a fendithiodd bob un o feibion Joseph; [p] † ac a addolodd *a'i bwys* ar ben ei ffon.

o Gen. 48. 13—22. p Gen. 47. 31.

* Megys y bu Jacob fyw trwy ffydd, felly efe a fu farw mewn ffydd: a thrwy ffydd wrth farw, efe a gyhoeddodd fendith brophwydol ar bob un o'i ddeuddeg mab; (Gen. 49. 1—28.) ond am ei waith yn bendithio Ephraim a Manasseh ei ŵyrion, meibion Joseph, y dywedir yma. (Gen. 47. 29—31; a pen. 48.) Datguddiodd Duw iddo ef ei fwriad am eu hiliogaeth hwy mewn amser i ddyfod; ac mewn crediniaeth gadarn o'i air ef, bendithiodd Jacob hwynt yn ol y datguddiad hwnw. † Ac er bod yr hen Jacob y pryd hwnw yn wàn ac yn eiddil, efe a ddangosodd ei hyder crŷf yn Nuw, a'i ddïolchgarwch iddo, trwy ei addoli ef "a'i bwys ar ben ei ffon." Felly mae y LXX yn cyfieithu y geiriau yn Gen. 47. 31; y rhai yn ein cyfieithiad ni ydynt, "A ymgrymodd ar ben y gwely:" nid yw y gwahaniaeth o bwys, a dywedir fod y gair Hebraeg, trwy newid y nodau llafarog yn unig, yn arwyddo *gwely* a *ffon* hefyd. Efallai bod Jacob gan henaint a gwendid yn eistedd ar ymyl y gwely, a'i ffon yn ei law, ac felly yn addoli Duw yn y modd goreu a allai: mae yn amlwg wrth yr hanes, mai gwedi hyn y cymmerwyd ef yn glaf ac i'w wely. Gen. 48. 1, 2.

22 [q] * Trwy ffydd, Joseph, wrth farw, a goffâodd am ymadawiad plant Israel; † ac a roddodd orchymyn am ei esgyrn.

q Gen. 50. 24, 25. Ex. 13. 19. Jos. 24. 32. Act. 7. 16.

* Er bod Joseph yn arglwydd ac yn llywydd ar holl wlad yr Aipht er ys blynyddoedd lawer weithian; eto, am ei fod yn credu addewid Duw yn nghylch hiliogaeth Abraham, efe a ddangosodd ei ddysgwyliad hyderus, y cyflawnai Duw ei air yn symmudiad plant Israel i Ganaan, ac a goffâodd am hyny cyn ei farw. † Ac efe a orchymynodd am ei esgyrn hefyd; gan dyngu meibion Israel, ar iddynt eu dwyn gyda hwy o'r Aipht, i wlad Canaan, pan symmudai Duw hwynt yno. (Gen. 50. 25.) Yr oedd hyn yn dangos ei ffydd ef, a'i ddymuniad i gael ei ran hyd yn nôd ar ol marw, gyda phobl Dduw, ac nid gyda'r Aiphtiaid. Cyflawnwyd hyn yn ffyddlawn gan Moses, (Exod. 13. 19.) a chladdwyd hwy yn barchus yn Sichem. (Jos. 24. 32.)

23 * Trwy [r] ffydd, Moses, pan anwyd, a guddiwyd dri mis gan ei rïeni, † o achos eu bod yn *ei* weled yn fachgen tlws: [s] ‡ ac nid ofnasant [t] orchymyn y brenhin.

r Ex. 2. 2, &c. Act. 7. 20. s pen. 13. 6. Salm 56. 4. a 118. 6. Es. 8. 12, 13. a 41. 10, 14. a 51. 7, 12. Dan. 3. 16—18. a 6. 10. Mat. 10. 28. Luc 12. 4, 5. t Ex. 1. 16, 22.

* Rhïeni Moses hefyd, a weithredent oddi ar yr un egwyddor rymus o ffydd yn addewidion Duw. Pan aned y gwaredwr a'r deddf-roddwr enwog hwnw i Israel, hwy a'u cuddiasant ef dri mis, rhag y rhai a ddodasai

Pharaoh i ladd y plant gwrrywaid: † oblegid yr oeddynt yn gweled rhywbeth anghyffredin yn ei ymddangos iad tlws a phryderth ef yn faban, yr hyn a dybient hwy oedd yn rhag-arwyddo ei enwogrwydd ef mewn amser i ddyfod. ‡ Trwy ffydd yr oeddynt yn ymddiried i ofal ac amddiffyn addawedig Duw; ac felly nid ofnasant orchymyn y brenin; ond cadwasant fywyd eu plentyn dàn y perygl o golli eu bywydau eu hunain. Ac yr oeddynt yn gweithredu oddi ar yr un ffydd pan ymddiriedasant Moses i ofal rhagluniaeth, mewn cawell o lafrwyn; a chyflawnwyd eu dysgwyliad ffyddiog hwynt, yn ei gadwedigaeth ef gan ferch Pharaoh, a'i ddygiad ef i fynu yn mrenin-llŷs yr Aipht, i fod yn waredwr Israel. *Bachgen tlws:* gwel ar Act. 7. 20.

24 * Trwy ffydd, Moses, [u] wedi myned yn fawr, † a wrthododd ei alw yn fab merch Pharaoh;

u Ex. 2. 10, 11. Act. 7. 21—24.

* Trwy ffydd, Moses ei hun hefyd, wedi iddo dyfu i fynu, hyd yn llawn deugain mlwydd oed, a myned yn enwog iawn yn mhlith yr Aiphtiaid, (Act. 7. 22, 23.) † a wrthododd mwyach gymmeryd ei alw yn fab merch Pharaoh; er fod traddodiad yn dywedyd, a *Josephus* hefyd yn ysgrifenu, ei fod ef yn cael ei ystyried fel etifedd i goron yr Aipht, a'r deyrnas fodeuog a llwyddiannus hòno.

25 [x] * Gan ddewis yn hytrach oddef adfyd gyd â [y] phobl Dduw, † na chael [z] mwyniant pechod dros amser;

x pen. 10. 32. Job 36. 21. Salm 84. 10. Mat. 5. 10—12. a 13. 21. Act. 7. 24, 25. a 20. 23, 24. Rhuf. 5. 3. a 8. 17, 18, 35—39. 2 Cor. 4. 17. Col. 1. 24. 2 Thes. 1. 3—6. 2 Tim. 1. 8. a 2. 3—10. a 3. 11, 12. Iago 1. 20. 1 Pedr 1. 6, 7. a 4. 12—16. y pen. 4. 9. Salm 47. 9. 1 Pedr 2. 10. z Job 20. 5. a 21. 11—13. Salm 73. 18—20. Es. 21. 4. a 47. 8, 9. Luc 12. 19, 20. a 16. 25. Iago 5. 5. Dat. 18. 7.

* Ond gan fod Moses yn credu tystiolaeth ac addewidion Duw am Israel, ac yn enwedig am y Messiah; ni chymmerai efe ei gyfran yn mhlith yr Aiphtiaid, er mwyn manteision bydol, pa mòr fawr bynag oeddynt. O'r tu arall, er gweled pobl Dduw dàn y caethiwed creulonaf, ac yn y cyflwr iselaf o adfyd, efe a addefodd ei hun yn gyhoeddus yn un o honynt; ac a ddewisodd yn hytrach ddyoddef yr adfyd a'r caledi mwyaf gyda hwynt, a chyfranogi o'r bendithion oedd yn addawedig iddynt, † na mwynâu yr holl bleserau cnawdol, pechadurus, ac annuwiol, a allasai efe gael yn ei sefyllfa uchel yn yr Aipht, dros amser byr ei oes. Buasai mwyniant pechod dros amser yn dybenu mewn tragywyddol wae; ond yr adfyd gyda phobl Dduw i ddybenu mewn tragywyddol wynfyd: a hyn oedd Moses trwy ffydd yn ei weled.

26 * Gan farnu yn [a] fwy golud [b] ddirmyg Crist, na thrysorau yr Aipht: [c] † canys edrych yr oedd efe ar daledigaeth y gobrwy.

a pen. 10. 33. a 13. 13. Salm 69. 7, 20. a 89. 50, 51. Es. 51. 7. Act. 5. 41. 2 Cor. 12. 10. 1 Pedr 1. 11. a 4. 14. b Salm 37. 16. Jer. 9. 23, 24. 2 Cor. 6. 10. Eph. 1. 18. a 3. 8. Dat. 2. 9. a 3. 18. c Gwel ar adn. 6. pen. 2. 2. a 10. 35.—Ruth 2. 12. Diar. 11. 18. a 23. 18. Mat. 5. 12. a 6. 1. a 10. 41. Luc 14. 14.

* Trwy ffydd hefyd, efe a farnodd sefyllfa isel a gwarthus Israel yn eu caethiwed presenol, a'r dirmyg a roddid arnynt, o herwydd eu dysgwyliad am Waredwr gogoneddus i gyfodi o'u plith eu hunain, dàn ofal neilldduol yr hwn y proffesent eu bod; yn fwy golud a gwerth o lawer, na holl drysorau aneirif a chyllid yr Aipht; ac fel hyny efe a wrthododd yr olaf, ac a ddewisodd y cyntaf, a hyn nid yn fyrbwyll ac mewn annwybod, ond oddi ar wybodaeth a barn ystyriol ar y naill beth a'r llall. † Canys edrych yr oedd efe ar daledigaeth y gobrwy; sef y taliad grasol a helaeth, a roddai Crist i bawb a ddyoddefent ddim o herwydd cydwybod, ac er mwyn ei enw a'i achos ef. Nis gallai "taledigaeth y gobrwy" yma feddwl unrhyw beth *tymmorawl;* oblegid ni ddaeth Moses i wlad Canaan, ac nis gallasai ddysgwyl dedwyddwch *tymmorol* mwy nag a adawodd efe yn llŷs Pharaoh; gan hyny rhaid ei fod ef yn edrych am rywbeth ysbrydol, nefol, a thragywyddol: peth ni welid; adn. 1.

27 * Trwy ffydd y [d] gadawodd efe yr Aipht, [e] † heb ofni llid y brenhin: ‡ canys efe a [f] ymŵrolodd fel [g] *un* yn gweled yr anweledig.

d Ex. 10. 28, 29. a 11. 8. a 12. 31, &c. a 13. 17—21. e Ex. 2. 14, 15. a 4. 19. a 14. 10—13. f pen. 6. 15. a 10. 32. a 12. 3. Mat. 10. 22. a 24. 13. Marc 4. 17. a 13. 13. 1 Cor. 13. 7. Iago 5. 11. g adn. 1, 13. pen. 12. 2. Salm 16. 8. Act. 2. 25. 2 Cor. 4. 18. 1 Tim. 6. 16. 1 Pedr 1. 8.

* Mae yn amlwg i Moses "ofni llid y brenin" pan adawodd efe yr Aipht y tro cyntaf, i ffoi i Midian: (Exod. 2. 13—15.) ond gadael yr Aipht yr ail waith a feddylir yma, pan arweiniodd efe allan lwythau Israel. † Yr oedd efe y pryd hwnw wedi ei nerthu yn y ffydd, i ddibrisio llid a nerth y brenin Pharaoh; cyhoeddodd ddinystr y cyntaf-anedigion yn hŷf yn ei wyneb ef, gadawodd bresenoldeb y gorthrymwr hwnw fel pe buasai yn beiddio gwaethaf ei fygythion ef, ac aeth allan o'r Aipht gyda gŵrolder mawr, er y gwyddai yn burion y byddai i Pharaoh a'i fyddin erlid ar ei ol ef. A phan gymmerodd hyny le mewn gwirionedd, efe a ddywedodd yn hŷf wrth yr Israeliaid dychrynedig, "Nac ofnwch; sefwch, ac edrychwch ar iachawdwriaeth yr Arglwydd." —"Yr Arglwydd a ymladd drosoch; am hyny tewch chwi a sôn." ‡ Fel hyn efe a ymŵrolodd yn ddiysgog, i draddodi ei genadwriaethau i'r brenin, ac yn y cyfwng diweddaf hwn, ac er nad oedd ganddo yr un amddiffyn gweledig rhag llid y brenin; eto yr oedd ei ffydd ef, fel mae yn "sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled," yn gweled y Duw annweledig yn Amddiffynwr hollalluog iddo; ac yr oedd yn sicr ganddo ei fod ef gydag ef, i ofalu am dano a'i waredu.

28 * Trwy ffydd y [h] gwnaeth efe y pasc [i] a gollyngiad y gwaed, † rhag i'r hwn ydoedd yn dinystrio y rhai cyntaf-anedig gyffwrdd â hwynt.

h Ex. 12. 3—14, 21—30. i pen. 9. 13. a 12. 24. Ex. 12. 7, 13, 23. 1 Pedr 1. 2.

* Trwy yr un ffydd effeithiol yn ngair Duw, rhagwelodd Moses ddinystr y rhai cyntaf-anedig yn yr Aipht, ac y credodd y caffai Israel eu harbed rhag y dinystr hwnw, yn y ffordd a orchymynodd Duw iddo ef. Am hyny efe a barodd i'r bobl gadw y pasg, gyda thaenelliad y gwaed ar ystlys-byst a chapan y drws, yn nghyd â seremonïau arwyddawl eraill; † rhag i'r angel oedd yn dinystrio cyntaf-anedigion yr Aiphtiaid gyffwrdd â hwythau hefyd, a lladd eu rhai cyntaf-anedig. Fel hyn y cadwyd hwynt, a hyn a wnaeth ffordd er eu gwaredigaeth hwy o'u caethiwed: ac yr oedd yr holl osodiad hwn tra parâodd, nid yn unig yn goffadwriaeth o waredigaeth Israel o'r Aipht, ond hefyd yn rhag-ddangosiad cysgodawl o'n hiachawdwriaeth ni trwy farwolaeth Crist, a thrwy ffydd yn ei waed ef.—"A *gollyngiad* y gwaed:" "a *thaenelliad* y gwaed" ydyw yn y Saesoneg: barned y cyfarwydd pa un yw yr iawn gyfieithiad o'r gair Groeg *proschusin;* gair arall *(rhantismou)* a gyfieithir "taenelliad" genym ni a'r Saeson yn pen. 12. 24; ac *errhantise* a gyfieithir *taenellodd* yn pen. 9. 19. Ac eto, mae yn debyg mai math o *daenellu* y gwaed oedd ar y ddau ystlys-bost a chapan y drws yn yr Aipht; ac efallai mai mwy priodol yw *taenelliad* yma na gollyngiad. Er y byddid yn lladd y pasg bob blwyddyn, eto, nid oes dim hanes am roddi y gwaed ar ystlys-byst a chapan y drws, wedi y tro cyntaf yn yr Aipht.

29 * Trwy ffydd yr [k] aethant trwy y môr coch, megis ar hŷd *tir* sych: † yr hyn pan brofodd yr Aiphtiaid, boddi a wnaethant.

k Ex. 14. 13—31. a 15. 1—21. Jos. 2. 10. Neh. 9. 11. Salm 66. 6. a 78. 13. a 106. 9—11. a 114. 1—5. a 136. 13—15. Es. 11. 15, 16. a 51. 9, 10. a 63. 11—16. Hab. 3. 8—10.

* Yr oedd Moses, Aaron, Caleb, Josua, ac eraill yn gwir gredu, ac â ffydd wirioneddol ganddynt; ac yr oedd yr holl genedl trwy gyngorion Moses, yn cael eu

hannog i ymddiried yn nerth ac ewyllys da yr Arglwydd, am eu gwaredigaeth bresenol o law Pharaoh. Ond yn benaf trwy ffydd Moses, eu blaenor, yr aeth yr Israeliaid yn ddïogel trwy y môr coch; yn debyg fel y cadwyd teulu Noah yn yr arch, trwy ei ffydd ef; er nad yw yn ymddangos eu bod hwy oll yn wir gredinwyr. Israel oedd eglwys weledig Duw, a chysgod o'r holl dyrfa, y rhai trwy ffydd a ânt trwy brofedigaethau, peryglon, ac angau, heb gael dim niwed: † ond yr oedd yr Aiphtiaid yn arddangos gelynion Duw a'i bobl, a thrwy ganlyn balchder a rhyfyg Pharaoh, anturiasant erlid ar ol Israel i'r môr, ac felly a drengasant; fel y derfydd am holl elynion yr Arglwydd yn angau, yr hwn a weryd yr holl saint oddi wrth eu llid a'u cynddaredd hwynt. Ni chollodd yr un o Israel yn y môr, ac ni ddïangodd yr un o'u herlidwyr o'r môr. Pa nifer bynag o gredinwyr neu o anghredinwyr oedd yn y dyrfa y pryd hwn, mae yn dra sicr mai trwy ffydd Moses yr aethant trwy y môr; oblegid am ffydd Moses mae yr apostol yn llefaru o hyd, o adn. 24, hyd ddiwedd yr adnod hon: a dyma ddiwedd yr hanes am ei ffydd ef.

30 * Trwy ffydd y syrthiodd [l] caerau Jericho, † wedi eu hamgylchu dros saith niwrnod.

l Jos. 6. 3—20. 2 Cor. 10. 4, 5.

* Gan fod Josua, a llawer o'r Israeliaid, yn credu addewid Duw, y rhoddai efe Jericho yn eu llaw hwynt, hwy a ufuddâsant iddo ef, ac a dueddasant eu brodyr i wneyd yr un peth, gyda golwg ar y moddion rhyfeddol a ddefnyddiwyd i'r dyben hwn. Dysgwyliasant y cyflawnai Duw ei air; † a gwaethant yn ol ei gyfarwyddyd ef, trwy ymdaith o amgylch y ddinas, a chwythu yn yr udgyrn, am saith niwrnod: ac fel hyn syrthiodd y caerau ar yr amser pennodol, a hwy a gawsant fuddugoliaeth esmwyth a diberygl. Yr un egwyddor a'u tueddai hwy i dderbyn yr addewidion am y Messïah, ac iachawdwriaeth trwyddo ef: ond mewn cyrph cynnulleidfâol o bobl, mae bob amser wahaniaeth rhwng gwir gredinwyr, a phroffeswyr ffydd yn unig, y rhai a gydweithredant â hwynt yn yr un ymarferiad allanol o wasanaeth.—Gan fod gwlad Canaan yn eiddo i'r Israeliaid, trwy roddiad gan Dduw, Meddiannydd nefoedd a daear; yr oedd yn addas i'r ddinas gyntaf a'u gwrthwynebai hwynt, gael ei chymmeryd yn y fath fodd ag a fuasai yn eglur ddangos gwirionedd eu hawl hwynt: fel hyn yr oedd yr holl Ganaanêaid yn gorfod gwybod uchafiaeth a gallu Duw Israel, ac mòr ofer oedd i neb geisio ei wrthsefyll ef.

31 * Trwy ffydd ni [m] ddifethwyd Rahab y buttain gyd â'r rhai ni chredent, † pan dderbyniodd hi yr yspïwyr yn heddychol.

m Jos 2. 1—22. a 6. 22—25. Mat. 1. 1, 5. Iago 2. 25.

* Trwy ffydd Rahab y buttain, pan glywodd hi fod Duw wedi cyhoeddi dinystr ar y Canaanêaid, a'i fod wedi addaw bendithion lawer i Israel; a ymwrthododd â gelynion Duw, ac a geisiodd dderbyniad yn mhlith ei bobl ef: ac felly ni ddyfethwyd hi gyda ei chyd-ddinasyddion y rhai ni chredent, ac a dòrwyd ymaith yn eu gelyniaeth tuag at Dduw a'i bobl. † Dàn y perygl o'i bywyd, hi a dderbyniodd yr yspïwyr o Israel yn heddychol, ac fel cyfeillion; a phan hysbyswyd iddi yn sicr y cymmerid y ddinas gan yr Israeliaid, hi a ammododd â hwynt am ei bywyd ei hun a'i theulu, ac fel hyny dïogelwyd hi a hwythau pan ddaeth yr amser. Gwel Jos. 2. 1—21; a 6. 21—25. Dïammau i Rahab gredu yr addewidion am y Messïah, a'r iachawdwriaeth ysbrydol drwyddo ef, gyda'r un ufudd-dod ffydd, pan hysbyswyd iddi y pethau hyny; ac fel hyny cafodd ei chyd-gorphori â chenedl Israel, a daeth yn un o henafiaid Crist. Matth. 1. 5.—Mae yn ddïammau nas gellir cyfreithloni yr anwiredd a ddywedodd Rahab i ddïogelu yr yspïwyr, mewn un modd; (Jos. 2. 4—7.) nid trwy ffydd, ond trwy wendid a diffyg ffydd, y gwnaeth hi hyn: eithr nid oedd yn perthyn i'r apostol sôn am y gwendid hwnw yma, mwy nac am wendidau credinwyr enwog eraill, a grybwylla efe yn y bennod hon. Dïammau iddi hi edifarâu drachefn am yr anwiredd hwn, fel am ei holl bechodau eraill; a chael maddeuant o'r cwbl trwy ffydd yn y Messïah a'i aberth a'i waed ef.—*Y buttain:* felly y gelwir hi yma, ac yn Iago 2. 25; a hyny mae yn debyg yw ystyr y gair Groeg *pornê;* un yn rhoddi ei chorph i butteindra er mwyn elw. *Putteinwraig* y gelwir hi hefyd yn Jos. 2. 1; ond dywed rhai mai un yn cadw lletty cyhoeddus cyffredin, neu dŷ tafarn, yw ystyr y gair Hebraeg yno: dywed eraill i'r gwrthwyneb, na ddefnyddir mo'r gair yn un màn felly; ond mai puttain a arwydda yn mhob màn. *Puttain* yn ddïammau a fuasai hi unwaith, ond nid puttain oedd hi pan dderbyniodd yr yspïwyr; oblegid "trwy ffydd" y derbyniodd hi hwynt, ac mae gwir ffydd, yn nghyd â'r grasau eraill sydd yn wastad gyda hi, yn gwneyd hyd yn nôd putteiniaid yn ddiwair ac yn sanctaidd.

32 [n] * A pheth mwy a ddywedaf? † canys yr [o] amser a ballai i mi ‡ i fynegi am [p] Gedeon, || *am* [q] Barac, § ac *am* [r] Samson, * ac *am* [s] Jephthae; [t] † *am* Dafydd hefyd, [u] ‡ a Samuel, [x] || a'r prophwydi:

n Rhuf. 3. 5. a 4. 1. a 6. 1. a 7. 7. o Ioan 21. 25. p Barn. 6—8. 1 Sam. 12. 11. q Barn. 4. a 5. r Barn. 13—16. s Barn. 11. a 12. 1—7. t 1 Sam. 16. 1, 13. a 17. &c. Act. 2. 29—31. a 13. 22, 36. u 1 Sam. 1. 20. a 2. 11, 18. a 3—12. a 28. 3, &c. Salm 99. 6. Jer. 15. 1. Act. 3. 24. a 13. 20. x Mat. 5. 12. Luc 13. 28. a 16. 31. Act. 10. 43. Iago 5. 10. 1 Pedr 1. 10—12. 2 Pedr 1. 21. a 3. 2.

* Pa brofion chwanegol oedd yn eisiau at y rhai a enwyd, i ddangos grym a buddugoliaethau gwir ffydd? † Byddai bron yn orchwyl diddiwedd, i grybwyll am yr aneirif brofion a ellid eu cael yn yr Hen Destament; a phallai amser yr apostol, a therfynau yr epistol hwn, i ymhelaethu arnynt bob yn un ac un: ‡ megis am ffydd Gedeon, a'i heffeithiau rhyfeddol; yr hwn a gredodd ac a ufuddâodd i orchymyn Duw, i *fwrw i lawr allor Baal, ac i dòri i lawr y llwyn oedd yn ei hymyl hi, ac i adeiladu allor* arall *i'r Arglwydd ei Dduw;* ac hefyd i wynebu gyda thri chant o ddynion yn unig, ar lu dirfawr y Midianiaid, o gant a phymtheg ar hugain o filoedd, mewn crediniaeth o addewid Duw am fuddugoliaeth; yr hon a ennillodd efe yn wyrthiol, yn unig drwy udganu mewn udgyrn, tòri y piserau, dàl y lampau yn eu llaw aswy, a bloeddio yn ol gorchymyn Duw, gan ddywedyd, *Cleddyf yr Arglwydd a Gedeon.* (Barn. 6. 14, 25, 27; a 7. 17, 25; a 8. 10.) || Pallai yr amser hefyd i sôn am ffydd Barac; yr hwn, gan gredu addewid Duw trwy y brophwydes Deborah, gyda deng mil o wŷr yn unig, a ennillodd fuddugoliaeth ogoneddus iawn, ar fyddin llawer mwy lliosog a dychryn-bair Jabin, y brenin Canaanêaidd, yr hon fyddin a lywyddid gan y tywysog Siserah. (Barn. 4. 4; a 7. 16.) § Ac am ffydd Samson; yr hwn ag efe yn farnwr yn Israel, a gredodd y byddai yr Arglwydd gydag ef pan ddaeth ei Ysbryd ef arno, yn Ysbryd nerth a gwrolder, ac a'i galluogodd ef i ladd deg ar hugain o'r Philistiaid; ac wedi hyny i ladd tair mil o'r gelynion hyny i wladwriaeth Israel ac i Dduw ei hun, yn ei farwolaeth ei hunan. (Barn. 14. 19; a 16. 27—30.) * Ac am ffydd Jephthae; a gredodd i Dduw, yr hwn a waredasai Israel oddi wrth elynion eraill, ac Ysbryd yr hwn a ddaeth arno ef yn Ysbryd gwroldeb; y byddai iddo ỳru yr Ammoniaid allan o'i flaen ef: ac efe a'u rhoddodd hwynt yn ei law ef, fel y darostyngwyd hwy yn hollawl. (Barn. 11. 23—33.) † Ac am ffydd Dafydd, y gwr yn ol calon Duw, a brenin ardderchocaf Israel; yr hwn yn ei enbydrwydd mwyaf a gredodd yn addewidion Duw am ei ddwyn ef i'r orsedd: ac o hyny allan yn wastadol, hyd ddydd ei farwolaeth, a ymorphwysodd yn ddïysgog ac yn ostyngedig ar ffyddlondeb Duw, i gyflawni ei gyfammod âg ef. (2 Sam. 23. 1—5.) ‡ A ffydd Samuel, y prophwyd enwog hwnw; yr hwn a gredodd y byddai cyflawniad i bob peth a ddywedasid iddo ef gan yr Arglwydd, pa un bynag ai mewn ffordd o farn, neu ynte trugaredd; ac y gwnelid gwyrthiau i gadarnâu hyny, yr hyn hefyd a wnaed: (1 Sam. 12. 16—25.) || A ffydd prophwydi sanctaidd

eraill, rhŷ liosog i'w crybwyll yn fanol, y rhai mae hanes am danynt yn yr Hen Destament; y pethau mawrion a *wnaeth* rhai o honynt trwy ffydd, a'r pethau a *ddyoddefodd* rhai eraill o honynt yn ardderchog, trwy ei grŷm cynnaliaethol hi.—Nid yw yr apostol yn enwi y personau uchod yn yr un drefn o ran amser, ag y cair hanes am danynt yn yr Hen Destament, ond yn gwbl i'r gwrthwyneb; oblegid yr oedd Barac yn byw o flaen Gedeon, Jephthae o flaen Samson, a Samuel o flaen Dafydd: ac nid yw yn crybwyll effeithiau eu ffydd hwynt ychwaith, yn yr adnodau canlynol, gyda dim cyfeiriad at bob un o honynt hwy, yn yr un drefn ag yr enwodd efe hwynt; fel pe byddai y cyntaf o'r effeithiau hyn yn perthyn i'r cyntaf a enwodd efe, a'r ail i'r ail, ac felly yn mlaen: ei amcan ef oedd dangos bod effeithiau o'r fath a enwir, yn perthyn i ffydd y naill a'r llall o'r personau hyny a'u cyffelyb, yn oesoedd yr Hen Destament, heb enwi gweithredoedd pob un o honynt yn bennodawl.

33 * Y rhai [y] trwy ffydd a oresgynasant deyrnasoedd, [z] † a wnaethant gyfiawnder, [a] ‡ a gawsant addewidion, [b] || a gauasant safnau llewod,

y Jos. 6—13. 2 Sam. 5. 4—25. a 8. 1—14. Salm 18. 32—34. a 44. 2—6. a 144. 1, 2, 10. z Gwel ar adn. 4—8, 17. a Gwel ar pen. 6. 12—15. a 10. 36. b Barn. 14. 5, 6. 1 Sam. 17. 33—36. Salm 91. 13. Dan. 6. 20—23. 2 Tim. 4. 17. 1 Pedr 5. 8.

* Am y pethau mawrion a *wnaethant;* rhai o honynt trwy ffydd, megys Josua a Dafydd, a oresgynasant genedloedd Canaan, a'r teyrnasoedd o amgylch, fel gweision Duw yn achos Israel ei bobl ef. † Rhai eraill, megys Barac, Gedeon, Jephthae, Samson, a Samuel, a "wnaethant gyfiawnder" fel barnwyr yn Israel, a ddiwygiasant y genedl pan oedd wedi ymlygru, ac a lywodraethasant yn gyfiawn yn ofn Duw; a hyny trwy ffydd, ac ymddybyniad gwastadol arno ef am gymmorth yn eu gwaith pwysig. ‡ Eraill trwy ffydd yn addewidion Duw, a gawsant gyflawniad nodedig o'r addewidion hyny, iddynt hwy eu hunain a'r bobl; megys Josua, Gedeon, ac eraill, yn y buddugoliaethau nodedig a gawsant ar eu gelynion, a'r hyn a addawsai Duw iddynt o'r blaen. || Ac eraill trwy ffydd a gauasant safnau llewod; megys Samson, Dafydd, a Benaiah, y rhai a laddasant bob un o honynt lew; (Barn. 14. 5, 6; 1 Sam. 17. 34—36; 2 Sam. 23. 20.) a Daniel, a fu am noswaith yn ffau llewod newynog, ac heb gael dim niwed: (Dan. 6. 22, 23.) a hyn oll a wnaed trwy ffydd yn ffyddlondeb Duw holl-alluog.

34 [c] * A ddiffoddasant angerdd y tân, [d] † a ddiangasant rhag min y cleddyf, [e] ‡ a nerthwyd o wendid, || a wnaethpwyd yn gryfion mewn rhyfel, [f] § a yrrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio.

c Salm 66. 12. Es. 43. 2. Dan. 3. 19—28. 1 Pedr 4. 12. d 2 Sam. 21. 16, 17. 2 Bren. 6. 16—18, 32. Job 5. 20. Salm 144. 10. Jer. 26. 24. e Barn. 7. 19—25. a 8. 4—10. a 15. 14—20. a 16. 19—30. 2 Cor. 12. 9, 10. f 1 Sam. 14. 13, &c. a 17. 51, 52. 2 Sam. 8. 1, &c. 2 Cron. 14. 11—14. a 16. 1—9. a 20. 6—25. a 32. 20—22.

* Eraill o'r hen ffyddloniaid enwog gynt, trwy eu ffydd a'u hymddiried yn yr Arglwydd, tra yr oeddynt yn gydwybodol yn ei wasanaethu ef, a ddirŷmasant angerdd y tân mòr effeithiol, a phe buasai wedi ei ddiffoddi: o hyn mae amgylchiad nodedig yn hanes y tri llanc yn y ffwrn dânllyd boeth yn Babilon. (Dan. 3. 19—27.) † Eraill trwy ffydd yn amddiffyniad Duw, gydag arfer moddion priodol er eu diogelwch, a ddiangasant rhag min y cleddyf; megys Dafydd rhag Saul, Elias fwy nac unwaith rhag llid Ahab, Jezebel, ac Ahaziah; (1 Bren. 18. 10; a 19. 1—3, 9, 10, 14; a 22. 52, 53.) Micea rhag cleddyf Ahab; (1 Bren. 22. 8.) Elisëus rhag cleddyf breninoedd Israel a Syria; (2 Bren. 6. 8—14, 26—31.) a Jeremiah rhag cleddyf Jehoiacim a thywysogion Sedeciah. (Jer. pen. 26; a 38. 8—13.) ‡ Eraill trwy ffydd a nerthwyd o wendid ac afiechyd, megys Hezeciah dduwiol, Job, a Dafydd: neu, ynte, mewn ystyr wladol, adferwyd teyrnas Hezeciah, o'r gwendid mwyaf i agwedd flodeuog iawn, mewn atebiad i'w ffydd ef yn Nuw. || Eraill trwy ffydd a wnaed yn gryfion, yn ddewr, ac yn galonog rhyfeddol mewn rhyfel; megys Gedeon, (gwel ar adnod 32.) a Dafydd, yr hwn drwy ymddiried yn Nuw a wynebodd ar y cawr anferth Goliath, ac a'i lladdodd ef: (1 Sam. 17. 45—51.) § ac fel hyn, yn groes i bob tebygolrwydd dynol, hwy a yrasant holl fyddinoedd yr estroniaid cenedlig i gilio; ac a ddistrywiasant eu gwersylloedd a'u hamddiffynfêydd hwynt. Arwydda y gair *parembolas* wersyll, gwarchae, neu fyddinoedd.

35 [g] * Gwragedd a dderbyniodd eu meirw trwy adgyfodiad: [h] † ac eraill a ddirdynnwyd, ‡ heb dderbyn ymwared; [i] || fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell.

g 1 Bren. 17. 22—24. 2 Bren. 4. 27—37. Luc 7. 12—16. Ioan 11. 40—45. Act. 9. 41. h Act. 22. 24, 29. i Mat. 22. 30. Marc 12. 25. Luc 14. 14. a 20. 36. Ioan 5. 29. Act. 23. 6. a 24. 15. 1 Cor. 15. 54. Phil. 3. 11.

* Ac hyd yn nôd gwragedd, trwy ffydd, a gawsant adferu eu meirw iddynt yn wyrthiol; megys y wraig weddw o Sarepta, yr hon yr adgyfodwyd ei mab iddi, trwy ffydd Elias, yr hwn y credai hi mai prophwyd Duw ydoedd; (1 Bren. 17. 13—24.) a'r Sunamees dduwiol, yr hon yr adgyfodwyd ei mab o feirw trwy ffydd Elisëus, ac yn ol ei ffydd hithau. (2 Bren. 4. 18—37.) Y rhai hyn oll ydynt brofion nodedig o effeithiau ffydd; yn y pethau mawrion a wnaed, a'r manteision gwerthfawr a gafwyd trwyddi hi. † Ac nid yw ei grŷm a'i heffaith yn llai amlwg a nodedig, yn y nerth a gafodd eraill i *ddyoddef* trwyddi hi; oblegid cafodd llawer o'r credinwyr eu dirdynu a'u harteithio, gyda phob dyfais ddychrynllyd a allai eu herlidwyr creulawn ei ddychymmygu a'i roddi ar waith. Mae y gair gwreiddiol, *(etumpanisthèsan,)* medd *Doddridge*, yn arwyddo rhyw fath neilldduol o ddirdyniad, neu arteithiad; pryd yr oeddynt yn cael eu dirdynu i'r eithaf; ac yna eu curo yn ddidrugaredd â phastynau pen-grynion, yr hyn oedd raid fod yn ofnadwy o boenus, pan oedd holl ranau y corph ar y fath estyniad dirdynawl. ‡ Ond er mòr boenus oedd hyn, gwell oedd ganddynt ddyoddef y cwbl na derbyn ymwared trwy wadu eu crefydd, nac ar unrhyw ammodau dianrhydeddus, trwy droi yn eilunaddolwyr: ni chaent ymwared *heb* hyny, ac ni chymmerent ymwared *fel* hyny. || Yr oedd yn well ganddynt farw dàn eu harteithiau, nac arbed eu bywyd ar y fath delerau: oblegid trwy ffydd yr oeddynt yn dysgwyl adgyfodiad *gwell;* sef adgyfodiad i fywyd tragywyddol, yr hwn oedd lawer gwell nac unrhyw fath o fywyd a allasent gael am ychydig yn nŵy yn y byd hwn, trwy wadu eu crefydd. Tybir fod cyfeiriad yn rhan olaf yr adnod hon at arteithiau a marwolaeth y wraig a'i saith mab, y mae hanes am dani yn 2 Mac. pen. 7: a thybir fod cyfeiriad yn adn. 34 hefyd, at frwydrau Judas Maccabëus a'i frodyr, yn erbyn Antiochus Epiphanes; pryd yr aethant hwy yn rymus iawn o ddechreuad bychan, ac y trechasant holl ystrywiau yr erlidiwr hwnw, trwy ffydd yn addewidion ac amddiffyniad eu Duw.—Er gwneuthur o honom wahaniaeth pennodol rhwng gair Duw â phob ysgrifeniadau eraill; eto, tebygid nad oes dim anmhriodoldeb yn y dŷb, fod y pethau uchod yn ngolwg yr apostol yn yr adnodau hyn.

36 * Ac eraill a gawsant brofedigaeth trwy [k] watwar, [l] † a fflangellau, ‡ ïe, trwy [m] rwymau hefyd a charchar:

k Barn. 16. 25. 2 Bren. 2. 23. 2 Cron. 30. 10. a 36. 16. Jer. 20. 7. Mat. 20. 19. Marc 10. 34. Luc 18. 32. a 23. 11, 36. l 1 Bren. 22. 24. Jer. 20. 2. a 37. 15. Mat. 21. 35. a 23. 34. a 27. 26. Act. 5. 40. a 16. 22, 23. 2 Cor. 11. 24, 25. m pen. 10. 34. Gen. 39. 20. 1 Bren. 22. 27. 2 Cor. 16. 10. Salm 105. 17, 18. Jer. 29. 26. a 32. 2, 3, 8. a 36. 5. a 37. 15—21. a 38. 6—13, 28. a 39. 15. Galar. 3. 52—55. Act. 4. 3. a 5. 18. a 8. 3. a 12. 4, &c. a 16. 24, &c. a 21. 33. a 24. 27. 2 Cor. 11. 23. Eph. 3. 1. a 4. 1. 2 Tim. 1. 16. a 2. 9. Dat. 2. 10.

* Eraill, mewn gwahanol oesoedd, a gawsant eu profi trwy watwar creulawn, a phob math o warth a dianrhydedd; megys Isaac gan Ismael; (Gen. 21. 9; Galat. 4. 29.) Elisëus gan blant, neu bobl ieuaine drygionus Bethel; (2 Bren. 2. 23.) Micea gan Sedeciah mab Cenaana: (1 Bren. 22. 24.) a llawer eraill o genadau duwiol a phrophwydi Duw, rhŷ faith eu henwi. Gwel 2 Cron. 36. 16. † Eraill a gawsant eu fflangellu yn greulawn a didrugaredd, o herwydd eu crefydd a'u ffyddlondeb i Dduw. Cafodd Jeremiah ei daro, a thybia rhai ei fflangellu hefyd: ac yr oedd *fflangellu* yn gospedigaeth mòr gyffredin, fel mae yn debyg y byddai llaweroedd o ddynion duwiol yn cael eu cospi felly am eu crefydd. ‡ Ië, cafodd llawer eu dodi mewn rhwymau a charchar am yr un achos da; megys Joseph, Samson, Micea, a Jeremiah; (Gen. 39. 20; a 40. 3; Barn. 16. 21; 1 Bren. 22. 27; Jer. 37. 15.) eraill, mae yn debyg, yn amser Antiochus, a grybwyllwyd uchod; a rhai yn amser Crist ei hun a'i apostolion: ïe, rhai gan Paul ei hun, pan oedd efe yn erlidiwr y saint; ond trwy ffydd dàliasant oll.

37 * Hwynt-hwy a [n] labyddiwyd, † a dòrwyd â llif, ‡ a demtiwyd, [o] ‖ a laddwyd yn ffeirw â'r cleddyf: [r] § a grwydrasant mewn croen defaid, a chrwyn geifr; [q] yn ddiddym, yn gystuddiol, yn ddrwg eu cyflwr;

n 1 Bren. 21. 10, 13—15. 2 Cron. 24. 21. Mat. 21. 35. a 23. 37. Luc 13. 34. Ioan 10. 31—33. Act. 7. 58, 59. a 14. 19. 2 Cor. 11. 25. o 1 Sam. 22. 17—19. 1 Bren. 18. 4, 13. a 19. 1, 10, 14. Jer. 2. 30. a 26. 23. Galar. 4. 13, 14. Mat. 23. 35—37. Luc 11. 51—54. r Act. 7. 52. a 12. 2, 3. p 2 Bren. 1. 8. Mat. 3. 4. Dat. 11. 3. q pen. 12. 1—3. Zec. 13. 9. Mat. 8. 20. 1 Cor. 4. 9—13. 2 Cor. 11. 23—27. a 12. 10. Iago 5. 10, 11.

* Eto, rhai o'r hen dduwiolion a labyddiwyd â meini fi farwolaeth, am eu crefydd a'u huniondeb: felly y gwnaed â Naboth; (1 Bren. 21. 13.) a Zechariah, mab Jehoiada; (2 Cron. 24. 20, 21.) a'r rhai hyny y crybwyllir am danynt gan ein Harglwydd bendigedig. (Matth. 23. 37.) † Eraill o honynt trwy ffydd a gymmerasant eu dïenyddio drwy eu tòri yn greulawn â llif ar draws eu canol, yr hyn greulondeb a wnaid yn rhŷ saml gan yr henafiaid. Mae traddodiad yn mhlith yr Iuddewon eu hunain, i Esaiah y prophwyd gael ei *dòri* felly â *llif bren*, wrth orchymyn Manasseh, yr hwn oedd y pryd hwnw yn frenin eilun-addolgar, drygionus, a chreulawn. (2 Bren. 21. 1—16; 2 Cron. 33. 1—19.) Mae eraill yn deall y geiriau *tòri â llif*, am *dòri yn addrylliau*, megys dàn *offeryn dyrnu*, yr hwn oedd gynnwysedig o ròliau prenau, yn llawn o ddannedd llymion fel *oged*. (Gwel 2 Sam. 12. 31; Esa. 41. 15.) Dïenydd creulawn i ddrwg-weithredwyr oedd y fath dhyn; pa faint mwy i saint Duw, a rhai rhagorol y ddaear! ‡ Yn wyneb y fath ferthyrdod ofnadwy, a thrwy amryw ffyrdd eraill, cafodd llawer o'r saint eu temtio yn dost i wadu eu Duw, ac i addoli eilunod; yr dhyn pe gwnaethent, (yn ol cynnygion eu herlidwyr) ocawsent ymwared oddi wrth y dyoddefiadau hyny. Tybia rhai fod cam-gymmeriad yn y *gair* wedi dygwydd yn y fàn hon; mai *epuróthêsan*, ac nid *epeirasthêsan*, a ddylai fod; hyny yw, eu *serio* â haiarn poeth, neu eu *llosgi* yn fyw, ac nid eu *temtio:* a thybia eraill mai *espeirasthêsan* oedd y gair gan yr apostol; sef eu *sgwasgu* hwynt i farwolaeth, neu eu *llindagu*, â *rhaffau*, neu *gordeni*, wedi eu nydd-droi yn ddirdynawl am eu gyrph, neu eu gyddfau. ‖ Cafodd rhai eu lladd yn ffeirw â'r cleddyf; megys prophwydi yr Arglwydd gan Jezebel; (1 Bren. 18. 4; a 19. 10.) ac Uriah mab Semaiah, gan y brenin Jehoiacim. (Jer. 26. 20—23.) § Ni oddefid i lawer o honynt aros yn eu preswylfêydd, ond yr oeddynt yn gorfod crwydro ar hyd y byd fel sgwibiaid; rhai mewn crwyn defaid, eraill mewn crwyn geifr, neu ryw ddillad geirwon, a'r gwlân neu y blew arnynt, i guddio eu noethni, ac i'w cadw yn gynhes rhag oerni yr hîn a'r tywydd garw: ac yr oeddynt hwy yn ddigon boddlawn i'r fath ddillad gwaelion, ac i'r fath gyflwr diddym, cystuddiol, a drwg, o ran pob cysur corphorawl; yn hytrach na chael byd gwell a gwadu eu crefydd a'u Duw. Gwisgoedd cyffelyb i hyn oedd gan hen Elias dduwiol, a Ioan Fedyddiwr, a chan lawer o'r hen brophwydi gynt, debygid wrth Zec. 13. 4.—Beth a ddywed crefyddwyr y "dillad esmwyth," a'r plasau gwychion, yn ein dyddiau hafaidd ni, am grefydda fel hyn; ac fel y dywedir eto yn yr adnod nesaf? A ydym ni yn ddigon diolchgar am ein rhyddid a'n cysuron? Ac a oes genym ni well crefydd nag a oedd gan y rhai diddym, cystuddiol, a drwg eu cyflwr hyny?

38 [r] * (Y rhai nid oedd y byd yn deilwng o honynt) [s] † yn crwydro mewn anialwch, a mynyddoedd, a thyllau, ac ogofeydd y ddaear.

r 1 Bren. 14. 12, 13. 2 Bren. 23. 25—29. Es. 57. 1. s 1 Sam. 22. 1. a 23. 15, 19, 23. a 24. 1—3. a 26. 1. 1 Bren. 17. 3. a 18. 4, 13. a 19. 9. Salm 142.

* Am y dynion rhagorol uchod, "nid oedd y byd," ag oedd yn eu trin mòr ddirmygus a chreulawn, "yn deilwng o honynt;" am hyny mewn trugaredd arnynt hwy, a barn ar eu gelynion, symmudwyd hwynt yn fuan oddi ar y ddaear i dangnefedd. (Gwel Esa. 57. 1, 2.) † Cyfrifai Duw nad oedd y byd yn deilwng o honynt o herwydd eu rhagoriaeth; ond cyfrifai eu gelynion nad oedd y byd yn deilwng o honynt yn gwbl fel arall; sef nad oeddynt hwy yn deilwng o gael bod yn y byd: am hyny yr oedd llawer o honynt yn gorfod crwydro yn ddigartref mewn anialwch, a mynyddoedd, a thyllau, ac ogofêydd y ddaear. Felly y bu gyda Dafydd, Elias, y prophwydi a guddiodd Obadiah rhag llid Jezebel, (1 Bren. 18. 4.) a llawer eraill a ymguddient rhag eu gelynion, y rhai fel gwaed-gŵn am ysglyfaeth, a helient ar eu hôl hyd yn nôd i'r mànau anghysbell ac anghysurus hyny.

39 * A'r rhai hyn oll, [t] wedi cael tystiolaeth † trwy ffydd, ‡ ni dderbyniasant yr addewid:

t Gwel ar adn. 2, 13.—Luc 10. 23, 24. 1 Pedr 1. 12.

* A'r holl ddynion rhagorol hyn, a gawsant trwy eu ffydd a'u hymarweddiad sanctaidd, dystiolaeth dda yn yr eglwys o oes i oes, a sonir yn anrhydeddus am lawer o honynt yn yr ysgrythyrau hefyd; er i'r byd eu casàu, eu ffieiddio, a'u melltithio: a chawsant hefyd dystiolaeth dda yn eu cydwybodau eu hunain gan Dduw, eu bod yn gymmeradwy ganddo, ac wedi rhyngu ei fodd ef. (Gwel ar adn. 2, 4, 5.) † Ond eu "ffydd" hwynt, yr hon oedd rodd a gweithrediad Duw iddynt ac ynddynt, oedd y peth neilldduol hyny, ag oedd yn gwneyd iddynt hwy ragori ar ddynion eraill; o ran eu cymmeradwyaeth gyda Duw, ac hefyd fel achos cynhyrfiol grymus eu hufudd-dod gwresog, eu hamynedd yn dyoddef, eu gweithredoedd gorchestol, a'u gwaredigaethau rhyfeddol. ‡ Eto ni dderbyniasant hwy yr addewid, yr hon a ddysgwylient yn benaf am dani; ni buont fyw i weled cyflawniad o'r addewid am y Messïah, sef ei ddyfodiad ef yn y cnawd; er iddynt gael eu hachub ar yr un pryd, ar gyfrif, a thrwy effaith ei aberth dyfodawl ef.

40 * Gan fod Duw yn rhagweled rhyw [u] *beth* gwell am dànom ni, [x] † fel na pherffeithid hwynt hebom ninnau.

u pen. 7. 19, 22. a 8. 6. a 9. 23. a 12. 24. x pen. 9. 8—15. a 10. 11—14. Rhuf. 3. 25, 26.

* Yr achos paham na dderbyniodd saint yr Hen Destament yr addewid yn eu dyddiau hwy oedd, am fod Duw yn ei ben-arglwyddiaeth ddoeth a chyfiawn, wedi rhag-weled, darpar, a chadw, rhyw beth gwell i'w eglwys dàn yr oruchwyliaeth gristionogol; † fel na byddai yr hen gredinwyr gynt yn berffaith a chyflawn yn eu hiachawdwriaeth a'u dedwyddwch, ond yn a thrwy Iesu Grist, a thrwy fod yn gyfranog o'r bendithion hyny, a ddatguddiwyd o'r diwedd yn fwy amlwg i gredinwyr y Testament Newydd: fel yn y modd hyny y byddai i'r holl eglwys, trwy undeb â Christ, gael ei pherffeithio yn un corph, ac nid mewn rhanau gwa-

hanol; er i'w haelodau hi fod yn wasgaredig am hir o amser, trwy holl oesoedd a chenedloedd y ddaear.—Mae yn wir i gredinwyr yr Hen Destament gael eu hachub trwy ffydd yn y Gwaredwr oedd i ddyfod; ond pe na ddaethai efe, a gwneyd iawn, ni buasai eu maddeuant a'u cymmeradwyaeth hwy wedi eu cadarnâu, na'u hiachawdwriaeth wedi ei pherffeithio. Fel hyn nis gallent hwy gael eu perffeithio, ond trwy gymundeb âg eglwys y Testament Newydd; yn y Gwaredwr addawedig, ei gyfiawnder, ei aberth, a'i eiriolaeth ef.—Tybia rhai mai cyflwr perffeithiaf yr eglwys *ar y ddaear* a feddylir yn y geiriau; ac felly eu bod yn dangos *graddoldeb* yn nhrefn a gwaith Duw yn perffeithio ei eglwys: tybia eraill mai ei pherffeithiad yn y nef a feddylir. Eglura eraill y geiriau fel hyn:—mai ymddangosiad cyntaf y Messïah oedd yr addewid yr hon ni dderbyniodd yr hen gredinwyr gynt; ac mai y *rhyw beth gwell* a rag-welodd Duw am danom ni yw, yr addewid o'i ail ymddangosiad ef; fel y caffont hwy y *pryd hwnw* eu perffeithio, ond nid hebom *ninnau;* er i *ni* dderbyn y cyflawniad o'r addewid gyntaf hebddynt *hwy*. Mae rhai dehongliadau eraill ar yr adnod hon; ond ceisiwyd dewis y golygiadau goreu, goleuaf, a mwyaf naturiol.

PEN. XII.

Cyngor i ffydd ddiannwadal, amynedd, a duwioldeb.

[a] * OBLEGID hynny ninnau hefyd, gan fod cymmaint [b] cwmmwl o [c] dystion wedi ei osod o'n hamgylch, [d] † gan roi heibio bob pwys, [e] ‡ a'r pechod sydd barod i'*n* hamgylchu, [f] ‖ trwy amynedd [g] rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen ni;

a pen. 11. 2—38. b Es. 60. 8. Ezec. 38. 9, 16. c Luc 16. 28. Ioan 3. 32. a 4. 39, 44. 1 Pedr 5. 12. Dat. 22. 16. d Mat. 10. 37, 38. Luc 8. 14. a 9. 59—62. a 12. 15. a 14. 26—33. a 18. 22—25. a 21. 34. Rhuf. 13. 11—14. 2 Cor. 7. 1. Eph. 4. 22—24. Col. 3. 5—8. 1 Tim. 6. 9, 10. 2 Tim. 2. 4. 1 Pedr 2. 1. a 4. 2. 1 Ioan 2. 15, 16. e pen. 10. 35—39. Salm 18. 23. f 1 Cor. 9. 24—27. Gal. 5. 7. Phil. 2. 16. a 3. 10—14. 2 Tim. 4. 7. g pen. 6. 15. a 10. 36. Mat. 10. 22. a 24. 13. Luc 8. 15. Rhuf. 2. 7. a 5. 3—5. a 8. 24, 25. a 12. 12. Iago 1. 3. a 5. 7—11. 2 Pedr 1. 6. Dat. 1. 9. a 3. 10. a 13. 10.

* Yn nesaf mae yr apostol yn galw ar yr Hebreaid, i'w hystyried eu hunain megys wedi eu hamgylchu â thystion aneirif, mòr lliosog â'r mân ddefnynau dwfr yn y cwmmwl; y rhai oedd yn cyd-dystiolaethu yn gadarn am ffyddlondeb Duw, ac am nerth ac effeithiau ffydd. Yr oedd y personau a enwyd yn y bennod o'r blaen, ynghyd â thorfêydd o'r hen saint heblaw hyny, megys yn edrych i lawr o'r nefoedd, neu hyd yn nôd yn dyfod i lawr oddi yno, i'w "hamgylchu" hwy, ac i ddwyn tystiolaeth yn achos Crist; yn gystal ag i edrych ar eu hymddygiad hwy, yn yr yrfa lafurus, beryglus, ac anrhydeddus hòno, yn yr hon y cawsent hwy eu hunain y fath fuddugoliaeth wynfydedig. † Gan hyny yr oedd yn angenrheidiol i'r Hebreaid cristionogol "roddi heibio bob pwys;" (fel y rhoddai dynion heibio eu dillad afraid, neu fwyaf costus, wrth redeg y gyrfêydd gynt, neu mewn campau o unrhyw fath) a pheidio llwytho eu hunain â gofalon bydol, elw, neu unrhyw beth a fyddai yn rhwystr iddynt yn yr yrfa ysbrydol, pa mòr gyfreithlawn bynag a fyddai yndd o hun. ‡ Dylent hefyd wylied yn erbyn, ac ymdrechu cael buddugoliaeth gwbl ar, eu natur lygredig a'u tueddiadau drwg; yr hyn a fyddai yn wastad yn "barod i'w hamgylchu," a chymmeryd mantais ar bob adeg gyflëus, i'w tynu i bechod, ac i'w rhwystro mewn pethau ysbrydol. Yn enwedig dylai yr Hebreaid arfer pob moddion i orchfygu anghrediniaeth; trwy yr hwn y caent eu temtio i wrthgiliad, o herwydd cariad at y byd, neu rhag ofn erlid. Hwn oedd y pechod mwyaf parod i'w hamgylchu hwynt, yn yr amseroedd erledigaethus hyny; bwriwyd llawer i lawr ganddo, yr oedd llawer eraill mewn perygl, a dïammau y byddai ymosod cryf arnynt oll o'r ochr hyny. ‖ Gan hyny yr oedd yn angenrheidiol iddynt ymryddâu oddi wrth bob rhwystr, cael cynnydd ar eu ffydd, a chroeshoelio eu holl chwantau; fel y gallent gyrchu yn y blaen, a rhedeg yr yrfa a osodwyd iddynt, yn yr hon yr oeddynt yn sicr o ennill coron o ogoniant, neu ynte gael tragywyddol drueni a gwarth yn rhan iddynt, os anffyddlawn a fyddent.—Mae yn yr adnod hon gyfeiriad amlwg at redeg gyrfa yn y campau gynt, ac at hyny y cyfeiria yr ymadroddion *tystion o amgylch, rhoi heibio bob pwys*, a *rhedeg yr yrfa:* ac er mai campau Groegaidd a Rhufeinaidd oeddynt, eto nid oeddynt yn ddïeithr i'r Hebreaid; oblegid dywedir i Herod Agrippa eu dwyn i Jerusalem, cyn ysgrifenu yr epistol hwn, mewn ffordd o anrhydedd i Claudius Cesar, yr hwn a'i gosodasai ef ar lywodraeth Judea.

2 [h] * Gan edrych ar Iesu, [i] † Pen-tywysog a [k] Pherffeithydd *ein* ffydd *ni;* ‡ yr hwn, [l] yn lle y llawenydd a osodwyd iddo, [m] ‖ a ddïoddefodd y groes, [n] § gan ddïystyru gwaradwydd, [o] * ac a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfaingc Duw.

h adn. 3. pen. 9. 28. Es. 8. 17. a 31. 1. a 45. 22. Mica 7. 7. Zec. 12. 10. Ioan 1. 29. a 6. 40. a 8. 56. Phil. 3. 20. 2 Tim. 4. 8. Tit. 2. 13. 1 Ioan 1. 1—3. Judas 21. i Marc 9. 24. Luc 17. 5. Dat. 1. 8, 11, 17. a 2. 8. k pen. 7. 19. a 10. 14. Salm 138. 8. 1 Cor. 1. 7, 8. Phil. 1. 6. l pen. 2. 7—9. a 5. 9. Salm 16. 9—11. Es. 49. 6. a 53. 10—12. Luc 24. 26. Ioan 12. 24, 32. a 13. 3, 31, 32. a 17. 1—4. Act. 2. 25, 26, 36. Phil. 2. 8—11. 1 Pedr 1. 11. m pen. 10. 5—12. Mat. 16. 21. a 20. 18, 19, 28. a 27. 31—50. Marc 14. 36. Ioan 12. 27, 28. Eph. 2. 16. a 5. 2. Tit. 2. 14. 1 Pedr 2. 24. a 3. 18. n pen. 10. 33. a 11. 36. Salm 22. 6—8. a 69. 19, 20. Es. 49. 7. a 50. 6, 7. a 53. 3. Mat. 26. 67, 68. a 27. 27—31, 38—44. Marc 9. 12. Luc 23. 11, 35—39. Act. 5. 41. 1 Pedr 2. 23. a 4. 14—16. o Gwel ar pen. 1. 3, 13. Salm 110. 1.

* Wrth redeg yr yrfa ysbrydol hon, os mynent hwy mewn un modd ennill y gamp, rhaid iddynt edrych oddi wrth bechod, hunan, a dêniadau a dychryniadau y byd; ac oddi wrth bob peth a dueddai i'w tynu yn ol neu eu digaloni; ac edrych yn wastad yn mlaen trwy ffydd ar Iesu, y Gwaredwr mawr a ddyoddefodd, fel y caffent ras a nerth o hóno ef, i ddilyn ei esampl berffaith ef hyd ben yr yrfa. Ië, rhaid iddynt edrych heibio yr holl oleuadau llai, a enwyd yn y bennod o'r blaen; i weled yr Haul gogoneddus, o ba un y cafodd y rhai hyny eu holl oleuni, trwy yr hwn y llewyrchasant mòr ysplenydd yn y byd hwn. † Er eu cyfarwyddyd a'u calondid gwell, rhaid iddynt edrych yn ddïysgog ar Iesu; nid yn unig fel Un a redodd ei yrfa ogoneddus, ac a orphenodd ei waith, trwy ffydd yn addewidion ac ymrwymiadau cyfammodol ei Dad; ond hefyd fel Pen-tywysog, neu Awdwr, a Pherffeithydd ffydd ei hunan yn ei bobl. Efe ei hun a agorodd y ffordd i ddynion euog i ddychwelyd at Dduw a myned i mewn i'r nefoedd trwy ffydd; pan oedd pechod wedi cauad yn dragywyddol y ffordd o gyfiawnder drwy weithredoedd: oddi wrtho ef, fel Prophwyd mawr yr eglwys, y rhoddwyd *athrawiaeth ffydd* o'r dechreuad, ac y perffeithiwyd hi yn y datguddiad a wnaed trwy yr efengyl: ac nid oes i neb awdurdod byth, i newid y datguddiad perffaith hwn, i chwanegu ato, nac i dynu dim oddi wrtho. Efe yn unig, trwy ei Ysbryd, sydd yn gweithio ffydd yn nghalonau ei bobl; yr hon a gynnalia, a gynnydda, ac a berffeithia efe, yn ei natur a'i ffrwythau, hyd oni ddybeno ei gwaith, a'i throi yn olwg berffaith yn y nef. Felly rhaid i bawb edrych arno ef *am* ffydd, yn gystal a *thrwy* ffydd. Fel "Pen-tywysog," mae yn wir nad oedd arno ef eisieu y ffydd hòno, drwy yr hon y cyfiawnêir pechadur; eto wrth orphen ei waith ar y ddaear, efe a dywysodd ei bobl yn y ffordd i berffaith fuddugoliaeth ar bob gelyn, trwy ymorphwysiad amyneddgar ac ufudd ar air ei Dad nefol. (Salm 16. 8—11.) Fel yr oedd efe i "flaenori yn mhob peth;" felly nid aeth efe i mewn i'w ogoniant cyfryngol, heb gael y *flaenoriaeth* yn mesur ei ddyoddefiadau, yn fwy na phawb eraill a aethant erioed i mewn i'r nefoedd. ‡ "Y llawenydd a osodwyd iddo" oedd, ei ddeerchafiad

ersonol ef ei hun i'r orsedd gyfryngol; iachawdwriaeth myrddiynau dirifedi o bechaduriaid colledig o ddystryw; eu dwyn hwynt i annherfynol ddedwyddwch; a thragywyddol ogoneddu holl Enw, a holl briodoliaethau Duw yn iachawdwriaeth dynion; || ac "yn lle llawenydd" annhraethol hwn, gyda'r dewrder a'r dïysgogrwydd eithaf, efe a aeth dàn, a thrwy, ei holl ddyoddefiadau darostyngol, o'i enedigaeth yn y preseb, hyd ei chwerw ing yn ngardd Gethsemane; ac o'i liwedd efe a gymmerodd ei hoelio yn wirfoddol ar y groes, i farw yno trwy boenau nychlyd. § Er bod y holl hyn o farwolaeth yn dra gwaradwyddus, ac yn ol y ddeddf yn *felldigedig;* ac er bod yn ei groeshoeliad ef amgylchiadau na chlywyd am eu bath o anmharch, creulondeb, cableddau, a dirmyg; eto efe a ddibrisiodd, ée, ac a *ddiystyrodd* y gwaradwydd oll, yn gystal a'r holl boen, fel pethau nad oeddynt yn haeddu eu cymmaru â'r diwedd gogoneddus, yr hwn oedd ganddo ef mewn llawn olwg. * Gwedi dyoddef fel hyn hyd oni orphenodd ei waith, efe a gyfodwyd yn fuan o feirw, ac a ddderchafwyd i eistedd yn y llawenydd a osodwyd iddo, ar ddeheulaw gorsedd-fainc Duw. Gwel ar pen. 1. 3; a 3. 1; ac amryw fànau eraill lle caed y geiriau hyn o'r blaen.

3 p * Ystyriwch am hynny yr hwn a ddïoddefodd gyfryw q ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid; r † fel na flinoch, ac nad ymollyngoch yn eich eneidiau.

p adn. 2. pen. 3. 1. 1 Sam. 12. 24. 2 Tim. 2. 7, 8. q Mat. 10. 24, 25. a 11. 19. a 12. 24. a 15. 2. a 21. 15, 16, 23, 46. a 22. 15. Luc 2. 34. a 4. 28, 29. a 5. 21. a 11. 15, 16, 53, 54. a 13. 13, 14. a 14. 1. a 15. 2. a 16. 14. a 19. 39, 40. Ioan 5. 16. a 7. 12. a 8. 13, 48, 49, 52, 59. a 9. 40. a 10. 20, 31—39. a 12. 9, 10. a 15. 18—24. a 18. 22. r adn. 5. Deut. 20. 3. Diar. 24. 10. Es. 40. 30, 31. a 50. 4. 1 Cor. 15. 58. 2 Cor. 4. 1, 16. Gal. 6. 9. 2 Thes. 3. 13.

* Yr oedd yr achos uchod am Grist mòr rhyfeddol, fel y byddai yn dda i'r Hebreaid ei ystyried yn ddifrifol iac yn dra manol: dylent wneyd iawn gyfrif o fawredd y Person a ddyoddefodd; yr hyn a ddywedodd pechaduriaid yn ei erbyn ef; i'w demtio, i'w enllibio, i'w wrthwynebu, ac i'w gyhuddo, gyda'r llid dygnaf yn erbyn ei athrawiaeth sanctaidd a'i esampl, a chydag anniolchgarwch tryfar am ei holl gariad; dylent ystyried mangerddolder ac amrywiaeth ei ddyoddefiadau ef; ei wrolder addfwyn a thawel yntau yn eu dyoddef; y cariiiad annhraethol, a'i cymhellodd ef fel hyn i ddyoddef; a'r canlyniadau bendigedig o'i holl ddarostyngiad ef. † Pan ddechreuent hwy "flino, ac ymollwng yn eu theneidiau," gan brofedigaethau a niweidiau oddi wrth eu herlidwyr llidiog; byddai ystyriaethau o'r fath uchod yn dda iawn i'w tawelu a'u calonogi hwynt: tra y cofient ac yr ystyrient hwy i'r Iesu sanctaidd ddyoddef y fath bethau, i'w hachub hwy rhag trueni haeddiannol a thragywyddol; ac mai pechaduriaid o'r un natur â hwy eu hunain a roisant y dyoddefiadau hyn arno ef; iddo ef gael llawer o chwerwder yn ei gwpan, nad oedd yn yr eiddynt hwy; iddo ef gael ei gasâu er ei fwyn ei hun, a hwythau ddim ond am eu bod yn perthyn iddo ef; a bod ei groes ef yn dïogelu diwedd da, i'w holl ddyoddefiadau a'u profedigaethau hwynt yn ei achos ef. Yn fyr, trwy "edrych ar Iesu," byddai pob math o ystyriaethau darostyngol a bywiocâol yn dyfod i'w meddyliau; i gryfâu gweithrediad eu serchiadau sanctaidd, ac i ddarostwng a ffrwyno pob rhyw duedd llygredig. "Ystyriwch:" *(analogisasthe)* gair grymus iawn, yn arwyddo bwrw pethau yn fanol a chywir yn y meddwl; yn ol rhëolau manylaf a chywiraf rhif a mesur—yn enwedig y cyfatebiad rhwng amgylchiiadau ac achos Crist, â'r eiddynt hwy. Hwn yw y gair Saesoneg *analogy.*

4 s * Ni wrthwynebasoch etto hyd at waed, † gan ymdrech yn erbyn pechod.

s adn. 2. pen. 10. 32—34. Mat. 24. 9. 1 Cor. 10. 13. 2 Tim. 4. 6, 7. Dat. 2. 13. a 6. 9—11. a 12. 11. a 17. 6. a 18. 24.

* Yr oedd yr Hebreaid yn wir eisoes wedi dyoddef llawer o herwydd eu proffes o Grist; (Gwel ar pen. 10. 32—34,) ac yn eu hymdrech personol yn erbyn pechod a themtasiynau; ac yn y gwrthwynebiad a wnai holl fyddin Iesu yn erbyn achos cyffredin pechod a Satan: er hyny, nid oedd y rhai yr oedd yr apostol yn ysgrifenu atynt, wedi "gwrthwynebu eto hyd at *waed,*" † gan ymdrech yn erbyn pechod ynddynt eu hunain, a dynion pechadurus, y rhai a fynent bleidio achos pechod, a'u cael hwythau yn ol i wasanaeth pechod a diafol. Yr oedd llawer o'u brodyr, yn oesoedd yr Hen Destament (pen. 11. 34—38.) ac yn yr oes hòno, wedi gwrthwynebu hyd at *waed;* wedi dewis marw yn y frwydr hon, yn hytrach na gadael y fuddugoliaeth i'w gelynion, trwy wadu yr efengyl: felly dylasai fod arnynt hwy gywilydd o'u llwfrdra, os blinent, ac os ymollyngent yn yr ymdrech, o herwydd profedigaethau llai.—Sylwyd eisoes, dàn yr adnod flaenaf, fod yno gyfeiriad at y rhedegwyr traed yn y campau gynt: felly mae yma hefyd, gyfeiriad at y dyrnodwyr *(boxers)* yn y campau hyny, y rhai yn aml a ddàlient ati hyd at waed, ac weithiau a laddent eu gilydd â'u dyrnodiau. Gwel ar 1 Cor. 9. 26.

5 t * A chwi a ollyngasoch dros gôf u y cynghor, † yr hwn sydd yn dywedyd wrthych megis wrth blant, ‡ Fy mab, x na ddirmyga gerydd yr Arglwydd, || ac y nac ymollwng pan y'th argyhoedder ganddo.

t Deut. 4. 9, 10. Salm 119. 16, 83, 109. Diar. 3. 1. a 4. 5. Mat. 16. 9, 10. Luc 24. 6, 8. u adn. 7. Diar. 3. 11, 12. x Job 5. 17, 18. a 34. 31 Salm 94. 12. a 118. 18. Jer. 31. 18. 1 Cor. 11. 32. y adn. 3, 4. Jos. 7. 7—11. 2 Sam. 6. 7—10. 1 Cron. 13. 9—13. a 15. 12, 13. Salm 6. 1, 2. 2 Cor. 4. 8, 9. a 12. 9, 10.

* Ac os blino ac ymollwng fel y sylwyd uchod a wnaent hwy, byddai hyny yn dangos eu bod wedi gollwng dros gôf y cyngor a roddasai Duw trwy Solomon; (Diar. 3. 11, 12.) † yn yr hwn gyngor mae efe yn dywedyd wrth yr holl gredinwyr fel ei blant anwyl, ac fel hyny wrth bob un o'r Hebreaid hyn; ‡ Fy mab, bydd ofalus iawn ar y naill law rhag dirmygu, diystyru, dibrisio, a bod heb iawn deimlo, y ceryddon hyny beth bynag fyddont, a welo yr Arglwydd dy Dduw a'th Dad nefol yn dda i roddi arnat, yn ei ragluniaeth ddoeth a sanctaidd, er addysg a lles i ti fel plentyn Duw. Pell a fyddech di oddi wrth eu hesgeuluso a'u dirmygu hwy, fel pe na byddai dim lles i'w gael o honynt; neu fod fel plentyn cildynus, caled, ac anwelladwy, dàn gerydd ei dad am ei feïau, i'w adferu a'i ddiwygio ef; na fydd fel pe byddit yn penderfynu mynu dy ffordd dy hun, heb ymostwng, na gwrando y wialen, a phwy a'i hordeiniodd hi. Mica 6. 9. || Ac ar y llaw arall, dylit ystyried, pwy bynag yw offerynau, neu pa beth bynag yw ail-achos dy geryddon, fod gan dy Dad nefol law sanctaidd, ben-arglwyddol, a goruwch-lywodraethol ynddynt oll; a bod ganddo ef ddybenion doeth a grasol, yn y rhoddiad neu y goddefiad o honynt: am hyny dylit fod yn dra gofalus, rhag trwy ddiffyg amynedd, anynadrwydd, neu gam ddeall ei driniaethau ef, a thrwy weithrediadau anghrediniaeth, i ti ymollwng a digaloni, hyd at esgeuluso dyledswyddau; neu annobeithio am ymwared, a gwrthod dy gysuro, pan y'th argyhoedder ganddo.—Fel hyn yr oedd yr Hebreaid i gydnabod ceryddon tadol Duw yn eu holl brofedigaethau; ac nid eu dibrisio hwynt mewn cryfder ysbryd, a'u dirmygu mewn caledrwydd dideimlad: nac ychwaith ymollwng, annobeithio, troi ymaith, neu geisio ymwared mewn pechod, pan fyddent yn dyoddef danynt. Mae rhai yn darllen geiriau blaenaf yr adnod fel gofyniad:—*A ollyngasoch chwi dros gôf y cyngor?*

6 z * Canys y neb y mae yr Arglwydd yn ei garu, y mae yn ei geryddu; a † ac yn fflangellu pob mab a dderbynio.

z Deut. 8. 5. Salm 32. 1—5. a 73. 14, 15. a 89. 30—34. a 119. 71, 75. Diar. 3. 12. a 13. 24. Es. 27. 9. Jer. 10. 24. Iago 1. 12. a 5. 11. Dat. 3. 19. a adn. 7, 8. 2 Sam. 7. 14.

* Mae yr adnod hon yn cynnwys rheswm o blaid y cyngor yn yr adnod o'r blaen: canys mae yr Arglwydd

yn ceryddu pawb mae yn eu caru, yn ol fel y byddo angen ceryddarnynt; † ac yn fflangellu pob un a dderbynio efe fel plentyn mabwysiedig i'w deulu, a thàn ei ofal tadol a grasol. Nid mewn ffordd o lid deddfol, ac er boddloni ei gyfiawnder, mae yn gwneyd hyn; gwnaed hyny ar Grist dros yr holl blant; ond mewn ffordd o geryddon tadol am eu pechodau hwynt, i'w glânâu oddi wrth eu pechodau, ac i wneuthur lles i'w heneidiau.—Mae yn yr adnod hon fath o raddoldeb a chyferbyniad hardd yn y geiriau—caru, a derbyn, ar y naill du; a cheryddu, a fflangellu, ar y tu arall: a'r cwbl oll mewn trugaredd.

7 * Os [b] goddefwch gerydd, † y mae Duw yn ymddwyn tu ag attoch megis tu ag at feibion: [c] ‡ canys pa fab sydd, yr hwn nid yw ei dad yn ei geryddu?

b Job 34. 31, 32. Diar. 19. 18. a 22. 15. a 23. 13, 14. a 29. 15, 17. Act 14. 22. c 1 Sam. 2. 29, 34. a 3. 13. 1 Bren. 1. 6. a 2. 24, 25. Diar. 29. 15.

* Os oeddynt hwy gan hyny yn dyoddef eu trallodau, fel ceryddon tadol, mewn ysbryd gostyngedig, a chyda diysgogrwydd addas yn eu crefydd; † byddai hyny yn brawf eglur eu bod hwy yn feibion i Dduw, a bod Duw yn ymddwyn tuag atynt megys tuag at feibion: nid fel gelyn yn dial yn ei lid, ond fel Tad yn ceryddu yn ei gariad. ‡ Canys yn mhlith dynion gellir gofyn, Pa fab sydd, yr hwn nid yw ei dad byth yn ei geryddu, mwy neu lai, ar unrhyw achlysur? Mae angen cerydd ar bawb; ac mae pawb a ddygir i fynu fel y dylid yn ei gael; nid oes yr un tad doeth a thirion yn ei arbed yn hollawl; ac nid oes neb plant yn cael eu gadael yn hollawl heb y ddysgyblaeth boenus ond llesol hon, oddigerth y rhai a adewir yn benrhydd i'w dinystr eu hunain. Ac yn wir pa fab neu ferch i Dduw sydd, nad oes achos eu ceryddu, ac nad yw eu Tad nefol yn rhoddi cerydd arnynt yn ol yr achos?

8 [d] * Eithr os heb gerydd yr ydych, † o'r hwn y mae pawb yn gyfrannog; ‡ yna bastardiaid ydych, ac nid meibion.

d adn. 6. Salm 73. 14, 15. 1 Pedr 5. 9, 10.

* Eithr os oedd yr Hebreaid hyn, pobl bro[illegible]edig Duw, yn hollawl heb gerydd, neu yn dysgwyl [illegible]od heb gerydd; neu os oeddynt heb ras i ddyoddef cerydd, † o'r hwn yr oedd pawb, plant Duw a phlant dynion, yn gyfranog, fel y sylwyd uchod; ‡ gellid casglu o hyny, nad oedd efe ddim yn eu harddelwi hwynt fel ei blant, ond mai basdarddiaid oeddynt, ac nid meibion; aelodau o'r eglwys weledig, ond heb eu geni o'r Ysbryd; ac heb eu haddysgu a'u cymhwyso i etifeddiaeth ei saint ef.—*Basdarddiaid:* cyfeiriad, efallai, at y cyfryw blant a gyfrifai dyn yn fasdarddiaid, er eu geni o'i wraig briodol ef ei hun; oblegid y drwg-dybiai efe hi yn euog o anffyddlondeb: am hyny ni chymmerai efe ddim trafferth wrth y plant hyny, i'w haddysgu na'u ceryddu; ond ystyriai hwynt yn warth i'w deulu, a gadawai iddynt gael eu rhwysg eu hunain. Yn yr oesoedd penrhydd hyny, yn mhlith y paganiaid yn enwedig, yr oedd llawer o'r cyfryw fasdarddiaid; ac yn cael eu hesgeuluso fel y dywedwyd. Ai nid un cyffelyb ydoedd Jephthae, a chwedi cael ei adael a'i esgeuluso yn gyffelyb? Barn. 11. 1—3.

9 * Heb law hynny, ni a gawsom [e] dadau ein cnawd i'n [f] ceryddu, † ac a *u* [g] parchasom *hwy:* [h] ‡ onid mwy o lawer y byddwn ddarostyngedig i [i] Dad yr ysprydoedd, ‖ a byw?

e Ioan 3. 6. Act. 2. 30. Rhuf. 1. 3. a 9. 3, 5. f Gwel ar adn. 7. g Ex. 20. 12. Lef. 19. 3. Deut. 21. 18—21. a 27. 16. Diar. 30. 17. Ezec. 22. 7. Eph. 6. 1—4. h Mal. 1. 6. Iago 4. 7, 10. 1 Pedr 5. 6. i Num. 16. 22. a 27. 16. Preg. 12. 7. Es. 42. 5. a 57. 16. Zec. 12. 1.

* Pan oedd yr apostol a'r Hebreaid hyn yn ieuainc, hwy a gawsent dadau eu cnawd i'w ceryddu am eu cam-ymddygiadau plentynaidd: † ac er bod eu ceryddon hwy yn chwerw ac anhyfryd y pryd hwnw, eto nis gadawsant eu tadau o herwydd hyny, ond yn hytrach dysgasant eu hofni hwy yn barchus, a pheidio eu digio hwy mwyach; a phan dyfasant i fynu, daethant i wybod fod y ceryddon hyny o les iddynt. ‡ Onid mwy o lawer, gan hyny, y dylasent hwy fod yn awr yn ddarostyngedig i Dad yr ysbrydoedd, Crëawdwr eu heneidiau, a Rhoddwr bywyd ysbrydol; ‖ pan oedd y darostyngiad hyny yn hanfodol gyssylltiedig â'u *byw,* neu eu bywyd tragywyddol hwynt, ac nas gallai dim ond marwolaeth dragywyddol fod yn ganlyniad o'u gwrthryfel hwynt yn ei erbyn ef?—*Tadau ein cnawd:* dyna'r cwbl yw ein tadau naturiol, Duw yw Tad yr ysbrydoedd, ac oddi wrtho ef y deillia ein heneidiau oll. —*A byw:* tybir fod yr apostol yn cyfeirio yma at y gosp ddienyddawl a roid ar y mab anufudd dàn y ddeddf; (Deut. 21. 18—21.) ac oddi wrth hyny yn lled grybwyll y canlyniad dychrynllyd o wrthryfela yn erbyn ceryddon Tad yr ysbrydoedd, yn nghyd a'r fendith fawr, sef *byw,* o ymddarostwng yn ufudd iddo ef. Dywed *Doddridge* fod y geiriau "a *byw,*" yn cael eu dwyn i mewn yn nodedig iawn; ac yn brawf o ddull grymus yr apostol, yn gosod y pethau mwyaf pwysig ar feddyliau ei wrandawwyr, weithiau megys mewn modd lleddfawl, *(oblique)* ac mewn ychydig iawn o eiriau.

10 * Canys hwynt-hwy yn wir dros ychydig ddyddiau a'*n* ceryddent † fel y gwelent hwy yn dda, [k] ‡ eithr hwn er llesâd i ni, ‖ fel y byddem [l] gyfrannogion o'i sancteiddrwydd ef.

k Gwel ar adn. 5, 6. l Lef. 11. 44, 45. a 19. 2. Salm 17. 15. Ezec. 36. 25—27. Eph. 4. 24. a 5. 26, 27. Col. 1. 22. Tit. 2. 14. 1 Pedr 1. 15, 16. a 2. 5, 9. 2 Pedr 1. 4.

* Yn wir nid oedd eu tadau naturiol wedi eu ceryddu hwynt ond am ychydig amser, dros ychydig ddyddiau eu mebyd; † a hyny fel y gwelent hwy yn dda; llawer gwaith y ceryddent, ond odid, yn ol eu teimladau, a thàn effaith eu nwydau, yn fwy nac mewn doethineb, a chyda golwg ar wneyd lles i'w plant. ‡ Ond yr oedd eu Tad nefol yn eu ceryddu hwynt, a'i holl blant ef, yn hollawl er lles ysbrydol a thragywyddol iddynt; ‖ fel y byddent yn gyfranogion o'i sancteiddrwydd ef, trwy farweiddio eu balchder a'u chwantau cnawdol hwynt, a'u dwyn hwynt, drwy y fath ddysgyblaeth, dàn oruchwyliaethau a dylanwadau yr Ysbryd Glân, i gael eu cyd-ffurfio hwy âg ef ei hun mewn barn, tueddiadau, ac ymddygiad. Trwy y moddion hyn yr oedd eu Tad nefol yn dangos iddynt wagedd y byd, drwg natur ac effeithiau pechod, llygredd eu calonau eu hunain, a mawr werth yr iachawdwriaeth; ac fel hyn yr oedd yn eu dysgu hwynt i fynu mewn gostyngeiddrwydd, ysbrydolrwydd, symlrwydd, tynerwch, ymostyngiad, cariad, parch, diolchgarwch, tosturi, a phob tymher sanctaidd.—"Dros ychydig ddyddiau" y cawsom ein ceryddu gan ein tadau naturiol; a thros ychydig ddyddiau, mewn cymhariaeth i dragywyddol wynfyd, y cawn ein ceryddu gan ein Tad nefol: ie, llai o lawer yn wir, na dyddiau mabandod, mewn cymhariaeth i oes hwyaf dyn ar y ddaear.

11 * Etto ni welir un [m] cerydd dros yr amser presennol yn hyfryd, † eithr yn anhyfryd: [n] ‡ ond gwedi hynny ‖ y mae yn rhoi [o] heddychol ffrwyth cyfiawnder § i'r rhai sydd wedi eu [p] cynnefino âg ef.

m Salm 89. 32. a 118. 18. Diar. 15. 10. a 19. 18. n Gwel ar adn. 5, 6, 10. o Salm 119. 165. Es. 32. 17. Rhuf. 5. 3—5. a 14. 17. 2 Cor. 4. 17. Gal. 5. 22, 23. Iago 3. 17, 18. p pen. 5. 14. 1 Tim. 4. 7, 8. 2 Pedr 2. 14.

* Eto, ni thybiai neb fod y ceryddon iachusol hyn yn hyfryd, neu yn achos llawenydd, dros yr amser presenol, tra yr oeddynt yn eu dyoddef; † eithr i'r gwrthwyneb, yr oeddynt i'r *teimlad* yn anhyfryd iawn, yn achos gofid, galar, a llawer o boen i'r corph a'r meddwl: ac heb ei bod felly, ni allent ateb y dyben: rhaid i'r feddyginiaeth fod yn chwerw yn aml, heb hyny nis gall fod yn effeithiol i'r claf. Fel hyny tybiai y dyoddefwyr yn aml, fod eu profedigaethau yn gwneyd niwed iddynt, ac y dybenent yn eu dinystr; ‡ ond

gwedi hyny, ar ol i derfysg eu teimladau hwy ymlon-
ddu, ac iddynt gael hamdden i ystyried yn bwyllog,
yr addysgiadau a gawsent drwy y ceryddon hyny; yr
oeddynt yn gweled yn amlwg fod y lles yn llawer mwy
ma'r boen, ‖ trwy fod y cerydd yn foddion i roi iddynt
"heddychol ffrwyth cyfiawnder," ac yn eu dwyn hwynt
i dymher, i ymostwng yn dawel i Dduw, ac yn addfwyn
i ddyoddef niweidiau dynion; a thrwy eu gwneyd hwy
yn ffrwythlawn yn yr holl weithredoedd da hyny, y
rhai a brofent eu bod yn gyfiawn, ac mewn cymmod â
Duw; ac a dueddent i roddi iddynt heddwch tumewnol,
illlawenydd, a hyder ynddo ef. § Fel hyn wedi eu
"cynnefino," neu eu harfer, eu dysgyblu, a'u haddysgu,
drwy geryddon sancteiddiedig; hwy a gaent y lles o
honynt wedi hyny, ar ol i'r boen fyned drosodd; er eu
bod ar y pryd megys yn cynhyrfu eu nwydau llygredig
hwynt, ac yn tueddu yn union-gyrchol i ddatguddio
drwg eu calonau, er eu darostwng hwynt yn dduwiol
wedi hyny.—*Heddychol ffrwyth cyfiawnder:* cyfeiriad,
efallai, at y coronau o olew-wydd, a roddid i'r ymdrech-
wyr buddugol yn y campau gynt; yr hwn olew-wydd
ydoedd hefyd yn arwydd o heddwch. Mae rhai yn cyf-
ieithu y gair *eirénikon*, "heddychol," yn *hyfrydawl, gorfoleddus:* caiff y saint bob un yn y màn, fel ffrwyth
eu cystuddiau a'u cyfiawnder; *heddwch, hyfrydwch, a gorfoledd.*—"Wedi eu *cynnefino* âg ef:" *exercised thereby,* yw y Saesoneg, ac yn well nâ'n *cynnefino* ni yn y fàn hon: ymarfer â pheth, a dysgu trwy ymarfer.
Diammau fod cyfeiriad yn y gair Groeg, *(yegymnasmenois)* at ymarferiad *(exercise)* yr ymdrechwyr gynt, yn y campau a soniwyd eisoes; trwy yr hwn *ymarferiad* mynych, yr oeddynt yn dysgu y gamp, ac yn fwy tebyg o'i hennill ar ddydd y prawf.

12 * O herwydd paham [q] † cyfodwch i fynu
y dwylaw a laesasant, ‡ a'r gliniau a ymoll-
yngasant.

q adn. 3, 5. Job 4. 3, 4. Es. 35. 3. Ezec. 7. 17. a 21. 7. Dan. 5. 6. Nah. 2. 10. 1 Thes. 5. 14.

* Dylai yr ystyriaethau uchod a enwyd dueddu yr Hebreaid, gyda golwg arnynt eu hunain ac ar y naill y llall, i sylwi ar gyngor y phrophwyd. (Esa. 35. 3, 4.)
† Dylent ymdrech i wrthsefyll pob tuedd i laesu dwylo, i ymollwng, i annobeithio, neu wadu eu proffes o'r efengyl, o herwydd erledigaethau: gan ystyried y cyfryw bethau fel ceryddon tadol er eu lles hwynt, ymostwng iddynt fel y cyfryw, ceisio bendith arnynt; a chryfâu a chalonogi eu gilydd, i ddàl eu ffordd yn ddiysgog.
‡ Fel hyn dylent ddàl yn amyneddgar ac yn gadarn yn eu proffes, a myned yn mlaen yn y llwybr o ufudd-dod sanctaidd; a thrwy addysgiadau, rhybuddion, a chyngorion addas, gwrthwynebu pob gau-athrawiaeth, tynu ymaith bob rhwystr, adgyweirio pob esgeulusdra, a diléu pob ofnau, a fu yn achos i'w dwylaw laesu, neu i'w gliniau ymollwng.—Tybir fod yma eto gyfeiriad gan yr apostol, at y *rhedegwyr* yn y campau gynt; y rhai o herwydd gwendid naturiol, neu ofn colli y gamp, a adawent i'w dwylaw laesu, a'u gliniau ymollwng. Gwnelai hyn hwynt byth yn fwy tebyg o golli y dydd; a phan welid hwynt yn ymollwng felly, ceisiai eu cyfeilliion eu calonogi a'u cryfâu, i ymegnio yn yr ymdrech: hyny mae yr apostol yn orchymyn i'r Hebreaid yma wneyd i'w gilydd, yn y rhedegfa ysbrydol.

13 [r] * A gwnewch lwybrau uniawn i'ch
traed; † fel na thröer y [s] cloff allan o'r ffordd,
[t] ‡ ond yr iachâer efe yn hytrach.

r Diar. 4. 26, 27. Es. 35. 3, 8—10. a 40. 3, 4. a 42. 16. a 58. 12. Jer. 18. 15. Luc 3. 5. s Es. 35. 6. Jer. 31. 8, 9. t Gal. 6. 1. Judas 22, 23.

* Dylent hefyd wneyd llwybrau uniawn a gwastad i'w traed, er bod y ffordd ei hun ar lawer o gyfrifon yn gàm, yn arw, ac yn ddreiniog iawn. Fel y byddid yn gwneyd llwybrau uniawn a gwastad i'r rhedegwyr gynt, felly y dylent hwythau i'r rhai oedd yn dyfod ar eu hôl; trwy gywir ddilyn Crist, a thrwy ymarweddiad addas i'r efengyl. † Yr oedd hyn yn angenrheidiol, heblaw pethau eraill, fel na thröid y cloff allan o'r ffordd: fel na byddai i'r rhai ofnus a digalon yn eu plith hwynt, gael eu troi o'r ffordd drwy eu hesamplau drwg hwy, i geisio llwybr esmwythach; trwy guddio eu proffes, neu ymddwyn yn anaddas i'r efengyl. ‡ Ar y llaw arall, dylent fod yn dra gofalus am i'r cyfryw glofflon gael eu iachâu; a'u cadarnâu trwy rybuddion, cyngorion, esamplau, a phob calondid addas, tra yr oedd dim gobaith yn aros am danynt. Heblaw proffeswyr gweiniaid ac ofnus, efallai bod y "cloff" yma hefyd yn cynnwys y rhai oedd yn cloffi yn eu meddwl rhwng Iuddewaeth â Christionogaeth, neu rhwng eilun-addoliaeth a Christionogaeth: gallai rhodiad yr Hebreaid cristionogol effeithio llawer ar y cyfryw ddynion, yn dda neu yn ddrwg. Mae yma eto gyfeiriad at redeg yr iawn lwybr mewn gyrfa; yr hyn a eilw yr apostol "ymdrech yn *gyfreithlawn*" mewn màn arall. Gwel ar 2 Tim. 2. 5.

14 [u] * Dilynwch heddwch â phawb, [x] † a
sancteiddrwydd, ‡ heb yr hwn ni chaiff [y] neb
weled yr Arglwydd:

u Gen. 13. 7—9. Salm 34. 14. a 38. 20. a 120. 6. a 133. 1. Diar. 15. 1. a 16. 7. a 17. 14. Es. 11. 6—9. Mat. 5. 9. Marc 9. 50. Rhuf. 12. 18. a 14. 19. 1 Cor. 1. 10. Gal. 5. 22, 23. Eph. 4. 1—8. 1 Thes. 5. 15. 1 Tim. 6. 11. 2 Tim. 2. 22. Iago 3. 17, 18. 1 Pedr 3. 11. x Gwel ar adn. 10.—Salm 94. 15. Es. 51. 1. Luc 1. 75. Rhuf. 6. 22. 2 Cor. 6. 17. a 7. 1. Phil. 3. 12. 1 Thes. 3. 13. a 4. 7. 1 Pedr 1. 15, 16. a 3. 13. 2 Pedr 3. 11, 18. 3 Ioan 11. y Gen. 32. 30. Job 19. 26. a 33. 26. Mat. 5. 8. 1 Cor. 13. 12. Gal. 5. 21. 1 Ioan 3. 2, 3. Dat. 21. 24—27. a 22. 3, 4, 11—15.

* Tra yr oedd yr Hebreaid fel y sylwyd yn glŷnu wrth y gwirionedd, ac yn ymdrech o'i blaid; yr oedd hefyd yn ddyled arnynt i ochelyd pob amrafael, anghydfod, a chweryl; ac i ddilyn heddwch â phawb hyd ag oedd ynddynt, er y byddai megys yn ffoi oddi wrthynt. Cyn belled ag y goddefai gwirionedd a dyledswydd, dylent fyw mewn heddwch âg Iuddewon a chenedloedd; a chyd-ddwyn â phob peth, a chaniatâu pob peth er mwyn hyny: a dylent ymdrechu bod yn heddychol tuag at eu gilydd, a thuag at eu brodyr cristionogol o'r cenedloedd. † Byddai hyn yn gymmorth mawr iddynt i ddilyn sancteiddrwydd, ac i geisio agosach cyd-ymffurfiad â deddf ysbrydol a delw sanctaidd a pherffaith Duw, fel yr arddangoswyd hwynt yn esampl Crist. Ond ni ddylent geisio hyd yn nôd heddwch, fel ag i esgeuluso yr arferiad a'r dilyniad o sancteiddrwydd; na thrwy oddef pechod yn neb: ‡ oblegid heb sancteiddrwydd, ni cha'i neb weled yr Arglwydd. Ni cha'i neb weled ei ogoniant eglurâol ef, na chymdeithasu âg ef yn gysurus yn y byd hwn, heb sancteiddiad yr Ysbryd i ufuddod; ac ni cha'i neb weled ei ogoniant ef yn y nefoedd, na myned i mewn yno, heb ei fod yn sanctaidd fel y mae Duw yn sanctaidd.—Dylid sylwi, bod ymostyngiad, drylliad calon, ac iawn serchiadau at yr Arglwydd Iesu, yn hanfodawl i sancteiddrwydd pechadur achubol; a phob peth arall, pa mòr olygus bynag y byddont, nid ynt ond y rhith a'r ffuant, lle mae y pethau hyn yn eisieu: a lle mae y rhai hyn, mae yno heddwch hefyd, a'r dyn yn gweled yr Arglwydd yn awr trwy ffydd, ac i gael ei weled ef byth, wyneb yn wyneb mewn gogoniant.

15 [z] * Gan edrych yn ddyfal [a] na *bo* neb
yn pallu oddi wrth ras Duw; [b] † rhag bod un
gwreiddyn chwerwedd yn tyfu i fynu, [c] ‡ *ac*
yn peri blinder, [d] ‖ a thrwy hwnnw llygru
llawer;

z pen. 2. 1, 2. a 3. 12. a 4. 1, 11. a 6. 11. a 10. 23—35. Deut. 4. 9. Diar. 4. 23. 1 Cor. 9. 24—27. a 10. 12. 2 Cor. 6. 1. a 13. 5. 2 Pedr 3. 11, 14. 2 Ioan 8. Judas 20, 21. a Luc 22. 32. 1 Cor. 13. 8. b Deut. 29. 18. a 32. 32. Es. 5. 4, 7. Jer. 2. 21. Mat. 7. 16—18. c Jos. 6. 18. a 7. 25, 26. a 22. 17—20. d Ex. 32. 21. 1 Bren. 14, 16. Act. 20. 30, 31. 1 Cor. 5. 6. a 15. 33. Gal. 2. 13. 2 Tim. 2. 16, 17. 2 Pedr 2. 1, 2, 18.

* Yr oedd yn gweddu ac yn angenrheidiol iddynt hefyd edrych yn ddyfal, tuag atynt eu hunain a thuag at eu gilydd, am eu hegwyddorion a'u hymddygiadau; rhag y byddai neb o honynt yn fŷr, ac yn ddiffygiol yn y gwaelod, o ras Duw yn egwyddor yn eu calonau; ac felly pallu yn eu proffes, a chael eu gadael i syrthio i

wrthgiliad. † A rhag y byddai un "gwreiddyn chwerwedd," unrhyw chwant heb ei farweiddio yn y galon; yr hwn er tybied ei ladd, a dyfai i fynu drachefn, ac a ddygai ffrwyth gwenwynig, mewn athrawiaethau gau, neu arferion gwaradwyddus; ‡ ac felly peri blinder a thrallod i'r holl gorph, || a llygru a halogi llawer yn yr eglwys, drwy ei effeithiau atgas a drwg: yr hyn a ddygwyddodd yn fynych, canys y mae ychydig lefain yn lefeinio yr holl does, ac ymddiddanion drwg yn llygru moesau da, ac yn ysu fel cancr, onid "edrychir yn ddyfal" atynt, ac mewn pryd. *Pallu oddi wrth ras Duw:* bod yn *fyr o'i gael,* nid *syrthio oddi wrtho,* a'i *golli* wedi ei gael, yw ystyr y gair *hysterón,* a gyfleithir yma *pallu.—Gwreiddyn chwerwedd:* allan o Deut. 29. 18, y cymmerwyd hyn, a dywedir bod y gair Hebraeg a arferir yno, yn arwyddo rhyw lysieuyn gwenwynig, yr hwn sydd yn llygru pob llysiau fyddo o'i amgylch.

16 * Na *bo* un [e] putteiniwr, † neu halogedig, [f] ‡ megis Esau, yr hwn am un saig o fwyd a werthodd ei enedigaeth-fraint.

e pen. 13. 4. Marc 7. 21. Act. 15. 20, 29. 1 Cor. 5. 1—6, 9—11. a 6. 15—20. a 10. 8. 2 Cor. 12. 21. Gal. 5. 19—21. Eph. 5. 3, 5. Col. 3. 5. 1 Thes. 4. 3—7. Dat. 2. 20—23. a 21. 8. a 22. 15. f Gen. 25. 31—34. a 27. 36.

* Fel un o'r gwreiddiau gwenwynig uchod, dylent edrych yn ddyfal na byddai yr un "putteiniwr" yn eu plith, yn euog o halogrwydd anniwair ac anghyfreithlawn, gan feddwl yn gyfeiliornus, fod rhyddid yr efengyl i'w arfer yn achlysur i'r cnawd. (Gal. 5. 13.) † A rhag na byddai yn eu plith hwy yr un dyn "halogedig;" yr hwn a ddibrisiai fendithion yr efengyl, ac a'u gwerthai hwynt ymaith am fanteision bydol a chnawdol; ‡ yn debyg i Esau, yr hwn am un saig o fwyd a werthodd ei enedigaeth-fraint. Dylasai yr esampl hòno fod yn rhybudd iddynt hwy, i beidio gwadu a gwerthu eu crefydd am esmwythder, anwes, neu elw bydol.—Dywed *Pool* fod y gair *bebêlos,* a gyfleithir yma *halogedig,* yn arwyddo un *chwerw ei ysbryd yn erbyn y llêch gyntaf o'r gyfraith;* un o feddwl llygredig tuag at Dduw, yn groes i dduwioldeb; un yn dibrisio ac yn tremygu pethau sanctaidd; yn ymdreiglo mewn pleserau, cyfoeth, ac anrhydedd, gan ddirmygu Duw, ei efengyl, ei ras, a'i ogoniant. Un felly oedd Esau yn ddiammau, pan y gwerthai fendithion mòr fawr, er boddloni ei flys cnawdol.

17 * Canys chwi a wyddoch ddarfod wedi hynny hefyd [g] ei wrthod ef, † pan oedd efe yn [h] ewyllysio etifeddu y fendith: [i] ‡ oblegid ni chafodd efe le i edifeirwch, || er iddo trwy ddagrau ei thaer-geisio hi.

g Gen. 27. 31—41. h pen. 6. 8. Diar. 1. 24—31. Jer. 6. 30. Mat. 7. 23. a 25. 11, 12. Luc 13. 24—27. i pen. 6. 4—6. a 10. 26—29.

* Gan fod yr Hebreaid hyn yn gynnefin â'r ysgrythyrau sanctaidd, nis gallent lai na gwybod yr holl hanes am Esau: hwy a wyddent ddarfod wedi iddo ef werthu ei enedigaeth-fraint, iddo gael ei wrthod gan yr Arglwydd, a chan ei dad Isaac hefyd. † Gwedi iddo ef ystyried ynfydrwydd a cholled y gwerthiad a wnaethai, gyda golwg ar ei fawredd *bydol* ei hun, efe a fynai yn mhob modd gael yr enedigaeth-fraint yn ol, yn nghyd a'r fendith batriarchaidd oedd yn nglŷn â hi; ond yr oedd yn rhŷ ddiweddar, a gwrthodwyd ef a'i gais, fel y sylwyd uchod. ‡ Yr achos o hyn oll oedd, am na chafodd efe, sef Esau, le i edifeirwch: ni chafodd efe le i edifeirwch gwirioneddol a duwiol yn ei galon ei hun, am weithred mòr halogedig; neu, yn hytrach, ni chafodd efe duedd yn nghalon ei dad Isaac i edifarâu, neu newid ei feddwl, am y fendith a roddasai efe i'w fab Jacob, dàn ysbrydoliaeth Duw, er yn ddiarwybod iddo ei hun y pryd hwnw. || Efe a daer-geisiodd y fendith trwy ddagrau; (Gen. 27. 34.) ond er ei cheisio felly, nis cafodd hi; am na chafodd le i edifeirwch, fel y sylwyd. —Mae holl hanes Esau yn dangos (medd *Scott*) nad oedd efe y pryd hwnw o leiaf, ddim yn wir edifeiriol am ei holl bechodau, nac yn ceisio edifeirwch. Yr oedd efe yn gofidio o herwydd cael ei dwyllo gan Jacob; yr oedd yn ddrwg ganddo iddo wneyd cytundeb mòr ffôl; yr oedd yn awyddus am y manteision tymmorawl oedd yn perthyn i'r enedigaeth-fraint, yn enwedig yr uchafiaeth ar ei frawd; yr oedd wedi newid ei feddwl *yn yr ystyr hyny;* ac efe a geisiodd yn daer, a thrwy ddagrau, dueddu ei dad i newid ei fwriad, i alw yn ol fendith Jacob, a'i rhoddi iddo ef; ond yn ofer y ceisiodd hyn, canys yr oedd yn awr yn rhŷ ddiweddar. Ond y peth diweddaf, medd *Scott,* sef *newidiad meddwl* Isaac, oedd yr *edifeirwch* a geisiodd Esau trwy ddagrau. Ni chafodd efe le i'w edifeirwch ei hun gyda ei dad, medd *Doddridge,* i beri i'w dad newid ei feddwl. Ni chafodd efe le i edifeirwch gyda Duw na'i dad, medd *Pool,* o ran rhoddiad y fendith gan bob un o honynt i Jacob.—Os nad oedd rhyw ragor-freintiau *ysbrydol* yn perthyn i'r *enedigaeth-fraint* a werthodd Esau, nid yw yn ymddangos yn amlwg iawn paham y galwai yr apostol ef yn *halogedig* am ei gwerthu: nac ychwaith pa fodd yr oedd yr amgylchiad hwnw yn gwasanaethu iddo ef i rybuddio yr Hebreaid rhag dirmygu yr efengyl, ei breintiau *ysbrydol,* a'i dyledswyddau.

18 [k] * Canys ni ddaethoch chwi at y mynydd teimladwy † sydd yn llosgi gan dân, ‡ a chwmmwl, a thywyllwch, || a thymmestl,

k Ex. 19. 12—19. a 20. 18. a 24. 17. Deut. 4. 11. a 5. 22—26. Rhuf. 6. 14. a 8. 15. 2 Tim. 1. 7.

Yma mae yr apostol yn dychwelyd eto at ei bwnc o'r blaen; sef bod goruch-ragoriaeth goruchwyliaeth yr efengyl yn gwneyd y gwrthodiad o hòni yn fwy pechadurus ac enbyd, o gymmaint ag y mae hi yn rhagori ar bob peth a fu o'i blaen: ac yr oedd ei ymadroddiad ef yr un mòr addas i rybuddio anghredinwyr proffesedig, â'r rhai a gaent eu temtio i wrthgiliad. Nid oedd efe yn dywedyd am gyflwr personau, fel yn ddychweledig neu yn annychweledig; ond am y ffordd wahanol yr oedd Duw yn llefaru yn awr wrth y genedl, rhagor y ffordd hòno, trwy ba un y rhoddasai efe y gyfraith i'w tadau gynt. Yr oedd efe yn dangos hyn trwy gyfeiriad at y ddau fynydd, Sinai a Sion: * nid oedd Duw yn awr yn eu galw hwy i ymgynnull, ac i wrandaw arno yn llefaru oddi ar ben Sinai, y mynydd daearol hwnw a ellid ei deimlo, (er gwahardd eu tadau i gyffhwrdd âg ef,) † lle yr oedd yr amlygiadau mwyaf ofnadwy o'r gogoniant dwyfol, mewn tân ysawl yn llosgi ar ben y mynydd, a Duw yn llefaru wrth y bobl o ganol y tân; yr hyn oedd arwydd iddynt o *erchylldod* yr oruchwyliaeth hòno, a chyfiawnder Duw, yr hwn sydd yn dân ysol i bechaduriaid, yn ol telerau manol y gyfraith dânllyd. ‡ Nid oeddynt hwy chwaith yn dyfod at y "cwmwl" tew oedd ar ben mynydd Sinai, a'r "tywyllwch" dû ofnadwy oedd yno o herwydd y cwmwl hwnw, ac oedd yn gymmysg â'r tân fflamllyd a melltenog oedd yn llosgi ar ben y mynydd; yr hyn oedd yn arwyddo *tywyllwch* yr oruchwyliaeth hòno, trwy yr hon nis gallasai yr Israeliaid cnawdol weled ffordd iachawdwriaeth, na'r rhai crediniol o honynt ond yn lled anmherffaith. || Nid oedd yr Hebreaid hyn yn cael eu galw chwaith at y dymhestl fawr ddychrynllyd o daranau, mellt, a daear-gryn, oedd ar ac yn y mynydd, pan roddwyd y gyfraith; yr hyn ydoedd yn arwyddo *llymder ei melltith* hi, a dychrynfèydd cydwybod ddeffröedig dàn deimlad o euogrwydd, a braw rhag y gosp ddyledus i'w throseddwyr hi. *Mynydd teimladwy:* nid oedd yn ganiatâol i ddyn nac anifail gyffhwrdd âg ef y pryd hwnw, pan roddwyd y gyfraith; ond o ran ei sylwedd daearol gallesid ei deimlo: a geilw yr apostol ef yn fynydd *teimladwy,* i ddangos natur gnawdol yr hen oruchwyliaeth, mewn cyferbyniad i'r newydd sydd yn fwy ysbrydol.

19 [l] * A sain udgorn, [m] † a llef geiriau, [n] ‡ yr hon pwy bynnag a'*i* clywsant, a ddeisyfasant na chwanegid yr ymadrodd wrthynt.

l Ex. 19. 16, 19. 1 Cor. 15. 52. 1 Thes. 4. 16. m Ex. 20.

—17, 22. Deut. 4. 12, 33. a 5. 3—22. n Ex. 20. 19. Deut. 5. 4—27. a 18. 16.

* Yr oedd ar Sinai hefyd sain udgorn, cryf a dychrynyd iawn, ac yn cryfâu fwy-fwy am hir o amser, fel y ychrynodd yr holl bobl yn y gwersyll wrth y larwm rswydawl: ac mae yn debyg na chlywir byth y fath oedd ryfeddol, hyd yn adgyfodiad y meirw i farn y dydd nawr. † Yna y canlynodd cyhoeddiad y gyfraith, yn iglur ar glyw yr holl bobl, mewn llef geiriau croyw; a hlywsant y deg gorchymyn yn cael eu llefaru yn uchel, chyda mawredd ac awdurdod y Duw byw, yn eu hiaith u hunain; ac mae yn debyg mai trwy weinidogaeth ngelion yr oedd y "sain udgorn" a'r llef geiriau uchod; nd yr oedd Duw yn y sain ac yn y llef hefyd. (Gwel r Galat. 3. 19; a Heb. 2. 2.) ‡ A phawb a glywsant y yfraith sanctaidd uchod, yn cael ei rhoddi gyda'r fath awredd ofnadwy a digyffelyb; cafodd y fath effaith awychus ar eu meddyliau, a llanwyd hwy â'r fath eimlad o euogrwydd, ac arswyd digofaint Duw; fel y eisyfiasant yn daer ar Moses i gyfryngu rhwng Duw â wynt, a llefaru wrthynt dros ac yn lle Duw; ac na farai Duw ei hun wrthynt mwyach yn y modd dychrynyd hyn, rhag eu marw. (Exod. 20. 18, 19; Deut. 5. , 23—27; a 18. 16.)

20 o * (Oblegid ni allent hwy oddef yr hyn orchymynasid; p † Ac os bwystfil a gyffyrddi â'r mynydd, efe a labyddir, neu a wenir â hiccell.

o Deut. 33. 2. Rhuf. 3. 19, 20. Gal. 2. 19. a 3. 10. p Ex. 9. 13.

* Hwy a wyddent yn sicr ynddynt eu hunain, nad eedd dim yn bosibl iddynt, gan wendid a llygredigaeth n natur, ddyfod i fynu â gorchymynion a gwaharddadau sanctaidd a manol y gyfraith, a chael eu cyfiawnu trwy eu hufudd-dod anmherffaith eu hunain iddi; a wyddent nad oedd yn bosibl iddynt ddàl i fynu dàn nddangosiadau ofnadwy Duw, yn y modd yr oedd ef n ei chyhoeddi hi. † Ac mòr llym a manol oedd ei rchymyn ef y pryd hwnw, fel os elai neb dros y terfyn roddasai efe o amgylch y mynydd, a chyfhwrdd âg un an o hòno, pa un bynag ai dyn ai ynte anifail o unrhyw uth a fyddai, ni chaffai fyw; rhaid ei labyddio ef yn cr, neu ei wânu ef drwyddo â phicell, saeth, neu aew-ffon, fel y byddai farw: yr hyn oedd yn ddangosad dychrynllyd, o'r pellder mawr y dylai crëaduriaid ael eu cadw ynddo oddi wrth Dduw, oblegid pechod; nad oes dyfodfa i bechaduriaid ato ef yn ol telerau y deddf; ac hefyd o'r dïal a'r gosp a rydd efe ar droseddyr ei orchymynion. Os lleddid yr *anifail* direswm, pa aint mwy y *dyn* a droseddai orchymyn Duw? Yr un ew Duw eto, yr un yw ei ddeddf; ac yr un dïal a ddaw r ei thòrwyr anedifeiriol hi.

21 * Ac mor ofnadwy oedd y golwg, q *ag* dywedodd Moses, Yr ydwyf yn ofni ac yn rynu)

q Ex. 19. 16, 19. Salm 119. 120. Es. 6. 3—5. Dan. 10. 8, 17. rat. 1. 17.

* Nid yn unig yr oedd y bobl yn ofni, ond yr oedd Moses ei hun yn dywedyd yn gyhoedd, ei fod yn "ofni n yn crynu" wrth y pethau oedd yn weled ac yn glywH; er ei fod ef yn gyfryngwr cysgodawl, ac er ei sanctiddrwydd neilluduol ef, a'r hir a'r mynych gymdeithas Duw a gawsai efe cyn hyn. Nid oes yr un crybwyllad am hyn yn hanes Moses: tybia rhai i'r apostol ei ael trwy ddatguddiad digyfrwng; a thybia eraill fod raddodiad hysbys yn mhlith yr Iuddewon, i Moses ldywedyd, "Yr ydwyf yn ofni ac yn crynu." Yn Exod. 9. 19, dywedir, "Moses a lefarodd, a Duw a atebodd newn llais:" ni ddywedir pa beth a lefarodd Moses. na ha beth a atebodd Duw; ac mae rhai yn tybied mai yn fàn hòno y dywedodd efe "Yr ydwyf yn ofni ac yn rynu," ac i Dduw ei ateb ef yn gysurol, gan beri iddo eidio ag ofni. Bu Iesu ein Cyfryngwr ni mewn efyllfa mwy ofnadwy na Moses, pan oedd efe yn sefyll hwng Duw â phechaduriaid ar Galfaria; cafodd ei wrando yn yr hyn a *ofnodd*, a daeth allan yn fuddugoliaethus o'i holl ofnau, a'i holl bobl hefyd yn ddïogel dàn ei gysgod ef.—Yr oedd yr holl olygfa ar Sinai yn arddangos yr anmhosiblrwydd oedd i bechadur ddyfod ger bron Duw yn gymmeradwy, trwy weithredoedd y ddeddf; y rhyfyg tra phechadurus o geisio hyny; a'r angen o Gyfryngwr gwell a chyfammod gwell: ac yr oedd yn gwasanaethu yn dda iawn i'r apostol, i dynu meddwl yr Hebreaid oddi wrth yr oruchwyliaeth hòno at yr efengyl; trwy bob rhesymiad ac egluràd a allai efe wneyd yn dêg ar y mater.

22 r * Eithr chwi a ddaethoch i fynydd Sïon, s † ac i ddinas y t Duw byw, y Jerusalem nefol, u ‡ ac at fyrddiwn o angelion.

r Salm 2. 6. a 48. 2. a 132. 13, 14. Es. 12. 6. a 14. 32. a 28. 16. a 51. 11, 16. a 59. 20. a 60. 14. Joel 2. 32. Rhuf. 11. 26. Gal. 4. 26. Dat. 14. 1. s pen. 13. 14. Salm 48. 2. a 87. 3. Mat. 5. 35. Phil. 3. 20. Dat. 3. 12. a 21. 2, 10. a 22. 19. t pen. 3. 12. a 9. 14. a 10. 31. Deut. 5. 26. Jos. 3. 10. 2 Bren. 19. 4. Salm 42. 2. a 84. 2. Jer. 10. 10. Dan. 6. 26. Hos. 1. 10. Mat. 16. 16. Rhuf. 9. 26. 1 Thes. 1. 9. Dat. 7. 2. u Deut. 33. 2. Salm 68. 17. Dan. 7. 10. Judas 14. Dat. 5. 11, 12.

* Eithr dylasai yr Hebreaid cristionogol hyn ystyried eu hunain, megys yn cael eu galw gan bregethwyr yr efengyl i ddyfod i fynydd Sïon, neu megys wedi eu cynnull yno mewn gwirionedd, i glywed llais Duw oddi ar y drugareddfa. † Yr oeddynt hwy, mewn *proffes*, wedi dyfod i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol; lle preswylfa neilluduol yr Arglwydd gyda ei bobl gyfammodol, a'i addolwyr cymmeradwy, yr hon yr oedd y Jerusalem gynt yn gysgod o hòni: o leiaf yr oeddynt yn cael eu gwahodd i ddyfod i mewn, ac i fod yn ddinasyddion o'r ddinas freintfawr hòno. Y ddinas a'r Jerusalem nefol hon oedd, eglwys Crist ar y ddaear, yn nghyd a'i holl freintiau, ei hordinâdau, a'i haddewidion neilluduol; fel yr oedd yn gyssylltiedig â phreswylfa sanctaidd Duw yn y nef, ac fel yr oedd yn wastad yn trosglwyddo preswylwyr newydd i hòno. ‡ Yr oeddynt hefyd yn cael eu galw i glywed llais Duw yn mhresenoldeb myrddiwn o angelion; y rhai oeddynt oll yn ysbrydion gwasanaethgar, wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth: gelwid yr Hebreaid hyn i gyfranogi o'u dedwyddwch, ac i uno â'u haddoliad hwynt.—Mae yn debyg fod cyfeiriad yn yr adnodau hyn (22, 23, 24.) at yr amlygiad a wnelai Duw o hòno ei hun ar fynydd Sïon, fel yr oedd yn fwy tirion na'r hyn a wnaeth ar fynydd Sinai; ac efallai bod yn y myrddiwn o angelion gyfeiriad at y cerubiaid oedd yn addurno muriau y deml gynt, yn y *cyssegr* ac yn y *sancteiddiolaf* hefyd, y rhai oedd yn arwyddo presenoldeb angelion. Mae angelion gyda'r saint ar y ddaear, a chaiff y saint fod gyda'r angelion yn y nef: un teulu ydynt oll, a byddant oll yn nghyd yn y màn, mewn cariad, dedwyddwch, a gogoniant byth.

23 x * I gymmanfa a chynnulleidfa y rhai y cyntaf-anedig, z † y rhai a ysgrifenwyd yn y nefoedd, ‡ ac at a Dduw, Barnwr pawb, b ‖ ac at ysprydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd,

x Salm 89. 7. a 111. 1. Act. 20. 28. Eph. 1. 22. a 5. 24—27. Col. 1. 24. 1 Tim. 3. 5. y Ex. 4. 22. a 13. 2. Deut. 21. 17. Salm 89. 27. Jer. 31. 9. Iago 1. 18. Dat. 14. 4. z Ex. 32. 32. Salm 69. 28. Luc 10. 20. Phil. 4. 3. Dat. 13. 8. a 20. 15. a pen. 6. 10—12. a 9. 27. Gen. 18. 25. Salm 50. 5, 6. a 94. 2. a 96. 13. a 98. 9. Mat. 25. 31—41. Ioan 5. 27. 2 Thes. 1. 5—7. 1 Pedr 2. 23. b pen. 11. 4. Preg. 12. 7. 1 Cor. 13. 12. 2 Cor. 5. 8. Phil. 1. 21—23. a 3. 12, &c. Col. 1. 12. Dat. 7. 14—17.

* Hefyd yr oedd yr Hebreaid hyn wedi dyfod i uno, nid â chynnulleidfa Israel yn ol y cnawd, ond â chymmanfa a chynnulleidfa y rhai cyntaf-anedig; y rhai oedd wedi ymroddi ac ymgyflwyno mewn modd neilluduol i Dduw; ei blant ef, ac etifeddion yr etifeddiaeth nefol. † Nid oedd eu henwau yn wir yn cael eu hysgrifenu bob amser yn mhlith achau a hanesion pobl yr Arglwydd ar y ddaear; ond yr oeddynt wedi eu hysgrifenu yn y nefoedd, fel etholedigion Duw, wedi eu geni o'r Ysbryd, dinasyddion y ddinas nefol, ac â hawl ganddynt i'w holl freintiau anmhrisiadwy hi. ‡ Yr oeddynt hefyd wedi

eu galw, ac mewn proffes wedi dyfod, i glywed llais y Duw hwnw, yr hwn fel Iachawdwr a Thad, ydoedd Barnwr diduedd, holl-wybodol, holl-alluog, a chyfiawn pawb oll; a chan yr hwn y ca'i yr holl anghredinwyr eu condemnio i' golledigaeth a chosp dragywyddol: yr oeddynt hwy yn cael dyfod ato ef, fel eu Tad cymmodawl yn Nghrist, mewn hyder ffyddiog; ac nid fel y bobl gynt, yn cael eu cadw yn mhell mewn braw ac arswyd, wrth fynydd Sinai: nac ychwaith fel yr addolwyr yn y deml gynt, â llèn a phellder rhyngddynt âg ef. ‖ Ië, yr oeddynt hwy yn cael eu gwahodd i gyfranogi o ddedwyddwch ysbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd; sef yr holl dyrfa o hen gredinwyr gynt, a'r rhai a fuasent feirw wedi dyfodiad Crist, ac felly a berffeithiesid mewn sancteiddrwydd a dedwyddwch.—Mae y geiriau hyn yn brawf amlwg a diymwad, fod eneidiau y saint yn myned i ystâd o *berffaith* wynfyd pan fyddont feirw, càn belled ag y gall hyny fod ar wahân oddi wrth y corph: ac mae y saint ar y ddaear yn gyd-gyfranog â hwynt fel plant yr un Tad, mewn undeb â'r un Pen, wedi eu cyd-gasglu yn un corph ynddo ef, wedi eu cyd-fywâu trwy yr un Ysbryd, a hawl ganddynt i'r un etifeddiaeth, yn sicr o gael myned i'r un trigfanau nefol, ac i gyd-gânu yr un anthem a haleluiah byth.

24 * Ac at [c] Iesu, Cyfryngwr y [d] testament newydd, [e] † a gwaed y taenelliad, ‡ yr hwn sydd yn [f] dywedyd pethau gwell nâ'r *eiddo* Abel.

c pen. 7. 22. a 8. 6, 8. 1 Tim. 2. 5. d pen. 13. 20. Es. 55. 3. Jer. 31. 31—33. e pen. 9. 21. a 10. 22. a 11. 28. Ex. 24. 8. 1 Pedr 1. 2. f pen. 11. 4. Gen. 4. 10. Mat. 23. 35. Luc 11. 51.

* Yr oeddynt hefyd wedi eu casglu, megys, i glywed llais Duw yn llefaru wrthynt, trwy Iesu, Cyfryngwr y Testament Newydd, neu y cyfammod newydd, yn ol y Saesoneg. Yr oedd hwn wedi ei osod ar addewidion gwell, a chwedi ei gadarnâu âg ardderchocach gwaed, na'r cyfammod yr oedd Moses yn gyfryngwr ynddo; † sef y gwaed hwnw, trwy y "taenelliad," neu y cymhwysiad o ba un, y glânêid cydwybod, calon, a dyledswyddau y pechadur, ac y purid y pethau nefol eu hunain, (gwel ar pen. 9. 23.) ac o'r hwn nid oedd yr holl daenelliadau gwaed dàn y ddeddf ond cysgodau yn unig. ‡ Nid yn unig yr oedd y gwaed hwn yn rhagori ar waed teirw a geifr; ond wedi i'r Iesu farw ac adgyfodi, yr oedd, ac y mae efe, yn llefaru pethau gwell trwyddo, nag a wnaethai Abel gyfiawn trwy ei waed: oblegid tra yr oedd gwaed Abel yn gwaeddi ar Dduw o'r ddaear am ddïal ar y llofrudd; yr oedd gwaed Iesu, wedi ei gymhwyso trwy ffydd, nid yn unig yn tynu ymaith euogrwydd pechodau eraill, pa mòr echryslawn bynag a fyddent, ond hefyd pechodau y rhai a'i croeshoeliasent ef; megys y gallai llawer o'r Hebreaid hyn, efallai, dystiolaethu gyda dïolchgarwch. Gan hyny nis gallai anwiredd mawr Israel fel cenedl, eu cauad hwy allan oddi wrth faddeuant, trwy y gwaed a'r aberth mawr hwn; ac yr oedd Duw yn eu galw ac yn eu gorchymyn hwynt, i gredu yn ei Fab ef, ac felly i gyfranogi o'r holl freintiau anmhrisiadwy a grybwyllwyd. *Na'r eiddo Abel:* yn y sylwad uchod, am waed Abel *ei hun* y soniwyd, ac mae pob un o'n Hawdwyr yn dywedyd yr un peth; ond mae un o honynt *(Guyse)* yn tybied yn hytrach, mai gwaed *aberth* Abel a feddylir; ac mai amcan yr apostol oedd, dangos fod gwaed Crist yn rhagori ar waed aberth Abel, yn gystal ag ar waed yr aberthau dàn y ddeddf seremonïol. Dyma'r ddau olygiad o flaen y darllenwyr, efallai mai nid hawdd yw penderfynu pa un sydd iawn.

25 [g] * Edrychwch na [h] wrthodoch yr hwn sydd yn llefaru. [i] † Oblegid oni ddïangodd y rhai a wrthodasant yr hwn oedd yn llefaru ar y ddaear, ‡ mwy o lawer *nis diangwn* ni, y rhai ydym yn [k] troi ymaith oddi wrth yr hwn sydd *yn llefaru* o'r nef:

g pen. 8. 5. Ex. 16. 29. 1 Bren. 12. 16. Es. 48. 6. a 64. 9. Mat. 8. 4. 1 Thes. 5. 15. 1 Pedr 1. 22. Dat. 19. 10. a 22. 9. h Diar. 1. 24. a 8. 33. a 13. 18. a 15. 32. Jer. 11. 10. Ezec. 5. 6. Zec. 7. 11. Mat. 17. 5. Act. 7. 35. i Gwel ar pen. 2. 1—3. a 3. 17. a 10. 28, 29. k Num. 32. 15. Deut. 30. 17. Jos. 22. 16. 2 Cron. 7. 19. Diar. 1. 32. 2 Tim. 4. 4.

* Gan fod y fath ragor-freintiau i'r Hebreaid, a bod llais gwahoddawl a maddeuol Duw yn Nghrist tuag atynt; dylent edrych ati yn grynedig, os oeddynt am gael ei fodd ef, ac yn ofni ei ddigofaint, na byddai iddynt "wrthod" yr iachawdwriaeth gynnygiedig, a galwad rasol yr hwn oedd yn llefaru wrthynt oddi ar ei orsedd o drugaredd, a thrwy ei anwyl Fab. † Oblegid os na ddïangodd y rhai a wrthodasant ufuddâu i lais Duw yn llefaru wrthynt ar y ddaear, o ben Sinai, trwy Moses; ac os derbyniodd pob trosedd ac anufudd-dod o'r eiddynt hwy gyfiawn daledigaeth; (gwel ar pen. 2. 2.) ‡ mwy sicr a thrwm o lawer y cospid y rhai hyny o'r Hebreaid, a dröent ymaith mewn gelyniaeth a dirmyg, oddi wrth yr hwn oedd yn awr yn llefaru wrthynt o'r nef, trwy genadon anfonedig ei Fab, eu Cyfryngwr a'u Harch-offeiriad mawr yn y cyssegr fry: oblegid rhaid y byddai eu henogrwydd a'u condemniad yn fawr mewn cyfatebiad i'r gras a'r breintiau a wrthodent ac a ddirmygent.—Duw a lefarodd ar y ddaear, o ben y mynydd, trwy Moses: trwy anufuddâu i Moses gwedi hyny, a gwrthod gwrando arno ef, yr oeddynt yn gwrthod lleferydd ac awdurdod Duw ei hun: ac am hyn y cospwyd llawer o honynt yn ofnadwy, ac y syrthiodd eu cyrph yn gelaneddau dàn farn Duw yn y diffaethwch. Yr un modd Duw yn ei Fab, sydd yn llefaru eto wrthym ni o'r nef, trwy ei genadon: gwrthod gwrando ei genadon ef, ydyw troi ymaith yn ddïystyrllyd oddi wrth Dduw ei hun, yn llefaru y pethau mwyaf pwysig a grasol o'r nef; a "mwy o lawer ni ddïangwn ni," os troi ymaith felly a wnawn.

26 [l] * Llef yr hwn y pryd hwnnw a ysgydwodd y ddaear: † ac yn awr a addawodd, gan ddywedyd, [m] Etto unwaith yr wyf yn cynhyrfu ‡ nid yn unig y ddaear, ond y nef hefyd.

l Ex. 19. 18. Salm 114. 6, 7. Hab. 3. 10. m adn. 27. Es. 2. 19. a 13. 13. Joel 3. 16. Hag. 2. 6, 7, 22.

* Yr oedd daear-gryn ac ysgydwadau dychrynllyd iawn yn cyd-fyned â llef Duw ar Sinai: † ond yn mhen llawer o oesoedd wedi y tro hwnw, mewn rhag-fynegiad pennodol am y Messiah, rhag-ddywedodd Duw y byddai iddo ef unwaith drachefn gynhyrfu, ‡ nid yn unig y ddaear, ond y nef hefyd; (Hag. 2. 6—9.) meddwl yr hyn oedd, y byddai iddo ef chwalu a dadymchwelyd holl osodiadau gwladol ac eglwysig yr Iuddewon, a diddymu yr oruchwyliaeth seremonïol oll, i wneyd ffordd i'r efengyl a theyrnas Crist. Mewn ymadroddion o'r fath hyn y gwelodd Duw yn dda osod allan y cyfnewidiad a wnaid, yn niddymiad yr oruchwyliaeth seremonïol, a gosodiad goruchwyliaeth yr efengyl: ac yn wir cymmerodd pethau o'r natur hyn le yn yr ystyr lythyrenol o'r geiriau: ymddangosodd seren ryfedd yn y nef ar enedigaeth y Messïah; a bu cynhwrf trwy wlad Judea, ac efallai mewn gwleydd eraill, y pryd hwnw, ac o herwydd hyny: bu cynhwrf ar y ddaear yn mhlith yr Iuddewon lawer gwaith, o herwydd ei athrawiaeth a'i wyrthiau ef: crynodd y ddaear, holltodd y creigiau, agorodd y beddau, a thywyllodd y nefoedd, pan fu efe farw ar y groes: bu daear-gryn ar ei adgyfodiad ef o'r bedd, pethau rhyfedd ar ddydd y pentecost, dywedid am yr apostolion mai dynion yn *aflonyddu y byd* oeddynt: ac oni bu ysgwyd a chynhyrfu ofnadwy ar y ddaear a'r nef hefyd yn yr arwyddion rhyfedd o flaen dinystr Jerusalem, pan roddes Duw yr ergyd olaf ar holl lywodraeth wladol a chrefyddol y genedl Iuddewig?

27 * A'r Etto unwaith hynny, sydd yn [n] hysbysu symmudiad y pethau a ysgydwir, † megis pethau wedi eu gwneuthur, ‡ fel yr arhoso y pethau nid ysgydwir.

n Salm 102. 26, 27. Ezec. 21. 27. Mat. 24. 35. 2 Pedr 3. 10, 11. Dat. 11. 15. a 21. 1.

* Ac yr oedd y geiriau hyn, *unwaith eto*, yn arwyddo

yn amlwg, na byddai ond un ysgydwad mawr, a thrwy-
adl, ar ol y cyntaf yn Sinai; yn yr hwn y ca'i y sefydl-
siadau Iuddewig mewn gwlad ac eglwys, eu hysgwyd, eu
symmud, a'u dadymchwel yn gwbl. † Dàn yr oruchwyl-
iaeth hòno, ac yn hanfodol iddi, yr oedd llawer o
bethau wedi eu gwneuthur â dwylaw dynion, megys y
babell, y deml, a holl lestri y gwasanaeth, y rhai oedd
wedi eu trefnu gan Dduw i fod hyd amser y diwygiad;
ond i gael eu symmud y pryd hwnw, ‡ fel y gosodid i
fynu oruchwyliaeth yr efengyl a'i holl bethau gogoneddus, y rhai ni symmudir, ond sydd i aros yn barâus, hyd
iddiwedd y byd hwn, ac yn eu heffeithiau a'u gogoniant
nam dragywyddoldeb.

28 * O herwydd paham, † gan ein bod ni
yn [o] derbyn teyrnas ddisigl, ‡ bydded genym
ras, [p] || trwy yr hwn y gwasanaethom Dduw
wrth ei fodd, [q] § gyd â gwylder a pharchedig
ofn.

o Es. 9. 7. Dan. 2. 44. a 7. 14, 27. Mat. 25. 34. Luc 1. 33. a 17. 20, 21. 1 Pedr 1. 4, 5. Dat. 1. 6. a 5. 10. p Salm 19. 14. Es. 56. 7. Rhuf. 12. 1, 2. Eph. 1. 6. a 5. 10. Phil. 4. 18. 1 Pedr 2. 5, 20.
q pen. 4. 16. a 5. 7. a 10. 19, 22. Lef. 10. 3. Salm 2. 11. a 89. 7. 1 Diar. 28. 14. Rhuf. 11. 20. 1 Pedr 1. 17. Dat. 15. 4.

* O herwydd paham, gan fod y pethau uchod felly, hen bethau yr oruchwyliaeth seremonïol yn cael eu hysgwyd a'u symmud, i roddi lle i bethau arosol ac ansymmudawl yr efengyl; † a chan fod yr Hebreaid hyn yn derbyn, neu yn proffesu derbyn, teyrnas ddisigl yr oruchwyliaeth newydd; ‡ a chan fod pob gras yn cael ei addaw yn rhad, i bawb a'i ceisient yn llwybr yr efengyl; yr oedd yn addas i'r apostol eu cyngori hwynt oll, ar fod y gras hwnw ganddynt: hyny yw, bod i iddynt geisio y gras hwnw yn helaeth, ac felly ei gael, a'i gadw yn ofalus fel trysor gwerthfawr; || fel drwy y gras hwnw y gallent wasanaethu Duw, nid yn unig yn allanol, fel ei bobl broffesedig ef, ond "wrth ei fodd," ac yn gymmeradwy, fel gwir gredinwyr ac addolwyr ysbrydol. § Hwy a ddylent wneyd hyn, nid yn unig gyda llawenydd, hyder, a dïolchgarwch; ond hefyd gyda "gwylder" ger bron mawredd ac awdurdod Duw, a chyda "pharchedig ofn" rhag twyllo eu hunain, rhag syrthio dàn ei ŵg a'i soriant ef, neu rhag dïanrhydeddu ei enw; gan fod yn ostyngedig ymwybodus, o'u hanneilyngdod eu hunain, eu gwendid, a'u llygredigaethau.

29 * Oblegid [r] ein Duw ni † *sydd* dân ysol.

r pen. 10. 27. Ex. 24. 17. Num. 11. 1. a 16. 35. Deut. 4. 24. a 9. 3. Salm 50. 3. a 97. 3. Es. 66. 15. Dan. 7. 9. 2 Thes. 1. 8.

* Dylent hefyd gofio yn eu holl wasanaeth crefyddol, fod y gwir Dduw, yr hwn yr oeddynt hwy yn proffesu eu bod yn bobl iddo, a llawer o honynt, gobeithio, yn bobl iddo mewn gwirionedd; † ei fod ef yn Dân ysol i ddyfetha rhagrithwyr, gwrthgilwyr, a gelynion o bob math, pa fodd bynag y ffugient neu y lledrithient: nid oedd efe ddim llai sanctaidd, ac eiddigus o'i ogoniant a'i addoliad yn awr, nac ydoedd pan ymddangosodd yn dân ysol ar ben Sinai gynt; a phan ddirmyger ei efengyl ef, fel cyfraith dânllyd Sinai hi a gondemnia y pechaduriaid hyny i dân anniffoddadwy byth.—Mae yn amlwg bod yr apostol yn cyfeirio rhai o'i ymadroddion yma at un math o bobl, a rhai eraill at fath arall; ac yn gadael y naill a'r llall i wneyd y cymhwysiad atynt eu hunain: ond yr oedd efe yn amcanu yn neilluduol argyhoeddi ei gyd-wladwyr, bod y rhai anghredinïol yn eu plith hwy yn sicr o syrthio dàn ddïaledd mwyaf dychrynllyd Duw, yn bersonol ac fel cenedl; rhag yr hwn ddïal nid oedd yn bosibl dïanc, ond trwy gredu yn yr Arglwydd Iesu Grist, a glŷnu wrtho ef.

PEN. XIII.

Amryw gyngorion, &c.

[a] * PARHAED brawdgarwch.

a pen. 6. 10, 11 a 10. 24. Ioan 13. 34, 35. a 15. 17. Act. 2. 1, 44—46. a 4. 32. Rhuf. 12. 9, 10. Gal. 5. 6, 13, 22. Eph. 4. 3. a 5. 2. Phil. 2. 1—3. 1 Thes. 4. 9, 10. 2 Thes. 1. 3. 1 Pedr 1. 22. a 2. 17. a 3. 8. a 4. 8. 2 Pedr 1. 7. 1 Ioan 2. 9, 10, a 3. 10—18, 23. a 4. 7—11, 20, 21. a 5. 1. 2 Ioan 5, 6. Dat. 2. 4.

* Ar ol dydd y pentecost, yr oedd yr Hebreaid dychweledig yn helaeth iawn eu cariad tuag at eu gilydd, ac yn holl ffrwythau y serchawgrwydd sanctaidd hwn: (gwel ar Act. 2. 42—47; a 4. 32—35.) ond yr oedd llawer o bethau yn debyg o ddygwydd yn naturiol mewn amser, i afionyddu y cyd-gordiad hollawl hwnw, ac i attal ffrŵd yr haelioni hyny, a ddangosasent hwy ar y cyntaf. Gan hyny, yr oedd yn dra phrïodol i'r apostol eu hannog hwynt i "barâu" yn eu "brawdgarwch;" ac i ochelyd pob peth a dueddai i dòri ar eu heddwch hwynt, eu tiriondeb, a'u cariad serchog at eu gilydd; fel y gweddai i blant o'r un teulu, a chyd-etifeddion o'r un etifeddiaeth nefol. Yr oedd efe yn meddwl eu hannog hwy hefyd i frawdgarwch tu ag at eu brodyr o'r cenedloedd, yn erbyn pa rai yr oeddynt hwy yn gyffredin yn rhŷ ragfarnllyd; ïe, mòr rhagfarnllyd, medd rhai, fel yr oeddynt yn ymwrthod â hwynt gydag atgasrwydd.

2 [b] * Nac anghofiwch lettygarwch: [c] † canys wrth hynny y llettyodd rhai angelion yn ddïarwybod.

b Lef. 19. 34. Deut. 10. 18, 19. 1 Bren. 17. 10—16. 2 Bren. 4. 8. Job 31. 19, 32. Es. 58. 7. Mat. 25. 35, 43. Act. 16. 15. Rhuf. 12. 13. a 16. 23. 1 Tim. 3. 2. a 5. 10. Tit. 1. 8. 1 Pedr 4. 9. c Gen. 18. 2—10. a 19. 1—3. Barn. 13. 15, &c. Mat. 25. 40.

* Yn enwedig annogai yr apostol hwynt i fod yn llettŷgar, neu i fod yn roesawgar i ddïeithriaid, yn ol y Saesoneg, caru dïeithriaid, a bod yn dirion a llettŷgar iddynt, mae yn debyg, yw ystyr y gair Groeg, *philoxenias.* Yr oedd llawer o ddynion duwiol yn ymdaith, neu yn cael eu herlid o'u gwlad er mwyn yr efengyl; ac yn gyffredin mewn amddifadrwydd a thlodi, yn ymddybynu ar diriondeb a llettŷgarwch eu brodyr lle y deuent, er eu bod yn ddïeithriaid iddynt: y fath hyn yn benaf, (er nad yn unig) oeddynt hwy i fod yn llettŷgar iddynt, a chofio bod felly yn ddïesgeulus yn ol eu gallu. † Er cefnogi y fath hyn o gariad a llettŷgarwch, mae yr apostol yn crybwyll i rai dderbyn a llettŷa angelion fel hyn yn ddïarwybod; megys Abraham a Lot gynt. (Gen. 18. a 19.) Mae yn wir nas gallai yr Hebreaid hyn ddysgwyl yr ymwelid â hwynt gan angelion, yn rhith dïeithriaid tlodion; ond trwy fod yn llettŷgar i'w brodyr er mwyn Crist, yr oeddynt mewn ystyr yn ei dderbyn ef ei hun, ac i gael eu gobrwyo yn gyfatebol i hyny.—Oddi wrth hyn, efallai, y daeth traddodiad i blith Brahminiaid yr India, y rhai a ddywedant wrth y bobl, fod y duwiau weithiau yn disgyn i'r ddaear yn rhith dïeithriaid tlodion; a phwy bynag o blant dynion a'u croesawo hwynt yn garedig, y cânt eu gobrwyo yn ddirfawr am hyny drachefn.

3 * Cofiwch y [d] rhai sydd yn rhwym, † fel pettech yn rhwym gyd â hwynt; [e] ‡ y rhai cystuddiol, || megis yn bod eich hunain hefyd yn y corph.

d pen. 10. 34. Gen. 40. 14, 15, 23. Jer. 38. 7—13. Mat. 25. 36, 43. Act. 16. 29—34. a 24. 23. a 27. 3. Eph. 4. 1. Phil. 4. 14—19. Col. 4. 18. 2 Tim. 1. 16—18. e Neh. 1. 3, 4. Rhuf. 12. 15. 1 Cor. 12. 26. Gal. 6. 1, 2. 1 Pedr 3. 8.

* Yr oedd llawer o'u brodyr hefyd, yn rhwym mewn carcharau oblegid yr efengyl, a'r apostol ei hun, yn wir, yn rhwym felly y pryd hwn; (pen. 10. 34.) ac yr oedd yn ddyled arnynt gofio caledi y dyoddefwyr hyny yn eu gweddïau, ac yn mhob peth a allent er eu cysur a'u hymwared hwynt; † megys pe buasent yn rhwym eu hunain gyda hwynt: eu brodyr oeddynt, a dylasent gyd-ymdeimlo â hwynt fel brodyr; am na wyddent pa mòr fuan y byddent hwy eu hunain yn yr un amgylchiadau. ‡ Yn fŷr, pa drallodau a chystuddiau bynag oedd ar eu brodyr; yn eu personau, eu perthynasau, neu eu hamgylchiadau; dylent gyd-ymdeimlo â hwynt, gweddïo llawer drostynt, gwneyd a allent i esmwythâu arnynt, a cheisio ymwared iddynt: || a hyny gan gofio eu bod hwy eu hunain o hyd yn y

corph, ac yn agored i'r unrhyw gystuddiau; ac yn yr achos hyny, byddai yn naturiol iddynt hwythau ddysgwyl yr un caredigrwydd tirion gan eu brodyr.—Mae yn debyg bod pawb caethiwus a chystuddiol yn gynnwysedig yn y cyngor; ond "teulu y ffydd" yn benaf a feddylir.

4 [f] * Anrhydeddus *yw* priodas ym mhawb, † a'r gwely dihalogedig: [g] ‡ eithr putteinwyr a godinebwyr [h] a farna Duw.

f Gen. 1. 27, 28. a 2. 21, 24. Lef. 21. 13—15. 2 Bren. 22. 14. Es. 8. 3. 1 Cor. 7. 2, &c. a 9. 5. 1 Tim. 3. 2, 4, 12. a 5. 14. Tit. 1. 6. g Gwel ar pen. 12. 16. 1 Cor. 6. 9. Gal. 5. 19. h Salm 50. 16—22. Mal. 3. 5. 1 Cor. 5. 13. 2 Cor. 5. 10.

Mae rhai dehonglwyr, yn enwedig y rhai o eglwys babaidd Rhufain, yn egluro y geiriau hyn fel cyngor, "*Bydded* priodas yn anrhydeddus yn *mhob peth*, a *bydded* y gwely yn ddihalogedig:" a diammau fod yr apostol yn meddwl y dylid myned i'r ystâd briodasol, ac ymddwyn ynddi, yn gyfatebol i orchymynion sanctaidd Duw; fel y byddai yn anrhydeddus i'r personau eu hunain, ac i'w proffes o'r efengyl; yn gystal ag y dylai yr ystâd hòno gael ei chyfrif yn anrhydeddus, a'i hystyried yn ddihalogedig. *Pa fodd bynag, mae y gair *eithr*, yn nechreu ail ran yr adnod, yn dangos mai prif feddwl yr apostol oedd, tystiolaethu yn gadarn, fod priodas ynddi ei hun yn anrhydeddus yn mhawb, fel peth o osodiad Duw, a thàn ei fendith ef, er cyfodi had cyfreithlawn, er cysur teuluaidd, er lles cymdeithas, ac fel modd i attal pob afiendid anghyfreithlawn. I hyn yr ordeiniodd Duw briodas, y rhoddodd gyfreithiau yn ei chylch; ac fel hyn yr anrhydeddodd Crist hi â'i bresenoldeb sanctaidd; am hyny, rhaid ei bod yn anrhydeddus ynddi ei hun. Ond edrychedd dynion am fyned yn anrhydeddus iddi, ac ymddwyn yn anrhydeddus ynddi; + edrychent am fod y gwely priodasol yn cael ei gadw yn ddihalogedig, trwy ymattal oddi wrth odineb a phob afiendid anghyfreithlawn, a thrwy gyflawniad addas a phrydlawn, o'u holl ddyledswyddau priodasol, y naill i'r llall. ‡ Ond am bawb sydd yn euog o butteindra a godineb, pa un bynag ai mewn meddwl neu weithred; er eu bod yn dianc rhag cyfreithiau dynion, ac yn tybied yn ysgafn iawn o'r pechodau ffiaidd ac ysgeler hyn; barna Duw hwynt: cospa hwynt yn aml yn y byd hwn, ac yn nydd y farn efe a'u denfyn hwynt i gospedigaeth tân tragywyddol. O na chrynai holl butteinwyr a godinebwyr ein gwleddydd a'n trefydd, yn wrrywaid ac yn fenywaid, wrth y geiriau trymion a brawychlawn hyn!—Yr oedd rhai dynion yn y dyddiau hyny yn dadleu dros gyfreithlondeb putteindra a godineb; ac yr oedd tybiau ac arferion o'r fath ffieiddiaf, am aml-wreigiaeth ac ysgariaethau, yn ffynu, nid yn unig yn mhlith y cenedloedd, ond hefyd yn mhlith yr Iuddewon eu hunain i raddau gresyn a rhyfeddol: ac ar y llaw arall, yr oedd rhai o'r cenedloedd a'r Iuddewon, ac o'r Cristionogion hefyd, yn condemnio priodas, neu o leiaf yn ei hystyried hi yn llai anrhydeddus a sanctaidd nag annyweddiaeth. Dechreuodd "dirgelwch yr anwiredd" hwn weithio yn fore iawn; ac yr oedd yr apostol yma, mewn ychydig eiriau grymus a chynnwysfawr, yn rhoi gocheliad rhag y ddau gyfeiliornad; y rhai a gafwyd trwy brofiad bob amser, eu bod mewn gwahanol ffyrdd, ond yn agos y naill gymmaint a'r llall, yn ddinystriol i foesoldeb, dedwyddwch cymdeithas, a phurdeb crefydd.

5 * *Bydded eich* [i] ymarweddiad yn ddiariangar; [k] † gan fod yn foddlawn i'r hyn sydd gennych. ‡ Canys efe a ddywedodd, [l] Ni'th roddaf di i fynu, ac ni'th lwyr-adawaf chwaith.

i Ex. 20. 17. Jos. 7. 21. Salm 10. 3. a 119. 36. Jer. 6. 13. Ezec. 33. 31. Marc 7. 22. Luc 8. 14. a 12. 15—21. a 16. 13, 14. Rhuf. 1. 29. 1 Cor. 5. 11. a 6. 10. Eph. 5. 3, 5. Col. 3. 5. 1 Tim. 3. 3. a 6. 9, 10. 2 Pedr 2. 3 14. Judas 11. k Ex. 2. 21. Mat. 6. 25, 34. Luc 3. 14. Phil. 4. 11, 12. 1 Tim. 6. 6—8. l Gen. 28. 15. Deut. 31. 6, 8. Jos. 1. 5. 1 Sam. 12. 22. 1 Cron. 28. 20. Salm 37. 25, 28. Es. 41. 10, 17.

* Yr oedd yr Hebreaid hyn yn gyffredin yn dlodion; yr oedd llawer o honynt wedi gwerthu eu meddiannau i gynnorthwyo eu brodyr, ar ol dydd y pentecost; ac yr oedd eraill wedi cael eu hyspeilio o'u meddiannau gan erlidwyr. (pen. 10. 34.) Yr oedd yr apostol wedi ymdrech llawer i gael cymmorth iddynt oddi wrth eglwysi y cenedloedd; (Rhuf. 15. 22—29; 2 Cor. 8. a 9.) ond yma mae yn eu cyngori hwynt ar fod eu holl ymarweddiad, eu hymddiddan, a'u dull o fyw, yn ddiariangar; ac yn amlwg bell oddi wrth gybydd-dod ac ariangarwch: heb fod yn awyddus am arian, i'w hystoriaw a'u tỳru i fynu, nac i'w hafradloni am bethau afreidiol: ac ni ddylent ychwaith fod yn rhŷ afaelgar yn yr hyn oedd ganddynt, nac yn anodd ganddynt ei roi allan i ddybenion daionus. + O'r tu arall, dylent fod yn foddlawn, yn ddiolchgar, ac yn ddedwydd, ar yr hyn oedd ganddynt y pryd hwnw, er nad oedd hyny ond gwael, prin, ac ansafadwy: gan fod yn sicr fod anfeidrol ddoethineb a chariad yn dewis eu rhan iddynt; ‡ a chofio addewid Duw, na roddai efe hwynt i fynu, ac na lwyr adawai hwynt chwaith, mewn pethau tymmorawl mwy na phethau ysbrydol.—Nid yw y geiriau *gan fod yn foddlawn i'r hyn sydd genych*, mewn un modd i'w deall fel yn pleidio seguryd ac esgeulusdra yn ein galwedigaeth bydol; ond ymfoddloni i drefn rhagluniaeth Duw tuag atom, ac i'r gyfran hyny o drugareddau tymmorawl mae efe yn roddi i ni ar lwybr dyledswydd a diwydrwydd; gan fod yn ddiolchgar iddo, a phwyso ar ei addewid ef. Dyfynir yr addewid hon o Jos. 1. 5, mae yn debyg, ond mae geiriau cyffelyb i'w cael mewn amryw fânau eraill o'r ysgrythyr.

6 * Fel y gallom [m] ddywedyd yn hŷf, [n] † Yr Arglwydd *sydd* gymmorth i mi, [o] ‡ ac nid ofnaf beth a wnel dyn i mi.

m pen. 4. 16. a 10. 19. Eph. 3. 12. n Gen. 15. 1. Ex. 18. 4. Deut. 33. 26, 29. Salm 18. 1, 2. a 27. 1—3, 9. a 33. 20. a 40. 17. a 54. 4. a 63. 7. a 94. 17. a 115. 9—11. a 118. 7—9. a 124. 8. a 146 3. Es. 41. 10, 14. Rhuf. 8. 31. o Salm 56. 4, 11, 12. a 118. 6. Dan. 3. 16—18. Mat. 10. 28. Luc 12. 4, 5.

* Gan fod yr apostol yn annog yr Hebreaid hyn i bwyso ar yr addewid uchod a wnaed i Josua yn bersonol, gallwn weled fod yn addas i bob credadyn, yn y cyffelyb amgylchiadau, bwyso arni eto; ac felly ar unrhyw addewid yn ngair Duw, er ei gwneyd yn bersonol, i ryw un o'r hen gredinwyr gynt. Gan hyny gallai pob un o'r Hebreaid oedd yn glŷnu wrth yr Arglwydd a'i wasanaeth, yn eu dwfn dlodi, ac yn nghanol erlidwyr, ddywedyd yn hŷf a dibetrusder, + "Yr Arglwydd sydd gymmorth i mi," fel y dywedodd Dafydd lawer gwaith: pa drallodau, caledi, angen, neu enbydrwydd bynag a fyddai arnynt, gallent ddywedyd fod JEHOFAH ei hun, Duw tragywyddoldeb, yr hwn ni flina ac ni ddiffygia, yn gymmorth, yn nodded, ac yn amddiffynfa iddynt. ‡ A chan ei fod ef o'u tu, i gymmeryd eu plaid, i adnewyddu eu heneidiau â'i ras, ac i oruwch-lywodraethu pob peth er eu daioni; gallent ddywedyd yn hŷf nad ofnent beth a wnelai dyn iddynt: ïe, y mwyaf galluog, cyfrwys, a llidiog o'u holl elynion, a'u holl elynion yn nghyd, nid oeddynt ond dynion gweiniaid marwol; ac os oedd Duw drostynt, pa beth a allai dynion wneyd yn eu herbyn?

7 [p] * Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi [q] air Duw: [r] † ffydd y rhai dilynwch, [s] ‡ gan ystyried [t] diwedd eu hymarweddiad hwynt.

p adn. 17, 24. Mat. 24. 45. Luc 12. 42. Act. 14. 23. 1 Thes. 5. 12, 13. 1 Tim. 3. 5. q Luc 8. 11. Act. 4. 31. a 13. 46. Rhuf. 10. 17. 1 Thes. 2. 13. Dat. 1. 9. a 6. 9. a 20. 4. r pen. 6. 12. Can. 1. 8. 1 Cor. 4. 16. a 11. 1. Phil. 3. 17. 1 Thes. 1. 6. 2 Thes. 3. 7, 9. s Act. 7. 55—60. t 1 Cor. 10. 13.

* Er cryfâu amynedd a diysgogrwydd yr Hebreaid, hyd yn nôd yn wyneb angau merthyrawl, os byddai raid hyny; mae yr apostol yn galw arnynt i feddwl am eu blaenoriaid, y rhai a draethasent iddynt air Duw, ond a oeddynt yn awr wedi eu symmud trwy ferthyrdod; megys Stephan, Iago, yr hwn y tòrasai Herod ei ben â'r cleddyf, ac eraill; neu yn wir rhai a fuasent feirw

mewn unrhyw ffordd arall. † Dylasent eu cofio hwynt yn y fath fodd, fel ag i dderbyn, a glŷnu wrth, athrawaeth bur y ffydd, yr hon a bregethasent hwy iddynt, a dilyn eu hesampl hwynt mewn ymarweddiad sanctaidd ac ufudd-dod hyd angau: ‡ gan ystyried yn neillduol iddiwedd eu gyrfa hwynt, a'r modd yr ymadawsant o'r byd hwn; y tawelwch a'r llawenydd sanctaidd, oedd yn eu llenwi hwy wrth farw, pa amgylchiadau bynag o arbeithiau a gwarth oedd yn gyssylltiedig â'u marwolaeth hwynt. Yr oedd y "meddwl" a'r "ystyriaeth" hyn yn angenrheidiol iddynt; oblegid os mynent hwy ddiweddu eu hymarweddiad, neu eu gyrfa gristionogol o ufudd-dod, yn yr un modd anrhydeddus a dedwydd; rhaid iddynt ddilyn esampl eu blaenoriaid, a glŷnu wrth eu hathrawiaeth a'u haddysgiadau hwy.—Mae ysyfieithiad Saesoneg y rhan flaenaf o'r adnod hon yn wahanol i'r Cymraeg: "Cofiwch y rhai *mae* ganddynt ywodraeth arnoch," ydyw yn ol y Saesoneg, yn yr amser *presenol;* lle mae yr apostol yn amlwg yn sôn am flaenoriaid ag oedd y pryd hwnw wedi marw; y rhai a *fuasent* yn blaenori pan oeddynt yn fyw. Mae ein Hawdwyr yn addef y cam-gyfieithiad uchod, ac yn addef mai fel y mae genym ni y dylai fod.

8 * Iesu Grist, [u] ddoe † a heddyw yr un, ‡ ac yn dragywydd.

u pen. 1. 12. Salm 90. 2, 4. a 102. 27, 28. a 103. 17. Es. 41. 4. a 44. 6. Mal. 3. 6. Ioan 8. 56—58. Iago 1. 17. Dat. 1. 4, 8, 11, 17, 18.

Yr oedd y blaenoriaid a'r gweinidogion defnyddiol a rhagorol uchod wedi myned; ond yr oedd Iesu Grist, Pen mawr yr eglwys, yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd: yr un yn ei drugaredd, ei allu, ei ffyddlondeb, a'i holl-ddigonedd, yn ddigyfnewid. * Fel Mab Duw, yr oedd ef yn meddu pob perffeithrwydd yn hanfodol o dragywyddoldeb; yr oedd efe wedi parâu i ddefnyddio y perffeithiau hyny er daioni i'w eglwys, trwy yr holl oesoedd a aethent heibio; ac nid oedd efe yn llai perffaith a galluog, pan ymddangosodd yn y cnawd, i ddynu ei eglwys â'i briod waed. † Yr oedd, ac y mae efe yn parâu yr un, wedi ei ddderchafu yn y natur ddynol i'r orsedd gyfryngol; ‡ a phan ddelo efe i farnu y byd, efe a ddengys yr un perffeithiau a gogoniant dwyfol; ac yn yr un modd i dragywyddoldeb maith. Fel hyn mae efe yr un yn ei berson, fel Duw o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb; ac yr un yn ei gariad mag at ei bobl, yn ei ofal am danynt, yn ei swyddau rostynt, ac yn ei addewidion iddynt, fel eu hunig Waredwr trwy yr holl genedlaethau, ac hyd byth. Mae yrym a phwys mawr yn y gair uchod "yr *un*," am ei fod yn dangos *anghyfnewidioldeb;* priodoledd nad yw yn perthyn i'r un *creadur;* neb llai na *Duw* anfeidrol: am yny gallai yr Hebreaid ymddiried ynddo ef, am gysur chynnaliaeth dàn eu holl ddyoddefiadau er ei fwyn ef; yr un modd ag y cynnaliodd efe y rhai hyny a orhenasent eu gyrfa mòr ddedwydd.

9 [x] * Na'ch arweinier oddi amgylch âg athrawiaethau amryw a dïeithr: [y] † canys da *rw* bod y galon wedi ei chryfhâu â gras, ‡ nid â bwydydd, ‖ yn y rhai ni chafodd y nawl a rodiasant ynddynt, fudd.

x Mat. 24. 4, 24. Act. 20. 30. Rhuf. 16. 17, 18. 2 Cor. 11. 11—15. Gal. 1. 6—9. Eph. 4. 14. a 5. 6. Col. 2. 4, 8. 2 Thes. 2. 2. 1 Tim. 4. 1—3. a 6. 3—5, 20. 1 Ioan 4. 1. Judas 3. y Act. 20. 32. 2 Cor. 1. 21. Gal. 6. 1. 2 Thes. 2. 17. 2 Tim. 2. 1, 2. z Gwel r pen. 9. 9, 10.—Lef. 11. Deut. 14. 3—21. Act. 10. 14—16. Rhuf. 14. 2, 6, 17. 1 Cor. 6. 13. a 8. 8. Col. 2. 16—20. 1 Tim. 4. 3—5. Tit. 1. 14, 15.

* Cyngorai yr apostol yr Hebreaid gan hyny i ymddiried yn Nghrist, a glŷnu wrtho ef, yn ol addysgiadau ac esampl eu blaenoriaid trancedig; a pheidio ymmeryd eu harwain oddi amgylch âg athrawiaethau amryw a dïeithr, fel llongau yn cael eu gyru draw ac ma gan wyntoedd, neu gymylau yn yr awyr. † Llawer i'r fath athrawiaethau amryw a dïeithr oedd yn cael eu bregethu gan wahanol fath o gau-athrawon, y rhai eddynt oll yn ddïeithr i burdeb a symlrwydd yr efengyl; ond yr oedd yn "dda" i'r Hebreaid geisio cael eu calonau wedi eu cryfâu a'u sefydlu, mewn ymddybyniad unig ar ras a thrugaredd Duw yn Nghrist Iesu; ac yn y profiad o oruchwyliaethau sancteiddiol yr Ysbryd Glân, yr hyn a'u dyddanai hwynt, ac a'u gwnâi yn gryfion yn erbyn pob hudoliaeth. ‡ Ond os âent hwy i wneyd sylw neillduol ar wahaniaeth *bwydydd,* ac i ymorphwys ar yr aberthau a'r hedd-offrymau *seremonïol,* (rhan o ba rai a fwytêai yr offrymwyr ger bron Duw, fel arwydd o fod mewn heddwch âg ef,) ni chyrhaeddent hwy byth gadernid fel hyny. ‖ Yn wir nis gallent hwy ddysgwyl dim buddioldeb ysbrydol oddi wrth y cyflawniadau hyny; gan nad oedd y rhai a ymarferasent gynt â hwynt, heb edrych dim yn mhellach, wedi cael dim lles achubol oddi wrthynt; ac yn awr yr oeddynt wedi eu diddymu, nis gallasai fod dim buddioldeb o honynt.

10 * Y mae gennym ni [a] allor, † o'r hon nid oes awdurdod i'r rhai sydd yn [b] gwasanaethu y tabernacl i fwytta.

a 1 Cor. 5. 7, 8. a 9. 13. a 10. 17—20. b Num. 3. 7, 8. a 7. 5.

* Ond yr oedd gan yr holl rai o eglwys y Testament Newydd annhraethol well allor, ac aberth mwy ysbrydol, yn Nghrist; "yr hwn trwy yr ysbryd tragywyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw:" (pen. 9. 14.) ac felly yr oedd ef yn ei berson ei hun yn offeiriad, yn allor, ac yn aberth hefyd; ei Dduwdod yn cynnal, ac yn rhoddi anfeidrol werth ar ei aberth, fel yr oedd yr allor gynt yn sancteiddio y rhodd. (Matth. 23. 19.) Ac yr oedd hyn yn ddefnydd gwledd i ffydd y credinwyr, trwy gyfranogi o fendithion aberth Iesu yn gymhwysiadol atynt eu hunain; † y rhai nid oedd ryddid, awdurdod, na hawl i gyfranogi o honynt, gan y rhai oedd o hyd yn glŷnu wrth, ac yn byw yn, nghyflawniadau allanol a chysgodol y tabernacl Iuddewig, i wneyd iawn dros bechod; neu y rhai, trwy gyflawni swydd offeiriadaeth Lefi, oeddynt yn gwasanaethu yn y tabernacl i'r dyben hyny. Nid oedd ganddynt hwy ddim mwy o awdurdod i wledda ar yr aberth hwn o eiddo Crist, nag oedd gan yr offeiriaid eu hunain gynt, i fwyta o un ran o'r offrwm dros bechod, yr hwn oedd i gael ei losgi yn hollawl mewn tân. Lefit. 6. 30.—Wrth yr *allor* yn yr adnod hon, efallai, y meddylir bwrdd a sacrament swper yr Arglwydd hefyd, fel coffadwriaeth o aberth Crist.

11 [c] * Canys cyrph yr anifeiliaid hynny, † y rhai y dygir eu gwaed gan yr arch-offeiriad i'r cyssegr dros bechod, ‡ a losgir y tu allan i'r gwersyll.

c Ex. 29. 14. Lef. 4. 5—7, 12, 16—21. a 6. 30. a 9. 9, 11. a 16. 14—19, 27. Num. 19. 3.

* Oblegid yn ol trefn Duw dàn y ddeddf, mewn perthynas i gyrph yr anifeiliaid hyny, yn enwedig y teirw a'r geifr yn offrymau dros bechod, (pen. 10. 4—6.) † y rhai y dygid eu gwaed gan yr arch-offeiriad i'r cyssegr Sancteiddiolaf ar ddydd mawr y cymmod; ‡ gorchymynai Efe losgi cyrph yr aberthau hyny, yn nghyd â'u crwyn a'u biswail, a'u llwyr ddifa hwynt oll yn tân, mewn rhyw le y tu allan i derfynau gwersyll Israel. (Lefit. 16. 27.) Ac felly ni chaniatêid i'r offeiriaid eu hunain i fwyta o'r aberthau cymmodawl hyny, y rhai oedd yn gysgodau mwyaf arbenig o aberth mawr cymmodawl Iesu, yr hwn a offrymodd efe pan "lwyr brynodd ei bobl oddi wrth felltith y ddeddf, gan ei wneuthur yn felltith drostynt;" (Galat. 3. 13.) ac â gwaed yr hwn yr aeth efe unwaith i mewn i'r cyssegr, gan gael i ni dragywyddol ryddâd. (pen. 9. 12.) Yr oedd hyn yn dangos yn eglur yn meddwl yr apostol, nad oedd dim gwasanaeth seremonïol a allai wneyd neb yn gyfranog o aberth Crist, yr hwn a gysgodid gan yr aberthau hyny, y rhai ni chaniatêid i'r offeiriaid nâ'r bobl fwyta o honynt dàn y ddeddf.—"Y rhai y *dygir* eu gwaed:" wrth fod y gair *dygir* yn yr amser *presenol,*

mae yn amlwg fod y deml a'i gwasanaeth yn sefyll, pan oedd yr apostol yn ysgrifenu yr epistol hwn: pe amgen, *dygid* a ddywedasai.

12 * O herwydd paham † Iesu hefyd, [d] fel y sancteiddiai y bobl trwy ei waed ei hun, [e] ‡ a ddioddefodd ‖ y tu allan i'r porth.

d pen. 2. 11. a 9. 13, 14, 18, 19. a 10. 29. Ioan 17. 19. a 19. 34. 1 Cor. 6. 11. Eph. 5. 26. 1 Ioan 5. 6—8. e Lef. 24. 23. Num. 15. 36. Jos. 7. 24. Marc 15. 20—24. Ioan 19. 17, 18. Act. 7. 58.

* O herwydd paham, fel y byddai y sylwedd yn ateb i'r cysgod, ac hefyd yn ateb y dyben er iachawdwriaeth; † Iesu hefyd, fel y neilldiai ac y cyssegrai efe ei bobl i Dduw, i fod yn offeiriadaeth ysbrydol, trwy dywalltiad ei waed ei hun fel pech-aberth drostynt hwy, cyn ei fyned â'r gwaed hwnw drostynt i'r cyssegr nefol; ‡ a ddyoddefodd angau poenus ar y groes, ‖ nid o fewn i amgylchoedd y deml, nac o fewn y ddinas sanctaidd chwaith; ond y tu allan i'r porth ar fynydd Calfaria. Fel hyn bwriwyd ef megys allan o'r gwersyll fel un dàn felltith; fel yr ymddangosai yn wir offrwm dros bechod, o'r hwn yr oedd yr holl offrymau dros bechod gynt yn gysgodau. Wrth *sancteiddio y bobl* yma yr ydym i ddeall, nid eu *sancteiddiad tumewnol* hwynt trwy yr Ysbryd, er bod hyny hefyd trwy waed Crist; ond eu sancteiddio hwynt mewn ystyr *aberthawol*, i'w puro oddi wrth euogrwydd pechod, a'u cyssegru i Dduw; megys y sylwyd uchod, ac fel mae y gair sancteiddio i'w ddeall yn aml yn yr epistol hwn.

13 * Am hynny [f] awn atto ef o'r tu allan i'r gwersyll, † gan ddwyn ei waradwydd ef.

f pen. 11. 26. a 12. 3. Mat. 5. 11. a 10. 24, 25. a 16. 24. a 27. 32, 39—44. Luc 6. 22. Act. 5. 41. 1 Cor. 4. 10—13. 2 Cor. 12. 10. 1 Pedr 4. 4, 14—16.

* Am hyny yr oedd yn angenrheidiol i'r credinwyr yn Nghrist, ymwrthod â phob ymddybyniad ar yr aberthau seremoniol, a holl wasanaeth y cyssegr Iuddewig; a dyfod ato ef, a'i ganlyn trwy ffydd, y tu allan i'r gwersyll hwnw. Felly hefyd mae yn ddyled ar Gristionogion eto, i ddyfod ato ef a'i ganlyn, megys y tu allan i wersyll terfysglyd a helynt-fawr y byd hwn. † Dylent hefyd fod yn wir ewyllysgar, i ddwyn pob gwaradwydd a deflid arnynt er ei fwyn ef; ac ymostwng i gymmeryd eu hesgymmuno a'u gwarthruddu gan yr offeiriaid a'r ysgrifenyddion erlidgar; myned ar ol Crist allan o wersyll Israel, a dyoddef pob anfri er ei fwyn, ac yn ol ei esampl ef.

14 [g] * Canys nid oes i ni yma ddinas barhâus, † eithr un i ddyfod yr ŷm ni yn ei disgwyl.

g pen. 4. 9. a 11. 9, 10, 12—16. a 12. 22. 1 Cor. 7. 29. 2 Cor. 4. 17, 18. a 5. 1—8. Phil. 3. 20. Col. 3. 1—3. 1 Pedr 4. 7. 2 Pedr 3. 13, 14.

* Ac ni ddylent hwy gilio oddi wrth unrhyw galedi yn ei achos ef; hyd yn nôd os gyrid hwy ymaith o'u tai, eu meddiannau, a'u dinasoedd, i fod yn alltudion ac yn grwydriaid; neu os cauid hwynt i fynu mewn carcharau: oblegid gan nad oeddynt ond megys dieithriaid a phererinion, nid oedd iddynt ddinas barâus ar y ddaear, na dim preswylfa lonydd iawn, hyd yn nôd yn yr amserau mwyaf tawel a heddychol: † ond yr oeddynt yn dysgwyl un i ddyfod, sef y nef ei hun; yr hon a fyddai iddynt yn breswylfa lonydd, yn ddinas barâus, ac o'r hon nis gellid eu cauad allan ond am ychydig yn hwy. *Dinas barâus:* efallai bod yma gyfeiriad at ddinas Jerusalem, yr hon er i'r Iuddewon ddysgwyl am dani pan oeddynt yn ymdaith yn yr anialwch, a chael preswylio yn hir ynddi gwedi hyny; eto, yr oedd y ddinas hono yn awr i gael ei dystrywio yn fuan, yn nghyd â holl gorph ei sefydliadau a'i breintiau gwladol ac eglwysig; ac felly yr oedd yn gysgod-lun addas, o agwedd gyfnewidiol, ansafadwy, a darfodedig y byd hwn, a phob peth ynddo.

15 [h] * Trwyddo ef gan hynny offrymmwn [i] aberth moliant yn wastadol i Dduw, [k] † yr hyn yw ffrwyth *ein* gwefusau, yn cyffesu i'w enw ef.

h pen. 7. 25. Ioan 10. 9. a 14. 6. Eph. 2. 18. Col. 3. 17. 1 Pedr 2. 5. i Lef. 7. 12. 2 Cron. 7. 6. a 29. 31. a 33. 16. Ezra 3. 11. Neh. 12. 40, 43. Salm 50. 14, 23. a 69. 30, 31. a 107. 21, 22. a 116. 17—19. a 118. 19. a 136. 1, &c. a 145. 1, &c. Es. 12. 1, 2. Eph. 5. 19, 20. Col. 1. 12. a 3. 16. 1 Pedr 4. 11. Dat. 4. 8—11. a 5. 9—14. a 7. 9—12. a 19. 1—6. k Gen. 4. 3, 4. Hos. 14. 2. Rhuf. 6. 19. a 12. 1.

* Nid oedd achos i'r Hebreaid wrth aberthau yn y byd mwyach, ond aberth Crist: gan hyny, wrth fyw trwy ffydd arno ef, gallent daflu ymaith yr holl aberthau seremoniol, ac offrymu, yn mhell oddi wrth y deml, aberthau mwy cymmeradwy nag offrymau poeth nac aberthau hedd. Hyny oedd, aberth moliant gwastadol i Dduw, am ei drugaredd a'i iachawdwriaeth fawr; yn cael ei offrymu trwy gyfryngdod Iesu, yr Arch-offeiriad mawr a gogoneddus, oedd yn awr yn ymddangos drostynt ger bron Duw. † Byddai y ffrwyth hyn o'u gwefusau, yn cael ei offrwm o'r galon a thrwy Grist, yn fwy boddâol ac anrhydeddus gan Dduw, nâ blaenffrwyth y ddaear, ac nâ blaen-ffrwyth eu hanifeiliaid, at yr hyn mae cyfeiriad yn y geiriau hyn. Gwel Hos. 14. 2, lle y gelwir yr un peth yn *lloi y gwefusau.*

16 * Ond [l] gwneuthur daioni, [m] † a chyfrannu, nac anghofiwch: [n] ‡ canys â chyfryw ebyrth y rhyngir bodd Duw.

l adn. 1, 2. Salm 37. 3. Mat. 25. 35—40. Luc 6. 35, 36. Act. 9. 36. a 10. 38. Gal. 6. 10. 1 Thes. 5. 15. 2 Thes. 3. 13. 3 Ioan 11. m Luc 18. 22. Rhuf. 12. 13. 2 Cor. 9. 13. Gal. 6. 6. Eph. 4. 28. Phil. 4. 14. 1 Tim. 6. 18. Philemon 6. n pen. 6. 10. Salm 51. 19. Mica 6. 7, 8. Phil. 4. 18.

* Ond ar yr un pryd ni ddylent anghofio, nac esgeuluso, gwneuthur daioni i'w brodyr angenus, ac eraill mewn caledi: † trwy gyfranu o'u helusenau iddynt yn ol eu gallu: ‡ canys â chyfryw ebyrth, pan offrymid hwynt oddi ar egwyddor o ffydd a chariad, y rhyngid bodd Duw; am eu bod yn ddangosiadau addas o'u diolchgarwch hwy iddo ef, yn anrhydeddus i'r efengyl, yn llesol i ddynolryw, ac yn ffrwythau ei ras ef yn eu calonau hwynt. Gwel ar Phil. 4. 18.

17 [o] * Ufuddhêwch i'ch blaenoriaid, [p] ac ymddarostyngwch: † oblegid y maent hwy yn [q] gwylio dros eich eneidiau chwi, ‡ megis rhai a fydd rhaid iddynt [r] roddi cyfrif: ‖ fel y gallont wneuthur hynny [s] yn llawen, [t] ac nid yn drist: § canys difudd i chwi *yw* hynny.

o Gwel ar adn. 7.—1 Sam. 8. 19. a 15. 19, 20. Diar. 5. 13. Phil. 2. 12, 29. 1 Thes. 5. 12. 2 Thes. 3. 14. 1 Tim. 5. 17. p Gen. 16. 9. 1 Cor. 16. 16. Eph. 5. 21. Iago 4. 7. 1 Pedr 5. 5. q Ezec. 3. 17—21. a 33. 7—9. Act. 20. 24—26. 1 Cor. 4. 1, 2. 1 Pedr 5. 2, 3. r Luc 16. 2. Rhuf. 14. 12. 2 Cor. 5. 10, 11. s Phil. 1. 4. a 2. 16. a 4. 1. 1 Thes. 2. 19, 20. a 3. 9, 10. t Ex. 32. 31. Jer. 13. 17. Phil. 3. 18.

* Gwedi eu hannog hwynt o'r blaen i "feddwl am eu blaenoriaid" trancedig, &c. (adn. 7.) mae yr apostol yma yn eu hannog hwy hefyd i "ufuddâu i'w blaenoriaid" presenol; y rhai oedd yn eu dysgu, yn eu tywys, ac yn eu llywodraethu yn yr Arglwydd; ac i ymostwng i'w haddysgiadau, eu cyngorion, a'u ceryddon hwynt, fel rhai yn eu trin hwy gydag awdurdod ysbrydol, wedi ei dderbyn oddi wrth yr Arglwydd Iesu. † Oblegid yr oedd y cyfryw flaenoriaid wedi eu gosod gan Grist, i wylied dros eu heneidiau hwy; i'w gwarchod a'u rhyddhau hwy rhag y pechodau a'r cyfeiliornadau hyny, a fyddai yn niweidiol i'w heneidiau. ‡ Yr oeddynt yn cyflawni y gwaith pwysig ac anhawdd hwnw, fel dynion yn ystyried y byddai raid iddynt roddi cyfrif am eu holl ymddygiad, iddo ef yr hwn a'u gosododd yn y flaenoriaeth: felly nis gallent hwy waredu eu heneidiau eu hunain, heb ofal mawr, gwyliadwriaeth, diwydrwydd, ffyddlondeb, ac ymddygiad diduedd, yr hyn yn aml a roddai orfod arnynt i anfoddloni dynion. ‖ Am hyny dylai y bobl ufuddâu i air Duw a leferid ganddynt hwy, ac ymostwng i awdurdod Duw a arferid drwyddynt ac ynddynt hwy; fel y gallent roddi eu cyfrif i fynu yn llawen, wedi bod yn llwyddiannus yn

eu llafur; ac nid mewn tristwch a gofid calon, o herwydd ymddygiad anhywaith y rhai y llafuriasent yn eu holith; § yr hyn ni byddai o fudd i'r rhai hyny a barasent dristwch a gofid i'w bugeiliaid ffyddlawn, eithr iniwed annhraethol a fyddai iddynt.—*Rhoddi cyfrif:* rhaid fod hyn yn cyfeirio yn benaf at y cyfrif a roddir ger bron yr Arglwydd, megys o ddydd i ddydd, gan weinidogion yr efengyl, pa dderbyniad mae eu cenadwri hwy yn gael gan ddynion: oblegid nid oes dim o ymddygiadau drwg y bobl a all beri tristwch i weinidogion ffyddlawn Crist, yn nydd y cyfrif mawr diweddaf; ser y bydd iachawdwriaeth y bobl iddynt hwy yn goron gorfoledd yn y dydd hwnw. (Gwel ar 2 Cor. 2. 14—17; 1 Thes. 2. 19.) Mae yn y cyngor uchod dybiaeth o *ffyddlondeb* gweinidogion a blaenoriaid eglwysig, ac eu bod yn defnyddio awdurdod *ysgrythyrol* mewn modd addas; oblegid nis gall dim ufudd-dod nac ymostyngiad fod yn ddyledus, i dra-arglwyddiaeth ormesawl yr "eilun-bugeiliaid," y "goruchwylwyr anffyddlawn," a'r "tywysogion deillion." I lywodraethwyr ac uchafiaid eraill, mae anrhydedd yn ofynol *er enwyn eu swydd;* ond i weinidogion *er mwyn eu gwaith yn unig.* Clywch hyn, yr holl bobl!

18 [u] * Gweddïwch drosom ni; † canys yr ydym yn credu [x] fod gennym gydwybod dda, ‡ gan ewyllysio byw yn onest ym mhob peth.

u Rhuf. 15. 30. Eph. 6. 19, 20. Col. 4. 3. 1 Thes. 5. 25. 2 Thes. 3. 1. x Act. 23. 1. a 24. 16. 2 Cor. 1. 12. 1 Tim. 1. 5. 1 Pedr 3. 16, 21. y Rhuf. 12. 17. a 13. 13. Phil. 4. 8. 1 Thes. 4. 12. 1 Pedr 2. 12.

* Mae yn bur amlwg wrth yr adnod hon a'r nesaf, y gwyddai yr Hebreaid, at y rhai y danfonwyd yr epistol hwn gyntaf, oddi wrth bwy yr oedd yn dyfod. Dymunai yr apostol arnynt weddïo drosto ef a'i gyd-lafurwyr, yn gystal a thros eu gweinidogion eu hunain; † oblegid yna fodd bynag y cam-gyhuddwyd ac y drwg-dybiwyd ef gan ei genedl, a pha fodd bynag y gweithiwyd rhagfarn yn ei erbyn ef yn meddyliau llawer o'i frodyr yr Hebreaid hyn; yr oedd ef er hyny yn credu ac yn hyderu fod ganddo gydwybod dda, dyner, a chwedi ei hiawn oleuo, fel yr oedd yn dda ac yn dawel hefyd rhyngddo â Duw: ‡ ac yr oedd efe yn ewyllysio ac yn ymgais am fyw yn onest, yn uniawn, ac mewn modd gweddus, yn mhob peth, ac yn mhlith pawb dynion; fel dyn, fel cristion, ac fel gweinidog yr efengyl sanctaidd, er bod hyny yn annhawdd yn aml.

19 * Ond yr ydwyf yn helaethach yn dymuno gwneuthur o honoch hyn, [z] i gael fy rhoddi i chwi drachefn yn gynt.

z Rhuf. 1. 10—12. a 15. 31, 32. Philemon 22.

* Gan hyny yr oedd efe yn dymuno eu gweddïau hwy am ei ddïogelwch ef, ei ddyddanwch, a'i lwyddiant: ond yn benaf yn y fân hon, am i ragluniaeth Duw drefnu pethau yn y fath fodd, fel y rhoddid ef iddynt hwy, ac y gallai ddyfod atynt, yn gynt. Oblegid yr oedd yn sicr ganddo y byddai yn dda gan Iawer o honynt ei weled ef; ac yr oedd yntau yn bwriadu dyfod, càn gynted ag y caffai ei lwyr ryddâu, a chael cyfle, er maint yr hyn oll a ddyoddefasai efe mewn canlyniad i'w daith ddiweddaf i Jerusalem. Nid yw yn hysbys pa un a gyfdlawnodd efe y bwriad hwn a'i peidio.

20 [a] * A Duw yr heddwch, [b] † yr hwn a ddug drachefn oddi wrth y meirw ein Harglwydd Iesu, [c] ‡ Bugail mawr y defaid, ‖ trwy [d] waed y [e] cyfammod tragywyddol,

a Rhuf. 15. 33. a 16. 20. 1 Cor. 14. 33. 2 Cor. 13. 11. Phil. 4. 9. 1 Thes. 5. 13. 2 Thes. 3. 16. b Act. 2. 24, 32. a 3. 15. a 4. 10. a 5. 30. a 10: 40, 41. a 13. 30. a 17. 31. Rhuf. 1. 4. a 4. 24, 25. a 8. 11. 1 Cor. 6. 14. a 15. 15. Gal. 1. 1. Eph. 1. 20. Col. 2. 12. 1 Thes. 1. 10. c Salm 23. 1. a 80. 1. Es. 40. 11. a 63. 11. Ezec. 34. 23. a 37. 24. Ioan 10. 11, 14. 1 Pedr 2. 25. a 5. 4. d Gwel ar pen. 9. 20.—Ex. 24. 8. Zec. 9. 11. Mat. 26. 28. Marc 14. 24. Luc 22. 20. e 2 Sam. 23. 5. 1 Cron. 16. 17. Es. 55. 3. a 61. 8. Jer. 32. 40. Ezec. 37. 26.

* Gwedi dymuno rhan yn ngweddïau yr Hebreaid drosto ef, mae yr apostol yn rhoddi iddynt grynodeb o'i erfyniau taerion yntau drostynt hwy. Mae yn cyfeirio ei weddi at Dduw, fel "Duw yr heddwch;" (enwad na ddefnyddir yn un màn ond yn epistolau Paul,) wedi ymheddychu â'r credinwyr, ac yn barod i ymheddychu â phob pechadur a ddêl ato ef yn edifeiriol, am heddwch yn y ffordd a drefnodd efe: mae efe hefyd yn Awdwr heddwch ysbrydol, ¦ tufewnol, a mwynâol, yn nghalonau a chydwybodau ei bobl; ac yn caru heddwch a chyd-gordiad yn yr eglwys, ac yn mhlith dynolryw. † Efe yn nhrefn iachawdwriaeth, fel Arglwydd, Barnwr, a Deddfwr, i ofyn a derbyn yr iawn dyledus am ein pechodau ni; a gyfododd drachefn oddi wrth y meirw gorph ein Harglwydd Iesu: nid yn unig trwy weithrediad ei allu dwyfol, ond hefyd trwy weithred o'i orychaf awdurdod; a'i rhyddâodd ef yn gyfreithlawn mewn ffordd farnedigol, fel ein Cynnrychiolwr a'n Machnïydd ni; ac felly a'i cymmerodd ef o garchar, ac o farn, ac a'i hadgyfododd ef er ein cyfiawnâd ni. ‡ Hyn a wnaeth efe er dangos ei hollawl gymmeradwyaeth a'i dderbyniad o'r hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd Iesu yn lle a thros ei bobl; yr hwn yn ei berson a'i swydd gyfryngol, a elwir mewn ffordd o enwogrwydd, mawredd a phriodoldeb, yn Fugail mawr y defaid: ïe, yn Ben Bugail y praidd dewisedig, y rhai a roddes y Tad iddo ef i'w prynu, ac i ofalu am danynt yn ngweinyddiad ei holl swyddau, fel Prophwyd, Arch-offeiriad, a Brenin; i'w dwyn hwynt i'w gorlan yma, i'w porthi, eu harwain, eu llywodraethu, eu cadw rhag pob niwed a gelynion, ac yn y diwedd eu dwyn hwy oll yn ddïogel i ogoniant. ‖ Mae hyn oll yn cael ei gyflawni trwy ei waed ef, yr hwn a dywalltodd efe i heddychu ei bobl â Duw; yr hwn am iddo wneyd hyn, a'i cyfododd ef o feirw, ac a roes bob awdurdod yn ei law ef, fel y rhoddai efe fywyd tragywyddol i bawb a gredant ynddo, yn ol y cyfammod a sicrâodd efe â'i waed; yr hwn sydd gyfammod tragywyddol o ran ei wneuthuriad bore, ac o ran ei barâd diddiwedd, ac nid fel cyfammod Sinai i heneiddio a darfod.—*Trwy waed y cyfammod tragywyddol:* mae ansicrwydd am gyssylltiad y geiriau hyn: tybia rhai eu bod yn cyfeirio at waith Duw yn dwyn Crist oddi wrth y meirw, yn ol y *cytundeb*, neu y *cyfammod*, a seliwyd trwy ei *waed* ef. Tybia eraill eu bod yn cyfeirio at y geiriau yn union o'u blaen, sef *Bugail mawr y defaid*, yr hyn y gosodwyd Crist i fod, *trwy waed y cyfammod tragywyddol.* Tybia eraill eu bod yn perthyn i eiriau blaenaf yr adnod, *Duw yr heddwch:* sef Duw yr heddwch â phechaduriaid *trwy waed y cyfammod tragywyddol.* Gellir eu cyssylltu hwy eto â dechreu yr adnod nesaf, fel hyn;—"A Duw yr heddwch—trwy waed y cyfammod tragywyddol, a'ch perffeithio, &c.;" neu, a'ch perffeithio trwy waed y cyfammod tragywyddol. Mae yn sicr y gellir cyssylltu y geiriau yn y pedair ffordd a enwyd; oblegid *trwy waed y cyfammod tragywyddol* y bu, ac y mae, pob un o'r pethau uchod.

21 [f] * A'ch perffeithio [g] ym mhob gweithred dda, [h] i wneuthur ei ewyllys ef; † gan weithio ynoch yr hyn sydd [i] gymmeradwy yn ei olwg ef, [k] trwy Iesu Grist: [l] ‡ i'r hwn *y byddo* y gogoniant yn oes oesoedd. [m] Amen.

f pen. 12. 23. Deut. 32. 4. Salm 138. 8. Ioan 17. 23. Eph. 3. 16—19. Col. 1. 9—12. a 4. 12. 1 Thes. 3. 13. a 5. 23. 1 Pedr 5. 10. g 2 Cor. 9. 8. Eph. 2. 10. Phil. 1. 11. 2 Thes. 2. 17. 1 Tim. 5. 10. h pen. 10. 36. Mat. 7. 21. a 12. 50. a 21. 31. Ioan 7. 17. Rhuf. 12. 2. 1 Thes. 4. 3. 1 Pedr 4. 2. 1 Ioan 2. 17. i adn. 16. Rhuf. 12. 1. a 14. 17, 18. Phil. 4. 18. Col. 3. 20. 1 Ioan 3. 22. k Ioan 16. 23, 24. Eph. 2. 18. Phil. 1. 11. a 4. 13. Col. 3. 17. 1 Pedr 2. 5. 1 Salm 72. 18, 19. Rhuf. 16. 27. Gal. 1. 5. Phil. 2. 11. 1 Tim. 1. 17. a 6. 16. 2 Tim. 4. 18. 1 Pedr 5. 11. 2 Pedr 3. 18. Judas 25. Dat. 1. 6. a 5. 9—13. m Gwel ar Mat. 6. 13. a 28. 20.

* Ymbiliai yr apostol yn daer ar "Dduw yr heddwch," trwy gyfryngdod y "Bugail mawr," ac ar gyfrif "gwaed y cyfammod," am iddo berffeithio yr Hebreaid yn mhob gweithred dda, i wneuthur ei ewyllys ef; i adferu a diwygio holl annhrefn eu heneidiau hwynt, a'u cym-

hwyso hwy yn berffaith i bob rhan o'i wasanaeth sanctaidd ef: † gan weithio ynddynt trwy oruchwyliaethau ei Ysbryd a'i ras, ewyllysio a gweithredu yr hyn oedd gymmeradwy yn ei olwg ef; yr hyn oedd yn ol ei ddeddf a'i ddelw ef, ac er ei ogoniant ef, ac felly yn gymmeradwy ganddo ef trwy Iesu Grist: ‡ i'r hwn, sef i Iesu Grist, Bugail mawr y defaid, ac i Dduw yr heddwch trwyddo ef, (adn. 15.) y byddo y gogoniant, yr anrhydedd, a phob addoliad, yn ddiddiwedd, ac yn oes oesoedd; Amen: felly bydded, ac felly y bydd byth.—*A'ch perffeithio: (katartisai)* iawn gyssylltu, a gosod mewn trefn, bethau ag oedd o'r blaen yn anmharus, ac allan o drefn. *Yr hwn y byddo gogoniant:* nid hawdd yw penderfynu i ba un o'r Personau dwyfol y rhoddai yr apostol y molair *(doxology)* hwn: ai i *Dduw yr heddwch*, ar yr hwn y gweddïai; ai ynte i *Iesu Grist*, yr hwn yn olaf a enwai. Pa fodd bynag, gan fod y cyffelyb fawl-wers yn cael ei rhoddi weithiau i'r *Tad*, ac weithiau i *Grist*, mewn mànau eraill; rhoddwyd pob un i mewn yn y sylwad uchod: ac mae y Personau dwyfol oll yn deilwng o'r gogoniant.

22 * Ac yr ydwyf yn attolwg i chwi, frodyr, [n] † goddefwch air y cynghor: [o] ‡ oblegid ar fyr eiriau yr ysgrifenais attoch.

n adn. 1—3, 12—16. pen. 2. 1. a 3. 1, 12, 13. a 4. 1, 11. a 6. 11, 12. a 10. 19—39. a 12. 1, 2, 12—16, 25—28. 2 Cor 5. 20. a 6. 1. a 9. 1. Philemon 8, 9. o Gal. 6. 11. 1 Pedr 5. 12.

* Gan nad oedd yr apostol wedi ei osod yn uniongyrchol ar yr Hebreaid, a chan nad oedd yn dewis llefaru wrthynt hwy mewn dull awdurdodol; mae efe yma yn attolwg arnynt, fel brodyr o ran cenedl, ond yn benaf fel brodyr cristionogol yn yr efengyl yn awr; † ar iddynt dderbyn gair y cyngor, sef pob peth a ysgrifenodd efe atynt yn yr epistol hwn, yn ddiragfarn, ac mewn ysbryd cariad ac addfwynder; gan gredu mai mewn cariad atynt, ac er lles i'w heneidiau, yr ysgrifenodd ef atynt: ‡ oblegid ar fyr eiriau yr ysgrifenodd efe y llythyr hwn atynt, mewn cymhariaeth i bwys dirfawr, ac amrywiaeth aml, y pethau a drinir ganddo: gallasai helaethu llawer, o ran mawredd y pethau, ac o ran helaethrwydd ei gariad yntau at yr Hebreaid.

23 * Gwybyddwch ollwng [p] *ein* brawd Timothëus [q] yn rhydd; † gyd â'r hwn, os daw efe ar fyrder, [r] yr ymwelaf â chwi.

p Gwel ar Act. 16. 1—3.—1 Thes. 3. 2. Philemon 1. q 1 Tim. 6. 12. 2 Tim. 1. 8. Dat. 7. 14. r Rhuf. 15. 25, 28. Philemon 22.

* Mae yn debyg wrth hyn i Timothëus fod yn y carchar am bregethu yr efengyl, efallai gyda'r apostol yn Rhufain; yr hyn a wyddai yr Hebreaid o'r blaen, ond ni wyddent ei fod ef yn awr wedi ei ollwng yn rhydd, nes iddo ef hysbysu hyny iddynt yma. Mae yn bur amlwg wrth yr hysbysiad hyn, mai anghywir yw yr ol-ysgrifen, ar ddiwedd yr epistol hwn; yr hon a ddywed mai "gyda Timothëus" y danfonwyd ef: oblegid os gydag ef y danfonwyd, pa raid oedd dywedyd, "Gwybyddwch ollwng ein brawd Timothëus yn rhydd?" † Mae yn debyg wrth hyn bod yr apostol ei hun hefyd wedi ei ollwng yn rhydd, neu ynte fod ganddo sicrwydd am ei ryddâd yn fuan: ac os dychwelai Timothëus ato ef ar fyrder, o ryw fàn lle yr oedd wedi myned i bregethu; bwriadai yr apostol ddyfod gydag ef i ymweled â'r Hebreaid. Nid oes sicrwydd a ganiatâodd rhagluniaeth i'r un o'r ddau gyflawni y bwriad hwn: mae ein hamserau a'n holl ffyrdd yn llaw yr Arglwydd ac yn eiddo ef, i'w trefnu fel y mỳno ei hun.

24 [s] * Anherchwch eich holl [t] flaenoriaid, [u] † a'r holl saint. [x] ‡ Y mae y rhai o'r [y] Ital yn eich annerch.

s Gwel ar Rhuf. 16. 1—16. t Gwel ar adn. 7, 17. u 2 Cor. 1. 1. a 13. 13. Phil. 1. 1. a 4. 22. Col. 1. 2. Philemon 5. x Gwel ar Rhuf. 16. 21—23. y Act. 18. 2. a 27. 1.

* Hyd oni allai efe ddyfod atynt yn ol y bwriad uchod, mae yn dymuno ar y neb y deuai yr epistol hwn i'w dwylo, ei anerch ef mewn cariad a serchawgrwydd cristionogol; yn gyntaf at eu holl flaenoriaid eglwysig, y rhai oedd wedi eu gosod arnynt hwy yn yr Arglwydd; † ac yn nesaf at eu holl frodyr cristionogol, y rhai o ran proffes ac ymarweddiad addas, a gyfrifid mewn barn cariad yn saint gwirioneddol a diragrith. ‡ Ac hefyd yr oedd y cyfryw saint a dynion duwiol ag oedd gydag ef yn Rhufain, ac mewn mànau eraill o'r Ital, yn danfon eu hanerchion cristionogol drwyddo ef atynt hwythau.—*Eich holl flaenoriaid, a'r holl saint:* mae gweinidogion yr eglwys yn cael eu gwahaniaethu fel hyn yn amlwg oddi wrth y bobl; ond rhaid caniatâu nad oes dim gwahaniaeth rhwng y gweinidogion eu hunain yn cael ei arwyddo. Mae yn debyg fod Iago yn fyw y pryd hwnw; ac mai efe yn benaf, er nad efe yn unig, a feddyliai yr apostol.—Gwedi i'r Hebreaid ddarllen y rhan athrawiaethol o'r epistol hwn, heb y rhagfarn a fuasai yn cael ei grëu ynddynt, pe buasai enw yr apostol wrtho *yn ei ddechreu;* byddai y crybwylliadau yn adn. 23, a'r anerchion brawdol yn yr adnod hon, yn debyg o gael effaith dda arnynt, i attal eu rhagfarn *ar ol* deall pwy a'i hysgrifenodd.

25 [z] * Gras *fyddo* gyd â chwi oll. † Amen.

z Gwel ar Rhuf. 1. 7. a 16. 20, 24.—Eph. 6. 24. 2 Tim. 4. 22. Dat. 22. 21.

* I ddybenu gyda'i fendith-wers arferol, yn niwedd ei epistolau oll, mae yr apostol yn dymuno am i bob gras Duw, trwy yr Arglwydd Iesu Grist, ac o gyfraniad yr Ysbryd Glân, fod gyda hwynt oll yn helaeth; er eu ffrwythlondeb, eu cysur, a'u diogelwch parâus hyd y diwedd: † ac yn y dymuniad a'r gobaith o hyn, mae yn dywedyd, Amen: felly bydded, medd efe, â'i holl enaid.

¶ At yr Hebreaid yr ysgrifenwyd o'r Ital, gyd â Timothëus.

IAGO YR APOSTOL.

PEN. I.

Cyngor i lawenychu mewn blinder.

1 * IAGO, [b] † gwasanaethwr Duw a'r Arglwydd Iesu Grist, [c] ‡ at y deuddeg llwyth sydd ar [d] wasgar, [e] || annerch.

a Mat. 10. 3. a 13. 55. Marc 3. 18. Luc 6. 15. Act. 1. 13. a 12. 25. a 15. 13. a 21. 18. Gal. 1. 19. a 2. 9, 12. Judas 1. b Ioan 7. 26. Rhuf. 1. 1. Phil. 1. 1. Tit. 1. 1. 2 Pedr 1. 1. c Ex. 24. 4. 1 Dat. 28. 21. a 39. 14. 1 Bren. 18. 31. Ezra 6. 17. Mat. 19. 28. Act. 26. 7. 1 Dat. 7. 4. d Lef. 26. 33. Deut. 4. 27. a 28. 64. a 30. 3. a 32. 26. Esther 3. 8. Ezec. 12. 15. Ioan 7. 35. Act. 2. 5. a 8. 1. a 15. 41. 1 Pedr 1. 1. e Act. 15. 23. a 23. 26. 2 Tim. 4. 21.

* Yn mhlith yr apostolion yr ydym yn darllen am Iago, sef Iago mab Zebedëus, a brawd Ioan; a Iago mab Alphëus, neu Iago leiaf, a brawd Judas yr apostol. (Matth. 10. 2, 3; Judas, adn. 1.) Yn Act. 12. 2, darllenwn i Herod ladd Iago brawd Ioan â'r cleddyf; am hyny rhaid mai yr Iago mab Alphëus oedd hwn: oblegid yn mhell wedi y merthyrdod hyny yr ysgrifenwyd yr epistol hwn, sef tua'r flwyddyn 60, neu 61, fel y tybir, ychydig cyn dinystr ofnadwy Jerusalem. Nid oedd neb mae yn debyg yn mhlith yr Iuddewon cristionogol yn ammau apostoliaeth Iago; am hyny nid oedd raid iddo grybwyll hyny: digon ganddo ddywedyd "Gwasanaethwr Duw, a'r Arglwydd Iesu Grist;" neu, gwasanaethwr Duw, *sef* yr Arglwydd Iesu Grist: dywedy gellid cyfieithu y geiriau Groeg fel hyny. ‡ Mae ëe yn danfon y llythyr hwn at ddeuddeg llwyth Israel, rhai oedd o byd mewn bod, ond yn wasgaredig gan ymryw achlysuron, yn mhlith amryw genedloedd pellnig y ddaear, ond mae yn ei ddanfon yn benaf at y cristionogion yn eu plith hwynt. Yr oedd yr apostol ei ain gan mwyaf o'i amser yn Jerusalem, a thybir y yddai yn danfon ysgrifau *(copies)* o'r epistol hwn gyda'r rhai a ddeuent o bell i addoli yno, ar y gwyliau arbenig; ac fel hyny yn ei ddanfon at y dieithriaid oedd ar wasgar, megys y gwnâi Pedr hefyd ei epistolau cintau. (1 Pedr 1. 1.) || Ac wrth eu hanerch, mae yn ymuno iddynt bob bendith amserol a thragywyddol, er ead yw yn eu cyfarch â'r un fendith-wers ag a gair gan r apostolion eraill yn eu hepistolau; dim ond "anerch" yn unig, fel yn Act. 15. 23, yr hwn lythyr a sgrifenwyd gan yr un gŵr, mae yn dra thebygol.

2 [f] * Cyfrifwch yn bob llawenydd, fy nrodyr, pan syrthioch mewn [g] amryw brofedigaethau;

f adn. 12. Mat. 5. 10—12. Luc 6. 22, 23. Act. 5. 41. Rhuf. 8. 17, 18, 35—37. 2 Cor. 12. 9, 10. Phil. 1. 29. a 2. 17. Col. 1. 24. Heb. 10. 34. 1 Pedr 4. 13—16. g Heb. 11. 36—38. 1 Pedr 1. 6—8. 2 Pedr 2. 9. Dat. 2. 10.

* Profedigaethau yn achos yr efengyl, ac oddi wrth gynion yr efengyl, yn ddiau oedd y profedigaethau yn; ac nid profedigaethau bydol, cyffredin i bawb; a hai o lawer profedigaethau a dynent hwy arnynt eu hunain, trwy eu ffolineb a'u cam-ymddygiadau. Os dywyllys yr Arglwydd oedd, iddynt gael eu profi âg erlidgaethau yn achos yr efengyl, dylent gyfrif hyny yn llawenydd, ac yn *bob* llawenydd; am y byddai yn achlysur iddynt ddangos gwirionedd a grym eu cariad at Dduw, a thàn fendith Duw yn dra llesol i'w heneidiau, er fod y cyfryw bethau ynddynt eu hunain yn chwerw i natur am yr amser presenol. Gwel ar Act. 5. 41; a Rhuf. 5. 3.

3 * Gan wybod, [h] † fod profiad eich ffydd chwi ‡ yn gweithredu [i] amynedd.

h Rhuf. 5. 3, 4. a 8. 28. 2 Cor. 4. 17. i Rhuf. 2. 7. a 8. 25. a 15. 4. Col. 1. 11. 2 Thes. 1. 4. a 3. 5. Heb. 10. 36. a 12. 1. 2 Pedr 1. 6.

* Dylent "gyfrif yn bob llawenydd pan syrthient mewn amryw brofedigaethau," fel y sylwyd uchod, am y gallent wybod oddi wrth air Duw, ac oddi ar eu profiadau eu hunain, † fod y prawf *(trial)* o'u ffydd hwynt, trwy yr hyn y profid gwirionedd ei natur a'i grym hi, ‡ yn tueddu yn y pen draw i weithredu amynedd, ac arafwch tawel yn eu hysbryd a'u hymddygiadau hwynt; ac yn eu dwyn hwynt i agwedd ymostyngar, ymddiriedol, a dysgwyliedig ger bron Duw, yn nghyd âg addfwynder a diannwadalwch mewn gweithredoedd da. Gwel eto ar Rhuf. 5. 3, 4.—*Dokimion*, "profiad:" y *peth trwy ba un* y profir ffydd, neu y *weithred* o'i phrofi. *Dokimê* "profiad," yn Rhuf. 5. 4, y *prawf*, neu y *profiad*, sydd yn deilliaw o'r *weithred* o brofi. Mae cyfeiriad yn y ddau le at brofi metel trwy dân; a'r hyn y gwelir yn amlwg pa fath ydyw y fetel, trwy y prawf hwnw.

4 [k] * Ond caffed amynedd *ei* pherffaith waith; † fel y byddoch [l] berffaith a chyfan, [m] ‡ heb ddiffygio mewn dim.

k pen. 5. 7—11. Job 17. 9. Salm 37. 7. a 40. 1. Hab. 2. 3. Mat. 10. 22. Luc 8. 15. a 21. 19. Gal. 6. 9. l pen. 3. 2. Diar. 4. 18. Mat. 5. 48. Ioan 17. 23. 1 Cor. 2. 6. Phil. 3. 12—15. Col. 4. 12. 2 Tim. 3. 17. Heb. 13. 21. 1 Pedr 5. 10. 1 Ioan 4. 17, 18. m adn. 5. Mat. 19. 20. Marc 10. 21. Luc 18. 22. 2 Pedr 1. 9.

* Ond i'r dyben o gael y lles cyflawn o'u profedigaethau, yr oedd yn rhaid i amynedd gael ei pherffaith waith yn eu heneidiau; a dysgwyl yn ostyngedig, mewn ymorphwysiad ar addewidion Duw, ac mewn ufudd-dod i'w orchymynion ef, hyd oni welai efe yn dda eu gwaredu hwynt; heb gael eu temtio gan amledd, amrywiaeth, a pharâd eu dyoddefiadau, i arfer unrhyw foddion pechadurus er eu gwaredigaeth, ymollwng na blino yn eu dyledswyddau; nac ychwaith dangos dim grwgnachrwydd, anfoddlonrwydd, na gwàn-obaith, yn eu profedigaethau. † Fel hyn hwy a fyddent yn berffaith a chyflawn yn mhob rhan o'u cymmeriad cristionogol; ac yn mhob ystyriaeth yn gymhwys ac yn barod i ddyledswyddau eu gwahanol sefyllfâoedd; ‡ ac heb fod yn ddiffygiol o ddim, na diffygio mewn dim, a berthynai i'w dyledswyddau cristionogol a phob gweithredoedd da.

5 [n] * O bydd ar neb o honoch eisieu doethineb, [o] † gofyned gan Dduw, ‡ yr hwn sydd yn rhoi yn haelionus i bawb, [p] || ac heb ddannod; § a hi a roddir iddo ef.

n Ex. 31. 3, 6. a 36. 1—4. 1 Bren. 3. 7—9. Job 28. 12—28. Diar. 3. 5—7. a 9. 4—6. Jer. 1. 5, 7. 2 Cor. 2. 16. o adn. 17.

pen. 3. 17. a 5. 16. 1 Cron. 22. 12. 2 Cron. 1. 10. Diar. 2. 3—6. Es. 55. 6, 7. Jer. 29. 12, 13. Dan. 2. 18—22. Mat. 7. 7—11. Luc 11. 9—13. Ioan 4. 10. a 14. 13. a 15. 7. a 16. 23, 24. 1 Ioan 3. 22. a 5. 14, 15. p Mat. 11. 20. Marc 16. 14. Luc 15. 20—22.

* Yr oedd yn dra angenrheidiol cael doethineb mawr yn y profedigaethau uchod; i'w goddef hwynt, iawn ymddwyn ynddynt, a chael lles drwyddynt: gan hyny os oedd neb o honynt yn teimlo yr angen am dani, ac nas gallent o honynt eu hunain wahaniaethu rhwng gwirionedd a chyfeiliorni, neu wybod yn sicr pa fodd y dylent ymddwyn mewn gwahanol amgylchiadau; † cyngor yr apostol oedd, iddynt fyned yn union a'r achos at Dduw, a deisyf arno ef fod yn Addysgydd a Chyngorydd iddynt; a thrwy ddylanwadau ei Ysbryd, eu galluogi hwynt i ddeall, i gofio, ac i iawn ddefnyddio cyfarwyddiadau ei air sanctaidd ef; ac i ddilëu pob rhagfarnau a nwydau cnawdol, ag oedd yn tueddu i'w cam-arwain hwynt. ‡ Gallai y neb a fynai wneyd hyn yn hyderus; am fod yr Arglwydd bob amser yn barod i roddi yn haelionus, i bawb a ofynent ganddo, pwy bynag a fyddent; || ac nid oedd efe byth yn dannod i'r cyfryw ymbilwyr gostyngedig am ddoethineb, ynfydrwydd na phechadurusrwydd eu cam-ymddygiadau gynt; na dim o'u cam-syniadau a'u diffyg o ddoethineb. § Fel hyn byddai doethineb yn sicr o gael ei rhoddi i bawb a'i gofynent, yn gyfatebol i'w hangen, eu dyryswch, a'u dyledswyddau.

6 [q] * Eithr gofyned mewn ffydd, heb ammeu dim: [r] † canys yr hwn sydd yn ammeu, sydd gyffelyb i don y môr, a chwelir ac a deflir gan y gwynt.

q Mat. 21. 22. Marc 11. 22—24. 1 Tim. 2. 8. Heb. 11. 6. r Gen. 49. 4. Eph. 4. 14. Heb. 10. 23. a 13. 9. 2 Pedr 2. 17. Judas 12, 13.

* Ond mewn trefn i gael y fendith uchod, rhaid gofyn mewn ffydd; nid mewn geiriau yn unig, ac mewn ysbryd ammhëus, ond mewn ymorphwysiad cadarn ar Grist, ac ar ddoethineb, gallu, ffyddlondeb, a daioni Duw yndd o ef, am gyflawniad o'i addewidion; heb ammeu dim mewn perthynas iddynt trwy anghrediniaeth: † oblegid yr hwn ammheüai ac a betrusai am y pethau uchod yn ei farn a'i deimlad, ac a dueddai i wrando ar gyngorwyr cnawdol, neu a gloffai rhwng crefydd Crist a'r byd, a fyddai bob amser yn ansafadwy a chyfnewidiol; gan gael ei daflu o'r naill beth i'r llall, trwy bob cyfnewidiad o amgylchiadau, neu bob awel dysgeidiaeth: fel y mae tòn y môr yn cael ei chwalu a'i thaflu gan y gwynt; weithiau yn cyfodi yn uchel iawn, bryd arall yn soddi yn yr eigion; weithiau yn cael ei gyru yn mlaen, weithiau yn ymdaflu yn ol, mewn modd terfysglyd a berwedig gan y gwynt ystormus.

7 [s] * Canys na feddylied y dyn hwnnw † y derbyn efe ddim gan yr Arglwydd.

s pen. 4. 3. Diar. 15. 8. a 21. 27. Es. 1. 15. a 58. 3, 4.

* Y cyfryw broffeswyr ammhëus ac annwadal â hyn, y rhai oedd yn grefyddol iawn weithiau, ac yn oerllyd a digalon brydiau eraill; heb fod ganddynt grediniaeth arosawl a mwynâol o'r gwirionedd, nac ymorphwysiad parâus ar addewidion Duw; † nis gallai fod yr un sail dda gan y cyfryw ddynion, i ddysgwyl y derbynient hwy ddim gan yr Arglwydd: oblegid càn gynted ag y gweddïent hwy ar Dduw, dàn ryw iâs sydyn o boethder crefyddol, hwy a dröent yn y fàn at ryw gyngorion a dychymmygion eraill. Nid yw pob ammeu yn rhwystro gweddïau, ond yr ammeu hwnw sydd yn cauad allan ffydd.—*Pool.*

8 [t] * Gwr dau-ddyblyg ei feddwl † *sydd* anwastad yn ei holl ffyrdd.

t pen. 4. 8. 1 Bren. 18. 21. 2 Bren. 17. 33, 41. Es. 29. 13. Hos. 7. 8—11. a 10. 2. Mat. 6. 22, 24. 2 Pedr 2. 14. a 3. 16.

* Gŵr dau-ddyblyg ei feddwl, neu ddau-ddyblyg ei galon, (Salm 12. 2.) sydd yn ymranu rhwng gobaith â digalondid, neu rhwng Duw â serch llygredig y byd, yn gogwyddo yn awr un ffordd, ac yn y màn ffordd arall, yn debyg i'r rhai oedd yn cloffi rhwng dau feddwl yn nghylch y gwir Dduw a Baal; neu yr hwn a fyn *wasanaethu* Duw a Mammon; † mae y cyfryw ddyn yn ansafadwy yn ei grefydd, bob amser yn petruso, yn annwadal, ac yn ddyryslyd yn ei holl feddyliau, ei eiriau, a'i gyflawniadau crefyddol; ac fel hyny nid yw yn dwyn dim i ben, ac nis gall ddysgwyl llwyddo yn ei weddïau.—"Dau-ddyblyg ei feddwl:" *dipsychos:* un a dau enaid: arwydda yma un ansafadwy ac annwadal ei feddwl, rhŷ bryderus am bethau presenol i allu cyrhaedd pethau i ddyfod; a rhŷ ofalus am bethau i ddyfod, i allu dïogelu iddo ei hun y pethau presenol; yr hwn, trwy gael ei daflu draw ac yma yn ei farn am bethau, sydd o hyd yn newid ei feddwl: y mynyd presenol efe a rydd y cwbl i fynu am bethau tragywyddol, a'r mynyd nesaf efe a ymwrthyd â phob peth crefyddol er mwyn y byd a'r bywyd presenol. Fel hyn mae efe yn *anwastad* yn ei holl ffyrdd; fel peth nas gall sefyll yn ddïysgog, ond a deflir i lawr gyda'r cyfhyrddiad lleiaf: rhyw beth felly, medd *Scott*, yw ystyr y gair *akatastatos.*

9 [u] * Y brawd o radd isel † llawenyched [x] ‡ yn ei oruchafiaeth:

u pen. 2. 5, 6. Deut. 15. 7, 9, 11. Salm 62. 9. Diar. 17. 5. a 19. 1. Luc 1. 52. x pen. 2. 5. 1 Sam. 2. 8. Salm 113. 7, 8. Luc 9. 48. a 10. 20. Rhuf. 8. 17. 2 Cor. 6. 10. Phil. 3. 14. 1 Pedr 2. 9. 1 Ioan 3. 1—3. Dat. 2. 9. a 5. 9, 10. a 7. 9, 10.

* Ond i ddychwelyd at yr hyn a ddywedwyd am lawenychu mewn profedigaethau. (adn. 2.) Pob brawd yn Nghrist ag mae ganddo ffydd sefydlog ynddo ef, ac yn ngallu a gras Duw drwyddo ef, gall yn ddibetrus ddadleu holl addewidion ei gyfammod ef, ac ymorphwys yn ddïysgog arnynt. Yn yr ystyriaeth o hyn, pob brawd o radd isel, y gwir gristion, sydd yn dlawd ac yn drallodus yn ei amgylchiadau allanol, ni ddylai dristâu, ac ystyried ei hun yn annedwydd oblegid hyny; † ond i'r gwrthwyneb, efe a ddylai lawenychu a gorfoleddu; ymgysuro a chyfodi ei galon; ‡ am ei fod wedi ei ddderchafu i berthynas anrhydeddus â Christ, am ei fod yn gyffelyb iddo ef o ran ei sefyllfa allanol, ac am ei fod yn un o blant Duw, ac yn etifedd teyrnas nefoedd. *O radd isel:* dywedir fod y gair Groeg *(iapeinos)* yn arwyddo iselder amgylchiad, ac iselder meddwl hefyd, addas i'r amgylchiad isel hwnw.

10 * A'r cyfoethog, [y] yn ei ddarostyngiad: [z] † canys megis blodeuyn y glaswelltyn y diflanna efe.

y Es. 57. 15. a 66. 2. Mat. 5. 3. Phil. 3. 8. 1 Tim. 6. 17. z pen. 4. 14. Job 14. 2. Salm 37. 2, 35, 36. a 90. 5, 6. a 102. 11. a 103. 15. Es. 40. 6. Mat. 6. 30. 1 Cor. 7. 31. 1 Pedr 1. 24. 1 Ioan 2. 17.

* Ond y cristion cyfoethog, ni ddylai ymorfoleddu yn ei gyfoeth, nac mewn un modd ymddiried yn ei olud am ddedwyddwch: yn hytrach llawenyched a gorfoledded yn ei ddarostyngiad; sef yn ei fod wedi ei ddarostwng yn ei ysbryd a'i feddwl ei hun; wedi cael ei argyhoeddi o'i euogrwydd, ei halogrwydd, a'i drueni; ac felly wedi ei ddarostwng i bwyso fel dyn angenus ar drugaredd Duw, yr un modd â'r rhai tlotaf ac iselaf o'i frodyr. Llawenyched hwn am y cyfnewidiad grasol a wnaed ar ei feddwl balch ef, ac am y cyfoeth grasol a roddwyd iddo, anfeidrol well, a mwy parâus, na chyfoeth y byd hwn. Wrth *ddarostyngiad* y cyfoethog yn y fàn hon, tybia rhai mai ei ddarostyngiad trwy gael ei yspeilio o'i gyfoeth o herwydd ei grefydd, oedd yr apostol yn feddwl; ac ei fod yn ei annog i lawenychu yn hyny, yn hytrach na thristâu, yn gyffelyb fel y dywedir yn Heb. 10. 34: ond tybia ein Hawdwyr mai y golygiad cyntaf sydd oreu, a mwyaf cyferbyniol i *oruchafiaeth* y "brawd o radd isel," yn yr adnod o'r blaen. † Oblegid rhaid i bob mawredd a gwŷchder bydol ddiflanu yn fuan, fel mae y blodau gwŷchion a dyfant yn mysg y glas-wellt, yn diflanu yn gynt nâ'r glas-wellt, ac yn fwy diwerth a gwael nâ'r glas-wellt pan ddiflanont.

11 [a] * Canys cyfododd yr haul gyd â gwres, † a gwywodd y glas-welltyn, a'i flodeuyn a gwympodd, a thegwch ei bryd ef a goll-

dd: [b] ‡ felly hefyd y diflanna y cyfoethog yn
i ffyrdd.

a Es. 49. 4. Jona 4. 7, 8. Mat. 13. 6. Marc 4. 6. b pen. 5.
—7. Job 21. 24—30. Salm 37. 35, 36. a 49. 6—14. a 73. 18—20.
reg. 5. 15. Es. 28. 1, 4. a 40. 7, 8. Luc 12. 16—21. a 16. 19—25.
Cor. 7. 31. 1 Pedr 1. 4. a 5. 4.

* Oblegid càn gynted ag y cyfodo yr haul yn ei lawn
ym a'i wres, fel y tarawodd gynt ar ben Jonah gyda
hoeth-wynt y dwyrain, nes y llewygodd efe; (Jon. 4.
.) † yn y fàn y gwywa y glas-welltyn tirf ac iraidd, ac
r mòr brydferth a hardd oedd y blodeüyn yn ŷ bore,
nae yn gwywo, yn crymu, tegwch ei bryd yn colli, ac yn
nan iawn mae yn cwympo, ac yn marw. ‡ Yn gyffelyb
hyn mae dynion cyfoethogion yn blodeüo, yn unig i'w
ori i lawr; maent yn tyfu yn unig i wywo; ac mae eu
enwogrwydd bŷr, a'u gwychder diflanawl, yn diweddu
newn dyfnach trueni a gwarth, os ânt rhagddynt yn eu
ffyrdd" o fydolrwydd, moethau, balchder, hunan, ac
nnuwioldeb; ac heb gael eu darostwng trwy edifeirwch,
lydd, hunan-ymwadiad, croeshoeliad i'r byd, ac ymos-
yngiad i gyfiawnder ac awdurdod Duw. Pob cnawd
ydd wellt, a'i holl odidawgrwydd fel blodeüyn y maes:
wywa'r gwelltyn, a syrth y blodeüyn. Esa. 40. 6, 7.

12 [c] * Gwŷn ei fyd y gwr sydd yn goddef
profedigaeth: [d] † canys pan fyddo profedig,
‡ efe a dderbyn [e] goron y bywyd, [f] || yr hon a
addawodd yr Arglwydd i'r rhai a'i carant ef.

c Gwel ar adn. 2—4.—pen. 5. 11. Job 5. 17. Salm 94. 12. a
19. 67, 71, 75. Diar. 3. 11, 12. Heb. 6. 15. a 10. 32. a 12. 5. Dat.
. 19. d Deut. 8. 2. a 13. 3. Diar. 17. 3. Zec. 13. 9. Mal. 3. 2,
. Heb. 11. 17. 1 Pedr 1. 6, 7. a 5. 10. e Mat. 25. 34. Luc 22.
28—30. Rhuf. 2. 7—10. 1 Cor. 9. 25. 2 Tim. 4. 8. 1 Pedr 1. 7. a 4.
13. a 5. 4. Dat. 2. 10. a 3. 21. f pen. 2. 5. Ex. 20. 6. Deut. 7.
. Neh. 1. 5. Salm 5. 11. Rhuf. 8. 28. 1 Cor. 2. 9. a 8. 3. 1 Pedr 1.
8. 1 Ioan 4. 19.

* Tra yr oedd y byd yn ystyried y rhai hyny yn wyn-
ydedig, oedd yn mwynàu llwyddiant a hawddfyd
iirwystr, er bod hyny yn chwanegu eu balchder, eu
trachwant, eu cnawdolrwydd, a'u hannuwioldeb; y
rhai hyny *mewn gwirionedd* oedd y dynion dedwydd,
y rhai oedd yn *goddef* profedigaethau, ac yn myned
trwy lawer o drallodion a goruchwyliaethau profedig-
aethus, gyda diannwadalwch gostyngedig, ac ufudd-dod
parâus o ffydd a gobaith; ac felly yn brofedig, neu
ggymmeradwy gan Dduw. † Oblegid ar ol i'r cristion
ggael ei brofi fel hyn, ac i wirionedd ei ras gael ei am-
llygu; ac ar ol i'w serchiadau sanctaidd ef fel hyn gael
eu cryfâu, ac i dymher ac ysbryd ei feddwl ef gael ei
rwella; ‡ efe a ga'i ei anrhydeddu, fel buddugoliaethwr
yn y rhyfel ysbrydol; nid â choron o flodeu diflanawl,
ond â choron y bywyd: yr anrhydedd, y gogoniant, a'r
anfarwol wŷnfyd, || a addawodd yr Arglwydd i bawb a'i
carant ef; y rhai a gymmodwyd âg ef, ac a ddygwyd i
ymhyfrydu ynddo ef a'i ffyrdd, trwy ffydd yn Nghrist
Iesu. Gan hyny da y gallant hwy wŷnfydu a gorfoleddu
yn eu rhan, yn nghanol eu holl ofidiau.

13 [g] * Na ddyweded neb pan demtier ef,
Gan Dduw y'm temtir. † Canys Duw nis
gellir ei demtio â drygau, ‡ ac nid yw efe yn
temtio neb.

g Gwel ar adn. 2, 12.—Gen. 3. 12. Es. 63. 17. Hab. 2. 12, 13.
Rhuf. 9. 19, 20.

* Pan mae profedigaethau yn myned yn demtasiyn-
au, ac yn achlysuron o bechod; megys grwgnachrwydd,
anymddiried i Dduw, a gwrthgiliad, neu unrhyw bech-
od arall, na ryfyged neb ddywedyd, nac mewn geiriau
nac yn ei galon, mai gan Dduw y temtir ef; megys pe
byddai efe yn awdwr pechod, neu y canlyniad drwg o'r
brofedigaeth. Mae gorchymynion a goruchwyliaethau
rhagluniaethol Duw yn profi calonau dynion, ac yn
foddion i chwilio allan pa dueddiadau sydd fwyaf grŷm-
us ynddynt; a lle mae tueddiadau grasol yn gryfaf,
trwy nerth yr Ysbryd Glân, ufudd-dod a ffyddlondeb
fydd effaith a chanlyniad y prawf; ond lle mae pechod
a Satan yn llywodraethu oddi fewn, rhaid mai anufudd-
dod fydd yr effaith. Gan hyny beth bynag sydd yn
bechadurus, mewn calon neu ymddygiad mewn dyn, nis
gellir ei briodoli i Dduw, mwy nac y gellir priodoli
tywyllwch ac oerder i'r haul. † Oblegid Duw nis gellir
ei demtio â drygau; mae ei berffeithrwydd a'i holl-
ddigonedd ef yn gwneyd yn anmhosibl iddo byth, yn y
gradd lleiaf, i ŵyro oddi wrth gyflawn a pherffaith gyf-
iawnder, gwirionedd, doethineb, purdeb, a daioni: ‡ ac
nid yw efe, yn yr ystyr hyn, yn temtio neb, trwy osod
drwg yn nghalon dyn, ei wthio i'w feddwl, neu roddi
gorfod arno ei gyflawni. Nid efe yw *Awdwr* y sothach,
er bod ei brofedigaethau tânllyd ef yn ei ddatguddio ac
yn ei ddynoethi. *Na ddyweded neb—gan Dduw y'm
temtir:* mae yn debyg y byddai rhai yn dywedyd felly,
i esgusodi eu pechod mewn profedigaethau; ond mae
yr apostol yma yn gwahardd dywediad mòr gableddus.

14 * Canys yna ŷ temtir pob un, [h] pan ŷ
tynner ef, ac y llithier, gan ei chwant ei hun.

h pen. 4. 1, 2. Gen. 6. 5. a 8. 21. Jos. 7. 21—24. 2 Sam.
11. 2, 3. 1 Bren. 21. 2—4. Job 31. 9, 27. Diar. 4. 23. Es. 44. 20.
Mat. 5. 28. a 15. 18, 20. Marc 7. 21, 22. Rhuf. 7. 11, 13. Eph. 4. 2.
Heb. 3. 13.

* Canys yna ŷ temtir pob un i bechod, pan mae
chwant anghymmedrol ei galon ef ei hun am esmwyth-
der bydol, bod yn rhydd oddi wrth erlid, cael anrhyd-
edd, elw, neu blesera, yn ei dynu, ac yn ei lithio ef, i
lyncu yr abwyd â pha un mae Satan yn ei hudo ef: fel
hyn mae efe yn cael ei dynu oddi ar lwybr ei ddyled-
swydd; fel y tynir pysgodyn o'r dwfr, pan y llithier ef
gan y tamaid hudol oedd yn gorchuddio y bach. Dy-
wedir fod y geirian gwreiddiol yn brydferth ragorol,
fel cyfeiriad at ddàl pysgod â bach ac abwyd.

15 [i] * Yna chwant, † wedi ymddwyn, ‡ a
esgor ar bechod: [k] || pechod hefyd, pan or-
phener, § a esgor ar farwolaeth.

i Gen. 3. 6. a 4. 5—8. Job 15. 15. Salm 7. 14, 15. Es. 59. 4.
Mica 2. 1—3. Mat. 26. 14, 15, 48—50. Act. 5. 1—3. k Gen. 2.
17. a 3. 17—19. Salm 9. 17. Rhuf. 5. 12, 21. a 6. 21, 23. Dat. 20.
14, 15.

* Yna chwant, neu y chwennychiad angerddol am
ryw beth nas gellir ei gael heb bechu, † wedi iddo ym-
ddwyn, neu feichiogi yn y galon, trwy weithrediadau
Satan, llygredigaethau y meddwl, a hudoliaeth gwrth-
ddrychau allanol; mae y demtasiwn yn cael ei derbyn
a'i choledd; ‡ ac yn y màn mae yn esgor ar bechod
gweithredol, fel ffrwyth ac eppil diledryw y chwant
llygredig ei hun. || A'r pechod gweithredol hwn, pan
ei gorphener, ei coledder, pan barâer ynddo, gyda
chaledrwydd ac anghrediniaeth; § nid yn unig a wna
ei gyflawnwyr yn agored i farwolaeth, ond efe a esgor
hefyd yn sicr ar dragywyddol drueni, fel ei briodol
ffrwyth a'i gyflog, yr hyn yw yr ail farwolaeth; ac felly
mae dinystr dynion o honynt eu hunain, ac yn anno-
cheladwy, oni ragfaena trugaredd a gras Duw, fel y
mae esgor yn sicr o ganlyn beichiogi. Yn ol y dys-
grifiad uchod o eiddo yr apostol, y bu y pechod cyntaf
erioed, a phob pechod o hyny hyd ddiwedd y byd.

16 [l] * Fy mrodyr anwyl, [m] na chyfeiliornwch.

l Mat. 22. 29. Marc 12. 24, 27. Gal. 6. 7. Col. 2. 4, 8. 2 Tim.
2. 18. m adn. 19. pen. 2. 5. Phil. 2. 12. a 4. 1. Heb. 13. 1.

* Cymmerwch ofal mawr gan hyny, fy mrodyr anwyl,
rhag i neb o honoch gyfeiliorni oddi wrth wirionedd
yr efengyl, a gŵyro i'r fath syniadau ffiaidd, anwir,
cableddus, a niweidiol, am y Duw sanctaidd a bendi-
gedig, neu am ei ffyrdd ef; a thybied ei fod, neu y gall
efe byth fod, yn awdwr pechod, na gwneuthur dim i
beri i neb bechu: gwyliwch ar eich eneidiau, rhag
priodoli i Dduw, y peth sydd yn tarddu yn hollawl o'ch
calon halogedig chwi eich hunain, ac amgylchiadau
allanol: gwyliwch rhag gwneyd eich profedigaethau yn
esgus dros eich pechodau; gwyliwch feddwl y medrwch
attal esgor ar bechod wedi ymddwyn arno; a gwyliwch
feddwl *nad* esgor pechod ar farwolaeth, wedi y gorphen-
er ef.

17 * Pob [n] rhoddiad daionus, a phob rhodd
berffaith, oddi uchod y mae, † yn disgyn oddi

wrth [o] Dad y goleuni, ‡ gyd â'r hwn nid oes [p] gyfnewidiad, na chysgod tröedigaeth.

n Gwel ar adn. 5.—pen. 3. 15, 17. Gen. 41. 16, 38, 39. Ex. 4. 11, 12. a 31. 3—6. a 36. 1, 2. Num. 11. 17, 25. 1 Cron. 22. 12. a 29. 19. 2 Cron. 1. 11, 12. Diar. 2. 6. Es. 28. 26. Dan. 2. 21, 22, 27—30. Mat. 7. 11. a 11. 25, 26. a 13. 11, 12. Luc 11. 13. Ioan 3. 27. Act. 5. 31. a 11. 18. Rhuf. 6. 23. a 11. 36. a 12. 6—8. 1 Cor. 4. 7. a 12. 4—12. Eph. 2. 3—5, 8. a 4. 8—11. Phil. 1. 29. Tit. 3. 3—5. 1 Ioan 4. 10. a 5. 11, 12. o Gen. 1. 2—5, 14, 15. Deut. 4. 19. Salm 19. 1—8. a 84. 11. Es. 45. 7. a 60. 19. Ioan 1. 9. a 8. 12. 2 Cor. 4. 6. Eph. 1. 18. 1 Ioan 1. 5. Dat. 21. 23. a 22. 5. p Num. 23. 19. i Sam. 15. 29. Salm 102. 26, 27. Es. 46. 10. Mal. 3. 6. Rhuf. 11. 29. Heb. 1. 11, 12. a 13. 8.

* Càn belled o demtio dynion â drygau i bechod yw Duw, fel nad oes dim ond daioni yn dyfod oddi wrtho ef, gyda golwg ar y byd hwn a'r byd a ddaw: pob rhoddiad daionus o natur dymmorawl, a phob rhodd berffaith o natur ysbrydol, oddi uchod y mae y cwbl; † yn disgyn oddi wrth Dad, Ffynon, Rhoddwr, ac Awdwr y goleuni; pob goleuni, naturiol, moesol, ac ysbrydol: efe yw awdwr pob peth hardd, rhagorol, a daionus, yn mhob crëadur trwy yr holl grëadigaeth; yn gystal ag awdwr a rhoddwr pob gwir wybodaeth, doethineb, sanctei ddrwydd, a dedwyddwch, yn yr angelion ni phechasant, a phechaduriaid gwaredol. ‡ Nid oes dim o natur wrthwyneb yn dyfod oddi wrtho ef, gyda'r hwn nid oes gyfnewidiad, na chysgod tröedigaeth; yr un erioed, yn awr, ac yn dragywydd.—Tybia rhai fod y *rhoddiad daionus* yn arwyddo rhoddion *tymmorawl* i bawb; a'r *rhodd berffaith* yn arwyddo rhoddion *ysbrydol* Duw i'w bobl: ond mae *rhoddion* Duw oll yn berffaith, yn ol eu rhyw; a'r *rhoddiad* o honynt oll yn ddaionus, o drugaredd a daioni y Rhoddwr mawr. *Tad y goleuni:* neu y *Tad ardderchocaf o gogoneddusaf.* Tybir fod yr apostol yn cyfeirio yma at yr enw a roddai y paganiaid ar yr *haul*, yr hwn a alwent yn *dad y goleuni;* ac ei fod yn cyfeirio yn y geiriau dilynol at y cyfnewidiadau, sydd i'n *golwg ni* ar yr haul, megys codi a gostwng, nos a dydd, haf a gauaf; a dywed nad oes i Dduw, Tad y goleuni, ddim cyfnewidiad felly, na *chysgod* tröedigaeth.

18 [q] * O'i wir ewyllys yr ynnillodd efe nyni † trwy [r] air y gwirionedd, ‡ fel y byddem [s] ryw flaen-ffrwyth o'i grëaduriaid ef.

q Ioan 1. 13. a 3. 3—5. Rhuf. 4. 17. a 8. 29—31 a 9. 15—18. Eph. 2. 4, 5. Col. 1. 20, 21. 2 Thes. 2. 13, 14. 1 Pedr 1. 3. r adn. 21. 1 Cor. 4. 15. 1 Pedr 1. 23. 1 Ioan 3. 9. s Lef. 23. 10. Jer. 2. 3. Amos 6. 1. Heb. 12. 23. Dat. 14. 4.

* Yr oedd gan yr apostol a'i holl frodyr crediniol brawf gwerthfawr a digonol ynddynt eu hunain, fod y goreu o bob bendithion yn deilliaw oddi wrth Dad y goleuni; yn gymmaint ag nad o ddim doethineb, gallu, na theilyngdod ynddynt hwy, eithr o'i wir ewyllys, a'i ben-arglwyddiaethol ras ei hun, yr ennillodd ac yr adgenedlodd Duw hwynt i obaith bywiol; † a hyny trwy yr efengyl, yr hon yw ei air gwirioneddol a ffyddlawn ef, ac sydd yn effeithiol trwy yr Ysbryd Glân, i adgenedlu ac ail-eni pechaduriaid, ac i ddwyn ffrwythau sanctei ddrwydd mewn canlyniad i hyny. ‡ Ac efe a wnaeth hyn erddynt, fel y byddent yn gyssegredig i'w wasanaeth ef, fel rhyw flaen-ffrwyth o'i grëaduriaid ef, yn fwy rhagorol a gwerthfawr nac eraill o honynt; ac fel ernes o chwanegiad annhraethol fwy o blith y cenedloedd, yn yr oes hòno ac oesoedd i ddyfod; yn gyffelyb fel yr oedd y blaen-ffrwyth a offrymid i'r Arglwydd gynt, yn ernes o gynhauaf i ddyfod, ac yn dwyn bendith arno.—Deallwn fod y geiriau yn cael eu llefaru wrth yr Iuddewon hyny a alwyd gyntaf trwy yr efengyl, cyn ei phregethu hi i'r cenedloedd, ei "*grëaduriaid* ef;" ac fel hyny yr oeddynt yn flaen-ffrwyth o bawb a alwyd ar eu hôl hwynt.

19 * O achos hyn, fy mrodyr anwyl, [t] bydded pob dyn esgud i wrando, [u] † dïog i lefaru, [x] ‡ dïog i ddigofaint.

t Neh. 8. 2, 3, 12—14, 18. a 9. 3. Diar. 8. 32—35. Preg. 5. 1. Marc 2. 2. a 12. 37. Luc 15. 1. a 19. 48. Act. 2. 42. a 10. 33. a 13. 42—44, 48. a 17. 11. 1 Thes. 2. 13. u adn. 26. pen. 3. 1, 2. Diar. 10. 19. a 13. 3. a 15. 2. a 17. 27. a 18. 13, 21. a 21. 23. Preg. 5. 2, 3. x Neh. 9. 17. Diar. 14. 29. a 15. 18. a 16. 32. a 17. 14. a 19. 11, 19. a 25. 28. Preg. 7. 8, 9. Mat. 5. 22. Gal. 5. 20, 21. Eph. 4. 26, 31. Col. 3. 8, 15.

* Gan fod yr holl gredinwyr yn ddyledus i wir ewyllys a phen-arglwyddiaethol ras Duw, am y cyfnewidiad a wnaed arnynt "trwy air y gwirionedd;" yr oedd yn gweddu iddynt oll fod yn esgud a pharod i wrando ar rybuddion, cyngorion, ac addysgiadau pellach o'r un gair, mewn modd ystyriol a hyddysg. † Dylent hefyd fod yn "ddïog," neu yn araf, yn bwyllig, ac yn ochelgar i lefaru; heb fod yn ehud ac yn hunan-dybus yn eu barn a'u penderfyniad am bethau; heb fod yn fyrbwyll i gymmeryd arnynt y swydd o athrawon; peidio bod yn ddadleugar am bethau tu hwnt i'w cyrhaedd; peidio a choledd tymher ac ysbryd hunanol siaradus; i siarad er mwyn siarad, neu er mwyn cael canmoliaeth; heb wylder gweddus, difrifwch, ystyriaeth, a doethineb: yn enwedig dïog i lefaru dim yn ynfyd yn erbyn Duw yn eu profedigaethau. (adn. 13.) ‡ Dylent hefyd fod yn ddïog, neu hwyrfrydig i ddigofaint; peidio ymollwng i dymherau digofus, a chwerwder ysbryd tuag at wrthwynebwyr; a dylent wylied rhag dadleuon poethion a digofus, dàu yr esgus camsyniol o *zêl* dros y gwirionedd.—Byddai y dysgawdwyr Iuddewig yn arferol o ddadleu yn dra ffyrnig yn nghylch eu gwahanol bynciau a'u dàliadau crefyddol: ond y cyfryw yw gwendid cyffredin y natur ddynol, ïe, hyd yn nôd mewn duwiolion, fel mae y cyngor yn dra angenrheidiol i bawb.

20 * Canys [y] digofaint gwr † nid yw yn cyflawni cyfiawnder Duw.

y pen. 3. 17, 18. Num. 20. 11, 12. 2 Tim. 2. 24, 25.

* Mynai yr apostol i'r cristionogion uchod fod yn araf a hwyr-frydig iawn, i ddangos y gradd lleiaf o ddigofaint, hyd yn nôd tuag at eu gelynion creulonaf; † gan wybod yn sicr, nad oedd digofaint gŵr yn cyflawni cyfiawnder Duw: mai nid hyny oedd yr iawn foddion i lwyddo achos crefydd yn y byd, nac i arwain dynion i ddderbyn yr efengyl, ac i fyw bywyd sanctaidd. Ond i'r gwrthwyneb, yr oedd y fath ymrysonau beilchion, a thymherau poethion, yn tueddu yn fwy o hyd i fagu rhagfarn yn meddyliau anghredinwyr yn erbyn yr efengyl; i aflonyddu heddwch, a llygru purdeb yr eglwys; i amlâu anwiredd, ac yn mhob ffordd i rwystro yr wybodaeth a'r ymarferiad o gyfiawnder Duw. Digofaint gŵr, hyd yn nôd pan mae dàn rith o *zêl* dros gyfiawnder, neu achos a gwirionedd Duw, nid yw yn cyflawni y cyfiawnder hwnw; ond yn ei attal ac yn ei fawr niweidio, fel y sylwyd uchod.

21 * O herwydd paham [z] † rhoddwch heibio bob [a] budreddi, ‡ a helaethrwydd malais; [b] ‖ a thrwy addfwynder derbyniwch yr [c] impiedig air, [d] § yr hwn a ddichon gadw eich eneidiau.

z Es. 2. 20. a 30. 22. Ezec. 18. 31. Rhuf. 13. 12, 13. Eph. 4. 22. Col. 3. 8. Heb. 12. 1. 1 Pedr 2. 1, 11. a pen. 4. 8. Ezec. 36. 25. 2 Cor. 7. 1. Eph. 5. 4. b Salm 25. 9. Es. 29. 19. a 61. 1. Zeph. 2. 3. Mat. 5. 5. Act. 10. 33. 1 Thes. 1. 5. a 2. 13. c Ioan 6. 63, 68. Rhuf. 6. 17. a 11. 17. Heb. 4. 2. d Act. 13. 26. Rhuf. 1. 16. 1 Cor. 15. 2. Eph. 1. 13. 2 Tim. 3. 15—17. Tit. 2. 11. Heb. 2. 3. 1 Pedr 1. 9.

* O herwydd paham, gan nad oedd digofaint dynion crefyddol yn tueddu i lwyddo, ond i fawr aflwyddo, achos cyfiawn Duw yn y byd; † cyngorai yr apostol bawb yr oedd yn ysgrifenu atynt, i roddi heibio, a bwrw ymaith gyda'r atgasrwydd mwyaf, fel gwisgoedd budron, holl arferion pechadurus eu bywydau gynt, y rhai oedd yn ffiaidd yn ngolwg Duw; ‡ ac yn enwedig i ochel a darostwng "helaethrwydd," a gorlifiad malais, yr hyn a goleddai llawer dàn yr esgus o *zêl;* lle yr oedd mewn gwirionedd yn deilliaw yn gwbl o falchder, diglionedd, cenfigen, a nwydau atgas eraill. ‖ Fel hyn dylent fod wedi eu darpar i dderbyn gair Duw, mewn ysbryd a thymher addfwyn, llariaidd, gostyngedig, a heddychol: oblegid nis gallai fod yn lles iddynt, heb ei fod yn "impiedig air," neu yn *blànediy* ynddynt; yn

yw, ac yn tyfu yn eu heneidiau mewn ffydd a chariad, fel egwyddor anian newydd; yn cyfnewid eu golygiadau, eu barn, eu tueddiadau, a'u serchiadau, i gyffurfiad â'i sancteiddrwydd ei hun, ac felly yn dwyn ffrwythau addas yn eu bucheddau. § Ac wedi ei dderbyn a'i impio fel hyn, byddai yn rymus ac effeithiol er iachawdwriaeth eu heneidiau, fel moddion yn llaw yr Ysbryd Glân i ddechreu, i ddwyn yn mlaen, ac i berffeithio y gwaith ynddynt.

22 * A byddwch [e] wneuthurwyr y gair, † ac nid gwrandawyr yn unig, [f] ‡ gan eich twyllo eich hunain.

e pen. 4. 17. Mat. 7. 21—25. a 12. 50. a 28. 20. Luc 6. 46—48. a 11. 28. a 12. 47, 48. Ioan 13. 17. Rhuf. 2. 13. Phil. 4. 8, 9. Col. 3. 17. 1 Ioan 2. 3. a 3. 7. 3 Ioan 11. Dat. 22. 7. f adn. 26. Es. 44. 20. Ob. 3. 1 Cor. 3. 18. a 6. 9. a 15. 33. Gal. 6. 3, 7. 2 Tim. 3. 13. Tit. 3. 3. 2 Pedr 2. 13. 1 Ioan 1. 8. Dat. 12. 9.

* Mewn trefn i "air y gwirionedd" (adn. 18.) gael effeithio yn rasol arnynt fel y dywedwyd uchod, yr oedd yn rhaid iddynt fod yn wneuthurwyr y gair; idylai ei effaith fod mòr rymus a nerthol ar eu calonau, fel ag i'w dwyn hwynt i weithredu yn ol ei egwyddorion a'i orchymynion sanctaidd a rhagorol ef yn eu holl ffucheddau. † Dylent beidio ag ymfoddloni ar fod yn wrandawwyr y gair yn unig; ar lanw eu penau â gwybodaeth o'r efengyl, a chydsynio â hi o ran barn; fel pe hyny yn unig oedd yn angenrheidiol i iachawdwriaeth: ‡ ni wnaent fel hyny ond twyllo eu hunain, a gosod yr hudoliaeth waethaf ar eu heneidiau, mewn peth o'r pwys mwyaf, ac o ganlyniad tragywyddol.—Llawer iawn o grefydd yr Iuddewon oedd, myned i'r *synagog* ar amserau pennodol, i *glywed darllen y gyfraith;* ac efallai fod cyfeiriad at hyny yma. Pa nifer o greflyddwyr o'r fath hyn sydd yn ein plith ninnau! gwrando llawer, ac heb wneuthur dim. Yr oedd dywediad yn mhlith yr Iuddewon, fod yr hwn a wrandawai y gyfraith, ac heb ei gwneuthur, yn debyg i ddyn yn aredig ac yn hau, ond heb byth fedi.

23 * Oblegid os yw neb yn [g] wrandâwr y gair, † ac heb fod yn wneuthurwr, ‡ y mae hwn yn debyg i wr yn edrych ei wynebpryd naturiol mewn drych:

g Gwel ar pen. 2. 14—26.—Jer. 44. 16. Ezec. 33. 31, 32. Mat. 7. 26, 27. Luc 6. 49.

* Oblegid meddylied dynion y peth a fynont, y gwirionedd yw, os yw neb yn wrandawwr yn unig, gan ymfoddloni ar ei ddeall yn y llythyren, a chydsynio âg ef, a dim ond hyny; † heb ei dderbyn mewn gwir ffydd a chariad, fel ag i'w ddwyn ef i gymdeithasu â Duw, ac i iawn-drefnu ei fuchedd a'i ymarweddiad yn y byd; ‡ mae efe yn debyg i *wr, (andri)* yr hwn sydd yn gyffredin yn llai manol a gofalus na *benywaid,* am iawn drefniad ei wisgoedd a glânweithdra; efe a rydd gipdrem ar ei wynebpryd naturiol yn y drych, a phan êl ymaith nid yw yn meddwl mwy am dano, nac yn gofalu am sychu ymaith y brychau a welsai ar ei wyneb. Fel hyn yn union y mae gyda'r gwrandawwr diofal ac anfuddiol; pan ddêl efe i wrando gair Duw, yr hwn sydd fel drych cywir yn dangos beth yw efe yn wyneb y ddeddf, a pha beth a all ef obeithio bod drwy yr efengyl; (2 Cor. 3. 18.) mae efe yn cael rhyw olygiadau ac argyhoeddiadau o'i euogrwydd, ei halogrwydd, ei berygl, a'i angen o Waredwr, a chyfnewidiad hollawl yn ei galon a'i fuchedd; ond nid yw yn myned dim pellach.

24 * Canys efe a'i hedrychodd ei hun, † ac a aeth ymaith, ‡ ac yn y man efe a [h] anghofiodd pa fath ydoedd.

h Barn. 8. 18. Mat. 8. 27. Luc 1. 66. a 7. 39. 1 Thes. 1. 5. 2 Per 3. 11.

* Canys, wedi iddo gymmeryd golwg fèr ac arwynebol arno ei hun, heb gael dim argraff ddofn ac arosawl ar ei galon; † mae efe yn myned ymaith, fel y gŵr a edrychai ei wynebpryd naturiol yn y drych; ‡ a thrwy ofalon, neu gyfoeth, neu bleserau y byd hwn, (Luc 8. 14.) mae efe yn y fàn yn taflu ymaith bob meddwl ac ystyriaeth am yr hyn a welsai o'i bechod a'i drueni, a'r angen o ras maddeuol a sancteiddâol, tra yr oedd dàn y gair; felly mae yn anghofio pa fath ydoedd, ac yn myned yn mlaen mewn caledrwydd ac anghrediniaeth, ac mewn gyrfa bechadurus o fywyd, yn hollawl fel o'r blaen.

25 * Eithr yr hwn a [i] edrych ar [k] berffaith gyfraith [l] rhyddid, ac a [m] barhâo *ynddi,* † hwn, heb fod yn [n] wrandâwr anghofus, ond gwneuthurwr y weithred, [o] ‡ *efe* a fydd dedwydd yn ei weithred.

i Diar. 14. 15. Es. 8. 20. 2 Cor. 13. 5. Heb. 12. 15. k pen. 2. 12. Salm 19. 7—10. a 119. 32, 45, 96—105. Rhuf. 7. 12, 22, 23. 1 Ioan 8. 32, 36. Rhuf. 8. 15. 2 Cor. 3. 17, 18. Gal. 5. 1. 1 Pedr 2. 16. m 1 Sam. 12. 14. Ioan 8. 31. a 15. 9, 10. Act. 2. 42. a 13. 43. a 26. 22. Rhuf. 2. 7, 8. a 11. 22. Col. 1. 23. 1 Tim. 2. 15. a 4. 16. 1 Ioan 2. 24. n adn. 23, 24. o Salm 19. 11. a 106. 3. a 119. 2, 3. Luc 11. 28. Ioan 13. 17. 1 Cor. 15. 58. Dat. 14. 13. a 22. 14.

* Eithr yr hwn a edrycho yn sefydlog, yn fanol, ac yn ystyriol ar berffaith air Duw, gyda gwir ddymuniad am wybod trwyddo beth yw ei gyflwr a'i sefyllfa, a deall ffordd iachawdwriaeth a bywyd tragywyddol; ac a barâo yn wastadol yn y ffydd a'r ymarferiad o wirioneddau y gair hwn; † hwn, heb fod yn wrandawwr anghofus, fel y gŵr a edrychai ei hun yn y drych, ac a anghofiai pa fath ydoedd, ond a rydd mewn ymarferiad yr hyn a ddysgo o bryd i bryd, er y costiai hyny iddo lawer o ddarostyngiad, hunan-ymwadiad, a llafur; ‡ efe a fydd dedwydd yn ei weithred: nid dedwydd *am* ei waith, ond dedwydd *yn* ei waith, sef yn ei ufudd-dod mewn ffydd a chariad, i orchymynion sanctaidd Duw. Yn y llwybr hwn o ufudd-dod ac ymarferiad, arweinia Duw ef i wybodaeth o'i wirionedd a'i iachawdwriaeth ef; bydd ei ufudd-dod yn brawf amlwg o wirionedd ei ffydd; cynnydda ei sancteiddrwydd yn gyfatebol i'w adnabyddiaeth ef o Dduw ac o hóno ei hun; a chaiff ei wobrwyo yn rasol â dedwyddwch yn y diwedd, ar ol ei heddwch a'i gysur presenol. *Yr hwn a edrych:* crymu i edrych, â'r holl sylw a chraffder sydd bosibl, yw ystyr y gair *parakupsas;* fel yr ymgrymai y dysgybllion i edrych i'r bedd, (Luc 24. 12; Ioan 20. 5.) neu fel y gogwyddai y cerubiaid i edrych ar y drugareddfa, (Exod. 25. 18—20.) at yr hyn hefyd y cyfeiria Pedr, pan mae yn dywedyd fod yr angelion yn chwennychu edrych ar ryfeddodau yr iachawdwriaeth. (1 Pedr 1. 12.) *Cyfraith rhyddid:* y ddeddf *foesol,* medd rhai, mewn cyferbyniad i'r *seremoniol,* yr *iau cuethiwed,* gynt, ac mae yn sicr bod y ddeddf *foesol,* yn haeddu yr enw *ynddi ei hun;* am fod perffaith ufudd-dod iddi yn berffaith ryddid, a phob gŵyriad oddi wrthi yn gaethiwed: ond eto nis gall hi roddi dim rhyddid i ni bechaduriaid. Tybia eraill mai yr efengyl a feddylir; oblegid trwyddi y rhyddêir ni oddi wrth gondemniad y ddeddf, ac o gaethiwed pechod. A thybia eraill mai gair Duw yn gyffredinol a feddylir; am fod pob rhan o hóno yn fuddiol i ddwyn y pechadur at Grist am iachawdwriaeth, ac i'w gyfarwyddo a'i nerthu ef i rodio yn rhydd, trwy Ysbryd mabwysiad, yn ol gorchymynion sanctaidd Duw. Yn ngair y gwirionedd, fel y gyfraith, neu y rhëol, i gaffael ac i fwynâu rhyddid, mae y credadyn yn edrych, fel mewn drych; fel y canfyddo yr ansanctaiddrwydd sydd o hyd yn aros yn ei natur, ei serchiadau, ei eiriau, a'i weithredoedd; i'r dyben fel y purer ei enaid ef oddi wrth halogrwydd, y prydferther ef âg iachawdwriaeth, ac y cyfnewidier ef i ddelw sanctaidd Duw, fwy-fwy yn wastadol.

26 * Os yw neb yn eich mysg [p] yn cymmeryd arno fod yn grefyddol, [q] † heb attal ei dafod, [r] ‡ ond twyllo ei galon ei hun, [s] ‖ ofer *yw* crefydd hwn.

p Diar. 14. 12. a 16. 25. Luc 8. 18. 1 Cor. 3. 18. Gal. 2. 6, 9. a 6. 3. q adn. 19. pen. 3. 2—6. Salm 32. 9. a 34. 13. a 39. 1, 2. a 141. 3. Diar. 10. 19, 31. a 13. 2, 3. a 15. 2. a 16. 10. a 19. 1. a 21. 23. Eph. 4. 29. a 5. 4. Col. 4. 6. 1 Pedr 3. 10. r Gwel ar adn.

22.—Deut. 11. 16. Es. 44. 29. Gal. 6. 3. s pen. 2. 29. Es. 1. 13. Mal. 3. 14. Mat. 15. 9. Marc 7. 7. 1 Cor. 15. 2, 14. Gal. 3. 4.

* Mòr angenrheidiol oedd ymarferiad addas, yn mhob peth, i hanfod gwir gristionogaeth; fel os oedd neb yn mysg y proffeswyr hyn, yn cymmeryd arno fod yn addolwr crefyddol Duw, yn ol athrawiaeth ac ordinâdau yr efengyl; ac os oedd ei ymddygiad ef mewn pethau eraill yn ddifai a diargyhoedd; † eto, os oedd efe yn esgeulus gyffredin o attal ei dafod, ond yn ymroddi yn benrhydd i siarad ofer, llygredig, rhodresgar, ac anaddas; yn enwedig os oedd efe yn dywedyd geiriau chwerwon, llidiog, enllibaidd, a gwaradwyddus, mewn modd diymattal, dàn y rhith o *zêl* yn erbyn y rhai ni chyd-welent âg ef; ‡ ac os oedd efe yn twyllo ei galon ei hun, trwy ryw wâg esgusodion a'u gilydd, i feddwl bod hyn yn gyfreithlawn, neu yn gyson âg ysbryd eristionogol; || yr oedd hyn yn brawf eglur mai ofer, gau, a diwerth oedd crefydd hwnw: nid oedd ei galon yn uniawn ger bron Duw, tra yr oedd y fath bethau drwg yn dyfod allan yn gyffredin o'i thrysor hi: yr oedd ef o hyd mewn bustl chwerwder, ac mewn rhwymedigaeth anwiredd.

27 [t] * Crefydd bur, a dihalogedig, † ger bron Duw a'r Tad, ‡ yw hyn; [u] Ymweled â'r ymddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, [x] || *a*'i gadw ei hun yn ddifrycheulyd oddi wrth y byd.

t pen. 3. 17. Salm 119. 1. Mat. 5. 8. Luc 1. 6. 1 Tim. 1. 5. a 5. 4. u Job 29. 12, 13. a 31. 15—20. Salm 68. 5. Es. 1. 16, 17. a 58. 6, 7. Mat. 25. 34—46. Gal. 5. 6. a 6. 9, 10. 1 Ioan 3. 17—19. x pen. 4. 4. Ioan 17. 14, 15. Rhuf. 12. 2. Gal. 1. 4. a 6. 14. Col. 3. 1—3. 1 Ioan 2. 15—17. a 5. 4, 5, 18.

* "Crefydd bur," addoliad a gwasanaeth sanctaidd Duw, heb ddim cymmysgedd llygredig; a "dihalogedig" gan egwyddorion gau, a nwydau cnawdol; † fel mae yn cael ei harfer ger bron Duw, sef y Tad, yn ei wydd a chyda ei gymmeradwyaeth ef, gan ei blant mabwysiadol yn Nghrist Iesu; mae yn gynnwysedig mewn rhan fawr, mewn cariad di-hunanol, gostyngedig, a diragrith, tuag at ddynion er mwyn Duw, ac o gariad ato ef; ‡ ac mewn ymhyfrydu oddi ar y cariad hwn, i ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, ac âg eraill hefyd mewn trallod, cystudd, a chaledi; i'w cysuro yn eu gofid, diwallu eu hangenion, eu hamddiffyn, eu cyngori, a'u dyddanu yn eu galar a'u helbulon. || Crefydd bur hefyd yw ymgadw yn ddigon pell oddi wrth helyntion pechadurus, arferion gwageddus, a phleserau cnawdol ac aflan, y byd drygionus hwn: ie, hyd ag y byddo dichon, ymgadw yn hollawl ddifrycheulyd oddi wrth y byd.—Heb ryw fesur o'r cariad sanctaidd hwn, y cyflawniadau dyledus a enwyd, a'r ymgadw gofalus hyn oddi wrth y byd drwg; nid oes dim athrawiaethau, ffurfiau, hyder, serchiadau uchel, gwresawgrwydd, nac unrhyw ymddangosiad crefyddol, a all brofi dyn yn addolwr cymmeradwy Duw. "Crefydd *bur*:" cyfeiriad at faen gwerthfawr, hollawl ddurfing, heb ddim breg, hollt, nac anaf ynddo: maen gwerthfawr yw crefydd, ond ei chael hi yn *bur* felly. "Ymweled:" *(episkeptesthai)* edrych i mewn yn fanol i unrhyw achos, cymmeryd gofal am dano, a darpar pob peth angenrheidiol tuag ato.

PEN. II.

Nad gweddus i Gristionogion ddiystyru eu brodyr tlodion.

* FY mrodyr, na fydded gennych [a] ffydd ein Harglwydd ni Iesu Grist, [b] *sef Arglwydd y* gogoniant, [c] † gyd â derbyn wyneb.

a Act. 20. 21. a 24. 24. Col. 1. 4. 1 Tim. 1. 19. Tit. 1. 1. 2 Pedr 1. 1. Dat. 14. 12. b Salm 24. 7—10. 1 Cor. 2. 8. Tit. 2. 13. Heb. 1. 3. c adn. 3, 9. pen. 3. 17. Lef. 19. 15. Deut. 1. 17. a 16. 19. 2 Cron. 19. 7. Diar. 24. 23. a 28. 21. Mat. 22. 16. Rhuf. 1. 11. 1 Tim. 5. 21. Judas 16.

* Tra yr oedd y bobl hyn yn dàl athrawiaeth Crist, ac yn proffesu ffydd ynddo ef fel Arglwydd y gogoniant; y mwyaf gogoneddus ynddo ei hun, a Ffynon pob peth ag oedd yn anrhydeddus mewn dynion; † dylent fod yn dra gofalus i beidio derbyn wyneb; trwy anrhydeddu rhai, a diystyru eraill, o herwydd rhyw amgylchiadau neu ymddangosiadau allanol, heb iawn ystyried gwerth neu anwerth cymharol pob un o honynt mewn gwirionedd: oblegid byddai hyn yn dra anghyson â'u proffes hwy o fod yn ddysgyblion i'r Iesu gostyngedig.—"*Ein Harglwydd:*" nid ein Harglwydd ni yn unig, ond "Arglwydd y gogoniant" hefyd. *Derbyn wyneb:* peth gwahanol iawn yw hyn i roddi parch lle mae parch yn ddyledus. Mae yr olaf yn ddyledus, a'r cyntaf yn feïus: ond tra byddo eglwys Dduw ar y ddaear, ni bydd yn gwbl rydd oddi wrth y bai hwn, er maint y mae Iago yn ei wahardd yma.

2 * Oblegid os daw i mewn i'ch cynnulleidfa chwi [d] † wr â modrwy aur, [e] mewn dillad gwychion, ‡ a dyfod hefyd *un* tlawd mewn [f] dillad gwael;

d Esther 3. 10. a 8. 2. Luc 15. 22. e Gen. 27. 15. Mat. 11. 8, 9. f Es. 64. 6. Zec. 3. 3, 4.

3 [g] || Ac edrych o honoch ar yr hwn sydd yn gwisgo y dillad gwychion, a dywedyd wrtho, Eistedd di yma mewn lle da; [h] § a dywedyd wrth y tlawd, Saf di yna, neu eistedd yma îs law fy ystol-droed i:

g Judas 16. h Gwel ar adn. 6.—Es. 65. 5. Luc 7. 44—46. 2 Cor. 8. 9.

4 * Onid ydych chwi [i] dueddol ynoch eich hunain? † ac *onid* aethoch yn [k] farnwyr meddyliau drwg?

i Gwel ar pen. 1.—Job 34. 19. Mal. 2. 9. k pen. 4. 11. Job 21. 27. Salm 58. 1. a 82. 2. a 109. 31. Mat. 7. 1—5. Ioan 7. 24.

* Er esampl i egluro y mater uchod o dderbyn wyneb; os deuai neb i mewn i'w cynnulleidfa hwynt, pan fyddent yn ymgyfarfod i addoli Duw, (yr hyn a wnai yr Iuddewon yn eu synagogau,) † â modrwyau aur ar ei fysedd, ac mewn dillad gwychion, fel gŵr o sefyllfa uchel yn y byd; ‡ a dyfod hefyd o un arall ar yr un pryd, mewn dillad geirwon, gwael, neu wedi eu treulio a'u dryllio, fel dyn tlawd; || ac iddynt hwy wneyd sylw mawr o'r gŵr yn y dillad gwychion, a rhoi y lle goreu yn y synagog, neu y lle addoliad, iddo ef; § a dywedyd yn ddiystyrllyd wrth y dyn tlawd am sefyll mewn rhyw le anghyflëus, neu eistedd ar y llawr wrth eu traed hwy, heb ystyried dim o gymmeriad ac ymddygiad y naill na'r llall o honynt: * oni byddai ymddygiad fel hyn yn profi eu bod hwy yn *dueddol*, neu yn *rhagfarnus*, mewn ffurfio meddwl ynddynt eu hunain am eraill; † ac eu bod yn farnwyr yn cael eu dyrysu a'u cam-arwain gan wâg resymau a dychymmygion, trwy feddyliau drwg anghywir, a thneddiadau llygredig?—Fel hyn yr oeddynt yn dangos eu bod yn ystyried cyfoeth a gwychder yn *anrhydeddus*, pa fodd bynag y caid hwy; a thlodi yn *waradwyddus*, pa fodd yr aid iddo, neu yr ymgynnelid dano: gan anghofio i Arglwydd y gogoniant fyned er mwyn pechaduriaid yn dlawd, i'w cyfoethogi hwy â thragywyddol ddedwyddwch.—*I'ch cynnulleidfa:* tybia rhai mai cyfarfodydd cyfreithiol a feddylir, y rhai a gadwai yr Iuddewon yn eu synagogau; a thybiant mai achos cyfreithiol rhwng dau ddyn, un yn gyfoethog a'r llall yn dlawd, a feddyliai yr apostol, pan mae yn gwahardd ac yn ceryddu pleidgarwch a derbyn wyneb, yn yr adnodau hyn. Ond mwy tebyg o lawer mai "cynnulleidfa" grefyddol, wedi ymgynnull i addoli Duw, a feddyliai Iago; oblegid nid oes sicrwydd y byddai yr Iuddewon yn trin achosion cyfreithiol yn eu synagogau ar ol eu dychweliad at gristionogaeth, ac ni chyd-saif *eistedd* y ddau ddyn â hyny chwaith: ni chaniatêid i'r pleidiau y byddai y cynghaws rhynggdynt, i *eistedd* ger bron y frawdle.—*Â modrwy aur:* neu yn hytrach arwydd y gair Groeg, *â modrwyau aur am ei fysedd:* byddai y boneddigion beilchion yn hoff o addurno eu bysedd â llawer o fodrwyau aur gwychion a drudfawr, ac yn aml gwisgent

nnryw ar yr un bys.—*Yn dueddol ynoch eich hunain:* leb iawn wahaniaethu ynoch eich hunain, rhwng y fyfoethog â'r tlawd.—*Barnwyr meddyliau drwg:* barnwyr yn ymresymu yn ddrwg.

5 [l] * Gwrandêwch, fy mrodyr anwyl: [m] Oni ldewisodd Duw dlodion y byd hwn [n] † yn yfoethogion mewn ffydd, ‡ ac yn [o] etifeddion deyrnas [p] yr hon a addawodd efe i'r rhai sydd n ei garu ef?

l Barn. 9. 7. 1 Bren. 22. 28. Job 34. 10. a 37. 14. Diar. 7. 24. 8. 32. Marc 7. 14. Act. 7. 2. m pen. 1. 19. Es. 14. 32. a 29. 19. eph. 3. 12. Zec. 11. 7, 11. Mat. 11. 5. Luc 6. 20. a 9. 57, 58. a 16. 9, 25. Ioan 7. 48. 1 Cor. 1. 26—28. 2 Cor. 8. 9. n Diar. 8. 17 8-21. Luc 12. 21. 1 Cor. 3. 21—23. 2 Cor. 4. 15. a 6. 10. Eph. 1. 8. a 3. 8. 1 Tim. 6. 18. Heb. 11. 26. Dat. 2. 9. a 3. 18. a 21. 7. Mat. 5. 3. a 25. 34. Luc 12. 32. Rhuf. 8. 17. 1 Thes. 2. 12. 2 Thes. 5. 2 Tim. 4. 8, 18. 1 Pedr 1. 4. 2 Pedr 1. 11. p Gwel ar pen. 12.

* Mae yr apostol yn gofyn am sylw ei frodyr yn nhellach ar y mater uchod, trwy ofyn iddynt, ai ni yyddent hwy, ac onid oedd yn ddigon amlwg iddynt, od Duw wedi dewis tlodion y byd; onid rhai felly oedd i bobl ef gan mwyaf, gydag ychydig iawn o eithriadau? (1 Cor. 1. 26—31.) Gan hyny, os oedd efe yn endithio yr efengyl yn benaf er dychweliad y tlodion, r oedd yn amlwg o angenrheidrwydd, ei fod ef yn efnu y sefyllfa isel hòno i'w bobl ddewisedig, fel y wyaf diberygl, cysurus, a manteisiol iddynt hwy, er eu eddwch tumewnol; ac yn fwyaf addas i arddangos rŷm ac effeithiau daionus ei ras ef, yr hwn a roddwyd iddynt. Oblegid gallasai efe roddi cyfoeth ac anrhydedd y byd hwn iddynt, pe gwelsai hyny yn oreu; ond efe a'u dewisodd hwynt i fod yn gyfoethogion mewn ffydd, yn gyfranogion o anchwiliadwy olud Crist, oc o holl drysorau addewidion mawr iawn a gwerthawr. ‡ Efe a'u dewisodd hwynt hefyd fel hyn, i fod yn etifeddion y deyrnas, yr hon a addawodd efe i'r rhai ell a ddygid trwy ras i'w garu ef, ei ffyrdd, a'i bethau anctaidd; ac yr hon a gynnwysai y fath gydymgasgliad anrhydedd, mawredd, awdurdod, cyfoeth, a dedwyddwch, ar nas gallai yr un deyrnas ddaearol byth hòni a'awl iddynt.—*Yn gyfoethogion:* sef *i fod* yn gyfoethogion, neu *fel y byddent* yn gyfoethogion.

6 * Eithr [q] chwithau a ammharchasoch y lawd. [r] † Onid yw y cyfoethogion yn eich gorthrymmu chwi, [s] ac yn eich tynu ger bron prawdleoedd?

q adn. 3. Salm 14. 6. Diar. 14. 31. a 17. 5. Preg. 9. 15, 16. Es. 53. 3. Ioan 8. 49. 1 Cor. 11. 22. r pen. 5. 4. Job 20. 19. Salm 10. 2, 8, 10, 14. a 12. 5. Diar. 22. 16. Preg. 5. 8. Es. 3. 14, 15. Amos 2. 6, 7. a 4. 1. a 5. 11. a 8. 4—6. Mica 6. 11, 12. Hab. 14. Zec. 7. 10. s pen. 5. 6. 1 Bren. 21. 11—13. Act. 4. 1—3, 26—28. a 5. 17, 18, 26, 27. a 13. 50. a 16. 19, 20.

* Yr oedd yn amlwg gan hyny, fod Duw yn mawr anrhydeddu y tlodion: ond yr oedd y bobl hyn, ei addolwyr ef, yn eu hanmharchu hwynt, ac yn eu dïystyru, fel pethau îslaw eu sylw. † Oni wyddent hwy hefyd fod y cyfoethogion yn gyffredin yn eu gorthrymu ac yn eu herlid hwy; ac yn eu tynu ger bron brawd-leoedd anghyfiawn, i'w condemnio hwy am eu crefydd. Mae yn debyg y byddai rhai o'r Iuddewon digred, a'r pagan- said cyfoethog, yn gwneyd hyn: ac efallai rhai o'r cyfoethogion a wnelent, neu a wnaethent unwaith, proffes o grefydd, hefyd: hwy a orthryment y saint tlodion, ac a'u herlidient; a hyny dàn rith cyfraith, gan eu tynu a'u llusgo hwy ger bron barnwyr anghyfiawn; ac eto, derbynid a mawrygid wynebau y rhai hyn, gan anmharchu y tlawd, mewn cyfarfodydd crefyddol. *Gorthrymu:* sefydlu llywodraeth orthrymus arnoch, neu yn eich erbyn.

7 * Onid ydynt hwy yn [t] cablu yr [u] enw rhagorol, [x] † yr hwn a elwir arnoch chwi?

t Salm 73. 7—9. Mat. 12. 24. a 27. 63. Luc 22. 64, 65. Act. 26. 11. 1 Tim. 1. 13. Dat. 13. 5, 6. u Can. 1. 3. Es. 7. 14. a 9. 6, 7. Jer. 23. 6. Mat. 1. 23. Act. 4. 12. Phil. 2. 9—11. Dat. 19. 13, 16. x Es. 65. 15. Act. 11. 26. Eph. 3. 15.

* Ac onid oeddynt hwy yn aml yn clywed y cyfoethogion hyn yn cablu ac yn gwarthruddu yr enw mawr a rhagorol, sef enw Iesu Grist; yr hwn oedd yn enw goruwch pob enw gan Dduw, a ddylasai fod felly ganddynt hwythau hefyd; † ac yr hwn a elwid arnynt hwy fel cristionogion. (Gwel ar Act. 11. 26.) Gan hyny a oeddynt hwy yn meddwl y dylasai gelynion Crist, a dynion o'r fath waethaf, gael mwy o barch, er mwyn eu *cyfoeth yn unig*, na'r hyn a ddylasai eu brodyr a'u cymmydogion tlodion gael?—Cyfeiriai yr apostol yn benaf, mae yn amlwg, at y cyfoethogion hyny a ddeuent yn achlysurol i'w cyfarfodydd hwynt, i'r rhai y telid mwy na mwy o barch a derbyn wyneb, tra yr oedd y tlodion yn cael eu dïystyru a'u hanmharchu; lle yr oedd yr olaf yn llawer mwy tebyg o gael lles dàn y gair, na'r blaenaf.—Sylwai un gŵr cyfoethog iawn, a chrefyddol a duwiol iawn hefyd, "Fod gweinidogion Llundain, lawer o honynt, yn fwy am gael cynnulleidfâoedd llawnion, nac oeddynt am wneyd lles i'r gwrandawwyr cyson; ac yn fwy am y cyfoethogion na'r tlodion: ond mai gyda'r tlodion y byddent hwy fwyaf llwyddiannus bob amser:" a dywedai mai "dau gam-gymmeriad mawr yn y gweinidogion oedd y pethau uchod."

8 [y] * Os cyflawni yr ydych y gyfraith frenhinol yn ol yr ysgrythyr, [z] † Câr dy gymmydog fel ti dy hun; [a] ‡ da yr ydych yn gwneuthur:

y adn. 12. pen. 1. 25. 1 Pedr 2. 9. z Lef. 19. 18, 34. Mat. 22. 39. Marc 12. 31—33. Luc 10. 27—37. Rhuf. 13. 8, 9. Gal. 5. 14. 1 Thes. 4. 9. a adn. 19. 1 Bren. 8. 18. 2 Bren. 7. 9. Jona 4. 4, 9. Mat. 25. 21, 23. Phil. 4. 14.

* Ond, yn lle talu mwy na mwy o barch i'r mawrion er mwyn eu cyfoeth, a dïystyru y tlodion o herwydd eu tlodi, os ydych chwi yn cyflawni dyledswyddau deddf fawr cariad; yr hon a ellir ei galw yn *gyfraith freninol*, am ei bod yn gyfraith dra rhagorol, wedi ei rhoddi gan Frenin a Duw Israel gynt dàn yr Hen Destament; (Lefit. 19. 18.) ac am fod Crist, Brenin eglwys y Testament Newydd wedi ei sefydlu, ei chadarnâu, a'i rhwymo ar ei ddysgyblion, trwy egwyddorion newyddion ac efengylaidd; (Matth. 22. 39; a Ioan 13. 34, 35.) † a swm yr hon ydyw, chwi a ymddygwch tuag at eich cyd-grëaduriaid, yn enwedig eich brodyr crefyddol, gyda'r un fath gymmwynasgarwch, uniondeb, a thrugaredd, yn ol eu gwahanol amgylchiadau, ag a dybiech chwi yn iawn ac yn rhesymol, ac a ddysgwyliech mewn cyffelyb amgylchiadau, o gael eich hunain ganddynt hwy;—‡ os ydych, meddaf, yn ymddwyn fel hyn tuag at bawb, o bob gradd a sefyllfa yn ddiwahaniaeth; yn enwedig tuag at eich brodyr yn yr Arglwydd, oddi ar egwyddor o gariad at Grist, ac o ufudd-dod i'w gyfraith ef, fel eich Arglwydd a'ch Brenin; da yr ydych yn gwneuthur: yr ydych yn ymddwyn yn anrhydeddus, ac yn addas i'ch proffes a'ch cymmeriad crefyddol: mae y cyfryw ymddygiad yn dda i eraill, a thrŷ allan yn dda i chwi eich hunain.

9 [b] * Eithr os derbyn wyneb yr ydych, † yr ydych yn gwneuthur pechod, [c] ‡ ac yn cael eich argyhoeddi [d] gan y gyfraith ‖ megis troseddwyr.

b Gwel ar adn. 1—4.—Lef. 19. 15. c Ioan 8. 9, 46. a 16. 8. 1 Cor. 14. 24. Judas 15. d Rhuf. 3. 20. a 7. 7—13. Gal. 2. 19. 1 Ioan 3. 4.

* Ond os oeddynt hwy, a hwynt yn gristionogion, yn derbyn wynebau, yn dïystyru y tlawd, ac yn anrhydeddu y cyfoethog, fel y sylwyd; † yr oeddynt yn sicr yn gwneuthur pechod, yn ymddwyn yn anghyfiawn; ‡ ac yn cael eu hargyhoeddi, eu barnu, a'u condemnio gan y gyfraith, ‖ fel troseddwyr o ddeddf ragoraf cariad; yr hon sydd yn dywedyd, "Na wnewch gam mewn barn; na dderbyn wyneb y tlawd, ac na pharcha wyneb y cadarn; barna dy gymmydog mewn cyfiawnder." Lefit. 19. 15.

10 * Canys [e] pwy bynnag a gadwo y gyf-

raith i gyd oll, † ac a ballo mewn un *pwngc*, ‡ y mae efe yn euog o'r cwbl.

e Deut. 27. 26. Mat. 5. 18, 19. Gal. 3. 10.

* Dangoswyd eisoes, fod derbyn wyneb fel y sylwyd yn bechod, ac yn dòriad ar y gyfraith: a chaniatâer, er mwyn dadl, fod rhywun yn cadw y gyfraith i gyd oll mewn pethau eraill, † eto os palla, neu os metha efe, yn yr un pwnc hwn, neu mewn unrhyw un pwnc arall; ‡ mae efe yn euog o'r cwbl, sef o droseddu yr holl gyfraith, ac mae efe yn syrthio dàn ei chondemniad hi mòr sicr, er nad mòr ddwfn, trwy dòri un gorchymyn, a phe tòrasai yr holl orchymynion: fel y mae dyn yn euog o farwolaeth, wrth gyfraith y wlad hon, trwy droseddu mewn un achos crogadwy, er ei fod yn ddieuog yn mhob peth arall. Pan dòrer un silltaeren *(link)* yn y gadwen, mae y gadwen yn cael ei thòri. Yn ol y *cyfammod gweithredoedd*, mae y tòriad o un gorchymyn yn dwyn y troseddwr dàn gondemniad, oddi wrth yr hwn nid oes dim ufudd-dod, a fu, y sydd, nac a ddaw, a all ei waredu ef: ac yn ol y *cyfammod gras*, mae y tòriad gwirfoddol, gwybodus, ac arferawl, o un rhyw ran o'r ddeddf foesol, megys y rhoddwyd hi i ni o law Cyfryngwr, yn profi proffeswr cristionogaeth, yn annuwiol, yn anedifeiriol, yn rhagrithiwr, yn elyn anghymmodol, ac yn wrthryfelgar yn erbyn Duw; ac nad yw ei ufudd-dod ef mewn pethau eraill, ddim yn tarddu oddi ar wir barch i awdurdod a gogoniant Duw. Oblegid pe buasai, buasai yr un egwyddor yn ei gymhell ef i amcan ac ymgais gwastadol, i ufuddâu i bob gorchymyn dwyfol.

11 * Canys y neb a ddywedodd, [f] Na odineba; a ddywedodd hefyd, Na ladd. [g] † Ac os ti ni odinebi, etto a leddi, yr wyt ti yn troseddu y gyfraith.

f Ex. 20. 13, 14. Deut. 5. 17, 18. Mat. 5. 21—28. a 19. 18. Marc 10. 19. Luc 18. 20. Rhuf. 13. 9. g Lef. 4. 2, 13, 22. Salm 139. 3, 4.

* Canys yr un Duw, yr ac yn awdurdod dwyfol, a waharddodd odineb, a waharddodd hefyd lofruddiaeth; ac felly yr oedd gyda holl waharddiadau a gorchymynion y ddeddf: † ac felly yr oedd y tòriad o un o honynt, er na thòrid y lleill, yn gwneyd y dyn yn droseddwr; ac yr oedd yn dangos gwrthryfel yn erbyn y Deddfroddwr â'i holl gyfraith.

12 [h] * Felly dywedwch, ac felly gwnewch, [i] † megis rhai a fernir wrth gyfraith rhyddid.

h Phil. 4. 8. Col. 3. 17. 2 Pedr 1. 4—8. i adn. 8. Gwel ar pen. 1. 25.

* Gwrth-ddadleuai rhai efallai, gan ddywedyd "nad oeddynt hwy dàn y ddeddf, eithr dàn ras;" ac am hyny y gallent hwy fod mewn ystâd o gymmeradwyaeth, er bod y ddeddf yn condemnio eu hymddygiad hwy mewn amryw bethau. Ond, er mai felly yr oedd mewn gwirionedd, mewn rhyw ystyr, gyda'r credinwyr; eto yr oedd yn gweddu iddynt hwy yn mhob modd, i lefaru a gweithredu, fel dynion a fernid wrth berffaith gyfraith rhyddid. (Gwel ar pen. 1. 25.) † Oblegid yn ol rhediad yr holl ysgrythyrau; a'r efengyl ei hun, drwy yr hon y rhyddêid dynion oddi wrth gondemniad, ac oddi dàn bob iau caethiwed; yr oedd barn gondemniol ar bawb nid edifarâent, ac ni adawent eu pechodau, ac nid ufuddâent i orchymynion Duw mewn gwirionedd a symlrwydd, oddi ar egwyddor o ffydd a chariad tuag at yr Arglwydd Iesu Grist.

13 [k] * Canys barn ddidrugaredd fydd i'r hwn ni wnaeth drugaredd; [l] † ac y mae trugaredd yn gorfoleddu yn erbyn barn.

k pen. 5. 4. Gen. 42. 21. Barn. 1. 7. Job 22. 6—10. Diar. 21. 13. Es. 27. 11. Mat. 5. 7. a 6. 15. a 7. 1, 2. a 18. 28—35. a 25. 41—46. Luc 16. 25. l Jer. 9. 24. Ezec. 33. 11. Mica 7. 18. Eph. 1. 6, 7. a 2. 4—7. 1 Ioan 4. 8—16, 19.

* Felly, os coleddent hwy eu hunain yn wirfoddol, yn yr ymarferiad o unrhyw bechod gwybodus, hwy a fernid gan yr efengyl megys anghredinwyr: yn enwedig byddai barn ddidrugaredd i'r rhai hyny ni wnaethent drugaredd r'w cymmydogion, eu hîs-raddolion, a'r rhai a ymddybynai arnynt, a chospid hwy hyd eithaf llymder y gyfraith: oblegid nis gallai neb fod yn wir gredadyn, os na byddai ei galon wedi cael ei darostwng a'i meddalu i dymher drugarog, dosturiol, faddeugar, addfwyn, a chariadus. † Gellid adnabod gweithrediad trugaredd yn sicr, drwy ei gwaith yn "gorfoleddu yn erbyn barn;" a thrwy fod unrhyw ddyn yn ymhyfrydu mewn peidio a gofyn hyd eithaf cyfiawnder manol; ac yn ymbleseru mewn dangos tiriondeb i'r rhai nad oedd ganddynt ddim hawl arno. Mae Duw yn ymorfoleddu mewn maddeu a bendithio, y rhai y gallasai eu condemnio wrth orsedd barn gyfiawn; mae ei ras ef yn dysgu y rhai a brofasant ei drugaredd, i wneyd yr un modd tuag at eu brodyr a bechant yn eu herbyn; a phawb, ar ni ddysgant drugarâu wrth eraill, rhaid iddynt ddysgwyl yr ymddygir tuag atynt hwythau, yn ol llymdra cyfiawnder o ran mater tragywyddol eu cyflwr. Pa beth, gan hyny, fydd tynged gorthrymwyr creulawn, a gormeswyr drygionus eu cyd-greaduriaid dynol?—*Trugaredd yn gorfoleddu yn erbyn barn:* mae rhai yn deall y geiriau fel yn arwyddo, y dysgwyliad gorfoleddus am farn i ddyfod, drwy yr hwn y nerthir ac y siriolir y cristion yn ei arferiad o drugaredd i eraill. Ond er bod hyn efallai yn gymmwysedig, eto nid yw yn ymddangos mai hyn yw priodol feddwl yr ymadrodd, neu ystyr y geiriau; oblegid gorfoleddu *yn erbyn*, neu lawenychu *yn erbyn*, a arwydda yn fwyaf priodol, gorfoleddu neu lawenychu mewn cael gorucchafiaeth neu fuddugoliaeth ar gyd-ymgeisiwr, neu wrthwynebwr; fel y dywedir yn gyffelybiaethawl bod trugaredd yn ei gael, ar doster barn Duw, pan mae y *rhai hyny* yn cael eu cyfiawnâu a'u hachub, a haeddent yn gyfiawn eu condemnio.

14 [m] * Pa fudd *yw*, fy mrodyr, [n] o dywed neb fod ganddo ffydd, † ac heb fod ganddo weithredoedd? [o] ‡ a ddichon ffydd ei gadw ef?

m adn. 16. Jer. 7. 8. Rhuf. 2. 25. 1 Cor. 13. 3. 1 Tim. 4. 8. Heb. 13. 9. n adn. 18, 26. pen. 1. 22—25. Mat. 5. 20. a 7. 21—23, 26, 27. Luc 6. 49. Act. 8. 13, 21. a 15. 9. 1 Cor. 13. 2. a 16. 22. Gal. 5. 6, 13. 1 Thes. 1. 3. 1 Tim. 1. 5. Tit. 1. 16. a 3. 8. Heb. 11. 7, 8, 17. 2 Pedr 1. 5. 1 Ioan 5. 4, 5. o 1 Cor. 15. 2. Eph. 2. 8—10.

Mae yn amlwg bod yr apostol yma yn dadleu yn erbyn y rhai hyny a roddent ffydd hanesiol, neu gydsyniad â'r efengyl, am y cwbl o wir grefydd efengylaidd; a'r rhai oedd yn barod i ateb pob cyngorion a cheryddon, (fel y gwna llawer eto) trwy ddywedyd, 'Nid trwy weithredoedd y cyfiawnêir ni, eithr trwy ffydd; yr ydym ni yn credu, ac mae i ni bob peth yn Nghrist.' * Am hyny mae efe yn gofyn iddynt, pa fudd ydoedd, er *dywedyd* o neb fod ganddo ffydd, † os nad oedd ganddo hefyd weithredoedd o wir dduwioldeb a sancteiddrwydd, at y rhai y gallai gyfeirio fel ffrwythau a phrofion o'i ffydd. ‡ A allai ffydd ei gadw ef? Gallai gwir ffydd yn ddiammau; yr hon sydd yn gwneyd dynion yn gyfranogion o gyfiawnder Crist, ei iawn a'i ras ef: ond yr oedd i hon ffrwythau sanctaidd, ac yr oedd ei gwirioneedd yn cael ei amlygu yn ei heffeithiau, ar galonau a bucheddau y rhai a'i meddent: lle yr oedd ffydd hanesiol, a chydsyniad yn unig âg unrhyw athrawiaeth, yn gwahaniaethu yn hanfodol oddi wrth y ffydd achubol hon.—Pan mae Paul yn son am gyfiawnâd trwy ffydd *heb* weithredoedd, mae yn son am ffydd wirioneddol; pan mae Iago yma yn dangos nas gall ffydd heb weithredoedd gadw ei pherchenog, mae yn son am ffydd gau, a hanesiol yn unig: fel hyny nid oes dim gwrth-ddywediad rhwng y ddau apostol.

15 [p] * Eithr os bydd brawd neu chwaer yn noeth, † ac mewn eisiau beunyddiol ymborth;

p adn. 5. Job 31. 16—21. Es. 58. 7, 10. Ezec. 18. 7. Mat. 25. 35—40. Marc 14. 7. Luc 3. 11. Act. 9. 39. Heb. 11. 37.

16 [q] ‡ A dywedyd o un o honoch wrthynt, Ewch mewn heddwch, ymdwymnwch, ac ymddigonwch; ‖ etto heb roddi iddynt anghenrheidiau y corph; [r] § pa les *fydd?*

q Job 22. 7—9. Diar. 3. 27, 28. Mat. 14. 15, 16. a 15. 32. a 25. 32—45. Rhuf. 12. 9. 2 Cor. 8. 8. 1 Ioan 3. 16—18. r Gwel ar adn. 14.

* Dangosir afles ac anfuddioldeb y ffydd farw uchod, trwy gymhariaeth addas oddi wrth amgylchiad naturiol. Os oedd unrhyw gristion tlawd, brawd neu chwaer, yn amddifad o ddillad i guddio ei noethni, † ac ar yr un pryd yn dyoddef newyn gan brinder bara beunyddiol; ac felly mewn dirfawr angen a chaledi, ac mewn perygl o drengi: ‡ a bod rhyw frawd proffesedig, yr hwn a allai ei gynnorthwyo ef, yn proffesu llawer o gariad brawdol, ac yn dywedyd mewn geiriau llawn o serchawgrwydd, y dymunai efe yn fawr iddo gael ei ddiwallu wn gysurus â dillad ac ymborth, gan ryw gyfaill tirion a haelionus; ‖ ac ar yr un pryd heb roddi dim ei hunan tuag at ddiwallu yr angenrheidiau hyny: § a oedd un dyn mòr amddifad o synwyr cyffredin, a meddwl mai dywediadau disylwedd felly, oedd y cwbl o'r gras rhagorol o gariad brawdol, yr hwn a gymhellai ac a ganmolai Crist a'i apostolion mòr fawr? Neu a allai y dyn tlawd ar drengi, feddwl fod dywediadau felly yn addim gwell na gwatwariaeth greulawn o'i drueni a'i angen ef? Pa fuddioldeb, gan hyny, a allai fod o'r fath gariad a hyn, i'w berchenog nac i'r dyn tlawd chwaith? Nis gall fod o les yn y byd i'r naill nâ'r llall: ffug a rhagrith ydyw yn y naill, ac ni ddyry na dillad nac ymborth i'r llall.

17 s * Felly ffydd hefyd, oni bydd ganddi weithredoedd, † marw ydyw, ‡ *a hi* yn unig.

s adn. 14, 19, 20, 26. 1 Cor. 13. 3, 13. 1 Thes. 1. 3. 1 Tim. 1. 5. 2 Pedr 1. 5—9.

* Cyffelyb i'r amgylchiad uchod yw hi yn y mater o ffydd: gras rhagorol a thra buddiol yw ffydd, os bydd yn wirioneddol ac effeithiol; ond y ffydd hòno sydd heb weithredoedd yn deilliaw o hóni, fel ffrwythau ysbrydol na sanctaidd er gogoniant i Dduw; † marw ydyw, nid oes ynddi ddim bywyd na gweithrediad, ac nis gall mewn unddi modd gyfiawnâu ei pherchenog: ‡ a hi yn *unig*, ar wahân oddi wrth edifeirwch, cariad at Dduw a ddynion, a phob grasau a serchiadau sancteiddiol eraill. Megys ag nas gall y llygad weled, os bydd yn *unig*, ac yn *farw*, wedi ei wahanu oddi wrth y corph; felly ffydd *farw*, ac *unig*, nid yw dda i ddim. Mae yn amlwg mai nam ffydd hanesiol, gydsyniol, neu broffes o ffydd, mae yr apostol yn llefaru, ac nid am wir a bywiol ffydd; oblegid nid yw hòno byth heb weithredoedd, yn farw, nac yn unig: ac ni wiw dysgwyl gweithredoedd o'r ffydd ygau, a rhithiol hon.

18 * Eithr rhyw un a ddywed, t † Tydi ffydd sydd gennyt, ‡ minnau gweithredoedd sydd gennyf: ‖ dangos i mi dy ffydd di heb dy weithredoedd, u § a minnau wrth fy ngweithredoedd i, a ddangosaf i ti fy ffydd innau.

t adn. 14, 22. Rhuf. 14. 23. 1 Cor. 13. 2. Gal. 5. 6. Heb. 11. 6, 31. u adn. 22—25. pen. 3. 13. Mat. 7. 17. Rhuf. 8. 1. 2 Cor. 5. 17. a 7. 1. 1 Thes. 1. 3—10. 1 Tim. 1. 5. Tit. 2. 7, 11—14.

* Ar y mater hwn, gall y gwir gredadyn ddadleu yn deg â'r rhagrithiwr ymffrostgar uchod, a'i orchfygu, trwy ymresymu âg ef fel hyn:—† Yr wyt ti yn siarad yn uchel am dy ffydd, heb roddi yr un prawf o'i gwirionedd hi; ‡ a minnau, o'r tu arall, heb arfer geiriau chwyddedig, a rhyw broffes fawr o ffydd, mae genyf weithredoedd efengylaidd o gariad ac ufudd-dod, i brofi bod gan fy ffydd i ei heffaith briodol arnaf. ‖ Yn awr, os yw dy ffydd di o'r iawn ryw, dangos i mi ei bod felly, trwy weithredoedd cyfatebol ac addas iddi, yr hyn y'th hèriaf di ei wneyd; § a minnau, yr un modd, a roddaf yr un prawf i ti, o wirionedd fy ffydd innau; ie, mwy nag a elli di ei roddi o'r fath brawf. Neu ynte, dangos i mi fod dy ffydd di yn dda ac yn effeithiol, os gelli, (yr hyn sydd anmhosibl) heb weithredoedd addas i gadarnâu dy fost hyderus o hóni; a minnau a gymmeraf well llwybr i ddangos yn amlwg i ti, fod fy ffydd i yn fywiol ac yn effeithiol, trwy y gweithredoedd sanctaidd mae hi yn ddwyn yn fy muchedd i: ac felly, mewn ffordd gyfiawn ac ysgrythyrol o ymresymu, mi a brofaf yr achos yn sylweddol drwy ei effeithiau; fel yr adnabyddir natur y pren wrth ei ffrwythau. Matth. 7. 16—20.—"*Heb* dy weithredoedd:" dywedir fod y rhan fwyaf o'r ysgrifau Groeg yn darllen, "Dangos i mi dy ffydd di *wrth* dy weithredoedd, a minnau wrth fy ngweithredoedd i a ddangosaf i ti fy ffydd innau." Ceisiwyd rhoddi y ddau ddarlleniad i mewn yn y sylwad blaenorawl. Fel mae y geiriau yn ein cyfieithiad ni, "*heb* dy weithredoedd," math o wawdiaith ydynt; a dangosiad nad oes modd i brofi gwirionedd ffydd heb weithredoedd: ond yn y dull arall, "*wrth* dy weithredoedd," argyhoeddiad llym yw y geiriau; yn dangos nad oedd gan y rhith-broffeswr ddim gweithredoedd i brofi gwirionedd ei ffydd.

19 x * Credu yr wyt ti mai un Duw sydd; y † da yr wyt ti yn gwneuthur. z ‡ Y mae y cythreuliaid hefyd yn credu, ‖ ac yn crynu.

x Deut. 6. 4. Es. 43. 10. a 44. 6, 8. a 45. 6, 21, 22. a 46. 9. Zec. 14. 9. Marc 12. 29. Ioan 17. 3. Rhuf. 3. 30. 1 Cor. 8. 4, 6. Gal. 3. 20. Eph. 4. 5, 6. 1 Tim. 2. 5. Judas 4. y adn. 8. Jona 4. 4, 9. Marc 7. 9. z Mat. 8. 29. Marc 1. 24. a 5. 7. Luc 4. 34. Act. 16. 17. a 19. 15. a 24. 25. Judas 6. Dat. 20. 2, 3, 10.

* Er dangos yn mhellach anfuddioldeb y fath ffydd ag nad oedd yn effeithio ar y galon a'r ymddygiad, mae yr apostol yn crybwyll y pwnc sylfaenol o bob peth mewn crefydd, sef hanfodiad un Duw, fel unig wrthddrych pob addoliad a gwasanaeth, goruwch pob gwrthddrychau eraill o eilun-addoliaeth. Yn awr, yr oedd y proffeswyr rhith-gristionogol uchod, yn credu y gwirionedd pwysig hwn, o fodoliaeth un Duw, heb wneuthur dim defnydd ymarferol o hóno. † Yr oedd credu hyn yn dda ynddo ei hun; ac yr oedd y dyn yn gwneyd yn well o gredu na'r rhai oedd yn gwadu y bod o Dduw: ‡ ond pa fuddioldeb a allai hyn yn unig fod iddo, gan fod y cythreuliaid eu hunain hefyd yn credu yr un peth? Nid oedd ei grêd ef ddim gwell, na mwy, na'u crêd hwythau; nac yn effeithio dim cymmaint arno ef, ond odid, ag arnynt hwy: medrai ef gredu bod un Duw mawr heb ei ofni; ‖ lle yr oedd y cythreuliaid yn crynu wrth feddwl am nerth holl-alluog, a dialedd cyfiawn y gwir a'r bywiol Dduw hwnw; er eu bod o hyd yn parâu mewn eithaf cas a gelyniaeth tuag at ei berffeithiau, ei lywodraeth, ei achos, a'i wasanaeth ef. Rhaid cael ffydd well na hon, neu hi a â yn grynu arnom ni fel ar y cythreuliaid hyny.

20 * Eithr a fynni di wybod, a † O ddyn ofer, b ‡ am ffydd heb weithredoedd, ‖ mai marw yw?

a pen. 1. 26. Job 11. 11, 12. Salm 94. 8—11. Diar. 12. 11. Jer. 2. 5. Rhuf. 1. 21. 1 Cor. 15. 35, 36. Gal. 6. 3. Col. 2. 8. 1 Tim. 1. 6. Tit. 1. 10. b Gwel ar adn. 14.

* A fyni di ddim gwybod, ystyried, a gosod at dy galon yn ddifrifol, † O broffeswr ofer a gwag, sydd yn ymfoddloni ar gyfryw grefydd ag nad oes ganddi ddim effaith ddaionus ar dy galon a'th ymarferiad, ac eto yn tybied fod pob peth yn ddiogel ac yn dda; ‡ am ffydd o gydsyniad âg athrawiaeth yn unig, ac heb weithredoedd addas yn deilliaw fel ffrwythau o hóni, i brofi ei bod o'r iawn ryw; ‖ mai marw ydyw hòno, heb ynddi ddim bywyd na gweithrediad sanctaidd, ac nas gall hi fod byth yn effeithiol i gadw yr enaid? Nid yw y fath ffydd, a'r fath broffeswr, ond diwerth, diles, a marw; fel pren crin, nad yw yn addas i ddim ond i'w dòri i lawr a'i daflu yn tân; neu gorph marw, i'w gladdu allan o'r golwg, fel na byddo i'w fraenedd a'i ddrwg-arogl niweidio y rhai byw. Mewn gair, nid yw y fath ffydd ddim gwell na ffydd y cythreuliaid, pa faint bynag yr ymffrostio ei pherchenog o hóni, a pha faint bynag yr ymddiriedo ynddi.

21 c * Abraham ein tad ni, d † onid o weithredoedd y cyfiawnhâwyd ef, e ‡ pan offrymmodd efe Isaac ei fab ar yr allor?

c Jos. 24. 3. Es. 51. 2. Mat. 3. 9. Luc 1. 73. a 16. 24, 30. Ioan 8. 39, 53, 56. Act. 7. 2. Rhuf. 4. 1, 12, 16. d adn. 18, 24.

Salm 143. 2. Mat. 12. 37. a 25. 31—40. Rhuf. 3. 20. e Gen. 22. 9—12, 16—18.

Yn nesaf, mae yr apostol yn profi ac yn egluro y gosodiad uchod (adn. 20.) trwy esamplau.—* Abraham, tad yr Israeliaid, a thad *ysbrydol* y credinwyr oll, o bob cenedl; † oni phrofwyd ei fod ef yn wir gredadyn, a bod ganddo ffydd gyfiawnâol ac effeithiol, trwy ei weithredoedd rhagorol ef o ufudd-dod; ‡ pan wrth orchymyn Duw y llwyr fwriadodd, ac yn wir y dechreuodd efe yn weithredol, càn belled ag y goddefodd Duw iddo, offrymu ei fab Isaac, ei unig a'i anwyl fab yn ol yr addewid, ar yr allor a ddarparasai efe i'r perwyl hyny?—Mae yn amlwg mai nid cyfiawnâd Abraham o *ran ei berson* ger bron Duw, a feddyliai Iago pan ddywedai "onid trwy weithredoedd y cyfiawnâwyd ef?" oblegid efe a wyddai yn dda, bod Abraham wedi ei gyfiawnâu felly, yn mhell cyn iddo offrymu ei fab Isaac, a chyn ei enwaedu ei hun; sef pan gredodd efe gyntaf. Rhuf. 4. 10, 11. A gwyddai Iago hefyd yn ddïau, cystal ag y gwyddai Paul, na chyfiawnâwyd neb erioed, ac na chyfiawnêir neb byth, trwy weithredoedd o un math, ger bron Duw. Yr hyn a ddylem ddeall wrth y geiriau yw, bod gweithredoedd Abraham yn amlygu gwirionedd ac effeithiau sanctaidd ei ffydd ef, ac yn profi ei fod ef ei hun yn gyfiawn ac yn gymmeradwy ger bron Duw.

22 * Ti a weli fod [f] ffydd yn cyd-weithio â'i weithredoedd ef, † a thrwy weithredoedd [g] fod ffydd wedi ei pherffeithio.

f adn. 18. Gal. 5. 6. Heb. 11. 17—19. g 1 Ioan 2. 5. a 4. 17, 18.

* Gall y darllenydd ystyriol weled yn amlwg wrth hyn, pa mòr rymus yr oedd ffydd Abraham yn addewidion Duw, yn gweithio i ddwyn y gweithredoedd clodfawr hyn, o ymostyngiad ac ufudd-dod diymattal i'w orchymynion ef; † a pha fodd, trwy gyflawni y gweithredoedd, yr oedd ei ffydd ef yn cael ei phrofi a'i hamlygu, ei bod yn ffydd hollawl wirioneddol ac o'r iawn ryw; ei bod yn berffaith yn ei natur, ac heb ddim diffyg mewn unrhyw beth hanfodol yn perthyn iddi.—Nid yw yr apostol yn dywedyd bod *gweithredoedd yn cyd-weithio â ffydd* Abraham; fel y dylasai ddywedyd, pe buasai yn barnu gweithredoedd yn angenrheidiol er cyfiawnâd ger bron Duw; ond mae yn dywedyd bod *ffydd yn cyd-weithio â'i weithredoedd* ef; hyny yw, nid oedd ffydd yn segur, ond yn gweithio yn rymus i ddwyn y gweithredoedd: yr hyn a ddengys mai swydd a gwaith ffydd yw, edrych ar Grist am sancteiddrwydd, yn gystal âg am gyfiawnder.—*Ffydd yn cael ei pherffeithio trwy weithoedd:* nid o ran ei *natur ynddi ei hun*, mae yn berffaith felly ar y cyntaf; ond o ran ei gweithrediadau, ei chynnydd, a'i chryfâd: ac hefyd o ran yr amlygiad mwy-fwy a pherffeithiach o hóni trwy weithredoedd: fel y pren yn ei gyflwr perffaith, wedi llawn dyfu, ac yn llwythog ar bob cangen, o ffrwythau addfed, llawn, a gwerthfawr.

23 [h] * A chyflawnwyd yr ysgrythyr yr hon sydd yn dywedyd, [i] † Credodd Abraham i Dduw, ‡ a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder: [k] || a chyfaill Duw y galwyd ef.

h Mat. 12. 10. a 15. 28. Luc 4. 21. Act. 1. 16. Rhuf. 9. 17. a 11. 2. Gal. 3. 8—10, 22. 2 Tim. 3. 16. 1 Pedr 2. 6. i Gen. 15. 6. Rhuf. 4. 3—6, 10, 11, 22—24. Gal. 3. 6. k Ex. 33. 11. 2 Cron. 20. 7. Job 16. 21. Es. 41. 8. Ioan 15. 13—15.

* A chan fod ufudd-dod gweithredol Abraham yn offrymiad ei fab, (adn. 21.) yn brawf diymwad o wirionedd a grym ei ffydd ef, dangosodd yn eglur drwy yr ufudd-dod hyny, ddarfod cyflawni yr ysgrythyr hòno, yr hon a ddywedodd am dano ef yn hir o'r blaen, (Gen. 15. 6,) † "Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder:" neu fel y mae y geiriau yn Genesis, "Yntau a gredodd yn yr Arglwydd, ac efe a'i cyfrifodd iddo yn gyfiawnder:" hyny yw, efe a gredodd yn addewid Duw, y byddai y Messiah yn un o'i had ef; ‡ a'r hyn a gredodd efe am dano, ac a ga'i efe ynddo a thrwyddo, a gymmeradwywyd yn rasol gan Dduw, ac a gyfrifwyd iddo ef, yn gyfiawnder i fywyd tragywyddol. (Gwel ar Rhuf. 4. 3: ond mae gwall-argraffiad yn y sylwad yno, *cyfranog o Dduw*, lle dylasai fod, *cyfranog o gyfiawnder Duw.*) || Ac ar y prawf a roddes Abraham o wirionedd ei ffydd yn offrymiad ei fab, o'r hwn yr oedd y Messïah addawedig i ddyfod, gan gredu *fod Duw yn abl i'w gyfodi ef o feirw;* (Heb. 11. 19.) llefarodd yr Arglwydd gyda chymmeradwyaeth uchel o'r prawf hwn o'i ffydd ef, gan ddywedyd yn ol dull dynol, "Gwn weithian i ti ofni Duw, gan nad atteliaist dy fab, dy unig fab, oddi wrthyf fi." (Gen. 22. 12.) Ac wedi hyny galwyd ef yn gyfaill Duw, (2 Cron. 20. 7; Esa. 41. 8.) fel yn un âg ef mewn cyfammod, yr hwn a adnewyddwyd ac a gadarnâwyd ar yr achlysur hwn, gydag ychwaneg o addewidion pennodol; (Gen. 22. 16—18.) ac fel un a ddangosasai yr ufudd-dod mwyaf gostyngedig a serchiadol i'w orchymyn ef; ac a arddelwyd ganddo fel ei "anwylyd" neillduol, ac a gymmerwyd i'r gymdeithas agosaf âg ef fel ei "garedigol."—*A chyflawnwyd yr ysgrythyr, &c.:* y testyn hwn yn bennodol a ddefnyddiai Paul (Rhuf. 4. 3.) i brofi ddarfod i *Abraham gael ei gyfiawnâu trwy ffydd;* yr hyn sydd yn dangos yn eglur, bod y ffydd hòno drwy ba un y dywed Paul ddarfod ei *gyfiawnâu* ef, yn gyfryw ffydd ag oedd yn cynnwys *gweithredoedd da* ynddi, fel *egwyddor* ac *achos* sicr o honynt: ac fel hyn mae yn amlwg fod y ddau apostol yn berffaith gyson â'u gilydd.

24 [l] * Chwi a welwch gan hynny mai o weithredoedd y cyfiawnhêir dyn, † ac nid o ffydd yn unig.

l adn. 15—18, 21, 22.

* Oddi wrth yr hyn a ddywedwyd, gellir gweled gan hyny yn amlwg, bod cymmeriad y gwir gredadyn yn cael ei gyfiawnâu yn wyneb y cyhuddiad o ragrith, neu o broffes wâg hanesiol, trwy y gweithredoedd da mae efe yn wneyd, fel ffrwythau ei ffydd; † ac nid trwy broffes o ffydd, yr hon sydd farw, ac unig, heb weithredoedd addas a phriodol. Nid yw yn ddigon bod prif egwyddorion crefydd yn cael eu credu a'u haddef, os na byddant hefyd yn effeithio yn briodol ar y galon a'r fuchedd. Er mai trwy ffydd yn unig y cyfiawnêir dyn gyda Duw; eto, nid y ffydd farw, unig, a diweithredoedd hon, yw hòno: ac ni phrofa hon byth ger bron dynion, bod y dyn yn gyfiawn ger bron Duw.

25 * Yr un ffunud hefyd, [m] Rahab y buttain, [n] † onid o weithredoedd y cyfiawnhâwyd hi, [o] ‡ pan dderbyniodd hi y cenhadau, || a'u danfon ymaith ffordd arall?

m Jos. 2. 1. Mat. 1. 5. n adn. 18—22. o Jos. 2. 9—21. a 6. 17, 22—25. Heb. 11. 31.

* Yr un ffunud hefyd, Rahab, un o'r cenedloedd, ac yr hon a fuasai unwaith yn buttain; † a gyfiawnâwyd trwy weithredoedd, pan weithiodd ei ffydd hi trwy gariad tuag at bobl Dduw, ‡ ac y derbyniodd hi yn roesawus a llettŷgar y cenadau a ddanfonasai Josua i yspïo y wlad, || a'u danfon hwy ymaith yn heddychol a diogel, ar hyd ffordd arall i'r hon yr aethai eu hymlidwyr i chwilio am danynt: a hyn a wnaeth hi dàn berygl o'i bywyd. (Gwel ar Heb. 11. 31.) Yr oedd ei hymddygiad hi yn hyn yn profi bod ei ffydd yn fywiol ac yn effeithiol; yr oedd yn brawf ei bod hi yn credu yn wirioneddol â'r galon, ac nid yn unig trwy gydsyniad dïeffaith y deall. Wrth yr esamplau hyn, ni a welwn yn amlwg, pa mòr angenrheidiol yw gweithredoedd o ufudd-dod, nid i'n cyfiawnâu ni ger bron Duw; ond i arddangos a phrofi gwirionedd ein ffydd ger bron dynion, a'n bod yn gyfiawn ger bron Duw, ac yn ei ofni ef yn dduwiol.

26 [p] * Canys megis y mae y corph heb yr yspryd yn farw, [q] † felly hefyd ffydd heb weithredoedd, marw yw.

p Job 34. 14, 15. Salm 104. 29. a 146. 4. Preg. 12. 7. Es. 2. 22. Luc 23. 46. Act. 7. 59, 60. q Gwel ar adn. 14, 17, 20.

* Canys fel y mae corph dyn heb yr ysbryd, neu yr

naid, yn gelain, neu abwy marwol, heb nac ysgogiad a gweithrediad, pa mòr lluniaidd bynag y byddo yn ahob rhan, ac felly yn gwahaniaethu yn hollawl oddi rth ddyn byw; † felly hefyd ffydd heb weithredoedd, rdd beth marw hollawl; nid yn unig yn ddiwerth, ond n beth llygredig, annymunol, a ffiaidd, mewn ystyr tbrydol. Nid am wir ffydd y dywedir; oblegid pa òr egwan bynag y byddo hòno, nis gall fod yn *farw:* nd am broffes wâg o ffydd y dywedir; yr hon a elwir n ffydd mewn ffordd o ganiatâd yn unig; neu o herydd rhyw debygrwydd gwàn sydd ynddi i wir ffydd: l y mae corph marw yn cael ei alw yn *gorph*, pryd nad lyw mewn gwirionedd ond celain, neu dalp o bridd. nm gysondeb Iago â Phaul, soniwyd peth eisoes: sonia olaf am gyfiawnâd gyda Duw, a'r blaenaf am y prawf l hyny ger bron dynion.

PEN. III.

Na ddylem ni fod yn brysur i feio ar eraill.

**NA fyddwch feistriaid lawer, fy mrodyr; [b] † gan wybod y derbyniwn ni farnedigaeth fwy.

a Mal. 2. 12. Mat. 9. 11. a 10. 24. a 23. 8—10. Ioan 3. 10. ct. 13. 1. Rhuf. 2. 20, 21. 1 Cor. 12. 28. Eph. 4. 11. 1 Tim. 2. 7. Tim. 1. 11. b Lef. 10. 3. Ezec. 3. 17, 18. a 33. 7—9. Luc 12. 7, 48. a 16. 2. Act. 20. 26, 27. 1 Cor. 4. 2—5. 2 Cor. 5. 10. Heb. 3. 17.

* Cyngorai yr apostol ei frodyr cristionogol, na hymmerent arnynt, lawer o honynt, fod yn athrawon i raill, heb gymhwysder digonol, a galwad rëolaidd i yny; a llai o lawer i fod fel y doctoriaid Iuddewig yn ra-arglwyddiaethol a meistrolaidd ar gydwybodau rhai raill mewn pethau crefyddol; † gan wybod yn sicr, y yddai mwy o gyfrif gan athrawon i'w roddi yn y farn, a christionogion cyffredin; ac yn enwedig y rhai traâus a meistrolaidd o honynt, hwy a gaent "farnedigeth fwy," a thrymach yn y dydd diweddaf.—Mae yn ïcr mai *athrawon* yw ystyr y gair *(didaskaloi)* a gyfeithir yma *meistriaid;* ac a ddefnyddir am yr athrawon nddewig, ac am ei Harglwydd Iesu ei hun. Yn yr ystyr hyn dylai *rhai* fod yn athrawon, ond nid *llawer:* i ddylai pawb ymawyddu am y swydd hòno; ac ni dylai neb fod yn *feistrolaidd* ynddi ar ol ei chael: po nwyaf y byddont felly, mwyaf, a thrymaf fydd eu barnddigaeth yn y diwedd.

2 [c] * Canys mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro. [d] † Od oes neb heb lithro r air, [e] ‡ gwr perffaith *yw* hwnnw, [f] ‖ yn gallu frwyno yr holl gorph hefyd.

c 1 Bren. 8. 46. 2 Cron. 6. 36. Diar. 20. 9. Preg. 7. 20. Es. 64. Rhuf. 3. 10. a 7. 21. Gal. 3. 22. a 5. 17. 1 Ioan 1. 8—10. adn. 5, 6.—Gwel ar pen. 1. 26. Salm 34. 13. 1 Pedr 3. 10. Gwel ar pen. 1. 4.—Col. 1. 28. a 4. 12. Heb. 13. 21. 1 Pedr 5. 0. f 1 Cor. 9. 27.

* Canys yn wir rhaid addef fod pawb, y goreu o ddynon, hyd yn nôd yr apostol ei hun a'i frodyr, yn llithro m fynych mewn llawer o bethau, y rhai oeddynt yn roseddau yn erbyn deddf Duw, yn anfoddus ganddo f, ac yn ddrwg gan eu cyd-gristionogion: yr hyn a dylai eu gwneyd hwy yn ostyngedig a gwylaidd yn eu neddyliau, ac yn wyliadwrus rhag beio a meistroli ar raill. A pho uwchaf y byddai dynion yn cael eu erchafu mewn swyddau ac enwogrwydd, mwyaf i gyd addai eu perygl, mwyaf y sylwid ar eu llithriadau, a nwyaf angenrheidioi ‖ fyddai eu hargyhoeddi a'u eryddu. † Yn enwedig byddai yn dra anhawdd llefaru ymmaint ac mòr fynych, ag oedd gwaith cyhoeddus a eilluol y weinidogaeth yn ei ofyn, heb gam-ddweud rhywbeth yn aml, yn ddianrhydeddus i Dduw, ac yn iweidiol i ddynion; un ai mewn balchder, digter, neu yw dymherau ansanctaidd. Yn wir os oedd neb yn allu ffrwyno ei dafod, fel na lithrai ar air, ond yn dyedyd pob peth yn ei le; ‡ rhaid bod hwnw yn wr erffaith, yn gristion rhagorol, wedi cyrhaeddyd gwyodaeth, profiad, ysbryd, a sancteiddrwydd digyffelyb; a chwedi cyrhaedd meistrolaeth berffaith arno ei hun: ‖ yr oedd hwnw yn gallu ffrwyno, llywodraethu, a defnyddio holl dueddiadau, synwyrau, ac aelodau ei gorph, fel arfau cyfiawnder, er gogoniant i Dduw, ac mewn ufudd-dod i'w ewyllys ef; gan ei fod ef yn gallu llywodraethu y tafod, yr aelod mwyaf anllywodraethus o'r cwbl. Ond ni chyrhaeddodd neb erioed ar y ddaear i'r perffeithrwydd hwn, canys mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro.—*Ffordd* yw bywyd, *camrau* yw gweithredoedd; camrau heb lithro yw iawn weithredu, a llithro yn y camrau yw cam-weithredu. Er bod y geiriau yn ddifai, eto gall fod anmherffeithrwydd yn y dyn; gan hyny, dylem ddeall y gair "perffaith" mewn ystyr derfynol yma.

3 [g] * Wele, yr ydym ni yn rhoddi ffrwynau ym mhennau y meirch, i'w gwneuthur yn ufudd i ni: † ac yr ydym yn troi eu holl gorph hwy oddi amgylch.

g pen. 1. 26. 2 Bren. 19. 28. Salm 32. 9. a 39. 1. Es. 37. 29.

Yn yr adnod hon a'r nesaf, mae yr apostol yn arfer dwy gyffelybiaeth am iawn lywodraethiad y tafod, yn nghyd â'r angen a'r buddioldeb o'i lywodraethu yn ofalus ac yn fedrus. * Gwelwch pa fodd yr ydym yn gwneyd â'r meirch pan fyddom yn eu marchogaeth; nid ydym yn gadael iddynt redeg a charlamu ar antur, ond yr ydym yn rhoddi ffrwynau yn eu penau i attal a dofi eu gyriadau gorwyllt, ac i'w cyfarwyddo hwynt i fyned y ffordd a fynom ni: † a chyda y ffrwynau hyn yr ydym yn troi eu holl gorph oddi amgylch, yn ol neu yn mlaen, i'r ddehau neu i'r aswy, ac i'r naill ffordd neu y llall, yn hollawl fel y gwelom ni yn dda. Yn gyffelyb i hyny, os bydd y tafod dàn lywodraeth, bydd yr holl ddyn felly hefyd: adn. 2.

4 * Wele, y llongau hefyd, er eu maint, [h] † ac er eu gyrru gan wyntoedd creulawn, ‡ a droir oddi amgylch â llyw bychan, lle y myno y llywydd.

h Salm 107. 25—27. Jona 1. 4. Mat. 8. 24. Act. 27. 14, &c.

* Ac wele hyd yn nôd y llongau hefyd, er eu bod yn aml o faintioli dirfawr, a thàn hwyliau lawer, † ac er eu gyru yn ofnadwy gan wyntoedd creulawn ar y cefn-fôr noeth tymhestlog; ‡ hwy a dröir oddi amgylch, ac a lywodraethir yn gyffredin yn yr ystormydd mwyaf, â llyw bychan, fel y mỳno y llywydd. Gŵyr y morwyr gyda pha ofal, egni, a sydynrwydd cywrain a medrus, y rhaid i'r llywydd drin y llyw mewn rhuthrau disymmwth o wyntoedd cryfion; fel y mae geiriau gwreiddiol yn y fàn hon, meddant, yn arwyddo: yr un modd dylid rhëoli y tafod, mewn profedigaethau cryfion, a nwydau angerddol.

5 * Felly hefyd y tafod, aelod bychan yw, [i] † ac yn ffrostio pethau mawrion. ‡ Wele faint o ddefnydd y mae ychydig dân yn ei ennyn!

i Ex. 5. 2. a 15. 9. 2 Bren. 19. 22—24. Job 21. 14, 15. a 22. 17. Salm 10. 3. a 12. 2—4. a 17. 10. a 52. 1, 2. a 73. 8, 9. Diar. 12. 18. a 18. 21. Jer. 9. 3—8. a 18, 18. Ezec. 28. 2. a 29. 3. Dan. 3. 15. a 4. 30. 2 Pedr 2. 18. Judas 16. Dat. 13. 5, 6.

* Felly hefyd, yn gyfatebol i'r cyffelybiaethau uchod, nid yw y tafod ond aelod bychan, mewn cymhariaeth i'r holl gorph; ond mae yn dra gwasanaethgar os iawn ddefnyddir ef, dàn ddylanwad gras Duw, yn holl achosion a helyntion bywyd; † ond os bydd efe dàn lywodraeth a dylanwad calon ansanctaidd a chnawdol, mae yn ymffrostio pethau mawrion, ac yn siarad yn anghymmedrol am dano ei hun, ac yn drahâus a dirmygus am eraill. ‡ A sylwer, attolwg, pa fodd mae y tafod trwy eiriau niweidiol, fel gwreichion o dân mewn defnyddiau llosgadwy, yn ennyn fflam ddychrynllyd o gynhen a therfysg oll o'i amgylch.—*Efrostio pethau mawrion:* dywedir fod y gair Groeg yn arwyddo estyn i fynu, neu dderchafu y gwddf, fel y gwna meirch yn eu balchder, (adn. 3.) ac fel y gwna dynion beilchion hefyd. Esa. 3. 16.

6 * A'r [k] tafod, tân *ydyw,* [l] † byd o anghyfiawnder. ‡ Felly y mae y tafod wedi ei osod ym mhlith ein haelodau ni, fel y mae yn halogi yr holl gorph, ‖ ac yn gosod troell naturiaeth yn fflam; [m] § ac wedi ei wneuthur yn fflam gan uffern.

k Barn. 12. 4—6. 2 Sam. 19. 43. a 20. 1. 2 Cron. 10. 13—16. a 13. 17. Salm 64. 3. a 140. 3. Diar. 15. 1. a 16. 27. a 26. 20, 21. Es. 30. 27. l pen. 2. 7. Gen. 3. 4—6. Lef. 24. 11. Num. 25. 2. a 31. 16. Deut. 13. 6. Barn. 16. 15—20. 1 Sam. 22. 9—17. 2 Sam. 13. 26—29. a 15. 2—6. a 16. 20—23. a 17. 1, 2. 1 Bren. 21. 5—15. Diar. 1. 10—14. a 6. 19. a 7. 5, 21—23. Jer. 20. 10. a 28. 16. Mat. 12. 24, 32—36. a 15. 18, 19. Marc 7. 20—22. a 14. 55—57. Act. 6. 13. a 20. 30. Rhuf. 3. 13, 14. a 16. 17, 18. Eph. 5. 3, 4. Col. 3. 8, 9. 2 Thes. 2. 10—12. Tit. 1. 11. 2 Pedr 2. 1, 2. a 3. 3. 3 Ioan 10. Judas 8—10, 15—18. Dat. 2. 14, 15. a 13. 1—5, 14. a 18. 23. a 19. 20. m Luc 16. 24. Act. 5. 3. 2 Cor. 11. 13—15. 2 Thes. 2. 9. Dat. 12. 9.

* A'r tafod anllywodraethus, cynddeiriog, ac enllibaidd, tân ydyw, o'r fath waethaf, yn dystrywio pob peth ffordd y cerddo: † byd o anghyfiawnder yw; yn tywallt allan beth dirfawr o bechodau; yn arllwys yr holl fyd o bechodau a drygioni sydd yn y galon, (Matth. 15. 18.) ac yn achos o aneirif bechodau ac anghyfiawnder mewn eraill. ‡ Y fath aelod niweidiol a dinystriol yw yr un bychan hwn, yn mhlith aelodau eraill ein cyrph ni, fel y mae trwy ei afreëolaeth direswm, yn taenu euogrwydd a halogedigaeth trwy yr holl ddyn, gorph ac enaid; ‖ ac yn ennyn y fath lidiawgrwydd a digter ynom ni ein hunain ac eraill, ag sydd yn taflu holl rawd *(course)* y byd moesawl, i gynhwrf a therfysg dinystriol; yr hyn a red trwy holl gylch pob cenedlaeth, a holl dröell naturiaeth a bywyd, o ieuenctid i henaint; ac felly yn gosod yr holl fyd megys ar dân, yn un fflam o ddrygioni a chynddeiriogrwydd. § A chan fod yr holl ddrwg hyn o natur uffernol, ac yn cael ei ennyn a'i chwythu fel tân, gan ddylanwadau dieflig cyhuddwr y brodyr, tad y celwydd, felly mae yn cael ei wneuthur yn fflam gan uffern ei hun; ac yn y diwedd caiff y tafod, yn nghyd â'r dyn ni rydd attaliad arno, ei boeni yn fflamiau anniffoddadwy uffern, (Luc 16. 24.) a hyny yn eithaf cyfiawn; gan fod y fath dafod dychrynllyd yn fwy direöl, dilywodraeth, a niweidiol, nâ'r gwylltaf, a mwyaf cynddeiriog, o holl greäduriaid y greädigaeth isod hon.—*Tröell naturiaeth:* ein holl fywyd, a bywyddau ein henafiaid, lin o lin o'n blaen, yr hwn sydd fel olwyn, neu dröell, yn myned yn mlaen, nid yn unig yn ddibaid, ond hefyd o hyd yn cyfnewid; weithiau yn derchafu dyn i fynu, ac weithiau yn ei ddarostwng i lawr. Yr oedd y tafod yn niweidio ein *tadau,* mae yn awr yn ein niweidio *ninnau,* ac a fydd eto yn niweidio ein *plant*. ac efallai fod yr un drwg, y tafod, yn dyfod o *amgylch* yn aml, fel *tröell,* i'r un dynion, ac yn fflamio nwydau drygionus pawb o bob oedran.

7 * Canys holl natur gwyllt-filod, ac adar, ac ymlusgiaid, † a'r pethau yn y môr, [n] ‡ a ddofir ac a ddofwyd ‖ gan natur ddynol:

n Marc 5. 4.

* "Canys holl *natur,*" neu bob *math* a *rhyw* o wyllt-filod, ac adar gwylltion, ac ymlusgiaid y ddaear, hyd yn nôd nadroedd gwenwynig, † a'r pysgod ysglyfaethus ac anferth o faintioli yn y môr; ‡ a ddofir ac a ddofwyd, a ddarostyngir ac a ddarostyngwyd, neu a gaethiwir ac a gaethiwyd, ‖ gan natur ddynol, sef trwy nerth, medrusrwydd, ac ymdrechiadau dynion: natur dyn yn darostwng natur anifeiliaid, i ryw raddau yn ol y llywodraeth a roddwyd iddo arnynt yn y dechreuad. Gen. 1. 26.—*A ddofir, &c.:* mae ein Hawdwyr yn dewis cyfieithu y gair *damazetai,* darostwng, gorchfygu, &c., yn hytrach na *dofi;* yr hyn sydd anmhosibl ei wneyd ar bysgod anghenfilaidd y môr, ac, efallai, rhai creäduriaid tir ac awyr hefyd: o leiaf ni *ddofwyd* llawer o honynt hyd yn hyn, ar a wyddom ni.

8 * Eithr y tafod ni ddichon un dyn ei ddofi; [o] † drwg anllywodraethus *ydyw,* [p] ‡ yn llawn gwenwyn marwol.

o Gwel ar adn. 6.—Salm 55. 21. a 57. 4. a 59. 7. a 64. 3, 4. p Deut. 32. 33. Salm 58. 4. a 140. 3. Preg. 10. 11. Rhuf. 3. 13. Dat. 12. 9.

* Ond er dofi neu ddarostwng y creäduriaid uchod oll mewn rhyw ffordd neu y llall, eto y tafod ni ddichon un dyn ei ddofi; nis gallodd unrhyw ymdrechiadau erioed, attal tafodau anllywodraethus dynion annuwiol, nac attal eu heffeithiau gwenwynig, tanllyd, a dinystriol. Nis gall dynion felly, yn ngrym eu nwydau cynddeiriog, ddofi eu tafodau eu hunain; ac nis gall neb arall eu dofi iddynt. † Fel y mae calon yr annuwiol yn ddrwg diobaith, felly mae ei dafod yn ddrwg anllywodraethus; ‡ yn llawn gwenwyn marwol, o falchder, llid, cenfigen, enllib, celwydd, a phob drygioni atgas, yr hyn mae yn ei dywallt allan er dinystr ei enaid ei hun, a niwed i bawb o'i amgylch; ïe, yn fwy niweidiol nac yw gwenwyn marwol i'r corph. *Gwenwyn aspiaid,* y gwaethaf o bob gwenwyn, *sydd dàn wefusau* y cyfryw ddyn. Rhuf. 3. 13.

9 [q] * Ag ef yr ydym yn [r] bendithio Duw a'r Tad; [s] † âg ef hefyd yr ydym yn melldithio dynion, [t] ‡ a wnaethpwyd ar lun Duw.

q Salm 16. 9. a 30. 12. a 35. 28. a 51. 14. a 57. 8. a 62. 4. a 71. 24. a 108. 1. Act. 2. 26. r 1 Cron. 29. 10, 20. Salm 34. 1. a 63. 4. a 145. 1, 21. Es. 29. 13. Eph. 1. 3. 1 Pedr 1. 3. s Barn. 9. 27. 2 Sam. 16. 5. a 19. 21. Salm 10. 7. a 59. 12. a 109. 17, 18. Preg. 7. 22. Mat. 5. 44. a 26. 74. Rhuf. 3. 14. t Gen. 1. 26, 27. a 9. 6. 1 Cor. 11. 7.

* A'r tafod, mae yn wir, mae dynion duwiol yn bendithio Duw a'r Tad, yn ol y dyben anrhydeddus i ba un y crëwyd ef; ac mae llawer yn gwneyd hyn yn allanol, ag sydd yn amddifad o wir dduwioldeb. † Eto, â'r un aelod hwn mae llaweroedd yn enllibio, yn sènu, ac yn melltithio dynion, oddi ar dymherau adwythig a balchder eu calon: ‡ er crëu y dynion hyny ar y cyntaf ar lun Duw, er eu bod eto ar ei lun ef o ran cynneddfau naturiol eu heneidiau, ac er y gellir eu cyfnewid hwy ar ei ddelw ef mewn sancteiddrwydd, trwy Ysbryd a gras yr Arglwydd Iesu. Melltithio dynion a wnaed ar lun Duw, yw dywedyd yn ddrwg am Dduw ei hun mewn effaith; fel mae melltithio y gwaith yn felltithio y gweithydd, neu felltithio yr eiddo yn felltithio y meddiannydd.

10 [u] * O'r un genau y mae yn dyfod allan fendith a † melldith. [x] ‡ Fy mrodyr, ni ddylai y pethau hyn fod felly.

u Salm 50. 16—20. Jer. 7. 4—10. Mica 3. 11. Rhuf. 12. 14. 1 Pedr 3. 9. x Gen. 20. 9. 2 Sam. 13. 12. 1 Cor. 3. 3. 1 Tim. 5. 13.

* Fel hyn o'r un genau mae iaith cariad, diolchgarwch, ac addoliad i Dduw, yn dyfod weithiau; † a iaith gelynaeth, digter, a melltithio dynion, yn dyfod brydiau eraill; yn ol y gwahanol dymherau ac ysbrydoedd y byddo dynion ynddynt. ‡ Gallai rhai yn wir ddadleu, eu bod fel hyn yn datgan eu digasedd yn erbyn gwrthwynebwyr yr efengyl, oddi ar *zêl* dros y gwirionedd ac yn erbyn cyfeiliorni; ond ni ddylai y pethau hyn mewn un modd fod felly: a phob proffeswr a ymddygai fel hyn, yr oedd yn rhoi y celwydd i'w broffes, ac yn ymollwng i gynhyrfiadau Satan, ac i'w nwydau llygredig ei hun.—Llawer gwaith y cair dynion ar eu ffordd adref o'r addoliad, yn enllibio eu cymmydogion; dyna fendith a melltith yn dyfod o'r un genau.

11 * A ydyw ffynnon o'r un llygad yn rhoi *dwfr* melus a chwerw?

* Mae y peth uchod yn gymmysgedd o'r fath, nad oes dim yn gyffelyb iddo yn holl natur: oblegid nid oes yr un ffynon o'r un *llygad,* yn rhoddi weithiau ddwfr melus, ac weithiau ddwfr chwerw: nid oes dim fel hyn yn y byd naturiol, ac ni ddylai dim fel hyn fod yn y byd crefyddol: os yw y cyntaf yn beth rhyfedd ac annaturiol, dylai yr ail fod yn rhyfeddach a mwy anaml.

12 [y] * A ddichon y pren ffigys, fy mrodyr,

dwyn olifaid? † neu winwydden, ffigys? ‡ felly ni *ddichon* un ffynnon roddi dwfr allt a chroyw.

y Es. 5. 2—4. Jer. 2. 21. Mat. 7. 16—20. a 12. 33. Luc 6. 43, 44. Rhuf. 11. 16—18. z Ex. 15. 23—25. 2 Bren. 2. 19—22. Ezec. 47. 8—11.

* Ac a ddichon y ffigys-bren ddwyn y ffrwyth a dŷf yn unig ar y pren olew-wydd? † Neu a welwyd erioed winwydden yn dwyn ffigys? Na welwyd erioed y faith beth, ac ni ddichon y fath beth fod: ‡ ac ni ddichon ychwaith i'r un ffynon, o'r un llygad, roddi dwfr allt a chroyw, ar yr un waith nac ar wahanol amserau. llawn mòr anghyson a gwrthun yw, bod yr un galon, r hon yw y ffynon o ba un y tardda ein geiriau, yn mdywallt allan weithiau mewn bendithio Duw, ac eithiau mewn melltithio dynion a wnaethpwyd ar lun Duw. Clywed yr holl grefyddwyr enllibaidd hyn.—ffallai bod yr apostol yma yn cyfeirio at yr Iuddewon nnychweledig, y rhai yn fynych a felltithient y cristonogion yn dost yn eu synagogau, yn blith dra-phlith g addoli Duw: ond y mae gormod o hyn ysywaeth gan yw fath o gristionogion eto.

13 a * *Pwy sydd* wr doeth, b a deallus yn eich plith? c † dangosed, d trwy ymarweddiad da, ‡ ei weithredoedd e ‖ mewn mwyneidd-dra doethineb.

a adn. 1. Preg. 8. 1, 5. Jer. 9. 12, 23. Mat. 7. 24. 1 Cor. 6. 5. 2 Cron. 2. 12, 13. Job 28. 28. Es. 11. 3. Dan. 2. 21. c pen. 18. Es. 60. 6. 2 Cor. 8. 24. 1 Pedr 2. 9. d Phil. 1. 27. 1 Tim. 12. Heb. 13. 5. 1 Pedr 2. 12. a 3. 1, 2, 16. e adn. 17. pen. 1. 1. Num. 12. 3. Salm 25. 9. a 45. 4. a 149. 4. Es. 11. 4. a 29. 19. 61. 1. Zeph. 2. 3. Mat. 5. 5. a 11. 29. a 21. 5. 2 Cor. 10. 1. Gal. 23. a 6. 1. Eph. 4. 2. Col. 3. 12. 1 Tim. 6. 11. 2 Tim. 2. 25. Tit. 2. 1 Pedr 3. 4, 15.

Gwedi dangos drwg y tafod yn yr adnodau o'r blaen, mae yr apostol yn dychwelyd yma i symmud yr achos hyny, sef tybiau mawr dynion am eu doethineb eu hunain. * Os oedd neb o'r rhai yr oedd efe yn ysgrifennu atynt yn meddu, neu yn tybied eu bod yn meddu doethineb, deall, ac athrylith mwy nac eraill, a chwedi eu cynnysgaethu â llawer o wybodaeth o'r efengyl; na rydded iddynt dybied eu bod wedi eu claddu mewn sefyllfa rŷ isel ac anamlwg, nâ choleddu ysbryd balch, achel-frydig, ac anfoddlawn; † eithr dangosent, trwy ymarweddiad da cyffredinol, yn eu gwahanol sefyllfâoedd a'u galwedigaethau, ‡ eu gweithredoedd o dduwioldeb, uniondeb, purdeb, a thrugaredd, ‖ mewn mwyneidd-dra doethineb; gan arferyd y callder hyny, a ddynodir drwy ysbryd addfwyn a llonydd, yr hwn sydd yn anwahanol gyssylltiedig âg ef, ac â pharodrwydd i maddeu i bawb, a bod yn heddychlawn â phob dyn. Hyn yw y ddoethineb oreu, a dyma y ffordd oreu i ddangos ein bod yn meddu arni. *Crasder* doethineb y gan rai; ond *mwyneidd-dra* doethineb a sonir yma: ac mae llawer o ragor rhwng y ddau.

14 f * Eithr od oes gennych genfigen chwerw † ac ymryson yn eich calon, g ‡ na ffyddwch ffrostwyr h ‖ a chelwyddog yn erbyn y gwirionedd.

f adn. 16. pen. 4. 1—5. Gen. 30. 1, 2. a 37. 11. Job 5. 2. Diar. 4. 30. a 27. 4. Es. 11. 13. Hab. 1. 3. Mat. 27. 18. Act. 5. 17. a 7. 9. a 13. 45. Rhuf. 1. 29. a 13. 13. 1 Cor. 3. 3. a 13. 4. 2 Cor. 12. 20. Gal. 5. 15, 21, 26. Phil. 1. 15. a 2. 3. 1 Tim. 6. 4. Tit. 3. 3. 1 Pedr 2. 1, 2. g Rhuf. 2. 17, &c. 1 Cor. 4. 7, 8. a 5. 2, 6. Gal. 6. 13. h 2 Bren. 10. 16, 31. Ioan 16. 2. Act. 26. 9.

* Ond os oedd neb o honynt yn coleddu "cenfigen chwerw," neu *zêl* falch, boethlyd, a digofus, dros eu holaid a'u dàliadau eu hunain, yn eu calonau; † neu os oeddynt yn gwrth-ymgais âg eraill am flaenoriaeth, parch, ac awdurdod, yn y fath fodd ag i sènu, enllibio, a gwaradwyddo eu gilydd, mewn ysbryd digofus; ac yn ymhyfrydu mewn "ymryson" a chwerylu â'r neb a'u gwrthwynebai; ‡ na fydded iddynt fod mòr ynfyd a dlireswm ag ymffrostio yn y tymherau atgas, a'r ymddygiad brwnt hwn, fel pe buasai yn tarddu oddi ar radd oruchel o *zêl*, hyfdra, a ffyddlondeb sanctaidd; ‖ ac na fydded iddynt waradwyddo ac enllibio y gwirionedd, trwy daeru mai pethau fel hyn oedd y ffrwythau angenrheidiol o dderbyn, proffesu, ac amddiffyn y gwirionedd; neu trwy ddywedyd mai claüar oedd y rhai hyny, y rhai ni ddadleuent drosto yn y dull poethlyd hyn. Nid oedd hyn ddim amgen na dywedyd celwydd yn erbyn y gwirionedd, a'i waradwyddo.

15 i * Nid yw y doethineb hwn yn disgyn oddi uchod; k † ond daearol, ‡ anianol, l ‖ cythreulig *yw*.

i adn. 17. pen. 1. 5, 17. Ioan 3. 27. k 2 Sam. 13. 3. a 15. 31. a 16. 23. Jer. 4. 22. Luc 16. 8. Rhuf. 1. 22. 1 Cor. 1. 19, 20, 27. a 2. 6, 7. a 3. 19. 2 Cor. 1. 12. Judas 19. l Gen. 3. 1—5. Ioan 8. 44. Act. 13. 10. 2 Cor. 11. 3, 13—15. 1 Ioan 3. 8—10. Dat. 9. 11. a 12. 9, 10.

* Beth bynag a feddyliai rhai am y fath a enwyd o ddoethineb, dywedai yr apostol yn benodol nad oedd hi ddim oddi uchod; nid doethineb o'r nef ydoedd, ac nid Duw oedd ei hawdwr: † ond doethineb "ddaearol" oedd; o darddiad daearol, ac yn ceisio derchafiad, anrhydedd, a manteision daearol, dàn y rhith o grefydd: ‡ doethineb "anianol" ydoedd; yn deilliaw oddi ar egwyddorion anianol, y rhai a weithredant mewn dynion diadgenedledig, ac yn eu cyfiwr natur; ‖ ïe, doethineb "gythreulig" ydoedd; wedi deilliaw ar y cyntaf o ddiafol, ac yn gwneyd i fynu ei ddelw ef o falchder, uchel-gais, ystryw, cyfrwysder, cenfigen, dryganiaeth, a thwyll.—Tybia rhai fod y tri gaïr uchod yn cyfeirio at *dair* prif demtasiwn y byd; *cybydd-dod*, *pleser*, ac *uchel-gais*: y gyntaf o ba rai sy *ddaearol*, yr ail yn *anianol*, a'r drydedd yn *gythreulig*; gan ei bod y pechod drwy ba un y syrthiodd y cythreuliaid.

16 m * Canys lle *mae* cenfigen ac ymryson, n † yno *y mae* terfysg, o ‡ a phob gweithred ddrwg.

m Gwel ar adn. 14. n Gen. 11. 9. Act. 19. 29. 1 Cor. 14. 33. o 1 Ioan 3. 12.

* Canys lle bynag y byddo ysbryd cenfigenus, enllibus, ac ymrysongar yn cael ei goledd, ac yn tòri allan o'r galon trwy y gwefusau; † ei duedd naturiol, a'i effeithiau cyffredinol yn unig yw, terfysg a dinystr ar heddwch a dedwyddwch yn enaid y dyn ei hunan, a'r eiddo pawb eraill o'i amgylch; ‡ yn nghyd â phob gweithred ddrwg o anwiredd, trueni, a dystryw. Oblegid lle rhodder rhyddid diymattal i'r nwydau atgas hyn gan un dyn, maent yn cynhyrfu yr un nwydau mewn eraill; hyd oni byddo eglwysi, cymdeithasau, a theuluoedd, yn cael eu tafiu i derfysg ac annhrefn, a phob math o ddrygau yn cael eu cyflawni; tra mae dynion yn cael eu dallu a'u gyru yn mlaen, gan eu nwydau cynddeiriog, a'u tymherau rhagfarnus a dialgar.

17 * Eithr y p ddoethineb sydd oddi uchod, q yn gyntaf pur ydyw, r † wedi hynny heddychlawn, s ‡ boneddigaidd, ‖ hawdd ei thrin, t § llawn trugaredd * a ffrwythau da, u † diduedd, x ‡ a diragrith.

p adn. 15. pen. 1. 5, 17. Gen. 41. 38, 39. Ex. 36. 2. 1 Bren. 3. 9, 12, 28. 1 Cron. 22. 12. Job 28. 12, 23, 28. Diar. 2. 6. Es. 11. 2, 3. Dan. 1. 17. Luc 21. 15. 1 Cor. 2. 6, 7. a 12. 8. q pen. 4. 8. Mal. 3. 3. Mat. 5. 8. Phil. 4. 8. Tit. 1. 15. 1 Ioan 3. 3. r 1 Cron. 22. 9. Es. 2. 4. a 9. 6, 7. a 11. 2—9. a 32. 15—17. Rhuf. 12. 18. s Es. 40. 11. 1 Cor. 13. 4—7. 2 Cor. 10. 1. Gal. 5. 22, 23. Eph. 5. 9. 1 Thes. 2. 7. 2 Tim. 2. 24. Tit. 3. 2. t Ioan 1. 14. Act. 9. 36. a 11. 24. Rhuf. 15. 14. 2 Cor. 9. 10. Phil. 1. 11. Col. 1. 10. u pen. 2. 4. Mal. 2. 9. 1 Tim. 5. 21. x Es. 32. 6. Mat. 23. 28. Luc 12. 1, 2. Ioan 1. 47.

* Mewn cyferbyniad i'r ddoethineb ddaearol, anianol, a chythreulig a enwyd, (adn. 15.) mae y "ddoethineb sydd oddi uchod," sef y ddoethineb mae Duw yn roddi i'w bobl, mewn atebiad i'w gweddïau gostyngedig a ffyddiog, (pen. 1. 5, 6.) yn gyntaf yn "bur;" sef yn bur o ran ei natur, ei gwrthddrychau, a'i heffeithiau: mae yn dwyn perthynas â gwirioneddau a gorchymynion sanctaidd a phureiddiawl yr ysgrythyrau; mae yn deilliaw o honynt hwy, ac yn cael ei llywodraethu ganddynt; ac mae yn tueddu i buro y galon, yr ymadrodd, a'r ymarweddiad. † "Gwedi hyny," càn belled ag y

dichon mewn cysondeb â'r puredd hyn, ac âg ymlŷniad diysgog wrth y gwirionedd, ac ufudd-dod i orchymynion Duw ein Hiachawdwr; mae y ddoethineb hon yn "heddychol:" mae ei meddiannydd yn barod i roi pob peth i fynu er mwyn heddwch, ond gwirionedd a dyledswydd; ac wrth y rhai hyn efe a ymlŷn yn gadarn, eto mewn modd heddychol a charedigol. ‡ Mae hon hefyd yn "foneddigaidd;" ac yn tueddu dynion i fod yn ddiog, neu yn araf i ddigofaint, yn addfwyn, yn dawel, yn ymarhôus, ac yn garuaidd yn eu holl ymddygiad tuag at bawb. || Mae hefyd yn "hawdd ei thrin;" ac yn hawdd ei darbwyllo i'r hyn sydd resymol, neu i fod yn faddeugar; ac i wrando ar eiriau gwirionedd ac uniondeb, er eu llefaru gan îs-radd, gan blentyn, neu gan elyn. § Mae hefyd yn "llawn trugaredd," tosturi, a thŷnerwch, tuag at y tlodion, angenus, cystuddiol, a thrallodedig; * ac yn dangos ei bod felly, yn ei "ffrwythau" allanol a gweithredol o elusengarwch, haelioni, a phob swyddau o ddyngarwch a berthyn i drugaredd rhwng dyn â dyn. + Mae y ddoethineb nefol hon hefyd yn "ddiduedd;" yn ei gwaith yn barnu dynion neu weithredoedd: nid yw yn ddall-bleidiol o ochr un blaid, ac yn erbyn plaid arall; nid yw yn tŷn-ddadleu dros un ran o grefydd, gan esgeuluso ac iselu rhanau eraill o hóni; ac nid yw yn derbyn wyneb y cyfoethog gan ddirmygu y tlawd, yr hyn a geryddai yr apostol o'r blaen. (pen. 2. 1—7.) ‡ Yn olaf, mae y ddoethineb hon yn "ddiragrith;" yn tywys dyn i ystyried a pharchu ewyllys a chymmeradwyaeth Duw, lawer yn fwy na thybiau da dynion am dano, beth bynag fyddo sefyllfa neu gymmeriad y dynion hyny. Mae *doethineb* Iago yn perthyn yn agos, ac yn debyg iawn, i *gariad* Paul, yn 1 Cor. 13. 4—7.

18 [y] * A ffrwyth cyfiawnder a heuir mewn heddwch [z] † i'r rhai sydd yn gwneuthur heddwch.

y pen. 1. 20. Diar. 11. 28, 30. Es. 32. 16, 17. Ioan 4. 36. z Mat. 5. 9.

* Beth bynag a ddychymmygo dall-bleidwyr rhag farnus a phoethion, "ffrwyth cyfiawnder," neu yr had da hwnw, oddi ar ba un y tŷf bendigedig ffrwyth cyfiawnder yma ar y ddaear, a "heüir mewn heddwch i'r rhai sydd yn gwneuthur heddwch:" † dynion o dymherau ac ysbrydoedd heddychlawn a charuaidd, yn pregethu yr efengyl, neu mewn rhyw ffordd ysgrythyrol yn ymgais am daenu yr wybodaeth o hóni yn mhlith dynolryw, gan ei haddurno hi yn eu bucheddau, a'i dyfrâu â'u gweddïau, hwy sydd yn hau yr had; yr hwn a fendithia Duw er dychweliad pechaduriaid, ac er taenu a chynnyddu gwir grefydd yn y byd. "Heüir ef mewn heddwch," nid mewn trwst mawr a therfysg; a chan y "rhai sydd yn gwneuthur heddwch," y rhai sydd heddychol eu hunain, ac yn wneuthurwyr heddwch, yn yr eglwys ac yn y byd.—"*I'r* rhai:" "*o'r* rhai" *(of* them) ydyw yn ol y Saesoneg. Tybia *Doddridge* mai "*i'r* rhai" yw y cyfieithiad goreu; fel pe dywedasai yr apostol, "Y rhai a ddangosant dymher *heddychol* (a'i bod oddi ar iawn egwyddor) gallant fod yn sicr y cânt *fedi* cynhauaf, mewn byd lle mae *cyfiawnder* yn bloduo mewn tragywyddol *heddwch.* Mae yr had wedi ei hau, ac efe a dŷf, ac a rydd lawn dâliad am yr holl ddrygau a ddyoddefasant hwy mewn byd cynhenllyd ac ymrysongar.

PEN. IV.

Rhaid i ni ymryson yn erbyn trachwant.

[a] * O BA le *y mae* rhyfeloedd ac ymladdau yn eich plith chwi? [b] † onid oddi wrth hyn, *sef* eich melus-chwantau ‡ y rhai sydd yn rhyfela [c] yn eich aelodau?

a pen. 3. 14—18. b pen. 1. 14. Gen. 4. 5—8. Jer. 17. 9. Mat. 15. 19. Marc 7. 21.—23. Ioan 8. 44. Rhuf. 8. 7. 1 Tim 6. 4—10. Tit. 3. 3. 1 Pedr 1. 14. a 2. 11. a 4. 2, 3. 2 Pedr 2. 18. a 3. 3. 1 Ioan 2. 15—17. Judas 16—18. c Rhuf. 7. 5, 23. Gal. 5. 17. Col. 3. 5.

Tybir yn gyffredin fod yr apostol yma yn cyfeirio ei hun at yr Iuddewon annychweledig; ac mae y geiriau yn briodol iawn i'w hymddygiad hwy, yn ol hanesion yr amseroedd hyny. Yn wir prin y gellid meddwl fod neb aelodau o'r eglwys gristionogol, yn euog o'r drygau ysgeler a enwir yn y bennod hon, yn yr amser boreuol hyny: er bod y geiriau yn rhŷ gymmwysiadol, ysywaeth, at rai ar enw cristionogion, mewn oesoedd wedi hyny. Ond mae yn debyg bod yr apostol yn rhybuddio ei frodyr cristionogol yn erbyn cenfigen, ymryson, ac uchel-gais, yr hyn oedd yn ennill tir o fewn yr eglwys, trwy esampl y genedl Iuddewig: ac ei fod yn eu rhybuddio hwy rhag yr effeithiau mwy dychrynllyd byth, a darddai o'r un achosion yn eu plith hwy. Pa fodd bynag, yr oedd efe yn defnyddio y fath eiriau, ag a fyddai yn cyfeirio yn bennodol at yr Iuddewon hyny a ddygwyddent ddarllen ei epistol ef; pan ddywedai, * "O ba le y mae rhyfeloedd ac ymladdau yn eich plith chwi?" Oblegid yr oedd yn amlwg bod y genedl wedi ymranu yn ei herbyn ei hun, a chwedi ymwahanu yn bleidiau, y rhai a ddystrywient y naill y llall drwy yr ymrysonau mwyaf cynddeiriog; tra yr oedd eu gwrthryfeloedd a'u terfysgoedd gwastadol, yn tynu dystryw am eu penau oddi wrth y llywodraeth Rufeinig. † Onid oedd y drygau hyn yn deilliaw oddi wrth eu melys-chwantau, neu eu *pleserau* hwynt? sef y nwydau llygredig hyny, yr oeddynt hwy yn ceisio ymbleseru yn eu porthi hwynt? ‡ Yr oedd y melys-chwantau hyny yn "rhyfela yn eu haelodau hwynt:" un ai yn aelodau eu natur lygredig, yr hen Adda, lle mae y naill chwant yn rhyfela yn erbyn y llall, gan nas gellid eu cyflawni oll, a phob chwant yn ymdrech am y feistrolaeth; neu yn hytrach, chwant yn rhyfela *drwy* aelodau eu cyrph; y rhai yr oedd eu nwydau cnawdol, gan weithio oddi fewn, a gorchfygu gwrth-safiad egwan rheswm a chydwybod, yn eu defnyddio fel offerynau, neu arfau anghyfiawnder, i gyflawni eu chwantau pechadurus.

2 [d] * Chwennychu yr ydych, ac nid ydych yn cael: † cenfigennu yr ydych ac eiddigeddu, ac nid ydych yn gallu cyrhaeddyd: ‡ ymladd a rhyfela yr ydych, || ond nid ydych yn cael, [e] § am nad ydych yn gofyn.

d pen. 5. 1—5. Diar. 1. 19. Preg. 4. 8. Hab. 2. 5. 1 Tim. 6. 9, 10. e pen. 1. 5. Es. 7. 12. Mat. 7. 7, 8. Luc 11. 9—13. Ioan 4. 10. a 16. 24.

* Yr oeddynt yn chwennychu yn anghymmedrol am lwyddiant bydol, yn nghyd â'r amryw bleserau oedd yn gyssylltiedig â hyny; ond nid oeddynt yn cael yr hyn a chwennychent: † ac o herwydd y siomedigaeth hyn, yr oeddynt yn cenfigenu ac yn eiddigeddu, yn barod i ladd, ac yn aml yn lladd mewn gwirionedd, y rhai a safent ar eu ffordd hwynt; eto wedi y cwbl, nid oeddynt yn gallu cyrhaeddyd yr hyn a chwennychent mòr fawr. ‡ Yr oedd eilwaith yn eu gwneyd hwy yn fwy cynddeiriog byth; ac yr oedd ymladdau cartrefol, a therfysgoedd gwrthryfelgar cyhoeddus yn tòri allan yn eu plith: || ond yn lle llwyddo fel hyny, yr oeddynt yn myned i fwy o dlodi a chaledfyd, ac lawer gwaith yn cael eu darostwng bron i wallgofrwydd annobeithiol; § am nad oeddynt yn gofyn y pethau a chwennychent gan Dduw mewn gweddïau. Rhyddâd oddi wrth dalu *teyrnged*, a *llywodraeth* ar y cenedloedd o'u hamgylch, medd rhai, oedd y ddau beth oeddynt yn *chwennychu:* ond pa raid cyfyngu eu chwennychiad i hyny, a dim ond hyny, mae yn anhawdd gwybod; gwell, tebygid, rhoddi ystyr helaethach i'r geiriau; chwennychiad am bob mawredd, golud, a hawddfyd bydol.—*Cenfigenu yr ydych ac eiddigeddu:* "lladd yr ydych, a chwennychu cael," yw y Saesoneg; a cheisiwyd rhoi hyny i mewn yn y sylwad blaenorawl. *Lladd ac* eiddigeddu, mae yn debyg, yw ystyr y geiriau Groeg *phoneuete kai zêloute:* lladd yw cenfigenu, yn ei natur a'i ganlyniad.

3 [f] * Gofyn yr ydych, † ac nid ydych yn derbyn, o herwydd eich bod yn gofyn ar gam, [g] ‡ fel y galloch eu treulio ar eich melus-chwantau.

f pen. 1. 6, 7. Job 27. 8—10. Salm 18. 41. a 66. 18, 19. Diar. 1. 28. a 15. 8. a 21. 13, 27. Es. 1. 15, 16. Jer. 11. 14. a 14. 12. Mica 3. 4. Zec. 7. 13. Mat. 20. 22. Marc 10. 38. 1 Ioan 3. 22. a 5. 14. g Luc 15. 13, 30. a 16. 1, 2.

* Mae yn debyg bod rhai o honynt hefyd, yn cadw i ofynu ryw ffurf o grefydd, ac yn gweddïo am ryddâd oddi wrth eu gorthrymwyr, ac am lwyddiant a hawddfyd bydol; † ond nid oeddynt yn derbyn yr hyn oeddynt yn ofyn, am eu bod yn gofyn ar gam: yr oedd hyd yn nôd eu gweddïau yn tarddu oddi ar flysiau hunanol a bydol; yr oeddynt yn cael eu cyflwyno yn ffurfiol, a chan y rhai oedd yn parâu i wrthod y Messiah, gan bofer ddysgwyl am waredwr tymmorawl, yr hwn a ddernynt hwy yn llawen. ‡ Fel hyn yr oeddynt hwy yn gofyn am gyfoeth a manteision bydol yn unig, fel y gallent eu treulio a'u hafradu arnynt eu hunain, i borthi eu melys-chwantau. Fel hyn yr oedd gau ddybenion yn andwyo iawn foddion.—*Ar gam: kakôs*, yn *ddrygionus*. Nid yn unig gofyn yn *wàn*, neu yn *ffurfiol*, ond gofyn yn *ddrygionus*; oblegid cybydd-dod, neu chwantau cnawdol, oedd yn cymhell eu gweddïau hwynt.

4 * Chwi [h] odinebwyr, a godineb-wragedd, † oni wyddoch chwi fod [i] cyfeillach y byd yn * elyniaeth i Dduw? [l] ‡ pwy bynnag gan hynny a ewyllysio fod yn gyfaill i'r byd, [m] y mae yn elyn i Dduw.

h Salm 50. 18. a 73. 27. Es. 57. 5. Jer. 9. 2. Hos. 3. 1. Mat. 12. 39. a 16. 4. i Ioan 7. 7. a 15. 19, 23. a 17. 14. 1 Ioan 2. 15, 16. k Gen. 3. 15. Rhuf. 8. 7. l Gal. 1. 10. m Salm 21. 8. Luc 19. 27. Ioan 15. 23, 24. Rhuf. 5. 10.

* Yr oedd yr Iuddewon o hyd yn addolwyr proffeseddïg Duw, a'r genedl oll wedi ei dyweddïo iddo ef trwy gyfammod neilldduol: gan hyny yr oedd eilun-addoliaeth, a throseddiadau union-gyrchol eraill o'r cyfammod hwnw, yn odineb ysbrydol; ac yr oedd gwrthod a chroeshoelio y Messiah yn anghraifft mwy anferth o'r pechod hwnw na dim a allasent ei gyflawni. Yr oeddynt hefyd yn wŷr ac yn wragedd, yn eilun-addoli elw a phleserau bydol yn y modd mwyaf anghymmedrol; fel pe y pethau hyn fuasai eu rhan a'u holl ddymuniad, a chrefydd o ddim gwerth, ond fel yr oedd yn îs-weini i'r prif amcan hyny. Mae yn debyg hefyd, fod llawer o gristionogion mewn enw yn eu plith, wedi ymwrthod ceuddio, a gwadu eu proffes, i'r fath raddau er mwyn y byd, ag oedd yn eu gwneyd yn deilwng o'r cerydd llym hwydd yn y geiriau uchod: nid oeddynt yn haeddu gwell enw na godinebwyr a godineb-wragedd, o herwydd eu hanffyddlondeb i Dduw, yr hwn y proffesent ei addoli, er nad oeddynt efallai yn euog o odineb yn ystyr gyffredin y gair, megys yn ddïammau yr oedd llawer o'r Iuddewon. † Ac oni wyddent hwy, i'r rhai yr ymddirïedwyd ymadroddion Duw, fod cyfeillach y byd, a charïad anghymmedrol at ddynion, arferion, pethau, a phleserau y byd, yn elyniaeth i Dduw? yn groes i'w natur a'i ewyllys sanctaidd ef, yn gwbl anghyson â'r pariad oedd ddyledus tuag ato ef; ‡ ac yn brawf eu bod hwy o hyd yn elynion i Dduw, heb eu cymmodi âg ef, nac heb gariad Duw yn eu calonau. Nis gallent garu y ddau; gan hyny os y byd oeddynt yn garu, rhaid eu bod yn casâu Duw, ac yn elynion iddo.—*Gelyniaeth;* nid *gelyn:* gellir cymmodi *gelyn*, ond ni ellir byth gymmodi *gelyniaeth.*

5 * A ydych chwi yn tybied fod [n] yr ysgrythyr yn dywedyd yn ofer, [o] † At genfigen y mae chwant yr ysbryd a gartrefa ynom ni?

n Ioan 7. 42. a 10. 35. a 19. 37. Rhuf. 9. 17. Gal. 3. 8. o Gen. 4. 5, 6. a 6. 5. a 8. 21. a 26. 14. a 30. 1. a 37. 11. Num. 11. 29. Salm 37. 1. a 106. 16. Preg. 4. 4. Es. 11. 13. Act. 7. 9. Rhuf. 1. 29. Tit. 3. 3.

* A oedd yr Iuddewon gan hyny, neu y rhith broffeswyr o gristionogaeth, yn tybied fod yr ysgrythyr yn dywedyd yn ofer, heb ddim gwirionedd nac ystyr, yn yr holl fânau aneirif hyny lle y dysgrifir annuwioldeb, hunanolrwydd, cnawdoldeb, balchder, a dryganiaeth calonau dynion; † mai at genfigen mae chwant a thuedd yr ysbryd a gartrefa wrth natur ynom ni? Neu, i'r gwrthwyneb, a oeddynt hwy mòr ffol a thybied, fod Ysbryd Duw, yr hwn oedd yn cartrefu yn y gwir gredinwyr, yn cynhyrfu y fath nwydau cenfigenus, a thueddiadau cnawdol a bydol a soniwyd uchod? Na, yr oedd yn anmhosibl mai hyn oedd natur, tuedd, a dyben, ei ddylanwadau sanctaidd ef ar y saint; ac nid dynion duwiol oedd y rhai hyny oedd yn byw dàn lywodraeth y fath nwydau a thueddiadau. *Yr ysgrythyr:* nid rhyw un adnod bennodol o'r ysgrythyr a feddylir; ond rhediad cyffredinol yr holl ysgrythyr.—*Yr ysbryd:* ysbryd naturiol dyn, medd rhai; Ysbryd Duw yn y saint, medd eraill: ceisiwyd dwyn y ddau olygiad i mewn yn y sylwad uchod.

6 * Eithr rhoddi gras mwy y mae: o herwydd paham y mae yn dywedyd, [p] † Y mae Duw yn gwrthwynebu y beilchion, ‡ ond [q] yn rhoddi gras i'r *rhai* gostyngedig.

p Ex. 10. 3, 4. a 15. 9, 10. a 18. 11. 1 Sam. 2. 3. Job 40. 10—12. Salm 138. 6. Diar. 3. 34. a 6. 16, 17. a 29. 33. Es. 2. 11, 12, 17. a 10. 8—14. a 16. 6, 7. Dan. 4. 37. a 5. 20—23. Mat. 23. 12. Luc 1. 52. a 14. 11. a 18. 14. 1 Pedr 5. 5. q 2 Cron. 32. 26. a 33. 12, 19, 23. a 34. 27. Job 22. 29. Salm 9. 12. Diar. 15. 33. a 18. 12. a 22. 4. Es. 57. 15.

* Mynai yr apostol grybwyll yn mhellach i'w ddarllenwyr, fod Duw yn rhoddi "gras mwy" i'w bobl, na'u gadael yn gaethion, dàn lywodraeth y fath nwydau anianol ac aflan: a chwedi dechreu sancteiddio eu calonau, mae efe yn rhoddi mwy-fwy o hyd iddynt, o ddylanwadau sancteiddâol ei Ysbryd, i'w gwaredu hwynt yn raddol oddi wrth bob tuedd ddrwg, ac i'w gwneyd yr ysbrydol yn eu holl serchiadau a'u tymherau. † Fel hyny, tra mae efe yn gwrthwynebu y beilchion, yr hunan-ddigonol, yr uchel-frydig, yr ysgornllyd a'r gwrthnysig, yr hunan-ewyllysiog, yr anedifeiriol, a'r anghrediniol; ‡ mae efe yn dangos ei ewyllys da, ac yn rhoddi gras, i'r isel a'r gostyngedig, y rhai a grefant yn ostyngedig am fendithion ysbrydol, wrth orsedd ei drugaredd ef.—*Mae yn dywedyd:* gwel y cyfeiriadau *p*, a *q*.

7 [r] * Ymddarostyngwch gan hynny i Dduw. [s] † Gwrthwynebwch ddiafol, ‡ ac efe a ffŷ oddi wrthych.

r 1 Sam. 3. 18. 2 Sam. 15. 26. 2 Bren. 1. 13—15. 2 Cron. 30. 8. a 33. 12, 13. Job 1. 21. a 40. 3—5. a 42. 1—6. Salm 32. 3—5. a 66. 3. a 68. 30. Jer. 13. 18. Dan. 4. 25, 32, 34—37. Mat. 11. 29. Act. 9. 6. a 16. 29—31. a 26. 19. Rhuf. 10. 3. a 14. 11. Eph. 5. 21. Heb 12. 9. 1 Pedr 2. 13. s Mat 4. 3—11. Luc 4. 2—13. Eph. 4. 27. a 6. 11, 12. 1 Pedr 5. 8, 9. Dat. 12. 9—11.

* Oddi wrth y ceryddon a'r rhesymau blaenorawl, mae yr apostol yn cymmeryd achlysur i gyngori yr Iuddewon annychweledig, a'r cristionogion mewn enw, y rhai a ddarllenent yr epistol hwn, i ymddarostwng i Dduw: i roddi eu hunain i fynu mewn ufudd-dod ddïwrthwyneb i'w driniaeth, ei awdurdod, a'i ewyllys ef, trwy gofleidio ei Fab ef, a glynu wrtho yn ffyddlawn, fel eu Gwaredwr a'u Pen-tywysog mawr. Oblegid efe a ymladdai yn sicr yn erbyn y beilchion, fel ei elynion pennodol a'i wrthwynebwyr, hyd oni ddygid hwy i ymostwng iddo, neu gael eu dystrywio ganddo. † Ac wrth ymostwng fel hyn i Dduw, yr oedd yn gweddu iddynt wrthwynebu diafol, a gwrthsefyll ei ymosodiadau a'i hudoliaethau ef; pa un bynag ai yn ddigyfrwng ai trwy offerynau y byddent, y rhai a dueddent i gynhyrfu eu nwydau pechadurus hwynt, neu i ennyn eu rhagfarn yn erbyn iachawdwriaeth sanctaidd a gwasanaeth Duw. ‡ Oblegid os gwrthwynebent hwy y temtiwr yn gadarn, mewn ymddybyniad ar ddwyfol ras; ac os gosodent hwy wirioneddau eglur, addewidion, tystiolaethau, a gorchymynion yr ysgrythyrau, ar gyfer ei ymosodiadau ef; efe a ŷrid oddi wrthynt trwy nerth yr Arglwydd, ac a ffôai fel gelyn wedi colli y dydd.—*Ymddarostyngwch:* y mae y gair *hypotagête* yn arwyddo ymddarostwng, a

chadw lle wedi ymostwng, fel milwyr yn y rhenc, wedi ymrestru yn y fyddin.

8 [t] * Nesêwch at Dduw, † ac efe a nesâ attoch chwi. [u] ‡ Glanhêwch *eich* dwylaw, chwi bechaduriaid; ‖ a [x] phurwch *eich* calonnau, [y] chwi â'r meddwl dau-ddyblyg.

t Gen. 18. 23. 1 Cron. 28. 9. 2 Cron. 15. 2. Salm 73. 28. a 145. 18. Es. 29. 13. a 55. 6, 7. Hos. 6. 1, 2. Zec. 1. 3. Mal. 3. 7. Heb. 7. 19. a 10. 22. u Job 9. 30. a 16. 17. a 17. 9. Salm 18. 20. a 24. 4. a 26. 6. a 73. 13. Es. 1. 15, 16. a 33. 15. Mat. 15. 2. a 27. 24. 1 Tim. 2. 8. 1 Pedr 3. 21. x Salm 51. 6, 7, 10. Jer. 4. 14. Ezec. 18. 31. a 36. 25—27. Mat. 12. 33. a 23. 25, 26. Luc 11. 39, 40. Act. 15. 9. 2 Cor. 7. 1. 1 Pedr 1. 22. 1 Ioan 3. 3. y Gwel ar pen. 1. 8.

* Mae yn eu cyngori hefyd i nesâu at Dduw, yn Nghrist Iesu, ac ar orsedd trugaredd, trwy weddi y ffydd, gan erfyn cymmod âg ef; † gan sicrâu iddynt y byddai iddo ef nesâu atynt hwy, i'w cynnal, eu sancteiddio, eu cysuro, a'u bendithio hwynt. ‡ Ar yr un pryd mae yn galw ar y pechaduriaid oedd yn byw yn annuwiol a drygionus, neu yn ymarfer âg unrhyw bechod; i lanâu eu dwylaw oddi wrtho, trwy edifarâu am dano, ei gasâu ac ymadael âg ef, ac ymwadu â phob pleserau neu elw bydol oedd yn gyssylltiedig â'r pechod hwnw. ‖ Y rhai a'r meddwl dau-ddyblyg hefyd, ag oedd yn tueddu i ranu eu calonau rhwng Duw a Mammon; ac yn glŷnu wrth y byd a'i gyfeillach a'i elw; rhaid iddynt buro eu calonau, mewn ymddybyniad ar drugaredd a gras yr efengyl, oddi wrth bob halogedigaeth; fel y byddent wedi eu darpar, yn ofn a chariad Duw, a thrwy bob serchiadau sanctaidd, i fyw bywyd o ufudd-dod gostyngedig a gwir grefyddol. Efallai bod y *pechaduriaid* yn arwyddo y rhai annuwiol cyhoeddus; a'r *meddwl dau-ddyblyg* y rhai rhith grefyddol; y rhai nid oeddynt yn uniawn tuag at Dduw gan eu cariad at y byd.

9 [z] * Ymofidiwch, a galerwch, ac wylwch: [a] † tröer eich chwerthin chwi yn alar, a'*ch* llawenydd yn dristwch.

z pen. 5. 1, 2. Salm 119. 67, 71, 136. a 126. 5, 6. Preg. 7. 2—5. Es. 22. 12, 13. Jer. 31. 9, 13, 18—20. Ezec. 7. 16. a 16. 63. Zec. 12. 10, &c. Mat. 5. 4. Luc 6. 21. 2 Cor. 7. 10, 11. a Job 30. 31. Diar. 14. 13. Preg. 2. 2. a 7. 6. Galar. 5. 15. Luc 6. 25. a 16. 25. Dat. 18. 7, 8.

* Gan hyny, yn lle myned yn mlaen mewn gyrfa anystyriol o bechod, neu mewn proffes wâg, ffurfiol, a diffrwyth o gristionogaeth; hwy a ddylent "ymofidio, galaru, ac wylo," o herwydd dianrhydeddu drwy eu pechodau, o herwydd y niwed a wnaethent i ddynion drwy eu pechodau, ac o herwydd y perygl yr oeddynt hwy eu hunain ynddo drwy eu pechodau: se hefyd o herwydd yr anniolchgarwch gwrthryfelgar, y dirmyg, a'r gelyniaeth, y buasent yn euog o honynt, yn enwedig yn eu gwrthwynebiad i Grist a'i efengyl. † Dylasai eu "llawenydd" gwâg a'u "chwerthin," yn gystal â'u dirmyg ysgornllyd o bethau dwyfol, gael eu troi yn ddïoed i "alar" a thristwch duwiol, i ysbryd edifeiriol, hunan-ffieiddiad, drylliad calon, a gofal difrifol am achos eu heneidiau, y rhai oedd yn gyfiawn agored i ddigofaint Duw.

10 [b] * Ymddarostyngwch ger bron yr Arglwydd, † ac [c] efe a'ch dyrchafa chwi.

b Gwel ar adn. 6, 7. c 1 Sam. 2. 9. Job 22. 29. Salm 27. 6. a 28. 9. a 30. 1. a 113. 7. a 147. 6.

* Oblegid os ymddarostyngent hwy yn dumewnol a diragrith ger bron yr Arglwydd, mewn gwir edifeirwch, ymostyngiad i'w gyfiawnder ef, a derbyniad o'i iachawdwriaeth; † efe a'u dyrchafai hwy yn sicr o'u hiselder a'u tristwch; efe a feddyginiaethai eu hysbryd drylliedig; efe a'u dyddanai â'i gariad heddychol; efe a'u dyrchafai i'r rhagor-freintiau mwyaf gwerthfawr; efe a'u cyfoethogai hwynt â gogoniant a dedwyddwch tragywyddol; ac a'u gwaredai hwynt rhag y trueni oedd ar ddyfod ar y genedl.

11 [d] * Na ddywedwch yn erbyn eich gilydd, frodyr. † Y neb sydd yn dywedyd yn erbyn *ei* frawd, [e] ac yn barnu *ei* frawd, [f] ‡ y mae efe yn dywedyd yn erbyn y gyfraith, ac yn barnu y gyfraith: ‖ ac od wyt ti yn barnu y gyfraith, nid wyt ti [g] wneuthurwr y gyfraith, eithr barnwr.

d Gwel ar Salm 140. 11. Eph. 4. 31. 1 Tim. 3. 11. 2 Tim. 3. 3. Tit. 2. 3.—1 Pedr 2. 1. e Mat. 7. 1, 2. Luc 6. 37. Rhuf. 2. 1. a 14. 3, 4, 10—12. 1 Cor. 4. 5. f Rhuf. 7. 7, 12, 13. g pen. 1. 22, 23, 25. Rhuf. 2. 13.

* Yn nesaf mae yr apostol yn rhybuddio ei frodyr, neu y rhai oedd yn proffesu ac yn ymddangos yn gristionogion, i ochelyd athrod, enllib, a barnau angharedig am egwyddorion, gweithredoedd, cymmeriadau, a chyflyrau y naill y llall: peidio a dywedyd yn erbyn eu gilydd yn rhagfarnus, yn genfigenus, ac yn enllibaidd. † Oblegid yr hwn a ddywedai felly yn erbyn ei frawd cristionogol, gan ei farnu a'i feïo ef yn anghyfiawn heb achos, ‡ yr oedd y cyfryw un mewn effaith yn barnu ac yn beïo y gyfraith sanctaidd ei hun, yr hwn oedd yn gwahardd y cyfryw ymddygiad; (gwel Exod. 20. 16; Lefit. 19. 16, 18.) fel pe buasai hi yn anghyfiawn, yn afreidiol, ac yn anaddas i ufuddâu iddi. ‖ Nid oedd ymddygiad o'r fath hyn ddim llai rhyfygus na bod dyn yn gadael ei sefyllfa fel deiliad Duw, yr hwn a ddylasai fod yn wneuthurwr y gyfraith, a thraws-feddiannu lle y deddfroddwr a'r barnwr; i'r hwn y perthynai penderfynu pa beth oedd yn addas i'w orchymyn a'i warafun, i ddangos i ddynion rëol eu hymddygiad, i'w galw hwynt i gyfrif am eu hymddygiad, ac i roddi barn a dedfryd ar yr euog.

12 * Un [h] gosodwr cyfraith sydd, † yr hwn [i] a ddichon gadw ‡ a cholli. [k] ‖ Pwy wyt ti § yr hwn wyt yn barnu arall?

h Es. 33. 22. i Mat. 10. 28. Luc 12. 5. Heb. 7. 25. k 1 Sam. 25. 10. Job 38. 2. Rhuf. 2. 1. a 9. 20. a 14. 4, 13.

* I'r dyben o ddangos iddynt hwy y niwed o'r ymddygiad rhyfygus uchod, mae yr apostol yn eu galw i ystyried fod *un*, a dim ond un gosodwr cyfraith, sef Duw; ac nad oedd awdurdod na hawl gan neb arall i drin y gyfraith hòno, o ran cyfiawnâu a chondemnio, mewn materion o grefydd a chydwybod, ond Duw yn unig. Efe yn unig oedd â hawl ganddo i fod yn Arglwydd a Barnwr ei gyfraith ei hun; † ac efe yn unig oedd â gallu ganddo i "gadw" a gwobrwyo y neb a fernid gan ddynion ar gam, trwy roddi iddynt ymwared ac iachawdwriaeth amserol a thragywyddol; ‡ ac i roddi cosp y gyfraith ar farnwyr angharedig ac anghyfiawn, mewn dinystr a cholledigaeth amserol a thragywyddol. ‖ Yna mae yr apostol yn gofyn, mewn ffordd o argyhoeddiad a cherydd llym, "Pwy wyt ti," grëadur tlawd, diddym, gwàn, ffaeledig, ïe, a phechadurus; § pan y cymmerit *ti* arnat dy hun farnu na chondemnio neb pwy bynag, yr hwn sydd yn gyfrifol yn unig i'w Arglwydd a'i Farnwr ei hun; ac a gedwir neu a gollir yn ol y ddedfryd a rodder arno ganddo ef? Gwel ar Rhuf. 14. 4. Ac mae yn werth sylwi, fel mae Iago yma yn cyd-lefaru âg apostol y cenedloedd yno, ar yr un mater o fod cristionogion yn barnu ac yn condemnio eu gilydd mewn ysbryd anfrawdol poethlyd.

13 [l] * Iddo yn awr, y rhai ydych yn dywedyd, [m] † Heddyw neu y fory ni a awn i gyfryw ddinas, ‡ ac a arhoswn yno flwyddyn, [n] ‖ ac a farchnattâwn, § ac a ynnillwn;

l pen. 5. 1. Gen. 11. 3, 4, 7. Preg. 2. 1. Es. 5. 5. m Diar. 27. 1. Es. 56. 12. Luc 12. 17—20. n Es. 24. 2. a 56. 11. Ezec. 7. 12. 1 Cor. 7. 30.

* Yma mae yr apostol yn troi i ymresymu â'r rhai hyny oedd mòr fydol eu meddyliau, ac mòr ddifeddwl am Dduw a'i ragluniaeth, ag yr addawent iddynt eu hunain hir einioes a llwyddiant ar y ddaear, ac a ddywedent mewn ysbryd hunanol ac annymddybynol, † Heddyw neu y fory, neu pa bryd bynag y gwelom ni ein hunain fod yn dda, ni a awn i'r ddinas hon neu i rywun arall lle mae masnach yn arfer cael ei ddwyn yn mlaen; ‡ ac yno ni a aroswn am dalm o amser, blwydd-

yn, mwy neu lai, fel y gwelwn yn oreu, || ac a ddilynwn ein helyntion masnachol o brynu a gwerthu gwahanol nwyddau; § ac fel hyny ni a ennillwn ac a ymgyfoethogwn trwy ein doethineb, ein gofal, a'n diwydrwydd ein hunain. *Iddo yn awr: (Age nun)* geiriau yn arwyddo anghymmeradwyaeth crŷf, a galwad ar y bydolion uchod i ystyried ynfydrwydd ac annuwioldeb eu hymddygiad. Nid yw yr apostol yn beïo ar deithio, marchnata, ac ennill; ond beïo y mae efe ar y rhai sydd yn ymbwriadu hyny heb feddwl dim am Dduw a'i ragluniaeth: dfel pe byddai eu hamser, eu gwaith, a'u llwyddiant yn eu dwylo eu hunain yn hollawl. Antiochia, Damascus, ac Alexandria, oeddynt y pryd hwnw yn brif ddinasoedd am farchnadyddiaeth.

14 * Y rhai ni wyddoch beth *a fydd* y fory. † Canys beth *ydyw* eich einioes chwi? ‡ Canys [o] tarth ydyw, yr hwn sydd dros ychydig yn ymddangos, ac wedi hynny yn ddiflannu.

o pen. 1. 10. Job 7. 6, 7. a 9. 25, 26. a 14. 1, 2. Salm 39. 5. a 89. 47. a 90. 5—7. a 102. 3. Es. 38. 12. 1 Pedr 1. 24. a 4. 7. || Ioan 2. 17.

* Nid oedd yr ymadroddion uchod ddim gwell na rhyfyg anystyriol a digrefydd, yn ngenau a chalonau ddynion breulyd marwol, y rhai ni wyddent beth a allai ddygwydd iddynt hwy ac yn y byd cyn tranoeth, neu o fewn corph diwrnod. † Canys yn wir beth oedd eu heinioes hwy, i siarad gyda'r fath hyder cnawdol am yr hyn a wnaent mewn hyn a hyn o amser? ‡ Canys nid oedd eu heinioes hwy oll ond megys tarth, neu oruchion goleuawl, megys yn nofiaw drwy yr awyr yn y nos, neu mar ben bore, a ddichon ymddangos yn hardd am ychydig bach, ac yna yn diflanu am byth. Mòr fŷr, disylwedd, ansicr, a diflanedig, yw einioes dyn, yn nghyd â'r holl wychder, llwyddiant, a'r mwynâd a berthyn iddi ar y goreu; ac eto mae tragywyddoldeb o ddedwyddwch neu drueni i bob un o honom, yn ymddybynu mewn gystyr helaeth ar ein hymddygiad, yn yspaid y mynyd darfodedig hwn!

15 * Lle *y dylech* ddywedyd, [p] † Os yr Arglwydd a'i myn, *ac os* byddwn byw, ni a wnawn hyn, neu hynny.

p 2 Sam. 15. 25, 26. Diar. 19. 21. Galar. 3. 37. Act. 18. 21. Rhuf. 1. 10. a 15. 32. 1 Cor. 4. 19. a 16. 7. Heb. 6. 3.

* Gan hyny hwy a ddylasent ddywedyd gydag adgofiant difrifol, ymddarostyngiad i Dduw, a difaterwch am oethau daearol, † Os yr Arglwydd a'i mỳn, ni a fyddwn byw, neu *ac os* byddwn byw, ni a wnawn hyn neu hyny. Mae y cyfryw bethau yn gyfreithlawn ynddynt eu hunain, ac yn llwybr ein dyledswydd ni; ac os arbed efe ein bywydau, ni a awn yn nghylch hyny yn unol â'i orchymynion ef, ac mewn ymddybyniad arno ef; ac efe a lwydda ein hymgais càn belled ag y byddo er ein gwir lesâd ni.

16 * Eithr yn awr [q] gorfoleddu yr ydych yn eich ymffrost. † Pob cyfryw orfoledd, drwg ydyw.

q pen. 3. 14. Salm 52. 1, 7. Diar. 25. 14. a 27. 1. Es. 47. 7, 8, 10. 1 Cor. 4. 7, 8. a 5. 6. Dat. 18. 7.

* Ond, am fod y personau a geryddir yma yn "gorfoleddu" ac yn llawenâu yn eu "hymffrost," am gallineb eu hamcanion, a'u hargoelion a'u dysgwyliad hyderus am lwyddiant; † rhaid coffâu iddynt mai drwg oedd pob cyfryw orfoledd; yn tarddu oddi ar ysbryd balch, bydol, diigred, ac annuwiol; hunan-eilun-addoliaeth, yn gystal ag addoli y byd, anghof o Dduw, o farw, ac o farn i ddyfod.

17 * Am hynny i'r neb a [r] fedr wneuthur daioni, † ac nid yw yn ei wneuthur, ‡ pechod ydyw iddo.

r Luc 12. 47, 48. Ioan 9. 41. a 13. 17. a 15. 22. Rhuf. 1. 20, 21. a 2. 17—23. a 7. 13.

* Yr oedd yr ysbryd a'r ymddygiad *paganaidd* uchod yn llawer mwy ddiesgus ynddynt hwy fel Iuddewon, nac yn y cenedloedd: oblegid am fod ganddynt hwy air Duw a hyfforddiadau ei weinidogion ef, nis gallent lai na gwybod y dylasent fod yn ddynion o feddwl ysbrydol, a chydnabod Duw yn eu holl ffyrdd: † os oeddynt hwy gan hyny yn gwybod, yn hyn a phethau eraill, "beth oedd daionus, a chymmeradwy, a pherffaith ewyllys Duw," ac eto heb ufuddâu iddi a'i "gwneuthur;" ‡ byddai y gwall a'r esgeulusiad yn bechod tra dirfawr, ac yn eu gosod hwy yn agored i geryddon trymion yn y byd hwn, neu i gondemniad a dinystr yn y diwedd.—Mae yr adnod hon yn cynnwys rhëol o gymhwysiad cyffredin; a dylai pob dyn ei hystyried hi yn dra gofalus; yn enwedig mewn perthynas i bechodau o wall ac esgeulusdra, y rhai nid yw cydwybod yn dywedyd yn eu herbyn yn gymmaint, ac mòr barod, â phechodau o weithrediad. Mae peidio gwneyd y da a allom, ac a wyddom sydd yn dda, yn bechod cystal â gwneyd y drwg a wyddom mai drwg ydyw.

PEN. V.

Rhaid i wyr cyfoethogion drygionus ofni dialedd Duw.

[a] * IDDO yn awr, [b] chwi gyfoethogion, [c] † wylwch ac udwch ‡ am eich trueni sydd yn dyfod arnoch.

a Gwel ar pen. 4. 13. b pen. 1. 11. a 2. 6. Deut. 8. 12—14. a 32. 15. Neh. 9. 25, 26. Job 20. 15—29. Salm 17. 14. a 49. 6—20. a 73. 3—9, 18—20. Diar. 11. 4, 28. Preg. 5. 13, 14. Jer. 9. 23. Mica 6. 12. Zeph. 1. 18. Mat. 19. 23, 24. Luc 6. 24. a 12. 16—21. a 16. 19—25. 1 Tim. 6. 9, 10. Dat. 6. 15—17. c pen. 4. 9. Es. 13. 6. a 22. 12, 13. Jer. 4. 8. Ezec. 19. 2. Joel 1. 5, 11, 13. Amos 6. 6, 7. Zec. 11. 2, 3. Luc 6. 25. a 23. 28, 29.

* Gwel ar pen. 4. 13. Deuwch yn awr, chwi Iuddewon cnawdol ac anghrediniol, y rhai ydych yn gyfoethog iawn o bethau y byd hwn, ac nid ydych yn meddu nac yn chwennych dim gwell na phethau y byd presenol; deuwch, a gadêwch i mi ymresymu yn ddifrifol ac yn agos â chwi, am ddrygioni a pherygl eich ffyrdd. † Uwchlaw pawb eraill, mae i chwi yr achos mwyaf o alar chwerw, hyd yn nôd i ffrydiau o ddagrau, wylo ac udo mawr; yr hyn a fydd raid i chwi yn bur fuan, ‡ o herwydd y drygfyd blin, a'r trueni ofnadwy, sydd yn barod i syrthio arnoch onid edifarêwch, pryd y difeddiennir chwi o'ch holl fwyniant daearol, ac o fywyd ei hun, yn y dystryw cyffredinol a ddaw ar eich cenedl; ac a ganlynir â thrueni mwy ofnadwy byth mewn uffern dragywyddol. Mae yn amlwg bod yr apostol yn cyfeirio ei ymadroddion yma at yr Iuddewon anghrediniol, yn mhlith pa rai yr oedd gwŷr mawr a chyfoethog y genedl yn gyffredin i'w cael. Yr oedd efe yn ysgrifenu ychydig amser cyn dinystr Jerusalem; sef cyn y difrod ofnadwy hyny a ragfynegodd Crist, ac a ddysgwyliai ei ddysgyblion ef. Ac fel yr oedd y rhan fwyaf o'r Iuddewon cyfoethog wedi gwrthod yr efengyl, a chwedi myned yn ysgeler o ddrygionus; mae yr apostol yn rhag-weled diwedd buan ar eu holl bleserau hwynt, a'r barnau tymmorawl mwyaf arswydus yn barod i ymdywallt arnynt; yn gystal â'r trueni tragywyddol oedd yn eu haros mewn byd arall, os parâent mewn anghrediniaeth ac anedifeirwch: am hyny mae yn eu galw i wylo ac udo fel y sylwyd uchod. Mae *Josephus* yn crybwyll yn nodedig pa faint a ddyoddefodd y *cyfoethogion* gan y Rhufeiniaid, yn y rhyfel Iuddewig.

2 [d] * Eich cyfoeth a bydrodd, [e] † a'ch gwisgoedd a fwyttâwyd gan bryfed.

d Mat. 6. 19, 20. Luc 12. 33. 1 Pedr 1. 4. e pen. 2. 2. Job 13. 28. Salm 39. 11. Es. 50. 9. a 51. 8. Hos. 5. 12.

* Am eu trysorau, ni thycient ddim iddynt yn nydd y dialedd a'r trueni oedd yn dyfod arnynt: oblegid eu hŷd, a nwyddau darfodedig eraill, y rhai a drysorasent hwy i fynu yn anghyfiawn a chybyddlyd, a bydrai; neu a fyddai yn hollawl mòr ddiddefnydd iddynt hwy, â phe buasai y cwbl wedi pydru. † Eu gwisgoedd gwychion a drudfawr, y rhai a gadwent hwy yn ofalus mewn gwisg gloerau ysplenydd, a fwytêid gan bryfed; ac yn wir yr

oedd y fath felltith arnynt, fel na byddent yn fuan iawn o ddim gwerth na defnydd.

3 * Eich aur a'ch arian a [f]rydodd; † a'u rhwd hwynt a fydd [g]yn dystiolaeth yn eich erbyn chwi, [h] ‡ ac a fwytty eich cnawd chwi fel tân. [i] || Chwi a gasglasoch drysor yn [k]y dyddiau diweddaf.

f 2 Tim. 2. 17. g Gen. 31. 48, 52. Jos. 24. 27. Job 16. 8. h Jer. 19. 9. Mica 3. 3. Dat. 17. 16. a 20. 15. a 21. 8. i Deut. 32. 33, 34. Job 14. 16, 17. Rhuf. 2. 5. k Gwel ar Gen. 49. 1.—Es. 2. 2. Mica 4. 1. Act. 2. 17. 2 Pedr 3. 3.

* Ïë, hyd yn nôd eu haur a'u harian, y rhai a ddylasent fod yn loyw ac yn ddysglaer trwy eu defnyddio, oeddynt wedi eu cadw a'u tyru i fynu, nes oeddynt wedi rhydu; † ac yr oedd hyd yn nôd ymddangosiad rhydlyd eu haur a'u harian, yn dystiolaeth yn eu herbyn hwynt o'u cybydd-dra; ac yn yspail parod a gwerthfawr i'w gelynion a ddeuai arnynt yn fuan. ‡ Byddai y trallod a'r ing hefyd o golli eu meddiannau, yn dra phoenus i'w meddyliau hwynt; a byddai eu cydwybodau euog yn dannod iddynt y moddion pechadurus, trwy ba rai yr ymgyfoethogasent, a'r defnydd drwg a wnaethent o'u cyfoeth; ac fel hyny hwy a boenid megys pe buasai rŵd eu haur a'u harian wedi ei droi yn ysfaen, i losgi eu cnawd hwy fel tân. || Yn wir, trwy fawr ddrygioni a llawer o lafur, yr oeddynt wedi casglu cyfoeth a thrysorau erbyn dyddiau diweddaf eu dinas a'u cenedl, pan yr oedd Duw ar dywallt dialedd ofnadwy arnynt, am eu pechodau personol a chyffredin; pryd na byddai golud o ddim defnydd iddynt yn y cyfwng hwnw, mwy nac yn awr angau, ac yn nydd y farn; felly yr oeddynt mewn gwirionedd wedi trysori iddynt eu hunain ddigofaint erbyn dydd digofaint, a datguddiad cyfiawn farn Duw. Dywed *Josephus* y byddai yr Iuddewon yn llyncu darnau o aur lawer, yn amser dinystr Jerusalem, fel na chaffai eu gelynion hwynt; yr hyn pan ddaethant i wybod, hwy a'u rhwygent hwy yn fyw, yn ddidrugaredd, i gael y darnau hyny o'u coluddion hwynt. Dywed yr un gŵr i ddwy fil o honynt gael eu rhwygo felly mewn un noswaith, ac nas gallai Titus y blaenor Rhufeinig mewn un modd rwystro y fath gigyddiaeth greulawn ac erchyll: cymmaint oedd chwant ei bobl ef i arian, a chymmaint oedd angerdd digofaint Duw ar yr Iuddewon!

4 * Wele, [l]y mae cyflog y gweithwyr, a fedasant eich meusydd chwi, † yr hwn a gamattaliwyd gennych, ‡ yn llefain: [m] || a llefain y rhai a fedasant a ddaeth i mewn i glustiau [n] Arglwydd y lluoedd.

l Lef. 19. 13. Deut. 24. 14, 15. Job 24. 10, 11. a 31. 38, 39. Es. 5. 7. Jer. 22. 13. Hab. 2. 11. Mal. 3. 5. Col. 4. 1. m Gen. 4. 10. Ex. 2. 23, 24. a 3. 9. a 22. 22—24. Job 34. 28. Salm 9. 12. Luc 18. 7. n Rhuf. 9. 29.—Es. 1. 9.

* Oblegid wele, yr oedd cyflogau y gweithwyr, y rhai a fedasent eu maesydd hwynt, ac a lafuriasent drwy chwŷs a lludded i chwanegu eu cyfoeth hwynt, † wedi cael eu camattal trwy dwyll a gorthrymder, yn hollawl groes i gyfraith Duw; (Lefit. 19. 13; a Deut. 24. 14, 15.) ‡ ac yr oedd y pechod hwn yn llefain fel gwaed Abel, ac yn gwaeddi yn uchel i'r nefoedd am ddïal arnynt hwy, ac uniondeb i'r gweithwyr gorthrymedig. || Felly yr oedd llefain uchel a chwerw y rhai a fedasent, wedi cyrhaedd i glustiau Arglwydd y lluoedd; yr hwn oedd y pryd hyn yn nghylch danfon lluoedd y Rhufeiniaid, i gyflawni ei farnau ef ar y gorthrymwyr anghyfiawn hyn.

5 [o] * Moethus fuoch ar y ddaear, † a [p] thrythyll; ‡ meithrin eich calonnau a wnaethoch, [q] || megis mewn dydd lladdedigaeth.

o 1 Sam. 25. 6, 36. Job 21. 11—15. Salm 17. 14. a 73. 7. Preg. 11. 9. Es. 5. 11, 12. a 47. 8. a 56. 12. Amos 6. 4—6. Luc 16. 19, 25. 1 Tim. 5. 6. 2 Tim. 3. 4. Judas 12. Dat. 18. 7. p Es. 3. 16. Rhuf. 13. 13. q Diar. 7. 14. a 17. 1. Es. 22. 13. Ezec. 39. 17. Dat. 19. 17, 18.

* Tra yr oeddynt yn gwasgu yn anghyfiawn ar y gweiniaid, yr oeddynt hwy eu hunain wedi bod yn byw yn foethus ar y ddaear am yspaid, † a chwedi bod yn ymorwedd mewn trythyllwch a phleserau cnawdol, fel anifeiliaid mewn porfêydd breision, neu yn hytrach fel môch yn ymdreiglo yn y dòm. ‡ Ac yr oedd balchder a chnawdolrwydd eu calonau wedi cael eu meithrin gan lwyddiant, hawddfyd, a hunan-goleddiad, || "megys mewn dydd lladdedigaeth," pan fyddai llawer o aberthau yn cael eu hoffrymu, a gwledd fawr yn cael ei gwneyd; neu, yn hytrach, fel y byddai ychain yn cael eu tewychu erbyn dydd y lladdfa, ac yn mwynâu eu porthiant bras yn ddïogel hyd yr amser pennodol hwnw. Yn yr ystyr olaf hon yr oedd dydd y lladdedigaeth yn nes i'r Iuddewon o lawer nac yr oeddynt hwy yn meddwl, a hwythau yn addfed iddo.

6 [r] * Condemniasoch a lladdasoch y cyfiawn; [s] † *ac* yntau heb sefyll i'ch erbyn.

r pen. 2. 6. Mat. 21. 38. a 23. 34, 35. a 27. 20, 24, 25. Ioan 16. 2, 3. Act. 2. 22, 23 a 3. 14. 15. a 4. 10—12. a 7. 52. a 13. 27, 28. a 22. 14. 1 Thes. 2. 15, 16. s Es. 53. 7. Mat. 26. 53, 54. Luc 22. 51—53. Ioan 19. 9—11. Act. 8. 32. 1 Pedr 2. 22, 23.

* Ond uwchlaw eu holl bechodau eraill, yr oedd yr Iuddewon megys drwy bleid-lais a dymuniad cyffredin yr holl genedl, yn ddrygionus wedi condemnio a chroeshoelio y Cyfiawn a ddaethai i'w plith hwynt, sef Iesu Grist y Cyfiawn; ac yr oeddynt o hyd megys yn cyflawni yr un pechod ysgeler, yn eu gwaith yn erlid ei ganlynwyr addfwyn a diniwed ef. † Hyd yn hyn nid oedd efe wedi sefyll i'w herbyn hwynt, ond wedi dyoddef eu herlidiau yn dirion ac amyneddgar; ac ni chawsent hwy ddim esgus dros eu gelyniaeth a'u creulondeb cynddeiriog tuag ato ef a'i ddysgyblion; ond yr oedd efe yn awr ar ddyfod, i dywallt y dialedd mwyaf dychrynllyd arnynt hwy: hyd yn hyn yr oedd efe wedi bod yn Oen; ond yn awr yr oedd efe ar ddyfod fel Llew.

7 [t] * Byddwch gan hynny yn ymarhous, frodyr, [u] hyd ddyfodiad yr Arglwydd. † Wele, y mae y llafurwr yn disgwyl am werthfawr ffrwyth y ddaear, yn dda ei amynedd am dano, [x] ‡ nes iddo dderbyn y gwlaw cynnar a diweddar.

t Luc 8. 15. Rhuf. 2. 7. a 8. 24, 25. a 15. 4. 2 Cor. 6. 4, 5. Gal. 5. 5. a 6. 9. Col. 1. 11. 1 Thes. 1. 3. Heb. 6. 15. a 12. 1—3. u adn. 8, 9. Mat. 24. 27, 44. Luc 18. 8. a 21. 27. 1 Cor. 1. 7. 1 Thes. 2. 19. a 3. 13. 2 Pedr 3. 4. x Deut. 11. 14. Jer. 5. 24. Hos. 6. 3. Joel 2. 23. Zec. 10. 1.

* Ar ol y cerydd llym, a'r rhybudd arswydol uchod, i'r Iuddewon goludog, y rhai oedd prif-wrthwynebwyr yr efengyl, ac uwchlaw pawb yn agored i fuan farnedigaethau Duw; mae yr apostol yma yn troi at ei gydgristionogion tlodion, trallodus, ag oedd yn cael eu herlid; ac yn eu cyngori hwynt i fod yn ymharous yn eu dyoddefiadau, yn ostyngedig, ac yn ddïannwadal, hyd ddyfodiad yr Arglwydd; sef yn benaf dyfodiad rhaglunïaethol yr Arglwydd Iesu, i'w gwaredu hwynt oddi wrth erlidiau y llywodraethwyr Iuddewig, ac i ddïal ar y genedl ddïofrydedig hòno: eto, yr oedd yr apostol yn amcanu, yn ddïammau, arwain eu meddyliau hwy yn mlaen at awr angau, a dyfodiad Crist i'r farn ddiweddaf. † Nis gallent hwy lai na sylwi am y "llafurwr," pan drinai ei dir, a phan haüai ei had, gyda llawer o lafur a chost, nad oedd efe ddim yn medi ei gynhauaf yn y fàn; ond ei fod yn dysgwyl yn amyneddgar am rai misoedd, yn nghanol annwadalwch tywydd, a chwanegu llafur o hyd, fel y byddai achos yn gofyn; ‡ hyd oni welai yr Arglwydd yn dda, yr hwn yn unig a biau rhoddi y cynnydd, i ddanfon y gwlaw cynnar a diweddar: ac o'r diwedd mae y cnŵd yn addfedu, a'i lafur a'i ddysgwyliad yntau yn cael ei lawn wobrwyo, mewn cynhauaf toreithiog.—Y *gwlaw cynnar*, yn fuan ar ol hau yr had, i beri iddo darddu a thyfu; a'r *gwlaw diweddar*, ychydig cyn y cynhauaf, i lenwi y tywys, a gwneyd y cnŵd yn addas i'w fedi. Felly y rhoddai Duw wlaw yn ngwlad Canaan; y *cynnar* tua'n mis Medi ni, a'r *diweddar* tua'n mis Mawrth ni, meddant.

8 [y] * Byddwch chwithau hefyd dda eich

amynedd; [z] † cadarnhêwch eich calonnau:
[a] ‡ oblegid dyfodiad yr Arglwydd a nesâodd.

y Gen. 49. 18. Salm 37. 7. a 40. 1—3. a 130. 5. Galar. 3. 25, 26. Mica 7. 7. Hab. 2. 3. Rhuf. 8. 25. Gal. 5. 22. 1 Thes. 1. 10. 2 Thes. 3. 5. Heb. 10. 35—37. z Salm 27. 14. a adn. 9. 1 Phil. 4. 5. 1 Pedr 4. 7.

* Yn gyffelyb i'r llafurwr uchod, mynai yr apostol i'w frodyr hefyd ddysgwyl, mewn gobaith amyneddgar a diwydrwydd parâus, heb ymollwng i flinder nac ofnau digalonus; † ond yn hytrach "cadarnâu eu calonau" trwy ffydd yn addewidion Duw, yn wyneb pob profedigaethau i dynu yn ol, neu ŵyro o'r neilldu oddi ar y ffordd. ‡ Oblegid ni byddai amser eu dysgwyliad yn faith iawn; ac yn mhob ystyr o'r geiriau, yr oedd dyfodiad yr Arglwydd wedi nesâu; ac yr oedd y cynhauaf mwyaf gwerthfawr a gogoneddus yn fuan iawn, i'w llawn dâlu hwynt am eu holl golledion, eu llafur, eu caledi, a'u dyoddefiadau.

9 [b] * Na rwgnechwch yn erbyn eich gilydd, frodyr, [c] † fel na'ch condemnier: ‡ wele, [d] y mae y Barnwr yn sefyll wrth y drws.

b Lef. 19. 18. Salm 59. 15. Marc 6. 19. 2 Cor. 9. 7. 1 Pedr 4. 9. c Mat. 6. 14, 15. a 7. 1, 2. d Gen. 4. 7. Mat. 24. 33. 1 Cor. 10. 11.

* Dylai y cristionogion hefyd beidio mewn un modd a grwgnach yn erbyn eu gilydd, o herwydd rhyw fanteision byr-barâol a allai fod gan rai o honynt, ac nad oeddynt gan y lleill; † ac ni ddylent ymollwng i genfigen, anfoddlonrwydd, a digter, rhag y byddai i ddyfodiad yr Arglwydd droi allan yn gondemniad iddynt hwy, yn lle gwaredigaeth. ‡ Oblegid hwy a ddylent sylwi yn ofalus, fod y Barnwr hyd yn nôd y pryd hwnw, megys yn sefyll wrth y drws, ac yn barod i ddyfod i mewn. Buan iawn y gwahaniaethai efe yn benderfynol, rhwng ei wir bobl ei hun, â phroffeswyr rhagrithiol o gristionogaeth; a buan iawn y dialai efe ar elynion proffesedig ei bobl: am hyny hwy a ddylent ymbarotôi erbyn ei ddyfodiad ef, a gadael iddo ef ddadleu eu hachos hwynt, heb geisio dial drostynt eu hunain; heb *ochain* grwgnachrwydd dàn eu herlidiau a'u caledi, nac anfoddloni o herwydd eu diffyg o'r cyfryw bethau darfodedig, ag yw holl bethau y byd hwn. *Na rwgnechwch: ochain* grwgnachlyd yn ddirgel, medd *Doddridge* yw ystyr y gair *stenazete.* Y brofedigaeth o genfigen wrth lwyddiant eu gorthrymwyr, i rwgnach dàn eu dyoddefiadau eu hunain, a choledd ysbryd o gasineb a digter yn erbyn eu gelynion, medd *Scott*, a feddylir yn benaf, ac a waherddir yn y fàn hon.

10 * Cymmerwch, fy mrodyr, y prophwydi, [e] y rhai a lefarasant yn enw yr Arglwydd, [f] † yn siampl o ddioddef blinder, ac o hirymaros.

e Es. 39. 8. Jer. 23. 22. a 26. 16. Act. 3. 21. Heb. 13. 7. f 2 Cron. 36. 16. Jer. 2. 30. Mat. 5. 11, 12. a 21. 34—39. a 23. 34—37. Luc 6. 23. a 13. 34. Act. 7. 52. 1 Thes. 2. 14, 15. Heb. 11. 32—38.

* Gan hyny, yn lle ymollwng i nwydau gorwyllt fel eu cyd-wladwyr anghrediniol, y rhai oedd barod i ymgynddeiriogi yn eu haflwydd "fel tarw gwyllt mewn magl;" dylai y cristionogion hyn geisio tebygu i'r hen brophwydi gynt, trwy ba rai y danfonasai yr Arglwydd ei air i'w cenedl hwynt, a'r rhai a gawsent eu trin yn arw, eu gwaradwyddo, ïe, eu rhoddi i farwolaeth am eu ffyddlondeb: † eto hwy a ddaliasant ati mewn ymddiried tawel yn Nuw, ac mwynhaiasant i'w ewyllys ef; a chyda gwrolder addfwyn a thosturiol yn nghanol eu gelynion.

11 * Wele, [g] dedwydd yr ydym yn gadael y rhai sydd ddioddefus. [h] † Chwi a glywsoch am amynedd Job, [i] ‡ ac a welsoch ddiwedd yr Arglwydd: [k] || oblegid tosturiol iawn yw yr Arglwydd, a thrugarog.

g Gwel ar pen. 1. 12.—Salm 94. 12. Mat. 10. 22. Heb. 3. 6, 14. a 10. 39. h Job 1. 21, 22. a 2. 10. a 13. 15, 16. a 23. 10. i Job 42. 10—17. Salm 37. 37. Preg. 7. 8. 1 Pedr 1. 6, 7, 13. 2 Pedr 2. 9. k Ex. 34. 6. Num. 14. 18. 1 Cron. 21. 13. 2 Cron. 30. 9. Neh. 9. 17, 31. Salm 25. 6, 7. a 51. 1. a 78. 38. a 86. 5, 15. a 103. 8, 13. a 116. 5. a 119. 132. a 136. 1, &c. a 145. 8. Es. 55. 6, 7. a 63. 7, 9. Galar. 3. 22. Dan. 9. 9, 18, 19. Joel 2. 13. Jona 4. 2. Mica 7. 18. Luc 1. 50. a 6. 36. Rhuf. 2. 4. Eph. 1, 6. a 2. 4.

* Dylent gofio hefyd bod apostolion Crist, a gweinidogion ffyddlawn eraill y Testament Newydd, a phob Cristionogion profiadol, yn cyfrif y rhai hyny yn ddedwydd, ag oedd yn ddyoddefus mewn trallodau ac erlidiau; ac nid y rhai oedd heb ddyoddefiadau, neu y rhai oedd yn troi o'r neilldu i'w gochelyd hwynt. † Hwy a glywsent yn aml am amynedd Job, yn y trallodion a'r gofidiau mwyaf cymhlyg a chwerw a ellid ddychymygu; a pha fodd yr ymlynodd efe yn ddiysgog wrth yr Arglwydd, ac y penderfynodd obeithio ynddo ef yn ei gyfyngder eithaf, er yr holl ddyryswch dirfawr y taflwyd ei feddwl gan ei brofedigaethau. ‡ A hwy a welsant fod diwedd ei drallodau blinion ef, a'r llesâd tymmorawl ac ysbrydol a ddaeth iddo ef drwyddynt, yn llwyr ddangos || mai tosturiol iawn yw yr Arglwydd, a thrugarog, hyd yn nôd pan mae efe yn cystuddio drymaf, ac yn profi lymaf, ei bobl grediniol a ffyddlawn. Nid oedd hyn yn ymddangos yn nghystuddiau Job; ond daeth yn eglur yn y canlyniad o honynt: a chaent hwythau hefyd brofi yr un peth yn niwedd eu profedigaethau; os dyoddefent hwynt yn amyneddgar, gan barâu mewn ffydd ac ufudd-dod. Tosturiol iawn oddi fewn, yn y fynwes, a'r tosturi hwnw yn tori allan mewn trugaredd weithredol ac amlwg.

12 [l] * Eithr o flaen pob peth, fy mrodyr, [m] † na thyngwch, nac i'r nef, nac i'r ddaear, nac un llw arall: [n] ‡ eithr bydded eich ïe chwi yn ïe, a'*ch* nag ê yn nag ê; [o] || fel na syrthioch i farnedigaeth.

l 1 Pedr 4. 8. 3 Ioan 2. m Gwel ar Mat. 5. 33—37. a 23. 16—22. n Gwel ar 2 Cor. 1. 17—20. o pen. 3. 1, 2. 1 Cor. 11. 34.

* "O flaen pob peth na thyngwch:" neu na thyngwch o flaen pob peth a ddywedoch: fel y byddai yr Iuddewon yn chwannog iawn i wneyd, mewn ymddiddanion cyffredin, yn anystyriol, ac yn hollawl afreidiol. "*Uwchlaw* pob peth," ydyw gan y Saeson; ond sylwa *Guyse* mai *o flaen* pob peth, yw iawn feddwl *Prò pantôn.* † Cynghorai yr apostol hwy o flaen pob peth, ac uwchlaw pob peth, i wylied rhag i'w profedigaethau eu cyffrôi hwynt i dyngu mewn modd nwyd wyllt, ehud, ac ansanctaidd; er eu cyfiawnâu eu hunain, ac i ddianc rhag erlid; neu trwy unrhyw lŵ arferedig, yn ol arferiad cyffredin yr Iuddewon, ond yn hollawl groes i orchymyn pennodol Crist. (Gwel ar Matth. 5. 34, 35.) ‡ I'r gwrthwyneb, yn eu hymddiddanion cyffredin, ac ar bob amser, pryd nad oedd cyfeiriad difrifol at Dduw, fel gweithred o addoliad crefyddol, yn angenrheidiol; hwy a ddylent ddywedyd ïe neu nagê yn syml, a chadarnâu eu dywediad neu eu hymrwymiad, trwy ail ddywedyd y geiriau hyny yn sobr a difrifol, pan fyddai angenrheidrwydd. Neu yn hytrach, dylai eu geirwiredd a'u cywirdeb fod mòr llawn hysbys a phrofadwy, fel y byddai pawb yn barod i'w credu hwynt, ac ymddiried ynddynt, heb ddim petrusder, na gofyn am y dïeurwydd o lŵ. || Heb hyny byddent yn debyg o syrthio i farnedigaeth, o herwydd tyngu ar gam, heb achos, neu heb barch dyledus i Dduw, neu i lŵ.—Dywedir fod yr Iuddewon yn nodedig euog o dyngu cyffredin yn yr amser hwnw; yr hyn a barodd i'r apostol efallai dystiolaethu yn ddifrifol fel hyn yn erbyn yr arferiad pechadurus. Dywedai yr Iuddewon am ddyn geirwir, bod *ei ïe ef yn ïe, a'i nagê yn nagê:* hyny yw, y gellid ymddiried i'w air noeth ef; fel y dywedai, felly y byddai; fel yr addawai, felly y gwnelai. Ni ddylem ni dyngu dim; ond bod yn ofalus eirwir bob amser yn ein hymddiddanion, fel y cyfrifer ein gair yn wastadol megys llŵ.

13 [p] * A oes neb yn eich plith mewn adfyd? † gweddïed. [q] ‡ A oes neb yn esmwyth arno? [r] || caned Salmau.

p 2 Cron. 33. 12, 13. Job 33. 26. Salm 18. 6. a 50. 15. a 91.

15. a 116. 3—5. a 118. 5. a 142. 1—3. Galar. 3. 55, 56. Hos. 6. 1. Jona 2. 2, 7. Luc 22. 44. a 23. 42. Act. 16. 24, 25. 2 Cor. 12. 7—10. Heb. 5. 7. q Barn. 16. 23—25. Dan. 5. 4. r 1 Cron. 16. 9. Salm 95. 2. a 105. 2. Mica 4. 5. Mat. 26. 30. 1 Cor. 14. 26. Eph. 5. 19. Col. 3. 17. Dat. 5. 9—14. a 7. 10. a 14. 3. a 19. 1—6.

* Tra yr oedd bydolion annuwiol, dàn eu trallodion a'u hadfyd, un ai yn ymollwng i gwynion chwerwon a grwgnach annobeithiol, neu yn ceisio ymwared ac esmwythder mewn coleddiad cnawdol, neu yn ceisio ymryddâu trwy foddion pechadurus; dylai cristionogion gael eu cynhyrfu gan eu hadfyd a'u gofidiau, † i weddïo yn fynychach, yn helaethach, ac yn daerach; ar iddynt gael gan Dduw gynnaliaeth, cysur, ymwared, a lles sancteiddiol drwy eu gofidiau oll. ‡ Ar y llaw arall, pan oedd neb o honynt yn llwyddo, yn esmwyth arnynt, ac yn siriol o ysbryd; ‖ dylai y cyfryw rai amlygu eu llawenydd mewn llais mawl a dïolchgarwch, a thrwy gânu Salmau, y rhai a gyfansoddodd dynion ysbrydoledig i'r perwyl hwnw; neu y cyfryw ganiadau o fawl a gyfansoddasent hwy eu hunain, neu gristionogion eraill, i gyffelyb ddybenion. Hyn a ddylai cristionogion wneyd, pan yn esmwyth arnynt; ac nid rhedeg i rysedd llawenydd cnawdol, neu gânu y caniadau gweigion, masweddol, a halogedig hyny, a arferir gan ddynion annuwiol, pan maent yn uchel eu hysbryd, ac yn chwennych amlygu eu gorfoledd a'u llawenydd.—Dylem weddïo bob amser, ond yn enwedig mewn adfyd; a chlodfori Duw bob amser, ond yn enwedig pan yn esmwyth arnom: dyna drefn a gorchymyn Duw yn ei air.

14 * A oes neb yn eich plith yn glaf? galwed atto [s] henuriaid yr eglwys; [t] † a gweddïant hwy drosto, [u] ‡ gan ei enneinio ef âg olew yn enw yr Arglwydd:

s Act. 14. 23. a 15. 4. Tit. 1. 5. t 1 Bren. 17. 21, 22. 2 Bren. 4. 33. a 5. 11. Act. 9. 40. a 28. 8. u Marc 6. 13.

* Yn nesaf, cyfarwyddid dynion cleifion gan yr apostol, i "alw atynt henuriaid yr eglwys," llawer o ba rai y pryd hwnw oedd wedi eu cynnysgaethu â doniau gwyrthiol; † a gweddïed y rhai hyny drostynt, am adferiad a maddeuant iddynt, ‡ gan eu heneinnio hwy âg olew yn enw yr Arglwydd Iesu, fel arwydd eu bod yn dysgwyl adferiad iddynt trwy ei allu a'i gariad ef yn unig. *Eneinnio âg olew* ydoedd ddefod y pryd hwnw er adferiad *gwyrthiol* i'r cleifion: ond gan nad oes gwyrthiau yn awr, nac achos am danynt, nid yw yr eneinnio yn angenrheidiol mwyach, nac i gael ei arferyd. Gwel Marc 6. 13. Dyledswydd y cleifion yw galw atynt henuriaid yr eglwys eto, a dyledswydd yr henuriaid yw myned pan eu galwer, ïe, heb eu galw; a'u dyledswydd yw gweddïo drostynt, ond nid eu heneinnio.

15 [x] * A gweddi y ffydd a iachâ y claf, a'r Arglwydd a'i cyfyd ef i fynu; [y] † ac os bydd wedi gwneuthur pechodau, hwy a faddeuir iddo.

x Gwel ar adn. 13, 16. pen. 1. 6. Mat. 17. 20, 21. a 21. 21, 22. Marc 11. 22—24. a 16. 17, 18. 1 Cor. 12. 28—30. y Es. 33. 24. Mat. 9. 2—6. Marc 2. 5—11. Ioan 5. 14. 1 Cor. 11. 30—32. 1 Ioan 5. 14—16.

* A'r weddi a offrymid gan yr henuriaid â'r claf, (Marc 5. 34; a 10. 52; Act. 14. 9, 10.) mewn ffydd yn enw Crist, ac mewn ymddybyniad neillduol ac anghyffredinol ar ei allu ef, er cyflawniad o'r hyn a ofynid yn ostyngedig ganddo; a arddelwid ac a atebid gan yr Arglwydd, yn ngwaredigaeth y claf hwnw rhag marw, ac yn ei adferiad ef i'w iechyd a'i nerth cynnefinol. Nis gellir meddwl, ebai *Scott*, fod yr henuriaid yn gallu cyflawni y gwyrthiau iachâol hyn bob amser; ond mae yn ymddangos bod rhyw argraff gref ar feddwl y person fyddai yn gwneyd y wyrth, a gweithrediad neillduol o ffydd yn Nghrist i'r dyben hyny: a diammau eu bod yn llwyddo yn gyffredin. † Ac os rhyw bechod, neu bechodau neillduol, fyddai wedi bod yn achos o'r clefyd, hwy a faddeüid i'r dyn claf; fel arwydd o'r hyn, symmudai Duw ei glefyd ef; a thrwy ffydd y claf ei hun yn ngwaed Crist, am faddeuant o honynt, hwy a faddeüid o ran y gosp dragywyddol, yn gystal â'r gosp dymmorawl, yr hon a haeddasent, ac i ba un y gwnaethent y claf yn agored.—Er mai am ffydd wyrthiol y sonir yn nechreu yr adnod hon; eto, fel y sylwyd dàn yr adnod o'r blaen, mae yn weddus i gristionogion yn mhob oes, a phob amser mewn clefydau, i ddanfon am eu gweinidogion a'u henuriaid, i'w cyngori ac i weddïo drostynt: a phan wneler hyn yn ddoeth, yn dyner, ac yn ffyddlawn, gall fod yn llesol iawn, yn enwedig i gredinwyr a'r rhai o'u hamgylch: ond ymweliadau *diwahaniaeth*, gweddïo yn yr un geiriau dros ddynion o bob math; a rhoddi swper yr Arglwydd i'r cleifion a'r rhai yn marw, heb roddi dim addysgiadau a chyngorion priodol ac addas, fel mae yr arfer yn rhŷ gyffredin gan rai gweinidogion; sydd o duedd drwg iawn yn sicr, ac yn weddill o goel-grefydd a ffurfioldeb pabaidd. Oblegid nid yn unig mae yn gweini gau dawelwch i lawer o ddynion, y rhai y pryd hwn a ddechreuasant feddwl am Dduw a'u heneidiau; ond mae yn cryfâu eraill i oedi mater eu heneidiau, dàn y dychymmyg hudol, y gwna cyffesu, gweddïo, gollyngdod gweinidogaethol, a'r sacrament, osod pob peth yn iawn rhyngddynt hwy â Duw; heb ddim diwydrwydd blaenorawl yn nyledswyddau buchedd dduwiol.

16 [z] * Cyffeswch *eich* camweddau bawb i'ch gilydd, [a] † a gweddïwch dros eich gilydd, [b] fel y'ch iachaer. [c] ‡ Llawer a ddichon taer weddi y [d] cyfiawn.

z Gen. 41. 9, 10. 2 Sam. 19. 19, 20. Mat. 3. 6. a 18. 15—17. Luc 7. 3, 4. Act. 19. 18. a Col. 1. 9. 1 Thes. 5. 17, 23, 25. Heb. 13. 18. b Gen. 20. 17. 2 Cron. 30. 20. Luc 9. 6. Act. 10. 38. c Gen. 18. 23—32. a 19. 29. a 20. 7, 17. a 32. 28. Ex. 9. 28, 29, 33. a 17. 11. a 32. 10—14. Num. 11. 2. a 14. 13—20. a 21. 7—9. Deut. 9. 18, 20. Jos. 10. 12. 1 Sam. 12. 18. 1 Bren. 13. 6. a 17. 18—24. 2 Bren. 4. 33—35. a 19. 15—20. a 20. 2—5. 2 Cron. 14. 11, 12. a 32. 20—22. Job 42. 8. Salm 10. 17, 18. a 34. 15. a 145. 18. Diar. 15. 8, 29. Jer. 15. 1. a 29. 12, 13. a 33. 3. Dan. 2. 18—23. a 9. 20—22. Hos. 12. 3, 4. Mat. 7. 7—11. a 21. 22. Luc 11. 11—13. a 18. 1—8. Ioan 9. 31. Act. 4. 24—31. a 12. 5—11. 1 Ioan 3. 22. d Rhuf. 3. 10. a 5. 19. Heb. 11. 4, 7.

* Mae yr apostol yn nesaf yn cyngori y cristionogion i gyffesu eu camweddau bawb i'w gilydd: sef un ai cyffesu eu camweddau yn erbyn eu gilydd, yr hyn a dueddai yn rhagorol i heddwch a chariad brawdol, os gwnaid y peth yn iawn; neu, ynte, cyd-gyffesu i'w gilydd eu profedigaethau, eu colliadau, a'u profiadau gofidus, gydag addefiad rhydd a gonest o'r pethau oedd yn beichio eu cydwybodau. † Pan wnelid hyn yn ddoeth, ac fel y gweddai, byddai yn agoryd y ffordd iddynt hwy i rybuddio, cyngori, a chryfâu eu gilydd; gweddïo dros eu gilydd; ac felly chwanegu eu heddwch tumewnol, iachâd eu heneidiau, yn gystal â symmud y ceryddon oeddynt hwy wedi dynu arnynt eu hunain. Pell iawn yw y gyffes hon o'n camweddau i'n gilydd, oddi wrth yr arfer a sylfaenodd eglwys Rhufain ar y geiriau hyn; sef bod i'r llëygion gyffesu eu holl bechodau dirgel i'r offeiriaid, i'r dyben o gael maddeuant a gollyngdod o honynt. Oblegid fel hyn, mae yr offeiriaid hyny, y rhai sydd *ynddynt eu hunain* yn llawn mòr bechadurus â dynion eraill, yn cael eu gosod mewn meddiant o ddirgelion teuluaidd, ïe, o gyngorau tywysogion; o ba rai y gwnaethant eithaf defnydd lawer gwaith, i'w derchafu eu hunain, i ddarostwng y llëygion, ac i lawer o ddybenion tra drygionus eraill. Fel hyn hefyd maent yn cael allan wendidau a ffaeleddau agos i bob dyn; yr hyn sydd yn agor y ffordd iddynt hwy i gynnyg a chyflawni pechodau a drygau o bob math. Ond am y cyffesu a sonia yr apostol yma, nid yw gyffesu gŵr llëyg i offeiriad, mwy na chyffesu offeiriad i ŵr llëyg: *cyd-gyffesu* ydyw, rhwng cristionogion; a chyffesu *gwirfoddol* ydyw; fel y byddo yn ol doethineb a gweddeidd-dra, er y buddioldeb o gyngor a gweddi, y naill i'r llall, a'r naill dros y llall. Peth cyffelyb ydyw i gyfarfodydd profiad rhai cristionogion yn Nghymru: neu, yn hytrach, yn ol y cyngor uchod y mae y cyfarfodydd brawdol hyny; neu, o leiaf, felly y dylent fod. ‡ Er calonogi ei frodyr yn

ymarferiad buddiol uchod, mae yr apostol yn dangos ddynt werth ac effaith gweddi. Pan mae dyn cyfiawn, wir gredadyn, wedi ei gyfiawnâu yn Nghrist, a thrwy ras ef yn rhodio ger bron Duw mewn ufudd-dod unctaidd; pan mae hwn yn offrwm gweddi daer ffeithiol—sef gweddi gwedi ei *gweithio yn* ei galon rwy nerth yr Ysbryd Glân, yn ennyn serchiadau unctaidd a dysgwyliadau crediniol, ac felly yn ei arain ef i ddadleu addewidion Duw, yn daer ac effeithl ger bron y drugareddfa, drosto ei hun a thros eraill;—hi a ddichon lawer, er cael y bendithion a ynir fel hyn, gan mai hi yw un modd, trwy ba un ae Duw yn bwriadu cyflawni ei ddybenion grasol, yn ystal âg unrhyw foddion eraill mae efe yn ddefnyddio hyny.

17 [e] * Elias oedd ddyn [f] † yn rhaid iddo ddïoddef fel ninnau, [g] ‡ ac mewn gweddi efe a eddïodd na byddai wlaw: [h] || ac ni bu gwlaw y ddaear dair blynedd a chwe mis.

e 1 Bren. 17. 1. f Act. 10. 26. a 14. 15. g Rhuf. 11. 2. Mat. 11. 6. h Luc 4. 25.

* Mae yr apostol yn crybwyll esampl nodedig o effaith gweddi daer grediniol, yn amgylchiad Elias. Elias oedd ddyn, o'r un natur wael a syrthiedig âg eraill: † ac nid oedd efe yn rhydd oddi wrth wendidau dyoddefiadau, tra yr oedd yn cyflawni ei weinidogaeth, mwy nac oedd yr apostol a'i frodyr, er iddo trwy eilluduol diriondeb Duw gael myned i'r nef heb brofi arwolaeth. ‡ Eto, mewn gweddi efe a weddïodd, dàn ddylanwad grymus ysbryd prophwydoliaeth, a el dros ogoniant Duw, ac i ragflaenu hollawl wrthgilad ac eilun-addoliaeth Israel,) na byddai gwlaw; || ac ewn atebiad i'w weddi ef, cauwyd i fynu gymmylau y efoedd, fel na bu gwlaw ar holl ddaear gwlad Israel, n dair blynedd a chwe' mis: trwy *yr* hyn y bu sychder mawr a newyn tost yn y tir. Gwel ar Luc 4. 25.—Yn rhaid iddo ddyoddef:" *subject to like passions*, yw Saesoneg: *omoiapathês*, yw y gair Groeg: un o'r un imladau âg eraill, yn ddarostyngedig i'r un dyoddefiadau âg eraill, ac yn teimlo danynt fel eraill — Mewn gweddi a weddïodd:" dull Hebreaidd o ddywed fl am weddïo yn daer: *he prayed earnestly*, yw y Saesneg: *proseuchê prosêuxato*, Groeg.

18 [i] * Ac efe a weddïodd drachefn; † a'r eef a roddes wlaw, ‡ a'r ddaear a ddug ei ffrwyth.

i 1 Bren. 18. 42—45. Jer. 14. 22. Act. 14. 17.

* Yna, yn mhen tair blynedd a chwe' mis, mewn truaredd ar y bobl a adferasid oddi wrth eilun-addoliaeth, er cadarnâu eu ffydd yn Nuw Israel, (1 Bren. 18. 29—45.) gweddïodd Elias weddi daer drachefn am nfodydd helaeth a thymmoraidd o wlaw; † a rhyngodd odd i Dduw mewn modd rhyfeddol ei ateb ef, trwy ddanfon tòraeth ryfeddol o wlaw o'r nefoedd i adnewddu gwyneb y ddaear, ‡ yr hon drwy hyny a ddyg ei ffrwyth yn dra helaeth a chyndfawr. Ac fel hyn mae uw o hyd, yn gymmaint ag erioed, yn un a wrendy weddi; ac ni ddywedodd ef erioed, ac ni ddywed byth, wrth had ysbrydol Jacob, "Ceisiwch fi yn ofer." (Salm 65. 2; Esa. 45. 19.) Mae yr esamplau hyn yn pleidio tŷb y rhai hyny a feddyliant, mai ffydd wyrthiol a feddyliai yr apostol wrth "weddi y ffydd" yn yr adnodau uchod; ond mae effaith y gweddïau hyny, y rhai yn mhob oes a offrymir dàn ddysgeidiaeth a dylanwadau yr Ysbryd Glân, yn cael ei ddangos mòr eglur trwy yr holl ysgrythyr, fel nas gellir cyfyngu meddwl y geiriau i ffydd wyrthiol yn unig.

19 * *Fy* mrodyr, od aeth neb o honoch ar [k] gyfeiliorn oddi wrth y gwirionedd, [l] † a throi o ryw un ef;

k Salm 119. 21, 118. Diar. 19. 27. Es. 3. 12. 1 Tim. 6. 10, 21. 2 Tim. 2. 18. 2 Pedr 3. 17. Judas 11. l adn. 20. Ezec. 34. 4, 16. Mat. 17. 15. Luc 22. 32. Gal. 6. 1. Heb. 12. 12, 13. Judas 22, 23.

20 ‡ Gwybydded, [m] y bydd i'r hwn a drodd bechadur oddi wrth gyfeiliorni ei ffordd, [n] || gadw enaid [o] rhag angau, [p] § a chuddio lliaws o bechodau.

m Gwel ar adn. 19. n Diar. 11. 30. Rhuf. 11. 14. 1 Cor. 9. 22. 1 Tim. 4. 16. Philemon 19. o pen. 1. 15. Diar. 10. 2. a 11. 4. Ioan 5. 24. Dat. 20. 6. p Salm 32. 1, 2. Diar. 10. 12. 1 Pedr 4. 8.

* Yn mhlith gweithredoedd pwysig eraill o gariad, y rhai y dylai credinwyr geisio eu gwneyd trwy ffydd a gweddi; un o honynt yn neilluduol oedd, ceisio adferu y cyfryw broffeswyr ag oedd wedi rhedeg i gyfeiliornadau peryglus, neu wedi syrthio i bechodau: yn enwedig gan fod llawer o ddrygau o'r fath hyn wedi dygwydd yn eu plith hwy. Gan hyny, os oedd neb o honynt wedi myned ar gyfeiliorn oddi wrth wirionedd yr efengyl, mewn barn neu fuchedd, a chwedi gŵyro i ryw lwybr dinystriol; † a bod un o'i frodyr wedi ymgais a llwyddo i'w droi ef, fel ag iddo o'r diwedd gael ei adferu a'i gadarnâu yn y ffydd a'r gwirionedd; ‡ dylai yr hwn a drôwyd ystyried ei hun, a gwybod, ei fod ef dàn annhraethol fwy o rwymau i'r hwn a'i trôdd ef fel hyn, na phe buasai wedi gwneyd gwyrth i'w iachâu ef o glefyd, neu wedi peryglu ei hun i achub ei fywyd naturiol ef. A'r dyn a gafodd y fraint o wneyd y weithred dda hon, dylai ei hystyried yn wasanaeth mwy dymunol a gwerthfawr, na phe buasai efe yn gallu gwneyd gwyrth i iachâu y claf. || Oblegid fel hyn yr oedd Duw yn ei ddefnyddio ef fel offeryn, i gadw enaid anfarwol rhag angau a dinystr tragywyddol, ac i ddwyn pechadur colledig at Grist; § fel y byddai i'w waed aberthawl a chymmodol ef, guddio ei lïaws aneirif ef o bechodau, fel nad ymddangosent mwyach byth yn ei erbyn ef mewn barn, nac i rwystro ei dderbyniad ef i dragywyddol ddedwyddwch.—Nid y *weithred dda* o droi y pechadur, sydd yn cuddio pechodau yr hwn a dröir, na phechodau yr hwn sydd yn ei droi; ond trwy droi y pechadur at Grist, mae yn cael ei ddwyn at yr aberth, yr iawn, a'r gwaed sydd yn cuddio beïau byth. Mae y ddyledswydd hon o geisio troi pechaduriaid yn parâu, gwedi i wyrthiau ddarfod; a thrwy nerth a gras Duw, gellir ei gwneyd heb wyrthiau.

EPISTOL CYNTAF CYFFREDINOL

PETR YR APOSTOL.

PEN. I.

Y mae efe yn bendithio Duw am ei amryw rad ysbrydol.

[a] * PETR apostol Iesu Grist, † at y [b] dïeithriaid sydd ar [c] wasgar ‡ ar hyd [d] Pontus, [e] Galatia, [f] Cappadocia, [g] || Asia, [h] a Bythynia,

a Gwel ar Mat. 4. 18. a 10. 2. Ioan 1. 41, 42. a 21. 15—17. b pen. 2. 11. Act. 2. 5—11. Eph. 2. 12, 19. Heb. 11. 13. c Lef. 26. 33. Deut. 4. 27. a 28. 64. a 32. 26. Esther 3. 8. Salm 44. 11. Ezec. 6. 8. Ioan 11. 52. Iago 1. 1. d Act. 2. 9. a 18. 2. e Act. 16. 6. a 18. 23. Gal. 1. 2. f Act. 2. 9. g Act. 6. 9. a 16. 6. a 19. 10. a 20. 16—18. 1 Cor. 16. 19. 2 Cor. 1. 8. 2 Tim. 1. 15. Dat. 1. 11. h Act. 16. 7.

* Petr, yr hwn trwy osodiad ac anfoniad digyfrwng yr Arglwydd Iesu Grist, a wnaed yn apostol, yn benaf i'r enwaediad, (Galat. 2. 8.) † sydd drwy ysbrydoliaeth Duw yn danfon yr epistol hwn, yn benaf at y cristionogion Iuddewig o ran cenedl, y rhai oeddynt yn ystyr naturiol y gair yn ddïeithriaid ar wasgar mewn gwledydd estronol; wedi eu gỳru allan o'u gwlad eu hunain, a chwedi eu gwasgaru drwy ragluniaeth Duw, ar hyd y gwahanol daleithiau Cenedlig o amgylch; ‡ nid amgen Pontus, Galatia, Cappadocia, Asia briodol, a Bithynia. —Yr oedd y gwledydd hyn oll, yn ol tŷb y Daearyddion goreu, yn gorwedd yn yr hyn a elwid Asia Leiaf, yr hon oedd gynnwysedig yn y cyfandir mawr, neu y dosparth hyny o'r byd a elwid, ac a elwir eto, Asia; a gelwid y rhan hon yn Asia Leiaf, i'w gwahaniaethu oddi wrth y dosparth mawr hyny o'r byd a elwid Asia, yn yr hwn ddosparth yr oedd hi yn gorwedd. || Am yr Asia a grybwyllir yma, mewn ffordd o wahaniaeth oddi wrth y taleithiau eraill a enwir, y cwr gorllewinol o Asia Leiaf ydoedd; ac a elwid weithiau Asia raglawiaethol Rufeinig, ac weithiau Asia briodol. Gwel ar Act. 16. 6.—*Dïeithriaid:* mae rhai yn deall hyn mewn ystyr ysbrydol; fel mae y saint oll yn ddïeithriaid a phererinion yn y byd hwn, pa le bynag y byddont: ac eraill yn tybied mai cenedloedd, *proselytiaid y porth* oeddynt, ac felly mai "dïeithriaid i wladwriaeth Israel" a feddylir. Ond tybia *Guyse* mai dïeithriaid mewn ystyr naturiol a feddylir yn benaf; hiliogaeth yr Iuddewon a arosasant yn y gwledydd uchod ar y dychweliad o Babilon, ac ni ddychwelasant i'w gwlad eu hunain, na'u plant ar eu hol trwy yr holl oesoedd

2 [i] * Etholedigion yn ol [k] rhag-wybodaeth Duw Dad, [l] † trwy sancteiddiad yr Yspryd, [m] ‡ i ufudd-dod [n] || a thaenelliad gwaed Iesu Grist. [o] § Gras i chwi a heddwch a [p] amlhâer.

i pen. 2. 9. Deut. 7. 6. Es. 65. 9, 22. Mat. 24. 22, 24, 31. Marc 13. 20, 22, 27. Luc 18. 7. Ioan 15. 16—19. Rhuf. 8. 33. a 11. 5—7, 28. Eph. 1. 4, 5. Col. 3. 12. 2 Tim. 2. 10. Tit. 1. 1. 2 Ioan 1. 13. k Act. 2. 23. a 15. 18. Rhuf. 8. 29, 30. a 9. 23, 24. a 11. 2. l Act. 20. 32. Rhuf. 15. 16. 1 Cor. 1. 30. a 6. 11. 2 Thes. 2. 13. m adn. 22. Rhuf. 1. 5. a 8. 13. a 16. 19, 26. 2 Cor. 10. 5. Heb. 5. 9. n Gwel ar Heb. 9. 19—22. a 10. 22. a 11. 28. a 12. 24. o Gwel ar Rhuf. 1. 7. 2 Cor. 13. 14. p Es. 55. 7. Dan. 4. 1. a 6. 25. 2 Pedr 1. 2. Judas 2.

* Pwy bynag oeddynt, mae yr apostol yn eu cyfarch fel "Etholedigion," neu rai wedi eu dewis yn Nghrist; "yn ol rhagwybodaeth Duw Dad." Er eu gwrthgiliad hwy gynt oddi wrth Dduw Israel, a'i gyfammod ef â'u tadau, ac er eu gadael megys am hir oesoedd; eto, yn awr yr oedd Petr yn cael mewn barn cariad eu bod hwy yn etholedigion yn ol rhagwybodaeth Duw Dad. † Yr oedd yr etholedigaeth hon yn ol rhagwybodaeth, arfaeth, a chariad tragywyddol Duw, wedi ei gwneyd yn effeithiol "trwy sancteiddiad yr Ysbryd;" yr hyn a ddechreuwyd yn yr adgenedliad, ac a ddygwyd yn mlaen yn y marweiddiad parâus o'u holl natur lygredig, ac adnewyddiad graddol eu heneidiau i ddelw sanctaidd Duw; ‡ ac fel hyny yr oeddynt yn cael eu darpar i "ufudd-dod" parod ac ewyllysgar, oddi ar egwyddorion efengylaidd, i holl orchymynion Crist ein Hiachawdwr. || Yr oedd yn cyd-fyned â hyn "daenelliad gwaed Iesu Grist;" neu gymhwysiad parâus o rinwedd ei aberth a'i iawn ef at eu cydwybodau, trwy ffydd, er symud eu heuogrwydd, a gwneyd eu personau a'u cyflawniadau yn gymmeradwy gyda Duw: fel yr oedd gwaed yr aberthau seremoniol yn cael ei gymhwyso, trwy ei daenellu o amgylch yr allor, a cher bron y drugareddfa, ar ddydd mawr y cymmod; neu fel yr oedd gwaed yr abethau yn cael ei daenellu ar y bobl, pan gadarnâwyd y cyfammod âg Israel wrth fynydd Sinai. § I'r personau hyn mae yr apostol yn dymuno ac yn gweddio, am i ras a heddwch gael eu hamlâu, yn gyffelyb i'r cyfarchiad a arferai Paul yn gyffredin. Peth mawr oedd dwyn yr Iuddewon yn anad neb i ufudd-dod i'r efengyl, gan gymmaint eu rhagfarn yn erbyn Crist. Fel hyn yr oeddynt yn cael eu dysgu yn nechreuad yr epistol, i briodoli eu hiachawdwriaeth i etholiad y Tad, i bryniad y Mab, ac i sancteiddiad yr Ysbryd Glân; ac felly i roddi y gogoniant oll i un Duw yn dri o Bersonau, yn enw yr hwn y cawsent eu bedyddio,

3 [q] * Bendigedig *fyddo* Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, [r] † yr hwn yn ol ei fawr drugaredd [s] ‡ a'n hadgenhedlodd ni [t] || i obaith bywiol, [u] || trwy adgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw,

q 1 Bren. 8. 15. 1 Cron. 29. 10—13, 20. Salm 41. 13. a 72. 18, 19. 2 Cor. 1. 3. Eph. 1. 3, 17. a 3. 20, 21. r Ex. 34. 6. Salm 86. 5, 15. Jona 4. 2. Rhuf. 5. 15—21. Eph. 1. 7. a 2. 4, 7—10. 1 Tim. 1. 14, 15. Tit. 3. 4—6. s adn. 23. pen. 2. 2. Ioan 1. 13. a 3. 3—8. Iago 1. 18. 1 Ioan 2. 29. a 3. 9. a 4. 7. a 5. 1, 4, 18. t Rhuf. 5. 4, 5. a 8. 24. a 12. 12. a 15. 13. 1 Cor. 13. 13. Col. 1. 23, 27. 1 Thes. 1. 3. Tit. 2. 13. Heb. 3. 6. a 6. 18, 19. 1 Ioan 3. 3. u pen. 3. 21. Es. 26. 19. Rhuf. 4. 25. a 5. 10. a 8. 11. 1 Cor. 15. 20. Eph. 2. 6. 1 Thes. 4. 14.

* Mae Petr yma, yn debyg i'w anwyl frawd Paul yn Ephes. 1. 3, &c., yn dechreu ar ei epistol, trwy alw ar ei gyd-gristionogion i uno âg ef i fendithio Duw am ei ryfedd drugaredd a'i ras, dàn yr enwad o "Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist." † Yr hwn yn ol ei fawr drugaredd, neu yn ol mawredd ei dosturiol gariad, tuag at yr euog, yr aflan, a'r truenus, y rhai oedd yn feirw mewn pechod ac yn blant digofaint, ‡ a'u "hadgenedlodd" hwynt: ac o'r cyfnewidiad grasol hwn, yr

wn a weithiwyd ynddynt drwy ei allu dwyfol ef, y illiodd gyntaf eu hedifeirwch, eu ffydd, a'u hufudd-d. || Yn y modd hyn, fel plant Duw, dygwyd hwy i ddiannu gobaith bywiol, gweithgar, effeithiol, a grym-awl: gobaith yn tarddu oddiar ffydd fywiol, yn bwy-câu y galon, yr hwn mae bywyd a nerth ysbrydol yn-olo, ac â bywyd tragywyddol yn wrthddrych ganddo. Yr oedd yr adgenedliad hyn, a'r gobaith oedd yn illiaw o hóno, yn ganlyniad ac effaith o adgyfodiad su Grist oddi wrth y meirw. Derbyniwyd ei aberth , ac adgyfodwyd ef; er prawf ei fod yn Fab Duw, ei fod edi gorphen ei waith ar y ddaear ac i'r dyben iddo flawni ei waith cyfryngol yn y nef: fel, trwy gyfranu Ysbryd Glân trwy ei eiriolaeth ef, i effeithioli gweini-ogaeth yr efengyl, y gellid cyfodi pechaduriaid o rwolaeth pechod, trwy barâd gwastadol megys, o'r hllu hwnw a adferodd i fywyd gorph marw ein Har-wydd Iesu Grist.—*Gobaith bywiol:* bywiol yn angau hun. Nis gall y dyn anianol ddefnyddio gwell rwydd-air na hwnw, "Tra yr anadlaf, mi a obeithiaf:" nd gall y credadyn chwanegu, "Pan drengaf, mi a beithiaf." Peth ofnadwy yw, bod dyn â'i obaith yn d-drengi!

4 [x] * I etifeddiaeth [y] † anllygredig, [z] ‡ a ihalogedig, [a] || a diddiflanedig, [b] § ac y'nghadw rn y nefoedd i chwi,

x pen. 3. 9. Mat. 25. 34. Act. 20. 32. a 26. 18. Gal. 3. 18. Eph. 11, 14, 18. Col. 1. 12. Heb. 9. 15. y 1 Cor. 9. 25. a 15. 52—14. z Dat. 21. 27. a pen. 5. 4. Es. 40. 7, 8. Ezec. 47. 12. Iago 1. 11. b Salm 31. 19. Col. 1. 5. a 3. 3, 4. 2 Tim. 4. 8.

* Fel hyn hwy a adgenedlwyd, neu a ail-anwyd i eti-eddiaeth, yr hon oedd o natur wahanol iawn i'r etifedd-aethau yr oedd dynion y byd hwn yn eu ceisio. Oblegid nae etifeddiaethau daearol yn *llygredig* ynddynt eu unain, ac o ran eu perchenogion; yn *halogedig*, o ran moddion a'r ffyrdd trwy ba rai y cair hwy yn aml, o an y defnydd a wnair o honynt yn gyffredin, ac o ran dynion sydd yn eu meddiannu; ac yn *ddiflanedig*, o an y cysur, yr anrhydedd, neu y mawredd gwael a iddym a roddant i'w meddiannwyr, yn nghyd â'u natur diflanedig, fel y mae meddiant o honynt yn fuan iawn, n lleiâu yr archwaeth a'r gorfoledd, â pha rai y der-yniwyd hwy gyntaf. Ond mae yr etifeddiaeth sydd i'r hai ad-genedledig, ac am ba un y gobeithiant, † yn *an-llygredig* ynddi ei hun, a chânt hwythau eu gwneyd yn nllygredig ac anfarwol i'w mwynâu hi; ‡ mae yn *ddi-halogedig*, o ran ei phleserau, ac o ran cymmeriad yr aoll rai a gânt gyfranogi o hóni hi a'i phleserau; || ac yn *ddi-ddiflanedig*, o ran ei digonoldeb, ei gogoniant, a'i gwychder, yr hyn fydd yn ddigymmysg, yn ddilychiad, n barâus, yn ddidor, yn chwanegu yn wastadol, ac yn dragywyddol. Trwy ad-genedliad, hwy a gawsant, nid n unig *gobaith* o'r etifeddiaeth hon, ac addasrwydd iddi, eithr hefyd hawl iddi. "Os plant, etifeddion nefyd." § Felly yr oedd yn nghadw yn y nefoedd iddynt, goruwch cyrhaedd pob gelynion a chyfnewidiau, yn nhrigfa pob sanctaiddrwydd a dedwyddwch, megys mewn amddiffynfa gadarn, trwy allu Duw, yr hwn a'i hwymodd ei hun mewn cyfammod, i gyflawni ei add-widion anniddymadwy, a bwriadau ei dragywyddol gariad.

5 * Y rhai [c] trwy allu Duw ydych gadwed-ig [d] trwy ffydd [e] iachawdwriaeth, [f] † parod i'w datguddio [g] yn yr amser diweddaf.

c 1 Sam. 2. 9. Salm 37. 23, 24, 28. a 103. 17, 18. a 125. 1, 2. Diar. 2. 8. Es. 54. 17. Jer. 32. 40. Ioan 4. 14. a 5. 24. a 10. 28—30. a 17. 11, 12, 15. Rhuf. 8. 31—39. Phil. 1. 6. Judas 1, 24. d Rhuf. 11. 20. 2 Cor. 1. 24. Gal. 2. 20. Eph. 2. 8. a 3. 17. 2 Tim. 3. 15. Heb. 6. 12. e Es. 45. 17. a 51. 6. 1 Thes. 1. 3, 4. 2 Thes. 2. 13, 14. Heb. 9. 28. f adn. 13. 1 Tim. 6. 14, 15. Tit. 2. 13. 1 Ioan 3. 2. g Job 19. 25. Ioan 12. 48.

* Fel hyn wedi myned i mewn trwy Grist, y "Drws," i'r Tŵr cadarn hwn, trwy ffydd; ac yn gweithredu ffydd yn barâus ar addewidion Duw, ac ar ei berffeithiau ef fel wedi ymrwymo i'w cyflawni; a thrwy fod y ffydd hon yn cael ei chadw heb ddiffygio, trwy eiriolaeth wastad-

ol Iesu, a gras yn cael ei roddi o hóno ef; hwy a gedw-id yn sicr yn mhob peryglon, ac a ddiogelid yn wyneb pob gelynion, tufewnol ac allanol, i iachawdwriaeth berffaith yn y nef. † Yr oedd hon yn mhob ystyr yn barod iddynt: ond nid oedd yr amser pennodol iddynt gael llawn fwynâd o hóni eto wedi dyfod; felly yr oedd yn aros o hyd megys dân lèn, ond yr oedd i gael ei datguddio, ei hegluro, a'i rhoddi yn gyhoeddus iddynt hwy yn yr amser diweddaf, sef yn nyfodiad Crist i gyfodi y meirw, i farnu y byd, ac i ddystrywio yr holl rai annuwiol. *Y rhai trwy allu Duw ydych gadwedig:* dywedir fod y gair *phrouroumenous* yn arwyddo cadw megys mewn tŵr cadarn, neu gastell anorfodadwy, yn ddiogel rhag niwed, dân sylw llygad a wêl bob peth, ac amddiffyniad llaw a all bob peth.

6 * Yn yr hyn yr ydych yn [h] mawr-lawenhâu, [i] † er eich bod ychydig yr awrhon ([k] os rhaid yw) [l] ‡ mewn tristwch, [m] trwy amryw brofedigaethau:

h adn. 8. pen. 4. 13. 1 Sam. 2. 1. Salm 9. 14. a 35. 19. a 95. 1. Es. 12. 2, 3. a 61. 3, 10. Mat. 5. 12. Luc 1. 47. a 2. 10. a 10. 20. Ioan 16. 22. Rhuf. 5. 2, 11. a 12. 12. 2 Cor. 6. 10. a 12. 9, 10. Gal. 5. 22. Phil. 3. 3. a 4. 4. 1 Thes. 1. 6. Iago 1. 2, 9, 10. i pen. 4. 7. a 5. 10. 2 Cor. 4. 17. k adn. 7. Salm 119. 75. Galar 3. 32, 33. Heb. 12. 10. l Job 9. 27, 28. Salm 69. 20. a 119. 28. Es. 61. 3. Mat. 11. 28. a 26. 37. Rhuf. 9. 2. Phil. 2. 26. Heb. 12. 11. Iago 4. 9. m Salm 34. 19. Ioan 16. 33. Act. 14. 22. 1 Cor. 4. 9—13. 2 Cor. 4. 7—11. a 11. 23—27. Heb. 11. 35—38. Iago 1. 2.

* Yn yr ernes, y blaen-ffrwyth, a'r gobaith o iachawd-wriaeth berffaith a thragywyddol, yr oedd y gwir grist-ionogion hyn yn mawr-lawenâu, yn gorfoleddu yn eu calon, ac megys yn llàmu o lawenydd mewn agweddau allanol: neu o leiaf yr oedd galwad arnynt i hyny. † Hyny oedd gwir a diledryw effaith ffydd, yn gyfatebol i'w grym a'i gweithrediad hi; er eu bod hwy yr awr hon, am ychydig amser, efallai, (os oedd Duw yn gwel-ed hyny yn angenrheidiol, er ei ogoniant ei hun a'u lles hwythau,) ‡ mewn tristwch, ac yn isel eu meddwl, trwy amryw brofedigaethau a thrallodion yn eu hamgylch-iadau allanol, trwy bechadurusrwydd parâus eu calon-au, ac ymosodiadau blinion a phoenus Satan. *Os rhaid yw:* yr hyn sydd yn dangos nad yw Duw yn goddef i'w blant fod mewn profedigaethau a thristwch heb *raid* o ryw fath, er ei ogoniant ei hun neu eu lles hwythau, neu bob un o'r ddau. Nis medrwn ni ganfod y *rhaid* hwn yn aml; ond mae Duw yn ei ganfod bob amser, a chawn ninnau ei wybod ar ol hyn, am hyny byddwn dawel, ac ymddiriedwn y cwbl i Dduw doeth, yr hwn a ŵyr yn oreu pa fodd i'n trin.—*Llawenâu* ac mewn *tristwch* hefyd: *llawenâu* fel *saint*, mewn *tristwch* fel *dynion: llawenâu* yn yr *iachawdwriaeth*, mewn *tristwch* gan *brofedigaethau*. Bywyd rhyfedd fel hyn yw bywyd y credadyn; ond e ddybena'r cwbl yn fuan mewn llawenydd perffaith, a gorfoledd tragywyddol.

7 * Fel y caffer [n] profiad eich ffydd chwi, [o] † yr hwn sydd werthfawrusach nâ'r aur [p] coll-adwy, [q] ‡ cyd profer ef drwy dân, [r] || er mawl, ac anrhydedd, a gogoniant, [s] § yn ymddangosiad Iesu Grist:

n Job 23. 10. Salm 66. 10—12. Diar. 17. 3. Es. 48. 10. Jer. 9. 7. Zec. 13. 9. Mal. 3. 3. Rhuf. 5. 3, 4. Iago 1. 3, 4. Dat. 2. 10. a 3. 10. o pen. 2. 4, 7. Diar. 3. 13—15. a 8. 19. a 16. 16. 2 Pedr 1. 1, 4. p Preg. 5. 14. Jer. 48. 36. Luc 12. 20, 21, 33. Act. 8. 20. Iago 5. 2, 3. 2 Pedr 3. 10—12. Dat. 18. 16, 17. q pen. 4. 12. 1 Cor. 3. 13. Dat. 3. 18. r 1 Sam. 2. 30. Mat. 19. 28. a 25. 21, 23. Ioan 5. 44. a 12. 26. Rhuf. 2. 7, 10, 29. 1 Cor. 4. 5. 2 Thes. 1. 7—12. Judas 24. s Gwel ar adn. 5.

* Yr oedd yr "amryw brofedigaethau" uchod yn tòri ar eu llawenydd yn awr ac eilwaith; ond yr oeddynt yn angenrheidiol, fel y sylwyd, er eu lles hwy a gogoniant Duw: pe amgen ni buasai efe yn eu trefnu, mwy nac y gwna tad tirion a doeth geryddu ei anwyl blentyn *heb raid;* neu y gwna meddyg roddi cyfferi atgas a chwerw-on i'w gyfeillion heb achos am danynt. Oblegid yr oedd yr holl bethau gofidus hyn wedi eu bwriadu, i wneuthur prawf teg a thrylwyr o'u ffydd hwynt, fel y profid hi ei bod o'r iawn ryw. Yr oeddynt yn proffesu

eu bod yn credu yn Nghrist, ac yn ei garu ef; ac yr oedd yn addas profi gwirionedd y broffes hon, fel y caid gweled gwahaniaeth sicr rhyngddynt hwy â'r rhagrithwyr. Yr oedd y prawf hwn yn cael ei wneyd trwy erledigaethau, trallodau, a themtasiynau, fel y profir ac y purir aur trwy dân y toddydd. † Ond yr oedd ffydd y credinwyr yn annhraethol werthfawrusach nac aur, yr hwn sydd o natur ddarfodedig a cholladwy, ac nis gall brynu ond pethau darfodedig a cholladwy; lle mae ffydd yn rhoddi rhan i'r enaid yn "anchwiliadwy olud Crist," ac addewidion digyfnewid Duw, ac yn dyfod â hawl iddo i dragywyddol wynfyd a dedwyddwch: ac am fod ffydd mòr werthfawr, yr oedd y prawf o hóni yn gyfatebol werthfawr, angenrheidiol, a llesàol, hefyd. ‡ Am hyny yr oedd yn addas ei phrofi hi trwy dân profedigaethau a thrallodau, yn yr hwn yr oedd ffydd farw y rhagrithwyr yn darfod ac yn colli yn gyffredin; am y byddent yn gwadu Crist i ddianc rhag y groes, ac i ddïogelu eu manteision bydol. Ond yr oedd ffydd fywiol y rhai ad-genedledig (adn. 3.) fel hyn yn cael ei dangos ei bod o'r iawn ryw, trwy eu bod hwy yn glynu yn ddiysgog wrth Grist a'i ewyllys, deued a ddelai; ac yn wir yr oedd eu ffydd hwy yn cael ei phuro, ei chryfâu, a'i chwanegu, trwy y prawf. || Hwy a gâent hefyd y cysur o hóni, a Duw y gogoniant, yn y byd hwn; a byddai y cwbl er mawl, ac anrhydedd, a gogoniant, yn ngwydd yr holl grëadigaeth, § yn ymddangosiad Iesu Grist i farnu y byd; pryd nas gallai un mesur o glod, na phwys gogoniant, gynhyrfu balchder, fel y maent yn gwneyd tra mae pechod yn aros yn y galon. Am yr amser gorfoleddus hyn, yr oedd yr holl wir gredinwyr yn dysgwyl, gyda pharotôad difrifol iawn.—Dywedir am ffydd yma yn y *rhyw wrrywaidd, hwn*, ac *ef;* ond *benywaidd* ydyw yn y Geiriaduron, ac felly y dodwyd hi yn y sylwad uchod: canol-ryw yw y Saesoneg, *it.*

8 * Yr hwn, [t] er nas gwelsoch, [u] † yr ydych yn ei garu; ‡ yn yr hwn, heb fod yr awrhon yn *ei* weled, [x] || ond yn credu, § yr ydych yn mawr-lawenhâu â llawenydd [y] annhraethadwy, [z] a gogoneddus:

t Ioan 20. 29. 2 Cor. 4. 18. a 5. 7. Heb. 11. 1, 27. 1 Ioan 4. 20. u pen. 2. 7. Can. 1. 7. a 5. 9, 16. Mat. 10. 37. a 25. 35—40. Ioan 8. 42. a 14. 15, 21, 24. a 21. 15—17. 1 Cor. 16. 22. 2 Cor. 5. 14, 15. Gal. 5. 6. Eph. 6. 24. 1 Ioan 4. 19. x Gwel ar adn. 6. —Hab. 3. 17, 18. Act. 16. 34. Rhuf. 14. 17. a 15. 13. Phil. 1. 25. a 3. 3. a 4. 4. y 2 Cor. 9. 15. a 12. 4. z pen. 5. 4. 2 Cor. 1. 22. Gal. 5. 22. Eph. 1. 13, 14.

* Fel yr oedd y cristionogion hyn yn mhell o wlad Canaan, mae yn debyg nad oedd nemawr, os oedd neb o honynt, wedi gweled Crist yn y cnawd erioed; † eto, trwy y datguddiad a wnaethid o hóno ef iddynt, ac yn eu heneidiau, trwy ei air a'i Ysbryd ef, yr oedd ganddynt hwy wir ddymuniad am dano, cariad tuag ato, parch iddo, a hyfrydwch ynddo: ‡ ac er nad oeddynt y pryd hwnw yn gallu ei weled ef â'u llygaid corphorol, fel y gwelsai llaweroedd ef yn nyddiau ei gnawd, ac fel y caent hwythau ei weled ef yn ol hyn mewn gogoniant; || eto yr oeddynt yn credu ynddo yn ol y dystiolaeth am dano, ac am yr hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd efe dros bechaduriaid, yn nghyd a'i allu, a'i ras, a'i wirionedd. Trwy y ffydd hon yr oeddynt yn ymddiried eu heneidiau iddo ef, ac yn ymddybynu arno am faddeuant, sancteiddiad, ac achubiaeth byth. § Trwy y ffydd hon yn "gweithio trwy gariad," yr oeddynt yn mwynâu llawenydd mòr fawr, rhagorol, sanctaidd, a sylweddol, ag nas gellid ei draethu â geiriau; am ei fod yn ogoneddus, neu yn llawn o ogoniant; o'r un natur ac effeithiau â gogoniant a llawenydd y nef ei hun. Llawenydd gogoneddus oedd hwn o ran ei wrthddrych, ei natur, ei fesur, a'i barâd diddiwedd.

9 [a] * Gan dderbyn diwedd eich ffydd, *sef* iachawdwriaeth *eich* eneidiau.

a Rhuf. 6. 22. Heb. 11. 13. Iago 1. 21.

Yr oeddynt yn cyfranogi o'r llawenydd uchod yn ol graddau eu ffydd yn Nghrist, eu cariad ato, a'u hufuddodd iddo; tra yr oeddynt yn ymhyfrydu yn yr iachawdwriaeth a weithiwyd ganddo ef, ac yn y datguddiedig aethau gorfoleddus oeddynt yn gael o ogoniant Duw, fel rhag-brofion melus o ddedwyddwch tragywyddol yr holl saint; a thra yr oeddynt yn meddiannu ernes o'r dedwyddwch hwn, yn ngrasau a dyddanwch yr Ysbryd Glân, ac mewn cymdeithas â'r Tad ac â'i anwyl Fab ef. Yr oedd y ffydd, y cariad, a'r llawenydd hyn, am Waredwr annweledig, yn gwneyd i fynu brofiad neilluol, ac yn ffurfio cymmeriad rhagorol a gwahaniaethol, y gwir gristionogion; * y rhai oedd fel hyn yn cael sicrwydd iddynt eu hunain, y derbynient hwy "iachawdwriaeth eu heneidiau," yr hyn oedd y dyben yn eu golwg hwynt pan gredasant: yn wir yr oeddynt o hyd yn *derbyn* yr iachawdwriaeth hòno yn yr ernes, y blaenffrwythau, y cysuron, a'r sancteiddiad o hóni, yn nghanol eu holl drallodau a'u profedigaethau. *Gan dderbyn:* fel yr ymdrechwyr, neu y buddugoliaethwyr gynt, yn derbyn gwobr eu hymdrech, neu y fuddugoliaeth a ennillasent.

10 [b] * Am yr hon iachawdwriaeth yr ymofynodd, [c] ac y manwl-chwiliodd y prophwydi, [d] † y rhai a brophwydasant am y gras *a ddeuai* i chwi:

b Mat. 13. 17. Luc 10. 24. a 24. 25—27, 44. Act. 3. 22—24. a 7. 52. a 10. 43. a 13. 27—29. a 28. 23. c adn. 11. Diar. 2. 4. Ioan 5. 39. a 7. 52. Act. 17. 11. d Heb. 11. 13, 40.

* Rhagfynegwyd am yr iachawdwriaeth gan y prophwydi o'r dechreuad: am hyny yr oedd eu hysgrifeniadau hwy yn neilluol deilwng o sylw manylaf y cristionogion hyn. Bu y rhai hyny, hen weision Duw, yn ymofyn ac yn manwl-chwilio eu hunain, i feddwl ac ystyr eu prophwydoliaethau eu hunain; am nad oeddynt yn gallu llawn ddeall † beth oedd y gras hwnw, yr hwn a fwriadwyd i'r rhai a fyddai byw ar ol dyfodiad y Messiah.

11 * Gan chwilio † pa bryd, neu pa ryw amser, [e] yr oedd Yspryd Crist, yr hwn oedd ynddynt, yn ei hysbysu, [f] ‡ pan oedd efe yn rhag-dystiolaethu dioddefaint Crist, [g] || a'r gogoniant ar ol hynny.

e pen. 3. 18, 19. Rhuf. 8. 9. Gal. 4. 6. 2 Pedr 1. 21. Dat. 19. 10. f Es. 22. 1—21. a 69. 1—21. a 88. Es. 52. 13, 14. a 53. 1—10. Dan. 9. 24—26. Zec. 13, 7. Gwel ar Luc 24. 26, 27, 46. g Gen. 3. 15. a 49. 10. Salm 22. 22—31. a 69. 30—36. a 110. 1—6. Es. 9. 6, 7. a 49. 6. a 53. 11, 12. Dan. 2. 34, 35, 44. a 7. 13, 14. Zec. 2. 8—11. a 14. 9. Ioan 12. 41. Act. 26. 22, 23.

* Am hyny yr oeddynt yn chwilio yn fanwl, fel mwnwyr am drysorau cuddiedig o feteloedd gwerthfawr, fel y gallent ddeall † pa bryd, neu pa ryw amser, y byddai y pethau hyny, y rhai yr oedd Ysbryd Crist yr hwn oedd ynddynt hwy, yn eu bwriadu drwy y prophwydoliaethau oedd efe yn roddi iddynt a thrwyddynt hwy. Oblegid nid oeddynt hwy yn iawn ddeall llawn ystyr eu geiriau eu hunain, ‡ pan oeddynt yn rhag-dystiolaethu y byddai i'r Messiah fyned trwy lawer ac amryw ddyoddefiadau, ie, hyd angau; || ac y byddai iddo ef wedi hyny gael ei ogoneddu, yn ei dderchafiad personol ei hun, ac yn helaethrwydd, tangnefedd, a pharâd ei lywodraeth gyfryngol, dedwyddwch ei ddeiliaid, a dinystr ei elynion.—*Ysbryd Crist:* sef yr Ysbryd oedd yn y prophwydi yn llefaru am Grist, medd y Sociniaid. Ond yn yr ystyr hyn gallesid ei alw ef yn Ysbryd Anghrist yr un modd; oblegid efe a lefarodd am Anghrist hefyd trwy ddynion sanctaidd Duw. Ond geilw yr apostol ef yn Ysbryd Crist herwydd ei berthynas *hanfodol* ef â Christ, ac i'w ddynodi ef yn *Berson* gwahanol i Grist yn yr hanfod hòno. Ac os gelwir ef yn Ysbryd Crist, ac yn llefaru am Grist, *cyn* dyfodiad Crist yn y cnawd; rhaid bod Crist ei hun yn hanfodi, fel Person dwyfol, *cyn* ei ymddangosiad yn y cnawd. Crist oedd yn llefaru trwy ei Ysbryd yn y prophwydi: felly y meddyliai yr hen dadau duwiol, cyn bod neb

ciniaid, i roddi eu golygiadau gŵyr-gam a gwenwynig yr adnod hon.

12 * I'r rhai y [h] datguddiwyd, [i] nad iddynt wy eu hunain, † ond i ni, yr oeddynt yn weini *yn* y pethau a fynegwyd yn awr i chwi, ‡ gan y rhai a efengylasant i chwi [l] || trwy Ysbryd Glân, yr hwn a [m] ddanfonwyd o'r Bf; [n] § ar yr hyn bethau y mae yr angelion n chwennychu edrych.

h Es. 53. l. Dan. 2. 19, 22, 28, 29, 47. a 10. 1. Amos 3. 7. at. 11. 25, 27. a 16. 17. Luc 2. 26. Rhuf. 1. 17, 18. 1 Cor. 2. 10. al. 1. 12, 16. i Dan. 9. 24. a 12. 9, 13. Heb. 11. 13, 39, 40. Marc 16. 15. Luc 9. 6. Act. 8. 25. a 16. 10. Rhuf. 1. 15. a 10. 15. 15. 19. 1 Thes. 2. 9. Heb. 4. 2. l Ioan 15. 26. a 16. 7—15. ct. 2. 4, 33. a 4. 8, 31. a 10. 44, 45. 2 Cor. 6. 6. 1 Thes. 1. 5, 6. eb. 2. 4. m Diar. 1. 23. Es. 11. 2—6. a 32. 15. a 44. 3—5. oel 2. 28. Zec. 12. 10. Ioan 15. 26. Act. 2. 17, 18. n Ex. 25. 20. an. 8. 13. Luc 15. 10. Eph. 3. 10. Dat. 5. 11—13.

* Datguddiwyd yn amlwg a digyfrwng i'r prophwydi, a byddent hwy eu hunain ddim byw i weled cyflawnad o'u prophwydoliaethau; ac na chaent hwy na'u cydweswyr ddim mwynâu y prif les o'u gweinidogaeth, nac i'r breintiau a gyhoeddid ganddynt. † Ond yr oeddynt wy yn llafurio er lles cenedlaethau ac oesoedd i dyfod: tra yr oeddynt yn cyhoeddi ac yn datgan y ethau mawrion hyny, y rhai o'r diwedd a gyflawnwyd, ac a efengylwyd i Iuddewon a chenedloedd gan aposolion Crist, y rhai a bregethasent yr efengyl iddynt; a gweinidogaeth pa rai a arddelwyd trwy nerthoedd a gweithrediadau gwyrthiol yr Ysbryd Glân, i'w gwneuthur hi yn effeithiol trwy ei ddylanwadau bywiol a sancteiddiol ef; yr hwn a ddanfonwyd o'r nef, i ddwyn ystioladeth i gyflawniad y prophwydoliaethau hyny, y hai a roddasid drwyddo ef yn yr hen amseroedd. § Yr oedd y dirgelion hyn o iachawdwriaeth yn wir yn cynnwys y fath amlygiadau o ddoethineb, gallu, gwirionedd, cyfiawnder, sancteiddrwydd, a thrugaredd Duw; fel yr oedd yr angelion, gydag awyddfryd mawr, a sylw parâol, yn chwennychu edrych arnynt, ac ymuno mewn addoliad i'r Gwaredwr dwyfol; fel y cerubiaid oedd yn crŷmu i lawr, i edrych ar y drugareddfa ac arch y cyfammod gynt. Yr oeddynt hwy megys yn gadael gogoniant y nef, i edrych, neu fyfyrio ar y priodoliaethau dwyfol yn nhrefn iachawdwriaeth dynion; ac i ddysgu tân newydd o fawl ac addoliad, wrth y preseb yn Bethlehem, yn Gethsemane, ar ben Calfaria, a chan yr eglwys, yr hon a brynwyd gan Dduw wedi ymddangos yn y cnawd, â'i briod waed. *Chwennychu edrych:* gostwng pen a chrymu i edrych, meddant, yw y geiriau gwreiddiol, fel agwedd y cerubiaid a soniwyd uchod; yr hyn sydd yn dangos nid yn unig *awyddfryd* yr angelion sanctaidd i ddeall rhyfeddodau yr efengyl, ond hefyd eu *gwystyngeiddrwydd*, a'u *syndod*, wrth edrych ar drefn yr iachawdwriaeth fawr i ni. Dyma brophwydi ac angelion yn ymofyn, yn manwl-chwilio, yn crŷmu, ac yn edrych; ac a allwn ni fod yn ddifater a diystyr o'r pethau mawrion hyn?

13 * O herwydd paham, [o] gan wregysu llwynau eich meddwl, [p] † *a* bod yn sobr, [q] ‡ gobeithiwch yn berffaith am y gras a [r] ddygir i chwi yn natguddiad Iesu Grist;

o Ex. 12. 11. 1 Bren. 18. 46. 2 Bren. 4. 29. Job 38. 3. a 40. 7. Es. 11. 5. Jer. 1. 17. Luc. 12. 35. a 17. 8. Eph. 6. 14. p pen. 4. 7. a 5. 8. Luc 21. 34, 35. Rhuf. 13. 13. 1 Thes. 5. 6, 7. q Gwel ar adn. 3—5.—pen. 3. 15. Rhuf. 15. 4—13. 1 Cor. 13. 13. 1 Thes. 5. 8. Heb. 3. 6. a 6. 19. 1 Ioan 3. 3. r adn. 4—9. Luc 17. 30. Cor. 1. 7. 2 Thes. 1. 7. 2 Tim. 4. 8. Tit. 2. 11—13. Heb. 9. 28.

* Gan fod iachawdwriaeth Crist wedi tynu sylw prophwydi o'r dechreuad, gan ei bod wedi ei phregethu gan apostolion, gyda'r Ysbryd Glân wedi ei ddanfon o'r nef, a chan fod angelion yn chwennychu edrych arni, neu ymdreiddio i mewn iddi; yr oedd yn gweddu i'r rhai a gawsent eu breintio âg efengyl, wneyd yn fawr o'u manteision, ac ymagweddu yn gyfatebol i'w breintiau, gyda dyfalwch a bywiogrwydd. Am hyny hwy a ddylent wregysu lwynau y meddwl, trwy roddi heibio bob rhagfarnau cnawdol, a phob gofalon gormodol am bethau y bywyd hwn, yn nghyd â'r fath orchwylion, dymuniadau, a helyntion, a allai fod yn rhwystr iddynt hwy ddeall yn eglur, dewis yn galonog, ac ufuddâu yn siriol i air y gwirionedd; a dylent arfer pob moddion i symmud rhwystrau, i gryfâu sanctaidd serchiadau, ac i'w bywiocâu eu hunain a'r naill y llall, i wasanaethu Crist yn ddiwyd, ac i ddyoddef yn amyneddgar drosto ef. † Dylent hefyd mewn modd neilluol fod yn sobr, yn ddifrifol, yn ystyriol, yn gymmedrol, ac yn dymherus yn mhob peth, yn wyliadwrus, ac yn gadarn yn y ffydd: ‡ ac fel hyny gobeithio yn *berffaith*, neu *hyd y diwedd*, y cyflawnai Duw ei addewidion, er pob ymladdau tumewnol a phob digalondid allanol, ac y dygai hwyt i'w ogoniant tragywyddol yn y diwedd. Dylent ymorphwys yn hollawl ar ei holl-alluawgrwydd, ei holl-wybodaeth, a'i anfeidrol berffeithiau ef, i'w sancteiddio, eu hamddiffyn, a'u cynnal hwynt; ac i'w hachub yn mhob amgylchiad, oddi wrth eu holl elynion. Fel hyn hwy a obeithient yn berffaith am y gras, neu y daioni rhad a dihaeddiannol hwnw, a ddygir i bob gwir gristion, ac a roddir yn gyhoeddus arno, yn natguddiad yr Arglwydd Iesu i farnu y byd, i ogoneddu ei bobl, ac i ddystrywio ei elynion. Am wregysu y lwynau, gwel ar Ephes. 6. 14. Gobeithio yn berffaith yw gobeithio yn rasol, yn grediniol, yn wastadol, yn wyliadwrus, ac hyd y diwedd.

14 [s] * Fel plant ufudd-dod, [t] † heb gydymagweddu â'r trachwantau o'r blaen [u] ‡ yn eich anwybodaeth:

s Eph. 2. 2. a 5. 6. t pen. 4. 2, 3. Rhuf. 6. 4. a 12. 2. Eph. 4. 18—22. Col. 3. 5—7. u Act. 17. 30. 1 Thes. 4. 5. Tit. 3 3—5.

* Hwy a fuasent yn wir gynt yn blant anufudd-dod a digofaint megys eraill; ond wedi eu geni o Dduw, hwy a ddaethant yn. "blant ufudd-dod," ac yn hawdd ganddynt ymostwng ac ufuddâu iddo ef fel eu Tad nefol. Hyn oedd eu proffes a'u cymmeriad hwynt: † ac yn gyfatebol i hyn, rhaid iddynt beidio trefnu eu hymddygiadau na'u hymadroddion, na llunio eu hachosion mewn un modd, yn ol arferion y byd, neu y chwantau y bnont hwy yn eu coledd ac yn ufuddâu iddynt o'r blaen, ‡ pan oeddent yn annwybodus am Dduw a gwir grefydd: megys y gwnaethai Iuddewon a chenedloedd pan yn eu cyflwr anianol, gan eu bod yn amddifad o bob gwybodaeth ddarostyngol ac ysbrydol am Dduw a phethau dwyfol. *Plant ufudd-dod:* dull Hebreaidd o lefaru, am blant ufudd.

15 [x] * Eithr megis y mae y neb a'ch galwodd chwi [y] yn sanctaidd, [z] † byddwch chwithau hefyd sanctaidd [a] ym mhob ymarweddiad:

x pen. 2. 9. a 5. 10. Rhuf. 8. 28, 30. a 9. 24. Phil. 3. 14. 1 Thes. 2. 12. a 4. 7. 2 Tim. 1. 9. 2 Pedr 1. 3, 10. y Es. 6. 3. Dat. 3. 7. a 4. 8. a 6. 10. z Mat. 5. 48. Luc 1. 74, 75. 2 Cor. 7. 1. Eph. 5. 1, 2. Phil. 1. 27. a 2. 15, 16. 1 Thes. 4. 3—7. Tit. 2. 11—14. a 3. 8, 14. Heb. 12. 14. 2 Pedr 1. 4—10. a pen. 2. 12. a 3. 16. Phil. 3. 20. 1 Tim. 4. 12. Heb. 13. 5. Iago 3. 13. 2 Pedr 3. 11—14.

* Ond am fod y cyfnewidiad grasol a dedwydd hyn wedi cael ei wneyd ynddynt, trwy alwad effeithiol Duw; yr hwn ac efe yn berffaith sanctaidd ynddo ei hun, a arfaethodd eu gwneyd hwythau yn ddedwydd yn ei wasanaeth sanctaidd a'i ewyllys da: † gan hyny hwy a ddylent weithian fod yn sanctaidd yn eu holl ysbryd, eu tymherau, eu hymddygiad, a'u hymarweddiad, mewn tebygrwydd i'w sancteiddrwydd ef, ac mewn cyd-ffurfiad â hyny: yn sanctaidd tuag at Dduw, yn sanctaidd tuag at y byd, a phawb a phob peth yn y byd; ac yn sanctaidd yn wastadol yn mhob sefyllfa ac amgylchiad.

16 * Oblegid y mae yn ysgrifenedig, [b] † Byddwch sanctaidd; ‡ canys sanctaidd ydwyf fi.

b Lef. 11. 44. a 19. 2. a 20. 7. Amos 3. 3.

* Yr oeddynt yn rhwym i'r sancteiddrwydd uchod trwy orchymyn dwyfol; oblegid yr oedd Duw yn dywedyd yn awr wrthynt hwy, megys y dywedasai yn aml o'r

blaen wrth ei hen bobl gyfammodol yr Iuddewon, fel mae yn ysgrifenedig yn yr Hen Destament, (gwel y cyfeiriad *b*.) † Yr wyf fi yn gorchymyn ar i chwi fod yn bobl sanctaidd i mi, yn ol fy nghalon a'm delw sanctaidd I; ‡ oblegid myfi yr Arglwydd eich Duw a'ch Tad, ydwyf Dduw sanctaidd, yn "lânach fy llygaid nag y gallaf edrych ar ddrwg, ac ni allaf edrych ar anwiredd," ond gydag eithaf casineb tuag ato. Hab. 1. 13. Myfi eich Tad ydwyf sanctaidd, am hyny dylech debygu ac ufuddâu i mi. Neu, Myfi, eich Duw, yr hwn a'ch neilduais chwi o blith pobloedd eraill, fel y byddech yn eiddo fi, ydwyf sanctaidd, am hyny byddwch chwithau sanctaidd: tybir fod yr apostol yn cyfeirio yn benaf at Lefit. 20. 26. Heb y sancteiddrwydd hyn, ni allent rodio yn gyeurus gyda Duw, ei wasanaethu wrth ei fodd yma, na mwynâu y nef yn y diwedd.

17 * Ac os ydych [c] yn galw ar y Tad, [d] † yr hwn sydd heb dderbyn wyneb yn barnu yn ol gweithred pob un, [e] ‡ ymddygwch [f] mewn ofn dros amser eich ymdeithiad:

c Zeph. 3. 9. Mat. 6. 9. a 7. 7—11. 1 Cor. 1. 2. Eph. 1. 17. a 3. 14. d Deut. 10. 17. 2 Cron. 19. 7. Job 34. 19. Mat. 22. 16. Act. 10. 34, 35. Rhuf. 2. 10, 11. Gal. 2. 6. Eph. 6. 9. Col. 3. 25. e Gen. 47. 9. 1 Cron. 29. 15. Salm 39. 12. Heb. 11. 13—16. f Diar. 14. 16. a 28. 14. Rhuf. 11. 20. 2 Cor. 7. 1, 11. Phil. 2. 12. Heb. 4. 1. a 12. 28.

* Gan eu bod hwy, y rhai yr oedd yr apostol yn ysgrifenu atynt, yn awr yn galw ar y Tad, Tad yr Arglwydd Iesu Grist, a'u Tad hwythau ynddo ef; † hwy a ddylent gofio, ei fod ef heb dderbyn wyneb, yn barnu yn ol gweithred pob un. (Gwel ar Act. 10. 34, 35; Rhuf. 2. 6—11.) Gan hyny hwy a ddylent feddwl, na wnelai unrhyw enw neu ffurf ddim llesâd iddynt; ac na chymmeradwyai Duw neb, yn unig am y buasai gynt yn Iuddew, neu am ei fod yn awr ag enw Cristion arno: oblegid byddai efe yn sicr o farnu proffes a chymmeriad pob dyn wrth ei weithredoedd; gosod i'r rhagrithwyr eu rhan gyda'r rhai digred, ac yn y diwedd euogfarnu holl weithredwyr anwiredd. Ië, os gwnelai credinwyr unrhyw ddrwg, ni chyd-ddygai Duw â'r fath beth, am eu bod hwy yn perthyn iddo ef; ond byddai yn sicr o ymweled â hwynt â cheryddon trymion, ac attal ei ddyddanwch oddi wrthynt, hyd onid edifarâent am y bai. ‡ Am hyny yr oedd yn gweddu iddynt hwy ymddwyn dros amser eu hymdeithiad a'u pererindod yn y byd drwg presenol, mewn ofn, yn gystal ag mewn gobaith: heb ammau ffyddlondeb Duw i'w addewidion, nac ymollwng i ddychryn digalonus, a chaethiwus, rhag ei ddigofaint ef; ond bod yn ostyngedig eiddigus o honynt eu hunain, yn wyliadwrus ar eu calonau eu hunain, gan ofni rhag iddynt dwyllo eu hunain, a bod yn ol; rhag iddynt ddianrhydeddu Duw, a thynu arnynt eu hunain ei geryddon arswydol ef, a rhag iddynt syrthio i brofedigaeth; ac fel hyny cyssylltu hyder yn nhrugaredd yr Arglwydd â pharchedig ofn o'i fawredd, ei sancteiddrwydd, a'i uchel awdurdod ef. Yr agwedd oreu ar feddwl y cristion yw, cyfartalwch cymmesur o ofn gostyngedig â gobaith crediniol; yn gyd-radd bell oddi wrth ryfyg ar y naill law, ac oddi wrth ddigalondid ar y llaw arall. Heb obaith, mae dyn fel llong heb angor; heb ofn, mae yn debyg i long heb falasarn. Mae y proffeswr diofn yn ddiamddiffyn, a Satan yn ei gymmeryd yn gaeth wrth ei ewyllys; tra mae yr ofnus heb galon i ddefnyddio ei fanteision, ac yn ymostwng iddo yn ddiammod.

18 * Gan wybod [g] nad â phethau llygredig, *megis* arian neu aur, [h] † y'ch prynwyd oddi wrth eich [i] ofer ymarweddiad, [k] ‡ *yr hwn a gawsoch* trwy draddodiad y tadau;

g Salm 49. 7, 8. 1 Cor. 6. 20. a 7. 23. h Gwel ar adn. 7. i Salm 39. 6. a 62. 10. Jer. 4. 11. Rhuf. 1. 21. 1 Cor. 3. 20. k Jer. 9. 14. a 16. 19. a 44. 17. Ezec. 20. 18. Amos 2. 4. Zec. 1. 4—6. Mat. 15. 2, 3. Act. 7. 51, 52. a 19. 34, 35. Gal. 1. 14, 15.

* Ac hwy a ddylent ymgais am fyned yn mlaen yn y gobaith perffaith, (adn. 13.) yr ymarweddiad sanctaidd. (adn. 15.) a'r ofn parchus uchod, (adn. 17.) yn fwy; gan nas gallent hwy fel credinwyr lai na gwybod, nad â phethau llygredig a gwael y byd hwn, megys arian neu aur, â pha rai y prynid caethion o'u caethiwed a'u trueni yn mhlith dynion, † y prynwyd hwy oddi wrth eu hofer ymarweddiad, a'u harferion gweigion, halogedig, a dinystriol, yn y rhai y buasent yn byw gynt; ‡ wedi eu dysgu a'u derbyn trwy draddodiad eu Rabbiniaid a'u henafiaid, a thrwy addysg ac arferiad eu tadau union-gyrchol yn ol y cnawd.—*Megys arian neu aur:* tybia rhai fod yma gyfeiriad at yr arian cymmod, a grybwyllir yn Exod. 30. 11, &c. Er cymmaint yw gwerth arian ac aur yn ngolwg dynion, nid yw y cyfryw bethau *ddim* yn ngolwg Duw, fel iawn dros bechaduriaid: gwerthfawr yw pryniad eu henaid hwy, a buasai yn peidio byth, o ran dim a allasai arian ac aur wneyd. *Traddodiad y tadau:* traddodiad y tadau Iuddewig, medd rhai, fel y sylwyd uchod; ond tybia eraill fod yr apostol yn meddwl traddodiadau, a gwag ddefodau eilun-addolgar, y cenedloedd hefyd.

19 * Eithr [l] â gwerthfawr waed Crist, [m] † megis oen difeius a difrycheulyd:

l pen. 2. 22—24. a 3. 18. Dan. 9. 24. Zec. 13. 7. Mat. 20. 28. a 26. 28. Act. 20. 28. Eph. 1. 7. Col. 1. 14. Heb. 9. 12—14. 1 Ioan 1. 7. a 2. 2. Dat. 1. 5. a 5. 9. m Gwel ar Exod. 12. 5.—Es. 53. 7. Ioan 1. 29, 36. Act. 8. 32—35. 1 Cor. 5. 7, 8. Dat. 5. 6. a 14. 1.

* Nid âg arian ac aur y prynwyd hwy o gaethiwed eu traddodiadau, a thrueni eu hofer ymarweddiad; eithr â gwaed Crist, Mab y Duw byw, yr hwn oedd yn wir o'r gwerth mwyaf, o herwydd dwyfoldeb, mawredd, ac ardderchawgrwydd anfeidrol y Person; ie, yr oedd yn ddigon gwerthfawr i wneyd cyfiawnder â deddf Duw yn ogoneddus, yn y gwaith o ddangos trugaredd, a rhoddi gras i bechaduriaid o bob math a chenedl, ar gyfrif y gwaed hwn: hwn yw y gwaed a wnaeth gymmod dros yr enaid! † Oblegid hwn oedd Oen Duw, heb y brycheüyn lleiaf o fai na phechod arno nac ynddo; ac o burdeb a rhagoroldeb yr hwn, yn gystal ag o'i ddyoddefiadau ef hyd farw, nid oedd y lluoedd aneirif o wyn pasg, a'r poeth-offrymau beunyddiol dàn y ddeddf, ond cysgodau yn unig. Rhaid eu bod hwy yn berffaith-gwbl o ran eu cyrph, oddi fewn ac oddi allan; felly yr oedd Crist, Oen Duw, yn berffaith ddibechod, yn ei holl natur ac yn ei holl fywyd: a hwn yw yr Oen a arweiniwyd i'r lladdfa, ac a aberthwyd dros ein pechodau aneirif ni.

20 * Yr hwn [n] yn wir a rag-ordeiniwyd cyn sylfaenu y byd, [o] † eithr a eglurwyd [p] yn yr amseroedd diweddaf ‡ er eich mwyn chwi;

n Gen. 3. 15. Diar. 8. 23. Mica 5. 2. Rhuf. 3. 25. a 16. 25, 26. Eph. 1. 4. a 3. 9, 11. 2 Tim. 1. 9, 10. Tit. 1. 2, 3. Dat. 13. 8. o Act. 3. 25, 26. Col. 1. 26. 1 Ioan 1. 2. a 3. 5, 8. a 4. 9, 10. p Gal. 4. 4. Eph. 1. 10. Heb. 1. 2. a 9. 26.

* Yr oedd Crist yn wir wedi ei "rag-ordeinio" i'r gwaith hwn, (yr hwn nis gallasai neb arall ei wneyd,) er "cyn sylfaenu y byd," yn arfaeth a chyngor tragywyddol Duw; ac yr oedd efe wedi ei addaw er pan gyntaf y daeth pechod i'r byd: † ond nid ymddangosodd efe yn bersonol, "i dynu ymaith bechod drwy aberthu ei hun," hyd yr amseroedd diweddaf, amser terfyn yr oruchwyliaeth Iuddewig, ac amser dechreu goruchwyliaeth yr efengyl, yr hon yw yr oruchwyliaeth ddiweddaf a gaiff y byd hwn. Ac mewn canlyniad i'w ddyfodiad ef yn y cnawd, yr oedd efe yn awr yn cael ei egluro yn gyhoeddus, trwy bregethiad yr efengyl, fel Iachawdwr pawb, Iuddewon a chenedloedd, a ddeuent ato, ac at Dduw trwyddo. ‡ Fel y byddai iddynt hwy, a credinwyr eraill o hyny allan, gael cyfranogi o'i iachawdwriaeth ef. Yr oedd ffrwythau iachawdwriaeth Crist yn cyrhaedd pob oesoedd; ond yn fwy helaeth ar ol ei ddyfodiad ef yn y cnawd. Ordeiniwyd ef er tragywyddoldeb, addawyd ef i'r tadau, ond eglurwyd ef i'r rhai hyn; am hyny yr oedd eu breintiau hwy yn fwy na'u henafiaid, a dylasent fod yn fwy sanctaidd.

21 * Y rhai [q] ydych trwyddo ef yn credu

n Nuw, [r] † yr hwn a'i cyfododd ef oddi wrth
meirw, ‡ ac [s] a roddodd iddo ef ogoniant,
fel [t] y byddai eich ffydd chwi a'ch gobaith yn
Nuw.

q Ioan 5. 24. a 12. 44. a 14. 6. Heb. 6. 1. a 7. 25. r Gwel
Act. 2. 24, 32. a 3. 15. a 4. 10. s adn. 11. pen. 3. 22. Mat.
. 18. Ioan 3. 34. a 5. 22, 23. a 13. 31, 32. a 17. 1. Act. 2. 33. a
13. Eph. 1. 20—23. Phil. 2. 9—11. Heb. 2. 9. t Salm 42. 5.
146. 3—5. Jer. 17. 7. Ioan 14. 1. Eph. 1. 12, 13, 15. Col. 1. 27.
Tim. 1. 1.

* Y rhai oeddynt trwyddo ef, fel unig Gyfryngwr, yn
redu ac yn gobeithio yn Nuw, fel Duw a Thad cyfam-
nodol; † yr hwn er tystiolaeth ei fod wedi cael ei lwyr
oddloni trwy aberth a gwaed Crist, a gyfododd ei
orph croeshoeliedig ef o'r bedd, oddi wrth y meirw;
ac a'i derchafodd ef o ran ei ddynoliaeth i'r anrhyd-
dd, yr awdurdod, y llywodraeth, a'r gogoniant mwyaf,
c uwchaf, ar ei ddeheulaw; || fel trwy iddynt gael eu
alonogi drwy y prawf diammheüol hyn, ei fod ef yn
wir a chymmeradwy Fessïah, ac ei fod wedi gorphen y
waith a roddasai y Tad iddo i'w wneuthur ar y ddaear;
byddai eu holl ffydd a'u gobaith hwy yn Nuw trwyddo
f, am bob bendith angenrheidiol iddynt yn y byd hwn,
c am adgyfodiad i dragywyddol fywyd a dedwyddwch
n y byd a ddaw. Fel hyn yr oeddynt yn ymddiried yn
Nuw, fel Duw yr heddwch a Thad y trugareddau iddynt
wy, trwy Iesu Grist yn unig. Trwyddo ef a'i air y daeth-
nt i wybod yn ysbrydol *am* y gwir Dduw; a thrwyddo
f, ei aberth, ei adgyfodiad, a'i ogoneddiad, y daethant i
gredu ac i obeithio *yn* Nuw; am gymmod, trugaredd, ac
achawdwriaeth dragywyddol. Pe gallasent *adnabod*
Duw hebddo, neu allan o hono ef, nis gallasent *credu* a
gobeithio yn Nuw am drugaredd, ond trwyddo ef.

22 [u] * Gwedi puro eich eneidiau, [x] † gan
ufuddhâu i'r gwirionedd [y] ‡ trwy yr Ysbryd,
i frawdgarwch diragrith: [z] || cerwch eich gil-
ydd o [b] galon bur yn helaeth:

u Ioan 15. 3. a 17. 17, 19. Act. 15. 9. Rhuf. 6. 16, 17. 2 Thes.
2. 13. Iago 4. 8. x pen. 3. 1. a 4. 17. Act. 6. 7. Rhuf. 1. 5. a 2.
8. Gal. 3. 1. a 5. 7. Heb. 5. 9. a 11. 8. y Rhuf. 8. 13. Gal. 5. 5.
2 Tim. 1. 14. Heb. 9. 14. z pen. 2. 17. a 3. 8. a 4. 8. Ioan 13.
34, 35. a 15. 17. Rhuf. 12. 9, 10. 2 Cor. 6. 6. Eph. 4. 3. 1 Thes. 4.
9. Heb. 6. 10. a 13. 1. Iago 2. 15, 16. 2 Pedr 1. 7. 1 Ioan 3. 11,
24—19. 23. a 4. 7, 12, 20, 21. a 5. 1, 2. a Phil. 1. 9. 1 Thes. 3.
12. 2 Thes. 1. 3. Dat. 2. 4. b 1 Tim. 1. 3. a 4. 12. a 5. 2.

* Yr oedd eneidiau y bobl hyn ar y cyntaf, fel pawb
eraill, wedi eu llygru a'u halogi gan annuwioldeb,
balchder, llid, hunan, a chwantau bydol a chnawdol;
ond yr oeddynt y pryd hwn "wedi puro eu heneidiau"
oddi wrth effeithiau aflan y drygau hyny, yn gystal ag
oddi wrth euogrwydd eu pechodau gweithredol, trwy y
moddion a ordeiniodd Duw i'r dyben hyny. † Dangos-
wyd iddynt trwy air y gwirionedd eu hangen am bured-
igaeth, a dysgwyd iddynt trwy ba foddion y gallent
gael eu puro: a thrwy "ufuddâu i'r gwirionedd," mewn
edifeirwch, ffydd yn Nghrist, ac ymarferiad o foddion
gras; hwy a lanâwyd fel hyn oddi wrth eu "haflendid
a'u heilunod," a chafodd amrywiol gynneddfau eu hen-
eidiau eu puro a'u sanctei ddio, i wasanaethu Duw
mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd. ‡ Effeith-
iiwyd y puredigaeth hyn trwy yr Ysbryd, yr hwn trwy y
gwirionedd a weithiodd y cyfnewidiad sanctaidd hwn
ynddynt, ac a'u dygodd hwynt i garu eu gilydd mewn
brawdgarwch cynhes a diragrith: || ac yn yr ymarferiad
o'r un moddion, dàn ddylanwadau a bendith yr un
Ysbryd, mae yr apostol yn eu hannog hwy i barâu yn y
brawdgarwch diragrith hwnw, ac i gynnyddu mewn
cariad at eu gilydd, o galon bur yn helaeth, neu yn
uresog, yn ol y Saesoneg. *Ektenós:* angerddol, grỳmus,
parâus, â'u holl enaid.

23 * Wedi eich [c] ail-eni, [d] † nid o had llygr-
edig, [e] ‡ eithr anllygredig, [f] trwy air Duw,
|| *yr hwn sydd* yn byw ac yn parhâu yn dra-
gywydd.

c Gwel ar adn. 3. d Mal. 2. 3. Rhuf. 1. 23. 1 Cor. 15. 53,
54. e 1 Ioan 3. 9. a 5. 18. f adn. 25. Jer. 23. 28, 29. Mat.
24. 35. Ioan 6. 63. Heb. 4. 12. Iago 1. 18.

* Yn wir yr oedd y cariad brawdol hwn mewn rhyw
ystyr yn beth *naturiol* iddynt, nid fel dynion, ond fel
cristionogion; fel yr oeddynt oll yn blant o'r un teulu,
ac yn perthyn yn agosach i'w gilydd nac y gallai neb
brodyr daearol fod. Oblegid yr oeddynt wedi eu hail-
eni; † nid o had llygredig, fel y mae holl ddynolryw
wedi eu geni o natur syrthiedig Adda, i glafychu, a
marw, ac felly i droi i lygredigaeth a llwch, o ran eu
cyrph; tra y rhaid i'r enaid, os na bydd wedi ei adgen-
edlu, suddo i drueni byth: ac nid oeddynt ychwaith yn
rhagori yn unig ar eraill, fel had naturiol Abraham,
yr hwn nid oedd ond "had llygredig;" ‡ ond yr oedd-
ynt hwy "wedi eu hail-eni o had anllygredig," sef
"trwy air Duw," wedi ei blànu yn eu calonau gan yr
Ysbryd Glân. || Gan fod hwn yn wirionedd digyfnew-
id a thragywyddol ynddo ei hun, mae yn "byw ac yn
parâu yn dragywydd," yn ei effeithiau ar galonau y
saint, yn ol addewidion Duw; gan ei fod yn had, neu
egwyddor bywyd ysbrydol, ac yn nerthol weithredu cyf-
newidiad hollawl yn y farn, y tueddiadau, a serchiadau
yr enaid a'r galon.—"Yr hwn," sef *Duw*, sydd yn byw
ac yn parâu yn dragywydd, medd rhai; ond mwy natur-
iol yw prïodoli "yr hwn" i *air* Duw yma, fel mae yn
had anllygredig yn y saint: y rhai a ail-anwyd o'r had
anllygredig hwn, nis gellir eu dïeni drachefn, na difodi
yr had sydd ynddynt.

24 * Canys [g] pob cnawd fel glas-welltyn yw,
† a holl ogoniant dyn fel blodeuyn y glas-
welltyn. ‡ Gwywodd y glas-welltyn, a'i
flodeuyn a syrthiodd:

g 2 Bren. 19. 26. Salm 37. 2. a 90. 5. a 92. 7. a 102. 4. a 103.
15. a 129. 6. Es. 40. 6, 7. a 51. 12. Iago 1. 10, 11. a 4. 14. 1 Ioan
2. 17.

* Canys pob cnawd, pawb a enir o natur syrthiedig
Adda, sy fel glas-welltyn, neu lysieüyn y maes; † a holl
ogoniant dyn, pa beth bynag a ymffrostiodd neb o
ddynolryw ynddo erioed, nid oedd, ac nid yw, ond fel
blodeüyn y glas-welltyn, yr hwn sydd yn fwy darfodedi-
g na'r glas-welltyn ei hun: pa un bynag ydyw ai
gwaedoliaeth uchel, dawn, doethineb, dysgeidiaeth,
moesau boneddigaidd, cyfoeth, mawredd, neu weith-
redoedd clodfawr; ïe, hyd yn nôd ymogoneddiad yr
Iuddewon yn eu bod yn had Abraham. ‡ Gellir cyffel-
ybu hyn oll, a phob gogoniant dynol arall, i flodeüyn
hardd y glas-welltyn, yr hwn a wywa ac a syrthia yn
fuan; ac felly y diflana pob gogoniant a gwychder
dynol, ac y syrthia dynion i'r bedd, ac i uffern os an-
nuwiol fyddant. Er bod y blodeüyn yn fwy prydferth,
eto mae yn fwy darfodedig, na'r glas-welltyn y blodeüa
arno; felly mae gogoniant dynion lawer gwaith, yn
darfod o flaen y dynion eu hunain: ond pob un o'r
ddau yn sicr o ddarfod yn angau.

25 * Eithr [h] gair yr Arglwydd sydd yn aros
yn dragywydd. † A [i] hwn yw y gair a breg-
ethwyd i chwi.

h Gwel ar adn. 23.—Salm 102. 12, 26. a 119. 89. Es. 40. 8.
Mat. 5. 18. Luc 16. 17. i adn. 12. pen. 2. 2. 1 Cor. 1. 21—24. a
2. 2. a 15. 1—4. Eph. 2. 17. a 3. 8. Tit. 1. 3.

* Ond mae gair yr Arglwydd yn aros yn dragywydd:
ei wirioneddau, ei addewidion, a'i fygythion, a gyflawn-
ir i dragywyddoldeb; a bydd ei effeithiau ar eneidiau
yr ail-anedigion yn dragywyddol hefyd. † A chan i'r
gair hwn gael ei bregethu trwy yr efengyl i'r bobl hyn,
dylasent fendithio Duw am eu breintiau; ymoïyn am
brofiad chwanegol o'i effeithiau; gwerthfawrogi y rhag-
or-fraint hon goruwch pob peth arall; a charu eu gilydd
o galon bur yn helaeth, heb feddwl dim am eu tardd-
iad Iuddewaidd neu genedlig, nac unrhyw wahaniaeth
allanol o un math pa bynag. Hwn yw y gair a breg-
ethwyd i ninnau; ac mae y gwersi uchod yn perthyn i
ni fel i'r rhai hyny gynt.

PEN. II.

Y mae efe yn eu cyngori hwy na wnelont ddim yn erbyn cariad.

a * WEDI rhoi heibio b gan hynny bob c drygioni, † a phob d twyll, e ‡ a rhagrith, ‖ a f chenfigen, § a g phob gogan-air,

a pen. 1. 18—25. b Es. 2. 20. a 30. 22. Ezec. 18. 31, 32. Rhuf. 13. 12. Eph. 4. 22—25. Col. 3. 5—8. Heb. 12. 1. Iago 1. 21. c adn. 16. 1 Cor. 5. 8. a 14. 20. Eph. 4. 31. Tit. 3. 3—5. d adn. 22. pen. 3. 10. Salm 32. 2. a 34. 13. Ioan 1. 47. 1 Thes. 2. 3. Dat. 14. 5. e Job 36. 13. Mat. 7. 5. a 15. 7. a 23. 28. a 24. 51. Marc 12. 15. Luc 6. 42. a 11. 44. a 12. 1, 2. Iago 3. 17. f 1 Sam. 18. 8, 9. Salm 37. 1. a 73. 3. Diar. 3. 31. a 14. 30. a 24. 1, 19. Rhuf. 1. 29. a 13. 13. 1 Cor. 3. 2, 3. 2 Cor. 12. 20. Gal. 5. 21—26. Iago 3. 14, 16. a 4. 5. g pen. 4. 4. Eph. 4. 31. Col. 3. 8. 1 Tim. 3. 11. Tit. 2. 3. Iago 4. 11.

* Oddi wrth y gwirioneddau am ail-eni, cariad brawdol, &c., yn y bennod o'r blaen, mae yr apostol yma yn cymmeryd achlysur i gyngori ei frodyr, i roddi heibio, fel dillad budron, y rhai a wisgasent hwy yn rhŷ hir, bob math o "ddrygioni," neu frynti, yn enwedig pob casineb at eu gilydd, ac ysbryd dial ar eu gilydd. *Malice* yw y gair Saesoneg yma am ddrygioni: *kakian* yw y gair Groeg, yn arwyddo drygioni yn gyffredin, eithr digasedd yn benaf yn y fàn hon, efallai. † Dylent gasâu a rhoddi heibio bob "twyll" hefyd; pob gweniaeth ffals, pob moes-gyfarch ffugiol, a phob ystrywiau cyfrwys i dwyllo rhai eraill o'u meddiannau, neu mewn unrhyw beth. ‡ Dylent roddi heibio bob "rhagrith," neu broffes ragrithiol o grefydd rhyngddynt â Duw, ac o barch, cariad, a chyfeillgarwch, tuag at eu gilydd. ‖ Dylent roddi heibio gyda'r atgasrwydd mwyaf bob "cenfigen," grwgnach, ac eiddigedd dirgel, wrth lwyddiant neu dderchafiad rhai eraill yn fwy na hwy eu hunain; pa un bynag ai yn y byd ai yn yr eglwys, mewn pethau tymmorawl neu bethau ysbrydol. § Yn olaf, dylent roddi heibio bob "gogan-air;" pob siarad goganllyd, gwatwaraidd, enllibaidd, ac athrodus, am eu gilydd; yr hyn oedd yn tarddu o ysbryd twyllodrus, balch, digasog, a chenfigenus, tuag at eu gilydd. Pob *siarad drwg*, yw y Saesoneg: *katalalias:* dywedyd drwg, dywedyd yn erbyn, dywedyd gwarth, enllib, neu athrod.

2 * Fel h rhai bychain newydd-eni, † chwennychwch i dddiwyll laeth y gair, ‡ fel y k cynnyddoch trwyddo ef:

h pen. 1. 23. Mat. 18. 3. Marc 10. 15. Rhuf. 6. 4. 1 Cor. 3. 1. a 14. 20. i Salm 19. 7—10. 1 Cor. 3. 2. Heb. 5. 12, 13. k 2 Sam. 23. 5. Job 17. 9. Diar. 4. 18. Hos. 6. 3. a 14. 5, 7. Mal. 4. 2. Eph. 2. 21. a 4. 15. 2 Thes. 1. 3. 2 Pedr 3. 18.

* Yr oedd yn llwyr angenrheidiol rhoddi y pethau uchod oll heibio yn hollawl, fel y gallent hwy gyda diniweidrwydd plant "bychain newydd-eni, chwennychu," ac iawn archwaethu, † didwyll laeth y gair; sef athrawiaeth bur, a gorchymynion sanctaidd, gair dilwgr a digymmysg Duw, fel mae y maban newydd-eni yn chwennychu ac yn awyddu am faethlawn laeth y fron, ac nid oes arno eisiau yr un porthiant arall. ‡ Trwy yr ymborth iachus a maethlawn hwn i'w heneidiau, hwy a gynnyddent mewn gwybodaeth, mewn ffydd, gobaith, cariad, a phob gras sanctaiddiol; heb fod o hyd yn blantos, neu fyned yn gòrod, y rhai sydd yn anaml iawn yn iachus, yn gysurus, yn brydferth, nac yn ddefnyddiol.—Mae y geiriau *rhai bychain newydd eni*, yn arwyddo rhai *newydd eu dychwelyd*, neu *eu hadgenedlu*. Byddai y Rabbiniaid Iuddewig yn arfer galw *plant bychain*, a *mabanod newydd-eni*, ar rai newydd eu dychwelyd i'w crefydd hwy. Bod yn ysbryd plentynaidd rhai newydd eu dychwelyd yw meddwl yr apostol; ac nid fel rhai newydd-eni mewn bychandra gwybodaeth, gras, a chynnydd ysbrydol.

3 * Os l profasoch *fod* yr † Arglwydd ‡ yn dirion.

l Salm 9. 10. a 34. 8. a 63. 5. Can. 2. 3. Zec. 9. 17. Heb. 6. 5, 6.

* Gellid dysgwyl yr ysbryd a'r agwedd uchod ar y bobl hyn, ac hyd yn nôd ar y rhai a gawsent eu dychwelyd yn ddiweddar; *os* profasant fod yr Arglwydd yn dirion, neu *am* eu bod wedi profi fod yr Arglwydd yn dirion. Nid *os* o ammheuaeth yw yr *os* yma, eithr *os* o dybiaeth; sef eu bod wedi profi fod yr Arglwydd yn dirion: mae yr un gair *(eiper)* yn cael ei gyfieithu *canys* yn 2 Thes. 1. 6; a gellid darllen yr adnod hon, "*canys* profasoch fod yr Arglwydd yn dirion." † Cyfeirio mae yr apostol yma at eiriau Dafydd, yn Salm 34. 8: yno dywedir y geiriau am Dduw, JEHOFAH; ac yma mae Petr yn eu cymhwyso at Grist, fel mae yn amlwg wrth yr adnodau dilynol: yr hyn sydd brawf ei fod ef yn golygu Crist â JEHOFAH yr un, neu Grist yn JEHOFAH. ‡ Mae yr Arglwydd yn dirion a thrugarog pa un a gredo dynion hyny ai peidio: mae gan lawer ryw syniadau aneffeithiol am ei drugaredd ef, heb ddim gwir brofiad, neu *archwaethiad* o hyny; ac mae y syniadau hyny yn gyffredin yn eu cryfâu hwy mewn pechod a gwrthryfel: ond mae dynion adgenedledig yn credu ei fod ef yn rasol; maent yn dyfod ato ef yn y grediniaeth hòno, ac felly maent yn profi ac yn archwaethu ei ras ef, ac yn cael ernes o'u dedwyddwch i ddyfod, sef y "dystiolaeth ynddynt eu hunain," o'i diriondeb, ei drugaredd, a'i wirionedd ef.

4 m * At yr hwn *yr ydych* yn dyfod, † *megis at* n faen o bywiol, p ‡ a wrthodwyd gan ddynion, ‖ eithr q etholedig gan Dduw, § *a* r gwerthfawr.

m Es. 55. 3. Jer. 3. 22. Mat. 11. 28. Ioan 5. 40. a 6. 37. n Ioan 5. 26. a 6. 57. a 11. 25, 26. a 14. 6, 19. Rhuf. 5. 10. Col. 3. 4. o Es. 28. 16. Dan. 2. 34, 45. Zec. 3. 9. a 4. 7. p Salm 118. 22, 23. Es. 8. 14, 15. Mat. 21. 42. Marc 12. 10, 11. Luc 20. 17, 18. Act. 4. 11, 12. q Es. 42. 1. Mat. 12. 18. r adn. 7. pen. 1. 7, 19. 2 Pedr 1. 1, 4.

* Gan mai Iuddew oedd yr apostol, ac yn ysgrifenu at Iuddewon dychweledig, yn gystal ag at eraill, mae efe yn arfer ymadroddion cysgodol yr Hen Destament, am deml, offeiriadaeth, ac aberthau. Y deml ydoedd canol-gyrch addoliad JEHOFAH: yno yr oedd efe yn egluro ei ogoniant oddi ar y drugareddfa, ac yn preswylio yn mhlith ei bobl: yno yr oedd efe yn derbyn eu haddoliad hwy, ac yn cyfranu ei ddoniau iddynt: yno yn unig yr oedd efe yn ymrwymo cyfarfod â phechaduriaid a'u bendithio hwynt; ac yno yr oedd credinwyr edifeiriol yn nesâu at Dduw i'w addoli a'i ogoneddu ef: oblegid yr oedd i bob gweddi a gwasanaeth cymmeradwy, gyfeiriad at yr addoliad yn y deml. (Exod. 25. 22; Lefit. 17. 3—9; Deut. 12. 5—7; 1 Bren. 8. 28—30; Dan. 6. 10; Jonah 2. 4, 7.) Fel hyn Crist yw y deml ysbrydol, yn yr hon y "preswylia Duw gyda dynion:" ac mae credinwyr, fel yn un âg ef, yn gwneyd i fynu ran o'r adeiladaeth sanctaidd, ac mae efe yn eu bendithio; ac mae pechaduriaid yn dyfod at Dduw yn Nghrist, ac yn ei ogoneddu ef. † Mewn cyfeiriad at y cysgod hwn, mae Crist yn cael ei alw yn "Faen bywiol," megys y gelwir ef yn "Fara bywiol" mewn lle arall. Mae y gymhariaeth yn dangos ei allu ef, ei gadernid, a'i ddigonoldeb parâus, yn ei Berson a'i gyfryngdod, i gynnal holl bwys gogoniant Duw, ac iachawdwriaeth ei bobl, yr hyn oedd i gael ei osod arno a'i ymddiried iddo: ac mae y cyfenwad *bywiol*, tra mae yn dangos mai ffugyrawl yw yr ymadrodd, yn cyfeirio at effaith bywiol ei ras ef, ar yr eneidiau a fuasent yn feirw mewn pechod, ac yn dangos ei fod ef yn "byw bob amser i eiriol dros ei bobl," ac i sefyll dros ac amddiffyn eu hachos hwy. ‡ Gwrthodwyd y Maen hwn gan ddynion, Iuddewon a chenedloedd hefyd, tra yr oeddynt yn ddiadgenedledig; oblegid fod dynion wrth natur yn annwybodus, yn ddoeth yn eu golwg en hunain, yn hunan-gyfiawn, yn gnawdol, ac yn elynion i Dduw; fel nas gallant dderbyn ei athrawiaeth ddarostyngol a sanctaidd, a'i iachawdwriaeth rasol ef. ‖ Ond yr oedd yn etholedig gan Dduw, i fod yn Gynnalydd, yn Gyssylltydd, ac yn Addurn yr holl adeiladaeth fawr ysbrydol; § ac yr oedd o'r gwerth mwyaf ynddo ei hun, ac yn ngolwg y Tad, ac yn berffaith

ddas i'r dybenion uchod. "At yr hwn yr ydych yn fod:" nid y tro cyntaf yn unig, pan y dychwelwyd wy; ond yn barâus trwy ffydd, mewn gweddiau, ymliried, ac addoliad gwastadol. *Maen bywiol* sydd nadrodd go chwithig yn yr ystyr naturiol; ond addas phrydferth iawn yma am Grist, i ddangos ei ragorolb a'i werth ysbrydol ef.

5 [s] * A chwithau, megis meini bywiol, ydych wedi eich adeiladu yn dŷ ysprydol, ‡ yn offeiriadaeth sanctaidd, ‖ i offrymmu aberthau ysprydol, [x] § cymmeradwy gan Dduw trwy Iesu Grist.

s 1 Cor. 3. 16. a 6. 19. 2 Cor. 6. 16. Eph. 2. 20—22. Heb. 3. Dat. 3. 12. t adn. 9. Es. 61. 6. a 66. 21. Dat. 1. 6. a 5. 10. 20. 6. u Salm 50. 14, 23. a 141. 2. Hos. 14. 2. Mal. 1. 11. an 4. 22—24. Rhuf. 12. 1. Phil. 2. 17. a 4. 18. Heb. 13. 15, 16. pen. 4. 11. Phil. 1. 11. a 4. 18. Col. 3. 17.

Am hyny pawb a ail-anwyd, a oleuwyd, a' ddarosngwyd, a wnaed mewn mesur yn ysbrydol, ac a dlygwyd i geisio cymmod â Duw; maent yn dyfod at rist, (adn. 4.) i adeiladu eu gobaith a'u heneidiau rno ef yr hwn a wrthodwyd gan ddynion; fel y gwnelr hwy yn rhan o'r deml sanctaidd a bywiol hon: maent n wastad yn dyfod ato ef, ac at y Tad trwyddo ef, am ii iachawdwriaeth, a dylanwadau sancteiddâol ei Ysbryd anctaidd ef. * Fel hyn maent hwythau megys meini *ywiol*, trwy fywyd maent yn dderbyn o Grist; † ac yn ael eu gwneyd yn addas i'w hadeiladu fel rhan o'r tŷ sbrydol hwn, yr hwn a gyssegrwyd i Dduw a'i bresyliad sanctaidd ef. ‡ Ond, i ddangos yn fwy cyflawn eddwl yr ymadrodd cyffelybiaethol hwn, yr oedd yn ddas egluro y mater drwy gyffelybiaeth arall: oblegid rwy ddyfod fel hyn at Grist, yr oeddynt yn cael eu colchi, eu heneinnio, eu gwisgo, a'u cyssegru, fel offeiriadaeth sanctaidd, i nesâu at Dduw, ac i weini ddo yn ei deml. ‖ Mae yn wir nad oeddynt yn rhygu offrymu aberthau o *iawn;* ond yr oeddynt wedi eu yssegru i offrymu aberthau *ysbrydol*, sef gweddïau, deisyfiadau, mawl, diolchgarwch, gweithredoedd da, yfraniadau haelionus i'r tlodion, yn enwedig eu brodyr angenus; ac hyd yn nôd eu cyrph eu hunain, fel wedi eu cyflwyno yn gwbl i wasanaeth Duw. § Er bod r aberthau hyn yn anmherffaith ac yn halogedig, ac wedi eu hoffrymu gan bechaduriaid; eto yr oeddynt yn gymmeradwy gan Dduw, am eu bod yn anrhydeddus ddo ef, wedi eu cyflwyno trwy gyfryngdod Iesu Grist, a thrwy ffydd yn ei aberth cymmodol a'i eiriolaeth ef, el eu Harch-offeiriad o fewn y Sancteiddiolaf yn y nef.

6 * O herwydd paham [y] y cynhwysir yn yr ysgrythyr, [z] † Wele, yr wyf yn gosod yn Sïon ben-congl-faen, [a] ‡ etholedig, ‖ *a* gwerthfawr: § a'r hwn a gred ynddo, [b] nis gwaradwyddir.

y Dan. 10. 21. Marc 12. 10. Ioan 7. 38. Act. 1. 16. 2 Tim. 3. 16. 2 Pedr 1. 20. a 3. 16. z adn. 4. Es. 27. 16. Zec. 10. 4. Rhuf. 9. 32, 33. Eph. 2. 20. a Salm 89. 19. Es. 42. 1. Mat. 12. 18. Luc 23. 35. Eph. 1. 4. b Salm 40. 14. Es. 41. 11. a 45. 16, 17. a 50. 7. a 54. 4.

* Yr oedd y pethau uchod oll, (yn adn. 4, 5.) yn cytuno â phrophwydoliaeth nodedig am Grist, a gynhwysir yn Esa. 28. 16; lle mae JEHOFAH ei hun yn dywedyd, † Wele, sylwed pawb, gyda syndod sanctaidd, ffydd a gobaith, cariad a llawenydd; yr wyf fi, gorucbaf Arglwydd pawb a phob peth, o'm gwir ewyllys da fy hun, yn darpar, yn addasu, ac yn gosod y Messiah yn fy eglwys, fel sylfaen safadwy, a phen congl-faen, yr hwn a brofwyd ac a gaed yn ddifai ac effeithiol, i uno Iuddewon â chenedloedd, eglwys yr Hen Destament a'r Newydd; ac i gyssylltu holl aelodau pob un o honynt yn gadarn ac yn gryno yn nghyd; ac i chwanegu grym a phrydferthwch iddynt oll: ‡ Maen, yr hwn mewn anfeidrol ddoethineb a gras, a etholais i fy hun i'r perwyl hwn; ‖ yr hwn sydd yn annrhaethol werthfawr, rhagorol, ac anrhydeddus ynddo ei hun, ac yn annhraethol werthfawr ac anwyl yn fy ngolwg innau. § A phwy bynag, bydded efe Iuddew neu genedl ddyn, y pechadur mwyaf neu leiaf, a bwyso yn hollawl ar Grist, neu a adeilado trwy ffydd arno ef, fel ei unig a'i gadarn sylfaen; ni bydd arno gywilydd byth ei gyffesu ef, nis gwaradwyddir ef gan neb o'i elynion am broffesu ei enw ef; ac nis gwaradwyddir ef byth o herwydd cael ei siomi o'i obaith ynddo ef. Ond efe a "gaiff hyder ddydd y farn," (1 Ioan 4. 17.) fel un wedi ei ryddâu oddi wrth euogrwydd a chondemniad, ac wedi ei berffeithio mewn sancteiddrwydd a dedwyddwch, trwy gyfiawnder y Gwaredwr mawr. Mae y geiriau uchod gan Petr, yn amrywio peth oddi wrth y cyfieithiad o honynt yn Esa. 28. 16, gan y *Deg a Thriugain; (Septuagint;)* ond maent yn rhoddi meddwl cyffredin y cyfieithiad hwnw a'r Hebraeg.—*Yn Sïon:* heblaw bod Sïon yn aml yn arwyddo yr eglwys yn gyffredin, dichon ei bod yma yn meddwl Jerusalem yn llythyrenol; fel y *fàn* lle y gorphenodd Crist waith yr iachawdwriaeth, y *fàn* lle sefydlwyd eglwys y Testament Newydd gyntaf, ac y *fàn* o ba un y taenwyd efengyl Crist dros yr holl ddaear. Yn yr ystyr hyny, sylfaenodd Duw y Maen yn Sïon yn llythyrenol.

7 * I [c] chwi gan hynny, y rhai ydych yn credu, *y mae* yn urddas: † eithr i'r [d] anufuddion, [e] ‡ y maen a wrthododd yr adeiladwyr, ‖ hwnnw a wnaed [f] yn ben y gongl,

c pen. 1. 8. Can. 5. 9—16. Hag. 2. 7. Mat. 13. 44—46. Ioan 4. 42. a 6. 68, 69. Phil. 3. 7—10. d adn. 8. Act. 26. 19. Rhuf. 10. 21. a 15. 31. Tit. 3. 3. Heb. 4. 11. a 11. 31. e Salm 118. 22, 23. Mat. 21. 42. Marc 12. 10, 11. Luc 20. 17. Act. 4. 11, 12. f Zec. 4. 7. Col. 2. 10.

* Iddynt hwy gan hyny, y rhai oeddynt yn credu yn Nghrist fel y soniwyd uchod, yr oedd efe yn urddas, neu yn werthfawr yn ol y Saesoneg; yn Sylfaen eu holl obaith, eu Gogoniant penaf, a'u Trysor gwerthfawrocaf: oblegid yr oeddynt yn gweled y fath ragoroldeb ynddo, yn derbyn y fath gysur o hóno, ac felly yn ymddybynu mòr hollawl arno ef am iachawdwriaeth; fel yr oeddynt yn barod i ymadael â phob peth, hyd yn nôd einioes ei hun, yn hytrach na bod yn ôl, neu yn fŷr o ran ynddo ef. Neu, iddynt hwy yr oedd efe yn anrhydedd, mewn cyferbyniad i'r "gwaradwydd" a soniwyd o'r blaen. (adn. 6.) † Eithr i'r rhai anufudd i Dduw a Christ, ac i'w air ef; sef y llywodraethwyr Iuddewig, yr ysgrifenyddion, a'r offeiriaid, y rhai a gymmerent arnynt fod, ac a ddylasent fod, yn adeiladwyr eglwys Israel; ‡ yr oedd y Maen gwerthfawr hwn yn ddirmygus ac yn wrthodedig, trwy anghrediniaeth, rhagfarn, a balchder eu colonau hwynt: ac yn hyny yr oeddynt yn dangos cyflawniad dychrynllyd o brophwydoliaeth Dafydd, yn Salm 118. 22. ‖ Ond er eu gwrthodiad balch a chyndyn hwy o Grist, a'u gwrthwynebiad iddo; efe a wnaed wedi y cwbl yn Ben y gongl: yn gadernid a gogoniant ei holl dŷ ysbrydol. Gwel ar Matth. 21. 42; Act. 4. 11.

8 * Ac [g] yn faen tramgwydd, † ac yn graig rhwystr, ‡ *i'r rhai* sydd yn tramgwyddo wrth y gair, [h] ‖ gan fod yn anufudd; [i] § i'r hwn beth yr ordeiniwyd hwynt hefyd.

g Es. 8. 14. a 57. 14. Luc 2. 34. Rhuf. 9. 32, 33. 1 Cor. 1. 23. 2 Cor. 2. 16. h Gwel ar adn. 7. i Ex. 9. 16. Rhuf. 9. 22. 1 Thes. 5. 9. 2 Pedr 2. 3. Judas 4.

* Ac ar yr un pryd, yn ol prophwydoliaeth arall, (Esa. 8. 14.) efe a aeth fel maen yn gorwedd ar ffordd dynion, wrth yr hwn y tramgwyddant ac y syrthiant i'w briwio eu hunain; † ac fel craig rhwystr, yn erbyn yr hon y tarawant eu hunain yn ynfyd a bŷrbwyll, i'w dinystr hollawl: ‡ mae efe felly i'r rhai a dramgwyddant yn rhagfarnllyd wrth athrawiaeth yr efengyl, yr hon a'i gesyd ef allan fel yr unig sylfaen a osododd Duw, ac heblaw yr hon nis gellir gosod yr un, a atebo y dyben. (1 Cor. 3. 11.) ‖ Yr achos o'r tramgwyddo dinystriol hyn yw, eu bod hwy yn anufudd, yn gildynus, ac wedi ymroddi yn gyndyn a phenderfynol i anghrediniaeth a rhagfarn; § i'r hwn beth Duw, yn ei ben-arglwyddiaeth a'i farn gyfiawn, a ordeiniodd eu gadael hwynt,

o ran dewisiad rhydd eu calonau gwrthnysig eu hunain; ac am yr hyn beth, efe a ordeiniodd i'r Maen hwn syrthio arnynt, ac i'w gyfiawnder gael ei ogoneddu yn eu dinystr tragywyddol hwynt.—Sylwa *Doddrige*, mai gwneyd cam â'r ddwy adnod uchod yw eu darllen fel un frawddeg, neu ymadrodd paràus, fel y maent yn ein cyfieithiad ni: ac mai y gwirionedd yw, bod yr apostol yn rhedeg cyferbyniaeth deublyg rhwng credinwyr ac anghredinwyr; fel hyn:—"I chwi y rhai ydych yn credu, y mae efe yn urddas;" "eithr i'r anufuddion ac anghredinwyr, mae efe yn faen tramgwydd:"—"maent hwy yn tramgwyddo ac yn rhwystro;" "eithr chwi ydych rywogaeth etholedig," &c. (adn. 9.)

9 * Eithr chwychwi *ydych* [k] rywogaeth etholedig, [l] † brenhinol offeiriadaeth, [2] ‡ cenedl sanctaidd, [n] ‖ pobl briodol *i Dduw;* § fel y [o] mynegoch rinweddau [p] yr hwn a'ch galwodd allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef:

k pen. 1. 2. Deut. 10. 15. Salm 22. 30. a 33. 12. a 73. 15. Es. 41. 8. a 44. 1. l Ex. 19. 6. Es. 61. 6. a 66. 21. Dat. 1. 6. a 5. 10. a 20. 6. m Salm 106. 5. Es. 26. 2. Ioan 17. 19. 1 Cor. 3. 17. 2 Tim. 1. 9. n Deut. 4. 20. a 7. 6. a 14. 2. a 26. 18, 19. Tit. 2. 14. o pen. 4. 11. Es. 43. 21. a 60. 1—3. Mat. 5. 16. Eph. 1. 6. a 3. 21. Phil. 2. 15, 16. p Es. 9. 2. a 60. 1, 2. Mat. 4. 16. Luc 1. 79. Act. 26. 18. Rhuf. 9. 24. Eph. 5. 8—11. Phil. 3. 14. Col. 1. 13. 1 Thes. 5. 4—8.

* Rhywogaeth etholedig, neu genedlaeth ddewisedig, yn ol y Saesoneg: cyfeiriad sydd yn y geiriau at y dewisiad o Abraham a'i hiliogaeth. Ond yr oedd y cristionogion hyn yn rhywogaeth etholedig mewn ystyr uwch na hyny; fel yr oeddynt wedi eu bethol gan Dduw er tragywyddoldeb, eu galw yn effeithiol trwy ras, a'u geni o Dduw, o'r Ysbryd, ac o had anllygredig trwy air y gwirionedd. † Yr oedd ganddynt hwy yr eneinniad oddi wrth y Sanctaidd hwnw; ac felly yr oeddynt yn freninol offeiriadaeth, neu yn freninoedd ac yn offeiriaid i Dduw; (Dat. 1. 6.) yr hyn oedd yn cyfeirio at gyfammod y freniniaeth â Dafydd, a chyfammod yr offeiriadaeth âg Aaron. *Breninoedd*, i ddangos eu gallu gyda Duw, (Hos. 12. 3, 4.) eu buddugoliaeth ar bechod, Satan, a'r byd; eu llywodraeth ar eu hysbrydoedd eu hunain, ac eu bod yn etifeddion teyrnas nefoedd. *Offeiriaid*, i ddangos eu neilldiad oddi wrth eraill o'r byd, eu cyssegriad i Dduw, a'u gwasanaeth, yn offrymu aberthau ysbrydol, cymmeradwy gan Dduw trwy Iesu Grist. ‡ Yr oeddynt hwy hefyd yn gymdeithas sanctaidd o ddynion, wedi eu cyssylltu yn un corph ysbrydol, fel cenedl wedi ei chasglu yn nghyd, dàn Grist eu Harglwydd a'u Brenin; wedi eu sancteiddio drwy ei Ysbryd ef, yn cael eu llywodraethu gan ei gyfreithiau ef, a chwedi cyd-ymosod ar yr un gwaith ac achos cyffredin, sef ei waith a'i achos ef. ‖ Ac yr oeddynt yn bobl briodol i Dduw, trwy etholiad, cyfammod, a phrynedigaeth; yn gyffelyb, ond mewn ystyr uwch a mwy ysbrydol, fel y dywedwyd am Israel gynt yn nodiad y ddeddf, a'r cyfammod a wnaeth Duw â hwynt y pryd hwnw. Exod. 19. 5, 6. § Y dyben o hyn oll oedd, fel y mynegent hwy ogoniant, rhinweddau, a pherffeithiau Duw; ei anfeidrol allu, ei ddoethineb, ei sancteiddrwydd, ei gyfiawnder, ei ddaioni, ei drugaredd, a'i wirionedd ef; yr hwn a'u galwodd hwy trwy ei ras, ac a'u gwaredodd o dywyllwch annwybodaeth, pechod, a chyfeiliornadau; ac a'u dygodd hwynt i'w ryfeddol oleuni o wirionedd a gras, sancteiddrwydd a dedwyddwch, yr hwn y parodd efe iddo lewyrchu yn eu calonau hwynt. 2 Cor. 4. 6.

10 * Y rhai gynt [q] nid *oeddych* bobl, † ond yn awr *ydych* bobl i Dduw; ‡ y rhai ni [r] chawsech drugaredd, ‖ ond yr awrhon a gawsoch drugaredd.

q Hos. 1. 9, 10. Rhuf. 9. 25, 26. r Hos. 2. 23. Rhuf. 11. 6, 7, 30. 1 Cor. 7. 25. 1 Tim. 1. 13. Heb. 4. 16.

* Y rhai am oesoedd yn ol, a ddïarddelwyd gan Dduw, ac a ysgarwyd megys oddi wrth ei gyfammod gweledig ef; (Hos. 1. 6, 9.) † ond yn awr trwy ras yr efengyl, yn Iesu Grist, cawsant eu dwyn i'r berthynas ddedwydd a pharàus o bobl gyfammodol iddo ef: ‡ y rhai trwy yr holl oesoedd a aethent heibio, a gawsent eu cauad allan oddi wrth effeithiau gwahaniaethawl ei drugaredd neilldiol ef; ‖ ond yn awr a gawsant drugaredd ganddo, er adnewyddiad natur, maddeuant pechodau, a chyfiawnâd bywyd, yn ol prophwydoliaeth Hosea 2. 23. A gallesid dywedyd hyn oll mewn ystyr uwch, am y cenedloedd hyny yn eu plith hwynt, y rhai y pryd hwnw a ddychwelasid i ffydd Crist, ac felly a wnaed yn had ysbrydol Abraham, yn bobl i Dduw, ac a gawsent drugaredd. A thybir fod yr apostol yn meddwl Iuddewon a chenedloedd, am fod y geiriau hyn a ddyfynir ganddo yn brophwydoliaeth amlwg am bob un o'r ddau. Gwel ar Rhuf. 9. 24, 25, &c.

11 * Anwylyd, [s] yr wyf yn attolwg *i chwi,* [t] megis dïeithriaid a phererinion, [u] † ymgedwch oddi wrth chwantau cnawdol, ‡ y rhai sydd yn [x] rhyfela yn erbyn yr enaid;

s Rhuf. 12. 1. 2 Cor. 5. 20. a 6. 1. Eph. 4. 1. Philemon 9, 10. t pen. 1. 1, 17. Gen. 23. 4. a 47. 9. Lef. 25. 23. 1 Cron. 29. 15. Salm 39. 12. a 119. 19, 54. Heb. 11. 13. u pen. 4. 2. Luc 21. 34. Act. 15. 20, 29. Rhuf. 8. 13. a 13. 13, 14. 2 Cor. 7. 1. Gal. 5. 16, 19—21. 2 Tim. 2. 22. 1 Ioan 2. 15—17. x Rhuf. 7. 23. Gal. 5. 17, 24. 1 Tim. 6. 9, 10. Iago 4. 1.

* O herwydd y drugaredd, a'r rhagor-freintiau mawrion uchod, attolygai yr apostol yn daer ar ei anwyl frodyr, i ystyried eu hunain fel dïeithriaid a phererinion, y rhai oedd ar eu taith trwy wlad bell ac estronol i'w hetifeddiaeth nefol. Nid dïeithriaid yn unig yn y gwledydd He yr oeddynt, am eu bod allan o wlad Canaan; ond dïeithriaid a phererinion yn y byd oll: am hyny nid yr un peth sydd i'w ddeall wrth y gair "dïeithriaid" yn y fàn hon, âg yn pen. 1. 1; gwel ar yr adnod hòno. † Ac "megis dïeithriaid a phererinion," attolygai yr apostol am iddynt ymgadw ac ymattal yn ofalus iawn oddi wrth "chwantau cnawdol;" a pheidio caniatâu iddynt eu hunain flysio am unrhyw fwyniant cnawdol anghyfreithlawn, anaddas, neu anghymmedrol: a llawer llai coledd y pethau hyny, eu cyfreithloni, a byw ynddynt. Yn hytrach dylent ymgadw yn mhell oddi wrth bob cnawdolrwydd, a ffrwyno ac attal eu holl chwantau, a'u harfer hwynt i ddarostyngiad; yn gystal â gochelyd pob chwantau cnawdol eraill am bethau gwaharddedig, neu unrhyw wrthddrych daearol anghyfreithlawn. ‡ Oblegid yr oedd y fath chwantau cnawdol yn "rhyfela yn erbyn yr enaid," er dinystr i luoedd dirfawr o ddynion: ïe, yr oeddynt yn rhyfela yn erbyn eneidiau cristionogion; a thrwy eu gwrthryfel a'u hymryson yn erbyn yr ysbryd, neu y dyn newydd, yn nghyd â'u llwyddiant buddugol ar amserau yn serchiadau ac ymddygiad y saint, yr oeddynt yn aml yn eu harcholli, yn eu gwànâu, ac yn eu mawr niweidio yn eu heneidiau.—Mae cybydd-dod, balchder, cenfigen, a nwydau uchelfryd ac adwythig eraill, yn rhyfela mòr gryf yn erbyn iachawdwriaeth eneidiau dynion, ac yn gwrthwynebu cymmaint ar gynnydd y credadyn mewn gras, ag sydd bosibl i chwantau cnawdol allu gwneyd; maent yn "rhyfela yn erbyn yr enaid;" ac a gyfrifir gan Paul yn mhlith gweithredoedd y cnawd. (Galat. 5. 19—21.) Gan hyny nis gellir deall geiriau Petr yma am chwantau corphorol yn unig, fel yn rhyfela yn erbyn galluoedd rhesymol yr enaid; mae yr holl "ddyn anianol" yn llygredig, mae eisteddfa pechod yn yr enaid, ac nid yw y corph ond *arf*, neu *offeryn* anghyfiawnder yn unig. Ac yn y dyn adgenedledig, nid rhwng y corph a'r enaid mae yr ymladdfa; ond rhwng y dyn newydd a'r hen, y rhai a elwir y "cnawd a'r ysbryd." "Rhyfela yn erbyn yr enaid" a arwydda duedd ddinystriol y "chwantau cnawdol;" y rhai o'u coledd mewn unrhyw fodd, ydynt elynol i'r enaid, ac yn rhyfela yn erbyn ei iachawdwriaeth, neu ei heddwch, ei burdeb, a'i rym.

12 [y] * Gan fod â'ch ymarweddiad [z] yn onest [a] ym mysg y cenhedloedd: [b] † fel lle y

aaent yn eich goganu megis drwg-weithred-
yr, [c] ‡ y gallont, o herwydd *eich* gweithred-
edd da a welant, [d] || ogoneddu Duw yn [e] nydd
r ymweliad.

y pen. 3. 2. Salm 37. 14. a 50. 23. 2 Cor. 1. 12. Eph. 2. 3. a
2 22. Phil. 1. 27. 1 Tim. 4. 12. Heb. 13. 5. Iago 3. 13. 2 Pedr 3.
. z Rhuf. 12. 17. a 13. 12. 2 Cor. 8. 21. a 13. 7. Phil. 4. 8. 1 Thes.
1 12. 1 Tim. 2.2. Heb. 13. 18. a Gen. 13. 7, 8. Phil. 2. 15, 16.
pen. 3. 1,16. a 4. 14—16. Mat. 5. 11. a 10. 25. Luc 6. 22. Act. 24.
6 6, 13. a 25. 7. c Mat. 5. 16. Tit. 2. 7, 8. d pen. 4. 11. Salm
0. 23. Rhuf. 15. 9. 1 Cor. 14. 25. e Luc 1. 68. a 19. 44. Act. 15. 14.

* Yr oedd yn ddyledus hefyd ar y cristionogion hyn
gynnal ymarweddiad gonest, anrhydeddus, ac addas
r efengyl yn mhob peth, yn mysg y cenedloedd; sef
u cymmydogion cenedlig a phaganaidd yr oeddynt yn
yw yn eu plith: † fel, lle yr oeddynt o elyniaeth yn
rbyn Duw a gwir grefydd, ac mewn annwybodaeth a
hagfarn, yn cael eu tueddu i lunio a thaenu chwedlau
mllibaidd a goganus am danynt hwy, fel drwg-weith-
edwyr, a dynion yn euog o'r drygau mwyaf niweidiol
n erbyn cymdeithas a gwladwriaeth, am na chyd-
rmunent â hwy yn y grefydd sefydledig o eilun-
ddoliaeth; ‡ y gallai cristionogion ddystewi eu gwa-
adwyddiadau hwynt, a lleddfu eu rhagfarn, trwy eu
aamlwg a'u lliosog weithredoedd da a welent gan-
dynt. || Fel hyn, byddai eu hymarweddiad da hwynt
rn ngwydd eu gelynion, yn cyd-weithredu â phregeth-
ad yr efengyl, i ddwyn yn mlaen dröedigaeth y cen-
edloedd paganaidd; ac yn nydd yr ymweliad, pan
welai Duw yn dda eu galw hwythau hefyd trwy ei ras,
ogoneddu ei enw, hwy a ddeuent i addef bucheddau
sanctaidd y cristionogion hyn, fel y moddion o'r cyf-
newidiad dedwydd hwnw; ac a ogoneddent Dduw am y
cyfnewidiad, a'r moddion offerynol o hóno. *A welunt*
epopteusantes yw y gair Groeg, ac yn arwyddo *sylw craff*
a manol, ar y gwrthddrych yr edrychir arno. Felly
nefyd yn pen. 3. 2; 2 Petr 1. 16. Fel hyn mae dynion
cnawdol y byd yn sylwi yn fanol ar, ac yn craff-chwilio
i ymddygiadau pobl grefyddol; ac oddi wrth yr ymddyg-
iadau hyny a welant, y maent yn ffurfio eu barn am
grefydd ei hun: am hyny gwyliwn ar ein llwybrau a'n
gweithredoedd.

13 [f] * Ymddarostyngwch oblegid hyn i bob
ddynol ordinhad, † ò herwydd yr Arglwydd:
‡ pa un bynnag ai i'r brenhin, || megis gor-
uchaf;

f Diar. 17. 11. a 24. 21. Jer. 29. 7. Mat. 22. 21. Marc 12. 17.
Luc 20. 25. Rhuf. 13. 1—7. Eph. 5. 21. 1 Tim. 2. 1, 2. Tit. 3. 1.
2 Pedr 2. 10. Judas 8—10.

* Er dystewi gogan y cenedloedd, ac i'w dwyn hwy
i ogoneddu Duw wrth weled ymarweddiad gonest y
cristionogion: ac fel un peth yn yr ymarweddiad gonest
hwnw, mae yr apostol yn eu cyngori hwy "oblegid
hyny," i ymddarostwng i bob dynol ordinâd: sef i bob
ffurf o lywodraeth wladol yr oeddynt dàni. Ordeiniodd
Duw lywodraeth wladol, fel ei osodiad ef, er heddwch
ac iawn drefn cymdeithas; ond gadawodd y ffurf
meilduol o lywodraeth, i'w threfnu gan ddoethineb
ddynion, dàn gyfarwyddyd rhagluniaeth. Felly dyled-
swydd cristionogion yw ymostwng i'r llywodraeth hòno,
pa fath bynag a fyddo, a sefydlwyd yn y gwahanol
wledydd lle maent hwy yn byw; heb gynnyg unrhyw
gyfnewidiad, oddigerth mewn modd heddychol a chyf-
reithlawn, yn ol eu graddau a'u sefyllfâoedd yn y wlad-
wriaeth. † Yr oedd yr Iuddewon gynt dàn ddwyfol
llywodraeth; *(Theocracy)* Duw oedd eu Brenin; (Esa.
33. 22.) am hyny yr oedd yn anodd ganddynt ymostwng
byth i lywodraethwyr paganaidd o'r cenedloedd: ond
yma mae yr apostol yn eu cyngori i ymostwng "o her-
wydd yr Arglwydd," neu er mwyn yr Arglwydd, yn ol y
Saesoneg. Yr Arglwydd a ordeiniodd lywodraeth
wladol, a orchymynodd ufudd-dod i lywodraethwyr
gwladol; ac mae yn ogoniant i'r Arglwydd, bod crist-
ionogion yn ymostwng i bob dynol ordinâd, yn ol ei
orchymyn a'i ewyllys ef. Efallai bod y geirian "o
herwydd yr Arglwydd" hefyd yn cyfeirio at yr hyn a
ddywedodd yr Arglwydd Iesu am roddi yr eiddo Cesar
i Cesar. (Matth. 22. 21.) ‡ Ysgrifenodd yr apostol
pan oedd Nero yn *Ymherawdr* Rhufain, ond mae efe yn
defnyddio yr enw cyffredinol o *frenin;* am ei fod yn
bwriadu ei epistol i'r oesoedd i ddyfod, ac i bob gwlad.
|| Y gorthrymwr creulawn hwn, yr hwn a roed i farwol-
aeth yn y diwedd fel gelyn dynolryw, ond nid hyd oni
laddodd efe luoedd o gristionogion drwy ei erlidiau
ofnadwy, ac yn eu plith Petr ei hun, a Paul, fel y tybir,
ydoedd "oruchaf" y pryd hwnw; i'r hwn yr oedd yn
rhaid i gristionogion ymostwng! canys efe oedd lywod-
raethwr y gwledydd a enwyd yn pen. 1. 1.

14 * Ai i'r llywiawdwyr, megis trwyddo ef
wedi eu danfon, [g] † er dial ar y drwg-weith-
redwyr, a mawl i'r gweithredwyr da.

g Rhuf. 13. 3, 4.

*Rhaid iddynt ymddarostwng hefyd i'r llywiawdwyr,
ac îs-swyddwyr eraill, y rhai oedd wedi eu gosod ar y
taleithiau gan Nero a'r Senedd Rufeinig. † Dyben
llywodraeth wladol oedd, dial ar, neu gospi y drwg-
weithredwyr, y rhai oedd yn troseddu cyfreithiau y
llywodraeth, yn drygu eraill yn eu meddiannau, eu
personau, a'u bywydau, ac yn aflonyddu heddwch
cyffredin y wladwriaeth: ‡ a'u dyben hefyd oedd, am-
ddiffyn, cefnogi, pleidio, a gwobrwyo, y rhai oedd yn
ymddwyn fel deiliaid ffyddlawn; ac oedd yn drefnus, yn
sobr, yn onest, ac yn ddaionus a defnyddiol yn eu gwa-
hanol sefyllfâoedd. Ac yn gyffredin, hyd yn nôd y pryd
hwnw, yr oedd gweinyddiad y cyfreithiau o les dirfawr,
mewn cymhariaeth i aflywodraeth gwyllt, terfysglyd,
diddeddf, a dirëol; er bod dybenion y llywodraeth yn
ddiammau, lawer gwaith, yn cael eu cam-ddefnyddio,
eu hesgeuluso, a'u gwrthweithredu; am yr hyn byddai
y llywiawdwyr yn atebol i Farnwr y byd yn y dydd
diweddaf.

15 [h] * Canys felly y mae ewyllys Duw,
[i] fod i chwi trwy wneuthur daioni † ostegu
[k] anwybodaeth [l] dynion ffolion:

h pen. 4. 2. Eph. 6. 6, 7. 1 Thes. 4. 3. a 5. 18. i Gwel ar
adn. 12.—Job 5. 16. Salm 107. 42. k 1 Tim. 1. 3. 2 Pedr 2. 12.
Judas 10. l Deut. 32. 6. Job 2. 10. Salm 5. 5. Diar. 9. 6. Jer.
4. 22. Mat. 7. 26. a 25. 2. Rhuf. 1. 21. Gal. 3. 1. Tit. 3. 3.

* Yn y dull uchod yr oedd dyledswyddau breninoedd
a llywiawdwyr yn cael eu dangos iddynt hwythau hefyd.
Ond am gristionogion, ewyllys bennodol Duw ydoedd,
bod iddynt hwy trwy wneuthur daioni, mewn pob duw-
ioldeb a gonestrwydd, fel deiliaid ufudd a heddychlawn,
er maint y gorthrymderau a ddyoddefent, † ostegu en-
llibiau a goganau annwybodus dynion ffolion a drwg, y
rhai a'u gwaradwyddent hwy yn gelwyddog, fel rhai
terfysglyd a gelynol i'r llywodraeth, am eu bod yn
addoli yr un gwir a bywiol Dduw yn unig, ac yn gwrth-
od uno â hwy mewn eilun-addoliaeth.

16 * Megis [m] yn rhyddion, [n] † ac nid â
rhyddid gennych megis [o] cochl malais, [p] ‡ eithr
fel gwasanaethwyr Duw.

m Ioan 8. 32—36. Rhuf. 6. 18, 22. 1 Cor. 7. 22. Gal. 5. 1, 13.
Iago 1. 25. a 2. 12. 2 Pedr 2. 19. n Judas 4. o Mat. 23. 14.
Ioan 15. 22. 1 Thes. 2. 5. p Eph. 6. 6. Col. 3. 24.

* Dylai y cristionogion hyn mae yn wir, ystyried eu
hunain "megys yn rhyddion" oddi wrth y ddeddf sere-
monïol, oddi wrth gondemniad y ddeddf foesol, oddi
wrth iau a chaethiwed Satan a phechod, ac oddi wrth
bob gosodiadau a deddfau dynol, gyda golwg ar bethau
crefydd ac addoliad Duw; † ac eto ni ddylent mewn un
modd ddefnyddio eu rhyddid megys "cochl malais," i
lènu dros unrhyw ddybenion gau a hunanol; neu i
ymesgusodi dros eu gwaith yn dial ar y rhai a wnaeth-
ant niwed iddynt: ‡ eithr yn mhob peth ymddwyn a
gweithredu fel gwasanaethwyr Duw, mewn gwir ufudd-
dod ewyllysgar i'w orchymynion ef; yr hyn oedd y
rhyddid mwyaf perffaith a allent ei fwynâu.

17 * Perchwch bawb. [q] † Cerwch y brawd-

eliaeth. [r] ‡ Ofnwch Dduw. [s] ‖ Anrhydeddwch y brenhin.

q Gwel ar pen. 1. 22. Heb. 13. 1.—Zec. 11. 14. r Gwel ar Gen. 20. 11. a 22. 12. a 42. 18.—Salm 111. 10. Diar. 1. 7. a 23. 17. a 24. 21. Preg. 8. 2. 2 Cor. 7. 1. Eph. 5. 21. s 1 Sam. 15. 30. 1 Cron. 29. 20.

* Gan hyny mewn ufudd-dod i Dduw, ac er ei ogoniant ef, bydded iddynt barchu ac anrhydeddu pob dyn; pawb yn ol eu gradd, eu sefyllfa, a'u hawdurdod, mewn cymdeithas wladol neu eglwysig; ac na fydded iddynt betruso am, nac attal yr arwyddion arferedig, o ymddarostyngiad a pharch, mewn pob peth cyfreithlawn. † Bydded iddynt ar yr un pryd, gadw eu cariad neillduol at y brawdoliaeth, neu eu cyd-gristionogion, eu cyd-frodyr, a'u cyd-aelodau yn Nghrist: dylent barchu pawb, ond *caru* teulu y ffydd. ‡ Dylent wneyd pob peth yn ofn mabaidd, gwylaidd, crefyddol, a pharchus Duw; gan ofni ei ddigio ef, fel gwir addolwyr iddo; a gwneyd pob peth gyda chydwybod ddirwystr tuag at Dduw a dynion. ‖ Ar yr egwyddor hon, a chan belled ag y byddai yn gyson â hi, dylent ymddwyn fel deiliaid ffyddlawn i'r brenin; gan dalu pob anrhydedd dyledus i'w berson a'i lywodraeth ef fel llywiawdwr, yr hwn a osododd Duw yn ei ragluniaeth i lywodraethu arnynt mewn pethau gwladol.—Mae bron yn anmhosibl bod gwaeth prif Lywodraethwr ar ddynion, nâ'r hwn oedd yn llywio ymherodraeth ddirfawr Rhufain, pan ysgrifenwyd hyn trwy ysbrydoliaeth Duw. (Gwel ar adn. 13. nôd ‖.) Efallai na welwyd harddach a chryfach enghraifft o'r dull byr-eiriog *(laconic style)* o lefaru erioed, nag sydd yn yr adnod gynnwysfawr hon.

18 * *Y* gweision, [t] *byddwch* ddarostyngedig gyd â phob ofn i'*ch* meistriaid; nid yn unig i'r [u] *rhai* da a chyweithas, [x] ‡ eithr i'r *rhai* anghyweithas hefyd.

t Eph. 6. 5—7. Col. 3. 22—25. 1 Tim. 6. 1—3. Tit. 2. 9, 10. u 2 Cor. 10. 1. Gal. 5. 22. Tit. 3. 2. Iago 3. 17. x Salm 101. 4. Diar. 3. 32. a 8. 13. a 10. 32. a 11. 20.

* Mae Petr yma yn cyngori gweision i fod yn ddarostyngedig i'w meistriaid, hyd yn nôd mewn geiriau cryfach na'i anwyl frawd Paul. Caeth-weision yn gyffredin oeddynt, a llawer o honynt dàn feistriaid paganaidd, y rhai a'u trinient yn dra chreulawn. Mae y gair *oiketai* yn arwyddo gweision *teuluaidd, (domestics,)* y rhai am eu bod yn fwy gwastadol dàn sylw eu meistriaid, na'r caethion a fyddai yn trin y tir allan, a dybir eu bod yn dyoddef mwy oddi wrth eu nwydau cynddeiriog hwy. Eto mae yr apostol yn eu cyngori hwynt i ymddarostwng gyda phob *ofn* iddynt; gyda phob parch cyfrifol iddynt, fel wedi eu gosod yn nhrefn rhagluniaeth arnynt hwy, a chydag ofn digio a dianrhydeddu Duw trwy anufudd-dod iddynt. † Dylent ymddwyn fel hyn, nid yn unig i'r meistriaid da a chyweithas, neu dirion, y rhai a ymfoddlonent ar ammodau rhesymol, ac oeddynt yn fwynion pan y digid hwynt; ‡ ond i'r rhai anghyweithas hefyd, y rhai trawsion, a drwgannwydus heb achos, ac a fyddent greulawn a llymdost pan yr anfoddlonid hwynt: yn enwedig os byddent felly am fod y gweision yn gristionogion.

19 * Canys [y] hyn *sydd* rasol, † os yw neb [z] o herwydd cydwybod i Dduw ‡ yn dwyn tristwch, [a] ‖ gan ddioddef ar gam.

y adn. 20. Luc 6. 32. z pen. 3. 14—17. Mat. 5. 10—12. Ioan 15. 21. Rhuf. 13. 5. 2 Tim. 1. 12. a Job 21. 27. Salm 35. 19. a 38. 19. a 69. 4. a 119. 86.

* Canys byddai hyny yn *rasol*, yn effaith a phrawf o ras, yn dangos ysbryd ac ymddygiad grasol, yn gymmeradwy gan Dduw, ac yn haeddu canmoliaeth dynion; † os byddai neb, o herwydd parch cydwybodol i awdurdod ac ewyllys Duw, ‡ yn dwyn tristwch a gofid corph a meddwl, yn addfwyn ac amyneddgar, ‖ trwy ddyoddef triniaeth galed, greulawn, a niweidiol, a hyny ar gam, heb un achos cyfiawn, na bai ynddynt hwy.

20 * Oblegid [b] pa glod *yw*, os, pan bechoch, [c] a chael eich cernodio, y byddwch dda eich amynedd? † eithr os, [d] a chwi yn gwneuthur yn dda, ac yn dioddef, y byddwch dda eich amynedd; [e] ‡ hyn *sydd* rasol ger bron Duw.

b pen. 3. 14. a 4. 14—16. Mat. 5. 47. c Mat. 26. 67. Marc 14. 65. 1 Cor. 4. 11. d Gwel ar adn. 19. e Rhuf. 12. 1, 2. Eph. 5. 10. Phil. 4. 18.

* Oblegid yn wir pa glod, neu enwogrwydd anrhydeddus a allai fod, os byddai cristionogion yn dda eu hamynedd pan gaffent eu curo, neu eu ffrewyllu am eu bai? oblegid yr oedd llawer o'r caethion paganaidd a ddyoddefent yn dawel mewn amgylchiad felly. † Eithr os ymddygent hwy yn dda, a chael eu cernodio gan eu meistriaid *paganaidd* beilchion a nwyd-wyllt; ac eto dyoddef hyny, heb rwgnachrwydd anfoddog na bwriadu dial, ond parau o hyd mewn ymgais addfwyn i gyflawni eu dyledswydd; ‡ hyn yn wir a fyddai yn gymmeradwy gan Dduw, ac a wobrwyid ganddo ef, fel effaith nodedig ei ras ef.—Dywedai un o'r doethion paganaidd, mai *peth gwir ardderchog oedd gwneuthur da, a chael gwaradwydd am hyny.*

21 * Canys [f] i hyn y'ch galwyd hefyd: [g] † oblegid Crist yntau a ddioddefodd drosom ni, [h] ‡ gan adael i ni esampl, fel y canlynech ei ôl ef:

f Mat. 10. 38. a 16. 24. Marc 8. 34, 35. Luc 9. 23—25. a 14. 26, 27. Ioan 16. 33. Act. 9. 16. 1 Thes. 3. 3. 2 Tim. 3. 12. g adn. 24. pen. 3. 18. a 4. 1. Luc 24. 26. Act. 17. 3. Heb. 2. 10. h Salm 85. 13. Ioan 13. 15. Rhuf. 8. 29. 1 Cor. 11. 1. Eph. 5. 2. Phil. 2. 5. 1 Ioan 2. 6.

* Canys i hyn yn neillduol y galwodd Duw ei bobl; i wneuthur da i bawb, ac i ddyoddef triniaeth ddrwg gan lawer; ac eto i fyned yn mlaen yn fywiog mewn gwneuthur daioni, yn nghanol anniolchgarwch, gwaradwydd, a niweidiau, heb gael eu blino allan drwy un math na mesur o niweidiau a wnelid iddynt. † Oblegid Crist yntau, pan ddyoddefodd efe drostynt hwy y gwaradwyddiadau a'r poenau mwyaf, yn ei fawr gariad atynt, ac o'i wirfodd dros eu pechodau, ‡ a adawodd iddynt yn hyn fel yn mhob peth arall, esampl, fel y canlynent ei ol ef: fel trwy ystyried yr un Gwrthddrych, yn yr hwn y gobeithient am faddeuant a chyfiawnder, y gallent ddysgu pa fodd i ymddwyn yn yr amgylchiadau mwyaf profedigaethus.

22 * Yr hwn [i] ni wnaeth bechod, [k] † ac ni chaed twyll yn ei enau:

i Es. 53. 9. Mat. 27. 4, 19, 23, 24. Luc 23. 41, 47. Ioan 8. 46. 2 Cor. 5. 21. Heb. 4. 15. a 7. 26, 27. a 9. 28. 1 Ioan 2. 1. a 3. 5. k Ioan 1. 47. Dat. 14. 5.

Gwedi i'r apostol gyfhwrdd âg enw Crist yn yr adnod o'r blaen, nis gall ei adael yn hawdd; ond mae yn gwneyd sylwadau ardderchog a melys am dano drwy amryw adnodau hyd ddiwedd y bennod, ac yna mae yn dychwelyd, i ddilyn ar ei gyngorion yn y bennod nesaf. * Yr hwn, sef Crist, er holl gyhuddiadau gau a llidiog ei elynion, ac er pob temtasiynau a ymosododd arno oddi wrth ddynion a diafol, ni bu erioed yn euog o'r bai na'r pechod lleiaf o un math, mewn un weithred, gair, na meddwl trwy ystod ei holl oes; ond a ydoedd yn berffaith sanctaidd, diddrwg, dihalog, a didoledig oddi wrth bechaduriaid, ac yn wastad yn cerdded oddi amgylch gan wneuthur daioni. † Ac ni chafodd neb erioed ddim twyll, ffuantrwydd, rhagrith, nac unrhyw ffalsder yn ei enau ef, mewn ymddiddanion nac athrawiaeth; ac nis gallodd neb o'r gwaethaf o'i elynion, erioed brofi dim o'r cyfryw yn ei erbyn ef. Eithr yn yr ystyr eithaf a mwyaf goruchel, (yn gyfatebol i Lefi y cysgod o hóno,) "cyfraith gwirionedd oedd yn ei enau ef, ac anwiredd ni chafwyd yn ei wefusau." (Mal. 2. 6.)

23 * Yr hwn, [l] pan ddifenwyd, † ni ddifenwodd drachefn; ‡ pan ddioddefodd, [m] ‖ ni fygythiodd; [n] § eithr rhoddodd ar y neb sydd yn [o] barnu yn gyfiawn:

l Salm 38. 12—14. Es. 53. 7. Mat. 27. 39—44. Marc 14. 60, . a 15. 29—32. Luc 22. 64, 65. a 23. 9, 34—39. Ioan 19. 9—11. t. 8. 32—35. Heb. 12. 3. m Act. 4. 29. a 9. 1. Eph. 6. 9. pen. 4. 19. Salm 10. 14. a 31. 5. a 37. 5. Luc 23. 46. Act. 7. 59. Tim. 1. 12. o Gen. 18. 25. Salm 7. 11. a 96. 13. Act. 17. 31. nuf. 2. 5. 2 Thes. 1. 5. 2 Tim. 4. 8. Dat. 19. 11.

Ac eto, er mòr berffaith, diniwed, a sanctaidd ydoedd ie, ni ddiangodd rhag difenwadau a phoenau, fesur awer mwy na neb arall: * ond pan ddifenwyd ef, a'i oblu fel pe buasai yn euog o'r drygau a'r pechodau wwyaf ysgeler; † ni ddifenwodd efe drachefn, er bod ei ynion yn haeddu yn gyfiawnaf iddo wneyd hyny. Ac hyd yn nôd pan ddyoddefodd efe bob math o anharch, anfri, a phoenau, hyd oni orphenasant yn ei agau ar y groes; ‖ ni wnaeth efe gymmaint â bygwth groeshoelwyr a'i elynion creulawn, er fod pob gallu awdurdod yn ei law ef, i dywallt dïal a dinystr nynt oll. § Ond i'r gwrthwyneb, efe a weddïodd drosnt, gan ddywedyd, "O Dad maddeu iddynt, canys ni wddant beth maent yn ei wneuthur;" ac fel hyn efe a'i oddodd ei hun i'r hwn oedd yn barnu yn gyfiawn, ac ï gadawodd ef i gyfiawnâu ei gymmeriad ef, i ddadleu achos, ac i gospi ei elynion anedifeiriol. *A'i rhoddïd:* a roddodd ei *achos,* ydyw ar ymyl y ddalen mewn ani argraffiadau: mae pob un yn iawn; efe a'i rhoddïd ei *hun* a'i *achos.*

24 * Yr hwn [p] ei hun a ddug ein pechodau i yn ei gorph ar [q] y pren; † fel, [r] gwedi ein aarw i bechodau, ‡ y byddem [s] byw i gyfiawnder: [t] ‖ trwy gleisiau yr hwn yr [u] iachâwyd nwi.

p Ex. 28. 38. Lef. 16. 22. a 22. 9. Num. 18. 22. Salm 38. 4. s. 53. 4—6, 11. Mat. 8. 17. Ioan 1. 29. Heb. 9. 28. q Deut. . 22, 23. Act. 5. 30. a 10. 39. a 13. 29. Gal. 3. 13. r pen. 4. 1, Rhuf. 6. 2, 7, 11.—a 7. 6. Col. 2. 20. a 3. 3.—2 Cor. 6. 17. eb. 7. 26. s Mat. 5. 20. Luc 1. 74, 75. Act. 10. 35. Rhuf. 6. 5, 22. Eph. 5. 9. Phil. 1. 11. 1 Ioan 2. 29. a 3. 7. t Es. 53. 5. Mat. 27. 26. Marc 15. 15. Ioan 19. 1. u Salm 147. 3. Mal. 4. Luc 4. 18. Dat. 22. 2.

* Yr oedd rhwymau arbenig ar y cristionogion i styried a chanlyn yr esampl uchod o ddyoddefgarwch aewn erlidiau; oblegid yr oedd Crist pan yn dyoddef l hyn, yn gweithredu fel eu Machniydd sanctaidd a wyfol hwynt; a chan dosturio wrth eu trueni hwynt, an oeddynt yn haeddu digofaint Duw ac yn agored ddo, efe o'i wirfodd ei hun a ddygodd euogrwydd a nospedigaeth eu pechodau hwynt yn ei gorph, sef arno ï hun, ar y pren, neu y groes: † fel trwy ei ras ef, ac fferynoldeb ac annogaethau ei efengyl, y byddent hwy eirw i bechodau, ac yn rhyddion oddi wrthynt yn eu euogrwydd, eu harglwyddiaeth, a'u halogrwydd; ‡ ac bly byw i gyfiawnder mewn egwyddor ac ymarferiad, bl ufudd a sanctaidd weision Duw. ‖ Fel hyn trwy ei gleisiau gwaradwyddus ef, y rhai a ddyoddefodd efe yn wyllysgar drostynt; a thrwy yr archollion hyny a safodd ac a gymmerodd efe er eu mwyn; yr iachêid oll lesgedd ac anhwylderau eu heneidiau hwynt; y hai oeddynt lawer yn waeth nâ'r nodau cleisiawl oedd ir eu cyrph hwynt, drwy y ffrewylliadau creulawn a awsent gan eu herlidwyr, yn y rhai yr oeddynt wedi eu yd-ffurfio â'u Harglwydd mawr. Yr oedd yr ystyriaeth gleisiau ac archollion Iesu, yn addas ryfeddol i gymnodi y caethion truain (gwel ar adn. 18—20.) â'u oelbren, tra yr oeddynt yn dyoddef dàn driniaethau reulawn eu meistriaid annhrugarog; pan oedd eu waredwr mawr, yr Iesu sanctaidd, Arglwydd y goroniant, wedi dyoddef fel hyn er eu hiachawdwriaeth wy.

25 * Canys [x] yr oeddych megis defaid yn myned ar gyfeiliorn; † eithr yn awr chwi a ddychwelwyd ‡ at [y] Fugail ‖ ac [z] Esgob eich neidiau.

x Salm 119. 176. Es. 53. 6. Jer. 23. 2. Ezec. 34. 6. Mat. 9. 36. 18. 12. Luc 15. 4—6. y pen. 5. 4 Salm 23. 1—3. a 80. 1. Can. 1. 7, 8. Es. 40. 11. Ezec. 34. 11—16, 23, 24. a 37. 24. Zec. 13. 7. Ioan 10. 11, 14, 16. Heb. 13. 20. z Heb. 3. 1.—Act. 20. 28.

* Er llefaru y pethau uchod wrth gaeth-weision yn benaf, eto yr oeddynt yn perthyn i bawb cristionogion: oblegid yr oedd pawb yn ddiwahaniaeth, wedi myned megys defaid ar gyfeiliorn; ac o'u rhan eu hunain yn rhwym o syrthio yn ysglyfaeth i'r llew rhuadwy, yr hwn oedd yn ceisio llyncu eu heneidiau i ddystryw. Yr oeddynt wedi myned ar gyfeiliorn oddi wrth Dduw, ei gorlan, ei ordinâdau, a'i orchymynion; ac yn rhedeg oddi wrth ffyrdd y gwirionedd, cyfiawnder, a heddwch, i bob llwybr pechadurus a pheryglus, ag oedd yn arwain i ddystryw. † Ond yn awr, trwy oruchwyliaethau goleüawl ac adnewyddol yr Ysbryd Glân, trwy weinidogaeth yr efengyl; yr oeddynt hwy wedi eu ceisio, eu cael, a'u *dychwelyd,* neu eu *troi,* oddi wrth gyfeiliorni eu ffyrdd at Grist, ‡ "Bugail mawr y defaid;" (Heb. 13. 20.) yr hwn a roisai ei einioes drostynt, ac a'u prynasai iddo ei hun â'i brïod waed. (Act. 20. 28.) ‖ Fel hyn yr oeddynt wedi eu gosod yn ddïogel yn ei gorlan a thàn ei ofal ef, a chwedi eu gwneyd yn gyfrannogion o'i gariad ef, yr hwn fel Esgob, neu Arolygwr eu heneidiau, oedd yn gwylied drostynt; ac yn ei holl wybodaeth, ei holl alluawgrwydd, a'i fawr ffyddlondeb, oedd yn Amddiffynwr sanctaidd iddynt.—Wrth i'r apostol droi oddi wrth ei *gyngorion* at *athrawiaeth* fel hyn yn yr adnodau diweddaf o'r bennod; (gwel ar adn. 22.) mae yn dysgu i bregethwyr a duwinyddion, y dylent gymmysgu *athrawiaeth* â *dyledswyddau* yn eu gweinidogaeth; a chymhell i ddyledswyddau *ymarferol* oddi ar egwyddorion *efengylaidd:* fel hyny gosodir arnynt argraff bennodol cristionogrwydd; a gwahaniaethir hwynt (sef y dyledswyddau) yn amlwg oddi wrth foesoldeb paganaidd, a deddfol hefyd.—*Esgob:* un yn gofalu am danom, ac yn gwylied drosom, gyda dyfalwch cysôn, a gwyliadwriaeth serchog: esampl dda i bob esgob.

PEN. III.

Y mae yn dysgu i wyr a gwragedd eu dyled i'w gilydd.

* YR un ffunud, *bydded* [a] y gwragedd ostyngedig i'w gwŷr prïod; † fel, od oes rhai [b] heb gredu i'r gair, [c] y galler [d] trwy ymarweddiad y gwragedd, ‡ eu hynnill hwy heb y gair,

a Gen. 3. 16. Esther 1. 16—20. Rhuf. 7. 2. 1 Cor. 11. 3. a 14. 34. Eph. 5. 22—24, 33. Col. 3. 18. 1 Tim. 2. 11, 12. Tit. 2. 3—5. b pen. 1. 22. a 4. 17. Rhuf. 6. 17. a 10. 16. 2 Thes. 1. 8. Heb. 5. 9. a 11. 8. c 1 Cor. 7. 16. Col. 4. 5. d Diar. 11. 30. a 18. 19. Mat. 18. 15. 1 Cor. 9. 19—22. Iago 5. 19, 20.

Yma mae yr apostol yn rhoddi cyfarwyddiadau yn nghylch dyledswyddau gwragedd a gwŷr, fel mater o bwys mawr er anrhydedd a llwyddiant yr efengyl. * "Yr un ffunud," neu fel y cyngorasai efe weision i fod yn ddarostyngedig i'w meistriaid, o'r blaen; felly hefyd mae efe yn cyngori gwragedd i fod yn ostyngedig i'w gwŷr prïod, neu i'w gwŷr eu *hunain,* yn ol y Saesoneg: ac hyd yn nôd y rhai oedd yn brïod â phaganiaid, neu anghredinwyr eraill, pa un bynag ai gwedi eu priodi y cawsent eu dychwelyd, ai ynte myned a wnaethent yn *bechadurus* i sefyllfa mòr brofedigaethus, hwy a ddylent ymostwng i'r gorchymyn hwn *yn mhob peth cyfreithlawn.* † Dylent wneyd hyn o gydwybod; nid yn unig i ysgafnâu eu profedigaethau eu hunain, ac i harddu yr efengyl, ond gyda golwg neillduol hefyd ar ynnill a dychwelyd eu gwŷr i gredu yr efengyl; yr hyn nis gallent ddysgwyl ei wneyd drwy gynnyg dadleugar o ddysgu iddynt yr efengyl, yn gymmaint â thrwy hyawdledd dystaw ymarweddiad hardd ac addas. Fel hyn gallai y gwragedd obeithio ennill y rhai oedd heb gredu i'r gair, ond yn ei ddirmygu neu yn ei ddibrisio; gan y byddai ymddygiad ffyddlawn, addfwyn, a hawddgar, ac ymddiddanion doeth perthynasau mòr agos, yn tueddu yn fawr i feddalu eu rhagfarn hwy, i ennill eu serch, ac i'w dwyn hwynt i wrando yn well ar bregethiad yr efengyl. ‡ Nid am y gellid eu hennill hwy i gredu yn Nghrist, heb y gair, canys ffydd sy trwy

glywed; ond eu hennill hwy trwy ymarweddiad y gwragedd i wrando a derbyn y gair. Mae yn drwm meddwl bod gwŷr rhai gwragedd crefyddol yn galetach, ac yn fwy eu rhagfarn nâ neb, yn erbyn crefydd!

2 * Wrth [e] edrych ar eich ymarweddiad diwair chwi † ynghyd [f] âg ofn.

e adn. 16. pen. 1. 15. a 2. 12. Phil. 1. 27. a 3. 20. 1 Tim. 4. 12. 2 Pedr 3. 11. f adn. 5, 6, 15. Eph. 5. 33. a 6. 5. Col. 3. 22.

* Oblegid tueddai y pethau uchod yn fawr iawn er argyhoeddiad a dychweliad y gwŷr digred, wrth weled a phroff effeithiau rhagorol cristionogrwydd yn wastadol, yn ymarweddiad diwair, gwylaidd, a ffyddlawn eu gwragedd; † fel yr oedd yn gyssylltiedig âg ofn parchus rhag eu hanfoddloni neu eu tristâu hwynt, ac wrth eu gweled yn gwneyd pob peth yn ofn Duw, ac o barch crefyddol i'w orchymyn a'i awdurdod ef.

3 [g] * Trwsiad y rhai bydded nid yr [h] un oddi allan, o blethiad gwallt, ac amgylchosodiad aur, † neu wisgiad dillad;

g 1 Tim. 2. 9. Dat. 21. 2. h Gen. 24. 22, 47. 53. Ex. 3. 22. a 32. 2. a 33. 4. a 35. 22. a 38. 8. 2 Bren. 9. 30. Esther 5. 1. Salm 45. 9. Es. 3. 18—24. a 52. 1. a 61. 10. Jer. 2. 32. a 4. 30. Ezec. 16. 7—13. a 23. 40.

* Yn yr ymgais uchod, rhaid iddynt beidio meddwl bod y trwsiad oddi allan, megys "plethiad gwallt," gwisgo modrwyau, clustdlysau, a breichledau aur, † neu unrhyw ddillad gorwych, drudfawr, a boneddigaidd, yn unrhyw addurn iddynt mewn un modd. Nid yw yr apostol yn hollawl wahardd pob addurniadau ar y corph mewn gwisgoedd; ond mae efe yn gwahardd pob peth gwageddus, ysgafn, balch, anweddaidd, gormodol, ac yn tueddu at fursendod ac anniweirdeb mewn gwisgiad; yn enwedig i wragedd priod yn proffesu duwioldeb: nid pethau felly a ennill y gwŷr digred byth at grefydd, ond yn hytrach i'r gwrthwyneb; a dylai y cyfryw wragedd a benywaid grynu rhag barn merched Sion. Esa. 3. 16—26. Dylai pawb wisgo hefyd yn ol eu sefyllfa, y feistres fel meistres, a'r forwyn fel morwyn, y gyfoethog fel cyfoethog, a'r dlawd fel dlawd.

4 * Eithr *bydded* [i] cuddiedig ddyn y galon, mewn [j] anllygredigaeth † yspryd [k] addfwyn a [l] llonydd, [m] ‡ yr hwn sydd ger bron Duw yn werthfawr.

i Salm 45. 13. a 51. 6. Mat. 23. 26. Luc 11. 40. Rhuf. 2. 29. a 6. 6. a 7. 22. 2 Cor. 4. 16. Eph. 4. 22—24. Col. 3. 3, 9, 10. j pen. 1. 23. k adn. 15. Salm 25. 9. a 147. 6. Es. 11. 4. a 29. 19. a 57. 15. a 61. 1. Mat. 5. 5. a 11. 29. a 21. 5. 2 Cor. 10. 1. Gal. 5. 23. Eph. 4. 2. Col. 3. 12. 2 Tim. 2. 25. Tit. 3. 2. Iago 1. 21. a 3. 13—17. l Salm 131. 2. Jer. 51. 59. 1 Thes. 4. 11. 2 Thes. 3. 12. 1 Tim. 2. 2. m 1 Sam. 16. 7. Salm 147. 10, 11. a 149. 4. Luc 16. 15.

* Ond dylai pawb yn mhob sefyllfa brisio ac ymgais am harddwch tumewnol, yn aros yn y galon, fel dyn cuddiedig, yn weledig o ran ei hanfod i Dduw yn unig, ac yn gynnwysedig mewn adnewyddiad a sancteiddiad o'r holl enaid i ddelw Duw, trwy hâd anllygredig y gair, wedi ei wneyd yn effeithiol gan nerth yr Ysbryd Glân: oblegid hyn yn unig a barâi byth, heb edwino, gwaelu, na llygru. † Byddai y prydferthwch tumewnol, a'r addurn hyn o galon wedi ei sancteiddio, yn cael ei amlygu yn neillduol mewn "ysbryd addfwyn a llonydd;" mewn tymher ac ysbryd gwylaidd, gostyngedig, addfwyn, tawel, darweddadwy, a heddychol; yn rhydd oddi wrth falchder, ysgafnder, a nwydau drwg terfysglyd. ‡ A pha faint bynag y dirmygid hyn, ac y mawrygid addurniadau y corph o'i flaen gan ddynion gwageddus; byddai o werth mawr yn nghyfrif Duw, a byddai efe yn sicr o'i anrhydeddu; gan hyny dylai fod yn brif ymgais y gwragedd a chwennychent ryngu ei fodd ef, a bod yn gymeradwy yn ei olwg. Yn wir hyn fyddai yr addurn goreu arnynt yn ngolwg eu gwŷr, a byddai yn fwy effeithiol o lawer i sefydlu eu serchiadau ac i ennill eu parch hwynt, nac unrhyw wisgiad dillyn a gorwych, gyda thymher anfoddog, derfysglyd a chwerylgar.

5 * Canys felly gynt yr oedd [n] y gwragedd sanctaidd hefyd, [o] † y rhai oedd yn gobeithio yn Nuw, [p] yn ymdrwsio, ‡ gan fod yn ddarostyngedig i'w gwŷr priod;

n Diar. 31. 10, 30. Luc 8. 2, 3. Act. 1. 14. a 9. 36. 1 Tim. 2. 10. a 5. 10. Tit. 2. 3, 4. o 1 Sam. 2. 1. Jer. 49. 11. Luc 2. 37. 1 Tim. 2. 15. a 5. 5. Heb. 11. 11. p adn. 2—4.

* Yr oedd yr addurn tumewnol a ganmolai ac a gyngorai yr apostol, wedi bod mewn bri mawr yn yr eglwys er yr amseroedd boreuaf; "canys felly gynt yr oedd y gwragedd sanctaidd hefyd, † y rhai a obeithient" yn addewidion "Duw," ac oeddynt gyfranogion o'i iachawdwriaeth ef, yn ymdrwsio; nid oeddynt yn cyfrif bod eu prydferthwch penaf yn gynnwysedig mewn glendid personol, ac mewn dillad gwychion; ‡ ond yn y "mwyneidd-dra doethineb" yn mha un yr oeddynt yn ufuddâu yn ewyllysgar i Dduw, trwy ymddarostwng yn ei ofn ef i'w gwŷr priod. Fel hyn yr oedd y gwragedd sanctaidd gynt yn rhyngu bodd, ac yn ennill serch eu gwŷr, nid trwy ymdrwsio yn goeg-falch oddi allan; ond trwy ymddarostwng yn addfwyn iddynt yn ofn Duw.

6 * Megis [q] yr ufuddhâodd Sara i Abraham, gan ei alw ef yn arglwydd: † merched yr hon ydych chwi, tra fyddoch yn gwneuthur yn dda, [r] ‡ ac heb ofni dim dychryn.

q Gen. 18. 12. r adn. 14, 15. Gen. 18. 15. Es. 57. 11. Dan. 3. 16—18. Mat. 26. 69—75. Act. 4. 8—13, 19.

* Felly yr oedd Sarah, gwraig brydferth ac anwyl Abraham, yn ufuddâu yn ostyngedig iddo ef, ac o wir barch iddo, yn ei alw ef yn arglwydd. (Gen. 18. 12.) † Ac fel yr oedd y gwragedd hyn, lawer o honynt, yn ferched i Sarah yn ol y cnawd; felly y dangosent eu bod yn ferched iddi hefyd mewn ystyr grefyddol ac ysbrydol; os oeddynt, a thra byddent, yn "gwneuthur yn dda," trwy debygu iddi hi mewn ffydd a sancteiddrwydd, ac yn cyflawni eu dyledswyddau priodasol yn addas yn ol ei hesampl hi; ‡ "heb ofni dim dychryn" oddi wrth eu gwŷr, nac oddi wrth neb arall o achos eu crefydd; heb ofni dim na lwyddent hwy i feddalu tymherau mwyaf afrywiog eu gwŷr trwy ymarweddiad da; ac heb ofni dim o'r dychryn anghrediniol a feddiannodd Sarah, pan lefarodd yr Arglwydd am fab iddi hi. (Gen. 18. 9—15.) Efallai mai ofn Sarah, pan geryddwyd hi gan yr Arglwydd am chwerthin yn ei hanghrediniaeth, a feddylir: ond nid hawdd iawn yw gwybod at ba beth yn bennodol y cyfeiria y geiriau, "heb ofni dim dychryn." Nid yw yr apostol yn cyfeirio hwdd â dim o'r hyn oedd feius ynddi hi yn yr anglychiad hwn; nid yw ond enwi y gair da a ddywedodd hi, galw Abraham yn *arglwydd*, er canmoliaeth iddi hi, ac er esampl i'w merched ysbrydol hi. Mae hyn yn dangos mòr barod yw yr Arglwydd i faddeu gwendidau ei bobl, ac mòr rasol yw efe i gymmeradwyo eu gwasanaeth tlawd hwy, a phob da sydd ynddynt.

7 [s] * Y gwŷr, yr un ffunud, cyd-gyfanneddwch â hwynt † yn ol gwybodaeth, [t] ‡ gan roddi parch i'r wraig megis i'r llestr gwannaf, ‖ fel rhai sydd [u] gyd-etifeddion gras y bywyd; [x] § rhag rhwystro eich gweddiau.

s Gen. 2. 23, 24. Diar. 5. 15—19. Mal. 2. 14—16. Mat. 19. 3—9. 1 Cor. 7. 3. Eph. 5. 25—28, 33. t 1 Cor. 12. 22—24. 1 Thes. 4. 4. u Eph. 3. 6. Tit. 3. 7. Heb. 1. 14. x Job 42. 8. Mat. 18. 19. Rhuf. 8. 26, 27. Eph. 4. 30. a 6. 18.

* Ar y llaw arall, mae yr apostol "yr un ffunud" yn cyngori y gwŷr, y rhai a broffesent yr efengyl, i gydgyfanneddu â'u gwragedd, mewn modd serchog, cariadus, a ffyddlawn; † ac ymddwyn tuag atynt mewn gweddeidd-dra, tynerwch, a thymherau da; yn ol rhëolau rheswm a doethineb, a'r wybodaeth hyny a ddysgwylid fod ganddynt hwy trwy yr efengyl, o'u dyledswyddau tuag at eu gwragedd. Dylent gyd-gyfanneddu â hwynt, ac ymddwyn tuag atynt, fel y gweddai i rai wedi cael gwybodaeth am Dduw ac am wir grefydd; fel rhai yn deall y dyben i ba un yr ordeiniwyd priodas, ac

fel rhai yn gwybod pa fodd y dylai dynion duwiol ymddwyn yn yr ystâd anrhydeddus a sanctaidd hòno: a byddai hyn yn foddion i'w cadw hwynt rhag pob ymddygiad anweddaidd, annhirion, anffyddlawn; neu niweidiol i'w cysur tymmorawl, ac i'w lles a'u gwelliant ysbrydol. ‡ Dylent roddi parch mawr i'w gwragedd fel y cyfryw, trwy ymhyfrydu ynddynt, a dangos pob cariad ac anrhydedd iddynt, gan ystyried mai hwy oedd y "llestri gwànaf;" ac eu bod o gyfansoddiad mwy egwan a thyner nâ hwy eu hunain, o ran cyrph a meddyliau; ac hefyd eu bod yn ddarostyngedig i lawer o wendidau a phoenau, wrth ddwyn plant a'u magu, nas gwyddent hwy eu hunain yn brofiadol am danynt: dylai ystyriaethau o'r fath hyn eu tueddu hwynt i garu a pharchu eu gwragedd; ac nid eu cynhyrfu i fod yn draws a gorthrymus tuag atynt. || Dylent wneuthur hyn yn fwy byth eto, wrth ystyried fod eu gwragedd crefyddol yn gyd-radd â hwy mewn pethau ysbrydol; ac bod yn gyd-gyfranogion â hwy o ras y bywyd; neu o ra gariad a dawn Duw, yr hyn oedd fywyd tragywyddol; a felly, fel cyd-bererinion â hwynt tua'r bywyd tragywyddol, dylent wneyd pob peth a allent wneyd, i ddyddanu, i gyngori, ac i gynnorthwyo eu gilydd, ar hyd y ffordd. § Dylent hefyd wylied yn dra gofalus rhag pob anghydfod ac anesmwythder teuluaidd, fel na ddygwyddai dim i'w hanhwylusu hwy mewn gweddiau, yn y dirgel nac yn y teulu, ac yn enwedig gyda, a thros y naill y llall. Ac os digrefydd fyddai y wraig, dylai y gŵr wneyd pob peth tuag ati, fel na byddai iddi hi rwystro gweddi ac addoliad yn y teulu.

8 * Am ben hyn, [y] *byddwch* oll yn unfryd, [z] † yn cyd-oddef â'ch gilydd, ‡ yn caru fel brodyr, || yn [a] drugarogion, [b] § yn fwynaidd:

y Gwel ar Act. 2. 1. a 4. 32. Rhuf. 12. 16. a 15. 5. 1 Cor. 1. 10.—Phil. 3. 16. z Zec. 7. 9. Mat. 18. 33. Luc 10. 33. Rhuf. 12. 15. 1 Cor. 12. 26. Iago 2. 13. a 3. 17. a Salm 103. 13. Diar. 28. 8. Mat. 18. 33. Iago 5. 11. b Act. 27. 3. a 28. 7. Eph. 4. 31, 32. a 5. 1, 2. Phil. 4. 8, 9. Col. 3. 12.

Mae y cyngorion uchod yn cytuno yn hollawl, a'r cyngorion o'r un natur a roddodd Paul yn ei epistolau ef.—* Fel diwedd-glo a sylwedd ei gyngorion oll, mae yr apostol yma yn annog y cristionogion oll i fod yn unfryd â'u gilydd, yn holl athrawiaeth a dyledswyddau crefydd, hyd ag yr oedd hyny yn bosibl iddynt yn eu hystâd anmherffaith yn y byd hwn. † Mỳnai iddynt oll gyd-oddef â'u gilydd yn deimladwy yn eu holl drallodau a'u gorthrymderau; a chyd-lawenâu yn siriol â'u gilydd hefyd, yn nghysuron a llwyddiant y naill y llall. ‡ Mỳnai iddynt garu eu gilydd fel brodyr, yn gynhes a serchiadol, fel y gweddai i blant mabwysiadol ac ailanedig yr un Tad nefol. || Mỳnai iddynt ddangos ymysgaroedd trugareddau a thosturi, tuag at bawb, yn enwedig teulu y ffydd, a fyddai mewn gwendid, gwaeledd, neu drallodau o unrhyw fath, pa un bynag ai ysbrydol ai tymmorawl. § A mỳnai fod eu holl ymddygiad hwy tuag at eu gilydd, a thuag at bawb, yn fwynaidd, yn serchiadol, ac yn ennillgar; er dangos crefydd yn beth dymunol, trwy ei heffeithiau daionus hi ar eu calonau a'u hymddygiadau hwynt.

9 * Nid yn [c] talu drwg am ddrwg, † neu sèn am sèn: ‡ eithr, y'ngwrthwyneb, yn bendithio; || gan wybod mai i hyn y'ch [d] galwyd, [e] § fel yr etifeddoch fendith.

c pen. 2. 20—23. Diar. 20. 22. Mat. 5. 39, 44. Luc 6. 27—29. Rhuf. 12. 14, 17, 19—21. 1 Cor. 4. 12, 13. 1 Thes. 5. 15. d pen. 2. 21. a 5. 10.—Gwel ar Rhuf. 8. 28, 30. e Mat. 19. 29. a 25. 34. Marc 10. 17. Luc 10. 25. a 18. 18.

* Ni fỳnai efe iddynt ar un cyfrif dalu drwg am ddrwg, mewn gweithredoedd; † na sèn am sèn, mewn geiriau, y naill i'r llall: ‡ eithr yn y gwrthwyneb, bendithio eu gelynion gwaethaf, gweddio drostynt, a dywedyd y goreu wrthynt ac am danynt. || I wneuthur hyn, gallent gael eu tueddu a'u calonogi drwy yr ystyriaeth, fod Duw wedi eu galw hwy yn rasol i hyn tra fyddent ar y ddaear; § a chwedi eu galw hefyd o fod yn elynion, ac yn agored i felltith ofnadwy ei gyfraith ef, i etifeddu bendith mewn amser ac i dragywyddoldeb. Hwy a ddylent gan hyny ddilyn ei esampl ef, yr hwn a "orchfygodd ddrygioni trwy ddaioni," yn ei ymddygiad grasol tuag atynt hwy; a thosturio wrth drueni a dallineb eu gelynion, yn hytrach na thalu drwg am ddrwg iddynt, y rhai ni allent mewn un modd eu hamddifadu hwy o'u dedwyddwch.

10 * Canys [f] y neb a ewyllysio [g] hoffi bywyd, a [h] gweled dyddiau da, [i] † attalied ei dafod oddi wrth ddrwg, a'i wefusau rhag [k] adrodd twyll.

f Gwel ar Salm 34. 12—16. g Deut. 32. 47. Job 2. 4. Diar. 3. 2, 18. a 4. 22. a 8. 35. Mat. 19. 17. Marc 8. 35. Ioan 12. 25. h Job 7. 7, 8. a 9. 25. a 33. 28. Salm 27. 13. a 49. 19. a 106. 5. Preg. 2. 3. Mat. 13. 16, 17. i Gwel ar Iago 1. 26. a 3. 1—10. k pen. 2. 1, 22. Ioan 1. 47. Dat. 14. 5.

* Yr oedd y cyngor uchod yn cytuno yn dda â'r cyngor a roddasai y Salmydd i bobl ieuainc: (Salm 34. 11—16.) oblegid os oedd neb yn ewyllysio hoffi bywyd, estyn ei ddyddiau, byw yn gysurus ar y ddaear, a chael gobaith am fywyd tragywyddol yn y nef; † rhaid iddo ddysgu attal ei dafod, rhag pob geiriau drygionus, sèngar, a thwyllodrus. Trwy hyn y diogelir cysuron bywyd, y rhyngir bodd Duw, ac y cair ei ewyllys da ef: ac y diarfogir gelyniaeth dynion mewn mesur mawr; ac yn wir mae y tri pheth uchod o bwys a chanlyniad mawr iawn, ac yn werth attal y tafod er eu mwyn.

11 * Gocheled [l] y drwg, [m] † a gwnaed y da; [n] ‡ ceisied heddwch, || a dilyned ef.

l Job 1. 1. a 2. 3. a 28. 28. Salm 34. 14. a 37. 27. Diar. 3. 7. a 16. 6, 17. Es. 1. 16, 17. Mat. 6. 13. Ioan 17. 15. m Salm 125. 4. Mat. 5. 45. Marc 14. 7. Luc 6. 9, 35. Rhuf. 7. 19, 21. Gal. 6. 10. 1 Tim. 6. 18. Heb. 13. 16. Iago 4. 17. 3 Ioan 11. n Salm 120. 6, 7. Mat. 5. 9. Luc 1. 79. Rhuf. 5. 1. a 8. 6. a 12. 18. a 14. 17, 19. Gal. 5. 22. Col. 3. 15. Heb. 12. 14. Iago 3. 17, 18.

* Gocheled gyda'r atgasrwydd a'r gofal mwyaf, bob peth ag sydd yn ddrwg a phechadurus ynddo ei hun, ac yn niweidiol yn ei ganlyniadau i eraill; † ac ymdreched i wneyd pob peth ag sydd yn dda ynddo ei hun, ac yn llesol yn ei ganlyniadau i eraill. ‡ Ceisied y pethau sydd yn tueddu at heddwch; a gwnaed a allo yn unol â chydwybod dda, i feithrin heddwch mewn pob cymdeithas wladol ac eglwysig; yn ei deulu, yn mblith ei gymmydogion, ei gyfeillion, a'i elynion, ac rhyngddo ei hun â phawb. || A cheisied yn benderfynol ac yn wastadol ddilyn ar ol yr heddwch hyn, trwy bob moddion addas ac anrhydeddus; a chanlyned hi yn ddifrifol, pan fyddo yn ymddangos megys yn ffoi oddi wrtho; fel trwy ras Duw, y gallo efe fyw yn llonydd ac yn heddychol, mewn pob duwioldeb a gonestrwydd yn y byd hwn, hyd oni chyrhaeddo efe ogoniant y byd a'r bywyd gwell. (Matth. 5. 9; 1 Tim. 2. 2; Iago 3. 18.

12 * Canys [o] *y mae* llygaid yr Arglwydd ar y rhai cyfiawn, [p] † a'i glustiau ef tu ag at eu gweddi hwynt: [q] ‡ eithr *y mae* wyneb yr Arglwydd yn erbyn y rhai sydd yn gwneuthur drwg.

o Deut. 11. 12. 2 Cron. 16. 9. Salm 11. 4. Diar. 15. 3. Zec. 4. 10. p 2 Cron. 7. 15. Salm 65. 2. Diar. 15. 8, 29. Ioan 9. 31. Iago 5. 16. q Lef. 17. 10. a 20. 3, 6. a 26. 17. Salm 80. 16. Jer. 21. 10. Ezec. 15. 7.

* Oblegid y mae Arglwydd pawb oll, 'yr hwn mae ei lygaid yn edrych ar yr holl ddaear, i'w ddangos ei hun yn gryf gyda'r rhai sydd a'u calonau yn berffaith tuag ato ef, ac sydd a'i freiniaeth yn llywodraethu ar bob peth;' (2 Cron. 16. 9; Salm 103. 19.) yn cymmeryd sylw nodedig ar, yn dwyn serch neillduol at, ac yn gwylied yn ofalus yn ei ragluniaeth dros, y rhai sydd yn gyfiawn yn ei olwg ef yn Nghrist Iesu, ac yn uniawn ger ei fron ef yn eu calonau a'u bucheddau. † Ac mae ei glustiau ef yn rasol tuag at eu gweddi hwynt; fel un yn ymwrando â chlustiau agored, ar lais eu gweddiau, y rhai a ddanfonant hwy ato mewn gostyngeiddrwydd, ffydd, a thaerineb; am gymmorth yn erbyn eu gelynion, ac am bob trugaredd a gras angenrheidiol, tymmorawl

ac ysbrydol. ‡ Ond y mae digofaint yr Arglwydd, fel yr ymddengys digofaint yn ngwynebpryd sòrig, llidiog, a digllawn, gelyn galluog a thramgwyddus, yn hollawl wrthwyneb, ac yn llosgi yn erbyn yr holl rai sydd yn gwneuthur drwg, fel cenedlaeth atgas, *i dòri eu coffa hwynt oddi ar y ddaear.* Salm 34. 16.

13 [r] * A phwy a'ch dryga chwi, † os bydd-wch [s] yn dilyn yr hyn sydd dda?

r Diar. 16. 7. Rhuf. 13. 3. s Salm 38. 20. Diar. 15. 9. 1 Cor. 14. 1. Eph. 5. 1. 1 Thes. 5. 15. 2 Tim. 5. 10. 3 Ioan 11.

* Yn nesaf mae yr apostol yn gofyn gyda bywiogrwydd mawr, pwy a'u drygai, neu a allai eu drygu hwynt, o ddynion na chythreuliaid, o ran eu gwir ddedwyddwch ysbrydol a thragywyddol; † os byddent hwy yn dilyn ei esampl ef, yr hwn sy dda hanfodol a pherffaith, ac yn dilyn yr *hyn* oedd dda yn ol ei ewyllys a'i orchymyn sanctaidd ef. Fel hyn nid oedd dim a allai wneuthur gwir niwed iddynt; a byddai i'r ymarweddiad diniwed, uniawn, a daionus hwn, mewn amser, ddiarfogi gelyniaeth eu cymmydogion a'u herlidwyr: oblegid pa anghenfil o'r natur ddynol, a allai fod mòr anfad a chreulawn, a dàl o hyd i geisio drygu y fath ddynion diniwed a chymmwynasgar?

14 * Eithr [t] o bydd i chwi hefyd ddioddef o herwydd cyfiawnder, † dedwydd *ydych:* [u] ‡ ond nac ofnwch rhag eu hofn hwynt, ‖ ac na'ch cynhyrfer;

t pen. 2. 19, 20. a 4. 13—16. Jer. 15. 15. Mat. 5. 10—12. a 10. 18—22, 39. a 16. 25. a 19. 29. Marc 8. 35. a 10. 29. Luc 6. 22, 23. Act. 9. 16. 2 Cor. 12. 10. Phil. 1. 29. Iago 1. 12. u Es. 8. 12, 13. a 41. 10—14. Jer. 1. 8. Ezec. 3. 9. Mat. 10. 28, 31. Luc 12. 4, 5. Ioan 14. 1, 27. Act. 18. 9, 10.

* Ond er dilyn yr hyn oedd dda, ni byddent hwy yn rhydd oddi wrth erlidiau bob amser o lawer: eithr os byddai raid iddynt ddioddef o herwydd cyfiawnder, yn achos Crist a'r efengyl, † dylent ystyried hyny yn anrhydedd nodedig, ac yn ddedwyddwch mawr; a chaent brofi y dedwyddwch o gariad a chymdeithas Duw yn eu heneidiau dàn eu holl ddyoddefiadau. ‡ Ac nid oedd raid iddynt ofni ychwaith rhag cynddeiriogrwydd, bygythion, cyfreithiau, a gallu eu herlidwyr, y rhai oedd yn eu hofni hwy ac yn eu dychrynu; ond y rhai ni allent ar eu heithaf ond "lladd y corph," na hyny chwaith heb oddefiad gan Dduw. ‖ Gan hyny nid oedd achos iddynt gael eu cynhyrfu am y pethau hyn, fel ag i'w hanaddasu gan derfysg meddwl i gyflawni eu dyledswyddau, neu i ymollwng gyda'u profedigaethau a gwadu Crist, fel y gwnaethai yr apostol ei hun ar un achlysur. Nac ofnwch yr Iuddew na'r cenedl-ddyn, (medd un gŵr) eithr sancteiddiwch, ofnwch, ac addolwch yr *un gwir Dduw.*

15 * Eithr [x] sancteiddiwch yr Arglwydd Dduw yn eich calonau: [y] † a *byddwch* barod bob amser i atteb i bob un a ofyno i chwi [z] reswm ‡ am [a] y gobaith sydd ynoch, [b] ‖ gyd âg addfwynder § ac ofn:

x Num. 20. 12. a 27. 14. Es. 5. 16. a 29. 23. y Salm 119. 46. Jer. 26. 12—16. Dan. 3. 16—18. Amos 7. 14—17. Mat. 10. 18—20. Luc 21. 14, 15. Act. 4. 8—12. a 5. 29—31. a 21. 39, 40. a 22. 1, 2, &c. Col. 4. 6. z 1 Sam. 12. 7. Es. 1. 18. a 41. 21. Act. 24. 25. a Gwel ar pen 1. 3, 4.—Col. 1. 5, 23, 27. Tit. 1. 2. Heb. 3. 6. a 6. 11, 18, 19. b Gwel ar adn. 2, 4.—2 Tim. 2. 25, 26.

* Fel na chynhyrfid hwy gan ofn eu herlidwyr megys y dywedwyd uchod, cyngorai yr apostol hwy i sancteiddio yr Arglwydd Dduw yn eu calonau: llettya yn wastad feddyliau anrhydeddus a theilwng am ei berffeithiau ef, parchu ei enw ef, heb ofni dim yn gymmaint â'i anfoddloni ef; ac ymddiried eu heneidiau, eu bywydau, eu rhyddid, eu meddiannau, eu cymmeriad, a'u teuluoedd yn ei law ef, megys mewn cyssegr, ac mewn tŵr cadarn. † Ac fel hyny, yn lle gwadu na chuddio eu crefydd, cyngorai yr apostol hwynt i fod bob amser yn barod, a chwedi ymddarpar, i roddi *ateb,* i amddiffyn achos y gwirionedd, ac i ddangos ei ragoroldeb a'i awdurdod, i bob un a ofynai iddynt reswm am y gobaith oedd ynddynt; pa un bynag ai swyddog gwladol, ai dyn cyffredin a ofynai, a pha beth bynag fyddai dyben y cyfryw yn gofyn. ‡ Fel cristionogion, yr oeddynt yn gobeithio yn Nuw trwy Grist am fywyd tragywyddol; ac yn yr hyder o hyn yr oeddynt yn ymwrthod â manteision presenol, ac yn gosod eu hunain yn agored i ddyoddefiadau lawer, ac o'r fath mwyaf poenus. Pa beth gan hyny oedd sail, neu reswm eu gobaith? Dylent fod yn barod i ateb y gofyniad hwn, trwy ddangos y tystiolaethau penderfynol, oedd yn profi fod cristionogaeth yn beth o Dduw; dangos ei dyben mawr hi; yr angen oedd ar ddynion am faddeuant a sancteiddiad; natur y prynedigaeth trwy waed Crist, a chrëadigaeth newydd trwy yr Ysbryd i ufuddod: yn nghyd âg addewidion, sicrwydd, a *zêl* y cyfammod newydd. *Fel hyn* gallent ddangos trwy air gwirioneddol Duw, trwy eu profiad eu hunain o'i effeithiau, a thrwy yr effaith oedd yn gael ar eu bucheddau, eu bod yn gobeithio am ddedwyddwch ar seiliau rhesymol; ac eu bod yn gwneyd yn ddoeth drwy ymwrthod â phob peth, anturio pob peth, a dyoddef pob peth, er mwyn y gobaith a'r dedwyddwch hyny. ‖ Ond ni wnâi rhesymau cryfion yn unig mo'r tro yn y dystiolaeth hon: rhaid iddynt hefyd ateb "gydag addfwynder," neu gyda gwylder, gostyngeiddrwydd, tawelwch, a chariad; § a chydag "ofn," neu arswyd parchus o Dduw, a phethau nefol, a chyda gwyliadwriaeth ofalus ar eu hysbrydoedd eu hunain, rhag i'w cam-ymddygiad hwy yn yr "ateb" ddwyn gwarth ar achos y gwirionedd.

16 * A chennych [c] gydwybod dda; † fel [d] yn yr hyn y maent yn eich goganu megis drwg-weithredwyr, ‡ y cywilyddio y rhai sydd [e] yn beio ar eich [f] ‖ ymarweddiad da chwi yng Nghrist.

c adn. 21. pen. 2. 19. Act. 24. 16. Rhuf. 9. 1. 2 Cor. 1. 12. a 4. 2. 1 Tim. 1. 5, 19. 2 Tim. 1. 3. Heb. 9. 14. a 13. 18. d Gwel ar pen. 2. 12. Tit. 2. 8. e Mat. 5. 11. f Gwel ar adn. 1, 2.

* Rhaid bod ganddynt hefyd "gydwybod dda," wedi ei phuro oddi wrth ddigalondid enogrwydd trwy waed Crist, fel y byddai ganddynt sicrwydd boddlonawl am y diwedd; ac fel y byddai yn rhybuddiwr ac arweinydd goleu a deffro o'u mewn hwynt, yn eu cyfarwyddo i bob ymddygiad sanctaidd: † fel y byddai raid i'w herlidwyr, y rhai a'u goganent ac a'u trinient hwy megys drwg-weithredwyr, ‡ gywilyddio o'u cam-gyhuddiadau a'u gelyniaeth yn erbyn dynion, ‖ nad oedd ganddynt un achos cyfiawn i feio arnynt; am fod eu hymarweddiad hwy yn Nghrist, ac fel dysgyblion a chanlynwyr Crist, yn dda, yn rhagorol, ac yn llwyr ddiargyhoedd. Addefodd yr Athronydd enwog *Pliny* yn un o'i epistolau, fod arno gywilydd o'i waith yn erlid y cristionogion, a chywilydd o'r cyfreithiau oedd yn gofyn eu herlid hwy, pan ystyriodd efe mòr ddiniwed oedd eu hymarweddiad hwynt. Agoriad nodedig ar y geiriau uchod.

17 * Canys gwell *ydyw,* [g] os ewyllys Duw a'i myn, † i chwi [h] ddioddef yn gwneuthur daioni nac yn gwneuthur drygioni.

g pen. 4. 19. Mat. 26. 39, 42. Act. 21. 14. h Gwel ar adn. 14.

* Byddai natur yn barod i rwgnach, os nad ymgynddeiriogi, yn erbyn dyoddefiadau *heb eu haeddu:* eto, mewn gwirioneddd, os fel hyny y mynai Duw eu bod, yr oedd yn llawer iawn gwell, yn fwy dymunol, anrhydeddus, a llesol, i'w heneidiau hwy eu hunain, ac i ogoniant Duw a'r efengyl, † iddynt hwy "ddyoddef yn gwneuthur daioni, nag yn gwneuthur drygioni;" oblegid yn yr amgylchiad hyn, byddai yr holl euogrwydd ar eu herlidwyr, a'r holl lesâd yn gwbl i'r dyoddefwyr. Wrth ddyoddef yn gwneuthur daioni, yr oedd y gydwybod yn dawel, a'u heneidiau hwythau yn mwynâu llawer o bresenoldeb Duw; nid felly y buasai pe buasent yn dyoddef o herwydd drygioni.

18 * Oblegid [i] Crist hefyd unwaith a ddïoddefodd dros bechodau, [k] † y Cyfiawn dros

yr anghyfiawn ([l] ‡ fel y dygai ni at Dduw) [m] ‖ wedi ei farwolaethu yn y cnawd, [n] § eithr
ei fywhâu yn yr Ysprŷd:

i pen. 2. 21—24. Es. 53. 4—6. Rhuf. 5. 6—8. a 8. 3. 2 Cor. 5. 21. Gal. 1. 4. a 3. 13. Tit. 2. 14. Heb. 9. 26, 28. k Zec. 9. 9. Mat. 27. 19, 24. Act. 3. 14. a 22. 14. Iago 5. 6. 1 Ioan 1. 9. Eph. 2. 16—18. m pen. 4. 1. Dan. 9. 26. 2 Cor. 13. 4. Col. 1. 22. n Rhuf. 8. 11.

* Trwy "ddyoddef yn gwneuthur daioni" hefyd, hwy a fyddent yn cael eu cyd-ffurfio â Christ; yr hwn unwaith a ddyoddefodd y poenau mwyaf gwarthus ac arteithiol, hyd yn nôd "angau y groes," dros bechodau rhai eraill, i wneyd iawn am danynt, ac i'w tynu ymaith. Efe a wnaeth hyn, nid trwy fynych ac aml offrymau, fel yr aberthau seremoniol gynt; ond, trwy anfeidrol fawredd, gwerth, a pherffeithrwydd ei un aberth ef, efe a wnaeth gwbl a digonol iawn, dros bechodau ei holl bobl, ar "unwaith," a'r unwaith hyny am byth. † Efe, yr hwn oedd "Gyfiawn odiaeth," a ddyoddefodd yr holl gospedigaeth oedd yn ddyledus am bechod, yn lle a thros bechaduriaid anghyfiawn ac annuwiol; ‡ fel y cymmodai y fath hyny â Duw, (Rhuf. 5. 6, 8, 10.) fel y dygai hwynt i gymdeithas heddychol a sanctaidd âg ef, i gyd-ffurfiad âg ef ac ufudd-dod iddo yma, ac i dragywyddol fwynâd o hóno mewn byd a ddaw. ‖ Oblegid wedi rhoddi y Cyfiawn fel hyn i farwolaeth yn y cnawd, sef o ran ei ddynoliaeth, ar y cyhuddiad o gabledd; § efe a fywâwyd yn fuan, ac a gyfodwyd oddi wrth y meirw, yn a thrwy nerth yr Ysbryd Glân, ac fel hyny a eglurwyd yn Fab Duw, megys yr addefasai efe ei fod.—Priodolir adgyfodiad Crist weithiau i Dduw, sef y Tad; weithiau i Grist ei hun; ac weithiau i'r Ysbryd Glân; mae hyn yn ddigon esmwyth a naturiol, os yw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân yn un Duw; fel y dywed yr ysgrythyr, ac y cred Trindodiaid eu bod; ond pa fodd y gellir egluro hyn ar unrhyw egwyddor arall?—Yr un fath yw yr achos mewn llawer o bethau eraill.—Dywed *Pool* mai Duwdod Crist ei hun a feddylir yma wrth yr Ysbryd: dywed *Scott* a *Doddridge* mai y trydydd Person a feddylir: a dywed *Guyse* pob un o'r ddau, ond mai yr Ysbryd Glân yn benaf a feddyliai yr apostol. *Eithr ei fywâu yn yr Ysbryd:* eithr yn parâu *yn fyw yn yr Ysbryd*, neu o ran yr *enaid*, er bod y *corph yn farw:* felly mae un gŵr dysgedig yn deall y geiriau, ac mae yn eu defnyddio yn erbyn yr athrawiaeth o *gwsg yr enaid* yn angau. Yr oedd hyny yn wir, ond yn *bywâu* a ddywedir yma, sef bywâu corph Iesu a'i adgyfodi o'r bedd: y peth a farwolaethwyd, hyny hefyd a fywâwyd.

19 * Trwy [o] yr hwn yr aeth efe hefyd ac a † bregethodd ‡ i'r ysprydion [p] yng ngharchar;

o pen. 1. 11. a 4. 6. Neh. 9. 30. Dat. 19. 10. p Dat. 20. 7.

* Nid oedd achos rhyfeddu llawer, fod cynnifer yn nacâu credu yn y Gwaredwr a adgyfodasid ac a ogoneddasid, trwy weinidogaeth a phregethiad ei apostolion ef, gyda chymmorth yr Ysbryd Glân; oblegid yr un fath oedd yr achos gynt yn yr hen amseroedd. Oblegid yr oedd Crist fel Duw, a chyda golwg, neu gyfeiriad at ei ddyfodiad yn y cnawd mewn amser i ddyfod, gwedi myned trwy ei Ysbryd ar ei was Noah, † i gyhoeddi fod dylif barnol yn agosâu, ac i bregethu edifeirwch i'r genedlaeth anniwygiadwy oedd ar y ddaear y pryd hwnw, y rhai a fuont feirw yn eu pechodau; ‡ ac oeddynt yn "ngharchar" uffern o ran eu heneidiau, (sef y rhai mewn oed o honynt,) yn awr pan oedd yr apostol yn ysgrifenu; yn cael eu carcharu yno hyd farn mwy ofnadwy y dydd mawr.—Noah oedd y pregethwr, Ysbryd Crist, sef yr Ysbryd Glân, oedd arno ef; ac felly dywedir i Grist ei hun fyned a phregethu, trwy ei Ysbryd ar ei was Noah, fel y sylwyd uchod. I'r genedlaeth o flaen y dylif y pregethwyd, ac am na ddychwelasant trwy edifeirwch a ffydd yn y Messïah oddi wrth eu drygioni; yr oedd eu "hysbrydion," sef eu heneidiau, yn ngharchar uffern pan oedd yr apostol yn ysgrifenu.—Diammau i Noah yn mhlith pethau eraill, bregethu *cyfiawnder y ffydd yn y Messïah*, er cyfiawnâd a bywyd tragywyddol; gan fod yr *arch* oedd ef yn ddarpar i'w achub ei hun a'i deulu, yn gysgod arbenig o iachawdwriaeth trwy Iesu Grist; a gelwir Noah yn *bregethwr cyfiawnder*, (2 Petr 2. 5.) a dywedir ei fod ef ei hun yn *etifedd y cyfiawnder sydd o ffydd.* (Heb. 11. 7.)

20 * Y rhai [q] a fu gynt anufudd, † pan unwaith [r] yr oedd hir-amynedd Duw yn aros yn [s] nyddiau Noë, [t] ‡ tra y darperid yr arch, [u] ‖ yn yr hon ychydig, sef wyth enaid, § a achubwyd [x] trwy ddwfr.

q Gen. 6. 3, 5, 13. r Es. 30. 18. Rhuf. 2. 4, 5. a 9. 22. 2 Pedr 3. 15. s Mat. 24. 37—39. Luc 17. 26—30. t Gen. 6. 14—22. Heb. 11. 7. u Gen. 7. 1—7, 13, 23. a 8. 1, 18. Mat. 7. 14. Luc 12. 32. a 13. 24, 25. 2 Pedr 2. 5. x Gen. 7. 17—23. 2 Cor. 2. 15, 16. Eph. 5. 26.

* Bu y genedlaeth hòno gynt, sef y cyn-ddylifiaid, yn anufudd, anghrediniol, ac yn wrthryfelgar; yn erbyn gweinidogaeth Crist trwy ei Ysbryd ar Noah: † sef pan oedd hir-amynedd Duw am ugain mlynedd a chant, yn aros wrthynt yn nyddiau Noah, o fygythiad cyntaf y dylif hyd oni ddaeth ar y ddaear. ‡ Yr holl amser hwnw yr oedd Noah yn darparu yr arch; yn "dangos ei ffydd wrth ei weithredoedd;" ac yn galw ar y bobl i edifarâu, ac i geisio trugaredd gan Dduw. ‖ Eithr hwynt oll yn unfryd a chyndyn, a wrthodasant ei genadwri ef; ac felly dystrywiwyd hwynt gan y dylif; pryd ni chafodd ond wyth enaid, sef Noah a'i dri mab a'u gwragedd, eu hachub yn yr arch; wedi eu gwaredu rhag y dyfroedd, a'u dwyn yn ddïogel ar wyneb y dylif mawr: § fel hyny y dyfroedd, y rhai a foddasant bawb eraill yn ddïeithriad, a fuont yn foddion i achub yr "ychydig" hyn yn ddïogel ac yn ddiberygl.—"A achubwyd *trwy* ddwfr:" dywed rhai o'n Hawdwyr y gellid cyfieithu y geiriau, *oddi wrth* neu *allan o'r* dwfr; ac yr un modd y geiriau "*trwy* dân" yn 1 Cor. 3. 15.

21 [y] * Cyffelybiaeth cyfattebol i'r hwn sydd yr awrhon yn ein hachub ninnau, *sef* [z] bedydd († nid [a] bwrw ymaith fudreddi y cnawd, ‡ eithr [b] ymatteb cydwybod dda tu ag at Dduw) [c] ‖ trwy adgyfodiad Iesu Grist;

y Rhuf. 5. 14. 1 Cor. 4. 6. Heb. 9. 24. a 11. 19. z Mat. 28. 19. Marc 16. 16. Act. 2. 38. a 22. 16. Rhuf. 6. 3—6. 1 Cor. 12. 13 Gal. 3. 27. Eph. 5. 26. Col. 2. 12. Tit. 3. 5—7. a Ezec. 36. 25, 26. Zec. 13. 1. 2 Cor. 7. 1. b Act. 8. 37. Rhuf. 10. 9, 10. 2 Cor. 1. 12. 1 Tim. 6. 12. c Gwel ar pen. 1. 3.

* Yr oedd achubiaeth dymmorawl Noah a'i deulu yn yr arch "trwy ddwfr," yn "gyffelybiaeth gyfatebol," neu yn gysgod arwyddol, o'r hyn oedd yn awr yn achub cristionogion oddi wrth bechod a digofaint, "sef bedydd." Crist yw y wir Arch. Mae ei eglwys ef o fewn yr arch, ac am hyny yn ddïogel; ond pawb oddi allan a ysgubir ymaith i ddinystr gan ddylif digofaint Duw. Mae dynion yn myned i mewn i'r Arch hon drwy ffydd; yr oedd Iuddewon a chenedloedd yn proffesu y ffydd hon, pan oeddynt trwy fedydd yn cael eu derbyn i'r eglwys gristionogol: ac fel hyny yr oedd dwfr y bedydd megys yn arwydd o'u hachubiaeth a'u diogelwch hwy, ac yn foddion i hyny. † Eto nid golchi ymaith fudreddi y cnawd, neu y gweinyddiad allanol o fedydd, pa mòr *iawn bynag y gweinyddid* ef; nid yr arwydd oddi allan a allai wneyd hyn, heb ei fod yn cael ei *iawn dderbyn* hefyd. ‡ Gan hyny ymateb cydwybod dda tuag at Dduw ydoedd yn achub; neu, yr oedd hyny yn angenrheidiol i achub; sef, bod dyn trwy adgenedliad yr Ysbryd, yn gallu proffesu edifeirwch, ffydd, a bwriad o ddilyn buchedd newydd, mewn uniondeb, megys yn ngŵydd Duw; ac ateb yn ddiragrith y cyfryw holiadau a ofynid i ddynion ar yr achlysuron hyny. ‖ Ac yr oedd yr holl gristionogion yn cael eu gwneyd yn gyfranogion o'r iachawdwriaeth hon, ac yn adgyfammodi fel hyn â Duw, yn ol eu rhwymau bedyddiol, trwy ffydd yn adgyfodiad Iesu Grist; megys y traddod-

wyd ef dros eu pechodau, ac y cyfodwyd ef i'w cyfiawnâu hwynt; (Rhuf. 4. 25.) ac hefyd er eu bywâu hwynt o farwolaeth pechod i fywyd o gyfiawnder yn y byd hwn, (Rhuf. 6. 3—6.) ac er eu dyrchafu hwynt, enaid a chorph, i fywyd tragywyddol yn y byd a ddaw, fel y byddent fyw mewn gogoniant gydag ef.—*Cyffelybiaeth:* cyfeithir yr un gair (*antitypa*, neu *antitypon*) *portreiad*, yn Heb. 9. 24.—*Nid bwrw ymaith fudreddi y cnawd:* rhoddai yr Iuddewon lawer iawn o bwys ar eu golchiadau seremonïol; ac yma mae yr apostol yn eu rhybuddio na phwysent felly ar y gweinyddiad allanol yn unig o'r bedydd, heb ymateb cydwybod dda tuag at Dduw, fel y sylwyd uchod. Pan fyddai Iuddewon a chenedloedd yn dyfod i broffesu cristionogaeth, fel hyn y derbynid hwy i'r eglwys; yn hollawl yr un modd ag y derbynid cenedloedd i'r eglwys Iuddewig gynt trwy enwaediad: ond am y ddadl yn nghylch bedydd babanod, y rhai a enid o rieni cristionogol, nid oes yma ddim yn cyfhwrdd â hi. Os oedd babanod y cenedloedd yn cael eu henwaedu gyda eu tadau, pan dderbynid eu rhieni i'r eglwys Iuddewig; mae yn sicr y dylai babanod y cristionogion yr un modd, gael eu bedyddio dàn yr efengyl.

22 * Yr hwn [d] sydd ar ddeheulaw Duw, [e] wedi myned i'r nef; † *a'r* [f] angelion, ‡ a'r awdurdodau, a'r galluoedd, ‖ wedi eu darostwng iddo.

d Marc 16. 19. Act. 1. 11. a 2. 34—36. a 3. 21. Heb. 6. 20. a 8. 1. a 9. 24. e Salm 110. 1. Mat. 22. 44. Marc 12. 36. Luc 20. 42. Rhuf. 8. 34. Col. 3. 1. Heb. 1. 3, 13. a 8. 1. a 10. 12. a 12. 2. f Rhuf. 8. 38. 1 Cor. 15. 24. Eph. 1. 21.

* Yr hwn fel gwystl, ernes, tystiolaeth, a sicrwydd o fywyd tragywyddol, ac fel rhag-flaenor ei bobl, sydd wedi esgyn yn ei gorph adgyfodedig i'r nef, ac sydd yn awr wedi ei orseddu gyda'r mawredd a'r anrhydedd uwchaf ar ddeheulaw Duw; † ac sydd wedi ei wisgo â phob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear; gan fod angelion da a drwg o bob graddau, ‡ a holl lywodraethwyr a breninoedd awdurdodol a galluog y byd hwn, ‖ wedi eu hollawl ddarostwng iddo; fel y byddai iddo ef eu trefnu a'u llywodraethu, eu danfon neu eu hattal, a'u gwneyd yn y naill ffordd neu y llall yn wasanaethgar i'w ogoniant ei hun a'i Dad, ac er daioni ei bobl, fel y mae efe yn ben uwchlaw pob peth i'r eglwys. Gwel ar Ephes. 1. 21, 22.—*Wedi myned i'r nef:* pan mae yr apostol yn llefaru am adgyfodiad a gogoneddiad Crist, mae yn amcanu, nid yn unig ei ddangos ef fel Gwrthddrych ein ffydd a'n hymddiried; ond hefyd i ddangos i ni, os cawn y fraint o ymdebygu iddo ef yn ei ffyddlondeb calonog, y gallwn obeithio cyd-gyfranogi âg ef yn ei ogoniant.

PEN. IV.

Y mae yn eu hannog i beidio â phechu, trwy esampl Crist.

* AM hynny gan [a] ddïoddef o Grist drosom ni yn y cnawd, [b] † chwithau hefyd byddwch wedi eich arfogi â'r un meddwl: [c] ‡ oblegid yr hwn a ddïoddefodd yn y cnawd, a [d] beidiodd â phechod;

a Gwel ar pen. 3. 18. b Rhuf. 13. 12—14. Phil. 2. 5. Heb. 12. 3. c Rhuf. 6. 2, 7, 11. Gal. 2. 20. a 5. 24. Col. 3. 3—5. d Es. 1. 16. Ezec. 16. 41. Heb. 4. 10.

* Gan i Grist yn y natur ddynol, ac yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus, ddyoddef gyda pherffaith ddïannwadalwch ac amynedd dros bechodau ei bobl; † gelwir yma ar ei ganlynwyr ef i fod wedi ymarfogi â'r un meddwl. Fel hyn mewn agwedd ysbryd ymostyngol, hunan-ymwadol, addfwyn, dïysgog, a dïofn; yn deilliaw oddi ar ymddiried yn Nuw, cariad ato, a *zél* dros ei ogoniant; casineb at bechod, a golygiadau gwir-brofiadol o bethau tragywyddol; fel hyn, meddaf, hwy a gadarnâent eu meddyliau yn erbyn digalondid, ofnau, a blinder; a hwy a ddarparid i wrthsefyll hudoliaethau, a dàl i fynu yr ymladdfa yn erbyn byd, cnawd, a diafol, gyda gwroldeb ac egni, a hyny hyd angau; gan fod wedi penderfynu dyoddef yr eithaf diweddaf hwnw er mwyn Crist, os byddai raid: pryd, heb yr arfogaeth dumewnol hon, byddent yn sicr o lesgâu a cholli yn amser profedigaeth. ‡ "Am hyny gan i Grist ddyoddef yn y cnawd," pan groeshoeliwyd ef unwaith dros eu pechodau hwy, ond a adgyfododd o feirw, nid i farw mwyach, ac felly a beidiodd â phechod, fel yr oedd yn gyfrifedig arno; felly hefyd cristionogion, wedi "dyoddef yn y cnawd," mewn cyd-ffurfiad â Christ, trwy farweiddiad eu natur halogedig, trwy ei ras ef ac echlysion *(motives)* yn deilliaw oddi wrth ei groes ef; oeddynt wedi peidio â'r arferiad o bechod: nid oeddynt yn dysgwyl hyfrydwch na boddlonrwydd mewn coledd nac arfer dim gwaharddedig, ac yr oeddynt bob amser yn gwrthsefyll cynhyrfiadau pechod yn eu calonau, ac yn ymdrech i'w attal ef i dòri allan yn eu bucheddau. —Crist yw yr hwn a "ddyoddefodd drosom ni yn y cnawd" yn nechreu yr adnod; ac wedi "dyoddef yn y cnawd, a beidiodd â phechod," fel y sylwyd uchod ar ddiwedd yr adnod: ond wrth yr "hwn a ddyoddefodd yn y cnawd," ac a "beidiodd â phechod," yn niwedd yr adnod; y meddylir y credadyn, mae yn debyg, megys y sylwyd hefyd ar ddiwedd yr adnod. Nid *dyoddef marwolaeth*, yn sicr, a feddylir wrth *ddyoddef yn y cnawd*, yn rhan olaf yr adnod; oblegid yn yr adnod nesaf, sonir am yr *amser sydd yn ol yn y cnawd*, nad yw i gael ei dreulio mwyach i fyw i chwantau dynion, ond i ewyllys Duw. Am hyny "dyoddef yn y cnawd" yn niwedd yr adnod, yw croeshoelio y cnawd, ei wŷniau a'i chwantau; a dyoddef erlid am grefydd yn hytrach na chyd-redeg â'r byd mewn pechodau: ac yr oedd meddwl iddynt ddyoddef felly er mwyn Crist, yn foddion i gadarnâu y cristionogion hyn yn eu hufudd-dod sanctaidd rhagllaw.

2 * Fel [e] na byddo mwyach fyw i [f] chwantau dynion, † ond i [g] ewyllys Duw, ‡ dros yr amser sydd yn ol yn y cnawd.

e pen. 2. 1. Rhuf. 7. 4. Eph. 4. 17, 22—24. a 5. 7, 8. Col. 3. 7, 8. Tit. 3. 3—8. f Hos. 6. 7. Marc 7. 21. Eph. 2. 3. g pen. 2. 15. Salm 143. 10. Mat. 7. 21. a 12. 50. a 21. 31. Marc 3. 35. Ioan 7. 17. Rhuf. 12. 2. Gal. 2. 19, 20. Eph. 5. 17. a 6. 6. Col. 1. 9. a 4. 12. 1 Thes. 5. 18. Heb. 13. 21. 1 Ioan 2. 17.

* Y dyben, neu yr amcan, o'r adnewyddiad barn a buchedd hyn mewn credinwyr, ac o'r gras, trwy yr hwn y gwnaethid y cyfnewidiad hwn, oedd, fel na byddent hwy mwyach fyw i chwantau dynion; sef i goledd a boddloni y chwantau cnawdol a bydol hyny, sydd yn gweithredu yn nghalonau a bucheddau dynion anianol y byd hwn; † ond fel y byddent hwy byw o hyn allan i ewyllys Duw, ac yn ol ei ewyllys ef, mewn pob ysbryd, amcan, a buchedd sanctaidd, yn ol ei orchymynion, ac er ei ogoniant ef; ‡ a hyny yn barâus a gwastadol, dros yr amser oedd yn ol iddynt yn y cnawd, sef dros dymmor eu hoes naturiol yn y byd hwn.—Tebygir fod y gair *cnawd* yn y ddwy adnod uchod, yn cael ei ddefnyddio mewn tair ystyr wahanol. Yn 1af, Am ddynoliaeth sanctaidd Crist. Yn 2il, Am natur halogedig dyn, corph pechod a marwolaeth. Ac yn 3ydd, Am y corph marwol, yn yr hwn mae yr enaid yn pabellu, tra mae yn aros yn y byd hwn.—Mae y gwrthgyferbyniad rhwng "chwantau dynion" ac "ewyllys Duw," yn beth teilwng a dyledus iawn o'n sylw yn y fàn hon.

3 * Canys [h] digon i ni yr amser a aeth heibio o'r einioes [i] i weithredu ewyllys y Cenhedloedd, † gan rodio mewn [k] trythyllwch, trachwantau, [l] meddwdod, [m] cyfeddach, dïotta, [n] a ffiaidd eilun-addoliad:

h Ezec. 44. 6. a 45. 9. Act. 17. 30. Rhuf. 8. 12, 13. i pen. 1. 14. Deut. 12. 30, 31. Rhuf. 1. 20—32. Eph. 2. 2, 3. a 4. 17. 1 Thes. 4. 5. Tit. 3. 3. k Marc 7. 22. 2 Cor. 12. 21. Gal. 5. 19. Eph. 4. 19. Judas 4. l 2 Sam. 13. 28. Diar. 23. 29—35. Es. 5. 11. a 28. 7. Eph. 5. 18. m Gal. 5. 21. n 1 Bren. 21. 26. 2 Cron. 15. 8. Es. 65. 4. Jer. 16. 18. Dat. 17. 4, 5.

* Pan ystyriai y cristionogion hyn yn ddyladwy y

ynenion, i ba rai y danfonwyd dynion i'r byd, hwy a elent yn amlwg, fod yr amser a aethai heibio o'u einiioes yn llawn digon, a mwy na digon hefyd, i eithredu ewyllys y cenedloedd; neu i wastraffu bywyd n y cyflawniad o'r pechodau hyny, a chanlyn yr helntion drygionus ac ofer, yr oedd y paganiaid yn ymoddi cymmaint iddynt. Yr un peth oedd "chwantau ynion" yn yr adnod o'r blaen, âg "ewyllys y cenedloedd" yn yr adnod hon; ac yr oedd y cristionogion yn, yn enwedig y rhan genedlig o honynt, wedi byw n rhŷ hir o lawer ynddynt, ac yn llawn pryd iddynt o yn allan ymwrthod yn gwbl â'r cyfryw bethau, a areulio gweddill bŷr eu hoes i fyw yn sanctaidd yn ol wyllys Duw. † Rhai o'r "chwantau dynion" a enwyd, i'r pechodau yr oedd y "cenedloedd" yn byw wrth eu l hewyllys" ynddynt, oedd y rhai a enwir yn yr adnod on: sef "trythyllwch" aflan a chnawdol; trachwantau mghymmedrol ac anweddaidd am bethau y cnawd; neddwdod difesur ar win a diodydd cryfion; cyfeddach mmhrydlawn mewn gwleddoedd moethus ac annuwiol; rferiad o ddiota gwastadol ar eu penau eu hunain, en gyda chymdeithion o'r un tueddiadau â hwynt; ac lilun-addoliaeth anghyfreithlawn, lle byddai defodau ffaidd yn cael eu cyflawni, fel rhanau o addoliad i'r lilunod.—Gan fod yr Iuddewon yn groes iawn i eilunddoliaeth yn amser yr apostol; tybir mai at y rhan enedlig o'r eglwysi yr oedd efe yn cyfeirio hyn yn enaf. Am y pechodau eraill a enwir yn yr adnod on, gŵyr pawb, ysywaeth, yn rhŷ dda beth ydynt, yd yn nôd yn ein gwlad gristionogol a chrefyddol ni.

4 * Yn yr hyn y maent yn ddïeithr [o] yn ich cablu *chwi*, † am nad ydych yn cydredeg gyd â hwynt i'r unrhyw [p] ormod rhysedd:

o Mat. 23. 25. Luc 15. 13. Rhuf. 13. 13. 2 Pedr 2. 13. Gwel ar pen. 2. 12. a 3. 16.—Act. 13. 45. a 18. 6. 2 Pedr 2. 12. Iudas 10.

* Mae yn debyg fod rhai o'r dynion yr oedd yr aposol yn ysgrifenu atynt, wedi bod yn byw yn y pechodau chod, neu rai o honynt, cyn eu tröedigaeth: ac yn awr ir oedd eu cymmydogion annychweledig, yn enwedig y enedloedd, yn ymddïeithrio oddi wrthynt, ac yn edrych rnnynt fel dynion gorfanwl, hunanol, ac anhydrin; ac m eu hanwybodaeth yn eu cablu hwynt, † am nad oeddmt mwyach yn uno i gyd-redeg â hwy fel cynt, i'r unhyw ormod rhysedd o bechodau ac anghymmedroldeb. i'r oedd ymddygiad sanctaidd y cristionogion yn conemnio eu hafiendid a'u rhysedd hwy; am hyny yr eddynt yn eu cablu hwynt â'u crefydd, ac yn eu yhuddo hwy o bethau nad oeddynt yn euog o honynt. Tybient yn *ddïeithr*, neu yn *rhyfedd*, eu bod wedi cyfewid fel yr oeddynt, a chablent hwy am hyny. Mae y air gwreiddiol *(xenizontai)* a gyfieithir dieithr, yn rwyddo *syndod aruthr* un, wrth weled rhyw beth ewydd, ac anghyffredin.—Yn ol y Saesoneg (a'r Groeg efyd,) fel hyn mae yr adnod:—"Yn yr hyn maent yn wbied yn ddïeithr nad ydych chwi yn cyd-redeg â wynt i'r unrhyw ormod rhysedd, gan eich cablu chwi," eu ddywedyd yn ddrwg am danoch.

5 * Y rhai [q] a roddant gyfrif † i'r hwn [r] sydd arod i farnu y byw a'r meirw.

q Mal. 3. 13—15. Mat. 12. 36. Luc 16. 2. Rhuf. 14. 12. Judas 14, 15. r Salm 50. 6. Preg. 12. 14. Ezec. 18. 30. Mat. 25. 31, 32. Ioan 5. 22, 23, 28, 29. Act. 10. 42. a 17. 31. Rhuf. 14. 10—12. 1 Cor. 15. 51, 52. 2 Tim. 4. 1. Iago 5. 9.

* Ond tra yr oeddynt hwy fel hyn yn cablu, yn camarnu, ac yn condemnio y cristionogion, rhaid iddynt n fuan iawn roddi cyfrif drostynt eu hunain iddo Ef, yr hwn oedd barod i farnu y byw a'r meirw: gan ei fod yd yn nôd y pryd hwnw yn meddu pob gallu ac awurdod i'r perwyl hwnw. Yno caid gweled, ai eu rhysdd hwy, ai sancteiddrwydd y lleill, oedd yr iawn fordd.

6 * Canys er mwyn hynny yr efengylwyd i'r meirw hefyd; [t] † fel y bernid hwy yn ol dynion yn y cnawd, [u] ‡ ac y byddent fyw yn ol Duw yn yr yspryd.

s pen. 3. 19. Ioan 5. 25, 26. t adn. 1, 2. Rhuf. 8. 9—11. 1 Cor. 11. 31, 32. u Rhuf. 8. 2. Gal. 2. 19. a 5. 25. Eph. 2. 3—5. Tit. 3. 3—7.

* Canys pregethwyd yr efengyl cyn hyn, i'r rhai hyny oedd wedi meirw pan oedd yr apostol yn ysgrifenu, (un ai trwy ferthyrdod ai o angau naturiol,) i'r dyben pennodol hyn, † sef "fel y bernid hwy yn ol dynion yn y cnawd;" ac y condemnid hwy fel drwg-weithredwyr gan farn gnawdol a balch dynion drygionus, ac y rhoddid rhai o honynt i farwolaeth; ‡ ond ar yr un pryd, fel y gallent wedi eu bywâu yn ysbrydol yn eu heneidiau gan yr Ysbryd Glân, "fyw i Dduw," fel ei weision ymroddedig ef, a'i dystion ef yn mhlith eu herlidwyr; ac felly cael eu parotôi i fyw byth gydag ef yn y nefoedd. Fel hyn yr oedd eu bŷr drallodau, eu gwarth, a'u dyoddefiadau, yn dybenu yn fuan mewn perffaith ddedwyddwch; ac ar yr un pryd yr oeddynt yn gogoneddu Duw mewn bywyd ac angau, ac yn cael eu nerthu a'u dyddanu ganddo ef: a'r efengyl a fu yn foddion i'w darpar hwynt i'r pethau hyn, ac ydoedd o hyd yn parâu i ddarpar eraill i ogoneddu Duw, i wasanaethu eu cenedlaeth; ac yna, wedi rhyw faint o drallodau bŷrion, i gael eu derbyn i ddedwyddwch digymmysg, a llawenydd tragywyddol a didor yn y nef. Hyn debygid yw meddwl yr adnod, yr hon yn gyffredin a addefir yn dywyll ac yn anhawdd ei deall. Mae rhai yn ei deall am y sawl oedd yn "feirw mewn pechodau," ac y pregethwyd yr efengyl iddynt; fel, wedi eu bywâu a'u dychwelyd, y caffai eu hen natur ei barnu, ei chondemnio, a'i chroeshoelio; fel drwy hyny na byddai iddynt hwy fyw mwyach i chwantau dynion, ond i ogoniant Duw drwy yr Ysbryd. Amryw ddehongliadau eraill a roddir; ond tybir mai y pethau uchod sy fwyaf esmwyth a boddlonawl; ac sydd yn cyssylltu yr adnod hon yn oreu â'r geiriau unionglychol o'i blaen. Y "meirw" yno oedd y rhai oedd wedi marw y pryd hwnw, a'r "byw" oedd y rhai oedd yn fyw ar y ddaear y pryd hwnw: pob un o'r rhai hyn a farnai Crist. Pregethwyd yr efengyl er iachawdwriaeth y gwrandawŵyr; barnwyd y rhai a'i derbyniasant hi yn ol dynion, neu gan farn ŵyr-gam dynion, a chondemniwyd hwy; ond yr oeddynt yn gymmeradwy gan Dduw. Yr un fath oedd hi gyda'r rhai y pregethasid o'r blaen iddynt, y rhai wedi hyny a fuasent feirw; sef y rhai hyny o'r dechreuad a gawsent eu breintio â gair Duw: erlidiwyd a chondemniwyd credinwyr erioed gan ddynion; ond yr oeddynt hwy yn byw yn ol Duw yn yr Ysbryd, neu trwy yr Ysbryd; tra yr oedd eu herlidwyr yn cael eu condemnio gan Dduw, os anedifeiriol y parâent. Barnwyd a chondemniwyd Stephan, ac Iago, yn ol dynion yn y cnawd, neu yn ol barn dynion cnawdol; pryd yr oeddynt trwy yr efengyl, wedi eu dwyn i fyw yn ol Duw, neu yn ol ewyllys Duw, yn yr Ysbryd: a thrwy y farn hòno cawsant eu symmud i fyw gyda Duw byth mewn dedwyddwch.

7 * Eithr [x] diwedd pob peth a nesâodd: [y] † am hynny byddwch sobr, [z] ‡ a gwyliadwrus i weddïau.

x Preg. 7. 2. Jer. 5. 31. Ezec. 7. 2, 3, 6. Mat. 24. 13, 14. Rhuf. 13. 12. 1 Cor. 7. 29. a 15. 24. Phil. 4. 5. Heb. 10. 25. Iago 5. 8. 2 Pedr 3. 9—11. 1 Ioan 2. 19. y Gwel ar pen. 1. 13.—a 5. 8. 1 Thes. 5. 6—8. Tit. 2. 12. z pen. 3. 7. Mat. 24. 42. a 25. 13. a 26. 38—41. Marc 13. 33—37. a 14. 37, 38. Luc 21. 36. a 22. 46. Rhuf. 12. 12. Eph. 6. 18. Col. 4. 2. 2 Tim. 4. 5. Dat. 16. 15.

* Yr oedd yn rhaid i'r cristionogion ddysgwyl gorthrymderau yn y byd hwn, ond yr oedd y rhai hyn i ddybenu yn fuan; oblegid yr oedd "diwedd pob peth wedi nesâu," ac yr oedd angau ar derfynu eu gyrfa hwy o brofedigaethau, llafur, a gwasanaeth: ïe, yr oedd dydd y farn i ddyfod mòr fuan, fel na byddai y cyfwng yn nghyfrif ffydd, ond megys dim i'w gymharu â thragywyddoldeb. † Am hyny yr oedd yn gweddu iddynt hwy fod yn sobr, yn ystyriol, yn dymherus yn y defnyddiad o bob peth a berthynai i'r corph, ac yn gymmedrol yn eu holl achosion bydol. ‡ Dylent hefyd

fod yn wyliadwrus, ac yn ochelgar rhag amryw ymosodiadau eu gelynion ysbrydol: ac yn enwedig bod yn wyliadwrus na byddai i ddim eu hanaddasu hwy i weddïau, neu beri iddynt esgeuluso gweddïau, neu fod yn ddiofal ac oerllyd yn y ddyledswydd a'r moddion hyny o ras, ar yr hyn yr oedd diogelwch a llwyddiant eu heneidiau yn ymddybynu mòr fawr.—Mae rhai yn meddwl fod "diwedd pob peth" yn cyfeirio at ddinystr nesâol Jerusalem, a holl osodiadau y genedl Iuddewig mewn gwlad ac eglwys; ond yr oedd y cristionogion hyn yn Asia Leiaf yn mhell o Jerusalem, ac ni pherthynai y dinystr hwnw yn union-gyrchol â hwy; fel yr oedd angau a barn yn perthyn iddynt hwy ac i bawb eto; a mwy naturiol yw meddwl, mai at hyny yr oedd yr apostol yn cyfeirio, fel y sylwyd.

8 * Eithr, [a] o flaen pob peth, bydded gennych [b] gariad helaeth tu ag at eich gilydd: [c] † canys cariad a guddia liaws o bechodau.

a Col. 3. 14. Iago 5. 12. 3 Ioan 2. b pen. 1. 22. 1 Cor. 13. 1—13. a 14. 1. 1 Thes. 3. 12. a 4. 9, 10. 2 Thes. 1. 3. 1 Tim. 1. 5. Heb. 13. 1. 2 Pedr 1. 6, 7. c Diar. 10. 12. a 12. 16. a 17. 9. a 28. 13. 1 Cor. 13. 7. Iago 5. 20.

* Mae yr apostol yma eto (gwel ar pen. 1. 22.) yn eu cyngori hwy yn flaenaf o bob peth, ac yn benaf o bob peth, i goleddu cariad helaeth, gwresog, brawdol, a chalonog, tuag at eu gilydd; yn enwedig yn yr amserodd enbyd hyny, gan gymmeryd eu cymhell i hyny gan yr ystyriaeth o amhraethol gariad Duw yn Nghrist tuag atynt hwy. † Oblegid fel yr oedd Duw, yn mawrdd ei gariad tuag atynt hwy, wedi maddeu yn rhad, a chuddio eu holl bechodau, fel na ddeuai dim o honynt i farn yn eu herbyn; felly hefyd y byddai cariad gwresog a diragrith ynddynt hwy tuag at eu gilydd, er mwyn Crist, ac mewn ufudd-dod i'w orchymyn ef, eu llenwi hwy â thymer faddeugar tuag at eu gilydd, a chuddio amryw wendidau eu gilydd rhag eu digter eu hunain, fel y gallent edrych drostynt yn dirion, a'u cuddio yn ofalus oddi wrth eraill, yn hytrach nâ'u dynoethi iddynt. Fel hyn byddai heddwch yr eglwys, a chymundeb y saint, yn cael eu cadw; yr hyn heb hyny a gawsent eu haflonyddu: oblegid yr oedd cymmaint o wallau yn mhawb, fel os na wnaethai cariad eu cuddio, eu hesgusodi, a'u maddeu mewn eraill, fel yr oedd mynych angen ar bob un i eraill gyd-ddwyn âg ef ei hun; buasai Satan yn llwyddo i gynhyrfu ymraniadau, anghydfod, a therfysgau gwastadol yn eu plith hwy. Gwel ar Iago 5. 20. Nid cuddio cnawdol, pleidiol, a phechadurus, yw y cuddio a feddylir yma, fel y cuddia rhai bechodau eu hoff gyfeillion, er y gwyddant eu bod yn syrthio yn aml iddynt, ac yn wir yn byw ynddynt: cuddio sydd yn gwneyd mwy o niwed nac o les i'r troseddwr yw y cuddio hwnw; a thrwm fydd cyfrif y troseddwr a'r cuddiwr, pan chwilio Duw bob un o honynt allan. Gwelsom lawer o'r cuddio beïus hwnw, a gwelsom y niwed mawr o hono wedi hyny.

9 * Byddwch [d] lettygar y naill i'r llall, [e] † heb rwgnach.

d Rhuf. 12. 13. a 16. 23. 1 Tim. 3. 2. Tit. 1. 8. Heb. 13. 2. e 2 Cor. 9. 7. Phil. 2. 14. Philemon 14. Iago 5. 9.

* Dyledswydd arall o gariad oedd, bod yn llettygar y naill i'r llall, ar bob achlysuron y byddai eisiau cymmwynasau felly ar neb o'r frawdoliaeth. † A dylent fod yn llettygar felly i'w gilydd, heb rwgnach mewn geiriau nac yn y meddwl, o herwydd unrhyw gost neu drafferth a fyddai arnynt i groesawi eu gilydd yn achlysurol. Sylwyd ar hyn amryw weithiau o'r blaen: tröed y darllenydd at yr ysgrythyrau cyfeiriol.

10 [f] * Pob un, megis y derbyniodd rodd, [g] † cyfrenwch â'ch gilydd, ‡ fel [h] daionus oruchwylwyr [i] amryw ras Duw.

f Mat. 25. 14, 15. Luc 19. 13. Rhuf. 12. 6—8. 1 Cor. 4. 7. a 12. 4—11. g Mat. 20. 28. a 25. 44. Marc 10. 45. Luc 8. 3. Rhuf. 15, 25, 27. 2 Cor. 9. 1. 2 Tim. 1. 18. Heb. 6. 10. h Luc 12. 42. a 16. 1—8. 1 Cor. 4. 1, 2. Tit. 1. 7. i 1 Cor. 3. 10. a 15. 10. 2 Cor. 6. 1. Eph. 3. 8. a 4. 11.

* A pha rodd neu dalent bynag a dderbyniasai pob un o honynt, er llenwi swyddau cyhoeddus, neu ryw wasanaeth iselach yn yr eglwys, megys doniau naturiol, dysgeidiaeth, cyfoeth, awdurdod, neu ddoniau ysbrydol, † dylai pob un eu defnyddio er lles i'w frodyr; fel drwy hyny y gallent oll fod yn wasanaethgar i'w gilydd, ac i'r naill gael lles oddi wrth y llall, yn eu hachosion tymmorawl ac ysbrydol hefyd. ‡ Fel hyn hwy a ymddygent fel daionus, ffyddlawn, doeth, a llafurus oruchwylwyr, yr amryw dalentau hyny, a roddasai Duw yn ei helaeth drugaredd a'i ras iddynt, er eu lles eu hunain a lles eu gilydd. Goruchwylwyr yn trin achosion *teuluaidd*, dàn arglwydd y teulu, yw ystyr y gair *oikonomoi*.

11 * Os [k] llefaru a wna neb, *llefared* [l] megis geiriau Duw; [m] † os gweini y mae neb, *gwnaed* megis o'r [n] gallu y mae Duw yn ei roddi: [o] ‡ fel ym mhob peth y gogonedder Duw [p] trwy Iesu Grist; [q] || i'r hwn y byddo y gogoniant [r] a'r gallu yn oes oesoedd. § Amen.

k Es. 8. 20. Jer. 23. 22. Eph. 4. 29. Col. 4. 6. Iago 1. 19, 26. a 3. 1—6. l Act. 7. 38. Rhuf. 3. 2. Heb. 5. 12. m Gwel ar adn. 10. n 1 Cron. 29. 11—16. Rhuf. 12. 6—8. 1 Cor. 12. 4. o pen. 2. 5. 1 Cor. 6. 20. a 10. 31. 2 Cor. 9. 13. Eph. 3. 20, 21. a 5. 20. p pen. 2. 5. Phil. 1. 11. a 2. 11. q pen. 5. 11. Rhuf. 16. 27. Eph. 3. 21. 1 Tim. 1. 17. a 6. 16. Judas 25. Dat. 1. 5, 6. r Salm 145. 13. Dan. 4. 3, 34. a 7. 14. Mat. 6. 13. Dat. 5. 12—14.

* Yr oedd y cyngor blaenorawl yn perthyn yn benaf, er nad mewn un modd yn *unig*, i weinidogion yr efengyl, a'r rhai oedd wedi eu gosod i drin achosion yr eglwysi. Gan hyny os llefaru a wnelai neb, fel athraw cyhoeddus, neu ynte mewn ymddiddanion neillduol; llefared mewn cysondeb â geiriau Duw, y rhai sydd yn auffaeledig yn datgan ei wirionedd a'i ewyllys ef i ddynion: a llefared hefyd mewn modd sobr, difrifol, dwys, a sanctaidd, fel y gweddai i eiriau Duw, ac i'r Duw a'u rhoddes hwynt. † Os oedd neb yn gweithredu fel *diacon*, neu mewn unrhyw fodd arall yn gweini er cynnaliaeth a chysur y saint, neu y tlodion; gwnaed hyny hyd eithaf ei allu; yn ffyddlawn, yn ddoeth, yn dyner, ac yn ddiwyd, yn ol y gallu a'r modd a roddasai Duw iddo, o ran corph, iechyd, cyfleusderau, a phethau a ymddiriedwyd iddo ef i'r perwyl hwnw. ‡ Fel yn y pethau uchod oll, yn dymmorawl ac ysbrydol, y caffai Duw ei ogoneddu yn y cyflawniad o'u gwahanol ddyledswyddau, ac yn yr iawn ddefnyddiad o'u talentau, oddi ar ffydd, ac awydd am roddi iddo ef y gogoniant o'r hyn oll a feddent ac a wnaent; || gan briodoli iddo ef, trwy Iesu Grist, holl anrhydedd ei berffeithiau a'i ryfedd weithredoedd yn oes oesoedd. § Ac er tystiolaeth o'u gwir ddymuniad, a'u sierwydd gorfoleddus, mai felly y byddai; dywedent oll yn unfryd, Amen.

12 * Anwylyd, [s] na fydded dïeithr gennych † am y [t] profiad tanllyd sydd ynoch, yr hwn a wneir er profedigaeth i chwi, [u] ‡ fel pe bai beth dïeithr yn digwydd i chwi:

s adn. 4. Es. 28. 21. t Gwel ar pen. 1. 7.—Dan. 11. 35. 1 Cor. 3. 13. u pen. 5. 9. 1 Cor. 10. 13. 1 Thes. 3. 2—4. 2 Tim. 3. 12.

Mae yr apostol yma eto, yn cyngori ei frodyr i amynedd, gwrolder, a sirioldeb, dàn eu dyoddefiadau yn achos Crist. Soniodd o'r blaen am y pethau hyn, fel pethau wedi eu bwriadu i brofi eu ffydd ac i buro eu heneidiau hwynt; fel mae y tân yn profi ac yn coethi yr aur, (gwel ar pen. 1. 7.) * Gan hyny ni ddylent ryfeddu, a sùnu yn "ddïeithr;" neu ddychrynu, a digaloni yn aruthr; † am y "profiad tanllyd oedd yn-ddynt," yr hwn a drefnasai Duw i'w profi hwynt, a thrwy yr hwn yr oedd yn rhaid iddynt fyned; ‡ fel pe buasai ryw beth "dïeithr" ac anarferol wedi dygwydd iddynt hwy, ac nad oedd gan neb eraill o bobl Dduw brofiad o'i gyffelyb: ac na feddylient fod hyn yn beth "dïeithr" i drefn cariad Duw tuag at ei anwyl blant; neu ei fod ef yn ymddwyn yn galed tuag atynt *hwy*, yn ei waith yn eu galw i ddyoddef y pethau hyn.—*Na fydded dïeithr genych:* dysgwyliwch y cyfryw bethau yn ol gair yr Arglwydd Iesu, (Ioan 16. 33.) ac ymddar

parwch iddynt.—*Profiad tanllyd:* "llosgiad er prawf," nedd *Scott*, yw y geiriau Groeg; fel y gwnair âg aur i'w profi a'i buro.

13 * Eithr [x] llawenhêwch, † yn gymmaint fa'ch bod yn gyfrannogion o ddïoddefiadau Crist; ‡ fel, [z] pan ddatguddier ei ogoniant ef, [a] ‖ y byddoch yn llawen ac yn gorfoleddu.

x pen. 1. 6. Mat. 5. 12. Luc 6. 22, 23. Act. 5. 41. a 16. 25. Rhuf. 5. 3. 2 Cor. 4. 17. a 12. 9, 10. Iago 1. 2, 3. y pen. 5. 1, 10. Rhuf. 8. 17. 2 Cor. 1. 7. a 4. 10. Phil. 3. 10. Col. 1. 24. 2 Tim. 2. 12. Dat. 1. 9. z pen. 1. 5, 6, 13. Mat. 16. 27. a 25. 31. Marc 8. 38. Luc 17. 30. 2 Thes. 1. 7—10. Dat. 1. 7. a pen. 1. 8. Es. 25. 9. a 35. 10. a 51. 11. Mat. 25. 21, 23, 34.

* Ar y llaw arall, dylent lawenâu yn rhyfeddol, a llàmu o wir a mawr orfoledd; † am eu bod yn gyfrannogion o ddyoddefiadau Crist, ac yn cael eu cyd-ffurfio âg ef, trwy ddyoddef oddi wrth yr un fath ddynion, ac am yr un achos, ag y dyoddefodd Crist ei hun. Dyoddefiadau Crist oedd eu dyoddefiadau hwy, yn gymmaint fa'i fod ef yn cyd-ymdeimlo â hwynt oll yn eu holl gystuddiau, ac yn cyfrif eu cystuddiau hwy fel yr eiddo ei hun; am eu bod er ei fwyn ef, a hwythau yn bobl iddo ef. ‡ Dylent gyfrif eu dyoddefiadau fel gwystlon cariad, ac yn arweiniol i gyfranogiad o ogoniant Crist; fel, pan ddatguddid y gogoniant hwnw yn ei ail ddyfodiad ef, ‖ y caffent hwythau eu derbyn i gyfranogi o hóno, gyda llawenydd a gorfoledd annhraethol a thragywyddol.

14 * Os [b] difenwir [c] chwi er mwyn enw Crist, [d] † gwyn *eich* byd: [e] ‡ oblegid y mae Yspryd y gogoniant, ac *Yspryd* Duw yn gorphwys arnoch. [f] ‖ Ar eu rhan hwynt yn wir efe a geblir, [g] § ond ar eich rhan chwi efe a ogoneddir.

b pen. 2. 19, 20. a 3. 14, 16. c adn. 4, 5. Salm 69. 9. a 89. 51. Es. 51. 7. Mat. 5. 11. Luc 6. 22. Ioan 7. 47—52. a 8. 48. a 9. 28, 34. d 1 Bren. 10. 8. Salm 32. 1, 2. a 146. 5. Iago 1. 12. a 5. 11. e Num. 11. 25, 26. 2 Bren. 2. 15. Es. 11. 2. f Act. 13. 45. a 18. 6. 2 Pedr 2. 2. g pen. 2. 12. a 3. 16. Mat. 5. 16. Gal. 1. 24. 2 Thes. 1. 10—12.

* Ac os caent eu difenwi a'u gwaradwyddo er mwyn enw Crist, am eu bod yn proffesu ei enw ef, a gwirioneedd yr efengyl, ac yn ufuddâu i'w orchymynion ef; ac os cymmerent hyny yn amyneddgar, ac hyd yn nôd yn llawen; † dylent ystyried eu hunain yn ddynion dedwydd a gwynfydedig iawn; am y byddai hyny yn arwydd Haionus o'u hundeb a'u cymundeb â Christ, ac y byddai yn sicr trwy ei ras ef, o droi allan er lles a dedwyddwch dragywyddol iddynt. ‡ Yr oedd hyn hefyd yn brawf amlwg presenol, fod yr Ysbryd Glân, "Ysbryd y gogoniant," yr hwn sydd ogoneddus yn ei dragywyddol Dduwdod, ac yn Awdwr pob peth sydd yn wir ogoneddus a trhagorol mewn dynion; sef "Ysbryd Duw," o'r un hanfod â Duw, yn gorphwys arnynt hwy; i'w cynnal a'u diddanu yn eu holl drallodau, i'w dwyn yn anrhydeddus trwyddynt, ac i'w gwaredu yn ogoneddus o honynt oll yn y diwedd. ‖ Fel hyn yr oedd gogoniant Duw i'w weled yn eu hysbryd a'u hymddygiadau hwynt; ac yr oedd hyny yn cyffrôi gelyniaeth eu herlidwyr cnawdol: felly, ar ran eu gelynion yr oedd yr Ysbryd Glân a'i weithrediadau, yn gystal â Christ a'r Tad a'i hanfonasant ef, yn cael ei ddifenwi a'i gablu; § ond ar eu rhan hwynt yr oedd yr Ysbryd Glân, mewn undeb â'r Tad a Christ, yn cael ei ogoneddu; fel yr oeddynt hwy trwy ei nerth, ac er ei fwyn ef, yn dyoddef yn amyneddgar yr holyniaeth hòno, a gawsai ei chyffrôi gan eu proffes offyddlawn, a'u hymarweddiad sanctaidd hwynt.—Tybir fod yr Ysbryd Glân yn gorphwys, mewn modd gogoneddus iawn ac amlwg, ar y prif-gristionogion gynt, ac yn taenu gogoniant rhagorol o'u hamgylch; pan oeddynt yn cael eu gwawdio, eu dirmygu, a'u poeni gan eu gelynion, y rhai oedd ddigon caled i'w gablu ef.

15 * Eithr na [h] ddïoddefed neb o honoch fel llofrudd, neu leidr, neu ddrwg-weithredwr, [i] † neu fel un yn ymyrreth â materion rhai eraill:

h pen. 2. 20. Mat. 5. 11. 2 Tim. 2. 9. i 1 Thes. 4. 11. 2 Thes. 3. 11. 1 Tim. 5. 13.

Ond, gwahanol iawn fyddai yr achos, os gwnaent hwy eu hunain yn agored i ddyoddef am droseddau; byddai hyny yn dra dïanrhydeddus i Dduw, ac yn dra niweidiol iddynt hwythau. * Am hyny dylent fod yn ofalus iawn, na byddai dim rhaid dwyn neb o honynt o flaen swyddogion, eu taflu i garcharau, neu eu coll-farnu, am lofruddiaeth, neu ladrad, nac am unrhyw drosedd arall ar gyfreithiau da; † ïe, dylent ochel rhag tynu gwaradwydd arnynt eu hunain, trwy ymyraeth â materion rhai eraill, pa un bynag ai pethau personol, teuluaidd, cymmydogaethol, neu fwy cyhoeddus a fyddent, yn enwedig pethau gwladol, ac yn perthyn i'r llywodraeth. Dylent wylied rhag barnu a beïo ar bethau felly, ac ymwthio yn ddïalwad i ymyraeth â phethau nad oedd yn perthyn iddynt; fel pe buasent hwy wedi eu gosod a'u hawdurdodi, ac yn addas i drefnu a rhoi gorchymynion, i rai mewn gwasanaeth a swyddau o'r fath hyny.

16 * Eithr [k] os fel Cristion, [l] † na fydded gywilydd ganddo; [m] ‡ ond gogonedded Dduw yn hyn o ran.

k adn. 19. pen. 3. 17, 18. Act. 11. 26. a 26. 28. Eph. 3. 13—15. l Es. 50. 7. a 54. 4. Phil. 1. 20. 2 Tim. 1. 12. Heb. 12. 2, 3. m Es. 24. 15. Act. 5. 41. Rhuf. 5. 2—5. Phil. 1. 29. Iago 1. 2—4.

Pethau o'r fath uchod oeddynt achosion cyffredin, a chyfiawn, i ddynion ddyoddef cospedigaethau cyhoeddus neu warth personol; a gallai proffeswyr yr efengyl gael eu tynu i'r cyfryw gam-ymddygiadau, ac eto gwag ddychymmygu eu bod yn cael eu herlid am eu crefydd! * Ond os oeddynt hwy yn ymgadw rhag y cyfryw bethau, ac yn dyoddef fel cristionogion, am ymddwyn yn addas i'r broffes anrhydeddus hòno; † ni ddylent mewn un modd gywilyddio o'r gwarth oedd yn gyssylltiedig â'u dyoddefiadau, pe carchar, ffrewyllu, ïe, angau gwaradwyddus, a fyddai hyny: ‡ ïe, dylent yn hytrach glodfori a gogoneddu Duw yn hyny o ran; "am iddo eu cyfrif hwynt yn deilwng i ddyoddef anmharch, o achos ei enw ef." Act. 5. 41. Gogonedded Dduw am ei gadw ef rhag dyoddef fel drwg-weithredwr; ac am gael dyoddef, a'i nerthu i ddyoddef, fel Cristion.

17 * Canys *daeth* yr amser i [n] ddechreu o'r farn o dŷ Dduw: [o] † ac os *dechreu hi* yn gyntaf arnom ni, [p] ‡ beth *fydd* diwedd y rhai [q] nid ydynt yn credu i efengyl Duw?

n Es. 10. 12. Jer. 25. 29. a 49. 12. Ezec. 9. 6. Mal. 3. 5. Mat. 3. 9, 10. Luc 12. 47, 48. o Luc 23. 31. p Mat. 11. 20—24. Luc 10. 12—14. Heb. 2. 2, 3. a 12. 24, 25. q pen. 2. 8. Gal. 3. 1. a 5. 7. 2 Thes. 1. 8. Heb. 5. 9. a 11. 8.

* Nid cyngorion dibwys ac afreidiol oedd y pethau uchod, y pryd yr ysgrifenwyd hwynt, ac i'r bobl yr ysgrifenwyd hwynt atynt: oblegid yr oedd i'w ddysgwyl yn fuan iawn, y byddai raid i gristionogion ddyoddef fel hyn dros achos Crist. Canys yr oedd yr amser a ragfynegasid ganddo ef ei hun, pryd y dechreuai efe ei farn, trwy brofi ei ddysgyblion proffesedig yn llym yn gyntaf, y rhai a elwir yma "tŷ Dduw;"—yr oedd yr amser hyny y pryd hwn wedi dyfod, neu ar y drws yn barod i ddyfod: † ac os oedd raid cael profedigaethau tanllyd i brofi ac i buro yr eglwys, ac i garthu y rhagrithwyr allan o hóni, cyn i'r farn gael ei thywallt ar y genedl Iuddewig, a gelynion cyhoeddus eraill; ‡ beth fyddai diwedd y rhai nid oeddynt yn credu i efengyl Duw? rhaid dysgwyl i ddigofaint hyd yr eithaf, a barn o'r fath fwyaf dychrynllyd ac ofnadwy, i ddyfod arnynt hwy. Yr erledigaethau, trwy ba rai y cafodd yr eglwys ei phrofi, oeddynt yn arweiniol i ddinystr Jerusalem, a dystryw dychrynllyd yr Iuddewon; ac yn rhag-ddarparol i ddydd y farn a dystryw yr holl anwir ddynion.—*Dechreu o'r farn o dy Dduw:* tybir fod yr apostol yn cyfeirio yma at Ezec. 9. 6, *Ac ar fy nghyssegr y dechreuwch:* ond nid y deml a feddylir yma wrth *dy Dduw*, eithr yr eglwys gristionogol, mewn cyferbyniad i'r deml.

18 * Ac [r] os braidd y mae y cyfiawn yn gadwedig, [s] † pa le yr ymddengys yr annuwiol [t] a'r pechadur?

r pen. 5. 8. Ezec. 18. 24. Zec. 13. 9. Mat. 24. 22—24. Marc 13. 20—22. Act. 14. 22. a 27. 24, 31, 42—44. 1 Cor. 10. 12. Heb. 4. 1. a 10. 38, 39. s Salm 1. 4, 5. Rhuf. 1. 18. a 5. 6. 2 Pedr 2. 5, 6. a 3. 7. Judas 15. t Gen. 13. 13. 1 Sam. 15. 18. Luc 15. 1. Rhuf. 5. 8.

* "Ac os braidd," neu gydag *anhawsdra*, yr oedd y cyfiawn yn gadwedig; os, er eu perthynas â Christ a'u hundeb âg ef, ac er eu hufudd-dod cydwybodol a hunan-ymwadol iddo; yr oedd cynnifer o brofedigaethau, peryglon, ymladdfeydd, a dyoddefiadau, yn angenrheidiol iddynt hwy; ac os, yn ol eu hofnau a'u teimladau eu hunain, nid oeddynt yn aml ond *braidd* yn gadwedig, ac yn myned i'r nefoedd yn y diwedd trwy lawer o ddiangfeydd culion iawn; yn debyg i fôrwyr mewn llong-ddrylliad, o *braidd* yn cyrhaedd y làn ar esdyllod: † pa le yr ymddangosai yr annuwiolion o bob math, a'r pechaduriaid aflan, drygionus, ac anedifeiriol; dirmygwyr a gwrthwynebwyr yr efengyl, yn y dydd hwnw o farn ofnadwy; a pha le yr ymddengys y cyfryw rai yn nydd y farn ddiweddaf?—Pa noddfa a allant hwy ddysgwyl gael rhag digofaint Duw? Neu pa obaith sydd ganddynt, y gallant ddianc rhag y gosp dragywyddol, a fygythir arnynt yn yr ysgrythyrau sanctaidd?—Tybia *Guyse* mai *cadwedigaeth dymmorawl*, rhag y farn oedd i ddyfod y pryd hwnw, a feddylir yma yn benaf; ond tybia ein Hawdwyr eraill mai *cadwedigaeth* ysbrydol a feddylir; mòr anhawdd yw i ddynion duwiol fyned i'r nefoedd, trwy y byd maglus a pheryglus hwn.

19 [u] * Am hynny y rhai hefyd sydd yn dioddef yn ol ewyllys Duw, [x] † gorchymynant eu heneidiau *iddo ef*, [y] ‡ megis i Greawdwr ffyddlawn, [z] || gan wneuthur yn dda.

u Gwel ar adn. 12—16. pen. 3. 17. Act. 21. 11—14. x Salm 31. 5. Luc 23. 46. Act. 7. 59. 2 Tim. 1. 12. y Salm 138. 8. a 146. 5, 6. Es. 40. 27, 28. a 43. 7, 21. a 51. 12, 13. a 54. 16, 17. Col. 1. 16—20. Heb. 1. 2, 3. Dat. 4. 10, 11. a 5. 9—14. z pen. 2. 15. Esther 4. 16. Jer. 26. 11—15. Dan. 3. 16—18. a 6. 10, 11, 22. Rhuf. 2. 7.

* Am hyny, gan nad oedd profedigaethau y cristionogion ond ysgafn, mewn cymhariaeth i ddinystr yr annuwiolion, neu i'r dedwyddwch oedd wedi ei ddarpar i'r rhai cyfiawn; hwy a ddylent wrth ddyoddef yn achos ac yn ol ewyllys Duw, † orchymyn cadwedigaeth eu heneidiau (yn gystal â'u bywydau naturiol a'u holl achosion eraill,) i'w ofal holl-alluog ef: ‡ yr hwn, fel eu Crëawdwr, oedd â hawl ganddo ynddynt fel ei grëaduriaid rhesymol, ac oedd yn eu hystyried hwynt fel ei weision prynedig a gwaredol, wedi eu crëu o newydd i sancteiddrwydd, ac â rhan iddynt yn holl fendithion ei gyfammod, ac yn ei ffyddlondeb ef i gyfiawni ei gyfammod iddynt. || Am hyny gan barâu yn ofalus i "wneuthur yn dda" yn mhob peth a thuag at bawb, a dyoddef yn addfwyn, yn amyneddus, ac yn ddïysgog, heb droi oddi ar y ffordd gan ofn, ysbryd dial, nac egwyddorion bydol; bydded iddynt ymddiried eu hunain i ofal ffyddlawn Duw, yr hwn, fel Crëawdwr y byd, oedd yn llawn alluog i'w cynnal hwynt, eu dyddanu, eu gwaredu, a'u cadw yn dragywyddol; ac yr hwn, fel yr oedd yn awr wedi myned yn Iachawdwr iddynt, a fyddai yn sicr o oruwch-lywodraethu pob peth er eu daioni hwynt yn y diwedd.—"Gwneuthur yn dda" oedd gorchymyn eu hunain i Dduw; a "gwneuthur yn dda" yn mhob peth arall, oedd llwybr eu dyledswydd hwy wrth orchymyn eu hunain felly iddo ef. Yr olaf a feddylir.

PEN. V.

Annog yr henuriaid i borthi praidd Crist.

* YR [a] henuriaid sydd yn eich plith, † attolwg iddynt yr ydwyf fi, [b] yr hwn wyf yn gyd-henuriad, [c] ‡ a thyst o ddioddefiadau Crist, [d] || yr hwn hefyd *wyf* gyfrannog o'r gogoniant a ddatguddir:

a Act. 11. 30. a 14. 23. a 15. 4, 6, 22, 23. a 20. 17, 28. a 21. 18. 1 Tim. 5. 1, 19. Tit. 1. 5. b 2 Ioan 1. 3 Ioan 1. c pen. 1. 12. Luc 24. 48. Ioan 15. 26, 27. Act. 1. 8, 22. a 2. 32. a 3. 15. a 5. 30—32. a 10. 39—41. d adn. 4. pen. 1. 3—5. Salm 73. 24, 25. Rhuf. 8. 17, 18. 2 Cor. 5. 1, 8. Phil. 1. 19, 21—23. Col. 3. 3, 4. 2 Tim. 4. 8. 1 Ioan 3. 2. Dat. 1. 9.

* Yma mae yr apostol yn cyngori yr henuriaid oedd yn yr eglwysi, gwaith y rhai yn gyffredin oedd, addysgu a llywodraethu y cristionogion mewn pethau crefyddol: † a chan adael heibio yr enwad uwch, o apostol, mae efe yn eu cyfarch hwy fel un ag oedd yn gyd-henuriad â hwynt; ac fel y cyfryw yn gydnabyddus o natur ac anhawsderau eu gwaith hwynt. Yr oedd yr apostolion oll yn henuriaid, ond nid oedd yr henuriaid oll yn apostolion: ac wrth fod yr apostol hwn fel hyn yn ei gyfenwi ei hun yn "gyd-henuriad," ac yn "attolwg" ar ei frodyr, mae yn amlwg nad oedd ynddo ef ddim chwant ymchwyddo, rhŷ-flaenori, a thra-arglwyddiaethu yn mhlith ei frodyr. Cywilyddied y Pab o'i chŵydd a'i dra-arglwyddiaeth, dàn y rhith ei fod yn olynydd St. Petr, ac yn eistedd yn ei gadair ef. ‡ Yr oedd Petr hefyd wedi bod yn dyst llygaid o ddyoddefiadau Crist, yn yr ardd, ac efallai ar y groes; a chwedi ei osod a'i anfon fel apostol, i *dystiolaethu* y pethau mawrion hyny, yn nghyd âg adgyfodiad, esgyniad, a gogoneddiad ei Arglwydd wedi hyny, yn ei weinidogaeth gyhoeddus i bawb. || Yn mhellach, yr oedd efe yn llawn sicr fel credadyn wedi maddeu iddo a'i gyfiawnâu, ac wedi ei selio trwy waith sancteiddâol yr Ysbryd Glân, ei fod wedi ei alw i etifeddu, ac y ca'i efe yn y diwedd gyfranogi, "o'r gogoniant a ddatguddir," ac a roddir yn gyhoeddus ar yr holl saint, pan ddaw yr Arglwydd Iesu i farnu y byd.

2 [e] * Porthwch [f] braidd Duw, yr hwn sydd yn eich plith, [g] † gan fwrw golwg *arnynt;* [h] ‡ nid trwy gymmell, eithr yn ewyllysgar; [i] || nid er mwyn budr-elw, eithr [k] o barodrwydd meddwl;

e Can. 1. 8. Es. 40. 11. Ezec. 34. 2, 3, 23. Mica 5. 4. a 7. 14 Ioan 21. 15—17. Act. 20. 28. f Es. 63. 11. Jer. 13. 17, 20. Ezec. 34. 31. Zec. 11. 17. Luc 12. 32. 1 Cor. 9. 7. g Heb. 12. 15. h Es. 6. 8. 1 Cor. 9. 16, 17. i Es. 56. 11. Jer. 6. 13. a 8. 10. Mica 3. 11. Mal. 1. 10. Act. 20. 33, 34. 2 Cor. 12. 14, 15. 1 Tim. 3. 3. Tit. 1. 7, 11. 2 Pedr 2. 3. Dat. 18. 12, 13. k Act. 21. 13. Rhuf. 1. 15. Tit. 2. 14. a 3. 1.

* Gan lafurio yn ddyfal ei hun fel apostol a henuriad, i borthi praidd Duw yn ol gorchymyn ei Arglwydd iddo; (Ioan 21. 15—17.) mae efe yma yn "attolwg" yn y modd tyneraf ar bawb, ag oedd wedi eu neilldu i'r un gwaith pwysig, i fod yn ddiwyd iawn yn y cyflawniad o hono; gyda'r gofal hunan-ymwadol, tyner, ac amyneddgar, â pha un y mae bugail yn gofalu am ei braidd. Dylent ofalu am borthi praidd Duw â gwybodaeth ac â deall, am bob peth ysbrydol ac angenrheidiol i'w hiachawdwriaeth; ymgais am eu magu a'u meithrin hwynt mewn profiad ysbrydol o bethau ysbrydol; a chadw dysgyblaeth ac iawn-drefn sanctaidd arnynt yn ol rhëolau a chyfarwyddyd gair Duw. † Dylent ystyried y cynnulleidfâoedd ar ba rai yr oeddynt yn llywodraethu, ac yn mhlith pa rai yr oeddynt yn llafurio, fel rhanau o braidd prynedig ac anwyl Duw; ac felly bwrw golwg arnynt, yn fanol, bob yn un ac un; gan chwilio yn fanol i'w hegwyddorion, eu profiadau, eu hysbryd oedd, eu tymherau, a'u hymddygiadau; ac felly eu porthi a'u bugeilio yn ofalus ac yn ffyddlawn. ‡ Dylent wneyd hyny, nid trwy gymhell; nid yn unig am fod rhaid iddynt yn ol eu swydd, ac nas gallent yn iawn beidio, heb ddyfod dàn gerydd a gwarth am esgeuluso dra; ond yn ewyllysgar, o *zel* at ogoniant Duw, a chariad at eneidiau ei bobl: || nid er mwyn budr-elw, fel rhagau-athrawon: (Tit. 1. 11.) nid gyda dyben cyflogaidd o gael elw bydol, yr hyn oedd lygredig yn ei natur, yn halogi y gydwybod, ac yn anurddo swydd sanctaidd; rhai a'i gwnelent yn brif a llywodraethol amcan; eithr o barodrwydd meddwl a chalon, i ymafaelyd yn y gwaith

ymyfryd hwn, ac i barâu ynddo, yn unig er anrhydedd i Grist a lles i eneidiau dynion; fel rhai yn barod i wrthsirin anhawsderau, i wynebu peryglon, i ddyoddef colledion, gwaradwyddiadau, ac erlidiau, mewn gwaith mòr eilda. *Gan fwrw golwg:* "gan esgobaethu," neu "gan ymyflawni y swydd esgobawl," meddant, yw ystyr y gair ffroeg, *episkopountes:* pa fodd bynag, yr *henuriaid* oedd i *esgobaethu*, neu i gyflawni y swydd *esgobawl;* felly yr un peth yw *henuriaid* âg *esgobion* yma. *Nid rwy gymhell:* nid hawdd oedd cael dynion i gymmeryd swydd o henuriaeth, ac i fod yn ffyddlawn ynddi, y roryd hwnw; gan y llafur mawr, a'r dyoddefiadau aml, oedd yn nglŷn â'r swydd. *Nid er mwyn budr-elw:* nid allawer o elw o un math oedd yn deilliaw i henuriaid na gweinidogion y pryd hwnw; ond rhag-welai yr apostol bod ysbryd o'r fath yn dechreu ymddangos y pryd hwnw, yn enwedig yn y gau-athrawon; a rhybuddiai yr henuriaid hyn yn ei erbyn. Cofied yr eglwysi oll, mai nid *budr-elw* yw *tâl cyfiawn* am lafur gweinidogaethol: mae gwahaniaeth mawr rhwng y ddau.

3 [1] * Nid fel rhai yn tra-arglwyddiaethu ar [n] etifeddiaeth *Duw,* [n] † ond gan fod yn esamplau i'r praidd.

1 Ezec. 34. 4. Mat. 20. 25, 26. a 23. 8—10. Marc 10. 42—45. Luc 22. 24—27. 1 Cor. 3. 5, 9. 2 Cor. 1. 24. a 4. 5. 3 Ioan 9, 10. n pen. 2 9. Deut. 32. 9. Salm 33. 12. a 74. 2. Mica 7. 14. Act. 20. 28. n 1 Cor. 10. 11. Phil. 3. 17. a 4. 9. 1 Thes. 1. 5, 6. 1 Thes. 3. 9. 1 Tim. 4. 12. Tit. 2. 7.

* Gwedi cymmeryd y swydd, ni ddylent fod mewn unmodd fel rhai yn tra-arglwyddiaethu ar "braidd" ac "etifeddiaeth Duw;" ni ddylent ymgais am awdurdod uac anrhydedd fydol trwy eu gweinidogaeth a'u swydd; ofel pe buasai ganddynt arglwyddiaeth ar ffydd a chydwybodau y rhai oedd yn perthyn i Dduw, fel "rhan ei etifeddiaeth ef;" pryd nad oeddynt ond wedi eu gosod ofel gweinidogion, i ddysgu iddynt ei wirionedd a'i ewyllys ef, ac i'w ceisio hwynt i ufuddâu i Dduw, ac nid iddynt eu hunain. † Yn lle tra-arglwyddiaethu felly ar eu brodyr, a cheisio troi eu swydd i alwedigaeth ennillfawr; dylent ymddwyn yn y fath fodd, fel ag i fod yn "esamplau i'r praidd;" mewn duwioldeb, purdeb, gostyngeiddrwydd, hunan-ymwadiad, a chydwybodoldeb cyffredinol yn mhob peth: fel hyn hwy a eglurent iwn eu hymarweddiad ymarferol eu hunain, yr athrawiaeth a'r addysgiadau a roddent i'r bobl.—*Tra-arglwyddiaethu:* y fath arglwyddiaeth a waherddir yma, ag a ddhwennychai yr apostolion gael, pan oeddynt yn dysgwyl teyrnasiad tymmorawl, neu ddaearol y Messïah; an ol arferiad llywodraethwyr daearol y byd hwn. Tra-arglwyddiaethu fel mae y Pab yn gwneyd, ar ei ddeiliaid truain a deillion, mewn pethau crefyddol.

4 * A phan [o] ymddangoso y [p] Pen-bugail, † chwi a gewch dderbyn [q] anniflannedig goron [r] gogoniant.

o adn. 2. pen. 2. 25. Salm 23. 1. Es. 40. 11. Ezec. 34. 23. a 37. 24. Zec. 13. 7. Ioan 10. 11. Heb. 13. 20. p Mat. 25. 31, &c. Col. 3. 3, 4. 2 Thes. 1. 7—10. 1 Ioan 3. 2. Dat. 1. 7. a 20. 11, 12. pen. 1. 4. Dan. 12. 3. 1 Cor. 9. 25. 2 Tim. 4. 8. Iago 1. 12. Dat. 10. a 3. 11.

Ni byddai y gostyngeiddrwydd a'r hunan-ymwadiad chod, mae yn wir, yn debyg o'u dwyn hwynt i olud a nawredd yn y byd hwn; ond yr oedd yn sicr o ddïogelu ddynt wobrwy o'r fath helaethaf a dedwyddaf, mewn byd arall. * Oblegid pan ymddangosai y Pen-bugail awr, fel Barnwr y byd; oddi wrth yr hwn y cawsent wy eu swydd, ar yr hwn yr ymddybynent am bob odd i'w chyflawni, ac i'r hwn y byddai raid iddynt oddi cyfrif yn y diwedd am dani; † yna caent hwy, yn ghyd â phob cyfryw fugeiliaid ffyddlawn, dderbyn oron anniflanedig o ogoniant; anfeidrol well, a mwy mrhydeddus, na holl awdurdod, parch, cyfoeth, a wyniant y byd hwn, pe cawsent y cwbl ag oedd ynddo. Anniflanedig:" *amarantinon:* cyfeiriad at y coronau ddail neu flodau ammor, *(amaranthus)* â pha rai y wisgid yr ymdrechwyr buddugol yn y campau gynt; ac y rhai a barâent am hirfaith amser heb wywo, meddant.

5 * Yr un ffunud [r] yr ieuainge, byddwch ostyngedig i'r henuriaid. [s] † A byddwch *bawb* yn ostyngedig i'ch gilydd, [t] ‡ ac ymdrwsiwch oddi fewn â gostyngeiddrwydd. [u] ‖ Oblegid y mae Duw yn gwrthwynebu y beilchion, § ac yn rhoddi gras i'r rhai gostyngedig.

r Lef. 19. 32. Heb. 13. 17. s pen. 54. 1, 5. Rhuf. 12. 10. Eph. 5. 21. Phil. 2. 3. t pen. 3. 3, 4. 2 Cron. 6. 41. Job 29. 14. Salm 132. 9, 16. Es. 61. 10. Rhuf. 13. 14. Col. 3. 12. u Gwel ar Iago 4. 6.—Job 22. 29.

* Nid yw y gair *ieuainc* yn y fàn hon yn cyfeirio dim at unrhyw swydd, neu sefyllfa neilduol yn yr eglwys; ond yn arwyddo rhai *ieuainc o oed* yn gyffredin, pa un bynag ai yn y weinidogaeth ai heb fod; y rhai a gyngorai yr apostol i fod yn ostyngedig i rai henach na hwynt, yn gystal ag i henuriaid swyddol yr eglwys. Prydferth iawn yw gweled pobl ieuainc felly, ac anmhrydferth iawn yw eu gweled fel arall: yn feilchion, hunanol, yn anhawdd eu trin, yn ddibarch, ac yn ddïymostwng i'w hen frodyr, yn enwedig i'w henuriaid a'u gweinidogion. † Ië, mỳnai yr apostol i'r cristionogion oll fod yn ddarostyngedig i'w gilydd, yn ol eu gwahanol sefyllfâoedd yn y byd: fel hyn byddai y bobl yn ostyngedig ac ufudd i'w hathrawon, y plant i'w rhieni, gwragedd i'w gwŷr, gweision i'w meistriaid, a deiliaid i'w llywodraethwyr, yn ol gorchymynion gair Duw. ‡ Ac fel y mae balchder mewn rhai ieuainc ac isel-radd, yn milwrio yn erbyn ymostyngiad dyledus, megys y mae hefyd yn cynhyrfu traha a gorthrymder mewn rhai uchel-radd; felly mỳnai yr apostol iddynt oll fod wedi ymdrwsio oddi fewn â gostyngeiddrwydd, fel eu prif addurn; fel, pa beth bynag oedd y galluoedd, y talentau, a'r doniau ysbrydol oedd ganddynt, y byddai eu gwylder a'u gostyngeiddrwydd yn amlwg i bawb, yn fwy na dim rhagoriaeth arall. ‖ Dylent ymgais am hyn uwchlaw pobpeth; am fod Duw yn ei holl-alluawgrwydd yn gwrthwynebu y beilchion, heb ddangos tiriondeb i neb, ond y rhai oedd yn wir deimladwy o'u haunheilyngdod; § ac yn rhoddi pob gras i bawb a'i deisyfent mewn gostyngeiddrwydd. Gwel ar Iago 4. 6.—"Ymdrwsiwch *oddi fewn:*" nid yw y geiriau *oddi fewn* yn y Saesoneg; ac mae yn debyg nad oes dim yn y gair *enkombósasthe,* yn arwyddo *oddi fewn:* ac eto, dywed *Parkhurst* fod y cyfieithiad Ffrengig yr un fath â'r eiddom ni. Defnyddir y gyffelybiaeth o *ymwisgo,* ac *ymdrwsio* yn aml, lle y sonir am unrhyw ras, neu rinwedd. Rhuf. 13. 12; Ephes. 4. 24; Colos. 3. 10, 12.

6 [x] * Ymddarostyngwch gan hynny dan [y] alluog law Duw, [z] † fel y'ch dyrchafo mewn [a] amser cyfaddas:

x Ex. 10. 3. Lef. 26. 41. 1 Bren. 21. 29. 2 Bren. 22. 19. 2 Cron. 12. 6, 7, 12. a 30. 11. a 32. 26. a 33. 12, 19, 23. a 36. 12. Diar. 29. 23. Es. 2. 11. Jer. 13. 18. a 44. 10. Dan. 5. 22. Mica 6. 8. Luc 14. 11. a 18. 14. Iago 5. 10. y Ex. 3. 19. a 32. 11. Salm 89. 13. 1 Cor. 10. 22. z Job 36. 22. Salm 75. 10. a 89. 16, 17. Es. 40. 4. Ezec. 17. 21. a 21. 26. Mat. 23. 12. Luc 1. 52. Iago 1. 9, 10. a Deut. 32. 35. Rhuf. 5. 6. 1 Tim. 2. 6. Tit. 1. 3.

* Gan hyny am fod Duw yn gwrthwynebu y beilchion, ac yn rhoddi gras i'r rhai gostyngedig, yr oedd yn gweddu iddynt hwy a phawb oll, i ymddarostwng fel pechaduriaid euog, aflan, a thruenus, dàn alluog law Duw, yr hon oedd ddigon nerthol i ddryllio yn chwilfriw y cryfaf o'i elynion, ac i gynnal y gwànaf o'i gyfeillion: † fel drwy ymostwng i'w gyfiawnder ef, y gallent gael eu cymmodi âg ef drwy ffydd yn Nghrist, a'u dyrchafu mewn amser cyfaddas, i'r gogoniant, yr anrhydedd, yr anllygredigaeth, a'r bywyd tragywyddol, a barotôdd efe i'w saint, ar ol y profedigaethau a drefnwyd iddynt yma.—Mỳnai yr apostol ddangos iddynt, fod *galluog law Duw* yn yr holl drallodau oeddynt hwy yn ddyoddef oddi wrth eu gelynion; yn y goddefiad, y llywodraethiad, a'r terfyniad o honynt; a mỳnai iddynt ymostwng yn amyneddgar a gobeithiol, dàn yr alluog

law hòno. Amser cyfaddas yw amser Duw, pa bryd bynag y delo.

7 [b] * Gan fwrw eich holl ofal arno ef; [c] † canys y mae efe yn gofalu drosoch chwi.

b 1 Sam. 1. 10—18. a 30. 6. Salm 27. 13, 14. a 37. 5. a 55. 22. a 56. 3, 4. Mat. 6. 25, 34. Luc 12. 11, 12. Phil. 4. 6. Heb. 13. 5, 6. c Salm 34. 15. a 142. 4, 5. Mat. 6. 26—33. Marc 4. 38. Luc 12. 30—32. Ioan 10. 13.

* Yn y cyfamser, hwy a gyfarfyddent â llawer o anhawsderau, ac a drallodid efallai â llawer o ofalon pryderus, am eu hachosion tymmorawl neu ysbrydol, ac am achos yr eglwysi: ond, mewn cyflawniad dyfal o'u dyledswyddau presenol, yr oedd annogaeth a galwad iddynt, i fwrw eu holl ofal gofidus ar yr Arglwydd, drwy ffydd a gweddi; † gan fod yn sicr y triniai efe bob peth er eu lles hwynt, yn ol ei ddoethineb ddiwŷrni, a'i wirionedd anffaeledig: "canys yr oedd efe yn gofalu drostynt;" yr oedd yn tosturio, ac yn caru, ac yn sicr o iawn ardwyo holl achosion y rhai a ymddiriedent fel hyn ynddo ef.—Mae y gair a gyfieithir yma *gofal*, yn arwyddo peth yn *terfysgu*, yn *rhwygo*, ac yn *dryllio* y meddwl, megys yn ddarnau chwilfriw: ei fwrw oll ar Dduw yw y feddyginiaeth oreu ac unig rhagddo.

8 [d] * Byddwch sobr, gwyliwch: [e] † oblegid y mae eich gwrthwynebwr [f] diafol, megis [g] llew rhuadwy, [h] yn rhodio oddi amgylch, ‡ gan geisio y neb a allo ei [i] lyncu.

d pen. 1. 13. a 4. 7. Mat. 24. 48—50. Luc 12. 45, 46. a 21. 34, 36. Rhuf. 13. 11—13. 1 Thes. 5, 6—8. 1 Tim. 2. 9, 15. a 3. 2, 11. Tit. 1. 8. a 2. 2, 4, 6, 12. e Esther 7. 6. Job 1. 6. Salm 109. 6. Es. 50. 8. Zec. 3. 1. Luc 22. 31. f Mat. 4. 1, 11. a 13. 39. a 25. 41. Ioan 8. 44. Eph. 4. 27. a 6. 11. Iago 4. 7. 1 Ioan 3. 8—10. Dat. 12. 9. a 20. 2, 10. g Barn. 14. 5. Salm 104. 21. Diar. 19. 12. a 20. 2. Es. 5. 29, 30. a 42. 13. Jer. 2. 15. a 51. 38. Ezec. 19. 7. Hos. 11. 10. Joel 3. 16. Amos 1. 2. a 3. 4, 8. Zec. 11. 3. 2 Tim. 4. 17. h Job 1. 7. a 2. 2. i Ezec. 22. 25. Dan. 6. 24. Hos. 13. 8.

* Mae yr apostol yma eto yn adnewyddu ei gyngor i sobrwydd a gwyliadwriaeth; (gwel ar pen. 1. 13; a 4. 7.) fel trwy ymgadw rhag y meddwdod o bleserau cnawdol ac afradus, neu o elw a manteision bydol, y gallent hwy gael eu gwared rhag cysgadrwydd pechadurus, ac anwyliadwriaeth diofal, yn achosion pwysig tragywyddoldeb. † I'w hannog hwy yn fwy i'r sobrwydd a'r gwyliadwriaeth hyn, mae efe yn crybwyll iddynt fod y "diafol," llywiawdwr tywyllwch y byd hwn a'r angelion syrthiedig, cyhuddwr y brodyr, a "gwrthwynebwr" y saint; yr hwn oedd bob amser yn ceisio pob cyfle i ddwyn rhyw gŵyn yn eu herbyn, neu yn ceisio caniatâd i'w temtio, i'w nithio, a'u trallodi;—bod hwn yn rhodio oddi amgylch yn wastad fel llew rhuadwy, yn llawn o gynddaredd a chreulondeb, ‡ gan geisio y neb a gaffai yn cysgu ac yn ddiarfogaeth, fel y gallai ar unwaith ei lyncu i fynu a'i ddyfetha; un ai trwy faglau a deniadau cnawdol a bydol, neu trwy ofn erlidigaethau.—Yr erlidiau dychrynllyd a gynhyrfwyd gan y gelyn hwn i Dduw a dynion, trwy weithio yn mhlant yr anufudd-dod, mae yn debyg a feddylir yn benaf. Fel hyn yr oedd dychrynfèydd allanol, ac ofnau tumewnol, yn gyru llaweroedd i wrthgiliad, neu i wadu Crist dros amser; yr oedd rhai yn cael eu dystriwio am byth, gan ofn dyn, a chariad at einioes; a llawer eraill ond prin yn dianc heb syrthio, am eu cael yn ddiofal ac yn sicr yn eu meddwl eu hunain.—Da y gallasai Petr, yn anad neb arall o'r apostolion, roddi y cyngor hwn, wrth a brofasai efe ei hun o ddiffyg gwyliadwriaeth, cyn ei gwymp.

9 * Yr hwn [k] gwrthwynebwch yn [l] gadarn yn y ffydd; [m] † gan wybod fod yn cyflawni yr un blinderau yn eich brodyr y rhai sydd yn y byd.

k Luc 4. 3—12. Eph 4. 27. a 6. 11—13. Iago 4. 7. l Luc 22. 32. Eph. 6. 16. 1 Tim. 6. 12. 2 Tim. 4. 7. Heb. 11. 33. m pen. 1. 6. a 2. 21. a 3. 14. a 4. 13. Ioan 16. 33. Act. 14. 22. 1 Cor. 10. 13. 1 Thes. 2. 15, 16. a 3. 3. 2 Tim. 3. 12. Dat. 1. 9. a 6. 11. a 7. 14.

* Am hyny efe a fynai i bawb o honynt wrthwynebu y gelyn hwn a'i ymosodiadau, gan sefyll yn gadarn, fel milwyr wrth eu banerau, yn eu proffes o'r ffydd; gan gredu holl wirioneddau yr efengyl yn ddibetrusder; a chan ymddybynu yn wastad ar allu a chariad Crist, i wrth-guro a gyru ymaith y temtiwr atgas. † Ac i'w hannog hwy fel hyn yn gadarn i wrthsefyll temtasiynau diafol, ac "ymdrech yn erbyn pechod;" ïe, pe byddai hyny hyd garchar, gwatwar, fflangellau, neu angau: hwy a ddylent fod yn llawn hysbys, a gwybod yn sicr, fod eu brodyr mewn parthau eraill o'r byd, bob amser yn dyoddef blinderau o'r un fath, yn yr un achos, ac oddi wrth yr un fath ddynion.— *Yn y ffydd:* yr athrawiaeth a'r gras o ffydd yw tarian y Cristion, i ddiffoddi holl bicellau tanllyd y fall.—"Gan wybod fod yn cyflawni yr un blinderau," &c.: neu, "gan wybod fod yr un blinderau yn cael eu cyflawni," &c: felly mae gosodiad y geiriau yn y Saesoneg.

10 [n] * A Duw pob gras, [o] † yr hwn a'ch galwodd chwi i'w [p] dragywyddol ogoniant trwy Grist Iesu, [q] ‡ wedi i chwi ddioddef ychydig, [r] ‖ a'ch perffeithio chwi, [s] a'*ch* cadarnhâo, [t] a'*ch* cryfhâo, a'*ch* sefydlo.

n Ex. 34. 6, 7. Salm 86. 5, 15. Mica 7. 18, 19. Rhuf. 5. 20, 21. a 15. 5, 13. 2 Cor. 13. 11. Heb. 13. 20. o pen. 1. 15. Rhuf. 8. 28—30. a 9. 11, 24. 1 Cor. 1. 9. 1 Thes. 2. 12. 2 Thes. 2. 14. 1 Tim. 6. 12. 2 Tim. 1. 9. 2 Pedr 1. 3. p 2 Cor 4. 17. 2 Tim. 2. 10. Heb. 9. 15. 1 Ioan 2. 25. q pen. 1. 6, 7. 2 Cor. 4. 17. r 2 Cor. 13. 11. 2 Thes. 2. 17. Heb. 13. 21. Judas 24. s Col. 2. 7. 2 Thes. 2. 17. a 3. 3. t Salm 138. 7. Luc 22. 32. Phil. 4. 13. Col. 1. 22, 23.

* Nid oedd yr apostol yn gweddïo ar i'w frodyr gael bod yn rhydd oddi wrth brofedigaethau iachusol ac anrhydeddus; ond yr oedd yn gweddïo ar i "Dduw pob gras," yr hwn sydd yn helaeth o drugaredd, ac yn unig ac annyhyspyddadwy Ffynon o bob math a phob mesur o ras; † yr hwn trwy ei air a'i Ysbryd, a'u galwasai hwynt i'r gobaith a'r ernes sicr o dragywyddol ogoniant, trwy iawn ac eiriolaeth Iesu Grist;—‡ yr oedd yn gweddïo, meddaf, ar i'r Duw grasol hwn, ar ol iddynt ddyoddef ychydig, a thrwy ei fendith ar eu dyoddefiadau; ‖ eu haddfedu a'u "perffeithio" hwynt mewn sanctaeiddrwydd; eu "cadarnâu" hwynt yn nhangnefedd a gobaith yr efengyl; eu "cryfâu" i wrthsefyll pob math o demtasiynau, i ddyoddef pob dyoddefiadau, ac i gyflawni pob dyledswyddau, trwy gryfâu a nerthu eu sanctaidd serchiadau; a'u "sefydlu" hwynt yn gadarn ac yn ddiysgog, fel adeilad gyd-rwym ar sylfaen dda, fel nas gallai dim ystormydd, rhuthrau, nac ystrywiau o eiddo y gelyn, eu dadymchwelyd byth.—*Perffeithio* yr hyn a ddechreuwyd; *cadarnâu* yr hyn oedd iawn; *cryfâu* yr hyn oedd wàn; a *sefydlu* (trwy undeb a chyssylltiad cryf â Christ,) yr hyn oedd eisoes wedi ei adeiladu.—*Pool.*

11 [u] * Iddo ef *y byddo* y gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. † Amen.

u Gwel ar pen. 4. 11.—Dat. 1. 6. a 5. 13.

* Byddai y pethau uchod oll er gogoniant i "Dduw pob gras," fel gwaith ei allu a'i awdurdod pen-arglwyddiaethol ef; i'r hwn y dylai pob gogoniant ac arglwyddiaeth gael ei roddi, ac yn y diwedd a briodolir yn hollawl ac yn dragywyddol iddo. † *Amen;* felly bydded, felly y bydd, ac felly y dylai fod byth.

12 * Gyd â [x] Silfanus, [y] † brawd ffyddlawn i chwi (fel yr wyf yn tybied) [z] ‡ yr ysgrifenais ar ychydig eiriau, [a] gan gynghori [b] ‖ a thystiolaethu, [c] mai gwir ras Duw yw [d] yr hwn yr ydych yn sefyll ynddo.

x 2 Cor. 1. 19. 1 Thes. 1. 1. 2 Thes. 1. 1. y Eph. 6. 21. Col. 1. 7. a 4. 7, 9. z Eph. 3. 3. Heb. 13. 22. a Heb. 13. 22. Judas 3. b Ioan 21. 21. Act. 20. 24. 1 Ioan 5. 9, 10. 3 Ioan 12. c Act. 20. 24. 1 Cor. 15. 1. Gal. 1. 8, 9. 2 Pedr 2. 15. d Rhuf. 5. 2. 2 Cor. 1. 24. 2 Pedr 1. 12.

* Mae yn bur debygol mai y Silfanus hwn oedd cyfaill a chyd-ymdeithydd cyffredinol Paul, ac a elwid yn aml Silas: gwel ar Act. 15. 22; a mànau eraill, lle y crybwyllir am dano. † Tybiai Petr yn benderfynol, oddi wrth bobpeth a glywsai ac a welsai, ei fod ef yn

frawd ffyddlawn," yn wir gredadyn, ac yn weinidog lafurus Crist, "iddynt hwy," yn mhlith pa rai y llafurasai mòr fynych a pharâus. ‡ Gan hyny cymmerodd apostol y cyfle i ysgrifenu epistol bỳr atynt gydag ; i'w "cyngori" hwynt i fod yn gadarn yn y ffydd, ac ymddwyn yn addas i'w proffes o'r efengyl. || Yr oedd e hefyd yn "tystiolaethu" am yr efengyl hòno a lerbyniasent; i'w boddloni hwynt, mai gwirioneddau ammheüol Crist oedd yr athrawiaethau hyny o ras a edasent, ac yn y ffydd a'r profiad o ba rai yr oeddynt i "sefyll" yn gymmeradwy gyda Duw, ac yn sefyll yn yneb eu holl elynion a'u profedigaethau; a bod deithiau yr athrawiaethau hyny ar eu calonau, a'r wythau o honynt yn eu bucheddau, yn brawf eglur bod hwy yn gyfranogion o wir ras Duw, a chwedi eu fydlu yn gyflawn yn ei gariad a'i gymmeradwyaeth . Tystiolaethai mai y wir ffordd oedd yr efengyl; ac a bod hwythau yn ac ar y wir ffordd hòno.—Mae yr dnod hon yn cadarnâu y dỳb, ddarfod i Petr ysgrifenu, er cadarnâu ffydd yr un eglwysi ag a blànesid gan aul a'i gyd-lafurwyr; yn erbyn cam-ddywediadau y nai hyny, a fynent ddarbwyllo y cenedloedd dychwelig, fod Paul yn pregethu athrawiaeth wahanol i'r postolion eraill: ac yn wir gall y darllenydd craff ac tyriol, weled tebygrwydd mawr yn marnau y ddau postol enwog hyn; yn enwedig y modd maent yn ssylltu athrawiaeth â dyledswyddau yn nghyd. Yn "tystiolaethu" uchod, yr oedd Petr yn chwanegu ei ystiolaeth at yr eiddo y rhai a bregethasent yr efengyl ntaf i'r bobl hyn.

13 * Y mae yr *eglwys sydd* [e] yn Babilon, † yn gyd-etholedig *â chwi,* yn eich annerch; ‡ a Marc, || fy mab i.

e Salm 87. 4. Dat. 17. 5. a 18. 2. f 2 Ioan 1. 13. g Gwel Act. 12. 12, 25.

* Tybia rhai mai *Rhufain*, mewn ystyr gyfriniol, fel yn Dat. 17. 5; a 18. 2) a feddyliai yr apostol wrth *Babilon* yn y fàn hon; ond nid oes sail yn y byd i yny: oblegid nis gellir rhoddi un rheswm, paham yr ttaliai efe enw y ddinas hòno, *Rhufain*, wrth ysgrifenu yr epistol hwn. Tybir fod llawer o Iuddewon yn Babilon a'i chyffiniau byth er amser y caethiwed; ac i etr fel gweinidog yr enwaediad fyned yno, a phregethu r efengyl iddynt gyda llawer o lwyddiant, a phlànu eglwys gristionogol yn eu mysg. Yno yr oedd efe, mae yn debyg, pan ysgrifenodd yr epistol hwn, yn yr hwn mae yr eglwys yno yn danfon ei hanerch caredig at yr eglwysi yn Asia Leiaf. (Gwel ar pen. 1. 1.) Taera y Pabyddion mai yn *Rhufain* yr oedd; ac iddo ddywedyd *Babilon* yn y fàn hon, fel na chaffai ei erlidwyr yn Jerusalem wybod pa le yr oedd; wrth hyny gwnant ef yn euog o lwfrdra a chelwydd. Ai gweddus hyn i Ben yr eglwys, Rhaglaw *(Vicar)* Crist, a Thywysog yr apostolion? fel y cyfrifant hwy ef. † Barnai yr apostol mewn cariad, fod y bobl hyn yn Babilon yn wir gristionogion dewisol, a chwedi eu hethol gan Dduw i fywyd tragywyddol, yn gystal â'r rhai yr oedd yn ysgrifenu atynt. ‡ Tybia rhai mai y Marc a gyfenwid Ioan, (gwel ar Act. 12. 12.) cyfaill a chyd-ymdeithydd Paul a Barnabas, ydoedd hwn; a thybia eraill mai rhyw un arall o'r un enw ydoedd: ond nis gellir bod yn hysbys am hyny, ac nid yw o bwys mawr. || Pwy bynag ydoedd, geilw yr apostol ef yn "fab" iddo ef; mewn ystyr ysbrydol a chrefyddol yn ddïammau; wedi ei ddychwelyd trwy ei weinidogaeth ef, neu yn llafurio fel mab gydag ef, neu bob un o'r ddau.—Dywed *Pool* fel hyn am y Pabyddion:—Os mỳnant hwy mai *Rhufain* a feddylir wrth *Babilon*, mwynâent eu *zél;* y rhai yn hytrach na methu cael allan Gadair Petr, a ânt i uffern i ymofyn am dani; ac ydynt yn fwy am gael Rhufain yn eisteddfa Petr, nac yn eglwys Crist.

14 * Anherchwch eich gilydd [h] â chusan cariad. [i] † Tangnefedd i chwi oll y rhai ydych [k] yng Nghrist Iesu. ‡ Amèn.

h Gwel ar Rhuf. 16. 16. 1 Cor. 16. 20. 2 Cor. 13. 12. 1 Thes. 5. 26. i pen. 1. 2. Ioan 14. 27. a 16. 33. a 20. 19, 26.—Gwel ar Rhuf. 1. 7. k Gwel ar Rhuf. 8. 1. 1 Cor. 1. 30. 2 Cor. 5. 17.

* Gwelwch ar fod i chwi wrteithio cariad brawdol gwresog tuag at eich gilydd; fel arwydd o ba un anerchwch eich gilydd â chusan diwair cariadus, yn ol arferiad cyffredin cristionogion pan yn cyfarfod â'u gilydd (Gwel ar Rhuf. 16. 16.) † Bydded holl fendithion Duw, er dedwyddwch amserol a thragywyddol, ar bawb a phob un o honoch, sydd yn dwyn proffes sanctaidd o enw Crist Iesu, ac a dybir mewn undeb bywiol âg ef, fel eich unig Ben a'ch Gwaredwr mawr! ‡ Ac i dystiolaethu fy ngwir ddymuniad a'm gobaith o hyn, dywedaf yn ddifrifol, *Amen.*

AIL EPISTOL CYFFREDINOL

PETR YR APOSTOL.

PEN. I.

Y mae efe yn eu cadarnâu mewn gobaith o gynnydd mewn gras

*SIMON [a] Petr, [b] † gwasanaethwr ac [c] apostol Iesu Grist, ‡ at y rhai a [d] gawsant gyffelyb werthfawr ffydd â ninnau, [e] ‖ trwy gyfiawnder ein Duw ni, a'n Hachubwr Iesu Grist.

a Mat. 4. 18. a 10. 2. Luc 22. 31—34. Ioan 1. 42. a 21. 15—17. 1 Pedr 1. 1. b Ioan 12. 26.—Gwel ar Rhuf. 1. 1. c Luc 11. 49. Ioan 20. 21. 1 Cor. 9. 1, 2. a 15. 9. Gal. 2. 8. Eph. 3. 5. a 4. 11. 1 Pedr 5. 1. d adn. 4. Act. 15. 8, 9. Rhuf. 1. 12. 2 Cor. 4. 13. Phil. 1. 29. 2 Tim. 1. 5. Tit. 1. 1, 4. 1 Pedr 1. 7. a 2. 7. e Jer. 33. 16. Rhuf. 1. 17. a 3. 21—26. 1 Cor. 1. 30. 2 Cor. 5. 21. Phil. 3. 9.

* Simon ydoedd enw cyntefig yr apostol hwn, yr hwn a gawsai efe yn faban yn ei enwaediad; ac a gyfenwyd Petr gan yr Arglwydd Iesu, pan ddaeth yn ddysgybl iddo ef. (Ioan 1. 41, 42.) † Tybiodd yn addas i gyfenwi ei hun yn "apostol," yn gystal ag yn "wasanaethwr" Iesu Grist, efallai, am ei fod yn yr epistol hwn yn bwriadu gwrthwynebu rhyw gau-athrawon, y rhai oeddynt yn gwneyd mawr niwed yn yr eglwysi y pryd hwnw. ‡ Mae yn cyfeirio ei hun at y rhai hyny a gawsant gyffelyb werthfawr ffydd âg ef ei hun a'i frodyr. Mae natur ac effeithiau gwir ffydd yn werthfawr, ac mae yn dwyn ei pherchenog i gael rhan yn y bendithion mwyaf gwerthfawr; am hyny yr oedd yr *un mòr werthfawr* yn y Cristion cyffredin, ag mewn apostol. Fel hyn yr oedd efe yn ddisôn yn gwahaniaethu rhwng "ffydd etholedigion Duw," â'r ffydd farw a diwerth hòno, trwy ba un yr oedd llawer yn cael eu twyllo. ‖ Yr oedd y ffydd hon, yr hon a gawsent (fel mae y geiriau gwreiddiol yn arwyddo,) trwy arbenig ewyllys da a phennodiad Duw, yn ymorphwys ar gyfiawnder ein Duw a'n Hachubwr Iesu Grist. Fel hyn yr oeddynt wedi eu dysgu i gredu ac ymddiried yn ufudd-dod ac aberth yr Arglwydd Iesu, fel eu Duw a'u Hachubwr yn y cnawd, am gyfiawnâd, ac am yr holl fendithion cyssylltiedig â hyny, ac yn deilliaw o hyny. Mae y Saesoneg yma yn wahanol i'n cyfieithiad ni:—*trwy gyfiawnder Duw, a'n Hachubwr Iesu Grist:* ond addef ein Hawdwyr mai yn ol ein cyfieithiad ni y dylai fod, ac mai yr un Person a feddylir wrth *Dduw*, â'n *Hachubwr Iesu Grist.* Ond os mỳn neb ddadleu mai y *Tad* a feddylir wrth y gair *Duw;* dylent gofio hefyd, bod ufudd-dod y Mab yn aml yn cael ei alw yn "gyfiawnder Duw." Ac nis gallwn ddeall ychwaith, yn mha ystyr y gellir dywedyd, bod ffydd y cristion nac *yn*, na *trwy* gyfiawnder Duw, ac ystyried cyfiawnder fel priodoledd ddwyfol yn unig; pryd y mae yn gorphwys yn benaf ar drugaredd a gwirionedd Duw, a dim ond golygu ei gyfiawnder ef fel wedi ei foddloni; ac, megys, yn cydsynio i'r pechadur gael ei achub, trwy aberth, iawn, a chyfiawnder Crist.—"*Trwy* gyfiawnder," &c.: gellid cyfieithu y geiriau "*yn* nghyfiawnder," meddant. Eto, mae *trwy* gyfiawnder yn trosglwyddo meddwl pwysig; oblegid mae y ffydd, trwy yr hon yr ydym yn derbyn Crist er iachawdwriaeth, yn cael ei rhoddi i ni "*trwy* y cyfiawnder" a orphenodd efe fel ein Machnïydd; canys mae yn deilliaw o adgenedliad yr Ysbryd Glân, yr hwn a roddir i ni trwy ei gyfryngdod ef.

2 [f] * Gras i chwi a changnefedd a amlhâer, [g] † trwy adnabod Duw, a Iesu ein Harglwydd ni,

f Num. 6. 24—26. Dan. 4. 1. a 6. 25.—Gwel ar Rhuf. 1. 7. 1 Pedr 1. 2.—Dat. 1. 4. g pen. 3. 18. Es. 53. 11. Luc 10. 22. Ioan 17. 3. 2 Cor. 4. 6. 1 Ioan 5. 20, 21.

* Pa fodd bynag, ar ran pob cyfryw gristionogion, mae yr apostol yn gweddïo am i holl fendithion gras a thangnefedd gael eu hamlâu iddynt; † a hyny trwy adnabod Duw, a Iesu Grist ei Arglwydd ef â hwythau: oblegid yn ol mesur ein hadnabyddiaeth grediniol, ysbrydol, a phrofiadol ni o berffeithiau Duw, yn y cydgordiad a'r gogoniant o honynt, fel y maent i'w gweled yn Mherson, cymmeriad, ac iachawdwriaeth Iesu Grist ein Harglwydd, felly y dygir ein holl serchiadau grasol i weithrediad; ac y bydd ein tangnefedd, ein gobaith, a'n cysuron yn amlâu; sef fel y byddo yr adnabyddiaeth uchod yn cynnyddu ac yn ymhelaethu ynom.

3 * Megis y rhoddes ei [h] dduwiol allu ef i ni [i] bob peth *a berthyn* i fywyd a duwioldeb, [k] † trwy ei adnabod ef yr hwn a'n [l] galwodd ni i ogoniant a [m] rhinwedd:

h Salm 110. 3. Mat. 28. 18. Ioan 17. 2. 2 Cor. 12. 9. Eph. 1. 19—21. Col. 1. 16. Heb. 1. 3. i Salm 84. 11. Rhuf. 8. 32. 1 Cor. 3. 21—23. k Gwel ar adn. 2. l Rhuf. 8. 28—30. a 9. 24. 1 Cor. 1. 9. Eph. 4. 1, 4. 1 Thes. 2. 12. a 4. 7. 2 Thes. 2. 14. 2 Tim. 1. 9. 1 Pedr 1. 15. a 2. 9, 21. a 3. 9. a 5. 10. m adn. 5. Ruth 3. 11. Diar. 12. 4. a 31. 10, 29. Phil. 4. 8.

* Gallai y cristionogion hyn ddysgwyl, y byddai i'r gwaith graddedigawl o oleuo, sancteiddio, a chysuro, gael ei ddwyn yn mlaen ynddynt, wrth, neu yn ol, yr hyn a roisai yr Arglwydd Iesu yn ei "dduwiol fawredd" eisoes iddynt; neu a wnaethai yn ei "dduwiol fawredd" arnynt. Mewn canlyniad i'w dderchafiad, a'i awdurdod cyfryngol ef, yr oedd ei "dduwiol allu" wedi rhoddi iddynt hwy bob peth a berthynai i fywyd a duwioldeb; pob peth angenrheidiol i'w bywyd ysbrydol a thragywyddol hwynt, a'u dedwyddwch yn y diwedd; a phob peth angenrheidiol iddynt hwy allu gweithredu yn addas i'w perthynas â Duw, a'u rhwymedigaethau iddo, ar eu taith drwy y byd drygionus hwn i'r nef. Yr oedd addysgiadau, echlysion *(motives)* annogaethau, moddion, egwyddorion, a chynnorthwyon; yn nghyd â madd euant, tangnefedd, a gras, wedi eu rhoddi iddynt trwy adgenedliad yr Ysbryd Glân; ac yr oedd holl gyfiawnder Crist, ac addewidion y cyfammod tragywyddol, wedi eu gosod ger eu bronau hwynt yn yr efengyl; fel y gallent hwy er pob rhwystrau ac ymladdfêydd, tufewnol ac allanol, o hyd wasanaethu Duw wrth ei fodd yn y byd hwn, a chael bywyd tragywyddol yn y byd i ddyfod. † Yr oedd hyn oll wedi ei rad roddi iddynt, trwy adnabod Duw yn ei Fab, yr hwn a'u galwasai hwynt yn ei ogoneddus ras a'i drugaredd, a thrwy "rinwedd," neu *nerth*, ei Ysbryd yr hwn sydd yn bywâu:—neu, efe a'u galwasai hwynt i gyfranogi o'i

o ogoniant" tragywyddol, ac i broffes "rinweddol," syson, a chalonog o'r efengyl, ac ufudd-dod "rhinwedd-"l" i Grist, yn nghanol holl brofedigaethau a dyoddef-ïadau y 'stâd bresenol. Oblegid gall y geiriau "*gogon-iant* a *rhinwedd*," fod un ai yn cyfeirio at Dduw yr hwn u'u galwodd hwynt, neu ynte at y peth, i'r hwn y galwyd wynt: y cyntaf, medd ein Hawdwyr, yw ystyr fwyaf ythyrenol y Groeg; (*dia doxes kai aritês*) ond mae y efnydd anarferedig o'r gair a gyfieithir "rhinwedd," *aritês*) yn y cymhwysiad o hóno at Dduw, wedi peri i'r rhan fwyaf o dduwinyddion ddewis y dehongliad di-weddaf. Eto, mae yr un gair yn cael ei ddefnyddio, yda chymhwysiad o hóno at Dduw, gan yr apostol awn mewn màn arall. 1 Petr 2. 9: gwel y sylwad yno. Yr hwn a'n galwodd ni *trwy* ogoniant a rhinwedd," rw y darlleniad yn ol ymyl y ddalen; a dywedir mai *rwy*, ac nid *i*, yw priodol feddwl y gair *dia*. "*Trwy* goniant a rhinwedd" Duw yr oedd yr alwad; ac "*i* goniant a rhinwedd" yr oedd efe yn galw: i *ogoniant*, iel y dyben; ac i *rinwedd*, neu fuchedd sanctaidd rin-weddol, fel y ffordd a'r cymhwysiad, i'r dyben gogon-eddus hwnw. Fel hyn, mae "*bywyd* a *duwioldeb* yn y naill ran o'r adnod, yn cyfateb i *ogoniant* a *rhinwedd* yn rhan arall o hóni: *bywyd* a *gogoniant* yn *ddiwedd*; *duwioldeb* a *rhinwedd* yn *foddion*.

4 * Trwy yr hyn y [n] rhoddwyd i ni addew-ddion mawr iawn a gwerthfawr; † fel trwy y rhai hyn y [o] byddech gyfrannogion o'r duwiol anian, [p] ‡ wedi dïangc oddi wrth y llygredig-aeth sydd yn y byd trwy drachwant.

n adn. 1. Ezec. 36. 25—27. Rhuf. 9. 4. 2 Cor. 1. 20. a 6. 17, 18. a 7. 1. Gal. 3. 16. Heb. 8. 6—12. a 9. 15. 1 Ioan 2. 25. o Ioan 1. 12, 13. 2 Cor. 3. 18. Eph. 4. 23, 24. Col. 3. 10. Heb. 12. 10. 1 Ioan 3. 2. p pen. 2. 18—20. Gal. 6. 8. Iago 4. 1—3. 1 Pedr 1. 2, 3. 1 Ioan 2. 15, 16.

* Trwy yr adnabyddiaeth hyn o Dduw yn Nghrist trwy yr efengyl, a thrwy eu galwad effeithiol hwynt, yr oedd "addewidion mawr iawn a gwerthfawr" wedi cael eu "rhoddi" iddynt.—Mae addewidion yr ysgrythyr yn gynnwys y pethau mwyaf angenrheidiol i bechadur-iaid, yn addas i'w hamgylchiad, yn gyfatebol i'w hang-en, ac yn helaeth ddigonol, pan eu cyflawnir iddynt, fel credinwyr, i'w gwneuthur hwynt yn berffaith dded-wydd am byth bythoedd. Pryd heb yr addewidion hyn, rhaid eu bod yn druenus byth; am hyny maent yn "fawr iawn a gwerthfawr," hyd yn nôd tu hwnt i allu traethu eu gwerth mewn geiriau. Gosodir y rhai hyn ger bron dynion, trwy yr efengyl, y rhai a wahoddir i iddyfod a chyfranogi o'r bendithion addawedig: ond *rhoddir* hwynt i gredinwyr yn unig, y rhai a allant eu mystyried fel cynnifer o wystlon gwerthfawr, neu ysgrif-au *(bills)* da, yn dâladwy pan fyddo eu hamgylchiadau a'u lles goreu hwynt yn gwneyd hyny yn angenrheid-iol: oblegid wedi eu huno hwy â Christ, a'u gwneyd yn gyfranogion o hóno ef, mae yr holl addewidion yn perthyn iddynt hwy drwyddo ef, a thrwy ei gyfammod ef. † Rhoddid yr addewidion hyn hefyd iddynt hwy, "fel trwyddynt y byddent gyfranogion o'r duwiol an-ian," yn lle yr anian lygredig a dieflig hòno oedd gan-iddynt, fel pechaduriaid syrthiedig; fel trwy eu hundeb â Christ, preswyliad yr Ysbryd ynddynt, a'i nerth ef yn eu crëu o newydd, y caffai delw Duw ei hadnewyddu ar eu cheneidiau; ac fel hyny y caffai anian newydd ei ffurfio ynddynt, a thuedd newydd i gael ei roddi i'w deall, eu chewyllys, a'u serchiadau; cyd-ffurfiol â natur sanctaidd Duw, a galluog i'w garu ef ac ymhyfrydu ynddo, a mwynâu dedwyddwch yn ei wasanaeth. ‡ Gwedi de-chreu y cyfnewidiad hyn o natur a chalon mewn ad-genedliad, yr oedd yn effeithio ar y rhai a'i profasent, i'w dwyn i ymddidoli, a "dïanc oddi wrth y llygredig-aeth oedd yn y byd trwy drachwant;" neu oddi wrth yr holl bechodau allanol ysgeler hyny, i'r rhai y tynid dynion gan eu trachwantau rhyfawr ac eilun-addolgar, am bleserau, meddiannau, ac enwogrwydd bydol. Mae y cyfrvw arferion drygionus bob amser wedi bod yn llenwi y ddaear, a *llygredigaeth* a *ffieidd-dra* ydynt yn nghyfrif Duw. Pan mae pechaduriaid yn proffesu edi-farâu a derbyn yr efengyl, maent yn allanol yn ymwrth-od â'r anwireddau hyn; ac y mae pawb adgenedledig yn wirioneddol ac am byth yn dïanc oddi wrthynt; hyny yw, oddi wrth yr arferiad goddefol a chyffredinol e honynt.—*Trwy yr hyn:* dywed *Guyse* fod y geiriau Groeg *(di' ôn)* yn y rhif liosog, ac yn cyfeirio un ai at y *gogoniant a'r rhinwedd*, yn niwedd yr adnod o'r blaen; neu at *Dduw a Iesu ein Harglwydd ni*, yn niwedd adn. 2: ac felly y gellir eu cyfieithu trwy yr *hyn*, (bethau,) neu trwy y *rhai*, (personau.)—*O'r dduwiol anian: Theias physeôs*, "o dduwiol anian," yw y Groeg, heb yr un *bannod*. Anian debyg i Dduw, yn dwyn ei ddelw sanctaidd ef: nid yr hanfod *o'r dduwiol anian*, neu *o'r ddwyfol anian*. Mae rhai yn dïanc oddi wrth lygredig-aeth y byd, dros amser, heb fod yn gyfranogion o dduw-iol anian; ond yn amser profedigaeth mae y rhai hyn yn cilio, ac yn myned i lygredigaeth y byd drachefn, fel y dywedir yn pen. 2. 22, o'r epistol hwn.

5 [q] * A hyn yma hefyd, [r] gan roddi cwbl-ddiwydrwydd, † chwanegwch at eich ffydd, [s] rinwedd; ‡ ac at rinwedd, [t] wybodaeth;

q Luc 16. 26. a 24. 21. r adn. 10. pen. 3. 14. Salm 119. 4. Diar. 4. 23. Es. 55. 2. Zec. 6. 15. Ioan 6. 27. Phil. 2. 12. Heb. 6. 11. a 11. 6. a 12. 15. s Gwel ar m. adn. 3. t adn. 2. pen. 3. 18. 1 Cor. 14. 20. Eph. 1. 17, 18. a 5. 17. Phil. 1. 9. Col. 1. 9. 1 Pedr 3. 7.

Ni fynai yr apostol i'w frodyr ymorphwys ar eu trö-edigaeth debygol, nac ar y diwygiad cyssylltiedig â hyny, nac ychwaith ar y dechreuad o adnewyddiad i dduwiol anian; ond, gan ymddybynu ar addewidion yr efengyl, a chan ymgais at y dyben i ba un y rhoddwyd hwynt, mynai iddynt ymlanâu oddi wrth bob gweddillion o halogrwydd cnawd ac ysbryd, gan berffeithio sancteiddrwydd yn ofn Duw. * Tu hwnt, ac fel yn parâu ac yn perffeithio yr adnewyddiad hwnw oedd eisoes wedi cymmeryd lle, mynai iddynt roddi cwbl-ddiwydrwydd, yn yr arferiad o bob moddion gosodedig, oddi ar wir awydd am gynnyddu mewn sancteiddrwydd; † ac fel hyny "chwanegu at eu ffydd, rinwedd;" fel y gallent gyda chalondid a dïannwadalwch gwrol, broffesu ffydd yn Nghrist, ac ufuddâu i'w ewyllys ef, yn nghanol erlidwyr; a dangos cadernid a thawelwch meddwl, er yr holl gyfyngderau a'r peryglon yr oeddynt yn agored iddynt. ‡ Dylent hefyd gyda'r un "diwydrwydd," "chwanegu at rinwedd, wybodaeth;" fel trwy adnabydd-iaeth gynnyddol o holl wirionedd ac ewyllys Duw, y gallent rëoleiddio eu *zêl* a'u gwrolder gyda barn a doethineb: gan wybod pa fodd i ymddwyn yn mhob amgylchiad, a thuag at bob dyn; fel dynion o wybod-aeth a deall da, y rhai nis gellid yn gyfiawn eu cyhuddo o unrhyw beth byrbwyll, ynfyd, neu groes i'w perthynas a'u sefyllfa, yn yr eglwys neu yn y wladwriaeth.—"Rhinwedd:" *(aretês) gwroldeb*, neu *bybyrwch*, yw meddwl cyffredin y gair yn yr awdwyr paganaidd, am ei fod yn deilliaw o *Arês*, Mawrth, duw rhyfel y pagan-iaid Groegaidd. Gwel ar Act. 17. 19. Felly yma, gwrolder ysbrydol, yn y rhyfel ysbrydol, efallai a feddylir.

6 * Ac at wybodaeth, [u] gymmedrolder, † ac at gymmedrolder, [x] amynedd; ‡ ac at amynedd, [y] dduwioldeb;

u Act. 24. 25. 1 Cor. 9. 25. Gal. 5. 23. Tit. 1. 8. a 2. 2 x Salm 37. 7. Luc 8. 15. a 21. 19. Rhuf. 2. 7. a 5. 3, 4. a 8. 25. a 15. 4. 2 Cor. 6. 4. Col. 1. 11. 1 Thes. 1. 3. 2 Thes. 1. 4. a 3. 5. Heb. 6. 12, 15. a 10. 36. a 12. 1. Iago 1. 3, 4. a 5. 7—10. Dat. 1. 9. a 2. 2, 3. a 13. 10. a 14. 12. y adn. 3. pen. 3. 11. Gen. 5. 24. Es. 57. 1. 1 Tim. 2. 2, 10. a 3. 16. a 4. 7, 8. a 6. 3, 6, 11. 2 Tim 3. 5. Tit. 1. 1.

* At "wybodaeth," rhaid iddynt chwanegi "cymmedr-older;" neu lywodraeth fanwl ar yr holl flysiau anianol, mewn darostyngiad i ewyllys Duw, a'u lles eu hunain ac eraill; yn gystal â chymmedrolder mawr yn mhob peth bydol, ac annofalwch am danynt; wedi diddyfnu eu calonau oddi wrthynt, a rhoddi eu serch ar bethau sydd uchod. † At "gymmedrolder," rhaid iddynt

chwanegi "amynedd;" neu ymostyngiad siriol i ewyllys Duw dàn gystuddiau a thrallodion, addfwynder yn nghanol niweidiau a thramgwyddiadau, parâd yn gwneuthur daioni er cael profedigaethau llymion, a dysgwyl tawel wrth yr Arglwydd, am iddo gyfryngu er eu cysur a'u gwaredigaeth. ‡ At yr "amynedd" hon, rhaid chwanegi "duwioldeb;" fel yn cynnwys yr holl serchiadau a'r tueddiadau sanctaidd hyny, y rhai a wnânt addolwyr ysbrydol a gwir weision ymroddedig i Dduw, yn ei holl osodiadau a'i orchymynion ef, ac er ei ogoniant. Mae duwioldeb yn help mawr i amynedd, ac i'r pethau blaenorawl oll yn wir; o herwydd y golygiadau a rydd hi i'r credadyn ar ddoethineb ac uniondeb holl driniaethau Duw arno yn ei ragluniaeth, ac ar ddiwedd daionus a dedwydd y triniaethau hyny oll.

7 * Ac at dduwioldeb, [z] garedigrwydd brawdol; † ac at garedigrwydd brawdol, [a] gariad.

z Ioan 13. 34, 35. Rhuf. 12. 10. 1 Thes. 3. 12. a 4. 9, 10. Heb. 13. 1. 1 Pedr 1. 22. a 2. 17. 1 Ioan 3. 14, 16. a 1 Cor. 13. 4—8. Gal. 6. 10. Col. 3. 14. 1 Thes. 5. 15. 1 Pedr 3. 8. 1 Ioan 4. 21.

* Ac at "dduwioldeb," rhaid chwanegi "caredigrwydd brawdol;" neu gariad gwresog a diragrith cristionogion at eu gilydd, fel brodyr yn yr Arglwydd; yn nghyd âg addfwynder, tynerwch, cyd-ymdeimlad, a thosturi, fel byddo yr angen yn gofyn, fel ffrwythau y caredigrwydd brawdol hwnw, ac fel profion eglur o hóno. † Ac at y cwbl oll, rhaid iddynt chwanegi "cariad;" neu serchawgrwydd cymmwynasgar a thosturiol tuag at bob dyn, dyngarwch helaeth a chyffredinol, neu ewyllys da i ddynion, yn ol gorchymynion Duw, ac mewn tebygoliad i'w diriondeb a'i ewyllys da ef tuag at ein rhyw syrthiedig ni. Fel hyn mae y "caredigrwydd brawdol" at y saint, a'r "cariad" tuag at bawb yn gyffredinol: felly mae ein Hawdwyr oll yn gwahaniaethu rhwng y ddau. —Rhaid i Gristionogion roddi cwbl ddiwydrwydd i chwanegi y grasau sanctaidd hyn at eu gilydd, yn nghyd â'r effeithiau o honynt ar eu hymarweddiad; fel y mae gwahanol leisiau mewn cyd-gordiad yn gwneuthur cyd-gân: fel drwy hyny y byddo i'r gweithrediad o bob gras fod yn gyd-rèolaidd, yn gyd-derfynol, a chydymuno â'r grasau eraill oll, a rhwystro eu gormodedd neu eu palldod a'u dirywiad hwy. Fel hyn bydd i'r cymmeriad cristionogol ymddangos yn gymmesur ac yn hardd: pryd, os bydd un neu ragor o'r grasau hyn yn ddiffygiol iawn, bydd y lleill yn *ymddangos* megys yn ormodol; wedi ei huno â'r tymherau, neu y tueddiadau naturiol hyny, sydd yn fwyaf tebyg iddynt: ac fel hyn rhaid i'r nodweddiad cristionogol ymddangos yn aflunieidd, ac heb fod yn gymmesur; tra byddo un dyn yn *hyf* a *dewr*, ond heb *wybodaeth* neu *gariad;* bydd un arall yn *addfwyn* a *thirion* iawn, ond heb *gadernid* na *gwrolder*. Gall yr un anghymmesuredd ymddangos mewn llawer o bethau eraill.—Mae yn sicr amlwg nas gall rhai o wir rasau y cristion hanfodi wrthynt eu hunain, ac heb y lleill; cyd-weithrediad y cwbl o honynt sydd yn ffurfio ei gymmeriad ef; a chymmesuredd yw prydferthwch.

8 * Canys os yw y pethau hyn [b] gennych, [c] ac yn aml hwynt, [d] † y maent yn peri na *byddoch* na segur [e] na diffrwyth [f] y'ngwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist.

b Ioan 5. 42. 2 Cor. 9. 14. a 13. 5. Phil. 2. 5. Col. 3. 16. Philemon 6. c 1 Cor. 15. 58. 2 Cor. 8. 2, 7. Phil. 1. 9. Col. 2. 7. a 3. 16. 1 Thes. 3. 12. a 4. 1. 2 Thes. 1. 3. d Ioan 15. 7, 8. 2 Cor. 5. 13—17. e Mat. 13. 22. Ioan 15. 2. Tit. 3. 14. f Gwel ar adn. 2.

* Yr oedd yn angenrheidiol i'r pethau uchod gael ystyriaeth neillduol gan y cristionogion hyn, am fod eu defnyddioldeb a'u cysur hwynt yn ymddybynu yn fawr iawn arnynt. Oblegid os oedd y grasau rhagorol a enwyd wedi gwreiddio yn eu calonau, ac yn gweithredu yn rymus ac yn aml yn eu bucheddau; † byddent yn peri na byddent hwy na segur na diffrwyth yn achos eu heneidiau, ac yn eu hamrywiol ddyledswyddau fel cristionogion: am y byddent yn eu cynhyrfu hwy i lafur gwastadol am adnabyddiaeth chwanegol o'r Arglwydd Iesu Grist, am wybodaeth o'i wirionedd a'i ewyllys ef, ac i ufudd-dod parod a bywiog i gyflawni ei ewyllys ef yn yr hyn oll a wnelent.—Nid yw yn ddigon bod y grasau uchod *genym*, neu *ynom;* (yn ol y Saesoneg) ond rhaid eu bod hefyd yn *aml*, neu yn *helaeth*, o ran eu graddau, ac o ran eu gweithrediad.

9 * Oblegid yr hwn [g] nid yw y rhai hyn ganddo, [h] dall ydyw, † heb weled ym mhell, ‡ wedi gollwng dros gôf [i] ei lanhâu oddi wrth ei bechodau gynt.

g adn. 5—7. Marc 10. 21. Luc 18. 22. Gal. 5. 6, 13. Iago 2. 14—26. h Ioan 9. 40, 41. 2 Cor. 4. 3, 4. 1 Ioan 2. 9—11. Dat. 3. 17. i adn. 4. pen. 2. 18—20. Rhuf. 6. 1—4, 11. 1 Pedr 3. 21.

* Ond ar y llaw arall, y proffeswr hwnw ag oedd yn amddifad o'r grasau sanctaiddiol uchod, yr oedd i'w ystyried yn ddall ysbrydol, ac mewn tywyllwch o ran ei enaid a'i galon, pa faint bynag o oleu oedd ganddo yn ei ben a'i ddeall: oblegid nid oedd ei syniadau mwyaf cywir ef, ond dangos iddo *glywed* am y cyfryw bethau; ond yr oedd ei ymddygiad ef yn profi, na *welodd* efe erioed mo honynt, ac na ddeallodd efe erioed mo wir natur, defnydd, gogoniant, a rhagoroldeb y cyfryw bethau. † Neu o leiaf, os oedd efe yn ddiffygiol iawn yn y grasau hyn, rhaid ei fod ef yn fŷr iawn ei olwg, heb allu "gweled yn mhell;" ac heb allu canfod dim yn iawn, am wir duedd ac effeithiau yr efengyl. ‡ Ië, yr oedd efe "wedi gollwng dros gôf;" hyd yn nôd ystyr â meddwl ei broffes ei hun, pan dderbyniodd efe gristionogaeth, ac y bedyddiwyd ef yn enw yr Arglwydd Iesu; fel yr oedd y bedydd hwnw yn arwyddo glanâu dyn oddi wrth ei hen bechodau gynt, mewn cyd-ffurfiad â marwolaeth, claddedigaeth, ac adgyfodiad Crist; fel, gwedi marw i bechod, ac adgyfodi i newydd-deb buchedd, y gallai o hyn allan fyw i Dduw.—Nis gallwn feddwl i'r dyn a grybwyllir yma gael ei lanâu yn wirioneddol erioed oddi wrth ei hen bechodau; ond yr oedd ei fedydd yn arwyddo, neu yn arddangos hyny, ac yntau yn proffesu ei fod yn ymofyn am lanâd wrth gael ei fedyddio; ond yn anghofio pob peth felly ar ol hyny.

10 * O herwydd paham yn hytrach, frodyr, [k] byddwch ddiwyd [l] i wneuthur eich galwedigaeth [m] † a'ch etholedigaeth yn sicr: [n] ‡ canys, tra fyddoch yn gwneuthur y pethau hyn, [o] ni lithrwch chwi ddim byth:

k Gwel ar adn. 5. l 2 Tim. 2. 19. Heb. 6. 11, 19. 1 Ioan 3. 19—21. m Rhuf. 8. 28—31. 1 Thes. 1. 3, 4. 2 Thes. 2. 13, 14. 1 Pedr 1. 2. n Salm 15. 5. Es. 56. 2. Mat. 7. 24, 25. Luc 6. 47—49. o Salm 37. 24. a 62. 2, 6. a 112. 6. a 121. 3. Mica 7. 8. Act. 20. 24, 25. 1 Pedr 1. 5. Dat. 3. 10, 11.

* Nis gallai proffes allanol o gristionogaeth wneyd lles i ddynion, heb adnewyddu eu calonau i sancteiddrwydd: am hyny mae yr apostol yn cyngori ei frodyr, yn "hytrach" i arfer pob diwydrwydd i wneuthur eu galwedigaeth a'u hetholedigaeth yn sicr; fel, trwy ddefnyddiad difrifol a bywiog o bob moddion o ras, ymroddiad i gyflawni pob dyledswyddau, marweiddio pob llygredigaethau, a gwrteithio pob tueddiadau grasol a sanctaidd; y byddai i'r amlygrwydd o'u galwedigaeth hwynt, neu eu hadgenedliad a'u dychweliad, gael ei wneyd yn gyflawn, yn oleu, ac yn ddiammheüol iddynt hwy eu hunain, yn gystal ag i eraill. † Ac fel hyn, hwy a allent gael amlygrwydd o'u hetholedigaeth hefyd; a gallent gasglu yn ddiammheüol, fod Duw o'r dechreuad wedi eu hethol a'u dewis hwynt i iachawdwriaeth, ac y cadwai hwynt i'w dragywyddol deyrnas a'i ogoniant. ‡ Canys tra byddent hwy yn gwneuthur y pethau hyn a enwyd, ni *lithrent* hwy ddim byth; a llawer llai y *syrthient* yn hollawl, i bechodau a gwrthgiliadau anadferol. Fel hyn byddai yn amlwg eu bod hwy yn wir gredinwyr, y rhai a gedwid rhag syrthio i wrthgiliad hollawl a thragywyddol, fel yr oedd llawer o broffeswyr cristionogaeth yn syrthio, ac y mae eto: ac yn ol mesur eu diwydrwydd, hwy a gaent eu cadw rhag maglau diafol, a rhag syrthio i bechodau a fyddai yn

aradwydd i'r efengyl, ac yn ofid blin iddynt hwy eu hunain.—Galwedigaeth effeithiol, gan Ysbryd Duw trwy r efengyl, yw yr alwedigaeth uchod; ac etholedigaeth f fywyd tragywyddol yw yr etholedigaeth: a'r unig iordd i ni wybod ein *hetholedigaeth*, sydd trwy ein ychweliad, neu ein *galwedigaeth*; os *galwyd* ni, e nnaed hyny am ein bod wedi ein *hethol*. Rhaid i ni ybod ein *galwedigaeth* wrth ein bod yn caru Duw; ac nae y cariad hwnw i'w adnabod wrth ei ffrwythau a'i ffeithiau.—*Sicr* i ni, ac nid sicr gyda Duw, a feddylir rrth y sicrwydd uchod.

11 * Canys [p] felly yn helaeth y trefnir i dhwi [q] † fynediad i mewn i [r] dragywyddol eyrnas [s] ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist.

p Mat. 25. 34. 2 Cor. 5. 1. 2 Tim. 4. 8. Dat. 3. 21. q Salm 5. 8. Can. 5. 1. Es. 35. 2. Ioan 10. 10. Eph. 3. 20. Heb. 6. 17. 1 Es. 9. 7. Dan. 7. 14, 27. Dat. 5. 10. s Gwel ar adn. 1.

* Trwy y diwydrwydd uchod a enwyd, hwy a gaent eu adw i rodio yn gysurus ac anrhydeddus gyda Duw, ac ddi wrth y dirywiadau a'r colliadau, i ba rai y llithr- sai eraill; a phan ymadawent â'r byd hwn, trefnid ddynt yn helaeth fynediad i mewn i dragywyddol eyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist: yddai pob peth yn cael eu trefnu fel ag i gyd-weinyddu r eu dedwyddwch hwynt; caent eu breintio yn wyneb mgau, â sicrwydd cysurus eu bod yn myned i'r nef; hwy a gaent fyned i mewn i'r ystâd ddedwydd hòno, el llong yn myned i mewn i'r porthladd, yn llwythog o rysorau gwerthfawr wedi mordaith lwyddiannus, gydag wel hwylus allif llawn, yn ei chludo hi dros bob rhwystr- au, ac yn dybenu ei holl beryglon; ac ni byddai dim mmheüaeth yn y rhai a fyddai ar ol, nad oeddynt hwy edi myned i fod gyda Christ, yn ei ogoneddus a'i dra- ywyddol deyrnas ef. Nid felly proffeswyr anghyson a diofal; byddai tywyllwch ac ammheüaeth ond odid ar eddyliau y rhai hyn yn awr angau; byddai eraill yn ammheüus am danynt hefyd; ac mewn amryw ffyrdd wy a gaent golled, er eu bod hwy eu hunain yn gadw- dig, eto felly megys trwy dân.

12 * O herwydd paham, [t] nid esgeulusaf eich coffâu bob amser am y pethau hyn, [u] † er eich bod yn eu gwybod, [x] ac wedi eich sicrhâu rn y gwirionedd presenol.

t adn. 13, 15. pen. 3. 1. Rhuf. 15. 14, 15. 1 Tim. 4. 6. 2 Tim. 6. Heb. 10. 32. Judas 3, 17. u 1 Ioan 2. 21. Judas 5. 1 pen. 3. 17. Act. 16. 5. Col. 2. 7. Heb. 13. 9. 1 Pedr 5. 10, 12.

* Wrth weled fod pethau fel y crybwyllwyd, mae yr postol yn sicrâu i'w frodyr, na byddai efe ddim yn sgeulus yn ei ddyledswydd; ond y defnyddiai efe bob yfleusdra i'w coffâu hwynt bob amser am y pethau wysig uchod: † ie, er eu bod yn eu gwybod hwynt eisoes, ac wedi eu "sicrâu," yn enwedig yn y gwirion- edd oedd efe yn drin y pryd hwnw; sef yr angenrheid- wydd o ddyfalwch a sancteiddrwydd, "i wneuthur eu alwedigaeth a'u hetholedigaeth yn sicr," (adn. 10.) ac gael "helaeth fynediad i mewn i dragywyddol deyrnas rist." Yr oedd llawer o honynt yn gwybod y gwirion- edd presenol, ac wedi eu sicrâu ynddo; ac eto a garent n fawr gael adnewyddu eu côf am dano, a chael ad- ryfâu eu grasau sanctaidd, trwy gyngorion annogaeth- wl yr apostol: ond gallai eraill fod mewn ysbryd ddfeiliedig ac ansefydlog; yn enwedig gan fod llawer o lthrawon yn taenu dàliadau o wahanol natur a thuedd- ad, yn mhlith yr eglwysi.—*Y gwirionedd presenol:* oll wirionedd yr Hen Destament am Grist, a'r iach- wdwriaeth drwyddo ef, medd rhai; yr hyn oedd i *dyfod* o hyd yn amser y tadau, ond a oedd *wedi* dyfod, c yn *bresenol*, dàn yr efengyl, pan oedd Petr yn ysgrif- mu y geiriau hyn.

13 * Eithr yr ydwyf yn tybied *fod* yn awn, [y] † tra fyddwyf yn y tabernacl hwn, ‡ eich cyffroi chwi, [a] ‖ trwy ddwyn ar gôf *i hwi:*

y adn. 14. 2 Cor. 5. 1—4, 8. Heb. 13. 3. z pen. 3. 1. Hag. 1. 14. 2 Tim. 1. 6. a Gwel ar adn. 12

* Gan fod angen coffâu y pethau a enwyd i bawb, tybiai yr apostol yn "iawn," yn gyfaddas, ac yn ddyled arno i'w frodyr, † tra byddai efe yn ymdaith yn y corph gwael, megys mewn pabell, neu dabernacl, am ychydig amser; ‡ eu cyffrôi hwynt i ddiwydrwydd chwanegol a pharâol yn mhob gwaith da; ‖ trwy ddwyn ar gôf iddynt y gwirioneddau hyny a ddysgasent o'r blaen, ond a oeddynt yn rhŷ dueddol i'w hanghofio, trwy ofalwch bydol a diofalwch cnawdol.—Lle nad oes diffyg gwybod- aeth, mae cyngorion yn angenrheidiol yn aml.

14 * Gan wybod y [b] bydd i mi ar frys roddi fy nhabernacl *hwn* heibio, [c] † megis ag yr hysbysodd ein Harglwydd Iesu Grist i mi.

b Deut. 4. 21, 22. a 31. 14. Jos. 23. 14. 1 Bren. 2. 2, 3. Act. 20. 25. 2 Tim. 4. 6. c Ioan 21. 18, 19.

* Cymhellid yr apostol i gyffrôi a chyngori ei frodyr, gan yr wybodaeth sicr oedd ganddo, bod ei farwolaeth ef yn agosâu yn gyflym; pryd y dattodid ei gorph ef fel pabell; neu y rhoddid ef heibio fel dilledyn, pan fyddo un yn myned i orphwyso am y nos; nid trwy ddattodiad naturiol, mae yn wir, ond trwy angau merthyrol, a chreulawn; † megys ag yr hysbysasai ei Arglwydd Iesu Grist iddo ef o'r blaen, yn Ioan 21. 18, 19: gwel ar yr adnodau hyny.—Yma mae Petr yn llefaru gyda thawel- wch mawr iawn, am yr angau poenus a thra-arteithiol oedd yn ei aros, megys pe buasai ddim mwy na rhoddi heibio ei wisg, neu symmud ei babell; ac y mae yn ddigon addas cyferbynu ei dawelwch hwn â'i ofn, a'i waith yn gwadu ei Arglwydd, pan y cawsai efe ei adael iddo ei hun, i'r dyben o'i ddarostwng, yn llŷs yr arch- offeiriad. Hysbysodd yr Arglwydd Iesu i Petr *pa fodd* y byddai farw; a thybia rhai iddo gael hysbysiad wedi hyny *pa bryd* y byddai raid iddo ddyoddef merthyrdod.

15 [d] * Ac mi a wnaf fy ngoreu hefyd † ar allu o honoch bob amser, ar ol fy ymadawiad i, [e] ‡ wneuthur coffa am y pethau hyn.

d Deut. 31. 19—29. Jos. 24. 24—29. 1 Cron. 29. 1—20. Salm 71. 18. 2 Tim. 2. 2. Heb. 11. 4. e Gwel ar adn. 4—7, 12.

* Hyn oni ddeuai yr amser pennodawl iddo ef farw, yr oedd yn penderfynu gwneyd ei oreu yn ddibaid, ac arfer pob moddion yn wastadol, † i beri iddynt hwy gofio ei gyngorion ef ar ol ei ymadawiad, a myned o'i gorph ef i lŵch y bedd, a'i enaid at ei Arglwydd, mewn byd gwell na hwn. ‡ Er iddo ef ysgrifenu at yr eglwysi yn Asia; eto mae yn amlwg ei fod yn bwriadu ei gyng- orion er lles i gristionogion mewn oesoedd a chenedl- oedd eraill: ac mae ei eiriau ef genym ni o hyd mewn "coffa."—Dangosir annigonoldeb traddodiadau *llafur* yma yn eglur iawn, wrth awyddfryd yr apostol i dros- glwyddo ei gyngorion a'i athrawiaeth mewn *ysgrifen.*

16 [f] * Canys nid gan ddilyn chwedlau cyf- rwys, † yr hysbysasom i chwi [g] nerth a [h] dy- fodiad ein Harglwydd Iesu Grist, [i] ‡ eithr wedi gweled ei fawredd ef â'n llygaid.

f pen. 3. 3, 4. 1 Cor. 1. 17, 23. 2 Cor. 2. 17. a 12. 16, 17. Eph. 4. 14. 2 Thes. 2. 9. 1 Tim. 1. 4. a 4. 7. Tit. 1. 14. g Mat. 28. 18. Marc 9. 1. Ioan 17. 2. Rhuf. 1. 4. 1 Cor. 5. 4. Phil. 3. 21. h Mal. 3. 2. a 4. 5. Mat. 16. 28. a 24. 3, 27. 1 Cor. 1. 7. Judas 14. Dat. 1. 7. i Mat. 17. 1—4. Marc 9. 2. Luc 9. 28—32. Ioan 1. 14. 1 Ioan 1. 1—3. a 4. 14.

* Yr oedd yr apostol yn barod i roi ei fywyd i lawr, er tystiolaeth i'r efengyl, ac yn awyddus i gadarnâu eraill yn y ffydd; oblegid efe a wyddai yn sicr, nad oedd efe ei hun ac apostolion eraill Crist, ddim wedi "dilyn chwedlau cyfrwys," i'r dyben o foddâu nwydau dynion, a boddloni eu tueddiadau llygredig; ac felly derchafu eu hunain i gyfoeth, awdurdod, a pharch. Hyn ydoedd natur, amcan, ac effeithiau, llawer o'r chwedlau paganaidd, a dychymmygion y Rabbiniaid Iuddewig: a hyn yn wir, yn y naill ffordd a'r llall, ydyw amcan pawb o'r rhai hyny, sydd yn dyfeisio ac yn taenu trefniaethau gau a gŵyrog o grefydd. † Ond nid oedd dim o'r natur hyn yn yr athrawiaeth a bregethai yr apostolion, am y nerth a'r awdurdod i ba rai y dyrchaf-

wyd Crist mewn canlyniad i'w groeshoeliad a'i adgyfodiad ef, a'r dybenion i ba rai yr oedd ef yn teyrnasu; neu am ei nerth a'i awdurdod ef yn ei ail "ddyfodiad" i farnu y byd, i berffeithio iachawdwriaeth ei ddysgyblion, ac i gyflawni dïal ar ei elynion. Nid oedd yr athrawiaethau hyn yn addas i foddâu dynion cnawdol, neu i ennill manteision bydol i'r rhai oedd yn eu pregethu: yn wir yr oedd y cyfryw athrawiaethau yn sicr o dramgwyddo y rhai hyny nad oeddynt wedi eu dwyn i edifeirwch, ffydd, a sancteiddrwydd; ond yr oeddynt wedi eu profi yn wirionedd yn y modd mwyaf cadarn ac anwadadwy. ‡ Oblegid yr oedd Petr, Iago, ac Ioan, wedi gweled mawredd yr Arglwydd Iesu Grist, hyd yn nôd yn yr amser a bennodwyd i'w ddarostyngiad ef. Yr oedd ei fawredd hanfodol ef, a'i dderchafiad cyfryngol ef cyn nemawr o amser, yn amlwg iddynt yn nysglaerder ei wynebpryd ef, ac yn ymddangosiad Moses ac Elias, i roddi i fynu eu hanrhydedd iddo ef, yn ei wedd-newidiad. Gwel ar Matth. 17. 1—4; Marc 9. 2—4; a Luc 9. 28—36.

17 * Canys efe a dderbyniodd gan [k] Dduw Dad, barch a gogoniant, [l] † pan ddaeth y cyfryw lef atto oddi wrth y mawr-ragorol Ogoniant, [m] ‡ Hwn yw fy anwyl Fab i, [n] ‖ yn yr hwn y'm boddlonwyd.

k Mat. 11. 25—27. a 28. 19. Luc 10. 22. Ioan 3. 35. a 5. 21—23, 26, 36, 37. a 6. 27, 37, 39. a 10. 15, 36. a 13. 1—3. a 14. 6, 8, 9, 11. a 17. 21. a 20. 17. Rhuf. 15. 6. 2 Cor. 1. 3. a 11. 31. 2 Ioan 3. Judas 1. l Mat. 17. 3. Marc 9. 7. Luc 9. 34, 35. Ioan 12. 28, 29. m Mat. 3. 17. Marc 1. 11. Luc 3. 22. n Es. 42. 1. a 53. 10. Mat. 12. 18.

* Ac yn enwedig, efe a dderbyniodd y parch a'r gogoniant mwyaf hynodawl a goruchel gan Dduw Dad ei hun; † pan glywyd o'r cwmwl goleu, arwydd o'r Presenoldeb dwyfol, neu y *Shechinah*, yn ei fawr-ragorol ogoniant, y llef hòno yn dywedyd, ‡ "Hwn yw fy anwyl Fab i, yn yr hwn y'm boddlonwyd:" hyny yw, yr Iesu hwn, mewn ffordd o ragoriaeth a goruwch enwogrwydd, yw fy Mab anwyl a thragywyddol i; ‖ yn Mherson a swydd, gwaith a chyflawniad yr hwn, yr wyf yn annhraethol o foddlawn a hyfryd, megys yr ydwyf hefyd i bawb a gair ynddo ef, trwy wir a bywiol undeb âg ef; ac felly wedi eu gwisgo yn ei gyfiawnder, a'u golchi yn ei waed ef, oddi wrth eu holl bechodau.—*Oddi wrth y mawr-ragorol Ogoniant:* un ai o nef y gogoniant, neu oddi wrth Dduw y gogoniant, Tad gogoneddus ein Harglwydd Iesu Grist.

18 [o] * A'r llef yma, yr hon a ddaeth o'r nef, a glywsom ni, † pan oeddym gyd âg ef [p] yn y mynydd sanctaidd.

o Mat. 17. 6. p Gen. 28. 16, 17. Ex. 3. 1, 5. Jos. 5. 15. Es. 11. 9. a 56. 7. Zec. 8. 3.

* Ac yr oedd Petr ei hun, yn nghyd â'i frodyr, Iago ac Ioan, wedi clywed y llef hon, yr hon a ddaethai o'r nef, † pan oeddynt gyda'r Iesu ar fynydd y gwedd-newidiad; yr hwn a alwai yr apostol yn briodol iawn "y mynydd sanctaidd," oddi wrth yr amlygiad nodedig hwn o ogoniant y Duw sanctaidd arno; fel yr oedd mynydd Horeb gynt, pan ymddangosodd Duw i Moses yn y berth. Exod. 3. 4, 5.

19 * Ac y mae gennym [q] air sicrach y prophwydi; [r] † yr hwn da y gwnewch fod yn dal arno, [s] ‡ megis ar ganwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll, [t] ‖ hyd oni wawrio y dydd, § ac oni chodo y seren ddydd yn eich calonnau chwi:

q Salm 19. 7—9. Es. 8. 20. a 41. 21—23, 26. Luc 16. 29—31. Ioan 5. 39. Act. 17. 11. r Act. 15. 29. Iago 2. 8. 3 Ioan 6. s Salm 119. 105. Es. 9. 2. a 60. 1, 2. Mat. 4. 16. Luc 1. 78, 79. Ioan 1. 7—9. a 5. 35. a 8. 2. Eph. 5. 7, 8. t 2 Cor. 4. 4—6. 1 Ioan 5. 10. Dat. 2. 28. a 22. 16.

* Yr oedd y côf am wedd-newidiad Crist yn rhoddi hyder mawr i'r apostol yn *bersonol*, ac i hyn yn wir y bwriadwyd y tro rhyfedd hwnw yn benaf; ac yr oedd tystiolaeth Petr am dano yn foddion i gadarnâu llawer ar ffydd cristionogion eraill; ac eto, yr oedd ganddynt hefyd air sicrach y prophwydi. Nid oedd yr ymddangosiad a'r llef ar y mynydd ond *diflanedig*, neu *ddibarâd*, a dim ond tri o ddynion wedi gweled yr olygfa ryfedd; ac un o'r rhai hyny wedi ei ferthyru weithian er ys hir o amser. Gan hyny pa sicrwydd bynag a allai eu tystiolaeth hwy roddi i'r dynion a ymholent; nid oedd mòr gyfaddas i roddi llawn foddlonrwydd i bawb yn gyffredin, ag ydoedd prophwydoliaethau yr Hen Destament. Yr oedd y rhai hyn o'r dechreuad, neu o leiaf er cwymp Adda, wedi rhagfynegi a dysgrifio un Person rhyfeddol; ac wedi rhag-grybwyll am ei enedigaeth, ei gymmeriad, ei wyrthiau, ei athrawiaeth, ei ddyoddefaint, ei farwolaeth, ei adgyfodiad, a'i dderchafiad; yn nghyd â sefydliad, helaethrwydd, llwyddiant, a pharâd ei deyrnas ef, a'i ddyfodiad diweddaf ef i farn. A phan gymharid y prophwydoliaethau hyn â'r cyflawniad o honynt yn Iesu o Nazareth, yr oeddynt yn gwneyd i fynu brawf sefydlog, parâus, a chyffredinol, anwadadwy o benderfynol, mai yr Iesu hwnw oedd y Messïah, y Mab Duw, ac Iachawdwr y byd. Fel hyn yr oedd y prophwydoliaethau yn cadarnâu athrawiaeth yr apostolion, am ddyrchafiad ac ail ddyfodiad Crist, yn fwy grymus nac y gallai dim a welsai Petr a'i frodyr ar y mynydd ei wneyd: nid yn unig i rai ni welsent y gwedd-newidiad hwnw, ond hefyd i'r tri apostol hyn a'i gwelsent. Gan hyny po mwyaf yr ystyriai pawb y prophwydoliaethau hyn, mwyaf yr argyhoeddid hwynt o wirionedd athrawiaeth yr apostolion. † Gan hyny pawb a ddarllenent air sicrach y prophwydi, da y gwnaent fod yn dàl yn y modd craffaf a manylaf arno, ‡ oblegid yr oedd i'w ystyried fel canwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll; nid yn unig gyda golwg ar hollawl annwybodaeth y cenedloedd, a thywyllwch cymharol yr oruchwyliaeth Iuddewig; ond hefyd fel yr oedd y ddaear wedi bod bob amser yn lle tywyll, oddigerth lle yr oedd gair Duw wedi taenu llewyrch ynddi, trwy dywys dynion at Grist, "Goleuni y byd." ‖ Am hyny dylai cristionogion ddàl ar brophwydoliaethau yr ysgrythyr, er eu hargyhoeddiad a'u cyfarwyddyd am wirionedd y grefydd gristionogol; hyd oni ddatguddiai yr Ysbryd Glân i'w heneidiau ogoniant a rhagoroldeb yr efengyl; a rhoddi iddynt trwy ei ddylanwadau sancteiddâol a chysurus, dòriad gwawr y nefoedd yn eu calonau; § ac hyd oni byddai i adnabyddiaeth o Grist, a phrofiad o'i nerth, ei wirionedd, a'i gariad ef, ffurfio o'u mewn hwynt sicrwydd, a rhag-ddysgwyliad am oleuni, sancteiddrwydd, a dedwyddwch y saint, yn mhresenoldeb eu Gwaredwr gogoneddus; yn gyffelyb fel y byddai y "seren ddydd" yn blaenori ac yn dwyn i mewn gyfodiad haul a pherffaith ddydd.—"Gair *sicrach* y prophwydi:" heblaw a ddywedwyd uchod ar y geiriau hyn, gallwn sylwi, nad oedd gair y prophwydi ynddo ei hun ddim yn sicrach na'r dystiolaeth ogoneddus a roddwyd i Grist o'r nef, yn ngolwg a chlyw yr apostolion; na dim yn sicrach nâ'r tystiolaeth hwythau o'r hyn a welsent ac a glywsent y pryd hwnw: ond yr oedd yn brawf mwy sicr a dïammheüol o'i *ail ddyfodiad ef gyda nerth a gogoniant mawr*, nac a ellid gasglu oddi wrth yr hyn a basiodd yr y mynydd. Barnai rhai mai am *nerth* a *dyfodiad* Crist yn unig mae yr apostol yn llefaru yma, (adn. 16.) fe pe dywedasai, "Mae genym sail gref i ddysgwyl y daw Crist yn ei *ogoniant*, oblegid ni a'i gwelsom ef eisoes wedi ei *ogoneddu:* ac mae yn sicr genym y daw ef mewn *nerth* i waredu ei weision, oblegid ni a glywsom Dduw Dad yn tystiolaethu am dano, *Hwn yw fy anwyl Fab.* Ond i wneyd y pethau hyn yn fwy dïammheüol byth, mae genym air sicrach y prophwydi ar y mater y rhai a lefarasant drwy ysbrydoliaeth anffaeledig Duw ac nid oes neb o honoch yn eu hammau hwynt, beth bynag am danom ni."—Gwedi y cwbl, dywed rhai na oedd yr apostol yn meddwl dim cymhariaeth yn y fàn hon; ond ei fod yn arfer y dull cymharol am y dull gosodedigaethol, fel pe dywedasai "mae genym air *tra sicr* y prophwydi."—*Canwyll yn llosgi mewn lle tywyll* tybia rhai fod prophwydoliaeth yn cael ei gadw fell

yma, am ei bod yn myned oleuach oleuach yn raddol, fel mae yn tynu yn nes nes at y cyflawniad o hóni.

20 [a] * Gan wybod hyn yn gyntaf, [x] nad oes un brophwydoliaeth o'r ysgrythyr o ddehongliad priod.

u pen. 3. 3. Rhuf. 6. 6. a 13. 11. 1 Tim. 1. 9. Iago 1. 3.
x Rhuf. 12. 6.

* Wrth ddàl ar y goleuni uchod, rhaid i gristionogion "wybod yn gyntaf," fel mater o'r pwys mwyaf, "nad oes un brophwydoliaeth o'r ysgrythyr o ddehongliad priod."—Eglurwyd y geiriau hyn mewn amryw ffyrdd gan wahanol ddynion. Mae rhai yn eu darllen, "o *gynhyrfiad* priod," fel pe byddent yn perthyn yn nuytrach i *roddiad* prophwydoliaeth, nac i'r dehongliad o hóni: nid o'u dychymmygion, a'u cynhyrfiadau personol eu hunain, yr oedd y prophwydi sanctaidd gynt yn prophwydo; ond trwy ddylanwadau grymus yr Ysbryd Glân arnynt, megys y dywedir yn yr adnod nesaf. Dyma feddwl *Guyse*, a *Doddridge*, ond dywed *Scott* nas gellir cyfieithu y gair *epiluseôs* (dehongliad) yn priodol felly, am ei fod yn arwyddo *dattod cwlwm*, neu *ygluro* unrhyw beth: ac byddai yn gwneyd yr adnod nesaf yn ail ddywediad yn unig o'r un peth; a hyny mewn dull o reswm yn cael ei roddi am yr hyn a ddywedasid o'r blaen, yr hyn sydd dra annaturiol, ebai efe. Dywed eraill ar y geiriau fel hyn:—Nad oes un brophwydoliaeth o'r ysgrythyr i'w dehongli yn ol dychymmyg a mympwy dynion, yn enwedig dynion anianol, ffychymmygol, a chyfeiliornus, heb fod dàn arweiniad a dysgeidiaeth Ysbryd Duw; ond bod pob prophwydoliaeth, yn gystal â phob rhan arall o'r ysgrythyr, i gael ei dehongli trwy gyd-farnu pethau ysbrydol â phethau ysbrydol, yn unol â'r ysgrythyrau oll, yn ol cysondeb y ffydd, ac yn ol meddwl Crist.—Fel hyn rhoddasom y ddau *brif* olygiad sy gan dduwinyddion ar y geiriau hyn, ger bron ein darllenwyr; heb ryfygu penderfynu na un o'r ddau oedd meddwl yr apostol. Dylem sylwi, mod y ddau olygiad uchod gan *Pool* ar y geiriau, heb addwedyd pa un o'r ddau a gymmeradwya efe.—Dylem nod yn sicr fod pob prophwydoliaeth o'r ysgrythyr o *roddiad* dwyfol, ac â meddwl priodol a phenderfynol addi; yr hwn nis gall un dyn ei newid, ac nis dylai neisio ei newid: am hyny gweddiwn am oleuni Ysbryd Duw i ddeall ei eiriau ef, ac i'w *dehongli* yn ol ei ewyllys ef, ac nid yn ol ein tŷb priodol a dychymmygol ein hunain.—*Nad oes un brophwydoliaeth o'r ysgrythyr o ddehongliad priod:* neu yn ei dehongli ei hun, heb ymmorth i hyny o ysgrythyrau eraill: oblegid nid ithag-fynegiadau unigol a neillduedig, o ddamweiniau ywahanol a diberthynas â'u gilydd, yw prophwydoliaethau yr ysgrythyr; ond y maent oll mewn cyssylltiad 'u gilydd yn un gyfundraith gyson a chyfan, ac oll yn yfeirio at ac yn terfynu mewn un mater neu wrthddrych mawr;—sef cyhoeddiad a thaeniad yr efengyl, hollol sefydliad teyrnas y Messiah.—*Esgob Horsley.*

21 * Canys nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt brophwydoliaeth: † eithr [y] dynion sanctaidd Duw [z] ‡ a lefarasant *megis* y cynhyrfwyd *awy* [a] gan yr Ysbryd Glân.

y Deut. 33. 1. Jos. 14. 6. 1 Bren. 13. 1. a 17. 18, 24. 2 Bren. 6. 7, 9, 22. a 6. 10, 15. 1 Cron. 23. 14. 2 Cron. 8. 14. z Num. 16. 28 2 Sam. 23. 2. Mica 3. 7. Luc 1. 70. 2 Tim. 3. 15—17. 1 Pedr 1. 11. Dat. 19. 10. a Marc 12. 36. Act. 1. 16. a 28. 25. Heb. 3. 7. a 9. 8. a 10. 15.

* Canys nid trwy ewyllys, neu yn ol dyfais a dymuniad y prophwydi eu hunain, y daeth gynt brophwydoliaeth, ac nid yn ol ewyllys a dychymmyg y naill a'r llall o ddynion, y mae prophwydoliaethau eto i gael eu dehongli: ond mae y pethau, i ba rai y perthyna y prophwydoliaethau, wedi cael eu penderfynu yn nhraddodiad gyngor Duw, ac i gael eu cyflawni yn ei modd a'u hamser priodol, yn ol ei feddwl ef. † "Dynion sanctaidd Duw," y rhai a'i gwasanaethent ef, ac a ddewiswyd yn neillduol ganddo ef i hyn, ‡ "a lefarasant megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân;" a chan belled oeddynt o lunio eu prophwydoliaethau yn ol eu hewyllysiau eu hunain, fel nad oeddynt lawer gwaith yn gallu deall meddwl eu geiriau eu hunain. (1 Pedr 1. 10, 11.)—*Y daeth gynt brophwydoliaeth:* prophwydoliaethau yr Hen Destament oedd yr apostol yn feddwl; ond mae ei eiriau ef yr un mòr wir am brophwydoliaethau y Testament Newydd hefyd; ac mae yr adnod ddiweddaf hon yn dystiolaeth o'r fath fwyaf penderfynol am ddwyfol ysbrydoliaeth yr ysgrythyrau oll.—*Dynion sanctaidd:* nid am eu bod yn ddynion *duwiol* yn unig, yr oedd llawer felly heblaw hwy; ond am eu neillduo gan Dduw i fod yn brophwydi, ac i dderbyn ysbryd prophwydoliaeth.—*Megys y cynhyrfwyd hwy:* trwy oleuni a nerth yr Ysbryd Glân arnynt ar amserau, i lefaru prophwydoliaethau, am bethau a gyflawnid yn anffaeledig, mewn amser i ddyfod: nid oeddynt hwy ond megys peiriannau, trwy ba rai yr oedd Ysbryd Duw yn llefaru.

PEN. II.

Am athrawon twyllodrus.

[a] * EITHR bu gau brophwydi hefyd ym mhlith y bobl, [b] megis ag y bydd gau athrawon yn eich plith chwithau; ‡ y rhai yn [c] ddirgel a ddygant i mewn [d] heresiau dinystriol, [e] ‖ a chan wadu yr Arglwydd, [f] yr hwn a'u prynodd hwynt, § ydynt yn [g] tynnu arnynt eu hunain ddinystr buan.

a Deut. 13. 1—3. 1 Bren. 18. 19—22. a 22. 6. Neh. 6. 12—14 Es. 9. 15. a 56. 10, 11. Jer. 14. 13—15. a 23. 16, 17, 25—32. a 27. 14, 15. a 28. 15—17. a 29. 8, 9, 31, 32. a 37. 19. Galar. 2. 14. Ezec. 13. 3—18. Hos. 9. 8. Mica 2. 11. a 3. 5, 11. Zeph. 13. 3, 4. Mat. 7. 15. Luc 6. 26. Rhuf. 16. 18. b Mat. 24. 11, 24. Marc 13. 22. Luc 21. 8. Act. 20. 29, 30. 1 Cor. 11. 19. 2 Cor. 11. 13—15. Gal. 4. 17. Eph. 4. 14. Col. 2. 8, 18. 2 Thes. 2. 3—12. 1 Tim. 4. 1—3. 2 Tim. 3. 1—9. a 4. 3. Tit. 1. 11. 1 Ioan 2. 18, 19, 26. a 4. 1. Dat. 2. 9. a 13. 14. c adn. 3. Gal. 2. 4. d adn. 3. Gal. 5. 20. Tit. 3. 10. e Mat. 10. 33. Luc 12. 9. Act. 3. 13, 14. 2 Tim. 2. 12, 13. Judas 4. Dat. 2. 13. a 3. 8. f Deut. 32. 6. Act. 20. 28. 1 Cor. 6. 20. a 7. 23. Gal. 3. 13. Eph. 1. 7. 1 Pedr 1. 8. Dat. 5. 9. g adn. 3. Mal. 3. 5. Phil. 3. 19.

* Yr oedd gau-brophwydi wedi bod yn gwrthwynebu "dynion sanctaidd Duw," dàn yr hen oruchwyliaeth; y rhai trwy ymadroddion twyllodrus a gwenieithus, oeddynt yn cael awdurdod niweidiol ar feddyliau y bobl, a llywodraethwyr Israel. † Ac yn yr un modd byddai gau-athrawon yn yr eglwys gristionogol, y rhai trwy gyffelyb foddion a dynent lawer o broffeswyr cristionogaeth oddi wrth athrawiaeth sanctaidd yr apostolion, a phregethwyr ffyddlawn eraill. ‡ Nid ar unwaith ac yn gyhoedd y gwrthwynebai y twyllwyr hyn brif wirioneddau cristionogaeth, ond yn ddirgel: hwy a weithient mewn cyfrwysdra diarwybod i bawb eraill; ac yn raddol, dàn y lliw o bethau da, hwy a ddygent i mewn yn lladradaidd heresiau dinystriol, a'r fath athrawiaethau cyfeiliornus, ag a dueddai i ddadymchwelyd a gŵyr-droi unig amcan a dyben yr efengyl. ‖ Oblegid hwy a aent rhagddynt o radd i radd, càn belled â gwadu yr Arglwydd yr hwn a'u prynasai: dynion, yn proffesu credu, i'r Arglwydd Iesu brynu yr eglwys â'i briod waed, ac yn ystyried eu hunain fel wedi eu prynu â'r gwerth annhraethawl hwnw; yn lle ei ogoneddu ef drwy ufudd-dod ymroddawl iddo, a fwrient ymaith ei iau ef, a wadent ei awdurdod, ac a wrthodent ei gymmeryd ef i deyrnasu arnynt.—Nid yw yn angenrheidiol i ni ddeall yr apostol yma, fel yn dywedyd, i'r Arglwydd Iesu farw gyda *bwriad* pennodol i brynu y twyllwyr hyn yn bersonol: yr oedd yn llawn ddigon i'w bwnc ef, eu bod hwy yn gwadu Crist, fel eu Harglwydd, yr hwn y proffesent obeithio ynddo fel Gwaredwr; fel mae pawb *Antinomiaid* proffesedig yn gwneyd eto.—Tybia rhai mai gwaredigaeth Israel o'r Aipht, a llawer tro wedi hyny, a feddylir yma wrth *brynu;* a dywedant fod y gair *despotês*, a gyfieithir yma "Arglwydd," yn cael ei gymhwyso at Dduw Dad, pan lef-

arir am dano mewn ffordd o wahaniaeth oddi wrth yr Arglwydd Iesu, yn y geiriau cyfystyr, yn Judas 4. Ond tybia *Scott* mai annaturiol iawn yw deall y geiriau felly, ac na buasai neb byth yn meddwl am y cyfryw olygiad arnynt, yn y cyssylltiad hwn, oni buasai fod dadleuaeth, yn peri i ddynion osod eu dychymmygion eithaf ar waith, i ochelyd rhesymau, ac ateb gwrthddadleuon, eu gwrthwynebwyr. Fel hyn mae ymlynïad wrth gredo, yn arwain dynion i wneyd cam â'r ysgrythyrau; ac mae hyn yn gwneyd mawr niwed i'r achos, a fynent hwy mòr fawr ei amddiffyn. *Bwriadodd* Crist yn ddïammau, brynu y rhai hyny, a neb ond y rhai hyny, a rag-welodd efe y byddent yn gadwedig *yn y diwedd*, trwy ffydd ynddo ef: eto yr oedd ei iawn ef o *anfeidrol* ddigonoldeb, mae y cynnygiad o hóno yn yr ysgrythyr yn *gyffredinol*, a llefarir wrth ddynion yn wastadol yn ol y *broffes* a wnelont, hyd yn nôd pan y crybwyllir ar yr un pryd, nad ydynt yn gywir a diragrith yn y broffes hòno. § Yr oedd y gau-athrawon hyn trwy wadu eu Harglwydd, neu wrthod ufuddâu iddo fel eu Harglwydd a'u Brenin, yr hwn y proffesent eu bod yn ymddiried ynddo fel eu Prynwr a'u Gwaredwr; a thrwy ddysgu i eraill eu hathrawiaethau atgas a ffiaidd; yn tynu arnynt eu hunain a'u canlynwyr ddinystr buan, yr hwn a ddeuai arnynt yn sydyn ac yn ddïarwybod. (Gwel ar 1 Thes. 5. 3.) Tybia rhai mai y Nicoliaid a'r Gwybedyddion *(Gnostics)* oedd y gau-athrawon hyn.

2 [h] * A llawer a ganlynant eu distryw hwynt, [i] † o herwydd y rhai y [k] ceblir [l] ffordd y gwirionedd.

h Mat. 24. 10—13, 24. Marc 13. 22. 1 Ioan 2. 18, 19. Dat. 12. 9. a 13. 8, 14. i Rhuf. 2. 24. 1 Tim. 5. 14. Tit. 2. 5, 8. k adn. 15, 21. Salm 18. 21. Es. 35. 8. Jer. 6. 16. Mat. 7. 14. a 22. 16. Marc 12. 14. Ioan 14. 6. Act. 13. 10. a 16. 17. a 18. 26. a 19. 9. a 24. 14. l adn. 12. Act. 14. 2. 1 Pedr 2. 12. Judas 10, 15.

* Er mòr atgas a chyfeiliornus yr athrawiaethau, ac er mòr ofnadwy y farn, eto yr oedd llawer a ganlynent eu ffyrdd niweidiol a dystrywiol hwy; gan sugno eu hegwyddorion gwenwynig, a dynwared eu hesamplau bryntion; † o herwydd pa rai y ceblid ffordd y gwirionedd gan ddynion annwybodus, y rhai a gasglent fod cristionogion yn gyffredin yn dàl yr un athrawiaethau penrhydd, ac eu bod yn ddirgel yn coledd eu hunain yn yr un arferion drygionus, er nad oedd ond rhai o honynt yn cael eu dàl yn euog, neu yn ddigon hyfion i bechu yn gwbl gyhoeddus.—"Eu *dystryw* hwynt:" eu *ffyrdd niweidiol* hwynt, yn ol y Saesoneg: ffyrdd anllad, trythyll, nwyfus, medd rhai, dystryw pob daioni, ac yn arwain i ddystryw tragywyddol.

3 [m] * Ac mewn cybydd-dod, [n] trwy chwedlau gwneuthur, [o] † y gwnant farsiandïaeth o honoch: [p] ‡ barnedigaeth y rhai er ys talm nid yw segur, a'u colledigaeth hwy nid yw yn hepian.

m adn. 14, 15. Es. 56. 11. Jer. 6. 13. a 8. 10. Ezec. 13. 19. Mica 3. 11. Mal. 1. 10. Rhuf. 16. 18. 2 Cor. 12. 17, 18. 1 Tim. 3. 3, 8. Tit. 1. 7, 11. 1 Pedr 5. 2. Judas 11. n pen. 1. 16. Salm 18. 44. a 66. 3. a 81. 15. Luc 20. 20. a 22. 47. 1 Thes. 2. 5. o Deut. 24. 17. Ioan 2. 16. Dat. 18. 11—13. p adn. 1, 9. Deut. 32. 35. Es. 5. 19. a 30. 13, 14. a 60. 22. Hab. 2. 3. Luc 18. 8. 1 Thes. 5. 3. 1 Pedr 2. 8. Judas 4, 15.

* Fel hyn trwy weniaeth, rhith o gariad at, a ffûg o *zêl* dros, wirioneddau efengylaidd, hwy a geisient foddâu nwydau a thueddiadau cnawdol dynion, i'r dyben o borthi eu cybydd-dod eu hunain; † ac felly hwy a wnaent farsiandïaeth ddrygionus o eneidiau y bobl, gan eu trosi hwy i ddystryw, i'w cyfoethogi eu hunain. ‡ Ond tra byddent hwy yn llwyddo fel hyn drwy eu "heresiau dinystriol," ac yn gobeithio cael dïanc yn ddigosp am eu pechodau; yr oedd y farnedigaeth a fwriadwyd iddynt wedi cael ei rhagfynegi er yn hir o'r blaen; y lle poenus wedi ei ddarpar er yn fore; y farn yn yr hon y condemnid hwynt nid oedd yn oedi; a dïaledd Duw, yr hwn yn sicr a'u trosglwyddai hwynt i dragywyddol ddystryw, nid oedd yn segur nac yn hepian. Yr oedd yr Arglwydd yn cyd-ddwyn â hwynt, mae yn wir, yn ei hir-amynedd, hyd oni chyflawnai efe ei ddybenion sanctaidd ei hun, a hwythau fesur eu hanwiredd; ac yr oeddynt hwy yn meddwl bod y farn rag-fygythiol yn oedi; a'r ddamnedigaeth yn hepian; ond caent eu didwyllo yn ofnadwy yn fuan, yn yr hyn a ddeuai arnynt. Yma trwy gyffelybiaeth hardd a mawreddus, mae yr apostol yn arddangos barnedigaeth y bobl hyn, megys fel angel dinystriol ar yr aden yn eu hymlid hwynt, yn agosâu yn nes-nes atynt o hyd; ac ar yr un pryd yn cadw llygad manol a gwyliadwrus arnynt, fel y gallo yn y diwedd daro yr ergyd, neu ollwng y saeth yn ddiŵyrni, i'w dystrywio hwynt.

4 * Canys [q] onid arbedodd Duw [r] yr angelion a bechasent, [s] † eithr *eu* taflu *hwynt* i uffern, ‡ a'*u* rhoddi i [t] gadwynau ‖ tywyllwch, [u] § i'w cadw i farnedigaeth;

q adn. 5. Deut. 29. 20. Salm 78. 50. Ezec. 5. 11. a 7. 4, 9. Rhuf. 8. 32. a 11. 21. r Luc 10. 18. Ioan 8. 44. 1 Ioan 3. 8. Judas 6. s Es. 14. 12. Mat. 8. 29. a 25. 41. Marc 5. 7. Luc 8. 31. Dat. 12. 7—9. a 20. 2, 10. t adn. 17. Judas 6. u adn. 9. Job 21. 30. Judas 13.

Mae yr apostol yn y bennod hon oll, yn ysgrifenu mewn dull *(style)* pur wahanol iddo ei hun yn ei epistol o'r blaen, a'r pennodau eraill o'r epistol hwn; ac yn bur gyffelyb i'r apostol Judas: a thybir i bob un o'r ddau gymmeryd yr hyn a ddywedant am y gau-athrawon a'u barnedigaeth, allan o waith rhyw ysgrifenydd Hebreaidd ag oedd ar gael y pryd hwnw, ond nas gwyddir dim am dano yn awr. Os gwnaethant felly, dïammau iddynt ei wneyd dàn gyfarwyddyd ac ysbrydoliaeth Duw, er nad oedd y gwaith hwnw o ddwyfol ysbrydoliaeth o ran ei ddechreuad: nid yw hyn yn beth annhygoel; oblegid mae Paul hefyd mewn rhai mànau, yn defnyddio peth o waith athronwyr a phrydyddion paganaidd: ac nid hawdd yw dirnad, pa fodd mae Petr yn newid ei ddull càn gymmaint yn y bennod hon, a Judas âg yntau yn ysgrifenu mòr debyg i'w gilydd; heb dybied i'r ddau gymmeryd eu hymadroddion allan o ryw waith ag oedd yn adnabyddus i bob un o honynt. * Gellid deall trefn Duw o ymddwyn tuag at y cyfryw ddynion, yn amlwg, oddi wrth hen esamplau gynt. Pan bechodd angelion yn erbyn Duw, er eu crëu o radd llawer mwy ardderchog nâ dynion; ni ddangosodd efe ddim trugaredd iddynt, ac nid arferodd efe ddim tosturi tuag atynt: † eithr yn yr amgylchiad cyntaf o'u gwrthryfel, efe a'u taflodd hwynt i lawr o'r nef, fel rhai euog a rhŷ halogedig i'w breswylfa sanctaidd ef; ac a osododd eu rhan a'u trigfa hwynt yn "uffern," y lle poenus hwnw, yr hwn a barotôdd ei gyfiawn ddïaledd ef iddynt hwy, ac i'w blaenor mawr mewn gwrthryfel. ‡ Fel hyn cawsant eu rhoddi mewn cadwynau ofnadwy fel drwg-weithredwyr; ‖ a hyny mewn ceufa o dywyllwch, dychryn, ac annobaith; § i'w cadw yn ddïogel i farnedigaeth a phoenau eithaf, wedi dydd mawr y farn ddiweddaf. O'u cwymp hyd hyny, mae eu drygioni a'u gelyniaeth anfeddyginiaethol, yn nghyd â chyfiawnder holl-bresenol a holl-alluog Duw, yn eu dàl hwynt yn gadarn yn y cadwynau a soniwyd; allan o ba rai nid yw yn bosibl iddynt ddïanc byth. Gan hyny mae eu tynged hwynt yn ddïwrthdröawl: er bod yr Arglwydd mawr i ddybenion doeth, yn estyn eu cadwynau, yn ehangu terfynau eu carchar, ac yn oedi eu cospedigaeth eithaf; yr hyn oediad a seibiant maent hwy yn ddefnyddio hyd eithaf eu gallu, i wrthwynebu bwriadau ei gariad ef at ddynolryw, ac i geisio eu dystrywio hwynt. Ond goruwch-lywodraethir hyn oll, er amlygiad dysgleiriach o ogoniant Duw, cyflawniad o'i dragywyddol arfaeth a'i gyngor ef, a gweithrediad mwy eglur o'i gyfiawnder ef, yn nhragywyddol gosp a thruenì y gelynion anghymmodadwy hyn.—Fel hyn hefyd y cyd-ddygai Duw â'r gau-athrawon uchod, hyd oni chaid dangosiad digonol o'u drygioni a'u gelyniaeth: ac ar ol cyflawni ei fwriadau sanctaidd a doethion ef, efe a dywalltai arnynt hwy a'u canlynwyr y dïaledd a haeddent; ac felly rhoddai derfyn ar y *demtasiwn*, i'r

on yr oedd ei bobl ef yn agored, drwy eu dichellion
frwys hwy.—Pa faint bynag o ryddid sydd i ysbryd-
n drwg yn awr, mewn cadwynau tragywyddol, a thy-
llwch ysbrydol, y maent er hyny.

5 [x] * Ac onid arbedodd efe yr hen fyd,
eithr Noë, [y] pregethwr cyfiawnder, ‡ a
adwodd efe ar ei [z] wythfed, [a] || pan ddug efe y
iluw ar fyd y rhai anwir;

x Gen. pen. 6—8. Job 22. 15, 16. Mat. 24. 37—39. Luc 17. 26,
. Heb. 11. 7. y 1 Pedr 3. 20. z 1 Pedr 3. 19. Judas 14,
. a pen. 3. 9.

* Gellid casglu yr un addysg hefyd oddi wrth farn
nw ar yr "hen fyd;" sef trigolion y byd yn mlaen y
lif; y rhai nid arbedodd efe, ond a'u boddodd oll â
wfr. ‡ Yr oedd Noah yn wir yn "bregethwr cyfiawn-
der" yn mhlith y genedlaeth lygredig hòno, (gwel ar
Petr 3. 19.) yr hyn oedd raid ei osod ef yn agored i
wwer o brofedigaethau a thrallodion; gan na ddygwyd
eb o'r bobl, ar a wyddom ni, i edifeirwch, i ffydd yn y
waredwr addawedig, ac i ufudd-dod i Dduw, trwy ei
tfur hir a pharâus ef. ‡ Ond cadwodd Duw ef "ar ei
wythfed;" sef efe a'i wraig, a'i dri mab a'u gwragedd, yn
lïogel yn yr arch a ddarparasai efe i achub ei dŷ;
pan ddyg efe y dylif mawr ar y myrddiynau o rai
nwir, ag oedd yn y byd y pryd hwnw, ac y dyfethodd
wynt oll.—"*Ar* ei wythfed:" wyth a achubwyd oll, a
oah oedd y blaenaf o'r wyth, ac yn ben *ar* y saith
aill: er ei fwyn *ef* yr achubwyd *hwynt*. Mae agor-
ddau eraill ar y geiriau hyn, ond rhŷ ddisail a dy-
ymmygol ydynt: pwy a ŵyr mai efe oedd yr *wythfed
regethwr cyfiawnder* o ddechreu y byd? canys dyna
iddwl rhai ar y geiriau.

6 [b] * A chan droi dinasoedd Sodom a
omorrah yn lludw, † a'u damniodd *hwy* â
ymchweliad, [c] gan *eu* gosod yn esampl i'r rhai
fyddent yn annuwiol;

b Gen. 19. 24, 25, 28. Deut. 29. 23. Es. 13. 19. Jer. 50. 40.
zec. 16. 49—56. Hos. 11. 8. Amos 4. 11. Zeph. 2. 9. Luc 17. 28—
. Judas 7. c Num. 26. 10. 1 Cor. 10. 11.

* Yn yr un modd, wedi i'r Arglwydd hir gyd-ddwyn
anfad ddrygioni Sodom a Gomorrah, hyd oni chyf-
wnasant hwy fesur eu hanwiredd: efe o'r diwedd,
yd nad oeddynt hwy yn meddwl dim am y cyfryw
th, a wlawiodd dân a brwmstan o'r nefoedd arnynt,
s eu llosgi a'u troi yn lludw: † fel y byddai y dym-
weliad dychrynllyd i ba un y condemniwyd hwynt,
rhybudd difrifol, ac yn esampl addysgiadol, i bawb
yr oesoedd a ddeuai, a fyddent byw yn annuwiol a
ygionus.—"A'u *damniodd* hwy â dymchweliad:" a'u
rnodd, neu a'u *cospodd* hwy â dymchweliad: *katastro-
hê katekrin en.*—"Esampl:" *hypodeigma:* cynllun,
u arddangosiad cysgodol, sef o ddigofaint a barn
ïaleddol Duw ar ei elynion annuwiol.

7 [d] * Ac a waredodd Lot gyfiawn, † yr hwn
dd mewn [e] gofid trwy anniwair ymarweddiad
anwiriaid:

d Gen. 19. 16—22, 29. 1 Cor. 10. 13. e Gen. 13. 13. a 19.
B. Salm 120. 5. Jer. 9. 1—6. a 23. 9.

* Ar yr un pryd e waredodd yr Arglwydd Lot gyf-
wn, yn y modd mwyaf grasol a rhyfeddol, o'r drinyst
ddaeth ar ei gymmydogion. Oblegid er iddo ef fod
dra beïus mewn amryw ystyriaethau, a chael ei
yddu yn llym; eto, am ei fod ef yn wir gredadyn, ac
was cyfiawnâol i Dduw, gofalodd Duw am dano ef,
lygodd ef allan o Sodom cyn ei dystrywio, fel cipio
ntewyn o'r tân. Oddi ar dueddiadau cnawdol ac
wyddorion bydol, efe a aethai mae yn wir i breswylio
y lle drygionus hwnw, ac a barâodd yn gyndyn iawn
ynu wrth y dewisiad ffôl a wnaethai; † ond yr oedd
yn dra anesmwyth yno, ac yn cael ei ofidio a'i
eni yn wastadol, gan ymarweddiad aflan ac anniwair
odomiaid mewn geiriau a gweithredoedd, a chan eu
rthwynebiad terfysglyd a chynddeiriog hwynt i'w
ngorion a'i addysgiadau ef.

8 * (Canys y [f] cyfiawn hwnnw yn trigo yn
eu mysg hwynt, [g] yn gweled ac yn clywed,
ydoedd yn poeni † ei enaid cyfiawn o ddydd i
ddydd trwy *eu* hanghyfreithlawn weithredoedd
hwynt)

f Diar. 25. 26. a 28. 12. 1 Tim. 1. 9. Iago 5. 16. g Salm
119. 136, 139, 158. Ezec. 9. 4, 6. Mal. 3. 15—17.

* Yr oedd yr hyn oedd efe yn weled ac yn glywed o'u
pechodau atgas ac anghyfreithlawn hwy, yn peri poen
a gofid i'w enaid cyfiawn ef o ddydd i ddydd; wrth
weled hefyd nad oedd efe ddim yn llwyddo mewn un
gradd, i attal y cenllif dychrynllyd o'u hannuwioldeb
hwynt, yr hwn oedd yn groes i ddeddfau Duw a natur-
iaeth. † Ond yr oedd yr ysbryd hyn o gasâu eu pech-
odau hwynt, eu gochel, a phoeni o'u herwydd; yn
nghyd âg ymarweddiad cyffredinol Lot; yn ei brofi ei
yn ŵr cyfiawn, ac yn ddyn duwiol: am hyny, tra y
cafodd ef ei amddifadu o'i feddiannau, fel cerydd am
ei bechod, ac y cafodd ei deulu eu dystrywio, neu ynte
eu llygru a'u gwarthruddu yn fawr drwy bechod;
achubodd yr Arglwydd ef ei hun yn drugarog, a gwa-
redodd ef o sefyllfa ag oedd mòr beryglus a phrofed-
igaethus iddo.

9 * Yr Arglwydd a [h] fedr wared y rhai
[i] duwiol rhag profedigaeth, [k] † a chadw y rhai
anghyfiawn i [l] ddydd y farn i'w poeni:

h Job 5. 19. Salm 34. 17, 19. 1 Cor. 10. 13. i Salm 4. 3.
a 12. 1. a 32. 6. 2 Tim. 3. 12. Tit. 2. 14. k adn. 4. Job 21. 30.
Diar. 16. 4. l pen. 3. 7. Rhuf. 2. 5. 2 Cor. 5. 10, 11.

* Yr oedd yr esamplau hyn gan hyny, o waredigaethau
Noah a Lot, yn dangos y medrai yr Arglwydd, yn y
modd a'r amser goreu, wared y rhai duwiol rhag prof-
edigaeth, neu *allan o* brofedigaeth, yn ol y Saesoneg;
eu gwaredu hwynt rhag y peryglon mwyaf dychrynfawr
yn yr adeg waethaf, a chyfynguf; gwahaniaethu rhwng
y gwânaf, a'r mwyaf diffygiol, o honynt hwy, â'u cym-
mydogion annuwiol; a threfnu ei holl oruchwyliaethau
yn y modd goreu er eu hiachawdwriaeth hwy. Mae
efe wedi addaw gwneuthur hyn; a rhaid ymddiried i'w
ddoethineb ef, i ddewis y modd a'r amser goreu, i gyf-
lawni addewidion ffyddlawn, y rhai nis gallant fethu,
pa beth bynag a fyddo ymddangosiadau i ni lawer
gwaith. † Ond medr ef hefyd "gadw y rhai anghyfiawn
i ddydd y farn i'w poeni:" tra mae efe yn cyd-ddwyn â
hwynt, ac yn goddef iddynt lwyddo mewn drygioni,
maent yn rhwym, megys, yn nghadwynau eu pechodau,
ac wedi eu ceuad i fynu yn ngheufa *(dungeon)* ei gyf-
iawnder digyfnewid ef, hyd ddydd ei ddigofaint mawr;
pryd y dwg efe hwynt allan i farn, ac y tywallt efe
arnynt y gosp fwyaf dychrynllyd, o herwydd ei hir-
amynedd ef tuag atynt o'r blaen, a'r cam-ddefnydd
gwrthnysig a wnaethent hwythau o hòni.

10 * Ac yn bennaf y rhai sydd yn [m] rhodio
ar ol y cnawd [n] mewn chwant aflendid, [o] † ac
yn dïystyru llywodraeth. [p] ‡ Rhyfygus *yd-
ynt*, [q] || cyndyn; § nid ydynt yn arswydo
[r] cablu urddas:

m Rhuf. 8. 1, 4, 5, 12, 13. 2 Cor. 10. 3. n Rhuf. 1. 24—27.
1 Cor. 6. 9. Eph. 4. 19. a 5. 5. Col. 3. 5. 1 Thes. 4. 7. Judas 4,
6—8. o Num. 16. 12—15. Deut. 17. 12, 13. a 21. 20, 21. 1 Sam.
10. 27. 2 Sam. 20. 1. 1 Bren. 12. 16. Salm 2. 1—5. a 12. 4. Jer. 2.
31. Luc 19. 14. Rhuf. 13. 1—5. 1 Pedr 2. 13, 14. p Gwel ar
Num. 15. 30. q Gen. 49. 6. Tit. 1. 7. r Ex. 22. 28. Preg.
10. 6, 7, 20. Act. 23. 5. Judas 8.

* Yr oedd y sylw blaenorawl yn perthyn i bob math
o ddynion drygionus ac "anghyfiawn;" ond yn enwed-
ig i broffeswyr ac athrawon rhagrithiol a chyfeiliornus
o gristionogaeth: eto, yr oeddynt yn cael, ac i gael, eu
gwireddu yn arbenig yn y prif gyfeiliornwyr penrhydd
a chnawdol, yr oedd yr apostol yn llefaru am danynt,
ac yn eu canlynwyr hwynt. Yr oedd y rhai hyn yn
gwneyd arferiad cyffredin o "rodio ar ol y cnawd," ac
yn coledd eu blysiau anianol mewn pob "chwant
aflendid;" fel pe buasent yn gosod trigolion Sodom yn
esampl iddynt eu hunain. † A thra nad oeddynt yn

arfer dim llywodraeth ar eu nwydau eu hunain a'u tueddiadau, yr oeddynt yn dïystyru llywodraeth eraill. Yr oeddynt yn gwadu Crist, o ran ei swydd freninol, ac nid ufuddâent iddo ef fel eu Harglwydd a'u Meistr; a gallwn dybied yn ddïammau, eu bod yn dirmygus ddïystyru llywodraeth ac awdurdod ysbrydol yr apostolion, a bugeiliaid a llywodraethwyr eraill yr eglwys. Mae yn debyg eu bod hefyd yn dïystyru llywodraeth wladol, ac yn ei hysgornio; fel pe buasent yn penderfynu, fel gwir feibion Belial, bwrw ymaith bob iau, a bod yn hollawl feistriaid iddynt eu hunain! ‡ Oblegid yr oeddynt yn "rhyfygus," yn hunan-dybus, yn amddifad o bob parch dyledus i Dduw, yn awyddu am flaenoriaeth, ac yn tybied fod ganddynt hwy awdurdod i wneyd pa beth bynag a ewyllysient. ‖ Yr oeddynt yn "gyndyn," yn penderfynu canlyn cynhyrfiadau eu meddyliau eu hunain; ymosod yn falch yn erbyn pob cyngorion, peidio gwrando ar reswm neb arall, dibrisio pob canlyniadau, a mynu eu hamcanion ehud a ffôl eu hunain. § Am hyny "nid oeddynt yn arswydo cablu urddas," mewn modd enllibaidd; ac, yn lle anrhydeddu personau ac awdurdod dynion mewn sefyllfâoedd uchel, yn ol gair Duw, ac fel ei weinidogion a'i gynddrychiolwyr ef; yr oeddynt yn eu cablu ac yn eu difrïo, heb ofni y canlyniadau: a chan eu bod yn gwneyd y pethau hyn dàn yr esgus o grefydd, yr oeddynt yn gosod cristionogaeth yn agored i warth, ac yn rhoddi achos tebygol i gyhuddiadau ac erledigaethau gelynion yr efengyl.

11 * Lle nid yw yr [s] angelion, y rhai sydd fwy mewn gallu a nerth, † yn rhoddi cablaidd farn yn eu herbyn hwynt ger bron yr Arglwydd.

s Salm 103. 20. a 104. 4. Dan. 6. 22. 2 Thes. 1. 7. Judas 9.

* Eithr yr angelion, y rhai oedd yn llawer mwy mewn gallu a nerth na neb dynion, ac yn berffaith mewn sancteiddrwydd; nid ymddygasant fel hyn erioed gyda golwg ar lywodraethwyr y ddaear: † oblegid, er eu bod hwy fel gweinidogion Rhagluniaeth fawr y nef, yn rhoddi cyfrif i'w Harglwydd am gyflawniad eu gweinidogaeth, hyd yn nôd gyda golwg ar freninoedd a llywodraethwyr; ni ddygasant hwy un amser unrhyw "gablaidd farn," neu gyhuddiad chwerw ac adwythig yn eu herbyn hwynt; ond adroddent y pethau yn wirioneddol fel yr oeddynt, a pharchent y llywodraethwyr fel rhaglawiaid Duw: er nas gallent lai na ffieiddio y pechodau a welent yn aml, ac oeddynt ar brydiau yn cael eu gosod ar waith i'w cospi hwynt.—*Cablaidd farn:* barn enllibaidd, o lid, a feddylir; a gwahanol iawn yw hyny i adrodd y gwirionedd yn ffyddlawn.

12 * Eithr y rhai hyn, [t] megis anifeiliaid anrhesymol anianol, † y rhai a wnaed i'w dal ac i'w difetha, ‡ a gablant y pethau ni wyddant oddi wrthynt, [u] ‖ ac a ddifethir yn eu llygredigaeth eu hunain;

t Salm 49. 10. a 92. 6. a 94. 8. Jer. 4. 22. a 5. 4. a 10. 8, 21. Ezec. 21. 31. Judas 10. u adn. 19. pen. 1. 4. Diar. 14. 32. Ioan 8. 21. Gal. 6. 8.

* Ond yr oedd y cyfeiliornwyr hyn, a grybwylla yr apostol, yn debyg i anifeiliaid anrhesymol anianol; y rhai am eu bod a'u bryd ar borthi eu blysiau, oeddynt yn ymgynddeiriogi yn erbyn pawb a'u gwrthwynebai, ac yn barod i'w dyfetha hwynt. † A chan nad yw anifeiliaid gwylltion ond wedi eu crëu, debygid, i'w dàl a'u dyfetha, i attal y difrod a wnaent hwy heb hyny ar ddynolryw; felly, y twyllwyr hyn hefyd, a fyddent yn sicr o ddwyn eu hunain i ddystryw; ïe, hwy a gaent eu dinoddedu fel dihirod atgas, a gelynion i'r wladwriaeth. Yr oedd Satan wedi eu dàl hwynt â'i abwydon, a chwedi eu cymmeryd hwynt yn gaethion wrth ei ewyllys; ac yr oeddynt yn y ffordd i dragywyddol ddystryw. ‡ Oblegid, am nas gallent oddef cyngor na llywodraeth, yr oeddynt yn dywedyd cableddau angerddol yn erbyn personau, awdurdod, cyfreithiau, a threfniadau eu llywiawdwyr, y rhai nid oeddynt yn alluog i'w deall, neu heb erioed eu hystyried yn ddigonol: ‖ ac fel hyn hwy a ddyfethid yn hollawl yn eu llygredigaeth, a'u harferion llygredig eu hunain: *am* eu llygredigaeth, *yn* eu llygredigaeth, a *thrwy* eu llygredigaeth, fel moddion ac achos.—Tybia rhai y cyffelybai yr apostol hwynt i *anifeiliaid anrhesymol anianol,* gyda golwg ar eu *cyflawniad cymmysg* o'u chwantau ffiaidd yn mhlith eu gilydd; heb ofalu dim, mwy nac anifeiliaid gwylltion, gyda phwy y cyflawnent eu trachwantau aflan.

13 * Ac a dderbyniant [x] gyflog anghyfiawnder, † a hwy yn cyfrif [y] moethau beunydd yn hyfrydwch. [z] ‡ Brychau a meflau *ydynt,* ‖ yn ymddigrifo yn eu twyll eu hunain, [a] § gan wledda gyd â chwi;

x Es. 3. 11. Rhuf. 2. 8, 9. Phil. 3. 19. 2 Tim. 4. 14. Heb. 2. 2, 3. Dat. 18. 6. y Rhuf. 13. 13. 1 Thes. 5. 7, 8. 1 Pedr 4. 4. z Can. 4. 7. Eph. 5. 27. Judas 12. a 1 Cor. 11. 20—22.

* Pa faint bynag a wag-dybiai y dynion ffiaidd hyn am eu rhagor-freintiau a'u rhyddid dychymmygol, hwy a fyddent yn sier o "dderbyn cyflog anghyfiawnder," y "cyfryw dâl ynddynt eu hunain am eu cyfeiliorni ag ydoedd raid:" † gan nad oeddynt hwy yn ceisio eu hyfrydwch mewn ufuddâu i Dduw, eithr mewn gwleddoedd moethus ac anghymmedrolder, yn y rhai y mwyth-goleddent eu hunain, hyd yn nôd ar hyd y dydd, a phob dydd, heb gywilydd nac euogrwydd; lle y dylasent gywilyddio o'r cyfryw arferion moethus a chnawdol, fel rhan o weithredoedd y tywyllwch, y rhai ni ryfygai neb â dim o ŵylder ynddynt eu harfer, ond yn y nos. ‡ Gan hyny "brychau a meflau" oeddynt hwy, yn anffurfio ac yn gwarthruddu y cymdeithasau cristionogol hyny, y rhai nis bwrient hwy allan; ‖ tra yr oeddynt hwy eu hunain yn ymddigrifu yn ddrygionus, ac megys yn gorfoleddu yn drahâus, yn eu twyll eu hunain; fel pe buasent hwy yn brif rai hoff y nefoedd, ac yn ddynion wedi eu goleuo tu hwnt i gyffredin yn athrawiaeth gras a rhyddid yr efengyl: pryd nad oeddynt mewn gwirionedd yn gredinwyr o gwbl, ac oeddynt fel hyn yn ymffrostio ac yn gorfoleddu ar ymyl dystryw. § Felly, tra yr oeddynt hwy yn cyfranogi gyda christionogion o swper yr Arglwydd, neu yn ymuno mewn gwleddoedd crefyddol, lle byddai y rhai cyfoethog a thlawd yn cyd-fwyta mewn modd brawdol; yr oedd eu hymddygiad hwy mòr gywilyddus, fel yr oedd yn warth ar yr hollgymdeithas lle y byddent. *Meflau:* am y gair hwn gwel ar 2. Tim. 2. 15.—*Gan wledda gyda chwi:* nid yn y gwleddoedd hyn gyda'r cristionogion, mae yn sicr, yr oedd y twyllwyr uchod yn gwneuthur yn anweddaidd; nis gallent wneuthur felly ynq heb gael eu gweled a'u ceryddu: ond mewn mànau eraill y byddent hwy yn myned i anghymmedroldeb; ac eto, trwy weniaith a rhagrith, yn cael eu goddef i wledda gyda'r cristionogion; yr hyn oedd warth mawr ar y cristionogion hynny beth bynag oedd eu gwleddoedd, ai swper yr Arglwydd ai cariad-wleddoedd eraill.

14 [b] * A llygaid ganddynt yn llawn godineb, [c] † ac heb fedru peidio â phechod; [d] ‡ yr llithio eneidiau anwadal: [e] ‖ a chanddynt galon wedi ymgynnefino â chybydd-dra; [f] § plant felldith:

b 2 Sam. 11. 2—4. Job 31. 1, 7, 9. Diar. 6. 25. Mat. 5. 28. 1 Ioan 2. 16. c Es. 1. 16. Jer. 13. 23. Mat. 12. 34. Ioan 5. 44. d adn. 2, 18. pen. 3. 16. Marc 13. 22. Rhuf. 16. 18. 1 Cor. 11. 19. Eph. 4. 14. Col. 2. 18. Iago 1. 8. Dat. 12. 9. e Gwel ar adn. 9. —Judas 11. f Es. 34. 5. a 65. 20. Mat. 25. 41. Eph. 2. 3.

* Oblegid heblaw eu rhysedd, eu gloddest, a'u gor modedd mewn bwyta ac yfed, yr oedd y dynion afla hyn "â llygaid ganddynt yn llawn godineb," neu *y llawn o'r odineb-wraig,* fel pe na buasai eu puteiniai halogedig byth o'u golwg; mòr wastadol yr oedd e dychymmygion a'u tueddiadau ar waith gyda'u harfer ion drygionus a chyffredinol! Yr oedd trèmiada godinebus eu llygaid bob amser, yn dangos eu tued anllad hwy eu hunain, yn ceisio cynhyrfu yr un tued mewn eraill, ac yn chwilio allan am wrthddrycha

ddas, i ennyn a chyflawni y chwantau mwyaf fflaidd a
alogedig. † Ië, "ni fedrent beidio â phechod;" gan
òr angerddol a dilywodraeth oedd eu nwydau, a nerth
en arferion drwg wedi eu hir goledd; trwy y rhai yr
eddynt hwy yn gaethion hollawl i'w chwantau, ac yn
ir wedi eu rhoddi i fynu yn farnol i feddyliau anghym-
eradwy. ‡ Ond er cymmaint oedd eu holl ddrygioni
wynt, hwy a ddadleuent mòr rhithweddol a digywilydd
iros eu hegwyddorion llygredig; ac a leiâent neu a
rmesgusodent am eu pechodau yn y fath fodd; fel y
ilithient ac y twyllent lawer o broffeswyr anwadal, y
hai nid oeddynt wedi eu cadarnâu mewn gwybodaeth,
ydd, gras, a phrofiad. Fel hyn yr oeddynt hwy yn
ael modd i borthi eu blysiau moethus ac anianol ar
draul rhai eraill, trwy wenieithio i ddynion, a thawelu
u cydwybodau, yn y coleddiad o'u nwydau a'u harfer-
on drwg. ‖ Oblegid yr oedd eu calonau wedi ymgyn-
nefino â chybydd-dra; ac yr oeddynt bob amser ar
waith yn ddyfal, yn dyfeisio ffyrdd dichellgar i dynu
rrian oddi ar eu canlynwyr twylledig; hyd nes wedi
ymnefino â'r fath ymddygiadau bryntion, nid oedd
rnnynt ddim euogrwydd o'u plegid; § yr hyn oedd yn eu
flangos hwy yn "blant y felltith," ac yn deilwng agored
ddigofaint Duw, am eu haneirif bechodau atgas.—*A*
llygaid ganddynt yn llawn godineb: dywed *Doddridge*
fod grym aruthrawl yn y geiriau hyn yn y Groeg; eu
bod yn arwyddo yn briodol, fod ganddynt hwy *butain*,
neu *odineb-wraig*, yn wastadol o flaen eu llygaid: croes
awn i Matth. 5. 27, 28: gwel yno.

15 * Wedi [g] gadael y ffordd uniawn, † *hwy*
a aethant ar gyfeiliorn, [h] gan ganlyn ffordd
Balaam *mab* Bosor, ‡ yr hwn a [i] garodd
[k] wobr anghyfiawnder;

g 1 Sam. 12. 23. 1 Bren. 18. 18. a 19. 10. Ezra 9. 10. Diar. 28. 4. Hos. 14. 9. Act. 13. 10. h Num. 22. 5—7. i Num. 22. 18—21. a 31. 16. Deut. 23. 4, 5. Mica 6. 5. Judas 11. Dat. 2. 14. k Act. 1. 18.

* Yr oedd yn amlwg fod y gau-athrawon hyn a'u can-
ynwyr, "wedi gadael y ffordd uniawn," a chwedi gwyro
yn mhell oddi wrth wirionedd yr ysgrythyrau, ac ufudd-
dod sanctaidd i air Duw: nid yn unig o ran barn gyf-
eiliornus, ond hefyd o ran cnawdolrwydd, uchel-fryd, a
chybydd-dra, yn eu calon a'u hymddygiadau. † Fel
yn yr oeddynt wedi myned ar gyfeiliorn, gan ganlyn
ffordd ddrygionus a chybyddlyd Balaam mab Bosor,
(neu Beor,) ‡ yr hwn a garodd wobr anghyfiawnder
nòr fawr, fel yr ymgeisiodd efe, mewn anufudd-dod i
orchymyn JEHOFAH, fyned at Balac, a rhegi y bobl a
ffendithiasai Duw, er mwyn ennill y gwobr hwnw.—
Mab Bosor: "mab *Beor*" y gelwir ef yn Num. 22. 5, a
"mab *Peor*" mewn mànau eraill yn y llyfr hwnw. Nis
gelwir ef "mab *Bosor*" yn un màn ond gan Petr yma.
Tybia rhai i'r apostol ysgrifenu yn nghymmydogaeth
Babilon, ac mai *Bosor* y seinid y gair *Beor* yn nghang-
en-iaith y wlad hòno: oddigerth, ebai *Pool*, i Petr ei
alw ef mab *Bosor* gyda chyfeiriad at *Basar*, cnawd; am
fod Balaam yn fab y cnawd, neu o dueddiadau cnawd-
ol; megys hefyd yr oedd y gau-athrawon hyn.

16 * Ond efe a gafodd gerydd am ei gam-
wedd. [l] † Asen fud arferol â'r iau, gan ddy-
wedyd â llef ddynol, ‡ a waharddodd [m] ynfyd-
rwydd y prophwyd.

l Num. 22. 22—33. m Preg. 7. 25. a 9. 3. Hos. 9. 7. Luc 5. 11. Act. 26. 11, 24, 25.

* Ond cafodd Balaam gerydd am ei gamwedd: nid
trwy lais digyfrwng Duw, na thrwy un o'i brophwydi ef,
* ond trwy yr "asen" a farchogai efe ei hun; yr hon, er
ei bod o naturiaeth yn "fud," a alluogwyd yn wyrthiol
i lefaru â llef ddynol; ‡ fel y byddai i Dduw trwy grë-
adur mòr ddirmygus, yn y modd mwyaf darostyngol,
"wahardd ynfydrwydd y prophwyd" yn ei ymgais balch,
ddireswm, ac annuwiol, i fyned rhagddo i regi pobl
Dduw. Eto, myned rhagddo a wnaeth efe, yn ei wrth-
ryfel gorwyllt ac ynfyd: a phan welodd nas gallai regi
Israel, efe a gyngorodd Balac i'w dênu hwynt i eilun-
addoliaeth a godineb; fel y gallai efe ennill "gwobr anghyfiawnder:" ac o'r diwedd efe a laddwyd mewn brwydr âg Israel.—Er i Balaam ddywedyd fwy nac unwaith, na âi efe ddim dros air yr Arglwydd; eto efe a aeth ac a wnaeth hyd y gallodd: yr hyn a ddengys fod ei galon ef ar gybydd-dod, ac yn caru "gwobrau," pa òr "anghyfiawn" bynag yr ennillai efe hwy.—Gelwir ef yn "brophwyd" am ei fod yn cymmeryd arno fod felly; ac yn wir yr oedd efe yn ymofyn â Duw, ac yn cael atebion digyfrwng gan Dduw: ïe, efe a brophwydodd yn ardderchog am y Messiah, a llwyddiant Israel yn yr amser a ddeuai; yr hyn nis gallai lai na bod oddi wrth Dduw: ac eto, dewin drygionus oedd Balaam ei hun, yn a chwedi y cwbl.

17 * Y rhai hyn ydynt [n] ffynhonnau di-
ddwfr, [o] † cymmylau a yrrid gan dymhestl;
‡ i'r rhai y mae niwl [p] tywyllwch y'nghadw yn
dragywydd.

n Job 6. 14—17. Jer. 14. 3. Hos. 6. 4. Judas 12, 13. o Eph. 4. 14. p adn. 4. Mat. 8. 12. a 22. 13. a 25. 30. Judas 6, 13.

* Yr oedd yr athrawon hyn a'u dysgyblion yn debyg
i "ffynonau," o ba rai y dysgwyliai dynion dynu dwfr,
eithr ni chaent ddim ond siomedigaeth ynddynt, ffyn-
onau diddwfr oeddynt, gweigion o wybodaeth iachusol,
duwioldeb, a phob daioni: nid oedd ynddynt oll ond
budreddi afiach, lleidiog, a thra phechadurus. † Tebyg
oeddynt i "gymmylau," y rhai a roddent obaith am
gawodydd ffrwythlonaidd o wlaw; ond yn lle gwneuthur
dim llesâd i eraill, yr oeddynt hwy eu hunain yn cael
eu gyru draw ac yma gan dymhestloedd. Fel hyn yr
oedd y bobl a enwyd yn cael eu gyru o amgylch gan eu
nwydau cryfion a thymhestlog eu hunain, a chan "bob
awel dysgeidiaeth," o'r naill gyfeiliornad i'r llall yn
ddiorphwys. ‡ Yn wir yr oeddynt wedi eu rhoddi i
fynu gan Dduw i galedrwydd hollawl ac anadferol; ac
yr oedd "niwl," caddug, braw, a synedigaeth tywyllwch;
neu ddrygioni, annobaith, a thrueni eithaf, yn nghadw
iddynt yn dragywydd.

18 * Canys gan [q] ddywedyd chwyddedig
eiriau gorwagedd, † y maent hwy, trwy
chwantau y cnawd, [r] *a* thrythyllwch, ‡ yn
llithio y rhai a [s] ddiangasai yn gwbl oddi wrth
y rhai sydd yn byw ar gyfeiliorn.

q Salm 52. 1—3. a 73. 8, 9. Dan. 4. 30. a 11. 36. Act. 8. 9. 2 Thes. 2. 4. Judas 13, 15, 16. Dat. 13. 5, 6, 11. r Rhuf. 13. 13. Iago 5. 5. s adn. 20. pen. 1. 4. Act. 2. 40.

* Nid yn unig yr oedd y dynion hyn yn ddrygionus
iawn eu hunain, ond yr oeddynt hefyd yn achos o bech-
od a dinystr i eraill. Oblegid wrth eu bod hwy yn dy-
wedyd geiriau chwyddedig a rhwysgfawr, y rhai nid
oedd dim meddwl iddynt, ond fel yr oeddynt yn dangos
"gorwagedd" a rhodres eu calonau hwy; † yr oeddynt
trwy eu hymffrost hyderus a'u honiadau ffuantus, yn
hudo y fath broffeswyr ag oedd yn dda ganddynt dybied
fod "chwantau y cnawd, a thrythyllwch" ac anlladrwydd, yn bethau cyson âg athrawiaeth yr efengyl: ‡ ac
fel hyn yr oeddynt yn "llithio" ac yn dênu ymaith, y
rhai a ddiangasent yn *weithredol*, o ran eu hymarweddiad oddi allan, "oddi wrth y rhai oedd yn byw ar gyfeiliorn." Yr oedd y rhai hyn wedi ymattal "yn gwbl" oddi wrth eu hen arferion llygredig, am ryw hyd o amser, gan euogrwydd ac arswyd neu ryw beth arall; ond am nas gwyddent am rinweddau achubol yr efengyl, ac heb ddim cyfnewidiad grasol ar eu heneidiau; yr oeddynt o hyd yn blysio am eu hen bleserau pechadurus, ac yn hawdd eu llithio iddynt gan y gwenieithwyr twyllodrus hyn.—*Chwyddedig eiriau gorwagedd:* nid trwy geisio *gwneyd gwyrthiau* yr oedd y gau-athrawon hyn yn llithio eu dysgyblion, gwyddent nas gallent hyny; ond trwy *ddeniadau ymadroddion* gwych a hudol.—"A ddiangasai yn *gwbl:*" a ddiangasai *bron* yn gwbl, medd rhai; neu a ddiangasai *am ychydig amser*, medd eraill.

19 [t] * Gan addaw rhyddid iddynt, [u] † a

hwythau eu hunain yn wasanaethwyr llygredigaeth: ‡ canys gan bwy bynnag y [x] gorchfygwyd neb, i hwnnw hefyd yr aeth efe yn gaeth.

t Gal. 5. 1, 13. l Pedr 2. 16. u Ioan 8. 34. Rhuf. 6. 12—14, 16—22. Tit. 3. 3. x adn. 20. Es. 28. 1. Jer. 23. 9. 2 Tim. 2. 26.

* Tra yr oeddynt hwy yn gwenieithio i feddyliau cnawdol rhagrithwyr, trwy addaw rhyddid iddynt oddi wrth bob iau ac attaliad, i fyw yn benrhydd fel y mynent yn ddiofn, fel pe na buasai gwasanaeth Duw yn wir fraint; † yr oeddynt hwy eu hunain ar yr un pryd yn gaeth-weision llygredigaeth, a thân lywodraeth y chwantau a'r tueddiadau mwyaf llygredig, aflan, a ffiaidd; ‡ ac yn ol rhëol gyffredin, yr oedd pob dyn yn gaeth-was i'r neb a'i gorchfygai, ac a'i cymmerai yn gaeth. Yr oeddynt hwythau yn amlwg wedi eu gorchfygu, eu darostwng, a'u cymmeryd yn gaethion gan y diafol a'u chwantau eu hunain; ac felly yr oedd yn anmhosibl iddynt arwain eu canlynwyr i well cyflwr.—Mae yr apostol yma yn cyfeirio at ddeddfau ac arferion rhyfeloedd gynt; pwy bynag a orchfygid ac a ddelid yn y frwydr, yr oedd y cyfryw yn gaeth-was i'r neb a'i gorchfygai, ac yn ei feddiant ef. Gwel Barn. 5. 30.

20 * Canys os [y] wedi iddynt [z] ddïangc oddi wrth halogedigaeth y byd, [a] † trwy adnabyddiaeth yr Arglwydd a'r Achubwr Iesu Grist, ‡ y rhwystrir hwy drachefn â'r pethau hyn, || a'u gorchfygu; § aeth [b] diwedd y rhai hynny yn waeth nâ'u dechreuad.

y Mat. 12. 43—45. Luc 11. 24—26. Heb. 6. 4—8. a 10. 26, 27. z adn. 18. pen. 1. 4. a pen. 1. 2. b Num. 24. 20. Deut. 32. 29. Phil. 3. 19.

* Canys os wedi i broffeswyr yr efengyl ddianc oddi wrth halogedigaeth ac arferion drwg y byd hwn, † trwy yr adnabyddiaeth hanesiol ac athrawiaethol a gawsent o'r Arglwydd a'r Achubwr Iesu Grist, ‡ y rhwystrid hwy drachefn gan hudoliaethau cyfrwys y gau-athrawon, a'u maglu hwynt â'r arferion halogedig hyn, fel pethau yn gweddu i wasanaeth Crist, || ac felly eu gorchfygu ganddynt mòr bell ag i'w dwyn i fyw yn gyffredinol ynddynt, ac yn gaethion iddynt; § aeth diwedd y rhai hyn, wedi iddynt fel hyn wyrdroi yr efengyl, yn llawer gwaeth nâ'u dechreuad, pan oeddynt yn pechu yn eu hannwybodaeth: canys rhaid iddynt yn awr wneyd trais ar oleuni llawer eglurach, ac argyhoeddiadau dyfnach, nac oedd ganddynt yn y dechreuad.—"Dianc oddi wrth halogedigaeth y byd, trwy adnabyddiaeth yr Arglwydd a'r Achubwr Iesu Grist," a "dianc yn gwbl oddi wrth y rhai oedd yn byw ar gyfeiliorn," (adn. 18.) yw y pethau goreu a ddywedir am y gwrthgilwyr hyn; ac eto, nid yw y geiriau hyn, na dim arall a ddywedir am danynt, yn dangos mewn un modd iddynt hwy erioed gael gwir ac achubol ras. Gall pethau effeithio ar wrandawwyr yr efengyl, fel y tir *creigiog* a *dreiniog* yn Matth. 13. 20—22, i beri diwygiadau allanol am ychydig arnynt; ac eto heb ddim crêsdigaeth newydd yn eu heneidiau: a hawdd yw "rhwystro" y rhai hyny, a'u "gorchfygu" hefyd gan eu hen lygredigaethau, yn enwedig lle byddo gau-athrawon i'w llithio hwy i hyny, drwy athrawiaeth ac esampl.

21 * Canys [c] gwell fuasai iddynt fod heb adnabod [d] ffordd cyfiawnder, † nag, wedi *ei* hadnabod, [e] ‡ troi || oddi wrth y [f] gorchymyn sanctaidd yr hwn a draddodwyd iddynt.

c Luc 12. 47, 48. Ioan 9. 41. a 15. 22. d Diar. 12. 28. a 16. 31. Mat. 21. 32. e Salm 36. 3, 4. a 125. 5. Ezec. 3. 20. a 18. 24. a 33. 13. Zeph. 1. 6. f Rhuf. 7. 12. 1 Thes. 4. 2.

* Buasai yn llawer gwell i'r fath ddynion cyfeiliornus, rhagrithiol, a gwrthgiliedig, fod heb erioed "adnabod ffordd cyfiawnder," a gwirioneddau, addewidion, a gorchymynion yr efengyl; † "nag, wedi ei hadnabod," ar ol eu holl addysgiadau, eu hargyhoeddiadau, a'u proffes, ‡ "iddynt droi," mewn anufudd-dod addefawl a chyhoeddus, || "oddi wrth y gorchymyn sanctaidd yr hwn a draddodasid iddynt," i edifarâu am eu pechodau, i gredu yn Nghrist, ac i'w garu ef ac ufuddâu iddo: oblegid yr oedd "troi" fel hyn ar ol adnabod ffordd cyfiawnder, hyd yn nôd yn hanesiol, yn eu caledu hwy yn fwy nac o'r blaen, yn digio Duw, ac yn tynu ei farn ef yn brysur ac yn ofnadwy ar eu heneidiau.—*Y gorchymyn sanctaidd:* tybia rhai mai rhyw orchymyn pennodol oedd hwn, a roisai yr apostolion i'r cristionogion hyn, mewn perthynas iddynt wylied rhag y gau-athrawon a enwyd: ond pa raid ei gyfyngu i hyny, gan fod llawer o "orchymynion sanctaidd" yn y Testament Newydd, wrth ba rai y dylasent hwy oll ymgadw rhag cael eu "llithio," ac nid troi oddi wrthynt?

22 * Eithr digwyddodd iddynt yn ol y wir ddïareb, [g] † Y ci a ymchwelodd at ei chwydiad ei hun; ‡ a'r hwch wedi ei golchi, i'w hymdreiglfa yn y dom.

g Diar. 26. 11.

* Ond nid oedd yn beth rhyfedd fod athrawon o'r fath hyn yn gwneyd cynnifer o broselytiaid; oblegid dygwyddasai iddynt hwy yn ol dwy hen ddïareb wirioneddol, un o ba rai sydd yn ysgrifenedig yn ngair Duw, (Diar. 26. 11.) a phob un yn wirionedd amlwg yn amgylchiad y gwrthgilwyr hyn. Pan oeddynt hwy dàn rym argyhoeddiad trwy oleuni yr efengyl, hwy a esmwythasent eu cydwybodau enog trwy fwrw ymaith rai arferion drygionus yr oeddynt yn dueddol iddynt; ond am nad oedd eu natur wedi ei chyfnewid a'i hadnewyddu trwy ras, a'u tueddiadau tumewnol o hyd yr un peth ag erioed o'r blaen; pan wisgodd eu hargyhoeddiad ymaith, hwy a ddychwelasant drachefn at eu hen arferion aflan, gyda chymmaint awydd ag erioed o'r blaen; † ac felly yr oeddynt fel ci a chwydasai i fynu yr hyn oedd boenus yn ei gylla; ond am ei fod yn gi o hyd, ac yn gweithredu yn ol ei natur fel y cyfryw, efe a ymchwelodd ac a lyfodd i fynu ei chwydiad ei hun drachefn; ‡ ac, yn eu holl ddiwygiadau allanol, yr oeddynt fel yr hwch wedi ei golchi oddi wrth y budreddi a gasglasai, wrth ymdreiglo mewn tom a llaid; ond am mai hwch oedd hi o hyd, yr oedd yn dychwelyd, yn ol ei thuedd fochynaidd ei hun, i ymdreiglo yn y dom drachefn.—Mae y ddwy gymhariaeth hyn o'r fath fwyaf ffiaidd ac atgas a ellid gael yn mhlith yr holl rywogaethau o anifeiliaid aflan; ac a ddefnyddir yma i osod allan ffieidd-dra y dynion hyny, y rhai ar ol argyhoeddiadau, proffes o edifeirwch, a diwygiad allanol, a ddychwelant yn ol at bechod a drygioni, oblegid fod eu calonau llygredig yn eu caru. Ond pe byddai i allu a gras Duw droi yr hwch yn ddafad, (arwydd-lun yr adgenedledig) er ei thaflu hi i'r "dom," eto nis gallai "ymdreiglo" ynddo mwyach gyda hyfrydwch; ond rhaid ei bod yn dra anghysurus nes ei glanâu oddi wrtho. Y rhai hyn a ddïangasent oddi wrth lygredigaeth y byd, ni chawsent eu gwneyd yn "gyfranogion o dduwiol anian;" ac nid oedd natur y ci a'r hwch wedi cael ei chyfnewid: golchwyd yr hwch, ond ni wnaed hi yn grëadur newydd.—Mae y gwir gristion wedi ei "eni drachefn;" ac wedi ei "grëu o newydd i weithredoedd da;" mae Crist yn trigo ynddo ef trwy ei Ysbryd, ac yn gwneyd pob peth yn newydd.

PEN. III.

Am ddyfodiad Crist i'r farn.

[a] * YR ail epistol hwn, anwylyd, yr ydwyf yn awr yn ei ysgrifenu attoch; † yn yr hwn yr ydwyf yn [b] cyffrôi eich [c] meddwl púraidd, [d] ‡ trwy ddwyn ar gôf *i chwi:*

a 2 Cor. 13. 2. 1 Pedr 1. 1, 2. b pen. 1. 13—15. 2 Tim. 1. 6. c Salm 24. 4. a 73. 1. Mat. 5. 8. 1 Tim. 5. 22. 1 Pedr 1. 22. d pen. 1. 12.

* Ysgrifenwyd yr epistol hwn, debygid wrth ddechreuad y bennod hon, at yr un eglwysi â'r epistol o'r blaen;

er nad yw hyn yn cael ei grybwyll yn ei ddechreuad ef. Amcan yr apostol yn ei ddau epistol oedd, nid dysgu ei frodyr yn gymmaint, mewn gwirioneddau nas gwyddent; eithr yn hytrach cyffrôi a bywiogi eu meddyliau ouraidd, uniawn, a diragrith hwynt, i gyflawni eu ylyledswyddau, ‡ trwy ddwyn ar gôf iddynt y gwirioneddau a'r gorchymynion a ddysgasid iddynt hwy o'r blaen: chag i bechadurusrwydd gweddill, temtasiynau, anghof, ac ystrywiau gau-athrawon, eu troi hwynt oddi wrth ymarferiad crefyddol.

2 [e] * Fel y byddo cofus gennych y geiriau a rag-ddywedwyd gan y prophwydi sanctaidd, † a'n gorchymyn ninnau, apostolion yr Arglwydd a'r Iachawdwr.

e pen. 1. 19—21. Luc 1. 70. a 24. 27, 44. Act. 3. 18, 24—26. a 10. 43. a 28. 23. 1 Pedr 1. 10—12. Dat. 19. 10. f adn. 15. pen. 2. 21. Eph. 2. 20. 1 Ioan 4. 6. Judas 17.

* Am hyny yr oedd yn ysgrifenu atynt, fel y byddai cofus ganddynt y geiriau a rag-ddywedasid gan y prophwydi sanctaidd gynt, am Grist, ei iachawdwriaeth, a'i ddeyrnas; (1 Petr 1. 10—12.) † a'r "gorchymyn" a roddasid iddynt hwy ganddo yntau, ac apostolion eraill yr Arglwydd a'r Iachawdwr Iesu Grist, i fod yn barod erbyn ei ddyfodiad ef i farn, mewn dysgwyliad amyneddgar, a diwydrwydd dyfal yn eu gwahanol ddyledswyddau.—Yr oedd efe yn cyssylltu "prophwydi" yr Hen Destament, ac "apostolion" y Testament Newydd, yn nghyd; fel rhai wedi dysgu a phregethu yr un gwirioneddau a dyledswyddau; ac y naill blaid yn cadarnâu y llall: ac yna yn eu hannog hwy i gadw mewn côf yr hyn a draddodasai pob un o honynt.

3 * Gan wybod hyn yn gyntaf, [g] † y daw yn y dyddiau diweddaf [h] ‡ watwarwyr, [i] ‖ yn rrhodio yn ol eu chwantau eu hunain,

g 1 Tim. 4. 1, 2. 2 Tim. 3. 1, &c. 1 Ioan 2. 18. Judas 18. h Diar. 1. 22. a 3. 34. a 14. 6. Es. 28. 14. a 29. 20. Hos. 7. 5. i pen. 2. 10. 2 Cor. 4. 2. Judas 16, 18.

* Yr oedd angen eu "cyffrôi" hwy am y pethau hyn; am y dylasent hwy wybod yn y lle blaenaf, ac fel mater o'r pwys mwyaf, † y deuai yn sicr dàn oruchwyliaeth yr efengyl, ac wedi i beth amser fyned drosodd, (1 Ioan 2. 18, 19.) ‡ blaid o ddynion gwatwarus i'w plith hwynt, y rhai a geisient ddadymchwelyd eu ffydd hwynt, trwy watwar a gwawdio eu dysgwyliad hwy am ddyfodiad Crist i farn; a thrwy siarad am wirioneddau mawrion yr efengyl gyda dirmyg didduwiaidd, a gwatwariaeth anrasol; ‖ tra yr oeddynt hwy eu hunain yn rhodio yn ddiymattal a digywilydd, yn ol chwantau aflan a halogedig eu calonau.—Gwedi eu rhybuddio hwy yn y bennod o'r blaen yn erbyn gelynion mwy dirgel a chyfrwys yr efengyl, sef y gau-athrawon rhagrithiol; mae efe yma yn eu rhybuddio yn erbyn ei gelynion cyhoeddus hi, sef y gwatwarwyr annuwiol a rhyfygus hyn. Dywed rhai mai y *Carpocratiaid*, canlynwyr un *Carpocrates*, a phlaid liosog o'r Gwybeddyddion, *(Gnostics)* oedd y "gwatwarwyr" hyn; y rhai a wadent Dduwdod Crist, adgyfodiad y meirw, a'r farn i ddyfod; ac a ymddangosasant yn lled fuan ar ol ysgrifenu yr epistol hwn.

4 * Ac yn dywedyd, † [k] Pa le y mae addewid ei ddyfodiad ef? ‡ canys er pan hunodd y tadau, ‖ y mae pob peth yn parhâu fel *yr oeddynt* [l] o ddechreuad y creadigaeth.

k Gen. 19. 14. Preg. 1. 9. a 8. 11. Es. 5. 18, 19. Jer. 5. 12, 13. a 17. 15. Ezec. 12. 22, 27. Mal. 2. 17. Mat. 24. 48. Luc 12. 45. l Marc 13. 19. Dat. 3. 14.

* Gofynai y dynion hyn i'r cristionogion yn drahaus a gwatwarus, † beth oedd wedi dyfod o'r "addewid" a roddasai eu Harglwydd iddynt, yr ymddangosai efe yr ail waith yn eu plith hwynt, i berffeithio eu hiachawdwriaeth hwy, ac i ddinystrio eu gelynion? onid oedd hi wedi methu yn ddigon amlwg? Ac a gymmerent hwy eu twyllo yn hwy, a pharâu o hyd i lŷnu wrth grefydd hunan-ymwadol ac erlidiedig Iesu? ‡ Oblegid "er pan hunodd y tadau," athrawon a phroffeswyr cyntaf cristionogaeth, neu ynte yr hen batriarchiaid a'r prophwydi, i'r rhai y gwnaethid yr addewid gyntaf; ‖ nis gallai neb wadu, nad oedd "pob peth yn parâu," o ran dychweliad y tymmorau, a phob goruchwyliaethau allanol eraill, fel yr oeddynt wedi arfer bod "o ddechreuad y crëadigaeth;" heb ddim cyfnewidiad o bwys, cyfatebol i'r pethau rhyfeddol y llefarasid am danynt ar y mater hwnw. Fel hyn hwy a ddywedent yn watwarllyd, yr un modd â'r hen watwarwyr gynt, "Brysied, a phrysured ei orchwyl, fel y gwelom; nesâed hefyd, a deued cyngor (neu farn) Sanct yr Israel, fel y gwypom." Esa. 5. 19.—*Er pan hunodd y tadau:* mae rhai yn darllen y geiriau, *oddigerth bod y tadau yn huno,* neu, *wedi huno:* hyny yw, "mae pob peth yn parâu fel yr oeddynt o ddechreuad y crëadigaeth, oddigerth bod y tadau o oes i oes yn meirw; un genedlaeth yn myned ymaith, a chenedlaeth arall yn dyfod yn ei lle; ond mae y ddaear, yn mhob ystyr arall o bwys, yn sefyll byth."

5 [m] * Canys y mae hyn yn ddïarwybod iddynt o'u gwirfodd, † mai [n] trwy air Duw yr oedd y nefoedd er ys talm, ‡ a'r ddaear yn cyd-sefyll o'r dwfr, a thrwy y dwfr.

m Diar. 17. 16. Ioan 3. 19, 20. Rhuf. 1. 28. 2 Thes. 2. 10—12. n Gen. 1. 6, 9. Salm 24. 2. a 33. 6. a 136. 6. Heb. 11. 3.

* Am y gwatwarwyr uchod, (rhai o ba rai oedd hyd yn nôd y pryd hwnw, mae yn debyg, yn ceisio llygru yr eglwys,) yr oeddynt o'u gwirfodd yn annwybodus am yr hanes ysgrythyrol o'r grëadigaeth, ac o ymddygiadau Duw tuag at ddynion yn yr hen oesoedd o'r blaen: oblegid yr oeddynt hwy o gyndynrwydd gwirfoddawl, yn tynu ymaith eu sylw oddi wrth y cyfryw bethau, a dueddent i wrthdaro eu didduwiaeth balch ac anrasol hwynt, ac a dueddent i gadarnâu yr athrawiaeth o farn i ddyfod. † Pe amgen hwy a allasent wybod o lyfrau Moses, bod y nefoedd a'r ddaear wedi eu crëu ar y cyntaf, trwy air holl-alluog Duw; yr hwn a "ddywedodd, ac felly y bu; yr hwn a orchymynodd, a hyny a safodd:" ‡ a bod y ddaear, yn enwedig, wedi ei llunio o'r Tryblith, *(chaos)* yr hwn a ddygasid i hanfodiad o'r blaen i'r perwyl hwnw; gan i'r sych-dir, wrth orchymyn Duw, gael ei neillduo oddi wrth y dyfroedd, y rhai a giliasant i'r dyfr-leoedd a barotôisai efe iddynt. Fel hyn yr oedd y ddaear, neu y tir sych, yn nghyd â'i gynnyrch a'i drigolion, fel yr oedd i'w wahaniaethu oddi wrth y môroedd, yn sefyll i fynu o'r dwfr, a thrwy, neu goruwch y dwfr; ond yr oedd yn amgylchedig gan ddwfr, yr hyn oedd angenrheidiol i'w mwydo, ei phuro, a'i gwneyd yn ffrwythlawn.—"Cyd-sefyll:" *sefyll,* yn unig, sy gan y Saeson; ond addefant hwythau mai *cyd-sefyll* yw priodol feddwl y gair *synestôsa.*—"*O'r* dwfr, a *thrwy* y dwfr:" "*allan o'r* dwfr, ac *yn* y dwfr," sy gan y Saeson; ond addefant mai ein cyfieithiad ni sydd iawn. Mae y ddaear yn cyd-sefyll *o'r* dwfr, fel mae yn uwch na'r dwfr; ac yn cyd-sefyll *trwy* y dwfr, fel mae y dwfr yn *foddion* ei chynnaliaeth, o ran ei mwydo, ei phuro, a'i ffrwythloni, megys y sylwyd uchod. Hefyd, mae gwaelodion y ddaear *yn* y dwfr; a'i gwyneb uchaf, yn enwedig ei mynyddoedd, yn *uwch* na'r dwfr; ac fel hyny mae yn cyd-sefyll *yn* y dwfr, *trwy* y dwfr, ac *allan o'r* dwfr: felly mae y cyfieithiadau Cymraeg a Saesoneg yn gywir, am gyd-safiad y ddaear. Ond ni ddylem golli ein golwg ar ei chyd-safiad *trwy* y dwfr, fel un o *foddion* a *defnydd* ei chynnaliaeth, a'n cynnaliaeth ninnau arni. Rhyfedd yw doethineb a daioni y Crëawdwr mawr!

6 * O herwydd paham [o] y byd a oedd y pryd hwnnw, † wedi ei orchuddio â dwfr, a ddifethwyd.

o pen. 2. 5. Gen. 7. 10—22. a 9. 15. Job 12. 15. Mat. 24. 38 39. Luc 17. 27.

* Eto, pan ddarfu i ddrygioni dynion ddigio Duw, a'i annog ef i dywallt dialedd arnynt; daeth y trefniant pennodawl uchod, yr hwn oedd mòr addas i les a dedwyddyd dynolryw, yn foddion eu dinystr hwynt: † oblegid

id wedi dwfn orchuddio holl ranau y gronen ddaearol â dwfr, trwy holl-alluawgrwydd Duw, "y byd a oedd y pryd hwnw a ddyfethwyd;" holl drigolion y tir sych, a holl weithredoedd dynion, a ddystrywiwyd yn gwbl; nid arosodd dim, ond Noah a'r rhai oedd gydag ef yn yr arch; cyfnewidiwyd, yn ddiammau, ymddangosiad arwynebol y ddaear yn fawr iawn; a chyfodwyd cenedlaeth newydd o drigolion i'w phoblogi a'i phreswylio hi.—"O herwydd paham:" "Trwy yr hyn," yw y geiriau yn Saesoneg; sef trwy fod y ddaear yn sefyll o'r dwfr, a thrwy y dwfr, dyna paham y gorchuddiwyd hi â dwfr, gan ddigofaint a barn Duw: y dwfr hwnw ag oedd unwaith yn wasanaethgar i'r byd, a ollyngwyd i orchuddio a boddi y byd; trwy agor ffenestri y nefoedd, a rhwygo ffynonau y dyfnder mawr.

7 * Eithr [p] y nefoedd a'r ddaear *sydd* yr awrhon, † ydynt trwy yr un gair wedi eu rhoddi i gadw i dân, [q] ‡ erbyn dydd y farn, [r] a distryw yr anwir ddynion.

p adn. 10, 12. Salm 102. 26. Es. 51. 6. Mat. 24. 35. a 25. 41. 2 Thes. 1. 8. Dat. 20. 11. a 21. 1. q pen. 2. 9. Mat. 10. 15. a 11. 22, 24. a 12. 36. Marc 6. 11. 1 Ioan 4. 17. r Rhuf. 2. 5. Phil. 1. 28. 2 Thes. 2. 3. 1 Tim. 6. 9. Dat. 17. 8, 11.

Ar yr un pryd, addawodd a chyfammododd Duw, na byddai iddo byth mwyach ddystrywio y ddaear drwy ddylif cyffredinol: eto yr oedd crybwylliadau wedi eu rhoddi o ddattodiad hollawl, yr hyn oedd i osod terfyn ar ystâd bresenol pethau yn y byd hwn; a thàn orachwyliaeth y Testament Newydd, caed datguddiad mwy amlwg, mai "trwy dân" y gwnaid hyn. * Gan hyny gellid dywedyd, bod y nefoedd weledig, a'r ddaear yn nghyd â'r holl grëadigaeth isod, † wedi eu condemnio i gael eu dyfetha trwy dân; ac eu bod trwy air Duw, yr hwn nis gellid ei ddiddymu, wedi eu rhoddi i gadw fel tanwydd i dân, erbyn y cyflosgiad mawr diweddaf. ‡ Byddai hyn yn sicr o gymmeryd lle tua'r un amser a dydd mawr y farn; yr hwn a gaid yn ddydd o ddystryw ofnadwy i'r gwatwarwyr uchod, a phob anwir ddynion, y rhai a gospid y pryd hwnw â dinystr tragywyddol. Gan hyny yr oedd y canlyniad yn sicr; a'r un gallu ag a grëasai y byd, a'i dyfethasai â dwfr, a'i hadferasai i'w ffurf bresenol, ag oedd yn ei gynnal o hyd yn y ffurf hòno; wedi ymrwymo yn ei air, i ddwyn y canlyniad i ben.

8 * Eithr yr un peth hwn [s] na fydded yn ddiarwybod i chwi, anwylyd, [t] † *fod* un dydd gyd â'r Arglwydd megys mil o flynyddoedd, ‡ a mil o flynyddoedd megis un dydd.

s Rhuf. 11. 25. 1 Cor. 10. 1. a 12. 1. t Salm 90. 4.

* Pa beth bynag yr oedd gwatwarwyr yn "ddiarwybod o'u gwirfodd" o hóno, neu yn cecru yn gyndyn yn ei erbyn, fel pe buasai oedi yn fethu, neu ohirio yn ddïangfa rhag cosp; ni ddylai cristionogion fod yn "ddiarwybod o'r un peth hwnw," yr hwn oedd yn tueddu i egluro pethau eraill oll; † sef, nad oedd rhaniadau amser yn mhlith dynion yn dwyn dim cyfartalwch i dragywyddoldeb, â'r hwn mae holl gyngorion a bwriadau Duw yn union-gyrchol gyssylltiedig. "Gan hyny na fydded yr un peth hwn yn ddiarwybod i chwi;" fod un dydd, a mil o flynyddoedd, yr un peth gyda'r Arglwydd; ‡ a mil o flynyddoedd, ac un dydd, yr un peth yn hollawl gydag ef: oblegid, fel y mae pob peth yn dyfod i ben yn gymhwys ar yr amser a bennododd efe iddo; nid yw cyfryngiad mil o flynyddoedd ddim mwy nac un dydd, gyda golwg ar y pethau hyny a gyflawna efe yn sicr yn eu hamser.—Y gwiredd hyn, o'i iawn ystyried, yw yr agoriad i gysoni yr hyn a ddywedir yn wastadol, am ddyfodiad buan y farn, â'r prophwydoliaethau, a gyrhaeddant trwy lawer o oesoedd, y rhai sydd raid eu cyflawni cyn y farn.—*Un dydd megys mil o flynyddoedd:* diareb oedd hyn yn mhlith yr Iuddewon, i osod allan nad oedd dim cyfatebolrwydd rhwng *meidroldeb* amser, â *thragywyddoldeb* Duw. Dywed *Doddridge* fod gan Plutarch, hen Athronydd a Hanesydd Paganaidd, eiriau hollawl o'r un ystyr, yn ei draethawd ar afrysedd dwyfol ddialedd.

9 * Nid ydyw yr Arglwydd yn [u] oedi ei addewid (fel y mae rhai yn cyfrif oed) [x] † ond hir-ymarhous yw efe tu ag attom ni, [y] ‡ heb ewyllysio bod neb yn golledig, [z] ond dyfod o bawb i edifeirwch.

u Es. 46. 13. Hab. 2. 3. Luc 18. 7, 8. x adn. 15. Ex. 34. 6. Salm 86. 15. Es. 30. 18. Rhuf. 9. 22. 1 Tim. 1. 16. 1 Pedr 3. 20. y Ezec. 18. 23, 32. a 33. 11. z Rhuf. 2. 4. 1 Tim. 2. 4. Dat. 2. 21.

* Ni ddylesid meddwl mewn un modd, fod yr Arglwydd yn oedi, neu yn gohirio, y cyflawniad o'i addewid; fel yr oedd rhai dynion (anghredinwyr diras, a chredinwyr diamynedd hefyd,) yn cyfrif oed: † ond mewn gwirionedd, effaith ei "hir-ymaros" ef tuag at yr eglwys, a thuag at ddynolryw, ydoedd ediad y farn. Yr oedd efe mewn amynedd a hir-ymaros yn dyoddef pechodau y rhai drygionus, ïe, heriadau gwatwarus y didduwiaid; o herwydd na chymmerai efe ei gyffrôi ganddynt hwy a'u drygau, i roi terfyn ar yr ystâd bresenol o bethau, ‡ hyd oni chaffai pawb ag sydd i fod yn gadwedig yn y diwedd, eu dwyn i edifeirwch, a'u parotôi i'r deyrnas; gan nad oedd efe yn ewyllysio bod neb o'r rhai hyny yn golledig. Nid oedd efe yn ewyllysio marwolaeth yr annuwiol, ond yn hytrach edifarâu o hóno a byw; ac yr oedd ei hir-ymaros ef yn rhoddi amser i bechaduriaid i edifarâu: ac fel yr oedd pob peth yn barod, a phawb yn cael eu gwahodd, ïe, yn cael eu gorchymyn i edifarâu; yn yr ystyr hyn, yr oedd Duw yn dangos nad oedd efe yn "ewyllysio bod neb yn golledig," ac ei fod yn "ewyllysio i bawb ddyfod i edifeirwch;" er y byddai llawer yn camddefnyddio ei hir-ymaros ef, er trymach condemniad iddynt eu hunain.—"Heb ewyllysio bod *neb* yn golledig:" sef *neb* a ordeiniodd Duw i fywyd, er eu bod heb eu galw eto. "Ond dyfod o *bawb* i edifeirwch:" sef pawb a etholodd Duw: mynai efe i'r holl nifer o honynt gael eu gwneyd i fynu, ac oeda ddydd y farn hyd oni wneler hyny. Neu, efallai mai nid ewyllys ddirgelaidd ac effeithiol Duw a feddylir yma, eithr ei ewyllys ddatguddiedig ef; trwy yr hon mae yn galw pawb i edifeirwch yn ddiwahaniaeth, ar a glywant yr efengyl yn cael ei phregethu; a wnaeth hyny yn ddyledswydd arnynt, sydd yn cymmeradwyo hyny, a drefnodd hyny fel y ffordd i iachawdwriaeth, a orchymynodd i bawb geisio iachawdwriaeth yn y ffordd hòno; ac sydd yn barod i dderbyn ac achub pawb ar eu hedifeirwch.—*Pool.* Sylwer hyny yn neillduol, fod yr Arglwydd yn ewyllysio i bawb *edifarâu,* yn gymhwys yr un modd ag mae yn ewyllysio i bawb fod yn *gadwedig;* ac felly nis gall neb ar nid *edifarânt,* gael unrhyw les oddi wrth ei ewyllys ef i bawb gael eu *hachub.*—Gwedi y cwbl, nis gall neb feddwl fod Duw yn hollawl yn *ewyllysio* iachawdwriaeth yr annuwiol, yn yr un ystyr ag mae yn *ewyllysio* iachawdwriaeth y cyfiawn, ("*mynaf* bydd lân,") ac heb allu cyflawni ei ewyllys!—*Scott.*

10 * Eithr [a] dydd yr Arglwydd a ddaw [b] megis lleidr y nos; [c] † yn yr hwn y nefoedd a ânt heibio gyd â thwrf, [d] ‡ a'r defnyddiau gan wir wres a [e] doddant, [f] ‖ a'r ddaear a'r gwaith *a fyddo ynddi* a losgir.

a Es. 2. 12. Joel 1. 15. a 2. 1, 31. a 3. 14. Mal. 4. 5. 1 Cor. 5. 5. 2 Cor. 1. 14. Judas 6. b Mat. 24. 43. Luc 12. 39. 1 Thes. 5. 2 Dat. 3. 3. a 16. 15. c Salm 102. 26. Es. 51. 6. Mat. 24. 35. Marc 13. 31. Heb. 1. 11, 12. Dat. 20. 11. a 21. 1. d adn. 12. e Salm 46. 6. a 97. 5. Amos 9. 5, 13. Nah. 1. 5. f Gwel ar adn. 7.

* Er bod yr Arglwydd yn ymddangos fel pe buasai yn oedi ei ddyfodiad, tra yr oedd yn aros i gyflawni bwriadau ei ddoethineb a'i drugaredd, ac i adael i elyniaeth anghymodlawn pechaduriaid diedifeiriol amlygu ei hun i'r holl grëadigaeth; eto yr oedd ei ddydd mawr ac ofnadwy ef yn sicr o ddyfod, yn sydyn, yn annysgwyliadwy, a chyda'r braw mwyaf aruthr, a'r dystryw mwyaf annocheladwy, i bawb oll a gaid yn

umharod: fel lleidr yn tòri i mewn i dŷ yn nyfnder nos, pan fyddai pawb yn trwm gysgu, ac heb iddwl dim am dano. † Yn y terfyniad mawr a thrawys hwnw, y nefoedd yn nghyd a'u holl lu (càn belled, a leiaf, ag maent yn gyssylltiedig â'r ddaear hon a'i phreswylwyr,) "a ânt heibio," ac a ruthrant i annhrefn a dystryw; a hyny "gyda thwrf" dychrynllyd ac mòr twr, fel mae taranau, daear-grynfâu, a holl derfysgedd eraill anian, yn hollawl annigonol i roddi yr amdiffred lleiaf o hóno. ‡ Yna yr holl elfenau, neu y defnyddiau" o ba rai y cyfansoddwyd y ddaear a'i awyr-gylch, a'r holl oleuadau a berthynant iddi, a oddant gan wir wres angerddol fel cŵyr; || ac nid yn unig un ddinas ddirfawr, neu un genedl gyfan, ond y flaear oll, yn nghyd a'i holl ddinasoedd, coedwigoedd, ynyddoedd, ïe, holl gynnwysiadau ei pherfeddion yd eithaf ei chraidd; *(centre;)* yn gystal â holl weithiau dynion, pa mòr rhyfedd a mawr-wych bynag, a iddant yn gorchuddio ei gwyneb hi; byddant oll yn un anfre mawr, yn un cyflosgiad ofnadwy, a thrôir y cyfan ODryblith mòr gymmysglyd a didrefn, ag oeddynt pan ëwyd hwy gyntaf; ac yn wir a ânt yn hollawl "heibio." —Mae yn rhyfedd fod rhai dynion dysgedig yn meddwl ai dydd dinystr Jerusalem oedd y dydd hwn: yr edd hwnw yn ddydd dychrynllyd iawn; eithr nid edd ond cysgod gwàn o ddychryn a dystryw y dydd awr ac ofnadwy hwn; dydd dinystr a barn yr holl dd!

11 * A chan fod yn rhaid i [g]hyn i gyd mollwng, [h] † pa ryw fath ddynion a ddylech awi fod [i] ‡ mewn sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb,

g adn. 12. Salm 75. 3. Es. 14. 31. a 24. 19. a 34. 4. h Mat. 2 27. 1 Thes. 1. 5. Iago 1. 24. i Salm 37. 14. a 50. 23. 2 Cor. 1 12. Phil. 1. 27. a 3. 20. 1 Tim. 4. 12. Heb. 13. 5. Iago 3. 13. 1Pedr 1. 15. a 2. 12. k pen. 1. 3, 6. 1 Tim. 3. 16. a 6. 3, 1 11.

* Y pethau uchod oll ydynt wrthddrychau y synwyrau, meddiannau y mae dynion yn awyddu am danynt, yn n caru, ac yn eiddigeddu yn eu cylch: a chan fod yn aid iddynt oll yn sicr "ymollwng" a darfod, o ran eu ill presenol o hanfodi; † pa ryw fath ddynion a ddyam ni fod mewn sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb, irhai ydym yn credu ac yn dysgwyl y pethau hyn?—oblegid mae yn amlwg, y rhaid y bydd y rhai hyny yn ûr druenus, y rhai ni bydd ganddynt drysor yn y nef, n rhan yn y Gwaredwr hwnw a ddaw i farnu y byd; n yr amser pwysig a grybwyllwyd. ‡ "Mewn *pob* anctaidd ymarweddiad a duwioldeb," yw y Saesoneg; ddywedir bod y geiriau Groeg yn y rhif lïosog, yn arddo yr ymarferiad gwastadol o *bob* gras sancteiddiol, ir cyflawniad parâus o *bob* dyledswydd grefyddol a aristionogol.

12 [l] * Yn disgwyl † ac yn brysio at [m] ddyddiad dydd Duw, ‡ yn yr hwn [n] y nefoedd an losgi a ymollyngant, a'r defnyddiau gan ûr wres a [o] doddant?

l 1 Cor. 1. 7. Tit. 2. 13. Judas 21. m Gwel ar adn. 10.—1Cor. 1. 8. Phil. 1. 6. n Gwel ar adn. 10.—Salm 50. 3. Es. 4. 4. Dat. 6. 13, 14. o Gwel ar adn. 10.—Mica 1. 4.

13 || Eithr nefoedd newydd, a daear newydd, r ydym *ni,* [p] yn ol ei addewid ef, yn eu isgwyl, § yn y rhai y mae cyfiawnder yn artrefu.

p Es. 65. 17. a 66. 22. Dat. 21. 1, 27.

* Oni ddylai cristionogion gan hyny, fod yn wastadol n "dysgwyl" am, ac yn ymddarpar i groesawu yr amer difrifol hwnw, yr hwn a elwir yn arbennodawl dydd Duw;" † gan "frysio" i gael pob peth yn barod w gyfarfod ef mewn cysur, ac hyd yn nôd hiraethu am terfyniad mawr a sobr, yr hwn a berffeithia eu deddyddwch hwynt? ‡ Er bod y dydd hwnw ynddo ei un yn ddychrynllyd i feddwl am dano, am y bydd y nefoedd gan losgi yn ymollwng, a'r defnyddiau gan wir wrês yn toddi;" eto mae yr efengyl yn gweini y fath gysur, ac yn dwyn y fath obaith, fel nad oes dim achos dychryn nac anesmwythder i'r credinwyr: || oblegid er y bydd terfyn y pryd hwnw ar bob etifeddiaethau a meddiannau bydol; eto maent hwy, yn ol addewid sicr Duw, yn "dysgwyl am nefoedd newydd, a daear newydd," ystâd arall o bethau, llawer mwy dedwydd a gogoneddus, a phreswylfa barâus, § lle mae cyfiawnder perffaith yn cartrefu, a neb ond dynion cyfiawn yn cael eu derbyn, ac yn preswylio. Yno bydd yr holl drigolion wedi eu perffeithio mewn purdeb, ufudd-dod, a chariad; ac felly nis gall dim pechod ddyfod i mewn, i'w halogi na'u haflonyddu yn dragywydd.—Mewn rhai ysgrythyrau, defnyddir y geiriau "nefoedd newydd a daear newydd" yn allegawl, i arwyddo dyddiau mwyaf heddychol a llwyddiannus yr eglwys ar y ddaear; (Esa. 65. 17—19; a 66. 19—23; Heb. 12. 26—29.) ond yn y fân hon, mae yn amlwg mai ystâd ddedwydd y cyfiawn ar ol dydd y farn, a dinystriad y byd hwn, a feddylir. Ond pa beth fydd y "nefoedd newydd a'r ddaear newydd" hyn, nis gwyddom eto; pa un ai cyfansoddiad newydd, o'r hen ddefnyddiau wedi eu llosgi, eu toddi, a'u puro, ai ynte rhyw beth arall a fyddant. Pa beth bynag a fyddant, maent i ganlyn dattodiad y nefoedd a'r ddaear bresenol trwy dân, ac ar ol dydd y farn; am hyny tebygid nad ydynt yn perthyn dim i deyrnasiad gogoneddus Crist ar y ddaear, dros fil o flynyddoedd, yr hyn sydd i fod o *flaen* y dygwyddiadau mawrion hyny.

14 * O herwydd paham, anwylyd, [q] gan eich bod yn disgwyl y pethau hyn, [r] gwnewch eich goreu † ar eich cael ganddo ef mewn tangnefedd, [s] ‡ yn ddifrycheulyd ac yn ddïargyhoedd.

q Phil. 3. 20. Heb. 9. 28. r pen. 1. 5—10. 1 Ioan 3. 3. s Mat. 24. 46. Luc 2. 29. a 12. 43. 1 Cor. 15. 58. Phil. 1. 10. 1 Thes. 3. 13. a 5. 23.

* Oddi wrth yr ystyriaethau blaenorol, cymmerai yr apostol achlysur i gyngori ei anwyl frodyr, y rhai a broffesent eu bod yn credu ac yn "dysgwyl y pethau hyn," i brofi eu bod felly mewn gwirionedd, trwy arfer diwydrwydd yn mhob dyledswydd, a phob moddion o ras; † fel y caid hwy gan yr Arglwydd Iesu yn ei ddyfodiad, mewn tangnefedd â Duw, â'u cydwybodau eu hunain, â'u gilydd, ac â phob dyn; ‡ gan fod yn ddifrycheulyd mewn sancteiddrwydd, ac yn ddïargyhoedd o ran pob halogrwydd mewn calon ac ymarweddiad. Efallai bod gan yr apostol gyfeiriad yma at y twyllwyr, y rhai a ddynododd efe o'r blaen fel "brychau a meflau;" (pen. 2. 13.) ac mewn cyferbyniad i'r rhai hyny, mae yn annog ei frodyr hyn i fod yn "ddifrycheulyd a ddïargyhoedd."

15 * A [t] chyfrifwch hir amynedd ein Harglwydd, yn iachawdwriaeth; † megis ag yr ysgrifenodd ein [u] hanwyl frawd Paul attoch chwi, [x] yn ol y doethineb a rodded iddo ef;

t Gwel ar adn. 9.—Rhuf. 2. 4. 1 Tim. 1. 16. 1 Pedr 3. 20. u Act. 15. 25. x Ex. 31. 3, 6. a 35. 31, 35. 1 Bren. 3. 12, 28. a 4. 29. Ezra 7. 25. Diar. 2. 6, 7. Preg. 2. 26. Dan. 2. 20, 21. Luc 21. 15. Act. 7. 10. 1 Cor. 2. 13. a 12. 8. Iago 1. 5. a 3. 17.

* Dylent hefyd gyfrif hir-amynedd eu Harglwydd yn iachawdwriaeth; oblegid yr oedd pob diwrnod ac awr o arbediad bywyd, yn rhoddi cyfle iddynt hwy i geisio gwneuthur eu galwedigaeth a'u hetholedigaeth yn sicr: yr oedd amser yn cael ei roddi iddynt i ymgais am brofiad gwirioneddol a mwy effeithiol o waith grasol ac achubol Duw ar eu heneidiau; ac yr oedd daioni Duw yn tueddu, ac yn cael ei fwriadu, i dywys pechaduriaid i edifeirwch. Gan hyny dylai pawb o honynt gyfrif hir-amynedd Duw yn iachawdwriaeth; yn gymmaint ag mai hyny yn unig oedd yr achos, nad oeddynt hwy y pryd hwnw mewn gwlad ddiobaith, ac mewn tragywyddol drueni, yn lle [illegible] dir gobaith, ar dir gweddi, ac ar dir maddeuant; neu yn ffordd tangnefedd ac iachawdwriaeth rad. † Sylwai yr apostol hefyd, bod

ei "anwyl frawd Paul wedi ysgrifenu atynt" o'r blaen i'r un perwyl, yn ol y doethineb a roddasai Duw iddo ef. Mae yn werth sylwi ar y parch a'r anwyldeb mae yr apostol yn ddangos yma tuag at ei "anwyl frawd Paul:" mae yn crybwyll am dano fel hyn, yn 1. Fel y canmolai i'r cristionogion Iuddewig yr athrawiaeth a bregethai Paul; yr hon oeddynt hwy yn dueddol o'i hammau am ei fod ef yn weinidog y dienwaediad: yn 2. I ddangos nad oedd yn meddwl dim yn waeth am Paul o herwydd cael ei geryddu yn llym ac yn gyhoeddus ganddo unwaith yn Antiochia: Galat. 2. 11—14: ac yn 3ydd. Fel yr arfogai efe y saint yn erbyn y cyfeiliornwyr hyny a ŵyr-dröent ysgrifeniadau Paul, i'w dinystr eu hunain ac eraill.—Tybia rhai bod yr apostol yn cyfeirio yma at eiriau Paul yn Rhuf. 2. 4; ond mae yn anhawdd deall pa fodd y gellir ystyried y geiriau hyny wedi eu hysgrifenu at y rhai yr oedd Petr yn danfon ei epistol hwn. Tybia eraill mai llythyr Paul at yr Hebreaid oedd efe yn feddwl, ac ei fod yn cyfeirio yn fwyaf neillduol at pen. 9. 27, 28; a 10. 36, 37, o'r llythyr hwnw, lle mae athrawiaeth o'r un natur â dechreu yr adnod hon; eto wrth feddwl i'r epistol hwnw gael ei ddaufon at yr eglwysi yn Judea, ac nid at y cristionogion yn Asia, lle y danfonwyd y llythyr hwn; mae peth dyryswch i'r dŷb hòno hefyd. Ond, yn wir, er bod y llythyrau apostolaidd yn cael eu hysgrifenu at ryw eglwysi neillduol; eto, mae yn sicr y byddai eu hysgrifenwyr yn eu bwriadu er addysg cyffredinol yr holl eglwysi, càn belled ag y medrent eu cael: a chan fod Petr wedi darllen epistolau Paul, pan ysgrifenodd efe hwn, felly yr oedd y cristionogion hyn wedi gwneyd hefyd, efallai, er mai at eglwysi eraill yr ysgrifenasai Paul hwynt yn union-gyrchol. Fel hyn nid oes achos holi pa un o lythyrau Paul oedd Petr yn feddwl; a llawer llai y dylid dychymmygu, fel y gwnaeth rhai, mai rhyw epistol o'r eiddo Paul nad yw ar gael yn awr, oedd efe yn feddwl.

16 [y] * Megis yn *ei* holl epistolau hefyd, yn [z] llefaru ynddynt am y pethau hyn: † yn y rhai y mae rhyw bethau [a] anhawdd eu deall, ‡ y rhai y mae yr annysgedig a'r [b] anwastad ‖ yn eu [c] gŵyrdroi, [d] megis yr ysgrythyrau eraill, [e] § i'w dinystr eu hunain.

y Gwel ar 1 Pedr 1. 1. z Rhuf. 8. 19. 1 Cor. 15. 21. 1 Thes. 4. 15. a 1 Bren. 10. 1. Heb. 5. 11. b pen. 2. 14. Gen. 49. 4. 2 Tim. 3. 5—7. Iago 1. 8. c Ex. 23. 2, 6. Deut. 16. 19. Salm 56. 5. Hab. 1. 4. d Jer. 23. 36. Mat. 15. 3, 6. a 22. 29. e pen. 2. 1. Phil. 3. 19. 1 Pedr 2. 8. Judas 4.

* Pa un bynag o epistolau Paul oedd Petr yn feddwl yn yr adnod o'r blaen; yr oedd efe yn ei holl epistolau yn llefaru am ddyfodiad Crist i'r farn, ei hir-amynedd ef tuag at bechaduriaid, y parodrwydd oedd yn angenrheidiol erbyn ei ddyfodiad ef, yn nghyd â rhybuddion a chyngorion i wahanol fathau o ddynion. † Eto yn yr epistolau hyn, yn gymmysg â phethau eglurach, yr oedd rhyw bethau anhawdd eu deall; megys y pethau am arfaeth Duw, gorunchwyliaethau dyrys a dyfnion ei lywodraeth ef; yn nghyd â phen-arglwyddiaeth ei ras ef yn achub rhai, ac yn gadael eraill i'w caledu: oblegid am y pethau hyn a'r cyffelyb, yr oedd Petr yn ddiammau yn llefaru yn benaf. Nis gellid deall y cyfryw bethau yn briodol, ond gan y rhai oedd wedi dyfod i gryn addfedrwydd mewn gwybodaeth, gras, a phrofiad ysbrydol, ac y rhai a'u derbynient mewn ffydd a chariad gostyngedig a syml. ‡ Gan hyny yr oedd yr "annysgedig a'r anwastad," sef y rhai oedd *heb* eu dysgu yn ysgol Crist, neu ni *fynent* eu dysgu gan eu balchder, eu rhagfarn, a'u nwydau cnawdol; ac oeddynt heb eu sefydlu yn y ffydd, a thrwy sanctteiddiol ras:—yr oedd y rhai hyn, meddaf, ‖ yn gŵyr-droi y pethau uchod, ac yn eu dirdynu trwy ddehongliadau treisiol ac annaturiol o honynt, anghyson â'r cyddestynau, ac âg athrawiaeth gyffredin yr apostol; ac yn eu cam-ddefnyddio hwynt megys yr ysgrythyrau eraill, i gynnal, pleidio, ac amddiffyn, eu hegwyddorion a'u hymddygiadau trahâus, llygredig, a phenrhydd hwy eu hunain: § ac fel hyny yr oeddynt yn gweithio allan eu dinystr tragywyddol eu hunain gyda chwanegiad dirfawr o euogrwydd, yn lle derbyn y gwirionedd yn ostyngedig, a'i ddefnyddio er eu lles ysbrydol, fel moddion i'w gwneyd yn ddoeth i iachawdwriaeth trwy y ffydd oedd yn Nghrist Iesu. 2 Tim. 3. 15. "*Megys* yr ysgrythyrau *eraill:*" mae Petr yma yn amlwg, yn addef ysgrifeniadau Paul yn rhan o'r ysgrythyrau dwyfol, wedi eu rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw fel yr ysgrythyrau eraill: ac ni ddylid rhoi y bai o'u gŵyro hwynt ar yr ysgrythyrau eu hunain; eithr ar y rhai sydd yn eu gŵyro, yn groes i'w gwir feddwl a'u tueddiad sanctaidd.—Sail wàn sy gan yr offeiriaid pabaidd yma, i wahardd yr ysgrythyrau i'r llëygion; o herwydd bod ynddynt "ryw bethau anhawdd eu deall," ac o herwydd bod yr "annysgedig a'r anwastad yn gŵyr-droi" y pethau hyny "i'w dinystr eu hunain." Gwell iddynt o lawer geisio eu dysgu i'r bobl, a'u hannog i "gynnyddu mewn gras a gwybodaeth," fel y gwna yr apostol yn yr adnod olaf o'r epistol hwn.

17 * Chwychwi gan hynny, anwylyd, [f] a chwi yn gwybod *y pethau hyn* o'r blaen, † [g] ymgedwch rhag eich [h] arwain ymaith trwy amryfusedd yr annuwiol, ‡ a chwympo o honoch [i] oddi wrth eich sicrwydd eich hun.

f pen. 1. 12. Diar. 1. 17. Mat. 24. 24, 25. Marc 13. 23. Ioan 16. 4. g Mat. 7. 15. a 16. 6, 11. Phil. 3. 2. Col. 2. 8. 2 Tim. 4. 15. h pen. 2. 18—20. Mat. 24. 24. Marc 13. 22. Rhuf. 16. 18. 2 Cor. 11. 3, 13—15. i pen. 1. 10, 11. a 2. 18—22. Act. 2. 42. 1 Cor. 15. 58. Col. 2. 5. Heb. 3. 14. 1 Pedr 5. 9.

* Gan fod y bobl yr oedd Petr yn ysgrifenu atynt wedi eu dysgu o'r blaen, a chwedi cael eu rhybuddio yn fynych am y cyfeiliornadau a'r twyllwyr dichellgar uchod; † dylent fod ar eu gwyliadwriaeth yn ofalus rhag y cyfryw bethau a phersonau, a gochelyd y graig ar ba un y drylliwyd y fath nifer: rhag, wedi eu dêntu oddi wrth y symlrwydd o ufudd-dod crediniol i'r Arglwydd Iesu, trwy gyfeiliornadau a hudoliaethau dynion drygionus, yn enwedig yr athrawon penrhydd a grybwyllasai yr apostol o'r blaen; iddynt gael eu harwain ymaith trwy amryfusedd cadarn, ‡ a chwympo o honynt oddi wrth yr ymlynïad cadarn a sicr hwnw wrth wirioneddau yr efengyl, y broffes ddianwadal hòno o ffydd, a'r ystod unwedd hyny o fywyd addas, a oeddynt hwy wedi eu cynnal hyd yn hyny; ac yr hyn oedd yn gwneyd i fynu "sicrwydd" priodol i grediniwyl llawn-dwf, ac yn eu gwahaniaethu hwynt oddi wrth laweroedd o broffeswyr "anwastad" cristionogaeth.—Nid i'w digaloni hwynt âg ofn gwrthgiliad mae yr apostol yn dywedyd fel hyn, ond i'w rhybuddio hwynt, er eu diogelwch.

18 * Eithr [k] cynnyddwch mewn gras † [l] gwybodaeth ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist. [m] ‡ Iddo ef *y byddo* gogoniant yn awrhon ac yn dragywyddol. [n] Amen.

k Salm 92. 12. Hos. 14. 5. Mal. 4. 2. Eph. 4. 15. 2 Thes. 1. 3. 1 Pedr 2. 2. l pen. 1. 3, 8. a 2. 20. Ioan 17. 3. 2 Cor. 4. 6. Eph. 1. 17. Phil. 3. 8. Col. 1. 10. a 3. 10. m Ioan 5. 23. 2 Tim. 4. 18. 1 Pedr 6. 10, 11. Judas 25. Dat. 1. 6. a 5. 9—14. n Gwel y Mat. 6. 13. a 28. 20.

* I'r dyben o fod yn sicr na byddai iddynt byth gwympo felly, dylent arfer pob moddion o osodiad Duw, gyda'r dyfalwch mwyaf, fel y byddai i bob gras a sanctteiddiol gael eu cryfâu yn eu calonau, gael eu cynnyddu trwy ymarferiad parâus, a'u dwyn i fod yn ffwy ffrwythlawn mewn gweithredoedd da o ddydd i ddydd: † ac i gynnyddu hefyd yn wastadol, mewn gwybodaeth grediniol, ysbrydol, briadol, a thraws-ffurfio o'r Arglwydd Iesu Grist, fel eu Harglwydd a'u Gwaredwr hwy. ‡ Ar ol y cyngor pwysig uchod, mae yr apostol yn diweddu gyda phriodoli gogoniant i Grist, fel Duw, heb enwi y Tad, yr awr hòno ac yn dragywyddol a chyda dymuno ei bod felly, a llawenychu am y byddai felly byth bythoedd, Amen.

EPISTOL CYNTAF CYFFREDINOL

IOAN YR APOSTOL.

PEN. I.

Ac mae efe yn gosod allan berson Crist, yn yr hwn y mae i ni fywyd tragywyddol.

YR hyn [a] oedd o'r dechreuad, [b] † yr hyn a glywsom, ‡ yr hyn a welsom â'n llygaid, yr hyn a edrychasom arno, [c] § ac a deimlodd n dwylaw am [d] Air y bywyd;

a pen. 2. 13. Diar. 8. 22—31. Es. 41. 4. Mica 5. 2. Ioan 1. 1, a 8. 58. Dat. 1. 8, 11, 17, 18. a 2. 8. b pen. 4. 14. Luc 1. 2. an 1. 14. Act. 1. 3. a 4. 20. 2 Pedr 1. 16—18. c Luc 24. 39. an 20. 27. d pen. 5. 7. Ioan 1. 14. a 5. 26. Dat. 19. 13.

Er nad yw *enw* Ioan i'w gael yn yr epistol hwn a'r lau a ganlyn, mwy nac wrth yr efengyl sydd yn yned wrth ei enw ef; eto priodolwyd y rhanau hyn ir ysgrythyr iddo ef gan bawb, er dyddiau boreuaf yr glwys gristionogol: ac mae yn bur amlwg mai yr un ŵr a'u hysgrifenodd hwynt oll, yr efengyl a'r epistol-i, wrth debygrwydd yr ymadroddion a ddefnyddir nddynt. Nid yw duwinyddion yn cytuno am yr am-er yr ysgrifenwyd yr epistol hwn: tybia rhai mai hydig cyn dinystr Jerusalem oedd, (oddi wrth pen. 18.) a thybia eraill mai yn mhell wedi hyny yr ys-rifenwyd ef. Tybia rhai mai at y cristionogion Iudd-wig yr ysgrifenwyd ef, a thybia eraill mai at gristion-gion yn gyffredinol yr ysgrifenwyd ef: nid yw hyny o wys yn y byd, mae yn eiddo yr holl eglwys yn awr, a nrysor gwerthfawr i'r saint ydyw. Mae yr apostol yn echreu ei epistol hwn yn yr un dull sydyn ag y echreuodd ei efengyl, heb un math o gyfarchiad, neu merch neilduol: ac yr oedd yn ysgrifenu fel tyst, neu enad, mewn dull byr-eiriog adroddawl, ac nid mewn ull rhesymiadol neu ddadleuol.

* "Yr hyn oedd o'r dechreuad:" y Da hanfodol wnw, y Rhagoroldeb hunan-fodawl a digrëedig hwnw, ef Mab Duw, yr hwn oedd o'r dechreuad, yn ogyfuwch c yn gyd-dragywyddol â'r Tad; ac o'r diwedd a ym-dangosodd mewn natur ddynol er iachawdwriaeth echaduriaid; hwn oedd y testyn mawr, yr oedd Ioan n ysgrifenu am dano at ei frodyr. Ac os am Grist, el Mab Duw, yr oedd efe yn llefaru, (ac nis gwyddom m bwy arall y gallai efe lefaru fel hyn,) rhaid bod "o'r echreuad" yn arwyddo *tragywyddoldeb;* oblegid os edd *crëadigaeth* ac *amser* yn gyfoediog, rhaid bod "yr yn oedd o'r dechreuad," pan grëodd Duw y nefoedd a'r daear, yn dragywyddol. Gwel ar Ioan 1. 1, 2. Gwedi gwneuthur y Gair tragywyddol yn gnawd, ac ddo drigo yn mhlith dynion, clywodd Ioan a'r apostol-on eraill ef lawer gwaith, yn ei weinidogaeth gyhoedd-s, ei weddiau taerion, a'i ymddiddanion neilduol. Gwelsant ef hefyd â'u llygaid, cyn a chwedi ei adgyf-ddiad; a gwelsant ef fel yr unig-anedig oddi wrth y ad, yn llawn gras a gwirionedd. ‖ Nid yn unig hwy i gwelsant ef yn ddamweiniol, neu ar ryw gip-olwg n awr ac eilwaith; ond buont yn ei ganlyn ef, ac yn i ystyried ef yn graff a manol, gyda golwg ar ddoeth-neb a sancteiddrwydd ei ymarweddiad ef, gallu ei wyrthiau, a'i fawr gariad a'i drugaredd, am rai blynydd-oedd; hyd oni welsant ef yn marw ar y groes, ac yn adgyfodi drachefn oddi wrth y meirw. § A theimlasant ef â'u dwylo, pan ymostyngodd ef i roddi y prawf diymwad hwnw iddynt o'i adgyfodiad, fel y tystiolaethent hwy hyny i eraill. Daeth y Person dwyfol hwn, "Gair y bywyd," "Gair Duw," yn ddyn, fel y byddai yn Fywyd dynion; a'r dirgelwch mawr hyn o dduwioldeb, oedd yr apostol yn dystiolaethu i ddynolryw.—Gwadai rhai Dduwdod Crist y pryd hwnw, gwadai eraill ei wir ddynoliaeth ef; ac mae Ioan yn taro yn erbyn y ddau gyfeiliornad yn yr adnod hon:—"Gair y bywyd, yr hyn oedd o'r dechreuad," dyna Dduwdod; "gweled, edrych ar, a theimlo" Gair y bywyd, â'r llygaid corphorol a'r dwylaw, dyna wir ddynoliaeth.

2 * Canys [e] y bywyd [f] a eglurhâwyd, † ac ni a welsom, [g] ‡ ac ydym yn tystiolaethu, ac yn mynegi i chwi [h] y bywyd tragywyddol, [i] ‖ yr hwn oedd gyd â'r Tad, § ac a eglurhâwyd i ni)

e pen. 5. 11, 20. Ioan 1. 4. a 11. 25, 26. a 14. 6. f pen. 3. 5, 8. Rhuf. 16. 25, 26. 1 Tim. 3. 16. 2 Tim. 1. 10. Tit. 1. 3. g Ioan 15. 27. a 21. 24. Act. 1. 22. a 2. 32. a 3. 15. a 5. 32. a 10. 41. 1 Pedr 5. 1. h Gwel ar e.—Ioan 17. 3. i Diar. 8. 22—30. Ioan 1. 1, 2, 18. a 3. 13. a 7. 29. a 8. 38. a 16. 28. a 17. 5. Rhuf. 8. 3. Gal. 4. 4.

* "Canys y Bywyd," Ffynon ac Awdwr bywyd, naturiol, ysbrydol, a thragywyddol, yr hwn oedd "ganddo fywyd ynddo ei hun," o angenrheidrwydd ac yn ddigyfnewid, ac yr hwn o herwydd hyny a ellid ei alw "y Bywyd;" am fod bywyd yn hanfodol iddo, ac yn deilliaw o hóno i bob crëadur; ïe, hwn a "eglurâwyd" yn y cnawd, fel y byddai yn Fywyd i ddynion syrthiedig. † Ac wedi i "Fab Duw," bywyd hanfodol pob crëadur, gael ei egluro fel hyn, cafodd yr apostolion y fraint arbenig, o'u dewis i fod yn ganlynwyr iddo ef, ac i'w weled ef, trwy ystod ei weinidogaeth, yn ei farwolaeth, ar ol ei adgyfodiad, ac ar ei esgyniad; fel hyn gwelsant ef â'u llygaid, ac edrychasant arno yn ddigon hir craff, a mynych, fel nad oedd yn bosibl iddynt gael eu twyllo na cham-gymmeryd am dano. ‡ Dewiswyd hwy i hyn fel y tystiolaethent, ac y mynegent i eraill y bywyd tragywyddol; ac yr oeddynt hwy yn tystiolaethu ac yn mynegi y bywyd tragywyddol hwnw; ‖ yr hwn oedd erioed yn hanfodi gyda'r Tad, fel yn Un âg ef, ac eto yn wahanol oddi wrtho; yn Un o ran hanfod ddiranedig y Duwdod, ond yn meddu personoliaeth gwahanol, fel Unig-anedig y Tad, trwy genedliad tragywyddol ac anamgyffredadwy: § ac yr hwn yn nghyflawnder yr amser a "eglurâwyd," fel Awdwr a Rhoddwr bywyd tragywyddol i bechaduriaid, trwy eu prynu hwynt â'i waed, eu cyfiawnâu a maddeu iddynt, a'u crëu o newydd drwy ei Ysbryd. Gan hyny nid oedd yr apostolion yn myned yn mlaen ar glywed gan eraill, neu ar brawf annigonol, pan oeddynt yn pregethu i'r bobloedd; ac yn wynebu pob caledi, peryglon, ac erledigaethau, wrth ac am bregethu yr efengyl iddynt; ond yr oeddynt hwy yn mynegi y pethau am Berson,

athrawiaeth, ac iachawdwriaeth Crist, ag oeddynt wedi weled, clywed, a theimlo eu hunain; a chwedi cael y cyfleusderau goreu i'w dysgu o'i enau ef ei hun; ac am ba rai y cawsent y sicrwydd cadarnaf, trwy ei wyrthiau, ei adgyfodiad, a'i esgyniad ef.—"Y *bywyd*," a'r "*bywyd tragywyddol*" yma yw Crist, Mab Duw, yr hwn mae bywyd tragywyddol ynddo a thrwyddo i bechaduriaid a gredant ynddo.

3 [k] * Yr hyn a welsom ac a glywsom, [l] † yr ydym yn ei fynegi i chwi, [m] ‡ fel y caffoch chwithau hefyd gymdeithas gyd â ni: [n] ‖ a'n cymdeithas ni yn wir *sydd* gyd â'r Tad, § a [o] chyd â'i Fab ef Iesu Grist.

k Gwel ar adn. 1. l adn. 5. Salm 2. 7. a 22. 22. Es. 66. 19. Ioan 17. 25. Act. 13. 32, 41. a 20. 27. 1 Cor. 15. 1. Heb. 2. 12. m Act. 2. 42. Phil. 2. 1.—Rhuf. 15. 27. Eph. 3. 6. Phil. 1. 7. 1 Tim. 6. 2. Heb. 3. 1. 1 Pedr 5. 1. n adn. 7. pen. 2. 23, 24. Ioan 14. 20—23. a 17. 3, 21. 1 Cor. 1. 9, 30. 2 Cor. 13. 14. Phil. 2. 1. a 3. 10. Heb. 3. 14. o pen. 5. 10, 11. Col. 1. 13. 1 Thes. 1. 10.

* Am y *gweled* a'r *clywed* hyn, gwel ar y ddwy adnod o'r blaen. † Yr oedd yr apostolion yn mynegi y pethau hyn i'w brodyr, ac i ddynolryw yn gyffredin, ïe, i bawb a ddarllenent eu hepistolau hwynt hyd ddiwedd amser; nid oddi ar egwyddorion hunanol, ond oddi ar y cariad puraf, a'r cymmwynasgarwch mwyaf: ‡ fel y caffai pawb a gredent gymdeithas gyda hwynt, a chyfranogi o'u breintiau, eu gobaith, eu dyddanwch, a'u manteision tragywyddol hwynt; fel un corph ysbrydol a sanctaidd â hwynt yn Nghrist. ‖ A pha beth bynag a dybiai byd annuwiol ac ynfyd, am ystâd a chyflwr y fath ddynion tlodion, dirmygedig, ac erlidiedig, y rhai a drinient hwy "fel ysgubion y byd a sorod pob dim:" eto mewn gwirionedd, yr oedd eu cymdeithas hwy gyda'r Tad, a chyda ei Fab ef Iesu Grist. Yr oeddynt yn cyfranogi o neilldduol gariad ac ewyllys da Duw Dad; yr oedd ei holl berffeithiau ef yn diogelu eu dedwyddwch; yr oeddynt yn "gyfranogion o'i sancteiddrwydd ef," ïe, o "dduwiol anian;" ac yr oedd ganddynt ebaith sicr, ac ernes ddedwydd, o gael ei fwynâu ef fel eu Rhan dragywyddol a holl-ddigonol. Heblaw hyny, yr oedd iddynt ddyfodfa rydd ato ef fel eu Tad yn Nghrist; a chymdeithas anrhydeddus a dedwydd yn wastadol, rhwng eu heneidiau hwy â'r Duw mawr a gogoneddus; lle yr oeddynt hwy yn tywallt eu holl ddeisyfiadau ger ei fron ef, ac yntau yn cyflawni yn rasol eu holl raid a'u dymuniadau sanctaidd hwythau, ac yn cymmeryd arno ei hun y gofal am eu holl achosion. § Yr oedd y gymdeithas hon â'r Tad yn tarddu oddi ar eu cymdeithas hwy â'i Fab ef Iesu Grist. Daethent trwy ffydd yn gyfranogion o hóno ef a'i iachawdwriaeth; fel ag yr oedd ef wedi ei wneuthur iddynt hwy gan Dduw, yn Ddoethineb, yn Gyfiawnder, yn Sancteiddrwydd, ac yn Brynedigaeth: a thrwy barch gwastadol i'w Berson ef, ei gyfryngdod, a'i ras; a thrwy ymorphwysiad parâus arno ef, fel Bywyd ac iachawdwriaeth eu heneidiau; yr oedd dyfodfa wastadol iddynt at Dduw fel Tad. Fel hyn trwy y Mab, ei aberth, ei gyfiawnder, a'i eiriolaeth; a thrwy eu cymdeithas hwy âg ef trwy ffydd; yr oedd iddynt gymdeithas â'r Tad hefyd, er cymmaint oedd eu pechadurusrwydd hwy ynddynt eu hunain. Nid dychymmyg pen-boeth, neu broffes ragrithiol, oedd hyn; ond yr oedd eu cymdeithas hwy yn *wir* felly; yn beth profiadol iddynt eu hunain, ac yn amlwg i eraill yn eu holl ymarweddiad hwynt: a chan y gwyddent nad oedd dim arall a wnai ddynion yn wir ddedwydd; yr oeddynt yn mawr ddymuno ac yn llafurio, i gael eraill i gyd-fwynâu y gymdeithas nefol hon â hwy: gwyddent fod anfeidrol gyflawnder yn Nghrist, ac yn ei iachawdwriaeth werthfawr a digonol ef.

4 * A'r pethau hyn yr ydym yn eu hysgrifenu attoch, [p] † fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn.

p Es. 61. 10. Hab. 3. 17, 18. Ioan 15. 11. a 16. 24. 2 Cor. 1. 24. Eph. 3. 19. Phil. 1. 25, 26. 2 Ioan 12.

* Ac yn y teimlad gwresog uchod yr oedd Ioan yn ysgrifenu yr epistol hwn at ei frodyr, † fel y caffent hwythau gyflawnder o wir ddedwyddwch, a llawenydd yn y gymdeithas hyfryd a sanctaidd hòno; yr hyn oedd y gwynfyd penaf a allent ei fwynâu, hyd oni pherffeithid hwy a'u gwynfyd mewn gogoniant.—Gan mai yr Ysbryd Glân yw y Gweithredydd mawr yn ein cymdeithas â'r Tad ac â'r Mab; nid oedd achos i'r apostol sôn am gymdeithas âg ef yn wahanedigol, yn yr adnodau uchod.

5 * A hon yw [q] y gennadwri a glywsom ganddo ef, ac yr ydym yn ei hadrodd i chwi; [r] † Mai goleuni yw Duw, ‡ ac nad oes ynddo ddim tywyllwch.

q pen. 3. 11. 1 Cor. 11. 23. r Salm 27. 1. a 36. 9. a 84. 11. Es. 60. 19. Ioan 1. 4, 9. a 8. 12. a 9. 5. a 12. 35, 36. 1 Tim. 6. 16. Iago 1. 17. Dat. 21. 23. a 22. 5.

* I'r dyben i gristionogion allu cael y llawenydd uchod yn gyflawn; ac i'r dyben iddynt fod ar eu gwyliadwriaeth rhag pob ymddangosiadau hudol, a phob gau-hòniadau o gymdeithas â Duw; yr oedd yn angenrheidiol iddo ef grybwyll iddynt y "genadwri," neu y *dystiolaeth*, yr hon a glywsent hwy gan Grist ei hunan, am natur a pherffeithiau Duw. † Swm a sylwedd y genadwri, neu y dystiolaeth hon yw, "Mai Goleuni yw Duw;" deall pur a pherffaith, Ysbryd holldreiddiol a holl-ddirnadol, gwybodaeth hanfodol, doethineb, sancteiddrwydd, cariad, a dedwyddwch: ‡ felly nis gall fod ynddo ef ddim tywyllwch; dim annwybodaeth, cyfeiliorni, drwg moesol, na diffyg mewn dedwyddwch; ac am hyny nis gall dim o'r pethau hyn ddeilliaw o hóno ef. Gan mai hyn yw natur Duw, rhaid bod yr athrawiaethau a'r gorchymynion a ddeuant oddi wrtho ef o'r un natur: gellir gwahaniaethu rhwng gwir a gau-grefydd wrth y prawf hyn; ac yn enwedig gellir adnabod ei addolwyr ysbrydol ef, y rhai mae iddynt wir gymdeithas âg ef, wrth eu tebygrwydd hwy iddo ef.—Goleuni yw Duw: mae hyn yn gosod allan ei *wybodaeth* egluraf a pherffeithiaf ef, oblegid mae goleuni yn datguddio pob peth; ei *sancteiddrwydd* difrycheulyd ef, oblegid mae goleuni uwchlaw pob halogrwydd; ac ei ragorol *ddaioni* ef, oblegid mae goleuni, yn nghyd â gwres, yn gweini bywyd a hyfrydwch i holl anian yn gyffredinol.—*Cenadwri:* ystyr gyffredin y gair *epangelia* yw addewid; ond mwy cymhwys ei gyfieithu *cenadwri* yn y fàn hon, mae yn debyg: a dywedir mai *angelia*, (cenadwri) yw y gair mewn rhai hen ysgrifau o'r adnod hon.

6 [s] * Os dywedwn fod i ni [t] gymdeithas âg ef, † a [u] rhodio yn y tywyllwch, [x] ‡ celwyddog ydym, ‖ ac [y] nid ydym yn gwneuthur y gwirionedd:

s adn. 8, 10. pen. 2. 4. a 4. 20. Mat. 7. 22. Iago 2. 14, 16, 18. Dat. 3. 17, 18. t Gwel ar adn. 3.—Salm 5. 4—6. a 94. 20. 2 Cor. 6. 14—16. u pen. 2. 9—11. Salm 82. 5. Diar. 2. 13. a 4. 18, 19. Ioan 3. 19, 20. a 11. 10. a 12. 35, 46. x adn. 10. pen. 4. 20. Ioan 8. 44, 55. 1 Tim. 4. 2. y Ioan 3. 21.

* Os yw neb proffeswyr cristionogaeth yn dywedyd, fel mater o brofiad, "fod iddynt gymdeithas â Duw" yn ol trefn yr efengyl, ac eu bod o ganlyniad yn gyfranogion o'i iachawdwriaeth ef; † a hwy ar yr un pryd yn "rhodio yn y tywyllwch," neu yn cael eu hudo gan Satan, trwy annwybodaeth a gau-athrawiaeth, i fyw yn yr arferiad cyffredin o bechod, ac felly bod iddynt gymdeithas â gweithredoedd anffrwythlawn y tywyllwch; ‡ dywedyd celwydd mae y dynion hyny, ac maent yn twyllo eu hunain neu yn dwyllwyr rhagrithiol, y rhai mae eu hymddygiad yn gwadu eu proffes: ‖ oblegid nid ydynt yn gwneuthur yr hyn sydd wirionedd a ffyddlawn, ac yn gyson â gwirioneddau gair Duw.—Rhoddir *goleuni* a *thywyllwch* yn aml am *sancteiddrwydd* a *drygioni*, a'r neb sydd yn rhodio yn nhywyllwch drygioni, nis gall fod yn rhodio mewn sancteiddrwydd, nac yn nghymdeithas oleu Duw.

7 * Eithr [z] os rhodiwn yn y goleuni, [a] megis
y mae efe yn y goleuni, [b] † y mae i ni gym-
deithas â'n gilydd, [c] ‡ a gwaed Iesu Grist ei
Fab ef, sydd yn ein glanhâu ni oddi wrth bob
pechod.

z pen. 2. 9, 10. Salm 56. 13. a 89. 15. a 97. 11. Es. 2. 5. Rhuf. 13. 12. Eph. 5. 8. 2 Ioan 4. 3 Ioan 4. a Gwel ar adn. 5.—Salm 104. 2. 1 Tim. 6. 16. Iago 1. 17. b Gwel ar adn. 3.—Amos 3. 3. c pen. 2. 1, 2. a 5. 6, 8. Zec. 13. 1. Ioan 1. 29. 1 Cor. 6. 11. Heb. 9. 14. 1 Pedr 1. 19. Dat. 1. 5. a 7. 14.

* Ond os yw dysgyblion proffesedig Crist yn rhodio yn y goleuni, megys y mae efe yn y goleuni, gan ymddwyn yn wastadol fel y gweddai i rai yn adnabod Duw, a'i wirionedd a'i ewyllys sanctaidd ef; a chan iddilyn ei burdeb, ei gyfiawnder, ei ddaioni, a'i wirionedd ef, yn eu holl ymarweddiad yn mysg dynion; hwy a allent gasglu yn sicr, fod hyn yn brawf digonol eu bod hwy yn gyfranogion o Grist, ac â rhan iddynt yn ngnhariad y Tad trwyddo ef. Gallant gasglu hefyd, fod eu cymdeithas hwy â Duw, a'r gyfeillach rhyngddo ef a'u heneidiau hwythau, yr un peth yn hollawl, o ran natur ac effeithiau, â'r gymdeithas hòno, am ba un y llefarodd yr apostol. † Maent wedi eu derbyn i gymdeithas a "chymundeb y saint;" ac â hawl ganddynt i'r holl freintiau a'r bendithion a berthynant iddynt hwy; a dylent fod yn wrthddrychau neilldduol gariad, hoffder, a hyfrydwch yr holl saint. ‡ Gallant hefyd fod yn hollawn sicr, fod gwaed Iesu Grist Mab Duw, wedi tynu ymaith yr euogrwydd o'u holl bechodau a aethant heibio, ac ei fod yn dilëu euogrwydd eu holl golliadau newyddion, eu halogedigaethau, a'u troseddiadau; ïe, bod yr Ysbryd Glân, fel mae wedi ei roddi trwy aberth iac iawn Crist, yn glanâu ymaith, ac yn y màn i lwyr iddinystrio, holl bechadurusrwydd eu natur syrthiedig.—Nid rhodiad y saint yn y goleuni yw achos a hawl eu cymdeithas hwy â Duw; gwaed Crist yw yr achos teilyngawl o hyny, a'r achos rhinweddol o'u rhodiad sanctaidd hwy hefyd.

8 * Os [d] dywedwn nad oes ynom bechod,
[e] † yr ydym yn ein twyllo ein hunain, [f] ‡ a'r
gwirionedd nid yw ynom.

d adn. 6, 10. pen. 3. 5, 6. 1 Bren. 8. 46. 2 Cron. 6. 36. Job 9. 2. a 14. 4. a 15. 14. a 25. 4. Salm 143. 2. Diar. 20. 9. Preg. 7. 20. Es. 53. 6. a 64. 6. Jer. 2. 22, 23. Rhuf. 3. 23. Iago 3. 2. e 1 Cor. 13. 18. Gal. 6. 3. 2 Tim. 3. 13. Iago 1. 22, 26. 2 Pedr 2. 13. f pen. 2. 4. 1 Tim. 6. 5. 2 Ioan 2. 3 Ioan 3.

* Tra yr oedd yr apostol yn sefyll yn gadarn dros yr angenrheidrwydd o rodiad sanctaidd yn wastadol, fel effaith a phrawf o wir adnabyddiaeth o Dduw yn Nghrist Iesu, ac o gymdeithas âg ef; yr oedd yn rhoi gocheliad mòr ofalus yn erbyn balchder hunan-gyfiawn, ac yn erbyn cam-ddefnyddiad penrhydd o'r efengyl. Tra yr oedd proffeswyr cristionogaeth mewn ymddangosiad yn rhodio yn y goleuni, os byddai i neb o honynt ymddyrchafu i'r fath raddau ar y dŷb o'u mawr sancteiddrwydd, fel ag i ddywedyd nad oedd ynddynt ddim pechod; ond eu bod yn berffaith bur, ac mòr sanctaidd mewn calon a buchedd ag yr oedd deddf Duw yn gofyn iddynt fod; † yr oeddynt yn sicr yn eu twyllo eu hunain am y modd mwyaf dychrynllyd: ‡ ïe, nid oedd y gwirionedd ynddynt, fel egwyddor o fywyd a goleuni; pe amgen nis gallasent hwy byth syrthio i'r fath gam-gymeriad, yr hwn oedd yn dangos dirfawr annwybodaeth am Dduw, am ei ddeddf ysbrydol, ac am eu calonau eu hunain: ac oedd hefyd yn achos o ddifaterwch am wirioned Crist, i'w glanâu a'u meddyginiaethu hwynt oddi wrth y pla, yr hwn nid oeddynt hwy yn ei deimlo.

9 * Os [g] cyfaddefwn ein pechodau, [h] † ffyddlawn yw efe ‡ a [i] chyfiawn, ‖ fel y maddeuo i ni ein pechodau, [k] § ac y'n glanhâo oddi wrth bob anghyfiawnder.

g Lef. 26. 40—42. 1 Bren. 8. 47. 2 Cron. 6. 37, 38. Neh. 1. 6. a 9. 2, &c. Job 33. 27, 28. Salm 32. 5. a 51. 2—5. Diar. 28. 13. Dan. 9. 4—20. Mat. 3. 6. Marc 1. 5. Act. 19. 18. h Deut. 7. 9. Galar. 3. 23. 1 Cor. 1. 9. 1 Tim. 1. 15. Heb. 10. 23. a 11. 11. Es. 45. 21. Zec. 9. 9. Rhuf. 3. 26. Heb. 6. 10. Dat. 15. 3. k adn. 7. Salm 19. 12. a 51. 2. Jer. 33. 8. Ezec. 36. 25. a 37. 23. Eph. 5. 26. Tit. 2. 14.

* O'r tu arall, os cyffesent hwy eu pechodau, gadag ymostyngiad diymattal, diragrith, a gwir edifeiriol ger bron Duw; gan addef eu heuogrwydd a'u teilyngdod o ddigofaint; heb geisio gwadu na lleiâu eu troseddau, ond tafiu eu hunain yn hollawl ar drugaredd Duw am faddeuant; † byddai y rhai hyn yn sicr o'i gael ef yn "ffyddlawn" i'w addewidion, ‡ ac yn "gyfiawn" i ymrwymiadau ei gyfammod â Christ eu Machnïydd hwynt, ac â hwythau ynddo a thrwyddo ef: ïe, byddai hyd yn nôd ei gyfiawnder ef, (fel yr oedd wedi ei foddloni yn iawn ei Fab,) ‖ yn ei gymhell ef i faddeu eu holl bechodau hwynt, pa mòr ddirfawr ac aneirif bynag y buont; § ac i'w glanâu hwynt, nid yn unig oddi wrth euogrwydd, ond yn raddol, ac o'r diwedd yn berffaith, oddi wrth holl halogrwydd eu hanghyfiawnder.—Cyfaddef pechod i *Dduw*, yr hwn sydd yn maddeu ac yn glanâu, mae yn amlwg a feddyliai Ioan; ac nid cyfaddef i'r *offeiriaid*, fel y gwna y pabyddion truain, yn eu dallineb mawr.

10 * Os [l] dywedwn na phechasom, [m] † yr
ydym yn ei wneuthur ef yn gelwyddog, [n] ‡ a'i
air ef nid yw ynom.

l Gwel ar adn. 8.—Salm 130. 3. m pen. 5. 10. Job 24. 25. n adn. 8. pen. 2. 4. a 4. 4. Col. 3. 16. 2 Ioan 2.

* Ond os parâi neb i ddywedyd a thaeru na phechasent, ac felly dàl o ganlyniad nad oedd achos iddynt hwy gyfaddef pechod, na cheisio maddeuant a glanâd oddi wrth bechod; † yr oedd y rhai hyn mewn effaith yn gwneuthur Duw yn gelwyddog, ac yn trin ei dystiolaeth ef am bechadurusrwydd dyn, fel pe buasai yn enllib ar y natur ddynol: ‡ ïe, yr oeddynt mewn effaith yn gwadu gwirionedd yr holl efengyl, yr hon sydd yn mhob màn yn llefaru am ddynion fel pechaduriaid; ac felly nid oedd gair Duw ynddynt, nac mewn ffydd na thrwy ddysgeidiaeth yr Ysbryd Glân.—Yn yr adnod ddiweddaf hon, yr oedd yr apostol yn gwrthwynebu y cyfryw ddynion a wadent eu pechadurusrwydd yn hollawl, eu hangen am drugaredd, a'u teilyngdod o ddigofaint; trwy ba foddion bynag y twyllent hwy eu hunain i dybied yn hyderus na phechasent hwy ddim erioed; neu eu bod mewn rhyw ffordd wedi gwneyd iawn am eu pechod, neu y gallent ei wneyd, ac nad oeddynt yn gyfiawn yn haeddu cospedigaeth. Ond yn yr adnod o'r blaen, (8,) yr oedd efe yn dangos cyfeiliornad dirfawr y rhai hyny, a ddychymmygent eu bod hwy trwy yr efengyl, wedi eu sancteiddio mòr berffaith, fel nad oedd yr un brycheuyn na bai o bechod ynddynt. Ymddengys mai felly mae deall y ddwy adnod uchod, am y defnyddir yr amser *presenol*, "nad *oes* ynom," yn yr wythfed adnod; a'r amser a *aeth heibio*, "na *phechasom*," yn y ddegfed adnod.

PEN. II.

Y mae efe yn eu cysuro hwy yn erbyn pechodau o wendid.

* FY [a] mhlant bychain, [b] † y pethau hyn yr
wyf yn eu hysgrifenu attoch, [c] fel na
phechoch. [d] ‡ Ac o phecha neb, [e] y mae i ni
Eiriolwr gyd [f] â'r Tad, ‖ Iesu Grist [g] § y
Cyfiawn:

a adn. 12, 13. pen. 3. 7, 18. a 4. 4. a 5. 21. Ioan 13. 33. a 21. 5. 1 Cor. 4. 14, 15. Gal. 4. 19. b pen. 1. 3, 4. 1 Tim. 3. 14. c Salm 4. 4. Ezec. 3. 21. Ioan 5. 14. a 8. 11. Rhuf. 6. 1, 2, 15. 1 Cor. 15. 34. Eph. 4. 26. Tit. 2. 11—13. 1 Pedr 1. 15—19. a 4. 1—3. d Gwel ar pen. 1. 8—10. e Rhuf. 8. 34. 1 Tim. 2. 5. Heb. 7. 24, 25. a 9. 24. f Luc 10. 22. Ioan 5. 19—26, 36. a 6. 27. a 10. 15. a 14. 6. Eph. 2. 18. Iago 1. 27. a 3. 9. g adn. 29. pen. 3. 5. Zec. 9. 9. 2 Cor. 5. 21. Heb. 7. 26. 1 Pedr 2. 22. a 3. 18.

* Mae yn bur debygol mai Ioan oedd yr unig un o'r apostolion ag oedd yn fyw, pan ysgrifenodd efe yr epistol hwn: a rhaid bod ei oedran mawr ef, ei hir ddefnyddioldeb, ei ffyddlondeb, a'i gariad tuag at gristionogion, wedi rhoddi iddo ef fath o awdurdod fel tad, trwy yr holl eglwysi, cyn belled ag yr oeddynt yn glŷnu wrth bur efengyl Crist. Gan hyny yr oedd yn addas

iawn iddo ef, eu cyfarch hwy fel ei deulu ysbrydol, daioni y rhai oedd yn agos iawn at ei feddwl, ac yn fawr ar ei galon: a chan fod y rhan fwyaf o honynt yn ieuanc o oedran, mewn cymhariaeth i'r dysgybl anwyl a gwir barchedig hwn, yr hwn mae yn bur debygol oedd y Cristion henaf ar y ddaear y pryd hwnw; ni bu neb arall erioed, a allai gyda'r fath briodoldeb, ddefnyddio ymadrodd caruaidd ei Arglwydd, a galw ei gydgristionogion "Fy mhlant bychain," neu *anwyl;* canys defnyddir y gair *bychan*, yn gyffredin, i arwyddo serchawgrwydd ac anwyldeb. Yr oedd efe yn dymuno eu cyngori, eu rhybuddio, a'u calonogi hwynt, fel tad ei blant ei hun. † Y pethau a ysgrifenasai efe yn y bennod o'r blaen, ac ydoedd yn ysgrifenu eto, yr oedd yn eu bwriadu yn neillduol i'w cadw hwy rhag pechu. Yr oedd pob rhan o athrawiaeth iachawdwriaeth trwy Iesu Grist, wedi ei haddasu i arddangos natur wenwynig ac effeithiau atgas pechod, a phenderfyniad Duw na adawai mo hóno i fyned yn ddigosp; i ddysgu dynion i'w gasâu, i'w ofni, ac i ffoi oddi wrtho; ac i'w harwain hwy at gariad Duw a sancteiddrwydd; yn gystal ag i roddi yr annogaethau cryfaf, a'r cynnorthwyon mwyaf effeithiol, i edifarâu, a gwneuthur gweithredoedd addas i edifeirwch. ‡ Eto, os pechai neb, ("canys nid oedd dyn ni phechai,") dylai gofio fod iddo ef a'i frodyr "Eiriolwr gyda'r Tad."—Gallai dynion arwynebol fod yn barod i gyhuddo yr apostol yn y fân hon, o anghysondeb; megys pe byddai diwedd yr adnod yn gwrthwynebu ei dechreuad hi: ond mae sefyllfa y cristion yn y byd hwn yn gyfryw, fel y mae annogaethau ar ol pechu, mòr angenrheidiol iddo â rhybuddion rhag pechu: oblegid trwy weddill-nerth pechod yn ei galon ef, aneirif faglau y byd, a nerth Satan, nis gall efe bob amser ymgadw, a sefyll yn ei le. Ymosodir yn fwyaf cynddeiriog gan y gelyn ar y milwr dewraf; ac efallai y gorfyddir ef weithiau: ac y mae *digalondid* mòr wrthwynebus i wyliadwriaeth, diwydrwydd, ac ufudd-dod sanctaidd, ag ydyw *sicrwydd cnawdol* ei hun. Nis gall un dyn, ar egwyddorion ysgrythyrol, dybied ei hun yn well na rhagrithiwr, os ymrodda efe yn wirfoddol i *arfer* pechu, am fod Duw yn barod i faddeu i'r edifeiriol: ond y dyn a syrthiodd, ac sydd yn chwennych cyfodi i adnewyddu yr ymladdfa, mae iddo yr annogaeth a'r calondid mwyaf i wneyd felly. O argyhoeddiad cyntaf y pechadur o euogrwydd, hyd ddiwedd milwriaeth y cristion yn angau, mae y rhëol gyffredin yn gymhwysiadol; sef, "os pecha neb, y mae i ni Eiriolwr gyda'r Tad:" un a gymmerodd arno, ac sydd yn gwbl addas a chwedl ei awdurdodi, i ddadleu ger bron Duw Dad, dros bob un a geisio faddeuant, iachawdwriaeth, a phob bendith ysbrydol, yn ei enw ef, ac mewn ymorphwysiad ar ei eiriolaeth effeithlawn ef. || Nid yw yr Eiriolwr grasol hwn byth yn nacau ei nodded i neb a'i ceisiant, ac nid yw byth yn eiriol yn ofer; oblegid efe yw Iesu, y Gwaredwr, yr Emmanuel, Mab Duw wedi ymgnawdoli; a Christ, y Messïah, yr Eneinniog, wedi ei ddewis, ei osod, ei anfon, a'i gyssegru i'w swydd, fel Arch-offeiriad yn dragywydd yn ol urdd Melchizedec. § Efe yn *unig* yw y Cyfiawn, yr hwn a dderbyniodd ei ddynoliaeth yn bur oddi wrth bob brycheüyn o bechod; ac, fel ein Machnïydd ni, a ufuddâodd yn berffaith i holl ddeddf Duw; ac felly a wnaeth gyfiawnder mwy gwerthfawr yuddo ei hun, a mwy anrhydeddus i'r Tad a'i ddeddf, nac y gallasai cyfiawnder yr holl grëaduriaid byth fod!—"Eiriolwr:" *(Parakléton)* un yn ein habsenoldeb ni, yn ymddangos drosom ni, i ddadleu ein hachos ger bron ein Barnwr.

2 * Ac [h] efe yw yr iawn dros ein pechodau ni: † ac nid dros yr eiddom ni yn unig, ‡ eithr [i] dros *bechodau* yr holl fyd.

h pen. 4. 10. Rhuf. 3. 25, 26. 1 Pedr 2. 24. a 3. 18. i pen. 4. 14. a 5. 19. Ioan 1. 29. a 4. 42. a 11. 51, 52. 2 Cor. 5. 18—21. Dat. 12. 9.

* Yn mhellach, "Efe yw yr Iawn dros ein pechodau ni:" oblegid, trwy gymmod ei aberth ef ar y groes, a'i eiriolaeth mewn canlyniad i hyny, efe a wnaeth Dduw sanctaidd a chyfiawn yn *foddlon*, ac yn rasol a thirion i bechaduriaid; fel ag y mae efe yn "dysgwyl i drugarâu" yn awr, ar y wir drugareddfa, yr hon yr oedd y cauad ar yr arch gynt yn gysgod o hóni. Gan fod yr *iawn*, neu yr *aberth cymmod* hwn wedi ei ddarpar gan Dduw ei hun, fel dangosiad rhyfeddol o'i gariad ef tuag atom ni; nis gallai fod wedi ei fwriadu i'w *dueddu ef i drugarâu*, fel pe buasai o'r blaen yn *anghymmodadwy;* ond i wneuthur ei drugaredd ef, (i'r hyn mae efe yn anfeidrol dueddgar,) yn gyd-gyson â'i gyfiawnder a'i sancteiddrwydd, fel y dangosid hi yn anrhydeddus. † Nid oedd lles yr iawn hwn ychwaith i'w gyfyngu i'r genedl Iuddewig, neu i'r rhai a dderbyniasent gristionogaeth eisoes; ond i'r gwrthwyneb, ‡ yr oedd pechaduriaid dros yr holl ddaear yn cael eu derbyn i gyfranogi ynddo trwy gredu yr efengyl: ac fel hyny, dylai pob dyn, yn mhob gwlad, dros holl oesoedd y byd, i gael eu gwahodd i ddyfod at Dduw, trwy yr Iawn holl-ddigonol hwn, ac "ar hyd y ffordd newydd a bywiol hon;" a phwy bynag a dderbynio y gwahoddiad hwn, mae i'r cyfryw gymmaint rhan yn Nghrist, ac yn ei holl fendithion ef, â phe buasai efe wedi ymgnawdoli, a marw ar y groes, drosto ef neu hwy yn unig. Fel hyn yr oedd, ac y mae eto, y calondid mwyaf helaeth a digonol i bob un, yn yr holl fyd, a glywant yr efengyl, i edifarâu, a cheisio iachawdwriaeth trwy ffydd yn ngwaed Iesu; ond dim i neb a barâo yn anedifeiriol ac anghrediniol. *Yr holl fyd:* sef pawb yn yr holl fyd a gredant yn Nghrist, pa un ai Iuddewon ai cenedloedd fyddont: nid oes dim yn yr iawn i neb arall yn sicr. Gwel ar eiriau cyffelyb mewn mànau eraill.

3 * Ac [k] wrth hyn y gwyddom yr [l] adwaenom ef, [m] † os cadwn ni ei orchymynion ef.

k adn. 4—6. pen. 3. 14, 19. a 4. 13. a 5. 19. l Es. 53. 11. Ioan 17. 3. 2 Cor. 4. 6. m pen. 3. 22, 23. a 5. 3. Salm 119. 6, 32. Ioan 14. 15, 21—24. a 15. 10, 14. 1 Thes. 4. 1, 2. Heb. 5. 9. Dat. 22. 14.

* Mae yn amlwg i ni fod genym wir ac achubol adnabyddiaeth o Grist, yr hon hefyd a gynnwys ffydd a chariad eto; † os ydyw hi yn effeithio yn rymus, i'n rhwymo ni i ufudd-dod gwirioneddol, ewyllysgar, a dïymattal i'w holl orchymynion ef; sef holl orchymynion y ddeddf foesol, a holl osodiadau yr efengyl. Ioan 15. 14. Gall gwir gristionogion gael eu "goddiweddyd ar fai," a syrthio i lawer bai; ond rhodiad cyson mewn ufudd-dod i orchymynion Duw, yw yr unig beth a brawf adnabyddiaeth achubol o Grist, ac o Dduw yn Nghrist.

4 * Yr hwn [n] sydd yn dywedyd, [o] Mi a'i hadwaen ef, † ac heb gadw ei orchymynion ef, [p] ‡ celwyddog yw, || a'r gwirionedd nid yw ynddo.

n adn. 9. pen. 1. 6, 8, 10. a 4. 20. Iago 2. 14—16. o Hos. 8. 2, 3. Tit. 1. 16. p Gwel ar pen. 1. 6, 8.

* Os oedd neb gan hyny yn proffesu ei fod yn adnabod Crist, ac yn credu ynddo ef, † ac ar yr un pryd heb gadw ei orchymynion ef yn ei ymarweddiad cyffredinol; ‡ celwyddog oedd y dyn hwnw, a rhagrithiol, || heb ddim purdeb ynddo, na gwirionedd yn ei galon. "Mi a'i *hadwaen* ef:" "Mi a'i *hadnabum* ef," meddant, yw y Groeg: ac yn hyn yr oedd y dyn yn gelwyddog; nid adnabu mo Grist erioed, pe amgen buasai yn cadw ei orchymynion ef ar ol ei adnabod.

5 * Eithr [q] yr hwn a gadwo ei air ef, [r] † yn wir yn hwn y mae cariad Duw yn berffaith. [s] ‡ Wrth hyn y gwyddom ein bod ynddo ef.

q Gwel ar adn. 3, 4.—Salm 105. 45. a 106. 3. a 119. 2, 4, 146. Diar. 8. 32. a 28. 7. Preg. 8. 5. Ezec. 36. 27. Luc 11. 28. Dat. 12. 17. a 14. 12. r pen. 4. 12, 18. Iago 2. 22. s adn. 27, 28. pen. 3. 24. a 4. 13, 15, 16. a 5. 20. Ioan 6. 56. a 15. 5. Rhuf. 8. 1. 1 Cor. 1. 30. 2 Cor. 5. 17, 21. Col. 2. 9, 10.

* O'r tu arall, pwy bynag oedd yn cofio ac yn cadw cyngorion Crist, ac yn ufuddâu o'r galon i'w orchymynion a'i holl air sanctaidd ef; † yn hwn yn *wir*, neu yn *sylweddol*, yr oedd cariad Duw yn berffaith, neu wedi ei berffeithio, *(perfected)* yn ol y Saesoneg: yr oedd

ariad Duw tuag ato ef, fel pechadur etholedig a phryn-
ilig, wedi cyrhaedd ei ddyben yn ei sancteiddiad ef; ac
oedd ei gariad yntau at Dduw wedi dwyn ei ffrwyth,
mewn ystâd o addfedrwydd, fel y mae pren impied-
, pan mae yn llwythog o'r ffrwythau gwerthfawr, a
wriadwyd iddo ddwyn wrth ei impio. ‡ Wrth hyn yr
edd yr apostolion eu hunain, a'r cristionogion cyntaf
n *gwybod* eu bod yn Nghrist trwy ffydd, wedi eu huno
g ef yn ysbrydol, ac yn gyfranogion o'i holl fendithion
.

6 * Yr hwn [t] a ddywed [u] ei fod yn aros yn-
ddo ef, † a ddylai yntau felly [x] rodio, megis ag
rhodiodd ef.

t Gwel ar adn. 4. pen. 1. 6. u adn. 28. pen. 3. 6. Ioan 15.
—6. x pen. 1. 7. Salm 85. 13. Mat. 11. 29. Ioan 13. 15. 1 Cor.
1. 1. Eph. 5. 2. 1 Pedr 2. 20, 21.

* Yn wir os oedd neb yn proffesu ei fod yn aros yn
ghrist, mewn undeb a chymundeb âg ef, † yr oedd yn
ngenrheidiol iddo rodio megys ag y rhodiodd Crist ei
un, mewn ystod o gyfiawnder ymarferol, sancteidd-
wydd, gwirionedd, a chariad; neu heb hyny nis gallai
ddysgwyl cael ei gredu, gan y rhai a wyddent am effaith
ancteiddâol gwir adnabyddiaeth o Grist.

7 * Y brodyr, [y] nid gorchymyn newydd yr
wyf yn ei ysgrifenu attoch, [z] † eithr gorchymyn
en yr hwn oedd gennych o'r dechreuad.
: Yr hen orchymyn yw y gair a glywsoch o'r
echreuad.

y pen. 3. 11. Act. 17. 19. 2 Ioan 5. z Lef. 19. 18, 34. Deut.
5. Mat. 5. 43. a 22. 37—40. Marc 12. 29—34. Rhuf. 13. 8—10.
al. 5. 13, 14. Iago 2. 8—12.

* Wrth gyngori ei frodyr cristionogol i ufuddâu a
nebygu i'w Harglwydd, fel y prawf goreu o'u cariad ato,
c at y Tad yr hwn a'i hanfonodd ef; nid oedd yr apos-
ol yn ysgrifenu unrhyw orchymyn newydd atynt:
eithr ail grybwyll hen orchymyn yr oedd efe, yr hwn
edd ganddynt o'r dechreuad, ac yr hwn a roddasai
rist ei hun iddynt yn aml, o'r cyntaf. ‡ Ië, yr oedd
n wir mewn grym o ran ei sylwedd o ddechreuad y
yd; gan nas gallai gynnwys mwy nag oedd yn gyn-
wysedig yn y ddeddf, yr hon a orchymynai i Israel
aru yr Arglwydd eu Duw â'u holl galon, a'u cymmydog
el hwy eu hunain, a bod yn sanctaidd fel yr oedd Duw
n sanctaidd. Sylwedd yr hen orchymyn oedd gan
dynion o ddechreuad y byd, gan yr *Iuddewon* o dde-
hreuad yr hen oruchwyliaeth, a chan *gristionogion*
ddechreuad gweinidogaeth Crist a'r efengyl; oedd y
orchymyn oedd Ioan yn ei ysgrifenu i'w frodyr yma.
Nid dwyn i mewn bethau newyddion a dieithr yr oedd
efe fel y gau-athrawon; ond ail goffa ac ail wasgu yr
en bethau safadwy a da.

8 * Trachefn, [a] gorchymyn newydd yr wyf
rn ei ysgrifenu attoch, [b] † yr hyn sydd wir
rnddo ef, ‡ ac ynoch chwithau: ‖ oblegid [c] y
ywyllwch a aeth heibio, [d] § a'r gwir oleuni
ydd yr awrhon yn tywynnu.

a pen. 4. 21. Ioan 13. 34. a 15. 12. b pen. 3. 14—16. a 4.
11. Ioan 15. 12—15. 2 Cor. 8. 9. Eph. 5. 1, 2. 1 Pedr 1. 21. a 4.
—3. c Can. 2. 11, 12. Es. 9. 2. a 60. 1—3. Mat. 4. 16. Luc 1.
9. Ioan 12. 46. Act. 17. 30. a 26. 18. Rhuf. 13. 12. 2 Cor. 4. 4—6.
Eph. 5. 8. 1 Thes. 5. 5—8. d Salm 27. 1. a 36. 9. a 84. 11.
Mal. 4. 2. Ioan 1. 4, 5, 9. a 8. 12. a 12. 35. 2 Tim. 1. 10.

* Eto gellid galw yr hen orchymyn hwn, yn enwedig
rhan hyny o hóno oedd yn gwasgu cariad at y brodyr,
n orchymyn newydd, fel yr oedd yn cael ei roddi
gristionogion, dàn rwymedigaethau, egwyddorion,
nnogaethau, ac anwyldeb newydd. † Yr oedd hyn yn
yr ynddo ef, eu Harglwydd a'u Gwaredwr; o ran ei fod
lf wedi *newydd* ddangos anfeidroldeb ei ymostyngiad,
ii dosturi, a'i hunan-ymwadol gariad tuag at bechadur-
aid; a chwedi eu gosod hwy dàn rwymau *newydd* i
bfuddâu a thebygu iddo ef, yn enwedig mewn caru eu
rilydd, megys y carodd efe hwynt. Yr oedd y gorchym-
n wedi cael ei osod mewn grym yn awr, hefyd, trwy
wdurdod cyfryngol Crist, i lawn ymarferiad o ba un yr
oedd efe wedi cael ei ddechrau yn ddiweddar: ac fel
hyny yr oedd y gorchymyn yn newydd, ac yn "wir
ynddo *ef*." ‡ Yr oedd hefyd yn wir ynddynt hwythau,
ei ddysgyblion ef; am fod eu sefyllfa yn *newydd*, ac yn
wahanol iawn i'r eiddo y cenedloedd o'u hamgylch
hwynt, ac hyd yn nôd i'r eiddo pobl Dduw dàn yr hen
oruchwyliaeth: ac fel yr oeddynt yn awr wedi eu huno
mewn rhwymau newydd o undeb, fel cyd-filwyr, cyd-
deithwyr, brodyr, a chyd-etifeddion o'r dedwyddwch
nefol. ‖ Tarddodd hyn oll oddi ar y cyfnewidiad mawr
oedd wedi cymmeryd lle; am fod tywyllwch cymharol
yr hen oruchwyliaeth, a thywyllwch eu hen gyflwr hwy-
thau, i raddau mawr wedi myned heibio, fel cysgodion
nos o flaen y dydd; § ac am fod gwir oleuni gwirionedd
yr efengyl, yr awr hon yn tywynu yn ogoneddus a dys-
glaer ar y byd, ac yn eu calonau hwythau. Fel hyn
gellid dysgwyl i gristionogion fod yn fwy manol yn eu
hufudd-dod, ac yn fwy cyflawn yn eu cariad, at eu
gilydd ac at bawb; nag oedd hyd yn nôd credinwyr, dàn
hen oruchwyliaeth dywyllach y ddeddf.

9 * Yr hwn [e] a ddywed [f] ei fod yn y goleu-
ni, [g] † ac a gasâo ei frawd, [h] ‡ yn y tywyllwch
y mae hyd y pryd hwn.

e Gwel ar adn. 4. f pen. 1. 6. Ioan 9. 41. Rhuf. 2. 18—21.
g pen. 3. 13—17. h adn. 11. Salm 82. 5. 1 Cor. 13. 1—3.
2 Pedr 1. 9.

* Gan hyny yr hwn a broffesai ei fod yn rhodio yn
"rhyfeddol oleuni" yr efengyl, ac yn gyfranog o neill-
duol ras a thrugaredd Duw; † ac ar yr un pryd a
"gasâi ei frawd," naill ai un o'i gyd-gristionogion neu
o'i gymmydogion; ‡ yr oedd yn amlwg mai yn y tywyll-
wch yr oedd efe hyd y pryd hwnw: oblegid er bod y
gwir oleuni yn tywynu o amgylch iddo, yr oedd ef ei
hun wedi ei *ddallu* gan ei falchder a'i hunanoldeb.
Beth bynag oedd yr efengyl wedi ei wneyd ar ei ddeall
ef, nid oedd wedi gwneyd dim yn ac ar ei galon ef eto.

10 * Yr hwn [i] sydd yn caru ei frawd,
† sydd yn aros yn y goleuni, ‡ ac nid oes
rhwystr ynddo.

i pen. 3. 14. Hos. 6. 3. Ioan 8. 31. Rhuf. 14. 13. 2 Pedr 1. 10.

* Ond yr hwn oedd yn caru ei frawd, ac yn ei ddan-
gos ei hun yn gyffredin yn dueddol i ddaioni, trugar-
edd, a maddeugarwch; ac i gariad gwresog, gweithgar,
haelfryd, a hunan-ymwadol; † yr oedd yn amlwg bod
hwn yn byw, yn aros, ac yn rhodio yn ngoleuni yr
efengyl, ac yn cael ei lywodraethu gan effeithiau tu-
mewnol y gwirioneddau oedd yn broffesu: ‡ ac nid
oedd dim yn nhuedd lywodraethol gyffredin ei galon ef,
trwy yr hyn y gallai Satan lwyddo i'w demtio ef i bech-
odau gwarthus; neu yr hyn a fyddai yn debyg o beri
iddo ef dafiu rhwystr ar ffordd rhai eraill, i'w dinystr
hwynt. Nid oes ynddo ef ddim achos rhwystr i eraill,
nac ysbryd parod i ymrwystro wrth eraill, nac wrth
ddim anhawsderau yn llwybr ei ddyledswydd. "Hedd-
wch mawr fydd i'r rhai a garant gyfraith Duw, ac nid
oes dramgwydd iddynt." Salm 119. 165.

11 * Eithr [k] yr hwn sydd yn casâu ei frawd,
† yn y tywyllwch y mae, [l] ‡ ac yn y tywyllwch
y mae yn rhodio; ac ni wyr i ba le y mae yn
myned, [m] ‖ oblegid y mae y tywyllwch wedi
dallu ei lygaid ef.

k Gwel ar adn. 9.—Ioan 12. 35. Tit. 3. 3. 1 Diar. 4. 19.
Ioan 12. 35. m Ioan 12. 40. 2 Cor. 3. 14. a 4. 4. Dat. 3. 17.

* Eithr yr hwn oedd yn casâu, ac yn cadw digofaint
tuag at ei frawd, neu unrhyw ddyn; † yr oedd efe o hyd
yn y tywyllwch, a thàn lywodraeth "llywiawdwr y
tywyllwch," awdwr pob llid, cenfigen, llofruddiaeth, a
dygasedd: oblegid yr oedd goleuni gwir adnabyddiaeth
o Grist bob amser, yn cyfnewid agwedd y galon yn ol y
graddau o hono, ac yn cenedlu tymher hawddgar a
charuaidd yn mhawb ag oedd yn gyfranog o'r goleuni
hwnw. ‡ Ac fel mae dynion a rodiant yn y tywyllwch
heb wybod i ba le yr ânt, nac wrth ba beth y tramgwydd-

ant; felly yr oedd y dyn a ddarlunir uchod, yn myned rhagddo mewn modd annwybodus, ansicr, ac ansanctaidd; heb wybod y perygl oedd yn amgylchynu ei lwybr, ac heb ystyried ei fod yn arwain i ddystryw: ‖ oblegid yr oedd tywyllwch cyfeiliorni a phechod wedi dallu ei lygaid ef; nes o'r diwedd iddo syrthio i ryw gyfeiliornad dinystriol, neu bechod gwaradwyddus, yr hyn a fyddai yn foddion, nid yn unig i'w ddystrywio ef ei hunan, ond yn achos o gwymp i eraill hefyd gydag ef.

12 [n] * Ysgrifenu yr wyf attoch chwi, [o] blant bychain, † oblegid [p] maddau i chwi eich pechodau [q] er mwyn ei enw ef.

n adn. 7, 13, 14, 21. pen. 1. 4. o Gwel ar a. adn. 1. p pen. 1. 9. Salm 32. 1, 2. Luc 5. 20. a 7. 47—50. a 24. 47. Act. 4. 12. a 10. 43. a 13. 38. Rhuf. 4. 6, 7. Eph. 1. 7. Col. 1. 14. q Salm 106. 8. Jer. 14. 7. Eph. 4. 32.

* Yr oedd yr apostol wedi llefaru o'r blaen wrth gristionogion yn gyffredin, fel ei "blant bychain," neu *anwyl;* ond yma yr oedd yn llefaru wrth rai ieuainc mewn dyddiau, neu newydd eu dychwelyd i'r ffydd; ac yn eu gwahaniaethu hwynt oddi wrth rai henach, ac wedi cyrhaedd yn mhellach, mewn bywyd o ffydd a gras. Yr oedd efe yn neilduol yn cyfeirio ei gyngorion at y rhai "bychain newydd eni, y rhai a brofasent fod yr Arglwydd yn dirion;" † oblegid fod eu pechodau hwy mòr sicr wedi eu maddeu, er mwyn Crist, a thrwy ffydd yn ei enw ef, â'r eiddo eu brodyr henach, cadarnach, a mwy profiadol; er bod gwendid eu ffydd hwynt, a diffyg gwybodaeth eglur a manol, efallai, yn lluddias iddynt feddiannu a mwynâu y cysur arosol o hyny: a byddai y cyngor yr oedd ef yn myned i'w roddi iddynt, yn foddion i'w cadw hwynt o lawer magl a gofid, i'w galluogi hwynt i gyrhaedd sicrwydd o'u cymmeradwyaeth, ac i'w cyfarwyddo hwynt pa fodd i wneyd ad-daliad cymhwys am fendith mòr anmhrisiadwy a gwerthfawr.

13 * Ysgrifenu yr wyf attoch chwi, [r] dadau, [s] † am adnabod o honoch [t] yr hwn sydd o'r dechreuad. ‡ Ysgrifenu yr wyf attoch chwi, [u] wŷr ieuainge, [x] ‖ am orchfygu o honoch [y] yr un drwg. § Ysgrifenu yr wyf attoch chwi, [z] rai bychain, am [a] i chwi adnabod y Tad.

r adn. 14. 1 Tim. 5. 1. s adn. 3, 4. pen. 5. 20. Salm 91. 14. Luc 10. 22. Ioan 8. 19. a 14. 7. a 17. 3. t Gwel ar pen. 1. 1.—Salm 90. 2. u adn. 14. Salm 148. 12. Diar. 20. 29. Joel 2. 28. Zec. 9. 17. Tit. 2. 6. x pen. 4. 4. a 5. 4, 5. Eph. 6. 10—12. 1 Pedr 5. 8, 9. y pen. 3. 12. a 5. 18. Mat. 13. 19, 38. z Gwel ar adn. 1, 12. a Mat. 11. 27. Luc 10. 22. Ioan 8. 54, 55. a 16. 3. a 17. 21. 2 Cor. 4. 6.

* Yr oedd efe yn ysgrifenu hefyd at y "tadau;" gan fwriadu rhoddi yr un cyngorion a rhybuddion i'r cristionogion hyny oedd yn "hen ddysgyblion," wedi dyfod i addfedrwydd mewn gwybodaeth a phrofiad, ac y rhai a ddylasent fod yn arweinyddion ac esamplau i'w brodyr ieuangach, yn gystal â "dysgleirio megys goleuadau yn y byd." † Yr oedd y rhai hyn wedi adnabod yr hwn oedd o'r dechreuad: (gwel ar pen. 1. 1; Ioan 1. 1, 2.) ac yr oedd eu hir gydnabyddiaeth hwy â Christ, ac â'r Tad tragywyddol ynddo ef; yn nghyd â'r holl amlygiadau a gawsent o'i ogoniant ef, a'r profiadau a gawsent o'i gariad, ei wirionedd, a'i allu; yn gosod rhwymau arnynt i ymddybynu yn syml, i ddïolch yn fywiog, i garu yn wresog, i ufuddâu yn ymroddawl, ac i hyderu yn gadarn, yn Nuw; ac i fod yn eiddigus dros ei ogoniant ef ac anrhydedd ei efengyl. ‡ Hefyd, yr oedd efe yn ysgrifenu i'r un perwyl at y "gwŷr ieuainc;" y rhai a wnaethent broffes o'r efengyl am gryn amser, ac a aethent drwy yr ystâd o fabandod; ond a oeddynt heb gyrhaedd yr addfedrwydd hyny mewn gras, ag oedd y "tadau" wedi ei gyrhaeddyd. ‖ Yr oedd efe yn llefaru wrth, ac yn cyngori y rhai hyn, oddi ar yr ystyriaeth eu bod wedi "gorchfygu yr un drwg:" yr oeddynt wedi gwrth-ymladd yn llwyddiannus y profedigaethau a'r deniadau cyntaf, y rhai a gawsent ar eu hymadawiad oddi wrth bechod, a'u hymneilluad oddi wrth y byd; ac yr oeddynt wedi gorchfygu rhuthrau Satan, a'i ymosodiadau, trwy roddi i fynu eu manteision bydol, tori ymaith oddi wrth eu harferion drwg a'u hen gyfeillion, a myned i mewn trwy y "porth cyfyng" o wir dröedigaeth a dychweliad. Am hyny, gan eu bod càn belled â hyn wedi "gorchfygu yr un drwg;" yr hwn a gynnygiasai bob moddion yn ofer, i'w cadw hwy rhag derbyn yr efengyl, a rhoddi eu hunain i fynu i wasanaeth Crist; dylent fyned yn mlaen o hyd yn ei nerth ef, gan ymgais am fuddugoliaethau ychwaneg; a phenderfynu treulio nerth eu hysbrydoedd, a blodau eu dyddiau, yn y gwasanaeth i ba un y galwesid hwynt, er anrhydedd i Grist a lles yr eglwys; ac nid i geisio manteision a mwyniant bydol. § Ond i roddi ychwaneg o bwys a grym i'w gyngorion, mae yr apostol eto yn llefaru wrth y gwahanol raddau o gristionogion; ac yn cyngori y "plant bychain," fel rhai oedd wedi adnabod y Tad, ac eisoes wedi cael prawf o'i dosturi a'i gariad ef tuag atynt; am yr hyn yr oedd galwad arnynt i wneyd addaliadau gweddus o hyder mabaidd, ymostyngiad, dïolchgarwch, ac ufudd-dod.—*Teknia* yw y gair Groeg am *blant bychain*, yn adn. 12; *paidia* ydyw yn niwedd yr adnod hon, ond tybir mai yr un dosparth o gristionogion sydd i'w ddeall yn y ddau le; oddigerth (medd *Pool,*) fod yr *olaf* yn fwy galluog i dderbyn addysg, nâ'r *cyntaf,* o ran oedran a chynneddfau.

14 * Ysgrifenais attoch chwi, [b] dadau, am adnabod o honoch yr hwn sydd o'r dechreuad. † Ysgrifenais attoch chwi, wŷr ieuainge, [c] am eich bod yn gryfion, [d] ‡ a bod gair Duw yn aros ynoch, a gorchfygu o honoch yr un drwg.

b Gwel ar adn. 13. c Eph. 6. 10. Phil. 4. 13. Col. 1. 11. 2 Tim. 2. 1. d Salm 119. 11. Ioan 5. 38. a 8. 31. a 15. 7. Col. 3. 16. Heb. 8. 10. 2 Ioan 2. 3 Ioan 3.

* Mae yr ymadrodd wrth y "tadau," yma, yn hollawl yr un peth ag yn yr adnod o'r blaen. (Gwel yno.) † Wrth y "gwŷr ieuainc," mae yr apostol yn chwanegi, eu "bod hwy yn gryfion" mewn ffydd, gobaith, cariad, a phob grasau sanctaidd; yr oeddynt hwy yn mlodau penaf eu haddasrwydd i wasanaeth egnïol a gweithgar, yr hwn nid oedd profiad addfedach henaint, efallai, mòr addas iddo. ‡ A chan fod "gair Duw," yr hwn a dderbyniasent hwy yn eu dychweliad, yn "aros ynddynt," yr hyn oedd yn ymddangos yn eu buddugoliaeth hwy ar demtasiynau Satan; dylasai hefyd gael ei egluro yn ei effeithiau o hyd, trwy ei ffrwythlondeb chwanegol, neu gynnyddol hwy, mewn pob gweithredoedd da.—"*Ysgrifenais* atoch chwi dadau:" nid oedd yr apostol yn chwanegi dim wrth y tadau; ond ail grybwyll yr un peth ag o'r blaen, er dangos ei fawr ddymuniad iddynt hwy ddàl arno, a chan feddwl nad oedd arnynt hwy fel tadau eisiau dim yn rhagor.—*Adnabod yr hwn sydd o'r dechreuad:* nid yw yn ymddangos fod hyn yn cyfeirio dim at yr adnabyddiaeth bersonol o Grist fel Dyn; ond yn cael ei ddefnyddio fel y geiriau eraill, "adnabod y Tad," am ei adnabod ef drwy ffydd a phrofiad. Oblegid yn ol y dyddiad boreuaf a roddir i'r epistol hwn, nid oedd ond ychydig hen Gristionogion, a'r rhai hyny gan mwyaf yn Galilea a Judea, a allasent adnabod Iesu Grist yn bersonol yn ol y cnawd; eto mae yr apostol yn llefaru am yr holl hen Gristionogion yr oedd yn ysgrifenu atynt, heb ddim terfyniad.

15 [e] * Na cherwch y byd, † na'r pethau sydd yn y byd. [f] ‡ O châr neb y byd, [g] nid yw cariad y Tad ynddo ef.

e pen. 4. 5. a 5. 4, 5, 10. Ioan 15. 19. Rhuf. 12. 2. Gal. 1. 10. Eph. 2. 2. Col. 3. 1, 2. 1 Tim. 6. 10. f Mat. 6. 24. Luc 16. 13. Iago 4. 4. g pen. 3. 17.

* Y cyngor oedd yr apostol am ei roddi i'r dosparthau uchod oll, oedd hwn:—"Na charent y byd, na'r pethau oedd yn y byd."—Mae y byd, fel y crëodd Duw ef, yn dda iawn, ac yn beth teilwng o fesur o gariad; fel ei waith ef ac er ei fwyn ef: ond fel mae pechod wedi llygru ac anafu y byd, dylai ein serchiadau ni gael en troi yn hollawl oddi wrtho. Mae *dynion* y byd, mewn cyferbyniad i gredinwyr, yn elynion i Dduw, ac yn ddeiliaid i Satan: am hyny gelwir arnom i

mnwrthod â'u cyfeillach hwynt, i ochelyd cymdeithas gos â hwynt, ac i gasâu eu hegwyddorion a'u harferion mnuwiol hwynt; tra byddom yn gresynu eu trueni, yn aru eu personau, ac yn ceisio gwneyd lles i'w heneid-iau. † *Pethau* y byd a ellir eu dymuno, eu meddian-u, a'u gwerthfawrogi; i'r gwasanaeth a'r dybenion yny a fwriadwyd gan Dduw, pan y crëodd efe hwynt, newn darostyngiad i'w ewyllys da ef, ei awdurdod, a'i goniant: ond i'r dybenion hyny, i ba rai y gŵyr-drodd echod hwynt, ac y mae pechaduriaid yn eu gorhoffi; i ddylem ni eu dymuno, eu ceisio, na'u mawrâu mewn n mesur na modd: ‡ "ac os câr neb y byd" fel hyn, nid yw cariad y Tad ynddo ef;" ni ddiorseddwyd ei ilun ef erioed, mae ei galon yn parâu heb ei chyfnewid, i chymmodwyd ef â Duw trwy Iesu Crist, ac nid oes wir gariad mabaidd at Dduw yn ei galon ef.

16 * Canys pob peth a'r sydd yn y byd, † *megis* chwant y cnawd, [i] ‡ a chwant y llygaid, [k] || a balchder y bywyd, [l] § nid yw o'r Tad, eithr o'r byd y mae.

h Num. 11. 4, 34. Salm 78. 18, 30. Diar. 6. 25. Mat. 5. 28. Rhuf. 13. 14. 1 Cor. 10. 6. Gal. 5. 17, 24. Eph. 2. 3. Tit. 2. 12. a 3. 1 Pedr 1. 14. a 2. 11. a 4. 2, 3. 2 Pedr 2. 18. Judas 16—18. Gen. 3. 6. a 6. 2. Jos. 7. 21. Job 31. 1. Salm 119. 36, 37. Preg. 5. 10, 11. Mat. 4. 8. Luc 4. 5. k Esther 1. 3—7. Dan. 4. 30. Dat. 3. 11—17. l Iago 3. 15.

* "Canys pob peth a'r sydd yn y byd," yn cael eu caru a'u heilun-addoli fel hyn, ac a gam-ddefnyddir gan ddynion, sydd yn ceisio eu dedwyddwch o'r byd ac nid o Dduw; gellir eu dosparthu hwy oll dàn dri phen:—

Yn *gyntaf*, y cyfryw bethau ag sydd yn addas i gynnyrfu a boddloni "chwant y cnawd," neu flŷs ac awydd afrëolaidd ac anghymmedrol y galon lygredig, a'r chwantau anifeilaidd, am bleserau a mwyniant cnawdol a ffiaidd. ‡ Yn *ail*, y pethau hyny sydd â thuedd i nddynt i gynhyrfu a phorthi "chwant y llygaid;" neu addymuniadau y galon lygredig am feddiannau, gwŷchder, addurniadau, a mwyniant, y rhai mae y llygaid yn chwannog i edrych arnynt gydag awydd gybyddus, a dymuniad anghymmedrol am eu cael; megys trysorau a aur ac arian, neu feini gwerthfawr, perlau, tai, tiroedd, gerddi, palasau gwŷchion, dodrefn a thaclau ceinwych, fluniau, delwau, gwisgoedd dillyn a drudfawr; ac, yn ŷr, pob peth a all golud ei gael, a foddlono lygad yr edrychwr, neu ei synwyrau eraill, (megys peroriaeth a bher-aroglau,) ond nad ydynt yn union-gyrchol i'w nystyried fel pleserau cnawdol ffiaidd a phechadurus.

Yn *drydydd*, "Balchder y bywyd;" neu y gorenwau a'r urddasau hyny, yr awdurdod a'r anrhydedd, y clod a'r hynodrwydd, a'r canmoliaeth a'r gorwychder hyny, ydd yn gwneyd i fynu y radd uwchaf o fawredd daearol, a'r camp-dlws uwchaf yn namweiniaeth *(lottery)* tlawd y bywyd presenol, a ddichon i falchder ac uchel-gais natur syrthiedig dyn, ymawyddu am danynt: a hyn yw ooddâd mwyaf y trachwant meddwl hwnw, yr hwn sydd môr gyd-naws â'r hen demtasiwn, "Chwi a fyddwch megys duwiau." Derchafu pryfyn gwael a gorfalch i'r fath lywodraeth ar ei gyd-grëaduriaid, neu feddiannu y fath anrhydedd yn eu mysg hwynt, ag a'i temtio ef i anghofio ei farwoldeb ei hun, yn gystal ag anghofio ei Grëawdwr a'i Farnwr; a chael ei amgylchu yn y fath fodd gan isafiaid, gweinyddion, a gwenieithwyr, neu gael ei fawreddu yn y fath fodd â chyfenwau *(titles)* uchel-seiniog, a'i lwytho â gorwychder, fel ag nas gall edrych ar ddim ar y ddaear yn uwch nac yn gydradd ag ef ei hun, ac fel hyny dïystyru "yr hwn sydd yn uwch nâ'r uwchaf;"—dyma berffeithrwydd eithaf "balchder y bywyd."—§ Ond yr holl bethau hyn "nid ydynt o'r Tad:" nid oedd y dymuniad eilun-addolgar hyn am bethau crëedig yn perthyn i'r pethau, nac i ddyn, fel y crëodd Duw hwy ac yntau; nid i'w camddefnyddio fel hyn y crëodd, y bwriadodd, nac y rhoddodd efe hwynt; ac nid yw y dynion, y rhai sydd blant addo ef, a thàn ddylanwadau ei Ysbryd a'i ras ef, yn eu dymuno, yn eu ceisio, nac yn eu defnyddio, yn y modd ac i'r dyben a enwyd. Eithr o'r byd y mae hyn oll; fel mae y "byd yn gorwedd mewn drygioni," neu *dàn yr un drwg:* y dymuniadau hyn am bethau crëedig, a'r defnydd hyn a wnair o honynt, ydynt effaith syrthiad dyn, a'i ddarostyngiad i Satan; gwnair hwy fel hyn yn abwydau, trwy y rhai y llithir dynion i bechod, y cedwir hwy mewn gwrthryfel yn erbyn Duw, ac y maent yn gynhyrfion i'w holl nwydau aflan a phechadurus hwynt. *Balchder y bywyd:* y moddion neu y dull balch o fyw, yn hytrach na'r bywyd ei hun, a feddylir.

17 [m] * A'r byd sydd yn myned heibio, a'i chwant hefyd: [n] † ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys Duw, [o] ‡ sydd yn aros yn dragywydd.

m Salm 73. 18—20. a 90. 9. a 102. 26. Es. 40. 6—8. Mat. 24. 35. 1 Cor. 7. 31. Iago 1. 10, 11. a 4. 14. 1 Pedr 1. 24. n Salm 143. 10. Mat. 7. 21. a 21. 31. Marc 3. 35. Ioan 7. 17. Rhuf. 12. 2. Col. 1. 9. a 4. 12. 1 Thes. 4. 3. a 5. 18. Heb. 10. 36. 1 Pedr 4. 2. o Salm 125. 1, 2. Diar. 10. 25. Ioan 4. 14. a 6. 58. a 10. 28—30. 1 Pedr 1. 5, 25.

* Mae y pethau blaenorol a enwyd yn archwaethus iawn gan ddynion bydol anianol, hyn yw eu prif ddaioni a'u hyfrydwch hwy; a dyma yr unig ran a gânt: ac er mwyn y pethau hyn y llenwir yr holl ddaear â thrawsedd, twyll, drygau, a thrueni. Ond "mae y byd yn myned heibio, a'i chwant hefyd:" ei holl bleserau, ei drysoran, a'i anrhydedd, yn fuan iawn a ddiflanant byth: mae un genedlaeth ar ol y llall o'r rhai fu yn chwennychu, yn meddu, ac yn ymffrostio yn y pethau hyn, yn diflanu, ac yn myned heibio i fyd tragywyddol: a'r rhai sydd yn trachwantu ynddynt, yn eu caru, ac yn eu haddoli, a gânt eu siomi yn y màn yn dragywyddol ac yn druenus iawn. † Ond y dyn "sydd yn gwneuthur ewyllys Duw," fel yr amlygwyd hi i bechaduriaid yn yr efengyl, a hyny oddi ar egwyddor o ffydd yn gweithio trwy gariad, er ei ogoniant ef; ‡ mae hwn yn aros yn dragywydd, yn y meddiant a'r mwynâd o'r daioni sylweddol hwnw, yr hwn y galluogwyd ef trwy ras i wneyd dewisiad o hóno.—"Yn myned heibio:" *(paragetai:)* mae yn ymddangos, yn pasio, wedi myned, a ni wedi darfod âg ef am byth; oddigerth y cyfrif a fydd raid ei roddi o'n hymddygiad, tra parâodd y golygiant bŷr.

18 [p] * *O* blant bychain, [q] yr awr ddiweddaf ydyw: † ac megis [r] y clywsoch y [s] daw anghrist, ‡ yr awrhon hefyd y mae anghristiau lawer; [t] || wrth yr hyn y gwyddom mai yr awr ddiweddaf ydyw.

p Gwel ar adn. 1. q 2 Tim. 3. 1. Heb. 1. 2. 1 Pedr 1. 5, 20. 2 Pedr 3. 3. Judas 18. r Mat. 24. 5, 11, 24. Marc 13. 6, 21, 22. Act. 20. 29, 30. 2 Thes. 2. 3—12. 1 Tim. 4. 1—3. 2 Tim. 3. 1—6. a 4. 3, 4. s adn. 22. pen. 4. 3. 2 Ioan 7. t Gwel ar q.

* Yr oedd cariad at y byd, fel yr oedd heb ei ddarostwng yn nghalonau proffeswyr cristionogaeth, yn rhoddi y fantais fwyaf i ddiafol, nid yn unig i'w temtio hwynt i wrthgiliad cyhoeddus, ond hefyd i'w hudo hwynt i gyfeiliornadau dinystriol; trwy y rhai yr oeddynt yn gallu cysoni cydwybod *dawel* â meddwl *cnawdol*, a choleddu eu hoff nwydau dàn y rhith o broffes grefyddol: gan hyny yr oedd y trosiad yn y fàn hon yn naturiol, o rybuddio cristionogion rhag cariad at y byd, i'w gosod hwy ar eu gwyliadwriaeth rhag gau-athrawon. Gan hyny mae yr apostol yn dangos i'w anwyl blant, yn enwedig y rhai ieuainc a dibrofiad o honynt, mai yr "awr ddiweddaf ydoedd;" neu yr oruchwyliaeth ddiweddaf oedd Duw wedi ei bwriadu i'r byd, dàn yr hon yr oedd efe i sefydlu teyrnas ei Fab, ar adfeilion a dinystr teyrnas draws-feddiannol Satan; a thàn yr hon oruchwyliaeth yr oedd teyrnas Crist i barâu, hyd oni osodid ei holl elynion dàn ei draed ef. † Ond yr oeddynt hwy oll wedi clywed, trwy rag-fynegiadau yr hen brophwydi gynt, ac oddi wrth Grist a'i apostolion hefyd, y byddai i Anghrist gyfodi dàn yr oruchwyliaeth "ddiweddaf" hon. Oblegid nid gwrthwynebu yr efengyl trwy erlidiau yn unig a wnai Satan, ond trwy lygru athrawiaeth y ffydd hefyd; ac yn enwedig trwy un

gelyn mawr at Berson, gwirionedd, awdurdod, a gogoniant Crist, efe a ennillai awdurdod a rhwysg dirfawr yn yr eglwys weledig. ‡ Fel y tystiodd Paul fod "dirgelwch yr anwiredd" hwn yn "gweithio eisoes;" (2 Thes. 2. 3—12.) felly yr oedd Ioan yn sylwi yma, fod "anghristiau lawer," neu wrthwynebwyr efengyl bur yr Arglwydd Iesu, y pryd hwnw; y rhai yr oedd eu hymddygiadau, eu hegwyddorion, eu hamcanion, a'u hystrywiau, o'r un argraff a'r eiddo yr Anghrist mawr pan ddelai; ac yn eu dynodi hwynt yn amlwg fel rhagflaeniaid iddo ef. ‖ Wrth hyn gallai ef a hwythau wybod mai yr "awr ddiweddaf" ydoedd; a thra yr oedd Duw yn gweithredu mewn modd neilduol a nerthol, trwy ei genadon ffyddlawn, i anrhydeddu ei Fab; yr oedd diafol a'i weision yntau yn nodedig o egnïol, yn ceisio gwrth-weithredu a dirymu yr amcan daionus.—*Blant bychain:* sylwa un gŵr, nad ydyw *plant bychain* yn dueddol iawn i garu y byd; ond eu bod, o herwydd gwendid eu deall, yn fwy tebyg o gael eu hudo gan gyfeiliornwyr gwenieithgar a thwyllodrus; ac am hyny fod yr apostol yn cyfeirio atynt *hwy* gyda phrïodoldeb mawr yn y fàn hon.

19 [u] * Oddi wrthym ni yr aethant hwy allan, † eithr nid oeddynt o honom ni: [x] ‡ canys pe buasent o honom ni, hwy a arhosasent gyd â ni: ‖ eithr *hyn a fu,* [y] fel yr eglurid nad ydynt hwy oll o honom ni.

u Deut. 13. 13. Salm 41. 9. Mat. 13. 20, 21. Marc 4. 5, 6, 16, 17. Luc 8. 13. Ioan 15. 2. Act. 15. 24. a 20. 30. 2 Pedr 2. 20, 21. Judas 19. x Job 17. 9. Salm 37. 28. a 125. 1, 2. Jer. 32. 38—40. Mat. 24. 24. Marc 13 22. Ioan 4. 14. a 6. 37—39. a 10. 28—30. 2 Tim. 2. 10. 1 Pedr 1 2—5. Judas 1. y Rhuf. 9. 6. a 11. 5, 6. 1 Cor. 11. 19. 2 Tim. 3. 9. Heb. 10. 39.

* Nid o blith gelynion cyhoeddus, ac anghredinwyr proffesedig, yr oedd yr anghristiau hyn yn cyfodi; eithr proffeswyr cristionogaeth a fuasent, y rhai a âent allan oddi wrth yr eglwys oeddynt, ac a âent yn flaenoriaid pleidiau cyfeiliornus, croes i athrawiaeth yr apostolion, a difriaidd i anrhydedd Crist. † Hwy a aethant allan o blith y dysgyblion, gwedi unwaith eu derbyn i gymdeithas eglwysig gyda hwynt; ond ni buont erioed "o honynt hwy," fel dynion adgenedledig, ac aelodau bywiol o gorph Crist: ‡ canys pe buasent felly o honynt hwy, hwy a arosasent gyda hwynt; gan na roddasai yr Arglwydd hwy i fynu i amryfusedd cadarn, i gredu celwydd; ond a roddasai ei ofn yn eu calonau, fel na byddai iddynt ymadael oddi wrtho ef, yn ol rhwymau ei gyfammod tragywyddol ef â'r holl wir gredinwyr. (Jer. 32. 39—41.) ‖ Ond, gan na dderbyniasent hwy gariad y gwirionedd, gyda'r wybodaeth o hóno; cawsent eu gadael i falchder a chwantau eu calonau, ac i ddichellion diafol, i gael eu hudo i gyfeiliornadau dinystriol, ac i ymadael oddi wrth eglwysi Crist, fel yr eglurid yn amlwg, nad oedd pawb ag oedd yn proffesu yr efengyl ddim yn wir ddysgyblion. Fel hyn yr oedd yr eglwys yn cael ei phuro; a gwir gristionogion yn cael eu profi yn gymmeradwy, ac yn cael eu gwneyd yn fwy gwyliadwrus a gostyngedig; tra yr oedd y gwahaniaeth rhyngddynt hwy â'r rhagrithwyr yn cael ei nodi yn fwy amlwg.

20 * Eithr [z] y mae gennych chwi enneiniad oddi wrth [a] y Sanctaidd hwnnw, [b] † a chwi a wyddoch bob peth.

z adn. 27. pen. 4. 13. Salm 22. 5. a 45. 7. a 92. 10. Es. 61. 1. Luc 4. 18. Act. 10. 38. 2 Cor. 1. 21, 22. Heb. 1. 9. a Salm 16. 10. a 71. 22. Es. 43. 3. Marc 1. 24. Luc 4. 34. Act. 3. 14. Dat. 3. 7. a 4. 8. b Diar. 28. 5. Ioan 14. 26. 1 Cor. 2. 15. Heb. 8. 11.

Yr oedd yr apostol yn ysgrifenu at ei gyd-gristionogion i'w rhybuddio, i'w cysuro, ac i'w cadarnâu hwynt; er bod ei sylwadau ef hefyd, yn addas i ddwyn pawb a broffesent yr efengyl i hunan-ymholiad, ac i gadw crefyddwyr ieuainc rhag twyllo eu hunain. * Pa fodd bynag, yr oedd gan y rhai yr oedd efe yn ysgrifenu atynt yn benaf, "eneinniad oddi wrth y Sanctaidd hwnw;" yr oeddynt wedi eu heneinnio gan yr Ysbryd Glân, yr hwn oedd wedi ei ddanfon allan gan a thrwy Grist, Sanct, neu Un Sanctaidd Duw, i'w goleuo, eu sancteiddio, a'u cyssegru hwynt, i fod yn offeiriaid ac yn freninoedd i Dduw a'i Dad ef. † Trwy ddysgeidiaeth a dylanwadau yr Ysbryd hwn, yr hyn a elwir yma eneinniad, yr oeddynt hwy yn "gwybod pob peth," perthynol i brif athrawiaethau cristionogaeth, mewn modd ysbrydol a phrofiadol; fel ag nad allai yr un "anghrist" eu twyllo na'u hudo hwy i ddinystr.—"Mae genych chwi *eneinniad:" chrisma:* ac o hyny *Christos,* Crist, eneinniog, a *Christianous,* cristionogion, rhai wedi eu heneinnio, ac yn ganlynwyr a dysgyblion Crist, yr eneinniog. Mae yr holl wir gristionogion yn gyfranog o Ysbryd sancteiddiad; ond nid oll o ddoniau gwyrthiol yr Ysbryd Glân.—"Oddi wrth y *Sanctaidd hwnw: (apo tou Agiou)* yr Arglwydd Iesu a feddylir; oblegid trwyddo a chanddo ef y rhoddir yr Ysbryd Glân i ni.

21 * Ni ysgrifenais attoch [c] oblegid na wyddech y gwirionedd, † eithr oblegid eich bod yn ei wybod, ‡ ac nad oes un celwydd o'r gwirionedd.

c Diar. 1. 5. a 9. 8, 9. Rhuf. 15. 14, 15. 2 Pedr 1. 12.

* Gan fod "ganddynt hwy yr eneinniad oddi wrth y Sanctaidd hwnw," a chan eu bod yn "gwybod pob peth," "nid oedd efe yn ysgrifenu atynt oblegid na wyddent y gwirionedd;" canys pe buasai yn ysgrifenu atynt fel rhai annwybodus, buasai raid iddo drin ei fater yn fwy helaeth a goleu: † ond yr oedd efe yn ysgrifenu atynt "oblegid eu bod yn gwybod y gwirionedd;" i'w cadarnâu hwynt yn yr hyn a wyddent eisoes; ‡ ac i sicrâu iddynt nas gallai dim croes i'r gwirionedd fod yn wirionedd; ac nas gallai dim twyll, celwydd, na chyfeiliornad, o'r fath a hauai y gau-athrawon, ddeilliaw o'r gwirionedd, na bod yn gyson â'r gwirionedd; ond eu bod mòr groes i'r efengyl bur, ag y gallai celwydd fod i'r gwirionedd ei hunan.

22 [d] * Pwy yw y celwyddog, ond [e] yr hwn sydd yn gwadu nad Iesu yw y Crist? [f] † Efe yw yr anghrist, yr hwn sydd yn gwadu y Tad a'r Mab.

d adn. 4. pen. 1. 6. a 40. 20. Ioan 8. 44. Dat. 3. 9. e adn. 23. pen. 4. 3. 1 Cor. 12. 2, 3. 2 Ioan 7. Judas 4. f Gwel ar adn. 18.

* Pwy gan hyny oedd y celwyddog, ond yr hwn a wadai nad Iesu oedd y Crist? yr oedd rhai o'r cyfeiliornwyr hyn yn gwadu Duwdod Crist; eraill yn egluro ymaith ei gnawdoliad ef, ac felly yn gwadu ei ddyndod, a gwirionedd ei ddyoddefiadau ef; ac yr oedd rhai yn gwrthwynebu ei awdurdod breninol ef. Fel hyn tra yr oeddynt yn dàl yr enw o gristionogion, yr oeddynt mewn effaith yn gwadu ei Berson ef, fel "Crist, Mab Duw," a "Mab y dyn," Emmanuel, Duw gyda ni; ac yn gwadu ei swyddau ef, fel Prophwyd, Offeiriad, a Brenin eneinniedig ei eglwys: gwadent fod "Duw wedi ymddangos yn y cnawd," i "brynu ei eglwys â'i briod waed;" fel trwy rinwedd ei un aberth, y gallai efe ymddangos ger bron Duw, fel ein Harch-offeiriad mawr ni, a theyrnasu ar ei bobl brynedig, fel ei ddeiliaid ewyllysgar, hyd ddiwedd y byd, ac yn oes oesoedd. Yn awr, pa un bynag ai ei Dduwdod ai ei ddyndod, ei aberth ai ei awdurdod, a wadent hwy; yr oeddynt mewn effaith yn gwadu mai efe oedd y Crist; fel yr oedd yn hawdd i'r rhai yr oedd ganddynt eneinniad yr Ysbryd Glân weled. † Gan hyny yr oedd y fath athraw mewn gwirionedd yn "anghrist," yr hwn oedd yn gwadu y Tad a'r Mab; gan nas gellir adnabod y Tad, nesâu ato, ei addoli, a'i ogoneddu gan bechaduriaid, ond yn unig yn a thrwy ei Fab yn y natur ddynol; a'r rhai nid ydynt yn anrhydeddu y Mab, nid ydynt yn anrhydeddu y Tad chwaith, yr hwn a'i hanfonodd ef.—*Yr hwn sydd yn gwadu nad Iesu yw y Crist:* tybia rhai fod Ioan yn cyfeirio at gyfeiliornwr o'r enw *Cerinthus,* yr hwn yn ei athrawiaeth a wahaniaethai rhwng Iesu a Christ, ac a daerai eu bod yn ddau berson *gwahanol,* gan wadu bod Iesu yn Fab Duw. Mae eraill yn cym

meryd i mewn y Simoniaid, y Menandriaid, a'r Carpocratiaid, a chyfeiliornwyr eraill yr oesoedd boreuol yny.—*Efe yw yr anghrist:* nid llefaru yn brophwydol, am y Pab, yr anghrist oedd i ddyfod, yr oedd yr apostol; ond am ryw anghrist yn ei oes ei hun.

23 * Pob un a'r [g] sydd yn gwadu y Mab, nid oes ganddo y Tad chwaith: † [*ond*] *yr hwn sydd yn cyffesu y Mab, y mae y Tad ganddo hefyd.*

g adn. 22. pen. 4. 15. Mat. 11. 27. Luc 10. 22. Ioan 5. 23. a 8. 19. a 10. 30. a 14. 9, 10. a 15. 23, 24. 2 Ioan 9—11.

* Pob un gan hyny, sydd yn gwadu y Mab fel y mylwyd uchod, nid oes ganddo y Tad chwaith, fel ei Dduw, ei Gyfaill, a'i Ran; † ond yr hwn sydd mewn gwir ffydd yn cyffesu ac yn cydnabod y Mab, yn ol ystyriolaeth gair Duw am dano, mae ganddo ef y Tad hefyd, fel ei Dduw cyfammodol a'i Ran dragywyddol, yn a thrwy ei anwyl Fab.—Argreffir rhan olaf yr adnod mewn llythyrenau *Italaidd*, oblegid ei bod yn eisiau yn y rhan fwyaf o argraffiadau o'r Testament Groeg; ond dywedir ei bod mewn amryw eraill o honynt, yn enwedig eiluniau *(copies)* ysgrifawl, y rhai a gyfrifir o gywirdeb ac awdurdod; fel ag y mae Beza, ac amryw feirniaid dysgedig eraill, yn barnu mai gadael y geiriau allan trwy wall ac esgeulusdra a wnaed ar y cyntaf; eu bod yn ysgrif gyntefig Ioan, ac y dylent gael eu hadferu fel y maent yma. Gwedi y cwbl, nid oes ond yr un athrawiaeth a gwirionedd yn y ddwy ran o'r adnod; yn *nacâol* yn y rhan flaenaf, ac yn *gadarnâol* yn yr ail ran.

24 [h] * Arhosed gan hynny ynoch chwi [i] yr hyn a glywsoch o'r dechreuad. † Od erys ynoch yr hyn a glywsoch o'r dechreuad, [k] ‡ chwithau hefyd a gewch aros yn y Mab ac yn y Tad.

h Salm 119. 11. Diar. 23. 23. Luc 9. 44. Ioan 15. 7. Col. 3. 16. Heb. 2. 1. a 3. 14. 2 Ioan 2. 3 Ioan 3. Dat. 3. 3, 11. i adn. 7. Luc 1. 2. Ioan 8. 25. Phil. 4. 15. 2 Ioan 5. k pen. 1. 3, 7. a 4. 15, 16. Ioan 14. 23. a 15. 9, 10. a 17. 21—24.

* Gan fod y pethau hyn felly, cyngorai yr apostol ei anwyl blant i adael i'r pethau a glywsent o'r dechreuad am Grist ac am y Tad, i aros ynddynt hwy, a soddi yn ddwfn, fel egwyddorion greddfol a sefydlog, yn eu calonau hwynt. † Oblegid os arosai yr athrawiaeth a glywsent hwy o'r dechreuad, gan yr efengylwyr a'r apostolion, ynddynt hwy, yn brofiadol, yn effeithiol, ac yn ymarferol; ‡ caent hwythau hefyd aros mewn undeb a chymdeithas â'r Mab, ac â'r Tad ynddo a thrwyddo ef. Nid yw efe ond eu cyngori hwynt i barâu yn y ffydd a'r athrawiaeth a dderbyniasent yn nechreuad eu proffes; trwy yr hyn y caffai eu hundeb â Duw yn Nghrist ei gadw yn gyfan ac yn berffaith.

25 * A [l] hon yw yr addewid a addawodd efe i ni, † *sef* bywyd tragywyddol.

l pen. 1. 2. a 5. 11—13, 20. Dan. 12. 2. Luc 18. 30. Ioan 5. 39. a 6. 27, 47, 54, 68. a 10. 28. a 12. 50. a 17. 2, 3. Rhuf. 2. 7. a 5. 21. a 6. 23. Gal. 6. 8. 1 Tim. 1. 16. a 6. 12, 19. Tit. 1. 2. a 3. 7. Judas 21.

* Dylent hefyd gofio, er eu calondid, ac er eu cadernid yn erbyn dichellion gau-athrawon, bod addewid Duw, yr hon a roddodd efe yn ddialw yn ol i'r holl wir gredinwyr; † yn diogelu iddynt hwy fywyd tragywyddol, yn nghyd â phob bendith a dedwyddwch a berthynai iddo.

26 * Y pethau hyn a ysgrifenais attoch [m] ynghylch y rhai sydd yn eich hudo.

m pen. 3. 7. Diar. 12. 26. Ezec. 13. 10. Marc 13. 22. Act. 20. 29, 30. 2 Cor. 11. 13—15. Col. 2. 8, 18. 1 Tim. 4. 1. 2 Tim. 3. 13. 2 Pedr 2. 1—3. 2 Ioan 7.

* Ysgrifenodd yr apostol y rhybuddion a'r cyngorion hyn at ei anwyl blant, yn nghylch y gau-athrawon hyny y rhai oedd yn ceisio eu hudo hwynt; ac y rhai oedd wedi llwyddo gyda llawer, a fuont yn ymddangos unwaith fel pe buasent o honynt hwy: adn. 19.

27 * Ond [n] y mae yr enneiniad a dderbyniasoch ganddo ef, yn aros ynoch chwi, [o] † ac nid oes arnoch eisiau dysgu o neb chwi: [p] ‡ eithr fel y mae yr un enneiniad yn eich dysgu chwi am bob peth, ‖ a gwir yw, ac nid yw gelwydd; § ac megis y'ch dysgodd chwi, [q] yr arhoswch ynddo.

n Gwel ar adn. 20.—pen. 3. 24. Ioan 4. 14. 1 Pedr 1. 23. 2 Ioan 2. o adn. 20, 21. Jer. 31. 33, 34. Ioan 14. 26. a 16. 13. Heb. 6. 10, 11. p 1 Cor. 2. 13. Eph. 4. 21. 1 Thes. 2. 13. 1 Tim. 2. 7. 2 Pedr 1. 16, 17. q adn. 28. Ioan 8. 31, 32. a 15. 4—7. Col. 2. 6.

Yr oedd efe yn amcanu eu rhybuddio a'u cadarnâu hwynt yn erbyn ymosodiadau rhagrithiol twyllwyr: * ond am y gwir gredinwyr, yr oedd yr eneiniad a dderbyniasent hwy gan Grist, yn aros ynddynt hwy, fel egwyddor anllygredig o fywyd, goleuni, a deall ysbryd-ol: † fel ag nad oedd arnynt hwy eisiau dysgu o neb hwynt, yn egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw; llawer llai cael eu dysgu gan yr athrawon newyddion hyn, y rhai a fynent eu hudo hwy ymaith oddi wrth efengyl bur a syml Crist. ‡ Eithr fel yr oedd yr eneiniad sanctaidd hwn yn eu tywys hwy i wybodaeth o bob peth angenrheidiol i iachawdwriaeth, ‖ ac ydoedd yn wirionedd anffaeledig, yn ol gair Duw, yr hwn *sydd wirionedd*, (Ioan 17. 17.) ac nid oes gelwydd na gŵyrni ynddo; § ac megys yr oedd eisoes wedi bod yn effeithiol i'w dwyn hwy i wybodaeth o'r gwirionedd megys yr oedd yn yr Iesu; felly, trwy ei ddylanwadau parâus ef ar eu heneidiau, mynai yr apostol iddynt aros yn wastadol ac yn ddiysgog yn Nghrist, ac yn athrawiaeth ei efengyl ef, dàn yr eneiniad sanctaidd a goleuawl hwnw.—Nid oedd arnynt eisiau dysgu o neb hwynt yn amgen, neu yn wahanol, i'r hyn yr oedd yr eneiniad wedi eu dysgu, ac yn eu dysgu yn barâus; oblegid trwy gael eu dysgu fel hyn gan Dduw ei hun trwy yr efengyl, yr oeddynt yn cael eu dysgu yn mhob peth hanfodol i iachawdwriaeth, ac nis gallent gael eu hudo i'w dinystr eu hunain. Gan fod y ddysgeidiaeth i gyd yn "wir," ac heb ddim "celwydd," neu gyfeiliornad ynddi; nis gallent hwy newid yr athrawiaeth a dderbyniasent hwy fel hyn gan yr apostolion a'r efengylwyr, dàn ddysgeidiaeth yr Ysbryd Glân, am unrhyw athrawiaeth newydd, heb ŵyro oddi wrth y gwirionedd i gelwydd a chyfeiliorni: am hyny cyngorai yr apostol hwynt i aros ynddo *ef*, sef yn Nghrist a'i wirionedd gwerthfawr.

28 * Ac yr awrhon, [r] blant bychain, arhoswch ynddo; † fel, [s] pan ymddangoso efe, [t] y byddo hyder gennym, ‡ ac na chywilyddiom ger ei fron ef [u] ‖ yn ei ddyfodiad.

r Gwel ar adn. 1. s pen. 3. 2. Marc 8. 38. Col 3. 4. 1 Tim. 6. 14. 2 Tim. 4. 8. Tit. 2. 13. Heb. 9. 28. 1 Pedr 1. 7. a 5. 4. Dat. 1. 7. t pen. 3. 21. a 4. 17. Es. 25. 9. a 45. 17. Rhuf. 9. 33. u Mal. 3. 2. a 4. 5. 1 Cor. 1. 7. a 15. 23. 1 Thes. 3. 13. a 5. 23. 2 Pedr 3. 4, 12.

* Gan hyny bydded iddynt aros yn ddiysgog yn Nghrist, ac yn ngwirionedd yr efengyl; byw mewn ymddybyniad gwastadol ar Grist trwy ffydd am bob peth; ymwneyd yn ddyfal â'i ordinâdau ef, a rhoddi ufuddod syml a serchog i'w orchymynion ef. † Fel hyn, pan ymddangosai efe i farnu y byd, y byddai hyder ganddynt, o gael eu cymmeradwyo yn rasol fel ei weision ffyddlawn ef, ‡ ac na chywilyddient, fel y byddai raid i'r holl ragrithwyr, gwrthgilwyr, a gelynion wneyd, ger ei fron ef ‖ yn ei ail-ddyfodiad, ac yn nghanol holl weithrediadau mawrion a sobr y dydd penderfynol hwnw.—Yma mae yr apostol yn gosod ei hun gyda hwynt, "fel y byddo hyder *genym*, ac na *chywilyddiom;*" i ddangos ei fod ef ei hun yn arfer yr un moddion, i ymddarpar erbyn dyfodiad ei Arglwydd, ag oedd efe yn gyngori iddynt hwythau; ac y byddai eu harosiad hwy yn Nghrist, y pryd hwnw yn chwanegi ei hyder a'i lawenydd *yntau*.

29 * Os gwyddoch ei [x] fod ef yn gyfiawn, † chwi a wyddoch [y] fod pob un a'r sydd yn gwneuthur cyfiawnder, [z] ‡ wedi ei eni o hono ef.

x adn. 1. pen. 3. 5. Zec. 9. 9. Act. 3. 14. a 22. 14. 2 Cor. 5. 21. Heb. 1. 8, 9. a 7. 2, 26. 1 Pedr 3. 18. y pen. 3. 7, 10. Act. 10. 35. Tit. 2. 12—14. z pen. 3. 9. a 4. 7. a 5. 1. Ioan 1. 13. a 3. 3—5. Iago 1. 18. 1 Pedr 1. 3, 23. 2 Pedr 1. 4.

* Gan nas gallai cristionogion lai na gwybod bod eu Harglwydd a'u Gwaredwr yn gyfiawn; (gwel ar adn. 1, 2;) † hwy a allent wybod hefyd yn sicr, fod pob un a'r a oedd yn gwneuthur cyfiawnder, yn arferol ac yn gyffredin, fel peth ag oedd yn garu ac yn ymhyfrydu ynddo o egwyddor calon; ‡ "wedi ei eni o hóno ef," trwy adgenedliad ei Ysbryd, ac ei fod yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd teyrnas nefoedd. "Wedi ei eni o hóno *ef*;" mae yn amlwg mai Crist yw yr *ef* yma, oblegid am Grist mae yr apostol yn llefaru o hyd yn yr adnodau o'r blaen: ac mae hyn yn dangos yn amlwg beth oedd crediniaeth Ioan am ei Arglwydd: ac hefyd bod yr un weithred yn cael ei phriodoli i Dduw, yn pen. 5. 1; i Grist, yn y fàn hon; ac i'r Ysbryd Glân, yn Ioan 3. 5: gan hyny rhaid bod Crist yn Dduw, yn gystal â'r Tad, ac â'r Ysbryd; pe amgen, pa synwyr fuasai dywedyd fod y saint yn cael eu hail-eni "o hóno *ef*," os nad oedd ddim mwy na dyn? Nid aml y gwelsom ddefnyddio y ddadl hon, dros Dduwdod ein Harglwydd Iesu: ac o herwydd hyny y crybwyllai y Cyfieithydd hi yn y fàn hon.

PEN. III.

Dangos rhagorol gariad Duw tuag atom ni.

* GWELWCH [a] pa fath gariad a roes y Tad arnom, [b] fel y'n gelwid yn feibion i Dduw: † oblegid hyn nid edwyn y byd chwi, [c] ‡ oblegid nad adnabu efe ef.

a pen. 4. 9, 10. 2 Sam. 7. 19. Salm 31. 19. a 36. 7—9. a 89. 1, 2. Ioan 3. 16. Rhuf. 5. 8. a 8. 32. Eph. 3. 18, 19. b Jer. 3. 19. Hos. 1. 10. Ioan 1. 12. Rhuf. 8. 14—17, 21. a 9. 25, 26. 2 Cor. 6. 18. Gal. 3. 26, 29. a 4. 5, 6. c Ioan 15. 18, 19. a 16. 3. a 17. 25. Col. 3. 3.

* Gwedi i'r apostol sylwi yn niwedd y bennod o'r blaen, fod pob un a'r sydd yn gwneuthur cyfiawnder wedi ei eni o Dduw, neu o Grist; mae efe yma yn tòri allan mewn gorfoledd a llawenydd, yn yr olwg ar ryfedd gariad y Tad tragywyddol, yn ei waith yn rhoddi y fath anrhydedd a braint annhraethol ar ei bobl, a'u galw hwynt yn feibion, neu yn blant iddo ei hun. Pa fath gariad oedd hwn? Trwy ba fath eiriau y gellid ei osod ef allan? Pa un bynag a ystyriom ai ei fawredd, ei burdeb, a'i gyfiawnder *ef;* neu ynte eu gwaeledd, eu heuogrwydd, eu halogrwydd, a'u trueni *hwy;* pa un bynag a ystyriom ai y fendith a roddwyd arnynt, ai ynte y ffordd drwy ba un y rhoddwyd hi; rhaid rhyfeddu cariad y Tad ynddi, fel peth uwchlaw gwybodaeth a phob amgyffred. † Yn wir nid oedd byd o annuwiolion, yn mhlith pa rai yr oedd plant Duw yn byw, yn gyffredin mewn tlodi, cystuddiau, a dirmyg, yn eu hadnabod hwynt; ni fynai gydnabod eu hawl hwynt, cymeradwyo eu bywyd, na dymuno eu breintiau; ‡ ond hyn oedd, oblegid eu hannwybodaeth hwy o Dduw, a'u dieithrwch diystyrllyd hwy i'w ardderchawgrwydd sanctaidd ef; fel megys pan ymddangosodd ei uniganedig Fab ef ar y ddaear, yn llawn gras a gwirionedd, nid adwaenent hwy ef, eithr gwrthodasant, dirmygasant, a chroeshoeliasant ef.—*Meibion: tekna* yw y gair Groeg, ac nid *whioi;* a phlant a ddylai fod, (medd *Doddridge*) ac nid meibion.—*Fel y'n gelwid ni yn feibion i Dduw:* pan oedd y cenadau Danaidd yn *Malabar*, rhoisant rai o'u dychweledigion ieuainc i gyfieithu *catechism*, yn yr hwn y crybwyllid am fod yn *feibion i Dduw* fel un o freintiau y cristionogion: synodd un o'r cyfieithwyr yn aruthr, wrth ddywediad mòr hyf yn ei dyb ef; a dywedai, *Mae hyn yn ormod, yn hytrach gadewch i mi ei gyfieithu, Goddefir iddynt gusanu ei draed ef.*

2 * Anwylyd, [d] yr awrhon meibion i Dduw ydym, [e] † ac nid amlygwyd etto beth a fyddwn: ‡ eithr ni a wyddom, [f] pan ymddangoso efe, [g] ‖ y byddwn gyffelyb iddo; [h] § oblegid ni a gawn ei weled ef megis ag y mae.

d Gwel ar b. adn. 1.—pen. 5. 1. Es. 56. 5. e Salm 31. 19. Rhuf. 8. 18, 1 Cor. 2. 9. a 13. 12. 2 Cor. 4. 17. f pen. 2. 28. Mal. 3. 2. Col. 3. 4. Heb. 9. 28. g Salm 17. 15. Rhuf. 8. 29. 1 Cor. 15. 49. Phil. 3. 21. 2 Pedr 1. 4. h Job 19. 26. Salm 16. 11. Mat. 5. 8. Ioan 17. 24. 1 Cor. 13. 12. 2 Cor. 3. 18. a 5. 6—8.

* Ond pa beth bynag oedd y byd yn feddwl am wir gredinwyr, yn eu hagwedd isel a thrallodus ar y ddaear; yr oeddynt hwy mewn gwirionedd yn feibion, neu yn *blant* i Dduw y pryd hwnw; wedi eu mabwysiadu i'w deulu ef, eu hadgenedlu, yn wrthddrychau arbenig ei gariad ef, ac yn etifeddion ei deyrnas: a pha mòr aml a thrymion bynag oedd eu profedigaethau hwynt, byddai eu Tad holl-alluog yn sicr o'u hamddiffyn, gofalu am danynt, eu cysuro, a'u bendithio hwynt. † Yn wir nid oedd wedi ei amlygu eto, y *pryd hwnw*, pa beth, neu pa mòr ogoneddus a fyddent hwy yn y diwedd; ac nis gallai hyd yn nôd yr apostol ei hun, ffurfio dim amgyffred cyfaddas am y nef, a'i dedwyddwch annrhaethadwy; oblegid yr oedd hyny i fod yn ogoneddus a gwynfydedig tu hwnt i'w holl feddyliau ef a'r holl saint. ‡ Ond eto, gwyddai credinwyr yn gyffredin, pan ymddangosai Efe, sef Crist, neu Dduw yn y cnawd, yn ei ail ddyfodiad i farnu y byd; ‖ y ca'i ei bobl grediniol eu gwneyd yn berffaith gyffelyb iddo, yn anllygredigaeth eu cyrph, ac hefyd yn sancteiddrwydd perffaith eu heneidiau; ‖ oblegid yn yr olwg wynfydedig, caiff llygaid plant Duw weled ei ogoniant ef yn Mherson Crist, a chaiff eu heneidiau wybod ei gyfiawnder a'i ragoroldeb ef, drwy olwg ddilen a digyfrwng. Bydd yr olwg gyfiawn hon arno ef fel y mae, yn perffeithio yr adnewyddiad o ddelw Duw ar y saint, ac am byth yn diddymu pob nwydau a serchiadau ansanctaidd ynddynt; ac fel hyn cânt eu darpar i'r mwynâd mwyaf perffaith, cyflawn, digymmysg, a gwynfydedig o Dduw, yn a thrwy Grist, ag y gall crëaduriaid sanctaidd byth ei fwynâu, neu feddwl am dano.—Er cymmaint a welodd Ioan ar y mynydd, o ogoniant ei Arglwydd, a gogoniant Moses ac Elias gydag ef, mae efe yn dywedyd yma wedi y cwbl, *Nid amlygwyd eto!*

3 [i] * Ac y mae pob un sydd ganddo y gobaith hwn ynddo ef, [k] † yn ei buro ei hun, [l] ‡ megis y mae yntau yn bur.

i Rhuf. 5. 4, 5. Col. 1. 5. 2 Thes. 2. 16. Tit. 3. 7. Heb. 6. 18, 19. k Act. 15. 9. 2 Cor. 7. 1. Heb. 12. 14. 2 Pedr 1. 4. a 3. 14. l pen. 2. 6. a 4. 17. Mat. 5. 48. Luc 6. 36. Heb. 7. 26.

* A lle bynag y mae Ysbryd Duw wedi gweithio, neu roddi bod i'r gobaith gwirioneddol hwn yn nghalon dyn, sef y gobaith am y gogoneddiad a'r dedwyddwch uchod; † mae hyny yn sicr o'i ddwyn ef i ddymuno a dilyn am sancteiddrwydd a phurdeb, fel darpariad i'w berffaith ddedwyddwch ef, ac fel blaen-brofiad o hóno: oblegid yr hwn sydd yn gobeithio, neu yn ymddiried yn Nuw, y gwna efe ef yn berffaith ddedwydd, trwy ei gyflawn adnewyddu ef i ddelw sanctaidd ei Waredwr dwyfol; efe a lwyr benderfyna hefyd, y rhaid i'w ddedwyddwch presenol ef fod yn gyfatebol i'w sancteiddrwydd presenol: ac mae y sicrwydd, na bydd ei lafur ef am sancteiddrwydd ddim yn ofer, yn rhoddi grym hefyd i'w ymdrechiadau ef. ‡ Ac ni orphwys efe byth yn foddlawn chwaith ar yr hyn a gyrhaeddodd, cyhyd ag y byddo dim pechod yn aros ynddo ef; ond efe a ddefnyddia bob moddion, ac a ddysgwyl wrth Dduw am gyflawniad o'i addewidion; hyd oni byddo ei holl serchiadau a'i gynneddfau wedi eu cwbl sancteiddio, pob nwydau pechadurus wedi eu dystrywio, pob tueddiadau sanctaidd wedi eu perffeithio, a'i holl eiriau a'i weithredoedd wedi eu cyd-ffurfio â'r eiddo ei anwylaf Arglwydd. A chan nas gellir cyrhaedd hyn byth yn berffaith yn y bywyd presenol; rhaid i ddiwydrwydd y gwir gristion, i buro ei hun megys y mae Crist yn bur, barâu hyd angau: yna derbynir yr enaid i'w bresenoldeb ef, ac a berffeithir ar ei ddelw ef: ond ni chaiff y cristion ei gyflawn gyd-ffurfio â'i Arglwydd, mewn

orph ac enaid, hyd fore yr adgyfodiad mawr.—Nid yw
c apostol yn dywedyd *wedi* ei buro, ond *yn* ei buro:
mestyn mae y cristion am burdeb, nid wedi cyrhaedd
erffaith burdeb eto.

4 * Pob un a'r sydd yn [m] gwneuthur
echod, † sydd hefyd yn [n] gwneuthur anghyf-
aith: [o] ‡ oblegid anghyfraith yw pechod.

m adn. 8, 9. 1 Bren. 8. 47. 1 Cron. 10. 13. 2 Cor. 12. 21. Iago
1 15. n Num. 15. 31. 1 Sam. 15. 24. 2 Cron. 24. 20. Es. 53. 8.
n. 9. 11. Rhuf. 3. 20. a 4. 15. Iago 2. 9—11. o pen. 5. 17.
huf. 7. 7—13.

* Yn ol y sylw a wnaethid o'r blaen, nis gallai y rhai
ad oeddynt yn dilyn sancteiddrwyd feddiannu gwir
baith yn Nghrist, ac yn Nuw trwyddo ef, yn ol yr efeng-
l: ond sylwai yr apostol yn mhellach, fod pob un a'r
edd yn gwneuthur pechod o egwyddor, hyfrydwch, ac
rferiad cyffredin, † yn gwneuthur hefyd anghyfraith; yn
roseddu ac yn gwrthwynebu awdurdod a gofynion y
deddf *foesol;* oblegid nis gallai yr apostol feddwl y ddeddf
eremoniol yn y fân hon. Fel hyn mae yn ymddangos,
nd Ioan yn ystyried mai cyfraith sanctaidd Duw oedd
rhëol o ymarweddiad i'w holl weision a'i bobl ef; ac
ad oedd neb o honynt yn wirfoddol ac yn ymarferol,
m gwneuthur dim yn groes iddi. ‡ Oblegid anghyf-
aith yw pechod, neu ymddygiad penrhydd a digyfraith.
'a beth bynag, yn y mesur lleiaf, sydd yn fŷr o ateb i'r
yfraith, neu yn gŵyro oddi wrthi, mewn meddwl, gair,
eu weithred, *pechod* yw, trosedd o'r gyfraith, ac mae yn
aeddu angau yn ol y cyfammod gweithredoedd: ond
mae y gwneuthuriad arferedig a chyffredinol o bechod,
n tueddu i ddinystrio a diddymu y gyfraith a'i hawdur-
od, ac nis gellir ei oddef byth mewn un modd, gan
eb o wir ddysgyblion Crist.—Nid un weithred gyfiawn
m unig a wna "wneuthurwr cyfiawnder;" eithr yr *ar-
eriad cyffredin* o hóno: ac yr un modd *gwneuthurwr
echod,* yw yr hwn sydd yn ei *arfer yn gyffredinol.*
—Anghyfraith: *(anomia:)* nid peth *croes* i'r gyfraith,
eu *dros ben terfynau* y gyfraith, yn unig, yw pechod;
nd cynnygiad, pe byddai bosibl, i *ddiddymu,* a *dystryw-*
o, cyfraith Duw yn hollawl!

5 * A chwi a wyddoch [p] ymddangos o hono
f, [q] † fel y dileäi ein pechodau ni: [r] ‡ ac yn-
do ef nid oes pechod.

p adn. 8. pen. 1. 2. a 4. 9—14. Ioan 1. 31. 1 Tim. 3. 16. 1 Pedr
20. q pen. 1. 7. Es. 53. 4—12. Hos. 14. 2. Mat. 1. 21. Ioan
29. Rhuf. 3. 24—26. Eph. 5. 25—27. 1 Tim. 1. 15. Tit. 2. 14.
eb. 1. 3. a 9. 26. 1 Pedr 2. 24. Dat. 1. 5. r pen. 2. 1. Luc 23.
, 47. Ioan 8. 46. a 14. 30. 2 Cor. 5. 21. Heb. 7. 26. a 9. 28. 1 Pedr
22. a 3. 18.

* Gwyddai y cristionogion hefyd yn dda, oddi wrth
oll rediad hanes ac athrawiaeth yr efengyl, ddarfod i
ab Duw ymddangos y waith gyntaf yn y cnawd, † i
ŷnu ymaith a dileu pechodau ei bobl; trwy wneuthur
wn drostynt, eu maddeu, eu diorseddu, eu glanâu
wythau oddi wrthynt, ac o'r diwedd eu hadnewyddu yn
erffaith ar ei ddelw sanctaidd ei hun. ‡ "Ac ynddo
f," sef Crist, "nid oedd pechod;" ac yr oedd ei sanct-
iddrwydd perffaith, a'i ufudd-dod gweithredol ef, yn
aawrâu gorchymynion y gyfraith, yn ei wneyd ef yn
erson addas i fod yn aberth dros bechod, ac hefyd
edi cael ei fwriadu i fod yn esampl o sancteiddrwydd
phurdeb, i'w bobl. Nid oedd arno ef angen am
erth drosto ei hun, ac nid oedd iddo gymdeithas â'r
iai ansanctaidd a rodient yn y tywyllwch: pen. 1. 6, 7.

6 * Pob un a'r sydd [s] yn aros ynddo ef,
nid yw yn pechu: [t] ‡ pob un a'r sydd yn
echu, nis gwelodd ef, || ac nis adnabu ef.

s pen. 2. 28. Ioan 15. 4—7. t adn. 2, 9. pen. 2. 4. a 4. 8.
5. 18. 2. Cor. 3. 18. a [4] 6. 3 Ioan 11.

* Pwy bynag, gan hyny, a'r sydd yn aros yn Nghrist,
ewn undeb âg ef, ac yn dàl cymdeithas âg ef, † nid
w yn pechu yn fwriadol, yn gyffredinol, yn rhyfygus,
yn wirfoddol: ‡ a phob un a'r sydd yn pechu felly,
is gwelodd ei ogoniant ef trwy ffydd erioed, || ac ni
nafodd efe erioed yr un adnabyddiaeth brofiadol o
hóno; oblegid pe cawsai, buasai yn cael ei gyfnewid,
mewn rhyw fesur, i ddelw sanctaidd Iesu, yr hwn nid
oedd pechod ynddo.

7 * *O* blant bychain, [u] na thwylled neb
chwi. [x] † Yr hwn sydd yn gwneuthur cyf-
iawnder, ‡ sydd gyfiawn, [y] || megis y mae yntau
yn gyfiawn:

u pen. 2. 26. 1 Cor. 6. 9. Gal. 6. 7, 8. Eph. 5. 6. Iago 1. 22.
x pen. 2. 29. a 5. 1—3. Salm 106. 3. Ezec. 18. 5—9. Mat. 5. 20.
Luc 1. 75. Act. 10. 35. Rhuf. 2. 6—8. a 6. 16—18. Eph. 5. 9. Phil.
1. 11. 1 Pedr 2. 24. y adn. 3. pen. 2. 1. Salm 45. 7. a 72. 1—7.
Heb. 1. 8. a 7. 2. 1 Pedr 1. 15, 16.

* Mae yr apostol yma yn rhybuddio ei anwyl blant yn
ddifrifol iawn, megys y gwnaethai yr apostolion eraill
o'r blaen mewn amryw fânau; na thwyllai neb mo hony-
nt trwy rith hòniadau ymddangosiadus, i feddwl y
gallent hwy fyw mewn pechodau cyffredinol, ac eto bod
yn wir gristionogion. Y neb sy dda gan Dduw a ware-
dir rhag y fath dwyll! † Oblegid yr hwn oedd yn
"gwneuthur cyfiawnder," o egwyddor, ac fel ei waith,
ei alwad, a'i hyfrydwch, ‡ hwnw oedd ddyn cyfiawn, o
ran egwyddor ac ymarferiad hefyd; || a'i gyd-ffurfiad ef
â Christ, (gan ei fod yn "gyfiawn megys yr oedd yntau
yn gyfiawn,") oedd y prawf mwyaf priodol ac amlwg,
fod iddo ef ran trwy ffydd, yn ufudd-dod ac iawn y
Gwaredwr mawr a dwyfol.—*Yr hwn sydd yn gwneuthur
cyfiawnder, sydd gyfiawn:* am gyfiawnder *ymarferol,* yn
tarddu oddi ar *egwyddor* gyfiawn, mae yr apostol yn
sôn yma; ac nid am gyfiawnder *cyfrifol,* neu gyfiawn-
der Crist yn cael ei gyfrif i bechadur, trwy yr hyn mae
Duw yn cyfiawnâu yr *annuwiol,* (Rhuf. 4. 5.) heb
weithredoedd.

8 [z] * Yr hwn sydd yn gwneuthur pechod,
† o ddiafol y mae; ‡ canys [a] y mae diafol yn
pechu o'r dechreuad. [b] || I hyn yr ymddan-
gosodd Mab Duw, § fel y dattodai weithredoedd
diafol.

z adn. 10. pen. 5. 19. Mat. 13. 38. Ioan 8. 44. Eph. 2. 2.
a 2 Pedr 2. 4. Judas 6. b adn. 5. Gen. 3. 15. Es. 27. 1. Marc
1. 24. Luc 10. 18. Ioan 12. 31. a 16. 11. Rhuf. 16. 20. Col. 2. 15.
Heb. 2. 14. Dat. 20. 2, 3, 10, 15.

* O'r tu arall, yr hwn oedd yn "gwneuthur pechod,"
yn ei arferiad cyffredin, fel y soniwyd eisoes; (adn. 4.)
† yr oedd hwnw yn ddigon amlwg o blaid, o deulu, ac o
duedd ac anian y diafol ei hun; ‡ canys diafol oedd y
pechadur cyntaf, ac a arferodd bechod a gwrthryfel o'r
dechreuad, ac nid oedd ganddo hyfrydwch mewn dim
arall er pan syrthiodd. || Ond yr oedd yn anmhosibl
tebygu i'r diafol a glŷnu wrtho ef, a bod ar yr un pryd
yn ddysgybl i Grist; gan i Fab Duw ddyfod i'r byd, ac
ymddangos yn y cnawd, i'r dyben unig a phennodol
hwn, § o "ddattod," dinystrio, a dadymchwelyd holl
weithredoedd diafol, ar ran ac yn ei holl bobl brynedig ef.
Efe a "ymddangosodd" i'w gwaredu hwynt oddi tàn y
condemniad a'r caethiwed hyny, i'r rhai yr oedd dylan-
wad a themtasiynau y diafol wedi eu dwyn a'u darost-
wng hwynt a holl ddynolryw; ac i'w hadferu hwynt i
gymmeradwyaeth, delw, a gwasanaeth Duw. Efe a
gyflawnodd hyn drwy wneyd iawn dros eu pechodau
hwynt a'u maddau iddynt, a thrwy grëu eu heneidiau o
newydd i sancteiddrwydd: ond tra yr oedd dynion yn
byw yn gyffredin mewn balchder, annuwioldeb, anghyf-
iawnder, twyll, creulondeb, cenfigen, anghymmedrol-
der, a phenrhyddid aflan; neu yn yr esgeulusiad o
fuchedd ac arferion sobr, cyfiawn, a duwiol; nis galles-
id meddwl fod "gweithredoedd y diafol" wedi eu "dat-
tod," na'i gestyll ef wedi eu bwrw i lawr yn ngalonau y
fath ddynion, trwy nerth Crist. O ganlyniad, nid oedd
y dyben o'i gnawdoliad, ei ddarostyngiad, a'i farwolaeth
ef, wedi eu hateb mewn un gradd *gyda golwg arnynt
hwy;* ac am hyny nid oedd ganddynt yr un sail i fedd-
wl, eu bod mewn un modd yn ddysgyblion i Grist.

9 * Pob un a [c] aned o Dduw, † nid yw yn
gwneuthur pechod; [d] ‡ oblegid y mae ei had

ef yn aros ynddo ef, [e] ‖ ac ni all efe bechu, § am ei eni ef o Dduw.

c pen. 2. 29. a 4. 7. a 5. 1, 4, 18. Ioan 1. 13. d Job 19. 28. 1 Pedr 1. 23. e Mat. 7. 18. Act. 4. 20. Rhuf. 6. 2. Gal. 5. 17. Tit. 1. 2.

* Oblegid yr oedd holl wir ddysgyblion Crist wedi eu geni o Dduw, yn grëaduriaid newydd, wedi cael calonau newydd, ac yn gyfranogion o dduwiol anian; † ac nid oedd neb ag oedd wedi eu hadgenedlu felly yn byw yn yr arferiad cyffredin a gwirfoddol o "wneuthur pechod," fel dynion diadgenedledig, neu fel diafol, yr hwn oedd yn pechu o'r dechreuad: ‡ oblegid yr oedd hâd Duw, sef egwyddor sanctaidd, ac anian dduwiol, yn blànedig yn eu calonau hwynt trwy y gair a gweithredîad yr Ysbryd Glân; ‖ ac o herwydd hyny yr oedd yn anmhosibl iddynt hwy allu pechu yn wirfoddol, yn gyffredinol, a chydag hyfrydwch a phleser mewn pechod: § ac os dygwydd iddynt syrthio mewn pechod yn anfwriadol, yn ddiarwybod, ac yn ngrỳm profedigaeth, canys nid oes dyn ni phecha yn yr ystyr hyny; maent yn edifarâu yn chwerw dost o'i blegid, fel Dafydd, a Phedr, am eu bod wedi eu geni o Dduw, yn blant iddo, ac egwyddor ynddynt am wneuthur ei ewyllys, a rhyngu ei fodd ef mewn pob sancteiddrwydd.—Rhaid mai rhyw beth tebyg i'r hyn a sylwyd oedd meddwl yr apostol, nis gallasai feddwl bod yn anmhosibl i'r credadyn bechu mewn un modd; os deallwn ei eiriau felly, yr ydym yn ei osod i wrth-ddwedyd yr hyn a ddywedodd o'r blaen, pen. 1. 8, 9; a 2. 1; i wrth-ddwedyd yr holl ysgrythyrau eraill; ac i ddywedyd yn groes i brofiadau galarus holl blant Duw yn mhob oes. Rhaid i ni ddeall dywediadau cyffredin o'r fath hyn yn wastad, yn ol natur y pwnc fyddo yr ysgrifenydd sanctaidd yn ei drin; yn ol cysondeb y ffydd, ac yn unol â rhediad cyffredin yr ysgrythyrau eraill: heb hyny ni a âwn i benrhyddid *antinomiaeth* ar y naill law, neu ynte i ddàl *perffeithrwydd cristionogol*, fel ei gelwir, ar y llaw arall.

10 * Yn hyn [f] y mae yn amlwg plant Duw, [g] a phlant diafol: [h] † Pob un a'r sydd heb wneuthur cyfiawnder, [i] ‡ nid yw o Dduw, [k] ‖ na'r hwn nid yw yn caru ei frawd.

f pen. 5. 2. Luc 6. 35. Rhuf. 8. 16, 17. Eph. 5. 1. g Mat. 13. 38. Ioan 8. 44. Act. 13. 10. h Gwel ar adn. 7, 8. i pen. 4. 3, 4, 6. a 5. 19. Ioan 8. 47. 3 Ioan 11. k adn. 14, 15. pen. 2. 9, 10. a 4. 8, 21.

Soniai yr apostol am yr ymarferiad caniatâol a gwirfoddol o ryw bechod, yn yr adnod o'r blaen, a dywedai bod hyny yn beth anmhosibl i rai wedi eu geni o Dduw; ac yn brawf amlwg o fod y rhai oedd yn byw felly, yn "blant diafol." * Oblegid yn hyn yn bennodawl, yr oedd plant Duw a phlant diafol, yn cael eu gwahaniaethu yn amlwg oddi wrth eu gilydd: y rhai nid oeddynt yn gallu byw mewn pechod fel y dywedwyd, "plant Duw" oeddynt; a'r rhai oedd yn byw ynddo yn gyffredin, a chyda phleser, "plant diafol" oeddynt. † "Pob un ag oedd heb wneuthur cyfiawnder," mewn cyflawniadau crefyddol tuag at Dduw, ac mewn ymddygiadau moesol ac uniawn tuag'at ddynion; ‡ beth bynag oedd ei gred, ei broffes, ei ddoniau, a'i brofiad, nid oedd o Dduw, wedi ei eni o hòno ef, nac yn gyfranog o anian ac ysbryd ei blant ef: ‖ ïe, yr oedd hyn i gael sefyll arno gyda chymmaint manylrwydd; fel os oedd neb nid oedd yn "caru ei frawd," ond a oedd yn dangos ysbryd hunanol, cenfigenus, a digasog, yn ei ymddygiad cyffredin; nis gellid ei gyfrif ef yn blentyn i Dduw, eithr yn un o blant diafol.

11 * Oblegid [l] hon yw y gennadwri a glywsoch o'r dechreuad; [m] † bod i ni garu ein gilydd.

l pen. 1. 5. a 2. 7, 8. m adn. 23. pen. 4. 7, 21. Ioan 13. 34, 35. Gal. 6. 2. Eph. 5. 2. 1 Thes. 4. 9. 1 Pedr 1. 22. a 3. 8. a 4. 8.

* Oblegid hyn oedd un ran arbenig o'r genadwri hòno, a draddodasid i gristionogion, ac a glywsent hwy yn barâus o ddechreuad gweinidogaeth yr efengyl; † "bod iddynt hwy garu eu gilydd," â chariad brawdol a christionogol gwresog a diragrith; fel prawf eglur eu bod hwy yn caru Crist, ac yn wir ddysgyblion iddo ef. Heb hyn nis gallent hwy fod *o Dduw;* y rhai oedd yn troseddu gorchymyn mòr bwysig a sylfaenol, ac yr hwn oedd yn ddangosiad mòr amlwg o'i *natur* a'i *ewyllys* ef.

12 * Nid [n] fel Cain, *yr hwn* oedd [o] o'r drwg, ac a laddodd ei frawd. [p] † A phaham y lladdodd ef? ‡ Oblegid bod ei weithredoedd ef yn ddrwg, [q] a'r eiddo ei frawd yn dda.

n Gen. 4. 4—15, 25. Heb. 11. 4. Judas 11. o Gwel ar adn. 8.—pen. 2. 13, 14. Mat. 13. 19, 38. p 1 Sam. 18. 14, 15. a 19. 4, 5. a 22. 14—16. Salm 37. 12. Diar. 29. 27. Mat. 27. 23. Ioan 10. 32. a 15. 19—25. a 18. 38—40. Act. 7. 52. 1 Thes. 2. 14, 15. 1 Pedr 4. 4. Dat. 17. 6. q Mat. 23. 35. Luc 11. 51. Heb. 11. 4. a 12. 24.

* Gan hyny, y rhai oedd yn eglur amddifad o'r gras hwn o gariad brawdol, ni ddylid eu hystyried hwy yn wir gristionogion mewn un modd; ond dylid yn hytrach eu rhestru hwy gyda Chain, yr hwn er ei fod yn proffesu ei hun yn addolwr Duw, a ddangosodd yn amlwg ei fod o deulu yr un "drwg," sef y diafol, drwy genfigenu wrth, casâu, a lladd ei frawd Abel. † "A phaham," am ba achos, y cyflawnodd efe y llofruddiaeth erchyll hwn? Pa gyffrôad a gawsai efe? Pa niwed a wnaethid iddo? ‡ Dim o gwbl: ond yr oedd efe yn casâu delw sanctaidd Duw yn Abel, a'r esampl o'i ostyngeiddrwydd, ei ffydd, a'i ddduwioldeb ef: yr oedd efe yn cenfigenu wrtho, ac yn digio hyd yn nôd wrth Dduw, amdderbyn aberth ei frawd yn hytrach na'r eiddo ef; ac yr oedd efe wedi cynddeiriogi i'r fath radd, fel y lladdodd efe ef, am fod ei weithredoedd ef ei hun yn ddrwg, a'r eiddo ei frawd yn dda ger bron Duw. Na fydded neb sydd yn enwi enw Crist fel y Cain llofruddiog hwn, nac o'i ysbryd ef.

13 [r] * Na ryfeddwch, fy mrodyr, [s] os yw y byd yn eich casâu chwi.

r Preg. 5. 8. Ioan 3. 7. Act. 3. 12. Dat. 17. 7. s Mat. 10. 22. a 24. 9. Marc 13. 13. Luc 6. 22. a 21. 17. Ioan 7. 7. a 15. 18, 19. a 16. 2, 33. a 17. 14. Rhuf. 8. 7. 2 Tim. 3. 12. Iago 4. 4.

* Yr oedd ysbryd a thymher Cain yn perthyn yn naturiol i "blant diafol;" llawer o ba rai a ddirmygasent, a gasasent, ac a groeshoeliasent Grist am yr un rheswm. Gan hyny ni ddylasai cristionogion ryfeddu os oedd y byd yn eu casâu hwynt; gan fod dynion y byd dàn arglwyddiaeth yr "un drwg," a thàn ei ddylanwadau ef, fel plant o'i deulu ef. Mae gelyniaeth o'r dechreuad rhwng y ddau had, dangosodd ei hun yn fuan yn Cain; a gweithiodd byth o hyny eto, yn mhlant yr annufudd-dod. Gan fod y dymher hon mòr ddieflig, a'r byd mòr gyffredin dàn lywodraeth diafol *fel ei dduw;* nid rhyfedd fod dynion duwiol yn nodau a gwrthddrychau casineb y byd.

14 [t] * Nyni a wyddom ddarfod [u] ein symmud ni o farwolaeth i fywyd, [x] † oblegid ein bod yn caru y brodyr. [y] ‡ Yr hwn nid yw yn caru *ei* frawd, y mae yn aros ym marwolaeth.

t pen. 2. 3. a 5. 2, 13, 19, 20. 2 Cor. 5. 1. u Luc 15. 24, 32. Ioan 5. 24. Eph. 2. 1, 5. x pen. 2. 10. a 3. 23. a 4. 7, 8, 12, 21. a 5. 2. Salm 16. 3. Mat. 25. 40. Ioan 13. 35. a 15. 12, 17. Gal. 5. 22. Eph. 1. 15. Col. 1. 4. 1 Thes. 4. 9. Heb. 6. 10, 11. a 13. 1. 1 Pedr 1. 22. a 3. 8. 2 Pedr 1. 7. y pen. 4. 20. Diar. 21. 16.

* Yr oedd y mater uchod o gael eu casâu gan y byd, yn brawf o'r fath mwyaf diammheüol i gristionogion, eu bod hwy eu hunain wedi eu symmud o farwolaeth i fywyd; o'r cyflwr hwnw o gondemniad a marwolaeth ysbrydol, yn yr hwn y buont oll unwaith yn gorwedd, i gyflwr o fywyd cyfiawnâol ac ysbrydol, ac i ystâd o gymmod a chymmeradwyaeth gyda Duw. † Gwyddent yn sicr eu bod wedi cael eu symmud felly, oblegid fod eu calonau wedi eu llenwi â chariad gwresog a serchiadol tuag at eu holl frodyr yn ffydd, gobaith, a chymdeithas yr efengyl; a hyny yn unig am eu bod yn perthyn i Grist, yn dwyn ei ddelw ef, ac yn anwyl gan ddo ef. Mae cariad gostyngedig, dihunanol, gweithgar haelfrydig, a maddeugar, tuag at ddynion yn gyffredin

nôd da yn wir o gyfiwr da; ond mae yn amlwg bod apostol yn llefaru yma, am gariad y credinwyr at eu odyr yn Nghrist, fel y cyfryw; a nôd yw hwn, y gall y edadyn iselaf, yn gystal âg apostol, ei gael ynddo ei n. ‡ Pwy bynag gan hyny nad oedd yn caru ei awd, ie, yr holl wir frawdoliaeth, fel y dywedwyd hod; yr oedd hyny yn brawf amlwg ei fod ef yn aros hyd mewn ystâd o farwolaeth ysbrydol, ac yn agored ddinystr tragywyddol, yr hyn yw yr *ail farwolaeth.* 3-*Symmud o farwolaeth:* dywedir hyn am y goreu o lynion: mae pawb wrth natur megys wedi eu geni yn wlad marwolaeth, ac yn agored i ddinystr tragywyddol; yno mae yr efengyl yn eu cael hwynt, ac oddi yno ae yn *symmud* y rhai a gedwir trwy ras Duw.—"Yn *ros* yn marwolaeth:" nid eu *dwyn* hwy *i'r* cyfiwr hwnw ddywedir; ond eu bod yn *aros* yn *bardus* yn y cyfiwr rwg cyntefig, heb eu *symmud.*

15 * Pob un a'r sydd yn [z] casâu ei frawd, lleiddiad dyn yw: [a] ‡ a chwi a wyddoch nad es i un lleiddiad dyn fywyd tragywyddol yn ros ynddo.

z Gen. 27. 41. Lef. 19. 16—18. 2 Sam. 13. 22—28. Diar. 26. 4—26. Mat. 5. 21, 22, 28. Marc 6. 19. Act. 23. 12, 14. Iago 1. 15. 4. 1, 2. a adn. 9. Ioan 4. 14. 1 Pedr 1. 23. Dat. 21. 8.

* Pob un ag sydd yn casâu ei frawd, gan goledd llid, ygasedd, cenfigen, anghariad, a dïal yn ei galon tuag ato, pa mòr ddirgelaidd bynag y cadwo efe hyny; lleiddiad dyn yw efe mewn gwirionedd, ac yn ngolwg Duw: oblegid mae y balchder, yr hunan, y dygasedd, 'r genfigen, sydd yn llywodraethu yn gyffredin ynddo f, yn gwneyd i fynu y "gwreiddyn chwerwedd," o ba n y mae llofruddiaeth yn naturiol yn tarddu; felly, pe yddai pob attaliadau wedi eu symmud, a themtasiynau digon cryfion yn ymosod, llofruddiaeth yn y weithred a fyddai y canlyniad yn anffaeledig. ‡ A gwyddai cristionogion hyn, a dylem ninnau wybod, oddi wrth pob peth a ddywed gair Duw, nad oes i un lleiddiad dyn fywyd tragywyddol yn aros ynddo: hyny yw, nas gall neb, sydd â chalon llofrudd yn gyffredinol ganddo, ac â thuedd ynddo i gyflawni y weithred, neu y pechod ofnadwy hwnw, fod yn ddyn adgenedledig, wedi ei fywâu trwy ras, nac yn gyfranog o Ysbryd Crist. Mae yn wir fod bywyd tragywyddol yn aros yn Dafydd, pan fu efe yn euog o lofruddiaeth unwaith; ac nid oes yr anrhyw bechod unigol, ag mae yn *anmhosibl* i ddyn diuwiol syrthio iddo; (oddigerth y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân, pen. 5. 18;) ond dangos mae yr apostol yma, nas gall yr un gwir gredadyn *fyw* yn *arferediy* mewn pechod, hyd yn nôd yn ei galon, ei ysbryd, a'i dymher. Heb sôn am annuwiolion yn lladd eu gilydd yn weithredol, ac o fwriad; y mae llawer o broffeswyr crefydd, ysywaeth, yn byw agos drwy eu hoes mewn casineb echrys tuag at eu brodyr gwell na hwy eu hunain: a pha fodd y gall cariad Duw fod yn y rhai hyn?

16 * Yn hyn yr [d] adnabuom gariad Duw, oblegid dodi o hono ef ei einioes drosom ni: [e] † a ninnau a ddylem ddodi *ein* heinioes dros y brodyr.

b pen. 4. 9, 10. Mat. 20. 28. Ioan 3. 16. a 10. 15. a 15. 13. Act. 20. 28. Rhuf. 5. 8. Eph. 5. 2, 25. Tit. 2. 13, 14. 1 Pedr 1. 18, 19. a 2. 24. a 3. 18. Dat. 1. 5. a 5. 9. c pen. 2. 6. a 4. 11. Ioan 13. 34. a 15. 12, 13. Rhuf. 16. 4. Phil. 2. 17, 30.

* Yr oedd yn angenrheidiol iawn deall effeithiau gwir gariad tuag at y brodyr; a gellid deall hyn wrth ystyried "cariad Duw" tuag at bechaduriaid. Gwelwyd gwirionedd ac anfeidroldeb ei gariad ef, yn enwedig wrth i Grist, yr Emmanuel, ddodi ei einioes i lawr dros ei bobl, i wneyd iawn dros eu pechodau ac i waredu eu heneidiau. "Yn hyn yr adnabuom gariad," yw y darlleniad mewn rhai eiluniau *(copies)* Groeg, ac "yn hyn yr adnabuom ei gariad ef," meddant, yw y darlleniad mewn rhai eraill; felly nis gellir rhoddi yr un pwys ar yr adnod hon, ag a roddir ar un arall gyffelyb iddi, yn Act. 20. 28: ond mae yn amlwg mai cariad Duw a feddylir, er nad yw y gair Duw yn y Testamentau Groeg yn gyffredin; oblegid "Duw wedi ymddangos yn y cnawd," a "chwedi ei wneuthur yn gnawd," oedd yr Emmanuel hwnw a garodd ei bobl, ac a ddododd einioes ei ddynoliaeth drostynt hwy. Yr oedd yr undeb mòr agos rhwng Duwdod a dynoliaeth Crist fel y gelwir ei einioes ef fel *dyn* yn einioes *Duw:* ac felly rhaid deall am ei briod waed ef yn Act. 20. 28. † Gan hyny, os ystyrid cariad Emmanuel at bechaduriaid fel y dylid ei ystyried, yr oedd yn ymddangos yn eglur iawn, y dylai cristionogion, yn ol perffeithrwydd eu rhëol a'u hesampl, roddi eu heinioes dros y brodyr, pan fyddai yr achos yn gofyn, a daioni cymmesur i gael ei wneyd drwy hyny. Yn ol esampl Crist a'i gariad ef, dylem fod yn barod i roddi ein bywydau i lawr, pryd bynag y galwo efe am hyny, (fel y gwnaeth Paul yr eiddo ef, Phil. 2. 17.) er cryfâu ffydd a gobaith ein brodyr sanctaidd, y rhai a brynodd ef mòr ddrud, ac mae yn eu caru mòr fawr; ac er amddiffyniad a dïogelwch y rhai hyny sydd yn nodedig o ddefnyddiol yn ei eglwys ef, fel y rhoddodd Priscila ac Acwila eu gyddfau eu hunain i lawr dros fywyd Paul. Rhuf. 16. 4.—Dylem aberthu ein bywyd ein *hunain,* os bydd hyny yn lles i fywydau a dedwyddwch *llawer.* Os na waredir ond *un* ar yr ammod hyny, mae y ddadl yn colli ei grym i raddau mawr, oddigerth bod yr un hwnw o *gymmaint rhagoriaeth,* fel wrth farw dros *un,* y byddwn yn marw megys dros *lawer.* Tybiai y paganiaid eu hunain y dylent farw dros *lawer,* pan fyddai hyny o ryw les i lawer, er nas gwyddent ddim am yr egwyddor ardderchog a grybwylla yr apostol yma.

17 * Eithr [d] yr hwn sydd ganddo ddâ y byd hwn, † ac a welo ei frawd mewn eisieu, [e] ‡ ac a gauo ei dosturi oddi wrtho; [f] || pa fodd y mae cariad Duw yn aros ynddo ef?

d Deut. 15. 7—11. Diar. 19. 17. Es. 58. 7—10. Luc 3. 11. 2 Cor. 8. 9, 14, 15. a 9. 5—9. 1 Tim. 6. 17, 18. Heb. 13. 16. e Diar. 12. 10. a 28. 9. f pen. 4. 20. a 5. 1.

* Os dylem ddodi ein *heinioes* dros y brodyr, dylem yn sicr roddi pob peth *llai* i fynu er eu lles hwynt, pan fyddo amgylchiadau yn galw am hyny. Gan hyny, yr hwn sydd ganddo dda y byd hwn, ac yn berchen yr hyn sy ddigonol er ei draul angenrheidiol ei hun, a chanddo ryw gymmaint dros ben hyny; † ac os gwel hwn ei frawd mewn eisiau, drwy afiechyd, aflwydd, neu ryw galedi; ‡ ac yn lle diwallu ei angen ef yn siriol o'i ddigonedd ei hun, y bydd iddo gauad ei ymysgaroedd a'i dosturi oddi wrtho, ac felly ei adael ef yn ei angen a'i drueni, heb roddi iddo ddim o angenrheidiau y corph; || pa fodd y gellir meddwl fod cariad Duw yn aros yn nghalon y dyn hwnw? Wrth ba beth y gellir gwybod, fod ganddo ef wir deimlad ar ei feddwl, o gariad Crist tuag at bechaduriaid colledig, pan "ddododd efe ei einioes drostynt hwy?" neu fod cariad Duw wedi ei blànu erioed yn ei galon ef gan yr Ysbryd Glân? gan fod cariad at y byd a'i bethau, yn gorchfygu ac yn tagu gweithrediadau ei dosturi ef, tuag at ei frawd angenus.—Mae pob amgylchiad a gradd o'r caledwch hunanol hyn, o angenrhaid yn gwanychu y prawf o ddychweliad dyn; a phan y mae hyny yn beth cyffredin a goddefol, mae yn penderfynu nad yw y dyn yn perthyn dim i Dduw, ond ei fod yn debycach i Cain o lawer, nac i Iesu Grist; gan y gâd efe i blant Duw ddyoddef a marw, yn hytrach nac yr ymâd efe â'i arian, neu leiâu dim ar ei foethau ei hun, i'w cynnorthwyo hwynt nac achub eu bywydau. Gellid ystyried hyn hefyd mewn effaith yn *lladdiad dyn;* gan fod y cyfryw un yn nacâu cadw bywyd, pan oedd yn ei allu i wneyd hyny, a phan oedd yn wir ddyledswydd ei wneyd; a phe buasai Duw yn ymddwyn felly tuag at bechaduriaid a gelynion, buasai raid i bawb o honom fod yn golledig. —"Da y byd hwn:" *(ton bion tou kosmou:)* nid cyfoeth lawer a feddylir, ond pethau angenrheidiol, gydag ychydig i'w hebgor.

18 [g] * Fy mhlant bychain, [h] na charwn ar

air, nac ar dafod *yn unig,* † eithr mewn gweithred a gwirionedd.

g Gwel ar pen. 2. 1. h Ezec. 33. 31. Mat. 25. 41—45. Rhuf. 12. 9. 1 Cor. 13. 4—7. Gal. 5. 13. a 6. 1, 2. Eph. 4. 1—3. 1 Thes. 1. 3. Iago 2. 15, 16. 1 Pedr 1. 22.

* Oddi ar yr ystyriaethau blaenorawl, mae Ioan mewn modd difrifol iawn, yn cyngori ei anwyl blant yn yr efengyl, i garu eu gilydd, eu brodyr a'u cymmydogion tlodion, nid ar air, nac ar dafod yn unig; neu yn unig mewn proffes, ac mewn ymadroddion teg rhithfoesgar; † "eithr mewn gweithred a gwirionedd," gan ddangos diragrithrwydd a grym eu cariad i'w gilydd, drwy eu gweithredoedd a'u hymddygiadau, ac mewn cyfraniadau hael a hunan-ymwadol i ddiwallu angenion eu gilydd, yn gyfatebol i'w proffes, a gwir natur elusengarwch cristionogol. Peth ofer iawn yw siarad am gariad, heb ddim gwir brawf o hóno: ac eto hyny yn unig a gair, gan lawer o bobl grefyddol iawn mewn pethau eraill. Bendith y Pab yw hyn!

19 [i] * Ac wrth hyn y gwyddom ein bod o'r gwirionedd, [k] † ac y sicrhâwn ein calonnau ger ei fron ef.

i Gwel ar adn. 14.—pen. 1. 8. Ioan 18. 37. k adn. 21. Es. 32. 17. Heb. 6. 10, 11. a 10. 22.

* Os carai y cristionogion hyn eu gilydd mewn gweithred a gwirionedd, oddi ar ffydd yn Nghrist, a chariad ato ef, caent wrth hyny wybod eu bod o'r gwirionedd: byddai ffrwythau hyn yr Ysbryd yn brawf fod y gwirionedd yn egwyddor ynddynt hwy, eu bod wedi derbyn, ac yn cadw y gwirionedd, yn y cariad o hóno, ac yn byw dân lywodraeth y gwirionedd, fel gwir gristionogion diragrith. † Ac fel hyn hwy a allent sicrâu eu calonau eu hunain ger bron Duw, mewn hyder gostyngedig o'i gymmeradwyaeth ef; a dysgwyliadau helaeth o gael diwallu eu holl angenion, o oludoedd ei haelioni grasol ef: fel hyn byddai eu calonau yn dawel, ac yn wir hyderus am eu cyflwr ger bron Duw.

20 [l] * Oblegid os ein calon a'n condemnia, [m] † mwy yw Duw na'n calon, [n] ac efe a ŵyr bob peth.

l Job 27. 6. Ioan 8. 9. Act. 5. 33. Rhuf. 2. 14, 15. 1 Cor. 14. 24, 25. Tit. 3. 11. m pen. 4. 4. Job 33. 12. Ioan 10. 29, 30. Heb. 6. 13. n Salm 44. 20, 21. a 90. 8. a 139. 1—4. Jer. 17. 10. a 23. 24. Ioan 2. 24, 25. a 21. 17. Heb. 4. 13. Dat. 2. 23.

* Ond nis gallent hwy gael y sicrwydd gwarantedig hyn am eu cyflwr, ac o gariad Duw, os oeddynt hwy yn goddef eu hunain i fyw mewn pechod gwybodus, neu yn yr esgeulusdra o ddyledswydd wybodus: oblegid os oedd eu calonau a'u cydwybodau eu hunain yn eu condemnio hwy o ddrygioni dirgelaidd, neu o ddifaterwch hunanol am galedi eu brodyr; † nis gallent lai na gwybod fod Duw yn fwy nâ'u calon, ac ei fod ef yn gwybod pob peth; a rhaid y byddai i'r ystyriaeth o'i berffaith wybodaeth ef o'u holl bechodau, ei gasineb sanctaidd ef o honynt, ei gyfiawnder diduedd a'i nerth holl-alluog, eu llenwi hwynt âg ofnau rhag ei ddïaledd ef, a rhwystro eu hyder hwynt ynddo ef. Oblegid os na allent hwy lai na phenderfynu yn eu herbyn eu hunain, pan wnaid hwy yn farnwyr yn eu hachos eu hunain, er eu cariad tueddol atynt eu hunain, eu syniadau anmherffaith am atgasrwydd eu pechodau, a'u tueddrwydd i anghofio eu pechodau; pa fodd y gallent hwy obeithio sefyll mewn barn ger bron yr anfeidrol Dduw?—Yn ol y ddeddf, a'r cyfammod gweithredoedd, rhaid i galon pob dyn ei gondemnio, yn ol mesur ei wybodaeth ef o rëol dyledswydd, ac yn ol ei holiad ef o hóno ei hun yn wyneb y rhëol hòno. Ië, yn ol yr efengyl, rhaid i galon pob dyn ag sydd yn byw mewn pechod yn oddefol a chyffredinol, ei gondemnio ef o ragrith; oddieithr fod ei gydwybod ef wedi ei serio, a Duw wedi ei roddi ef i fynu i ddallineb a chaledrwydd barnol. Ië, pan syrthio gwir gredinwyr mewn pechod gwybodus o un math, o gyflawniad neu omeddiad, hwy a gyhuddir ger bron brawdle eu cydwybod eu hunain, ac a gondemnir o'i herwydd: ac felly mae eu hyder yn Nuw yn cael ei wanychu; hyd oni adnewydder eu heddwch a'u sicrwydd, trwy wir ymostyngiad, a ffydd yn ngwaed ac aberth Iesu am faddeuant; ac os drwy wrthgiliadau pellach, a mwy gofidus, y cyll eu cydwybodau hwy y teimlad iachusol, ond poenus hwn, bydd ceryddon llymion yn sicr o gael eu defnyddio, fel moddion trugarog i ragflaenu eu dystryw hollawl a thragywyddol hwynt.

21 * Anwylyd, [o] os ein calon ni'n condemnia, † y mae gennym hyder ar Dduw.

o pen. 2. 28. a 4. 17. Salm 7. 3—5. 1 Cor. 4. 4. 2 Cor. 1. 12. 1 Tim. 2. 8. Heb. 4. 16. a 10. 22.

* Ond os na bydd calonau cristionogion yn eu condemnio hwy o unrhyw bechod goddefol diedifarus o hóno, neu esgeulusdra o unrhyw ddyledswydd; † yna mae ganddynt hyder ar Dduw, neu tuag at Dduw, (yn ol y Saesoneg,) trwy Ysbryd mabwysiad, a thrwy ffydd yn eu Harch-offeiriad mawr: a chan nesâu fel hyn at orsedd gras, gallant arddelwi perthynas â Duw fel eu Duw cyfammodol, a'u Tad grasol hwy yn Nghrist: ïe, mae iddynt *ryddid ymadrodd,* fel mae y gair *(parrhêsian)* a gyfieithir *hyder* yma yn arwyddo, i ddadlau eu hachos, ac i ddywedyd eu cwynion ger bron Duw.

22 [p] * A pha beth bynnag a ofynom, † yr ydym yn ei dderbyn ganddo ef; [q] ‡ oblegid ein bod yn cadw ei orchymynion ef, [r] || ac yn gwneuthur y pethau sydd yn rhyngu bodd yn ei olwg ef.

p pen. 5. 14. Salm 10. 17. a 34. 4, 15—17. a 50. 15. a 66. 18, 19. a 145. 18, 19. Diar. 15. 29. a 28. 9. Es. 1. 15. a 55. 6, 7. Jer. 29. 12, 13. a 33. 3. Mat. 7. 7, 8. a 21. 22. Marc 11. 24. Luc 11. 9—13. Ioan 9. 31. a 14. 13. a 15. 7. a 16. 23. Iago 1. 5. a 5. 16. q adn. 28, 24. Mat. 7. 24, 25. a 17. 5. Ioan 15. 10. Act. 17. 30. a 20. 21. r Ioan 6. 29. Phil. 4. 18. Col. 1. 10. Heb. 13. 21.

* A pha bethau bynag a ofynont yn daer a gostyngedig, yn unol âg ewyllys Duw, trwy ffydd yn enw Iesu, ac i ddybenion cywir; † maent yn eu derbyn yn awr, neu yn sicr o gael eu derbyn, trwy rad roddiad a gwir ewyllys da Duw, yn ei anwyl Fab, càn belled ag y byddo hyny er ei ogoniant ef, ac er eu llesâd hwythau. ‡ Oblegid mae eu hymddygiad yn brawf a thystiolaeth o wirionedd eu hedifeirwch a'u ffydd; fel y maent yn ymgais yn ddiragrith i gadw ei orchymynion ef yn wastadol, || ac i wneuthur cyfryw bethau ag sydd yn rhyngu bodd yn ei olwg ef, yn a thrwy Iesu Grist.—Nid cadw gorchymynion Duw, &c., yw yr achos fod y credinwyr yn *cael,* ag yn *derbyn,* y pethau a ofynant gan Dduw; eithr hyny yw achos, neu sail, eu *hyder,* a'u *sicrwydd* hwynt, y derbyniant yr hyn a ofynant ganddo ef: a hyny, nid am y tybiant fod teilyngdod yn eu gweithredoedd da hwynt; ond am fod eu gwaith yn cadw y gorchymynion yn brawf fod eu cyflwr hwynt yn dda, a'u personau a'u gweddïau yn gymmeradwy gan Dduw, trwy Iesu Grist ei anwyl Fab. Tebyg i hyna y dywed *Pool,* ac yn wir ein Hawdwyr eraill oll.

23 * A hwn yw [s] ei orchymyn ef; † Gredu o honom yn enw ei Fab ef Iesu Grist, [t] ‡ a charu ein gilydd, || megis y rhoes efe orchymyn i ni.

s Salm 2. 12. Marc 9. 7. Ioan 6. 29. a 17. 3. Act. 16. 31. 1 Tim. 1. 15. t Gwel ar adn. 11. pen. 2. 8—10. 1 Pedr 1. 22.

* Gorchymynodd Duw yn bennodol yn ei air, ac yn enwedig yn yr efengyl, † i bechaduriaid gredu yn enw ei Fab ef Iesu Grist; a dyfod ato ef, gan ddadlau enw ac aberth ei Fab, am faddeuant pechodau, a holl fendithion yr iachawdwriaeth. ‡ A gorchymynodd i gristionogion hefyd, er mwyn Crist ac yn ol ei esampl ef, i garu eu gilydd mewn ysbryd a modd maddeugar, tosturiol, haelfrydig, a hunan-ymwadol: || felly y gwnaeth Crist â ni, ac felly y gorchymynodd i ninnau wneyd â'n gilydd.—Fel hyn y cynnwysir yn fŷr, ein holl ddyledswydd ni tuag at Dduw yn Nghrist, a thuag at ein gilydd, mewn crynodeb cyffelyb i'r hyn a gawn yn Preg. 12. 13.—Mae y ddyledswydd gyntaf, credu yn Nghrist, yn diogelu y cyflwr; a'r ail ddyledswydd, caru ein gilydd, yn brawf o'n cyflwr da, yn lles i'n

rodyr, ac yn harddwch i'r efengyl: a Duw a'i Fab sydd edi gorchymyn y naill fel y llall o honynt.

24 [u] * A'r hwn sydd yn cadw ei orchymyn-
on ef, [x] † sydd yn trigo ynddo ef, ‡ ac yntau
nddo yntau. ‖ Ac wrth hyn [y] y gwyddom ei
od ef yn aros ynom, § *sef* o'r Ysprŷd a roddes
ife i ni.

u adn. 22. Ioan 14. 21—23. a 15. 7—10. x pen. 4. 7, 12, 5, 16. Ioan 6. 54—56. a 17. 21. 1 Cor. 3. 16. a 6. 19. 2 Cor. 6. 16. 1 Tim. 1. 14. y pen. 4. 13. Rhuf. 8. 9—17. Gal. 4. 5, 6.

* Gan hyny, yr hwn sydd o'i galon yn ymgais am adw y gorchymynion uchod, yn nghyd â holl orchym-nion eraill Duw sydd yn gyssylltiedig â hwynt; † mae ife fel hyn yn profi yn eglur, ei fod yn trigo ac yn pres-ylio yn Nghrist, fel yn ei Arch, ei Noddfa, a'i Orphwys-a; ac yn y Tad trwyddo ef. ‡ Mae yn amlwg fel hyn efyd, fod Crist yn trigo ynddo yntau; fel Arglwydd ei erchiadau, ac fel yn dangos ei allu, ac yn egluro ei goniant, ynddo a thrwyddo ef. ‖ Ac mae y saint yn wybod i ryw raddau, *fod* yr undeb dirgeledig hwn hwng Crist â'u heneidiau, ac ei fod ef yn aros ynddynt, trwy yr Ysbryd a roddes efe iddynt hwy; yr hwn a'u lygodd hwynt i'r undeb hwn, ac a weithiodd yr agwedd a'r ufudd-dod sanctaidd hwn yn eu calonau: efe trwy i oleuni a'i nerth, a weithiodd ffydd a chariad, a phob rasau eraill yn eu heneidiau; ac mae efe drwy y peth-au hyn, yn cyd-dystiolaethu â'u hysbrydoedd hwynt, eu ood yn blant i Dduw.—Nis gallai hyn berthyn yn unig weithrediadau gwyrthiol yr Ysbryd Glân, y rhai nid oeddynt yn brawf cyflawn o'r preswyliad, neu y trigiad grasol hwn; ond perthyn y mae hyn i'r gwaith achubol a grasol mae efe yn wneyd yn nghalonau holl blant Duw yn mhob oes o'r byd.

PEN. IV.

Am brofi yr ysbrydoedd.

* ANWYLYD, [a] na chredwch bob yspryd,
† eithr [b] profwch yr ysprydion ai o
Dduw y maent: ‡ oblegid [c] y mae gau bro-
phwydi lawer wedi myned allan i'r byd.

a Deut. 13. 1—5. Diar. 14. 15. Jer. 5. 31. a 29. 8, 9. Mat. 7. 15, 16. a 24. 4, 5. Rhuf. 16. 18. 2 Pedr 2. 1. b Luc 12. 57. Act. 17. 11. Rhuf. 16. 19. 1 Cor. 14. 29. 1 Thes. 5. 21. c pen. 2. 18. Mat. 24. 23—26. Marc 13. 21, 22. Luc 21. 8. Act. 20. 29, 30. 1 Tim. 4. 1. 2 Tim. 3. 13. 2 Ioan 7.

* Hyd yn nôd pan oedd doniau anghyffredin yr Ys-bryd Glân yn cael eu rhoddi i'r eglwys, yn gystal â'i ddylanwadau sancteiddâol a chysurol ef; yr oedd yn ra angenrheidiol i gristionogion fod ar eu gwyliadwr-iaeth rhag "gau-brophwydi;" ac yr oedd yn beth o bwys iddynt hwy allu gwahaniaethu yn gywir rhwng twyllwyr, a'r rhai a "lefarent megys y cynhyrfid hwy gan yr Ysbryd Glân." Mae yr apostol gan hyny yn cyngori ei frodyr i beidio "credu pob ysbryd," neu bob dyn a gymmerai arno lefaru drwy ysbrydoliaeth oruwch-naturiol, ac a hònai ei fod dàn arweiniad Ysbryd Duw; † eithr profi pob hòniadau felly, pa un a oedd y rhai a'u gwnelent o Dduw ai nid oeddynt. ‡ Yr oedd hyn yn llwyr angen-rheidiol; oblegid yr oedd gau-brophwydi lawer wedi myned allan i'r byd, y rhai a gynhyrfid ac a annogid gan Satan, i hau cyfeiliornadau dinystriol, mewn gwrth-wynebiad i athrawiaeth a gogoniant Crist.]

2 * Wrth hyn adnabyddwch Ysprŷd Duw:
† Pob yspryd a'r sydd yn cyffesu ddyfod
Iesu Grist [e] yn y cnawd, o Dduw y mae.

d pen. 5. 1. Ioan 16. 13—15. 1 Cor. 12. 3. e adn. 3. Ioan 1. 14. 1 Tim. 3. 16.

* Nid trwy wyrthiau yr oedd yr ysbrydion, neu y ddynion hyn i gael eu profi, eithr mewn athrawiaeth; pa fodd yr oeddynt yn cytuno neu yn anghytuno yn hyny â'r apostolion a'r gwir brophwydi. Mae yr apos-tol gan hyny yn cyngori ei frodyr, wrth brofi a phen-derfynu, pwy oedd yn llefaru drwy "Ysbryd Duw," a phwy nid oedd; i sylwi yn fanol, † am bob ysbryd ag oedd yn cyffesu Iesu Grist, fel wedi dyfod yn y cnawd, mai o Dduw yr oedd hwnw. Rhaid i ni ddeall hyn am gyffes ddeallus a chrediniol, o'r athrawiaeth a draddod-asid gan yr apostolion, am yr Arglwydd Iesu, ei Ber-son, a'i swyddau oll. Yr oedd yr apostol yn meddwl gwir ddynoliaeth Crist yn ddiammau, yn yr ymadrodd "dyfod yn y cnawd," yn erbyn y rhai a wadent ei wir ddynoliaeth ef: ond pwy a allai wadu ei fod ef mewn *gwirionedd* yn Ddyn, os oeddid yn deall ac yn credu yn gyffredinol, nad oedd efe *ddim ond* Dyn? Felly, yr oedd gwadu ei fod ef mewn gwirionedd yn *Ddyn*, yn brawf fod y cyfeiliornwyr hyny yn ei ystyried ef yn *fwy* na Dyn, er cywilydd i bawb a wadent ei Dduwdod ef! Gwyddai yr apostol y gallasai Crist, fel Mab Duw, ddyfod mewn modd arall, heblaw "yn y cnawd;" pe amgen, prin y buasai efe yn sylwi ar ei ddyfodiad ef yn y cnawd, fel pwnc hanfodol o'r gyffes hon: oblegid pwy a ddywedasai i Ioan Fedyddiwr, neu Ioan yr apos-tol, "ddyfod yn y cnawd," pan ddanfonwyd hwy i breg-ethu yr efengyl? oblegid yr oedd yn rhaid iddynt hwy ddyfod yn y natur ddynol, gan nad oedd ganddynt yr un natur arall. Ond am ddyfodiad Crist yn y natur ddynol, pan "wnaethpwyd y Gair," yr hwn oedd Dduw, "yn gnawd, ac y pabellodd yn mhlith dynion;" yr oedd hyn yn bwnc hanfodol yn wir, yn athrawiaeth yr apostol am brynedigaeth ac iachawdwriaeth.

3 * A [f] phob yspryd a'r nid yw yn cyffesu
ddyfod Iesu Grist yn y cnawd, † nid yw o
Dduw. [g] ‡ Eithr hwn yw *yspryd* anghrist,
‖ yr hwn y clywsoch ei fod yn dyfod, § a'r
awrhon y mae *efe* yn y byd eisoes.

f pen. 2. 23. g Gwel ar pen. 2. 18, 22.—2 Thes. 2. 7, 8. 2 Ioan 7.

* Yn ol y sylwad uchod, "pob ysbryd," neu ddyn, "a'r nid oedd yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd;" neu a wadai mewn un modd ei fod ef yn "Grist, Mab y Duw byw;" neu a wadai yr un o'r swyddau hyny, i ba rai yr eneinniwyd ef fel "Duw wedi ymddangos yn y cnawd," i'w cyflawni; † nid oedd hwnw o Dduw, beth bynag a hònai efe o ysbrydoliaeth ddwyfol, neu pa rith bynnag a ddangosai efe o alluoedd gwyrthiol. ‡ Oblegid yr ysbryd a'i cynhyrfai ef i breg-ethu y fath gyfeiliornadau, ydoedd ysbryd anghrist; a phawb a lefarent drwy yr ysbryd hwnw, oeddynt ddyn-ion o'r un duedd ddigred, uchel-frydig, ac annuwiol, ag y byddai y prif anghrist pan ddeuai; ‖ am ddyfodiad yr hwn yr oeddynt hwy wedi clywed eisoes, gan yr apostol hwn ei hun, pen. 2. 18, ac efallai gan Paul yn mhell cyn hyny, 2 Thes. 2. 3—10; § ac yr hwn ydoedd yn wir yn y byd eisoes, yn yr amryw "gau-brophwydi," y rhai mewn gwahanol ffyrdd, oeddynt yn gwrthwynebu gwir athrawiaeth Crist; ac i'r rhai y profai yr anghrist mawr ei hun yn olynwr diledryw.—Prif ddadl y dydd-iau hyny â'r *Iuddewon* oedd, ai *Iesu* oedd y *Messiah* ai nidê; a oedd y Messiah wedi dyfod ai nid oedd. A'r ddadl â'r *Gwybeddyddion (Gnostics)* oedd, pa un a ddaeth y Messiah mewn gwir gnawd a dynoliaeth, ai ynte rhith, ac ymddangosiad o gnawd yn unig, oedd ganddo. Y fath hyn o anghristiau oedd yn y dyddiau hyny, yn blaenori yr anghristiau presenol, o Babydd-iaeth, Annuwiaeth, Undodiaeth, Sociniaeth, &c.; ac nid annhebyg iawn yw, y trŷ y cwbl a honynt cyn diwedd y byd, i wadu Duwdod Iesu a'i aberth ef: hyny yw, gwadu ddyfod Iesu Grist, Mab Duw, yn y cnawd, i fod yn iawn dros bechodau y byd.—"Cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd:" (adn. 2, 3.) "cyffesu Iesu Grist, yr hwn a ddaeth yn y cnawd," meddant, a ddylai y geiriau fod yn ol y Groeg.

4 * Chwychwi [h] ydych o Dduw, blant
bychain, [i] † ac a'u gorchfygasoch hwy: ‡ o-
blegid [k] mwy yw yr hwn sydd ynoch chwi
nâ'r [l] hwn sydd yn y byd.

h adn. 6, 16. pen. 3. 9, 10. a 5. 19, 20. i pen. 2. 13. a 5. 4,

5. Eph. 6. 10—13. Dat. 12. 11. k adn. 13, 16. pen. 3. 24. Ioan 10. 28—30. a 14. 17—23. a 17. 23. Rhuf. 8. 10, 11. 1 Cor. 6. 19. 2 Cor. 6. 16. Eph. 3. 17. l pen. 5. 19. Ioan 12. 31. a 14. 30. a 16. 11. 1 Cor. 2. 12. 2 Cor. 4. 4. Eph. 2. 2. a 6. 12.

* Yr oedd y cristionogion hyn, y rhai yr oedd Ioan yn eu cyfarch mòr anwyl, o Dduw; wedi eu geni o Dduw, yn blant iddo, yn dwyn ei ddelw ef, ac yn glŷnu wrth ei wirionedd a'i ewyllys ef: † ac yr oeddynt wedi gorchfygu temtasiynau y gau-brophwydi a'r anghristiau, y rhai oedd o'r un drwg, ac yn ceisio eu hudo hwythau oddi wrth wirionedd a symlrwydd yr efengyl. Galluogwyd hwy i wrthsefyll eu hymosodiadau hwynt, ac i wrthod yn benderfynol eu gau-athrawiaethau dinystriol, ‡ trwy ddysgeidiaeth a chynnorthwy Ysbryd Crist, yr hwn oedd yn preswylio ynddynt; ac yr hwn oedd yn fwy galluog i'w cynnal a'u cadw hwynt, nag oedd yr ysbryd drwg, yr hwn oedd yn trigo ac yn gweithio yn y twyllwyr, ac yn yr holl fyd o anghredinwyr, i ymosod yn eu herbyn a'u niweidio hwynt.—Yr oedd gwyrthiau amlwg a rhyfeddol hefyd, yn gystal â bucheddau sanctaidd y gwir gristionogion a gweinidogion ffyddlawn, mewn llawer o fànau wedi rhoddi iddynt fanteision amlwg ar y gau-athrawon, a chwedi bod yn foddion i'w gŷru hwy ymaith dàn eu gwarth.

5 * Hwynt-hwy [m] o'r byd y maent: † [n] am hynny y llefarant am y byd, [n] ‡ a'r byd a wrendy arnynt.

m Salm 17. 14. Luc 16. 8. Ioan 3. 31. a 7. 6, 7. a 8. 23. a 15. 19, 20. a 17. 14, 16. Dat. 12. 9. n Es. 30. 10, 11. Jer. 5. 31. a 29. 8. Mica 2. 11. 2 Tim. 4. 3. 2 Pedr 2. 2, 3.

* O'r byd yr oedd y cyfeiliornwyr hyn mewn gwirionedd, er eu bod yn proffesu eu hunain yn gristionogion: perthyn yr oeddynt i deyrnas Satan; yr oeddynt o dymher ac ysbryd bydol; ac yn ymgeisio at enwogrwydd a manteision bydol. † Am hyny yr oeddynt yn "llefaru am y byd," yn gytunol â'i ddoethineb, ei resymau, a'i archwaeth; fel ag i beidio tramgwyddo, eithr boddâu, dynion cnawdol y rhai a garent y byd; ac i ddïogelu eu cyfeillgarwch hwynt, trwy wenieithio iddynt, a'u cryfâu mewn gau dawelwch, tra yr oeddynt yn coleddu eu chwantau bydol. ‡ Ar y cyfrif hyn yr oedd y "byd yn gwrando arnynt" gyda chymmeradwyaeth; yr oeddynt yn myned rhagddynt yn gyflym, yn cael llawer o ganlynwyr, ac yn hudo ymaith lawer o broffeswyr cnawdol ac annwadal cristionogaeth, oddi wrth y gwirionedd a'u hathrawon ffyddlawn.—Wrth "lefaru am y byd," efallai eu bod yn llefaru am deyrnas ddaearol y Messïah, yr hyn a ddysgwyliai yr Iuddewon yn enwedig, yn fawr iawn yn y dyddiau hyny.

6 [o] * Nyni o Dduw yr ydym. [p] † Yr hwn sydd yn adnabod Duw, ‡ sydd yn ein gwrando ni: ‖ yr hwn nid yw o Dduw, nid yw yn ein gwrando ni. [q] § Wrth hyn yr adwaenom [r] ysbryd y gwirionedd [s] ac ysbryd y cyfeiliorni.

o Gwel ar h. adn. 4.—Mica 3. 8. Rhuf. 1. 1. 1 Cor. 2. 12—14. 2 Pedr 3. 2. Judas 17. p adn. 8. Luc 10. 22. Ioan 8. 19, 45—55. a 10. 27. a 13. 20. a 18. 37. a 20. 21. 1 Cor. 14. 37. 2 Cor. 10. 7. 2 Thes. 1. 8. q Gwel ar adn. 1. Es. 8. 20. r Ioan 14. 17. a 15. 26. s Es. 29. 10. Hos. 4. 12. Mica 2. 11. Rhuf. 11. 8. 2 Thes. 2. 9—11.

* Gallai yr apostol ddywedyd yn hyderus am dano ei hun a'i frodyr "Nyni o Dduw yr ydym;" wedi ein geni o Dduw, a chwedi ein goleuo, ein cymmeradwyo, ein danfon, a'n harddelwi, gan Dduw, fel ei genadon a'i bobl wirioneddol ef: † a'r rhai hyny oedd yn adnabod Duw, o ran ei ras, ei sancteiddrwydd, a'i ogoniant; a chanddynt wybodaeth brofiadol i ryw fesur am dano, trwy adgenedliad, a ffydd yn ol yr efengyl; ‡ yr oedd y rhai hyny oll yn gwrando yr apostol a'i gydweinidogion, ac yn glŷnu wrth eu hathrawiaeth a'u haddysgiadau hwynt. ‖ Ond am y rhai nid oeddynt wedi eu geni o Dduw, ac nid oeddynt yn perthyn mewn gwirionedd iddo ef; nid oedd y rhai hyny yn gwrando arnynt hwy, eithr yn dàl ar chwedlau mwy gwenieithus a chnawd-foddlonus athrawon eraill. § Wrth yr arwydd hyn, gallai pawb ymofynwyr diduedd "adnabod Ysbryd y gwirionedd ac ysbryd y cyfeiliorni;" oblegid y rhai oedd dàn arweiniad Ysbryd y gwirionedd, yr oeddynt yn glŷnu wrth athrawiaeth yr apostolion, tra yr oedd eu gwir ddduwioldeb a'u sancteiddrwydd yn dangos yn eglur eu bod hwy o Dduw; ond y rhai oedd dàn arweiniad ysbryd cyfeiliorni, yr oeddynt yn gwrthwynebu athrawiaeth yr apostolion; ac yr oedd tymher ac ymarweddiad bydol y rhai a bregethent ac a dderbynient y cyfeiliornadau hyny, yn gystal a'r tuedd a'r effeithiau o honynt, yn dangos yn amlwg iawn, nad oeddynt hwy nâ'u crefydd ddim o Dduw.—Yr un peth yw prawf y gwirionedd hyd y dydd heddyw; ac nis gallwn ni, wrth unrhyw rëol arall, brofi yr ysbrydion, ai o Dduw y maent. Er bod yr apostolion oll wedi meirw; eto, fel y maent o hyd yn llefaru yn eu hysgrifeniadau ysbrydoledig, mae Ioan yn yr adnod uchod yn tystiolaethu, mai eu hysgrifeniadau hwy yw y prawf, wrth ba un y mae i ddysgyblion Crist farnu am athrawon a'u hathrawiaeth.

7 * Anwylyd, [t] carwn ein gilydd: † oblegid [u] cariad, o Dduw y mae; ‡ a [x] phob un a'r sydd yn caru, o Dduw y ganwyd ef, [y] ‖ ac y mae efe yn adnabod Duw.

t adn. 20, 21.—Gwel ar pen. 2. 10. a 3. 10—23.—a 5. 1. u adn. 8. Deut. 30. 6. Gal. 5. 22. 1 Thes. 4. 9, 10. 2 Tim. 1. 7. 1 Pedr 1. 22. x adn. 12.—Gwel ar pen. 2. 29. a 3. 14.—a 5. 1. y Ioan 17. 3. 2 Cor. 4. 6. Gal. 4. 9.

* Yn awr, i ddychwelyd at yr hyn oedd yr apostol yn ei fawr amcanu yn yr epistol hwn; mae efe yn cyngori ei frodyr, y rhai oedd yn anwyl gan Dduw a chanddo yntau, i fod yn ofalus a diwyd iawn, i feithrin a dangos y cariad mwyaf didwyll, a'r serch mwyaf gwresog a brawdol, tuag at eu gilydd a thuag at yr holl saint. † Oblegid yr oedd, ac y mae, y gras rhagorol hwn yn "ffrwyth yr Ysbryd," ac yn beth o Dduw ei hunan; yn cael ei genedlu, ei orchymyn, a'i gymmeradwyo ganddo ef. ‡ A phob un sydd yn gwrteithio, yn arfer, ac yn arddangos y gras hawddgar a gwerthfawr hwn; mae efe yn blentyn i Dduw, wedi ei adgenedlu gan ei Ysbryd sanctaidd ef; ‖ ac mae gan y cyfryw un adnabyddiaeth brofiadol, fwynâol, a thraws-ffurfiol, o berffeithiau ac ewyllys Duw, ac yn enwedig o'i gariad ef.—*Carwn ein gilydd:* dywedir, pan oedd yr apostol Ioan wedi myned yn hen, ac yn annalluog i bregethu, yr arferid ei arwain ef i'r eglwys yn Ephesus, pryd y dywedai efe y geiriau hyn yn unig wrth y bobl, *Blant bychain, cerwch eich gilydd.* Ac mae pwysfawrogrwydd y rheswm trwy ba un mae efe yn gwasgu *cariad,* yn cyfreithloni yr adddywediad o hóno mòr fynych.

8 * Yr hwn nid yw yn caru, [z] † nid adnabu Dduw: ‡ oblegid [a] Duw, cariad yw.

z adn. 20. pen. 2. 4, 9. Ioan 8. 54, 55. a adn. 16. pen. 1. 5. Exod. 34. 6, 7. Salm 86. 5, 15. Eph. 2. 4. Heb. 12. 29.

* Ar y llaw arall, yr hwn sydd yn amddifad o gariad brawdol, yn ddïeithr iddo, ac i'r arferiad o hóno; † nid adnabu efe erioed mo Dduw, ac ni wybu ddim am ei natur, ei briodoliaethau, nâ'i ewyllys sanctaidd ef: ‡ oblegid DUW, CARIAD oll yw: perffeithrwydd cariad yw efe, yn ei duedd-fryd, yn ei feddyliau, yn ei fwriadau, ac yn ei oruchwyliaethau o bob math, megys pe na byddai efe ddim ond cariad tuag at ei blant; a'i ewyllys ef yw, iddynt hwythau feithrin cariad, a chynnyddu mewn serch a brawdgarwch tuag at eu gilydd. Efe yw y Ffynon fawr, a'r Cynllun o gariad; mae yn ei orchymyn yn ei air, yn ei genedlu ac yn ei feithrin drwy ddylanwadau ei Ysbryd; ac mae iawn ystyriaeth ac adnabyddiaeth o hóno ef a'i gariad, yn naturiol yn gwresogi ein calonau ninnau â chariad tuag at ei Fawredd Dwyfol ef, a thuag at ein gilydd er ei fwyn ef, y rhai ydym ei grëaduriaid, ac yn enwedig ei blant mabwysiadol ac ysbrydol ef.—Aml y dywedir yn yr ysgrythyr fod Duw yn *sanctaidd,* yn *gyfiawn,* yn *dda,* ac yn *rasol,* yn *ddoeth,* yn *alluog,* yn *eirwir,* ac yn *ffyddlawn,* a'r cyffelyb; ond nid ydym yn cofio (medd *Guyse,*) y dywedir yn un màn, ei fod ef yn *sanctaidd-*

wydd, yn *gyfiawnder*, yn *ddaioni*, *&c.*, fel y dywedir
na ei fod ef yn *gariad:* yr hyn a ddichon arwyddo,
iai *cariad* yw ei briodoledd hoff a llywodraethol ef, yr
on sydd yn taenu y gogoniant mwyaf hawddgar ar ei
ll berffeithiau eraill ef, ac ar ei holl fwriadau a'i
ieithredoedd ef, gyda golwg ar iachawdwriaeth ei
obl.—Rhaid i ni ddeall hefyd, fod *cariad* Duw tuag at
echaduriaid, yn gweithredu mewn perffaith gysondeb
chyd-gordiad â'i *gyfiawnder*, ei *sancteiddrwydd*, a'i
irionedd ef; yr hyn sydd yn dangos cariad a phob
riodoledd arall yn Nuw, yn annhraethol fwy dysglaer
gogoneddus byth, nâ phe buasai cariad yn gweith-
du yn wrthwyneb i'r priodoliaethau hyny.

9 * Yn hyn [b] yr eglurwyd cariad Duw tu
g attom ni, † oblegid [c] danfon o Dduw ei
unig-anedig Fab i'r byd, [e] ‡ fel y byddem
yw trwyddo ef.

b pen. 3. 16. Ioan 3. 16. Rhuf. 5. 8—10. a 8. 32. c adn.
9. Luc 4. 18. Ioan 5. 23. a 6. 29. a 8. 29, 42. d Salm 2. 7.
a arc 12. 6. Ioan 1. 14—18. a 3. 18. Heb. 1. 5, 6. e pen. 5. 11.
oan 6. 57. a 10. 10, 28—30. a 11. 25, 26. a 14. 6. Col. 3. 3, 4.

* Dywedwyd uchod mai cariad yw Duw, ac yn hyn,
wchlaw pob peth arall, yr eglurwyd cariad rhyfeddol,
nad, a hunan-gynhyrfiol Duw, tuag atom ni ddynion
wrthiedig, aflan, gwrthryfelgar, ac euog; † oblegid
anfon o Dduw ei unig-anedig Fab i'r byd, mewn un-
eb â'n natur ni, [i] ac i farw ar y groes drosom ni; ‡ fel
prynai ni oddi wrth felltith y ddeddf, ac oddi wrth
pob anwiredd, ac y byddem ni y rhai ydym yn credu,
yw trwy ffydd ynddo ef yma, ac y caffem fywyd tragy-
yddol trwyddo a chydag ef yn y byd a ddaw.—Mae yn
nddangos yn yr adnod hon, fod Crist yn cael ei alw
m unig-anedig Fab Duw cyn ei gnawdoliad, neu ei
ddyfodiad i'r byd: a bod cariad Duw, yn y rhoddiad o'i
Fab ei hun i gymmeryd ein natur ni, i'r dyben o farw
ros ein pechodau; yn fwy anfeidrol ryfedd nag ydoedd
yd yn nôd ei roddi ef i farwolaeth drosom, *wedi* iddo
mgnawdoli, neu fel yr oedd yn *Ddyn*. Pan fwriad-
dd Duw yn ei anfeidrol dosturi a'i drugaredd, y fath
endith annhraethol â bywyd tragyweddol i ddynion
yrthiedig; yr oedd ei berffaith gyfiawnder a'i sanct-
iddrwydd yn gwneyd yn anmhosibl iddo roddi y fen-
ith hòno, (oblegid nis gall efe ei wadu ei hun,) heb i
awn gael ei wneuthur dros eu pechodau hwynt, a
hryd nad oedd ei anfeidrol ddoethineb ef yn gweled
r un ffordd arall i wneuthur hyn, neu yr un ffordd mòr
ddas, a danfon ei Fab ei hun i fod yn Fachnïydd
rosom ni, ac yn Aberth cymmodol dros ein pechodau;
[f] nid arbedodd efe ef;" "ond a'i danfonodd ef i'r byd,
el y byddem ni fyw trwyddo ef."

10 [f] * Yn hyn y mae cariad; [g] † nid am i
ni garu Duw, ‡ ond am iddo ef ein caru ni,
[h] ‖ ac anfon ei Fab *i fod* yn iawn dros ein
pechodau.

f Gwel ar adn. 8, 9. pen. 3. 1. g adn. 19. Deut. 7. 7, 8.
Ioan 15. 16. Rhuf. 5. 8—10. a 8. 29, 30. 2 Cor. 5. 19—21. Eph. 2.
4, 5. Tit. 3. 3—5. h pen. 2. 2. Dan. 9. 24. Rhuf. 3. 25, 26.
1 Pedr 2. 24. a 3. 18.

* "Yn hyn y mae cariad!"—Mae yn anmhosibl i
ddim o'n geiriau nâ'n meddyliau ni, wneuthur cyfiawn-
der â'r fath gariad rhad, helaeth, a rhyfeddol, o'r eiddo
w Duw sanctaidd tuag at bechaduriaid; i ba rai nid
oedd arno ef ddim dyled; y rhai nis gallent fod o ddim
lles na niwed iddo ef; y rhai y gallasai efe yn gyfiawn eu
llystrywio mewn tarawiad amrant; y rhai y dangoswyd
yn amlwg eu bod yn haeddu ei ddïaledd ofnadwy
ef, yn y drefn bennodol drwy ba un yr achubwyd
hwynt; sef yn y gosp annhraethol a roddwyd ar Grist
eu Machnïydd: a phryd y gallasai Duw â'i holl-nerthol
air, grëu bydoedd dirifedi, yn gyflawn o grëaduriaid
llawer mwy ardderchog, pe gwelsai yn dda i wneuthur
felly. Chwiliwn ni gan hyny yr holl fydysawd mawr am
GARIAD; yn yr amlygiad helaethaf, a mwyaf gogon-
eddus o hòno; rhaid i ni addef yn y diwedd, mai yn
Mherson a chroes Crist y mae i'w gael. "Yn hyn y
mae cariad," dysgleirdeb gogoneddus yr hwn sydd yn
tywyllu pob peth a welwyd yn mhob màn arall, o
ddechreuad y byd; ac yr hwn a fydd yn destyn pennod-
ol rhyfeddod, addoliad, a mawl yr holl waredigion, i
dragywyddoldeb diderfyn byth. † A oes cariad yn bod
rhwng Duw â phechaduriaid? Dyma ei darddiad ef:
"nid am i ni garu Duw;" oblegid yr oeddem ni yn el-
ynion i'w sancteiddrwydd ef, ei gyfraith, ei ben-ar-
glwyddiaeth, ei addoliad, a'i ragluniaeth; ‡ "ond am
iddo ef," yn y modd mwyaf rhad, helaeth, tosturiol,
maddeugar, a thrugarog, "ein caru ni;" ‖ ac anfon ei
Fab i fod yn iawn dros ein pechodau ni.—Yn y tro
rhyfeddol hwn, sef Duw yn ein caru ni, ac yn anfon ei
Fab i fod yn iawn dros ein pechodau, gwel pob crë-
aduriaid sanctaidd i dragywyddoldeb, mai CARIAD yw
DUW: a pho mwyaf y deallo pechaduriaid gwaredol y
testyn hwn, egluraf oll fydd eu syniadau hwy am y
cariad hwnw, yr hwn nis gellir byth ei amgyffred i
berffeithrwydd: cyd y dichon i'r rhai a gauant allan y
golygiad hyn ar gariad Duw, wybod rhywbeth am y
mater; ond nis gallant braidd wybod dim am ei wir
natur, ei effeithiau, a'i ogoniant.

11 * Anwylyd, [i] os felly y carodd Duw ni,
† ninnau hefyd a ddylem garu ein gilydd.

i pen. 3. 16, 17, 23. Mat. 18. 32, 33. Luc 10. 37. Ioan 13. 34.
a 15. 12, 13. 2 Cor. 8. 8, 9. Eph. 4. 31, 32. a 5. 1, 2. Col. 3. 13.

* Gan hyny, os felly y carodd Duw ni, fel ag i ddar-
par iachawdwriaeth i ni mewn ffordd mòr ryfeddol, ac
i'n dwyn ni i fod yn gyfranogion o hòni; † dylem nin-
nau yn sicr iawn garu ein gilydd, yn ol ei esampl ef,
ac mewn ufudd-dod i'w orchymyn ef; a dangos ein
cariad hwn, mewn pob ymddygiad maddeugar, hedd-
ychol, addfwyn, haelionus, a thosturiol, tuag at ein
gilydd.

12 * Ni [k] welodd neb Dduw erioed. † Os
[l] carwn ni ein gilydd, ‡ y mae Duw yn trigo
ynom, [m] ‖ ac y mae ei gariad ef yn berffaith
ynom.

k adn. 20. Gen. 32. 30. Ex. 33. 20. Num. 12. 8. Ioan 1. 18.
1 Tim. 1. 17. a 6. 16. Heb. 11. 27. l adn. 16.—Gwel ar pen. 3.
24. m adn. 17, 18.—Gwel ar pen. 2. 5.

* Oblegid "ni welodd neb Dduw erioed," o ran ei
hanfod ddwyfol; oddigerth bod i'r hwn a welodd Grist
weled y Tad hefyd; (Ioan 14. 9.) † am hyny y ffordd
oreu i ni brofi ein bod yn caru Duw yw, caru ei ddelw ef
yn ei bobl, a gwneuthur daioni iddynt hwy er ei fwyn
ef. ‡ Fel hyn ymddengys yn amlwg, fod Duw yn trigo
ynom, trwy ei Ysbryd yr hwn a'n hadnewyddodd, ac
sydd yn gweithio y cariad hwn yn ein calonau: ‖ ac
mae hyn yn brawf fod ei gariad ef wedi cyflawni ei
amcan, trwy ddwyn ei wir effeithiau priodol ei hun yn
ein calonau, ac yn ein hadnewyddiad i'w ddelw sanct-
aidd ef.—Mae hanfod Duw yn annweledig i'n llygaid ni,
ac yn anamgyffredadwy i'n meddyliau: ond trwy roddi
ein hunain i fynu i effeithiau grymus ei gariad ef, fel
ag i gael ein ffurfio ar ei ddelw ef ganddo, ac ymarfer
â charu ein gilydd; yr ydym yn dyfod i'w adnabod ef
yn y ffordd fwyaf hyfryd ac amgyffredadwy; yr ydym
felly yn cael profiad o'i bresenoldeb yn trigo ynom ac
yn gweithredu yn effeithiol arnom; trwy yr hyn mae
efe beunydd yn perffeithio ei ddelw ei hun ynom ac
arnom. Dyma'r ffordd fwyaf dymunol o adnabod Duw,
pryd, er nas gallwn ni ei *weled* ef yn mhell, ni a allwn
ei amgyffred ef yn deimladol, neu brofiadol, yn agos
atom, ac ynom.—Nid yw cariad Duw tuag atom ni,
nâ'n cariad ninnau tuag at Dduw, wedi ei berffeithio yn
hollawl yn y byd hwn, o ran cyrhaedd ei holl ddyben-
ion, na chyflawni ei holl effeithiau; ond gellir dywedyd
fod ei gariad ef a'r eiddom ninnau wedi ei berffeithio
ynom ni, yn debyg fel y dywedir fod ei nerth ef yn cael
ei berffeithio mewn gwendid, neu yn cael ei ddangos
yn fanteisiol iawn yn ein gwendid ni; (2 Cor. 12. 9.)
ac fel y dywedir fod ffydd wedi ei pherffeithio, neu ei
dangos yn wirioneddol, yn ddiragrith, ac yn ardderch-
og, trwy weithredoedd. (Iago 2. 22.)

13 * Wrth hyn [n] y gwyddom ein bod yn trigo ynddo ef, † ac yntau ynom ninnau, ‡ am ddarfod iddo roddi i ni o'i Ysbryd.

n adn. 15, 16.—Gwel ar pen. 3. 24.—Ioan 14. 20—26. Rhuf. 8. 9—17. 1 Cor. 2. 12. a 3. 16, 17. a 6. 19. Gal. 5. 22—25. Eph. 2. 20—22.

* Yr oedd yr apostol yn gwybod, a *gallasai* pawb o'r gwir gristionogion wybod, eu bod hwy yn trigo yn Nuw trwy ffydd, † ac yntau ynddynt hwythau fel yn ei deml gyssegredig, ‡ am ddarfod iddo roddi iddynt o'i Ysbryd, ı genedlu a meithrin ffydd a chariad yn eu heneidiau, ac i lewyrchu yn oleu ar ei waith ei hun yn eu calonau. Oblegid, heblaw y galluoedd gwyrthiol a roddasid i rai, yr oedd yr Ysbryd Glân wedi cyfnewid calonau yr holl wir gredinwyr yn y fath fodd, a chwedi eu gwneyd yn gyfranogion o dduwiol anian yn y fath fodd, fel yr oeddynt yn caru plant Duw â chariad sanctaidd, ac yn dilyn ei esampl ef yn eu hymddygiad tuag at eu gilydd. Mae yr undeb agos a thumewnol sydd rhwng Duw â'i bobl, i'w ganfod yn oreu trwy weithrediadau ei Ysbryd ef arnynt; yr hwn sydd Ysbryd cariad a phob daioni.

14 * A [o] ninnau a welsom, ac ydym yn tystiolaethu, [p] † ddarfod i'r Tad ddanfon y Mab *i fod* [q] yn Iachawdwr i'r byd.

o pen. 1. 1—3. a 5. 9. Ioan 3. 11, 32. a 5. 39. a 15. 26, 27. Act. 18. 5. 1 Pedr 5. 12. p Gwel ar adn. 10.—Ioan 3. 34. a 5. 36, 37. a 10. 36. q pen. 2. 1, 2. Ioan 1. 29. a 3. 16, 17. a 4. 42. a 12. 47.

* Dàn y dylanwadau a'r nerthoedd hyn, yr oedd yr apostolion ac eraill, y rhai a welsent Grist, ac a hirbrofasent o'i gariad ef, yn ei holl ffrwythau a'i gysuron anmhrisiadwy, yn tystiolaethu i'w cyd-bechaduriaid yn mhob màn, † ddarfod i'r Tad ddanfon ei Fab i fod yn Iachawdwr i'r byd: i roddi maddeuant, gras, a bywyd tragywyddol, i bob dyn, yn mhob lle, a geisio hyny gan y Tad, trwy aberth ac iawn y Mab, mewn gwir a bywiol ffydd yn ei enw a'i eiriolaeth ef. Wele yma dystiolaeth *llygaid,* (a ninnau a *welsom,*) a phrofiad hefyd, o gariad Duw yn danfon ei Fab i fod yn Iachawdwr i'r byd, yr hyn a gynnwys gymhelliad crŷf ac effeithiol i ninnau garu Duw, a charu ein gilydd.

15 * Pwy bynnag a [r] gyffeso fod Iesu yn Fab Duw, [s] † y mae Duw yn aros ynddo ef, ‡ ac yntau yn Nuw.

r adn. 2. pen. 5. 1, 5. Mat. 10. 32. Luc 12. 8. Rhuf. 10. 9. Phil. 2. 11. 2 Ioan 7. s Gwel ar adn. 12.—pen. 3. 24.

* Pwy bynag gan hyny, a glywai ac a dderbyniai y dystiolaeth uchod, ac a gyffesai o'r galon ac yn gyhoeddus, fod Iesu yn Fab Duw; gan gydnabod cariad y Tad yn yr oruchwyliaeth rasol hon, gan gwympo i mewn o'r galon â'r amcan a'r dyben o hóni, a chan anturio gelyniaeth dynion drygionus, mewn proffes o ffydd yr efengyl, ac ufudd-dod i'r Gwaredwr Dwyfol; † gallai pob un o'r cyfryw fod yn sicr, fod Duw yn aros ynddo ef, fel yn ei deml hoff ac anwyl, ‡ ac yntau yn aros yn Nuw, fel yn ei unig Noddfa a'i Orphwysfa, gadarn, glyd, a thawel byth.—*Pwy bynag a gyffeso:* nid oedd dim byd *tymmorol* yn y dyddiau boreuol hyny, yn annogaethol i broffesu cristionogaeth; gan hyny yr oedd y *rhan fwyaf* o'i phroffeswyr yn gweithredu oddi ar gydwybod: ac mewn barn cariad gellid gobeithio, eu bod mewn gwirionedd wedi eu *hadgenedlu.—Duw yn aros ynddo ef, ac yntau yn Nuw:* efallai bod Ioan yn cyfeirio yma at eiriau ein Harglwydd Iesu yn ei weddi ragorol, yn Ioan 17. 21—23.

16 * A [t] nyni a adnabuom ac a gredasom y cariad sydd gan Dduw tu ag attom ni. [u] † Duw, cariad yw: ‡ a'r hwn sydd yn aros mewn cariad, ‖ sydd yn aros yn Nuw, § a Duw ynddo yntau.

t Gwel ar adn. 9, 10. pen. 3. 1, 16.—Salm 18. 1—3. a 31. 19. a 36. 7—9. Es. 64. 4. 1 Cor. 2. 9. u Gwel ar adn. 8, 12, 13.

* Yr oedd pob gwir gristionogion wedi adnabod, deall, a phrofi, yn gystal â chredu, y cariad oedd gan Dduw, ac a ddangosodd efe tuag atynt hwy, yn y rhoddiad o'i Fab i'w prynu a'u gwaredu. † Fel hyn yr oedd yn ymddangos yn amlwg, fel y sylwyd o'r blaen ar adn. 8, (gwel yno,) mai cariad oll oedd Duw tuag atynt hwy, ac nad oedd dim llidiawgrwydd ynddo yn eu herbyn; ‡ a gallent gasglu yn sicr oddi wrth hyn, fod pwy bynag ag oedd yn byw ac yn aros, dàn effeithiau gwir gariad tuag ato ef, a thuag at ei blant er ei fwyn ef; ‖ yn aros yn Nuw, o ran cymdeithas âg ef a thebygrwydd iddo; § a Duw ynddo yntau, o ran ei Ysbryd, ei ddylanwadau, a llewyrch ei wyneb grasol.

17 * Yn hyn [x] y perffeithiwyd ein cariad ni, † fel [y] y caffom hyder [z] ddydd y farn: ‡ oblegid [a] megis ag y mae efe, yr ydym ninnau hefyd yn y byd hwn.

x Gwel ar adn. 12. pen. 2. 5. Iago 2. 22. y pen. 2. 28. a 3. 19—21. Iago 2. 13. z Mat. 10. 15. a 11. 22, 24. a 12. 36. 2 Pedr 2. 9. a 3. 7. a pen. 3. 3. Mat. 10. 25. Ioan 15. 20. Rhuf. 8. 29. Heb. 12. 2, 3. 1 Pedr 3. 16—18. a 4. 1—3, 13, 14.

Yr oedd i'r cariad uchod effaith traws-ffurfiol arnynt hwy, yn eu dwyn hwynt i debygu i Dduw, yn y natur a'r ffrwythau o'u cariad; yn eu dwyn i ymarferiad cyffredinol o'r gras sanctaidd hwn tuag at Dduw, tuag at eu gilydd, a thuag at bob dyn; ac yn eu dwyn i fyw yn yr undeb agosaf ac anwylaf â Duw ei hun. * Fel hyn yr oedd eu cariad hwy at Dduw wedi ei berffeithio, neu wedi dwyn ei ffrwythau diledryw a gwerthfawr, yn eu cariad at eu gilydd: † ac yr oeddynt yn meithrin y duedd sanctaidd hon, ac yn gweithredu oddi arni, fel y caffent hyder ddydd y farn, o ymddangos yn gymeradwy fel gwir gredinwyr ger bron Duw. ‡ Oblegid fel yr oedd Crist, felly yr oeddynt hwythau hefyd yn y byd hwn: megys efe, yr oeddynt hwythau yn cael eu cymhell gan gariad sanctaidd i wneuthur daioni i eraill mewn modd hunan-ymwadol; ac, er cael eu trin gyda dirmyg, gwarth, a gelyniaeth, yr oeddynt yn dyoddef yn addfwyn ac amyneddgar, ac yn parâu i wneuthur da yn wyneb drwg, fel y gwnaethai yntau. Neu, fel y mae Duw, yr oeddynt hwythau hefyd yn y byd hwn; yr oeddynt yn dwyn ei ddelw ef, yr hon oedd y byd yn gasâu: oblegid dichon mai hyn yw meddwl y geiriau, ac mae yn gyd-redawl â'r sylwadau blaenorol. —*Hyder ddydd y farn:* y dydd y caent eu barnu am eu crefydd gan swyddwyr gwladol, medd rhai; ond dydd y farn ddiweddaf, yn yr ystyr gyffredin o'r geiriau, mae yn debyg, oedd Ioan yn feddwl.

18 [b] * Nid oes ofn mewn cariad; † eithr y mae perffaith gariad yn bwrw allan ofn: ‡ oblegid [c] y mae i ofn boenedigaeth. [d] ‖ *A'r* hwn sydd yn ofni, § ni pherffeithiwyd mewn cariad.

b Luc 1. 74, 75. Rhuf. 8. 15. 2 Tim. 1. 7. Heb. 12. 28. c Job 15. 21. Salm 73. 19. a 88. 15, 16. a 119. 120. Iago 2. 19. d Gwel ar adn. 12.

* Mae y cariad hwn o'r fath natur hyfrydol, fel, er bod ynddo bob amser ofn parchus, mabaidd, a sanctaidd ger bron Duw, a gocheliad ofnus rhag ei ddigio ef; eto, fel mae y saint yn "gwybod eu bod wedi eu symmud o farwolaeth i fywyd," (pen. 3. 14.) nid oes yn eu cariad ddim ofn anymddiriedol, annobeithiol, a dychrynllyd, ger bron Duw, fel pe byddai efe yn elyn iddynt: nid oes ynddo ddim o ddychryn yr annuwiol, yr hwn sydd yn ofni Duw fel Barnwr yn unig; ac yn arswydo pechu yn unig rhag ofn cospedigaeth. † Ond y mae gwir a pherffaith gariad tuag at Dduw, a thuag at ei bobl er ei fwyn ef, yn enwedig pan ddyrchafo i'w radd uwchaf a gwresocaf, dàn deimlad sicr o gariad Duw tuag atom ni; yn bwrw allan, ac yn dëol ymaith, bob ofn euog, anhyderus, a deddfol: ‡ oblegid mae i'r fath hyn o ofn deimladau poenus iawn, hollawl anghyson â'r prawf mwynâol o gariad Duw tuag atom ni, ac â hyfrydwch, pleser, a hyder ein cariad ninnau

uag ato ef. || A'r canlyniad eglur o hyn oll ydyw, fod
hwn sydd yn ofni yn wasaidd a deddfol, fel pe
yddai Duw yn elyn iddo; § heb gael ei berffeithio eto
ewn gwir gariad mabaidd ac efengylaidd, yr hwn
rdd yn tarddu oddi ar ffydd, ac yn ystyried Duw fel
Dad cymmodol yn Nghrist Iesu, ac fel y gwrth-
drych hawddgaraf ynddo ei hun, ac yn ei gariad
uag atom ni.

19 * Yr ydym ni [e] yn ei garu ef, † am
ddo ef yn gyntaf ein caru ni.

e Gwel ar adn. 10. Luc 7. 47. Ioan 3. 16. 2 Cor. 5. 14, 15.
Gal. 5. 22. Eph. 2. 3—5. Tit. 3. 3—5.

* Mae ein cariad ni ato ef yn cael ei ennyn gan, ac
n ffrwyth ac effaith ei gariad ef tuag atom ni. Efe
edd yn gyntaf yn ei gariad tuag atom ni; yr hwn oedd
dragywyddoldeb yn ymhyfrydu yn ei holl feddyliau, ei
faeth, a'i drefniadau, i'w ogoneddu ei hun yn ein
adferiad a'n hiachawdwriaeth ni drwy ei Fab; a'r hwn
ariad yw gwreiddiol achos a chynllun ein holl gariad
ī tuag ato ef. † A'r amlygiadau o'i gariad ef tuag atom
ī, a'n teimlad ni o hóno, a'n myfyrdodau am dano, yw
cynhyrfion nerthol i'n cariad ni drachefn tuag ato ef:
oedd ein calonau ni o'r blaen wedi ymddieithrio
ddi wrtho ef, ac ni ddaethem byth i'w garu ef, oni
nasai iddo ef yn gyntaf ein caru ni, a rhoddi i ni ryw
nlygiadau o hóno, i'n dwyn ni i'w garu ef drachefn.
—Nid caru Duw fel *taledigaeth* am ei gariad blaenor-
wl ef, mae y saint; deddfol a hunanol fuasai hyny:
nd maent hwy yn ei garu ef o wir egwyddor ac anian,
dis gallent beidio, am fod cariad Duw wedi ei dywallt
n eu calonau, ac yn eu cymhell hwy i garu.

20 * Os [f] dywed neb, Yr wyf yn caru
Duw, ac efe yn casâu ei frawd, † celwyddog
ww: ‡ canys yr hwn nid yw yn caru ei frawd
r hwn a welodd, || pa fodd y gall efe garu
Duw [g] yr hwn nis gwelodd?

f Gwel ar pen. 2. 4. a 3. 17. g Gwel ar adn. 12.

* Dylid ystyried cariad Duw yn Nghrist, wedi ei gen-
illu yn nghalonau cristionogion gan ysbryd mabwys-
iad, fel y prawf mawr a phenaf o'u gwir ddychweliad
wynt: eto rhaid profi y cariad hwnw hefyd wrth ei
rwythau, yn eu tymher a'u hymddygiad hwy tuag at
n brodyr. Oblegid os bydd dyn yn proffesu ei fod yn
aru Duw, ac eto yn casâu ei frawd, yn coledd digofaint
n gyffredin tuag ato, yn dangos tymher genfigenus a
unanol, neu ddirmyg a chas at ddelw Duw yn ei
ant; † celwyddog yn ddïammau yw efe yn ei broffes,
ae ei ysbryd a'i ymddygiad yn gwbl groes i'r hyn oll
ddywed yr ysgrythyrau sanctaidd am garu Duw, yr
yn hefyd a gynnwys gariad at bawb sydd yn dwyn ei
delw ef ac yn perthyn iddo. Nid yn unig mae efe yn
elwyddog yn erbyn ei broffes ei hun, ond mae hefyd
n gelwyddog yn erbyn yr efengyl, ac yn erbyn holl
aith yr Ysbryd Glân ar eneidiau y saint. ‡ Oblegid
na bydd dyn yn caru delw sanctaidd Duw ar "ei
awd, yr hwn a welodd," ac ymddygiad da yr hwn sydd
n ganfyddadwy ac yn fanteisiol iddo, ac a ddylai fod
n anwyl ganddo; neu os gwrthyd efe ddangos tirion-
eb i'w frawd mewn caledi, ac efe yn gweled ei galedi
, ac yn gwybod mai hyn yw un ffordd orchymynedig
ddo ddangos ei gariad at Dduw; || pa fodd y gellir
eddwl ei fod ef yn "caru Duw yr hwn nis gwelodd,"
erffeithiau yr hwn nis gall efe ond eu hystyried yn an-
lherffaith o bell, yr hwn nid yw yn weledig bresenol
w gynhyrfu ef i weithredoedd priodol o gariad, ac yr
wn nis gall fod mewn angen, na derbyn dim lles, oddi
rth ei wasanaeth ef.—Gellid meddwl fod yr apostol yn
tyried yma, fod dynion yn *fwy tueddol i garu eu cyd-
rëaduriaid* nag ydynt i *garu Duw;* a barn rhai dynion
yw, ein bod yn ymestyn i *gariad at Dduw*, oddi ar
riad at ein cyd-grëaduriaid; fel yr ydym yn dyfod i
ybodaeth am Dduw, trwy yr wybodaeth am y crëadur-
iid.

21 * A'r [h] gorchymyn hwn sydd gennym
oddi wrtho ef; † Bod i'r hwn sydd yn caru
Duw, garu ei frawd hefyd.

h adn. 11. pen. 3. 11, 14, 18, 23. Lef. 19. 18. Mat. 22. 37—39.
Marc 12. 29—33. Luc 10. 27. Ioan 13. 34, 35. a 15. 12. Rhuf. 12.
9, 10. a 13. 9, 10. Gal. 5. 6, 14. 1 Thes. 4. 9. 1 Pedr 3. 8. a 4. 8.

Yn ol yr athrawiaeth uchod, (adn. 20.) nid yw y broffes o garu Duw, pryd mae caru y brodyr yn cael ei esgeuluso, ond megys mantell o hunanolrwydd, neu esgus rhagrithiol dros nwydau digofus: * oblegid hwn yw y gorchymyn pennodol sydd genym ni oddi wrth Dduw; (pen. 3. 23.) † bod i'n cariad ni tuag ato ef, gael ei ddangos a'i brofi, trwy ein cariad tuag at ein brodyr: bod i'r hwn a ddywed ei fod yn caru Duw, garu ei frawd hefyd, i brofi gwirionedd ei ddywediad a'i broffes. Ond pa fodd y gellir tybied fod y dyn hwnw yn caru Duw, yr hwn sydd yn wastadol yn tòri ei orchymyn ef, ac yn gweithredu yn gwbl groes i'w esampl hawddgaraf ac anwylaf ef? Yr un gorchymyn dwyfol sydd am garu Duw â charu ein brodyr; am hyny y pethau a gyssylltodd Duw, nis gall dynion eu gwahanu.

PEN. V.

Y neb sydd yn caru Duw, sydd yn caru ei blant ef hefyd, &c.

* POB un a'r sydd yn [a] credu mai Iesu yw y Crist, † o Dduw [b] y ganed ef: ‡ a [c] phob un a'r sydd yn caru yr hwn a genhedlodd, || sydd yn caru hefyd yr hwn a genhedlwyd o hono.

a pen. 2. 22, 23. a 4. 14, 15. Mat. 16. 16. Ioan 1. 12, 13. a 6. 69. Act. 8. 37. Rhuf. 10. 9, 10. b adn. 4. pen. 2. 29. a 3. 9. a 4. 7. c pen. 2. 10. a 3. 14, 17. a 4. 20. Iago 1. 18. 1 Pedr 1. 3, 22, 23.

* Pob un a'r sydd yn gwir gredu o'i galon mai Iesu yw y Messïah addawedig, ac sydd yn ei dderbyn, yn ei anrhydeddu, ac yn ufuddâu iddo ef fel y cyfryw, yn ol rhagfynegiadau yr Hen Destament, a thystiolaeth yr apostolion am dano ef; † o Dduw y ganed ef yn ddïammau: oblegid rhaid mai effaith bywyd ysbrydol a dwyfol yw y ffydd hon, ac nis gellir ei gwahanu oddi wrth edifeirwch, cariad, a grasau eraill, neu y ffrwythau da hyny sydd yn deilliaw o honynt, ac oll yn perthyn i'r crëadur newydd, yr hwn a aned o Dduw. Ac mae pob un sydd yn gwir broffesu y ffydd hon, a hawl ganddo i'r cariad hwnw, yr hwn sy ddyledus ar gristionogion tuag at eu gilydd, pa wahaniaeth bynag oedd o'r blaen yn eu cymmeriad hwynt, eu doniau, eu graddau, a'u sefyllfâoedd. ‡ Oblegid pob un a'r sydd yn caru Duw, Tad yr holl rai ad-genedledig, yr hwn a genedlodd; || rhaid iddo hefyd garu pob un o'i blant ef, y rhai a genedlwyd o hóno; fel mae dynion yn gyffredin yn caru ac yn dangos tiriondeb i blant eu hanwyl gyfeillion, a'u cymmwynaswyr haelionus. *O Dduw y ganed ef:* efallai bod yr apostol yn cyfeirio yma at ymffrost wâg yr Iuddewon, mai hwy oedd plant Duw, tra yr oeddynt yn gwrthod Crist yn ddïystyrllyd, ac yn tywallt y gwarth mwyaf ar ei enw a'i achos ef.

2 * Yn hyn y [d] gwyddom ein bod yn caru
plant Duw, † pan fyddom yn caru Duw, ‡ ac
yn cadw ei orchymynion ef.

d pen. 3. 22—24. a 4. 21. Ioan 13. 34, 35. a 15. 17.

Ond gan y gellid ffug-rithio pob gras, yr oedd yn angenrheidiol sylwi, y gellid gwahaniaethu y gwir gariad hwn o'r eiddo plant Duw, oddi wrth bob cymmwynasgarwch naturiol, neu ymlŷniad pleidiol, trwy ei gyssylltiad anwahanol ef wrth gariad Duw; ac wrth yr ufuddod uniawn a siriol a roddid i holl orchymynion Duw. —* Mae yn arwydd eglur, ein bod yn caru plant Duw, â gwir gariad cristionogol, yn unig ar gyfrif eu perthynas âg ef a'u tebygrwydd iddo; † pan fyddo y cariad hwnw yn deilliaw oddi ar gariad at Dduw ei hunan; ‡ yr hwn sydd yn ein tueddu ac yn ein rhwymo ni i ym-

gais yn ddiragrith, trwy ei ras ef, i fyw mewn pob ufudd-dod sanctaidd i'w orchymynion ef, am y ddyledswydd hon o garu, a phob dyledswydd arall.

3 * Canys [e] hyn yw cariad Duw; † bod i ni gadw ei orchymynion: [f] ‡ a'i orchymynion ef nid ydynt drymion.

e Ex. 20. 6. Deut. 5. 10. a 7. 9. a 10. 12, 13. Dan. 9. 4. Mat. 12. 47—50. Ioan 14. 15, 21—24. a 15. 10, 14. 2 Ioan 6. f Salm 19. 7—11. a 119. 47, 48, 103, 104, 127, 128, 140, 143, 174. Diar. 3. 17. Mica 6. 8. Mat. 11. 28—30. Rhuf. 7. 12, 22. Heb. 8. 10.

* Canys hyn yw natur, tuedd, effaith, ïe, hyn yw megys hanfod cariad at Dduw; † bod i ni gadw ei orchymynion ef yn ddiragrith, mewn gwir ufudd-dod siriol ac ewyllysgar o'r galon: ‡ ac fel mae ei orchymynion ef yn "gyfiawn, yn sanctaidd, ac yn dda," yn gyfraith rhyddid a dedwyddwch; felly nid ydynt yn drymion nac yn ofidus i'r rhai sydd wedi eu geni o Dduw, ac sydd yn ei garu ef, ac yn ymhyfrydu mewn ufudd-dod iddo: eu gofid mwyaf hwy yw, nas gallant ei wasanaethu ef yn berffeithiach.—Mae yn wir fod y llygredd naturiol sydd yn nghalon pob dyn, yn nghyd â rhwystrau a phrofedigaethau allanol hefyd, yn ei gwneyd yn anhawdd hyd yn nôd i'r saint i gadw orchymynion Duw; ond mae ynddynt hwy egwyddor sydd yn eu dwyn trwy yr holl rwystrau hyny.

4 * Oblegid [g] beth bynnag a aned o Dduw, † y mae yn [h] gorchfygu y byd: ‡ a hon yw yr oruchafiaeth sydd yn gorchfygu y byd, *sef* ein ffydd ni.

g Gwel ar adn. 1. pen. 3. 9. h adn. 5. pen. 2. 13—17. a 4. 4. Ioan 16. 33. Rhuf. 8. 35—37. 1 Cor. 15. 57. Dat. 2. 7, 11, 17, 26. a 3. 5, 12, 21. a 12. 11. a 15. 2.

* "Oblegid beth bynag a aned o Dduw," sef yr anian newydd a duwiol hòno a gyfrenir yn yr ad-genedliad; † mae hon yn tueddu yn rymus at Dduw a sancteiddrwydd, ac yn cynnwys yn ei hanfod y fath ddeall a barn ysbrydol, a'r fath serchiadau nefol; fel y mae pawb sydd yn feddiannol arni, yn cael eu gwneyd yn fuddugoliaethwyr ar y byd trwyddi; ac felly yn gorchfygu eu cariad naturiol eu hunain at ei anrhydedd, ei gyfoeth, ei bleserau, ei wychder, a'i gyfeillach; ac yn gorchfygu hefyd eu hofnau naturiol o ŵg, cynddeiriogrwydd, a dirmyg dynion annuwiol y byd. ‡ Yn nghaffaeliad y fuddugoliaeth anrhydeddus hon, ffydd sydd yn benaf ar waith: hi sydd yn tynu ac yn deilliaw nerth o Grist, trwy yr hwn mae y saint yn ymddiried ynddo ef ac yn Nuw trwyddo ef, ac yn cael golygiadau a gobaith sicr a mwynaol, o ddedwyddwch anghymarol uwch yn y byd a ddaw, nag sydd bosibl iddynt hwy ei gael nâ'i golli yn y byd hwn. Heb. 10. 34; a 11. 1.—*Beth bynag a aned o Dduw:* mae rhai yn darllen, *Pwy* bynag, &c., neu *pob un*, a aned o Dduw: nid yw y gwahaniaeth o bwys mawr.

5 * Pwy yw yr hwn sydd yn gorchfygu y byd, [i] † ond yr hwn sydd yn credu mai Iesu yw Mab Duw?

i Gwel ar a. adn. 1. pen. 4. 15.

* Mae y fuddugoliaeth uchod yn briodol i gredinwyr *yn unig;* gallwn heriaw yr holl ddaear, i ddangos cymmaint ag un dyn, mewn un oes na chenedl, yr hwn ni chredodd yn Mab Duw, a orchfygodd y byd yn mhob ystyr fel mae y eredadyn yn ei orchfygu. Mae pawb ond y credinwyr yn Nghrist yn unig, yn gaethion gwastadol, mewn rhyw ystyr a'i gilydd, i arferion, dàliadau, neu fanteision y byd; ac nid oes neb arall a feiddia weithredu yn mhob peth, yn ol goleu ac argyhoeddiadau ei gydwybod ei hun, heb gael ei ŵyro gan ddull cyffredin y byd, gan ei gyfeillion neillduol ei hun, ac weithiau gan dylwyth ei dŷ ei hun. † Efe, ac efe yn unig, a all wneyd hyn, "yr hwn sydd yn credu mai Iesu yw Mab Duw," ac sydd yn ymddiried ynddo ef am iachawdwriaeth, yn ol yr ysgrythyrau: mae ei ffydd ef, yn nghyd â chariad gostyngedig, ysbrydolrwydd meddwl, ofn bod yn ol am iachawdwriaeth, casineb at bechod, parch gwastadol i esampl ei Arglwydd, difaterwch am bethau daearol, ac ystyriaeth bwysig o gyflwr truenus holl ddynion y byd; yn rhoddi iddo y fuddugoliaeth hon. Mae y credadyn yn mhob peth yn wastadol yn gweithredu yn ol cyfarwyddyd ei gydwybod ei hun, a gorchymynion ei Arglwydd, pa ganlyniadau bynag a ddelo; a phan fradycher ef i ŵyro oddi wrth y rhëol hon yn ddamweiniol, mae yn edifarâu yn chwerw am hyny, ac yn ymgais i ufuddâu o'r newydd; ac felly yn ennill y fuddugoliaeth o'r diwedd.

6 [k] * Dyma yr hwn a ddaeth [l] trwy ddwfr a [m] gwaed, *sef* Iesu Grist; † nid trwy ddwfr yn unig, ‡ ond trwy ddwfr a gwaed. [n] A'r Yspryd yw yr hwn sydd yn tystiolaethu, § oblegid yr Yspryd [o] sydd wirionedd.

k Ioan 19. 34, 35. l Es. 45. 3, 4. Ezec. 36. 25. Ioan 1. 31—33. a 3. 5. a 4. 10, 14. a 7. 38, 39. Act. 8. 36. Eph. 5. 25—27. Tit. 3. 5. 1 Pedr 3. 21. m pen. 1. 7. a 4. 10. Lef. 17. 11. Zec. 9. 11. Mat. 26. 28. Marc 14. 24. Luc 22. 20. Ioan 6. 55. Rhuf. 3. 25. Eph. 1. 7. Col. 1. 14. Heb. 9. 7, 14. a 10. 29. a 12. 24. a 13. 20. 1 Pedr 1. 2. Dat. 1. 5. a 5. 9. a 7. 14. n adn. 7, 8. Ioan 14. 17. a 15. 26. 1 Tim. 3. 16. o Ioan 14. 6. a 16. 13.

* Gwedi i'r apostol grybwyll am Iesu Mab Duw, yn yr adnod o'r blaen, mae efe yma yn sylwi mai hwn oedd yr Iachawdwr eneiniedig, "yr hwn a ddaeth trwy ddwfr a gwaed." Megys y dechreuodd efe ei weinidogaeth ar y ddaear, pan fedyddiwyd ef â dwfr gan Ioan, ac y dybenodd efe hi trwy dywallt ei waed ar y groes; felly, ar ol ei farwolaeth, daeth allan "ddwfr a gwaed" o'i ystlys wanedig ef; fel yn arwyddol o symmudiad ein heuogrwydd ni trwy ei aberth cymmodawl ef; a glanâd ein heneidiau trwy ei ras ef, yn ol ei esampl, ac yn ol ei orchymynion ef. † Oblegid efe a ddaeth i achub pechaduriaid, "nid trwy ddwfr yn unig"—nid *yn unig* trwy ddysgu iddynt ffordd sancteiddrwydd, a'u galluogi hwynt i rodio ynddi; ‡ "ond trwy ddwfr a gwaed;" trwy wneyd iawn dros eu pechodau, ac fel hyny agoryd ffordd i'w sancteiddiad, a chymmeradwyaeth eu personau, a'u gweithredoedd o ffydd a chariad. ‖ I hyn tystiolaethodd yr Ysbryd Glân, yn y gwyrthiau a wnaid gan y rhai a bregethent yr athrawiaeth hon, ac hefyd yn mucheddau sanctaidd, dyoddefiadau amyneddgar, a chysuron helaeth, y rhai a dderbyniasent yr athrawiaeth uchod. § Am y dystiolaeth hon o eiddo yr Ysbryd, i athrawiaeth iawn Crist, fel Mab Duw wedi dyfod yn y cnawd, i achub pechaduriaid trwy dywalltiad ei waed; nis gellid gwrth-ddadlau yn ei herbyn na'i gwrthod; oblegid yr Ysbryd sydd wirionedd, ïe, gwirionedd hanfodol ei hun, yr hwn nid yw yn bosibl iddo dwyllo, na chael ei dwyllo.—*Dyma'r hwn a ddaeth trwy ddwfr a gwaed:* heblaw a ddywedwyd eisoes ar y geiriau hyn, gallwn sylwi, eu bod hefyd yn cyfeirio efallai, at y ddau sacrament, o fedydd a swper yr Arglwydd; bedydd â dwfr, yr arwydd allanol o ad-genedliad, a sancteiddiad oddi wrth halogrwydd pechod, trwy yr Ysbryd Glân; a swper yr Arglwydd, fel yr arwydd allanol o ddrylliad ei gorph a thywalltiad ei waed ef, a'r derbyniad o hóno ef trwy ffydd, er maddeuant a chyfiawnâd. Tybia rhai bod y geiriau yn cyfeirio at y *golchiadau allanol* a'r *aberthau* Iuddewig: ond nid oes yr un o'n Hawdwyr yn cyd-weled â hyny, oddigerth bod y pethau hyny yn gysgodau o'r dwfr a'r gwaed trwy ba rai y daeth yr Iesu.

7 * Oblegid y mae tri yn [p] tystiolaethu yn y nef; [q] † y [r] Tad, [s] ‡ y Gair, ‖ a'r [t] Yspryd Glân: [u] § a'r tri hyn un ydynt.

p adn. 10, 11. Ioan 8. 13, 14. q Salm 33. 6. Es. 48. 16, 17. a 61. 1. Mat. 3. 16, 17. a 28. 19. 1 Cor. 12. 4—6. 2 Cor. 13. 14. Dat. 1. 4, 5. r Mat. 3. 17. a 17. 5. Ioan 5. 26. a 8. 18, 54. a 10. 37, 38. a 12. 28. s Gwel ar pen. 1. 1. Ioan 1. 1, 32—34. t Gwel ar adn. 6.—Mat. 3. 16. Ioan 1. 32, 33. Act. 2. 33. a 5. 32. Heb. 2. 3, 4. u Deut. 6. 4. Mat. 28. 19. Ioan 10 30.

* Yr oedd y gwirioneddau uchod am Berson ac iachawdwriaeth Crist, wedi cael eu tystiolaethu, ac yn cael eu tystiolaethu, yn y modd mwyaf annwrthodadwy. Oblegid yr oedd Tri yn tystiolaethu yn y nef, y breswylfa sanctaidd, yn mha un mae presenoldeb a gogoniant Duw yn cael ei egluro yn arbenig: † "Y Tad," yr

wn amryw weithiau, mewn llais a geirian eglur o'r
ef, a dystiolaethodd fod Iesu yn anwyl Fab iddo, yn yr
wn y boddlonwyd ef; ac a dystiolaethodd i'r un gwir-
nedd, yn gystal ag i'w gymmeradwyaeth o'i aberth ef,
wy ei gyfodi ef oddi wrth y meirw: ‡ "Y Gair," yr
wn oedd ei hun yn Dduw, yn gystal ag o'r dechreuad
da Duw; yr hwn a dystiolaethodd ei fod EF â'r Tad
n Un; fod yr hwn a'i gwelsai ef wedi gweled y Tad, ac
tywalltai efe ei waed yn bridwerth dros lawer; tra yr
edd ei wyrthiau ef, a'r cyflawniad o hen brophwydol-
ethau ynddo ef, y cyflawniad o'i rag-ddywediadau ei
un yn ei adgyfodiad, yn nghyd âg amryw bethau
raill; yn dangos fod ei dystiolaeth ef yn ddwyfol, ac
ldo ddyfod o'r nef mewn undeb â dynoliaeth, i dyst-
olaethu y gwirioneddau hyn i ddynion: || "A'r Ysbryd
lân," yr hwn a ddisgynodd o'r nef yn rhith colomen,
a orphwysodd ar Grist yn ei fedydd; yr hwn a dyst-
olaethodd iddo neu am dano ef, trwy enau ei holl brod-
hwydi o ddechreuad y byd; ac yr hwn a ddeilliodd
ddi wrth y Tad a'r Mab, i dystiolaethu ei adgyfodiad
'i esgyniad ef i'w orsedd gyfryngol, trwy y ddawn o
afodau dieithr, a galluoedd gwyrthiol eraill, a gyfran-
dd efe i'r apostolion ar ddydd y pentecost. § Y Tri
nyst dwyfol hyn, er eu bod yn bersonau gwahanol,
Un ydynt;" o ran Undeb y Duwdod, yn y modd mwyaf
irgelaidd ac anamgyffredadwy.—*Y Tad:* Matth. 3. 16,
77; a 17. 5; Ioan 12. 28. *Y Gair* ei hun: Act. 7. 55,
56; a 9. 3, 4; Dat. 1. 10, &c. *Yr Ysbryd Glân:* Ioan
. 32, 33. Felly *Doddridge*, ond mae cyfeiriadau *Scott*
m llawer lliosocach.

8 * Ac [x]y mae tri yn tystiolaethu ar y
ddaear; [y]† yr ysbryd, ‡ y dwfr, || a'r gwaed:
§ a'r tri hyn yn un y maent *yn cyttuno.*

x Gwel ar adn. 7. y Gwel ar adn. 6.—Mat. 26. 26—28. a
13. 19. huf. 8. 16. Heb. 6. 4. z Marc 14. 56. Act. 15. 15.

* Yr oedd hefyd dri yn tystiolaethu ar y ddaear,
negys yn parâu tystiolaeth y Tad, y Gair, a'r Ysbryd
Glân, preswylfa neilluol pa rai sydd yn y nef, a thyst-
olaeth pa rai oedd yn union-gyrchol oddi yno: † sef
yr Ysbryd," yn y galluoedd gwyrthiol a gyfranodd efe
ir dysgyblion, trwy arddodiad dwylaw yr apostolion;
rn effaith sancteiddâol eu hathrawiaeth hwy; yn ymar-
weddiad a chysuron sanctaidd cristionogion; ac yn y
rophwydoliaethau a draddodwyd i eglwys y Testament
Newydd, y rhai a gaent eu cyflawni o oes i oes: ‡ "Y
wfr," neu yr ordinâd ddechreuawl o fedydd, trwy
ddwfr, yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân: || "a'r
waed," neu swper yr Arglwydd, yr hon a ordeiniwyd
el cofiant a thystiolaeth o angau ac aberth Crist, hyd
i ail-ddyfodiad ef; ac yr hon sydd yn tystiolaethu yn
astadol, y gellir cael maddeuant ac iachawdwriaeth,
rwy ffydd yn ei waed aberthawl a chymmodawl ef, yr
wn a elwir Emmanuel, yr hwn sydd "Dduw wedi
mddangos yn y cnawd," a'r hwn yn sicr a ddaw i farnu
byd; ond nas gellir cael y bendithion hyny mewn un
nodd arall. § "A'r tri hyn," er nad ydynt yn *un mewn*
natur neu *hanfod*, fel y Tad, y Gair, a'r Ysbryd Glân;
to maent yn un yn cytuno, mewn perffaith gysondeb a
hyd-gordiad, i ddwyn yr un a'r unrhyw dystiolaeth
marferol rhyngddynt a'u gilydd ar y ddaear, a chyda'r
Yri dwyfolion yn y nef; mai Crist yw y gwir, y cyflawn,
'r unig Waredwr i bechaduriaid.—Fel y mae cyflawn-
ad y prophwydoliaethau a gynnwysir yn y Testament
Newydd, yn llawn gyfarbwyso peidiant y doniau
wyrthiol; felly mae y tystiolaethau dwyfol hyn i'r
thrawiaeth ysgrythyrol am Berson Crist, a'r ddwy brif
an sylfaenol o'i iachawdwriaeth ef, iawn dros bechod
glanâd oddi wrtho; yn parâu hyd y dydd hwn, ac i
arâu hyd ddiwedd y byd: ac mae genym ni yn bresen-
ol dystiolaeth gyflawn o'r gwirioneddau hyn, am y rhai
tystiolaethodd ein Tad yn y nefoedd, y Gair wedi
mgnawdoli, a'r Ysbryd Glân, yn ddigyfrwng i'r crist-
onogion cyntaf.—Dadleuwyd llawer erioed, am y
eithfed adnod uchod; pa un a oedd yn ysgrif gyntefig
naol ai nid oedd: mae yn debyg nad ydyw i'w chael yn
amryw eiluniau *(copies)* o'r epistol hwn yn y Groeg, a
hyny sydd wedi bod yn achos o'r ddadl rhwng yr
Undodiaid a'r Trindodiaid. Ond mae y dynion a chwil-
iasant fanylaf i'r mater, wedi cael llawn foddlonrwydd,
mai ei *gadael allan* a wnaed yn yr eiluniau hyny, trwy
wall ac esgeulusdra rhyw ad-ysgrifenydd, neu ynte yn
fwriadol, gan wadwyr athrawiaeth y Drindod: ac mae
hyny yn llawer tebycach nag i neb Trindodiaid ryfygu
ei *chwanegi at*, a'i *gosod i mewn* yn yr epistol: yn enw-
edig gan fod athrawiaeth y Drindod i'w chael mòr
eglur, mewn aneirif fànau eraill o'r Testament Newydd.
Heblaw hyny hefyd, darllener yr *wythfed* adnod mewn
cyssylltiad â'r *chweched;* cair gweled nad yw synwyr na
phrydferthweh yr ymadrodd agos mòr eglur a hardd, ag
ydyw trwy ddarllen y seithfed rhwng y ddwy a enwyd.
—Nid yw y sylwad diweddaf ond ychydig o'r hyn a
wnair gan ein Hawdwyr, ar yr adnod uchod.

9 [a]* Os tystiolaeth dynion yr ydym yn ei
derbyn, † y mae tystiolaeth Duw yn fwy:
‡ canys hyn yw tystiolaeth Duw, yr hon a
dystiolaethodd efe am ei Fab.

a adn. 10. Ioan 3. 32, 33. a 5. 31—36, 39. a 8. 17—19. a 10.
38. Act. 5. 32. a 17. 31. Heb. 2. 4. a 6. 18.

* Yr oedd tystiolaeth dau neu dri o ddynion geirwir
a chredadwy, yn ddigon dàn y ddeddf i brofi gwirion-
edd unrhyw fater; ac y mae agos i holl achosion dyn-
ion, hyd yn nôd pan fyddo bywydau, a da neu ddrwg
cenedloedd cyfain, yn ymddybynu, yn cael eu dwyn yn
mlaen a'u penderfynu, trwy ddetbyn tystiolaeth dynion.
Ac er y gwyddir, fod pob dynion yn agored i gael eu
twyllo neu gam-gymmeryd, ac yn dueddol i dwyllo; eto,
yr hwn a nacâ weithredu ar dystiolaeth dynion, ac a fyn
brawf o ryw natur arall, yn holl achosion amrywiol
bywyd; rhaid i'r cyfryw un yn fuan roddi i fynu bob
masnach, ac hefyd gwrthod ei gynnaliaeth mwyaf
angenrheidiol ei hun. † Gan hyny os ydym o angen-
rheidrwydd yn derbyn tystiolaeth dynion, pa mòr afres-
ymol yw, i ni wrthod tystiolaeth Duw! Rhaid bod hon
yn "fwy," sef yn fwy ddiammheüol sicr; am ei fod ef
yn gwybod pob peth, nis gall gam-gymmeryd na chael
ei dwyllo, nis gall fod unrhyw achos i'w dueddu ef i
dwyllo ei grëaduriâid, Gwirionedd hanfodol yw efe, ac
mae yn anmhosibl iddo fod yn gelwyddog. Tystiolaeth
Duw gan hyny yw y radd uwchaf o brawf; ac ni raid i
ni ddim ond mynu gwybod yn sicr iddo ef lefaru; a
deall meddwl yr hyn a lefarodd; am yr hyn ni chaiff yr
ymofynydd gonest, diwyd, a gostyngedig, gam-gymmer-
yd llawer; ac yna ni a gawn y sicrwydd mwyaf a all
fod, am bethau o'r pwys mwyaf i'n heneidiau. Fel hyn
mae ffydd yn defnyddio yr hysbysrwydd, sydd gynnwys-
edig yn nhystiolaeth Duw, ac yn y modd mwyaf byr a
chryno, yn gwneyd dyn yn ddoeth i iachawdwriaeth.
‡ Canys y prif wirionedd, yr hwn a dystiolaethodd Duw
yn ei air sanctaidd, yw yr hyn a berthyn i'w Fab ef, ac i
ffordd iachawdwriaeth trwyddo ef: a thystiolaeth Duw, yr
hwn mae yn anmhosibl iddo fod yn gelwyddog, yw hon.

10 * Yr hwn [b]sydd yn credu ym Mab
Duw, [c]† sydd ganddo y dystiolaeth ynddo ei
hun: ‡ yr hwn nid yw yn credu yn Nuw, [d]|| a'i
gwnaeth ef yn gelwyddog, § oblegid na chred-
odd y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei
Fab.

b Gwel ar adn. 1. Ioan 3. 16. c Salm 25. 14. Diar. 3. 32.
Rhuf. 8. 16. Gal. 4. 6. Col. 3. 3. 2 Pedr 1. 19. Dat. 2. 17, 28.
d pen. 1. 10. Num. 23. 19. Job 24. 25. Es. 53. 1. Jer. 15. 18. Ioan
3. 33. a 5. 38. Heb. 3. 12.

* Pwy bynag, gan hyny, oddi ar y dystiolaeth ddwy-
fol uchod, sydd yn gwir gredu ac yn ymddiried yn Iesu
Mab Duw, wedi ei wneuthur yn gnawd, fel yr unig wir
a digonol Waredwr; † mae efe trwy oleuni a dylanwad-
au yr Ysbryd Glân, wedi derbyn a chofleidio y dystiol-
aeth hon o eiddo Duw, ac mae ganddo dystiolaeth
brofiadol a boddlonawl yn ei enaid ei hun, o addas
rwydd, gwerth, a rhagoroldeb Iesu; o'i allu digonol a'i

ewyllysgarwch i'w achub ef; ac o'i fod ef wedi ei awdurdodi a'i gymhwyso yn mhob modd, i'w waredu ef oddi wrth euogrwydd a llywodraeth ei bechodau, ac oddi wrth yr holl drueni a ddygasant arno, ac i'w ddwyn ef yn ddïogel i ogoniant nefol. ‡ O'r tu arall, pwy bynag, oddi ar anghrediniaeth calon, a wrthodo dystiolaeth Duw am ei Fab, ac iachawdwriaeth drwyddo ef yn unig; ‖ mae efe yn cwbl wadu gwirionedd yr hyn a ddywedodd Duw am dano, ac felly mewn effaith yn gwneyd y Duw mawr a sanctaidd yn gelwyddog; § am nad yw yn credu yn, ac yn gorphwys ar, y dystiolaeth eglur a phennodol, a dystiolaethodd efe ei hun, yn y ffyrdd a enwyd uchod, am berson a chyfryngdod ei unig a'i anwyl Fab.—*Sydd ganddo y dystiolaeth* yn-ddo ei hun: tybia rhai fod cristionogion y dyddiau hyny yn cael rhyw brawf gwyrthiol o'u crefydd, trwy ryw weithrediadau a doniau anghyffredinol o eiddo yr Ysbryd Glân; trwy ba rai y gallent hwy gael sicrwydd am wirionedd yr efengyl, wrth edrych i mewn iddynt eu hunain. Ond gwell yw i ni ddeall y geiriau, am y dystiolaeth sydd gan bob gwir gredadyn, pan fyddo goleuni yr Ysbryd yn llewyrchu ar ei enaid ef; oblegid sôn mae yr apostol am yr hyn sydd hanfodol i wir gredu yn mhob oes, ac yn gyffredin i holl wir blant Duw, ac nid am ryw bethau ag oedd yn bröodol i saint y dyddiau hyny yn unig.

11 * A [e]hon yw y dystiolaeth; † roddi o [f]Dduw i ni fywyd tragywyddol, [g] ‡ a'r bywyd hwn sydd yn ei Fab ef.

e adn. 7, 10. Ioan 1. 19, 32—34. a 8. 13, 14. a 19. 35. 3 Ioan 12. Dat. 1. 2. f adn. 13. pen. 2. 25. Mat. 25. 46. Ioan 3. 15, 16, 36. a 4. 4, 36. a 6. 40, 47, 68. a 10. 28. a 12. 50. a 17. 2, 3. Rhuf. 5. 21. a 6. 23. 1 Tim. 1. 16. Tit. 1. 2. Judas 21. g adn. 12, 20. pen. 1. 1—3. Ioan 1. 4. a 5. 21, 26. a 11. 25, 26. a 14. 6. Col. 3. 3, 4. Dat. 22. 1.

* A hyn yw swm a sylwedd y dystiolaeth, am ba un y llefarodd yr apostol uchod; sef, † bod Duw Dad yn ei gyngor tragywyddol, ac yn ol boddlonrwydd ei ewyllys, wedi rhoddi i ni, y rhai a gredwn yn Nghrist, hawl a braint i fywyd tragywyddol; dechreuad o hóno, cymhwysiad iddo, ac ernes o gael ei feddiannu a'i fwynâu byth yr ochr draw. ‡ Ac mae holl gyflawnder a deddwyddwch y bywyd hwn, yn dyfod i ni ar gyfrif ei Fab ef; ac wedi ei drysori a'i ddïogelu i ni ynddo ef, fel Pen y corph, yr eglwys, Ffynon a chyflawnder bywyd, i'w gyfranu a'i roddi i ni yn ngoruchwiliaeth gras, ac i darddu allan byth, yn holl fendithion y tragywyddol ogoniant. Mae y bywyd hwn yn Mherson ei Fab ef, fel Duw wedi ymddangos yn y cnawd; ac yn ei swyddau cyfryngol ef, fel mae ganddo bob cyflawnder ynddo ei hun, mewn canlyniad i'w aberth a'i iawn, er maddeuant, sancteiddiad, ac iachawdwriaeth pob gwir gredadyn.

12 [h] * Yr hwn y mae y Mab ganddo, † y mae y bywyd ganddo; [i] ‡ *a*'r hwn nid yw ganddo Fab Duw, ‖ nid oes ganddo fywyd.

h pen. 2. 23, 24. Ioan 1. 12. a 5. 24. 1 Cor. 1. 30. Gal. 2. 20. Heb. 3. 14 2 Ioan 9. i Marc 16. 16. Ioan 3. 36.

Rhaid cael a mwynâu y bywyd uchod, trwy undeb a chymundeb â Mab Duw, o ran yr hawl iddo, y cymhwysder iddo, y blaen-ffrwyth o hóno, a'r llawn feddiant o hóno yn y diwedd. * Gan hyny, "yr hwn y mae y Mab ganddo, y mae y bywyd ganddo; yr hwn sy trwy wir ffydd yn derbyn Crist, fel Mab Duw; ac fel ei Brophwyd, ei Arch-offeiriad, a'i Frenin; ei Ddoethineb, ei Gyfiawnder, ei Sancteiddrwydd, a'i Brynedigaeth; yr hwn sydd yn ymddybynu yn ostynedig arno ef am yr holl bethau uchod, ac sydd fel hyn â rhan iddo ynddo, ac mewn undeb bywiol âg ef, ac sydd yn wastad yn ceisio ac yn derbyn bendithion yr iachawdwriaeth o hóno ef, trwy ddylanwadau yr Ysbryd Glân; † y mae gan hwn fywyd: y mae wedi ei fywâu yn ysbrydol, mae ganddo addewid o fywyd tragywyddol wedi ei chadarnâu iddo, ynghyd â'r ernes sicr o hóno yn ei enaid, yr hyn a gyflawnir yn anffaeledig yn ei dragywyddol ddedwyddwch ef. ‡ A'r hwn nid yw ganddo Fab Duw; yr hwn sydd yn gwadu fod Iesu yn wir a phrïodol Fab Duw, ac yn gwrthod ymddiried iddo, a'i anrhydeddu ef fel y cyfryw; neu yr hwn sydd yn rhŷ falch i ymostwng i'w ddysgeidiaeth ef fel Prophwyd, i ymddiried i'w aberth a'i eiriolaeth ef fel Arch-offeiriad, ac i ufuddâu iddo fel Brenin; ‖ nid oes gan hwn fywyd: mae efe yn farw mewn pechod, dàn gondemniad, ac mae digofaint Duw yn aros arno ef: ac nis gall unrhyw foes-oldeb, dysgeidiaeth, philosophi, ffurfiau o grefydd, tybiau athrawiaethol, neu hyder penboeth, fod o un llesâd i'r cyfryw ddyn. Oblegid Crist yw bywyd y credadyn; ac os na bydd dyn byw yn Nghrist, trwy ffydd yn gweithio trwy gariad, a thrwy ddiwalliadau ei Ysbryd ef, nid oes ganddo fywyd; pwy bynag, a pha beth bynag a fyddo efe, yn ei dybiau crefyddol.

13 * Y pethau hyn a [k]ysgrifenais attoch chwi, y rhai ydych yn [l]credu yn enw Mab Duw; † fel y [m]gwypoch fod i chwi fywyd tragywyddol, ‡ ac fel y credoch yn enw Mab Duw.

k pen. 1. 4. a 2. 1, 13, 14, 21, 26. Ioan 20. 31. a 21. 24. 1 Pedr 5. 12. l pen. 3. 23. Ioan 1. 12. a 2. 23. a 3. 18. Act. 3. 16. a 4. 12. 1 Tim. 1. 15, 16. m adn. 10. pen. 1. 1, 2. Rhuf. 8. 15—17. 2 Cor. 5. 1. Gal. 4. 6. 2 Pedr 1. 10, 11.

* Ysgrifenodd yr apostol y pethau uchod at y rhai oedd yn credu yn enw Mab Duw, i gadarnâu eu ffydd hwynt, ac i'w gosod ar eu gwyliadwriaeth yn erbyn hudoliaethau y gau-athrawon; † ac i sicrâu iddynt mai gwir grefydd Crist oedd yr eiddynt hwy, a bod iddynt yn sicr fywyd tragywyddol ynddo a thrwyddo ef: ‡ ac i gryfâu eu gobaith, fel y byddai iddynt yn fwy cyson a grymus, arfer a phroffesu ffydd yn enw Mab Duw, yn nghanol yr holl hudoliaethau, yr erlidiau, a'r trallodau oeddynt yn gyfarfod yn y byd.—Gallai yr epistol fod, a bu yn wir, o fawr wasanaeth i eraill; ond hyn oedd y dyben cyntaf o hóno.

14 * A [n]hyn yw yr hyfder sydd gennym tu ag atto ef; † ei [o]fod ef yn ein gwrando ni, os [p]gofynwn ddim yn ol ei ewyllys ef.

n pen. 3. 21. Eph. 3. 12. Heb. 3. 6, 14. a 10. 35. o Gwel ar pen. 3. 22.—Jer. 29. 12, 13. a 33. 3. Mat. 7. 7—11. a 21. 22. Ioan 14. 13. a 15. 7. a 16. 24. Iago 1. 5, 6. a 4. 3. a 5. 16. p Job 34. 28. Salm 31. 22. a 34. 17. a 69. 33. Diar. 15. 29. Ioan 9. 31. a 11. 42.

* Yr hyfder oedd gan gristionogion sefydlog yn Nuw, am yr addewid o fywyd tragywyddol yn ei Fab ef, yr oedd iddi gyfeiriad pennodol at ei barodrwydd ef i wrando eu gweddïau, trwy yr Eiriolwr nefol, er maint, ac yn wyneb eu holl bechadurusrwydd hwynt. † Hwy a wyddent yn sicr ei fod ef yn eu gwrando hwy, ac yn cymmeradwyo eu haddoliad, os gofynent hwy ddim, pa mòr fawr neu anhawdd bynag, yn ol ei ewyllys ef, yn y modd a drefnodd efe, mewn ffydd ostyngedig, gobaith, ac uniondeb; gan sylfaenu eu deisyfiadau ar ei addewidion ef, a darostwng eu hunain i'w ragluniaeth ddoeth a chyfiawn ef.—Tybiodd rhai cyn hyn mai i'r apostolion yn unig yr oedd hyn yn perthyn; ond pa raid cyfyngu y geiriau i derfyn mòr fychan, pan maent yn perthyn i holl blant Duw?

15 * Ac os gwyddom ei fod ef yn ein gwrando ni, † pa *beth* bynnag a ddeisyfom, [q] ‡ ni a wyddom ein bod yn cael y deisyfiadau a ddeisyfasom ganddo.

q Marc 11. 24. Luc 11. 9, 10.

* Ac os gwyddent ei fod ef felly yn eu gwrando hwy, † pa bethau bynag a ddeisyfent hwy ganddo, er ei ogoniant ef, a'u llesâd hwythau; ‡ hwy a wyddent oddi ar hyny, eu bod yn cael y deisyfiadau a ddeisyfent ganddo: am eu bod yn hyderus y byddai i'w holl-alluawgrwydd ef gyflawni bwriadau ei gariad yn sicr, a chyflawni ei holl addewidion ffyddlawn, yn ei ffordd a'i amser ei hun, ar ran pob un o'i anwyl bobl.—Mewn rhai pethau, yr oeddynt yn gwybod fod Duw yn ateb eu gweddïau yn ddïoed; mewn pethau eraill yr oeddynt yn sicr a thawel, y caent eu gwrando yn y modd a'r amser goreu, er nad oeddynt yn cael hyny efallai yn

llawl fel yr oeddynt hwy yn dysgwyl: ac yr oedd
ny yn tawelu eu meddyliau hwynt, yn gystal â phe
asent wedi cael eu deisyfiadau eisoes.

16 * Os gwel neb ei frawd yn pechu pechod
d *yw* i farwolaeth, [r] efe a ddeisyf, † ac efe a
dd iddo fywyd, i'r rhai sydd yn pechu nid i
rwolaeth. ‡ Y [s] mae pechod i farwolaeth:
dd am hwnnw yr wyf yn dywedyd ar ddeisyf
hono.

r Gen. 20. 7, 17. Ex. 32. 10—14, 31, 32. a 34. 9. Num. 12. 13. a 4. 11—21. Deut. 9. 18—20. 2 Cron. 30. 18—20. Job 42. 7—9. mm 106. 23. Ezec. 22. 30. Amos 7. 1—3. Iago 5. 14, 15. Num. 15. 30. a 16. 26—32. 1 Sam. 2. 25. Jer. 15. 1, 2. Mat. 12. 32. Marc 3. 28—30. Luc 12. 10. 2 Tim. 4. 14. Heb. 6. 4—6. a 26—31. 2 Pedr 2. 20—22. t Jer. 7. 16. a 11. 14. a 14. 11. 3. 18—21. Ioan 17. 9.

s * Tra yr oedd y credinwyr fel hyn yn gofyn ac yn der-
n iddynt eu hunain, fel y byddai eu llawenydd yn
llawn; byddai y cariad hwnw, am yr hwn y soniodd
apostol mòr helaeth, yn eu cymhell hwynt i weddio
wer dros eu brodyr hefyd; yn enwedig y cyfryw a
ldai wedi cael eu gorchfygu gan demtasiynau, neu a
dd dàn geryddon trymion. † Yn gyffredin gallent
ll yn sicr y gwrandewai ac yr atebai yr Arglwydd yn
ol y gweddiau hyn; ac mewn atebiad iddynt, y
oddai efe edifeirwch i fywyd i'r rhai a bechasent,
d nid i farwolaeth, ac y tynai efe ymaith y ceryddon
pha rai yr oedd wedi ymweled â'r cyfryw. ‡ Eto
aid iddynt sylwi, "fod pechod i farwolaeth," yr hyn
fyddai yn eithriad i'r rhëol uchod; ac nid oeddynt
y yn cael eu galw na'u hannog, i weddio dros y neb
cyflawnasant.—Dangosasid eisoes, efallai, i'r crist-
nogion hyn, fod gwrthgiliad ar ol proffes ddeallus a
redadwy o'r efengyl, pryd y byddai gelyniaeth cryf
ag ati yn cael ei ddangos gyda hyny, yn bechod ag
s gellid ond anfynych ei wahanu oddi wrth y pechod
erbyn yr Ysbryd Glân: a hwn, yn ddiammau, oedd
"pechod i farwolaeth," a feddyliai yr apostol yma:
phan fyddai dangosiad eglur fod rhyw ddyn wedi
chu y pechod hwn, gorchymynid i'r cristionogion ei
ael ef i gyfiawn farn Duw, heb ddysgwyl gweled ei
newyddu ef byth i edifeirwch, na chymmaint â
eddio drosto ef.

17 [u] * Pob anghyfiawnder, † pechod yw:
ac y mae pechod nid *yw* i farwolaeth.

u Gwel ar pen. 3. 4.—Deut. 5. 32. a 12. 32. x Gwel ar n. 16.—Es. 1. 18. Ezec. 18. 26—32. Rhuf. 5. 20, 21. Iago 1. 15. 7—10.

* Yn wir "pob anghyfiawnder," neu bob gwyrni oddi
th berffaith rëol cyfiawnder, mewn barn neu fuchedd,
"pechod yw;" ac felly mae yn haeddu marwolaeth,
n gondemniad hollawl a thragywyddol, yn ol y gyf-
th; ac mae pawb sydd yn troi ymaith oddi wrth yr
engyl, ac yn gweithredu yn groes iddi, yn haeddu y
spedigaeth hon. ‡ Eto y mae pechod, hyd yn nôd
fath hyn, yr hwn nid yw i farwolaeth; oblegid, am
fod yn effaith profedigaeth sydyn a diarwybod, yn
trach nac o elyniaeth fwriadol, cafodd llawer un a
bhfygwyd fel hyn yn mynyd y brofedigaeth, ei adferu
di hyny: fel hyn cyngorid y cristionogion i weddio
os eu brodyr pan fyddent wedi syrthio yn ofidus, os
byddent yn gweled ynddynt y nodau o gyndynrwydd
gelyniaeth penderfynol.

18 * Ni a wyddom [y] nad yw y neb a aned
Dduw, yn pechu; † eithr y mae yr hwn a
ed o Dduw, [z] yn ei gadw ei hun, ‡ a'r
rwg hwnnw nid yw yn cyffwrdd âg ef.

y adn. 1, 4. pen. 2. 29. a 3. 9. a 4. 6. Ioan 1. 13. a 3. 2—5. ro 1. 18. 1 Pedr 1. 23. z adn. 21. pen. 3. 3. Salm 17. 4. a 18. a 39. 1. a 119. 101. Diar. 4. 23. Ioan 15. 4, 7, 9, 10. Act. 11. 23. ro 1. 27. Judas 21, 24. Dat. 2. 13. a 3. 8—10. a Gwel ar pen. 3, 14. a 3. 12.

* Sylwodd yr apostol o'r blaen, nad oedd neb a'r a
ed o Dduw yn pechu; hyny yw, yn *gwneuthur* pechod,
yn *ymarfer* âg ef: (gwel ar pen. 3. 7—10.) ac yma
e yn chwanegi, nad oedd neb o'r cyfryw ddynion yn
cael eu gadael i bechu y pechod anfaddeuol, i farwol-
aeth: oblegid er i'r cyfryw wrthgilwyr fyned allan oddi
wrthynt hwy, ni buont erioed o honynt hwy. (pen. 2.
19.) † Y dyn a aned o Dduw, trwy beidio goddef iddo
ei hun bechu yn y pethau lleiaf, ond sydd yn gwylied
ac yn gweddio, mewn ffydd, ofn, a chariad, am gael ei
gadw rhag profedigaeth, neu ei gynnal dani; mae efe
yn ei "gadw ei hun," trwy yr Ysbryd Glân, allan o
ffordd y pechod marwol hwnw: ‡ ac felly y "drwg
hwnw," sef y diafol, yr hwn sydd yn gorchfygu rhag-
rithwyr a dynion ffurfiol, ac yn eu denu i wrthgilio, ni
chaniatêir iddo ddyfodiad ato ef, ac nis gall gyfhwrdd
âg ef i wneuthur argraff ddrwg arno.—Cafodd Satan ei
oddef i nithio yr holl apostolion, ac efe a ddyrysodd ac
a archollodd Petr yn dost iawn; ond nis gallodd efe
gyfhwrdd â'r un o honynt, ond Judas ragrithiol, fel ag
i lwyddo i'w cael hwynt i ymwrthod â'u Harglwydd yn
bwyll-fwriadol, a'i fradychu ef: oblegid yr oedd yr had
anllygredig yn aros ynddynt hwy, ac yn ffrwytho mewn
gwir ffydd, cariad, ac uniondeb; am hyny nis gallent
hwy bechu fel hyn, am eu bod wedi eu geni o Dduw.

19 [b] * Ni a wyddom ein bod o Dduw,
[c] † ac y mae yr holl fyd yn gorwedd mewn
drygioni.

b Gwel ar adn. 10, 13, 20.—pen. 3. 14, 24. a 4. 4—6. Rhuf. 8. 16. 2 Cor. 1. 12. a 5. 1. 2 Tim. 1. 12. c Gwel ar pen. 4. 4, 5. Ioan 15. 18, 19. Rhuf. 1. 28—32. a 3. 9—18. Gal. 1. 4. Tit. 3. 3. Iago 4. 4.

* Yr oedd yr apostol, a'r cristionogion hyny oedd a'r
dystiolaeth ganddynt ynddynt eu hunain, yn eu hym-
wybodus gariad at Dduw ac at eu gilydd, yn eu casineb
at bechod, a'u buddugoliaeth ar y byd, yn gwybod yn
sicr eu "bod o Dduw," wedi eu geni o Dduw, yn weis-
ion ac addolwyr, yn blant ac yn etifeddion iddo ef.
† Ac yr oeddynt yn gweled yn amlwg hefyd, fod yr
"holl fyd yn gorwedd mewn drygioni," neu dàn yr un
drwg. Mae holl ddynion y byd, oddigerth eu "geni o
Dduw," a'u dwyn i fod yn rhan o deyrnas Crist, yn aros
dàn lywodraeth diafol, duw y byd hwn, ac yn ddeiliaid
a chaethion iddo ef: maent yn ewyllysgar yn gwneyd
yr hyn mae efe yn ofyn gan ei gaethion, er nad ydynt,
efallai, yn gwybod nac yn ystyried mai ei wasanaethu
ef y maent. Hwy a orchfygir ganddo ef, ac a ddygir i
gaethiwed iddo ef; maent yn dwyn ei ddelw ef; ac yn
dilyn ei esampl ef, o falchder, cenfigen, llid, twyll,
llofruddiaeth, drygioni, enllib, gwrthgiliad, gwrthryfel,
anniolchgarwch, a gelyniaeth yn erbyn Duw. Maent
yn gwneyd gwaith y diafol, ac yn cyd-weithredu i gyn-
nal ei achos ef: ni feddant na doethineb, na gallu, nac
ewyllys i'w gwaredu eu hunain; a buasai raid i bawb
barâu byth yn y cyflwr ofnadwy hwn, oni buasai i Grist
ddyfod i ddattod gweithredoedd y diafol. Mae y dyst-
iolaeth gyffredin hon yn cynnwys pawb anghrediniol,
Iuddewon a chenedloedd; eilun-addolwyr, a rhith
addolwyr y gwir Dduw; didduwiaid, anffyddiaid, dyn-
ion penrhydd, rhai halogedig, a rhai ffurfiol; rhai
doethion a ffolion; dysgedig ac annysgedig; cyfoethog-
ion a thlodion; y rhai breninol a boneddig, yn gystal
â'r rhai gwael a dirmygus; ie, y moesol a'r rhinweddol,
yn gystal a'r rhai anfoesol a drygionus. Mae pawb oll
yn "gorwedd mewn drygioni," dàn lywodraeth pechod,
heb edifarâu am dano ac heb ei farweiddio; neu dàn
yr un drwg, mewn rhyw ffordd a'i gilydd yn gwneuthur
gwasanaeth iddo ef; oddigerth y rhai hyny yn unig,
"a waredwyd allan o feddiant y tywyllwch, ac a sym-
mudwyd i deyrnas anwyl Fab Duw." Gwyr y cristion-
ogion mai hyn yw cyflwr truenus yr holl fyd; a gwybod
hyn sydd yn peri iddynt arfer pob moddion i'w gwa-
redu hwynt: ond nid yw eraill yn gwybod dim am hyn,
a thramgwyddant yn ddirfawr wrth y dystiolaeth uchod,
ac wrth yr ymdrechiadau a wnair i droi dynion o dy-
wyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw.—Gan
nad oedd yr apostol yn gwneyd yr un eithriad, yn
mhlaid Iuddewon anghrediniol yn ei amser ef; felly
nis gallwn ninnau wneyd dim, yn mhlaid dynion di-

gred, cyfeiliornus, bydol, a diadgenedledig, a *elwir* yn *gristionogion*, yn yr amser presenol.

20 * Ac [d] a wyddom ddyfod Mab Duw, [e] † ac efe a roes i ni feddwl, fel yr adnabyddom [f] yr hwn sydd gywir. [g] ‡ Ac yr ydym yn y Cywir hwnnw, *sef* yn ei Fab ef Iesu Grist. [h] ‖ Hwn yw y gwir Dduw, § a'r bywyd tragywyddol.

d adn. 1. pen. 4. 2, 14. e Mat. 13. 11. Luc 21. 15. a 24. 45. Ioan 17. 3, 14, 25, 26. 1 Cor. 1. 30. 2 Cor. 4. 6. Eph. 1. 17, 18. a 3. 18, 19. Col. 2. 2, 3. f Ioan 14. 6. Dat. 3. 7, 14. a 6. 10. a 15. 3. a 19. 11. g Gwel ar pen. 2. 6, 24. a 4. 16.—Ioan 10. 30. a 14. 20, 23. a 15. 4. a 17. 20—23. 2 Cor. 5. 17. Phil. 3. 9. h adn. 11, 12. pen. 1. 1—3. Es. 9. 6. a 44. 6. a 45. 14, 15, 21—25. a 54. 5. Jer. 10. 10. a 23. 6. Ioan 1. 1—3. a 14. 9. a 20. 28. Act. 20. 28. Rhuf. 9. 5. 1 Tim. 3. 16. Tit. 2. 13. Heb. 1. 8.

* Gwyddai yr apostol a'i frodyr hefyd, oddi ar y tystiolaethau a grybwyllwyd uchod, (adn. 7, 8.) fod Mab Duw wedi dyfod yn y cnawd, i dynu ymaith bechod trwy ei aberthu ei hun. † A gwyddent trwy eu profiad dedwydd eu hunain, iddo ef roddi iddynt, nid yn unig datguddiad allanol yn ei air, ond iddo hefyd oleuo llygaid eu meddyliau hwynt, trwy weithrediad tumewnol ei Ysbryd, i roddi iddynt adnabyddiaeth achubol o'r hwn sydd gywir, ïe, yr hwn sydd Gywirdeb a Gwirionedd ei hun. ‡ Ac yr oeddynt hwy yn y Cywir hwnw; sef mewn undeb bywiol âg ef, yr hwn yw y Tyst ffyddlawn a chywir; sef Iesu Grist, tragywyddol Fab Duw. ‖ "Hwn," sef Iesu Grist, yn ei natur ddechreuol, "yw y gwir Dduw," yn undeb y Tad a'r Ysbryd; yn un â'r Tad a'r Ysbryd o ran hanfod, ond yn wahanol o ran Person: § a hwn, hefyd, fel Duw-ddyn, yw y bywyd tragywyddol i bawb a gredant ynddo, ac a ddygir i undeb bywiol âg ef.—*Ni a wyddom:* (adn. 19.) *Ac a wyddom:* (adn. 20.) A oes dim yn y geiriau hyn yn debyg i sicrwydd personol o gymmeradwyaeth ac iachawdwriaeth, yn tarddu oddi ar ymwybodoldeb tufewnol, o fod wedi derbyn goleuni yn yr wybodaeth hono o Dduw ac o Iesu Grist, yr hon sydd yn fywyd tragywyddol?—*Iesu Grist. Hwn yw y gwir Dduw:* pa dystiolaeth amlycach, a chadarnach, o Dduwdod Crist? Pwy a all wyrdroi hon? Pwy a all ei dadymchwel? Pwy bynag a syrthio ar y maen hwn, efe a ddryllir; ac ar bwy bynag y syrthio, efe a'i mâl ef yn chwilfriw!

21 [i] * *Y* plant bychain, [k] † ymgedwch oddi wrth eilunod. [l] ‡ Amen.

i Gwel ar pen. 2. 1. k Ex. 20. 3, 4. 1 Cor. 10. 7, 14. 2 Cor. 6. 16, 17. Dat. 9. 20. a 13. 14, 15. a 14. 11. l Gwel ar Mat. 6. 13.

* Ar y cyfan, gan hyny, fy mhlant bychain, y rhai yr wyf yn eu caru mòr anwyl ag y eâr tad ei fabanod tyner; † gadêwch i'r ystyriaethau o'r pethau uchod eich rhwymo chwi, i ymgadw oddi wrth bob ymddangosiad o gymdeithas â phaganiaid, yn eu gwasanaeth eilun-addolgar i gau-dduwiau: ymgedwch yn hollawl oddi wrth bob defnydd o ddelwau, fel pethau i gynddrychioli y Duwdod, neu fel cyfryngau o addoliad; ac ymgedwch yn fanol oddi wrth bob eilun o'r eiddo eich calonau eich hunain; ac ystyriwch Iesu Grist fel y gwir Dduw, fel y diogeler chwi rhag eilun-addoliaeth yn yr addoliad a roddoch iddo ef. ‡ Felly bydded, er ei anrhydedd ef a'r Tad, ac er eich cysur a'ch iachawdwriaeth chwi eich hunain! Ac er tystiolaeth o'm gwir ddymuniad a'm gobaith mai felly y byddo, dywedaf o'm calon, Amen.—Gwedi dywedyd (yn adn. 20.) mai Iesu Grist oedd y gwir Dduw a'r bywyd tragywyddol, mae yr apostol yma yn rhybuddio ei blant bychain yn dra difrifol i ymgadw oddi wrth eilunod; yr hyn o angenrhaid a ddengys, yr ymgadwent hwy felly, trwy barâu i addoli y Mab, fel y "gwir Dduw a'r bywyd tragywyddol," ac fel yn Un â'r Tad yr hwn a'i hanfonodd ef. Dyben mawr yr holl ysgrythyr, ac yn enwedig y Testament Newydd, oedd tynu dynion oddi wrth bob math o eilunod, i wasanaethu yr Un, gwir, a bywiol Dduw; ac a ydyw yn bosibl meddwl am fynyd, y llefarai *apostol dàn ysbryd-oliaeth Duw* fel hyn am Iesu Grist, (adn. 20.) pe na b asai efe, yn gystal â'r Tad, yn briodol wrthddrych p b gwasanaeth ac addoliad dwyfol? Os yw addoli Mab Duw yn eilun-addoliaeth, (fel y rhaid ei fod, os nad yw efe ddim mwy na chreadur,) yn sicr yr oedd yr apostol yn rhybuddio yn erbyn eilunod mewn dull rhyfedd iawn! Ond os yw Iesu yn Dduw, mewn undeb â'r Tad a'r Ysbryd; ac fel y cyfryw yn wir a phriodol wrthddrych addoliad, ac efe yn unig felly yn undeb y Personau eraill; nis gallai dim fod yn fwy addas na gocheliad yr apostol, yn y fàn ar ol tystiolaethu am wir Dduwdod yr Arglwydd Iesu.

AIL EPISTOL

IOAN YR APOSTOL.

Cyngori yr arglwyddes i barâu yn y ffydd.

YR [a]henuriad † at [b]yr etholedig arglwyddes, ‡ a'i phlant, [c] ‖ y rhai yr wyf yn eu caru yn y gwirionedd; § ac nid myfi i unig, ond pawb hefyd a [d]adnabuant y wirionedd;

a 1 Pedr 5. 1. 3 Ioan 1. b adn. 5, 13. Luc 1. 3. Eph. 1. 4, 1 Thes. 1. 3, 4. 2 Thes. 2. 13, 14. 1 Pedr 1. 2. c adn. 2, 3. Pedr 1. 22, 23. 1 Ioan 3. 18. 3 Ioan 1. d Ioan 8. 32. Gal. 3. a 5. 7. Col. 1. 5. 2 Thes. 2. 13. 1 Tim. 2. 4. Heb. 10. 26. 1 Ioan 21.

* Tybir i'r apostol oedranus ysgrifenu y llythyr hwn, tua'r un amser ag yr ysgrifenodd efe ei epistol o'r aen, neu ychydig yn ddiweddarach; ac nid yw ond lw ei hun yn Henuriad yn unig, am ei fod yn sicr y wyddai y wraig anrhydeddus, at ba un yr ysgrifenai, di wrth bwy yr oedd yn ei dderbyn; ac y gwnelai hi lw priodol o hóno, heb ddim dangosiad mwy amlwg awdurdod a'i swydd apostolaidd ef. † Mae yn ymdangos ei bod hi yn wraig o radd uwch na chyffredin; d oedd yr apostol yn petruso rhoddi yr enwad a rthynai i'w gradd a'i sefyllfa, yn ol yr arferiad wladol; ac yr oedd yn ddiammau ganddo, oddi wrth a wddai efe am waith ei ffydd, llafur ei chariad, ac ymos ei gobaith hi, ei bod yn etholedig gan Dduw. Mae efe hefyd yn cyfarch ei phlant hi, y rhai a lygasai hi i fynu yn grefyddol; ac mae yn bur amlwg d rhai o honynt o leiaf yn gyd-gyfranogion â hi o ras bywyd. (adn. 4.) ‖ Mae efe yn sicrâu iddynt ei fod n eu caru yn y gwirionedd; yn ddiragrith, ac fel rhai ewn undeb yn rhwymyn gwirionedd yr efengyl, yr hwn gredent hwy oll. § Ac nid yr apostol oedranus hwn n unig oedd yn eu caru hwynt felly; ond pawb hefyd adwaenent y gwirionedd: hyny yw, pawb o'r cyfryw a dwaenent yr arglwyddes hon a'i theulu.—Tybiodd nai mai yr eglwys yn Jerusalem, yn nghyd â'i haelodau ieuainc, sydd i'w ddeall wrth yr etholedig arlwyddes hon a'i phlant; ond pa raid rhoddi ystyr yfriniol felly i'r geiriau, nid hawdd yw gwybod.

2 [e]* Er mwyn y gwirionedd, [f]† yr hwn sydd n aros ynom ni, ‡ ac a fydd gyd â ni yn ragywydd.

e 1 Cor. 9. 23. 2 Cor. 4. 5. f Ioan 15. 7. Col. 3. 16. 2 Tim. 5. 1 Pedr 1. 23—25. 1 Ioan 2. 14, 17.

* Yr oeddid yn eu caru hwynt felly er mwyn y gwirionedd, † yr hwn oedd yn aros yn yr apostol, yn yr arglwyddes a'i phlant, ac yn mhawb ag oedd yn eu caru hwynt yn yr Arglwydd Iesu: ‡ ac a fyddai gyda hwynt, ac yn aros ynddynt yn dragywydd, fel had anllygredig ywyd tragywyddol.—Nid er mwyn mawredd ac uchelfadd yr arglwyddes hon a'i phlant, yr oedd y saint yn u caru; ond er mwyn y gwirionedd yr oeddynt hwy edi ei dderbyn a'i gredu, yr hwn oedd yn egwyddor anctaidd ynddynt, ac wrth yr hwn yr oeddynt yn hodio ac yn ymarweddu.

3 [g]* Bydded gyd â chwi ras, trugaredd, *a* thangnefedd, oddi wrth Dduw Dad, ac oddi wrth yr Arglwydd Iesu Grist, [h]Mab y Tad, [i] † mewn gwirionedd a chariad.

g Gwel ar Rhuf. 1. 7. 1 Tim. 1. 2. h 1 Ioan 2. 23, 24. a 4. 10. i adn. 1. Zec. 8. 19. Gal 5. 6. 1 Tim. 1. 14. 2 Tim. 1. 13.

* Ystrywiwyd y fendith-wers hon, neu gyffelyb iddi, amryw weithiau o'r blaen. † Yma mae yr apostol yn chwanegi "mewn gwirionedd a chariad;" yr hyn sydd yn dangos pa mòr daer, diffuant, a chalonog, yr oedd efe yn dymuno y bendithion ysbrydol uchod, i'r rhai yr oedd yn ysgrifenu atynt. Neu, efallai bod y geiriau yn dangos fod yr Arglwydd Iesu Grist yn Fab y Tad, mewn gwirionedd a chariad.

4 [k]* Bu lawen iawn gennyf † i mi gael o'th blant di *rai* yn [l]rhodio mewn gwirionedd, ‡ fel y derbyniasom orchymyn gan y Tad.

k Phil. 4. 10. 1 Thes. 2. 19, 20. a 3. 6—10. 3 Ioan 3, 4. l Hos. 14. 9. Mal. 2. 6. Gal. 2. 14. Eph. 5. 2, 8. 1 Ioan 1. 6, 7. a 2. 6.

* Yr oedd yn llawenydd o'r mwyaf i feddwl ac ysbryd duwiol yr apostol, † iddo gael o blant yr arglwyddes etholedig hon, rai yn rhodio mewn gwirionedd; mewn ffydd a chariad yn ac at y gwirionedd, ac yn ol y gwirionedd, ‡ fel y derbyniasai efe a'r apostolion eraill orchymyn gan y Tad, pa fodd i gyfarwyddo proffeswyr yr efengyl yn eu rhodiad.—Efallai iddo weled rhai ò honynt yn Ephesus, neu ryw le arall lle yr oedd efe yn ymdeithio, ac iddo eu cael hwynt o ysbryd ac ymarweddiad crefyddol a hardd, yr hyn oedd yn achos o lawenydd mawr iddo ef.

5 * Ac yn awr yr wyf yn attolwg i ti, arglwyddes, [m] † nid fel *un* yn ysgrifenu gorchymyn newydd i ti, eithr yr hwn oedd gennym o'r dechreuad, [n] garu o honom ein gilydd.

m 1 Ioan 2. 7, 8. a 3. 11. n Ioan 13. 34, 35. a 15. 12. Gal. 5. 22. Eph. 5. 2. 1 Thes. 4. 9. Heb. 13. 1. 1 Pedr 1. 22, 23. a 4. 8. 2 Pedr 1. 7. 1 Ioan 3. 14—18, 23. a 4. 7—12, 20, 21.

* Mae y fath hyn o gyfarchiad yn fwy addas o lawer i ryw berson neillduol, nac i eglwys gyfan, cynnwysedig o lawer o bersonau. † Am yr hyn a ganlyn o'r adnod, gwel ar 1 Ioan 2. 7; a Ioan 13. 34.

6 * A [o]hyn yw y cariad; † bod i ni rodio yn ol ei orchymynion ef. [p] ‡ Hwn yw y gorchymyn; ‖ Megis y clywsoch o'r dechreuad, § fod i chwi rodio ynddo.

o Ioan 14. 15, 21. a 15. 10, 14. Rhuf. 13. 8, 9. Gal. 5. 13, 14. 1 Ioan 5. 3. p Gwel ar adn. 5.

* A hyn yw y prawf, yr amlygrwydd, a'r ffrwyth, o wir gariad cristionogol, yn nghyd a'i wir duedd a'i effeithiau; † ei fod yn ein cymhell ac yn ein rhwymo ni yn wirfoddol, yn ewyllysgar, ac o'r galon, i rodio yn ol holl orchymynion Duw, gyda gwir barch i bob un o honynt yn wastadol. ‡ Eithr cyfraith cariad, fel yn oedd yn deilliaw oddi ar ffydd yn Nghrist, ac yn tueddu i bob ufudd-dod sanctaidd, oedd y gorchymyn oedd yn benaf yn ngolwg yr apostol yma; ‖ hwnw y clywsent hwy am dano o'r dechreuad, er pan ddechreuwyd

pregethu yr efengyl iddynt; § bod iddynt hwy rodio ynddo, ac ymarfer yn ofalus ac yn wastadol âg ef, fel yr oedd yn gweddu i ysbryd ac amcan yr efengyl a'r grefydd gristionogol.

7 * Oblegid [q] y mae twyllwyr lawer wedi dyfod i mewn i'r byd, [r] † y rhai nid ydynt yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd. ‡ Hwn yw y twyllwr a'r anghrist.

q Gwel ar 2 Pedr 2. 1—3. 1 Ioan 2. 18—22. a 4. 1. r Ioan 1. 14. 1 Tim. 3. 16.—Gwel ar 1 Ioan 4. 2, 3.—Dat. 12. 9. a 13. 14.

* Gwel ar 1 Ioan 2. 18. Yr oedd effeithiau drwg gau-athrawon yn tueddu i grëu anghariad ac anghydfod yn mhlith cristionogion, yn gystal ag i ŵyro a chamarwain y rhai annwadal. Gan hyny yr oedd yn gweddu i'r rhai yr ysgrifenid yr epistol hwn atynt, ac i bawb eraill y deuai i'w dwylo, i fod ar eu gwyliadwriaeth, ac edrych atynt eu hunain, at eu hegwyddorion, eu hysbrydoedd, a'u hymarweddiad; rhag y byddai i lafur eu gweinidogion fyned yn ofer, ac i'w dysgwyliadau gael eu siomi; a rhag y byddai i'w colledion hwy eu hunain, eu hunan-ymwadiad, a'u diwydrwydd yn achos yr efengyl, i droi allan wedi y cwbl yn anfuddiol iddynt. Felly y byddai yn hollawl i wrthgilwyr hollawl; ac felly y byddai mewn rhyw fesur i'r rhai a ddenid i ddàliadau cyfeiliornus, ac i ymarweddiad anaddas i'r efengyl. † Y twyllwyr hyn, nid oeddynt yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd; ond a haerent mai mewn *ymddangosiad*, neu *rith* o gnawd yn unig, y daethai efe. Gwel ar 1 Ioan 4. 2, 3. Mae yn debyg bod y fath gyfeiliornwyr yn y byd y pryd hwnw; ‡ a phwy bynag a haerai ac a dderbyniai y fath gyfeiliornad, yr oeddynt yn wrthwynebwyr union-gyrchol i Berson, athrawiaeth, a gogoniant Crist, ac i'w holl swyddau cyfryngol ef: hwn, a phob un o'r cyfryw, oedd y twyllwr a'r anghrist.

8 [s] * Edrychwch arnoch eich hunain, [t] † fel na chollom y pethau a wnaethom, ‡ ond [u] bod i ni dderbyn llawn wobr.

s Mat. 24. 4, 24, 25. Marc 13. 5, 6, 6, 9, 23. Luc 21. 8. Heb. 12. 15. Dat. 3. 11. t Gal. 4. 11. Phil. 2. 15, 16. u Dan. 12. 3. Ioan 4. 36. 1 Cor. 3. 8, 14. a 15. 58.

* Mynai yr apostol i'r fam a'r plant "edrych arnynt eu hunain," i fod ar eu gwyliadwriaeth, a gofalu na byddai i'w ffydd, eu hysbrydoedd, nâ'u hymarweddiad, gael eu llygru gan y twyllwyr uchod: † fel na byddai iddynt hwy nâ'r apostolion, golli y pethau a wnaethent, fel y sylwyd dàn yr adnod o'r blaen; ‡ ond bod iddynt oll dderbyn llawn wobr, yr hyn a gaent os arosent yn ddïannwadal yn ffydd ac ufudd-dod yr efengyl; efe a'i frodyr yn eu llawenydd ynddynt fel ffrwyth eu llafur, a hwythau yn eu dedwyddwch presenol a'u bywyd tragywyddol.

9 * Pob un a'r sydd yn troseddu, [x] † ac heb aros yn [y] nysgeidiaeth Crist, [z] ‡ nid yw Duw ganddo ef. [a] || Yr hwn sydd yn aros yn nysgeidiaeth Crist, [b] § hwnnw y mae y Tad a'r Mab ganddo.

x Gwel ar 1 Ioan 2. 22—24. y Ioan 7. 16, 17. Act. 2. 42. Col. 3. 16. Tit. 2. 10. Heb. 6. 1. z Mat. 11. 27. Luc 10. 22. Ioan 5. 23. a 14. 6. a Heb. 3. 14. b 1 Ioan 1. 3.

* Pob un ag oedd yn troseddu y gorchymynion a grybwyllwyd uchod, yn arferedig, ac yn wirfoddol; † ac heb aros yn athrawiaeth bur Crist, fel y gwir Fessiah, ‡ nid oedd ganddo Ysbryd Duw yn aros ynddo, ac nid oedd ganddo hawl na rhan yn Nuw, nac yn ei gariad nâ'i ewyllys da ef. || O'r tu arall, yr hwn oedd yn aros yn nysgeidiaeth Crist, gan barâu i'w chredu, ei phroffesu, ac i ymarweddu yn gyfatebol iddi, yn nghanol pob anhawsderau; § hwnw ydoedd wir gredadyn, mewn undeb a chymundeb ysbrydol a sanctaidd â'r Tad tragywyddol ac â'i dragywyddol Fab ef: yr oedd Ysbryd y Tad a'r Mab yn aros ynddo ef; ac yr oedd iddo hawl a rhan sicr yn nghariad ac ewyllys da y tri Pherson yn un Duw anfeidrol. Gwel ar 1 Ioan 2. 23.

10 * Od oes [c] neb yn dyfod attoch, ac heb ddwyn y ddysgeidiaeth hon, † na dderbyniwch ef i dŷ, [d] ‡ ac na ddywedwch, Duw yn rhwydd, wrtho.

c adn. 11. Rhuf. 16. 17, 18. 1 Cor. 5. 11. a 16. 22. Gal. 1. 8, 9. 2 Tim. 3. 5, 6. Tit. 3. 10. d Gen. 24. 12. Salm 129. 8.

* Gan hyny, od oedd neb yn dyfod i'r fàn lle yr oedd yr "etholedig arglwyddes" hon a'i theulu yn preswylio, i daenu ei ddàliadau, ac heb ddwyn dysgeidiaeth Crist gydag ef yn ei broffes a'i weinidogaeth; sef y wir athrawiaeth am Berson Crist, fel Mab Duw wedi ymddangos yn y cnawd, ac iachawdwriaeth ei bobl drwy ei aberth a'i gyfiawnder ef yn unig; † rhybuddiai yr apostol hwynt na dderbynient y cyfryw un i dŷ, na chroesawent ef fel gweinidog yr efengyl; ‡ ac na ddywedent Duw yn rhwydd wrtho, i ddymuno llwyddiant iddo yn enw yr Arglwydd: oblegid trwy bleidio gweinidogaeth y cyfryw un fel hyn, hwy a fyddent gyfranog o euogrwydd ei weithredoedd drwg ef, ac a fyddent yn cynnorthwyo dystryw eneidiau dynion, a dianrhydeddu Duw. Hwy a allent, mae yn wir, eu cynnorthwyo hwy, neu ddynion o unrhyw egwyddorion ac ymddygiadau, mewn afiechyd neu galedi; neu ddangos ewyllys da tuag atynt mewn unrhyw ffordd, a'r ni byddai yn pleidio, nac yn debyg o bleidio, eu hathrawiaethau cyfeiliornus hwynt; ond rhaid iddynt sefyll yn mhell oddi wrthynt, a thystiolaethu yn amlwg yn eu herbyn hwynt, yn yr ystyr hyn; fel y byddai iddynt rwystro eu llwyddiant niweidiol hwynt, hyd ag oedd yn bosibl.—Mae derbyn a chroesawi gau-athrawon yn ein tai, a dywedyd "Duw yn rhwydd" wrthynt, yn ein gwneyd ni yn atebol am yr holl niwed a ddichon iddynt hwy wneyd yn yr eglwys; gan mai nid ymddygiad o ddyngarwch cyffredin yw y cyfryw gymmwynasau, eithr y maent o leiaf yn dystiolaethau o'n cymmeradwyaeth ni o'r dynion a'u hathrawiaeth. Pan oedd Ioan ei hun unwaith yn myned i ymolchi mewn baddon yn Ephesus, pan welodd efe Cerinthus y cyfeiliornwr yno, dywedir iddo neidio allan heb ymolchi, gan ddywedyd *ei fod yn ofni rhag i'r lle syrthio i lawr, am fod Cerinthus, gelyn y gwirionedd yno.* A phan gyfarfu Polycarp, dysgybl Ioan, unwaith â Marcion y cyfeiliornwr, yr hwn a ddywedai wrtho, *Cydnebydd fi;* atebodd Polycarp, *Mi a wn mai cyntaf-anedig Satan wyt ti.* Mòr fawr yr ofnai yr apostolion a'u dysgyblion, rhag dangos dim gwyneb, na chymdeithasu dim â neb, a lygrent y gwirionedd yn fawr iawn; ac yn debyg y dywedai Paul hefyd, *Gochel y dyn a fyddo heretic, wedi un ac ail rybudd.* Tit. 3. 10. Peth hardd a dymunol iawn yw cariad, mae yn wir; ond nid cariad yr efengyl yw hwnw, pan aberther cydwybod a gwirionedd Duw iddo. Mae yr adnod uchod wedi ei dëol o grefydd llawer y dyddiau hyn; rhaid aberthu pob peth er mwyn cariad.

11 * Canys yr hwn sydd yn dywedyd wrtho, Duw yn rhwydd, † sydd [e] gyfrannog o'i weithredoedd drwg ef.

e Salm 50. 18. Eph. 5. 11. 1 Tim. 5. 22. Dat. 18. 4.

* Pwy bynag sydd yn taenu gau-athrawiaeth a chyfeiliorni, ni ddylid ei groesawi na'i bleidio, trwy unrhyw gyfarchiadau cyfeillgar a chefnogawl; † rhag i ni wneyd ein hunain yn gyfranogion o'i weithredoedd drwg ef, fel y soniwyd.—Ni chyfrifai neb yn *angharedig*, i ddynion beidio a gwneyd dim cyfeillach â'r rhai a fyddai yn ceisio eu twyllo hwy o'u harian, i'w drygu hwy yn eu hamgylchiadau tymmorawl, neu a geisient ddinystrio eu bywydau hwynt: paham, ynte, y cyfrifir yn ysbryd cul, ac yn anfrawdol, os gwrthodir pleidio y dynion hyny, y rhai mae tuedd yn eu hathrawiaeth i ddystrywio eneidiau dynion? oddigerth bod hyn yn cael ei ystyried fel mater o lai pwys a chanlyniad o lawer, na phethau tymmorol!

12 * Er bod gennyf [f] lawer o bethau i'w hysgrifenu attoch, [g] † nid oeddwn yn ewyllysio *ysgrifenu* â phapur ac ingc: ‡ eithr [h] gobeithio

: ydwyf ddyfod attoch, a llefaru wyneb yn
yneb, [i] || fel y byddo ein llawenydd yn
yflawn.

f Ioan 16. 12. g 3 Ioan 13. h Rhuf. 15. 24. 1 Cor. 16.
–7. Philemon 22. Heb. 13. 19, 23. i Ioan 15. 11. a 16. 24. a
. 13. 2 Tim. 1. 4. 1 Ioan 1. 4.

* Er bod gan yr apostol lawer o bethau pwysig y
allasai eu hysgrifenu yn chwaneg at yr arglwyddes
on a'i phlant; † nid oedd yn ewyllysio helaethu y pryd
wn mewn ysgrifen â phapyr ac inc: ‡ eithr yr oedd
n gobeithio ymweled yn bersonol â hi a'i theulu yn
uan, a llefaru wrthynt wyneb yn wyneb, || fel y byddai
i lawenydd ef â hwythau yn gyflawn, trwy gyfeillachu
n rhydd a phersonol am eu profiadau o Grist a phethau yr efengyl.

6 O

13 * Y [k] mae plant dy chwaer etholedig
yn dy annerch. † Amen.

k Gwel ar adn. 1. 1 Pedr 5. 13.

* Nis gwyddom ddim am chwaer etholedig yr arglwyddes hon: chwaer yn ol y cnawd mae yn debyg a feddylir, yr hon oedd yn preswylio yn agos i'r fàn lle yr oedd Ioan y pryd hwn. Efallai ei bod oddi cartref, neu ynte wedi marw, pan oedd efe yn ysgrifenu, gan mai ei phlant hi oedd yn annerch eu modryb urddasol a duwiol. † Bydded llawer o addurniadau i'r grefydd gristionogol, yn mhlith arglwyddesau pendefigaidd a'u hiliogaeth! Amen.—Y rhai a ddychymmygant mai yr eglwys yn Jerusalem oedd yr "etholedig arglwyddes," a ddywedant mai yr eglwys yn Ephesus oedd y "chwaer etholedig" hon: ond dychymmyg disail yw y cwbl.

IOAN YR APOSTOL.

Y mac efe yn canmol Gaius am ei dduwioldeb.

*YR [a] henuriad at [b] † yr anwyl Gaius, [c] ‡ yr hwn yr wyf yn ei garu mewn gwirionedd.

a Gwel ar 2 Ioan 1. b Act. 19. 29. a 20. 40. Rhuf. 16. 23. 1 Cor. 1. 14. c Gwel ar 2 Ioan 1.—1 Ioan 3. 18.

* Yr "Henuriad" eto, heb ddim uwch enwad, ac yr oedd yr enwad hwn yn briodol iawn i Ioan, o herwydd ei swydd yn yr eglwys, a'i fawr oedran yn y byd ac yn ei broffes. † Tybir yn gyffredin mai yr un Gaius yw hwn â'r Gaius y sonia Paul am dano amryw weithiau; (gwel y cyfeiriadau *b.*) ac y mae ei gymmeriad crefyddol ef yn gyffelyb: ond mae yn debyg i Ioan ysgrifenu yr epistol hwn lawer o flynyddoedd ar ol marwolaeth Paul; a chan fod Gaius yn enw cyffredin iawn, nis gellir gwybod yn benderfynol pwy oedd y Gaius hwn, ac nid ŷw o bwys yn y byd i wybod. ‡ Pwy bynag ydoedd, yr oedd Ioan yn ei garu mewn gwirionedd, ac o herwydd ei gariad ef at wirionedd yr efengyl.

2 * *Yr* anwylyd, yr ydwyf [d] yn bennaf dim yn dymuno [e] dy fod yn llwyddo ac yn iach, [f] † fel y mae dy enaid yn llwyddo.

d Iago 5. 12. 1 Pedr 4. 8. e Salm 20. 1—5 Phil. 2. 4, 27. f adn. 3—6. Col. 1. 4—6. 1 Thes. 1. 3—10. a 2. 13, 14, 19, 20. a 3. 6—9. 2 Thes. 1. 3. a 2. 13, 14. Philemon 5—7. 2 Pedr 1. 3—9. a 3. 18. Dat. 2. 9.

* Gwedi y cyfarchiad bŷr a serchiadol uchod, mae yr apostol yn benaf dim yn dymuno fod y Gaius hwn yn llwyddo ac yn iach, † fel yr oedd ei enaid yn llwyddo: ystyriai yr apostol bod ei enaid ef mewn agwedd mòr dda o ran pethau ysbrydol, fel y dymunai efe fod ei iechyd corphorol, a'i lwyddiant tymmorol ef yn gyfatebol i iechyd a llwyddiant ei enaid. Efallai bod iechyd corphorol Gaius yn wael, ac ei fod wedi cael ei golledu yn fawr yn ei feddiannau bydol, trwy greulondeb erlidwyr, tra yr oedd ei enaid ar yr un pryd yn llwyddo yn rhagorol, yr hyn a wyddai yr apostol yn dda iawn.—*Yn benaf dim: yn mhob peth*, neu *yn mhob ystyriaeth*, meddant, yw ystyr y geiriau *peri pantôn.*

3 * Canys [g] mi a lawenychais yn fawr, [h] † pan ddaeth y brodyr, ‡ a thystiolaethu am [i] dy wirionedd di, ‖ megis ag yr ydwyt yn rhodio mewn gwirionedd.

g adn. 4. Gwel ar 2 Ioan 4.—Phil. 1. 4. 1 Thes. 2. 19, 20. h Rhuf. 1. 8, 9. 2 Cor. 7. 6, 7. Eph. 1. 15, 16. Col. 1. 7, 8. 1 Thes. 3. 6—9. i Gwel ar 2 Ioan 2. 4.— Salm 119. 11.

* Yr oedd yr apostol wedi cael ei lawenychu yn fawr iawn am lwyddiant enaid Gaius, † pan ddaeth rhyw frodyr (pregethwyr yr efengyl mae yn debyg,) oddi wrtho ef ato, ‡ y rhai a dystiolaethasent iddo am y gwirionedd oedd ynddo, ‖ yr hyn oedd yn cael ei brofi a'i amlygu, yn ei rodiad a'i ymarweddiad cyson ef â'r gwirionedd oedd yn gredu ac yn ei broffesu.—Wrth *wirionedd* yn nechreu yr adnod, efallai y dylem ddeall credin. iaeth ddiffuant Gaius o'r gwirionedd, neu athrawiaeth yr efengyl: ac wrth *rodio mewn gwirionedd*, yn niwedd yr adnod, dylem ddeall ymarweddiad addas, cyfatebol i wirionedd yr efengyl: y cyntaf yn *dumewnol*, fel *achos*; a'r ail yn *allanol*, fel *effaith*, yn tarddu oddi ar yr achos hwnw.

4 * Mwy llawenydd nâ hyn nid oes gennyf, † sef cael clywed bod [k] fy mhlant [l] ‡ yn rhodio mewn gwirionedd.

k Es. 8. 18. 1 Cor. 4. 15. Gal. 4. 19. Philemon 10. l 1 Bren. 2. 4. a 3. 6. 2 Bren. 20. 3. Salm 26. 1—3. Es. 38. 3. Ioan 12. 35, 36. Gal. 2. 14.

* Nid oedd gan yr apostol fwy llawenydd ar y ddaear, yn nghanol ei holl lafur, ei wendidau, a'i ddyoddefiadau, † na chael clywed fod ei blant (un ai cristionogion yn gyffredin, neu ynte y rhai a ddychwelasid trwy ei weinidogaeth ef ei hun,) ‡ yn rhodio mewn gwirionedd; yn glŷnu yn ddiysgog wrth wirionedd yr efengyl, a thrwy hyny yn dangos diragrithrwydd eu proffes, trwy effaith y gwirionedd ar eu hysbryd a'u hymarweddiad: rhaid bod hyn yn llawenydd mawr iawn i feddwl duwiol a daionus yr apostol.

5 * *Yr* anwylyd, [m] yr ydwyt yn gwneuthur yn ffyddlawn yr hyn yr ydwyt yn ei wneuthur, † tu ag at y brodyr, ‡ a thu ag at ddieithriaid;

m Mat. 24. 45. Luc 12. 42. a 16. 10—12. 2 Cor. 4. 1—3. Col. 3. 17. 1 Pedr 4. 10, 11.

* Tybiai yr apostol yn addas i ganmol ei anwyl Gaius, fel un ag oedd yn gwneuthur yn ffyddlawn, ac fel y gweddai i gredadyn, yn mhob peth; yn ol y cyfleusderau a'r moddion oedd Duw wedi ymddiried iddo ef. † Yr oedd y ffyddlondeb hyn yn ymddangos yn yr hyn oll oedd efe yn wneyd tuag at y brodyr, ei gydgristionogion, y tlodion, a gweinidogion yr efengyl: ‡ a thuag at y dieithriaid, y rhai a ŷrid oddi cartref gan erledigaethau, neu y rhai a deithient oddi amgylch i bregethu yr efengyl.—Bod yn "ffyddlawn" yn ol ein gallu yw y cwbl a ddysgwylir genym, a hyn yw y ganmoliaeth fwyaf a allwn gael: a bod yn anffyddlawn o'r tu arall, sydd dra phechadurus, ac yn haeddu y drygair mwyaf.

6 * Y rhai [n] a dystiolaethasant am dy gariad di ger bron yr eglwys: [o] † y rhai os hebryngi fel y gweddai i Dduw, [p] da y gwnai.

n adn. 12. Philemon 5—7. o Act. 15. 3. a 21. 5. Rhuf. 15. 24. 2 Cor. 1. 16. Tit. 3. 13. p Gen. 4. 7. Jona 4. 4. Mat. 25. 21—23. Act. 15. 29. Phil. 4. 14. 1 Pedr 2. 20.

* Yr oedd y "brodyr" a'r "dieithriaid" uchod, wedi tystiolaethu am gariad a ffyddlondeb haelionus a llettygar Gaius, ger bron eglwysi Crist mewn amryw fànau, ac yn enwedig ger bron yr eglwys lle yr oedd Ioan y pryd hwnw yn aros ac yn gweinidogaethu. † A chan fod y brodyr hyn i ddychwelyd yn fuan drachefn ato ef, ac oddi yno i fyned rhagddynt i bregethu yr efengyl mewn mànau eraill; os parâi efe i'w derbyn, a'u cynnorthwyo ar eu taith yn mlaen, o barch i achos a gogoniant Duw; efe a ymddygai mewn modd teilwng i Dduw, i'w genadon, i'w gymmeriad canmoladwy ei hun, er anrhydedd i'r efengyl, ac er daioni i achos cyffredinol yr Arglwydd Iesu.

7 * Canys [q] er mwyn ei enw yr aethant

an [r] † heb gymmeryd dim gan y Cenhedl-
dd.

r q Act. 8. 4. a 9. 16. 2 Cor. 4. 5. Col. 1. 24. Dat. 2. 3. 1 Bren. 5. 15, 16, 20—27. 1 Cor. 9. 12—15. 2 Cor. 11. 7—9. a 13.

* Oblegid o gariad at Grist, ac er anrhydedd a gogoniant i'w enw ef, yr aethent hwy allan fel efengylwyr, a adael eu gwlad enedigol, eu perthynasau, eu cyfeillion, eu galwedigaethau, a'u holl achosion tymmorawl, gregethu Crist yn mhlith y cenedloedd: † gan benderfyn na chymmerent ddim gan y cenedloedd tuag at eu cynnaliaeth, pa galedi bynag a ddeuai arnynt; rhag y gallai neb eu bod hwy yn chwannog i elw bydol, ac i ymy fod yn achos rhagfarn yn meddyliau dynion yn erbyn eu hathrawiaeth hwynt.

8 * Ni a ddylem gan hynny [s] dderbyn y
† fryw rai, † fel y byddom [t] gyd-gynnorthwy-
wyr i'r gwirionedd.

s adn. 10. Mat. 10. 14. Luc 10. 7. 2 Cor. 7. 2, 3. t 1 Cor. 15—9. a 16. 10, 11. 2 Cor. 6. 1. a 8. 23. Phil. 4. 3. Col. 4. 11. 1 Thes. 3. 2. Philemon 2, 24.

* Gan hyny yr oedd yn ddyledswydd ar gristionogion dderbyn y fath weinidogion a chenadon llafurus, addlawn, a hunan-ymwadol, ac i gyfranu tuag at eu cynnaliaeth hwynt; † fel y byddent drwy hyny yn gydgynnorthwywyr â hwynt, i daenu gwirionedd yr efengyl, rwy eu gallnogi hwynt i fyned yn mlaen yn eu gwaith a llafur o gariad, yn mhlith y cenedloedd yn gystal â'r uddewon. Mae yn debyg mai Iuddewon crediniol edd y cenadon hyn, y rhai a aethent allan o'u gwlad ac blith eu cenedl, i bregethu yr efengyl yn mhlith y enedloedd.—Os ydym trwy dderbyn y gwir athrawon a gynnorthwywyr i'r gwirionedd, yr ydym trwy dderbyn gau-athrawon yn gynnorthwywyr i gyfeiliorni. 2 Ioan 10, 11.

9 * Mi a ysgrifenais at yr eglwys: † eithr
Diotrephes, [u] yr hwn sydd yn chwennych y
blaen yn eu plith hwy, [x] ‡ ni dderbyn ddim o
honom.

u Mat. 20. 20—28. a 23. 6. Marc 9. 34. a 10. 35—45. Luc 22. 24—27. Rhuf. 12. 10. Phil. 2. 3—5. x Gwel ar adn. 8. Mat. 10. 40—42. Marc 9. 37. Luc 9. 48.

* Tybia rhai mai fel hyn yr oedd Ioan yn meddwl: "Mi a *ysgrifenaswn* at yr eglwys," oni buasai i'r hyn glywais am Diotrephes fy nhueddu i ysgrifenu yn ystrach atat ti yn bersonol: ond mae eraill yn methu a rweled, pa fodd y gellir cyfieithu y geiriau fel hyny. Mae yn debyg iddo ef ysgrifenu at yr eglwys yr oedd Gaius yn aelod o hóni, i geisio ganddynt gynnorthwyo i brodyr a grybwyllwyd uchod, a'u hebrwng ar eu taith fel y gweddai i rai yn proffesu yr efengyl. † Ond Diotrephes, (yr hwn efallai oedd weinidog yr eglwys, ac ymgylchiadau, doniau, a hyawdledd yr hwn, yn nghyd i'i awydd am flaenoriaeth, oedd wedi ennill iddo awdurdod anghyfreithlawn yn eu plith hwynt;) ‡ nid addefai awdurdod yr apostol, ac ni roddai ddim gwrandawiad na derbyniad i'w gyngor ef.—Mae yn anodd gwybod pwy oedd y Diotrephes hwn: tybia rhai mai un o'r cenedloedd dychweledig ydoedd, yr hwn ni fynai dderbyn yr Iuddewon; a thybia eraill mai Iuddew dychweledig oedd, yr hwn ni fynai dderbyn y cenedloedd; ac a fynai ei osod ei hun i fynu yn *flaenor plaid*, mewn ffordd arbenig yr eglwys Dduw; a gwareded yr Arglwydd ein holl eglwysi rhag y cyfryw ddynion gormesol a thrawdurdodol: "addfwyn, a gostyngedig o galon," oedd y Meseia. Athraw mawr ei hun.

10 * O herwydd hyn, os deuaf, [y] † mi a
ddygaf ar gôf ei weithredoedd y mae efe yn eu
gwneuthur, gan wag-siarad i'n herbyn â geir-
iau drygionus: ‡ ac heb fod yn foddlawn ar
hynny, nid yw efe ei hun yn derbyn y brodyr;
‖ a'r rhai sydd yn ewyllysio, y mae yn eu
gwahardd, [z] § ac yn *eu* bwrw allan o'r eglwys.

y 1 Cor. 5. 1—5. 2 Cor. 10. 1—11. a 13. 2. z Luc 6. 22. Ioan 9. 22, 34, 35.

* O herwydd yr ymddygiad uchod o'r eiddo Diotrephes, mae yr apostol yn sylwi, os deuai efe atynt, fel yr oedd yn bwriadu dyfod yn fuan; † y mynai efe ddwyn ar gôf i'r gŵr hwnw ei weithredoedd, ei wâg-siarad, a'i eiriau drygionus yn erbyn yr apostolion; y mynai efe ei geryddu ef yn gyhoeddus, ac efallai rhoddi rhyw gospedigaeth wyrthiol arno ef, yn ngŵydd yr holl eglwys; gan nad oedd arno ef nac ofn na chywilydd, i draethu y geiriau mwyaf drygionus, a'r enllibiau mwyaf cenfigenus, yn erbyn yr apostolion, yn y modd mwyaf cyhoedd ac anweddaidd. ‡ Ië, nid oedd efe yn tybied fod hyny yn ddigon i ddangos ei elyniaeth a'i ddirmyg; heb iddo hefyd wrthod derbyn a chroesawi yr efengylwyr a'r cenadon hyny, y rhai a orchymynai yr apostol i'w sylw ef a'r eglwys; ‖ a'r rhai oedd yn ewyllysgar i'w derbyn hwynt, yr oedd efe yn gwahardd iddynt wneyd hyny; § a phan ddangosai rhai o honynt fwy o barch i orchymyn yr apostol nac i'w waharddiad ef, efe a'u bwriai allan o'r eglwys am wneuthur hyny! Mae yn beth tra rhyfeddol yn wir, fod dyn dàn enw cristion, ac efallai gweinidog yr efengyl, yn cymmeryd arno fel hyn i wrthwynebu hen apostol; ac mae yn rhyfedd ei fod wedi cael y fath awdurdod ar achosion unrhyw eglwys fel ag i gael ei bleidio gan neb yn y fath wrthwynebiad gwaradwyddus a drygionus; eto, felly yr oedd yn ddigon eglur yn yr amgylchiad uchod, a diammau mai dyn annuwiol oedd y Diotrephes hwn.

11 * Anwylyd, [a] na ddilyn yr hyn sydd
ddrwg, ond yr hyn sydd dda. [b] † Yr hwn
sydd yn gwneuthur daioni, ‡ o Dduw y mae:
‖ ond [c] yr hwn sydd yn gwneuthur drygioni,
§ ni welodd Dduw.

a Ex. 23. 2. Salm 37. 27. Diar. 12. 11. Es. 1. 16, 17. Ioan 10. 27. a 12. 26. 1 Cor. 4. 16. a 11. 1. Eph. 5. 1. Phil. 3. 17. 1 Thes. 1. 6. a 2. 14. 2 Tim. 3. 10. Heb. 6. 12. 1 Pedr 3. 13. b 1 Pedr 3. 11.—Gwel ar 1 Ioan 2. 29. a 3. 6—9. c Ioan 3. 20.

* Mae yr apostol gan hyny, yn rhybuddio ei anwyl Gaius, na chymmerai ei arwain gan y dyn gorfynawl (*ambitious*) hwn, ac na chanlynai ei ffyrdd drygionus ef: na ddilyned yr hyn oedd ddrwg, ond yr hyn oedd dda. † Oblegid yr hwn oedd yn gwneuthur daioni, ac oedd yn dirion, yn garedig, ac yn gymmwynasgar, oddi ar egwyddorion efengylaidd, ‡ o Dduw yr oedd efe, wedi ei eni o Dduw, ac yn perthyn iddo ef, fel un o'i wir blant. ‖ Ar y llaw arall, yr hwn oedd yn gwneuthur drwg, fel y Diotrephes uchod, a hyny yn enwedig mewn balchder trahaus, a gelyniaeth creulawn tuag at weision ffyddlawn Crist; § mae efe yn hollawl ddieithr i bob gwir adnabyddiaeth o Dduw, ac i bob cymdeithas âg ef, yr hwn sydd berffaith ddaioni a chariad, ynddo ei hun a thuag at ddynion.

12 * Y mae i Demetrius [d] air da gan
bawb, † a chan y gwirionedd ei hun: [e] ‡ a
ninnau *hefyd ein hunain* ydym yn tystiol-
aethu; ‖ a chwi a wyddoch fod ein tystiolaeth
ni yn wir.

d Act. 10. 22. a 22. 12. 1 Thes. 4. 12. 1 Tim. 3. 7. e Ioan 19. 35. a 21. 24.

* Tra yr oedd yr apostol yn rhybuddio Gaius i ochelyd Diotrephes, mae efe yn ei gyfeirio ef at ddyn arall o'i gydnabyddiaeth, yr hwn oedd yn wir deilwng iddo ef ymdebygu iddo; gan fod iddo "air da" gan yr holl gristionogion, a chan bawb yn gyffredin: † ïe, yr oedd y gwirionedd ei hun, megys yn dwyn tystiolaeth dda iddo ef, o ran ei ymddygiad gostyngedig, diwyd, gwresog, ac anrhydeddus, yn yr eglwys a chydag achos yr efengyl yn ei holl ranau. ‡ Ac yr oedd yr apostolion hefyd eu hunain yn tystiolaethu yr un peth am Demetrius; ‖ a gwyddai Gaius a'i frodyr yn dda, fod eu tystiolaeth hwy yn wir am hyn fel am bob peth arall.—

Rhyw gristion enwog, yn y weinidogaeth neu ryw swydd yn yr eglwys, oedd y Demetrius hwn, digon adnabyddus i Gaius, er nad yw felly i ni.

13 * Yr oedd gennyf [f] lawer o bethau i'w hysgrifenu, † ond nid wyf yn chwennych ysgrifenu âg ingc a phin attat ti:

f Gwel ar 2 Ioan 12.

* Yr oedd llawer o bethau eraill ar feddwl yr apostol i'w hysgrifenu at Gaius, yn nghylch y materion uchod a'u cyffelyb; † ond ar ystyriaeth fanylach, barnodd yn well peidio a'u hysgrifenu âg inc a phin yn y llythyr hwn ato ef: cymmerai hyny lawer o'i amser ef, ac nis gallai hysbysu y cwbl yn llawn yn y diwedd.

14 * Eithr gobeithio yr ydwyf gael dy weled ar fyrder, † ac ni a ymddiddanwn wyneb yn wyneb.

* Ond yr oedd efe yn gobeithio gydag ewyllys Duw, cael ei weled ef ar fyrder; † ac yna caent gyfle i ymddiddan â'u gilydd am bob peth angenrheidiol yn bersonol, "wyneb yn wyneb," *stoma pros stoma*, sef yn y modd mwyaf cyfeillgar.

15 [g] * Tangnefedd i ti. [h] † Y mae y cyfeillion i'th annerch. [i] ‡ Annerch y cyfeillion wrth eu henwau.

g Gen. 43. 23. Dan. 4. 1. Gal. 6. 16. Eph. 6. 23. 1 Pedr 5. 14. h Rhuf. 16. 10, 11. i Gwel ar Rhuf. 16. 1—16.

* Ar yr un pryd, ac hyd oni welent eu gilydd, mae yr apostol yn dymuno i Gaius dangnefedd, sef pob math o lwyddiant a dedwyddwch, ysbrydol a thymmorol, mewn corph ac enaid. † Yr oedd y cyfeillion cristionogol yn ei gymmydogaeth ef yn danfon eu hanerch caredig ato: ‡ a dymunai yr apostol iddo ei gofio yntau yn y modd caredicaf, at y cyfeillion oll wrth eu henwau.—Dyma yr unig fàn, medd *Scott*, mae y gair cyfeillion yn cael ei ddefnyddio, fel gair o gyd-gyfarchiad rhwng cristionogion: ac oddi yma, efallai, y cymmerodd y bobl a elwir y Crynwyr, y gair hwn fel enwad iddynt eu hunain.—Mae y ddwy adnod olaf uchod yn un yn y Saesoneg, ac felly yn gwneyd pedair ar ddeg o adnodau yn y bennod: ond yn y Testament Groeg maent wedi eu rhanu yr un fath ag yn ein cyfieithiad ni.

JUDAS YR APOSTOL.

Annog i broffesu ffydd yn Nghrist.

1 * JUDAS, [b] † gwasanaethwr Iesu Grist, ‡ a brawd Iago, ‖ at [c] y rhai a sancteiddiwyd gan Dduw Dad, § ac [d] a gadwyd yn Iesu Grist, [e] *ac* a alwyd:

a Mat. 10. 3. Marc 3. 18. Luc 6. 16. Ioan 14. 22. Act. 1. 13. 1 Ioan 12. 26. Act. 27. 23. Rhuf. 1. 1. a 6. 22. a 16. 18. Iago 1. 1. 1 Pedr 1. 1. c Ioan 15. 16. a 17. 17, 19. 1 Cor. 1. 2. a 6. 11. Eph. 5. 26. 1 Thes. 5. 23. 1 Pedr 1. 2. d Ioan 6. 39. a 10. 28—30. a 17. 11, 12. 2 Tim. 4. 18. 1 Pedr 1. 5. e Rhuf. 8. 30. a 9. 24. 1 Thes. 2. 12. 2 Thes. 2. 13, 14. 2 Tim. 1. 9. Heb. 3. 1. 1 Pedr 1. 9. a 5. 10.

* Tybir i Judas ysgrifenu ei epistol bŷr hwn yn fuan ar ôl i Petr ysgrifenu ei ail epistol, gyda bwriad i dystiolaethu yn erbyn y gau-athrawon twyllodrus, y tystiolaethodd Petr yn eu herbyn o'r blaen. † Mae efe yn ei ysgrifenwi ei hun yn "wasanaethwr Iesu Grist," wedi ei ddanfon yn ddigyfrwng fel apostol ganddo ef, i bregethu ar efengyl: ‡ ac yn "frawd Iago," sef Iago Leiaf, mab Alphëus, yr hwn ydoedd awdwr yr epistol sydd yn ymyned wrth ei enw, i'w wahaniaethu ei hun oddi wrth Judas Iscariot, y bradwr, ac hefyd oddi wrth Judas frawd Ioan, yr hwn a laddasai Herod â'r cleddyf flynyddoedd cyn hyn. ‖ Mae priodoli y gwaith o "sanctiddio i Dduw Dad," yn y dull anarferedig hyn, yn ngbyd â holl osodiad y rhan hon o'r adnod, wedi ueddu llawer o dduwinyddion i feddwl, mai neilluad saint gan Dduw Dad yn etholedigaeth gras, yw y sancteiddiad a feddylir yma; § mewn canlyniad i'r hyn rhoddwyd hwy i Iesu Grist, ac y "cadwyd" hwy nddo a thrwyddo ef, rhag marw yn eu pechodau, na yrthio i hudoliaeth dinystriol, nes eu "galw," trwy air ac Ysbryd Duw, i ystâd o wir ras, a chymdeithas ysrydol yn efengyl Crist. Tybia eraill nad oes dim sylw yw wneyd o drefn gosodiad y geiriau; ac mai meddwl r apostol yw, bod y personau a grybwyllir wedi eu adgenedlu a'u sancteiddio trwy ras cyfranedig oddi rth Dduw Dad; iddynt fel hyn gael eu dwyn adref at Bugail da, yr hwn a'u prynasai â'i waed, ac eu bod yn ael eu "cadw" trwy ei ofal gwyliadwrus ef; a chan eu od wedi eu galw yn ol arfaeth Duw, y byddent yn adwedig trwy ei allu ef, trwy ffydd i iachawdwriaeth.

2 [f] * Trugaredd i chwi, † a thangnefedd, ‡ a chariad a liosoger.

f Gwel ar Rhuf. 1. 7. 1 Pedr 1. 2. 2 Pedr 1. 2. Dat. 1. 4—6.

* Ar ran yr holl rai hyn, yr oedd yr apostol yn ymuno "trugaredd" i faddau eu pechodau, i dosturio rthynt ac i'w gwared o'u trueni, ac i gyflawni eu holl ngenrheidiau; † a "thangnefedd" oddi fewn ac oddi llan, rhyngddynt â Duw, â'u gilydd, ac â phawb; ‡ a ymunai am i "gariad" gael ei "liosogi" iddynt ac yndynt; sef cariad neilluol Duw tuag atynt, yn nghyd i holl ffrwythau gwerthfawr; a'u cariad hwythau tuag to yntau, tuag at eu gilydd, a thuag at bawb er ei fwyn if.

3 * Anwylyd, [g] pan roddais bob diwyddwydd ar ysgrifenu attoch am yr [h] iachawdwriaeth gyffredinol, † anghenrhaid oedd i mi ysgrifenu attoch, gan eich annog i [i] ymdrech ym mhlaid y ffydd, [k] yr hon a rodded unwaith [l] i'r saint.

g Rhuf. 15. 15, 16. Gal. 6. 11. Heb. 13. 22. 1 Pedr 5. 12. 2 Pedr 1. 12—15. a 3. 1. h Es. 45. 17, 22. Act. 4. 12. a 13. 46, 47. a 28. 28. Gal. 3. 28. Tit. 1. 4. 2 Pedr 1. 1. i Neh. 13. 25. Jer. 9. 3. Act. 6. 8—10. a 9. 22. a 17. 3. a 18. 4—6, 28. Phil. 1. 27. 1 Thes. 2. 2. 1 Tim. 1. 18. a 6. 12. 2 Tim. 1. 13. a 4. 7, 8. Dat. 2. 10. a 12. 11. k Deut. 9. 10. a 31. 9. Act. 20. 27. 1 Cor. 15. 3. 2 Pedr 3. 2. l Gwel ar Eph. 1. 1. Phil. 1. 1. Col. 1. 2.

* Pan ymroddodd yr apostol gyda phob diwydrwydd a gofal, i ysgrifenu at ei gyd-gristionogion, am yr iachawdwriaeth hòno ag oedd yn *gyffredinol* iddo ef â hwythau, ac i bob dyn a wnelai dderbyniad o hóni; † yr oedd yn ymddangos iddo ef, ar ystyriaeth drylwyr o'r mater dàn ysbrydoliaeth Duw, bod yn wir angenrheidiol iddo ysgrifenu atynt yn nghylch y ddyledswydd o ymdrech yn egnïol yn mhlaid y ffydd, neu yr athrawiaeth a rodded unwaith i'r saint, gan yr apostolion a'r efengylwyr, y rhai a bregethasent yr efengyl gyntaf ar ol dydd y Pentecost. Nis gallent lai na gwybod y pynciau sylfaenol o'r athrawiaeth hòno, am Berson ac iachawdwriaeth yr Arglwydd Iesu, ac am ei awdurdod cyfryngol ef ar ei ddeiliaid gwaredol, fel Pen uwchlaw pob peth er eu lles hwynt. A chan fod y gwirioneddau hyn a'u cyffelyb yn cael eu gwrthwynebu yn rymus, trwy frâd dirgelaidd a gelyniaeth cyhoeddus; yr oedd yn dra angenrheidiol iddynt hwythau ymdrech yn ŵrol yn eu plaid hwynt, trwy lŷnu yn ddïysgog yn eu proffes o honynt, ac aros yn ddïannwadal yn ngorchymynion Crist, yn nghanol caledi ac erlidigaethau. Dylent ymdrech yn ddiwyd yn wyneb pob gwrthwynebiadau, i daenu gwybodaeth o gristionogrwydd anllygredig yn y byd; a sefyll yn ŵrol yn erbyn pawb a'i gwrthwynebent hi: gan arfer pob moddion a fedrent i osod eraill ar eu gwyliadwriaeth, a'u cadarnâu hwy yn ffydd ac ymarferiad yr efengyl; a dangos iddynt dwyll a thuedd niweidiol y cyfeiliornadau a daenid yn lle yr efengyl. Fel hyn byddai eu hesampl hwynt, eu proffes, eu hymarweddiad, eu gweddïau, ac arferiad eu doniau, yn foddion, efallai, i attal cynnydd hudoliaethau dinystriol; i gryfâu ffydd y gwàn a'r sigledig; ac hyd yn nôd i adferu rhai o'r sawl a syrthiasent. Ac yr oedd ymdrech yn mhlaid y ffydd â'r cyfryw arfau a'r rhai hyn, yn berffaith gyson â gostyngeiddrwydd a chymmwynasgarwch; ac yn wahanol iawn i'r ddadleuaeth hòno, yr hon a ddygwyd yn mlaen yn rhŷ aml, gyda chwerwder, enllib, gogan, a dirmyg o bob tu.

4 * Canys y mae rhyw ddynion [m] wedi ymlusgo i mewn, [n] † y rhai a rag-ordeiniwyd er ys talm i'r farnedigaeth hon; [o] ‡ annuwiolion, [p] yn troi gras ein Duw ni i drythyllwch, ‖ ac [q] yn gwadu yr [r] unig Arglwydd Dduw, § a'n Harglwydd Iesu Grist.

m Mat. 13. 25. Act. 15. 24. Gal. 2. 4. Eph. 4. 14. 2 Tim. 3. 6. 2 Pedr 2. 1, 2. n Rhuf. 9. 21, 22. 1 Pedr 2. 8. 2 Pedr 2. 3. o adn. 15. 2 Sam. 22. 5. Salm 1. 1. 1 Pedr 4. 18. 2 Pedr 2. 5, 6.

a 3. 7. p Rhuf. 6. 1, 2. Gal. 5. 13. Tit. 2. 11, 12. Heb. 12. 15, 16. 1 Pedr 2. 16. 2 Pedr 2. 18—22. q Tit. 1. 16. 2 Pedr 2. 1. 1 Ioan 2. 22. r Salm 62. 2. Ioan 17. 3. 1 Tim. 6. 15, 16. Dat. 15. 4.

* Yr oedd yr ymdrechiadau grymus uchod yn wir angenrheidiol yn y dyddiau hyny, am fod rhyw ddynion wedi *ymlusgo* i mewn i'r eglwysi fel nadroedd, trwy gyfrwysder a hòniadau rhith-weddol, yn ddïarwybod i'r bobl a'u gweinidogion: (oblegid mae y gelyn yn hau yr efrau hyn tra mae dynion yn cysgu:) † ond yr oedd Duw wedi eu rhag-weled hwynt; oblegid yr oeddynt wedi eu "rhag-ordeinio er ys talm," neu eu cofrestru, i'r farnedigaeth hon. Yr oedd llawer o rag-ddywediadau wedi cael eu traddodi o'r dechreuad i'r perwyl hwn; (adn. 14—16.) ac yr oeddid wedi tystiolaethu er ys oesoedd, y byddai i ddynion o'r fath hyn gyfodi, i ddyfeisio a thaenu cyfeiliornadau niweidiol; gan dwyllo dynion, a gwneyd eu hunain yn agored i'r farnedigaeth gyfiawn a gyhòeddwyd yn erbyn prophwydi celwyddog. Ië, yr oedd y rhag-ddywediadau hyn megys yn bigion o gof-lyfrau y nefoedd; sef o arfaeth ddirgelaidd a thragywyddol Duw, yr hwn mae "ei holl weithredoedd yn hysbys iddo erioed." ‡ Y rhai hyn oeddynt "annuwiolion;" y rhai trwy broffesu cristionogaeth, oeddynt yn ymhyfâu oddi ar helaeth drugaredd Duw, a'r ffordd o iachawdwriaeth rad oedd yn ddatguddiedig yn yr efengyl, i goledd eu hunain heb nac ofn na chywilydd, yn y "trythyllwch" mwyaf gwrthun a ffiaidd; ac fel hyn yn gwyrdroi y gwirioneddau mwyaf sanctaidd, i fod yn achlysur o'r ansancteiddrwydd mwyaf aflan a halogedig! ‖ Wrth ymddwyn fel hyn, yr oeddynt yn gwadu yr unig Arglwydd Dduw, yn bwrw ymaith iau ei awdurdod ef, fel eu Crëawdwr; § a'r eiddo ein Harglwydd Iesu Grist, trwy wrthod ei gymmeryd ef i lywodraethu arnynt, ac ymostwng i fod yn ddeiliaid o'i deyrnas gyfryngol ef. Tybia rhai bod yr "annuwiolion" hyn yn gwadu athrawiaeth yr apostolion, am Berson ac aberth Crist; am hyny daellant y geiriau "troi gras ein Duw ni i drythyllwch," am ryw gynnygiadau a wnaent hwy i waradwyddo athrawiaethau gras, fel yn tueddu i ryddid cnawdol. Ond barna *Scott* fod y dehongliad yna yn dra annaturiol; a bod yr holl epistol yn dangos yn amlwg, mai gwrth-ddeddfolion *(antinomians)* aflan oedd y dynion hyn, yn cyflawni pob afiendid yn un-chwant, dàn yr esgus o dderchafu rhad ras! Mae *Pool* a *Doddridge* yn gogwyddo i'r dehongliad cyntaf, yr un fath â *Scott;* ond y mae *Guyse* yn cymmeradwyo y dehongliad olaf yn hytrach.—"A rag-ordeiniwyd: *(progegrammenoi:)* a *ysgrifenwyd,* neu a *ddysgrifiwyd o'r blaen,* o ran eu pechod a'u barn, gan y prophwydi gynt, ac yn yr esamplau o bechodau a barnedigaethau a grybwyllwyd o'r blaen yn yr Hen Destament. Tybir mai rhywbeth felly yw ystyr y gair Groeg uchod: o leiaf, nid yw yn arwyddo eu bod hwy wedi eu rhag-ordeinio i gyflawni y pechodau a enwyd trwy unrhyw orfod; ond yn unig bod eu pechod a'u hannuwioldeb gwirfoddol hwy yn rhag-wybodus i Dduw, ac ei fod ef wedi penderfynu eu gadael hwy iddynt eu hunain, a'u hordeinio i'r gosp, neu y "farnedigaeth hon," fel y gwnaeth â Judas fradwr, a'r rhai a groeshoeliasant Grist.—Pan fyddai dynion yn euog o farwolaeth, ac heb eu dàl i'w dwyn i farn, yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid; byddid yn gosod eu henwau a'u troseddau i fynu yn ysgrifenedig, ar golofnau a muriau mewn lleoedd cyhoeddus, yn nghyd â chynnyg o wobrwy i'r neb a'u dàliai neu a'u lladdai. *Progegrammenous* y galwent hwy y dynion a ysgrifenid i fynu felly, yr un gair ag a ddefnyddir yma, yr hwn a gyfieithwyd *rhag-ordeinio;* a thybir fod cyfeiriad at hyny gan yr apostol.

5 * Ewyllysio gan hynny yr ydwyf [s] eich coffâu chwi, gan eich bod unwaith yn gwybod hyn; † i'r Arglwydd, [t] wedi iddo waredu y bobl o dir yr Aipht, [u] ‡ ddistrywio eilwaith y rhai ni chredasant.

s Rhuf. 15. 15. 2 Pedr 1. 12, 13. a 3. 1. t Gwel ar 1 Cor 10. 1—12. u Num. 14. 22—37. a 26. 64, 65. Deut. 2. 15, 16 Salm 106. 26. Heb. 3. 17—19. a 4. 1, 2.

* Nis gallai proffes a breintiau allanol, ac *ymddangosiad* o dröedigaeth, ddiogelu y rhai a dröent oddi wrth Dduw mewn anghrediniaeth ac anufudd-dod, rhag ei ddïaledd trymaf ef. Er dangos hyn, tybiai yr apostol yn addas i adgoffâu ei ddarllenwyr, er iddynt gael eu dysgu, a'u bod unwaith yn gwybod hyn; † i'r Arglwydd wedi iddo waredu cenedl Israel o dir a chaethiwed yr Aipht, a chwedi iddo wneyd cyfammod â hwynt fel ei bobl; ‡ ddystrywio eilwaith, â barnedigaethau ofnadwy, y rhai hyny o honynt a'r ni chredasant, ac felly nid ufuddasant iddo ef; er i'w farnau ef ddinystrio rhifedi dirfawr o'r genedl. Yn yr un modd, y rhai hyny a wrthgilient oddi wrth gristionogaeth, neu a ddangosent eu hanghrediniaeth trwy anufudd-dod penderfynol a pharâus; yn lle cael eu diogelu trwy eu breintiau allanol, byddai eu barn yn llawer trymach o herwydd eu breintiau hyny.

6 * Yr [x] angelion hefyd y rhai ni chadwasant eu dechreuad, eithr a adawsant eu trigfa eu hun, [y] † a gadwodd efe mewn cadwynau tragywyddol dan dywyllwch, [z] ‡ i farn y dydd mawr.

x Ioan 8. 44. y Mat. 25. 41.—Gwel ar 2 Pedr 2. 4. z Mat. 8. 29. Heb. 10. 27. Dat. 20. 10.

* Yr angelion hefyd, y rhai a grëwyd ar y cyntaf yn sanctaidd, a gynnysgaethwyd â galluoedd arderchog, ac a osodwyd mewn sefyllfa oruchel iawn yn y nef ei hun; pan aethant hwy yn anfoddlawn i'w hystâd gyntefig, a phan adawsant hwy eu trigfa eu hun, yn yr hon y gosodwyd hwy gan y Crëawdwr, yn eu balchder a'u gwrthryfel; † hwy a fwriwyd i lawr o'u trigfa sanctaidd, ac a gadwyd gan Dduw, megys mewn cadwynau tragywyddol dàn dywyllwch, mewn drygioni, trueni, ac annobaith, ‡ i farn y dydd mawr; pryd y bydd eu condemniad hwy mòr nodedig a hynod, ag oedd y sefyllfa o ba un y syrthiasant.—"Ni chadwasant eu dechreuad:" "Ni chadwasant eu hystâd gyntaf," ydyw yn ol y Saesoneg: "Ni chadwasant y llywodraeth arnynt eu hunain," mae rhai yn cyfieithu y geiriau: ac eraill, "Ni chadwasant eu Pen eu hunain," sef Crist.—Gwel ar 2 Pedr 2. 4.

7 * Megis [a] y mae Sodom a Gomorrah, a'r dinasoedd o'u hamgylch mewn cyffelyb fodd â hwynt, † wedi putteinio, a myned ar ol cnawd arall, [b] ‡ wedi eu gosod yn esampl, gan ddïoddef dialedd [c] tân tragywyddol.

a Gen. 13. 13. a 18. 20. a 19. 24—26. Deut. 29. 23. Es. 1. 9. a 13. 19. Jer. 20. 16. a 50. 40. Galar. 4. 6. Ezec. 16. 49, 50. Hos. 11. 8. Amos 4. 11. Luc 17. 29. b Mat. 11. 24.—Gwel ar 2 Pedr 2. 6. c Deut. 29. 23. Es. 33. 14. Mat. 25. 41. Marc 9. 43—49.

* Yn yr un modd, trigolion Sodom a Gomorrah, a'r dinasoedd cymmydogaethol eraill, y rhai a gawsent eu breintio â gwlad ffrwythlawn a hyfryd, ac â hawddfyd a llwyddiant mawr; † pryd, yn gyffelyb i'r angelion syrthiedig, y beiddiasant hwy wrthryfela yn rhyfygus yn erbyn Duw, ac ymroddi yn hollawl i anlladrwydd, puteindra, a'r chwantau gwarthus ac annaturiol o wrrwygdiaeth, yr hyn a elwir yma "myned ar ol cnawd arall;" ‡ gosododd Duw hwy yn esampl o ddïaledd dwyfol i'r holl ddaear, yn ninystriad eu dinasoedd, a'r hyn oll oedd ynddynt, trwy dân a brwmstan o'r nefoedd, a thrwy ddifrod ac anghyfannedd-dra tragywyddol eu gwlad ffrwythlawn a hyfryd: fel ag yr aeth hi yn arddrych gweledig o dân tragywyddol uffern, i'r hon yr ysgubodd y farn hòno eneidiau y rhai a fuont farw yn eu pechodau; ac mae yn bur debyg mai felly y bu y rhai mewn oedran feirw oll.—"*Tân tragywyddol:*" hyny yw, y dinystr tragywyddol a wnaeth y tân hwnw ar y dinasoedd; ac hefyd y *tân tragywyddol* yr aeth eneidiau y trigolion annuwiol iddo, yn uffern.

8 * Yr un ffunud hefyd y mae y [d] breudd-

wydwyr hyn [e] † yn halogi y cnawd, [f] ‡ yn
diystyru llywodraeth, [g] ‖ ac yn cablu y rhai
ydd mewn awdurdod.

d Jer. 23. 25—28. e 1 Cor. 3. 17. 1 Tim. 1. 10.—Gwel ar
1 Pedr 2. 10—12. f Gen. 3. 5. Num. 16. 3, 12, 13. 1 Sam. 10.
17. Salm 2. 1—6. a 12, 3, 4. Luc 19. 14. Act. 7. 27, 39. 1 Thes. 4.
. Heb. 13. 17. g adn. 9, 10. Ex. 22. 28. Diar. 30. 11, 17. Preg.
0. 20. Act. 23. 5. 1 Pedr 2. 17.

* "Yr un ffunud hefyd y breuddwydwyr hyn," am y
hai y llefarai yr apostol, trwy ofer ddysgwyl rhyddid
digospedigaeth mewn pechod, oeddynt yn dilyn esampl
Sodomiaid ffiaidd, ac yn sicr o gyfranogi o'u barned-
gaeth hwynt yn y diwedd. † Yr oeddynt yn awr yn
halogi y cnawd, sef eu cyrph, y rhai a ddylasent fod
m gyssegredig a sanctaidd i Dduw; trwy goledd
ychymmygion, chwantau, ac arferion aflan a ffiaidd,
fallai yr un pechodau â'r Sodomiaid: ‡ yr oeddynt yn
diystyru pob llywodraeth ac awdurdod, dwyfol a dynol,
n yr eglwys ac yn y wladwriaeth; ‖ ac yr oeddynt yn
nnuwiol yn cablu pawb ag oedd wedi eu gosod mewn
fyllfâoedd o fawredd ac awdurdod; a hyny yn y fath
odd trahaus a thaiogaidd, ag oedd yn ddigon i gyffrôi
llywodraethwyr gwladol yn erbyn cristionogion yn
yffredin. Yn fŷr, ni ddyoddefent hwy ddim llywodr-
eth, awdurdod, na cherydd gan neb; ond yr oeddent
n diystyru pawb a phob peth felly, yn debyg fel y di
styrai y Sodomiaid, gyngorion a cheryddon llawer rhŷ
yner Lot.—*Breuddwydwyr:* rhai wedi llwyr fadroni,
amddifad o reswm a synwyr, fel pe buasai eu syn-
yrau wedi eu cloi i fynu gan drwm-gwsg, neu ferwin-
od anadferol, yr hwn nis gallai yr esamplau mwyaf
ychrynllyd eu deffrôi o hóno. "Breuddwydwyr *aflan*,"
n y Saesoneg; megys pe buasai hyd yn nôd eu
reuddwydion yn halogedig, gan ffieidd-dra eu medd-
iau pan yn effro: ond nid yw y gair *aflan* yn y Groeg.

9 * Eithr [h] Michael yr [i] arch-angel, pan
edd efe, † wrth ymddadleu â diafol, yn ym-
esymmu ynghylch [k] corph Moses, [l] ‡ ni feidd-
odd ddwyn barn gablaidd arno, ‖ eithr *efe* a
ddywedodd, [m] Cerydded yr Arglwydd dydi.

h Dan. 10. 13, 21. a 12. 1. Dat. 12. 7. i 1 Thes. 4. 16.
k Deut. 34. 6. l Es. 36. 13—21. Marc 15. 29. Luc 23. 39, 40.
2 Pedr 3. 9. 2 Pedr 2. 11. m 1 Cron. 12. 17. Es. 37. 3, 4, 10—
. Zec. 3. 2.

* Mae yn bur debygol i'r apostol gymmeryd yr hanes
wn am Michael yn ymddadlau â diafol, allan o ryw
n draddodiad ag oedd yn ddigon hysbys yn mhlith
'r Iuddewon; a thrwy ei ddefnyddio fel hyn, yr oedd
h rhoddi prawf o'i wirionedd. Tybia rhai mai Mab
uw ei hun, fel Llywiawdwr mawr yr holl angelion, ac
h cael ei addoli ganddynt oll, yw y Michael a gry-
wyllir yn llyfr Daniel: ond tybia *Scott* nas gellir
eddwl mai Crist ei hun a ddylem ddeall wrth Michael
n y fàn hon; eithr yn hytrach rhyw angel crëedig,
edi ei osod mewn awdurdod uchel ar ei gyd-angelion,
fallai rhaglaw neillduol y Messiah. Nid yw ein
awdwyr eraill yn dywedyd yn benderfynol, pwy a
bbiant ydyw, dim ond crybwyll y ddau feddwl uchod.
Pa fodd bynag, bu dadl rhwng yr arch-angel dyrchaf-
lig hwn â diafol rywbryd, yn nghylch corph Moses:
ellir meddwl y mynai diafol wneyd yn hysbys i'r Is-
eliaid pa le y claddwyd Moses, fel y gallai eu temtio
wy i'w addoli ef; fel yr addola pabyddion gyrph eu
int a'u merthyron. Buasai yn orfoledd mawr gan
liafol, wneyd *Moses* yn wrthddrych eilun-addoliaeth
ol ei farw, yr hwn a fuasai gymmaint yn erbyn eilun-
ddoliaeth pan oedd yn fyw: ond ni oddefai Michael
do wneyd hyny, ac efallai i'r diafol ddangos ei gyn-
deiriogrwydd o herwydd hyny mewn cableddau dy-
rynllyd. ‡ Eto, ni feiddiodd Michael ddwyn barn
blaidd arno ef; ni feiddiodd gyhoeddi y farn am gabl-
d arno, ac ni feiddiodd roddi sèn am sèn, neu gabl-
d am gabledd iddo; ond "ymresymu" yr oedd ef,
a dywedyd, "Cerydded yr Arglwydd dydi." Er bod
mmeriad atgas, ac ymddygiad drygionus y diafol, o
angenrheidrwydd yn cynhyrfu ffieiddiad a digofaint
sanctaidd yr arch-angel; eto ni *feiddiodd*, neu ni allai
oddef, (yn ol ystyr y gair Groeg yn aml, medd *Pool*,)
dywedyd dim cableddus wrtho ef: nid rhag ofn y
diafol, y byddai yn drech nac ef am gablu, fel y tybiodd
rhai; ond am na byddai y cyfryw ymddygiad yn gweddu
i'w sancteiddrwydd angylaidd ef, hyd yn nôd mewn
amgylchiad o'r fath hyn.—Tybia rhai mai "yn nghylch
corph Moses" yn faban ar fin yr afon y bu y ddadl hon;
y mynai diafol ei foddi ef, ac y mynai Michael ei gadw
yn fyw: ond y peth a sylwyd o'r blaen yw barn ein
Hawdwyr yn benaf. *Cerydded yr Arglwydd dydi:*
mae hyn yn lled ddangos mai nid yr Arglwydd Iesu
ei hun oedd y Michael hwn, eithr un o'r angelion
crëedig: ac os felly, ni a welwn fod *angelion da* weith-
iau yn cael eu danfon i attal a chyfyngu awdurdod a
gallu y *diafliaid*, yr hyn sydd o angenrheidrwydd yn
ofid dirfawr i'r ysbrydion beilchion a drygionus hyny.

10 * Eithr y rhai [n] hyn sydd yn cablu y
pethau nis gwyddant: † a pha bethau bynnag
y maent yn anianol, fel anifeiliaid direswm,
yn *eu* gwybod, [o] ‡ yn y rhai hynny ymlygru y
maent.

n Gwel ar 2 Pedr 2. 12. o Gwel ar Rhuf. 1. 21, 22.

* Ond y cyfeiliornwyr hyn, am y rhai yr oedd Judas
yn ysgrifenu, nid oeddynt yn petruso arfer geiriau am
benaethiaid a rhai mewn awdurdod, y rhai ni feiddiai
Michael eu defnyddio am y diafol ei hun: megys pe
buasent hwy goruwch yr arch-angel, a'u llywodraethwr
yn waeth nâ gelyn echryslawn Duw a dynion! Ond yr
oeddynt hwy yn cablu y pethau nis gwyddent: yr oedd
llywodraeth a llywodraethwyr mewn gwlad ac eglwys
yn dda ac yn angenrheidiol; ond nis gwyddent hwy
ddim am ddefnydd, amcan, na llesâd a daioni y cyfryw
bethau, am hyny yr oeddynt yn eu cablu yn rhyfygus
yn eu hannwybodaeth. † A pha bethau bynag oeddynt
hwy yn anianol, fel anifeiliaid direswm yn eu gwybod,
pethau corphorol, i borthi a digoni y cnawd; ‡ yr
oeddynt yn llygru ac yn halogi eu hunain yn y defnydd
o'r pethau hyny, trwy eu harferyd yn anghymmedrol ac
annuwiol i borthi eu blysiau cnawdol ac aflan: oblegid
dynion o feddyliau gwael a daearol oeddynt hwy; eu
hamcan penaf oedd coledd a phorthi eu blysiau anian-
ol, yn y pethau a wyddent hwy yn anianol, fel anifeil-
iaid direswm: a thrwy eu harferiad anghymmedrol a
dirëol o'r pethau hyny, yr oeddynt yn eu llygru eu
hunain yn dra ffiaidd. Gwel ar 2 Petr 2. 12.

11 [p] * Gwae hwynt-hwy: [q] † oblegid hwy
a gerddasant yn ffordd Cain, [r] ‡ ac a'u collwyd
trwy dwyll gwobr Balaam, [s] ‖ ac a'u difethwyd
y'ngwrth-ddywediad Core.

p Es. 3. 9, 11. Jer. 13. 27. Ezec. 13. 3. Zec. 11. 17. Mat. 11.
21. a 23. 13—16. Luc 11. 42—47. q Gen. 4. 5—14. 1 Ioan 3.
12. r Num. 22—24. a 31. 16. Deut. 23. 4. Jos. 24. 9—11. Mica
6. 5. 2 Pedr 2. 15. Dat. 2. 14. s Num. 16. 1, &c. a 26. 9, 10.

* Mae yr apostol yn cyhoeddi gwae ofnadwy uwch
ben y cyfeiliornwyr twyllodrus, cableddus, a llygredig
hyn: gwae oddi wrth Dduw, a gwae tragywyddol, iddynt
hwy a'u canlynwyr, onid edifarâent, a gadael eu ffyrdd
drygionus i geisio ac i gael trugaredd a maddeuant.
† Oblegid hwy a gerddasant yn ffordd Cain; yr hwn yn
ei falchder a ddiystyrodd ufudd-dod gostyngedig y
ffydd, a'r addoliad ysbrydol a drefnodd Duw; a thrwy
hyny a fethodd gael ei gymmeradwyo gyda Duw: ac,
yn ei gynddeiriogrwydd o achos hyn, efe a laddodd ei
frawd cyfiawn, ac a wrthgiliodd yn hollawl oddi wrth y
grefydd a broffesai. Yn yr un modd yr oedd y dynion
drygionus hyn wedi troi ymaith oddi wrth bur athraw-
iaeth Crist, wedi troi i gasâu y rhai oedd yn glŷnu
wrthi; ac yr oeddynt yn barod i daflu ymaith bob
proffes o gristionogaeth yn hollawl. ‡ Yr oeddynt
hefyd wedi myned yn dra awyddus yn y ffordd a gym-
merasai Balaam; i'r dyben o ennill "gwobr anghyf-
iawnder:" yr oeddynt fel yntau wedi myned yn groes i

orchymyn yr Arglwydd, o gariad at fudr-elw; yr oeddynt wedi ceisio dystrywio addolwyr y JEHOFAH, ac yr oeddynt wedi hudo llawer o honynt i ben-rhyddid cnawdol, ac felly eu gwneyd hwy yn agored i farn ddïaeddol Duw. ‖ Heblaw hyny, fel yr oedd Core a'i gyfeillion wedi gwrthwynebu awdurdod Moses ac Aaron, a chwedi cynhyrfu y bobl i wrthryfela yn eu herbyn hwynt; felly yr oedd y dynion drygionus hyn wedi gwrthod awdurdod Crist a'i apostolion, a chwedi gwrthwynebu a gŵyrdroi eu hathrawiaeth hwynt: ie, yr oeddynt wedi hudo llawer eraill i wneyd yr un modd; ac yr oeddynt yn barod i gael eu "colli" a'u "dyfetha" yn eu gwrth-ddywediad a'u gwrthryfel, fel y collwyd ac y dyfethwyd Core a'i gymdeithion gan farn Duw.—*Ac a'u dyfethwyd:* llefarodd yr apostol hyn mewn gwir ysbryd prophwydoliaeth, yr hwn sydd yn dywedyd am bethau i *ddyfod*, fel pethau wedi *pasio;* er dangos y sicrwydd o'u cyflawniad.

12 * Y rhai hyn [t] sydd frychau yn eich [u] cariad-wleddoedd chwi, yn cyd-wledda â chwi, yn [x] ddïofn yn eu pesgi eu hunain: [y] † cymmylau diddwfr *ydynt,* [z] a gylch-arweinir gan wyntoedd; [a] ‡ prennau diflannedig, heb ffrwyth, [b] ‖ dwywaith yn feirw, [c] § wedi eu diwreiddio;

t Gwel ar 2 Pedr 2. 13, 14. u 1 Cor. 11. 21, 22. x Salm 78. 29—31. Es. 56. 10—12. Ezec. 34. 8, 18. Luc 12. 19, 20, 45. a 16. 19. a 21. 34. Phil. 3. 19. 1 Thes. 5. 6, 7. Iago 5. 5. y Diar. 25. 14. Hos. 6. 4. 2 Pedr 2. 17. z Eph. 4. 14. a Salm 1. 3. a 37. 2. Mat. 13. 6. a 21. 19, 20. Marc 4. 6. a 11. 21. Luc 8. 6. Ioan 15. 6. b 1 Tim. 5. 6. Heb. 6. 7, 8.—Gwel ar 2 Pedr 2. 18—20. c 2 Cron. 7. 20. Ezec. 17. 9. Mat. 15. 13. Marc 11. 20.

* Y rhai hyn oeddynt "frychau" yn eu gwleddoedd crefyddol hwynt, yn y rhai y cyd-gyfarfyddent mewn cariad fel brodyr cristionogol; oblegid, trwy wledda gyda christionogion, a choledd eu hunain hyd at ormodedd yn ddïofn, yr oeddynt fel hyny, a thrwy arferion gwarthus eraill, yn gwaradwyddo yr holl frawdoliaeth. Gwel ar 2 Petr 2. 13. † Yr oeddynt yn gosod gau-ymddangosiad arnynt eu hunain; ac mòr ddiles ac ansefydlog â chymmylau gweigion diddwfr, o ba rai nis gellid dysgwyl dim daioni: tra yr oedd eu chwantau eu hunain, a themtasiynau Satan, yn eu gỳru hwynt o un ynfydrwydd a drygioni i'r llall, fel y gỳrir cymylau gweigion o amgylch gan y gwyntoedd. ‡ Gellid hefyd eu cymharu hwynt i brenau, y rhai debygid oedd yn gwreiddio, ac a roddent obaith am ffrwyth; ond yr oedd eu *blaguir* hwynt wedi gwywo, ac yr oeddynt yn aros yn hollawl ddiflanedig, ac heb ddim ffrwyth: ‖ fel hyny yr oeddynt "ddwywaith yn feirw;" yn feirw yn eu cyflwr anianol yn y dechreu, ac yn awr yn eu gwrthgiliad wedi dangos eu bod felly, yn sicr, a thu hwnt i bob gobaith o gael eu hadferu. Yr oedd llawer haf a gauaf wedi myned drostynt, a hwythau o hyd yn myned yn waeth-waeth, ac yn fwy-fwy addfed i'w diwreiddio, a'u taflu i dân tragywyddol! Yr oeddynt yn hollol feirw; yn feirw drosodd a throsodd; yn feirw wrth natur, ac yn feirw trwy galedwch calon mewn gwrthgiliad, i ba un y rhoddasai Duw hwynt i fynu yn ei farn gyfiawn! § Ië, yr oeddynt eisoes fel prenau diffrwyth crinion wedi eu diwreiddio; heb obaith eu hadferu, eu hadfywio, na ffrwytho byth mwy, ac yn unig yn addas i'w taflu yn tân. Mae hyn oll yn dangos bod eu gwrthgiliad hwy yn anfeddyginiaethol, eu cyflwr yn druenus, a'u damnedigaeth yn sicr ac ar ddyfod!

13 [d] * Tonnau cynddeiriog y môr, [e] † yn ewynnu allan eu cywilydd eu hunain; ‡ sêr gwibiog [f] i'r rhai y cadwyd niwl y tywyllwch yn dragywydd.

d Salm 65. 7, a 93. 3, 4. Es. 57. 20. Jer. 5. 22, 23. e Phil. 3. 19. 2 Tim. 3. 13. f Gwel ar 2 Pedr 2. 17.—Dat. 14. 10, 11. a 20. 10, a 21. 8.

* Gellid hefyd eu cyffelybu i "dònau cynddeiriog y môr," o ran terfysgrwydd, dadwrdd, a chynddeiriogrwydd eu hymddygiadau: † tra yr oeddynt hwy drwy ymffrost, cabledd, ac ymadroddion aflan, yn ewynu allan eu cywilydd eu hunain; ac yn dangos yn amlwg i bawb, a farnent bethau wrth air Duw, pa fath ddynion aflan a gwaradwyddus oeddynt hwy. Ac fel "tònau cynddeiriog y môr," yr oeddynt hefyd yn bygwth dystryw a difrod, âr bawb a phobpeth a safai yn eu herbyn hwynt a'u cyfeiliornadau dinystriol. ‡ Yr oeddynt fel "sêr gwibiog," y rhai nis gellid deall na dysgrifio yn hawdd, eu cylchoedd a'u rhediadau dirëol hwynt; tra yr oedd eu hymddangosiad, er ei fod yn oleu, yn rhagddangos niwed i ddynolryw. Dywedir y byddai yr Iuddewon yn galw eu hathrawon yn *sêr;* a dywedir am danynt dàn y gymhariaeth hòno yn Dat. 1. 16; a 2. 1. A chan fod rhai o'r sêr wybrenol yn wibiog a dirëol yn eu symmudiadau; yr oeddynt yn gyffelybiaethau digon addas o'r dynion hyn, ag oedd mòr *ansefydlog* yn eu hegwyddorion, ac mòr ddirëol yn eu hymddygiadau. ‖ Ac yr oedd "niwl tywyllwch," annobaith, a thrueni, wedi ei roddi i gadw iddynt, fel eu rhan dragywyddol hwynt; gyda'r diafol a'i angelion, â'r hwn y cytunasent hwy i wrthwynebu awdurdod ac anrhydedd yr Arglwydd Iesu Grist.—Yr oedd arferion y dynion a grybwyllir yma, mòr ysgeler a dychryllyd, fel nad yw yn addas mewn un modd i wneyd adroddiad manwl o honynt; yr oedd bron yn anghredadwy!

14 * Ac [g] Enoch hefyd, y seithfed o Adda, a brophwydodd am y rhai hyn, gan ddywedyd, [h] † Wele, y mae yr Arglwydd yn dyfod ‡ gyd â myrddiwn o'i saint.

g Gen. 5. 18—24. 1 Cron. 1. 1—3. Heb. 11. 5, 6. h Deut. 33. 2. Job 19. 25—27. Salm 50. 3—5. Dan. 7. 9, 10. Zec. 14. 5. Mat. 16. 27. a 24. 30, 31. a 25. 31. 1 Thes. 3. 13. 2 Thes. 1. 7, 8.

* Mewn prophwydoliaeth a draddodasid gan Enoch i'r Cynddylifiaid, am ddyfodiad yr Arglwydd i'r farn; yr oedd dynion o'r fath hyn wedi cael eu rhag-fynegi a'u condemnio ganddo ef. Nid oedd yr hen brophwydoliaeth hon wedi cael ei gosod mewn ysgrifen, na chan Moses, nâ chan neb arall o ddynion ysbrydoledig Duw; ond yr oedd wedi cael ei chadw mewn traddodiad, ac yn gyson âg athrawiaeth gyffredinol yr ysgrythyrau: ac yr oedd yn cael ei gwirioneddu, fel rhan o'r datguddiad dwyfol, trwy gael ei dyfynu fel hyn, gan un o apostolion Crist. Er bod Enoch yn byw mòr fuan ar ol y grëadigaeth, fel nad oedd ond y "seithfed" dyn a enwir yn llinell hiliogaeth Adda; † eto efe a ragwelodd ac a rag-fynegodd ail-ddyfodiad yr Arglwydd, sef y Messïah addawedig, i farnu y byd; o'r hyn yr oedd y dylif nesâol yn gyffelybiaeth rag-arwyddawl. Gan hyny yr oedd efe yn galw ar ddynion y genedlaeth ddrygionus hòno i "weled" a sylwi, y deuai yr Arglwydd, ac ei fod hyd yn nôd y pryd hwnw yn dyfod, ‡ gyda myrddiwn o'i rai sanctaidd, sef ei angelion sanctaidd, yn y modd mwyaf amlwg a gógoneddus.—"A brophwydodd *am* y rhai hyn:" neu, "A brophwydodd *yn erbyn* y rhai hyn," medd rhai: ac mae hyn, efallai, yn egluro ac yn cadarnâu yr hyn a ddywedwyd o'r blaen, (adn. 4.) am eu "rhag-ordeiniad hwy er ys talm i'r farnedigaeth hon."—*Myrddiwn o'i saint:* angelion a ddywedwyd uchod, efallai bod y gwaredigion hefyd yn gynnwysedig; ac felly mae y geiriau yn cynnwys yr athrawiaeth o ystâd a chyflwr i ddyfod, yr hyn oedd yn hysbys i'r duwiolion hyd yn nôd cyn goruchwyliaeth Moses. Mae yn ddïammau y gwyddai Saint yr Hen Destament am y brophwydoliaeth hon o'r eiddo Enoch; ond ni chaniatâodd yr Ysbryd Glân i neb ond Judas yma wneyd yr un crybwylliad o hóni: yr hyn a ddengys mai "fel y cynhyrfid hwy gan yr Ysbryd Glân, yr oeddynt hwy yn llefaru."

15 * I [i] wneuthur barn yn erbyn pawb, [k] † ac i lwyr-argyhoeddi yr holl rai annuwiol o honynt am holl weithredoedd eu hannuwioldeb, y rhai a wnaethant hwy yn annuwiol, [l] ‡ ac am yr holl *eiriau* caledion, y rhai a lefarodd pechaduriaid annuwiol yn ei erbyn ef.

l 1 Salm 9. 7, 8. a 37. 6. a 50. 1—6. a 98. 9. a 149. 9. Preg. 11. a 12. 14. Ioan 5. 22, 23, 27. Act. 17. 31. Rhuf. 2. 16. a 14. 10. or. 4. 5. a 5. 13. Dat. 20. 12—15. a 22. 12. k Rhuf. 2. 5. a 9, 20. l adn. 16. Ex. 16. 8. 1 Sam. 2. 3. Salm 31. 18. a 94. Es. 37. 22—36. Dan. 7. 20. a 11. 36. Mal. 3. 13—15. Mat. 12. —37. Dat. 13. 5, 6, 11.

* Pan ddelo yr Arglwydd, efe a wna farn ar bawb, ac rydd farn yn *erbyn* pawb annuwiol; † gan eu llwyr gyhoeddi hwynt am eu holl weithredoedd annuwiol, rthryfelgar, a drygionus, a wnaethant hwy yn eu nnuwioldeb, er dirmyg a dïystyrwch arno ef: ‡ "ac a yr holl eiriau caledion," atgas, rhyfygus, ysgornllyd, chableddus, y rhai a feiddiodd "pechaduriaid anuwiol" eu llefaru yn malchder a gelyniaeth eu calonau yn ei erbyn ef." Am iddynt wneuthur a llefaru felly erbyn ei efengyl, ei achos, a'i bobl ef; cymmer yr glwydd Iesu y cwbl fel yn ei erbyn ef ei hun, yn nydd farn. Matth. 25. 45.

16 * Y rhai hyn sydd [m] rwgnachwyr, † tunanwyr, [n] ‡ yn cerdded yn ol eu chwantau eu hunain; [o] ‖ ac y mae eu genau yn llefaru *geiriau* chwyddedig, § yn mawrygu wynebau ynion er mwyn budd.

m Num. 14. 36. a 16. 11. Deut. 1. 27. Salm 106. 25. Es. 29. . Luc 5. 30. a 15. 2. a 19. 7. Ioan 6. 41, 61. 1 Cor. 10. 10. Phil. 14. n adn. 18. Gal. 5. 16, 24. 1 Thes. 4. 5. 2 Tim. 4. 3. Iago 14, 15. 1 Pedr 1. 14. a 2. 11. a 4. 2. 2 Pedr 2. 10. a 3. 3. Gwel ar adn. 15. Job 17. 4, 5. Salm 17. 10. a 73. 9—11.—2 Pedr 18. p Lef. 19. 15. Job 32. 21. a 34. 19. Salm 15. 4. Diar. 28. . 1 Tim. 6. 5. Iago 2. 1—9. 2 Pedr 2. 1—3.

* Nis gallai y gau-athrawon, am y rhai yr oedd Judas n llefaru, ddïanc rhag y llwyr-argyhoeddiad a'r conemniad uchod; am fod eu gweithredoedd a'u geiriau n hollol o'r fath a ddarluniwyd. Oblegid yr oeddynt wy yn "rwgnachwyr;" (yn ol esampl yr Israeliaid, y nai a rwgnachasent yn erbyn Moses ac Aaron, ac fel yny a ddangosasent eu gelyniaeth yn erbyn Duw,) yr eddynt yn cwerylu â gwirionedd, gorchymynion, a weinidogion Crist; † ac yn "duchanwyr," yn erbyn ob attaliad a roid arnynt, a phob awdurdod angenheidiol a arferid tuag atynt; ac yr oeddynt hefyd yn angos anfoddlonrwydd gwastadol wrth oruchwyliaethau hagluniaethol Duw tuag atynt hwy. ‡ Ar yr un pryd r oeddynt yn "cerdded yn ol eu chwantau eu hunain;" an wneuthur eu tueddiadau cnawdol di-lywodraeth eu unain, yn rhëol wastadol i'w hymddygiad, ac yn dïysyru pob awdurdod, llywodraeth, ac attaliad. ‖ Eto yr edd eu "genau yn llefaru geiriau chwyddedig;" gan mffrostio yn anghymmedrol o'u gwybodaeth, eu hyddid, a'u doniau, fel pe hwy yn unig a fuasai hoffdynion y nefoedd. § Ac yr oeddynt yn talu parch nawr, gyda digonedd o weniaith, a phroffes ragrithiol gariad, i'r cyfryw ddynion a fyddai yn debyg o chwangi eu helw bydol hwy, heb wneyd dim sylw o gymmerad y cyfryw ddynion; trwy yr hyn bleidgarwch, a rwaseidd-dra cyflogaidd, yr oeddynt yn ennill dynion ydol a beilchion i fod o'u plaid hwy, ac yn cael y budd" o fudr-elw iddynt eu hunain drwy hyny.

17 * Eithr chwi, *O* rai anwyl, [q] † cofiwch y geiriau a rag-ddywedwyd gan apostolion ein Harglwydd Iesu Grist;

q Mal. 4. 4. Act. 20. 35. Eph. 2. 20. a 4. 11. 2 Pedr 3. 2. 1 Ioan 4. 6.

* Gan fod y twyllwyr uchod yn gwneyd dystryw arâus a chwanegol beunydd yn yr eglwys; barnai yr apostol yn wir angenrheidiol i gyngori ei anwyl frodyr n daer iawn, † i gofio y geiriau a lefarasai apostolion raill Crist, pan bregethasent yr efengyl iddynt hwy ar y yntaf: a chofio hefyd yr hyn a ysgrifenasai rhai o honynt ltynt hwy ar y mater hwn, yn enwedig Paul, Petr, ac Iago. lfae y geiriau hyn yn debyg iawn i'r hyn sydd yn 2 Petr .. 2: ac mae yn bur debygol i Judas ysgrifenu ar ol ir apostolion eraill i gyd farw, ond yr apostol Ioan.

18 * Ddywedyd o honynt i chwi, [r] y bydd n yr amser diweddaf † watwarwyr, [s] ‡ yn erdded yn ol eu chwantau annuwiol eu hunain.

r Act. 20. 29. 1 Tim. 4. 1, 2. 2 Tim. 3. 1—5, 13. a 4. 3. 2 Pedr 2. 1. a 3. 3. s Gwel ar n. adn. 16.—Salm 14. 1, 2.

* Oblegid yr oedd yr apostolion wedi eu rhybuddio hwynt, y byddai yn yr amser diweddaf, sef dàn oruchwyliaeth yr efengyl, yn yr eglwys weledig, † watwarwyr; y rhai a drinent y gwirioneddau mwyaf sanctaidd, a'r dyledswyddau cristionogol mwyaf pwysig, gyda dirmyg a dïystyrwch annuwiol a gwatwarllyd: ‡ ac a fyddent yn warth i grefydd sanctaidd yr efengyl, trwy "gerdded yn ol eu chwantau annuwiol eu hunain." Gwel ar adn. 16.

19 * Y rhai hyn yw y [t] rhai sydd yn eu didoli eu hunain, [u] † yn anianol, [x] ‡ heb fod yr Ysbryd ganddynt.

t Es. 65. 5. Ezec. 14. 7. Hos. 4. 14. a 9. 10. Heb. 10. 25. u 1 Cor. 2. 14. Iago 3. 15. x Ioan 3. 5, 6. Rhuf. 8. 9. 1 Cor. 6. 19.

* Yr oedd y rhybuddion a'r rhag-ddywediadau uchod yn cyfeirio at y dynion hyny, a "ddidolent eu hunain" oddi wrth yr eglwysi apostolaidd tua'r amser hwn, i ffurfio pleidiau cyfeiliornus; † a hwy yn "anianol," neu yn eu *cyflwr natur, heb eu hadgenedlu;* dàn lywodraeth tueddiadau anianol, a blysiau a nwydau y cnawd a natur lygredig: ‡ ac hefyd heb Ysbryd Duw ganddynt, nac yn preswylio ynddynt, fel Awdwr a Chynnalydd bywyd ysbrydol a serchiadau a grasau sancteiddiol. Fel hyn yr oeddynt yn cael eu cynhyrfu yn hollawl gan falchder, uchel-fryd, trachwant cybyddus, a thueddiadau cenfigenus a phen-rhydd, i ymddidoli oddi wrth eglwysi y saint, ac i ffurfio pleidiau eu hunain.—"Anianol:" *Psychikoi:* mae ymchwiliad manol i'r mànau lle defnyddir y gair hwn, (1 Cor. 2. 14; a 15. 44, 46; Iago 3. 15.) yn cadarnâu yr hyn a ddywedwyd uchod, (medd *Scott,*) ei fod yn arwydd dyn yn ei gyflwr *natur*, hyny yw, heb ei *adgenedlu;* heb benderfynu dim i ba ffordd y bydd ei lygredigaeth yn ei dywys ef, drwy amgylchiadau neilldiol.

20 * Eithr chwychwi, anwylyd, [y] gan eich adeiladu eich hunain ar eich [z] sancteiddiaf ffydd, [a] † a gweddïo yn yr Ysbryd Glân,

y Act. 9. 31. Rhuf. 15. 2. 1 Cor. 1. 8. a 10. 23. a 14. 4, 5, 26. Eph. 4. 12, 16, 29. 1 Thes. 5. 11. 1 Tim. 1. 4. z Act. 15. 9. a 26. 18. 2 Tim. 1. 5. Tit. 1. 1. Iago 2. 22. 2 Pedr 1. 1. 1 Ioan 5. 4. Dat. 13. 10. a Zec. 12. 10. Rhuf. 8. 15, 26, 27. 1 Cor. 14. 15. Gal. 4. 6. Eph. 6. 18.

* Yn lle gwrando ar dwyllwyr, cyngorai yr apostol ei anwyl frodyr i arfer pob dyfalwch i'w "hadeiladu eu hunain," a'r naill y llall, yn neu "ar eu sancteiddiaf ffydd."—Mae *athrawiaeth* y ffydd yn athrawiaeth o'r fath sancteiddiaf, yn ei natur a'i heffeithiau; yn tywys dynion i edifeirwch, ac i gasâu pob pechod; i garu Duw ac i ufuddâu iddo; ac i fyw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol; wrth yr hyn y gellir ei gwahaniaethu hi oddi wrth bob gau-athrawiaethau. Mae y *gras* o ffydd yn beth o'r fath sancteiddiaf; fel mae yn gweithio trwy gariad, yn puro'r galon, ac yn gorchfygu y byd: wrth yr hyn y gellir ei wahaniaethu oddi wrth bob ffydd gau a marw. Gan hyny, trwy lynu wrth athrawiaeth sanctaidd yr efengyl, mewn ufudd a bywiol ffydd; dylai cristionogion yn wastad ymgais am gynnyddu mewn gwybodaeth o wirioneddau Duw, ac yn y profiad o'u hawdurdod ar eu calonau; fel y byddont wedi ymgadarnâu fwy-fwy, mewn crediniaeth sylweddol ac effeithiol o honynt, ac yn yr holl dueddiadau sanctaidd, a'r ufudd-dod ymarferol hyny, sydd yn ymddybynu ar y gwirionedd, fel mae yr oruwch-adeiladaeth yn gorphwys ar y sylfaen. Fel hyn bydd cysondeb, diannwadalwch, a dichlynedd manwl eu hymddygiad, yn cynnyddu yn barâus; a hwy a harddant yr efengyl, a ogoneddant Dduw, ac a wnant ddaioni i ddynion, yn fwy effeithiol o hyd, tra byddont byw ar y ddaear. † I'r dyben o'u "hadeiladu eu hunain" a'r naill y llall "ar eu sancteiddiaf ffydd," cyngorai yr apostol hwy i "weddïo" yn barâus "yn yr Ysbryd Glân;" mewn ymddybyniad ar ei ddysgeidiaeth sanctaidd ef, a thàn ei nefol ddylanwadau: gan mai fel hyny yn unig y gallent hwy ddïanc y maglau, a gwrthsefyll y temtasiynau, a osodid yn eu ffordd hwynt.

21 [b] * Ymgedwch [c] y'nghariad Duw, [d] † gan

ddisgwyl [e] trugaredd ein Harglwydd Iesu Grist [f] ‡ i fywyd tragywyddol.

b adn. 24. Ioan 14. 21. a 15. 9, 10. Act. 11. 23. 1 Ioan 4. 16. a 5. 18, 21. Dat. 12. 11. c Rhuf. 5. 5. a 8. 39. 2 Thes. 3. 5. 1 Ioan 3. 16, 17. d Job 14. 14. Galar. 3. 25, 26. Mat. 24. 42—51. Luc 12. 36—40. 2 Tim. 4. 8. Tit. 2. 13, 14. Heb. 9. 28. 2 Pedr 3. 12. e Ioan 1. 17. 1 Tim. 1. 2. 2 Tim. 1. 2, 16, 18. f Rhuf. 5. 21. a 6. 23. 1 Ioan 5. 10, 11.

* Yn yr ymarferiad rhagorol uchod, y dylent ac y gallent hwy "ymgadw yn ngharliad Duw;" yn y sicrrwydd a'r cysur o'i gariad neilldiol ef tuag atynt hwy, yr hwn nis gallent ei fwynâu os byddent ddïog a musgrell; ac yn yr ymarferiad o gariad a dïolchgarwch mabaidd tuag ato ef. † Eto, gyda'r holl ddiwydrwydd, gwyliadwriaeth, a'r ymarferiadau cydwybodol hyn; rhaid iddynt beidio ag ymddiried dim ynddynt eu hunain, nac yn eu cyflawniadau; ond aros, edrych allan, a dysgwyl o hyd am y "drugaredd," yr hon sydd i bechaduriaid trwy "ein Harglwydd Iesu Grist;" ‡ ac ymbarotôi erbyn y cyflawniad perffaith o hóni mewn "bywyd tragywyddol," fel "dawn Duw" trwyddo ef. "Trugaredd" Duw, trwy "ein Harglwydd Iesu Grist," yw "bywyd tragywyddol" i bechadur; ac oll a berthyn iddo, o'r dechreu hyd ei berffeithiad yn y nef.

22 * A [g] thrugarhêwch wrth rai, † gan wneuthur rhagor.

g adn. 4—13. Ezec. 34. 17. Gal. 4. 20. a 6. 1. Heb. 6. 4—8. Iago 5. 19, 20. 1 Ioan 5. 16—18.

* Yr oedd yn dra angenrheidiol i gristionogion wybod, yn y dyddiau enbyd hyny, pa fodd i ymddwyn tuag at y cyfryw o'u brodyr, a gawsent eu hudo ar gyfeiliorn gan y twyllwyr a grybwyllwyd uchod; a'r rhai a ellid, ond odid, eu hadferu drachefn. Wrth rai dylent gymmeryd trugaredd, a'u trin mewn addfwynder, tynerwch, a thiriondeb; † "gan wneuthur rhagor," neu wahaniaeth, rhwng y rhai a syrthiasent trwy wendid a diofalwch, ac a ymddangosent yn edifeiriol; â'r rhai oedd yn fwy caled ac annuwiol.

23 * Eithr rhai [h] cedwch trwy ofn, [i] † gan *eu* cipio *hwy* allan o'r tân; [k] ‡ gan gasâu hyd yn nôd y wisg a halogwyd gan y cnawd.

h Rhuf. 11. 14. 1 Cor. 5. 3—5. 2 Cor. 7 10—12. 1 Tim. 4. 16. i Amos 4. 11. Zec. 3. 2. 1 Cor. 3. 15. k Lef. 13. 47—59. a 14. 47. a 15. 17. Es. 64. 6. Galar. 4. 14. Zec. 3. 3, 4. 1 Cor. 5. 9—11. a 15. 33. 2 Thes. 3. 14. Dat. 3. 4.

* Y rhai diweddaf uchod, ag oedd wedi myned yn mhell o'r ffordd, yn galed, ac yn anhawdd eu hadferu, dylent eu "cadw hwy trwy ofn;" gan wylied, wrth geisio eu hadferu hwynt, rhag iddynt hwy eu hunain gael eu maglu a'u dyrysu; † fel pe byddai i ddyn, wrth geisio cipio eraill o'r tân, syrthio iddo ei hunan, a chael ei losgi: neu ynte, dylent arfer moddion arswyddol a dychrynllyd; fel y gwna dynion pan welant rai mewn perygl dirfawr o gael eu llosgi yn y tân, a hwy yn annwybodus a dideimlad o'u perygl, gan gwsg neu feddwdod. Dylent argyhoeddi y rhai hyn yn llŷm o'u pechod a'u perygl, a chyhoeddi digofaint a bygythion ofnadwy Duw yn erbyn y fath gyfeiliornwyr gwrthgiliedig; gan obeithio trwy hyny eu cipio hwy rhag myned i dân uffern. ‡ Gyda phob ymdrechiadau mewn achos o'r fath hyn, rhaid bod casineb neilldiol a phenderfynol, at y pechodau a gyflawnid gan y dynion mewn dadl; a rhaid bod gofal i ochelyd pob peth a arweiniai i "gyd-gyfeillach â hwynt, yn eu gweithredoedd o dywyllwch:" megys y gochelid gwisg yn ofalus, a fyddai wedi ei halogi gan gnawd dyn a'r plâ, neu y gwahanglwyf arno; neu fel yr ofnai yr Iuddewon gyffwrdd â dilledyn a drosglwyddai halogrwydd seremoniol iddynt; felly y mynai yr apostol i'w frodyr gasâu hyd yn nôd y wisg a halogasid gan y cnawd; neu ba beth bynag oedd a'r berthynas bellaf rhyngddo âg arferion cnawdol, ac athrawiaethau penrhydd y twyllwyr uchod. Wrth geisio achub y dynion, dylent gasâu eu pechodau â chasineb eithaf.—Sylwyd gan rai ysgrifenwyr, bod y cyfryw wisgoedd addurniadol ac anaddas, ag a dueddant i demtio eraill i dueddiadau ac arferion pechadurus; neu wisgoedd a brynir â chyflog neu wobr anlladrwydd; yn deilwng iawn o gael eu galw yn wisgoedd a halogwyd gan y cnawd: ac fel y cyfryw, pa mòr wychion, hardd, neu *addas* bynag y byddont, y dylent gael eu casâu a'u ffieiddio, yn fwy na'r carpiau gwaelaf, gan bawb a fynent gael eu cyfrif yn gristionogion.

24 * Eithr i'r hwn a [l] ddichon eich cadw chwi yn ddigwymp, † a'*ch* [m] gosod ger [o] bron ei ogoniant ef yn [n] ddifeius [p] ‡ mewn gorfoledd,

l Gwel ar adn. 21.—Ioan 10. 29, 30. Rhuf. 8. 31. a 14. 4. a 16. 25. Eph. 3. 20. m 2 Cor. 4. 14. a 11. 2. Eph. 5. 27. Col. 1. 22, 28. a 3. 4. Heb. 13. 20, 21. n Dat. 14. 5. o Mat. 16. 27. a 19. 28. a 25. 31. Luc 9. 26. 1 Thes. 4. 16, 17. 1 Pedr 4. 13. p Salm 21. 6. a 43. 4. Mat. 5. 12. 2 Cor. 4. 17. 1 Pedr 4. 13.

* Eithr, tra yr oedd yr apostol yn rhoddi y gocheliadau a'r cyngorion uchod i'w frodyr, yr oedd yn dangos iddynt pa le i osod eu holl ymorphwysiad am gadwedigaeth rhag pob drwg, yn y ffurf o fawl-wers ddiweddol a ddefnyddiai. Oblegid yr oedd yn ei chyfiwyno iddo Ef, yr hwn a allai eu cadw hwy heb gwympo i bechod, cyfeiliorni, na dinystr, pa faint bynag y gallai eu perygl-on a'u temtasiynau fod; a'r hwn yn unig a allai wneyd hyny, trwy ei amddiffyniad allanol a thrwy ei gynnaliaeth dumewnol: † ac fel hyn eu "gosod" hwy yn y diwedd, yn ddifai, yn berffaith gyfiawn, ac wedi eu cwbl sancteiddio, "ger bron ei ogoniant ef," pan yr eglurer ef ddydd y farn, ger bron yr holl fyd casgledig. ‡ Bydd hyn yn orfoledd dirfawr, i bob un o'r saint er ei fwyn ei hun, ac yn nedwyddwch pawb o'r lleill; i'r holl angelion sanctaidd, ïe, i Dduw ei hun, yr hwn a lawenycha yn ei bobl, i wneuthur lles iddynt yn oes oesoedd.

25 [q] * I'r unig ddoeth [r] Dduw, ein Hiachawdwr ni, [s] † *y byddo* gogoniant a mawredd, gallu ac awdurdod, yr awrhon ac yn dragywydd. ‡ Amen.

q Salm 104. 24. a 147. 5. Rhuf. 11. 33. a 16. 27. Eph. 1. 8. a 3. 10. 1 Tim. 1. 17. r Salm 68. 20. Es. 12. 2. á 45. 21. Ioan 4. 22. 1 Tim. 2. 3. Tit. 1. 3, 4. a 2. 10, 13. a 3. 4. 2 Pedr 1. 1. s 1 Cron. 29. 11. Salm 72. 18, 19. Dan. 4. 37.—Gwel ar Mat. 6. 13.—Eph. 3. 21. 1 Pedr 4. 11. a 5. 10, 11. 2 Pedr 3. 18. Dat. 1. 6. a 4. 9—11. a 5. 13, 14.

* "Iddo ef" gan hyny, fel yr "unig ddoeth Dduw," yr hwn a fedrai wared y duwiol rhag profedigaeth; † sef i Dduw ein "Hiachawdwr ni," yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân, tri Pherson yn un Duw; y priodolai yr apostol ‡ bob gogoniant a mawredd, gallu ac awdurdod, yn y nef ac ar y ddaear, ‖ yr awr hòno, o hyny allan hyd ddiwedd y byd, ac yn dragywydd. § Yn y rhoddiad hyn o ogoniant i Dduw ein Hiachawdwr, boed i ni a'r holl saint a'r angelion gyduno, megys âg un llef a chalon! Amen, felly bydded, ac felly y caiff fod yn oes oesoedd.—Yr oedd yn orfoledd gan yr apostol fod yr holl ogoniant a'r mawredd, y gallu a'r awdurdod, yn perthyn iddo ef, ac y ca'i ei feddiannu byth ganddo ef, yr hwn yn unig oedd yn deilwng o hóno; ac oedd yn alluog i arfer pob awdurdod er daioni i'w deyrnas gyffredinol a thragywyddol.—Gan mai yr Arglwydd Iesu yn unig a ymddengys yn weledig mewn gogoniant ddydd y farn, i gyflwyno ei saint mewn gogoniant iddo ei hun; tybia rhai mai iddo ef yn bersonol y perthyn y fawlwers hon: ond tybia eraill mai yr Un gwir a bywiol Dduw, y Drindod mewn Undod, oedd yn meddwl yr apostol, heb unrhyw olwg at un o'r Personau dwyfol heb y lleill: a dïammau y bydd *gogoniant* y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, yn iachawdwriaeth pechaduriaid, yn cael ei arddangos yn nydd y farn; er mai Crist yn unig, yn weledig a phersonol, a ymddengys i farnu y byd.—*Yr unig ddoeth Dduw:* Efe yn unig sydd felly o hóno ei hun, yn hanfodol, ac yn anfeidrol mewn doethineb, yn gystal ag mewn pob perffeithrwydd arall.—Mae amryw adnodau yn yr epistol hwn yn debyg iawn i amryw adnodau yn yr ail bennod o ail epistol Petr: cair llawer o gymmorth i ddeall y ddau apostol, drwy gymharu yr adnodau cyffelyb hyny â'u gilydd; ac efallai y cair peth cymmorth i'w ddeall hefyd, oddi wrth y sylwadau ar bob un o honynt.

DATGUDDIAD

SANT IOAN Y DIFINYDD.

PEN. I.

Ioan yn ysgrifenu ei Ddatguddiad at saith eglwys Asia, &c.

1 * [a]DATGUDDIAD Iesu Grist, [d] † yr hwn
a roddes Duw iddo ef, [e] i ddangos i'w
wasanaethwyr y pethau [d] sydd raid eu dyfod i
ben ar fyrder; [e] ‡ a chan ddanfon trwy ei
angel, ‖ efe a'*i* hysbysodd i'w wasanaethwr
Ioan:

a Dan. 2. 28, 29. Amos 3. 7. Rhuf. 16. 25. Gal. 1. 12. Eph. 3. 3. b Ioan 3. 32. a 8. 26. a 12. 49. c pen. 22. 6. Salm 25. 14. Ioan 15. 15. d adn. 3, 19. pen. 4. 1. a 22. 10. 2 Pedr 3. 8. e pen. 22. 6, 16. Dan. 8. 16. a 9. 21, 23. f adn. 4, 9. pen. 21. 2.

* Iesu Grist yn ei swydd gyfryngol yw Prophwyd awr yr eglwys, "Gair Duw" wedi ymgnawdoli, trwy hwn mae efe yn ei ddatguddio ei hun i ddynion. Yn yr ystyr hyn rhoddodd y Tad rai pethau iddo ef, fel i ddatguddiad ef, i'w dangos trwyddo ef i'w wasanaethwyr; a rhai pethau eraill ni roddwyd i'w dangos a'u datguddio felly i ddynion. Mae aneirif o bethau ewriad ac arfaeth Duw, yn aros o hyd yn annhreiddiadwy gudd iedig yn ei feddwl ef ei hun, hyd oni ddatguddder hwynt yn y cyflawniad o honynt. Ond efe a welodd yn dda i *rag*-ddatguddio rhai o'i fwriadau yn mherthynas i'r oesoedd i ddyfod, i'r dyben ò gadarnâu ffydd, ac yfâu gobaith, ac ehangu golygiadau ei bobl; ac fel y yddai i'r cyflawniad o honynt mewn amserau dyfodawl, ddangos gwirionedd yr ysgrythyr i bob ymchwiliwr ffrifol. Gan hyny galwyd y llyfr hwn yn "Ddatguddiad Iesu Grist;" oblegid mai ei brif amcan yw, dangosiad *blaenorawl* o fwriadau Duw yn mherthynas i achosion yr eglwys, a helyntion gwahanol genedloedd y daear fel mewn cyssylltiad â hi; o'r amser y rhoddwyd i'f hyd ddiwedd y byd. † Rhoddwyd y datguddiad hwn Iesu Grist; fel y dangosai efe i'w wasanaethwyr y pethau hyny ag oedd i ddechreu cymmeryd lle yn y dân, ac a oedd i ddyfod i ben ar *fyrder;* fel nad yw yr ysbaid o ryw fil neu ddwy o flynyddoedd ddim mewn cymhariaeth i dragywyddoldeb, yn yr hwn y llyncir amser oll yn y diwedd. ‡ Danfonodd Crist trwy ei angel, un o'i wasanaethwyr mwy ardderchog yn y byd uchod, i hysbysu ac egluro y datguddiad a enwyd mewn rrefn, ‖ i'w wasanaethwr Ioan; yr hwn oedd ei brif wasanaethwr ar y ddaear y pryd hwnw, ac efallai yr unig un o'r apostolion ag oedd yn fyw.—*A roddes Duw:* efe a roddes Duw Dad, i Grist fel *Cyfryngwr*, nid fel Person dwyfol: fel hyny yr oedd yn holl-wybodol fel y Tad ei hun.—*Trwy ei angel*, &c.: un ai trwy leferydd yr angel, neu trwy arwydd a dangosiad gweledigaethol, neu trwy ennyn a chyffrôi syniadau o'r pethau datguddiedig yn meddwl Ioan.

2 * Yr hwn a [g] dystiolaethodd air Duw,
† a thystiolaeth Iesu Grist, [h] ‡ a'r holl bethau
a welodd.

g adn. 9. pen. 6. 9. a 12. 11, 17. Ioan 1. 32. a 12. 17. a 19. 35. a 21. 24. 1 Cor. 1. 6. a 2. 1. 1 Ioan 5. 7—11. 3 Ioan 12. h adn. 19. Ioan 3. 11. Act. 4. 20. a 22. 15. a 26. 16. 1 Ioan 1. 1. a 4. 14.

* Trwy un neu y llall o'r ffyrdd a enwyd, y datguddiwyd pethau dyfodawl i Ioan, megys ag i amryw o'r hen brophwydi gynt, yn enwedig Ezeciel, Daniel, a Zecharïah: ac yntau a'u tystiolaethodd hwynt yn ffyddlawn ac yn gywir fel gair Duw, † a thystiolaeth Iesu Grist, wedi eu rhoddi ganddo ef trwy ei angel iddo; ‡ ac a dystiolaethodd yr holl bethau a welodd yn y gweledigaethau hyn o eiddo yr Holl-alluog. Ond mae *Guyse* yn deall "tystiolaethu gair Duw," &c., yn y fàn hon, am yr efengyl a ysgrifenasai Ioan, yn gystal ag am y pethau a ysgrifenodd efe yn y llyfr hwn. Fel hyny mae y geiriau i'w deall yr un fath â 1 Ioan 1. 1—3.

3 * Dedwydd *yw* yr hwn sydd yn darllen,
a'r rhai sydd yn gwrando † geiriau y bro-
phwydoliaeth hon, ‡ ac yn cadw y pethau sydd
yn ysgrifenedig ynddi: [k] ‖ canys *y mae* yr
amser yn agos.

i pen. 22. 7. Diar. 8. 34. Dan. 12. 12, 13. Luc 11. 28. k pen. 22. 6, 12, 20. Rhuf. 13. 11. Iago 5. 8. 1 Pedr 4. 7. 2 Pedr 3. 8.

* Gellir casglu yn ddigon teg oddi wrth y geiriau hyn, fod y llyfr hwn yn rhan o'r ysgrythyr Sanctaidd, i'w ddarllen yn gyhoeddus, yn deuluaidd, ac yn bersonol; pe amgen ni buasai bendith, neu "ddedwyddwch," yn cael ei gyhoeddi ar y neb a'i darllenai ac a'i gwrandawai yn ystyriol ac yn grediniol. † Gellir gweled hefyd, mai nid hanes am bethau wedi myned heibio yw y llyfr hwn, eithr prophwydoliaeth o bethau i ddyfod; oblegid er fod *prophwydoliaeth* mewn rhai mànau o'r ysgrythyr, yn arwyddo datguddiad o feddwl Duw yn gyffredin; eto, yn y fàn hon, mae y gair yn arwyddo rhagfynegiad o bethau i ddyfod, yn yr ystyr fanylaf. ‡ Yr hwn sydd yn eu cadw mewn côf, ac yn byw yn yr olwg arnynt, fel dyn yn eu gwir gredu; *dedwydd* yw y dyn hwnw, canys efe a gaiff gysur oddi wrth y brophwydoliaeth hon, yn achos holl ddyoddefiadau yr eglwys a phobl Dduw. ‖ Canys y mae yr amser i gyflawni y pethau hyn yn agos; nid yw wedi myned heibio, nac yn hollol wedi dechreu, ond mae yn *agos;* ac mòr sicr o ddyfod, a chael ei gyflawni, â phe byddai wedi myned drosodd.—*Pool.*

4 * IOAN [m] at y saith eglwys sydd yn Asia:
[n] † Gras *fyddo* i chwi, a thangnefedd,
‡ oddi wrth yr [o] hwn sydd, a'r hwn a fu, a'r hwn
sydd ar ddyfod; ‖ ac oddi [p] wrth y saith
Ysprydsydd ger bron ei orsedd-faingc ef;

l Gwel ar f. adn. 1. m adn. 11, 20. pen. 2. 1, 8, 12, 18. a 3. 1, 7, 14. Act. 19. 10. 1 Pedr 1. 1. n Gwel ar Rhuf. 1. 7.—1 Cor. 1. 3. 2 Cor. 1. 2. 1 Pedr 1. 2. o adn. 8. Ex. 3. 14. Salm 90. 2. a 102. 25—27. Es. 41. 4. a 57. 15. Mica 5. 2. Heb. 1. 10—13. a 13. 8. Iago 1. 17. p pen. 3. 1. a 4. 5. a 5. 6. Zec. 4. 10. a 6. 5. 1 Cor. 12. 4—13.

* Rhoddodd Iesu Grist trwy ei angel, y datguddiad blaenorawl i Ioan; nid i'w gadw iddo ei hun, ond i'w hysbysu i'r eglwysi: ac yn awr dyma'r Ioan hwnw wrth ei enw, yn dechreu cyfeirio ei hun, a thraddodi ei genadwri, at y Saith eglwys oedd y pryd hwnw yn Asia

Brïodol, sef y rhan hyny o Asia Leiaf, yr oedd Ephesus yn brif-ddinas iddi. † Mae y fendith-wers hon yn gyffelyb i'r hyn a gawsom, ac a fu dàn ein hystyriaeth eisoes, yn y rhanau epistolaidd o'r Testament Newydd; ond yma mae yn cael ei geirio mewn ymadrodd mwy mawreddig a chyfriniawl, yn gyfatebol i natur y llyfr, i ba un y mae yn rhagymadrodd. Mae efe yn dymuno gras a thangnefedd i'r eglwysi, ‡ "oddi wrth yr hwn sydd, a'r hwn a fu, a'r hwn sydd ar ddyfod;" sef oddi wrth yr hunan-hanfodol, tragywyddol, ac anghyfnewidiol JEHOFAH. Dywed *Scott* fod y geiriau gwreiddiol yn y fàn hon yn nodedig, efallai heb eu cyffelyb; a bod bron, os nid yn hollawl, anmhosïbl eu cyfieithu hwynt yn fanol gywir; am nad ydynt yn ol rhëolau manwl gramadeg yn yr iaith hòno. Tybir fod Ioan yn cyfeirio yma at yr enw dwyfol a ddatguddiwyd i Moses; (Ex. 3. 14.) a chyda chyffelyb dòriad ar rëolau cyffredin ieithyddiaeth. Mae perffeithrwydd anfeidrol Duw, yn mhell uwchlaw perffeithrwydd rhëolau gramadeg, mewn unrhyw iaith yn y byd. Sylwa dysgedigion fod y geiriau dàn ein sylw wedi eu llefaru *fel* y llefarwyd hwynt, i'r dyben o osod allan dragywyddol eirwiredd ac anghyfnewidioldeb Duw, a mawredd digyfnewid Crist yn nhystiolaeth ei efengyl, a gogoniant ei deyrnas. Mae yn sicr y gellir prïodoli y geiriau uchod i Grist yn bersonol; (gwel adn. 8, 11, 17; pen. 21. 6; a 22. 13.) ond tybia *Scott* eu bod yn cyfeirio yn benaf at Berson y Tad: gan fod yr Un gwir a bywiol Dduw, yn cyfranu bendithion i ddyn pechadurus, trwy gyfryngdod y Mab fel Duw-ddyn, a thrwy weithrediad yr Ysbryd tragywyddol; yr oedd bron yn anmhosibl, dàn y cyfryw drefnyddiaeth, i beidio llefaru am y Tad yn yr enwad hollawl o Dduwdod, ac am y Mab a'r Ysbryd gyda golwg ar y gwaith a'r swyddau a gymmerasant; ond eto mewn iaith ag oedd yn eglur ddangos perffeithiau dwyfol pob un o'r tri Pherson, a hollawl gydraddoldeb y Mab a'r Ysbryd â'r Tad, yn eu natur a'u mawredd gwreiddiol a hanfodol. ‖ Fel hyn yr oedd Ioan yn gweddïo am ras a thangnefedd i'r eglwysi, "oddi wrth y Saith Ysbryd sydd ger bron yr orsedd-fainc." Deallir hyn yn gyffredin, ac yn gywir hefyd yn ddïammau, am yr Ysbryd Glân; gyda golwg ar helaethrwydd, digonoldeb, ac amrywiaeth ei ddoniau, ei rasau, a'i weithrediadau ef: a chyda golwg ar y *saith* eglwys, yn mhob un o ba rai, yn nghyd â phob eglwysi eraill, yr oedd yr Un a'r unrhyw Ysbryd yn preswylio, fel ffynon bywyd, gras, a thangnefedd; gan ei fod yn holl-bresenol ac yn holl-alluog, ac yn Un â'r Tad ac â'r Mab, uwchlaw pawb, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd. Yr oedd y fath hyn o ymadrodd yn cydweddu yn dda i ddull cyfriniawl a goruchel y llyfr hwn: ac ynfydrwydd fyddai tybied, fod Ioan yn y fendith-wers ddifrifol hon, yn cyssylltu neb rhyw ysbrydion crëedig â'r Tad tragywyddol, ac â Iesu Grist Mab y Tad, heb ddywedyd dim am yr Ysbryd Glân; ac yn wir buasai hyny yn llawn ganiatâu addoliad i angelion crëedig.

5 * Ac oddi wrth Iesu Grist, [q] † *yr hwn yw* y Tyst ffyddlawn, ‡ y [r] Cyntaf-anedig o'r meirw, [s] ‖ a thywysog brenhinoedd y ddaear. § Iddo [t] ef yr hwn a'n carodd ni, ac a'n [u] golchodd ni oddi wrth ein pechodau yn ei waed ei hun,

q pen. 3. 14. Salm 89. 36, 37. Es. 55. 4. Ioan 3. 11, 32. a 8. 14—16. a 18. 37. 1 Tim. 6. 13. 1 Ioan 5. 7—10. r Act. 26. 23. 1 Cor. 15. 20—23. Col. 1. 18. s pen. 11. 15. a 17. 14. a 19. 16. Salm 72. 11. a 89. 27. Diar. 8. 15, 16. Dan. 2. 44. a 7. 14. Mat. 28. 18. Eph. 1. 20—22. 1 Tim. 6. 15. t Deut. 7. 8. a 23. 5. Rhuf. 8. 37. Gal. 2. 20. Eph. 2. 4. a 5. 2, 25—27. 1 Ioan 4. 10. u pen. 7. 14. Zec. 13. 1. Ioan 13. 8—10. Act. 20. 28. 1 Cor. 6. 11. Heb. 9. 14. 1 Pedr 1. 19. 1 Ioan 1. 7.

* Yn olaf, gweddïir am y gras a'r tangnefedd uchod "oddi wrth Iesu Grist," fel y Cyfryngwr gosodedig, trwy yr hwn mae yr Ysbryd tragywyddol, yn nghyd a'i holl ddoniau, ei rasau, a'i ddyddanwch, yn cael ei roddi i ddyn syrthiedig. † A dysgrifiai Ioan y Gwaredwr fel y "Tyst ffyddlawn;" yr hwn a ddaethai i'r byd i dystiolaethu i ddynion am berffeithiau, bwriadau, gwirioneddau, ac ewyllys Duw; ac yr hwn a lawn ddatguddiodd yr hyn oll a dderbyniasai efe gan y Tad i hyny. ‡ Yr oedd efe hefyd yn "Gyntaf-anedig o'r meirw." Gan ei fod ef yn Unig-anedig y Tad cyn yr holl fydoedd, ac yn "Etifedd pob peth;" efe a ddaethai i'r byd fel y cyfryw, i babellu mewn dynoliaeth; a chwedi ei roddi i farwolaeth am dystiolaethu ei hun yn "Fab Duw," efe a gyfododd o feirw, yn un peth, i ddangos ei fod ef yr hyn dywedasai ei fod. Fel hyn efe a ddaeth yn Flaen-ffrwyth yr adgyfodiad, ac a ymddangosodd fel y Cyntaf-anedig o blant Duw, yn a thrwy yr hwn y cyfodant hwy oll eto, y dangosir hwynt yn eu cymmeriad uchel ac anrhydeddus, ac y gosodir hwy mewn meddiant o'u hetifeddiaeth dragywyddol. ‖ Gwedi cyfodi fel hyn oddi wrth y meirw, a'i dderchafu i'r orsedd gyfryngol, mae "Iesu Grist" hefyd yn Dywysog, neu ben Arglwydd, breninoedd y ddaear; trwy yr hwn y teyrnasant, i'r hwn maent yn gyfrifol, yr hwn a ddylent ei ogoneddu; a chan yr hwn y dinystrir yn ofnadwy, bawb a'i gwrthwynebant, a'i dïystyrant, ac a'i dirmygant ef. Yr oedd y cyhoeddiad hyn o ben-arglwyddiaeth y Gwaredwr ar holl "freninoedd y ddaear," yn rhagarweiniad addas iawn i'r prophwydoliaethau ag oedd i gael eu traddodi yn y llyfr hwn; yn addas i'r gwrthwynebiad a wnaid i'w achos ef, ac i'w fuddugoliaeth hollawl ef yn y diwedd, ar ei holl elynion. § Gwedi ei lenwi â gorfoledd yn yr olwg ar ogoniant ei anwyl Arglwydd, a thrwy gymharu hyny â'i ymostyngiad dirfawr, a dyfnder ei hunan-iseliad ef; mae yr ysgrifenydd sanctaidd yn tòri allan mewn mawl clodforedd, "iddo ef yr hwn," er mòr fawr a gogoneddus ydoedd, "a'i carasai" ef a'i frodyr, pan oeddynt yn halogedig gan lychwiniadau ffiaidd euogrwydd a phechod, ac yn haeddu digofaint tragywyddol Duw; a chariad yr hwn oedd mòr anfeidrol, fel y golchasai efe hwynt oddi wrth eu pechodau yn ei waed ei hun, yr hwn a dywalltasai efe yn wirfoddol ar y groes, i foddloni cyfiawnder Duw, ac i gaffael holl fendithion yr iachawdwriaeth iddynt hwythau.

6 * Ac a'n [x] gwnaeth ni yn frenhinoedd † ac yn offeiriaid i Dduw a'i Dad ef: [y] ‡ iddo ef *y byddo* y gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. Amen.

x pen. 5. 10. a 20. 6. Ex. 19. 6. Es. 61. 6. Rhuf. 12. 1. 1 Pedr 2. 5, 9. y pen. 4. 11. a 5. 12—14. Salm 72. 18, 19. Dan. 4. 34. Mat. 6. 13. Ioan 5. 23. Phil. 2. 11. 1 Tim. 6. 16. Heb. 13. 21. 1 Pedr 4. 11. a 5. 11. 2 Pedr 3. 18. Judas 25.

* Yn y modd uchod, yr oedd "Iesu Grist" nid yn unig wedi eu gwaredu hwynt rhag y "llid a fydd," ond hefyd wedi eu derchafu a'u hardderchogi hwynt fel "breninoedd," i deyrnasu gydag ef mewn tragywyddol ogoniant; † a chwedi eu cyssegru hwynt yn "offeiriaid," i fod yn addolwyr cymmeradwy, ac i offrymu aberthau ysbrydol i Dduw a'i Dad ef, neu i Dduw *sef* ei Dad ef. ‡ Ar gyfrif y pethau hyn, mae Ioan yn prïodoli i Grist yn *bersonol*, y gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd: a thrwy "anrhydeddu y Mab" fel hyn, yr oedd efe mewn modd arbenig yn "anrhydeddu y Tad yr hwn a'i hanfonodd ef;" ‖ megys hefyd y gwna pawb, a ddywedant o'u calon, Amen, gyda'r apostol.

7 * Wele, [z] y mae efe yn dyfod gyd a'r [b] cymmylau; [a] † a phob llygad a'i gwel ef, ‡ ïe, y rhai a'i gwanasant ef: [c] ‖ a holl lwythau y ddaear a alarant o'i blegid ef. [d] § Felly, Amen.

z pen. 14. 14—16. Salm 97. 2. Es. 19. 1. Dan. 7. 13. Nah. 1. 3. Mat. 24. 30. a 26. 64. Marc 13. 26. a 14. 62. Luc 21. 27. Act. 1. 9—11. 1 Thes. 4. 17. a pen. 22. 4. Num. 24. 17. Job 19. 26, 27. a 33. 26. 2 Thes. 1. 10. 1 Ioan 3. 2. Judas 14. b Salm 22. 16. Zec. 12. 10. Ioan 19. 34, 37. Heb. 6. 6. a 10. 29. c pen. 6. 15—17. a 18. 15—19. Luc 23. 28—30. d pen. 18. 20. a 19. 1—3. a 22. 20. Barn. 5. 31. Salm 68. 1.

Mae prophwydoliaeth y llyfr hwn yn cyfeirio yn benaf at y gwrthwynebiadau, y rhai yn y naill ffordd a'r llall a wnaid i achos Crist; llwyddiant ei elynion ef dros ychydig; a'i fuddugoliaeth ef yn y diwedd arnynt

1: gan hyny yn nechreuad y llyfr, gelwir sylw y darllenydd at y dydd mawr hwnw, pryd y cauir i fynu y holygfèydd hyn, a phryd y gwel pawb ddoethineb a deddyddwch cyfeillion Crist, a chynddaredd a thrueni ei y ynion ef. * Oblegid "wele," gyda sylw ystyriol ac arswyd difrifol, y mae y Gwaredwr a'n "carodd ni, ac un golchodd oddi wrth ein pechodau yn ei waed ei hun," "yn dyfod gyda'r cymylau," neu yn nghymylau y tef, yn ei ogoniant ei hun fel Cyfryngwr, ac yn ngoniant ei Dad, i fod yn Farnwr y byd! Ni byddai yr gapaid cyfrhwng fawr o dro yn myned heibio, a gallesi dywedyd hyd yn nôd y pryd hwnw, "Wele, y mae efe yn dyfod!" † Yna holl genedloedd a holl genedlethau y byd, wedi eu cyfodi o feirw, a gesglir ger bron i orsedd-fainc ef, a phob llygad a'i gwel Ef, mewn dyndiaeth, yn defnyddio holl-alluawgrwydd, holl-wybodeth, a phob perffeithiau dwyfol, yr hwn unwaith a fu an gorwedd ar y ddaear mewn annhraethadwy ing yn ethsemane, ac a gyfrifwyd gyda'r troseddwyr ar alfaria! ‡ Yna, hwy yn enwedig, "y rhai a'i gwanasmt ef," a gânt o orfod weled ei ogoniant, yn gystal â meimlo nerth ei soriant dïaleddol ef. Judas y bradwr, a'aiaphas a'r arch-offeiriaid, Herod a'i filwyr, Pilat a'i lwyr, yn nghyd â phawb a fu yn ei gondemnio ac yn i groeshoelio ef; a'r rhai hyny yn mhob oes, y rhai rwy anghrediniaeth, gwrthgiliad, erlidiau, cyfeiliornadru, a phechodau rhyfygus, a'i hail groeshoeliasant ef, c a'i gosodasant yn watwar; cânt y pryd hwnw gyda ychryn annhraethadwy ei weled ef, yn darpar i gyoeddi a chyflawni y ddedfryd gyfiawn o'u tragywyddol olledigaeth hwynt. || A holl dylwythau y ddaear, trwy l-yn-ol genedlaethau, y rhai hyd y pryd hwnw a fuont mewn cynghrair i wrthwynebu, i wyro, i ddïystyru, ac i dirmygu Crist a'i iachawdwriaeth fawr, oddigerth weddill bychan o honynt yn unig; yn y dydd mawr wnw, hwy a alarant o'i blegid ef, mewn dychryn ac nnobaith; oblegid nis gall eu nifer na'u nerth eu aamddiffyn hwynt rhag ei ddïaledd holl-alluog ef. Pa fodd bynag, gan fod Ioan yn sicr o gyfiawnder ac nniondeb y pethau arswydlawn uchod, a chan y gwyddai y cyflawnid gwaredigaeth yr holl wir gristionogion yn erffaith y pryd hwnw; mae efe yn gosod ei Amen wrth cyhoeddiad ofnadwy, "felly y darfyddo am dy holl lynion anghymmodlawn, O Arglwydd."

8 * Mi yw [e] Alpha ac Omega, † y dechreu a'r diwedd, ‡ medd yr Arglwydd, [f] || yr hwn ydd, a'r hwn oedd, a'r hwn sydd i ddyfod, § yr Hollalluog.

e adn. 11, 17. pen. 2. 8. a 21. 6. a 22. 13. Es. 41. 4. a 43. 10. a 44. 6. a 48. 12. f Gwel ar o. adn. 4. g pen. 4. 8. a 11. 17. 16. 14. a 19. 15. a 21. 22. Gen. 17. 1. a 28. 3. a 35. 11. a 43. 14. 48. 3. a 49. 25. Ex. 6. 3. Num. 24. 4. 2 Cor. 6. 18.

Gan ei bod yn amlwg mai am yr Arglwydd Iesu yr oeddid yn llefaru yn yr adnod o'r blaen, naturiol yw casglu mai yr un Person sydd yn llefaru am dano ei hun yn yr adnod hon: ac nis gellir rhoddi unrhyw ceswm boddlonawl, paham y dylem ddeall y geiriau hyn am y Tad yn Bersonol; ond yn unig bod yn annawdd gan ddynion anrhydeddu y Mab, fel y dylent anrhydeddu y Tad yr hwn a'i hanfonodd ef. Mae yr holl weledigaeth yn perthyn i Grist, oddi wrth ba un yn union-gyrchol y rhoddwyd y datguddiad: mae y geiriau a ddefnyddir yma, neu eraill o'r un ystyr â hwynt, yn gael eu llefaru ar ol hyn, gan Grist, ac am dano ei hun; a byddai gosodiad a threfn yr adnod hon â'r cyddestynau, yn ddyrys iawn pe tybiem mai y Tad sydd yn llefaru yma. * Gan hyny mae yr Arglwydd Iesu yn y fàn hon, yn tystiolaethu mai efe yw Alpha ac Omega, yr hyn yw enwau y llythyren gyntaf a diweddaf yn yr egwyddor Groeg, yr hon iaith yr ysgrifenodd Ioan ynddi: † ac mae y geiriau nesaf, "y dechreu a'r diwedd," yn dangos beth yw ystyr Alpha ac Omega; ac yn dangos mai yr Arglwydd Iesu yw Achos Cyntaf a Dyben Diweddaf, Awdwr a Pherffeithydd pob peth, mewn creëadigaeth, rhagluniaeth, ac iachawdwriaeth; Dechreu a Diwedd, Ffynon bodoliaeth, bywyd, sancteiddrwydd, a dedwyddwch; a'r Cyflawniad perffaith o honynt. yn mhob ystyr, ac yn mhob modd. ‡ Efe yw Arglwydd pawb oll, yn y nef, ar y ddaear, ac ar dàn-ddaearolion bethau; a daw pawb yn y màn i'w gyffesu ef yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad. || Efe yw yr hwn sydd felly yn awr, a'r hwn oedd felly erioed, a'r hwn a fydd felly byth, mewn undeb hanfod â'r tragywyddol Dad a'r Ysbryd; ac efe yw yr hwn sydd i ddyfod gyda'r cymylau, fel y sylwyd uchod. (adn. 7.) § Efe yw yr "Holl-alluog;" holl-nerthol a goruchaf Lywydd y bydoedd oll, yr hwn a wnaeth bob peth, ac yn yr hwn mae pob peth yn cyd-sefyll.—Mae yn anmhosibl i eiriau osod allan dragywyddol allu a Duwdod, yn gryfach nâ'r rhai hyn.

9 * Myfi [h] Ioan, yr hwn *wyf* hefyd eich brawd, [i] † a'ch cydymmaith mewn cystudd, ‡ ac yn [k] nheyrnas ac amynedd Iesu Grist, || oeddwn yn yr ynys a elwir Patmos, [l] § am air Duw, ac am dystiolaeth Iesu Grist.

h Gwel ar adn. 4. i pen. 2. 9, 10. a 7. 14. Ioan 16. 33. Act. 14. 22. Rhuf. 8. 17. 1 Cor. 4. 9—13. Phil. 1. 7. a 4. 14. 2 Tim. 1. 8. a 2. 3—12. k pen. 3. 10. a 13. 10. a 14. 12. Rhuf. 2. 7, 8. a 5. 3, 4. a 8. 25. 2 Thes. 1. 4, 5. a 3. 5. Heb. 10. 36. Iago 5. 7, 8. l adn. 2. pen. 6. 9. a 11. 7. a 12. 11, 17. a 19. 10.

* Yma mae yr apostol yn myned rhagddo i adrodd y modd, yn mha un y derbyniasai efe y datguddiad yr oedd yn awr yn myned i'w draddodi: nid yw efe yn gwneyd dim mwy na'i gyfenwi ei hun "Ioan," a "brawd" i'r cristionogion yr oedd yn ysgrifenu atynt; heb sôn dim am ei swydd a'i awdurdod apostolaidd, er, mae yn debyg mai efe oedd yr unig apostol ag oedd yn fyw y pryd hwnw. † Yr oedd efe hefyd yn "gydymaith mewn cystudd" â hwynt; gan ei fod fel gwas Crist yn cael ei erlid, ac yn agored i'r un dyoddefiadau â hwythau yn ei achos ef: ‡ ac yr oedd yn gyd-ddeiliad â hwynt yn nheyrnas y Gwaredwr ar y ddaear, ac yn gyd-etifedd â hwynt o'r deyrnas yn y nef. Yr oedd efe yn *goddef* y cystuddiau uchod, fel hwythau; gyda'r ymostyngiad, y dïannwadalwch, yr "amynedd," y tawelwch, a'r parâd hyny, ag oedd Crist yn ei ofyn, a chwedi ei ddangos ei hun; trwy yr hyn yr oedd efe yn profi diddanwch presenol, ac yn dysgwyl diwedd dedwydd i'w gystuddiau oll. || Pan gafodd Ioan y gweledigaethau hyn, yr oedd efe yn yr ynys a elwid Patmos, lle y cawsai efe ei alltudio gan yr Amherawdwr *Domitian*, meddant, wedi iddo ddyfod allan o'r pair olew berwedig heb dderbyn dim niwed. § Trinwyd yr hen apostol felly am bregethu gair Duw, a thystiolaethu am Iesu Grist, ei fod yn Fab Duw, ac yn Iachawdwr i bawb a gredant ynddo.—Dywedir fod Patmos yn un o'r 53 o ynysoedd a elwir y *Cyclades*, yn môr Iscaria, neu fôr *Ægea*, fel y gelwir ef yn awr, ac ei bod yn 35 milltir o amgylchedd. Dechreuodd *Domitian* deyrnasu, medd *Pool*, tua'r flwyddyn 82 o oed Crist, a dechreuodd erlid y cristionogion tua'r flwyddyn 90: lladdwyd ef yn y flwyddyn 97, ond yn y saith mlynedd hyny, erlidiodd, alltudiodd, a lladdodd lawer iawn o'r cristionogion. Dywed *Pool* iddo alltudio Ioan i Patmos yn y flwyddyn 91, ac iddo gael y gweledigaethau hyn yno yn 94 a 95. Dywed hen hanesion eglwysig iddo gael ei ddanfon i'r mŵn-gloddiau yn mynyddoedd Patmos, ac ei fod yn gorfod gweithio yno, er maint gwendidau ei oedran mawr ef.—Gwedi marw *Domitian*, dywedir i Ioan gael ei ryddâu, ac iddo ddychwelyd drachefn i Ephesus, lle y bu farw yn mhen tair blynedd wedi hyny, tua'r flwyddyn 98. Os felly, rhaid iddo gael ei ryddâu cyn marwolaeth *Domitian*, yr hyn, medd *Pool*, a ddygwyddodd yn y flwyddyn 97: ond mae dysgedigion yn gwahaniaethu llawer yn nghylch *amser* y dygwyddiadau uchod.

10 * Yr oeddwn i [m] yn yr Yspryd [n] † ar ddydd yr Arglwydd; ‡ ac a glywais o'r tu ôl i mi lef fawr [o] fel *llais* udgorn

m pen. 4. 2. a 17. 3. a 21. 10. Mat 22. 43. Act. 10. 10, &c. 2 Cor. 12. 2—4. n Ioan 20. 19, 26. Act. 20. 7. 1 Cor. 16. 2. o pen. 4. 1. a 10. 3—8.

* Ond yn nghanol ei holl ddyoddefiadau, yr oedd enaid sanctaidd yr apostol yn siriol ac yn rhydd; yn mwynâu melysach cysuron nac oedd yn bosibl i'r Amherawdwr na neb o'i gyd-erlidwyr llwyddiannus eu mwynâu; ac ni ddangosodd efe ddim anfoddlonrwydd na chyffro, wrth anghyfiawnder a chreulondeb y driniaeth a gafodd. Tra yr oedd efe yn y sefyllfa hon, yr oedd "yn yr Ysbryd," neu dàn weithrediad digyfrwng Ysbryd prophwydoliaeth; fel y buasai Ezeciel, Daniel, ac eraill, pan yr anrhydeddwyd hwy â gweledigaethau yr Holl-alluog. † Yr oedd hyn ar "ddydd yr Arglwydd;" yr hyn nis gall feddwl dim arall, ond y dydd ar yr hwn y cyfododd yr Arglwydd Iesu o feirw, sef y dydd cyntaf o'r wythnos Iuddewig: ac mae hyn yn brawf penderfynol, bod y dydd hwnw yn cael ei neilldio, a'i gadw yn sanctaidd, gan yr apostolion a'r prif gristionogion, mewn coffadwriaeth o adgyfodiad Crist: oblegid ar ba gyfrif arall y gallesid ei grybwyll ef fel hyn? Yr oedd Ioan fel hyn yn ei alltudiaeth a'i gaethiwed yn cadw y Sabbath cristionogol; mewn myfyrdodau, gweddïau, ac addoliad ysbrydol, o leiaf hyd ag yr oedd yn ganiatâol iddo yn ei sefyllfa bresenol: ‡ a thra yr oedd efe felly, taflwyd ef megys i ber-lewyg; ac yn y per-lewyg hwnw, efe a glywai o'r tu ol iddo lef fawr, uchel a chroyw, fel llais udgorn, yn llefaru rhai o'r geiriau a fu dàn ein sylw eisoes, neu eiriau cyffelyb iddynt.—*Dydd yr Arglwydd:* annaturiol iawn yw deall hwn am y *Sabbath Iuddewig;* nid yw hwnw byth yn cael ei alw yn *ddydd yr Arglwydd* yn yr Hen Destament, na *dydd yr Arglwydd* yn *Sabbath,* yn y Newydd.

11 * Yn dywedyd, [p] Mi yw Alpha ac Omega, y cyntaf a'r diweddaf: [q] † a'r hyn yr wyt yn ei weled, ysgrifena mewn llyfr, ‡ a danfon i'r [r] saith eglwys y rhai sydd yn Asia; [s] ‖ i Ephesus, ac i Smyrna, ac i Pergamus, ac i Thyatira, ac i Sardis, a Philadelphia, a [t] Laodicea.

p Gwel ar adn. 8. q adn. 19. pen. 2. 1. a 10. 4. a 14. 13. a 19. 9. a 21. 5. Deut. 31. 19. Es. 30. 8. Jer. 30. 2. Hab. 2. 2. r Gwel ar adn. 4.—pen. 2. 1, 8, 12, 18. a 3. 1, 7, 14. s Act. 18. 19—21, 24. a 19. a 20. 17. 1 Cor. 15. 32. a 16. 8. Eph. 2. 1. 1 Tim. 1. 3. t Col. 4. 15, 16.

* Clywodd Ioan y llef, a deallodd y geiriau, y rhai a fu dàn ein sylw o'r blaen, gwel ar adn. 8. Rhaid eu deall hwynt yma yn sicr am Grist, "Mab y dyn;" (adn. 13.) ac mae hyn yn un rheswm chwanegol paham y dylid eu deall hwynt am dano ef yn y lle o'r blaen. Ond os mỳn rhai o hyd ddeall y geiriau o'r blaen (adn. 8.) am y Tad; nis gallant lai nac addef fod Crist a'r Tad yn Un: oblegid heb hyny, pa fodd y gellir meddwl fod Crist yn defnyddio yr un geiriau am dano ei hun, ag a ddefnyddiodd y Tad yn union o'r blaen am dano ei hun, er dangos ei dragywyddol Dduwdod? Felly, pa fodd bynag y dealler y geiriau, maent yn brawf penderfynol o wir Dduwdod y Cyfryngwr. † Yna gorchymynodd y llef i Ioan ysgrifenu yr hyn oedd yn weled ac a welai, mewn llyfr, er addysg a rhybudd i'r eglwys yn gyffredinol; ‡ a danfon i'r saith eglwys, y rhai oedd yn Asia, y cyfryw ranau ag oedd yn perthyn iddynt hwy. ‖ Am yr eglwysi hyn cawn achos i sylwi eto, pan ddelom at bob un o honynt yn wahanrhedol: ni wnawn yma ond sylwi yn unig, fod hen hanesion yn dywedyd, i Ioan lafurio yn Ephesus a'i chyffiniau am gryn amser cyn ei ddëoliad i ynys Patmos; a bod diwedd yr adnod hon yn lled ddangos mai gwirionedd oedd yr hanes hyny.—*Saith eglwys:* nis gwyddom ai *saith yn unig* o eglwysi oedd y pryd hwn yn y rhan hon o Asia: efallai mai y rhai hyn oedd y saith *benaf* o honynt, neu y saith y buasai Ioan yn llafurio fwyaf yn eu plith. Eto, gan fod yn y llythyrau a ganlyn lawer o bethau perthynol iawn i holl eglwys Crist, yn mhob màn ac oes o'r byd; efallai bod y nifer *saith* yn arwyddo *perffeithrwydd, cyflawnder,* neu *gyffredinolrwydd,* yn y fàn hon fel y *seithiau* o bethau eraill, yn iaith gyfriniol y llyfr hwn.

12 * Ac mi a droais i [u] weled y llef a lefarai wrthyf. † Ac wedi i mi droi, [x] mi a welais saith ganhwyllbren aur;

u Ezec. 43. 5, 6. Mica 6. 9. x adn. 13, 20. pen. 2. 1. Ex. 25. 37. Zec. 4. 2.

* Gwedi i Ioan glywed yn eglur y geiriau uchod a fu dàn ein sylw, efe a drôdd i weled o ba le yr oedd y llef "o'r tu ol" iddo yn dyfod: † ac wedi iddo droi, efe a welodd saith ganwyllbren aur; mewn cyfeiriad at y canwyllbren aur a'i saith o geinciau, neu lusernau, yr hwn a wnaed i'r babell gynt. (Exod. 25. 31—40; Zech. 4. 2.) Yr oedd y nifer *saith* yma yn ateb i'r *saith* eglwys o'r blaen; ac yn arwyddo goleuni yr athrawiaeth, y sancteiddrwydd, a'r cysur, mae yr holl eglwysi yn dderbyn oddi wrth Grist, ac yn eu dàl allan i'r byd, fel y maent oll yn un ynddo ef. *Aur,* i arwyddo purdeb, gwerth, a gwirionedd.

13 * Ac y'nghanol y saith ganhwyllbren, † *un* [y] tebyg i Fab y dyn, [z] ‡ wedi ymwisgo â gwisg laes hyd ei draed, [a] ‖ ac wedi ymwregysu yn nghylch ei fronnau § â gwregys aur.

y pen. 14. 14. Ezec. 1. 26. Dan. 7. 13. a 10. 16. Phil. 2. 7, 8. Heb. 2. 14—17. a 4. 15. z Dan. 10. 5. a pen. 15. 6. Ex. 28. 6—8. a 39. 5. Lef. 8. 7. Es. 11. 5.

* "Ac yn nghanol y saith ganwyllbren," fel yn llywodraethu arnynt, ac yn gofalu am danynt, yr un modd a'r offeiriad, y cysgod o hóno, yn y cyssegr gynt; † gwelodd Ioan "Un tebyg i fab y dyn," yr Arglwydd Iesu, yr hwn ychydig o'r blaen a ddywedasai am dano ei hun "Mi yw Alpha ac Omega, y cyntaf a'r Diweddaf." Yr oedd Ioan wedi bod yn eithaf cydnabyddus â Iesu, pan oedd efe ar y ddaear yn "Wr," neu ddyn "gofidus;" a chwedi cael ei anrhydeddu ganddo fel ei gyfaill anwyl ac arbenig: ond tra yr oedd efe yn eĩ weled ef yn awr mewn ffurf dyn, ac mewn rhyw debygrwydd i'w ymddangosiad gynt; eto yr oedd yn ei weled yn y fath ogoniant dysglaer, fel yr oedd yn ymddangos iddo ef yn berson arall hollawl. O mòr wahanol oedd yn awr, i'r hyn y gwelsai Ioan ef yn Gethsemane, a llawer o fànau ac amgylchiadau eraill pan oedd ar y ddaear, yn enwedig ar y groes! ‡ Yr oedd efe "wedi ymwisgo," yn ol dull yr offeiriaid yn y cyssegr, "â gwisg laes hyd ei draed," yr hyn, efallai, oedd yn arddangos ei gyfiawnder cyfryngol perffaith, a'i freninol offeiriadaeth ef. ‖ Yr oedd y wisg hon wedi ei gwregysu, nid o amgylch y lwynau fel yn gyffredin, ond yn uwch i fynu, yn nes at y galon, yn nghylch ei fronau: § a'r gwregys hwn oedd wregys aur; yr hyn, efallai, oedd yn arwyddo gwerthfawrogrwydd ei gariad ef, a'r diffüantrwydd calonog, â pha un mae efe yn amddiffyn achos ei holl eglwys. Mae yma gyfeiriad amlwg hefyd at wregys ephod yr arch-offeiriad gynt; (Gwel Exod. 39. 5.) a diammau fod y wisg â'r gwregys yn arwyddo mawredd, awdurdod, a gogoniant, ac yn gweddu yn addas iawn iddo ef, yr hwn oedd yn Arch-offeiriad ac yn Frenin ei holl eglwys.

14 * Ei ben ef a'*i* [b] wallt *oedd* wynion fel gwlan, cyn wỳnned a'r eira; [c] † a'i lygaid fel fflam dân;

b Dan. 7. 9. Mat. 28. 3. c pen. 2. 18. a 19. 12. Dan. 10. 6.

* Gwedi sôn am y gwisgoedd, mae Ioan yn dysgrifio y Person oedd yn y gwisgoedd hyn; yr hwn oedd ryfeddol o fawreddig a gogoneddus, fel yr *Hen ddihenydd* a welsai Daniel yn ei weledigaeth gynt. (Dan. 7. 9.) Yr oedd ei ben ef a'i wallt yn wỳnion fel y gwlân gwynaf; ïe, cyn wỳned a'r eira pur; yr hyn, efallai, oedd yn arwyddo ei fawredd, ei burdeb, ei ddoethineb, a'i dragywyddoldeb ef. Yr oedd ei ben a'i wallt ef (medd *Guyse)* yn dysgleirio fel y *Shechina* gynt, yr hwn oedd bob amser yn arwydd o fawredd a gogoniant Duw; ac yr oedd ei wallt yn goron anrhydeddus arno,

y gwlân pur, ac yn dysgleirio yn fwy ysplenydd nâ'r
ra gwynaf. † Yr oedd ei lygaid fel fflam dân: yr hyn
ddengys ei adnabyddiaeth dreiddiol a holl-wybodol ef,
ddirgelion calonau pawb, ac o'r dygwyddiadau pellaf
dyfodiad: ac arwydda hefyd y pura efe ei bobl, ac
ysa efe ei elynion, fel yr ysa y tân poethaf y pethau
ddelo yn ei ffordd.

15 * A'i [d] draed yn debyg i bres coeth,
egis yn llosgi mewn ffwrn; [e] † a'i lais fel
yn llawer o ddyfroedd.

d pen. 2. 18. Ezec. 1. 7. a 40. 3. Dan. 10. 6. e pen. 14. 2.
19. 6. Salm 93. 4. Es. 17. 13. Ezec. 43. 2.

* Yr oedd ei draed yn ymddangos yn debyg i bres
eth, megys yn llosgi mewn ffwrn, i arwyddo cadernid
diysgogrwydd, purdeb a phrydferthwch, yn holl
rdd a goruchwyliaethau y Cyfryngwr, er gorfoledd
w saint, a dychryn i'w elynion: yr oeddynt yn debyg i
blofnau durfing o bres gloyw, wedi ei doddi a'i goethi
n drwyadl, ac yn ymddangos fel yn llosgi yn barâus
ewn ffwrn. † Ac yr oedd ei lais fel swn llawer o
lyfroedd: yr hyn a arwydda nerth grymus ei air ef, i
nu a dychrynu; neu ei effaith anorfodadwy ef, i
dychwelyd neu ddinystrio, fel y gwelo efe yn dda.
wel Salm 29 oll.

16 * Ac [f] *yr oedd* ganddo yn ei law ddehau
aith seren: [g] † ac o'i enau yr oedd cleddau
ym dau-finiog yn dyfod allan: [h] ‡ a'i wyneb-
ryd fel yr haul yn disgleirio yn ei nerth.

f adn. 20. pen. 2. 1. a 3. 1. a 12. 1. Job 38. 7. Dan. 8. 10. a
2. 3. g pen. 2. 12, 16. a 19. 15, 21. Es. 11. 4. a 49. 2. Eph. 6.
7. Heb. 4. 12. h pen. 10. 1. Es. 24. 23. a 60. 19, 20. Mal. 4. 2.
ct. 26. 13.

* Y saith seren yn ei law ddehau, oedd yn arwyddo
weinidogion y saith eglwys, y rhai y gorchymynir i
oan ysgrifenu atynt; (gwel adn. 20.) ac y rhai yr oedd
rist yn eu cynnal, yn eu cyfarwyddo, yn eu llywodr-
ethu, ac yn eu trin â'i allu, ac yn ol ei ewyllys ei hun.
Mae hyn yn gymhwysiadol hefyd at holl weinidogion
rist o hyny allan, y rhai yr addawodd efe fod gyda
wynt bob amser, hyd ddiwedd y byd. † Y cleddyf
ym dau-finiog oedd yn dyfod allan o'i enau ef, a ar-
ydda, mae yn debyg, ei gyfiawnder ofnadwy ac an-
wrthwynebol ef, yn ei waith yn tòri i lawr ei elynion
r bob tu, yn taro y ddaear â gwialen ei enau, ac yn
add yr anwir âg anadl ei wefusau. Esa. 1. 14. Efallai
od y cleddyf hwn hefyd yn arwyddo yr efengyl, yn ei
effeithiau grymus a miniog ar eneidiau dynion. Heb.
. 12. ‡ Yn olaf, yr oedd ei wynebpryd fel yr haul yn
ysgleirio yn ei nerth, fel nad ymguddiai dim oddi
rth ei wres a'i oleuni ef; yr hyn sy ddarluniad cysur-
s iawn i'w bobl, ond dychrynllyd iawn i'w elynion ef.

17 * A phan welais ef, [i] mi a syrthiais
wrth ei draed ef fel marw. [k] † Ac efe a osod-
odd ei law ddehau arnaf fi, ‡ gan ddywedyd
rthyf, [l] Nac ofna; [m] ‖ myfi yw y cyntaf a'r
liweddaf;

i Ezec. 1. 28. Dan. 8. 18. a 10. 8, 9, 17—19. Hab. 3. 16. Mat.
7. 2—6. Ioan 13. 23. a 21. 20. k Dan. 8. 18. a 10. 10. l Gen.
5. 1. Ex. 14. 13. a 20. 20. Es. 41. 10. Dan. 10. 12. Mat. 28. 4, 5.
Marc 16. 5, 6. Luc 24. 37—39. m Gwel ar adn. 8, 11.

* Yn yr olwg hyn ar ogoniant y Gwaredwr mawr, hyd
yn nôd y dysgybl anwyl, yr hwn cyn hyn a bwysasai ei
oen ar ei fynwes ef, ac a welsai ei ogoniant ef ar y
mynydd sanctaidd; yr awr hon a syrthiodd wrth ei
draed ef fel marw, wedi ei lwyr orchfygu gan ddysgleir-
deb ei ogoniant a'i fawredd rhyfeddol ef. Heb sôn
dim am deimlad o euogrwydd a phechod, ychydig a all
natur y dyn duwiolaf yn yr ystâd bresenol, ddàl o olwg
ar ogoniant y Gwaredwr dwyfol: ond yn y byd a ddaw,
saiff ei holl saint eu cymhwyso i edrych arno ef yn
ddilèn, wyneb yn wyneb, ei weled megys ag y mae, a
bod am byth yn debyg iddo! † Yn yr amgylchiad
uchod, gosododd yr Arglwydd Iesu ei law ddehau yn
llirion iawn ar ei wasanaethwr; fel arwydd o'i nerth
grasol a hollalluog, i'w adfywio, ei gyfodi, a'i gynnal
ef: ‡ ac efe a chwalodd ei ofnau ef ymaith, trwy ddy-
wedyd, "Nac ofna," ni wnaf fi niwed i ti, nac i'm heg-
lwys chwaith: ‖ "myfi yw y Cyntaf a'r Diweddaf," yr
un yn ddigyfnewid byth, ynof fy hun, yn fy swyddau,
yn fy nghariad, fy ngofal, a'm ffyddlondeb; dac megys y
dechreuais, felly y gorphenaf, bob peth a berthyn i ti,
fy eglwys, a phob un o'm pobl, er daioni presenol, a
chadwedigaeth dragywyddol yn y diwedd.

18 * *A*'r hwn [n] *wyf* fyw, † ac a [o] fûm farw;
‡ ac wele, [p] byw ydwyf yn oes oesoedd,
‖ Amen; § ac y mae gennyf [q] agoriadau uffern
a marwolaeth.

n Job 19. 25. Salm 18. 46. Ioan 14. 19. Rhuf. 6. 9. 2 Cor. 13.
4. Gal. 2. 20. Col. 3. 3. Heb. 7. 25. o Rhuf. 14. 8, 9. 2 Cor. 5.
14, 15. Heb. 1. 3. a 12. 2, 3. p pen. 4. 9. a 5. 14. Heb. 7. 16,
25. q pen. 3. 7. a 9. 1. a 20. 1, 14. Salm 68. 20. Es. 22. 22.
Mat. 16. 19.

* Chwanegodd hefyd ddywedyd, "A'r hwn *wyf* fyw:"
y byth-fywiol, hunan-hanfodol Dduw, i'r hwn, fel Cyf-
ryngwr, y rhoddwyd i mi fod genyf fywyd ynof fy hun,
ac i fod yn fywyd dynion. † "Ac a fum farw" dros y
dynion hyny, wedi fy rhoddi i farwolaeth yn y cnawd, i
wneuthur iawn i Dduw dros eu pechodau hwy, trwy fy
aberthu fy hun, a bod yn ufudd hyd angau, ïe, angau y
groes. ‡ "Ac," wedi y cwbl, "wele, byw ydwyf," fel
blaen-ffrwyth adgyfodiad fy mhobl; a byw ydwyf yn oes
oesoedd, yn y natur a fu farw, i eiriol dros fy mhobl fel
Arch-offeiriad, i deyrnasu arnynt fel Brenin, ac i'w
dysgu trwy fy Ysbryd, fy ngair, a'm gweinidogion, fel
Prophwyd. ‖ Mae hyn oll wedi ei gadarnâu yn y nef-
oedd, yn wirionedd o'r pwys a'r gwerth mwyaf, a dylit
tithau Ioan a'r holl eglwys ddywedyd, Amen: neu, efall-
ai mai Ioan ei hun a ddywedodd yr Amen yma, yn nghan-
ol ymadrodd ei Arglwydd, fel tyst blaenorawl o wirion-
edd yr ymadrodd, ac mewn gorfoledd dirfawr o herwydd
mai gwirionedd ydoedd. § Ïe, mòr hollawl y buddug-
oliaethodd Iesu ar frenin y dychryniadau, fel yr oedd
agoriadau uffern a marwolaeth ganddo ef yn ei fedd-
iant. Mae ganddo ef hollol arglwyddiaeth, fel mae
mewn undeb â'r natur ddynol, ar y byd annweledig,
ystâd yr ysbrydoedd sydd allan o'r corph, ac ar angau
ei hun a'r bedd; fel ag y mae efe yn symmud dynion
o'r bywyd hwn, ac yn danfon eu cyrph i'r bedd a
llygredigaeth, y pryd a'r modd y mỳno efe. Yna y
mae efe yn gosod eu heneidiau, mewn dedwyddwch
neu drueni, gydag awdurdod hollawl; ac yn fuan efe a
gyfyd eu holl gyrph meirwon, ac a'u derbyn hwynt i'r
nef, neu a'u caua hwynt i fynu byth yn uffern, fel y
gwelo yn dda, ac fel y byddo cyfiawn. Gan hyny, nid
oes achos i neb o'i gyfeillion ef ofni dim oddi wrth
unrhyw grëadur, mewn bywyd nac yn wyneb angau;
gan y trefnir pob amgylchiad yn ddigon sicr, yn y modd
a fyddo goreu er eu lles tragywyddol hwynt.

19 * Ysgrifena [r] y pethau a welaist, [s] † a'r
pethau sydd, [t] ‡ a'r pethau a fydd ar ol hyn,

r Gwel ar adn. 11, 12. s pen. 2. a 3. t pen. 4—22.

* Yn nesaf, mae yr Arglwydd Iesu yn gorchymyn i
Ioan ysgrifenu, yn Gyntaf, y pethau a welsai; sef am-
gylchiadau y weledigaeth uchod a gawsai eisoes: † yn
Ail, y pethau oedd y pryd hwnw; sef y pethau a berth-
ynent i ystâd yr eglwysi y pryd hwnw: ‡ ac yn Dryd-
ydd, y pethau a fyddent ar ol hyny; sef y prophwydol-
iaethau yr oedd efe yn myned i'w traddodi yn y pen-
nodau canlynol o'r llyfr hwn, yn o ddechreu y bedwer-
ydd bennod allan. Mae yn debyg nad oes yn y gor-
chymyn uchod ddim cyfeiriad at ysgrifenu yr efengyl a
ysgrifenwyd gan Ioan, dim ond yr hyn sydd yn y llyfr
hwn; a thybia rhai fod ei efengyl ef wedi ei hysgrifenu
o'r blaen.

20 [u] * Dirgelwch [x] y saith seren a welaist
yn fy llaw ddehau, a'r saith ganhwyllbren aur.
[y] † Y saith seren, angelion y saith eglwys
ydynt: [z] ‡ a'r saith ganhwyllbren a welaist, y
saith eglwys ydynt.

u Gwel ar Mat. 13. 11. Luc 8. 10. x Gwel ar adn. 13, 16. y pen. 2. 1, 8, 12, 18. a 3. 1, 7, 14. Mal. 2. 7. z Zec. 4. 2. Mat. 5. 15, 16. Phil. 2. 15, 16. 1 Tim. 3. 14—16.

* Yma mae Crist yn egluro dirgelwch y saith seren, a'r saith ganwyllbren aur, i Ioan. † Y saith seren yn ei ddeheulaw, angelion, cenadon, neu weinidogion saith eglwys Asia oeddynt: neu hyny oedd y saith seren yn arwyddo. Gwel ar adn. 16. ‡ A'r saith ganwyllbren aur, y saith eglwys a enwyd oeddynt yn arwyddocâu; fel yr oeddynt wedi eu goleuo gan air ac Ysbryd yr Arglwydd, ac yn dàl allan y goleu hwnw i eraill, trwy broffes a gweinidogaeth y gair, gweinyddiad yr ordinâdau sanctaidd, ac ymarweddiad a buchedd sanctaidd a christionogol yr eglwysi.—*Saith seren:* fel mae y sêr yn derbyn eu goleu o'r haul, ac yn ei adlewyrchu yn ddysglaer er cysur a chyfarwyddyd i ddynion; felly mae gweinidogion yr efengyl yn derbyn eu goleu ysbrydol o Grist, ac yn ei adlewyrchu mewn athrawiaeth ac ymarweddiad sanctaidd ar eu gwrandawwyr ac yn y byd: o leiaf felly y dylent wneyd.—Yn y ddeheulaw maent yn ddiogel; o flaen yr "wynebpryd fel yr haul," nis gallant lai na derbyn goleu a gwrês hefyd. Gwyliwn golli ein lle yn y ddwy ystyriaeth uchod; yn y llaw, ac o flaen yr wyneb, y byddom byth!

PEN. II.

Y saith llythyr, at saith eglwys Asia.

* A T [a] angel yr [b] eglwys sydd yn Ephesus, † ysgrifena; ‡ Y pethau hyn y mae yr hwn sydd yn [c] dal y saith seren yn ei law ddehau, ‖ yr hwn sydd yn [d] rhodio y'nghanol y saith ganhwyllbren aur, yn eu dywedyd;

a adn. 8, 12, 18. pen. 3. 1, 7, 14. b Gwel ar s. pen. 1. 11. c pen. 1. 16, 20. a 8. 10—12. a 12. 1. Ioan 5. 35. d Gwel ar pen. 1. 12, 13.—Ezec. 28. 13, 14. Mat. 18. 20. a 28. 20.

Tybiodd llawer o ddynion da, fod yr epistolau hyn at y saith eglwys, yn brophwydoliaethau cyfriniol am saith o amserau pennodawl, a fyddai ar eglwys weledig Crist, o amser Ioan hyd ddiwedd y byd. Ond barna *Scott* nad oes yr un sail ysgrythyrol i ddysgwyl am gyfryw saith amser ar ystâd yr eglwys, a dim ond hyny; oddigerth y cymmerwn ni yr epistolau hyn eu hunain yn brawf o'r cyfryw beth: ac nad oes dim i'w weled ychwaith, mewn hanesion eglwysig, o debyg i ryw amseroedd gwahaniaethol felly, o'r dechreuad hyd yn hyn; er y dichon i ddynion ddychymmygu, y gallant nodi allan amserau felly, er mwyn cynnal i fynu eu hoff fympwy eu hunain. Tybia *Scott* hefyd, nas gellir cysoni y gwahanol ddysgrifiadau a wnair o'r eglwysi yma, â'r gwahanol agweddau sydd wedi bod ar eglwys Crist o ddyddiau Ioan hyd yn awr; ac a fydd arni yn oes ddiweddaf y byd, yn ol prophwydoliaethau diweddaf y llyfr hwn. Sylwa hefyd, fod saith eglwys Asia yn y fath wahanol agweddau o ran purdeb athrawiaeth, a grym duwioldeb; fel y bydd geiriau Crist atynt hwy, bob amser yn gymhwysiadol iawn at eglwysi eraill, a phroffeswyr cristionogaeth, yn mhob màn ac oes o'r byd, hyd ddiwedd y byd. * Ephesus oedd brif ddinas Asia Briodol, lle y buasai Ioan yn hir yn llafurio; ac "*angel* yr eglwys, oedd y gweinidog penaf yn yr eglwys hòno: ato ef mae Ioan yn ysgrifenu; ond diammau fod y llythyr yn cael ei fwriadu i'r holl eglwys hefyd. † Wrth fod yr Arglwydd Iesu yn gorchymyn i Ioan ysgrifenu, a pha beth i ysgrifenu, rhaid i ni ystyried y llythyr fel epistol Iesu Grist ei hun; a Ioan ddim ond yr ysgrifenydd o hòno o'i enau ac ar ei orchymyn ef; megys y byddai epistolau Paul yn cael eu hysgrifenu gan arall drosto ef. ‡ Yma mae Crist yn priodoli iddo ei hun, rai o'r pethau a ddywedodd Ioan am dano yn y bennod o'r blaen; (gwel ar pen. 1. 12, 13, 16, 20.) ac felly y gwna yn nechreu pob un o'i lythyrau, ond nid yr un pethau, eithr pethau gwahanol, yn mhob un o honynt, nes myned dros y cwbl a welsai Ioan yn ei weledigaeth. Yr oedd dywedyd ei fod yn "dàl y saith seren yn ei ddeheulaw," yn dangos hollawl awdurdod Crist ar ei weinidogion, a'u hollawl ymddybyniad hwythau arno ef: ‖ a "rhodio yn nghanol y saith ganwyllbren aur," yn arwyddo ei bresenoldeb gwastadol, ond annweledig ef, yn ei eglwysi, lle y gosododd efe oleuni ei air a'i ordinâdau; ei sylw ef ar eu holl ymddygiad; ei barodrwydd ef i'w cynnorthwyo a'u bendithio hwynt, tra y gwnelent iawn ddefnydd o'u goleuni; a'i allu a'i fwriad ef i symmud ymaith eu goleuni, os cyffrôent hwy ef i hyny, trwy eu camddefnyddiad neu eu dibrisdod o hòno.—Llewyrchant gan ei oleuni ef, ac maent yn hollawl wrth ei feddwl a'i lywodraeth ef.

2 * Mi [e] a adwaen dy weithredoedd di, † a'th lafur, a'th amynedd, [f] ‡ ac na elli oddef y rhai drwg: ‖ a phrofi [g] o honot y rhai sydd yn dywedyd eu bod yn apostolion, § ac nid ydynt; a chael o honot hwynt yn gelwyddog:

e adn. 9, 13, 19. pen. 3. 1, 8, 15. Salm 1. 6. Mat. 7. 23. 1 Thes. 1. 3. 2 Tim. 2. 19. Heb. 6. 10. f adn. 6, 14, 15, 20, 21. Gal. 1. 7. Eph. 4. 14. 1 Thes. 5. 21. 2 Pedr 2. 1—3. 1 Ioan 4. 1. g 2 Cor. 11. 13—15. 1 Ioan 2. 21, 22.

* Yr oedd Crist yn adgoffâu i weinidog Ephesus, a thrwyddo ef i'r holl eglwys, ei fod ef yn "adnabod," neu yn sylwi ar, ac yn cymmeradwyo, eu gweithredoedd o ffydd a chariad; † y llafur a gymmerasent yn ei wasanaeth, ac er mwyn ei enw ef, eu parâd amyneddgar mewn pob daioni er cael eu herlid; ‡ a'u hatgasrwydd penderfynol o'r gau-athrawon a gweithredwyr drygioni, y rhai ni oddefent mewn un modd yn eu cymdeithas a'u cymundeb. ‖ Yr oedd efe wedi sylwi yn gymmeradwyol hefyd, ar y prawf a wnaethant hwy o ryw ddynion, y rhai a rith-hònent yn hyderus eu bod yn apostolion, wedi derbyn eu danfoniad a'u hawdurdod oddi wrth Grist ei hunan; § ond wrth eu profi, gwelwyd yn amlwg nad oeddynt hwy felly, a chafwyd hwy yn dwyllwyr celwyddog a drygionus.—Pwy oedd y twyllwyr hyn, a pha fodd yr oedd yr eglwys yn eu profi, nis gwyddom: gallai yr Ephesiaid *oddef* beichiau trymion o lafur caled, ac erlidiau creulawn, ond nis gallent *oddef* dynion drygionus a thwyllodrus yn eu plith, heb eu hysgwyd ymaith fel baich trwm ac annoddefol.

3 * A thi a [h] oddefaist, † ac [i] y mae amynedd gennyt, ‡ ac a [k] gymmeraist boen er mwyn fy enw i, [l] ‖ ac ni ddiffygiaist.

h Salm 69. 7. Mica 7. 9. Marc 15. 21. Luc 14. 27. 1 Cor. 13. 7. Gal. 6. 2. Heb. 13. 13. i pen. 1. 9. a 3. 10. Salm 37. 7. Luc 8. 15. a 21. 19. Rhuf. 2. 7. a 5. 3, 4. a 8. 25. a 12. 12. a 15. 4, 5. Col. 1. 11. 2 Thes. 3. 5. Heb. 6. 12, 15. a 10. 36. a 12. 1. Iago 1. 3, 4. a 5. 7—11. 2 Pedr 1. 6. k Rhuf. 16. 12. 1 Cor. 16. 16. 2 Cor. 5. 9. a 6. 5. a 10. 15. a 11. 23. Phil. 2. 16. a 4. 3. 1 Thes. 1. 3. a 2. 9. a 5. 12. 2 Thes. 3. 8. 1 Tim. 4. 10. a 5. 17. Heb. 6. 10. l Luc 18. 1. 2 Cor. 4. 1, 16. Gal. 6. 9. 2 Thes. 3. 13. Heb. 12. 3—5.

* Yr oedd Crist wedi sylwi hefyd, ac yn ei grybwyll yma fel canmoliaeth iddynt, eu bod hwy wedi goddef llawer o drallodion, erlidiau a chystuddiau, † a chwedi dangos llawer o amynedd cristionogol yn y dyoddefiadau hyny, yn ol ei esampl ef ei hun: ‡ ac yr oedd ef wedi sylwi yn foddâol lawer gwaith, iddynt hwy gymmeryd poen a llafur mawr, i amddiffyn a thaenu y gwirionedd, a hyny o gariad ato ef ac er mwyn ei enw; ‖ ac na ddiffygiasent hwy gan oerfelgarwch, diogi, digalondid, nac unrhyw achos arall, yn y poen a'r llafur hwnw.

4 * Eithr [m] y mae gennyf *beth* yn dy erbyn, [n] † am i ti ymadael a'th gariad cyntaf.

m adn. 14, 20. n pen. 3. 14—17. Jer. 2. 2—5. Mat. 24. 12. 13. Phil. 1. 9. a 3. 13—16. 1 Thes. 4. 9, 10. 2 Thes. 1. 3. Heb. 6, 10, 11.

* Eto, er y ganmoliaeth ragorol uchod, yr oedd gan Grist ryw beth yn erbyn yr angel, neu y gweinidog hwn, ac yn erbyn yr eglwys yn gyffredin, mae yn debyg, yr un modd: oblegid yr oedd yr angel yn cynddrychioli yr eglwys, fel yr oedd Josua yr arch-offeiriad yn ei ddillad budron yn cynddrychioli yr eglwys Iuddewig gynt; (Zech. 3. 1, &c.) ac efallai mai yr angel oedd yn mlaenaf ac yn benaf yn y bai, a'r eglwys yn syrthioli i'r un bai wrth ei esampl a'i ysbryd ef. † Beth bynag am

yny, y bai oedd, eu bod hwy wedi ymadael â'u cariad cyntaf; wedi colli yn ngwresawgrwydd eu cariad at Crist, ac oeri llawer yn eu *zêl* dros ei ogoniant ef a'r wyddiant yr efengyl, er pan ddechreuasent broffesu cristionogaeth; ac yr oeddynt wedi myned yn fwy esgeulus a ffurfiol yn eu holl gyflawniadau nac y byddent arferol o fod ar y cyntaf.—Mae peth anhawsdra i ddeall, na fodd y cyd-saif y ganmoliaeth o'r blaen (adn. 2, 3.) i'r cŵyn hwn: ond gŵyr llawer trwy brofiad, y gall llynion ddàl i fynu, a pharâu arferion a chyflawniadau llanol eu cariad cyntaf, pryd y bydd y cariad a'r *zêl* a'u ymhellodd i ddechreu yr arferion a'r cyflawniadau yny, wedi colli ac oeri i raddau galarus iawn: glŷnant, efallai, yn gydwybodol wrth y cyflawniadau; ond ni pydd y galon mòr wresog â chynt yn yr ymarferiad o nonynt, ac mae Mab Duw yn edrych ar y galon, yn gystal â'r gweithredoedd.

5 [o] * Cofia gan hynny o ba le [p] y syrthiaist, [q] † ac edifarhâ, [r] a gwna y gweithredoedd cyntaf: ‡ ac [s] onid ê, yr wyf fi yn dyfod attat ti ar frys, ‖ ac mi a symmudaf dy ganhwyllbren di allan o'i le, § oni edifarhâi di.

o pen. 3. 3, 19. Ezec. 16. 61—63. a 20. 43. a 36. 31. 2 Pedr 1. 12, 13. p Es. 14. 12. Hos. 14. 1. Gal. 5. 4. Judas 24. q adn. 16, 21, 22. pen. 3. 3, 19. a 9. 20, 21. a 16. 9. Act. 17. 30, 31. r adn. 19. pen. 3. 2, 3. Es. 1. 26. Hos. 9. 10. Mal. 3. 4. a 4. 6. Luc 1. 17. s adn. 16. pen. 3. 3. Mat. 21. 41—43. a 24. 48—51. Marc 12. 9. Luc 12. 45, 46. a 20. 16.

* Mae yr Arglwydd Iesu yn galw ar yr eglwys hon i gofio, pa mòr fywiog, *zêlog*, gwresog, unol, a gweithgar a fuasent; ac i gymharu eu hagwedd syrthiedig bresenol â'r hyn oeddynt yn eu cariad cyntaf; † fel y gallent drwy hyny edifarâu yn dduwiol, ac ymadferu i wneyd eu gweithredoedd cyntaf, ac yn eu hysbryd a'u cariad cyntaf, ac â'u holl rasau yn fywiog fel yn y dechreuad. ‡ Ac onid ê, mae efe yn bygwth dyfod atynt hwy yn ei ragluniaeth geryddol, ar frys ac mewn modd annysgwyliadwy, ‖ a symmud eu canwyllbren hwy allan o'i le; sef eu hamddifadu hwy o oleuni yr efengyl, a lles a bendithion ei hordinâdau hi; § ac nis gallent droi ymaith y farn dròm hon, ond trwy edifeirwch a gweithredoedd addas i edifeirwch.—Cyflawnwyd y farn hon yn y modd llwyraf a mwyaf arswydus yn mhen amser wedi hyn; a'r dydd heddyw, nid yw Ephesus fawr ac enwog gynt, ond pentref gwael a bychan, heb gymmaint â dyn o'i fewn yn proffesu yr enw Cristion.—Cofiwn mai am oeri mewn cariad yn unig, yr oedd y bygythiad uchod; nid oedd dim bai wedi ei grybwyll eto ar y gweithredoedd: chwiliwn ninnau agwedd ein calonau tuag at Dduw, a chrynwn ger ei fron ef, rhag ein bod wedi ymadael â'n cariad cyntaf.

6 * Ond hyn sydd gennyt ti, [t] † dy fod ti yn casâu gweithredoedd y Nicolaiaid, ‡ y rhai yr wyf fi hefyd yn eu casâu.

t adn. 14, 15. 2 Cron. 19. 2. Salm 26. 5. a 101. 3. a 139. 21, 22. 2 Ioan 9, 10.

* Er bod eglwys Ephesus wedi oeri a cholli llawer yn ei chariad a'i *zêl* at ac mewn pethau da, eto nid oedd wedi cael ei llygru gan egwyddorion penrhydd, nac arferion anfoesol a drwg: yr oedd hyn ganddi hi o hyd, † ei bod yn casâu ac yn ffieiddio gweithredoedd y Nicolaiaid, plaid o wrth-ddeddfwyr *(antinomians)* proffesedig o'r fath ffieiddiaf, ‡ y rhai yr oedd Crist ei hun hefyd yn eu casâu â chasineb eithaf. Tybir yn gyffredin i'r Nicolaiaid hyn gael eu dechreu a'u henw oddi wrth ryw Nicolas; a dywed rhai mai Nicolas, un o'r saith diacon ydoedd, (Act. 6. 5.) yr hwn a ymlygrodd ac a wrthgiliodd wedi ei ddewis i'r swydd hòno: ond nid oes yr un sail i feddwl mòr galed am y gŵr hwnw, ac yr oedd llawer o'r un enw, fel y gallasai y blaid ffiaidd gael eu dechreuad a'u henw oddi wrth ryw Nicolas arall, ac nid oddi wrth hwnw y dywedir am dano gyda'r chwech eraill, ei fod yn ŵr da ei air, yn llawn o'r Ysbryd Glân a doethineb. Act. 6. 3. Sylwedd yr hyn a ddywed hen Awdwyr am y Nicolaiaid hyn yw, eu bod yn dadlau dros gyfreithlondeb anlladrwydd yn gyffredin, ac yn enwedig gyda gwragedd eu gilydd; ac yn arfer aberthau eilun-addolgar, gan daeru nad oedd y cyfryw arferion ond pethau dibwys a diniwed ynddynt eu hunain. Nid gweddus dywedyd ychwaneg am eu gweithredoedd hwy a'u blaenor ffiaidd.

7 [u] * Yr hwn sydd ganddo glust, [x] gwrandawed † pa beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi; [y] ‡ I'r hwn sydd yn gorchfygu, ‖ y rhoddaf iddo fwytta o [z] bren y bywyd, § yr hwn sydd y'nghanol [a] paradwys Duw.

u adn. 11, 17, 29. pen. 3. 6, 13, 22. a 13. 9. Mat. 11. 15. a 13. 9. Marc 7. 16. x pen. 14. 13. a 22. 17. 1 Cor. 2. 10. a 12. 4—12. y adn. 11, 17, 26—28. a 3. 5, 12, 21. a 12. 10, 11. a 15. 2. a 21. 7. Ioan 16. 33. 1 Ioan 5. 4, 5. z pen. 22. 2, 14. Gen. 2. 9. a 3. 22—24. Diar. 3. 18. a 11. 30. a 13. 12. a 15. 4. a Luc 23. 43. 2 Cor. 12. 4.

* Tra yr oedd y pethau blaenorawl yn cael eu llefaru yn union-gyrchol wrth weinidog, henuriaid, ac aelodau eglwys Ephesus; eto yr oedd yn addas i bawb, yn mhob màn arall, ac yn mhob oes ddyfodawl, a feddai glust i wrando, a deall i amgyffred meddwl y geiriau, i sylwi yn ddifrifol arnynt; † ac ar yr holl bethau yr oedd yr Ysbryd Glân (trwy weithrediad yr hwn y cawsai Ioan y weledigaeth hon o Grist yn llefaru wrtho) yn eu dywedyd wrth yr eglwysi: nid wrth eglwys Ephesus yn unig, er yn mlaenaf ac yn gyntaf; ond wrth yr *eglwysi:* se eglwysi eraill Asia, a holl eglwysi Crist trwy y byd, hyd ei ddiwedd.—Mae hyn yn alwad bennodol a grymus ar holl weinidogion a phroffeswyr yr efengyl, i ystyried yn fanol a difrifol y llythyrau hyn at yr eglwysi; fel yn gyflawn o addysgiadau pwysig iawn, a pherthynol i bawb cristionogion yn mhob màn ac oes o'r byd. ‡ Ar ol y rhagymadrodd difrifol uchod, mae yr Arglwydd Iesu yn addaw i bob dyn, yr hwn drwy ffydd ynddo ef, a orchfygai demtasiynau y byd, y cnawd, a'r diafol, ‖ y rhoddai efe iddo fwyta o bren y bywyd; yr hyn sydd ymadrodd cyffelybiaethol, wedi ei gymmeryd oddi wrth hanes gardd Eden; ac yn arwyddo pur, digonol, a thragywyddol lawenydd y nef; yn nghyd â'r blaen-brawf o hóno yn y byd hwn, trwy ffydd yn Nghrist, cymdeithas âg ef, a dyddanwch ei Ysbryd sanctaidd ef. § Crist ei hun yw pren y bywyd, ac mae efe yn nghanol yr eglwys ar y ddaear ac yn y nef, fel yr oedd pren y bywyd gynt yn nghanol gardd Eden. Pe buasai ein rhieni cyntaf yn "gorchfygu" y temtiwr yno, cawsent fwyta o hyd o bren y bywyd; a'r rhai sydd yn *gorchfygu* yma, yw y rhai a gânt fwyta o bren y bywyd ysbrydol a thragywyddol.—Cofiwn mai "paradwys Duw" yw yr eglwys, yn y nef ac ar y ddaear. Am y gair *paradwys*, gwel ar Luc 23. 43; 2 Cor. 12. 4.

8 ¶ * Ac at [b] angel yr eglwys sydd yn Smyrna, ysgrifena; † Y pethau hyn y mae y [c] cyntaf a'r diweddaf, ‡ yr hwn a fu farw, ac sydd fyw, yn eu dywedyd;

b Gwel ar adn. 1. c Gwel ar pen. 1. 8, 11, 17, 18.

* Smyrna oedd ddinas fawr i'r gogledd o Ephesus, ac ar làn y môr fel hithau: nis gwyddom pa bryd, na chan bwy, y pregethwyd yr efengyl gyntaf, ac y plànwyd eglwys gristionogol, yn y ddinas hon; ac nis gwyddom pwy oedd ei "hangel" neu ei gweinidog, pan ysgrifenwyd y llythyr hwn ato. Mae yn amlwg mai nid at y gweinidog yn unig yr oeddid yn ysgrifenu; oblegid defnyddir y rhif lïosog, *chwi*, yn y ddegfed adnod. † Yr oedd y genadwri hon yn dyfod oddi wrtho Ef, yr hwn yw y Cyntaf a'r Diweddaf. Gwel ar pen. 1. 17, 18. Llefarwyd y geiriau hyn gan y JEHOFAH ei hun, am dano ei hun, pan oedd yn tystiolaethu ei dragywyddol Dduwdod, ac yn dywedyd nad oedd Duw arall ond efe; (Esa. 44. 6—8.) felly, gan fod Iesu Grist yn mynych ddefnyddio y geiriau am dano ei hun yn y llyfr hwn, rhaid i bawb a barchant ymadroddion y prophwydi a'r apostolion, ganiatâu eu bod yn brawf cyflawn o'i Dduw

dod hunan-hanfodol a thragywyddol ef. ‡ Yr hwn a dystiolaethodd ei Dduwdod hanfodol ei hun fel hyn, a grybwyllodd hefyd yn yr un lle ac amser, am ei gnawdoliad, ei farwolaeth, ei adgyfodiad, a'i dragywyddol eiriolaeth a'i ogoneddiad ar ddeheulaw Duw: canys y mae hyna oll yn gynnwysedig yn y geiriau, "Yr hwn a fu farw, ac sydd fyw;" yr hyn oedd gysur mawr i'r eglwys hon, dàn ei herlidiau a'i haml drallodion: adn. 10.

9 [d] * Mi a adwaen dy weithredoedd di, * † a'th gystudd, [f] a'th dlodi (‡ eithr [g] cyfoethog wyt) ‖ ac *mi a adwaen* [h] gabledd y rhai [i] sydd yn dywedyd eu bod yn Iuddewon, § ac nid [k] ydynt ond synagog Satan.

d Gwel ar adn. 2. e pen. 7. 14. Ioan 16. 33. Act. 14. 22. Rhuf. 5. 3. a 8. 35. a 12. 12. 1 Thes. 3. 4. 2 Thes. 1. 6, 7. f Luc 4. 18. a 6. 20. 2 Cor. 8. 2, 9. Iago 2. 5, 6. g pen. 3. 17, 18. Luc 12. 21. 2 Cor. 6. 10. 1 Tim. 6. 18. Iago 2. 5, 6. h Luc 22. 65. Act. 26. 11. 1 Tim. 1. 13. i Rhuf. 2. 28, 29. a 9. 6. k pen. 3. 9.

* Dàn y cymmeriad o Gyfaill a Gwaredwr hollalluog ei bobl, mae yr Arglwydd Iesu yn sicrâu i'r cristionogion yn Smyrna, ei fod ef yn sylwi yn fanol ar, ac yn cymmeradwyo eu gweithredoedd hwynt; † ac yn hollawl adnabyddus o'u cystudd a'u tlodi hwynt: oblegid, er bod Smyrna yn ddinas gyfoethog a phoblog y pryd hwnw, un ai nid oedd neb ond y rhai tlotaf o'r trigolion wedi eu dychwelyd i'r ffydd, (1 Cor. 1. 26—29.) neu ynte yr oedd y cristionogion yno wedi cael eu cystuddio a'u tlodi drwy erledigaethau. Yr oeddynt yn wir yn gystuddiedig a thlodion yn y byd, yn gystal ag yn yr ysbryd. Tybia rhai fod y geiriau yn cyfeirio at *Polycarp*, esgob Smyrna: yr hen hanesion a ddywedant mai efe a'i tlododd ei hun yn wirfoddol, trwy werthu ei feddiannau i ddiwallu y tlodion; megys y gwnai llawer eraill o esgobion yr oesoedd boreuol hyny: ond wrth yr adnod nesaf, gwelir mai nid yr esgob yn unig a ddysgrifir yma; eithr yr eglwys yn gyffredinol hefyd. ‡ Ond yn nghanol y tlodi allanol hyn, dywedai Crist eu bod yn gyfoethog mewn ffydd, a thrwy ran yn ei "anchwiliadwy olud" ef, ac addewidion gwerthfawr y cyfammod newydd; yn gyfoethog mewn doethineb, gras, a gweithredoedd da, ac fel etifeddion trysorau diddarfod yn y nef: oblegid yr oeddynt hwy mewn agwedd flodeuog iawn o ran eu heneidiau, er bod yn isel arnynt mewn pethau allanol. ‖ Yn mhellach yr oedd efe yn adwaen cabledd rhyw ddynion, y rhai a ddywedent eu bod yn Iuddewon, ac a'u cablent ef a hwythau. Tybia rhai fod y dynion hyn yn proffesu cristionogaeth; ond eu bod yn eu *zêl* dros gyfraith Moses, yn llefaru pethau am Berson a chyfiawnder Crist, nad oedd ddim gwell na chabledd: ond tybia eraill mai Iuddewon anghrediniol hollawl oeddynt, y rhai oedd yn gwrthwynebu, yn cablu, ac yn erlid yr efengyl a'i phroffeswyr mewn eithaf gelyniaeth: dywedir fod llawer o'r cyfryw Iuddewon yn y rhan hon o Asia Leiaf y pryd hwn. § Hwy a broffesent eu hunain yn Iuddewon, yn unig bobl ac addolwyr Duw; ond nid oeddynt yr hyn a broffesent eu bod. Pa un bynag ai Iuddewon o genedl oeddynt ai peidio, nid oedd Duw yn eu haddef hwynt fel ei gynnulleidfa ef; y defodau am ba rai y taerent nid oeddynt o rỳm na chyfreithlondeb mwyach; yr oedd eu haddoliad yn gnawdol a rhagrithiol; yr oeddynt yn llidiog wrthwynebu gwirionedd ac achos Duw; ac nid oeddynt yn wir ond synagog Satan, cymdeithas o ddynion yn dwyn delw y diafol, yn dilyn ei esampl, yn gwneyd ei waith, ac yn cyd-ymgyssylltu i ddàl i fynu ei deyrnas ddrygionus ef. "Cynnulliad o ddafliaid, neu o blant y diafol," mae *Pool* yn eu galw.

10 * Nac ofna ddim o'r pethau yr ydwyt [l] i'w dioddef. † Wele, [m] y cythraul a fwrw rai o honoch chwi i garchar, fel y'ch profer; ‡ a [n] chwi a gewch gystudd [o] ddeng niwrnod. [p] ‖ Bydd ffyddlawn hyd angau, § ac mi a roddaf i ti [q] goron y bywyd.

l Dan. 3. 16—18. Mat. 10. 28. Luc 12. 4—7. m pen. 12. 9—11. a 13. 2, 7, 15—17. Luc 21. 12. Ioan 13. 2, 27. Eph. 2. 2. a 6. 12. 1 Pedr 5. 8. n Gwel ar adn. 9. o Hab. 2. 3. 1 Pedr 1. 6, 7. p pen. 12. 11. Mat. 10. 22. a 24. 13. Marc 8. 35. a 13. 13. Luc 21. 16—19. Ioan 12. 25. Act. 20. 24. a 21. 13. 2 Tim. 4. 7, 8. q pen. 3. 11. Iago 1. 12. 1 Pedr 5. 4.

* Mae yr adnod hon yn dangos mai erlidwyr ffyrnig oedd yr "Iuddewon," y "synagog Satan" uchod, yn hytrach na thwyllwyr cyfrwys, mewn rhith o gristionogaeth: oblegid nid rhybuddio ei bobl i ochelyd gau athrawiaeth y mae Crist yma, eithr eu darpar erbyn y groes ac erlid. Mae yn eu cyngori i beidio ag ofni dim o'r pethau yr oeddynt i'w dyoddef; oblegid yr oedd ef, y "Cyntaf a'r Diweddaf," yn ddigon galluog i'w hamddiffyn, eu nerthu, eu dyddanu, eu cynnal, a'u gwaredu hwynt. † Eto, wele, yr oedd ef yn tybied yn addas i'r cythraul gael goddefiad, i lwyddo yn eu herbyn hwy càn belled, ag i fwrw rhai o honynt i garchar, trwy offerynoldeb ei "synagog" o Iuddewon proffesedig, y rhai, efallai, a annogent y bobl a'r swyddogion yn eu herbyn hwynt, fel y gwnaethai eu cyd-genedl lawer gwaith o'r blaen mewn mànau eraill. Bwriadai eu gelynion fel hyn eu *dystrywio;* ond goddefai eu Harglwydd a'u Gwaredwr hyn i'w *profi* a'u *puro* hwynt: ‡ ac i'r dyben hyny hwy a gaent gystudd *ddeng niwrnod.* Wrth y "deng niwrnod" gallwn ddeall deng mlynedd, yr hyn medd yr hanes a fu parâd erledigaeth *Domitian;* neu ynte rhyw yspaid terfynedig o amser; yn yr hwn y byddai raid i lawer o honynt, efallai, ddyoddef merthyrdod yn achos y gwirionedd. Mae amryw feddyliau eraill am y *deng niwrnod* hyn; ond y pethau a enwyd yw barn ein Hawdwyr yn benaf. ‖ Yn wyneb y dyoddefiadau uchod, mae yr Arglwydd Iesu yn annog ei bobl i fod yn "ffyddlawn hyd angau;" i barâu yn eu hufudddod iddo ef yn ddidor, i ymladd yn ŵrol fel ei filwyr ef, ac i lỳnu wrth ei wirionedd a'i ewyllys ef, ie, pe gorfyddai iddynt ddyoddef angau er ei fwyn ef; neu beth bynag hyd ddiwedd eu hoes. § Ac yna, efe "yr hwn a fu farw, ac sydd fyw," a'u gwobrwyai hwynt mewn modd ag nas gallai yr un tywysog neu frenin daearol wobrwyo ei filwyr ffyddlawn; canys efe a roddai iddynt "goron y bywyd," sef tragywyddol ogoniant a dedwyddwch yn y nef.

11 [r] * Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi; † Yr hwn sydd yn gorchfygu, ‡ ni chaiff ddim niwed gan [s] yr ail farwolaeth.

r Gwel ar adn. 7. s pen. 20. 6, 14. a 21. 8.

* Yr oedd yr epistol hwn hefyd, yn perthyn i bawb a allent wrando a deall, ac yr oedd yn cael ei ddywedyd wrth yr *eglwysi* yn gyffredin, er wrth eglwys Smyrna yn mlaenaf ac yn benaf. Gwel ar adn. 7. † Pwy bynag, mewn unrhyw fàn neu oes, a orchfygai yn y rhyfel ysbrydol hon, yn erbyn "Satan a'i synagog," trwy fod yn "ffyddlawn hyd angau;" ‡ "ni cha'i hwnw ddim niwed gan yr ail farwolaeth," tragywyddol boenau uffern; er, efallai, y byddai raid iddo ddyoddef marwolaeth naturiol wrth ennill y frwydr. Ond yr oedd efe, yr hwn oedd ag "agoriadau uffern a marwolaeth ganddo," yn ymrwymo i ddiogelu eneidiau ei weision, yn amser eu hymddattodiad, a'u cyrph yn yr adgyfodiad; fel nad ysgarid hwynt byth oddi wrth Dduw, ac na ddanfonid hwynt ymaith i dragywyddol gosp; yr hyn mewn modd arbenig a elwir, "yr ail farwolaeth," ac a barotôwyd i'r holl rai drygionus: o'r tu arall, hwy a gedwid yn sicr, rhag pob gradd o'r trueni hwn, ac a dderbynient dragywyddol fywyd a dedwyddwch, ar ol eu bỳr ddyoddefiadau yn y byd hwn.—Nid oes dim o gerydd na rhybudd yn yr epistol hwn; ac mae yn beth nodedig, fod mwy o gristionogion y dydd heddyw, meddant, yn Smyrna nac sydd mewn un màn arall, yn y rhan hòno o'r byd: ni symmudwyd y canwyllbren yn *hollawl* o'u plith hwynt; ond mae rhyw dywyniadau bychain o oleuni yn cael eu parâu o hyd, i'r gweddill anrheithiedig o'r eglwys hon.

12 ¶ [t] * Ac at angel yr eglwys sydd yn Pergamus, ysgrifena; † Y pethau hyn y mae

yr [u] hwn sydd ganddo y cleddyf llym dau-finiog, yn eu dywedyd;

t Gwel ar adn. 1. pen. 1. 11. u adn. 16. pen. 1. 16. a 19. 15, 21. Es. 11. 4. Heb. 4. 12, 13.

* Pergamus oedd ddinas i'r gogledd o Smyrna: a hhan fod yr epistol at angel, neu weinidog yr eglwys hon, yn cynnwys rhybudd a bygythion; † mae yn cael ei ddanfon megys oddi wrth "yr hwn sydd ganddo y cleddyf llym dau-finiog." Gwel ar pen. 1. 16. Yr oedd Crist yn crybwyll hyn i eglwys Pergamus, i ddangos y ddialai efe trwy ei air a'i ragluniaeth, ar wrthgilwyr a'i holl elynion, ac yr amddiffynai efe yr holl rai a safent yn ddiysgog yn eu purdeb, yn ol, a thrwy ei air a'i wir-ionedd ef.

13 [x] * Mi a adwaen dy weithredoedd di, † a pha le yr wyt yn trigo; *sef* lle *mae* [y] gor-sedd-faingc Satan: [z] ‡ ac yr wyt yn dal [a] fy enw i, ‖ ac ni [b] wedaist fy ffydd i, § ïe, yn y dyddiau *y bu* Antipas yn [c] ferthyr ffyddlawn i mi, yr hwn a laddwyd yn eich plith chwi, lle y mae Satan yn trigo.

x Gwel ar adn. 2, 9. y adn. 9, 10, 24. pen. 3. 9. z adn. 25. pen. 3. 3, 11. 1 Thes. 5. 21. 2 Tim. 1. 13. Heb. 3. 6. a 10. 23. a pen. 3. 8. Mat. 24. 9. Luc 21. 17. Act. 9. 14. Iago 2. 7. b Mat. 10. 23. 1 Tim. 5. 8. 2 Tim. 2. 12. Judas 3, 4. c Act. 22. 20.

* Yr oedd yr Arglwydd Iesu yn sylwi yn dirion a chymmeradwyol, ar weithredoedd ei bobl yn y ddinas hon Lofyd; cyn belled ag yr oeddynt yn ufudd i'w or-chymynion ef: † ac yr oedd yn coffâu iddynt y gwyddai efe yn dda pa le yr oeddynt yn trigo; sef lle yr oedd Satan mewn modd arbenig wedi sefydlu ei orsedd-fainc, a chwedi gosod i fynu ei breswylfa. Rhaid bod hyn yn arwyddo, fod Pergamus nid yn unig yn lle drygionus iawn mewn ystyriaethau eraill; ond ei fod hefyd, megys prif wersyllfa, neu orsafle erledigaeth a chyfeiliornad-au; dau brif beiriant y diafol, i wrthwynebu pur efeng-yl Crist: ac mai oddi yma yr oedd y drygau erchyll hyn, yn taenu eu heffeithiau alaethus a gwenwynig i ddinasoedd a lleoedd eraill. Yma yr oedd y rhai digrefydd yn nodedig am erlid; a rhai rhith grefyddol yn nodedig am gyfeiliornadau: ac oll o honynt yn ddeilfaid ffyddlawn Satan, dàn ei faner, ac o amgylch ei orsedd-fainc ef. ‡ Eto, yn y sefyllfa beryglus hon, yr oedd yr eglwys yn gyffredin yn "dàl enw Crist;" sef yn dàl yn ddiysgog i broffesu gwirionedd ei efengyl ef, ac o barch gwresog i'w anrhydedd a'i awdurdod ef: ‖ ac fel hyn "nid oeddynt yn gwadu ei ffydd ef," na thrwy wrthgiliad cyhoeddus, na thrwy gyd-ymagweddu yn bechadurus â'r byd i ochelyd y groes. § "Ïe," yr oeddynt wedi dàl fel hyn yn y dyddiau profedigaethus y buasai Antipas yn dyst ac yn ferthyr ffyddlawn i Grist a'i wirionedd, yr hwn a laddesid am ei dystiolaeth, yn eu plith hwynt, lle yr oedd Satan yn trigo.—Nid yw hanesiaeth eglwysig yn dywedyd i ni pwy oedd yr Antipas hwn. Efallai mai rhyw bregethwr gwresog oedd, neu ryw gristion cyffredin arall, o enedigaeth, gradd, ac amgylchiadau *isel;* ond a aeth yn enwog trwy ddy-oddef merthyrdod yn achos Crist. Pwy bynag oedd, a pha sefyllfa bynag oedd iddo yn y byd ac yn yr eglwys, yr oedd y sylw tirion a chanmoladwy hyn a wnaed o hóno, gan ei Arglwydd mawr; yn debyg o fod yn foddion rhagorol i gryfâu gwrolder a ffyddlondeb cristion-ogion eraill, y rhai ond odid a gaent eu galw i ddyoddef yr un pethau. Gadawn heibio y tybiau dychymmygol, a grybwylla *Pool*, am y gair Antipas, neu *Antipapa*, yn ol y tybiau hyny. |

14 [d] * Eithr y mae gennyf ychydig bethau yn dy erbyn di, † oblegid bod gennyt yno *rai* yn dal athrawiaeth [e] Balaam, ‡ yr hwn a ddysgodd i Balac fwrw [f] rhwystr ger bron meibion Israel, [g] i fwytta pethau wedi eu haberthu i eilunod, [h] ac i odinebu.

d Gwel ar adn. 4, 20. e Num. 25. 1—3. a 31. 8, 16. Jos. 24. 9. 2 Pedr 2. 15. Judas 11. f Es. 57. 14. Jer. 6. 21. Ezec. 3. 20. a 44. 12. Mat. 18. 7. Rhuf. 9. 32. a 11. 9. a 14. 13, 21. 1 Cor. 1. 23. a 8. 9. 1 Pedr 2. 8. g Act. 15. 20, 21, 29. a 21. 25. 1 Cor. 8. 4—13. a 10. 18—31. h pen. 21. 8. a 22. 15. 1 Cor. 6. 13—18. a 7. 2. Heb. 13. 4.

* Ond er y ganmoliaeth uchod, yr oedd gan yr Arglwydd Iesu "ychydig bethau" yn erbyn eglwys Pergamus a'i gweinidog: † oblegid fod ganddynt yn eu cymundeb, neu mewn rhyw fodd arall yn cael goddefiad yn eu plith; rai o'r athrawon penrhydd hyny, y rhai y buasai ei apostolion ef yn tystiolaethu yn eu herbyn; sef y cyfryw ag oedd yn dàl athrawiaeth Balaam. ‡ Oblegid y dyn drygionus hwnw, er iddo mewn gwirionedd gael ei freintio â gweledigaethau prophwydoliaethol; eto, er mwyn budr-elw, efe a ddyfeisiodd ddrwg yn erbyn Israel, trwy ddysgu i Balac pa fodd i'w hudo hwynt i fwyta pethau wedi eu haberthu i eilunod ac i odinebu, ac felly bwrw yn eu ffordd hwynt rwystr, neu achlysur i syrthio i bechod, a thàn ddigofaint Duw.

15 * Felly y mae gennyt tithau hefyd *rai* yn dal [i] athrawiaeth y Nicolaiaid, † yr hyn beth yr wyf fi yn ei gasâu.

i Gwel ar adn. 6.

* Felly hefyd yr un modd, yr oedd yn eglwys Pergamus ddynion, yn dàl athrawiaeth y Nicolaiaid, neu y Balaamiaid, (canys yr un peth yw yr Hebraeg *Balaam*, â'r Groeg *Nicolaus*, a'r ddau yn arwyddo *Gorchfygwr y bobl*) † yr hyn beth, sef yr athrawiaeth ac oll a berthyn-ai iddi, yr oedd Crist yn ei gasâu. Oddi wrth hyn mae yn amlwg, fod yr athrawon hyn yn "caru gwobr anghyfiawnder," ac yn ymgyrhaedd ato trwy geisio llygru a gŵyr-droi proffeswyr cristionogaeth, "bwrw rhwystr ger eu bron" hwynt; a thàn ryw esgus neu gilydd, eu hannog a'u hudo hwynt i uno yn ngwleddoedd eilun-addolgar eu cymmydogion paganaidd; ac ar yr achlys-uron hyny ac amserau eraill, i fod yn euog o odineb Sylwyd eisoes fod *Balaam* yn Hebraeg, a *Nicolaus*. yn y Groeg yn arwyddo yr un peth, sef *Gorchfygwr y bobl*, a thybir ddarfod eu galw felly o herwydd yr awdur-dod oedd gan bob un o honynt ar feddyliau y bobl, a'r defnydd drwg a wnaethant o hyny, Balaam gynt, a Nicolas, pwy bynag ydoedd, wedi hyny. Yn adn. 20, cawn Jezebel eto: a thybia rhai fod yr enwau hyn, yn nghyd â rhai eraill yn y llyfr hwn, (pen. 3. 9; a 8. 11; a 9. 11; a 11. 8.) yn eael eu defnyddio mewn dull allegawl, i ddynodi dynion o gymmeriadau cyffelyb i'r rhai hyny y crybwyllir eu henwau.

16 [k] * Edifarhâ; [l] † ac os amgen, yr wyf fi yn dyfod attat ar frys, [m] ‡ ac a ryfelaf yn eu herbyn hwynt ‖ â chleddyf fy ngenau.

k Gwel ar q. r. adn. 5.—adn. 21, 22. pen. 3. 19. a 16. 9. Act. 17. 30, 31. l Gwel ar s. adn. 5. m Gwel ar adn. 12.—Es. 11. 4. a 49. 2. Eph. 6. 17. 2 Thes. 2. 8.

* Gwedi crybwyll y bai, mae yr Arglwydd Iesu yn galw ar yr eglwys yn Pergamus i edifarâu, a gadael yr egwyddorion a'r arferion llygredig hyny; i fwrw allan y fath ddynion gwarthus a niweidiol o'u cymundeb; a thrwy bob moddion i ddangos y casineb eithaf tuag at eu dàliadau a'u gweithredoedd. † Ac os amgen, os nad edifarâent, efe a ddeuai atynt ar frys mewn barn; ‡ ac a ymladdai yn erbyn y twyllwyr hyny, ac yn erbyn pawb a'u pleidiai hwynt, ‖ â chleddyf ei enau; gan dywallt y dial bygwthiedig arnynt; ïe, efe a amddifadai yr eglwys o'r breintiau a gam-ddefnyddiasai hi.—Dywedir bod y ddinas hon yn awr mewn agwedd arfeilig iawn; ychydig iawn o broffeswyr cristionogaeth a gair ynddi, a'r ychydig hyny yn hollawl ymddybynol ar eglwys Smyrna; gan eu bod yn yr agwedd iselaf o waeledd, heb gan-ddynt braidd ddim o'n crefydd sanctaidd ni, ond yr enw gwag yn unig.

17 [n] * Yr hwn sydd ganddo glust, gwran-dawed beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi; † I'r hwn sydd yn gorchfygu, y rhoddaf iddo [o] fwytta o'r manna cuddiedig, ‡ ac a roddaf iddo garreg wen, ‖ ac ar y gar-

reg [p] enw newydd wedi ei ysgrifenu, § yr hwn nid edwyn neb, ond yr hwn sydd yn *ei* dderbyn.

n Gwel ar adn. 7. o Salm 25. 14. a 36. 8. Diar. 3. 32. a 14. 10. Es. 65. 13. Mat. 13. 11. Ioan 4. 32. a 6. 48—58. Col. 3. 3. p pen. 3. 12. a 19. 12. Es. 65. 15.

* Yr hyn oedd yr Ysbryd yn lefaru trwy Ioan wrth eglwys Pergamus, yr oedd yn ei fwriadu hefyd i'r holl eglwysi; pawb a allent wrando a deall, yn mhob màn ac oes o'r byd: oblegid tra yr oedd barnedigaethau yn crogi uwch ben yr anedifeiriol, yr oedd bendithion wedi eu darpar i'r rhai a orchfygent y temtasiynau lliosog, i ba rai yr oeddynt yn agored. † I bob un a lŷnai felly wrth wirionedd a gorchymynion Crist, efe a addawodd "roddi iddo fwyta o'r manna cuddiedig;" sef y cysuron bywiocâol, cryfâol, a digonawl hyny, sydd yn tarddu oddi ar weithrediad bywiog ffydd, mewn Gwaredwr croeshoeliedig; ystyriaeth sefydlog o ogoniant Duw ynddo ef; a chymdeithas felys â'r Tad ac â'r Mab, trwy ddylanwadau yr Ysbryd Glân. Mae y manna hwn yn *guddiedig* oddi wrth ddynion anianol; y rhai ni wyddant ddim am y deilliad, y natur, y cyfranogiad, na'r rhagoroldeb o hóno: mae allan o gyrhaedd pob gelyn; ac mae yn anmhosibl lluddias y cyfraniad o hóno, mwy na'r manna yn yr anialwch gynt; fel ag y mae yn "*ddirgelwch* yr Arglwydd, yr hwn sydd gyda'r rhai a'i hofnant ef." ‡ Addawodd y Gwaredwr grasol hefyd, i bob gorchfygwr yn y rhyfel ysbrydol hon, "gàreg wèn." Yn yr hen amseroedd gynt, pan fyddai unrhyw ddyn yn mhlith y Groegiaid, yn cael ei brofi am drosedd yn erbyn y llywodraeth, wrth farn y bwrdeisiaid; yr oeddynt yn penderfynu am ei rydddâd ef trwy i bob un roddi càreg *wèn* i mewn, ac am ei gondemniad ef trwy gàreg *ddu:* felly yr oedd Crist, unig Farnwr ei bobl, trwy addaw rhoddi i'r gorchfygwyr "gàreg wèn," yn sicrâu iddynt hwy berffaith gyfiawnâd, yn nydd mawr y prawf diweddaf; ac yn sicrâu iddynt hefyd brofiad cysurus presenol, eu bod wedi cael maddeuant, a'u cymmeradwyo gyda Duw, ynddo a thrwyddo ef. || Nid oes dim ar a wyddom mewn hen arferion, yn egluro beth yw "ysgrifenu yr enw newydd" ar y gàreg: efallai mai "plant Duw" yw yr enw newydd hwn; ac felly yn dangos y cyssylltiad anwahanol rhwng maddeuant pechodau, â mabwysiad i'w deulu ef. Byddai yr enw hwn megys wedi ei ysgrifenu ar y maddeuant a roddid iddynt, ac yn eglur ddealladwy i'r enaid trwy Ysbryd mabwysiad. § Eithr "nid edwyn neb yr enw hwn, ond yr hwn sydd yn ei dderbyn:" oblegid mae sail yr adnabyddiaeth o hóno wedi ei gosod yn nghydwybod a phrofiad tumewnol y derbynydd; mae yn cael ei roddi i'r gwir gristion bywiol drwy "dystiolaeth ynddo ei hun;" nid yw y byd yn adnabod plant Duw; ac hyd yn nôd eu brodyr, nis gallant eu gwahaniaethu hwynt yn hollawl; fel ag y maent weithiau yn drwg-dybied ac yn condemnio y cywir, ac yn meddwl yn dda am ragrithwyr tegweddus. Ond pan mae yr Ysbryd Glân yn goleuo ar ei waith ei hun yn enaid y credadyn, mae yr "enw newydd" hwn, a'i wir ystyr, yn dyfod yn eglur ac yn ddealladwy iddo ef, ac mae efe yn gwybod am dano ei hun ei fod yn blentyn ac yn etifedd i Dduw.—Efallai bod y geiriau hefyd yn arwyddo, y dedwyddwch hyny sydd yn aros plant Duw, wedi iddynt gael buddugoliaeth lwyr ar eu holl elynion; yr hwn nis gellir byth ei amgyffred ond yn y mwynâd o hóno: eto, tybia *Scott* mai cysuron presenol, fel gwobrwyon grasol am fuddugoliaethau ar wahanol demtasiynau cryfion, oedd meddwl penaf, er nad unig feddwl y geiriau.—Rhoddai breninoedd gynt enw newydd ar y rhai a ddyrchafent i anrhydedd arbenig: a rhoddid enw y buddugoliaethwr yn y campau Groegaidd gynt, ar docyn a roid iddo; yn nghyd â dangosiad o'r gwobr oedd ef i dderbyn am ei fuddugoliaeth: efallai bod cyfeiriad at y naill neu y llall o'r arferion hyny yma.

18 ¶ * Ac [q] at angel yr eglwys sydd yn Thyatira, ysgrifena; † Y pethau hyn y mae [r] Mab Duw yn eu dywedyd, * ‡ yr hwn sydd â'i lygaid fel fflam dân, || a'i draed yn debyg i bres coeth;

q Gwel ar adn. 1. pen. 1. 11. r Salm 2. 7. Mat. 3. 17. a 4. 3—6. a 17. 5. a 27. 54. Luc 1. 35. Ioan 1. 14, 49. a 3. 16, 18, 35, 36. a 5. 25. a 10. 36. Act. 8. 37. Rhuf. 1. 4. a 8. 32. s Gwel ar pen. 1. 14, 15.

* Thyatira oedd yn gorwedd i'r de-ddwyrain o Pergamus: ac un o'r ddinas hon oedd Lydia. Act. 16. 14. † Danfonwyd y llythyr at yr eglwys yn y ddinas hon yn enw "Mab Duw," yr hwn sydd wir a thragywyddol Dduw, ‡ "yr hwn sydd â'i lygaid fel fflam dân;" yr hyn a arwydda ei anfeidrol ddoethineb, a'i dreiddiol wybodaeth ef o bob peth, ac o weithredoedd a chalonau pawb: || "a'i draed yn debyg i bres coeth;" i arwyddo purdeb, nerth, awdurdod, cyfiawnder, a diannwadalwch ei gerddediad a'i weithredoedd ef, yn ei holl oruchwyliaethau mewn rhagluniaeth a gras, yn y byd ac yn yr eglwys. Gwel ar pen. 1. 14, 15.

19 [t] * Mi a adwaen dy weithredoedd di, [u] † a'th gariad, ‡ a'th wasanaeth, || a'th ffydd, § a'th [x] amynedd di, * a'th weithredoedd; a *bod* y rhai [y] diweddaf yn fwy nâ'r rhai cyntaf.

t Gwel ar adn. 2, 9, 13. u 1 Cor. 13. 1—8, 13. Col. 3. 14. 1 Thes. 3. 6. 2 Thes. 1. 3. 1 Tim. 1. 5. 1 Pedr 4. 8. 2 Pedr 1. 7. x Gwel ar adn. 2, 3. y Gwel ar adn. 4.—Job 17. 9. Salm 92. 14. Diar. 4. 18. Ioan 15. 2. 2 Pedr 3. 18.

* Mae Mab Duw yn crybwyll i weinidog a christionogion Thyatira hefyd, ei fod ef yn adnabod eu gweithredoedd hwynt; † ac yn sylwi gyda boddlonrwydd ar eu cariad hwynt tuag ato ef, a thuag at y brodyr, yn nghyd â'u cymmwynasgarwch i bawb yn gyffredin; ‡ eu cyflawniad dyfal hwynt o bob dyledswyddau, trwy y rhai yr oeddynt yn ei wasanaethu ef a'r naill y llall, yn yr eglwys ac yn y byd; || eu proffes hŷf a diannwadal hwynt o'i wirionedd ef, mewn ffydd gref a diragrith; § eu hamynedd mawr hwynt, trwy yr hon yr oeddynt yn dyoddef erlidiau a thrallodau yn dawel ac heb dynu yn ôl; * ac yn enwedig yr oedd yn eu canmol hwynt, am fod eu gweithredoedd diweddaf yn fwy helaeth a ffrwythlawn, nâ'r rhai cyntaf; am eu bod yn gwellâu o hyd yn eu crefydd, fel yr oeddynt yn myned yn mlaen ac yn heneiddio, fel Salm 92. 12—14. Gwyn fyd na byddai hen grefyddwyr oll fel hyn!

20 * Eithr [z] y mae gennyf ychydig bethau yn dy erbyn, † oblegid dy fod yn gadael i'r [a] wraig honno Jezebel, ‡ yr hon sydd yn ei galw ei hun yn brophwydes, || ddysgu, [b] a thwyllo fy ngwasanaethwyr i odinebu, § ac i fwytta pethau wedi eu haberthu i eilunod.

z Gwel ar adn. 4, 14. a 1 Bren. 16. 31. a 17. 4, 13. a 19. 1, 2. a 21. 7—15, 23—25. 2 Bren. 9. 7, 10, 30—37. b Gwel ar adn. 14.—Ex. 34. 15. Num. 25. 1, 2. Act. 15. 20, 29. 1 Cor. 8. 10—12. a 10. 18—21, 28.

* Càn belled â hyn yr oedd eglwys Thyatira yn ymddangos mewn agwedd flodeuog iawn: eto, yr oedd pryf wrth wreiddyn eu llwyddiant, yr hwn a ddystrywiai y cyfan os na thynid ef ymaith. Er yr holl bethau canmoladwy uchod, yr oedd gan yr Arglwydd Iesu ychydig bethau yn erbyn gweinidog ac eglwys Thyatira; † yn enwedig am eu bod yn goddef personau ag oedd yn dysgu y fath athrawiaeth, ac yn euog o'r fath arferion ffiaidd, ag oedd ef yn gasâu: oblegid yr un pethau a wrthwynebir yma yn ddiammau, ag a nodwyd yn yr epistol o'r blaen; (gwel ar adn. 14, 15.) ac yn wir yr un pethau a enwir yn niwedd yr adnod, ag a enwyd o'r blaen yn adn. 14.—"Y wraig hòno Jezebel:" nid yw dysgedigion yn cytuno pa un ai yn llythyrenol ai yn allegawl, y dylid deall y geiriau hyn. Tybia rhai mai yn allegawl y dylid eu deall; am ddynion eglwys Thyatira o'r un ysbryd drygionus, ac arferion eilun-addolgar, â'r hen Jezebel gynt, gwraig Ahab; ac o herwydd hyny yn cael eu galw oll fel un, wrth ei henw hi. Tybia eraill mai yn llythyrenol y dylid eu deall, am ryw wraig bennodol yn yr eglwys hon; a dywedant mai gwraig y gweinidog penaf ei hun ydoedd; ei bod yn cael ei galw

ezebel, am ei bod hi yn achos o bethau drwg yn yr
glwys, fel y bu y Jezebel gynt yn Israel: a dywedir fod
hai hen ysgrifau o'r adnod hon yn darllen, *dy wraig*, sef
wraig y gweinidog; ‡ yr hon a hònai fod ganddi ys-
ryd prophwydoliaeth, a wnai ddefnydd drwg o hòno yn
r eglwys, ac a oddefid yn ormod gan yr eglwys, ac yn
nwedig gan y gweinidog ei phriod. Tybia eraill mai
Helena, putain Simon y Swynwr, blaenor mawr plaid
lfian y Gwybedyddion, *(Gnostics)* ydoedd hi. Tybia
Pool fod rhyw fenyw buteinig yn sicr yn yr eglwys hon,
r hon a'i galwai ei hun yn brophwydes; ac ei bod drwy
yny, ‖ yn dysgu ac yn twyllo gwasanaethwyr Crist i
dineb corphorol ac ysbrydol; § ac i fwyta pethau wedi
u haberthu i eilunod yn achlysurol, er digoni y cnawd,
ac er peidio cael eu herlid gan eilun-addolwyr am eu
refydd. Pa fodd bynag, ac am bwy bynag, mae deall
geiriau; mae yn amlwg fod y drygau uchod a'u
gweithredwyr, yn cael eu *goddef* yn ormod yn yr eglwys
non, hyd oni ddanfonodd Iesu y llythyr hwn atynt.—
Gwel y sylw ar adn. 15.

21 * Ac mi a roddais iddi [c] amser i edifar-
hâu am ei godineb; † ac nid edifarhâodd hi.

c pen. 9. 20, 21. Jer. 8. 4—6. Rhuf. 2. 4, 5. a 9. 22. 1 Pedr 3. 20. 2 Pedr 3. 9, 15.

* Bu y drwg uchod yn gweithio yn hir; ac yr oedd yr Arglwydd Iesu yn ei hir-ymaros, wedi rhoddi amser i flaenor a phleidwyr yr hudoliaeth, i edifarâu; † ond yr oeddynt hwy o hyd yn parâu yn eu drygioni, ac heb edifarâu na'i adael. Enbyd yw cam-ddefnyddio amyn-edd Duw.

22 * Wele, yr wyf fi yn ei bwrw hi ar wely, [d] † a'r rhai sydd yn godinebu gyd â hi, i gystudd mawr, [e] ‡ onid edifarhânt am eu gweithredoedd.

d pen. 17. 2. a 18. 3, 9. a 19. 18—21. Ezec. 16. 37—41. a 23. 45—48. e Jer. 36. 3. Ezec. 18. 30—32. a 33. 11. Zeph. 3. 7. Luc 13. 3, 5. 2 Cor. 12. 21. 2 Tim. 2. 25, 26.

* Gan nad edifarâodd y Jezebel, y gau-brophwydes hon, er cael "amser i edifarâu;" mae Crist yma yn ttystiolaethu y bwriai efe hi ar wely: nid i odinebu fel arferol, ar wely esmwythder a mwyniant cnawdol; ond ar wely cystudd, dàn ryw afiechyd poenus, anfeddygin-iaethol, a marwol; yr hwn a ddybenai yn wely angau.

‖ † Ac mae yn bygwth gwneyd yr un modd, â'r rhai oedd yn cymmeryd eu hudo ganddi hi, i gyflawni yr un pechodau godinebus ac eilun-addolgar; ‡ oni rag-flaen-ent hwy hyny, trwy edifarâu yn wirioneddol a phryd-lawn, a gadael eu ffyrdd a'u harferion drygionus a ffiaidd. Gellir deall hyn am holl farnau bygythiol Duw; gellir attal y cyflawniad o honynt trwy wir edi-feirwch; a'r fath yw ei amynedd ef, fel mae yn rhoddi i'r pechaduriaid aflanaf amser i edifarâu.

23 * A'i phlant hi a laddaf [f] â marwolaeth: [g] † a'r holl eglwysi a gânt wybod mai [h] myfi yw yr hwn sydd yn chwilio yr arennau a'r calonnau: [i] ‡ ac mi a roddaf i bob un o honoch yn ol eich gweithredoedd.

f pen. 6. 8. g adn. 7, 11. Deut. 13. 11. a 17. 13. a 19. 20. a 21. 21. h 1 Sam. 16. 7. 1 Cron. 28. 9. a 29. 17. 2 Cron. 6. 30. Salm 7. 9. a 44. 21. Jer. 11. 20. a 17. 10. a 20. 12. Ioan 2. 24, 25. a 21. 17. Act. 1. 24. Rhuf. 8. 27. Heb. 4. 13. i pen. 20. 12. Salm 62. 12. Es. 3. 10, 11. Mat. 16. 27. Rhuf. 2. 5—11. 2 Cor. 5. 10. Gal. 6. 5. 1 Pedr 1. 17.

* Yn wir yr oedd Crist, eu Harglwydd a'u Barnydd hwynt, yn bwriadu lladd trwy haint, neu ryw farnau dychrynllyd a marwol eraill, yr hudoliaid hyn a'u holl blant, neu eu plaid a'u canlynwyr, y rhai a ennillasent hwy trwy odineb ysbrydol; † a thrwy hyny ca'i yr holl eglwysi wybod yn sicr, mai efe oedd y Duw mawr a gogoneddus hwnw, yr hwn yn unig a fedrai chwilio a phrofi arenau a chalonau dynion; i ganfod eu holl ddychymmygion, eu bwriadau, a'u tueddiadau dirgelaf; ‡ ac i roddi i bob un o honynt yn ol eu gweithredoedd, pa un bynag ai drwg ai da, heb ddim pleidgarwch, anghyfiawnder, na derbyn wyneb neb.—Yn y fàn hon eto, mae dull priodol Duwdod yn cael ei ddefnyddio gan Fab Duw. Mae yn llawer mwy grymus i ddywed-yd, "Myfi yw yr hwn sydd yn chwilio yr arenau a'r calonau," na phe dywedasai, "Yr wyf yn chwilio," &c: ac nis gellir cyfrif byth am y fath ymadrodd, ar unrhyw dir arall ond athrawiaeth y Drindod, a gwir Dduwdod Crist fel un o'r Personau yn y Drindod; pa faint bynag o drafferth a chywreindeb cyfrwys, a ddefnyddier yn yr ymgais.

24 * Eithr wrthych chwi yr wyf yn dywed-yd, † ac wrth y lleill yn Thyatira, Y sawl nid oes ganddynt y ddysgeidiaeth hon, ‡ a'r rhai ni adnabuant [k] ddyfnderau Satan, fel y dywed-ant; ‖ Ni [l] fwriaf arnoch faich arall.

k pen. 12. 9. a 13. 14. 2 Cor. 2. 11. a 11. 3, 13—15. Eph. 6. 11, 12. 2 Thes. 2. 9—12. l Act. 15. 28.

* Wrth y rhai hyny oedd wedi edifarâu, ac wedi ym-ddidoli oddi wrth y pechodau a enwyd; † ac wrth y lleill yn Thyatira, y sawl ni dderbyniasent erioed y ddysgeidiaeth ddrwg hòno, ond a'i gwrthodasent hi yn ŵrol; ‡ a'r rhai nid adnabuasent, chwaithach cymmer-adwyo, y dyfnderau hyny, fel y gelwid hwynt, y rhai a daenid gan y twyllwyr drygionus uchod, ac a daerent, mae yn debyg, mai "dyfnion bethau Duw" oeddynt, ond a elwid yma gan Grist yn "ddyfnderau Satan;" wedi eu dyfeisio ganddo ef yn y modd mwyaf cyfrwys a dichellgar, i ddianrhydeddu Crist ac i ddystrywio eneidiau;—wrth y cyfryw a ymgadwasent oddi wrth y "dirgelion hyn o anwiredd," mae efe yn dywedyd, ‖ "Ni fwriaf arnoch faich arall:" hyny yw, ni roddai efe arnynt unrhyw orchymyn neu iau arall, ond yr hyn a dderbyniasent hwy eisoes gan ei weinidogion ef; dim ond ymgadw oddi wrth y ffiaidd arferion uchod, a defodau a seremonïau aflesol y ddeddf, a rhodio yn ol athrawiaeth bur a sefydledig yr efengyl sanctaidd.—Tybia *Pool* fod y geiriau *wrthych chwi*, yn cyfeirio at y gweinidogion, mewn ffordd o wahaniaeth oddi wrth y *lleill*, yn Thyatira; ac yna mae yr holl rai pur yn yr eglwys, yn weinidogion ac aelodau, yn cael eu cynnwys yn y geiriau, *Y sawl*, &c.: ac yn y fàn hon mae yr hyn oedd Crist yn ei "ddywedyd" yn dechreu; "Y sawl nid oes ganddynt y ddysgeidiaeth hon, a'r rhai nid adna-buant ddyfnderau Satan—ni fwriaf arnoch faich arall."

25 * Eithr [m] yr hyn sydd gennych, deliwch † hyd [n] oni ddelwyf.

m pen. 3. 3, 11. Act. 11. 28. Rhuf. 12. 9. 1 Thes. 5. 21. Heb. 3. 6. a 4. 14. a 10. 23. n pen. 1. 7. a 22. 7, 20. Ioan 14. 3. a 21. 22, 23. 1 Cor. 4. 5. a 11. 26. 2 Pedr 3. 10.

* Ond yr hyn oedd ganddynt hwy, o ffydd, cariad ac ufudd-dod; yn nghyd âg athrawiaeth bur, a gorchym-ynion sanctaidd yr efengyl; mae efe yn eu cyngori hwynt i ddàl hyny yn ffyddlawn a diannwadal; † hyd oni ddelai efe i'w symmud hwy trwy farwolaeth, ac i roddi iddynt goron y bywyd.

26 * A'r hwn [o] sydd yn gorchfygu, [p] † ac yn cadw fy ngweithredoedd hyd y diwedd, [q] ‡ mi a roddaf iddo awdurdod ar y cenhedl-oedd:

o Gwel ar adn. 7, 11, 17.—Rhuf. 8. 37. 1 Ioan 5. 5. p Mat. 24. 13. Luc 8. 13—15. Ioan 8. 31, 32. Rhuf. 2. 7. 1 Thes. 3. 5. Heb. 10. 38, 39. 1 Ioan 2. 19. q pen. 3. 21. a 20. 4. a 22. 5. Salm 49. 14. Dan. 7. 18, 22, 27. Mat. 19. 28. Luc 22. 29, 30. 1 Cor. 6. 3, 4.

* Yr oedd efe hefyd yn addaw i bob un, a orchfygai y temtasiynau rhŷ lwyddiannus hyn, † ac a gadwai y gweithredoedd a orchymynasai efe, mewn ufudd-dod ffydd hyd y diwedd; ‡ y rhoddai efe i'r cyfryw y fraint o gyfranogi yn ei fuddugoliaethau ef, ac yn yr awdur-dod cyssylltiedig â hwynt; cyn belled ag y gallai hyn chwanegi at eu gwir anrhydedd a'u dedwyddwch hwynt: ac fel hyn hwy a gaent gyfranogi o anrhydedd, gorfol-edd, a goruchafiaeth y Gwaredwr, pan gaffo yr holl genedloedd, ei elynion ef, eu malurio yn chwilfriw, fel y dryllir llestr pridd breulyd, gan ergyd â gwialen haiarn, adn. 27; Salm 2. 9. Nis gellir deall "awdur-

dod ar y cenédloedd" yn sier am lywodraeth *dymmorol*, yn y *byd hwn*, oblegid mae yr addewid i bob un sydd yn gorchfygu; a gwyddom mai ychydig iawn o'r saint a gawsant awdurdod felly erioed eto, eithr yn hytrach awdurdodi arnynt yn greulawn gan y cenedloedd.—Condemnio buchedd afian y cenedloedd, bod yn offerynol i droi a dychwelyd y cenedloedd, neu farnu y cenedloedd gyda Christ yn y dydd diweddaf: felly y dywed *Pool*, a cheisiwyd dwyn y peth olaf i mewn yn y sylwad uchod, yr hwn sydd air yn air o *Scott*.

27 [r] * (Ac *efe* a'u bugeilia hwy † â gwïalen haiarn: ‡ fel llestri pridd y dryllir hwynt) [s] || fel y derbyniais innau gan fy nhad.

r pen. 12. 5. a 19. 15. Salm 2. 8, 9. s Mat. 11. 27. Luc 22. 29. Ioan 17. 24.

* "Ac efe," sef "yr hwn sydd yn gorchfygu," "a'u bugeilia hwynt," sef "y cenedloedd;" neu a'u *llywodraetha* hwynt, yn ol y Saesoneg; ac felly yn arwyddo yr un peth â chael "awdurdod ar y cenedloedd," yn yr adnod o'r blaen. † Efallai bod "gwïalen haiarn" yn arwyddo gwïalen *uniawn*, yr hon ni phlyga, neu a ŵyrgama yn hawdd; ac felly yn arwyddo llywodraeth uniawn a chyfiawn ar y cenedloedd: ond tebycach fod "gwïalen haiarn" yn y fàn hon yn arwyddo gwïalen dost, a chaled, ‡ i ddryllio y cenedloedd â hi fel y dryllir llestr pridd. Pan ddelo Crist trwy ei Ysbryd, ei wirionedd, a'i saint, i argyhoeddi y byd yn rymus o bechod, o gyfiawnder, ac o farn, caiff holl baganiaeth, ac eilun-addoliaeth y cenedloedd, eu dryllio yn chwilfriw, megys gan ei saint ef, yn milwrio dàn ei faner ef. Neu, yn nydd y farn ddiweddaf, caiff yr holl saint a orchfygasant eistedd gyda Christ, yn cydsynio â'i farn gondemniol ef ar y byd, pryd y dryllir yr holl genedloedd ei elynion, ac ni bydd ymwared a meddyginiaeth mwy. || Derbyniodd Crist fel Cyfryngwr, y cyfryw awdurdod gan ei Dad; ac efe a'i rhydd i bob un sydd yn credu ac yn gorchfygu.

28 [t] * Ac mi a roddaf iddo y seren fore.

t pen. 22. 16. Luc 1. 78, 79. 2 Pedr 1. 19.

* Hefyd, efe a addawodd "roddi" i'r hwn sydd yn gorchfygu, "y Seren fore:" yr hyn a arwydda, un ai ernes yr Ysbryd, fel yn arweiniol i ddedwyddwch y nef, fel mae y seren fore yn blaenori codiad yr haul; (Gwel ar 2 Petr 1. 19.) neu ynte, y gogoniant annrhaethadwy, â pha un y gwisg efe ei holl ddysgyblion buddugoliaethus, yn y presenoldeb a'r mwynâd o hôno ei hun eu Harglwydd a'u Gwaredwr, ac mewn cyd-ffurfiad â'i ogoniant ef.

29 * Yr [u] hwn sydd ganddo glust, gwrandawed † beth y mae yr Yspryd yn ei ddywedyd ‡ wrth yr eglwysi.

u Gwel ar adn. 7.

* Yr oedd, ac y mae y llythyr hwn, eto, fel y llythyrau eraill, yn perthyn i bawb cristionogion a phroffeswyr, yn gystal ag i'r rhai yr ysgrifenwyd ef yn uniongyrchol atynt: "yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed." † Beth mae yr Ysbryd Glân, fel Ysbryd prophwydoliaeth, yn ei ddywedyd fel addewidion a bygythion; ‡ nid wrth eglwys Thyatira yn unig, ond wrth holl eglwysi eraill y wlad a'r oes hòno, ac o hyny allan hyd ddiwedd y byd.—Mae pob un o'r epistolau yn dechreu â rhyw eiriau sydd yn dynodi Crist, Mab Duw, fel y llefarydd; ac yn dybenu â'r alwad, "Gwrandâwed beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd," &c: yr hyn mae Crist yn ei ddywedyd, mae yr Ysbryd hefyd yn ei ddywedyd: mae yr un geiriau a gweithredoedd yn hollawl, yn cael eu priodoli i bob un o'r ddau; megys y gwnair hefyd mewn llawer o fànau i'r Tad ac i'r Mab: oblegid mae y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, yn dri; "a'r tri hyn un ydynt."

PEN. III.

Argyhoeddi angel eglwys Sardis, &c.

* Ac [a] at angel yr eglwys sydd yn Sardis, ysgrifena; † Y pethau hyn y mae [b] yr hwn sydd [c] â saith Yspryd Duw, a'r saith seren ganddo, yn eu dywedyd; [d] ‡ Mi a adwaen dy weithredoedd di, || oblegid y mae gennyt enw dy fod yn fyw, [e] § a marw ydwyt.

a Gwel ar pen. 1. 11, 20. b Gwel ar pen. 1. 4.—a 4. 5. Ioan 1. 16, 33. a 3. 34. a 7. 37—39. a 15. 26, 27. a 20. 22. Luc 2. 33. 1 Pedr 1. 11. c pen. 1. 16, 20. a 2. 1. d Gwel ar pen. 2. 2, 9, 13, 19. e Luc 15. 24, 32. Eph. 2. 1, 5. Col. 2. 13. 1 Tim. 5. 6. Iago 2. 26. Judas 12.

* Sardis ydoedd yn gorwedd i'r dehau o Thyatira, ac a fu unwaith yn brif-ddinas enwog Lydia, teyrnas Crœsus.—Yr oedd yr epistol hwn at y gweinidog a'r eglwys, fel cenadwri oddi wrth † "yr hwn sydd â saith Ysbryd Duw, a'r saith seren ganddo." (Gwel ar pen. 1. 4, 16, 20.) Hyny yw, yr oedd yn dyfod oddi wrth y Gwaredwr Dwyfol, trwy yr hwn yr oedd yr Ysbryd Glân, yn helaethrwydd ac amrywiaeth ei ddoniau a'i rasau gwerthfawr, yn cael ei gyfranu i'r holl eglwysi, ac i'r saith a enwir yn y llythyrau hyn yn enwedig: ac yr hwn oedd eu Pen-Arglwydd a'u Meddiannydd hwy a'u gweinidogion, yr hyn a arwyddir wrth fod y "saith seren *ganddo*, ac yn eu "*dàl* yn ei ddeheulaw." Yr oedd hyn yn dwyn ar gôf i'r gweinidog â'r eglwys, o ba le yr oedd yn rhaid iddynt geisio doethineb, nerth, a gras, at y pethau yr oedd Crist yn eu galw hwy atynt; ac yr oedd yn cynnwys cystal â gorchymyn i'r gweinidog i "edrych ato ei hun ac at ei weinidogaeth," ac i fod yn llafurus a gwresog i geisio cyffrôi diwygiad yn yr eglwys; oblegid efallai iddo ef, trwy ei gam-ymddygiad, ei esampl ddrwg, a'i ddiffyg o wyliadwriaeth a llafur, fod yn llawer o achos darostwng yr eglwys i agwedd isel a gwywedig iawn. ‡ Oblegid yr oedd yr Arglwydd Iesu yn adnabod eu gweithredoedd hwynt, nad oeddynt y fath y gallasai efe eu cymmeradwyo. || Yr oedd ganddynt mae yn wir "enw eu bod yn fyw:" yr oeddynt yn proffesu y gwirionedd, ac heb ŵyro i gyfeiliorni; yr oedd ganddynt ddoniau, ac yr oedd ordinâdau Duw yn cael eu gweini yn rhëolaidd yn eu mysg; ac yr oeddynt yn cael eu hystyried, ganddynt eu hunain a chan eraill, fel mewn undeb bywiol â Christ, ac efallai mewn ystâd flodeuog iawn. § Ond gwyddai Iesu mai "marw oeddynt:" yr oedd llawer o honynt yn rhagrithwyr hollawl, yn farw mewn pechod; a llawer eraill mewn agwedd farwaidd, afiach, a difywyd iawn; ac yr oedd yr holl eglwys yn debycach i gorph marw, neu gerfyll cyffelyb i gynnulleidfa o gristionogion, nac oeddynt i gymdeithas o aelodau byw o gorph dirgeledig Crist. Mae yn amlwg wrth adn. 4, bod rhai aelodau gwirioneddol ac enwog yn yr eglwys hon; ond cyffelyb i'r dysgrifiad uchod oedd y rhan fwyaf o lawer o honynt.

2 * Bydd [f] wyliadwrus, [g] † a sicrhâ y pethau sydd yn ol, y rhai sydd barod i farw: ‡ canys ni chefais dy weithredoedd yn [h] gyflawn ger bron Duw.

f pen. 16. 15. Es. 56. 10. a 62. 6, 7. Ezec. 34. 8—10, 16. Zec. 11. 16. Mat. 24. 42—51. a 25. 13. Marc 13. 33—37. Act. 20. 28—31. 2 Tim. 4. 1—4. 1 Pedr 4. 7. a 5. 8. g Deut. 3. 28. Job 4. 4, 5. a 16. 5. Es. 35. 3. Luc 22. 31, 32. Act. 18. 23. h 1 Bren. 11. 4. a 15. 3. 2 Cron. 25. 2. Es. 57. 12. Mat. 6. 2—4. a 23. 5, 25—28.

* Gan hyny mae Crist yn eu galw hwynt oll, a'r gweinidog yn enwedig, i ddeffrôi, ac edrych o'u ham gylch; i fod yn wyliadwrus rhag ystrywiau ac ymosodiadau eu gelynion; i fod yn weithgar ac yn ddifrifol yn nyledswyddau eu gwahanol sefyllfâoedd; ac i holi yn ofalus i ystâd eu heneidiau, ac i agwedd yr eglwys yn eu plith. † Fel hyny hwy a arferent y moddion addas i "sicrâu, neu gryfâu y pethau oedd yn ol, y rhai oedd barod i farw;" ac a ymdrechent, trwy ras yr Ysbryd Glân, i adfywio, ac adgyfnerthu ffydd, gobaith, cariad, a holl serchiadau ysbrydol, y rhai hyny ag oedd yn fyw i Dduw, ond eu bod mewn agwedd wrthgiliedig; ac fel hyn hwy a ddygent ddynion ffurfiol i edifeirwch a thröedigaeth; ac a garthent allan y rhai oedd yn waradwyddus, ac yn niweidiol a heintus i eraill. ‡ Canys ni chafodd eu Harglwydd, chwiliwr y calonau, eu gweithredoedd yn *gyflawn*, neu yn *berffaith*, ger bron

uw. Yr oedd diffyg gwreiddiol ynddynt: yr oedd y
an fwyaf o honynt yn ffurfiol ac yn rhagrithiol; a'r
ill yn egwan, yn hannerog, a chwedi eu llygru gan
wyddorion a dybenion gau ac annheilwng. Fel hyn
d oeddynt yn gyflawn ger bron Duw, beth bynag
ddynt ger bron dynion; ac nis gallai efe eu cymmer-
wyo, fel gweithredoedd gwell a pherffeithiach crist-
nogion mwy bywiog a blodeuog.

3 [i] * Cofia gan hynny pa fodd y derbyniaist
ac y clywaist, [k] ‡ a chadw, ‖ ac [l] edifarhâ.
Os tydi gan hynny ni wyli, [m] mi a ddeuaf
rnat ti fel lleidr, [n] * ac ni chai di wybod pa
wr y deuaf attat.

i Gwel ar pen. 2. 5.—Ezec. 16. 61—63. a 20. 43. a 36. 31.
Pedr 1. 13. a 3. 1. k adn. 11. Gwel ar pen. 2. 25. 1 Tim. 6.
. 2 Tim. 1. 13. l adn. 19. Gwel ar pen. 2. 5, 21, 22. m pen.
. 15. Mat. 24. 42, 43. Luc 12. 39, 40. 1 Thes. 5. 4, 5. n Mat.
. 13. Marc 13. 33, 36.

* Gan hyny mae efe yn galw arnynt i "gofio" y don-
u a dderbyniasent; y manteision er cynnydd a gwell-
nt crefyddol oedd yn eu meddiant; † a'r gwirioneddau,
gorchymynion, a'r cyngorion a glywsant; ‡ fel y
adwent "grefydd bur a dihalogedig" yn gadarn a di-
sgog; ‖ ac yr edifarâent am eu gwaeledd blaenorawl,
u hynddygiad anghyson a thra esgeulus. § Ond os
a wylient hwy, a bod yn fwy sobr, gwresog, a diwyd,
r ol y rhybudd hwn; mae efe yn sicrâu iddynt, y
euai efe arnynt fel lleidr, mewn rhyw farn annysgwyl-
adwy, ryfedd, a dychrynllyd; * ac na chaent hwy ddim
chwaneg o rybudd o'i ddyfodiad ef, hyd onid ymdy-
alltai y farn hòno yn ddisymmwth ar eu penau.

4 * Eithr y mae gennyf ychydig [o] enwau,
ie, yn Sardis, [q] † y rhai ni halogasant eu
illad; ‡ a hwy a [r] rodiant gyd â mi mewn
illad gwynion: [s] ‖ oblegid teilwng ydynt.

o pen. 11. 13. Act. 1. 15. p 1 Bren. 19. 18. Es. 1. 9. Rhuf.
11. 4—6. q pen. 7. 14. a 19. 8. Es. 52. 1. a 59. 6. a 61. 3, 10.
. 64 6. Zec. 3. 3—6. Judas 23. r adn. 5, 18. pen. 4. 4. a 6.
11. a 7. 9, 13. a 19. 14. Esther 8. 15. Salm 68. 14. Preg. 9. 8. Zec.
. 4. Marc 16. 5. s Mat. 10. 11. Luc 20. 35. a 21. 36. 2 Thes.
. 5.

* Hyd yn nôd yn Sardis yr oedd ychydig o gristion-
ogion, y rhai y crybwyllid eu henwau yn y diwedd
gydag anrhydedd a chlôd, o herwydd eu hynodrwydd
sanctaidd: † fel ag nad halogasant hwy eu dillad, hyny
ww, ni waradwyddasent eu proffes trwy y chwantau
pydol, a'r arferion pechadurus, i ba rai yr oedd y lleill
nòr chwannog a thueddol. ‡ Ac yr oedd Crist yn
sicrâu i'r ychydig enwau hyny, y caent rodio gydag ef
mewn dillad gwynion; arwydd o berffaith burdeb,
buddugoliaeth, a llawenydd; ac felly caent fod yn gyf-
eillion iddo ef, yn gymmeradwy, yn sanctaidd, ac yn
anrhydeddus, mewn gwynfyd nefol byth.—Byddid yn
arfer gwisgo *dillad gwynion* ar achlysuron o *lawenydd*
mawr, ac weithiau mewn cydrodion *(processions) budd-
ugawl;* at yr hyn, efallai, mae cyfeiriad yma, megys, yn
wir, yr oedd yn naturiol fod *buddugoliaeth* â *gwledda
ygorfoleddus* yn cyd-fyned â'u gilydd. Byddai yr *offeir-
iaid* Iuddewig hefyd yn gwisgo *dillad gwynion,* ac
efallai bod cyfeiriad at hyny yn y fàn hon: a thybia
rhai fod yma gyfeiriad at ddefod y *Sanhedrim,* pan
ffyddent yn holi yr ymgeiswyr am yr *arch-offeiriadaeth;*
os barnent un yn deilwng o'r swydd, rhoddent iddo
ddillad gwynion; os na fernid ef yn deilwng, neu yn
addas, danfonent ef allan o'u mysg mewn *galar-wisg.*
Gwynion y dysgrifir dillad y nef, yn aml yn yr ysgry-
thyr; ac felly yr addawid i'r "ychydig enwau" hyn:
‖ oblegid teilwng oeddynt, neu addas a chymhwys, i
gael eu derbyn i'r ystâd ogoneddus a dedwydd hòno,
gan iddynt brofi eu hunain yn gyfeillion a gweision
ffyddlawn Crist, tra buont ar y ddaear. Nid teilwng
ynddynt ac o honynt eu hunain, na thrwy eu gweithred-
oedd eu hunain; ond teilwng yn nghyfiawnder Crist, a
chymhwys trwy sancteiddiad ei Ysbryd grasol ef.

5 * Yr hwn sydd [t] yn gorchfygu, [u] † hwnnw
a wisgir mewn dillad gwynion; [x] ‡ ac ni ddi-
leäf ei enw ef allan o [y] lyfr y bywyd, ‖ ond mi
a [z] gyffesaf ei enw ef § ger bron fy Nhad, a
cher bron ei angelion ef.

t Gwel ar pen. 2. 7.—1 Sam. 17. 25. u Gwel ar r. adn. 4.
x Ex. 32. 32, 33. Deut. 9. 14. Salm 69. 28. a 109. 13. y pen.
13. 8. a 17. 8. a 20. 12, 15. a 21. 27. a 22. 19. Phil. 4. 3. z Mal.
3. 17. Mat. 10. 32. Luc 12. 8. Judas 24.

* Yn fŷr, pob un a orchfygai yn y rhyfel ysbrydol,
yn enwedig yn Sardis, lle yr oedd cymmaint o demtasi-
ynau ac esamplau drwg; † addawai yr Arglwydd Iesu
y ca'i "hwnw ei wisgo mewn dillad gwynion," fel wedi
ei berffaith a'i dragywyddol gyfiawnâu, ei sancteiddio,
a'i ogoneddu yn mhresenoldeb ac ewyllys da Duw, ac
"wedi golchi ei ddillad, a'u cànu yn ngwaed yr Oen."
Pen. 7. 14. ‡ Ac addawodd Iesu hefyd, "na ddileäi
efe enw y cyfryw berson allan o lyfr y bywyd," yn yr
hwn mae ei weision dewisedig a chymmeradwyol ef
wedi eu cofrestru; hyd yn nôd, er y byddai i'r eglwys
lygredig y perthynai efe iddi, gael ei rhoddi i fynu; er
y byddai i laweroedd o'r rhai yr oedd ganddynt enw o fod
yn fyw, ac a gyfrifid yn etifeddion y nef, gael eu gadael
i wrthgilio, neu eu gwrthod fel rhagrithwyr; ac er y
byddai ar y cristion ei hun lawer o ofnau o'r fath hyn
yn aml, yn nghanol ei ymladdfeydd a'i demtasiynau.
‖ Ond i'r gwrthwyneb, byddai Crist yn sicr o gyffesu ei
enw ef, fel un o'i gyfeillion a'i frodyr, yn y dydd
diweddaf, § ger bron ei Dad tragywyddol, a cher bron
ei holl angelion sanctaidd ef. Gwel ar Matth. 10. 32;
Luc 12. 8.

6 [a] * Yr hwn sydd ganddo glust, gwran-
dawed beth y mae yr Yspryd yn ei ddywedyd
wrth yr eglwysi.

a Gwel ar pen. 2. 7.

* Yr oedd hyn oll yn perthyn i weinidogion ac eg-
lwysi eraill hefyd, y rhai oeddynt, neu a fyddant ar ol
hyn, mewn cyffelyb amgylchiadau. Gwel ar y geiriau
hyn yn niwedd yr epistolau o'r blaen, yn enwedig ar
pen. 2. 29.—Y ddinas hon, yr hon a fu mòr flodeuog a
balch gynt, sydd yn awr yn bentwr o adfeilion gwael;
dywed rhai nad oes yno gymmaint âg un teulu crist-
ionogol, dywed eraill fod yno rai personau yn proffesu
y grefydd hòno; ond eu bod yn y cyflwr iselaf o gaeth-
iwed gan y Tyrciaid, heb yr un eglwys na gweinidog
yn eu plith.

7 ¶ * Ac [b] at angel yr eglwys sydd yn
Philadelphia, ysgrifena; † Y pethau hyn [c] y
mae y Sanctaidd, [d] y Cywir, yn eu dywedyd;
‡ yr hwn sydd ganddo [e] agoriad Dafydd;
[f] ‖ yr hwn sydd yn agoryd, ac nid yw neb yn
cau; [g] ac yn cau, ac nid yw neb agoryd:

b Gwel ar pen. 1. 11. a 2. 1. c pen. 4. 8. a 6. 10. Salm 16.
10. a 89. 18. a 145. 17. Es. 6. 3. a 30. 11. a 41. 14, 16, 20. a 47. 4.
a 48. 17. a 49. 7. a 54. 5. a 55. 5. Marc 1. 24. Luc 4. 34. Act. 3. 14.
d adn. 14. pen. 1. 5. a 6. 10. a 15. 3. a 16. 7. a 19. 2, 11. a 21. 5.
Mat. 24. 35. Ioan 14. 6. 1 Ioan 5. 20. e pen. 1. 18. Es. 22. 22.
Luc 1. 32. f pen. 5. 3—5, 9. Job 11. 10. a 12. 14. Mat. 16. 19.

* Yr oedd Philadelphia yn gorwedd i'r dehau-ddwyr-
ain o Sardis.—† Yr oedd yr epistol at angel yr eglwys
hon yn cael ei ddanfon yn enw yr hwn sydd Sanctaidd,
a'r hwn sydd Gywir: yr hyn eiriau a gynnwysant brawf
penderfynol o Dduwdod Crist; oblegid pa grëadur, a
dim ond crëadur, a all lefaru am dano ei hun yn y
fath iaith? Mae Crist yn "Sanctaidd" o hanfod, fel
Duw, ac yn "beth Sanctaidd" perffaith, o ran ei ddyn-
oliaeth: ac mae efe yn berffaith "Gywir" yn ei holl
arfaeth, ei eiriau, a'i weithredoedd. Y Sanctaidd, y
Cywir, yw ei enw ef, mewn ffordd o enwogrwydd, a
rhagoriaeth anfeidrol ar bawb eraill, yn y nef ac ar y
ddaear. ‡ Danfonwyd yr epistol hwn hefyd oddi wrth
yr hwn sydd ganddo agoriad Dafydd. Gan ei fod ef
yn Fab addawedig Dafydd, yn ol y cnawd, ac yn Frenin
y gwir Israel ysbrydol i bob cenedlaeth ac oes; ‖ mae
ganddo ef gyflawn awdurdod i agoryd porth trugaredd
i'r neb a fyno; i agoryd porth y nef i eneidiau ei bobl,

pan fyddont feirw; ac i agoryd eu beddau, ac i ddwyn allan eu cyrph yn ogoneddus ac anfarwol mwy, fel yr ail-uner hwy â'u heneidiau, mewn tragywyddol ddedwyddwch. § Ar y llaw arall, mae ganddo ef awdurdod i gau; sef i gauad allan oddi wrth drugaredd, ac o'r nefoedd, y neb y mỳno, ac i'w cauad hwynt i fynu yn uffern; ac nis gall neb wrthsefyll ei awdurdod ef, na diddymu ei benderfyniad ef, mewn agoryd na chau. Mae ganddo ef hefyd awdurdod i agoryd y deall a'r galon, neu eu cauad hwynt yn farnol; i agoryd y drws i bregethu yr efengyl, ac i waredu ei weision o drallod: a phan agoro efe yn yr ystyriaethau hyn, neu mewn rhyw ystyriaethau eraill, nid oes neb, na dynion nac angelion a allant gauad; a phan gauo efe mewn unrhyw ystyriaeth, nid yw yn bosibl i'r un crëadur agoryd.

8 [g] * Mi a adwaen dy weithredoedd: † wele, rhoddais ger dy fron [h] ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau: ‡ canys y mae gennyt [i] ychydig nerth, [k] || a thi a gedwaist fy ngair, [l] § ac ni wedaist fy enw.

g adn. 1, 15.—Gwel ar pen. 2. 2. h adn. 7. 1 Cor. 16. 9. 2 Cor. 2. 12. Col. 4. 3. i Dan. 11. 34. 2 Cor. 12. 8—10. Phil. 4. 13. k adn. 10. pen. 22. 7. Ioan 14. 21—24. a 15. 20. a 17. 6. 2 Tim. 4. 7. l Gwel ar pen. 2. 13. Diar. 30. 9. Mat. 26. 70—72. Luc 12. 9. Act. 3. 13, 14. 1 Tim. 5. 8. 1 Ioan 2. 22, 23. Judas 4.

* Yr oedd y Sanctaidd, y Cywir, a'r Pen-Arglwydd mawr uchod, yn adnabod gweithredoedd y gweinidog a'r eglwys yn Philadelphia; ac yr oeddynt yn gyfryw ag oedd ef yn rasol yn gymmeradwyo. † Gan hyny, er eu calondid, gallant fod yn sicr ei fod ef trwy yr efengyl, a moddion gras y rhai a gawsent, wedi rhoddi ger eu bronau ddrws agored, o fynediad i deulu a theyrnas Duw, ac i holl freintiau presenol a thragywyddol ei bobl ef, yr hwn nis gallai yr un crëadur byth ei gauad yn eu herbyn hwynt: neu, fel mae rhai yn deall y geiriau, efe a roisai ger eu bronau hwynt ddrws agored o ddefnyddioldeb, i daenu ei efengyl ef; ac nis gallai neb attal llwyddiant eu gwaith hwynt, a'u llafurus gariad, yn yr achos hwnw. ‡ Oblegid, er nad oedd yr eglwys hon debygid, mòr enwog â rhai eraill, o ran nifer, doniau, a galluoedd o bob math; eto, yr "oedd ganddynt ychydig nerth:" yr oeddynt yn uniawn yn eu proffes o'r efengyl; yr oedd ganddynt beth grỳmusder ffydd a serchiadau sanctaidd, ac yr oeddynt yn defnyddio eu hychydig alluoedd yn wresog a ffyddlawn, o blaid llwyddiant yr efengyl. || Yr oeddynt hefyd wedi "cadw gair" Crist; wedi glỳnu wrth ei wirioneddau, ei orchymynion, a'i osodiadau ef, mewn ffydd, ufuddod, a diannwadalwch; § ac nid oeddynt wedi gwadu eu perthynas âg ef, a'u rhwymedigaethau iddo, na chwedi ymddwyn yn ddïanrhydeddus i'w enw ef, na'i wadu, er maint eu hofnau a'u peryglon.

9 * Wele, mi a wnaf iddynt hwy o [m] synagog Satan, (y rhai sydd yn dywedyd eu bod yn Iuddewon, ac nid ydynt, ond dywedyd celwydd y maent) wele, *meddaf,* [n] gwnaf iddynt ddyfod ac addoli o flaen dy draed, ‡ a gwybod fy mod i yn dy garu di.

m Gwel ar pen. 2. 9. n Ex. 11. 8. a 12. 30—32. 1 Sam. 2. 36. Esther 8. 17. Job 42. 8—10. Es. 49. 23. a 60. 14. Zec. 8. 20—23. Act. 16. 37—39.

* Mae yn debyg fod eglwys Philadelphia hefyd yn gorfod dyoddef erlid, oddi wrth rai a alwent eu hunain yn bobl i Dduw; ond y rhai a wadai Crist, ac a dystiolaethai mai celwyddog, a synagog Satan oeddynt: (gwel ar pen. 2. 9.) † ac mae efe yn addaw y gwnâi efe i'r gwrthwynebwyr hyn ddyfod yn y màn, ac ymgrymu yn y modd mwyaf isel a gostyngedig wrth draed y cristionogion, i ddeisyf eu hewyllys da a'u cymmwynasgarwch hwynt; ac efallai i dderbyn addysg ganddynt hwy, ac i addoli yr Arglwydd Iesu fel hyn wrth eu traed hwynt. ‡ Pa fodd bynag yr oedd hyn i fod, hwy gaent wybod, a byddai raid iddynt gyfaddef, fod Crist yn caru yr eglwys y buasent hwy yn ei herlid. "Ac addoli o flaen dy draed;" nid addoli neb dynion yn yr eglwys yn sicr, eithr talu parch, anrhydedd, ac ymostyngiad iddynt, fel rhai anwyl gan Grist; yr hyn oedd beth mawr a rhyfedd iawn, a hwy yn eu herlid o'r blaen: a dïammau i Grist ddwyn hyn i ben, er nas gwyddom ni pa fodd.—Efallai i brif ddynion y ddinas gaent eu troi yn gristionogion, ac i'r trigolion paganaidd ymosod ar y synagog; ac yna bod y rhai a berthynent iddi yn gorfod ymostwng o flaen y cristionogion, i gyfaddef eu bai yn eu herlid hwy, ac i ddeisyf arnynt eu hamddiffyn rhag y rhai a'u herlidient hwythau. Mae gan Dduw lawer ffordd i amddiffyn ei bobl, i ddarostwng eu gelynion, ac i gyflawni ei eiriau.

10 * O achos cadw o honot [o] air fy amynedd i, [p] † minnau a'th gadwaf di oddi wrth awr y brofedigaeth, ‡ yr hon a ddaw ar [q] yr holl fyd, [r] || i brofi y rhai sydd yn trigo ar y ddaear.

o pen. 1. 9. a 13. 10. a 14. 12. p Mat. 6. 13. a 26. 41. 1 Cor. 10. 13. Eph. 6. 13. 2 Pedr 2. 9. q Mat. 24. 14. Marc 14. 9. Luc 2. 1. Rhuf. 1. 8. r Dan. 12. 10. Zec. 13. 9. Iago 1. 3, 12. 1 Pedr 4. 12.

* Yr oedd gweinidog ac eglwys Philadelphia wedi cadw gair Crist, gyda'r amynedd a'r dïannwadalwch hyny a orchymynasai ac a ddangosasai efe ei hun; a chwedi cael cymmorth trwy ei ras ef, i sefyll eu tir, i ymwadu â hwy eu hunain, i godi y groes, ac i'w ganlyn ef. † "O achos" hyny, addawai yntau eu "cadw hwy oddi wrth awr y brofedigaeth;" yr hyn a gyfeiria at ryw amser nodedig o erlid, cyfeiliorni, a gwrthgiliadau, ‡ yr hwn oedd i ddyfod yn fuan ar holl eglwysi y byd, yn enwedig trwy holl ymherodraeth Rhufain; || i brofi gwirionedd a grỳm ffydd a chariad yr holl broffeswyr oedd yn trigo ar y ddaear. Yn yr amser profedigaethus hwn, addawai yr Arglwydd Iesu gysgodi eglwys Philadelphia rhag yr ystorm, a pheidio gadael iddynt hwy gael eu temtio a'u profi mòr llỳm âg eglwysi eraill; y rhai, efallai, oedd ganddynt fwy o nerth mewn rhyw ystyriaethau, ond a oedd ar yr un pryd mewn mwy o angen cerydd, a chael eu profi a'u puro. Tybir yn gyffredin fod "awr y brofedigaeth" yma, yn cyfeirio at yr erledigaeth dàn *Trajan,* yr hon oedd yn fwy cyffredinol a ffyrnig, nâ'r erledigaethau dàn *Nero* a *Domitian.* Ond gan mai hon oedd y ddinas olaf o'r saith a gymmerwyd gan y *Mahometaniaid,* a chan fod parâd o gristionogion yn Philadelphia yn mhob cenedlaeth hyd y dydd hwn; mae rhai yn cymhwyso yr addewid uchod at eu cadwedigaeth hwy rhag yr hudoliaeth ofnadwy hwnw, yr hwn a ddilëodd gristionogaeth bron yn hollawl, o'r gwledydd hyny. Mae achos i ofni yn sicr, nad oes gan broffeswyr cristionogoeth yn Philadelphia, ond ychydig o rỳm duwioldeb; eto gallwn obeithio, fod gan Grist rai gwir ddysgyblion yn mhob oes, ac hyd yn nôd y dydd heddyw, yn y ddinas hòno.

11 * Wele, [s] yr wyf yn dyfod ar frys: [t] † dal yr hyn sydd gennyt, ‡ fel na ddygo neb [u] dy goron di.

s pen. 1. 3. a 22. 7, 12, 20. Phil. 4. 5. Iago 5. 9. t Gwel ar adn. 3. pen. 2. 13. u pen. 2. 10. a 4. 4, 10. 1 Cor. 9. 25. 2 Tim. 2. 5. a 4. 8. Iago 1. 12. 1 Pedr 5. 3, 4.

* Yn nesaf, mae yr Arglwydd Iesu yn sicrâu i'r cristionogion ffyddlawn hyn, ei fod ef yn "dyfod ar frys," i brofi ei bobl broffesedig; i waredu y rhai oedd ffyddlawn; i ddystrywio eu gelynion, ac i farnu y byd. † Gan hyny mae efe yn eu cyngori hwynt i ddàl yn gadarn y gwirionedd a dderbyniasent, ac i sefyll ar, ac amddiffyn, y tir oedd ganddynt: ‡ fel na byddai i neb, trwy eu hofn hwy o brofedigaethau a dyoddefiadau, eu hamddifadu hwynt o goron y gorchfygwr, am yr hon yr oeddynt yn ymdrechu; neu gymmeryd ymaith yr anrhydedd nodedig hwnw, oedd yn cael ei roddi arnynt yn y ganmoliaeth uchod; oblegid nis gallent "ddàl" a chadw hyn, heb wyliadwriaeth, dyfalwch, a gwrolder parâus a diymollwng.—'Cwblâwyd caethiwed a dinystr *saith* eglwys Asia, meddant, (gan yr *Othomaniaid,*) yn

flwyddyn 1312, o oed Crist; ac mae arglwyddi creu-
wn Ionia a Lydia, o hyd yn sathru ar gôf-arwyddion
naidd dysgeidiaeth a christionogaeth yno. Yn
holli Ephesus, galarodd y cristionogion am gwymp
angel cyntaf, a diffoddiad canwyllbren cyntaf y Dat-
ddiad: mae y difrod yn hollawl; ac nis gall y teith-
rr chwilfrydig gael hyd i deml Diana, nag eglwys
iair ychwaith. Mae cemmaes *(circus)* a thri chwar-
ddy gorwych Laodicea, yn awr yn cael eu cyfanneddu
an fleiddiaid a llwynogod; Sardis sydd wedi ei daros-
rng i bentref gwael gresynol; duw Mahomet, heb un
rwrthwynebydd, a addolir yn nhemlau *(mosques)* Per-
mus a Thyatira; trigolion Smyrna a gynnelir drwy
snach dramor y Frankiaid a'r Armeniaid; Philadel-
nia yn unig a achubwyd *trwy brophwydoliaeth, neu*
ëewrder.' Y cyfryw yw iaith ddichellgar yr ysgrifen-
dd digred *Gibbon*, yr hwn a wawdia y brophwydol-
eth, tra mae yn crybwyll y cyflawniad o hóni, yn ei
anes o Fethiant a Chwymp Ymherodraeth Rhufain:
dywed yn mhellach, fod 'Philadelphia o hyd yn
fyll, fel colofn union-syth yn nghanol difrod a dys-
yw;' ond prïodola hyny i ddewrder ei meibion, ac
d i gyflawniad y brophwydoliaeth uchod.]

12 * Yr hwn sydd yn [x] gorchfygu, mi a'i
wnaf ef yn [y] golofn yn nheml fy Nuw i, † ac
lan nid â efe mwyach: [z] ‡ ac mi a ysgrifenaf
rno ef enw fy Nuw i, || ac enw [a] dinas fy Nuw
yr hon ydyw Jerusalem newydd, yr hon
wdd yn disgyn o'r nef oddi wrth fy Nuw i:
ac *mi a ysgrifenaf arno ef* [b] fy enw newydd i.

x Gwel ar pen. 2. 7.—a 17. 14. 1 Ioan 2. 13, 14. a 4. 4.
1 Bren. 7. 21. Jer. 1. 18. Gal. 2. 9. z pen. 2. 17. a 14. 1. a
. 4. a pen. 21. 2, 10—27. Salm 48. 8. a 87. 3. Gal. 4. 26, 27.
eb. 12. 22. b pen. 22. 4. Es. 65. 15. Eph. 3. 15.

* I'r dyben o fywiocâu a chalonogi cristionogion
hiladelphia, a phawb eraill, yn y frwydr ysbrydol, mae
an Harglwydd yma yn addaw gwneyd pob gorchfygwr
n golofn yn nheml ei Dduw ef; i'w sefydlu ef fel darn
ddurniadol, ïe, fel rhan hanfodol o'r adeilad ysbrydol,
hon oedd ef, fel Cyfryngwr, yn adeiladu i ogoniant
Dduw a'i Dad: fel wedi ei gyssegru i Dduw, a'i osod
n y cyssegr frŷ, y byddai pob gorchfygwr yn cydweini
brydferthwch, cysonedd, a mawrwychder yr holl adeil-
ad; a bod byth yn anrhydeddus a dedwydd, fel pre-
wylfod i Dduw trwy yr Ysbryd; † heb ddim ofn cael ei
ahanu oddi wrtho, na'i amddifadu o'i gariad a'i bre-
enoldeb byth bythoedd. ‡ Ar y golofn hon addawai
rist ysgrifenu enw ei Dduw ef; fel y gwybyddai pawb
bwy yr oedd yn perthyn, ac i ogoniant pwy y cyfodwyd
; yn ol y ddefod o ysgrifenu, ar golofnau uchelwŷch,
nw a gorchestion y person, i goffadwriaeth pa un y
fodid hwynt. Yn mhlith y paganiaid, byddai colofn-
u o'r fath hyn yn cael eu gosod i fynu yn agos i'w
mlau, a llawer o honynt o fewn y temlau; ac ysgrifen-
arnynt enw y buddugoliaethwr a'i orchestion milwr-
dd, ac enw y duw, dàn nawdd pa un y buasai yn
mladd, ac yr hwn a addolai. Mae llawer o'r cyfryw
blofnau ac ysgrifeniadau ar gael y dydd heddyw, wedi
n dwyn o ddinasoedd Groegaidd Europe ac Asia, a
aai o'r ynysoedd o amgylch *Patmos;* ar y rhai mae
uddugoliaethau dynion enwog wedi eu cof-nodi, ac
aaent yn taflu llawer o oleu ar y testyn hwn. || Add-
wai Crist hefyd ysgrifenu arno ef enw dinas ei Dduw
; (sef y Duw yr oedd ef, Crist, yn y natur ddynol, yn
addoli ac yn ei wasanaethu: gwel ar Ioan 20. 17:)
hon a elwir y Jerusalem newydd; yr hon sydd wedi
sgyn o'r nef, ac sydd yn derbyn ei gogoniant o bresen-
deb Duw ynddi. Fel hyn ca'i pawb wybod i ba ddin-
y perthynai y gorchfygwr, a bod ganddo ef hawl i'w
ll ragor-freintiau hi byth mwyach. § Addawai hefyd
sgrifenu arno ei enw *newydd* ei hun; sef Emmanuel,
esu, Gwaredwr pechaduriaid, yr hwn a gymmerasai efe
n *newydd*, mewn chwanegiad at ei enwau o'r blaen;
of Crëawdwr, Cannaliwr, ac Arglwydd yr holl fydoedd.

Fel hyn efe a'i haddefai ef, fel un o'i bobl etholedig; fel dangosiad o'i fuddugoliaeth ef ei hun ar y byd, Satan, pechod, ac angau; ac fel côf-adail wedi ei gyfodi o nerth ei fraich, gwirionedd ei air, effaith ei iawn a'i gyfryngdod, ac anchwiliadwy olud ei ras ef.

13 * Yr hwn [c] sydd ganddo glust, gwrandawed beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi.

c Gwel ar pen. 2. 7.

* Yr oedd y tystiolaethau uchod i'r gweinidogion a'r eglwysi oll, ac maent yn perthyn o hyd i bawb a broffesant gristionogaeth yn mhob màn ac oes; yn ol eu hamgylchiadau, eu hanhawsderau, a'u buddugoliaethau ar eu gelynion. Gwel ar ddiwedd yr epistolau eraill.

14 ¶ * Ac [d] at angel eglwys y Laodiceaid, † ysgrifena; Y pethau hyn y mae [e] Amen yn eu dywedyd, [f] ‡ y Tyst ffyddlawn a chywir, [g] || dechreuad creadigaeth Duw;

d Gwel ar pen. 1. 11. a 2. 1. e Es. 65. 16. 2 Cor. 1. 20. f adn. 7. pen. 1. 5. a 19. 11. a 22. 6. Es. 55. 4. Jer. 42. 5. g Col. 1. 15.

* Yr oedd Laodicea yn gorwedd i'r dehau o Philadelphia, ac ar y ffordd o'r ddinas hòno i Ephesus: oblegid yr oedd y saith eglwys yn gorwedd mewn math o gylch; a gellid myned o un i'r llall o honynt yn gyflëus, yn ol trefn yr epistolau hyn. Ac nid anmbrïodol sylwi, fod yma burion gwers i drefnwyr cyhoeddiadau pregethwyr teithiol; i drefnu eu llwybr hwynt yn y modd mwyaf cyfleus o un màn i'r llall, ac nid eu harwain ar hyd ac ar draws y gwledydd, mewn modd annhrefnus ac anghyfleus iawn i'r teithwyr llafurus hyny. Plànesid eglwys flodeuog yn Laodicea yn amser Paul; (gwel ar Colos. 2. 1; a 4. 15, 16.) ond yr oedd wedi gwaelu yn fawr cyn i'r epistol hwn gael ei ddanfon yno. † Gorchymynodd yr Arglwydd Iesu ysgrifenu y llythyr hwn yn enw yr "AMEN;" yr hwn sydd Wirionedd ei hun, ac yr hwn yn sicr a gadarnâ ac a gyflawna ei holl eiriau, y rhai ydynt sefydlog a digyfnewid fel ei natur ef ei hun. ‡ Oblegid efe yw y "Tyst ffyddlawn a chywir;" yr hwn yn y modd cywiraf sydd yn tystiolaethu am natur, arfaeth, gwirionedd, ac ewyllys Duw, i ddynion; ac sydd yn tystiolaethu yn y modd mwyaf diduedd, dros neu yn erbyn ymddygiadau ac enwau ei weision proffesedig, a'i holl grëaduriaid dynol. || Yr oedd efe yn ysgrifenu hefyd at y Laodiceaid, dàn yr enw o "Ddechreuad crëadigaeth Duw;" sef *Dechreuad, Awdwr,* a *Llywodraethwr* yr holl fydysawd mawr; yr hwn sydd ganddo awdurdod a gallu, i drefnu pob peth yn mhob màn fel y mỳno efe ei hun.—"Yr *Achos effeithiol* o grëadigaeth Duw," medd rhai: ond bernir fod y gair *Archê* (dechreuad) yn y fàn hon yn arwyddo y *Gweithredydd* dechreuol, y *Crëawdwr* mawr, a *Rhoddydd* bod a bywyd i bob crëadur a grëwyd.

15 [h] * Mi a adwaen dy weithredoedd di, [i] † nad ydwyt nac oer na brwd: [k] ‡ mi a fynnwn pe [l] bait oer neu frwd.

h Gwel ar pen. 2. 2. i pen. 2. 4. Mat. 24. 12. Phil. 1. 9. 2 Thes. 1. 3. 1 Pedr 1. 22. k Deut. 5. 29. Salm 81. 11—13. 2 Cor. 12. 20. l Jos. 24. 15—24. 1 Bren. 18. 21. Diar. 23. 26. Hos. 7. 8. a 10. 2. Zeph. 1. 5, 6. Mat. 6. 24. a 10. 37. Luc 14. 26, 27. 1 Cor. 16. 22. Iago 1. 8.

* Yr oedd y Person gogoneddus hwn, Arglwydd pawb oll, yn adnabod eu gweithredoedd hwynt, eu bod yn gyfryw ag oedd yn hollawl annheilwng o'i gymmeradwyaeth ef; † oblegid "nad oeddynt nac oer na brwd;" nid oeddynt nac yn hollawl fwrw ymaith bob parch i'r efengyl, nac ychwaith yn wresog ac yn ddiwyd gyda chrefydd: nid oeddynt yn gwbl ddifater am y gwirionedd, nac ychwaith yn ymdrech o'i blaid, ac yn wresog yn yr Ysbryd yn gwasanaethu yr Arglwydd. ‡ Gan hyny mae efe yn tystiolaethu, y mỳnai pe byddent yn oer neu yn frwd: a llefaru yn ol dull dynion, pan ddangosont eu casineb eithaf at ymddygiad rhyw un; mae efe yn dywedyd y dymunai iddynt, un ai rhoddi i fynu eu crefydd yn hollawl, a pheidio yn gwbl â'u hym-

arferiadau ffurfiol â'i ordinâdau ef; neu ynte iddynt ddangos difrifwch a gwresawgrwydd addas yn y pethau hyn, y rhai oedd yn perthyn mòr agos i'w wasanaeth a'i ogoniant ef. Oblegid tra yr oeddynt ar enw Crist, ac bron o'u hanfodd yn cyflawni rhyw fesur prin o ddyledswyddau allanol, gyda difaterwch a blinder amlwg ynddynt; yr oedd eu tymherau drwg, eu gweithredoedd ansanctaidd, a'u cariad at y byd, ei bleserau, ei gyfeillach, a'i fanteision, yn ei ddianrhydeddu ef yn fwy nac y gallasai eu gwrthgiliad hollawl wneyd; ac yn y diwedd byddai yr un mòr ddinystriol i'w heneidiau eu hunain. Canys yn y modd hyn, hwy a barent i lawer oedd feddwl yn ddrwg am gristionogaeth, fel pe buasai yn grefydd ansanctaidd; tra y tybiai eraill nad oedd ynddi ddim a allai weini boddlonrwydd a dedwyddwch; pe amgen ni buasai ei phroffeswyr mòr glaiar a digalon ynddi, ac mòr dueddol i ymofyn am bleser a dedwyddwch yn y byd; a phenderfynai llawer, nad oedd nemawr o werth ynddi, wrth weled nad ymadawent hwy â dim y tybid bod gwerth ynddo, er ei mwyn hi.

16 * Felly, am dy fod yn glaiar, ac nid yn oer nac yn frwd, [m] † mi a'th chwydaf di allan o'm genau:

m pen. 2. 5. Jer. 14. 19. a 15. 1—4. Zec. 11. 8, 9.

Yn fŷr, yr oedd proffeswyr o'r fath uchod yn fradwyr yn y gwersyll, y rhai ydynt bob amser yn fwy enbyd na gelynion cyhoeddus; ac yr oeddynt fel gweision drwg, y rhai a waradwyddant ac a yspeiliant eu meistriaid yn fwy tra yn ei wasanaeth, nac a allant wneyd ar ol ymadael, neu gael eu troi allan, o'r teulu. * Gan hyny am eu bod yn glaiar, ac nid yn oer nac yn frŵd; ac os na fyddent hwy yn fwy gwresog yn yr Ysbryd, yn gwasanaethu yr Arglwydd; † yr oedd efe yn penderfynu dangos ei ddirmyg a'i atgasrwydd o honynt, trwy eu gwrthod; a hyny fel y chwyda dyn ddwfr claiar o'i enau, pan fyddo yn troi yn wrthwyneblyd ac annoddefol ar ei gylla. *Chliaros*, Groeg; *claiar*, Cymraeg; *clouar*, Llydawaeg.

17 * Oblegid dy fod yn dywedyd, [n] Goludog wyf, † ac mi a gyfoethogais, ‡ ac [o] nid oes arnaf eisieu dim; || ac [p] ni wyddost dy fod yn [q] druan, ac yn resynol, § ac yn dlawd, [r] * ac yn ddall, † ac yn [s] noeth.

n pen. 2. 9. Diar. 13. 7. Hos. 12. 8. Zec. 11. 5. Luc 1. 53. a 6. 24. a 18. 11, 12. Rhuf. 11. 20, 25. a 12. 3. 1 Cor. 4. 8—10. o Deut. 8. 12—14. Diar. 30. 9. Jer. 2. 31. Mat. 9. 12. p Rhuf. 2. 17—23. q Mat. 5. 3. Rhuf. 7. 24. r Es. 42. 19. Ioan 9. 40, 41. 2 Pedr 1. 9. s pen. 16. 15. Gen. 3. 7, 10, 11. Ex. 32. 25.

Tra yr oedd agwedd eglwys Laodicea mòr alarus o ddirywiedig, fel nad oedd ond ychydig iawn o wir gristionogion ynddi, a'r ychydig hyny yn nychlyd a digynnydd iawn; yr oedd balchder ysbrydol a hunanoldeb y gweinidog a'r eglwys wedi chwanegi yn fawr iawn ar yr un pryd! a hyny a roes achlysur i'r argyhoeddiad, y ceryddi, yr addysg, a'r cyngor a ganlyn. * Yr oeddynt yn barod i ddywedyd ynddynt eu hunain, wrth eu gilydd, ac hyd yn nôd mewn dull ymffrostgar wrth eu cymmydogion, eu bod hwy yn "oludog" mewn doniau a chyrhaeddiadau ysbrydol; † eu bod hwy wedi "ymgyfoethogi," a chwedi cael mesur mwy o bob dawn a chynnysgaeth ysbrydol, nag a oedd ganddynt o'r blaen, hyd yn nôd pan oedd yr apostolion gyda hwynt: ‡ ac yr oeddynt yn meddwl yn wir, "nad oedd arnynt eisiau dim;" ond eu bod yn gyflawn mewn gwybodaeth, doethineb, daioni, nerth, a chadernid sefydlog yn mreintiau a rhyddid yr efengyl; yn gyffelyb i loerigion tlodion, y rhai a ddychymmygant fod yr holl dai a'r tiroedd a welant, yn eiddynt hwy eu hunain. Fel hyn yr oeddynt yn tybied eu hunain yn well nac eraill; a chan eu bod yn falch yn yr ysbryd, yn lle bod yn dlawd yn yr ysbryd, nis gallent weddïo ond yr un fath â'r Pharisead; (Luc 18. 9—11.) ac yr oeddynt yn hollawl anghymhwys i'r bywyd o ffydd yn Nghrist, am bob peth a berthynai i iachawdwriaeth. || Oblegid "ni wyddent hwy eu bod yn druain, ac yn resynol," mewn cyflwr tra isel, gwael, peryglus, a dinystriol, ac yn hollawl amddifad o ddoethineb a gras: § "yn dlodion," nid yn unig fel mae pawb wrth *natur* yn dlodion, ond yn dlodion fel proffeswyr yr efengyl; gan fod yn Phariseaid ar egwyddorion efengylaidd; ac yn falch ar eu cyrhaeddiadau mewn cristionogaeth, pan mewn gwirionedd yr oedd y rhan fwyaf o honynt yn hollawl annychweledig. * Cymmerodd yr hudoliaeth hon le am eu bod yn "ddall;" nid oedd ganddynt ddim ond yr wybodaeth hòno oedd yn chwyddo; eithr ni welsant hwy erioed mo wir ogoniant Duw yn Nghrist, drwg pechod, eu pechadurusrwydd tramawr eu hunain, twyll eu calonau, nac ardderchawgrwydd a rhagoroldeb yr efengyl. † Am hyny yr oeddynt yn aros yn noethion, er nas gwyddent hwy hyny; heb gael eu gwisgo yn nghyfiawnder cyfrifol Crist, nâ'u haddurno â'i ras ef.—Fel hyn mae y Groeg, medd *Scott*:—'Ac ni wyddost mai ti yw yr un truan, yr un gresynol, yr un tlawd, yr un dall, a'r un noeth.' Mae y geiriau yn fwy grymus felly, 'ac fel hyny yn unig (medd *Scott*) y gwahaniaethid yr eglwys hon oddi wrth yr holl eglwysi eraill.' Y falchaf oedd y waelaf, a'r hon a dybiai "nad oedd arni eisiau dim," oedd fwyaf ei hangen o honynt oll.

18 [t] * Yr wyf yn dy gynghori [u] i brynu gennyf fi [x] † aur wedi ei buro trwy dân, [y] fel y'th gyfoethoger; ‡ a [z] dillad gwynion, fel y'th wisger, ac *fel* [a] nad ymddangoso gwarth dy noethder di; [b] || ira hefyd dy lygaid âg eli llygaid, fel y gwelech.

t Salm 16. 7. a 32. 8. a 73. 24. a 107. 11. Diar. 1. 25, 30. a 19. 20. Preg. 8. 2. u Diar. 23. 23. Es. 55. 1. Mat. 13. 44. a 25. 9. x Mal. 3. 3. 1 Cor. 3. 12, 13. 1 Pedr 1. 7. y pen. 2. 9. Luc 12. 21. 2 Cor. 8. 9. 1 Tim. 6. 18. Iago 2. 5. z Gwel ar adn. 4, 5.—Salm 51. 7. a pen. 16. 15. Es. 47. 3. Jer. 13. 26. Dan. 12. 2. Mica 1. 11. Nah. 3. 5. b Ioan 9. 6—11. 1 Ioan 2. 20, 27.

* Y cyfryw a ddysgrifiwyd uchod oedd ystâd yr eglwys hon yn gyffredinol, yn weinidog ac aelodau, yn ol tystiolaeth Chwiliwr y calonau ei hun; eto mae efe yn eu cyngori hwynt i brynu ganddo ef y cyfryw bethau, ag yr oeddynt mewn angen dirfawr a dioed am danynt. Nis gallent eu cael gan neb arall yn y byd; ac yr oedd efe yn eu gwerthu i'r tlotaf a'u ceisiai, heb arian ac heb werth. Hyd yn nôd y fath bechaduriaid tlodion a thruenus ag oedd y Laodiceaid, gallent gael y bendithion anmhrisiadwy hyn felly; eto yr oedd yn rhaid iddynt ymadael â llawer o bethau a gyfrifent hwy yn werthfawr, er mai diwerth iawn oeddynt, i'r dyben o feddiannu y bendithion hyn; ac o herwydd hyny gellid dywedyd yn ddigon priodol eu bod yn eu "prynu" hwynt. † Gan hyny cyngorid hwynt (ac mae *cyngorion* Crist yn orchymynion, yn wahoddiadau, ac yn addewidion,) "i brynu ganddo ef aur wedi ei buro trwy dân, fel eu cyfoethogid:" yr hyn a arwydda wir a gwerthfawr ffydd a gras, y rhai mewn aneirif amgylchiadau, a ddaliasant y tân poethaf o erledigaeth, heb gael eu difa; a wnaed yn fwy pur a dysglaer yn y fflamiau; ac a gair o les mawr mewn cystuddiau, yn awr angau, ac yn nydd y farn. Gwnai hyn hwynt yn "gyfoethog" mewn gwirionedd; am y sicrêai ac yr amlygai iddynt eu rhan yn Nghrist, ac yn yr holl addewidion a roddwyd drwyddo ac ynddo ef i'w bobl. ‡ Cyngorai hwynt hefyd i "brynu ganddo ddillad gwynion, fel y gwisgid hwynt, ac fel nad ymddangosai gwarth eu noethder:" oblegid gan nad oedd eu cyfiawnderau eu hunain ond bratiau budron, a'u proffes o gristionogaeth yn rhagrithiol; rhaid iddynt yn fuan gael eu dynoethi, a'u gosod dàn warth a chywilydd, ger bron dynion ac angelion; oddigerth eu bod wedi eu gwisgo yn nghyfiawnder Crist, gwisg iachawdwriaeth, a chwedi eu prydferthu â sancteiddrwydd, gan ei Ysbryd sanctaidd ef. || Ond gan fod eu balchder a'u hunan-ddigonedd hwynt wedi eu dallu am eu gwir agwedd a'u hangen, ac o ganlyniad am werth y bendithion hyn; mae Crist yn eu cyngori hwynt i "iro eu llygaid âg eli llygaid, fel y gwelent:" mynai iddynt holi eu hunain wrth rëol ei air ef, gweddïo yn daer am ddysgeidiaeth ei Lân Ysbryd ef, i garthu ymaith eu

lchder, eu rhagfarn, a'u chwantau bydol; fel y gallent éled eu gwir agwedd a'u sefyllfa eu hunain, a deall tur a mawr werth ei iachawdwriaeth ef, fel y gallent gwerthfawrogi hi mewn modd mwy teilwng.

19 [c] * Yr wyf fi yn argyhoeddi, ac yn cer-ldu y sawl yr wyf yn eu caru: [d] † am hynny dded gennyt zêl, [e] ac edifarhâ.

c Deut. 8. 5. 2 Sam. 7. 14. Job 5. 17. Salm 6. 1. a 39. 11. a. 10. Diar. 3. 11, 12. a 15. 10, 32. a 22. 15. Es. 26. 16. Jer. 2. 30. 28. a 10. 24. a 30. 11. a 31. 18. Zeph. 3. 2. 1 Cor. 11. 32. 2 Cor. 9. Heb. 12. 5—11. Iago 1. 12. d Num. 25. 11—13. Salm 69. Ioan 2. 17. Rhuf. 12. 11. 2 Cor. 7. 11. Gal. 4. 18. Tit. 2. 14. Gwel ar pen. 2. 5, 21, 22.

* Nid mewn llid a soriant yr oedd y rhybuddion a'r ngorion hyn yn cael eu rhoddi iddynt, ond mewn ngaredd; oblegid rhëol gyffredin ymddygiad Crist ddd, "argyhoeddi a cheryddu y sawl yr oedd yn eu ru:" gan hyny gallai y Laodiceaid ystyried y ceryddu hyn fel arwyddion o'i ewyllys da ef; a hwy a gaent profi felly os gwnaent iawn ddefnydd o honynt. Gan hyny yr oedd yn gweddu iddynt hwy fod yn esog ac yn ddifrifol iawn yn y pethau pwysicaf hyn; enwedig mewn edifarâu am y pethau drwg y syrth-sent iddynt, ymwrthod â hwy, eu glanâu ymaith, a eisio maddeuant gan Fab Duw am danynt.—"Argy-oeddi a *cheryddu:*" gellid darllen y geirian "argy-oeddi ac *addysgu,*" medd *Pool,* fel tad yn argyhoeddi blant o'n gwallau, ac yn eu haddysgu yn y ffordd wn. "Bydded genyt *zêl:*" diammau fod hyn yn cael grybwyll ar gyfer y *claiarineb* a enwyd uchod.

20 * Wele, [f] yr wyf yn sefyll wrth y drws, ac yn curo. ‡ Os clyw neb fy llais i, ac goryd y drws, [g] || mi a ddeuaf i mewn atto ef, [h] a swpperaf gyd âg ef, § ac yntau gyd â innau.

f Can. 5. 2—4. Luc 12. 36. g Ioan 14. 21—23. h pen. 9. Luc 12. 37. a 17. 8.

* I'r dyben o annog y Laodiceaid claiar i edifeirwch difrifoldeb, ac ennyn gwresawgrwydd mwy ynddynt ewn pethau crefyddol; mae yr Arglwydd Iesu yn galw nnynt i sylwi, gyda syndod, (Wele!) ar ei ymostyng-iad, ei amynedd, a'i ras ef: oblegid tra yr oeddynt hwy n ddiffygiol a phrin iawn yn eu cariad tuag ato ef, yr edd efe yn sefyll wrth eu drws hwy, ac yn ymofyn am ael ei ail dderbyn i'r eglwys, ac i'w calonau hwynt, o a le yr oedd efe wedi cael ei yru ymaith gan eu pech-ddau. † Yr oedd efe yn sefyll oddi allan, ac yn "curo," wy oruchwyliaethau ei ragluniaeth, rhybuddion a lhyngorion ei air, a dylanwadau argyhoeddawl ei Ys-ryd; ac fel hyn yn galw am iddynt hwy ei dderbyn, a hoi croesawiad iddo. ‡ Ië, er na roddai yr eglwys derbyniad iddo; eto, os oedd rhyw un person yn eu lith hwy oll, a glywai ei lais ef, ac a agorai yn ewyllys-ar iddo; gan roddi i fynu ei galon a'i serchiadau iddo f, fel y dinystriai efe ei elynion a'i wrthwynebwyr yn-ddynt, fel y bwriai allan yr eilunod, darostwng pob an-wiredd, a "gwneyd pob peth yn newydd;" || efe a ddeuai mewn yn sicr, ac a gymmerai y fath hyfrydwch yn agwaith ei ras, ac a gyfranai y fath fendithion a chysur-on i enaid y dyn hwnw, fel y gellid dywedyd ei fod yn wperu gydag ef, ac yntau gyda Christ: y fath gymun-deb agos a fyddai mwyach yn wastadol, rhwng pechad-ur gwaredol â'i Waredwr mwyaf grasol! § Mae efe yn rmostwng yn rasol i swperu gyda ei bobl yn awr, ac efe 'u cymmer hwynt i swperu gydag ef ar ol hyn, a hyny am byth bythoedd.—Mae y cyd-swperu hyn yn dangos cyfeillgarwch mwyaf anwyl rhwng Crist â'i bobl, yn ystal â'r fywioliaeth ddanteithiol mae y saint yn gael, ac a gânt byth yn y nef, mewn cymdeithas âg ef, ac ar endithion ei iachawdwriaeth ef.

21 [i] * Yr hwn sydd yn gorchfygu, rhoddaf ddo ef [k] eistedd gyd â mi ar fy ngorsedd-faingc, † megis y gorchfygais innau, [l] ac yr eisteddais gyd â'm Tad ar ei orsedd-faingc ef.

i Gwel ar pen. 2. 7. k pen. 1. 6. a 2. 26, 27. Mat. 19. 28. Luc 22. 30. 1 Cor. 6. 2, 3. 2 Tim. 2. 12. l pen. 5. 6—8. a 7. 17. Dan. 7. 13, 14. Mat. 28. 18. Ioan 5. 22, 23. Eph. 1. 20—23. Phil. 2. 9—21.

* Yn fŷr, pob un a orchfygai y cyfryw demtasiynau cryfion ag oedd y Laodiceaid yn agored iddynt; mae yr Arglwydd Iesu yn addaw i'r cyfryw, fendith neu wobrwy, gyfatebol i galedi a phoethder y frwydr: oblegid ymrwymodd y rhoddai efe iddo, gael eistedd gydag ef ar ei orsedd-fainc; trwy undeb a chymdeithas anamgyff-redadwy âg ef ei hun yn ei holl ogoniant, trwy gyfran-ogi o holl fanteision ei allu a'i awdurdod cyfryngol ef, a thrwy feddiannu anrhydedd a dedwyddwch, yr hyn nis gellir byth ei osod allan na'i amgyffred, ond gan y rhai a'i profant. Mae Crist yn addaw arddelwi ac anrhyd-eddu y cyfryw rai fel gorchfygwyr dewrion, a'u derchafu hwynt yn rasol i'r mawredd uchel, o eistedd gydag ef ar orsedd ei ogoniant yn nydd y farn, fel y cydsyniont âg ef yn ei farn ddiweddaf ar y byd, ac y mwynâont y lles o hyny byth. † Oblegid fel yr oedd y gorchfygwyr hyn yn cael eu cyd-ffurfio â Christ yn *gyntaf* mewn ymladd, hunan-ymwadiad, a dyoddef; felly hwy a gaent eu cyd-ffurfio âg ef *yn y diwedd* mewn buddugoliaeth a derchafiad; trwy gael eistedd gydag ef ar ei orsedd-fainc, megys y gorchfygodd yntau y byd a holl alluoedd y tywyllwch, yn ei sefyllfa gyfryngol; ac yr eisteddodd gyda ei Dad ar ei orsedd-fainc ogoneddus ef. "Os dyoddefwn, ni a deyrnaswn gydag ef: os gwadwn ef, yntau hefyd a'n gwâd ninnau." 2 Tim. 2. 12.

22 [m] * Yr hwn sydd ganddo glust, gwran-dawed beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi.

m adn. 6, 13.—Gwel ar pen. 2. 7, 11, 17.

* Yr oedd yr un mawredd annhraethadwy i gael ei roddi hefyd ar orchfygwyr eraill, yn y cyffelyb amgylch-iadau o ymdrech a helbulon; oblegid yr oedd y cyngor a'r addewid uchod yn cael eu bwriadu er lles pawb a'u clywent ac a'u gwrandawent, yn mhob oes a chenedl.—Mae adfeilion y ddinas hon (medd *Scott,*) yn dangos ei bod unwaith yn lle rhyfeddol o fawr-wych; ond yr awr nid oes yr un crëadur dynol yn cyfanneddu yno felly mae agwedd bresenol y saith dinas hyn, o ran cristionogaeth, ac o ran eu llwyddiant allanol, yn cyfat eb yn hollawl i'r ganmoliaeth neu y cerydd, a roddwyd gan Ysbryd prophwydoliaeth i'r gwahanol eglwysi yno, er ys mwy na dau cant ar bymtheg o flynyddoedd yn ol! yr hyn gyd-darawiad nodedig a gynnwys wers addysgiadol, a rhybudd difrifol, i bob dinasoedd a chenedloedd eraill a freintiwyd âg efengyl, ac i'w llywodraethwyr eglwysig a gwladol, nad esgeulusont ac na ddïystyront hwy fendith mòr fawr. Gwelwn yma fod eglwysi blodeuog, yn rhodio yn sanctaidd yn ofn yr Arglwydd, yn fendith yn mhob ystyriaeth i'r dinasoedd a'r mànau lle byddont: ac i'r gwrthwyneb, fod eglwysi marwaidd a llygredig, fel rhai a ddarlunir yn yr epis-tolau hyn, yn achos o ddwyn barnau Duw, nid yn unig arnynt eu hunain, ac yn eu hamser eu hunain, ond hefyd ar y mànau lle y byddont, ac am oesoedd wedi iddynt hwy ddiffodd a darfod. Melltithiodd Duw holl *wlad* Canaan, hyd y dydd heddyw, am wrthgiliadau llygredig ei hen *eglwys* yno gynt.

PEN. IV.

Ioan yn gweled gorsedd-fainc Duw yn y nef.

[a] * AR ol y pethau hyn † yr edrychais; ‡ ac wele, [b] ddrws wedi ei agoryd yn y nef: [c] || a'r llais cyntaf a glywais, *oedd* fel *llais* ud-gorn yn ymddiddan â mi; § gan ddywedyd, [d] Dring i fynu yma, [e] a mi a ddangosaf i ti y pethau sydd raid eu bod ar ol hyn.

a pen. 1—3. b Ezec. 1. 1. Mat. 3. 16. Marc 1. 10. Luc 3 21. Act. 7. 56. a 10. 11. c pen. 1. 10. a 16. 17. d pen. 11 12. Ex. 19. 24. a 24. 12. a 34. 2, 3. e pen. 1. 19. a 22. 6. Ioan 16. 13.

* "Ar ol" y weledigaeth ogoneddus yn y bennod gyntaf, "ar ol" derbyn gorchymyn a chyfarwyddyd am yr epistolau blaenorawl, ac efallai "ar ol" eu hysgrifenu a'u danfon ymaith gyda rhyw gyfle; † "ar ol y pethau hyn," edrychodd Ioan drachefn, gan obeithio a dymuno gweled rhywbeth yn mhellach, o feddwl a datguddiedigaethau Duw: mae yn bur debyg fod rhyw yspaid rhwng y weledigaeth nesaf â'r un o'r blaen. ‡ Ond gwedi iddo edrych am ddatguddiedigaethau chwanegol, "wele ddrws wedi ei agoryd yn y nef," preswylfa sanctaidd Duw; ac yna cafodd weledigaeth arall, yr hon a barotôdd y ffordd i ddangos iddo ef y "pethau a fyddent ar ol hyny:" (pen. 1. 19.) oblegid mae y bennod hon a'r nesaf (medd *Scott*,) yn cynnwys rhag-arweiniad i ran brophwydol y llyfr; yn enwedig hyd agoriad y seliau, yn y chweched a'r seithfed bennod. || Tra yr oedd efe yn edrych ar y drws wedi ei agoryd yn y nef, efe a glywai lais, fel llais udgorn cryf, megys yn y weledigaeth o'r blaen, (pen. 1. 10.) yn ymddiddan âg ef, yr hwn oedd lais yr Arglwydd Iesu yn ddiammau. § Gorchymynai y llais hwn iddo ddringo i fynu ato ef, fel y dangosai efe iddo oruchwyliaethau Rhagluniaeth fawr y nef tuag at yr eglwys a'i gelynion, yn yr amserau oedd i ddyfod ar ol hyn. Nid oes air o son am ddinystr Jerusalem yn yr holl lyfr hwn: nid "peth oedd raid ei fod ar ol hyn" oedd hyny; eithr yr oedd wedi pasio tua 26 neu 27 o flynyddoedd cyn y weledigaeth hon, medd *Pool*. Nid pethau gweledig i lygaid corphorol Ioan oedd y pethau a grybwyllir yn y weledigaeth hon, eithr argraffiadau gweledigaethol ar ei feddwl ef oedd y cwbl: gan hyny ni ddylem feddwl fod y cyfryw bethau yn hanfodi yn sylweddol yn y nef.

2 * Ac yn y man [f] yr oeddwn yn yr yspryd: † ac wele, [g] yr oedd gorsedd-faingc wedi ei gosod yn y nef, [h] ‡ ac *un* yn eistedd ar yr orsedd-faingc.

f Gwel ar pen. 1. 10.—a 17. 3. a 21. 10. Ezec. 3. 12—14. g adn. 5. pen. 20. 11. Ezec. 1. 26. a 10. 1. h adn. 9. pen. 3. 21. a 5. 1, 6, 7, 13. a 6. 10. a 7. 9—17. a 12. 5. a 19. 4. a 21. 5. a 22. 1—3. Es. 6. 1. Dan. 7. 9. Heb. 8. 1.

* Gyda bod Ioan yn cael y weledigaeth uchod, (drws wedi ei agoryd yn y nef) a chyda bod y llais yn llefaru wrtho am ddringo i fynu ato ef; yn y màn yr oedd efe yn yr Ysbryd, fel yn y weledigaeth gyntaf: (pen. 1. 10.) yr oedd wedi ei daflu mewn math o ber-lewyg nefol, fel nas gwyddai efe yn iawn, mae yn debyg, "pa un ai yn y corph ai allan o'r corph" yr oedd. † Pa fodd bynag, yr oedd efe i'w amgyffrediadau ei hun, wedi cael ei dderbyn i bresenoldeb union-gyrchol Duw, ac yn gweled gorsedd-fainc ogoneddus iawn wedi ei gosod yn y nef; ‡ ac Un yn eistedd arni, yr hwn ni chynygiodd efe ei ddysgrifio. Yr oedd hyn yn arddangos llywodraeth gyffredinol, hollawl, a thragywyddol y JEHOFAH, a'i dderchafiad ef yn mhell goruwch pob crëaduriaid, fel eu Crëawdwr mawr, a'u Pen-Arglwydd oll.

3 * A'r hwn oedd yn eistedd, oedd yn [i] debyg yr olwg arno i faen jaspis † a sardin: ‡ ac *yr oedd* [k] enfys o amgylch yr orsedd-faingc, || yn [l] debyg yr olwg arno i smaragdus.

i pen. 21. 11, 19, 20. Ex. 24. 10. Ezec. 1. 26. a 28. 13. k pen. 10. 1. Gên. 9. 13—16. Es. 54. 9, 10. Ezec. 1. 28. l pen. 21. 19. Ezec. 28. 18. a 39. 11. Ezec. 28. 13.

Mae yn debyg fod yn y darluniad a ganlyn ryw gyfeiriad at y gogoniant ar y drugareddfa, yn y Sancteiddiolaf gynt, megys y mae yn yr holl weledigaethau hyn, gyfeiriadau at y deml, ei dodrefn, a'i gwasanaeth. * Yr oedd yr olwg ogoneddus ar yr hwn oedd yn eistedd ar yr orsedd-fainc, yn debyg i faen jaspis tryloyw ac amryliw; yr hyn, efallai, oedd yn arwyddo perffaith burdeb ac ardderchawgrwydd y natur ddwyfol: † a'i liw fel y maen sardin *coch*, efallai, oedd yn arwyddo cyfiawnder ofnadwy, a digofaint tanllyd Duw. ‡ Yr oedd hefyd ymddangosiad o enfys ysplenydd (neu *fwa-gwlaw*, yn ol y Saesoneg,) fel cylch gogoneddus o amgylch yr orsedd-fainc; yr hyn oedd arwydd tra adnabyddus o'r cyfammod gras: ac yr oedd ei fod "o amgylch yr orsedd-fainc" yn arwyddo, fod Duw yn ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd, ac yn ei holl oruchwyliaethau fel Arglwydd mawr yr holl fydoedd, yn edrych ar ei gyfammod o heddwch, a'i ymrwymiadau o gariad, y rhai a gadarnâodd efe â'i bobl grediniol; a bod ei oruchwyliaethau ef yn cydgordio yn berffaith â'i gyfammod yn mhob peth. || Yn yr enfys hon, gwyrddlesni hyfryd y smaragdus (*emerald*, yn Saesoneg,) oedd y lliw amlycaf, yr hyn oedd yn dangos, efallai, mai fel mae y lliw gwyrddlas yn esmwytho'r llygaid, y rhai a ddolurir ac a ddallir gan rai lliwiau eraill; felly mae datguddiad o drugaredd Duw yn y cyfammod gras, yn esmwythâu ac yn adnewyddu meddwl y credadyn, yr hwn heb hyny a ddychrynai ac a ddyrysai, yn yr olwg ar ei allu, ei sancteiddrwydd, a'i gyfiawnder gogoneddus a thanbaid ef. Ar y pethau dyfnion hyn mae ein Hawdwyr yn ysgrifenu gyda chynnildeb mawr: tybiant fod holl arwydd-luniau yr ysgrythyr â rhyw feddwl pennodol iddynt, yn enwedig y rhai hyny yn y llyfr hwn; ond pa un a ydynt hwy yn nodi allan y meddwl hyny bob amser, neu mewn mànau neillduol, sydd bwnc arall ganddynt.

4 * Ac ynghylch yr orsedd-faingc [m] *yr oedd* pedair gorsedd-faingc ar hugain: † ac ar y gorsedd-feingciau y gwelais [n] bedwar henuriad ar hugain yn eistedd, [o] ‡ wedi eu gwisgo mewn dillad gwynion; || ac yr oedd ganddynt ar eu pennau [p] goronau aur.

m pen. 11. 16. a 20. 4. Mat. 19. 28. Luc 22. 30. n adn. 10. pen. 5. 8, 14. a 7. 11. a 19. 4. o Gwel ar pen. 3. 4, 5.—a 6. 11. p adn. 10.—Gwel ar pen. 2. 10.—a 9. 7. Esther 8. 15. Salm 21. 3. 2 Tim. 4. 8.

* O amgylch i orsedd-fainc "uchel a derchafedig" Duw, ac ryw bellder oddi wrthi, yr oedd wedi eu gosod bedair gorsedd-fainc ar hugain, o radd iselach: † ac ar y gorsedd-feinciau hyn, gwelai Ioan bedwar henuriad ar hugain yn eistedd; wrth y rhai y deallir yn gyffredin, cynnrychiolwyr holl eglwys Dduw, dàn yr hen oruchwyliaeth a'r newydd hefyd. Tybia rhai bod y nifer, "pedwar ar hugain," yn cyfeirio at gylchoedd, neu ddosparthiadau yr offeiriaid, yn ngwasanaeth y deml gynt, y rhai oedd bedwar ar hugain, ac yn cynnrychioli holl eglwys Israel. (1 Cron. 24. 1—19.) Tybia eraill bod y nifer yn cyfeirio at y deuddeg patriarch, a'r deuddeg apostol, y rhai a gynnrychiolent yr eglwys dàn y ddwy oruchwyliaeth, fel y sylwyd eisoes. Mae amryw dybiau eraill gan dduwinyddion am y *nifer* uchod; ond nid ydynt o bwys i'w gosod i lawr yma: crybwyllwyd y pethau mwyaf tebyg i'r gwirionedd yn ol barn ein Hawdwyr. ‡ Yr oedd yr henuriaid hyn wedi eu gwisgo mewn dillad gwynion, fel yr offeiriaid gynt; i ddangos eu purdeb, eu sancteiddrwydd, eu dedwyddwch, a'u llawenydd; a'u perffeithrwydd yn nghyfiawnder Crist, ac yn sancteiddiad yr Ysbryd Glân. || "Ac yr oedd ganddynt ar eu penau goronau o aur:" yr hyn a arwydda y mawredd a'r gogoniant i ba un y dyrchafodd Crist hwynt, fel breninoedd ac offeiriaid i Dduw a'i Dad ef, yn ol ei addewid i'r neb a fyddai yn ffyddlawn hyd angau: (pen. 2. 10.) ac mae y cwbl a ddywedir yn yr adnod hon, yn cyfateb i addewidion Crist yn y pennodau o'r blaen.

5 * Ac yr oedd yn dyfod allan o'r orsedd-faingc [q] fellt, a tharanau, a lleisiau. † Ac *yr oedd* [r] saith o lampau tân yn llosgi ger bron yr orsedd-faingc, ‡ y rhai yw [s] saith Yspryd Duw.

q pen. 8. 5. a 11. 19. a 16. 17, 18. Ex. 19. 16. a 20. 18. Salm 18. 13, 14. a 68. 35. Joel 3. 16. Heb. 12. 18—29. r Ex. 37. 23. 2 Cron. 4. 20. Ezec. 1. 13. Zec. 4. 2, 11—14. s pen. 1. 4. a 3. 1. a 5. 6. Mat. 3. 11. Act. 2. 3. 1 Cor. 12. 4—11.

Dywed *Scott* fod y dysgrifiad uchod (adn. 4.) yn

rddangos yr eglwys filwriaethus, yn gystal â'r eglwys trfoleddus; a'r cwbl yn gosod allan ddiogelwch ystâd y wir gristionogion, eu rhagor-freintiau gogoneddus, a'r nrhydedd y bwriadai yr Arglwydd eu derchafu hwynt ddo. * "Ac yr oedd yn dyfod allan o orsedd-fainc Duw, fellt, a tharanau, a lleisiau," yn gyffelyb i'r olygfa ifnadwy ar fynydd Sinai gynt: yr hyn efallai oedd yn rrwyddo, fod Duw mòr ofnadwy ag erioed yn ei lid, nag at yr anedifeiriol a'r anghrediniol; yn enwedig y pechaduriaid a'r rhagrithwyr yn Sion," sef yn ei egwys ef. Esa. 33. 14. Dïammau bod hyn yn perthyn oruchwyliaethau Duw yn yr eglwys ar y ddaear; blegid nis gallwn feddwl fod mellt a tharanau, na lim dychrynadwy, yn yr eglwys berffaith yn y nef. Yr oedd y "saith o lampau tân yn llosgi ger bron yr rsedd-fainc," yn cyfeirio at y saith lusern yn y babell ynt; (Exod. 25. 37;) ‡ ac yn arwyddo "saith Ysbryd Duw," neu yr amryw ddoniau a'r grasau a gyfrenir i'r oll wir eglwys, trwy fedyddiad tanllyd yr Ysbryd Glân, i oleuo, i buro, ac i wresogi eneidiau ei holl oobl ef.

6 * Ac o flaen yr orsedd-faingc *yr ydoedd* n môr o wydr, yn debyg i [u] grystal: † ac [x] y'nghanol yr orsedd-faingc, ac ynghylch yr orsedd-faingc, *yr oedd* [y] pedwar anifail [z] ‡ yn llawn o lygaid o'r tu blaen ac o'r tu ol.

t pen. 15. 2. Ex. 38. 8. 1 Bren. 7. 23. u pen. 21. 11. a 22. 1. Job 28. 17. Ezec. 1. 22. x pen. 5. 6. a 7. 17. Ezec. 1. 4, 5. y adn. 8, 9. pen. 5. 6, 14. a 6. 1. a 7. 11. a 14. 3. a 15. 7. a 19. 4 z adn. 8. Ezec. 1. 18. a 10. 12.

* "Ac o flaen yr orsedd-fainc," yn gyfatebol i'r noe bres yn y babell a'r deml gynt, yr hon o herwydd ei rnaint a elwid y *môr tawdd*, (Exod. 30. 18, 19; 1 Bren. 7. 23.) gwelodd Ioan "fôr o wydr, yn debyg i grisial;" yr hwn mae yn debyg oedd yn arwyddo y "Ffynon a agorwyd i bechod ac aflendid," yn yr hon mae yn rhaid i holl offeiriaid ysbrydol Duw ymolchi, cyn offrymu aberthau ysbrydol, cymmeradwy ganddo ef. Yr oedd y noe bres yn y babell wedi ei gwneyd o bres, yr hwn a fuasai yn ddrychau gwragedd Israel. (Exod. 38. 8.) Yr oedd y môr pres yn y deml, yn ddïammau, wedi ei lathru a'i gaboli yn loyw ac yn ddysglaer iawn; ond yr oedd y mòr hwn (oblegid y llestr mae yn debyg a feddylir) wedi ei wneyd o ddefnydd tryloyw fel gwydr, ac yn debyg i'r crisial pur a gloyw. Mae amryw feddyliau am arwyddocâd y "môr gwydr" uchod, ond yr hyn a sylwyd yw barn ein Hawdwyr: a dïammau mai hyny yw y gwirionedd; oblegid yr oedd môr cysgodol y deml yn cael ei gyflawniad yn Nghrist. † Amryw feddyliau a fu am y "pedwar anifail," neu y "crëaduriaid byw;" canys felly yn sicr (medd ein Hawdwyr) y dylasai y cyfieithiad fod, yn ol ystyr fanol a chywir y Groeg, ac i gadw at wirionedd yr arwydd-lun. Bu rhai mòr rhyfygus ffol â dychymmygu, mai arddangosiad o'r Tri Pherson yn y Duwdod oeddynt; ond bod dau o honynt yn perthyn i'r Mab, o herwydd ei ddwy natur, neu ei gnawdoliad a'i aberth: ond nid oes dim sail i'r dŷb hòno, ychwaneg nag enwau y dynion a'i dychymygodd; a hyny o herwydd y rheswm digonol hwn, dangosir y crëaduriaid byw hyn trwy yr holl lyfr, fel y prif-addolwyr, ac nid fel y Gwrthddrych o addoliad. Meddwl arall, llawer mwy cyffredin a rhesymol yw, mai cynnrychiolwyr angelion oeddynt, fel yr oedd y cerubiaid, mae yn amlwg, yn ngweledigaeth Ezeciel, ond nid oes sail ddigonol i'r dŷb hon chwaith. Mae angelion yn sicr yn cael en dwyn i mewn yn rhan ddilynol y weledigaeth hon; ond dywedir am y pethau hyn, eu bod yn addoli yr "Oen yr hwn a laddwyd ac a'u prynodd *hwy* i Dduw trwy ei waed." (pen. 5. 8, 9.) Gan hyny mae yn rhaid eu bod yn sicr yn cynnrychioli rhyw ran o eglwys y gwaredigion, o ddynolryw. Yn yr olwg ar hyn, tybiodd rhai duwinyddion eu bod yn cynnrychioli yr holl eglwys, a bod y pedwar henuriad ar hugain yn cynnrychioli ei gweinidogion a'i blaenoriaid hi: a thybiodd eraill i'r gwrthwyneb, fod y pedwar peth byw yn cynnrychioli rhan, a'r pedwar henuriad ar hugain y cwbl o'r eglwys. Yn fŷr, mae yn llwyr amlwg debygid, eu bod hwy yn arddangos gwir weinidogion yr efengyl yn ngwahanol barthau y byd, trwy yr holl genedlaethau i ddyfod, fel yr oedd y pedwar henuriad ar hugain yn cynnrychioli yr holl eglwys. Dywedir fod y pedwar peth byw hyn "*yn nghanol* yr orsedd-fainc, ac *yn nghylch* yr orsedd-fainc;" sef yn nghanol y cyfwng oedd rhwng yr orsedd-fainc â'r cylch oedd yn ei hamgylchu hi; ac felly mae yn debyg eu bod rhwng yr orsedd-fainc â'r pedwar henuriad ar hugain, fel y mae gweinidogion y gair megys rhwng Duw â'r eglwys. ‡ Yr oedd y pedwar anifail hyn yn "llawn o lygaid, o'r tu blaen ac o'r tu ol:" yr hyn oedd yn arwyddo gwyliadwriaeth, gochelgarwch, dyfalwch at eu gwaith a'u gofal, sylw manol ar ysgogiadau a dichellion eu gelynion, adnabyddiaeth drylwyr o honynt eu hunain, a diwydrwydd eiddigus yn chwilio eu calonnau eu hunain, ac yn edrych at eu hysbrydoedd eu hunain. "Anifail:" Zôa, oddi wrth Zôê, bywyd: unrhyw grëadur byw, a ellir ddeall wrth y gair. *Thérion* yw y gair Groeg am *anifail*, (bwystfil yn Gymraeg,) yn Dan. 7. 3, medd *Scott*.

7 [a] * A'r anifail cyntaf *oedd* debyg i lew, † a'r ail anifail [b] yn debyg i lo, ‡ a'r trydydd anifail oedd ganddo wyneb [c] fel dyn, || a'r pedwerydd anifail *oedd* debyg [d] i eryr yn ehedeg.

a adn. 6. Gen. 49. 9. Num. 23. 24. a 24. 9. Diar. 28. 2. Ezec. 1. 10. a 10. 14, 21. b Ezec. 1. 10. 1 Cor. 9. 9, 10. c 1 Cor. 14. 20. d Deut. 28. 49. 2 Sam. 1. 23. Es. 40. 31. Ezec. 1. 8 10. a 10. 14. Dan. 7. 4. Ob. 4.

Mewn amryw bethau pennodol, mae yr arwydd-lun *(emblem)* o'r "pedwar anifail" yn dangos cynneddfau a gwaith gwir weinidogion cymhwys yr efengyl; ac yn dysgu iddynt eu dyledswyddau pwysig. * Yr oedd yr "anifail cyntaf yn debyg i lew;" yr hwn grëadur sydd arwydd-lun tra hysbys o ddewrder calonog, a mawrfrydigrwydd: † "a'r ail oedd debyg i lô," neu ŷch ieuanc; yn arwyddo grŷm, pybyrwch, ac amynedd dyoddefus mewn llafur a chaled-waith: ‡ "a'r trydydd anifail oedd ganddo wyneb fel dyn;" yn arwyddo callineb, cymmwynasgarwch, a thosturi: || "a'r pedwerydd oedd debyg i eryr yn ehedeg;" yn arwyddo treiddiant meddwl, a chraffder deall ysbrydol, ehedeg goruwch pethau daearol, myfyrdod ar bethau nefol, a serch wedi ei sefydlu ar bethau uchod.—Nis gellir galw *anifeiliaid* ar y crëaduriaid hyn oll, yn ystyr gyffredin y gair anifeiliaid; oblegid yr oedd gwyneb *dyn* i'r trydydd, a'r pedwerydd oedd *aderyn*. Dïammau fod yr arwydd-luniau uchod yn gosod allan y gwahanol ddoniau, cynneddfau, a chymhwysiadau, â pha rai mae Duw yn addasu ei genadon i waith mawr y weinidogaeth, a'r amryw ddyledswyddau a berthyn iddynt hwy yn yr eglwys. Mae rhai yn ddewrion fel y llew; rhai yn gryfion fel yr ŷch; rhai yn ddoethion a thosturiol fel y dyn; a rhai yn ehedeg yn uchel i ddirgeloedd yr efengyl fel yr eryr: ond gorau po fwyaf o'r holl gymhwysiadau i gyd, a fyddo yn yr un dyn, ac yn mhob un o weinidogion Iesu Grist. Mae eu heisiau oll ar bawb.

8 * A'r pedwar anifail oedd ganddynt, bob un o honynt, [e] chwech o adenydd o'u hamgylch; † ac *yr oeddynt* [f] oddi fewn yn llawn llygaid: [g] ‡ ac nid oeddynt yn gorphwys ddydd a nos, gan ddywedyd, [h] || Sanct, Sanct, Sanct, [i] Arglwydd Dduw Holl-alluog, § [k] yr hwn oedd, a'r hwn sydd, a'r hwn sydd i ddyfod.

e Es. 6. 2. Ezec. 1. 6. a 10. 21, 22. 2 Tim. 4. 2. f Gwel ar z. adn. 6.—1 Tim. 4. 16. g pen. 7. 15. Es. 62. 1, 6, 7. Act. 20. 31. 1 Thes. 2. 9. 2 Thes. 3. 8, 9. h pen. 3. 7. Ex. 15. 11.—Gwel ar Es. 6. 3. i pen. 1. 8. a 11. 17. a 15. 3. a 16. 7, 14. a 19. 15. a 21. 22. Gen. 17. 1. Salm 91. 1. Es. 13. 6. Joel 1. 15. 2 Cor. 6. 18. k Gwel ar pen. 1. 4.—Heb. 13. 8.

* Mae y "chwech adenydd oedd gan bob un," yn arwyddo bywiogrwydd, gostyngeiddrwydd, parodrwydd, a chyflymder, yn ngwaith yr Arglwydd; fel y dywedir

am y Seraphiaid yn Esaiah 6. 2. † Yn adn. 6, dywedwyd eu bod yn "llawn o lygaid o'r tu blaen ac o'r tu ol;" (gwel ar hyny yno,) ac yna dywedir eto eu bod "*oddi fewn* yn llawn llygaid:" yr hyn a ddengys fod gwir weinidogion y gair yn edrych i mewn i'w calonau eu hunain yn ofalus, yn gystal ag ar bethau a personau o'u hamgylch; ac eu bod yn sylwi yn fanol ar lewyrchiadau gair ac Ysbryd Duw yn eu calonau, er cyfarwyddyd iddynt yn eu mater personol eu hunain, ac yn nghyflawniad eu holl waith gweinidogaethol. ‡ Eu gwaith yn addoli yr Arglwydd Dduw Hollalluog, yn dderchwys a difino ddydd a nos, a arwydda fod pechaduriaid dychweledig, yn mhob gwlad ac oes o'r byd, trwy addysgiadau, cyngorion, esamplau, a chynnorthwyon gweinidogion y gair, yn bendithio Duw yn wastadol, gan ei addoli a'i ogoneddu ef yn ddibaid, ger bron ei drugareddfa rasol. || Ac efallai bod mynychiad triphlyg y gair Sanct, (fel yn y lle a nodwyd uchod yn Esaiah,) yn cyfeirio at y tri o Bersonau yn y Duwdod; ac yn rhoddi addoliad iddynt fel un Duw anfeidrol, § digyfnewid a thragywyddol yn oes oesoedd. Cymmerir llawer o ganiadau eraill y llyfr hwn allan o'r Hen Destament.

9 * A [l] phan fyddo yr anifeiliaid yn rhoddi gogoniant, ac anrhydedd, a diolch, † i'r hwn oedd yn eistedd ar yr orsedd-faingc, [m] ‡ yr hwn sydd yn byw yn oes oesoedd,

l pen. 5. 13, 14. a 7. 11, 12. m pen. 10. 6. a 15. 7. Ex. 15. 18. Salm 48. 14. Heb. 7. 8, 25.

* A phan fyddai yr anifeiliaid, neu y pethau byw hyn, yn rhoddi gogoniant, ac anrhydedd, a diolch, yn nghanol cylch yr orsedd-fainc, ac yn agosach ati na'r henuriaid, i'r JEHOFAH tragywyddol, † yr hwn oedd yn eistedd yn Frenin yn dragywydd ar yr orsedd-fainc, ‡ ac yr hwn sydd yn byw yn oes oesoedd, fel yr anfarwol, a'r unig wir a bywiol Dduw; byddai yr hyn a grybwyllir yn yr adnod nesaf yn cymmeryd lle yn wastadol: yr hyn a gadarnâ y sylw a wnaed ar yr adnod o'r blaen, am yr holl eglwys yn addoli Duw, drwy esampl ac annogaeth ei gweinidogion.

10 * Y mae y pedwar henuriad ar hugain [n] † yn syrthio ger bron yr hwn oedd yn eistedd ar yr orsedd-faingc, [o] ‡ ac yn addoli yr hwn sydd yn byw yn oes oesoedd, [p] || ac yn bwrw eu coronau ger bron yr orsedd-faingc, § gan ddywedyd,

n pen. 5. 14. a 19. 4. Job 1. 20. Salm 72. 11. Mat. 2. 11. o pen. 7. 11. a 15. 4. a 22. 8, 9. 1 Cron. 29. 20. 2 Cron. 7. 3. Salm 95. 6. Mat. 4. 9, 10. Luc 24. 52. p adn. 4. 1 Cron. 29. 11—16. Salm 115. 1, 2. 1 Cor. 15. 10.

* Y pryd hwn, byddai y pedwar henuriaid ar hugain, cynnrychiolwyr yr holl eglwys fawr, † yn syrthio i lawr mewn addoliad diolchgar a gostyngedig, ger bron yr hwn oedd yn eistedd mewn mawrhydi dwyfol ar yr orsedd-faingc; ‡ gan gydnabod mewn addoliad a mawl, fod eu holl anrhydedd a'u dedwyddwch wedi ei roddi iddynt, o'i wir a'i fawr drugaredd ef: || ac yn y gwasanaeth diragrith hyn, cymmerent eu coronau gogoneddus oddi ar eu penau, (gwel ar adn. 5.) a bwrient hwy ger bron yr orsedd-fainc; gan gydnabod yn wir deimladwy, eu bod yn llwyr annheilwng i wisgo y fath arwyddion o anrhydedd breninol yn mhresenoldeb Duw; ac mai o'i wir ewyllys da ef yr oeddynt wedi eu cael ac yn eu gwisgo. § Wrth wneuthur hyny, yr oeddynt yn dywedyd, neu yn datganu, yr hyn a gawn yn yr adnod ganlynol.

11 [q] * Teilwng wyt, O Arglwydd, [r] i dderbyn gogoniant, ac anrhydedd, a gallu; [s] † canys ti a greaist bob peth, ac o herwydd dy ewyllys di y maent, || ac y crewyd hwynt.

q pen. 5. 2, 9, 12. 2 Sam. 22. 4. Salm 18. 3. r pen. 14. 7. Deut. 32. 4. 1 Cron. 16. 28, 29. Neh. 9. 5. Job 36. 3. Salm 29. 1, 2. a 68. 34. a 96. 7, 8. s pen. 10 6. Gen. 1. 1. Ex. 20. 11. Es. 40. 26, 28. Jer. 10. 11. a 32. 17. Ioan 1. 1—3. Act. 17. 24. Col. 1. 16, 17. Heb. 1. 2, 10. t Diar. 16. 4. Rhuf. 11. 36.

* Tystiolaethent oll, fod yr "Arglwydd Dduw Hollalluog" yn wir deilwng o bob gogoniant, ac anrhydedd, a gallu, a fedrent hwy a phob crëadur yn y nef ac ar y ddaear, roddi neu briodoli iddo; † canys efe oedd Crëawdwr mawr yr holl fydoedd, a "phob peth" ynddynt; ‡ ac o herwydd ei ewyllys ben-arglwyddol ef yr oeddynt yn parâu mewn bod, || megys y crëasid hwy ar y cyntaf i ogoniant ei enw a'i fawredd ef: yr oedd y crëu a'r cynnal, y naill fel y llall, yn cael eu priodoli i ewyllys Duw.—Yn y bennod nesaf, ni a gawn yr un dyrfa yn addoli *Mab* Duw, fel Gwaredwr pechaduriaid; a'r angelion yn cyduno â hwynt, yn y gwasanaeth sanctaidd hwnw. Pen. 5. 8—11.

PEN. V.

Agoriad y llyfr seliedig.

* AC mi a welais yn neheulaw yr hwn [a] oedd yn eistedd ar yr orsedd-faingc, [b] † lyfr wedi ei ysgrifenu oddi fewn ac oddi allan, [c] ‡ wedi ei selio â saith sel.

a Gwel ar pen. 4. 3. b pen. 10. 2, 8—11. Es. 34. 16. Ezec. 2. 9, 10. c pen. 6. 1. Es. 8. 16. a 29. 11. Dan. 8. 26. a 12. 4—9.

* Yn yr un weledigaeth, gwelai Ioan yn neheulaw yr hwn oedd yn eistedd ar yr orsedd-fainc, lyfr; yr hwn oedd wedi ei ysgrifenu oddi fewn ac oddi allan, ac wedi ei selio â saith sel. Yr oedd yn ymddangos fel rhôl, cynnwysedig o saith o ddail, neu ddarnau gwahanol, wedi eu rholio i fynu y naill o fewn y llall, yn ol arferiad yr amseroedd hyny; ac nid wedi eu gwnio yn nghyd yn y cefn, fel ein llyfrau presenol ni. † Yr oedd pob un o'r dail, neu y llènau hyny, wedi eu hysgrifenu oddi fewn ac oddi allan, hyny yw, y ddau wyneb, fel y deallodd Ioan wedi hyny; ‡ a chwedi eu selio â saith sel; hyny yw, yr oedd sel ar bob un o honynt, y naill o fewn y llall. Rhaid mai felly yr oedd, oblegidpe buasai y saith sel oddi allan, nis gallesid darllen dim heb ddattod y seliau oll; pryd yn yr hanes a ganlyn, yr oedd rhyw ddatguddiad o gynnwysiadau y llyfr, yn canlyn agoriad pob un o'r seliau: gwedi dattod y sel gyntaf, neu yr un allanol o gwbl, yr oedd y llèn hòno yn dadròliaw, ac yn dyfod yn agored i'w darllen; ac felly pob un o'r lleill yr un modd, yn eu tro. Pa fodd bynag, yr oedd y llyfr hwn yn arwydd-lun o arfaeth a bwriadau dirgelaidd Duw, am bethau i ddyfod, o'r hon arfaeth a bwriadau, mae y prophwydoliaethau oll megys adysgrifiadau; ac yn enwedig yr oedd yn arwydd o fwriadau dirgelaidd Duw, y rhai oedd i gael eu datguddio yn awr; ac am hyny gellir ei ystyried yr un peth, o ran sylwedd, â'r rhau sydd yn canlyn o'r llyfr hwn, y Datguddiad.—Yr oedd y llyfrau gynt wedi eu hysgrifenu ar ddarnau hirion o grŵyn têg, *(parchments)* ac wedi eu rholio i fynu ar brenau, yn debyg fel y rholir sidan a defnyddiau eraill yn ein gwlad ni: ac felly yr oedd y llyfr hwn.—Mŷn rhai roddi yr attaliad ar ol y gair *mewn*, "wedi ei ysgrifenu oddi fewn, ac oddi allan wedi ei selio â saith sel:" hyny yw, y seliau i gyd oddi allan, ar yr un llèn; ond ni chyd-saif hyny â'r dull y dywedir am agoriad y seliau, a darllen ar ol agor pob un, cyn agoryd y nesaf.

2 * Ac mi a welais [d] angel cryf yn cyhoeddi â llef uchel, [e] † Pwy sydd deilwng i agoryd y llyfr, ac i ddattod ei seliau ef?

d Salm 103. 20. e adn. 5. Es. 29. 11, 12. a 41. 22, 23.

* Gwelai Ioan hefyd "angel crŷf," fel cenadwr Duw, "yn cyhoeddi â llef uchel i bob crëadur;" † ac yn gofyn pwy oedd yn "deilwng," trwy ei fawredd a'i ardderchawgrwydd personol ei hun, neu trwy unrhyw wasanaeth anghyffredin a wnaethai, i gael yr anrhydedd o "agoryd y llyfr, ac i ddattod ei seliau ef?" Pwy oedd yn alluog i ddeall a hysbysu bwriadau dirgelaidd Duw, mewn perthynas i'w oruchwyliaethau ef, y rhai

oedd i gael eu cyflawni yn eu priodol amser a'u trefn? —Nid oes dim angelion gweiniaid, (medd *Pool*,) ond efallai bod hwn yn ymddangos i Ioan yn gryfach na'r un angel a welsai efe o'r blaen; neu barnai efe ei fod felly.

3 * Ac [f]nid oedd neb yn y nef, nac yn y ddaear, na than y ddaear, † yn gallu agoryd y llyfr, ‡ nac edrych arno.

f adn. 13. Es. 40. 13, 14. a 41. 28. Rhuf. 11. 34.

* Gwedi i'r angel crŷf roddi y cyhoeddiad uchod, nid oedd *neb*, nac angel yn y nef, na dyn ar y ddaear, nac ysbryd dyn yn yr ystâd wahanol, yr hwn yr oedd ei gorph yn gorwedd dàn y ddaear, † a allai hòni hawl i anrhydedd mòr fawr ag agoryd y llyfr, ‡ na chymmaint ag edrych ar un linell na gair o hóno, o ran cael y deall lleiaf i'r llyfnion bethau Duw, oedd yn gynnwysedig ynddo. Safodd pawb yn fud ac mewn syndod, gan hollawl ideimlad o'u llwyr annheilyngdod a'u hanallu i'r fath beth; angelion y nef, dynion y ddaear, a'r hen batriarchiaid a'r prophwydi enwocaf, y rhai yr oedd eu cyrph dàn y ddaear, ac ysbrydion uffernol hefyd; nid oedd neb a allai ateb i'r angel crŷf a'i genadwri.

4 * Ac mi a wylais lawer, [g] † o achos na chaed neb yn deilwng i agoryd, ‡ ac i ddarllen y llyfr, ‖ nac i edrych arno.

g pen. 4. 1. Dan. 12. 8, 9.

* Pan wybu Ioan hyn, efe a "wylodd lawer," ac a dòrodd allan mewn ffrydiau o ddagrau gofidus; † o achos na chaed neb yn deilwng i agoryd y llyfr, i gymmeryd arno y gorchwyl o ddatguddio dirgel fwriadau Duw, yn mherthynas i'r eglwys yn y byd hwn, hyd oni ogoneddid hi mewn byd gwell; ‡ yr hyn oedd amlwg wrth na chaed neb yn yr holl grëadigaeth, a allai ddattod seliau, a darllen y llyfr arwydd-luniol hwn; ‖ na chymmaint ag edrych arno i ddeall dim o hóno, er ei hysbysu iddo ef ac eraill.—Gwyddai Ioan fod yn y llyfr hwn bethau yn perthyn yn agos iddo ef a'r eglwys, ac wylai lawer pan dybiodd na chaid neb i ddatguddio y pethau hyny.

5 * Ac [h] un o'r henuriaid a ddywedodd wrthyf, [i] Nac wyla; † wele, [k] y Llew yr hwn sydd o lwyth Juda, [l] ‡ Gwreiddyn Dafydd, [m] ‖ a orchfygodd § i agoryd y llyfr, ac i ddattod ei saith sel ef.

h pen. 4. 4, 10. a 7. 13. i Jer. 31. 16. Luc 7. 13. a 8. 52. a 23. 28. Ioan 20. 13. k Gen. 49. 9, 10. Num. 24. 9. Heb. 8. 14. l pen. 22. 16. Es. 11. 1, 10. Jer. 23. 5, 6. Rhuf. 1. 3. a 15. 12. m pen. 1. 1. a 6. 1.

* Yn y cyfyngder athrist uchod, gwelai Ioan fod un o'r henuriaid y sylwyd arnynt o'r blaen, yn canfod ei ofid a'i ddagrau ef, ac yn dywedyd wrtho er ei gysur mawr, † fod y "Llew o lwyth Juda," yr hwn fel Duw anfeidrol sydd goruwch pob crëadur, ‡ ac yn Wreiddyn Dafydd, neu ei had ef, o ran y cnawd; ‖ wedi gorchfygu pob rhwystrau, ac yn ddigon teilwng ac anrhydeddus wedi ei holl ddarostyngiad, § i agoryd y llyfr, ac i ddattod ei saith sel ef; ac felly dwyn i'r golwg i wasanaethwyr Duw, ei holl ddirgelion pwysig a gogoneddus ef.—Mae hen draddodiad cyffredin, fod llun llew ar faner Juda, pan oedd cenedl Israel yn gwersyllu ac yn teithio yn yr anialwch; ond tybia rhai o'n Hawdwyr nad oedd hyny ddim mewn un modd yn debyg, rhag yr aethai y genedl drwy bethau felly i eilun-addoliaeth: "Na wna i ti ddelw gerfiedig, na *llun dim*," oedd orchymyn caeth iddynt hwy. Ond eto, yr oedd Crist wedi hànu o Juda o ran y cnawd, a phrophwydasai Jacob am dano dàn y gymhariaeth o "Lew," wrth fendithio y llwythau. (Gen. 49. 9.) Yr oedd efe yn anfeidrol goruwch pawb o lwyth Juda mewn mawredd a nerth; ac mae efe yn ofnadwy iawn i'w elynion cyndyn, yn drugarog wrth y rhai a ymostyngant iddo, ac yn warcheidwad ei holl bobl; fel ag mae yr enw hwn yn nodedig o briodol iddo.—Gelwir ef hefyd yn "Wreiddyn Dafydd:" yn ei natur ddynol yr oedd efe yn "Blanigyn enwog," wedi blaguro o wreiddyn gwywedig teulu brenhinol Dafydd; ac o ran ei Dduwdod, yr oedd efe yn WREIDDYN o ba un yr oedd Dafydd ei hun wedi blaguro; ac fel Messiah, yr oedd efe yn Anrhydedd a Gwreiddyn holl fawredd ac awdurdod y teulu enwog hwnw.

6 * Ac mi a edrychais; ac wele, [n] y'nghanol yr orsedd-faingc a'r pedwar anifail, ac y'nghanol yr henuriaid, † *yr oedd* [o] Oen yn sefyll megis wedi ei ladd, ‡ a chanddo [p] saith gorn, ‖ a [q] saith lygad, § y rhai ydyw [r] Ysbryd Duw, wedi eu danfon allan i'r holl ddaear.

n Gwel ar pen. 4. 4—6. o adn. 9, 12. pen. 6. 16. a 7. 9—17. a 12. 11. a 13. 8. a 17. 14. a 21. 23. a 22. 1, 3. Es. 53. 7, 8. Ioan 1. 29, 36. Act. 8. 32. 1 Pedr 1. 19, 20. p 1 Sam. 2. 10. Dan. 7. 14. Mica 4. 13. Hab. 3. 4. Luc 1. 69. Phil. 2. 9—11. q 2 Cron. 16. 9. Zec. 3. 9. a 4. 10. r Gwel ar pen. 4. 5.

* Tra yr oedd yr henuriad yn mynegi i Ioan, fod Crist wedi gorchfygu i agoryd y llyfr; efe a edrychodd, ac a welodd er ei syndod, fod yn agos i'r orsedd-faine, ac yn nghanol y cylch a wnaid gan y pedwar anifail a'r henuriaid; † "Oen yn sefyll megys wedi ei ladd," gydag ôl yr archollion marwol arno, er ei fod wedi ei adferu i fywyd mewn modd rhyfeddol iawn. Yr oedd hyn yn ddangosiad arwydd-luniol o Arch-offeiriadaeth y Gwaredwr, ger bron Duw, yn ein natur ni, fel wedi adgyfodi o feirw trwy deilyngdod ei aberth mawr, i ymddangos ger bron Duw ar ran y rhai oll a ddeuant trwyddo ef at y Tad: felly mewn canlyniad i'r iawn hwnw, yr hwn a rag-ddangosid o'r dechreuad trwy aberthu wyn difai, y gorchfygodd efe i agoryd y llyfr. Wrth ei fod ef yn sefyll rhwng y pedwar anifail â'r henuriaid a'r orsedd-faine, dangosir ei fod ef yn Gyfryngwr rhwng yr holl eglwys a'i gweinidogion â Duw, ac yn eiriol drostynt oll. ‡ Yr oedd "saith gorn"-yr Oen hwn yn dangos ei nerth a'i awdurdod ef, i ddiogelu ei bobl, i ddrygu ei elynion, ac i gyflawni holl ewyllys Duw, yn ei deyrnas gyfryngol ef. ‖ Y "saith lygad" oedd yn arwyddo ei wybodaeth bersonol ef o galonau pawb, ac o bob dygwyddiadau; ac yn enwedig y trysorau o ddoethineb a roddes y Tad ynddo ef fel Prophwyd mawr, i'w gyfranu i'r holl eglwys, § trwy saith Ysbryd Duw, wedi eu danfon allan i'r holl ddaear; hyny yw, yr Ysbryd Glân yn amrywiaeth a chyflawnder ei ddoniau, wedi ei roddi trwyddo ef i ddatguddio gwirionedd ac ewyllys Duw, i apostolion a phrophwydi, fel yr ysgrifenid hwy er addysg i ddynolryw; ac i oleuo deall a pharotôi calonau ei bobl yn mhob màn, i dderbyn yr addysgiadau hyny.—Felly y sylwa *Scott*, air yn air, am "saith Ysbryd Duw;" ac âg ef y cytuna *Pool* a *Guyse;* ond tybia *Doddridge* mai saith o *angelion crëedig*, a feddylir yma wrth saith Ysbryd Duw. Dychymmyga rhai dynion enwog, fod *saith o arch-angelion*, goruwch y lleill i gyd; ac mai y rhai hyny a feddylir yma: ond "gwybodaeth rŷ ryfedd i ni" yw hyn, ac i'r enwogion hyny hefyd, mae yn debyg.

7 * Ac efe a ddaeth, † ac a gymmerth y llyfr [s] o ddeheulaw yr hwn oedd yn eistedd ar yr orsedd-faingc.

s adn. 1.—Gwel ar pen. 4. 2, 3.

* Yn nesaf, gwelai Ioan yr Arglwydd Iesu, y "Llew o lwyth Juda," yr "Oen wedi ei ladd," yn nesâu yn hyderus i ymyl yr orsedd-faine, † ac yn cymmeryd y llyfr o ddeheulaw y Tad, yr hwn oedd yn eistedd ar yr orsedd-faine; yr hwn a'i *rhoddai* iddo, fel arwydd ei fod yn rhoddi iddo ef bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear; ac yntau yn ei *dderbyn*, fel yn arwydd ei fod yn alluog ac yn ewyllysgar i amlygu y pethau oedd ynddo, ac i ofalu am eu cyflawni hwynt oll, yn eu hiawn bryd a'u trefn, yn ol yr arfaeth dragywyddol.

8 * A phan gymmerth efe y llyfr, [t] y pedwar anifail a'r pedwar henuriad ar hugain a syrthiasant ger bron yr Oen; [u] † a chan bob

un o honynt yr oedd telynau, [x] ‡ a phïalau aur, yn llawn o arogl-darth, ‖ y rhai ydyw [z] gweddïau y saint.

t adn. 14.—Gwel ar pen. 4. 4, 10.—a 7. 10—12. a 19. 4. Ioan 5. 23. Rhuf. 14. 10—12. Phil. 2. 9—11. Heb. 1. 6. u pen. 14. 2, 3. a 15. 2. Salm 33. 2. a 43. 4. a 81. 2. a 101. 3. x pen. 15. 7. y pen. 8. 3, 4. Salm 141. 2.

* Pan gymmerth Crist y llyfr, a phan oedd yn darpar i agoryd ei seliau ef, y pedwar anifail a'r pedwar henuriad ar hugain, y rhai o'r blaen a syrthiasent ger bron y Crëawdwr mawr, a syrthiasant yn awr yr un modd ger bron yr Oen, Mab Duw wedi ymgnawdoli, fel Iachawdwr pechaduriaid; ac felly rhoddent addoliad ac anrhydedd dwyfol iddo ef, hyd yn nôd ger bron, ac yn ngŵydd, y Tad a'i ogoniant dangosedig. † Gyda chyfeiriad at beroriaeth a chaniadau y deml gynt, yr oedd "gan bob un o honynt delynau," neu delyn gan bob un; yr hyn oedd yn arwyddo eu caniadau peraidd o fawl a dïolch, i'r hwn oedd ar yr orsedd ac i'r Oen. (adn. 9, 10.) ‡ Mewn cyfeiriad at wasanaeth y deml eto, yr oedd ganddynt oll "phïalau aur," neu thuserau bychain, neu gwpanau; "yn llawn o arogl-darth;" ‖ yr hyn oedd yn arwyddo cymmeradwyad gweddïau y saint, trwy eiriolaeth Crist, a thrwy ddylanwadau ei Ysbryd sancteiddiol ef. Yr oedd y gweddïau hyn yn cael eu cyflwyno gan y crëaduriaid byw a'r henuriaid, fel y byddai gweddïau Israel yn cael eu hoffrymu, tra byddai yr offeiriaid yn arogl-darthu yn y cyssegr. Oblegid er mai y nef yw yspaith *(scene)* y gweledigaethau hyn, eto mae ynddynt gyfeiriad o hyd at y deml a'i haddoliad; a chyfeirir ynddynt oll yn neillduol, at ystâd yr eglwys ar y ddaear: ac fel hyny nid oes yma un sail i'r cyfeiliornad pabaidd, o gyfryngdod ac eiriolaeth y saint yn y nef ar ran y duwiolion ar y ddaear; oblegid ar y ddaear y rhaid golygu pawb yma, y pedwar anifail a'r henuriaid, yn gystal a'r "saint" yn niwedd yr adnod.

9 * A hwy a [z] ganasant ganiad newydd, † gan ddywedyd, [a] Teilwng wyt ti i gymmeryd y llyfr, ac i agoryd ei seliau ef: [b] ‡ oblegid ti a laddwyd, [c] ‖ ac a'n prynaist ni i Dduw trwy dy waed, [d] § allan o bob llwyth, ac iaith, a phobl, a chenedl;

z pen. 7. 10—12. a 14. 3. Salm 33. 3. a 40. 3. a 96. 1. a 98. 1. a 144. 9. a 149. 1. Es. 42. 10. a Gwel ar adn. 2, 3. pen. 4. 11. b adn. 6, 12. pen. 13. 8. c pen. 14. 6. Mat. 20. 28. a 26. 28. Act. 20. 28. Rhuf. 3. 24—26. 1 Cor. 6. 20. a 7. 23. Eph. 1. 7. Col. 1. 14. Tit. 2. 14. Heb. 9. 12—14. 1 Pedr 1. 18, 19. 2 Pedr 2. 1. 1 Ioan 1. 7. a 2. 2. d pen. 7. 9. a 11. 9. a 14. 6. Dan. 4. 1. a 6. 25. Marc 16. 15, 16. Col. 1. 23.

* A hwy a unasant oll mewn cân o fawl a chlodforedd, yr hon ydoedd nid yn unig yn gân o'r fath ragoraf; ond yr oedd hefyd yn *newydd*, o ran yr achlysur a'r cyfansoddiad o hóni: yn addas i'r achos gorfoleddus presenol, ac i oruchwyliaeth newydd yr efengyl. Oblegid yr oedd eglwys yr Hen Destament yn canu mawl JEHOFAH, eu Gwaredwr o'r Aipht, ac yn blaen-ganfod y Messïah dysgwyliedig: ond yr oedd eglwys y Testament Newydd yn addoli Crist, fel wedi dyfod mewn gwirionedd, fel wedi gorphen ei waith ar y ddaear trwy ei aberth ar y groes, ac fel wedi myned i mewn i'w ogoniant cyfryngol. † Am hyny efe, ac efe yn unig, oedd yn deilwng ac yn berffaith addas, i gymmeryd y llyfr, i agoryd ei seliau ef, ac i ddatguddio cyngor a bwriadau Duw i ddynion. ‡ Oblegid efe a ddaeth yn ddyn, a "wnaethpwyd yn gnawd," ac a "ymddangosodd yn y cnawd;" ac, er gogoniant Duw, ac iachawdwriaeth dynion, efe a'i rhoddodd ei hun yn ewyllysgar i'w ladd yn Aberth: ‖ ac felly a brynodd yr addolwyr hyn, yn nghyd â'r holl eglwys a gynnrychiolid ganddynt, i Dduw trwy ei waed gwerthfawr, aberthol, a chymmodlonawl; fel y dygai efe hwynt mewn heddwch, ac yn addolwyr cymmeradwy ato ef; § ac y casglai hwynt trwy yr efengyl a nerth ei ras, "allan o bob llwyth, ac iaith, a phobl, a chenedl."—Mae yn amlwg bod y pedwar anifail yn gystal a'r henuriaid, yn cytuno, neu yn hytrach yn blaenori, yn y gân hon o fawl i'r Oen, fel wedi eu prynu *hwynt;* gan hyny, rhaid mai *dynion*, ac nid *angelion*, a ddylem ddeall wrthynt: cawn gân yr angelion ar ol hyn, (adn. 11, 12.) ond mewn ymadroddion pur wahanol i'r gân hon; nid oes yno ddim sôn am eu *prynu* hwy. Rhaid bod y cantorion hyn yn cynnrychioli yr holl eglwys fawr hefyd; oblegid nid oedd ond wyth ar hugain oll o honynt hwy, ac nis gallasai hyny ddywedyd eu bod allan o bob llwyth, ac iaith, a phobl, a chenedl, heb eu bod yn cynnrychioli yr eglwys oll.

10 * Ac a'n gwnaethost ni i'n Duw ni, [e] yn frenhinoedd, † ac yn offeiriaid: [f] ‡ ac ni a deyrnaswn ar y ddaear.

e pen. 1. 6. a 20. 6. a 22. 5. Ex. 14. 6. 1 Pedr 2. 5—9. f pen. 20. 6. Dan. 7. 18, 27.

* Trwy y prynedigaeth uchod, dyrchafodd Crist hwynt i anrhydedd a mawredd, fel breninoedd i'w Duw cymmodol; yr hyn a arwyddid drwy y "coronau aur" oedd ganddynt ar eu penau: (pen. 4. 4.) † a gwnaeth hwy yn offeiriaid i Dduw; i'w addoli a'i wasanaethu yn sanctaidd yn yr eglwys ar y ddaear, ac yn y nefoedd byth: ‡ ac fel hyn yr oeddynt yn sicr, y caent hwy yr oruchafiaeth ar eu gelynion personol, ac ar elynion yr eglwys, hyd yn nôd ar y ddaear, yn gystal a theyrnasu gyda Christ byth yn y nef; ac yr oedd yn sicr ganddynt, y byddai i'w hachos hwy a Christ, fuddugoliaethu yn y diwedd ar y ddaear. Barnu y byd gyda Christ yn y dydd diweddaf, mae rhai yn deall wrth "deyrnasu ar y ddaear:" mae pob un o'r ddau olygiad yn wir.

11 * Ac mi a edrychais, ac a glywais lais [g] angelion lawer ynghylch [h] yr orsedd-faingc, † a'r anifeiliaid, a'r henuriaid: ‡ a'u rhifedi hwynt [i] oedd fyrddiynau o fyrddiynau, a miloedd o filoedd;

g pen. 7. 11. 1 Bren. 22. 19. 2 Bren. 6. 16—18. Salm 103. 20. a 148. 2. h Gwel ar pen. 4. 4, 9, 10. i pen. 19. 6. Deut. 33. 2. Salm 68. 17. Dan. 7. 10. Heb. 12. 22.

* Tra yr oedd y ganiad newydd uchod yn cael ei chânu, gan gynnrychiolwyr y gwaredigion, i'w Gwaredwr dwyfol; "edrychai" Ioan, a "chlywai lais angelion lawer yn nghylch yr orsedd-fainc," † ac *oddi allan* yn nghylch yr anifeiliaid, (neu y pedwar peth byw,) a'r henuriaid: ‡ ac yr oedd eu "rhifedi hwynt yn fyrddiynau o fyrddiynau, a miloedd o filoedd;" hyny yw, yn dyrfa fawr iawn, nas gellid eu cyfrif: gwel y cyffelyb yn Dan. 7. 10.—Mae yn amlwg fod yr *angelion* hyn yn *ymddangos* yn *weledig* i Ioan, yn gystal â'r *anifeiliaid:* ond mae efe yn gwahaniaethu yn amlwg rhyngddynt; ysbrydion pur anghorphorol oedd yr angelion, a dynion oedd yr anifeiliaid, neu a ddylid ddeall wrthynt: ac yr oeddynt *yn nghylch* yr anifeiliaid a'r henuriaid, yn gylch oddi allan iddynt. Fel hyn yr oedd Duw ar yr orsedd, yr Oen yn ymyl yr orsedd, y pedwar anifail yn nesaf at hyny, yna y pedwar henuriaid ar hugain yn gylch o amgylch, ac yn olaf oll, y myrddiynau o angelion yn cylchu y cwbl oddi allan.

12 * Yn dywedyd â llef uchel, [k] Teilwng yw yr Oen yr hwn a laddwyd [l] i dderbyn gallu, † a chyfoeth, ‡ a doethineb, a chadernid, ac anrhydedd, a gogoniant, a bendith.

k Gwel ar adn. 9. Zec. 13. 7. l pen. 4. 11. a 7. 12. a 19. 1. Mat. 28. 18. Ioan 3. 35, 36. a 17. 2. 2 Cor. 8. 9. Phil. 2. 9—11. 1 Tim. 1. 17.

* Er mòr wahanol crëaduriaid oedd yr angelion i'r anifeiliaid a'r henuriaid, er cymmaint oedd eu rhifedi ac er eu bod hwy yn berffaith erioed, a'r lleill wedi eu prynu oddi wrth anwiredd, melltith, a cholledigaeth; eto, yr oeddynt oll yn cyd-gordio yn berffaith yn y gân hon, ac yn dywedyd â llef uchel, bod yr Oen yr hwn a laddesid er prynu dynion pechadurus, yn "deilwng i dderbyn gallu," yn ei swydd gyfryngol, ac yn y natur ddynol, ar bob crëadur yn y nef ac ar y ddaear; † ac yn

lwng o dderbyn "cyfoeth," sef holl drysorau gras a gogoniant, i'w rhoddi i'w bobl; ‡ ac ei fod ef yn deilng i dderbyn pob "doethineb, a chadernid, ac anrhydedd, a gogoniant, a bendith," fel unig Wrthddrych awr pob addoliad, mawl, diolch, ac anwylaf gariad. Ac yma saith o bethau yn cael eu henwi, ac y dywedfod yr Oen yn deilwng o honynt; a mŷn rhai fod w gyfatebolrwydd yn y pethau hyn i'r "saith Ysbryd w," a grybwyllwyd o'r blaen yn y llyfr hwn: (pen. 3. a 4. 5.) ond efallai nad oes dim yn hyny, ond wrain ddychymmyg dynion.

13 * A [m] phob creadur a'r sydd yn y nef, ar y ddaear, a than y ddaear, a'r [n] pethau dd yn y môr, ac oll a'r sydd ynddynt, a ywais i yn dywedyd, [o] † I'r hwn sydd yn stedd ar yr orsedd-faingc, [p] ac i'r Oen, ‡ *y ddo* [q] y fendith, a'r anrhydedd, a'r gogoniant, gallu, yn oesoedd.

m adn. 3. pen. 7. 9, 10. Salm 96. 11—13. a 148. 2—13. Luc 2. Phil. 2. 10. Col. 1. 23. n Es. 24. 14. a 42. 10. o adn. 12. 1. 6. 1 Cron. 29. 11. Salm 72. 18, 19. Mat. 6. 13. Rhuf. 11. a 16. 27. Eph. 3. 21. 1 Tim. 6. 16. 1 Pedr 5. 11. Judas 25. Gwel ar pen. 4. 2, 3. q Gwel ar adn. 6, 9.—pen. 6. 16. a 7. 10.

* Gyda hyn clywai Ioan bob crëadur a'r oedd yn y lf, ac ar y ddaear, ac eneidiau y rhai yr oedd eu rph dàn y ddaear, neu yn y môr; ïe, clywai holl grëadiaid y bydysawd, yn ol eu gwahanol alluoedd, yn nuno â'r angelion, yr anifeiliaid, a'r henuriaid, † i iodoli i'r Tad, yr hwn oedd ar yr orsedd-faine, ac i'r en, yr hwn sydd Dduw o'r un hanfod â'r Tad; ‡ "y ndith, a'r anrhydedd, a'r gogoniant, a'r gallu, yn oes soedd." Yma mae yr Oen yn cael ei addoli fel y ad, a hyny gan yr holl grëaduriaid yn gytun; o enych y drydedd nef, hyd ddyfnder daear a gwaelodion ôr: nid oes yma neb yn eisiau ond gelynion Duw, a'r ai a wadant Dduwdod ac aberth ei Fab ef: y rhai hyn wir yn ol natur yr achos, ac yn ol holl rediad yr ysythyr, yn gystal ag yn ol gweledigaethau eraill yn y fyr hwn, a gauir allan; ond bydd raid iddynt hwythau fyd, er o'u hanfodd, ymostwng i Grist, a chael eu osod dàn ei draed ef.—Dywed Paul fod y "crëadur edi ei ddarostwng i oferedd," a "chaethiwed llygredaeth," a bod pob crëadur yn cyd-ocheneidio ac yn d-ofidio hyd y pryd hwnw," o herwydd effeithiau echod dyn yn ddiammau: ac yma darlunir yr holl rëaduriaid, ïe, yr holl grëadigaeth fawr ei hun, fel yn orfoleddu ac yn bendithio Duw a'r Oen, am yr ymwari grasol a gogoneddus oedd i ddyfod i'r byd, trwy ynedigaeth ac iachawdwriaeth fawr y Cyfryngwr. echreuwyd y gân gan y pedwar anifail, debygem; adn. 8.) yna y pedwar henuriad ar hugain, yna y yrddiynau o angelion, ac yn olaf gan y crëaduriaid ll. Dechreuodd o amgylch yr orsedd, yn fuan iawn mdaenodd trwy y nef i gyd; a chyn pen hir hi a ymfiodd trwy holl grëadigaeth Duw: "o eithafoedd y llaear y clywyd caniadau, sef gogoniant i'r Cyfiawn."

14 [r] * A'r pedwar anifail a ddywedasant, men. [s] † A'r pedwar henuriad ar hugain a yrthiasant i lawr, ac a addolasant yr hwn sydd n byw yn oes oesoedd.

r pen. 19. 4. s Gwel ar pen. 4. 10, 11.

* Dyma'r pedwar peth byw, cynnrychiolwyr gweinogion yr eglwys, y rhai a ddechreuasent y gân, (adn.) yn dywedyd Amen yn llawen, ac o'u calonau; wrth ywed yr holl eglwys, yr holl nefoedd, a'r holl grëadigeth, wedi eu hennyn i ganmol Duw a'i anwyl Fab: iddo ef y byddo'r fendith," &c., ebai y crëaduriaid; Amen," felly y byddo, ebai y pedwar anifail. † "A'r edwar henuriad ar hugain," cynnrychiolwyr corph yr glwys fawr ei hun, gan gyd-syniaw yn hollawl â'r wbl, a syrthiasant i lawr yn ostyngedig barchus, ac a oisant addoliad diragrith i'r gwir Dduw, ac i'r Oen eu waredwr; yr hwn yn undeb y Tad a'r Ysbryd sydd yn yw yn oes oesoedd.

PEN. VI.

Agoryd y seliau, y naill ar ol y llall.

* AC mi a welais [a] pan agorodd yr Oen un o'r seliau, † ac mi a glywais [b] un o'r pedwar anifail yn dywedyd, fel [c] trwst taran ‡ Tyred, a gwel.

a Gwel ar pen. 5. 5—7. b pen. 4. 5. a 10. 3, 4. a 11. 12 c adn. 3, 5, 7. pen. 4. 6, 7. Act. 4. 20.

* Yn fuan wedi i'r Oen gymmeryd y llyfr o ddeheulaw yr hwn oedd yn eistedd ar yr orsedd-fainc, gwelai Ioan ef yn ei weledigaeth, yn agoryd un o'r seliau, sef y gyntaf: † a chyda hyny efe a glywai un o'r pedwar anifail, sef y cyntaf o honynt, mae yn debyg, yr hwn oedd "debyg i lew," (pen. 4. 7.) yn dywedyd wrtho ef â llais crŷf fel "trwst taran," ‡ "Tyred, a gwel;" 'nesâ yma, a gwel yr hyn sydd yn dyfod i'r golwg yn y rhan hyn o'r llyfr, neu y rhòl, sydd yn awr yn agored.'—Tybir yn gyffredin, medd *Scott*, fod y bennod hon yn cyfeirio at y pethau a gymmerasant le, o amser y weledigaeth hyd sefydliad Custenyn Fawr ar orsedd Amherodrawl Rhufain, fel yr Amherawdwr cristionogol cyntaf; trwy yr hyn y rhoed terfyn ar erledigaethau Rhufain Bagan aidd, ac y daeth cristionogaeth i fod yn grefydd sefydledig a noddawl, trwy yr holl Amherodraeth. A dywed *Doddridge* fod y *sel gyntaf* hon yn cyfeirio at fuddugoliaeth y grefydd gristionogol ar wrthwynebiadau Iuddewig a Phaganaidd, trwy lafur ei gweinidogion cyntaf hi.

2 * Ac mi a welais; ac wele [d] farch gwŷn: [e] † a'r hwn oedd yn eistedd arno, ‡ â bwa ganddo; [f] ‖ a rhoddwyd iddo goron: [g] § ac efe a aeth allan yn gorchfygu, ac i orchfygu.

d pen. 19. 11, 14. Zec. 1. 8. a 6. 3. e Salm 45. 3—5. f pen. 14. 14. a 19. 12. Zec. 6. 11—13. Mat. 28. 18. g pen. 11. 15, 18. a 15. 2. a 17. 14. Salm 98. 1. a 110. 2. Es. 25. 8. Rhuf. 15. 18, 19. 1 Cor. 15. 25, 55—57. 2 Cor. 10. 3—5.

* Yn y fàn ar agoriad y sel gyntaf, er ei fawr syndod, gwelai Ioan "farch gwŷn;" arwydd o fuddugoliaeth a llawenydd, ac o burdeb sanctaidd yr efengyl, ac ei bod yn genadwri heddwch oddi wrth Dduw at bechaduriaid. † A'r hwn oedd yn eistedd arno fel gŵr ardderchog, ac fel rhyfelwr cadarn, oedd yr Arglwydd Iesu ei hun: ‡ a gwelai Ioan fod "bŵa ganddo," o'r fath a ddefnyddid i ymladd gynt; arwydd-lun addas o nerth ei air a'i Ysbryd ef, yn trywanu fel saethau llymion i galonau ei elynion, un ai i'w lladd hwynt ger ei fron, neu i'w gwneyd yn bobl ewyllysgar yn nydd ei nerth. (Salm 45. 5; a 110. 3.) ‖ A rhoddwyd i'r marchogwr hwn goron ogoneddus ar ei ben; arwydd o fawredd breninol a buddugoliaeth: "o herwydd dyoddef marwolaeth," cafodd ei "goroni â gogoniant ac anrhydedd." (Heb. 2. 9.) § Ac efe a aeth allan yn gorchfygu pawb a'i gwrthwynebai yn y dechreu; ac i orchfygu yn barâus, nes darostwng ei holl elynion, llwyddo ei achos trwy yr holl fyd, a dwyn ei holl gaffaeliaid o law y cadarn i dragywyddol wŷnfyd a gogoniant.—Tybiodd rhai mai Amherodraeth Rhufain oedd y march gwŷn, ac mai yr Amherawdr *Trajan* oedd y marchogwr, yr hwn a ennillodd fuddugoliaethau enwog, mae yn wir, ar y cenedloedd o amgylch; ond beth oedd a fynai hyny âg achosion eglwys Crist? a chan mai *erlidiwr* y cristionogion oedd y *Trajan* hwnw, nid addas iawn oedd ei ddarlunio ef yn eistedd ar "farch gwŷn."

3 [h] * A phan agorodd efe yr ail sel, † mi a glywais yr ail anifail yn dywedyd, ‡ Tyred, a gwel.

h Gwel ar adn. 1.

* Yma gwelodd Ioan yr Arglwydd Iesu yn agoryd yr ail sel, i ddatguddio y rhan nesaf o'r llyfr; † a chyda ei hagoriad, efe a glywai yr ail anifail, yr hwn oedd debyg i lô, neu ŷch, (pen. 4. 7.) ‡ yn dywedyd wrtho fel yr un o'r blaen, "Tyred, a gwel:" 'nesâ i weled beth a ddatguddir o ragluniaeth fawr Duw, yn y rhan hon o'r llyfr.'

4 * Ac fe aeth allan [i] farch arall, *un* coch:

[k] † a'r hwn oedd yn eistedd arno, y rhoddwyd iddo gymmeryd heddwch oddi ar y ddaear, fel y lladdent eu gilydd: [l] ‡ a rhoddwyd iddo ef gleddyf mawr.

i pen. 12. 3. a 17. 3, 6. Zec. 1. 8. a 6. 2. k pen. 13. 10. Ex. 9. 16, 17. Es. 37. 26, 27. Ezec. 29. 18—20. Dan. 2. 37, 38. a 5. 19. Ioan 19. 11. l Salm 17. 13. Es. 10. 5, 6. Ezec. 30. 24, 25.

* A gwelodd Ioan farch arall yn myned allan, ond un coch ydoedd hwn, gwahanol iawn ei liw i'r march cyntaf, ac yn arwyddo goruchwyliaeth wahanol: † arwyddo heddwch yn benaf yr oedd hwnw, ond arwyddo rhyfel yr oedd hwn; oblegid yr hwn oedd yn eistedd arno fel gweithredydd rhagluniaeth Duw, rhoddwyd iddo gymmeryd heddwch oddi ar y ddaear, fel y terfysgai, yr ymladdai, ac y tywalltai dynion waed eu gilydd yn greulawn a didrugaredd: ‡ ac fel arwydd pellach o'r farn ddychrynllyd hon oddi wrth Dduw arnynt, rhoddwyd i'r marchogwr gleddyf mawr, offeryn rhyfel a thywallt gwaed.—Yn gyfatebol i'r weledigaeth brophwydol hon, mae haneswyr yn crybwyll am wrthryfeloedd, brwydrau gwaedlyd, lladdfèydd bradychus, a difrodion o'r fath mwyaf arswydus, a gymmerasant le rhwng y blynyddoedd 100 a 138 o oed Crist. Dywedir ddarfod cymmeryd a dinystrio 1,000 o ddinasoedd ac amddiffynfèydd yr Iuddewon yn yr amser hwnw, a chyfrifir i 580,000 o honynt gael eu lladd; ac mae yn ymddangos iddynt hwy gigyddio mwy na hyny o'r Rhufeiniaid a'r Groegiaid, yn y modd mwyaf creulawn a ffyrnig a ellir ei ddychymmygu. Fel hyn yr oedd y ddwy blaid o elynion Crist a'r efengyl, yr Iuddewon a'r paganiaid, megys yn ymdrech am y mwyaf â'u gilydd, i gyflawni ei ddialedd cyfiawn ef y naill ar y llall. Ac fel hyn "rhodd-wyd" i offerynau ei ddigofaint ef "gymmeryd heddwch oddi ar y ddaear", i annog dynion i ladd eu gilydd; ac yr oedd "cleddyf mawr," rhyfel a chelanedd, wedi ei "roddi" yn eu llaw hwynt. Tybia rhai i'r ystyr hwn barâu yn hwy nac y dywedwyd uchod. Addef yr Iuddewon eu hunain, iddynt golli y dau cymmaint o ddynion yn yr amser uchod, ag a ddaeth allan o'r Aipht: a mwy nag a gollasent trwy Nebuchadonozor, na Thitus chwaith, pan ddinystriwyd eu dinas: a dywed *Pool* i lawer o gristionogion gael eu rhoddi i farwolaeth y pryd hwn, yn mha ystyr y bu y drydedd a'r bedwaredd erledigaeth o'r deg, dàn Rufain Baganaidd.

5 * A phan [m] agorodd efe y drydedd sel, mi a glywais y trydydd anifail yn dywedyd, Tyred, a gwel. † Ac mi a welais; ac wele [n] farch du: ‡ a'r hwn oedd yn eistedd arno, [o] â chlorian ganddo yn ei law.

m Gwel ar adn. 1. pen. 4. 6, 7. a 5. 5, 9. n Zec. 6. 2, 6. o Lef. 26. 26. Galar. 5. 10. Ezec. 4. 10, 16.

* Ar agoriad y drydedd sel, clywai Ioan fel o'r blaen y trydydd anifail, yr hwn oedd ganddo wyneb fel dyn, yn dywedyd wrtho, "Tyred, a gwel:" 'nesâ yma, a gwel yr hyn a ddatguddir yn y rhan hyn o'r llyfr, am oruchwyliaeth ryfeddol nesaf Duw ar y byd.' † Gyda hyn gwelai Ioan yn eglur, ac wele farch du; arwydd-lun addas o ddrygfyd a galar: ‡ ac yr oedd y glorian yn llaw y marchogwr, yn arwyddo y byddai prinder mawr o ymborth yn yr amser y cyfeiriai y weledigaeth hon ato; fel ag y byddid yn pwyso ac yn mesur eu lluniaeth allan i ddynion gyda manylrwydd mawr, megys y gwnair ar fyrddau llongau pan fyddo yr ymborth yn brin. Mae rhai yn ystyried y glorian yn arwydd o *lawnder*, ac o *gyfiawnder manol a diduedd*, yr hwn a weinyddwyd yn nheyrnasiad *Severus*, a'i fab *Alexander*: eithr barn ein Hawdwyr oll ond *Pool*, yw, mai drudaniaeth a newyn a feddylir.

6 * Ac mi a glywais lais y'nghanol y pedwar anifail, yn dywedyd, Mesur o wenith er ceiniog; † a thri mesur o haidd er ceiniog; ‡ a'r olew a'r gwin, [p] na wna niwed iddynt.

p pen. 9. 4. Salm 76. 10.

* Ac i egluro y weledigaeth uchod i Ioan, efe a "glywai lais rhyw un yn nghanol y pedwar anifail," yn dywedyd, "Mesur o wenith er ceiniog," &c. Gallwn ni yn y wlad hon feddwl fod mesur o wenith er ceiniog yn arwyddo llawnder, ond barna tri o'n Hawdwyr fel arall: oblegid nid oedd y "mesur" a grybwyllir, yn ol y cyfrifiad manylaf, ond digon i wneuthur bara am ddiwrnod i ddyn, ïe, dim ond y dogn oedd yn ganiatâol i gaethwas; a'r geiniog, neu y *denarius*, (tua saith a dimai o'n harian ni) oedd cyflog cyffredin dyn am ddiwrnod. (Gwel ar Matth. 20. 2, &c.) Gan hyny os na allai dyn llawd ennill ond digon o fara iddo ei hun, heb ddim arall o angenrheidiau bywyd; pa mòr galed y rhaid ei bod hi arno i geisio cynnal teulu! † Dywedir yn wir fod yr "haidd" lawer yn rhatach, "tri mesur er ceiniog:" ond eto yr oedd yn llawer llai gwasanaethgar i wneyd bara; ac nis gallai y tlawd mewn unmodd gael ond prin cynnaliaeth, o'r ymborth gwaelaf, heb allu hebgor dim tuag at ddillad, ac angenrheidiau eraill bywyd. ‡ Eto rhoddwyd gorchymyn i gyflawnydd arwydd-luniol y ddedfryd hon, "na wnelai i'r olew ar gwin ddim niwed:" yr hyn a arwydda na byddai i ffrwythau y ddaear fethu yn hollawl; a bod Duw yn nghanol barn yn cofio trugaredd.—Tybia rhai duwinyddion fod y sel hon yn cyrhaedd o'r flwyddyn 138, hyd 193 o oed Crist; ond tybia eraill beth yn wahanol. Pa fodd bynag, nid oes dim gwahaniaeth o bwys rhyngddynt; a sonir yn hanesion y blynyddoedd hyny, am brinder, drudaniaeth, a newyn, amryw weithiau, trwy holl Amherodraeth Rhufain; pryd nis gallai holl ofal yr Amherawdwyr a'u gweinidogion, ond prin rhagflaenu ac attal y dychrynfèydd o newyn hollawl. Hon ydoedd farn arall, trwy yr hon yr ymladdai Crist yn erbyn erlidwyr ei eglwys. Wrth fod yr olew a'r gwin yn cael eu harbed, fel moethau a danteithion i'r mawrion, pryd yr oedd prinder *bara* ar y tlodion; yr oedd y farn yn ymddangos megys yn drymach, ac yn fwy annyoddefol, ar y werin dlodion oedd yn gorfod bod dàni: ac efallai yn ennyn terfysg a grwgnach yn erbyn y cyfoethogion.—"Mesur:" (*choinix*) ychydig mwy na'n *cwart* ni, medd *Scott*.

7 * A [q] phan agorodd efe y bedwaredd sel, mi a glywais lais y pedwerydd anifail yn dywedyd, † Tyred, a gwel.

q Gwel ar adn. 1, 35.

* Ar agoriad y bedwaredd sel, clywai Ioan "lais y pedwerydd anifail, yr hwn oedd debyg i eryr yn ehedeg," (pen. 4. 7.) yn dywedyd wrtho fel y lleill o'r blaen, † "Tyred, a gwel:" 'tyred yma, a gwel yr hyn a ddangosir i ti yn y rhan hon o'r llyfr.' Tybia rhai fod y meirch a'r marchogion a enwir yn y gweledigaethau hyn, wedi eu lluniadu ar ddail, neu lènau y llyfr, ac eu bod yn weledig i lygaid Ioan pan fyddai y llènau hyny, y naill ar ol y llall, yn cael eu hagor, neu eu dadroliaw: ond am fod *symmudiad*, a *llais*, yn cael eu priodoli iddynt, yn enwedig i'r "eneidiau dàn yr allor," (adn. 9.) tybia eraill mai nid ar ddalenau y llyfr yr oeddynt yn weledig; ond mewn rhyw fodd arall, un ai i lygaid corphorol neu i feddwl Ioan.

8 * Ac mi a edrychais; ac wele [r] farch gwelwlas: † ac enw yr hwn oedd yn eistedd arno [s] oedd Marwolaeth; ‡ ac yr oedd uffern yn canlyn gyd âg ef. ‖ A rhoddwyd iddynt awdurdod [t] ar y bedwaredd ran o'r ddaear, [u] § i ladd â chleddyf, * ac â newyn, † ac â marwolaeth, ‡ ac â bwystfilod y ddaear.

r Zec. 6. 3. s pen. 20. 13, 14. Es. 25. 8. Hos. 13. 14. Hab. 2. 5. 1 Cor. 15. 55. t pen. 8. 7—12. a 9. 15, 18. a 12. 4. u Lef. 26. 22—33. Jer. 15. 2, 3. a 16. 4, 16. a 43. 11. Ezec. 5. 15—17. a 14. 13—21.

* Ar agoriad y bedwaredd sel, gwedi i Ioan gael ei alw i weled, efe a welai farch gwelwlas, ac erchyll yn olwg arno, fel corph marw. † A hyny a arwyddai; canys "enw yr hwn oedd yn eistedd arno oedd Marw

aeth," neu Angau ei hun, yn marchogaeth fel buddoliaethwr ofnadwy. ‡ "Ac yr oedd uffern yn canlyn dag ef;" neu y bedd, ac ystâd y meirw; i gymmeryd afael yn y rhai a leddid ganddo; arwydd-lun addas wn o'r gwahanol farnau a enwir ar ol hyn; || a thrwy hai y dywedir roddi awdurdod i farwolaeth ac uffern y bedwaredd ran o'r ddaear; sef ar nifer fawr o'i rigolion, yn enwedig trwy holl Amherodraeth Rhuf. 1. Tybia rhai fod y sel hon yn cyrhaedd o'r flwydd- 193, hyd 270; ond tybia eraill nad oedd yn cynnwys ld 50 mlynedd o'r amser hyny. Pa fodd bynag, o wn yr ypsaid byraf, bu mwy nac ugain o amherawdrr Rhufeinig, y rhai dros ychydig a lywodraethasant da nerth mawr, a'r rhan fwyaf o honynt gyda gorymder a chreulondeb mawr, tra paâodd eu teyrnasd. § Bu hefyd yn yr ypsaid hyny dros ddeg ar gain o ormesiaid, *(usurpers)* yn ngwahanol barthau amherodraeth, y rhai a geisient yr orsedd trwy ryfel, a gollwyd trwy y *cleddyf* gyda thorfêydd o'u pleidwyr lynai wrthynt. Yn y terfysgoedd cartrefol hyny, a'r mrysonau ffyrnig o *fewn* gwahanol daleithiau yr amerodraeth, rhaid i "farwolaeth ar ei farch gwelw-las" dinystrio lluoedd dirfawr â'r "cleddyf." * Yr oedd y yfeloedd a'r terfysgoedd cyffredinol hyn, trwy gymeryd dynion ymaith o drin y ddaear, a dystrywio rwythau y ddaear lle byddent, o angenrheidrwydd yn rarotôi y ffordd i *newyn;* yr hwn oedd yn ffŷnu yn drwm wn yn mhob màn. † Yr oedd y fywioliaeth brin, el, ac afiach, trwy y newyn a'r eisiau hyn, yn naturiol n magu *haint,* yr hwn yn fynych a elwir *marwolaeth* an yr ysgrifenwyr dwyreiniol: a dywed haneswyr ysgedig, fod y fath haint dinystriol, am bymtheng lynedd yn ddibaid o'r amser uchod, yn difrodi amherdraeth Rhufain, ag na chlywyd am y fath yn haneseddiaeth un wlad yn y byd. ‡ Rhaid bod yr anrheithau hyn hefyd yn rhoddi cyfle i *fwystfilod y ddaear* i ynnyddu a blino y gweddill o'r trigolion: ac o ganlyned, yr ydym yn darllen eu bod yn gorfod ymladd â eleiddiaid, llewod, a dywalgwn, ac i laweroedd gael eu ifa gan y crëaduriaid hyny. Rhoddasent hwy lawer o anlynwyr Iesu i ymladd â'r crëaduriaid hyn, ac i gael u rhwygo ganddynt; ac yn awr daeth yr un farn arnynt wythau.

9 * A phan agorodd efe y bummed sel, † mi a welais dan yr allor [y] eneidiau y rhai a ll laddesid am air Duw, ‡ ac am y dystiolaeth oedd ganddynt.

x pen. 4. 13. a 14. 18. Lef. 4. 7. Ioan 16. 2. Phil. 2. 17. 2 Tim. 4. 6. y pen. 20. 4. 2 Cor. 5. 8. Phil. 1. 23. z pen. 1. 9. a 2. 13. a 11. 3—7. a 12. 11. a 19. 10. 2 Tim. 1. 8.

* Gwedi i bob un o'r pedwar anifail ddywedyd wrth oan, "Tyred, a gwel," ar agoriad y seliau o'r blaen, nid ww y rhagymadrodd hyny yma, ar agoriad y bummed el, nac ar agoriad y ddwy arall sydd i ganlyn. (adn. 2 2; pen. 8. 1.) † Mae yn y gweledigaethau hyn gyfeiriad o hyd at ymddangosiad y gogoniant dwyfol yn y yssegr, ac at ddefodau yr addoliad Iuddewig: o ganyniad, mae Ioan yma yn gweled "dàn yr allor eneidiau rhai a laddesid am gredu ac ufuddâu i air Duw, ‡ ac am y broffes a wnaethent, a'r dystiolaeth a ddygasent, i wirionedd yr efengyl. Yr oedd y rhai hyn yn ymddangos fel aberthau, megys newydd gael eu hoffrymu, ddangos eu cymdeithas â Christ yn ei ddyoddefiadau ef, a chymmeradwyaeth eu ffyddlondeb hyd angau, trwy i offrwm cymmodlawn ef: oblegid mae yn debyg mai allor y poeth-offrwm a feddylir; er bod rhai yn ei deall am allor aur yr arogl-darth, o fewn y cyssegr: y gyntaf a dybia *Scott,* a'r olaf a dybia *Pool* a *Guyse;* nid yw *Doddridge* yn sylwi pa'r un. Mae yn ymddangos fod yr eneidiau hyn yn cynnrychioli, nid yn unig y rhai a ddyoddefasent ferthyrdod cyn i Ioan gael y weledigaeth hon; ond hefyd yr holl dyrfa a laddwyd cyn yr amser prophwydoliaethol y cyfeirir ato, yn dechreu tua'r flwyddyn 270, o oed Crist. Tybir fod gweledigaeth y sel hon yn rhagddangosiad o erledigaeth ofnadwy yr eglwys dàn *Dioclesian* yr hon a gyrhaeddodd yn mhellach, ac oedd yn llawer mwy gwaedlyd, na'r un erledigaeth a fu o'i flaen ef. Paâodd yn ei ffyrnigrwydd am ddeng mlynedd; dywedir i'r creulawn hwnw ladd 17,000 mewn 30 diwrnod, yn yr Aipht yn unig, yn nechreu ei deyrnasiad; ac yn ypsaid y deng mlynedd, iddo ladd 144,000 o ddynion: felly iawn y gallasai y cristionogion alw ei amser ef yn "Oes y merthyron."

10 * A [a] hwy a lefasant â llef uchel, gan ddywedyd, [b] Pa hyd, Arglwydd, [c] sanctaidd a chywir, [d] † nad ydwyt yn barnu, ‡ ac yn dial ein gwaed ni ar y rhai sydd yn trigo ar y ddaear?

a Gen. 4. 10. Salm 9. 12. Luc 18. 7, 8. Heb. 12. 24. b Salm 13. 1. a 35. 17. a 74. 9, 10. a 94. 3, 4. Dan. 8. 13. a 12. 6. Zec. 1. 12. c Gwel ar pen. 3. 7.—a 15. 3, 4. d pen. 11. 18. a 16. 5—7. a 18. 20, 24. a 19. 2. Deut. 32. 36—43. Barn. 16. 28. 1 Sam. 24. 12. Salm 58. 10, 11. Es. 61. 2. a 63. 1—6. Luc 21. 22. Rhuf. 12. 19. 2 Thes. 1. 6—8.

* Clywai Ioan yr eneidiau hyn oll yn llefain â llef uchel, ac yn gofyn i'r Arglwydd sanctaidd a chywir, neu sanctaidd a ffyddlawn, pa hyd y goddefai efe sarâd yr erlidwyr, † cyn dechreu barnu eu hachos hwynt, a barnu eu gelynion, ‡ trwy ddial gwaed ei ferthyron ar y rhai oedd yn trigo ar y ddaear, trwy ddymchwel awdurdod erledigaethus Rhufain Baganaidd. Hyn ydoedd iaith eu *zêl* hwynt dros anrhydedd Duw, a'u dymuniad am lwyddiant a thaeniad yr efengyl. Pa bryd daw yr amser i ti roddi attaliad ar eu cynddeiriogrwydd hwynt, ac i ddyrysu eu hamcanion drygionus, fel nas gallont fyned rhagddynt yn mhellach i lofruddio dy saint a'th weision di o herwydd yr efengyl?

11 * A [e] gynau gwŷnion a roed i bob un o honynt; † a dywedwyd wrthynt, [f] ar iddynt orphwys etto ychydig amser, [g] ‡ hyd oni chyflawnid *rhif* eu cyd-weision, a'u brodyr, y rhai oedd i gael eu lladd, megis ag *y cawsent* hwythau.

e Gwel ar pen. 3. 4, 5.—a 7. 9, 14. f pen. 14. 13. Es. 26. 20, 21. Dan. 12. 13. g pen. 7. 14. a 13. 15. a 17. 6. Mat. 10. 21. a 23. 34, 35. Ioan 16. 2. Heb. 11. 40.

* Yr oedd y gŷnau gwŷnion a roed i bob un o honynt, yn arwyddo eu cyfiawnder, eu sancteiddrwydd, a'u purdeb; eu cymmeradwyaeth gyda Duw, ac eu bod wedi cael eu derbyn yn union-gyrchol ar eu marwolaeth i ystâd o berffaith ddedwyddwch. † Ond yn ateb i'w gofyniad yn adn. 10, dywedwyd wrthynt ar iddynt "orphwys," a dysgwyl "eto ychydig amser," am ddial eu gwaed; ‡ am fod llawer eraill o'u brodyr a'u "cyd-weision," y rhai oedd i gael eu lladd, megys ag y cawsent hwythau, cyn y caffai bwriad Duw o ddial ar eu gelynion ei gyflawni. Rhaid iddynt fod yn dawel i oruchwyliaeth rhagluniaeth Duw am ychydig yn hŵy, a phan gyflawnid rhif eu cyd-ferthyron yn yr oes hòno, dialai Duw eu gwaed hwy ar eu gelynion yn sicr yn ei amser ei hun. 'Cyfeirir yma, yn fwyaf union-gyrchol,' medd *Guyse,* 'at yr erledigaeth boeth ond bèr dàn *Dioclesian,* yr hon oedd yr olaf o'r eiddo Rhufain Baganaidd; ac oedd i gael ei therfynu trwy i *Custenyn* Fawr ddyfod i'r Amherodraeth, a gorchfygu pob gwrthwynebiadau, yn ei fuddugoliaeth ar *Licinius,* tua'r flwyddyn 323.'

12 * Ac mi a edrychais pan agorodd efe y chweched sel; † ac wele [h] bu daear-gryn mawr; [i] ‡ a'r haul a aeth yn ddu fel sachlen flew, || a'r lleuad a aeth fel gwaed.

h pen. 8. 5. a 11. 13. a 16. 18. 1 Bren. 19. 11—13. Es. 29. 6. Amos 1. 1. Zec. 14. 5. Mat. 24. 7. a 27. 54. a 28. 2. i Es. 13. 9, 10. a 24. 23. a 60. 19, 20. Ezec. 32. 7, 8. Joel 2. 10, 30, 31. a 3. 15. Amos 8. 9. Hag. 2. 6, 7, 21, 22. Mat. 24. 29. a 27. 45. Marc 13. 24, 25. a 15. 33. Luc 23. 44, 45. Act. 2. 19, 20.

* A phan agorodd y Llew o lwyth Juda y chweched sel, edrychodd Ioan, a gwelai arddangosiad o'r cyffro a'r terfysg mwyaf dychrynllyd ac arswydus, fel pe buasai holl anian yn y berw a'r cynhwrf cryfaf, ac oll ar ymddattod. † Ymddangosai iddo ef fel pe buasai yr

holl bellen ddaearol yn siglo ac yn crynu drwyddi, ac yn cael ei hysgytio yn ddrylliau gan ddaear-gryn cyffredinol; yr hyn oedd ddangosiad arwyddol o derfysgoedd a chwyl-drôadau rhyfeddol, yn sefydliadau gwladol a chrefyddol y byd, yn gyssylltiedig â chyffrôadau dirfawr o bob math. ‡ Gwelai Ioan hefyd fel pe buasai yr haul yn düo fel sachlen flew, yr hon a wisgid gynt i arwyddo y galar a'r synedigaeth mwyaf: || a gwelai y lleuad yn colli ei llewyrch, ac yn troi i dywyllni dychrynllyd, yn goch-ddu fel gwaed. Yr oedd hyn oll yn arwyddo diffoddiad y dynion mwyaf dyrchafedig ac enwog, megys yr amherawdwyr a'u prif weinidogion, eu swyddwyr, a'u pendefigion: oblegid yn iaith brophwydoliaethol yr ysgrythyrau, mae yr *haul* yn arwyddo y rhai sydd uwchaf mewn awdurdod, a'r *lleuad* y rhai nesaf atynt mewn sefyllfâoedd a mawredd.

13 * A [k] sêr y nef a syrthiasant ar y ddaear, † fel y mae y ffigysbren yn bwrw ei ffigys gleision, pan ei [l] hysgydwer gan wynt mawr.

k pen. 8. 10—12. a 9. 1. Ezec. 32. 7. Dan. 8. 10. Luc 21. 25. l Es. 7. 2. a 33. 9. Dan. 4. 14. Nah. 3. 12.

* Yr oedd syrthiad y sêr yn arwyddo difreiniiad a gwarth, neu farwolaeth, rhyw nifer mawr o ddynion enwog, megys swyddwyr gwladol a seneddwyr. † Ac yr oedd hyn i gael ei wneyd yn syndyn, yn annysgwyliadwy, a thrwy orfod cryf; "fel y mae y ffigysbren yn bwrw ei ffigys gleision, pan ei hysgydwer gan wynt mawr" a disymmwth.

14 [m] * A'r nef a aeth heibio fel llyfr wedi ei blygu ynghyd; [n] † a phob mynydd ac ynys a symmudwyd allan o'u lleoedd.

m Salm 102. 26. Es. 34. 4. Heb. 1. 11, 12. 2 Pedr 3. 10. n pen. 16. 20. Es. 2. 14—17. Jer. 4. 23—26. a 51. 25.

* Ac yn y weledigaeth gyfriniol a rhyfeddol hon, gwelai Ioan holl wyneb y ffurfafen yn cael ei symmud o'i lle, ac yn myned heibio fel llyfr, neu lèn fawr o femrwn, yn cael ei phlygu neu ei rholio yn nghyd i'w dodi heibio; † a gwelai holl fynyddoedd ac ynysoedd y ddaear ar yr un pryd, megys yn cael eu taflu i lawr, eu symmud o'u lleoedd, a'u dystrywio, heb fod byth i'w gweled mwyach. Tybir fod hyn yn arddangos hollawl ddymchweliad y llywodraeth erlidgar Baganaidd, trwy fuddugoliaethau Custenyn Fawr, a thrwy ei esgyniad ef i orsedd Rhufain; yn nghyd â'r cyfnewidiad hollawl a gymmerth le mewn gwlad ac eglwys, yn yr amser ac ar yr achlysur hwnw. 'Goleuadau mawrion y byd paganaidd, a'r awdurdodau gwladol ac eglwysig, a aethant dàn ddiffyg a thywyllni tua'r pryd hwn; yr amherodron a'r Cesariaid paganaidd a gawsant eu lladd, yr offeiriaid a'r dewiniaid paganaidd a gawsant eu diddymu, y swyddogion a'r ynadon paganaidd a gawsant eu diswyddo, y temlau paganaidd a gawsant eu dadymchwelyd; a defnyddiwyd y cyllidion at eu cynnal i well gwasanaeth.' *Esgob Newton ar y prophwydoliaethau.* Defnyddir y fath gyffelybiaethau cryfion yn aml yn mhrophwydoliaethau yr ysgrythyr, i osod allan chwyldrôadau mawrion; oblegid y mae dygwyddiadau o'r fath hyn yn rhag-ddangosiadau o ddiwedd y byd, a dydd mawr y farn: ac nis gallai yrun chwyl-drôad gael ei ddysgrifio yn fwy priodol drwy gyffelybiaethau yr adnodau uchod, na hollawl a thragywyddol ddymchweliad, yr adeilad mwyaf o eilun-addoliaeth, gormes, ac erledigaeth paganaidd, a fu ar wyneb y ddaear erioed. Dywed *Scott* fod y gyffelybiaeth o ffigys gleision, yn syrthio oddi ar y ffigysbren ar wynt mawr, yn rhyfeddol iawn o rymus.

15 * A [o] brenhinoedd y ddaear, a'r gwŷr mawr, a'r cyfoethogion, a'r pen-capteniaid, a'r gwŷr cedyrn, † a phob gŵr caeth, ‡ a phob gŵr rhydd, [p] || a ymguddiasant yn yr ogofeydd, ac yn nghreigiau y mynyddoedd;

o pen. 18. 9—11. a 19. 18—21. Job 34. 19, 20. Salm 2. 10—12. a 49. 1, 2. a 76. 12. a 110. 5, 6. Es. 24. 21, 22. p Jos. 10. 16, 17. Barn. 6. 2. 1 Sam. 13. 6. Es. 2. 10, 19. a 42. 22. Mica 7. 17. Heb. 11. 38.

* Yr oedd yn naturiol i'r cyfnewidiad mawr ac annysgwyliadwy uchod, daflu yr holl erlidwyr a gwrthwynebwyr yr efengyl i'r braw a'r annobaith mwyaf arswydol: ac yn ei weledigaeth, gwelai Ioan hwynt oll, "breninoedd y ddaear, a'r gwŷr mawr, a'r cyfoethogion, a'r pen-capteniaid, a'r gwŷr cedyrn," † ïe, "pob gŵr caeth" yn gystal â hwythau, ‡ "a phob gŵr rhydd," beth bynag oedd ei radd, ei swydd, a'i sefyllfa; || gwelai hwynt yn ceisio ymguddio a llechu yn yr ogofêydd, ac yn agenau creigiau y mynyddoedd, megys y gwnaethent hwy i'r cristionogion ymguddio lawer gwaith o'r blaen. Dyma bob math o ddynion annuwiol, o'r amherawdwr ar ei orsedd hyd y caethwas, a llawer o honynt mòr gedyrn ac uchel-drem, ac nad ofnasant ddim erioed o'r blaen; yn gwylltio gan fraw a dychryn annobeithiol, yn wyneb ymweliad barnol, a rhüad ofnadwy y Llew o lwyth Juda. Mae y cwbl yn cyfeirio yn llythyrenol at fuddugoliaethau Custenyn Fawr, pryd y cafodd yr eglwys gristionogol orfodaeth hollawl ar allu erledigaethus Rhufain Baganaidd; ond gellir cymhwyso yr adnodau hyn yn ddigon priodol at agwedd a dychryn pechaduriaid anrasol yn nydd y farn.

16 * Ac a ddywedasant wrth y mynyddoedd a'r creigiau, [q] Syrthiwch arnom ni, † a chuddiwch ni [r] o ŵydd yr hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd-faingc, [s] ‡ ac oddi wrth lid yr Oen:

q pen. 9. 6. Jer. 8. 3. Hos. 10. 8. Luc 23. 30. r pen. 4. 2, 5, 9. a 20. 11. s adn. 10. pen. 19. 15. Salm 2. 9—12. a 14. 5. a 21. 8—12. a 110. 5, 6. Zec. 1. 14, 15. Mat. 26. 64. 2 Thes. 1. 7—9.

* Yn gyffelyb i Israel gynt, pan gospai Duw hwynt am eu heilun-addoliaeth, (Hos. 10. 8.) yr oedd y rhai hyn yn eu braw a'u dychryn, yn gwaeddi ar y mynyddoedd a'r creigiau i syrthio ar eu penau, a'u llethu hwy i farwolaeth; † fel drwy hyny y caent eu cuddio pe buasai dichon, o ŵydd a phresenoldeb y Duw digofus, yr hwn a ddangoswyd o'r blaen fel yn eistedd ar yr orsedd-fainc yn Arglwydd mawr yr holl fydoedd; (gwel ar pen. 4. 2, 3.) ‡ "ac oddi wrth lid yr Oen," cyfiawn ddigofaint yr Arglwydd Iesu, am y gwrthwynebiad cynddeiriog a wnaethent hwy iddo ef a'i achos, a'r creulonedd llidiog a ddangosasent hwy lawer gwaith, tuag at ei bobl a'i aelodau gweiniaid ef: er ei fod ef yn *Oen* o ran llarieidd-dra, eto, yn awr wedi cyffrôi ei lid ef, yr oedd yn *Llew*, ac yn barod i'w dryllio hwy yn ddisymmwth, fel na byddai meddyginiaeth.

17 * Canys [t] daeth dydd mawr ei ddigter ef; † a [u] phwy a ddichon sefyll?

t pen. 11. 18. a 16. 14. Jer. 30. 7. Joel 2. 31. Zeph. 1. 14. Rhuf. 2. 5. Judas 6. u Salm 130. 3, 4. Joel 2. 11. Mal. 3. 2.

* Oblegid yn awr, yr oedd cynnydd cristionogaeth, a dyfodiad amherawdwr cristionogol i'r orsedd, yn dangos yn amlwg iddynt hwy er eu gofid a'u braw, fod Iesu yn Arglwydd mewn gwirionedd; fod yr amser wedi dyfod iddo ef lwyr ddïal ar ei elynion; † ac nas gallai neb ei wrthsefyll ef, dïanc rhagddo, na'i ddyhuddo. Adrodda *Pool* ac eraill am farnau dychrynllyd iawn a ddaeth ar amryw o amherawdwyr a gwŷr mawr erlidgar Rhufain, yn yr vspaid o amser a ddynodir dàn y sel hon.

PEN. VII.

Angel yn selio gwasanaethwyr Duw yn eu talcenau.

* AC [a] ar ol y pethau hyn, † mi a welais [b] bedwar angel yn sefyll ar bedair congl y ddaear, [c] ‡ yn dal pedwar gwynt y ddaear, || fel na [d] chwythai y gwynt ar y ddaear, nac ar y môr, nac ar un pren.

a pen. 4—6. b pen. 4. 6. a 9. 14. Ezec. 7. 2. a 37. 9. Zec. 1. 18—20. a 6. 1. Mat. 24. 31. Marc 13. 27. c Es. 27. 8. Jer. 49. 36. Dan. 7. 2. a 8. 8. Jona 1. 4. Mat. 8. 26, 27. a 24. 31. d pen. 6. 6. a 9. 4. Es. 27. 3.

* Ac ar ol y pethau hyn, sef ar ol y pethau rhyfedd a welsai Ioan yn niwedd y bennod o'r blaen: oblegid wrarâd o'r chweched sel yw y bennod hon. † Yr oedd y pedwar angel yn sefyll ar bedair congl y ddaear," yn ymwyddaw offerynau Rhagluniaeth Duw, drwy yr holl wynedloedd, yn mhob rhan o'r byd: ‡ a'u gwaith yn ddàl pedwar gwynt y ddaear," fel na byddai tymhestl-ddedd dinystriol "ar y ddaear, nac ar y môr, nac ar un coren," yn arwydd, fel y tybir, o dawelwch yr amherodr-aeth Rufeinig, a'r holl genedloedd, ar ol i Custenyn Fawr ddyfod i'r orsedd; yr hyn oedd yn fwy hyfryd, gan fod ar ol hir derfysgoedd ac ystormydd blinion ac ofnadwy. ‖ Cytunir yn gyffredin mai barnedigaethau Duw a feddylir wrth y *gwyntoedd;* ond mae gwahan-iaeth barn gan dduwinyddion am y *ddaear*, y *môr*, a'r *prenau*, a phob un yn dywedyd yn ol ei ddychymmyg ei hun, heb fawr o sicrwydd gan neb o honynt: rhaid eu good yn arwyddo y byd hwn a'i drigolion, ac yn enwedig yr eglwys a'i haelodau; pethau yn agored i ddrygfyd a barnau, fel mae y ddaear, y môr, a'r prenau, i ystorm-dd.

2 * Ac [e] mi a welais angel arall yn dyfod i fynu oddi wrth godiad haul, [f] † â sel [g] y Duw byw ganddo. ‡ Ac efe a lefodd â llef uchel ar y pedwar angel, [h] i'r rhai y rhoddasid *gallu* i ddrygu y ddaear a'r môr.

e pen. 8. 3. a 10. 1. Mal. 3. 1. a 4. 2. Act. 7. 30—32. f adn. 3—8. pen. 5. 2. a 10. 4. Can. 8. 6. Ioan 6. 27. 2 Cor. 1. 22. Eph. 1. 13. a 4. 30. g Gwel ar Deut. 5. 26. 1 Sam. 17. 26, 36. 2 Bren. 19. 4. Mat. 26. 63. 1 Thes. 1. 9. Heb. 12. 22. h adn. 1, 3. pen. 8. 7—12.

* Ar yr un pryd gwelai Ioan angel arall, neu genadwr iddwyfol arall, o oruwch awdurdod, yn dyfod i fynu oddi wrth godiad haul, sef o'r dwyrain. Diammau mai Crist ei hun, neu angel yn arwyddo Crist, oedd hwn; † oblegid efe yw yr "hwn a seliodd Duw Dad," ac iddo ef y rhoddwyd "sel y Duw byw," sef yr Ysbryd Glân, trwy yr hwn y selir ei bobl ef hyd ddydd prynedigaeth. Trwy ei efengyl efe a ddaeth oddi wrth godiad haul, sef oddi wrth y cenedloedd dwyreiniol, lle y cyhoedd-wyd ei efengyl ef gyntaf; fel mae yr haul yn ei gyfod-iiad yn myned rhagddo o'r dwyrain i'r gorllewin: felly taenodd Crist, Angel mawr y cyfammod, ei oleuni o dwyfol i'r gwledydd a'r cenedloedd gorllewinol o Judea, sef ardaloedd Europe oll; a thrwy ei Ysbryd a seliodd nifer mawr o ddynion fel gwasanaethwyr a phobl i Dduw. ‡ Fel un â goruwch awdurdod ganddo, ac mewn tosturi tuag at ei bobl, llefodd yr angel mawr a gogoneddus hwn â llef daer ac uchel, ar y pedwar angel eraill, i'r rhai y rhoddasid gallu i ddrygu y ddaear a'r môr; neu y rhai a osodasai Duw yn weinidogion ac offerynau ei lid a'i gyfiawnder yn y byd.

3 * Gan ddywedyd, [i] Na ddrygwch y ddaear, na'r môr, na'r prennau, [k] † nes darfod i ni selio [l] gwasanaethwyr ein Duw ni [m] yn eu talcennau.

i pen. 6. 6. a 9. 4. Es. 6. 13. a 27. 8. a 65. 8. Mat. 24. 22, 31. k Ex. 12. 13, 23. Es. 26. 20, 21. Ezec. 9. 4—6. Zeph. 2. 3. l pen. 19. 2. Es. 54. 17. Dan. 3. 17, 26. a 6. 16, 20. Mal. 3. 18. Ioan 12. 26. Rhuf. 6. 22. m pen. 13. 16. a 14. 1. a 20. 4. a 22. 4.

* Am y ddaear, y môr, a'r prenau, gwel ar adn. 1: gorchymynai yr angel hwn i'r angelion eraill, na ddryg-ent y ddaear, na'r môr, na'r prenau, sef na thywalltent farnedigaethau o un math, ar unrhyw ran o'r Amher-odraeth Rufeinig, † nes darfod iddo ef a'i weinidogion, fel offerynau gras Duw, selio gwasanaethwyr eu Duw hwynt yn eu talcenau; lle mae cyfeiriad amlwg at Ezec. 9. 4; ac at yr arferiad yn ngwledydd y dwyrain, o roddi nôd neu enw y meistriaid ar eu caeth-weision, trwy yr hyn yr adnabyddid eiddo pwy a fyddent, fel y byddwn ninnau yn nodi ein defaid. Yr oedd hyn yn arwyddo y byddai i nifeiri mawr o ddynion gael eu bed-yddio, a'u dwyn i broffesu eu hunain yn ddysgyblion i Grist, yn ypaid y tawelwch dedwydd dàn deyrnasiad Custenyn Fawr; ac y byddai i lawer iawn gael eu dychwelyd mewn gwirionedd, a'u hadnewyddu i ddelw Duw, trwy sancteiddiad yr Ysbryd Glân.—Pregethwyd yr efengyl yn helaeth iawn yn yr amser hwnw, a daeth lluoedd aneirif i broffesu cristionogaeth. Mae yn wir i'r tiriondeb diwahaniaeth ac annoeth, a ddangosid i rai yn proffesu cristionogaeth yn y dyddiau hyny, fod yn foddion i dueddu llaweroedd i broffesu eu hunain yn gristionogion, er mwyn mateision bydol; ac fel hyny llanw yr eglwysi â llawer iawn o ragrithwyr, yr hyn a ddygodd i mewn ysbryd bydol, ac amryw ddrygau niweidiol yn y diwedd; eto mae y brophwydoliaeth hon yn llawn brofi, i wir grefydd gael ei llwyddo yn fawr ar y *cyntaf*, trwy dderchafiad Amherawdwr cristionogol i'r orsedd; ac iddi gael ei sefydlu mewn llawer o fànau, lle nad oedd nemawr o barch iddi, na meddwl am dani cyn hyny.

4 * Ac [n] mi a glywais nifer y rhai a seliwyd: † *yr oedd* wedi eu selio [o] gant a phedair a deugain o filoedd o [p] holl lwythau meibion Israel.

n pen. 9. 16. o pen. 14. 1, 3. Gen. 15. 5. Rhuf. 9. 27. a 11. 5, 6. p Ezec. 47. 13. a 48. 19, 31. Zec. 9. 1. Mat. 19. 28. Luc 22. 30. Act. 26. 7. Iago 1. 1.

* Yma clywai Ioan rywun yn crybwyll nifer y rhai a seliwyd o ddeuddeg llwyth Israel, pob llwyth ar ei ben ei hun, a'r un nifer o bob llwyth; † ac yr oeddynt oll yn gant a phedair a deugain o filoedd, sef deuddeg gwaith deuddeng mil, o holl lwythau meibion Israel. Nis gellir deall y nifer hyn mewn ystyr lythyrenol; oblegid os deallwn ef yn unig am ddychweledigion o genedl Israel, prin y gellir meddwl mai hyn yn gymhwys, a dim ond hyn, oedd eu nifer; a bod yr un nifer yn holl-awl o bob llwyth wedi eu selio. Ond Israel ydoedd hen bobl Duw, y rhai wedi ychydig genedlaethau, a gorphorwyd yn eglwys ac fel cenedl: a'r eglwys gristionogol, yr hon a ddaeth yn ei lle hi, wedi hir amser, a ddadymchwelodd yr oruchwyliaeth Iuddewig, ac eiluu-addoliaeth Rhufain Baganaidd, ac a gafodd ei sefydlu yn gadarn ar eu hadfeilion hwy: oblegid amser Custen-yn Fawr mae yn debyg a feddylir, pan fu y selio hyn. Gan hyny fel yr oedd llwythau Israel yn cael eu rhifo, gwedi eu sefydlu hwynt yn genedl; felly yr oedd y nifer a chwanegwyd at yr eglwys gristionogol, mewn canlyn-iad i'r sefydliad a enwyd, yn cael eu crybwyll yn *alleg-awl* yn gant a phedair a deugain o filoedd, neu ddeu-ddeg gwaith deuddeng mil; nifer mawr terfynol, yn cael ei roddi mae yn debyg, am nifer annherfynol: a chan fod hyn yn cael ei ranu yn ddeuddeg rhan, cyfrifir un o honynt i bob un o lwythau Israel; i arwyddo fod y personau seliedig hyn yn dyfod i mewn i ragor-freint-iau Israel, ac yn cymmeryd eu lle hwynt: oblegid tybiaf fi (ebai *Scott,*) y meddylid y cenedloedd dychwel-edig, yn gystal â'r rhai dychweledig o Israel; gan na sonir am neb eraill fel wedi eu selio. Gwel yn mlaen, ar adn. 9—12.

5 * O [q] lwyth Juda *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth Reuben *yr oedd* deu-ddeng mil wedi eu selio. O lwyth Gad *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio.

q Ex. 1. 2—4. Num. 1. 4—15. a 10. 14—27. a 13. 4—16. 1 Cron. 2. 1, 2.

6 O lwyth [r] Aser *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth Nephthali *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth Manas-ses *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio.

r Luc 2. 36.

7 O lwyth Simeon *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. † O lwyth Lefi *yr oedd* deu-ddeng mil wedi eu selio. O lwyth Issachar *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio.

8 O lwyth Zabulon *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio. ‡ O lwyth Joseph *yr oedd*

deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth Benjamin *yr oedd* deuddeng mil wedi eu selio.

* Mae y llwythau yma yn cael eu henwi mewn trefn wahanol i bob màn arall. Gosodir Juda yn mlaenaf, er anrhydedd i Grist, yr hwn a ddeilliodd o ran y cnawd o'r llwyth hwnw. Gadewir llwyth Dan allan yn gwbl, efallai am i eilun-addoliaeth gael ei sefydlu yn gyhoeddus gyntaf gan y llwyth hwnw. (Gwel Barn. 18.) Ond tybia eraill fod llwyth Dan wedi diffodd yn agos hir oesoedd cyn hyn; ac yn wir nid oes dim crybwylliad pennodol am y llwyth, yn yr achau a roddir yn llyfr cyntaf y Cronicl. † Rhoddir Lefi, fel y llwyth offeiriadol, i mewn yn lle Dan; ac fel hyny cedwir y nifer o ddeuddeg llwyth, heb na llai na mwy. ‡ Enwir Joseph fel un llwyth yma, yn lle Ephraim, yr hwn a ymlygrodd mewn eilun-addoliaeth; tra mae Manasses, mab arall Joseph yn cael aros yn ei le. Mae trefn cyntaf-anedigaeth yn cael ei gadael heibio yn y rhestr hon, ac ni wnair dim sylw o blant y gwragedd rhyddion, Rachel a Lea, rhagor plant y caeth-forwynion, i ddangos fod pawb yn un yn Nghrist, heb ddim gwahaniaeth.—Nid oes un rheswm boddlonawl amlwg a ellir ei roddi, dros wahaniaeth *trefn* y llwythau yn y fàn hon, rhagor i bob màn arall lle yr enwir y deuddeg patrïarch: oddigerth bod teilyngdod ac annheilyngdod y naill a'r llall o honynt, fel y dengys eu hanes yn yr ysgrythyrau, yn rheswm dros hyny.

9 * Wedi hyn mi a edrychais; ac wele [s] dyrfa fawr, yr hon [t] ni allai neb ei rhifo, [u] † o bob cenedl, a llwythau, a phobloedd, ac ieithoedd, [x] ‡ yn sefyll ger bron yr orsedd-faingc, || a cher bron yr Oen, [y] § wedi eu gwisgo mewn gynau gwỳnion, [z] * a phalmwydd yn eu dwylaw;

s Gen. 49. 10. Salm 2. 8. a 22. 27. a 66. 4. a 67. 2. a 72. 7—11. a 98. 3. a 110. 2, 3. a 117. Es. 2. 2, 3. a 49. 6—8. a 60. 1—14. Jer. 3. 17. a 16. 19. Zec. 2. 11. a 8. 20—23. Rhuf. 15. 9—12. t pen. 5. 11. a 11. 15. Gen. 13. 16. Hos. 1. 10. Luc 12. 1. Rhuf. 11. 25. Heb. 11. 12. a 12. 22. u pen. 5. 9. Dan. 4. 1. a 6. 25 x Luc 21. 36. Eph. 6. 13. y adn. 13, 14.—Gwel ar pen. 3. 4, 5, 18.—a 4. 4. a 6. 11. z Lef. 23. 40. Ioan 12. 13.

* Tybia llawer o dduwinyddion bod yr adnodau o'r blaen yn crybwyll yn unig am yr Iuddewon dychweledig, y rhai a chwanegwyd at yr eglwys gristionogol yn y dyddiau hyny; a bod yr adnod hon a'r rhai canlynol yn cyfeirio at y cenedloedd a gredasent yr efengyl yn yr un yspaid o amser: ond mae eraill yn eu deall am heddwch a llwyddiant yr eglwys yn y dyddiau hyny. Eithr barn unfryd ein Hawdwyr yw, mai cyflwr dedwydd y rhai hyny a lỳnasent wrth Grist yn y trallodau blaenorol, ac a fuasent "ffyddlawn hyd angau," a feddylid: oblegid er iddynt hwy gael eu lladd, neu eu symmud mewn modd arall, cyn i'r cyfnewidiad dedwydd o blaid crefydd gymmeryd lle; nid oeddynt hwy drwy gael eu symmud felly ar eu colled, ïe, yr oeddynt yn ennillwyr annhraethol: ac mae iaith yr adnodau a ganlyn mòr rỳmus, fel nas gall dim llai na gwỳnfyd y nef gyfateb iddi. Felly, y 144,000 wedi eu selio oedd y rhai a ddychwelwyd at grefydd, yn Iuddewon a chenedloedd, dàn lywodraeth Custenyn; a'r dyrfa fawr aneirif hon oedd ysbrydion dynion duwiol a symmudasid o'r byd hwn ac oedd yn awr gyda Duw mewn gogoniant: ac yn enwedig y rhai a ddyoddefasent y trallodau a'r erledigaethau yn oesoedd cyntaf cristionogaeth, pan oedd yr awdurdodau gwladol yn gyffredin yn ffyrnig yn ei herbyn hi. † Ac wrth eu bod yn dyrfa mòr aneirif o bob cenedl, &c., mae yn bur debygol (medd *Doddridge*) i lawer o erledigaethau angerddol fod yn yr oesoedd hyny, mewn gwahanol barthau o'r byd, y rhai nad oes dim hanes am danynt wedi dyfod i waered i ni. ‡ Gwelai Ioan y dyrfa ddirifedi hon, wedi ei chasglu o blith amrywiol genedloedd ac ieithoedd y byd, yn sefyll ger bron yr orsedd-fainc, fel addolwyr ysbrydol a chymmeradwy Duw; || a cher bron yr Oen, fel ei bobl brynedig a gwaredol ef. § Yr oedd pob un o'r dyrfa fawr hon wedi eu gwisgo mewn gỳnau gwỳnion; fel wedi eu perffaith gyfiawnâu, eu sancteiddio, a'u gwneyd yn ddedwydd yn y nef. * Yr oeddynt hefyd wedi bod mewn rhyfel; ac yn awr yr oedd ganddynt balmwydd yn eu dwylaw, yr arwydd tra hysbys o fuddugoliaeth ar eu holl elynion. Gwel ar Matth. 21. 8.

10 * Ac yn llefain â llef uchel, gan ddywedyd, [a] † Iachawdwriaeth i'n Duw ni, yr hwn [b] sydd yn eistedd ar yr orsedd-faingc, ‡ ac [c] i'r Oen.

a pen. 19. 1. Salm 3. 8. a 27. 39. a 68. 19, 20. a 115. 1. Es. 43. 11. a 45. 15, 21, 22. Jer. 3. 23. Hos. 13. 4. Jona 2. 9. Zec. 9. 9. Luc 3. 6. Ioan 4. 22. Eph. 2. 8. b pen. 4. 2, 3, 9—11. a 5. 7, 13, 14. a 21. 5. c pen. 5. 6, 9. a 22. 3. Ioan 1. 29, 36.

* Gan fod y dyrfa fawr aneirif hon wedi caffael iachawdwriaeth gyflawn, o ran eu heneidiau; nid oeddynt mewn un mesur yn ei phrïodoli iddynt eu hunain, nac i'w doethineb, eu nerth, eu llafur, eu gwasanaeth, eu dyoddefiadau, na'u merthyrdod; † ond clywai Ioan hwy oll â llef uchel, yn rhoddi yr holl ogoniant o hóni i'w Duw a'u Tad, yr hwn oedd yn eistedd ar yr orsedd-fainc, fel yr oedd yn effaith ei gariad a'i ras anhaeddedigol ef; ‡ ac i'r Oen, am ei bod yn dyfod iddynt hwy yn hollawl trwy ei iawn a'i gyfryngdod ef. Maent yn priodoli eu holl iachawdwriaeth, dymmorawl, ysbrydol, a thragywyddol, i rad drugaredd Duw Dad, yn yr hwn yr ymddiriedasent; ac i'r Arglwydd Iesu Grist, Oen Duw, trwy deilyngdod, gras, ac Ysbryd yr hwn, y cawsent y fuddugoliaeth lawn dragywyddol.

11 [d] * A'r holl angelion a safasant o amgylch yr orsedd-faingc, † a'r henuriaid, a'r pedwar anifail, [e] ‡ ac a syrthiasant ger bron yr orsedd-faingc ar eu hwynebau, [f] || ac a addolasant Dduw,

d pen. 4. 6. a 5. 11—13. a 19. 4—6. Salm 103. 20, 21. a 148. 1, 2. e pen. 11. 16. f pen. 4. 10. a 15. 4. a 19. 4. a 22. 9. Salm 45. 11. a 97. 7. Mat. 4. 10. Ioan 5. 23. Heb. 1. 6.

* Tra yr oedd y pechaduriaid gwaredol hyn yn sefyll yn nesaf i'r orsedd-fainc, ac yn blaenori yn addoliad y nef, trwy rinwedd eu hundeb â Mab Duw mewn dynoliaeth; yr oedd yr "holl angelion," y rhai oedd yn hollawl rydd oddi wrth bob cenfigen, ac yn gorfoleddu yn eu derchafiad hwy, ac yn ngogoniant Duw drwy hyny; yn sefyll oddi allan i'r cylch, † yr hwn a wnaid gan gynnrychiolwyr arwydd-luniol yr eglwys a'i gweinidogion; ‡ a chan syrthio ger bron yr orsedd-fainc ar eu gwynebau, yn arwydd o'u mawr ostyngeiddrwydd, eu parch, a'u haddoliad, || hwy a ymunent â "chymmanfa a chynnulleidfa y rhai cyntaf-anedig," i roddi mawl, dïolch, ac addoliad i Dduw gyda hwynt. Nid oedd yr un *achos* gan yr angelion i glodfori Duw ag oedd gan y gwaredigion o ddynion; ond yr oedd yr un ysbryd o ostyngeiddrwydd, parch, ac addoliad, ynddynt oll.

12 * Gan ddywedyd, [g] Amen: [h] † Y fendith, a'r gogoniant, ‡ a'r doethineb, [i] || a'r dïolch, § a'r anrhydedd, * a'r gallu, a'r nerth, *a fyddo* i'n Duw ni yn oes oesoedd. † Amen.

g pen. 1. 18. a 5. 14. a 19. 4. Salm 41. 13. a 72. 19. a 89. 52. a 106. 48. Mat. 6. 13. h Gwel ar pen. 5. 12, 13. i Neh. 12. 8, 46. Salm 50. 14. a 95. 2. a 100. 4. a 107. 22. a 116. 17. a 147. 7. Es. 51. 3. Jer. 33. 9, 11. Jona 2. 9. 2 Cor. 4. 15. a 9. 11, 12. Col. 2. 7. a 3. 17.

* Rhoddai yr holl angelion eu Amen, o eithaf gwresawgrwydd calon, gyda chàn clodforedd y gwaredigion: † a dangosent eu hyfrydwch yn yr addoliad difrifol a melys-ber hwnw, trwy brïodoli y fendith a'r gogoniant i'w Duw a'u Rhan, fel y Ffynon fawr ac unig, o bob rhagoriaeth, daioni, a dedwyddwch; ‡ trwy glodfori ei fawr amryw ddoethineb ef, yn y pethau rhyfeddol a ddygodd oddi amgylch; || trwy uno eu dïolchgarwch â'r eiddo pechaduriaid gwaredol; § trwy roddi iddo ef yr anrhydedd o'i holl weithredoedd ardderchog; * a thrwy gyd-orfoleddu â'r saint, am fod y gallu a'r nerth yn eiddo ef, fel eu Duw hwy a Duw y gwaredigion, yn oes oesoedd. † A dywedai yr angelion a'r gwaredigion ar ddiwedd yr anthem, a dywedai Ioan hefyd wrth ei

glywed yn ddiammau, Amen; felly y dylai fod, felly y gwmunem oll o'n calonau ei bod, ac felly yr ydym yn credu yn gadarn y bydd, i dragywyddoldeb maith! Wrth fod yr angelion fel hyn yn cydsynio â'r gwaredigion yn eu mawl i Dduw ac i'r Oen; (adn. 10.) mae yn ddiolwg eu bod hwy yn anrhydeddu y Mab, fel yr anrhydeddent y tragywyddol Dad.—Beth a ddywed Sosinieth wrth hyn?

13 * Ac [k] un o'r henuriaid a attebodd, gan ddywedyd wrthyf, † Pwy ydyw y rhai hyn sydd [l] wedi eu gwisgo mewn gynau gwŷnion? ‡ ac o ba le y daethant?

k pen. 4. 4, 10. a 5. 5, 11. l Gwel ar adn. 9. m Gen. 3. 8. Barn. 13. 6. Ioan 7. 28.

* Yr olygfa a ddangoswyd fel hyn i feddwl Ioan, yr oedd yn cyfeirio at ddamweiniau, y rhai ni ddygwyddasant hyd fwy na dau càn' mlynedd ar ol hyn; sef yn amser Custenyn Fawr, fel y sylwyd o'r blaen: am hyny, pan ei fod ef yn derbyn hysbysiad prophwydoliaethol am bethau i ddyfod, mae un o gynnrychiolwyr yr egwys fawr gyffredinol yn gofyn iddo, † a wyddai efe pwy oedd y rhai hyny oedd wedi eu gwisgo mewn gŷnau gwŷnion, (gwel ar adn. 9.) ‡ ac o ba le y daethent? o ba fath gyflwr ac amgylchiadau y daethent, a thrwy ba ddoddion y daethent i'w sefyllfa ddedwydd bresenol? Nid am nas gwyddai yr henuriad hwn yr oedd yn gofyn, ond i brofi Ioan, a wyddai efe; ac i'w annog ef i ymofyn, os na wyddai.

14 * Ac mi a ddywedais wrtho ef, Arglwydd, [n] ti a wyddost. † Ac efe a ddywedodd wrthyf, Y rhai hyn yw y rhai [o] a ddaethant allan o'r cystudd mawr, [p] ‡ ac a olchasant eu gynau, ‖ ac a'u canasant hwy [q] y'ngwaed yr Oen.

n Ezec. 37. 3. o pen. 2. 9. a 6. 9—11. a 15. 2. a 17. 6. Ioan 16. 33. Act. 14. 22. Rhuf. 5. 3. 2 Thes. 1. 4. p pen. 1. 5. Es. 1. 18. Zec. 3. 3—5. a 13. 1. Ioan 13. 8—14. 1 Cor. 6. 11. Eph. 5. 26, 27. Heb. 9. 14. 1 Ioan 1. 7. q pen. 5. 9. a 12. 11. Heb. 13. 12. 1 Pedr 1. 19.

* *Sir* yw y gair Saesoneg am "Arglwydd" yn y fàn hon, a ddiammau mai felly y dylai fod; oblegid nid un o'r Personau Dwyfol oedd yr *henuriad* hwn: ac mae yr un gair Groeg *(Kyrie)* a gyfieithir "Arglwydd" yn y fàn hon, wedi cael ei gyfieithu *Syr* yn Ioan 12. 21; a 20. 15. Addefai Ioan yn wylaidd a gostyngedig ei annallu ei hun i ateb y gofyniadau uchod; a dywedai fod yn sicr ganddo y gwyddai yr henuriad pwy oedd y dyrfa fawr hòno, ac o ba le y daethent; ac fel hyny dangosai ei ddymuniad am gael ei addysgu. † Dywedai yr henuriad wrtho, mai rhai wedi dyfod allan o'r cystudd mawr oedd y rhai hyny.—Nis gellir deall hyn am y cenedloedd, y rhai a ddychwelwyd at gristionogaeth ar ol esgyniad Custenyn Fawr i'r orsedd; oblegid ni ddaethai y rhai hyny allan o ddim cystudd mawr, priodol iddynt hwy mwy nac eraill: ac er y gellid cyfaddasu y geiriau i ystâd yr eglwys yn gyffredin, yn y dyddiau heddychol hyny, y rhai a ddaethent ar ol amser o ddirfawr gystudd a thrallodau; eto maent yn llawer mwy cymhwys a grymus, yn arddangos cyflwr dedwydd y tor-fèydd hyny, y rhai a fuasent yn "ffyddlawn hyd angau," yn nghanol erledigaethau blinion yr oesoedd blaenorawl. Hwy a fuasent yn wir mewn "cystudd mawr," o herwydd amryw achosion; ond yn awr yr oeddynt wedi dyfod *allan* o hóno; ac yr oedd eu gofid a'u cystudd wedi darfod, a chwedi eu terfynu am byth. ‡ Yr oeddynt yn awr wedi eu "gwisgo mewn gŷnau gwŷnion:" (gwel ar adn. 9.) ond nid gwŷnion a fuasent bob amser; oblegid yr oeddynt wedi eu golchi a'u càn. Hwy a wnaethent hyn, nid trwy eu hedifeirwch, eu ffurfiau, eu gwasanaeth, neu weithredoedd o elusen; nage, na thrwy eu llafur a'u dyoddefiadau yn achos yr efengyl, na thrwy eu gwaed eu hunain yn dywalltedig mewn merthyrdod: ond hwy a olchasent eu gŷnau, ‖ ac a'u cànasent oddi wrth yr euogrwydd a'r aflendid oedd wedi eu halogi, "yn ngwaed yr Oen;" trwy ffydd yn ei aberth cymmodlawn a'i eiriolaeth effeithlawn ef; trwy ymddiried yn ei enw ef am drugaredd a gras, yr hyn a ddaw i bechaduriaid trwy ei angau ef; a thrwy fyw dàn sancteiddiad yr Ysbryd i ufudd-dod. Ni ddaw dyoddefiadau hyd at waed â ni byth i'r nef; heb i ni gael golchi a chànu ein heneidiau yn ngwaed Crist.

15 * O herwydd hynny [r] y maent ger bron gorsedd-faingc Duw, [s] † ac yn ei wasanaethu ef ddydd a nos yn ei deml: ‡ a'r hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd-faingc a [t] drig yn eu plith hwynt.

r pen. 4. 4. a 14. 3—5. Heb. 8. 1. a 12. 2. s pen. 20. 10. a 22. 5. Salm 134. 1, 2. t pen. 21. 3. a 22. 3. Ex. 29. 45. 1 Bren. 6. 13. 1 Cron. 23. 25. Salm 68. 16—18. Ioan 1. 14. 1 Cor. 3. 16. 2 Cor. 6. 16.

* Am fod y dyrfa hon wedi "golchi eu gŷnau, a'u cànu yn ngwaed yr Oen," o herwydd hyny yr oeddynt yn gymmeradwy gyda Duw, wedi eu derbyn i'r nefoedd, ac yn cael sefyll ger bron ei orsedd-faine ef; (gwel ar adn. 9.) † lle maent yn ei wasanaethu ef yn ei deml nefol ddydd a nos yn ddiflino, ïe, gyda hyfrydwch mwyfwy yn wastadol, i dragywyddoldeb: ‡ ac yno mae Duw, yr hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd-faine, yn trigo yn eu plith hwynt; fel eu Tad a'u Cyfaill anwyl, yn eu cysgodi hwynt â'i bresenoldeb mawr, ac yn eu llenwi hwynt byth â llawenydd annhraethadwy, hyfryd, a gogoneddus.—Cyfeirir yma at yr offeiriaid a'r Lefiaid gynt, y rhai a wasanaethent Dduw y nos, yn gystal â'r dydd, yn y babell a'r deml. Salm 134. 1.

16 [u] * Ni fydd arnynt na newyn mwyach, na syched mwyach; † ac ni [x] ddisgyn arnynt na'r haul, na dim gwres.

u Salm 42. 2. a 63. 1. a 143. 6. Es. 41. 17. a 49. 10. a 65. 13. Mat. 5. 6. Luc 1. 53. a 6. 21. Ioan 4. 14. x Salm 121. 6. Can. 1. 6. Es. 4. 5, 6. a 25. 4. a 32. 2. Jona 4. 8. Mat. 13. 6, 21. Marc 4. 6, 17. Iago 1. 11.

* Fel hyn yn y mwynâd perffaith o gariad Duw, a'r amlygiadau o'i ogoniant ef, yr oedd eu holl newyn a'u syched hwynt am dano ef ac am sancteiddrwydd, yn cael eu llwyr ddiwallu am byth: ni byddai dim teimladau poenus, fel newyn a syched heb fodd i'w diwallu, i'w gofidio hwy byth mwyach; na dim awydd ynddynt am fwy o ddedwyddwch nac oeddynt yn hwynâu; a llawer llai am bethau daearol, a llawer llai byth am bleserau cnawdol ac anianol. † Ac ni byddent hwy byth mwyach yn agored i un math o gystudd, profedigaeth, ofn, nac erlid; (yr hyn a osodir allan dàn gyffelybiaeth haul a gwres;) gan fod y pethau hyn oll wedi myned heibio yn hollawl, ac am byth bythoedd.—Cymmerwyd hyn allan o Esa. 49. 10; ac ymadroddion cyffelybiaethol ydynt oll, yn arwyddo perffaith ddedwyddwch y saint mewn gogoniant, lle ni bydd arnynt angen dim, a lle ni flinir hwy gan ddim gofidiau.

17 * Oblegid yr Oen, yr hwn sydd [y] yn nghanol yr orsedd-faingc, [z] † a'u bugeilia hwynt, ‡ ac [a] a'u harwain hwynt at ffynhonnau bywiol o ddyfroedd: ‖ a [b] Duw a sych ymaith bob deigr oddi wrth eu llygaid hwynt.

y Gwel ar pen. 5. 6. z Salm 22. 26. a 23. 1, 5. a 28. 9. a 36. 8. Can. 1. 7, 8. Es. 25. 6. a 40. 11. a 49. 9. Ezec. 34. 23. Mica 5. 4. a 7. 14. Mat. 2. 6. Ioan 21. 15—17. Act. 20. 28. 1 Pedr 5. 2. a pen. 21. 6. Salm 36 9. Es. 12. 3. a 30. 25. a 35. 6, 7. Jer. 2. 13. a 31. 9. Ioan 4. 11, 14. a 7. 37, 38. b pen. 21. 4. Es. 25. 8. a 30. 19. a 35. 10. a 60. 20.

* Oblegid yr Oen yr hwn a'u prynodd hwy i Dduw trwy ei waed; ac yr hwn, mewn canlyniad i'w fuddugoliaeth, a roddwyd i eistedd gyda'i Dad ar ei orsedd-faine ef; † oedd yn defnyddio ei allu a'i awdurdod i ddiwallu a rhagflaenu eu holl angenion hwynt, trwy eu llenwi hwy yn wastadol â'r gwleddoedd gorau, fel bugail gofalus yn porthi ei braidd; ‡ ac yr oedd efe yn eu harwain hwynt at ffynonau bywiol ac anhyspydd o ddyfroedd, sef cysuron a dedwyddwch perffaith, digymmysg, a thragywyddol: ‖ tra yr oedd Duw Dad yn "llawenychu ynddynt gan wneuthur lles iddynt;" yn "sychu ymaith bob deigr oddi wrth eu llygaid hwynt;"

ac yn rhoddi iddynt "ddigonolrwydd llawenydd ger ei fron, a digrifwch tragywyddol ar ei ddeheulaw," yn lle eu holl gystuddiau a'u galar gynt.—"A'u *bugeilia:*" "a'u *portha,*" ydyw yn y Saesoneg: mae yn debyg fod y gair Groeg *(poimanei)* yn arwyddo pob un o'r ddau. Nid oes dim ar y ddaear a all ateb yn gyflawn i'r fath ymadroddion â'r rhai hyn: ac yn wir darfu llwyddiant yr eglwys yn yr amser a rag-grybwyllir yn fuan iawn fel breuddwyd; ac nis gellir ystyried yn rhesymol, mai y llwyddiant hwnw yn unig, yn benaf, nac yn wir o gwbl, yw y dedwyddwch a feddylir yn y dysgrifiad grymusaf a gorllònaf a ddefnyddir yma. Ond yr oedd y fath ddysgrifiad o ddedwyddwch y ffyddloniaid mewn gogoniant, yn addas iawn i galonogi y saint yn wyneb yr erledigaethau oedd i ddyfod; ac yn tueddu yn fawr i gymmodi meddyliau y cristionogion â'u profedigaethau, ac i'w gwroli i wynebu angau, yn ei ddull mwyaf cethinllyd a dychrynadwy. O ganlyniad, yr oedd yr eglwys yn yr amserau hyny, debygid, yn ystyried y llyfr hwn yn fwy, ac hyd yn nôd yn deall *y rhan gyntaf hon o hono* yn llawer gwell, na christionogion yn gyffredin yn yr oesoedd ar ol hyny.

PEN. VIII.

Agoriad y seithfed sel, &c.

[a] * APHAN agorodd efe y seithfed sel, yr ydoedd [b] gosteg yn y nef megis dros hanner awr.

a pen. 5. 1, 9. a 6. 1, 3, 5, 7, 9, 12. b Job 4. 16.—Salm 37. 7. a 62. 1. Hab. 2. 20. Zec. 2. 13.

* Mae y seithfed sel hon yn cynnwys dani lawer mwy, na'r holl seliau eraill i gyd; gan ei bod yn dwyn i mewn, ac yn wir yn *cynnwys* yr ystyr hyny o amser, a ddygwyddodd dàn y saith udgorn. Ar agoriad y seithfed sel, "yr ydoedd gosteg, neu ddystawrwydd yn y nef, megys dros hanner awr;" yr hyn oedd yn arwyddo na byddai heddwch yr eglwys a'r amherodraeth ond dros ychydig amser; neu ynte yr oedd yn arwyddo y dysgwyliad difrifol a ennynid, ar yr achlysur o agoriad y sel hon. Tybia rhai fod y "gosteg" hwn yn cyfeirio at y gosteg a fyddai weithiau yn addoliad Duw yn y *deml,* pan fyddai y bobl yn gweddio ar amser yr arogl-darthiad; Luc 1. 10: a thybia eraill fel y dywedwyd, mai heddwch bỳr yr eglwys a feddylir dàn lywodraeth Custenyn Fawr: oblegid o'r flwyddyn 317, (pryd yr oedd efe yn fwyaf ei rwysg yn yr amherodraeth,) neu 325, pan gafodd efe lawn fuddugoliaeth ar *Licinius* y Gwrthgiliwr, cafodd yr eglwys heddwch mawr am ychydig amser, (medd *Pool,)* hyd 339; pryd, wedi rhanu yr amherodraeth, a rhoddi y rhan Ddwyreiniol i *Constantius,* a'r rhan Orllewinol i *Constans,* (meibion ill dau i *Custenyn* Fawr,) gan fod *Constantius* yn *Ariad* (yn gwadu Duwdod Crist,) efe a ddechreuodd erlid y cristionogion union-gred; megys hefyd y gwnaeth *Julian* ar ei ol ef, yr hwn a wrthgiliodd i *baganiaeth.* Ond ar ei ol ef cawsant ychydig seibiant drachefn, hyd y flwyddyn 395, pryd y bu farw *Theodosius,* ac y bu farw llonyddwch y cristionogion gydag ef. Tybia *Pool* yn fwy rhesymol deall y "gosteg" fel yn arwyddo yr heddwch uchod, na'i gyfeirio at y dystawrwydd yn y deml.

2 * Ac mi a welais y [c] saith angel y rhai oedd yn sefyll ger bron Duw: † a rhoddwyd iddynt saith o [d] udgyrn.

c pen. 15. 1. a 16. 1. Mat. 18. 10. Luc 1. 19. d adn. 6—12. pen. 9. 1, 13, 14. a 11. 15.—Gwel ar Num. 10. 1—10. 2 Cron. 29. 25—28. Amos 3. 6—8.

* Yn ystyr y "gosteg" uchod, "gwelodd Ioan y saith angel (am y rhai y crybwyllir eto, adn. 6.) y rhai oedd yn sefyll ger bron Duw," i'w wasanaethu ef, ac i dderbyn a gwneuthur ei orchymynion ef; † a rhoddwyd iddynt saith o udgyrn, udgorn i bob un; i gyhoeddi y barnedigaethau oedd i gael eu tywallt ar genedloedd y byd, mewn saith o amserau ol-yn-ol, hyd oni chyflawnid hwynt oll.—Pa un ai yr un yw y saith angel hyn, â'r "saith ysbryd Duw," a grybwyllwyd o'r blaen (pen. 4. 5.) nis gwyddom: braidd na thybia *Doddridge* mai yr un ydynt, ond addefa nad oes sicrwydd am hyny: nid oes yr un o'n Hawdwyr eraill yn sylwi ar y mater.

3 * Ac angel [e] arall a ddaeth, [f] ac a safodd ger bron yr allor; [g] † a thuser aur ganddo ‡ a rhoddwyd iddo [h] arogl-darth lawer, ‖ fel yr offrymmai *ef* [i] gyd â gweddïau yr holl saint [k] § ar yr allor aur, yr hon oedd ger bron yr orsedd-faingc.

e pen. 7. 2. a 10. 1.—Gwel ar Gen. 48. 15, 16. Ex. 3. 2—18. Act. 7. 30—32. f pen. 9. 13. Ex. 30. 1—8. 2 Cron. 26. 16—20. Rhuf. 8. 34. Heb. 7. 25. g Lef. 16. 12. 1 Bren. 7. 50. Heb. 9. 4. h Lef. 16. 13. Num. 16. 46, 47. Mal. 1. 11. i adn. 4. pen. 5. 8. Salm 141. 2. Luc 1. 10. Heb. 4. 15, 16. a 10. 19—22. 1 Ioan 2. 1, 2. k pen. 9. 13. Ex. 37. 25, 26. a 40. 26.

* Ar yr un pryd, gwelai Ioan "Angel arall" yn dyfod, ac yn sefyll fel Offeiriad ger bron allor yr arogl-darth. Yr oedd yr ymddangosiad o Oen yn arwydd-lun o Grist ein Pasc ni, wedi ei aberthu drosom; ac yr oedd yr ymddangosiad hyn o Angel, yn ddiammau, yn ei arddangos ef yn ei swydd offeiriadol, yn cyflwyno gweddïau ei holl saint i Dduw, gyda'i eiriolaeth holl lwyddiannus ei hun; yr hyn a arwyddir drwy yr "arogl-darth lawer" oedd ganddo. † Dywed *Pool* mai thusser *bres* oedd gan yr arch-offeiriad Iuddewig, ond sonir yn Heb. 9. 4, am thusser aur o fewn y Sancteiddiolaf: pa fodd bynag, wele yma Arch-offeiriad anfeidrol fwy nac Aaron, Angel mawr y cyfammod; a gwelai Ioan ef â thusser aur ganddo. ‡ Dywed *Guyse* y byddai yr arch-offeiriad yn cymmeryd mwy na'r dogn cyffredin beunyddiol o arogl-darth, i'w arogl-darthu ger bron yr Arglwydd yn y Sancteiddiolaf ar ddydd y cymmod; ac mewn cyfeiriad at hyny, dywedir yma fod gan yr Angel, Crist ein Heiriolwr ni, arogl-darth lawer: yr hyn a ddengys annhraethol werth ei aberth ef, ac effeithiol-deb digonol ei eiriolaeth ef dros ei holl saint. ‖ Bwriadwyd y weledigaeth hon, efallai, i ddangos y dylai y saint, wrth ystyried y golygfêydd o derfysg a barnau a arwyddocêid drwy ganiad yr udgyrn, fod yn nodedig o daer yn eu gweddïau ger bron Duw, am iddo dywallt helaethrwydd mawr o ysbryd doethineb, duwioldeb, a *zêl,* ar yr eglwys; ac am iddo ei chadw hi yn ddïogel yn nghanol y terfysgoedd a'r barnedigaethau hyny oedd ar ddyfod.—Tybia rhai fod y *seithfed sel* yn arwain i mewn at y *saith udgorn,* a'r *seithfed udgorn* at y *saith phïol.* § Yr oedd allor aur yr arogl-darth oddi allan i'r Sancteiddiolaf, yn ymyl y wahan-lèn: (Exod. 30. 6.) ond mae yr allor aur hon o fewn y llèn, yn y Sancteiddiolaf yn y nef; oblegid yno mae Iesu mawr yn eiriol dros ei holl saint. "Ger bron yr orsedd-faingc" y mae hwn.

4 [l] * Ac fe aeth mŵg yr arogl-darth gyd â gweddïau y saint, † o law yr angel, i fynu ger bron Duw.

l adn. 3. pen. 15. 8.

* Ac fel yr oedd mŵg yr arogl-darth peraidd gynt, yn esgyn fel cwmwl i'r nef gyda gweddïau cynnulleidfa Israel, y rhai a offrymid i fynu ar yr un pryd; (Salm 141. 2; Luc 1. 9, 10.) felly yr oedd yn ddangosiad cysgodawl o rinwedd aberth Crist, yr hwn oedd yn ymgymmysgu fel arogl peraidd gyda gweddïau addolwyr sanctaidd; † ac, fel yr arogl-darth a esgynai o ddwylaw yr arch-offeiriad, yr oedd hwn yn cael ei gyflwyno gyda gweddïau y saint ger bron Duw, gan Gyfryngwr ac Angel y Cyfammod newydd, yn ei eiriolaeth rasol a byth-effeithiol drostynt, i guddio eu hanmherffeithrwydd, ac i gael gwrandawiad a derbyniad iddynt yn y nef.

5 * A'r angel a gymmerth y thuser, ac a'i [m] llanwodd hi o dân yr allor, † ac a'i bwriodd i'r ddaear: [n] ‡ a bu lleisiau, a tharanau, a mellt, [o] a daear-gryn.

m pen. 16. 1, &c. Es. 66. 6, 14—16. Jer. 51. 11. Ezec. 10. 2—
Luc 12. 49. n Gwel ar pen. 4. 5.—a 11. 19. a 16. 18. 2 Sam.
7—9. Salm 18. 13. Es. 30. 30. Heb. 12. 18, 19. o pen. 11.
19. 1 Bren. 19. 11 Es. 29. 6. Zec. 14. 5. Mat. 24. 7. a 27. 52—
Act. 4. 31. a 16. 26.

* Gwedi i Angel cynnrychioldeb Duw fel hyn, yn
gariad ac yn ei drugaredd, selio, gofalu am, ac eiriol
os ei bobl, cyn i'r barnau bwriadol gael eu dwyn ar
ddaear: (pen. 7. 2, 3; adn. 4.) yna, er dangos ei
fiawn ddiqllonedd yn erbyn ei elynion ef â hwythau,
addangosai i Ioan fel yn cymmeryd y thusser, ac yn
yned oddi wrth yr allor aur at allor bres y poeth-
rwm, lle y llanwodd efe y thusser o farwor tanllyd yr
or hòno, yr hyn oedd yn arwyddo digofaint Duw, yr
n nis gellid ei ddyhuddo, ond yn unig trwy offrwm
iawn aberthawl. † Ac efe a fwriodd y marwor tan-
id hyny i lawr gyda dialedd grymus ar yr Amherodr-
th Rufeinig, y rhan helaethaf o'r ddaear hon, yr hon
ygrasai y ffydd gristionogol, addoliad, a moesau; ac
geisiasai ddyddymu gwir grefydd, trwy bob moddion
gyfrwysder, erlid, a gorthrymder. ‡ Ac yn y fàn ar
ny, cyfododd tymhestl ofnadwy, yr hon a barodd
isiau corwyntoedd rhuadwy, twrf taranau crochion,
amau o fellt cryfion, a daear-gryn dychrynllyd, fel pe
asai yr holl grëadigaeth yn ymddattod yn chwilfriw;
rhai oedd arwyddion arswydus o farnedigaethau
hryslawn, y rhai oedd i gael eu harddatgan, ac i gael
cyflawni yn eu trefn.—*Tân yr allor:* gan nad oedd
hm tân ar yr allor aur, ond yr hyn oedd yn y thusser, yr
wn a gymmerid oddi ar allor bres y poeth-offrwm;
iaid i'r tân a grybwyllir yma gael ei gymmeryd oddi
hòno, ac i'r angel fyned oddi wrth yr allor aur at
no i'w gymmeryd, fel y sylwyd uchod. *Lleisiau a
aranau:* os bwriadwyd y gair *olaf* i egluro y *blaenaf,*
llir darllen *lleisiau, sef taranau:* ond os oes syniadau
wahanol yn perthyn i'r geirian, rhaid addef bod yn
hawdd gwybod pa beth ydynt. Eto, gallwn feddwl
d rhyw leisiau llafar a hyglyw yn gymmysg â'r tar-
nau, fel yn Ioan 12. 28, 29; un ai yn arwyddo digof-
int Duw, neu yn arwyddo dyoddefaint dynion.

6 p * A'r saith angel, † y rhai oedd â'r
aith udgorn ganddynt, ‡ a ymbarottôisant i
dganu.

p Gwel ar adn. 2.

* Yr angelion hyn, fel yr holl angelion eraill, oeddynt
einidogion Duw, trwy offerynoldeb pa rai yr oedd ef
cyflawni ei fwriadau ar y ddaear. † Gan fod yr ud-
yrn wedi eu rhoddi iddynt, ac wedi clywed y lleisiau
r taranau a grybwyllwyd o'r blaen, hwy a wyddent
d yr amser wedi dyfod i ddechreu tywallt barnedig-
thau Duw ar y byd; ‡ felly hwy a ymbarotôisant, a
wwedyd yn ddynol, canys y maent hwy yn barod bob
mser, i udganu bob un yn ei udgorn, yn ei dro a'i
lch, fel yr ordeiniasai Duw iddynt.

7 * A'r angel cyntaf a udganodd: q a bu
enllysg a thân wedi eu cymmysgu â gwaed,
† a hwy a fwriwyd i'r ddaear: r ‡ a thraian y
ennau a losgwyd, || a'r holl laswellt a losgwyd.

q pen. 16. 21. Ex. 9. 23—25, 33. Jos. 10. 11. Salm 11. 5, 6. a
12, 13. a 78. 47, 48. a 105. 32. Es. 28. 2. a 29. 6. a 30. 30. a 32.
Ezec. 13. 10—15. a 38. 22. Mat. 7. 25—27. r pen. 16. 2.
adn. 9, 10, 12. pen. 6. 8. Es. 2. 12, 13. a 10. 17, 18. Iago 1. 11.
Pedr 1. 24.

* Yna yr angel cyntaf a udganodd; ac ar hyny gwelai
an megys tymhestl ddychrynllyd iawn o genllysg a
thân melltenog, yn nghyd â chawod o waed yn gym-
ysg â'r cenllysg a'r tân, fel un o blâau yr Aipht;
xod. 9. 24, 25.) yr hyn yn iaith brophwydoliaethol yr
grythyrau oedd yn arwyddo, barnau trymion, a dinystr
nadwy, ar annuwiolion y ddaear. (Tröed y darllen-
id at yr ysgrythyrau dàn *q.)* † Nid yn unig yr oedd
pethau dychrynllyd uchod yn *disgyn* ar y ddaear, ond
hwy a *fwriwyd* i'r ddaear," megys gyda rhuthr
gerddol, o law nerthol a dialeddol Duw: ‡ ac mòr
mus ac effeithiol oedd y difrod a wnaethant, fel y
osgwyd traian y prenau, sef y gwŷr mawr a chedyrn;
|| a'r holl laswellt a losgwyd, sef y bobl gyffredin, a'r
barnwaid gweiniaid a'r plant babanaidd. Fel y mae
cenllysg a mellt naturiol yn aml, yn dinystrio coedydd,
a glaswellt, a ffrwythau y ddaear; felly yr oedd y barn-
edigaethau echryslawn hyn yn dyfetha dynion o bob
oedran, graddau, a sefyllfâoedd. Mae duwinyddion yn
ystyried hyn oll fel dysgrifiad allegawl o'r barnedigaeth-
au ofnadwy a ddygodd Duw ar Amherodraeth Rhufain,
rhwng y blynyddoedd 337 a 379, trwy ryfeloedd Con-
stantine, Constance, a Constantius, tri mab Custenyn
Fawr, y sawl ryfeloedd a ddechreuasant yn fuan ar ol ei
farwolaeth ef; ac a derfynasant yn nystryw ei deulu ef,
ac yn y difrod dychrynllyd a wnaed ar bob graddau a
sefyllfâoedd o bobl, yn nghyd â ffrwythau y ddaear; a
phryd y bu tywalltiadau dirfawr o waed, gan genedloedd
anwaraidd y gwledydd gogleddol, y rhai a dòrasant i
mewn am ben yr Amherodraeth Rufeinig, yr hon a ellid
ei galw yn *draian* y ddaear, yn ol cyfrif yr henafiaid; y
rhai, cyn darganfod America, a gyfrifent y byd yn dair
rhan, o ba rai yr oedd *Europe,* neu Amherodraeth
Rhufain, yn un.—Yn fuan ar ol marwolaeth Custenyn
Fawr, rhanwyd Amherodraeth Rhufain yn ddwy ran,
Dwyreiniol a Gorllewinol, rhwng dau o'i feibion ef a'u
hiliogaeth ar eu hol: dywed *Scott* fod y gweddill o'r ben-
nod hon yn rhagfynegi dymchweliad y rhan orllewinol,
a'r bennod nesaf y rhan ddwyreiniol, o'r Amherodraeth.

8 * A'r ail angel a udganodd; t † a megis
mynydd mawr yn u llosgi gan dân ‡ a fwriwyd
i'r môr: x || a thraian y môr a aeth yn waed;

t Jer. 51. 25. Marc 11. 23. u Amos 7. 4 x adn. 7. pen.
16. 3. Ex. 7. 17—20.

9 y § A bu farw traian y creaduriaid y rhai
oedd yn y môr, ac â byw ynddynt; * a thraian
y z llongau a ddinystriwyd.

y adn. 7, 10, 12. Ex. 7. 21. Zec. 13. 8. z Salm 48. 7. Es.
2. 16. a 23. 1.

* Yn nesaf mae yr ail angel yn udganu yn ei drô, ac
yn ddiammau ar orchymyn ei Dduw; † a chyda hyny
gwelai Ioan megys mynydd mawr, yn llosgi gan dân, yn
cael ei fwrw i'r môr. Yr oedd y mynydd mawr yn
llosgi, yn arwyddo rhyfelwr cadarn dinystriol, (Jer. 51.
25.) ac a ddefnyddiwyd i arwyddo hyny (medd *Scott*)
gan y beirdd enwocaf. ‡ Gellid cyffelybu yr Amher-
odraeth Rufeinig, yn nghyd â'i lluoedd dirfawr o
bobloedd a chenedloedd, yn addas iawn i fôr: (pen. 17.
15.) gan hyny yr oedd bwrw y mynydd mawr hwn, yn
llosgi gan dân, i'r môr, yn nghyd â'r effeithiau a gan-
lynodd; yn arwyddo yn y modd mwyaf grymus, y rhuthr
a wnaeth cenedloedd anwar, dàn dywysogion ffyrnig a
chreulawn, i mewn i'r Amherodraeth Rufeinig. || Ac
wrth fod traian y môr yn myned yn waed, dangosir eu
gwaith hwynt yn tywallt gwaed aneirif luoedd o ddynion,
yn dystrywio y dinasoedd, ac yn difrodi y gwledydd â
thân a chleddyf.—Ar ol i *Alaric* a'i *Gothiaid* orphen eu
difrodion, daeth *Attila,* yn blaenori byddin aneirif o
Huniaid, ac anrheithiodd yr amherodraeth am bedair
blynedd ar ddeg, gan ladd, yspeilio, a dystrywio y cwbl
o'i flaen, yn y modd mwyaf creulawn a ffyrnig a ellid
ddychymmygu. Galwai ei hun yn 'ffrewyll Duw, a
dychryn dynolryw;' ac efallai na haeddodd neb erioed
yr enw yn well: yr oedd efe mewn gwirionedd yn fynydd
llosg wedi ei fwrw yn y môr, ac yn ei droi yn waed;
oblegid efe a orchuddiodd y gwledydd â gwaed y trigol-
ion, ac a ddystrywiodd bob peth a ddeuai yn ei ffordd;
ac ni ddïangodd un ran o'r amherodraeth yn hollawl,
rhag ei gynddaredd ofnadwy a gwaedlyd ef. § Yn y
difrod hir ac erchyll hyn bu farw traian y crëaduriaid
byw yn y môr, sef y dynion yn yr amherodraeth Rufein-
ig; * a thraian y llongau a ddinystriwyd: mae yn ddïa-
ammau i hyn gael ei wneyd yn llythyrenol, ond mae y
geirian hefyd yn rhag-ddangos attaliad a difrod pob
masnach a thrafodiaeth wladol, gan y goresgynwyr di-
drugaredd a enwyd. Y pethau uchod, debygid, a fedd-
ylir yn benaf; ond ni a allwn gynnwys dàn yr udgorn
hwn yr amryw ddrygau a ddygwyddodd i'r amherodraeth

o'r flwyddyn 412 hyd 450.—Os yw y difrodion dàn *Attila*, o'r gogledd, yn perthyn i'r udgorn cyntaf, fel y tybia rhai, rhaid mai yr anrheithiau dàn *Genserick*, brenin y *Vandaliaid*, o Affrica, i'r dehau, a feddylir yma: ond pa un bynag ai *Attila* ai *Genserick* a feddylir, mae yn amlwg bod traian y môr yn troi yn waed, yn arwyddo amherodraeth Rhufain, yr hon a gyfrifid yn cynnwys traian y byd; (gwel ar adn. 7.) ac o ganlyniad rhaid bod y mynydd llosg yn arwyddo y *goresgynwr*, yr hwn a barodd yr effeithiau gwaedlyd hyny, ac nid y *goresgynedig:* pe amgen, byddai dau arwydd-lun o'r *olaf* yn yr un adnod, heb un arwydd-lun o'r *blaenaf*.—Mae tybiau eraill amryw am y pethau uchod, ond yr hyn a enwyd yw barn ein Hawdwyr yn benaf.

10 * A'r trydydd angel a udganodd; a syrthiodd o'r nef [a] seren fawr yn llosgi fel lamp, † a hi a syrthiodd ar draian yr afonydd, [b] ac ar ffynhonnau y dyfroedd:

a pen. 1. 20. a 6. 13. a 9. 1. a 12. 4. Es. 14. 12. Luc 10. 18. Judas 13. b pen. 16. 4. Ex. 7. 20, 21. Barn. 5. 11. 2 Bren. 2. 19—22. 2 Cron. 32. 3. Es. 12. 3. Hos. 13. 15, 16.

* Ar udganiad y trydydd angel, syrthiodd o'r nef megys seren fawr yn llosgi fel lamp, yr hyn yn ol barn rhai oedd yn rhag-arwyddo y cyfeiliornadau Ariaidd a Morganaidd, yn nghyd â'r amrafaelion a'r erlidiau cyssylltiedig â hwynt ac yn eu hachos. Ac mae yn ddïammau y gellid arddangos y cyfeiliornadau hyny yn ddigon addas trwy seren yn syrthio, † a'i heffeithiau yn chwerwi ac yn gwenwyno traian yr afonydd a'r ffynonau dyfroedd; (adn. 11.) yr hyn a arwydda yr eglwysi, lawer o honynt, yn cael eu llygru yn druenus gan y cyfryw gyfeiliornadau dinystriol.—Mae rhai yn enwi amryw gyfeiliornwyr eraill, heblaw *Arius* a *Morgan*, fel yn cael eu rhag-ddangos wrth y seren syrthiedig hon; a rhai eraill yn barnu mai rhyw ddyn enwog yn y wladwriaeth a feddylir, ac nid neb yn yr eglwys. Tybia *Pool* mai seren *eglwysig*, ac nid *gwladol* oedd, a thybia ei bod yn rhagarwyddo Morgan a'i gyfeiliornadau, mòr debyg â neb arall. Ond barna pob un o'n Hawdwyr eraill, ei bod yn arwyddo drygau chwanegol o hyd ar yr amherodraeth Rufeinig, y rhai a dòrent ymaith amryw wledydd oddi wrthi, ac a ddadymchwelent yr amherodraeth yn hollawl. Fel hyn tybir fod y weledigaeth yn rhag-ddangos rhuthr-gyrchion canlynol y *Gothiaid* a'r *Vandaliaid*, a chenedloedd anwaraidd eraill, o'r flwyddyn 412 i 493, yn benaf dàn arweiniad *Genserick*, yr hwn a ddaeth i Italy, ac a gymmerodd ac a anrheithiodd Rufain ei hun, tua'r flwyddyn 455; a thàn arweiniad *Odoacer*, brenin yr *Heruliaid*, yr hwn a ddaeth i Italy hefyd, tua'r flwyddyn 476, ac a aeth rhagddo i Rufain, yr hon a gymmerodd ac a anrheithiodd efe, gan ddwyn ymaith beth dirfawr o'i thrysorau, a lluoedd lawer o'r bobl: dychwelodd wedi hyny, cymmerodd Rufain, goresgynodd holl Italy, a chan gymmeryd yr enw o frenin iddo ei hun, diorseddodd *Augustulus*, yr Amherawdwr cristionogol; yr hyn a rag-ddangosid mewn iaith brophwydoliaethol trwy seren yn syrthio, (Esa. 14. 12—15; Dan. 8. 10.) a thrwy sychu yr afonydd a'r ffynonau dyfroedd; (Esa. 19. 4—8; Hos. 13. 15, 16.) yr hyn oedd yn debyg i'r plâ hwnw yn yr Aipht, trwy yr hwn y drewodd yr afonydd, y ffrydiau, a'r pyllau, ac y trôdd eu holl ddyfroedd yn waed. Exod. 7. 19—21.

11 * Ac enw y seren a elwir [c] Wermod: † ac aeth traian y dyfroedd yn wermod; [d] ‡ a llawer o ddynion a fuant feirw gan y dyfroedd, || oblegid eu myned yn chwerwon.

c Deut. 29. 18. Ruth 1. 20. Diar. 5. 4. Jer. 9. 15. a 23. 15. Galar. 3. 5, 19. Amos 5. 7. a 6. 12. Heb. 12. 15. d Ex. 15. 23.

* Enw y seren oedd Wermod, neu Chwerwder; ac felly yr oedd effaith ei syrthiad hi ar yr afonydd a'r ffynonau dyfroedd, † oblegid aeth traian y dyfroedd yn wermod, neu chwerw, pan syrthiodd hi arnynt: yr hyn oedd yn arwyddo difrod pellach yr amherodraeth, a dystryw y cysauron oedd hyd yn hyn yn aros, wedi ei gadael i'r gweddill o'r trigolion gresynol; ‡ y rhai oedd yn cael eu hymlid a'u trallodi yn y fath fodd, fel nas gallent ymofyn am gynnaliaeth angenrheidiol bywyd, heb fod mewn enbydrwydd am eu heinioes, a llawer o honynt yn colli eu heinioes, gan eu gelynion. || Fel hyn aeth y dyfroedd, cysuron ac angenrheidiau bywyd, yn chwerwon, ac yn beryglus eu ceisio; a llawer o ddynion a fuant feirw wrth ymofyn am danynt: ac fel hyn yr oedd chwerwi a gwenwyno yr afonydd a'r ffynonau dyfroedd, yn gorphen y farn flaenorawl, o droi y môr yn waed.—O ganlyniad, yn fuan iawn ar ol i *Attila* fyned ymaith, rhuthrodd *Genserick* yn annysgwyliadwy i mewn i'r amherodraeth, gyda thri chan mil o Vandaliaid a Mooriaid o Affrica; gwarchaeodd ar Rufain a chymmerodd hi, a rhoes y ddinas hòno i fynu i greulondeb, trachwant, pen-rhyddid, ac afreolaeth ei filwyr; a thrwy ei lwyddiant hwnw gwanychodd yr amherodraeth yn y fath fodd, fel y llwyr ddymchwelwyd hi yn fuan wedi hyny. Gan i'r ymgyrch hwn gael ei wneyd ar ffynonell yr awdurdod a'r llwyddiant Rhufeinig, gellid dywedyd yn yr ystyr hyn fod yr afonydd a'r ffynonau dyfroedd yn cael eu chwerwi.—Yr oedd *Genserick* hefyd yn Ariad crŷf a rhagfarnllyd, ac yn erlidiwr creulawn ar y cristionogion uniawn-gred; ac yn yr ystyr hyny hefyd efe a chwerwodd ac a wenwynodd y dyfroedd.—Dygwyddodd y pethau hyn (ebai *Scott,*) rhwng 450 a 456.

12 * A'r pedwerydd angel a udganodd; * a tharawyd traian yr haul, a thraian y lleuad, a thraian y sêr; † fel y tywyllwyd eu traian hwynt, [f] ac ni lewyrchodd y dydd ei draian, a'r nos yr un ffunud.

e pen. 16. 8, 9. Es. 13. 10. a 24. 23. Jer. 4. 23. Ezec. 32. 7, 8. Joel 2. 31. Amos 8. 9. Mat. 24. 29. a 27. 45. Marc 13. 24. a 15. 33. Luc 21. 25. a 23. 44, 45. Act. 2. 20. f Ex. 10. 21—23. 2 Cor. 4. 4. 2 Thes. 2. 9—12.

* Pan udganodd y pedwerydd angel, cafodd traian yr haul, y lleuad, a'r sêr, sef goleuadau mawrion, neu enwogion amherodraeth Rhufain, eu taro â diffyg a thywyllwch. † Mae y traian, er ei lefaru am y goleuadau a enwyd, neu am amser eu llewyrchiad, yn cyfeiriaw o hyd, debygid, at helaethder yr amherodraeth Rufeinig, fel yr oedd yn cynnwys traian y byd adnabyddus y pryd hwnw. Tra yr oedd gwychder yr amherodraeth ddwyreiniol wedi cael ei ddiwyno yn fawr iawn, ac heb lewyrchu ond yn wàn ac ar ddiffodd; yr oedd yr amherodraeth orllewiniol wedi ei diffoddi yn raddol. Gadawodd *Genserick* hi mewn cyflwr gwàn a diobaith: ymdrechodd yn galed, a dyheuodd megys am anadl, dàn wyth teyrnasiad bŷr a therfysglyd, am yr yspaid o ugain mlynedd, nes iddi o'r diwedd farw, yn y flwyddyn 476, dàn *Momyllus*, yr hwn mewn ffordd o watwar a elwid *Augustulus*, neu *Augustus* bach. Eto o hyd, er bod yr haul Rhufeinig wedi tywyllu, yr oedd ei îs-oleuadau yn llewyrchu yn wàn, tra yr oedd y senedd a'r prif-swyddogion yn parâu. Ond, wedi llawer o gyfnewidiau eraill, o'r diwedd yn 566, dymchwelwyd holl ffurf yr hen lywodraeth, a darostyngwyd Rhufain ei hunan, o fod yn Amherodres fawr y byd, i'r sefyllfa isel o Ddugiaeth dlawd, dàn deyrnged i Raglaw Ravenna.—Mae damweiniau mwy na dau gant o flynyddoedd yn cael eu rhagfynegi yma mewn chwech o adnodau; damweiniau nodedig o bwysfawr ynddynt eu hunain ac yn eu canlyniadau; ac eto adroddir hwynt gan haneswyr (medd *Scott*) yn y modd mwyaf didrefn a dyryslyd. Pa fodd bynag y cydwedda âg amcan y rhai a gyfyngant eu llafur i'r un ran hon o'r ysgrythyr, i fanylu ar y pethau cynnwysedig ynddi, neu i ddadleu dros neu yn erbyn unrhyw ddehongliad o hóni; nis gall manylrwydd a meithder gydweddu â'r amcan o agoriad ymarferol ar holl air Duw. Sylwa un o'n Hawdwyr *(Scott)* gyda boddlonrwydd mawr, bod y duwinyddion a ysgrifenasant ar y Llyfr hwn yn cytuno yn y prif bethau; a bod hyd yn nôd tystiolaethau gwrthffyddiaid, a ysgrifenasant hanes yr amserau uchod, yn dangos cywir gyflawniad y prophwydoliaethau blaenorawl.

l 13 * Ac mi a edrychais, ac a glywais angel
n [g] ehedeg y'nghanol y nef, † gan ddywedyd
l llef uchel, [k] ‡ Gwae, gwae, gwae, i'r rhai
ydd yn trigo ar y ddaear, || rhag lleisiau eraill
dgorn y tri angel, y rhai sydd eto i udganu.
g pen. 14. 3. a 19. 17. Salm 103. 20. Heb. 1. 14. h pen. 9.
2 12. a 11. 14. Ezec. 2. 10.

* Tra yr oedd Ioan yn dysgwyl i glywed y *pummed*
angel yn udganu, efe a edrychodd, ac yn ei weledigaeth
efe a welai ac a glywai hefyd, nid un o'r *saith*, mae yn
debyg, eithr angel arall, yn ehedeg yn dra chyflym yn
nghanol y nef; † ac yn gwaeddi allan â llef uchel ac
ofnadwy, fel y clywai pawb, ac fel y cymmerai yr eglwys
n enwedig rybudd, i ymbarotôi erbyn y gwaethaf; gan
ddywedyd, 'Er bod y barnau a ragfynegwyd eisoes, dàn
y pedwar udgorn blaenorawl, yn drymion iawn pan
ddelont ar amherodraeth Rhufain, yn enwedig ar y
man *orllewinol* o hóni, am ei dirywiad er pan ddaeth
n gristionogol; ‡ eto, mae barnau trymach, helaeth-
ach, a mwy ofnadwy o lawer, i gael eu tywallt gan
Duw, yn enwedig ar ddeiliaid y rhan *ddwyreiniol* o
hóni; am eu llygriad anferth mewn athrawiaeth, addol-
iad, a moesau. Mae gwae triphlyg i'r rhai sydd yn
gigo ar y ddaear, y rhan a enwyd o hóni yn enwedig,
n gystal â'r rhan *orllewinol* hefyd, || i gael ei chy-
oeddi gan leisiau y tri angel sydd eto i udganu. Dy-
ed *Guyse* fod y *ddwy* wae *gyntaf* i gael eu cyflawni
rwy anrheithiau y Saraceniaid, dàn y pùmmed a'r
hweched udgorn, ar y rhan *ddwyreiniol* o'r amherodr-
eth; a'r *drydedd* i gael ei chyflawni ar yr holl genedl-
edd anghristaidd, *dwyreiniol* a *gorllewinol*, dàn y
eithfed udgorn.—Wrth y rhai yn trigo ar y ddaear
mae rhai yn deall holl ddeiliaid yr amherodraeth
ufeinig; ac eraill y rhai mwyaf daearol, afiach, a
hagrithiol o'r eglwys gristionogol. Cyhoeddir y *wae*
air gwaith, un ai i ddangos mawredd y barnau, neu,
fallai, yn ol nifer yr angelion oedd eto i udganu.

PEN. IX.

Udganiad y pummed angel.

1 A'R [a] pummed angel a udganodd; † ac mi
a welais [b] seren yn syrthio o'r nef i'r
ddaear: ‡ a rhoddwyd [c] iddo ef agoriad y
pydew heb waelod.
a adn. 12, 13. pen. 8. 6—8, 10, 12. a 11. 14, 15. b pen. 1.
10. a 8. 10. Es. 14. 12. Luc 10. 18. 2 Thes. 2. 3—8. 2 Tim. 3. 1—5.
c pen. 1. 18. a 20. 1. d adn. 2, 11. pen. 17. 8. a 20. 10. Luc 8.
31. Rhuf. 10. 7.

2 || Ac efe a agorodd y pydew heb waelod;
a [e] chododd mŵg o'r pydew, fel mŵg ffwrn
fawr; * a [f] thywyllwyd yr haul a'r awyr gan
mŵg y pydew.
e adn. 17. pen. 14. 11. Gen. 15. 17. a 19. 28. Es. 14. 31. Joel
2. 30. Act. 2. 19. f Ówel ar pen. 8. 12.—Ex. 10. 21—23. Joel
2. 2, 10.

* Gwedi y rhybudd difrifol a roddwyd yn niwedd y
pennod o'r blaen, am y tair gwae oedd i ganlyn, mae
Ioan yn clywed y pùmmed angel yn udganu; † ac ar
unyn yn gweled seren yn *syrthio* (nid yn *disgyn,*) o'r
nef i'r ddaear, fel goruchionen heintus: ‡ a rhoddwyd
ianiatâd iddo ef, sef i'r hwn a arwyddid drwy y seren
syrthiedig, i ddefnyddio gallu niweidiol, yr hyn a
arwyddid drwy yr agoriad, â'r hon y gallai efe agoryd
orth uffern, y pydew heb waelod, i ollwng yr ysbrydion
ffan allan oddi yno.—Nis gall fod braidd ddim am-
heüaeth, (medd *Scott*, ac âg ef y cytuna *Guyse* a
Doddridge,) yn meddwl neb ag sydd yn meddu gwy-
bodaeth ddigonol ar y mater, nad yw yr adnodau hyn
yn cynnwys prophwydoliaeth am ddechreuad a chyn-
nydd Mahomet a'i olynwyr, fel yr oeddynt yn llywodr-
aethu ar yr Arabiaid neu y Saraceniaid. Yn fuan yn y
seithfed canrif, (tua'r flwyddyn 606—608.) dechreuodd
Mahomet hòni cyfrinach ryfeddol iawn â Duw; gan
haeru fod yr angel Gabriel yn cael ei ddanfon ato ef yn
aml, i ddysgu crefydd iddo, yr hòn oedd ef i'w thaenu
yn y byd, fel un berffeithiach na chrefydd Moses, a
Christ, fel y rhoddwyd pob un o honynt ar y cyntaf; ac
yn ddiwygiad o honynt oddi wrth gyfeiliornadau a llygri-
adau, a ddaethai iddynt ar ol y rhoddiad cyntaf o
honynt. Cyhoeddodd y chwedl gelwyddog am ei daith
i'r nefoedd, rai blynyddoedd gwedi hyn. Haerai fod
prophwydoliaethau ain dano ef yn llyfrau Moses; ond
i'r Iuddewon ddileu y prophwydoliaethau hyny. Haerai
hefyd i'r Iesu ragfynegi ei ddyfodiad ef, dàn yr enw
Ahmed; yr hyn a arwydda *ardderchog iawn*, ac sydd
debyg iawn i Mohammed, neu Mahomet. (Tybir iddo
gam gymmeryd *Paraclêtos*, *Diddanydd*, am *periclutos*,
ardderchog iawn.) Mae yr hòniadau hyny yma, fel y
tybir yn gyffredin, yn cael eu dysgrifio drwy yr arwydd-
lun o "seren yn syrthio o'r nef i'r ddaear;" ac mae yr
arwydd-lun yn fwy priodol, oblegid iddo ef lewyrchu
yn amlwg iawn, er gyda goleu heintus a gwenwynig
iawn. Mae agoriad y pydew diwaelod, neu anoddyfn
uffern, a roddwyd iddo, yn arwydd-lun priodol iawn o'r
awdurdod a'r gallu a welodd Duw yn dda i ganiatâu
iddo ef, er taenu ei hudoliaethau cythreulig; || fel pe
buasai uffern ei hunan yn cael ei hagoryd ganddo ef,
§ a'i hagerdd gwenwynig a dinystriol hi fel mŵg ffwrn
ofnadwy, * yn cael ei oddef i dywyllu yr haul a gwen-
wyno yr awyr. Oblegid y twyllwr mwyaf cyfrwys, dich-
elligar, a llwyddiannus hwn, a ennillodd y fath oruch-
afiaeth yn raddol yn mysg yr Arabiaid neu y Saracen-
iaid, un o ba rai ydoedd efe, fel y derbyniasant hwy ei
grefydd ef, ac nid hyny yn unig, ond ymrestrasant hefyd
dàn ei faner ef fel eu cadben a'u llywydd; ac efe a'u
harweinodd hwynt allan i fuddugoliaeth, fel yn y modd
hyny y gallent trwy orfod, wneyd i eraill dderbyn ei
athrawiaeth ef. Yn yr anturiaeth hyn, bu efe a'i olyn-
wyr mòr llwyddiannus, fel y tywyllwyd goleuni crist-
ionogaeth; a llawer o genedloedd, yn mhlith pa rai
y bu yn llewyrchu unwaith yn y modd dysgleiriaf, a
dywyllwyd bron yn hollawl, ac a lygrwyd yn wenwynig
gan y mŵg hwn o'r pydew diwaelod.—Ni bu Mahomet
(neu Mohammed) erioed yn seren, fel y mae seren yn
arwyddo gweinidog yr efengyl; dyfod i fynu o iselder a
wnaeth ef, dringo i fawredd ac enwogrwydd, o'r fath ag
ydoedd, ac ni syrthiodd o hóno. O herwydd hyny
mae llawer yn ammau ai efe a feddylid wrth y seren yn
syrthio, neu a *syrthiasai*, (Groeg) o'r nef i'r ddaear.
Gan hyny tybia rhai mai mynach Nestoraidd gwrthgil-
iedig, o'r enw *Sergius*, neu *Baheira*, a feddylir wrth y
seren hon, yr hwn a gynnorthwyodd Mahomet i lunio
a dyfeisio ei dwyll, ac a fu mewn llawer ffordd yn was-
anaethgar i'w ddybenion drygionus ef. Tybia eraill
mai *Boniface* y Trydydd a feddylir, yr hwn yn 606 a
gafodd ac a gymmerodd yr enw o brif esgob cyffredinol,
neu ben Pab, trwy roddiad y gorthrymwr *Phocus:* ac
fel hyny mae y geiriau yn cynnwys prophwydoliaeth
am wrthgiliad cyntaf esgob Rhufain, a dechreuad pab-
yddiaeth a'i chyfeiliornadau myglyd, tywyll a niweidiol.
Hyna ydyw barn *Pool* yn benaf, ond mae ein tri Awdd-
wyr eraill yn barnu yn gryf mai Mahomet a'i gyfeiliorn-
adau a feddylir fel y sylwyd.

3 * Ac o'r mŵg y daeth allan [g] locustiaid
ar y ddaear; † a rhoddwyd awdurdod iddynt,
[h] fel y mae gan ysgorpionau y ddaear awdurdod.
g Ex. 10. 4—15. Barn. 7. 12. Es. 33. 4. Joel 1. 4. a 2. 25.
Nah. 3. 15, 17. h adn. 5, 10, 11. Deut. 8. 15. 1 Bren. 12. 11.
Ezec. 2. 6. Luc 10. 19.

* Ac o'r mŵg a grybwyllwyd uchod, y daeth allan
locustiaid ar y ddaear: sef lluoedd o offeiriaid pabaidd,
mynachod, ac yn enwedig *Jesuitiaid*, medd *Pool*, yr
hwn a farna mai *Boniface*, y pen Pab, oedd y seren; ond
dywed *Guyse* na ddechreuodd yr urddau hyny yn yr
eglwys babaidd, yn enwedig y rhai olaf, hyd amrai gan-
noedd o flynyddoedd ar ol yr amser a ddynodir dàn yr
udgorn hwn. Y rhai a dybiant mai Mahomet a ar-
wyddir wrth y seren syrthiedig, a farnant mai y byddin-

oedd mawrion o Arabiaid, neu Saraceniaid, a feddylir; y rhai a gyfododd efe drwy ei dwyll a'i hudoliaeth, i daenu difrod drwy y gwledydd. Yr oeddynt yn debyg i locustiaid o ran eu hamldra, ac o ran y difrod a wnaent; ac yr oeddynt yn dyfod o'r un gwledydd ag y byddai yr heidiau mwyaf o locustiaid, yn mhob oes, yn dyfod. Dywedir fod y locustiaid yn magu mewn pyllau a gogofêydd y ddaear; ac yr oedd y rhai hyn yn deilliaw o'r mŵg oedd yn dyfod allan o'r pydew heb waelod. † Ar yr un pryd yr oeddynt yn debyg i ysgorpionau, colynau pa rai a barent boen dirfawr, a byddai eu brathiadau yn farwol yn aml: a rhoddai Mahomet awdurdod iddynt, a Duw oddefiad, i ddrygu â'u colynau, neu eu harfau dinystr, fel y mae gan ysgorpionau y ddaear awdurdod i frathu.

4 * A dywedwyd wrthynt, [i]na wnaent [k]niwed i laswellt y ddaear, nac i ddim gwŷrddlas, nac i un pren; † ond yn unig i'r dynion oedd [l]heb sel Duw yn eu talcennau.

i pen. 6. 6. a 7. 3. Job 1. 10, 12. Salm 76. 10. Mat. 24. 24. 2 Tim. 3. 8, 9. k pen. 8. 7. l Gwel ar pen. 7. 3, 4.—a 14. 1. Ex. 12. 23. Ezec. 9. 4, 6. Eph. 4. 30.

* Mae y locustiaid naturiol yn dystrywio ffrwythau y ddaear, ond ni wnant ddim niwed i gyrph dynion; ond yn groes i hyny, gorchymynwyd i'r locustiaid cyfriniol hyn, na wnaent ddim niwed i laswellt y ddaear, nac i ddim gwyrdd-las, nac i un pren; † ond yn unig i'r dynion oedd heb sêl Duw yn eu talcenau: am yr hyn, gwel ar pen. 7. 3: ac mae yn beth nodedig, i'r un gorchymyn yn hollawl gael ei roddi i fyddinoedd y Saraceniaid.—Pan oedd *Yezed* yn ymdaith gyda'i fyddin i ruthro ar Syria, gorchymynodd *Abubeker* iddo fel hyn, gyda gorchmynion eraill, 'Na ddystrywia ddim o'r palmwydd, ac na losga ddim o'r maesydd ŷd; na thòr i lawr ddim coedydd ffrwythau, ac na wna niwed i ddim anifeiliaid, ond yr hyn a leddych i'w bwyta.' Proffeswyr llygredig a rhagrithiol o gristionogaeth, a feddylid yn arbenig wrth y rhai oedd heb sêl Duw yn eu talcenau; yr hyn sydd lwyr brawf, mai rhywbeth hollawl wahanol i fedydd allanol, ac yn perthyn i wir gristionogion yn unig, a feddylir wrth y seliad hyny. Yn awr, mae yn ddigon hysbys i ddarllenwyr, ddarfod i'r Saraceniaid estyn eu buddugoliaethau yn benaf dros y gwledydd hyny, lle yr oedd addoli saint ac angelion, a llygriadau eraill o'r grefydd gristionogol, yn ffynu; tra yr oedd y gwledydd lle cawsai crefydd ei chadw yn fwy pur, yn cael eu cysgodi rhag eu cynddeiriogrwydd hwy: ac mae yn ddiammau i Dduw oddef i'r ffrewyll hon ddyfod ar y cenedloedd, lle y llygrwyd ei efengyl ef, er eu cerydd a'u cospedigaeth hwy.—Lle mae rhywbeth yn cael ei briodoli i grëaduriaid byw nad yw yn naturiol i'r crëaduriaid hyny, megys gadael tyfion y ddaear, a niweidio dynion, yr hyn a briodolir i'r locustiaid yma; rhaid i ni ddeall am y crëaduriaid hyny yn *gysgodol*, neu *gyfriniol*, ac nid yn *llythyrenol:* anian y locustiaid yw difa ffrwythau y ddaear, heb niweidio dynion; i'r gwrthwyneb yr oedd yma, am hyny *dynion* a feddylir, ac nid y *pryfed* a elwir *locustiaid.*

5 * A [m]rhoddwyd iddynt [n]na laddent hwynt, † ond [o]bod iddynt eu blino hwy ‡ bùm mis: ‖ ac *y byddai* eu [p]gofid hwy fel gofid oddi wrth ysgorpion, pan ddarfyddai iddi frathu dyn.

m pen. 13. 5, 7. Dan. 5. 18—22. a 7. 6. Ioan 19. 11. n pen. 11. 7. Job 2. 6. o adn. 10. p Gwel ar adn. 3.

* Gorchymynwyd iddynt hefyd na *laddent* y dynion hyny, oedd heb sel Duw yn eu talcenau; † ond bod iddynt eu *blino*, a'u *poeni* hwynt: ond gan i luoedd dirfawr gael eu lladd gan y goresgynwyr creulawn hyn, nis gellir deall hyn yn *llythyrenol* gyda phriodoldeb; ac mae yn amlwg mai y meddwl yw, y byddai iddynt hwy awdurdod *parâus* i anrheithio, i drallodi, ac i aflonyddu y cenedloedd a'r eglwys; ond nid yn hollawl i'w dinystrio. Gallant eu ladd hwynt fel personau; ond eto ni chaent eu lladd hwynt fel corph gwladol, fei teyrnas, neu amherodraeth. O ganlyniad, hwy a orthrymasant ac a anrheithiasant yn druenus iawn, yr eglwysi Groegaidd a Lladinaidd hefyd; yn nghyd â'r cenedloedd lle yr oeddynt wedi eu sefydlu; ond nis gallasant eu difodi hwy yn hollawl: gwarchaeasant Gaer-Custenyn *(Constantinople)* amryw weithiau, ond gŷrid hwy yn eu hol bob amser; ïe, anrheithiasant Rufain ei hun, ond nis gallasant gadw meddiant parâus o hóni; cymmerasant amryw o daleithiau brasaf yr amherodraeth ddwyreiniol, ond nis gallasant ei dymchwelyd hi yn hollawl. ‡ Rhag-ddywedir yma hefyd, y byddai iddynt flino a phoeni dynion am "bùm mis;" yn ol yr yspaid o fywyd a gyfrif anianyddion i'r locustiaid. (adn. 10.) Os cyfrifwn 30 o ddyddiau i bob un o'r misoedd hyn, a phob diwrnod yn arwyddo blwyddyn, hwy a wnant gant a hanner o flynyddoedd: ac yn awr, dechreuodd Mahomet daenu ei dwyll yn gyhoeddus, yn y flwyddyn 612; ac yn y flwyddyn 762, (càn mlynedd a hanner union wedi hyny,) adeiladwyd dinas *Bagdad*, peidiodd y Saraceniaid â'u difrodion, a daethant yn bobl sefydlog: ni wnaethant fuddugoliaethau cyflym mwyach, ac ni chwanegasant mwyach eu nerth a'u hawdurdod; ond o hyn allan dechreuasant waelu a cholli tir. ‖ O'r blaen dros yr yspaid a enwyd, yr oeddynt yn gofidio dynion fel ysgorpionau, pan frathent; ond yn awr nid oeddynt hwy yn locustiaid nac ysgorpionau mwyach, o eisiau gallu; er i'r udgorn gwae hwn barâu lawer yn hwy, fel y gwelir yn fuan.—Yn fuan iawn darostyngodd yr herwyr hyn Palestina, Syria, Armenia, Asia Leiaf bron i gyd, Persia, India, yr Aipht, Numidia, Barbaria, yr Hispaen, Portugal, rhan o Italy, a'r prif ynysoedd yn Môr y Canol-dir.

6 * Ac yn y dyddiau hynny y [q]cais dynion farwolaeth, † ac nis cânt; ac a chwennychant farw, a marwolaeth a gilia oddi wrthynt.

q pen. 6. 16. 2 Sam. 1. 9. Job 3. 20—22. a 7. 15, 16. Jer. 8. 3. Hos. 10. 8. Jona 4. 8, 9. Luc 23. 30.

* Rhag-ddywedwyd yma hefyd, y byddai i'r goresgynwyr dychrynllyd hyny beri y fath drallodau poenus a thruenus, i drigolion y gwledydd a anrheithient, trwy roddi y rhyddid eithaf i greulondeb, rheibusrwydd, a thrachwantau y milwyr; fel y chwennychai lluoedd aneirif o ddynion farwolaeth yn hytrach na bywyd: a buasai eu goresgynwyr yn fwy trugarog, pe buasent ar unwaith yn lladd gwrthddrychau eu trachwantau afrëolus, na'u cadw hwynt i arwain bywyd o anfri a dyoddefiadau: † ond attaliwyd eu gelynion rhag rhoddi yr ymwared truenus hyny iddynt; "ni chaent" farw y pryd hwnw, ac er maint a chwennychent, "ciliai marwolaeth oddi wrthynt."—Yr oedd caethiwed caled y dynion, a chyflwr truenus y benywaid, y rhai oedd yn agored i drachwantau diderfyn y Saraceniaid, yn gyfryw ag y dymunent farw yn hytrach na byw, ond ni chaent farw. (adn. 5.)

7 * A [r]dull y locustiaid *oedd* debyg i feirch wedi eu parottôi i ryfel; † ac *yr oedd* ar eu pennau megis coronau yn debyg i aur, ‡ a'u [s]hwynebau fel wynebau dynion.

r Joel 2. 4, 5. Nah. 3. 17. s Dan. 7. 4, 8.

* Yn nesaf dysgrifir llun y locustiaid hyn: yr oeddynt yn debyg i feirch wedi eu parotôi i ryfel; a dywedir fod y locustiaid yn debyg i feirch, yn enwedig yn eu penau; a gwnânt drwst dychrynllyd yn eu mynediad, fel byddin o feirch yn parotôi i ryfel. (Gwel Joel 2. 2—11.) Yn awr yr oedd yr Arabiaid yn bobl nodedig am eu medr mewn marchwriaeth, ac yr oedd eu prif nerth hwy yn gynnwysedig mewn meirch-filwriaeth. † Efallai bod y cyffelybrwydd i goronau aur ar eu penau yn arwyddo, y penguwchiau *(turbans)* a wisgai yr Arabiaid bob amser; neu efallai eu bod yn cyfeirio at y teyrnasoedd lawer a ddarostyngwyd ganddynt hwy dàn eu llywodraeth. Gwel ar adn. 5, diwedd y sylwad. ‡ Eto yr oedd eu gwynebau fel gwynebau dynion, i arwyddo

mai dynion oeddynt, cryfion a chreulawn, i arglwydd-saethu ar ddynion eraill.

8 * A [t]gwallt oedd ganddynt fel gwallt gwragedd, † a'u [u]dannedd oedd fel *dannedd* llewod.

t 2 Bren. 9. 30. Es. 3. 24. 1 Cor. 11. 14, 15. 1 Tim. 2. 9. 1 Pedr 3. 3. u Salm 57. 4. Joel 1. 6.

* A gwallt oedd ganddynt fel gwallt gwragedd, wedi ei blethu yn gywrain, neu yn hytrach yn llaes-hongian fel lawr eu cefnau: a dywedir mai felly y byddai yr Arabiaid yn gwisgo eu gwallt. Efallai bod hyn yn dangos eu bod yn ddynion prydferth yr olwg arnynt, yn wahanol i'r Philistiaid, o nwydau benywaidd, yn druthgar, ac yn anniwair. † Ond yr oedd ganddynt ddannedd fel dannedd llewod: yr hyn a arwydda eu creulondeb a'u cadernid i ddystrywio, lle y gallent orchfygu a darostwng eu gelynion. Gwel Joel 1. 6.

9 * Ac yr oedd ganddynt [x]lurigau † fel llurigau haiarn; ‡ a [y]llais eu hadenydd *oedd* fel llais cerbydau llawer o feirch yn rhedeg i ryfel.

x adn. 17. Job 40. 18. a 41. 23—30. Joel 2. 8. y Job 39. 25. Es. 9. 5. Joel 2. 5—7. Nah. 2. 4, 5.

* Yr oedd eu dannedd yn yr adnod o'r blaen yn arwyddo eu harfau *ymosodawl*, yn gystal â'u creulondeb ffyrnig; ac yma mae eu llurigau (*breast-plates* yn y Saesoneg,) yn arwyddo eu harfogaeth *amddiffynol:* tra yr oeddynt yn arfog a chreulawn i ymosod ar eraill, yr oeddynt yn ofalus am eu hamddiffyn eu hunain. † Ac yr oedd y llurigau hyn o'r defnydd cryfaf a chaletaf, mòr gadarn ac annhreiddiadwy â haiarn; yr hyn oedd arwydd addas eu bod hwy yn gedyrn yn erbyn eu gelynion, ac i'w hamddiffyn eu hunain yn wyneb pob ymgyrch a wnaid arnynt yn eu gwlad eu hunain. ‡ Ac yr oedd "llais neu sŵn eu hadenydd, fel llais cerbydau llawer o feirch yn rhedeg i ryfel," yn arwyddo ffyrnigrwydd gorwyllt, â pha un yr ymosodent hwy ar eu gelynion, a chyflymdra buan eu buddugoliaethau. Dywedir yn gyffelyb, ond mewn ymadroddion mwy mawreddig, am y locustiaid, llu mawr Duw, yn Joel 2. 4, 5.

10 * Ac yr oedd ganddynt [z]gynffonnau tebyg i ysgorpionau, † ac yr oedd colynnau yn eu cynffonnau hwy: ‡ a'u gallu *oedd* i ddrygu dynion || bùm mis.

z Gwel ar adn. 3, 5.

* Ond er eu bod hwy yn difrodi ac yn gwneyd anghyfannedd-dra fel locustiaid; eto yr oedd ganddynt gynffonau fel ysgorpionau, yr hyn oedd ryfedd iawn: † ac yr oedd colynau yn eu cynffonau hwynt, gwenwynig a thra niweidiol; ‡ a'r drwg mwyaf a wnaent hwy, fyddai â'u cynffonau a'r colynau hyn; oblegid pa le bynag yr estynent hwy eu buddugoliaethau trwy eu harfau, byddent yn gadael gwenwyn eu crefydd atgas ar eu hôl: ac fel hyny yr oedd canlyniad eu buddugoliaethau hwynt yn llawer mwy niweidiol, nâ'r galanasdra a wnaent yn y buddugoliaethau hyny. || Sylwyd ar y pùm mis hyn o'r blaen: adn. 5. Dywedir mai am y pùm mis haf, o ddechreu Mai hyd ddiwedd Medi, mae y locustiaid naturiol yn byw; a threfn y Saraceniaid o ryfela oedd, trwy ruthrau ar yr Amherodraeth yn y tymmor haf yn unig, ac yna cilio tàn yr haf canlynol: at hyny, mae yn debyg, mae cyfeiriad y "pùm mis" yma.—Gan na bu crëaduriaid erioed mewn gwirionedd, yn ateb i'r dysgrifiad yn y pedair adnod uchod, rhaid i ni ddeall mai math o ddangosiad arwydd-luniawl *(hieroglyphical)* yw y cwbl; er darlunio pa fath ddynion a fyddai y Saraceniaid rhyfelgar, am ba rai, yn ol barn ein Hawdwyr, y dywedir.

11 * Ac yr oedd [a]ganddynt frenhin arnynt, *sef* angel y pydew diwaelod: † a'i enw ef yn Hebraeg *ydyw* Abàdon, ‡ ac yn Röeg y mae iddo enw Apòlyon.

a pen. 12. 9. Ioan 12. 31. a 14. 30. a 16. 11. 2 Cor. 4. 4. Eph. 2. 2. 1 Ioan 4. 4. a 5. 19.

* Y brenin oedd gan y locustiaid hyn arnynt, ydoedd angel, neu genad y pydew diwaelod: yn hyn hefyd yr oeddynt yn wahanol i'r locustiaid naturiol, y rhai nid oes brenin arnynt. Diar. 30. 27. Satan, yn ddiammau, yn ysbrydol, oedd y brenin hwn, angel y pydew diwaelod; ond tybia *Scott* fod yma gyfeiriad hefyd, yn llythyrenol, at eu Caliphiaid hwy, y naill ar ol y llall, y rhai oedd brif offeiriaid eu crefydd hwynt, blaenoriaid eu byddinoedd, a'u hamherawdwyr. † Yr oedd enw y brenin hwn, sef "Dinystrydd," (oblegid hyny a arwydda yr Abàdon Hebraeg, ‡ a'r Apòlyon Groeg,) yn nodedig o addas a pherthynol i'r llywodraethwyr uchod yn ol-yn-ol, y rhai a ddinystrient gyrph ac eneidiau dynion drwy yr un rhyfel-gyrchoedd adwythig, y naill â'r cleddyf, a'r lleill â'u crefydd gyfeiliornus; ac fel hyny yr oeddynt megys yn rhaglawiaid Satan y llofrudd cyntaf, ac yn gynnrychiolwyr gweledig iddo ef ar y ddaear.—Mae pob amgylchiad yn y rhagfynegiad arwydd-luniawl hwn, yn cyd-daro mòr fanol gywir â'r Saraceniaid, ac yn cydweddu mòr lleied âg eglwys neu lywodraeth eglwysig Rhufain, neu â neb o'i hurddau crefyddol hi, (y rhai a ennillasent eu ffordd trwy ddichellion offeiriadol, ac nid trwy arfau,) fel nas gellir mewn un modd gyda phriodoldeb, ddeall y geiriau am eglwys Rhufain; yn enwedig gan y dywedir am yr eglwys hòno gyda digon o fanylrwydd yn yr hyn a ganlyn. Mae i brophwydoliaethau ystyr benderfynol; a thrwy ymollwng i ddychymmygion bywiog, er chwilio am debygoliaethau pell, byddwn yn fwy tebyg o ddyrysu, na goleuo a boddloni yr ymofynydd am wybodaeth.

12 * Un [b]wae a aeth heibio; † wele y mae yn dyfod etto [c]ddwy wae ar ol hyn.

b Gwel ar adn. 1, 2. c adn. 13—21. pen. 8. 13. a 11. 14.

* Gwedi i Ioan weled y pethau uchod, mynegwyd iddo fod un wae o'r tair ddiweddaf wedi myned heibio; † a bod yn dyfod eilwaith ddwy wae ar ol hyny, sef dàn y chweched a'r seithfed udgorn.—Gosodwyd hyn i mewn, nid yn unig i wahaniaethu y gwaëau, ac i nodi pob yspaid yn fwy crŷf ac amlwg; ond hefyd i ddangos, y byddai i gryn amser fyned heibio rhwng y wae gyntaf hon o locustiaid Arabia, â'r wae nesaf o wŷr meirch Euphrates. (adn. 14—19.) Mae hyn hefyd yn gwasanaethu i sefydlu trefn amser, gyda golwg ar y damweiniau a rag-ddywedir.

13 * A'r [d]chweched angel a udganodd; ac mi a glywais [e]lef † allan o bedwar corn yr allor aur, ‡ yr hon sydd ger bron Duw,

d Gwel ar adn. 1. e Gwel ar pen. 8. 3—5. Heb. 9. 24. a 10. 12.

* Pan udganodd y chweched angel, clywai Ioan lef uchel rhywun, *(Phônên mian)* † megys yn dyfod allan o bedwar corn, neu oddi rhwng pedwar corn, yr allor aur, sef allor yr arogl-darth; ‡ yr hon a ddangosid yn weledigaethol iddo ef, yn debyg i hòno yn y cyssegr gynt, yr hon a safai o flaen y wahan-len, yn ymyl y Sancteiddiolaf, wrth arch y dystiolaeth a'r drugareddfa. (Exod. 30. 1—6.) Wrth fod yr allor hon yn "bedair-ongl," a chorn ar bob ongl iddi, a bod arogl-darthu beunyddiol arni; gellir yn sicr ei hystyried hi, ei chyrn, a'i gwasanaeth, fel yn arwyddo eiriolaeth Crist dros ei bobl, (pen. 8. 3.) a'i allu ef i'w hamddiffyn hwynt yn mhedwar cŵr y ddaear. Dywed *Pool* mai llef Duw oedd hon, allan o bedwar corn yr allor aur, neu, yn ol barn *Doddridge*, allan o'r Sancteiddiolaf, yn union y tu cefn iddi; a dywed *Guyse* mai llef Crist ydoedd, yn gorchymyn yn ei awdurdod cyfryngol, i'r chweched angel, yr hyn a grybwyllir yn yr adnod nesaf. Wrth fod y llef yn dyfod oddi wrth allor yr arogl-darth, mae yn arwyddo yn grŷf, mai barnedigaethau am lygru yr efengyl, a'i throi yn "arogl marwolaeth" a chondemniad, oedd y barnedigaethau oedd i gael eu rhagfynegi dàn yr udgorn hwn.

14 * Yn dywedyd [f]wrth y chweched angel,

yr hwn oedd â'r udgorn ganddo, † Gollwng [g]yn rhydd y pedwar angel sydd yn rhwym ‡ yn [h]yr afon fawr Euphrates.

f pen. 8. 2, 6. g adn. 15. pen. 16. 12. h Gen. 2. 14. 2 Sam. 8. 3. Jer. 2. 63.

* Clywai Ioan y "llef" uchod yn dywedyd yn awdurdodol wrth y chwched angel, yr hwn oedd â'r chwched udgorn ganddo, ac newydd ei udganu i ddwyn i mewn yr ail wae; † am ollwng yn rhydd y pedwar angel dinystriol, y rhai a fuasent dàn attaliad er ys crỳn amser, fel cenadon digofaint wedi eu rhwymo, ‡ yn yr afon fawr Euphrates, neu yn agos iddi. Gellir ystyried hyn, medd *Guyse*, fel rhagfynegiad ffugyrol, o'r gorchymyn a roddid ac a gyflawnid yn ngoruchwyliaethau rhagluniaeth Duw, i dỳnu ymaith yr attaliad a roddasid ar y Saraceniaid am o gylch deng mlynedd a deugain; fel yr elent hwy allan o holl gỳrau eu gwlad, i dywallt barnedigaethau ychwaneg eto, ar yr amherodraeth gristionogol ddirywiedig, yn mhob cŵr o hóni tua phedwar parth y byd: fel y cawsai pedwar angel eraill o'r blaen orchymyn, i ddàl neu ollwng y pedwar gwynt, sef barnedigaethau Duw, yn ol ei ewyllys ef, pen. 7. 1. A thybia *Doddridge* yr un modd, mai prophwydoliaeth sydd yma am ail uniad galluoedd rhanedig y Saraceniaid, a'u gwaith yn rhuthro ar, ac yn anrheithio, *Europe*, hyd oni orchfygwyd hwy gan un Charles Martel: pwy ydoedd, nid yw yr Awdwr uchod yn dywedyd, ac nis gŵyr y Cyfieithydd. Tybir fod y nifer *pedwar* yn arwyddo cyffredinolrwydd, fel mae y pedwar gwynt yn arwyddo pob gwynt: neu efallai i'r Saraceniaid ymranu yn bedair plaid, yr hyn a'u cadwodd hwynt i ymladd â'u gilydd am y flaenoriaeth, yn agos i'r Euphrates, dros 50 o flynyddoedd.—Gwedi y cwbl, mae *Pool* a *Scott* yn grỳf o'r farn, mai y *Twrciaid* a feddylir wrth y pedwar angel hyn; y rhai a gadwesid hyd yn hyn y tu arall i'r Euphrates, ond yn awr a ollyngid yn rhydd o'r attaliad hwnw, ac a aent rhagddynt i fuddugoliaethu y tu gorllewin i'r afon hòno. Yr unig wrthddadl o bwys yn erbyn hyn, (ebai *Scott*) yw meithder yr amser, a gymmerodd le rhwng y pethau a ragfynegwyd o'r blaen, âg ymgyrch buddugol y Twrciaid. Ond atebir hyny yn hawdd, (ebai efe) trwy sylwi, fod y tri udgorn gwae o angenrheidrwydd, yn cymmeryd i fynu yr holl amser cyfwng, rhwng dymchweliad yr amherodraeth orllewinol â dinystriad y bwystfil, yr hyn sydd eto i'w ddysgwyl. Parâodd y Saraceniaid i *feddiannu*, er nad i *helaethu*, eu llywodraeth, hyd oni ddadymchwelodd y Twrciaid hwynt; a pherthyn yr holl amser hyn yn brïodol i udgorn y wae gyntaf. Yn wir nid oes dim hanes am ddim damweiniau eraill, a gyfatebant yn foddlonawl i'r datguddiedigaethau a wnair ar ol udgorn yr ail wae hon, nac yr un arall, a'r ni adawant lawer mwy o feithder rhyngddynt âg udgorn y drydedd wae, nag mae y dehongliad hwn yn ei adael rhwng y cyntaf a'r ail. Ymdywalltodd y Twrciaid i Persia, a'r gwledydd ar gyffiniau yr Euphrates, yn yr unfed canrif ar ddeg; a sefydlasant bedair *Sultaniaeth*, neu deyrnasoedd, yn y parthau hyny: ond attaliwyd hwy rhag buddugoliaethu yn mhellach, yn enwedig gan y Croesaerau, neu ryfeloedd y Groes, fel y gelwid hwynt, y rhai a wnaed yn y canrif hwnw a'r ddau ganlynol, gan gristionogion y Gorllewin, y rhai a geisiasant ddwyn Palestina o feddiant yr anffyddiaid.

15 * A gollyngwyd y pedwar angel, † y rhai oedd wedi eu parottôi [i]erbyn awr, a diwrnod, a mis, a blwyddyn, ‡ fel [k]y lladdent y traian o'r dynion.

i adn. 5, 10. k adn. 18. pen. 8. 7, 9, 11, 12.

* Ond pan roddwyd i fynu yr amcanion penboeth a dinystriol uchod yn gwbl, gollyngwyd yn rhydd y pedwar angel a fuasai yn rhwym yn yr afon fawr Euphrates, y rhai oeddynt arwydd-luniau o'r pedair *Sultaniaeth* a enwyd, neu ynte o flaenoriaid dewrion pedair byddin ofnadwy gan y Twrciaid; † y rhai oedd wedi eu parotôi erbyn awr, a diwrnod, a mis, a blwyddyn: sef erbyn amser pennodol gan Dduw, yn ngoruchwyliaeth fanol ei ragluniaeth. ‡ Yn yr amser pennodol hwnw, wedi i'r Twrciaid ymuno â'u gilydd, dechreuasant eu difrodion a'u buddgoliaethau; a gwnaethant alanastra dirfawr yn mhlith trigolion y rhan hyny o'r byd, yr hon unwaith a wnaethai i fynu amherodraeth Rufain, ac am yr hon y darllenwn yn fynych fel y "traian o'r ddaear," a'r "traian o'r dynion." Drylliwyd yr amherodraeth orllewinol yn chwilfriw dàn y pedwar udgorn cyntaf; dystrywiwyd yr un ddwyreiniol yn agos dàn y pummed; a dymchwelwyd hi yn hollawl dàn y chwched hwn. Gorchfygodd y Twrciaid yr holl wledydd a berthynai iddi. Yn 1453, cymmerasant Gaer-Cystenyn, ac fel hyny rhoisant derfyn ar yr holl awdurdod Amherodrawl, yr hwn yn y dechreu a berthynai i Rufain.—Mae gan ein Hawdwyr lawer o dybiau, wedi eu dyfynu gan mwyaf o awdwyr eraill, am yr "awr, y diwrnod, y mis, a'r flwyddyn" yn y fàn hon: y cwbl a allwn ni gymmeryd o honynt sydd fel hyn:—Sylwa Mr. *Mede*, medd *Pool*, fod awr, a diwrnod, a mis, a blwyddyn, yn gwneyd 396 o flynyddoedd union. Mewn blwyddyn mae 365 o ddiwrnodau, mewn mis 30, yr hyn a wna 395; at yr hyn chwanegir y diwrnod dros ben mewn rhai misoedd (yr hyn efallai a feddylir wrth yr *awr*) gwna y cwbl 396 o flynyddoedd, pob diwrnod am flwyddyn, yn ol iaith brophwydoliaethol yr ysgrythyr. Dechreuodd y Twrciaid eu Hamherodraeth dàn *Ottoman*, yr hwn a ddechreuodd deyrnasu, 1296: ond urddwyd *Tangrolipix* eu Blaenor hwynt pan gymmerwyd *Baydad;* a rhoes am dano y Wisg Amherodrawl yn y flwyddyn 1057. Cymmerwyd Caer-Cystenyn ganddynt hwy yn 1453, fel y sylwyd eisoes; a rhwng y ddau amser uchod, mae 396 o flynyddoedd yn gymhwys: ac yn yr ypsaid hyny, hwy a laddasant luoedd dirfawr o ddynion, y rhai a elwir yma y "traian." Addefa *Doddridge* nas gŵyr efe pa beth sydd i'w ddeall wrth yr *awr a'r diwrnod, &c.*, uchod; ond tybia eu bod yn arwyddo tua 391 o flynyddoedd, yn yr iaith brophwydoliaethol.

16 * A [l]rhifedi y llu o [m]wŷr meirch *oedd* ddwy fyrddiwn o fyrddiynau: † ac mi a [n]glywais eu rhifedi hwynt.

l Salm 68. 17. Dan. 7. 10. m Ezec. 23. 6. a 38. 4. Dan. 11. 40. n pen. 7. 4.

* A rhifedi eu llu o wŷr meirch hwynt oedd ddwy fyrddiwn o fyrddiynau *(duo muriades muriadôn,)* neu ddau càn mil o filoedd. Ni bu erioed fyddin o'r fath nifer â hyn yn sicr ar y ddaear; am hyny rhaid i ni ddeall y geiriau am dyrfa aneirif, rhifedi mawr terfynol, am rifedi annherfynol. † A chlywodd Ioan y cyhoeddiad hwn o'u rhifedi hwynt, ac nid oedd yn camgymmeryd. O ganlyniad, dygai y Twrciaid fyddinoedd dirfawr i'r maes; pedwar, pump, chwech, neu saith càn mil yn aml, a'r rhan fwyaf o honynt yn wŷr meirch: a phan ystyrier yr holl liaws a fu ar waith ganddynt fel hyn, mewn brwydrau o 391, neu 396 o flynyddoedd; ni a welwn brïododdeb iaith brophwydol gref yr ysgrifenydd. Soniwyd o'r blaen, fod y Saraceniaid hefyd yn nodedig am amldra eu gwŷr meirch; a thybia *Guyse* mai hwy a feddylir yn yr adnodau hyn o hyd: o ganlyniad mae yn gosod yr amser amrai gannoedd o flynyddoedd yn foreuach, na'r amseriad a enwyd uchod. Os y Saraceniaid a olygir dàn y pummed udgorn, neu y wae gyntaf, mae yn fwy naturiol meddwl mai y Twrciaid a olygir dàn y chweched udgorn, neu yr ail wae: nid yw yn debygol mai yr un dynion a olygir o hyd, dàn y ddau udgorn: seren a locustiaid oedd y rhai blaenaf; pedwar angel a byddinoedd o wŷr meirch, sydd yma.

17 * Ac fel hyn y gwelais i y meirch yn y weledigaeth, a'r rhai oedd yn eistedd arnynt, † a chanddynt [o]lurigau tanllyd, ac o *liw* [p]hyacinth a [q]brwmstan: ‡ a phennau y meirch oedd [r]fel pennau llewod; || ac yr oedd yn myned allan o'u safnau, dân, a mŵg, a brwmstan.

o adn. 9. p pen. 21. 20. q adn. 18. pen. 14. 10. a 19. 20. a 21. 8. Gen. 19. 24. Salm 11. 6. Es. 30. 33. Ezec. 38. 22. r 1 Cron. 12. 8. Es. 5. 28, 29.

* Yma mae Ioan yn dysgrifio pa fath olwg a gawsai efe ar y meirch, a'r rhai oedd yn eistedd arnynt, yn ei weledigaeth: † yr oedd ganddynt lurigau *(breast-plates)* yn Saesoneg,) tanllyd, ac o *liw* hyacinth, a brwmstan; yr hyn a ellir ei ystyried fel yn arddangos y lliwiau coch, iglas, a melyn, am y rhai y bu y Twrciaid bob amser yn nodedig. Neu fel hyn:—llurigau, i amddiffyn a chadw draw, fel tân; hyacinth, neu o *liw* hyacinth, (ond nid yw y gair *lliw* yn y Groeg,) i arwyddo ardderchawgrwydd, pybyrwch, a chadernid, fel y maen hwnw; a brwmstan, i arwyddo eu bod yn annorchfygadwy, fel y brwmstan llosg, yr hwn ni ellir yn hawdd ei ddiffoddi. Wedi y cwbl, nid oes genym ond amcan am y pethau uchod: diammau fod y geiriau yn arwyddo ymddangosiad gorwych a dychrynbair y byddinoedd creulawn hyny. ‡ Penau y meirch fel penau llewod, a arwydda eu grym, eu dewrder, a'u ffyrnigrwydd, fel y llewod rheibus. ‖ Tybia *Scott* fod y tân, y mŵg, a'r brwmstan, oedd yn myned allan o'u safnau hwy, ac yn lladd traian eu gelynion, (adn. 18.) yn rhagfynegiad amlwg a nodedig rhyfeddol, o'r defnydd o bylor saethu a gynau mawrion, yr hyn bethau a ddyfeisiwyd gyntaf tua'r amser hyn, ac y rhai a ddefnyddiodd y Twrciaid yn eu rhyfeloedd gyda llwyddiant mawr, yn enwedig yn y gwarchae ar Gaer-Cystenyn; pan y defnyddient ynau o ddirfawr faintioli, fel y dywedir i un o honynt gario careg o dri chân pwys. Dywedir hyfyd y cymmerai driugain iau a deg o ychain, neu ddwy fil o ddynion, i lusgo un o'r gynau hyn. A'r rhai hyn gan hyny, y curwyd muriau y ddinas hòno i'r llawr; yr hyn a barotôdd y ffordd i ddystryw hollawl yr Amherodraeth hòno o'r diwedd.

18 * Gan y tri hyn † y llâs [s] traian y dynion, gan y tân, a chan y mŵg, a chan y brwmstan, ‡ oedd yn dyfod allan o'u safnau hwynt.

s Gwel ar adn. 15, 17.

* Hyny yw, gan y tân, y mŵg, a'r brwmstan, y tri hyn, † y lladdwyd traian, neu rifedi dirfawr o ddynion yr amherodraeth, yn greulawn ac yn druenus iawn: a dyoddefodd y gweddill yr anrheithiau a'r drygau mwyaf o bob math. Ni wnaed y fath ddifrod erioed, (medd *Pool,)* ar neb gelynion ar wyneb y ddaear, ag a wnaed gan y Twrciaid yn y brwydrau hyn; ac ni wnaed gynau o'r fath ddirfawr faintioli erioed, ‡ allan o safnau pa rai y deuai y fath dân, a mŵg, a brwmstan ofnadwy. Gwyddis fod brwmstan yn nghyfansoddiad pylor saethu.

19 * Canys eu gallu hwy sydd yn eu safn, † ac yn eu [t] cynffonnau: canys eu cynffonnau *oedd* debyg i seirph, ‡ a phennau ganddynt; ‖ ac â'r rhai hynny y maent yn drygu.

t adn. 10. Es. 9. 15. Eph. 4. 14.

* Y goresgynwyr ofnadwy hyn, o flaen pa rai yr oedd anghyfannedd-dra yn ymdaith, ac o safnau pa rai yr oedd tân, a mŵg, a brwmstan yn dyfod allan, nid yn unig yr oeddynt yn lladd dynion mewn rhyfel, pan ddeuent yn eu gwyneb; † ond yr oedd ganddynt gynffonau hefyd, yn debyg i seirph, ‡ gyda phenau arnynt, fel y dywedir fod gan ryw fath o seirph, y rhai ydynt megys yn ddau benawg; ‖ ac â'r rhai hyny yn gystal ag â'u safnau, yr oeddynt yn drygu dynion, megys â brathiadau gwenwynig. Yr ystyr o hyn yw, lle bynag yr elai y Twrciaid, yr oeddynt yn gadael ar eu hol yr un grefydd wenwynig a dinystriol yn mhob màn, ag a adawsai y Saraceniaid o'u blaen hwynt; ac yr oedd hyn o niwed *parâus,* llawer mwy nâ'u buddugoliaethau mwyaf gwaedlyd hwynt. Fel hyn cafodd y gweddillion o eglwys Groeg, ac o gristionogaeth yn y gwledydd hyny, eu diwreiddio bron yn hollawl; ennillodd ac ymdaenodd Mahometaniaeth yn gyffredinol, ac yn wir mae yn parâu felly hyd y dydd heddyw, yn y rhan hòno o'r byd, lle y buasai yr efengyl am hir amser yn fwyaf nodedig o lwyddiannus.—Tybia rhai mai *milwyr traed* y Twrciaid a feddylir wrth y cynffonau; y rhai a ddeuent ar ol y gwŷr meirch, a'r gynau mawrion a soniwyd uchod.—Gorchymynwyd i'r locustiaid (y Saraceniaid) na *laddent* y dynion; (adn. 5.) ond parotôwyd y rhai hyn fel y lladdent eu traian hwynt: (adn. 15.) yr hyn sydd yn ein tueddu yn chwanegol i feddwl, mai nid y Saraceniaid, eithr y Twrciaid, a feddylir yma. Ar y pwnc hwn mae ein Hawdwyr o hyd *dri* yn erbyn *un; Guyse* yn unig sydd o'r farn mai y Saraceniaid a feddylir. Gwel ar adn. 14, 15.

20 * A'r dynion eraill, y rhai ni laddwyd gan y plâau hyn, † nid [u] edifarhasant oddi wrth weithredoedd eu dwylaw eu hun, [x] ‡ fel nad addolent gythreuliaid, [y] ‖ a delwau aur, ac arian, a phres, a maen, a phrennau, § y rhai ni allant na gweled, na chlywed, na rhodio:

u adn. 21. pen. 2. 21, 22. a 16. 9. Deut. 31. 29. 2 Cron. 28. 22. Jer. 5. 3. a 8. 4—6. Mat. 21. 32. 2 Cor. 12. 21. x Lef. 17. 7. Deut. 32. 17. 2 Bren. 22. 17. 2 Cron. 34. 25. Es. 2. 8. Jer. 25. 6. a 44. 8. Act. 7. 41. a 19. 26. 1 Cor. 10. 20, 21. 1 Tim. 4. 1. y Salm 115. 4—8. a 135. 15—18. Es. 41. 7. a 42. 17, 18. a 44. 9—20. a 46. 5—7. Jer. 10. 3—5, 8, 9, 14, 15. a 16. 19, 20. a 51 17, 18. Dan. 5. 23. Hab. 2. 18—20. Act. 17. 29. Rhuf. 1. 21—23.

* A'r dynion eraill, y rhai ni laddwyd gan y plâau uchod, ac ni orfu arnynt droi yn Fahometaniaid, † nid edifarâsant oddi wrth ddrwg weithredoedd eu dwylaw eu hun. ‡ Yr eglwys Rufeinig neu Ladinaidd, yr hon a ddiangodd rhag y dinystr uchod, hi a barâodd yn gyndyn o hyd i addoli cythreuliaid, neu angelion a saint meirwon, gwirioneddol neu ffugiol; trwy yr hyn yr oedd cythreuliaid mewn effaith yn cael eu haddoli: oblegid pa beth bynag a addoler heblaw Duw, ac yn groes i air Duw, addoli cythreuliaid yw hyny yn ei gyfrif ef. ‖ Parâsant hefyd yn eu haddoliad syfrdan ac ynfyd o ddelwau meirwon, o aur, ac arian, a phres, a meini, a phrenau, yn ol gallu a chyfoeth yr addolwyr; (Esa. 40. 19, 20.) § y rhai ni allent weled, na chlywed, na rhodio: ac o ganlyniad nid oeddynt ddiwiau, ni allent achub, nid oeddynt deilwng o addoliad; ac nid oedd ganddynt hwythau ddim gwell rheswm i'w roddi dros eu haddoli: ac nid oes gan y pabyddion eto, nac oedd gan y Paganiaid, y rhai a arferasant addoli y cyfryw bethau gyntaf.—Dechreuwyd addoli delwau yn y rhan babaidd o Amherodraeth Rhufain, yn mhell iawn cyn yr amser a ragfynegir yma; a chymmeryd yn ganiatâol mai am ruthrau y Twrciaid y dywedir: cefnogwyd a chadarnâwyd hyny (medd *Guyse,)* gan y Pab Gregory yr Ail, yn groes i orchymyn yr Amherawdwr Leo, yr hwn a orchymynodd fwrw pob delwau allan o eglwysi Italy, tua'r flwyddyn 726; ond yn lle edifarâu am eu heilun-addoliaeth, sefydlwyd hyny o'r diwedd, trwy awdurdod cyngorau eglwysig.

21 * Ac nid edifarhasant oddi wrth [z] eu llofruddiaeth, [a] † nac oddi wrth eu cyfareddion, [b] ‡ nac oddi wrth eu godineb, ‖ nac oddi wrth eu lladrad.

z pen. 11. 7—9. a 13. 7, 15. a 16. 6. a 18. 24. Dan. 7. 21—25. a 11. 33. a pen. 13. 13. a 18. 23. a 21. 8. a 22. 15. Es. 47. 9, 12. a 57. 3. Mal. 3. 5. b pen. 14. 8. a 17. 2, 5. a 18. 3. a 19. 2. Mat. 15. 19. 2 Cor. 12. 21.

* Nid edifarâsant chwaith oddi wrth eu "llofruddiaethau," eu galanasdra, a'u rhyfeloedd gwaedlyd yn erbyn yr *hereticiaid,* fel eu galwent; nac oddi wrth yr erlidiau echryslawn, trwy ba rai y lladdasant laweroedd o honynt. † Nac oddi wrth eu "cyfareddion;" neu y rhith o ddatguddiedigaethau a gwyrthiau, i ba rai yr ymhònai y twyllwyr drygionus hyn. Wrth y "cyfareddion" *(pharmakeiôn)* hyn mae rhai yn deall, yr holl ffyrdd ofer-goelus i beri i ddynion *dybied* eu hunain yn grefyddol, trwy yr hyn a allai eraill wneyd erddynt neu iddynt; neu yr hyn a allent hwy wneyd erddynt eu hunain, heb yr ymarferiad o wir gyfiawnder a rhinweddau dduwiol. Ond mae eraill yn deall y gair am y ffyrdd cyfrwysion o *wenwyno.* ‡ Nac oddi wrth eu "godineb;" yn gwahardd priodas i'w hoffeiriaid, ac eto, yn goddef iddynt fyw mewn puteindra a godineb faint a

fynent; yn rhwymo llaweroedd iawn mewn addunedau o ddiweirdeb a gweddwdod, ac eto yn caniatâu puteindai cyhoeddus trwy awdurdod cyhoeddus y Pab ei hun, ac yn ninas Rhufain ei hun. || Nac oddi wrth eu "lladrad;" neu y gofynion a'r gosodiadau hyny, trwy ba rai yr oeddynt hwy yn dwyllodrus, yn orthrymus, ac yn ddrygionus, yn tynu iddynt eu hunain beth aneirif o drysorau, oddi wrth y gwahanol genedloedd a gofleidiasent eu crefydd hwynt.—Yr eglwys ddwyreiniol, yn mha un yr ymdaenodd llawer o lygredigaethau yn gyntaf, a gospwyd trwy *wae gyntaf* y Saraceniaid; a chan na ddygodd hyn hi i edifeirwch, cyflawnodd *ail wae* y Twrciaid ei dinystr hi. Ond yr eglwys orllewinol, heb edifarâu am ei ffieidd-dra, a ddymchwelir o'r diwedd gan y *drydedd wae.* Oblegid y diwygiad oddi wrth babyddiaeth, a'r cwbl a gymmerodd le hyd yn awr yn y gwleidydd gorllewinol hyn, ni bu ddim mwy na'r "ddau dyst" yn unig, (pen. 11. 3, &c.) yn tystiolaethu yn erbyn y llygredigaethau yn yr eglwys babaidd. Tybia rhai fod pabyddiaeth a choel-grefydd yn colli tir; ond os ystyriwn ni gynnydd anffyddiaeth, cyfeiliornadau, a gwadu pob crefydd, ar gyfer hyny; nid oes genym nemawr o le i feddwl, fod pethau wedi gwellâu llawer eto yn yr eglwys orllewinol. Mae yn amlwg fod Satan wedi *newid* ei dir; ond cenfydd y cristion ysgrythyrol yn hawdd, ei fod hyd yn hyn wedi *dàl* ei dir *mewn rhyw fodd* i fesur mawr.—Mae yr *eilun-addoliaeth* parâus yn ngweddillion eglwys Groeg a lleoedd eraill, a drygioni proffeswyr cristionogaeth, er yr holl anrheithiau a wnaed yn eu mysg gan y Saraceniaid a'r Twrciaid, yn gwneyd y brophwydoliaeth uchod yn fwy nodedig o amgylchiadol, a'r cyflawniad manwl o hóni yn fwy rhyfeddol. Y pethau arbenig hyny a daera anghredinwyr, fel gwrthddadleuon yn erbyn dwyfol ddechreuad cristionogaeth, maent yn cael eu rhagfynegi yn bennodawl yn y Testament Newydd, ac yn brawf amlwg o'i ddwyfol ysbrydoliaeth ef.

PEN. X.

Yr angel cryf, a'r llyfr agored.

* AC mi a welais [a] angel cryf arall yn disgyn o'r nef, [b] † wedi ei wisgo â chwmmwl: [c] ‡ ac enfys *oedd* ar ei ben, || a'i [d] wyneb *yd-oedd* fel yr haul, [e] a'i draed fel colofnau o dân:

a adn. 5, 6. pen. 5. 2. a 7. 1, 2. a 8. 2—5, 13. a 9. 13, 14. a 14. 14, 15. b pen. 1. 7. Ex. 16. 10. Lef. 16. 2. Salm 97. 2. a 104. 3. Es. 19. 1. Galar. 3. 44. Dan. 7. 13. Luc 21. 27. c pen. 4. 3. Gen. 9. 11—17. Es. 54. 9. Ezec. 1. 28. d pen. 1. 16. Dan. 10. 6. Mat. 17. 2. Act. 26. 13. e pen. 1. 15. Can. 5. 15.

Yn niwedd y bennod o'r blaen, cawsai Ioan beth amlygiad o lygredigaethau cildynus yr eglwys orllewinol, a phroffeswyr eraill o gristionogaeth, yn yspaid y ddau udgorn blaenorawl: ond cyn hysbysu iddo y damweiniau a ganlynent udganiad y seithfed udgorn, dangoswyd iddo beth yn chwaneg o agwedd yr eglwys hòno, yn yr oesoedd o flaen y tro mawreddig hwn. * Dygwyd yr hysbysiad hwn i mewn drwy weledigaeth ogoneddus a chysurol. Tybiai Ioan ei fod ar y ddaear, a gwelai angel cryf arall yn disgyn o'r nef, sef arall oddi wrth y rhai oedd â'r udgyrn ganddynt; yr hwn yn sicr ydoedd Crist ei hun, neu ynte arddangosiad arwyddol o'i ogoniant ef. † Yr oedd yr Angel hwn "wedi ei wisgo â chwmwl," i lènu dysgleirdeb ei ymddangosiad, ac yn arwydd o dywyllwch y goruchwyliaethau oedd yn cael eu rhagfynegi: ‡ yr oedd "enfys," yn arwyddo y cyfammod, "ar ei ben ef;" || a'i wyneb yd-oedd fel yr haul, § a'i draed fel colofnau o dân, am yr hyn bethau gwel ar pen. 1. 15, 16; a 4. 3. Mae yr angel hwn hefyd yn "*rhoddi gallu i'w* ddau dyst;" (pen. 11. 3.) ac nis gellir priodoli y fath ymadrodd i neb ond Crist, Angel mawr y cyfammod, ac Arglwydd pawb oll.

2 * Ac yr oedd ganddo yn ei law [f] lyfr bychan wedi ei agoryd. † Ac efe [g] a osododd ei droed dehau ar y môr, a'*i* aswy ar y tir;

f adn. 10. pen. 5. 1—5. a 6. 1, 3. Ezec. 2. 9, 10. g adn. 5, 8. Salm 2. 8. a 65. 5. Diar. 8. 15, 16. Es. 59. 19. Mat. 28. 18. Eph. 1. 20—22. Phil. 2. 10, 11.

* Gwedi darlunio yr angel yn yr ymadroddion anghymharol fawreddig uchod, dywed Ioan fod ganddo yn ei law lyfr bychan, fel yn cynnwys y Datguddiad o fwriadau Duw, y rhai yr oedd efe yn myned i'w hysbysu i'w wasanaethwr. Yr oedd hwn yn wahanol i'r llyfr mwy o'r blaen, (pen. 5. 1.) ac megys math o attodiad, neu chwanegiad, at hwnw. Neu efallai mai un o saith ran y llyfr hwnw ydoedd; canys tybia rhai y gellid galw "llyfr bychan" ar bob un o'r rhanau hyny. † Yr oedd wedi bod yn seliedig, ond ymddangosai yn awr *fel wedi ei agoryd;* a chynnwysai ran o'r llyfr a enwyd o'r blaen, eithr sonir am dano fel hyn ar wahân, i sefydlu sylw ar ei gynnwysiad. Pa un bynag ai y rhan ddiweddaf o'r llyfr o'r blaen oedd hwn ai peidio, mae o leiaf yn perffaith gyd-daro â chynnwysiad hwnw. Tybia rhai fod y llyfr *bychan* hwn yn cynnwys y cwbl o'r Datguddiad oddi yma allan; ac fel hyny gwnant ef yn llawer *mwy* nâ'r holl ranau eraill o'r llyfr y dattododd Crist ei seliau. Tyb *Scott* yw, nad oedd y llyfr bychan hwn yn cynnwys dim ond y rhan flaenaf o'r bennod nesaf, (pen. 11. 1—14.) yr hyn (medd efe) sydd chwanegiad pwysig at y nawfed bennod, am ei bod yn rhoddi dysgrifiad cyffredinol o gyflwr eglwys y gorllewin, ac oll a berthynai iddi, trwy yspaid y pummed a'r chweched udgorn: yna mae y mater o'r blaen yn myned rhagddo, y seithfed udgorn yn cael ei udganu, a golwg fèr yn cael ei rhoddi o'r damweiniau dilynawl hyd ddiwedd y byd. † Mae safiad yr Angel hwn ar y môr ac ar y tir, yn dangos i ni ei awdurdod ef ar yr holl fyd, ar y pethau mwyaf terfysglyd ac aflonydd, yn gystal ag ar y pethau mwyaf llonydd a hawdd eu trin. Efallai ei fod hefyd yn arwyddo, yr helaethai efe ei lywodraeth trwy yr efengyl dros yr holl fyd; dros gyd-diroedd Asia, Affrica, Europe, America, a'r holl ynysoedd pell ac agos, yn yr holl foroedd meithion: deued y dyddiau dedwydd hyny i ben ar frys!

3 * Ac a lefodd â [h] llef uchel, fel y rhua llew: † ac wedi iddo lefain, [i] y saith daran a lefarasant eu llefau hwythau.

h Diar. 19. 12. Es. 5. 29. a 31. 4. a 42. 13. Jer. 25. 30. Joel 3. 16. Amos 1. 2. a 3. 8. i pen. 8. 5. a 15. 1, 7.

* Yn y sefyllfa uchod, ar y môr ac ar y tir, clywai Ioan yr "Angel cryf" yn "llefain â llef uchel, fel y rhua llew;" fel yn gorchymyn dystawrwydd a gwrandawiad pawb, ac fel yn dangos nerth a dychryn ei air ef i'w elynion cildynus. † Ac wedi llef yr angel, clywai saith daran yn llefaru eu llefau hwythau, megys mewn llais croyw a geiriau eglur, ac yn y modd mwyaf mawreddig ac ofnadwy. Mae rhai yn deall y taranau hyn fel yn arwyddo nerthol bregethiad yr efengyl; ond barn y rhan fwyaf yw, eu bod yn arwyddo barnedigaethau trymion Duw ar y byd yn gyffredin, ac yn enwedig ar deyrnas Anghrist, trwy dywalltiad y *saith phïol,* dàn udganiad y *seithfed udgorn.*—*Rhua:* defnyddir y gair *mùkatai,* (medd *Scott*) yn ddiwahaniaeth am sŵn llew, ych, camel, neu asyn: a dywed *Doddridge* fod y gair yn arwyddo *bugunad* ych, yn fwy na *rhuad* llew; ond yr olaf yn sicr sydd fwyaf priodol yma.

4 * Ac wedi darfod i'r saith daran lefaru eu llefau, [k] † yr oeddwn ar fedr ysgrifenu: ‡ ac mi a glywais lef o'r nef yn dywedyd wrthyf, [l] || Selia y pethau a lefarodd y saith daran, § ac na ysgrifena hwynt.

k pen. 1. 11. a 2. a 3. Es. 8. 1. Hab. 2. 2, 3. l Deut. 29. 29. Es. 8. 16. a 29. 11. Dan. 8. 26. a 12. 4, 9.

* Gwedi i'r saith daran lefaru eu llefau mewn ymadroddion eglur a chroyw, † yr oedd Ioan ar fedr ysgrifenu yr hyn a glywsai; gan feddwl bod yn iawn iddo wneyd felly, wrth y gorchymyn a gawsai o'r blaen;

grifenu yr hyn a glywsai; gan feddwl bod yn iawn iddo wneyd felly, wrth y gorchymyn a gawsai o'r blaen; (pen. 1. 19.) a chan feddwl fod yr hyn a lefarasent yn cynnwys rhywbeth o fawr ganlyniad, a chysur i'r eglwys yn ei gorthrymderau oedd i ddyfod arni dàn Anghrist. ‡ Ond attaliwyd ef yn y fàn rhag ysgrifenu, gan clef arall, a glywai efe yn llefaru wrtho megys o orseddfainc Duw yn y nef, || ac yn dywedyd, Cadw yn dy fynwes dy hun, y pethau a lefarodd y saith daran, myfyria arnynt yn dy galon, a chuddia hwynt ar hyn o bryd oddi wrth arbawb, mòr gauedig â phe byddent lyfr wedi ei selio, yr ohwn nis gall neb ei ddarllen. § Ac nid oes achos i ti eu hysgrifenu yn *bresenol*, am y daw yr hysbysiadau cyffredinol a roddir ganddynt, yn fwy neilldduol i'r golwg yn y gweledigaethau a ganlyn; ar udganiad y *seithfed udgorn*, a'r *saith phïol* dàn yr udganiad hyny, y rhai a ddatguddir ar ol hyn ac a ysgrifenir. Pethau cymhwys i'r apostol eu *gwybod* oedd yn llefau y saith daran, ond nid cymhwys iddo eu *cyhoeddi;* neu ynte yr oeddynt yn gydredawl â'r pethau oedd i gael eu datguddio yn eglurach ar ol hyn, fel y sylwyd eisoes. Pa fodd bynag, gorchymynwyd i Ioan eu "selio" hwynt, ac nid yw yn gweddu i ni ymofyn yn mhellach yn eu cylch. *Saith daran:* sef llefau uchel, cryfion, ac ofnadwy iawn, yn cswnio i Ioan fel y taranau cryfaf; ac eto yn llefaru geiriau eglur, ag oedd yn ddealladwy iddo ef.

5 * A'r angel yr hwn a welais [m] yn sefyll ar y môr, ac ar y tir, † a [n] gododd ei law i'r nef,

m Gwel ar adn. 2. n Gen. 14. 22. a 22. 15, 16. Deut. 32. 40. Ezec. 20. 5, 15, 23, 28, 42. a 36. 7. a 47. 14. Dan. 12. 7. Heb. 6. 13.

* Yn nesaf, gwelai Ioan yr "Angel crÿf," yr hwn a welsai efe yn sefyll ar y môr ac ar y tir, (gwel ar adn. 2.) † yn codi ei law i'r nef, at orsedd Duw, fel y byddid yn arferol o wneyd gynt, pan fyddai neb yn cymmeryd llŵ iddi drifol. Gen. 14. 22; Deut. 32. 40; Dan. 12. 7.

6 * Ac a dyngodd [o] i'r hwn sydd yn byw yn oes oesoedd, [p] † yr hwn a greodd y nef a'r pethau sydd ynddi, ‡ a'r ddaear a'r pethau sydd ynddi, a'r môr a'r pethau sydd ynddo, [q] || na byddai amser mwyach:

o pen. 1. 18.—Gwel ar pen. 4. 9, 10.—Jer. 10. 10. p Gwel ar pen. 4. 11.—a 14. 7. Gen. 1. a 2. Ex. 20. 11. Neh. 9. 6. Salm 95. 3—6. a 146. 5, 6. a 148. 1—7. Jer. 10. 11—13. Act. 14. 15. a 17. 23, 24. Rhuf. 1. 20, 21. q pen. 16. 17. Dan. 12. 7.

* Clywodd ef yn tyngu i'r Duw tragywyddol, hollalluog, ac anfarwol; yr hwn, mewn gwahaniaeth i bob eilunod, sydd yn byw yn oes oesoedd, o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb, yr unig wir a bywiol Dduw; † yr hwn a grëodd y nef a'r hyn oll sydd ynddi, y drydedd nef a'i holl angelion, y nef wybrenol a'i holl fydoedd o sêr, a'r ffurfafen o gylch y ddaear a'r holl chediaid a ehedant ynddi. ‡ Efe hefyd a grëodd y ddaear a'r môr, yr holl bellen fawr hon o dir a dwfr, a'r cwbl oll sydd ar y ddaear ac yn y moroedd mawrion. || A sylwedd y llŵ difrifol hwn oedd, "na byddai amser mwyach:" neu, fel y gellid darllen y geiriau, "na byddai yr amser eto:" hyny yw, yr amser gogoneddus hwnw, pryd y "gorphenid dirgelwch Duw." (adn. 7.) Felly y sylwa *Scott; Doddridge* fel hyn:—"Ac a dyngodd—na byddai amser mwyach:" sef na byddai i amser y barnedigaethau, y rhai a arwyddid trwy dywalltiad y saith phïol, gael ei oedi lawer yn hŵy; a phan ddeuai, y byddai i holl gyfansoddiad y byd dynu at ddiwedd yn fuan, a holl yspeidiau amser gael eu cyflawni, fel y byddai i olygfèydd mwy pwysig tragywyddoldeb ymagor, a dyfod i'r golwg. Dywed y gŵr dysgedig hwn fod y gair *chronas* weithiau yn arwyddo *oediad* yn gystal âg *amser:* ac mai y meddwl yw, yn ol y sylwad uchod, na byddai dim *oedi* i fod ar ddinystr gelynion yr eglwys, ac ar ei chyflwr llwyddiannus a gogoneddus hithau. Yn yr ystyr hyn, mae y geiriau yn arwyddo y byddai i ddiwedd amser, a chyflawniad pob peth, ddyfod yn fuan. Gwelir fod y ddau Awdwr a enwyd yn gwahaniaethu yn eu golygiadau ar y geiriau uchod; y *cyntaf* yn tybied eu bod yn arwyddo peth oediad, a'r *olaf* yn tybied eu bod yn arwyddo cyflawniad buan, ar farn y gelynion, ar ddedwyddwch yr eglwys, ac ar ddiwedd y byd: efallai bod yn anhawdd penderfynu pwy sydd iawn. Tybia *Guyse* fod y geiriau uchod (na byddai amser mwyach,) yn arwyddo yr un peth, a'r un yspaid o amser, â'r ateb i'r gofyniad yn Llyfr Daniel; (pen. 12. 6, 7.) ac eu bod yn y ddau le yn arwyddo 1260 o flynyddoedd; pryd y dystrywir pob gelynion anghristaidd, y dygir yr eglwys i gyflwr mwy gogoneddus nac erioed o'r blaen, ac y rhoddir diwedd hollawl ac am byth, ar dywyllwch, coel-grefydd, ac eilun-addoliaeth pabaidd. Tybia ef fod yr amser a enwyd, yn cynnwys yr holl yspaid o ddyoddefiadau diweddaf yr eglwys, hyd amser ei hystâd ogoneddus ar ol hyny, pryd y rhwymir Satan am fil o flynyddoedd; ond nid yw efe yn dywedyd pa bryd mae y 1260 hyny yn dechreu. Mae *Pool* yn deall yr *amser* uchod am y *Bedwaredd Unbenaeth*, pryd y rhoddid terfyn ar *Amherodraeth Rhufain.* Neu am ddiwedd trallodau yr eglwys, oddi wrth elynion paganaidd ac anghristaidd hefyd. Fel hyn ceisiwyd rhoddi crynodeb o feddyliau ein pedwar Awdwr ar y geiriau uchod; ac ofnwn mai tywyll a fyddant i'n darllenwyr wedi y cwbl: pa fodd bynag y dylid eu deall, mae yn bur sicr mai nid diwedd amser yn hollawl, yn yr un ystyr â diwedd y byd, a feddyliant; eithr rhyw amser pennodol yn ngoruchwyliaethau Duw ar ei eglwys a'r byd, ac amser gwahanol, a gwell, yn dyfod ar ei ol. Gŵyr y Person mawr a dyngodd, pa amser oedd yn feddwl, ac mae hyny yn ddigon i ni.

7 [r] * Ond yn nyddiau llef y seithfed angel, † pan ddechreuo efe udganu, [s] ‡ gorphenir dirgelwch Duw, [t] || fel y mynegodd efe i'w wasanaethwyr y prophwydi.

r pen. 11. 15—18. s Rhuf. 11. 25. a 16. 25. Eph. 3. 3—9. t Gwel ar Luc 24. 44—47. Act. 3. 21.

* Ond yn nyddiau llef y seithfed angel, yr olaf o'r rhai a welodd Ioan âg udgyrn ganddynt, (pen. 8. 6.) † pan ddechreuo efe udganu ei udgorn, ond yr hyn a oedir am ychydig eto, hyd pen. 11. 15; ‡ yna "gorphenir dirgelwch Duw:" sef dirgelwch mawr ei ragluniaeth ef, yn goddef i bechod, erlid, a therfysgoedd, gael y fath rwysg a llwyddiant yn y byd; y dirgelwch o ddinystr ei elynion, llwyddiant ei deyrnas, a dedwyddwch ei eglwys wedi ei holl flinderau; a phob dirgelwch a ddaw i'r goleu ac a orphenir, yn nydd y farn, yn niwedd y byd hwn, pryd na bydd amser mwyach. || Gorphenir y dirgelion hyn o un i un, mewn trefn ol-ddilynol, yn hollawl fel y mynegodd Duw o oes i oes i'w weision y prophwydi; (gwel Esa. pennodau 24, 26, 27, 66; Dan. 7. 11, 12, 25—28; Zech. 14. 9; Mal. 3. 4.) dechreuir ar ganiad y seithfed udgorn, (medd *Pool,*) a gorphenir yn hollawl yn niwedd y byd. "Fel y *mynegodd:*" fel yr *efengylodd; (Euêngelise)* gan gyfeirio at y newyddion da am y Mil-flwyddiant, ebai *Scott.*—Gan y dywedir yma y bydd i ddirgelwch Duw gael ei *orphen*, mae yn dangos yn amlwg, debygid, y byddai i'r pethau a ddatguddid eto gyrhaeddyd hyd ddiwedd amser; a phan y dywedir y byddai i hyn gael ei orphen *yn nyddiau llef y seithfed angel, yr hwn oedd barod i udganu*, mae yn dangos fod y gweddill o amser, hyd ddiwedd y byd, i gael ei gynnwys yn yr yspaid hòno o brophwydoliaeth, i'r hon yr oedd y *seithfed udgorn*, fel arweiniad i'r saith phïol, yn perthyn.

8 [u] * A'r llef a glywais o'r nef a lefarodd drachefn wrthyf, ac a ddywedodd, † Dos, cymmer y llyfr bychan sydd wedi ei agoryd yn llaw yr angel ‡ yr hwn sydd yn sefyll ar y môr, ac ar y tir.

u Gwel ar adn. 4, 5.—Es. 30. 21.

* Ar ol y pethau uchod, clywai Ioan y llef a glywsai o'r nef o'r blaen, (adn. 4.) yn llefaru drachefn, wrtho ef yn bersonol, ac yn dywedyd, † Dos i fynu at Angel y

cyfammod, yr hwn sydd yn sefyll ar y môr ac ar y tir, a chymmer oddi ganddo ef y llyfr bychan sydd wedi ei agoryd yn ei law ef, fel y ceffych olwg eglur ar y pethau mawrion sydd yn gynnwysedig ynddo, yn nghyd â gorchymyn i'w hysbysu hwynt i eraill. ‡ Gwel ar adn. 2.

9 * Ac mi a aethum at yr angel, † gan ddywedyd wrtho, Moes i mi y llyfr bychan. ‡ Ac efe a ddywedodd wrthyf, [x] Cymmer, a bwytta ef yn llwyr: || ac efe a chwerwa dy fol di, § eithr yn dy enau y bydd yn felus fel mel.

x Job 23. 12. Jer. 15. 16. Ezec. 2. 8. a 3. 1—3. Col. 3. 6.

* Mewn ufudd-dod i'r gorchymyn dwyfol, nesâodd Ioan yn grynedig at yr Angel gogoneddus hwn, Pen pob tywysogaeth ac awdurdod, † a dywedodd wrtho yn ostyngedig, "Moes i mi y llyfr bychan," fel y darllenwyf ac y deallwyf ef, er ei egluro i'r eglwys. ‡ A dywedodd yr Angel wrtho, gan estyn y llyfr tuag ato, Cymmer ef, yn ol dy ddeisyfiad; ac yna darllen ef a myfyria arno, a gosod ef yn dy galon, hyd oni ddeallech ef yn dda, ac y teimlech ei gynnwysiad yn brofiadol; yr hyn mewn iaith gyffelybiaethol a ellir ei alw yn fwyta y llyfr yn llwyr. || Ac wrth ei fwyta ef felly, ti a deimli beth o'i gynnwysiad, yr hyn a berthyn i drallodau ac erlidiau blinion a ddaw ar yr eglwys, yn dra gofidus i'th feddwl, fel y pethau chwerwaf a ddichon fyned i'r bôl a'r coluddion: § ond bydd yr wybodaeth o feddwl ac ewyllys Duw a ga'i di ynddo, mewn perthynas i waredigaeth a dedwyddwch yr eglwys, a darostyngiad ei holl elynion hi; mòr felys a hyfryd i'th feddyliau, ag y gall y mêl melusaf fod i archwaeth y genau.

10 * Ac mi a gymmerais y llyfr bychan o law yr angel, ac a'i bwytteais ef; † ac yr oedd efe yn fy ngenau megys [y] mel yn felus: ‡ ac wedi i mi ei fwytta ef, [z] fy mol a aeth yn chwerw.

y Salm 19. 10. a 104. 34. a 119. 103. Diar. 16. 24. Ezec. 3. 3.
z Ezec. 3. 14.

* Cymmerodd Ioan y llyfr bychan o law yr Angel, a bwytâodd ef fel y gorchymynasai efe iddo; † a chafodd drwy brofiad, fel y dywedasai yr Angel wrtho, fod yr olwg gyntaf ar y dirgeledigaethau mawrion a gynnwysai, a'u cymmeryd oll yn nghyd, mòr hyfryd i'w enaid ef, ag ydyw yn bosibl i fêl fod i'r archwaeth: ‡ ac wedi hyny, pan ddaeth efe i ystyried yr aml a blin drallodau a ddeuai ar eglwys Crist, yn ol yr hyn oedd yn y llyfr hwnw, llanwyd ei enaid ef â gofid ac ing yn y rhagolygiad, mòr chwerw ag y gallai y poenau mwyaf fod i'r bôl.

11 * Ac efe a ddywedodd wrthyf, [a] Rhaid i ti drachefn brophwydo i bobloedd, a chenedloedd, ac ieithoedd, a brenhinoedd lawer.

a pen. 11. 9. a 14. 6. a 17. 15. Jer. 1. 9, 10. a 25. 15—30.

* Trwy gyhoeddi cynnwysiad y llyfr bychan hwn, a'r prophwydoliaethau eraill yr oedd efe yn myned i'w derbyn; efe a brophwydodd ar ol hyn i bobloedd, a chenedloedd, ac ieithoedd, a breninoedd lawer: ac y mae yn prophwydo hyd y dydd heddyw, yn yr holl ieithoedd i ba rai y mae yr ysgrythyrau wedi cael eu cyfieithu; ac yn yr holl wledydd lle maent yn cael eu taenu.—Tybia rhai fod yma orchymyn i Ioan fyned drachefn dros yr *un yspaid* o amser ag yr aethai efe drosto o'r blaen; i brophwydo o hyn allan am yr *eglwys*, megys y gwnaethai o'r blaen am yr *Amherodraeth*. Ond pethau newydd, a gwahanol, a gair o hyn allan; a dïau mai am amser gwahanol, a dilynol i'r hyn a aeth heibio, y mae Ioan o hyn allan yn prophwydo. Gwel ar adn. 7.

PEN. XI.

Y ddau dyst yn prophwydo, &c.

* A RHODDWYD i mi [a] gorsen debyg i wialen. [b] † A'r angel a safodd, gan ddywedyd, Cyfod, a [c] mesura deml Dduw, ‡ a'r allor, || a'r rhai sydd yn addoli ynddi.

a pen. 21. 15. Es. 28. 17. Ezec. 40. 3—5. a 42. 15—20. Zec. 2. 1, 2. Gal. 6. 14—16. b pen. 10. 1—5. c Ezec. 40—48. 1 Cor. 3. 16, 17. 2 Cor. 6. 16. Eph. 2. 20—22. 1 Pedr 2. 5, 9.

Cymmerwyd yn ganiatâol o'r blaen fod y rhan flaenaf o'r bennod hon yn arddangos cynnwysiad y llyfr bychan; (pen. 10. 2.) yr hwn sydd yn gosod allan gyflwr yr eglwys orllewinol dàn y ddau udgorn gwae o'r blaen, a chyn udganu y seithfed udgorn; (adn. 15.) ac mae hyn yn sefydlu yr amseryddiaeth o hóno.—Mae datguddiedigaethau y llyfr bychan hwn yn cael eu gosod allan drwy ymddangosiadau a gweithredoedd arwydd-luniol, *(emblematical)* fel o'r blaen. * Yr yspaith *(scene)* yma yw y deml; a chwedi rhoddi corsen debyg i wialen i Ioan, † gorchymynodd yr Angel iddo gyfodi, a mesur teml Dduw, sef eglwys y Testament Newydd yn awr, canys yr oedd hen deml Jerusalem wedi ei dinystrio cyn hyn; ‡ a mesur allor y poeth-offrwm, lle yr oedd aberthau ysbrydol o weddiau a mawl yn cael eu hoffrymu gan addolwyr ysbrydol; || ac hefyd yr addolwyr yn y deml hon. Mae hyn yn arwyddo, y byddai yn yr amser a ragfynegir, nifer bychan o ddynion, y rhai a ddalient eu mesur o ran eu hathrawiaeth, eu haddoliad, a'u hymarweddiad, wrth air Duw; ac mai y rhai hyn yn unig a fyddent yn addolwyr cymmeradwy o fewn y deml, neu yn y cyntedd nesaf i mewn.

2 * Ond y [d] cyntedd sydd o'r tu allan i'r deml, † bwrw allan, ac na fesura ef: oblegid *efe* [e] a roddwyd i'r cenhedloedd: ‡ a'r [f] ddinas sanctaidd a [g] fathrant hwy [h] || ddeufis a deugain.

d Ezec. 40. 17—20. a 42. 20. e pen. 13—18. Salm 79. 1. Galar. 1. 10. Luc 21. 24. 2 Thes. 2. 3—12. 1 Tim. 4. 1—3. 2 Tim. 3. 1—6. f pen. 21. 2. a 22. 19. Es. 48. 2. a 52. 1. Mat. 4. 5. a 27. 53. g Dan. 7. 19. a 8. 10, 24, 25. Mat. 5. 13. Heb. 10. 29. h adn. 3, 11. pen. 12. 6. a 13. 5. Num. 14. 34. Dan. 7. 25. a 12. 7, 11, 12.

* Y cyntedd oedd o'r tu allan i'r deml, oedd y cyntedd lle yr addolai holl gynnulleidfa Israel yn ddiwahaniaeth, (Luc 1. 10.) neu ynte y cyntedd oddi allan i hwnw, a adeiladwyd gan Herod, ac a elwid cyntedd y cenedloedd: nid oedd y cyntedd olaf hwn o orchymyn Duw; am hyny nid oedd i deml Solomon, nac i'r ail deml, a adeiladwyd gan Zorobabel, ac nid oes son am dano yn yr Hen Destament, oblegid nid oedd y pryd hwnw. Mae yn debyg mai y blaenaf o'r ddau a feddylir yma. † Gorchymynai yr Angel i Ioan fwrw hwn allan, ac na fesurai efe ef; oblegid ei roddi ef i'r cenedloedd: yr hyn a arwyddai yn amlwg iawn, y byddai y nifer fwyaf o broffeswyr cristionogaeth yn addolwyr ffurfiol, coel-grefyddol, ac eilun-addolgar; yn gristionogion mewn enw yn unig, ond yn genedloedd mewn drygioni, ac hyd yn nôd mewn eilun-addoliaeth. ‡ Yr oedd mathru y ddinas sanctaidd hefyd gan y cenedloedd hyn, yn arwyddo y byddai i'r eglwys yn gyffredin, yn nghyd â'i swyddau mwyaf goruchel ac ennillfawr, gael ei llenwi gan eilun-addolwyr, anffyddwyr, a rhagrithwyr; ac y byddai i wir gristionogion gael eu gorthrymu a'u mathru yn y modd mwyaf gofidus. || Parâd yr amserau drwg hyn oedd i fod am "ddeufis a deugain;" neu 1260 o ddyddiau, y rhai yn ol cyfrifiad prophwydoliaethol, ydynt gynnifer â hyny o flynyddoedd.—Rhaid gosod dechreuad y deuddeg cant a thriugain mlynedd hyn (medd *Scott*) ar ol y pedwar udgorn cyntaf, ar ddymchweliad yr amherodraeth orllewinol, yr hyn a gyflawnwyd yn y flwyddyn 566. Rhwyddâodd hyn y ffordd i'r Pab, mewn yspaid o amser, i ennill chwaneg-iad dirfawr o lywodraeth eglwysig. Gwel ar 2 Thes. 2. 6—8. Daeth yn ben esgob cyffredinol, yn 606; a llawn sefydlwyd ef fel tywysog gwladol, yn 756. Pe gallem ni wybod yn sicr pa bryd i ddyddiaw dechreuad y 1260 o flynyddoedd, gallem ddangos gyda sicrwydd pa bryd y terfynent: ond ni chydweddai hyny â'r tywyllni doeth hwnw, sydd bob amser mewn rhyw ystyr yn gorphwys ar brophwydoliaethau, hyd oni chyflawner hwynt. Pa fodd bynag, nis gellir sefydlu dechreuad y blynyddoedd

uchod yn iawn, cyn y flwyddyn 606, pan aeth y Pab yn ben eglwysig cyffredinol; nac yn ddiweddarach nâ'r flwyddyn 756, pan aeth efe yn dywysog gwladol.—*Mesur* addolwyr Duw sydd gyfystyr â *selio* ei wasanaethwyr ef. (pen. 7. 3.) Deiliaid *anfesuredig* y cyntedd allanol, a'r dynion *anseliedig* drwy yr holl amherodraeth Rufeinig, dydynt oll wedi ymroddi i'r un gwrthgiliad: tra y rhai mesuredig a'r rhai seliedig, yw y saint a wrthodasant ofod yn gyfranogion o ffeidd-dra y gwrthgiliad pabaidd hwnw.

3 * Ac mi a roddaf *allu* i'm [i] dau [k] dyst, † a hwy a brophwydant [l] fil a deucant *a* thrigain o ddyddiau, [m] ‡ wedi ymwisgo â sachlïan.

i Num. 36. 30. Deut. 17. 6. a 19. 15. Mat. 18. 16. 2 Cor. 13. 1.
k pen. 20. 4. Luc 24. 48. Ioan 15. 27. Act. 1. 8. a 2. 32. a 3. 15.
a 13. 31. l Gwel ar h. adn. 2.—pen. 12. 6. m Gen. 37. 34.
l 1 Cron. 21. 16. Esther 4. 1, 2. Job 16. 15. Es. 22. 12. Galar. 2. 10.
d Jona 3. 5—8.

* Bu rhai mòr ynfyd a thybied mai Enoch ac Elias yw y *ddau dyst* hyn, y rhai, meddant, sydd i ddyfod i ymladd yn erbyn Anghrist. Tybia eraill mai *offeiriaid* dihalog, ac *ynadon* ffyddlawn ydynt, yn ymddangos o blaid y diwygiad. Tybia eraill mai yr Hen Destament a'r Newydd ydynt. Tybia y dysgedig Esgob Llwyd, mai y Waldensiaid a'r Albigensiaid ydynt. Efallai eu bod yn arwydd o *unrhyw dystion*, a godai Duw dros y gwirionedd, yn yr amser a nodir; ac y dywedir eu bod yn *ddau*, am fod y nifer hyny yn angenrheidiol yn ol y gyfraith, i wneyd y dystiolaeth yn safadwy a chyfreithlawn: neu ynte i ddangos na byddai nifer y gwir dystion ond *bychan* iawn. Mae brenin, yn yr iaith brophwydoliaethol, yn gyffredin yn arwyddo *parâd ol-yn-ol* o freninoedd: gan hyny rhaid i ni ddeall am y "ddau dyst" yn y fàn hon yn ol yr un rëol; nid rhyw bersonau pennodawl, ond *parâd ol-yn-ol* o ddynion, y rhai, yn yr amser a nodir, a ddygent dystiolaeth i'r gwirionedd, ac yn erbyn cyfeiliornadau llygredig eglwys Rhufain. Crybwyllir "*dau* dyst," efallai, gyda chyfeiriad at Moses ac Aaron, Elias ac Elisëus, a'r apostolion a'r deg dysgybl a thrugain; y rhai a ddanfonodd Crist allan bob yn ddau a dau. Gellir ystyried yr holl wir gristionogion, y rhai a broffesant eu crefydd yn hŷf, fel yn uno yn y dystiolaeth hon: ond eto y gweinidogion, ac yn enwedig y rhai dewrion a gwresog, a bleidiasant y diwygiad oddi wrth babyddiaeth, oedd y tystion a feddylid yn benaf. Tystiolaethodd yr Angel a enwyd, (adn. 1.) sef yr Arglwydd Iesu, y rhoddai efe allu, neu awdurdod a chymmorth iddynt i brophwydo, neu dystiolaethau dros ei achos a'i wirionedd ef, yn wyneb pob llygredigaeth; cyfeiliorni, gwrthwynebiadau, ac erlidiau: † ac y byddai iddynt hwy brophwydo felly, "fil a deucant a thriugain o ddyddiau;" yr un faint â'r "ddeufis a deugain," a grybwyllwyd o'r blaen; (adn. 2.) sef holl yspaid llywodraeth Anghrist. ‡ Ond eto rhaid iddynt brophwydo "wedi ymwisgo â sachlïan;" yr hyn oedd yn arwyddo eu cyflwr trallodus a gorthrymedig gan erlidiau, yn nghyd â'u mawr ofid calon, o herwydd y llygredigaethau yr oeddynt yn tystiolaethu yn eu herbyn. Ni a welwn mai yr un yspaid o amser a enwir yma, â'r amser a enwir eto, pryd y bu y *wraig yn cael ei phorthi yn y diffaethwch:* (pen. 12. 6.) ac yn cyfateb yn y ddau le, meddant, i'r yspaid a enwir yn Dan. 7. 25; a 12. 7.—Dangoswyd gan lawer o haneswyr, ddarfod i Dduw yn yspaid yr oesoedd tywyllaf o babyddiaeth, gyfodi dynion i fynu, y rhai a ddygasant dystiolaeth benderfynol yn erbyn llygredigaethau eglwys Rufain, ac o blaid prif athrawiaethau yr efengyl.

4 * Y rhai hyn yw y [n] ddwy olew-wydden, † a'r [o] ddau ganhwyllbren [p] ‡ sydd yn sefyll ger bron [q] Duw y ddaear.

n Salm 52. 8. Jer. 11. 16. Zec. 4. 2, 3, 11—14. Rhuf. 11. 17.
o pen. 1. 20. Mat. 5. 14—16. Luc 11. 33. p Deut. 10. 8. 1 Bren. 17. 1. q Ex. 8. 22. Es. 54. 5. Mica 4. 13. Zec. 4. 14.

* Ond, pa faint a ddirmygwyd, a gasâwyd, ac a erlidiwyd ar y tystion hyn gan ddynion; hwynthwy oedd y "ddwy olew-wydden" mewn gwirionedd, y rhai oedd wedi eu cynnysgaethu â doniau a grasau ysbrydol, fel trwy eu hofferynoldeb hwy, y gallai eraill hefyd gael derbyn yr "eneinniad oddi wrth y Sanctaidd hwnw:" † a hwy oedd y "ddau ganwyllbren," i ddàl allan oleuni y gwirionedd dwyfol yn y byd tywyll hwn. ‡ Yr oeddynt yn sefyll i weini yn gymmeradwy, ger bron Duw y ddaear, Meddiannydd a Llywydd holl ddynolryw; ac yr oeddynt yn sefyll megys rhyswyr *(champions)* yn ei achos ef, ac fel herodron *(heralds)* ei ogoniant ef, yn y gwledydd lle yr oeddynt yn byw. Mae yma gyfeiriad amlwg at weledigaeth Zechariah, (Zech. 4. 3, 11, 12.) yr hyn oedd yn arwyddo Zorobabel a Joshua yr archoffeiriad, medd rhai.

5 * Ac os ewyllysia neb wneuthur niwed iddynt, † y mae [r] tân yn myned allan o'u genau hwy, ac yn difetha eu gelynion: ‡ ac os ewyllysia neb eu drygu hwynt, fel hyn y mae yn rhaid ei ladd ef.

r Num. 16. 28—35. 2 Bren. 1. 10—12. Es. 11. 4. Jer. 1. 10. a 5. 14. Ezec. 43. 3. Hos. 6. 5. Zec. 1. 6. a 2. 8. Act. 9. 4, 5.

* Ac os trwy ragfarn a gelyniaeth yn eu herbyn hwy a'u hathrawiaeth, yr ymosodai neb arnynt i wneuthur niwed iddynt; † er gwàned y tybid eu bod, yr oedd tân yn myned allan o'u genau hwynt, ac yn dyfetha eu gelynion: ‡ ac os ewyllysiai neb mewn un modd eu drygu hwynt, fel hyn yr oedd yn rhaid lladd y cyfryw: hyny yw, byddai yr Arglwydd yn sicr o ddadlau a dïal eu hachos hwynt, a chospi y niweidiau a wnaid iddynt hwy, fel wedi eu gwneyd yn ei erbyn ef ei hunan. Tybir fod yma gyfeiriad at yr hanes am Moses ac Elias, yn galw am dân o'r nef i ddyfetha gelynion Duw a'i bobl: ond nid o'r nef yn wyrthiol yr oedd y tân hwn i ddyfod, eithr o enau y ddau dyst, fel y dywedir yn Jer. 5. 14, "Wele fi yn rhoddi fy ngeiriau yn dy enau di yn dân, a'r bobl hyn yn gynnud, ac efe a u difa hwynt." Gwel hefyd Jer. 1. 9, 10. Byddai eu rhybuddion a'u hathrawiaeth hwynt yn tueddu i gondemnio y rhai a'u casâent hwy ar gyfrif hyny; byddai y bygythion o farnau Duw, trwy eu genau hwynt, yn sicr o gael eu cyflawni; ie, atebid eu gweddïau hwynt mewn barnedigaethau, ar y rhai a barâent yn elynion iddynt.

6 * Y mae gan y rhai hyn [s] awdurdod i gau y nef, fel na wlawio hi yn nyddiau eu prophwydoliaeth hwynt: [t] † ac awdurdod sydd ganddynt ar y dyfroedd, i'w troi hwynt yn waed, ‡ ac i daro y ddaear â phob pla, cyn fynyched ag y mynnont.

s 1 Bren. 17. 1. Luc 4. 25. Iago 5. 17, 18. t Ex. 7—12. a 14. Salm 105. 26—36.

* Oblegid yn yr ystyr a grybwyllwyd uchod, byddai gan y rhai hyn awdurdod fel Elias i gau y nef, fel na wlawiai hi yn yspaid y tair blynedd a hanner, neu y ddeufis a deugain (adn. 2.) o'u prophwydoliaeth hwynt; hyny yw, i attal bendithion i ddyfod oddi uchod, ar y rhai a wrthodent eu tystiolaeth hwynt, ac a'u herlidient hwy oblegid y dystiolaeth hòno: † a byddai ganddynt awdurdod ar y dyfroedd, i'w troi hwynt yn waed, fel y gwnaethai Moses yn yr Aipht; ‡ ac felly i daro y ddaear â phob plâ, cyn fynyched ag y mynent. Hyny yw, byddai ganddynt gymmaint o fraint ac awdurdod gyda Duw yn y nef, â neb o'r rhai enwocaf o'r prophwydi gynt; a byddai Duw mòr sicr o gospi y cenedloedd, y breninoedd, a'r personau hyny a'u drygent hwy, ag y cospodd efe y rhai hyny gynt, a orthrymasent ei bobl, ac a laddasent ei genadon ef.

7 * A phan [u] ddarfyddo iddynt orphen eu tystiolaeth, [x] † y bwystfil, yr hwn sydd yn dyfod allan o'r pwll diwaelod, ‡ a ryfela â hwynt, ‖ ac a'u gorchfyga hwynt, § ac a'u lladd hwynt.

u adn. 3. Luc 13. 32. Ioan 17. 4. a 19. 30. Act. 20. 24. 2 Tim. 4. 7. x pen. 13. 1, 7, 11. a 17. 6—8. a 19. 19, 20. Dan. 7, 21, 22, 25. a 8. 23, 24. 2 Thes. 2. 8, 9.

* A phan ddarfyddo i'r tystion hyn orphen eu tystiolaeth dros Grist a'i efengyl, neu pan fyddont ar ei gorphen, tua diwedd y ddeufis a deugain, (adn. 2.) neu y 1260 o ddyddiau, neu flynyddoedd; (adn. 3.) † y "bwystfil, yr hwn sydd yn dyfod allan o'r pwll diwaelod" (hyny yw, yr awdurdod erlidgar, yr hwn a ddysgrifir yn fwy cyflawn ar ol hyn, pen. 13. 1—7; a 17. 7, 8.) ‡ a ryfela yn greulawn â hwynt, yn mhob ffordd o gyfrwysder a thrais; ‖ a goddefir iddo lwyddo yn eu herbyn hwynt, i'w hamddifadu o'u rhyddid gwladol a chrefyddol, § a'u lladd yn ddidrugaredd, efallai trwy ferthyrdod.—Mae llawer o ddehongliadau *priod* (yn ol barn *Scott* am danynt,) wedi bod ar y brophwydoliaeth hon am *ladd y tystion*, fel pe byddai yn cyfeirio at ferthyrdod *personau*, neu erledigaethau mewn rhyw fànau, mewn amserau a aeth heibio; a thybia rhai yn ddieithr, nad yw yn arwyddo dim ond yr erlid gwastadol ar wir gristionogion, trwy yr holl yspaid o ddeuddeg cant a thrigain o flynyddoedd. (Gwel ar adn. 2, 3.) Pa fodd bynag, nis gall y gŵr a enwyd lai na meddwl, fod y brophwydoliaeth yn cyfeirio at amser a damweiniau sydd eto i ddyfod; ac y rhaid i'r cyflawniad o hóni fod, yn agos yr un pryd â chaniad y seithfed udgorn. Tybia *Guyse* hefyd, fod y tystion heb eu lladd eto. Nid yw *Pool* na *Doddridge* yn sylwi dim yn neilduol ar *amser* lladd y tystion. Y Pab, neu babyddiaeth, medd *Pool*, yw y bwystfil uchod: o'r "pwll diwaelod" y daeth angel, neu frenin y locustiaid, hefyd; (pen. 9. 11.) oddi yno mae pob drwg yn dyfod, Pabyddiaeth yn gystal â Mahometaniaeth. Mae dadl pa un ai lladd yn *gorphorol*, ai lladd yn *swyddol*, neu attal eu gweinidogaeth, a feddylir yma wrth *ladd* y tystion: tybia *Pool* mai yr olaf a feddylir: efallai bod lladd yn y ddau ystyr yn gynnwysedig.

8 * A'u [y] cyrph hwynt *a orwedd* † ar heolydd y [z] ddinas fawr, ‡ yr hon yn ysprydol a elwir [a] Sodom ‖ a'r [b] Aipht; § lle hefyd y croeshoeliwyd ein [c] Harglwydd ni.

y adn. 9. Salm 79. 2, 3. Jer. 26. 23. Ezec. 37. 11. z adn. 13. pen. 14. 8. a 16. 19. a 17. 1, 5. a 18. 2, 10, 18, 21. a Gen. 13. 13. a 19. 24. Jer. 23. 14. Ezec. 16. 53—55. Amos 4. 11. Mat. 10. 15. 2 Pedr 2. 6. Judas 7. b Ex. 1. 13, 14. a 3. 7. Salm 78. 43—51. c pen. 18. 24. Luc 13. 33, 34. Act. 9. 4. Heb. 6. 6. a 13. 12.

* Ac fel yr oedd yn brawf eithaf o greulondeb didrugaredd, i nacâu claddedigaeth i gyrph meirw, a'u gadael hwynt yn waradwyddus noethion ar wyneb y maes, neu ar hyd yr hëolydd; felly er dangos y gelyniaeth a'r anfri mwyaf tuag at y tystion hyn, nid yn unig hwy a leddid, mewn ystyr swyddol, a llawer o honynt yn gorphorol; eithr hwy a osodid yn agored hefyd i warth a dirmyg cyhoeddus † yn y llywodraeth babaidd, yr hon a fyddai yn ehang iawn, a dinas fawr Rhufain yn brifddinas iddi; (pen. 16. 19; a 17. 18; a 18. 10—16, 18, 21.) ‡ yr hon mewn ystyr gyfriniol, neu ysbrydol, a ellid ei galw yn Sodom, am ei balchder, ei haflendid, a'i drygioni; ‖ ac yn Aipht, am ei gormes, ei gorthrymder, a'i heilun-addoliaeth: § a gellid ei chyffelybu hi hefyd i Jerusalem, yr hon a laddodd y prophwydi; a phan oedd dàn lywodraeth Rhufain, a roddodd ein Harglwydd bendigedig ni i farwolaeth waradwyddus a phoenus y groes; ac a'i hail groeshoeliodd ef wedi hyny, yn merthyrdod ei aelodau; yr hyn a wnaid drosodd drachefn, gan yr erlidwyr creulawn hyn. Felly *Guyse*, air yn air.—Wrth y "ddinas fawr a'i hëolydd" y meddylir, efallai, holl amherodraeth Rhufain, fel *un ddinas eilun-addolgar ac aflan.* A chyrph y tystion yn gorwedd ar yr hëolydd a arwydda, yr erledigaethau dirfawr a ddyoddefai llawer o dystion Duw; ac yr ymorfoleddai eu gelynion arnynt i'r fath raddau, fel yr ymddangosai ei achos ef megys wedi ei hollawl ddinystrio. Mae *aflendid* Sodom, a *chreulondeb* yr Aipht, mòr nodedig yn yr ysgrythyrau, fel yr oeddynt yn *arwyddluniau* addas o'r drygau uchod yn gyffredinol. Ac mae drygioni atgas eglwys Rhufain yn mhob un o'r ystyriaethau hyn, (digyffelyb, mae yn debyg, mewn unrhyw gymdeithas arall o ddynion, a alwant eu hunain yn eglwys,) yn cael ei arddangos yn y modd cyfiawnaf, ac hefyd llymaf, trwy yr enwadau uchod. Pan y gwelom eu lleoedd o addoliad yn mhob màn, wedi eu haddurno â delwau Iachawdwr croeshoeliedig, nis gallwn feddwl yn amgen na bod yr erlidwyr hyn, (fel y Phariseaid erlidgar gynt, yn addurno beddau y prophwydi a laddasai eu tadau,) yn amcanu croeshoelio Crist mewn llun; *(effigy)* meddwl, nad yw yn anghytunol iawn, efallai, âg amcan cyntaf y cyfryw ddyfais. *Doddridge.*—Wrth y "ddinas fawr," nid Rhufain na Jerusalem yn *llythyrenol* a feddylir, ond Jerusalem yn *gyfriniol;* hyny yw, eglwys broffesedig Duw, fel yn feddiannol gan y cenedloedd; (adn. 2.) ac felly wedi myned yn ail i Sodom am anlladrwydd; i'r Aipht am greulondeb tuag at blant Duw; ac i Jerusalem pan groeshoeliwyd Crist, mewn gelyniaeth cyffredinol tuag ato ef a'i achos. *Scott.*—"*Hëolydd* y ddinas:" *hëol* yw y Saesoneg, yn y rhif unigol: mae yr un gair *(plateias)* wedi ei gyfieithu *hëol* genym ninnau, yn pen. 22. 2. Mae gair arall am *hëol*, a *hëolydd*, mewn mànau eraill; a dywed *Pool* (gyda *Mede*) fod y gair *plateias*, hëol, neu hëolydd, yn arwyddo y tiriogaethau a'r awdurdodaeth, a berthyn i'r ddinas hon: a thybia efe mai yn Europe, fel rhan o diriogaeth y Pab, y lleddir y tystion.

9 * A'r rhai o'r [d] bobloedd, a'r llwythau, a'r ieithoedd, a'r cenhedloedd, † a welant eu cyrph hwynt [e] dridiau a hanner, ‡ ac [f] ni oddefant roi eu cyrph hwy mewn beddau.

d pen. 10. 11 a 13. 7. a 17. 15. e Gwel ar adn. 2, 3, 11. f Gwel ar pen. 5. 8.—a 19. 17, 18. Preg. 6. 3. Es. 33. 1. Jer. 7. 33. Mat. 7. 2.

* A chyfrifir yr ymddygiad uchod tuag at y tystion, yn gyfryw fuddugoliaeth o'r eiddo Anghrist ar y saint, fel y bydd deiliaid ei lywodraeth ef, lle bynag y byddont yn trigo, mewn gwahanol wledydd, pobloedd, llwythau, ieithoedd, a chenedloedd, yn eu gwatwar hwy yn greulawn, wrth eu gweled yn gorwedd ar hëolydd y ddinas heb eu claddu; ac ymddygant tuag atynt gyda chymmaint anfri, atgasedd, ac annyngarwch, â phe baent gelaneddau ffiaidd: † hwy a welant eu cyrph hwy felly gyda hyfrydwch a gorfoledd dirmygus, am dridiau a hanner, yr yspaid y ceidw cyrph meirw yn gyffredin heb lygru a braenu; ac yr hyn sydd yn cyfateb mewn iaith brophwydoliaethol i amser, amserau, a hanner amser, yr hwn nifer sydd yn ateb hefyd i ddeufis a deugain, (adn. 2.) neu fil a deucant a thrigain o ddyddiau, (adn. 2.) ‡ Yn yr yspaid hyny ni oddefant roi eu cyrph yn weddus mewn beddau, o dra anmharch arnynt, a gorfoledd eu gweled wedi eu lladd.—Tybia rhai mai *cyfeillion protestanaidd* y tystion, a feddylir wrth y rhai a'u gwelant ac ni oddefant roi eu cyrph mewn beddau, mewn gobaith am eu hadfywiad drachefn; ond mae yn fwy cyson â'r adnod nesaf, ac â holl rediad y dysgrifiad cyffredinol hwn o *gyflwr galarus* y tystion, tra yn prophwydo mewn sachlïan, i ddeall mai eu *gelynion pabaidd* creulawn a feddylir.—Sylwyd o'r blaen, fod y *ddau fis a deugain*, (adn. 2.) y *mil a deucant a thriugain o ddyddiau*, (adn. 3.) yr *amser amserau, a rhan*, neu *hanner amser*, (Dan. 7. 25; a 12 7.) a'r *tridiau a hanner* hyn, yn arwyddo yr un faint, a'r un yspaid o amser, sef 1260 o flynyddoedd, pob diwrnod am flwyddyn. Mewn *deufis a deugain* (o ddeg diwrnod ar hugain bob un) mae tair blynedd a hanner, yn ol *amser, amserau, a rhan*, neu *hanner amser* Daniel; ac a elwir yn *dridiau a hanner* yn yr adnod hon: ac mewn tair blynedd a hanner felly, mae 1260 o ddyddiau, neu o flynyddoedd, mewn iaith brophwydoliaethol. Yn adn. 3, dywedir y bydd i'r tystion brophwydo mewn sachlïan am gyhyd â hyny o amser; ac yma y dywedir y bydd eu cyrph yn gorwedd heb eu claddu am yr un faint o amser, os ystyriwn y *tridiau a hanner* yr un faint â'r amserau eraill a enwyd. Cyn gallu cysoni y ddau beth hyn yn iawn, rhaid i ni feddwl fod rhai o'r tystion yn cael eu lladd o hyd, o ddechreu hyd ddiwedd

b' blynyddoedd uchod; neu ynte, fod y *tridiau a hanner* hyn yn arwyddo rhyw yspaid bŷr, megys *tair blynedd a hanner naturiol*, yn niwedd y 1260 mlynedd uchod. Y peth olaf yw tŷb amryw dduwinyddion, a thŷb ein Hawdwyr hefyd, debygid; ond y maent oll yn bur dywyll a dyrys ar y pwnc.

10 * A'r rhai sydd yn [g] trigo ar y ddaear † a [h] lawenychant o'u plegid, ‡ ac a [i] ymhyfrydant, ‖ ac a anfonant roddion i'w gilydd; § oblegid y [k] ddau brophwyd hyn oedd yn poeni y rhai oedd yn trigo ar y ddaear.

g pen. 12. 13. a 13. 8, 14. Mat. 10. 22. h Barn. 16. 23, 24. i Salm 13. 4. a 35. 19, 24—26. a 89. 42. Diar. 24. 17. Jer. 50. 11. k Dat. 12. Mica 7. 8. Ioan 16. 20. i Neh. 8. 10—12. 1 Cor. 13. 6. Esther 9. 19—22. k adn. 5, 6. pen. 16. 10. 1 Bren. 18. 17. a 21. 20. a 22. 8, 18. Jer. 38. 4. Ioan 7. 7. Act. 5. 33. a 7. 54—57. a 17. 5, 6.

* A'r rhai sydd yn trigo ar y ddaear, sef trigolion y tywyll, anianol, a daearol y gwledydd pabaidd, † a lawenychant yn rhyfeddol oblegid triniaeth greulawn y tystion, cyn ac wedi eu lladd: ‡ ac, fel pe byddai y wledydd weithian yn hollawl yn eiddynt hwy eu hunain, hwy a gyfarchant eu gilydd gyda mawr hyfrydwch a dllawenydd; ‖ ac a anfonant roddion i'w gilydd i gadw ngwŷliau llawen, fel y gwnai yr Iuddewon gynt wedi cael eu gwaredu oddi wrth eu gelynion. Esth. 9. 22. § Oblegid y ddau brophwyd, neu y ddau dyst hyn, oedd yn poeni ac yn aflonyddu y rhai oedd yn trigo ar y ddaear, dynion anianol y byd hwn, ac yn ienwedig deiliaid ofer-goelus ac aflan Anghrist; trwy dystiolaethu yn wastadol yn erbyn eu hathrawiaeth, eu haddoliad, a'u moesau drwg hwynt; a thrwy gyhoeddi barnau Duw, y rhai a ddeuai arnynt am eu gau-grefydd a'u llygredigaethau aflan.

11 * Ac ar ol [l] tridiau a hanner, [m] † Ysbryd bywyd oddi wrth Dduw a aeth i mewn iddynt hwy: ‡ a hwy a safasant ar eu traed; ac [n] ‖ ofn mawr a syrthiodd ar y rhai a'u gwelodd hwynt.

l adn. 9. m Gen. 2. 7. Ezec. 37. 5—14. Rhuf. 8. 2, 11. n adn. 13. Jos. 2. 9. Jer. 33. 9. Hos. 3. 5. Act. 5. 5, 11.

* Ond bŷr ac ofer oedd yr holl orfoledd pechadurus uchod, oblegid ar ol y tridiau a hanner a grybwyllwyd o'r blaen, (gwel ar adn. 9.) † gwelai Ioan Ysbryd bywyd oddi wrth Dduw, yn myned i mewn i gyrph meirwon y ddau dyst digladdedig hyn, ac yn eu bywâu hwynt fel yr esgyrn sychion a welodd Ezeciel gynt. ‡ Ac yn y fàn hwy a safasant ar eu traed; mewn nerth, gwroldeb, a bywiogrwydd; fel dynion wedi eu codi o feirw mewn perffaith iechyd, ac yn barod i ymaflyd mewn unrhyw waith y galwai Duw hwynt iddo. ‖ A phan welodd eu gelynion hyn, er cymmaint a fuasai eu gorfoledd o'r blaen, syrthiodd arnynt ofn a dychryn mawr: gwelsant bethau nad oeddynt yn ddysgwyl, a gwelsant fod eu dial a'u dystryw hwy eu hunain yn agosâu.—Yr oedd y rhan hon o'r weledigaeth yn rhagddangos, er i Anghrist ladd prophwydi a thystion Duw, eto y codai efe nifer digonol o rai eraill o'r un ysbryd, i sefyll i fynu dros ei efengyl bur ef; er mawr ofid a dychryn i'w gwrthwynebwyr hi, y rhai a dybiasent ei bod wedi cael ei hollawl ddiwreiddio. Am *amser* lladdiad ac adgyfodiad y tystion, nis gallwn ddywedyd dim: tybia rhai ei fod wedi myned heibio, a thybia eraill ei fod eto heb ddyfod: mae ein Hawdwyr o'r farn olaf.

12 * A hwy a glywsant lef uchel o'r nef yn dywedyd wrthynt, [o] † Deuwch i fynu yma. [p] ‡ A hwy a aethant i fynu i'r nef mewn cwmmwl; ‖ a'u [q] gelynion a edrychasant arnynt.

o pen. 4. 1. Salm 15. 1. a 24. 3. Es. 40. 34. p pen. 3. 21. a 12. 5. 2 Bren. 2. 11. Es. 14. 13. Act. 1. 9. Rhuf. 8. 34—37. Eph. 2. 5, 6. q Ex. 14. 25. Salm 86. 17. a 112. 10. Mal. 3. 18. Luc 16. 23.

* Gwedi adgyfodi y tystion o feirw, hwy a glywsant lef uchel o'r nef, gorsedd gogoniant Duw, yn dywedyd wrthynt, † Deuwch i fynu yma: yr hyn oedd yn dangos, y cymmerai Duw hwynt dàn ei amddiffyniad neillduol ei hun; ac y cynnorthwyai, yr arddelwai, ac yr anrhydeddai efe hwynt â llwyddiant mawr yn ei waith a'i achos ef. ‡ Ar hyn tybiai Ioan iddo eu gweled hwynt, yn debyg i Grist yn ei esgyniad, yn myned i fynu i'r nef mewn cwmwl dysglaer: yr hyn oedd yn arwyddo eu dyrchafiad hwynt gan Dduw, i fawredd rhagorol, awdurdod a llwyddiant; yn ol ystyr gyffelybiaethol y cyfryw ymadroddion yn yr ysgrythyrau. (Esa. 14. 13; Matth. 11. 23.) ‖ Ac nis gallai eu gelynion lai na gweled pa fath gyfnewidiad gogoneddus a wnaed yn eu hamgylchiadau hwynt; a pha dystiolaeth nodedig o anrhydedd ac ewyllys da Duw, a roddwyd fel hyn iddynt hwy.—Yr oedd esgyniad y tystion i'r nef yn ddiammau yn arwyddo, nid yn unig y byddai i achos gwir gristionogaeth gael ei adfywio, ond hefyd ei *dderchafu;* ac y caffai fuddugoliaeth mòr ogoneddus ar bob gwrthwynebiad, fel nad oedd yr un dyrchafiad *daeurol* yn ddigon i'w osod allan yn gyflawn: esgyn i'r *nef* yn unig a wnai hyny. Fel yr oedd esgyniad Crist i'r nef, ar ol ei farwolaeth, ac o flaen llwyddiant yr efengyl; felly y tystion hyn, ar ol eu lladd, ac yn rhag-ddangosiad o lwyddiant ar yr efengyl, mwy gogoneddus nâ thra buont hwy yn prophwydo mewn sachlian.

13 * Ac yn yr awr honno y [r] bu daear-gryn mawr, † a [s] degfed ran y ddinas a syrthiodd; ‡ a lladdwyd yn y ddaear-gryn saith mil o wŷr: ‖ a'r [t] lleill a ddychrynasant, § ac a [u] roddasant ogoniant i Dduw y nef.

r adn. 19.—Gwel ar pen. 6. 12.—a 8. 5. a 16. 18. s pen. 8. 9—12. a 13. 1—3. a 16. 10. t Gwel ar adn. 11. u pen. 14. 7. a 15. 4. a 16. 9. Jos. 7. 19. 1 Sam. 6. 5. Jer. 13. 16. Mal. 2. 2.

* Yn y fàn ar ol adgyfodiad ac esgyniad y tystion, gwelodd Ioan ddaear-gryn mawr; yr hyn oedd yn arwyddo y syrthiai rhyw farn ofnadwy ar ran fawr o'r ddinas, neu amherodraeth Anghrist, lle y lladdwyd y tystion, ac y buont yn gorwedd heb eu claddu. † Yn y ddaear-gryn uchod, tybiai Ioan ei fod yn gweled y ddegfed ran o'r ddinas yn syrthio; sef rhyw un o'r teyrnasoedd dàn lywodraeth Anghrist. Gan nad yw hyn wedi dygwydd eto, yn ol barn ein Hawdwyr, rhaid i ni aros cyflawniad y brophwydoliaeth, i wybod pa un o'r teyrnasoedd pabaidd a feddylir. ‡ Ac yn y ddaear-gryn neu y terfysgoedd hyn, gwelodd Ioan ladd saith mil o wŷr: yr hyn a arwydda ryw *ddrygfyd dirfawr,* a ddaw ar wrthwynebwyr y diwygiad yn yr amser y prophwydir am dano, ac yr hyn a fydd yn llawer o foddion i ddwyn yn mlaen y diwygiad hwnw. "Saith mil o *enwau* gwŷr" yw y Groeg, neu saith mil o wŷr o enwau: a thybia rhai fod hyn yn cyfeirio at waradwyddiad a dinystr y dynion mwyaf enwog a galluog fel pleidwyr a chynnorthwywyr pabyddiaeth: pa fodd bynag am hyny, mae y geiriau yn dangos na bydd y tystion ddim heb wrthwynebwyr, ac na fydd nifer y gwrthwynebwyr y pryd hwnw ond bychan; oblegid beth yw *saith mil* o wŷr i syrthio yn y fath achos, oddigerth y defnyddir rhifedi terfynol am annherfynol? ‖ A'r lleill a ddychrynasant wrth weled y fath ddaear-gryn a dinystr: dychrynodd eu cydwybodau yn wyneb barnau ofnadwy Duw ar wlad a phleidwyr Anghrist: § a rhoddasant ogoniant i Dduw y nef, trwy addef cyfiawnder ei farn, ac uniondeb ei dystion ef a'u tystiolaeth; a thrwy ei addoli ef efallai, yn lle addoli delwau, saint, ac angelion.

14 * Yr [x] ail wae a aeth heibio; † wele, y mae y drydedd wae yn dyfod ar frys.

x pen. 8. 13. a 9. 12. a 15. 1. a 16. 1, &c.

* Fel hyn yr ail wae, a'r chweched udgorn, a aeth heibio, o ran y brophwydoliaeth o hôni, ac a â heibio yn y cyflawniad; ac ofnadwy iawn a fydd ar y neb a fyddo dani: † ond na feddylied neb fod pob perygl drosodd; oblegid mae y drydedd wae, dàn udganiad y seithfed udgorn, yn dyfod i'w chanlyn hi ar frys.

15 * A'r [y] seithfed angel a udganodd; [z] a

bu llefau uchel yn y nef, yn dywedyd, [a] † Aeth teyrnasoedd y byd *yn eiddo* ein Harglwydd ni, a'i Grist ef; [b] ‡ ac efe a deyrnasa yn oes oesoedd.

y pen. 8. 2—6, 12. a 9. 1, 13. z pen. 12. 10. a 16. 17. a 19. 6. Es. 27. 13. a 44. 23. Luc 15. 6, 10. a pen. 12. 10. a 15. 4. a 17. 14. a 20. 4. Salm 22. 27, 28. a 72. 11. a 86. 9. a 89. 15—17. Es. 2. 2, 3. a 49. 6, 7, 22, 23. a 55. 5. a 60. 3—14. Jer. 16. 19. Dan. 2. 44, 45. a 7. 14, 22, 27. Hos. 2. 23. Amos 9. 11, 12. Mica 4. 1, 2. Zeph. 3. 9, 10. Zec. 2. 11. a 8. 20—23. a 14. 9. Mal. 1. 11. b Ex. 15. 18. Salm 110. 4. a 146. 10. Es. 9. 7. Ezec. 37. 25. Dan. 2. 44. a 7. 18, 27. Mica 4. 7. Mat. 6. 13. Luc 1. 33. Heb. 1. 8.

Gwedi gorphen adrodd am yr ail wae, y chweched udgorn, a chynnwysiad y llyfr bychan; (yn ol barn Mr. *Scott*, gwel ar pen. 10. 2.) mae Ioan yma yn myned rhagddo gyda'r mater oedd yn diweddu y nawfed bennod, yn ol barn y gŵr a enwyd (pen. 10. 2.) * Pan udganodd y seithfed angel ei udgorn, "bu llefau uchel yn y nef;" yr holl drigolion dedwydd yn gorfoleddu gydag annhraethol ddïolchgarwch, † am fyned teyrnasoedd y byd hwn, y rhai a fuasent cyhyd yn gorwedd mewn drygioni, neu dàn yr un drwg, yn eiddo, neu yn ddeiliaid ewyllysgar i'r Arglwydd Dduw JEHOFAH, ac i Grist ei Frenin eneinniedig ef; ‡ ac efe a deyrnasa arnynt yn oes oesoedd: oblegid pery ei deyrnas ef ar y ddaear hyd ddiwedd amser, ac yn y nef am byth bythoedd.—Pa un a gaiff y geiriau hyn a'u cyffelyb eu cyflawni yn llythyrenol, trwy lwyddiant cyffredinol yr efengyl ar yr holl ddaear, neu ynte yn unig yn y nefoedd newydd, lle bydd cyfiawnder yn cartrefu; sydd ddirgelwch yn mynwes Duw, yr hwn ni ddylem ni fod yn rhŷ hyderus yn ein hagoriad o hóno. Ond mae hyny yn dra sicr, y bydd llwyddiant mawr ar yr achos cristionogol, yn ei helaethder, ei nerth, a'i burdeb; yn yr amser a nodir drwy y *seithfed udgorn a'r saith phïol* a'i canlynant, er gwaethaf pob ymgais i wrthwynebu, gŵyro, a llygru yr achos hwnw: ac yn wir mae graddau mawr o hyny wedi bod eisoes.

16 * A'r [c] pedwar henuriad ar hugain, y rhai oedd ger bron Duw yn eistedd ar eu gorsedd-feingciau, † a syrthiasant ar eu hwynebau, ac a addolasant Dduw,

c pen. 4. 4, 10. a 5. 5—8, 14. a 7. 11. a 19. 4.

* Sylwyd eisoes ar y pedwar henuriad ar hugain, eu bod yn cynnrychioli yr holl eglwys; (pen. 4. 4.) † yma gwelodd Ioan hwynt megys yn codi oddi ar eu gorseddau, ac yn syrthio ar eu gwynebau i addoli Duw. —Mae hyn yn dangos gorfoledd y saint a'r angelion yn y nef, (medd *Pool*, neu yn hytrach Parâydd *Pool*,) o herwydd buddugoliaeth Duw ar Anghrist, a goruchafiaeth a llwyddiant teyrnas Crist: ac yn sicr, od oes llawenydd yn y nef am ddychweliad *un* pechadur, fel y dywedir ei fod yn Luc 15. 7, 10; rhaid i ni feddwl bod llawer mwy am ddychweliad cenedloedd cyfain at Dduw a'i Grist ef.

17 * Gan ddywedyd, [d] Yr ydym yn dïolch i ti, [e] O Arglwydd Dduw Hollalluog, [f] yr hwn wyt, a'r hwn oeddit, a'r hwn wyt yn dyfod; † oblegid [g] ti a gymmeraist dy allu mawr, ‡ ac a deyrnesaist.

d pen. 4. 9. Dan. 2. 23. a 6. 10. Mat. 11. 25. Luc 10. 21. Ioan 11. 41. 2 Cor. 2. 14. a 9. 15. 1 Tim. 1. 12. e Gwel ar pen. 1. 8. a 4. 8.—a 15. 3. a 16. 7, 14. Gen. 17. 1. f Gwel ar pen. 1. 4, 8.—a 16. 5. g Gwel ar adn. 15.—pen. 19. 6, 11—21. a 20. 1—3. Salm 21. 13. a 57. 11. a 64. 9, 10. a 98. 1—3. a 102. 13—18. Es. 51. 9—11. a 52. 10.

* Cawsom eiriau cyffelyb i'r rhan flaenaf o'r adnod hon o'r blaen; (gwel ar pen. 4. 8.) maent yn gosod allan dragywyddoldeb, hunanfod, hollalluogrwydd, ac anghyfnewidioldeb Duw: yr un peth â JEHOFAH, "YDWYF YR HWN YDWYF:" (Exod. 3. 14.) ac maent yn briodol i'r Arglwydd Iesu yn gystal ag i'r Tad a'r Ysbryd. Heb. 13. 8; Dat. 1. 8. † Dïolchai yr henuriaid i'r Arglwydd Dduw Hollalluog hwn, oblegid iddo gymmeryd ei allu mawr, yr hwn oedd ynddo a chanddo ef bob amser erioed, ‡ a theyrnasu ar y cenedloedd drwy yr holl ddaear: am iddo ddarostwng Anghrist a dymchwelyd ei lywodraeth ef, a sefydlu teyrnas ei Fab drwy yr efengyl, dros yr holl fyd.

18 * A'r [h] cenhedloedd a ddigiasant; [i] † a daeth dy ddig di, ‡ a'r [k] amser i farnu y meirw, [l] || ac i roi gwobr i'th wasanaethwyr y prophwydi, § ac i'r saint, [m] ac i'r rhai sydd yn ofni dy enw, * fychain a mawrion; [n] † ac i ddifetha y rhai sydd yn difetha y ddaear.

h adn. 2, 9, 10. pen. 17. 12—15. a 19. 19, 20. Salm 2. 1—3. Es. 34. 1—10. a 63. 1—6. Ezec. 38. 9—23. Joel 3. 9—14. Mica 7. 15—17. Zec. 14. 2, 3. i Gwel ar pen. 6. 15—17.—a 14. 10. a 15. 1, 7. a 16. a 19. 15. k Gwel ar pen. 6. 10, 11.—a 20. 4, 5, 12—15. Es. 26. 19—21. Dan. 7. 9, 10. a 12. 1, 2. l pen. 22. 12. Mat. 5. 12. 2 Thes. 1. 5—7. Heb. 11. 25, 26. m pen. 19. 5. Salm 85. 9. a 103. 11. a 115. 13, 14. a 147. 11. Preg. 8. 12. a 12. 13. Luc 1. 50. n pen. 13. 10. a 18. 16—24. a 19. 19, 21. Dan. 7. 26. a 8. 25. a 11. 44, 45.

* Y rhai nid oeddynt o nifer gwir *Israel* Duw, ond yn genedloedd paganaidd, neu yn genedloedd pabaidd, gwaeth na'r rhai paganaidd: hwy a ddigiasant yn ddigon hir wrth dy dystion a'th bobl di; † ac yn awr mae yn llawn bryd i tithau ddangos dy hun yn ddig, a thydi a ddechreuaist wneyd hyny. ‡ A daeth yr amser i ti farnu achos dy dystion ffyddlawn y rhai a laddwyd, yn nghyd â phawb a fuont "feirw" yn achos y gwirionedd: || ac i roi gwobr i'th wasanaethwyr y prophwydi, y rhai a hysbysasant dy ewyllys di yn ffyddlawn; § ac nid iddynt hwy yn unig, ond hefyd i'th holl "saint," "y rhai sydd yn ofni dy enw," ac yn dy addoli mewn ysbryd a gwirionedd; * a hyny heb ddim gwahaniaeth rhwng bychain a mawrion, o ran eu graddu a'u sefyllfa yn y byd: † a daeth yr amser hefyd, i ti ddyfetha yr hiliogaeth anghristiaidd hyny, y rhai sydd wedi bod yn blâ i'r ddaear cyhyd, trwy eu cyfeiliornadau, eu llygredigaethau, a'u twyll; a chwedi dyfetha ei chyfoeth hi, i borthi eu cybydd-dod a'u chwantau, a miloedd o'i thrigolion trwy gyfeiliornadau neu erledigaethau.—Deallir y geiriau uchod gan rai, am dywalltiad digofaint Duw ar y cenedloedd *o flaen* y Mil-flwyddiant, am eu cynddaredd a'u gelyniaeth yn erbyn ei bobl ef y rhai a laddasent; ond y rhai yn gyffelybiaethol a godwyd o feirw, yn adfywiad a llwyddiant yr efengyl wedi hyny, ac a wobrwywyd yn llwyddiant rhyfeddol yr eglwys, tra yr oedd y rhai a ddyfethent y ddaear wedi cael eu diwreiddio allan o hóni. Ond tybia eraill fod y geiriau yn cyfeirio at y gwrthwynebiad bŷr a wnair yn erbyn yr efengyl *ar ol* y Mil-flwyddiant; ac yn union o flaen yr adgyfodiad cyffredinol, a'r farn ddiweddaf. Pa fodd bynag, mae y crybwylliad yn y fàn hon yn fŷr iawn; oblegid eglurir ef, a helaethir arno, ar ol hyn, mewn amryw bennodau: ac efallai bod yma gyfeiriad cynnwys at y ddau amser a grybwyllwyd.—Tybia *Doddridge* mai y gwobr *diweddaf*, yn *nydd y farn*, yw y gwobr a feddylir.—Tybia *Guyse* i'r gwrthwyneb, mai gwobr o ryddid, heddwch, a llwyddiant, yn y mwynâd o ordinâdau a breintiau yr efengyl ar y ddaear, a feddylir. Rhoddwyd golygiadau *Pool* a *Scott* yn y rhanau blaenaf o'r sylwad uchod; *Pool* yn gyntaf, a *Scott* yn ail.

19 [o] * Ac agorwyd teml Dduw † yn y nef; ‡ a gwelwyd [p] arch ei gyfammod ef yn ei deml ef: [q] || a bu mellt, a llefau, a tharanau, a daeargryn, [r] a chenllysg mawr.

o pen. 14. 15—17. a 15. 5—8. a 19. 11. Es. 6. 1—4. p Ex. 25. 21, 22. Num. 4. 5, 15. a 10. 33. 2 Cor. 3. 14—16. Heb. 9. 4—8. q adn. 13, 15.—Gwel ar pen. 4. 5. a 8. 5.—a 16. 18. r pen. 8. 7. a 16. 21. Ex. 9. 18—29. Jos. 10. 11. Job 38. 22, 23. Salm 18. 12. a 105. 32. Es. 28. 2. a 30. 30. a 32. 19. Ezec. 13. 11. a 38. 22.

Mae yr adnod hon yn dwyn i mewn fater newydd, a dylasai fod yn dechreu y bennod nesaf, ebai *Scott*; ac felly mae *Doddridge* wedi ei gosod yn ei ddosparthiad ef yn y fàn hon. * Yr oedd ypaith *(scene)* y weledigaeth wedi ei gosod yn y deml; yr hon gynt ydoedd orsaf addoliad Duw, a chysgod o eglwys y Testament Newydd: o ganlyniad mae rhai yn deall wrth "deml Dduw" yn y fàn hon, y deml gynt yn Jerusalem, erail

er eglwys ogoneddus yn y nef, ac eraill yr eglwys filwr-
taethus ar y ddaear; † yr hon y gellir dywedyd ei bod
n yn y nef" o ran ei goleu, ei hymarweddiad, a'i hys-
prydoldeb, mewn cyferbyniad i'r ddaear, neu y byd
wywyll, llygredig, ac anianol hwn. ‡ Mae yn sicr fod
yma gyfeiriad at yr hen deml yn Jerusalem; yr hon
oedd wedi ei hagoryd càn belled, a'r llèn wedi ei thynu
ymaith i olwg Ioan, fel yr oedd arch cyfammod Duw
yn Sanctteiddiolaf ei "deml ef" yn weledig; yr hyn
oedd yn arwyddo fod datguddiedigaethau pellach i gael
eu gwneyd yn awr, mewn perthynas i ranau *tumewnol*
ecrefydd; oblegid yr oedd y pennodau o'r blaen yn cyf-
eirio yn benaf at helyntion yr amherodraeth Rufeinig,
ac achosion *allanol* yr eglwys o fewn yr amherodraeth
hòno. ‖ Yr oedd y "mellt, y llefau, y taranau, y
ddaear-gryn, a'r cenllysg mawr," yn arwyddion o bres-
enoldeb neillduol Duw, ac yn arddangos y barnau ofn-
adwy, y rhai yr oedd efe yn myned i'w datguddio.
Gwel ar adn. 13, 15; pen. 8. 5, 7. Mae y rhan flaen-
af o'r adnod yn dangos gogoniant Duw yn ei eglwys;
a'r rhan ddiweddaf yn dangos ei farnau dinystriol ef ar
Anghrist a holl elynion ei eglwys.—Tybia *Scott* fod y
bennod nesaf (y tair nesaf medd *Pool*) yn myned yn
ol i oesoedd boreuaf yr eglwys, ac y rhaid i ni fyned yr
ail waith dros amryw o'r amserau ol-yn-ol hyny fel o'r
blaen; er yn benaf gyda golwg ar amserau y tri udgorn
diweddaf, y rhai a elwir y tri udgorn gwae

PEN. XII.

Gwraig wedi ei gwisgo â'r haul.

* A [a] RHYFEDDOD mawr a welwyd yn y nef; [b] gwraig [c] † wedi ei gwisgo â'r haul, [d] ‡ a'r lleuad dan ei thraed, ‖ ac ar ei phen * goron o ddeuddeg seren:

a adn. 5. pen. 11. 19. a 15. 1. 2 Cron. 32. 31. Marc. 13. 25. Act. 2. 19. b Es. 49. 14—23. a 54. 5—7. a 60. 1—4. Hos. 2. 19, 20. Ioan 3. 29. 2 Cor. 11. 2. Eph. 5. 25—27, 32. c pen. 21. 23. Salm 84. 11. Es. 60. 19, 20. a 61. 10. Mal. 4. 2. Rhuf. 3. 22. a 13. 14. Gal. 3. 27. d Gal. 6. 14. Tit. 2. 11, 12. e pen. 1. 20. a 21. 14. Es. 62. 3. Zec. 9. 16.

Tybia *Scott* fod prophwydoliaethau y llyfr hwn yn ymddosbarthu yn naturiol yn ddwy ran; yr ail o ba rai sydd yn dechreu gyda'r adnod ddiweddaf o'r bennod o'r blaen: er bod rhai yn ei dechreu gyda'r adnod flaenaf o'r bennod hon. Fel hyn dygir ni yn ol yma i oesoedd cyntaf yr eglwys; er y crybwyllir am danynt yn llawer bỳrach, nac y crybwyllir am yr oesoedd wedi hyny. Diffyg sylwi ar yr amgylchiad hyn a barodd lawer o ddyryswch, mewn llawer ymgais i egluro y prophwydoliaethau hyn: oblegid os na chadwn ni afael ar yr arweiniad, yr hwn yn ddigon prïodol a alwyd yn ddaearyddiaeth ac amseryddiaeth y llyfr, e grwydra dychymmyg yn ddirëol, a bydd i gyfeiriadau tybiol at ddygwyddiadau *unigawl*, mewn gwahanol oesoedd a mànau, ddadgyssylltu y dehongliad, a gwneyd y cwbl yn ammheüus ac yn ddrwg-dybus. * Yma gwelodd yr apostol yr eglwys dàn yr arwydd-lun cyffredin o "wraig;" gwraig yr Oen, a mam yr holl wir gredinwyr, wedi deilliaw ei dechreuad o'r nef, yn byw o ran ei "hymarweddiad yn y nef," a chwedi ei harfaethu i ddychwelyd i'r nef: a gwelodd hi yn y fath wisgiad ac amgylchiadau, ag oedd yn gwneyd yr olwg arni yn rhyfeddod, neu yn *arwydd*, am fod yr ymddangosiad yn arwyddol o ryw ddygwyddiadau mawrion. Wrth y *nef*, mae rhai yn deall *y fàn* lle y cafodd Ioan ei weledigaeth; eraill, yr *awyr;* ac eraill, yr *eglwys*, yr hon yw *teyrnas nefoedd* ar y ddaear. Tybia *Pool* mai *nef y gogoniant* a feddylir, a bod Ioan wedi ei gymmeryd i fynu yno, fel Paul o'r blaen (2 Cor. 12. 2—4.) † Pa fodd bynag am hyny, efe a welai y wraig "wedi ei gwisgo â'r haul;" fel yn arwydd ei bod wedi ei chyfiawnâu, ei sancteiddio, a'i goleuo yn ogoneddus, trwy ei hundeb â Christ, "Haul y cyfiawnder." ‡ Yr oedd y "lleuad dàn ei thraed" hi; i arwyddo ei bod hi goruwch goleuni gwàn yr oruchwyliaeth Iuddewig, a goruwch cariad at bob gwrthddrychau gwael a chyfnewidiol yn y byd hwn. ‖ "Ac ar ei phen yr oedd coron o ddeuddeg seren;" i arwyddo ei bod hi mewn modd anrhydeddus yn dàl athrawiaeth y deuddeg apostol, ac mai trwy eu hathrawiaeth hwy, fel cynnifer o sêr dysglaer, yr oedd hi yn derbyn ei holl oleuni o wybodaeth a gras, yr hyn oedd ei choron a'i hanrhydedd penaf.

2 * A hi yn feichiog, a lefodd, [f] gan fod mewn gwewyr, † a gofid i esgor.

f adn. 4. Es. 53. 11. a 54. 1. a 66. 7, 8. Mica 5. 3. Ioan 16. 21. Gal. 4. 19, 27.

* Yr oedd beichiogi a gwewyr esgor y wraig hon, mae yn debyg, yn rhag-ddangos cyflwr tra gofidus yr eglwys yn y tri chanrif cyntaf o'r oruchwyliaeth gristionogol; yn yr hyn yspaid o amser, yn nghanol caledi mawr ac erledigaethau, gyda gweddìau taerion a llafur difrifol, y ceisiodd hi waredigaeth o'i gorthrymder, a chwaneg-iad at ei theulu; gan ddysgwyl yr amser pennodol, yr hwn oedd i ddwyn tröad dedwydd ar ei gofidiau hi. † "Gofid:" *(Basinizomenê:* pen. 9. 5; a 14. 10; a 20. 10; Matth. 8. 29; 2 Petr 2. 8.) Mae y gair yn dangos y dyoddefiadau, neu yr arteithiau dirfawr, trwy ba rai yr oedd ffydd ac amynedd yr eglwys yn cael eu profi, cyn ei gwaredigaeth, ac yn enwedig yn union o flaen hyny. Diammau fod y geiriau yn arwyddo mawr chwennychiad a llafur yr eglwys am daeniad a llwyddiant yr efengyl; yn nghyd â'i haml ddyoddefiadau hi yn, ac oblegid, y llafur hwnw.

3 * A gwelwyd rhyfeddod arall yn y nef; † ac wele, [g] ddraig goch fawr, ‡ â [h] saith ben iddi, ‖ a [i] deg corn; § ac ar [k] ei phennau saith goron.

g adn. 4, 9, 17. pen. 13. 2, 4. a 16. 13. a 17. 3, 4. a 20. 2. Es. 27. 1. a 51. 9. h pen. 13. 1, 3. a 17. 9. i pen. 17. 3, 7, 12, 16. Dan. 2. 42. a 7. 7, 8, 20, 24. k pen. 13. 1.

* Tua'r un amser, "gwelwyd rhyfeddod mawr arall yn y nef," gwahanol iawn i'r un o'r blaen, a hollawl wrthwyneb iddo · † sef gweled draig goch fawr; yr hyn oedd arwydd-lun digon hysbys o'r diafol, yn nghyd â'i brif weithredyddion a'i raglawiaid ar y ddaear. (adn. 9.) Coch, rhudd-goch, neu ysgarlad, ydoedd lliw nodedig yr Amherawdwyr Rhufeinig, eu cyngoriaid, a'u blaenoriaid milwraidd; megys y bu wedi hyny yr eiddo eu Pabau, a'u pen-graddolion eglwysig. (Gwel ar pen. 17. 3—5.) ‡ Yr oedd "saith ben" y ddraig ofnadwy hon yn arwyddo y saith bryn, ar ba rai yr adeiladwyd dinas Rhufain; a'r saith dull o lywodraeth a fu ar yr amherodraeth hòno, y naill ar ol y llall. (pen. 17. 9, 10.) ‖ Yr oedd y "deg corn" yn arwyddo y deg breniniaeth, i ba rai y rhanwyd yr amherodraeth orllewinol yn y diwedd: oblegid gŵyr pawb fod cyrn yn iaith brophwydoliaethol yr ysgrythyr, yn arwyddo gallu, awdurdod, neu freniniaethau; a dywed hanesion ddarfod rhanu amherodraeth Rhufain i gynnifer a hyny o freniniaethau. § Ond yr oedd y "saith goron ar benau" y ddraig, ac nid deg coron ar ei "chyrn hi," yn arwyddo bod yr holl awdurdod eto yn llaw yr amherawdwyr a'r senedd, yn Rhufain; ac nid yn meddiant breninoedd y deg teyrnas, megys yr aeth wedi hyny. Mae yr amgylchiad hwn, yr hwn ni sylwyd arno gan lawer o ddehonglwyr y llyfr hwn, yn sefydlu amseriad y brophwydoliaeth yn fanol gywir; ac yn profi yn ddiymwad, ei bod yn perthyn i'r amherawdwyr *paganaidd*, ac nid i'r awdurdod anghristiaidd a grybwyllir ar ol hyn. (Gwel ar pen. 13. 1.)—Heblaw a ddywedwyd am y lliw *coch*, mae yn ddiammau ei fod yn arwyddo creulondeb, a thywallt gwaed y saint, gan yr awdurdodau a enwyd.

4 * A'i [l] chynffon hi a dynnodd draian ser y nef, ac a'u bwriodd hwynt i'r ddaear. † A'r [m] ddraig a safodd ger bron y wraig yr hon ydoedd yn barod i esgor, i ddifa ei phlentyn hi, pan esgorai hi arno.

l pen. 9. 10, 19. Dan. 8. 9—12. m Ex. 1. 16. Mat. 2. 3—16. Ioan 8. 44. l Pedr 5. 8.

* Yr oedd "cynffon y ddraig yn tỳnu traian sêr y nef, ac yn eu bwrw hwynt i'r ddaear," yn arddangos gallu neu awdurdod y Rhufeiniaid, trwy yr hyn y bwriasant i lawr dywysogion y drydedd ran o'r ddaear, ac y darostyngasant eu gwledydd dàn warogaeth a theyrnged. Felly y dywed *Scott;* ond tybia ein Hawdwyr eraill, mai gweinidogion enwog yr efengyl a feddylir wrth "sêr y nef;" a fwriwyd i lawr o'u lleoedd a'u defnyddioldeb yn ffurfafen yr eglwys, gan gynffon y ddraig, sef gan ìs-swyddogion milwraidd a gwladol yr amherodraeth Rufeinig, wrth orchymyn yr amherawdwyr a'r senedd, ac oll dàn awdurdod Satan. † Ymddangosai yr anghenfil uchod fel yn "sefyll ger bron y wraig, yr hon oedd barod i esgor, yn gwylied arni, ac yn barod i ddifa ei phlentyn hi, pan esgorai hi arno;" fel y dysgwyliai Pharaoh i ddyfetha plant gwrrywaidd Israel, neu fel y ceisiai Herod ddyfetha Crist yn ei fabandod. Fel hyn yr oedd amherawdwyr a swyddogion Rhufain, yn gwylied yn eiddigus ar gynnydd cristionogaeth o'r dechreuad, ac yn blino yr eglwys âg erledigaethau gwastadol.

5 [n] * A hi a esgorodd ar fab gwrryw, † yr hwn oedd i [o] fugeilio yr holl genhedloedd â gwialen haiarn: ‡ a'i phlentyn hi [p] a gymmerwyd i fynu at Dduw, ac *at* ei orsedd-faingc ef.

n adn. 2. Es. 7. 14. Jer. 31. 22. Mica 5. 3. Mat. 1. 25. o Gwel ar pen. 2. 26, 27. a 19. 15. Salm 2. 9. p Gwel ar pen. 11. 12.—Marc 16. 19.

* O'r diwedd "esgorodd y wraig ar fab gwrryw;" *(whion arrhena,) mab,* a *gwrryw.* Gan nad oedd yn bosibl i *fab* lai na bod yn *wrryw,* tybir fod y ddau air, *mab gwrryw* yn y fàn hon, yn arwyddo grỳmusder a *gwrolder,* (a dywedyd felly,) y mab hwn o eiddo yr eglwys. Yn amser yr amherawdwyr erlidgar, cynnyddodd a lliosogodd yr eglwys yn fawr iawn; hyd oni ddeilliodd un o hóni, yr hwn a esgynodd i'r orsedd amherodrawl, † wedi ei drefnu i fod megys yn rhaglaw Crist, i "fugeilio," neu lywodraethu yr holl genedloedd, a dryllio gelynion yr efengyl megys â gwialen haiarn. ‡ Fel hyn had yr eglwys, sef cristionogion yn gyffredinol; yn nghyd â Chustenyn Fawr, a'r amherawdwyr cristionogol a'i canlynasant ef, yn neillduol, a ddìangasant rhag cynddaredd y ddraig goch; a derchafwyd y rhai olaf i anrhydedd ac awdurdod mawr iawn, dàn amddiffyniad union-gyrchol, a thrwy ewyllys da neillduol, yr Arglwydd Dduw.—Felly y dywed *Scott* air yn air ar yr adnod uchod; ond tybia *Guyse* fod yr amser a nodir yma yn mhell ar ol genedigaeth a theyrnasiad Custenyn Fawr, ac nas gellir ei ddeall ef mewn un modd wrth y *mab gwrryw:* o ganlyniad tybia efe mai *parâd* o gredinwyr enwog, dewrion, a ffyddlawn, a feddylir wrth y *mab gwrryw* hwn, y rhai dàn Grist eu Pen, a ddrylliant holl awdurdod eu gelynion, ac a lywodraethant arnynt hwy gyda nerth a chadernid anorchfygadwy, megys â gwialen haiarn; ac a ddyrchefir gan Dduw i fawredd goruwch cyrhaedd eu gelynion, ac a guddir megys ger bron ei orsedd-faine ef ei hun yn y nef, megys y cuddiwyd Joas gynt yn nhỳ yr Arglwydd. 2 Cron: 22. 11, 12. Yn yr ystyr ddiweddaf hyn hefyd mae *Pool* yn deall am y *mab gwrryw,* yn hytrach nag am Custenyn Fawr: nid yw *Doddridge* yn sylwi pwy a feddylir; dim ond alleirio yr adnod yn gyffredin.

6 * A'r [q] wraig a ffodd i'r diffaethwch, † lle mae ganddi le wedi ei barottôi gan Dduw, [r] fel y porthent hi yno [s] ‡ fil a deucant *a* thriugain o ddyddiau.

q adn. 14. r 1 Bren. 17. 3—6, 9—16. a 19. 4—8. Mat. 4. 11. s Gwel ar pen. 11. 2, 3.

* Pa fodd bynag, yr oedd profedigaethau newyddion yn aros y wraig, y rhai o'r diwedd a barasant iddi "ffoi i'r diffaethwch," neu a'i gwnaethant hi yn annrheithiedig, yn unig, ac yn galed arni. Oblegid diwedd yr erledigaethau paganaidd, a wnaeth ffordd i'r pethau hyny, y rhai yn y màn a derfynasant yn llywodraeth Anghrist, yr hon a ỳrodd yr eglwys i'r diffaethwch fel y sylwyd. † Ond yr oedd ganddi yno le wedi ei barottôi gan Dduw, lle y porthai efe hi â gwir Fanna o'r nef drwy ei genadon ffyddlawn, yn debyg fel y porthasai ei Israel yn y diffaethwch gynt; ‡ a hyny am fil a deucant a thriugain o ddyddiau, sef cynnifer â hyny o flynyddoedd, (gwel ar pen. 11. 2, 3, 11.) yr amser a rag-derfynodd Duw i rwysg a llywodraeth Anghrist. Tybia un gŵr dysgedig i'r blynyddoedd hyn ddechreu yn y flwyddyn 736, pan roddes *Pepin* o Ffrainc *lywodraeth dymmorawl* Rhufain i'r *Pab;* ar ddystrywiad rhaglawiaeth *Ravenna,* i'r hon y buasai Rhufain yn perthyn am ryw gyhyd o amser. Y pryd hwn y dechreuodd y Pab *wythfed pen Rhufain;* ac yn ol y cyfrif uchod derfydd ei amser ef i fod felly, yn y flwyddyn 2016; neu ynte 2000, os *blynyddoedd prophwydoliaethol,* o 360 o ddyddiau, a feddylir; a thybia yr awdwr uchod (Mr. *Fleming)* mai y pryd hwnw y dechreua y Mil-flwyddiant dedwydd.

7 * A bu [t] rhyfél yn y nef; [u] † Michael [x] ‡ a'i angelion ‖ a ryfelasant yn erbyn [y] y ddraig, § a'r ddraig a ryfelodd [z] a'i hangelion hithau.

t pen. 13. 7. a 19. 11—20. Es. 34. 5. Eph. 6. 12. u Es. 55. 4. Dan. 10. 13, 21. a 12. 1. Heb. 2. 10. Judas 9. x Mat. 13. 41. a 16. 27. a 24. 31. a 26. 53. 2 Thes. 1. 7. y Gwel ar adn. 3, 4. z adn. 9. Salm 78. 49. Mat. 25. 41. 2 Cor. 12. 7.—2 Pedr 2. 4.

* Gwnaed dangosiad pellach i Ioan o gyflwr yr eglwys yn yr amser dàn sylw, drwy yr arwydd-lun o ryfel ofnadwy, megys yn ymddangos iddo ef yn y nef, neu yr awyr; † lle yr oedd Michael y tywysog penaf, arglwydd, a phen yr angelion, (Dan. 12. 1; Judas adn. 9.) ‡ a'i weision, pa un bynag ai "ysbrydion gwasanaethgar," ai gweinidogion yr efengyl, ‖ yn rhyfela yn erbyn y ddraig fawr, neu y diafol a'i offerynau pleidiol; § a'r ddraig a ymegniodd yn gynddeiriog â'i holl nerth, fel blaenor, ac mewn cyd-weithrediad â'i angelion cythreulig o uffern, yn nghyd a'i genadon, gau-athrawon, a'u canlynwyr ar y ddaear; i ryfela â hwythau.—Wrth y *nef* yn y fàn hon mae *Guyse* yn deall yr *awyr;* am y dywedir fod diafol yn *dywysog llywodraeth yr awyr,* (Ephes. 2. 2.) á sonia yr apostol am *ddrygau ysbrydol yn y nefolion leoedd.* (Eph. 6. 12.) Ond wrth y *nef* yn y fàn hon ac yn y ddwy adnod a ganlyn, mae *Pool* ac eraill yn deall eglwys weledig Crist ar y ddaear; ac wrth y rhyfel yn y nef rhaid deall yr erlidiau poethion, a'r amryw drallodion, a ddyoddefodd yr eglwys dàn yr amherawdwyr paganaidd gynt. Tybia rhai mai angel crëedig (ond blaenor y lleill) yw y Michael yma, a thybia eraill mai Crist ei hun ydyw: nid yw o ganlyniad mawr pa un; oblegid ni a wyddom mai eiddo Crist yw y rhyfel, ac efe a'i achos a ennill y dydd.

8 * Ac [a] ni orfuant; † a'u [b] lle hwynt nis cafwyd mwyach yn y nef.

a adn. 11. Salm 13. 4. a 118. 10—13. a 129. 2. Jer. 1. 19. a 5. 22. Mat. 16. 18. Rhuf. 8. 31—39. b Job 7. 10. a 8. 18. a 20. 9. a 27. 21—23. Salm 37. 10. Act. 1. 25. Judas 6.

* A chanlyniad y frwydr a fu, i'r ddraig a'i holl alluoedd fethu a gorfod Michael a'i alluoedd ef, i'w dinystrio hwynt, nac ennill y fuddugoliaeth arnynt. † Càn belled oddi wrth hyny, fel y cawsant eu hollawl orchfygu a'u dymchwelyd yn eu bwriad; a chollasant eu holl awdurdod yn ngwir eglwys Crist, yr hon a orchfygodd trwy ffydd ac amynedd, a thrwy oleuni yr efengyl yn tòri allan yn helaeth. Tybia *Guyse* fod hyn, efallai, yn cyfeirio at y *Diwygiad Protestanaidd,* pan gafodd yr efengyl daeniad rhyfeddol, ac y bwriwyd iau Anghrist ymaith gan amryw deyrnasoedd. Ond mae pob un o'r Hawdwyr eraill yn gosod yr amser a'r damweiniau a ragfynegir yma, yn foreuach o lawer iawn nâ'r Diwygiad hwnw a grybwyllir gan *Guyse;* a thybiant yn ur fryd mai dymchweliad paganiaeth, ac eilun-addoliaeth paganaidd a feddylir, trwy fuddugoliaethau yr efengyl mewn oesoedd cyn dechreuad, neu o leiaf cyn llawn

swysg Anghrist. Y pryd hwnw ni chafodd paganiaeth yn y gwledydd lle yr oedd yr efengyl ac eglwys Grist: a chyflawnwyd hyn (medd *Pool,*) yn amser *Custenyn Fawr*, yr hwn a newidiodd wynebpryd *Amherodraeth Rhufain;* ac yn fwy nodedig yn amser *Theodosius,* ac a'r flwyddyn 380.

9 * A [c] bwriwyd allan y ddraig fawr, [d] † yr hen sarph, ‡ yr hon a elwir [e] Diafol || a [f] Satan, yr hwn sydd yn [g] twyllo yr holl fyd: * efe a fwriwyd allan i'r ddaear, † a'i angelion a fwriwyd allan gyd âg ef.

c adn. 3, 7. d adn. 14, 15. pen. 20. 2. Gen. 3. 1, 4, 13. Es. 27. 1. a 65. 25. e pen. 9. 20. a 16. 14. a 18. 2. Mat. 4. 1, 5, 8. a 13. 39. Luc 8. 12. Ioan 8. 44. 1 Tim. 3. 6, 7. Heb. 2. 14. 1 Ioan 3. 8—10. Judas 9. f pen. 2. 9, 13, 24. a 3. 9. 1 Cron. 21. 1. Job 1. 6—12. a 2. 1. Salm 109. 6. Zec. 3. 1, 2. Mat. 4. 10. Luc 13. 16. a 22. 3, 31. Act. 5. 3. a 26. 18. Rhuf. 16. 20. 2 Cor. 2. 11. a 11. 14. a 12. 7. 2 Thes. 2. 9. g pen. 13. 14. a 18. 23. a 19. 20. a 20. 3, 8, 10. Mat. 24. 24. Rhuf. 16. 18. 2 Cor. 11. 3. Eph. 4. 14. 2 Thes. 2. 7—9—11. 1 Tim. 2. 14. 2 Tim. 3. 13. 1 Ioan 5. 19. h pen. 9. 1. a zec. 28. 16. Luc 10. 18. Ioan 12. 31. i Job 1. 7. a 2. 2. Es. 14. 12. a 65. 25. Ioan 14. 30. a 16. 11. 2 Cor. 4. 4. 1 Pedr 5. 8.

* Pan ddiorseddwyd yr Amherawdwyr paganaidd, bwriwyd allan y ddraig fawr; yr hon oedd gysgod, neu drwydd-lun o honynt. (Gwel ar adn. 3.) † Yn eu bwriad hwy allan, yr oedd diafol, yr hwn a'u llywodraethai ac a'u cynhyrfai, yn cael ei fwrw allan hefyd; yr hwn a elwir yma yr "hen sarph," gyda golwg ar y ffurf a'n mha un y twyllodd efe Efa, yn gystal â chyda chyfeiriad at ei elyniaeth adwythig ef at yr eglwys. ‡ Gelwir ef hefyd yn Ddiafol, *(Diabolos)* yr hyn a arwydda y huddwr gau a llidiog y brodyr; (adn. 10.) || a Satan, (*Satanas*) Gwrthwynebwr, o herwydd ei wrthwynebiad i Grist a'i bobl bob amser. § Ei waith hyfryd ef oedd twyllo yr holl fyd; trwy hudo dynion i eilun-addoliaeth, poel-grefydd, a phob drygioni. * Ond yma gwelai Ioan fi fwrw ef allan i'r ddaear; sef o uchder ei rwysg a'i hwdurdod oedd ganddo o'r blaen, fel pe gwelid un yn ymyrthio ben-dramwnwgl o'r awyr i'r ddaear. † A bwriwyd ei angelion allan gydag ef; hyny yw, yr offerynau hedd ganddo ef ar waith yn erlid yr eglwys, ac yn twyllo'r byd, bwriwyd hwy allan o awdurdod.—Mae yn nheth nodedig (ebai *Scott,)* fod Custenyn ei hun, ac ychraill o'i amser ef, yn dysgrifio y damweiniau hyn dàn ffur un arwydd-lun o ddiorseddu y ddraig: fel hyn y dywedir:—'Yn mhellach, gosodwyd llun Custenyn i fynu uwch ben porth y llŷs, gyda chroes uwch ei ben, a thàn ei draed elyn mawr dynolryw, (yr hwn a erlidiai yr eglwys drwy ei orthrymiad annuwiol,) ar lun draig, gyfedi ei gwânu â saeth drwy ganol ei chorph, ac yn ymyrthio ben-dramwnwgl i ddyfnder y môr.'—*Esgob Newton.* Mae hyn yn dangos pa fodd yr oedd cristionogion yr oes hòno yn deall y brophwydoliaeth, a diamcanau eu bod hwy yn ei dehongli hi yn iawn. Ond tybia *Guyse* eto, mai buddugoliaeth Crist a'i eglwys ar ddiafol ac i offerynau, yn amser y *Diwygiad* a soniwyd, a feddwir; er gwaethaf holl gyfrwysder ac ymosodiadau cynddeiriog Anghrist, neu babyddiaeth, yn erbyn y wir grefydd. Rhaid bod llawer o oesoedd, mae yn debyg, ymwng y gwahanol ddygwyddion uchod; a pha un ai *Guyse* ei hun, neu ynte ein Hawdwyr eraill, sydd iawn, rhid yw yn perthyn i'r Cyfleithydd farnu, ac nis gall farnu, am bethau mòr ddyrys a dyfnion.

10 * Ac mi a [k] glywais lef uchel yn dywedyd yn y nef, † Yr awrhon y daeth iachawdwriaeth, a nerth, ‡ a [l] theyrnas ein Duw ni, [m] || a galluoedd ei Grist ef: [n] § canys cyhuddwr ein brodyr ni a fwriwyd i'r llawr, yr hwn oedd yn ei cyhuddo hwy ger bron ein Duw ni ddydd a nos.

k Gwel ar pen. 11. 15.—a 19. 1—7. l 1 Cron. 29. 11. Salm 28. a 45. 6. a 145. 11—13. Dan. 2. 44. Mat. 6. 10. Luc 11. 2. m pen. 2. 26. Salm 2. 8—12. n 110. 5, 6. Mat. 26. 64. a 28. 18. 1 Cor. 5. 4. 2 Cor. 12. 9. n Job 1. 9. a 2. 5. Zec. 3. 1, 2. Luc 22. 31.—Tit. 2. 3.

* Ar y fuddugoliaeth fawr uchod, clywai Ioan ganiadau moliant yn y nef; † o herwydd fod iachawdwriaeth a nerth wedi dyfod, yr eglwys wedi ei gwared oddi wrth erledigaethau, a'i chyfeillion wedi eu derchafu i awdurdod a llywodraeth: ‡ yr oedd teyrnas Dduw wedi ei sefydlu yn gyhoeddus, dàn nodded Amherawdwr cristionogol; || ac yr oedd gallu ei Grist ef, sef Mab eneiniedig Duw, yn cael ei arddangos yn y modd mwyaf amlwg a gogoneddus. § "Canys," ebent hwy, "cyhuddwr ein brodyr ni a fwriwyd i'r llawr," allan o'i lywodraeth, ac a amddifadwyd o'i awdurdod: nis gallai efe mwyach gyhuddo y cristionogion o droseddau a beïau, i'r dyben o gael eu rhoi hwy i farwolaeth am danynt; fel y cyhuddasai Satan Job ger bron Duw ei hunan, ac ydoedd barod i gyhuddo eraill yn wastad, ddydd a nos. Buddugoliaeth ar yr erlidwyr *paganaidd,* a diafol eu tywysog hwy, yn amser Custenyn Fawr, medd tri o'n Hawdwyr, yw y fuddugoliaeth y cênir am dani yma; ond tybia *Guyse,* fel y dywedwyd eisoes, mai buddugoliaeth ar *Anghrist* ydyw, lawer cant o flynyddoedd yn ddiweddarach.

11 * A hwy a'i [o] gorchfygasant ef [p] trwy waed yr Oen, † a thrwy [q] air eu tystiolaeth hwynt; [r] ‡ ac ni charasant eu heinioes hyd angau.

o pen. 2. 7, 11, 17, 26. a 3. 5, 12, 21. Ioan 16. 33. Rhuf. 8. 34—39. a 16. 20. 1 Cor. 15. 57. 2 Cor. 10. 3—5. Eph. 6. 13—18. 2 Tim. 4. 7, 8. Heb. 2. 14, 15. 1 Ioan 2. 13, 14. a 4. 4. a 5. 5. p pen. 7. 10—14. a 14. 1—4. a 15. 3. q adn. 17.—Gwel ar pen. 1. 2, 9. a 6. 9. a 11. 7.—a 19. 10. r pen. 2. 10, 13. a 20. 4. Luc 14. 26. Act. 20. 24. a 21. 13. Heb. 11. 35—38.

* Ond nid oedd y fuddugoliaeth hon yn cael ei phriodoli i gleddyf rhyfel, yr hwn nid oedd ddim ond moddion îs-wasanaethol, pan ddygwyd pethau i derfyniad; eithr ennillwyd hi trwy deilyngdod ac effaith iawn ac aberth Iesu, trwy ffydd yn ei werthfawr waed ef, a thrwy broffes hŷf a sanctaidd o'i efengyl ef; † yn nghyd â thrwy air *eu* tystiolaeth *hwynt,* sef gair tystiolaeth y rhai hyny a aethent allan i bob màn, gan bregethu athrawiaeth yr iachawdwriaeth fawr; ‡ ac y rhai "ni charasant eu heinioes hyd angau," ond a seliasant eu tystiolaeth â'u gwaed yn ewyllysgar, pan fu galwad arnynt i wneyd hyny. Dyma'r milwyr a thyma'r arfau, trwy ba rai y diseiliodd ac y dymchwelodd cristionogaeth allu ac awdurdod yr amherodraeth eilun-addolgar, ac yr ennillasant oruchafiaeth hollawl ar eu gelynion paganaidd: a phe buasai cristionogion yn parâu i ymladd â'r arfau hyn, a chyffelyb i'r rhai hyn, buasai eu buddugoliaethau yn fwy lliosog a gogoneddus, a'r effeithiau o honynt yn fwy parâus.—Gorchfygodd Michael a'i angelion y ddraig a'i hangelion; (adn. 7.) a gorchfygodd y cristionogion y paganiaid.

12 * O herwydd hyn [s] llawenhêwch, y nefoedd, a'r rhai ydych yn trigo ynddynt. [t] † Gwae y rhai sydd yn trigo ar y ddaear, a'r môr: ‡ canys y diafol a ddisgynodd attoch chwi, || a chanddo lid mawr, [u] § o herwydd ei fod yn gwybod nad oes iddo ond ychydig amser.

s pen. 18. 20. a 19. 1—7. Salm 96. 11—13. a 148. 1—4. Es. 49. 13. a 55. 12, 13. Luc 2. 14. a 15. 10. t pen. 8. 13. a 9. 12. a 11. 14. u pen. 10. 6. Heb. 10. 37. 2 Pedr 3. 8.

* Am hyny gelwid ar y nefoedd, i lawenychu, a'r rhai oll oedd yn trigo ynddynt; yr holl angelion a'r gwaredigion yn y gogoniant, a thybia rhai yr eglwys ar y ddaear hefyd, wrth y nefoedd yn y fàn hon; sef pawb ag oedd ar du yr Arglwydd yn y frwydr hon, yn y nef ac ar y ddaear: gelwid yr holl deulu mawr i gyd, i lawenychu a chlodfori Duw, am y fuddugoliaeth hon ar Satan a'i offerynau paganaidd. † Ond ar yr un pryd, cyhoeddid gwae drom ar y rhai oedd yn trigo ar y ddaear, a'r môr, neu y cenedloedd yn gyffredinol; yn enwedig y rhai oedd yn gnawdol ac yn ddaearol o honynt, dàn y broffes o wir ffydd, medd *Guyse;* y rhai oedd yn elynion yr eglwys, medd *Pool,* yn ol ystyr allegawl y ddaear a'r môr yn y Datguddiad. ‡ Gwae y

rhai hyn, canys y diafol a ddisgynodd atynt, yn nghyd â'i offerynau diorseddawl, ac ni byddent lonydd yn eu hystâd o warth a diraddiad: er bod eilun-addoliaeth wedi ei ddarostwng a'i attal; eto nid oedd wedi ei ddystrywio a'i ddyddymu; a byddai ei bleidwyr yn sicr o gyffrôi terfysgoedd newyddion. || Ië, byddai y diafol yn fwy cynddeiriog yn ei wrthwynebiad i'r efengyl, er dinystr i lawer o eneidiau, ac er aflonyddwch mawr i'r amherodraeth; § am y gwyddai nad oedd iddo ond ychydig amser, y byddai i eilun-addoliaeth paganaidd gael ei lwyr lethu yn fuan, ac y byddai i Had y wraig cyn hir ysigo ei ben ef: am hyny efe a ddefnyddiai ei gyfle tra y gallai, i wneuthur pob drygau a niweidiau i ddynolryw ag oedd yn bosibl iddo.—*Ychydig amser:* dadleuir hyn yn erbyn deall y brophwydoliaeth am ddinystr eilun-addoliaeth paganaidd: eithr nid yw unrhyw yspaid o amser terfynol ond byr, neu *ychydig*, mewn cymhariaeth i'r dynged *dragywyddol* sydd yn aros gelyn mawr yr eglwys, a'i holl gyd-weithredwyr.—Y rhai a ddeallant y brophwydoliaeth hon am y Diwygiad oddi wrth babyddiaeth, maent yn anghofio yn rhyfedd, (medd *Scott*) fod y coronau gan y ddraig ar ei *saith ben*, pan fwriwyd hi allan, (adn. 3.) ac nid ar ei *deg corn:* (pen. 13. 1.) a bod y tro hwn *o flaen* y 1260 mlynedd o arosiad y wraig yn y diffaethwch, adn. 14.

13 * A phan welodd y ddraig ei bwrw i'r ddaear, [z] † hi a erlidiodd y wraig a esgorasai ar y mab.

x adn. 4, 5. Gen. 3 15. Salm 37. 12—14. Ioan 16. 33.

* Pan welodd y blaid eilun-addolgar, y rhai oeddynt offerynau y diafol, fod yn rhaid iddynt ymostwng i awdurdod llywodraethwyr cristionogol; † hwy a barasant yn gyndyn o hyd yn eu gelyniaeth erlidgar tuag at yr eglwys, a chynnygiasant mewn llawer ffordd, i ail sefydlu eu hen addoliad. Llawer cynnyg o'r fath hyn a wnaed yn amser teyrnasiad Custenyn ei hun. Julian, y gwrthgiliwr wedi hyny, nis gadawodd un ddyfais heb ei chynnyg, trwy yr hon y gallai obeithio llwyddo. Ceisiodd attal dysgeidiaeth i'r cristionogion, fel y byddent yn agored i ddirmyg am eu hannwybodaeth, ac fel y byddent yn annalluog i amddiffyn a thaenu eu crefydd: rhoes ar waith ysgrifenwyr, o fawr ddysgeidiaeth a medrusrwydd cyfrwys, i watwar, i enllibio, ac i ddadlau yn erbyn cristionogaeth: annogodd freninoedd Ariaidd i erlid eu deiliaid union-grêd; ac mewn llawer o ffyrdd eraill, efe a geisiodd ddadymchwelyd achos Crist. Ac yr un pryd, llwyddodd y diafol a'i offerynau i lygru yr eglwys drwy amryw gyfeiliornadau, i'w hanferthu hi â llawer o waradwyddiadau, ac i'w rhwygo hi yn ddarnau drwy ymrysonau poethion; a chynnyddodd y drygau hyn waeth-waeth, drwy yspaid y pedwar udgorn cyntaf. Fel hyn yr oedd y ffordd yn cael ei pharotôi, i osod i fynu awdurdod eilun-addolgar erlidgar arall, yr hwn a ddaw yn fuan dàn ein hystyriaeth. —Tybia *Guyse* o hyd mai am Anghrist y dywedir, ddarfod ei fwrw i'r ddaear gan y Diwygiad; a thybia mai yr urdd newydd o *Jesuitiaid*, a sefydlodd y Pab yn 1534, yn lled fuan ar ol *diwygiad* Luther, yn 1517, a feddylir wrth erlidwyr yr eglwys yn niwedd yr adnod hon.

14 * A rhoddwyd [y] i'r wraig ddwy o adenydd eryr mawr, [z] † fel yr ehedai hi i'r diffaethwch, i'w lle ei hun: ‡ lle yr ydys yn ei maethu hi yno [a] || dros amser, ac amseroedd, a hanner amser, § oddi wrth wyneb y sarph.

y Ex. 19. 4. Deut. 32. 11, 12. Salm 55. 6. Es. 40. 31. z Gwel ar adn. 6.—pen. 17. 3. a pen. 11. 2, 3. Dan. 7. 25. a 12. 7.

* Ar yr un pryd, gwelai Ioan roddi i'r wraig ddwy o adenydd mawrion, fel adenydd eryr mawr, fel yr ehedai hi i'r diffaethwch, i'w lle ei hun, pan ddelai yr amser. Wrth yr adenydd eryr hyn mae rhai yn deall, yr amherodraethau dwyreiniol a gorllewinol, baner pa rai ydoedd eryr; ac y rhai trwy noddi ac amddiffyn yr eglwys, a fuont foddion i'w chadw hi, hyd oni ddaeth yr amser rhag-osodedig o'i mynediad hi i'r diffaethwch. Yr oedd gan *Theodosius* yr Amherawdwr ddau fab, *Honorius* ac *Arcadius*, rhwng pa rai y rhanodd efe yr Amherodraeth, gan wneuthur *Honorius* yn Amherawdwr y *Gorllewin*, ac *Arcadius* yn Amherawdwr y *Dwyrain:* ac yn ol barn rhai dehonglwyr da, mae y geiriau uchod yn rhagfynegiad o hyny; dàn eu nodded hwy megys dwy aden ragluniaethol, cafodd yr eglwys ei diogelu mewn rhyw fesur, rhag y trallodau blinion oedd i ddyfod yn fuan: oblegid tua'r flwyddyn 390 y bu y rhaniad uchod o'r Amherodraeth, (medd *Pool,*) ac yn y flwyddyn 411, cymmerwyd Rhufain gan *Alaricus* brenin y *Gothiaid;* ac fel hyny helbulon dibaid a ganlynasant, hyd oni lwyr ddinystriwyd yr Amherodraeth Orllewinol yn 480. † Am y "diffaethwch" hwn, gwel ar adn. 6. Rhyw leoedd a feddylir yn ddiammau, ag oedd yn debyg i ddiffaethwch o ran unigrwydd ac anghyfannedd-dra, lle y gallai yr eglwys gael peth llonyddwch oddi wrth ei thrallodwyr: rhyw le a "barotôwyd iddi gan Dduw" ydoedd; (adn. 6.) ond nid oes yn un o'n Hawdwyr yn dywedyd pa le ydoedd, a gwell i ni beidio a bod yn rhŷ gywrain ymofyngar am bethau fel hyn. Hawdd yw i Dduw gysgodi ei eglwys yn y fàn a fyno, ei "dwyn hi ar adenydd eryrod" i'r fàn hòno: (Exod. 19. 4; Deut. 32. 11, 12.) ‡ a'i maethu hi ynoc trwy ei air, ei genadau, a'i Ysbryd, fel y gwnaeth âg Israel yn yr anialwch gynt: a diammau fod cyfeiriad at hyny yn yr adnod hon, beth bynag am y meddwl *llythyrenol* o hóni. || Yn nghanol y terfysgoedd a'r cyfeiliornadau blaenorawl, yr oedd yr eglwys megys yn ymbarotôi i ehedeg ymaith i'w hymguddfa yn y "diffaethwch;" lle yr oedd hi i gael ei maethu fel y dywedwyd, dros amser, ac amseroedd, a hanner amser; neu dros dair blynedd a hanner, deufis a deugain, neu fil a deucant a thriugain o ddyddiau: (gwel ar pen. 11. 2, 3, 9, 11; pen. 12. 6.) ond nid oedd ei ffôad hi yn gyflawn, hyd sefydliad yr awdurdod anghristiaidd, yr hwn y crybwyllir am dano yn y bennod nesaf. § Fel hyn hi a ffôdd i'r diffaethwch "oddi wrth wyneb y sarph;" sef oddi wrth gynddaredd ei holl wrthwynebwyr creulawn paganaidd, ac anghristiaidd hefyd.—Wrth yr amser uchod, mae arosiad yr eglwys yn y diffaethwch, yr un yn gymhwys â'r amser y bu y ddau dyst yn prophwydo mewn sachlian: mae y ddau beth yn cyfeirio at yr un dygwyddiadau; dechreuodd pob un, a rhaid i bob un ddybenu, yr un pryd. Mae rhai o'n Hawdwyr yn crybwyll gwahanol feddyliau dysgedigion, yn gystal â'u meddyliau eu hunain, am ddechrau a diwedd yr yspaid uchod. Fel hyn y dywed *Scott* ei hun am yr amser:—'Nid wyf fi yn rhyfygu dywedyd pa bryd y dechreuodd ond mae cysondeb yn llwyr angenrheidiol yn ein dehongliadau.'

15 * A'r sarph a [b] fwriodd allan o'i safn, ar ol y wraig, ddwfr megis afon, † fel y gwnai efe dwyn hi ymaith gyd â'r afon.

b pen. 17. 15. Salm 18. 4. a 65. 7. a 93. 3, 4. Es. 8. 7. a 28. 2 a 59. 19.

* I'r dyben o attal ffôad y wraig, bwriodd y sarph allan o'i safn ddwfr megys afon ar ei hol hi; † fel y gwnai ei dwyn hi ymaith gyda'r afon hòno. Dealli hyn gan lawer o ddysgedigion, a chyda llawer o briodoldeb hefyd, (medd *Scott,*) am ruthr, neu orllifiad y *Huniaid*, y *Gothiaid*, y *Vandaliaid*, a chenedloedd an nwaraidd eraill, trwy y rhai y gorchfygwyd yr Amherodraeth Orllewinol: oblegid mae yn hysbys, ddarfod i'r ymlynwyr egnïol wrth baganiaeth gefnogi y rhuthrau uchod, yn y gobaith o ddadymchwelyd cristionogaeth drwy y moddion hyny; a diammau y dysgwyliai Satan ei hun orchfygu yr eglwys yn llwyr, pan ddadymchwelir yr amherodraeth gan eilun-addolwyr. Tybia *Pool* fel hyn:—Gwedi i ddiafol weled nas gallai efe mwyach ddrygu yr eglwys fel *Draig*, trwy erledigaethau Amherawdwyr *paganaidd*, gan ei bod hi yn awr dàn nodded rhai cristionogol; aeth i weithio ffordd arall, sef tafl ffrŵd o gyfeiliornadau a llygredigaethau ar ei hôl, i'w drygu a'i niweidio yn y modd hwnw: ac yna mae y

enwi amryw gyfeiliornwyr nodedig a gododd tua'r amser hwnw, (a Morgan o Gymru yn un,) ac a wnaethant fawr niwed i'r eglwys trwy eu hathrawiaethau gau a twyllgredig. Gau-athrawiaethau mae *Guyse* hefyd yn ddeall wrth yr "afon," yn nghyd âg erledigaethau; ond yn amser Anghrist mae efe yn feddwl, yn mhell ar ol yr amser a feddylir gan ein Hawdwyr eraill. Nid oes argoriad yn y byd gan *Doddridge* ar y mater: ond tybia i'd rhyw fath o'r creaduriaid anferth hyn, seirph neu sedreigiau, yn arfer taflu dwfr o'u safnau ar ol eu hysfidyfaeth, pan fyddont yn ffôi rhagddynt; ac felly eu trwystro i ddïanc rhag eu dinystrio ganddynt hwy: ond diddefa na welodd efe ddim hanes o'r cyfryw beth.

16 [c] * A'r ddaear a gynnorthwyodd y wraig; a'r ddaear a agorodd ei genau, ac a lyngcodd y afon, yr hon a fwriodd y ddraig allan o'i safn.

c Ex. 12. 35, 36. 1 Bren. 17. 6. 2 Bren. 8. 9.

* Ond beth bynag oedd yr afon, methodd y sarph yn ei hamcan; oblegid cynnorthwyodd y ddaear y wraig, a llyncodd yr afon a fwriassai y sarph allan o'i safn. Ymunodd y barbariaid buddugol â'r Rhufeiniaid gorchygedig, ac ymgorphorasant yn un bobl â hwynt, yn ymgwahanol daleithiau yr Amherodraeth; ïe, cofleidiasant y grefydd gristionogol, mewn enw a phroffes o hïeiaf. Dynion annuwiol o amryw fath, oddi ar ystyriaeth o'u manteision bydol eu hunain, a amddiffynasant yr eglwys yn y terfysgoedd hyn: ac ni bu dadymchweliad a darnio yr amherodraeth orllewinol, mewn unrhyw modd yn gymmorth i achos eilun-addoliaeth; ïe, bu ymlyn foddion mewn mesur mawr i daenu a chynnyddu cristionogaeth! Felly mae *Scott* (a *Doddridge* hefyd yn o gyffelyb,) yn deall am y ddaear yn llyncu yr afon: ond tybia *Pool* dipyn yn wahanol; sef bod rhyfeloedd ymwastadol y barbariaid a enwyd (adn. 15.) â'r Rhufeiniaid, yn foddion i attal i rai erlid, ac i attal eraill i ddaenu eu gau-athrawiaethau; ac felly bod yr eglwys yn ennill llonydd, am nad oedd offerynau Satan yn cael ymhamdden i'w blino hi. Ond mae *Guyse* yn deall hyn eto am amser babyddiaeth, mewn oesoedd llawer diddiweddarach; sef bod Duw yn ei ragluniaeth yn codi gwydnion daearol ac anianol i amddiffyn y wir eglwys yn erbyn erlidiau a chyfeiliornadau pabaidd; nid o gariad iat y gwirionedd yn gymmaint, eithr er rhyw fanteision bydol iddynt eu hunain: a chrybwylla am Harry yr Wythfed, a thywysogion eraill, a wnaethant felly, trwy ewrthwynebu y Pab, ac amddiffyn y wir eglwys.

17 * A [d] llidiodd y ddraig wrth y wraig, † ac a aeth i [e] wneuthur rhyfel â'r lleill o'i had hi, [f] ‡ y rhai sydd yn cadw gorchymynion Duw, [g] ‖ ac sydd â thystiolaeth Iesu Grist ganddynt.

d Gwel ar adn. 12.—Ioan 8. 44. 1 Pedr 5. 8. e pen. 11. 7. a 13. 7. a 17. 6, 14. a 18. 20. a 19. 19. a 20. 8, 9. Gen. 3. 15. Dan. 7. 23—26. a 11. 36. f pen. 14. 12. a 22. 14. Mat. 28. 20. 1 Ioan 5. 2, 3. g Gwel ar adn. 11. pen. 1. 2, 9. a 6. 9. a 20. 4. 1 Cor. 2. 1. 1 Ioan 5. 10.

* Ond wedi sïomi y ddraig yn y cynnyg uchod, hi a llidiodd yn fwy byth wrth y wraig, neu yr eglwys; † a chymmerodd ffordd arall eto i wneuthur rhyfel â'r gwir gristionogion, fel had yr eglwys. "A'r *lleill* o'i had hi:" "â'r *gweddill* o'i had hi" yw y Saesoneg: oblegid yr oedd coel-grefyddau, cyfeiliornadau, a llygredigaethau o amrywiol fath, wedi cynnyddu yn ddirfawr yn hir cyn hyn; yr hyn a roddai gyfle i'r gelyn i wneuthur ei ymosodiad a llwyddo, fel y rhagfynegir yn y bennod nesaf. Pa fodd bynag, yr oedd y rhai hyn yn weddill sanctaidd heb eu llygru, wedi eu cadw gan Dduw iddo ei hun trwy ras; ‡ ac oeddynt yn cadw ei orchymynion ef yn ffyddlawn, ‖ gan ddwyn tystiolaeth mewn athrawiaeth a buchedd i burdeb yr efengyl, ac i'w holl ordinadâu a'i haddoliad hi, yn ol gosodiad y cyfryw gan Iesu Grist. —Methodd y diafol a llwyddo mewn dau ymosodiad, yn erbyn yr holl eglwys; methodd â'i diwreiddio hi yn hollawl drwy y deg erledigaeth dàn Amherawdwyr paganaidd Rhufain, na thrwy y dwfr a fwriodd allan o'i safn wedi hyny; sef athrawiaethau llygredig, medd *Pool*, ymgyrch y barbariaid medd *Scott*, gwel ar adn. 15: eto yr oedd ei lid ef yn parâu o hyd, a'i gynddaredd heb ei diffoddi; ond yn yr adnod hon yr oedd yn rhoi heibio ei amcan o ddyfetha yr *holl* eglwys, fel peth anmhosibl; ond penderfynai wneyd pob drwg a allai i'r *gweddill* o'i had hi, i ryw gristionogion neillduol: yn enwedig y rhai mwyaf ffyddlawn i gadw gorchymynion Duw, a thystiolaeth Iesu Grist. Tybia *Guyse* mai ymdrech olaf Anghrist, a feddylir wrth y rhyfel â'r *lleill*, neu y *gweddill*, o had y wraig, yn yr adnod uchod: ond tybia *Scott*, os ydym yn ei ddeall yn iawn, mai cyn dyfodiad Anghrist i gyflawn awdurdod y bu y rhyfel hwn, ac fel parotôi y ffordd i ddwyn yr Anghrist hwnw i rwysg ac awdurdod erlidgar. A thybia efe mai yn y weledigaeth nesaf, yn y bennod nesaf, mae Ioan yn dechreu son am Anghrist.

PEN. XIII.

Bwystfil yn codi o'r môr, &c.

* AC mi a sefais [a] ar dywod y môr; [b] ac a welais fwystfil yn codi o'r môr, [c] † a chanddo saith ben, ‡ a deg corn; ‖ ac ar ei gyrn [d] ddeg coron, § ac ar ei bennau enw cabledd.

a Jer. 5. 22. b pen. 11. 7. a 17. 8. Dan. 7. 2, 3. c Gwel ar pen. 12. 3.—a 17. 3, 7—12, 16. Dan. 7. 7, 8, 19, 20, 23, 24. d pen. 12. 3. e adn. 5, 6. pen. 17. 3, 5. Dan. 7. 25. a 11. 36. 2 Thes. 2. 3, 4.

* Yma gwelai Ioan ei hun yn sefyll ar dywod y môr; a gwelai fwystfil anferth a chreulawn yn codi o'r môr: hyny yw, gallu, neu awdurdod gorthrymus, eilun-addolgar, ac erlidgar, yn tarddu i fynu, allan o'r terfysgoedd aflonydd a gymmerasent le yn y byd. Mae pawb dehonglwyr yn cytuno, mai Amherodraeth Rhufain yn y naill ddull neu y llall, a feddylid wrth y bwystfil hwn: a rhaid i babyddion daeru, yn erbyn y dystiolaeth fwyaf penderfynol a ellir ddychymmygu, mai Rhufain *baganaidd* a feddylid. Yr oedd Rhufain baganaidd mewn bod er ys llawer cant o flynyddoedd pan gafodd Ioan y weledigaeth hon; ac eto efe a welodd "godiad y bwystfil" hwn. Mae yn wir y gellir dywedyd i Daniel mewn gweledigaeth, weled codiad amherodraeth Babilon, er ei bod wedi ei chodi cyn y weledigaeth hòno; (Dan. 7. 4.) felly, nid yw yr amgylchiad hwn yn unig yn ddigon penderfynol yn y ddadl; ond rhaid bod llywodraeth y bwystfil hwn, am ddeuddeg cant a thriugain o flynyddoedd, neu ddeufis a deugain, (adn. 5; a gwel ar pen. 11. 2, 3, 9, 11.) pa bryd bynag y gosoder dechreuad yr yspaid hyny, yn benderfynol ar y mater: oblegid amherodraeth baganaidd Rhufain, a dywedyd yn briodol, ni pharâodd dri chan' mlynedd, o amser y brophwydoliaeth hon; a dadymchwelwyd y gweddillion olaf yn hollawl o hóni, mewn tua phedwar can' mlynedd. Yn wir yr oedd yr holl amser, o adeilad Rhufain hyd Custenyn Fawr, yr amherawdwr cristionogol cyntaf, yn llai o grŷn lawer nag un cant ar ddeg o flynyddoedd; ac yn wir hyd *Augustulus*, yr amherawdwr diweddaf, yn 476, hyny yw o enedigaeth yr amherodraeth hyd ei marwolaeth, a dywedyd felly; ni pharâodd o hwyaf ond deuddeg cant ac wyth ar hugain o flynyddoedd: ac yn y pùm' neu chwe' càn mlynedd cyntaf o hyny, ni bu gan y Rhufeiniaid mo'r llaw leiaf mewn dim a berthynai i eglwys Dduw. Gan hyny, mae yn *hollawl sicr*, mai awdurdod Rhufain fel yn proffesu cristionogaeth, ac nid awdurdod Rhufain *baganaidd*, a feddylir yma wrth y bwystfil: neu mewn geiriau eraill, Rhufain *Babaidd*. † Y ddraig a welwyd o'r blaen, yr oedd ganddi "saith goron ar ei saith ben;" (pen. 12. 3.) ond y bwystfil hwn, yr oedd ganddo "saith ben" yr un modd, ‡ a "deg corn" yr un modd a'r ddraig; ‖ ond yr oedd ganddo

"*ddeg* coron ar ei ddeg *corn*," ac nid *saith* ar ei saith *ben*, fel y ddraig hòno.—Yr oedd y gwahaniaeth hyn yn dangos yn eglur, y byddai i chwyl-drôad gymmeryd lle, cyn yr amser a ragfynegid yma; ac y byddai i'r llywodraeth gael ei symmud o'r ddinas amherodrawl, a'i rhanu rhwng deg o deyrnasoedd. § Yr oedd y saith ben yn wir wedi colli eu coronau; ond yr oeddynt wedi cadw, neu gael, enw, neu enwau, cabledd. Gelwid Rhufain Amherodrawl yn aml yn Ddinas Dragywyddol, ac yn dduwies y ddaear, gydag enwau cableddus eraill; ac yr oedd allorau, temlau, ac aberthau yn cael eu pennodi iddi hi fel duwies: a gwelir yn y canlyniad, pa fodd y darfu i Rufain Babaidd, wedi colli y mawredd amherodrawl, gael neu gymmeryd enwau cyffelyb o gabledd. Gwel ar pen. 17. 3.

2 * A'r bwystfil a welais i oedd [e] debyg i lewpard, [g] a'i draed fel *traed* arth, [h] a'i safn fel safn llew: † a'r [i] ddraig a [k] roddodd iddo ef ei gallu, a'i gorsedd-faingc, ac awdurdod mawr.

f Jer. 5. 6. a 13. 23. Dan. 7. 6. Hos. 13. 7. Hab. 1. 8. g 1 Sam. 17. 34—37. 2 Bren. 2. 24. Diar. 17. 12. a 28. 15. Dan. 7. 4, 5. Hos. 13. 8. Amos 5. 19. h Salm 22. 21. Es. 5. 29. Hos. 11. 10. Amos 3. 12. 2 Tim. 4. 17. 1 Pedr 5. 8. i Gwel ar pen. 12. 3, 4, 9, 13, 15. k pen. 16. 10. a 17. 12. a 19. 20. a 20. 2.

* Nid oedd yr un enw ar y bwystfil hwn, (ond ei enwau cabledd,) fel y pedwerydd bwystfil yn mhrophwydoliaeth Daniel; (Dan. 7. 7, 8.) ond yr oedd yn debyg mewn amryw bethau i'r tri bwystfil eraill a welsai y prophwyd hwnw; ac felly yr oedd ynddo ef ei hun ffyrnigrwydd, creulondeb, a dychryn y lleill i gyd. Yn wir yr un ydoedd â phedwerydd bwystfil Daniel; yr un amherodraeth a arwyddai hwn â hwnw; ond mewn un ffurf neilldduol: † oblegid yr oedd y ddraig yn awr wedi rhoddi ei gallu, a'i gorsedd-fainc, ac awdurdod mawr, i'r bwystfil hwn. Wrth y ddraig yma gallwn ddeall, un ai y diafol, neu raglaw y diafol, amherodraeth eilun-addolgar Rhufain. Felly, pan oedd awdurdod eilun-addolgar erledigaethus arall yn dyfod ar ol, ac yn lle, awdurdod yr amherawdwyr paganaidd; yna yr oedd y ddraig yn trosi ei gallu, ei gorsedd-fainc, a'i hawdurdod mawr i'r bwystfil; neu yr oedd diafol yn gosod rhaglaw arall, Pab yn lle Pagan; a gŵyr yr holl fyd, fod hyn yn cyd-fyned yn hollawl â hanes yr amherodraeth Rufeinig, yn baganaidd ac yn Babaidd hefyd.—Gwedi methu ail sefydlu yr un eilun-addoliaeth; dyfeisiwyd math newydd o hòni: daeth saint ac angelion i gael eu haddoli, yn lle duwiau a hanner duwiau: ac erlid oedd y moddion i gynnal y grefydd hòno.—Mae tebygrwydd y bwystfil i lewpard, ei draed fel traed arth, a'i safn fel safn llew, efallai yn arwyddo anferthwch, ffyrnigrwydd, cyfrwysder, a chreulondeb y grefydd babaidd; a brithni y llewpard, ond odid, yn arwyddo cymmysgedd y grefydd hòno o dda a drwg, er mwyn twyllo dynion yn well, a'u dystrywio.

3 * Ac mi a welais [l] un o'i bennau ef megis wedi ei ladd yn farw; [n] † a'i friw marwol ef a iachâwyd: [n] ‡ a'r holl ddaear a ryfeddodd ar ol y bwystfil.

l adn. 1, 14. pen. 17. 10. m adn. 12. Ezec. 30. 24. n adn. 4. pen. 17. 6, 8, 13, 17. Luc 2. 1. Ioan 12. 19. Act. 8. 10, 11, 13. 2 Thes. 2. 9—12.

* Yr oedd gweled un o benau y bwystfil megys wedi ei ladd yn farw, yn arwyddo hollawl ddymchweliad yr awdurdod amherodrawl yn amser *Augustulus*, (neu Augustus Bach, mewn ffordd o ddirmyg arno,) neu pan ddaeth Rhufain yn ddugiaeth *(dukedom)* dàn raglawiaeth *Ravenna*. (Gwel ar pen. 8. 12.) Yr oedd pump o benau y bwystfil, neu y ddraig, (oblegid yn yr ystyr hyn yr un ydynt,) wedi eu diswyddo cyn amser Ioan; sef breninoedd, cyngoriaid, pen-rhëolwyr, *(dictators)*, dengwriaethau, *(decemvirs)* a brawdwriaethau, neu lywodraethau milwraidd; ond yn yr amser a grybwyllir uchod, cafodd y chweched friw marwol, a'i ladd yn farw, fel y gellid meddwl nad oedd yn bosibl iddo adfywio byth mwyach. † Pa fodd bynag, iachâwyd ei friw marwol ef drachefn; yn adnewyddiad yr enw a'r mawredd amherodrawl, yn mherson *Charlemagne*, neu Siarl y Mawr, yr hwn a gyhoedd-enwyd yn *Augustus*, yn y flwyddyn 800: a safodd y pen hwn byth er hyny, yn amherawdwyr *Germany*, neu yn 'amherodraeth sanctaidd Rhufain,' hyd oni ddymchwelwyd ef gan chŵyl-drôadau diweddar. Oblegid amherawdwr *Austria, trwy orfod* yn ddiammau, a roes i fynu yr enw; a llywodraethwr presenol Ffrainc (1813) a'i *traws-gymmerodd ef am ychydig amser*. Ond y mae llawer o bethau debygid yn awr (1815) yn dychwelyd i'w hen rediad o'r blaen; ac mae yn rhŷ fuan i farnu eto, pa fodd y terfyna y chŵyl-drôad presenol. Felly y dywed *Scott* ain yn air, am iachâu briw marwol pen y bwystfil: dywed *Guyse* i'r pen gael ei ladd yn nymchweliad yr awdurdod amherodrawl dàn Cesariaid Rhufain; ac iddo gael ei iachâu yn adferiad y llywodraeth amherodrawl dàn y Pab yn Rhufain; o ba le yr oedd wedi ei symmud yn hollawl, yn amser rhaglawiaeth *Ravenna*, heb un golygiad dynol yr adferid ei hen fawredd i Rufain byth drachefn. Dywed *Pool* i'r pen gael ei iachâu pan adferwyd eilun-addoliaeth (yr un peth a'r un paganaidd, ond mewn gwisg newydd,) ac erlid, (yn raddol) trwy athrawiaeth ac arferiad eglwys Rhufain. Nid yw *Doddridge* yn rhoddi dim goleu neilldduol i'r detholydd ar y mater uchod. Mewn *athrawiaeth* mae ein Hawdwyr oll yn cytuno yn dda; ond mewn pethau fel hyn nid ydynt yn cytuno mòr dda. ‡ Gwedi i *Siarl* gael ei gyhoeddi yn amherawdwr fel y dywedwyd, y llywodraethwyr gwladol ac eglwysig gan gyd-gryfâu y naill y llall, daeth yr awdurdod Rhufeinig drachefn yn grŷf ofnadwy; a "rhyfeddodd yr holl ddaear ar ol y bwystfil;" sef wrth weled yr amherodraeth hòno yn adnewyddu, yr hon a dybiwyd oedd wedi diffodd yn hollawl: ac fel hyny rhoddwyd ufudd-dod coel-grefyddol ac eilun-addolgar i'r awdurdod gwladol hwn, fel peth wedi ymrwymo i gynnal gorthrymder tra-arglwyddol eglwysig y grefydd babaidd. *Scott*.—Sŷnai holl genedloedd yr amherodraeth; a rhedent gyda pharch a hyfrydwch ar ol y bwystfil; fel yr arferai dynion redeg ar ol rhyw olygfa ddïeithr a gogoneddus; yn llawn syndod wrth ei ryfedd gyfodiad a'i awdurdod, ei gyfoeth, ei anrhydedd, a'i fawredd gorwych ef.—*Guyse*.

4 [o] * A hwy a addolasant y ddraig, yr hon a roes allu i'r bwystfil: [p] † ac a addolasant y bwystfil, gan ddywedyd, [q] Pwy *sydd* debyg i'r bwystfil? [r] ‡ pwy a ddichon ryfela âg ef?

o adn. 2. pen. 9. 20. Salm 106. 37, 38. 1 Cor. 10. 20—22. 2 Cor. 4. 4. p adn. 12, 13, 15. Dan. 11. 36, 37. 2 Thes. 2. 4. q pen. 18. 18.—Gwel ar Ex. 15. 11. Salm 89. 8. r Deut. 9. 2. 1 Sam. 17. 24.

* Fel hyn yr oeddynt mewn effaith yn "addoli y ddraig, yr hon a roisai allu i'r bwystfil;" (gwel ar adn. 2.) trwy eu gwaith yn ymostwng yn ddïymattal, i'r un awdurdod eilun-addolgar erledigaethus ag o'r blaen, ond yn unig mewn dull arall: † ac yr oeddynt yn "addoli y bwystfil;" fel un na bu ei gyffelyb ar y ddaear erioed, nac yn y nef; ‡ ac fel un nas gallai neb ryfela âg ef, heb iddo orchfygu, llethu, a dryllio pawb a ryfygent ei wrthwynebu ef.—Fel hyn cafodd yr hen eilun-addoliaeth ei gwbl sefydlu, gydag enwau newyddion; ac addoli eilunod, delwau, neu grëaduriaid, sydd mewn effaith yn addoli y diafol.—Mae rhai yn deall y "briw marwol ar ben y bwystfil," am y chŵyl-drôad a gymmerodd le, pan ddaeth amherawdwyr cristionogol yn lle rhai paganaidd erlidgar; a "iachâu" ei friw marwol ef, am sefydliad awdurdod eilun-addolgar erledigaethus arall, wedi hyny, dàn yr enw cristionogol. Mae y ddau ddehongliad yn cytuno yn y prif bethau.

5 * A rhoddwyd iddo ef [s] enau yn llefaru pethau mawrion, a chabledd; † a rhoddwyd iddo [t] awdurdod i weithio ‡ ddau fis *a* deugain.

s Dan. 7. 8, 11, 25. a 11. 36. t Gwel ar pen. 11. 2, 3. a 12. 6. 14.

* I'r bwystfil rheibus ac anghenfilaidd hwn, "rhoddwyd genau yn llefaru pethau mawrion, a chabledd."—

Crybwyllir yn fuan, (fel barn un o'n Hawdwyr o leiaf,) nai awdurdod eglwysig Rhufain oedd y *gweithredydd*, ac mai y Pab oedd *llafar ddelw* y bwystfil hwn: (gwel ar adn. 11—17.) a gŵyr pawb pa hòniadau cableddus ac anferth o 'Ei Sanctteiddrwydd, Anffaeledig, Pen-Arglwydd breninoedd a theyrnasoedd,' 'Rhaglaw Crist ar y ddaear,' ïe, 'Duw ar y ddaear,' a lefarwyd gan y genau hwn i'r bwystfil. † Rhoddwyd iddo ef hefyd awdurdod, neu allu, hyd yn nôd yr amherodraeth lwladol, i *barâu*, (yn ol y Saesoneg) neu yn hytrach i *weithio*, neu i lwyddo yn ei weithredoedd, ‡ am ddau nfis a deugain, neu ddeuddeg cant a thriugain o flynydd-oedd. (Gwel ar pen. 11. 2, 3, 9, 11; a 12. 6, 14.) Dyma yr yspaid o amser yr oedd y "tystion i brophwydo mewn sachlïan," a'r "wraig i aros yn y diffaethwch," fel y gwelir yn yr adnodau a ddyfynwyd uchod: tra yr oedd gallu i weithio gan y bwystfil, felly yr oedd hi i fod ar y tystion a'r wraig; y naill mewn sachlïan, a'r llall yn y diffaethwch.—*Gweithio:* mewn rhai ysgrifau darllenir *gwneyd rhyfel:* a dïammau fod hyny hêfyd yn gynnwysedig.—Pwy bynag sydd yn gynnefin â hanes pabyddiaeth, nid rhaid iddynt wrth yr un eglurâd arall mewn perthynas i'r "llefaru pethau mawrion, a chabledd," a'r "gweithio" uchod.

6 [u] * Ac efe a agorodd ei enau mewn cabledd yn erbyn Duw, † i gablu ei enw ef, [x] ‡ a'i dabernacl, [y] ‖ a'r rhai sydd yn trigo yn y nef.

u Job 3. 1. Mat. 12. 34. a 15. 19. Rhuf. 3. 13. x pen. 21. 3. Ioan 1. 14. Col. 1. 19. a 2. 9. Heb. 9. 2, 11, 12. y pen. 4. 1, 4. a 5. 13. a 7. 9. a 11. 12. a 12. 12. a 18. 20. a 19. 1—6. Heb. 12. 22, 23.

* Yn yspaid yr holl amser uchod, "agorai y bwystfil hwn ei enau uffernol mewn cabledd yn erbyn Duw;" trwy gyd-ymgyssylltu â'r awdurdod eglwysig yn ei gamrwysg, ac mewn gormesu ar, a phrïodoli iddo ei hun, yr anrhydedd a'r awdurdod hyny a berthyn o brïodoldeb i Dduw ei hun. † Efe a gablai enw Duw, trwy ofyn gan bob dyn, ar gymhelliad yr awdurdod eglwysig, i roddi yr addoliad hyny i grëaduriaid, a berthynai i Dduw yn unig. ‡ Efe a gablai ei dabernacl ef; neu y gynnulleidfa o wir gristionogion; trwy eu gwaradwyddo, eu melltithio, a'u llofruddio, fel *hereticiaid.* ‖ Ac efe a gablai y rhai sydd yn trigo yn y nef; trwy waradwyddo angelion a'r saint a ymadawsant, fel pe byddent hwy trwy gyssegr-ledrad, yn ceisio ac yn hoffi cael eu haddoli yn eilun-addolgar gan ddynion; a thrwy brïodoli i'r saint amrywiaeth o weithredoedd a gwyrthiau digrif, y rhai ni wnaethant erioed.—Gellir dywedyd fod y Pab yn cablu Duw hefyd, trwy gymmeryd arno faddau pechodau, awdurdodi ar gydwybodau dynion; a thrwy osod deddfau a chanonau eilun-addolgar, coel-grefyddol, a gorthrymus, y rhai ydynt yn ddïanrhydedd a gwarth i'w enw sanctaidd ef. Gellid enwi llawer o bethau eraill y mae eglwys Rhufain yn euog o honynt, ac ydynt yn agoriad llawn ar bob rhan o'r adnod hon.

7 * A rhoddwyd iddo [z] wneuthur rhyfel â'r saint, a'u gorchfygu hwynt: [a] † a rhoddwyd iddo awdurdod ar bob llwyth, ac iaith, a chenedl.

z pen. 11. 7. a 12. 17. Dan. 7. 21, 25. a 8. 24, 25. a 11. 36—39. a 12. 1. a pen. 10. 11. a 11. 18. a 17. 15. Ex. 9. 16. Es. 10. 15. a 37. 26. Jer. 25. 9. a 27. 6, 7. a 51. 20—24. Dan. 5. 18—23. Ioan 19. 11.

* "A rhoddwyd iddo" hefyd gan y ddraig, neu y diafol, "wneuthur rhyfel â'r saint, a'u gorchfygu hwynt:" ac nid oes yr un cyfrifiad a all gyrhaedd y nifer a roddwyd i farwolaeth, yn y naill ffordd a'r llall, mewn gwahanol wledydd ac amserau, am eu bod yn proffesu yr efengyl yn ei phurdeb, ac am wrthwynebu llygredigaethau eglwys Rhufain. *Mil o filoedd* o'r Waldensiaid truain, a drengasant fel hyn yn Ffrainc: lladdwyd *naw càn mil* o gristionogion union-gred, mewn llai na deng mlynedd ar hugain ar ol sefydlu y Jesuitiaid drygionus: ymffrostiai Dug Alva iddo roddi *un fil ar bymtheg ar hugain* i farwolaeth yn yr Isel-diroedd, *(Netherlands)* trwy ddwylaw y dïenyddwr cyffredin, o fewn yspaid ychydig flynyddoedd. Dystrywiodd y Chwil-lŷs, drwy amryw fath o arteithiau, *gàn' mil a hanner* o gristionogion, o fewn deng mlynedd ar hugain. Dyma ychydig esamplau, a dim ond ychydig, o'r llawer a gof-nodwyd mewn hanesion; ond nis gwybyddir y cyfan oll byth, hyd oni "ddatguddio y ddaear ei gwaed, ac ni chuddia mwyach ei lladdedigion." (Esa. 26. 21.) † Ac mòr ehang a chyffredin oedd y difrodion ofnadwy uchod, fel yr oedd y bwystfil anghristiaidd megys wedi cael awdurdod hollawl, ar bob llwyth, ac iaith, a chenedl o ddynion. Lladdwyd y rhai uchod gan fraich yr awdurdod *gwladol;* trwy yr awdurdod hyny yr oedd yr amherodraeth yn ben iddo, ac ydoedd yn hanfodi mewn deg breniniaeth: oblegid ymostyngai yr awdurdod *erledigaethus eglwysig,* i osod breninoedd ac amherawdwyr ar waith, i gyflawni fel *dïenyddwyr,* orchymynion a deddfau llofruddiog y Pab.

8 * A [b] holl drigolion y ddaear a'i haddolant ef, [c] † y rhai nid yw eu henwau yn ysgrifenedig yn llyfr bywyd yr [d] Oen *yr hwn* a laddwyd, [e] ‡ er dechreuad y byd.

b Gwel ar adn. 3, 4.—a 14, 15. c pen. 3. 5. a 20. 12, 15. a 21. 27. Ex. 32. 32. Es. 4. 3. Dan. 12. 1. Luc 10. 20. Phil. 4. 3. d Gwel ar pen. 5. 6—9, 12. Ioan 1. 29. e pen. 17. 8. Eph. 1. 4. Tit. 1. 2. 1 Pedr 1. 19, 20.

* Trwy y moddion cryfion a dychrynllyd a grybwyllwyd uchod, yr oedd y bwystfil (Anghrist) yn dàl i fynu ei lywodraeth ar drigolion y byd gorllewinol, ac yn wir mewn llawer o fànau eraill; ac yr oedd holl drigolion y parthau hyny o'r ddaear yn ei addoli ef, trwy y darostyngiad mwyaf dirmyg-wael o gorph, enaid, a chydwybod; † y rhai nid oedd eu henwau fel etholedigion Duw yn ysgrifenedig yn llyfr y bywyd, yr hwn a berthynai i'r Oen yr hwn a laddwyd, ‡ er dechreuad y byd.—Nid yw yn hollawl eglur, pa un ai yr Oen a ddywedir ei ladd er dechreuad y byd; hyny yw, yn arfaeth Duw, ac o ran effaith a rhinwedd ei waed ef er iachawdwriaeth i'r holl gredinwyr; ai ynte enwau y personau a grybwyllir, nid oeddynt yn ysgrifenedig yn llyfr y bywyd o ddechreuad y byd. Mae pob un o'r ddau olygiad yn wir: cafodd Crist ei ladd er dechreuad y byd, yn yr ystyr a enwyd; (1 Petr. 1. 20.) ac ysgrifenwyd enwau holl etholedigion Duw yn llyfr y bywyd, er, neu cyn dechreuad y byd; megys y dengys testynau eraill yn fwy amlwg na hwn: (pen. 17. 8; a 20. 15; a 21. 27.) ac wrth y testynau hyny, tueddir ni i feddwl mai am ysgrifenu yr enwau er dechreuad y byd, y dywedir yn yr adnod hon: hyny yw barn benderfynol *Doddridge;* nid yw y peth yn "eglur" i *Scott;* mae rhediad alleiriaeth *Guyse* i'r gwrthwyneb; ac nid yw *Pool* yn dywedyd dim, y naill ffordd na'r llall.

9 [f] * Od oes gan neb glust, † gwrandawed.

f Gwel ar pen. 2. 7, 11, 17, 29.

* Yr oedd y brophwydoliaeth hon o'r fath bwys, er calondid a chyfarwyddyd credinwyr, yn amser teyrnasiad y bwystfil; yn gystal ag er iawn ddeall y rhan fwyaf o'r llyfr hwn; fel yr oedd ystyriaeth fanylaf pawb yn cael ei alw ati: od oedd gan neb glustiau, gwrandâwed: † gwrandâwed yr hyn a ddywedwyd eisoes, am orthrymder ac addoliad y bwystfil; a gwrandâwed yr hyn a ddywedir eto, am ei ddinystr a'i ddïaledd ef.

10 * Os yw neb [g] yn tywys i gaethiwed, efe a â i gaethiwed. [h] † Os yw neb yn lladd â chleddyf, rhaid yw ei ladd yntau â chleddyf. [i] ‡ Dyma amynedd a ffydd y saint.

g Ex. 21. 23—25. Es. 14. 2. a 33. 1. Mat. 7. 2. h pen. 16. 6. Gen. 9. 5, 6. Es. 26. 21. Mat. 26. 52. i pen. 1. 9. a 2. 2, 19. a 3. 10. a 14. 12. Galar. 3. 26. Hab. 2. 3. Luc 18. 1—8. a 21. 19. Col. 1. 11. Heb. 6. 12. a 10. 36, 37. a 12. 3, 4. Iago 1. 2—4. a 5. 7, 8.

* Bu yr erlidwyr anghristiaidd yn tywys y saint i gaethiwed am hir amser; am yr hyn byddent hwythau yn sicr o fyned i gaethiwed yn eu tro: † hwy a laddas-

ant lawer o'r saint â chleddyf, a thrwy lawer ffordd o ferthyrdod; am yr hyn byddent hwythau hefyd yn sicr o gael eu lladd â chleddyf yn yr un modd: rhaid ei bod felly; canys cyfiawn yw ger bron Duw dalu cystudd i'r rhai a gystuddiant ei bobl ef; a dywallto waed dyn, (yn yr ystyr hyn yn enwedig,) trwy ddyn y tywelltir ei waed yntau: ac â'r mesur a fesurodd Anghrist i saint Duw, yr adfesura Duw iddo yntau. ‡ Eto, yn hyn byddai prawf ar amynedd a ffydd y saint; i ddàl i fynu dàn y fath amrywiaeth o beryglon a dyoddefiadau, ac o barâd mòr faith, tu hwnt i ddim a fu mewn amseroedd o'r blaen; ac i ymgadw mewn amynedd, ffydd, ac ufudd-dod, yn a thrwy y dyoddefiadau hyny oll.—Byddai mwy o angen amynedd a ffydd arnynt, a chaent fwy i'w profi a'u gosod ar waith, ac am hŵy o amser, na thàn unrhyw erledigaeth arall pa bynag.

11 * Ac mi a welais fwystfil arall [k] † yn codi o'r ddaear; [l] ‡ ac yr oedd ganddo ddau gorn tebyg i oen, [m] || a llefaru yr oedd fel draig.

k adn. 1. pen. 11. 7. a 17. 8. l Mat. 7. 15. Rhuf. 16. 18. 2 Cor. 11. 13—15. m adn. 17. pen. 12. 3, 4, 17. a 17. 6. Dan. 7. 8, 24, 25. 2 Thes. 2. 4.

* Tybia ein Hawdwyr oll, gyda duwinyddion protestanaidd yn gyffredin, mai yr *awdurdod pabaidd* a feddylir wrth y bwystfil o'r blaen; a thybia rhai o honynt mai yr un *awdurdod pabaidd* a feddylir wrth y "bwystfil arall" hwn, ond mewn *dull* arall: tybiant fod y cyntaf yn arwyddo gormes *wladol* y Pab, a hwn yn arwyddo gormes *eglwysig* yr un Anghrist, neu y grefydd babaidd. Ond tybia *Doddridge*, gyda llawer eraill, mai y gwahanol *urddau crefyddol*, a godasant yn raddol yn eglwys Rufain, (yn enwedig y *Jesuitiaid)* a feddylir wrth y "bwystfil arall" hwn. Rhoddwyd meddiannau a llywodraethau *tymmorawl*, yn gystal âg ysbrydol, i lawer o'r urddau hyn; a *thrwy hyny* buont yn llawer o blaid a chynnaliaeth i achos pabyddiaeth. † Cododd y bwystfil cyntaf o'r môr, sef drwy ryfeloedd a therfysgoedd; ond gwelai Ioan hwn yn "codi o'r ddaear," m ddystaw, ac yn raddol, fel y tardda planigion o'r ddaear; ac hefyd i arwyddo anian ddaearol, anianol, a chythreulig, y dynion a'r grefydd y mae yn arwydd-lun o honynt. ‡ "Ac yr oedd ganddo ddau gorn tebyg i oen;" i arwyddo mai llywodraeth ysbrydol oedd, yr hon a broffesai ei derbyn gan Grist, ac a gymmerai arno ei harfer yn y modd mwyaf tirion ac addfwyn. Gan hyny yr oedd yn arwydd-lun o lywodraeth eglwysig Rhufain; a thybir gyda llawer o brïodoldeb, fod y ddau gorn yn arwyddo offeiriaid *rhëolaidd* a *llëygawl* yr eglwys hòno; (medd *Scott)* neu yr offeiriaid sydd yn byw wrth rëolau mynachaidd eu hurdd, a'r offeiriaid gweinyddawl, a gymmerant arnynt ofal eneidiau, ac nid ydynt yn perthyn i fynachdai. || Ond er bod gan hwn gyrn fel oen, eto yr oedd yn "llefaru fel draig;" sef gyda holl dra-arglwyddiaeth a chreulondeb yr amherawdwyr erlidgar Rhufeinig, a fuasent o'i flaen ef. Mae yr hòniadau uchel o awdurdod, a gorchymynion, bygythion, a phenderfyniadau meistrolaidd eglwys Rhufain, yn ddigon hysbys i bawb.

12 * A [n] holl allu y bwystfil cyntaf y mae efe yn ei wneuthur ger ei fron ef, [o] † ac yn peri i'r ddaear, ac i'r rhai sydd yn trigo ynddi, addoli y bwystfil cyntaf, ‡ yr hwn yr iachâwyd ei glwyf marwol.

n adn. 1—8. o adn. 3, 14—17. pen. 17. 10, 11. 2 Thes. 2. 4.

* Mae yr ail fwystfil hefyd yn weinidog, yn gyngor ydd, ac yn weithredydd i'r bwystfil cyntaf; ac mae yn "gwneuthur," neu yn arferyd holl "allu," neu awdurdod y bwystfil cyntaf, ger ei fron ef. O ganlyniad, mae y gwahanol urddau o fynachod, yn gystal âg offeiriaid llëygol eglwys Rhufain, bob amser yn meddu awdurdod dirfawr, yn achosion breninoedd a chenedloedd a berthynant i'r cyfundeb hwnw: eu prif weinidogion gwladol yn gyffredin ydynt offeiriaid uchel-radd, a gwŷr eglwysig eraill: rhwymir y swyddog gwladol i ddefnyddio ei gleddyf er gosod eu deddfau hwy mewn grym, neu i gyflawni eu dedfrydau hwy yn erbyn *hereticiaid;* a rhyfeloedd gwaedlyd fwy na rhif, a ymladdwyd er cynnal i fynu eu llywodraeth anghristiaidd hwy. † Fel hyn trwy drais ac erlidiau, maent yn "peri i'r ddaear," sef ei thrigolion daearol ac anianol, "addoli y bwystfil cyntaf;" buont bob amser yn elynion i ryddid gwladol, ac yn bleidwyr gormes a gorthrymder; ie, yn bleidwyr y deddfau *anghyfreithlawn* a mwyaf drygionus, o'r eiddo y breninoedd hyny, a bleidient eu hawdurdod hwy; yr hyn sydd fath o eilun-addoliaeth, fel y mae yn derchafu ewyllys dyn goruwch yr eiddo Duw. Fel hyn mae gormes yn eu cynnal hwy, a hwythau yn cynnal gormes; maent yn caethiwo cydwybodau dynion, ac yn cynnorthwyo breninoedd i gaethiwo eu personau; ac yn y ddwy ffordd yn "peri" eilun-addoliaeth. ‡ Am "iachâu clwyf marwol" y bwystfil cyntaf, gwel ar adn. 3.

13 * Ac y mae efe yn [p] gwneuthur rhyfeddodau mawrion, † hyd onid yw yn [q] peri i dân ddisgyn o'r nef i'r ddaear, ‡ y'ngolwg dynion;

p pen. 16. 14. a 19. 20. Ex. 7. 11, 12, 22. a 8. 7, 18, 19. a 9. 11. Deut. 13. 2, 3. Mat. 24. 24. Marc 13. 22. Act. 8. 9—11. q 2 Thes. 2. 9, 10. a 11. 5. Num. 16. 35. 1 Bren. 18. 38. 2 Bren. 1. 10—14. Mat. 16. 1. Luc 9. 54—56. 2 Tim. 3. 8.

* Mae yr ail fwystfil hwn yn dàl i fynu ei awdurdod drwy wneuthur rhyfeddodau mawrion, ond "rhyfeddodau gau" ydynt; (2 Thes. 2. 9.) yn cael eu gwneuthur un ai trwy ddichellion a hudoliaethau dynol, neu ynte trwy weithrediadau Satan, i dwyllo llygaid a meddyliau dynion, ac nid i ogoneddu Duw. † Efallai bod y tân o'r nef yn cyfeirio at y gwyrthiau a wnaed gan Elias; ac yn rhagfynegi hòniadau ofer yr offeiriaid pabaidd o wneuthur gwyrthiau o'r fath hyn. Ond fel hyn y dywed un gŵr:—'Mae y *nef* yn arwyddo yr eglwys, a'r *ddaear* amherodraeth Rhufain: a thân yn disgyn o'r nef, neu yn saethu allan o'r eglwys, ar y ddaear, neu ar yr amherodraeth wladol, a arwydda y gwaharddiadau, yr ysgymmuniadau, a'r melltithion difrifol a thanllyd, a gyhoeddid yn erbyn pawb a wrthwynebai y bwystfil.' Mae yn ddiammau bod y rhyfeddodau a'r tân hyn pa fodd bynag, yn arwyddo y rhith-wyrthiau a gymmer yr offeiriaid pabaidd o wahanol urddau, yn enwedig y *Jesuitiaid*, arnynt eu gwneyd; dàn yr esgus o brofi gwirionedd eu crefydd, ond mewn gwirionedd profi ei thwyll y maent, ‡ a thwyllo dynion a wnair drwy y cyfryw weithredoedd hocedus, y rhai a rith-gyflawnir yn eu golwg hwynt.—Efallai bod yn y tân yma gyfeiriad hefyd, at y profedigaethau *tanllyd*, a *llosgi* y protestaniaid, gan eglwys Rhufain.

14 * Ac y mae *efe* [r] yn twyllo y rhai sydd yn trigo ar y ddaear, trwy y rhyfeddodau y rhai a roddwyd iddo ef eu gwneuthur ger bron y bwystfil; † gan ddywedyd wrth [s] drigolion y ddaear, [t] am iddynt wneuthur delw i'r bwystfil, ‡ yr hwn a gafodd friw gan gleddyf, ac a fu fyw.

r pen. 12. 9. a 18. 23. a 19. 20. a 20. 3, 10. 1 Bren. 22. 20. Job 12. 16. Es. 44. 20. Ezec. 14. 9. 2 Thes. 2. 10—12. s Gwel ar adn. 3, 8. t adn. 3, 4, 11, 15. pen. 14. 9, 11. a 15. 2. a 16. 2. a 19. 20. a 20. 4. Ezec. 8. 10. a 16. 17. Dan. 11. 36. 2 Thes. 2. 4.

* Yr oedd yr ail fwystfil hwn yn gwneyd y rhyfeddodau uchod "ger bron y bwystfil cyntaf," i'w wasanaethu a'i foddâu ef, ac i dwyllo y rhai oedd yn trigo ar y ddaear, heb wybod gwell, i'w addoli ef. † Fel hyn yr oedd y bwystfil deu-corn, neu yr offeiriaid rhëolaidd a llëygawl, yn annog trigolion tywyll y ddaear i "wneuthur delw i'r bwystfil," neu awdurdod gwladol yr amherodraeth, (ebai *Scott)* fel yr oedd yn hanfodi gynt, yn amherawdwr llywodraethol Rhufain. Bu gwahanol feddyliau am y "ddelw" hon: nid yw ddim ond addoli awdurdod y Pab, medd *Doddridge*, a pheri i eraill ymostwng iddo ef, ac ufuddâu i'w ddeddfau. Ei osod ef i fynu fel delw, a'i addoli mewn darostyngiad iddo, medd *Guyse*. Ond fel hyn y dywed *Scott*:—Onid yw y Pab, fel tywysog gwladol, yn wir ddelw yr

hen amherawdwyr gynt? Onid efe, fel yr hòna ei hun yn ben anffaeledig yr eglwys, yw delw fawr yr holl babyddion gwresog? Ac onid yw efe, yn y ddwy ystyriaeth, yn gynnrychiolwr yr holl draws-lywodraeth anghristiaidd? A allwn ni ammau, gan hyny, pwy yw y ddelw hon? Neu a allwn ni beidio rhyfeddu wrth y rhagfynegiad cywir ac amgylchiadol hwn, o'r fath ddygwyddiadau annhebygol, yr hwn a wnaed gynnifer o gannoedd o flynyddoedd cyn iddynt gymmeryd lle? Mae y bwystfil dau-corniog, neu yr offeiriaid pabaidd, fel y cynnrychiolir hwy gan gyngorfa o ben-offeiriaid, *(cardinals)* y rhai a ymgynnullant ar farwolaeth Pab, gyda llawn gydsyniad y llywodraethwyr a'r bobl yn gyffredin, drwy yr holl arglwyddiaethau pabaidd, yn "gwneuthur y ddelw," pan maent yn ethol dyn cyffredin i'r sefyllfa uchel hòno, yn lle yr un a fuasai farw. ‡ Am y "briw gan gleddyf a byw" drachefn, gwel ar adn. 3.—Mae pob un o'n Hawdwyr yn cytuno yn dda am y ddelw i'r bwystfil, ond eu bod yn geirio yn wahanol.

15 * A chaniattâwyd iddo ef roddi anadl i ddelw y bwystfil, † fel y [u] llefarai delw y bwystfil hefyd, ‡ ac y [x] parai gael o'r sawl nid addolent ddelw y bwystfil, eu lladd.

u Salm 115. 5. a 135. 16. Jer. 10. 5. x Gwel ar adn. 14. —pen. 16. 5, 6. a 17. 6, 14, 17. a 18. 20, 24. a 19. 20. Dan. 7. 20, 21, 25.

* Caniatâwyd i'r bwystfil deu-corn (gwel ar adn. 11, 12, 14.) roddi anadl i ddelw y bwystfil arall: hyny yw, yr oedd y cyngor o offeiriaid a grybwyllwyd uchod, (adn. 14.) trwy roddi y prif awdurdod gwladol ac eglwysig yn llaw y Pab newydd, megys yn rhoddi anadl, neu fywyd iddo ef; sef gallu ac awdurdod nad oedd ganddo o'r blaen: ac fel hyn yr oedd yn ddelw fyw y "bwystfil deg corn," (adn. 1.) neu y Pab a fuasai o'i flaen; a'r blaenaf o honynt oll, yn ddelw y ddraig, neu yr hen amherodron paganaidd erlidgar, a fuasai yn Rhufain cyn dechreuad pabyddiaeth. † Gwedi cael anadl, gallai y "ddelw hon lefaru hefyd;" mewn gorchymynion, gwaharddiadau, bygythion, melltithion, a chableddau, fel y soniwyd eisoes. (adn. 5, 6.) Ond cyn hyn, maent yn gwisgo ac yn coroni y ddelw a wnaethent, maent yn ei osod ar allor, ac yn cusanu ei draed, a'r ddefod hon a alwant yn *addoliad!* Fel eilun-addolwyr eraill hwy a wnant eu delw, ac yna a'i haddolant: ac ar hen fathain, *(medal)* a wnaed ar yr achlysur hwnw, mae yn argraffedig yr arwydd-wers hon, *Quem creant, adorant,* 'yr hwn a grëasant a addolant!' ‡ Ar ol hyn defnyddiant eu holl allu i gynnal ei awdurdod ef, trwy holl wledydd eu cyfundeb hwy: a chyd-weithredant i erlid, ïe, hyd at ladd, pawb o'r sawl nid addolant y bwystfil hwn a'i ddelw, fel hwythau.—Y Pab yw canol-bwnc undeb deg teyrnas y bwystfil, ac mae efe yn peri, hyd y gallo, i bawb na chydnabyddant ei bendodaeth ef, gael eu rhoddi i farwolaeth. Yn fŷr, mae efe yn ddelw berffeithiaf o hen amherawdwyr Rhufain; mae yn gymmaint gormes-deyrn yn y byd cristionogol, ag oeddynt hwythau yn y byd paganaidd: mae yn llywodraethu yn yr un ddinas, yn traws-gymmeryd yr un awdurdodau, yn rhoddi iddo ei hun yr un gorenwau, ac yn gofyn yr un gwarogaeth ac addoliad. Mae efe yn frenin breninoedd yn y wlad, ac yn esgob esgobion yn yr eglwys.

16 * Ac y mae yn peri i bawb, [y] † fychain a mawrion, [z] cyfoethogion a thlodion, [a] rhyddion a chaethion, ‡ dderbyn [b] nôd ar eu llaw ddehau, [c] neu ar eu talcennau:

y pen. 11. 18. a 19. 5, 18. a 20. 12. 2 Cron. 15. 13. Salm 115. 13. Act. 26. 22. z Job 34. 19. Salm 49. 2. a pen. 6. 15. a 19. 18. 1 Cor. 12. 13. Gal. 3. 28. Eph. 6. 8. Col. 3. 11. b pen. 14. 9—11. a 15. 2. a 19. 20. a 20. 4. Zec. 13. 6. c pen. 7. 3. Ex. 13. 9. Deut. 6. 8. a 11. 18. Ezec. 9. 4. 2 Tim. 3. 8.

* Mae y bwystfil deu-corn hefyd yn cyflawni swyddau eraill o wasanaeth i'r bwystfil cyntaf; trwy esgymmuno pawb ar nid ymostyngant i'w lywodraeth draws-ormesol ef, ac ni chyd-ymffurfiant â'r dull o addoliad a sefydlodd efe; ac fel hyn eu darostwng hwy i amrywiol anghymhwysderau a chospedigaethau tymmorawl, neu wladol, fel dynion *heb nodded cyfraith* iddynt. † Nid oes yr un gradd na sefyllfa o ddynion a all ddianc rhag cael eu trin felly yn y llywodraethau pabaidd: ymddygir yr un modd tuag at bawb anufudd, fychain a mawrion, cyfoethogion a thlodion, rhyddion a chaethion: ‡ rhaid iddynt oll dderbyn nôd y bwystfil ar eu llaw ddehau, neu ar eu talcenau; fel y byddid arferol o nodi *milwyr, caethion,* ac *anifeiliaid,* i ddangos i bwy y perthynent; ac *eilun-addolwyr* hefyd, i ddangos pa dduw a addolent, yr hyn a feddylir, medd rhai, wrth y *print nod,* yn Lefit. 19. 28. Dywedir i *Ptolemy Philopater,* er gwarthruddo Iuddewon *Alexandria,* beri eu nodi hwynt oll drwy argraff haiarn poeth, â llun *dalen eiddiorwg,* arwydd-nod *Bacchus* ei dduw ef: os gwrthodai neb gymmeryd y nôd hwn, gwnaid ef yn gaeth-was; a'r neb a safai yn gyndyn yn erbyn y ddeddf uchod, a roddid i farwolaeth. Nodid caeth-weision yn eu talcenau, a milwyr yn eu dwylo. *Cyfeiriad* at y defodau hyny sydd yn yr adnod uchod, ac nid y *peth* yn *llythyrenol:* a thybia *Pool* mai proffes o'r grefydd babaidd, ac o ymostyngiad i awdurdod y Pab, a feddylir. Tybia *Doddridge* mai y *sacramentau,* y mae y bobl yn orfod gymmeryd gan yr offeiriaid pabaidd, dàn y perygl mwyaf o beidio, a feddylir wrth y nôd; ac y rhai nis gall neb eu derbyn heb y fath ddefodau *coel-grefyddol* ac *eilun-addolgar,* ag sydd mewn effaith yn *addoli delw y bwystfil.* Tybia eraill mai y ddefod o nodi eu hunain âg arwydd y groes, a feddylir, yr hyn sydd bwnc mawr, a thra choel-grefyddol, yn y grefydd babaidd.

17 * Ac na allai neb na phrynu na gwerthu, ond yr hwn a fyddai ganddo [d] nôd, [e] † neu enw y bwystfil, ‡ neu [f] rifedi ei enw ef.

d Gwel ar adn. 16. e pen. 3. 12. a 14. 11. a 17. 5. a 22. 4. f adn. 18. pen. 15. 2.

* Ac mòr gaeth oedd y gorchymyn uchod, ag nad allai neb na phrynu na gwerthu, na thrin unrhyw fasnach fydol ac angenrheidiol yn y gwledydd pabaidd, ond y rhai y byddai y nôd uchod ganddynt. Sylwa un gŵr ar yr adnod hon, ddarfod i'r Pab *Martin* y Pummed, yn ei lythyr *(bull)* cyssylltiedig â chyngor *Constance,* orchymyn trwy lŵ, ar i bawb a broffesent ufudd-dod i esgobaeth Rhufain, ŷru ymaith o'u plith bawb ar ni ddalient ffydd yr eglwys babaidd, fel defaid crachlyd, y rhai a lygrent ddëadell yr Arglwydd; ac na oddefent iddynt bregethu, na byw yn eu plith hwynt, na phrynu na gwerthu, na dilyn yr un alwedigaeth na chelfyddyd yn eu plith; na mwynâu dim o gysuron dynoliaeth yn mhlith cristionogion, (pabyddion.) A dywed gŵr arall, i gyngor *Lateran* gyhoeddi melltith ar bawb a groesawai neb o'r *Waldensiaid,* neu a wnelai unrhyw fasnach fydol, o brynu a gwerthu, â hwynt: ac mewn cyngor arall yn Ffrainc, gwaharddwyd pob masnach o brynu a gwerthu, â *hereticiaid.* † Rhaid iddynt hefyd dderbyn enw y bwystfil, fel plant yn derbyn enw eu tad: enw y tad hwn yw *Pab, Papa* yn Lladin, ac enw ei blant yw *Pabyddion:* rhaid bod yr enw hwn ganddynt ar eu llaw ddehau, neu ar eu talcenau; sef mewn proffes o babyddiaeth, ac mewn arferiadau pabaidd o addoli a chrefydda. ‡ Rhaid bod ganddynt hefyd rifedi ei enw ef: a thybia rhai, (medd *Pool,)* fod y rhifedi yn gynnwysedig yn yr enw, ac mai LATEINOS yw yr enw, yn yr hwn mae rhifedi 666 yn gynnwysedig, am yr hyn cawn sylwi eto.

18 * Yma y mae [g] doethineb. † Yr hwn sydd ganddo ddeall, bwried rifedi y bwystfil: ‡ canys [h] rhifedi dyn ydyw; ‖ a'i rifedi ef yw, Chwe chant a thriugain *a* chwech.

g pen. 1. 3. a 17. 9. Salm 107. 43. Dan. 12. 10. Hos. 14. 9. Marc 13. 14. h pen. 21. 17. Deut. 3. 11. Rhuf. 3. 5.

* Gwedi crybwyll am "enw," a "rhifedi enw," y bwystfil, mae Ioan yma yn cynnyg y rhifedi ei hun i

ystyriaethau dynion; ac yn dwyn y mater i mewn trwy ddywedyd, "Yma y mae doethineb;" gan arwyddo felly, y byddai deall *enw y bwystfil oddi wrth y rhifedi*, yn brawf o ddoethineb, neu graffder dirnadaeth dyn. † Gan hyny, "yr hwn sydd â deall ganddo, bwried," neu cyfrifed "rifedi y bwystfil:" pwy gan hyny a feïant neu a watwarant y rhai a geisiant wneyd hyny, yn ol y deall a fyddo ganddynt? ‡ "Canys rhifedi dyn ydyw;" un ai y fath rifedi ag a ddefnyddir gan ddynion, neu ynte rifedi yn cynnwys ynddo enw, gorenw, *(title)* neu ddosbeniad hynodawl dyn; neu a ddengys pa fath ddyn a feddylir. ‖ Yn awr mae y gair Groeg *Lateinos* yn arwyddo y *Dyn Latin;* neu y *Dyn o Latium*, Rhufain; o ba ddinas y deilliodd y Rhufeiniaid eu dechreuad a'u hiaith: ac mae y gair hwn, yn ol y wir arddygraff, yn cynnwys, mewn llythyrenau rhifyddawl, y rhifedi cymhwys o "chwe' chant a thriugain a chwech." Eglwys Rufain yn briodol yw yr eglwys *Latin*, ac arferant yr iaith Latin yn mhob peth. Y bwystfil, gan hyny, neu yr awdurdod a ddefnyddir drwy y deg teyrnas i gynnal i fynu yr eglwys hòno, o ba un mae y Pab yn ddelw fyw; a ellir yn briodol ei alw LATEINOS. Ond er bod Ioan yn ysgrifenu yn y Groeg, eto efe a ddefnyddiodd rai enwau Hebraeg yn y llyfr hwn; fel ag y gallwn ond odid feddwl ei fod yn cyfeirio at enw yn yr iaith hòno: ac mae yn beth tra rhyfeddol fod y gair *Romiith* yn Hebraeg, yr hwn sydd yn cyfateb i *Lateinos*, ac yn arwyddo *Rhufeinig*, yn cynnwys mewn llythyrenau rhifyddawl, yn gymhwys "Chwe' chant a thriugain a chwech." Ac nis gellir cael yr un dau air arall, allan o ddwy iaith wahanol, a gyd-gytunant mòr agos mewn ystyr a meddwl, ac a safant yn gymhwys am yr un nifer o lythyrenau rhifyddawl: mae y cyd-darawiad hyn yn wir yn beth tra rhyfeddol. Gan nas gallai Ioan ond yn unig gyfeirio at y Groeg neu yr Hebraeg, yn y mater hwn; a chan fod rhifedi *enw* y *Dyn Latin*, neu *Rufeinig*, yn y ddwy iaith, yn gymhwys rifedi y bwystfil; tybia *Scott* nad oes dim achos ammau, yn nghylch y bwystfil na'i rifedi chwaith, yn enwedig gan i Irenæus yn yr ail ganrif, roddi yr un dehongliad ar y mater.—Mae yn wir fod *Romiith* yn air benywaidd; ond gall arwyddo un ai *eglwys* neu *deyrnas* Rhufain, y geiriau Hebraeg am bob un o ba rai sydd fenywaidd. Pa fodd bynag, y gair *Latinus*, neu *Lateinos*, sydd mewn pob ystyriaeth y mwyaf boddlonus o lawer, er y cyd-darawiad â'r cytundeb hyn rhwng y ddau air.—Nid oes yr un enw, er y dichon ei fod yn cynnwys y rhifedi 666, a all fod yn enw y bwystfil, oddigerth ei fod yn ateb hefyd yn mhob peth arall, i'r dysgrifiad prophwydoliaethol o'r enw hwnw.—Mae *Lateinos* ar unwaith yn enw dyn, (hen frenin *Latium*, o ba un y cafodd Rhufain ei dechreuad,) yn enw amherodraeth; ac yn gyfenwad hynodedig pob dyn yn yr amherodraeth hòno: a phan gymmerer swm ei lythyrenau rhifyddawl yn yr iaith Roeg, mae yn gwneyd i fynu "Chwe' chant a thriugain a chwech." Ar y sail hon gan hyny, nid ydym yn petruso haeru, mai *Latinus*, a dim ond *Latinus*, yw enw y bwystfil; oblegid nid oes yr un gair arall, dysgrifiadol o'r bwystfil adfywiedig tymmorawl, neu yr amherodraeth Rufeinig babaidd, a ellir ei gael, yn cynnwys y fath gyd-darawiad dinystriol o amgylchiadau. *Scott*, agos air yn air. Yr un peth hefyd yw meddwl *Doddridge:* a thybia efe fod y rhifedi 666 yn cael ei roddi, i arwyddo y byddai i *ymddangosiad yr awdurdod pabaidd*, yr hwn oedd i barâu am 1260 o flynyddoedd, (gwel ar pen. 12. 6.) ddygwydd tua 666 o flynyddoedd ar ol amser ysgrifenu y Datguddiad hwn, B. A. 96: ac wrth hyna tybia efe y gellir gwybod yn agos pa bryd y bydd cwymp Anghrist, wedi iddo deyrnasu 1260 o flynyddoedd, yr hyn medd *Guyse* a fydd tua'r flwyddyn 2015, neu 2016. Dywedasom eisoes yn fŷr, farn *Pool* am "rifedi yr enw," dàn adn. 17.—Saif llythyrenau y gair Lateinos, gyda'r ffugyrau danynt, fel hyn:—

L a T e i n o s
30. 1. 300. 5. 10. 50. 70. 200. y cwbl yn 666.

PEN. XIV.

'Yr Oen ar fynydd Sïon.

* AC mi a [a] edrychais; ac wele, [b] Oen † yn sefyll ar [c] fynydd Sïon, ‡ a chyd âg ef [d] bedair mil *a* saith-ugein-mil, [e] ‖ a chanddynt enw ei Dad ef yn ysgrifenedig yn eu talcennau.

a adn. 14. pen. 4. 1. a 6. 8. a 15. 5. Jer. 1. 11—14. Ezec. 1. 4. a 2. 9. a 8. 7. a 10. 1, 9. a 44. 4. Dan. 12. 5. Amos 8. 2. Zec. 4. 2. b Gwel ar pen. 5. 6—9, 12, 13. a 7. 9—17. c Salm 2. 6. a 132. 13, 14. Es. 49. 14. Joel 2. 32. Mica 4. 7. Rhuf. 9. 33. Heb. 12. 22—24. d Gwel ar pen. 7. 4—8. e pen. 3. 12. a 7. 3. a 13. 16, 17. Luc 12. 8.

Gwedi dangos i Ioan y pethau blinion blaenorawl am Rufain Babaidd, llywodraeth anghristiaidd wladol ac eglwysig y Bwystfil, a'i ddelw, gyda phob eilunaddoliaeth a thraws-arglwyddiaeth cyssylltiedig â hwynt; yn nesaf cafodd weledigaeth o'r wir eglwys yn y diffaethwch, yn yspaid yr un amser: yr hon weledigaeth oedd yn cyfeirio yn bennodol (medd *Scott)* at yr amser tywyllaf, cyn tòriad gwawr y diwygiad. * Efe a edrychodd, ac wele Oen, arwydd-lun o Grist, gwir Oen Duw, † yn sefyll yn fuddugoliaethus a gorfoleddus ar fynydd Sïon, lle yr adeiladwyd y deml, yr hon oedd gysgod o'r wir eglwys ac o'r nef ei hun; lle mae Crist yn ei ystâd o dderchafiad a gogoniant, yn gweini ei swydd o Gyfryngwr y Testament Newydd. (Heb. 12. 22, 24.) ‡ A chydag ef ar fynydd Sïon, yr oedd pedair mil a saith ugein-mil; sef yr un nifer ag a welsai Ioan o'r blaen wedi eu selio. (pen. 7. 4.) Tybia *Scott* mai rhifedi cyfriniol yw hwn; (mewn cyferbyniad i rifedi y bwystfil, efallai, pen. 13. 18.) y deuddeg patriarch wedi eu lliosogi â'r deuddeg apostol, a'r cwbl wedi eu lliosogi â mil; fel pe buasai y cant a phedwar a deugain yn dywysogion, neu flaenoriaid ar filoedd: fel ag yr oedd nifer go fawr o wir Israeliaid, ac o'r rhai a ddalient athrawiaeth yr apostolion, ac a ymdeithient dàn eu baner hwy, yn yr amseroedd gwaethaf a mwyaf llygredig; y rhai oeddynt olyniad y gweddill hwnw, yr hwn a gafwyd yn y tri chanrif cyntaf, yn amser erledigaethau yr amherawdwyr paganaidd. (Gwel pen. 7. 4—8.) ‖ Fel yr oedd addolwyr y bwystfil yn cael eu nodi â'i enw a'i rifedi ef; (pen. 13. 16, 17.) felly yr oedd gan y dysgyblion hyn i Grist, enw ei Dad ef yn ysgrifenedig eglur ar eu talcenau: ei addolwyr ef oeddynt, yr oeddynt yn dwyn ei ddelw ef; ac yr oeddynt yn proffesu, ac yn dangos yn eglur, eu bod yn perthyn iddo ef.—Mae yn amlwg wrth hanesion, bod y fath ddynion, yn yr amseroedd tywyllaf, y rhai a anturiasant ac a roddasant eu bywydau i lawr, dros wirionedd ac addoliad yr efengyl. Yn wir yr un dynion oedd y rhai hyn â'r ddau dyst, yn yspaid yr amser yr oedd y rhai hyny yn byw; dim ond eu bod yn cael eu harddangos yma mewn dull, neu dàn arwydd-lun arall.—Dywed *Guyse* mai yr *un dynion* oedd y rhai hyn â'r rhai a welsai Ioan wedi eu selio, yn pen. 7. 4, yn gystal ag yr *un nifer;* ond dywed *Scott* yn amlwg, fel y sylwyd uchod, mai "olynwyr" y rhai hyny oeddynt, dynion o'r un argraff, ond mewn amseroedd diweddarach: y rhai hyny yn amser Rhufain *Baganaidd*, a'r rhai hyn yn amser Rhufain *Babaidd.* Pwy sydd iawn, barned y doeth.

2 * Ac mi a glywais [f] lef o'r nef, [g] † fel llef dyfroedd lawer, [h] ‡ ac fel llef taran fawr ‖ ac mi a glywais [i] lef telynorion yn canu ar eu telynau:

f pen. 10. 4. a 11. 12, 15. a 19. 1—7. g pen. 1. 15. a 19. 6. Salm 93. 4. Es. 17. 13. Ezec. 43. 2. h pen. 1. 10. a 8. 7—13. a 9. 1. a 10. 3, 4. a 11. 15. Ex. 19. 16. a 20. 18. Zec. 9. 14. i Gwel ar pen. 5. 8.—a 15. 2. a 18. 22. 2 Sam. 6, 5. 1 Cron. 25. 1—7. Salm 33. 2. a 43. 4. a 57. 8. a 92. 3. a 98. 5. a 147. 7. a 149. 3. a 150. 3—6.

* Tybiai Ioan ei fod yn clywed llef hyfryd, o glod a mawl peraidd, o blith y dyrfa orfoleddus uchod yn y nef; † llef lliaws dirfawr, yn swnio fel llef dyfroedd lawer; (pen. 17. 1, 15.) ‡ a llef mòr groch a phe buasai lef taran fawr: ‖ ac yr oedd yn rhyfeddol o beraidd ar

i glustiau ef, fel peroriaeth y deml gynt, pan fyddid n addoli ar y gŵyliau arbenig; lle yr oedd telynorion n canu, neu yn chwarau ar eu telynau, ac eraill yn dyd-ganu â hwynt ar eu hofferynau cerdd, mewn cydgân hyfryd â'r lleisiau dynol. 1 Cron. 25. 1—7; Salm 38. 25. Yr oedd cryfder y sŵn, fel llef dyfroedd lawer, ac fel llef taran fawr; a'i bereidd-dra, fel llef telynorion yn canu ar eu telynau, yn ei wneyd yn rhyfedd iawn: ac mae yn debyg na chlywyd dim yn gyffelyb ar y ddaear ierioed. Lle rhyfedd fydd nef y gogoniant, i bawb a ugaffo y fraint annhraethol o fyned yno.

3 * A hwy a ganasant megis [k] caniad newydd [l] † ger bron yr orsedd-faingc, ‡ a cher bron y pedwar anifail, a'r henuriaid: [m] || ac ni allodd neb ddysgu y gân, ond y pedair mil *a'r* saith-ugeinmil, [n] y rhai a brynwyd oddi ar y ddaear.

k Gwel ar pen. 5. 9.—a 15. 3. Salm 33. 3. a 40. 3. a 96. 1. a 98. 1. a 144. 9. a 149. 1. Es. 42. 10. l Gwel ar pen. 4. 2—11. m pen. 2. 17. Salm 25. 14. Mat. 11. 25—27. 1 Cor. 1. 18. a 2. 14. n Gwel ar pen. 5. 9.

* Ni ddywedir pa beth oedd y ganiad newydd hon, ond mae yn ddiammau ei bod yn gyffelyb i'r caniadau a sylwyd arnynt o'r blaen, yn pen. 5. 8—12; a 7. 9—12.

† Canwyd y gân hon ger bron yr orsedd-fainc, lle yr oedd Duw a'i ogyfuwch Fab a'i Ysbryd yn eistedd; ‡ a cher bron cynnrychiolwyr arwydd-luniol yr eglwys a'i gweinidogion; nid i'w haddoli hwynt, ond i addoli y Duw hollalluog yn dri Pherson, fel yr oedd yn eistedd ar yr orsedd-fainc. || Ac ni allai neb ddysgu y gân ond y prynedigion a grybwyllir: oblegid fel yr oedd yn perthyn yn union-gyrchol i'r *brynedigaeth;* nis gallai y balch, yr anedifeiriol, yr anghrediniol, a'r cnawdol, ddeall natur na gogoniant y mater hwn: ac nis gallai angelion chwaith gyd-uno ynddi, gan nad oeddynt hwy wedi eu prynu i Dduw trwy waed yr Oen; er eu bod yn cyd-uno â'r gwaredigion i'w addoli ef, fel yn deilwng i dderbyn pob anrhydedd a bendith. Am yr orsedd-fainc, y pedwar anifail, a'r henuriaid, gwel o'r blaen, ar pen. 4. 2—6.

4 * Y rhai hyn yw y rhai ni halogwyd â gwragedd: [o] † canys gwŷryfon ydynt. [p] ‡ Y rhai hyn yw y rhai sydd yn dilyn yr Oen pa le bynnag yr elo. || Y rhai hyn [q] a brynwyd oddi wrth ddynion, [r] § yn flaeraffrwyth i Dduw, ac i'r Oen.

o Salm 45. 14. Can. 1. 3. a 6. 8. Mat. 25. 1. 1 Cor. 7. 25, 26, 28. 2 Cor. 11. 2. 1 Tim. 4. 3. p pen. 3. 4. a 7. 15—17. a 17. 14. Mat. 8. 19. Luc 9. 57—62. Ioan 8. 12. a 10. 27. a 12. 26. a 13. 37. q pen. 5. 9. r Jer. 2. 3. Amos 6. 1. 1 Cor. 16. 15. Iago 1. 18.

Dechreuodd eglwys Anghrist yn fore, ddywedyd yn erbyn a beïo priodas, gorchymyn annyweddiaeth *(celibacy)* i'w hoffeiriaid, canad i fynu rifedi mawr o ddynion a merched mewn mynachlogydd; codai wyryfdod i fynu fel peth hanfodol bron i dduwioldeb a phurdeb; a gosodai wyryfon gyda saint a merthyron y prif amseroedd. Ond y gwaharddiadau gwrth-naturiol hyn, a'r cynnygion i ddwyn i mewn fath o fywyd ar y ddaear, ag nad oedd yn gyffredin ond yn addas i drigolion y nef; hwy a barotôisant y ffordd, nid yn unig i falchder ysbrydol dirfawr, ond hefyd i'r penrhyddid mwyaf annaturiol a ffiaidd atgas, ac i weithredcedd rhŷ erchyll ac ysgeler i'w henwi: ac ar yr un pryd, cafodd yr eglwys ei halogi â'r eilun-addoliaeth mwyaf amlwg a ffiaidd-gâs, neu buteindra ysbrydol. * Ond, medd Ioan drwy Ysbryd prophwydoliaeth, y gwir gristionogion hyn ydynt hwy, "y rhai ni halogwyd â gwragedd," neu "â *benywaid,*" yn ol y Saesoneg. Gan mai "anrhydeddus yw priodas yn mhawb, neu *i* bawb, a'r gwely *dihalogedig,* gellir deall y geiriau yn llythyrenol, na halogwyd hwynt trwy buteindra naturiol; neu gellir eu deall hefyd yn ysbrydol, na halogwyd hwynt trwy eilun-addoliaeth pabaidd, yr hwn sydd buteindra ysbrydol tra ysgeler. † "Canys," ebai Ioan, "gwyryfon ydynt;" sef y fath a ganmolir yn yr ysgrythyr, y rhai a ddyweddïwyd i Grist, ac sydd yn ei garu ef yn ddiragrith, yn ffyddlawn ac yn ufudd iddo; a chan ystyried eu hunain yn eiddo ef yn unig ac yn hollawl, maent yn ymysgwyl am berffeithiad eu hundeb sanctaidd âg ef; ac, ar yr un pryd, yn dewis dyoddefiadau ac angau, yn hytrach na phuteindra a godineb ysbrydol, i ba bethau y mae pawb eraill wedi eu rhoddi i fynu. ‡ Am hyny yr oedd y rhai hyn yn canlyn yr Oen i ba le bynag yr elai, trwy erlidiau a thrallodau, i anenwogrwydd ac i garcharau; mewn hunan-ymwadiad, ffydd ufudd, a gobaith amyneddgar: gan gymmeryd i fynu eu croes, a dilyn ei esampl ef o addfwynder, purdeb a chariad. || Y rhai hyn oedd y rhai a brynwyd oddi wrth ddynion, y rhai ag oedd â rhan iddynt yn wir yn Iawn y Cyfryngwr, ac yn profi hyny yn amlwg yn eu duwiol fuchedd drwy ei ganlyn ef: § ac yr oeddynt hwy felly wedi eu cyssegru i Dduw ac i'r Oen, ac yn gymmeradwy ganddo, fel y blaenffrwyth gynt; gan mai hwy yn unig oedd heb eu halogi ar y ddaear, ac megys yn ernes o gynhauaf mawr, a llawer mwy toreithiog.

5 [s] * Ac yn eu genau ni chaed twyll: [t] † canys difai ydynt ger bron gorsedd-faingc Duw.

s Salm 32. 2. a 34. 13. a 55. 11. Diar. 8. 8. Es. 53. 9. Zeph. 3. 13. Mat. 12. 34. Ioan 1. 47. 1 Pedr 3. 10. t Can. 4. 7. Dan. 6. 4. Hos. 10. 2. Luc 23. 4. Eph. 5. 27. Col. 1. 22. Judas 24.

* Nid rhagrithiol oedd y rhai hyn, ond yr oeddynt yn gywir yn eu hedifeirwch, eu ffydd a'u cariad; ac yr oeddynt yn dàl, yn proffesu, ac yn pregethu gwir athrawiaeth Crist; ac yn eu holl ymarweddiad ni chaed dim twyll mewn gair na gweithred: † ac fel y cyfryw yr oeddynt yn gymmeradwy yn yr Anwylyd, ac heb ddim bai i'w osod yn eu herbyn ger bron gorsedd-fainc Duw: difeïus oeddynt ger ei fron ef mewn cariad. Nid oedd Duw yn cyfrif pechod iddynt, eithr cyfiawnder ei Fab: ac yn y cyfiawnder hwnw, yn nghyd â sancteiddiad yr Ysbryd, yr oeddynt yn ddifai ger bron yr orsedd-fainc. —Tybia rhai mai nid yr eglwys "yn y diffaethwch," (pen. 12. 6, 14.) mewn cyflwr o iselder a thrallod gan orthrymder Anghrist, a feddylir yn y weledigaeth flaenorol, o herwydd y ganiad newydd orfoleddus oeddynt yn ganu gyda'r Oen ar fynydd Sïon: ond mae y rhai a dybiant felly, (medd *Scott,*) yn anghofio arwydd-eiriau y Cristion:—"Gorfoleddu mewn gorthrymderau," "Wedi ein tristâu, eithr yn wastad yn llawen," &c. Os oedd Duw yn ei "phorthi" hi yn y *diffaethwch,* nid rhyfedd ei bod yn canu weithiau *yno.*

6 * Ac mi a welais [u] angel arall † yn ehedeg [x] y'nghanol y nef, ‡ a'r [y] efengyl dragywyddol ganddo, || i [z] efengylu i'r rhai sydd yn trigo ar y ddaear, [a] § ac i bob cenedl, a llwyth, ac iaith, a phobl;

u adn. 8, 9. pen. 8. 13. Es. 6. 2, 6, 7. Ezec. 1. 14. Dan. 9. 21. x Gen. 1. 6. y 2 Sam. 23. 5. Salm 119. 142. a 139. 24. a 145. 13. Es. 45. 17. a 51. 6, 8. Eph. 3. 9—11. 2 Thes. 2. 16. Tit. 1. 1—3. Heb. 13. 20. z Mat. 10. 27. Marc 16. 15. Rhuf. 16. 25. Col. 1. 23. a pen. 10. 11. a 13. 7. Dan. 4. 1. a 6. 25, 26.

Addefir yn gyffredinol gan y dehonglwyr gorau, fod y tri angel a grybwyllir yn yr adnod hon a'r rhai a ganlyn, yn herodron arwydd-luniawl *(emblematical heralds,)* o'r diwygiad graddol oddi wrth babyddiaeth. Soniwyd am y bwystfil Anghrist yn mawredd ei rwysg a'i allu yn y bennod o'r blaen; a rhagfynegir ei leiâd a'i wanychiad, fel parotôad i'w ddinystr hollawl, yn y bennod hon. Tybia rhai fod cyhoeddiad yr angel cyntaf o'r tri, yn cyfeirio at y nawfed, y degfed, a'r unfed canrif ar ddeg: a ddiammau fod hyd yn nôd y pryd hwnw, rai tywysogion, esgobion, a chyngorau, a ymdrechasant yn erbyn addoli delwau, a'r arferion mwyaf gwrthun a ffiaidd eraill, o'r eiddo eglwys Rhufain. Eto cyd-weithredent yn gyffredin i gynnal awdurdod y bwystfil; er y mynent yn ddifrifol iddo gael ei arfer mewn modd gwahanol, o ran rhyw bethau. Pa fodd bynag, y rhai oeddynt wir gristionogion, ac yn dwyn eu tystiolaeth yn erbyn

llygredigaethau yr eglwys babaidd, pa un bynag ai yn y llŷs amherodrawl, ai yn y prif-gyngor eglwysig; (os gwnaed hyny erioed) gellir yn addas eu gosod hwy yn y nifer a enwyd uchod: (adn. 1.) oblegid mae yn amlwg fod yr angelion hyn yn arwyddo tystiolaethiad diweddarach, a mwy cyhoeddus a chyffredinol. Mae eraill, eto, debygid, yn gosod amser eu cyflawniad hwy yn rhŷ ddiweddar; ac felly yn gadael ypaid wag fawr iawn yn y rhestr o ddygwyddiadau a ragfynegir; ac yna yn pentŷru gormod o honynt i'r amseroedd gweddill. * Gan hyny, gallwn feddwl (ebai *Scott,*) fod yr angel, y genad, neu y cyhoeddwr cyntaf hwn, yn arwyddo y rhai hyny a ddyrchafasant faner y diwygiad gyntaf yn gyhoeddus; † y rhai a ehedasant megys yn nghanol y nef, gyda'r bywiogrwydd a'r cyflymdra mwyaf, ac megys goruwch pob rhwystrau daearol; ‡ gan dystiolaethau, pregethu, ac ymdrech o blaid yr "efengyl dragywyddol;" yr hen efengyl, yr hon oedd o'r dechreuad, ac yr hon sydd i bara byth yn ddigyfnewid, heb yr un arall i ddyfod yn ei lle nac ar ei hol. Tybir fod yr anrhydedd hwn wedi cael ei roddi i'r *Waldensiaid* a'r *Albigensiaid,* y rhai yr oedd y wir efengyl ganddynt; y rhai a addefasant yn gyhoeddus ei thragywyddol rwymedigaethau a'i rhagoroldeb hi; a'i dadleuasant hi yn wyneb pabau, cyngorau, a breninoedd erledigaethus; a dystiasant yn gyhoedd mai Anghrist oedd y Pab; a daenasant eu hathrawiaeth gyda gwresawgrwydd a llwyddiant; ac a gynnyddasant yn lliosog, i nifer dirfawr o eglwysi. Ac, wedi gwneuthur difrod annhraethol arnynt drwy erledigaethau a rhyfeloedd gwaedlyd, cadwodd y gweddill eu hathrawiaeth o hyd; ‖ a chwedi eu gwasgaru i wledydd eraill, dygasant yr "efengyl dragywyddol" gyda hwynt yn gyflym, fel angel, neu genadwr heddwch i ddynion, yn ehedeg yn nghanol y nef: § ac fel hyn, mae yn debyg, y cyfododd y Lollardiaid yn Lloegr; y Bohemiaid yn Bohemia, a'r gwledydd o amgylch; ac y cafodd llawer o wahanol wledydd, cenedloedd, llwythau, ieithoedd, a phobloedd eraill; ddysgu yr efengyl yn benaf drwyddynt a chanddynt hwy. Ïë, mae yn ymddangos i'r diwygiad mawr ei hun, darddu o'r had a hauasant hwy, ac a ddyfrasant âg afonydd o'u gwaed: mòr fanol gywir oedd y brophwydoliaeth, y byddai yr efengyl dragywyddol ganddynt hwy, i'w hefengylu i'r rhai oedd yn trigo ar y ddaear!—Efallai bod Ioan yn gweled megys llyfr, sef yr efengyl, yn llaw yr angel ehedawl uchod.

7 * Gan ddywedyd [b] â llef uchel, [c] Ofnwch Dduw, a [d] rhoddwch iddo ogoniant; † oblegid daeth [e] awr ei farn ef: [f] ‡ ac addolwch yr hwn a wnaeth y nef, a'r ddaear, a'r môr, a'r ffynhonnau dyfroedd.

b Es. 40. 3, 6, 9. a 44. 23. a 52. 7, 8. a 58. 1. Hos. 8. 1. c Gwel ar pen. 11. 18.—a 15. 4. a 19. 5. Gen. 22. 12. Salm 36. 1. a 89. 7. Preg. 12. 13, 14. d pen. 4. 9. a 16. 9. Jos. 7. 19. 1 Sam. 6. 5. Es. 42. 12. Mal. 2. 2. Luc 17. 18. e pen. 11. 18. a 18. 10, 17, 19. Ezec. 7. 2, 3, 6. Dan. 8. 19. Mat. 25. 13. Ioan 5. 25—29. 1 Pedr 4. 7. f pen. 4. 11. Ex. 20. 11. Neh. 9. 6. Salm 33. 6. a 95. 5. a 146. 5, 6. Diar. 8. 22—31. Jer. 10. 10—12. Act. 14. 15. a 17. 23—25.

* Yr oedd yr angel hwn hefyd yn galw yn uchel ar ddynion i ofni a gogoneddu Duw, † am fod awr ei farn ef ar ei elynion anghristiaidd wedi dyfod, neu yn nesâu yn agos ac yn brysur iawn: ‡ a galwai ar bawb i addoli Crëawdwr pob peth, fel y datguddid ef yn yr efengyl; trwy wrthod ymuno yn addoliad eilunod, ac addoliad y bwystfil a'i ddelw atgas.—Mae rhai duwinyddion da yn barnu, bod y brophwydoliaeth uchod yn cyfeirio bron yn unig at *Luther;* a thybiant fod amryw bethau yn ei sefyllfa ef, ei gymmeriad, a'i dystiolaeth, yn cyfateb yn nodedig iddi: ond nis gall *Scott* feddwl fod y tystiolaethau *cyhoeddus* yn erbyn y bwystfil *cyn* amser *Luther,* yn cael eu gadael yn hollawl heb eu crybwyll; ac nis gall efe feddwl fod neb rhyw *un dyn,* pa mòr *enwog bynag* y byddo, yn cael lle mòr gyhoedd-amlwg yn y brophwydoliaeth fèr hon. Llai o lawer y tybia efe fod yma gyfeiriad at y gwaith cenadol, sydd yn myned yn mlaen yn wresog a chlodfawr iawn yn yr amseroedd hyn; oblegid fod tystiolaeth yr angel, neu y cenadwr uchod, yn amlwg, yn erbyn *pabyddiaeth,* ac nid yn erbyn eilun-addoliaeth paganaidd; ac mae addoli saint ac angelion, a delwau o Dduw, yn gymmaint eilun-addoliaeth ag yw yr eiddo y paganiaid.

8 * Ac [g] angel arall a ddilynodd, † gan ddywedyd, [h] Syrthiodd, syrthiodd Babilon, y ddinas fawr honno; [i] ‡ oblegid hi a ddïododd yr holl genhedloedd ‖ â gwin [k] llid ei godineb.

g Gwel ar adn. 6. h pen. 16. 19. a 17. 5, 18. a 18. 2, 10, 11, 18—21. Es. 21. 9. Jer. 51. 8, 64. i pen. 17. 2—4. a 18. 3. a 19. 2. Jer. 51. 7. Ezec. 16. 15, &c. Nah. 3. 19. k pen. 13. 15—17. a 17. 6.

* Os deallwn ni yr angel cyntaf fel cyhoeddwr tòriad gwawr y diwygiad, yn y deuddegfed canrif, y trydydd ar ddeg, a'r pedwerydd ar ddeg; gallwn ddeall wrth yr ail hwn yn ddigon priodol, y Bohemiaid ac eraill yn y pymthegfed canrif, y rhai oeddynt hiliogaeth ac olynwyr diledryw y rhai a grybwyllwyd o'r blaen, dàn adn. 6. † Rhai o'r personau hyn, gyda mwy o hyfder a thaeredd byth, na'r *Albigensiaid,* a dystiolaethasant mai Rhufain oedd Babilon ysbrydol, neu gyfriniol, ac mai y Pab a'r eglwys ydoedd Anghrist; a dyoddefasant erlidiau llymion am y tystiolaethau hyn, ac am eu proffes o'r efengyl. John Huss a Jerom o Prague, yn enwedig, a losgwyd yn fradychus a chreulawn gan gyngorfa Constance; yr hwn gyngor, yn wir, ydoedd allu cyfunol yr holl fwystfil anghristiaidd. Cyhoeddodd yr herodron hyn syrthiad Babilon gyfriniol, fel y cyhoeddasai y prophwydi gynt syrthiad Babilon naturiol, *yn mhell cyn y dygwyddiad.* ‡ Ac nid oedd y farn hon ddim yn fwy sicr nag y byddai yn gyfiawn; gan iddi hi lygru a meddwi yr holl genedloedd, nid yn unig â ddïod-lyn cariad, fel putain hudolaidd; ‖ ond hefyd â gwin *llid* ei godineb, trwy ddychrynu dynion i eilun-addoliaeth, âg erledigaethau creulawn a ffyrnig.—"Ei *godineb:*" "ei *phuteindra*" ydyw yn ol y Saesoneg; ac fel hyn y sylwa *Scott:*—Gan fod Rhufain yn cael ei chrybwyll dàn yr enw a'r arwydd-lun o ddinas *Genedlig,* felly y gelwir ei heilun-addoliaeth hi yn *puteindra,* yn hytrach nac yn *odineb;* fel ei gelwir yn gyffredin yn yr ysgrythyr, pan ei cyflawnir gan y rhai a broffesant eu hunain yn addolwyr Duw. Ond ni thâl y feirniadaeth yna ddim yn ol y Gymraeg, nac yn ol y Groeg chwaith, mae yn debyg; oblegid mae y gair *porneia* yn ddïammau, yn cael ei gyfieithu yn aml yn mhob un o'r ddwy ffordd, *puteindra,* a *godineb* hefyd. Ac onid oedd eglwys Rhufain hefyd yn addoli Duw cyn iddi lygru mewn eilun-addoliaeth; ac yn proffesu hyny eto, er iddi ymlygru felly?

9 * A'r [l] trydydd angel a'u dilynodd hwynt, † gan ddywedyd â llef uchel, [m] ‡ Os addola neb y bwystfil, a'i ddelw ef, a derbyn *ei* nod *ef* yn ei dalcen, neu yn ei law;

l Gwel ar adn. 6—8.—Jer. 44. 4. m adn. 11.—Gwel ar pen. 13. 3—6, 11—17.

* Gellir deall y trydydd angel hwn, a'i gyhoeddiad â llef uchel, am *Luther,* a'i ardystiad croch, garw, a thanllyd, yn erbyn eilun-addoliaeth a llygredigaethau eglwys ac esgob Rhufain; yn nghyd â'r holl adeilad anghristiaidd hòno: eto rhaid i ni gymmeryd i mewn ei holl gyd-weithredwyr a'i olynwyr ef, yn nghyd â holl effeithiau eu tystiolaeth gydunol a pharâus hwynt, hyd y dydd heddyw, ac hyd yn nôd ar ol hyn. † Yr oedd ei lef ef, yn nghyd â'r rhai a godwyd i fynu mewn gwahanol wledydd i ymuno âg ef, ac i ddwyn yn mlaen yr ymgyrch o hyd, yn uchel iawn yn wir. Hwy a ymosodasant ar y bwystfil gyda llawer mwy o egni angerddol na y gwnaethai neb erioed o'u blaen hwynt. Nid yn unig hwy a'i cyhoeddasant ef yn Anghrist; ond hwy a ddygasant yn mlaen eu chwiliadau manol i eilun-addoliaeth anwireddau, a dichellion twyllodrus yr holl gyfun-drefn babaidd i gyd; a dangosasant ei bod yn hollawl anghydweddus â chrefydd yr ysgrythyrau, ac yn sylfaenedig ar annwybodaeth, gormes, cybydd-dod, a rhagrith. ‡ Sa

asant yn grŷf ar yr angenrheidrwydd o ymddidoli oddi wrth eglwys mòr llygredig, gan droi yn ol yn ŵrol y byhuddiad o gyfeiliorni a rhwygiad, yr hwn a ddygai y pabyddion yn eu herbyn hwy; a llawn brofent y cyhuddiad hwnw yn erbyn eu gwrthwynebwyr. Fel hyn tueddasant genedloedd cyfain i fwrw ymaith bob parch i eglwys Rhufain, ac ennillasant luoedd dirfawr i dystiolaethu yn erbyn pabyddiaeth fel crefydd *ddinystriol;* nid yn unig yn y gormeswyr erlidgar a'i cymhellent hi ar eraill, ond hefyd yn mhawb, a gydffurfient â hi, oddi ar egwyddorion llygredig, ac hyd yn nôd rhag ofn erledigaeth: a hyn yn gywir oedd swm cyhoeddiad y trydydd angel.—Am addoli y bwystfil, a'i ddelw ef, a derbyn ei nôd ef, &c., gwel ar adnodau diweddaf y bennod o'r iblaen.]

10 * Hwnnw *hefyd* [n] a ŷf o win digofaint Duw, yr hwn yn ddigymmysg a dywalltwyd [o] yn phïol ei lid ef; † ac efe a [p] boenir mewn tân a brwmstan [q] ‡ y'ngolwg yr angelion sanctaidd, || ac y'ngolwg yr Oen:

n pen. 16. 19. a 18. 3. Job 21. 20. Salm 11. 6. a 60. 3. a 75. 8. Es. 29. 9. a 51. 21, 22. Jer. 25. 15—17, 27. a 51. 57. o pen. 18. 6. Salm 73. 10. Es. 51. 17. Jer. 49. 12. Galar. 4. 21. Hab. 2. 16. Mat. 20. 22. a 26. 39. p pen. 9. 17, 18. a 19. 20. a 20. 10. a 21. 8. Gen. 19. 24. Deut. 29. 22. Job 18. 15. Salm 11. 6. Es. 30. 33. a 34. 9. Mat. 25. 41. Judas 7. q Salm 37. 34. a 52. 6. a 91. 8. Ezec. 20. 48. Mat. 13. 41, 42, 49, 50. 2 Thes. 1. 8, 9.

* Tystiai yr angel hwn yn grŷf "â llef uchel," pwy bynag a addolai y bwystfil a'i ddelw, gan broffesu athrawiaethau ffiaidd Anghrist, cyd-ffurfio â'i eilunaddoliaeth, cydsynio â'r greulondeb, a gweithredu yn ol ei egwyddorion ef; (wedi meddwi â gwin *llid* godineb y butain babaidd;) y byddai i'r cyfryw yfed hefyd o win digofaint Duw, yr hwn yn ddigymmysg a dywalltwyd yn phïol ei lid ef: hyn yw, y ca'i y cyfryw brofi o doster goruchwyliaethau barnol Duw, y rhai a osodir allan yn yr ysgrythyr yn aml, dàn y gymhariaeth hon o win, phïol, neu gwpan, ei ddigofaint ef. † Ië, y ca'i y cyfryw ei boeni mewn tân a brwmstan, neu ei fwrw i uffern, i'w boeni yn y ffiam hòno; ‡ ac y byddai hyn i gael ei wneyd yn ngolwg yr angelion sanctaidd, y rhai a ganmolent gyfiawnder y gospedigaeth, ac a orfoleddent yn niladeld eu Duw ar ei elynion; || ac yn ngolwg yr Oen, yr hwn a gyhoeddai ac a gyflawnai y ddedfryd ar y cyfryw, am wrthwynebu ei efengyl ef, ac am roddi ei ogoniant cyfryngol ef i saint ac angelion.

11 [r] * A mŵg eu poenedigaeth hwy sydd yn myned i fynu [s] yn oes oesoedd: [t] † ac nid ydynt hwy yn cael gorphwysdra ddydd na nos, ‡ y [u] rhai sydd yn addoli y bwystfil a'i ddelw ef, ac os yw neb yn derbyn nôd ei enw ef.

r pen. 18. 18. a 19. 3. Gen. 19. 28. Es. 33. 14. a 34. 10. Joel 2. 30. Luc 16. 23, 24. s pen. 4. 9, 10. a 5. 13, 14. a 7. 12. a 11. 15. a 20. 10. a 22. 5. Ex. 15. 18. Salm 10. 16. a 145. 1. Mat. 25. 41, 46. Heb. 1. 8. t Deut. 28. 65. Es. 57. 20, 21. Mat. 11. 28, 29. Marc 9. 43—49. Luc 16. 24, 25. u adn. 9. pen. 13. 15—18.

* Ac mòr ofnadwy oedd yr arddangosiad o gosp y troseddwyr uchod, fel y tybiai Ioan ei fod yn gweled mŵg y tân a'r brwmstan oedd yn eu poeni hwynt, yn esgyn i fynu yn ddibaid mewn tywyllwch cethin, megys o dân na ddiffoddid mo hóno yn oes oesoedd. Dywed *Scott* fod y geiriau a gyfeithir *yn oes oesoedd*, y rhai mwyaf grymus a ellir gael yn yr holl iaith Roeg, i arwyddo *tragywyddoldeb;* ac nas dichon fod unrhyw ystyr arall iddynt. Mae y geiriau gan hyny yn rhagddangos y modd crŷf ac eglur, yn mha un y tystiai ac y dadleuai y diwygwyr uchod yn erbyn y *purdan;* gan haeru yn gadarn, y ca'i yr annuwiolion eu poeni yn uffern byth: ac mae adnod ar ol hon (13) yn gwrthwynebu yr un athrawiaeth gyfeiliornus, trwy ddangos dedwyddwch union-gyrchol y credinwyr wedi marw. † Ac mae y trueiniaid uchod yn cael eu dangos yn yr ing chwerwaf, heb gael gorphwysdra, seibiant, nac esmwythder ddydd na nos, gan eu poenau dibaid a thragywyddol, mewn tân a brwmstan, dàn gyfiawn ddigofaint Duw a'r Oen. ‡ A hyn fydd rhan a thynged pawb oll, a roddant eu hunain i fynu i awdurdod y bwystfil anghristiaidd, dàn unrhyw ffurf o'i ymddangosiad; gan wneuthur proffes gyhoeddus o ufudd-dod ac ymroddiad iddo ef, fel pe byddai nôd ei enw ef yn argraffedig ar eu talcenau. Pwy yn wyneb yr adnodau hyn a ddadlau dros iachawdwriaeth y pabyddion, a'u hystyried fel y cyfryw?

12 * Yma y mae [x] amynedd y saint: [x] † yma [y] *y mae* y rhai sydd yn cadw gorchymynion Duw, a [z] ffydd Iesu.

x Gwel ar pen. 13. 10. y Gwel ar pen. 12. 17. z pen. 3. 8, 10. 2 Tim. 4. 7.

* Pan ddechreuodd y diwygwyr a grybwyllwyd uchod daenu eu hathrawiaeth yn gyhoeddus, a thystiolaethu yn erbyn Anghrist, codwyd erledigaethau dychrynllyd arnynt: o ba herwydd dywedir, Yma y mae amynedd a ffydd y saint. Caent ddigon o waith i arfer amynedd a pharâd ffyddiog, i ufuddâu i Dduw, a chadw athrawiaeth Crist, yn nghanol y rhywogaeth waedlyd o chwiliedyddion *(inquisitors)* ac erlidwyr, y rhai a gynneuent dânau ar y ddaear i'w harteithio a'u llosgi hwynt, er mai yn ofer y galwent am dân o'r nef i'w dinystrio; ac y rhai, trwy y creulonderau mwyaf dychryllyd, yn nghyd â rhyfeloedd a llofruddiaethau, a ddystrywiasant dorfêydd anghredadwy, wrth geisio attal cynnydd y diwygiad. † Yn yr ystormydd ofnadwy hyn, cafwyd gweled pwy oedd yn ffyddlawn i gadw gorchymynion Duw, a ffydd neu athrawiaeth Iesu, a phwy nid oedd. Gwel ar pen. 13. 10; ac ar pen. 12. 17.

13 * Ac mi a glywais [a] lef o'r nef, yn dywedyd wrthyf, [b] † Ysgrifena, [c] Gwŷn eu byd y meirw y rhai sydd yn [d] marw yn yr Arglwydd, o hyn allan, ‡ medd yr Ysbryd, || fel y [e] gorphwysont oddi wrth eu llafur; § a'u [f] gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt.

a pen. 11. 15, 19. a 16. 17. Mat. 3. 17. b pen. 1. 11. a 2. 1. a 10. 4. a 19. 9. a 21. 5. c pen. 20. 6. Preg. 4. 1, 2. Es. 57. 1, 2. 2 Cor. 5. 8. Phil. 1. 21—23. d Rhuf. 14. 8. 1 Cor. 15. 18. 1 Thes. 4. 14, 16. a 5. 10. e pen. 6. 11. a 7. 14—17. Job 3. 17—19. Es. 35. 10. a 57. 2. Luc 16. 25. 2 Thes. 1. 6, 7. Heb. 4. 9—11. f Salm 19. 11. a 85. 13. Mat. 25. 35—40. Luc 16. 9. 1 Cor. 15. 58. Gal. 6. 7, 8. Phil. 2. 17. 2 Tim. 4. 7, 8. Heb. 6. 10, 11.

* Er annog a chalonogi y saint i amynedd, mewn dyoddef dros y gwirionedd yn ffyddlawn hyd angau, dywedai Ioan iddo glywed llef o'r nef yn dywedyd wrtho, † "Ysgrifena, Gwŷn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd," sef yn ngwir ffydd a gobaith yr efengyl, (1 Thes. 4. 13—18.) "o hyn allan." ‡ Gwyddai yr apostol trwy argraffiadau tumewnol ar ei feddwl, fod y llef hon o'r nef oddi wrth yr Ysbryd Glân; || yr hwn a sicrâodd iddo ef fod y credinwyr wedi marw yn gorphwys yn ddedwydd oddi wrth eu llafur, ac o ganlyniad nad oedd iddynt yr un purdan i'w ofni; § a bod eu gweithredoedd yn eu canlyn hwynt, i brofi gwirionedd eu ffydd, ac i ddiogelu (nid haeddu) iddynt wobrwy grasol.—Dyryswyd llawer o ddehonglwyr yn fawr iawn gan yr adnod hon, o herwydd ei hystyr brophwydol a'i chyssylltiad hi: ond ar y cynllun yr ydym ni yn awr yn ei ganlyn, (ebai *Scott)* nis gall dim fod yn fwy eglur. Athrawiaeth y *purdan*, maddeuant pabaidd, haeddiant dynol i'w gwerthu gan yr eglwys, offerenau, a gweddiau dros y meirw; ydoedd un brif ffynon o elw, mawredd, ac awdurdod, i offeiriaid eglwys Rufain. Hyn hefyd a ddechreuodd gyffrôi ysbryd *Luther*, yr hwn a ddechreuodd ei ymosodiad drwy dystiolaethu yn erbyn yr arferion ysgeler hyn; ac, trwy chwilio yr ysgrythyrau, sefydlodd ef a'i ganlynwyr fel *gwirionedd sicr*, yn marn lluoedd dirifedi, nad oedd dim o'r fath le â phurdan yn bod; ond bod y rhai drygionus pan fyddont feirw, yn myned yn union-gyrchol i uffern, a'r credinwyr yn union-gyrchol i'r nef. Yn awr pa eiriau a allai yn fwy addas, ragfynegi y cyfnewidiad hwn yn meddyliau lliaws mawr o gristionogion proffesedig, nag y mae y geiriau uchod yn gwneyd? Mae yn amlwg oddi wrth amseryddiaeth tumewnol y llyfr, ac oddi wrth y gyfres

o ddygwyddiadau a ragfynegir, mai y diwygiad a feddylir yma; a gorchymynwyd i'r apostol ysgrifenu, yn union yn y fàn hon, (efallai nas gwyddai efe ar ba gyfrif,) "Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd, o hyn allan:" hyny yw, o'r amser hyn allan, bydd credinwyr yn gyffredin yn deall y gwirionedd cysur-fawr hwn; ac ni bydd raid iddynt mwyach ofni y purdan, nac ofni oediad ar eu dedwyddwch, pan ymafier ynddynt gan boenau angau, neu pan y galwer hwynt i ddyoddef merthyrdod er mwyn Crist. Yn wir, mae yn hysbys ddiammheüol, mai y dysgwyliad am ddedwyddwch *union-gyrchol*, oedd cynnaliaeth a llawenydd y lluoedd hyny, y rhai a losgwyd yn fyw, neu a ferthyrwyd mewn ffyrdd creulawn eraill, yn yr amser-oedd a ragfynegir yma. Gwneyd y trais mwyaf ar eiriau yr apostol, yw eu dehongli am unrhyw ystâd o'r eglwys ar y ddaear: rhaid bod marw yn yr Arglwydd, a bod yn union-gyrchol ddedwydd, yn cyfeirio at bersonau, ac at fyd arall.—*Y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd:* tybia rhai mai *merthyron* yn unig a feddyliai Ioan; ond mae yr adnod yn wirionedd am *bob credadyn*, pa fodd bynag y byddo farw: gwyn eu byd *pawb* sydd yn marw yn yr Arglwydd.—*O hyn allan:* sef o'r mynyd y byddont farw, heb fyned o gwbl i boenau y *purdan*, fel y dywedai y pabyddion: felly mae rhai yn deall y geiriau *o hyn allan;* eithr rhoddwyd golygiad arall gyda hyna arnynt, yn y sylwad blaenorawl.—*A'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt:* yn canlyn *gyda hwynt*, medd rhai, nid yn dyfod rai miloedd o flynyddoedd *ar eu hol* hwynt. Gwir yw hyna hefyd; ac mae pob peth yn yr adnod yn erbyn athrawiaeth y *purdan*, ac ystyrir hi felly gan y rhan fwyaf o dduwinyddion protestanaidd.

14 * Ac mi a edrychais; ac [g] wele gwmmwl gwŷn; † ac ar y cwmmwl *un* yn eistedd [h] tebyg i Fab y dyn, a ‡ chanddo ar ei ben [i] goron o aur, ‖ ac yn ei law [k] grymman llym.

g adn. 15, 16. pen. 1. 7. a 10. 1. a 20. 11. Salm 97. 2. Es. 19. 1. Mat. 17. 5. Luc 21. 27. h pen. 1. 13. Ezec. 1. 26. Dan. 7. 13. i pen. 6. 2. a 11. 17. a 19. 12. Salm 21. 3. Heb. 2. 9. k adn. 15—17. Joel 3. 12, 13. Mat. 13. 30. Marc 4. 29.

* Ar ol y weledigaeth flaenorawl, edrychodd Ioan drachefn, ac efe a welai gwmwl gwŷn dysglaer, † ac yn eistedd ar y cwmwl hwnw efe a welai yr Arglwydd Iesu, y Messïah ei hun, yr hwn oedd yn wir ddyn, ac yn cael ei alw yn aml yn Fab y dyn: ‡ ymddangosai iddo â phelydr o ogoniant ar ei ben, yr hyn a ellid ei alw yn "goron o aur," i arwyddo gogoniant ei berson, a'i lywodraeth freninol ef, fel Arglwydd pawb oll: ‖ a gwelai yn ei law ef megys cryman llym, y fath a ddefnyddia medelwr i fedi ŷd; yr hyn oedd yn arwyddo ei ddyfodiad ef allan yn ei gyfiawnder, i dòri i lawr ei elynion anghristiaidd.—Dywed *Scott* fod y "cwmwl gwŷn," yn arwyddo goruchwyliaethau sanctaidd, cyfiawn, a dirgeledig yr Arglwydd Iesu; bod ei "goron aur" yn arwyddo ei oruwch awdurdod ef; a'r "cryman llym" yn arwyddo ei ddïal ofnadwy ef ar ei elynion. Felly hefyd y dywed ein Hawdwyr eraill: ond mae rhai yn deall y *cryman*, y *medi*, a'r *cynhauaf*, mewn *ystyr dda;* am gasglu llawer o eneidiau i'w deyrnas gan y Cyfryngwr yn amser y *Diwygiad;* neu gasglu yr holl eglwys ato ei hun yn niwedd y byd. Mae yn debyg mai y dehongliad cyntaf sydd gywir. Gwel Joel 3. 13.

15 * Ac angel arall a [l] ddaeth allan o'r deml, gan [m] lefain â llef uchel wrth yr hwn oedd yn eistedd ar y cwmmwl, [n] † Bwrw dy grymman i mewn, a meda: ‡ canys daeth yr amser i ti i fedi; [o] ‖ oblegid addfedodd [p] cynhauaf y ddaear.

l adn. 17. pen. 16. 17. m pen. 6. 10. Es. 62. 1, 6, 7. n Gwel ar k. adn. 14. o Jer. 51. 33. Joel 3. 13. Mat. 13. 30, 39. p adn. 18. Gen. 15. 16. Zec. 5. 6—11. Mat. 23. 32. 1 Thes. 2. 16.

* Wrth yr angel arall hwn a ddaeth allan o'r deml, mae rhai yn deall gweddïau pobl Dduw o'r *eglwys*, yn deisyfu ar yr Arglwydd Iesu am ddïal ar Anghrist a'i ganlynwyr. *(Pool.)* Tybia eraill ei fod yn arwyddo gweinidogion yr efengyl, fel wedi eu danfon i gyhoeddi nesâd y barnedigaethau hyny. *(Scott.)* Angel arall yn dyfod allan o'r eglwys orfoleddus yn y nef, yr hon yw teml arbenig, a phreswylfa ogoneddusaf Duw; yn traddodi y gorchymyn oddi wrth Dduw i'r Arglwydd Iesu ar y cwmwl, am iddo dywallt barn gyfiawn ar yr holl weithredwyr anwiredd yn ddïoed. *(Guyse.)* Nid yw *Doddridge* yn dywedyd dim, pwy na pha beth a feddylir wrth yr angel arall hwn. † Tywallt farn gyfiawn, O dydi Genad galluog Duw, ar Anghrist a holl ddrwg-weithredwyr y ddaear; ‡ oblegid mae yn llawn bryd, yn ol mesur eu pechodau hwynt, ac yn ol amser pennodol Duw, i ti eu medi hwynt i lawr; ‖ canys mae trigolion drygionus y ddaear wedi addfedu i ddystryw, fel ŷd addfed yn amser cynhauaf, megis y dywedir am hen Babilon gynt. Jer. 51. 33.

16 * A'r hwn oedd yn [q] eistedd ar y cwmmwl [r] a fwriodd ei grymman ar y ddaear; † a'r ddaear a fedwyd.

q adn. 14. Mat. 16. 27. Ioan 5. 22, 23. r adn. 19. pen. 16. 1, &c.

* Gyda bod y llef uchod o enau yr angel, dyma yr hwn a eisteddai ar y cwmwl yn y fàn yn bwrw ei gryman llym ar y ddaear; † a medwyd lluoedd o drigolion y ddaear, fel y medir ŷd â chrymanau yn amser cynhauaf. Tybia rhai fod y brophwydoliaeth hon yn cyfeirio at yr ergyd mawr a roddes Crist i'r bwystfil, pan syrthiodd amryw genedloedd ymaith oddi wrth babyddiaeth, ac yr ymosodasant yn ei herbyn yn amser y *diwygiad;* yr hyn a fu golled a dychryn mawr i'r blaid anghristiaidd, ac a barodd ryfeloedd gwaedlyd, trwy y rhai y lladdwyd llaweroedd o honynt hwy: a gwnaeth Duw farn arnynt hwy a'u delwau, fel ar Babilon gynt. Jer. 51. 47, 52.

17 * Ac angel arall [s] a ddaeth allan o'r deml sydd yn y nef, † a chanddo yntau hèfyd grymman llym.

s adn. 14, 15, 18. pen. 15. 5, 6. a 16. 1.

* Ac fel y mae gan Grist bob offerynau yn ei law a thàn ei awdurdod er cyflawni ei ddigofaint, felly gweloodd Ioan angel arall drachefn, yn dyfod allan o bresenoldeb uniongyrchol Duw yn y deml nefol: † ac yr oedd gan hwn hefyd gryman llym, i arwyddo ei fod yntau yn cael ei ddanfon er cyflawniad pellach o ddigofaint, fel offeryn yn llaw Crist, ac yn ol ei orchymyn a thrwy ei allu ef. Tybia rhai mai gweinidogion Duw, a'i air ef yn eu genau, "yr hwn sydd yn llymach nac un cleddyf dau-finiog," yw yr angel hwn, neu a arwyddir ganddo. Diammau mai Crist oedd y cyntaf â'r cryman llym yn ei law; (adn. 14.) ac yma ei weinidogion yn canlyn i gyhoeddi y farn hòno, neu ryw farn arall ar ei hol hi: nid oes yr un o'n Hawdwyr yn rhoddi nemawr o oleu ar yr adnod hon, yn amgen nag y sylwyd uchod.

18 * Ac angel arall [t] a ddaeth allan oddi wrth yr allor, [u] † yr hwn oedd â gallu ganddo ar y tân; [x] ‡ ac a lefodd â bloedd uchel ar yr hwn oedd â'r crymman llym ganddo, ‖ gar ddywedyd, Bwrw i mewn dy grymman llym, a chasgl ganghennau gwinwydden y ddaear; § oblegid [y] addfedodd ei grawn hi.

t pen. 6. 9, 10. u pen. 16. 8. x Gwel ar adn. 15, 16. y Gwel ar p. adn. 15.

* Yma gwelai Ioan drydydd angel, yn dyfod allan oddi wrth allor y poeth-offrwm, tân yr hon, drwy ysu yr aberthau, oedd yn arwyddo cyfiawnder Duw, † yr hwn yr oedd yr angel hwn wedi ei awdurdodi i'w gyhoeddi. ‡ Ac, mewn canlyniad i'r awdurdod hwnw a roddwyd iddo, efe a lefodd â bloedd uchel, daer, ac awdurdodol, ar yr angel oedd â'r cryman llym ganddo, yn arwydd ei fod wedi ei arfogi i ddïal; ‖ gan ddywedyd, "Bwrw dy gryman llym," neu, Dos rhagot, i dywallt dïaledd pellach ar Anghrist a'i bleidwyr; y rhai y gellir dywedyd am danynt fel am Israel eilun-addolgar gynt, mai "o win-wydden Sodom, ac o faesydd Gomorra, yr oedd eu

gwin-wydden hwynt: eu grawn-win hwynt oedd rawn-win bustlaidd; a grawn-sypiau chwerwon oedd iddynt." (Deut. 32. 32.) Tòr hwynt ymaith, fel y tòrir sypiau grawn oddi ar y win-wydden â chryman llym, yn amser y cynhauaf gwin; § oblegid addfed ydynt, wedi eu cymhwyso eu hunain i ddinystr cyfiawn, fel y mae gwin-rawn addfed yn gymhwys i'w tòri ymaith, ac i'w sathru a'u gwasgu yn y gwin-wryf, neu y gwin-gafnau.—Tybia rhai fod yr addfedrwydd uchod i'w ddeall am addfedrwydd i *ddychwelyd*, yn gystal ag am addfedrwydd i *ddinystr:* ond mae diwedd yr adnod nesaf yn dangos yn eglur, mai y peth olaf a feddylir. Ac, yn wir, pa bryd y mae pechaduriaid, yn enwedig deiliaid Anghrist, yn addfed i ddychwelyd at Dduw o honynt eu hunain?

19 * A'r angel a fwriodd ei grymman ar y ddaear, † ac a gasglodd winwydden y ddaear, [z] ‡ ac a'i bwriodd i gerwyn fawr digofaint Duw.

z pen. 19. 15—21. Deut. 32. 32, 33.

* Yn y fàn gyda bloedd uchel yr angel, (adn. 18.) gwelai Ioan yr hwn oedd â'r cryman llym ganddo, yn ei fwrw ef yn nerthol ar y ddaear; † ac yn casglu gwinwydden y ddaear, (gwel ar adn. 18.) ‡ ac yn ei bwrw i gerwyn fawr digofaint Duw. Diammau fod cyfeiriad yn hyn at y gwin-wryfau, lle byddid yn gwasgu y grawn-win yn ngwledydd y dwyrain; a bod y geiriau yn rhag-ddangos y barnau trymion a dychrynllyd a ddaw ar Anghrist a holl elynion Duw, ei achos, a'i bobl. Gwelwn ymadroddion cyffelyb, ac yn arwyddo barnau cyffelyb, yn yr Hen Destament. Esa. 63. 2—4; Galar. 1. 15.—*Cerwyn:* gwin-wryf *(wine-press)* yw yn y Saesoneg: a gwin-wryf, medd *Parkhurst*, yw ystyr y gair Groeg *(lênon)* a ddefnyddir yn y fàn hon. Rhaid ei bod yn "gerwyn fawr," o herwydd y lliaws dirfawr a sethrir gan Grist y pryd hwnw, yn ei ddig a'i lidiowgrwydd. Gwareded ni yn ei anfeidrol ras, rhag myned i'r gerwyn hon!

20 * A'r [a] gerwyn a sathrwyd [b] † o'r tu allan i'r ddinas; ‡ a [c] gwaed a ddaeth allan o'r gerwyn, || hyd at ffrwynau y meirch, § ar hyd mil *a* chwe chant o ystadau.

a Es. 63. 1—6. Galar. 1. 15. b pen. 11. 8. Heb. 13. 12. c pen. 19. 15—21. Es. 34. 5—7. a 66. 24. Ezec. 39. 17—21.

* Gwelai Ioan sathru gwin-wydden y ddaear, sef Anghrist a holl elynion Crist, yn y gerwyn fawr uchod, † o'r tu *allan* i'r ddinas; i arwyddo bod y rhai a sethrid felly allan o'r wir eglwys ar y ddaear, ac i fod dàn ddigofaint Duw allan o'r nefoedd byth. Tybia Anghrist mai efe a'i blaid yw yr unig wir eglwys, ac mai hwy yn unig a gânt fyned i'r nef; ond ŷma dywedir mai o'r tu *allan* i'r ddinas y byddent yn cael eu sathru byth yn ngherwyn fawr digofaint Duw. Y cyflawniad yn unig o'r brophwydoliaeth hon, a ddengys pa beth fydd sathru y gelynion o'r tu allan i'r ddinas. ‡ Yn y sathrfa ofnadwy hon, gwelai Ioan megys gwaed yn dyfod allan o'r gerwyn, yn debyg fel y byddai nôdd y grawn-win yn dyfod allan pan wasgid hwynt yn y gwin-wryf, neu y sathrid hwynt yn y gwin-gafn: eithr *gwaed* ydoedd, ac nid gwin; i arwyddo celanedd ddirfawr mewn brwydr ddychrynllyd gan wŷr meirch; || ac y fath lifeiriant o hóno, fel yr oedd yn cyrhaedd hyd at ffrwynau y meirch hyny; § ac yn ymdaenu ar hyd mil a chwe' chant o ystâdau, neu ddau can' milltir, yr hyn yw hyd cymhwys y llywodraeth babaidd yn *Italy*, medd ein Hawdwyr. Yn y farn sydd i ddyfod ar Anghrist, efallai y bydd i'r holl wlad hòno, prif orsaf y bwystfil, gael ei gorllifo â gwaed, yn y modd mwyaf dychrynllyd, yr hyn a ddysgrifir yma mewn gorwirdeb arswydus. Tybia rhai duwinyddion diweddar yn benderfynol iawn, bod yr ymladdfeydd gwaedlyd a fu rai blynyddoedd yn ol yn Ffrainc ac ar y Cyfandir, yn gyflawniad o'r brophwydoliaeth am y "cynhauaf;" (adn. 15, 16.) ond bod tòri, casglu, a sathru y win-wydden, i ddyfod eto: ac nid yw *Scott* yn ammau dim, na wêl ein hiliogaeth yn eglur, fod y prophwydoliaethau uchod wedi dechreu cael eu cyflawni yn y dygwyddiadau gwaedlyd a dinystriol a enwyd. Ond tybia efe ar yr un pryd, nas gellir barnu dim yn benderfynol eto am y mater; a thybia fod dialedd trymach, a mwy cyffredinol, ar *holl* deyrnasoedd y bwystfil, i'w ddeall wrth y cynhauaf, nâ dim a fu eto; yn gystal â barn mwy ofnadwy byth, i'w ddeall wrth gynhauaf y win-wydden. Pa bryd, a pha fodd bynag, mae deall am gyflawniad y brophwydoliaeth; mae mòr sicr o gael ei chyflawni, â bod cynhauaf ŷd a gwinwydd yn dyfod yn eu tymmorau priodol.

PEN. XV.

Y saith angel a'r saith bla.

[a] * AC mi a welais arwydd arall yn y nef, mawr a rhyfeddol; [b] † saith angel ‡ a chanddynt [c] y saith bla diweddaf: || oblegid ynddynt hwy [d] y cyflawnwyd llid Duw.

a pen. 12. 1—3. Dan. 4. 2, 3. a 6. 27. b adn. 6. pen. 8. 2, 6. a 10. 3. a 16. 1—17. a 21. 9. Marc 13. 41, 42, 49, 50. c pen. 8. 13. a 11. 14. a 16. 17—21. a 17. 1. d adn. 7. pen. 14. 10, 19. a 16. 19. a 19. 15. Dan. 12. 6, 7, 11, 12.

* Ar ol y gweledigaethau blaenorawl, y rhai a roddasant i Ioan olwg gyffredinol ar y barnau oedd i ddyfod ar y bwystfil anghristiaidd, efe a welodd yma weledigaeth arall, rag-ddarparol i gyflawniad y barnedigaethau eu hunain, y rhai yn eu trefn oedd i ddechreu, dwyn yn mlaen, a gorphen ei ddystryw ef. I'r dybeu hyn efe a welai arwydd mawr a rhyfeddol yn y nef; † sef saith angel, fel gweinidogion, neu offerynau dial Duw; ‡ y rhai oedd wedi cael eu danfon i dywallt y saith blâ diweddaf, neu y saith farn dost ddiweddaf, y rhai oedd i syrthio ar Anghrist, nes ei lwyr ddinystrio ef. || Oblegid yr oedd yr holl lid, a gyfiawn benderfynodd Duw ei dywallt, ar yr anwir eilun-addolgar ac erledigaethus hwnw, yn gynnwysedig yn y saith blâ hyn, i wneuthur llwyr ddiwedd arno, ac ar holl elynion Crist a'i eglwys. Felly y dywed *Guyse*, bron air yn air, ar yr adnod hon, ac âg ef y cytuna ein Hawdwyr oll.

2 * Ac mi a welais megis [e] môr o wydr, [f] † wedi ei gymmysgu â thân; ‡ a'r rhai oedd [g] yn cael y maes ar y bwystfil, || ac ar ei ddelw ef, ac ar ei nôd ef, *ac* ar rifedi ei enw ef, [h] § yn sefyll ar y môr gwydr, [i] a thelynau Duw ganddynt.

e pen. 4. 6. a 21. 18. f Es. 4. 4. Mat. 3. 11. 1 Pedr 1. 7. a 4. 12. g pen. 11. 11, 12. a 12. 11. a 13. 14—18. a 14. 1—5. h Ex. 14. 30, 31. i Gwel ar pen. 5. 8. a 14. 2.—a 19. 1—7.

* Ond cyn i Ioan weled tywallt y barnau uchod, mae yn crybwyll gweledigaeth rag-arweiniol, yr hon oedd yn arddangos iddo lawenydd a gorfoledd yr eglwys ar yr achlysur hwnw. Efe a welai megys môr o wydr, rhyw lestr mawr Crisialaidd, (medd *Doddridge* a *Guyse)* tebyg i'r môr tawdd yn nheml Solomon; † ac yn ymddangos megys wedi ei gymmysgu â thân, fel yr oedd hwnw gan oleuni y lampau yn adlewyrchu arno. Tybia eraill fod yma gyfeiriad at y mòr coch, yr hwn oedd wedi ceulo fel iâ, neu wydr, pan aeth Israel drwyddo, ac yn ymddangos megys wedi ei gymmysgu â thân, gan adlewyrchiad y golofn dân arno. Ond pa un bynag a oes cyfeiriad at y naill neu y llall o'r pethau uchod ai peidio, y pwnc mwyaf yw, pa beth sydd i'w ddeall wrth y môr o wydr hwn; ac am hyn y mae gwahanol dybiau gan wahanol ddynion. Tybia rhai mai yr *eglwys* a feddylir, wedi ei chasglu o blith yr holl genedloedd; ac ei bod yn debyg i wydr a thân, o herwydd ei dysgleirdeb a'i gogoniant. Tybia eraill mai y *byd* a feddylir; ac ei fod o wydr i ddangos ei freuolder, ac i ddangos y gwêl Duw drwyddo; ac ei fod wedi ei gymmysgu â thân profedigaethau ac erlidiau i'r saint, ac â thân barnedigaethau i'r annuwiol. Barna *Pool* mai y *nef* a feddylir, yn ddysglaer a llachar fel gwydr a thân; oblegid dywedir am y môr hwn fel lle y saint wedi eu gogoneddu, (medd efe) y rhai a gawsant y

maes ar y bwystfil. Tybia *Guyse* ei fod yn arwyddo purdeb difrycheulyd, ac effaith gwaed cymmodawl a chyfiawnder Crist, trwy yr hyn y dyhuddodd efe ddigofaint tanllyd cyfiawnder Duw; ac ar yr hyn fel sylfaen gref ogoneddus, mae yr holl saint yn sefyll mewn gorfoledd buddugoliaethus, yn berffaith gymmeradwy ger bron Duw. Nid yw *Doddridge* yn dywedyd dim, ond bod yma gyfeiriad at y môr tawdd yn y deml gynt, fel y sylwyd eisoes. Tybia *Scott* ei fod yn arwyddo yr amseroedd tymhestlog, yn y rhai yr oedd credinwyr y pryd hwnw yn byw; natur lithrig a breuawl eu sefyllfa a'i ystyried ynddi ei hun; a'r profedigaethau tanllyd oeddynt hwy yn ddyoddef. ‡ "A'r rhai oedd yn *cael y maes* ar y bwystfil:" y "rhai a *gawsant y fuddugoliaeth* ar y bwystfil," yw y Saesoneg. *Ek tou thêriou* yw y geiriau Groeg, a chyfieitha rhai hwynt *allan o ganol y bwystfil;* hyny yw, y rhai oedd yn glŷnu yn ddïysgog wrth y wir grefydd, *yn nghanol* cenedlaeth eilun-addolgar a llygredig. || Am ddelw, nôd, a rhifedi enw y bwystfil, sylwasom o'r blaen: gwel ar pen. 13. 14—18. § *Epi* yw y gair a gyfieithir *ar* yn y fân hon, a dywed rhai y gellid ei gyfieithu *wrth* yn gystal; sef *wrth,* neu *ar lân,* y môr gwydr, fel yr oedd Israel yn sefyll ar lân y môr coch gynt, yn canu am eu gwaredigaeth, ac am foddi yr Aiphtiaid eu gelynion.—Tybia rhai mai yr eglwys yn y nef, ac eraill mai yr eglwys ar y ddaear, a feddylir wrth y weledigaeth uchod: tybia rhai mai rhyw lestr, tebyg i'r môr tawdd, oedd y môr a welodd Ioan; tybia eraill mai *môr,* yn ystyr helaeth a phriodol y gair a welodd: tybia rhai mai *ar* y môr y gwelodd efe y saint yn sefyll; a thybia eraill mai *wrth,* neu *ar lân* y môr, a ddylem ddeall. Fel hyn mae gwahanol Awdwyr, a'n Hawdwyr ninnau hefyd, yn amrywio yn eu barn am y pethau uchod.—Cawsom fôr o wydr o'r blaen: gwel ar pen. 4. 6.

3 * A chanu y maent [k] gân Moses [l] gwasanaethwr Duw, [m] † a chân yr Oen; gan ddywedyd, [n] ‡ Mawr a rhyfedd *yw* dy weithredoedd, [o] *O* Arglwydd Dduw Holl-alluog; [p] || cyfiawn a chywir *yw* dy ffyrdd di, [q] § Brenhin y saint.

k Ex. 15. 1—18. l Gwel ar Deut. 34. 5.—1 Cron. 6. 49. 2 Cron. 24. 6. Neh. 9. 14. Dan. 6. 20. a 9. 11. Ioan 1. 17. Heb. 3. 5. m pen. 5. 9—13. a 7. 10, 11. a 14. 8. n Ex. 15. 11. Job 5. 9. Salm 78. 12. a 105. 5. a 111. 2. a 118. 22, 23. a 139. 14. a 145. 6. Dan. 4. 2, 3. o Gwel ar pen. 4. 8. a 11. 17. Gen. 17. 1. p pen. 16. 5—7. a 19. 2. Deut. 32. 4. Salm 85. 10, 11. a 99. 4. a 100. 5. a 145. 17. Es. 45. 21. Hos. 14. 9. Mica 7. 20. Zeph. 3. 5. q Es. 9. 6, 7. a 32. 1, 2. a 33. 22. Zec. 9. 9.

"Telynau Duw," yn yr adnod o'r blaen, oeddynt y telynau mwyaf rhagorol, neu delynau sanctaidd; ac yn arwyddo calonau wedi eu tymheru â llawenydd, cariad, a theimladau gwir ddïolchgar y cantorion i Dduw, am ei drugaredd iddynt. * Am hyny, gan eu bod yn teimlo sicrwydd sanctaidd o'u dïogelwch eu hunain, a gorfoledd buddugoliaethus yn yr olwg ddysgwyliadol o ddinystr eu herlidwyr; hwy a ganasant gân Moses gwasanaethwr Duw: hwy a glodforasant yr Arglwydd am eu gwaredigaeth, fel y gwnaethai Israel wrth orchymyn Moses, ac â chân Moses, ar lân y môr coch; † a hwy a ganasant hefyd gân yr Oen, sef y ganiad newydd y sylwyd arni o'r blaen. (Gwel ar pen. 5. 8—10; a 7. 9—12; a 14. 1—3.) Efallai bod "cân Moses" yn arwyddo mawl am waredigaethau tymmorawl a rhagluniaethol, a "chân yr Oen" yn arwyddo mawl am yr iachawdwriaeth fawr ysbrydol trwy ei waed ef. Dywedir y byddid yn canu cân Moses (Exod. 15. 1—19) bob dydd yn ngwasanaeth y deml: ac efallai fod cyfeiriad at hyny yma, gyda chwanegiad o gân yr Oen at hyny, fel yn fwy rhagorol o ran ei hachos a'i thestyn, nâ chân Moses. Mae y ddwy gân hefyd, efallai, yn cyfeirio at y ddwy oruchwyliaeth, yr eiddo Moses a Christ, ac at ddwy ystâd yr eglwys, ar y ddaear ac yn y nef. ‡ Fel hyn yr oeddynt yn clodfori mawrion a rhyfedd weithredoedd Duw, yn ei ragluniaeth a'i ras, yr hwn yw Hollalluog Arglwydd pawb oll; || a chyfiawnder cywir a ffyddlawn ei holl ffyrdd ef, tuag at ei elyn ion yn ei farnau cyfiawn, a thuag at ei bobl yn e waredigaethau ffyddlawn. § Clodforent yr "Arglwydd Dduw Hollalluog" hwn, fel yr oedd yn Nghrist Iesu yr "Frenin y saint;" yn Amddiffynydd, Dyddanydd Llywydd, a Rhan ei holl bobl brynedig.

4 [r] * Pwy ni'th ofna di, O Arglwydd, [s] ac *ni* ogonedda dy enw? † oblegid [t] *tydi* yn unig *wyt* sanctaidd: ‡ oblegid [u] yr holl genhedloedd a ddeuant ac a addolant ger dy fron di; oblegid [x] dy farnau di a eglurwyd.

r Salm 89. 7. Es. 60. 5. Jer. 5. 22. a 10. 7. Hos. 3. 5. Luc 12. 4, 5. s Salm 22. 23. a 86. 9. Es. 24. 15. a 25. 3. Rhuf. 15. 9. 2 Thes. 1. 10—12. t pen. 3. 7. a 4. 8. a 6. 10. 1 Sam. 2. 2. Salm 22. 3. a 99. 5, 9. a 111. 9. Es. 6. 3. a 57. 15. Hab. 1. 12. 1 Pedr 1. 16. u pen. 11. 15. Salm 22. 27. a 86. 9. a 117. Es. 66. 18—20. Jer. 16. 19. Zec. 2. 11. a 8. 20—23. a 14. 15. Mal. 1. 11. x pen. 16. 7. a 19. 2. Salm 97. 8. a 105. 7. Es. 26. 9.

* Yn yr ystyriaeth uchod o fawredd, cyfiawnder, a ffyddlondeb Duw, mae y cantorion hyn yn gofyn, Pwy nid ofnai, a phwy ni ddylai ofni, addoli, rhyfeddu, a gogoneddu enw yr Arglwydd mawr; † gan mai efe yn unig sydd sanctaidd: yn hanfodol, yn berffaith, ac yn anfeidrol felly ynddo ei hun, ac felly hefyd yn ei holl arfaeth a'i weithredoedd. (Salm. 145. 17.) Am hyny, nid oedd addoli eilunod, na'r enwau cabledd, a ddefnyddid gan y bwystfil a'i ddelw, i'w goddef mewn un modd mwyach; ‡ oblegid yr oedd yr amser wedi dyfod, yn yr hwn yr oedd yr holl genedloedd i ddyfod ac i addoli ger bron yr Arglwydd, yr unig a'r gwir Dduw: || oblegid ei farnau ef ar Anghrist a'i holl elynion, oeddynt wedi eu hegluro mewn rhan eisoes, ac i gael eu hegluro fwy-fwy o hyd yn fuan iawn; yr hyn oedd ddangosiad amlwg, i bawb a sylwent yn ddyledus ar weithredoedd dychrynllyd ei law ef, ei fod yn cymmeryd plaid ei bobl yn erbyn eu gelynion; ac a fyddai yn foddion i ddarostwng yr holl genedloedd, i ddyfod ac addoli ger ei fron ef, i gydnabod Crist a'i wirionedd, ac i ymostwng yn ostyngeiddiaf iddo.

5 * Ac ar ol hyn mi a edrychais; † ac wele, [y] yr ydoedd teml pabell y dystiolaeth yn y nef yn agored:

y Gwel ar pen. 11. 19. Ex. 25. 21. Num. 1. 53. Mat. 27. 51.

* Ar ddiwedd y gân uchod, cafodd Ioan weledigaeth drachefn, yr hon a'i harweiniodd yn mlaen at yr olygfa o'r barnedigaethau oedd i gael eu tywallt yn eu trefn. † Ac fel yr oedd y Sancteiddiolaf yn y babell a'r deml, yn nghyd âg arch y dystiolaeth, y drugareddfa, a'r cerubiaid rhwng y rhai y preswyliai Duw, yn weledig pan elai yr arch-offeiriaid i mewn i'r Sancteiddiolaf; felly tybiai Ioan iddo weled y nef yn agored, yr hyn a roes iddo olwg ar orsedd ogoneddusaf Duw, ac ar holl arwyddion ei ewyllys da ef i'w wir addolwyr; i ddangos iddo, megys y byddai atebion yn dyfod i ofyniadau, oddi ar y drugareddfa gynt; felly bod Duw yn awr yn myned i ateb gweddïau yr eglwys, yn ei gwaredigaeth hi oddi wrth ei gelynion anghristiaidd. *Guyse.*—Yr oedd ymddangosiad y gogoniant ar y drugareddfa yn y Sancteiddiolaf, "teml pabell y dystiolaeth yn y nef," yn arwydd o ymddangosiad Duw yn y nefoedd fel mewn cymmod â phechaduriaid, yn a thrwy Iesu Grist. —*Scott.*

6 * A daeth [z] y saith angel, y rhai yr oedd y saith bla ganddynt, allan o'r deml, [a] † wedi eu gwisgo mewn llïan pur a disglaer, a gwregysu eu dwyfronau â gwregysau aur.

z Gwel ar adn. 1. a Gwel ar pen. 1. 13.—Ex. 28. 5—8. Ezec. 44. 17, 18. Luc 24. 4.

* Am y saith blâ gwel ar adn. 1: yr oedd dyfodiad y saith angel (am y rhai gwel ar yr adnod flaenaf hefyd) allan o'r deml, yn dangos y byddai i'r barnau hyny gael eu tywallt ar elynion yr eglwys, mewn trugaredd i bobl Dduw; † tra yr oedd gwisgoedd llïan pur a dysglaer, a gwregysau auraidd y gweinidogion barnol hyn, yn arddangos eu sancteiddrwydd hwynt, yn nghyd â chyf-

wiawnder ac ardderchawgrwydd y goruchwyliaethau arswydlawn hyn. Tybir fod yma gyfeiriad at wisgoedd yr arch-offeiriaid gynt, pan elent i mewn i'r sancteiddiolaf i ymofyn â Duw, a phan ddeuent allan âg ateb uDuw i'r bobl. Lefit. 16. 2—4. Gwel hefyd dàn y cyfeirdiad *a*.

7 [d] * Ac un o'r pedwar anifail a roddodd i'r saith angel [c] saith phïol aur, † yn llawn o ddigofaint Duw, [d] ‡ yr hwn sydd yn byw yn oes oesoedd.

b Gwel ar pen. 4. 6—9. c pen. 5. 8. a 16. 2, &c. a 17. 1. a 21. 9. Salm 75. 8. Jer. 25. 15. d Gwel ar pen. 4. 9. a 10. 6. 1 Thes. 1. 9.

* Am y pedwar anifail, neu y pedwar peth byw, gwel ar pen. 4. 6—8. Dywedwyd yno mai arwydd-luniau o weinidogaeth, neu weinidogion yr efengyl, oeddynt: ac mae bod un o honynt yma yn rhoddi y saith phïol aur i'r saith angel, yn arwyddo, y byddai pregethiad y gwirionedd yn offerynol i ddwyn y barnedigaethau, y rhai a ysgrifenwyd, ar y gwrthwynebwyr anghristiaidd. Phïolau oeddynt lestri gwyneb agored, o aur, gwydr, neu o ryw ddefnyddiau eraill, i yfed o honynt; a dywedir fod y rhai hyn o *aur*, i ddangos mawredd Duw yr hwn a'u pïodd, ac ardderchawgrwydd y moddion a ddefnyddiai efe i gyflawni ei amcanion. † Ond er bod y phïolau o aur, eto eu cynnwysiad oedd blâau chwerwon marwol: yr oeddynt yn llawn o ddigofaint Duw, i'w yfed at, ac i'w dywallt ar, y bwystfil, sef Anghrist, a'i holl bleidwyr, a holl elynion Duw a'i eglwys. ‡ A dywedir fod y Duw hwn yn byw yn oes oesoedd, i dywallt ei gyflawn farnedigaethau, y naill ar ol y llall, nes llwyr ddinystrio ei holl elynion.

8 [e] * A llanwyd y deml o fŵg [f] † oddi wrth ogoniant Duw, ac oddi wrth ei nerth ef; [g] ‡ ac ni allai neb fyned i mewn i'r deml, [h] nes darfod cyflawni saith bla y saith angel.

e Ex. 40. 34. 1 Bren. 8. 10. 2 Cron. 5. 14. Salm 18. 8—14. Es. 6. 4. f 2 Thes. 1. 9. g Jer. 15. 1. Galar. 3. 44. Rhuf. 11. 33. h Gwel ar adr. 1.

* Y deml yw yr eglwys fel y mae teml yn arwyddo yn gyffredin yn y llyfr hwn: felly y dywed *Pool*, ond barna *Guyse* mai y nef a feddylir yn y weledigaeth hon i gyd. Yn ol golygiad *Pool*, yr oedd y mŵg yn llenwi y deml yn arwyddo terfysgoedd a thrallodau; tywyllwch y goruchwyliaethau hyny, (medd *Scott*) a'r dychryn a orchuddiai elynion Duw, pan fyddai y plâau hyn yn eael eu tywallt arnynt. † Yr oedd y mwg uchod yn deilliaw oddiwrth yr amlygiad ofnadwy ogoneddus o allu a mawredd Duw, yn ei waith yn dwyn dinystr ar Anghrist, yr hwn oedd wedi cyd-blethu ei achos â'r llywodraeth wladol mewn amryw deyrnasoedd, fel nad oedd modd i'w ddiwreiddio ef allan, heb ysgydwad ofnadwy yn holl barthau y ddaear, lle y gwreiddiodd efe. ‡ Fel hyn nis gallai un ran o'r eglwys gael llonydd, nes i Dduw gyflawni dinystr Anghrist drwy y plâau hyn; ac nis gellid dysgwyl un ystâd o dawelwch iddi, hyd oni chyflawnid y gwaith mawr hwn. *Pool.*—Mae yn bur debygol hefyd, y bydd i'r un barnau a ddefnyddir i ddinystrio Anghrist a gelynion yr eglwys, gael eu defnyddio ar yr un pryd i buro, hyd yn nôd y rhanau llai llygredig o'r eglwys; ac y bydd i eglwysi Protestanaidd proffesedig gael yfed o'r un cwpan âg Anghrist, yn ol y mesur a osodont, ac a ddadleuont dros, ddefodau ac arferion anysgrythyrol, ac yn ol y gradd a esgeulusont o wirioneddau a dyledswyddau ysgrythyrol yn yr eglwysi hyny. Efallai fod "myned i mewn i'r deml" yn arwyddo ystâd ddedwydd y wir eglwys wedi diwygio; yr hyn ni ddechreua, hyd nes trwy yr un goruchwyliaethau arswydus, y dinystrier gelynion gwrthnysig; ac y purer cristionogion claiar, ffurfiol, a choel-grefyddol. Fel hyn, wedi carthu ymaith bob peth anysgrythyrol o bob eglwys; a'u dwyn oll i burdeb, undeb, ac ysbrydoldeb; mewn addoliad, athrawiaeth, dysgyblaeth, ac ymarferiad; caiff yr eglwys oll ei sefydlu yn gadarn ac yn ddedwydd.—*Scott. Llanwyd y deml o fwg oddi wrth ogoniant Duw:* mae yn ddïammau bod yma gyfeiriad at yr hyn a ddygwyddodd pan gymmerodd Duw feddiant gyntaf o'r babell a'r deml: (Exod. 40. 34; 1 Bren. 8. 10; 2 Cron. 5. 14; Isa. 6. 4:) a sylwa *Doddridge* ei fod yn beth rhyfeddol, ac yn deilwng o ystyriaeth mwy nag a wnaed o hóno yn gyffredin; fod y Duw bendigedig fel hyny ar gyssegriad y deml, yn ei meddiannu hi *ei hunan*, ac megys yn gỳru allan, hyd yn nôd yr *arwyddion* daionus o'i bresenoldeb mawreddig.—Dywedwyd o'r blaen mai y *nef* yw y deml gan *Guyse:* ac yn ol ei ddehongliad ef o ddiwedd yr adnod, nid allai neb fyned i mewn i'r deml, y nef, yn eu gweddïau, i geisio attal y farn ar Anghrist, nes dar fod cyflawni yr holl blâau, gan bob un o'r angelion, arno ef.

PEN. XVI.

Tywalltiad y phïolau.

[a] * AC mi a glywais lef uchel † allan o'r deml, ‡ yn dywedyd wrth [b] y saith angel, ‖ Ewch ymaith, [c] a thywelltwch phïolau digofaint Duw § ar y ddaear.

a pen. 14. 15, 18. a 15. 5—8. b Gwel ar pen. 15. 1, 6 c adn. 2—12, 17. pen. 14. 9—11. a 15. 7. 1 Sam. 15. 3, 18. Ezec. 9. 5—8. a 10. 2. Mat. 13. 41, 42.

* Gwedi i'r saith angel dderbyn eu phïolau gan un o'r pedwar peth byw, (pen. 15. 7.) a phan oeddynt yn barod i dywallt eu cynhwysiad hwynt, pa bryd bynag y caent orchymyn i hyny; clywai Ioan lef uchel, arswydus, ac awdurdodol, † allan o'r deml yn y nef, (medd *Guyse,)* neu o'r eglwys filwriaethus ar y ddaear, sef ei gweddïau am ddïal ar y bwystfil; ‡ yn dywedyd wrth y saith angel, gweinidogion barnau Duw, ‖ Ewch ymaith yn ddïoed, a thywalltwch y naill ar ol y llall, y phïolau sydd gennych yn llawn o ddigofaint Duw, y "saith blâ diweddaf;" (pen. 15. 1.) § ar drigolion annuwiol y ddaear, ac yn enwedig ar y rhanau hyny o'r ddaear lle mae Anghrist yn llywodraethu. Crybwylla *Pool* amryw dybiau a fu gan dduwinyddion am y *ddaear* yn y fàn hon; ond nid ydynt werth rhoddi lle iddynt yma: yr hyn a grybwyllwyd yw meddwl ein Hawdwyr.

2 * A'r cyntaf a aeth, ac a dywalltodd ei phïol [d] ar y ddaear; [e] † a bu cornwyd drwg a blin ar [f] y dynion ‡ oedd â nôd y bwystfil arnynt, ‖ a'r rhai a addolasent ei ddelw ef.

d pen. 8. 7. a 14. 16. e Ex. 9. 9—11. Deut. 7. 15. a 28. 27. 1 Sam. 5. 6, 9. 2 Cron. 21. 15, 18. Job 2. 7, 8. Salm 78. 66. Es. 1. 5, 6. a 3. 17, 24. Luc 16. 20—22. Act. 12. 23. f Gwel ar pen. 13. 15—18.

* A chyda'r gorchymyn uchod, yr angel cyntaf a aeth, ac a dywalltodd ei phïol o ddigofaint Duw ar y *ddaear*, sef ar drigolion amrywiol wledydd, ac yn benaf ar ranau canoldirawg llywodraethau y bwystfil. † Ac yn y fàn cornwyd drwg, blin, ac atgas, fel un o blâau yr Aipht, (Exod. 9. 9—11.) a dòrodd allan, ac a boenydiodd yr Aiphtiaid ysbrydol hyn, yn yr amrywiol adfydau truenus a ddaeth (neu a ddaw) arnynt; ‡ sef deiliaid pabyddiaeth, y rhai a gydsyniasant âg awdurdod a llygredigaethau y bwystfil anghristiaidd, ‖ ac a wnaethant broffes gyhoeddus o'r grefydd eilun-addolgar a osododd efe i fynu. Am nôd ac addoliad y bwystfil, gwel ar pen. 13. 15—18. Pa un ai yn llythyrenol ai yn allegawl mae deall am y cornwyd uchod, y cyflawniad yn unig a ddengys: gall Duw ei roddi yn gorphorol ar ddeiliaid Anghrist, fel ar yr Aiphtiaid gynt; neu gall eu blino hwynt â rhyw farnau eraill tra gofidus, fel cornwydydd blinion, atgas, a ffiaidd. Tybia *Doddridge* a *Guyse* i'r phïol gyntaf hon gael ei thywallt, rhwng y flwyddyn 830 â 988; ond tybia *Scott* fod hyny yn rhŷ fore o lawer, a phrin y barna efe fod y phïol gyntaf wedi dechreu cael ei thywallt eto. Nid yw *Pool* yn dywedyd dim am yr amser, ac addefa nas gŵyr efe pa beth sydd i'w ddeall wrth y cornwyd chwaith yr benderfynol.

3 * A'r ail angel a dywalltodd ei phïol [g] ar y môr; [h] † ac efe a aeth fel gwaed dyn marw: [i] ‡ a phob enaid byw a fu farw yn y môr.

g pen. 8. 8. a 10. 2. a 13. 1. h pen. 11. 6. Ex. 7. 17—21. Salm 78. 44. a 105. 29. Ezec. 16. 38. i pen. 8. 9. Gen. 7. 22.

* Tywalltodd yr ail angel ei phïol ar y *môr*, yr hwn a ddichon arwyddo pobloedd lawer yr amherodraeth Rufeinig, (pen. 17. 15.) y rhai a breswylient lànau y môr, yr ynysoedd, ac a farchnatâent ar y môr. † Ac fel y trôwyd dyfroedd yr Aipht yn waed gynt, y drewodd yr afon, (Nilus) ac y bu feirw y pysgod yn yr afon; (Exod. 7. 17, 18.) felly gwelodd Ioan droi y môr fel gwaed dyn marw; ‡ a phob enaid byw yn marw yn y môr: yr hyn oedd yn rhag-ddangos y byddai i dorfêydd dirfawr o ddeiliaid Anghrist drengi mewn rhyfeloedd, y rhai gan mwyaf a ddygid yn mlaen ar y môr; yr hyn a ellir ei ystyried fel yn cyfeirio at y rhyfeloedd a ganlynasant ar waith y Pab yn hòni awdurdod i esgymmuno a dïorseddu breninoedd ac amherawdwyr; ac at y rhyfeloedd sanctaidd (fel eu gelwid,) y rhai a berodd y Pab geisio adennill Jerusalem, a bedd ein Harglwydd Iesu, a gwlad Canaan, oddi ar y Saraceniaid, y rhai a gymmerasent feddiant o honynt; yn y sawl ryfeloedd y collodd llawer càn-mil o babyddion eu bywydau. Hyn oll a ddygwyddodd rhwng y flwyddyn 1040 â 1190.—Felly y mae *Guyse* a *Doddridge*, gyda llawer o awduron eraill, yn deall yr adnod uchod; ond tybia *Pool* mai dynoethi holl ynfydrwydd, twyll, a drygioni, y grefydd babaidd, yn ei holl ddefodau gweigion a rhagrithiol, a feddylir wrth droi y môr yn waed: dangos bod y cyfan o hóni, nid yn unig yn ddiles, ond hefyd yn niweidiol ac yn *ddamniol;* fel ag nas gallai cristionogion fyw yn nghymundeb yr eglwys hòno, ond ei bod yn ddamniol i'r rhai a arosant yn ei chymundeb hi. Nid yw *Pool* yn dywedyd dim am *amser* tywalltiad y ddwy phïol uchod: a barnai *Scott* fod amser tywalltiad y phïolau oll heb ddyfod, pan oedd efe yn ysgrifenu ar y Datguddiad; ac na ddaw hyd wedi hanner y canrif presenol: ac os felly, ebai efe, cyflawniad y brophwydoliaeth yn unig a'i dehongla hi yn eglur.

4 * A'r trydydd angel a dywalltodd ei phïol [k] ar yr afonydd ac *ar y* ffynhonau dyfroedd; [l] † a hwy a aethant yn waed.

k pen. 8. 10, 11. l adn. 5. pen. 14. 7. Ex. 7. 20. a 8. 5. Es. 50. 2. Ezec. 35. 8. Hos. 13. 15.

* A'r trydydd angel a dywalltodd ei phïol o ddigofaint Duw ar yr afonydd ac ar y ffynonau, y dyfroedd crai; megys y gwnaethai yr ail ar y môr, y dwfr hallt. Dywed *Guyse* fod yr afonydd a'r ffynonau hefyd yn arwyddo lliaws o bobl, yn rhai o brif wledydd llywodraeth y Pab. Tybia yr enwog *Mede*, a rhai eraill, mai y *Jesuitiaid*, a chenadon yspeiawl eraill y Pab, a feddylir. Nid yw ein Hawdwyr eraill yn dywedyd pwy, na pha beth, a feddylir wrth yr afonydd a'r ffynonau dyfroedd hyn. † Megys y trôwyd yr afonydd, y pyllau, a'r llynau, yn waed yn yr Aipht eto, (Exod. 7. 19—21.) felly gwelodd Ioan droi yr afonydd a'r ffynonau hyn yn waed, ar dywalltiad y drydedd phïol gan y trydydd angel. Diammau fod hyn hefyd yn arwyddo celanedd dirfawr a thywallt gwaed, yn y gwledydd, ac ar y trigolion, y cyfeirir atynt yn y brophwydoliaeth hon. Tybia *Guyse* fod y phïol hon yn rhag-ddangos y rhyfeloedd cartrefol ofnadwy, a fu rhwng y *Guelphiaid* â'r *Gibelliniaid*, a rhwng pabau ac amherawdwyr, y rhai a barâsant am fwy na phedwar càn' mlynedd, ac a barâsant dywalltiad dirfawr o waed trigolion dinasoedd, trefydd, a phentrefydd, agos yn mhob rhan o Italy, rhwng y flwyddyn 1200 â 1371; a thrwy ba rai y tòrwyd ymaith beth anferth o ddeiliaid y Pab, ac a barodd leiâd mawr iawn ar ei allu a'i rwysg ef. Tybia eraill mai y deddfau a wnaed yn *Lloegr*, yn amser y frenines Elizabeth, i ddïenyddio y *Jesuitiaid* a chel-genadon eraill y Pab, a feddylir wrth y phïol hon ac effaith ei thywalltiad; yn nghyd â barnau gwaedlyd a fu yn yr *Yspaen*, a rhai gwledydd pabaidd eraill, fel y sylwyd uchod. Ond barna *Pool*, a *Scott* hefyd yr un modd, fod dehongliad felly yn cyfyngu gormod ar y farn sydd yn perthyn i *holl* lywodraeth a gwledydd Anghrist: ac, fel y dywedwyd eisoes, tybiai *Scott* fod y phïolau *oll* heb eu tywallt yn ei amser ef; ac felly y barnai *Pool* am y *drydedd* phïol *hon*. Nid oes oleu yn y byd gan *Doddridge* ac yr adnod uchod.

5 * Ac mi a glywais [m] angel y dyfroedd yn dywedyd, [n] † Cyfiawn, O Arglwydd, ydwyt ti, [o] yr hwn wyt, a'r hwn oeddit, a'r hwn a fyddi; ‡ oblegid barnu o honot y pethau hyn.

m adn. 4. n adn. 7.—Gwel ar pen. 15. 3.—a 19. 2. Gen. 18. 25. Salm 129. 4. a 145. 17. Galar. 1. 18. Dan. 9. 14. Rhuf. 2. 5. a 3. 5. 2 Thes. 1. 5, 6. o Gwel ar pen. 1. 4, 8.—a 4. 8. a 11. 17.

* Er mòr drymed ac ofnadwy oedd y barnedigaethau uchod, clywai Ioan "angel y dyfroedd," sef y trydydd angel, yr hwn a dywalltasai ei phïol ar yr afonydd ac ar y ffynonau dyfroedd, yr hwn a osodasai Duw i lywodraethu arnynt, neu i fod yn ysbryd gweinyddawl yn y goruchwyliaethau hyn;—† clywai ef yn clodfori cyfiawnder yr Arglwydd Dduw tragywyddol a digyfnewid, ‡ am iddo benderfynu cospi a barnu lleiddiaid gwaedlyd a chreulawn ei bobl, â'r pâlau uchod a dywalltesid, neu a oedd i gael eu tywallt arnynt.—*Angel y dyfroedd:* wrth gymharu yr adnod hon â pen. 14. 18, tybia rhai fod gwahanol fodau ysbrydol, wedi cael eu gosod i lywodraethu ar y *gwahanol elfenau o ddwfr a thân;* ac, o ganlyniad, ar y *ddaear* a'r *awyr*.—"Oblegid barnu o honot *y pethau* hyn:" "oblegid barnu o honot *fel* hyn," yw y Saesoneg. *Hoti tauta ekrinas*, yw y Groeg; barned y cyfarwydd.

6 [p] * Oblegid gwaed saint a phrophwydi a dywalltasant hwy, † a gwaed a roddaist iddynt i'w yfed; [q] ‡ canys y maent yn ei haeddu.

p pen. 6. 10, 11. a 13. 10, 15. a 17. 6, 7. a 18. 24. a 19. 2. 2 Bren. 24. 4. Es. 49. 26. a 51. 22, 23. Jer. 2. 30. Galar. 4. 13. Mat. 7. 2. a 21. 35—41. a 23. 30—37. q pen. 11. 18. a 18. 20. Jer. 26. 11, 16. Luc 12. 48. Heb. 10. 29.

* Yr oedd Anghrist a'i bleidwyr creulawn, wedi tywallt afonydd o waed saint a phrophwydi, neu weinidogion Crist yn ddidrugaredd; † ac yn awr yr oedd Duw wedi rhoddi cwpan digofaint iddynt hwythau i'w yfed, trwy ddanfon cleddyf barnol i'w mysg hwynt, fel y meddwent ar eu gwaed eu hun; (Esa. 49. 26.) ‡ canys o herwydd eu llofruddiaethau creulawn ac aml, yr oeddynt yn haeddu hyny yn gyfiawn.—Tybia rhai o'n Hawdwyr fod y "gwaed a dywalltodd" y pabyddion yn yr adnod hon, yn cyfeirio at y *Waldensiaid* a'r *Albigensiaid*, lluoedd mawr o ba rai a erlidiwyd i farwolaeth ar annogiad y Pab Innocent y Trydydd; yr hwn hefyd a sefydlodd Chwil-lŷs gwaedlyd, tua'r flwyddyn 1212, neu 1216: a thybiant iddynt gael "gwaed i'w yfed" yn y rhyfeloedd a grybwyllwyd dàn adn. 4, gwel yno. Ond mae *Pool* a *Scott* yn ddystaw ar y mater hwn, oddigerth dywedyd fod y phïol heb ei thywallt, a'r gwaed o ganlyniad heb ei yfed eto.

7 * Ac mi a glywais un arall [r] allan o'r allor yn dywedyd, [s] † Ïe, Arglwydd Dduw Hollalluog, cywir a chyfiawn *yw* dy farnau di.

r Gwel ar pen. 6. 9.—a 8. 3—5. a 14. 18. Es. 6. 6. Ezec. 10. 2, 7. s Gwel ar adn. 5. pen. 15. 3, 4.

* Clywai Ioan angel arall, allan o'r allor, neu oddi "dàn yr allor," (pen. 6. 9—11.) megys yn llefaru yn enw y merthyron sanctaidd; ac yn cyduno âg "angel y dyfroedd" yn y clodforedd uchod: † ïe, canmolai gywirdeb a chyfiawnder yr Arglwydd Dduw Hollalluog, yn ei farnau ar Anghrist, ac yn ngyflawniad ei hen rag-ddywediadau, a'i addewidion fel hyn i'w eglwys.—Byddai yn burion i'r darllenydd gymharu y sylwadau ar pen. 6. 9—11, â'r adnod hon, yn nghyd â'r sylwad bŷr a wnaed arni. Yno yr oedd yr eneidiau a laddesid am air Duw dàn Rufain Baganaidd, yn gofyn am ddïal ar y rhai a dywalltasent eu gwaed; yma maent hwy â merthyron Rhufain Babaidd, trwy gynnrychioliad yr

angel, yn dïolch i Dduw am iddo ddïal eu gwaed ar eu gelynion paganaidd ac anghristiaidd hefyd. Clodfora'r faefoedd uniondeb barnau Duw, ac nis gall trigolion annuwiolaf y ddaear, nac uffern, ddywedyd dim yn eu nerbyn, pan fyddont dostaf, a llymaf.

8 * A'r pedwerydd angel a dywalltodd ei phïol [t] ar yr haul; [u] † a gallu a roed iddo i boethi dynion â thân.

t pen. 6. 12. a 8. 12. a 9. 2. Es. 24. 23. Luc 21. 25. Act. 2. 20. u pen. 7. 16. a 9. 17, 18. a 14. 18. Jona 4. 8. Mat. 13. 6.

* A'r pedwerydd angel a dywalltodd ei phïol o ddigofaint ar yr haul, yr hwn, fel y penaf o'r cyrph nefol, osydd arwydd-lun addas o brif awdurdod a phendodaeth ar yr eglwys, yr hyn a hònir gan y Pab, fel Jacob, tad y teulu, yn cael ei arwyddo wrth yr *haul*, yn mreuddwyd prophwydol Joseph. † A rhoddwyd gallu i'r angel, medd *Guyse*, i'r haul, medd *Doddridge*,) drwy y farn hon, i ddwyn cyfyngderau arteithiol ar ddynion drygionus y ddaear, mòr ddirfawr a dinystriol ag a wnair gan boethder llosgedig mwyaf yr haul, pan darawo y ddaear, ei ffrwythau a'i thrigolion, megys â thân poeth ar ddiwrnod gwresog, lle na byddo dim cysgod i ymguddio rhag ei wres ef. Salm 121. 5, 6; Jona 4. 8.—*Guyse.* Pa un ai tymmorau poethion llosgedig, yn peri sychder mawr a newyn; ai ynte rhyw farn arall a ddygrifir yn allegawl, trwy boethi dynion â gwres yr haul fel â thân, y cyflawniad yn unig a ddengys.—*Scott.* Ond tybia rhai i hyn gymmeryd lle yn y brwydrau poethion a fu rhwng y Pabau â'r amherawdwyr, yn y 14eg, y 15fed, a'r 16eg canrif: ac yn ol tŷb eraill, yn y rhyfeloedd hir a gwaedlyd a fu yn Italy, Ffrainc, Germany, a'r Yspaen; o herwydd ymraniad *(schism)* yn mhlith y pabyddion, o'r flwyddyn 1378, hyd 1530; pryd yr oedd tri Phab, mewn tair llinell o olyniad, ar yr un amser. Yn yr yspaid uchod y cymmerodd y Twrciaid Gaer Custenyn, ac y gwnaethant derfyn ar yr amherodraeth ddwyreiniol. Tybia eraill fod y poethder uchod yn cyfeirio at dymmorau poeth a llosgedig, a ddifâent ffrwythydd y ddaear, ac a fagent glefydau heintus; megys y *chwys-glefyd*, yr hwn a ddechreuodd yn Lloegr, ac a ymdaenodd yn helaeth yn ngwledydd eraill, yn enwedig i Germany, yn 1517, ac eilwaith yn 1529. Ond tybiau yw y pethau uchod oll, heb sicrwydd iddynt.

9 * A phoethwyd y dynion â gwres mawr; [x] † a hwy a gablasant enw Duw, yr hwn sydd âg awdurdod ganddo ar y plâau hyn: [y] ‡ ac nid edifarhasant, [z] i roi gogoniant iddo ef.

x adn. 10, 11, 21. 2 Bren. 6. 33. 2 Cron. 28. 22. Es. 1. 5. a 8. 21. Jer. 5. 3. a 6. 29, 30. Ezec. 24. 13. y adn. 11. pen. 2. 21. a 9. 20. Dan. 5. 22, 23. Luc 13. 3, 5. 2 Cor. 12. 21. z pen. 11. 13. a 14. 7. Jos. 7. 19. Jer. 13. 16. Amos 4. 6—12.

* Pa fodd bynag, poethwyd dynion yn ofnadwy â gwres mawr, yn rhai o'r ystyriaethau a enwyd uchod: neu, yn hytrach, yn ol barn *Scott*, hwy a gânt eu poethi felly, pan gyflawner y brophwydoliaeth hon. † Ond yn lle gogoneddu Duw trwy gyfaddef, edifarâu, a gadael eu pechodau; gwelai Ioan fod poenau y dyoddefwyr yn eu llidio hwynt, ac yn eu cyffrôi i gablu enw Duw, yr hwn oedd âg awdurdod ganddo ar y plâau hyn: ac felly yr oeddynt yn chwanegi eu heuogrwydd a'u cyfiawn gondemniad tragywyddol hwynt. ‡ *Nid edifarâsant:* mae yn amlwg wrth hanesion, nad edifarâodd Anghrist dàn unrhyw farn a fu arno eto; ac mae yn bur debyg nad edifarâ efe dàn y farn olaf, a thrymaf a ddaw arno: un i'w *ddyfetha* yw y bwystfil hwn yn ei ddrygioni, ac nid i'w adfer drwy edifeirwch. 2 Thes. 2. 8—12.

10 * A'r pummed angel a dywalltodd ei phïol [a] ar orsedd-faingc y bwystfil; † a'i deyrnas ef a aeth [b] yn dywyll: [c] ‡ a hwy a gnoisant eu tafodau gan ofid,

a pen. 11. 2, 8. a 13. 2. a 17. 9, 17, 18. a 18. 2, 3, 21—23. b pen. 9. 2. a 18. 11—19. Ex. 10. 21—23. Salm 78. 49. Es. 8. 21, 22. Mat. 8. 12. a 22. 13. 2 Pedr 2. 17. c pen. 11. 10. Mat. 13. 42, 50. a 24. 51. Luc 13. 28

* A'r pummed angel a dywalltodd ei phïol o ddigofaint ar *orsedd-fainc* y bwystfil anghristiaidd, yr arwyddlun o'i *awdurdod* ef; yr hyn a osodir allan yn yr iaith brophwydoliaethol dàn y gymhariaeth o orsedd-fainc. † A'i deyrnas ef a aeth yn dywyll, fel un arall eto o blâau yr Aipht. Tybia *Guyse* fod hyn yn cyfeirio at yr ergyd, neu yr ysgydwad mawr a gafodd awdurdod a llywodraeth y Pab, drwy y *Diwygiad Protestanaidd* gogoneddus; pryd, rhwng y flwyddyn 1530 â 1650, y cwbl sefydlwyd ef, y syrthiodd amryw genedloedd ymaith oddi wrth y Pab, ac y troisant eu harfau yn ei erbyn ef; a llawer eraill a fuont brinach yn eu hufudd-dod i'w awdurdod ef; yr hyn a barodd ddiffyg mawr ar ei ogoniant, a lleiâd ar ei allu a'i rwysg ef. ‡ Bu hyn hefyd yn ofid tost i'w ysbryd ef a'i holl wir ddeiliaid; hyd onid oeddynt fel dynion lloerig yn cnoi eu tafodau, gan wir gynddeiriogrwydd a gofid dirfawr. *Gorsedd-fainc* y bwystfil yw Rhufain ei hun; a'r *tywyllwch* yw adfyd a thrueni yn dyfod ar ei deyrnas ef, hyd yn nôd at yr orsedd-fainc ei hun.

11 [d] * Ac a gablasant [e] Dduw y nef, [f] o herwydd eu poenau, † ac o herwydd eu cornwydydd; [g] ‡ ac nid edifarhasant oddi wrth eu gweithredoedd.

d Gwel ar adn. 9. e 2 Cron. 36. 23. Ezra 1. 2. a 5. 11, 12. a 6. 10. a 7. 12, 21, 23. Neh. 1. 4. a 2. 4. Salm 136. 26. Dan. 2. 18, 19, 44. Jona 1. 9. f adn. 2, 9. g Gwel ar adn. 9.—2 Tim. 3. 13.

* Am y poenau, † y cornwydydd, ‡ a'r anedifeirwch hyn, gwel ar adn. 2, 8, 9: yn eu holl ofidiau, parâu yr oeddynt i gablu Duw mawr y nef, o herwydd eu poenau, yn lle edifarâu oddi wrth eu gweithredoedd drygionus, ofni Duw, ac ymostwng dàn ei farnau trymion ef. Dengys hyn, medd *Pool*, y bydd yr un wythen o dywyllwch meddwl, caledwch calon, ac ysbryd anghymmeradwy, yn rhedeg trwy yr holl blaid anghristiaidd, hyd oni ddinystrier hwy yn hollawl.—Dywed *Scott* yr addefa dehonglwyr y prophwydoliaethau yn gyffredinol, fod y phïol hon heb ei thywallt eto; ac y mae hyn yn ddigon o reswm (medd efe) paham y dylai *dehonglydd* beidio rhoddi unrhyw dybiaeth, yn mha fodd y caiff prophwydoliaeth mòr gynnwys-fèr a *thywyll* ei chyflawni. Pan gyflawner hi, ni bydd yn *dywyll* mwyach.—Mae y pabyddion yn cablu Duw, pan maent yn dywedyd yn gableddus am y wir athrawiaeth, ac yn gosod eu dychymmygion coel-grefyddol ac eilun-addolgar i fynu yn ei lle: a phan maent yn difenwi gwir bobl Dduw fel *hereticiaid*, gan eu melltithio yn ei enw ef i golledigaeth dragywyddol. A pho trymaf eu poenau hwynt, gan afliwydd eu hachos, a barnau eraill a ddaw arnynt; mwyaf i gyd y cablant fel hyn yn eu cynddeiriogrwydd, nes myned i uffern, y tân anniffoddadwy, i boeni ac i gablu byth!

12 * A'r chweched angel a dywalltodd ei phïol [h] ar yr afon fawr Euphrates; [i] † a sychodd ei dwfr hi, [k] ‡ fel y parottôid ffordd brenhinoedd y dwyrain.

h pen. 11. 14. Es. 8. 7, 8. i pen. 17. 15. Es. 11. 15. a 42. 15. a 44. 27. Jer. 50. 38—40. a 51. 36. k Es. 41. 25. Ezec. 38. a 39. Dan. 11. 43—45.

* A'r chweched angel a dywalltodd ei phïol ar yr afon fawr Euphrates, yr hon, a'i chymmeryd yn llythyrenol, ydoedd derfyn dwyreiniol amherodraeth Rhufain, rhyngddi hi âg amherodraethau Babilon ac Assyria; ac felly yr oedd yn arwydd-lun addas o derfynau dwyreiniol y llywodraeth babaidd. † A thrwy dywalltiad y phïol hon, dinystriwyd y terfyn hwnw, yr hwn a fuasai yn foddion i attal rhuthrau o'r dwyrain ar lywodraeth y Pab; yr hyn, mewn cyfeiriad at sychu yr Euphrates gan Cyrus gynt pan gymmerodd efe Babilon, (Esa. 44. 27, 28; Jer. 50. 38; a 51. 36, 37.) a arwyddid yma drwy sychu dyfroedd yr afon fawr Euphrates; ‡ fel y byddai ffordd wedi ei pharotôi i'r Twrciaid, neu ryw freninoedd o'r dwyrain, (codiad haul, *Groeg*,) i wneuthur ymgyrch ar Babilon ysbrydol, neu lywodraeth y Pab. Felly *Guyse*,

ond tybia yntau fod *hyn* heb ei gyflawni eto, y caiff ei gyflawni yn ei amser; y dylem weddïo a dysgwyl am dano mewn amynedd; a phan ei cyflawner, deallir yn well beth yw sychu yr Euphrates, pwy yw breninoedd y dwyrain, ac i ba beth y deuant drosodd.—Fel hyn y dywed *Scott*:—os yw yr afon Euphrates yn y fàn hon i'w deall yn *llythyrenol;* gellir dysgwyl y bydd i ryw genedl neu genedloedd dwyreiniol ymosod ar *Europe,* neu gyfarfod â byddinoedd llywodraeth Anghrist, yn mharthau gorllewinol Asia, efallai yn Palestina; fel cyflawnwyr dialedd Duw ar deyrnas y bwystfil. Ond am mai Rhufain yw Babilon ysbrydol, neu gyfriniol, a chan fod Babilon gynt yn sefyll ar yr afon Euphrates, ac yn cael ei chyfoethogi a'i hamddiffyn ganddi; efallai y gallwn ddeall, wrth sychu yr Euphrates yma, y fath wanychiad ar awdurdod Rhufain, a chwanegiad awdurdod i'w gelynion, ag a ŵrola, ac a gyffrôa y cenedloedd, i ymosod arni hi.—Tybia eraill fod y phïol uchod yn cyfeirio at ddychweliad yr Iuddewon, y rhai a feddylir meddant hwy wrth *freninoedd y dwyrain;* mewn trefn i'r hyn mae amherodraeth y Twrc i gael ei gwànychu. Tybia eraill y bydd i ryw freninoedd dychweledig o'r dwyrain ddyfod dros yr Euphrates, i ymuno â gwir eglwys Crist. Tybia eraill mai dinystr amherodraeth y Twrc, yr Anghrist Dwyreiniol, a feddylir; yr hwn oedd o'r blaen yn attal breninoedd y dwyrain i ddyfod at y wir eglwys yn y gorllewin. Tybia eraill mai symmudiad y rhwystrau a feddylir, sef bygythion, deddau, a cheryddon Rhufain Babaidd; y rhai o'r blaen a attalient freninoedd *Europe* rhag ymosod ar lywodraethau y Pab, ond ni byddent mwyach yn ddychryn nac yn attaliad iddynt: yr hyn, yn ol barn yr awduron hyn, a feddylir wrth *sychu* yr Euphrates allegawl, neu gyfriniol. Tybia *Pool* yn grŷf, gyda llawer eraill, mai dinystr y Twrc, ac Anghrist hefyd, a feddylir; i barotôi ffordd er dychweliad yr Iuddewon: tybia efe fod gallu y blaenaf, ac eilun-addoliaeth yr olaf, yn rhwystr i ddychweliad yr Iuddewon yn bresenol; ac yn ninystr y Twrciaid, a chwymp Babilon, bydd y ffordd wedi ei pharotôi iddynt hwy, i dderbyn y ffydd gristionogol. Tybia *Doddridge* mai ymosodiad ar *deyrnas y Pab* o'r *dwyrain* a feddylir: ond addefa ef a'n Hawdwyr oll, fod y brophwydoliaeth hon yn rhŷ anhawdd i'w deall, hyd oni chyflawner hi.

13 * Ac mi a welais [l]dri yspryd aflan [m]tebyg i lyffaint † *yn dyfod* allan [n]o safn y ddraig, ‡ ac allan o safn y bwystfil, ‖ ac allan o enau [o]y gau brophwyd.

l adn. 14. 2 Thes. 2. 9—11. 1 Tim. 4. 1—3. 2 Tim. 3. 1—6. 2 Pedr 2. 1—3. 1 Ioan 4. 1—3. m Ex. 8. 2—7. Salm 78. 45. a 105. 30. n pen. 12. 3, 4, 9—13. a 13. 1—7, 11—18. o pen. 19. 20. a 20. 10.

* Ar ol y dygwyddiadau uchod, (adn. 12.) y rhai yn ddiammau oedd yn bygwth dinystr ar holl deyrnas a llywodraeth Anghrist, a'r Twrciaid hefyd efallai; gwelai Ioan yn nesaf dri ysbryd aflan, tebyg i lyffaint atgas a gwenwynig, (un o blâau yr Aipht eto, Exod. 8. 3—6.) † yn dyfod allan o safn y ddraig, fel yn cynnrychioli Satan, (pen. 12. 9.) yr hon, neu yr hwn, a roddes allu i'r bwystfil; (pen. 13. 2, 4.) ‡ ac allan o safn y bwystfil, sef yr amherodraeth anghristiaidd; (pen. 13. 1.) ‖ ac allan o enau y gau-brophwyd, sef yr eglwys a'r offeiriaid pabaidd. Mae hyn yn dangos cytundeb Satan, y Pab, a'r eglwys a'r offeiriaid pabaidd, i ddanfon allan eu dirgel genadon, megys y *Jesuitiaid,* y Mynachod, y Brodyr, *(Friars)* a'r offeiriaid llëygawl, i ymlusgo yn dirgelaidd i gyfrin-gyngorau breninoedd, fel y gallent eu llygru hwynt, (fel yr oedd llyffaint yr Aipht yn ymlusgo i ystafelloedd y brenin,) a thaenu egwyddorion ac arferion drygionus yn eu plith, trwy eu hawdurdod ac'u dichellion. *Gau-brophwyd:* mae yn debyg mai yr un yw hwn â'r *bwystfil arall,* a grybwyllir yn pen. 13. 11; gwel y sylwadau yno, ac hefyd ar pen. 19. 20. Yn ein cyfeithiad ni dywedir *safn* y ddraig, *safn* y bwystfil, a *genau* y gau-brophwyd: yn y Saesoneg *genau* a ddywedir o hyd; a *stomatos* yw'y gair Groeg yn y tr lle, yn arwyddo *genau* neu *safn,* yn ddiwahaniaeth Ac fel hyn mae yr adnod yn y Groeg:—"Ac mi a welai allan o safn y ddraig, ac allan o safn y bwystfil, a allan o safn y gau-brophwyd, dri ysbryd aflan tebyg lyffaint."

14 [p] * Canys ysprydion cythreuliaid, [q] † yr gwneuthur gwyrthiau, ydynt, [r] ‡ y rhai sydd yn myned allan at frenhinoedd y ddaear, [s] a'r holl fyd, [t] ‖ i'w casglu hwy i ryfel y dydd hwn nw, § *dydd* mawr [u] Duw Holl-alluog.

p pen. 12. 9. 1 Bren. 22. 19—23. 2 Cron. 18. 18—22. Ezec 14. 9. Ioan 8. 44. 2 Cor. 11. 13—15. Iago 3. 15. q pen. 13. 13 14. a 19. 20. Deut. 13. 1, 2. Mat. 24. 24. Marc 13. 22. 2 Thes. 2. 9 r 1 Bren. 22. 6, 10, 11, 19—22. Act. 13. 8—10. s pen. 3. 10. 12. 9. a 13. 3. Luc 2. 1. Rhuf. 1. 8. t adn. 16. pen. 17. 14. a 19 19. a 20. 8. Es. 34. 1—8. a 63. 1—6. Ezec. 38. 8—12. Joel 3. 11— 14. u Gwel ar adn. 7.

* Ar ol i'r brad-genadwyr uchod gael eu danfon allan fel y sylwyd, yn yr un dymher ac ysbryd â chythreuliaid aflan, gan grygleisio fel llyffaint atgas, a gwthio eu hunain i bob màn, er niwed i bawb; hwy a âent rhag ddynt i daenu eilun-addoliaeth, † trwy gymmeryd arnynt wneuthur gwyrthiau i gadarnâu eu hathrawiaeth mewn arwyddion, rhyfeddodau gau, a phob dichell anghyfiawnder, yn ol gweithrediad Satan, (2 Thes. 2 9, 10.) yn debyg i swynwyr yr Aipht gynt. ‡ Fel hyn hwy a âent at freninoedd y ddaear, yn enwedig y rha o amherodraeth Anghrist, a'r holl fyd, a fyddai yn bleidiol i grefydd y Pab; ‖ i'w casglu hwynt i wneuthur un cyd-ymosodiad nerthol yn erbyn achos Duw; ac fel hyn hwy a gesglir i ryfel y dydd hwnw, § sef y dydd mawr yn mha un mae Duw Hollalluog yn penderfynu eu llwyr ddinystrio hwynt. Fel hyn trwy gynhyrfiad Satan bydd i'r cenadon cythreulig a enwyd gasglu breninoedd y ddaear, a'r holl fyd anghristiaidd, i wneuthur un ym gyrch ofnadwy a diweddaf ar eglwys ac achos Duw, y hwn ymosodiad a drŷ yn ddinystr hollawl iddynt hwy eu hunain. Dyma frwydr Armagèdon yn ddïammau adn. 16.

15 * Wele, [x] yr wyf fi yn dyfod fel lleidr [y] † Gwyn ei fyd yr hwn sydd yn gwylio, ac yn cadw ei ddillad, [z] ‡ fel na rodio yn noeth, ac iddynt weled ei anharddwch ef.

x pen. 3. 3. Mat. 24. 43. 1 Thes. 5. 2, 3. 2 Pedr 3. 10 y Mat. 24. 42. a 25. 13. a 26. 41. Marc 13. 33—37. a 14. 38. Luc 12. 37—43. a 21. 36. Act. 20. 31. 1 Thes. 5. 6. 1 Pedr 4. 7 z Gwel ar pen. 3. 4, 18. Ex. 32. 25. Es. 47. 3. Ezec. 16. 37. Hos 2. 3. Hab. 2. 15. 2 Cor. 5. 3.

* Bydd yr amserau uchod yn amserau profedigaethau iawn, ac o demtasiynau mawrion; am hyny mae Crist trwy ei apostol, yn galw ar ei weision proffesedig ddysgwyl ei ddyfodiad sydyn ef fel lleidr; † ac i wylio yn ddyfal, fel y gallont gadw eu dillad o iachawdwriaeth a sancteiddrwydd a'u cael ynddynt; ‡ ac na bydd iddynt rodio yn noeth, ac i eraill weled eu gwarth a'u hanharddwch, fel gwrthgiliedigion a rhagrithwyr oblegid i rai a wyliant felly yn unig, y perthyn y fen dith a'r gwynfyd tragywyddol.—Tybia y *Dr. Lightfoot* fod yma gyfeiriad at yr hyn a fyddai y *swyddog Iudd ewig* hwnw, a elwid *gwr y mynydd,* hyny yw, *ty yr Ar glwydd,* yn arfer ei wneyd, pan elai efe o amgylch y deml i edrych y *gwyliedyddion;* os caffai efe neb yn cysgu, yr oedd iddo awdurdod i roddi tân yn ei ddillad ef. Efallai y byddai y dyn yn gorfod ymddangos dran oeth yn y *carpiau* o'i *ddillad llosgedig;* yr hyn a fyddai yn anharddwch a gwarth mawr iddo. Dywed *Ainsworth* (ar Num. 18. 4, 5.) y byddid yn eu curo hwynt gan y blaenor, ac yn *cymmeryd ymaith* eu *dillad* i'w *llosgi Fel lleidr:* gwel ar 1 Thes. 5. 2, 3; 2 Pedr 3. 10.

16 [a] * Ac efe a'u casglodd hwynt ynghyd † i le a elwir [b] yn Hebraeg, [c] Armagèdon.

a pen. 17. 14. a 19. 17—21. Barn. 4. 7. Joel 3. 9—14. Zec. 14 2, 3. b pen. 9. 11. Ioan 5. 2. a 19. 13, 17. Act. 26. 14. c Barn 5. 19. 2 Bren. 23. 29, 30. Zec. 12. 11.

* Gallasai yr adnod o'r blaen (15) fod mewn crymfachau, am ei bod yn dyfod i mewn fel cyngor yn ymghanol y brophwydoliaeth; yr hon sydd yma yn myned ymhagddi i ddangos ei fod Ef, sef yr Arglwydd, yn casglu ebreninoedd y ddaear, yn ei farn a'i ragluniaeth gyfiawn, + i le a elwir yn Hebraeg, Armagèdon, sef *mynydd y dystryw*, gyda chyfeiriad at Megiddo, yn llwyth Manasseh; (Jos. 17. 11.) lle y dinystriwyd Sisera a'i fyddin fawr, (Barn. 4. 15; a 5. 19.) ac y lladdwyd y brenin Josiah yn mhell wedi hyny; (2 Bren. 23. 29, 30.) am yr hyn y bu y galar mwyaf, yr hwn yn ddïarebol a alwyd *galar yn nyffryn Megiddon.* (Zech. 12. 11.) Fel hyn ni a welwn i Megiddo fod yn lle nodedig am ddinystr a chelanedd; a defnyddir ef yma yn gyfriniol, i ddangos y dinystr sicr a ddaw ar bleidiau Anghrist, y rhai a ddysgrifir fel yn cael eu casglu i'r mynydd hwn.—Byddinoedd y ddraig ydynt, ac yn cael eu casglu gan yr "ysbrydion cythreuliaid" a enwyd uchod; (adn. 14.) ac eto dywedir yma mai Duw sydd yn eu casglu, yn ei ragluniaeth farnol, yn gweithredu trwy yr offerynau uchod ac yn ddïarwybod iddynt hwy: eu hamcan hwy oedd rhyfela â'r eglwys; ond amcan Duw oedd eu dystrywio hwynt yn yr ymgyrch annuwiol hwnw.

17 * A'r seithfed angel a dywalltodd ei phïol [d] i'r awyr; [e] † a daeth llef uchel allan o deml y nef, oddi wrth yr orsedd-faingc, ‡ yn dywedyd, [f] Darfu.

d pen. 20. 1—3. Eph. 2. 2. a 6. 12. e adn. 1. pen. 11. 19. a 14. 17. a 15. 5, 6. f pen. 10. 6, 7. a 21. 6. Dan. 12. 7—13. Ioan 19. 30.

* Gelwir Satan yn "dywysog llywodraeth yr *awyr;*" (Ephes. 2. 2.) a thywelltir y phïol ddiweddaf hon yn ei hamser, i wir orsedd-fainc ei amherodraeth ef: oblegid ar ol hyn, dystrywir ei achos ef yn hollawl ac am byth; *oddi allan*, yn gystal ag *oddi fewn*, i arglwyddiaethau y bwystfil. † Gan hyny rhoddwyd cyhoeddiad â "llef uchel," allan o deml Duw yn y nef, ac oddi wrth yr orsedd-fainc, ‡ gan ddywedyd, "Darfu," neu *gorphenwyd;* oblegid dàn y seithfed udgorn, yr oedd dirgelwch Duw i gael ei orphen, pen. 10. 5—7. Yma y gorphenir gwaith Duw, a'i arfaeth ef am ddinystr ei elynion a gwaredigaeth ei bobl: y cwpan diweddaf hwn o ddigofaint, a gyflawna farnedigaethau arfaethol Duw, yn hollawl ddymchweliad a dinystr Satan a'i holl offerynau; fel nas gallont byth mwyach ŵyro athrawiaeth bur yr efengyl, nac erlid ffyddlawn weision Crist.

18 * Ac yr oedd [g] lleisiau, a tharannau, a mellt; † ac yr oedd [h] daear-gryn mawr, y fath ni bu er pan yw dynion ar y ddaear, ‡ cymmaint daear-gryn, *ac* mor fawr.

g pen. 4. 5. a 8. 5. a 11. 19. h pen. 11. 13. Dan. 12. 1.

* Ac fel dangosiad eglurach, a mwy grymus ac ofnadwy, o'r dinystr uchod oedd i ddyfod; gwelai a chlywai Ioan yn yr awyr lle y tywalltesid y phïol, y fath leisiau dychrynllyd a rhyfeddol, taranau crôch a thrystfawr, a fflamiau tân melltenawg, fel pe buasai yr holl elfenau awyrawl yn toddi, yn dyrysu, ac yn ymollwng; + a chyda hyny oll, yr oedd y fath ddaear-gryn arswydus a chyffredinol, ac o'r fath nerth, fel na theimlwyd ei chyffelyb er pan fu dynion ar y ddaear; ‡ ni bu erioed gymmaint daear-gryn, ac mòr fawr, o ran ei helaethder, ac o ran ei nerth terfysglyd: yr oedd yr holl ddaear megys yn crynu yn aruthr, a'r holl nefoedd wybrenol yn y berw a'r derfysg fwyaf ofnadwy a fu erioed.—Yr oedd hyn oll yn rhag-arwyddo y fath derfysgoedd ac ymchweliadau yn y byd hwn, ag a wnai gyfnewidiad trwyadl yn holl gyfun-drefn pethau crefyddol y byd; er dinystr hollawl i lywodraeth y diafol, yn nghyd â'r holl alluoedd anghristiaidd ar y ddaear; ac er gosod yr eglwys i fynu yn y 'stâd ogoneddus hòno, pryd yr "â teyrnasoedd y ddaear yn eiddo ein Harglwydd ni, a'i Grist ef, ac y teyrnasa efe yn oes oesoedd:" pen. 11. 15.

19 [i] * A gwnaethpwyd y ddinas fawr yn dair rhan, † a dinasoedd y cenhedloedd a syrthiasant: [k] ‡ a Babilon fawr a ddaeth [l] mewn côf ger bron Duw, ‖ i roddi iddi gwppan gwin digofaint ei lid ef.

i pen. 14. 8. a 17. 18. a 18. 2, 10, 16—19, 21. k pen. 17. 5. Dan. 4. 30. l Gwel ar pen. 14. 8, 10.—a 18. 5. Es. 49. 26. a 51. 17—23. Jer. 25. 15, 16, 26.

* Effeithiau union-gyrchol y terfysgoedd ofnadwy uchod oedd, gwneuthur dinas fawr Rhufain, prif orsaf yr amherodraeth babaidd, yn ddrylliau tost; a'i rhanu hi yn dair rhan; i gael ei dinystrio gan dair barn wahanol, efallai, mewn cyfeiriad at y bygythiad ar yr Iuddewon gwrthgiliedig gynt am eu ffieidd-dra, pan ddywedodd Duw, "Dy draian fyddant feirw o'r haint, ac a ddarfyddant o newyn yn dy ganol; a thraian a syrthiant ar y cleddyf o'th amgylch; a thraian a daenaf gyda phob gwynt: a thynaf gleddyf ar eu hol hwynt." (Ezec. 5. 12.) Neu, yn ol barn rhai, y rhan *baganaidd*, y rhan *efengylaidd*, a'r rhan *anghristiaidd*, a feddylir wrth y *tair rhan* uchod; y tair plaid a wnaent i fynu y byddinoedd oedd i ryfela yn *Armagèdon.* Ond mwy tebygol mai effaith y ddaear-gryn (adn. 18.) oedd gwneyd y ddinas yn *dair rhan* fel hyn. + A chyda phrif-ddinas yr amherodraeth babaidd, gwelai Ioan y dinasoedd eraill dàn ei harglwyddiaeth hi, a dinasoedd yr holl genedloedd a wrthwynebent Grist a'i efengyl, yn syrthio yn y dinystr mawr a helaeth a rag-ddangosid iddo. ‡ Babilon fawr oedd yr holl amherodraeth babaidd, eilun-addolgar, ac erledigaethus, yr hon yr oedd Duw wedi ei harbed, ac megys wedi ei hanghofio, am 1260 o flynyddoedd; ond yn awr yr oedd hi â'i gweithredoedd drygionus yn dyfod mewn côf ger ei fron ef, ‖ i ddïal arni trwy roddi iddi gwpan gwin digofaint ei lid ef, i'w yfed hyd y gwaelod. Hir feddwodd hi y rhai sydd yn trigo ar y ddaear â gwin ei phuteindra; (pen. 17. 2.) ac yn y diwedd caiff hithau ei meddwi â gwaddod gwin digofaint a llid Duw, yn ofnadwy iawn!

20 [m] * A phob ynys a ffôdd ymaith, † ac ni chafwyd y mynyddoedd.

m pen. 6. 14. a 20. 11. Es. 2. 14—17. Jer. 4. 23—25.

* Ac fel mae daear-grynfâau weithiau yn llyncu i fynu ynysoedd, + ac yn dymchwelyd mynyddoedd; dangosid y farn hon i Ioan mòr helaeth, fel ag yr oedd yn cyrhaedd pob màn lle y preswyliai gelynion anghristiaidd; fel na chaid hwy mwyach, ar ynysoedd na chyfandiroedd y ddaear: ac fel y byddai i'r eilunod, y rhai a arferid eu haddoli ar fynyddoedd, gael eu dystrywio yn hollawl. Wrth yr ynysoedd a'r mynyddoedd, mae rhai yn deall *trigolion* yr ynysoedd a'r mynyddoedd.

21 [n] * A chenllysg mawr, fel talentau, a syrthiasant o'r nef ar ddynion: † a dynion [o] a gablasant Dduw am bla y cenllysg; ‡ oblegid mawr iawn ydoedd eu pla hwynt.

n pen. 8. 7. a 11. 19. Ex. 9. 23—26. Jos. 10. 11. Es. 30. 30. Ezec. 13. 11, 13. a 38. 21, 22. o Gwel ar adn. 9, 11.—Es. 8. 21.

* Mae y barnau cyd-weithredol uchod yn cael eu gosod allan yn yr iaith fwyaf grymus; yn enwedig trwy y gymhariaeth o genllysg mawr, fel talentau, neu o gàn' pwys a rhagor bob un; y rhai a ddryllient yn chwilfriw ddynion a phob peth, pa le bynag y syrthient. Pa fodd y mae hyn i'w ddeall, y diwedd yn unig a ddengys. Cenllysg ydoedd un o blâau yr Aipht, (Exod. 9. 22—25.) a bwriodd Duw ystorm o gèrig cenllysg ar yr Amoriaid; (Jos. 10. 11.) ond yr oedd y rhai hyn yn llawer trymach a mwy ofnadwy na dim o'r cyffelyb a fu erioed o'r blaen. + Ac eto, y pechaduriaid celyd ac anedifeiriol hyn, yn lle cymmeryd eu hargyhoeddi am eu pechodau anfad, a dywedyd hyd yn nôd cymmaint ag a ddywedodd Pharaoh dàn y gyffelyb farn, "Yr Arglwydd sydd gyfiawn, a minnau a'm pobl yn annuwiol;" (Exod. 9. 27.) hwy a gablasant Dduw a'i ragluniaeth am bla y cenllysg, fel pe buasai efe yn ymddwyn yn anghyfiawn ac yn rhŷ greulawn tuag atynt: ‡ oblegid yr oedd eu hing a'u caledi dàn y phïol ddiweddaf hon o ddigofaint, yn annhraethadwy o boenus ac arteithiol

iddynt; a mawr iawn a fydd y pla hwn iddynt pan ddelo, er eu llwyr ddinystr a'u dystryw hwynt.—Dywedwyd eisoes, mai y diwedd a ddengys pa fodd y bydd y barnau hyn: byddai yn bur hawdd *rhoddi tybiaeth*, neu grybwyll yr hyn a *dybiodd* eraill; ond gwell genym adael i'r darllenydd droi at y rhai hyny, a ysgrifenasant ar y pwnc. Pa fodd bynag, mae yn eglur tu hwnt i bob dadl, y bydd terfysgoedd, chwyl-dröadau, a drylliad teyrnasoedd, i radd a helaethder na welwyd ac na chlywyd am eu cyffelyb erioed eto, cyn y "gorphener dirgelwch Duw." Mae yn dra thebygol hefyd, (medd *Scott*) mai gwlad Canaan fydd yr hurtr, *(stage)* ar ba un y penderfynir y frwydr fawr ddiweddaf hon: yn Armagèdon yn *llythyrenol*, efallai; lle yr ymladdwyd llawer brwydr boeth a gwaedlyd eisoes, yn yr oesoedd hen a fu. Ond pa un ai y wlad hòno, ai amherodraeth y Pab, a feddylir wrth y "mil a chwe' chant o ståda" a gânt eu dylifo â gwaed; (pen. 14. 20.) rhaid gadael hyny heb ei benderfynu: mae y mesur yn briodol i'r ddwy wlad, Canaan ac Italy hefyd; ac nid yw yn sicr, pa un ai barnedigaethau dychrynllyd neillduol ar orsaf union-gyrchol y bwystfil, ai ynte dïal ofnadwy ar ei holl ymlynwyr gweddill ef, a ragfynegir yn y lle uchod a nodwyd.—Sylwyd eisoes amryw weithiau, a barna *Guyse* fod amryw o'r phïolau uchod wedi eu tywallt eisoes; ond barna rhai o'n Hawdwyr eraill, a *Scott* yn enwedig, nad ydynt ddim: y prif bwnc i'w benderfynu am hyn, ebai efe, yw, a gânwyd y seithfed udgorn eto ai peidio: os ydyw hyny drosodd, mae phïolau wedi dechreu cael eu tywallt; os nad ydyw, nid ydynt wedi dechreu eu tywallt, oblegid dàn y seithfed udgorn y maent oll. A thybia efe fod yn anmhosibl i wybodaeth ddynol benderfynu, am hir amser eto, pa bryd yn gymhwys y dechreuwyd cyflawni, y pethau o gymmaint pwys a mawredd, a ragfynegir yn y prophwydoliaethau hyn.

PEN. XVII.

Gwraig wedi ei gwisgo â phorphor ac ysgarlad, &c.

* ADAETH [a] un o'r saith angel oedd â'r saith phïol ganddynt, [b] ac a ymddiddan-odd â mi, † gan ddywedyd wrthyf, Tyred, [c] mi a ddangosaf i ti farnedigaeth [d] y buttain fawr [e] ‡ sydd yn eistedd ar ddyfroedd lawer.

a pen. 15. 1, 6. a 16. 1—17. a 21. 9. b pen. 4. 1. a 21. 15. Luc 9. 30. a 24. 32. c pen. 16. 19. a 18. 16—19. d adn. 4, 5, 15, 16. pen. 19. 2. Es. 57. 3. Nah. 3. 4, 5. e adn. 15. Jer. 51. 13.

Mae y bennod hon yn cynnwys dywaniad oddi wrth y prif fater, a math o gyfryngdod yn rhodiad y brophwydoliaeth; i ddangos yn fwy manol, beth a feddylid wrth y Babilon fawr, (pen. 16. 19.) dinystr yr hon a ragfynegwyd mewn modd mòr ddychrynllyd. * Gwelai Ioan un o'r saith angel oedd â'r saith phïol ganddynt, yn dyfod ato ef, ac yn ymddiddan âg ef yn gyfeillgar, fel y gwnaethai angel yr Arglwydd â'r prophwyd Zechariah gynt: (Zech. 1. 9, &c.) † a galwai arno i nesâu ato, fel y dangosai iddo farnedigaeth, sef pechodau a chospedigaeth gyfiawn yr awdurdod anghristiaidd hyny, yn wladol ac eglwysig, yr hwn a ellid ei alw mewn modd arbenig, y "butain fawr;" oblegid hi a aethai tu hwnt i bob eglwysi eraill, cymdeithasau ac amherodraethau, i hudo dynion i eilun-addoliaeth, puteindra ysbrydol, a ffiaidd weithredoedd o bob math. ‡ Eisteddai y butain fawreddig hon fel brenines orseddawg, yr hon oedd yn enwog yn ei gwarth, ar ddyfroedd lawer; sef ar bobloedd lawer, fel y dangosir yn adn. 15. o'r bennod hon. Gan y gelwir Rhufain yn Babilon amrai weithiau yn y llyfr hwn, a bod Babilon gynt yn sefyll ar ddyfroedd yr Euphrates; efallai fod cyfeiriad at hyny yma: ond pobloedd lawer yw y dyfroedd, fel y sylwyd.

2 * Gyd a'r hon [f] y putteiniodd brenhinoedd y ddaear, † ac y meddwyd y rhai sydd yn trigo ar y ddaear, ‡ gan win ei phutteindra hi.

f adn. 13, 17. pen. 14. 8. a 18. 3, 9, 23. Jer. 51. 7.

Nis gall neb ammau nad Rhufain a feddylir yn y bennod hon; ïe, mae y pabyddion poethaf eu hunain yn addef hyny: ond yr unig ddadl yw, pa un ai Rhufain *Baganaidd*, ai ynte Rhufain *Babaidd* a feddylir. * Eithr ni hudodd Rhufain *Baganaidd* erioed mo freninoedd y ddaear i buteinio gyda hi mewn eilun-addoliaeth, † ac ni feddwodd hi erioed mo'r rhai oedd yn trigo ar y ddaear gan win ei phuteindra; yr oedd hi yn eu darostwng ac yn eu llywodraethu hwynt â gwïalen haiarn, ac nid trwy ddichellion a hudoliaethau meddwawl; gadawai hwynt yn gyffredin i'w hen ddefodau a'u haddoliad; ïe, cymmerai eilun-dduwiau a drwg-arferion y cenedloedd a ddarostyngai iddi ei hun, ac fel hyn ymlygrai yn druenus: meddwid hi ganddynt hwy, yn hytrach na'u bod hwy yn cael eu meddwi ganddi hi. Pan erlidiai amherawdwyr Rhufain y cristionogion, hwy a wnaent hyny fel y tybient i ddiogelu yr amherodraeth, yn hytrach nag o *zêl* dros unrhyw ffurf o eilun-addoliaeth. Ar y llaw arall, mae yn ddigon hysbys gyda pha hudoliaethau cyfrwys, a dyfeisiau ystrywgar, "gyda phob dichell anghyfiawnder," yr ennillodd ac y cadwodd Rhufain *Babaidd* ei goruchafiaeth ar freninoedd a chenedloedd, heb unrhyw rym gwladol digonawl i hyny; gan eu cyssylltu hwynt wrth ei llywodraeth ormesawl hi mewn ymostyngiad dall, a'u hudo hwynt trwy ddichellion i gyddfurfio â'i heilun-addoliaeth hi, a'i llygriadau anfad o gristionogaeth. Fel hyn hi a feddwodd freninoedd galluog, a chenedloedd cryfion lawer, i amddiffyn ei gormes hi mewn *zêl* gyndeiriog drosti, i lofruddio eu cymmydogion diniwed wrth y mil-filoedd; ac ar yr un pryd i ddarostwng, gwanychu, a thlodi eu hunain, i gynnal ei phuteindra a'i gormes hi! ‡ "Gwin ei phuteindra hi" yw anrhydedd, cyfoeth, derchafiadau, pleserau, defodau coegwych ei haddoliad, mawrydigrwydd yr esgobaeth babaidd, ei henafiaeth, fel yr hònant hwy, ei hundeb; yn fyr, pob rhesymau deniadol a dichellion, a arferir gan y pabyddion i hudo dynion i gymundeb yr eglwys hòno, a'u cadw yn ei chymundeb hi.

3 [g] * Ac efe a'm dygodd i [h] i'r diffaethwch yn yr yspryd: † ac mi a welais [i] wraig yn eistedd ar fwystfil ‡ o liw ysgarlad, [k] ‖ yn llawn o enwau cabledd, [l] â saith ben iddo, § a deg corn.

g pen. 1. 10. a 4. 2. a 21. 10. 1 Bren. 93. 12. 2 Bren. 2. 16. Ezec. 3. 12. a 8. 3. a 11. 24. Act. 8. 39. h pen. 12. 6, 14. Can. 8. 5. i adn. 4, 6, 18. pen. 12. 3. k Gwel ar pen. 13. 1—6.—Dan. 7. 8, 20, 25. a 11. 36. 2 Thes. 2. 4. l adn. 9—12. pen. 12. 3. a 13. 1.

* Gwedi yr ymddiddan uchod, dygodd yr angel Ioan i'r diffaethwch yn yr ysbryd; hyny yw, yr oedd efe dàn ddylanwad Ysbryd prophwydoliaeth, yn gweled ei hun megys yn cael ei ddwyn i'r diffaethwch: oblegid yr oedd gormes a hudoliaethau Anghrist wedi darostwng yr eglwys i ystâd o'r anghyfannedd-dra mwyaf, a chwedi ei gwneuthur hi fel diffaethwch. Gwel ar pen. 12. 6, 14. † Yno efe a welai wraig (y butain fawr, adn. 1.) yn eistedd ar fwystfil o liw ysgarlad. Y "wraig" hon ydoedd arwydd-lun o *eglwys* Rhufain, a'r "bwystfil" ydoedd arwydd-lun o'r awdurdod *gwladol*, trwy ba un y cafodd hi ei chynnal. ‡ Mae lliw ysgarlad y bwystfil yn cyfeirio at wisgoedd ysgarlad amherawdwyr Rhufain, a'r offeiriaid pabaidd hefyd; ac yn arwyddo creulondeb gwaedlyd pabyddiaeth tuag at y protestaniaid. Gwel ar pen. 12. 3. ‖ Am yr enwau cabledd yr oedd y bwystfil yn llawn o honynt, sylwasom eisoes, dàn pen. 13. 1, 5, 6. § Sylwyd hefyd ar y saith ben, a'r deg corn, pen. 12. 3; a 13. 1; a chawn achlysur i sylwi eto dàn adn. 7, 9, 10, 12, 16, o'r bennod hon.

4 * A'r wraig oedd wedi ei [m] dilladu â phorphor ac ysgarlad, [n] † ac wedi ei gwychu âg aur, ac â main gwerthfawr, a pherlau, [o] ‡ a

chanddi gwppan aur yn ei llaw, yn llawn o [p] ffieidd-dra ac [q] aflendid ei phutteindra.

m adn. 3. pen. 18. 7, 12, 16. n Dan. 11. 38. o pen. 14. 8. a 18. 6. a 19. 2. Jer. 51. 7. 2 Thes. 2. 3—10. p Deut. 29. 17. 1 Bren. 14. 24. 2 Bren. 21. 2. Es. 66. 3. Ezec. 20. 30. Hos. 9. 10. q Ezra 9. 11. Galar. 1. 9. Ezec. 24. 11, 13. a 36. 25.

* Yr oedd y wraig hefyd wedi ei dillaàu â phorphor ac ysgarlad, yn gystal â'r bwystfil ar yr hwn yr eisteddai: oblegid y rhai hyn a fuont yn wastad yn hoff liwiau dillad y pabau a'r prif-offeiriaid, *(cardinals)* yn gystal â'r eiddo amherawdwyr a seneddwyr Rhufain: ie, trwy fath o ynfydrwydd penwan, hwy a ddilladent y mulod a'r meirch ar ba rai y marchogent, â brethyn ysgarlad; fel pe byddent yn penderfynu cyfateb i'r dysgrifiad uchod, a marchogaeth yn llythyrenol ar fwystfil, neu anifail o liw ysgarlad. Mae hyn yn arwyddo creulondeb awdurdod *eglwysig* Rhufain hefyd, megys yr oedd yr adnod o'r blaen yn arwyddo ei chreulondeb *gwladol* hi: y *wraig*, yw yr *eglwys;* a'r *bwystfil*, yw yr awdurdod *gwladol*, ar yr hwn yr eisteddai hi; ac ill dau mewn ysgarlad a phorphor. † Yr oedd y wraig hon hefyd wedi ei gwyehu yn rhagorol âg amiedd o aur, a main gwerthfawr, a pherlau, fel putain o'r gradd uchaf: a phwy a all, mewn ymadroddion digonol, ddysgrifio balchder, gwychder, a rhwysg-fawredd eglwys Rhufain, yn ei gwisgoedd a'i haddurniadau ysplenydd o bob math? Mae hyd yn nôd pabyddion eu hunain wedi bod yn ymffrostio yn rhagoriaeth eu heglwys hwy, yn y fath hyn o fawr-wychder, goruwch yr hen Rufain gynt pan yn ei llwyddiant a'i mawredd eithaf. Ymddengys hyn yn mhob peth a berthyn i'w haddoliad cyhoeddus hwynt, ac yn y llŷs pabaidd, hyd yn nôd tu hwnt i amgyffred; ac mae y rhwysg allanol hyn yn dênu dynion cnawdol at grefydd, yr hon sydd yn rhagorol yn eu boddio hwynt yn mhob peth, ac fel y gellir dywedyd yn eu *meddwi* hwynt; tra maent yn dïystyru ac yn dirmygu addoliad ysbrydol a syml. "Mae hyn tu hwnt i bob dysgrifiad," medd un gŵr, "ac yn gymmaint uwchlaw fy nysgwyliad i, ag oedd pethau eraill yn gyffredin yn fŷr o'm dysgwyliad. Prin iawn y gall *arian* gael derbyniad; ac nid oes ond golwg go dlawd ar *aur* ei hunan, yn mysg y fath nifer anghredadwy o *berlau* a *meini gwerthfawr.*" ‡ Yn llaw y wraig hefyd yr oedd cwpan aur, yn llawn o ffieidd-dra, ac aflendid ei phuteindra hi. Mae hyn yn cyfeirio at arfer puteiniaid, y rhai a roddant fath o serch-ddïodydd swynawl i'w cariadau anllad; ac yn arwyddo yr amrywiol ddeniadau hudolaidd, a dichellion, llithiadau, y goddefiadau, y maddeuant, yn nghyd â'r gobeithion o elw bydol a derchafiad, trwy ba rai yr ennillodd ac y cadwodd eglwys Rhufain yn wastad ei hawdurdod; ac y twyllodd hi ddynion i ymuno â hi yn ei phuteindra ysbrydol, ffieiddion eraill ei haddoliad llygredig, a'r ansancteiddrwydd aflan cyssylltiedig â hyny.

5 * Ac ar [r] ei thalcen *yr oedd* enw wedi ei ysgrifenu, [s] † DIRGELWCH, [t] BABILON FAWR, [u] ‡ MAM PUTTEINIAID, A FFIEIDD-DRA Y DDAEAR.

r pen. 7. 3. Es. 3. 9. Phil. 3. 19. s 2 Thes. 2. 7. 2 Tim. 3. 1—5. t pen. 11. 8. a 14. 8. a 16. 19. a 18. 2, 10, 21. Jer. 51. 47, 48. u pen. 18. 9. a 19. 2.

* Yr dyben o wanhaniaethu y butain nodedig hon oddi wrth bawb eraill, yr oedd ei henw hi wedi ei ysgrifenu ar ei thalcen; fel yr arferai puteiniaid gynt wneyd eu hunain yn adnabyddus, trwy labedau ar eu talcenau, a'u henwau yn ysgrifenedig arnynt. Efallai fod cyfeiriad at hyn yn un peth yn Jer. 3. 3, pan ddywedai Duw am Israel wrthgiliedig, "A thalcen puteinwraig oedd i ti." †, Yr enw uchod oedd, DIRGELWCH, BABILON FAWR. Yr oedd ei chrefydd hi yn "ddirgelwch o anwiredd," (gwel ar 2 Thes. 2. 7.) a hi ei hunan yn gyfriniol ydoedd "Babilon Fawr," yr hon oedd yn dwyn yn mlaen ei hamcanion dyfnion a drygionus, mewn ffyrdd dirgelaidd, cyfrwys, ac anolrheiniadwy.—Yn awr nid oedd dim yn Rhufain *Baganaidd*, i'r hyn y gallai yr enw hwn berthyn yn fwy nac i unrhyw ddinas arall; ac ni buasai unrhyw *ddirgelwch* mawr yn y byd, mewn gosod un ddinas *Baganaidd* yn lle y llall; megys Rhufain Baganaidd yn lle Babilon Baganaidd: ond yr oedd yn "ddirgelwch" mawr yn wir, fod prif ddinas broffesedig yr eglwys gristionogol yn ail Babilon, mewn eilun-addoliaeth, drygioni, a chreulondeb i bobl Dduw: ac mae hyd yn nôd ei henw hi, o Eglwys Gyffredin Rhufain, yn rhoddi hawl iddi i'r enwad uchod, o "Ddirgelwch, Babilon Fawr." ‡ Mae hi yn cymmeryd arni yn wir yr enw 'Ein Mam Sanctaidd yr Eglwys;' ond mewn gwirionedd MAM PUTEINIAID, A FFIEIDD-DRA Y DDAEAR yw hi; dychymmyges, ffynon, taeniedyddes, a phrif esampl, eilun-addoliaeth, a phob math o gam-ddefnyddiadau a llygriadau o'r grefydd gristionogol, trwy y rhai mae cenedloedd y ddaear wedi cael eu llygru a'u halogi.—Dywedir gan haneswyr gwir gredadwy, fod y gair *Dirgelwch* cyn y Diwygiad, yn ysgrifenedig mewn llythyrenau o aur, ar du blaen capan côr *(mitre)* y Pab; ond gwrth-ddywedwyd hyn, am hyny nis gallwn fod yn hollawl sicr o'r peth, er fod y dystiolaeth o'i wirionedd yn llawer cryfach nac yn ei erbyn.—Os gwir yw yr hanner a ddywedir am buteiudra mynachod a lleianod eglwys Rhufain, mae hi yn deilwng iawn o'r enw "Mam puteiniaid," yn yr ystyr lythyrenol o'r geiriau, heblaw yn yr ystyr ysbrydol o honynt

6 * Ac mi a welais y wraig [x] yn feddw gan waed y saint, a chan waed [y] merthyron Iesu: † a phan ei gwelais, [z] mi a ryfeddais â rhyfeddod mawr.

x pen. 13. 7. a 16. 6. a 18. 20—24. Dan. 7. 21, 25. y pen. 2. 13. a 6. 9, 10. a 12. 11. Act. 22. 20. z Hab. 1. 13.

* Yr oedd y wraig, neu y butain hon, mòr nodedig am greulondeb ac erlid, ag oedd hi am eilun-addoliaeth ac anfadrwydd halogedig; a gwelai Ioan hi yn feddw gan waed saint a merthyron Iesu. Yn yr ystyr hyn yr oedd Rhufain *Baganaidd* a Rhufain *Babaidd* ill dwy yn euog; ond efallai i'r olaf ladd ychwaneg o *filoedd* nag a laddodd y gyntaf o *bersonau unigol:* † ac ni buasai Ioan yn "rhyfeddu â rhyfeddod mawr," o weled dinas baganaidd yn erlid cristionogion, gan iddo weled a phrofi y cyfryw erledigaethau am lawer blwyddyn, cyn iddo gael y weledigaeth hon; ond wrth weled dinas, yn proffesu ei hun yn gristionogol, ac yn fam-ddinas yr eglwys gristionogol, fel hyn yn gloddesta yn ddrygionus yn ngwaed y saint, nis gallai lai na sŷnu gyda'r rhyfeddod mwyaf.—Mae hyn oll yn eglur iawn: ond mae pabyddion yn rhyfeddu, trwy ba ddull o ymadrodd y mae *hereticiaid* yn cael eu galw yn "saint," a gwrthryfelwyr yn erbyn y Pab, yn "ferthyron Iesu."

7 * A'r angel a ddywedodd wrthyf, Paham y rhyfeddaist? [a] † myfi a ddywedaf i ti ddirgelwch y wraig, a'r bwystfil sydd yn ei dwyn hi, yr hwn sydd â'r saith ben ganddo, a'r deg corn.

a Gwel ar adn. 1—6, 8.

Rhag i neb gam-gymmeryd, neu betruso am feddwl yr arwydd-luniau hyn, mae yr angel ei hun yma yn dehongli y weledigaeth. * Gan i Ioan weled a chlywed llawer iawn ar yr un pethau o'r blaen, mae yr angel yn gofyn iddo Paham y rhyfeddai mòr fawr: † ac yna mae yn myned i egluro iddo ddirgelwch y wraig, a'r bwystfil oedd yn ei dwyn hi, ei saith ben, a'i ddeg corn, fel y gwelwn yn mlaen.

8 * Y [b] bwystfil a welaist, † a fu, ‡ ac nid yw; ‖ a bydd iddo ddyfod i fynu o'r pydew heb waelod, [c] § a myned i ddistryw: * a [d] rhyfeddu a wna y rhai sydd yn trigo ar y ddaear ([e] † y rhai ni ysgrifenwyd eu henwau yn llyfr y bywyd [f] er seiliad y byd) ‡ pan

welont y [g] bwystfil, ‖ yr hwn a fu, ac nid yw, er ei fod.

b pen. 9. 2, 3. a 13. 1—11. c adn. 11. pen. 14. 8—20. a 16. a 18. a 19. 15—21. a 20. 10. Dan. 7. 11, 26. a 11. 45. 2 Thes. 2. 3—8. d pen. 13. 3, 4. e Gwel ar pen. 13. 8.—a 20. 12, 15. f Mat. 25. 34. Ioan 17. 24. Act. 15. 18. Eph. 1. 4. Tit. 1. 2. 1 Pedr 1. 20. g pen. 13. 1—4, 11, 12.

* *Bwystfil* yw yr arwydd-lun o amherodraeth eilun-addolgar a gorthrymus: † amherodraeth Rhufain a *fu* y bwystfil dàn yr amherawdwyr paganaidd: ‡ a beidiodd a bod felly, pan ddaeth yn gristionogol, gyda golwg ar yr hyn, mewn ffordd o rag-fynegiad, mae yr angel yn dywedyd, "ac nid yw." ‖ Eto wedi hyny, "byddai iddo ddyfod i fynu o'r pydew heb waelod:" hyny yw, pan drôai yr amherodraeth anghristiaidd yn eilun-addolgar ac erledigaethus, a phan roddai y ddraig ei gallu i'r bwystfil, (gwel ar pen. 13. 2.) ymddangosai fel yn "codi o'r môr," (pen. 13. 1.) ystâd dymhestlog y cenedloedd; ond mewn gwirionedd o uffern yr oedd, gan ei fod yn brif ddyfais Satan i wrthwynebu yr efengyl; § ac am hyny wedi rhyw amser, yr oedd i fyned i ddystryw, a chael ei gyfrgolli byth bythoedd.—Yr oedd Rhufain yn eilun-addolgar dàn yr amherawdwyr paganaidd; ac yna peidiodd a bod felly dàn yr amherawdwyr cristionogol; ac yna daeth yn eilun-addolgar drachefn dàn y Pabau Rhufeinig; a pharâodd felly byth gwedi.—Ond yn y dull diweddaf hwn hi a â i ddystryw: ni bydd iddi fel o'r blaen beidio am amser, ac adfywio drachefn; ond hi a ddystrywir byth. * Pa fodd bynag, rhag-ddywedir y bydd iddi yn y cyfamser, dwyllo i ryfeddod dall a phensyfrdan, ac i ymostyngiad annwybodus, y rhai sydd yn trigo ar y ddaear, († y rhai nid ynt o nifer etholedigion Duw, a'u henwau yn llyfr y bywyd er seiliad y byd,) ‡ pan welont y bwystfil yn ei rwysg a'i fawredd rhith-grefyddol, ‖ yr hwn a fu, ac nid yw, er ei fod, yn y dull y dywedwyd uchod.—*A bydd iddo ddyfod i fynu:* mae hyn yn dangos codiad y bwystfil *ar ol* y brophwydoliaeth hon; ac o ganlyniad nid Rhufain Baganaidd a feddylir, oblegid yr oedd hòno wedi codi yn mhell o'r blaen.—Felly *Scott* ar yr adnod uchod; ac âg ef y cytuna ein Hawdwyr eraill oll.

9 * Dyma y [h] meddwl sydd â doethineb ganddo. [i] † Y saith ben, saith fynydd ydynt, ‡ lle mae y wraig yn eistedd arnynt.

h pen. 13. 18. Dan. 12. 4, 8—10. Hos. 14. 9. Mat. 13. 11. a 24. 15. i adn. 3, 7, 18. pen. 13. 1.

* Yma gan hyny yr oedd cyfle addas i ddyn i arfer a phrofi ei "ddoethineb;" ac yma yr oedd angen am ddoethineb ysbrydol; i ganfod pwy, a pha beth, a feddylid wrth y bwystfil, yr hwn a fuasai, ac nid oedd, er ei fod; am ei fod o hyd yr un, ond mewn dull neu ffurf wahanol. † I gynnorthwyo y darllenydd yn yr ymofyniad hyn, dywedai yr angel am saith ben y bwystfil arwydd-luniol hwn, mai saith fynydd oeddynt, neu eu bod yn arwyddo saith fynydd, ‡ ar y rhai yr eisteddai y wraig yn orseddawl; gan eu bod yn brif orsaf yr awdurdod eglwysig hwnw, trwy ba un yr oedd gallu y bwystfil yn cael ei gynnal.—Dyma sefyllfa dra hysbys Rhufain: ac er bod Caer Gystenyn hefyd yn sefyll ar saith fynydd, nid ydynt hwy mewn cymhariaeth ond isel; ac nid oes yr un o nodau eraill y bwystfil yn cyfateb i'r lle hwnw.

10 * Ac y mae saith frenhin: † pump a gwympasant, ‡ ac un sydd, ‖ *a*'r llall ni ddaeth etto; a phan ddêl, rhaid iddo aros ychydig.

* Ac yr oedd i'r "saith ben" uchod (adn. 9.) feddwl allegawl arall hefyd, ac yn arwyddo "saith frenin," neu saith ffurf o lywodraeth, neu o lywodraethwyr olyn-ol, yn ol meddwl prophwydoliaethol cyffredinol y gair "breninoedd." Yr oeddynt yn ymddangos oll yn y weledigaeth ar unwaith ar ben y bwystfil; † ond mewn gwirionedd yr oedd pump o honynt wedi syrthio, pan gawsai Ioan y weledigaeth hon; nid amgen breninoedd, cyngoriaid, pen-rhëolwyr *(dictators)* dengwriaid *(decemvirs)* a llywodraethwyr milwraidd; ‡ yr oedd un o'r saith y pryd hyny yn bod, sef amherawdwyr; ‖ ac un i ddyfod drachefn, yr hwn pan ddelai, ni cha'i aros ond am ychydig amser.—Mae rhai yn deall yr olaf hwn am yr amherawdwyr cristionogol; ond rhaid bod eu hawdurdod hwy yn gynnwysedig yn y chweched pen, neu ynte nis gallent fod yn ben y bwystfil o gwbl; am nad oeddynt hwy yn *eilun-addolgar.* Mae eraill yn ei ddeall am Raglaw *Ravenna,* îs-swyddwr amherawdwr y dwyrain; dàn lywodraeth pa un y bu y ddinas falch hon, Rhufain, yn aros fel Dugiaeth am fwy na chàn' mlynedd. Mae eraill yn ei ddeall am drawslywodraeth y Pab, cyn ei ddyfod yn dywysog gwladol, neu cyn dechreuad y deuddeg cant a thriugain mlynedd, a bennodwyd i'r bwystfil lywodraethu: ond Rhaglawiaeth *Ravenna* sydd fwyaf tebygol, yn marn *Scott;* yr amherawdwyr cristionogol, medd *Guyse,* a *Pool,* ac mae *Doddridge* o'r un farn â *Scott* os ydym yn ei ddeall yn iawn; ac yn wir mae *Guyse,* yn ei sylw ar odre y ddalen, braidd yn tueddu, debygai y Cyfieithydd, i farn *Scott* hefyd.

11 * A'r bwystfil, [k] † yr hwn oedd, ac nid ydyw, ‡ yntau yw yr wythfed, ac o'r saith y mae, ‖ ac i ddistryw y mae yn myned.

k Gwel ar adn. 8.

Mae amryw farnau eraill am y seithfed pen uchod, heblaw y rhai a enwyd dàn adn. 10; ac yn enwedig sefydlir ar lywodraeth Charlemagne, neu Siarl y Mawr, a'i olynwyr, am amryw genedlaethau. Pa fodd bynag, mae yn cyfeirio yn gyffredin at yr yspaid o amser, rhwng dymchweliad yr amherodraeth, â sefydliad y gormes pabaidd: yn yr hwn amser yr oedd Rhufain dàn lywodraeth *dymmorawl,* neu *wladol* Rhaglaw *Ravenna,* a thàn lywodraeth *ysbrydol,* neu *eglwysig* y Pab; yr hwn eisoes a ddygasai i mewn addoliad angelion a delwau, a llawer o ddrwg-arferion gwrthun eraill. * Os cyfrifir hyn yn ffurf wahanol o lywodraeth; yna y "bwystfil," fel yr oedd pan eisteddai y wraig arno; † ac yr hwn oedd, ac nid ydyw, fel y sylwyd uchod; (adn. 8.) ‡ oedd yr "wythfed," ond os cyfrifir ef yn rhŷ fychan a diddym i'w ystyried yn "ben" gwahanol, un o'r "saith" oedd efe: ‖ ond pa un bynag ai y seithfed neu yr wythfed oedd efe, hwn oedd y ffurf ddiweddaf o lywodraeth oedd i fod yn yr amherodraeth eilun-addolgar hòno; ac i ddystryw yr oedd i fyned. Y bwystfil, gan hyny, ar yr hwn yr eisteddai y wraig, yw y llywodraeth Rufeinig yn ei ffurf ddiweddaf; a rhaid i bawb addef, mai y llywodraeth babaidd, ac nid yr amherodrawl a phaganaidd, yw hòno: oblegid y pen diweddaf oedd yr unig un oedd yn hanfodi, pan eisteddai y wraig ar y bwystfil; ac a ddywedid am dano o herwydd hyny, fel y bwystfil ei hun.—Mae ein Hawdwyr eu hunain, gan mwyaf, yn bur anhawdd eu deall, ac yn wahanol eu meddyliau yn aml, ar y pethau dyrys hyn; ac erbyn eu dethol, eu cyfieithu, a cheisio eu cysoni â'u gilydd, ofna y Cyfieithydd y bydd ei lafur yn bur annealladwy i'r darllenydd: efe a wnaeth ei orau, ac a wna ei orau o hyn hyd y diwedd.

12 [l] * A'r deg corn a welaist, deg brenhin ydynt, † y rhai ni dderbyniasant frenhiniaeth etto; ‡ eithr awdurdod fel brenhinoedd, un awr, y maent yn ei dderbyn gyd â'r bwystfil.

l pen. 12. 3. a 13. 1. Dan. 2. 40—43. a 7. 7, 8, 20, 24. Zec. 1. 18—21.

* "Y deg corn" (y rhai a dyfasant oll debygid ar y pen diweddaf,) oeddynt yn arwyddo "deg brenin," neu oliannau o freninoedd; † y rhai ni dderbyniasent freniniaeth eto, pan oedd yr angel yn llefaru y pethau hyn wrth Ioan: ‡ eithr awdurdod fel breninoedd, hwy a dderbynient un awr gyda'r bwystfil; neu *am ryw gymmaint o amser* teyrnasiad y bwystfil, yn ol barn eraill.—Mae hyn yn rhag-ddangos rhaniad yr amherodraeth Rufeinig yn ddeg breniniaeth wahanol, ac eto yn gyssylltiedig mewn un amcan, i gynnal i fynu eilun-addoliaeth eg-

lwys Rhufain; ac mae yn hollawl anghydweddu â Rhufain Baganaidd. Hwy a allent fod yn freninoedd; ond nid oeddynt yn gyrn y bwystfil hyd oni dderbyniasant ei greffydd ef, a dechreu cynnorthwyo y Pab ac eglwys Rhufain, a chael eu cynnorthwyo ganddynt hwy.—Tybia *Guyse* i'r deg brenin uchod "dderbyn eu hawdurdod fel breninoedd," tua'r un amser ag y dechreuodd y bwystfil pabaidd, neu yr awdurdod anghristiaidd, osod i fynu ei amherodraeth eilunaddolgar; sef tua chanol y bummed ganrif: a thybia *Pool*, o'r tu arall, fod y brophwydoliaeth yn cyfeirio at freninoedd yn nes i ddiwedd llywodraeth Anghrist; y rhai, er gwasanaethu y Pab am ychydig amser, a fyddant yn y diwedd yn offerynau i'w ddinystrio ef: (gwel ar adn. 16.) ond pwy ydynt a wna hyn, a pha bryd y bydd hyn, addefa yr Awdwr uchod nas gall efe benderfynu. Dywed *Scott* yn eglur, (fel y sylwyd eisoes dàn ‡.) eu bod *ar yr un amser*, a *thros yr un amser*, â'r bwystfil. Nid yw *Doddridge* yn rhoi goleu yn y byd ar y mater, o ran y breninoedd nâ'u hamser.

13 [m] * Yr un meddwl sydd i'r rhai hyn, † a *hwy* [n] a roddant eu nerth a'u hawdurdod i'r bwystfil.

m Phil. 1. 27. a 2. 2. n adn. 17. Es. 10. 5—7. Ezec. 38. 10. Act. 4. 28.

* Yr oedd y deg brenin hyn i fod yn *gyd-oesol*, ac nid yn *ol-yn-ol*, fel y saith brenin o'r blaen: (adn. 10.) a pha fodd bynag y byddent yn amrywio ac yn anghytuno mewn pethau eraill, byddent oll o'r un meddwl mewn pethau crefyddol; ac oll megys o un galon yn ymostwng i awdurdod y bwystfil, sef y Pab; † ac i roddi eu cyfoeth, eu harfau, a'u holl nerth a'u hawdurdod yn gytun, i fynu i'w ewyllys ef; i'w defnyddio hwynt er cynnal ei oruchafiaeth, ei fanteision, a'i amcanion eilun-addolgar ac erledigaethus. Byddent oll yn babyddion, ac am ychydig, "un awr," rhoddent eu nerth a'u hawdurdod i gynnal pabyddiaeth, ac felly i'r bwystfil, ac yn erbyn Crist a'i achos.

14 * Y rhai hyn [o] a ryfelant â'r Oen, [p] † a'r Oen a'u gorchfyga hwynt: ‡ oblegid [q] Arglwydd arglwyddi ydyw, a Brenhin brenhinoedd; [r] || a'r rhai sydd gyd âg ef, *sydd* alwedig, ac etholedig, § a ffyddlawn.

o pen. 11. 7. a 8. 6, 7. a 16. 14. a 19. 15—21. Dan. 7. 21, 25. a 13. 9—12, 24, 25. Zec. 2. 8. Mat. 25. 40. Act. 9. 4, 5. p pen. 6. 12—17. Salm 2. 8, 9. a 21. 8—12. a 110. 5, 6. Dan. 2. 44. a 7. 26, 27. 1 Cor. 15. 24, 25. q pen. 1. 5. a 19. 16. Deut. 10. 17. Salm 136. 2, 3. Diar. 8. 15, 16. Dan. 2. 47. 1 Tim. 6. 15. r pen. 14. 1—4. a 19. 14. Salm 149. 5—9. Jer. 50. 44, 45. Mica 5. 7—9. Ioan 15. 16. Rhuf. 8. 30. 2 Tim. 2. 4. Heb. 3. 1, 2. 1 Pedr 2. 9.

* Wrth roddi eu nerth a'u hawdurdod felly i'r bwystfil, hwy a ryfelent â'r Oen, yn ei athrawiaeth, ei osodiadau, ei achos, a'i bobl; trwy erledigaethau creulawn, trwy nerth y cleddyf, a thrwy wneyd trais ar gydwybodau dynion, i'w darostwng i lywodraeth a chyfeiliornadau y Pab. † Ond yn y diwedd byddai i ogoneddus Oen Duw eu gorchfygu hwynt; yn a thrwy ffydd ddïysgog, proffes, ac amynedd dyoddefus ei bobl; y rhai a safent yn ŵrol ac ardderchog yn wyneb eu holl elynion, ac ni charent eu heinioes hyd angau. ‡ Oblegid yr Oen hwn, Duw o natur, a Chyfryngwr drwy osodiad, Arglwydd holl arglwyddi daear, a Brenin holl freninoedd y byd hwn, ydyw; ac mae llywodraeth a gofal yr eglwys, a holl genedloedd y ddaear, yn ei law ac ar ei ysgwydd ef, i wneuthur â hwynt oll yn ol ei ewyllys anfeidrol ddoeth a sanctaidd ei hun. Gan hyny mae efe yn ddigon cryf a galluog i orchfygu ei elynion, un ai trwy yr efengyl a'i ras, neu trwy ddwyn dïal a dystryw byth ar eu penau, yr un a fyno efe. || A'r rhai sydd gydag ef ac yn ei ganlyn, ydynt wedi eu galw yn effeithiol i ymrestru dàn ei faner ef, mewn canlyniad i'r etholiad neillduol a wnaeth efe o honynt; § ac am hyny maent yn wir gredinwyr, yn ffyddlawn yn ei achos ef, ac i'w hymrwymiadau eu hunain.—Tybia rhai fod yma gyfeiriad at *arfer filwraidd* yn mhlith y Groegiaid: sef *galw* y bobl yn nghyd, pan fyddai rhyfel ar droed; *ethol* rhyw nifer o honynt; y rhai a dyngent *ffyddlondeb* i'w blaenor. Ond mae *ethol* Duw o flaen *galw*; a'r *galw* a'r ffyddlondeb yn ffrwyth yr *ethol* hyny.

15 * Ac efe a ddywedodd wrthyf, [s] Y dyfroedd a welaist, lle y mae y buttain yn eistedd, [t] † pobloedd a thorfeydd ydynt, a chenhedloedd ac ieithoedd.

s Gwel ar adn. 1.—Salm 18. 4. a 65. 7. a 93. 3, 4. Es. 8. 7, 8. Jer. 51. 13, 42, 55. t pen. 10. 11. a 11. 9. a 13. 7, 8.

* Yn nesaf mae yr angel yn egluro i Ioan beth oedd ystyr y "dyfroedd lawer," ar ba rai y gwelsai y wraig yn eistedd mewn rhwysg a mawredd breninol. (adn. 1.) † Ystyr gyfriniol y dyfroedd hyny oedd, pobloedd a thorfêydd, a chenedloedd ac ieithoedd: pedwar o eiriau gwahanol, oll yn y rhif lïosog, er gosod allan yn brïodol, ehangder llywodraeth eglwys Rhufain; nid yn unig ar y dynion a'r gwledydd hyny o fewn tiriogaethau pabaidd, ond hefyd dros yr holl deyrnasoedd ag oedd o'r cyfundeb hwnw, neu o'r grefydd hòno: ac ar holl ddeiliaid pellenig y Pab, yn yr India Ddwyreiniol, yn America Ddeheuol, a llawer o fànau eraill. Yn wir hònodd y Pab hawl i arglwyddiaethu ar bob cenedl; i ddosparthu coronau, ac i ddïorseddu breninoedd, wrth ei ewyllys ei hun; fel pe buasai efe yn arglwydd arglwyddi, ac yn frenin breninoedd!

16 * A'r [u] deg corn a welaist ar y bwystfil, [x] y rhai hyn a gasânt y buttain, † ac a'i gwnant hi yn unig ac [y] yn noeth, [z] ‡ a'i chnawd hi a fwyttânt hwy, || ac [a] a'i llosgant hi â thân.

u Gwel ar adn. 2, 10, 12. x adn. 1, 2, 13. Es. 13. 17, 18. Jer. 50. 41, 42. y pen. 18. 16, 17. Ezec. 16. 37—42. a 23. 45—49. z Job 31. 31. Salm 27. 2. Dan. 7. 5. a pen. 18. 8. Lef. 21. 9.

Fel y sylwyd, yr eisteddai y wraig buteinig uchod, yn frenines ar ddyfroedd lawer; sef ar bobloedd a thorfêydd, a chenedloedd ac ieithoedd: ac yn wir mae yr enw o Esgob Cyffredinol, ac Eglwys Gyffredinol Rhufain, yn llawn gydweddu â'r dysgrifiad uchod. * Pa fodd bynag, nid fel hyn y bydd yn wastadol; oblegid y "deg corn," neu deyrnasoedd, y rhai unwaith a ddyrchafasant ac a gynnaliasant y gormes eglwysig, a drôant yn y diwedd i "gasâu" y butain hòno, ei gormes, ei thraws-lywodraeth, ei thwyll, a'i llygredigaethau ffiaidd mewn athrawiaeth ac arferion. A phan welont pa fodd y twyllwyd ac y gorthrymwyd hwy ganddi, hwy a ddigiant wrthi ac a'i ffieiddiant hi, yn fwy nag y carasant hi erioed o'r blaen; fel y gwna dynion anllad â phutain aflan, pan welont ei hudoliaethau twyllodrus hi, ac yr argyhoedder hwynt o ddrwg eu cyd-weithredoedd blaenorawl â hi. † Ac yna hwy a beidiant â'u hamddiffyn a'u nodded iddi, trôant eu harfau yn ei herbyn hi, a gwnant hi yn unig ac yn noeth, o'i holl gyfoeth, ei rhwysg, a'i hawdurdod; ‡ ac a'i difrodant hi â thân a chleddyf; yr hyn nid yn unig a'i dinystria hi, ond a fydd hefyd mòr boenus iddi, â phe cnôent ei chnawd hi oddi ar ei hesgyrn; || neu â phe llosgent hi i farwolaeth â thân eirias; megys y rhag-ddywedwyd y gwnaid hefyd, trwy y prophwyd Daniel, (Dan. 7. 11.) ac megys y llosgid merch offeïriad yn Israel, a fyddai yn euog o buteindra. (Lefit. 21. 9.)—Pan y gwelom ni rai teyrnasoedd eraill, sydd yn awr dàn lywodraeth y Pab, yn gwneuthur cymmaint ag a wnaed yn *Lloegr*, yn *Scotland*, yn *Sweden*, ac mewn rhai mànau eraill; efallai y deuwn ni i ddeall y brophwydoliaeth uchod yn well nac yr ydym yn ei deall yn awr, medd *Pool*.

17 * Canys [b] Duw a [c] roddodd yn eu calonnau hwynt [d] wneuthur ei ewyllys ef, † a gwneuthur yr un ewyllys, ‡ a rhoddi eu teyrnas i'r bwystfil, [e] || hyd oni chyflawner geiriau Duw.

b Gwel ar adn. 13. c Ezra 7. 27. Salm 105. 25. Diar. 21. 1. Jer. 32. 40. 2 Thes. 2. 10—12. Iago 1. 13—17. d Luc 22. 3, 22, 37. Ioan 13. 2, 18. e pen. 6. 11. a 10. 7. a 15. 1. Diar. 19. 21. Es. 45. 27. a 46. 10, 11. Jer. 27. 6, 7. Ezec. 38. 16, 17. Dan. 12. 7. Ioan 10. 35. a 12. 39, 40. a 19. 24, 28.

* Canys y Duw mawr, Llywodraethwr y byd, yr hwn mae calonau breninoedd yn ei law, i'w troi hwynt lle y mỳno efe; (Diar. 21. 1.) a benderfynodd roddi y breninoedd uchod i fynu, dros amser, i drachwantau eu calonau eu hunain, y rhai a goleddasant yn rhydd ac o ddewisiad: a thrwy ragluniaeth oruwch-lywodraethol, efe a drôdd ffrŵd eu tueddiadau pechadurus hwy eu hunain i'r fath rediad, ag a dueddai yn y diwedd i "wneuthur ei ewyllys ef," mewn perthynas i godiad a chynnydd yr awdurdod pabaidd. † Ac efe a oddefodd iddynt, dàn gynhyrfiadau Satan a gweithrediadau eu llygredigaethau eu hunain, i gyd-gytuno i ymostwng i awdurdod, coel-grefydd, ac eilun-addoliaeth y Pab; ‡ ac i roddi i fynu eu nerth, eu cyfoeth, ac hyd yn nôd eu coronau a'u teyrnasoedd, at wasanaeth y bwystfil anghristiaidd hwn. ‖ Ond efe a wnaeth hyn dros amser terfynol yn unig, hyd oni chyflawnid ei eiriau ef, yn y brophwydoliaeth hon a hen brophwydoliaethau eraill, am gyflwr blodeuog a llywodraeth Anghrist; ac yna, trwy ddylanwad grasol neu ragluniaethol, neu bob un o'r ddau, ar eu calonau, efe a'u tuedda hwynt i wneuthur ei ewyllys a'i orchymyn ef, yn mherthynas i hollawl ddinystr yr awdurdod eilun-addolgar y buasent yn ei gynnal o'r blaen.—*A gwneuthur yr un ewyllys:* sef yr un ewyllys â'u gilydd: unwaith yn *gwasanaethu* y butain, ac felly yn gwneuthur ewyllys *oddefol* Duw; (medd *Pool*) ac wedi hyny yn ei *dystrywio* hi, ac felly yn gwneuthur ei ewyllys *arfaethol*, a *gorchymynol* ef.

18 * A'r [f]wraig a welaist, † yw y ddinas fawr, ‡ sydd yn teyrnasu ar frenhinoedd y ddaear.

f pen. 16. 19. a 18. 2. Dan. 2. 40, 41. a 7. 23. Luc 2. 1.

* Ac i orphen y dysgrifiad o'r wraig a welsai Ioan yn eistedd ar y bwystfil arwydd-luniol uchod, (adn. 3.) † dywedai yr angel mai hi oedd y "ddinas fawr, yr hon oedd yn teyrnasu ar freninoedd y ddaear," pan gawsai Ioan y weledigaeth hon: a rhaid y gŵyr pawb, mai Rhufain oedd y ddinas fawr hòno. ‡ Yn wir hyn oedd amcan, dyben, ac awydd proffesedig Rhufain oddi ar ei sylfaeniad; ac mewn gwahanol ffyrdd, hi a gyflawnodd ei hamcan, gydag ond ychydig attaliad, hyd y dydd heddyw: trwy yr Amherawdwyr Paganaidd gynt, a thrwy y Pabau wedi hyny, hyd yr amser presenol: ond ni a gawn ei chwymp ofnadwy hi yn fuan yn y bennod nesaf.

PEN. XVIII.

Cwymp Babilon.

* AC ar ol y pethau hyn [a] † mi a welais angel arall ‡ yn dyfod i waered o'r nef, ‖ âg awdurdod mawr ganddo; [b] § a'r ddaear a oleuwyd gan ei ogoniant ef.

a Gwel ar pen. 17. 1. b pen. 21. 23. Es. 60. 1—3. Ezec. 43. 2. Luc 17. 24. 2 Thes. 2. 8.

* Gwedi i Ioan gael gwybodaeth amlwg pwy oedd y "Babilon fawr," (pen. 17. 5.) a pha beth a wnaethai hi; mae yma yn cael parâd o weledigaeth ei dinystr hi. † Gwelai angel arall, gwahanol i'r hwn a ymddiddanasai âg ef o'r blaen, a gwahanol i holl angelion y phiolau, ‡ yn dyfod i waered o'r nef, at orchwyl mawr, ‖ ac âg awdurdod mawr ganddo, cyfatebol i'r gorchwyl hwnw; § a'r ddaear a oleuwyd yn danbaid, gan ei ogoniant rhagorol ef. Crist ei hun ydoedd hwn, neu ynte arddangosiad arwyddol o'i ddyfodiad ef i ddinystrio ei elynion, ac i daenu goleuni yr efengyl yn mhlith yr holl genedloedd; at yr hyn bethau mae y geiriau yn naturiol yn cyfeirio ein meddyliau: oblegid dywedir y dyfetha efe Anghrist âg ysbryd ei enau, ac y dilëa efe ef â dysgleirdeb ei ddyfodiad. 2 Thes. 2. 8.

2 * Ac efe a [c] lefodd yn groch â llef uchel, gan ddywedyd, [d] † Syrthiodd, syrthiodd Babilon fawr hono, [e] ‡ ac aeth yn drigfa cythreuliaid, ‖ ac yn gadwriaeth pob yspryd aflan, § ac yn gadwriaeth pob aderyn aflan ac atgas.

c pen. 1. 15. a 5. 2. a 10. 3. a 14. 15. Jer. 25. 30. Joel 3. 16. d adn. 10, 21. pen. 14. 8. a 16. 19. a 17. 5, 18. Es. 13. 19. a 21. 9. Jer. 51. 8, 60—64. e Lef. 11. 13—19. Es. 13. 20—22. a 14. 23. a 34. 11—15. Jer. 50. 39, 40. a 51. 37. Marc 5. 3—5. Luc 8. 27, 28.

* Ac efe a gyhoeddodd yn grôch, â llef uchel, fawreddig, ac awdurdodol, yr hon a allai pawb ei chlywed, ac yr hon oedd yn arwyddo gallu ac awdurdod mawr; † gan ddywedyd yn groyw, "Syrthiodd, syrthiodd Babilon fawr hòno," sef Rhufain Babaidd, yr hon yr oedd yr hen Babilon gynt yn gysgod, a dim ond cysgod gwàn, o hóni; mewn eilun-addoliaeth, creulondeb i bobl Dduw, a phob balchder a drygioni aflan: ond o'r diwedd hi a Syrthiodd, syrthiodd; hyny yw, hi a syrthiodd yn ofnadwy, yn hollawl, ac am byth! ‡ Nid yn unig hi a syrthiodd ac a aeth yn anghyfannedd, ond hi a aeth hefyd yn fath o uffern ar y ddaear, yn drigfa cythreuliaid, ‖ ac yn gadwriaeth neu wersyllfa pob ysbryd aflan, § ac yn gadwriaeth neu gynniweirfa pob aderyn aflan ac atgas; y fath a arferant lochesu mewn hen adfeilion dychrynllyd, anial, ac anghyfannedd.—Tybia rhai fod y geiriau yn cyfeirio at y datguddiadau a wnair y pryd hwnw, o'r gorfynt *(ambition)* dieflig, y gordwyllion, y celwyddau, y llofruddiaethau, a'r afleudid echryslawn, â pha rai y llenwir y ddinas, dàn y rhith o grefydd; ond mae y geiriau yn ffugyrawl, a chwedi eu cymmeryd o'r Hen Destament, yn enwedig lle y sonir am ddinystr Babilon. (Esa. 13. 19—22; Jer. 50. 39; a 51. 37.) Mae yn ddigon amlwg nad oes dim anghyfannedd-dra wedi dyfod â Rhufain i'r cyflwr hwn eto; oddigerth i ni ddywedyd yn wir, ei bod hi yn drigfa cythreuliaid, ac yn gadwriaeth pob ysbryd aflan, a phob aderyn aflan ac atgas, er pan mae Pabau, ac offeiriaid pabaidd, wedi ei gwneyd hi yn drigfa iddynt eu hunain: oblegid heb hyn, rhaid i bawb addef fod y brophwydoliaeth hon heb ei chyflawni eto: ond hi a gyflawnir.

3 * Oblegid [f] yr holl genhedloedd a yfasant o win digofaint ei godineb hi, † a brenhinoedd y ddaear a butteiniasant gyd â hi, [g] ‡ a marchnattâwyr y ddaear a gyfoethogwyd gan [h] amlder ei moethau hi.

f adn. 9. pen. 14. 8. a 17. 2. Jer. 51. 7. g adn. 11—17, 23. Es. 47. 15. 2 Pedr 2. 1—3. h Jer. 51. 34. Galar. 4. 5. Luc 7. 25.

* Fel rheswm chwanegol at bethau a grybwyllwyd eisoes, am ddinystr y ddinas greulawn ac aflan hon, dywedir yma iddi ddiodi yr holl genedloedd â gwin digofaint ei godineb hi, neu win ei godineb hi yr hwn a ddyg digofaint Duw arni: (gwel ar pen. 14. 8.) † ac i freninoedd y ddaear gael eu hudo ganddi i buteinio gyda hi; sef i ymuno â hi mewn eilun-addoliaeth a choel-grefydd babaidd, yr hyn sy buteindra ysbrydol yn nghyfrif Duw. ‡ Dywedir hefyd ddarfod cyfoethogi marchnatâwyr y ddaear gan amlder ei chyfoeth hi. Yr oedd ei mawredd allanol, ei moethusrwydd, a'i rhysedd hi, yn achos a moddion o gyfoeth dirfawr i luoedd lawer; ac yr oedd yr amryw gelfyddydau, y gweithfêydd, a'r masnachau, y rhai a flodeuent yn llwyddiannus drwy ei chrefydd rwysgfawr a gorwych hi, yn cynnorthwyo yn wastad i gynnal y grefydd hòno; oblegid trwy y celfyddydau, y gweithiau, a'r masnachau hyny, yr oedd aneirif ddynion yn cael eu cyfoeth. Paentiaeth, cerfiaeth, adeiladaeth, cerddoriaeth, a'r holl gelfyddydau teg, a gawsant hefyd y gefnogaeth helaethaf, ac a wrteithiwyd i'r perffeithrwydd mwyaf, yn yr eglwys gostfawr ac ysplenydd hòno. Ond y farchnadaeth ysbrydol, o gyffesu a maddau pechodau, prynu a gwerthu creiriau, a gweddio eneidiau o'r purdan, &c., &c.; trwy yr hyn yr oedd ac y mae, lluoedd aneirif yn byw yn ddrygionus mewn llawnder, ac yn mwynâu digonedd o foethau, trwy bechodau a ffoleddau dynolryw, a feddylir yn benaf mae yn debyg.—*Moethau:* dywed *Doddridge* fod y gair Groeg (*strênous*)

yn arwyddosy cyfryw *foethau* mewn bywioliaeth ag sydd yn meithrin *anllad rwydd*, ac yn tueddu i weithredoedd o *anniweirdeb;* ac sydd yn addas iawn i ddangos y modd mae yr offeiriaid pabaidd yn eu glythu eu hunain, yn nghyd â'r effeithiau o hyny, er gwarth i broffes o gristionogrwydd yn ngolwg yr holl fyd; yn gystal â'r eilun-addoliaeth a sefydlwyd ac a ddèlir i fynu, er cynnal a phorthi y *moethineb* hyny.

4 * Ac mi a glywais lef arall o'r nef yn dywedyd, [i] † Deuwch allan o honi hi, fy mhobl i, ‡ fel na byddoch [k] gyd-gyfrannogion o'i phechodau hi, ‖ ac na dderbynioch o'i phlâau hi.

i Gen. 19. 12, 13. Num. 16. 26, 27. Es. 48. 20. a 52. 11. Jer. 50. 8. a 51. 6, 45, 50. Mat. 24. 15, 16. 2 Cor. 6. 17. k Salm 50. 18. Mat. 23. 30. 1 Tim. 5. 22. 2 Ioan 11.

* Gwedi y geiriau uchod, (adn. 2, 3.) clywai Ioan lef arall o'r nef, † yn galw ar bobl Dduw i ddyfod allan o'r Babilon a'r Sodom ysbrydol hon, ac ymddidoli yn llwyr oddi wrthi; ‡ fel na byddent gyfranogion o'i phechodau atgas a gwaedd-fawr hi, ‖ ac na dderbynient o'i phlâau, ei chospedigaethau, a'i barnedigaethau ofnadwy hi: fel y galwyd Lot o Sodom cyn ei dinystrio hi â thân a brwmstan; ac fel y galwyd pobl Dduw o Babilon gynt, cyn ei chwymp hi. (Gen. 19. 12, 13, 15—17; Esa. 48. 20; a 52. 11; Jer. 50. 8; a 52. 6.) Mae yr alwad hon yn perthyn i bawb yn mhob oes a gwlad. Pawb a gredant yn Nghrist, ac a "addolant Dduw yn yr Ysbryd," dylent ymddidoli oddi wrth eglwys mòr llygredig; ac oddi wrth bob eglwys arall a ganlyno ei hesampl hi o eilun-addoliaeth, erlid, creulondeb, a thra-arglwyddiaeth; a gochelyd bod yn gyfranog o'i phechodau hi, hyd yn nôd os ymwrthodasant â'i chymundeb hi; os amgen, gallant fod yn gyfranogion o'i phlâau hi.—*Scott.*

5 * Oblegid ei phechodau hi [l] † a gyrhaeddasant hyd y nef, [m] ‡ a Duw a gofiodd ei hanwireddau hi.

l Gen. 18. 20, 21. 2 Cron. 28. 9. Ezra 9. 6. Jer. 51. 9. Jona 1. 2. m Gwel ar pen. 16. 19.

* Yr oedd ei phechodau hi, ei drygioni beiddiawl, rhyfygus, ysgeler, ac echryslawn, † yn debyg i fynyddoedd mawrion wedi eu pentùru ar eu gilydd, nes oeddynt yn cyrhaeddyd hyd y nef; ‡ ac yr oedd Duw o'r diwedd wedi cofio ei llìosog anwireddau hi, i'w dial hi am danynt; er iddi hi dybied wrth ei hir-ymaros ef, ei fod megys wedi ei hanghofio, ac na ddialai efe arni am y cyfryw weithredoedd annuwiol.

6 [n] * Telwch iddi fel y talodd hithau i chwi, † a [o] dyblwch iddi y dau cymmaint yn ol ei gweithredoedd: [p] ‡ yn y cwppan a lanwodd hi, ‖ llenwch iddi yn ddau-ddyblyg.

n pen. 13. 10. a 16. 5, 6. Ex. 21. 23—25. Salm 137. 8. Jer. 50. 15, 29. a 51. 24, 49. 2 Tim. 4. 14. o Es. 40. 2. a 61. 7. Jer. 16. 18. a 17. 18. Zec. 9. 12. p Gwel ar pen. 14. 10. a 16. 19. a 17. 2, 4.

* Gan hyny mae Duw yn galw ar y personau, neu y cenedloedd, a erlidiwyd ac a dwyllwyd ganddi hi, i dalu iddi hithau fel drwg-weithredyddes gondemniol; † a dyblu iddi y dau cymmaint, dau fesur am yr un, o win digofaint Duw, am ei holl weithredoedd ysgeler: ‡ yn y cwpan a lanwasai hi o greulondeb a hudoliaethau i eraill, ‖ yr oeddynt hwythau i lanw yn ddau-ddyblyg, mewn barn a dialedd arni hithau.—Dywed Canlynydd *Pool* fod yr adnod hon yn swnio yn ei glustiau ef, fel pe byddai Duw yn bwriadu i ddinystr pabyddiaeth gael ei gyflawni gan ddwylo rhyw *Brotestaniaid;* rhai o'r sawl a erlidiwyd gan y pabyddion; rhai o'r un ffydd â'r rhai a erlidiwyd, os nad yr un personau.

7 [q] * Cymmaint ag yr ymogoneddodd hi, † ac y bu mewn moethau, ‡ y cymmaint arall rhoddwch iddi o ofid a galar: ‖ oblegid y mae hi yn dywedyd yn ei chalon, [r] § Yr wyf yn eistedd yn frenhines; [s] * a gweddw nid ydwyf, † a galar nis gwelaf ddim.

q Es. 22. 12—14. a 47. 1, 2, 7—9. Ezec. 28. 2—10. Zeph. 2. 15. 2 Thes. 2. 4—8. r Salm 45. 9. Jer. 13. 18. s Es. 47. 7, 8. Galar. 1. 1.

* Cymmaint ag yr ymogoneddodd hi yn ei llwyddiant, ei mawredd, ei harglwyddiaeth, a'i chreulondeb tuag at y saint; † a chymmaint ag y bu hi yn foethus a thrythyll trwy ei thwyll a'i hudoliaethau aflan a swynawl; ‡ y cymmaint arall a roddid iddi o ofid a galar, ing a phoen, pan ddelai dydd ei hymweliad, ei barn, a'i thrychineb ofnadwy oddi wrth yr Arglwydd, trwy offeryn oldeb y rhai a alwai efe i ddial arni. ‖ Ychydig a feddyliai hi am ei "gofid a'i galar" uchod, yn amser ei mawredd a'i moethau, pan ddywedai yn ymffrostiawl yn ei chalon ei hun, § "Yr wyf yn eistedd yn frenines," ac yn "arglwyddes teyrnasoedd," i lywodraethu ar feddiannau, personau, a chydwybodau dynion; * ac nid amddifadwyd fi o ddim o'm mawredd, fy awdurdod, na'm pleserau, fel gweddw wedi ei hamddifadu o'i chymmorth a'i hamddiffyn, ei gogoniant a'i chysur, yn y golled o'i phriod; † ac nid ysgydwir fy ngorsedd i byth, a galar o un math nis gwelaf ddim. Dyma iaith ryfygus y butain Rufeinig, fel yr hen Babilon gynt; (gwel Esa. 47. oll.) ond er hyn, ac "oblegid" hyn, mae ei "gofid a'i galar" i ddyfod arni, fel y dangosir yn mhellach yn yr adnodau a ganlyn.

8 * Am hynny [t] mewn un dydd y daw ei phlâau hi, † *sef* marwolaeth, ‡ a galar, ‖ a newyn; [u] § a hi a lwyr-losgir â thân: * oblegid [x] cryf *yw* yr Arglwydd Dduw, † yr hwn sydd yn ei barnu hi.

t adn. 10, 17, 19. Es. 47. 9—11. Jer. 51. 6. u adn. 9. pen. 17. 16. a 19. 3. Jer. 2. 58. x Job 9. 19. Es. 27. 1. Jer. 50. 31, 34. 1 Cor. 10. 22.

* Tybiai yr hen Babilon gynt ei hun yn annorfodadwy; a thybia eglwys Rufain, y Babilon ysbrydol, ei hun yn anffaeledig, ac yn annorfodadwy hefyd; yr unig eglwys, ebai hi, yr hon nis gall pyrth uffern ei gorchfygu: ond beth a ddywed Duw? Am ei bod hi fel hyn yn drahaus ac ymffrostgar, ac yn hoff ddychymmygu nas gall na niwed na pherygl ddyfod yn agos ati; am hyny daw ei chospedigaeth a'i dinystr arni yn ddisymmwth, megys mewn un dydd, fel y dywedwyd am yr hen Babilon gynt. (Esa. 47. 9, 11.) † "Marwolaeth," trwy haint, neu gleddyf, neu trwy bob un o'r ddau, a dỳr ymaith luoedd o'i deiliaid hi; ‡ a "galar" ac wylofain am y golled o'i phlant; ‖ a dystryw trwy "newyn," a diffyg o bob cynnaliaeth angenrheidiol, a gyd-gyferfydd arni hi; § a hi a lwyr losgir â thân gan ei gelynion: (gwel ar pen. 17. 16.) * oblegid cryf anfeidrol a hollalluog, yw yr Arglwydd Dduw yr hwn a ddigiwyd mòr fawr ganddi hi; † yr hwn sydd yn ei gyfiawnder yn ei barnu ac yn ei chondemnio hi, ac sydd wedi penderfynu ei dystrywio hi: am hyny nid os dim gwrthsefyll ei allu ef, yr hwn sy ddigon cryf i dywallt y farn fwriadol, ac a'i gwna yn sicr.—Gan na chafodd Rhufain erioed eto ei "llwyr-losgi â thân," fel y dywedir yma; mae yn sicr mai prophwydoliaeth am bethau sydd i ddyfod eto, yw y geiriau uchod.

9 * Ac [y] wylo am dani, a galaru drosti, a wna [z] brenhinoedd y ddaear, † y rhai a butteiniasant, ‡ ac a fuant fyw yn foethus gyd â hi, ‖ pan welont [a] fwg ei llosgiad hi,

y Gwel ar adn. 3, 7.—pen. 17. 2, 12, 13. z adn. 20. Salm 58. 10. Jer. 50. 46. Ezec. 26. 16, 17. a 32. 9, 10. Dan. 4. 14. Zec. 11. 2, 3. a adn. 18. pen. 14. 11. a 19. 3. Gen. 19. 28. Deut. 29. 23. Es. 13. 19. a 30. 33. a 34. 9, 10. Jer. 50. 40.

10 § Gan sefyll [b] o hirbell, gan ofn ei gofid hi, * a dywedyd, [c] Gwae, gwae, [d] † y ddinas fawr honno, Babilon, y ddinas gadarn! [e] ‡ oblegid mewn un awr ‖ y daeth dy farn § di.

b Num. 16. 34. c adn. 16, 19. Jer. 30. 7. Joel 1. 15. Amos 5. 16. d Gwel ar pen. 14. 8.—Es. 21. 9. e Gwel ar adn. 8. —Jer. 51. 8, 9.

* Rhai o'r brenïnoedd, y rhai o'r blaen a bleidiasent eglwys Rhufain, a lŷnant wrthi, hyd yn nôd pau gydymgyssyllto rhai eraill o honynt i'w dystrywio hi; (pen. 17. 16, 17.) a hwy a wylant ac a alarant drosti hi yn ei chwymp ofnadwy, † sef y rhai a buteiniasant gyda hi yn ei heilun-addoliaeth a'i drygioni; ‡ ac a fuant fyw yn foethus, mawreddus, a rhyseddgar gyda hi, a thrwy eu perthynas grefyddol â hi. || Pan welo y rhai hyn fŵg ei llosgiad hi, a'i phoenau, heb allu diffodd y naill, na lliniaru y llall; § ni bydd ganddynt ddim i'w wneyd ond ei gadael hi, neu fod yn gyfranog o'i barn; am hyny hwy a safant o hirbell, gan ofn cyfranogi o'i barn a'i gofidiau dirfawr hi. * Yn y sefyllfa ddychrynllyd hon, hwy a ddywedant, Gwae! gwae! pa wae a thrueni annysgwyliadwy yw hwn! pa ddystryw ac anghyfannedd-dra disymmwth, † a ddaeth ar y ddinas fawr a galluog, Babilon ysbrydol, y ddinas a dybiwyd ei bod mòr gadarn, fel na syflid mo hóni byth gan neb! ‡ oblegid ar unwaith, megys mewn un dydd, (adn. 8.) ïe, mewn un awr fechan, nas meddylid fawr am dani o'r blaen; || y daeth dy farn, dy gondemniad, a'th ddystryw § di, O dydi arglwyddes y byd pabaidd, yr hon a eisteddit yn frenines ar y bwystfil, ac ar ddyfroedd lawer, yn dy holl wychder a'th ddïogelwch bostfawr, gan ddywedyd, *A galar nis gwelaf ddim.* (adn. 7.)—Mae yma gyfeiriad pur amlwg at yr *wylo* a'r *galaru* am gwymp Tyrus, a ddysgrifir yn Ezeciel, pen. 27.

11 * A [f]marchnattâwyr y ddaear a wylant ac a alarant drosti; † oblegid nid oes neb mwyach [g] yn prynu eu marsiandïaeth hwynt:

f adn. 3, 9, 15, 20, 23. pen. 13. 16, 17. Es. 23. 1—15. a 47. 15. Ezec. 26. 17—21. a 27. 27—36. Zeph. 1. 11, 18. g Diar. 3. 14. Mat. 22. 5. Ioan 2. 16. 2 Pedr 2. 3.

* Fel yr wylai ac y galarai y marchnadyddion am gwymp Tyrus gynt, y ddinas fawr flodeuog a marchnadyddol hòno; felly y bydd i farchnatâwyr bydol-fryd y ddaear wylo a galaru dros Rufain babaidd, yn ei chwymp a'i dinystr hi; † oblegid ni bydd neb mwyach yn prynu eu marsiandïaeth hwynt, sef marsiandïaeth yr offeiriaid pabaidd, o greiriau sanctaidd, maddeuant, a goddefiadau i bechu am arian, neu trwy dalu: ac ni bydd neb mwyach chwaith i brynu y nwyddau drudfawr, a fyddid yn arfer eu defnyddio at wisgoedd yr offeiriaid, i harddu y delwau, ac i addurno eu lleoedd addoliad. Ond tybir mai y pethau cyntaf, yn nghyd â derchafiadau eglwysig, a werthid gan y Pab i'r mwyaf eu harian, a feddylir yn benaf yma; a'r pethau eraill yn yr adnodau a ganlyn.

12 [h] * Marsiandïaeth o aur, ac arian, a meini gwerthfawr, a pherlau, † a llïan main, a phorphor, a sidan, ac ysgarlad, ‡ a phob coed thynon, || a phob llestr o ifori, a phob llestr o goed gwerthfawr iawn, ac o bres, ac *o* haiarn, ac *o* faen marmor,

h pen. 17. 4. 1 Bren. 10. 11, 12. Diar. 8. 10, 11. Ezec. 27. 5—25.

* Nis gallant mwyach ymhyfrydu ac ymfalchïo yn yr elw dirfawr a arferent wneyd o'r fath uchod o farsiandïaeth: ni ddwg y farsiandïaeth hòno i mewn iddynt mwyach, fel cynt, aur ac arian, meini gwerthfawr a pherlau, i gyfoethogi eu hunain, ac i gynnal ac arddangos gorwychder a mawredd eu hoffeiriadaeth a'u haddoliad: † ac ni chânt mwyach llïan main, a phorphor, a sidan, ac ysgarlad, i'w haddurno eu hunain, ac i wneyd gwisgoedd hynodawl i'w hoffeiriaid, eu hesgobion, a'u pendodau eglwysig; *(cardinals)* ‡ na choed thynon, y rhai a brisid mòr fawr o herwydd eu per-arogledd, a'u paràd, i adeiladu neu addurno teïau gwŷchion a themlau; || na dim o'r llestri hyny o ifori, ac o goed gwerthfawr iawn a theg, ac o brês, ac o haiarn, ac o faen marmor, o ba rai yr arferent wneyd eu delwau eilun-addolgar, a phob math o lestri er gwasanaeth coel-grefyddol, ac addurniadau a dodrefn teuluaidd.

13 * A [i] sinamon, a phêr-aroglau, ac enaint, a thus, † a gwin, ac olew, ‡ a pheilliaid, a gwenith, ac ysgrubliaid, a defaid, || a meirch, a cherbydau, [k] a chaeth-weision, [l] § ac eneidiau dynion.

i 1 Bren. 10. 10, 15, 25. 2 Cron. 9. 9. Diar. 7. 17. Can. 1. 3. a 4. 13, 14. a 5. 5. Amos 6. 6. Ioan 12. 3—8. k Ex. 21. 16. Deut. 24. 7. a 28. 68. Neh. 5. 4, 5, 8. Es. 50. 1. Ezec. 27. 13. Amos 2. 6. a 8. 6. 1 Tim. 1. 10. l 2 Pedr 2. 3.

* Derfydd weithian hefyd am y sinamon peraidd a nwyf-bair, a'r per-aroglau, a'r enaint, a'r thus, i foddâu y synwyrau, i ber-arogli a phrydferthu eu cyrph, i borthi eu balchder a'u moethineb, ac i wneyd arogldarth peraidd ac eneinniau costfawr, i ddybenion eilun-addolgar a choel-grefyddol; † a derfydd am y gwin, a'r olew, i sirioli eu calonau, ac i ddysgleirio eu gwynebau, (Salm 104. 15.) neu i'w defnyddio yn eilun-addolgar a choel-grefyddol yn aberth yr offeren, ac yn yr eneinniad diweddaf; ‡ a derfydd am y peilliaid teg, a'r gwenith, a'r ysgrubliaid, a'r defaid, i'w degymu gan yr offeiriaid er cynnaliaeth natur, ac i'w diwallu hwy âg angenrheidiau, llawer llai â chysuron a moethau, bywyd anianol; || a derfydd am feirch, a cherbydau, a chaeth-weision, er gwneyd i fynu osgordd a gweinydd-res rwysgfawr, ac i wneyd ymddangosiad mawr, gyda gorwychder rhodresgar pabau ac esgobion trahaus; § ïe, derfydd mwyach iddynt gaethiwo eneidiau dynion, mwy na'u meddiannau a'u cyrph, drwy dra-awdurdodi yn ormesol ar eu cydwybodau, a thynu arian oddi wrthynt am faddeuant a goddefiadau i bechu, ac am eu gweddïo hwy allan o'r purdan; yr hyn mewn gwirionedd yw talu iddynt am ddystrywio, yn lle achub eu heneidiau. Pan ddystrywir pabyddiaeth, derfydd am yr holl farsiandïaeth felltigedig hon, yn meddiannau, cyrph, ac eneidiau dynion, drwy.

14 * A'r aeron a [m] chwennychodd dy enaid, [n] † a aethant ymaith oddi wrthyt, ‡ a phob peth danteithiol a gwŷch || a aethant ymaith oddi wrthyt; § ac ni chai hwynt ddim mwyach.

m Num. 11. 4, 34. Salm 78. 18. a 106. 14. 1 Cor. 10. 6. Iago 4. 2. 1 Ioan 2. 16, 17. n Luc 12. 20. a 16. 25.

* A chynnyrchion dy farsiandïaeth ddrygionus, O Babilon ysbrydol, y rhai oedd fel aeron neu ffrwythau peraidd, yn y rhai yr ymhyfrydaist gymmaint, ac y rhai a chwennychodd dy enaid mòr fawr, megys cyfoeth, anrhydedd, a mwyniant y byd hwn, yr hyn oedd ben eithaf dy awydd; † tòrwyd y rhai hyn oll yn awr oddi wrthyt, ac aethant ymaith yn llwyr: ‡ a phob peth ag oedd yn ddanteithiol a melys i'r archwaeth, ac oedd yn ymddangos yn wych a theg i'r golwg, || a aethant ymaith hefyd yr un modd oddi wrthyt, § ac ni chai di ddim o honynt byth mwyach; ond dïosgir di yn hollol, a byddi yn amddifad o honynt oll, heb obaith eu cael drachefn byth bythoedd.

15 * Marchnattâwyr y pethau hyn, [o] y rhai a gyfoethogwyd ganddi, [p] † a safant o hirbell oddi wrthi, ‡ gan ofn ei gofid hi, || gan wylo a galaru,

o adn. 3, 11. Hos. 12. 7, 8. Zec. 11. 5. Marc 11. 17. Act. 16. 19. a 19. 24—27. p Gwel ar adn. 11.—Barn. 18. 23, 24. Ezec. 27. 31. Amos 5. 16, 17.

* Y rhai a arferent farchnata yn y nwyddau uchod, ac a gyfoethogwyd mewn pethau *tymmorawl*, ac a wâg dybient eu cyfoethogi yn *ysbrydol*, gan eglwys Rufain a'i chrefydd rwysgfawr ac ofer-goelus; † y rhai hyn fel breninoedd y ddaear o'r blaen, (adn. 9, 10.) yn analluog i'w chynnorthwyo hi, a gilient ac a safent o hir-bell oddi wrthi; ‡ ac am y gwyddent eu bod yn gyfranog â hi yn ei phechodau, hwy a ofnent rhag bod yn gyfranogion hefyd â hi yn ei gofid: || ac wrth yr olwg ofnadwy hyd yn nôd o hir-bell, hwy a ollyngent dristwch eu calon mewn llif o ddagrau, ac mewn wylo a galaru mawr.

16 * A dywedyd, [q] Gwae, gwae, y ddinas fawr honno, † yr hon oedd wedi ei gwisgo â

llïan main, a phorphor, ac ysgarlad, ‡ ac wedi ei gwŷchu âg aur, a meini gwerthfawr, a pherlau!

q Gwel ar adn. 10, 11. pen. 17. 4.—Luc 16. 19.

* Fel yr oedd y marchnatâwyr uchod yn sefyll o hirbell, gan wylo a galaru, clywai Ioan hwy yn dywedyd hefyd, neu yn hytrach yn dolefain yn alaethus, Gwae! gwae! O mòr ddychrynllyd yw dinystr Rhufain, y ddinas fawr ac enwog hòno, lle yr oedd gorseddfa y pen pabaidd, y butain, yr hon a ddywedasai yn ei chalon, "Eistedd yr ydwyf yn frenines, a galar ni welaf ddim;" (adn. 7.) † ac yr hon yn uchder ei rhwysg, ei hawdurdod, a'i chyfoeth, oedd wedi ei gwisgo yn orwych â llïan main, a phorphor, ac ysgarlad, gwisgoedd yr offeiriaid pabaidd wrth weini, efallai; ‡ ac wedi ei gwychu yn dra ysplenydd âg aur, a meini gwerthfawr, a pherlau! ond yn awr mae hi yn eithaf truenus, a gresynol dros ben.

17 * Oblegid mewn [r] un awr yr anrheithiwyd cymmaint cyfoeth. [s] † A phob llonglywydd, ‡ a phob cwmpeini mewn llongau, || a llongwyr, a chynnifer ag y sydd â'u gwaith ar y môr, § a safasant o hirbell,

r adn. 10. Es. 47. 9. Jer. 51. 8. Galar. 4. 6. s adn. 11. Es. 23. 14. Ezec. 27. 27—36. Jona 1. 6.

* "Oblegid mewn un awr," hyny yw, yn sydyn, ar unwaith, yn annysgwyliadwy, ac mewn ychydig amser, yr anrheithiwyd hi o'i holl gyfoeth dirfawr, a'i budr elw anghyfiawn, a darostyngwyd hi i'r tlodi a'r caledfyd mwyaf.—Mae y darn hyn o'r adnod hon yn diweddu yr adnod o'r blaen yn y Saesoneg, ac felly hefyd yn y Groeg. † A'r holl lywyddion llongau, y rhai a gludent y nwyddau uchod i Rufain, a dinasoedd pabaidd eraill, ‡ a phob cwmpeini mewn llongau, a farchnatâent yn y nwyddau hyny o un wlad i'r llall, || a'r llongwyr oll o bob graddau, cynnifer ag oedd a'u gwaith ar y môr, ac yn cael eu bywioliaeth a'u helw wrth y farsiandïaeth uchod; § a safasant o hir-bell mewn syndod a galar wrth y dinystr a enwyd.—Tybia *Guyse* mai offeiriaid pabaidd, mynachod, a *Jesuitiaid*, a feddylir yn yr adnod hon, yn enwedig wrth y "pob cwmpeini," y rhai a dramwyent dros y môroedd i bob gwledydd, i werthu maddeuant pechodau a chreiriau, ac i wneyd proselytiaid i'r grefydd babaidd: a thybia *Pool* yr un peth hefyd, yn nghyd â swyddogion y Pab, y rhai a ddanfonid i wledydd tramor i gasglu *ceiniogau Petr*, a phob trethi a thaliadau a roddid ar ddeiliaid y Pab er cynnal yr eglwys.

18 * Ac a lefasant, [t] pan welsant fŵg ei llosgiad hi, gan ddywedyd, [u] † Pa *ddinas* debyg i'r ddinas fawr honno!

t Gwel ar adn. 9. u adn. 10. pen. 13. 4. Es. 23. 8, 9. Ezec. 27. 32.

* A phan oedd yr arwyddion dybryd o'i llwyr ddinystr hi, fel colofnau tewion tywyll o fŵg, y rhai a dderchafant i'r awyr o bob rhan o ddinas ar dân; pan welsant hwy fŵg ei llosgiad hi fel hyn, hwy a lefasant yn alaethus gan ddywedyd, † Pa ddinas mòr ogoneddus a mawreddig, mòr gyfoethog, galluog, a balch, a drôwyd erioed i ddinystr a thrueni mòr llwyr, â'r ddinas fawr hon, yn nghyd â'i holl arglwyddiaeth ddirfawr; yr hyn sydd syndod tu hwnt i bob dychymmyg!—*Mwg ei llosgiad hi:* gall y ddinas anghristiaidd hòno gael ei llosgi pan ddel yr amser, un ai yn ddamweiniol, neu gan elynion, neu gan dân tàn-ddaearol yn tòri allan o ogofau tanllyd, y rhai sydd yn aml yn y wlad hòno, neu ynte trwy dân goruwch-naturiol o'r nef, fel y llosgwyd ei hen chwiorydd hi, Sodom a Gomorrah.—Am amryw nwyddau o farsiandïaeth a enwir yn yr adnodau blaenorawl, tybiwyd nad oedd yn angenrheidiol sylwi yn fanylach nac y gwnaed arnynt: mae y cwbl yn tueddu i ddangos, yn y modd grymusaf a ellir ddychymmygu, ryw faint o'r gorwychder, y moethder, y rhysedd, a'r hunan-goleddiad o bob math, a ffynodd am gyhyd o amser yn mhrif-ddinas a mam-eglwys alluog, fawredd-ig, geinwech, foethus, a phen-rhydd pabyddiaeth; ac yr hyn bob amser a gyfoethogodd nifer dirfawr o ddynion, mewn gwahanol ffyrdd, trwy dylodi a llymâu y cenedloedd a berthynent i'r grefydd hòno. Ac nid yw yn angenrheidiol chwaith, i gymhwyso y gwahanol bethau a enwir, at yr amrywiol fathau o farsiandïaeth ysbrydol, trwy ba rai y cyfoethogwyd y pabau, yr uchel-offeiriaid, *(cardinals)* yr esgobion, yr abadau, y mân-offeiriaid, ac ymlynyddion cyflogaidd eraill, ar draul y werin bobl. Mae cyfeiriad amlwg at hyn, pryd mae, nid yn unig caeth-weision, ond hefyd *eneidiau* dynion, (adn. 13.) yn cael eu henwi fel nwyddau marchnadawl; yr hyn sydd, tu hwnt i bob cymhariaeth, y mwyaf gwarthus a melltigaid o bob marsiandïaeth, a ddyfeisiodd y cythraul o drachwant cybyddus erioed; hyd yn nôd braidd yn anfeidrol fwy ysgeler na'r gaeth-fasnach waradwyddus. Ond och, mae yn mhell o fod yn beth anghyffredin: mae gwerthu goddefiadau i bechu, ysgrifau esgusodol, maddeuant, offerenau dros y meirw, a deddf-lythyrau y Pab, yn wastad wedi cyfoethogi offeiriaid Rhufain a'u hymlynwyr, er twyllo a dystrywio eneidiau myrddiynau o ddynion, ac felly "mewn cybydd-dod, trwy chwedlau gwneuthur, y gwnant farsiandïaeth o honynt hwy:" ac nid yw derchafiadau eglwysig, a llawer o bethau eraill yn eu plith hwy, ddim gwell na gwneyd marsiandïaeth o eneidiau dynion; a byddai yn dda iawn i *brotestaniaid*, a chan lawer o honynt, pe gallent ddywedyd mai marsiandïaeth ac enogrwydd eglwys Rhufain yn unig yw hyn; ac nad oes neb, ac na bu neb, yn ein plith a'n gwlad ni, yn gyfranogion o'u pechodau hwynt yn hyn.—*Scott.* Pa fodd bynag, daw hyn yn gyffredin i'r dim yn y màn, ac ni bydd braidd neb a bryn farsiandïaeth eglwys Rhufain mwyach; ond y rhai oll a fuont gyfranog o elw ei marchnadaeth hi, yn dymmorawl ac yn ysbrydol, a safant o hir-bell, rhag ofn ei phlâau hi, ac a welant fŵg ei llosgiad hi yn derchafu fel Sodom o bell.

19 [x] * A hwy a fwriasant lwch ar eu pennau, ac a lefasant, gan [y] wylo a galaru, † *a* dywedyd, Gwae, gwae, y ddinas fawr honno, ‡ yn yr hon y cyfoethogodd yr holl rai oedd ganddynt longau ar y môr, || trwy ei chost hi! § oblegid mewn un awr yr anrheithiwyd *hi.*

x Jos. 7. 6. 1 Sam. 4. 12. 2 Sam. 13. 19. Neh. 9. 1. Job 2. 12. Ezec. 27. 30. y Gwel ar adn. 10, 15, 16.

* Fel y byddai dynion mewn galar mawr yn arfer bwrw llwch ar eu penau, (Jos. 7. 6; Job 2. 12.) ac fel y dywedir i'r galarwyr am Tyrus wneyd; (Ezec. 27. 30.) felly y bydd i'r gwerthwyr hyn o nwyddau Rhufain, fwrw llwch ar eu penau fel yn arwydd o'r gofid mwyaf, gan wylo a galaru yn chwerw; † a gwaeddi am y drydedd waith, (adn. 10, 16.) Gwae! gwae! y ddinas fawr hòno, Rhufain, a Babilon ysbrydol, yr hon a elwir yn "ddinas fawr" yn aml yn y prophwydoliaethau hyn. ‡ O mòr arswydus yw ei dinystr a'i thrueni hi, yr hon oedd ychydig iawn yn ol mewn agwedd mòr flodeuog, fel yr oedd yn cyfoethogi ei holl goel-grefyddwyr a ddygent yn mlaen fasnachaeth â hi a throsti; yn eu llongau ar y môr, || i gludo i mewn iddi y nwyddau costfawr a enwyd eisoes, ac i drosglwyddo allan ei chenadon hi, y rhai a werthent ei nwyddau ysbrydol hi fel y sylwyd eisoes, am bris uchel a chostus iawn! § oblegid mewn un awr megys, (adn. 8, 10, 17.) y darostyngwyd ac yr anrheithiwyd hi o'i holl gyfoeth, ei gallu, a'i mawredd blaenorawl; fel y mae yn hollawl analluog mwyach i gynnorthwyo ei gweision, na derbyn cynnorthwy ganddynt hwy.

20 [z] * Llawenhâ o'i phlegid hi, y nef, [a] † a chwi, apostolion sanctaidd a phrophwydi; ‡ oblegid [b] dïalodd Duw arni drosoch chwi.

z pen. 19. 1—3. Barn. 5. 31. Salm 48. 11. a 58. 10. a 96. 11—13. a 107. 42. a 109. 28. Diar. 11. 10. Es. 44. 23. a 49. 13. Jer. 51. 47, 48. a Eph. 2. 20. a 3. 5. a 4. 11. 2 Pedr 3. 2. Judas 17. b pen. 6. 10. a 19. 2. Deut. 32. 42. Salm 18. 47. a 94. 1. Es. 26. 21. Luc 11 49, 50. a 18. 7, 8.

* Tra byddo lluoedd yn cyd-alaru, wedi colli gobaith eu helw, a dinystrio eu hyder mewn coel-grefydd ac eilun-addoliaeth; a thra byddont yn wylo mewn ing a chryndod calon am gwymp a dinystr Rhufain; gelwir ar holl eglwys Dduw yn y nef ac ar y ddaear, i lawenâu a gorfoleddu oblegid ei chwymp hi: † ac yn enwedig apostolion sanctaidd a phrophwydi, y rhai yn weinidogaethol a osodasant sylfaen yr eglwys, ac Iesu Grist ei hun yn ben congl-faen; yn nghyd â holl fugeiliaid ac athrawon ffyddlawn yr eglwys, y rhai a gododd Duw i egluro a phregethu yr efengyl bur, ac a brophwydasant fel ei dystion ef mewn sachlïan am gyhyd o amser: gelwir y rhai hyn oll, yn nghyd â'r holl saint yn y nef ac ar y ddaear i lawenâu, ‡ oblegid dïal o Dduw ar yr eglwys eilun-addolgar ac erlidgar hòno drostynt hwy; ac oblegid iddo agoryd y ffordd drwy hyny, i bregethu yr efengyl, a helaethu terfynau ei deyrnas, yn mhlith yr holl genedloedd.—"A chwi *apostolion:*" mae yn beth nodedig deilwng o'n sylw, bod yr *apostolion,* y rhai a anrhydeddir yn eilun-addolgar, ac a addolir yn feunyddiol yn eglwys Rhufain, yn cael eu henwi yma yn bennodol, fel yn llawenâu yn ei chwymp hi; fel pe byddai Duw yn "dïal arni *drostynt hwy,*" am y gwarth a daflodd hi arnynt trwy eu haddoli felly. Tra mae hi yn cymmeryd arni anrhydeddu yr apostolion yn ormodol, mae hi yn llygru eu hathrawiaeth hwynt, yn gwneyd trais ar eu rhëolau o addoliad, a chwedi erlid a thywallt gwaed eu brodyr, ag oedd o'r un argraff a delw sanctaidd â hwynt-hwy.—Nis gallai fod un rheswm paham y dylasai y cristionogion lawenâu yn y barnedigaethau a fu ar Rufain *Bayanaidd* gynt, trwy yr Huniaid, y Gothiaid, y Vandaliaid, a chenedloedd eraill; oblegid yr oedd y cristionogion eu hunain yn ddyoddefwyr nodedig yn y barnau hyny: gan hyny, rhaid mai y barnau ar Rufain *Babaidd* yn unig a feddylir yma.

21 * Ac angel cadarn a gododd faen megis maen melin mawr, ac a'i bwriodd i'r môr, † gan ddywedyd, [c] Fel hyn gyda rhuthr y teflir Babilon y ddinas fawr, [d] ‡ ac ni cheir hi mwyach.

c Ex. 15. 5. Neh. 9. 11. Jer. 51. 63, 64. d adn. 22. pen. 16. 20. a 20. 11. Job 20. 8. Salm 37. 36. Ezec. 26. 21. Dan. 11. 19.

* Yn nesaf, i wneyd y brophwydoliaeth yn sicrach byth, gwelai Ioan angel cadarn nerthol, yn codi maen megys maen melin mawr, ac yn ei fwrw i'r môr gyda rhuthr grymus, i arwyddo cwymp Rhufain: yn gyffelyb fel y rhwymwyd maen wrth y llyfr gan Seraiah, ac y bwriwyd ef i'r afon Euphrates, yn arwydd o gwymp Babilon lythyrenol gynt. Jer. 51. 61—64. † Ac wrth ei fwrw felly, dywedai yr angel, er egluro meddwl neu arwyddocâd y weithred, fel hyn gyda rhuthr ofnadwy, y teflir Babilon ysbrydol, Rhufain, y ddinas fawr, yn nghyd â'i holl allu, ei gwychder, ei hawdurdod, a'i mawredd, yn sydyn i hollawl ddystryw: ‡ ac ni cheir hi mwyach; nid adeiledir hi drachefn byth mwyach, nid adfera hi ei nerth a'i hawdurdod byth mwyach, ac ni bydd iddi le yn y byd o gwbl yn dragywydd mwyach.—Malodd hi lawer o saint Duw yn greulawn megys â meini melin; ac yn y diwedd rhuthra dystryw arni hithau, megys bwrw maen melin i'r môr.—"Gyda *rhuthr:*" cael ei hyrddio yn ofnadwy gan rymus nerth yr angel, heblaw disgyn wrth ei bwysau dirfawr ei hun.

22 * A [e] llais telynorion, a cherddorion, a phibyddion, ac udganwyr, ni chlywir ynot mwyach; † ac un crefftwr, o ba grefft bynnag *y bo,* ni cheir ynot mwyach; ‡ a thrwst maen melin ni chlywir ynot mwyach;

e Es. 24. 8, 9. Jer. 7. 34. a 16. 9. a 25. 10. a 33. 11. Ezec. 26. 13.

* Fel y bygythiwyd Israel wrthgiliedig gynt, (Jer. 25. 10.) felly y bydd i holl lawenydd a hyfrydwch coel-grefyddol a gwladol Rhufain ddarfod yn llwyr ac am byth: ni chlywir llais unrhyw gerddoriaeth, ar dafod, chwyth, na thànau, o un math, yn ei haddoliadau pabaidd, nac mewn gwleddoedd a chyfarfodydd llawen, byth mwyach. ‡ Ni welir un crefftwr delwau, nac o ba grefft bynag arall y bo, o'i mewn hi mwyach; ‡ a thrwst maen melin ni chlywir ynddi hi mwyach, mòr llwyr a hollawl y bydd y dinystr a'r anghyfannedd-dra wedi dyfod arni.—Yn y rhan flaenaf o'r adnod, mae *pleserau* bywyd yn darfod; yn yr ail ran, mae gwneuthurwyr pethau *cyflëus,* a *gwasanaethgar* bywyd yn cael eu cymmeryd ymaith; ac yn y rhan olaf, mae hyd yn nôd *angenrheidiau* bywyd yn cael eu dyddymu: ac efallai fod cyfeiriad hefyd, yn yr offer cerdd a'r crefftwyr, at bethau *crefyddol* eglwys Rhufain; ei hoffer cerdd eglwysig a'i delwau hi, a'r crefftwyr oedd yn gwneyd y pethau hyny, ac yn ymgyfoethogi drwy eu gwneyd.

23 [f] * A llewyrch canwyll ni welir ynot mwyach; [g] † a llais prïodas-fab a phrïodas-ferch ni chlywir ynot mwyach: [h] ‡ oblegid dy farchnattâwyr di oedd wŷr mawr y ddaear; [i] || oblegid trwy dy swyn-gyfaredd di y twyllwyd yr holl genhedloedd.

f pen. 22. 5. Job 21. 17. Diar. 4. 18, 19. a 24. 20. g Gwel ar adn. 22. h adn. 3, 11—19. Es. 23. 8, 9. Ezec. 27. 24, 25, 33, 34. i adn. 3, 9. pen. 12. 9. a 13. 13—16. a 17. 2—5. a 21. 8. a 22. 15. 2 Bren. 9. 22. Es. 47. 9. Nah. 3. 4. Act. 8. 11.

* Ac mòr llwyr fydd y difrod a'r anghyfannedd-dra hwn pan ddelo, fel na welir yn Rhufain gymmaint â llewyrch canwyll mwyach, i dòri ar dywyllwch erchyll y nos: ni bydd yno ddim cysurus i'w fwynâu byth mwyach; yn llŷs mawr y pendefig, ïe y Pab ei hun, mwy nag yn mwth gwael y cardotyn. † Ac os na bydd yno lewyrch canwyll, llai o lawer y cair yno y lamp brïodasol, y caniadau prïodasol; a llawenydd prïodasol y priodfab a'r brïod-ferch, ni chlywir yno mwyach. ‡ Oblegid ei marchnatâwyr hi mewn pethau tymmorawl ac ysbrydol, fel y sylwyd eisoes, (adn. 11—13, 15, 17, 19.) a ymgyfoethogasant; ac a aethant yn wŷr mawr ac uchel mewn gwlad ac eglwys, ond "daearol, anianol, a chythreulig" oeddynt yn eu holl fawredd, ac yn y moddion drygionus a arferasant i'w gwneyd yn fawr: || oblegid trwy eu swyn-gyfaredd hudol hwynt, fel rhan o'r eglwys babaidd, ac fel swyddwyr dichellgar yr eglwys hòno, y twyllwyd holl genedloedd y gwledydd i eilun-addoliaeth, i ymadael â'u harian, ac i ddinystrio eu heneidiau byth wrth y miloedd. Ac yn awr, "oblegid" hyny y daw y dinystr uchod ar yr holl eglwys.

24 * Ac [k] ynddi y caed gwaed prophwydi a saint, † a phawb a'r a laddwyd ar y ddaear.

k pen. 11. 7. a 16. 6. a 17. 6. a 19. 2. Jer. 2. 34. Ezec. 22. 9, 12, 27. Dan. 7. 21. Mat. 23. 27—35. Luc 11. 47—51. Act. 7. 52. 1 Thes. 2. 15.

* Ac, yr hyn sydd yn mawr chwanegi at yr holl ddrygau uchod o'r eiddo Babilon ysbrydol; yn mwyâu ei heuogrwydd, ei chondemniad a'i thrueni hi; ac yr hyn sydd yn uchel gyhoeddi cyfiawnder Duw yn ei farnedigaethau arni, yw, ei bod hi wedi llenwi i fynu fesur ei chreulonder a'i llofruddiaethau, y rhai a wnaeth hi ar ffyddlawn weinidogion a phobl sanctaidd Duw; † ac ar bawb a roddwyd i farwolaeth o achos y gwirionedd, trwy ei hawdurdod, ei chanonau, a'i deddfau hi, yn mhob gwlad ar y ddaear lle yr oedd ganddi hi lywodraeth. Ac fel hyn pan ddelo dydd ei gofwy hi, cair gwaed prophwydi, saint, a merthyron Duw, yn ei godre hi; iddi hi y perthyn yr euogrwydd o hóno, ac arni hi y disgyn y farn ofnadwy am dano. *Ynddi:* sef yn Rhufain yn benaf, ac yn mhob gwlad lle y merthyrwyd ac y llofruddiwyd dynion wrth ei harch hi, a chan ei hofferynau hi. Pan ddinystriwyd Mynachlogydd, Abaddai, a Lleiandai yn Lloegr, dywedir y byddid yn cael mewn tyllau yn y muriau, mewn ogofau, llynau, a phydewau, o amgylch yr adeiladau hyny, lawer o benglogau ac esgyrn babanod; basdarddiaid y mynachod a'u lleianod, fel y tybid, y rhai a laddesid ganddynt hwy ar eu genedigaeth i guddio gwarth eu hanlladrwydd aflan. Daw y gwaed hwn oll i'r golwg ddydd y farn; a daw aneirif bethau cyffelyb, heblaw gwaed prophwydi a

saint, i'r golwg yn Rhufain ei hun, pan ddinystrio Duw y ddinas buteinig a llofruddiog hòno.—Ond mae Rhufain o hyd yn sefyll eto, yn flodeuog, ac yn cael ei hanrhydeddu gan lawer o genedloedd, fel mam-ddinas a mam-eglwys y byd cristionogol; mae o hyd yn adseinio gan lais *cerddorion a chantorion*, mae o hyd yn rhagori mewn *celfyddydau*, y rhai a wasanaethant i rwysg a moethder, mae o hyd yn llawn *canwyllau, lampau*, a *ffaglenau*, hyd yn nôd ganol dydd fel canol nos, yn ei heglwysi a'i chor-deithiau crefyddol; ac o ganlyniad mae y brophwydoliaeth hon heb ei chyflawni eto, ond i gael ei chyflawni.

PEN. XIX.

Moli Duw am farnu y butain, &c.

[a] * AC ar ol y pethau hyn [b] mi a glywais megis llef uchel gan dyrfa fawr yn y nef, † yn dywedyd, [c] Aleluia: [d] ‡ Iachawdwriaeth, a gogoniant, ac anrhydedd, a gallu, i'r Arglwydd ein Duw ni:

a Gwel ar pen. 18. b pen. 11. 15. a 18. 20. c adn. 3, 4, 6.—Salm 106. 1. a 111. 1. a 115. 18. a 146. 1. a 148. 1. a 149. 1. a 150. 1. d pen. 4. 10, 11. a 5. 9—13. a 7. 10, 11. a 11. 15. a 12. 10. 1 Cron. 29. 11. Salm 3. 8. Jona 2. 9. Mat. 6. 13. 1 Tim. 1. 16, 17.

* Ar ol i Ioan weled dinystrio Babilon ysbrydol, yn y bennod o'r blaen, mae efe yma yn clywed megys llef uchel gan dyrfa fawr yn y nef; un ai y drydedd nef, neu y nef ar y ddaear, (medd *Guyse)* eglwys Dduw yn y byd hwn: oblegid cyduna yr eglwys orfoleddus a'r eglwys filwriaethus i glodfori Duw am ddystrywio awdurdod Anghrist. † *Aleluia* sydd air Hebraeg, yn arwyddo molwch yr Arglwydd. ‡ Geiriau o anrhydedd a mawl i Dduw yw y rhai hyn oll, lle mae y "dyrfa fawr" yn cydnabod fod holl iachawdwriaeth yr eglwys o hóno ef, ei allu, a'i ras; ac yn priodoli yr holl anrhydedd a'r gogoniant o hyny, ac o ddinystr gelynion yr eglwys, iddo ef yn unig.

2 * Oblegid [e] cywir a chyfiawn *yw* ei farnau ef: † oblegid efe [f] a farnodd y buttain fawr, ‡ yr hon a lygrodd y ddaear â'i phutteindra, [g] || ac a ddïalodd waed ei weision ar ei llaw hi.

e Gwel ar pen. 15. 3. a 16. 5—7.—Deut. 32. 4. Salm 19. 9. Es. 25. 1. f pen. 17. 1, 2, 15, 16. a 18. 3, 9, 10, 23. g Gwel ar pen. 6. 10. a 18. 24.—Deut. 32. 35, 43.

* Wrth farnau Duw yn yr ysgrythyr, y meddylir weithiau ei ddeddfau ef, ac weithiau goruchwyliaethau ei ragluniaeth ef, un ai yn gyffredinol, neu ar ryw amgylchiad neillduol, megys yn nghospedigaeth ei elynion. Yr olaf a feddylir yma, a chydnebydd y "dyrfa fawr" uchod mai "cywir a chyfiawn" a fydd efe, † yn ei waith yn barnu, neu yn cospi y butain fawr babaidd, ‡ yr hon a lygrodd ran fawr o drigolion y ddaear â'i phuteindra o eilun-addoliaeth, cyfeiliorni, a phob aflendid pabaidd. || A thrwy y barnau hyn, ddïalodd Duw waed ei weision arni hi, yr hwn a dywalltwyd o oes i oes ganddi hi.

3 * Ac eilwaith y dywedasant, [h] Aleluia. [i] † A'i mŵg hi a gododd yn oes oesoedd.

h Gwel ar c. adn. 1. i Gwel ar pen. 14. 11. a 18. 9, 18.—Gen. 19. 28. Es. 34. 10. Judas 7.

* Ac eilwaith, wedi gorphen y gân flaenorawl, y dywedasant, *Aleluia*, neu molwch yr Arglwydd; † tra yr oedd mŵg llosgiad y ddinas yn codi i fynu yn barâus ac yn oes oesoedd: megys yn arddangosiad o drueni hollawl a thragywyddol y trigolion drygionus, y rhai a dòrasid ymaith yn ac am eu pechodau. Fel yr oedd y dyrfa yn parâu yn eu cân, felly yr oedd Duw yn parâu yn ei farn ar y butain fawr, nes ei dystrywio hi yn anadferol.

4 * A [k] syrthiodd y pedwar henuriad ar hugain, a'r pedwar anifail i lawr, † ac a addolasant Dduw, yr hwn oedd yn eistedd ar yr orsedd-faingc; ‡ gan ddywedyd, [l] Amen; [m] Aleluia.

k pen. 4. 4—10. a 5. 8—11. a 11. 15, 16. a 15. 7. l pen. 5. 14. 1 Cron. 16. 36. Neh. 5. 13. a 8. 6. Salm 41. 13. a 72. 19. a 89. 52. a 106. 48. Jer. 28. 6. Mat. 6. 13. a 28. 20. 1 Cor. 14. 16. m Gwel ar c. adn. 1.

* Sylwyd o'r blaen ar y rhai hyn, mai cynnrychiolwyr yr eglwys a'i gweinidogion oeddynt: gwel ar pen. 4. 4, 6. Yn nghân y dyrfa fawr uchod, yr oeddynt hwythau yn uno o'u calonau, gan syrthio i lawr gyda'r ymostyngiad mwyaf parchus, † ac addoli y Duw mawr ac anfeidrol, yr hwn a ymddangosai megys yn eistedd ar yr orsedd-faine yn y nef; ‡ a dywedent, Amen, yn wresog, ar ddiwedd y gân; Aleluia, molwch yr Arglwydd.

5 [n] * A llef † a ddaeth allan o'r orsedd-faingc, ‡ yn dywedyd, [o] Moliennwch ein Duw ni, || ei holl weision ef, a'r rhai ydych yn ei ofni ef, [p] § bychain a mawrion hefyd.

n pen. 7. 15. a 11. 19. a 16. 17. o Salm 103. 20—22. a 134. 1. a 135. 19, 20. a 148. 11—13. a 150. 6. p Gwel ar pen. 11. 18.—a 20. 12.

* Yn union gwedi hyn, clywai Ioan lef, megys llef rhyw angel gogoneddus, *(Guyse)* neu lef Crist ei hun, *(Pool)* † yn dyfod allan o'r orsedd-faine, neu yn uniongyrchol o ymyl yr orsedd-faine, ‡ ac yn dywedyd wrth yr eglwys filwriaethus ar y ddaear, (medd *Guyse,)* Dyrchefwch, addolwch, a moliennwch ein Duw grasol a hollalluog ni, || chwi ei holl wir addolwyr ef, y rhai a'i cerwch ac a'i gwasanaethwch ef, ac a anrhydeddwch ac a ofnwch ei Fawrhydi sanctaidd ef, § pa un bynag ai bychain ai mawrion, isel neu uchel-radd a fyddoch yn y byd, a pha beth bynag fyddo eich sefyllfa a'ch cyrhaeddiadau mewn pethau gwladol neu grefyddol.—Os llef Crist oedd y llef uchod, rhaid i ni ddeall y geiriau "*ein* Duw *ni*" yn yr un ystyr ag yn Ioan 20. 17: (gwel yno) ond tybia *Guyse* yn grŷf, mai nid llef ddigyfrwng Crist ydoedd, eithr rhyw angel.

6 * Ac mi a glywais megis llef tyrfa fawr, [q] † ac megis llef dyfroedd lawer, [r] ‡ ac megis llef taranau cryfion, || yn dywedyd, Aleluia: [s] § oblegid teyrnasodd yr Arglwydd Dduw Holl-alluog.

q pen. 1. 15. a 14. 2. Ezec. 1. 24. a 43. 2. r pen. 4. 5. a 6. 1. a 8. 5. a 40. 19. Job 40. 9. Salm 29. 3—9. a 77. 18. s pen. 11. 15—18. Salm 47. 2, 7. a 93. 1. a 99. 1. Es. 52. 7. Mat. 6. 13.

* Gyda'r llef a'r gorchymyn uchod allan o'r orsedd-faine, clywai Ioan yn y fân megys bloedd orfoleddus tyrfa fawr aneirif; † yr hon oedd megys sŵn rhuthr rhaiadr dirfawr, neu rüad crŷf y môr; ‡ ie, megys sŵn taranau cryfion yn yr wybren; || ac oll yn unllais yn dywedyd, Aleluia, molwch yr Arglwydd: § oblegid fel Arglwydd Dduw Hollalluog efe a gymmerasai yr orsedd-faine, ac a deyrnasai yn a thrwy ei Fab ar yr holl ddaear.—Wrth y dyrfa fawr hon mae y rhan fwyaf yn deall yr eglwys filwriaethus; (gwel ar adn. 5.) a thybia rhai (wrth y gair Hebraeg Aleluia,) yr Iuddewon yn gystal â'r cenedloedd, gan feddwl y byddant hwy cyn yr amser y prophwydir am dano yma, wedi eu dychwelyd a'u chwanegi at yr eglwys. Tybia eraill mai eu dychweliad hwy a feddylir wrth y "briodas" a grybwyllir yn yr adnod nesaf. *Aleluia:* nid gorfoleddu am ddinystr eu gelynion, fel y cyfryw, y mae y saint; ond am ogoniant Duw, a helaethiad ei deyrnas ef, drwy hyny.—Diammau bod yr enwad, "Arglwydd Dduw Hollalluog," yn perthyn i Grist, yr un mòr briodol ag i'r Tad.

7 [t] * Llawenychwn, a gorfoleddwn, † a rhoddwn ogoniant iddo ef: [u] ‡ oblegid daeth priodas yr Oen, || a'i wraig ef a'i parottôdd ei hun.

t Deut. 32. 43. 1 Sam. 2. 1. Salm 9. 14. a 48. 11. a 95. 1—3. a 97. 1. a 100. 1, 2. a 107. 42. Diar. 29. 2. Es. 66. 10, 14. Zec. 9. 9. Ioan 3. 29. Phil. 3. 3. u pen. 21. 2, 9. Salm 45. 10—16. Can. 3. 11. Es. 62. 5. Hos. 2. 19, 20. Mat. 22. 2. a 25. 1—10. 2 Cor. 11. 2. Eph. 5. 32.

* Yma mae yr holl dyrfa a enwyd, yn galw ar eu gil-

ydd, ac yn annog eu gilydd, i lawenychu, a gorfoleddu, gyda hyfrydwch nefol a sanctaidd; † ac i roddi pob anrhydedd, diolch, moliant, a gogoniant iddo ef, sef yr "Arglwydd Dduw Hollalluog" uchod, yr hwn a gymerodd ei allu mawr ac a "deyrnasodd:" ‡ oblegid yn awr daeth yr amser dedwydd yn gyhoeddus ac yn amlwg, i gyflawni "priodas yr Oen," sef Crist â'i eglwys, (2 Cor. 11. 2.) yr hon a brynodd efe iddo ei hun, â'i werthfawr waed ei hun: || a chan ei bod hi wedi ei huno âg ef mewn cyfammod priodasol, mae hi yn awr yn siriol ddysgwyl, mewn cyflwr ac ysbryd parod, i gyfarfod â'i phriod-fab, ac i fyned i mewn gydag ef i'r llawenydd tragywyddol, lle y llawenycha efe a hithau yn eu gilydd, fel priod-fab a phriod-ferch byth. Esa. 62. 5.—Tybia rhai fod *priodas yr Oen* yma, *a'i wraig cf wedi ei pharotôi* ei hun, yn cyfeirio at ddychweliad yr Iuddewon, (gwel ar adn. 6.) y rhai, wedi eu gwahodd gynt i *briodas Mab y Brenin* a wrthodasant ddyfod; (Matth. 22. 2—8.) ond yn awr, gan eu gwneuthur yn ewyllysgar drwy nerth ac Ysbryd Duw, yr oeddynt yn barod i ddyfod.—Crist yw Priod-fab ei eglwys brynedig: yn y nefoedd y cyflawnir yr undeb sanctaidd hwn yn berffaith; ond gellir ystyried dechreu y Mil-flwyddiant gogoneddus, fel cyflawniad nodedig o'i ddyweddiad ef â hi ar y ddaear. Pob peth a wnaed eto, nid yw, debygid, ond megys arweiniad i mewn at yr amser dedwydd hwnw; pryd y caiff lluoedd aneirif eu dychwelyd dros yr holl ddaear, ac y bydd agwedd yr eglwys yn debyg iawn i'r nef ei hun. Yna y daw "priodas yr Oen;" a'i eglwys ddyweddiedig ef, wedi ei phuro oddi wrth gyfeiliornadau, ymraniadau, a phob llygriadau anghristiaidd; mewn athrawiaeth, dysgyblaeth, addoliad, ac arferion, a fydd yn "barod" ac yn gymhwys i'w harddelwi yn gyhoeddus ganddo ef, fel ei anwylyd a'i hyfrydwch.—Sylwa un gŵr fod "priodas yr Oen" yn driphlyg:—1. Pan mae personau o un i un yn cael eu huno âg ef trwy ffydd: 2. Pan gyflawner yr eglwys yn ngalwad yr Iuddewon a'r holl genedloedd: 3. Pan ogonedder yr holl eglwys gydag ef yn y nefoedd byth.

8 [x] * A chaniattâwyd iddi gael ei gwisgo â llian main glân a disglaer: [y] † canys y llian main ydyw cyfiawnder y saint.

x pen. 3. 4, 5, 18. Salm 45. 13, 14. Es. 61. 10. Ezec. 16. 10. Mat. 22. 12. Rhuf. 3. 22. a 13. 14. Eph. 5. 26, 27. y pen. 7. 13, 14. Salm 132. 9.

* Yn yr amser dedwydd a grybwyllir uchod, caniatêir i'r eglwys, gwraig yr Oen, gael ei gwisgo â llian main glân a dysglaer; a hyn nid o'i gwaith a'i chost ei hun, ond o waith a chost ei hanwyl Briod nefol. † A'r llian main hwn ydyw cyfiawnder y saint: nid cyfiawnder o waith y saint, fel y dywedwyd eisoes; ond cyfiawnder a roddir i'r saint, i'r holl saint, a chyfrifedig i'r saint yn unig ydyw.—Mae y gair *(dikaiômata)* yn y rhif liosog, ac mae rhai yn ei ddeall am *weithredoedd cyfiawn* y saint; ond mae y gair *gwisg*, neu *wisgo*, yn yr ystyr hyn, yn arwyddo yn gyffredin debygid, un ai cyfiawnder Crist yn gyfrifedig i'r saint, neu ddelw Crist wedi ei hadnewyddu ynddynt ac arnynt, trwy sancteiddiad yr Ysbryd; o'r hyn mae eu *gweithredoedd sanctaidd* yn brofion ac effeithiau: ac yn wir gellir cymmeryd pob un o honynt i mewn yma; sef cyfiawnder cyfrifedig Crist, sancteiddiad yr Ysbryd Glân, a gweithredoedd da y saint, fel profion sicr o wir a bywiol ffydd yn eu heneidiau.

9 * Ac efe † a ddywedodd wrthyf, [z] ‡ Ysgrifena, [a] || Bendigedig *yw* y rhai a elwir i swpper neithior yr Oen. § Ac efe a ddywedodd wrthyf, [b] Gwir eiriau Duw yw y rhai hyn.

z pen. 1. 19. a 2. 1, 8, 12, 18. a 3. 1, 7, 14. a 10. 4. a 14. 13. Es. 8. 1. Hab. 2. 2. a Gwel ar adn. 7, 8.—Mat. 22. 2—4. Luc 14. 15, 16. b adn. 11. pen. 21. 5. a 22. 6. 1 Tim. 1. 15. a 4. 9. 2 Tim. 2. 11. Tit. 3. 8.

* "Ac efe," sef yr hwn a lefarodd "allan o'r orseddfainc," (adn. 5.) neu yn hytrach (medd *Scott*) yr angel a eglurodd y weledigaeth a aeth heibio, (pen. 17. 7.) † a ddywedai wrth Ioan, gyda golwg ar y pethau [illegible] glywsai yn awr, am iddo eu hysgrifenu hwynt, e[illegible] gwasanaeth parâus i'r eglwys dân bob trallodau; ‡ ma[illegible] bendigedig iawn, a dedwydd annhraethol ac uwchla[illegible] pob amgyffred, a fyddai y rhai a elwid yn effeithio[illegible] trwy ras Duw, || i swper neithior yr Oen. Mae hyn y[illegible] cyfeirio yn fwyaf pennodol, debygid, at y mesur hel[illegible] aethach o ras a dyddanwch, a gaiff cristionogion yn [illegible] dyddiau dedwydd hyny sydd i ddyfod; yr hyn a wna e[illegible] bywydau hwy ar y ddaear yn llawer mwy gwynfydedi[illegible] na'r eiddom ni yn bresenol, ac a'u cymhwysa i dded[illegible] wyddwch mwy dyrchafedig ac ysbrydol yn y nef.—Y[illegible] eglwys oll yn gasgledig yw priodas-ferch Iesu, gwrai[illegible] yr Oen: sonir am gredinwyr yn bersonol yn aml, fe[illegible] gwahoddedigion i'r briodas-wledd; yr hyn a ddichor[illegible] arwyddo eu llawenydd presenol yn yr Arglwydd, a ded[illegible] wyddwch perffaith y nefoedd hefyd. § Tystiolaethai y[illegible] angel yn mhellach i Ioan, mai "gwir eiriau Duw oed[illegible] y rhai hyn;" sef yr holl brophwydoliaethau a'r addew[illegible] idion uchod, y rhai a gaent eu cyflawni yn sicr yn e[illegible] hamser.

10 [c] * Ac mi a syrthiais wrth ei draed ef i'w addoli ef. † Ac efe a ddywedodd wrthyf [d] ‡ Gwel na *wnelych hyn:* [e] cyd-was ydwyf [illegible] ti, ac i'th frodyr y rhai sydd ganddynt [f] dystiolaeth Iesu. [g] || Addola Dduw: [h] § canys tystiolaeth Iesu ydyw ysbryd y brophwydoliaeth.

c pen. 22. 8, 9. Marc 5. 22. a 7. 25. Act. 10. 25, 26. a 14. 11—15. 1 Ioan 5. 21. d 2 Cor. 8. 7. Eph. 5. 15, 33. 1 Thes. 5. 15 Heb. 12. 25. e Salm 103. 20, 21. Dan. 7. 10. Luc 1. 19. Heb 1. 14. f Gwel ar pen. 1. 9. a 12. 11, 17.—a 22. 9. 1 Ioan 5. 10. g pen. 4. 10. a 14. 7. a 15. 4. Ex. 34. 14. 2 Bren. 17. 36 Salm 45. 11. Mat. 4. 10. Ioan 4. 22—24. Phil. 3. 3. h Luc 24 25—27, 44. Ioan 5. 39. Act. 3. 12—18. a 10. 43. a 13. 27. Rhuf. 3 21, 22. 1 Pedr 1. 11, 12. 2 Pedr 1. 19—21.

* Gyda'r geiriau uchod, (adn. 9.) wrth bresenoldeb gogoneddus yr angel, a'r rhagolygiad gorfoleddus o'r amseroedd dedwydd oedd i ddyfod; taflwyd meddwl Ioan i'r fath gyffro, fel y syrthiodd efe wrth draed yr angel, i'w addoli ef. † Ond parai yr angel iddo na wnelai hyny mewn un modd; gan nad oedd efe e[illegible] Grëawdwr, ei Arglwydd, nac mewn un ystyr yn wrth[illegible] ddrych addoliad: ‡ ond yn gyd-was âg ef, ac â'i frodyr y rhai a ddanfonasid i dystiolaethu am yr Arglwydd Iesu. || Dywedai wrtho mai Duw yn unig a ddylai ef addoli, ac nid crëadur, a gwas: oblegid nid oedd efe sef yr angel, ddim ond prophwyd o radd uchelach wedi ei ysbrydoli a'i ddanfon i dystiolaethu am Iesu, Ar glwydd cyffredinol dynion ac angelion hefyd. § Yr wir yr oedd tystiolaeth Iesu o'r dechreuad, ac yn bri destyn mawr Ysbryd prophwydoliaeth yn mhob oes, bwy bynag a gynnysgaethwyd âg Ysbryd prophwydoliaeth: megys hefyd y bwriadwyd datguddiedigaethau rhagfynegiadau yr ysgrythyr, i hysbysu y Gwaredwr yn ei ogoniant personol a chyfryngol, i barotôi y ffordd i'w ddyfodiad ef, i gyhoeddi ei ddyfodiad, i arwain meddyliau dynion ato, ac i brofi yr athrawiaeth ddat guddiedig am dano ef. At Iesu, fel at un pwnc nei wrthddrych sicr, mae yr holl brophwydoliaethau yn ar wain; a gwir Ysbryd prophwydoliaeth wedi y cwbl, a yr hwn y dylem ni wrando, yw yr hwn a'n tywys ni y effeithiol at Iesu.—Fel hyn yr alleiria *Guyse* y dar hyn o'r adnod:—'Oblegid y dystiolaeth a ddygais (yr angel) am Iesu, a roddwyd i mi gan yr un Ysbry dwyfol, ag a ysbrydolodd yr hen brophwydi gynt ac yr hwn sydd yn datguddio drwyddo fi yn aw y damweiniau dyfodawl a gynnwysir yn dy weledig aethau di; fel y trosglwyddech di hwynt i'r eglwys e ei chynnaliaeth a'i chysur: ac felly nid yw addolia crefyddol ddim yn fwy dyledus oddi wrthyt ti i mi, na a fyddai oddi wrthyf finnau i tithau.' Ac fel hyn, eb *Guyse*, yr argyhoeddodd efe Ioan o'i gamgymmeriad.— Ni wrthododd Crist erioed y fath addoliad ag a w harddwyd i Ioan ei roddi i'r angel; ïe, efe a ddango odd bob amser ei gymmeradwyaeth o hono: eit

gwas oedd yr angel, a dim yn chwaneg; Iesu yw "Brenin gogoniant," ac "Arglwydd pawb oll," "Duw bendigedig yn oes oesoedd."—Rhaid mai *addoliad crefyddol*, ac nid ymostyngiad o *barch cyffredin*, i rywun uwch-raddol, oedd yr *addoliad* a gynnygiai Ioan; pe amgen ni buasai yr angel yn ei warafun idò ei hun, ac yn erchi i Ioan ei roddi i Dduw: yr oedd y *cyntaf* yn ormod i'r angel, a buasai yr *ail* yn rhŷ fychan ac isel i Dduw. Beth a ddywed y pabyddion wrth yr adnod hon?

11 * Ac mi a welais [i] y nef yn agored; † ac wele [k] farch gwŷn; ‡ a'r hwn oedd yn eistedd arno a elwid [l] Ffyddlawn a Chywir, [m] || ac mewn cyfiawnder y mae efe yn barnu ac yn rhyfela.

i Gwel ar pen. 4. 1.—a 11. 19. a 15. 5. k Gwel ar pen. 6. 2.—Zec. 1. 8. l pen. 1. 5. a 3. 7, 14. Ioan 14. 6. m pen. 15. 3—7. Salm 45. 4—7. a 50. 6. a 72. 2—4. a 96. 13. a 98. 9. a 99. 4. Es. 11. 3—5. a 32. 1. a 45. 21. a 63. 1—5. Jer. 23. 5, 6. a 33. 15. Zec. 9. 9, 10. Heb. 7. 1, 2.

* Gwedi crybwyll gorfoledd yr eglwys *gyffredinol*, a holl weision Duw, oblegid dinystr Rhufain; gwelai Ioan y nef yn agored drachefn, fel yn arwydd o weledigaethau pellach iddo: † ac wele farch *gwyn*, arwydd-lun o gyfiawnder a sancteiddrwydd, buddugoliaeth, heddwch, a gorfoledd: ‡ a'r hwn a eisteddai arno a elwid Ffyddlawn a Chywir, i gyflawni ei addewidion i'w bobl, a'i ddial bygythiol ar ei elynion. || Yr oedd efe, mae yn wir, yn myned allan i "farnu" ei elynion, ac i ryfela â'r rhai nid ymostyngent iddo; eto yr oedd efe yn anhebyg iawn i'r rhyfelwyr hyny, uchel-fryd, rhelbusrwydd, a nwydau adwythig pa rai, yn mhob oes a wnai y ddaear yn "faes y gwaed;" oblegid yr oedd efe i ddwyn yn mlaen ei weithrediadau barnol, a'i helyntion milwraidd hefyd, wrth y rhëolau mwyaf perffaith o gyfiawnder ac uniondeb bob amser, a thuag at bawb.—Tybia rhai fod yma gyfeiriad at frwydr Armagèdon a'i chanlyniadau, yr hon a grybwyllir yn pen. 16. 14, 16: yno nid oes ond son am gasgliad y byddinoedd yn nghyd; yma ac hyd ddiwedd y bennod crybwyllir yn helaethach am y frwydr a'i chanlyniadau, yn llwyr ddarostyngiad a dinystr y gelynion.—Ar y cyntaf (medd un) ni welodd Ioan ond *drws* yn agored yn y nef; (pen. 4. 1.) ar adgyfodiad y tystion gwelodd y *deml* yn agored; (pen. 11. 19.) ac yma, wedi dystryw Anghrist, gwelodd megys yr holl *nef* yn agored.—*Ffyddlawn a chywir:* wrth gymharu hyn â pen. 1. 5, ac âg adn. 13 a 16 o'r bennod hon; mae yn amlwg mai Iesu Mab Duw oedd yr hwn a welodd Ioan yn eistedd ar y march.

12 * A'i [n] lygaid *oedd* fel fflam dân, [o] † ac ar ei ben yr oedd coronau lawer: ‡ ac yr oedd ganddo [p] enw yn ysgrifenedig, yr hwn ni wyddai neb ond efe ei hun:

n Gwel ar pen. 1. 14. a 2. 18. o pen. 6. 2. a 12. 3. a 13. 1. Salm 8. 5. Mat. 21. 5. a 28. 18. Heb. 2. 9. p adn. 16. pen. 2. 17. Gen. 32. 29. Ex. 23. 21. Barn. 13. 18. Es. 9. 6. Mat. 11. 27. Luc 10. 22.

* Yr oedd llygaid y Person gogoneddus uchod yn ymddangos mòr ddysglaer a threidiol, mòr ofnadwy, dychrynllyd, a llosgedig, a'r fflàm dân; ac nis gallai neb ei dwyllo ef, dianc rhagddo, na bod yn guddiedig oddi wrtho. Gwel ar pen. 2. 18. † Ac ar ei ben yr oedd coronau lawer, yn arwydd o helaethder ei lywodraeth a'i awdurdod ef, fel Crëawdwr mawr y byd, ac fel Pen nwchlaw pob peth i'w eglwys; ac yn arwydd hefyd o lïosogrwydd ei fuddugoliaethau ef, a'r addoliadau a roddir iddo. ‡ Ac yr oedd ganddo enw yn ysgrifenedig, ar ei wisg ac ar ei forddwyd, efallai, (adn. 16.) yr hwn ni wyddai neb ond efe ei hun: oblegid, fel tragywyddol Fab Duw, mae ei natur, neu ei hanfod a'i berffeithiau ef, yn anamgyffredadwy i bawb ond efe ei hun: ac y mae dirgelion hefyd yn ngweinyddiad ei lywodraeth a'i deyrnas ef, nad oes neb a all eu deall ond efe ei hun.

13 * Ac *yr oedd* [q] wedi ei wisgo â gwisg wedi ei throchi mewn gwaed: † a gelwir ei enw ef, [r] Gair Duw.

q pen. 14. 20. Salm 58. 10. Es. 9. 5. a 34. 3—8. a 63. 1—6. r Gwel ar Ioan 1. 1, 14.—1 Ioan 1. 1. a 5. 7.

* Yr oedd ei wisg wedi ei throchi mewn gwaed yn arwyddo, un ai yr iawn trwy ei waed ei hun, fel sail ei awdurdod cyfryngol ef; neu ynte, ei fod wedi dyfod i fynu o ladd ei elynion, a chwedi taenellu, neu drochi ei ddillad â'u gwaed hwynt. (Esa. 63. 3.) Y peth olaf a dybia ein Hawdwyr yn hytrach. † Er nas gallai neb gyflawn amgyffred ei natur, ei berffeithiau, ei gyngorion, a gweinyddiad ei lywodraeth ef; eto yr oedd efe yn adnabyddus yn yr eglwys yn mhob oes, wrth yr enw Gair Duw, (gwel ar Ioan 1. 1.) fel yn hysbysu perffeithiau dirgeledig, a gwirionedd ac ewyllys sanctaidd Duw, i ddynion syrthiedig. Gair hanfodol a phersonol Duw o dragywyddoldeb; ac a "wnaethpwyd yn gnawd" mewn amser, i hysbysu a chyflawni ewyllys Duw yn iachawdwriaeth dynion.

14 [s] * A'r lluoedd oedd yn y nef a'i canlynasant ef [t] † ar feirch gwŷnion, [u] ‡ wedi eu gwisgo â llïan main, gwŷn, a glân.

s pen. 14. 1, 20. a 17. 14. Salm 68. 17. a 149. 6—9. Zec. 14. 5. Mat. 26. 53. 2 Thes. 1. 7. Judas 14. t Gwel ar adn. 11. u Gwel ar adn. 8.

* Canlynid ef hefyd gan y lluoedd oedd yn y nef, sef ei bobl brynedig a dychweledig, y rhai a anwyd o'r nef; y rhai mae eu hymarweddiad a'u dinas-fraint yn y nef; ac a gyssylltwyd mewn cymdeithas â chymmanfa a chynnulleidfa y rhai cyntaf-anedig, y rhai a ysgrifenwyd yn y nef: † y rhai hyn fel byddin lïosog, drefnus, a hyfforddus, a'i canlynent ef ar "feirch gwŷnion;" i arwyddo eu cyd-ffurfiad âg ef, a'u cydweithrediad âg ef dàn ei faner, yn ei holl fuddugoliaethau. ‡ Yr oedd y rhai hyn hefyd wedi eu gwisgo â llïan main, gwŷn a glân; i arwyddo eu bod yn gymmeradwy ynddo ef, ac wedi eu hadnewyddu a'u sancteiddio ganddo a thrwyddo ef. Gwel ar adn. 8. Mae y gwisgoedd hyn yn arwyddo eu sancteiddrwydd, eu purdeb, a'u gogoniant. Tybia rhai o'n Hawdwyr fod yr angelion sanctaidd hefyd i'w deall yn y "lluoedd" uchod, ond mai y gwaredigion o ddynion yn benaf a feddylir.

15 [x] * Ac allan o'i enau ef yr oedd yn dyfod gleddyf llym, i daro y cenhedloedd âg ef: [y] † ac efe a'u bugeilia hwynt â gwialen haiarn: [z] ‡ ac efe sydd yn sathru cerwyn win digofaint a llid Duw Holl-alluog.

x adn. 21. pen. 1. 16. a 2. 12, 16. Es. 11. 4. a 30. 33. 2 Thes. 2. 8. y pen. 2. 27. a 12. 5. Salm 2. 9. z pen. 14. 17—20. Es. 63. 2—6.

* I ddangos natur ei fuddugoliaethau ef yn fwy cyflawn eto, dywedir fod "cleddyf llym yn dyfod allan o'i enau ef, i daro y cenedloedd âg ef;" i arwyddo y cyflawnai efe fygythion ei air yn nerthol ac yn ofnadwy ar ei elynion, ac y tarawai efe y cenedloedd eilunaddolgar, erledigaethus, a phechadurus, a'i gwrthwynebent ef. Nid yr efengyl yw y "cleddyf" hwn, eithr barnau Crist yn dyfod allan yn ol ei air bygythiol ef: † ac felly hefyd rhaid deall am "fugeilio â gwialen haiarn," fel y sylwyd ar pen. 2. 27; a 12. 5, gwel yno. A'r "cleddyf llym" hwn, ac â'r "wialen haiarn" hon, y trywana ac y dryllia efe ei elynion, yn nydd ei soriant a'i ddigofaint mawr. ‡ A chan fod mesur eu hanwiredd hwy yn gyflawn, yr oeddynt yn hollawl addfed i ddinystr, fel grawn-sypiau yn addfed i'w sathru a'u gwasgu yn y gwin-wrŷf; felly efe a'u sathrai hwynt yn ei ddig, ac a'u mathrai hwynt yn ei lidiowgrwydd, (Esa. 63. 3.) yn ngherwyn win digofaint a llid Duw Hollalluog; am yr hyn, gwel ar pen. 14. 19, 20.

16 * Ac y mae ganddo [a] ar ei wisg, † ac ar ei forddwyd ‡ enw wedi ei ysgrifenu, [b] || BRENHIN BRENHINOEDD, AC ARGLWYDD ARGLWYDDI.

a adn. 12, 13. b Gwel ar pen. 17. 14.—Salm 72. 11. Diar. 6. 15, 16. Phil. 2. 9—11. 1 Tim. 6. 15.

* Yr oedd gan y Person galluog a gogoneddus hwn hefyd, ar ei wisg uchaf yn amlwg i bawb, † ac yn enwedig ar y rhan hyny o hóni a cruddiai ei forddwyd ef, lle yr oedd, neu lle mae y cleddyf yn gyffredin wedi ei wregysu, ‡ enw wedi ei ysgrifenu; sef enw arall, gwahanol i'r un a gawsom yn adn. 13: yr oedd *hwnw* yn arwyddo dwyfoldeb ei Berson ef; a *hwn* yn arwyddo mawredd ei swydd, ei awdurdod, a'i lywodraeth ef; || fel BRENIN Breninoedd, ac ARGLWYDD Arglwyddi, Pen goruchaf pawb, trwy yr holl ddaear a'r nefoedd. Yr oedd yr enw hyn yn dwyn rhybudd ynddo i holl freninoedd galluocaf y ddaear i ymostwng iddo ef, neu y byddai raid iddynt syrthio dàn ei gleddyf llým a'i wïalen haiarn ef.—Tybia *Scott* fod yr adnodau hyn a'r cyd-destynau, yn rhagfynegi taeniad yr efengyl ar ol syrthiad Rhufain, yn ninystriad gweddillion yr amherodraeth babaidd, puredigaeth yr eglwys weledig, dychweliad yr Iuddewon a llwyr adferiad Israel, terfyniad Mahometaniaeth, a dygiad i mewn gyflawnder y cenedloedd: ac eu bod yn egluro yn fwy cyflawn weithrediadau o'r pwys mwyaf, y rhai a grybwyllwyd o'r blaen, ac y rhai hefyd a ragfynegwyd gan yr hen brophwydi gynt, y rhai mae ganddo ef gyfeiriadau at nifer mawr o honynt, ar ddiwedd ei sylwad ar yr adnodau uchod.

17 * Ac mi a welais [c] angel yn sefyll yn yr haul; † ac efe a lefodd â llef uchel, [d] ‡ gan ddywedyd wrth yr holl adar oedd yn ehedeg trwy ganol y nef, || Deuwch ac ymgesglwch ynghyd i swpper y Duw mawr;

c pen. 8. 13. a 14. 6. Es. 34. 1—8. d adn. 21. Es. 56. 9. Jer. 12. 9. Ezec. 39. 17—20.

* Yn nesaf gwelai Ioan angel yn sefyll yn yr haul; yr hyn oedd yn arwyddo y byddai i'r barnau a ragfynegid gael eu gwneyd yn amlwg i'r holl fyd: a thybia *Pool* mai gweinidogion sanctaidd a thanllyd yr efengyl a feddylir wrth yr angel hwn, yn cyhoeddi dinystr gelynion Crist yn hýf, yn ddïofn, ac yn eglur iawn. † A chyda llef rymus eglur, digon uchel i'w chlywed yn mhob màn, ‡ yr oedd efe yn galw ar yr holl adar ysglyfaethus a ehedent trwy ganol y nef, sef drwy yr holl wybrenau; gan ddywedyd, gyda chyfeiriad at ddydd o laddedigaeth cyffredin, pryd mae cyrph meirw y lladdedigion yn cael eu gadael i'w difa gan y crëaduriaid gwancus hyn, || Deuwch, ac ymgesglwch yn nghyd, i fwyta cyrph y rhai a syrthiant mewn rhyfel; y rhai mae Brenin breninoedd ac Arglwydd arglwyddi, sef y "Duw mawr," yn eu parotôi i chwi i swpera arnynt. Gelwir hyn yn "swper y Duw mawr," o herwydd mai trwy ei allu ef y gwneir y difrod hyn ar ei elynion; ac am y byddant yn aberthau i'w gyfiawnder barnol a dïaleddol ef.

18 [e] * Fel y bwyttâoch gig brenhinoedd, † a chig pen-capteniaid, a chig y cedyrn, ‡ a chig meirch, a'r rhai sydd yn eistedd arnynt, [f] || a chig holl ryddion a chaethion, a bychain a mawrion.

e Deut. 28. 26. 1 Sam. 17. 44, 46. Salm 110. 5, 6. Jer. 7. 33. a 16. 4. a 19. 7. a 34. 20. Ezec. 29. 5. a 39. 18—20. Mat. 24. 28. Luc 17. 37. f Gwel ar pen. 6. 15. a 13. 16.

* Mewn cyfeiriad at hen brophwydoliaeth, (Ezec. 39. 17—21.) deuwch oll yn nghyd, fel y bwytâoch hyd at wala, ac yr ymlythoch hyd at laru, ar gelaneddau breninoedd drygionus y ddaear, ac yn enwedig (medd *Guyse)* breninoedd yr amherodraeth babaidd; † yn nghyd â chig pen-capteniaid, a gwŷr cedyrn yn myddinoedd Anghrist; ‡ a chig meirch a marchogion y byddinoedd hyny; || a chig pob graddau, urddau, a swyddau o ddynion, y rhai a bleidiasant Anghrist ac a ymgyssylltasant â'r bwystfil ysgarlad hwnw.—Mae yma gyfeiriad crŷf ac amlwg, at adar ysglyfaethus ar faes y gwaed, yn ymborthi ar gelaneddau y meirwon, dynion a meirch, gwedi dydd o ryfel poeth a dinystr cyffredin. Megys na adawai Anghrist i gyrph y saint gael eu claddu; (pen. 11. 7—10.) felly ni chleddir ei fyddin oedd yntau, eithr yn fwyd i ehediaid y nefoedd y byd ant, a saint Duw efallai a ranant yr yspail.

19 [g] * Ac mi a welais y bwystfil † a brenhinoedd y ddaear, ‡ a'u lluoedd || wedi ymgynull ynghyd i wneuthur rhyfel § yn erbyn [h] y hwn oedd yn eistedd ar y march, ac yn erbyn ei lu ef.

g pen. 13. 1—10. a 14. 9. a 16. 14, 16. a 17. 12—14. a 18. Ezec. 38. 8—18. Dan. 7. 21—26. a 8. 25. a 11. 40—45. Joel 3. 9-14. h Gwel ar adn. 11—14.

* Gwedi yr alwad uchod i'r swper mawr, gwelai Ioan y bwystfil anghristiaidd, yr hwn a arwyddai Rufain babaidd, † yn nghyd â breninoedd y ddaear y rhai a pleidient ef; ‡ a'r holl luoedd o rai drygionus ac ar nuwiol, pa un bynag ai Pabyddion, Mahometaniaid, Paganiaid, pawb a allai ddyfod; || wedi ymgynnull y nghyd i wneuthur rhyfel poeth, egnïol, a chynddeiriog § yn erbyn Brenin breninoedd ac Arglwydd arglwydd yr hwn a eisteddai ar y march, (adn. 11.) ac yn erby ei lu ef: (adn. 14.) trwy geisio dadymchwel ei efengy a'i deyrnas ef, a dinystrio ei bobl ef. Tybia *Pool* ma yr un frwydr yw hon â brwydr Armagèdon, am yr hon neu y cynnulliad i ba un, gwelsom o'r blaen, pen. 16 16. Tybir y bydd y Pabyddion, y Twrciaid, a'r Pagan iaid, wedi colli eu hawdurdod cyn hyn; ond hwy wnant un ymdrech nerthol yn chwaneg i adennill e hawdurdodau, ac yn yr ymdrech hwnw llwyr ddifethi hwynt gan y cristionogion dàn eu Pen-Tywysog mawr a thybia rhai y bydd yr Iuddewon hefyd wedi eu dy chwelyd y pryd hwn, ac yn mhlith lluoedd Iesu, y milwrio dàn ei faner ef.

20 [i] * A daliwyd y bwystfil, a chyd âg e [k] y gau brophwyd, yr hwn a wnaeth wyrthiau ger ei fron ef, † trwy y rhai y twyllodd efe y rhai a dderbyniasent nôd y bwystfil, a'r rhai addolasent ei ddelw ef. [l] ‡ Yn fyw y bwriwy hwy ill dau i'r llyn tân [m] yn llosgi â brwmstan

i adn. 19.—Gwel ar pen. 13. 1—8, 18.—a 17. 3—8, 12, 1 Dan. 2. 40—45. a 7. 7, 12—14, 19—21, 23, 24. k pen. 13. 11—17. a 16. 13. a 20. 10. a 22. 15. Dan. 7. 8—11, 24—26. a 8. 24, 2 2 Thes. 2. 8—11. l pen. 20. 10, 14. Dan. 7. 11. a 11. 4 m pen. 14. 10. a 21. 8. Gen. 19. 24. Deut. 29. 23. Job 18. 15. Salm 11. 6. Es. 30. 33. a 34. 9. Ezec. 38. 22.

* Am y bwystfil, a'r gau-brophwyd yn gwney gwyrthiau ger ei fron ef, &c., sylwasom o'r blaen gwel ar pen. 16. 13, 14. † Ac am dderbyn nôd bwystfil, ac addoli ei ddelw ef, gwel ar pen. 13. 16, 17 Yr un blaid a feddylir wrth y bwystfil a'r gau-brophwyd sef Anghrist yn ei lywodraeth *wladol* yw y bwystfil, a un Anghrist yn ei lywodraeth *eglwysig* yw y gau-bro phwyd: ac yn y frwydr hon gwelai Ioan y ddau y cael eu dàl, ac yn syrthio yn garcharorion yn ngafae y buddugoliaethwr, ‡ yr hwn a'u bwriodd hwy ill da yn fyw i'r llyn tân yn llosgi â brwmstan; nid yn uni cyll Anghrist ei lywodraeth wladol ac eglwysig ar ddaear; ond caiff ei holl bleidwyr hefyd, yn enwedig blaenoriaid anedifeiriol o honynt, eu cospi byth dà ddigofaint Duw! Gau fod hyn heb ei gyflawni eto, n gellir dywedyd yn fanylach ar y geiriau.

21 [n] * A'r lleill a laddwyd † â chleddyf y hwn oedd yn eistedd ar y march, yr hwn oed yn dyfod allan o'i enau ef: [o] ‡ a'r holl adar gawsant eu gwala o'u cig hwynt.

n Gwel ar adn. 11—15. o Gwel ar adn. 17, 18.

* A'r lleill o'r lluoedd, y rhai fel milwyr cyffredin, ymladdent yn erbyn Crist a'i eglwys, dàn awdurdod rhëolaeth y blaenoriaid drygionus uchod; a lwyr orch fygwyd ac a laddwyd ar y maes, † â chleddyf llým y hwn a eisteddai ar y march, yr hwn oedd yn dyfo allan o'i enau ef; am yr hyn gwel ar adn. 15. ‡ A holl adar a gawsant eu gwala o'u cig burgunaid hwynt: yr hyn a gyflawnir yn ddïammau yn *llythyrenol* pan gyflawner y brophwydoliaeth hon. Y pryd hwn

hefyd, caiff saint y Goruchaf orfoleddu yn llwyr ddinystr eu gelynion; am yr eglurir gogoniant Duw trwy hyny, ac yr agorir ffordd i gyflwr dedwyddaf a gogoneddusaf eglwys Crist ar y ddaear, yr hyn a fydd y pryd hwnw ar gymmeryd lle.

PEN. XX.

Y mil blynyddoedd, &c.

[a] * AC mi a welais angel yn disgyn o'r nef, [b] † a chanddo agoriad y pydew diwaelod, [c] ‡ a chadwyn fawr yn ei law.

a Gwel ar pen. 10. 1. a 18. 1. b pen. 1. 18. a 9. 1, 2. Luc 8. 31. c 2 Pedr 2. 4. Judas 6.

Yn y bennod o'r blaen, mae diwedd ar bob gwrthwynebiad cyhoeddus i'r efengyl, yn nghyd â chospedigaeth ofnadwy pawb a ddechreuasant, a bleidiasant, ac a gydsyniasant yn y llygredigaethau eilun-addolgar a ddysgrifiwyd o'r blaen, yn cael eu rhagfynegi yn eglur iawn. Ond tra yr oedd *offerynau* y drygioni wedi cael eu tòri ymaith, yr oedd y prif *weithredydd* mawr o hyd yn rhydd; a byddai efe yn sicr o gyffrôi terfysgoedd newyddion, a magu hudoliaethau newyddion, os nad attelid ef. Am hyny, cafodd Ioan y weledigaeth yma, yn rhagddangos yr attaliadau a roddid ar Satan ei hun. * Gwelai angel yn disgyn o'r nef, yr hwn nis gallai fod neb llai na Mab Duw, Angel mawr y cyfammod, neu ynte ryw angel anfonedig ganddo ef, ac wedi derbyn ei awdurdod a'i allu oddi wrtho ef: † oblegid yr oedd agoriad y pydew diwaelod ganddo, yr hyn a berthyn i Fab Duw yn unig: (pen. 1. 18.) ‡ ac yr oedd cadwyn fawr yn ei law ef, o'r fath a arferid i rwymo drwgweithredwyr anfad mewn carcharau.—Gan Grist yn unig y mae yr agoriadau, sef awdurdod ar uffern a marwolaeth; ac efe yn unig sydd yn gryfach na'r diafol, yr hyn a raid bod yr angel hwn; oddigerth i ni dybied bod y diafol yn llawer mwy dôf nac ydyw.—*Pool.*

2 [d] * Ac efe a ddaliodd [e] y ddraig, † yr hen sarph, yr hon yw diafol a Satan, ‡ ac a'i rhwymodd ef || *dros* fil o flynyddoedd,

d Gen. 3. 15. Es. 27. 1. a 49. 24, 25. Mat. 8. 29. a 12. 29. Marc 5. 7. Luc 11. 20—22. Ioan 12. 31. a 16. 11. Rhuf. 16. 20. Heb. 2. 14. e Gwel ar pen. 9. 11. a 12. 9, 13, 15, 17. a 13. 2, 4.—Job 1. 7. a 2. 1, 2. 1 Pedr 5. 8.

* Yna, yn nghyflawniad ei orchwyl, gwelai Ioan ef yn dàl y ddraig fawr, yr hon a ddysgrifiwyd mewn gweledigaeth flaenorawl (pen. 12. 9.) † fel yr hen sarph, yr hon wrth ei henw mwy cyffredin ac adnabyddus, yw diafol a Satan. *Draig*, i arwyddo creulondeb ac erchylldod; *Sarph*, i arwyddo cyfrwysder a gwenwyn; *Diafol*, i arwyddo enllib a cham-gyhuddiad; a *Satan*, i arwyddo gelyniaeth a gwrthwynebiad, i Dduw a'i holl bobl. (Gwel ar pen. 12. 3, 9.) ‡ Pa fodd bynag, wedi dàl y ddraig ofnadwy hon, yr hen sarph, yr hon yw diafol a Satan, attaliodd yr angel ef rhag gwneuthur ychwaneg o niwed, trwy ormes na hudoliaethau; a rhwymodd ef yn gadarn â'r gadwyn oedd yn ei law, || am yspaid hir o amser, yr hyn a ellid ei alw yn fil o flynyddoedd; pa un bynag ai hyny yn gymhwys, ai ynte rhyw nifer mawr anmhennodawl o flynyddoedd a feddylir.—Mewn rhai mànau mae y "ddraig" yn arwyddo breninoedd ac amherawdwyr eilun-addolgar ac erledigaethus; y rhai oeddynt offerynau diafol, ac yn dwyn ei enw a'i ddelw ef; (gwel ar pen. 12. 3, 4, 7, 8, 9; a 13. 2, 4.) ond yma Satan ei hun a feddylir. A dangosir yma, y bydd i Grist gydag awdurdod hollalluog a chyflawn, attal y diafol a'i angelion, sef ei holl lengau ef o ysbrydion drwg, rhag twyllo dynolryw yn gyffredin, na neb o honynt, i eilun-addoliaeth, annuwioldeb, cyfeiliornadau, a drygioni, fel y gwnaethai efe hyd y pryd hwnw. Oblegid er bod y natur ddynol syrthiedig yn dueddol i bob drwg, ac yn groes i bob daioni; eto mae gan weithrediadau a dylanwadau angelion syrthiedig, effaith ddirfawr yn ngwrthwynebiad yr efengyl, mewn cynhyrfu dynion i bechodau ysgeler, ac erlidiau creulawn, ac mewn dychymmygu a thaenu hudoliaethau cywrain, ond dinystriol.

3 [f] * Ac a'i bwriodd ef i'r pydew diwaelod, † ac a gauodd arno, [g] ‡ ac a seliodd arno ef, [h] || fel na thwyllai efe y cenhedloedd mwyach, [i] nes cyflawni y mil o flynyddoedd: [k] § ac ar ol hynny rhaid yw ei ollwng ef yn rhydd *dros* ychydig amser.

f Gwel ar adn. 1. pen. 17. 8. g Dan. 6. 17. Mat. 27. 66. h adn. 8. pen. 12. 9. a 13. 14. a 16. 14—16. a 17. 2. Mat. 24. 24. 2 Cor. 11. 3, 13—15. 2 Thes. 2. 9—11. i Salm 90. 4. 2 Pedr 3. 8. k adn. 7—10.

* Gwedi dàl a rhwymo diafol fel drwg-weithredwr, bwriodd yr angel ef gyda rhuthr nerthol, i eigion dirfawr y pydew diwaelod; † a chauodd arno fel carcharor drygionus yn uffern, fel mewn dyfn-gell dywyll a dychryllyd; ‡ a seliodd arno ef yno i'w gadw yn ddiogel, fel y seliwyd ar Daniel yn ffau y llewod, ac ar Grist yn y bedd; || fel na chai efe rodio mwyach oddi amgylch fel llew rhuadwy, gan geisio y neb a allai lyncu, nac ychwaith i dwyllo y cenedloedd fel o'r blaen, i anwiredd, cyfeiliornadau, ac erlidiau; nes cyflawni y mil blynyddoedd a soniwyd uchod: § ond wedi hyny, yn ol trefn a goddefiad Duw, bydd raid ei ollwng ef yn rhydd dros ychydig iawn o amser, yr hyn a fydd er condemniad chwanegol iddo ef, ac er gogoniant chwanegol i'r Gwaredwr. Ei *ollwng* a gaiff efe, ac nid *tòri* ei garchar a wna, nis gall efe hyny byth.—Pan rwymer y llew rhuadwy hwn, a'r hen sarph gyfrwys wenwynig hon yn hollawl; gwnair yr efengyl yn effeithiol, i buro yr eglwys ac i droi y byd; daw y grefydd gristionogol yn ei holl burdeb a'i gogoniant, yn grefydd gyffredinol y ddaear; a bydd i'r gwir Israel flodeuo a blaen-darddu, a hwy a lanwant wyneb y byd â chnwd. (Esa. 27. 6.) Yna cyflawnir y deisyfiadau cyntaf yn ngweddi yr Arglwydd mewn modd rhyfeddol; a llenwir y ddaear â duwioldeb, heddwch, cyfiawnder, a phurdeb; hyd oni ryddâer Satan drachefn dros ychydig amser. Mae yn dra sicr y bydd y fath amser â'r mil blynyddoedd uchod; pryd yr attelir rhwysg Satan yn rhyfeddol, ac y llwydda achos Iesu yn rhyfeddol hefyd: ond pa un ai *mil o flynyddoedd* cymhwys, yn yr ystyr naturiol a feddylir, yr hyn sydd fwyaf tebygol, (medd *Doddridge*) ai ynte rhyw yspaid mawr anmhennodol o amser a feddylir, mae yn anhawdd penderfynu yn hollawl. Tybia rhai fod *pob diwrnod* i'w gymmeryd am flwyddyn, yn y fàn hon fel mewn mànau eraill; ac os felly, bydd y cwbl yn 360,000 o flynyddoedd! ond nid yw ein Hawdwyr yn cymmeradwyo y dyb hon.

4 * Ac mi a welais [l] orsedd-feingciau, † a hwy a eisteddasant arnynt, ‡ a barn a roed iddynt hwy: || ac *mi a welais* [m] eneidiau [n] y rhai a dorrwyd eu pennau [o] am dystiolaeth Iesu, ac am air Duw, [p] § a'r rhai ni addolasent y bwystfil na'i ddelw ef, * ac ni dderbyniasent ei nôd ef ar eu talcennau, neu ar eu dwylaw; [q] † a hwy a fuant fyw ‡ ac a deyrnasasant gyd â Christ || fil o flynyddoedd.

l Dan. 7. 9, 18, 22, 27. Mat. 19. 28. Luc 22. 30. 1 Cor. 6. 2, 3. m pen. 6. 9. Mal. 4. 5. Mat. 17. 10—13. Marc 9. 11—13. Luc 1. 17. a 9. 7—9. n Mat. 14. 10. Marc 6. 16, 27. Luc 9. 9. o Gwel ar pen. 1. 9. a 11. 3, 7. a 12. 11. p pen. 13. 12—17. a 14. 11. a 15. 2. a 17. 8. q pen. 5. 9, 10. a 11. 11, 15. Dan. 2. 44, 45. a 7. 18, 27. Rhuf. 8. 17. a 11. 15. 2 Tim. 2. 12.

* Gwedi y waredigaeth uchod a gafodd yr eglwys oddi wrth Satan a'i holl offerynau, gwelai Ioan weledigaeth o orsedd-feinciau gogoneddus lawer; † a gwelai bersonau yn eistedd mewn anrhydedd a mawrhydi arnynt, sef y duwiolion yn amser dedwydd y mil-flwyddiant: ‡ a gwelai hefyd roddi barn iddynt hwy; sef awdurdod i lywodraethu ar eu gelynion, ac i arfer barn ac awdurdod mewn pethau eglwysig a gwladol: neu, ynte, roddi barn gyflawn o'r diwedd yn eu hachos hwy;

yn erbyn y rhai a'u gwaradwyddasai, a'u herlidiasai, ac a'i gorthrymasai yn anghyfiawn. || A gwelai hefyd eneidiau merthyron yr oesoedd o'r blaen; y rhai y tòrasid eu penau, ac a laddesid mewn ffyrdd creulawn eraill, am eu tystiolaeth ffyddlawn i Grist Iesu, fel yr unig Waredwr; ac i air Duw, fel unig rëol ffydd, addoliad, ac ufudd-dod buchedd. § Y rhai hyn oedd y rhai a ddaliasent eu ffordd yn ysbryd, ffydd, ac amynedd merthyron; heb ymostwng, drwy ofn poenau nac angau, i awdurdod y Pab, na thalu gwasanaeth crefyddol iddo ef, nac i neb eilunod o'i osodiad ef; * ac ni wnaethent nac addef na chynnorthwyo awdurdod y bwystfil anghristiaidd, trwy dderbyn ei nôd ef ar eu talcenau, neu ar eu dwylaw; (gwel ar pen. 13. 16.) fel arwydd eu bod yn perthyn fel canlynwyr iddo; † a'r rhai hyn, yn nghyd â'u holynwyr o'r un ysbryd, a fuant fyw fel corph ysbrydol a dinasaidd, mewn cyflwr llawer mwy dedwydd nac erioed o'r blaen; ‡ ac, wedi dyoddef gyda Christ, hwy a deyrnasasant, neu a gânt deyrnasu gydag ef, dano ef, a thrwy rinwedd ei ddylanwadau nerthol ef, mewn ystâd ogoneddus o orphwysdra, cariad, heddwch, goleuni, rhyddid, a sancteiddrwydd; yn fuddugoliaethus ac arglwyddiaethol ar eu gelynion; ac mewn pob math o lwyddiant a diogelwch; || dros y mil o flynyddoedd uchod, yn y rhai y bydd Satan yn rhwym, ac wedi ei gau a'i selio yn y pydew diwaelod.—*A hwy a fuant fyw:* hyny yw, caiff lluoedd o gredinwyr eu codi yn yr eglwys yn yr amser a ragfynegir uchod, megys pe byddent wedi eu bywâu âg eneidiau y rhai a ferthyrasid yn achos Crist; fel y dywedir i'r tystion gael eu bywâu drachefn ar ol tridiau a hanner: (gwel ar pen. 11. 11.) sef mewn eraill o'r un ysbryd â hwy. Caiff y dynion rhagorol hyn fyw a theyrnasu ar y ddaear, yn wir ddedwydd yn mbresenoldeb grasol Crist gyda eu heneidiau, ac yn eu cynnulleidfaoedd.—*Gyda Christ:* tybia rhai oddi wrth y geiriau hyn, y bydd Crist yn bersonol, ac o ran ei ddynoliaeth, yn teyrnasu ar y ddaear yn y mil blynyddoedd; ac y bydd adgyfodiad i gyrph y merthyron a grybwyllir uchod, yn nechreu y mil blynyddoedd, i deyrnasu gydag ef: ond mae ein Hawdwyr yn ymwrthod â'r fath dŷb ddychymmygol, yr hon a wna *ddau* adgyfodiad i'r saint, un cyn, a'r llall wedi, y mil blynyddoedd; a *thri* dyfodiad i Grist, un yn y cnawd, yr ail yn nechreu y mil-flwyddiant, a'r trydydd i farnu y byd; lle mae yr ysgrythyr yn dywedyd mai yr *ail* waith yr ymddengys ef i farnu y byd.

5 [r] * Eithr y lleill o'r meirw † ni fuant fyw drachefn, ‡ nes cyflawni y mil blynyddoedd. [s] || Dyma yr adgyfodiad cyntaf.

r adn. 8, 9.—Gwel ar pen. 19. 20, 21. s pen. 11. 11, 15. Ezec. 37. 2—14. Rhuf. 11. 15.

* "Eithr y lleill o'r meirw," &c. Crybwyllir yn y brophwydoliaeth hon am ddau fath o feirw; y rhai a laddwyd am dystiolaeth Iesu, (adn. 4.) â'r rhai a laddwyd â chleddyf yr hwn oedd yn eistedd ar y march. (pen. 19. 21.) Cyfodwyd y rhai cyntaf yn yr ystyr a grybwyllwyd uchod; † ond ni bu y lleill fyw drachefn, hyny yw, ni bu iddynt olynwyr o'r un ysbryd drygionus ac erledigaethus â hwy eu hunain, ‡ nes cyflawni y mil blynyddoedd, pryd y gollyngwyd, neu y gollyngir diafol yn rhydd drachefn, ar ddiwedd yr amser hwnw. Mae y dehongliad uchod yn addas i ddull allegawl y llyfr hwn, ac yn berffaith foddlonawl gan ein Hawdwyr. Mae yr iaith ei hun yn arwyddo adgyfodiad *ffugyrawl*, am hyny gwahanieithir ef yn ofalus oddi wrth adgyfodiad *llythyrenol* y meirw. Mae yma hefyd esampl o'r tywyllni doeth a phriodol hyny, a gawn ni yn wastad mewn prophwydoliaethau, cyn eu cyflawniad. || Dyma yr adgyfodiad cyntaf; adgyfodiad ysbrydol a chyfriniol; a'r rhai a gânt gyfranogi o hóno, drwy fyw yn yr amseroedd dedwydd hyny, a fyddant yn llawer mwy sanctaidd a gwynfydedig, na christionogion mewn oesoedd eraill. Gellir galw ystâd ogoneddus yr eglwys yn y *mil blynyddoedd* yn *adgyfodiad cyntaf;* am y bydd yn rhagflaenu, ac megys yn gysgod o adgyfodiad cyrph y saint wedi hyny, i fywyd tragywyddol. Y pryd hwn hefyd y dychwelir yr Iuddewon, ac y daw holl gyflawnder y cenedloedd i mewn; yr hyn oll a fydd megys bywyd o feirw, ac megys adgyfodiad cyntaf, o flaen yr adgyfodiad mawr diweddaf.

6 [t] * Gwynfydedig a sanctaidd *yw* yr hwn sydd â rhan iddo yn yr adgyfodiad cyntaf: † y rhai hyn [u] nid oes i'r ail farwolaeth awdurdod arnynt, ‡ eithr hwy a fyddant [x] offeiriaid i Dduw ac i Grist, [y] || ac a deyrnasant gyd âg ef § fil o flynyddoedd.

t adn. 5. pen. 14. 13. a 22. 7. Es. 4. 3. Dan. 12. 12. Luc 14. 15. u adn. 14. pen. 2. 11. a 21. 8. x pen. 1. 6. a 5. 10. Es. 61. 6. Rhuf. 12. 1. 1 Pedr 2. 5, 9. y adn. 4. pen. 1. 6. a 5. 10. Rhuf. 8. 17. 2 Tim. 2. 12.

* Mae y dyn hwnw, pwy bynag yw, wedi ei fawr fendithio gan Dduw, a chwedi ei sancteiddio yn effeithiol gan ei Ysbryd ef, yr hwn a gaiff ran yn holl anrhydedd a hyfrydwch yr adgyfodiad cyntaf; a'i ddwyn i ystâd o ryddid oddi wrth ei drallodion a'i demtasiynau o'r blaen, ac i gymmaint dedwyddwch a chyd-ffurfiad â delw sanctaidd Crist, ag a ellir ei fwynâu ar y ddaear; a hyny fel yn ernes sicr, a blaen-brawf iddo, o berffaith wynfyd yn y nef. † Er y bydd i'r rhai hyn farw yn naturiol, ac o ran y corph, yn gystal â'r annuwiol; eto ni byddant farw yn dragywyddol fel yr annuwiol, ac ni chânt brofi o'u trueni hwy yn uffern, yr hyn a ellir ei alw yn "ail farwolaeth," am ei bod yn dyfod ar ol marwolaeth. ‡ Eithr hwy, un tô ar ol y llall o honynt, a gyssegrir yn weledig i Dduw Dad, ac i'w Fab ef Iesu Grist, fel breniniaeth o offeiriaid; wedi ymgyflwyno yn hollawl i wasanaeth Duw a Christ, mewn prydferthwch sancteiddrwydd, gyda rhyddid a hyfrydwch. || Ac fel y dywedwyd ar adn. 4, hwy a ddyrchefir i bob mawredd ac awdurdod gwladol ac eglwysig gyda Christ, mewn dyledus ymostyngiad iddo ef fel eu Harglwydd a'u Brenin; ac a deyrnasant felly gydag ef, § drwy holl yspaid y mil-flwyddiant o gyflwr dedwydd hwnw yr eglwys ar y ddaear. Pan y dywedir "na bydd i'r *ail* farwolaeth ddim awdurdod arnynt," yr ydym i ddeall y bydd raid iddynt fyned i'r nef drwy y farwolaeth *gyntaf* fel eraill: ac ni ddywedir dim arall, yn wahanol i gredinwyr amseroedd eraill am danynt, ond y cânt deyrnasu gyda Christ fil o flynyddoedd; yr hyn a arwydda yn naturiol, y bydd i dô ar ol tô o'r fath gristionogion gorfoleddus, y rhai a wnair yn anrhydeddus ac yn ddedwydd drwy bresenoldeb grasol a neilldduol yr Arglwydd gyda hwy, barâu ar y ddaear drwy holl yspaid y mil blynyddoedd.

7 [z] * A phan gyflawner y mil blynyddoedd, † gollyngir Satan allan o'i garchar;

z Gwel ar adn. 2.

* Ac yn niwedd y mil blynyddoedd, yn y rhai y buddugoliaetha ac y gorfoledda y saint, heb gael dim aflonyddwch oddi wrth neb o'u holl elynion; † goddefir i'w prif elyn, y diafol a Satan, gael myned yn rhydd drachefn dros ychydig amser, o'i garchar lle y bu efe yn rhwym; (adn. 3.) pryd y cynnyg efe ei ymdrech olaf ac eithaf, yn eu herbyn hwy; gan na bydd eu cyflwr dedwydd hwy ar y ddaear i barâu byth, fel y bydd eu hystâd ogoneddus hwy yn y nef. Yn niwedd y blynyddoedd hyny, gollwng Duw ef o'i rwymau; ac efe a gynhyrfa rai drygionus y ddaear unwaith yn chwaneg, i wrthwynebu eglwys Dduw, un ai trwy erlidiau, hudoliaethau, neu gyfeiliornadau, neu bob un o honynt.—Nis gallwn ni wybod dybenion Duw yn gollwng Satan yn rhydd: yn mhlith rhesymau eraill, efallai y gwna hyny i ddangos, na bydd dedwyddwch hir barâol y byd ddim yn effaith gwelliant y natur ddynol, fel yn deilliaw o Adda syrthiedig; ond yn effaith dylanwad dwyfol union gyrchol, ar feddyliau dynion drwy adgenedliad, ei mawl gogoniant ei ras ef.

8 * Ac efe a â allan [a] i dwyllo y cenhedloedd sydd ym mhedair congl y ddaear, [b] † Gog

a Magog, [c] i'w casglu hwy ynghyd i ryfel; [d] ‡ rhif y rhai *sydd* fel tywod y môr.

a Gwel ar adn. 3. b Ezec. 38. a 39. c Gwel ar pen. 16. 14. d Barn. 7. 12. 1 Sam. 13. 5. 1 Bren. 4. 20. Es. 10. 22. Jer. 33. 22. Heb. 11. 12.

* Yn y fân wedi ei ollwng o'i garchar, â y twyllwr mawr hwn drachefn at ei hen orchwyl; a buan y cynhyrfa efe offerynau, y rhai gyda phob awyddfryd, cyfrwysder, a dichell, a lygrant yr efengyl; ac a hudant ddynion i wrthgiliad, eilun-addoliaeth, cyfeiliornadau, anffyddiaeth, a drygioni: ac fel hyn, drwy fod yr hen dô o greduwyr yn meirw, caiff yr hiliogaeth ddilynol yn mhlith llawer o genedloedd, yn mhedair congl y ddaear, eu twyllo ganddo ef: a chwedi ymadael eu hunain oddi wrth y ffydd, hwy a gynhyrfir i gasâu ac erlid y rhai a lŷnant wrthi. † Fel hyn adgyfyd ysbryd Anghrist drachefn, wedi diwedd y mil blynyddoedd; yna cymmerir rhyfeloedd crefyddol mewn llaw, pryd y cydbleidia yr holl lïaws o genedloedd gwrthgiliedig, ïe Gog a Magog, *fel wedi cyfodi drachefn*, yn erbyn yr eglwys, ac y deuant i ryfel yn ei herbyn hi, ‡ gyda lluoedd mòr aneirif â thywod y môr.—Ofer yw ymholi pwy fydd Gog a Magog, ac o ba le y deuant; oblegid rhaid deall hyn hefyd yn allegawl, neu gyfriniol, am elynion mòr greulawn a llïosog ag a fuasai Gog a Magog a'u bydd-inoedd gynt: (Ezec. 38. 2, &c.) a dywedir yn bennodol, mai y "cenedloedd yn mhedair congl y ddaear" a fyddant hwy. Fel y gelwid Anghrist yn Aipht a Babilon, am mai yr Aipht a Babilon a fu hen orthrymwyr Israel gynt; felly y gelwir gelynion diweddaf yr eglwys yn Gog a Magog, am mai Gog a Magog a fu gelynion diweddaf Israel, wedi eu dychweliad o'r caethiwed: yr hen Gog a Magog cyn dyfodiad cyntaf Crist, a'r Gog a Magog hyn cyn ei ail ddyfodiad ef. Dynion o ysbryd Gog a Magog, fel yr oedd Ioan yn dyfod yn ysbryd Elias, ac am hyny yn cael ei alw yn Elias.

9 * A hwy a [e] aethant i fynu ar led y ddaear, † ac a [f] amgylchasant [g] wersyll y saint, ‡ a'r ddinas anwyl: ‖ a [h] thân a ddaeth oddi wrth Dduw i waered o'r nef, § ac a'u hysodd hwynt.

e Es. 8. 7, 8. Ezec. 38. 9, 16. Hab. 1. 6. f 2 Bren. 6. 15. Mica 2. 13. Mat. 16. 16—18. Luc 19. 43. a 21. 20. g Salm 48. 1—3. a 74. 2—4. a 125. 1, 2. Heb. 13. 13. h pen. 11. 5. a 13. 13. Gen. 19. 24. Ex. 9. 23, 24. Lef. 10. 2, 3. Num. 11. 1. a 16. 35. 2 Bren. 1. 10—15. Salm 97. 3. a 106. 18. Es. 30. 33. a 37. 36. Ezec. 38. 22. a 39. 6. Luc 9. 54. a 17. 29. 2 Thes. 1. 8.

* Ac yn ei weledigaeth, gwelai Ioan y llu dirfawr hwn, gyda Satan yn eu harwain, fel pen llywydd y gâd, yn ymdaenu ar led y ddaear, yn enwedig ar led tir Immanuel: (Esa. 8. 8.) † ac i gyfeirio at wersylliadau Israel o amgylch y babell yn yr anialwch, (Num. 2. 2, &c.) hwy a amgylchasant bebyll pobl briodol a sanctaidd Duw, yn mysg pa rai yr oedd ei dabernacl ef wedi ei osod, fel y gallent eu herlid a'u trallodi hwynt: ‡ ac, i gyfeirio at sefydliad Israel wedi hyny yn Jerusalem, amgylchodd y gelynion beiddiol hyn yr eglwys, yr hon fel dinas, oedd wedi ei chyd-gyssylltu ynddi ei hun mewn trefn brydferth, yr hon oedd yn anwyl gan Dduw, fel ei breswylfa ddewisol a hyfryd ef; fel y gwarchaëent hi, ac y dystrywient hi trwy eu cyd-ymosodiad arni. ‖ A thra yr oeddynt hwy ar waith yn yr ymgais rhyfygus hyn, daeth tân digofaint Duw i waered o'r nef, fel y bygythiodd efe yr hen Gog a Magog gynt, (Ezec. 38. 22; a 39. 6.) § ac a'u llwyr ysodd hwynt yn nghyflosgiad cyffredin y dydd diweddaf, ac yn y tân tragywyddol a ganlynodd hyny.—Wrth sôn am amgylchu *gwersyll y saint*, a'r *ddinas anwyl*, mae y cymhariaethau yn cael eu cymmeryd oddi wrth Israel yn yr anialwch ac yn Nghanaan, fel y sylwyd uchod: bydd *gwersyll y saint* y pryd hwnw yn mhob màn lle byddo y saint; a'r *ddinas anwyl* pa le bynag y byddo eglwys i Dduw.

10 * A [i] diafol, yr hwn oedd yn eu twyllo hwynt, a fwriwyd [k] i'r llyn o dân a brwmstan, † lle *y mae* y bwystfil a'r gau brophwyd; ‡ a hwy [l] a boenir ddydd a nos, yn oes oesoedd.

i Gwel ar adn. 2, 3. k adn. 14, 15.—Gwel ar pen. 19. 20. l Gwel ar pen. 14. 10, 11.—Mat. 25. 41, 46.

* Gwedi i'r Arglwydd unwaith yn chwaneg, roddi cyfle i ddynion i ddangos eu llygredd a'u gelyniaeth naturiol, ac i ddiafol i ddangos ei gyfrwysder a'i elyniaeth parâus yntau; yna efe a'i bwria ef am y tro diweddaf i'r llŷn o dân a brwmstan, heb gael ei ryddâu byth mwyach, na'i oddef i dwyllo na gwneyd drygioni; † ond gyda'r bwystfil a'r gau-brophwyd, y gorthrymwyr erledigaethus, offeiriaid eilun-addolgar a drygionus, a gau-athrawon, ei brif offerynau a'i weinidogion ef tra bu yn gormesu fel duw a thywysog y byd hwn; ‡ caiff ef a hwythau eu poeni yn uffern ddydd a nos, yn oes oesoedd, heb na thranc na therfyn ar eu poen a'u cospedigaeth, byth bythoedd! *Dros oesoedd o oesoedd*, meddant, yw y Groeg; ond oesoedd diddiwedd ydynt, ac nis gellir dysgrifio tragywyddoldeb diderfyn o boenau mewn cryfach geiriau.

11 * Ac mi [m] a welais orsedd-faingc wen fawr, † a'r hwn oedd yn eistedd arni, [n] ‡ oddi wrth wyneb yr hwn y ffodd y ddaear a'r nef; [o] ‖ a lle ni chafwyd iddynt.

m adn. 2. pen. 19. 11. Gen. 18. 25. Salm 9. 7, 8. a 14. 6, 7. a 47. 8. a 89. 14. a 97. 2. Mat. 25. 31. Act. 17. 30, 31. Rhuf. 2. 5. n pen. 6. 14. a 16. 20. a 21. 1. Jer. 4. 23—26. Dan. 2. 35. Mat. 24. 35. 2 Pedr 3. 7, 10, 11. o pen. 12. 8. Job 9. 6.

Ar ol y dygwyddiadau a ragfynegwyd uchod, daw y diwedd yn fuan: ac nid oes dim crybwylliadau prophwydol am unrhyw beth, a gymmer le yn y cyfamser, cyn dyfodiad Crist i godi y meirw, ac i farnu y byd. * Oblegid gwelodd Ioan yn nesaf "orsedd-faine wèn fawr," fel yn arwydd-lun o'r mawredd, yr awdurdod, y gallu, a'r cyfiawnder, gyda pha rai yr ymddengys Mab Duw y pryd hwnw. † Ar yr orsedd-faine hon gwelai Ioan un yn eistedd; sef Iesu Grist, y Gŵr a ordeiniodd Duw Dad i farnu y byd, ac yr hwn y rhoddodd efe bob barn iddo: ‡ oddi wrth wyneb yr hwn y ffôdd y ddaear a'r nef; yr hyn, gydag ucheledd ac arduniant digyffelyb, sydd yn arddangos dysgleirdeb annhraethol ei ogoniant ef; a hollawl ddattodiad ac ymollyngiad y grëadigaeth weledig, neu agwedd bresenol y byd, gan ei allu a'i fawredd ef yn ei ddyfodiad. ‖ Fel hyn diflanodd y grëadigaeth weledig o nef a daear mòr hollawl, fel na chafwyd lle iddynt; neu fel nad oeddynt i'w cael fel o'r blaen yn eu lle. Gwel ar 2 Pedr 3. 10—12.—Dywed un gŵr dysgedig fod y geiriau hyn mòr eglur fel nad oes raid, ac mòr uchel a mawreddig fel nas gellir, rhoddi eglurâd arnynt: a thybia *Scott* eu bod goruwch pob peth a draethwyd erioed â geiriau dynol.

12 * Ac [p] mi a welais y meirw, [q] fychain a mawrion, [r] yn sefyll ger bron Duw; † a'r [s] llyfrau a agorwyd; [t] ‡ a llyfr arall a agorwyd, yr hwn yw *llyfr* y bywyd: ‖ a barnwyd y meirw wrth y pethau oedd wedi eu hysgrifenu yn y llyfrau, [u] § yn ol eu gweithredoedd.

p adn. 11. Dan. 12. 2. Ioan 5. 28, 29. a 11. 25, 26. Act. 24. 15. 1 Cor. 15. 21—23. 1 Thes. 4. 15—17. q Gwel ar pen. 19. 5. r Rhuf. 14. 10—12. 1 Cor. 4. 5. 2 Cor. 5. 10. s Dan. 7. 10. t pen. 3. 5. a 13. 8. a 17. 8. a 21. 27. Salm 69. 28. Dan. 12. 1. Luc 10. 20. Phil. 4. 3. u adn. 13. pen. 2. 23. a 22. 12. Salm 28. 4. a 62. 12. Diar. 24. 12, 29. Preg. 12. 14. Jer. 17. 10. a 32. 19. Mat. 16. 27. Rhuf. 2. 6. 2 Cor. 5. 10.

* Yn nesaf gwelai Ioan y meirw, fychain a mawrion, hen ac ieuainc, cyfoethogion a thlodion, duwiolion ac annuwiolion, o ddechreu y byd i'w ddiwedd, fel wedi eu cyfodi, ac yn sefyll ger bron Duw. Ni a wyddom mai Crist a eistedd ar orsedd ei ogoniant i farnu y byd; am hyny rhaid mai Crist a feddylir yma, ac a elwir yn Dduw. † "A'r llyfrau a agorwyd;" yr hyn yn gyffelybiaethol a ddengys y datguddiedigaethau a wnair y pryd hwnw, o holl feddyliau, geiriau, gweithredoedd, egwyddorion, dybenion, tueddiadau, rhwyman, manteision, a thalentau holl ddynion y byd, gan holl-wybodaeth Duw y Barnwr; a chymhariad y cwbl â'i gyfraith sanctaidd ef; yn nghyd â'r côf a'r cydwybodoldeb, a fydd gan bob

dyn o'i holl weithredoedd blaenorawl, er y bydd wedi hir anghofio llawer o honynt, nes eu dwyn fel hyn ac y pryd hyn, i oleuni ac i goffadwriaeth. Fel hyn gwnair prawf manol a chywir o gymmeriad pob dyn; o amlwgrwydd a graddau ei ras ef, ac o'i ffrwythlondeb mewn gweithredoedd da; neu ynte o ddrygedd neu ysgafnedd ei bechodau: a bydd y gwobr diweddaf yn cael ei roddi mewn perffaith gyfiawnder ac anmhleidgarwch, mewn cyssylltiad â gwirionedd a thrugaredd. ‡ Oblegid gwelai Ioan lyfr arall yn cael ei agoryd, yr hwn oedd llyfr y bywyd; pe amgen buasai raid condemnio pawb. Arwydd-lun ydoedd hwn o wybodaeth Duw o'i bobl; a'i dystiolaeth gyhoedd ef o'u hedifeirwch, eu ffydd, eu cariad, a'u gweithredoedd da; fel yn brawf o'u hetholiad, eu pryniad, eu badgenedliad, a'u rhan yn ei gyfiawnder ef, ac yn mendithion y cyfammod newydd. ‖ Fel hyn caiff y meirw eu barnu wrth y pethau a fydd yn ysgrifenedig yn y llyfrau, neu y cofnodau hyn am danynt; § ac yn ol eu gweithredoedd, pa un a fyddant yn brawf eu bod hwy yn wir gredinwyr, ai ynte i'r gwrthwyneb.—Mae y llyfrau cyntaf yn cynnwys, neu yn arwyddo, hollwybodaeth Duw ar y naill law, ac ar y llaw arall y ddeddf a'r efengyl, wrth ba rai y mae pawb i gael eu barnu: a llyfr y bywyd yn cynnwys enwau pawb a arfaethodd Duw i gael bywyd o ras ar y ddaear, a bywyd tragywyddol yn y nef.

13 * A [x] rhoddodd y môr i fynu y meirw oedd ynddo; [y] † a marwolaeth ‡ ac uffern a roddasant i fynu y meirw oedd ynddynt hwythau: [z] ‖ a hwy a farnwyd bob un yn ol eu gweithredoedd.

x Ioan 5. 28, 29. y adn. 14.—Gwel ar pen. 6. 8.—Hos. 13. 14. 1 Cor. 15. 50—58. z Gwel ar u. adn. 12.

* Ac nis gall neb ddianc rhag y farn fanol a diduedd hon: oblegid rhydd y môr i fynu y meirw sydd ynddo, trwy hollalluog nerth Duw; † a marwolaeth, neu y bedd hefyd yr un modd, caiff pawb sydd yn y beddau glywed llef Mab Duw, a hwy a ddeuant allan; ‡ ac uffern, *(hadês)* neu ystâd annweledig yr eneidiau a ymadawsant o'r byd hwn, a rydd i fynu hithau yr eneidiau sydd ynddi, i ymddangos yn eu cyrph priodol, ger bron y Barnwr mawr. Fel hyn rhaid i'r holl dyrfa fawr aneirif, a fu byw ar y ddaear yn mhob oes, o ddechreu y byd hyd ddiwedd pob peth, ymddangos y pryd hwnw ger bron brawdle Crist; caiff yr holl feirw brofi ail-uniad cyrph ac eneidiau, a phawb a fyddo byw y pryd hwnw a newidir. Gwel ar 1 Cor. 15 50—54; 1 Thes. 4. 15—17. ‖ A'r holl dyrfa fawr hon a brofir yn ddiduedd, ac a fernir yn ol natur a graddau eu gweithredoedd, pa un bynag ai da ai drwg a fyddont, yn ol fel y tystiolaethont drostynt neu yn eu herbyn hwynt.

14 * A [a] marwolaeth ac uffern † a fwriwyd i'r llyn o dân. [b] ‡ Hon yw yr ail farwolaeth.

a Gwel ar pen. 19. 20.—1 Cor. 15. 26, 53, 54. b Gwel ar adn. 6.

* Yna marwolaeth ac uffern, y bedd ac ystâd annweledig a neilldduedig yr ysbrydion, † a fwrir i'r llyn o dân: hyny yw, ni byddant yn bod mwyach, i dderbyn cyrph ac eneidiau dynion; ni bydd marwolaeth yn y nef; a chaiff yr holl rai drygionus eu bwrw i uffern, yn yr hon y caiff marwolaeth a'r ystâd neilldduedig eu llyncu i fynu: ‡ oblegid "hon yw yr ail farwolaeth," neilldduad diweddaf a thragywyddol pechaduriaid oddi wrth Dduw, heb obaith byth am adferiad i'w ewyllys da ef, na gwaredigaeth oddi dàn ei lid.—*Ystâd neilldduedig eneidiau oddi wrth eu cyrph*, pa le bynag y byddo hyny, yw ystyr y gair *hadês*, (uffern) yn yr adnod hon a'r adnod o'r blaen; a llyncir yr ystâd hòno i fynu yn nghanlyniad y farn ddiweddaf, pryd yr â rhai o'r eneidiau yn nghyd â'u cyrph i fywyd tragywyddol, a rhai yr un modd i farwolaeth dragywyddol, yn y llyn o dân. Mae yn sicr nas gellir deall y gair uffern yn y fàn hon am le y colledigion; oblegid disynwyr fyddai dywedyd, *fwrw uffern iddi ei hun.*

15 * A [c] phwy bynnag ni chafwyd wedi ei ysgrifenu yn llyfr y bywyd, [d] † bwriwyd ef i'r llyn o dân.

c Marc 16. 16. Ioan 3. 18, 19, 36. a 14. 6. Act. 4. 12. Heb. 2. 3. a 12. 25. 1 Ioan 5. 11, 12. d Gwel ar pen. 19. 20.—Marc 9. 43—48.

* A phwy bynag ni chair yn ysgrifenedig yn llyfr y bywyd, fel gwir gredadyn, yn ol athrawiaeth gyffredin yr ysgrythyrau sanctaidd; † a fwrir i'r llyn o dân, y lle hwnw o ddëoliad a phoenau tragywyddol.—Tybia *Scott* fod y "llyn o dân" yma i'w hystyried yn wahanol i'r "pydew diwaelod" a grybwyllwyd o'r blaen: (adn. 1, 3.) ond nid yw yn dywedyd pa fodd, nac yn mha beth y mae yn wahanol, ac nis gŵyr y Detholydd.

PEN. XXI.

Gwelediad y ddinas sanctaidd.

* AC mi a welais [a] nef newydd, a daear newydd: [b] † canys y nef gyntaf a'r ddaear gyntaf a aeth heibio; [c] ‡ a'r môr nid oedd mwyach.

a adn. 5. Es. 65. 17. a 66. 22. 2 Pedr 3. 13. b Gwel ar pen. 20. 11. c pen. 13. 1. Es. 27. 1. a 57. 20. Dan. 7. 3.

Mae rhai dehonglwyr, yn enwedig y rhai a ddàliant adgyfodiad *llythyrenol*, neu *gorphorol*, yn nechreu y mil-flwyddiant, a theyrnasiad *personol* Crist ar y ddaear am fil o flynyddoedd, yn deall y pennodau diweddol hyn yn benaf, am gyflwr yr eglwys ar y ddaear yn y mil blynyddoedd hyny. Ond mae y pethau a grybwyllir yn y pennodau hyn yn dyfod i mewn *ar ol* y dysgrifiad o'r farn gyffredinol; ac nis gallwn ni byth gyrhaeddyd iawn ddeall o brophwydoliaeth, os caniatâwn i dybiaeth a dychymmygion ein dwyn yn ol ac yn mlaen, heb unrhyw rëolau sefydlog. Gan mai *ar ol* gweledigaeth y farn y cafodd Ioan yr hyn a ganlyn, tybia ein Hawdwyr oll, mai am gyflwr gogoneddus yr eglwys yn y nef y maent yn traethu; oddigerth lle y gelwir ein meddyliau ymaith mewn rhai mànau, at bethau eraill. * Soniodd Esaiah am gyflwr eglwys y Testament Newydd, dàn y gymhariaeth o "nef newydd a daear newydd," (Esa. 65. 17; a 66. 22.) a defnyddiodd Pedr yr un gymhariaeth am ystâd yr eglwys yn y nef; (2 Pedr 3. 13.) ac felly Ioan hefyd yn y fàn hon. Mae yn amlwg mai am ystâd ogoneddus yr eglwys yn y nef yr oedd Pedr ac Ioan yn llefaru; † oblegid dywed pob un o honynt fod y nef gyntaf a'r ddaear gyntaf wedi myned heibio, fel y sylwyd dàn pen. 20. 11; ac 2 Pedr 3. 10—12. ‡ Yn y byd newydd hwn nid oedd môr mwyach; yr hyn sydd arddangosiad addas o berffaith ryddid oddi wrth nwydau halogedig a therfysglyd, profedigaethau poenus, trallodau tymhestlog, cyfnewidiau, a dychrynfëydd; ac oddi wrth bob peth a ddichon attal a phellâu cymdeithas y saint â Duw ac â'u gilydd. Tybia rhai hefyd fod hyn yn arwyddo y bydd digonedd o le yn y byd dedwydd hwnw; lle mae rhan fawr o'r byd hwn wedi ei orchuddio gan fôroedd.—Dywed un Awdwr *(Burnet)* nad oedd môr yn y byd hwn cyn y dylif; ond ychydig sydd yn ei goelio ef am hyny.—Am y nef a'r ddaear newydd, gwel ar 2 Pedr 3. 13: ac am y môr, gwel ar pen. 13. 1; a 17. 1, 15, o'r llyfr hwn.

2 * A [d] myfi Ioan a welais [e] y ddinas sanctaidd, Jerusalem newydd, [f] yn dyfod oddi wrth Dduw i waered o'r nef, † wedi ei pharottôi fel [g] priodas-ferch wedi ei thrwsio i'w gwr.

d pen. 1. 1, 4, 9. e pen. 3. 12. Salm 48. 1—3. a 87. 3. Es 1. 21. a 52. 1. Jer. 31. 23. Heb. 11. 10. a 12. 22. a 13. 14. f adn 10. Gal. 4. 25, 26. g Gwel ar pen. 19. 7, 8.—Es. 54. 5. a 61. 10 a 62. 4. Ioan 3. 29. 2 Cor. 11. 2. Eph. 5. 25—27, 30—32.

* Gwelodd Ioan hefyd y ddinas sanctaidd, Jerusalem newydd, yn dyfod oddi wrth Dduw i waered o'r nef dangoswyd yr holl eglwys fuddugoliaethus iddo ef dàn yr arwydd-lun hwn; fel y gwelai ac yr hysbysai ef rywfaint o'i gogoniant a'i dedwyddwch hi, yn ol a alla

dyn amgyffred o bethau nefol: ac fel hyn efe a ddeallodd fod ei dedwyddwch hi yn dyfod yn hollawl oddi wrth Dduw, ac yn ymddybynu yn hollawl arno ef. † Yr oedd yn ymddangos megys yn yr awyr yn union o'i flaen ef, fel y gallai edrych arni a'i hystyried yn fanol; ac efe a welai ei bod wedi ei pharotôi fel priodas-ferch ieuanc hardd, wedi ei thrwsio i'w gŵr: yr hyn oedd arwyddlun arall, yn dangos y cariad sydd rhwng Crist a'i eglwys fuddugoliaethol; eu hundeb, eu cymdeithas, a'u hyfrydwch y naill yn y llall; a'r gogoniant a'r dedwyddwch a roddir fel hyn ar gredinwyr yn y nef. Fel hyn yr oedd dau arwydd-lun, dinas a phriodas-ferch; annhebyg i'w gilydd mewn rhyw ystyriaethau, yn cydweithredu i roddi rhyw syniad addysgiadol am y mater hyfrydfawr ond anamgyffredadwy hwn.

3 * Ac mi a glywais [h] lef uchel allan o'r nef, yn dywedyd, [i] Wele, † *y mae* pabell Duw gyd â dynion, ‡ ac efe a drig gyd â hwynt, [k] || a hwy a fyddant bobl iddo ef, § a Duw ei hun a fydd gyd â hwynt, *ac a fydd* yn Dduw iddynt.

h pen. 10. 4, 8. a 12. 10. i pen. 7. 15. Lef. 26. 11, 12. 1 Bren. 8. 27. 2 Cron. 6. 18. Es. 12. 6. Ezec. 37. 27. a 43. 7. Ioan 1. 14. a 14. 23. 2 Cor. 6. 16. k adn. 7.—Gwel ar Gen. 17. 7, 8. —Jer. 31. 33. a 32. 38. Zec. 13. 9. 2 Cor. 6. 18. Heb. 8. 10. a 11. 16.

* Yna y clywai Ioan lef uchel allan o'r nef, yn cyhoeddi gyda syndod wrth dirion ymostyngiad Duw, † fod ei babell Ef gyda dynion, megys y babell yn Israel gynt, yr hon nid oedd ond cysgod o hon; ‡ ac y trigai efe gyda hwynt, fel y Shechinah yn y babell gynt, megys eu Tad cymmodol, er maint eu holl gyndynrwydd a'u gwrthryfelgarwch! || Felly hwy a fyddent yn bobl briodol iddo ef, wedi ymgyflwyno i'w wasanaeth a'i ogoniant; § a byddai Duw ei hun gyda hwynt, o'u plaid a throstynt, ac yn Rhan dragywyddol a holl-ddigonol iddynt.—Mae hyn yn ddiau wedi ei gyflawni mewn rhan eisoes, yn nyddanwch a chysuron presenol gwir gredinwyr; ond yma rhaid ei fod yn cyfeirio at y mwynâd perffaith o Dduw yn ngoniant y nef.

4 * Ac fe [l] sych Duw ymaith bob deigr oddi wrth eu llygaid hwynt; † a [m] marwolaeth ni bydd mwyach, [n] na thristwch, na llefain, na phoen ni bydd mwyach: ‡ oblegid [o] y pethau cyntaf a aeth heibio.

l pen. 7. 17. Es. 25. 8. m pen. 20. 14. a 22. 3. Es. 25. 8. Hos. 13. 14. 1 Cor. 15. 26, 54—58. Heb. 2. 14, 15. n Es. 30. 19. a 35. 10. a 60. 20. a 61. 3. a 65. 18, 19. Jer. 31. 13. o adn. 1. Salm 144. 4. Mat. 24. 35. 1 Cor. 7. 31. 2 Cor. 6. 17. 2 Pedr 3. 10. 1 Ioan 2. 17.

* Ac yn y 'stâd hon o ddedwyddwch nefol, fe sych Duw ymaith bob deigr oddi wrth eu llygaid hwynt, fel Tad tirion yn dyddanu ei blant galarus: † ac nid wylant hwy byth mwyach, nac am bechod, nac am unrhyw drallod; oblegid marwolaeth, a phob achos tristwch, llefain, a phoen, ni bydd mwyach byth; ‡ oblegid y pethau cyntaf, neu flaenorol hyny, a aethant heibio yn hollawl ac yn dragywyddol. Mae yn sicr nas gall y pethau uchod fod yn gymhwysiadol i unrhyw ystâd o'r eglwys, tu yma i'w hystâd o berffaith ddedwyddwch a gogoniant yn y nef. Pa le ond yn y nef y gellir dywedyd, *a marwolaeth ni bydd mwyach?*

5 * A dywedodd [p] yr hwn oedd yn eistedd ar yr orsedd-faingc, [q] † Wele, yr wyf yn gwneuthur pob peth yn newydd. ‡ Ac efe a ddywedodd wrthyf, [r] Ysgrifena: || canys [s] y mae y geiriau hyn yn gywir ac yn ffyddlawn.

p pen. 4. 2, 9. a 5. 1. a 20. 11. q Es. 42. 9. a 43. 19. r Gwel ar pen. 1. 11, 19. s Gwel ar pen. 19. 9.

* Mae "yr hwn oedd yn eistedd ar yr orsedd-faine," yn gyffredin yn y llyfr hwn yn arwyddo y Tad yn bersonol, fel yn wahaniaethol i'r "Oen yr hwn a laddwyd:" ond gan mai Crist a *ymddengys* ar orsedd-faine barn, ac mai efe a grybwyllwyd ddiweddaf fel yn eistedd ar yr "orsedd-faine wèn fawr;" (pen. 20. 11.) mae yn bur debygol mai efe a feddylir yn y fàn hon: ac mae yr iaith a ddefnyddir yn gweddu iddo ef yn benaf, yn ei sefyllfa, neu ei gymmeriad cyfryngol. Felly y dywed *Scott*, ac âg ef y cytuna *Pool;* ond tybia *Doddridge* a *Guyse* fel arall, mai y Tad a feddylir. † Pa un bynag a feddylir, tystiolaethodd yn nghlyw Ioan, ei fod "yn gwneuthur pob peth yn newydd." Mae efe yn dwyn pechaduriaid i ystâd neu gyflwr newydd, ac yn eu crëu o newydd i sancteiddrwydd; ac efe a wna bob peth yn newydd, o ran eu sefyllfa a'u dull hwynt o fyw, pan ddygo efe hwy, wedi eu perffeithio gyrph ac eneidiau, i'w ogoneddus ddedwyddwch; i'r nef newydd a'r ddaear newydd, lle bydd cyfiawnder yn cartrefu. ‡ Gorchymynid i Ioan ysgrifenu hyn; er cysur a chalondid i'r eglwys, yn ei holl drallodau, ei brwydrau, a'i themtasiynau; || canys yr oedd y geiriau hyn yn gywir ac yn ffyddlawn, ac yn deilwng o ymorphwysiad mwyaf hollawl y credinwyr arnynt; yr oeddynt yn sicr o gael eu cyflawni er eu llawenydd tragywyddol hwy.

6 * Ac efe a ddywedodd wrthyf, [t] Darfu. [u] † Myfi yw Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd. [x] ‡ I'r hwn sydd sychedig, || y rhoddaf o [y] ffynnon dwfr y bywyd [z] yn rhad.

t Gwel ar pen. 16. 17. u Gwel ar pen. 1. 8, 11, 17. a 22. 13. x pen. 7. 17. Es. 12. 3. a 55. 1—3. Ioan 4. 10, 14. a 7. 37, 38. y Salm 36. 9. Jer. 2. 13. Joel 3. 18. z Hos. 14. 4. Rhuf. 3. 24. a 8. 32. 1 Cor. 2. 12. a 3. 5, 12, 21. 1 Ioan 5. 4, 5.

* Dywedai yr Arglwydd hefyd wrth Ioan, "Darfu;" neu Gwnaethpwyd: neu Daeth i ben: mae fy holl fygythion i ar fy ngelynion, a'm holl addewidion i'm pobl, weithian wedi eu cyflawni; yn namnedigaeth y naill, ac yn ngwaredigaeth ac iachawdwriaeth y lleill. Yn y pryd a ragfynegir yma, bydd holl gyngor cariad Duw wedi ei gyflawni, a'r brynedigaeth, yr hon a orphenodd Mab Duw ar y groes, wedi cael ei chymhwyso yn effeithiol ac yn berffaith byth. † Oblegid gan ei fod ef yn Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd, mae efe yn sicr o ddwyn y gwaith a ddechreuodd i ddiwedd, neu gyflawniad gogoneddus. Am Alpha ac Omega, gwel o'r blaen, ar pen. 1. 8, 11, 17; ac eto, ar pen. 22. 13. ‡ Am ei fod ef yn gyfryw un, pwy bynag mewn unrhyw oes neu le, a sychedai am fendithion yr iachawdwriaeth; os oedd neu os bydd neb yn wir deimladwy o'i angen fel dyn colledig, am y bendithion hyny, a chwedi cael y fath olwg o'u gwerth dirfawr, fel ag y mae yn arfer pob moddion yn ddifrifol i'w cael, ac nid yw yn foddlawn hebddynt, pa beth bynag arall sydd ganddo; || mae Crist yn sicr o roddi iddo o ffynon dwfr y bywyd yn rhad: efe a gaiff yr holl fendithion hyn hyd eithaf dymuniad ei enaid, a hyny heb arian ac heb werth. Pechod ac ynfydrwydd dyn yw gadael ffynon y dyfroedd byw, a chloddio pydewau tòredig, y rhai ni ddàliant ddwfr; a rhaid i'w ddedwyddwch ddechreu mewn dychweliad at y ffynon hon, fel y mae wedi ei hagoryd trwy gyfryngdod Crist. Dwfr lleidiog a gwenwynig yw pleserau pechadurus a chnawdol, os ceir hwynt; ond mae hyfrydwch gwir grefydd fel dwfr bywiol yn tarddu o ffynon; yn bur, yn adfywiol, yn llifeiriol, yn iachusol, bob amser yn diwallu, heb byth alaru, yn gyflawn, ac yn dragywyddol.

7 * Yr hwn sydd [a] yn gorchfygu, † a [b] etifedda bob peth, ‡ ac [c] mi a fyddaf iddo ef yn Dduw, || ac yntau a fydd i minnau yn fab.

a pen. 2. 11, 17, 25. b 1 Sam. 2. 8. Diar. 3. 35. Es. 65. 9. Mat. 19. 29. a 25. 34. Marc 10. 17. 1 Cor. 3. 21—23. 1 Pedr 1. 3, 4. a 3. 9. c Gwel ar adn. 3.—Zec. 8. 8. Rhuf. 8. 15—17. 1 Ioan 3. 1—3.

* Mae yn wir bod i'r rhai a dynant ddwfr o ffynonau yr iachawdwriaeth hyn, lawer o elynion i ryfela â hwynt; ond y mae rhinwedd yn y dwfr bywiol hwn i'w gwneyd hwy yn ŵrol, ac yn orchfygwyr ar eu holl elynion; fel eu Pen-tywysog mawr ei hun, hwy a yfant o'r afon ar y ffordd, ac a godant eu penau mewn buddugol-

iaeth, ar fyd, cnawd, a diafol: † ac mae eu Harglwydd wedi sicrâu, y caiff pawb a orchfygant felly etifeddu pob peth; bydd yr holl grëadigaeth newydd (adn. 1, 5.) yn eiddo iddynt byth, a hwy gânt feddiannu a mwynâu ei bendithion a'i dedwyddwch hi, hyd eithaf eu dymuniadau. ‡ Oblegid mae efe wedi addaw bod yn Dduw iddynt hwy, yn ffynon o ddedwyddwch perffaith a thragywyddol; ‖ a chânt hwythau fod yn feibion iddo yntau, i etifeddu ei deyrnas, ac i breswylio gydag ef ynddi byth bythoedd.—*Mi a fyddaf iddo ef yn Dduw, &c.:* mae mòr brïodol i Grist ddedwedyd fel ag yw i'r Tad; oblegid gelwir ef yn *Dduw cadarn* ac yn *Dad tragywyddoldeb:* (Esa. 9. 6.) a gelwir ei bobl *ei had* ef: (Esa. 53. 10.) a dywedir ei fod ef yn *rhoddi gallu iddynt i fod yn feibion i Dduw:* (Ioan 1. 12.) galwai Thomas ef *fy Arglwydd a'm Duw:* (Ioan 20. 28.) ac yn y diwedd efe a ddywed, *Wele fi a'r plant* a roddes Duw i mi. (Heb. 2. 13.)

8 * Ond i'r [d]rhai ofnog, † a'r digred, ‡ a'r [e]ffiaidd, ‖ a'r llofruddion, § a'r putteinwyr, * a'r swyn-gyfareddwyr, † a'r eilun-addolwyr, ‡ a'r [f]holl gelwyddwyr, ‖ *y bydd* eu rhan yn [g]y llyn sydd yn llosgi â thân a brwmstan: § yr hwn yw [h]yr ail farwolaeth.

d Deut. 20. 8. Barn. 7. 3. Es. 51. 12. a 57. 11. Mat. 8. 26. a 10. 28. Luc 12. 4, 5. Ioan 12. 42, 43. 1 Pedr 3. 14, 15. 1 Ioan 5. 4, 5. e pen. 22. 15. 1 Cor. 6. 9, 10. Gal. 5. 19—21. Eph. 5. 5, 6. 1 Tim. 1. 9, 10. Heb. 13. 4. f pen. 2. 2. Es. 9. 15. Ioan 8. 44. 2 Thes. 2. 9. 1 Tim. 4. 2. 1 Ioan 2. 22. g pen. 19. 20. a 20. 14, 15. h Gwel ar pen. 20. 14.

* Ond ar y llaw arall, "y rhai ofnog," y rhai ni feiddient broffesu yr efengyl, neu a'i gwadent hi rhag ofn gwawd ac erlid; y milwyr llyfrion, a ofnent y gelyn yn fwy na'u Cadben, ac felly a dröent eu cefnau yn nydd y frwydr; † "a'r digred," neu yr anffyddiaid o bob math; (nid y rhai *gwan yn y ffydd,* ond y rhai *heb ddim ffydd;*) ‡ "a'r ffiaidd," neu y rhai oedd yn euog o arferion annaturiol, megys gwrryw-gydiaeth a'r cyffelyb; ‖ "a'r llofruddion" o honynt eu hunain, neu o eraill, trwy ornestau, rhyfeloedd, erlidiau, gŵyro cyfiawnder, neu orthrymder; § "a'r puteinwyr," godinebwyr, a dynion anllad o bob math; * "a'r swyn-gyfareddwyr," prophwydi y diafol, mewn rhith neu mewn gwirionedd, i ba rai y mae pawb a *hònant* gael rhyw ddatguddiadau newyddion yn perthyn; † "a'r eilun-addolwyr," y rhai a addolant eilunod yn lle Duw, pwy bynag ydynt; ‡ "a'r holl gelwyddwyr," rhagrithwyr, twyllwyr, gau-athrawon; ïe pawb, a ddywedant *gelwydd* er mwyn elw, neu o ddigofaint, ac fel hyny a dwyllant neu a enllibiant eraill; ïe pob celwyddwyr, er na wnant hyny ond i'w *difyru* eu hunain ac eraill, trwy dòri gorchymynion Duw;—‖ caiff y rhai hyn oll eu rhan yn y llyn sydd yn llosgi â thân a brwmstan, gyda'r diafol a'i angelion; § a hwn yw yr ail farwolaeth, ar ol marwolaeth y corph, lle bydd pob cysur wedi darfod, a dim ond y poenau chwerwaf byth. Gwel ar pen. 20. 6, 14.

9 * A daeth attaf un o'r saith angel yr oedd [i]y saith phïol ganddynt yn llawn o'r saith bla diweddaf, ac a ymddiddanodd â mi, gan ddywedyd, † Tyred, mi a ddangosaf i ti [k]y brïodas-ferch, gwraig yr Oen.

i pen. 15. 1—7. a 16. 1—17. k Gwel ar adn. 2. pen. 19. 7.

* Am y saith angel oedd â'r saith phïol ganddynt yn llawn o'r saith blâ diweddaf, gwel ar pen. 15. 1, 6, 7; a 16. 1, &c. Daeth un o honynt yma at Ioan, ac a ymddiddanodd âg ef, gan ddywedyd, † Tyred, mi a ddangosaf i ti y brïodas-ferch, gwraig yr Oen; sef yr eglwys fuddugoliaethus a gorfoleddus, ar ol perffeithiad yr undeb sanctaidd rhwng Crist â'i bobl brynedig, yn ngogoniant y nef; a gogoneddus iawn oedd yr olwg arni, dàn gyffelybrwydd y ddinas fawr, Jerusalem sanctaidd, fel y cawn weled yn y blaen.

10 * Ac efe a'm [l]dug i ymaith yn yr yspryd i fynydd mawr ac uchel, † ac a ddangosodd i mi [m]y ddinas fawr, ‡ Jerusalem sanctaidd, ‖ yn disgyn allan o'r nef oddi wrth Dduw,

l pen. 1. 10. a 4. 2. a 17. 3. 1 Bren. 18. 12. 2 Bren. 2. 16. Ezec. 3. 14. a 8. 3. a 11. 1, 24. a 40. 1—3. Act. 8. 39. 2 Cor. 12. 2—4. m Gwel ar adn. 2.—Ezec. 48. 15—22.

* Yna tybiai Ioan, (dàn ddylanwad ysbryd prophwydoliaeth,) fod yr angel yn ei ddwyn ef ymaith i fynydd mawr ac uchel, lle y gallai weled yn mhell ac yn eglur; † ac yno efe a ddangosodd iddo ddinas fawr, ogoneddus, ac ehang iawn, wedi ei llenwi â lliaws aneirif o drigolion; ‡ yr hon gyda chyfeiriad at enw y Jerusalem gynt, (Matth. 4. 5.) a elwid yn Jerusalem sanctaidd, am ei bod wedi ei chyssegru i Dduw, a chwedi ei pherffaith sancteiddio gan ei Ysbryd ef. ‖ A gwelai Ioan y dull o hóni yn eglur, fel yn disgyn allan o'r nef oddi wrth Dduw; o drigfa ei breswylfod union-gyrchol a digyfrwng ef.—Mae y cyfnewidiad hyn o gymhariaethau, o'r "brïodas-ferch, gwraig yr Oen," i'r "Jerusalem sanctaidd," yn dangos na ddylem ni ddim ond cymmeryd syniadau cyffredinol o honynt, neu oddi wrthynt; ac nid myned yn fanol i bethau neilldiol, yn y rhai nid oes llawer o gysondeb ond yn anaml: ac y dylai ein golygiadau amrywedd ni o'r cyfryw bethau gael eu cymmeryd oddi wrth y cwbl o honynt, wedi eu cymharu yn nghyd.—Gwel ar adn. 2.

11 * A [n]gogoniant Duw ganddi: † a'i [o]goleu hi *oedd* debyg i faen o'r gwerthfawrocaf, ‡ megis maen jaspis, [p]yn loyw fel grisial;

n adn. 22, 23. pen. 22. 5. Es. 4. 5. a 60. 19, 20. Ezec. 48. 35. o adn. 19. Ezec. 1. 26. a 28. 13, 14, 16. p adn. 18. pen. 4. 6 a 22. 1. Job 28. 17. Ezec. 1. 22

* Yr oedd y ddinas fawr hon oll wedi ei goleuo, ei phrydferthu, a'i gwneyd yn ardderchog annhraethol, gan ogoniant Duw, yr hwn oedd yn llawn belydru arni; yr hyn a ddengys fod dedwyddwch y nef yn gynnwysedig mewn cymdeithas â Duw, cyfraniadau oddi wrtho ef, a chyd-ymffurfiad âg ef. † Fel hyn yr oedd y goleuni a dywynai ar y ddinas, yn debyg i adlewyrchiad dysglaer maen o'r gwerthfawrocaf; ‡ megys maen jaspis, yn loyw fel crisial.—Dywedir am y *maen jaspis,* ei fod yn ogoneddus iawn i'r golwg, yn *werthfawr* ac yn *bur;* felly y mae yn addas iawn i osod allan ogoniant Duw yn y Jerusalem sanctaidd hon.—Mae goleuni y ddinas yn arwyddo y gwybodaeth, y purdeb, y sancteiddrwydd, a'r llawenydd, a fydd yn y Jerusalem uchod a'i holl drigolion dedwydd.

12 * Ac iddi [q]fur mawr ac uchel, † *ac* iddi [r]ddeuddeg porth, ‡ ac wrth y pyrth [s]ddeuddeg angel, ‖ ac [t]enwau wedi eu hysgrifenu arnynt, y rhai yw *enwau* deuddeg llwyth plant Israel.

q adn. 17—20. Ezra 9. 9. Neh 12. 27. Salm 51. 18. a 122. 7. r adn. 21, 25. Es. 54. 12. a 60. 18. Ezec. 48. 31—34. s Mat. 18. 10. Luc 15. 10. a 16. 22. Heb. 1. 14. t pen. 7. 4—8. Num. 2. 2—32. Act. 26. 7

* Am fur mawr ac uchel y ddinas, cawn ei fesuriad a'i ddefnydd eto, yn adn. 17, 18. Gellir ystyried y mur hwn fel yn arwyddo nerth ac awdurdod hollalluog ac annorchfygadwy y Duw mawr a'r Iachawdwr, er diogelwch ac amddiffyn holl drigolion dedwydd y ddinas, lle nis gall yr un gelyn ddyfod yn agos atynt i'w niweidio hwynt byth bythoedd. † Yn y mur yr oedd deuddeg porth, i ddyfod i mewn i'r ddinas o holl barthau y byd: yr hyn oedd yn arwyddo efallai fod unig borth iachawdwriaeth trwy Iesu Grist, wedi ei agoryd drwy holl gyrau y ddaear yn ngweinidogaeth y deuddeg apostol. ‡ Ac wrth y pyrth yr oedd deuddeg angel, angel wrth bob porth, yn sefyll fel gwarcheidwaid brenhinol, wrth bob dyfodfa i'r ddinas, a llys y Brenin mawr; ac fel ysbrydion gwasanaethgar i agoryd y pyrth i etifeddion iachawdwriaeth, ac i'w cauad yn erbyn pawb na byddai eu henwau wedi eu hysgrifenu yn llyfr bywyd yr Oen. (adn. 27.) ‖ Gwelai Ioan hefyd enw

ar bob un o'r muriau hyn, wedi eu hysgrifenu arnynt, y rhai oeddynt enwau deuddeg llwyth plant Israel; ac yn arddangos holl eglwys Crist, yr hon a gysgodid gan lwythau Israel, ac yr hon sydd gynnwysedig o holl Israel ysbrydol, y rhai a dderbynir i'r ddinas ogoneddus hon, i aros yno yn dragywyddol.—Mae Ioan o hyd yn y llyfr hwn, yn benthycio ei gyffelybiaethau oddi wrth y Jerusalem ddaearol, i ddysgrifio eglwys Crist, hyd yn nôd yn ei hystâd ogoneddus yn y nef: ac efallai y bydd hyn yn llawer o foddion i ennill yr Iuddewon, pan ddêl amser eu galwad a'u dychweliad hwy i'r eglwys Gristionogol.

13 * O du y dwyrain, tri phorth; o du y gogledd, tri phorth; o du y dehau, tri phorth; o du y gorllewin, tri phorth.

* Yn adn. 16, ni a gawn fod y ddinas yn bedeir-ongl, a'i hŷd yn gymmaint â'i lled; ac yma dywedir fod tri phorth o bob tu, dwyrain, gogledd, dehau, a gorllewin: yr hyn sydd yn gyd-gyson â dinas weledigaethol Ezeciel: (Ezec. 48. 31—34.) a dywedir yno hefyd, pa enw oedd ar bob un o'r pyrth, ar bedwar tu y ddinas. A diammau fod y pyrth hyn, a'r un nifer o honynt, ar bob ochr y ddinas, yn arwyddo y daw dynion o holl derfynau y ddaear i gymmanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig yn y nef.

14 * Ac *yr oedd* mur y ddinas â deuddeg [u] sylfaen iddo, † ac ynddynt [x] enwau deuddeg apostol yr Oen.

u adn. 19—21. Es. 54. 11. Heb. 11. 10. x pen. 18. 20. Mat. 10. 2—4. a 16. 18. 1 Cor. 3. 10, 11. Gal. 2. 9. Eph. 2. 20. a 3. 5. a 4. 11. Judas 17.

* A gwelai Ioan fur rhyfeddol y ddinas ogoneddus hon, fel â deuddeg sylfaen iddo; † yn y rhai, (gyda chyfeiriad at yr arfer o gerfio enwau sylfaenwyr adeiladau ar y gàreg sylfaen, er côf parâus am danynt,) yr oedd yn gerfiedig enwau deuddeg apostol yr Oen, yr hwn a brynodd yr eglwys â'i brïod waed. Mae yr holl ddinas yn gorphwys yn ddechreuol ac yn benaf ar Grist ei hun, y Sylfaen brofedig a safadwy; ac mewn ystyr is, ar athrawiaeth y deuddeg apostol, y rhai fel penseiri celfydd a osodasant y Sylfaen hon yn eu gweinidogaeth: (1 Cor. 3. 9—11.) a hwy a anrhydeddir yn ddïammau mewn modd neilduol, fel adeiladwyr Duw, pan berffeithir yr eglwys mewn gogoniant: bydd eu henwau megys yn gerfiedig gan Dduw ar y sylfeini, a phawb yn gwybod mai hwy a'u gosododd, yn wyneb enbydrwydd am eu bywydau.

15 * A'r hwn oedd yn ymddiddan â mi, oedd â [y] chorsen aur ganddo, † i fesuro y ddinas, a'i phyrth hi, a'i mur.

y Gwel ar pen. 11. 1, 2.—Ezec. 40. 3, 5. a 41. 1, &c. Zec. 2. 1.

* A'r angel oedd yn ymddiddan â Ioan, oedd â chorsen fesur o aur pur ganddo; yr hyn oedd arwydd-lun addas o ystâd bur a difrycheulyd y ddinas ogoneddus hon, a phob peth a berthynai iddi: † ac â'r gorsen hon efe a fesurodd y ddinas ei hun, ei phyrth hi, a'i mur; yr hyn a ellir ei ystyried fel yn arwyddo, fod y cwbl oll yn y drefn fwyaf hardd a phrydferth; a bod pob derbyniad i'r ddinas, a dïogelwch ynddi, yn cyfateb yn gymhwys i rëol berffaith anllygredig Gair Duw.—Mae y geiriau hyn yn dangos tra rhagorol ystâd yr eglwys yn y gogoniant, wrth y peth oedd hi o'r blaen: y pryd hwnw mesurwyd hi gan ddyn, (pen. 11. 1.) yn awr gan angel; y pryd hwnw â gwïalen gyffredin, ond yn awr â chorsen aur.

16 * A'r ddinas sydd wedi ei gosod [z] yn bedeirongl, a'i hyd sydd gymmaint â'i lled. † Ac efe a fesurodd y ddinas â'r gorsen, yn [a] ddeuddeng mil o ystadau. ‡ A'i hŷd, a'i lled, a'i huchder, sydd yn ogymmaint.

z Ezec. 11. 47. a 48. 20. a Ezec. 48. 8—19.

* Ac ymddangosai wrth y mesuriad uchod, bod y ddinas yn bedeir-ongl cymhwys, a'i hŷd yn gymmaint â'i lled; yr un maintioli yn hollawl bob ffordd; yr hyn a ddichon arwyddo perffeithrwydd, cadernid, ac unffurfiaeth y 'stâd wynfydedig hòno o'r eiddo yr eglwys. † Ac wrth fesur y ddinas nefol hon â'r gorsen aur, cafwyd hi mewn amgylchedd yn ddeuddeng mil o ystâdau, yr hyn, wrth gyfrif wyth ystâd i'r filltir, ydoedd bymtheg cant o filltiroedd; pob un o'r pedair ongl yn dri chant a phymtheg a thrinugain o filltiroedd o hŷd; dinas o faintioli dirfawr, i dderbyn tyrfa aneirif, o drigolion dedwydd a gwynfydedig; yn llawer mwy, ïe uwchlaw pob cymhariaeth yn fwy, na'r un ddinas a welwyd ar y ddaear erioed. ‡ Yr oedd ei hŷd a'i lled hi yn gymhwys ogymmaint; ac yr oedd ei huchder hi yn berffaith gyfartal â'i hŷd a'i lled; yr hyn a ellir ei ystyried fel yn arwyddo helaethder dirfawr y ddinas nefol, er derbyn a chyflëu yr holl eglwys pan y casgler hi yn nghyd; ac yn arwyddo ei chydweddiant a'i phrydferthwch perffaith hi, yn mhob rhan.—Dywed *Guyse* mai *amgylchedd* y ddinas oedd yn ddeuddeng mil o ystâdau, neu bymtheg cant o filltiroedd; ond dywed *Scott* fod *pob un o'r ochrau* yn gymmaint â hyny: a chan ei fod yn beth anamgyffredadwy pa fodd y gall dinas fod yn bymtheg càn' milltir o uchder; pan y dywedir fod ei "hŷd, a'i lled, a'i huchder, yn ogymmaint;" tybia rhai nad yw y geiriau yn arwyddo dim mwy, na bod yr uchder yn gyfatebol o ran cyfartalwch i'r mesuriadau eraill. Pa fodd bynag, allegawl yw y geiriau: a chan fod pob peth chwe'-wynebog *(cube)* yn fath o ffurf neu lun perffaith, efallai bod y geiriau i'w deall yn ol eu hystyr amlwg a naturiol: ac yna gallwn eu hystyried fel yn dangos, na ddylai y darllenydd ffurfio unrhyw amgyffrediad anianol am y ddinas hon yn ei ddychymmyg; ond casglu addysg oddi wrthi, fel arwydd-lun cyfriniawl. Tybia *Doddridge* fod y mesuriad uchod yn ddangosiad *doeth* ac *iawn-gall*, mai yn *allegawl* y dylem ni ystyried yr holl ddygrifiadau hyn o'r ddinas nefol.

17 * Ac efe a fesurodd ei mur hi yn [b] gant *a* phedwar cufydd *a* deugain, wrth fesur dyn, † hynny yw, eiddo yr angel.

b pen. 7. 4. a 14. 3.

* Ac efe a fesurodd fur y ddinas, yn gant a phedwar cufydd a deugain, wrth fesur dyn; sef o'r elin hyd flaen yr hir-fys, neu y bys canol i ddyn: † hyny yw, dyna y mesur a ddefnyddid gan yr angel, yr hwn a ymddangosai fel dyn yn y weithred hon. A chyfrif cufydd yn hanner llath, fel y gwnair yn gyffredin; 72 o latheni oedd y mesur. Tybia *Doddridge* mai *lled*, neu *dewder* y mur a feddylir; ei "uchder, neu yn *hytrach* ei dewder," a ddywed *Scott;* ei *uchder* medd *Guyse;* ond fel hyn y dywed *Pool*, neu yn hytrach ei Ganlynydd:—'Nis gallai hyn fod yn gylch-fesur y mur, yr oedd yn llawer rhŷ fychan i hyny; nac yn fesur ei *uchder* nâ'i *dewder*, oblegid yr oedd yn llawer gormod i bob un o'r ddau; o ba herwydd, tybia *Mr. Potter*, mai y mesuriad *ysgwâr* ydoedd; sef yr uchder a'r tewder yn ddeuddeg cufydd, oblegid deuddeg gwaith deuddeg a wna gant a phedwar a deugain.'—Pa fodd bynag mae deall y mesuriad, mae yn dangos uchder a chadernid y mur, er dïogelwch i bawb o'i fewn yn y ddinas nefol.

18 * Ac adeilad ei mur hi oedd [c] o faen jaspis: † a'r ddinas *oedd* aur pur, ‡ yn [d] debyg i wydr gloyw.

c Gwel ar adn. 11, 19. d adn. 11, 21.

* Ac adeilad ei mur hi oedd o faen jaspis, yn arwyddo cadernid, parâd, gwychder, a phrydferthwch o'r fath orau a harddaf. Dywedir nas gellir dryllio y maen jaspis â mwrthwyl, gan gryfed a chaleted yw: a gellir ei ystyried yma fel yn arwyddo yr ystâd o dragywyddol ac anghyfnewidiol wynfyd yn y gogoniant, lle nas gall neb gelynion dòri trwodd i niweidio neb o'r gwaredigion byth. † A'r ddinas oedd aur pur, wedi ei gaboli

i'r graddau eithaf o berffeithrwydd; ‡ hyd onid oedd yn debyg i wydr gloyw o ran ei ddysgleirdeb a'i dryloywder ysplenydd. *Gwydr oedd yr aur*, ac *aur oedd y gwydr:* yn y byd dedwydd hwnw, bydd y prydferthion a'r manteision hyny wedi eu huno a'u cyssylltu, ag sydd yma ar wahân ac yn anghydweddol. Mae ein gwydr ni yn loyw, ond yn freulyd; mae ein haur yn ddysglaer ac yn ddurfing, ond nid yn dryloyw; nid yw yn dangos dim ond yr arwyneb. Ac fel hyn y mae gyda ein meddyliau; mae galluoedd y crebwyll, neu y dychymmyg, yn fywiog ac yn ehang; ond yn ddiflanedig ac yn ansicr. Mae galluoedd y deall yn fwy sylweddol a rhëolaidd, ond ar yr un pryd yn fwy araf a therfynol; a chwedi eu cyfyngu i ansoddau allanol ychydig wrthddrychau o'n hamgylch. Ond pan gyrhaeddom o fewn y llèn, bydd perffeithiau y *gwydr* a'r *aur* wedi eu cydgyssylltu, ac anmherffeithiau pob un wedi darfod yn hollawl. Yna ni a gawn *wybod* mwy nag a fedrwn yn awr ei *ddychymmygu: bydd y gwydr i gyd yn aur.* Yna byddwn yn amgyffred gwirionedd yn ei berthynasau a'i ganlyniadau; nid fel yn bresenol, trwy y dull hirfaith a ffaeledig hyny a alwn ni ymresymu; ond trwy un cip-olygiad meddwl, fel mae y llygad yn treiddio ar amrantiad, trwy y sylwedd tryloyw mwyaf. *Bydd yr aur i gyd yn wydr.*

19 * A [e] seiliau mur y ddinas *oedd* wedi eu harddu â phob rhyw faen gwerthfawr. † Y sail gyntaf *oedd* faen jaspis; yr ail, [f] saphir; y trydydd, chalcedon; y pedwerydd, smaragdus;

e Job 28. 16—19. Diar. 3. 15. Es. 54. 11, 12. f Gwel ar Ex. 28. 17—21. a 39. 10—14.

20 Y pummed, sardonyx; y chweched, sardius; y seithfed, chrysolithus; yr wythfed, beryl; y nawfed, topazion; y degfed, chrysoprasus; yr unfed ar ddeg, hyacinthus; y deuddegfed, amethystus:

* A seiliau mur y ddinas, y rhai, er nad ydynt mewn gwirionedd ond *un*, eto, am eu bod wedi eu gosod trwy weinidogaeth y deuddeg apostol, dywedid eu bod yn ddeuddeg; (adn. 14.) yr oedd y rhai hyn yn ymddangos i Ioan fel wedi eu harddu yn odiaeth, â phob rhyw faen gwerthfawr, cadarn, a dysglaer; y rhai oedd wedi eu gosod, ddeuddeg o honynt, yn debyg fel yr oedd enwau llwythau Israel wedi eu cerfio ar ddeuddeg maen gwerthfawr yn nwy-froneg yr arch-offeiriad gynt. Gallai hyn fod yn arwyddo perffeithrwydd, gogoniant, a gwerthfawrogrwydd Crist, unig sylfaen yr eglwys; ac hefyd perffeithrwydd, gogoniant, ac adderchawgrwydd athrawiaeth bur a sanctaidd y deuddeg apostol, am Grist fel sylfaen yr eglwys. † Addefa ein Hawdwyr nas gallant benderfynu pa beth, os dim yn neillduol, a arwyddid, yn y ffordd gyfriniol, wrth yr amrywiaeth hyn o *feini gwerthfawr.*—Càn belled ag y gall *Guyse* ddeall, oddi wrth yr hanes gorau am y meini eu hunain, y *jaspis* sydd faen o amryw liwiau; y mwyaf rhagorol o ba rai yw y gwyrdd, gydag ysmotiau o goch, neu rudd-goch: y *saphir* sydd las yr awyr, tryloyw, a chaled iawn: y *chalcedon* sydd lwyd dysglaer, wedi ei gymylu â melyn, neu rudd-goch, neu las: y *smaragdus* sydd o liw gwyrdd-las rhagorol o hardd a hyfryd: y *sardonyx* sydd goch gwànaidd: y *sardius* sydd debyg, os nid yr un, â'r maen *cornelia,* o liw y gwaed: y *chrysolithus* sydd wyrdd, gyda chysgod o felyn: y *beryl* sydd wyrdd gwàn, neu welw: y *topazion* sydd o liw yr aur, yn dryloyw ac yn galed: y *chrysoprasus* sydd o wyrdd melynaidd: yr *hyacinthus* sydd o liw y crinlys *(violet)* neu rudd-goch: a'r *amethystus* sydd o liw tebyg i'r *hyacinthus.* A chymmeryd y cwbl yn nghyd, fel mae y meini hyn o'r fath werthfawrocaf a mwyaf ardderchog, efallai eu bod yn arwyddo amrywiaeth a pherffeithrwydd gogoniant Crist, y sylfaen; a gogoniant yr eglwys a'i bendithion, sydd yn sylfaenedig arno ef, ac yn deilliaw o hóno ef. Tybia *Pool* fod y meini gwerthfawr uchod yn arwyddo gwahanol ddoniau a grasau yr eglwys, a yn enwedig yr apostolion, ei sylfaenwyr hi; ac fel hy y dywed efe:—*Jaspis*, cadernid a dianwadalwch: *Sa phir*, nefoldeb meddwl: *Chalcedon, zêl*, neu eiddiged dduwiol: *Smaragdus*, grỳm a bywiogrwydd: *Sardonyx* maen amryliw, amryw ddoniau a grasau: *Sardius* calondid a gŵrolder, a pharodrwydd i dywallt eu gwae dros Grist: *Chrysolithus*, cariad, doethineb, a gwybod aeth: *Beryl*, craffder golwg a deall: *Topazion*, chwili allan ddirgeledigaethau dwyfol: *Chrysoprasus*, sobr wydd a llỳmder: *Hyacinthus*, llawenydd ysbrydol, ta welwch, a sirioldeb meddwl: *Amethystus*, sobrwydd dirwest. Y cwbl a ddywed *Scott* am y meini hyn yw eu bod yn dangos nad yw pob mawredd a gwŷchde daearol ond gwael a dirmygus, mewn cymhariaeth ogoniant y nef; ac y bydd pob ardderchawgrwydd gogoniant yno yn cyd-ymgyssylltu, yn ymhelaethu, a yn cyd-gyfarfod yn dragywyddol.

21 * A'r [g] deuddeg porth deuddeg pe *oeddynt;* a phob un o'r pyrth oedd o un perl † a hëol y ddinas ‡ *oedd* [h] aur pur, [i] fel gwyd gloyw.

g adn. 12. pen. 17. 4. Mat. 13. 45, 46. h adn. 18. pen. 1 4. a 18. 16. 1 Bren. 6. 20. Es. 60. 17, 18. i adn. 11, 18.

* Y *perl* naturiol, medd *Guyse*, sydd fath o sylwed crŵn, gwỳn, caled, a dysglaer; ac a fâg yn gyffredin y y cragen-bysg. Wrth fod y deuddeg porth hyn o dde ddeg perl, pob un o'r pyrth o un perl cyfan a gwerth fawr; y cwbl a allwn ddeall yw, fod pob peth yn ddinas nefol yn dra gogoneddus; tu hwnt i bob cyn hariaeth â dim a welwyd ar y ddaear erioed: a hyn o er dedwyddwch i waredigion Iesu, er groesawi y brioc as-ferch, gwraig yr Oen! † Gwelai Ioan hefyd le ago ed helaeth, tebyg i hëol fawr a llydan, lle y cyfarfydd trigolion y ddinas mewn cynnulleidfa lawn; ‡ palma pa un oedd aur pur, fel gwydr gloyw: yr hyn a all arwyddo perffaith burdeb, hyfrydwch, ymarweddia sanctaidd, a chyfeillgarwch nefol yr holl eglwys faw yn eu cymdeithas â'u gilydd, ac â Duw yn ei breseno deb union-gyrchol. (Gwel ar adn. 18.)—Mae duwi yddion yn deall am hëol y ddinas, yn y fàn hon, ac y pen. 22. 2, nid fel tramwyfa gyffredin, ond fel lle o yn gynnulliad cyhoeddus; fel yn 2 Chron. 32. 6; a Jo 29. 7: ac felly ond odid mae deall Matth. 6. 5. hefy

22 * A [k] theml ni welais ynddi: † cany [l] yr Arglwydd Dduw Holl-alluog, ‡ a'r [m] Oen yw ei theml hi.

k adn. 4, 5. 1 Bren. 8. 27. 2 Cron. 2. 6. a 6. 18. Es. 66. Ioan 4. 23. l Gwel ar pen. 1. 8. a 4. 8. a 11. 17. a 15. 3. a 1 7, 14. a 19. 15. m Ioan 2. 19—21. a 10. 30. Col. 1. 19. a 2. Heb. 9. 1—12.

* Yr oedd y deml yn hanfodol i Jerusalem, y ddin sanctaidd yn Judea, fel ei phrif addurn a'i hanrhyded penaf; ac yr oedd yn brif ran yn ngweledigaeth Eze iel o'r eglwys, yn y mil-flwyddiant mae yn debyg, dà yr arwydd-lun o'r ddinas sanctaidd: ac felly yr oed hefyd yn ngweledigaeth Ioan o'r eglwys, dàn yr u amser, medd *Guyse.* (pen. 11. 19.) Ond nid oedd un deml yn y ddinas gyfriniol a welodd efe yma; hyn sydd brawf eglur mai yr eglwys yn ei hystâd ogo eddus yn unig a feddylir. † Yn y nef ni bydd eisi arwyddion allanol o bresenoldeb yr Arglwydd Ddu Hollalluog; pan y bydd ef wedi ei gyflawn egluro yn ogoniant hanfodol, cyn belled ag y bydd yn bosibl i grëaduriaid rhesymol a sanctaidd ef ei weled a'i adnab ef. Bydd ef yn amlwg yn eu mysg hwynt, i gyfra dedwyddwch digymmysg iddynt, ac i ddderbyn eu had oliadau hwynt; ‡ a bydd y tragywyddol Fab, mew dynoliaeth, yn Deml; yn yr hon, gan y bydd cyflawnd y Duwdod yn preswylio yn gorphorol ynddi, efe eglurir i gyrph gogoneddus y saint; tra y bydd pe ffeithiau y natur ddwyfol yn cael eu gweled megys wyneb agored, trwy weithrediad eu galluoedd dealla hwynt.—Nid oedd y deml a'i holl wasanaeth, ond lle moddion cyfryngol i addoli Duw, a mwynâu ei brese

oldeb ef, megys y mae eglwys Dduw a'i holl foddion cyfryngol eto; ond yn y nef ni bydd eisiau cyfryngau o'r fath hyn, cair addoli Duw yn llewyrch ei wyneb hebddynt byth, mewn modd mwy agored a digyfrwng nac a fedrwn ni ei amgyffred na'i ddychymmygu yr awr hon.

23 * A'r [n] ddinas nid rhaid iddi wrth yr haul, na'r lleuad i oleuo ynddi: † canys [o] gogoniant Duw a'i goleuodd hi, ‡ a'i [p] goleuni hi *ydyw* yr Oen.

n pen. 22. 5. Es. 24. 23. a 60. 19, 20. o Gwel ar adn. 11. pen. 18. 1. Es. 2. 10, 19, 21. Hab. 3. 3. Mat. 16. 27. Marc 8. 38. Ioan 17. 24. Act. 22. 11. p Luc 2. 32. Ioan 1. 9, 14, 18. a 5. 23.

* A'r ddinas nefol hon, nid rhaid iddi wrth yr haul y dydd, na'r lleuad y nos, i oleuo ynddi; na dim o'r pethau sydd yn awr yn gweini yn allanol er ein cysur ni, ac sydd yn addas i'n ystâd a'n sefyllfa ar y ddaear hon: † canys gogoniant Duw ei hun a'i goleua hi, arwydd o'r hyn a roddwyd yn y *Shechinah* yn y Sanctteiddiolaf gynt: (1 Bren. 8. 10, 11.) ‡ Ië, yr Oen fydd ei Goleuni a'i Dedwyddwch annhraethol a thragywyddol hi.—Mae yn debyg fod yr *holl ddinas* yn ymddangos i Ioan fel *gwrthddrych mawr*, neu *gorph trybelid dysglaer*, yn pelydru allan o amgylch ogylch; yr hyn a dybiai oedd am fod Duw yn preswylio ynddi; ac efallai fod y pelydr hyny yn debyg iawn i ddysgleirdeb y *Shechinah* gynt: ac mae rhai yn barnu oddi wrth yr adnod hon, mai yr Oen yw y *Shechinah* yn y ddinas nefol.—"Gogoniant *Duw* a'i goleuodd hi, a'i goleuni hi ydyw yr *Oen*:" pa eiriau a all ddangos yn fwy cyflawn yr undeb dirgeledig, a'r cydraddoldeb gogyfuwch, rhwng y Mab a'r Tad, yn y Duwdod anfeidrol? A rhaid bod yr Ysbryd yn gynnwysedig hefyd, er nad enwir ef yma.

24 * A [q] chenhedloedd y rhai cadwedig a [r] rodiant yn ei goleuni hi: † ac y mae [s] brenhinoedd y ddaear yn dwyn eu gogoniant a'u hanrhydedd iddi hi.

q pen. 22. 2. Deut. 32. 43. Salm 22. 27. Es. 2. 2. a 52. 15. a 55. 5. a 66. 18. Jer. 4. 2. Zec. 2. 11. a 8. 22, 23. Rhuf. 15. 10—12. a 16. 26. r Es. 2. 5. s Salm 72. 10, 11. Es. 60. 3—10, 13. a 66. 11, 12.

* Bydd trigolion y ddinas nefol hon, nid yn unig yn lliosog iawn, yn mhell uwchlaw dinasoedd eraill; ond bydd hyd yn nôd "cenedloedd," ïe cenedloedd lawer, y rhai a gadwodd Iesu, yn preswylio ynddi, ac yn rhodio yn ngoleuni Duw a'r Oen o'i mewn hi, yn wastadol ac yn dragywyddol. † Pe buasai holl freninoedd y ddaear yn cytuno i ddwyn eu holl gyfoeth, eu mawredd, eu gogoniant, a'u hanrhydedd, yn nghyd i'r un lle, ni buasai dim cymhariaeth rhyngddo wedi y cwbl â'r ddinas sanctaidd hon. Y breninoedd hyny a berthynant i'r wir eglwys, er y gadawant eu holl fawredd allanol ar ol yn angau; eto hwy a ddygant eu holl wir ogoniant a'u hanrhydedd i'r ddinas hon: a phob gogoniant arall a dderfydd, a dywyllir, ac a lyncir i fynu ynddi hi.—Bu breninoedd drwg y ddaear yn defnyddio eu golud a'u mawredd lawer gwaith i ymladd yn erbyn yr eglwys ar y ddaear; ond yma fel arall y bydd: dywedir yn aml hefyd yn yr Hen Destament y bydd i freninoedd y ddaear ddwyn eu golud i'r eglwys, i'w chynnal a'i hanrhydeddu hi; a chyfeiriad at hyny sydd yma, ond yn ysbrydol y rhaid deall y geiriau, nid am yr eglwys ar y ddaear, nac am ogoniant ac anrhydedd daearol.

25 * A'i [t] phyrth hi ni cheuir ddim y dydd: † canys [u] ni bydd nos yno.

t Es. 60. 11. u pen. 22. 5. Es. 60. 20. Zec. 14. 7.

* A'i phyrth hi ni cheüir ddim y dydd, rhag ofn i elynion ddyfod i mewn, na rhag i neb o'r dinasyddion ffoi a dïanc allan: † nid ydym yn gyffredin yn cauad pyrth dinasoedd y dydd, ac yno ni bydd dim ond dydd byth; ni bydd yno ddim nos, mewn ystyr naturiol nac ysbrydol: pa fodd y gall fod, pan mae gogoniant Duw a'r Oen yn ei goleuo hi yn wastadol? Mae y geiriau yn dangos rhyddid, heddwch, dïogelwch, a mwynâd didor a dirwystr y 'stâd wynfydedig hòno.

26 * A hwy a ddygant [x] ogoniant ac anrhydedd y cenhedloedd iddi hi.

x Gwel ar adn. 24.

* A chan mai rhai rhagorol y ddaear yw y credinwyr, a'u bod yn myned i mewn yno o bob cenedl; felly gellir dywedyd yn llythyrenol eu bod yn dwyn gogoniant ac anrhydedd y cenedloedd iddi hi; yn gystal ag yn gyffelybiaethol neu ysbrydol, gyda golwg ar ei gwychder a'i hardderchawgrwydd hi. Pa beth bynag sydd yn ddymunol yn mhlith yr holl genedloedd, a fydd megys wedi cyd-gyfarfod i addurno y lle hwnw, lle bydd dynion da o bob cenedl yn preswylio ac yn teyrnasu gyda Duw byth. Pa ddaioni naturiol bynag sydd yn y byd, bydd daioni ysbrydol mwy yno: a'r dynion goreu a mwyaf anrhydeddus o blith yr holl genedloedd, i'w fwynâu.

27 * Ac [y] nid â i mewn iddi ddim aflan, † nac yn [z] gwneuthur ffieidd-dra, [a] ‡ na chelwydd: ‖ ond [b] y rhai sydd wedi eu hysgrifenu yn § llyfr bywyd yr Oen.

y Lef. 13. 46. Num. 5. 3. a 12. 15. Salm 101. 8. Es. 35. 8. a 52. 1. Joel 3. 17. z Gwel ar pen. 17. 4, 5. a Gwel ar adn. 8.—pen. 22. 14, 15. b Gwel ar pen. 3. 5. a 13. 8. a 20. 12, 15. Phil. 4. 3.

* Ac hefyd nid â i mewn i'r ddinas hòno ddim aflan, personau na phethau; nid â i mewn yno yn un modd neb o dymherau, nwydau, meddyliau, geiriau, na gweithredoedd drwg, ag sydd yn foesol aflan drwy bechod, ac o natur halogedig: † na neb a fyddo byw a marw mewn unrhyw fai neu ffieidd-dra gwybodus a gwirfoddol, yn enwedig *eilun-addoliaeth*, y *ffieidd-beth* sydd yn gâs gan Dduw; (Jer. 44. 4.) ‡ na neb sydd yn llunio, yn dychymmygu, ac yn traethu celwyddau, mewn gau-athrawiaeth neu fasnach, nac mewn un modd i dwyllo, i golledu, neu i waradwyddo dynion: er bod pyrth y ddinas yn agored yn wastad, (adn. 25.) nid â neb o'r rhai hyn i mewn iddi byth. ‖ Ond y rhai hyny, a'r rhai hyny yn unig, a dderbynir i'r ystâd wynfydedig hon, sydd wedi eu hysgrifenu megys wrth eu henwau, yn llyfr bywyd yr Oen; yr hwn lyfr a gynnwys bawb a roddwyd iddo ef gan y Tad, i'w prynu, eu sancteiddio, a'u dwyn i ogoniant. ac mae yn sicr nad yw yn cynnwys neb, a fydd byw a marw yn aflan, nac yn gwneuthur ffieidd-dra, na chelwydd. Bydd holl drigolion y nef yn hollawl berffaith mewn sancteiddrwydd; ac oll yn cynnyddu, yn cyfranogi, ac yn gorfoleddu yn nedwyddwch y naill y llall; gan y byddant oll yn rhagorol, yn caru, ac yn hawddgar, uwchlaw traethu na dychymmygu byth. § Am lyfr bywyd yr Oen, gwel ar pen. 3. 5; a 13. 8; a 17. 8; a 20. 12, 15. Yn ol hwn mae holl waith yr iachawdwriaeth yn myned yn mlaen.

PEN. XXII.

Afon dwfr y bywyd.

* AC efe a ddangosodd i mi [a] afon bur [b] o ddwfr y bywyd, [c] † disglaer fel grisial, ‡ yn [d] dyfod allan o orsedd-faingc Duw, ‖ a'r Oen.

a Salm 36. 8. a 46. 4. Es. 41. 18. a 48. 18. a 66. 12. Ezec. 47. 1—9. Zec. 14. 8. Ioan 7. 38, 39. b pen. 7. 17. a 21. 6. Salm 36. 9. Jer. 2. 13. a 17. 13. Ioan 4. 10, 11, 14. c Gwel ar pen. 21. 11. d pen. 3. 21. a 4. 5. a 5. 6, 13. a 7. 10, 11, 17. Ioan 14. 16—18. a 15. 26. a 16. 7—15. Act. 1. 4, 5. a 2. 33.

* Yn nesaf mae yr angel yn hysbysu i Ioan Ffynon a Ffrŵ bendithion a dedwyddwch y nef; oblegid efe a ddangosodd iddo afon bur o ddwfr y bywyd. Yr oedd hyn yn arwyddo natur ac effeithiau *sanctaidd* y pleserau digymmysg hyny, a ddylifant yn ddibaid ac yn ddiddiwedd, er llawn ddedwyddwch a digonoldeb yr holl saint mewn gogoniant. † Yr oedd yr afon hon yn ddysglaer, neu yn dryloyw fel y crisial; yr hyn a ddengys fod dedwyddwch yn gynnwysedig mewn llawn, eglur, a threiddiol wybodaeth o Dduw, ei berffeithiau a'i weithredoedd gogoneddus ef, yn ennyn pob serchiadau sanctaidd a hvfrvd yn y galon yn wastadol; heb

ddim o laid y cnawd, a thymerau anianol, yn gymmysg â hwynt. ‡ Yr oedd yr afon hon hefyd yn dyfod allan o orsedd-fainc Duw a'r Oen, fel o'i ffynon ddechreuol; yr hyn a ddengys fod pob gwir ddedwyddwch yn dyfod o Dduw, fel holl-ddigonol Ffynon bywyd, goleuni, sancteiddrwydd, a llawenydd; ac ei fod yn cael ei gyfranu yn ol ei ben-arglwyddiaeth ddoeth a sanctaidd ef. || Ond yr oedd gorsedd Duw yn orsedd yr Oen hefyd; ac yr oedd afon dwfr y bywyd yn dylifo i ddynion pechadurus, trwy berson yr Emmanuel, ei aberth a'i gyfryngdod ef. Mae hyn yn cyfeirio yn arbenig at ddylanwadau a chysuron bywiocâol a sancteiddiol yr Ysbryd Glân, fel y rhoddir ef i bechaduriaid trwy Iesu Grist, i fod yn Awdwr bywyd ysbrydol a thragywyddol i'w heneidiau hwynt. (Gwel ar Ioan 4. 10—15; a 7. 37—39.—Mae y dehongliad uchod, yr hwn sydd yn cytuno â chynnifer o ysgrythyrau eraill, yn rhoddi golwg nodedig o bwysfawr i ni o'r Drindod sanctaidd; y Tad, yr hwn a ddanfonodd ei unig-anedig Fab i fod yn Waredwr i ni; y Mab, yr hwn, wedi gorphen ei waith ar y ddaear, a gododd ac a esgynodd, ac a eisteddodd gyda'r Tad ar ei orsedd-fainc ef, lle mae yn byw yn oes oesoedd, fel Emmanuel, ein Cyfryngwr dwyfol ni mewn dynoliaeth; a'r Ysbryd Glân, fel yn "deilliaw oddi wrth y Tad a'r Mab," i gymhwyso yr iachawdwriaeth hon at ein heneidiau ni, trwy ei gariad a'i allu yn ein crëu o newydd: fel y byddo gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân, yn oes oesoedd am ein hiachawdwriaeth ni.

2 [e] * Y'nghanol ei hëol hi, ac o ddau tu yr afon, *yr oedd* [f] pren y bywyd, † yn dwyn deuddeg *rhyw* ffrwyth, bob mis yn rhoddi ei ffrwyth: ‡ a dail y pren *oedd* i [g] iachâu y cenhedloedd.

e adn. 1. pen. 21. 21. Ezec. 47. 12. f adn. 14. pen. 2. 7. Gen. 2. 9. a 3. 22—24. Diar. 3. 18. g pen. 21. 24. Salm 147. 3. Es. 6. 10. a 57. 18, 19. Jer. 17. 14. Ezec. 47. 8—11. Hos. 14. 4. Mal. 4. 2. Luc 4. 18. 1 Pedr 2. 24.

* Am hëol y ddinas, gwel ar pen. 21. 21. Yn nghanol yr hëol, neu y lle o ymgynnulliad cyhoeddus yn y ddinas, ac o ddau tu yr afon, yr oedd pren y bywyd. Tybia rhai mai nid *un pren* a feddylir yma, ond amrai brenau o'r un rhywogaeth, y rhai a dyfent yn y lleoedd o ymgyrchfa gyhoeddus, er lles cyffredin yr holl drigolion: tybia eraill mai un pren a welodd Ioan, a bod ei gangenau yn cyrhaeddyd i "bob tu yr afon." † Ar y ddaear mae rhai ffrwythau yn addfedu ar un tymmor, a rhai eraill ar dymmor arall: ond yr oedd y pren hwn yn dwyn deuddeg rhyw ffrwyth, bob mis o'r flwyddyn yn rhoddi ei ffrwyth addfed; ac felly yr oedd digonedd, cyflawnder, ac amrywiaeth paráus, i'w gael yn wastadol arno. Yr oedd hyn yn arwyddo Crist, a holl fendithion ei iachawdwriaeth ef, megis y cyfrenir hwynt yn wastad ac yn berffaith, i'w holl waredigion ef yn y nefoedd, trwy ei bresenoldeb union-gyrchol a digyfrwng ef ei hun gyda hwynt, a'i gariad tuag atynt. ‡ Dail y pren wedi eu trefnu i iachâu y cenedloedd, a arwydda y bydd i ewyllys da a phresenoldeb Iesu, symmud ymaith yn hollawl, ac attal dychweliad pob drwg, yn gystal â chyfrannu pob da, i drigolion y byd dedwydd hwnw. Perffeithio a chynnal iechyd ysbrydol a feddylir, a chadw y saint byth rhag pob afiechyd ysbrydol. Mae yn y ddwy adnod hyn gyfeiriad amlwg at yr afon a phren y bywyd yn ngardd Eden, ac at yr afon a'r coed lawer iawn a welodd Ezeciel. (Ezec. 47. 7, 12.)

3 * A [h] phob melldith ni bydd mwyach: † ond [i] gorsedd-fainge Duw a'r Oen a fydd ynddi hi; [k] ‡ a'i weision ef a'i gwasanaethant ef,

h pen. 21. 4. Deut. 27. 26. Zec. 14. 11. Mat. 25. 41. Gal. 3. 10—13. i pen. 7. 15—17. a 21. 22, 23. Salm 16. 11. a 17. 15. Es. 12. 6. Ezec. 48. 35. Mat. 25. 21. Ioan 14. 3. a 17. 24. k pen. 7. 15. Ioan 12. 26.

* A phob melltith ni bydd mwyach; ni bydd yno ddim afiechyd, poen, galar, llid, nac angau. Pechodd Adda, hyd yn nôd yn ngardd Eden, lle y tyfai pren y bywyd, ac felly syrthiodd ef a'i holl hiliogaeth dàn felltith; ond hyn ni ddygwydd byth i'r gwaredigion; gan y bydd i'r un gallu a phen-arglwyddiaeth ag a'u hachubodd hwynt, eu cynnal a'u cadarnâu yn dragywydd. † Ond gorsedd-fainc ogoneddus Duw a'r Oen (gwel ar adn. 1.) a fydd yn y ddinas hon yn wastadol, fel ffynon ei dedwyddwch a'i hyfrydwch digymmysg a didrai; ‡ a'i weision ef a'i gwasanaethant ac a'i haddolant ef yn oes oesoedd, yr hyn fydd eu dymuniad a'u hyfrydwch penaf hwynt.—"Melltith:" *(katanathema)* peth wedi ei ddiofrydu, neu ei gyflwyno i'r diafol, medd *Pool*, ni bydd yno yr un person na pheth wedi ei felltithio, neu â melltith arno.

4 * A hwy a gânt [l] weled ei wyneb ef; † a'i [m] enw ef *a fydd* yn eu talcennau hwynt

l Ex. 33. 18—20, 23. Job 33. 26. Salm 4. 6. Es. 33. 17. a 35. 2. a 40. 5. Mat. 5. 8. 1 Cor. 13. 12. Heb. 12. 14. 1 Ioan 3. 2, 3. m Gwel ar pen. 3. 12. a 14. 1.

* A hwy a gânt weled wyneb Duw yn Nghrist, yr ddilen ac yn ddigwmwl byth; cânt edrych ar ei ogoniant, bod yn sicr o'i gariad, a mwynâu digonolrwydd llawenydd a dedwyddwch ger ei fron ef yn oes oesoedd. † A'i enw ef a fydd yn eu talcenau hwynt; hyny yw caiff pob crëadur wybod eu bod hwy yn perthyn i Dduw a gweled bod ei ddelw sanctaidd ef arnynt.—Mae yr beth teilwng iawn o'n sylw, fod "Duw a'r Oen" yn cael eu crybwyll yma *megys Un*, yn y fath fodd, fel nas gallwn benderfynu i ba un o honynt mae y rhagenw personol *ef* yn perthyn, yn yr adnod hon a diwedd y flaenorawl.—Sylwyd o'r blaen y byddai eilun-addolwyr yn gosod enw neu nôd y duw a addolent ar eu talcenau ond tybir mai cyfeiriad sydd yma at yr ysgrifen o *Sancteiddrwydd i'r Arglwydd*, oedd ar dalcen yr arch offeiriaid gynt: yr hyn a ddengys i ni y *nesâd agos* a gaiff yr holl saint at Dduw mewn gogoniant: mwy na'r arch-offeiriaid yn y sancteiddiolaf.

5 * Ac [n] ni bydd nos yno; † ac nid rhaid iddynt wrth ganwyll, ‡ na goleuni haul || oblegid y mae yr Arglwydd Dduw yn goleuo iddynt: § a [o] hwy a deyrnasant yn oes oesoedd

n pen. 18. 23.—Gwel ar pen. 21. 22—25.—Salm 36. 9. a 84. 11. Diar. 4. 18, 19. Es. 60. 19, 20. o pen. 3. 21. a 11. 15. Dan. 7. 18, 27. Mat. 25. 34, 46. Rhuf. 5. 17. 2 Tim. 2. 12. 1 Pedr 1. 3, 4.

* Yn y byd hwnw o oleuni a gogoniant ni bydd dim nos byth; dim cystudd, trallod, iselder ysbryd, na dim rhwystr ar wasanaeth a hyfrydwch: † ac nid rhaid iddynt wrth ganwyll; ni bydd yno ddim eisiau difyrwch na phleserau o ddyfais na dychymmyg dynion, mewn un modd; ‡ ac hyd yn nôd y cysuron allanol a ddarpar odd Duw, cyfaddas i'n sefyllfa ni yn y byd hwn, megis goleuni haul, y penaf o'r cysuron hyny, ni bydd dim o'r heisiau yn y byd dedwydd hwnw. Y *ganwyll* sydd waith dynion, a'r *haul* sydd waith Duw; a phob un honynt yn angenrheidiol yn y byd hwn o nos a dydd ond yn ngwlad yr un dydd mawr, goleu, a thragywyddol, ni bydd eisiau y naill na'r llall o honynt. (Gwel ar pen. 21. 23, 25.) Tybia rhai mai yr oruchwyliaeth seremoniol yw y *ganwyll*, ac mai yr efengyl yw yr *haul*; ni bydd eisiau y naill na'r llall o'r rhai hyn chwaith y y gogoniant; || oblegid y mae yr Arglwydd Dduw y goleuo i bawb yno â'i ogoniant mawr a dysglaer. (Gwel ar pen. 21. 23.) § A chaiff yr holl saint deyrnasu fel breninoedd ar eu gorseddau, mewn mawredd ac anrhydedd yn mhresenoldeb Duw yn oes oesoedd: yr hyn fydd yn daliad llawn iddynt am yr hyn oll a ddyoddefasant ar y ddaear er ei fwyn ef.—Yn adn. 3, dywedir mai *gwasanaethu* y byddant, ac yma *teyrnasu: gwasanaethu* fydd *deyrnasu*, a *theyrnasu* fydd *gwasanaethu*, yn y nef; nid oes dim anghysondeb na gwrthddywediad yn y ddau ymadrodd.

6 * Ac efe a ddywedodd wrthyf fi, [p] geiriau hyn *sydd* ffyddlawn a chywir. † A'r Arglwydd Dduw [q] y prophwydi sanctaidd [r] ‡

ddanfonodd ei angel i ddangos i'w wasanaethwyr ‖ y pethau sydd raid iddynt fod ar frys.

p Gwel ar pen. 19. 9.—a 21. 5. q pen. 18. 20. Luc 1. 70. a 16. 16. Act. 3. 18. Rhuf. 1. 2. 1 Pedr 1. 11, 12. 2 Pedr 1. 21. a 3. 2. r Gwel ar pen. 1. 1.—Dan. 3. 28. a 6. 22. Mat. 13. 41. Act. 12. 11. 2 Thes. 1. 7. s adn. 7. Gen. 41. 32. 1 Cor. 7. 29. 2 Pedr 3. 8, 9.

* Gwedi arwain Ioan trwy y gweledigaethau blaenorol oll, y rhai a derfynasant yn nedwyddwch a gogoniant hollawl a thragywyddol y saint; dywedodd yr angel wrtho, am yr holl bethau a glywsai ac a welsai efe, mai ffyddlawn a chywir oeddynt; ac y cyflewnid hwynt oll yn ffyddlawn a chywir anffaeledig, yn eu trefn ac yn eu hiawn bryd. † Dywedodd hefyd i'r Arglwydd Dduw, sef yr Arglwydd Iesu, (gwel ar adn. 16.) yr hwn a lefarodd gynt trwy enau y prophwydi sanctaidd; (1 Petr 1. 11.) ‡ ei ddanfon ef, ei angel, i ddangos i'w wasanaethwyr, Ioan ei hun, ac apostolion eraill Crist dàn y Testament Newydd; ‖ y pethau oedd i ddechreu cael eu cyflawni yn fuan ar ol y datguddiad hwn o honynt, ac i gael eu cyflawni oll yn priodol drefn a'u hamser: a byddai raid eu cyflawni yn berffaith oll ar frys; mewn ychydig amser, a'i gymharu â thragywyddoldeb mawr diderfyn, pryd y terfyna pob peth yn ngogoniant Duw, dedwyddwch ei bobl, a dinystr ei holl elynion.—Wrth gymharu yr adnod hon âg adn. 16, gwelir yn amlwg mai IESU yw ARGLWYDD DDUW y prophwydi sanctaidd: ac ei fod yn Arglwydd angelion hefyd; oblegid efe a *ddanfonodd ei* angel i ddangos y pethau hyn.

7 * Wele, [t] yr wyf yn dyfod ar frys: [u] † gwyn ei fyd yr hwn sydd yn cadw geiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn.

t adn. 10, 12, 20.—Gwel ar pen. 3. 11. u adn. 9.—Gwel ar pen. 1. 3.

* Tystiodd yr Arglwydd Iesu hefyd trwy "ei angel" hwn, neu ynte yn ddigyfrwng heb yr angel, ei fod ef ei hun yn dyfod ar frys; i gyflawni y prophwydoliaethau hyn, i gospi ei elynion, i waredu ei weision, ac i ddwyn eu heneidiau i'r nef; ond yn benaf i gyfodi y meirw ac i farnu y byd: † a chyhoeddodd fendith a gwynfyd ar bawb, a ddalient ar, a ddeallent, a gofient, a gredent, ac a ufuddâent, i eiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn: gan nas gallai hyny lai na chwanegu a chynnyddu eu ffydd, eu gobaith, eu hamynedd, eu diannwadalwch, ac addasrwydd eu hymarweddiad yn yr eglwys ac yn y byd; yn gystal a'u haddasu i wynfyd y nef.

8 * A myfi Ioan a welais y pethau hyn, ac a'*u* clywais. † A phan ddarfu i mi glywed a gweled, [x] ‡ mi a syrthiais i lawr i addoli ger bron traed yr angel oedd yn dangos i mi y pethau hyn.

x Gwel ar pen. 19. 19.

* A myfi Ioan, ysgrifenydd y llyfr hwn, a welais yr holl weledigaethau a grybwyllir ynddo, ac a glywais yr holl eiriau a adroddir ynddo, y rhai a lefarwyd gan Fab Duw, a chan amryw o'i angelion ef, i egluro a chadarnâu y gweledigaethau hyny. † A phan ddarfu i mi weled a chlywed y pethau rhyfeddol hyny, effeithiasant mòr rymus arnaf, fel yr aeth fy meddwl a'm cynneddfau agos i ddyryswch; ‡ ac yn y teimlad cynhyrfus hwnw, mi a anghofiais fy ngham-gymmeriad o'r blaen, a'r cerydd a gefais o'i blegid, (pen. 19. 10.) ac a syrthiais i lawr i addoli ger bron traed yr angel oedd yn dangos i mi y pethau hyn.

9 * Ac efe a ddywedodd wrthyf fi, [y] † Gwel na *wnelych:* ‡ canys cyd-was ydwyf i ti, ac i'th frodyr y prophwydi, ‖ ac i'r rhai sydd yn cadw geiriau y llyfr hwn. [z] § Addola Dduw.

y Deut. 4. 19. Col. 2. 18, 19. 1 Ioan 5. 21. z pen. 4. 10. a 9. 20. a 14. 7. a 15. 4. Ex. 34. 14. 2 Bren. 17. 36. Salm 45. 11. Mat. 4. 9. Luc 4. 7. Ioan 4. 22, 23.

* Pan welodd yr angel hyny, yn y fàn efe a'm hattaliodd, ac a ddywedodd wrthyf, † Gwel na wnelych y cyfryw beth a rhoddi addoliad i mi, yr hwn nid oes genyf hawl iddo, ac nid wyf yn beiddio nac yn chwennych ei gymmeryd: ‡ oblegid nid Crist y Gwaredwr ydwyf fi; eithr un o'i weision ef, sydd yn ei addoli ac yn gwneuthur ei ewyllys ef; ac nid myfi yw awdwr y datguddiedigaethau hyn, eithr cènad, fel tithau, i'w dangos hwynt i ti, fel y mae i tithau eu hysbysu i'r eglwys: yn hyn oll nid wyf fi ond cyd-was i ti, ac i'th frodyr mewn swydd, y prophwydi, yr apostolion, a gweinidogion yr efengyl; ‖ a'r saint oll, y rhai sydd yn parchu, yn credu, ac yn cadw geiriau y llyfr hwn yn ddyladwy. § Am hyny dyro di dy holl addoliad crefyddol i'r unig wir Dduw, yr hwn yw yr unig Wrthddrych teilwng o hóno: oblegid hyny yw y gorchymyn dwyfol, "Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac efe yn unig a wasanaethi. (Matth. 4. 10.)—Tra yr ydym yn sùnu i Ioan syrthio drachefn i'w gam-gymmeriad o'r blaen, a bod yn rhaid iddo drachefn wrth yr un rhybudd a gocheliad; gallwn hefyd sylwi ar fawr ddoethineb Duw yn gadael iddo syrthio felly. Sylwasom eisoes, mai addoliad saint ac angelion ydoedd un ffieidd-dra mawr yn eglwys Rhufain, yn erbyn yr hon eglwys a chrefydd mae yr holl brophwydoliaeth hon yn benaf yn cyfeirio: ac yma mae pob esgusodion dros y pechod dirfawr hwnw yn cael eu hateb ar unwaith; oblegid dyma angel goruchel a daionus, pan yn bresenol weledig, yn gwahardd pob ymddangosiad lleiaf o addoliad i gael ei roddi iddo ef.

10 * Ac [a] efe a ddywedodd wrthyf fi, [b] † Na selia eiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn: ‡ oblegid y [c] mae yr amser yn agos.

a adn. 12, 13, 16, 20. b pen. 5. 1. a 10. 4. Es. 8. 16. Dan. 8. 26. a 12. 9. Mat. 10. 27. c Gwel ar pen. 1. 3.—Es. 13. 6. Ezec. 12. 23. Rhuf. 13. 12. 2 Thes. 2. 3. 1 Pedr 4. 7.

* Ac efe, sef Crist, un ai trwy yr angel, neu ei hun yn ddigyfrwng heb yr angel, a orchymynodd i Ioan, † na seliai efe eiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn, eithr eu cyhoeddi hwynt yn ddïoed, er gwasanaeth a lles yr eglwys. ‡ Oblegid yr oedd yr amser yn agos, pryd y dechreuent hwy gael eu cyflawni, ïe, hwy a gaent yn wir eu cyflawni oll yn lled fuan. Gwel ar adn. 6. Mae yn amlwg wrth yr hyn a ddywedir yn yr adnodau a ganlyn, yn enwedig adn. 12, 13, mai Crist yw y llefarwr yn yr adnod hon.

11 [d] * Yr hwn sydd anghyfiawn, bydded anghyfiawn etto; [e] † a'r hwn sydd frwnt, bydded frwnt etto; ‡ a'r hwn sydd gyfiawn, bydded gyfiawn etto; ‖ a'r hwn sydd sanctaidd, bydded sanctaidd etto.

d pen. 16. 8—11, 21. Salm 81. 12. Diar. 14. 32. Ezec. 3. 27. Dan. 12. 10. Mat. 15. 14. a 21. 19. Ioan 8. 21. e adn. 3. pen. 7. 13—15. Job 17. 9. Diar. 4. 18. Eph. 5. 27. Col. 1. 22. Judas 24.

Pan ddelo yr "amser" a grybwyllwyd uchod i ben, yna y caiff ystâd a chyflwr holl ddynolryw ei sefydlu yn ddigyfnewid byth: â y ddedfryd ddiwyrdro allan, yr hon a ddywed, * Yr hwn sydd heb gyfiawnder i'w gymmeradwyo gyda Duw, ond sydd yn anghyfiawn ei gyflwr, ei galon, a'i weithredoedd; bydded yn barâus byth yn y 'stâd druenus hòno: † a'r hwn sydd frwnt gan halogiad, arglwyddiaeth, ac arferiad o bechod; bydded frwnt felly eto, heb gael ei lanâu byth o'i wahan-glwyf ffiaidd: ‡ Ac o'r tu arall, yr hwn sydd gyfiawn ger bron Duw, trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist iddo i fywyd tragywyddol, yr unig ffordd i gyfiawnâu pechadur; bydded felly yn dragywyddol gyfiawn weithian, ger bron Duw ei Farnwr mawr a'i gyfiawnâwr: ‖ Ac yr hwn sydd wedi ei olchi, ei adnewyddu, a'i sancteiddio gan yr Ysbryd Glân; bydded byth yn sanctaidd, difeius, heb na brycheüyn na chrychni, na dim o'r cyfryw, ger bron gorsedd Duw. Beth bynag a fyddo pob un y pryd hwn, hyny a fydd efe yn ddigyfnewid, er trueni neu ddedwyddwch, i dragywyddoldeb maith. Da yw i ni fod y geiriau heb eu selio, (adn. 10.) fel y gwypom hyn yn awr.

12 * Ac wele, [f] yr wyf yn dyfod ar frys; [g] † a'm gwobr *sydd* gyd â mi, [h] ‡ i roddi i bob un fel y byddo ei waith ef.

f Gwel ar adn. 7. g pen. 11. 18. Es. 3. 10, 11. a 40. 10. a 62. 11. 1 Cor. 3. 8, 14. a 9. 17, 18. h Gwel ar pen. 20. 12. Mat. 16. 27. Rhuf. 2. 6—11. a 14. 12.

* A chair gweled gwirionedd y geiriau pwysig uchod cyn bo hir, oblegid wele, mae Mab Duw yn dyfod ar frys i farnu y byd; † ac mae ei wobr o ogoniant a dialedd gydag ef, yn ei feddiant a'i awdurdod, ‡ i roddi o hóno i bob un fel y byddo ei waith ef yn profi ei gyflwr yn y dydd hwnw: gogoniant rhad i'r cyfiawn sanctaidd; a thrallod ac ing i'r anghyfiawn brwnt.

13 * Myfi yw [i] Alpha ac Omega, † y dechreu a'r diwedd, ‡ y cyntaf a'r diweddaf.

i Gwel ar pen. 1. 8, 11. a 21. 6. Es. 41. 4. a 44. 6. a 48. 12.

* Ac i gadarnâu y gwirionedd uchod, a holl brophwydoliaeth y llyfr hwn eto yn mhellach, mae yr Arglwydd Iesu eto unwaith yn tystiolaethu mai efe yw Alpha ac Omega, yn ol llythyrenau cyntaf a diweddaf yr egwyddor Groeg; † felly mae holl oruchwyliaethau rhagluniaeth a gras, yn gystal â'r grëadigaeth fawr ei hun, yn dechreu ac yn diweddu ynddo ef, fel Awdwr a Pherffeithydd y cwbl o honynt oll; ‡ ac Efe, yr hwn oedd yn hanfodi yn dragywyddol yn y cyntaf, ac o'u blaen hwynt, ac a hanfoda yn ddigyfnewid byth ar eu hôl hwynt; a rydd iddynt eu diwedd, neu eu perffeithiad tragywyddol, yn ei ail ddyfodiad. Gwel y sylwadau ar yr adnodau cyfeiriol.

14 [k] * Gwŷn eu byd y rhai sydd yn gwneuthur ei orchymynion ef, [l] † fel y byddo iddynt fraint [m] ym mhren y bywyd, ‡ ac [n] y gallont fyned i mewn trwy y pyrth i'r ddinas.

k adn. 7. Salm 106. 3—5. a 112. 1. a 119. 1—6. Es. 56. 1, 2. Mat. 7. 21—27. Ioan 14. 15, 21—23. a 15. 10—14. 1 Cor. 7. 19. Gal. 5. 6. 1 Ioan 3. 3, 23. a 5. 3. l Ioan 1. 12. 1 Cor. 8. 9. a 9. 5. m Gwel ar adn. 2.—pen. 2. 7. n Gwel ar pen. 21. 27.—Ioan 10. 7, 9. a 14. 6.

* Y rhai sydd yn gwneuthur gorchymynion Duw, fel y rhoddir hwynt i bechaduriaid yn yr efengyl, trwy edifeirwch, ffydd yn Nghrist, ymarferiad â moddion gras, ac ufudd-dod diymattal o galon wedi ei hadnewyddu, ac oddi ar egwyddorion efengylaidd, ydynt wir wynfydedig; † Canys fel hyn y mae iddynt fraint, neu hawl yn mhren y bywyd, (gwel ar adn. 2.) neu yn holl fendithion yr Iachawdwriaeth trwy Grist, a derbyniad i'r nef; ‡ canys fel hyn y gallant fyned i mewn trwy y pyrth i'r ddinas sanctaidd, fel y caffont yno gymdeithas â Duw, ac â'r angelion sanctaidd yn oes oesoedd.—"Braint:" (*exousia*) yr un gair ag a gyfieithir *gallu*, yn Ioan 1. 12.

15 [o] * Oddi allan *y mae* [p] y cwn, † a'r [q] swyn-gyfareddwyr, ‡ a'r [r] putteinwyr, || a'r llofruddion, § a'r eilun-addolwyr, * a [s] phob un a'r sydd yn caru † ac yn gwneuthur celwydd.

o pen. 21. 8. 1 Cor. 6. 9, 10. Gal. 5. 19—21. Eph. 5. 3—6. Col. 3. 6. p Gwel ar Phil. 3. 2. q pen. 9. 21. a 18. 23. Es. 47. 9, 12. a 57. 3. Mal. 3. 5. Act. 8. 11. a 13. 6—11. r Gwel ar pen. 17. 1—6. s pen. 21. 8, 27. 1 Bren. 22. 8, 21—23. Es. 9. 15, 16. Jer. 5. 31. Ioan 3. 18—21. a 8. 46. 2 Thes. 2. 10—12.

* Ond oddi allan i'r ddinas, sef yn y "llŷn o dân" (oblegid nid oes air o sôn am le neu gyflwr canol, yn yr holl ysgrythyr,) "y bydd y cŵn;" gwrthgilwyr a droisant fel y cŵn at eu hen chwydiadau, a dynion hunanol, awyddus, gwancus, ciaidd, a chnawdol aflan: † oddi allan hefyd y bydd y swyn-gyfareddwyr; y rhai a gymmerant arnynt wneyd pethau anhygoel a goruwchnaturiol, trwy hoced, lledrith, neu trwy eu cynghrair â'r diafol: ‡ a'r puteinwyr; dynion anllad, anniwair, ac aflan o bob math: || a'r llofruddion; dynion creulawn, gwaed-wyllt, llidiog, parod i lofruddio pawb a'u gwrthwynebant, yn enwedig y duwiolion: § a'r eilun-addolwyr; pa un bynag ai y paganiaid eilun-addolgar, a'i deiliaid Anghrist, y rhai a addolant angelion, saint, a delwau, dàn rith o addoli Duw drwy y rhai hyny: * a phawb o gyffelyb gymmeriadau atgas, yn enwedig y rhai a garant gelwydd cnawdol, gwenieithus, yn hytrach na gwirionedd sanctaidd a miniog Duw, yr hwn sydd yn darostwng eu balchder hwynt; † ac y rhai a lunian ac a daenant gelwyddau, i ateb eu dybenion hunanol hwy eu hunain: mae pob math o gelwyddwyr yn gynwysedig.—*Cwn:* dynion aflan na haeddant well enw na chŵn, am eu bod yn diraddu eu galluoedd rhesymol ac yn eu darostwng i wasanaeth eu chwantau aniannol ffiaidd. Gwel hefyd ar Phil. 3. 2.

16 [t] * Myfi Iesu a ddanfonais fy angel [u] dystiolaethu i chwi y pethau hyn yn yr eglwysi. [x] † Myfi yw Gwreiddyn ‡ a Hiliogaeth Dafydd, || a'r [y] Seren fore eglur.

t Gwel ar adn. 6. u adn. 20.—Gwel ar adn. 1, 11. pen. 2. 7, 11, 17, 29. a 3. 6, 13, 22. x Gwel ar pen. 5. 5.—Es. 11. 1. Zec. 6. 12. Mat. 22. 42, 45. Rhuf. 1. 3, 4. a 9. 5. y pen. 2. 28. Num. 24. 17. Mat. 2. 2, 7—10. Luc 1. 78. 2 Pedr 1. 19.

* Er rhoddi i Ioan lawn foddlonrwydd nad oedd efe ddim dàn unrhyw hudoliaeth yn y gweledigaethau a'r prophwydoliaethau hyn, mae Iesu ei hunan yn sicrâu iddo, mai efe a ddanfonodd ei angel i dystiolaethu iddo ef, a thrwyddo ef i eraill, y pethau hyn yn yr eglwysi. Gwel ar adn. 6: mae yr IESU yma yn ARGLWYDD DDUW yno. † Fel Person Dwyfol, yr oedd efe yn Wreiddyn Dafydd, o ba un y deilliodd Dafydd ‡ ac o ran ei ddynoliaeth yr oedd efe yn Hiliogaeth neu Had Dafydd: nis gallasai y ddau beth hyn fod Gwreiddyn a Hiliogaeth, heb fod Iesu yn Dduw erioed ac yn Ddyn mewn amser. Gwel ar Matth. 22. 42—45. || Efe hefyd oedd y Seren fore eglur, neu ddysglaer, y prophwydodd Balaam am dani. (Num. 24. 17.) Efe gyfodiad ef yn ei ddynoliaeth, a ddygodd i mewn ddydd yr efengyl; ei gyfodiad ef mewn gallu a ddwg i mewn ddydd y mil-flwyddiant; ei gyfodiad ef yn nylanwadau achubol ei Ysbryd, sydd yn dwyn i mewn ddydd ysbrydol gras a dyddanwch; a'i ymddangosiad ef i farnu y byd, a ddwg i mewn y dydd tragywyddol o oleuni, purdeb, a gorfoledd. *Seren* oleuach na holl sêr Duw yw Iesu, am hyny gelwir ef yn *Haul*. Mal. 4. 2; Luc. 1. 78. Nid oedd ond fel *Seren* yn "more" y byd, a thàn oruchwyliaeth y cysgodau, gan belled oedd ei ddyfodiad, a thywyllwch yr oesoedd hyny; ond yn nghyflawnder yr amser, aeth y *Seren* yn *Haul*, ac yn fwy-fwy goleu a dysglaer yr â efe, hyd y perffaith ddydd tragywyddol.

17 * Ac y mae [z] yr Ysbryd [a] † a'r briodas-ferch yn dywedyd, Tyred. [b] ‡ A'r hwn sydd yn clywed, dyweded, Tyred. [c] || A'r hwn sydd â syched arno, deued: § a'r hwn sydd yn ewyllysio, [d] cymmered ddwfr y bywyd yn rhad.

z Gwel ar u. adn. 16.—Es. 55. 1—3. Ioan 16. 7—15. a Gwel ar pen. 21. 2, 9. b Salm 34. 8. Es. 2. 3, 5. a 48. 16—18. Jer. 50. 5. Mica 4. 2. Zec. 8. 21—23. Ioan 1. 39—46. a 4. 29. 1 Thes. 1. 5—8. c Gwel ar pen. 21. 6.—Es. 55. 1. Ioan 7. 37. d Gwel ar adn. 1.—Es. 12. 3. Ioan 4. 10, 14. e Rhuf. 3. 24. 1 Cor. 2. 12.

* Ac y mae yr Ysbryd trwy y gair sanctaidd, a thrwy ei argyhoeddiadau a'i ddylanwadau yn nghydwybod y pechadur, yn dywedyd, Tyred at Grist am iachawdwriaeth: † ac mae y briodas-ferch, sef yr holl eglwys fil wriaethus a gorfoleddus, yn dywedyd, Tyred, i gyfranogi o'n dedwyddwch ni. ‡ Am hyny mae yn gweddu bob dyn sydd yn clywed y gwahoddiadau, i ddywedyd wrth bob un o'i gwmpas yn mhob màn, Tyred. || Yr fŷr, pwy bynag drwy yr holl ddaear sydd â syched arno am iachawdwriaeth a'i bendithion, deued at Grist. § A rhag i neb betruso, heb wybod yn sicr ai syched ysbrydol sydd arno neu beidio; neu betruso o herwydd ei dlodi a'i annheilyngdod; dywedir yn mhellach, Yr hwn sydd yn ewyllysio dyfod, deued, a chymmered o ddwfr y bywyd yn rhad; fel pe cymmerai ddwfr o ffynon, yr hon berthynai yn gyffredin iddo ef a'i holl gymmydogion ac ni ddylai neb feddwl am dalu dim am y bendithion hyn; oddigerth fel taflu gwenwyn ymaith i dderbyn

ymborth, neu sothach i dderbyn aur coeth.—Felly *Scott*, air yn air ar yr adnod uchod: tybia efe a *Doddridge* mai gwahoddiad yr "Ysbryd," a'r "briodasferch," "a'r hwn sydd yn clywed," ar bechadur i ddyfod at Grist, yw y "Tyred" yn rhanau blaenaf yr adnod, yn gystal â'r "deued," a "chymmered," yn y rhanau olaf o hóni: ond tybia *Pool* a *Guyse*, mai galwad ar Grist i'r farn, i ogoneddu ei eglwys a dïal ar ei gelynion, sydd yn y rhanau blaenaf; a galwad ar bechaduriaid i geisio a derbyn yr iachawdwriaeth cyn y delo efe, ac er eu parotôi i'w ddyfodiad, sydd yn y rhanau olaf. Pwy sydd iawn nis gŵyr y detholydd.

18 * Canys [f] yr wyf fi yn tystiolaethu † i bob un sydd yn [g] clywed geiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn, [h] ‡ Os rhydd neb *ddim* at y pethau hyn, [i] || Duw a rydd atto ef y plâau sydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn:

f Gwel ar adn. 16.—pen. 3. 14. Eph. 4. 17. 1 Thes. 4. 6. g Gwel ar pen. 1. 3. h Deut. 4. 2. a 12. 32. Diar. 30. 6. Mat. 15. 6—9, 13. i pen. 14. 10, 11. a 15. 1. a 16. a 19. 20. a 20. 10, 15. Lef. 26. 18, 24, 25, 28, 37.

* Gorphenodd yr Arglwydd Iesu yr ymadrodd hwn, a'r llyfr hwn, ac yn wir ei holl air, trwy "dystiolaethu," fel yr Amen, y Tyst ffyddlawn a chywir, † i bob un a glywai eiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn, mewn unrhyw fàn neu oes o'r byd; ‡ Os rhoddai neb ddim at yr hyn oedd gynnwysedig ynddo, fel o ddwyfol ysbrydoliaeth ac awdurdod; || y rhoddai Duw ato ef, neu y pentỳrai arno, y plâau mawrion a dychrynllyd sydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn.

19 * Ac [k] o thynn neb ymaith *ddim* oddi wrth eiriau llyfr y brophwydoliaeth hon, [l] † Duw a dynn ymaith ei ran ef allan o lyfr y bywyd, [m] ac allan o'r ddinas sanctaidd, [n] ‡ ac *oddi wrth* y pethau sydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn.

k Gwel ar h. adn. 18. Luc 11. 52. l Gwel ar pen. 3. 5. a 13. 8.—Ex. 32. 33. Salm 69. 28. m Gwel ar pen. 21. 2, 22—27. n adn. 12. pen. 1. 3. a 2. 7, 11, 17, 26. a 3. 4, 5, 12, 21. a 7. 9—17. a 14. 13.

* Ac ar y llaw arall, os bydd neb mòr rhyfygus a thỳnu dim oddi wrth eiriau llyfr y brophwydoliaeth hon; † Duw a dỳn ymaith ei ran ef allan o lyfr y bywyd, ac allan o'r ddinas sanctaidd, ‡ ac oddi wrth y pethau da sydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn, sef y bendithion oedd efe yn debyg o'u cael, neu yn tybied y caffai hwynt; a'r rhai a allasai efe eu cael oni buasai y weithred ryfygus hon.—Mae yn debyg fod yr hyn a ddywedir yn y ddwy adnod uchod yn perthyn yn benaf i lyfr y Datguddiad; gyda'r hwn y cymmerwyd cymmaint o ryddid yn sicr, â nemawr un ran o'r ysgrythyr. Ond gan fod yr Arglwydd Iesu yn ddïammau yn bwriadu y llyfr hwn i fod yn ddiwedd yr Ysgrythyr Lân; a chan fod y trosedd a grybwyllir yr un peth, gyda golwg ar bob rhan arall o air Duw; gellir cymhwyso yr hyn a ddywedir uchod yn ddigon teg at yr holl ysgrythyr i gyd: ac mae y geiriau yn rhybuddio pob dyn, yn y modd mwyaf arswydlawn, *na roddo efe ddim at*, ac *na thyno efe ddim oddi wrth*, yr hyn a ddatguddiodd Duw, o athrawiaeth, gosodiad, na gorchymyn; prawf-rëol y gwirionedd, ffordd iachawdwriaeth, prawf dychweliad at Dduw, a rhëol dyledswyddau. Mae dynion penboeth, hònwyr i ddatguddiedigaethau newyddion, gwahan-bleidwyr rhagfarnllyd, ac eglwyswyr tra-arglwyddawl, ar y naill law; gydag anffyddiaid, ammheüwyr, a rhydd-dybwyr, ar y llaw arall; a phawb a fỳnant ddàl eu tybiau anysgrythyrol eu hunain, neu gauad allan y dirgelion hyny a wadant ac a wrthodant hwy; yn barod i ddilëu rhyw ranau o'r Ysgrythyr sanctaidd, neu wadu ei dwyfol awdurdod a'i hysbrydoliaeth hi; ac mewn effaith maent yn gwneyd hyny: felly hefyd, y rhai a dybiant neu a ddywedant, nad yw o ddim pwys na chanlyniad pa beth a gredo dynion; (yr hyn sydd yn "dỳnu ymaith" bob gwirionedd athrawiaethol ar unwaith;) mae ganddynt hwythau hefyd achos dirfawr i grynu wrth y rhybuddion dwysion uchod. Beirniaid hefyd, y rhai bob amser a gynnygiant ryw gyfnewidiad dychymygol ar, neu a dỳnant rywbeth oddi wrth, y gair sanctaidd, neu a chwanegant rywbeth ato; a hyny yn aml heb fawr o sail nac awdurdod, ac mewn ysbryd meistrolaidd a hunan-dybus, ïe, bron mewn modd drygionus; nid bychan yw eu perygl hwy chwaith, yn wyneb y geiriau uchod: a dehonglwyr yr ysgrythyrau yn gyffredin, mae ganddynt fawr achos i fod yn ochelgar ac yn dra gostyngedig: ond maddeugar yw Duw, lle dygwyddo cam-gymmeriad anfwriadol, wrth geisio egluro ei air ef o egwyddor onest a chywir.

20 [o] * Yr hwn sydd yn tystiolaethu y pethau hyn, sydd yn dywedyd, [p] Yn wir, yr wyf yn dyfod ar frys. [q] † Amen. Yn wir, tyred Arglwydd Iesu.

o Gwel ar adn. 18. p Gwel ar adn. 7, 10, 12. q pen. 1. 18. Can. 8. 14. 2 Tim. 4. 8. Heb. 9. 28. 2 Pedr 3. 12—14.

21 [r] ‡ Gras ein Harglwydd ni Iesu Grist *fyddo* gyd â chwi oll. Amen.

r pen. 1. 4.—Gwel ar Rhuf. 1. 7. a 16. 20, 24. 2 Cor. 13. 14. Eph. 6. 23, 24.

* Ar ol y rhybuddion difrifol uchod, tystiolaethodd ein Harglwydd mawr, ei fod ef yn wir yn dyfod ar frys i'r farn; † ac atebai Ioan, yn ei enw ei hun a'r holl eglwys, Amen, Yn wir, tyred Arglwydd Iesu, fel y dywedaist. ‡ Ac yna gorphenodd, gyda'r fendith-wers arferol ar ei ddarllenwyr yn gyffredinol, neu ar saith eglwys Asia yn neillduol: yr oedd y Gras hwn yn ddigon i'r eglwys, yn yr holl ofidiau yr oedd hi i fyned trwyddynt. Amen

TAFLEN O'R HANESIAETH EFENGYLAIDD;

MEWN TREFN AMSERYDDOL, FEL AG I DDANGOS CYSONDEB Y PEDWAR EFENGYLWR.

(*Wedi ei gymmeryd yn benaf o gynllun* NEWCOME.)

RHAN I.	MATTHEW.	MARC.	LUC.	IOAN
Yr hanes efengylaidd o flaen gweinidogaeth gyhoeddus yr Iesu.				
Y rhagymadrodd gan Luc	—	—	1. 1—4.	—
Y rhagymadrodd gan Ioan	—	—	—	1. 1—18.
Yr angel yn ymddangos i Zacharias	—	—	1. 5—25.	—
Cyfarchiad yr angel i Mair	—	—	1. 26—38.	—
Ymweliad Mair âg Elizabeth	—	—	1. 39—56.	—
Genedigaeth Ioan Fedyddiwr	—	—	1. 57—79.	—
Angel yn ymddangos i Joseph	1. 18—25.	—	—	—
Genedigaeth yr Iesu yn Bethlehem	—	—	2. 1—7.	—
Achau Crist	1. 1—17.	—	3. 23—38.	—
Amlygu genedigaeth Crist i fugeiliaid	—	—	2. 8—20.	—
Enwaediad Crist	—	—	2. 21.	—
Cyflwyniad Crist yn y deml	—	—	2. 22—38.	—
Y doethion o'r dwyrain. Y ffoedigaeth i'r Aipht. Creulondeb Herod. Dychweliad Joseph a Mair i Nazareth	2. 1—23.	—	2. 39.	—
Iesu yn ddeuddeg oed yn myned i Jerusalem	—	—	2. 40—52.	—
Gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr	3. 1—12.	1. 1—8.	1. 80. 3. 1—17.	—
RHAN II.				
O Fedydd Crist hyd y pasg canlynol.				
Crist yn cael ei fedyddio gan Ioan	3. 13—17.	1. 9—11.	3. 21, 22.	—
Temtiad Crist yn yr anialwch	4. 1—11.	1. 12, 13.	4. 1—13.	—
Ioan Fedyddiwr yn tystiolaethu am yr Iesu	—	—	—	1. 19—51.
Y wledd briodas yn Cana Galilea	—	—	—	2. 1—12.
RHAN III.				
Dygwyddiadau blwyddyn ymlaen o'r pasg cyntaf.				
Iesu yn myned i Jerusalem ar y pasg, ac yn bwrw y prynwyr a'r gwerthwyr allan o'r deml	—	—	—	2. 13—25.
Yr ymddyddan â Nicodemus	—	—	—	3. 1—21.
Tystiolaeth Ioan Fedyddiwr i ragoriaeth yr Iesu	—	—	—	3. 22—36.
Carchariad Ioan Fedyddiwr	—	—	3. 18—20.	—
Yr Iesu yn myned i Galilea. Yr ymddyddan â'r wraig o Samaria	4. 12.	1. 14.	4. 14.	4. 1—42.
Iesu yn pregethu yn Galilea, ac yn iachâu mab y pendefig o Capernaum	4. 17.	1. 14, 15.	4. 14.	4. 43—54.
Iesu yn pregethu yn Nazareth; ac wedi ei wrthod yno, yn trigo am yspaid yn Capernaum	4. 13—16.	—	4. 15—31.	—
Iesu yn galw Simon ac Andreas, a Iago ac Ioan. Yr helfa fawr o bysgod	4. 18—22.	1. 16—20.	5. 1—11.	—
Iachâu un cythreulig yn Capernaum	—	1. 21—28.	4. 31—37.	—
Yr Iesu yn dysgu, ac yn gwneuthur gwyrthiau trwy holl Galilea	8. 14—17. 4. 23—25.	1. 29—39.	4. 38—44.	—
Iesu yn glanâu un gwahanglwyfus	8. 2—4.	1. 40—45.	5. 12—16.	—
Iesu yn iachâu un claf o'r parlys	9. 2—8.	2. 1—12.	5. 17—26.	—
Matthew yn cael ei alw	9. 9.	2. 13—22.	5. 27—39.	—
RHAN IV.				
Hanesyddiaeth blwyddyn o'r ail basg.				
Iachâu y dyn claf wrth lyn Bethesda ar y sabboth, ac amddiffyniad yr Iesu o'r weithred	—	—	—	5. 1—47.

	MATTHEW.	MARC.	LUC.	IOAN.
Y Phariseaid yn ceryddu y dysgyblion am dynu y tywys ar y sabboth, ac ateb yr Iesu	12. 1—8.	2. 23—28.	6. 1—5.	—
Iachâu y dyn â'r llaw wywedig. Y Phariseaid yn cydymgyngori i ladd yr Iesu	12. 9—21.	3. 1—12.	6. 6—11.	—
Iesu yn neillduo i fynydd i weddio. Mae yn dewis y deuddeg apostol, ac yn iachâu llawer	—	3. 13—19.	6. 12—19.	—
Y bregeth ar y mynydd	5. 1—48. 6. 1—34. 7. 1—29.	—	6. 20—49.	—
Iachâu gwas y canwriad	8. 1, 5—13.	—	7. 1—10.	—
Codi mab y wraig weddw o Nain o feirw	—	—	7. 11—17.	—
Atebiad Crist i ddysgyblion Ioan	11. 2—19.	—	7. 18—35.	—
Crist yn edliw i'r dinasoedd anghrediniol, ac yn gwahodd y rhai blinderog a thrwm lwythog	11. 20—30.	—	—	—
Y ciniaw yn nhŷ Simon y Pharisead; y wraig oedd bechadures yn eneinio ei draed	—	—	7. 36—50.	—
Iesu yn iachâu un cythreulig. Y Phariseaid yn ei gablu; yntau yn llefaru am y pechod anfaddeuol	9. 35. 12. 22—27.	6. 6. 3. 20—30.	8. 1—3. 11. 14—23.	—
Ceryddu yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid am ofyn arwydd	12. 38—45.	—	11. 24—26. 11. 29—36.	—
Pwy sydd wir wynfydedig	—	—	11. 27, 28.	—
Dysgyblion Crist yn berthynasau iddo	12. 46—50.	3. 31—35.	8. 19—21.	—
Crist yn cyhoeddi gwaeau ar ei elynion rhagrithiol	—	—	11. 37—54.	—
Crist yn rhybuddio ei ddysgyblion yn erbyn cybydd-dod, ac yn eu cyngori i fod yn wyliadwrus	—	—	12. 1—59.	—
Trychineb rhai Galileaid yn rhybudd i edifeirwch	—	—	13. 1—9.	—
Amryw ddammegion. Paham yr oedd Iesu yn llefaru mewn dammegion	13. 1—53.	4. 1—34.	8. 4—18.	—
Iesu yn gostegu y dymhestl ar fôr Galilea	8. 18—27.	4. 35—41.	8. 22. 9. 57—62. 8. 23—25.	—
Iachâu y ddau ddieflig yn ngwlad y Gadareniaid; ac wedi goddef i'r cythreuliaid fyned i genfaint fôch, mae y Gadareniaid yn dymuno i'r Iesu ymadael â hwy, ac y mae yntau yn croesi i Capernaum	8. 28—34. 9. 1.	5. 1—20.	8. 26—39.	—
Ymddyddan. Iachâu gwraig glaf. Cyfodi merch Jairus	9. 1. 9. 10—26.	5. 21—43.	8. 40—56.	—
Iesu yn iachâu dau ddall	9. 27—31.	—	—	—
Iesu yn bwrw allan ysbryd mud	9. 32—34.	—	—	—
Iesu yn ymweled â Nazareth, ac yn cael ei wrthod yno drachefn	13. 54—58.	6. 1—6.	—	—
Anfon allan y deuddeg dysgybl	9. 35—38. 10. 1—42.	6. 7—11.	9. 1—5.	—
Iesu yn para ar ei daith trwy Galilea	11. 1.	—	—	—
Y deuddeg yn pregethu edifeirwch, ac yn gwneuthur gwyrthiau	—	6. 12, 13.	9. 6.	—
Marwolaeth Ioan Fedyddiwr	14. 6—12.	6. 21—29.	—	—
Herod yn chwennychu gweled yr Iesu	14. 1, 2.	6. 14—16.	9. 7—9.	—
Dychweliad y deuddeg apostol o'u taith	—	6. 30, 31.	9. 10.	—
Porthi pùm mil â phùm torth a dau bysgodyn	14. 13—21.	6. 32—44.	9. 10—17.	6. 1—14.
Iesu yn rhodio ar y môr	14. 22—36.	6. 45—56.	—	6. 15—21.
Iesu yn llefaru am dano ei hun fel bara y bywyd; dysgyblion y torthau yn ei adael	—	—	—	6. 22—71. 7. 1.

RHAN V.

Hanesyddiaeth blwyddyn o'r trydydd pasg.

Ymddyddan yr Iesu â'r Phariseaid ynghylch yr hyn sydd yn halogi dyn	15. 1—20.	7. 1—23.	—	—
Iachâu merch y wraig o Ganaan	15. 21—28.	7. 24—30.	—	—
Iachâu un mud a byddar	15. 29—31.	7. 31—37.	—	—
Iesu yn porthi mwy na phedair mil o bobl	15. 32—39.	8. 1—10.	—	—
Y Phariseaid a'r Saduceaid drachefn yn gofyn arwydd, a Christ yn rhybuddio ei ddysgyblion yn eu herbyn	16. 1—12.	8. 11—21.	—	—

	MATTHEW.	MARC.	LUC.	IOAN.
Iesu yn rhoddi ei olwg i ddyn dall yn Bethsaida	—	8. 22—26.	—	—
Crist yn canmawl cyffes Pedr	16. 13—20.	8. 27—30.	9. 18—21.	—
Crist yn rhagddywedyd am ei ddyoddefiadau, yn ceryddu Pedr, ac yn annog i hunan-ymwadiad	16. 21—28.	8. 31—38. 9. 1.	9. 22—27.	—
Gweddnewidiad yr Iesu	17. 1—13.	9. 2—13.	9. 28—36.	—
Iesu yn iachâu y lloerig	17. 14—21.	9. 14—29.	9. 37—43.	—
Iesu yn rhagddywedyd drachefn am ei ddyoddefiadau dynesäol	17. 22, 23.	9. 30—32.	9. 43—45.	—
Iesu yn gwneuthur gwyrth i dalu arian y deyrnged	17. 24—27.	—	—	—
Y dysgyblion yn ymdaeru pwy fyddai fwyaf.	18. 1—35.	9. 33—50.	9. 46—50.	—
Anfon allan y deg dysgybl a thriugain	—	—	10. 1—16.	—
Iesu yn Jerusalem ar ŵyl y pebyll	—	—	—	7. 2—53.
Y wraig a ddaliwyd mewn godineb yn cael ei dwyn ger bron yr Iesu	—	—	—	8. 1—11.
Iesu yn llefaru am dano ei hun fel goleuni y byd, ac yn ymresymu â'r Iuddewon	—	—	—	8. 12—59.
Y dyn a anesid yn ddall yn cael ei olwg, a'r hyn a ganlynodd	—	—	—	9. 1—41. 10. 1—21.
Dychweliad llawen y deg dysgybl a thriugain	—	—	10. 17—24.	—
Crist yn dysgu y cyfreithiwr, ac yn traddodi dammeg y Samariad trugarog	—	—	10. 25—37.	—
Dysgu y dysgyblion pa fodd i weddïo	—	—	11. 1—13.	—
Meddyginiaethu gwraig oedd wedi cydgrymu ddeunaw mlynedd	—	—	13. 10—21.	—
Ateb i'r gofyniad, Ai ychydig a fydd cadwedig?	—	—	13. 22—25.	—
Crist, wedi myned i giniawa i dŷ Pharisead ar y sabboth, yn iachâu y dropsi, ac yn cyfiawnâu y weithred, ac yn traddodi dammeg y swper mawr	—	—	14. 1—24.	—
Yr angenrheidrwydd o lwyr-ymroddiad mewn crefydd	—	—	14. 25—35.	—
Dammegion y ddafad gyfrgolledig, y dryll arian, a'r mab afradlawn	—	—	15. 1—32.	—
Dammegion y goruchwiliwr anghyfiawn, a'r gŵr goludog a Lazarus	—	—	16. 1—31.	—
Crist yn dysgu maddeugarwch, ffydd, a gostyngeiddrwydd	—	—	17. 1—10.	—
Crist yn myned trwy Samaria i Jerusalem, yn ceryddu zel anghymedrol Iago ac Ioan, ac yn glanâu deg gwahan-glwyfus	—	—	9. 51—56. 17. 11—19.	—
Hyfforddiadau am deyrnas Dduw	—	—	17. 20—37.	—
Dwy ddammeg ynghylch gwir weddïo	—	—	18. 1—14.	—
Iesu yn nhŷ Martha	—	—	10. 38—42.	—
Iesu yn y gyssegr-wyl yn Jerusalem	—	—	—	10. 22—39.
Efe yn dychwelyd i Bethabara	—	—	—	10. 40—42.
Adgyfodi Lazarus	—	—	—	11. 1—54.
Iesu yn dychwelyd i Judea, ac yn ymresymu â'r Phariseaid ynghylch ysgar	19. 1—12.	10. 1—12.	—	—
Iesu yn bendithio plant bychain	19. 13—15.	10. 13—16.	18. 15—17.	—
Y gŵr ieuanc goludog	19. 16—30.	10. 17—31.	18. 18—30.	—
Dammeg y gweithwyr yn y winllan	20. 1—16.	—	—	—
Iesu, wrth fyned tua Jerusalem, yn rhagddywedyd am ei ddyoddefiadau wrth ei ddysgyblion	20. 17—19.	10. 32—34.	18. 31—34.	—
Cais mam Iago ac Ioan	20. 20—28.	10. 35—45.	—	—
Iesu yn rhoi eu golwg i ddau ddyn dall gerllaw Jericho	20. 29—34.	10. 46—52.	18. 35—43.	—
Trôedigaeth Zacheus	—	—	19. 1—28.	—
Iesu yn dyfod i Bethania chwe diwrnod cyn y pasg	26. 6—13.	14. 3—9.	—	11. 55—57. 12. 1—11.
Iesu yn marchog ar asen i Jerusalem; efe yn wylo uwch ben y ddinas	21. 1—11. 21. 14—17.	11. 1—11.	19. 29—44.	12. 12—19.
Y Groegiaid yn ewyllysio gweled yr Iesu.	—	—	—	12. 20—50.
Y ffigysbren ddiffrwyth yn cael ei melldithio	21. 18, 19.	11. 12—14.	—	—
Crist yn glanâu y deml	21. 12, 13.	11. 15—19.	19. 45—48.	—
Y dysgyblion yn sylwi ar y ffigysbren wedi gwywo	21. 20—22.	11. 20—26.	—	—
Crist yn ymresymu â'r arch-offeiriaid, yr ysgrifenyddion, a'r henuriaid yn y deml	21. 23—46. 22. 1—14.	11. 27—33. 22. 1—14.	20. 1—19.	—
Y Phariseaid, yr Herodiaid, a'r Saduceaid yn cwestiyna yr Iesu	22. 15—46.	12. 12—37.	20. 20—44.	—

	MATTHEW.	MARC.	LUC.	IOAN.
Crist yn ceryddu yn gyhoeddus yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid	23. 1—39.	12. 38—40.	20. 45—47.	—
Canmawl rhodd y weddw dlawd	—	12. 41—44.	21. 1—4.	—
Iesu yn rhag-ddywedyd am ddinystr Jerusalem, ac hefyd am y farn olaf	24. 1—51. 25. 1—46.	13. 1—37.	21. 5—36.	—
Y modd yr oedd Iesu yn myned ymlaen drwy'r wythnos	—	—	21. 37, 38.	—
Dygwyddiadau y pedwerydd dydd o'r wythnos	26. 1—5. 26. 14—16.	14. 1, 2, 10, 11,	22. 1—6.	—
RHAN VI.				
Hanesyddiaeth tri diwrnod yn diweddu y dydd o flaen yr adgyfodiad.				
Gorchymyn i'r dysgyblion i barotôi y pasg	26. 17—19.	14. 12—16.	22. 7—13.	—
Iesu yn eistedd gyda'i ddysgyblion i fwyta y pasg. Ymryson hunanol yn eu mysg	26. 20.	14. 17.	22. 14—18. 22. 24—30.	—
Iesu yn golchi traed ei ddysgyblion	—	—	—	13. 1—20.
Iesu yn rhag-ddywedyd am ei fradychiad. Ymddygiad Judas	26. 21—25.	14. 18—21.	22. 21, 23.	13. 21—35.
Rhag-ddywedyd cwymp Pedr, a pherygl yr apostolion	26. 31—35.	14. 27—31.	22. 31—38.	13. 36—38.
Iesu yn tòri ac yn rhanu y bara i'w ddysgyblion	26. 26.	14. 22.	22. 19.	—
Iesu yn cysuro ei ddysgyblion	—	—	—	14 1—31.
Iesu yn rhoddi y cwpan i'w ddysgyblion	26. 27—29.	14. 23—25.	22. 20.	—
Iesu yn parâu i gysuro ei ddysgyblion cyn ei ymadawiad	—	—	—	15. 1—27. 16. 1—33.
Gweddi yr Iesu dros ei ddysgyblion	—	—	—	17. 1—26.
Ing Iesu yn ngardd Gethsemane	26. 30, 36—46.	14. 26, 32—42.	22. 39—46.	18. 1.
Bradychu yr Iesu gan Judas	26. 47—56.	14. 43—52.	22. 47—53.	18. 2—12.
Iesu o flaen Annas a Caiaphas—Pedr yn ei wadu deirgwaith	26. 57—58. 26. 69—75.	14. 53, 54. 14. 66—67.	22. 54—62.	18. 13—18. 18. 24—27.
Iesu yn cael ei gyhuddo gan au-dystion o flaen y Sanhedrim, ac yn cael ei ddedfrydu i ddyoddef marwolaeth	26. 57, 59—68.	14. 53, 55—65.	22. 66—71. 22. 63—65.	18. 19—23.
Iesu yn cael ei ddwyn o flaen Pilat, y llywydd Rhufeinig	27. 1, 2, 11—14.	15. 1—5.	23. 1—5.	18. 28—38.
Pilat yn anfon Iesu at Herod	—	—	23. 6—12.	—
Herod yn anfon Iesu yn ol at Pilat—Pilat yn ceisio ei ollwng yn rhydd	27. 15—23.	15. 6—14.	23. 13—23.	18. 39, 40.
Pilat, wrth ddymuniad yr Iuddewon, yn traddodi yr Iesu i oddef marwolaeth	27. 24—31.	15. 15—20.	23. 23—25.	19. 1—16.
Judas yn cyfaddef iddo fradychu y diniwed, ac yn ymgrogi	27. 3—10.	—	—	—
Crist yn cael ei arwain i Galfaria i'w groeshoelio	27. 22—34.	15. 21—23.	23. 26—33.	19. 17.
Croeshoeliad yr Iesu—Y pethau oedd yn dygwydd pan yr oedd Iesu yn fyw ar y groes	27. 35—50.	15. 24—37.	23. 33—46.	19. 18—30.
Y dygwyddiadau rhyfedd ar ac wedi marwolaeth yr Iesu	27. 51—61.	15. 38—47.	23. 45, 47—56.	19. 31—42.
Helynt y dydd ar ol y croeshoeliad	27. 62—66.	—	—	—
RHAN VII.				
Hanesyddiaeth deugain niwrnod o'r adgyfodiad hyd yr esgyniad.				
Y dygwyddiadau ar ddydd yr adgyfodiad cyn ymweliad cyntaf y gwragedd â'r bedd	28. 2—4.	16. 1.	—	—
Ymweliad y gwragedd cyntaf â'r bedd	28. 1, 5—8.	16. 2—8.	24. 1—11.	20. 1, 2.
Pedr ac Ioan yn dyfod at y bedd	—	—	24. 12.	20. 3—10.
Iesu yn ymddangos i Mair Magdalen	—	16. 9—11.	—	20. 11—18.
Ail ymddangosiad yr Iesu	28. 9, 10.	—	—	—
Adroddiad y gwylwyr Rhufeinig	28. 11—15.	—	—	—
Iesu yn ymddangos i'r ddau ddysgybl oedd yn myned i Emmaus	—	16. 12, 13.	24. 13—36.	—
Iesu yn ymddangos i'r apostolion pan nad oedd Thomas gyda hwynt	—	16. 14—18.	24. 36—49.	20. 19—23.
Iesu yn ymddangos drachefn i'r apostolion, a Thomas yn bresennol	—	—	—	20. 24—29
Yr apostolion yn myned i Galilea. Iesu yno yn amlygu ei hun iddynt	28. 16.	—	—	21. 1—24.
Ymddangosiadau eraill o eiddo yr Iesu	1 Cor. 15. 6, 7.	Act. 1. 3—8.	—	—
Esgyniad Iesu i'r nefoedd	—	16. 19, 20.	24. 50—53.	—
Diweddglo Ioan	—	—	—	20. 30, 31. 21. 25.

AMSERYDDIAETH Y DYGWYDDIADAU

A GOFNODIR YN ACTAU YR APOSTOLION, A PHARHAD HYD DDINYSTR JERUSALEM.

Yn ol Townsend, Hales, *a* Greswell.

	T.	*H.*	*G.*
Disgyniad yr Ysbryd Glân. Oed Crist	29	31	30
Carchariad Pedr ac Ioan	30	32	32
Marw Ananias a Sapphira	31	32	
Llabyddio Stephan. Yr erledigaeth gyntaf	34	34	37
Philip yn bedyddio yr efnuch Ethiopiaidd	34	34	37
Troedigaeth Saul, yr hwn sydd yn myned i Arabia	35	35	37
Pilat yn cael ei ddiswyddo o lywyddiaeth Judea		35	36
Yr ymherawdwr Tiberius yn cael ei ddilyn gan Caligula	37	36	
Pedr yn iachâu Aeneas, ac yn adgyfodi Dorcas	38	40	
Saul yn dychwelyd i Damascus	38	38	38
Caligula yn cael ei olynu gan Claudius	41	40	41
Troedigaeth Cornelius	40	41	41
Saul yn ymweled â Jerusalem, ac yn myned i Cilicia	39	38	41
Herod Agrippa yn cael ei wneyd yn frenin Judea	42	41	41
Saul yn Antiochia, (pen. 11. 26.)	42	43	41
Y dysgyblion yn cael eu galw yn gristionogion gyntaf yn Antiochia	43	43	
Herod yn rhoddi Iago i farwolaeth	43	44	43
Marwolaeth ddychrynllyd Herod	44	44	43
Newyn yn cael ei rag-ddywedyd gan Agabus	44	44	43
Saul drachefn yn Jerusalem	45	45	43
Saul a Barnabas yn cael eu hanfon i bregethu i'r cenedloedd	45	45	44

	T.	*H.*	*G.*
Paul yn Cyprus ..... Oed Crist	45	45	4
Paul yn ymweled âg Iconium, Lystra &c	47	46	4
Paul yn trigo yn Antiochia hyd	49	49	4
Efe yn myned i'r cyngor yn Jerusalem	49	49	4
Yn ymweled â'r eglwysi, ac yn dyfod i Troas	50	50	4
Yn ymweled â Macedonia a Groeg	51	51	5
Paul yn Athen	51	51	5
Yn aros yn Corinth hyd	53	53	5
Felix yn cael ei benodi yn rhaglaw Judea	53	52	
Paul yn ymweled â Jerusalem, ac yn dychwelyd i Antiochia	55	54	5
Claudius yn cael ei olynu gan Nero	54	54	54
Paul yn Ephesus; cythrwfl yno	57	58	5
Efe yn ymweled â Macedonia	57	59	5
Paul yn dyfod i Jerusalem	58	59	5
Yn cael ei garcharu yn Cesarea	58	59	5
Festus yn cael ei osod yn rhaglaw Judea	60	61	
Amddiffyniad Paul o flaen Agrippa	60	61	58
Paul yn dyfod i Rufain	60	61	5
Efe yn gadael Italy yn	62	64	61
Tybir i Paul yna ymweled â gwahanol wledydd, a'i fod drachefn yn garcharor yn Rhufain	65	64	66
Dienyddiad Paul yn Rhufain, (rhai a amserant hyn yn y fl. 68)	66	65	66
Nero yn ei ladd ei hun, ac yn cael ei olynu gan Galba	68	68	68
Vespasian yn dyfod yn amherawdwr	69	69	69
Dinystr Jerusalem gan Titus Vespasian	70	70	70

RHESTR O DDAMMEGION CRIST.

Y dall yn tywys y dall, Luc 6. 39.
Y tŷ ar y graig, a'r tŷ ar y tywod, Mat. 7. 24—27. Luc 6. 47—49.
Y ddau ddyledwr, Luc 7. 41, 42.
Yr ysbryd aflan yn adfeddiannu ei dŷ, Mat. 12. 43—45. Luc 11. 24—26.
Yr ynfyd cyfoethog, Luc 12. 16—21.
Y ffigysbren ddiffrwyth, Luc 13. 6—9.
Yr hauwr a'r had, Mat. 13. 3—8. Marc 4. 3—8. Luc 8. 4—8.
Yr efrau, Mat. 13. 24—30.
Yr had yn tyfu yn ddiarwybod, Marc 4. 26—29.
Yr had mwstard, Mat. 13. 31, 32. Marc 4. 30—32. Luc 13. 18, 19.
Y surdoes, Mat. 13. 33. Luc 13. 20, 21.
Y trysor cuddiedig, Mat. 13. 44.
Y perl gwerthfawr, Mat. 13. 45, 46.
Y rhwyd yn casglu pob rhyw bysg, Mat. 13. 47—50.
Y dyn o berchen tŷ, Mat. 13. 52.
Y brethyn newydd a'r hen ddilledyn, a'r gwin newydd a'r costrelau hen, Mat. 9. 16, 17. Marc 2. 21, 22. Luc 5. 36—39.
Y planigyn heb fod o blaniad Duw, Mat. 15. 13.
Y ddafad a aeth ar ddisberod, Mat. 18. 12—14.
Y gwas annhrugarog, Mat. 18. 23—35.
Y bugail a'r defaid, Ioan 10. 1—6.
Y Samaritan trugarog, Luc 10. 30—37.
Y gwahoddedig yn dewis y lle uchaf, Luc 14. 7—11
Y swper mawr, Luc 14. 16—24.
Adeiladaeth y twr, Luc 14. 28—30.
Y brenin yn myned i ryfel, Luc 14. 31—33.
Yr halen diflas, Luc 14. 34, 35.
Y ddafad a gollesid, Luc 15. 3—7.
Y dryll arian, Luc 15. 8—10.
Y mab afradlawn, Luc 15. 11—32.
Y goruchwyliwr anghyfiawn, Luc 16. 1—12.
Y gŵr goludog a Lazarus, Luc 16. 15—31.
Y meistr a'r gwas, Luc 17. 7—10.
Y weddw daer, Luc 18. 1—8.
Y Pharisead a'r publican, Luc 18. 9—14.
Y gweithwyr yn y winllan, Mat. 20. 1—16.
Y deg punt, Luc 19. 11—27.
Y ddau fab, Mat. 21. 28—31.
Y llafurwyr drygionus, Mat. 21. 33—41. Marc 12. 1—9. Luc 20. 9—16.
Priodas mab y brenin, Mat. 22. 2—14.
Y ffigysbren â'i ddail yn tòri allan, Mat. 24. 32, 33. Marc 13. 28, 29. Luc 21. 29—31.
Y lleidr, Mat. 24. 42, 43.
Y gŵr yn ymdaith i bell, Marc 13. 34—36.
Y gwas ffyddlawn a'r anffyddlawn, Mat. 24. 45—51.
Y deng morwyn, Mat. 25. 1—13.
Y talentau, Mat. 25. 14—30.

TREFNIAD YR EPISTOLAU.

Nid yw yr Epistolau wedi eu gosod yn ein Beiblau ni yn ol yr amser yr ysgrifenwyd hwynt, ond efallai gyda rhyw gyfeiriad at eu materion neu at y pleidiau a anerchir. Ac nid yw yr hysbysiadau a roddir am y lleoedd yr ysgrifenwyd hwy bob amser yn ddilys (*genuine*). *Lardner* ac eraill a'u gesyd fel y canlyn :—

Epistolau Paul.	*O ba le y'u hysgrifenwyd.*	*Amser eu hysgrifeniad.*
1 Thessaloniaid, ..	Corinth, ...	O. C. 52.
2 Thessaloniaid, ..	Corinth, ...	52.
Galatiaid, ...	Corinth,	Yn ddiweddar yn 52, neu yn gynnar yn .. .. 53.
1 Corinthiaid, ..	Ephesus, ...	57.
Rhufeiniaid, ...	Corinth,	Diwedd 57, neu yn gynnar yn.. 58.
2 Corinthiaid, ..	Macedonia, ...	58.
Ephesiaid, ...	Rhufain, ...	61.
Philippiaid, ...	Rhufain,	Diwedd 62, neu ddechreu .. 63.
Colossiaid	Rhufain, ...	64.

Epistolau Paul.	*O ba le y'u hysgrifenwyd.*	*Amser eu hysgrifeniad.*
Philemon, ...	Rhufain, .. O. C.	62, neu 63.
Hebreaid, ...	Itali, efallai Rhufain	62, neu 63.
1 Timotheus, ..	Macedonia, ...	64.
Titus, ...	Macedonia, ...	64.
2 Timotheus, ..	Rhufain, ...	65.
Yr Epistolau eraill.		
Iago, ...	Judea, ...	61.
1 Pedr, ...	Rhufain, ...	64.
2 Pedr, ...	Rhufain, ...	Dechreu 65.
1 Ioan, ...	efallai Ephesus,.. ..	68, neu 69.
2 a 3 Ioan, ...	Ephesus,.. ..	68, neu 69.
Judas, ...	Anadnabyddus,	..64, neu 65.

TAFLEN O RAI O SEFYLLFAOEDD, SWYDDAU, A PHLEIDIAU,

A GRYBWYLLIR YN Y TESTAMENT NEWYDD.

APOSTOLION. Personau a ddewisid gan yr Arglwydd Iesu i fod yn dystion o'i fywyd a'i farwolaeth, ac yn enwedig o'i adgyfodiad, i ddynolryw; y rhai hefyd oeddynt gofiaduriaid o'i athrawiaeth sanctaidd; ac oddiwrthynt hwy yr oedd yr efengyl i'w lledaenu i'r holl genedloedd, hyd ddiwedd y byd.

ARCH-OFFEIRIAD. Y prif offeiriad o hil Aaron, yr hwn yn unig oedd i fyned i mewn i'r cysegr-sancteiddiolaf, ac ydoedd brif-lywiawdwr yr eglwys Iuddewig.

ARCH-OFFEIRIAID. Pènau, neu y gwŷr enwocaf, o'r pedair gradd ar hugain, i ba rai y rhenid meibion Aaron gan y brenin Dafydd fel y gwasanaethent yn eu cylchoedd.

CANWRIAD. Swyddog yn y fyddin Rufeinaidd, yr hwn oedd â chant o wŷr dàn ei rëolaeth.

CYFREITHWYR.—DOCTORIAID Y GYFRAITH. Rhai o'r un urdd â'r Ysgrifenyddion, a elwid fel hyn am euhym roddiad i astudio y gyfraith, ac i'w dysgu i'r bobl.

EFENGYLWYR. Arferir y gair yn aml am ysgrifenwyr y pedwar adroddiad sanctaidd am fywyd, marwolaeth, ac adgyfodiad yr Iachawdwr: ond yn y Testament Newydd, mae yn arwyddo pregethwyr yr efengyl, y rhai o dàn awdurdod a chyfarwyddyd yr Apostolion, a anfonid i drefnu a rhëoleiddio yr eglwysi a blènid gan yr Apostolion, ac i blànu eglwysi newyddion.

EPICURIAID. Plaid o athronwyr cenedlig, dilynwyr Epicurus, yr hwn a flodeuodd 300 mlynedd cyn Crist. Yr oeddynt yn gwadu athrawiaeth rhagluniaeth, ac yn cyfrif pob peth i ddamwain, ac yn ystyried digrifwch a mwyniant cnawdol fel y daioni penaf.

HERODIANIAID. Math o'r Saduceaid, ag oedd yn cyfaddasu eu crefydd yn ol amgylchiadau allanol, ac yn enwedigol yn talu pob gweniaeth i Herod. Rhai a ddywedant eu bod yn dàl mai Herod oedd y Messiah.

HENURIAID YR IUDDEWON. Y prif wŷr yn y llwythau, ac aelodau y cynghor neu y Sanhedrim.

NAZARENIAID. Enw a roddid i ddechreu ar y Cristionogion Iuddewig, fel teitl o anmharch, mewn cyfeiriad at Nazareth; ond wedi hyny a gymhwysid at blaid hereticiaidd, y rhai a gymysgent Gristionogaeth âg Iuddewaeth.

NICOLAIAID. Plaid lygredig o hereticiaid, y rhai oeddynt Antinomiaid o'r fath waethaf, yn athrawiaethol ac yn fucheddol. Nid oes un prawf eu bod, fel yr haerodd rhai, yn ddysgyblion i Nicolas, un o'r diaconiaid cyntaf; y mae hyny yn gwbl annhebygol.

PHARISEAID. Plaid grefyddol yn mysg yr Iuddewon, a'r sect enwocaf a mwyaf poblogaidd yn eu plith. Mae eu henw yn dyfod oddiwrth y gair Hebreaidd *pharash*, yn arwyddo neilldduedig, am fod y Phariseaid yn ymhoni manylrwydd neilldduol yn eu cyflawniadau crefyddol. Dywedir iddynt ddechreu oddeutu 140 o flynyddoedd cyn genedigaeth Crist. Dàn y ffug o grefyddgarwch a sancteiddrwydd anarferol, yr oeddynt yn nodedig am eu rhagrith, eu balchder, eu cenfigen, a'u cybydd-dod. Yr oeddynt er hyny yn dàl y wir athrawiaeth am anfarwoldeb yr enaid, a'r adgyfodiad, ac yn derbyn holl lyfrau yr Hen Destament fel ymadroddion Duw.

PUBLICANOD. Casglwyr trethi o dàn y Rhufeiniaid. Yr oedd y pen-bublicanod yn cymmeryd parthau helaeth o dàn ardreth flynyddol, i gasglu y trethoedd; a chynnorthwyid hwy gan filwyr Rhufeinig i godi yr hyn a ofynent. Yr is-bublicanod a gymmerent leoedd llai o dàn ardreth gan y pen-publicanod, neu a eisteddent yn y lleoedd y telid tollau ar bryniadau a gwerthiadau. Yr oedd llawer o'r rhai hyn yn nodedig am eu gormes anghyfiawn. Yr oedd y swydd yn gael ei hystyried yn eithaf dirmygus gan yr Iuddewon, ac felly yr oedd "publicanod a phechaduriaid" yn eiriau cyfystyr yn amser ein Iachawdwr.

RABBINIAID. Mae Rabbi neu Rabban yn arwyddo mawr, neu feistr; a theitlau oeddynt a roddid i wŷr dysgedig yn mysg yr Iuddewon.

SADUCEAID. Plaid o anffyddwyr yn mhlith yr Iuddewon, y rhai er proffesu peth parch i ranau o'r gair sanctaidd, oeddynt yn gwadu yr adgyfodiad, yn anghredu y byd a ddaw, ac yn dàl nad oedd angelion nac ysbrydion. Yr oeddynt yn benaf yn mysg y rhai mwyaf cyfoethog o'r Iuddewon.

STOICIAID. Sect o athronwyr paganaidd, y rhai oeddynt yn dàl fod y byd yn dragywyddol, Duw yn gorfforol, a dygwyddiadau yn cael eu rhëoli gan dynged, yr annibynol ar ewyllys Duw. Yr oeddynt yn ymfalchio mewn annheimladrwydd o lawenydd a phoen; ac yn ystyried fod rhinwedd yn wobr digonol iddi ei hun, a bai ei gosb ei hun.

TETRARCH. Un a osodid gan y Rhufeiniaid i lywodraethu y bedwaredd ran o'r dalaeth hòno oedd yn ffurfio breniniaeth Herod Fawr, pa un ar ei farwolaeth a ranwyd yn bedair o lywodraethau.

YSGRIFENYDDION. Dysgedigion yn mhlith yr Iuddewon, a gawsant eu henw oddiwrth eu gorchwyliaeth ddechreuol, sef ysgrifenu copïau o'r gyfraith. Yn mhen amser, aethant i ddeongli ac esbonio y gyfraith, gan gymmeryd arnynt benderfynu pa athrawiaethau a gynnwysid yn yr ysgrythyr, a pha rai nad oeddynt yno. Yr oeddynt yn amser ein Iachawdwr yn meddu dylanwad nid bychan yn mysg y bobl, ac yn gwneuthur niwed mawr trwy eu traddodiadau a'u cam-ddeongliadau. Yr oedd y rhan fwyaf o honynt o sect y Phariseaid, ac felly enwir yn gyffredin y naill a'r llall ynghyd

DAEARYDDIAETH Y TESTAMENT NEWYDD,

NEU

DAFLEN O'R TALEITHIAU, DINASOEDD, TREFI, &c., Y CRYBWYLLIR AM DANYNT YN YR EFENGYLAU, YR ACTAU, A'R EPISTOLAU.

ABILENE, un o'r pedair tetrarchiaeth y crybwyllir am danynt yn Luc 3. 1, talaeth rhwng mynydd Libanus ac Anti-libanus, ar yr afon Chrysorrhoas.

ACELDAMA, ydoedd faes o'r tu allan i fur deheuol Jerusalem, tu hwnt i afon Siloam. Gelwid ef, Maes y crochenydd, am mai o hóno y cloddid defnyddiau llestri pridd. Prynwyd ef gan arch-offeiriad a henuriaid yr Iuddewon â'r deg darn ar hugain o arian â pha rai y prynasent gan Judas waed yr Arglwydd Iesu, i fod yn gladdfa dyeithriaid; ac am hyny y'u galwyd ef, Aceldama, sef "maes y gwaed." Matth. 27. 7, 8. Act. 1. 19. Defnyddir ef yn awr fel mynwent gan yr Armeniaid, y rhai y mae ganddynt fynachlog ar fynydd Sion.

ACHAIA, yn yr ystyr helaethaf a olyga holl wlad Groeg, Act. 19. 11. Rhuf. 15. 26, a 16. 5. 1 Cor. 16. 15. 2 Cor. 1. 1, a 9. 2, a 11. 10. 1 Thes. 1. 7, 8; ond yn yr ystyr gyfyngaf y dalaeth hòno yn nhir Groeg, yn mha un yr oedd Corinth yn brif-ddinas, Act. 18. 12.

ADRAMYTIUM, dinas arforawl yn Mysia, yn Asia Leiaf. Mewn llong oddi yno y mordwyodd Paul a'i gyfeillion o Cesarea i Myra yn Lycia, Act. 27. 2.

ADRIA, dinas yn yr Ital, yn nhalaeth Venice, yr hon a roddes enw i Fôr Adriatic, neu fôr Adria, lle y bu Paul mewn tymhestl fawr, Act. 27. 27.

AINON, lle dyfrog yn agos i Salim, yr hyn oedd yn ei wneyd yn lle cyfleus i Ioan i fedyddio, Ioan 3. 23. Mae yn ansicr pa un ai yn Galilea ai yn Judea ai yn Samaria yr ydoedd y fàn hon.

AIPHT, gwlad fawr yn sefyll yn y rhan ogledd-ddwyreiniol o Affrica, ac o du deau-orllewin i wlad Canaan. Mae hi oddeutu 600 milldir o hyd. Bu yr Aipht unwaith yn wlad boblogaidd ac enwog iawn, ac y mae yn dàl lle helaeth yn yr hanesyddiaeth ysgrythyrol. Ei phoblogaeth bresennol a gyfrifir oddeutu 2,500,000. Cyfrifir yr Aipht mewn enw yn dalaeth berthynol i ymherodraeth Twrci, ond mewn gwirionedd mae ei llywydd presennol, Mohammed Ali, yn gweithredu fel brenin annibynol. Mae yr Aiphtiaid yn gyffredinol mewn tlodi a gormes mawr.

ALEXANDRIA, dinas enwog yn yr Aipht, yn sefyll rhwng môr y Canoldir a llyn Mareotis. Sylfaenwyd hi gan Alexander Fawr, ac yma y claddwyd ef. Wedi dinystr Carthage, dywedir ei bod, yn nesaf at Rufain, yn brif-ddinas y byd. Yr oedd, medd Pliny, yn cael ei phoblogi gan 300,000 o ddinasyddion, a chan gymaint â hyny o gaethion. Yr oedd yma athrofa enwog, a llyfrdŷ mawr, yn cynnwys, meddir, 700,000 o lyfrau, y rhai a ddyfethwyd yn y rhyfeloedd rhwng Cesar a Pompey. Planwyd cristionogaeth yma yn fore. Nid oes arni fel y rhan fwyaf o ddinasoedd y Dwyrain, ond golwg dlodaidd yn y pryd hwn. Act. 18. 24, a 27. 6.

AMPHIPOLIS, dinas rhwng Macedonia a Thrace, yr hon hefyd a elwid Chrysopolis neu Christopolis, Act. 17. 1.

ANTIOCHIA, dinas enwog yn Syria, yr hon a adeiladwyd gan Seleucus Nicanor, ac a alwyd ganddo felly, er anrhydedd i'w dad Antiochus. Yma y galwyd y dysgyblion gyntaf yn gristionogion. Act. 11. 19—27, a 14. 26, a 15. 35. Yr oedd hefyd ddinas o'r enw Antiochia yn Pisidia, Act. 13. 14.

ANTIPATRIS, dinas yn Nghanaan, ar y ffordd o Jerusalem i Cesarea. Ei henw cyntaf oedd Capharsalama, ond Herod fawr a'i hail-adeiladodd, ac a'i galwodd Antipatris, er coffa parchus am ei dad Antipater. Act. 23. 31.

APOLONIA, dinas yn Macedonia, yn sefyll rhwng Amphipolis a Thessalonica, yr hon a elwir yn awr Erisso, Act. 17. 1.

ARABIA, gwlad ëang yn Asia, yr hon a ddosberthir yn dair rhan, Arabia Deserta, neu Anial,—Arabia Petrea, neu Garegog,—ac Arabia Felix, neu Ddedwydd. Paul a ddywed iddo wedi ei dröedigaeth fyned i Arabia; pa le a pha hyd y bu yno, ni wyddis ddim, Galat. 1. 17.

ASIA, fel y'i crybwyllir gan ddaeryddwyr yn gyffredin, yw un o bedwar chwarter y byd; ond yn y Testament Newydd, nid yw y gair yn arwyddo ond Asia Leiaf yn unig. Asia Leiaf a gynnwysa daleithiau Mysia, Lydia, Caria, Lycia, Pamphylia, Pisidia, Phrygia, Galatia, Lycaonia, Bithynia, Paphlagonia, Pontus, Cappadocia, Cilicia, a Cyprus. Dat. 1. 4. Act. 20. 16, 18, 27. 1 Cor. 16. 19. 2 Cor. 1. 8.

ASSOS, dinas arforawl yn Mysia, neu Troas, Act. 20. 13. 14.

ATTALIA, dinas borthladdol yn nhalaeth Pamphylia, i ba le y daeth Paul a Barnabas o Perge, Act. 14. 25.

ATHEN, dinas enwog yn ngwlad Groeg, oddeutu 25 o filldiroedd o du y dwyrain i Corinth. Yr oedd yn nodedig am ei philosophyddiaeth, ei milwriaeth, a'i choel-grefydd. Cafodd Paul y ddinas wedi ymroi i eilunod, ac efe a ddefnyddiodd yno bob adeg i bregethu yr Iesu. Dywedir fod cristionogaeth, o leiaf mewn enw, wedi parhau yn Athen hyd y dydd hwn. Act. 17. 16. 1 Thes. 3. 1.

AZOTUS, yr un âg Asdod y Philistiaid, 1 Sam. 5. 2. Yr oedd oddeutu deng milldir ar hugain o Gaza, o ba le y cipiwyd Philip yr efengylwr gan Ysbryd yr Arglwydd, ac felly cludwyd ef yn yr awyr am gymmaint â hyny o filldiroedd, Act. 8. 40.

BABILON. Llawer sydd o ddadleu wedi bod ynghylch pa le yr oedd y Babilon a enwir gan yr apostol Pedr, 1 Pedr 5. 13. Amryw o'r hen dadau, gyda'r Pabyddion yn gyffredinol, a llawer o ysgrifenwyr Protestanaidd diweddar, a ddywedant fod yr enw Babilon yn cael ei roddi gan yr apostol Pedr yn ffugyrol am Rufain. Eraill a feddyliant mai yr Hen Babilon lythyrenol yn Assyria ydoedd, yr hon, meddynt, nad oedd wedi ei hollol anghyfanneddu y pryd hwnw. Dywed eraill mai Babilon Newydd, neu Seleucia ydoedd, yr hon a adeiladwyd gan Seleucus Nicator yn nghymydogaeth yr Hen Babilon. Mr. Taylor, cyhoeddwr Geiriadur Calmet, a ddadleua mai Babilon arall ydoedd, nês i Judea na Chaldea, yn sefyll yn rhywle yn nghymydogaeth Orfa neu Roha, ar làn ddwyreiniol afon Euphrates.

BEREA, dinas yn Macedonia, yn agos i Fynydd Citkanes, lle y bu Paul yn pregethu yn dra llwyddiannus Act. 17. 10—13.

BETHABARA, tref tu hwnt i'r Iorddonen, ac allan o gyffiniau yr Iuddewon, lle bu Ioan yn bedyddio, Ioan 1. 28.

BETHANIA, pentref oddeutu dwy filldir o du y dwyrain o Jerusalem, wrth droed Mynydd yr Olew-wydd, ac ar y ffordd i Jericho. Yma yr oedd Mair a Martha yn byw, yn nghyd a'u brawd Lazarus. Ioan 11. 1.

BETHESDA, llyn yn ymyl Jerusalem, yr hwn, meddir, a wnawd gyntaf gan Solomon, ac a elwir llyn Solomon. Yr oedd iddo, fel y dywedir gan yr efengylwr Ioan, bùm porth, ac yr oedd yno lawer o gleifion yn dysgwyl yn barhâus, er mwyn disgyn i'r dwfr ar ei gynhyrfiad; "canys angel oedd ar amserau yn disgyn i'r llyn, ac yn cynhyrfu y dwfr; yna yr hwn a elai i mewn yn gyntaf ar ol cynhyrfu y dwfr, a âi yn iach o ba glefyd bynag a fyddai arno." Ioan 5. 1—10.

BETHLEHEM, dinas yn llwyth Judah, yr hon a elwid yn gyffredin Bethlehem Judah, i'w gwahaniaethu oddi wrth dref arall o'r un enw oedd yn llwyth Zabulon, Jos. 19. 10, 15. Mae yn sefyll chwe milldir o du y dehau i Jerusalem, ar y ffordd i Hebron. Yma y ganwyd y brenin Dafydd, ac fe'i gelwid yn ddinas Dafydd; ond yr hyn sydd yn rhoddi yr arbenigrwydd mwyaf ar Bethlehem ydyw, mai yma y ganwyd yr Arglwydd Iesu Grist. Mae eto yn lle o gryn bwys yn y dydd hwn.

BETHPHAGE, pentref bychan wrth droed mynydd yr Olew-wydd, rhwng Bethania a Jerusalem, yn perthyn i'r offeiriaid, Luc 19. 29.

BETHSAIDA, dinas yn Galilea, yn sefyll yn y pen nesaf i'r gogledd i lyn Gennesareth, ac felly yn dra chyfleus i bysgota. Yr oedd yr apostolion Pedr, Andreas, a Phylip, o'r ddinas hon, Ioan 1. 44. Er i'n Hiachawdwr ymweled yn fynych â hi, nid oedd y trigolion yn gyffredinol yn credu ynddo er ei addysgiadau a'i wyrthiau; a chawn ef yn cyhoeddi gwae drom arni, Luc 10. 13.

BITHYNIA, goror o Asia Leiaf, yn agos i fôr Euxine, ac a alwyd felly oddiwrth enw Bithynus, hen frenin arni. Yr oedd yma liaws o Iuddewon ac eraill wedi credu yr efengyl, 1 Pedr 1. 1.

CALFARIA, neu GOLGOTHA, hyny yw, lle y benglog, bryn bychan o'r tu gogledd-ddwyreiniol i Jerusalem, a elwid felly, meddylir, oddiwrth ei debygolrwydd i lun penglog. Yr oedd gynt yn sefyll o'r tu allan i furiau Jerusalem, a dyma y fàn y croeshoeliwyd ein Iachawdwr; ond yn ol agwedd bresennol y ddinas, mae oddi fewn iddi. Amryw o deithwyr diweddar, ac yn eu mysg y Dr. E. D. Clarke, a ddadleuant mai nid yn y fàn a elwir Calfaria yn bresennol y croeshoeliwyd Crist. Dr. Robinson, o America, a benderfyna mai nid ar fynydd na bryn y croeshoeliwyd Crist. Ond y cenadwr enwog Dr. Wilson, o Bombay, yr hwn a fu yn Jerusalem yn 1843 a resyma yn gadarn mai bryn oedd Calfaria, ac mai y bryn hwnw yw yr un a elwir felly hyd y dydd heddyw.

CALDEA. Dywedir yn Act. 7. 4, am Abraham, "Yna y daeth efe allan o dir y Caldeaid, ac a breswyliodd yn Charran." Wrth dir y Caldeaid yma y golygir, nid y wlad boblogaidd yn Asia Lciaf, a elwid Caldea, ond parth mynyddig yr hon oedd ran o Mesopotamia, adn. 2.

CANA, pentref yn Galilea, yn agos i Nazareth, yn mha le y gwnaeth Crist ei wyrth gyntaf, Ioan 2. 1—11. Gelwid y lle yn Cana Galilea, i'w wahaniaethu oddiwrth Cana yn llwyth Aser, Jos. 19. 28.

CANAAN, y wlad a roddwyd mewn cyfammod i had Abraham, a elwid felly oddiwrth hiliogaeth Canaan, ŵyr Noah, y rhai oeddynt ei phreswylwyr dechreuol. Y Ganaan, yr hon a addawyd i'r Israeliaid ydoedd oddeutu 190 o filldiroedd o hyd, ac ynghylch 80 milldir o led. Yr oedd Môr y Canoldir o du y gorllewin iddi; Libanus a Syria o du y gogledd; Arabia Anial, a gwlad yr Ammoniaid, y Moabiaid, a'r Midianiaid, o du y dwyrain; ac anialwch Paran a'r Aipht o du y dehau. Mae terfynau y tir yn cael ei ddarlunio yn fanwl gan Moses, yn Num. 34. 1—15. Ond yn amser Dafydd ac yn nyddiau ei fab Solomon yr oedd hi wedi ei helaethu ymhell tu hwnt i'r terfynau hyn, 1 Bren. 4. 21. Yn amserau y Testament Newydd, rhaniadau Canaan oeddynt Judea, Samaria, Galilea, Perea, ac Idumea. Act. 7. 11, a 13. 19.

CAPERNAUM, dinas ar làn Môr Galilea, ar gyffiniau Zabulon a Naphtali, yn mha un yr oedd ein Iachawdwr yn trigo yn benaf yn ystod y tair blynedd o'i weinidogaeth gyhoeddus, Mat. 4. 13; Marc 2. 1; Ioan 6. 17. Ymddengys fod y farnedigaeth a gyhoeddodd Crist arni wedi ei chyflawni yn llythyrenol; y mae wedi ei thynu i lawr hyd y bedd; canys hyd yma nid oes un prawf boddlonol wedi ei gael yn mha le yr oedd Capernaum yn sefyll, Matth. 11. 23.

CAPPADOCIA ydoedd dalaeth yn Asia, âg Armenia o'r tu dwyreiniol iddi, Galatia o'r tu gorllewinol, Môr Euxine o'r tu gogleddol, a mynydd Taurus o'r tu deheuol. Planwyd cristionogaeth yn fore yno, Act. 2. 9; 1 Pedr 1. 1, ac nid yw wedi llwyr ddarfod yno hyd y pryd hwn.

CEDRON, afon fechan yn y dyffryn o'r tu dwyreiniol i Jerusalem; nid oes ganddi yn gyffredin ond ychydig o ddwfr, ond wedi gwlawogydd trymion, bydd yn chwyddo yn fawr. Crybwyllir fod Dafydd yn ei chroesi wrth ffoi rhag Absalom ei fab, ac felly yr Iesu wrth fyned i ardd Gethsemane, 2 Sam. 15. 23. Ioan 18. 1.

CENCHREA, dinas borthladdol, cyfagos i Corinth. Cynnelid yma lawer o'r campau Groegaidd. Act. 18. 18.

CESAREA. Yr oedd dwy ddinas o'r enw hwn. Gelwid un yn Cesarea Philippi, Mat. 16. 13, yr hon oedd yn nghŵr gogleddol gwlad Canaan, ar làn yr Iorddonen, ac wrth droed mynydd Libanus. Tybir yn gyffredin mai yr un ydoedd â Lais neu Dan yn yr Hen Destamant, Barn. 18. 7, 29. Helaethwyd a harddwyd hi gan Phylip y Tetrarch, yr hwn a'i galwodd wrth yr enw Cesarea er anrhydedd i Tiberius Cesar, gan chwanegu ei enw ei hun, er ei gwahaniaethu oddiwrth y Cesarea arall. Yr oedd yn daith diwrnod o Sidon, a diwrnod a hanner o Damascus. Y llall ydoedd Cesarea Palestina, ar làn Môr y Canoldir, 30 o filldiroedd i du y gogledd o Jaffa, a 62 i'r tu gogledd-orllewinol o Jerusalem. Hon a adeiladwyd gan Herod fawr, yr hwn a'i galwodd yn Cesarea o anrhydedd i Augustus Cesar. Yma yr oedd Cornelius yn byw, Act. 10. 1; yma yr yswyd Herod gan bryfed, Act. 12. 19; yma yr oedd Phylip yr efengylwr yn byw, gyda'i bedair merched, Act. 21. 8, 9; ac yma y bu Paul yn sefyll ger bron Ffelix a Ffestus, ac y cadwyd ef yn garcharor am ddwy flynedd, Act. 22. a 24.

CHIOS, ynys yn Môr Egea, rhwng Lesbos a Samos, ynghylch deuddeng milldir o'r tir. Gelwir hi yn awr Scio. Act. 20. 15.

CILICIA, gwlad yn Asia Leiaf, yn sefyll ar làn y môr, i'r gogledd o Cyprus, i'r deau o Fynydd Taurus, ac i'r gorllewin o Euphrates. Y brif ddinas oedd Tarsus, lle y ganwyd Paul, Act. 22. 3.

CLAUDA, ynys fechan yn Môr y Canoldir, tua'r dehau-orllewin o Crete. Yr oedd Paul a'i gymdeithion yn hwylio heibio iddi yn y fordaith i Rufain, Act, 27. 16.

CNIDUS, dinas yn sefyll ar benrhyn o'r un enw, gyferbyn a'r ynys Crete. Yr oedd ei phreswylwyr yn nodedig fel addolwyr Venus, Act. 27. 7.

COLOSSA, dinas yn Phrygia, ar yr afon Lycus, yn sefyll rhwng Laodicea a Hierapolis. Dywed Eusebius i'r tair dinas hyn gael eu dystrywio gan ddaeargryn, yn y fl. 66 o oed Crist. Ond adeiladwyd Colossa wedi hyny, ac a alwyd dàn yr enw Chonae, ac y mae yn sefyll, meddir, hyd y dydd hwn.

COOS, ynys yn Môr y Canoldir, ar gyfer y rhan ddehau-orllewinol o Asia Leiaf, ac ynddi ddinas o'r un enw. Gelwir hi yn awr Slancora neu Lango. Act. 21. 1.

CORAZIN, tref yn Galilea, yn agos i Capernaum a Bethsaida, ar yr hon, gyda hwy, yr oedd Crist yn cyhoeddi gwae am ei hanedifeirwch, Mat. 11. 21, Luc. 10. 13. Mae yn bentref bychan yn awr, medd Dr. Richardson, ac o dàn yr enw Chorasi.

CORINTH, prif-ddinas Achaia. Yr oedd yn ddinas enwog am ei masnach, ei chyfoeth, ei rhysedd, a'i hanlladrwydd. Yr oedd teml fawr Venus ynddi, lle yr oedd mil o buteiniaid yn gyssegredig i'r dduwies. Daeth Paul yma o Athen, ac a arosodd yno yn agos i ddwy flynedd, gan fod yn offerynol i gasglu eglwys liosog, Act. 18. Mae yn y dyddiau hyn yn dref o gryn faintioli.

CRETA, ynys fawr yn Môr y Canoldir, yn sefyll yn mron ar gyfer yr Aipht, yr hon a elwir yn awr Candia. Ei maint yw 4613 o filldiroedd ysgwâr. Yr oedd ei phobl gynt, fel y gwelwn oddiwrth yr epistol at Titus, yn nodedig am eu celwydd, eu glythineb, a'u segurdod. Sefydlwyd cristionogaeth yno gan Paul, a'i gynnorthwywr Titus, Tit. 1. 5.

CYPRUS, yr ynys fwyaf dwyreiniol yn Môr y Canoldir, oddeutu 150 o filldiroedd o hyd a 75 o led. Ei phoblogaeth yn awr sydd ynghylch 83,000 o Roegiaid a Thyrciaid, Act. 11. 19, 20, a 13. 4, a 15. 39.

CYRENE, gwlad yn Libya yn Asia, ac yn y dehau i Fôr y Canoldir; ei phrif ddinas ydoedd o'r un enw. Bu unwaith yn wladwriaeth rymus a chyfoethog. Gelwir hi yn awr Cairöan, yn nhalaeth Barca, yn nheyrnas Tripoli. Brodor o Cyrene oedd Simon, yr hwn a gymhellwyd i ddwyn croes yr Iesu, Mat. 27. 32.

DALMANUTHA, dinas ac ardal o fewn tiriogaeth Magdala, tu hwnt i'r Iorddonen, Marc 8. 10.

DALMATIA, talaeth yn Illyricum, yn gorwedd gyda glàn Môr Venice, o du y dwyrain, 2 Tim. 4. 10.

DAMASCUS, dinas enwog yn Cœlo Syria, yn sefyll mewn gwastadedd hyfryd a ffrwythlawn, wrth droed Mynydd Libanus, ac yn agos i darddiad yr afon Barady neu Chrysorrhoas. Yr oedd y ddinas hon mewn bod mòr gyn nar â dyddiau Abraham, a brodor oddiyma oedd Eleazar ei was, Gen. 14. 15, a 15. 2. Cawn lawer o grybwylliadau am dani yn Llyfrau y Brenhinoedd a'r Prophwydi. Yn ymyl y ddinas hon y dygwyddodd tröedigaeth wyrthiol yr apostol Paul, Act. 9. Mae Damascus yn bresennol yn un o'r dinasoedd mwyaf enwog ei masnachaeth sydd o dàn lywodraeth ymherawdwr Twrci. Cyfrifir ei thrigolion o 150,000, i 180,000, y rhai ydynt yn benaf Arabiaid a Thyrciaid, ond yn mysg pa rai mae oddeutu 20,000 o gristionogion o wahanol genedloedd, ac o 2,000 i 3,000 o Iuddewon. Gelwir hi yn awr Demeshk, a chan y brodorion El Sham. Mae y sidanau a elwir damasc, yn cael eu henwi oddiwrth y ddinas hon, o ba le y daethant i ddechreu.

DECAPOLIS, parth o wlad Canaan, yn cynnwys deg o brif-ddinasoedd, yn cyrhaedd o bob tu i afon yr Iorddonen. Yn eu mysg yr oedd Gadara, Gerasa, Pella, a Philadelphia, Scythapolis, y brif-ddinas, a elwir yn awr Bethsan. Mae yn bresennol yn ffurfio rhan o diriogaeth Belka, Mat. 4. 25, Marc 5. 20.

DERBE, dinas yn Lycaonia, i ba un y ffôdd Paul a Barnabas pan yrwyd hwy allan o Iconium, Act. 14 6.

EMMAUS, pentref oddeutu saith milldir a hanner o du y gorllewin i Jerusalem, a bynodwyd gan ymddŷddan y Messiah â'r ddau ddysgybl, y rhai oeddynt yn myned yno ar ddydd ei adgyfodiad, Luc 24. 15.

EPHESUS, ydoedd gynt brif-ddinas Ionia yn Asia Leiaf, yn sefyll ar yr afon Caysber. Yr oedd yn dra enwog o herwydd y deml fawr oedd vnddi, i'r dduwies Diana; yr oedd yn 425 o droedfeddi o hŷd, a 220 o led, ac iddi 127 o golofnau, 70 o droedfeddi o uchder, wedi eu rhoddi yn anrhegion gan gymmaint â hyny o freninoedd. Am bregethiad Paul yn Ephesus, a'r hyn a ganlynodd, darllener Llyfr yr Actau Mae y ddinas hon yn awr yn hollol anrheithiedig ac anghyfannedd, ac heb ynddi weddillion o'i theml, yr hon oedd gynt yn un o ryfeddodau y byd

EPHRAIM, dinas yn agos i Bethel, ynghylch wyth milldir o Jerusalem, ar y ffordd oddiyno i Jericho, Ioan 11. 54.

ETHIOPIA, sydd enw a roddid gan yr henafiaid i amrywiol wledydd yn Asia ac Affrica, ac sydd yn ateb yn gyffredinol i'r enw Hebrëaidd Cush. Yr Ethiopia a grybwyllir yn Act. 8. 27, yw, debygid, Ethiopia neu Abyssinia, o du y dehau i'r Aipht, a dehau-orllewin i'r Môr Coch.

EUPHRATES, afon yn Asia orllewinol, yn tarddu o fynyddoedd Armenia, ac yn rhedeg trwy gyffiniau Cappadocia, Syria, Arabia Anial, Chaldea, a Mesopotamia, ac yn syrthio i Gulfôr Persia. Y hi oedd y bedwaredd afon yn Mharadwys, a gelwir hi yn yr Ysgrythyr, yr Afon Fawr. Am sychu yr afon Euphrates yn ngweledigaethau Ioan, gweler y sylwadau ar Dat. 16, 12.

GADARA, dinas o fewn Decapolis, oddiwrth yr hon y cafodd ardal Gadara, neu wlad y Gadareniaid, ei henw, Marc 5. 1, Luc 8. 26.

GALATIA, talaeth o Asia Leiaf, yr hon yr oedd yr afon Halys o du y dwyrain iddi, Bithynia a Paphlagonia o du y gogledd, Cappadocia a Phrygia o du y dehau, a Mysia a Lydia o du y gorllewin. Yr oedd ynddi yn y cynoesoedd 22 o ddinasoedd. Y brif-ddinas a elwid Ancyra, yn awr Angora, yn yr hon y mae yn bresennol oddeutu 20,000 o eneidiau. Planwyd cristionogaeth yn Galatia gan yr apostol Paul, Act. 18. 23, Galat. 1. 2.

GALILEA, oedd y rhaniad mwyaf gogleddol o wlad Canaan, ac yn cynnwys etifeddiaethau Issachar, Zabulon, Naphthali, ac Aser, a'r rhan fwyaf o etifeddiaeth hanner llwyth Mannase. Rhenir hi gan Josephus i Galilea Uchaf ac Isaf. Yr oedd Galilea Uchaf yn llawn o fynyddoedd, ac a elwid "Galilea y Cenedloedd," am ei bod ar gyffiniau gwledydd y Cenedloedd, ac efallai fod llawer o'r Cenedloedd, yn gymmysg â'r Iuddewon, yn gwladychu ynddi. Galilea Isaf a gynnwys Wastadedd Esdraelon, yr hwn sydd ynghylch 50 milldir o hŷd, ac 20 o led. Mae Josephus yn darlunio Galilea yn wlad hynod boblogaidd yn ei amser ef, yn cynnwys dros ddau cant o ddinasoedd a threfi, y leiaf o ba rai oedd yn cynnwys 15,000 o drigolion. Galilea oedd y wlad a gafodd ei hanrhydeddu fwyaf â phresenoldeb ein Iachawdwr.

GAZA, oedd ddinas a berthynai ar y cyntaf i'r Philistiaid, ond a roddwyd i lwyth Judah. Yr oedd yn sefyll rhwng Raphia ac Ascelon, oddeutu triugain milldir i'r dehau-orllewin o Jerusalem. Bu wedi hyny yn ddarostyngedig i'r Caldeaid, ac wedi hyny i'r Persiaid, ac yna i'r Aiphtiaid; yn eu meddiant hwy yr ydoedd pan ddarfu i Alexander Jannaeus ei chymmeryd, a'i dinystrio. Yn Act. 8. 26, gelwir hi "Gaza yr hon sydd anghyfannedd."

GENNESARET. Mae tir Gennesaret o du y gorllewin i Lŷn Gennesareth; yr hwn a elwir hefyd Llŷn neu Fôr Tiberias, a Môr Galilea. Luc 5. 1.

GERGESA, neu Gerasa, oedd dref yn Decapolis, yn agos i Gadara, oddeutu 50 milldir o fôr Tiberias, ac yn mron ar gyfer mynydd Ebal. Yr oedd yn rhoddi ei henw i ran o wlad oddi amgylch. Yn ngwlad y Gergesiaid, pan aeth yr Arglwydd Iesu iddi, y cyfarfu dau ddieflig ag ef. Mat. 8. 28.

GETHSEMANE, pentref ar fynydd yr Olew-wydd, yn agos i Jerusalem, i ba le y byddai ein Iachawdwr yn fynych yn ymneilldio, ac mewn gardd berthynol i ba un y dyoddefodd yr ing chwerw, ac y daliwyd ef gan Judas, Mat. 26. 36—50.

GOLGOTHA. Edrych dàn y gair Calfaria.

GROEG, yn yr ystyr ëangaf oedd yn cynnwys holl Macedonia, Thessaly, Epirus, Achaia, Peleponnesus, a'r

ynysoedd cyfagos; ond yn yr ystyr gyfyngaf, nid oedd yn cynnwys, ond Thessaly, Achaia, a Peleponnesus. Wrth "dir Groeg" yn Act. 20. 2, y golygir, mae yn debyg, Achaia.

HIERAPOLIS, dinas yn Phrygia, yn agos i Colossa a Laodicea, Col. 4. 13. Gelwid hi gynt "y ddinas sanctaidd" o herwydd lliosogrwydd temlau yr eilunod ynddi, a'r ffynnonau meddygol oedd o'i mewn, effeithiolrwydd pa rai a briodolid i'r eilun-dduw Apollo. Mae yn awr yn hollol anrheithiedig ac anghyfannedd.

ICONIUM, ydoedd brif-ddinas Lycaonia, yn Asia Leiaf. Yr oedd yma synagog yr Iuddewon, lle y bu Paul a Barnabas yn pregethu yn llwyddiannus, pan mewn cablyniad y cawsant eu herlid yn dost gan yr Iuddewon anghrediniol ynghyd â'r Cenedloedd, Act. 14. 1—5. Gelwir hi yn awr Konieh neu Cogni.

IDUMEA, enw a roddodd y Groegiaid ar wlad Edom. Yn yr ystyr ëangaf yr oedd yn cyrhaedd o'r Môr Marw i Lynclŷn Elan yn y Môr Coch. Ond yn yr ystyr gyfyngaf, mae yn arwyddo y rhan hòno o wlad Judea a bertnynai gynt i lwyth Simeon, ac i ran o lwyth Judah, a'r hon a feddiannwyd gan yr Edomiaid yn amser caethiwed yr Iuddewon yn Babilon. Dyma yr Idumea a olygir yn Marc 3. 8.

IORDDONEN, afon enwog yn Palestina, yr hon oedd yn ffurfio y terfyn rhwng Galilea a Judea. Dywed Josephus fod ei tharddiad o ffynnon Phiala, dyfroedd pa un sy'n rhedeg dàn y ddaear nes ymarllwys allan o ogof Phanium. Gelwir hi, yr Iorddonen fechan, nes ei ddyfod i Lŷn Samochonits neu Samechon; ac wedi rhedeg o hòno, gelwir hi, yr Iorddonen fawr. Mae yn myned drachefn trwy Lŷn Gennesareth, ac yn diweddu yn y Môr Marw. Mae ei holl rediad oddeutu 160 o filldiroedd.

ITUREA, gwlad fynyddig o du y dehau-ddwyrain i Syria, ac o du y dwyrain i Basan. Yma yr oedd Phylip, mab Herod fawr, yn detrarch yn amser ein Iachawdwr, Luc 3. 1.

JERICHO, dinas enwog yn llwyth Benjamin, ynghylch 19 o filldiroedd i'r dwyrain o Jerusalem. Hon oedd y ddinas gyntaf a gymmerwyd gan yr Israeliaid ar eu mynediad i wlad Canaan. Dinystriwyd hi y pryd hwnw gan Josuah, gyda chyhoeddiad o felldith ar y neb a'i hail-adeiladai, yr hon felldith a gyflawnwyd pan yr adeiladodd Hiel y Bethlehemiad hi yn mhen 520 o flynyddoedd ar ol y bygythiad. Oddiwrth yr olwg wael, fudraidd, a thlawd sydd arni yn bresennol, gellid tybied fod y felldith eto mewn grym arni. Yr oedd yn ddinas flodeuog yn amser Crist, ac yma y trigai Zaccheus, y pen-publican.

JERUSALEM, y ddinas enwocaf yn ngwlad Canaan, ac ar amryw ystyriaethau yr enwocaf a fu yn y byd erioed. Yr oedd yn brif-ddinas Israel a Juda yn amser Dafydd a'i fab Solomon, ac wedi hyny yr oedd yn brif-ddinas breniniaeth Judah. Yr oedd wedi ei hadeiladu ar fynyddoedd Sion, Acra, a Moriah, ac yr oedd mynyddoedd yn ei hamgylchynu. Yr oedd yn amddiffynedig gan furiau uchel, pyrth mawrion, a thyrau cedyrn; ac yr oedd ei themi yn ogoniant y gwledydd. Yn y Jerusalem sydd yn awr, ni cheir dim o weddillion yr hen ddinas ogoneddus, ond pob golygfa o waelder a gresyni. Cyfrifir y trigolion presennol o 15,000 i 20,000, o ba rai y mae oddeutu 5,000 dàn yr enw Cristionogion.

JOPPA, porthladd ar Fôr y Canoldir, rhwng Cesarea ac Azotus, ynghylch 34 o filldiroedd i'r gorllewin o Jerusalem. Dyma un o'r porthladdoedd henaf yn y byd. I Joppa yr oeddynt yn dwyn defnyddiau teml Solomon ar hyd y môr o Libanus; ac yma yr oedd Jonah yn hwylio i Tarsis. Yma yn yr amserau apostolaidd y cyfodwyd Dorcas o feirw gan Pedr, ac y daeth cenadau Cornelius i'w ymofyn. Gelwir y lle yn bresennol Jaffa, ac y mae y trigolion oddeutu pum mil o bobl, y rhai ydynt Dyrciaid ac Arabiaid gan mwyaf.

JUDEA. Mae yr enw Judea yn arwyddo weithicu holl wlad yr addewid, Mat. 24. 16. Galat. 1. 22. Ac oddiyma y daeth yr enw Iuddewon neu Judeaid i arwyddo yr holl genedl Hebreaidd. Ni alwyd y wlad wrth yr enw hwn hyd ar ol y dychweliad o Babilon. Ond yn fwy addas a manylaidd, mae Judea yn arwyddo y rhan hòno o wlad Canaan oedd yn cynnwys etifeddiaethau Judah, Benjamin, Dan, a Simeon.

LAODICEA, dinas enwog yn Phrygia yn Asia Leiaf, yr hon a adeiladwyd gan Antiochus Theos, yr hwn a'i galwodd ar enw ei wraig Laodice. Y pryd yr oedd Paul yn ysgrifenu ei lythyr at y Colossiaid, yr oedd yn ddinas o bwysigrwydd mawr, Col. 4. 15, 16. Oddiwrth y llythyr yn y Dadguddiad, ymddengys fod yr eglwys Gristionogol yno wedi syrthio i gyflwr o glaiarineb, o herwydd hyn yr argyhoeddir hi yn llym, Dat. 3. 15—21. Nid yw y ddinas yn awr ond tlawd a gwael, ac nid oes ynddi un enw o eglwys i Grist.

LIBYA, talaeth o'r Aipht, yr hon y tybir a boblogwyd gan hiliogaeth Lehabin, mab Mizraim, Gen. 10. 13. Yr oedd yn cyrhaedd o Alexandria i Cyrene, os nad ymhellach. Yr oedd Iuddewon oddiyma yn Jerusalem ar y Pentecost, Act. 2. 10.

LYCAONIA, talaeth fechan yn Asia Leiaf. Yr oedd mynydd Taurus yn gwahanu rhyngddi â Cilicia, ac yr oedd yn terfynu ar Pisidia i'r gorllewin, Armenia Leiaf i'r dwyrain, a Chappadocia i'r gogledd. Planwyd Cristionogaeth ynddi gan Paul a Barnabas, Act. 14.

LYCIA, talaeth forwrol yn Asia Leiaf, yn terfynu ar Fôr y Canoldir yn y tu deheuol, Pamphylia yn y tu dwyreiniol, Caria yn y tu gorllewinol, a Pisidia yn y tu gogleddol. Y prif-ddinasoedd ynddi, ydoedd Phaselis, Xanthus, Myra, Patara, Pinara, ac Ilos. Mae genym hanes am Paul yn tirio yn mhorthladd Myra, pan ar ei daith i Rufain, Act. 27. 5.

LYDA, ydoedd dref ar y ffordd o Jerusalem i Cesarea Philippi; oddeutu 32 o filldiroedd i'r gorllewin o Jerusalem, a 14 i'r gogledd-ddwyreiniol o Joppa. Yr un ydoedd â Lod, a adeiladwyd gan Samed, mab Elpaal, 1 Cron. 8. 12. Yma yr iachäodd Pedr Aeneas o'r parlys, Act. 8. 32—35.

LYSTRA, dinas yn Lycaonia. Yma yr oedd lle genedigol Timotheus, ac yma y bu y paganiaid tywyll yn gyntaf yn cynnyg addoliad i Paul a Barnabas, ac wedi hyny yn llabyddio Paul, Act. 14. 6—19; a 16. 1.

MACEDONIA, talaeth fawr yn ngwlad Groeg, yn sefyll o du y gogledd i Thrace, o du y dehau i Thessaly, o du y gorllewin i Epirus, ac o du y dwyrain i Fôr Ægea. Ei phrif ddinasoedd oedd Thessalonica, Philippi, Amphipolis, Pella, Potidaea, Methone, Acanthus, ac Edessa. Galwyd Paul trwy weledigaeth i fyned i efengylu i'r wlad hon, a chanmolir yn fawr yr eglwysi a blanwyd ganddo ynddi am eu haelioni tuag at saint tlodion Jerusalem, Act. 16, 2 Cor. 8, a 11.

MAGDALA, dinas a thiriogaeth yn Galilea, tu hwnt i'r Iorddonen, o fewn i gyffiniau pa un yr oedd Dalmanutta, Mat. 15. 39. Yn nhref Magdala yr oedd Mair yn byw, o'r hon y bwriodd yr Iesu saith o gythreuliaid, yr hon a elwir yn gyffredin Mair Magdalen.

MELITA, ynys yn Môr y Canoldir, a elwir yn awr Malta, yr hon sydd ynghylch 20 milldir o hyd, a 12 o led. Mae yn cynnwys yn bresennol oddeutu 120,000 o drigolion, ac yn perthyn i lywodraeth Prydain Fawr. Ar yr ynys hon y taflwyd Paul a'i gymdeithion, pan y torodd y llong arnynt, Act. 28.

MESOPOTAMIA, y wlad helaeth rhwng yr afonydd Euphrates a Tigris, âg Assyria o du y dwyrain iddi, Armenia o du y gogledd, Babilonia o du y dehau, a Syria o du y gorllewin. Ynddi yr oedd gwastadedd Seinar, neu Shinar, yn awr a elwir Sinjar. Yr enw presennol ar y wlad yw Algeziras, ac wedi ei dalfyru Algiers. Gwlad enwog yw hon yn hen hanesion y cynfyd, Act. 7. 2.

MILETUS, dinas a phorthladd yn Ionia, ynghylch deugain milldir o Ephesus, lle yr anfonodd Paul ar ei daith i Jerusalem, am henuriaid Ephesus i'w gyfarfod, Act. 20. 17.

MILETUM, dinas yn Crete, lle y gadawodd Paul Trophimus yn glaf, 2 Tim. 4. 20.

MYRA, un o brif-ddinasoedd Lycia, o'r hon yr hwyliodd Paul i Rufain mewn llong o Alexandria, Act. 27. 5.

MYSIA, talaeth yn Asia Leiaf, yn terfynu ar Fôr Egea, i'r gogledd i Bithynia, i'r dwyrain i Phrygia, ac i'r dehau i Ionia. Bu Paul yma yn pregethu, Act. 16. 7.

MYTILENE, prif-ddinas ynys Lesbos, a elwir yn awr Metelin. Bu Paul heibio yma ar ei daith o Corinth i Jerusalem, Act. 20. 14.

NAIN, dinas yn nghyffiniau eithaf llwyth Issachar, ynghylch dwy filldir o Tabor, a 12 o Capernaum. Wrth borth y ddinas hon yr adferodd Crist fab y weddw i fywyd, pan yr oeddid yn ei ddwyn ef ymaith i'w gladdu.

NAZARETH, tref berthynol i lwyth Zabulon, yn Galilea Isaf, ynghylch 70 milldir o Jerusalem. Yma yr oedd y forwyn Fair yn trigo, ac yma y magwyd ein Iachawdwr, ac y bu yn preswylio hyd amser ei weinidogaeth gyhoeddus. Ei phoblogaeth bresennol a gyfrifir oddeutu 3,000.

NEAPOLIS, dinas yn Macedonia, oddeutu deuddeng milldir i'r dwyrain o Philippi, Act. 16. 11. Gelwir hi yn awr Cavallo.

PAMPHYLIA, talaeth yn Asia Leiaf, yr hon y mae Cilicia o du y dwyrain iddi, Lycia o du y gorllewin, Pisidia o du y gogledd, a Môr y Canoldir o du y dehau. Mae hi ar gyfer ynys Cyprus, a gelwid y môr rhyngddi ag yno yn Fôr Pamphylia. Perga ac Attalia oedd ei phrif ddinasoedd, Act. 13. 13; a 14, 24, 25.

PAPHUS, dinas enwog yn ynys Cyprus, yn awr a elwir Baffa. Yma y dychwelwyd y rhaglaw, Sergius Paulus, trwy weinidogaeth Paul a Barnabas, ac y tarawyd Elymas y swynwr â dallineb.

PARTHIA, gwlad yn Asia, yn terfynu ar Media i'r gorllewin, Hyrcania i'r gogledd, Asia i'r dwyrain, ac anialwch Carmania i'r dehau. Mae yn awr yn gwneyd i fynu y rhan ddwyreiniol o Khorasan yn ymherodraeth Persia. Wrth y Parthiaid yn Act. 2. 8, y dyellir Iuddewon wedi eu geni yn Parthia, y rhai a ddaethant i Jerusalem ar ŵyl y Pentecost.

PATARA, dinas yn Lycia, yn agos i'r môr, Act. 21. 1.

PATMOS, ynys yn Môr Egea, yn agos i'r arfodir Asiaidd, i'r dehau o Samos. I'r ynys hon yr alltudiwyd yr apostol Ioan, ac yma y cafodd weledigaethau y Datguddiad, Dat. 1. 9. Mae yn ddeng milldir o hyd, pump o led, ac oddeutu deg-ar-hugain mewn amgylchedd. Mae yn llawn o fân-eglwysi neu gapeli, ac yn cael ei phreswylio yn benaf gan fynachod anwybodus. Mae y tir yn dra diffrwyth, ac yn wir ni arferir nemor ddiwydrwydd yn yr holl ynys. Dygir ŷd yno o lëoedd eraill.

PERGA, un o'r dinasoedd penaf yn Pamphylia, yn sefyll ar yr afon Cestros. Ar fynydd cyfagos iddi yr oedd teml enwog i'r eilun-dduwies Diana, a elwid Pergæa, Act. 13. 14.

PERGAMUS, prif-ddinas Mysia, yn Asia Leiaf, yn sefyll ar yr afon Caicus, 40 milldir i'r gogledd-orllewin o Thyatira, a 64 i'r gogledd o Smyrna. Yr oedd yr eglwys yn Pergamus yn un o'r saith eglwys a gyferchir yn y Datguddiad, pen. 2. 12—17. Gelwir hi yn awr Bergamo, ac y mae ynddi yngylch 15,000 o drigolion, Groegiaid, Armeniaid, Iuddewon, a Thyrciaid; y rhai diweddaf ydynt y rhai amlaf.

PHENICE, talaeth o Syria, yn cyrhaedd o ran hŷd o Dora, islaw Accho, i'r afon Elentherus, uwchlaw Tripoli, ac o ran lled o làn Môr y Canoldir i'r rhan orllewinol o Libanus. Ynddi yr oedd dinasoedd Tyrus, Sidon, Sarepta, Ptolemais, Berytus, Byblus, Botrus, a Tripolis. Y Pheniciaid yn yr hen amserau oeddynt y rhai enwocaf yn y byd am forwriaeth a thrafnidiaeth, Act. 11. 19; a 15. 3; a 21. 2.—Yr oedd hefyd borthladd yn ynys Crete, o du y gorllewin iddi, o'r enw Phenice, Act. 27. 12.

PHILADELPHIA, dinas yn Lydia, yn Asia Leiaf, lle yr oedd un o'r saith eglwys Asiaidd, Dat. 3. 7—13. Mae yn sefyll oddeutu 27 milldir i'r dwyrain-ddehau o Sardis, wrth droed mynydd Tmolus. Mae hi eto yn ddinas o gryn faintioli, ac ynddi oddeutu 1,000 o gristionogion Groegaidd. Gelwir hi gan y Tyrciaid Allah-shehr, neu y ddinas hardd, ac Allah Shellah, neu ddinas Duw.

PHILIPPI, dinas yn Macedonia, yr hon wedi ei hadgyweirio a'i haddurno gan Phylip, Tad Alexander Fawr, a alwyd mwyach wrth ei enw ef, yn lle yr hen enw Dathos oedd arni. Sefydlwyd yma eglwys enwog trwy weinidogaeth Paul, Act. 16. 12. Yr enw presennol arni yw Drama.

PHRYGIA, gwlad yn Asia Leiaf, yn terfynu i'r gogledd ar Bithynia, i'r dwyrain ar Galatia, i'r dehau ar Lycia, ac i'r gorllewin ar Lydia a Mysia. Rhenid hi yn ddau barth; Phrygia Fwyaf, lle yr oedd dinasoedd Laodicea, Hierapolis, Colossa, Gordium, a Lysias; a Phrygia Leiaf, yn mha un yr oedd dinasoedd Troas, Cyzicus, Lampsacus, Abydos, &c. Planwyd cristionogaeth yma gan Paul, Act. 16. 6; a 18. 23.

PISIDIA, talaeth yn Asia Leiaf, yn gorwedd rhwng Phrygia, Galatia, Isawria, a Pamphylia. Bu Paul a Barnabas yma yn pregethu, Act. 13; a 14.

PONTUS, talaeth yn Asia Leiaf, yn cael ei therfynu i'r gogledd gan Fôr Euxine, i'r dwyrain gan Colchis, i'r dehau gan Armenia Leiaf, ac i'r gorllewin gan afon Halys, 1 Pedr 1. 1.

PTOLEMAIS, dinas yn Galilea, yn agos i fynydd Carmel, ac yn sefyll yn gyfleus fel porthladd ar làn Môr y Canoldir, Act. 21. 7.

PUTEOLI, dinas yn Campania, wyth milldir o Naples, a chan milldir o du y dehau i Rufain. Yma yr arosodd Paul saith niwrnod ar ei daith i Rufain, Act. 28. 13.

RAMAH, dinas yn llwyth Benjamin, rhwng Gaber a Bethel, tua mynyddoedd Ephraim, chwe' milldir i'r gogledd o Jerusalem, ac ar y ffordd o Jerusalem i Samaria, Mat. 2. 18

RHEGIUM, dinas borthladdol yn Calabria, yn Naples, ar y tu deheuol i Italy. Gelwir hi yn awr Reggio. Arosodd Paul yma un diwrnod ar ei fordaith i Rufain, Act. 28. 13.

RHODES, ynys a dinas yn Môr Egea, oddeutu ugain milldir oddiwrth arfodir deheuol Asia Leiaf. Ymwelodd Paul â Rhodes pan yr oedd yn myned i Jerusalem yn y fl. 58. Act. 21. 1.

RHUFAIN, prif-ddinas Italy. Gynt yr ydoedd yn sêdd yr amherodraeth fawr Rufeinig, ac yn fam-ddinas y byd gwareiddiedig, ac y mae yn awr yn brif-ddinas Eglwys Rhufain, a'i Thaleithiau uniongyrchol. Nid yw y ddinas bresennol yn dàl ond rhan fechan iawn o orweddle yr hen ddinas. Dywedir fod yn yr hen Rufain 1,200,000 o drigolion, ond cyfrifir yr holl boblogaeth yn awr rhwng 150,000 a 160,000.

SALAMIS, dinas yn y rhan ddwyreiniol o ynys Cyprus, yr hon a elwir yn bresennol Fanragousta. Bu Paul a Barnabas yma yn pregethu, Act. 13. 5.

SAMARIA. Yn yr Hen Destament, Samaria a olyga brif-ddinas y deg llwyth; ond yn y Testament Newydd arwydda yn gyffredinol y wlad rhwng Judea a Galilea, lle gynt y trigai llwyth Ephraim, Mannaseh, ac Issachar, Ioan 4. 4. Lle yr oedd hen ddinas Samaria, mae yn awr bentref llawd o'r enw Sebaste, neu Sabusta.

SAMOS, ynys yn y pen dwyreiniol i Fôr y Canoldir, ynghylch saith milldir o Asia Leiaf, ar gyfer Scala Nuova. Mae yn 24 milldir o hyd, a 12 o led, ac ynddi ynghylch 60,000 o breswylwyr, y rhai ydynt Roegwyr yn benaf, Act. 20. 15.

SAMOTHRACIA, ynys yn Mêr Egea, oddeutu 17 milldir o gylch, ar gyfer tir Thrace. Mordwyodd Paul heibio i'r ynys hon wrth fyned i Macedonia, Act. 16. 11.

SAREPTA, dinas yn perthyn i'r Sidoniaid, yn sefyll rhwng Sidon a Tyrus, ar làn Môr y Canoldir, Luc. 4. 26.

SARON, oedd ddyffryn ffrwythlawn, rhwng Lyda a'r môr, ac amrywiol bentrefydd ynddo, Act. 9. 35.

SARDIS, prif-ddinas gwlad Lydia, yn Asia Leiaf, yn sefyll yn agos i Fynydd Tmolus, rhwng 30 a 40 o filldiroedd i'r dwyrain o Smyrna. Yma yr oedd un o saith eglwys Asia, pa rai yr ysgrifenir atynt yn Llyfr y Datguddiad. Ymddengys fod ymlosgiad, daear-grynfäau, y Gothiaid a'r Tyrciaid, wedi bod yn offerynau dialedd i ddadymchwelyd dinas ac eglwys Sardis. Nid oes yno yn awr ond pentref gwael, a elwir Sart, yn gynnwysedig o ychydig fwthod pridd, yn mha rai y triga bugeiliaid Tyrciaidd. Yn 1826, nid oedd yno ond dàu dan yr enw Cristionogion, sef dau wasanaethwr o Roegwyr i felinydd Tyrciaidd.

SELEUCIA, dinas yn Syria, ar Fôr y Canoldir, yn agos i'r fàn y mae yr afon Orentes yn syrthio iddo, yr hon a adeiladwyd gan Seleucus Nicator, Act. 13. 4.

SICHAR neu Sechem, ydoedd ddinas mewn dyffryn rhwng Mynydd Gerizim a Mynydd Ebal, oddeutu 8 milldir o Samaria, 40 o Jerusalem, a 52 o Jericho. Cyfrifid hi yn amser Josephus yn brif-ddinas Samaria. Mae yn ddinas lled enwog eto, dàn yr enw Nablous neu Napolose. Yn agos yma y mae ffynnon Jacob, lle bu yr ymddyddan rhyfedd rhwng yr Arglwydd Iesu â gwraig o'r ddinas, Ioan 4.

SIDON, dinas enwog yn Phenice, oddeutu 25 o filldiroedd i'r gogledd o Tyrus; a elwid Tsidon Rabba, neu Sidon Fawr, Jos. 11. 8; a 19. 28. Yr oedd yn flodeuog iawn yn yr hen oesoedd, fel dinas nodedig am ei morwriaeth a'i marchnadaeth. Mae ei phorthladd yn awr wedi ei lanw i fynu, ond mae eto yn ddinas o gryn fasnach, ac yn cynnwys oddeutu 15,000 o drigolion. Ei henw presennol yw Saide, Act. 12. 20.

SILOAM neu Siloah, ffynnon tu allan i furiau Jerusalem, o du y dwyrain iddi, rhwng y ddinas âg afon Cedron. Ioan 9. 6. Yn agos iddi, tu a'r gorllewin y safai Twr Siloam, yr hwn a syrthiodd ar "y deunaw hyny," Luc. 13. 4.

SMYRNA, dinas yn Asia Leiaf, yn sefyll oddeutu 40 milldir i'r gogledd o Ephesus. Gelwir hi yn awr gan y Tyrciaid, Izmir, a chyfrifir hi yn bresennol fel prif-ddinas fasnachol Twrci yn Asia. Mae ynghylch 4 milldir o amgylchedd, ac yn cynnwys poblogaeth oddeutu 120,000 o eneidiau, o ba rai mae oddeutu 25,000 yn cael eu cyfrif yn gristionogion. O holl ddinasoedd y saith eglwys a gyferchir yn y Datguddiad, Smyrna yn unig sydd yn flodeuog yn y dyddiau hyn.

SYRACUSA, dinas forwrol yn Sicily, a chynt prif-ddinas yr ynys. Trigodd Paul yma dridiau ar ei daith i Rufain, Act. 28. 12. Gelwir hi yn awr Siragosa. Cyfrifir ei thrigolion oddeutu 15,000.

SYRIA, gwlad yn Asia, yn awr talaeth o ymherodraeth Tyrcia; yn gorwedd rhwng Môr y Canoldir o du y gorllewin, afon Euphrates o du y dwyrain, Mynydd Taurus i'r gogledd, ac Arabia Ddiffaeth i'r dehau. Yr oedd talaeth Syria dàn y Rhufeiniaid, yn amser ein Iachawdwr, yn cynnwys yr oll o Judea, gyda Phenicia, heblaw Syria Briodol, Luc 2. 2. Yn y rhan fynychaf yn y Testament Newydd, arferir y gair Syria am ddosbarth Cælosyria yn wahaniaethol oddiwrth Judea a Phenicia, Mat. 4. 24, 25. Act. 21. 2, 3. Mae Syria yn awr, gan gynnwys ynddi Palestina, yn cael ei rhanu gan y Tyrciaid i bum talaeth, Aleppo, Tripoli, Sidon ac Acre, Gaza, a Damascus. Mae M. Malte Brun, yn cyfrif Syria, gan gau allan yr anialwch, yn 51,778 o filldiroedd ysgwâr; a thybir fod ynddi ynghylch 2,000,000 o breswylwyr, yr hyn sydd lai bum waith nag oedd yn cyfanneddu y diriogaeth yr yr hen amserau.

TARSUS, prif-ddinas Cilicia, a lle genedigol yr apostol Paul, Act. 22. 3. Gelwir hi yn awr Tersoos, ac y mae yn lle o gryn fasnach, ag ynddi o 25,000 i 30,000 o drigolion.

TIBERIAS, dinas yn Galilea, yn sefyll o du y gorllewin i Fôr neu Lyn Galilea, a elwir hefyd Llyn Tiberias, a Llyn Gennesareth. Adeiladwyd hi gan Herod Agrippa, yr hwn a roes yr enw arni o anrhydedd i'r ymherawdwr Tiberias. Gelwir hi yn awr Tabareeah. Nifer ei phreswylwyr sydd oddeutu 4,000, o ba rai y mae llawer yn Iuddewon, Polandiaid, ac Yspaeniaid. Bu gynt yn lle enwog am ddysgeidiaeth Iuddewig, ac y mae athrofa gan yr Iuddewon ynddi eto.

TRACHONITIS, gwlad fechan yn Syria, i'r dehau o Damascus, i'r gogledd o Itnrea, ac i'r gorllewin o Batanea. Yr oedd yn dra mynyddig a chreigiog, Luc 3. 1.

TROAS, gwlad a dinas yn y rhan orllewinol o Phrygia yn Asia Leiaf, Act. 16. 8, 2 Tim. 4. 13. Yr un, medd Jerome, â Chaerdroia a enwogir yn ngwaith Homer.

TROGYLIUM, penrhyn wrth droed Mynydd Mycale, oddeutu pum' milldir o Samos, Act. 20. 15.

TYRUS ydoedd ddinas enwog iawn yn Phenicia, yr hon a adeiladwyd i ddechreu gan y Sidoniaid. Y Tyrciaid oedd y bobl fwyaf arbenig yn yr hen oesoedd am eu medrusrwydd mewn morwriaeth, ac ëangder eu masnach Dinystriwyd Tyrus gan Nabuchodonosor, ac wedi hyny gan Alexander Fawr. Hi a adnewyddwyd i radd drachefn, ac ymddengys ei bod yn yr oes apostolaidd wedi adfeddiannu ei chymmeriad i fesur fel tref fasnachol. Pregethwyd yr efyngyl yn gynnar i'r Tyrciaid, canys dywedir wrthym fod Paul ar ei ddychweliad o Macedonia, yn taro yma wrth ddysgyblion, gyda pha rai yr arosodd am wythnos, Act. 21. 3, 4. Nid oes dim gweddillion o'i hen fawreddau gynt i'w cael yn bresennol.

THESSALONICA, prif-ddinas Macedonia, a phorthladd enwog, yn yr hon yr oedd llawer o Iuddewon yn preswylio. At yr eglwys yn Thessalonica yr ysgrifenodd Paul ei ddau epistol cyntaf. Gelwir hi yn awr Salonica neu Saloniki, ac y mae yn cael ei chyfrif a ran poblogaeth a phwysigrwydd fel y drydedd ddinas yn Twrci, yn canlyn Constantinople ac Adrianople. Mae ynddi, meddir, o 80,000 i 90,000 o drigolion.

THYATIRA, dinas yn Lydia, yn Asia Leiaf, yn sefyll yn agos i gaine o'r afon Caicus. Planwyd cristionogaeth ynddi yn fore, a chawn lythyr at angel yr eglwys hon yn y Datguddiad. Gelwir hi yn awr Ak-hissar. Yn 1826, cyfrifid fod ynddi 1000 o dai gan y Tyrciaid, 300 gan y Groegiaid, a 30 gan yr Armeniaid. Nid yw yr heolydd ond culion a budraidd. Mae enw cristionogaeth yma eto. Fel yn y dyddiau gynt, mae Thyatira eto yn enwog am liwio porphor, Act. 16. 14, ac anfonir llawer o frethynau a llieiniau porphor bob wythnos o Smyrna.

DIWEDD.

P. M. EVANS, ARGRAFFYDD, TREFFYNNON.